NEDL TRANSFER
HN bZLJ Z

Cyc 210
Cyc 210
KH26

Harvard College Library

BOUGHT WITH INCOME

FROM THE BEQUEST OF

HENRY LILLIE PIERCE,

OF BOSTON.

Under a vote of the President and Fellows,
October 24, 1898.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

# Y
# GWYDDONIADUR CYMREIG.

Y GWAITH CENEDLAETHOL PWYSICAF

YN YR

## Iaith Gymraeg.

Y RHAGYMADRODD, GYDA HANES BYWYD DR. PARRY,
A SYLWADAU AR EI YSGRIFENIADAU,

GAN Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D., LIVERPOOL.

Digitized by Google

## LLYTHYRAU O GANMOLIAETH I'R GWAITH.

It seems to me a Work of great promise......I can conscientiously bid you good speed in the work, which seems to me as sound in doctrine as it is unsectarian in principle.

JOHN WILLIAMS,
*Bognor, Sussex.* *Archdeacon of Cardigan, &c.*

Y mae y gwaith yn dra theilwng o gefnogaeth oddi wrth bawb sydd yn dymuno yn dda i'w gwlad a'u cenedl.

*Llundain.* THOMAS PHILLIPS.

Llyfr tra rhagorol, yn debyg o fod o werth ac anrhydedd mawr i lenyddiaeth Gymreig, o ran ei gynnwysiad, a'r gwaith celfyddgar sydd arno.

*Llanfyllin.* DAVID MORGAN.

Y mae yn ymddangos i mi y bydd, pan ei gorphener, yn drysor ammhrisiadwy i Gymru. Y mae yn cyflenwi yn hollol ddiffyg mawr oedd, hyd yma, yn aros yn ein llenyddiaeth.

*Llundain.* OWEN THOMAS.

Dylai pob dyn ieuangc, gyda'r meddwl cyntaf am gael tŷ a theulu, feddwl hefyd am gael '*Y Gwyddoniadur*' i'w deulu, os bydd ynddo ddim awydd am iddynt 'weithio eu ffordd' yn anrhydeddus mewn unrhyw gylch o ddefnyddioldeb.

*Llanbrynmair.* SAMUEL ROBERTS.

Y mae y '*Gwyddoniadur*' yn llyfr sydd yn debyg o dynu sylw cyffredinol. Yr wyf yn penderfynu gwneyd unrhyw beth yn fy ngallu i hwyluso ei gyhoeddiad a'i gylchrediad.

*Llandeilo.* JOHN JONES, *Gwein. Wesleyaidd.*

Yr oedd yn llawen iawn genyf weled yr hysbysiad cyntaf am y '*Gwyddoniadur Cymreig*,' a da genyf chwanegu fod y llawenydd hyny wedi cynnyddu yn fawr iawn wrth ganfod y dull a'r modd y mae y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen. Yr wyf o galon yn dymuno i chwi bob llwyddiant gyda y fath anturiaeth bwysig.

*Aberdâr.* THOMAS PRICE.

Y mae y gwaith hwn yn ddigon *capable* i siarad drosto ei hun wrth bawb a'i darlleno. Gobeithiaf y cewch chwi a Mr. PARRY estyniad oes i orphen y gwaith; yr hyn a fyddai i ni yn 'fywyd o feirw.'

*Amlwch.* WILLIAM ROBERTS.

Y fantais benaf a gynnygiwyd erioed yn ein hiaith, hyd yn hyn, i gyrhaedd trwyddi gydnabyddiaeth â phob cangen o wybodaeth gyffredinol, ydyw y '*Gwyddoniadur*.'.....Daeth allan fel cawr grymus.

*Liverpool.* WILLIAM REES.

Bydd pob Cymro, a fedr, ond a esgeulusa ei dderbyn, yn ymddwyn yn eithaf anwladgarol, ac yn euog o dafiu diystyrwch pechadurus ar y wybodaeth deilyngaf o sylw dyn.

*Cendl.* THOMAS REES.

Gallaf ddyweyd yn hyderus a chydwybodol fy mod yn edrych ar y gwaith hwn, os â yn mlaen fel y mae wedi dechreu, fel y rhagoraf yn yr iaith Gymraeg.

*Athrofa Pont-y-pool.* T. THOMAS.

Y mae y rhanau sydd wedi dyfod allan yn cynnwys digon o brofion y gallwn gymmeryd yn ganiataol, pan y cwblheir ef, y bydd ei gronfa o wybodaethau y fath na chafodd y Cymry o'r blaen.

*Bangor.* JOHN PHILLIPS.

Hyderaf y bydd gan y dyn a feddianno '*Y Gwyddoniadur*' gyfaill gwybodus a pharod yn ei ymyl i ymgynghori âg ef, ac i gael hysbysrwydd a chyfarwyddyd ganddo bron ar bob mater ag y gall dyn feddwl am dano.

*Liverpool.* HENRY REES.

It appears to me, after having perused the two first parts, that the work is *exceedingly* well executed. When finished, it will be an *invaluable* treasure to the Welsh people.

*Thrussington.* JOHN OWEN, *Rural Dean.*

---

## CYMMERADWYAETHAU Y WASG.

*Yr Amserau.*—'Nid oes yr un Cymro nad ydyw yn gwybod fod y fath lyfr heb ei gyhoeddi. Nid oes ond ambell Ddic-Sion-Dafydd o Gymro, chwaith, nad ydyw yn teimlo fod eisieu y fath lyfr.'

*Y Bedyddiwr.*—'Y mae yn un o'r llyfrau mwyaf pwysig, os nid y pwysicaf oll, a gyhoeddwyd erioed yn yr iaith Gymraeg.'

*The Carnarvon Herald.*—'We beg to recommend the Work to the most cordial support of all lovers of '*Cymru, Cymry, a Chymraeg.*''

*Y Cronicl.*—'Trysor o werth ammhrisiadwy—nid yn unig i Gymry yr oes yma, ond i Gymry yr oes a ddaw.'

*Y Cylchgrawn Cymreig.*—'Y mae yr hwn sydd wedi derbyn y '*Drysorfa*' o'r dechreuad wedi gwneyd cymmaint o orchest a derbyn '*Y Gwyddoniadur*.'

*Y Diwygiwr.*—'Y mae yn ddiau y gwna llyfr fel hwn les i'r Cymry.'

*Y Drysorfa.*—'Gellir disgwyl y bydd '*Y Gwyddoniadur*,' pan wedi ei gwblcidio, yn goron gogoniant i lenyddiaeth Cymru. Y mae enw Mr. PARRY, fel golygydd, yn sicrhâd i ni am deilyngdod yr holl erthyglau.'

*Y Dysgedydd.*—'Bydd yn drysorfa gyflawn o wybodaeth gyffredinôl yn ei holl ranau a'i changhenau; yr hyn a wna y Gymraeg, fel cyfrwng gwybodaeth, mor gyflawn a chyfoethog a'r Saesneg. Bydd yr erthyglau ar ei brif faterion yn wreiddiol—nid yn gyfieithiadau.'

*Yr Eurgrawn.*—'Yr ydym yn cymmhell pob dyn ieuangc i fynu y llyfr hwn. Yna bydd ganddo lyfrfa gwerth ei dangos, pe na byddai ganddo un llyfr arall.'

*Y Gwron.*—'Daw y gweithwyr, drwy y llyfr hwn, yn gydnabyddus â syniadau gwŷr dysgedicaf yr oesoedd.'


*Y Seren Gomer.*—'Wele '*Wyddoniadur*' yn cael ei gynnyg gan gyhoeddwr anturiaethus—dysgedigion penaf Cymru yn ysgrifenu iddo—dan olygiaeth gŵr sydd yn deilwng o ymddiried y genedl; a phaham na chefnogwn y Gwaith?'

*Y Traethodydd.*—'Yn wir, y mae yr holl waith, o ran cynnwys, ymddangosiad, a phris—cyfansoddiad, papur, argraphwaith, ffurf, a rhadlonrwydd—yn gyfryw ag yr ydym yn llawenychu ynddo, ac y teimlem ein hunain yn pechu yn erbyn llenyddiaeth, a chrefydd, ac anrhydedd ein cenedl, pe na byddai i ni wneyd a allem er ei argymmhell i'w sylw, a rhoddi ein holl ddylanwad yn mhlaid ei lwyddiant.'

*Y Wasg.*—'Erioed ni huliwyd y fath wledd o ddanteithion llenyddol ger bron ein cydgenedl ag a gynnygir yn awr yn '*Y Gwyddoniadur*.'


Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

Digitized by Google



Digitized by Google

# The Encyclopædia Cambrensis.

Y

# GWYDDONIADUR CYMREIG:

GAN LAWER O

YSGRIFENWYR ENWOCAF Y GENEDL.

DAN OLYGIAD

Y PARCHEDIG JOHN PARRY, D.D.,

BALA.

YR AIL ARGRAPHIAD,

YN CYNNWYS

ERTHYGLAU NEWYDDION, A'R MANYLION DIWEDDARAF AR Y TESTYNAU AMRYWIOL SYDD YN Y GWAITH.

DAN OLYGIAD

THOMAS GEE.

Y Ddegfed Gyfrol.

DINBYCH:

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN T. GEE A'I FAB.

MDCCCXCVI.

Digitized by Google

Cyc 210

HARVARD COLLEGE
OCT 4 1902
LIBRARY.
Pierce Fund.

[ALL RIGHTS RESERVED.]

Digitized by Google

| | td. |
|---|---|
| Yspaen | 383 |
| Ysgwydd | 389 |
| Ysgyfarnog | 389 |
| Ysgymuniad. Gwel Esgymundod | 389 |
| Ysnoden | 389 |
| Ystâd | 389 |
| Ystafell, Goruwch | 389 |
| Ystafellydd | 390 |
| Ystlum | 390 |
| Ystlys-bost | 390 |
| Ystormydd | 390 |
| Ystryd. Gwel Heol. | 392 |
| Yswain | 392 |
| Y Wadd | 392 |
| Zaanaim, Gwastadedd | 393 |
| Zaanan | 393 |
| Zaafan | 393—394 |
| Zabad (6) | 394 |
| Zabbai (2) | 394 |
| Zabathiaid | 394 |
| Zabbud | 394 |
| Zabdi (4) | 394 |
| Zabdiel (2) | 394 |
| Zabud | 394 |
| Zabulon | 394 |
| Zabulon | 395 |
| Zabuloniad, Elon y | 395 |
| Zabuloniaid, Y | 395 |
| Zaccai | 395 |
| Zaccur (6) | 395—396 |
| Zachariah (2) | 396 |
| Zacharias (3) | 396 |
| Zacharias | 396 |
| Zacher | 396 |
| Zaccheus | 397 |
| Zafan | 397 |
| Zaham | 397 |
| Zamzummiaid | 397 |
| Zanchius, Jerome | 397 |
| Zanoah (3) | 397 |
| Zaphnath-Paaneah | 397 |
| Zara | 397 |
| Zarah | 397 |
| Zareah | 397 |
| Zared | 397 |
| Zarlino, Joseph | 397 |
| Zattu | 398 |
| Zaza | 398 |
| Zebadiah (9) | 398 |
| Zebah | 398 |
| Zebaim | 398 |
| Zebedeus | 398 |
| Zebina | 399 |
| Zeboim | 399 |
| Zeboim, Dyffryn | 399 |
| Zebudah | 399 |
| Zebul | 399 |
| Zechariah (28) | 399—402 |
| Zealand Newydd | 402 |
| Zedad | 403 |
| Zedeciah (4) | 403—406 |
| Zedeur | 406 |
| Zeeb | 406 |
| Zeisberger, David | 406 |
| Zelah | 406 |
| Zelotes | 407 |
| Zelzah | 407 |
| Zemirah | 407 |
| Zenan | 407 |
| Zenas | 407 |
| Zenes | 407 |
| Zeno | 407 |
| Zenobia | 407 |
| Zephi | 407 |
| Zepho | 407 |
| Zephon | 407 |
| Zephoniaid, Y | 407 |
| Zer | 407 |
| Zerahiah (2) | 407 |
| Zerah (5) | 407 |
| Zeredah | 409 |
| Zeredathah | 410 |
| Zereth | 410 |
| Zerfah | 410 |
| Zererath | 410 |
| Zeri | 410 |
| Zeror | 410 |
| Zorusadai | 410 |
| Zethar | 410 |
| Zetham | 410 |
| Zeus. Gwel Jupiter. | 410 |
| Zeuxis | 410 |
| Zia | 410 |
| Ziba | 410 |
| Zibia | 410 |
| Zibiah | 410 |
| Zibeon | 410 |
| Zif | 410 |
| Ziha (2) | 410 |
| Zilpah | 410 |
| Zilthai (2) | 410 |
| Zimmah (3) | 410 |
| Zimmerman, E. A. W. | 410 |
| Zimran | 411 |
| Zimri (5) | 411 |
| Zina | 411 |
| Zinzendorf, Iarll Nicholas L. | 411 |
| Zion. Gwel Sion | 411 |
| Zippor | 411 |
| Ziph (3) | 411 |
| Zipha | 411 |
| Ziphion | 411 |
| Ziphron | 411 |
| Zisca, neu Zizka, John | 412 |
| Zithri | 412 |
| Ziz, Rhiw | 412 |
| Ziza (2) | 412 |
| Zizah | 412 |
| Zoan | 412 |
| Zoba, neu Zobah | 413 |
| Zoheleth, Maen | 414 |
| Zoheth | 414 |
| Zophah | 414 |
| Zophai | 414 |
| Zophim, Maes | 414 |
| Zoroaster | 414 |
| Zorobabel | 416 |
| Zuar | 417 |
| Zuinglius, Ulrich | 417 |
| Zuingliaid | 419 |
| Zuph, Gwlad (2) | 419 |
| Zuriel | 419 |
| Zuziaid | 419 |


# YR ATTODIAD.


| | Tudal. |
|---|---|
| Abbot, George | 431 |
| Abelard, Peter | 420 |
| Abrabanel, Isaac | 420 |
| Achilles | 420 |
| Adams, John | 421 |
| Adams, John (Cilcain) | B 449 |
| Addison, Joseph | 421 |
| Adeilyddiaeth (*architecture*) | 422 |
| Adrian IV. | 426 |
| Aeddan | C 449 |
| Æschines | 426 |
| Æschylus | 426 |
| Æsop | 427 |
| Afaon | C 449 |
| Afarwy | C 449 |
| Affrica | 427 |
| Ager *Steam*) | 428 |
| Ager-beiriant | 429 |
| Ager-forthwyl | 429 |
| Ager-forwriaeth | 430 |
| Ager-gerbyd | 430 |
| Agricola, Cnæus Julius | 431 |
| Ainsworth, Henry, D.D. | 432 |
| Alabama | C 449 |
| Alaric I. | 432 |
| Albert Francis Augustus Charles—Emmanuel | 432 |
| Alcali | 433 |
| Alcibiades | 433 |
| Alcuin | 433 |
| Alford, Henry, D.D. | 434 |
| Alfred (Alfred Fawr) | 434 |
| Alfferylliaeth (*Alchemy*) | 433 |
| Alfieri, Vittorio | 434 |
| Alhambra | 435 |
| Alva, neu Alba, Ferdinand Alvarez De Toledo, Y Duc | 435 |
| Allegri, Antonio | 435 |
| Ambrose, William | 436 |
| America | E 449 |
| Amseriadur—on | 436 |
| Anarawd | H 449 |
| Angharad, ferch Meredydd | C 449 |
| Angharad, ferch Owain ab Edwyn | C 449 |
| Angharad, 'Y Lleian | C 449 |
| Anglo-Sacsoniaid, a'r Tir | 896 |
| Anifeiliaeth | 439 |
| Antoninus, Marcus Aurelius | 439 |
| Anwyl, Edward | I 449 |
| Anwyl, Lewis | I 449 |
| Arago, Francois J. Dominique | 439 |
| Archimedes | 440 |
| Arfdy | 440 |
| Argentaidd, Y Cynghrair | 1011 |
| Argraphu | 440 |
| Ariandy | 443 |
| Ariandy Lloegr | 444 |
| Aristides | 445 |
| Aristophanes | 445 |
| Arkwright, Syr Richard | 445 |
| Armada | I 449 |
| Arnauld, Antoine | 446 |
| Arnold, Matthew | K 449 |
| Aubrey, Thomas | 446 |
| Averoes, neu Ibn Roshd | 448 |
| Awstralia | 448 |
| Bach, Johann Sebastian | 450 |


Digitized by Google

# CYNNWYSIAD Y DDEGFED GYFROL.


Tudal.

Bacteria ... 737
Baddy, Thomas ... L 449
Bagdad ... 450
Baker, David ... L 449
Balot.. ... 450
Bangciau Ysgotland ... 455
Bangciau yr Iwerddon ... 455
Barnby, Syr Joseph .. 1016
Barnes, Albert ... 450
Bartley, John ... L 449
Bassett, Christopher . N 449
Batten, William.. . N 449
Baur, Ferdinand Christian . A 450
Bavaria ... P 449
Bayly, Lewis, D.D. . R 449
Bayly, Thomas, D.D. . R 449
Beaconsfield, Arglwydd . R 449
Beaufort, Edward Somerset, ail Ardalydd Worcester . U 449
Beaufort, Henry Somerset, Iarll ... W 449
Bedan ... A 450
Beethoven, Ludwig Von . A 450
Bedo ab Hywel Bach . W 449
Bedo Aeddran ... W 449
Bedo Hafhesp ... W 449
Bedo Phylip Bach . W 449
Bedwas ... W 449
*Bedwini* ... W 449
*Bedwyr* ... W 449
Bedyddwyr, Y ... 473
Bedyddwyr ... B 450
Beecher, Henry Ward ... 483
Belyn, o Leyn ... W 449
Belisarius ... 452
Bell, Syr Charles ... 452
Bene-Berac ... 452
Bene-Iacan ... 453
Bentham, Jeremy ... 453
Bentley, Richard, D.D. ... 453
Beranger, Jean Pierre De ... 454
Besai... ... 454
Beser ... 454
Bevan, Madam ... W 449
Beveridge, William ... 454
Bilhan (1) ... 454
Bilhan (2) ... 454
Binney, Thomas ... 457
Birzafith ... 457
Bithiah ... 457
Blackfriars, Pont ... 455
Blackstone, Syr Wm. ... 457
Blackwell, J. (*Alun*) ... 458
Blaidd Rhudd . W 449
Blake, Robert ... X 449
Bledri ... X 449
Bledri ab Cadifor . X 449
Blegrwyd ab Owain . X 449
Blegrwyd Frenin . X 449
Bleiddian ... Y 449
Blethyn, William . Y 449
Blucher, Gebhard L. Von ... 459
Blumenbach, Joh. Friedrich. 460
Boccaccio, Giovanni ... 460
Boehme, neu Böhme, Jacob... 460
Boerhave, Hermann ... 461
Boetius, neu Boece, Hector... 461
Bodfan ... Y 449
Bohemia ... Y 449
Bold, William ... Y 449
Boleyn, Anne ... Y 494
Bolingbroke, Henry S. John, Is-Iarll ... 461
Bolivia .. 1018
Bonner, Richard . A 456
Boscath ... 461
Boswell, James ... 461
Bourdaloue, Louis ... 462
Bowen, Evan ... A 456
Bowen, Cadben J. . A 456

Bowen, Dr. John . A 456
Bowen, Thomas... . B 456
Branwen Ferch Llyr ... 705
Brân ab Dyfnwal Moelmud . B 456
Brahe, Tycho ... 462
Brag, Bragu ... 462
Bradford, John, y Merthyr... 462
Bradford, John ... . B 456
Breese, John ... 463
Brechfa, Ieuan ... C 456
Brenda ... C 456
Breuddwyd Macsen Wledig.. 713
Breuddwyd Rhonabwy ... 717
Brewster, Syr David ... 464
Bridgewater, Camlas ... 455
Bridgewater, Traethodau ... 455
Bright, John ... C 456
Brindley, James... ... 464
Bronwen ... E 456
Brothen ... F 456
Brougham, Argl. Henry ... 464
Browning, Robert . F 456
Browning, Elizabeth Barrett F 456
Bruce, Henry Austin (Argl. Aberdâr) ... 455
Bruce, James ... 465
Bruce (Teulu) ... G 456
Bruce, Robert ... G 456
Brunel, Syr Marc Isambard... 465
Brunel, Isambard Kingdom... 465
Bruno, Giordano . ... 465
Brute, Walter ... 480
Brutiau, Y ... 952
Brutus ... 480
Brutus Darian Las . H 456
Brutus, M. Junius ... 465
Brwynllwys Bedo . H 456
Brwynog, Siôn ... H 456
Bryan, John ... H 456
Brychan, Rhys ... H 456
Brycheiniog, Sir... ... 826
Bryffwrch, Seisyllt ... 480
Bucci (1) ... 465
Bucci (2) ... 465
Bucciah ... 465
Bucer, Martin ... 466
Buchanan, George ... 465
Buckingham, Palas ... 456
Buffon, George Louis Le Clerc, Comte ... 466
Bunni (1) ... 466
Bunni (2) ... 466
Bunni (3) ... 466
Bunsen, Christian Karl Josias, Barwn ... 466
Burckhardt, J. Ludwig ... 467
Burke, Edmund... ... 467
Burkitt, William ... 469
Burnet, Gilbert... ... 469
Burns, Robert ... 470
Buz (1) ... 470
Buz (2) ... 470
Bwrdeisdref ... 470
Byron, G. G., Arglwydd ... 471
Bywyd—eg ... 472
Bugi... ... 480
Bulgaria ... 481
Bulkeley, A., LL.D. ... 481
Bulkeley, L., D.D. ... 481
Bulkeley, Rhisiard ... 482
Burmah ... 482
Burton, Syr R. F. ... 483

Cadafael Wyllt ... 485
Cadair (ail Seithin Seidi) ... 485
Cadfan ... 485
Cadfarch ... 485
Cadgyfarch ... 485
Cadifor Fawr ... 485
Cado... ... 485

Cadog ... 485
Cadrod (Calchfynydd) ... 485
Cadrod (Hardd)... ... 485
Cadwaladr ... 485
Cadwaladr, etto... ... 485
Cadwaladr ab Rhys Trefnant 486
Cadwallawn ab Ieuaf ... 486
Cadwallawn (mab Gruffydd ab Cynan) ... 486
Cadwallawn (mab Owain Gwynedd) ... 486
Cadwgan (mab Bleddyn ab Cynfyn) ... 486
Cadwgan ... 487
Cadwgan ab Ednyfed ... 487
Cadwgan ab Owain ... 487
Caerfyrddin, Sir.. ... 827
Caernarfon, Sir... ... 827
Caffo... ... 487
Caian . ... 487
Cai Hir o Dir Pencareg ... 487
Cain, Rhys ... 487
Calenius, Walter ... 487
Callwen ... 487
Camber ... 487
Camlas—esydd ... 487
Cammarch ... 487
Campbell, Syr C. (Argl. Clyde) 487
Campbell, Argl. John ... 488
Canna ... 488
Canon, Syr Thomas ... 488
Cantelli Wyddel. ... 488
Caradawg ab Gwyn ... 488
Caradawg ab Rhydderch ... 488
Caradawg ab Iestyn ... 489
Caradawg Feudwy ... 489
Caradawg Freichfras ... 489
Caradawg o Lancarfan ... 489
Caranog ... 489
Carawn ... 489
Caredig ab Cunedda Wledig . 489
Caredig Frenin ... 489
Carew, Syr John ... 489
Carfan ... 489
Carlyle, Syr Thomas ... 489
Carn, Thomas ... 491
Carne, Syr Edward ... 491
Carter, Hugh ... 492
Carwed ... 492
Carwyd ... 492
Câs ... ... 492
Caswallawn Law Hir ... 492
Cedol... ... 492
Cedwyn ... 492
Ceidio ... 493
Ceindrych ... 493
Ceinwen ... 493
Ceiriog Gwel Hughes, John Ceiriog ... 493
Ceiriog, Huw ... 493
Ceiriog, Siôn ... 493
Cellan Bencerdd.. ... 493
Celli, Thomas ... 493
Cenedlon, neu Cenau ... 493
Cent, Siôn Gwel Siôn Cent cyf. ix ... 493
Ceri, Hir Lyngwyn ... 493
Ceri, Hywel ... 493
Cesail, Cadwaladr ... 493
Cethin, Gutyn ... ... 493
Cethin, Syr Lewis ... 493
Ceugant (Beilliawg) ... 493
Cewydd ... 493
Chaloner, Syr Thomas ... 494
Charles, David ... ... 494
Charles, Edward.. ... 495
Churchill, Argl. Randolph . A 504
Chili, neu Chile... . B 504
China.. ... B 504
Chubut, neu Chupat . D 740


Digitized by Google

Tudal.
Edwards, Thomas, Penllwyn 562
Edwards, Thomas, o'r Rhual 562
Edwen ... ... 562
Edwin ... ... 563
Efrog Gadarn ... ... 563
Eglwys Gristionogol, Yr ... 965
Eidal, neu Eidaf ... 563
Eidiol ... 563
Eiddilig Cor ... ... 563
Eiddyn ab Eingian ... 563
Eigen ... ... 563
Eigyr ... ... 563
Einion ab Arthal ... 563
Einion ab Cadwgan ... 563
Einion ab Collwyn ... 563
Einion ab Gwalchmai ... 563
Einion ab Gwgan ... 563
Einion ab Gwron ... 563
Einion ab Madawg ab Rhawd 563
Einion ab Owen ab Hywel Dda ... ... 563
Einion ab Owen, Syr ... 564
Einion Foneddig ... 564
Einion Frenin ... ... 564
Einion Glyd ... ... 564
Einion Mebydd ... ... 564
Einion Meirion ... ... 564
Einion Yrth, neu Urdd ... 564
Eisteddfod, Yr ... ... 988
Elaeth ... ... 564
Elen ... ... ... 564
Elen Lüyddawg... ... 564
Elfan ... ... 564
Elfod, neu Elbodius ... 564
Elias, Rhisiart ... ... 564
Elias, William ... ... 564
Elidyr Lydanwyn ... 564
Elidir Mwynfawr ... 564
Elidir Sais ... ... 564
Elidr War ... ... 565
Elifer Gosgorddfawr ... 565
Eliot, George (Mary Ann Evans) ... ... 565
Elis ap Elis ... ... 566
Elis, Siôn Siâms ... 566
Elmur ... ... 566
Eluned ... ... 566
Elystan Glodrudd ... 566
Elldeyrn ... ... 566
Ellis, John Griffith ... 566
Ellis, Huw, Trawsfynydd ... 566
Ellis, Huw, etto ... 566
Ellis, David, o'r Nanney ... 566
Ellis, James, Pentre Ifan ... 566
Ellis, John, Abermaw ... 566
Ellis, Archddiacon John ... 567
Ellis, John, D.D., Dolgellau... 567
Ellis, John, D.D., Corydd Tŷ Ddewi ... ... 567
Ellis, Thomas, Dolgellau ... 567
Ellyw, neu Elyw ... 567
Emerchrod ... ... 567
Emerson, Ralph Waldo ... 567
Emrys Wledig ... ... 568
Emyr Llydaw ... ... 568
Enid ... ... ... 568
Enid (y Mabinogi) ... 728
Erbin ... ... 569
Essyllt ... ... 569
Essyllt, merch Cynan Tindaethwy ... ... 569
Essyllt Fyngwen ... 569
Eudaf, neu Octavius ... 569
Eulad ... ... 569
Eunydd ... ... 569
Eurddyl ... ... 569
Euronwy ... ... 569
Evans, Arise ... ... 569
Evans, Arthur, Cydweli ... 569
Evans, Arthur, Cynwil ... 570

Tudal.
Evans, Benjamin, D.D., Castellnedd ... ... 574
Evans, Caleb, D.D. ... 574
Evans, Dafydd, o'r Dolau ... 575
Evans, Dafydd, o Ffynnon Henry ... ... 574
Evans, Daniel, D.D. ... 575
Evans, Daniel, Capel Drindod 576
Evans, Daniel, Mynydd Bach 576
Evans, Daniel, Woodstock... 575
Evans, David, D.D., Canon Llanelwy ... ... 576
Evans, David, Aberystwyth 576
Evans, Edward, M.A. ... 577
Evans, Edward (*Iolo Gwyddelwern*) ... ... 577
Evans, Ellis, Cefn Mawr ... 577
Evans, Enoch, Bala ... 578
Evans, Hugh, M.A., Bristol... 578
Evans, James (*Iago Glan Ceri*) 578
Evans, John, yr anturiaethwr 578
Evans, John, M.A., gwneuthurwr Almanaciau ... 578
Evans, John, Abercanaid ... 578
Evans, John Hugh (*Cynfaen*) 580
Evans, Lewis, awdwr enwog 581
Evans, Lewis, Llanllugan ... 581
Evans, Llewelyn Ioan, D.D... 583
Evans, Oliver ... ... 583
Evans, Thomas (*Tomos Glyn Cothi*) ... ... 583
Evans, Thomas (*Telynog*) ... 583
Evans, William ... ... 583
Evans, William, Ton-yr-efail 584
Evans, William (*Trefor*) ... 587

Faust, Dr. ... ... 588
Fawcett, Henry... ... 589
Fielding, Henry... ... 590
Foulkes, Richard (*Silas Glyndyfrdwy*) ... ... 590
Foulkes, Robert, Dinbych ... 594
Froude, James Anthony ... 591
Fychan, Dafydd ... 592
Fychan, Edward, LL.D. ... 592
Fychan, Henry, o'r Caethle... 592
Fychan, Henry (*Y Siluryn*)... 592
Fychan, Howell... ... 593
Fychan, Syr John ... 593
Fychan, Mari ... ... 593
Fychan, Myfanwy ... 593
Fychan, Richard, D.D. ... 593
Fychan, Richard (Iarll Carbery) ... ... 593
Fychan, Rowland ... 594
Fychan, Thomas, yr athronydd ... ... 594
Fychan, Thomas, o Gastell Bwlch Gwyn ... ... 594
Fychan, William, o'r Gelli Aur ... ... 594
Fynglwyd, Dafydd ... 594
Fynglwyd, Iorwerth ... 594
Ffinan, neu Ffinian ... 595
Fflewdur Fflam, neu Wledig 596
Fflur... ... ... 596
Fflint, Sir ... ... 828
Ffyrdd Haiarn ... .. 1011

Gafran ab Aeddan ... 596
Gair ab Geirion ... ... 596
Gal, Gaul, Galia, a Galiaid... 596
Gall ab Disgyfeddawg ... 599
Gambetta, Leon Michel ... 599
Garfield, James Abram ... 600
Garthwys Hir ... ... 601
Garwen ... ... 601
Garwy ... ... 601
Garwydd, neu Gawrwyd Caint 601
Geddes, Jenny ... . A 614

Tudal.
Gee, Robert ... . A 614
Gee, Thomas ... . B 914
Gethin, Ellen ... ... 601
Geraint (y Mabinogi) ... 728
Glan Padarn ... ... 601
Glewlwyd Gafaelgar ... 601
Glynn, William, D.D. ... 601
Gogyrfan Gawr ... ... 602
Gordon, Charles George ... 602
Grant, Ulysses Simpson ... 603
Gray, Thomas, y bardd ... 603
Gray, Thomas, Abermeurig... 604
Gregory, Henry... ... 604
Grey, Charles, Iarll ... 604
Grey, Syr George ... 605
Griffith, John Owen (*Ioan Arfon*) ... ... 605
Griffiths, David (*Clwydfardd*) 608
Griffiths, John, Trosnant ... 606
Griffiths, Walter ... 606
Gruffydd Hiraethog ... 606
Gruffydd Maelor ... 606
Gruffydd, Thomas (*Y Telynor*) ... ... 606
Gutto'r Glyn ... ... 607
Gutyn Padarn ... ... 607
Gwalchmai ab Meilyr ... 607
Gwalchmai, Humphrey ... 611
Gwallawg ab Llenawg ... 612
Gwawl ... ... 612
Gwawrddydd, neu Gwenddydd 612
Gweirydd ab Owain ... 612
Gwenddolen ... ... 612
Gwenddolen ab Ceidio ab Garthwys ... ... 612
Gwenfron ... ... 612
Gwenhwyfach ... ... 612
Gwenhwyfar ... ... 612
Gwenlliant ... ... 612
Gwenwynwn ab Naf ... 612
Gwenwynwn ab Owain Gyfeiliog ... ... 612
Gwenwys o Bowys ... 613
Gwerfyl (gwraig i Dafydd Llwyd o Fathafarn) ... 613
Gwerfyl (merch i Hywel Fychan) ... ... 613
Gwerfyl Hael ... ... 613
Gwernen ... ... 613
Gwerystan ... ... 613
Gwesyn ... ... 613
Gwgan ab Morydd ab Llywarch 613
Gwgan Brydydd... ... 613
Gwgan Gleddyfrudd ... 613
Gwgawn Gwron... ... 613
Gwgawn Llaw-gadarn ... 613
Gwiawn ab Cyndrwyn ... 613
Gwilym Ddu o Arfon ... 613
Gwilym Hiraethog ... 799
Gwilym Tew ... ... 613
Gwilym y Congcwerwr, a'r Tir 902
Gwinn, Robert ... ... 613
Gwladus ... ... 913
Gwladus Ddu ... ... 613
Gwladys (Gwel Claudia) ... 613
Gwodlyw, neu Gwyddlon ... 614
Gwrgant ab Ithel ... 614
Gwrgant ab Rhys ab Iestyn 614
Gwrgant Farfdrwch ... 614
Gwrgi ab Elifer ... ... 614
Gwrgi Garlwyd ... ... 614
Gwrhai ... ... 614
Gwrhir ... ... 614
Gwrhir Gwarthegfras ... 614
Gwrhir Gwastad Ieithoedd... 614
Gwriad ... ... 614
Gwriad ab Gwrien ... 614
Gwrnerth Ergydlym ... 614
Gwron ab Cynfarch ... 614
Gwrthefyr ... ... 614

Digitized by Google

Tudal.
Gwrthmwl Wledig ... 614
Gwrthwl ... ... 614
Gwrwst ... ... 614
Gwrwst ... ... 614
Gwyar ... ... 614
Gwydyr ... ... 614
Gwyddfarch ... ... 614
Gwyddon Ganhebon ... 614
Glo—feydd ... . D 614
Gwylyged ... ... 615
Gwyn ... ... 615
Gwyn, Nell ... ... 615
Gwyndaf Eryri. Gwel Jones, Richard, *cyf.* v.: ... 615
Gwynedd, neu Gwyneth, John 615
Gwynfardd Brycheiniog ... 615
Gwynfardd Dyfed ... 615
Gwynhwyfar ... ... 615
Gwynionydd ... ... 615
Gwythog Gwyr ... ... 616
Gwythyr ab Greidiol ... 616
Gynyr, o Gaer Gawch ... 616
Gyriog, Gruffydd ... 616

Hayti, Ynysoedd .. 1018
Hamilton, Syr William ... 616
Hamilton, Syr William Rowan 616
Harold I. ... ... 617
Harold I. (a gyfenwid Haarfager) ... ... 617
Harold II. ... ... 617
Harold III. ... ... 618
Harri, Miles ... ... 618
Harvard, Prifysgol ... 619
Hawaii, Ynysoedd ... 619
Hawthorne, Nathaniel ... 620
Hayti (gwel San Domingo).. 1020
Hethiaid, Yr ... .. 1015
Hiley, Francis ... ... 621
Holbein, Hans ... ... 622
Holmes, Oliver Wendell ... 622
Hood, Thomas ... ... 623
Howe, Elias ... ... 644
Howe, Richard, Iarll ... 644
Howel, Gruffydd, o Rushacre 644
Howells, William, Trefecca... 645
Hughes, John, D.D., Caernarfon ... ... 625
Hughes, Hugh, Abergele . A 640
Hughes, Robert, Gaerwen . B 640
Huxley, Thomas Henry . G 640
Hughes, James, o Leyn ... 641
Hughes, John Ceiriog ... 641
Hughes, Robert Samuel ... 642
Hughes, W. E. (*Cowlyd*) ... 643
Humphreys, John, Caerwys 643

Ieuan Brechfa, Brut ... 957
Ioan ab Gwilym ... 945

Japan. ... .. 1018
John, Thomas, Cilgeran ... 887
Jones, Dafydd, Caerdydd ... 647
Jones, David (Gwel *Dewi Arfon*) ... ... 648
Jones, Edward, Aberystwyth 648
Jones, Hugh (*Erfyl*) ... 648
Jones, Hugh, D.D. ... 649
Jones, Hugh William ... 649
Jones, Humphrey (y Diwygiwr) ... ... 651
Jones, Isaac, Nantglyn ... 651
Jones, John Emlyn, LL.D. ... 652
Jones, John, Gwrecsam ... 659
Jones, John, o Lanbedr ... 651
Jones, John, Llanedi ... 656
Jones, John, Rhyl ... 658
Jones, John Williams, golygydd y *Drych* ... ... 653
Jones, Lewis ... ... 661
Jones, Maurice Charles ... 653
Jones, Owen, Gelli ... 661
Jones, Owen Wynne (*Glasynys*) ... ... 654
Jones, Richard (*Gwyndaf Eryri*) ... ... 654
Jones, Thomas, Abertawe ... 663
Jones, Thomas, D.D., Tŷ Ddewi ... 655
Jones, William, Canton ... 655
Jones, William, Cilmaenllwyd 667
Jones, William, Rhuddlan... 668
Jowett, Benjamin ... 669

Kilhwch ... ... 714
Kossuth, M. Louis ... 669

Leighton, Arglwydd .. 1016
Lewis, Enoch, Abergwaen ... 672
Lewis, John, Cilgeran ... 672
Lewis, Stephen Hall ... 673
Luned (y Mabinogi) ... 720

Llanofer, Arglwyddes .. 1016
Llenyddiaeth Gymreig ... 673
Llevelus ... ... 713
Lloyd, Morgan, Q.C. ... 697
Lloyd, William, Caernarfon... 697
Llwyd, John, Llansannan ... 698
Llwyd, Robert, Plas Ashpool 699
Llwyd, William, o Gaio ... 700
Lludd ... ... 713

Mabinogion, Y ... ... 701
Macsen Wledig, Breuddwyd 713
Maesyfed, Sir ... ... 829
Magna Charta . H 736
Mair, Gwilym ... ... 946
Manawydden Fab Llyr ... 706
Manuel, Dafydd... ... 737
Math, fab Mathonwy ... 707
Matthews, John, Aberystwyth ... . F 736
Matthews, Edward, Eweni . A 736
Meirionydd, Sir... ... 829
Miall, Edward ... ... 732
Milionos, neu Bacteria ... 737
Môn, Sir ... ... 830
Morganwg, Sir ... ... 830
Morris, Thomas, Aberffraw... 731
Muller, George—a'i Gartrefi 735
Myfyr Emlyn ... ... 858
Mynwy, Sir ... ... 831

Nicaragua ... .. 1020

Olwen .. ... 715
Owain (y Mabinogi) ... 720
Owen, Daniel, Wyddgrug . A 740
Owen, John (*Owain Alaw*) ... 739
Owen, John, sylfaenydd *Owen's College* ... 741
Owen, John, Berthen-gron. B 740
Owen, Robert, Rhyl . C 740

Paraguay ... . B 780
Parri, John, Llanelian ... 741
Parry, Robert (*Robyn Ddu Eryri*) ... ... 742
Patagonia ... . D 740
Penfro, Sir ... ... 832
Peredur (y Mabinogi) ... 722
Phillips, Rees, Llanymddyfri 770
Phrenyddeg ... ... 744
Pierce, Evan, M.D., Dinbych. 760
Portugal ... . B 784
Powell, Rhisiart... ... 761
Price, Benjamin (*Cymro Bach*) 761
Price, John, Maes-y gelli ... 763
Prifysgol Cymru ... 770
Pritchard, Richard ..
Prydderch, John.. ..
Prytherch, William ..

Rees, William D.D. (*Gwilym Hiraethog*) ... ..
Rees, John, Llundain ..
Rees, Thomas, D.D., Abertaw
Rhonabwy, Breuddwyd (Mab
Rhydderch o Fôn ..
Richard, Henry ... ..
Roberts, David, Liverpool a Abergele ...
Roberts, Griffith, Carneddi .
Roberts, J., Bryngwenallt .
Roberts, John (J.R.) Conw
Roberts, John, Llangwm ..
Roberts, Peter, Llansannan .
Roberts, Rich. (ydyfeisydd)
Roberts, Richard (*Gruffydd Rhisiart*) ... ..
Roberts, Richard (*Bardd Treflys*) ... ..
Roberts, Robert, Dolgellau ..
Roberts, R. D., Llwynhendy
Roberts, Samuel (S.R.) ..
Roberts, William, Llanrwst
Robins, Benjamin .
Robyn Ddu Eryri ...
Roumania ..
Rowlands, Thomas, Rhuddlan

Saeson, Brut y ... ..
Saltsburg, Adam De ..
Salusburiaid, Y, o Leweni ..
Salusbury, Syr John ..
Salusbury, Syr Thomas ..
Salusbury, William, y Milwriad ... ..
San Domingo ... ..
San Salvador ... ..
Sandwich, Ynysoedd ..
Saunders, David, D.D. .
Senedd y Deyrnas Gyfunol.
Senedd yr Iwerddon .
Senedd Ysgotland .
Shôn y Bodiau ... .
Siam ... ..
Simner, Abel, Llundain .
Siroedd Cymru ... .
Sosialaeth: neu, Gymmrodolaeth ... .
Spurgeon, Charles Haddon.
Stephen, Edward .
Sylweddau Diheintiol .

Taenelliad ... .
Tan-y-marian (Ed. Stephen
Tasmania ... .
Tennyson, Argl. Alfred .
Thomas, Benjamin (*Myfyr Emlyn*) ... .
Thomas, Ezeciel, Abertawe
Thomas, John, D.D., Liverpo
Thomas, Joseph, Carno .
Thomas, Owen, D.D. Liverpo
Thomas, Thomas, Ulversto
Tiroedd y Deyrnas Gyfunol
Trefaldwyn, Sir... .
Trioedd, Y ... .
Twm Pedrog ... .
Tysilio, Brut ... .
Tywysogion, Brut y .

Unol Dalaethau America .
Uruguay ... .
Uwch-Feirniadaeth .

Van Buren, Martin .
Van Diemen's Land .

Digitized by Google

Tudal.
Vanbrugh, Syr John ... 931
Vanderbilt, Cornelius ... 931
Vansittart, Nicholas ... 931
Vaughan, Gruff ab Gruffydd 931
Vaughan, Henry ... 931
Vaughan, John ... ... 931
Vaughan, Roger ... 932
Vega Carpio, Lope Felix De 932
Veitch, William ... 932
Venezuela ... 932
Vere, Syr Francis ... 933
Vesalius, Andrew . A 944
Vespucci, Amerigo ... 934
Victor Emanuel ... 934
Victoria ... ... 934
Villeneuve, Pierre . A 944
Vondel, Joost Van Den . A 944
Vossius, Gerard... . A 944

Wagner, Richard ... 935
Waithman, Robert ... 936
Walker, John ... ... 936
Waller, Edmund ... 936
Walton, Brian ... ... 936
Wardlaw, Elizabeth, Argl.. 937
Warham, William, Archesgob 937
Waterloo ... ... 937
Watkins, Joshua. ... 938
Watkins, Thomas, M.A. ... 938
Waugh, Edwin ... ... 938
Weber, Carl ... ... 939
Webster, John ... ... 939
Webster, Noah ... ... 939
Wermod ... . A 944
Westbury, Argl. ... 939
Westmacott, Syr Richard ... 940
Wheatstone, Syr Charles ... 940
White, John ... ... 940
Whitman, Walt ... 940
Whittington, Richard ... 940
Wilberforce, Samuel ... 940
Williams, Abraham, Cwmglas 940
Williams, Anna... ... 940
Williams, Syr C. Hanbury... 940
Williams, D., Llandeilo-fach. 941

Tudal.
Williams, D. Llanfair P.G.... 941
Williams, David, Ystrad Meurig ... ... 943
Williams, David (*Ioan*) ... 943
Williams, David, Highgate... 943
Williams, Eliezer ... 943
Williams, Evan, Llanfihangel-y-gwynt ... ... 943
Williams, Evan (cyhoeddwr) 943
Williams, Goronw ... 943
Williams, Humphrey ... 944
Williams, Isaac, B.D. . A 944
Williams, John (*Yr Euryell*) 944
Williams, John, Pwllheli ... 944
Williams, John, LL.D. ... 944
Williams, John, Yst. Meurig 944
Williams, John, Llan. Muallt 944
Williams, John, Caerfyrddin 944
Williams, John, Dolyddelen 945
Williams, John, B.A. ... 945
Williams, John, Carneddi ... 945
Williams, John, o'r Garn ... 945
Williams, John, A.S. ... 945
Williams, John (*ab Gwilym*) 945
Williams, John (cyfieithydd) 946
Williams, John Prydderch ... 946
Williams, Jonathan ... 946
Williams, Nathaniel ... 946
Williams, Mary (*Mair Gwilym* ... ... 949
Williams, Owen, Waenfawr 946
Williams, Owen, Tŷ hir ... 946
Williams, Peter, D.D. ... 947
Williams, Richard, Llanferes 947
Williams, Rich. (*Dryw Bach*) 947
Williams, Richd., Liverpool B 944
Williams, Robert, Pandy Isaf 948
Williams, Syr Roger ... 948
Williams, Thomas, Trefriw.. 948
Williams, Thomas, o Eôn ... 948
Williams, Thomas (*T. Pedrog*) 948
Williams, Thomas (dyfeisydd) 948
Williams, William, Tŷ calch 948
Williams, William, Llandegai 950
Williams, William (seneddwr) 950

Tudal
Wladfa Gymreig, Y . 1011
Wmffre, Dafydd ab Ifan ... 951
Wogan, William . ... 951
Wood, Owen ... ... 951
Wynn, John, neu John Wynn ab Hugh ... ... 951
Wynn, Syr Richard ... 951
Wynn, Syr Richard, o Glyn-llifon ... ... 951
Wynn, William, Llangynhafal 951
Wynne, Edward, D.D. ... 951
Wynne, John, D.D. ... 951
Wynne, John Huddleston ... 952

Y Brutiau ... ... 952
Ymddadblygiad ... ... 958
Yr Eglwys Gristionogol yn mysg y Brythoniaid a'r Cymry ... ... 965
Ynyr Gwent ... ... 988
Yong, Thomas ... ... 988
Yorke, Phillip ... ... 988
Ystrawel ... ... 988
Ystudfach ... ... 988
Young, Brigham . ... 988
Yr Eisteddfod ... ... 988
Ystadegau Crefyddol yr Unol Dalaethau ... ... 917
Ystadegau Cyfundebau Cristionogol Cymru .. 1005
Ynys Prydain ... .. 1008
Y Cynghrair Argentaidd .. 1011
Y Ffyrdd Haiarn yn 1894 .. 1011
Y Wladfa Gymreig .. 1011
Ystrydebu ... .. 1011
Ysgrythyrau ... .. 1013
Ysprydegaeth ... .. 1014
Yr Hethiaid ... .. 1015
Yr Ynysoedd Prydeinig:—eu Rhaniadau, &c. .. 1009

Zealand Newydd .. 1020
Zamoyski, John Sarius .. 1022
Zollikofer, George Joachim.. 1023
Zuingliaid ... .. 1023

Digitized by Google

# MAPIAU A DARLUNIAU.

## CYFROL I.


Darlun Dr. Parry ... ... ... ... o flaen y rhag-ddalen.
Affrica ... ... ... ... ... ... tudal. 100
Asia ... ... ... ... ... ... ,, 385
Asia Leiaf ... ... .. ... ... ... ,, M 385


## CYFROL II.


Dr. Pughe... ... .. .. ... o flaen y rhag-ddalen.
Y Byd, fel yr oedd yn adnabyddus i'r Hynafiaid ... ... ... tudal. 93
Canada ... ... ... ... ... ... ,, c 190
Caradog yn traddodi ei Araeth ger bron Claudius, Ymherawdwr Rhufain.. ,, 218
China ... ... ... ... ... ... ,, 337


## CYFROL III.


Ffurfiad Daearegol y Ddaear ... ... ... o flaen y rhag-ddalen.
Y Ddaear, mewn dau arddrych ... ... ... ... tudal. 231


## CYFROL IV.


Darlun o'r Cyhoeddwr ... ... ... o flaen y rhag-ddalen.
Ewrop ... ... ... ... ... ... tudal. 587


## CYFROL V.


Map o'r Byd—ei Hinsoddau, &c. . .. ... o flaen y rhag-ddalen.
Darlun o Mr. John Griffiths, 'Y Gohebydd' ... ... ... tudal. R 66
Darlun o'r Parch. John Hughes, Liverpool ... ... ... ,, 545


## CYFROL VI.


Darlun o'r Parch. John Jones, Tal-y-sarn ... ... o flaen y rhag-ddalen.
Jerusalem—fel yr oedd, ac fel y mae ... ... .. ... tudal. 49
India ... ... ... ... ... ... ,, 113
Yr Iwerddon ... ... ... ... ... ... ,, 305


## CYFROL VII.


Mynyddoedd ac Afonydd y Byd ... ... ... o flaen y rhag-ddalen.
Darlun o'r Parch. W. Morris, Tŷ Ddewi ... ... ... tudal. 587


## CYFROL VIII.


Lloegr a Chymru ... ... ... ... o flaen y rhag-ddalen.
Palestina ... ... ... ... ... ... tudal. 209


## CYFROL IX.


Siroedd Gogledd a Deheudir Cymru } ... ... o flaen y rhag-ddalen.
*North and South Wales* }
Darlun o'r Parch. William Roberts, Amlwch ... ... ... tudal. 72
Unol Dalaethau yr America ... ... ... ... ,, 717
Gorynys Sinai ... ... ... ... ... ... ,, 343


## CYFROL X.


Yr Ynysoedd Prydeinig dan y Rhufeiniaid ... ... } o flaen y rhag-ddalen.
Britannia—ei rhaniadau yn y bummed ganrif ... }
Ysgotland ... ... ... ... ... ... tudal. 361
Awstralia ... ... ... ... ... ... ... ,, 448
Gogledd America ... ... ... ... ... } ,, E 449
Deheudir America ... — ... ... ... }
Yr Ynysoedd Prydeinig, yn y chweched a'r wythfed ganrif ... ... }
Prydain, yn y nawfed a'r ddegfed ganrif ... ... ... } ,, 1009
Prydain, yn amser Iorwerth y Cyffeswr ... ... ... }
Zealand Newydd ... ... ... ... ... ,, 1020


Digitized by Google

# Y GWYDDONIADUR.



VALDES, JUAN: duwinydd Yspaenaidd. Ganwyd ef yn Cuenca, tua'r flwyddyn 1495, a chafodd ei ddwyn i fyny i'r alwedigaeth gyfreithiol, a gwnaed ef yn farchog gan yr ymherawdwr Siarl v. Tybir ei fod wedi mabwysiadu golygiadau duwinyddol Luther pan yr oedd ar daith trwy yr Almaen; ac wedi hyny bu yn preswylio yn Italy, ac yn benaf yn Naples, lle yr oedd yn ysgrifenydd i'r brenin. Gwnaeth ei olygiadau crefyddol yn hysbys i amryw bersonau o'r ddau ryw yn y ddinas hono, a rhai o honynt o radd uchel mewn cymdeithas. Cynnelid gyfarfodydd crefyddol ganddynt; ac yn mysg y rhai a fynychent y cyfarfodydd hyny yr oedd Peter Martyr, ac Ochinus. Lliosogodd nifer ei ganlynwyr i gryn rifedi; ac o'r diwedd galwyd sylw y Chwilys atynt, a defnyddiodd y llys hwnw y llwybr arferol oedd ganddo i geisio llethu yr hyn a ystyrid yn heresi. Y canlyniad fu i rai o'r diwygwyr hyn ffoi i wledydd tramor; ond y mae yn debyg fod y mwyafrif o honynt wedi dadgyffesu. Bu farw Valdes ei hun yn Naples yn y flwyddyn 1540, yn 45ain mlwydd oed. Efe a ysgrifenodd esboniadau ar ranau o'r Ysgrythyrau; ond y mwyaf adnabyddus o'i weithiau ydyw ei "*Considerations on a Religious Life*," yr hwn a gyfieithwyd i'r Saesneg gan Nicholas Ferrar, ac a argraphwyd yn Rhydychain yn 1638. Ysgrifenodd Benjamin B. Wiffen draethawd ar ei fywyd a'i weithiau, a chyhoeddwyd ei "*Considerations*," &c., yn Llundain yn 1865. Rhoddir canmoliaeth uchel i'w gyfansoddiadau am yr ysbryd efengylaidd a chrefyddol sydd yn rhedeg drwyddynt.

VALENS: ymherawdwr y dwyrain, a brawd i Valentinian I. Ganwyd ef yn agos i Cibalis yn Pannonia, ynghylch B. A. 328; a bu yn gyfranog â'i frawd yn yr awdurdod ymherodrol. Ei gyfran ef o'r ymherodraeth ydoedd, Asia, yr Aipht, a Thracia. Y weithred gyhoeddus gyntaf o ddim hynodrwydd yn nheyrnasiad Valens oedd gostwng pump ar hugain y cant o'r trethi; yr hyn a sicrhaodd iddo ewyllys da y deiliaid, er fod doethineb y weithred braidd yn ammheus yn y sefyllfa ansefydlog yr oedd y cyffiniau dwyreiniol ynddi ar y pryd. Cymmerwyd i fyny y rhan fwyaf o deyrnasiad Valens mewn rhyfeloedd â'r Gothiaid. Ar y cyntaf, yr oedd yr ymherawdwr yn dra llwyddiannus yn erbyn y barbariaid, a sefydlwyd heddwch rhyngddynt yn B. A. 370, ar yr ammod nad oeddynt i groesi y Danube. Yn B. A. 376, gyrwyd y Gothiaid allan o'u gwlad eu hunain gan yr Huniaid; a goddefodd Valens iddynt groesi y Danube, ac ymsefydlu yn Thracia, a'r gwledydd oedd ar lanau yr afon hono. Torodd anghydfod allan yn fuan rhwng y Rhufeiniaid a'r cymmydogion peryglus hyn; ac yn 377, ymarfogodd y Gothiaid. Casglodd Valens fyddin gref ynghyd, ac aeth yn eu herbyn; ond gorchfygwyd ef gyda lladdfa fawr, ger Adrianople, ar y 9fed o Awst, 378. Ni welwyd Valens ar ol y frwydr. Dywed rhai iddo gael ei ladd ar y maes, ereill a ddywedant mai ei losgi a gafodd mewn bwthyn gwladwr, lle y cariwyd ef ar ol ei glwyfo, a'r hwn a roddwyd ar dân gan y barbariaid heb wybod pwy oedd i mewn ynddo. Y mae teyrnasiad Valens i'w ystyried yn bwysig yn hanes yr ymherodraeth, o herwydd y caniatâd a roddwyd i'r Gothiaid i ymsefydlu yn y gwledydd oedd yn ddeheuol i'r Danube, a dechreuad dadfeiliad y gallu Rhufeinaidd yn y rhan hwnw o'r ymherodraeth; ac hefyd o herwydd y cwerylon a'r dadleuon crefyddol a gymmerasant le rhwng yr Ariaid a'r blaid uniongred drwy yr holl ymherodraeth ddwyreiniol. Nid oedd Valens yn rhyw alluog iawn i ffurfio barn o'i eiddo ei hun ar byngciau y ddadl: gan hyny, gwrandawai ar y cynghorwyr Ariaidd oedd yn ei amgylchynu, a dangosai ffafraeth i'r blaid hono.

VALENTINIAN I.: ymherawdwr Rhufain, oedd fab hynaf Gratian. Ganwyd ef B. A. 321. Ymunodd â'r fyddin pan oedd yn ieuangc: ymgododd i sefyllfa uchel yn fuan o dan yr ymherawdwyr Constantius a Julian, ond diswyddwyd ef gan Constantius yn 357; ac am iddo feiddio dadgan yn gyhoeddus nad oedd ganddo ddim parch i baganiaeth, anfonwyd ef i alltudiaeth yn 362. Adferwyd ef i ffafr drachefn y flwyddyn ddilynol, ac enwogodd ei hun yn y dwyrain; ac ar farwolaeth Jovian, etholwyd ef yn unfrydol i fod yn olynydd i'r ymherawdwr hwnw, yn y fl. 364. Yn mhen mis ar ol ei esgyniad i'r orsedd, dewisodd ei frawd Valens i fod yn gydymherawdwr, a chyflwynodd iddo ymherodraeth y dwyrain, gan gadw iddo ei hun Illyricum, Italy, Gaul, Yspaen, Prydain, ac Affrica. Yn ystod ei deyrnasiad, yr oedd y barbariaid fel fwlturod yn gwylio ar gyffiniau yr ymherodraeth—yr hyn a barai flinder mawr iddo. Anrheithiwyd y dwyrain gan yr Alemanni, Gaul gan y Sacsoniaid, Illyricum gan y Quadi, ac Affrica gan lwythau yr anialwch deheuol; ond er fod yr ymosodiadau hyn yn cael eu gwrthsefyll, etto nid gyda'r un egni a dewrder ag a fu unwaith yn nodweddu byddinoedd Rhufain. Yr oedd llywodraethiad mewnol yr ymherodraeth yn rhagorol, o herwydd yr oedd yr ymherawdwr nid yn unig yn meddu gallu, synwyr, a chymmeriad diysgog, ond hefyd gwyliadwriaeth ac ammhleidgarwch. Er ei fod ef ei hun yn proffesu ei ymlyniad wrth y blaid uniongred o Gristionogion, nid oedd am ymyryd â dadleuon



Digitized by Google

crefyddol yr oes, ond gadawai i'w ddeiliaid fabwysiadu y grefydd a ewyllysient hwy; a gwaharddai yn gaeth i un math o erledigaeth gael ei dwyn yn mlaen yn achos crefydd. Gwnaeth ddiwygiadau yn ngweinyddiad y gyfraith, a sefydlodd ysgolion drwy yr ymherodraeth. Diammheu fod llwyddiant llywodraethiad Valentinian i raddau mawr i'w briodoli i'w ddewisiad doeth o swyddogion i gario allan ei gynlluniau. Yn ei fywyd cyffredin, yr oedd yn gynllun o foesoldeb a chynnildeb. Ond yr hyn oedd yn ddiffyg mawr ynddo, ac yn anurddo ei gymmeriad, oedd ei dymmer aflywodraethus; yr hyn a'i harweiniai weithiau i gyflawni gweithredoedd o greulondeb mawr, ac yn y diwedd a achosodd ei farwolaeth. O herwydd tra yn ymddiddan â dirprwyaeth a ddaethai ato oddi wrth y bobl a elwid Quadi, â pha rai yr oedd mewn rhyfel ar y pryd, efe a weithiodd ei hun i'r fath eithafoedd mewn tymmer ddrwg fel y torodd gwaedlestr yn ei fynwes, a syrthiodd yn ol i freichiau rhai o'i warchodlu yn farw yn y fan—Tachwedd 15fed, 375.

VALENTINIAN III.: nai i Valentinian I., a mab i Constantius III. Ganwyd ef ynghylch B. A. 419, a gosodwyd ef ar orsedd y gorllewin gan Theodosius II., ymherawdwr y dwyrain, B. A. 425. Nid oedd Valentinian ond tywysog egwan a distadl; er hyny yr oedd ei deyrnasiad yn un o'r cyfnodau mwyaf dyddorol yn hanes yr ymherodraeth, gan ei fod yn gyfnod oedd yn dangos yn eglur ei gwendid a'i llygredigaeth mewnol, a'r modd yr oedd y gelynion barbaraidd anwrthwynebol yn ei hamgylchu. Etto: yn awr ac eilwaith, yr oedd rhyw fflachiad i'w ganfod o'r hen ysbryd milwraidd a fuasai mor amlwg yn ei hanes boreuol. O'r braidd y gellir dywedyd fod Valentinian wedi llywodraethu dim yn ystod y deng mlynedd ar hugain y bu yn eistedd ar yr orsedd ymherodrol. Ei fam, Placidia, oedd mewn gwirionedd yn llywodraethu, nes y bu farw, yn y fl. B. A. 450; ac wedi hyny yr eunuch, Heraclius.

VALENTINIAID: sect grefyddol a gododd yn yr ail ganrif, ac a elwid ar yr enw hwn ar ol un Valentinus, ei sylfaenydd, yr hwn a aeth o Alexandria i Rufain ynghylch B. A. 140, ac a fu farw naill ai yno neu yn Cyprus, o ddeutu y flwyddyn 160. Nid oedd y Valentiniaid ond cangen o'r Gnosticiaid, y rhai a sylweddolent neu a bersonolent y drychfeddyliau Platonaidd am y Duwdod—yr hwn a alwent *Pleroma*, neu Llawnder. Rhywbeth yn debyg i hyn oedd eu cyfundrefn:—yr egwyddor gyntaf ydyw *Bythos*, hyny yw, Dyfnder, yr hwn a fu am lawer o oesoedd yn anadnabyddus; a chydag ef *Ennoe*, neu Feddwl; a *Sige*, neu Ddistawrwydd. O'r rhai hyn y tarddodd *Nous*, neu Ddealltwriaeth, yr hwn yw yr unig Fab—yr unig un sydd yn ogyfuwch â, ac yn alluog i amgyffred y *Bythos*. Galwent chwaer *Nous* yn *Aletheia*, neu Gwirionedd. Y pedwar hyn oedd yr Aioniaid (*Æons*)—y *tragwyddolion* cyntaf; a *Nous* ac *Aletheia* a gynnyrchodd y byd a bywyd; ac o'r ddau hyn y tarddodd dyn a'r eglwys. Ond heb law yr wyth hyn, a ystyrid y prif Aioniaid, yr oedd dau ar hugain chwaneg o honynt—yr olaf o ba rai a elwid *Sophia;* yr hon a ddymunai feddu gwybodaeth am *Bythos*, ac a deimlai yn hynod anesmwyth, a chreodd hyn ynddi Ddigofaint ac Ofn, ac o honynt hwy y ganwyd Defnydd (*matter*). Ond lluddiwyd hi gan *Horos*, yr hwn a'i cadwodd yn y *plemora*, ac adferwyd hi i'w pherffeithrwydd. Yna cynnyrchodd Sophia Grist a'r Ysbryd Sanctaidd, ac felly perffeithiwyd yr Aioniaid; ac o hyny allan gwnaeth pob un ei oreu i gynnyrchu Ceidwad. Y Crist hwn a anfonwyd i fod yn Geidwad, a ddilynwyd gan angylion, ac a waredodd y byd, yn lle ei ddifodi. Yn y dull allegawl a chyffelybiaethol hwn yr ymdrinient hwy â Duw, â natur, ac â dirgelion y grefydd Gristionogol. Gwel GNOSTICIAETH.

VAN DIEMEN'S LAND, neu TASMANIA: ynys o gryn faintioli yn y Tawelfor Deheuol, yn gorwedd i'r deheu i, ac yn cael ei hysgaru oddi wrth Awstralia gan Gulfor Bass. Ei hyd mwyaf, o Benrhyn Grim, ar y gogleddorllewin, i Benrhyn Pillar, ar y de-ddwyrain, yw 240 o filldiroedd; a'i lled mwyaf o ddwyrain i orllewin yw 200 o filldiroedd; ei harwynebedd, a chynnwys yr ynysoedd cylchynol, yw 26,300 o filldiroedd ysgwâr. Y brif ddinas yw Hobart Town, yn meddu phoblogaeth o fwy na 25,000, yr hon a saif wrth droed mynydd Wellington, ar lan orllewinol yr afon Derwent. Yr ail dref, a'r agosaf ati o ran poblogaeth, yw Launceston. Y mae ynddi hi tuag 11,000 o breswylwyr. Y mae yr ynys yn dra amrywiaethol ei golygfeydd, ond yn gyffredin yn lled fynyddig. Y mae ynddi amryw o randiroedd ffrwythlawn ar lan y môr; ac y mae y rhanau mewnol o'r wlad o'r bron i gyd yn meddu tir sydd yn gymmhwys at holl angenrheidiau dyn yn ei sefyllfa wareiddiedig. Y mynyddoedd uchaf ydynt Ben Lomond (5,002 o droedfeddi), mynydd y Cradle (5,069), a mynydd y Gareg Haiarn (4,756 o droedfeddi). Y mae amryw glogwyni ereill, yma a thraw, yn ymgodi i'r uchder o 3,000 neu 4,000 o droedfeddi. Y mae yno un gadwen o fynyddoedd, yr hon a elwir Mynyddoedd y Gorllewin, yn rhedeg o ogledd i dde, ac y mae ei huchder cyfartal tua 3,500 o droedfeddi. Ceir yn yr ynys lawer o lynau; a dichon nad oes un ynys yn y byd, o'i maintioli, yn meddu ar gymmaint o borthladdoedd rhagorol. Y mae llawer o fôrgilfachau ar ei glenydd de-ddwyreiniol. Yr afonydd mwyaf ydynt y Derwent, yr Huon, y Tamar, y Clyde, a'r Isis. Gyda'r eithriad o'r tir sydd wedi ei arloesi, y gwastadeddau creigiog, a'r ychydig ranau nad ydynt yn gyfaddas i dyfu coed, y mae yr holl ynys wedi ei gorchuddio â choedwigoedd mawrion. Ceir llawer o goed o fforestydd mawr y glenydd gogleddol a deheuol; ac y mae y wlad, yn enwedig ar y glenydd gogleddol, yn prysur gael ei harloesi. Ond y mae y rhan fwyaf o ranau gorllewinol yr ynys heb neb yn eu trigiannu; gan nad ydyw yr hinsawdd, y tir, na'r sefyllfa yno mor fanteisiol i hyny a rhanau ereill y wlad.

Y mae anifeiliaid a llysiau y wlad yn mron yr un peth yno ag ydynt yn Awstralia. Nid oes nemawr o ddim gwahaniaeth mewn gwirionedd yn yr anifeiliaid. Nid yw y ci brodorol, y mae'n wir, i'w gael yno; ond y mae yno greadur o lwyth y *panther* yn cymmeryd ei le; yr hwn, er nad ydyw i'w gael mor gyffredinol ag y mae y ci brodorol yn Awstralia, etto y mae, er hyny, yn gwneuthur difrod ofnadwy yn mysg y deadelloedd. Megir ceffylau, da corniog, defaid, geifr, a moch; ac y mae yno rifedi mawr o'r anifeiliaid hyn. Nid yw y llwythau asgellog yn amrywio oddi wrth y rhai a geir yn Awstralia.

Digitized by Google

Bydd môrfilod yn ymweled â'r gororau, ac i'w gweled yn aml. Am yr hinsawdd, y mae yn hyfryd ac iach, ac yn eithaf cyfaddas i Ewropiaid. Anfynych y disgyna eira ar y rhanau a breswylir o'r ynys, ac nid yw yn aros bron ddim ar y ddaear ond yn yr ucheldir a'r mynyddoedd yn nghanol y wlad. Tytir haidd, ceirch, a chloron rhagorol yno; ac y mae y gwenith hefyd o'r ansawdd goreu yn mron. Y mae agos yr holl ffrwythydd a godir yn y wlad wedi eu dwyn iddi o leoedd ereill, a'u planu ynddi; ac y maent yn dyfod yn mlaen yn rhagorol. Deallir fod yno lô, haiarn, copr, a mŵnau ereill; ond nid oes ond ychydig o fwngloddiau ar waith.

Ar ol pasio y "Ddeddf Gyfansoddiadol" yn 1854, y mae yr awdurdod llywodraethol yn cael ei hymddiried i senedd—yn cynnwys y llywodraethwr fel cynnrychiolwr y frenhines, a dau dŷ etholiadol; sef, y Cynghor Deddfwrol, yn cynnwys pymtheg o aelodau; a'r Gymmanfa, yn cynnwys deg ar hugain o aelodau.

Pan yr ymsefydlodd Ewropiaid yn Van Diemen's Land gyntaf, yr oedd gwahanol farnau ynghylch rhifedi y cynfrodorion; ond nid yw yn debyg iddynt fod un amser uwch law 3,000. Yr oedd yno amryw o lwythau mewn gwahanol barthau o'r ynys, yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd mewn tafodiaith ac arferion; ond yr oeddynt ar y cyfan yn debycach i Negritosiaid Guinea Newydd na chynfrodorion Awstralia. Taldra cyffredin y meibion oedd o bedair troedfedd a hanner i bump a hanner; ond y merched gryn lawer yn llai na hyny. O ran lliw eu crwyn, yr oeddynt yn ddu-las, y llygaid yn llwyd-dywyll, a chanwyll y llygaid yn ddu iawn; y gwallt, weithiau yn disgyn yn syth, ond yn fwy cyffredin yn wlanog a chrych; y talcen yn uchel a chul; yr aelodau yn deneu a gewynog; y traed yn lled wastad ar y llawr, ac yn troi i mewn. Ymddengys y goddefid amlwreiciaeth yn eu mysg, a bod y merched yn gwneyd y gwaith teuluaidd; ac arnynt hwy yn arbenig y disgynai y gorchwyl o gario y tân o'r naill fan i'r llall, pan y byddent yn newid eu gwersyllfaoedd, ac yn ymsymmud i rywle arall. Yn yr haf, arferent fod yn hollol noeth; ond yn y gauaf, gwisgent ddillad wedi eu gwneyd o grwyn anifeiliaid. Ar adegau neillduol o'r flwyddyn, arferai cynfrodorion y glenydd fyw yn gwbl ar bysgod cregyn; ac y mae gweddillion eu gwleddoedd wedi eu camgymmeryd lawer gwaith am hen weddillion marwol. Ni chafwyd dim arwyddion eu bod yn gannibaliaid. Eu hunig arfau oedd gwaewffon, a phastwn tua dwy droedfedd a phedair modfedd o hyd. Yr oedd cyssylltiadau boreuol yr ymsefydlwyr â'r cynfrodorion yn gyfeillgar; ond fel y difeddiennid yn raddol y brodorion o'r tir yr oeddynt yn hoff o hela arno, troisant yn hollol elynol. Saethwyd hwynt yn ddidrugaredd gan yr ymsefydlwyr, a dialasant hwythau yn waedlyd am hyny, a pharhawyd i fyned yn mlaen felly am lawer o flynyddoedd, gan frwydro â'u gilydd, nes o'r diwedd y lleihawyd nifer y cynfrodorion, fel nad oeddynt ond ychydig gannoedd. Gwnaed cais yn 1830 i'w gyru i gyd i orynys Tasmania; ond methwyd. Yn y flwyddyn ddilynol, darfu i Robinson, yr hwn a adeiladodd Hobart Town, ymgymmeryd â'r gwaith o heddychu y gweddillion oedd yn fyw o'r amrywiol lwythau, gyda'r amcan o'u symmud i ynys Flinders; a llwyddodd i wneuthur hyn, ar ol llafur caled, hunanymwadol, ac amyneddgar, am bedair neu bum mlynedd. Ond er gwaethaf y gofal a gymmerwyd gyda'r bobl anffodus hyn, lleihaodd eu nifer yn brysur; ac nid oedd ond pump a deugain o honynt yn fyw pan y symmudwyd hwynt i le mwy cyfleus, yn agos i Hobart Town, yn y flwyddyn 1847. Erbyn hyn y maent, dybygid, wedi llwyr ddarfod o'r tir. Nid oedd ond chwech yn fyw yn 1865; ac nid oedd un plentyn wedi ei eni yn eu mysg er's llawer o flynyddoedd.

Darganfyddwyd yr ynys hon gyntaf gan ŵr o'r enw Tasman, y 1af o Ragfyr, 1642, ac enwyd hi ganddo yn Van Diemen's Land, er anrhydedd i'w noddwr; yr hwn ar y pryd a lywodraethai y meddiannau Isellmynaidd yn yr India ddwyreiniol; ond gelwir hi yn llawn mor fynych ar ei enw ef ei hun, sef Tasmania. Ni cheir hanes i neb ymweled â'r lle am dros gan mlynedd ar ol hyn. Ond yn 1773, ymwelwyd â hi gan Cadben Furneaux, a chan y Cadben Cook yn 1777: a rhwng y flwyddyn gyntaf a nodwyd ag 1802, gwnaed ymchwiliadau arni ac o'i chwmpas gan forwyr Prydeinig a Ffrengig. Yn y fl. 1803, danfonwyd yr is-gadben Bowen o Sidney gydag ychydig filwyr a throseddwyr alltudiedig i ffurfio sefydliad ar ochr ddeheuol Van Diemen's Land, a phenderfynwyd yn y diwedd ar i'r sefydliad fod ar y fan lle y saif Hobart Town yn awr. Yn 1804, ffurfiwyd sefydliad yn agos i enau y Tamar, yr hon a symmudwyd yn 1806 i'r man lle y saif tref Launceston yn bresennol. O'r flwyddyn 1817, dechreuodd cynnydd cyflym gymmeryd lle yn rhifedi yr ymsefydlwyr rhydd, y rhai a dderbynient roddion o dir yn ol y cyfalaf a ddygent i'r drefedigaeth; ac wedi hyny a gynnorthwyid yn mhellach i glirio a diwyllio eu hetifeddiaethau trwy gael troseddwyr alltudiedig fel gweision. Yn 1825, cyhoeddwyd Van Diemen's Land yn annibynol ar Ddeheudir Cymru Newydd. Bu y drefedigaeth yn cael ei chynnhyrfu am lawer o flynyddoedd gan yr ymofyniad pa fodd y gellid cael ymwared o'r troseddwyr alltudiedig, a'u rheoli a'u llywodraethu, gan eu bod erbyn hyn yn dyfod yn elfen gref yn y cyfundeb gwladol. O'r diwedd, yn 1853, rhoddodd y llywodraeth gartrefol i fyny yn hollol yr arferiad o alltudio troseddwyr i Van Diemen's Land a Deheudir Cymru Newydd. Darfu i ddiddymiad alltudiaeth, ac o ganlyniad disgyniad mawr yn nhreuliadau y wladwriaeth, effeithio yn ddrwg ar bob cangen o fasnach, yn enwedig yn rhanau deheuol y wlad. Nid rhyfedd fod corph mawr y trefedigaethwyr, yn lle ymdrechu yn egniol i droi adnoddau naturiol y wlad i'r fantais oreu, wedi edrych a disgwyl am ryw ddarganfyddiad o feusydd aur cyfoethog, neu am ryw waith mawr wedi ei gynllunio a'i gario allan gan y llywodraeth, fel yr unig foddion i ddwyn y drefedigaeth i sefyllfa foddhaol. Ond rhaid i amgylchiadau o'r fath yn y diwedd weithio allan eu gwellhâd eu hunain. Pe yr edrychid ar bethau mewn goleuni priodol, y mae sefyllfa y wlad, yn fasnachol, cymdeithasol, a gwleidyddol, yn fwy gobeithiol er pan ddiddymwyd yr arferiad o alltudio troseddwyr yno nag mewn unrhyw gyfnod blaenorol. Am flynyddoedd ar ol darganfod aur yn Awstralia, aeth lluoedd o'r rhai ag yr oedd tymmor eu halltudiaeth yn dyfod i'r pen i'r trefedigaethau cymmydogaethol, gan ddisgwyl cael yno ennillion mwy; a diau fod yn dda ganddynt hefyd gael gwaredigaeth oddi wrth arolygiaeth yr heddgeidwaid drostynt yn y wlad lle yr oedd eu hanes blaenorol yn hysbys. Daeth yr alltudion

Digitized by Google

a arosodd yno, gan mwyaf, yn aelodau rheolaidd a hawdd eu llywodraethu o'r cyfundeb gwladol, ac nis gellid eu gwahaniaethu oddi wrth y boblogaeth ymfudol o'u cwmpas. Y mae y tiroedd breision sydd ar ororau gogleddol yr ynys yn feusydd cynnyrchiol i ymfudwyr.

VANDALIAID: hiliogaeth o farbariaid Ewropaidd, o darddiad Almaenaidd, dybygid; ond y mae rhai yn ystyried eu bod o ddeilliad Slafonaidd. Tybiai Procopius a Pliny mai yr un bobl oeddynt hwy a'r Gothiaid, a'u bod yn wreiddiol yn preswylio ar lenydd Môr Asov; ond iddynt wedi hyny ymfudo tua'r gogledd-orllewin, ac ymsefydlu yn ddeheuol i'r Baltic, rhwng yr afonydd Vistula a Viadus. Daethant i'r amlwg gyntaf, fel pobl y cyfeirir atynt mewn hanesyddiaeth, yn yr ail ganrif o'r cyfnod Cristionogol; a'r pryd hwnw preswylient ar lechweddau y mynyddoedd oedd yn ysgaru Bohemia a Moravia oddi wrth Silesia; ac ymunent â'r Marcomanni a'r Quadi yn eu hymgyrchoedd ysbeilgar i Pannonia, ac yn eu rhyfeloedd gyda Marcus Aurelius. Yn y rhan olaf o'r drydedd ganrif, yr oeddynt gyda'r Gothiaid yn nhalaeth Rufeinig Dacia. Yn ol Jornandes, dinystriodd y brenin Gothaidd, Geberic, ran fawr o'r genedl ar lenydd y Maros. Dygwyd y gweddill gan Cystenyn i Pannonia, lle y buont fyw yn heddychol am drigain mlynedd. Ond yn nechreu y bummed ganrif, yn nghwmni y Suevi, yr Alani, a llwythau Almaenaidd ereill, o dan arweiniad eu brenin, Godegisil, hwy a ymosodasant ar wlad Gaul, a gwnaethant anrhaith a dinystr mawr ynddi am dair blynedd o amser. Yna hwy a aethant heibio y Pyrances i Yspaen, a gwnaethant yr un dinystr yn y wlad hono; ac o'r diwedd, ar ol cweryla ac ymladd â'u cymdeithion Almaenaidd, hwy a ymsefydlasant yn Bætica. Yn 429, ar wahoddiad Boniface, llywodraethwr Affrica, hwy a groesasant gyfyngfor Gibraltar dan eu harweinydd, Genseric, yn llu anwrthwynebol, yn rhifo yn rhywle o 50,000 i 80,000, gan lwyr anrheithio y wlad o ororau y Werydd hyd gyffiniau Cyrene. Yn y cyfamser, gwelodd Boniface iddo wneyd camgymmeriad pwysig wrth eu gwahodd; ac ymdrechodd, wedi iddi fyned yn rhy ddiweddar, i wrthweithio y canlyniadau dinystriol. Aeth yn mlaen i'w herlyn gyda llu bychan; ond gorchfygwyd ef gyda chryn golled, a chafodd ei yru i Hippo—lle a amddiffynwyd ganddo am bedwar mis ar ddeg. Yn amser y gwarchauad hwn y bu farw Awstin o Hippo, Awst 28ain, 430. Adgyfnerthwyd gallu Boniface gan fyddin Byzantiaidd, o dan arweiniad Aspar, ac efe a aeth allan drachefn i gyfarfod y Vandaliaid; ond gorchfygwyd ef yr ail waith—yr hyn a benderfynodd dynged Affrica. Yn y flwyddyn 439, torodd Genseric yr heddwch a wnaethai efe â Valentinian III., a gorchfygodd Carthage. Sefydlwyd heddwch newydd, a chydnabyddwyd awdurdod y Vandaliaid dros ogleddbarth Affrica o Fôr y Werydd hyd Cyrene, a thros ynysoedd y Balearic, Sardinia, Corsica, a rhan o Sicily. Goresgynasant Italy hefyd yn 455, ac ysbeiliasant ddinas Rhufain am bedwar diwrnod ar ddeg. Darfu i'r dull yn mha un y dinystriasant weithiau celfyddydol oedd wedi eu casglu ynghyd yn y ddinas, beri i bob barbareidd-dra o'r fath gael ei alw o hyny allan yn *Vandaliaeth*. Ar ol marwolaeth Genseric (477), darfu i'w fab Huneric erlid yn greulawn y dosbarth uniongred o'r Cristionogion; a bu mewn rhyfel â'r Mooriaid yn ngogleddbarth Affrica, y rhai a ymdrechent i adennill eu hannibyniaeth. Yr oedd ei olynwyr ef, sef Guntamund a Thrasamund, yn llywodraethwyr cymmharol dyner a goddefol; ac yr oedd y diweddaf braidd yn ffafriol i lenyddiaeth. Ond erbyn hyn, yr oedd yr hinsawdd gynhes, a hoffder at foethau a danteithion, yn dechreu effeithio i lesgau a gwanychu y Vandaliaid; a'r brodorion, mewn amryw barthau o Affrica, yn dangos nad oedd arnynt mwyach eu harswyd. Gorfodwyd Thrasamund i ymofyn cynnorthwy gan ei frawd-yn-nghyfraith, Theodoric; yr hwn a anfonodd iddo lu o Gothiaid i fyned yn erbyn Mooriaid Tripoli. Wedi ei farwolaeth ef, cyhoeddwyd Huneric, mab Hilderic, yn llywodraethwr; ond efe a ddangosodd duedd gref tuag at y blaid uniongred o Gristionogion; ond aeth ei ddeiliaid yn anfoddlawn, a dymchwelwyd ef gan ei ewythr, Gelimer, yn B. A. 530. Parodd hyn i'r ymherawdwr Justinian ddanfon byddin, o dan arweiniad Belisarius, yn erbyn Gelimer, yn 533. Pan y clywodd y blaenaf am ddyfodiad y cadfridog mawr Byzantiaidd, gorchymynodd roddi i farwolaeth Hilderic a'i feibion; ond gorfodwyd yntau yn fuan i ymofyn noddfa yn ngwylltdiroedd Numidia. Yn B. A. 534, efe a ymostyngodd, a dygwyd ef yn fuddugoliaethus i Gaer Cystenyn, a gorphenodd ei oes yn Asia Leiaf. Cymmerwyd y nifer liosocaf o'r Vandaliaid i'r fyddin ymherodrol, ac anfonwyd hwy i'r rhyfeloedd a ddygid yn mlaen yn erbyn Persia. Ymgymmysgodd yr ychydig a arosodd yn Affrica gyda'r brodorion yno yn fuan.

VANDYCK, SYR ANTHONY: lluniedydd enwog. Ganwyd ef ar yr 22ain o Fawrth, 1599, yn ninas Antwerp. Yn ol tystiolaeth Haubraken, gwydr-baentiwr oedd ei dad wrth ei gelfyddyd; a dywedir fod ei fam yn medru paentio golygfeydd (*landscapes*) yn lled dda, a'i bod yn achlesu y duedd at y gelfyddyd oedd yn Anthony ieuangc. Wedi dysgu o hono ei gelfyddyd yn lled dda, o dan gyfarwyddyd Van Balen, aeth yn ddysgybl i Rubens yn 1615; yr hwn a ganfu yn fuan ei fod yn feddiannol ar dalent. Fel y canlyn y dywedir am dano mewn llythyr a ysgrifenwyd at Iarll Arundel:—"Y mae Vandyck yn byw gyda Rubens, ac nid yw y ganmoliaeth a roddir i'w weithiau nemawr yn llai nag i'r eiddo ei feistr. Dyn ieuangc un ar hugain oed ydyw, ac y mae ei rieni yn perchen cryn eiddo; a bydd yn anhawdd gan hyny cael ganddo symmud oddi yma." Yn fuan ar ol hyn, talodd ymweliad âg Italy. Gweithiau yr arlunwyr Venetiaidd oedd y rhai cyntaf i dynu ei sylw ef. Ar ol gadael Venice, aeth i Genoa, ac wedi hyny i Rufain; a thrachefn, talodd ail ymweliad â Genoa, a bu am ychydig amser yn Palermo. Arosodd Vandyck yn Italy am bum mlynedd; ac oddi wrth nifer y lluniau sydd o'i waith ar gael hyd heddyw yn Genoa, yr ydys yn casglu iddo dreulio cyfran fawr o'i amser yn y ddinas hono. Ar ei ddychweliad i Antwerp, efe a baentiodd amryw ddarluniau i'w gosod yn yr eglwysydd, ynghyd âg ardebau rhagorol. Dywedir mai ynghylch 1630—1631 yr ymwelodd Vandyck â Lloegr; ac o blegid na chafodd gefnogaeth dda, iddo ymadael yn fuan. Ymddengys, pa fodd bynag, nad oes un prawf boddhaol o hyn. Ond yn 1632, daeth drosodd i Loegr drachefn ar wahoddiad Argl. Arundel, yr hwn a anfonodd y gwahoddiad iddo ar orchymyn Siarl I.

Digitized by Google

Llettyai yn Blackfriars: gwnaed ef yn farchog yn fuan ar ol hyn, a rhoddwyd iddo flwydd-dâl o 200*p.* Cafodd lawer o waith; yr hyn a'i galluogodd i fyw yn lled rwysgfawr, a chadwai balas yn y wlad, yn Elthan, yn Nghaint. Yr oedd ei briod, Maria Ruthven, o'r hon yr oedd ganddo un ferch, yn ferch i Patrick Ruthven, physygwr, a phummed mab i Arglwydd Gowrie. Bu farw Vandyck yn Llundain yn y fl. 1641, gan adael 20,000*p.* mewn eiddo ac arian ar ei ol.

Ugain mlynedd oedd o'r adeg y gadawodd efe efrydfa (*studio*) Rubens hyd ddydd ei angeu; ac yn ystod y cyfnod hwn, yr oedd nifer y darluniau a wnaeth, ar sail awdurdod dda, yn ymddangos bron yn anghredadwy—o herwydd y mae yn rhestr Smith o weithiau yr arlunwyr Isellmynaidd a Fflemingaidd ddisgrifiad a manylion dyddorol am naw cant a hanner o ddarluniau Vandyck. Gellir dosbarthu gweithiau y celfyddydwr penigamp hwn o dan dri arddull gwahanol:—1. Y rhai a wnaed yn Italy yn ystod y pum mlynedd y bu yno. Y mae y rhai hyn yn nodedig am eu lliwiau cryfion, ac urddasolrwydd eu harddull a'u mynegiant. Y mae darluniau teulu y Lomellini, a'r pendefig Italaidd yn yr Oriel Genedlaethol yn Ysgotland yn brawf o hyn. 2. Ei weithiau rhwng 1626 a 1631, tra yr oedd yn preswylio yn Flanders; y rhai a wnaed yn yr arddull Flemingaidd. Fe allai mai yn y cyfnod hwn y gwnaeth efe ei weithiau goreu. Yn mysg y goreuon, gellir nodi darlun Snyders, yr hwn sydd yn meddiant Iarll Carlisle; darlun gwraig Snyders, sydd yn meddiant Iarll Warwick; a darluniau Phylip le Roy a'i wraig, a Madame le Roy, a bwrcaswyd gan yr Ardalydd Hertford, yn arwerthfa darluniau brenin Holland. 3. Yr ardebau a baentiwyd yn Lloegr rhwng y blynyddoedd 1631 a 1641; y rhai ydynt yn hynod am eu teleidrwydd a'u dillynder: ond y mae llawer wedi eu gweithio braidd yn ysgeifn, neu wedi eu gwneyd mewn rhan gan gynnorthwywyr. Y maent oll yn ddyddorol ac yn hanesyddol, yn gymmaint a bod llawer o honynt yn ddarluniau o rai a chwareuasant ran bwysig mewn cyfnod oedd yn nodedig am ei ddigwyddiadau mawrion; ac fel gweithiau celfyddyd, gellir eu dal yn ymyl cynnyrchion yr ysgolion goreu.

VANE, SYR HENRY: Sais tra hynod fel gwleidyddwr, a mab i Syr Henry Vane. Ganwyd ef yn y fl. 1612. Yr oedd ei dad yn wladweinydd clodfawr yn nheyrnasiadau Iago I. a Siarl I., a chafodd amryw arwyddion o ffafrau y ddau; ond yn gymmaint ag iddo gymmeryd rhan yn erlyniad Arglwydd Strafford, symmudwyd ef o'i holl swyddau. Pan y cyfododd y senedd yn erbyn y brenin, arosodd Vane yn ammhleidiol; ac ymneillduodd i'w breswylfod yn Nghastell Raby, lle y bu farw yn 1654. Derbyniodd Vane, yr ieuangaf, gwrthddrych y cofiant hwn, ei addysg yn Ysgol Westminster, ac wedi hyny yn Ngholeg Magdalen, Rhydychain, lle yr ymddengys iddo fabwysiadu yr egwyddorion gwerinol. Cryfhaodd ei wrthwynebiad i reolau a dysgyblaeth Eglwys Loegr yn fawr mewn canlyniad i'w deithiau trwy Ffraingc a Switzerland; ac yn 1635, hwyliodd am Loegr Newydd, yn America, lle yr ymfudasai llawer oedd yn coleddu syniadau cyffelyb i'r eiddo ef o'r blaen. Etholwyd ef yn llywodraethwr Massachusetts; ond darfu i'w ogwyddiad at opiniynau Antinomaidd ei ysbeilio yn fuan o'i boblogrwydd—a dychwelodd yntau adref. Yna priododd gyda merch i Syr Christopher Wray, o Ashby, swydd Lincoln, a dechreuodd ar yrfa wleidyddol. Trwy ddylanwad ei dad, pennodwyd ef yn drysorydd i'r llynges gyda Syr William Russell, ac etholwyd ef yn aelod seneddol dros Kingston-upon-Hull, yn 1640; ond ymunodd bron yn ddioed gyda Pym, a'r blaid wrthwynebol i'r llys, a daeth yn un o'i harweinwyr mwyaf brwdfrydig a phenderfynol.

Pan dorodd y Rhyfel Cartrefol allan, nid oedd neb yn fwy amlwg yn helyntion duwinyddol, gwleidyddol, a milwraidd y dydd na Vane. Yr oedd yn un o'r rhai a aeth â'r erthyglau yn cynnwys y cyhuddgwyn (*impeachment*) yn erbyn yr archesgob Laud o flaen Tŷ yr Arglwyddi; yr oedd yn aelod o Gymmanfa Westminster; a chanddo law yn nygiad oddi amgylch y Cynghrair a'r Cyfammod Difrifol (*Solemn League and Covenant*), er nad oedd efe yn ffafriol i Henaduriaeth. Nid oedd yn teimlo yn foddhaol, fodd bynag, wrth sylwi ar allu cynnyddol Cromwell a'r fyddin. Ar sefydliad y Werin-lywodraeth, yn Chwefror, 1649, pennodwyd Vane yn aelod o Gynghor y Wladwriaeth; etto yr oedd ei adgasrwydd at Cromwell yn cryfhau, ac yr oedd y diweddaf yn gwybod hyny; ac wrth dori y senedd yn Ebrill, 1653, mynegir iddo ddyweyd, "Yr Arglwydd a'm gwaredo rhag Syr Henry Vane!" Yn 1656, efe a ysgrifenodd lyfr a elwir, "*A Healing Question propounded and resolved,*" yr hwn oedd mor elynol i amddiffyniaeth Cromwell fel y carcharwyd yr awdwr yn Nghastell Carisbrooke, yn Ynys Gwyth. Rhyddhawyd ef yn mhen pedwar mis; a gwnaed ceisiadau gan Cromwell i'w ennill ef drosodd, i'w bleidio; ond yr oedd penboethni Vane y fath fel nas gellid ei symmud; a thrwy ysbaid teyrnasiad Cromwell, a'i fab Richard, ymddangosai fel un anfoddog i'w sefyllfa. Ar ol ymyraeth ychydig mewn cynllwynion aflwyddiannus ar ol ymddiswyddiad Richard Cromwell, gorchymynodd y senedd iddo ymgadw yn ei drigfod yn Raby. A phan adferwyd Siarl II., yr oedd Vane yn un o'r ugain person a adawyd y tu allan i gylch "Deddf maddeuant ac ebargofiant;" ac yn mis Gorphenaf, 1660, cymmerwyd ef yn garcharor i'r Tŵr. Ar yr 2il o Fehefin, 1662, gosodwyd ef ar ei brawf o flaen uchel reithwyr Middlesex ar y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth: cafwyd ef yn euog ar y 6ed, ac ar y 14eg torwyd ei ben ar y Tower-hill. Gwnaed ei fab yn farchog gan Siarl II., a dyrchafwyd ef i'r bendefigaeth gan y brenin William III., o dan y teitl Arglwydd Barnard o Gastell Barnard.

VARRO, MARCUS TERENTIUS: grammadegwr, hanesydd, bardd, ac athronydd Rhufeinaidd; i'r hwn y darfu i'w ddysgeidiaeth eang ac amrywiol yn mhob dosbarth o lenyddiaeth yn mron ennill iddo yr enw o fod "y mwyaf dysgedig o'r Rhufeiniaid." Ganwyd ef C.C. 116, a derbyniodd ei addysg o dan arolygiaeth Ælius Stilo Præconinius; ac wedi hyny addysgwyd ef o dan Antiochus, un o athronyddion yr athrofa. Yr oedd Varro mewn swydd uchel yn y llynges yn amser y rhyfeloedd yn erbyn y môrladron a Mithridates; ac wedi hyny gwasanaethodd fel cenad Pompey yn Yspaen yn ystod y rhyfel cartrefol; ond gorfodwyd iddo ef a'i luoedd i ymostwng i Iulius Cæsar. Yna efe a aeth drosodd i dir Groeg, a bu yn gyfranog o helyntion plaid Pompey o hyny hyd ar ol

Digitized by Google

brwydr Pharsalia; pan y ceisiodd ac y cafodd faddeuant gan Cæsar. Ac efe a'i gosododd i arolygu, i gasglu, a threfnu y llyfrfa fawr a fwriedid i fod at wasanaeth y cyhoedd. Bu Varro am amryw flynyddoedd wedi hyny yn dilyn ei ymchwiliadau llenyddol mewn neillduaeth; a threuliodd ei amser yn benaf yn ei balas ei hun yn y wlad, ger llaw Cumæ a Tusculum, lle y bu yn astudio ac yn cyfansoddi. Ar ffurfiad yr ail dri-wyriaeth, ymddangosodd ei enw ar restr y rhai collfarnedig, ond llwyddodd i ddiangc; ac wedi bod yn guddiedig am beth amser, cafodd fod dan amddiffyniad Octavian. Treuliodd y gweddill o'i oes mewn tawelwch, gan lafurio yn ddyfal gyda'i hoff byngciau, er fod ei lyfrgell ardderchog wedi ei dinystrio:—colled anadferadwy iddo. Cymmerodd ei farwolaeth le c. c. 28, pan yr oedd efe yn 89ain mlwydd oed.

Yr oedd Varro nid yn unig y Rhufeinwr mwyaf dysgedig—ond efe a gyfansoddodd ac a ysgrifenodd fwyaf o'r holl Rufeiniaid. Y mae genym ei dystiolaeth ef ei hun, ei fod wedi cyfansoddi pedwar cant a deg a phedwar ugain o lyfrau; ond o'r rhai hyn, nid oes ond dau yn unig wedi dyfod i lawr i'n hamser ni, ac un o honynt mewn sefyllfa ammherffaith.

VATICAN, Y: Enw ar fryn yn Rhufain a elwid *Mons Vaticanus*. Am y palas a godwyd arno, ac sydd yn cael ei adnabod yn awr wrth yr enw hwn, prif breswylfod y pab o Rufain ydyw. Yno hefyd y mae yr amgueddfeydd, a'r casgliadau o weithiau celfyddydol, hen a diweddar, a'r llyfrgell fawr, y rhai ydynt yn mysg y pethau sydd yn tynu mwyaf o sylw yr ymwelwyr â dinas Rhufain. Yr oedd gan y pabau breswylfod yn y Vatican yn fuan ar ol i Cystenyn Fawr adferu heddwch i'r eglwys, a phreswylient yno yn awr ac eilwaith, bob yn ail â'r Lateran. Am amser maith, pa fodd bynag, yn y canol-oesoedd, ac yn enwedig y rhan olaf o honynt, ymddengys fod y Vatican wedi ei esgeuluso i raddau pell. Aeth yn breswylfod parhaus i'r pabau ar ddychweliad y pab o Avignon yn y fl. 1377. Y pab Nicholas v., yn y bymthegfed ganrif, a dynodd allan ac a ddechreuodd ar gynllun rheolaidd er gwellhau ac addurno y palas uchod; yr hwn sydd erbyn hyn wedi ei wneyd, a chymmeryd pob peth i ystyriaeth, yr ardderchocaf o'r holl balasau tywysogaidd y gellir eu henwi. Cariwyd allan yr un cynllun gan Alexander vi., Julius ii., ac yn enwedig gan Leo x.; ac ychydig iawn o'u holynwyr sydd wedi bod ar y sedd Babaidd na wnaethant ryw gymmaint tuag at helaethu ac addurno y Vatican. Er ei holl anhawsderau, arianol a gwleidyddol, y mae y pab presennol, Pius ix., wedi gwneuthur cryn waith, ac wedi dangos llawer o chwaeth wrth adgyweirio a gorphen y palas; ond un o'r pethau mwyaf nodedig a berthyn iddo ydyw y grisiau mawrion ar hyd pa rai yr eir iddo o golofnres St. Pedr. Dywedir fod yr holl adeilad, ynghyd â'r gerddi, a lleoedd ereill a berthynant iddo, yn gorchuddio arwynebedd o dir cyfartal i holl arwynebedd dinas Turin, fel yr oedd ddeng mlynedd ar hugain yn ol, gyda phoblogaeth o 130,000. Y mae y palas yn cynnwys tua saith mil o ystafelloedd o wahanol faintioli. Y mae rhai o'r ystafelloedd hyn, pa fodd bynag, yn hardd ddigymmhar — yn mysg y rhai y gellir nodi capel San Lorenzo, a'r capel Paulaidd, ac yn arbenigol capel y Sixtine, yr hwn sydd wedi ei addurno â darluniau o waith Michael Angelo; y Sala Regia, â'i orielau a'i neuaddau a addurnwyd gan Raphael, Guilio Romano, a'u hysgolorion; y llyfrgell ardderchog, yr hon, er fod ereill yn rhagori arni o ran rhifedi y cyfrolau a geir ynddynt, ond sydd heb un i'w chymmharu â hi yn un o ddinasoedd Ewrop, o ran ei maintioli, ei harddwch, a'i haddurniadau; yr orielau sydd yn cynnwys hynafiaethau Cristionogol a phaganaidd, y darluniau, y cerfluniau marmor a phres, y bathodau, y llestri, a phethau ereill o orchestion celfyddyd yr oesoedd. Y mae llawer o weithiau yn cynnwys darluniau costus wedi eu cyhoeddi yn desgrifio y palas ardderchog hwn, a'r pethau sydd ynddo, ac o'i amgylch.

VATTEL, EMERICK: ysgrifenydd tra adnabyddus ar gyfreithiau cenhedloedd. Ganwyd ef yn Couret, yn Neufchatel, ar y 25ain o Awst, 1714. Yr oedd ei dad, yr hwn oedd glerigwr Protestanaidd, wedi ei ddyrchafu i'r bendefigaeth gan frenin Prwssia, i'r hwn yr oedd efe yn ddeiliad. Astudiodd Vattel ar gyfer y weinidogaeth, ond darllenodd fwy ar ysgrifeniadau Leibnitz a Wolf nag ar weithiau y duwinyddion; ac yn hytrach na bod yn glerigwr gwledig, penderfynodd geisio gweithio ei ffordd yn mlaen yn llys Berlin fel llenor a gwleidyddwr. Cynygiodd ei wasanaeth i Frederick ii. yn 1741; ond nid oedd ar y pryd le gwâg iddo yn y gwasanaeth cyhoeddus. Tair blynedd yn ddiweddarach pennodwyd ef i swydd yn Dresden, gan etholydd Saxony; ac yn 1741, anfonwyd ef yn genhadwr i Berne. Yr oedd y swydd hon yn caniatau iddo gyflawnder o amser hamddenol i ymroddi i ymchwiliadau a gweithiau llenyddol. Cyhoeddodd, o dan wahanol enwau, draethodau yn y Ffrangcaeg ar amrywiol destynau; ond ei waith mawr, a gymmerodd ddeng mlynedd o'i amser, oedd ei "*Droit des Gens; ou Principes de la Loi Naturelle appliques à la Conduite et aux Affaires des Nations et des Souverains.*" Ni chynnwysa dim llawer oedd yn hollol newydd; ond gellir ei ystyried yn dalfyriad ac yn drefniad rhagorol o syniadau Grotius, Puffendorf, ac Wolf. Yr oedd Vattel yn meddu ar fedrusrwydd neillduol i drefnu ei ddefnyddiau, ac yr oedd ei arddull yn glir; ac felly daeth ei waith yn boblogaidd iawn yn fuan. Ar ol gorphen ei waith mawr, galwyd ef yn ol i Dresden, lle y priododd yn y fl. 1764 gyda Marianne de Chêne, a gwnaed ef yn aelod o'r cyfringynghor. Profodd dyledswyddau ei swydd newydd yn rhy galed iddo; a bu farw, mewn canlyniad i orlafur, ar yr 28ain o Ragfyr, 1767.

VAUBAN, SELASTIEN LE PRESTRE: peiriannydd milwraidd enwog. Ganwyd ef yn Saint Leger de Fougeret, yn nosbarth y Nievre, y 15fed o Fai, 1633. Cafodd ei adael yn amddifad o dad ac o fam, ac heb nemawr ddim at ei gynnaliaeth, pan yn blentyn; ac addysgwyd ef o dan arolygiaeth offeiriad Pabaidd y pentref. Gadawodd Saint Leger yn 1651, gan fyned ar ei draed i le cyfleus i ymuno â byddin Conde, yr hon a ddigwyddai fod ar y pryd ar dueddau Belgium; ac yn ystod dwy flynedd o wasanaeth milwrol, casglodd gryn lawer o wybodaeth am y drefn beiriannyddol oedd ar y pryd mewn arferiad. Cymmerwyd ef yn garcharor yn 1653, ac ymunodd â'r brenhinwyr; ac yn ystod yr ymdrechfa ddilynol, treuliodd y rhan fwyaf o'i amser gyda byddin Turenne, yr hwn a ymddir-

Digitized by Google

iedodd iddo brif lywyddiaeth y gweithrediadau gwarchauyddol; a darfu i'r cynnorthwy mawr a roddwyd i fyddin fechan y brenin trwy ddarostyngiad cyflym yr amddiffynfeydd oedd yn nwylaw y gelyn, ennill i Vauban y cymmeriad o fod y peiriannydd ieuangc mwyaf addawol yn ei oes. Ar derfyniad heddwch 1660, danfonwyd ef i ddistrywio amddiffynfeydd y gwrthryfelwyr yn Lorraine, ac i gymmeryd gofal Brisach; ond yn 1667, fe ymddangosodd eilwaith yn y gogledd, a chymmerodd y naill ar ol y llall o'r amddiffynfeydd cedyrn oedd ar derfynau Belgium. Tua'r pryd hwn yr ennillodd Vauban, trwy ei athrylith, ei gywirdeb, ei brydlondeb, a'i liaws rhagoriaethau ereill, sylw a chymmeradwyaeth y gwladweinydd Louvois; a thrwy ei ffafr ef, yn gystal a theilyngdod ei gynlluniau ei hun, y dyrchafwyd ef i gyflawni y gorchwyl pwysig o gadarnhau yr amddiffynfeydd Ffleminguidd a syrthiasent yn feddiant i Ffraingc. Cyflawnwyd y gwaith hwn yn 1672; a phan yr ail ddechreuodd y rhyfel â Holland, cymmerodd Vauban ei hen le fel cyfarwyddwr y gweithrediadau gwarchauyddol; ac am y tro cyntaf yn ngorllewinbarth Ewrop, efe a ddygodd i mewn y cynllun o ffurfio llinellau dyblyg (*parallels*)—a fenthyciodd oddi ar y Tyrciaid—wrth warchau ar Maestricht yn 1673, a hyny gyda'r fath lwyddiant fel y cymmerwyd y gaerfa gref hono mewn tri diwrnod ar ddeg. Wedi tynu allan gynllun y gwarchauad ar Treves, a rhagddywedyd gyda chywirdeb neillduol yr amser y byddai raid iddi syrthio—efe a ymosododd ar y gwaith o gadarnhau yr amddiffynfeydd yn yr Iseldiroedd; ac yn niwedd y flwyddyn 1674, cymmerodd dref ac amddiffynfa Oudenarde, lle y bu William o Orange yn gwarchau yn ofer arno.

Yn 1675, dechreuodd Vauban gyfnod newydd mewn cadofyddiaeth beiriannyddol trwy lwyddo i sefydlu corph newydd o beiriannwyr. Yn 1676, gwarchauodd ar Valenciennes a Cambrai; a chymmerodd y lle diweddaf trwy ruthr ganol dydd, yn erbyn barn gyffredinol holl gadfridogion y fyddin: a dwy flynedd yn ddiweddarach, gwobrwywyd ei wasanaeth gwerthfawr a maith trwy ei bennodi yn gyfarwyddwr cyffredinol y caerfaoedd. Yr oedd y swydd hon yn ei wneyd yn brif lywodraethwr peiriannyddiaeth filwrol; ac yn y deng mlynedd a ddilynodd yr heddwch a wnaed yn 1678, y cyflawnodd Vauban, fe allai, ei wasanaeth penaf i Ffraingc, trwy amgylchu y deyrnas â chadwen o gaerfaoedd, wedi eu cymmhwyso naill ai i amddiffyn y wlad, neu ynte er gwneyd ymosodiad o honynt ar leoedd gweiniaid mewn gwledydd cymmydogaethol. Yn ystod yr amser hwn y cymmerodd efe amddiffynfa gadarn Luxembourg, ac y cynlluniodd ac y gwnaeth, mewn rhan, y bont (*aqueduct*) ardderchog, dros yr hon y mae dyfroedd yr Eure yn cael eu cludo i Versailles.

Torodd rhyfel allan drachefn yn 1688, a dygodd Vauban yn mlaen y gwarchauadau ar Philipsburg, Mannheim, a Frankenthal, Mons, a Namur, gyda'r llwyddiant hwnw a arferai ddilyn ei ymdrechiadau. Ar ol y cyfnod hwn, ni cheir Vauban yn amlwg iawn fel rhyfelwr; canys y gwarchauadau ar Charleroi yn 1693, a Breisach yn 1704, a gwneuthuriad y wersyllfa amddiffynedig ger Dunkirk, oedd yr unig orchwylion peiriannyddol o bwys a gyflawnodd efe yn y pedair blynedd ar ddeg olaf o'i oes. Ar ol heddwch Ryswick yn 1697, cymmerodd o dan ei ystyriaeth y diffygion, a'r pethau oedd o'u lle yn llywodraethiad cartrefol Ffraingc; a thrwy ei lafur a'i sêl casglodd ynghyd lawer o wybodaeth ar amrywiol byngciau, a chyhoeddodd lyfr o dan yr enw "*Oisivetés de M. de Vauban;*" yn yr hwn y cymmhellai ar fod ystadegau o'r boblogaeth, masnach, ac amaethyddiaeth i gael eu parotoi; bod y fyddin i'w chyflenwi trwy ymrestriadau gwirfoddol; ac awgrymiadau gwerthfawr i wellhau y tir drwy ei sychu, &c. Un arall o'i weithiau a wnaeth argraph ddwfn pan gyhoeddwyd ef oedd ei "*Dime Royale,*" yn yr hwn yr ymdriniai â'r cwestiwn o drethiad, ac y rhag-gysgodai mewn modd tarawiadol y syniadau, y rhai, yn mhen llai na chan mlynedd, a ddychwelodd y frenhiniaeth yn Ffraingc. Nis gallesid disgwyl i egwyddorion oedd yn cael eu cymmeradwyo gan ddyn o gymmeriad uchel, a chywirdeb dwfn, a doethineb ymarferol Vauban, fod yn dderbyniol iawn gan y brenin a'r llys—ymddygiadau pa rai a gondemnid fwyaf, ac ar y rhai y gweinyddent y cerydd llymaf. Nid ydys gan hyny yn rhyfeddu, fel y dywed Saint Simon, "i'r cadlywydd Vauban gael ei dderbyn gyda'r oerfelgarwch mwyaf pan yr ymddangosodd yn y llys; ac i'w lyfr, yn ol penderfyniad y daethpwyd iddo, gael ei attafaelu a lluddias ei werthiant ar y 14eg o Chwefror, 1707. Ni bu Vauban byw ond ychydig o amser wedi hyn:—bu farw yn Paris, Mawrth 30ain, 1707. Cyfrifa Fontenelle iddo adeiladu tair ar ddeg ar hugain o gaerfaoedd newyddion, adgyweirio tri chant o hen rai; a llywyddu mewn tair ar ddeg a deugain o warchauadau; a bu yn bresennol mewn saith ugain o frwydrau, bach a mawr. Iddo ef nid oedd darostwng amddiffynfa ond yn unig cwestiwn o amser a phylor. Y mae ei amrywiol weithiau peiriannyddol, ymosodiadol ac amddiffynol, wedi eu casglu ynghyd, o dan yr enw "*Œuvres Militaires;*" ac heb law y gweithiau a enwyd, ysgrifenodd amryw o draethodau ereill mewn cyssylltiad â pheiriannaeth filwraidd.

VAUGHAN, ROBERT: hynafiaethydd enwog, a mab hynaf i Howel Vaughan, Ysw., o Hengwrt, a Margaret ei wraig. Yr oedd mam gwrthddrych yr erthygl hon yn ŵyres i'r Barwn Owen, yr hwn a lofruddiwyd gan Wylliaid Cochion Mawddwy. Yn Hengwrt, ger llaw Dolgellau, y ganwyd ef, yn y flwyddyn 1592. Yn Gwengraig y bu ei hynafiaid ef yn trigiannu am lawer o genedlaethau; ond ar yr achlysur o briodas ei daid âg aeres yr Hengwrt, efe a symmudodd ei breswylfod i'r palas hwnw. Ond hen gartref y teulu oedd Nannau; ac oddi yno yr aeth Hywel Fychan, yr hwn oedd y chweched mewn disgyniad o Cadwgan o Nannau, ail fab Bleddyn ab Cynfyn, brenin Cymru, i breswylio i Gwengraig. Trwy i Robert Vaughan briodi gyda Catherine, merch Gruffydd Nannau, Ysw., yr unwyd y ddwy gaingc yn un teulu drachefn. Aeth Robert Vaughan i brif ysgol Rhydychain yn 1612, ac ymddengys iddo fyned trwy y cwrs cyffredin o efrydiau; ond dychwelodd adref i Hengwrt heb gymmeryd un gradd. Ei hoff efrydiaeth oedd hynafiaethau; ac wedi ymsefydlu yn ei gartref, gan ei fod yn berchen eiddo, a phob manteision angenrheidiol, ymroddodd i astudio hanes a hynafiaethau ei wlad, nes dyfod yn awdurdod uchel yn y pethau hyn. Cadwai i fyny ohebiaeth helaeth gyda'r archesgob Usher, Syr S. E. Ewes, a Selden, ac enwogion ereill. Ni bu ei ysgrifell alluog yn ddigynnyrch; ond yr unig waith o'i eiddo a gyhoedd-

Digitized by Google

a chwech a deugain o raniadau gan gamlesydd llai. Ystyrir hwynt fel ystrydoedd y ddinas ar hyd pa rai y mae teithwyr a'r trigolion yn cael eu trosglwyddo i unrhyw gŵr o'r dref. Y gamlas ydyw yr heol, a'r cwch a elwir *gondola* ydyw y cerbyd a ddefnyddir yno. Gellir myned i bob rhan o'r dref hefyd trwy groesi y camlesydd dros bontydd, ac ar hyd eu glenydd trwy rodleoedd culion, a elwir *calli*. Y mae yn y ddinas 306 o bontydd cyhoeddus; ac o'r rhai hyn, y mae tair dros y gamlas fawr; sef y Rialto, adeilad o geryg, a'r enwocaf; a dwy o haiarn.

Y Piazza, neu ysgwâr St. Marc, ydyw canolbwynt mawr masnach y ddinas, a'r lle hwn y mae ymwelwyr yn ei fynychu fwyaf yn Venice. Y mae yn 576 o droedfeddi o hyd, a 269 o droedfeddi o led yn ei fan lletaf. Ar du y dwyrain i'r ysgwâr hon y mae eglwys St. Marc. Adeiladwyd yr eglwys gyntaf ar y safle hwn yn y fl. 813, ond dinystriwyd hi trwy dân yn y fl. 976. Ail adeiladwyd hi yn 1071, ac agorwyd hi tua diwedd yr unfed ganrif ar ddeg, a gwnaed chwanegiadau ati yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac adnewyddwyd hi yn yr eilfed ar bymtheg. Cymmysg ydyw o ran ei harddull archadeiladol o'r Byzantiaidd a Gothaidd. Gwnaed hi yn eglwys gadeiriol yn 1807. O ran cynllun, y mae St. Marc ar ffurf croes. Y mae y gwaith cerfiedig sydd arni yn ardderchog; a'r adeilad agos a bod yn berffaith fel esampl o archadeiladaeth lliwiedig y dwyrain. Y mae yr adeilad wedi ei chyfodi o briddfeini, wedi eu hamgau â marmor lliwiedig o'r lliwiau prydferthaf. I'r deheu oddi wrth yr adeilad hon, y mae adeilad hardd y *Torre dell Orologio*, a adeiladwyd yn 1494; ac y mae yn yr ysgwâr amryw o adeiladau gwychion ereill. Tua'r deheu oddi yno, y mae y Piazzetta, neu yr ysgwâr fechan. Ac yn agos i gongl yr ysgwâr fawr, y mae y Campanile, neu Dŵr y Gloch, perthynol i St. Marc, sydd wedi ei adeiladu ryw gymmaint o flaen yr adeilad y perthyna iddo. Dechreuwyd ef yn 902, ond ni chwblhawyd ef hyd 1510. Y mae yn 323 o droedfeddi o uchder, yn 42 o led yn y sylfaen; ac y mae ar ei ben uchaf lun angel, yr hwn a wasanaetha i amlygu i ba gyfeiriad y bydd y gwynt yn chwythu; ac y mae y cerflun hwn; meddir, yn ddeg troedfedd ar hugain o uchder. Ar du gorllewinol y Piazzetta y mae yr hen lyfrgell a'r bathdy. Ar yr ochr ogleddol y mae dwy golofn enwog o ithfaen coch Venice; ar un o honynt ceir cerflun o St. Theodore, ac ar y llall ben St. Marc. Ar du y dwyrain y saif palas y Doge. Adeiladwyd y palas cyntaf ar y llanerch lle y mae yr un presennol yn 813; ac er ei fod wedi ei helaethu yn fynych, ei ail adeiladu, a'i addurno, cadwodd ei nodwedd Byzantiaidd am ganrifoedd. Ond yn 1301, dechreuodd ei nodwedd archadeiladol newid; ac o'r pryd hwnw hyd 1423, yr oedd yr adeiladu a'r helaethu a fu arno yn yr arddull Gothaidd. Ar ol y flwyddyn 1423, nid oes yn y ddinas adeiladau yn yr arddull Venetiaidd briodol; ac yr oedd y cyfnewidiadau a wnaed yn y palas ducaidd, yn gystal a'r palasau a adeiladwyd wedi hyny, yn israddol mewn arddull a gwaith i'r hyn oeddynt cyn hyny. Pan yn cyfeirio oddi wrth St. Marc tua'r gorllewin, yr ydys yn myned heibio nifer mawr o balasau. Mewn amseroedd gynt, yr oedd y palasau hyn, neu yr adeiladau ardderchog a safent ar y manau lle y maent hwy, yn fasnachdai neu yn ystordai i'r marsiandwyr mawr tywysogaidd—palasau y rhai, gan mwyaf, oedd y pryd hwnw yn amgylchoedd y dref; hyny yw, ar ryw ynys gyfagos, mewn lle mwy anghyhoedd na'r ddinas ei hun. Y mae pont y Rialto, sydd yn croesi y camlas mawr, yn gynnwysedig o un bŵa, rhychwant yr hwn sydd yn 91ain troedfedd, a'i uchder o'r dwfr yn 24½ o droedfeddi. Ei lled ydyw 72ain o droedfeddi, ac y mae wedi ei rhanu yn dair heol—y ganol yn 21ain o droedfeddi o led—ac arni ddwy res o fasnachdai. Y mae eglwysydd Venice, fel rheol, yn adeiladau gwychion, ac yn amrywio o ran eu harddull:—rhai yn yr arddull Gothaidd-Venetiaidd; ereill yn yr arddull Lombardaidd; a'r gweddill, naill ai yn yr arddull Italaidd neu yr Italaidd addurniadol. Yn mysg y rhai enwocaf, yn nesaf at St. Marc, gellir enwi y *Frari*, yn yr hon y mae cofadail anferth ei maint i Titian yr arlunydd, ac amryw o ddarluniau rhagorol, &c.; ac eglwys St. Giacomo di Rialto, yn ymyl y bont sydd o'r un enw, yr hon a saif ar y llanerch lle yr adeiladwyd yr eglwys gyntaf yn Venice, B.A. 421. Ond o'r eglwysydd lliosog sydd yno, y mae cryn nifer o honynt wedi eu hadeiladu mewn arddull israddol. Y mae athrofa y celfyddydau cain yn hen fynachdy y *La Carita*, yr hon a ffurfiwyd gan Napoleon yn 1807, yn cynnwys darluniau perthynol i wahanol ysgolion; ac y mae ynddi gasgliad rhagorol o ddarluniau o'r ysgol Venetiaidd—o weithiau Titian, Tintoretto, Bonifacio, Giovanni Bellini, Paulo Veronese, a llawer o feistriaid ereill. Y mae gweithiau yr arlunwyr enwog hyn hefyd i'w cael yn llawer o balasau ac eglwysydd y ddinas. Ceir dwfr yn awr o ffynnonau dyfnion a wnaed o dan arolygiaeth, ac ar draul y cynghor trefol yn 1847. Cynnwysa llyfrfa St. Marc 120,000 o gyfrolau, a 10,000 o lawysgrifau. Y mae yn rhaid addef fod masnach Venice yn gwaelu er's blynyddoedd bellach. Ei phoblogaeth ydyw tua 120,000.

Cyn i'r Rhufeiniaid orchfygu y wlad, nid oes dim braidd yn wybyddus o hanes Venetia: ond pan gymmerodd hyny le, gwyddys fod yr ardal hon yn cael ei phreswylio gan ddwy genedl, sef y Veneti a'r Carni. Y mae dechreuad a chysylltiad y bobl hyn yn anhysbys; a'r oll o'r bron a wyddom am danynt yw, eu bod yn gyfundeb masnachol yn hytrach na milwrol, ac yn arfer masnachu mewn gwefr (*amber*), yr hwn a brynid ganddynt ar lenydd y Baltic, ac a werthid i farsiandwyr Phœnicia a Groeg. Daeth y dalaeth yn flodeuog a llwyddiannus o dan lywodraeth y Rhufeiniaid; ac heb law ei phrif ddinas, Aquileia, yr hon a ddaeth yn un o ddinasoedd mwyaf llwyddiannus Italy, yr oedd Patavium (Padua), a Verona, a nifer ereill o ddinasoedd pwysig yn perthyn iddi. Ond cyn dinystrio yr ymherodraeth, ysgubwyd ymaith lwyddiant boreuol y dalaeth hon gan yr Huniaid o dan arweiniad Attila, yr hwn a ddinystriodd Aquileia hyd ei sylfeini, ac a anrheithiodd ddinasoedd ereill. Ymofynodd llawer o breswylwyr y dinasoedd am nawdd yn y môrlynoedd morfâog; ac yr oeddynt mewn sefyllfa mor druenus fel nad oedd yn werth i'r gorchfygwyr braidd ymosod arnynt. Y prif ynysoedd ar ba rai y safai yr hen Venice oeddynt, Grado Bibione, Caorlo, Heraclia, Equilo, Torcello, Murano, Rialto, Malamocco, Pelestrina, Brondolo, a San Nicolo, &c. Ar y Rialto a'r Malamocco, yr ymsefydlodd yr ymnoddwyr o Padua. Rhoddwyd enw y dalaeth a adawsant ar y cyntaf ar y swp o ynysoedd oedd yn y môrlyn—ond yr oedd y sefydliad newydd hwn yn cael ei adnabod wrth yr

Digitized by Google

enw Venezia, neu Venice, mor gynnar a'r wythfed ganrif o leiaf. Gan eu bod yn cael amddiffyniad oddi wrth sefyllfa hynod yr ynysoedd yn y rhai y cymmerasant noddfa, ymroddodd yr ymsefydlwyr cyntaf i wneuthur y goreu a allent o'r sefyllfa yr oeddynt ynddi. Dechreuwyd adeiladu tai ar y Rialto; a phan, yn 568, yr ysbeiliwyd Padua gan y Lombardiaid, ymfudodd llawer o'i phreswylwyr i'r drefedigaeth yr oedd eu hynafiaid wedi bod yn gynnorthwyol i'w sylfaenu. Y ffurflywodraeth gyntaf a fabwysiadwyd gan breswylwyr yr ynysoedd oedd gweriniaeth, yn cael ei gweinyddu gan dri chonsul; ond yn 457, cymmerwyd lle y consuliaid gan dribuniaid, a etholid yn flynyddol. Yr oeddynt yn amrywio mewn rhifedi ar wahanol adegau o un i ddeuddeg; a chanddynt hwy y gweinyddwyd y llywodraeth am ddau cant o flynyddoedd. Ond yn ystod y cyfnod hwn, er fod y weriniaeth ieuangc yn cynnyddu mewn cyfoeth a phoblogaeth, ychydig a fu ei chynnydd mewn pwysigrwydd gwleidyddol. Yr oedd cymdeithas yn ymranedig yno—yr hyn a achlysurid gan uchelgais y gwahanol dribuniaid; ac nid oedd eu cael i ymuno mewn rhyfel yn erbyn gelyn cyffredin yn beth possibl yn mron. Gyda'r amcan o wellhau llawer o bethau anghysurus a berthynent i'r llywodraeth, cyflwynodd Cristofero, patriarch Grado, yn B. A. 697, i'r Arengo—cydgyfarfyddiad cyfnodol o'r holl feibion—gynllun o ffurflywodraeth, yn yr hwn y cynnygiai efe ar fod i'r tribuniaid roddi heibio y gallu a'r awdurdod uchaf; a bod i ynad, gyda'r teitl o Dduc, neu Doge, gael ei wisgo â'r prif awdurdod mewn pethau gwladol, eglwysig, a milwrol. Derbyniwyd y cynnygiad yn galonog, a syrthiodd y dewisiad i'r swydd ar Paulo Luca Anafesto; yr hwn a arwisgwyd gan y patriarch âg arwyddion ei swydd, sef coron aur a theyrnwialen o ifori, yn mis Mawrth, 697. Gweinyddodd Anafesto y swydd hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le yn 717, a gwellhaodd sefyllfa y weriniaeth yn fawr o dan ei lywodraeth. Tawelwyd y cynnhyrfiadau gwladol i raddau mawr, a chwanegwyd at y tiriogaethau Venetiaidd trwy gael cyfran o'r tir oedd ar lan y môr—yr hwn a gafwyd trwy gyttundeb â brenin y Lombardiaid.

O dan Orso, sef y trydydd Doge (720—737), y dechreuodd y Venetiaid ar yr yrfa anturiaethus hono, yn yr hon yr ymddengys eu synwyr a'u dewrder yr un mor amlwg a'u gilydd, a ddilynwyd ganddynt am dymmor mor faith. Yn 735, cymmerwyd Ravenna gan y Lombardiaid, a gorfodasant y pen-swyddog i wneyd ei noddfa yn y môrlyn—yr hwn a ddeisyfodd am i'r weriniaeth ei gynnorthwyo i adfeddiannu y diriogaeth a gollodd. Gan eu bod yn ystyried eu hunain mewn enw yn ddeiliaid i'r ymherawdwr dwyreiniol, heb law eu bod yn awyddus am wneuthur cynghrair gyda Chaer Cystenyn, er mwyn buddiannau eu masnach, a chael y môr yn rhydd i ymgyfathrachu â'r ymherodraeth ddwyreiniol, hwy a gynnorthwyasant i adsefydlu y rhaglaw yn ei swydd a'i awdurdod. Gwobrwywyd gwasanaeth y Doge y tro hwn gan y llys Byzantiaidd â'r teitl o 'Hypatos,' neu gonsul ymherodrol. Y gospedigaeth a weinyddai y Venetiaid ar ormes oedd tynu y llygaid; ond nid oedd teyrnasiadau amryw o'r prif swyddogion y pryd hwn yn Venice ond adegau o ormes ac annhegwch ar ran y llywodraethwyr, a derfynent yn aml yn eu halltudiaeth neu eu llofruddiad gan y bobl. Yn ol ammodau cyttundeb a wnaed rhwng Charlemagne âg ymherawdwr y dwyrain, yn 803, yr oedd trefydd oedd ar lanau y moroedd yn Istria a Dalmatia i'w hystyried yn rhanau arbenig o'r ymherodraeth ddwyreiniol. Cadwyd y cyttundeb hwn hyd 808, pan y darfu i wladlywiaeth ymosodol Charlemagne, a'i fab, Pepin, yr hwn oedd yn frenin ar Italy, beri i Nicephorus, ymherawdwr y dwyrain, ddanfon ysgwadron o longau i'r Môr Adriataidd, a deisyf ar y Venetiaid i ymuno âg ef mewn cynghrair: ac yn gymmaint a bod y Venetiaid yn gweled ei fod yn llawer mwy o fantais iddynt i ennill ffafr llys Caer Cystenyn—yr allwedd i'r dwyrain—na phleidgarwch Charlemagne, cadarnhawyd cyttundeb rhyngddynt yn fuan. Torodd rhyfel allan yn ddioed; a goresgynwyd Venetia gan y brenin Pepin, yr hwn a gymmerodd amryw o'r ynysoedd heb gyfarfod âg un gwrthwynebiad—o herwydd yr oedd y preswylwyr oll wedi myned i ynys Rialto. Aeth y Ffrangciaid i ynys Albiola; ond er eu dychryn, deallasant fod y llanw wedi myned ymaith, a'u llestri yn suddo yn y traeth twyllodrus. Yna syrthiodd yr holl ysgwadron yn ysglyfaeth i ysgeifn-longau cyflym y Venetiaid; a'r rhai a ddiangasant o'r gelynion rhag boddi, rhoddwyd hwynt i farwolaeth gan yr ynyswyr dialgar. Cymmerodd hyn le yn 809. Dygwyd yr ymdrechfa hon, a elwir Brwydr Albiola, yn mlaen ar ran y weriniaeth gan Angelo Badoer, tribun ynys Rialto, yr hwn a ddyrchafwyd i'r anrhydedd o Doge, ac a drosglwyddodd eisteddle y llywodraeth i Rialto. Yr oedd ynys Heraclia, ac ereill, wedi mwynhau yr anrhydedd hono yn flaenorol i hyny. Yn ei deyrnasiad ef hefyd y sefydlwyd cyssylltiadau rhwng Rialto a'r ynysoedd ereill cylchynol, trwy gyfrwng pontydd coed; a rhoddwyd yr enw Venezia (Venice) ar y swp ynysoedd hyn. Y mae y flwyddyn 829 yn gofiadwy fel yr hon, yn ol traddodiad, y dygwyd gweddillion St. Marc o Alexandria i Venice; a pha olwg bynag a gymmerir ar y chwedl hon, nis gellir gwadu na ddarfu i'r grediniaeth ynddi gan y Venetiaid, ac ereill, dynu minteioedd o bererinion i Rialto, ac yn y modd hwn chwanegwyd at fasnach ac enwogrwydd y porthladd. Yna mabwysiadodd y Venetiaid St. Marc fel eu sant-noddwr; a'u rhyfel-floedd oedd "Byw fyddo Sant Marc!"—yr hyn a daniai eu dewrder ar dir a môr. Nid ydyw hanes Venice wedi ei nodweddu gan unrhyw ddigwyddiad o hynodrwydd arbenig am lawer o flynyddoedd ar ol hyn; ond yr oedd pwysigrwydd y weriniaeth fel gallu morawl, a'i masnach, ei chyfoeth, a'i choethder yn chwanegu o flwyddyn i flwyddyn.

Darfu i'r Doge Orseolo II. (981—1008) eangu masnach y weriniaeth, trwy sefydlu perthynasau masnachol rhyngddi hi ag ymherodraethau y dwyrain a'r gorllewin; sef y Crimea, Syria, yr Aipht, Tartary, Tunis, &c. Ac o dan ei lywodraethiad ef, eangwyd llawer ar diriogaethau Venice ar y Cyfandir, ac hefyd ar ororau Istria a Dalmatia. Yn 1085, trosglwyddwyd talaethiau Dalmatia a Croatia yn ffurfiol i Venice gan ymherawdwr y dwyrain; ac ar yr un pryd, darfu i'r ymherawdwr ryddhau masnachwyr y Venetiaid, yn holl ranau yr ymherodraeth, oddi gerth yn Cyprus, Candia, a Megalopolis, oddi wrth dreth a theyrnged. Yn 1099, anfonodd Venice lynges o ddau cant o lestri, bach a mawr, i noddi Godfrey de Bouillon, a'i gymdeithion yn y groesgad gyntaf. Gorchfygiad llynges

Digitized by Google

elynol o Pisa, a ddefnyddid gan yr ymherawdwr dwyreiniol, Alexius Comnenus, a chymmeriad ugain o'r llestri, a dygiad corph St. Nicholas o ynys Myra, oedd y prif ddigwyddiadau a gymmerasant le ynglŷn â'r ymgyrchrhwn. Y mae yn deilwng o sylw, pa fodd bynag, pan yr oedd y Venetiaid yn ymuno â'r croesgadwyr, eu bod yn cadw mewn golwg yn arbenig helaethiad eu perthynasau masnachol, yn fwy na diogeliad y bedd sanctaidd yn feddiant i'r Cristionogion. Bu i'r tânau mawr a ddigwyddasant yn 1106—heb law dinystrio ynys-ddinas Malamocco, losgi deg ar hugain o eglwysydd, a lliaws mawr o dai yn Venice—yn achlysur anuniongyrchol i beri gwelliant mawr yn archadeiladaeth y ddinas; o blegid cyn hyn yr oedd y tai yn mron i gyd wedi eu hadeiladu o goed; ond ar ol hyn, eu defnyddiau oeddynt yn wastad naill ai ceryg ai marmor, wedi eu dwyn o Italy, Istria, neu Dalmatia. Yn 1111, anfonodd y Doge Faliero gant o longau allan i gynnorthwyo Baldwin I., olynydd Godfrey de Bouillon, i orchfygu y porthladdoedd Syriaidd hyny oedd yn parhau yn nwylaw y Mahometiaid; ac am y cynnorthwy hwn caniatawyd i'r Venetiaid amryw o fanteision masnachol. Yn 1123, danfonwyd y llynges i noddi y Cristionogion yn Mhalestina, yr hon a lywyddid gan y Doge Michieli, yr hwn a'i enwogodd ei hun trwy ennill goruchafiaeth ar lynges yr Aipht, a chymmeryd deg o longau y Tyrciaid, yn y rhai yr oedd llawer o drysorau. Yr un flwyddyn, darfu i'r Venetiaid a Christionogion Palestina ddarostwng dinas gadarn Tyrus, ar ol ei gwarchau am fwy na phedwar mis. Yn 1122, cyhoeddodd Johannes Comnenus, yr ymherawdwr dwyreiniol, ddadganiad yn gorchymyn i breswylwyr Venetiaidd Caer Cystenyn, a phorthladdoedd Groegaidd ereill, i ymadael o diriogaethau yr ymherodraeth, gan hysbysu fod pob cyfathrach rhwng y ddau allu i derfynu. Canfyddai yr ynyswyr fod y gangen fwyaf ennillfawr o'u marsiandïaeth yn cael ei dinystrio drwy hyn; a phenderfynasant dalu y pwyth. Yna hwy a anfonasant allan lynges yn 1123; a'r flwyddyn hono, a'r un ganlynol, gwnaethant niwed dirfawr i'r ymherodraeth. Cymmerasant Rhodes, a gwarchauasant a darostyngasant Andros, Samos, a'r holl ynysoedd Ioniaidd, a rhan o'r Peloponnesus, &c. Ac ni therfynwyd yr ymgyrch llwyddiannus hwn nes y darostyngwyd y Dalmatiaid, y rhai oeddynt wedi codi mewn gwrthryfel yn eu herbyn.

Yr oedd y Venetiaid yn aelodau o gynghrair Lombardy yn erbyn ymherawdwr yr Almaen; ac yn 1177, ennillasant fuddugoliaeth forawl ysblenydd ar y Ghibelliniaid, y rhai a arweinid gan Otho, mab Frederick Barbarossa, mewn amddiffyniad i'r pab Alexander III., yr hwn a appeliasai am nawdd y weriniaeth. Amlygodd y pab ei ddiolchgarwch trwy gyflwyno i'r Doge Ziani fodrwy, â'r hon y gorchymynodd iddo briodi yr Adriatic, fel y byddai i'r oesoedd dilynol ddeall fod y môr yn ddarostyngedig i Venice, "fel gwraig i'w gŵr;" a mynegir mai yn y flwyddyn uchod y cyflawnwyd seremoni rwysgfawr y briodas am y tro cyntaf. Un o ganlyniadau brwydr Saboro oedd i Frederick gyttuno i alw ynghyd gynnadledd, yr hon a gymmerodd le yn Venice yn 1177. Ar yr achlysur hwn ymgynnullodd y pab, y Doge, ac urddasolion ereill yn mhalas St. Marc. Yna aeth Frederick at yr orsedd ar yr hon yr eisteddai y pab Alexander III., ac a ymostyngodd ger ei fron; a goddefodd i'r pab osod ei droed ar ei wddf! Adferwyd drwy y gynnadledd hon heddwch rhwng yr ymherodraeth a Lombardy a Sicily. Bu farw y Doge Ziani yn 1178. Gwnaeth ef yn ei ddydd lawer i wellhau adeiladau y ddinas—yn enwedig ysgwâr St. Marc.

Yn mis Hydref, 1202, aeth yr ymgyrch a adwaenir wrth yr enw y Pedwerydd Croesgad allan o Venice, mewn llestri Venetiaidd, dan lywyddiaeth y Doge Arrigo Dandolo. Ni ddarfu iddi, pa fodd bynag, gyrhaedd Palestina; ond cyfeiriodd ei nerth yn erbyn yr ymherodraeth Byzantiaidd, yr hon a syrthiodd o dan ymosodiadau yr ymgyrch hwn yn Ebrill, 1204. Pan ranwyd yr ysbail, cafodd Venice y Morea, yr ynysoedd Illyricaidd, rhan fawr o Thessaly, dinasoedd Adrianople, Trajanople, Dedymotichos, a Durazzo, talaeth Servia, a gororau yr Hellespont. Neillduwyd y bedwaredd ran o ddinas Caer Cystenyn i fod yn gyfran i'r Venetiaid breswylio ynddo, o dan amddiffyniad eu cyfreithiau eu hunain; a diddymwyd pob attalfeydd ar fasnach. Yr oedd Venice yn awr yn meddiannu parthau gorllewinol mwyaf dymunol yr ymherodraeth, heb law ei bod yn feistres ar y môr, fel y buasai am amser maith yn flaenorol i hyn. Fel y cynnyddai mewn gallu, cynnyddai hefyd mewn ardderchawgrwydd; ac yr oedd ei phendefigion, gan nad oedd ganddynt diroedd ar y rhai y gallent wario eu cyfoeth, yn gwastraffu symiau dirfawr ar eu palasau, eu darluniau, eu haddurniadau, a'u gwisgoedd costfawr. Addurnwyd eu palasau â thrysorau ac ysbail y dwyrain: cododd ysgol o arlunwyr, a gawsant destynau i ymarfer eu pwynteli arnynt yn y gweithredoedd arwrol a gyflawnid gan Faliero, Polani, Ziani, a'r Dandoli. Ei phendefigion hi erbyn hyn oedd y rhai cyfoethocaf yn Ewrop, a hwynthwy hefyd a ystyrid y rhai mwyaf coethedig. Y digwyddiadau pwysicaf yn hanes Venice yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg oedd —ei rhyfeloedd gyda Genoa, pan y bu yn fwy aflwyddiannus nag yr arferai fod; o herwydd yn mrwydr fawr Corzuola, collodd y Venetiaid bedwar ugain a phedair allan o bedwar ugain ac un ar bymtheg o longau, drwy iddynt gael eu cymmeryd, neu eu rhoi ar dân gan y gelynion: —y cynghrair rhwng Venice a Palæologus, ymherawdwr y dwyrain, yn 1268:—a'r diwygiadau etholiadol trwy ba rai yr etholid trwy goelbren un a deugain o aelodau i'r coleg etholiadol; ac yr oedd yn angenrheidiol i'r Doge gael pump ar hugain o bleidleisiau yr aelodau hyny cyn yr etholid ef i'w swydd. Yn 1289, sefydlwyd y Chwilys yn ffurfiol yn Venice; ond gwnaed y sefydliad yn ddarostyngedig i delerau mor gyfyng gan lywodraeth y weriniaeth, fel yr oedd i raddau pell yn gymmharol ddiniwed. Ffurfiwyd cynghrair dirgelaidd i symmud ymaith yr anghyfiawnder oedd wedi ymlusgo i mewn i'r cyfansoddiad, ac i gospi troseddwyr. Yn mysg y cynghreirwyr hyn yr oedd aelodau o lawer o'r teuluoedd mwyaf pendefigaidd yn Venice. Er na phrofodd y cynghrair yn llwyddiannus, bu yn achlysur i'r cynghor o ddeg gael ei ffurfio—y rhai a ddadganasant eu hunain yn gynghor parhaol yn 1335.

Yn y flwyddyn 1343, y ganwyd Andrea Dandolo, yr hwn oedd ysgolhaig a gwladweinydd enwog, ac a etholwyd yn Doge. Y mae ei "*Venetian Annals*" yn hynod am eu cywirdeb a'u manylrwydd, ac yn rhoddi iddo hawl i gael ei ystyried yn y radd flaenaf yn mysg haneswyr

Digitized by Google

yr oesoedd canol. Yn 1348, teimlwyd daeargryn yn y môrlyn, ac yr oedd y llanw ar y pryd hwnw yn anarferol o uchel a dinystriol. Dilynwyd yr anffodion hyn yn yr un flwyddyn gan ymweliad arswydus o haint; ac mor ddinystriol oedd yr ymweliad difaol hwn fel, yn ystod y chwech neu y saith mis y parhaodd, y bu farw dwy ran o dair o boblogaeth y ddinas, a llwyr ddinystriwyd hanner cant o'i theuluoedd pendefigaidd. Y mae canol y bedwaredd ganrif ar ddeg yn hynod ar gyfrif y bradwriaeth a flaenorwyd gan y Doge Marino Faliero, a'r rhyfel â Hungary, yn yr hwn y collodd Venice Dalmatia. Arweiniodd y cydymgais masnachol oedd rhwng Venice a Genoa yn y dwyrain i ryfel rhyngddynt yn 1352, pan y gorchfygwyd y Venetiaid yn mis Chwefror y flwyddyn hono gan Paganino Doria yn nghyfyngfor y Bosphorus; ac er iddynt adferu eu hen uchafiaeth i raddau trwy ennill brwydr wedi hyny ar ororau Sardinia, llwyr ddinystriwyd eu llynges gan Doria drachefn yn morgaingc Sapienza, Tachwedd 3ydd, 1354, a gorfodwyd hwynt i wneuthur heddwch mewn canlyniad i hyny. Yn 1378, cymmerodd y Venetiaid ran yn y cweryl oedd rhwng Genoa a Cyprus, a gorchfygodd llynges y blaenaf lynges yr olaf o flaen Antium; ac er dial am hyny, bu agos i'r llynges Venetiaidd gael ei llwyr ddistrywio ger Pola yn Mai, 1379; ac wedi hyny aeth Pietro Doria yn mlaen yn erbyn Venice ei hun, a chymmerodd yr ynys Chioggia. Ond nid oedd dewrder y Venetiaid wedi ei wanhau gan yr anffodion trymion a'u cyfarfu; ac yn fuan dechreuodd gwedd pethau newid—yn lle bod yn warchauedig, hwy a droisant i warchau ar eu hymosodwyr yn Chiogga; ac ar ol eu darostwng i gyfyngder dirfawr, derbyniasant eu hymostyngiad diammodol yn Mehefin, 1380. Yn 1396, darfu i Genoa, hen elyn Venice, gyssylltu ei hun fel rhan o diriogaethau brenin Ffraingc—trefniant yr oedd y Venetiaid yn hynod o ddiolchgar am dano; o herwydd, ar lawer tir, yr oedd gwell gobaith am i'r ddau allu fod ar well telerau o hyny allan nag yr arferent fod. Am amryw o flynyddoedd ar ol hyn, bu Venice mewn sefyllfa hynod lwyddiannus:—rhoddwyd cynnhyrfiad dirfawr i'w masnach; yr oedd ei llongau trafnidiol yn tramwy yr holl foroedd; cedwid i fyny berthynasau agos â holl wledydd Ewrop, yn gystal ag â Syria, yr Aipht, ac hyd yn oed âg India; a nwyddau pwysig yn masnach Venice oedd haiarn swydd Stafford, alcan o Gernyw a Devon, a gwlân o Sussex. Torodd rhyfel allan rhwng Novello, arglwydd Padua, a Venice. Ar derfyniad y rhyfel hwn, yn 1407, cafodd Venice feddiant o ran fawr o Italy ar y Cyfandir—prif ddinasoedd pa un oedd Vicenza, Verona, Padua, Feltre, a Belluno. Gyda marwolaeth y Doge Mocenigo yn 1423, dechreuodd cyfnod newydd ar Venice. Yn ystod y deng mlynedd ar hugain a ddilynodd, yr oedd rhyfel parhaus yn cael ei ddwyn yn mlaen, yn benaf yn erbyn duciaid Milan, yn nghwrs pa un y darfu i Venice gyflogi Carmagnola a'i ganlynwyr, ac ennill llawer goruchafiaeth ysblenydd; ond goddefasant hefyd lawer gorchfygiad blin. Ac ar adferiad heddwch yn 1455, er fod tiriogaethau y weriniaeth wedi eu helaethu trwy gael meddiant o Brescia, Bergamo, Treviso, &c., ar y Cyfandir, ni chafodd Venice mo honynt ond ar ol ymdrechfeydd a gostiasant yn ddrud mewn bywydau a thrysorau; yn ystod pa rai y darfu i'w masnach — ffynnonell fawr ei llwyddiant bob amser—ddioddef yn ddirfawr, a dechreu adfeilio. Cynghor diweddaf Mocenigo i'r senedd oedd, ar iddynt ochelyd rhyfel, gan ei fod yn sicr o ddwyn dinystr ar y wlad; a pharhau yn ddiwyd a dyfal-barhaol gyda'u masnach a'u trafnidiaeth, a diwyllio y celfyddydau heddychol. Ei gwrthodiad o'r cynghor hwn, ynghyd â'r wladlywiaeth gul, hunangarol, ac annoeth a fabwysiadodd y Venetiaid mewn cyssylltiad â'r ymrysonau fu yn y taleithiau Italaidd, yn ddiammheu, oedd yl prif achosion o adfeiliad Venice. Dilynwyd yr un wladlywiaeth ryfelgar a dinystriol drwy y bymthegfed ganrif; a chymmerodd yr unfed ganrif ar bymtheg ar ei hyd i adgyweirio yr anrhaith a'r colledion a ddygwyd arni gan gynghrair Cambrai. Ei gwladlywiaeth yn yr eilfed ganrif ar bymtheg oedd cynnorthwyo gwrthwynebwyr ei chymmydog mwyaf peryglus, sef Awstria, trwy gydnabod Harri IV. o Ffraingc; a chynnorthwyo Bethlem Gabor a Ragotski, y duc o Savoy, yn erbyn Yspaen, a'r Protestaniaid yn erbyn Pabyddion y Grissons.

O'r flwyddyn 1646 hyd 1669, dygwyd rhyfel yn mlaen rhwng y Venetiaid a'r Tyrciaid; ac yn mhob ymgyrch o'r bron, yr oedd y diweddaf yn cael eu gorchfygu; er iddynt, yn y diwedd, o herwydd nerth cymmhariaethol y pleidiau, lwyddo i ennill Candia—yr hyn oedd amcan y rhyfel. Darfu i ddarganfyddiad Penrhyn Gobaith Da gan y Portugeaid, yn 1486, agor i'r genedl hono dramwyfa forawl i India, a chymmerodd Vasco da Gama fantais arni, ac amgylchodd y Penrhyn ar ei fordaith o Lisbon i Calicut yn 1497. Nid oedd clud-fasnach y byd mwyach yn nwylaw y Venetiaid, fel y bu; ac yr oedd y bywiogrwydd masnachol a gymmerodd le yn mysg cenedloedd gorllewinol Ewrop mewn canlyniad i ddarganfyddiad America, yn dangos yn eglur fod uchafiaeth morwrol Venice wedi ei golli. Ond er gwaethaf y cyfnewidiadau hyn, gallasai Venice fod mewn safle led uchel yn mysg gwledydd morwrol, oni bae fod nodwedd ei llywodraeth erbyn hyn yn gyfryw fel yr oedd yr holl allu yn gorwedd yn nwylaw ychydig o bersonau neillduol. Yn mhell cyn goresgyniad y weriniaeth gan Napoleon Fawr yn 1796, yr oedd Venice wedi ymlygru a gwanychu yn ddirfawr. Yr oedd llywodraeth y cynghor o ddeg wedi bod yn 'deyrnasiad dychryn.' Nid oedd ei phendefigion yn dangos bywiogrwydd mewn dim ond ymlid ar ol pleserau ffol; ac yr oedd ei gwladwyr wedi ymarfer â bywyd heddychol a thawel, ac yn anghymmhwys i ryfel—mewn gair, yr oedd yr hen ddewrder, y diysgogrwydd, a'r rhinweddau cenedlaethol a ddyrchafasent drefedigaeth o bysgotwyr i fod yn genedl o'r radd flaenaf yn mysg cenhedloedd, wedi eu llwyr golli o'u mysg. Gorfododd Napoleon Venice i dori ei hannibleidiaeth yn 1796; distrywiodd ei llywodraeth, a threfnodd iddi, yn ol cyttundeb Campo-Formio, i fod yn un o daleithiau Awstria. Yn 1806, cyssylltwyd dinas Venice, a thiriogaeth Venetia, â theyrnas Italy yn ol cyttundeb Presburg; ond rhoddwyd hi yn ol i Awstria drachefn yn 1814. Ond yn 1866, corphorwyd y ddinas a'r diriogaeth yn nheyrnas Italy—ac felly y maent yn parhau.

VERSCHORISTIAID: sect a gafodd ei henw ar ol un Jacob Verschoor, brodor o Flushing; yr hwn, yn y flwyddyn 1680, trwy gymmysgu syniadau gwahanrywiol Coccecius a Spinoza, a gynnyrchodd ryw ffurf newydd o grefydd, oedd

Digitized by Google

yn nodedig o herwydd ei gwrthuni a'i hannuwioldeb. Gelwid ei ganlynwyr a'i ddysgyblion hefyd yn Hebreaid, o herwydd y manylder a'r sêl a ymarferent oll, heb wahaniaeth, hen ac ieuaingc, wrth astudio yr iaith Hebraeg. Yr oedd eu syniadau yn debyg iawn i eiddo yr Hattennistiaid. Yr oedd sylfaenwyr y ddwy sect yn gwadu y gwahaniaeth sydd rhwng da a drwg moesol, a llygredigaeth y natur ddynol; ac oddi wrth hyn yr oeddynt yn casglu yn mhellach, nad ydyw dynolryw dan un math o rwymedigaeth i ddiwygio eu moesau, i wellhau eu meddyliau, nac i ufuddhau i gyfreithiau Duw; a bod yr oll o grefydd yn gynnwysedig mewn dioddef, ac nid mewn gweithredu; ac y gellir crynhoi holl gyfarwyddiadau Iesu Grist i'r un hwn —ein bod yn dioddef gydag amynedd a sirioldeb yr hyn a'n cyferfydd trwy ordeiniad yr ewyllys ddwyfol, ac yn penderfynu bob amser i fod yn dawel ac ymostyngol o ran y meddwl.

VESPASIAN, TITUS FLAVIUS: ymherawdwr Rhufeinig, yr hwn oedd frodor o Reate, yn ngwlad y Sabiniaid, ac yn deilliaw o deulu dinod, ac isel eu hamgylchiadau. Ar ol gwasanaethu mewn amryw swyddau milwraidd er clod iddo ei hun yn Thracia, Prydain, ac Affrica, efe a anfonwyd gan yr ymherawdwr Nero i ddwyn yn mlaen y rhyfel yn erbyn yr Iuddewon. Yr oedd yn ddyledus am y pennodiad hwn i'w deilyngdod ei hun yn hollol, gan nad oedd mewn ffair neillduol gan yr ymherawdwr. Yr oedd Vespasian wedi ei dramgwyddo am iddo ddigwydd syrthio i gysgu tra yr oedd un o'i gyfansoddiadau barddonol yn cael ei adrodd. Dygodd y rhyfel yn mlaen mewn modd galluog a medrus: darostyngodd Iudea, ac yn y diwedd gwarchaeodd ar Ierusalem. Ar yr adeg hon y digwyddodd yr ymdrechfa rhwng Otho a Vitellius, ar ol llofruddiad Galba. Yr oedd y llengoedd a wasanaethent yn y dwyrain yn ddig o herwydd fod yr ymherodraeth yn cael ei threfnu yn ol ewyllys gwarchodlu y pencadlys; a chyhoeddasant eu cadfridog eu hunain yn ymherawdwr, a chydnabyddwyd ef felly yn fuan gan yr holl ddwyrain; ac ar ol marwolaeth Vitellius, gan Italy hefyd, a'r holl daleithiau. Gadawodd Vespasian ei fab Titus i gario yn mlaen y gwarchau ar Ierusalem, a dychwelodd i Rufain, lle y cafodd dderbyniad llawen a chroesawgar, ac ymaflodd yn ddioed yn y gwaith o adferu pethau i drefn. Cadwodd ei filwyr o dan ddysgyblaeth fanwl, a gwellhaodd a chododd y cyllid; cydweithiodd yn llawen â'r senedd yn ngweinyddiad achosion y wladwriaeth, a gwnaeth lawer drwy ei esampl i leihau effeithiau niweidiol moethusrwydd a gwastraff ei ragflaenoriaid. Ysgrifenodd Suetonius fywgraphiad dyddorol iddo; ac oddi wrth y mân hanesion a adroddir, yr ydys yn alluog i ffurfio syniad lled gywir am gymmeriad y dyn. Yn ei ddull o fyw, yr oedd yn syml a dirodres; yr oedd yn rhy gall i wrando ar weniaith, yn hoff o sylwadau digrif ac ysmala, yn llawn o natur dda, ac yn hawdd siarad âg ef. Cyhuddir ef o fod yn gybyddlyd, a diau ei fod ar adegau wedi ceisio cael arian drwy ffyrdd lled ddianrhydeddus; ond er ei fod yn gynnil yn ei dreuliadau personol, yr oedd yn hynod haelionus wrth addurno dinas Rhufain, a dwyn yn mlaen weithiau cyhoeddus yn yr ymherodraeth; ac hefyd yn noddwr rhagorol i'r gwyddorau a'r celfau. Cyhuddir ef hefyd o un neu ddwy o weithredoedd creulawn; ond yn gyffredin yr oedd yn arfer dal yn ngwyneb gwrthwynebiadau gyda thymmer dda. Bu farw B.A. 79, yn y 69ain mlwydd o'i oedran, ar ol teyrnasu am ddeng mlynedd.

VESTA: un o dduwiesau y Rhufeiniaid:—yr un a'r dduwies Roegaidd Hestia. Ystyrid hi yn dduwies yr aelwyd; ac o blegid hyny yr oedd yn anwahanol gyssylltiedig a'r duwiau teuluaidd; a thybid fod Æneas wedi dwyn tân parhaus Vesta a Chaerdroia gyda'r delwau â'r duwiau teuluaidd. Ac yr oedd y rhaglawiaid, y consuliaid, a'r prif reolwyr, cyn dechreu ar eu gwaith swyddol, yn arfer aberthu, nid yn unig i'r duwiau teuluaidd, ond hefyd i Vesta mewn modd pennodol yn Lavinium. Yn y tai Rhufeinaidd gynt, yr oedd yr aelwyd yn nghanol y llawr, a'r holl deulu yn ymgasglu o'i chwmpas i fwyta eu prydau cyffredin; ac ystyrid fod pob pryd o fwyd a fwyteid fel hyny yn rhwymyn chwanegol o undeb a serch yn mhlith aelodau teulu—ac ar yr un pryd yn weithred o addoliad i Vesta, yn gystal ag yn aberth iddi hi a'r duwiau teuluaidd. Yr oedd pob tŷ, gan hyny, mewn rhyw ystyr yn fath o deml i Vesta; ond yr oedd teml gyhoeddus perthynol iddi, yn uno holl ddinasyddion y wladwriaeth yn un teulu mawr. Safai y deml hon yn y farchnadfa, rhwng bryniau y Capitol a'r Palatine yn Rhufain, ac heb fod yn mhell oddi wrth deml y duwiau teuluaidd. Crwn, o ran ei ffurf, ydoedd hi. Nid oedd y dduwies yn cael ei chynnrychioli gan gerflun yn ei theml; ond y tân parhaus oedd yn llosgi ar ei haelwyd neu ei hallor oedd ei harwyddlun, yr hwn a gedwid i fyny gan ei hoffeiriadesau morwynol. Fel yr oedd gan bob tŷ, a'r ddinas, felly yr oedd gan y wlad hefyd ei Vesta ei hun; ac addolid hi yn Lavinium, prif ddinas y Lladinwyr, lle y derbynitai aberthau rheolaidd gan y prif ynadon. Ystyrid y dduwies ei hun yn bur a diwair fel ei harwyddlun, sef y tân; ac yr oedd yr offeiriadesau a gadwent i fyny y tân yn wyryfod glân. Ar y 1af o fis Mawrth bob blwyddyn adnewyddid y tân cyssegredig, a'r pren llawryf a gysgodai ei haelwyd; ac ar y 15fed o Fehefin, yr oedd ei theml yn cael ei glanhau a'i phuro.

VESUVIUS: llosgfynydd adnabyddus, sydd yn agos i draeth dwyreiniol Machwy Naples, yn nghylch deng milldir o'r ddinas sydd o'r un enw. Mynydd wrtho ei hun ydyw Vesuvius, yn ymgodi yn fawreddog o wastadedd Campania, ac yn mesur yn agos i ddeng milldir ar hugain o amgylchedd yn ei odrau, ac yn ymranu mewn uchder pennodol yn ddau grib, sef y Somma a'r Vesuvius Briodol. Y mae uchder a ffurf copa y mynydd yn cyfnewid yn aml mewn canlyniad i'r ffrwydriadau sydd yn tori allan. Tybir ei fod yn awr tua 4,000 o droedfeddi o uchder. Y toriad allan cyntaf ynddo y ceir hanes am dano oedd yn B.A. 79. Yr oedd math o arwyddion o hyn wedi eu cael un mlynedd ar bymtheg yn flaenorol i hyny, gan ddaeargryn fawr a ddinystriodd ddinasoedd Herculaneum, Pompeii, a Stabiæ, [gwel POMPEII]; ac yr oedd ysgytiadau ysgeifn yn cael eu teimlo hyd Awst, y fl. 79, pan y daethant yn lliosocach a thrymach. Nid oeddid yn tybied cyn hyn fod Vesuvius yn llosgfynydd. Gorchuddid ei ystlysau â gwinwydd rhagorol; ac yr oedd ei hen losgenau, oedd mewn rhan wedi eu llenwi o ddwfr, yn noddfa i'r penaeth gwrthryfelgar Spartacus. Ymddangosai pob peth yn dawel ar foreu y 24ain o Awst, y flwyddyn a enwir uchod; ond yn ystod y dydd,

Digitized by Google

ymddyrchodd cwmmwl du mawr o'r mynydd, o ba un y bwrid allan geryg, lludw, ac ysbyngfaen (*pumice stone*) ar yr ardaloedd o amgylch. Hwyliodd Pliny yr hynaf, a lywyddai y llynges Rufeinig yn Misenum, tuag yno, gyda'r amcan o gynnorthwyo y trigolion dychrynedig; glaniodd yn agos i droed y mynydd, ond amgylchwyd ef gan y tawch brwmstanog, a chollodd ei fywyd. Y mae Pliny, yr ieuangaf, wedi rhoddi disgrifiad tarawiadol o'r ffrwydrad hwn mewn dau lythyr at Tacitus. Ni fwriwyd allan ufelwy (*lava*) y tro hwn, nac yn wir gan unrhyw ffrwydrad a gymmerodd le, y mae genym hanes am dano, hyd y gwyddys, hyd y fl. 1066. Claddwyd Pompeii yn y fl. 79 dan ludw rhydd, tuag ugain troedfedd o drwch; ac nid oedd ei bodolaeth yn hysbys hyd y ddeunawfed ganrif, neu ychydig gyda chan mlynedd yn ol. Ymdaenodd cawodydd o laid dros Herculaneum; yr hwn, gyda ffrwydradau chwanegol a gymmerasant le drachefn, sydd yn awr yn ffurfio trwch o bedwar ugain neu gan troedfedd. Er y pryd hwnw y mae Vesuvius yn parhau yn llosgfynydd, ac y mae wedi tori allan tua thrigain o weithiau yn ffrwydradau mawr, yn gystal a llawer o rai llai. Yr oedd y ffrwydrad mor fawr yn B. A. 472 fel y disgynodd y lludw, meddir, mor bell a Chaer Cystenyn; yr hyn a barodd ddychryn dirfawr yno. Yn 1631, gorchuddiwyd y pentrefydd yn nhroed y mynydd âg ufelwy, a llifai allan afonydd o ddwfr poeth. Er y toriad allan a ddisgrifiwyd gan Pliny, y mwyaf hynod oedd yr un a gymmerodd le yn 1779, ac a ddarlunir gan Syr William Hamilton, llysgenhadwr Prydain yn Naples ar y pryd. Dechreuodd y mynydd daflu allan ufelwy yn ngwanwyn y flwyddyn hono; canlynwyd hyn gan sŵn cynnhyrfus a cholofnau o fŵg; yna gwnaeth ceryg eiriasboeth a lludw eu hymddangosiad, a pharhaodd hyn i gynnyddu nes y cyrhaeddodd yr argyfwng pwysicaf, o'r 5ed i'r 10fed o Awst. Yna dyrchafodd colofnau enfawr o fŵg llwydwyn o'r llosgenau i uchder dirfawr, a llifai yr ufelwy yn afonydd o'r llosgenau ar hyd ystlysau y mynydd. Dilynwyd hyn gan golofn o dân; yr hon a ymsaethai i fyny ar rai achlysuron dair neu bedair gwaith yn uwch na Vesuvius ei hun, neu uwch law dwy filldir o uchder. Yn nghanol hyn oll, yr oedd cawodydd o geryg, ysbwrial, a lludw yn cael eu bwrw i fyny i uchder mawr. Cymmerodd un mwy ofnadwy le bymtheng mlynedd yn ddiweddarach, drwy yr hyn y dinystriwyd y rhan fwyaf o dref Torre del Greco. Ac wedi hyny, yn 1822, torodd Vesuvius allan yn hynod ffyrnig; a thrachefn yn 1855, pan y taflwyd allan ddylif o ufelwy dros ystlysau y mynydd, gan anrheithio pob peth yn ei ffordd, a llwyr ddinystrio pentref Cercolo. Yn 1860, cymmerodd un arall le. Digwyddodd cyfres o ffrwydradau ereill, a gwnaethant lawer o ddinystr, yn Rhagfyr, 1861, ac yn Chwefror, 1865. Dinystriwyd Torre del Greco drachefn yn Rhagfyr, 1861. Dechreuodd ffrwydrad arall y 12fed o Dachwedd, 1867, a pharhaodd i gynnyddu hyd Mawrth, 1868. Hydref yr 8fed, yr un flwyddyn, torodd allan eilwaith, ac achosodd lawer o ddinystr hyd y 19eg a'r 20fed o Dachwedd. A thrachefn, dechreuodd ffrwydrad dinystriol ar y 23ain o Ebrill, a diweddodd ar y 3ydd o Fai, 1872. Collwyd y pryd hwnw tua thrigain o fywydau; ac y mae y mynydd hwn wedi ymddangos mewn gwedd fygythiol amryw weithiau wedi hyny.

VICTORIA I.: brenhines Teyrnas Gyfunol Prydain Fawr a'r Iwerddon:—merch ac unig blentyn Edward, y Duc o Kent, pedwerydd mab Sior III. Ganwyd hi yn mhalas Kensington, Mai 24ain, 1819. Enw ei mam oedd Victoria Mary Louisa, chwaer i Leopold, brenin Belgium; gŵr cyntaf yr hon oedd y tywysog o Leiningen, yr hwn a fu farw yn 1814. Yr 11eg o Orphenaf, 1818, priododd hithau y Duc o Kent. Bu farw y duc yn mis Ionawr, 1820, gan adael yn ngofal ei weddw ei ferch Alexandrina Victoria, yn faban naw mis oed. Cyflawnodd y dduces y dyledswyddau pwysig gorphwysedig arni fel mam yn rhagorol, gyda'r pwyll a'r gofal mwyaf. Fel yr oedd y dywysoges yn tyfu i fyny, addysgwyd hi i gryfhau ei hiechyd trwy ymarferiadau corphorol, a thrwy fyw yn gymmedrol yn mhob ffordd. Pennodwyd y dduces o Northumberland i gynnorthwyo ei mam i ofalu am addysg a dygiad i fyny y dywysoges:—a daeth yn fedrus mewn cerddoriaeth, darlinelliad (*drawing*), ac yn ieithoedd y Cyfandir; a chyrhaeddodd hefyd wybodaeth yn y gwyddorau, ac yn enwedig mewn llysieuaeth. Perthynai ei thad i'r blaid wleidyddol Whigaidd, ac yr oedd yn naturiol iddi hithau gael ei haddysg gan aelodau y blaid hono; a'r is-iarll Melbourne fu ei hathraw yn egwyddorion y cyfansoddiad gwladol Prydeinig. Esgynodd Victoria i orsedd y Deyrnas Gyfunol ar farwolaeth ei hewythr, William IV., ar yr 20fed o Fehefin, 1837. Cyhoeddwyd hi yn frenhines yn holl brif drefydd y deyrnas dranoeth, sef yr 21ain; a choronwyd hi yn mynachlog Westminster ar yr 28ain o Fehefin, 1838. Yr is-iarll Melbourne oedd y prif weinidog pan yr esgynodd Victoria i'r orsedd; ac yn ystod yr amser y bu efe yn gweinyddu yn y swydd hono, gyda llawn gymmeradwyaeth ei deiliaid, hi a ymbriododd yn mhalas St. James (Chwefror 10fed, 1840), gydag Albert, tywysog Saxe-Coburg a Gotha, ac ail fab y duc a deyrnasai yno. Bu iddynt naw o blant—pedwar o feibion a phump o ferched; sef, y Dywysoges Victoria, a aned Tachwedd 21ain, 1840; ac a briodwyd, Ionawr 25ain, 1858, gyda'r tywysog Frederick William, mab hynaf William I., ymherawdwr yr Almaen, a brenin Prwssia:—y tywysog Albert Edward, Tywysog Cymru, ac etifedd y goron, yr hwn a anwyd Tachwedd 9fed, 1841; ac a briodwyd Mawrth 10fed, 1863, gyda'r dywysoges Alexandra o Denmarc. Y dywysoges Alice, a anwyd Ebrill 25ain, 1843; a briodwyd Gorphenaf 1af, 1862, gyda'r tywysog Ludwig o Hesse. Y tywysog Alfred, y Duc o Edinburg, a anwyd Awst 6ed, 1844; a briodwyd Ionawr 21ain, 1874, gyda'r archdduces Maria o Rwssia. Y dywysoges Helena, a anwyd Mai 25ain, 1846; a briodwyd Gorphenaf 5ed, 1866, gyda'r tywysog Christian o Schleswig-Holstein. Y dywysoges Louise, a anwyd Mawrth 18fed, 1848; a briodwyd Mawrth 21ain, 1871, gyda John Douglas Sutherland, Ardalydd Lorne, mab hynaf y duc o Argyll. Y tywysog Arthur, duc o Connaught, a anwyd Mai 1af, 1850. Y tywysog Leopold a anwyd Ebrill 7fed, 1853. A'r dywysoges Beatrice, a anwyd Ebrill 14eg, 1857.

Y mae digwyddiadau cyhoeddus o bwysigrwydd mawr wedi cymmeryd lle yn nheyrnasiad y frenhines Victoria. Ni wnawn yma ond cyfeirio at ychydig o'r rhai mwyaf nodedig o honynt. Y mesurau deddfwriaethol mwyaf eu pwys a basiwyd oeddynt, sefydliad y llythyrdoll geiniog yn 1840; gwellhâd deddf y tlodion

Digitized by Google

yn Ysgotland yn 1845, ac yn yr Iwerddon yn 1847; diddymiad deddfau yr ŷd yn 1846, a deddfau morwriaeth yn 1849; mesur etifeddiaethau gwystledig yr Iwerddon; trosglwyddiad y meddiannau Indiaidd oddi wrth Gwmni yr India Ddwyreiniol i'r goron yn 1858; derbyniad yr Iuddewon i mewn i Dŷ y Cyffredin yn 1858; dadsefydliad yr Eglwys yn yr Iwerddon yn 1869; mesur addysg elfenol yn 1870; a mesur tir yr Iwerddon yn 1871. Y mae llawer o ddigwyddiadau ereill a barant i deyrnasiad Victoria fod yn hynod yn mysg hanes ein brenhinoedd:—sef, ffurfiad Eglwys Rydd Ysgotland yn 1843; darganfyddiad y llwybr gogledd-orllewinol i Begwn y Gogledd gan Syr Robert M'Clure yn 1850; y ddau arddangosiad cydgenedlaethol yn 1851 ac 1862; darganfyddiad aur yn Awstralia ac yn Columbia Brydeinig; y rhyfel â Rwssia mewn amddiffyniad i Twrci, yn yr hwn yr oedd gwarchauad Sebastopol a dioddefiadau y milwyr Prydeinig y prif ddigwyddiadau, yn 1854—56; y gwrthryfel mawr yn India yn 1857; rhoddiad i lawr y pellebyr rhwng Prydain a'r America yn 1866; ar newidiad ffol fu ar deitl y frenhines i fod yn "ymherodres yr India."

Yn yr un cyfnod y mae terfysgoedd a chyfnewidiadau mawr wedi bod mewn gwledydd cylchynol. Yr oedd 1848 yn flwyddyn o chwyldroadau pwysig; ond arosodd ei gorsedd hi yn ansigledig. Cwympodd brenhiniaeth gyfansoddiadol Ffraingc, a dilynwyd hi gan werinlywodraeth, yr hon a roddodd le yn fuan i'r ail ymherodraeth o dan Louis Napoleon yn 1852; y rhyfel cartrefol mawr yn yr Unol Daleithiau, yr hwn a derfynodd yn niddymiad caethwasiaeth yn y wlad hono; ffurfiad teyrnas Italy o dan Victor Emmanuel; rhyfel byr, ond pwysig, rhwng Prwssia ac Awstria yn 1866; ac wedi hyny rhwng Prwssia a Ffraingc yn 1870, yr hwn a derfynodd yn niorseddiad Louis Napoleon, ac adsefydliad gwerinlywodraeth yn Ffraingc.

Yn mysg pethau mwy personol y teyrnasiad hwn, gellir nodi, yn mysg ereill, yr ymweliadau mynych a gymmer le rhwng y frenhines Victoria a phenaduriaid Ewropaidd ereill. Marwolaeth ddisymmwth ac anamserol y Tywysog Cydweddog, Rhagfyr 14eg, 1861; yr hyn a daflodd y frenhines i ofid dwfn, ac a barodd iddi ymgadw yn hynod neillduedig oddi wrth fywyd cyhoeddus dros amryw flynyddoedd; ac o'r braidd y gellir dywedyd ei bod hyd heddyw wedi rhoddi heibio ei neillduaeth ond mewn rhan yn unig. Er na bu nemawr benadur yn meddu deiliaid mwy teyrngarol, y mae rhai ceisiadau wedi eu gwneyd at fywyd y frenhines. Yn 1842, taniodd John Francis lawddryll at ei Mawrhydi; ond yn ffodus hi a ddiangodd heb dderbyn dim niwed. Dedfrydwyd ef i farwolaeth, ond ni chariwyd y ddedfryd allan arno:—alltudiwyd ef am ei oes. Yr un flwyddyn, darfu i un o'r enw Bean gyfeirio llawddryll ati; ond attaliwyd ei fraich ef trwy i un oedd yn sefyll ger llaw ei daraw. Carcharwyd Bean am ddeunaw mis, a phasiwyd cyfraith yn ordeinio fflangellu yn gyhoeddus am bob ymgais o'r fath. Yn 1852, tarawyd ei mawrhydi â gwialen gan yr is-gadben Pate.

Tystiolaeth Macaulay am Victoria ydyw:—"Yn y frenhines Victoria, y mae ei deiliaid wedi cael teyrn doethach, tynerach, a dedwyddach nag Elizabeth." Ni ddarfu i un penadur blaenorol amgyffred mor llawn y gwirionedd mawr, fod galluoedd y goron yn cael eu cadw mewn ymddiried i'r bobl, ac mai moddion, ac nid dyben llywodraeth ydynt. Y mae y lywodddysg oleuedig hon yn hawlio iddi yr anrhydedd o fod y penadur sydd yn talu mwyaf o barch i'r cyfansoddiad gwladol a fu erioed yn teyrnasu yn y wlad hon. Ac y mae dylanwad yr esampl dda a roddwyd gan ei Mawrhydi a'r diweddar Dywysog Cydweddog yn mhob rhinwedd teuluaidd wedi cael ei deimlo yn bwysig a llesol trwy y wladwriaeth yn gyffredinol; a diau fod eu hymdrechion i ddwyn eu plant i fyny, a'u haddysgu yn mhob rhinwedd, wedi bod yn batrwm i deuluoedd ereill, ac wedi tueddu i gadarnhau yr orsedd, ac i ennill i'r teulu brenhinol barch ac edmygedd y byd gwareiddiedig. Y mae cynnydd y genedl yn amrywiol elfenau gwareiddiad, ac yn enwedig mewn llwyddiant masnachol, yn amser Victoria wedi bod yn ddigyffelyb; a dichon nad oes un teyrnasiad flaenorol wedi dwyn mesur helaethach o dawelwch gwleidyddol i'w ganlyn.

VIETE, FRANCOIS: mesuronydd enwocaf Ffraingc yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ganed ef yn Fontenai-le-Comte, ger llaw La Rochelle, yn 1540. Nid oes dim yn hysbys am ei fywyd boreuol a'i addysgiaeth; ac y mae yr oll sydd yn wybyddus am fanylion ei hanes personol, er mor lleied ydynt, wedi eu cael yn mron i gyd o gofnodau ei gyfaill, De Thou. Yr oedd Viete ar hyd ei oes yn ngwasanaeth y wladwriaeth o dan deyrnasiadau Henry III. a Henry IV., ac nid oedd efe yn rhoddi ond ei oriau hamddenol at astudio mesuroniaeth, a phethau ereill cyffelyb. Yr oedd Viete yn Babydd selog, ac yn gefnogwr gwresog i'r athrawiaeth o hawl ddwyfol brenhinoedd. Dygodd ei athrylith a'i ddyfal-barhad ef i sylw amlwg ar amrywiol achlysuron. Yn ystod y rhyfel yn erbyn yr Yspaeniaid, er mwyn cadw cyfathrach â'u meddiannau lliosog yma a thraw, ac mewn trefn i attal y Ffrangcod rhag cael yr hysbysrwydd cynnwysedig yn y llythyrau a allent ddigwydd syrthio i'w llaw, mabwysiadodd y blaenaf fath o ddirgel-nodau (*cyphers*) cywrain o fwy na phum cant o arwyddion, a phob un yn amrywio o bryd i bryd yn ei ystyr. Cafwyd gafael mewn rhai llythyrau, a rhoddwyd hwynt i Viete; yr hwn yn mhen ychydig amser a ddarganfu yr allwedd i'w deall, er gofid mawr i'r Yspaeniaid—y rhai, yn gymmaint a'u bod yn methu rhoddi cyfrif am y darganfyddiad mewn un ffordd arall, a'i priodolent i swynyddiaeth. Ond y mae y chwedl i Viete gael ei wysio i Rufain i'w amddiffyn ei hun yn erbyn y cyhuddiad o fod yn cyfathrachu â'r diafol, dybygid, yn ddisail. Cyhoeddodd ei "*True Gregorian Calendar*" yn 1600; yr hwn a gydnabyddwyd gan ei gyfeillion goreu fel un gwaelach na'r un a dderbyniodd gymmeradwyaeth y pab. Pa fodd bynag, nid oedd efe ei hun yn gweled hyn; ac ymosododd ar yr Iesuit Clavius, i'r hwn yr oedd y pab wedi ymddiried casglu y calendar, yn y modd mwyaf bustlaidd; ond amlygai gymmaint o feistrolaeth mewn gwybodaeth ag a barodd i un o amddiffynwyr Clavius ddangos ei gydymdeimlad â'r Iesuit anffodus oedd yn gorfod sefyll o flaen un oedd yn gyfreithiwr, yn dduwinydd, yn fesuronydd, areithydd, a bardd. Fel mesuronydd, pa fodd bynag, y mae oesoedd dilynol wedi arfer edrych ar Viete; etto, er ei fod yn deilwng o'i restru yn mhlith y rhai blaenaf o'r dosbarth hwn, yn nesaf at Newton a Lagrange, yr oedd y cynnhyrfiadau gwleidyddol a chrefyddol yr

Digitized by Google

oedd Ffraingc ynddynt yn ystod ei fywyd ef, a'r ffaith fod ei holl weithiau, a argraphwyd yn ystod ei fywyd, wedi eu dwyn allan ar ei draul ei hun, a'u lledaenu yn mysg ei gyfeillion, wedi bod yn attalfa i gydnabyddiaeth gyffredinol gael ei gwneyd o'i deilyngdod uchel. Y mae hawliau Viete, pa fodd bynag, yn dyfod yn fwy-fwy amlwg, a'r gydnabyddiaeth o hyny yn fwy cyffredinol. Ganddo ef, yn ddiau, y mae yr hawl i gael ei ystyried fel dyfeisydd alsoddeg (*algebra*) ddiweddar—yr hon a sefydlwyd ganddo ar sail gwyddoniaeth arwyddluniol (*symbolical*). Heb law hyn, profodd fod ganddo alluoedd mesuronyddol o'r radd uchaf, trwy feistroli problemau oedd wedi dyrysu Apollonius, Regiomontanus, ac ereill; a chydnabyddid ef gan fesuronwyr Belgium ac Italy fel eu blaenor. Etto, peth tra hynod ydyw, mai ychydig o wybodaeth sydd gan ei gydwladwyr, y Ffrangcod, am dalentau a chyrhaeddiadau disglaer Viete. Casglwyd y rhan fwyaf o weithiau 'yr awdwr hwn gan Schooten, a chyhoeddwyd hwynt yn Leyden, yn 1646. Darganfyddwyd dau o'i weithiau yn ddiweddar, sef yr "*Harmonicon Celeste*," a'r "*Canon Mathematicus*." Yr oedd dwy lawysgrif ar gael o'r blaenaf; ond yr oedd yr olaf wedi ei argraphu a'i ledaenu yn mysg cyfeillion yr awdwr, yn ol ei arfer. Bu farw Viete yn Paris yn y flwyddyn 1603.

VINCI, LEONARDO DA: arlunydd Italaidd enwog, yr hwn a anwyd yn nghastell Vinci, yn nuciaeth Tuscany, yn y fl. 1452. Mab ordderch oedd efe i nodiadur (*notary*) o Florence. Pan yn ieuangc dangosodd ei fod yn meddu athrylith anghyffredin at y gelfyddyd y rhagorodd gymmaint ynddi wedi hyny; a rhoddwyd ef o dan addysg Andrea Verrochio, arlunydd clodfawr perthynol i'r cyfnod hwnw. Nid oedd, pa fodd bynag, yn un a gyfyngai ei hun at un peth fel testyn ei astudiaeth; o herwydd yr oedd cerfluniaeth, arluniaeth, archadeiladaeth, meintoniaeth, gallofyddiaeth, dyfrbwysyddiaeth (*hydrostatics*), barddoniaeth, a cherddoriaeth, yn destynau ei efrydiaeth ar yr un pryd, a dywedir ei fod yn rhagori yn yr oll o honynt. Yn chwanegol at y ragoriaeth yma mewn talent, yr oedd natur wedi rhoddi iddo wynebpryd hardd, ymadrodd hylithr, ac ymddygiad dymunol, fel yr ennillai hoffder ac edmygedd cyffredinol. Yr oedd ei gynnydd mewn arluniaeth mor gyflym, pan yn ddysgybl i Verrochio, fel y dywedir ei fod wedi ei osod gan ei athraw i baentio darlun o "Fedyddiad Crist," a bod ei waith wedi rhagori cymmaint ar eiddo ei feistr, fel y taflodd ei bwyntel o'r neilldu, ac nad ymaflodd ynddo mwy. Paentiodd Leonardo amryw o ddarluniau yn Florence a ddyrchafodd ei gymmeriad mor uchel fel y darfu i Ludovico il Moro, rhaglaw Milan, a noddwr enwog o'r celfyddydau, ei wahodd i'w brifddinas ynghylch y flwyddyn 1489, a phennododd iddo dâl blynyddol. Gan fod y tywysog hwn yn hoff o ganu a cherddoriaeth, chwareuai Leonardo iddo ar offeryn o'i ddyfais ei hun: ystyrid ef hefyd yn un o feirdd difyfyr rhagoraf ei oes. Efe oedd y prif offeryn a ddefnyddiodd Ludovico i sefydlu athrofa y celfyddydau cain yn Milan. Yn ystod yr amser y bu fyw yn Milan, efe a baentiodd lawer o ddarluniau ardderchog, ac yn eu plith y "Swper Diweddaf," sydd yn mynachlog Dominicaidd y Sta. Maria, ac sydd mor adnabyddus drwy y certiadau mynych sydd o hono. Dychwelodd Leonardo i Florence yn y flwyddyn 1500, lle y paentiodd efe lawer o'i ddarluniau goreu, ac yn eu plith ei ddarlun enwog o Monno Lisa, priod Francesco de Giocondo—gwaith y dywedir iddo fod am bedair blynedd yn gweithio arno, ac a orphenwyd gyda'r manylrwydd mwyaf. Gosodwyd ef a Michael Angelo (yr hwn oedd ugain mlynedd yn ieuangach nag ef) ar waith i baentio ystafell y cynghor, gan senedd Florence; a diau fod cryn gydymgais ar y pryd rhwng y ddau gelfyddydwr mawr. Pan yr etholwyd Leo X. yn bab, yn 1513, yn ol Vasari, aeth Leonardo gyda Guiliano de Medici i Rufain, lle y paentiodd amryw ddarluniau; ond nid llawer o archiadau am ddarluniau a gafodd gan y pab—yr hwn, meddir, a anghymmeradwyai ei arafwch yn gweithio. Dywedir hefyd nad oedd y teimladau goreu yn bod rhyngddo a Michael Angelo, a bod hyny yn ei ofidio; gan hyny efe a dderbyniodd y gwahoddiad a gafodd gan Francis I. i ymweled â Ffraingc. Ymddengys, fodd bynag, na ddarfu iddo weithio llawer ar ei gelfyddyd yn y wlad hono, lle y bu farw Mai 2il, 1519. Ymwelodd brenin Ffraingc âg ef yn ei afiechyd diweddaf, a bu farw yr arlunydd enwog yn mreichiau y penadur; yr hwn a ddigwyddai gyfodi ei ben ar y gobenydd pan y bu farw. Addefir fod Leonardo da Vinci yn un o ddynion mwyaf athrylithgar ei wlad; ac ychydig bersonau mewn unrhyw wlad neu alwedigaeth a unodd ynghyd gynnifer o ragoriaethau ag ef. Gydag eithaf cyfiawnder yr addefodd Michael Angelo a Raphael eu bod yn ddyledus am gyfran o'u henwogrwydd i'r meistr mawr hwn. Yr oedd Leonardo yn awdwr traethawd ar y gelfyddyd o arlunio.

VINET, ALEXANDER: duwinydd Swissaidd clodfawr. Ganwyd ef ar yr 17eg o Fehefin, 1797, yn Lausanne, yn Nhalaeth de Vaud, Switzerland. Addysgwyd ef yn mhrifysgol y dref hono. Yn y flwyddyn 1819, cyn i'w gyfnod arferol a chyfreithlawn i orphen astudiaeth yn yr athrofa ddyfod i ben, efe a gafodd wahoddiad i Basle; ac yno pennodwyd ef i fod yn broffeswr llenyddiaeth Ffrengig. Ynghylch yr un pryd, neillduwyd ef i fod yn weinidog yr efengyl. Ennillodd gymmeriad uchel yn fuan yn Basle fel athraw ac fel awdwr. Ei brif ysgrifeniadau y pryd hwnw oeddynt, ei "*Liberty of Worship*," "*A Sketch of French Literature*," a "*Religious Discourses*;" ynghyd â llawer o erthyglau beirniadol a duwinyddol yn y "*Semeur*." Yn 1837, efe a ymadawodd o Basle, o'i anfodd yn mron, ac a ddychwelodd i Lausanne, i lenwi cadair areithyddiaeth gyssegredig a duwinyddiaeth ymarferol yn y brif ysgol lle y derbyniasai efe ei addysg. Yr oedd erbyn hyn wedi gwneyd iddo ei hun gymmeriad disglaer, a'i alluoedd deallol wedi cyrhaedd eu haddfedrwydd; ond yr oedd yn dioddef yn ei gorph, megys yr oedd wedi gwneyd ar hyd ei oes. Nid oedd ei iechyd ond gwael bob amser. Yn 1845, pan y torodd yr Eglwys Rydd ei chyssylltiad â'r Llywodraeth, rhoddodd Vinet ei swydd fel proffeswr duwinyddiaeth i fyny, am nas gallai yn gydwybodol ei dal yn hwy; o herwydd yr oedd yn un o bleidwyr mwyaf selog dadsefydliad, ac yn un o'r ysgrifenwyr mwyaf grymus dros hyny oedd ar gyfandir Ewrop; a phennodwyd ef i swydd arall, nad oedd yn ymwneyd â chrefydd mewn modd uniongyrchol, sef yn broffeswr llenyddiaeth Ffrengig. Pan ad-drefnwyd yr athrofa

Digitized by Google

o newydd, ac i'r blaid oedd mewn awdurdod, gormes pa rai a ddygodd oddi amgylch yr encil-iad o'r Eglwys Wladol, beri fod dal cymmundeb â'r eglwys hono yn ammod o ddaliad unrhyw swydd, darfu cyssylltiad Vinet â'r athrofa yn llwyr, canys yr oedd erbyn hyn yn Ymneill-duwr rhy lwyr i gydymffurfio â'r telerau hyny.

Ar ddechreu gauaf 1846, ymddangosodd ei iechyd, yr hwn nid oedd un amser wedi bod yn gryf, fel yn adfeilio yn fawr. Ymdrechai i ddal i fyny, modd bynag, o dan ei ddioddefiadau, a dilynai ei waith cyffredin: a chyfodai o'i wely cystudd i gyfranu addysg i'r dynion ieuaingc oedd yn astudio dan ei gyfarwyddyd ar ol i'w gyssylltiad â'r athrofa derfynu. Pan nas gallai adael ei wely, yr oedd yn parhau i ysgrifenu i'r "*Semeur*," a chyfnodolion crefyddol ereill. Bu farw megys y bu fyw—yn ngwasanaeth ei Arglwydd, ac ni pheidiodd a gweithio hyd nes y gwrthododd neu y methodd ei gorph mwyach wasanaethu ei ysbryd gweithgar. Y ddarlith olaf a draddodwyd ganddo cyn i'w afiechyd olaf ymaflyd ynddo oedd ar eiriau y Gwaredwr: "Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear; mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur; ac yr awr hon, O Dad! gogonedda di fyfi gyda thi dy hun." Dywed cyfaill oedd yn bresennol fod ei ddifrifwch, ei urddas, a'i ostyngeiddrwydd, wrth egluro ac ymdrin â'r ymadroddion hyn, a'r gwresawgrwydd â pha un y darfu iddo, ar y diwedd, weddïo ar Dduw ar iddynt gael eu cwblhau ynddo ef ei hun, ac yn ei holl wrandawyr, yn gyfryw ag a barai i'r rhai oedd yn bresennol edrych arnynt fel rhyw ragarwydd o'i fod yn tynu tua therfyn ei yrfa ddaearol, a bod yr Arglwydd yn fuan am ei gymmeryd ato ei hun. Ei eiriau diweddaf ar ei wely angeu oeddynt—"O Dduw! bydd drugarog wrthyf." Bu farw yn foreu ar y 4ydd o Fai, 1847, yn Clarens, ger Vevey, cyn bod yn llawn 50ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn hynod barchus ar y 6ed o'r un mis yn Chatelard.

Ysgrifenodd yr awdwr coeth, a'r Cristion disglaer a didwyll hwn, lawer: cyhoeddwyd llawer o'i ysgrifeniadau yn ei fywyd, ond y rhan fwyaf wedi iddo farw. Yn mhlith ereill gellir nodi y rhai canlynol, sydd oll wedi eu cyfieithu i'r iaith Saesneg: "*Essay on Personal Religious Conviction, and on the Separation of Church and State:*" "*Vital Christianity:*" "*Christian Philosophy,*" &c.: "*Gospel Studies:*" "*Montaigne: the endless study, and other Miscellanies:*" "*Pastoral Theology:*" "*Homileties, or the Theory of Preaching:*" "*History of French Literature in the 18th Century:*" "*Studies on Pascal:*" "*Outlines of Philosophy and Literature:*" "*Outlines of Theology:*" &c. Y mae pob darllenydd o chwaeth a choethder, ac o ysbryd crefyddol, yn ymhyfrydu yn ngweithiau ysblenydd Alexander Vinet.

VIRET, PETER: duwinydd Protestanaidd Ffrengig enwog. Ganwyd ef mewn tref fechan yn nosbarth Berne, ger llaw Burgundy, yn Ffraingc; ac addysgwyd ef yn Paris, lle y daeth i gydnabyddiaeth â Farel, y diwygiwr Protestanaidd enwog. Aeth o Paris i Lausanne, a dewiswyd ef yn weinidog yno; lle y treuliodd lawer o flynyddoedd o'i amser yn pregethu ac yn ysgrifenu, a hyny gyda llwyddiant mawr. Ond pan ddanfonwyd Calvin i'r gynnadledd i Worms yn y flwyddyn 1541, ac oddi yno i Ratisbon, daeth gorchymyn oddi wrth senedd Lausanne ar i Viret fyned i Geneva i lonwi ei le hyd nes y dychwelai efe yn ol. Boddhawyd Calvin gymmaint gan alluoedd ac ymddygiadau Viret yn ystod ei absennoldeb ef, fel yr ymdrechodd, yn mhob ffordd, i'w berswadio i aros yn Geneva, gan ddadgan ei farn y byddai yr eglwys yno yn sicr o gael ei lleshau yn fawr gan ei bregethau a'i lafur yn eu plith: ond nis gallai lwyddo gydag ef, gan ei fod wedi penderfynu dychwelyd i Lausanne, at yr eglwys oedd o'r blaen o dan ei ofal, a'r bobl y pregethai gyda'r fath flas iddynt. Er hyny, darfu i'r eglwysi Ffrengig erfyn yn daer arno, a buont yn fwy llwyddiannus nag y bu Calvin, i fyned i Lyons; lle, yn nghanol y rhyfeloedd cartrefol, a'r heintiau a ddilynasant, y darfu iddo ef a'i gydweithwyr lafurio gyda llawer o ddoethineb a llwyddiant. Ond o'r diwedd, llwyddodd y Jesuitiaid i beri i ddadganiad gael ei gyhoeddi yn y flwyddyn 1563, yn gwahardd pawb nad oeddynt yn frodorion o Ffraingc i gael eu goddef yn bregethwyr yn yr eglwysi Protestanaidd. Bu raid i Viret adael Lyons mewn canlyniad i'r dadganiad hwn, a phreswyliodd mewn tref fechan ger llaw mynyddoedd y Pyrenees, ar ddymuniad brenhines Navarre, lle yr arosodd efe hyd ddydd ei farwolaeth; yr hyn a gymmerodd le yn 1571, yn y drigeinfed flwydd o'i oedran.

Parodd ei farwolaeth alar dirfawr yn mysg llawer o ddynion doeth a da. Yr oedd yn ddyn hawddgar; yn nodedig am ei addfwynder a'i larieidd-dra, ac am gymmedroldeb ei dymmer a'i iaith. Yr oedd hefyd yn hynod lwyddiannus fel pregethwr—nid yn unig i ledaenu Protestaniaeth fel y cyfryw, ond hefyd i argyhoeddi pechaduriaid, ac i adeiladu y saint. Mor fawr ydoedd swŷn ei hyawdledd, fel yr oedd ei wrandawyr yn wastad yn gofidio na buasai efe yn pregethu yn hwy. Pan yn Lyons, arferai bregethu yn yr awyr agored, mewn modd hynod o alluog a llwyddiannus; a dychwelwyd rhai miloedd i'r ffydd Gristionogol trwy ei lafur mawr. Nid oedd dim a fynai â defnyddio ei amser mewn difyrwch gwâg, ond treuliodd ei fywyd mewn chwilio am a gwneuthur daioni. Treuliodd oes lafurus a defnyddiol i gyflawni gweithredoedd dyngarol, yn gyhoeddus ac anghyhoedd; ac fel ei gydlafurwr, Farel, gwnaeth les mawr i'r byd a'r eglwys drwy ei esamplau, ei gynghorion, ei bregethau, a'i weddïau. Ysgrifenodd lawer o lyfrau a fuont o wasanaeth mawr i ffyddloniaid yr oes hono, drwy eu cadw rhag ofergoeledd Pabyddiaeth, a'u dodrefnu â rhesymau yn erbyn eu gwrthwynebwyr selog ac erlidgar.

VIRGIL, neu PUBLIUS VIRGILIUS MARO: tywysog y beirdd Rhufeinaidd. Yn nesaf at Homer, efe, dybygid, oedd bardd arwrol enwocaf yr hen oesoedd. Ganwyd ef ar y 5ed o Hydref, c. c. 70, yn Andes—pentref heb fod yn mhell o Mantua. Ymddengys fod ei dad yn berchen ar etifeddiaeth fechan, yr hon a amaethid ganddo ef ei hun. Enw ei fam oedd Maria. Addysgwyd ef yn Cremona a Mediolanum (Milan); a mynegir iddo astudio ar ol hyny yn Neapolis (Naples), o dan Parthenius, lle y dysgodd efe yr iaith Roeg. Addysgwyd ef mewn athroniaeth gan Syren, yr Epicuread. Dengys gweithiau Virgi lei fod wedi cael addysg ragorol. Yr oedd ei iechyd bob amser yn wanaidd. Nid oes un prawf ei fod wedi ceisio ymgodi i ddyrchafiad trwy ddefnyddio y moddion a arferid yn gyffredin gan y Rhufeinwr i hyny; sef, trwy geisio rhagori mewn areithyddiaeth a



Digitized by Google

gwisgo arfau. Ar ol cwblhau ei addysg, ymddengys ei fod wedi ymneillduo i fyw ar etifeddiaeth ei dad; ac yma, dybygid, yr ysgrifenodd efe rai o'r mân ddarnau a briodolir iddo. Ar ol brwydr Phillipi (c. c. 42), trefnodd Octavian fod ei ganlynwyr yn cael tir mewn amryw o barthau o Italy; ac yr oedd cymmydogaeth Cremona a Mantua yn un o'r parthau lle yr ymsefydlodd milwyr llwyddiannus, gan wthio y perchenogion blaenorol ymaith. Ysbeiliwyd Virgil fel hyn o'i eiddo. Mynegir mai hen swyddog milwraidd o'r enw Claudius a'i cafodd; ac i Virgil appelio at Octavian i Rufain am gael ei etifeddiaeth yn ol—a bod ei ddymuniad wedi ei ganiatau iddo. Yr oedd Virgil wedi dyfod i gydnabyddiaeth â Mæcenas cyn i Horace ei adnabod; ond gellir casglu, yn gymmaint a bod enw Mæcenas wedi ei adael allan o "*Eclogues*" Virgil, nad oeddynt ar delerau mor gyfeillgar ag y buont cyn eu hysgrifenu. Gwaith mwyaf gorphenedig Virgil o bossibl ydyw ei "*Georgics;*" sef, pryddest amaethyddol a ysgrifenodd efe ar awgrymiad Mæcenas. Ysgrifenwyd llinellau olaf y "*Georgics,*" a chwblhawyd y bryddest, ar ol brwydr Octium, tra yr oedd Octavian yn y dwyrain. Tybir fod yr "*Eclogues*" oll wedi eu gorphen ganddo cyn dechreu y "*Georgics.*" Gellid meddwl i'r bardd fod am amser maith yn meddwl am gyfansoddi ei gân arwrol—sef yr "*Æneid.*" Tra yr oedd Augustus yn Yspaen, efe a ysgrifenodd at Virgil i ddadgan ei ddymuniad ar iddo gyfansoddi rhywbeth a fuasai yn gofarwydd o'i dalent farddonol; ac ymddengys i'r bardd ddechreu ei "*Æneid*" tua'r pryd hwn (c. c. 27). Yn y fl. c. c. 23, bu farw Marcellus, mab i Octavia, chwaer Cæsar:—ac nid oedd Virgil yn colli un cyfle i foddio ei noddwr. Yn y chweched llyfr o'r "*Æneid,*" cyfeiria at rinweddau adnabyddus y dyn ieuangc, a dorwyd i lawr i'r bedd mor gynnar: a rhoddodd Octavia anrhegion gwerthfawr i'r bardd am hyn. Gan mai yn c. c. 27 y bu Marcellus farw, ysgrifenwyd y llinellau hyn, wrth gwrs, ar ol ei farwolaeth; ond ni phrawf hyny fod yr oll o'r chweched llyfr wedi ei ysgrifenu mor ddiweddar. Diammheu i'r "*Æneid*" gymmeryd llawer o flynyddoedd olaf einioes y bardd i'w gyfansoddi. Aeth i wlad Groeg c. c. 19—lle yr oedd yn penderfynu diwygio, gwellhau, a choethi yn drwyadl ei bryddest fawr. Yn Athen, cyfarfu âg Augustus yn dychwelyd yn fuddugoliaethus o'r dwyrain, a chymmhellwyd y bardd i fyned fel un o'i gwmni ef yn ol i Rufain. Ni chyrhaeddodd ond i Megara, fodd bynag, lle y tarawyd ef gan afiechyd (dywedir fod ei afiechyd yn adfeilio o'r blaen), yr hwn a drymhaodd ar ei fordaith tuag Italy. Pan y glaniwyd yn Brundusium, methodd fyned yn mhellach, a bu farw yn mhen ychydig ddyddiau, yn 51ain mlwydd oed, c. c. 19. Mewn cydsyniad â'i ddymuniad olaf, symmudwyd ei gorph i Naples—lle a fawr hoffai; a chladdwyd ef ger llaw yr ail gareg filldir oedd ar y ffordd oddi yno i Puteoli. Codwyd cofadail iddo yno—ar y fan lle y tybir fod ei feddrod.

Dywedir fod Virgil, pan yn ei gystudd olaf, yn dymuno llosgi llawysgrif yr "*Æneid,*" gan nad oedd wedi rhoi y cyffyrddiad gorphenol a ewyllysiai i'r gwaith. Ond ni oddefai ei gyfeillion iddo wneyd hyn; cadwyd hi yn ofalus, a chyhoeddwyd hi gan ei gyfeillion Varius a Tucca. Y mae y digwyddiad hwn yn hollol gydweddol â'r oll a wyddys am wyleidd-dra cymmeriad Virgil. Yr oedd y bardd yn gyfoethog o herwydd haelfrydedd ei noddwyr, a gadawodd ar ei ol gryn lawer o eiddo, a phalas ar Fryn Esquiline, ger llaw gerddi Mæcenas. Gwnai ddefnydd haelionus o'i gyfoeth; ac yr oedd ei lyfrgell, yr hon, yn ddiau, oedd yn un ragorol, yn wastad yn agored i ereill ei defnyddio. Arferai anfon arian i'w rieni bob blwyddyn. Yr oedd ei dad yn ddall, a bu fyw ar ei ol ef; ond bu dau o'i frodyr feirw o'i flaen. O herwydd iddo fod mor ffodus a chael noddwyr haelionus, yr oedd ganddo ddigon o amser i'w gyflwyno at lafur llenyddol; ac yr oedd ar delerau cyfeillgar â dynion enwocaf yr oes. Yr oedd Virgil yn ddyn hawddgar, ac o dymmer fwyn—yn rhydd oddi wrth y nwydau iselwael o genfigen ac eiddigedd; a dywedir ei fod yn llwyddiannus yn mhob peth, ond ei iechyd. Dyn tàl ydoedd, o brydwedd tywyll, ac o ran ei ymddangosiad yn debyg i amaethwr. Y "*Georgics*" ydyw cân fwyaf gorphenedig Virgil, yn yr hon y mae yn disgrifio bywyd amaethyddol yn fanwl ac awenyddol. Cân arwrol ydyw yr "*Æneid,*" ar gynllun caneuon Homer, yn gosod allan anturiaethau Æneas ar ol cwymp Caerdroia. Y mae wedi ei sylfaenu ar hen draddodiad Rhufeinaidd, fod Æneas a'i ganlynwyr wedi ymsefydlu yn Italy, ac mai hwynthwy oedd sylfaenwyr y genedl Rufeinig. Y mae hi yn cynnwys llawer o gyfeiriadau at hanes Rhufain; ac y mae amcan y bardd i gadarnhau y traddodiad poblogaidd, mai Æneas, a'i ddilynwyr o Caerdroia, a sefydlodd wladwriaeth Rhufain i'w ganfod yn amlwg drwy y gwaith. Condemnir y gân hon gan rai am nad oes ynddi unoliaeth cyfansoddiad megys yn yr "*Iliad*" a'r "*Odyssey;*" a'i bod hefyd yn ddiffygiol yn y symledd hynafol sydd yn nodweddu y ddwy gân olaf a enwyd. Efelychodd Virgil ereill, heb law Homer; ac yn achlysurol, benthyciodd o'u gweithiau, ac yn enwedig o weithiau Apollonius a Rhodes. Os oedd testyn Virgil, fel y dywed ef ei hun, yn un anhawdd i'w wisgo â dyddordeb, nis gellir gwadu nad oes llawer o'r golygfeydd a'r amgylchiadau a ddarlunir wedi eu gweithio allan ganddo mewn ysbryd gwir farddonol. Y mae synwyr cryf a chwaeth dda Virgil i'w gweled drwy y cwbl, ac yn gwneyd i fyny am y diffyg o wreiddiolder i raddau pell. Fel cyfanwaith, nid ydyw yr "*Æneid*" yn gadael ar y meddwl argraph gref ei fod yn rhywbeth mwy na chân genedlaethol, yn debyg fel y mae yr "*Iliad*" neu yr "*Odyssey*" yn gwneyd; ond y mae er hyny yn gân ddysgedig, ac yn gofadail arosol o dalent a dyfalbarhâd ei hawdwr athrylithgar. Cydnabyddir yn gyffredin mai Virgil ydoedd bardd arwrol penaf Rhufain. Rhagora, yn ddiammheuol, ar Ennius, yr hwn oedd yn byw o'i flaen, ac ar Lucan, Silius Stalicus, a Valerius Flaccus, mewn oes ddiweddarach.

VIRIATHUS: Lusitaniad (hyny yw, Portugead) o genedl, a gwladgarwr enwog, yr hwn a wnaeth ymdrechiadau mawrion er attal ei wlad rhag syrthio o dan awdurdod y Rhufeiniaid. Blodeuai yn yr ail ganrif c. c. Dechreuodd ei fywyd fel bugail defaid; wedi hyny bu yn flaenor ar fintai o filwyr crwydrol; ac ymddengys ei fod yn cadw ei hun, fel llawer o Lusitaniaid cyffiniau y wlad, trwy wneyd ymgyrchoedd ysbeiliadol i diriogaethau Yspaen. Daeth hyn âg ef i wrthdarawiad â galluoedd Rhufain; ac yn y fl. c.c. 151, gorchymynwyd i Ser. Galba oresgyn y

Digitized by Google

wlad, a darostwng y Lusitaniaid. Trwy weithred dwyllodrus ac iselwael, llwyddodd Galba i ddinystrio corph mawr o'r brodorion: ond yr oedd yr ychydig a ddiangasant (ac yn eu mysg Viriathus) wedi eu tanio â digofaint angerddol yn erbyn y Rhufeiniaid, ac yn ddioed aethant at y gorchwyl o gynnhyrfu a chyffroi ysbryd gwladgarol eu cydwladwyr. Ymgododd Viriathus yn fuan i gyhoeddusrwydd. Ar y cyntaf, ymgadwai yn benaf yn y mynyddoedd, ac ymfoddlonai ar flino y gelyn trwy wneuthur ymosodiadau disymmwth ac annisgwyliadwy arno. Ond yn y flwyddyn c. c. 147, ar ol cael ei ddewis mewn modd ffurfiol yn arweinydd mewn adeg o berygl mawr, efe a ymladdodd frwydr gyda'r cadfridog Rhufeinaidd Vetilius, ger llaw Tribola, yn ddeheuol i'r Tagus, ac ennillodd oruchafiaeth lwyr arno. Yn nghwrs y ddwy flynedd ddilynol, ennillodd amryw fuddugoliaethau ar fyddinoedd Rhufain: ond yn y fl. c. c. 144, cyfarfu y consul Æmilianus âg ef yn Andalusia gyda byddin fawr o 15,000 o draedfilwyr, a 2,000 o feirchfilwyr, a gyrodd ef yn ol i'w lochesau mynyddig. Ond torodd y llwythau Yspaenaidd allan mewn gwrthryfel cryf yn erbyn eu meistriaid tramorol; ac ar ol y fl. 143, yr oedd y Rhufeiniaid yn rhyfela â'r Numantiaid ac â'r Lusitaniaid. Y cadfridog a ddanfonwyd yn erbyn Viriathus oedd y pen-trysorwr Pompeius; ac er iddo lwyddo am dymmor, efe a lwyr orchfygwyd yn Mryn Gwener, ac a orfodwyd i gymmeryd noddfa yn Corduba; tra y darfu i'r gorchfygwr anrheithio yr holl wlad o amgylch y Guadalquivir. Yn y flwyddyn ddilynol (c. c. 142), bu y Rhufeiniaid yn fwy ffodus. Y consul Servilianus a ddygai y rhyfel yn mlaen, a llwyddodd i yru Viriathus allan o Yspaen unwaith yn rhagor, ac i lwyr ddinystrio amryw o finteioedd o filwyr crwydrol: ond yn 141, cyfarfu â thrychineb ofnadwy gęr Grisane -pan yr amgylchywyd ei fyddin ar bob cyfeiriad mewn bwlch mynyddig, a bu raid iddo roddi ei hun a'i fyddin i fyny yn ddi-ammodol. Dangosodd Viriathus fawrfrydigrwydd ardderchog, fel y gwnaethai Caius a Pontius mewn amgylchiadau cyffelyb a gymmerasant le yn Caudine Forks, yn adeg y fuddugoliaeth fawr:—efe a ollyngodd ei garcharorion ymaith yn rhydd, ac heb eu niweidio, ar yr ammod fod Servilianus yn caniatau i'r Lusitaniaid gadw eu hannibyniaeth, a'u bod yn parhau yn gyngrheiriaid. Derbyniwyd y telerau hyn; ac i bob ymddangosiad, yr oedd y gwladgarwr Portugeaidd wedi cael goruchafiaeth ar ei wrthwynebydd mawr a galluog: ond yn 140, darfu i'r consul Q. Servilius Cæpio (brawd Servilianus), ar ol derbyn y llywyddiaeth yn Yspaen, yn sydyn, ac mewn modd bradwrus, adnewyddu y rhyfel yn erbyn Viriathus; a chan yr ofnai efe na buasai yn llwyddo wrth ymladd yn deg, llwgrwobrwyodd genhadon Lusitanaidd (a anfonwyd ato gan Viriathus i gynnyg ammodau heddwch) i lofruddio eu harweinydd—yr hyn a wnaethant pan oedd efe yn cysgu yn ei babell. Yn ymarferol, bu marwolaeth y penaeth arwrol hwn yn ddinystr i achos annibyniaeth y Lusitaniaid; o herwydd er i ganlynwyr Viriathus ddewis arweinydd arall yn ei le, ac ymdrechu gyda llawer o benderfyniad i ddwyn y rhyfe yn mlaen, o'r braidd y gallasent gadw y maes ar hyd y flwyddyn hono; a chyn ei diwedd, yr oedd yn dda ganddynt gael cyfleusdra i gydnabod uchafiaeth y Rhufeiniaid arnynt.

VOLNEY, CONSTANTIN FRANCOIS CHASSEBŒUF: awdwr enwog o Ffraingc. Ganwyd ef yn Craon, yn Anjou, ar y 3ydd o Chwefror, 1757. Dadleuydd o gryn enwogrwydd oedd ei dad. Ei enw teuluaidd oedd Chassebœuf; ond wedi tyfu yn ddyn, efe a gymmerodd y cyfenw Volney yn chwanegol at y llall. Derbyniodd ei addysg ragbarotoawl yn ngholegau Ancenis ac Angers; ac wedi hyny, bu yn astudio am dymmor maith yn mhrifysgol Paris. Ewyllys ei dad oedd, iddo ymaflyd yn yr un alwedigaeth ag yntau; felly efe a dreuliodd beth amser yn astudio ar gyfer y bàr: ond ymwrthod â'r alwedigaeth hon a ddarfu iddo, a throi ei sylw at physygwriaeth, er nad arferodd efe yr alwedigaeth hono. Cafodd gryn eiddo ar ol ei fam; ac yn fuan ar ol gorphen ei efrydiau, yn y flwyddyn 1783, efe a gychwynodd tua'r Aipht, gyda'r amcan o deithio drwy yr Aipht a Syria. Cymmerodd y daith iddo bedair blynedd i'w chwblhau. Ar ei ddychweliad i Ffraingc yn 1787, cyhoeddodd ei "*Travels in Syria and Egypt;*" yr hwn a gynnwysa hanes manwl a dyddorawl o'r llwythau y bu efe yn teithio yn eu mysg. Ennillodd y gwaith yma iddo gryn enwogrwydd ar unwaith. Yn 1790, etholwyd ef yn aelod o'r llwyrwys (*states-general*) dros ei le genedigol, a chymmerodd ran lled amlwg yn y dadleuon a ddygid yn mlaen yn y blynyddoedd dilynol; a dangosodd ei hun, megys yn ei weithiau, yn gyfaill mawr i ryddid cyhoeddus—ond tueddai at wneyd gwawd o bob crefyddau. Yr un pryd yr oedd yn wrthwynebwr di-ofn i bob creulondeb ac anfadrwydd. Carcharwyd ef am ei waith yn dyweyd ei feddwl yn rhy rydd yn 1793, ac ni chaniatawyd iddo ei ryddid hyd ar ol marwolaeth Robespierre yn mis Gorphenaf y flwyddyn ddilynol.

Yn mis Medi, 1794, efe a gyhoeddodd ei "*Ruins: Reflections upon the Revolutions of Empires;*" ar yr hwn, ynghyd â'i "*Travels,*" y mae ei enwogrwydd yn gorphwys yn benaf. Credai Volney fod gwleidyddiaeth, fel pob trefniadau ereill, yn ddarostyngedig i adfeiliad a dinystr. Ymdrinia yn ei "*Ruins of Empires*" â phob cwestiwn o bwys mewn gwleidyddiaeth. Yr egwyddorion gwleidyddol y dadleuai drostynt oedd y rhai a fabwysiadwyd yn Ffraingc yn 1789. Amddiffynai yr athrawiaeth o hawliau dyn, gan ddadleu dros oddefiad mewn materion o opiniwn, a haerai fod pob cyfundrefn grefyddol o ddeilliad dynol. Yn y flwyddyn o'r blaen, yr oedd Volney wedi cyhoeddi ei draethawd a elwir "*Natural Law;*" sef, holwyddoreg i ddinesydd Ffrengig, yn yr hwn yr ymdrinia â moesoldeb fel gwyddor anianyddol, i'w hefrydu ar yr un egwyddorion a'r gwyddorau naturiol ereill, ac heb fod un amcan iddi yn amgen na diogeliad a gwellhâd cymdeithas. Cyhoeddwyd y gwaith hwn wedi hyny o dan y teitl "*Physical Principles of Morality.*"

Tua diwedd y fl. 1794, pennodwyd ef yn broffeswr hanesyddiaeth yn yr *Ecole Normale;* a gwnaeth ei ddarlithiau disglaer gyffro mawr yn Paris, hyd yn oed yn yr adeg ansefydlog a chynnhyrfus hono. Pan y cauwyd i fyny yr *Ecole Normale* yn 1795, aeth Volney i'r Unol Daleithiau, gan fwriadu treulio gweddill ei oes yn y wlad hono; ond gwnaeth amgylchiadau ei drigfod yno yn gwbl anghysurus, a dychwelodd yn ol i Ffraingc yn ngwanwyn y fl. 1798. Yn ei absennoldeb, yr oedd wedi ei ethol yn aelod o'r *Institute;* ac yn fuan ar ol ei ddychweliad,

Digitized by Google

dewiswyd ef yn aelod o'r athrofa hefyd; ac o hyny allan, bu ei fywyd, er nad yn ddilafur, yn llwyddiannus a thawel. Daeth yn gynnar i gydnabyddiaeth â Bonaparte; ac yr oedd hefyd wedi bod o wasanaeth iddo yn yr adeg yr oedd amgylchiadau gwleidyddol wedi ei daflu o wasanaeth y wladwriaeth: a phan y pennodwyd Bonaparte yn brif gonsul, dymunodd ar Volney i gymmeryd y swydd o weinidog cartrefol yn ei weinyddiaeth, neu ynte gonsuliaeth. Gwrthododd yntau y naill a'r llall—ond derbyniodd eisteddle yn y senedd. Gwrthdystiai yn erbyn sefydliad yr ymherodraeth, a rhoddodd ei eisteddle yn y senedd i fyny; ond gwrthodwyd derbyn ei ymddiswyddiad: a thra y parhaodd yr ymherodraeth, yr oedd yn mysg yr ychydig yr oedd Napoleon yn arfer eu gwawdio, am nad oeddynt yn ymostwng yn dawel i bob peth a ewyllysiai efe. O hyny allan, pa fodd bynag, gyda llenyddiaeth y llafuriodd yn benaf. Cyhoeddodd ei "*Researches into Ancient History*," ac hefyd amryw o weithiau cyssylltiedig âg ieithyddiaeth, yn y rhai yr ymdrechai i wneuthur yn fwy syml yr efrydiaeth o'r ieithoedd dwyreiniol. Bu farw ar y 25ain o Ebrill, yn y fl. 1820, yn 63ain mlwydd oed. Un o'i ddiffygion mawr oedd, ei fod wedi yfed yn helaeth o ysbryd anffyddol yr oes a'r wlad yr oedd efe yn byw ynddynt.

VOLTAIRE, FRANCOIS MARIE AROUET: un o awduron enwocaf Ffraingc, yr hwn, yn ol ei adroddiad ei hun, a anwyd ar yr 20fed o Chwefror, yn y fl. 1694, yn Chatenay, yn agos i Sceaux. Y mae cofrestr ei fedyddiad, pa fodd bynag, yn nodi Paris fel lle ei enedigaeth, ac yn ei ddyddio ar Tachwedd 21ain, yn y flwyddyn hono. Nid yw ei fywgraphwyr yn gallu cydolygu pa un o'r ddau ddyddiad uchod sydd yn gywir. Enw ei dad oedd Francois Arouet, cofiadur perthynol i'r Châtelet, ac wedi hyny trysorydd yn ystafell y cyfrifon. Enw ei fam oedd Marguerite D'Amnar; ac yr oedd hi yn hanu o deulu pendefigaidd yn Poitou. Francois oedd yr ieuangaf o ddau fab a anwyd iddynt. Cafodd ei addysg yn ngholeg Louis le Grand, Paris; ac ar orpheniad tymmor ei addysgiaeth, dechreuodd astudio y gyfraith. Ond nid oedd yn teimlo yr hyfrydwch lleiaf yn y gwaith hwnw; gan hyny, rhoddodd ef heibio, a dechreuodd ar ei yrfa lenyddol. Trwy offerynoliaeth yr Abbe de Châteauneuf, daeth i gydnabyddiaeth gyda Ninon de l'Enclos, a thrwyddi hi cafodd ei ddwyn i'r gymdeithas uchaf yn Ffraingc. Yn y cylchoedd llygredig a ffraeth hyny, gan nad oedd efe ei hun yn ol yn y pethau hyn, yr oedd y dyn ieuangc hwn yn hynod lwyddiannus; ac mor foddhaol y teimlai yn y cylch hwnw, fel y dywedai un diwrnod, wrth edrych o gwmpas y bwrdd yr eisteddai wrtho: "Yr ydym oll, naill ai yn dywysogion neu yn feirdd." Yr oedd ei dad, pa fodd bynag, yn anghymmeradwyo yn fawr y bywyd a arweiniai efe fel un anfoesol, a threulfawr hefyd, dybygid; ac anfonodd ef ar neges neillduol i Holland. Yn fuan ar ol ei ddychweliad i Paris, daliwyd ef ar y dybiaeth—er ei bod yn ddisail—o fod yn awdwr rhai llinellau barddonol gwawdus, cyfeiriedig at lywodraeth Louis XIV., yr hwn oedd wedi marw er's ychydig o amser; a thaflwyd ef i garchar y Bastille yn mis Mai, 1717, lle y cadwyd ef am flwyddyn. Yno yr oedd pan y tynodd efe amlinelliad ei bryddest glodfawr, a gyhoeddwyd wedi hyny o dan y teitl "*Henriade*," ac y gorphenodd ei dreisgan, "*Œdipe*," yr hon a ddygwyd allan yn niwedd 1718, ac a fu mor lwyddiannus nes peri i'w dad feddwl fod barddoniaeth ei fab yn debyg o fod yn rhywbeth! Ni bu ei dreisgân nesaf drachefn, "*Artemire*," mor lwyddiannus: mewn gwirionedd, hwtiwyd hi oddi ar yr esgynlawr; ac nis gellir dyweyd fod y nesaf a gynnyrchodd, sef "*Mariane*," wedi cael nemawr gwell derbyniad.

Yn y cyfamser, yr oedd Voltaire wedi talu ymweliad â Holland, ac wedi ymgydnabyddu â Jean Baptiste Rousseau, yr hwn a brewyliai ar y pryd yn Brussels. Cyfarfu y ddau ddyn athrylithgar hyn fel cyfeillion, ond ymadawsant â'u gilydd yn elynion anghymmodlawn. Ymddengys i'r cweryl ddechreu trwy i Voltaire ddefnyddio rhyw air cellweirus am un o gyfansoddiadau Rousseau. Yn haf y fl. 1725, cymmerodd amgylchiad le a fu o ganlyniadau lled bwysig i Voltaire. Pan ar giniaw yn mhalas y Duc de Sulli, digwyddodd iddo atteb yn sarug, ac mewn ymadroddion brathog, ryw sylw cás a wnaethid arno gan y Chevalier de Rohan; yr hwn, gan iddo gael ei orchfygu mewn ffraethineb cellweirus, fel yr oedd y rhan fwyaf o'r rhai a feiddient dynu y dorch â Voltaire yn hyn yn debyg o gael, a gyflogodd ddynion i ymosod arno a'i guro mewn man cyhoeddus ar yr heol. Wedi cael ei sarhau mor fawr, ymneillduodd Voltaire o gymdeithas Paris am beth amser, ac ymroddodd i ymarfer â'r cleddyf, fel y gallai fod yn fedrus yn yr ymarferiad o hono; ac yna danfonodd herfeiddiad i De Rohan i ymladd gornest (*duel*) âg ef. Nid oedd gan y diweddaf duedd i wneyd hyn. Ystyriai ei fod wedi anfarwoli digon arno ei hun trwy ei waith yn ammharchu y bardd, ac nad oedd yn angenrheidiol iddo, er mwyn anfarwoli mwy arno ei hun osod ei fywyd mewn perygl. Cymmerodd arno dderbyn yr herfeiddiad; ond yr attebiad ymarferol oedd—cymmerwyd Voltaire unwaith etto, a dodwyd ef yn ngharchar y Bastille. Ni bu ei garchariad y tro hwn 'yn faith; ac ar yr ammod fod iddo ymadael o'r wlad, caniatawyd iddo ei ryddhâd oddi yno; ac wedi dyfod allan, daeth drosodd i Loegr. Ychydig cyn yr adeg hono, yr oedd wedi mabwysiadu yr enw Voltaire, yn chwanegol at Arouet.

Yn y flwyddyn 1726 y daeth efe i Loegr, ac arosodd yma ddwy flynedd. Nid oes genym ond ychydig o hanes yr adeg hon ar ei oes. Ond y mae hyn yn dra thebygol—ei fod yn ymgymmysgu â dosbarthiadau uchaf cymdeithas tra yma. Adwaenai Pope a Bolingbroke, a llawer o ddynion enwog ereill y wlad yn ddiammheu. Adroddir hanes am ei ymweliad â Congreve, y bardd, a'r frwydr fach ffraethebol a fu rhyngddynt. Tueddai Congreve i fychanu ei enwogrwydd ei hun fel awdwr, ac i raddau ei hawl hefyd i'w ystyried ei hun yn meddu safle gymdeithasol uchel. Ar ei waith yn arwyddo i Voltaire mai fel boneddwr coeth yn unig y dymunai efe i'w gyfeillion edrych arno, attebwyd ef gan ei ymwelydd fel hyn:—pe na buasai efe yn ddim amgen na'r boneddwr coeth, mai prin y buasai efe yn ystyried ei bod yn werth iddo geisio yr anrhydedd o ddyfod i gydnabyddiaeth âg ef. Diammheuol i breswyliad Voltaire yn Lloegr fod yn fanteisiol iddo er eangu ei wybodaeth a'i syniadau. Yr oedd damcaniaethau y deistiaid Saesnig enwog, Bolingbroke, Collins, Tindal, a Woolaston, &c., yn hollol gydnaws â'i

Digitized by Google

feddwl ef. Astudiodd hefyd athrawiaeth Newton a Locke yn ymroddgar; ac yn y farddoniaeth ddramäyddol a gyfansoddwyd ganddo ar ol hyn gellir canfod arwyddion o ddylanwad Shakespeare yn amlwg; yr hwn, er hyny, a wawdiai ac a ddirmygai efe fel ysgrifenydd barbaraidd, annyoddefol i bawb oedd yn meddu ar chwaeth briodol. Pa fodd bynag, i Voltaire, wedi'r cwbl, y perthyna yr anrhydedd o fod y Ffrangcwr cyntaf i gydnabod, er ei fod braidd yn rwgnachlyd wrth wneuthur hyny, ragoriaeth bardd mawr cenedlaethol y Saeson. Nid symbyliad deallol oedd yr unig beth yr oedd Voltaire yn ddyledus am dano i Loegr. Tra yn trigiannu yn yr ynys hon y cyhoeddodd efe argraphiad diwygiadol o'i bryddest arwrol, "*Henriade*"—argraphiad dirgelaidd o'r hwn a ymddangosodd yn Ffraingc cyn hyn. Cyflwynwyd y gwaith yn Saesneg i'r frenhines Caroline; a'i henw hi, ac ereill o'i theulu, oedd gyntaf yn rhestr y tanysgrifwyr tuag at y gwaith; ac wrth gwrs, nis gallai prif bobl y deyrnas lai na dilyn yr esampl hon. Y canlyniad fu, i Voltaire gael swm mawr o elw (8,000*p.*, meddir) oddi wrth yr anturiaeth—yr hyn a osododd i lawr sylfaen i'w eiddo mewn amser dyfodol. O'r amser y dychwelodd i Paris yn 1728, yr oedd ganddo ar law o hyd ryw anturiaethau arianol. Rhoddai arian allan mewn ŷd, mewn cig moch, neu unrhyw beth y gallai wneyd ceiniog o hono: ac mor graff oedd efe gydag amgylchiadau arianol, fel, er nad oedd yn derbyn ond ychydig o elw oddi wrth ei lyfrau, er eu dirfawr boblogrwydd, y dywedir ei fod yn werth 7,000*p.* yn flynyddol pan y bu farw:—yr hyn a ystyrid y pryd hwnw yn gynnysgaeth tywysogaidd. O'i lafur llenyddol, yr hwn oedd o hyn allan yn ddi-dor, drwy yr hyn y cynnyrchodd ddeg a phedwar ugain o gyfrolau, nis gellir rhoddi adroddiad manwl yma. Yr oedd mewn gwirionedd yn meddu athrylith at bob peth yn mron. Ysgrifenai ar bob peth—hanesyddiaeth, chwarawdau, a phryddestau, a thraethodau llenyddol, gwyddonol, ac athronyddol: ond nofelau a ysgrifenai fwyaf, gyda'r amcan o egluro rhyw syniadau neillduol o'i eiddo ei hun. Yr oedd ei ohebiaeth lenyddol hefyd ar raddfa eang iawn. O'r braidd y byddai byth heb fod mewn rhyw ddadl bwysig neu gilydd; a byddai ei wrthwynebwyr megys yn gorfod ymnyddu mewn poen, er difyrwch i'r cyhoedd, dan fflangell ei ffraethineb llym a chwerw.

Daeth Voltaire yn gydnabyddus â boneddiges o'r enw Châtelet, yr hon oedd yn byw ar wahân oddi wrth ei gŵr, yr Ardalydd du Châtelet; yr hon oedd yn nodedig, nid yn unig ar gyfrif ei hymddangosiad personol, ond hefyd am ei chyrhaeddiadau meddyliol. Yr oedd hi yn hynod o fedrus mewn mesuroniaeth, ac wedi meistroli dirgelion "*Principia*" Newton; a buant yn cydfyw yn Cirey, hen balas yn Champagne, am tua phymtheng mlynedd, ac yn cydefrydu llawer ar weithiau Newton, hyd nes y bu farw Madame du Châtelet, yn 1748. Yr oedd eu hymdrafodaeth â'u gilydd yn ddiau i'w gondemnio yn ol pob rheol o foesoldeb ac uniondeb; ond yr oedd moesau Ffraingc wedi disgyn mor isel y pryd hwnw fel nad oedd ond ychydig o'r Ffrangcod i'w cael i lwyr gondemnio y fath ymddygiadau. Er gwneyd i ffordd â'r teimlad o unigrwydd a'i meddiannai ar ol colli ei gydymaith, aeth Voltaire i Paris; ac yn y flwyddyn 1750, aeth i Berlin, ar wahoddiad brenin ieuangc Prwssia, yr hwn wedi hyny a alwyd 'Frederick Fawr.' Yr oedd llawer o ohebu wedi bod rhwng y ddau o'r blaen; ac ymddengys eu bod yn coleddu syniadau uchel a diffuant o edmygedd y naill tuag at y llall. Pan y daethant at eu gilydd, pa fodd bynag, ymddengys eu bod rywfodd wedi cael eu siomi yn eu gilydd. Cweryla yn chwerw a wnaethant, ac ymadael a wnaeth Voltaire mewn soriant; ac ar ei fynediad o Prwssia, ymddygwyd tuag ato mewn modd ag y teimlai fod yn anhawdd ganddo faddeu i'r troseddwyr. Nid eir i mewn yma i fanylion y cweryl. Pan ddywedir fod y brenin yn fardd llygredig ac isel, ac mai un o'r pethau penaf y gelwid ar Voltaire i'w wneuthur– yr hwn oedd yn fardd o enwogrwydd a choethder—ydoedd beirniadu a diwygio ei waith, yr ydym yn ddiau, heb fyned yn mhellach, wedi cael allan pa beth oedd un o brif achosion yr anghyttundeb. Yr oedd Voltaire yn dirmygu caneuon y brenin; a'r brenin, o'i du yntau, er mai bardd gwael oedd efe, yn dirmygu beirniadaeth a diwygiadau Voltaire. Nid rhyfedd, gan hyny, eu bod yn fuan wedi troi i gasau eu gilydd. Heddychwyd hwynt ar ol hyn, pa fodd bynag, ac adnewyddwyd eu hen ohebiaeth lenyddol o dan yr hen ffurf o gyfeillgarwch; ond yn y cyfamser, yr oedd Voltaire yn ei ddifyru ei hun trwy ddial ar Frederick wrth gyfansoddi y "*Vie Privée du Roi de Prusse*," a gafwyd yn mysg ei bapurau ar ol ei farwolaeth; ac a gyhoeddwyd, yn ol pob argoelion, fel y dymunai yr awdwr ffraethlym.

Ar ol rhai blynyddoedd o fywyd lled ansefydlog, yn y fl. 1758, sefydlodd Voltaire ei hun, ynghyd â'i nith, Madame Denis, yn Ferney, yn Switzerland; a chydag ychydig eithriadau, yno y treuliodd efe yr ugain mlynedd diweddaf o'i oes. Yn ystod y cyfnod hwn, y mae rhai llinellau haelfrydig yn ei gymmeriad yn cael eu dwyn i'r golwg. Mynegir iddo waredu o afael angeu nith i'r bardd mawr Ffrengig, Corneille, a rhoddi iddi addysg dda a gofalus o dan ei arolygiaeth ei hun yn Ferney; a chyflwynodd iddi hefyd yr elw deilliedig oddi wrth werthiant argraphiad, gyda sylwadau eglurhaol, o weithiau y chwareufardd, yr hwn a ddygodd allan o bwrpas gyd â'r amcan o'i chynnorthwyo. Gwnaeth ymdrechion mawr hefyd ar ran teulu Calas; y rhai a fuant yn wrthddrychau erledigaeth eithaf annheg. Annogodd ei nith ef i ymweled â Pharis yn y flwyddyn 1778. Derbyniwyd y bardd, yr hwn oedd ar y pryd yn y 84ain mlwydd o'i oedran, gyda chroesaw a brwdfrydedd digyffelyb yn y brifddinas; a thybir yn gyffredin fod y cyffroad cyssylltiedig â hyn wedi bod yn foddion i brysuro ei farwolaeth—yr hyn a gymmerodd le ar y 30ain o fis Mai y flwyddyn hono.

Gyda'r eithriad—os gellir ei eithrio hefyd—o Rousseau, Voltaire, yn ddiammheuol, oedd y mwyaf hynod o'r rhestr o ysgrifenwyr enwog a fuont yn parotoi y wlad, ac yn arloesi y ffordd i'r cyffroad a'r cyfnewidiad mawr a gymmerodd le yn adeg chwyldroad mawr Ffraingc. Gŵyr pawb ei fod wedi ymarfer ei alluoedd mawrion mewn dadleuon ynghylch pethau a berthynent i grefydd; ac y mae yn arferiad cyffredin i ddywedyd ei fod yn atheist, neu yn gwadu bodolaeth Duw; ond y mae yn amlwg fod hyn yn anghywir. Yr oedd yn ymwrthod â chrefydd ddadguddiedig, y mae yn wir, ond yn dadleu dros egwyddorion crefydd naturiol, fel y galwai hi; ac mewn gwirionedd, ymddengys mai deist ydoedd efe, o'r un nodwedd a llawer oedd yn

Digitized by Google

prffesu anffyddiaeth yn Lloegr yn yr oes hono. Ac fel y cyfryw, yr oedd yn cael ei ddirmygu gan rai oedd wedi myned yn mhellach nag ef mewn cyfeiriad anffyddol yn Ffrainge yn y dyddiau hyny—megys Diderot, a'r cyffelyb—y rhai a ystyrient fod credu yn Nuw yn arwydd o wendid dealltwriaethol! Yr arf yr oedd Voltaire yn gwneyd mwyaf o ddefnydd o hono yn ei ysgrifau, a'r hwn a drinid yn fwyaf medrus ganddo, o bossibl, oedd gwatwareg (*ridicule*); ac fe allai na bu neb o'r bron yn gallu gwneuthur defnydd gwell o honi, ac yn fwy o feistr arni hefyd, nag efe. Yn ei ffordd ei hun o ddefnyddio gwawdiaith goethedig, dywedir ei fod etto heb ei gymmhar. Y mae ei arddull yn ei weithiau rhyddieithol yn un o'r rhai perffeithiaf yn yr iaith Ffrengig. Rhagora ar gyfrif ei thlysni, ei heglurder, a'i bywiogrwydd; ac y mae yn hynod nodweddiadol o'r genedl a'r iaith. Fel awdwr chwareuawdau, y mae Voltaire yn cael ei restru yn nesaf at Corneille a Racine. Ei bryddestau enwocaf ydynt "*Henriade*," at yr hon y gwnaed cyfeiriadau o'r blaen—yr unig bryddest arwrol o deilyngdod uchel sydd yn yr iaith Ffrengig; a'i "*La Pucelle*," yr hon a gondemnir yn fawr, y mae yn wir, am y dull anfoesgar a llygredig yr ymdrinia efe â chwedl arwraidd Ioan o Arc, morwynig Orleans; ond y mae ynddi farddoniaeth uchelryw. Y mae yn ngweithiau hanesyddol Voltaire, yn chwanegol at y drefn a'r eglurder mwyaf, ymdriniaeth fwy athronyddol nag a roddid i byngciau hanesyddol yn flaenorol i'w amser ef. Nid oedd un bywgraphiad llawn a phriodol o hono wedi ymddangos yn yr iaith Ffrengig na'r Saesnig hyd yn ddiweddar, pan y cyhoeddwyd bywgraphiad rhagorol o hono mewn tair cyfrol, gan Francis Espinasse. Ceir amlinelliad tarawgar iawn o'i fywyd boreuol yn yr ail gyfrol o "*Frederick the Great*," gan Thomas Carlyle; ac wrth gwrs, y mae ei gyssylltiadau â Frederick yn cael ymdriniaeth lawn yno. Fel beirniadaeth deg ar Voltaire, fel dyn ac ysgrifenydd, ni cheir dim yn well na'r hyn a geir yn nhraethawd Carlyle arno.

Digitized by Google

# W.



WAHABIAID: sect Fahometaidd, o darddiad lled ddiweddar, sydd yn awr yn lliosog iawn yn y rhan fwyaf o Arabia. Gellir edrych ar y symmudiad hwn mewn rhyw ystyr fel un diwygiadol, wedi ei fwriadu i wrthweithio ac i daflu allan y llygredigaethau a ddygasid i mewn i'r grefydd Fahometaidd yn nghwrs oesau, a dwyn yn ol athrawiaethau ac arferion y Mahometiaid i gydymffurfio yn llythyrenol â chyfarwyddiadau y "*Coran*" a'r "*Sunna;*" hyny yw, traddodiadau *llygredig* Mahomet ei hun. Y mae y Wahabiaid wedi arfer meddwl ei bod yn ddyledswydd arnynt hyrwyddo eu golygiadau yn mlaen trwy ddefnyddio y cleddyf; ac y maent yn hyny yn dilyn yn fanwl gyfarwyddiadau ac arferion y prophwyd ei hun, a'r caliphiaid boreuaf. Sylfaenydd y blaid hon oedd Ibn-abdul-Wahab, mab i benaeth Arabaidd, a anwyd yn Nejed, yn nghanolbarth ucheldiroedd Arabia, yn agos i ddiwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg. Mynegir iddo dalu ymweliad âg amryw ysgolion yn y dwyrain, a'i fod wedi bod yn trigo yn Damascus am rai blynyddoedd; ac yma, dybygid, y ffurfiodd efe y penderfyniad i adferu yn ol i'w ffurf wreiddiol y grefydd Fahometanaidd. Nid gwaith bychan oedd hwn a osododd efe o'i flaen. Yr oedd cyfarwyddiadau y "*Coran*" yn cael eu hammharchu i raddau pell y pryd hwnw drwy yr holl fyd Mahometaidd, ond yn fwyaf neillduol yn mysg y Tyrciaid; ac nid oedd y cyfan o'u crefydd yn ddim amgen na chylch o seremoniau allanol. Yn nghanolbarth a dwyreinbarth Arabia, lle nad oedd y ffydd Fahometaidd wedi cymmeryd gafael dwfn, yr oedd pethau yn waeth drachefn. Yn ol Palgrave, yr oedd braidd bob olion o Islamiaeth wedi llwyr ddiflanu o Nejed, lle yr addolid y Djann (rhyw dduw dychymygol), dan gysgod coed mawrion, ac yr aberthid ar feddau y meirw, ac yr ymarferid â hen ofergoelion Sabeaidd. Nid oedd y "*Coran*" yn cael ei ddarllen, anghofid y pum gweddi ddyddiol, nid oedd neb yn gofalu yn mha le yr oedd Mecca; ac yr oedd degymau, golchiadau, a phererindodau yn bethau nad oedd sôn am danynt." Ar y pryd yr oedd canolbarth Arabia wedi cael ei ranu yn mysg lliaws o benaethiaid annibynol. Un o'r penaethiaid hyny oedd Sa'ud—dyn ieuangc o feddwl galluog a brwdfrydig, yr hwn a lywodraethai diriogaeth fechan ger amddiffynfa Deraijeh; a'r dysgybl pwysig cyntaf a wnaeth Ibn-abdul-Wahab, ar ol ei ddychweliad adref; ond dilynwyd esampl y penaeth hwn gan ei berthynasau a'i weision. Dywedir fod Wahab wedi addaw i Sa'ud, os dadweiniai efe y cleddyf yn mhlaid Islamiaeth bur, y gwnelid ef yn unig lywodraethwr Nejed, a'r penadur mwyaf yn holl Arabia. Cyflawnwyd y rhagfynegiad mewn rhan yn nheyrnasiad Sa'ud, ac yn gyflawn yn amser ei fab; a'i ddisgynyddion ef ydyw y teulu mwyaf galluog yn y gorynys hwnw hyd heddyw; ac y mae teulu Ibn-abdul-Wahab (yr hwn a fu byw hyd 1787) yn parhau i fod i raddau yn gyfarwyddwyr crefyddol etto, er na pherthyna iddynt unrhyw awdurdod addefedig. Tua'r flwyddyn 1746 y dechreuodd Sa'ud weithredu fel apostol milwrol Islamiaeth adfywiedig. Darostyngodd ei gymmydogion hereticaidd, y naill ar ol y llall:—ei gynnyg iddynt oedd, naill ai troi, neu gael eu lladd. Bu farw y penaeth hwn yn 1765, ac olynwyd ef gan ei fab, Abdul-Aziz, yr hwn a gariodd allan yn llwyddiannus yr un wladlywiaeth a'i dad. Yr oedd ei awdurdod yn ymestyn hyd Hasa, a lleoedd ereill ar lenydd morgaingc Persia; ond daeth i wrthdarawiad â'r awdurdodau Tyrcaidd yn Bagdad; ac o'r lle hwnw, anfonwyd allan ymgyrch yn erbyn y Wahabiaid yn 1797; ond methwyd myned i Nefed—a throi yn aflwyddiannus a wnaeth yr ymgais.

Erbyn hyn ymhyfhaodd y Wahabiaid, aethant ar ymgyrchoedd ysbeilgar tua'r Euphrates; ac yn 1801, darfu i Sa'ud, mab Abdul-Aziz, arwain byddin yn erbyn dinas sanctaidd Meshed Hussein, a'i chymmeryd hi, a rhoddi y rhan fwyaf o'r preswylwyr i farwolaeth. Dinystriodd feddrod Hussein, ŵyr i Mahomet, a chariodd ymaith y trysorau. Ar hyny, anfonwyd ail fyddin Dyrcaidd o Bagdad yn erbyn Nejed; ond gorchfygwyd hithau hefyd, a lladdwyd y rhan fwyaf o honi. Yna ymgymmerodd y Wahabiaid wedi hyny â goresgyn Hejaz. Yr oedd Ghaleb, llywodraethwr Mecca, wedi cael ei amgylchynu gan y penaethiaid cymmydogaethol oedd wedi ymuno â'r Wahabiaid; ac yn 1803, casglodd Sa'ud fyddin liosog, a gorchfygodd Ghaleb mewn amryw frwydrau; a gosododd warchau ar Mecca, yr hon, ar ol dal allan am ddau neu dri mis, a ymostyngodd. Ni chyflawnwyd dim creulonderau; ond gorfodid y bobl i broffesu Wahabiaeth—hyny ydyw, fel y dywed Burckhardt, "gorfodid hwynt i weddïo yn fanylach nag arferol, i roddi o'r neilldu a chuddio eu gwisgoedd sidan, ac i ymattal rhag ysmocio yn gyhoeddus. Casglwyd pentyrau o bibellau o holl dai y dref, a llosgwyd hwynt o flaen pencadlys Sa'ud, a gwaharddwyd pawb i werthu myglys." Wedi methu darostwng Iddah, y man lle yr oedd Ghaleb wedi myned, aeth lluoedd o Wahabiaid tua'r gogledd; ac yn 1804, hwy a gymmerasant Medina; ac yna, hwy a ysbeiliasant feddrod Mahomet o'i drysorau, a gwaharddasant bawb, ond Wahabiaid, i ddyfod yn agos ato, am eu bod yn ystyried fod y parch a delid iddo gan y Tyrciaid, ac ereill, yn eilunaddoliaeth. "Yn Medina," medd Burckhardt, "rhoddwyd mewn grym y gorchymyn i ymarfer â'r ddyledswydd

Digitized by Google

o weddïo yn rheolaidd. Gelwid enwau yr holl feibion oedd mewn oedran, ac a breswylient y ddinas, yn y deml bob dydd, ar ol gweddïau y boreu, canol dydd, a'r hwyr; a chospid y sawl na byddent yn atteb i'r alwad. Yn ystod yr amser y cymmerodd y digwyddiadau hyn le, cafodd Abdul-Aziz ei lofruddio, yn niwedd y fl. 1803, gan ryw benboethyn Persiaidd—teulu yr hwn a roddwyd i farwolaeth gan y Wahabiaid yn Meshed Hussein. Ei olynydd ef oedd ei fab, Sa'ud II., yr hwn am beth amser oedd wedi cario y rhyfel yn mlaen; a'r hwn hefyd yn ddiau oedd y llywodraethwr a'r rhyfelwr galluocaf o'r deyrnach hon. Parhaodd am amryw flynyddoedd, ar ol gorchfygu Hejaz, i eangu a chryfhau ei awdurdod. Gwnaed ymgyrchoedd rhyfelgar i gymmydogaethau Bagdad, Aleppo, a Damascus; a darfu i benaeth Wahabaidd Asir orfodi rhan fawr o'r Yemen i dderbyn y ffydd newydd. Ar du y dwyrain, cymmerodd Sa'ud ynysoedd y Bahrein, a mynodd deyrnged gan sultan Ornan. Daeth hyn âg ef i wrthdarawiad â Phrydain Fawr; ac anfonwyd amryw longau allan, y rhai a gospasant gyda llymder y môrladron Wahabaidd oedd yn peri cymmaint o anfantais a niwed i fasnach morgaingc Persia.

Tra yr oedd yr ymrafaelion allanol yma yn myned yn mlaen, torodd amryw o daleithiau deheuol Nejed allan mewn gwrthryfel. Cynnhyrfid hwynt yn benaf, fe allai, gan y penaethiaid lleol—awdurdod pa rai erbyn hyn oedd yn hynod fychan, neu wedi ei ddwyn oddi arnynt yn llwyr gan y llywodraeth; ond darostyngwyd y terfysg yn fuan, a gwnaed esampl echryslawn o dalaeth Harik, a thref Hutah. Llwyr ddinystriwyd y ddiweddaf, a lladdwyd ei thrigolion yn mron bob un. Cyfrifid fod y meibion ynddi tuag ugain mil o nifer. Yr oedd y Wahabiaid wedi attal y mintcioedd o bererinion a arferent gyrchu yn flynyddol i Mecca er y flwyddyn 1802, am eu bod yn ystyried fod arferion y Tyrciaid a'r Persiaid yn eilunaddolgar, ac hefyd o herwydd yr anfoesoldeb a'r annhrefn oedd yn mysg y pererinion hyny. Gellir dychymmygu fod iâs o ddychryn wedi treiddio trwy y byd Mahometaidd pan fynegwyd fod beddrod y prophwyd yn cael ei halogi gan hereticiaid a attalient "y ffyddloniaid" i gyflawni dyledswyddau cyssegredig eu crefydd. Gan hyny, darfu i sultan Caer Cystenyn, amddiffynwr cydnabyddedig Mahometiaeth, mor gynnar a'r flwyddyn 1804, osod ar Mehemet Ali, yr hwn oedd newydd ei bennodi yn basha yr Aipht, y gorchwyl o adennill y dinasoedd sanctaidd. Ni wnaed dim yn y cyfeiriad hwn, pa fodd bynag, hyd 1811, pan anfonwyd byddin i'w herbyn, o dan lywyddiaeth mab y pasha, Túsûn-Bey. Cymmerwyd Medina gan yr Aiphtiaid yn 1812, a Mecca yn y flwyddyn ddilynol; a dygwyd yn mlaen ryfel â'r Wahabiaid yn Hejas, a'r amgylchoedd, am gryn amser. Weithiau, byddai un blaid yn llwyddo, a phryd arall y llall. O'r diwedd, yn 1815, ymgymmerodd Ibraham Pasha â bod yn flaenor rhyfelgyrch i ganolbarth Arabia, gyda'r amcan o lwyr lethu y Wahabiaid. Rhyddhawyd y ffordd i'r ymgyrch hwn gan farwolaeth Sa'ud, yn 1814. Ei olynydd oedd ei fab Abdallah; yr hwn, er ei fod yn rhyfelwr galluog, nis gallai lwyddo i sicrhau undeb yn mysg y llwythau lliosog oedd o dan ei arweiniad. Ni lwyddodd Ibraham Pasha, pa fodd bynag, hyd 1818, a hyny ar ol llawer o frwydro, i ddinystrio byddin y Wahabiaid, a chymmeryd Deraijeh, eu prif ddinas, yr hon a wnaed yn garneddau. Danfonwyd Abdallah i Gaer Cystenyn, lle y torwyd ei ben ef, ynghyd â rhai o weinidogion ei lywodraeth hefyd. Arosodd Ibraham am rai misoedd yn Arabia, gan gadarnhau y lleoedd a orchfygwyd ganddo yn Nejed, a'r taleithiau cylchynol. Gwladlywiaeth lariaidd a heddychol a fabwysiadwyd ganddo at y penaethiaid a'r bobl gyffredin; ond yr oedd yn llym tuag at y dysgawdwyr crefyddol: ac y mae ei enw yn uchel hyd heddyw yn y parthau hyny, ond yn mysg y dosbarth diweddaf a enwyd. Ond o herwydd gorthrwm yr is-lywodraethwyr, torodd rhyfel cyffredinol allan:—bu raid i'r Aiphtiaid ymgilio i Kasim, a chyhoeddwyd Turki, mab Abdallah, yn sultan Nejed, a dewiswyd Riad yn brif ddinas. Llwyddodd yr Aiphtiaid wedi hyny i yru Turki a'i olynydd, sef ei fab, Feysul, oddi ar yr orsedd; a phennodwyd yn eu lle benaeth ffafriol i lywodraeth yr Aiphtiaid. Ond yn fuan ar ol marwolaeth Mehemet Ali (1849), rhoes yr Aiphtiaid yr ymdrech i fyny; galwyd Feysul yn ol o'i alltudiaeth; ac y mae gallu y Wahabiaid yn parhau yn gadarn yn y parthau hyny hyd heddyw.

Yn ol tystiolaeth Burckhardt, nid oes gan y Wahabiaid un gorchymyn newydd yn eu deddflyfr. Yr unig wahaniaeth rhyngddynt a'r Tyrciaid, a gamenwir yn uniongred, yw, "fod y Wahabiaid yn dilyn yn fanwl yr un deddfau ag a esgeulusa y lleill, neu y maent wedi eu rhoddi heibio yn hollol. Gan hyny, byddai disgrifio crefydd y Wahabiaid yr un peth a myned dros erthyglau ffydd y Mahometaniaid; a byddai dangos yn mha bethau y maent yn gwahaniaethu oddi wrth y Tyrciaid yr un peth a myned dros restr o'r camarferion y mae y diweddaf yn euog o honynt." Un o hynodion y Wahabiaid ydyw eu gwrthwynebiad i wisgoedd costfawr—i addurniadau o sidanau, ac aur—ac i fyglys. Y mae y teithiwr, Palgrave, yr hwn a ddaeth i gyffyrddiad agosach â'r Wahabiaid na Burckhardt, yn mabwysiadu syniadau llai ffafriol am eu hathrawiaethau a'u hymarferion na Burckhardt. Y mae yn darlunio eu hymherodraeth fel "llywodraeth gryno, lle y deallir yn llawn y modd i ganolbwyntio gallu, ac y cerir hyny allan yn effeithiol; ond egwyddor sylfaenol yr hwn ydyw gorthrech a grym. Y mae ei hawyrgylch, a siarad yn gyffelybiaethol, yn gwbl orthrymus—yn foesol, yn ddeallol, yn grefyddol, ac anianyddol. Gellir eangu terfynau yr ymherodraeth; ac o ganlyniad, y mae yn beryglus i'w chymmydogion, gan ei bod yn awyddus i'w llyngcu iddi ei hun. Y mae yn analluog i gynnyddu yn fewnol:—y mae yn elynol i fasnach, yn anffafriol i'r celfyddydau, ac hyd yn oed i amaethyddiaeth; ac y mae yn annioddefgar ac ymosodol i'r eithaf. Nis gall wella ei hun, na gwneyd lles i ereill......Cyhyd ag y bydd Wahabiaeth yn arglwyddiaethu yn nghanolbarth ac ucheldiroedd Arabia, ychydig, yn wir, ydyw gobeithion gwareiddiad, a chynnydd a llwyddiant gwladwriaethol yr hiliogaeth Arabaidd." Y mae y milwriad Pelly yn galw y Wahabiaid yn "Grynwyr Mahometaidd rhyfelgar."

Gwnaeth Palgrave daflen ystadegol o'r ymherodraeth Wahabaidd, wedi ei chasglu yn benaf o gofrestrau swyddol a gedwir yn ninas Riad. Yn ol y daflen hon, y mae ynddi 316 o drefydd a phentrefydd, gyda phoblogaeth o 1,219,000; ac o'r rhifedi hwn, y mae 47,300 yn filwyr. Rhifa y boblogaeth Bedŵinaidd yn y

Digitized by Google

tiriogaethau dros 70,000. Y mae amryw o'r trefydd yn fawrion, ac yn cynnwys poblogaeth liosocach nag y buasai y syniad cyffredin sydd genym am ganolbarth Arabia yn ein harwain i ddisgwyl. Dyma amcangyfrif diweddar Palgrave o'r boblogaeth mewn rhai o'r dinasoedd:—Eyun, 10,000; Bereydah, 25,000; Onyezah, 30,000; Toweym, 12,000—15,000; Horeymelah, 10,000; Mejmaà, 10,000—12,000; Riad, y brif ddinas, ynghylch 40,000; Kharfah, 8,000; Hofhuf, 24,000. Karsten Niebuhr oedd yr ysgrifenydd Ewropaidd cyntaf a wna grybwylliad am y bobl hyn; wedi hyny y mae Burckhardt, Syr Harford Jones Brydges, a W. G. Palgrave, wedi talu cryn lawer o sylw i'w hanes.

WAKE, WILLIAM, D.D.: archesgob Caergaint, a phrelad o allu ac o ddysg. Ganwyd ef yn Blandford, yn swydd Dorset, yn y flwyddyn 1657. Dechreuodd ei addysg yn y brif athrofa fel efrydydd yn ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1672, a graddiodd yn athraw yn y celfyddydau yn 1679. Yr oedd dadleuon chwerw yn cael eu dwyn yn mlaen gan wahanol bleidiau yn yr Eglwys Wladol yn y blynyddoedd dilynol; ond cymmerodd Wake yr ochr fwyaf Brotestanaidd, a gwnaeth enw iddo ei hun trwy ei sêl a'i ymroddiad yn ysgrifenu yn mhlaid syniadau Protestanaidd; a thrwy hyny daeth i fyny yn uchel i ffafr William III. ar ol y chwyldroad. Yn 1689, pennodwyd ef yn gaplan i'r brenin, a gwnaed ef yn ganon ei goleg yr un flwyddyn. Dyrchafwyd ef yn 1693 i beriglorìaeth St. Iago, Westminster, yr hon a ddaliwyd ganddo am wyth mlynedd, ac yna rhoddodd hi i fyny pan y derbyniodd ddeoniaeth Exeter. Yn 1705, dyrchafwyd ef i'r fainge esgobawl, trwy gael ei bennodi yn esgob Lincoln; ac wedi cyflawni dyledswyddau y swydd hon hyd 1716, pennodwyd ef i archesgobaeth Caergaint. Ychydig a ymddygasant gyda mwy o urddas, diwydrwydd, cymmedrolder, a charedigrwydd Cristionogol hefyd, yn nghyflawniad eu swydd, nag y gwnaeth yr archesgob Wake. Nid ydyw ei weithiau dadleuol, er eu bod yn lliosog, ac wedi eu hysgrifenu yn rymus, yn bradychu chwerwder ysbryd. Y penaf o'r gweithiau hyn ydynt ei "*Reply to the celebrated Bossuet's Exposition of the Doctrine of the Catholic Church;*" "*The state of the Church and Clergy of England considered.*" Cyhoeddodd dair cyfrol o bregethau, amryw o draethodau yn erbyn athrawiaethau ac ymarferion Eglwys Rhufain, ac "*Esboniad ar Gatecism Eglwys Loegr;*" ac y mae yr olaf wedi myned trwy lawer o argraphiadau yn yr iaith Saesnig. Bu farw y prelad enwog hwn ar y 24ain o Ionawr 1737, yn Mhalas Lambeth, a chladdwyd ef yn Croydon.

WALDENSIAID, Y [*Valdenses*, *Valdesi*, *Vaudois*, neu *pobl y dyffrynoedd*]. Y rhai sydd wedi talu sylw i hanesyddiaeth eglwysig a gydnabyddant fod cryn lawer o dywyllwch a dyryswch mewn cyssylltiad â hanes y Waldensiaid. Aelodau o Eglwys Rhufain oedd croniclwyr yr oesoedd canol gan mwyaf; ac, wrth gwrs, y mae dechreuad, credo, a chymmeriadau y bobl hyn wedi eu camddarlunio i raddau pell ganddynt. Gosodir hwynt allan fel sect o hereticiaid, yn gyfeiliornus yn eu ffydd ac yn llygredig yn eu hymarferiadau, yn gyfryw ag yr edrychai y byd a'r eglwys arnynt gydag adgasedd a ffieidd-dra. Parhaodd y cyhuddiadau hyn i gael eu dwyn yn mlaen am gyhyd o amser, a haerid eu bod yn gywir gyda'r fath eofndra, nes o'r bron beri i haneswyr diweddarach dderbyn eu tystiolaethau heb wneuthur ymchwiliad priodol iddynt, a chydsynio â hwy yn yr amryfusedd a'r twyll hwn. Ond yn ffodus i eglwys Dduw yn gyffredinol, mynodd lleferydd gwirionedd gael ei glywed; ac o'r diwedd gwnaed rhywbeth tebyg i chwareu teg â'r bobl erlidiedig hyn, nad oedd y byd yn deilwng o honynt: ac yn awr, y mae gan eu holoeswyr syniad lled gywir am eu rhagoriaethau a'r gwasanaeth a wnaethant i achos y gwirionedd. Y mae adroddiadau syml y bobl eu hunain, yn gystal ag enllibiau eu hymlidwyr, ar gof a chadw hyd heddyw; ac oddi wrth y rhai hyn yr ydym yn deall beth oedd natur eu cymmeriad a'u credo. Ac, yn wir, pe buasai genym wrthwynebiad i'r tystiolaethau hyn o'r eiddynt hwy eu hunain, y mae digon o dystiolaethau, hyd yn oed o ysgrifeniadau y Pabyddion eu hunain, i ddangos nad oedd y Waldensiaid yn hereticaidd o ran eu daliadau crefyddol, nac yn ddrygionus o ran eu hymarferiadau; ond i'r gwrthwyneb—eu bod yn bobl yn glynu yn ffyddlawn wrth Air Duw, ac yn ymdrechu byw mewn cydymffurfiad âg egwyddorion pur yr efengyl.

Nid ammhriodol fyddai nodi rhyw ychydig o'r camddarluniadau hyn, mewn trefn i ddeall yn fwy trwyadl hanes y bobl yma a warthruddid mor fawr. Beth, gan hyny, oedd dechreuad y Waldensiaid? Arfer Eglwys Rhufain bob amser ydyw amcanu gosod allan egwyddorion y Diwygiad Protestanaidd fel dyfeisiau diweddar; a chwestiwn a ofynir mewn math o ymffrost yn fynych ganddynt i Brotestaniaid ydyw, "Yn mha le yr oedd eich eglwys chwi cyn dyddiau Luther?" Haerant nad ellir olrhain y Waldensiaid yn ol yn mhellach na dyddiau Peter Waldo, yr hwn a flodeuodd yn nghanol yr unfed ganrif ar ddeg [gwel WALDO, PETER]; ac mai oddi wrtho ef y cawsant eu henwau, wrth ba rai y maent yn adnabyddus mewn hanesiaeth. Ond ymddengys yn dra eglur nad ydyw yr enwau *Waldensiaid*, *Valdensiaid*, a *Vaudois*, ond yn unig enwau ar leoedd neillduol, ac yn arwyddo 'preswylwyr y dyffryn,' a'u bod yn cael eu cymmhwyso at y rhai a breswylient y dyffrynoedd o fewn cyffiniau Piedmont; fel yr oedd rhai oedd yn dal egwyddorion cyffelyb iddynt yn cael eu galw yn neheubarth Ffrainge yn *Albigensiaid*, o herwydd eu bod yn preswylio yn benaf yn nhalaeth *Albigeois*. Ar yr un egwyddor y gelwid y Waldensiaid, weithiau, yn *Lombardiaid*, *Picardiaid*, *Bulgariaid*, a *Bohemiaid*, ar enw y gwledydd y preswylient ynddynt. Gelwid hwynt hefyd yn fynych ar enwau y prif ddysgawdwyr yn eu mysg; ac yn y modd hwn gelwir rhai a ddalient yr un egwyddorion yn *Lollardiaid*, *Josephistiaid*, *Arnoldistiaid*, *Berengariaid*, *Henriceniaid*, ac ereill cyffelyb. *Cathariaid* hefyd oedd hen enw arnynt. Weithiau, rhoddid enwau arnynt yn cyfodi oddi wrth eu dull o fyw: dyna pa ham y gelwid hwy yn *Fraticelli*, oddi wrth y serch brawdol a amlygent tuag at eu gilydd; *Patereniaid*, oddi wrth eu mynych ddioddefiadau; a *Passageniaid*, o herwydd y ffaith eu bod yn cael eu gyru o fan i fan gan erledigaethau. Ond yr oedd yr holl enwau hyn yn rhy ddiniweid gan y sawl oedd yn eu cashau; a dyfeisiwyd enwau ereill i'r dyben o'u gwneuthur yn wrthddrychau casineb a dirmyg cyffredinol. Yn Dauphiny, gelwid hwynt yn

Digitized by Google

*Chaignardiaid;* a'r rhai a aethent o'r tu hwnt i'r Alpau a elwid yn *Tramontaniaid*—gair cyfystyr a *barbariaid.* Nid oeddynt yn cadw un diwrnod yn sanctaidd, ond y Sabbath yn unig; ac o blegid hyn, gelwid hwy weithiau yn *Insabathasiaid,* megys pe na buasent yn cadw y Sabbath o gwbl. Yn yr Almaen, yr enw a roddid arnynt oedd y *Gazares,* yr hyn a olygai eu bod yn bobl hynod am eu drygioni; ac yn Flanders *Turlupiaid,* o blegid fod eu trigfod gyda bleiddiaid. Yn chwanegol at yr enwau dirmygus ac isel hyn, dygid cyhuddiadau o'r nodwedd adgasaf yn eu herbyn, cyffelyb i'r rhai a ddygai y paganiaid yn erbyn y Cristionogion cyntefig. Mewn gair, nid oedd dim yn rhy adgas a ffiaidd gan eu gwrthwynebwyr i'w ddywedyd am danynt—y rhai a edrychent arnynt fel gelynion i bob trefn, gwladwriaethol a chrefyddol; a haerent eu bod yn coleddu syniadau y Gnosticiaid, y Manicheaid, a'r Ariaid.

Un o brif gyhuddwyr ac erlidwyr y Waldensiaid oedd Reinerius Saccho, un o swyddogion y Chwilys; yr hwn am ddwy flynedd ar bymtheg o'r rhan gyntaf o'i oes a fu mewn rhyw fath o gyssylltiad â hwynt; ond ciliodd oddi wrthynt, gan wadu eu hegwyddorion. Yna ymunodd â'r Eglwys Babaidd, a gwnaed ef yn swyddog chwilysol, a daeth yn un o erlidwyr creulonaf y bobl dda hyn. Anfonwyd ef gan y pab i breswylio i Lombardy; ac ynghylch y flwyddyn 1250, efe a gyhoeddodd restr faith o "gamsyniadau" y Waldensiaid, fel y galwai hwynt, o dan dri ar ddeg ar hugain o benau. Ac y mae y disgrifiad annheilwng sydd yn cael ei gymmhwyso ganddo at y dosbarth mawr o Gristionogion gloew a gwirioneddol hyn, oedd yn wasgaredig trwy ddeheubarth Ffraingc, dyffrynoedd a mynyddoedd y Pyrenees, dyffrynoedd Piedmont, a'r wlad o amgylch Milan, o dan wahanol enwau o'r fath ag a grybwyllir uchod. Diammheuol fod rhyw wahaniaethau bychain mewn barn rhyngddynt yn y gwahanol wledydd hyny ar gwestiynau o ychydig bwysigrwydd; a diau fod ysgrifenwyr Pabaidd weithiau yn rhoddi yr enwau Waldensiaid neu Albigensiaid i bersonau yr oedd eu golygiadau duwinyddol a'u harferion crefyddol yn hollol wrthwynebol i'r eiddo canlynwyr Peter Waldo; gan, fel y dywed Mr. Robinson, fod "yr arfer o gasglu hereticiaid o bob math i'r un fintai, i'r un man, yn un o hen arferion yr haneswyr eglwysig: ac y mae hyn wedi achosi dyryswch mewn hanesiaeth." Un arall a lefarai yn ddiraddiol ac adgas am Waldensiaid Bohemia, oedd Æneas Sylvius; yr hwn a ysgrifenodd hanes Bohemia, a'r hwn a ddyrchafwyd wedi hyny i'r gadair Babaidd o dan y teitl, Pius II. Y mae yn rhanu eu golygiadau yn dri dosbarth cyffredinol, ac yn manylu arnynt fel hyn:—"Y cyfeiliornad cyntaf (medd efe) oedd, eu bod yn haeru nad oedd Eglwys Rhufain yn eglwys i Grist; ond mai cynnulliad o ddynion annuwiol ydoedd: a'i bod wedi peidio a bod yn wir eglwys er amser y pab Sylvester, pan y taflwyd gwenwyn manteision tymmorol i mewn iddi. Yr ail gyfeiliornad oedd, eu bod yn condemnio holl sacramentau yr eglwys." Y trydydd—eu bod yn anghymmeradwyo pob arferion eglwysig nad oedd cyfeiriad atynt yn Ngair Duw, megys cadw dydd gŵyl puredigaeth Mair, Sul y Blodau, a dyrchafiad y groes ar ddydd Gwener y Groglith, &c. Ysgrifenodd Claudius Seisselius, archesgob Turin, tua diwedd y bymthegfed ganrif, ychydig cyn y Diwygiad Protestanaidd, draethawd yn erbyn y Waldensiaid. Yr oedd ei arosiad ef yn nghanol dyffrynoedd Piedmont yn ei gynnysgaeddu â chyfleusderau i ddyfod yn gydnabyddus âg egwyddorion ac ymarferion ei gymmydogion anghydffurfiol; ac y mae efe wedi trosglwyddo i oesoedd dilynol hanes digon manwl i alluogi unrhyw berson ammhleidiol i ffurfio barn led gywir yn eu cylch. Ond dylid cofio mai tystiolaeth gelyn ydyw; a'i fod yn tori allan yn achlysurol, fel y gellid disgwyl, i amlygu ei gasineb tuag atynt. Wrth gyfeirio at eglwysi y Waldensiaid yn Piedmont, yn gystal a'r rhai oeddynt wedi eu gwasgaru drwy Italy, efe a ddywed, nad oedd yr erledigaethau creulonaf wedi llwyddo i'w difodi, na'u lluddias i amddiffyn yr athrawiaethau a dderbyniasant gan eu tadau. "Y mae pob math o bobl," medd efe, "wedi ymdrechu i'w diwreiddio—ond yn ofer; o herwydd y maent hyd heddyw, a hyny yn groes i farn pawb, yn orchfygwyr, neu o leiaf yn aros yn anorchfygadwy." Mae darllen y darluniad manwl a roddir gan archesgob Turin o'r Waldensiaid yn Piedmont, a hyny cyn geni Luther na Chalvin, a chyn i'r Diwygiad dori allan o gwbl, ynddo ei hun yn ddigon o attebiad i'r cwestiwn, "Pa le yr oedd eich crefydd cyn amser Luther?"

Yn y flwyddyn 1508—ddeng mlynedd cyn i Luther dori allan i gyhoeddi ei gyhuddiadau a'i fygythion yn erbyn y Babaeth—ac yn ystod teyrnasiad Ladislaus, brenin Hungary a Bohemia, torodd erledigaeth greulawn allan yn erbyn y dosbarth hwnw o'i ddeiliaid a ddalient egwyddorion y Waldensiaid. I'r dyben o gyfiawnhau eu hunain yn ngwyneb yr amryw gyhuddiadau a ddygid gan eu gwrthwynebwyr yn eu herbyn, darfu iddynt dynu allan ymddiheurad, a'i anfon at y brenin—yr hwn oedd ar gael yn amser Jean Paul Perrin (yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg); ac y mae efe wedi crynhoi y sylwedd o hono, a'i gyhoeddi, yn yr hwn y dadleuir dros burdeb credo y Waldensiaid, ac y gosodir allan yn amlwg gamgymmeriadau a malais eu gelynion. Dangosir i ni yn hwn y cyhuddid hwy o fod yn elynion i fedydd, am eu bod yn anewyllysgar i'w plant gael eu bedyddio gan yr offeiriaid Pabaidd; ac am eu bod yn gwahardd tyngu a rhegu mewn ymddiddanion cyffredin, dywedid eu bod yn elynol i lŵon cyfreithlawn. Yr oedd eu gwrthodiad o athrawiaeth y presennoldeb corphorol yn y cymmun yn cael ei gyhoeddi fel gwadiad o ddwyfoldeb Mab Duw; a'u gwadiad o uchafiaeth y pab ar bob tywysog tymmhorol, yn peri iddynt gael eu galw yn *Manicheaid,* neu yn rhai yn credu mewn llywodraethiad cyfartal dau allu—un y *drwg,* a'r llall y *da.* At un cyhuddiad arall, allan o bedwar ar ddeg, y cyfeiriwn yn awr, a hyny am ei fod yn un pwysig yn y dyddiau hyny, er nas gellir o'r bron ei grybwyll yn awr heb wenu. Haerid fod y Waldensiaid, nid yn unig yn hereticiaid, ond yn swyngyfareddwyr; a bod y rhai a aethant o Lyons tua'r Alpau yn arfer marchogaeth drwy yr awyr ar ysgubau! Attebai y Waldensiaid syml y cyhuddiad tra ynfyd hwn mewn modd a ddangosai eu bod yn meddu synwyr cyffredin cryf; canys defnyddient reswm nas gallai eu gelynion ei gyfarfod. "Pa fodd," meddent, "y gall dyn barchu y gorchymyn cyntaf, ac ar yr un pryd gredu mewn dyfeisiau serddewinol, a galluoedd y planedau? Pa fodd y gall Cristion gredu yn rhyfeddodau swyngyfareddiaeth, ac felly briodoli i'r diafol y galluoedd

Digitized by Google

hyny a berthynant i Dduw yn unig?" Dadganent yn hyf nad oedd cyfaredd, swyn, a dewiniaeth, pa un bynag ai mewn gair neu ysgrifen, yn ddim amgen na thwyll o eiddo Satan i ddinystrio eneidiau.

Yn wir, yr oedd gelynion y Waldensiaid, tra yn eu gwarthruddo fel hereticiaid, a thra nad oeddynt yn ystyried fod un gospedigaeth yn rhy drom i'w gweinyddu arnynt o herwydd eu gwrthwynebiad i holl gyfundrefn y Babaeth, er hyny, yn gorfod, gan rym y gwirionedd, ddwyn tystiolaeth anrhydeddus i'w gonestrwydd, eu huniondeb, a'u hymddygiadau da. Dywed Allix, un o swyddogion y Chwilys, am danynt: "Adwaenir yr hereticiaid hyn drwy eu hymddygiadau a'u bucheddau; o herwydd y maent yn wylaidd a threfnus yn eu hymarweddiad a'u bywyd. Gochelant bob ymddangosiad o falchder yn eu gwisgoedd; nid ydynt yn ymhyfrydu mewn gwisgoedd drudfawr ar un llaw, ac ar y llaw arall nid ydynt yn hynod am waeledd eu gwisgoedd. Ymgadwant oddi wrth fasnach, fel y bo iddynt fod yn rhydd oddi wrth dwyll ac anonestrwydd. Ennillant eu bywoliaeth trwy weithio â'u dwylaw, fel llafurwyr neu grefftwyr. Nid ydynt yn bryderus am gasglu cyfoeth, ond ymfoddlonant ar wir angenrheidiau bywyd. Y maent yn ddiwair, cymmedrol, a sobr. Ymattaliant rhag digofaint. Ac hyd yn oed pan yn darllen, y maent bob amser naill ai yn dysgu ereill, neu yn cymmeryd eu dysgu eu hunain. Yr un modd y mae eu gwragedd hefyd yn hynod o wylaidd, yn ymattal oddi wrth enllib, cellwair, ac iaith isel; ac yn enwedig, ymgadwant rhag celwyddau a rhegfeydd. Ymfoddlonant ar ddywedyd 'ie' neu 'nage.'" Seisselius a ddywed am danynt:—"A gadael heibio eu heresiau, y maent yn gyffredinol yn fwy pur eu buchedd na Christionogion ereill. Nid ydynt byth yn tyngu ond o orfod, ac nid ydynt o'r bron byth yn cymmeryd enw Duw yn ofer. Cyflawnant eu haddewidion yn brydlawn; ond y maent gan mwyaf yn dlawd eu hamgylchiadau, ac yn wir edmygwyr o fywyd ac athrawiaeth yr apostolion...Yn eu hymarweddiad a'u moesau y maent yn berffaith, yn ddifeius, ac yn ddiargyhoedd yn mysg dynion, ac yn ymdrechu â'u holl allu i gadw gorchymynion Duw." Lielenstenius, y Dominiciad, a ddwg y dystiolaeth a ganlyn:—"Yr wyf yn tystio eu bod yn dda eu hymarweddiad a'u moesau, yn dywedyd y gwir, yn enwog mewn cariad brawdol; ond y mae eu daliadau yn ddrwg ac anniwygiadwy, fel yr wyf wedi dangos yn fy nhraethawd." Mynach Ffranciscaidd, o'r enw Samuel de Cassini, a ddywed "fod holl gyfeiliornadau y Waldensiaid yn gynnwysedig yn hyn:—eu bod yn gwadu Eglwys Rhufain fel y fam eglwys sanctaidd, ac yn gwrthod ufuddhau i'w thraddodiadau." Y Cardinal Baronius a'u geilw yn "ddynion da," ac yn "bobl dangnefeddus;" er ei fod mewn lleoedd ereill yn dwyn cyhuddiadau trymion yn eu herbyn. Jacobus de Riberia a gydnebydd eu bod mor gyfarwydd yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, fel yr oedd efe wedi gweled gwladwyr a allent adrodd allan ar dafod leferydd bob gair o Lyfr Iob; ac amryw ereill a allent adrodd allan yn fanwl yr holl Destament Newydd. Gallesid chwanegu llawer o dystiolaethau o weithiau ysgrifenwyr gwrthwynebus iddynt o gyffelyb ystyr, ond gwasanaetha yr hyn a ddyfynwyd i ddangos fod eu rhagoriaethau yn cael eu cydnabod, hyd yn oed gan eu gelynion.

Ond hwyrach y dylid cyflwyno hefyd yn y fan yma dystiolaethau rhai o'r Diwygwyr Protestanaidd, a haneswyr ereill oedd yn byw dros dri chan mlynedd yn ol. Ysgrifena Œcolampadius, un o'r diwygwyr, yn 1530, at ei "anwyl frodyr yn Nghrist, a elwir y Waldensiaid," fel y canlyn:—"Yr ydym ni yn diolch i'r Tad trugarog, yr hwn a'ch galwodd i'r fath oleuni mawr yn yr oes hon, yn nghanol y cymmylau duon o anwybodaeth sydd wedi ymdaenu dros y byd, ac er gwaethaf gallu yr Anghrist. Gan hyny, yr ydym yn cydnabod fod Crist ynoch chwi; am ba achos yr ydym yn eich caru fel brodyr: ac O! gan Dduw na allem eich gwneyd yn deimladwy o'r hyn yr ydym yn barod i'w wneuthur eroch, er fod yr anhawsderau i hyny yn fawr. Yn ddiweddaf, yr ydym yn dymuno na byddo i'r hyn a ysgrifenwn gael edrych arno fel pe baem trwy falchder yn priodoli i ni ein hunain ryw uchafiaeth drosoch; ond ar fod i chwi ei ystyried yn tarddu o'r cariad brawdol sydd rhyngom a chwi. Y mae Tad ein Harglwydd Iesu Grist wedi rhoddi i chwi wybodaeth ragorol o'i wirionedd, y tu hwnt i lawer ereill o'i bobl, ac wedi eich bendithio â bendithion ysbrydol. Os bydd i chwi barhau mewn gras, y mae ganddo drysorau helaethach i'ch cyfoethogi â hwynt, a'ch gwneyd yn berffaith, yn ol mesur etifeddiaeth Crist." Mewn rhagymadrodd a ysgrifenodd Luther i Gyffesiadau y Waldensiaid, efe a ddywed iddo ef fod ar un adeg yn casau y Waldensiaid, fel pobl wedi eu diofrydu i golledigaeth; ond ar ol gwybod, oddi wrth eu credo a'u hysgrifeniadau, am eu rhagoriaethau a'u duwioldeb, gwelai eu bod wedi cael dirfawr gam gan y Babaeth. Canmolai yn arbenig eu gwaith yn "myfyrio yn ewyllys yr Arglwydd" ddydd a nos, ac eangder eu gwybodaeth ysgrythyrol; yn enwedig o gyferbynu hyny â sefyllfa y rhai a broffesent y grefydd Babaidd, ac a hollol esgeulusent Air Duw. Ar ol darllen cyffes y Waldensiaid, dywedodd y diwygiwr enwog ei fod "yn diolch i Dduw am y goleuni mawr â pha un yr ymwelodd efe â'i bobl." Y mae Beza yn dwyn y dystiolaeth werthfawr a ganlyn iddynt:—"Am y Waldensiaid, fe ganiateir i mi eu galw yn hâd yr eglwys gyntefig buraf; o herwydd y maent mewn modd amlwg wedi eu cynnal gan ragluniaeth ryfeddol yr Arglwydd, fel na ddarfu i'r ystormydd a'r tymmhestloedd diddiwedd hyny a fuont ar waith yn cynnhyrfu y byd Cristionogol am gynnifer o oesoedd yn olynol, ac yn enwedig y rhanau gorllewinol a boenid gan orthrymder esgob Rhufain—a gamenwir felly; ac na fu yr erledigaethau creulawn a gyfodwyd i'w herbyn yn bennodol, erioed yn allu-og i beri iddynt blygu, neu roddi ymostyngiad gwirfoddol i orthrymder ac eilunaddoliaeth y Babaeth." Bullinger, mewn rhagymadrodd i'w bregethau, a ddywed fel hyn:—"Beth a ddywedwn o barthed i'r Waldensiaid; pa rai, am bedwar can mlynedd, a chwaneg, yn Ffraingc, Italy, yr Almaen, Poland, Bohemia, a gwledydd ereill drwy y byd, sydd wedi dal i fyny eu proffes o efengyl Crist; ac mewn amryw o'u hysgrifeniadau, yn ogystal ag yn eu pregethau, wedi cyhuddo y pab o fod y gwir Anghrist, am yr hwn y rhagfynegwyd gan yr apostol Ioan, a'r hwn y dylem ei ochelyd. Y mae y bobl hyn wedi bod yn ddarostyngedig i erledigaethau a phoenau dirfawr; etto y maent yn ddiysgog ac eofn yn tystiolaethu i wirionedd eu ffydd trwy wynebu merthyrdod yn orfoleddus; a gwnant

Digitized by Google

hyny hyd y dydd heddyw. Er fod ymgais wedi ei wneyd gan frenhinoedd a thywysogion galluog, yn cael eu cymmhell gan y pab, i'w difodi, y mae hyny yn ammhossibl, o herwydd y mae Duw wedi lluddias ac yn attal llwyddiant yr ymdrechion hyn." De Vignaux, yr hwn a fu yn gweinidogaethu yn mysg y Waldensiaid am ddeugain mlynedd, a ddywed:—"Yr ydym yn byw mewn heddwch a chydgordiad â'n gilydd, ac yn ymgyfathrachu yn benaf â'n gilydd; nid ydym byth yn ymgymmysgu âg aelodau o Eglwys Rhufain, trwy i'w meibion hwy briodi ein merched ni, na'n merched ni briodi eu meibion hwythau. Er hyny, boddheir hwynt i'r fath raddau yn ein moesau a'n harferion, fel y mae y Pabyddion, pendefigion ac ereill, yn dewis yn hytrach gael gwasanaethyddion, yn feibion a merched, o honom ni, nag o fysg y rhai a broffesant eu crefydd hwy eu hunain." Ni chwanegwn at y tystiolaethau hyn ond yn unig trwy ddyweyd fod John Milton, awdwr byd-enwog "*Coll Gwynfa*," yr hwn a wnaeth gymmeriad y Waldensiaid yn bwngc ei astudiaeth, a'r hwn a ddeallai eu hegwyddorion a chyfansoddiad eu heglwysi yn dda, fel y dengys y llythyrau lliosog a ysgrifenodd ar eu rhan at dywysogion Protestanaidd Ewrop, yn dadleu eu hachos yn erbyn eu herlidwyr Pabaidd, ac yn rhoddi iddynt uchel ganmoliaeth, o'r fath a geir yn y dyfyniadau blaenorol.

Y mae yr hyn a ddywedir uchod yn cynnorthwyo y darllenydd i ffurfio barn led gywir gyda golwg ar gymmeriad cyffredinol y Waldensiaid; ac yn awr, ni a awn yn mlaen i wneuthur ymchwiliad i'w hanes. Y mae dyffrynoedd Piedmont yn ymddangos yn lle cymmhwys iawn i fod yn noddle i arch Duw yn ystod y cyfnodau hyny pan yr oedd holl Ewrop yn diaspedain gan ryfeloedd, ac yn llawn cynnhyrfiadau. Yr oedd Cristionogaeth fel wedi ei halltudio o'r eglwysydd a'r palasau gan lifeiriant y goresgynwyr gogleddol, neu yn nychu ac ymlygru ynddynt. Ond yn nghilfachau tawel Piedmont, yr oedd hiliogaeth o bobl syml yn preswylio, ac yn parhau i addoli Duw mewn symledd calon, er fod llygredigaethau wedi ymlusgo i mewn i'r eglwys gyffredinol oedd o'u cwmpas. Myn rhai fod yr efengyl wedi ei chadw yno mewn cryn burdeb er yr oes apostolaidd; ac y mae y dystiolaeth hon yn cael ei chario allan gan yr haneswyr Pabaidd hynaf a ysgrifenasant am eu dioddefiadau; er, fel y gellid disgwyl, eu bod yn dyweyd am eu credo ei bod yn heresi ddinystriol. Y sylw cyntaf sydd genym, pa fodd bynag, am y Waldensiaid fel dosbarth pennodol o grefyddwyr sydd yn amser Claude, esgob Turin. Yr oedd y dyn enwog hwnw, yr hwn sydd wedi ei anrhydeddu yn fynych gan haneswyr â'r teitl o fod y Diwygiwr Protestanaidd cyntaf, yn frodor o Yspaen; ac yn nhymmhor ei ieuengctid, pennodwyd ef yn un o gapleniaid Louis yr Addfwyn *(the Meek)* brenin Ffraingc. Yr oedd efe yn awyddus am i'r Piedmontiaid gael addysg grefyddol dda, yn mysg y rhai y mynegir fod addoli delwau wedi dyfod yn beth cyffredin; ac efe a bennododd Claude yn esgob Turin yn y fl. 817. Mor fuan ag yr ymaflodd y dyn da hwn yn ei waith, efe a'i cyflawnodd gyda chywirdeb, a sel, a llwyddiant apostolaidd. Dechreuodd ymosod yn gyntaf ar y delwau a'r darluniau â pha rai yr oedd yr eglwysydd wedi eu llenwi, ac i'r rhai y telid gwasanaeth addolgar. Yn ofer y ceisiai y bobl amddiffyn eu teganau trwy ddwyn yn mlaen y twyllresymau a ddefnyddid gan Eglwys Rhufain ar eu rhan. Addefent nad oeddynt yn credu fod gallu dwyfol yn gynhenid yn y delwau hyny—ac nad oeddynt yn eu parchu, ond yn unig er anrhydeddu y personau sancteiddiedig a gynnrychiolid ganddynt. Ond dywedai yr esgob yn gadarn wrthynt, er iddynt adael addoliad cythreuliaid, os oeddynt yn parhau i anrhydeddu lluniau y seintiau, nad oeddynt etto wedi ymadael âg eilunaddoliaeth, ac ond yn unig wedi newid enwau gwrthddrychau eu haddoliad. A chwanegai, "Pa un bynag ai paentio ar y muriau a wnewch luniau Paul neu Pedr, neu yr eiddo Jupiter, Sadwrn, neu Mercher, nid ydynt hwy yn awr na duwiau, nac apostolion, na dynion. Y mae yr enw wedi cyfnewid, ond y mae y cyfeiliornad yn aros. Os rhaid addoli dynion, y mae yr ynfydrwydd yn ymddangos yn llai i'w haddoli tra y maent yn fyw, a phan y maent ar ddelw Duw, yn hytrach na phan y maent yn feirw—pan y maent yn debyg i bren neu faen." Yn y modd yma yr ymresymai efe dros ddinystrio y darluniau a'r delwau adgas. Gyda'r un sel hefyd y llefarai efe yn erbyn creiriau, croesau, pererindodau, a ffolinebau ereill, oeddynt wedi ymgasglu nes llwyr gau allan oleuni y Beibl. Ymwylltiai y mynachod yn ddirfawr wrth weled ymosodiad yn cael ei wneyd ar eu hanwyl eilunod, a chyfodent eu llef yn ei erbyn, gan ei osod allan yn heretic ac yn gablwr; ac mewn rhai amgylchiadau, yr oedd y bobl gyffredin wedi cyffroi gymmaint yn erbyn yr esgob nes y bygythid yn fynych ddwyn ymaith ei fywyd. Ond er gwaethaf eu gelyniaeth, yr oedd ei yrfa yn llwyddiannus, a'i ddiwedd yn dangnefeddus.

Wrth astudio bywyd y diwygiwr boreuol hwn, y gellir ystyried ei fod yn fugail i'r bobl a alwyd wedi hyny yn Waldensiaid, y mae yn anhawdd penderfynu beth i'w edmygu fwyaf—eofnder ei ysbryd, a'i lafur, neu burdeb ei athrawiaeth. Nid digon ganddo oedd tori ymaith ganghenau y pren *upas* oedd wedi ymdaenu mor gyffredin nes gwasgar marwolaeth yn mysg y cenhedloedd; ond efe a osododd y fwyell ar ei wreiddyn, trwy wadu yn eofn uchafiaeth Rhufain, a haeru mai Iesu Grist oedd unig Ben yr eglwys. Yn yr un ysbryd hefyd y gwrthwynebai efe awdurdod traddodiad, gan sefyll yn ddewr dros y syniad mai Gair Duw ydyw unig reol ffydd ac ymarweddiad. Ymosodai yn egniol ac yn feunyddiol ar ymarferiadau a defodau, y gosodai yr Eglwys Babaidd y fath bwys arnynt er sicrhau iachawdwriaeth; ac ymdrechai i ddysgu yn ei bregethau a'i ysgrifeniadau yr athrawiaeth fawr o gyfiawnhâd trwy ffydd, fel yr arferai yr apostol Paul ei dysgu. Yr oedd y gwirioneddau mawr a phwysig hyn—y rhai a greasant y fath gyffro yn yr unfed ganrif ar bymtheg, megys pethau y gallesid tybied nad oedd braidd sôn erioed wedi bod am danynt o'r blaen—wedi eu cyhoeddi yn eglur, yn ddylanwadol, ac effeithiol gan Claude, esgob Piedmont, mor foreu a'r nawfed ganrif. Parhaodd y gŵr hwn i weinidogaethu am ugain mlynedd o leiaf yn nyffrynoedd neillduedig Piedmont; ac yr oedd ffrwyth ei weinidogaeth yn amlwg yn nychweliad lliaws i fabwysiadu yr un syniadau âg ef, yn yr eglwysi hyny a blanwyd ac a ffurfiwyd ganddo, ynghyd âg yn yr ymlyniad oedd gan y Waldensiaid yn yr egwyddorion a bregethai efe yn nghanol tywyllwch cyffredinol, a chanrifoedd o orthrwm a thywallt gwaed.

Pe byddai i ni yn y fan hon adael tiriogaethau

Digitized by Google

Piedmont, ac olrhain hanes y rhai a restrir yn gyffredin o dan yr enw cyffredinol *Waldensiaid* mewn gwledydd ereill, byddai raid i ni fyned dros ran fawr o Ewrop, a rhoddi crynodeb o hanesiaeth bwysig am fwy na thri chant o flynyddoedd; canys yn ystod yr amser hwn, o dan yr enwau *Patereniaid*, *Cathariaid* (Puritaniaid), *Albigensiaid*, &c., buont yn wrthddrychau erledigaethau blinion a chwerw [gwel ALBIGENSIAID; CATHARI]. Ond y mae yn rhaid i ni gyfyngu ein hunain yn benaf at yr eglwysi oedd yn nyffrynoedd Piedmont—gwlad yn ymestyn ar hyd odreuon yr Alpau Celtaidd, sydd yn ysgaru Italy oddi wrth Ffraingc, Switzerland, a'r Almaen. Y prif ddyffrynoedd ydoedd yr Aesta a'r Susa ar du y gogledd, a Stura ar y deheu; yn y canolbarth, Lucerna, Androgne Roccipiatta, Pramol, Perosa, a San Martino. Tra yr oedd y rhai a broffesent yr un athrawiaethau mewn gwledydd ereill yn cael eu herlid a'u rhoddi i farwolaeth, neu eu danfon i alltudiaeth wrth y miloedd, yr oedd y lleoedd neillduedig hyn yn mwynhau cryn lonyddwch. Yr oedd y pabau yn fynych wedi ceisio cael gan dduciaid Savoy i erlid y cynnulleidfaoedd a wrthodent ymostwng i'r Babaeth; ond er anrhydedd iddynt hwy eu hunain, yr oeddynt yn gwrthsefyll pob cais o'r fath hyd yn hyn; ac er i ymgais gael ei wneyd i sefydlu Chwilys yn Piedmont yn y flwyddyn 1252, gwrthwynebodd y Piedmontiaid y mesur hwnw mor effeithiol a llwyddiannus fel y bu raid rhoddi i fyny y cais. Mewn canlyniad i'r nawdd a roddai eu penaduriaid drostynt, yr oedd sel erledigaethus y Pabyddion yn erbyn eglwysi efengylaidd Piedmont hyd yma wedi bod yn hytrach yn erbyn personau, yma a thraw, nag yn erbyn y cyfundeb yn gyffredinol: ond yn y flwyddyn 1,400, ymdorodd yr ystorm, oedd wedi bod yn ymgasglu er's amser maith, ac yr oedd ei murmur oddi draw i'w glywed yn ei lawn nerth. Darfu i haid o Babyddion, a drigent yn nghymmydogaeth Pragela, ymosod ar Waldensiaid y dyffryn; ac mewn trefn i'r ymosodiad fod yn fwy effeithiol, cafodd ei wneuthur yn mis Rhagfyr, pan yr oedd y mynyddoedd yn orchuddiedig âg eira—yr adeg yr oedd lleiaf o ddisgwyliad am dano. Yr oedd yr erlidwyr yn benderfynol i gyflawni eu gwaith yn effeithiol, a chymmerasant feddiant o'r ogofäau yn mha rai y gallasai y Waldensiaid gael noddfeydd, fel y bu raid iddynt ddiangc i rywle y gallent gael diogelwch. Prysurasant i fynyddoedd uchaf yr Alpau, gyda'u gwragedd a'u plant. Cariai y mamau eu babanod yn y crydau, ac arweinient yn eu dwylaw eu rhai ieuaingc oedd yn alluog i gerdded; tra yr oedd eu hymlidwyr yn eu herlyn wedi i'r nos eu goddiweddyd, a lladdwyd lliaws o'r rhai a arosasant yn eu cartrefi, naill ai o herwydd gwendid neu serch tadol. Yr oedd anffodion dwysach yn aros y ffoedigion a oroesodd y gyflafan hon. Pan ddaeth tywyllwch y nos, crwydrent yn ddigysur, ac heb arweinyddion, ar y mynyddoedd oeddynt wedi eu gorchuddio â'r eira, ac yn flinedig gorweddent i lawr i farw! ac erbyn y boreu, yr oedd pedwar ugain o fabanod wedi rhewi i farwolaeth; ac mewn llawer o achosion, yr oedd y mamau hefyd wedi meirw, neu ar drangcedigaeth! Yr oedd hyn yn beth newydd yn hanes Waldensiaid Piedmont, y rhai a edrychent arno mewn syndod; a sonient am dano am flynyddoedd ar ol hyny gydag arswyd a dychryn. Ond, och! nis gwyddent ar y pryd nad oedd hyn oll ond dechreuad erledigaethau ofnadwy—ernes o gyfres faith o ofidiau a dioddefiadau oedd yn aros eu hiliogaeth oedd etto heb eu geni i'r byd!

Ar ol hyn, modd bynag, cafwyd tymmor o dawelwch cymmharol yn y dyffrynoedd hyny, hyd nes y gwelodd y pab Innocent VIII. yn dda, yn 1478, i gyhoeddi pabarchiad yn erbyn Waldensiaid Lyons, a Waldensiaid Piedmont hefyd. Yn y dadganiad hwnw, efe a'u gwarthnododd trwy eu galw yn "feibion anwiredd"—"rhai yn rhwydo praidd Duw"—pobl oeddynt wedi "cyfodi i fyny yn ddamniol, o dan gochl sancteiddrwydd"—a llawer o ymadroddion digasog cyffelyb; ac wedi hyn, efe a roddodd i Albert, archddiacon Cremona, awdurdod i fyned, gyda llu arfog, yn gwisgo "y groes goch," yn "erbyn y Waldensiaid, ac i'w mathru o dan ei draed megys ymlusgiaid gwenwynig!" Yn y pabarchiad hwn, gorchymynodd i Albert godi a dysgyblu byddin o groesgadwyr; ac i'r rhai a ymunent yn y gorchwyl annynol hwn, cynnygid iddynt, fel gwobr, faddeuant o'u holl bechodau. Nid yn ofer y seiniwyd y tabwrdd i restru milwyr i'r fyddin hon. Yr oedd lluoedd yn dyfod i ymrestru o dan faner y croesgâd, i bwrcasu y nefoedd—yn ol eu syniad hwy, mewn canlyniad i ddadganiad awdurdod penaf y Babaeth felldigedig—trwy droi y ddaear mor debyg i uffern ag y gallent hwy! Derbyniodd Albert y pennodiad o lywydd y fyddin oedd yn gwisgo y groes goch, yn cael ei gynnorthwyo gan gynnrychiolydd brenin Ffraingc; ac aeth yn mlaen tua dyffryn y Loyse. Gwnaeth y preswylwyr eu noddfa yn yr ogofeydd; ond ni phrofodd y rhai hyny yn nawddleoedd diogel iddynt. Llosgwyd coed yn ngeneuau yr ogofeydd—a thrwy hyny, llwyddwyd i fygu llaweroedd o honynt; tra y teflid y rhai a ymdrechent ddiangc yn bendramwnwgl dros y clogwyni, neu y lleddid hwynt yn y fan. Rhoddwyd tair mil i farwolaeth fel hyn; a thrwy bob beth gwnaed cymmaint o ddifrod ar fywyd, fel yr oedd yn angenrheidiol poblogi y dyffryn â phreswylyddion newydd. Ar ol hyn, aeth gyda'i ddeunaw mil o filwyr yn mlaen tua dyffrynoedd Piedmont, a dosbarthodd y fyddin hon yn dair rhan, mewn trefn i allu yn fwy diogel amgylchu gwrthddrychau ei ymosodiad. Ymunwyd âg ef gan nifer o Babyddion Piedmont, y rhai a ddenwyd o dan ei faner gyda'r addewidion o baradwys ac ysbail. Ond cyfarfu y Waldensiaid â'i luoedd ef yn ddewrwych yn mhob cyfeiriad. Yr oeddynt wedi ymarfogi â tharianau bychain o goed, a bwäau croesion; a gyrasant eu gelynion annynol yn ol, allan o'r bylchau mynyddig. Tra y dygid y brwydrau hyn yn mlaen, mynegir fod y gwragedd a'r plant i'w gweled mewn pellder priodol, ar eu gliniau yn gweddïo, gan ddyrchafu eu dwylaw a'u llef tua'r nefoedd, gan ddywedyd, "O Arglwydd! achub ni!" Llwyddwyd gan hyny i guro y gelynion yn ol.

Yr oedd y duc o Savoy (Phylip VII.) yn teimlo yn ofidus o blegid y goresgyniad hwn; ac yn fwy neillduol felly, yn gymmaint a bod y Waldensiaid wedi bod yn wastad yn ddeiliaid heddychol, a hawdd eu trin; ac ymdrechodd i estyn ei amddiffyniad drostynt rhag eu herlidwyr. Yr arfer gyffredin y dyddiau hyny, ac hyd yn oed mewn cyfnodau mwy goleuedig a diweddar, oedd gosod allan y rhai oedd yn gwahaniaethu oddi wrth yr Eglwys Babaidd mewn barn, fel creaduriaid anolygus o ran ffurfiad eu cyrph, heb law

Digitized by Google

fod eu credo yn wrthodedig; ac, o ganlyniad, yr oedd ystorïau celwyddog wedi eu mynegu i'r duc—fod babanod y Waldensiaid yn cael eu geni â'u gyddfau yn dduon, a'u cyrph yn flewog, a phedair rhes o ddannedd ganddynt, a dim ond un llygad, a hwnw yn nghanol y talcen! Mewn trefn i fynu gwybod drosto ei hun pa mor wir oedd hyn, cyn symmud yn mlaen i wneuthur dim ar ran y cyfryw ddeiliaid, gorchymynodd i amryw o'r babanod gael eu dwyn ato i Pignerol, i'r dyben o gael boddlonrwydd iddo ei hun ar y mater. Erbyn eu gweled, a'u bod yn greaduriaid bychain mor ddymunol a hawddgar yr olwg arnynt a'r gweddill o'i ddeiliaid, dadganodd ei benderfyniad i ganiatau i'r Waldensiaid yr un rhyddid a breintiau ag yr oedd ei ddeiliaid ereill yn eu mwynhau. Ond yr oedd ystrywiau y Babaeth yn rhy ddyfnion ac awdurdodol i deyrn nad oedd ei allu yn fawr i sefyll yn eu herbyn. Yr oedd gallu gormesol y pab yn parhau, a'i bleidwyr hefyd yn parhau i gynllwyn am fywyd y Waldensiaid—gan eu dal, eu profi, a'u dedfrydu i'r fflamau. Sefydlwyd Chwilys mewn mynachlog yn agos i Pignerol; ac yr oedd swyddogion y llys hwn yn selog yn y gwaith o ymlid preswylwyr y dyffrynoedd. A pharhau fel hyn a ddarfu i bethau hyd y flwyddyn 1532. Yr oedd y Waldensiaid wedi eu poeni mor fawr am gymmaint o amser yn y modd yma, fel yr oeddynt er's blynyddoedd yn gorfod cynnal eu cyfarfodydd crefyddol yn ddirgelaidd, rhag ofn y chwilyswyr. Ond o'r diwedd, daethant i deimlo yn ymwybodol fod y cyfryw gyfarfyddiadau yn fath o wadiad o egwyddor Cristionogaeth, yn gymmaint a'i bod hi yn gofyn i'w phroffeswyr arddel eu hegwyddorion yn wyneb-agored i'r byd; gan hyny, hwy a ddechreuasant addoli yn gyhoeddus, a chyhoeddai eu pregethwyr eu syniadau yn eofn. Unwaith yn rhagor, gwnaed hwynt yn nôd i erledigaeth; ac anfonodd y Duc o Savoy, yr hwn a gymmhellid neu a orfodid i hyny gan y Pabyddion, bum cant o wŷr meirch a thraed, i'w gorfodi i ymostwng i addoli yn ol rheolau Eglwys Rhufain. Yr oedd y Waldensiaid, druain, yn cario yn mlaen eu gorchwylion arferol pan y daeth y llu arfog hwn tua'r pentrefi; ond cymmerasant galon, ac ymarfogasant â'r cyfryw arfau ag y gallasent roddi eu dwylaw arnynt, a rhedasant i'r bylchau mynyddig. A buont mor lwyddiannus nes gyru eu hymosodwyr i ffoi, ar ol gwneyd cryn ddinystr yn eu rhengoedd. Wedi i'r duc glywed am ganlyniad yr anturiaeth hon, dywedodd mai ffolineb oedd rhyfela yn erbyn pobl oedd yn cael eu hamddiffyn mor dda gan eu clogwyni a'u ceunentydd, a bod croen pob un o'r Waldensiaid yn cael ei brynu â chrwyn, o leiaf, ddwsin o'i ddeiliaid ereill:—ac yr oedd y pris yn rhy uchel. Gwrthododd, gan hyny, anfon chwaneg o filwyr i'w herbyn, a dywedodd wrth y chwilyswyr i ddwyn o amgylch eu tröedigaeth yn eu ffordd hwy eu hunain. Yn debyg i hyn yna yr oedd hanes eglwysi Waldensiaidd Piedmont hyd yr amser y dechreuodd yr enwog Martin Luther ar ei weinidogaeth rymus—digwyddiad y llawenychasant hwy, yn gystal a'u brodyr yn Ffraingc, a gwledydd ereill, ynddo â llawenydd mawr iawn, gan yr ystyrient ei fod yn argoel o lwyddiant eu hachos. Ymddengys, oddi wrth hanes y Waldensiaid, a ysgrifenwyd gan George Morel, fod rhifedi y rhai a broffesent eu credo ar y pryd hwnw yn ngwahanol wledydd Ewrop yn rhifo tuag wyth gan mil o bersonau—yr hyn sydd yn attebiad lled gyflawn arall i ymofyniad y Pabyddion, "Pa le yr oedd eich eglwys cyn amser Luther?"

Cyn myned yn mhellach i draethu am helyntion a dioddefiadau y bobl hynod hyn, hwyrach y dylid egluro i ryw raddau beth oedd eu golygiadau crefyddol. Y mae yn dda iawn genym nad ydym yn gorfod dyfalu, neu dynu casgliadau yn unig oddi wrth eu bywydau hwy, pa beth oedd natur eu credo. Y mae y gyffes ganlynol o ffydd y Waldensiaid, yr hon sydd wedi ei dyddio mor foreu a'r flwyddyn 1,120, yn dra dyddorol, gan ei bod yn amlygu purdeb eu credo mewn cyfnod tywyll, a'u ffyddlondeb i'r "gwirionedd fel y mae yn yr Iesu," a hyny yn nghanol gwrthgiliad mawr a chyffredinol eglwysi ereill oddi wrtho:—

1. Yr ydym yn credu ac yn dal yn ddiysgog holl gynnwysiad deuddeg erthygl y Credo, a elwir yn gyffredin Credo yr Apostolion, &c.

2. Yr ydym yn credu mai un Duw sydd—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân.

3. Yr ydym yn addef llyfrau y Beibl Sanctaidd yn Ysgrythyrau cyssegredig a chanonaidd.

Yma y mae yn canlyn y rhestr cyffredin o honynt, fel y mae yn y canonau Protestanaidd o'n Beiblau ni:—

4. Y mae y llyfrau hyny yn dysgu i ni fod un Duw, hollalluog, hollddoeth, ac anfeidrol dda, yr hwn yn ei ddaioni a greodd bob peth. O herwydd efe a greodd Adda ar ei lun a'i ddelw ei hun. Ond trwy elyniaeth y diafol, a'i anufudd-dod ei hun, syrthiodd Adda, daeth pechod i'r byd, ac aethom ninnau yn droseddwyr yn a thrwy Adda.

5. Fod Crist wedi cael ei addaw i'r tadau, y rhai a dderbyniasant y gyfraith, fel y byddai iddynt, gan adnabod eu pechodau trwy y gyfraith, a'u hanghyfiawnder a'u hannigonolrwydd eu hunain, ddymuno gweled dyfodiad Crist i wneyd iawn am eu pechodau, a chyflawni y gyfraith drwyddo ef ei hun.

6. Fod Crist wedi cael ei eni yn yr amser penodedig gan y Tad—hyny yw, pan yr oedd anwiredd wedi amlhau yn mhob man—er dangos yn amlwg na ddaeth efe er mwyn unrhyw ddaioni sydd ynom ni, yn gymmaint a bod pawb oll yn bechaduriaid; ond fel y byddai iddo ef, yr hwn sydd gywir, arddangos ei ras a'i drugaredd tuag atom.

7. Mai Crist ydyw ein bywyd, ein gwirionedd, ein tangnefedd, a'n cyfiawnder ni; ein bugail a'n dadleuwr, ein haberth a'n hoffeiriad—yr hwn a fu farw er iachawdwriaeth i'r holl rai a gredant, ac a adgyfododd er eu cyfiawnhâd.

8. Yr un modd, yr ydym yn dal yn ddiysgog nad oes un Cyfryngwr nac Eiriolwr gyda Duw a'r Tad, ond Iesu Grist yn unig:—ac am y Forwyn Fair, ei bod yn sanctaidd, yn ostyngedig, ac yn llawn o ras. A hyn hefyd yr ydym yn ei gredu am yr holl saint ereill; sef, eu bod yn y nef, yn disgwyl am adgyfodiad eu cyrph yn nydd y farn.

9. Yr ydym hefyd yn credu, ar ol y bywyd hwn, nad oes ond dau le yn bod—un i'r rhai cadwedig, a'r llall i'r rhai colledig. Gelwir y cyntaf *paradwys*, a'r olaf *uffern*. Yr ydym yn gwadu yn bendant fod purdan; yr hwn sydd le a ddyfeisiwyd gan yr Anghrist, yn groes i'r gwirionedd.

10. Hefyd, yr ydym yn ystyried nad ydyw dyfeisiau dynol, megys gŵyliau, a gŵylnosau y seintiau, a'r hyn a elwir yn 'ddwfr sanctaidd,' ac ymgadw oddi wrth gigfwyd ar ddyddiau pennodol, a phethau cyffelyb, ac yn enwedig yr offerenau, ond ffieidd-dra annhraethadwy yn ngolwg yr Arglwydd.

11. Yr ydym yn cyfrif fod y dyfeisiau dynol hyn oll yn gynnyrchion Anghrist, yn groes i ryddid yr ysbryd, ac yn wrthodedig ac yn Anghristionogol.

12. Yr ydym yn ystyried mai arwyddion o bethau sanctaidd, neu arwyddluniau gweledig o fendithion anweledig, ydyw y sacramentau. Yr ydym yn ystyried ei fod yn addas, ïe, yn angenrheidiol,

Digitized by Google

yn 'myfyrio yn nghyfraith yr Arglwydd ddydd a nos;' a'u bod yn fedrus a pharod yn yr Ysgrythyrau." Ar ol crybwyll am anghenion y Waldensiaid, o herwydd iselder eu hamgylchiadau, a'r gwellhâd a gymmerodd le yn eu mysg gyda golwg ar hyny mewn canlyniad i wasgariad llyfrau a dysg, dengys ei awyddfryd cryf am undeb â'r frawdoliaeth Gristionogol hon yn yr ymadroddion canlynol:—"Dylem gyflwyno y diolchgarwch gwresocaf i Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn, yn ol golud ei ogoniant, a orchymynodd i oleuni ei Air lewyrchu o dywyllwch; a thrwy hyny ddinystrio marwolaeth ynom ni, ac adferu bywyd. Dylem lawenychu hefyd, ar eu rhan hwy a ninnau, ein bod, trwy daflu i lawr ganolfur eiddigedd oedd yn ein gwahanu, ac a barai i ni ymddangos yn hereticiaid, y naill i'r llall, wedi ein gwneyd yn agos, a'n dwyn i un gorlan, o dan un Bugail ac Esgob ein heneidiau, yr hwn sydd fendigedig yn oes oesoedd." Dygwyd tystiolaeth gyffelyb iddynt gan yr hawddgarol a'r tyner-galon, Melancthon; ac wrth anerch Waldensiaid Bohemia drwy un o'u gweinidogion hwy eu hunain, efe a ddefnyddiodd yr iaith ddynodiadol a ganlyn:—"Gan ein bod yn cyttuno ar brif erthyglau y ffydd Gristionogol, cofleidiwn ein gilydd mewn cariad, gan na ddylai unrhyw wahaniaeth mewn defodau nac mewn seremonïau gadw ein meddyliau ar wahân. Sonia yr apostol Paul yn fynych am seremonïau; ond y mae yn gwahardd i Gristionogion anghyttuno o herwydd eu bod yn amrywio, er fod y byd yn cweryla yn dost yn nghylch seremonïau. Yn wir, nid wyf yn anghymmeradwyo y ddysgyblaeth lem a ddefnyddir yn eich eglwysi chwi: mi a ddymunwn pe byddai mwy o hyny yn ein heglwysi ninnau." Diammheu mai dymunol iawn oedd gan y ddau ddiwygiwr enwog hyn, tra yr oeddynt yn dwyn yn mlaen ymdrechfa mor galed—ac i bob ymddangosiad hefyd, a chymmeryd golwg ddynol ar bethau, mor anobeithiol—i feddwl fod yr eglwys, er yn wan a llesg, etto yn sefyll; a bod dynion ffyddlawn yn dal i fyny eu breichiau, ac yn gweddïo drostynt, tra yr oedd y frwydr fawr Brotestanaidd yn cael ei hymladd.

Yn yr adeg pan ddechreuodd y Diwygiad Protestanaidd yn yr Almaen, yr oedd digwyddiadau mawrion yn cymmeryd lle ar raddfa mor eang fel nad oedd ond ychydig sylw yn cael ei dalu i ddyffrynoedd Piedmont gan elynion Protestaniaeth; ac felly yr oedd yr eglwysi yno yn gallu addoli Duw mewn tawelwch a diogelwch. Ond cynneuwyd digofaint gelyn dialgar a di-droi-ynol gan y digwyddiadau a gymmerasant le; ac yr oedd yr erlidiau y bu y Waldensiaid yn Ffraingc ac yn Calabria yn wrthddrychau o honynt yn ymledu i Piedmont hefyd. Yn 1536, gorchfygwyd Piedmont gan Francis I., brenin Ffraingc, a chymmerodd y penadur hwnw ei berswadio gan Paul III., yr hwn, ar y pryd, oedd yn llanw y sedd Babaidd, i ddiwreiddio yr heresi hon allan o'r dyffrynoedd; ac mewn canlyniad, efe a barodd i liaws o'r Waldensiaid diniweid gael eu dwyn at yr ystangc, a'u llosgi; a phan anfonid deisebau ato yn erfyn arbediad, attebai mewn dull gerwin, nad oedd efe ddim wedi rhoddi y Lutheriaid i farwolaeth yn mhob parth arall o Ffraingc, gan feddwl goddef i haid o hereticiaid ymlochesu yn yr Alpau. Gorchymynid hefyd, o dan boen marwolaeth, ar iddynt droi ymaith eu gweinidogion, a derbyn yr offeiriaid Pabaidd weinyddu yr offeren yn eu lle:—i'r hyn yr attebasant hwythau mewn dull arwrol, nas gallent hwy ufuddhau, yn gymmaint a bod y fath orchymyn yn groes i gyfreithiau Duw. Ar ol hyn, yr oedd Francis yn rhy brysur i arolygu yr erledigaeth ei hun; ond gosododd y gwaith hwnw ar y chwilyswyr, y rhai yn ddiau nid arwyddent un anewyllysgarwch i gyflawni y gorchwyl i'r llythyren. Y mae un hanesyn yn dal cyssylltiad â'r erledigaeth hon yn haeddu sylw neillduol. Pan ar ei daith trwy Perosa a Pignerol, gwysiodd Saint Julien, llywydd y Chwilys, wladwr syml i ymddangos o'i flaen yn y lle diweddaf a enwyd, a gorchymynodd ar iddo ail fedyddio ei faban yn ol seremoni yr Eglwys Babaidd. Dymunodd y gwladwr gael ychydig o amser i weddïo cyn dychwelyd ei attebiad—yr hyn a ganiatawyd iddo. Ar ol cyfodi oddi ar ei liniau, dywedodd ei fod yn foddlawn i'r plentyn gael ei ail fedyddio, ar un ammod; sef, fod y llywydd yn rhoddi iddo ef nodyn wedi ei lawnodi ganddo ef ei hun, yn dadgan ei fod yn ymrwymo i gymmeryd arno ei hun, ac ar ei hiliogaeth, holl ganlyniadau y weithred, ac ymatteb drosti yn nydd y farn. Yr oedd y cynnygiad hynod hwn yn ormod i'r chwilyswr. Tybiai Saint Julien mai doethach oedd iddo atteb drosto ei hun yn unig—a gollyngwyd y gwladwr yn rhydd, heb ofyn dim yn mhellach iddo.

Am yr ysbaid o amser y bu teyrnas Ffraingc yn meddiannu Savoy, parhaodd yr erledigaeth chwilysol hon, a rhoddwyd amryw o'r *gweinidogion* enwocaf, yn gystal a'r bobl gyffredin, yn aberthau i'r fflamau; ond dychwelwyd Piedmont yn eiddo i Philibert Emanuel, y Duc o *Savoy*, ar adferiad heddwch cyffredinol. Wedi adfeddiannu y gyfran hon o'i diriogaethau, amgylchynwyd ef gan fynachod Pignerol, y *rhai* a ddeisyfent arno ddinystrio pobl y pentrefydd â chleddyf ac â thân, a rhoddi eu meddiannau i'r gwarchluoedd cymmydogaethol. Ar hyn, *an*fonodd y bobl a fygythiwyd â'r fath erledigaeth gofeb at y tywysog, yn yr hon y rhoddasant grynodeb o'u credo, ynghyd âg adroddiad *o'u* dull o fucheddu, er dangos nad oeddynt nac yn adgas na pheryglus; ac erfynient am gael cyfarfod cyhoeddus, yn yr hwn y gallent atteb *eu* cyhuddwyr, a dwyn yr athrawiaethau a broffesent i'r prawf yn wyneb Gair Duw. Ond penderfynu mynu dadl o natur wahanol a wnaeth y mynachod; o herwydd, yn 1560, anfonwyd y Count de la Trinite yn erbyn y Waldensiaid gyda gallu milwrol cryf, ac ymosododd ar bentref Angrogne. Yr oedd digwyddiadau y rhyfelgyrch nodedig hwn, mewn rhyw ystyr, yn fath o ail gyflawniad o'r frwydr a fu rhwng Dafydd a Goliath. Tra yr oedd y Count yn anrheithio Angrogne, daeth dau gant o'r Waldensiaid yn mlaen yn erbyn ei wŷr ef—y rhai oeddynt yn gynnwysedig o ddeuddeg cant o filwyr dysgybledig—heb un arf ganddynt, ond ffyn tafl (*slings*); er hyny, llwyddasant i yru eu hymosodwyr oll ar ffo. Yna gwnaed ail ymgais; ond gyrwyd yr ymosodwyr yn ol y tro hwn hefyd, gyda cholled o ddeg a thrigain o wŷr—tra na chwympodd ond tri o'r Waldensiaid. Wedi ei gywilyddio gan y gorchfygiad hwn, adgyfnerthodd y Count ei fyddin yn Yspaen gyda saith mil o wŷr, a daeth yn mlaen eilwaith, gyda'r bwriad o roddi yr holl Waldensiaid i'r cleddyf; ond yr hyn a wnaeth y Waldensiaid, gan eu bod yn ymwybodol o'u bod yn llawer gwanach na'u gelynion, oedd syrthio yn ol, gyda'u gwragedd

Digitized by Google

a'u plant ar eu hamddiffynfeydd yn y mynydd-oedd, yn y rhai y cawsent loches lawer gwaith o'r blaen. Bu pedwar diwrnod o frwydro caled rhyngddynt a'u gwrthwynebwyr, fodd bynag, pan yr ymdrechai yr ymosodwyr gymmeryd y bylchau mynyddig; ond bu pob cais a wneid ganddynt yn aflwyddiannus, ac yr oedd dinystr mawr yn cael ei wneyd ar fywydau eu swydd-ogion a'u milwyr cyffredin. Ar y pummed dydd, gwnaed cais mwy egnïol drachefn, a hyny mewn tri o wahanol fanau—yr ymosodwyr y tro hwn yn cael eu gwneyd i fyny o filwyr Yspaen, sef y rhyfelwyr goreu yn Ewrop y pryd hwnw yn ddiammheuol. Ond ar ol ymdrechfa ofnadwy, hwy a ddeallasant nas gallent orchfygu eu gwrthwynebwyr, na symmud un cam yn mlaen. Annogai y Count hwynt yn mlaen unwaith yn rhagor; ond petrusai, safai, ac o'r diwedd gwrthododd y milwyr fyned gam yn mhellach; ac ar hyn, daeth tro y Waldensiaid i ymosod arnynt hwy:—rhuthrasant i lawr arnynt, a gyrasant hwynt i ffoi, ac ymlidiasant hwynt mor bell a dyffryn Angrogne. Yr oedd hyn yn ddigwyddiad rhyfedd yn nghofnodion rhyfeloedd Ewrop. Milwyr dewr, medrus, a lliosog wedi eu gorchfygu gan ddyrnaid o wladwyr—gan ychydig o ddynion, nad oeddynt yn fedrus fel rhyfelwyr, ac yn hollol ddiofal am enwogrwydd milwraidd:—y bicell a'r cleddyf yn methu, a'r helmau a'r llurigau yn cael eu tyllu gan geryg yn cael eu hergydio o ffyn-tafl y bugeiliaid. Nid ydoedd colled y Waldensiaid ond pymtheg o wŷr, tra yr oedd nifer lladdedigion y gelyn yn naw cant o rifedi. Y mae yn anhawdd iawn priodoli y fath lwyddiant rhyfeddol i achosion naturiol, neu wadu nad oedd llaw yr Arglwydd yn ganfyddedig yn yr amgylchiad.

Tarawodd dewrder digyffelyb y Waldensiaid ar yr achlysur hwn eu gelynion â dychryn; ac yn hytrach na dilyn y rhyfel yn mlaen, daeth y duc o Savoy yn awyddus am wneyd cyttundeb. O bossibl nad oedd y dduces, yr hon a ammheuwyd o fod yn cydymdeimlo i raddau â chredo y Waldensiaid, yn ei gymmhell i hyn. O ganlyniad, anfonwyd dirprwywyr yr eglwysi i Turin, prif ddinas Savoy; ac yno hwy a ennillasant fuddugoliaeth i'w hachos sydd yn werth ei chofnodi. Pan y cyrhaeddodd y cynnrychiolwyr hyn i'r llys, fe'u hanerchwyd gan un o'r enw Chaussincourt, berllysgwr (*usher*) y frenhines, mewn ymadroddion hynod o ddirmygus a digofus:—"Pa fodd y meiddiwch ymddangos ger bron eich penadur," medd efe, "y dyhirod truenus, i geisio dyfod i gyttundeb âg ef, ar ol cyfodi mewn arfau yn ei erbyn? Beth yw yr honiadau a wneir genych pan yn gwrthwynebu ei grefydd ef—yr hon a dderbynir gan yr holl fyd? Pa fodd y meiddiwch ymresymu â thywysog sydd yn cael ei gyfarwyddo gan gynnifer o ddoctoriaid dysgedig, tra nad ydych chwi yn ddim amgen na bugeiliaid tlodion a thruenus, ac heb wybod dim? O! chwi ynfydion, a ellwch chwi ddisgwyl rhywbeth heb law y crogbren yn niwedd y daith ynfyd hon a gymmerasoch?" "Syr," ebe un o'r cynnrychiolwyr, mewn modd llariaidd, "yr ydym yn meddu digon o eofndra i nesau at ein tywysog, o herwydd y mae ei garedigrwydd wedi bod yn gymmhelliad i ni i ddyfod. Ac o barth i'n gwrthsafiad ni, yr oedd yn un cyfreithlawn, o herwydd ein bod yn cael ein gorfodi i hyny; ac y mae Duw yn ei gyfiawnhau trwy wneuthur i ni ryfeddodau. Yn mherthynas i'r truenusrwydd a'r gwaeledd â pha un yr ydych yn ceisio ein dirmygu a'n sarhau, y mae Duw wedi ei fendithio, er dangos nad oes angen arno ef am bethau mawr y byd er gwneuthur pethau mawr. Ac am ein cynghorau, y mae y sawl a dderbyniasant yr Ysbryd Glân yn ddigon doeth; y mae y calonau hyny a gadarnheir ganddo ef yn ddigon dewr, ac nid oes ar y breichiau y mae efe yn eu dal i fyny angen am un gynnaliaeth arall. Yr ydym yn anwybodus, y mae yn wir; gan hyny, nid ydym yn ymgais at unrhyw hyawdledd arall heb law gweddïo mewn ffydd. O barth i'r farwolaeth â pha un yr ydych yn ein bygwth, y mae gair ac anrhydedd ein tywysog yn anwylach i ni na'n bywyd; ond nis gall hyd yn oed angeu ei hun ddychrynu mewn un modd y rhai y mae ofn Duw wedi ei gerfio ar eu calonau." Darfu i'r attebiad llariaidd hwn "droi ymaith ddigofaint;" a gwnaeth fwy na hyny, o blegid effeithiodd gymmaint ar galon y llys-ddyn a enwyd o'r blaen, Chaussincourt, fel y daeth i broffesu Protestaniaeth o hyny allan.

Trwy reitharch, yr hwn a ganiatawyd gan y duc o Savoy, diogelwyd i Waldensiaid Piedmont eu rhyddid a'u hawliau. Ond wedi y cwbl, nid oedd hyn ond tawelwch twyllodrus, ac am dymmhor; o herwydd, yn mhen pedair blynedd ar ol hyn (B. A. 1565), cyhoeddwyd rheitharch newydd, yn yr hwn y gorchymynid ar i bob un o ddeiliaid y duc gydymffurfio âg Eglwys Rhufain, neu adael y wlad o fewn dau fis. Ar yr achlysur hwn, daeth pleidiwr hyawdl i Waldensiaid Piedmont allan i gefnogi eu hachos, yn mherson Etholydd Breiniarllaidd y Rhine, yr hwn a ysgrifenodd lythyr maith a galluog at y duc o Savoy ar ddrygedd a ffolineb y fath fesur; ond nis gallwn roddi ond y dyfyniad byr a ganlyn o hono. Ar ol dangos mor ynfyd a disail oedd yr adroddiadau oedd yn gosod allan breswylwyr y dyffrynoedd fel bradwyr, yn dwyn yn mlaen gynllwynion i drosglwyddo eu hamddiffynfeydd i elynion Savoy, chwanega yr etholydd fel hyn:

"Gwybydded eich uchelder fod Duw yn y nefoedd; yr hwn sydd, nid yn unig yn gweled y gweithredoedd, ond hefyd yn profi calonau meibion dynion, i olygon yr hwn y mae pob peth yn noeth ac yn agored. Ymgadwed eich uchelder rhag ymladd o'ch bodd yn erbyn Duw, ac erlid Crist a'i aelodau; o blegid er y dichon iddo ef oddef hyn dros ychydig amser, er rhoddi prawf ar amynedd ei saint, etto, yn y diwedd, efe a gerydda erlidwyr ei bobl a'i eglwys a chospedigaethau trymion. Na chymmered eich uchelder eich perswadio gan y Pabyddion—y rhai, o bossibl a addawant i chwi deyrnas nefoedd a bywyd tragywyddol, fel gwobr am alltudio, carcharu, a difodi yr Huguenotiaid (o herwydd dyna fel yr enwir Cristionogion da), trwy unrhyw foddion neu offerynau; o blegid, yn ddiammheuol, nid pentyru dirmyg ac ymarfer creulonderau ydyw y ffordd i'r nefoedd:—na, y mae yn rhaid chwilio am ryw ffordd arall. Iĕ: gall eich uchelder yn hawdd weled pa lwyddiant a fu ar erledigaethau y deugain mlynedd diweddaf. Gellwch weled pa beth ydyw yr ennillion a gafwyd drwy y tânau a'r crogbrenau, y carcharu, y dirdynu, a'r alltudio, gan y rhai a alwant eu hunain yn Gatholiciaid, yn yr Almaen, Lloegr, Ffraingc, ac Ysgotland. Na: nid oes angen am i ddynion ymarfer eu gallu, neu eu hawdurdod, neu eu llymder mewn materion crefyddol, fel y mae hanes yr Iuddewon a Christionogaeth boreuol yn profi yn eithaf eglur; lle yr ydym yn cael, fod y rhai a boenent, neu a alltudient, ac a roddent y Cristionogion i farwolaeth, yn mhell o ennill dim drwy y fath fesurau; ond i'r gwrthwyneb yr oeddynt yn chwanegu at eu rhif, fel y daeth yn ddiareb yn eu mysg 'fod llwch y merthyron yn hâd



Digitized by Google

i'r Eglwys Gristionogol.' Yn hyn y mae yr eglwys yn debyg i'r balmwydden, yr hon a ymgyfyd yn uwch po fwyaf y gwesgir hi i lawr. Y mae yn hawdd i'ch uchelder weled hyn, ond i chwi sylwi: ïe, yr wyf yn deisyf arnoch ar i chwi ddeall ac ystyried mai moddion perswadiol a ddylid eu defnyddio gyda'r grefydd Gristionogol, ac nid gorfodol."

Cadarnhawyd rhesymau anattebadwy, ac appeliad hyawdl y llythyr hwn, gan appeliadau cyffelyb oddi wrth dywysogion Protestanaidd ereill yn yr Almaen, a llwyddwyd mor effeithiol fel y cafodd y dyffrynoedd ysbaid byr o lonyddwch a thawelwch; ond wedi hyny, ymunodd eu llywodraethwr â chynghrair Pabaidd i erlid y sawl nad oeddynt yn cydweled â'r rhai a broffesent y grefydd hono, a dechreuodd eilwaith fygwth y Waldensiaid. Modd bynag, attaliwyd ef rhag gwneuthur niwed iddynt gan ei briod hawddgar; ac yn y flwyddyn ddilynol, darfu i ddychrynfeydd y gyflafan a gyflawnwyd ar Huguenotiaid Ffraingc ar ddydd gŵyl Bartholomeus agor ei lygaid mor effeithiol i weled natur erledigaeth grefyddol, fel y parhaodd efe i amddiffyn y Waldensiaid o hyny hyd ddydd ei farwolaeth—yr hyn a gymmerodd le yn 1580. Ei olynydd ydoedd ei fab, Charles Emmanuel; ac, ar yr achlysur hwn, arferodd y blaid Babaidd eu holl ddylanwad i gyffroi y teimladau mwyaf digofus, a'r erledigaethau chwerwaf, yn erbyn Waldensiaid Piedmont. Ond dyryswyd eu cynlluniau unwaith etto; o herwydd dangosodd y penadur newydd ei fod yn ddyn pwyllog a chyfiawn: a phan y daeth dirprwŷwyr oddi wrth y Waldensiaid ato, i ddadgan eu ffyddlondeb i'w lywodraeth, ac i ddeisyf ei nawdd, efe a roddodd iddynt yr attebiad ffafriol a ganlyn:—"Os byddwch chwi yn ffyddlawn i mi, byddaf finnau yn sicr o fod yn dywysog da i chwi—ïe, yn dad i chwi. Ac o barthed i ryddid cydwybod, ac ymarferiadau eich crefydd, ymgadwaf rhag ymyraeth dim â'r rhyddid oeddych yn ei fwynhau o'r blaen. Ac os bydd i rywrai wneuthur cais i'ch poenydio, deuwch ataf fi, a mi a'ch gwaredaf, ac a'ch amddiffynaf." Rhoddwyd yr atteb hwn iddynt, oedd mor deilwng o benadur, yn mhresennoldeb ei holl lys; ac mor benderfynol oedd y dôn yn mha un y rhoddwyd ef, fel na feiddiai neb ei wrthwynebu; ac felly cafodd y Waldensiaid fwynhau tawelwch.

Yn ystod y blynyddoedd blaenorol o dawelwch, yr oedd Cristionogion y dyffrynoedd, er eu bod yn hawlio cael mwynhau iawnderau cyfartal i'w cyd-ddeiliaid Pabaidd, yn cael eu goddef, yn hytrach na'u cydnabod, gan y gyfraith. Yr oedd y diogelwch a fwynhaent yn dibynu ar amgylchiadau ffortunus; a'r llonyddwch a feddent, ar y goreu, yn cael ei fwynhau tra yr oedd cleddyf Rhufain yn hongian uwch eu penau, megys wrth edefyn egwan. Ond daeth hyn i gael ei warafun iddynt; ac yn 1601, digwyddodd amgylchiad a barodd iddynt weled yn eglur ansicrwydd eu diogelwch. Mewn canlyniad i gyfnewidiadau gwleidyddol, yr oedd Charles Emanuel wedi cymmeryd meddiant o ardalyddiaeth (*marquisate*) Saluces, oedd yn cael ei gwahanu oddi wrth Piedmont ar du y gogledd gan fynydd; ac yr oedd yn y diriogaeth gyfoethog hon, a berthynai yn flaenorol i Ffraingc, wyth o eglwysi blodeuog o addolwyr efengylaidd, y rhai oedd wedi bod yn ymgyfathrachu y naill oes ar ol y llall am ganrifoedd â'u brodyr yn Piedmont. Yn ei awydd, dybygid, am chwanegiad at ei diriogaethau, penderfynodd y duc o Savoy i'w gyssylltu â'i hen lywodraeth; ac i'r dyben galwodd i weithrediad y ffwrnais a'r morthwyl, i gadwyno a charcharu. Yr oedd raid i'r Waldensiaid Salucaidd gydymffurfio â'r grefydd sefydledig; a gorchymynwyd iddynt ymddangos, yn bersonol, o flaen yr ynadon yn mhen pymtheng niwrnod, a dewis un o ddau beth—naill ai cofleidio Pabyddiaeth, neu gael eu gyru i alltudiaeth. Nis gallai y bobl syml hyn, oedd yn hollol anghyfarwydd mewn gwleidyddiaeth, feddwl fod natur dda Charles Emmanuel wedi cyfnewid mor ryfeddol; a chredent fod y gorchymyn, naill ai yn ffugiaeth, neu wedi ei roddi i beri dychryn di-achos; gan hyny arosasant yn eu hanneddau a dilynasant eu gorchwylion arferol. Ond yn ddisymwth ymddangosodd mintai o fynachod chwilysol yn eu mysg, fel haid o locustiaid difaol; gwnaed pob trigfod yn ddarostyngedig i ymchwiliadau swyddogion y Chwilys; a'r canlyniad fu, i bum cant o deuluoedd gael eu halltudio o'u cartrefi ar unwaith! Drwy hyn llwyr dorwyd i fyny a chwalwyd eglwysi ardalyddiaeth Saluces; ac fel yr oedd yr alltudion yn crwydro ar hyd y byd mawr llydan, cymmerodd y pab, Clement VIII., trwy ei reithiarchau a'i gynllwynion, ofal na chaent orphwysdra yn un man—ïe, i wadn eu troed. Amlygwyd cyfrwysdra neillduol yn y weithred hon; yr hyn a gyfiawnhëid yn ddiau yn syniad y rhai a ddygent hyn oddi amgylch, gan y llwyddiant a ddilynodd y cynllun. Gan fod y Waldensiaid wedi ennill cryn enw fel rhyfelwyr, enw ag yr oedd eu gelynion yn gorfod teimlo oddi wrtho, barnwyd yn ddoeth gan hyny i wahanu Waldensiaid Saluces oddi wrth eu gilydd, a'u gorthrechu fesur ychydig. Ar y cyntaf, rhoddwyd ar ddeall mai pobl y dyffrynoedd oedd i gael eu difeddiannu, tra yr oedd preswylwyr y mynyddoedd i gael llonyddwch; a phan oedd y diweddaf yn ystyried mai doeth oedd iddynt fod yn llonydd, yn gymmaint ag nad oedd un ymosodiad arnynt, yr oedd yr erledigaeth yn cael ei dwyn yn mlaen yn llwyddiannus yn y dyffrynoedd islaw. Ac ar ol hyn, ymwelwyd â'r mynyddwyr hefyd yn eu tro, ac alltudiwyd hwythau yr un modd.

Daeth tro yr erlidwyr yn awr i ymosod ar y Piedmontiaid; ac o'r flwyddyn 1601 hyd 1637, yr oeddynt yn feunyddiol yn agored i boenydiau, a blinderau, ac erledigaethau. Wedi hyny, cawsant ysbaid o seibiant a gorphwys am dair blynedd ar ddeg. Ond yn 1650, dechreuodd yr ystorm a fuasai am beth amser yn ymgasglu, ymdori mewn nerth arnynt, mewn canlyniad i eisteddiad cynghor yn Turin er lledaenu y ffydd Babaidd, a diddymiad heresi. Anfonwyd ysbïwyr gan y llys hwn i'r dyffrynoedd tawel, i hau, os oedd yn bossibl, hadau anghydfod yn mysg y brodyr, i ddenu y gweiniaid â gwobrwyon, i demtio dynion ieuaingc trwy ddarparu iddynt wragedd oedd yn proffesu Pabyddiaeth; a thrwy ymarfer pob twyll a deniadau i wanhau achos gwir grefydd, ac i lithio y sawl oedd yn ymlynu wrthi. Defnyddiwyd gorfodaeth hefyd yn gystal a thwyll. Ysbeiliwyd cynnulleidfaoedd o'u gweinidogion, a gwragedd o'u babanod; y rhai a gymmerid ymaith i'w dwyn i fyny yn egwyddorion y grefydd Babaidd. Ac yr oedd lliaws mawr o feibion a merched, o'r rhai a wysiwyd i ymddangos o flaen ynadon Turin, na ddychwelasant byth i'w cartrefi i fynegi dim ynghylch dirgelion tywyll y carcharau y bwriwyd hwynt

Digitized by Google

iddynt. Ond yr oedd hyd yn oed yr ymddygiadau hyn o nodwedd rhy lariaidd a thyner i foddio eu gelynion dialgar:—gan hyny, yn mis Ionawr, 1655, cyhoeddodd Andrew Gastaldo, 'Gwarchodydd Cyffredinol y Ffydd Sanctaidd,' reitharch ofnadwy, yr hwn a adwaenir yn gyffredin wrth yr enw "gorchymyn Gastaldo." Yn y dadganiad hwnw gorchymynwyd i bawb o bob gradd yn Lucerna, Lucernetta, San Giovanni, La Torre, Bubbiana, Fenile, Campiglione, Bricherassis, a San Secundo, i ymadael o honynt yn mhen tri diwrnod ar ol cyhoeddiad y dadganiad, a hyny dan boen attafaeliad a marwolaeth, os nad ymostyngent, ac ymuno âg Eglwys Rhufain. Yr hyn a chwanegai at lymder y gorchymyn hwn oedd, fod y gauaf y pryd hwnw yn yr Alpau yn ei erwinder mwyaf; ac wedi i filoedd o deuluoedd droi allan, a gadael eu cartrefi, gan grwydro allan ar hyd llechweddau y mynyddoedd yn nghanol y rhew a'r eira, torodd eu gelynion i mewn i'w preswylfeydd hwynt, gan eu hysbeilio o'r oll a gynnwysent. Nid oedd hyn oll ond ysgafn, o'i gymmharu â'u dioddefiadau dilynol. Ymgynddeiriogodd y milwyr a ddanfonwyd i gario allan y gorchymyn, a dechreuasant boenydio a llofruddio gwrthddrychau eu dygasedd yn mhob modd y gallasai eu creulondeb ei ddyfeisio. Nid digon ganddynt oedd ysbeilio y trueiniaid o'u meddiannau; ond ymddygwyd yn y modd creulonaf oedd yn bossibl at gant a hanner o wragedd a phlant mewn un lle—curent ymenyddiau rhai o'r plant yn erbyn y creigiau, a thorent benau ereill. Nid oedd hyn ond un enghraifft yn mysg lluoedd o rai cyffelyb: yr oedd y dulliau amrywiol a dychrynllyd o farwolaethu a ddyfeisiwyd gan eu poenydwyr, a hyny yn ngoleuni dydd, yn gyfryw ag oedd yn ddigon i beri i ddynoliaeth arswydo a chywilyddio, ac i'r haul guddio ei oleuni. Y mae haneswyr yn mynegu fel ffaith, fod syched yr erlidwyr am waed yn angerddol. Ymlidid y ffoaduriaid ar hyd y mynyddoedd, ac elid ar eu hol trwy ddilyn y llwybr coch a wnelid gan eu traed briwedig yn 'yr eira! Cyfrifir i fwy na chwe mil gael eu rhoddi i farwolaeth yn ystod yr erledigaeth hon. Yr oedd hyn yn lladdfa ofnadwy, wrth ystyried y boblogaeth gymmharol fechan yn mysg y rhai y digwyddodd y trychineb. Teimlai yr anfarwol Milton yn ddwys yn eu hachos, a gwnaeth yr oll a allai iddynt ac erddynt. Fel y canlyn y canodd efe i'r merthyron Waldensiaidd:—

"Avenge, O Lord! thy slaughtered saints, whose bones
Lie scatter'd on the Alpine mountain, cold;
Ev'n them that kept thy truth so pure of old,
When all our fathers worshipp'd stocks and stones
Forget not: in thy book record their groans;
Who were thy sheep, and in their ancient fold
Slain by the bloody Piedmontese, that roll'd
Mother with infant down the rocks. Their moans
The vales redoubled to the hills, and they
To heaven. Their martyr'd blood and ashes sow
O'er all th' Italian fields, where still doth sway
The triple tyrant; that from these may grow
A hundred-fold, who having learn'd thy way
Early may fly the Babylonian woe."

Ond ar yr achlysur pwysig hwn cynnhyrfwyd un arall ag yr oedd yn ei allu i wneyd mwy tuag at leddfu dioddefiadau y Waldensiaid druain nag awen John Milton. Yr oedd cleddyf Oliver Cromwell megys i'w glywed yn tincian yn ei wain. Yr oedd Savoy, pa fodd bynag, allan o gyrhaedd ei fraich ef:—ond yr hyn a allodd, efe a'i gwnaeth, ac a'i gwnaeth hefyd â'i holl galon. Efe a bennododd ddydd o ympryd a gweddi, ar ran Protestaniaid Piedmont; a chychwynodd danysgrifiad cyhoeddus er eu cynnorthwyo yn eu cyfyngderau, a rhoddodd ei enw ei hun ar ben y rhestr am ddwy fil o bunnau o'i bwrs ei hun. Cyrhaeddodd yr holl danysgrifiad mewn ychydig ddyddiau i fwy na deunaw mil ar hugain o bunnau:—swm ardderchog, yn enwedig pan y cofiwn ni fod gwerth y cyfryw swm gymmaint yn fwy yn yr eilfed ganrif ar bymtheg nag ydyw yn awr. Ysgrifenodd Cromwell at frenin Ffrainge, ac at wledydd Protestanaidd Ewrop, er ceisio cynnhyrfu dyddordeb ynddynt tuag at y bobl erlidiedig; ac anfonodd genad at y Duc o Savoy, yn deisyf ar iddo alw Gastaldo yn ol, ac adferu ei ddeiliaid alltudiedig i'w cartrefi. Yr oedd Cromwell, meddir, ar unrhyw adeg, yn ddigon i beri dychryn i Mazarin, prif weinidog Ffrainge; ac nid oedd llys Savoy, gan hyny, yn debyg o fod yn ddiystyr o'i gais. Dychwelwyd iddo attebiad mwynaidd yn cynnwys llawer o addewidion teg; ond yr oedd dylanwad yr Iesuitiaid yn gryf yn Turin—ac i'r fath ddynion nid oedd addewidion yn ddim amgen na chynnifer o gyfleusderau i ddangos eu medrusrwydd i'w hosgoi, ac i beidio eu cyflawni. Parhawyd Gastaldo yn ei swydd ddirmygus, ac ni alwyd yr alltudion yn ol. Yna cymmerwyd yr achos i fyny gan daleithiau Switzerland; pa rai, oddi wrth eu hagosrwydd at Savoy, a allent ymyryd yn yr achos gyda gobaith i lwyddo; ac, mewn canlyniad i'w cais hwy, cadarnhawyd cyttundeb, yn yr hwn y gallesid tybied fod pob peth a ofynwyd yn cael ei ganiatau—a dychwelodd y bobl alltudiedig yn ol i'w cartrefi. Ond yr oedd y cyttundeb wedi ei feichio â llawer o anhawsderau, a llawer o bethau a ddylasent fod i mewn ynddo wedi eu gadael allan, fel nad oedd y cyttundeb mewn gwirionedd yn werth dim; ac yn briodol iawn y dywedodd Cromwell ei hun am dano, mai "cwrs mwy dirgelaidd o elyniaeth o dan gochl heddwch" oedd efe. Gan hyny, efe a ysgrifenodd drachefn lythyrau at frenin Ffrainge, ac i'r taleithiau efengylaidd yn Switzerland yn 1658. Y mae yn ammhossibl dyfalu pa beth a fuasai canlyniad yr appeliadau hyn, o herwydd yn niwedd y flwyddyn uchod bu yr Amddiffynwr farw; ac yn ei farwolaeth ef y collodd Waldensiaid Piedmont eu heiriolwr cryfaf a mwyaf effeithiol. Yn yr adeg hon y darfu i Syr Samuel Morland, yr hwn a anfonodd Cromwell yn genhadwr i Piedmont, dynu y darlun pruddaidd a ganlyn o sefyllfa y bobl:—

"Yr wyf o dan orfod i'w gadael yn y man lle y cefais hwynt—yn mhlith y crochanau, mewn sachlian a lludw, ac yn dyrchafu eu llef mewn wylofain yn ngeiriau Iob, 'Trugarhewch wrthym, trugarhewch wrthym, ein cyfeillion; canys llaw Duw a gyffyrddodd â ni!' Hyd yn hyn, y maent mewn newyn a syched, yn noeth, ac ar grwydr, heb un man yn gartref sefydlog. Y maent yn griddfan hyd heddyw o dan feichiau trymion, a osodir ar eu hysgwyddau gan eu gorthrymwyr Pabaidd. Y mae gelynion hyd heddyw yn tynu cwysi hirion ar hyd cefnau y creaduriaid truain hyn, trwy waharddiddynt ymwneyd âg un math o fasnach, neu farsiandïaeth tuag at eu cynnaliaeth; trwy eu hysbeilio o'u da a'u meddiannau; trwy eu gyru yn y modd creulonaf o'u cartrefi a'u trigleoedd, a'u gorfodi i werthu eu genedigaeth-fraint am saig o fwyd; trwy alltudio eu gweinidogion—bugeiliaid y praidd hyn—fel y gallo y bleiddiaid ddyfod i mewn yn fwy

Digitized by Google

rhwydd, ac ysglyfio y defaid; trwy dreisio y merched a'r gwyryfon ieuaingc, ïe, trwy lofruddio llaweroedd o bersonau diniweid pan yn myned ar hyd y ffyrdd wrth ddilyn eu gorchwylion arferol; trwy eu dirmygu a'u sarhau yn y modd iselaf; trwy fygwth cyflawni cyflafan, os yn bossibl, yn seithwaith mwy gwaedlyd na'r rhai blaenorol. Pa beth a ddywedaf? Y mae y dyffrynoedd hyny a breswylir ganddynt heddyw, trwy ddiwydrwydd dibaid eu gelynion Pabaidd, wedi eu troi yn ddim amgen na charchar, i'r hwn y mae amddiffynfa La Torre yn gwasanaethu fel drws, drwy yr hwn y gellir gollwng i mewn pan yr ewyllysiont haid o lofruddion, i lwyr ddinystrio y creaduriaid truain hyn. At hyn oll y mae yn rhaid i ni chwanegu, er y cyflenwadau a anfonwyd yma o Loegr, a gwledydd ereill, etto, cymmaint ydyw nifer y rhai newynog, ac mor drwm ydyw gorthrwm eu gelynion Pabyddol, sydd yn cynllwyn er cymmeryd oddi arnynt yr hyn a roddir, ïe, i gymmeryd o'u dwylaw y tamaid bara â'r hwn y maent yn tori eu hangen, fel, mewn gwirionedd, y mae rhai o honynt hyd heddyw, yn awr ac eilwaith, yn mron yn barod i ymborthi ar eu cnawd eu hunain."

Parhau yn yr agwedd druenus hon a wnaeth pethau hyd y flwyddyn 1672, pan y torodd rhyfel allan rhwng y Duc o Savoy a Gweriniaeth Genoa—yn yr hon y bu yn dra llwyddiannus. Yn yr adeg gyfyng hon ar eu gwlad, darfu i'r Protestaniaid, mewn modd ardderchog, ddangos twyll cyhuddiadau eu henllibwyr; o blegid yn lle ymuno â'r gelyn, nac hyd yn oed sefyll yn ammhleidiol, hwy a ddaethant yn mlaen o honynt eu hunain i gynnorthwyo y duc. Darfu i'w cynnorthwy amserol a haelfrydig droi y fantol yn hollol; gorchfygwyd y Genoaid yn eu tro, a'r fath oedd diolchgarwch y duc iddynt am eu gwasanaeth fel y darfu iddo, mewn llythyr o ddiolchgarwch a ysgrifenodd efe at y cynnulleidfaoedd yn y dyffrynoedd, eu sicrhau y byddai iddynt gael cyfranogi o'i serch a'i nawdd parhaol. Cadwodd y penadur ei addewid yn ffyddlawn; ac o hyny hyd adeg ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd yn y flwyddyn 1675, mwynhaodd eglwysi Piedmont lwyddiant a thawelwch. Ac hyd yn oed ar ol ei farwolaeth ef, parhaodd ei briod, y dduces, i daflu ei nawdd drostynt: ond ar esgyniad Amadeus II., ysgubodd anrhaith ac erledigaeth etto dros y wlad; ac yn 1686, cyhoeddwyd proclamasiwn, yn yr hwn y gorchymynwyd i bob eglwys a chapel Protestanaidd gael eu dinystrio, a gorchymynwyd i bob Protestant ymwrthod â'i ffydd o fewn ysbaid pymtheng niwrnod, o dan boen marwolaeth neu alltudiaeth. Yr oedd yr holl fabanod a enid iddynt o hyny allan i gael eu dwyn i fyny yn egwyddorion y grefydd Babaidd; neu ynte, condemnid y tadau i ddioddef cosp marwolaeth. Dadleuai y Waldensiaid yn erbyn y deddfau caethiwus, anghyfiawn, ac annynol hyn, a chymmerwyd i fyny eu hachos gan amryw o alluoedd Protestanaidd Ewrop, ond yr oedd y cwbl yn ofer. Ar gymmhellion brenin Ffraingc, ac ereill, aeth y duc yn mlaen i gyflawni a rhoddi mewn grym ei broclamasiwn creulawn; ac ar hyn, ymarfogodd y Piedmontiaid, er eu hamddiffyn eu hunain. Yr oedd eu nifer wedi lleihau cymmaint fel nas gallent grynhoi ynghyd fwy na dwy fil a hanner o ddynion, y rhai oedd yn alluog i gyflawni gwasanaeth milwraidd; ac etto, yr oedd y llu bychan hwn, y naill dro ar ol y llall, yn curo yn ol luoedd unedig Ffraingc a Savoy, a ddanfonasid i'w darostwng. Ond yr oedd yr ymrysonfa yn rhy anghyfartal i barhau yn hir; ac wedi ymdrechfa arwrol, gorlethwyd preswylwyr y dyffrynoedd; ac o'r braidd na chladdwyd hwynt gan liosawgrwydd y goresgynwyr, tra yr oedd eu pentrefydd, eu cartrefleoedd, a'u teuluoedd heddychol, yn dioddef creulonderau mor ofnadwy na allesid yn hawdd cael dim i'w gymmharu â hwynt, ond erledigaethau y flwyddyn 1655. Trengodd dros dair mil ar yr achlysur hwn, drwy y cleddyf ac arteithiau ereill; carcharwyd pedair mil ar ddeg; cymmerwyd minteioedd lliosog o blant oddi ar eu rhieni, a dygwyd hwynt ymaith, er eu haddysgu yn y credo hwnw ag yr oedd eu tadau wedi cyflwyno eu tystiolaeth a'u gwaed yn ei erbyn. A'r fath ydoedd cyflwr y sawl a garcharwyd, fel yr oedd ganddynt achos da i genfigenu wrth yr hyn a gyfarfu eu brodyr dewrfrydig a fuont feirw ar y maes, neu hyd yn oed ar y crogbren; o herwydd mor fawr ydoedd llymder eu carchariad, fel yn mhen saith mis nid oedd ond tair mil o honynt yn fyw.

Ar ran y gweddillion a adawyd o'r Waldensiaid ffyddlawn a selog, anfonwyd ceisiadau at y duc o holl wledydd Protestanaidd Ewrop, ar iddo attal ei law, a'i greulonderau: ac erbyn hyn, ni feiddiai Victor Amadeus droi clust fyddar atynt. Ond mor bell a hyny y cynneuodd ei ymysgaroedd tosturiol tuag atynt:—gollyngodd hwynt yn rhydd o'r carcharau yn nyfnder y gauaf, a hyny ar yr ammod eu bod yn myned ymaith o Piedmont am byth. Dyna oedd y gorchymyn a roddwyd i fintai o ddioddefwyr oedd, â'u hiechyd wedi ei ammharu, a'u cyrph wedi curio nes myned yn mron heb gnawd am yr esgyrn, mewn canlyniad i'r caledi a'r creulondeb a ddioddefasant; ac am bump o'r gloch prydnawn y diwrnod hwnw, gorfodwyd hwynt i gychwyn taith o bedwar neu bum can milldir o ffordd. Yr oedd y ffyrdd yn cael eu britho â chyrph meirw y noson hono, o herwydd yr oedd cant a hanner o leiaf wedi trengu; a boreu dranoeth, pan y gwelai yr alltudion gweddilledig dymmhestl yn crynhoi o gwmpas ac yn tywyllu copa mynydd Cenis, hwy a erfyniasant yn daer ar i'r swyddog a'u harolygai ganiatau iddynt aros yn y man lle yr oeddynt hyd nes yr elai y dymmhestl heibio. Ond yr oedd y swyddog yn fwy annhrugarog na'r dymmhestl, a gorfododd hwynt i deithio yn mlaen. Mewn canlyniad i hyn bu farw, a chladdwyd o dan yr eira, bedwar ugain a chwech chwaneg o honynt. O'r diwedd, cyrhaeddodd y rhai a adawyd i Geneva; ond ni ddaeth llawer o honynt yno ond i farw—wedi dihoeni eisoes gan ludded ac afiechyd. Cyrhaeddodd rhyw gymmaint dros ddwy fil yn y modd hwn i diriogaeth Switzerland a Geneva, lle y derbyniwyd hwynt gydag arwyddion amlwg o lettygarwch a chydymdeimlad Cristionogol gan rai oedd wedi cyfranogi fel hwythau o oleuni pur yr efengyl. Yr oedd Amadeus, yn hollol ddiystyr, wedi taflu ymaith y gem ddisgleiriaf yn ei goron ar gais ei arweinwyr dallbleidiol a choelgrefyddol; ac yn awr, dechreuodd boblogi y dyffrynoedd â Phabyddion, a rhoddodd yn yr amddiffynfeydd filwyr Piedmontaidd a Ffrengig. Ac erbyn hyn, yr oedd buddugoliaeth y gelynion yn ymddangos yn gyflawn, o herwydd tybient eu bod wedi dadwreiddio heresi allan o'r wlad am byth, a bod y bobl a'i coflcidient wedi syrthio, fel nas gallent gyfodi mwy. Nid oedd hyn ond prawf newydd o'u hynfydrwydd a'u dallineb; ond nid oeddynt yn dychymmygu y dychwelai y gweddillion

Digitized by Google

gwasgaredig gyda dialgarwch llym, ac y cyfodent eilwaith yr achos oedd wedi ei fathru dan sawdl haiarnaidd y gorthrymydd.

Ymwasgarodd gweddillion y Waldensiaid gorthrymedig ac erlidiedig i daleithiau Switzerland, Holland, Prwssia, a thaleithiau Protestanaidd yr Almaen; ac i chwanegu at yr annhebygolrwydd y dychwelent yn ol i'w gwlad eu hunain, poblogwyd eu cartrefi â Phabyddion, ac amddiffynwyd y bylchau mynyddig gan nifer lliosog o filwyr. Ni feddyliai neb y gallasai nifer mor fechan ag oedd o honynt hwy weithio eu ffordd yn mlaen yn wyneb rhwystrau mor fawr. Ond yr oedd yn mysg eu gweinidogion un o'r enw Henri Arnaud, dyn â llonaid ei fynwes o deimlad gwladgarol, yr hwn a alwodd i gof esamplau ei ragflaenoriaid. Ac yn ysbryd y tadau, efe a wregysodd ei arfau—a elwid ganddo ef "Cleddyf yr Arglwydd a Gedeon;" ac yr oedd arwyddair cyffredin y Waldensiaid, sef "y goleuni sydd yn llewyrchu yn y tywyllwch," yn feunyddiol yn ei enau. Pregethai Arnaud, i'r dyben o godi gobeithion ei gydwladwyr, oddi ar y testyn, "Nac ofna, braidd bychan: canys rhyngodd bodd i'r Tad roddi i chwi y deyrnas." Er fod yr alltudion wedi gwneyd dau yingais aflwyddiannus i ddychwelyd yn ol i'w gwlad, penderfynasant wneuthur trydydd cais, o dan arweiniad Arnaud ei hun. Ac os edrychwn ar yr eofndra â pha un y tynwyd allan y cynllun, neu yr egni a'r diysgogrwydd â pha rai y cariwyd ef allan, o'r braidd y gellir cael dim yn deilwng i'w gymmharu âg ef yn holl gylch hanesyddiaeth.

Yn Berne yr oedd pencadlys y symmudiad hwn, ac yr oedd yn angenrheidiol ei gadw yn ddirgelaidd oddi wrth y Berneaid, a'r gelynion yn Ffraingc a Savoy. Mewn coedwig fawr yn Pays de Vaud, a elwid coedwig Nion, yr ymgyfarfyddent; ac ymgasglai i'r cyfarfodydd hyn wyth neu naw cant o honynt o amryw wledydd. Yma y penderfynwyd ar gynllun yr ymosodiad, a gwnaeth Henri Arnaud adduned na roddai efe y cleddyf heibio hyd nes y byddai eu tair eglwys ar ddeg, oedd yn y dyffrynoedd, wedi eu glanhau oddi wrth yr arwyddluniau eilunaddolgar. Ar noson yr 16eg o Awst, 1689, y mabwysiadwyd y penderfyniad beiddgar hwn; ac mor ddirgel y cadwyd pob parotoadau, fel nad oedd ond rhyw sibrwd ansicr ar led yn ei gylch. Yr oedd hyn yn ffodus iawn i'r Waldensiaid, y rhai a gymmerasant fantais ar ryw gychod oedd ger llaw i groesi i'r tu arall, rhwng Nernier ac Ivoire. Ar eu glaniad, rhoddwyd yr alarwm allan, a gwelsant ddigon o arwyddion i'w hargyhoeddi na chaffent fyned yn mlaen yn ddiwrthwynebiad; ar hyn, hwy a gymmerasant ddau o foneddwyr y wlad, fel gwystlon, er cael teithnawdd drwyddi. Yr oedd hyn yn hanfodol angenrheidiol, yn gymmaint a'u bod yn ddyeithr i'r ffordd; ac er hyny, yn ol pob arwydd, yr oedd yr ail ddydd o'u taith yn debyg o fod yr olaf iddynt; o herwydd anfonodd preswylwyr Cluses, y rhai, er yn anfoddlawn, a ganiataent iddynt ryddid i fyned trwy eu gwlad, genadwr at breswylwyr Sallanches, i'w cynghori i ymosod ar y Waldensiaid yn ngheunant cul Maglan, tra yr ymosodent hwythau eu hunain arnynt o'r tu cefn. Ond darganfu Arnaud eu bradwriaeth, a chymmerodd ddau ŵr arall yn wystlon o Cluses, ac aeth yn mlaen yn gyflym tua'r ceunant ofnadwy gydag ychydig wŷr wedi eu harfogi â cheryg yn unig. Croesodd y ceunant gyda'u holl wŷr, cyn i bobl Sallanches gael un wybodaeth am ei ddyfodiad. Chwanegwyd trafferthion a pheryglon y daith, yr hon a wnaed yn nghanol gwlawogydd trymion, dros greigiau a mynyddoedd, gan fradwriaeth eu harweinwyr; pa rai, ar y trydydd dydd, a'u dygasant ar draws mynydd Haut Luce, trwy fylchau dyrus ac ofnadwy, mewn trefn i'r Savoyiaid allu eu goddiweddyd a'u dinystrio. Yn y cyfyngder hwn, bu raid i Arnaud fygwth rhoi yr arweinyddion i farwolaeth, os parhau a wnaent i ymddwyn fel y gwnaethant. Wedi i'r Waldensiaid trwy ddirfawr boen a llafur, esgyn y mynydd uchel hwn, bu raid iddynt ddyfod i lawr o hono ar eu heistedd, dan lithro, heb oleuni, ond yr hyn a dderbynient oddi wrth wynder yr eira; ac ar eu dyfodiad yn hwyr y nos i St. Nicolas de Verose, pentref tlawd yn nhroed y mynydd, nis gallent gael tanwydd ond trwy ddidoi y bythynod a'u diogelent rhag y gwlaw. Dyna oedd ychydig o'r anhawsderau a'u cyfarfu yn y daith flinderus hon, hyd nes y daethant i ddyffryn Isere ar y pummed dydd. Yn ystod y daith, yr oedd doethineb Arnaud yn rhagweled ac yn gochel peryglon lawer, ei weddiau yn daerion, a'i ddifrifwch yn pregethu i'w ddilynwyr y ddyledswydd o ddyfal-barhau yn eglur i bawb. Yn nghanol yr anhawsderau hyn, ymddygodd ei ddilynwyr yn ganmoladwy, nes ennill clod hyd yn oed eu gwrthwynebwyr. Er eu bod yn mysg gelynion, yr oeddynt yn talu o'r ychydig oedd ganddynt am yr oll a gaffent.

Nid oedd y Waldensiaid hyd yn hyn wedi cyfarfod ond âg ambell ysgarmes; ond ar yr wythfed dydd, bu raid iddynt ddioddef llymder brwydr reolaidd. Yn y lle culaf yn mwlch Salabertrand, yn nhroed y Col d' Albin, yr oedd pont i groesi y Dora; ond mor fuan ag y daethant yno, canfyddent ar yr ochr arall i'r bont lu o ddwy fil a phum cant o filwyr Ffrengig mewn sefyllfa amddiffynol, ac yn barod i'w hattal yn mlaen. Yr oedd sefyllfa y Piedmontiaid yn dra pheryglus. O bob tu yr oeddynt yn cael eu cau i mewn gan greigiau uchel:—gallasai gwarchlu Susa attal eu henciliad, ac o'u blaen yr oedd gelyn yn meddu hyder llawn yn ei ragoriaeth ei hun. Rhuthrasant yn mlaen tua'r bont, modd bynag; a phan ofynwyd pwy oeddynt, attebasant, "Cyfeillion, os caniatewch i ni fyned heibio!" Ymgododd y ddolef, "Lladd! lladd!" yn ddiattreg o wersyll y Ffrangcod, yr hyn a ddilynwyd gan gawod o ergydion, o fwy na dwy fil o ddrylliau. Yr oedd Arnaud wedi gorchymyn i'w wŷr syrthio ar eu hwynebau, ac ni chlwyfwyd ond un dyn gan y gawod ofnadwy hon. Ar yr un funyd ymosodwyd ar y Waldensiaid gan ddau gwmni o'r tu ol iddynt, ac felly yr oeddynt rhwng dau dân. Gwelsant fod yn rhaid ymladd; o ganlyniad cyflyment rhagddynt dan floeddio enw eu harweinydd. Rhyw lais yn y dyrfa a lefodd, "Cymmerwch galon! y mae y bont wedi ei hennill!" ac ar hyn rhuthrasant yn mlaen nes dyfod i ymladd law-law â'r gelyn. Nid oedd y bont wedi ei hennill—ond cariwyd hi yn fuan. Ar ol brwydr a barhaodd am ddwy awr, gwelai yr Ardalydd de Laney fod ei wŷr yn cwympo ar bob llaw, ac yn diangc yn mhob cyfeiriad, ac yr oedd efe ei hun wedi ei glwyfo yn ei fraich; a gwaeddodd gyda rhêg ofnadwy, "A ydyw yn bossibl fy mod wedi colli y frwydr, a'm hanrhydedd hefyd?"—a chwanegodd "Gwareded pob un ei hun oreu y gallo!" A chyda hyny, efe a ffodd gydag ychydig o'i

Digitized by Google

swyddogion clwyfedig i Briancon, a chariwyd ef oddi yno i Embrun. Ymgymmysgodd llawer o honynt â'r Waldensiaid, gan dybied y gallasent drwy hyny ddiange yn ddigosp. Ond camgymmerasant arwyddair y diweddaf, yr hwn oedd *Angrogne*, am *Grogne*; ac mewn canlyniad i hyn darganfyddwyd dau gant o honynt a lladdwyd hwynt. Syrthiodd ysbail fawr i ddwylaw y Piedmontiaid; a phan y cododd y lleuad, nid oedd un o'r gelynion i'w canfod. Seiniodd y gorchfygwyr yr udgyrn, a bloeddient nes oedd y creigiau yn adseinio, "Diolch i Arglwydd y lluoedd, yr hwn a roddodd i ni fuddugoliaeth ar ein gelynion!" Yr oedd hi yn fuddugoliaeth nodedig, ac yn ún a ennillwyd i'r gorchfygwyr heb iddynt golli ond deg neu ddeuddeg o glwyfedigion, a phedwar ar ddeg neu bymtheg o laddedigion.

Ar ol y llwyddiant rhyfedd hwn, er eu bod yn hanner newynog a blinedig, aeth y Waldensiaid yn mlaen, rhag y cawsai eu gelyn ei adgyfnerthu; ac yn y nos ar ol y frwydr, esgynasant i fynydd Sci wrth oleuni y lloer, er fod rhai o honynt yn syrthio yn ol yn barhaus o herwydd eu cysgadrwydd a'u lludded; ac yr oedd raid i'r ol-warchodlu eu gyru yn mlaen er mor anewyllysgar oeddynt. Boreu dranoeth, yr hwn oedd yn ddydd Sabbath, canfyddent, yn mhell draw, benau mynyddoedd eu gwlad eu hunain; ac ar hyn galwodd Arnaud ei ddilynwyr ynghyd ato, a chyflwynodd ddiolchgarwch i'r Arglwydd mewn gweddi, a gwnaeth anerchiadau bywiog a chalonog iddynt. Aethant yn mlaen ar eu taith gan yru o'u blaen ychydig o ysgarmeswyr a ymdrechent eu hattal, a chyrhaeddasant San Martino ar y 27ain o Awst; sef, yn mhen un niwrnod ar ddeg ar ol cychwyn o goedwig y Pays de Vaud. Pe buasent yn dymuno sicrhau eu diogelwch, gallasent gael eu dymuniad trwy ymsefydlu yno. Ond eu hamcan oedd ymdrechu adfeddiannu eu gwlad a'u heglwysi eu hunain, ac adferu eu brodyr i lawn fwynhâd o fendithion rhyddid Cristionogol; ac aethant yn mlaen i wynebu treialon a pheryglon newyddion. Ar y 29ain, disgynasant i ddyffryn Lucerne, yr hwn a amddiffynid gan filwyr Ffrainge a Phiedmont; o ba rai yr oedd tua dau gant wedi eu gosod yn Col de Guiliano, i amddiffyn y fynedfa hono. Rhuthrodd y Waldensiaid arnynt yn dair adran, a chyda'r fath ddewrder fel y synai y gelynion; ac ar ol tanio ychydig, ffoisant o'r bwlch, a gyrodd yr ymosodwyr hwynt o'u blaen, ac heb golli ond un dyn! Cymmerodd y ffoaduriaid nodded yn mhentref Bobbio, yr hwn a boblogid gan Babyddion, y rhai a gawsant eiddo attafaeledig y Waldensiaid; o ganlyniad, ymosodwyd ar y lle ganddynt hwy trwy ruthr, a chymmerwyd ac anrheithiwyd ef. Dyma y tro cyntaf iddynt ŵyro oddi wrth yr ysbryd cymmedrol a'u nodweddai mor amlwg yn flaenorol. Buont yn euog hefyd o roddi amryw o'u carcharorion i farwolaeth. Ond fel hyn y mae un o honynt hwy eu hunain yn ceisio cyfiawnhau y gweithredoedd hyn:—"Na ryfedded y darllenydd fod y Vaudois yn y modd hwn wedi rhoi i farwolaeth y rhai a syrthient i'w dwylaw. Nid oedd genym garcharau i'w cadw ynddynt; yr oedd ein nifer yn rhy fychan, a'r rhyfel yn rhy wasgarog, i ni allu mewn un modd eu gwylio; a phe buasem yn eu rhyddhau, cawsai y gelynion wybod am ein cynlluniau, a'n gwendid, a phob peth y dibynai llwyddiant ein hanturiaeth arno. Arbedwyd Gras a'i dad; ond effeithiodd hyny yn dra niweidiol ar achos y Vaudois, o herwydd i'r ddau adyn hyn ymddwyn yn fradwrus; y rhai, pa fodd bynag, a gawsant eu cospi am eu brad." Mewn gwirionedd, aeth pob carcharor yn mron a arbedwyd gan y Waldensiaid drosodd at y gelyn, gan fradychu eu cynlluniau a'u symmudiadau. Peth ofnadwy yw rhyfel, hyd yn oed pan y byddo yr achos yr ymleddir drosto yn dda; o blegid y mae yn arwain yn anocheladwy i gyflawniad gweithredoedd ag y mae pob calon deimladwy yn cael ei harcholli o'u herwydd, a'r efengyl yn eu condemnio. Nid oedd Arnaud bob amser yn gallu sefyll yn erbyn y cyffro milwraidd a'i meddiannai, heb ymollwng i deimladau rhyfelgar: wedi iddo gyflwyno ei ddilynwyr mewn gweddi i ofal yr Arglwydd, gwelid ef yn ddioed yn lle poethaf y frwydr. Yr oedd ei waith yn gosod ei hun yn y fath berygl yn dychrynu ei ganlynwyr, y rhai a'i cynghorent ef yn fynych i fod yn fwy gofalus o'i berson. Ond i hyn oll efe a attebai, "Myfi sydd yn gwybod oreu pa beth y mae yr achos yn ei ofyn oddi wrthyf. Pan y byddaf yn symmud yn mlaen, dilynwch fi; a phan y cwympaf, dïelwch fi."

Mewn canlyniad i lwyddiant y Waldensiaid yn Bobbio, galluogwyd hwynt ar yr unfed dydd ar bymtheg o'u rhyfelgyrch (Sabbath, Medi 1af), i ddwyn yn mlaen addoliad crefyddol, pryd y traddodwyd pregeth gan M. Montoux, cydymaith Arnaud. Ei bulpud ydoedd drws wedi ei ddodi ar ddwy graig wastad. Cymmerwyd llŵ gan y swyddogion a'r milwyr cyffredin—yn yr hwn y tyngent i fod yn ffyddlawn i'w gilydd, i beidio ymwahanu, hyd yn oed pe buasai eu rhif yn disgyn mor isel a thri neu bedwar, hyd nes y byddai eu cenhadaeth gyssegredig wedi ei chwblhau. Tranoeth, aethant yn mlaen i ymosod ar Villario; a ffodd y gwarchodlu ar ddynesiad y Waldensiaid, a chymmerasant noddfa o fewn muriau mynachdy. Amgylchynwyd yr adeilad hwn yn ddioed, ac yn fuan cawsai y rhai oddi mewn eu newynu, neu buasai raid iddynt ymostwng. Ond daeth llu mawr i'w gwaredu; ac er i'r Waldensiaid wneyd amryw ymosodiadau llwyddiannus ar, a pheri colled i'r gelyn, bu raid iddynt, ar y 7fed o Fedi, godi y gwarchau, ac encilio o ddyffrynoedd Lucerne i gilfachau mynyddig San Martino. Yr oedd golwg anobeithiol ar sefyllfa y fintai fach i bob ymddangosiad. Yr oedd y rhif gwreiddiol o wyth gant wedi lleihau cryn lawer, drwy afiechyd a'r cleddyf; yr oedd wyth mil o Ffrangcod, a deuddeng mil o Biedmontiaid, wedi eu casglu ynghyd, i'r dyben o'u llethu hwynt; a thra yr oeddynt, yn enciliedig, yn cael eu dilyn gan finteioedd o'r gelynion, â pha rai yr oeddynt yn parhaus ymladd, yr oedd y wlad wedi ei gwaghau o ddarpariaethau, fel y bu raid iddynt fyw dros amryw ddyddiau ar ffrwythydd a llysiau. Ond o dan yr amgylchiadau cyfyng hyn, nid oedd neb yn yngan gair am ffoi, nac ymostwng. Pan y gyrid hwynt, naill ai gan angeu neu gan y gelyn, o un fan, ymsefydlent hwythau mewn man arall; ond nid oedd ganddynt ddarpariaethau o unrhyw natur, ond a lwyddent i'w cymmeryd oddi ar y gelyn, dros amryw wythnosau. Yn yr ysgarmesoedd lliosog a ymladdasant, yr oedd eu gwybodaeth am ansawdd y wlad, a'u medrusrwydd fel annelwyr, o wasanaeth mawr iddynt. Ymosodent ar eu hymlidwyr pan y disgwylient leiaf am danynt; ac os gorchfygid hwy, encilient i leoedd nas gallai

Digitized by Google

eu gelyn eu dilyn. Gwasanaethed un amgylchiad yn enghraifft o'r peryglon yr oeddynt yn agored iddynt yn y rhyfelgyrch hwn, oddi wrth ansawdd a nodwedd anianyddol y wlad. Ar eu henciliad o ddyffryn Lucerne i San Martino, yr oedd eu llwybr yn un mor anhawdd fel na wnaethai y mynyddwyr profedig o'r bron ei fentro liw dydd; ac etto gorchfygasant hwy yr anhawsder hwn mewn taith yn y nos. Yr oedd y tywyllwch y fath fel yr oedd yn angenrheidiol i'r arweinyddion wisgo y llian gwynaf a allent ei gael am eu hysgwyddau er cael eu gweled; ac yn y daith ofnadwy hon collodd y Waldensiaid eu holl gludgelfi yn mron, yn mysg y creigiau a'r clogwyni. Cyrhaeddasant Balsi yn ddiogel; ond ar ol ei dyfod yn ddydd, pan edrychent yn ol ar y peryglon y daethant drwyddynt, yr oeddynt yn arswydo. "Nis gall y sawl na welsant y fath leoedd," medd Arnaud, "ffurfio un syniad am y perygl; a dichon y gall rhai sydd wedi eu gweled anghredu yr adroddiad. Y mae, pa fodd bynag, yn berffaith wirionedd; ac, heb law hyny, y mae llawer o'r rhai a wnaeth y daith beryglus hon, ar ol hyny wedi bod yn edrych liw dydd ar y lle y daethant ar hyd-ddo, wedi cael eu taro gan ddychryn, wrth feddwl eu bod wedi myned yn y tywyllwch trwy leoedd, a thros lanerchi, na wnaethent ymgais i fyned drostynt pe buasai hi yn ddydd."

Nid awn i olrhain yr amrywiol ddigwyddiadau a gymmerasant le drwy y rhyfelgyrch, wedi i'r Waldensiaid ymsefydlu yn Balsi—talgraig uchel, ar ben yr hon yr oedd gwastadedd, lle yr oedd math o luesty milwraidd wedi ei gloddio yn y graig. Cadarnhawyd y lle hwn yn ofalus gan Arnaud, trwy adeiladu mur âg ynddo dyllau i daflu ceryg mawrion i lawr ar benau y gelynion. Nid oedd yn bossibl myned i'r lle hwn ond o un cyfeiriad; ond gwnaeth Arnaud a'i ddilynwyr y gwaith o'i gyrhaedd yn y ffordd hon yn orchwyl anhawdd a pheryglus i'r eithaf; ac yn niwedd y rhyfelgyrch gauafol, er fod nifer yr amddiffynwyr wedi eu lleihau hyd bedwar cant o rifedi, etto penderfynasant aros yno, a gwrthsefyll galluoedd unedig Ffrainge a Savoy. Ymosododd y gelynion yn ddibaid ar y nawddle hwn gyda byddin liosog; ond yr oedd y gwarchodlu dewr yn eu gyru yn ol bob tro gyda lladdfa fawr. Coleddid gobaith y gellid newynu y Waldensiaid yn ystod misoedd y gauaf; ond yr oedd Rhagluniaeth wedi darparu ar eu cyfer mewn modd annisgwyliadwy. Ar eu dychweliad i'w dyffrynoedd brodorol, cawsant fod yno gynhauaf ffrwythlawn, naill ai ar addfedu, neu eisoes wedi gwneyd; ond disgynodd eira trwm ar y pryd, yr hwn a lwyr orchuddiodd y cnwd oedd heb ei dori, ac yn ol pob ymddangosiad yr oedd eu gobeithion am y dyfodol yn egwan iawn. Ond yn lle troi yn ddinystr, achlysur o ddiogelwch a fu hyny iddynt. Pe buasai yr holl gnwd wedi ei gasglu i mewn, ei ddinystrio a gawsai gyda'r ydlanoedd a'r ysguboriau a losgwyd gan y gelynion, pan godasant eu gwarchau cyntaf oddi ar Balsi, ac yr ymneillduasant i'w gorsaf auafol; ond yn ystod tymmor y rhew a'r eira, cafwyd y cnwd i ddiddosrwydd mewn sefyllfa dda, ac felly gwasanaethodd yn ymborth i'r gwarchodlu. Y mae y digwyddiad canlynol yn rhoddi i ni syniad am natur y rhyfelgyrch a ddygwyd yn mlaen, ac yn amlygu gwroldeb y Waldensiaid. Deallodd y gwarchauwyr fod y felin yn Macelle yn ddiamddiffyn; a thybient y gallent ddal rhyw nifer o bersonau yno yn malu eu hŷd, ac anfonasant bum cant o wŷr yno i'w dinystrio hi. Llwyddasant i ddal tri o Brotestaniaid—y rhai oeddynt ymnoddwyr Ffrengig; dau o ba rai a saethwyd, a chymmerwyd y llall yn garcharor. Ar ddychweliad y milwyr gyd a'u carcharor i'r pencadlys, penderfynodd y prif swyddog milwraidd ei ddienyddio. Ond yr oedd gweddi y carcharor, cyn dioddef, yn cael ei hoffrymu mewn iaith mor syml a theimladwy, ac mor lawn o wresawgrwydd crefyddol, fel nas gallai y rhai a gynnorthwyent yn y gwaith o'i ddienyddio ymattal rhag tywallt dagrau. Wedi esgyn i'r dienyddle, efe a anerchodd ei farnwyr, ac ereill oedd yn bresennol, gan amlygu ei barodrwydd i farw mewn achos cyfiawn a da, a thros grefydd mor bur a'r hon a broffesai efe; ond dywedodd mai ofer oedd eu gobaith y byddent yn alluog i ddarostwng a difodi y Waldensiaid. Dywedodd nad oedd eu sefyllfa mor anobeithiol ag y tybiai eu gelynion; fod ganddynt gyflawnder o fara, ŷd, halen, a phylor; ac, yn lle un dyn yr oedd yr achos da yn ei golli yn ei symmudiad ef, y cyfodai Duw lawer chwaneg i wneuthur y diffyg i fyny. Yr oedd ysbryd o'r fath yma yn profi ei fod yn bossibl i'r bobl hyn gael eu dinystrio, ond nis gellid eu darostwng a'u llethu.

Penderfynwyd ar wneuthur ymgais egniol ar Balsi yn ystod y gwanwyn, a chasglwyd yn nghyd ugain mil o filwyr Ffrainge a Piedmont i gymmydogaeth y graig beryglus erbyn y 30ain o Ebrill. Gan nad oedd yn bossibl myned iddi ond ar hyd un llwybr anhygyrch a pheryglus, oedd wedi ei ffurfio gan ffrwd yn rhedeg yn nhroed y clogwyn, daeth yn gwestiwn o ddadl pwy a wnai yr ymgais cyntaf ar y lle peryglus hwn, gan fod y Ffrangcod a'r Piedmontiaid yn ewyllysio osgoi yr ymosodiad. O'r diwedd, daeth catrawd oreu y blaenaf yn mlaen, yn cynnwys pum cant o ddynion detholedig, yn cael eu hamddiffyn gan gyflegrau y gweddill o'r fyddin; a gwaeddai eu swyddog, gan gyfeirio tua'r lluestty ar ben uchaf y graig, "Y mae yn rhaid i ni gysgu acw heno, fy mechgyn i." Rhuthrodd y gatrawd hon yn mlaen yn llawn o'r brwdfrydedd sydd yn nodweddu y Ffrangcod mewn brwydr, a chyrhaeddasant y gwarchglawdd cyntaf, oedd wedi ei wneuthur o goed cwympedig; a thra yr oeddynt yn ymdrechu eu symmud, ond yn ofer, taniodd y Waldensiaid arnynt, y rhai nid oeddynt ond ychydig latheni oddi wrthynt, gyda'r fath effaith, fel y cwympodd y rhan fwyaf o'r ymosodwyr; wedi hyny, rhuthrodd y gwarchauedigion allan o'u cuddleoedd, a thorasant y gweddill i lawr, oddi eithr deg neu ddeuddeg, a lwyddasant i redeg yn ol at eu cymdeithion. Sicrhawyd y llwyddiant hynod ac annisgwyliadwy hwn i'r Waldensiaid heb iddynt golli cymmaint ag un dyn; ac yn ddychrynedig wrth weled canlyniad anffodus eu hymosodiad, syrthiodd y gwarchauwyr yn ol ar Macalle a Champ de Salsa. Wedi gorphwys am ychydig ddyddiau, dychwelodd y gelyn i'r ymosodiad; ac, ar brydnawn y 10fed o Fai, yr oedd Balsi wedi ei hamgylchu gan bump o wersyllfaoedd, fel nas gallai un o'r gwarchauedigion ymddangos heb fod mewn perygl o gael ei daraw i lawr gan gawod o belenau. Yr oedd y gwarchauwyr yn dyfod yn nes nes o hyd, a chynnygid gwobr o bum can *louis* (neu 500*p.*) i bob un a roddai ei hun i fyny. Ond nid oedd y cynnygion deniadol hyn yn cael eu hatteb gan y Waldensiaid ond trwy wneuthur ymosodiadau

yn y nos ar wersylloedd y gelynion, yn y rhai y dangosent eu penderfyniad i ymladd hyd y diwedd. Wedi cwblhau yr holl barotoadau i wneuthur yr ymosodiad mawr, gwnaed ef ar y 14eg o fis Mai. Distrywiodd magnelau y gelyn y muriau nad oeddynt wedi eu hamcanu ond i wrthsefyll ergydion drylliau; ac wedi ymdrechu amddiffyn eu hunain â llawddrylliau ac â cherryg, gyrwyd y Waldensiaid yn ol i'w hamddiffynfeydd mewnol. Canfyddent erbyn hyn nas gallent sefyll eu tir yno yn hwy; a chan fod tarth trwm wedi ymdaenu yn y nos, drwy yr hwn y gwelid tânau y gelyn yn cynneu yn araf draw, penderfynasant adael y graig. Gwnaethant hyn, trwy ddyfod i lawr ceunant llawn o glogwyni ofnadwy, gan lithro ar eu cefnau rhag llithro yn rhy chwyrn, a theimlo eu ffordd a'u traed yn y tywyllwch. Yn y boreu, rhuthrodd y gwarchauwyr yn mlaen mewn llawn hyder i gymmeryd y lluestty; ond synwyd hwynt yn aruthrol pan na chawsant yno ond lle gwâg—y gwarchauedigion wedi ffoi; ond pa fodd, nis gallent hwy ddyfalu. Ar y dydd blaenorol yr oedd y Ffrangcod mor hyderus am lwyddo, fel yr oeddynt wedi gwahodd, â sain udgorn, bawb a ewyllysient weled diwedd y Waldensiaid, i ddyfod i Pignerol dranoeth, lle y crogid hwynt bob yn ddau. Ond yn lle hyny, yr oll oedd ganddynt i'w ddangos oedd eu gwersyll hwy eu hunain wedi ei wasgaru, a'u gwageni wedi eu llenwi â'u clwyfedigion.

Er fod y dyrnaid Waldensiaid wedi llwyddo i ffoi, yr oedd eu sefyllfa er hyny yn beryglus i'r eithaf. Yr oedd yn rhaid iddynt deithio trwy wlad elynol iddynt. Ond digwyddodd i Ragluniaeth gyfryngu, a dangoswyd fod Llywodraethwr mawr teyrnasoedd y ddaear yn gallu gwneyd hyd yn oed i gynddaredd dynion ei foliannu. Yn ddisymmwth, aeth Louis XIV. a Victor Amadeus II., oedd wedi bod mewn undeb â'u gilydd yn ceisio dyfetha y Waldensiaid, yn elynion y naill i'r llall, ac aethant i ryfel â'u gilydd; ond mewn ymdrechfa o'r fath, yr oedd duciaeth Savoy yn rhy wan i sefyll o flaen Ffraingc, oedd ar y pryd yn uchder ei nerth a'i bri. A'r pryd hwnw dangosodd yr alltudion dewrgalon i'r byd eu gwladgarwch. Anghofiasant eu dioddefiadau a'r anghyfiawnder a gawsant, a phrysurasant i gynnyg eu gwasanaeth er amddiffyn eu penadur a'u gwlad. Cynnygiai y Ffrangcod iddynt wobrwyon ysblenydd, os ymunent â hwy fel cynghreirwyr. Addawent eu hadsefydlu yn ddiogel yn eu dyffrynoedd cynhenid, ac y caffent fwynhau eu rhyddid crefyddol; ond nid oeddynt am fradychu eu gwlad enedigol trwy dderbyn ffafrau o law gelyn eu cenedl. Gydag Arnaud yn flaenor arnynt, ymunasant â byddin Savoy; a darfu i'r gwasanaeth a wnaethant ar yr achlysur hwn dyneru calon eu penadur. Mewn cydgyfarfyddiad âg arweinwyr y Waldensiaid, anerchodd Amadeus hwynt yn y dull effeithiol a ganlyn:—"Nid oes genych ond un Duw, ac un tywysog; gwasanaethwch hwynt yn ffyddlawn. Hyd yn hyn, yr ydym wedi bod yn elynion—o hyn allan, rhaid i ni fod yn gyfeillion. I ddyeithriaid y mae eich anffodion i'w priodoli; ac os, fel y mae yn ddyledswydd arnoch, y bydd i chwi osod eich bywyd mewn perygl drosof fi, gosodaf fy mywyd innau mewn perygl drosoch chwithau; a chyhyd ag y bydd genyf damaid o fara, cewch chwi eich rhan o hono."

**Fel hyn y dychwelodd yr alltudion yn ol, ac** yr ymsefydlasant yn eu gwlad eu hunain, ar ol rhyfelgyrch na cheir hanes am ei gyffelyb yn holl gofnodion hanesyddol rhyfeloedd y byd. Ni a derfynwn trwy ddefnyddio iaith Arnaud ei hun, yn yr hon y mae efe yn symio i fyny brif ddigwyddiadau y rhyfelgyrch:—

"Ddarllenwyr: y mae eich sylw wedi ei gyfeirio at ddigwyddiadau nas gellir o'r bron ddychymmygu am eu cyffelyb. Ond mewn cyssylltiad â'r Vaudois, chwi a'u priodolwch yn unig i ragluniaeth Duw; yr hwn, er gwneyd ei bresennoldeb yn fwy amlwg, a ddewisodd fel ei brif offeryn yn yr ymdrechfa ryfeddol hon, un nas gwyddai ddim am arfau rhyfel, oddi eithr yr arfau â pha rai yr ymleddir â Satan. Onid ydyw yn rhyfedd i'r fath berson, ar ol diangc rhag ymlidiad y rhai a fynent ei gyflwyno i'r fflamau yn Constance, fod yn alluog i dori ei ffordd yn mlaen trwy Savoy, gan gymmeryd yn garcharorion rai o bendefigion a boneddwyr y wlad, i fod yn dystion o ddewrder a dysgyblaeth y Vaudois? A ydoedd brwydr Salabertrand yn rhywbeth llai na gwyrth—lle y darfu i wyth gant o ddynion, y rhan fwyaf o honynt na buont erioed yn ymaflyd mewn dryll, yru dwy fil a phum cant o filwyr rheolaidd i ffoi, gan ladd chwe chant, ac heb golli ond pymtheg o wŷr? I ba beth ond cyfryngiad dwyfol y gellir priodoli yr ofn—yr hwn, ar ddynesâd y Vaudois, a achosai i drawsfeddiannwyr eu heiddo, a'r milwyr a'u hamddiffynent, ffoi mewn modd gwaradwyddus? Pwy ond Duw, a Duw yn unig, a allasai roddi yn meddwl rhyw ddyrnaid o bobl druain, dlodion, y bwriad i ddychwelyd i'w gwlad, â'r cleddyf yn eu dwylaw, yn wrthwyneb i'w tywysog hwy eu hunain, a brenin Ffraingc oedd ar y pryd yn ddychryn i holl Ewrop? A phwy ond efe a allasai eu harwain a'u hamddiffyn yn yr anturiaeth, ac yn y diwedd eu coroni â llwyddiant, er gwaethaf yr ymdrechiadau a wnaeth y galluoedd mawrion i'w llethu—er gwaethaf hefyd addunedau a gweddïau y pab, a'r rhai oedd dan ei faner ef, i ddinystrio y fintai fach hon o'r etholedigion?

Onid Rhagluniaeth ddwyfol, yn hytrach na chwrs natur, a gadwodd y grawn ar y ddaear, fel y gallai y Vaudois gasglu i mewn y cynhauaf yn nyfnder y gauaf, yn lle canol yr haf? Yn y modd yma y darfu i'w Canaan, megys pe yn llawenhau wrth eu gweled, gyflwyno iddynt rodd oruwchnaturiol. A ellir credu, heb gynnorthwyon dwyfol, y gallasai tri chant a saith a thrigain o Vaudois, wedi eu hamgau yn y Balsi am chwe mis, yn byw ar lysiau, dwfr, ac ychydig fara, ac yn llettya fel cyrph meirw yn y ddaear, guro yn ol a gyru deng mil o Ffrangcod a deuddeng mil o Biedmontiaid i ffoi yn waradwyddus o'u blaen? Neu, ar ol gwneyd amddiffyniad gogoneddus, y gallasent ddiangc rhag yr ail ymosodiad, pan y darfu i'r Ffrangcod, wedi ymgreuloni o herwydd y gwrthsafiad cadarn a wnaed gan ddyrnaid o ddynion, ddwyn gyda hwy eu dienyddwyr a'u mulod wedi eu llwytho â chortynau, i gyflwyno y Vaudois ar grogbrenau yn ebyrth o ddiolchgarwch? Yn ddiammheuol, y mae yn rhaid addef a chydnabod i'r Arglwydd eu gwaredu o'u holl beryglon, rhoi iddynt fuddugoliaethau yn eu brwydrau, eu cynnal pan y digalonent, eu hadgyflenwi âg angenrheidiau pan oedd yn galed arnynt, ac yn y diwedd roddi yn mryd eu tywysog i'w hadsefydlu yn eu hen etifeddiaethau, a goddef iddynt amlygu eu hen ymlyniad wrth eu heglwysi. Y mae digwyddiadau mor ryfeddol yn profi yn eglur nad oedd arfau y Ffrangcod a'r Piedmontiaid yn cael eu cynnorthwyo gan ddim ond bendithion twyllodrus y pab—yr hwn a fynai fod yn Dduw ar y ddaear—tra yr oedd yr eiddo y Vaudois yn cael eu bendithio gan y Duw mawr, yr hwn sydd 'Frenin y brenhinoedd,' ac nad ydyw yn ymddiried ei deyrnwialen i un law ddaearol."

Hon oedd yr erledigaeth fawr olaf a gyfodwyd yn erbyn y Waldensiaid; ond nid estynwyd·

Digitized by Google

iddynt yr un rhagorfreintiau a'u cyd-ddeiliaid Pabaidd hyd amser Victor Emmanuel, brenin presennol Italy.

WALDO, PETER: diwygiwr enwog yn y ddeuddegfed ganrif, yr hwn oedd yn ei flodau tua'r flwyddyn 1170. Dinesydd a marsiandwr cyfoethog o hen ddinas Lyons, yn neheubarth Ffraingc, oedd efe. Argyhoeddwyd a deffrowyd ef i ystyried ei gyflwr ysbrydol mewn dull tra hynod. Yn ol yr hanes cyffredin a roddir am hyn, ymddengys ei fod wedi gwahodd nifer o brif drigolion y ddinas i'w dŷ i swpera gydag ef ar noson bennodol; ac wedi iddynt swpera, cydyfent yn llon gyda'u gilydd. Ond ar ganol yr ymddiddan, tarawyd un o honynt yn farw yn hollol ddirybydd a disymmwth yn eu gŵydd hwynt oll:—yr hyn a barodd ddychryn nid bychan yn eu mysg. Ni wyddys pa fodd yr effeithiodd yr amgylchiad ar y lleill oedd yn bresennol; ond dylanwadodd mor ddwys ar feddwl Waldo, fel y bu, o dan fendith yr Arglwydd, yn foddion i'w ddychwelyd. Cyfieithiad y Vulgate o'r Beibl ydoedd yr unig un o'r Ysgrythyrau oedd y pryd hwnw yn Ewrop; ond nid oedd yr iaith Ladin yn hysbys i bawb, nac i nemawr mwy fe allai nag un o bob cant o'i phreswylwyr. Yn ffodus i Waldo, yr oedd ei sefyllfa ef mewn bywyd yn fanteisiol iddo, ac yn ei alluogi i fyned dros yr anfantais hon. "Gan ei fod yn lled ddysgedig," medd Reinerius, pan yn sôn am dano, "efe a gyfieithiai i'r bobl destyn y Testament Newydd i'w hiaith eu hunain." Parodd marwolaeth ddisymmwth ei gyfaill iddo feddwl am ei ddiwedd ei hun; ac o dan gynnhyrfiadau cydwybod wedi deffro, efe a aeth at yr Ysgrythyrau Sanctaidd am addysg a chysur. Cafodd yno gyfarwyddyd i ba le i ffoi rhag y llid a fydd, a daeth yn brofiadol o heddwch yr efengyl trwy waed Crist. Wedi mwynhau tangnefedd yr efengyl ei hun, teimlai Waldo yn awyddus am i ereill hefyd ddyfod i feddiant o'r unrhyw fendith. Gyda hyn, efe a roddes heibio ei anturiaethau masnachol, ac a ranodd ei eiddo i'r tlodion, fel y byddai amgylchiadau yn galw; a thra yr oedd y dosbarth diweddaf yn cyrchu ato i dderbyn o'i elusenau, efe a ymdrechai i ddwyn eu sylw at bethau a berthynent i'w heddwch tragwyddol.

Un amcan mawr mewn golwg ganddo oedd gosod yn eu dwylaw Air y Bywyd; ac naill ai efe a wnaeth y gwaith ei hun, neu ynte ymofynodd am rywun arall i gyfieithu y pedair efengyl i'r Ffrangcaeg; ac yn nesaf gwnaeth bob ymdrech i wneyd ei gydwladwyr yn gydnabyddus â hwynt. Dywed Matthias Illyrius, ysgrifenydd a fu yn ddysgybl i Luther a Melancthon, am dano fel y canlyn:—"Yr oedd ei garedigrwydd i'r tlawd yn cynnyddu, ei hoffder i'w haddysgu yn myned yn gryfach, a'u dymuniad hwythau am gael addysg yn myned yn gryfach hefyd, fel y lliosogai y tyrfaoedd a ddeuent ato, i'r rhai yr esboniai efe yr Ysgrythyrau. Yr oedd efe ei hun yn ddyn dysgedig, yn ol a allaf ddeall oddi wrth ryw hen ysgrifen; ac nid oedd raid iddo gyflogi ereill i gyfieithu iddo, fel y myn ei elynion haeru." Ond pa un a ddarfu i Waldo gyfieithu yr Ysgrythyrau hyn ei hun, ynte defnyddio ereill i hyny; neu, yr hyn sydd fwyaf tebygol, a wnaeth efe hyny ei hun gyda chynnorthwyon ereill—pa un bynag, y mae preswylwyr Ewrop yn ddiau yn ddyledus iddo ef am y cyfieithiad cyntaf o'r Beibl i iaith ddiweddar, er y pryd y peidiodd Lladin a bod yn iaith lafaredig—trysor y annhraethol werth! Fel y daeth Peter Waldo i ymgydnabyddu mwy â'r Ysgrythyrau, daeth i weled nad oedd i'r lliaws athrawiaethau, seremoniau, a defodau a ddygasid i mewn i'r grefydd a broffesid yn y wlad, ddim sail yn Ngair Duw; ond yn hytrach, eu bod yn cael eu condemnio yn bendant yn y llyfr hwnw. Wedi ei danio gan sêl dros ogoniant Duw ar un llaw, ac awydd am achub eneidiau ei gymmydogion ar y llall, efe a ddyrchafodd ei lef yn uchel yn eu herbyn, gan gondemnio haerllugrwydd y pab, a llygredigaethau y clerigwyr. Nid oedd yn ymfoddloni yn unig ar gondemnio yr hyn oedd o'i le mewn ereill; ond efe a ddysgai y gwirionedd mewn symlder, gan ddangos fel y dylai gario dylanwad ymarferol ar y galon a'r bywyd; a thrwy ei esampl ei hun, yn gystal a thrwy wneyd appeliadau at fywydau y rhai a gredasant gyntaf yn Nghrist, efe a lafuriodd yn ddyfal i ddangos y gwahaniaeth mawr oedd rhwng Cristionogaeth y Beibl a'r eiddo Eglwys Rhufain.

Gall pob un sydd yn gwybod dim am amgylchiadau yr amseroedd hyny ddyfalu beth a fuasai effeithiau hyn oll. Clywodd archesgob Lyons am y gweithrediadau o eiddo Waldo, a ffromodd yn fawr. Y mae yn hawdd deall pa fodd yr effeithiai y gweithrediadau hyn. Yr oedd anrhydedd yr eglwys yn y cwestiwn; ac mewn perffaith gyssondeb â'r dull arferol yn mysg y blaid Babaidd, o ddistewi eu gwrthwynebwyr, efe a waharddodd i'r diwygiwr i ddysgu dim yn rhagor o dan boen esgymmundod, a chael yr un driniaeth a hereticiaid. Attebodd Waldo, er mai lleygwr oedd efe, nas gallai fod yn ddistaw mewn mater oedd yn dwyn cyssylltiad âg iachawdwriaeth ei gydgreaduriaid. Y peth nesaf a wnaed oedd, ymdrechu ei ddal ef; ond yr oedd rhif a serchogrwydd ei gyfeillion, llawer o ba rai oeddynt wŷr mewn sefyllfaoedd uchel; y parch cyffredinol a deimlid tuag ato ar gyfrif ei gymmeriad am uniondeb a duwioldeb; a'r argyhoeddiad fod ei bresennoldeb yn hollol angenrheidiol yn mysg y bobl oedd erbyn hyny wedi eu casglu ganddo i'r eglwys, a thros ba rai yr oedd efe wedi cymmeryd yr arolygiaeth—oll yn gweithredu mor rymus yn ei ffafr, fel y cadwyd ef yn ddirgelaidd yn Lyons am dair blynedd llawn. Anfonwyd hysbysiad am weithrediadau Waldo i'r pab Alexander III.; yr hwn, mor fuan ag y clywodd efe am y fath weithiwr hereticaidd a esgymunodd y diwygiwr a'i ddilynwyr, gan orchymyn i'r archesgob weithredu yn eu herbyn gyda'r llymder mwyaf. Gorfodwyd Waldo yn awr i ymadael o Lyons; a dilynwyd ef, mewn rhan fawr, gan y rhai y bu yn gweini iddynt mewn pethau ysbrydol; a chymmerodd gwasgariad le nad oedd yn annhebyg i'r un a gymmerodd le mewn cyssylltiad âg eglwys Ierusalem ar yr achlysur o labyddiad Stephan. Yr oedd yr effeithiau hefyd yn gyffelyb. Aeth Waldo ei hun i Dauphiny, lle y pregethodd gyda llwyddiant nodedig; cymmerodd yr egwyddorion a gyhoeddai wraidd dwfn ac arosol, ac ennillodd lawer o ddysgyblion, y rhai a elwid ar wahanol enwau, megys *Leonistiaid, Vaudois, Albigensiaid*, neu *Waldensiaid;* o blegid y mae yr un dosbarth o Gristionogion yn cael eu galw wrth yr amrywiol enwau hyn ar wahanol amserau, ac yn ol y gwahanol wledydd, neu ranau o'r un wledydd, yr ymddangosent ynddynt. [Gwel WALDENSIAID.]

Digitized by Google

Ymlidiwyd Waldo o le i le, hyd nes yr ymneillduodd i Picardy—ac yno hefyd bu ei lafur yn hynod lwyddiannus. Gyrwyd ef oddi yno drachefn; ac aeth yntau i'r Almaen, gan gymmeryd gydag ef newyddion da yr efengyl; ac yn ol tystiolaeth Thuanus, hanesydd Ffrengig clodfawr am ei gywirdeb, efe a ymsefydlodd o'r diwedd yn Bohemia, lle y gorphenodd ei yrfa hynod yn y flwyddyn 1179, ar ol bod yn pregethu am yn agos i ugain mlynedd. Diammheu fod Waldo yn ddyn o alluoedd nodedig; ac yn un o'r rhai hyny ag y mae Duw yn gweled yn dda yn ei ragluniaeth eu cyfodi yn awr ac eilwaith, gan eu cymmhwyso ar gyfer cyflawni gwaith mawr mewn cyssylltiad â'i deyrnas ar y ddaear; ond nid ydyw yr hanesydd a fuasai yn alluog i wneyd cyfiawnder llawn â'i dalentau a'i gymmeriad wedi ymddangos. Ffodd lliaws o'i ddilynwyr i ddyffrynoedd Piedmont, gan gymmeryd gyda hwynt y cyfieithiad newydd o'r Beibl, a chawsant noddfa yno. Yr oedd erledigaeth Waldo a'i ddilynwyr, ynghyd â'u ffoedigaeth o Lyons, yn gyfnod pwysig yn nghofnodion yr Eglwys Gristionogol. Pa le bynag yr elent, yr oeddynt yn hau hadau diwygiad, a Duw yn bendithio eu llafur.

WALLACE, SYR WILLIAM: arwr cenedlaethol penaf Ysgotland. Y mae gwahanol farnau am amser ei enedigaeth, ond tybir iddo gael ei eni tua'r flwyddyn 1270. Mab ieuangaf ydoedd i Syr Malcolm Wallace o Ellerslie, yn nghymmydogaeth Paisley, a Margaret, merch Syr Reginald Crawford, uchel sirydd swydd Ayr. Chwedleuol neu ffugiol, dybygid, yw hanes Wallace hyd y flwyddyn 1297. Mynegir ei fod yn 1295 mewn ymladdfa ornest wedi lladd mab Selby, llywodraethwr Saesneg castell Dundee. Bu raid iddo ffoi ar ol hyn, a dywedir ei fod wedi lladd amryw o ddilynwyr Selly, a ymlidient ar ei ol. Cyhoeddwyd ei fod y tu allan i amddiffyniad y gyfraith. Ymneillduodd yntau i'r coedwigoedd; a chan ei fod yn meddu ar alluoedd meddyliol cryfion, a synwyr, a hyawdledd, yn gystal a nerth corphorol a dewrder digyffelyb, casglodd ynghyd fintai o anturiaethwyr, y rhai a osodasant eu hunain o dan ei arweiniad ef, ac a lwyddasant i wneuthur difrod mawr yn awr ac eilwaith ar fywydau y milwyr Saesnig, ac ysbeilio eu gorsafoedd. Ymddengys mai yn y coedwigoedd yn nghymmydogaeth Ayr yr oedd ei brif loches; ac mai o gwmpas y dref hono y cyflawnwyd rhai o'i weithredoedd mwyaf gorchestol. Mynegir iddo briodi merch i Syr Hew de Bradfute, etifeddes Lamington, ac iddi hi syrthio i ddwylaw ei elynion ef, a'i bod wedi ei rhoddi i farwolaeth trwy orchymyn llywodraethwr Saesneg Lanark; a dywedir hefyd fod Wallace wedi ymguddio, a'i fod o'i ddirgelfan wedi gweled y weithred anfad yn cael ei chyflawni; yr hyn yn ddiau a chwythodd y wreichionen o gasineb oedd yn ei fynwes yn fflam.

Y mae yn debyg i ymddygiadau Wallace a'i ddilynwyr effeithio i gyffroi a lledaenu ysbryd gwrthwynebus i lywodraeth y Saeson, a bod yn offerynol i ryw raddau i arwain i'r gwrthsafiad a wnaed yn y fl. 1297. Ymddengys mai Wallace oedd y blaenor y pryd hwn, a bod amryw o wŷr blaenaf Ysgotland wedi ymuno âg ef, ac yn mhen ychydig amser i Robert y Bruce ymuno âg ef. Nid oedd y cynghrair hwn, pa fodd bynag, yn un calonog a chadarn; o herwydd pan y daeth lluoedd y Saeson i gyfarfod y fyddin Ysgotaidd, taflodd prif ddynion yr Ysgotiaid holl awdurdod Wallace o'r neilldu, a gwnaethant ymheddychiad trwy gydnabod Edward I., brenin Lloegr, fel eu harglwydd benadur. Cydsyniodd y gweddill â hyn, gyda'r eithriad o Wallace a'i gyfaill, Syr Andrew Moray o Bothwell. Ymneillduodd Wallace ar hyn i'r gogledd; ac yr oedd ganddo gryn nifer o ddilynwyr, a'r rhai hyny yn lliosogi yn barhaus, a theimlai y byddai yn fuan iawn yn barod i gymmeryd y maes eilwaith. Aeth yn mlaen ar hyd y gororau gogledd-ddwyreiniol, a chliriodd gastell Dunottar, ac Aberdeen, Forfar, Brechin, a threfydd ereill, o'r gwarchodluoedd Saesnig; yna gwarchaeodd ar gastell Dundee. Tra gyda'r gwaith hwn derbyniodd y newydd fod byddin Saesnig yn nesau at Stirling; ac ar hyn efe a brysurodd i wynebu y gelyn ar y maes. Y canlyniad a fu llwyr orchfygiad y fyddin Saesnig yn mrwydr Pont Stirling, yr hon a ymladdwyd ar y 10fed o Fedi, 1297. A gyrwyd y Saeson yn fuan o bob lle o ddim nerth oedd yn y wlad—heb eithrio Berwick ei hun. Ymlidiodd Wallace hwynt dros y terfyn; ac yn flaenor ar fyddin liosog, efe a groesodd drosodd i Loegr ar y 18fed o Hydref, ac a arosodd yno hyd yr 11eg o Dachwedd, gan anrheithio y wlad â chleddyf a thân o fôr i fôr, ac mor bell i'r deheu a Newcastle.

Ar ol ei ddychweliad buddugoliaethus o'r wibdaith hon i Loegr, cymmerodd Wallace y teitl o 'warcheidwad y deyrnas' yn enw y brenin John Baliol. Ond nid hir y cadwodd efe y dyrchafiad hwn. Nid oedd ganddo ond ei deilyngdod, ac edmygedd y dosbarth iselaf, hwyrach, o'i gydwladwyr, i'w gynnal i fyny; o herwydd nid oedd ganddo gyssylltiadau teuluaidd pwysig i'w gefnogi. Dywed Fordun fod llawer o'r pendefigion yn arfer dywedyd:—"Ni fynwn ni y dyn hwn i lywodraethu arnom ni." Yn y cyfamser, yr oedd Edward o Loegr, yr hwn oedd ar y Cyfandir pan ymladdwyd brwydr Pont Stirling, wedi dychwelyd adref, ac eisoes ar ei ffordd tua'r terfynau, yn flaenor ar fyddin liosog. Dywedir i gorphlu o Saeson, o dan iarll Penfro, gael ei orchfygu gan Wallace ar y 12fed o Fehefin, 1298, yn nghoedwig fawr Blackironside, yn swydd Fife; ond pan y cyfarfu y ddwy fyddin fawr ar yr 22ain o Orphenaf, yn nghymmydogaeth Falkirk—yr Ysgotiaid yn cael eu harwain gan Wallace, a'r Saeson gan y brenin Edward, gwnaeth yr Ysgotiaid wrthsafiad cyndyn a dewr; ond gorfodwyd hwynt i gilio yn ol, a diweddodd y frwydr yn eu llwyr ddymchweliad. Ni roddes y gorchfygiad hwn derfyn ar y rhyfel; ond cymmerwyd mantais arno gan y pendefigion Ysgotaidd i amddifadu Wallace o'i swydd warcheidiol, neu o fod yn llywodraethwr y deyrnas. A dywed yr haneswyr Ysgotaidd iddo ymddiswyddo. Y mae yn eithaf sicr, fodd bynag, i Bruce, ei wrth-ymgeisydd Comyn, a Lamberton, esgob St. Andrews, gael eu pennodi yn warcheidwaid Ysgotland, yn enw Baliol. Am rai blynyddoedd wedi hyn, nid ydyw yr hanes sydd genym am Wallace ond tywyll ac ansicr; ond ymddengys ei fod yn parhau yn flaenor ar ychydig o ddynion anturiaethus. Y mae yr hanesion chwedleuol am dano yn cynnwys adroddiadau am lawer o'i wrhydri tua'r pryd hwn. Mynegir iddo dalu dau ymweliad â Ffraingc—y cyntaf yn 1300, a'r ail yn 1302: a'r ffaith sicr nesaf o barthed iddo ydyw, pan y gorfodwyd y blaenoriaid Ysgotaidd i ymostwng unwaith yn rhagor i Edward yn Strathorde, ar y 9fed o

Digitized by Google

Chwefror, 1304, nad oedd enw Wallace yn mysg y rhai a lawnodasant delerau y cyttundeb. Gwysiwyd ef yn fuan ar ol hyny i ymddangos o flaen y senedd, neu gynnadledd o bendefigion Ysgotaidd a Saesnig, a gynnelid yn St. Andrews; a chan na ddaethant yno, cyhoeddwyd ei fod ef, a Syr Simon Frazer, wedi colli amddiffyn y gyfraith (*out-laws*). Bu Wallace yn guddiedig am beth amser. Ymddengys oddi wrth dystiolaeth Ryley mai Ralph de Haliburton oedd un o'r prif ddynion a osodwyd ar waith i'w ddal; eithr nid yw yn hysbys pa fodd y cymmerwyd ef. Cyhuddir Syr John Monteith gan Harri Ddall, a thraddodiad cyffredin, o'i drosglwyddo yn fradwrus i ddwylaw brenin Lloegr; ond ymddengys mai yr oll a wnaeth Monteith oedd ei ddanfon yn mlaen i Loegr wedi iddo gael ei ddwyn yn garcharor i gastell Dumbarton, lle yr oedd Monteith yn llywodraethwr.

Pan ddygwyd Wallace i Lundain, llettywyd ef yn nhŷ William Delect, yn heol Fenchurch; a thranoeth dygwyd ef ar farch i Westminster. Yn y llys yno, gosodwyd ef ger bron fel bradwr; ac ar y cyhuddiad hwnw cafwyd ef yn euog, a chondemniwyd ef i farw. Ar ol ei lusgo i'r lle yr arferid dienyddio—yr Elms, yn Smithfield orllewinol—wrth gynffonau meirch, crogwyd ef ar y 23ain o Awst, 1305; ac ar ol hyny, tra yr oedd yr anadl heb ei lwyr adael, tynwyd ei ymysgaroedd allan, a llosgwyd hwynt, a thorwyd ei ben, a darniwyd ei gorph yn bedwar darn. Gosodwyd ei fraich ddeheu i fyny yn Newcastle, ei fraich aswy yn Berwick, ei goes ddeheu yn Perth, a'i goes aswy yn Aberdeen, a'i ben ar bont Llundain. Dyna ddiwedd un a ystyrir yn awr yn un o brif wroniaid a gwladgarwyr Ysgotland.

**WALLACHIA.** Gwel **Moldavia a Wallachia.**

**WALLENSTEIN** neu **WALDSTEIN, ALBERT WINCELAS,** y duc o Mecklenburg a Friedland—cadfridog Almaenaidd enwog. Mab ydoedd i Wilhelm von Waldstein, barwn Bohemiaidd. Ganwyd ef ar y 15fed o Fedi, 1583, yn mhreswylfod ei dad, yn nghastell Hermanic. Yr oedd ei rieni yn proffesu Protestaniaeth; ond buont feirw cyn ei fod ef yn ddeuddeg oed, a rhoddwyd ef dan ofal gwarcheidiol ei ewythr, yr hwn a'i rhoes dan addysg yr Iesuitiaid yn Olmütz, ac ymunodd yntau â'r grefydd Babaidd. Wedi gadael Olmütz, aeth i Italy; ac yn y wlad hono bu yn astudio seryddiaeth, cyfreithiau y Lladinwyr a'r Groegiaid, a'r ieithoedd hen a diweddar. Yn Hungary y bu yn gwasanaethu gyntaf fel milwr, lle yr enwogodd ei hun wrth gymmeryd Gran oddi ar y Tyrciaid. Ar ol gwneyd cryn wasanaeth i'r ymherawdwr Frederick II., trwy fenthyca arian iddo, yn gystal ag fel arweinydd milwraidd llwyddiannus yn ei fyddin, anrhegwyd ef, ar ddiorseddiad Frederick o Bohemia, âg etifeddiaethau eang yn y wlad orchfygedig. Darfu i'w gyfoeth mawr, ei enwogrwydd fel cadfridog, a'r tâl da a roddai, dynu milwyr o bob cŵr o Ewrop i ymrestru dan ei faner. Mewn undeb â Tilly, efe a ennillodd amryw frwydrau, ac y orchfygodd Mansfeld, ac a ddygodd i derfyniad llwyddiannus ymgyrch y flwyddyn 1623. Y flwyddyn ddilynol, efe a gymmerodd y maes gyda 50,000 o wŷr, ac a ymdeithiodd gyda hwynt o Silesia i Denmarc, gan orfodi y brenin Christian i groesi y culfor, ac felly waredu y gweddill o'i fyddin. Ar derfyn y rhyfel gyda Denmarc, efe a gafodd dduciaeth Mecklenberg yn wobr am ei wasanaeth. Gwnaed ef hefyd yn llyngesydd y Baltic a Môr yr Almaen, a gwnaeth yntau ei drigfod yn Wismar, pryd y daeth y syniad i'w feddwl o ffurfio llynges er mwyn rhoddi attalfa ar ffordd Gustavus Adolphus o Sweden; o herwydd yr oedd efe er yn foreu yn gweled trwy amcanion y teyrn galluog hwnw. Ysgrifenodd hefyd fel y canlyn at yr ymherawdwr:—"Yr wyf fi yn erfyn arnoch, syr, i gadw eich llygad ar y Swediad hwnw, o herwydd y mae efe yn greadur peryglus." Ond bu yr anrhydedd a bentyrwyd ar ben y cadfridog llwyddiannus yn achlysur i wneyd nifer o elynion grymus iddo o gwmpas person yr ymherawdwr. Yn mlaenaf yn mysg y cynllwynwyr hyn i ddarostwng Wallestein, gellir enwi Tilly a'r duc Maximilian o Bavaria, y rhai a annogent yr ymherawdwr i droi Wallenstein o'i wasanaeth. O'r diwedd, cydsyniodd Ferdinand â dymuniad y cynllwynwyr i'w ddiswyddo ef; ac ymneillduodd Wallenstein i fyw ar ei etifeddiaeth ei hun yn Bohemia. Goresgynodd Gustavus Adolphus yr Almaen yn mron yn ddioed ar ol hyn, a gorchfygwyd y byddinoedd ymherodrol yn Leipsic: darostyngwyd Bavaria gan y Swediaid, a lladdwyd Tilly. Er mwyn cadw ei wlad rhag dinystr, trodd yr ymherawdwr yn ei gyfyngder at Wallenstein; yr hwn, pa fodd bynag, ni chydsyniai i ail gymmeryd y llywyddiaeth gan Ferdinand, ond ar delerau uchel iawn. Gorfodwyd Gustavus i adael Bavaria yn fuan, ac ymlidiwyd ef i Saxony; ond collwyd brwydr Lützen—anffawd, pa fodd bynag, a fantolwyd trwy farwolaeth Gustavus, yr hwn a gwympodd yn y frwydr. Yn 1633, gorchymynodd yr ymherawdwr iddo auafu yn Saxony Isaf; ond gwrthododd Wallenstein ufuddhau. Ar hyn, annogodd ei elynion yn y llys Ferdinand i fynu ymwared o'i swyddog uchelfrydig. Deallodd Wallenstein fod yn mryd yr ymherawdwr ei amddifadu o'i swydd, a chyn hyny hysbysodd ei fwriad i ymddiswyddo; ond erfyniodd y swyddogion oedd dano arno i beidio; a llawnodasant ddadganiad Pilsen, drwy yr hyn yr ymrwymasant i lynu wrtho yn ffyddlawn. Cymmerwyd mantais ar y weithred hon gan ei elynion i'w ddisgrifio i'r ymherawdwr fel bradwriaeth yn erbyn ei berson a'i awdurdod ef. Gan hyny, efe a lawnododd reitharch (*edict*) yn cyhoeddi Wallenstein yn wrthryfelwr, a rhoddodd orchymyn dirgel i Piccolomini a Gallas i'w ddal a'i gymmeryd ef, naill ai yn fyw neu ynte yn farw. Yn y cyfamser, anfonodd Wallenstein ddau swyddog milwraidd at yr ymherawdwr yn cynnyg ei ymddiswyddiad; ond gommeddwyd i'r swyddogion hyny gael gweled ei fawrhydi, a chadwyd hyn yn ddirgelwch iddo. Ar y 24ain o Chwefror, 1634, gorchymynodd Ferdinand attafaeliad ei etifeddiaethau; ac aeth Piccolomini a Gallas tua Philsen i gario allan yr amcanion hyn. Wedi ei wasgu i'r cyfyngder mawr hwn, gwnaeth Wallenstein ei noddfa yn nghastell Eger; ac yr oedd gydag ef ychydig o'i ganlynwyr ffyddlonaf—ac yn eu mysg Terzky, Kinsky, Illo, Neumann, a rhai bradwyr, megys Gordon, Butler, a Leslie, y rhai a lwgr-wobrwywyd gan Piccolomini, ac a addawsant gyflawni gorchymyn gwaedlyd yr ymherawdwr.

Ar y 25ain o Chwefror, rhoddodd Gordon, llywydd milwraidd Eger, wledd ardderchog i swyddogion Wallenstein; ond nid oedd y duc

Digitized by Google

yn bresennol, o blegid sefyllfa ei iechyd. Ar ol ciniaw, rhuthrodd llu anfad i mewn, a rhoddwyd cyfeillion Wallenstein yn ebyrth i'w cleddyfau. Clywodd yntau waeddiadau y rhai a lofruddid. Agorodd ei ffenestr, a gofynodd i un o'r gwylwyr beth oedd yr achos o'r twrf. Yn ddisymmwth, daeth y cadben Deveroux i mewn i'r ystafell, yn cael ei ddilyn gan ddeg ar hugain o Wyddelod; a thra yr oedd y dynion hyn yn cilio yn ol wrth weled eu blaenor mawr yn sefyll yn ddiamddiffyn yn ei ddillad nos o'u blaen, aeth Deveroux rhagddo, a gwaeddodd allan, "Ai tydi ydyw y bradwr sydd am ddinystrio yr ymherawdwr?" A chyda'r geiriau hyn, efe a gyfododd ei waewffon. Heb yngan gair, agorodd Wallenstein ei freichiau, a derbyniodd y ddyrnod farwol yn ei fron.

Dyn meddylgar oedd efe: ychydig a siaradai, ac felly y bu yn ei funydau olaf: efe a gwympodd, ac a fu farw mewn distawrwydd. Rhanwyd ei gyfoeth rhwng ei elynion; a chadwyd cyfran o'i etifeddiaethau gan yr ymherawdwr, yr hwn a dalodd am i dair mil o weddïau gael eu darllen dros enaid ei gadfridog enwog.

WALKER, GEORGE: amddiffynwr arwrol Londonderry. Ganwyd ef o rieni Saesnig yn swydd Tyrone, yn yr Iwerddon, yn y rhan gyntaf o'r eilfed ganrif ar bymtheg. Derbyniodd ei addysg yn mhrif ysgol Glasgow, a chafodd ei urddo yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig, a'i bennodi yn beriglor Donoughmore. Nid ymddengys fod un neillduolrwydd hynod yn rhan flaenaf bywyd Walker. Pan y glaniodd y brenin Iago II. yn yr Iwerddon, ar ol chwyldroad y fl. 1688, pa fodd bynag, cyfododd Walker gatrawd o filwyr ar ei draul ei hun, i'r dyben i'w wrthwynebu ef. Ar ddynesiad Iago i Londonderry, efe a aeth i'w gyfarfod yn flaenor ar lu o filwyr o Long Causeway; ond ar ol gwneyd gwrthsafiad penderfynol, gorfodwyd ef i encilio i'r dref, lle y cafodd fod Lundie, y llywodraethwr, yn gwneyd darpariadau i adael y lle gyda phob brys. Er mor amddifad oedd y lle, i bob ymddangosiad, o bob angenrheidiau i sefyll gwarchau, darfu i Walker a'r uchgadben Baker, yr hwn a ddilynodd Lundie yn llywyddiaeth y gwarchodlu, benderfynu dal allan cyhyd ag yr oedd yn bossibl, yn y gobaith y byddai i'r brenin William, cyn iddynt gael eu llwyr orchfygu, lwyddo i ddanfon cyflenwadau iddynt gyda'r môr. Yr oedd hyn tua chanol Ebrill, 1689. Darostyngwyd y gwarchauedigion yn fuan i'r caledi mwyaf. Bu farw Baker ar yr 20fed o Fehefin, ac yna disgynodd y llywyddiaeth i ddwylaw Walker, yr hwn a ddisgrifir fel clerigwr oedranus. Modd bynag, dangosodd ei fod yn ddyn cyfaddas i'r gwaith oedd wedi ei dori allan: cyfarwyddai a chynnorthwyai i ddwyn oddi amgylch bob dim oedd anhawdd; cadwai y ddysgyblaeth fanylaf o dan yr amgylchiadau mwyaf dyrus; ac nid oedd yn arbed dim arno ei hun mewn un modd: —cyflawnai bob math o waith. Weithiau, arweiniai ruthr difrifol ar y gelyn; a phryd arall fe'i ceid ef yn traddodi pregeth gyffrous yn yr eglwys gadeiriol, i ddal i fyny a sirioli calonau ei filwyr. Y diwedd a fu, i'r gwarchau gael ei godi ar y 30ain o Orphenaf, trwy i'r is-gadfridog Kirk droi oddi yno gyda thair o longau dros y bargadwyn (*boom*), yr hwn a daflasai Iago ar draws yr afon.

Yn fuan ar ol hyn, daeth Walker drosodd i Loegr, lle y derbyniwyd ef yn wresog yn y llys, y diolchwyd iddo yn gyhoeddus yn Nhŷ y Cyffredin am ei ymdrechion arwrol, y gwnaed ef yn ddoctor mewn duwinyddiaeth gan brifysgol Rhydychain, ac y pennodwyd ef yn esgob Derry gan y brenin. Yr oedd ardeb o hono yn cael ei hongian yn mhob tŷ yn Lloegr; a buasai ei lwyddiant yn gyflawn oni buasai fod yr Henaduriaid yn ystyried fod y rhan a gymmerasant yn yr amddiffyniad yn cael ei ddiystyru, ac yn codi dadl o blegid hyny. Cyhoeddodd Walker hanes yr amddiffyniad o dan y teitl "*A True Account of the Siege of Londonderry.*" Ni chymmerai Walker ei berswadio i gymmeryd meddiant tawel o'i esgobaeth. Mynai wasanaethu mewn un rhyfelgyrch arall cyn dechreu ar ei ddyledswyddau esgobawl, a lladdwyd ef yn mrwydr Boyne ar y 1af o Orphenaf, 1690.

WALPOLE, HORACE, IARLL ORFORD: awdwr enwog yn y ganrif ddiweddaf, a thrydydd mab i Syr Robert Walpole, ac i Catherine Shorter, ei wraig gyntaf. Ganwyd ef ar y 5ed o Hydref, 1717. Ar ol cwblhau ei addysg yn Eton, ac yn Ngholeg y Brenin, Caergrawnt, efe a adawodd Loegr, gan fyned ar daith trwy y Cyfandir am dros ddwy flynedd. Am y rhan fwyaf o'r amser hwn, yr oedd y bardd Saesneg, Gray, yn gydymaith iddo; ond yn anffodus, fe ddaeth rhyw anghydwelediad pwysig rhwng y ddau gyfaill, ac ymwahanasant yn Reggio yn Gorphenaf, 1741, a dychwelasant i Brydain ar hyd gwahanol ffyrdd. Etholwyd Walpole yn aelod seneddol dros Callington yn mis Medi yr un flwyddyn. Traddododd ei araeth gyntaf yn Nhŷ y Cyffredin yn Mawrth, 1742, ar gynnygiad a ddygwyd yn mlaen i wneuthur ymchwiliad i ymddygiadau Syr Robert Walpole am y deng mlynedd diweddaf o'i weinyddiaeth, yr hon a arganmolwyd gan Mr. Pitt—wedi hyny Iarll Chatham—a Seeker, esgob Rhydychain y pryd hwnw. Wedi i'r cynnhyrfiadau yn achos ei dad dawelu, anfynych yr anerchodd efe y Tŷ. Yn 1751, cynnygiodd yr anerchiad i'r brenin, a siaradodd ar ddefnyddio catrodau Swissaidd yn y trefedigaethau yn 1756. Yn 1757, gweithiodd yn selog o blaid yr anffodus lyngesydd, Byng. Dyna brif ddigwyddiadau ei fywyd cyhoeddus, er iddo fod yn aelod seneddol hyd y flwyddyn 1768.

Yr hyn yr ymddifyrai Walpole ynddo am lawer o flynyddoedd o'i oes oedd adeiladu ac addurno ei balas Gothaidd yn Strawberry Hill, Twickenham. Tŷ bychan oedd y lle hwn yn 1747, ond cynnyddodd o dan ei ddwylaw ef i fod yn balas o gryn faintioli. Casglodd ynghyd iddo gywrein-bethau a gweithiau celfyddydol o bob natur. Heb law ei fod yn meddu chwaeth i gasglu ynghyd gywreinion, yr oedd yn llenor gwych. Barddoniaeth oedd ei faes llenyddol cyntaf; ac er fod llawer o'i gynnyrchion yn fywiog a dymunol, ychydig o allu dychymmygol a amlygir ynddynt. Yn 1752, cyhoeddodd ei "*Ædes Walpolianæ;*" ac yn 1761, dechreuodd ei "*Anecdotes of Painting in England*"—gwaith na chwblhawyd mo hono hyd 1771. Yn 1758, yr oedd wedi cyhoeddi ei "*Catalogue of Royal and Noble Authors.*" Ymddangosodd ei ffugchwedl enwog, "*Castle of Otranto,*" yn 1764. Gan fod y rhamant hon mewn arddull newydd, yr oedd gwahanol farnau yn ei chylch; ond ar y cyfan, hi a ddaeth yn hynod lwyddiannus a phoblogaidd ar unwaith, ac y mae yn parhau i gael ei darllen i raddau hyd heddyw. Yr oedd

Digitized by Google

Syr Walter Scott yn edmygydd mawr o honi, ac aeth arglwydd Byron mor bell a dyweyd mai "Castell Otranto" oedd y rhamant ragoraf yn yr iaith Saesnig. Y pethau nesaf a gyhoeddodd efe oedd ei "*Mysterious Mother*," a'i "*Historic Doubts on the Life and Reign of King Richard* III.;" gwaith a gynnwysa archwiliad cywrain a chraff i'r profion ar ba rai y seilia haneswyr eu hadroddiadau o brif ddigwyddiadau y cyfnod hwnw. Heb law y rhai hyn, efe a gyhoeddodd amryw o gyfansoddiadau ereill, mwy dibwys. Ond y mwyaf difyr, a'r rhagoraf, mewn rhyw ystyr, yw ei "Lythyrau," y rhai a ysgrifenodd efe at amryw o'i gyfeillion, ac a gyhoeddwyd ar wahanol adegau ar ol ei farwolaeth. Syr Walter Scott a'i geilw yr "ysgrifenwr llythyr goreu yn yr iaith Saesnig;" a Byron a ddywed ei fod yn "anghymmharol." Y mae eu harddull yn ysgafn a bywiog, ac yn nodedig briodol i gario yn mlaen ohebiaeth. Ond gellir gweled yn y llythyrau hyn, fel y dywed Macaulay, nad oedd "gorchwylion difrifol ond oferedd yn ei olwg, a bod gwagchwedleua yn orchwyl difrifol iddo." Casglwyd holl lythyrau Horace Walpole, a chyhoeddwyd hwynt mewn chwe cyfrol, yn y fl. 1840. Yn 1791, disgynodd teitl ac etifeddiaeth y teulu iddo, ar farwolaeth ei nai, George, y trydydd iarll Orford; a bu farw ar yr ail o Fawrth, 1797, yn 80ain mlwydd oed.

Nis gellir ystyried Horace Walpole yn ddyn gwir fawr. Y mae ei weithiau yn dangos nad oedd efe yn gallu ymddyrchafu yn uchel mewn meddwl, nac o ran egwyddor. Yr oedd ganddo chwaeth hynod naturiol at fân bethau gorwâg, a theimlai yn dra anfoddlawn i ymgymmeryd â gorchwylion pwysig bywyd. A phroffesai yn fynych fod ei weithiau llenyddol yn cael eu cyfansoddi, nid er mwyn ennill enwogrwydd, ond er mwyn difyrwch. Nid oedd yn proffesu ei hun yn llenor; etto byddai yn teimlo yn fawr oddi wrth feirniadaeth anffafriol. Yr oedd arno awydd am glod, a chenfigenai wrth enwogrwydd ereill. Cymmerai arno ddiystyru y llys; etto am frenhinoedd, tywysogion, a gwŷr y llys y meddyliai ac y siaradai. Yr oedd yn werinwr, ac yn bendefig hefyd. Mewn bywyd anghyhoedd, nid amlygodd rhyw lawer o rinweddau; ond nis gellir chwaith ei gyhuddo o feiau pwysig. Y mae ei enw yn dra adnabyddus mewn cyssylltiad â llenyddiaeth ei oes.

WALPOLE, SYR ROBERT: Iarll Orford, gwladweinydd Saesneg enwog, oedd drydydd fab i Robert Walpole, aelod seneddol dros Castle Rising. Ganwyd ef ar y 26ain o Awst, 1676. Derbyniodd ei addysg yn Eton a Chaergrawnt; ac er nad oedd yn naturiol yn hoff o efrydu, etto ymroddodd i astudio gyda digon o ddiwydrwydd i ddyfod yn ysgolhaig clasurol rhagorol. Etholwyd ef yn aelod seneddol dros Castle Rising, yn olynydd i'w dad; ac ymunodd â'r blaid Whigaidd i gefnogi yr olyniaeth Brotestanaidd i'r orsedd. Yn 1705, pennodwyd ef yn ysgrifenydd rhyfel; ac yn 1708, yn chwanegol at y swydd hon, gwnaed ef yn arweinydd ei blaid yn Nhŷ y Cyffredin. Yn 1710, pennodwyd ef yn un o reolwyr y cynghaws yn erbyn Dr. Sackaverel. O blegid anghyttundeb yn mysg aelodau y weinyddiaeth, rhoddodd y llywodraeth Whigaidd le i un Doryaidd; ond yr oedd Harley yn meddwl mor uchel o dalentau a dylanwad Walpole, fel yr ymgeisiodd yn ofer ar iddo dderbyn swydd yn y weinyddiaeth; a dywedai ei fod yn werth hanner ei blaid. Yr oedd ysbryd plaid yn uchel iawn y pryd hwnw; ac mewn trefn i lethu eu gwrthwynebwyr, penderfynodd y llywodraeth Doryaidd, o dan Harley a St. John, i gyhuddo eu rhagflaenoriaid o lygredigaethau cyhoeddus, ac anghywirdeb wrth gadw cyfrifon y deyrnas. Amddiffynodd Walpole y weinyddiaeth yn alluog; ond cospwyd ef am ei sêl dros hyn, trwy i gyhuddiad cyffelyb gael ei ddwyn yn ei erbyn ef ei hun yn bersonol. Ar yr 17eg o Ionawr, 1712, penderfynodd mwyafrif o Dŷ y Cyffredin ei fod, tra yn ysgrifenydd y rhyfel, wedi bod yn euog o ddiffyg ymddiried a llygredd neillduol, a'i fod i gael ei ddanfon yn garcharor i'r Tŵr, a'i yru allan o Dŷ y Cyffredin. Gwrthododd wneyd unrhyw gydnabyddiaeth na chyffes, ac arosodd yn garcharor yn y Tŵr hyd nes y gohiriwyd y senedd. Yn y cyfamser, edrychai ei gyfeillion arno fel merthyr yn eu hachos hwynt. Etholwyd ef dros Lynn; ond fe ddadganwyd nad ydoedd yn gyfreithlawn iddo eistedd yn ystod y senedd hono. Gwnaeth fwy i amddiffyn ei hun trwy ei ysgrifell yn y carchar nag y gallasai wneyd yn wyneb ei elynion, oedd wedi ei gondemnio eisoes. Ac mewn pamphled a gyhoeddwyd ganddo, ystyriai ei blaid ei fod wedi gwrthbrofi yn llawn yr holl gyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn. Yn Awst, 1713, eisteddodd yn y senedd eilwaith fel aelod dros Lynn, a chymmerodd ran flaenllaw yn yr holl ddadleuon yr oedd a wnelo ei blaid â hwynt.

Ar esgyniad Sior I. i'r orsedd, galwyd Walpole i'r weinyddiaeth Whigaidd a ffurfiwyd. Rhoddodd etholiad 1715 fwyafrif mawr i'r weinyddiaeth hono, a chawsant hamdden i ddial ar y Toryaid am y driniaeth a gawsent oddi ar eu llaw. Yr oedd llawer o'r prif Doryaid yn bleidiol i'r ymhonydd yn ystod y pedair blynedd olaf yn nheyrnasiad y frenhines Anne, ac ystyrid ei bod yn ddyledswydd ar weinyddiaeth y brenin Hanoveraidd cyntaf i gondemnio, ac, os oedd yn bossibl, dori i fyny y blaid oedd yn mron wedi llwyddo i newid trefn yr olyniaeth i'r orsedd. Walpole a dynodd allan yr adroddiad ar ba un yr oedd yr achwyniadau (*impeachments*) yn cael eu sylfaenu; a chymmerodd ran arweiniol yn yr holl achosion a ddygwyd yn mlaen. Torodd y rhyfel allan yn mhlaid yr ymhonwr yn fuan ar ol hyn, a gwnaed Walpole yn brif arglwydd y trysorlys a changhellydd y drysorfa. Dygodd llafur a phryder y dyddiau hyny afiechyd trwm arno. A chyn ei adferiad, yr oedd mesur parhâd y senedd am saith mlynedd wedi pasio. Parodd diffyg undeb yn y weinyddiaeth, gyda dichellion yr Hanoveriaid oedd yn y llys, i'r gweinidogion ymddiswyddo; ac yn Ebrill, 1717, cyflwynodd Walpole y seliau i fyny i'r brenin, er gwaethaf deisyfiadau taer y diweddaf am iddo gadw ei swydd mewn cyssylltiad â gweinyddiaeth newydd. Bu Walpole yn eistedd ar yr ochr wrthwynebol i'r tŷ hyd 1720. Gwrthwynebodd â'i holl egni yr hyn a elwid y *South Sea Scheme*, i dynu i lawr y ddyled wladol, pan y dygwyd hyny yn mlaen gan y llywodraeth. Cydsyniodd i dderbyn y swydd o bentalwr cyffredinol y fyddin yn 1721; ond nid oedd yn cefnogi y weinyddiaeth yn wresog hyd nes y darfu i'w ragfynegiadau ynghylch y cyfyngder yr arweiniwyd y wlad iddo mewn cyssylltiad â'r *South Sea Scheme* gael eu gwirio. Yna galwyd arno i ddyfeisio rhyw fesurau newydd i adferu ymddiried y cyhoedd. Ni bu gweinidog erioed yn mron mewn sefyllfa mwy dyrus. Nid

Digitized by Google

yn bresennol, o blegid sefyllfa ei iechyd. Ar ol ciniaw, rhuthrodd llu anfad i mewn, a rhoddwyd cyfeillion Wallenstein yn ebyrth i'w cleddyfau. Clywodd yntau waeddiadau y rhai a lofruddid. Agorodd ei ffenestr, a gofynodd i un o'r gwylwyr beth oedd yr achos o'r twrf. Yn ddisymmwth, daeth y cadben Deveroux i mewn i'r ystafell, yn cael ei ddilyn gan ddeg ar hugain o Wyddelod; a thra yr oedd y dynion hyn yn cilio yn ol wrth weled eu blaenor mawr yn sefyll yn ddiamddiffyn yn ei ddillad nos o'u blaen, aeth Deveroux rhagddo, a gwaeddodd allan, "Ai tydi ydyw y bradwr sydd am ddinystrio yr ymherawdwr?" A chyda'r geiriau hyn, efe a gyfododd ei waewffon. Heb yngan gair, agorodd Wallenstein ei freichiau, a derbyniodd y ddyrnod farwol yn ei fron.

Dyn meddylgar oedd efe: ychydig a siaradai, ac felly y bu yn ei funydau olaf: efe a gwympodd, ac a fu farw mewn distawrwydd. Rhanwyd ei gyfoeth rhwng ei elynion; a chadwyd cyfran o'i etifeddiaethau gan yr ymherawdwr, yr hwn a dalodd am i dair mil o weddïau gael eu darllen dros enaid ei gadfridog enwog.

WALKER, GEORGE: amddiffynwr arwrol Londonderry. Ganwyd ef o rieni Saesnig yn swydd Tyrone, yn yr Iwerddon, yn y rhan gyntaf o'r eilfed ganrif ar bymtheg. Derbyniodd ei addysg yn mhrif ysgol Glasgow, a chafodd ei urddo yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig, a'i bennodi yn beriglor Donoughmore. Nid ymddengys fod un neillduolrwydd hynod yn rhan flaenaf bywyd Walker. Pan y glaniodd y brenin Iago II. yn yr Iwerddon, ar ol chwyldroad y fl. 1688, pa fodd bynag, cyfododd Walker gatrawd o filwyr ar ei draul ei hun, i'r dyben i'w wrthwynebu ef. Ar ddynesiad Iago i Londonderry, efe a aeth i'w gyfarfod yn flaenor ar lu o filwyr o Long Causeway; ond ar ol gwneyd gwrthsafiad penderfynol, gorfodwyd ef i encilio i'r dref, lle y cafodd fod Lundie, y llywodraethwr, yn gwneyd darpariadau i adael y lle gyda phob brys. Er mor amddifad oedd y lle, i bob ymddangosiad, o bob angenrheidiau i sefyll gwarchau, darfu i Walker a'r uchgadben Baker, yr hwn a ddilynodd Lundie yn llywyddiaeth y gwarchodlu, benderfynu dal allan cyhyd ag yr oedd yn bossibl, yn y gobaith y byddai i'r brenin William, cyn iddynt gael eu llwyr orchfygu, lwyddo i ddanfon cyflenwadau iddynt gyda'r môr. Yr oedd hyn tua chanol Ebrill, 1689. Darostyngwyd y gwarchauedigion yn fuan i'r caledi mwyaf. Bu farw Baker ar yr 20fed o Fehefin, ac yna disgynodd y llywyddiaeth i ddwylaw Walker, yr hwn a ddisgrifir fel clerigwr oedranus. Modd bynag, dangosodd ei fod yn ddyn cyfaddas i'r gwaith oedd wedi ei dori allan: cyfarwyddai a chynnorthwyai i ddwyn oddi amgylch bob dim oedd anhawdd; cadwai y ddysgyblaeth fanylaf o dan yr amgylchiadau mwyaf dyrus; ac nid oedd yn arbed dim arno ei hun mewn un modd:—cyflawnai bob math o waith. Weithiau, arweiniai ruthr difrifol ar y gelyn; a phryd arall fe'i ceid ef yn traddodi pregeth gyffrous yn yr eglwys gadeiriol, i ddal i fyny a sirioli calonau ei filwyr. Y diwedd a fu, i'r gwarchau gael ei godi ar y 30ain o Orphenaf, trwy i'r is-gadfridog Kirk droi oddi yno gyda thair o longau dros y bargadwyn (*boom*), yr hwn a daflasai Iago ar draws yr afon.

Yn fuan ar ol hyn, daeth Walker drosodd i Loegr, lle y derbyniwyd ef yn wresog yn y llys, y diolchwyd iddo yn gyhoeddus yn Nhŷ y Cyffredin am ei ymdrechion arwrol, y gwnaed ef yn ddoctor mewn duwinyddiaeth gan brifysgol Rhydychain, ac y pennodwyd ef yn esgob Derry gan y brenin. Yr oedd ardeb o hono yn cael ei hongian yn mhob tŷ yn Lloegr; a buasai ei lwyddiant yn gyflawn oni buasai fod yr Henaduriaid yn ystyried fod y rhan a gymmerasant yn yr amddiffyniad yn cael ei ddiystyru, ac yn codi dadl o blegid hyny. Cyhoeddodd Walker hanes yr amddiffyniad o dan y teitl "*A True Account of the Siege of Londonderry.*" Ni chymmerai Walker ei berswadio i gymmeryd meddiant tawel o'i esgobaeth. Mynai wasanaethu mewn un rhyfelgyrch arall cyn dechreu ar ei ddyledswyddau esgobawl, a lladdwyd ef yn mrwydr Boyne ar y 1af o Orphenaf, 1690.

WALPOLE, HORACE, IARLL ORFORD: awdwr enwog yn y ganrif ddiweddaf, a thrydydd mab i Syr Robert Walpole, ac i Catherine Shorter, ei wraig gyntaf. Ganwyd ef ar y 5ed o Hydref, 1717. Ar ol cwblhau ei addysg yn Eton, ac yn Ngholeg y Brenin, Caergrawnt, efe a adawodd Loegr, gan fyned ar daith trwy y Cyfandir am dros ddwy flynedd. Am y rhan fwyaf o'r amser hwn, yr oedd y bardd Saesneg, Gray, yn gydymaith iddo; ond yn anffodus, fe ddaeth rhyw anghydwelediad pwysig rhwng y ddau gyfaill, ac ymwahanasant yn Reggio yn Gorphenaf, 1741, a dychwelasant i Brydain ar hyd gwahanol ffyrdd. Etholwyd Walpole yn aelod seneddol dros Callington yn mis Medi yr un flwyddyn. Traddododd ei araeth gyntaf yn Nhŷ y Cyffredin yn Mawrth, 1742, ar gynnygiad a ddygwyd yn mlaen i wneuthur ymchwiliad i ymddygiadau Syr Robert Walpole am y deng mlynedd diweddaf o'i weinyddiaeth, yr hon a arganmolwyd gan Mr. Pitt—wedi hyny Iarll Chatham—a Seeker, esgob Rhydychain y pryd hwnw. Wedi i'r cynnhyrfiadau yn achos ei dad dawelu, anfynych yr anerchodd efe y Tŷ. Yn 1751, cynnygiodd yr anerchiad i'r brenin, a siaradodd ar ddefnyddio catrodau Swissaidd yn y trefedigaethau yn 1756. Yn 1757, gweithiodd yn selog o blaid yr anffodus lyngesydd, Byng. Dyna brif ddigwyddiadau ei fywyd cyhoeddus, er iddo fod yn aelod seneddol hyd y flwyddyn 1768.

Yr hyn yr ymddifyrai Walpole ynddo am lawer o flynyddoedd o'i oes oedd adeiladu ac addurno ei balas Gothaidd yn Strawberry Hill, Twickenham. Tŷ bychan oedd y lle hwn yn 1747, ond cynnyddodd o dan ei ddwylaw ef i fod yn balas o gryn faintioli. Casglodd ynghyd iddo gywrein-bethau a gweithiau celfyddydol o bob natur. Heb law ei fod yn meddu chwaeth i gasglu ynghyd gywreinion, yr oedd yn llenor gwych. Barddoniaeth oedd ei faes llenyddol cyntaf; ac er fod llawer o'i gynnyrchion yn fywiog a dymunol, ychydig o allu dychymmygol a amlygir ynddynt. Yn 1752, cyhoeddodd ei "*Ædes Walpolianæ;*" ac yn 1761, dechreuodd ei "*Anecdotes of Painting in England*"—gwaith na chwblhawyd mo hono hyd 1771. Yn 1758, yr oedd wedi cyhoeddi ei "*Catalogue of Royal and Noble Authors.*" Ymddangosodd ei ffugchwedl enwog, "*Castle of Otranto,*" yn 1764. Gan fod y rhamant hon mewn arddull newydd, yr oedd gwahanol farnau yn ei chylch; ond ar y cyfan, hi a ddaeth yn hynod lwyddiannus a phoblogaidd ar unwaith, ac y mae yn parhau i gael ei darllen i raddau hyd heddyw. Yr oedd

Digitized by Google

Syr Walter Scott yn edmygydd mawr o honi, ac aeth arglwydd Byron mor bell a dyweyd mai "Castell Otranto" oedd y rhamant ragoraf yn yr iaith Saesnig. Y pethau nesaf a gyhoeddodd efe oedd ei "*Mysterious Mother*," a'i "*Historic Doubts on the Life and Reign of King Richard* III.;" gwaith a gynnwysa archwiliad cywrain a chraff i'r profion ar ba rai y seilia haneswyr eu hadroddiadau o brif ddigwyddiadau y cyfnod hwnw. Heb law y rhai hyn, efe a gyhoeddodd amryw o gyfansoddiadau ereill, mwy dibwys. Ond y mwyaf difyr, a'r rhagoraf, mewn rhyw ystyr, yw ei "Lythyrau," y rhai a ysgrifenodd efe at amryw o'i gyfeillion, ac a gyhoeddwyd ar wahanol adegau ar ol ei farwolaeth. Syr Walter Scott a'i geilw yr "ysgrifenwr llythyr goreu yn yr iaith Saesnig;" a Byron a ddywed ei fod yn "anghymmharol." Y mae eu harddull yn ysgafn a bywiog, ac yn nodedig briodol i gario yn mlaen ohebiaeth. Ond gellir gweled yn y llythyrau hyn, fel y dywed Macaulay, nad oedd "gorchwylion difrifol ond oferedd yn ei olwg, a bod gwagchwedleua yn orchwyl difrifol iddo." Casglwyd holl lythyrau Horace Walpole, a chyhoeddwyd hwynt mewn chwe cyfrol, yn y fl. 1840. Yn 1791, disgynodd teitl ac etifeddiaeth y teulu iddo, ar farwolaeth ei nai, George, y trydydd iarll Orford; a bu farw ar yr ail o Fawrth, 1797, yn 80ain mlwydd oed.

Nis gellir ystyried Horace Walpole yn ddyn gwir fawr. Y mae ei weithiau yn dangos nad oedd efe yn gallu ymddyrchafu yn uchel mewn meddwl, nac o ran egwyddor. Yr oedd ganddo chwaeth hynod naturiol at fân bethau gorwâg, a theimlai yn dra anfoddlawn i ymgymmeryd â gorchwylion pwysig bywyd. A phroffesai yn fynych fod ei weithiau llenyddol yn cael eu cyfansoddi, nid er mwyn ennill enwogrwydd, ond er mwyn difyrwch. Nid oedd yn proffesu ei hun yn llenor; etto byddai yn teimlo yn fawr oddi wrth feirniadaeth anffafriol. Yr oedd arno awydd am glod, a chenfigenai wrth enwogrwydd ereill. Cymmerai arno ddiystyru y llys; etto am frenhinoedd, tywysogion, a gwŷr y llys y meddyliai ac y siaradai. Yr oedd yn werinwr, ac yn bendefig hefyd. Mewn bywyd anghyhoedd, nid amlygodd rhyw lawer o rinweddau; ond nis gellir chwaith ei gyhuddo o feiau pwysig. Y mae ei enw yn dra adnabyddus mewn cyssylltiad â llenyddiaeth ei oes.

WALPOLE, SYR ROBERT: Iarll Orford, gwladweinydd Saesneg enwog, oedd drydydd fab i Robert Walpole, aelod seneddol dros Castle Rising. Ganwyd ef ar y 26ain o Awst, 1676. Derbyniodd ei addysg yn Eton a Chaergrawnt; ac er nad oedd yn naturiol yn hoff o efrydu, etto ymroddodd i astudio gyda digon o ddiwydrwydd i ddyfod yn ysgolhaig clasurol rhagorol. Etholwyd ef yn aelod seneddol dros Castle Rising, yn olynydd i'w dad; ac ymunodd â'r blaid Whigaidd i gefnogi yr olyniaeth Brotestanaidd i'r orsedd. Yn 1705, pennodwyd ef yn ysgrifenydd rhyfel; ac yn 1708, yn chwanegol at y swydd hon, gwnaed ef yn arweinydd ei blaid yn Nhŷ y Cyffredin. Yn 1710, pennodwyd ef yn un o reolwyr y cynghaws yn erbyn Dr. Sackaverel. O blegid anghyttundeb yn mysg aelodau y weinyddiaeth, rhoddodd y llywodraeth Whigaidd le i un Doryaidd; ond yr oedd Harley yn meddwl mor uchel o dalentau a dylanwad Walpole, fel yr ymgeisiodd yn ofer ar iddo dderbyn swydd yn y weinyddiaeth; a dywedai ei fod yn werth hanner ei blaid. Yr oedd ysbryd plaid yn uchel iawn y pryd hwnw; ac mewn trefn i lethu eu gwrthwynebwyr, penderfynodd y llywodraeth Doryaidd, o dan Harley a St. John, i gyhuddo eu rhagflaenoriaid o lygredigaethau cyhoeddus, ac anghywirdeb wrth gadw cyfrifon y deyrnas. Amddiffynodd Walpole y weinyddiaeth yn alluog; ond cospwyd ef am ei sêl dros hyn, trwy i gyhuddiad cyffelyb gael ei ddwyn yn ei erbyn ef ei hun yn bersonol. Ar yr 17eg o Ionawr, 1712, penderfynodd mwyafrif o Dŷ y Cyffredin ei fod, tra yn ysgrifenydd y rhyfel, wedi bod yn euog o ddiffyg ymddiried a llygredd neillduol, a'i fod i gael ei ddanfon yn garcharor i'r Tŵr, a'i yru allan o Dŷ y Cyffredin. Gwrthododd wneyd unrhyw gydnabyddiaeth na chyffes, ac arosodd yn garcharor yn y Tŵr hyd nes y gohiriwyd y senedd. Yn y cyfamser, edrychai ei gyfeillion arno fel merthyr yn eu hachos hwynt. Etholwyd ef dros Lynn; ond fe ddadganwyd nad ydoedd yn gyfreithlawn iddo eistedd yn ystod y senedd hono. Gwnaeth fwy i amddiffyn ei hun trwy ei ysgrifell yn y carchar nag y gallasai wneyd yn wyneb ei elynion, oedd wedi ei gondemnio eisoes. Ac mewn pamphled a gyhoeddwyd ganddo, ystyriai ei blaid ei fod wedi gwrthbrofi yn llawn yr holl gyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn. Yn Awst, 1713, eisteddodd yn y senedd eilwaith fel aelod dros Lynn, a chymmerodd ran flaenllaw yn yr holl ddadleuon yr oedd a wnelo ei blaid â hwynt.

Ar esgyniad Sior I. i'r orsedd, galwyd Walpole i'r weinyddiaeth Whigaidd a ffurfiwyd. Rhoddodd etholiad 1715 fwyafrif mawr i'r weinyddiaeth hono, a chawsant hamdden i ddial ar y Toryaid am y driniaeth a gawsent oddi ar eu llaw. Yr oedd llawer o'r prif Doryaid yn bleidiol i'r ymhonydd yn ystod y pedair blynedd olaf yn nheyrnasiad y frenhines Anne, ac ystyrid ei bod yn ddyledswydd ar weinyddiaeth y brenin Hanoveraidd cyntaf i gondemnio, ac, os oedd yn bossibl, dori i fyny y blaid oedd yn mron wedi llwyddo i newid trefn yr olyniaeth i'r orsedd. Walpole a dynodd allan yr adroddiad ar ba un yr oedd yr achwyniadau (*impeachments*) yn cael eu sylfaenu; a chymmerodd ran arweiniol yn yr holl achosion a ddygwyd yn mlaen. Torodd y rhyfel allan yn mhlaid yr ymhonwr yn fuan ar ol hyn, a gwnaed Walpole yn brif arglwydd y trysorlys a changhellydd y drysorfa. Dygodd llafur a phryder y dyddiau hyny afiechyd trwm arno. A chyn ei adferiad, yr oedd mesur parhâd y senedd am saith mlynedd wedi pasio. Parodd diffyg undeb yn y weinyddiaeth, gyda dichellion yr Hanoveriaid oedd yn y llys, i'r gweinidogion ymddiswyddo; ac yn Ebrill, 1717, cyflwynodd Walpole y seliau i fyny i'r brenin, er gwaethaf deisyfiadau taer y diweddaf am iddo gadw ei swydd mewn cyssylltiad â gweinyddiaeth newydd. Bu Walpole yn eistedd ar yr ochr wrthwynebol i'r tŷ hyd 1720. Gwrthwynebodd â'i holl egni yr hyn a elwid y *South Sea Scheme*, i dynu i lawr y ddyled wladol, pan y dygwyd hyny yn mlaen gan y llywodraeth. Cydsyniodd i dderbyn y swydd o bentalwr cyffredinol y fyddin yn 1721; ond nid oedd yn cefnogi y weinyddiaeth yn wresog hyd nes y darfu i'w ragfynegiadau ynghylch y cyfyngder yr arweiniwyd y wlad iddo mewn cyssylltiad â'r *South Sea Scheme* gael eu gwirio. Yna galwyd arno i ddyfeisio rhyw fesurau newydd i adferu ymddiried y cyhoedd. Ni bu gweinidog erioed yn mron mewn sefyllfa mwy dyrus. Nid

Digitized by Google

*m*, a daeth *Cyn-mru* neu *Cym-bru*, i gael ei sillebu, megys yn bresennol, *Cym-mru* (Cym'ru) neu *Cym-bru*, olion o'r dull olaf a ganfyddir nid yn aneglur yn Cambria (enw Lladin Cymru); yn Cumbria (enw Lladin Cumberland), lle yr oedd cangen o'r Hen Frytaniaid yn dal eu tir, ac yn cael eu llywodraethu gan eu tywysogion eu hunain hyd yr wythfed ganrif; yn Cimbri, hen breswylwyr Jutland a Holstein; yn Cantabria (Cynta-bru), gwlad y Cantabri, hen bobl Yspaen, yn terfynu ar Fachwy (*Bay*) Biscay, &c. Nis gall *Cym-mry* (neu, fel ei hysgrifenir yn awr *Cymry*), gan hyny, arwyddo dim, yn ol fy marn i o leiaf, ond Cyndrigolion neu Briodorion (trigolion neu frodorion cyntaf) gwlad, yr hwn ystyr i'r gair a awgrymir, fel yr ymddengys, ac y cyfeirir ato yn nisgrifiad Cesar o Brydain, pan y dywed '*Britanniæ pars interior ab iis incolitur, quos natos in insula ipsa, memoria proditum dicunt.*'—'Preswylir y parth canol o Brydain gan y cyfryw ag a gefnodir gan draddodiad eu bod wedi eu cynnyrchu yn wreiddiol yn yr ynys.' Os addefir yr hyn a draddodwyd uchod (a chredaf na oddef un ammheuaeth) fel gwir ystyr y gair *Cym'ry*, bydd y casgliad yn naturiol; sef, mai *Cymra-eg* (yr hen Frytanaeg) yw iaith gyntefig yr ynys hon, Brydain Fawr."

Y mae yr awdwr yr un mor fanwl a chywrain ar ystyr yr enw estronol, *Wales;* ar hynafiaeth y Gymraeg; ar ei hegwyddor; ac ar Brydyddiaeth y Cymry. Gwaith llenyddol nesaf yr awdwr, yw "Dwy Bregeth ar *Ezec.* xxxiii. 11:—y gyntaf yn cynnwys annogaeth i edifeirwch neu ddychweliad at Dduw: a'r ail yn haeru, a thrwy Ysgrythyrau eglur a rhesymau diymwad yn profi, na dderyw i Dduw, trwy un arfaeth neu ordinhâd gynamserol, luniaethu neb yn anochel i ddinystr neu farwolaeth dragywyddol. At y rhai'n y chwanegwyd dau ymofyniad neu ymchwiliad:—y cyntaf, am farn Eglwys Loegr ynghylch cyrhaeddiad y brynedigaeth Gristionogol, neu rinwedd marwolaeth Crist; a'r ail, am feddwl St. Pedr, yn yr hyn a ddywed efe yn y drydedd bennod o'i ail epistol, ynghylch ysgrifeniadau St. Paul. Gan Ioan Wallter, person Llandocheu.—Pont-y-Fon. Argraphwyd gan R. Thomas, M.DCC.LXXII" [8plyg: 44 tudalen.] Cyfieithwyd a chyhoeddwyd y pregethau hyn yn Saesneg yn y flwyddyn 1783; a daeth argraphiad Cymraeg o honynt allan yn nechreu y ganrif hon, o dan olygiad y Parch. John Hughes, awdwr yr "*Horæ Britannicæ*," gweinidog gyda'r Wesleyaid.

Ond prif waith yr awdwr yw ei Eiriadur Saesneg a Chymraeg, yr hwn a drosglwyddа ei enw yn ddiffael i'r oesau dyfodol, ac a fydd mewn bri tra y pery y ddwy iaith. Dengys enwaddalen y gwaith mawr hwn ei ansawdd a'i natur yn bur eglur, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"An English-Welsh Dictionary: wherein not only the Words, but also the Idioms and Phraseology of the English Language, are carefully translated into Welsh, by proper and equivalent Words and Phrases: with a regular interspersion of English Proverbs, and proverbial expressions, rendered by corresponding ones in the Welsh Tongue. By the Rev. John Walters, Rector of Landough, Glamorganshire."

"Geiriadur Saesneg-Cymraeg: yn yr hwn y cyfieithir yn ofalus, nid yn unig y Geiriau, ond hefyd Llafarweddau a Geiriadaeth yr Iaith Saesnig â Geiriau ac Ymadroddion priodol a chyfystyr: gyda gwasgariad rheolaidd o Ddiarhebion Saesneg, ac ymadroddion diarhebol, wedi eu troi i rai cyfattebol yn yr Iaith Gymraeg. Gan y Parch. Ioan Walter, person Llandocheu, sir Forganwg. Llundain: argraphwyd dros yr Awdwr."

Dywedir y cyhoeddwyd y rhan gyntaf yn Nghymru, Mehefin 5ed, 1770, a'r ddiweddaf yn Llundain, yn 1794. Ni fynegir yn mha le yn Nghymru y cyhoeddwyd y rhan gyntaf, na pha beth a feddylir wrth 'y rhan gyntaf;' pa un ai y rhifyn cyntaf, ai y gyfrol gyntaf. Tueddir ni i gasglu mai y gyfrol gyntaf a olygir. Os felly, aeth pedair blynedd ar hugain heibio rhwng cyhoeddiad y gyfrol gyntaf a'r ail. Dywedir i'r awdwr gael colled drom ar y gyfran o'r gwaith a gyhoeddwyd yn Llundain, o blegid i lawer o hono golli mewn llongddrylliad; ac na chafodd ond ychydig o'r derbynwyr yr holl lyfr. Os bu yr awdwr bedair blynedd ar hugain yn cyfansoddi y rhan gyntaf o'r gwaith, yr hon a gyhoeddwyd yn Nghymru, dechreuodd ei ysgrifenu yn 1746, pan oedd efe yn 25ain oed; ac felly cymmerth yr holl waith wyth mlynedd a deugain o'i oes i'w gyflawni; ac yn wir, od ystyrir gwreiddiolddeb, manylrwydd, ac eangder y gwaith godidog, nid ydym yn rhyfeddu llawer at feithder y tymmor a gyssegrwyd i'w gyfansoddi. Heb law y "diarhebion Saesnig, ac ymadroddion diarhebol," sy'n britho y llyfr yn y ddwy iaith, cymmerodd yr awdwr gannoedd lawer o ymadroddion o'r Ysgrythyrau, o'r Apocrypha, o'r "*Llyfr Gweddi Gyffredin,*" ac o'r Diarhebion Cymraeg, i'w addurno a'i egluro. Ar fyr, y mae yn ddiau na chyhoeddwyd unrhyw lyfr yn cynnwys cymmaint o esamplau ymadroddol er dangos arddull pur a llafarweddol (*idiomatic*) y ddwy iaith a'r geiriadur gorchestol hwn.

Cyhoeddwyd ail argraphiad lled anghywir o'r gwaith yn ddwy gyfrol 4plyg, yn Nolgellau, yn 1815; ac yn 1828, argraphodd Mr. Gee, yr hynaf, tad cyhoeddwr y "*Gwyddoniadur,*" y gwaith yn ddwy gyfrol 8plyg breiniol hardd, trwy gyttundeb â Miss Hannah Walters, ŵyres yr awdwr, dan nawdd y Milwriad W. L. Hughes, A. S.—wedi hyny Arglwydd Dinorben. Bu yr awdwr enwog farw Mehefin 1af, 1794, yn 76ain oed. [Williams' "*Em. Welshmen;*" "*Brython;*" a "*Llyfryddiaeth y Cymry.*]"

WALTON, ISAAC: awdwr enwog y "*Complete Angler,*" oedd fab i Jervis Walton. Ganwyd Isaac yn Stafford ar y 9fed o Awst, 1593. Nid oes nemawr ddim yn hysbys am ei ddyddiau boreuaf. Bu farw ei dad yn 1596—7; gan ei adael ef, fel y tybir, yn amddifad o fam hefyd. Tybir iddo gael ei ddwyn i fyny yn llieinwr neu hosaneuwr; o herwydd ceir ei fod yn dwyn yn mlaen fasnach fel llieinwr, a hosaneuwr, &c, yn Fleet-street, Llundain, yn 1624. Yn niwedd y flwyddyn 1626, priododd gyda Rachel Floud, un o ddisgynyddion yr Archesgob Cranmer. A thybir fod Walton wedi cael llawer o ddefnyddiau tuag at ysgrifenu ei fywgraphiad rhagorol o'r enwog Hooker gan George Cranmer, ewythr ei wraig, yr hwn ydoedd ddysgybl a chyfaill i Hooker. Yn y flwyddyn 1640, bu farw ei wraig ar enedigaeth merch; bu yn fam i ddau o feibion cyn hyny, ond nid oedd un o honynt yn fyw. Yn 1643, rhoddodd Walton i fyny ei fasnach, wedi dyfod yn berchen cymmaint o eiddo ag a'i galluogai ef i fyw yn gysurus yn ei ddull syml ei hun; ac yn 1647, efe a briododd yr ail waith. Y foneddiges a ddaeth yn ail wraig iddo oedd Anne Kenn, hanner chwaer i'r enwog esgob Kenn. Bu iddo o honi hi ferch a dau fab, ond bu farw dau o honynt yn eu babandod; a bu farw y fam hefyd yn 1662, er dirfawr a dwys ofid i'w phriod, yr hwn a'i goroesodd lawer o flynyddoedd. Bu yntau farw Rhagfyr 15fed,

Digitized by Google

1653, wedi cyrhaedd yr oedran mawr o ddeg a phedwar ugain mlwydd, yn mhreswylfod Dr. Hawkins, ei fab-yn-nghyfraith, un o gorberiglor-iaid eglwys gadeiriol Winchester; a chladdwyd ef yn yr eglwys hono.

Yr oedd Walton wedi bod yn gyfaill mawr i'r enwog Dr. John Donne, yr hwn fu farw yn 1631, gan yr arferai fyned i wrandaw arno yn eglwys St. Dunstan; a phan y cyhoeddwyd pregethau y diweddaf, yn 1840, cymmhellwyd y blaenaf i ysgrifenu cofiant o'r awdwr, i'w gyhoeddi gyda hwynt. Hwn oedd y peth cyntaf a gyhoeddodd efe, a dilynwyd ef gan fywgraphiadau o Richard Hooker, Syr Henry Wooton, a George Herbert, y naill ar ol y llall; a chyhoeddwyd y pedwar gyda'u gilydd yn 1670. Chwanegodd at y rhai hyn hanes bywyd ei gyfaill, yr esgob Sanderson, yn 1678. Cyhoeddwyd y "*Complete Angler, or Contemplative Man's Recreation,*" yn 1655, ac ennillodd y gyfrol hon yn ddioed y poblogrwydd y mae hi wedi ei gadw i fyny hyd y dydd hwn. Yn 1655, 1664, 1668, a 1676, galwyd am argraphiadau newyddion o hono. Chwanegwyd ato yn yr argraphiad a ddaeth allan yn 1676 draethawd ar bysgota gyda phlu, gan ei gyfaill Charles Cotton, mewn tŷ pysgota i'r hwn, ar lan yr afon Dove, y treuliodd Walton lawer o ddyddiau diweddaf ei fywyd dedwydd a di-argyhoedd mewn tawelwch, gan ddilyn ei hoff ddifyrwch, sef pysgota. Fel traethawd ar y gelfyddyd o bysgota, gellir ystyried fod y "*Complete Angler*" mewn rhan fawr yn ddi-werth; ond y mae yn parhau i gael ei ddarllen, a phery felly yn ddiammheuol ar gyfrif y swyn, y symlder, a'r purdeb sydd yn ei arddull, a'r ysbryd barddonol, tawel, a duwiolfrydig sydd yn dyfod i'r golwg ar bob tudalen iddo. Nid ydyw y bywgraphiadau a ysgrifenwyd ganddo, er nad ydynt mor adnabyddus, yn ol mewn un modd i'r "*Complete Angler.*"

WARBURTON, WILLIAM: Sais ydoedd, a phrelad tra enwog. Ganwyd ef yn Newark, ar y 24ain o Ragfyr, 1698. Mab ydoedd i George Warburton, cyfreithiwr. Collodd Warburton ei dad pan nad oedd ond wyth mlwydd oed, a disgynodd y gofal o addysgu y plant—dau o feibion, a thair o ferched—ar y fam. Bwriedid i William ddilyn yr un alwedigaeth a'i dad, a'i daid; a derbyniodd yr addysg grammadegol cyffredin yn ysgol Okeham, yn swydd Rutland. Pan adawodd yr ysgol, yn 1715, aeth i swyddfa Mr. Kirke, cyfreithiwr yn East Markham, lle yr arosodd hyd Ebrill, 1719, pan y dechreuodd weithredu drosto ei hun fel cyfreithiwr yn Newark. Ond yr oedd hoffder at ddarllen ac efrydu wedi amlygu eu hunain yn foreu ynddo; a gwnaeth ei feddwl i fyny i gymmeryd urddau yn Eglwys Loegr, a neillduwyd ef yn ddiacon gan Dawes, archesgob Caerefrog, yn 1723. Y gwaith llenyddol cyntaf a gyhoeddodd efe oedd cyfrol a elwid "*Miscellaneous Translations,*" &c. Yn 1726, appwyntiwyd ef yn ficer Gryesly; ac yn 1727, cyhoeddodd ei "*Critical and Philosophical Enquiry into the causes of Prodigies and Miracles;*" a'r un flwyddyn ei draethawd a elwir "*The Legal Judicature in Chancery stated.*" Graddiwyd ef yn athraw yn y celfyddydau ar ymweliad y brenin Sior II. â phrifysgol Caergrawnt, yn 1728; ac yn yr un flwyddyn cyflwynwyd iddo berigloriaeth Brana-Broughton. Y gwaith nesaf o un pwysigrwydd a gyhoeddodd efe, a'r hwn a'i dygodd i gyhoeddusrwydd neillduol oedd ei draethawd enwog, "*The Alliance between Church and State,*" yr hwn a ymddangosodd yn 1736. Tramgwyddodd y gwaith hwn un dosbarth trwy y casgliadau a dynwyd ynddo, a dosbarth arall trwy y dull y tynwyd y cyfryw gasgliadau; ond y mae Eglwyswyr cymmedrol erbyn hyn yn edrych ar y gwaith fel yr amddiffyniad goreu, o bossibl, a ellir gael o sefydliadau gwladol o grefydd. Dywedai yr esgob Horsley am dano, hanner cau mlynedd ar ol ei ymddangosiad, ei fod "yn un o'r darnau goreu o ymresymiad gwyddonol yn cael ei gymmhwyso at destyn gwleidyddol a geir, fe allai, mewn unrhyw iaith."

Yn mis Ionawr, 1738, cyhoeddodd Warburton y gyfrol gyntaf o'i waith mawr, "*The Divine Legation of Moses, demonstrated on the Principles of a Religious Deist, from the Omission of the Doctrine of a future state of Rewards and Punishments in the Jewish Dispensation.*" Fel y gallesid disgwyl, cynnyrchodd y gwaith hwn ystorm o ddadleuon a barhaodd am flynyddoedd. Yn nghwrs yr amser yma, yr oedd gan yr awdwr i amddiffyn ei hun yn erbyn y doctoriaid Stebbing, Sykes, Pococke, R. Grey, Middleton, ac ereill. Meddylddrych arweiniol y "*Divine Legation*" yw, ei fod yn ammhossibl gadael allan athrawiaeth mor bwysig ag ydyw sefyllfa ddyfodol—yr hon yw prif rwymyn naturiol cymdeithas ddynol—o unrhyw gynllun o ddeddfwriaeth a fuasai ddynol yn unig: o ganlyniad, y rhaid fod yr oruchwyliaeth Foesenaidd, o'r hon y gadewir hyny allan, yn ol golygiad Warburton, wedi dyfod o'r nef; ac wedi ei chadw mewn modd hynod trwy ddylanwad dwyfol a gwyrthiol. Yn y blynyddoedd dilynol, daeth y cyfrolau ereill o'r wasg: y cyfan yn bump mewn rhifedi. Yn fuan ar ol ymddangosiad y gyfrol gyntaf, pennodwyd ef yn gaplan i Dywysog Cymru. Yn 1739, efe a gyhoeddodd saith o lythyrau mewn amddiffyniad i Pope's "*Essay on Man,*" yn erbyn ymosodiad M. de Crousaz; ac o hyny allan bu Pope yn gyfaill calonog iddo; a phan fu y diweddaf farw, yn 1744, efe a adawodd hanner ei lyfrau i Warburton, gyda'r holl elw a ddeilliai oddi wrth werthiant ei weithiau ar ol ei farwolaeth. Yn 1745, priododd Warburton Miss Tucker, nith i Mr. Ralph Allen, o Prior Park, ger llaw Bath; ac ar farwolaeth Mr. Allen, yn 1764, meddiannodd Prior Park. Cyhoeddodd hefyd dair pregeth ar wrthryfel yr ymhonydd tua'r pryd hwn. Yn 1746, etholwyd ef yn unfrydol yn bregethwr Lincoln's Inn, a'r flwyddyn ddilynol cyhoeddodd argraphiad o waith Shakspeare; ac yn 1751, argraphiad o weithiau Pope, gyda nodiadau. Yn 1754, pennodwyd ef yn un o gaplaniaid ei Fawrhydi, a chafodd y gradd o ddoctor mewn duwinyddiaeth. Appwyntiwyd ef yn ddeon Bristol yn 1757, ac yn esgob Gloucester yn 1759. Yn 1762, cyhoeddodd ei "*Doctrine of Grace,*" &c. Sefydlodd ddarlith ar brophwydoliaeth yn 1769 yn nghapel Lincoln's Inn, a thraddodwyd y gyfres gyntaf gan Dr. Hurd. Yn fuan wedi hyn dechreuodd ei alluoedd meddyliol wanhau, a pharhau felly a wnaethant hyd ei farwolaeth, ar y 7fed o Fehefin, 1779, ychydig ar ol marwolaeth ei unig fab, yr hwn a ddygwyd ymaith gan y darfodedigaeth yn nghanol ei ddyddiau.

Cyhoeddwyd argraphiad cyflawn o weithiau yr esgob Warburton yn 1788, o dan olygiaeth ei gyfaill, yr esgob Hurd, mewn saith o gyfrolau pedwar plyg.



Digitized by Google

"Yr oedd Warburton," meddai Dr. Johnson, "yn ddyn o alluoedd cryfion, o feddwl gwresog a thanbaid, a'i adnoddau yn fawr, ac yn ffrwyth ymchwiliad dyfal a pharhaus. Yr oedd ei wybodaeth hefyd yn rhyfeddol o ran amrywiaeth a helaethrwydd; etto nid oedd yn llethu ei ddarfelydd bywiog, nac yn cymmylu ei eglurder. Yr oedd ei gof yn hynod afaelgar, a'i ddychymmyg yn ffrwythlawn: yr oedd yn ddysgedig, yn ymresymiadol, ac yn ffraeth. Ond yr oedd ei wybodaeth yn rhy amryfath i fod yn fanwl bob amser, a'i ymchwiliadau yn rhy aiddgar i fod yn wastad yn ochelgar. Nid amcanai at swyno âg ymadroddion mwyn; ond tueddai i orfodi, yn fwy na pherswadio. Y mae ei arddull yn llawn, heb fod yn ddetholedig, ac yn rymus, heb fod yn dlws. Cymmerai y geiriau cyntaf a gynnygient eu hunain; y mae ei ieithwedd yn anghoeth, ac nid yw esgeiriau ei frawddegau yn ogyhyd." Dylid sylwi, modd bynag, er nad oedd tymmer ac ysbryd Warburton yn wastad yn gyfryw ag oedd yn addurn i efengyl Crist, etto yr oedd ei dduwioldeb personol yn ddiammheuol, ei gydwybod yn dyner, ei arferion yn grefyddol, ei ffydd yn Nghrist yn gref, parhaus, a diffuant, ei haelfrydedd yn ganmoladwy, a'i bryder am ledaeniad a llwyddiant Cristionogaeth yn fawr.

WARD, WILLIAM: cenadwr i'r India ddwyreiniol. Brodor o Derby ydoedd efe, lle y ganwyd ef, Hydref 2il, 1769. Yr oedd er yn ieuangc yn fawr iawn ei awydd am ddiwyllio ei hun; yr hyn, ynghyd â llinellau ereill yn ei gymmeriad, a barai i'r rhai a'i hadwaenent ddisgwyl y byddai iddo lenwi lle pwysig yn y byd. Pan y gadawodd efe yr ysgol, dysgodd y gelfyddyd o argraphu. Symmudodd o Derby i Stafford, ac oddi yno i Hull, lle y bu am dymmor yn olygydd yr "*Hull Advertiser.*" Tra y bu yn y lle diweddaf, ymunodd âg eglwys y Bedyddwyr, a chafodd ar ei galon fyned i bregethu; ac yn Awst, 1797, efe a dderbyniwyd i Athrofa Ewood Hall, ger Halifax, yr hon oedd o dan ofal y Dr. Fawcett; ac er iddo gael ei gymmhell yn daer gan eglwys Gildersome i aros yn weinidog iddynt hwy, penderfynu llafurio yn y maes cenhadol a ddarfu; ac ar y 7fed o Fai, 1799, efe a neillduwyd i waith y genhadaeth; a chyn diwedd y mis, yr oedd ar ei ffordd yn hwylio tuag India. Glaniodd ef a'i gyfeillion yn Serampore; a daeth Dr. Carey atynt yno yn fuan. Cymmerodd Ward arno ei hun arolygiaeth adran argraphyddol y genhadaeth, ac yr oedd yn dra defnyddiol yn y gwaith hwn; a phregethai yn achlysurol, yma a thraw. O hyn allan yr oedd Ward yn brysur gyda'r gwaith o argraphu cyfieithiadau o'r Ysgrythyrau, teithio i ganolbarth y wlad, a sefydlu gorsafoedd cenhadol mewn gwahanol fanau. Yr oedd llawer o anhawsderau yn cael eu taflu ar ffordd y cenhadon y pryd hwnw gan lywodraeth yr India. Gwaherddid iddynt ledaenu traethodau, a phregethu; ac ni oddefwyd i rai a ddaethant o Loegr fyned yn mlaen i Serampore. Ond trwy ymdrechiadau Andrew Fuller, ac ereill, gyda'r llywodraeth yn Mhrydain, caniatawyd i'r cenhadon fyned rhagddynt gyda'u gwaith. Yna aethant yn mlaen yn gyflymach; agorwyd gorsafoedd newyddion, ac adeiladwyd capel newydd yn Calcutta; ac yr oedd Ward yn cymmeryd ei dro i bregethu yno. Bu farw merch fechan iddo, chwe mlwydd oed, yn 1812; a theimlodd yntau y ddyrnod hono yn fawr iawn. Yn yr un flwyddyn, digwyddodd damwain bwysig, yr hon a effeithiodd yn drwm ar y genhadaeth, ac a fu yn llawer o ofid i Mr. Ward; sef, dinystr y swyddfa argraphu, yr hyn a achlysurwyd trwy dân. Llosgwyd y llythyrenau oeddynt wedi eu defnyddio yn yr argraphiadau a gyhoeddwyd o'r Beibl, a chyfrifid fod y golled tua 10,000*p*. Ofnwyd y buasai hyn yn rhoddi attalfa barhaol ar y gwaith o argraphu; ond trwy garedigrwydd cyfeillion yn Mhrydain, galluogwyd hwynt i ail gychwyn drachefn yn mhen ychydig fisoedd, ac i fyned yn mlaen yn fwy egnïol nag erioed.

Yr oedd iechyd Ward yn wael yn 1819, a phenderfynodd dalu ymweliad â Lloegr, a chyrhaeddodd i Liverpool yn mis Mehefin y flwyddyn hono. Adferwyd ei iechyd yma i'r fath raddau fel y gallodd wneyd amryw deithiau yn siroedd canolbarthol Lloegr, i gasglu at goleg a fwriedid ei adeiladu yn Serampore; wedi hyny, aeth drosodd i Holland, a gogleddbarth yr Almaen; a thrachefn, hwyliodd am Efrog Newydd, lle y cafodd dderbyniad croesawus, a'i gynnorthwyo yn ei amcan. Ar ol dychwelyd i Loegr, ychydig a arosodd, gan ei fod yn awyddus am ddychwelyd i India. Yr oedd wedi cael cryn swm o arian tuag at drysorfa y coleg, a gadawodd Brydain yn Mai, 1821. Ychydig o amser y bu fyw ar ol dychwelyd i Serampore; ac er fod ei gyfeillion yn gobeithio fod ei iechyd wedi ei adsefydlu, aeth yn waelach o lawer yn fuan ar ol cyrhaedd yno; ond bu farw yn dra disymmwth, o'r geri, yn mis Mawrth, 1822. Ei brif waith llenyddol oedd ei "*View of the History, Literature, and Religion of the Hindoos,*" &c., mewn pedair cyfrol, a'i "*Farewell Letters to His Friends in England and America.*"

WARDLAW, RALPH, D.D.: un o'r duwinyddion a'r pregethwyr enwocaf yn mysg yr Annibynwyr yn Ysgotland. Ganwyd ef yn Dalkeith, ger llaw Edinburgh, ar yr 22ain o Fedi, 1779. Yr oedd ei rieni yn aelodau o'r Eglwys Enciliedig Unedig; ac yn fuan ar ol ei enedigaeth ef, symmudasant o Dalkeith i Glasgow; ac yn y ddinas hono y derbyniodd efe ei addysg—ar y cyntaf yn yr Ysgol Fawr, ac wedi hyny yn y brifysgol. Bwriedid iddo fod yn weinidog yn yr Eglwys Enciliedig Unedig; ond cyn gorphen tymmor ei addysgiaeth, yr oedd wedi dyfod yn argyhoeddedig mai cynnulleidfaoliaeth Annibynol oedd y drefn eglwysig fwyaf unol â'r Testament Newydd; ac o ganlyniad, efe a ymunodd â'r Annibynwyr. Dechreuodd bregethu yn 1800; ac yn 1803, sefydlwyd ef yn weinidog ar gynnulleidfa Annibynol yn Glasgow, ac yno yr arosodd efe hyd ddydd ei farwolaeth. Trwy lafur ac ymdrech, yn gystal a nerth cymmeriad ac enwogrwydd Wardlaw a Greville Ewing, ffurfiwyd llawer o eglwysi, a chasglwyd llawer o gynnulleidfaoedd i berthyn i'r un enwad mewn gwahanol barthau o Ysgotland. Bu Dr. Wardlaw fyw i weled mwy na dau cant o eglwysi Annibynol yn y wlad hono. Yn 1811, pennodwyd ef, mewn undeb â Mr. Greville Ewing, yn athraw duwinyddol yn Athrofa Dduwinyddol Glasgow, a pharhaodd i roddi ei wasanaeth gwerthfawr yn ffyddlawn i'r sefydliad hwnw cyhyd ag y bu fyw. Cymmerodd ei farwolaeth le ar yr 17eg o Ragfyr, 1853.

Bywyd llafurus, difrifol, a gweithgar ydoedd bywyd Dr. Wardlaw. Ychydig o dduwinyddion ei oes a lafuriodd yn helaethach nag efe. Heb law gweinyddu yn ffyddlawn ei ddyled-

Digitized by Google

swyddau gweinidogaethol yn y pulpud, ac allan o hono, a llenwi ei le yn glodfawr fel athraw duwinyddol, yr oedd yn awdwr llawer o lyfrau hynod o werthfawr. Yr oedd hefyd yn cymmeryd rhan amlwg iawn yn nadleuon duwinyddol y cyfnod, ac yr oedd yn weithiwr difefl gyda symmudiadau cyhoeddus, crefyddol a dyngarol, yr oes. Hwyrach mai y mwyaf poblogaidd o'i weithiau ydynt y rhai canlynol:—"*Discourses on the Socinian Controversy;*" "*Lectures on Ecclesiastes;*" "*Essays on Assurance of Faith, and on the extent of the Atonement and universal Pardon;*" "*The Life of Joseph, and the last years of Jacob;*" "*On Miracles;*" "*Church Establishments,*" &c. Yr oedd galluoedd meddyliol Wardlaw yn fawr ac yn gymmhesurol. Yr oedd nerth a theleidrwydd yn unedig ynddo i raddau nas ceir hwynt yn gyffredin. Yr oedd ei alluoedd yn amrywiol, ond oll yn gweithio mewn cydgordiad, a than lywodraeth dda. Efe oedd yn eu meistroli hwy—ac nid hwy oedd yn ei feistroli ef. Hyd yn oed y galluoedd hyny oedd wedi eu dadblygu fwyaf ynddo, ni chaniatâai efe iddynt i'w lywodraethu yn ormodol. Y nodwedd amlycaf yn meddwl Dr. Wardlaw oedd ei alluoedd anghyffredin i elfenu ac i ymresymu. Nid oedd yn nodedig fel un yn meddu ar alluoedd sydd yn arwain dynion i fod yn haneswyr, yn naturiaethwyr, yn feirdd, neu yn wyddonwyr; neu o leiaf nid oedd wedi eu diwyllio yn helaeth. Ychydig o'r gallu creadigol hwnw sydd yn nodweddu rhai meddyliau mawr oedd yn ei hynodi ef; ond yr oedd ei allu i elfenu yn fawr. Medrai wahanu drychfeddyliau cymmysglyd, a'u dwyn i eglurder rhyfeddol. Nid oedd yn teimlo pleser mewn gweled pethau fel mewn niwl. Byddai hefyd yn cymmeryd golwg eang ar bob peth, ac yr oedd yr olwg a gymmerai yn graff yn gystal ag yn eang. A phe buasai wedi digwydd troi i astudio y gyfraith, diammheu y buasai yn un o gyfreithwyr galluocaf ei wlad mewn unrhyw oes. Fel aelod o gymdeithas, yr oedd yn foneddwr yn ngwir ystyr y gair. Yn mhob peth yn dal cyssylltiad â llesiant ei gyd-ddynion, teimlai ddyddordeb neillduol. Yr oedd yn gyfaill cywir i addysg y bobl mewn amser pan nad oedd hyny mor boblogaidd ag ydyw yn bresennol. Safai yn wrthwynebwr eofn i gaethwasiaeth yn mhob ffurf. Gwnaeth yr oll a allai dros y Feibl Gymdeithas, a thros y cymdeithasau cenhadol tramor; ac er prawf o'i serch at yr achos hwn boddlonodd i dri o'i blant fyned i lafurio i'r maes cenhadol.

Fel gweinidog yr efengyl, bu yn ffyddlawn anarferol yn nghyflawniad ei ddyledswyddau yn yr eglwys yr ordeiniwyd ef yn fugail arni am hanner can mlynedd; ac fel pregethwr, ennillodd enwogrwydd gwirioneddol, er nas gellir dywedyd ei fod yn boblogaidd yn ystyr cyffredin y gair. Yr oedd ei brif nerth fel pregethwr yn gynnwysedig, yn ddiammheu, yn ei gydnabyddiaeth eang a manwl â'r Ysgrythyrau, yn ei ddeheurwydd a'i blaender fel ymresymwr, yn ei chwaeth bur a'i iaith glir, yn ei synwyr da, yn y craffder ymarferol a ddangosai i gael allan berthynas ei fater â manteision a chyfrifoldeb ei wrandawyr, ac yn y difrifwch doeth a serchiadol â pha un y cymmhellai ei sylwadau ar eu meddyliau a'u cydwybodau. Ei amcan mawr oedd cyflwyno yn llawn, yn glir, ac yn rymus i feddyliau ei wrandawyr y gwirionedd a ddysgid yn y gyfran o'r Ysgrythyr y traethai arni. Yr oedd bob amser yn ddifrifol, cryf, ac ymarferol. Yn ei ymdrafodaeth â Christionogion o enwadau ereill, amcanai at uno ymlyniad cydwybodol wrth ei olygiadau neillduol ei hun ar athrawiaethau a threfn eglwysig, a serch catholicaidd tuag at bawb sydd yn caru yr Arglwydd Iesu Grist mewn purdeb. Yr oedd yn Gristion yn gyntaf—ac yn Annibynwr wedi hyny. Agorai ei galon i bob dyn da, hyd yn oed pan yn coledd golygiadau ar byngciau dibwys, a fuasent, yn ei dyb ef, yn anysgrythyrol; ac yr oedd Cristionogion o bob enwad crefyddol yn ei barchu ac yn ei anrhydeddu yntau. Fel athraw duwinyddol gosododd Wardlaw yr Annibynwyr o dan rwymau arbenig iddo. Peth ffodus oedd cael un mor gymmhwys i addysgu y dynion ieuaingc oedd yn troi allan yn ddysgawdwyr y bobl. Teimlai Wardlaw hyfrydwch mawr yn y rhan yma o'i waith, ac aberthodd lawer o'i amser a'i egni ato. Am ei ddarlithiau i'r efrydwyr, gellir dywedyd eu bod yn esamplau rhagorol o ymchwiliad manylgraff, ymresymiad clir, a chasgliadau cedyrn. Eu hamcan penaf oedd cael allan ac amddiffyn y gyfundrefn hono o wirionedd y credai yr awdwr ei bod wedi ei dadguddio yn y Beibl. Yr oedd ei dduwinyddiaeth yn mlaenaf yn ysgrythyrol—ac wedi hyny yn ddadleuol. Ymdrechai, yn y lle cyntaf, i gael allan feddwl yr Ysbryd, fel y dadblygir ef yn y gair ysgrifenedig; ac wedi boddloni ei hun ar hyny, galwai allan holl adnoddau ei resymeg i amddiffyn y farn a ffurfiodd rhag gwrthddadleuon neu ymosodiad. Fel ysgrifenwr ac awdwr, nodweddid Wardlaw â'r ansoddau oedd yn amlwg ynddo fel pregethwr. Y mae ei holl weithiau wedi eu nodweddu gan eglurder dirnadaeth, nerth ymresymiad, cywirdeb barn, a thlysineb arddull. Os nad ydyw gwreiddioldeb ei opiniynau yn ein taraw, nid yw byth yn ein poeni â syniadau ammrwd ac anaddfed, ac â damcaniaethau awyrol a disail. Y mae pob peth yn ddifrifol, doeth, a dealladwy. Dichon na ddarfu iddo wneuthur chwanegiadau mawrion at dduwinyddiaeth fel gwyddor; ond nid oedd neb yn ei oes, o bossibl, a wnaeth fwy i ddeffinio yn fanwl rhai o derfynau y wyddor, neu i benderfynu perthynas y naill ran o honi â'r llall nag efe. Fel dadleuwr, y mae yn ddiammheu y gellir ei ystyried yn un o'r rhai goreu; ac yn sicr nid ystyrid neb yn rhagori arno yn mysg ei gydoeswyr. Mewn tawelwch, callineb, craffder, a medrusrwydd ymsyniadol, yr oedd yn dra hynod; ac yr oedd absennoldeb pob chwerwder, a phob peth personol, o'i ysgrifeniadau yn rhoddi arnynt werth moesol a defnyddioldeb nas gall ond ychydig o gynnyrchion dadleuol hôni hawl iddynt. Nid llawer o ddynion a fu mewn cynnifer o ddadleuon ag efe; ac nis gellir cael yn nghofnodion llenyddiaeth dduwinyddol enw neb a sarnodd lai ar hawliau boneddigeiddrwydd a thegwch wrth ddwyn yn mlaen ddadleuaeth na Dr. Wardlaw.

WARWICK, RICHARD NEVIL, IARLL:—**a alwyd y 'brenin-wneuthurwr'** *(king-maker)* am ei waith yn gorseddu ac yn diorseddu brenhinoedd—oedd fab hynaf Richard Nevil, Iarll Salisbury; a anwyd, tua'r fl. 1420. Enw ei fam oedd Alice, merch ac etifeddes Thomas Montacute, Iarll Salisbury. Priododd âg Anne, merch Richard de Beauchamp, Iarll Warwick, yr hon a ddaeth i feddiant o etifeddiaethau teulu Warwick. Ar hyn gwnaed arglwydd Richard Nevil yn Iarll Warwick. Yr oedd efe hefyd yn gefnder i Iorwerth IV., brenin Lloegr; ac y mae y

Digitized by Google

cyssylltiad hwn mewn rhan yn ddiammheuol yn cyfrif am y gallu a'r dylanwad mawr a ymarferwyd ganddo yn achosion y wladwriaeth. Yr oedd teulu y Neviliaid y pryd hwnw yn dal cyssylltiad perthynasol â lliaws mawr o deuluoedd pendefigaidd Lloegr. Yr oedd hefyd, yn chwanegol at ei gyssylltiadau helaeth, a'i feddiannau eang, yn ddyn yn meddu diysgogrwydd a phenderfyniad mawr—yn dalentog a hyawdl, ac yn hynod am ei sirioldeb a'i haelfrydedd, fel y gellir dyweyd ei fod wedi gweithio ei ffordd yn ddwfn i serchiadau ei gydwladwyr. Lle bynag y preswyliai, mynegir ei fod yn cadw tŷ agored, a chroesaw i bawb fwyta ar ei fwrdd. Sicrheir gan rai—ond prin y gellir credu nad gormodiaith yw—fod nifer y bobl fyddai yn bwyta bob dydd ar ei fwrdd yn ei wahanol balasau, pan yr oedd yn mlodau ei lwyddiant, yn rhifo tua deng mil ar hugain. "Pan y deuai i Lundain," meddai Stow yn ei Gronicl, "cadwai dŷ agored. Yr oedd chwech o ychain yn cael eu bwyta yno ar un boreubryd; ac yr oedd pob tafarn oedd ger llaw yn llawn o gigoedd wedi eu parotoi ganddo ef; o herwydd gallasai pawb ag yr oedd iddynt ryw gydnabod yn y tŷ hwnw gael cymmaint o gigfwyd, rhost a berw, ag a allent gario ar bicell hir." Y mae hanes y pendefig galluog hwn yn cynnwys holl hanes yr ymdrechfa rhwng teuluoedd York a Lancaster, o'r codiad cyntaf mewn arfau yn erbyn Harri VI. hyd sefydliad Iorwerth IV. ar orsedd Lloegr. Ni chawn yma ond nodi yn fyr ddigwyddiadau pwysicaf ei fywyd.

Tra yn Arglwydd Richard Nevil, gwnaeth enw iddo ei hun yn y cadymgyrch a ddygwyd yn mlaen yn Ysgotland yn 1448, o dan lywyddiaeth ei dad, Iarll Salisbury. Yn 1455, efe a gymmerodd blaid y duc o York; ac i'w ddewrder ef yn benaf y priodolir y fuddugoliaeth yn mrwydr St. Albans, yr hon a ymladdwyd ar yr 22ain o Fai, yn y flwyddyn hono. Gwnaed ef yn ddioed yn llywodraethwr Calais—yr hon a ystyrid am amser maith y swydd a gynnwysai yr ymddiriedaeth filwraidd bwysicaf yn Ewrop; ac hefyd, pennodwyd ef yn llywydd y llynges. Ymladdodd frwydr â llynges tref rydd Lubeck, a chymmerodd chwech o'i llongau. Yn 1460, efe a ddychwelodd i Loegr gyda phymtheg cant o ddilynwyr; ac erbyn cyrhaedd Llundain, yr oedd ei fyddin wedi chwyddo yn ddeugain mil o wŷr. Yr oedd y brenin Harri wedi ffoi oddi yno, a derbyniwyd Warwick gyda brwdfrydedd mawr yn y brif ddinas; ac yn mrwydr Northampton, yr hon a ymladdwyd ar y 10fed o Orphenaf, gorchfygwyd y Lancastriaid, a syrthiodd Harri VI. i ddwylaw yr Yorkiaid—y blaid ag yr oedd Warwick yn brif gefnogydd iddi. Y digwyddiad pwysig nesaf a gymmerodd le yn yr ymdrechfa hon oedd brwydr Wakefield, ar y 30ain o Ragfyr; lle y gorchfygwyd y duc o York gan y frenhines Margaret, ac y collodd y duc ei hun ei fywyd, a lle y daliwyd Iarll Salisbury, ac y torwyd ei ben ef dranoeth yn Pontefract. Yr ail fuddugoliaeth ar yr Yorkiaid, y rhai oeddynt dan lywyddiaeth Warwick, yn agos i St. Albans, Chwefror 17eg, 1461, a adferodd ei ryddid i Harri. Ond pan yr ymunodd byddin Warwick âg un Iorwerth, y duc o York ieuangc, gorfodwyd y fyddin frenhinol i encilio tua'r gogledd. Yna aeth Iorwerth a Warwick mewn goruchafiaeth i Lundain; ac ar Mawrth 4ydd, cyhoeddwyd y blaenaf yn frenin o dan y teitl Iorwerth IV., a diogelwyd ef ar orsedd Lloegr pan orchfygwyd y Lancastriaid yn Towton, ar y 29ain o'r un mis. Iarll Warwick oedd yn llywyddu y corph mwyaf o'r fyddin Yorkaidd yn y frwydr hon. Yn ngauaf 1462--3, efe a ddarostyngodd gestyll Bamborough, ac Alnwick, a Dunstanburgh; a dygwyd Harri yn garcharor i Dŵr Llundain.

Yr oedd y Neviliaid mewn ystyr yn llywodraethu y deyrnas yn awr. Heb law bod yn llywodraethu Calais, yr oedd Warwick ei hun yn dal y swydd o ystafellydd a gwarcheidwad y cyffiniau gorllewinol; ac yr oedd ei frawd nesaf ato, Arglwydd Montague, yn warcheidwad y cyffiniau dwyreiniol, ac wedi cael etifeddiaethau eang y Percies, gyda'r teitl o Arglwydd Northumberland; a'i frawd ieuangaf, George, yn Arglwydd Uchel-Ganghellydd, ac Archesgob Caerefrog. Ond digwyddodd amgylchiadau yn fuan mewn cyssylltiad â phriodas y brenin Iorwerth gydag Elizabeth Wydville, a barodd i'r Neviliaid golli ffafr y brenin; a'r arwydd gyntaf o hyny oedd ei waith yn gorchymyn i archesgob Caerefrog roddi y sêl fawr i fyny yn 1467. Ond gwnaed y rhwyg i fyny rhwng y brenin a Warwick ar ol hyn: er hyny ni pharhaodd y cyfeillgarwch yn hir. Yn fuan ar ol hyn, cododd terfysg yn mysg gwladwyr swydd Gaerefrog, ac ymunodd dau o berthynasau Warwick ynddo, a chymmerodd brwydr le yn Edgecote, ar y 26ain o Orphenaf, 1468, pan y gorchfygwyd y breninwyr; ac yn mhen ychydig ddyddiau, cymmerwyd Iorwerth yn garcharor gan Warwick a Clarence yn Olney. Ond rhyddhawyd y brenin ar ryw delerau, a llwyddodd y blaid frenhinol drachefn; ac ar hyny, hwyliodd Warwick a Clarence i Calais; ond er eu syndod, trodd Vauclerc, i'r hwn yr oedd Warwick wedi ymddiried gofal y lle yn ei absennoldeb, y magnelau i danio arnynt. Ar hyn, hwy a aethant yn mlaen i Harfleur; ac yn fuan ar ol hyny, cyfarfu Warwick â Margaret o Anjou, priod Harri VI., a gwnaed cymmod rhyngddynt, yr hwn a gadarnhawyd trwy i'r tywysog Iorwerth, mab y frenhines, briodi Anne, ail ferch Warwick. Cyfodwyd byddin i oresgyn Lloegr, a glaniodd Warwick yn flaenor arni yn Plymouth, ar y 13eg o Fedi; ac yn ddioed, cyhoeddodd Harri VI. yn frenin Lloegr; a ffodd Iorwerth IV. i Holland. Gwnaed Warwick yn ystafellydd ac yn arglwydd brif lyngesydd Lloegr, yn chwanegol at ei swydd fel llywodraethwr Calais. Gwnaed ei frawd eilwaith yn ganghellydd; ac adferwyd i Montague, ei frawd arall, warcheidiaeth y cyffiniau dwyreiniol. Ond ni pharhaodd hyn oll ond ychydig amser. Ar y 14eg o Fawrth, 1471, glaniodd Iorwerth IV. a'r duc o Burgundy yn Ravenspur, swydd Gaerefrog, a chasglwyd ynghyd fyddin, yr hon a gyfarfu â'r fyddin Lancastriaidd, o dan lywyddiaeth Warwick, yn Barnet. Gorchfygwyd y Lancastriaid, a lladdwyd Warwick a Montague yn y frwydr. Dangoswyd eu cyrph am dri diwrnod yn Eglwys St. Paul, ac wedi hyny claddwyd hwynt yn mynachlog Bisham, swydd Berks. Felly y bu farw un o'r deiliaid pendefigaidd mwyaf ei allu a'i awdurdod a fu erioed yn Lloegr.

WASHINGTON, GEORGE: y gwladgarwr mawr Americanaidd. Ganwyd ef yn Bridges Creek, Westmoreland, yn nhalaeth Virginia, ar yr 22ain o Chwefror, 1732. Efe oedd mab hynaf Augustine Washington, o'i ail wraig, Mary Ball. Hen daid Augustine Washington, sef John Washington, o swydd Lancaster, oedd

Digitized by Google

yr ymfudwr cyntaf o'r teulu a aeth i'r America. Cymmerodd hyny le yn y flwyddyn 1657. Mynegir ei fod yn gyfoethog, a bod ei ddylanwad yn fawr yn ei wlad ei hun; ac nid yw yn hawdd deall pa beth a'i cymmhellodd i ymfudo. Yr oedd George Washington yn teimlo bob amser yn falch o'i hynafiaid, ac o'i ddisgyniad o'r John Washington hwn. Bu farw Augustine Washington, ei dad, ar ol byr gystudd yn 1743. Ar ei farwolaeth, gadawodd ar ei ol ddau fab o'i briodas gyntaf; ac o'r ail, bedwar o feibion a merch. Bu mam George Washington fyw i'w weled ef wedi ei ddewis yn arlywydd yr Unol Daleithiau. Gadawodd Augustine ei deulu mewn sefyllfa cymmharol annibynol gyda golwg ar eu hamgylchiadau bydol. I'w fab hynaf, o'i wraig gyntaf, efe a adawodd etifeddiaeth (yr hon a alwyd wedi hyny Mount Vernon) o bum cant ar hugain o erwau o dir, a chyfranau mewn gweithydd haiarn yn Virginia a Maryland. I'r ail, efe a adawodd etifeddiaeth yn Westmoreland. Ymddiriedai lawer iawn i ddoethineb ei weddw, a chyfarwyddai ar fod i'r holl eiddo oedd yn dyfod i feddiant ei phlant hi i gael ei lywodraethu ganddi nes y deuent i'w llawn oedran. I George y gadawyd y tŷ yr oedd ei dad yn byw ynddo, a'r tiroedd o'i gwmpas. I bob un o'r meibion ereill, efe a adawodd etifeddiaeth o chwech neu saith gant o erwau o dir: ynghyd â darpariaeth briodol i'w ferch.

Ychydig sydd yn wybyddus am fywyd boreuol George Washington; etto y mae yn amlwg ei fod o'i febyd yn cael ei nodweddu gan hoffder at wirionedd, difrifoldeb meddwl, barn glir, a sylwadaeth graff. Yr oedd yn ddyledus am yr holl addysg a gafodd i un o ysgolion cyffredin y dalaeth, lle nad oedd nemawr ddim ond darllen, ysgrifenu, a rhifyddu yn cael eu dysgu. Pan yn fachgenyn, yr oedd yn hoff o ffurfio ei gydysgolheigion yn gwmnïau, y rhai a ymarferent ac a ymladdent frwydrau ffugiol; ac yr oedd efe yn wastad yn arwain un o'r pleidiau hyn. Ymhyfrydai yn fawr mewn ymarferiadau corphorol. Dywedir fod ei ymddygiadau yn yr ysgol yn gyfryw fel yr ennillai edmygedd y bechgyn ereill, y rhai a gyfeirient ato fel cylafareddwr yn eu dadleuon. Ymddengys ei fod yn hoff o rifyddeg a meintoniaeth; ac ar un adeg, yr oedd yn amheus pa un ai morwriaeth ynte tirfesuriaeth a ddewisai yn alwedigaeth; ond ni fynai ei fam iddo fyned yn llongwr, ac ufuddhaodd yntau i'w dymuniad trwy aros gartref. Pan yn un ar bymtheg oed gadawodd yr ysgol, a dechreuodd ar ei waith fel tirfesurydd ymarferol; ac er ei fod yn ieuangc y pryd hwn, yr oedd yr ysgrifell yn ei law yn fynych i gofnodi digwyddiadau y dydd mewn dyddlyfr a gedwid ganddo at ei wasanaeth ei hun. Ymddengys nad oedd ei alwedigaeth yn un anfantais iddo erbyn ei yrfa ddyfodol; o herwydd, heb law dysgu iddo yr arferiad o gymmeryd sylw manwl o arwynebedd tir ac ardaloedd yn gyffredinol ar raddeg fawr, yr oedd yn ei arwain i gymmeryd teithiau pell dros fynyddoedd yr Alleghany, ac yn rhoddi iddo ymarferiad mewn bywyd o angen a chaledi. Pan yn ddeunaw mlwydd oed, aeth ar fordaith i Barbadoes, gyda'i hanner brawd Lawrence, yr hwn a flinid gan afiechyd yr ysgyfaint, yr hyn a derfynodd yn ei farwolaeth, yn 1752, yn fuan ar ol ei ddychweliad i'w etifeddiaeth yn Mount Vernon, ar y Potomac. Ar ol ei farwolaeth ef disgynodd y palas a'r etifeddiaeth yn eiddo i rydd-hawr dyfodol America: a'r fath ydoedd y syniadau uchel a goleddid am alluoedd y meddiannydd ieuangc, fel, er nad oedd ond ychydig gyda phedair ar bymtheg oed, y pennodwyd ef yn un o ben ragarweinyddion (*adjutant general*) Virginia, gyda'r teitl o uchgadben; a'r bedwaredd ran o'r drefedigaeth fel ei ddosbarth. Oddi wrth bapurau a ysgrifenodd efe, gwelir ei fod yn meddu tueddiadau milwraidd cryfion cyn derbyn y swydd hon; ac yn ystod ei ymweliad â'r India Orllewinol ni chollai un cyfleusdra i ymberffeithio yn yr alwedigaeth hono.

Yn 1753, anfonodd y Ffrangcod filwyr ar draws y llynau o Canada, ac ar yr un pryd daeth gwŷr arfog i fyny o New Orleans i ymuno â hwy ar lenydd uchaf yr Ohio. Penderfynodd y llywodraethwr Dinwiddie i anfon dirprwywr i ymddiddan gyda'r swyddog Ffrengig llywyddol, er cael hysbysrwydd ar ba awdurdod y meddiannai efe diriogaeth a berchenogid gan y Prydeiniaid. Yr oedd y gwaith hwn yn gofyn am ddyn o bwyll a doethineb, ac un wedi arfer teithio drwy y coedwigoedd, ac yn gyfarwydd âg arferion yr Indiaid. Washington a etholwyd, er mor ieuangc ydoedd, gan y tybid ei fod yn feddiannol ar y cymmhwysderau hyn. Cychwynodd yntau o Williamsburg ar yr 31ain o Hydref, 1753, a dychwelodd ar yr 16eg o Ionawr, 1754. Cafodd allan fod yn mryd y Ffrangcod i ymsefydlu yn barhaol o fewn tiriogaethau Prydain; ac er mor wyliadwrus oedd y gwarchodlu, gallodd ddwyn gydag ef oddi yno gynllun o'r gaerfa, yr hon oedd tua phymtheng milldir i'r deheu o Lyn Erie. Yn mis Mawrth, 1754, chwanegwyd sefydliad milwraidd y drefedigaeth i chwech o gwmnïau: a nodwyd y milwriad Fry, Sais, o gyrhaeddiadau gwyddonol ac arferion boneddigaidd, yn flaenor arnynt, a phennodwyd Washington i gymmeryd yr ail le yn y llywyddiaeth. Yr oedd ei ryfelgyrch cyntaf hwn yn ysgol galed ond defnyddiol iddo. Anfonwyd ef yn mlaen gyda thri o gwmnïau i feddiannu rhagorsafau yr Ohio, er rhagflaenu llu cryfach o Ffrangcod. Ymddibynai yn benaf ar ei adnoddau ei hun, ac ar gyfeillgarwch yr Indiaid, ac aeth yn mlaen yn eofn. Ar y 27ain o fis Mai, cyfarfu a gorchfygodd ran o'r fyddin Ffrengig o dan arweiniad M. de Jumonville, yr hwn a gwympodd yn y frwydr. Yn fuan wedi hyn bu farw y milwriad Fry yn ddisymmwth, a syrthiodd y brif lywyddiaeth i ddwylaw Washington. Pennodwyd Innis, llywydd byddin Carolina Ogleddol, dros ei ben ef; ond ni chymmerodd y llywydd newydd yr arweinyddiaeth yn y maes. Yr oedd y crintachrwydd â pha un yr ymddygid tuag at y fyddin yn achlysuro anfoddogrwydd yn mysg y milwyr, ond yr oedd Washington yn parhau yr un fath. Disgwyliai yr anfonasid yn ei erbyn nifer o filwyr detholedig o gaerfa Duquesne mor fuan ag y deuai gorchfygiad Jumarville yn hysbys yno, ac ymgadarnhaodd yn Great Meadows. Parodd dyfodiad y Ffrangcod mewn nerth iddo encilio oddi yno, ond gwnaeth hyny mor ofalus a medrus fel y rhoddwyd pleidlais o ddiolchgarwch iddo gan Dŷ y Bwrdeisiaid.

Yr oedd y gwasanaeth a wnelai yn awr yn ei barotoi ar gyfer ymdrechfa fwy. Ond yn y fl. 1758, wedi cyrhaedd ei amcan o gymmeryd caerfa Duquesne, ymofynodd am ganiatâd i ymneillduo o ryfelgyrch, na chafodd ddim oddi wrtho mewn ffordd o dâl, ond yn unig eangu ei adnabyddiaeth o ddynolryw, a dysgu pa fodd i fynu arglwyddiaeth hollol arno ei hun. O 1753 hyd 1758, yr oedd efe wedi dysgu dilyn llwybr

Digitized by Google

ddyledswydd, hyd yn oed ar draul aberthu clod milwraidd. Coethwyd a thymmerwyd ei amynedd, ei wladgarwch, a'i anhunangarwch yn ffwrneisiau profion celyd. Dysgwyd ef i amlygu mwy o fawredd yn wyneb gorchfygiad a siomedigaeth nag ereill mewn gyrfa fuddugoliaethus. Yr oedd raid iddo gario rhyfel yn mlaen gyda moddion gwael, a chydag ychydig o lwyddiant, ac heb un olwg am enwogrwydd dyfodol. Rhoddwyd prawf caled ar ei nerth a'i iechyd wrth weled ei gynlluniau yn troi yn fethiant o herwydd anwybodaeth ac anfedrusrwydd ereill. Yr oedd yn byw yn nghanol peryglon brwydrau, ac etto nid oedd dim neillduol yn digwydd i gyffroi meddwl y cyhoedd mwy nag yn amser heddwch. Nid oedd dysgyblaeth, trefn, trethiad priodol, ymrestriadau rheolaidd, na darpariaethau angenrheidiol yn cael eu parotoi. Yr oedd Washington yn gorfod amddiffyn terfyn o dri chant o filldiroedd, gyda phymtheg cant o wŷr! Os gwnai wrthsafiad eofn, odid nad colli pob peth a wnelai ond ei anrhydedd. Cadwai hwnw yn ddiogel. Os teithio yn mlaen a wnai, nid oedd yn ennill dim ond melldithion y rhai oedd o'i gwmpas, oeddynt wedi ymwerthu megys i'r gelyn. Etto, y mae un peth yn dra hynod yn nghanol y dyryswch a'r anffodion hyn—fod corph y bobl yn parhau i edmygu ei ymddygiadau, a bod ei filwyr yn frwdfrydig yn eu hymlyniad personol wrtho. Gwyddai a gwelai pawb a fynent weled ei fod yn gwneyd ei oreu, a bod ei egwyddorion yn bur, a'i rinweddau yn ddilychwin, ei amcanion yn ganmoladwy, a'i gynlluniau yn gynnwysfawr a chyflawn. Gweithiodd ei ffordd yn mlaen trwy beryglon na buasai ond ychydig yn barod i wynebu arnynt. Dysgodd greu adnoddau o'i eiddo ei hun; i gymmeryd mantais ar gyfleusdra, pa bryd bynag y ceid ef; i beri i gyfres o fân ddigwyddiadau llwyddiannus i atteb dybenion rhai mawr ac ysblenydd; i gadw yn barhaus ei dawelwch meddyliol, a gwneyd hyd yn oed i orchfygiad ei hun fod yn foddion i ennill buddugoliaeth. Yn niwedd y flwyddyn 1758, fel y sylwyd, wedi i'r Prydeiniaid gymmeryd meddiant o gaerfa Duquesne, lle y saif Pittsburg yn bresennol—Birmingham yr Unol Daleithiau—ymneillduodd Washington gyda'r bwriad o fyw bywyd anghyhoedd fel amaethwr.

Mewn gwirionedd, ei deitl cyffredin, a'r un y dymunai gael ei adnabod wrtho oedd, 'Amaethwr Mount Vernon.' Yr oedd ei etifeddiaeth yn gorwedd ar lenydd y Potomac, ac yn cynnwys naw mil o erwau o dir o dan ei reolaeth ef ei hun, heb law darnau helaeth o diroedd ereill. Yn fuan ar ol ymddiswyddo o'r fyddin, efe a briododd Mrs. Martha Curtis, gweddw ieuangc hawddgar a chyfoethog, gyda'r hon y dywedir iddo gael 20,000*p*. o arian, heb law ei hawl mewn cyfran eang o dir yn Virginia. Yr oedd yn trigo fel un o'r hen frenhinoedd bugeiliol yr hynafiaid, yn nghanol ei lafurwyr, a'r rhai a ymddibynent arno. Dygai yn mlaen bob rhan o'i waith yn drefnus—a chyda'r manylrwydd mwyaf. Edrychai yn bersonol dros gyfrifon ei arolygwyr ar adegau neillduol. Dosberthid ei ffermydd yn adranau, a chadwai gyfrif o'r cynnyrch, fel y gallai ar unwaith wybod beth oedd colledion ac ennillion unrhyw gyfran neillduol o'r tir a'i gynnyrch, a chymmharu manteision cyferbyniol ei amrywiol ddulliau o drin y tir. Cynnyrchodd etifeddiaeth Mount Vernon iddo 7,000 o fwseli o wenith, a 10,000 o fwseli o indrawn un flwyddyn; yr hyn y gellir ei ystyried yn gynnyrch mawr yn yr adeg hono, ac o'r hyn y teimlai efe yn hynod falch. Yr oedd ganddo fil o bobl yn gweithio ar ei wahanol ffermydd, a chymmeryd i mewn y caethweision. O Lundain yr oedd yn cael y rhan fwyaf o'i offer amaethyddol, ond yr oedd yn gweu gartref frethynau a llieiniau at wasanaeth ei deulu, neu o leiaf ei gaethweision. Y mae Cyrus Edmunds, bywgraphydd Washington yn y wlad hono, yn sylwi yn dra phriodol fel y canlyn am dano:—

"Y mae yn ymddangos yn beth dyeithr iawn fod pencampwr llwyddiannus rhyddid y Byd Newydd, yr hwn yn ddiammheu oedd ddyn gwrol, haelfrydig, a dyngarol, yn perchenogi llawer o gaethweision; a'u bod yn gwneyd i fyny ran nid bechan o'i eiddo; a bod eu manteision a'u llesiant wrth ei ewyllys ef, neu ynte wrth ewyllys rhywrai ereill yr ymddiriedai efe iddynt y gorchwyl o'u llywodraethu. Fe allai mai dyma yr un anaf sydd ar hanes George Washington, nas gall un esgusawd ei ysgafnhau na'i ddirgelu. Ni wna dyweyd mai dyna oedd arfer y genedl a'r oes y tro. Yr oedd efe yn llawer o flaen ei oes. Ni wna y tro chwaith i ddyweyd fod hyn yn angenrheidrwydd yn cyfodi o sefyllfa cymdeithas, yn gymmaint ag na wyddai neb yn well nag efe mor ddirym ydyw hawliau cyfleusdra pan yn wrthwynebol i egwyddorion ansigledig cyfiawnder. Tra yr ydym yn gofidio o blegid yr anghysondeb nodedig hwn yn ei gymmeriad, ein hunig gysur sydd yn y ffaith o'i fod ar ol hyny wedi condemnio trwy ei esampl yr egwyddorion a'r ymarferiadau adgas â pha rai y cyhuddid ef unwaith. A dylid chwanegu, fod pawb a'i hadwaenent yn dwyn tystiolaeth unffurf i'w gyfiawnder a'i ddyngarwch yn ysgafnhau beichiau y caethion, nad oeddynt ar y goreu o'r bron yn oddefadwy. Y mae yn achos o alar, pa fodd bynag, ei fod yn yr un enghraifft hon wedi amlygu diffyg teimladrwydd moesol a'r uniondeb hwnw am y rhai yr oedd mewn ystyriaethau ereill yn sefyll mor uchel ac enwog."

Gellir rhoddi y dyfyniad canlynol o lythyr cymmun Washington yma, am ei fod yn egluro y peth y sylwyd arno yn y dyfyniad uchod:—

"Ar farwolaeth fy ngwraig, fy ewyllys a'm dymuniad ydyw ar fod i'r caethweision yr wyf yn eu dal yn fy hawl fy hun i gael eu rhyddid. Y mae eu rhyddhau yn ystod ei bywyd hi, er fy mod yn ewyllysio hyny yn ddiffuant, yn cael ei amgylchu gan rwystrau anorfod, o herwydd eu bod wedi cymmysgu trwy briodi gyda'r negroaid gwaddoledig (*dower*). Cyffroai hyn y teimladau mwyaf poenus, os nad canlyniadau annymunol oddi wrth yr olaf, gan fod y naill a'r llall yn meddiant yr un perchenog; ond *nid ydyw yn fy ngallu, yn ol yr ammod dan ba un y delir y negroaid gwaddolog, i'w rhyddhau hwy o gaethiwed.* Ac yn gymmaint ag y bydd yn mhlith y sawl a dderbyniant eu rhyddid yn ol y ddyfais hon rai, naill ai o herwydd henaint neu afiechyd, ac ereill o blegid eu mabandod, yn analluog i'w cynnal eu hunain, fy ewyllys a'm dymuniad yw, ar fod i bawb a ddeuant o dan y desgrifiad blaenaf gael eu bwydo a'u dilladu yn gysurus gan fy etifeddion tra y byddont byw; a bod rhai o'r disgrifiad olaf, na byddo eu rhieni yn fyw, neu os yn fyw, yn analluog neu yn anewyllysgar i ddarparu ar eu cyfer, i gael eu rhwymo gan y llys hyd nes y cyrhaeddant bump ar hugain oed; ac mewn achosion nas gellir cynnyrchu cofnodau, trwy ba rai y gellir gwybod yr oedran, bydd barn y llys ar y mater i'w ystyried yn derfynol. Y mae y negroaid a rwymir fel hyn i gael eu haddysgu i ddarllen ac i ysgrifenu, gan eu hathrawon a'u hathrawesau, a'u dwyn i fyny mewn rhyw alwedigaeth ddefnyddiol, yn gydsyniol â deddfau tiriogaeth Virginia, sydd yn darparu ar gyfer cynnaliaeth plant amddifaid a phlant tlodion ereill. Ac yr wyf drwy hyn yn gwahardd yn bendant y gwerthiant neu yr alltudiaeth o'r diriogaeth

Digitized by Google

a enwyd, o unrhyw gaethwas o'm heiddo wedi i mi farw, o dan un math o esgus na ffughòniad. Ac yr wyf hefyd yn y modd mwyaf difrifol yn rhwymo fy nghymmun-weinyddwyr, a enwir ar ol hyn, neu yr un a fyddo byw ar eu hol hwynt, i ofalu ar fod i'r adran hon yn mherthynas i gaethweision, a phob cyfran o honi, gael ei chwblhau yn ffyddlawn a manwl, a hyny yn yr adeg y gorchymynir i hyn gymmeryd lle—heb ochelyd, esgeuluso, nac oedi nes y bydd i'r cnydau fydd ar y pryd yn y ddaear wedi cael eu cynhaeafu, ac yn arbenig yn mherthynas i'r hen a'r methedig; a bod iddynt ofalu ar fod i drysorfa reolaidd a pharhaol gael ei sefydlu er eu cynnaliaeth cyhyd ag y byddo rhywrai â hawl i hyny; heb ymddiried i'r ddarpariaeth ansicr a wneir gan bersonau unigol."

Yr ydym yn cyfleu y dyfyniad maith uchod er mwyn dangos beth oedd syniadau Washington yn niwedd ei oes o berthynas i'w gaethweision. Y mae ei ewyllys wedi ei dyddio yn y flwyddyn 1790.

Mynegir rhai chwedlau difyr o barth i'w arferion manwl, y rhai a gerid ganddo weithiau i eithafoedd gormodol; etto nid oedd mewn un modd yn gymmydog crintachlyd. Efe a gynnorthwyai lawer hyd eithaf ei allu, pan y tybiai ei fod yn wir deilwng. Cadwai dŷ agored, a bwrdd ardderchog. Yr oedd ei ddyledswyddau fel barnwr y llys sirol yn cael eu cyflawni yn rhad; ac ar yr un egwyddorion y gwasanaethai fel cynnrychiolydd ei ddosbarth yn Nhŷ y Bwrdeisiaid yn Virginia. Er nad oedd yn areithiwr yn ystyr cyffredin y gair, siaradai yn dda ar gwestiynau ymarferol, a hawliai ei synwyr cryf sylw i'r hyn a ddywedai. Fel yr oedd cyfnod pwysig yr ymdrechfa chwyldroadol yn dynesu, yr oedd ei feddwl yntau yn ymeangu ar gyfer yr amgylchiadau; ac ychydig oedd nifer y rhai a sylwent ar yr hyn a gymmerai le yn fwy craff nag efe. Yr oedd cyfarfod, cynnwysedig o lywodraethwyr a'r prif ddynion yn y taleithiau, wedi ei gynnal yn Albany, yn fuan ar ol i'r rhyfel â Ffraingc dori allan. Penderfynwyd yn y cyfarfod hwnw, ar ol ystyriaeth bwyllog, fod i gynghor cyffredinol gael ei ffurfio, yn gynnwysedig o aelodau a ddewisid gan y cynnadleddau taleithiol; yr hwn gynghor, ynghyd â llywodraethwr i gael ei bennodi gan y goron, a awdurdodid i wneuthur cyfreithiau cyffredinol, ac hefyd i godi arian oddi ar yr holl drefedigaethau i'r dyben o wneyd amddiffyniad cyffredinol. Parodd y cynllun hwn am undeb fraw i'r weinyddiaeth Brydeinig. Dechreuodd dadl fawr y pryd hwnw—yr hon a barhaodd am ugain mlynedd, ac a derfynodd yn ysgariaeth y taleithiau unedig oddi wrth y fam wlad. Yr oedd amryw achosion ar waith yn cydgynnorthwyo i ddwyn hyn oddi amgylch; ond yn arbenig gwaith y llywodraeth Brydeinig yn trethu nwyddau a ddygid i'r trefedigaethau o wahanol fanau. Yr oedd yn senedd Prydain amryw o'i gwladweinyddion enwocaf, megys William Pitt (wedi hyny yr iarll Chatham), C. J. Fox, Edmund Burke, a'r milwriad Barre, yn ceisio darbwyllo y llywodraeth o'r ynfydrwydd o hyn—ond y cwbl yn ofer. Anfonwyd anerchiadau yn cwyno o blegid hyn o Massachusetts at Arglwydd Shelbourne a'i fawrhydi Sior III. Yr oedd Washington wedi bod yn sylwedydd manwl o'r cwbl. Nid oedd yn ei natur ef mewn un modd droi yn gynnhyrfwr; ond dadganodd ei anghymmeradwyaeth yn ddifloesgni o ddeddf y tollnodau (*stamps act*). Yn 1773, efe a gefnogodd y penderfyniadau i sefydlu pwyllgor ymohebol, a chymmeradwyodd y cynllun i sylw y taleithiau ereill. Cynnrychiolai swydd Fairfax yn y gynnadledd a gyfarfu yn Williamsburg, yn Awst, 1774; a phennodwyd ef yn y gynnadledd hono yn un o'r chwech oedd i gynnrychioli Virginia yn y Gydgynghorfa gyffredinol gyntaf. Ar ei ddychweliad o'r Gydgynghorfa gosodwyd ef yn rhinweddol i lywyddu cwmnïau annibynol Virginia. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1775, efe a ddyfeisiodd gynllun er gwneyd trefniant milwrol perffeithiach i Virginia. Ac ar ol brwydr waedlyd Bunker's Hill, etholwyd Washington yn unfrydol yn gadlywydd y Trefedigaethau Unedig.

Gellir edrych ar y cyfnod o oes Washington a drenliwyd ganddo cyn hyn, fel y tymmhor yr oedd efe dan brawf—neu yr amser pan yr oedd yn ei gyfaddasu ei hun ar gyfer gwaith mawr ei oes. Ac yr oedd ei yrfa rhag llaw yn ymranu yn naturiol i ddwy ran; sef, cyfnod ei lywyddiaeth filwrol, a chyfnod ei arlywyddiaeth. Yn y blaenaf, ceir Washington yn filwr; yn yr olaf, yr ydym yn cael Washington yn wladweinydd. Yr oedd ei alwedigaethau o 1748 hyd 1775 yn ysgol ragorol iddo i ymbarotoi ar gyfer y ddau waith mawr. Ar ol derbyn y pennodiad o gadlywydd y byddinoedd, efe a aeth i Gaergrawnt, Massachusetts, lle y derbyniwyd ef gan fyddin o 14,500 o wŷr gyda brwdfrydedd a llawenydd mawr. Ei gynllun ef oedd cadw i fyny eu hysbrydoedd, eu darparu ar gyfer caledi, a gorfodi y Prydeiniaid i ymadael o Boston. Canfyddai ar unwaith mai nid peth hawdd oedd gwneyd y diweddaf. Yr oedd ei wŷr wedi eu harfogi yn wael, a'u cad-ddarpariaethau yn annigonol. Y peth cyntaf a wnaeth efe oedd dangos i'r gydgynghorfa y pwysigrwydd o gael y fyddin i sefyllfa gymmhwys yn mhob ystyr i gymmeryd y maes. Yn awr y dechreuodd ei brawfion tanllyd. Nid oedd y dynion oedd dan arfau wedi ymrestru ond am ddeuddeng mis, ac nid oeddynt erioed wedi meddwl am ymostwng i fyned dan ddysgyblaeth filwraidd reolaidd. Yr oedd gan y Gydgynghorfa ei hun bob peth i'w ddysgu yn mron, yn gystal a phob peth i'w wneuthur. Tybiai ei haelodau ei fod yn arwydd o wladgarwch i fod yn ochelgar gyda golwg ar derfynau yr awdurdod a ymddiriedid hyd yn oed i'w cadlywydd! O'r bron y gellir meddwl am wasanaeth yn meddu can lleied o ad-dyniad i ddyn o ysbryd anrhydeddus a mawrfrydig. Gwnaeth Washington benderfyniad ar y cyntaf na dderbyniai efe unrhyw dâl: yr hyn a brofai ei fod yn hollol anhunangar. Fel y dynesai y gauaf, yr oedd ei filwyr yn gorfod dioddef gerwindeb y tymmor yn ei holl chwerwder, yn gymmaint a'u bod yn ddiffygiol mewn dillad, tanwydd, a darpariaethau. Ar yr 21ain o Fedi, 1775, efe a hysbysodd y Gydgynghorfa fod y gist filwraidd yn hollol wâg; fod y prwyadur cyffredinol (*commissary general*) wedi cael darpariaethau ar goel hyd eithaf ei allu; a bod y rhan fwyaf o'r milwyr cyffredin mewn sefyllfa anfoddog iawn, o herwydd fod yn rhaid cadw rhyw gymmaint o'u tâl arferol tuag at ryw angenrheidiau. Er hyny, ar y 4ydd o Fawrth, 1776, efe a aeth yn mlaen, gyda dwy fil o wŷr, i gymmeryd meddiant o fryniau Dorchester; sef, uwch ben porthladd Boston. Llwyddwyd yn hyn; ac erbyn i'r wawr dori, yr oeddynt wedi taflu i fyny linellau amddiffynol. Er fod gan y Prydeiniaid ugain o gatrodau yn Boston, o herwydd eu bod a'u synied mor isel am y gelynion, cafodd Washington a'i wŷr ychydig oriau i gario eu gwaith yn

Digitized by Google

mlaen heb neb i'w haflonyddu. Defnyddient y gaib a'r rhaw am eu bywyd a'u rhyddid. Mewn gwirionedd, gwastraffodd Syr William Howe ddeuddydd cyn i'w drefniadau gael eu cwblhau i wneyd ymosodiad i'w gyru ymaith; ac wedi hyny daeth tymmestl fawr, a chwalwyd ei longau. Yr oedd yr adeg y dylasai fod yn gweithio wedi ei cholli mewn gwirionedd; ac erbyn yr 17eg o'r un mis, yr oedd y llynges ar ei ffordd i Halifax; a chyda hi olion olaf meistriaid blaenorol prifddinas Lloegr Newydd. Dyma ydoedd y blaenffrwyth o fedrusrwydd a dyfal-barhâd Washington. Yr oedd y Gydgynghorfa yn y cyfamser wedi anfon byddin yn erbyn Canada; ond fel y gwyddys, troes y cadymgyrch allan yn aflwyddiannus, a chollwyd y dewr gadfridog Montgomery. Symmudodd Washington yn mlaen yn Ebrill tuag Efrog Newydd; canys yr oedd yn eglur mai ar yr Hudson yr oedd raid ymladd y rhyfelgyrch nesaf. Tybir mai wrth osod mewn sefyllfa amddiffynol yr ucheldiroedd ar lenydd yr afon hon yr amlygodd Washington ei dalent filwrol fwyaf. Ar y 4ydd o Orphenaf, 1776, y gwnaed y cyhoeddiad o Annibyniaeth yr Unol Daleithiau. Y diwrnod cyn i'r dadganiad cofiadwy hwn gael ei wneuthur, glaniodd Howe gyda 9,000 o wŷr ar Ynys Staten. Ymunodd ei frawd, Arglwydd Howe, âg ef yn fuan gydag adgyfnerthion o 21,000 chwaneg o wŷr. Etto nid ymddengys fod un ymosodiad wedi ei wneyd hyd fis Awst, ar ol i Clinton gyrhaedd y fyddin; pan y darfu i'r cadfridog hwnw, gyda 4,000 o wŷr, lanio heb nemawr o wrthwynebiad yn machwy Gravesend, ar y Long Island—meddiant o'r hon sydd yn hanfodol er gwneuthur ymosodiad ar neu amddiffyniad i Efrog Newydd. Ymladdwyd brwydr Brooklyn y 27ain. Dywedir fod Washington am foment yn mhoethder y frwydr wedi bradychu cryn gyffro, wrth weled y lladdfa a wnaed yn mysg ei filwyr goreu, ac iddo dori allan i lefain mewn gofid. Yr oedd ei golledion yn fawr, ond yr oeddynt felly yn anocheladwy. Gwnaeth yr unig beth oedd ganddo i'w wneyd. Enciliodd y gweddill o'r fyddin yn araf a rheolaidd, yn cael eu ffafrio gan niwl a gododd ac a orphwysodd ar y wlad, nes iddynt fod o gyrhaedd tân y buddugwyr. O'r braidd y bu Washington oddi ar ei feirch, ac ni chauodd ei lygaid unwaith am wyth awr a deugain. Cydnebydd pawb fod yr enciliad hwn yn gampwaith milwraidd.

Wrth gwrs, syrthiodd Efrog Newydd yn awr i ddwylaw Syr William Howe. Disgynodd un rhan o dair o'r ddinas yn aberth i dân—a gynneuwyd gan rai o'r dinasyddion cyn iddynt ei gadael. Gwersyllodd Washington ar fryniau Haarlem, ac ymladdodd frwydr y White Plains, Hydref 28ain. Dioddefodd ei filwyr ammrwd orchfygiad arall; ond yr unig ganlyniad i hyn oedd, i'r Americaniaid golli caerfaoedd Lee a Washington, ynghyd â'r magnelwyr a'r magnelau oedd ynddynt. Gallesid cymmeryd y magnelau ymaith, ac felly y buasai oni bae y cadfridogion Green a Putman. Rhoddodd Washington i mewn i'w barn unedig hwy, a hyny yn erbyn ei farn bersonol ei hun. Dangosodd y cadlywydd fawrfrydigrwydd ei feddwl, pa fodd bynag, trwy gymmeryd arno ei hun y bai am hyn, yn gystal ag amryw o gamgymmeriadau ereill cyffelyb a wnaed. Erbyn hyn, yr oedd ei filwyr yn hollol ddigalon, ac enciliasant o'r fyddin fesur y deg a deugain gyda'u gilydd. Yr oeddynt wedi eu harfogi yn wael, a'u dilladu yn waelach, ac yn mron heb ddim pebyll, na gwrthbanau, nac offerynau i goginio eu hymborth; ac oll yn ffoi o flaen y gelyn buddugoliaethus. Ac yn gymmaint a'u bod heb esgidiau am eu traed, yr oedd eu gwaed yn lliwio y ffyrdd y teithient ar hyd-ddynt. Yr oedd mis Rhagfyr wedi dyfod i mewn yn oer anarferol. Cyhoeddodd y ddau Howe heddwch a maddeuant i bawb a roddent i fyny wrthryfela; a gallesid disgwyl, o dan yr amgylchiadau, na buasai y fath appeliad yn ddieffaith. Ond pe buasai rhyddhäwr America yn awr yn cilio yn ol, ac yn rhoddi y ffordd, buasai hedyn annibyniaeth ei wlad yn ddiammheuol wedi marw. Ond i'r gwrthwyneb, parhau i gysuro a chalonogi ei ddilynwyr digalon a wnaeth efe. Yr oedd tawelwch a sirioldeb i'w canfod yn ei wynebpryd. Gofalai am gofio y manylion am bob gorchfygiad, mewn trefn i fod yn ddoethach rhag llaw; ac er fod y fath anffodion ag a'i cyfarfu yn suddo i ddyfnder ei galon, ni oddefai iddynt ymgodi i'r wyneb. Nid oedd neb yn gallu canfod ing mewnol ei ysbryd trwy dawelwch a mawrfrydigrwydd ei ymddygiadau allanol. Wedi anfon ei gludgelfi i'r ochr ddeheuol i'r afon Delaware, efe a anfonodd 1,200 o wŷr, er rhoddi ail fywyd yn mhobl Jersey: a'r ychydig seibiant a gafodd, fe'i defnyddiwyd i geisio argyhoeddi y Gydgynghorfa i ymdrechu gwneyd cyfiawnder â'r fyddin. Dywedai wrth yr aelodau eu bod yn ei rwystro yn mhob man drwy eu camreolaeth, ac nad oeddynt yn caniatau iddo ef awdurdod digonol i wneuthur y goreu o'i gyfleusderau ffafriol. Yr oedd wedi arfer gosod cryn bwys ar gynghorion a chyfarwyddiadau y cadfridog Lee; ond yn anffodus, cymmerwyd y cadfridog hwnw yn garcharor. Er fod Washington yn teimlo yn ofidus o herwydd y digwyddiad annisgwyliadwy hwn, cafodd drwyddo ei daflu i raddau mwy o hyny allan ar ei adnoddau ei hun.

Yr oedd Arglwydd Cornwallis wedi goresgyn y Jerseys; ond yn cael ei gaethiwo gan orchymyn caeth Syr William Howe i beidio ymlid yr Americaniaid y tu hwnt i Brunswick: gan hyny, yr oedd wedi aros yno; ac yn lle ymgadw gyda'u gilydd fel ag i allu cadw a gwneyd y defnydd goreu o'u gorchfygiadau, yr oedd y Prydeiniaid wedi eu gwahanu yn amrywiol adranau, o ba rai yr oedd pedair ar y terfynau yn Trenton, Bordenton, White Horse, a Burlington. Gorweddai y cadfridog Washington gyferbyn â'r cyntaf o'r lleoedd hyn: a meddyliodd am ymosod ar y lle yn sydyn. Croesodd yr afon Delaware yn nhrymder y nos, ar y 25ain o Ragfyr, a disgynodd yn ddisymmwth ar y milwriad Rhalle yn Trenton. Hessiaid oedd y milwriad a'i wŷr; ac yr oedd y taleithwyr yn dychrynu rhagddynt hwy. Gollyngodd pobl Washington gawodydd o ergydion i'w mysg, a syrthiodd y milwriad wedi ei glwyfo yn farwol. Ymdrechodd ei lu i wynebu tua Princeton, ond llwyddodd Washington i attal hyny: a bu raid iddynt oll ymostwng, a rhoddi eu hunain i fyny yn garcharorion—tua mil o wŷr. Cymmerwyd chwech o fagnelau mawrion, a mil o ddrylliau, heb law llawer o ddarpariaethau gwerthfawr. Gwefreiddiodd y llwyddiant annisgwyliadwy hwn y taleithiau canol. Yr oedd Cornwallis a Howe megys wedi eu taro â syndod. Nid oedd colli yr Hessiaid ond peth bychan iddynt. Gallasent uno eu lluoedd ynghyd, yn cynnwys tua 30,000 o wŷr, ac ysgubo eu gwrthwynebwyr o'r wlad. Ond y fath, rywfodd, yw gwendid mewnol achos

Digitized by Google

anghyfiawn, pan yn wrthwynebol i achos cyfiawn a da! Yr oedd Washington, yn mhen wyth niwrnod, wedi cael adgyfnerthion, ac yn flaenor ar 5,000 o gartreflu; ac adfeddiannodd y dwyrain a'r gorllewin o Jersey. Adfywiodd yr ysbryd gwladgarol ar hyd glenydd y Rariton, a gwnaeth ei hun yn feistr ar Staten Island. Cymmerodd Newark, Elizabeth Town, ac Woodbridge; ac o'r diwedd, sefydlodd ei wersyllfa auafol yn Morristown. Yr oedd hyn yn mis Ionawr, 1777. Trodd y byrddau ar ei wrthwynebwyr. Cyhoeddwyd dadganiadau yn ei enw yn rhyddhau pob person o'i rwymedigaeth i dalu gwarogaeth i lywodraeth Prydain Fawr, gan addaw iddynt yr amddiffyniad hwnw, nad oeddynt yn ei gael gan eu llywodraethwyr tramor; a daeth y bobl, yn mron yn ddieithriad, o dan amddiffyniad baner y weriniaeth. Nid oedd Washington byth ar goll am hysbysrwydd cywir gyda golwg ar symmudiadau ei elynion; yr hyn, wrth gwrs, oedd o wasanaeth mawr iddo. Yr oedd ei gymmeriad yn myned yn uwch o hyd; ond er hyny, yr oedd sefyllfa y fyddin yn isel a thruenus mewn llawer ystyr. Oddi wrth egni ac amlder eu hymosodiadau, nis gallasai Howe ddychymygu am sefyllfa wirioneddol pethau yn eu gwersyllfa. Yr oeddynt hwy eu hunain yn disgwyl llwyddo yn mron yn gwbl trwy ddirgelu eu gwendid cymmharol. Etto, ymadnewyddent yn ddiattreg, fel ffrwyth dadganiad o'r farn gyhoeddus, neu belydr o lwyddiant, neu appeliad o eiddo y Gydgynghorfa, ond yn benaf dim o serch gwirioneddol tuag at eu harweinydd. Nid oedd efe, na'i gydwladwyr, yn anghofio eu bod yn ymladd dros eu hallorau a'u haelwydydd. Yr oedd yr argyhoeddiad hwn yn ffynnonell o nerth dirfawr iddynt. A mantais fawr arall oedd yr un y crybwyllid am dani yn flaenorol; sef, y wybodaeth oedd yn meddiant y naill blaid, ac anwybodaeth y llall. Yr oedd un yn gwybod y cwbl, ond y llall heb wybod o'r braidd ddim am bethau oedd yn dal cyssylltiad uniongyrchol â'r rhyfelgyrch. Gwnai George Washington y goreu o hyn; a da y gwnaeth drwy hyny.

Fel yr oedd y gwanwyn yn ymagor, y Prydeinwyr a ddisgwylient am adgyfnerthion mawr o Loegr. Yn Mawrth, distrywiodd y milwriad Bird ystorfa Peek's Kill; a llosgwyd Danbury, yn Connecticut, gan y llywodraethwr Tryon. Yn Mai, llosgwyd tua dwsin o longau Lloegr a orweddent yn mhorthladd Saggy; a dyfethwyd llawer o ddarpariaethau, a chymmerwyd amryw o garcharorion. Yn niwedd y mis, sefydlodd Washington ei hun yn Middlebrook, ar du y gogledd i'r ffordd o Brunswick i Philadelphia, drwy yr hyn y gallai naill ai amddiffyn y dref trwy groesi y Delaware, neu adgyfnerthu Ticonderoga yn erbyn Burgoyne. Methodd Syr William Howe a chael ganddo ymladd brwydr agored; a phan y gwelodd hyny, efe a aeth tua Chesapeake, a glaniodd flodau ei fyddin yn Elk Ferry, ar y 25ain o Awst, 1777. Yr oedd Washington yno o'i flaen; o herwydd yr oedd y Gydgynghorfa wedi rhoddi gorchymyn caeth, er pob peth, am beidio gadael i Philadelphia syrthio i ddwylaw y gelyn, heb wneyd yr ymdrechiadau mwyaf egnïol er attal hyny. O ganlyniad, penderfynodd Washington roddi heibio ei drefn o ochelyd brwydr, a chymmerodd ei safle ar lan y Brandywine, gyda 7,000 o wŷr. Yr oedd yn ofni, pa fodd bynag, am y canlyniadau. Croesodd Cornwallis yr afon i'r deheu iddo. Dangoswyd ysbryd a dewrder anarferol yn y frwydr a ymladdwyd Medi 11eg: gymmaint felly fel na ddarfu i fuddugoliaeth lwyr y breniniaethwyr, na gorchfygiad Wayne ar ol hyny, gynnyrchu dim digalondid ac anobaith yn yr Americaniaid. Yr oeddynt wedi trefnu eu hunain yn barod i frwydr arall ar y 15fed, pan y darfu i dymmhestl ofnadwy attal y pleidiau i daraw. Ar y 27ain, cymmerodd Cornwallis feddiant tawel o Philadelphia. Gwnaeth Washington ei orsaf yn Nyffryn Forge, ynghylch chwe milldir ar hugain o Philadelphia; ac yr oedd ei safle y fath fel ag i allu tori cyssylltiad y Prydeiniaid â dosbarth cyfoethog a ffrwythlawn o wlad, lle y gallasent gael ymborth i ddyn a phorthiant i anifail. Oddi wrth ei ganlyniadau y gellir gweled beth oedd gwerth yr aberth a wnaeth drwy hyn, yn hytrach na mwynhau ei hun mewn lle mwy cysurus, naill ai yn Lancaster, York, neu Carlisle. Aberthau o'r fath yma a waredodd America. Gydag anhawsder dirfawr y cyfodwyd bwthynod coed, wedi eu toi â thyweirch a gwellt, yn gysgod o'r fath ag oeddynt yn erbyn gauaf llym Pennsylvania. Yr oedd ei ddylanwad ar y milwyr bron yn ddigymmhar. Nis gallai y fyddin symmud yn fynych o eisieu darpariaethau; ac yr oedd rhyw furmur terfysglyd yn tori allan yn awr ac eilwaith yn y gwersyll. Ar un o'r achlysuron hyn, galwodd Washington y prwyadur ato, a chafodd ganddo y newydd pruddaidd nad oedd ganddo ond un anifail o unrhyw fath i'w ladd tuag at ddiwallu anghenion y gwersyll, na dim chwaneg na phump ar hugain o farilau o flawd! Nid oedd y milwyr wedi gweled sebon, halen, gwinegr, na phethau ereill cyffelyb, er brwydr Brandywine. O'r 8,200 o wŷr y mynegid eu bod yn gymmhwys at waith, yr oedd y bedwaredd ran o honynt wedi eu llwyr analluogi gan lymder y tywydd. Fel yr oedd y gauaf yn prysuro yn mlaen, dyblodd rhifedi y rhai oedd yn y clafdy. Bu yr holl fyddin am fwy nag wythnos heb gigfwyd o un math. Gweithient yn y ffosydd, ac mewn manau ereill, er cadw eu hunain rhag rhynu; ac nid oedd ganddynt gyfferiau i'r cleifion. Nid oes dim ond anwybodaeth hollol y gelyn o'u sefyllfa a all roddi cyfrif am y llonyddwch a gawsant; a dyma oedd yr achos na buasent wedi eu llwyr ddinystrio.

O'r diwedd, cawsant newydd o'r gogledd i'w sirioli. Yr oedd Burgoyne wedi gorfod ymostwng yn Savatz i'r cadfridog Gates; yr hwn oedd wedi ymgynghori â Washington, a mabwysiadu ei olygiadau ef. Yr oedd y diweddaf yn wir wedi cyfyngu ar ei weithrediadau ei hun er mwyn sicrhau llwyddiant un arall; er fod Gates, yr hwn nad oedd yn meddu ei ragoriaethau ef, wedi bod ar ol hyn yn ddigon gwael i ganiatau i'w enw a'i wasanaeth gael eu defnyddio mewn cydymgais â'r eiddo y cadlywydd ei hun. Aeth y cadfridog Conway, ac ereill, mor bell ag i ffurfio bradwriaeth, gyda'r amcan o ddyrchafu Gates i le Washington. Gwnaeth cenfigen ei gwaethaf, ond methodd. Wrth anerch y Gydgynghorfa, mewn cyfeiriad at hyn, y sylw a wnaeth Washington oedd, "Y mae fy ngelynion yn cymmeryd mantais annheg arnaf. Gwyddant nas gallaf wrthsefyll eu cyhuddiadau, pa mor frwnt a niweidiol bynag ydynt, heb ddadguddio dirgelion ag y mae o'r pwys mwyaf i'w cadw yn guddiedig." Yr oeddynt wedi taenu y gair ei fod am ymddiswyddo. "Y mae adroddiad o'r fath (meddai) yn mysg dichellion

Digitized by Google

y rhai sydd yn ymdrechu i effeithio cyfnewidiad, ac yn gwneuthur eu goreu i'w ddwyn oddi amgylch. Yr wyf wedi dyweyd, a dywedaf etto, nad oes un swyddog yn ngwasanaeth yr Unol Daleithiau a ddychwelai i fwynhau pleserau bywyd teuluaidd gyda mwy o lawenydd na mi. Ond tra y mae y cyhoedd yn cael eu boddloni yn fy ngwasanaeth, nid wyf yn bwriadu ei roddi i fyny, a throi cefn ar yr achos: y funyd y bydd y cyhoedd, ac nid plaid, yn galw arnaf i ymddiswyddo, myfi a wnaf gyda chymmaint o bleser ag y rhoddodd un teithiwr lluddedig erioed ei ben i lawr i orphwys." Cyffrowyd y cyhoedd gan yr appeliad syml a chalonagored hwn. Yr oedd hyd yn oed y milwyr buddugol yn Saratoga yn condemnio pob ymgais i dynu oddi wrth deilyngdod y blaenaf o holl wroniaid America. Gorfodwyd Conway i daflu ei swydd i fyny; ac ar ol ymladd gornest gyda'r cadfridog Cadwaller, pan y tybiai ei fod wedi ei glwyfo yn farwol, efe a ysgrifenodd y llythyr canlynol at Washington:—"Yr wyf yn cael fy mod yn alluog i ddal fy ysgrifell am ychydig funydau, ac yn cymmeryd y cyfle hwn i ddadgan fy ngofid diffuant fy mod wedi gwneuthur, ysgrifenu, na dyweyd dim oedd yn anghymmeradwy am eich urddasolrwydd. Bydd fy ngyrfa i yn fuan ar ben; gan hyny, y mae cyfiawnder a gwirionedd yn fy nghymmhell i ddadgan fy syniadau diweddaf. Yn fy ngolwg i, yr ydych yn ddyn mawr a da. Boed i chwi yn hir fwynhau serch, parch, ac edmygedd y taleithiau hyn, pa rai a gynnorthwyasoch trwy eich rhinweddau a'ch rhagoriaethau i'w gwneuthur yn rhyddion."

Yn y cyfamser, yr oedd cyfnewidiadau pwysig yn cymmeryd lle mewn gwleidyddiaeth Ewropaidd. Yr oedd yr anffodion a gyfarfu âg arfau Prydain yn Canada yn peri i'r wlad wrando ar Arglwydd Chatham a Mr. Burke, a gwaeddi am ddial ar ei llywodraeth dinerth. Mewn dychryn am eu swyddi, yn Chwefror 1778, yr oedd ganddynt ddau fesur i'w osod o flaen y senedd; a'r rhai hyny yn rhoddi i fyny bob pwynt oedd mewn dadl, yn amlygu eu gwendid eu hunain i'r byd, ac yn galw ar y ddau Dŷ i basio y mesurau gyda phob brys, yn gymmaint a bod Ffrainge yn bwriadu cymmeryd y maes. Yr oedd yr wrthblaid wedi rhagweled a rhagddywedyd mai felly y gwnelai Ffrainge ar y cyfle cyntaf. Yr oedd ymgais i gael ei wneyd gyda brys yn awr i ymheddychu. Mewn canlyniad i hyn, yr oedd Philadelphia i gael ei gadael, o herwydd ei bod yn sefyll tua chan milldir i mewn yn y tir; ac yr oedd yn ammhossibl i ddyweyd yn mha le y tarawai y Ffrangcod y ddyrnod gyntaf—ai yn yr India Orllewinol, ynte ar y cyfandir Americanaidd. Yr oedd Syr William Howe wedi dychwelyd adref, a'i olynydd oedd Syr Henry Clinton, yr hwn a gawsai orchymyn i gilio oddi ar y Delaware. Pennodwyd gan senedd Prydain ddirprwyaeth heddwch i fyned i'r Unol Daleithiau, ond nid oeddynt ond gwrthddrychau gwawd i'r rhai yr anfonwyd hwynt atynt; ac yr oedd Washington yn hongian o'r tu ol i'r fyddin enciliedig, oedd yn ymladd ei ffordd trwy Jersey Newydd i Efrog Newydd. Ar yr 28ain o Fehefin, ac yn groes i gyfarwyddiadau y cynghor rhyfel, ymdrechodd Washington i dori y rhengau gelynol ger llaw Court House, ac y mae yn debyg y llwyddasai pe y gwnaethai y cadfridog Lee ufuddhau i'w orchymyn ef; ond am ryw reswm anhysbys, ni welodd y swyddog hwnw yn dda wneyd hyny, a chymmerwyd ef i fyny ar ol i'r frwydr fyned heibio. Yr oedd y colledion a gafwyd yn lled gyffelyb o bob tu, ac nid oedd un o'r pleidiau yn gallu hawlio y fuddugoliaeth. Ond yr oedd gallu dal eu tir yn erbyn milwyr rheolaidd a dysgedig yn dwyn calondid i'r Americaniaid; ac aeth Washington gyda hwynt tua'r North River. Cyrhaeddodd i Efrog Newydd ar y 5ed o Orphenaf. Yn yr un mis daeth y Count D'Estaign, gyda deuddeg o longau rhyfel mawr, a chwech o ysgeifn-longau, ar gyfer Penrhyn y Delaware, ac ar eu byrddau fyddin lled gref o filwyr. Llesteiriwyd y cadymgyrch yn erbyn Rhode Island gan erwindeb y tywydd. Wrth ddyfod allan o borthladd Newport, gyda'r bwriad o frwydro âg Arglwydd Howe, bu raid i D' Estaign fyned i Boston i adgyweirio ei lestri. Unwaith etto, gorfodwyd yr Americaniaid i encilio, o dan y cadfridog Sullivan. Ynghylch y pryd hwn, yr oedd y Gydgynghorfa unwaith etto yn troi golwg hiraethus at Canada; ac yr oedd yn angenrheidiol cael holl ragwelediad a diysgogrwydd Washington er eu cadw rhag cymmeryd eu hud-ddenu gan rith. Yr oedd Yspaen erbyn hyn wedi ymuno â Ffrainge yn y rhyfel yn erbyn Prydain Fawr; er na wnaed dim yn neillduol gan y Cynghreiriaid galluog hyn yn ystod haf y flwyddyn 1779. Gofalodd Washington am gael ei fyddin i leoedd diogel cyn i'r gauaf ei oddiweddyd; a rhanodd hi yn ddwy—gosododd un gyfran yn West Point, ar yr Hudson, a'r llall yn Morristown, yn Jersey Newydd; a sefydlodd ei bencadlys yn y lle diweddaf.

Mor bell a hyn, yr oedd pethau yn ymddangos yn annhebyg iawn o ddyfod i derfyniad; canys yr oedd ysbryd Prydain yn cyfodi fel yr oedd ei gelynion yn lliosogi. Dadl y llywodraeth yn awr oedd, pa fodd bynag y gallesid edrych ar yr achos unwaith, fod yn rhaid iddynt ymladd yr adeg hon am arglwyddiaeth y moroedd, ac anrhydedd eu cymmeriad milwraidd. Ar alwad Arglwydd North, a'i gymdeithion yn y weinyddiaeth, galwyd allan lyngesoedd a byddinoedd newyddion, a benthyciwyd llawer o arian i gyfarfod y draul. Yn y cyfamser, yr oedd Holland a galluoedd y Baltic hefyd wedi ymwregysu i lesteirio eu hen gydymgeiswyr morwrol. Yn wir, yr oedd Washington eisoes wedi derbyn llawer o gynnorthwy i ddwyn yn mlaen y rhyfel o wledydd tramor. Pe buasai llysoedd St. Petersburg a'r Hague wedi cyfyngu eu hunain i gadw ysbryd yn gystal a llythyren eu cyttundebau â Phrydain, buasai America, o bossibl, wedi gorfod ymostwng o eisieu darpariaethau. Ysgrifenai Washington at ei gyfaill, y cadfridog Schuyler, yn niwedd y flwyddyn 1779, fel y canlyn:—"Er pan ysgrifenais ddiweddaf, y mae rhinwedd ac amynedd y fyddin wedi eu rhoi i'r prawfion caletaf! Weithiau, y mae wedi bod am bump neu chwe diwrnod heb fara i'w fwyta; bryd arall, am gynnifer a hyny o ddyddiau heb gigfwyd; ac unwaith neu ddwy, am ddau neu dri o ddyddiau, heb y naill na'r llall. Ar un adeg, yr oedd y milwyr yn bwyta pob lluniaeth a fwytäai y ceffylau, ond y gwair. Gwenith yr hydd, a gwenith cyffredin, rhug, ac indrawn oedd yn gwneuthur y blawd o ba un y pobwyd bara iddynt. Fel byddin, hwy a'u goddefasant gyda'r amynedd mwyaf arwrol; etto, y mae dioddefiadau fel hyn yn sicr o beri enciliadau mynych o'r fyddin; ac felly y mae

Digitized by Google

yn digwydd gyda ni, er nad yw hyny wedi bod unwaith yn achos o derfysg." Ond yr oedd pob peth yn ymddangos megys yn myned o chwith yn y taleithiau deheuol. Gorchfygwyd Yates a Lincoln. Syrthiodd Charleston a Carolina Ddeheuol hefyd i ddwylaw y goresgynwyr yn y flwyddyn ddilynol. Gwywodd y llawryf a enillodd Gates yn Saratoga mewn canlyniad i'w anffodion yn Camden; ac i goroni y cyfan, bu yn agos i fradwriaeth Arnold drosglwyddo allwedd yr ucheldiroedd ar yr Hudson i ddwylaw Syr Henry Clinton. Nid oes angenrheidrwydd i ni i ymdrin yma â'r anffodion a gyfarfuant âg Andre. Yr oedd ymddygiad Washington yn yr achos yn troi yn hollol ar ei benderfyniad i hòni hawl ei wlad i annibyniaeth, trwy ddangos ei fod am ymddwyn tuag at ysbiwr fel y gwnaethai y penadur balchaf yn Ewrop, heb gymmeryd i ystyriaeth deimladau gelyn, neu gymmeriad a hawddgarwch personol y troseddwr.

Fel yr oedd y flwyddyn 1780 yn myned rhagddi, yr oedd hi yn graddol oleuo ar yr achos Americanaidd. Anfonodd Ffraingc fyddin arall yno, yn gynnwysedig o chwe mil o wŷr, o dan lywyddiaeth y Count de Rochambeau. Dygodd gydag ef awdurdod i bennodi Washington yn is-gadfridog yn myddin Ffraingc; yr hyn, o angenrheidrwydd, oedd yn gosod y Count o dan lywyddiaeth Washington. Yr oedd ei gyfaill twymngalon, y cadfridog Green, wedi cymmeryd lle y cadfridog Gates; ac yn gynnar yn y fl. 1781, ennillwyd y tir oedd wedi ei golli gan y Gwerinwyr yn y ddwy Carolina, trwy orchfygiad y milwriad Tarlton yn y Cowpens. Yn mis Chwefror, yr un flwyddyn, cyttunwyd ar erthyglau y cydgyngheiriaeth, yr hyn a roddodd ffurf amlwg i lywodraeth yr Unol Daleithiau; ac er fod ei dyryswch arianol yn mron yn annioddefol, medrodd yr Ardalydd de la Fayette gael gan weinyddiaeth Ffraingc i roddi benthyg swm mawr o arian i'r weriniaeth. Effeithiodd gorchfygiad Tarlton yn fawr ar Cornwallis, trwy ei ysbeilio o lawer o'i swyddogion goreu. Ac er fod y Prydeiniaid wedi llwyddo i groesi y Catawba, ac ennill brwydrau gwaedlyd yn Guildford a Hobkirks' Hill, a'r Americaniaid wedi colli llawer ar dir a môr, nid oedd dim yn tycio. Cynlluniwyd ymosodiad ar Efrog Newydd—ac ni roddwyd y bwriad heibio ond er mwyn cyrhaedd amcan pwysicach. Yr oedd Arglwydd Cornwallis wedi crynhoi ei nerth yn York, a Gloucester, yn Virginia—o bob tu i'r afon York lle yr ymarllwysa ei dyfroedd i'r Chesapeake. Ymunodd yr Americaniaid a'r Ffrangcod â'u gilydd ar y White Plains, a pharasant i Syr Henry Clinton dybied mai ar Efrog Newydd y bwriadent ymosod; ond teithiasant yn sydyn oddi yno ar draws y wlad i Philadelphia, a chyrhaeddasant yno ar y 30ain o Awst. Y diwrnod hwnw, cyrhaeddodd y Count de Grasse yn y *Chesapeak* gydag ysgwadron gref; a chymmerwyd mesurau yn ddioed i warchau genau yr afon Yorke. Yr oedd yn eithaf amlwg erbyn hyn nas gallai Cornwallis lunio un ffordd i ddiangc. Anfonodd Clinton y bradwr Arnold i ddinystrio New London, i'r dyben o dynu Washington oddi wrth ei gynllun—ond bu y cyfan yn ofer. Hwyliodd yr Ardalydd de St. Simon, gyda thair mil o wŷr, i fyny yr afon James, a chyfarfu â La Fayette; tra yr aeth Washington ar fwrdd y *Ville de Paris* i drefnu pethau gyda De Grasse. Amgylchynwyd y Prydeiniaid fel hyn ar orynys hir a chul, oedd yn amgylchynedig gan amddiffynfeydd cryfion, a chawsant eu dal yn eu rhwyd eu hunain. Yr 28ain o Fedi, aeth y galluoedd Cynghreiriol yn mlaen tuag atynt. Bygythiai y corph mwyaf o honynt York, tra yr aeth dwy fil drosodd i'r ochr arall, i wylio a gwarchau ar Gloucester. Ar noson y 6ed o Hydref, torwyd tir o fewn chwe chant o latheni i'r llinellau Prydeinig; a gosodwyd magnelau yn eu lle ar y 9fed a'r 10fed. Ar yr 11eg a'r 12fed, disgynodd tânbelenau y gwarchauwyr i longau y Prydeiniaid oedd ar yr afon, a thaniwyd un o'r ysgeifnlongau, ac amryw o lestri llai. Cymmerwyd dwy o'r rhag-gaerau trwy ruthr, a gyrwyd yn ol ruthriadau a wnaed o'r gwersyll Prydeinig ar y 14eg a'r 15fed; llesteiriwyd ymdrech a wnaed i groesi y dwfr gan ystorm ar yr 16eg; a chyn yr hwyr, ar y 18fed, yr oedd Arglwydd Cornwallis a'i fyddin wedi ymostwng. Yr oedd hyn yn derfyn ar y rhyfel mor bell ag yr oedd a fyno hi â'r cadfridog Washington ac America. Efrog Newydd, Charleston, a Savannah, ynghyd â rhyw ychydig o borthladdoedd, oedd yr oll oedd yn aros yn nwylaw y Prydeiniaid erbyn hyn. Yr oedd ei byddin ragoraf, o ran cyflawnder ei harfogaeth a'i darpariaethau, a'r hon a lywyddid gan un o'i chadfridogion goreu, wedi rhoddi ei hun i fyny; a dechreuodd y bobl a'r senedd gartref i agor eu llygaid mewn syndod. Yn Mawrth, 1782, newidiwyd gweinyddiaeth Arglwydd North am un arall o dan yr Ardalydd Rockingham; ac ar ol trafodaeth ddyrus, llawnodwyd erthyglau heddychol rhagbarotoawl ar y 30ain o Dachwedd, 1782.

Y mae colledion y ddwy ochr yn ystod yr ymdrechfa wedi cael eu symio i fyny fel hyn. Gwariodd Prydain Fawr y swm o 115,654,914*p.*; ac yr oedd y chwanegiad at ei dyled wladol yn cyrhaedd llôg blynyddol o 4,500,000*p.*—yr hyn oedd yn faich parhaus arni. Nifer y rhai a laddwyd yn ei gwasanaeth, yn ol y cyfrifon a wnaed yn Efrog Newydd oedd, 43,633. Mynegir i America golli trwy gyfrwng y cleddyf, a'r marwolaethau o achosion naturiol, yn y fyddin a'r llynges, o Ionawr 1775 hyd nes y cwblhawyd yr heddwch yn y fl. 1783, gynnifer a 100,000 o ddynion. Yr oedd y ddyled dramor yr aed iddi yn ystod y rhyfel yn 7,885,085 o ddoleri, a'i dyled gartrefol yn 34,115,290 o ddoleri; neu yn gyfartal i 9,450,084*p.* o'n harian ni, a chyfrif y dolar yn gyfartal i bedwar swllt a chwe cheiniog. Ond ennillodd America y pryd hwnw ei rhyddid, a lle yn mysg teyrnasoedd y byd. Collodd Prydain Fawr ei threfedigaethau. I bob meddwl ystyriol a theg, ymddengys Washington yn bob peth i'w wlad yn ystod yr ymdrechfa galed hon. Hebddo ef, mor bell ag y gall llygad dyn ffaeledig ganfod, buasai Prydain wedi llwyddo; ac hwyrach drwy hyny wedi bod yn attalfa ar gynnydd gwareiddiad, ac yn foddion i'w gadw yn ol am un ganrif o leiaf. O bossibl nad ellir dyweyd nad ydyw yr Unol Daleithiau—os nad oedd Abraham Lincoln, yr hyn sydd yn dra ammheus—wedi cynnyrchu un dyn a allasai gyflawni y gwaith a wnaeth Washington o dan yr amgylchiadau. A phan dawelodd y rhyfel, ac y sefydlwyd heddwch, nid oedd ei ragoriaethau yn llai amlwg, fel y canfyddir yn yr urddas syml â pha un y darfu iddo ymddiswyddo, ac ymneillduo i drigo yn Mount Vernon. Peth ffodus i'r Gydgynghorfa oedd ei fod yn parhau yn anwylddyn y fyddin; o herwydd nid allasai

Digitized by Google

dim arall gadw y fyddin hono rhag myned yn aflywodraethus, yn amser y cynhauaf mawr o ryddid ac enwogrwydd a ennillasai. Y pryd hwnw yr ymddangosodd cylchlythyr enwog Washington, yr hwn a ysgrifenwyd ganddo at y tair talaeth ar ddeg a gyfansoddai yr Undeb. Y cylchlythyr hwn, yn ddiammheu, ydyw y rhagoraf o holl gynnyrchion ei ysgrifell. Y mae ynddo yn gwasgu pedair o elfenau hanfodol llwyddiant gwladwriaethol i sylw y rhai yr ysgrifenai atynt; sef, undeb annattodol rhwng y taleithiau a'u gilydd; gofal cyssegredig am les y cyhoedd; mabwysiad sefydliadau milwraidd gyda golwg ar ymgadw mewn heddwch; a bod rhoddi a chymmeryd, y naill â'r llall, yn cael ei ganiatau rhwng y gwahanol daleithiau. Y rhai hyn, i ddefnyddio ei iaith danbaid ef ei hun, a ystyriai efe fel "y colofnau ar ba rai yr oedd yn rhaid i adeilad ardderchog annibyniaeth a nodweddiad cenedlaethol ymgynnal. Rhyddid yw sylfaen yr adeilad; a phwy bynag a feiddia gloddio o dan y sylfaen hon, neu ddymchwelyd yr oruwchadeiladaeth, pa mor olygus bynag yr ymddengys ei rithesgus dros yr ymgais hwnw, bydd yn teilyngu y condemniad llwyraf a'r gospedigaeth lymaf y gellir ei gweinyddu arno gan ei wlad, yr hon yr ymdrechodd efe yn y modd hwnw i wneuthur cam â hi."

Rhaid i ni fyned heibio i'r cyfwng sydd yn ysgaru cyfnod bywyd Washington y milwr oddi wrth Washington y gwladweinydd—yr ychydig flynyddoedd rhwng yr amser y rhoddodd efe i fyny lywyddiaeth y fyddin yn mis Rhagfyr, 1783, a'i etholiad yn arlywydd yr Unol Daleithiau yn Chwefror, 1789. Yn adeg yr ymneillduad hwn, nid oedd efe yn segur; ond rhanai ei amser yn ddosbarthiadau. Cyflwynai un rhan o hono at amaethyddiaeth, a'r gyfran arall i gadw i fyny ei ohebiaethau amrywiol. Defnyddiai iaith gref yn fynych i osod allan ei lawenydd o herwydd ei ryddhâd oddi wrth ofalon a chyfrifoldeb y wladwriaeth. A dywedai yn fynych ei fod am "symmud yn dawel i lawr ar hyd afon bywyd nes yr hunai gyda'i dadau." Er hyn, nid oedd i'r graddau lleiaf wedi colli ei ddyddordeb yn llwyddiant a chynnydd ei wlad. Nis gallai dim amlygu ei ragwelediad a'i graffder anarferol, fel gwladweinydd gwladgarol, yn fwy na'r gefnogaeth a roddai efe i'r gwellhâd a effeithid ar y pryd mewn llongwriaeth yn rhanau mewnol y wlad ar yr afonydd mawrion. Teithiodd lawer drwy yr Undeb i gasglu ac i ledaenu syniadau cywir ar y mater hwn. Dadblygodd gynllun i'r llywodraethwr Harrison, o Virginia, er diogelu masnach y gorllewin i'w talaeth hwy eu hunain, yn gystal a'r eiddo Maryland, trwy godi gwarchgloddiau ar lenydd yr afonydd James a Potomac. Yr oedd efe yn gweithio yn egnïol hefyd o blaid addysg, ac yn dyfeisio cynlluniau er gwareiddiad yr Indiaid. Mewn gwirionedd, yr oedd pob peth yn argyhoeddi ei gyfeillion fod yn rhaid cael ei wasanaeth yn fuan yn y lle pwysicaf yn y wladwriaeth. Yn groes hollol i'w ewyllys ei hun, etholwyd ef yn aelod o'r Gymmanfa Wladwriaethol yn Philadelphia yn 1789. Yr oedd ei olygiadau o barthed i'r hyn a ddylesid ei wneyd wedi eu hamlygu i Mr. Jay y flwyddyn o'r blaen, pan y dywedodd efe—"Y mae profiad wedi ein dysgu na wna y bobl fabwysiadu, a chario i weithrediad y mesurau gweinyddol fydd oreu er eu lles eu hunain, heb i ryw allu gorfodol gyfryngu. Nid wyf yn tybied y gallwn fodoli yn hir, fel cenedl, heb sicrhau gallu ac awdurdod yn rhyw fan y teimlir oddi wrtho trwy yr Undeb, mewn modd mor effeithiol ag y mae awdurdod y llywodraethau taleithiol yn ymestyn dros yr amryw daleithiau." Digwyddodd cyfres o derfysgoedd o natur ddifrifol yn Massachusetts ar y pryd; ac yr oeddynt yn myned yn mhell i argyhoeddi pob meddwl ystyriol fod y fath opiniynau yn gywir. Gan hyny, cyfarfu Washington â llai o anhawsder nag y meddyliodd i ddiwygio erthyglau yr Undeb, ac i gyflwyno i America y cyfansoddiad hwnw sydd yn aros hyd y dydd hwn, heb fod ond ychydig o fân gyfnewidiadau wedi eu gwneuthur ynddo. Yr ydym yn awr yn troi i edrych arno fel arlywydd.

Etholwyd Washington yn unfrydol yn arlywydd yr Unol Daleithiau ar y 6ed o Ebrill, yn y fl. 1789. Gadawodd yntau ei gartref yn Mount Vernon am Efrog Newydd—yn yr hon y pryd hwnw y cyfarfyddai y Gydgynghorfa—yr 16eg o Ebrill. Yr oedd ei daith yn un orymdaith fuddugoliaethus. Cyrhaeddodd Efrog Newydd ar yr 28ain o'r un mis. Cyflwynwyd iddo anerchiadau brwdfrydig oddi wrth aelodau y senedd a Thŷ y Cynnrychiolwyr; ac ni bu neb yn haeddu hyny yn fwy. Yr oedd y wlad ar y pryd yn amddifad o drysorfa, cyllid, ac ymddiried. Yr oedd newydd-deb y ffurf undebol o lywodraeth yn achlysuro cryn anhawsderau yn ei gweithiad allan ar y cyntaf. Heb law hyny, yr oedd ysbryd plaid yn rhedeg yn uchel trwy yr Undeb. Nid oedd Rhode Island a Carolina Ogleddol, hyd yn hyn, wedi cyttuno â'r cyfansoddiad; er iddynt wneuthur hyny ar ol hyn. Yr oedd pob gweinyddiaeth mewn perygl o gyfarfod âg anhawsderau a'i gwnelai yn ammhoblogaidd. O ganlyniad, yr oedd y rhagolygon yn ddigon tywyll mewn rhyw ystyr; ac er fod Washington yn rhagweled hyn, etto nid dyn oedd efe i droi cefn ar ei waith, yn hytrach na'i wynebu. Y cam cyntaf a gymmerodd efe oedd gofyn am adroddiadau cyflawn gan yr ysgrifenydd tramor, ysgrifenydd y rhyfel, a dirprwywyr y drysorfa. Darllenodd yr adroddiadau hyn, a thalfyrodd hwynt â'i law ei hun, yn enwedig un bwrdd y drysorfa. Darllenodd, talfyrodd, ac astudiodd yr ohebiaeth swyddol helaeth oedd yn y cofysgrifau cyhoeddus, o'r amser y gwnaed cyttundeb heddwch nes yr etholwyd ef i'r arlywyddiaeth, gyda'r amcan o sefydlu yn ei feddwl bob pwynt o bwys y bu ymdrafodaeth arno, a hanes yr hyn oll a wnaethpwyd. Yr oedd ei drefniadau ar gyfer gwneyd gwaith, a derbyn ymwelwyr, yn cael eu nodweddu â'r un arwydd o drefn ag oedd yn ei hynodi pan yn fachgenyn, ac yn benaeth y fyddin. Bob dydd Mawrth, rhwng yr oriau tri a phedwar, yr oedd yn barod i roddi derbyniad i'r personau hyny a ewyllysient alw gydag ef. A phob prydnawn Gwener, yr oedd ystafelloedd y palas yn agored yr un modd i'r neb a ewyllysient ymweled â Mrs. Washington. Nid oedd efe yn arfer derbyn gwahoddiadau i giniawa allan; ond gwahoddai at ei fwrdd ei hun weinidogion tramor, a swyddogion y llywodraeth, ac ereill, mor bell ag y gallai ei wasanaethyddion ddarparu ar eu cyfer. Yr oedd y gweddill o ddyddiau yr wythnos yn cael eu cyflwyno ganddo at achosion y wladwriaeth. Ni dderbyniai efe ymwelwyr a chwmni cymmysg ar y Sabbath o gwbl. Elai i le o addoliad yn rheolaidd, ac ystyriai fod y gweddill o'r dydd yn eiddo iddo ei hun.

Penderfynwyd ar swyddogaethau y llyw-

Digitized by Google

odraeth gan y Gydgynghorfa yn ei heisteddiad cyntaf. I'r arlywydd y rhoddwyd yr hawl o ddewis y personau cymmhwysaf i weinyddu y gwahanol swyddau. Pennodwyd Jefferson yn ysgrifenydd y wladwriaeth; Hamilton yn ysgrifenydd y drysorfa; a Knox yn ysgrifenydd rhyfel. I Randolph y disgynodd y swydd o gyfreithiwr cyffredinol. Costiodd pennodiad swyddwyr i'r llys uchaf iddo gryn bryder. Jay a enwyd yn brif farnwr. Ar ol gwneyd y pennodiadau hyn, aeth Washington ar daith drwy y taleithiau deheuol, a dychwelodd yn ol i fod yn bresennol erbyn agoriad y Gydgynghorfa, yn Ionawr, 1790.

Yn ei anerchiad agoriadol, cyflwynodd i sylw y Gydgynghorfa ddarpariaethau er amddiffyn yr Undeb; a chyfreithiau i ryddfreinio tramorwyr; i ddefnyddio trefn unffurf o arian, pwysau, a mesurau; i gefnogi gwyddoniaeth; ynghyd â chyfundrefn effeithiol i gadw i fyny ymddiriedaeth y cyhoedd. Bu cryn ymddadleu ar y mater diweddaf. O'r diwedd, cariwyd mesur Hamilton i wneyd ariansawdd *(funds)* o'r holl ddyledion cartrefol gan fwyafrif bychan yn nau dŷ y Gydgynghorfa. Ymgadwodd yr arlywydd rhag amlygu ei syniadau ar y mater tra yr oedd yn cael ei ddadleu yn y Gydgynghorfa, ond cymmeradwyodd y gyfraith i soddi y ddyled wladol, ac yr oedd efe yn bleidiol i'r mesur oddi ar argyhoeddiad o'i ddefnyddioldeb. Yr oedd perthynasau tramor y wlad, er nad yn ddyrus iawn, etto yn parhau mewn sefyllfa ansefydlog. Anfonodd Washington y llywodraethwr Morris fel goruchwyliwr preifat, mewn trefn i wybod beth oedd golygiadau a bwriadau y gweinidogion Prydeinig. Dechreuodd hefyd, er yn anewyllysgar, ar ryfel â'r Indiaid, yr hwn a barhaodd am y rhan fwyaf o dymmor ei arlywyddiaeth. Am y flwyddyn gyntaf o'i dymmor arlywyddol, pa fodd bynag, ei brif waith oedd ymdrechu cael allan a phenderfynu safle yr Unol Daleithiau yn mysg cenhedloedd y ddaear. Cymmerwyd i fyny ail eisteddiad y Gydgynghorfa yn benaf mewn dadleuon gyda golwg ar sefydlu ariandy cenedlaethol. Yr oedd y ddwy blaid fawr gyhoeddus, y rhai, o dan wahanol enwau, sydd wedi rhanu yr Undeb er pan y mabwysiadwyd y cyfansoddiad yn 1788, i ryw fesur eisoes wedi cymmeryd eu safleoedd ar y cwestiwn o soddi y dyledion. Daeth hyn i'r golwg yn amlycach yn y dadleuon ar ffurfiad ariandy cenedlaethol. Cynnrychiolid y ddwy blaid yn y weinyddiaeth ei hun: dadleuai Knox a Hamilton dros ei sefydlu; ond condemniai Jefferson a Randolph hyny fel peth anghyfansoddiadol. Terfynodd yr ymrysonfa yn sefydliad yr ariandy, gyda chyfalaf o ddeng miliwn o ddoleri—o ba rai yr oedd wyth miliwn i gael eu dal gan bersonau neillduol, a'r gweddill gan y llywodraeth. Ymattaliodd yr arlywydd y tro hwn hefyd rhag amlygu ei syniadau ei hun, er ei fod yn ffafriol i sefydliad ariandy. Gofynodd am adroddiad ysgrifenedig o'i resymau gan bob un o'r gweinidogion. Ystyriodd hwy yn fanwl—yna llawnododd y gyfraith i'w sefydlu.

Yn eisteddiad 1791, pasiwyd cyfreithiau i drefnu y gynnrychiolaeth, i sefydlu cyfundrefn y cartrefleoedd yn unffurf, a chynnyddu y fyddin. Yr oedd erbyn hyn yn eithaf eglur i bawb fod y ddwy blaid fawr yn cael eu ffurfio. Gwrthwynebwyr a chefnogwyr y mesurau uchod, gydag ychydig eithriadau, oedd gwrthwynebwyr a chefnogwyr y gyfundrefn i soddi y ddyled wladol ac i sefydlu ariandy. Yr oedd y gwrthwynebwyr yn eiddigus o bob peth a allasai gyfyngu ar egwyddorion democrataidd; a'r cefnogwyr heb feddu ymddiried yn ngallu sefydliadau mor syml a rhai yr Unol Daleithiau i sicrhau tawelwch ac unoliaeth y wladwriaeth. Jefferson oedd blaenor y blaid ddemocrataidd—a Hamilton yr un a alwyd wedi hyny 'y Blaid Gynghreiriol.' Ymdrechai Washington i heddychu y pleidiau hyn. Yr oedd ei olygiadau ef ei hun yn fwy cydnaws â syniadau Hamilton; ond yr oedd yn ymwybodol o werth Jefferson fel gwladweinydd, a theimlai hefyd y pwysigrwydd i'r arlywydd fod yn annibynol ar bob plaid. Parhau yr oedd y ddau ysgrifenydd, modd bynag, i gymmeryd llwybrau gwleidyddol gwahanol; ac o'r diwedd arweiniodd hyn i elyniaeth bersonol rhyngddynt. Yr oedd tymmor gweinyddiaeth yr arlywydd yn tynu i'r terfyn, a dymuniad pryderus yn dechreu meddiannu y boblogaeth am iddo ganiatau iddynt ei ethol am yr ail waith i'r swydd bwysig. Yr oedd Jefferson, Hamilton, a Randolph yn cydweled â'u gilydd yn y peth hwn, er nad oeddynt yn cydolygu mewn llawer o bethau; ac ysgrifenodd pob un o honynt lythyr maith at Washington, yn amlygu eu rhesymau dros iddo roddi caniatâd i'w ail ethol. O'r diwedd, efe a ganiataodd i hyny gymmeryd lle; ac ar y 4ydd o fis Mawrth, 1793, efe a gymmerodd lŵ ei swydd yr ail waith yn y senedd-dŷ.

Parodd y cwestiwn cyntaf a ddaeth o flaen y weinyddiaeth, ar ol yr ail etholiad, i'r gwahaniaethau oeddynt eisoes yn bod rhwng y pleidiau fod yn fwy amlwg a phenderfynol. Yr oedd y pleidiau Ewropaidd, a gynnrychiolid gan lys Prydain ar un llaw, a'r weinyddiaeth Ffrengig ar y llall, yn awyddus am dynu yr Unol Daleithiau i lyngclyn yr ymdrechfa oedd yn myned yn mlaen rhyngddynt; ac yr oedd yr arlywydd drachefn, a'i weinyddiaeth, yn unfrydol yn eu penderfyniad i ymgadw yn ammhleidiol: ond nis gallai adranau pendefigol a democrataidd y weinyddiaeth ymgadw rhag amlygu eu gogwyddiadau a'u heiddigedd y naill o'r llall. Ar ol cyttuno i dderbyn llysgenhadon oddi wrth weriniaeth Ffraingc, dadleuai Hamilton a Knox dros gael dadganiad arbenig yn yr ammodau, yn arwyddo fod perthynasau y ddwy wlad wedi cyfnewid. Gwrthwynebid hyn gan Jefferson a Randolph. Ond cyhoeddwyd proclamasiwn o ammhleidiaeth ar yr 22ain o Ebrill, 1793. Ymosodwyd ar y weithred ddoeth hon yn y modd chwerwaf gan bleidwyr Ffraingc. Cymmysgwyd achosion tramor â gwleidyddiaeth gartrefol, ac ymffurfiodd y democratiaid a'r cynghreirwyr yn bleidiau arddeledig. Medrodd yr arlywydd, Washington, ymgadw ar wahân oddi wrthynt am ysbaid o amser—ond nid yn hir. Gorchymynodd Genet, gweinidog Ffraingc, ar i wiblongau gael eu parotoi yn Charlestown i aflonyddu ar fasnach ygwledydd oedd mewn heddwch âg America. Ond cyhoeddodd llywodraeth yr Unol Daleithiau yn Awst ddadganiad nad oedd gan wiblongau wedi eu parotoi felly hawl i gymmeryd noddfa yn ei phorthladdoedd hi. Yn mis Mehefin, ac wedi hyny yn Tachwedd, gorchymynodd y llywodraeth Brydeinig i'w gwiblongau ddal a chymmeryd pob llong a geffid yn dwyn darpariaethau i unrhyw ran o Ffraingc, neu i drefedigaethau y deyrnas hono. Gwnaed adroddiad gan ysgrifenydd y wladwriaeth yn agos i ddechreuad eisteddiad y senedd

Digitized by Google

1793—4, yn mherthynas i gyssylltiad masnachol yr Unol Daleithiau â gwledydd ereill. Cynnygiwyd dau gynllun er trefnu neu er symmud attalfeydd:—y cyntaf, trwy drefniadau heddychol â galluoedd tramor; yr ail, trwy gydfantoliad cyfreithiau y ddeddfwriaeth. Yn fuan ar ol hyn ymddiswyddodd ysgrifenydd y wladwriaeth, a dilynwyd ef gan Randolph. Adroddiad Jefferson ar fasnach a gynnyrchodd benderfyniadau masnachol enwog Mr. Madison. Yr oedd cyfeillion y weinyddiaeth, o'r hon yr ymneillduodd Jefferson, yn dychymygu eu bod yn canfod fod gelyniaeth at Loegr a ffafraeth i Ffraingc yn amlygu ei hun ynddynt: ond nid oedd y blaid arall yn eu hystyried ond yr hyn oedd yn angenrheidiol er amddiffyniad i'r wlad. Mabwysiadwyd cynllun Mr. Madison, gydag ond ychydig o gyfnewidiadau, gan Dŷ y Cynnrychiolwyr; ond gwrthodwyd ef gan y senedd, mewn canlyniad i bleidlais derfynol yr is-lywydd. Darfu i ddigwyddiad, dibwys ynddo ei hun, gynnyddu chwerwder yr anghydwelediad oddi allan. Yr oedd cymdeithasau democrataidd wedi eu ffurfio ar gynllun y clybiau Jacobinaidd yn Ffraingc. Edrychai Washington arnynt gydag arswyd gormodol, fe allai; a darfu i'w waith yn dadgan ei feddwl ar hyn mewn iaith gref ei osod yn agored i'r ymosodiadau a wneid ar y blaid a gyhuddid o amlygu hoffder gormodol tuag at Brydain, a'r sefydliadau Prydeinig.

Derbyniwyd hysbysrwydd oddi wrth y llysgenhadwr Americanaidd yn Llundain, yn rhoi ar ddeall fod y weinyddiaeth Brydeinig yn awyddus am gael terfynu y gwahaniaethau oedd rhwng y ddwy wlad yn heddychol; ac enwodd Washington Mr. Jay i'r senedd fel cenhadwr anghyffredinol i'w ddanfon i lys Prydain Fawr. Cadarnhawyd y pennodiad, er iddo gael ei wrthwynebu yn wresog gan y blaid Ddemocrataidd, gan y senedd trwy fwyafrif o ddau yn erbyn un. Derbyniwyd y cyttundeb y cyttunwyd arno gan Mr. Jay yn Mawrth, 1795, yn fuan ar ol i eisteddiad y Gydgynghorfa derfynu. Galwodd yr arlywydd am i'r senedd gyfarfod yn Mehefin, mewn trefn i'w gadarnhau. Cadarnhawyd y cyttundeb. Cyn ei lawnodi gan yr arlywydd, cyhoeddwyd ef yn lladradaidd. Condemniwyd ef gan lawer mewn iaith danllyd: cynnaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus yn ei erbyn, gyda'r amcan o ddylanwadu ar y weinyddiaeth. Er hyn oll, llawnododd yr arlywydd y cyttundeb ar y 18fed o Awst. Pan y cyfarfu y Gydgynghorfa yn Mawrth, 1796, cariwyd y penderfyniad gyda mwyafrif mawr yn Nhŷ y Cynnrychiolwyr, yn deisyf ar i'r arlywydd ddodi o flaen y tŷ y cyfarwyddiadau a roddwyd i Mr. Jay, a'r ohebiaeth, ac ysgrifeniadau ereill yn dal perthynas â'r ymdrafodaeth. Gwrthododd Washington roddi y papurau, a bu dadl frwd mewn canlyniad; ond yn y diwedd, ymostyngodd y mwyafrif oedd yn elynol i'r cyttundeb, ac ymunasant i basio cyfreithiau i gario allan ei amcanion. Ymgyfarfu y ddau dŷ drachefn yn mis Rhagfyr. Yr oedd Washington wedi cyhoeddi ei anerchiad ymadawol i'r Unol Daleithiau ar y 15fed o Fedi; a thraddododd yn awr ei araeth olaf yn y Gydgynghorfa, a chymmerodd fantais ar yr achlysur i gymmhell ar yr aelodau y dymunoldeb o helaethu y llynges yn raddol, gwneyd darpariaeth ar gyfer cefnogi amaethyddiaeth a llaw-weithfaoedd, a sefydlu prifysgol genedlaethol, ac athrofa filwraidd. Ychydig o waith a wnaed yn ystod yr eisteddiad: yr oedd sylw y cyhoedd yn cael ei alw at etholiad agoshaol arlywydd. Mr. Adams, yr ymgeisydd Cynghreiriol, a gafodd y rhifedi mwyaf o bleidleisiau; a Mr. Jefferson, yr ymgeisydd Democrataidd (yr hwn, o ganlyniad, a ddadganwyd yn islywydd), oedd y nesaf ato. Yr oedd cymmeriad uchel Washington, a'i waith yn ymgadw oddi wrth blaid, wedi bod yn ffynonell fawr o nerth i'r rhai oedd o'r un golygiadau gwleidyddol ag ef; ond darfu i'w olynydd, Adams, yr hwn oedd ddyn plaid, trwy ffafrio yn rhy amlwg y blaid Gynghreiriol, droi y fantol yn ffafr y Democratiaid. Yr oedd Washington yn bresennol fel edrychydd pan osodwyd ei olynydd, John Adams, yn ei swydd; ac yn ddioed wedi hyny, efe a ymneillduodd i Mount Vernon. Yn fuan ar ol ei ymneillduad, cafodd y boddhâd o weled cyfiawnder yn cael ei wneyd â'i wladlywiaeth dramor gan holl bobl yr America. Bu bygythion cweryl â Ffraingc yn mron unwaith a'i alw allan i fywyd cyhoeddus; a phennodwyd ef yr ail waith yn gadlywydd lluoedd yr Unol Daleithiau, yn 1799; sef, y flwyddyn y bu efe farw. Cymmerodd ei farwolaeth le Sadwrn y 13eg o Ragfyr, mewn canlyniad i anwyd trwm a gafodd, yr hyn a derfynodd yn ennyniad ei bibell wynt. Ychydig oriau cyn marw, dywedai wrth y rhai oedd yn ei wylio, fod ei holl achosion mewn trefn dda; ei fod wedi gwneyd ei ewyllys; ac nad oedd ei orchwylion fel dyn cyhoeddus ond deuddydd ar ol, heb eu gorphen. Cymmerwyd pedair ŵns ar ddeg o waed o'i fraich—ond yn ofer. Parodd anhawsder i siarad iddo beidio dyweyd nemawr yn chwaneg; ond trodd at ei feddyg, a dywedodd wrtho mewn tawelwch, "Doctor, yr wyf yn marw, ac yr wyf wedi bod yn marw am amser maith; ond nid oes arnaf ofn marw!" Nid oedd ei saldra wedi parhau ond tua phedair awr ar hugain—ond yr oedd wedi bod am flynyddoedd yn arfer parotoi erbyn y cyfnewidiad diweddaf; ac fel hyny y cauodd efe ei lygaid yn nghanol dagrau a gweddïau pawb oedd yn bresennol, yn y mwynhâd o'r "tangnefedd sydd uwch law pob deall!"

Ystyrir fod cymmeriad Washington yn un tra anhawdd ei ddarlunio. Gellir ei ddisgrifio mewn gwirionedd yn gyfuniad o rinweddau anghymmharol wrth eu cymmeryd gyda'u gilydd, ond heb y nodweddau amlwg hyny a geir weithiau, sydd yn hawlio sylw arbenig. Yr oedd, fel y goleuni, mewn prydferthwch digymmhar. Nid oedd efe yn feddiannol ar yr hyn a olygir yn gyffredin yn athrylith gref; etto, yr oedd yn meddu amgyffred clir, barn gywir, ac awydd cryf am wybodaeth. Nid oedd chwaith yn llenor mawr; er hyny, gwyddai werth llenyddiaeth, ac ymhyfrydai yn y gwaith o'i noddi. Yr oedd ei werthfawrogiad o lenyddiaeth, yn gystal a phob peth arall a werthfawrogai efe, yn ffynnonellu yn mawredd ei enaid. Yr oedd doethineb a barn, cywirdeb, amynedd, a dyfalbarhâd, yn nodweddu ei fawredd meddyliol. Yr oedd ei dalentau fel gwladweinydd o'r radd uchaf, os cymmerir i ystyriaeth ei allu i weled i mewn i egwyddorion llywodraethol, eangder ei olygiadau, ei ddeheurwydd i ddyfalu yr hyn fuasai yn debyg o gymmeryd lle, ei fedrusrwydd i gymmeryd mantais ar gyfleusderau ffafriol, ei dawelwch a'i hunanfeddiant, a'i allu gweinyddol cyffredinol: ac at hyn oll dylid chwanegu mawreddusrwydd ei natur foesol, a'i symledd arbenig. Nid oedd arno eisieu unrhyw gydnabyddiaeth iddo ei hun a'i deulu, ac ni dderbyniai ddim; ond yr oedd yn awyddus am bob peth a wnelai

Digitized by Google

les i'w wlad. Etto, nid oedd ei wladgarwch, er yn frwdfrydig, yn benboeth a dallbleidiol; ac nid ymffrostiai yn ei anhunangarwch. Mewn gair, yr oedd yn drefnus a chyflawn yn mhob peth. Byddai gosod Washington fel rhyfelwr ar yr un tir a Cæsar, Hannibal, neu Napoleon, yn ynfydrwydd. Collodd fwy o frwydrau, o bossibl, nag a ennillwyd ganddo, a chollodd hwynt am ei fod yn ddiffygiol fel cadofydd. Ond cadwai ei fyddin gyda'u gilydd, a gwrthsafai ei elyn o dan amgylchiadau mwy anfanteisiol nag odid un cadfridog arall y mae genym hanes am dano. Yr oedd ei wasanaeth fel gwladweinydd yn gyffelyb. Cadwodd i fyny lywodraeth yr Unol Daleithiau yn ystod yr wyth mlynedd y bu yn arlywydd yn nghanol ystormydd y dadleuon Jacobinaidd—a chryfhaodd ei sefydliadau. Nis gallai un Americanwr arall ond efe ei hun wneyd hyn; o herwydd o'r holl arweinyddion Americanaidd, efe oedd yr unig un ag y teimlai dynion ei fod yn tra ragori arnynt hwy eu hunain. Milwyr neu ddinasyddion, Cynghreirwyr neu Ddemocratiaid, oedd y gweddill o'u cydwladwyr—ond Washington oedd efe! Yr oedd y parch a deimlid tuag ato yn cael ei gymmysgu â serch ato, o herwydd ei hawddgarwch, ei garedigrwydd, a'i fwyneidd-dra; ac oddi gerth am adeg fer, yn agos i derfyn ei ail dymmor arlywyddol, nid oedd ond un teimlad yn cael ei goleddu tuag ato trwy yr Undeb, a hwnw oedd teimlad o barchedigaeth a serch dwfn. Un o'r dynion hyny oedd efe, na cheir hwynt ond yn anfynych iawn—ac y mae mawredd yn eu dilyn heb eu bod hwy yn ymddangos yn ei geisio nac yn ei ymofyn.

Y mae yr amlinelliad a ddyry Jefferson o'i gymmeriad yn werthfawr; o herwydd cafodd lawer o gyfleusderau am amser maith i sylwi arno yn bersonol, ac yr oedd efe hefyd yn farnwr craff ar gymmeriad, ac yn arweinydd y blaid wleidyddol oedd yn wrthwynebol i wladlywiaeth gyffredinol Washington. Fel y canlyn y dywed efe am dano:—

"Yr oedd Washington yn ddyn o feddwl mawr a galluog—heb fod yn perthyn i'r radd flaenaf o feddyliau; yr oedd ei amgyffrediad yn gryf, er nad mor graff a Newton, Bacon, na Locke; ac, mor bell ag yr oedd efe yn gweled, ni bu gan neb farn gywirach. Yr oedd ei farn yn araf yn ei gweithrediad, gan nad oedd yn cael ei chynnorthwyo nemawr gan na dyfais na dychymyg—ond yn sicr iawn yn y casgliad a dynai. Dyna a barodd i'w swyddogion sylwi yn gyffredin ar y fantais a gaffai trwy gynnal cynghorau rhyfel: gwrandawai ynddynt ar bob awgrymiad, ond dewisai yr hyn fyddai oreu; a diammheu na ddarfu i un cadfridog erioed gynllunio ei frwydrau yn well. Ond os dyrysid ei gynlluniau yn ystod y frwydr trwy ryw amgylchiad sydyn, yr oedd yn araf yn ad-drefnu. Y canlyniad o hyn oedd, ei bod yn aml yn troi yn fethiant arno yn y maes; ond anfynych y methai pan yn ymladd â gelyn yn ei unfan, megys yn Boston ac York. Nis gwyddai beth oedd ofn; cyfarfyddai â pheryglon personol yn y modd tawelaf. Hwyrach mai y llinell gryfaf yn ei gymmeriad ef oedd callineb. Nid oedd byth yn gweithredu hyd nes i bob ystyriaeth ac amgylchiad gael eu pwyso yn ofalus a phwyllog: ymattaliai pan ganfyddai ammheuaeth, ond wedi unwaith benderfynu, cariai ei fwriadau yn mlaen, pa rwystrau bynag fyddai ar y ffordd. Yr oedd ei gywirdeb yn bur, a'i gyfiawnder yn anhyblyg. Nid oedd unrhyw gymmhelliadau yn codi oddi ar hunan-lês, neu berthynas, neu gyfeillgarwch, neu gasineb, yn effeithio dim i ogwyddo, ei benderfyniad. Rhagorai yn hyn ar bawb a adnabûm erioed. Yr oedd efe, yn wir, yn mhob ystyr o'r gair yn ddyn mawr, doeth, a da. O ran ei dymmer yn naturiol, yr oedd yn fywiog a thwymn; ond trwy adfyfyrdod a phenderfyniad yr oedd wedi ennill meistrolaeth gadarn a gwastadol drosti. Os rhoddai y ffordd i'w'dymmer, fodd bynag, amlygai ddigllonrwydd mawr. Yn ei dreuliau yr oedd yn anrhydeddus, ond yn fanwl. Cyfranai yn helaeth at bob peth oedd yn addaw bod yn ddefnyddiol; nid oedd am gynnorthwyo unrhyw gynlluniau dychymygol nad oedd un gobaith iddynt lwyddo, nac am gefnogi galwadau annheilwng ar ei haelioni. Nid oedd ei galon yn nodedig o gynnes yn ei serchiadau; ond cyfrifai yn fanwl werth pob dyn, ac anrhydeddai bob un yn ol y gwerth hwnw. Yr oedd yn ddyn o ymddangosiad personol hardd—o ran ei faintioli yn union yr hyn y gellid dymuno i ddyn fod; ei berson yn syth ac urddasol yr olwg arno. Efe oedd marchogwr goreu ei oes, a'r harddaf ei lun y gellid ei ganfod ar farch. Er ei fod, pan yn mysg ei gyfeillion, yn cymmeryd rhan yn rhydd mewn ymddiddan, nid oedd dim arbenigrwydd yn ei dalentau ymddiddanol, gan nad oedd yn feddiannol ar ddrychfeddyliau parod, nac iaith ystwyth a hylithr. Yn gyhoeddus, pan y gelwid arno yn ddisymmwth i draethu ei farn ar unrhyw fater, yr oedd yn ammharod—ac yn fyr a dyryslyd i raddau y siaradai, ond odid. Er hyny, yr oedd yn ysgrifenwr rhwydd, a'i arddull yn gywir a phriodol. Yr oedd wedi ymberffeithio yn hyn, trwy ymgydnabyddu a chymdeithasu â'r byd oddi allan, o blegid yr oedd ei addysg foreuol yn gyfyngedig i ddarllen, ysgrifenu, a rhifyddiaeth gyffredin, ynghyd â'r ychydig addysg a gafodd yn yr alwedigaeth o fesur tir. Nid oedd efe byth yn segur: yr oedd ei amser yn cael ei gymmeryd i fyny i wneyd rhywbeth o hyd yn mron. Ychydig o amser oedd ganddo i ddarllen; ac yr oedd ei ddarlleniad yn benaf yn dal cyssylltiad âg amaethyddiaeth, ac â hanesyddiaeth Saesnig neu Brydeinig. O angenrheidrwydd yr oedd ei ohebiaeth yn eang iawn; yr hyn, ynghyd â'i weithrediadau amaethyddol, a gymmerai i fyny y rhan fwyaf o'i amser pan y byddai gartref. Ar y cyfan yr oedd ei gymmeriad yn mron yn berffaith; nid oedd mewn dim yn ddiffygiol; mewn rhai pethau un diddrwg-didda oedd. Ond gellir dyweyd mewn gwirionedd na ddarfu i natur ac amgylchiadau erioed ymuno yn well i wneyd dyn mawr, a'i osod yn mysg y rhagorolion sydd yn teilyngu gan eu cyd-ddynion goffadwriaeth dragwyddol. Disgynodd i'w ran ef i arwain byddinoedd ei wlad yn llwyddiannus trwy ryfel beryglus, nes sefydlu ei hannibyniaeth; i reoli ei chynghorau yn adeg genedigaeth y llywodraeth oedd yn newydd yn ei ffurfiau a'i hegwyddorion, hyd nes y sefydlwyd ac y cadarnhawyd ei sefydliadau mewn tawelwch rheolaidd; ac i weled y cyfreithiau gwladol a milwraidd yn cael eu parchu yn y fath fodd nad oes yn holl hanes y byd ddim a ddeil gymmhariaeth âg ef."

WATERLAND, DANIEL: Sais, a duwinydd enwog. Mab oedd efe i Henry Waterland, periglor Waseby, yn swydd Lincoln, lle y ganed ef ar y 14eg o Chwefror, 1683. Ar ol gorphen ei addysg elfenol yn Ysgol Rydd Lincoln, aeth i Goleg Magdalen, Caergrawnt, yn mis Mawrth, 1699: ennillodd ysgoloriaeth yn Rhagfyr, 1702, ac etholwyd ef yn gymmrawd yn Chwefror, 1704. Parhaodd i breswylio yn y brifysgol, wedi cymmeryd urddau eglwysig, a bu yn athraw yno am lawer o flynyddoedd, hyd yn oed wedi iddo gael ei bennodi gan Iarll Suffolk yn benaeth y coleg, ac hefyd yn beriglor Ellingham yn swydd Norfolk. Yn ystod y cyfnod hwn o'i oes y cyhoeddodd efe ei "*Advice to a Young Student,*" yr hwn a aeth trwy amryw argraphiadau. Cymmerodd ei radd o wyryf mewn duwinyddiaeth yn 1714. Yn fuan ar ol hyn, pennodwyd ef yn gaplan i Sior I.; ac yn 1717, efe a gafodd, drwy

Digitized by Google

orchymyn ei fawrhydi, ar ei ymweliad â'r brif ysgol, ei anrhydeddu â'r gradd o ddoctor mewn duwinyddiaeth. Ymddengys i Dr. Waterland ddyfod allan gyntaf fel dadleuydd yn 1718, mewn attebiad i lyfr Dr. Whitby, yn yr hwn y gwnaethpwyd ymosodiad llym ar "*Defence of the Nicene Creed*" yr esgob Bull. Attebodd Whitby ef; ac ail attebodd Waterland yntau; ac yn y fl. 1719, helaethodd yr olaf ei ysgrifeniadau ar y mater hwn i'w "*Defence of Christ's Divinity.*" Beirniadodd Dr. Clarke, ac Ariaid ereill, y gwaith hwn yn llym; ac attebodd Waterland hwynt mewn llyfr a gyhoeddwyd ganddo yn 1724. Yn y cyfamser, yn 1720, yr oedd Dr. Waterland, ar bennodiad esgob Llundain, wedi traddodi y cwrs o bregethau neu ddarlithiau a sylfaenasid gan yr arglwydd Moyer, ar Ddwyfoldeb ein Harglwydd Iesu Grist, y rhai a gyhoeddodd wedi hyny. Cyflwynwyd iddo y flwyddyn ddilynol berigloriaethau St. Awstin a St. Faith, yn Llundain; ac yn 1723, dyrchafwyd ef gan yr archesgob Dawes yn ganghellydd Caerefrog. Yn yr un flwyddyn, efe a gyhoeddodd ei "*Critical History of the Athanasian Creed.*" Gwnaed ef yn ganon Windsor yn 1727; ac yn 1730, cyflwynwyd iddo ficeriaeth Twickenham; ac ar hyn rhoddodd i fyny ei fywoliaeth yn Llundain, ond derbyniodd archddeoniaeth Middlesex gan yr esgob Gibson.

Parodd cyhoeddi yr "*Exposition of the Church Catechism,*" gan Dr. Clarke, i Dr. Waterland ddyfod allan drachefn fel dadleuydd yn erbyn Clarke a Dr. Sykes. Ysgrifenodd lyfr hefyd yn erbyn Tindal, yr anffyddiwr, a elwir "*Scripture Vindicated,*" &c., yn 1732. Hefyd, bu mewn dadl gyda Jackson ar werth yr ymresymiad *a priori* dros fodolaeth Duw. Cyhoeddodd gyfrol o dan y teitl "*A Review of the Doctrine of the Eucharist as laid down in Scripture and Antiquity;*" a hwn oedd y gwaith diweddaf a anfonodd efe i'r wasg. Bu farw ar y 23ain o Ragfyr, 1740, yn Llundain—lle y daethai efe o Gaergrawnt i ymgynghori â Dr. Cheselden ynghylch ei anhwylder. Yr oedd ewin bawd ei droed yn tyfu i'r byw, yr hyn a derfynodd mewn madredd (*mortification*). Gadawodd ar ei ol weddw, ond dim plant. Ymddangosodd dwy gyfrol o'i bregethau ar ol ei farwolaeth ef. Treuliodd fywyd llafurus, gan iddo, fel y gwelir uchod, gymmeryd rhan amlwg a blaenllaw yn nadleuon crefyddol yr oes hono.

WATSON, RICHARD: esgob Llandaf, a anwyd yn Awst, 1737, yn Heversham, ger Kendal. Athraw mewn ysgol rammadegol yn y lle hwnw oedd ei dad. Tybir fod y teulu wedi dyfod yn wreiddiol o Ysgotland. Yr oedd i'w dad gymmeriad uchel fel athraw; ond ni chafodd Richard, yr ieuangaf o'i ddau fab, y fantais o fod gydag ef yn yr ysgol, gan ei fod wedi rhoi ei swydd athrawol i fyny y flwyddyn y ganed ef. Addysgwyd ef o dan olynydd ei dad yn y swydd. Y flwyddyn ar ol marwolaeth ei dad, sef yn 1754, derbyniwyd Watson yn is-efrydydd (*sizar*) i Goleg y Drindod, Caergrawnt. Yr oll oedd ganddo ar gyfer myned trwy ei addysg athrofaol oedd tri chant o bunnau a adawsai ei dad iddo, ynghyd â hanner cant o bunnau a ennillasai fel gwobr yn yr ysgol rammadegol; ond dechreuodd weithio ei ffordd yn lew i annibyniaeth trwy lafur ac efrydiaeth galed. Yr oedd yn byw yn gynnil o ran ymborth a gwisgoedd, a llwyddodd i ennill ysgoloriaeth yn 1757. Yr un flwyddyn, dechreuodd gymmeryd ysgolheigion, a galwyd am ei wasanaeth fel athraw cynnorthwyol yn y coleg; ac yn 1767, pennodwyd ef yn un o brif athrawon Coleg y Drindod. Yn y cyfamser, yr oedd wedi cymmeryd ei radd o wyryf yn y celfyddydau (1759), ac wedi ei enwi yn ail herlwr (*wrangler*). Dewiswyd ef yn gymmrawd o'i goleg yn 1760, a graddiodd yn athraw yn y celfyddydau yn 1762; ac ar farwolaeth Dr. Hadley yn 1764, dewiswyd ef yn unfrydol yn athraw fferyllol, a thraddododd gwrs o ddarlithiau ar y pwngc hwnw, y rhai oeddynt yn dra phoblogaidd, a chyfansoddodd amryw weithiau ar fferylliaeth. Cyhoeddodd bregeth a draddodwyd ganddo yn Nghaergrawnt o flaen y barnwr gwladol yn 1769. Yn 1771, etholwyd ef yn is-athraw duwinyddol yn y brif ysgol; cafodd gôr-berigloriaeth yn eglwys gadeiriol Ely; ac yn 1780 enwyd ef yn olynydd i Dr. Plumptre, yn archddiacon yn yr esgobaeth hono. Yn y cyfamser, cyhoeddwyd amryw o'i ysgrifeniadau; ac y mae un o honynt yn dra adnabyddus, sef ei "*Apology for Christianity,*" yr hwn a ysgrifenwyd mewn attebiad i Gibbon.

Yn Ngorphenaf 1782, dyrchafwyd ef i esgobaeth Llandaf; ond fel esgob nid oedd yn hawdd iawn i'w drin. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth ar ol ei bennodiad oedd cyhoeddi "*A Letter to Archbishop Cornwallis on the Church Revenues,*" yn annog ar fod i'r esgobaethau gael eu cyfartalu. Traddododd rai areithiau da ac effeithiol yn Nhŷ yr Arglwyddi; ond ni ddarfu iddo erioed gychwyn na hyrwyddo yn mlaen un mesur o bwys yn y senedd. Mewn gwleidyddiaeth gyffredinol yr oedd yn ochri yn fwy gyda'r blaid ryddfrydig. Tuedd cwyno a grwgnach oedd yn Watson; ac efe a ystyriai ei hun yn gwneuthur aberth er mwyn ei egwyddorion, gan ei fod yn cael ei adael, fel y tybiai efe, mewn tlodi; ond gyda'i esgobaeth, ei swydd fel athraw, ei archddeoniaeth, a'i berigloriaeth—a'r cyfan, fel yr oedd efe yn trefnu pethau, yn ddim amgen yn mron na segur-swyddau—a'r elw oddi wrth ei amrywiol weithiau llenyddol, nid oedd ei achos, dybygid, yn un a gyffroai neu a deilyngai ryw lawer o gydymdeimlad. Un o'r gweithiau goreu ydyw ei "*Apology for the Bible, in a series of Letters addressed to Thomas Paine.*" Treuliodd y rhan fwyaf o flynyddoedd olaf ei oes mewn neillduaeth ar ei etifeddiaeth yn Calgarth Park, Westmoreland, lle y bu farw ar y 4ydd o Fehefin, 1816. Yr oedd yn ddiau yn ddyn talentog, ond lled anhywaeth ei dymmer, dybygid; ac y mae yr holl bethau a ysgrifenodd yn rhy liosog i'w cofnodi yma.

WATSON, RICHARD, ydoedd dduwinydd galluog a phregethwr enwog perthynol i'r Trefnyddion Wesleyaidd. Mab ydoedd i Thomas ac Ann Watson. Ganwyd ef yn Barton-upon-Humber, yn swydd Lincoln. Brodor o Lendenham, ger llaw Lincoln, ydoedd ei dad, a mab i amaethwr parchus; ond o herwydd fod y teulu yn lliosog, ac felly nad oedd yn hawdd iddynt oll fod yn amaethwyr, dygwyd ef i fyny yn gyfrwywr. Ganwyd Mrs. Watson, mam Richard, yn Llundain; ond pan yn ieuangc, symmudodd gyda'i rhieni i Finningley, yn agos i Bawtry; yn yr hwn le y daeth yn gydnabyddus â Mr. Watson, ac yr ymunodd âg ef mewn priodas. Bu iddo ddeunaw o blant, o ba rai yr oedd Richard yn seithfed. Buont feirw yn eu mabandod oll, oddi eithr Richard, a thair chwaer iddo.

Digitized by Google

di-bwynt. Dechreuodd mor foreu a hyn hynodi ei hunan fel pregethwr hyawdl a galluog. Pregethodd yn nerthol yn erbyn y syniad nad ydyw cosp yr annuwiol i fod yn dragwyddol, ond yr adferir pawb yn y diwedd i burdeb a dedwyddwch nef. Y flwyddyn hon, talodd ymweliad â Leicester, a thraddododd bregeth alluog yno ar "Y bod o Dduw, a'i briodoliaethau." Ar ddymuniad taer swyddogion eglwysig y lle hwn, pennodwyd Watson i lafurio yno y flwyddyn ddilynol, o dan arolygiaeth y Parch. Jonathan Edmondson—dyn galluog i hyfforddi pregethwr ieuangc yn ei efrydiaethau; a bu y pennodiad o fantais a bendith i'r gwahanol bleidiau.

Yn y flwyddyn 1799, pennodwyd Watson i Derby. Yma aeth i ddadl gyda chlerigwr y lle, ac ysgrifenodd draethodyn ar 'Adenedigaeth Sacramentaidd.' Y flwyddyn ddilynol [1800] derbyniwyd ef i waith cyflawn y weinidogaeth, a phennodid ef i lafurio yn nghylchdaith Hinckley. Tra yn aros yn y lle hwn, yn ol cynghor ei gyfaill, Mr. Edmondson, yr hwn oedd yn aros mewn cylchdaith gyfagos, dechreuodd Watson efrydu yr Hebraeg. Yr oedd eisoes wedi talu sylw manwl i'r Testament Groeg. Y flwyddyn hon hefyd y cymmerodd amgylchiad le yn mywyd gwrthddrych ein hanes a barodd iddo drallod nid bychan. Cyhuddwyd ef o goleddu syniadau cyfeiliornus o berthynas i'r Drindod. Lledaenwyd y syniad am dano, a phriodolwyd iddo olygiadau na roddodd erioed iddynt ond gwrthwynebiad. Ymddygwyd yn annoeth ac angharedig tuag ato. Yn lle ei ddwyn i brawf rheolaidd, yn ol trefn y cyfundeb, cymmerodd rhai pobl â mwy o sêl na gwybodaeth ganddynt mewn llaw i weinyddu dysgyblaeth arno, trwy gau drysau eu tai a lleoedd pregethu yn ei erbyn. Archollodd hyn ei ysbryd tyner yn ddirfawr; ac yn fyrbwyll enciliodd o'r weinidogaeth, a thrwy hyny dygodd ei hunan i drallod blin. Camgymmerodd ei ffordd yn nydd profedigaeth, a gofidiai o'r herwydd tra y bu ar y ddaear. Pe y cymmerasai bwyll, gan adael ei fater i gael ei drafod gan y llysoedd priodol, y mae uwch law ammheuaeth y daethai allan yn anrhydeddus. Ond fel arall y bu; a rhaid i'r bywgraphydd a'r hanesydd gymmeryd ffeithiau fel y cânt hwy. Yn yr helynt yma bu Watson am ddwy flynedd a hanner heb lafurio fel gweinidog. Y pryd hwnw ymunodd mewn glân briodas gyda Miss Henshaw—yr hon a fu iddo yn wraig dda. Ar ol bod am yr ysbaid a enwyd allan o'r weinidogaeth, dechreuodd deithio fel gweinidog rheolaidd yn nghyfundeb y *New Connexion*. Llafuriodd gyda chymmeradwyaeth mawr yn Manchester a Liverpool; a chydnabyddwyd ei deilyngdod gan y cyfundeb hwnw trwy ei ethol mor fuan i fod yn ysgrifenydd y gynnadledd. Yn 1809, mewn canlyniad i golli gwaed o'r ysgyfaint, enciliodd o'r gwaith rheolaidd, ac aeth yn uwchrif. Yr ail gynnadledd [1810], yr oedd wedi adferu i'r fath fesur nes bod yn alluog i ymafael o'r newydd yn ei hoff waith, a phennodwyd ef drachefn i Manchester. A phennodwyd ef yr ail flwyddyn i'r un lle, ond torodd ei iechyd i lawr drachefn mewn canlyniad i golli gwaed o'r ysgyfaint. Ymddangosai yn awr yn annhebygol iawn y byddai iddo byth mwy fod yn alluog i ddioddef y llafur cyssylltiol â gwaith gweinidog teithiol; ac yn teimlo yn gynnyddol anfoddlawn yn yr olwg ar ddysgyblaeth y *New Connexion*, efe a enciliodd o'r cyfundeb hwnw, ac a symmudodd i fyw i Liverpool, gan gymmeryd ei le fel aelod cyffredin gyda y Wesleyaid. Daeth i gyttundeb gyda Mr. Kaye i fod yn olygydd y *Liverpool Courier*. Ni bu i'w ymadawiad achosi nemawr o syndod yn nghyfundeb y *New Connexion*; o herwydd fod llawer o'r pregethwyr, ac ereill o gyfeillion mynwesol Mr. Watson, yn gwybod er's amser nad oedd efe yn hoffi eu trefn. Yn fuan ar ol ei ail dderbyniad fel aelod cyffredin gyda y Trefnyddion Wesleyaidd, efe a ddywedai—"Am y tro cyntaf yn ystod yr un mlynedd ar ddeg diweddaf, y mae fy meddwl yn awr mewn gorphwysdra." Daeth yn fuan yn bregethwr cynnorthwyol; a phan y goddefai ystâd ei iechyd, byddai yn pregethu i'r gwahanol gynnulleidfaoedd yn mhrif addoldai Liverpool. Synid y gweinidogion yn ddirfawr yn yr olwg ar ei ddoniau ysblenydd; ac yn unfrydol hwy a erfyniasant arno gynnyg ei hun i'r gynnadledd ddyfodol. Eithr ofnai efe y byddai i'r ffaith iod ganddo deulu, ac yn neillduol fod cyflwr ei iechyd mor anfoddhaol, ar ffordd ei dderbyniad yn ol i'r weinidogaeth reolaidd. Modd bynag am hyny, trwy daer gymmhell efe a gydsyniodd, a chymmeradwywyd ef gan y gynnadledd.

Yn y flwyddyn 1812, pennodwyd ef i lafurio yn Wakefield. Gyda chan lleied o oediad ag ydoedd yn bossibl, efe a gyfeiriodd am faes ei lafur. Yr oedd Mr. Watson yn dra chydnabyddus gyda rhai teuluoedd yn y lle hwn, ac yr ydoedd eu hedmygiad o'i rinweddau a'u hymlyniad wrth ei berson bron yn annherfynol. E. gydlafurwr yr adeg hon ydoedd Mr. Buckley, yr hwn a wna y sylwadau canlynol am ei bregethau ar y pryd:—"Nid oedd ei bregethau bob amser yr hyn a elwir genym yn fawr: ymddangosai mawredd fel yn gogwyddo er mantais neillduol rhyw ddosbarth arbenig o'i wrandawyr; ac etto gellid dyweyd am bob un o'i bregethau fel y dywedodd rhyw broffeswr Ysgotaidd unwaith am bregeth a draddodwyd gan Mr. Wesley, 'Os nad oedd hi yn bregeth feistrolgar, nis gallai ond meistr ei thraddodi.' Tra yn llafurio ar y maes yma y traddododd Mr. Watson y bregeth nodedig a'i dygodd ar unwaith i sylw fel un o brif bregethwyr y cyfundeb Wesleyaidd, fel cyfaill ac amddiffynydd galluog i'r genhadaeth Gristionogol, ac a wnaeth Leeds, hyd y dydd hwn, yn enwog ar gyfrif ei sêl dros, a'i hymdrech o blaid y sefydliad gogoneddus hwn. Ei destyn ydoedd, "O anadl! tyred oddi wrth y pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, fel y byddont byw;" *Ezec*. xxxvii. 9. Yn yr olwg ar y bregeth hon, gwnaeth yr hybarch Thomas Jackson y sylwadau canlynol:—"Ni chafodd Mr. Watson achos i alw yn ol, na chyfnewid y syniadau a draethwyd ganddo gyda y fath hyawdledd a theimlad. Am yn agos i'r ugain mlynedd dilynol o'i oes, bu mewn gohebiaeth gysson gyda chenhadon o bob parth o'r byd; ac ni bu i'w holl ymchwiliadau a'i wybodaeth gynnyddol ond gwasanaethu i gadarnhau y golygiadau a draddododd y pryd hwn."

Yn ddilynol i gynnadledd 1814, symmudodd Mr. Watson o Wakefield i Hull—tref a anwylid ganddo ar gyfrif adgofion boreuol a dyddorol. Llafuriodd yma gyda llwyddiant a chymmeradwyaeth neillduol, gan barhaus estyn pob cynnorthwy yn ei allu i'r achos mawr oedd yn awr wedi denu ei feddwl. Yn nghynnadledd 1816, pennodwyd Mr. Watson i gylchdaith dwyreiniol Llundain. Y flwyddyn hon y daeth y "*Mynegi Cenhadol Wesleyaidd*" cyntaf allan—yr hwn a barotowyd ganddo ef. O'r adeg hon hyd derfyn

Digitized by Google

Sefydlodd y gwaith hwn ar unwaith gymmeriad yr awdwr fel duwinydd dwfn a thalentog. Dilynwyd hwn yn fuan gan weithiau ereill mwy eang, megys ei "*Theological Institutes*," a'r "*Biblical Dictionary*," y rhai a ddangosant fod ei gydnabyddiaeth â llenyddiaeth Gristionogol yn dra eang. Y mae y gweithiau hyn, yn neillduol yr "*Institutes*," wedi cymmeryd safle dra phwysig yn y cyfundeb Wesleyaidd drwy y byd. Edrychir ar hwn fel un o brif safonau athrawiaethol yr enwad. Heb law y gweithiau uchod, ac ereill, ysgrifenodd Mr. Watson lawer o erthyglau galluog i'r gwahanol gyfnodolion a berthynent i'r enwad—ac yn eu plith ddim llai na dau a deugain o adolygiadau. Wrth ystyried fod cynnifer o ddyledswyddau pwysig ganddo i'w cyflawni, y mae yn syndod ei fod wedi gallu gwneyd cymmaint yn y cyfeiriad yma. Eithr y mae yn dra thebygol fod ei orlafur wedi gosod i lawr sylfaen yr afiechyd marwol a'i dygodd ymaith, ac wedi byrhau blynyddoedd ei fywyd gwerthfawr. Gyda yr eithriad o'i "*Conversations for the Young*," trosglwyddodd hawlysgrifau ei holl weithiau i'r cyfundeb y perthynai iddo: eithr y mae cyfiawnder yn galw arnom i chwanegu fod y llyfrfa Wesleyaidd wedi gwneuthur cydnabyddiaeth anrhydeddus i'w deulu. Y fath haelfrydedd teilwng o'r ddwy ochr! Parhaodd ei lafur cyhoeddus cyhyd ag y goddefodd ei nerth. Afiechyd o'r diwedd a'i gwnaeth yn garcharor yn ei gartref, ac a arafaidd dreuliodd ei gryfder. Yn ystod yr adeg yma, modd bynag, yr oedd ei feddwl mewn heddwch mawr, a'i galon yn tawel orphwys ar ymwybodaeth o'i hawl yn Nuw. Yr oedd pob elfen a gweddnod sydd yn gwneyd i fyny gymmeriad Cristion addfed i'w canfod ynddo ef, a deuent yn fwyfwy amlwg fel y dynesai at derfyn ei daith ddaearol. Y mae dyfod i gymdeithasu â'r fath grefydd yn y fath amgylchiadau yn gryfhâd i ffydd, ac yn adfywiad i'r ysbryd. Clywch ef yn llefaru pan y mae bywyd yn cilio—"Mae poen yn fendith fawr. Y mae yn tueddu i ddadgyssylltu ein meddyliau a'n serchiadau oddi wrth y byd, a'u sefydlu ar bethau tragwyddol. Yr wyf yn teimlo ei fod y fath fendith fel nas gallaf weddïo am ei symmud ymaith. Y mae poen, tristwch, afiechyd, marwolaeth—ei amser, amgylchiadau, a'r modd—oll yn y cyfammod. Yr ydwyf yn teimlo fod marwolaeth wedi gafael ynof—ond y mae Crist yn fy nghalon. Y mae efe yn eiddo i mi, ac yr wyf finnau yn eiddo iddo yntau. Mewn gwirionedd y mae cysuron crefydd yn sylweddol a nerthol. Yr wyf yn teimlo fel pe byddwn ar gymmeryd fy lle yn ymyl rhyw orseddfaingc ogoneddus; ond yr wyf yn dymuno ymlusgo yn isel, a theimlo nad wyf ond dim. Nid ydwyf ond pryfyn tlawd ac aflan; eithr er hyny goddefir i bryfyn ymlusgo allan o'r ddaear i ardd yr Arglwydd."

Y fath ydoedd rhai o'r ymadroddion grasol a ddyferent dros ei wefusau ar derfyn byd arall! Ar ddydd Mawrth, Ionawr 8fed, 1833, pan bron yn ddeuddeg a deugain oed, newidiodd farwolaeth am fywyd. Colled fawr oedd hon i'r cyfundeb Wesleyaidd. Yn ei farwolaeth ef collodd un o'r dynion galluocaf a fagodd erioed. Mwy na hyn—yn ei farwolaeth ef cafodd llenyddiaeth Gristionogol golled. Gofidia miloedd na buasai wedi cael byw i orphen ei esboniad ar y Testament Newydd. Eithr ni chafodd ond ysgrifenu ar Matthew a Marc, a dechreu Luc; ac wrth deimlo ei nerth yn pallu, a barnu fod ei ddiwedd yn agoshau, cymmerodd i fyny yr Epistol at y Rhufeiniaid. Eithr goddiweddwyd ef gan angeu cyn iddo orphen y drydedd bennod o'r epistol gwerthfawr hwnw. Y mae yn ddiddadl fod Richard Watson wedi bod o werth ammhrisiadwy i'r Trefnyddion Wesleyaidd, a thrwyddynt hwy i'r byd. Yn ei ddyddiau diweddaf, yr oedd Rhesymoliaeth yn gweithio ei ffordd i Loegr, a syniadau penrhydd am athrawiaethau crefydd yn cynnyddu yn gyflym; ac nid oedd y cyfundeb Wesleyaidd heb deimlo oddi wrth yr awyrgylch wenwynllyd. I gyfarfod â helynt fel hyn yr oedd dyn o alluoedd deallol, ac ysbrydolrwydd meddwl Watson yn gaffaeliad uchelbris. Yn ei "*Fywyd Wesley*," yr hwn a ysgrifenwyd ganddo mewn gwrthwynebiad i waith y bardd brenhinol Southey ar yr un testyn, ceir golwg deg ar y gweddnodau ardderchog hyn a addurnent ei gymmeriad; ac nid rhyfedd i'r *Prince Regent* (wedi hyny George IV.), ddyweyd fod Mr. Watson wedi cael yr oruchafiaeth ar ei fardd brenhinol ef.

Fel amddiffyniad i ragluniaeth a gras Duw, yn erbyn honiadau athroniaeth ammheugar, y mae y gwaith hwn yn ammhrisiadwy; ac y mae yn hynod gyfaddas, dan fendith Duw, i sefydlu meddyliau pobl ieuaingc o ddysg ar y materion mwyaf pwysig ag y gellir meddwl am danynt. Bu "*Bywyd Wesley*" gan Southey am lawer o flynyddoedd allan o argraph; ac yn ystod y cyfnod hwnw dywedodd y bardd yn fynych mewn ymddiddanion cyfrinachol, fod ei olygiadau am gymmeriad Mr. Wesley wedi myned o dan gryn gyfnewidiad, ac y byddai iddo, pan ddygid allan argraphiad newydd, ddwyn iddo gyfnewidiadau tra phwysig. Addawai dynu yn ol y cyhuddiad o 'uchelgais' a wnaeth yn erbyn Mr. Wesley. Bu farw yr awdwr, modd bynag, cyn i'r addewidion hyn gael eu cyflawni, ac ymddangosodd y llyfr drachefn bron yn gwbl yn ei ffurf gyntefig.

Gwnaeth ei "*Theological Institutes*" hefyd wasanaeth gwerthfawr yn y cyfeiriad yma; sef trwy wrthweithio gogwyddiad ammheuyddol a phenrhydd yr oes. Ond prif amcan y gwaith rhagorol hwn oedd gwasanaethu fel rhyw grynodeb corpholedig o syniadau Mr. Wesley ar brif athrawiaethau crefydd; ac fel y sylwyd, y mae yn parhau o hyd fel un o safonau y cyfundeb Wesleyaidd trwy y byd. Eithr er cymmaint ydoedd Watson fel ysgrifenydd ac awdwr, nid oedd efe nemawr lai fel pregethwr. Yn wir, myn rhai mai fel pregethwr y rhagorai, ac mai "y pulpud oedd ei orseddfaingc." Ond pa fodd bynag am hyny, nid oes eisieu ei leihau yn y naill er mwyn y llall. Yn ddiau yr oedd Richard Watson yn un o brif bregethwyr ei oes, ac yr oedd ei glywed yn pregethu yn un o'r pethau mwyaf dymunol i ddynion o ddiwylliant a chwaeth. Yr oedd yr enwog Robert Hall yn edmygydd mawr o hono. Ar ol ei glywed yn pregethu ar yr Iawn unwaith yn Leicester, dywedodd Hall nas gallai am amser maith feddwl am ddim ond am bregeth Watson. Pregethodd ei sylwedd i'w gynnulleidfa ei hunan; ac am Sabbothau dilynol cymmhellai hwynt i fyned i glywed "y dyn mawr," fel y galwai efe Watson. Wrth siarad am dano gyda Theophilus Lessey, dywedodd Mr. Hall, "Y mae yn ehedeg i leoedd yn nhiriogaethau y meddwl nas gall neb ond efe eu treiddio." Bydd i'r sylwadau canlynol o waith Dr. Dixon roddi i'r darllenydd syniad lled gywir am Richard Watson fel pregethwr:—

Digitized by Google

"Gadewch i ni, gan hyny, ymdrechu i ad-alw Mr. Watson i gof y rhai a'i hadwaenent, ac i roddi rhyw feddylddrych am wasanaeth crefyddol yn cael ei gynnal ganddo ef i'r rhai na chawsant erioed y fraint hono. Bydded capel City Road, Llundain, y lle, a phregeth genhadol yr achlysur; a'r testyn, 'Pob cnawd taw yn ngŵydd yr Arglwydd; canys cyfododd o drigfa ei sancteiddrwydd." Tery yr awrlais chwech, ac allan o'r ochr-ddrws yn arwain i'r pulpud, y mae dyn tàl yn cerdded rhagddo. Y mae ei gamrau yn bwyllog ac esmwyth: nid ydyw yn taflu golwg lladradaidd o'i amgylch, eithr ä yn mlaen yn uniongyrth i le gweddi a phrophwydoliaeth fel un heb ddim yn ei feddwl ond meddylddrychau am Dduw, a'i genadwri. Y mae ei wynebpryd yn dawel, ond braidd yn wridgoch—ac nid yn amddifad o bryder. Esgyna ar hyd grisiau y pulpud, y mae pob llygad yn craffu arno; ar wynebpryd y gynnulleidfa gartrefol, canfyddir gwenau hyfrydwch yn argraphedig; tra y mae y dyeithriaid, gyda chwilfrydedd dwfn, yn estyn allan eu gyddfau, ac yn agor eu llygaid, er ceisio cael golwg deg arno—yna yn sisial y naill wrth y llall, yna yn eistedd drachefn ar eu heisteddleoedd, fel pe yn dywedyd, 'Gwir yw yr hanes.' Ar ol esgyn i'r pulpud, ymostynga ei ffurf fawreddus mewn gweddi, ac y mae wedi ei golli o olwg y gynnulleidfa am rai munydau. Nid yw hyn yn ymddangos yn waith difeddwl, yn ddefod, a chysgod; ymddengys ei fod mewn gwirionedd yn ymwneyd â Duw, ei fod yn ddwfn ystyriol o fawredd cyfrifoldeb ei sefyllfa, a'i fod yn ddifrifol geisio cynnorthwy dwyfol. Ar ol i hyn yma fyned heibio, saif y pregethwr ar ei draed, a phersonola ei hunan yn deg i'w gynnulleidfa. Ni chuddir cyfesuredd ei berson gan ŵn:—ceir golwg llawn ar ei ffurf. Y mae meddylgarwch yn argraphedig ar ei wynebpryd; eithr nid oes gyffro, nid oes gewynol ddirdyniad. Y mae yr holl gorph yn esmwyth, a phob aelod yn symmud yn naturiol: y mae lledneisrwydd yn mhob ystum, ac nid oes yma gysgod o rodres. Yn ddiau y mae y dyn yma yn deall ei alwedigaeth, ac yn feistr ar ei waith. Agorir y llyfr hymnau, ac ä yr addoliad yn mlaen. Eithr beth yw hyn? Nid oeddym erioed o'r blaen yn deall yr hymnau hyn. Y maent yn fyw—llefarant—mae iddynt feddwl—dadguddiant bethau cyssegredig; tân, ysbryd, difrifoldeb sydd ynddynt; y maent yn farddonol, tarawant ein dychymyg, deuant adref at ein ffydd, treiddiant drwy ein heneidiau. Yn ddiau, dyma addoli! Canfyddir dirgelwch hyn yma:—y mae enaid y pregethwr yn myned i'r hymn, yn cyffwrdd y teimlad, yn rhoddi ysbrydoliaeth i'r syniadaeth, yn dwfn argraphu meddwl pob sill, ac yn trwytho yr oll â'i ysbryd ei hun. Chwanega ei lais at y dylanwad: y mae yn glir, llawn, dwfn, soniarus, wedi ei gynghaneddu yn dda, a'i seiniau tyneraf yn cael eu cyfnewid am fâs dwfn. Dechreua y weddi—ïe, dechreua gyda phwyll mawr. Y mae y teimlad addolgar yn amlwg, ac y mae yn effeithio ar yr holl gynnulleidfa. Ni chlywir twrf—mae'r cwbl yn dawel ac ansymmudol. Ychydig yw y geiriau, ac y mae y rhai hyny ar y cyntaf yn cael eu llefaru yn arafaidd, eithr y mae pob gair yn cynnwys meddwl. Cynnydda y meddyliau hyn fel yr ä efe rhagddo, ac fel y cynnyddant ymddangosant fel pe byddent yn eangu y golygfeydd, ac yn dyrchafu y teimladau. Nid hyawledd yw—y mae yn fwy na hyny: cydymdeimlad ydyw, cariad yw—ïe, ffydd ydyw. Y mae y pregethwr yn cael ei orchfygu—ac y mae y bobl yn cael eu gorchfygu, a phob calon yn teimlo. Cyfnewidia ymddangosiad y pregethwr—a chyfnewidia ymddangosiad y bobl. Y mae y pregethwr o hyd yn dawel a hunanfeddiannol; eithr edrycher ar y llygad acw, sylwer ar y gwefusau yna yn crynu, gwrandawer ar y llais. Pa beth yw hyn? Y mae wedi cael cipdrem ar Galfaria, ar fyd ysbrydol, ar dragwyddoldeb; ac yn awr y mae ei feddylddrychau wedi eu cymmysgu gydag elfen newydd o fywiol ffydd. Dyma y bregeth yn dyfod o'r diwedd. Y mae yr ymresymiad yn eglur, ond yn gynnyddol. Dilynir meddylddrych gan feddylddrych—yr oll yn briodol, a'r olaf bob amser yn fwy nerthol na'i flaenorydd. Eithr y mae yma fwy na meddwl noeth. Dechreua athrylith gynneu; fflachia mellten ar ol mellten, ffugrau, arwyddluniau, nid fel darnau parotöedig, eithr fel syniadau byw ymffurfiol yn cael eu bwrw allan ar y pryd i gorph y bregeth, yr hon a fuasai yn gyflawn hebddynt; neu fel sêr yn y nwyfre bur, yr hon sydd yn berffaith yn ei symlrwydd ei hunan. Daw prydferthion allan o deimlad dwfn. Daw rheswm cyffröedig yn farddonol; ac er fod y bregeth wedi dechreu mewn rhyddiaith, terfyna mewn barddoniaeth. Ceidw y rheswm ei le trwy yr oll fel llwybr yr enaid yn ei fynediad yn mlaen; ond y ffordd yw yr unig beth yr edrychir am dani: defnyddir y nefoedd uchod a'r ddaear isod er perffeithio y darlun. Cyfrodeddir teimlad gyda phrydferthwch ac arucheledd; ac o holl neillduolion Mr. Watson, teimlad ydoedd y lledneisiaf. Ni wylodd yr adeg hono, nac ar un adeg arall: ni byddai byth yn wylo. Ni ddangosai ei deimlad chwaith mewn ocheneidiau, griddfanau, na bloeddiadau—ni byddai byth yn bloeddio. Ni chanfyddid ynddo ystumiau eithafol neu symmudiadau ffyrnigwyllt—ni byddai byth yn actio. Na: ni cheid yma ddim ond teimlad syml, tyner, llednais, a dwfn o galon. Ymgymmysgai y teimlad hwn gyda'i eiriau, y rhai a ddeuent allan mor dawel a thyner ag awel yr hwyr. Gwanycha y tân, peidia fflachiadau athrylith, a darfu ehediadau uchel y dychymyg; rhoddodd yr areithydd heibio ei attyniadau perlewygol, ac ymddengys y galon fel wedi ei darostwng i guriad serchog calon plentyn."

Wedi rhoddi fel hyn ddarluniad Mr. Dixon o Mr. Watson fel pregethwr, terfynir ein hanes gyda dyfyniad o sylwadau y Parch. R. Wrench arno fel duwinydd ac ysgrifenydd:—

"Fel duwinydd meddylgar, cyferbynir ef i John Howe. Cyd-deithia y ddau gyda yr un camrau sefydlog dros diriogaethau duwinyddiaeth; ond tra yr oedd Watson yn gyfartal i Howe mewn eangder, ardderchawgrwydd, a mawredd; mewn cyflawnder meddwl, ymresymiad—pan yn amddiffyn Cristionogaeth yn erbyn twyll-resymau a gwrthddadleuon anghredinwyr—yr oedd efe yn rhagori ar Howe, ac yn ddirfawr felly yn mhrydferthwch cyfansoddiad. Cyffyrdda â ffugrau gyda medr nodedig. Gŵyr pa bryd i ddisgyn ar flodeuyn, i sugno y rhan oreu o'r neithdar, ac i ehedeg ymaith drachefn gan chwim deithio trwy yr awyr gydag adenydd ysgarlad, gyda yr unig fwriad o gasglu mêl. Nid ydyw byth yn gwaghau cymmhariaeth; ac a barnu wrth amrywiaethau ei gyfeiriadau cyffelybiaethol a'i ddarluniadau, ymddangosai fel pe byddai ei feddwl ffrwythlawn yn ddihysbydd."

WATTS, ISAAC, D. D.: bardd cyssegredig, a duwinydd enwog, a anwyd yn Southampton, ar yr 17eg o Orphenaf, 1674. Yr oedd ei dad, Isaac Watts, yn athraw mewn ysgol dra blodeuog yn y dref hono, yr hon oedd mor uchel ei chymmeriad fel yr anfonid meibion boneddigion o'r America a'r India Orllewinol i dderbyn eu haddysg ynddi. Yr oedd Isaac Watts, y tad, yn ŵr duwiolfrydig, yn Gristion diargyhoedd, ac yn ddiacon ffyddlawn a gwasanaethgar mewn eglwys Annibynol yn y dref. Carcharwyd ef fwy nag unwaith o herwydd ei Anghydffurfiaeth; ac yn ystod ei garchariad, gwyddys i'w wraig fod yn eistedd ar gareg ger llaw drws y carchar, yn rhoddi ei bron i'w mab, Isaac. Dechreuodd Isaac ieuangc ddysgu Lladin pan yn bedair blwydd oed; a gwnaeth y fath gynnydd yn yr iaith hono, yn gystal ag yn y Groeg, o dan glerigwr o'r enw Pinhorne, fel yr oedd yn wrthddrych sylw cyffredinol yr holl gymmydogaeth.

Digitized by Google

Yn 1690, anfonwyd ef i Lundain i gael ei addysg athrofaol, o dan ofal y Parch. Thomas Rowe; ac yn 1693, yn y bedwaredd flwydd ar bymtheg o'i oedran, efe a ymunodd â'r eglwys oedd o dan ofal gweinidogaethol ei athraw. Yr oedd efe yn hoff o gyfansoddi barddoniaeth er yn ieuangc; ond nid oedd ei dad yn cymmeradwyo hyny, a bygythiai ei geryddu os na adawai heibio y gwaith o gyfansoddi pennillion ac ysgrifenu llawer ar ddull barddonol. Ac un diwrnod, pan ynghylch rhoddi ei fygythiad mewn grym, torodd y plentyn allan i wylo, disgynodd ar ei liniau, a dywedodd—

"Pray, father, do some pity take,
And I will no more verses make."

Nid oedd efe yn gwneuthur hyn o fwriad; ond llefarai heb ystyried ei fod hyd yn oed yn troseddu wrth ofyn maddeuant. Gwelodd ei dad oddi wrth hyn mai dyma ei dueddfryd naturiol, ac ni waharddodd ef mwy—gan adael i amser ddangos pa beth a ddeuai o hono; a gwnaeth yn ddoeth hefyd.

Ymdrechodd yn galed am wybodaeth hefyd pan yn ieuangc. Arferai yn gyffredin dalfyru y gweithiau a ddarllenai, fel drwy hyny y gallai y wybodaeth a gasglai wneyd argraph ddyfnach ar ei feddwl. Yr oedd ei osodiadau (*thesis*) Lladinaidd, y rhai a ysgrifenwyd ganddo pan yn ieuangc, yn rhagorol.

Ar ol i Watts orphen tymmor ei addysgiaeth athrofaol, a phan yn ugain mlwydd oed, efe a ddychwelodd i dŷ ei dad i Southampton—lle y treuliodd ddwy flynedd yn darllen, yn myfyrio, ac yn gweddïo:—darllenai, mewn trefn i ddyfod i feddiant o wybodaeth helaethach; myfyriai, fel y gallai gymmeryd golwg gyflawn a defnyddiol ar byngciau a thestynau cyssegredig, a gwneyd yr hyn a gaffai trwy ddarllen yn feddiant iddo ei hun; a gweddïai, er mwyn cael y dylanwadau dwyfol i'w ddarparu ar gyfer y gwaith yr oedd wedi penderfynu treulio ei fywyd i'w gyflawni —pwysigrwydd yr hwn a wasgai yn ddwys ar ei feddwl. Ar ol treulio dwy flynedd fel hyn yn nhŷ ei dad, gwahoddwyd ef gan Syr John Hartopp, barwnig, i ddyfod i breswylio yn ei dŷ ef yn Stoke Newington, ger llaw Llundain, fel athraw i'w fab, lle yr arosodd efe am bum mlynedd; a thrwy ei ymddygiad gweddaidd, efe a ennillodd iddo ei hun y fath barch ac edmygedd fel y gosodwyd i lawr sylfaen cyfeillgarwch rhyngddo ef a'i ddysgybl, yr hwn a barhaodd ar hyd ei holl fywyd. Ond tra yr oedd yn cynnorthwyo Mr. Hartopp yn ei efrydiau, nid oedd yn esgeuluso ei efrydiau ei hun; o herwydd nid yn unig efe a gynnyddodd yn fwy yn 'y pethau y llafuriai y boneddwr ieuangc ynddynt, ond efe a ymroddodd i ddarllen yr Ysgrythyrau yn yr ieithoedd gwreiddiol, ac hefyd i ddarllen yr esboniadau goreu—beirniadol ac ymarferol.

Dechreuodd Watts bregethu yn 1698, pan yn bedair ar hugain oed; a'r un flwyddyn, dewiswyd ef i gynnorthwyo Dr. Isaac Chauncy, fel gweinidog yr eglwys a ymgyfarfyddai yn Mark Lane, Llundain. Ond rhoddwyd attalfa ar ei lafur cyhoeddus, yr hwn oedd yn hynod dderbyniol, gan afiechyd trwm, a barhaodd am bum mis—afiechyd y tybid iddo gael ei ddwyn o amgylch gan danbeidrwydd ei sel yn pregethu yr efengyl. Ni ddarfu i'w gystudd, pa fodd bynag, ei ddigaloni rhag adnewyddu y gwaith y teimlai gymmaint o hyfrydwch ynddo, mor fuan ag y gwelodd yr Arglwydd yn dda i adferu ei iechyd. Yn mis Ionawr, 1702, derbyniodd Watts alwad oddi wrth yr eglwys i fod yn olynydd i Dr. Chauncy, ac arwyddodd yntau ei gydsyniad—ar y dydd y bu farw y brenin William III., sef yr 8fed o Fawrth, 1702, er mor dywyll oedd yr olwg ar bethau i weinidogion Anghydffurfiol, ac yn wir i'r Ymneillduwyr yn gyffredinol, yn nwyneb y digwyddiad. Ond yr oedd efe wedi gosod ei law ar yr aradr, ac ni fynai ei thynu yn ol; ac o ganlyniad, efe a neillduwyd yn gyhoeddus i'r weinidogaeth ar y 19eg o'r un mis. Ond cafodd llawenydd yr eglwys, o herwydd sefydliad gweinidog mor alluog a rhagorol, ei chwalu yn fuan, o blegid iddo ef gael ei ddal gan gystudd trwm a phoenus, fel y bu raid iddo roddi heibio ei waith am ysbaid; ac yn raddol, ymadferodd. Gwelodd yr eglwys fod yn angenrhaid cael cynnorthwywr sefydlog iddo; ac felly, dewiswyd y Parch. Samuel Price at y gwaith hwn yn mis Gorphenaf, 1703. Ond er fod llafur cyhoeddus Watts drwy hyn wedi ei ysgafnhau yn fawr, etto parhau yn anwadal yr oedd ei iechyd am rai blynyddoedd. Aeth yn mlaen, pa fodd bynag, heb lawer o attalfeydd yn ei waith; ac yr oedd yr eglwys yn llwyddiannus iawn, hyd y flwyddyn 1712, pan y tarawyd ef i lawr gan dwymyn drom, yr hon a ammharodd ei gyfansoddiad, ac a wnaeth y giau yn weiniaid; ac i ryw raddau, yr oedd y gwendid yn ei ddilyn drwy ei oes wedi hyn. Yn Mawrth, 1713, dewisodd yr eglwys Mr. Price i fod yn gydweinidog âg ef, mewn canlyniad i wendid mynych a pharhaus Watts. Rywbryd wedi hyn, symmudodd Watts i fyw i deulu Syr Thomas Abney, a pharhaodd yno hyd ddydd ei farwolaeth—cyfnod o ddim llai nag un ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd.

Y mae y rhan fwyaf o'i weithiau yn dduwinyddol, ac yn ymdrin â'r materion mwyaf pwysig a defnyddiol. Nid ychydig oedd y sylw a dalai efe i blant, ac ymdrechai lawer er eu lles—fel y dengys ei ganeuon a'i holwyddoregau ar eu cyfer hwynt yn neillduol. Yr oedd yr elfenau hyny sydd mor hanfodol i gymmeriad gwir dda, sef cywirdeb a diffuantrwydd, yn dyfod i'r golwg yn amlwg iawn yn Watts. Nid oedd un amser yn dangos, yn ei ymddiddan na'i ymddygiadau, ei fod yn meddu syniad uchel am dano ei hun. Nid oedd un amser yn ymddwyn tuag at rai israddol iddo gyda diystyrwch; ac nid ydoedd yn hunandybus a meistrolgar yn ei gyfeillach. Nid oedd ei wedd, ei ysgogiad, na'i ddull o lefaru yn bradychu mewn un modd ymwybodolrwydd o'i alluoedd ysblenydd. Er cymmaint oedd ei dalentau fel bardd, ac er y gymmeradwyaeth anghyffredin a dderbyniodd ei weithiau, efe a lefarai gyda golwg ar ei gyfansoddiadau barddonol yn yr iaith fwyaf gostyngedig. "Nid wyf yn gwneyd unrhyw honiad," medd efe, "i'r enw o fardd, neu ysgrifenydd coethedig, yn y fath oes a hon, pan y mae cynnifer o ddynion yn disgleirio yn eu gweithiau yn mysg y genedl."

Pan yr ymddangosai yn yr areithfa, byddai ganddo gynnulleidfa hynod barchus a difrifol. Er nad oedd yn arfer ond ychydig neu ddim ystumiau areithyddol, etto yr oedd gwythien gyfoethog o synwyr cryf ac addysg fuddiol yn rhedeg drwy yr oll a ddywedai; yr oedd y fath briodoldeb, esmwythder, a thlysni yn ei iaith; y fath ryddid, ac ar yr un pryd, y fath gywirdeb yn ei barabliad, yn cael eu dilyn gyda'r fath ddifrifwch dirodres yn nhraddodiad y gwirioneddau mwyaf pwysig a chyssegredig, fel yr oedd ei weinidogaeth yn dra chymmeradwy: mewn gair,

Digitized by Google

yr oedd ganddo eglwys liosog, ac yr oedd ei gapel yn orlawn. Yn y flwyddyn 1728, darfu i brif athrofeydd Edinburgh ac Aberdeen, yn y modd mwyaf anrhydeddus, yn ddiarwybod iddo ef, ei enwi yn ddoctor mewn duwinyddiaeth. Yn 1748, yr oedd arwyddion yn ymddangos fod bywyd Watts yn tynu tua'r terfyn. Yn ei gystudd diweddaf, rhoddodd brawf o ragoriaeth ei egwyddorion a dyfnder ei dduwioldeb yn yr amynedd a'r sirioldeb meddwl a amlygai, a'r boddhâd rhyfeddol gyda yr hwn yr edrychai yn mlaen at ddydd ei ymddattodiad. Y mae yn ofidus dyweyd i ymddygiadau rhai perthynasau agos iddo chwerwi rhyw gymmaint ar ei fisoedd diweddaf. "Mae yr Arglwyddes Abney," ysgrifena un at Dr. Doddridge, "yn ei gadw mewn anwybodaethau tawel, a'i elynion mewn pellder priodol, fel, yn nghanol yr erledigaeth annheilwng yma, y mae yn byw yn gysurus: a phan y gofynodd cyfaill iddo pa fodd yr oedd yn teimlo, attebodd—'Yr wyf yn disgwyl caniatâd Duw i farw!'" Fel hyn y bu farw y dyn mawr a da hwn mewn "gobaith gwynfydedig," ar y 25ain o Dachwedd, 1748, yn y 75ain mlwydd o'i oed. Claddwyd ef yn nghladdfa Bunhill Fields, Llundain; lle y gorphwys hefyd weddillion lliaws o'r Anghydffurfwyr enwocaf. Cafodd gladdedigaeth parchus, a daeth tyrfa fawr o bobl ynghyd i amlygu eu parch i goffadwriaeth yr hwn a edmygent mor fawr. Traddododd Mr. Samuel Chandler araeth wrth lan y bedd, a chyfododd yr Arglwyddes Abney a Syr John Hartopp gofadail hardd ar ei feddrod; ac y mae y lliaws o bregethau angladdol iddo a draddodwyd, ac a gyhoeddwyd, yn dangos y syniadau uchel a feddai ei frodyr Ymneillduol am dano.

Fel bardd cyssegredig, ac fel cyfansoddwr hymnau, y mae enw Watts yn parhau yn glodfawr; ac yn sicr o barhau felly. Ymddengys iddo ddechreu ar y gwaith o gyfansoddi hymnau pan oedd yn dra ieuangc. Nid oedd y rhai a genid yn yr addoldy lle y gwasanaethai ei dad fel gweinidog wrth fodd y bardd ieuangc, ac arferai gwyno wrth ei dad o blegid hyny. Gofynodd ei dad iddo geisio gwellhau pethau: a gwnaeth yntau hyny—ac mor dda hefyd fel y gofynwyd ganddo am ail emyn, a thrydedd, a phedwaredd, nes mewn amser yr oeddynt wedi chwyddo yn gyfrol fechan. Ac yr oedd y nifer liosocaf o'r emynau hyn wedi eu hysgrifenu ganddo cyn ei fod yn ddwy ar hugain oed. Er fod rhai hymnau da i'w cael cyn ei amser ef, etto, gellir dywedyd mai tra diffygiol oeddynt ar y cyfan, pan y dechreuodd Watts gyfansoddi; a digon priodol y dywedodd y diweddar James Montgomery, "Gellir dywedyd iddo ymadael mor bell oddi wrth bob peth oedd wedi ei gyfansoddi yn y ffordd hon o'r blaen, fel nad oes ond ychydig o'i gyfansoddiadau yn ymdebygu i'r eiddo ei ragflaenoriaid; ac fe ddarfu iddo sefydlu rheol i'w holl olynwyr, yr hon nid oes neb wedi cilio oddi wrthi, ond yn unig yn ol fel y byddo ansawdd meddwl yr ysgrifenydd, a'r dull o osod allan wirioneddau Cristionogol yn yr enwad y perthyna y cyfansoddwr iddo." Diau fod salmau a hymnau yn cael eu canu yn yr eglwys yn wastadol er y pryd y canai Paul a Silas hwynt yn ngharchar Philipi, ac y cyfarfyddai Cristionogion Milan i ganu hymnau yr enwog Ambrose. Ychydig yr oedd Eglwys Rhufain wedi ei wneuthur er diwyllio yr emyn Gristionogol. Ond gwnaeth Watts hymnau yn dra phoblogaidd yn Lloegr; ac yn Nghymru hefyd, cyfieithwyd llawer o'i emynau ef. Dilynwyd ef gan liaws—yn enwedig gan Charles Wesley, Cowper, Toplady, a Newton. Mewn gwirionedd, Watts oedd diwygiwr mawr salmyddiaeth yn mysg Anghydffurfwyr Lloegr; a chenir ei hymnau nefolaidd yn ddiau tra y bydd yr iaith Saesnig mewn bod.

Y mae hi yn ffaith hynod fod Watts wedi ei godi gan Ragluniaeth i roddi emynau i'r Saeson, a Williams o Bant-y-celyn i wneuthur yr un peth i'r Cymry, o fewn ychydig flynyddoedd i'w gilydd, ac na chododd neb o hyny hyd heddyw yn deilwng i'w cystadlu a hwynt fel emynwyr.

Ysgrifenodd a chyhoeddodd Watts lawer mewn rhyddiaeth; ac y mae yn amlwg oddi wrth y cyfansoddiadau hyn ei fod yn perchen meddwl a theimlad bardd. Ac y mae amryw o honynt wedi bod yn hynod boblogaidd mewn amser a aeth heibio, ac yn enwedig ei "*Improvement of the Mind;*" "*Logic;*" "*The World to Come;*" yn gystal a'i bregethau.

WATT, JAMES: gwyddonydd a pheiriannydd enwog. Ganwyd ef yn Greenock, Ysgotland, ar y 19eg o Ionawr, 1736. Yr oedd ei hen daid yn amaethu ei etifeddiaeth fechan ei hun yn swydd Aberdeen, a lladdwyd ef yn un o'r brwydrau a ymladdodd Montrose, ac attafaelwyd ei eiddo gan y blaid a orchfygodd—yr hyn a wnaeth ei fab, Thomas, yn ddibynol ar ofal perthynasau pell iddo. Yr oedd Thomas yn efrydydd caled; a phan y daeth yr amserau yn dawelach, efe a ymsefydlodd yn Greenock fel dysgawdwr mesuroniaeth a morwriaeth; ac yno y bu efe farw, yn y fl. 1734, yn ddeuddeg a phedwar ugain oed. Cadawodd Thomas Watt ddau fab ar ei ol; sef, John a James. Dilynai y blaenaf alwedigaeth ei dad; ond bu farw yn 1737, a gadawodd ar ei ol argraphlen (*chart*) o'r afon Clyde; yr hon a gyhoeddwyd o dan arolygiaeth ei frawd ieuangach—sef, tad y peiriannydd mawr, gwrthddrych y cofiant hwn. Bu y person hwn yn adeiladydd ac yn farsiandwr, ac am fwy nag ugain mlynedd yn aelod o'r cynghor trefol, yn drysorydd, ac yn geisbwl Greenock; ac yr oedd yn glodfawr am ei sêl a'i ymroddiad yn nghyflawniad ei ddyledswyddau, a'i gefnogiad o bob gwelliantau cyhoeddus. Yr oedd wedi dyfod yn berchenog ar gryn eiddo; ond collodd rhyw gyfran o hono o herwydd fod rhyw anturiaethau o'i eiddo wedi troi allan yn aflwyddiannus. Cymmerodd ei farwolaeth le yn y fl. 1782, yn bedwar ugain a thair blwydd oed. Boneddiges o'r enw Muirhead oedd ei wraig, a mam gwrthddrych yr erthygl hon.

Plentyn egwan oedd James o'i febyd; ac yn wir, y pryd hwnw yr oedd ei iechyd mor wael fel y cafodd y rhan gyntaf o'i addysg gartref, er iddo fod am beth amser mewn ysgol elfenol gyhoeddus yn Greenock. Yr oedd ei afiechyd yn ei gyfyngu i'w ystafell yn fynych; ac ymddengys i hyn ei arwain i ddiwyllio ei feddwl gydag ymroddiad anarferol; a mynegir amryw ffeithiau am dano, sydd yn dangos mai nid plentyn cyffredin oedd efe. Dangosodd yn foreu duedd gref at rifyddiaeth a mesuroniaeth. A thua'r flwyddyn 1750, neu yn fuan wedi hyny, difyrai ei hun trwy wneyd peiriant trydanol; ac yn ol hanesyn cywrain a adroddir am dano gan Arago, ymddengys fod y pwngc mawr y darfu iddo ar ol hyny anfarwoli ei hun mewn cyssylltiad âg ef eisoes yn destyn myfyrdod i'r athronydd ieuangc. Ymddengys i'r hanesyn canlynol gael ei adrodd i Arago gan aelod o deulu Watt.

Digitized by Google

Ymddengys y chwedl yn wahanol mewn gwahanol gyfieithiadau, ond y mae mewn effaith fel y canlyn:—Darfu i'w fodryb, Mrs. Muirhead, yr hon nid oedd yn mabwysiadu yr un farn a'i dad am alluoedd y bachgen, ei geryddu un prydnawn wrth fwrdd y tê am yr hyn a ymddangosai iddi hi yn ddiogi a diofalwch; sef ei waith yn codi cauad y tegell, ac yn ei roddi i lawr eilwaith; weithiau yn dal cwpan, a phryd arall lwy arian, uwch ben yr ager, gan edrych yn ddyfal ar yr ager yn diangc allan drwy y pig; a chyfrif y dyferion a adewid ar ol wedi iddo oeri. Gyda'r goleuni chwanegol a geir oddi wrth ei hanes dyfodol, gellir edrych ar y bachgen yn syn-fyfyrio uwch ben y tegell, fel y sylwai ei fywgraphydd Ffrengig, fel y peiriannydd mawr megys yn rhagweled y darganfyddiadau hyny a'i hanfarwoli ar ol hyny.

Gadawyd James at ei ryddid i ddewis yr alwedigaeth a ewyllysiai, yn ol ei dueddfryd ei hun; ond yr oedd amrywiaeth ei dalentau yn peri fod hyn yn lled anhawdd iddo. Wrth grwydro ar hyd glenydd Loch Lomond, ac yn mysg mynyddoedd ei wlad enedigol, yr oedd ei sylw wedi ei ddwyn at fwnyddiaeth a daeareg. Fferylliaeth oedd ei hoff efrydiaeth pan y byddai yn cael ei gyfyngu i dŷ ei dad gan afiechyd. Darllenodd lawer hefyd ar feddyginiaeth a physigwriaeth. Ond gadawodd Watt yr holl efrydiau hyn, ac ymroddodd i'r alwedigaeth o wneuthur offerynau mesuronol. Daeth i Lundain gyda'r amcan hwn pan yr oedd tua deunaw oed; ond gorfodwyd ef i ddychwelyd adref yn mhen o ddeutu blwyddyn, o herwydd gwaeledd ei iechyd. Yn fuan ar ol dychwelyd o Lundain, ymdrechodd i'w osod ei hun i fyny yn yr alwedigaeth yn Glasgow; ond o herwydd nad oedd yn fwrdais, cyfarfu â gwrthwynebiad oddi wrth gorphoraethau y celfyddydau, y rhai a ystyrient ei fod yn sathru ar eu tiriogaeth briodol hwy; a gwrthodwyd iddo gael codi y gweithdy lleiaf yno. Tynwyd ef o'r anhawsder hwn, pa fodd bynag, gan awdurdodau y brifysgol; yr hon nid oedd o dan awdurdod swyddogion y ddinas. Cafodd gynnyg ar le o fewn eu terfynau hwy, a chaniatawyd iddo agor masnachdy yno. Cymmerodd hyn le o ddeutu y fl. 1757, pan nad oedd Watt ond prin un ar hugain oed; ac ymddengys mai ei gyfeillion penaf o aelodau y brif ysgol oeddynt Adam Smith, Dr. Black, Robert Simson, a Dr. Dick. Daeth masnachdy Watt yn fuan yn gyrchfan i rai o'r gwyddonwyr enwocaf yn y ddinas hono. Dywed ei gyfaill, y proffeswr Robison, pan y daeth i gydnabyddiaeth gyntaf â Watt, iddo gael ei feddiannu â syndod. Disgwyliodd ei gael yn weithiwr deallus—ond cafodd ef gyda hyny yn athronydd. Er nad oedd efe yn hynach nag yntau, yr oedd yn ddyn oedd yn ewyllysgar ac yn alluog i'w ddysgu ef, neu unrhyw efrydydd a ddigwyddai fod mewn dyryswch. Nid oedd eisieu dim ond ei gyffroi i gymmeryd i fyny unrhyw bwngc na byddai iddo ei feistroli yn rhwydd. Dywed Robison iddo ddysgu yr Almaenaeg er cael y fantais o ddarllen "*Theatrum Machinarum*" Leupold, am ei fod yn ymdrin â rhyw fater oedd yn destyn ei efrydiaeth ef; ac am reswm cyffelyb efe a astudiodd yr Italaeg wedi hyny. Heb esgeuluso ei waith y dydd, yr oedd Watt yn defnyddio ei nosweithiau i efrydu yn galed; a pho fwyaf o anhawsder a amgylchynai y pwngc—os byddai yn werth gwneyd ymdrech—mwyaf aiddgar yn y byd y byddai yntau yn ei ddilyn yn mlaen. Er egluro y nodwedd yma o'i feddwl, mynegir ei fod wedi ymgymmeryd â gwneyd organ, er y dywedir nad oedd mewn un modd yn ddarostyngedig i swyn cerddoriaeth, nac yn alluog i wahaniaethu y naill nodyn oddi wrth y llall. Dywedir hefyd yn mhellach fod yr organ hon yn offeryn rhagorol.

Bu yn dwyn ei fasnach yn mlaen yn y man y caniatawyd iddo gan y brifysgol hyd y fl. 1763. Lle gwael, o angenrheidrwydd, oedd yno i gario yn mlaen fasnach, o herwydd anfanteision y lle; ac heb law hyny, ychydig o alw oedd yn Glasgow ar y pryd am yr offerynau a wnai efe; ac o herwydd hyn, o'r braidd yr oedd Watt yn gallu gwneyd bywoliaeth gysurus. Trwy ei briodas gyda Miss Miller, merch i fwrdais, cafodd ymwared o'r anfantais o fod dan orfod i ddwyn yn mlaen ei orchwylion o fewn tiriogaeth y brifysgol. Wedi dyfod yn fwrdais ei hun, efe a gymmerodd fasnachdy yn y Salt-market; a bu raid iddo gael cynnorthwywr yn fuan i gario ei orchwylion yn mlaen. A chafodd wasanaeth ei egwyddorwas rhagorol, John Gardiner. Yn chwanegol at ei orchwyl fel gwneuthurwr offerynau mesuronol, rhoddodd Watt lawer o'i amser at y gwaith o fesur tir, ac arweiniodd hyn ef i ddefnyddio ei dalentau rhagorol mewn gorchwyl pwysicach, sef peirianyddiaeth ddinesig (*civil engineering*). Yn y fl. 1767, defnyddiwyd ef i wneyd mesuriadau, ac i ddarparu amcangyfrif o'r draul, am wneyd camlas i uno yr afonydd Forth a'r Clyde. Nis gallesid cario allan y gwaith hwn ar y pryd, gan y methwyd cael caniatâd y senedd i hyny; ond yr oedd Watt yn awr wedi dechreu gweithio o ddifrif fel peiriannydd dinesig, ac o hyny allan cafodd lawer i'w wneyd yn y cyfeiriad hwn. Gwnaeth fesuriadau i amryw gamlesydd, a chynlluniau i wellhau porthladdoedd Ayr, Port-Glasgow, a Greenock, ac i ddyfnhau y Forth a'r Clyde, ac afonydd ereill. Un gwaith a ymddiriedwyd iddo oedd penderfynu pa un ai trwy Crinan, ynte trwy Tarbert, oedd y ffordd oreu i fyned â chamlas y bwriedid ei gwneyd o Gyfyngfôr y Clyde i'r Cefnfôr Gorllewinol. A'r olaf—a'r fwyaf o'r anturiaethau o'r natur yma y bu ganddo law ynddynt—oedd mesur a gwneyd amcangyfrif o gôst camlas o Fort William i Inverness; gwaith a wnaed wedi hyny ar raddeg helaethach gan Telford. Mynegir fod ei adroddiadau yn nodedig am eu manylder a'u cywirdeb. Yn 1773, bu farw ei wraig gyntaf; ac yn fuan ar ol hyn, efe a benderfynodd gymmeryd cynghor ei gyfaill, Dr. William Small, o Birmingham, a derbyn gwahoddiad oddi wrth Matthew Boulton, Soho, ger llaw Birmingham, i ymsefydlu yn Lloegr.

Rhaid i ni yn awr fyned ychydig yn ol yn ei hanes. Tra yn preswylio o fewn terfynau coleg Glasgow, ac yn cyfathrachu yn feunyddiol â'r athrawon, yn cael cyfleusdra i ddarllen y llyfrau goreu, a chanddo gryn amser ar ei law, a'i awydd am wybodaeth yn angerddol, ac yn teimlo dyddordeb bywiog mewn dyfeisiau newydd mewn peiriannyddiaeth, yr oedd wedi bod yn efrydydd diwyd mewn gwyddoniaeth, ac yn dwyn yn mlaen arbrawfiadau (*experiments*) yn mherthynas i gymmhwyso gwyddoniaeth at ddybenion celfyddydol. Yr oedd ei sylw wedi ei dynu mor foreu a 1759—mewn canlyniad i ymddiddan a fu rhyngddo a'i gyfaill Mr. Robison—at alluoedd ager fel allu ysgogol (*motive force*). Yr oedd Robison yn tybied y gallai

Digitized by Google

pwysau ager droi olwynion cerbydau; ond nid ydyw yn ymddangos ei fod ef, na Watt, wedi gwneyd ymgais i gario allan y syniad hwn. Pa fodd bynag, gwnaeth Watt gyfres o arbrawf-iadau ar rym ager, gan ddefnyddio treuliedydd (*digester*) Papin i'w gwneyd. Nid ydyw yn ymddangos fod yr arbrawfiadau hyn wedi arwain i unrhyw ganlyniadau; ac y mae yn debyg mai yn ngauaf 1863—64, y dechreuodd efe yr ymchwiliadau a arweiniasant i welliant yn yr agerbeiriant. Yn ystod y gauaf hwnw, darfu i'r proffeswr John Anderson ddeisyf arno archwilio ac adgyweirio peiriant bychan oedd wedi ei wneyd ar gynllun agerbeiriant Newcomen, yr hwn nis gellid ei gael i weithio yn foddhaol. Cafodd Watt allan yn fuan yr achos na buasai y peiriant yn gweithio, a rhoddodd ef mewn trefn yn ebrwydd; a defnyddid ef o hyny allan yn yr ystafell lle y traddodid darlithiau ar anianyddiaeth naturiol. Trwy yr amgylchiad hwn, arweiniwyd ef i ddarganfod diffygion y peiriant ei hun, ac hefyd i olrhain y priodoleddau hyny mewn ager ar ba rai y mae ei weithrediad yn ymddibynu. Nid oedd peiriant Newcomen yn cael ei ddefnyddio nemawr i unrhyw ddybenion ereill ond i gyfodi dwfr o fwngloddiau. Peiriant anhylaw oedd hwnw; ac yr oedd cymmaint o danwydd yn angenrheidiol er ei weithio fel yr oedd y draul o'i weithio yn peri fod y defnydd a wnelid o hono yn llai nag y gallesid ei ddisgwyl. Nid agerbeiriant ydoedd o gwbl. Gweithid ef trwy ddirwasgiad yr awyr —a thrwy ddefnyddio ager y dygid hyny oddi amgylch. Aeth Watt yn mlaen gyda'i gynllun, a pherffeithiodd hwnw; ac yn 1768, cafodd yn Dr. John Roebuck un yn gallu gwerthfawrogi ei welliantau, ac yn ddigon anturiaethus i'w gefnogi i wneyd arbrawfiadau pellach. Mewn adeilad berthynol iddo ef y cwblhaodd Watt ei drydydd peiriant, ar raddeg llawer eangach na'r ddau arall a wnaeth efe. Yr oedd yr arbediad mewn tanwydd yn ddirfawr; ac yr oedd canlyniad y prawf a wnaed yn hollol foddhaol i Roebuck, yr hwn a gafodd gyfran o'r freinteb a gafodd Watt i ddiogelu ei ddyfeisiau. Yn haf y flwyddyn hono, fodd bynag, trodd ei anturiaethau mewn mwnyddiau allan yn aflwyddiannus, a dyryswyd ei amgylchiadau, fel y bu raid iddo roddi heibio y prawfiadau ar beiriant Watt, a bu raid i Watt ei hun dalu mwy o sylw i'w orchwyl fel mesurydd tir.

Fel y mynegwyd eisoes, penderfynodd Watt ymsefydlu yn Lloegr. Yr oedd Boulton, i'r hwn y darfu i Dr. Roebuck drosglwyddo ei gyfran efe o'r meddiant yn nyfais Watt, yn ddyn cymmhwys iawn i wneyd i fyny yr hyn oedd yn ddiffygiol yn Watt er gweithio allan ei gynllun i ymarferiad. Yr oedd ganddo hefyd yn ei weithdai yn Soho fanteision o'r radd flaenaf, yn gystal a digon o gyfalaf i sefydlu gweithfa agerbeiriannau. Mewn gair, nis gallai dim fod yn fwy ffodus i Watt na chael dau o'r fath ddynion ag ydoedd Roebuck a Boulton yn bartneriaid, y naill ar ol y llall. Dechreuodd cyssylltiad Watt gyda Boulton yn gynnar yn y fl. 1774, a buont mewn partneriaeth hyd y fl. 1800, pan yr ymneillduodd Watt; ond parhaodd eu cyfeillgarwch yn ddidor hyd farwolaeth Boulton. Erbyn diwedd 1774, yr oedd Watt wedi cwblhau yn Soho, gyda'r holl fanteision oedd ganddo oddi wrth weithwyr rhagorol Boulton, ei bedwerydd peiriant cynlluniol (*model engine*), yr hwn a arddangoswyd i ddirprwyaeth o fwnwyr Cernyw, a phersonau ereill galluog i farnu y fath beiriant, ac yr oeddynt oll yn siarad yn ffafriol am dano. Ond er cystal yr ymddangosai y peiriant yn ei waith, gwyddai y breintebwyr yn dda fod llawer etto i'w wneyd cyn y gellid ei ddwyn i arferiad cyffredinol. Gan fod pum mlynedd o'r pedair ar ddeg, am y rhai y caniatawyd y freinteb, wedi myned heibio, hwy a appeliasant at y senedd am estyn parhâd y freinteb; ac er fod yr appeliad wedi cyfarfod â gwrthwynebiad penderfynol, yn yr hwn y cymmerodd Edmund Burke ran, etto bu yn llwyddiannus; ac estynwyd parhâd y freinteb o'r pryd hwnw am bum mlynedd ar hugain. Wedi hyny, dechreuodd y breintebwyr ddarparu ar gyfer gwneyd agerbeiriannau ar raddfa helaeth, a chyda graddau o fanylrwydd nad oeddid yn ei arfer cyn hyny mewn peiriannau mawrion. Mewn trefn i amgyffred yn llawn yr anhawsderau a orchfygwyd gan Watt, dylid cofio fod ei beiriant yn gofyn gwaith manylach na'r peiriannau oedd mewn gwaith yn flaenorol i hyny. Dywed Stuart pan y gwnaed y peiriant a brofwyd yn Kinneil, nad oedd ond un neu ddau o grefftwyr a allasent wneuthur y gwaith priodol ar rai darnau yn y peiriant hwnw: ond yr oedd Watt yn gofyn gwaith manylach ar lawer chwaneg o ddarnau o'i beiriant ef.

Gellir cael rhyw syniad am y modd yr oedd Boulton yn dwyn yn mlaen y gyfran fasnachol o'r anturiaeth fawr oddi wrth y ffaith fod mwy na 47,000*p.* wedi eu gwario cyn i'r breintebwyr ddechreu derbyn dim yn ol o'u treuliadau; ond o'r diwedd, dechreuodd y gwaith dalu, a thalodd yn dda hefyd. Yn Nghernyw, a dosbarthiadau mwnyddol ereill, yn enwedig lle yr oedd glo yn brin, yr oedd y peiriannau newydd yn cymmeryd lle yr hen rai yn brysur. Yn y blynyddoedd 1781, 1782, 1784, a 1785, cafodd Watt freintebau am gyfres o ddyfeisiau. Yn y fl. 1794, cymmerwyd meibion Watt a Boulton i'r bartneriaeth; ac ar derfyniad yr amser y caniatawyd iddo ei freinteb, yn 1800, ymneillduodd Watt, gan adael ei ran ef o'r gwaith i'w ddau fab. Hyd hyny nid oedd ond ychydig o agerbeiriannau wedi eu defnyddio yn un man yn mron, ond mewn ardaloedd mwnawl. Nid oedd ond ychydig o'r peiriannau hyn yn Llundain, Manchester, na Leeds. Yn ystod y pum mlynedd a ddilynodd, dyblodd nifer y peiriannau a ddefnyddiwyd yn y brifddinas; ac aeth mwy o honynt allan o waith Soho nag mewn unrhyw bum mlynedd tra y parhaodd y freinteb.

Yn gymmaint a bod amryw o wyddonwyr enwog yn preswylio yn Birmingham, a'i hamgylchoedd, y rhai oedd ar delerau cyfeillgar gyda Watt a Boulton, ffurfiwyd yno gymdeithas o dan yr enw y "Gymdeithas Leuadol," yn mysg aelodau yr hon y gellir enwi Priestley, Darwin, Edgeworth, Keir, Galton, yn gystal a Watt a Boulton. Arferai aelodau y gymdeithas gyfarfod yn fisol ar noson y llawn lloer, i rydd ymddiddan â'u gilydd. Yn un o'r cyfarfodydd hyn, yn ol Arago, y taflwyd allan awgrym a arweiniodd Watt i ddyfeisio y peiriant bach defnyddiol a adwaenir wrth yr enw gwasg copïo (*copying press*), a chafodd freinteb am dano. Yn mysg ei ddyfeisiau defnyddiol ereill, gellir nodi un i dwymno ystafelloedd gydag ager, yr hwn a fabwysiadodd efe yn ei dŷ ei hun yn ngauaf 1784—5. Ynghylch y rhan oedd gan Watt yn y darganfyddiad a wnaethpwyd ar gyfansoddiad dwfr—ymchwiliad i'r hyn a ddygid yn mlaen

Digitized by Google

ganddo ef, a Cavendish, a Lavoisier, ynghylch yr un amser, nis gellir dywedyd dim yma. Gellir cyfeirio y rhai sydd yn awyddus am wybod rhywbeth ynghylch y mater dyddorol hwn mewn hanesiaeth wyddonol am fanylion llawn at "*Arago's Life of Watt,*" a'r "*Historical Account of the discovery of the Composition of Water,*" gan Arglwydd Brougham. Yma y mae yn briodol sylwi fod y galwadau mawr oedd ar amser Watt mewn cyssylltiad â'i alwedigaeth, ynghyd â'i wyleidd-dra a'i arferion o ymgadw yn guddiedig, i fesur mawr, fe allai, yn cyfrif am yr anhawsder a ddichon godi wrth olrhain cynnydd a helaethder ei ddarganfyddiadau ef ar hyn, er nad oedd mewn un modd y lleiaf mewn pwysigrwydd o'r lliaws testynau y cymmhwysodd efe ei feddwl mawr er gwneuthur ymchwiliadau ynddynt.

Ar ol ymneillduo, anhawdd iawn ydoedd tynu Watt allan i ymgymmeryd âg unrhyw anturiaeth, er yr ymgynghorid âg ef yn fynych er cael ei gyfarwyddiadau yn mherthynas i weithiau peiriannyddol. Yn y fl. 1809, amlygwyd ffrwythlonrwydd ei athrylith fel dyfeisydd yn ei waith yn dadrys cwestiwn dyrus a osodwyd ger ei fron gan gwmni gwaith dwfr Glasgow, yr hwn, ar ol sefydlu eu gweithiau ar un ochr i'r afon Clyde, a ddeallasant y gallesid cael dwfr o ansawdd llawer rhagorach, oedd yn puro ei hun yn naturiol, ar yr ochr arall iddi, os gallent orchfygu yr anhawsder o osod i lawr bibell fawr i'w sugnedyddion ar draws gwely yr afon. Dyfeisiodd Watt ar gyfer hyn bibell haiarn a blygai; darnau pa un a gyssylltid ynghyd gyda math o belenau yn myned i forteisiau. Cafodd y meddylddrych hwn o gynffon y pysgodyn ceimwch (*lobster*). Gwnaed y bibell yn ol ei gynllun ef yn y flwyddyn ddilynol, a gweithiodd yn y modd mwyaf llwyddiannus. Ffurfiai bibell o ddeutu mil o droedfeddi o hyd a dwy droedfedd o drawsfesur, a phlygai yn ol fel y byddai gwely anwastad yr afon yn galw am iddi wneyd. Mewn achos arall, amryw flynyddau ar ol hyn, fe lwyddwyd, trwy daerineb Arglwyddi dirprwyol y Llynges, i gael gan Watt fod yn bresennol gyda dirprwyaeth oddi wrth y bwrdd llyngesol, ac i roddi, ynghyd â'r cadben Huddart a Mr. Jessop, ei olygiad ar weithydd a ddygid yn mlaen yn mhorthladd Sheerness, ac ar weithydd ereill a gynlluniwyd gan Rennie a Whidby; ac ar yr achlysur hwn derbyniodd ddiolchgarwch y morlys am ei wasanaeth. Yn 1813 neu 1814, mewn cydsyniad â dymuniad ei gyfeillion, ac yn enwedig Brewster, efe a ddiwygiodd yr erthyglau ar ager a'r agerbeiriant, a ysgrifenodd Robison i'r "*Encyclopadia Britannica,*" a chyfoethogodd hwynt gyda nodiadau gwerthfawr o'i eiddo ei hun. Y peth diweddaf y talodd Watt sylw neillduol iddo—ac yr oedd, fel yr ymddengys, yn mron wedi ei berffeithio pan y bu farw—oedd peiriant i gopïo cerfiadaeth, gyda'r hwn yr aethai mor bell fel ag i wneyd amryw enghreifftiau; ac anrhegodd ei gyfeillion â hwynt fel ceisiadau cyntaf crefftwr ieuangc (?) yn y drydedd a phedwar ugain mlwydd o'i oedran. Yn gymmaint a'i fod wedi dioddef cryn lawer mewn achosion pwysig, o herwydd iddo fynegu ei syniadau wrth ereill, cadwodd gyfansoddiad y peiriant hwn yn hollol ddirgel: ond pan wedi myned yn ddigon pell yn mlaen i feddwl am gael breinteb ar ei gynllun, deallodd fod person arall yn ei gymmydogaeth, yr hwn, fe ymddengys, oedd yn gwbl ddyeithr i gynllun Watt, yn gweithio ar gynllun cyffelyb. Gwnaed cynnygiad i gael breinteb unedig rhwng y ddau: ond teimlai Watt anewyllysgarwch i hyny, o herwydd ei henaint.

Yr oedd Watt wedi pwrcasu etifeddiaeth a elwid Heathfield, yn agos i Soho, yn 1790; ac yno y bu yn preswylio hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd ganddo eiddo hefyd ar lan yr afon Gŵy yn Nheubarth Cymru. Cryfhau yr oedd ei iechyd yn ei flynyddoedd olaf, ac yr oedd ei alluoedd meddyliol yn parhau heb ammharu dim hyd ddiwedd ei oes. Dywedir ei fod, pan uwch law deg a thrigain oed, yn dychymygu fod ei alluoedd yn gwanhau; ac o ganlyniad, iddo benderfynu rhoi prawf arnynt drwy ymgymmeryd âg efrydiaeth newydd. Wedi dewis yr iaith Anglo-Saxon i wneyd y prawf hwn, efe a'i meistrolodd gyda'r fath hawsder fel yr argyhoeddwyd ef nad oedd ond ychydig o sail i'w ofnau. O'r diwedd, pa fodd bynag, yn ngwanwyn y fl. 1819, dechreuodd arwyddion dadfeiliaid ymddangos ynddo yn eglur; ac ar y 25ain o Awst yn y flwyddyn hono, efe a fu farw yn y drydedd flwydd a phedwar ugain o'i oedran. Yr oedd ei afiechyd diweddaf, fel y sylwa ei fab, yn codi yn hytrach, o ymddattodiad cyffredinol ei natur nag oddi wrth boen. Yn mherthynas i aelodau ei deulu, y mae Arago yn sylwi fod tymmer siriol a mwynder gwastadol ei wraig gyntaf wedi ei waredu oddi wrth yr iselder meddwl yr oedd yn dra darostyngedig iddo; ac oni bae ei dylanwad siriol hi, na buasai byth, fe allai, wedi cyhoeddi ei ddyfeisiau i'r byd. Bu hi farw ar enedigaeth baban, Medi 24ain, 1773, gan adael mab a merch ar ei hol. O'i ail wraig, yr hon a fu farw yn 1832, bu iddo ddau o blant; ond yr oedd y ddau wedi meirw o'i flaen ef. Yr oedd un o honynt, Gregory Watt, wedi enwogi ei hun mewn ymchwiliadau daearegol; ond bu farw yn 1804, yn 27ain mlwydd oed. Fel y gallesid meddwl, effeithiodd hyn yn fawr ar Watt; ond dywed Muirhead nad ammharwyd dim ar fywiogrwydd nodedig ei feddwl, ac na ddistrywiwyd y dyddordeb a deimlai efe mewn llenyddiaeth a chymdeithas, gan y digwyddiad pruddaidd hwn.

Am gymmeriad preifat y peiriannydd mawr y mae Arglwydd Jeffrey yn gwneyd y sylw canlynol, ar ol rhoi ar ddeall ei fod, yn annibynol ar ei gyrhaeddiadau mawr mewn gallofyddiaeth, yn ddyn anghyffredin ar amryw ystyron:—"Fe allai," medd efe, "nad oedd un dyn yn ei oes yn perchen cymmaint o wybodaeth amrywiol a manwl—gan ei fod wedi darllen cymmaint, ac yn cofio yr hyn a ddarllenodd mor dda ac mor fanwl. Yr oedd yn nodedig am gyflymder ei amgyffrediad, nerth ei gof, a'r gallu trefnyddol nodedig oedd yn ei ddeall, oedd yn medru tynu allan a dewis pob peth gwerthfawr a gyflwynid i'w sylw. Yr oedd ei ystorfa o bob math o wybodaeth yn enfawr; ac etto yr oedd hyn yn llai rhyfeddol na'r llywodraeth oedd ganddo bob amser dros ei wybodaeth. Ymddangosai materion a ddygid yn mlaen yn nghwrs ymddiddan megys y pethau diweddaf a fu yn destyn ei efrydiaeth, gan mor eang, mor fanwl, a chlir yr oedd y wybodaeth a'r goleuni a daflai arno heb unrhyw ymdrech na phetrusder. Mewn rhydd ymddiddan cyffredin, ymagorai ei feddwl fel gwyddoniadur mawr, a deuai allan o hono beth bynag fyddai yn fwyaf cymmhwys i archwaeth ei gymdeithion; a gwnai bob peth mor olau, clir, a dealladwy, fel y gwnaed y sylw gan rywun

Digitized by Google

cadfridog Taylor—y gorchfygwr yn Buena Vista. Yr oedd ymdrechiadau seneddol Webster yn awr yn cael eu harfer i geisio cadw yr Undeb yn gyfan trwy ddadleu dros wneuthur rhyw gyttundebau yn achos caethwasiaeth; a rhoddodd dramgwydd i'r diddymwyr trwy ei waith yn amddiffyn cyfraith y caethion ffoadurol. Pennodwyd ef yn ysgrifenydd y wladwriaeth drachefn yn ngweinyddiaeth Mr. Fillmore, yn 1850; ac yn 1852, diau ei fod wedi ei siomi yn ddirfawr unwaith etto, am na chawsai ei enwi yn ymgeisydd ei blaid am yr arlywyddiaeth; ond ar y cadfridog Scott y disgynodd y dewisiad. Ni chafodd efe fyw i weled yr etholiad. Ar ol cystudd byr, bu farw yn ei balas yn y wlad, yn Marshfield, Massachusetts, Hydref 24ain, 1852.

Yr oedd Webster yn ddyn o ymddangosiad hynod. Dyn mawr o gorpholaeth oedd efe, ac o brydwedd tywyll, a'i lygaid yn ddyfnion yn ei ben, ei lais yn gryf a dwfn, a'i holl agwedd yn ddifrifol. Cyhoeddwyd ei ysgrifeniadau a'i areithiau, yn chwe chyfrol, yn 1851, a'i ohebiaethau yn ddwy gyfrol, yn 1855.

WEDGWOOD, JOSIAH: y priddlestrwr enwog, a anwyd ar y 12fed o Orphenaf, 1730, yn Burslem, swydd Stafford, lle yr oedd ei dad, Thomas Wedgwood, a rhai o aelodau ereill y teulu, yn gweithio priddlestri. Cangen o waith oedd mewn sefyllfa tra ammherffaith ar y pryd oedd hon; o blegid, yn annibynol ar y cyflenwad o lestri meinbridd (*porcelain*) a ddygid o China at wasanaeth y dosbarthiadau uchaf, yr oedd llawer o lestri meinbridd o amrywiol fathau, ynghyd â llestri pridd ereill at wasanaeth teuluaidd, yn cael eu dwyn i Loegr o Ffraingc, Holland, a'r Almaen. Ychydig o addysg a gafodd Josiah; ac y mae safle gymdeithasol isel y dosbarth y perthynai iddo yn cael ei awgrymu, yn hytrach na'i hysbysu yn bendant, gan yr hanesydd lleol, Simeon Shaw, yr hwn a sylwa nad oedd "o'r bron un person yn Burslem yn dysgu dim, ond yn unig darllen ac ysgrifenu, hyd yn nghylch y flwyddyn 1750, pan y darfu i rywun waddoli ysgol rydd i ddysgu ieuengctyd i ddarllen y Beibl, i ysgrifenu llaw dda, ac i wybod rhywbeth am elfenau rhifyddiaeth." Arwyddir yn mhellach yr ychydig gyfleusderau a gafodd Wedgwood i ddiwyllio ei hun gan amgylchiad a goffeir gan Shaw; pan y dywed fod Josiah, pan yn un ar ddeg oed, yn gweithio gyda'i frawd hynaf, a bod ei dad wedi marw ar y pryd. Cafodd Wedgwood y frech wen, yr hon a adawodd ryw anhwyldeb yn ei aelod dde; ac wedi hyny bu raid ei dori, ac o blegid hyn bu raid iddo yntau adael olwyn y crochenydd. Yn mhen ychydig amser efe a adawodd Burslem, ac aeth i bartneriaeth gydag un o'r enw Harrison, yn Stoke; ac yn nhymmor y bartneriaeth, yr hwn ni pharhaodd yn hir, y mynegir i'w dalent i gynnyrchu priddlestri addurniadol ymddadblygu gyntaf. Yna daeth i gydnabyddiaeth âg un o'r enw Wheildon, yr hwn oedd yn gwneyd elw da yn ei fasnach mewn un gangen; ond nid ymfoddlonai efe i ymuno â Wedgwood i gario yn mlaen ganghenau ereill y fasnach mewn llestri pridd. Gan hyny, dychwelodd Wedgwood i Burslem yn 1759, a chyfododd weithfa fechan iddo ei hun, i wneyd priddlestri addurniadol. Llwyddodd yn y fasnach hon; a chymmerodd le arall hefyd, lle y gwnaeth lestri gwynion, a thrydydd lle at wneyd y llestri melynwyn hyny a'i dygodd ef i gymmaint sylw. Anfonodd Wedgwood rai o'i nwyddau yn anrheg i'r frenhines Charlotte; ac ar hyny anfonodd hithau archiad am lestri at wasanaeth ciniaw cyflawn o'r un nwyddau; ac yr oeddynt yn ei boddio mor fawr fel y pennodwyd ef yn grochenydd iddi.

Yna agorodd Wedgwood fasnachdy yn y brif ddinas, lle y gellid gweled cynnyrchion ei fedrusrwydd celfyddydol, ac ymunodd gŵr o'r enw Bentley âg ef; yr hwn a gymmerodd ofal ei fasnachdy yn Llundain. Yr oedd Bentley yn llenor rhagorol, ac yn meddu dylanwad gyda mawrion y wlad, a thrwy hyny yn llwyddo i gael benthyg llestri meinbridd gwerthfawr yn gynlluniau i Wedgwood. Ymddiriedodd rhai personau iddo lestri meinbridd dwyreiniol; a rhoddodd Syr William Hamilton fenthyg y rhai hynafol a gafwyd yn yr Herculaneum, a gwnaeth gweithwyr medrus a chywrain Wedgwood rai rhagorol o'r un ffurf a lliw a hwynt. Tra yr oedd Wedgwood yn ddiwyd gyda'r canghenau hyn o'i gelfyddyd, cynnygiwyd tlysgawg (*vase*) Portland neu Barbareni ar werth; ac wrth ystyried y buasai llawer nas gallent gael y tlysgawg ei hun yn foddlawn i roddi swm hardd am un cyffelyb ar yr un cynllun, efe a benderfynodd ei brynu; a pharhaodd i gynnyg arno yn yr arwerthiad yn erbyn y Dduces o Portland, nes o'r diwedd, pan ddeallwyd ei amcan, y cynnygiwyd iddo fenthyg y tlysgawg, ar yr ammod ei fod yn peidio codi mwy arni; ac o ganlyniad, daeth y dduces i feddiant o honi, am y swm o 1,890*p*. Dywed Shaw i Wedgwood werthu hanner cant o rai ar yr un cynllun wedi hyn am 52*p*. yr un, ond yr oedd ei draul yn eu gwneyd yn fwy na'r swm a gafwyd am danynt. Yn ol Allan Cunningham, Flaxman oedd un o'r crefftwyr cyntaf a ddefnyddiwyd gan Wedgwood i ddarparu cynlluniau o'r gweithiau celfyddydol prydferth hyny y gellir dyweyd am danynt mai efe oedd y cyntaf oll, mewn amseroedd diweddar, i'w gwneyd mewn priddlestri. Trwy arbrawfiadau lliosog ar amrywiol fathau o glai, a sylweddau lliwiedig, efe a lwyddodd i gynnyrchu y cerfiadau manaf, cofluniau, a mân gerfluniau, mewn sylwedd hynod o galed; oedd yn ymddangos mor debyg o barhau ag ydyw cerfluniau pres yr hynafiaid. Darganfyddiad pwysig arall a wnaethpwyd ganddo oedd cael allan y ffordd i baentio ar dlysgawgiau, a phethau cyffelyb, heb yr ymddangosiad disglaer ar y paent a welid yn gyffredin ar briddlestri:—celfyddyd oedd yn cael ei hymarfer gan yr Etruscaniaid, ond a gollasid, fel yr ymddengys, er amser Pliny. Yr oedd natur barhaol rhai o'i nwyddau yn eu gwneyd yn hynod o werthfawr fel llestri fferyllol, ac yn enwedig y rhai i ddal surion (*acids*). Yr oedd clod ei weithiau yn gyfryw fel y daeth ei weithfaoedd yn Burslem, ac wedi hyny yn Etruria—pentref a gyfodwyd ganddo ger llaw Newcastle-under-Lyme, ac i'r hwn y symmudodd efe yn y flwyddyn 1771—yn lleoedd ad-dyniadol i ymwelwyr lliosog o bob parth o Ewrop.

Yr oedd talent ac egni Wedgwood, nid yn unig yn sicrhau iddo nawddogaeth helaeth, ac yn ei wneyd yn berchen cyfoeth mawr, ond yr oedd hefyd o'r pwys mwyaf i fuddiannau masnachol ei wlad. Sylwa Almon fod ei nwyddau newyddion, ei ddull diwygiedig a thlws o addurno, a'r chwaeth gywir a amlygai efe yn ei holl gynnyrchion, y rhai a weithid gan grefftwyr wedi eu dwyn i fyny o dan ei arolygiaeth ef ei hun, yn troi ffrwd y gangen hon o fasnach i'r wlad hon. Yr oedd y chwaeth genedlaethol hefyd

Digitized by Google

yn cael ei phuro, a'i chymmeriad yn codi yn ngolwg gwledydd ereill. "Trwy ei ddyfeisiau," ebe yr ysgrifenydd hwn, "lliosogwyd nifer y bobl oedd yn gweithio priddlestri yn ddirfawr, a chynnyddwyd y fasnach yn nghludiad y defnyddiau o ranau pellenig y deyrnas." Mewn tystiolaeth a roddwyd ganddo o flaen pwyllgor o Dŷ y Cyffredin, yn 1785, dywedodd Wedgwood fod o 15,000 i 20,000 o bersonau yn preswylio y pryd hwnw yn y parth o'r wlad a elwid y *Potteries*, a llawer mwy yn codi glô iddynt; ac mewn parthau pellenig o Loegr, ac hyd yn oed yn yr Iwerddon, yr oedd pobl yn codi ac yn darparu callestr a chlai i wneyd y llestri hyn; a 50,000 neu 60,000 o dynelli o'r defnyddiau hyn yn cael eu dwyn yn flynyddol i sir Stafford gyda'r môr a'r camlesydd. Y mae pwysigrwydd y gwaith hwn, y gwnaeth Wedgwood gymmaint i'w ddyrchafu i'w sefyllfa lwyddiannus bresennol, yn cael ei egluro yn mhellach gan adroddiad a wnaethpwyd yn mhen blynyddoedd lawer. Er fod gwledydd Ewrop yn gwahardd cymmeryd priddlestri Prydeinig, ac ereill yn eu llwytho â thollau trymion, yr oedd pum rhan o chwech o'r swm a wnelid yn cael eu hanfon i wledydd tramor. Arweiniodd llwyddiant Wedgwood i sefydliad gweithfaoedd ereill mewn amryw barthau o gyfandir Ewrop, yn gystal ag mewn amryw leoedd yn Mhrydain Fawr a'r Iwerddon.

Yn chwanegol at y sylw a dalodd Wedgwood i wneuthuriad y nwyddau y mae ei enw mor anwahanol gyssylltiedig â hwynt, teilynga ei gofio am yr ysbryd cyhoeddus a amlygwyd ganddo i gefnogi amryw gynlluniau defnyddiol ereill. Trwy ei ymdrechiadau ef, a medrusrwydd peiriannyddol Brindley, cwblhawyd cyfundrefn y camlesydd—drwy yr hon y gallwyd dwyn yn mlaen fasnach rhwng glenydd dwyreiniol a gorllewinol yr ynys hon—trwy wneuthur camlas y Trent a'r Mersey; y dywarchen gyntaf o ba un a dorwyd ar yr 17eg o Orphenaf, 1766, a'r hon a gwblhawyd yn 1770. Trwy gymmhorth y camlas hwn, agorwyd masnach ar hyd y dwfr rhwng y *Potteries* yn swydd Stafford a glenydd Devon, Dorset, a Caint—o ba le yr oedd rhai o'r defnyddiau er gwneyd y nwyddau yn dyfod. Cynlluniodd Wedgwood, a chariodd allan hefyd, ffordd fawr ddeng milldir o hyd drwy y dosbarth o'r wlad lle y gweithid y priddlestri. Efe oedd sylfaenydd ac un o brif arweinyddion y gymdeithas a elwid "Ystafell gyffredinol Meistriaid llaw-weithfeydd Prydain Fawr," a sefydlwyd mewn canlyniad i gynnygiad Mr. Pitt, yn 1786, i drefnu ymdrafodaeth fasnachol rhwng Prydain Fawr a'r Iwerddon:—cymdeithas y gellir priodoli i'w gweithrediadau symmudiad attalfeydd ar ffordd buddiannau llaw-weithfaol y wlad hon, ac a weithiodd yn dda ar yr achlysur o wneyd cyttundeb masnachol â Ffraingc.

Yr oedd Wedgwood yn aelod o'r Gymdeithas Frenhinol, ac o Gymdeithas yr Hynafiaethwyr, ac yn ŵr o ymarweddiad dichlynaidd; a gwnaeth ddefnydd haelfrydig o'r moddion helaeth a gasglwyd ganddo yn ei yrfa lwyddiannus ac anrhydeddus; ond y mae y defnyddiau tuag at roddi hanes personol manwl am dano yn hynod brin. Bu farw yn Etruria—lle yr oedd wedi adeiladu palas hardd iddo ei hun, yn gystal a llaw-weithfeydd a thai i'w weithwyr—ar y 3ydd o Ionawr, 1795, yn y 65ain mlwydd o'i oedran.

WELLINGTON, ARTHUR WELLESLEY, Y DUC O: un o gadlywyddion penaf Prydain. Efe oedd trydydd mab Garrett, iarll cyntaf Mornington, ac Anne ei wraig, merch i Arthur, yr is-iarll Dungannon, a brawd i'r ardalydd Wellesley. Ganwyd ef Mai y 1af, 1769, yn Nghastell Dangan, yn swydd Meath, yn yr Iwerddon. Y mae dadl wedi bod ar hyn, pa fodd bynag; gan y mŷn rhai mai yn Dublin y ganwyd ef, ac mai yr amser oedd mis Ebrill, yn yr un flwyddyn. Saeson oedd ei hynafiaid boreuol ef; ond yr oedd preswyliad o ddau can mlynedd yn yr Iwerddon wedi gwneyd y teulu o'r hwn y deilliodd yn Wyddelod i bob pwrpas a dyben. Yr un flwyddyn ag y ganwyd Wellington, ganwyd bachgen arall yn Ajaccio, yn Corsica—a hwnw yn neb llai na Napoleon Bonaparte. Ar ol bod yn yr ysgol yn Eton, symmudodd i Angers, yn Ffraingc, lle y cafodd efe ei addysg filwrol; ac yn Brienne yn yr un wlad, y derbyniodd Napoleon yr eiddo yntau hefyd. Sylfaenwyd y coleg milwraidd yn Angers gan St. Louis; a phan aeth Wellesley yno, yr oedd y lle o dan arolygiaeth Pignerol—y peiriannydd enwog. Yn 1787, y derbyniodd y penaf o gadfridogion Prydeinig yr oes ei swydd o fanerwr yn y 73ain gatrawd o wŷr traed; ac yr oedd y cadlywydd mwyaf a fu erioed yn sangu daear Ffraingc hefyd wedi cael ei bennodi yn isgadben yn nghatrawd La Fere, ynghylch deunaw mis yn flaenorol i hyny. Ni ddigwyddodd dim yn nhymmhor bachgendod Wellington sydd yn galw am sylw neillduol.

Yn Belgium y bu Arthur Wellesley yn gwasanaethu ei ryfelgyrch cyntaf. Yno y derbyniodd ei wers filwraidd ymarferol gyntaf. Ychydig a freuddwydiodd ei fod yno, y pryd hwnw, yn dechreu ar yr addysgiaeth a'i gwnelai wedi hyny ar wastadeddau y wlad hono yn wrthddrych syndod ac edmygedd yr holl fyd. Yr oedd y rhyfelgyrch hwn yn un hynod anffodus i arfau Prydain Fawr, ond yn tueddu at fod yn dra manteisiol i'n harwr dyfodol. Gellir dywedyd am lawer o gadlywyddion mawrion, ac yn arbenig am Napoleon ei hun, fod buddugoliaethau o'r bron yn ddinystr iddynt. Y mae y teimlad o berygl a sŵn brwydr, yn cryfhau eu gewynau, ac yn clirio eu gweledigaeth ddeallol; ond y mae sŵn clodforedd y byd yn eu penfeddwi, ac yn eu gwneyd yn hanner orphwyllog. Dyna i raddau fel y bu yn rhyfelgyrch Rwssiaidd Napoleon. Ond am Wellington, a'r dosbarth o gadfridogion a gynnrychiolir ganddo, gellir dywedyd fod pob camgymmeriad a wneir ganddynt yn werth goruchafiaeth, a phob gorchfygiad yn werth buddugoliaeth. Felly yr oedd yn rhyfelgyrch cyntaf Wellesley. Gwelodd mewn goleuni amlwg ddylanwad unedig trefniadau diffygiol, prwyaduriaeth *(commissariat)* annigonol, a gwisg ac arfogaeth wael; ïe, gwelodd, mewn gair, y pethau hyn yn eu gwaith, ynghyd â'r drygau, yr anffodion, a'r dinystr a ddeillient o honynt. Yr oedd efe, yn y sefyllfa israddol yr oedd ynddi ar y pryd, yn gwneyd yr oll a allai un oedd yn meddu llygaid i weled, a glewder oedd yn barod i weithredu yn egnïol, er attal y drygau hyny rhag digwydd. Gwasanaethodd yn Belgium yn niwedd y fl. 1794, ac yn nechreu 1795. Yn y cyfamser, cyn i Wellington weled rhyfel yn weithredol, yr oedd Napoleon ieuangc wedi tynu sylw y byd yn ngwarchauad Toulon; ac wedi hyny yr oedd ei gwrs ef tuag i fyny yn gyflym iawn. Llwyddodd i ddarostwng blaenoriaid Democratiaeth yn heolydd Paris; yna efe a ennillodd fuddugoliaethau disglaer Lodi ac Arcola. A chyn i Arthur Wellesley ymadael o'r wlad

Digitized by Google

hon i ennill ei lawryf cyntaf ar feusydd India y Dwyrain, yr oedd Napoleon yn rhinweddol wedi cymmeryd y llywyddiaeth yn achosion Ffraingc.

Yn nechreu y flwyddyn 1797 y cyrhaeddodd y milwriad Wellesley i Calcutta: yn fuan ar ol hyny, pennodwyd ei frawd, Arglwydd Mornington, yn llywydd cyffredinol y wlad hono. Yr oedd prif linellau ei gymmeriad erbyn hyn yn dechreu dyfod i'r golwg yn amlwg. Yr oedd efe yn ddyn o ddealltwriaeth clir, cynnwysfawr, a grymus, ac yn cael ei lywodraethu gan lawn ymroddiad i'r bywyd milwraidd; a'i alluoedd mawr yn wastad ar ddihûn. A chan fod hyny mewn cyssylltiad âg amgyffrediad cyflym, gallai olrhain pob amgylchiadau i'w gwraidd, dirnad pethau dyrus, a chadw yn ofalus bob briwsion o wybodaeth a gasglai. Yr oedd yn meddu sirioldeb tymmer yn mysg cyfeillion, a'i dawedogrwydd mewn cymdeithas gyffredinol yn cuddio enaid oedd yn arfer meddwl llawer yn fewnol. O ran ei berson, dywedir ei fod yn ddyn hardd ac o osgo milwraidd: yr oedd bywiogrwydd parhaus yn ei lygad, ac yr oedd ei ddistawrwydd, a'i ddiffyg amynedd rai gweithiau, yn arwydd o'r awyddfryd tanllyd oedd ynddo am orchfygu. Trwy ddamwain, neu o fwriad, efe a dreuliodd rhai wythnosau yn Madras yn fuan ar ol cyrhaedd India. Nid oedd y cyfnod hwn ond byr; ond yr oedd yn ddigon i'w alluogi ef i ddyfod i gydnabyddiaeth fanwl a chyflawn âg achosion y wlad hono, ac â galluoedd rhyfelgar y Carnatic. Daeth yr amser yn fuan pan y trodd hyn allan yn dra gwasanaethgar iddo. Bu Wellington mewn tri o ryfelgyrchoedd yn India. Y cyntaf yn erbyn Tippoo Sultaun, llywodraethwr Mysore, yr hwn oedd wedi gosod ei arswyd ar y wlad: yr ail oedd yr ymlidiad ar ol, a dinystr y Dhoondiah Waugh, ysbeiliwr eofn bryniau y Mahratta: a'r trydydd oedd rhyfelgyrch enwog Assaye, yr hwn oedd yn efelychiad rhagorol o ryfelgyrch cofiadwy Plassey—ac ystyrir ef hyd heddyw yn un o weithrediadau milwraidd mwyaf gogoneddus Wellington. Ni wnawn ond cyfeirio yn fyr at y ddau flaenaf; ond y mae rhyfelgyrch Assaye yn teilyngu sylw llawnach. Terfynodd y rhyfelgyrch yn erbyn Tippoo, yn yr hwn y gwasanaethodd ein harwr mewn swydd israddol, yn nghymmeriad Seringapatam a marwolaeth ei pherchenog blaenorol: a chymmerodd hyn le yn haf y flwyddyn 1799. Pennodwyd y milwriad Wellesley yn llywydd y lle, a chaniatawyd iddo awdurdod eang. Daeth ei gymmeriad i'r golwg yn eglur iawn yn nghyflawniad ei ddyledswyddau y pryd hwn; a ffurfiodd ran bwysig o'r addysg hwnw a gynnyrchodd amddiffynwr Torres Vedras, a gorchfygwr dyfodol Waterloo; ac o ganlyniad teilynga sylw. Yr oedd Wellesley wedi amlygu eisoes fod ynddo ansoddau i fod yn llywodraethwr taleithiau, a dangos hefyd ei fod yn meddu gallu i olrhain i fanylrwydd y pethau mwyaf dyrus. Dygodd i mewn ddiwygiad i'r ardaloedd y llywyddai arnynt, a daeth pethau i agwedd foddhaol yn fuan; a derbyniodd ddiolchgarwch gwresog y trigolion yr oedd ei lywyddiaeth yn cyrhaedd drostynt.

Y mae hanes yr ymlidiad maith a ddilynodd orchfygiad y Dhoondiah, a gwasgariad ei ddilynwyr, yn rhy faith i ni yma ond ei grybwyll; ond y mae un digwyddiad tua'r diwedd yn galw am sylw. Yr oedd mab y penaeth ysbeilgar, plentyn tua phedair oed, yn y gwersyll; a dygwyd ef at Wellesley. Ymddygodd at y plentyn gyda'r tynerwch â'r caredigrwydd mwyaf: nodd-odd ef tra y bu yn yr India; ac, ar ei waith yn dychwelyd i Brydain, gadawodd swm o arian yn ngofal y milwriad Symmonds at wasanaeth y bachgen. Cymmerodd y rhyfelgyrch yn erbyn Dhoondiah le yn 1800; a gwnaed Wellesley yn is-gadfridog yn 1802. Yr oedd brwydr Assaye yn un o'r rhai mwyaf ysblenydd a ymladdwyd erioed gan Wellesley. Yr oedd achos y rhyfelgyrch yn sylfaenedig ar wrthwynebiad y ddau allu mawr, rhwng pa rai yr oedd cydymgais am gael meddiant o India—Mahrattiaid y gorllewin, a'r Prydeiniaid, tiriogaethau pa rai a orweddent yn benaf yn y gogledd a'r dwyrain. Yr oedd y Mahrattiaid yn bobl alluog a rhyfelgar anghyffredin, ac wedi gwrthsefyll yn llwyddiannus ymherodraeth y Mogul Mawr. Ymgododd tri o'u penaethiaid galluocaf yn erbyn y gallu Prydeinig—y Scindiah, Holcar, a Rajah Berar; ac yr oedd eu galluoedd unedig yn anarferol o rymus. Ond oddi wrth y profiad a gafodd efe mewn rhyfeloedd ereill, yr oedd Wellesley yn deall y dull y dygid rhyfeloedd yn mlaen yn India. Am y wlad, yn ei holl nodweddau, efe a feddai y wybodaeth fanylaf; ac yr oedd efe wedi ffurfio syniadau cywir hefyd am allu, dyfal-barhâd, a rhagoriaeth milwyr Prydain.

Nid mor hawdd ydyw cael amgyffred clir am symmudiadau amrywiol brwydr hynod Assaye. Y mae y Kaitna yn gangen fach o afon fawr y Godavery, yn ymgodi yn uchel i fyny yn ngogledd-orllewin gorynys Hindwstan, ac ar ei thaith y mae'n rhedeg o'r gorllewin i'r dwyrain. Ar ei glan gogleddol y mae pentref Assaye; ac o fewn ychydig bellder oddi wrth y lle hwnw, y mae pentref a gorsaf Bokerdun. Ar yr ochr ddeheuol i'r afon y deuai y cadfridog Wellesley a'i fyddin o'r deheu; ac ar y 23ain o Fedi, 1803, canfu alluoedd unedig y Scindiah a Rajah Berar, yn rhifo tua 50,000 o wŷr, a chanddynt rifedi mawr o fagnelau. Ond nid oedd byddin Prydain oll yn rhifo mwy na 5,000 o wŷr! Yr oedd aden dde y gelyn yn gorphwys yn Bokerdun, ac yn gynnwysedig yn benaf o wŷr meirch; a'r aswy yn gynnwysedig o wŷr traed, ac yn ymestyn ar hyd glan yr afon tua chyfeiriad Assaye. Penderfynodd Wellesley ymosod ar y traedfilwyr. Er gwneyd hyn yn effeithiol, efe a drodd i'r deheu, ac aeth ar hyd glan ddeheuol y Kaitna, hyd nes yr aeth heibio i'r aden aswy; daeth meirchfilwyr y gelyn o'r man lle yr oeddynt ar du y deheu, a wynebwyd hwynt gan feirchfilwyr y Mahratta a Mysore, oedd yn ffafriol i'r Prydeiniaid. Gan fod ystlys ei fyddin yn cael ei hamddiffyn yn y modd hwn, llwyddodd Wellesley i groesi yr afon i ochr aswy y gelyn. Ymffurfiodd ei wŷr ar unwaith yn dair rhes, gwnaed y drydedd i fyny o wŷr meirch; a chan wynebu tua'r gorllewin, aethant yn mlaen: cadwyd catrawd 78ain fel ôl-fyddin. Yr oedd y Mahrattiaid yn gwylio y symmudiadau hyn gyda dyddordeb, fel y gellid disgwyl. Gwelsant y Prydeiniaid yn croesi yr afon y tu hwnt i'w hystlys aswy; a gwelsant hefyd gyda dychryn, o herwydd y perygl yr oeddynt ynddo, yr ymosodai Wellington ar ystlys eu haden aswy, ac y gyrid hwynt yn ol o bossibl gyda dinystr. Yr oeddynt yn teimlo gan hyny nas gallent amddiffyn eu sefyllfa; ac o herwydd hyny, rhaid oedd gwneyd cyfnewidiad dioed. Gyda chyflymder a deheurwydd mawr, yr hyn yn ddiau y gellir ei briodoli i gynnorthwy Ffrangcod oedd gyda hwynt, gwnaethant hyny. Cymmerasant

Digitized by Google

eu traedfilwyr o lanau y Kaitna, a chyflewyd hwynt yn y wlad rhwng yr afon ac Assaye, a'r aden aswy yn gorphwys ar y pentref; ac unwaith yn rhagor wynebai y fyddin y Prydeiniaid. Yr oedd llawer o fagnelau yr Indiaid o gwmpas Assaye. Fel y deuai y llinellau Prydeinig yn mlaen, derbyniasant gawodydd trymion o ergydion wedi eu hannelu yn dda; distawyd cyflegrau Wellesley ar unwaith, a lladdwyd llawer o gatrawd 74ain, a thraedfilwyr o gatrodau ereill ar y dde, yn eu gwaith yn dyfod i fyny yn erbyn y gelyn. Yr oedd yr olygfa yn ofnadwy. O dan dywyniadau haul llosgedig India, yr oedd eu llinellau meinion, a sŵn egwan eu magnelau yn cael eu llyngcu i fyny yn hollol yn rhuad dychrynadwy magnelau y gelynion, y rhai a ddeuent yn mlaen gyda chamrau penderfynol yn erbyn eu gwrthwynebwyr, a chant o fagnelau yn taflu allan eu cynnwysiad dinystriol i'w canol. Nid oedd iddynt na diogelwch na gobaith yn eu drylliau (*rifles*). Beth gan hyny oedd i'w wneyd? Un gobaith oedd yn aros:—rhoddwyd y gair i ruthro ar y gelyn gyda'r bidogau! Ac ar unwaith, ar hyd y llinellau, disgleiriai y dur gloew trwy y mŵg tew; daliwyd y Mahrattiaid gan arswyd, wrth weled y linell ddewr yn cyflymu drwyddynt. Ac yn mlaen yr aeth y Prydeiniaid i ddannedd y magnelau, a rhuthrasant i fuddugoliaeth! Drylliwyd a gwasgarwyd y Mahrattiaid, a gyrwyd meirchfilwyr Berar yn ol fel cwmmwl o flaen tymmhestl o wynt gan y meirchfilwyr Prydeinig. Yna ymosododd y diweddaf ar draedfilwyr y gelyn, gan eu mathru a'u gwasgaru i bob cyfeiriad. Yn rhinweddol yr oedd y frwydr yn awr drosodd; etto nid oedd y perygl wedi myned heibio. Yr oedd y fyddin wrthwynebol mor liosog fel yr oedd yn ammhossibl i fyddin fach y Prydeiniaid i yru ei holl rengoedd o'i blaen; heb law hyny, yr oedd llawer o'r cyflegrwyr Mahrattaidd, pan ruthrodd y Prydeiniaid yn awchus i'r gâd gyda'u bidogau noethion, wedi gorwedd i lawr yn ymyl eu cyflegrau, megys meirw; ac mor fuan ag yr aeth y blaenaf heibio, a gadael y tir yn glir, codasant, a llwythasant eu harfau. Ymffurfiodd traedfilwyr y gelyn yn un corph mawr drachefn; ond rhuthrodd yr is-filwriad Maxwell yn mlaen gyda'i feirchfilwyr, a drylliwyd eu rhengoedd. Yna gwasgarwyd yr holl fyddin, a gadawyd ar ol bedwar ugain a deg o ynau mawr yn nwylaw y Prydeiniaid. Yn y modd yma yr ennillwyd un o'r brwydrau mwyaf ysblenydd y sonir am danynt yn nghofnodion rhyfel. Casglodd y penaethiaid gorchfygedig eu byddin ynghyd drachefn ar wastadeddau Argaum, ond gyrwyd hwynt ar ffo oddi yno eilwaith.

Yn mis Chwefror, 1805, gadawodd Wellesley yr India, ar ol bod yn hynod lwyddiannus yn maes y rhyfel, yn gystal ag yn rhoddi esamplau o bwyll, diysgogrwydd, a doethineb yn y cynghorau. Yr oedd ei athrylith naturiol gref wedi ymddadblygu ac addfedu yn y cyfamser, ac ennillodd edmygedd a pharch pawb a ddaethant i gyffyrddiad âg ef ar y maes ac mewn cynghor. Derbyniodd ddiolchgarwch Tŷ y Cyffredin, ac enwyd ef yn Gydymaith Farchog y Baddon. Diogelodd i'w wlad yn fwy sicr nag erioed berchenogaeth ymherodraeth fawr yr India Ddwyreiniol; a daeth adref i'w gwasanaethu, ac i gadarnhau ei gorsedd yn mhlith gwledydd Ewrop.

Yn y cyfamser, nid oedd y person arall a gymmerodd ran mor amlwg ar chwareufwrdd y byd yn segur. Yr oedd Napoleon wedi ymladd yn ngodreuon y Pyramidiau, wedi cael awenau llywodraeth Ffrainge o'r diwedd i'w ddwylaw, a pheri arswyd trwy holl Ewrop ar ei ddisgyniad, fel eryr o'r Alpau, ar rengoedd Awstria ar faes Marengo. Yr oedd y pab wedi rhoddi coron Charlemagne ar ei ben; a llawer yn ei ystyried o'r bron fel duw. O'r diwedd, dadweiniodd y cleddyf yn Austerlitz, ac yr oedd holl Ewrop megys pe wedi ei dallu gan ei ddisgleirdeb. O Niemen i'r Pyrenees, yr oedd pawb yn crynu ac yn ymostwng o'i flaen. Er hyny, oddi ar fryniau Boulogne, yn nghanol clodforedd y lliaws, pan edrychai dros y môr at Ynys Prydain, yr hon, er maint oedd ei awydd i hyny, nis gallodd byth ei gorchfygu, tra thebygol ydyw ei fod yn meddwl yn ddifrifol am y gorchestion a wnaeth y bidogau Prydeinig o dan arweiniad gorchfygwr Assaye; a bod y cyfryw, os deuent i gydgyfarfyddiad â'i filwyr ef yn debyg o roddi attalfa ar ei rwysg.

Nid ydym yn bwriadu cofnodi yn fanwl ddigwyddiadau bywyd Wellesley, rhwng rhyfelgyrchoedd India a'r eiddo y Gorynys. Yn mis Tachwedd, 1805, efe a wasanaethodd fel blaenor brigâd yn Denmarc. Dychwelodd oddi yno, a bu yn llywydd milwraidd am dymmor yn Hastings. Yn 1806, etholwyd ef yn aelod seneddol dros Newport, Ynys Gwyth; ac yn Ebrill, 1807, pennodwyd ef yn brif ysgrifenydd yr Iwerddon, â'r duc o Richmond yn arglwydd raglaw. Yn Awst yr un flwyddyn, efe a wasanaethodd er clod iddo ei hun yn rhyfelgyrch Copenhagen. Dygodd yn mlaen yr ymdrafodaeth ynghylch rhoddiad i fyny y ddinas hono, a derbyniodd ddiolchgarwch Tŷ y Cyffredin. Pennodwyd ef i gymmeryd llywyddiaeth y fyddin a fwriedid i weithredu yn y Gorynys (*Peninsula*). Y mae hanes y rhyfelgyrch, a gwasanaeth Wellesley ynddo yn hynod ddyddorol. Y pryd hwnw y casglodd ei wybodaeth am sefyllfa y Gorynys, yr hyn a'i galluogodd yn y diwedd i orchfygu yno. Ac yno, dangosodd gyntaf i'r byd fod milwyr Prydain yn ddigon galluog i wynebu llengoedd dewraf yr ymherawdwr Napoleon, a bod cadfridog i'w gael allai eu harwain; a daeth i'r amlwg ynddo y pryd hwnw brif linellau ei athrylith filwraidd. Derbyniodd y newydd am ei bennodiad i'r llywyddiaeth gyda llawenydd, ac ysgrifenodd at Arglwydd Hill, gyda yr hwn y gwasanaethodd cyn hyny, i ddadgan ei obaith y byddai iddynt gael chwaneg i'w wneyd nag o'r blaen. Dangoswyd ei ragddarbodaeth manwl yn ei ofal neillduol am drefniadau, arfau, a darpariaethau ei filwyr; a thaflodd ei egni ef fywyd i'r holl anturiaeth. Efe a hwyliodd o flaen y llynges oedd i gario ei fyddin, a dechreuodd ar gyfres o ymchwiliadau, y rhai a ddilynwyd gyda llwyddiant arbenig. Bydd darllenwyr brys-lythyrau Wellington yn sicr o ryfeddu wrth weled y cyflymder â pha un y darfu iddo ef, yn nghanol yr holl dywyllwch a'r dyryswch oedd o gwmpas pethau, feistroli y cyfan. Yr oedd yn canfod ar unwaith bob peth a allasai gymmeryd lle yn yr ymdrechfa, ynghyd â'r moddion trwy ba rai yr oedd llwyddiant i'w sicrhau. Yr oedd y Ffrangcod mewn nerth yn Portugal, a Lisbon yn eu meddiant: ond gwelodd Wellington y gallesid dwyn Lisbon oddi arnynt; ac argyhoeddwyd ef, ond ei chymmeryd, y gellid amddiffyn teyrnas Portugal yn eu herbyn. Ennill Lisbon, gan hyny, oedd amcan ei ryfelgyrch cyntaf; a chyrhaeddodd hyny trwy amlygiad o ddewrder a gallu nas gallai un gelyn ei wadu.

Digitized by Google

Glaniodd ei fyddin yn Machwy Mondego, ac yna aeth yn mlaen tua'r deheu. Agorwyd dalen newydd yn awr yn hanes y Ffrangcod. Hyd yn hyn, yr oeddynt yn rhedeg yma a thraw, gan ddinystrio ac anrheithio pob peth yn mhob man lle yr elent; ac nid oedd milwyr yn Ewrop hyd yma wedi sefyll o'u blaen. Ond glaniodd byddin newydd, ac o dan arweinydd newydd, ar lenydd Portugal:—dynion nas gwyddent beth oedd arswydo rhag y Ffrangcod; ond i'r gwrthwyneb, credent eu bod yn alluog i'w gwynebu, a'u gorchfygu hefyd. Cyfarfuasant â llengoedd Ffraingc gyntaf ar ucheldiroedd ac yn ngheunentydd Rolica, a gyrasant hwynt yn ol: ac o gwmpas Vimiero, er fod Junot, Loison, a De Laborde yn arwain y minteioedd gelynol, curwyd hwynt yn ol drachefn. Mewn ychydig wythnosau, yn ei olwg ef, yr oedd byddin Ffraingc i gael ei distrywio, a Lisbon i'w chymmeryd, mewn dull gogoneddus. Ond yr oedd syniadau Wellesley o flaen yr eiddo y genedl a gynnrychiolai, ac nid oeddynt hwy yn gallu amgyffred doethineb ei gynlluniau. Gan hyny, anfonwyd Syr H. Burrard yno i gymmeryd y llywyddiaeth oddi arno, ac ar ei ol ef Syr Hew Dalrymple; ac yn lle dinystriad y fyddin Ffrengig, cynnaliwyd cynnadledd Cintra. Fel yna y terfynodd y rhyfelgyrch cyntaf yn y Gorynys. Daeth Syr Arthur Wellesley adref yn fuan; ond yn ei absennoldeb cymmerodd digwyddiadau mawr ac anffodus le. Yr oedd Napoleon ei hun erbyn hyn wedi dyfod i Yspaen. Wedi casglu ynghyd, gyda'r cyflymder hwnw a nodweddai ei symmudiadau ef bron bob amser, amrywiol adranau ei fyddin, a'u hanfon allan yn erbyn amrywiol fyddinoedd Yspaen a Phrydain, gorthrechwyd yr Yspaeniaid, ac o'r braidd na lwyr ddrylliwyd eu lluoedd; a gyrwyd y Prydeiniaid yn ol o dan Syr John Moore, er iddynt ymladd yn ddewrfrydig yn enciliad bythgofiadwy Corunna. Ymddangosai Napoleon o'r bron yn anorchfygol; ac, er fod Lisbon hyd yn hyn yn nwylaw y Prydeiniaid, yr oedd teimlad tebyg i anobaith yn meddiannu cyfran fawr o'r genedl Brydeinig. Ond ni chollwyd pob peth; yr oedd gan Brydain un dyn yn meddu gallu i lywyddu yn llwyddiannus hyd yn oed yn y Gorynys. Yr oedd efe eisoes wedi myned yn mhell y tu hwnt i'w gydoeswyr yn ei wybodaeth am sefyllfa maes y rhyfel ac amgylchiadau y gelyn; ac yr oedd yr athrylith â'r hwn y cynnysgaeddwyd ef gan natur wedi ei dadblygu yn llawn gan brofiad, ac yn fynych wedi cael ei goroni hefyd â buddugoliaeth. Gwyddai yn dda am ddewrder, nerth, a dyfalbarhâd y milwr Prydeinig; ac yr oedd efe ei hunan yn feddiannol ar y dewrfrydedd tawel sydd yn ymgodi o ymwybodolrwydd o nerth. Ato ef gan hyny, fel ei gobaith olaf, yr edrychai Prydain, fel y cymmhwysaf i arwain ei byddin ac i orchfygu y gelynion. Yn y gyfres o ryfelgyrchoedd yr ymgymmerodd Wellington â hwy, profodd ei hun yn rhagori mewn athrylith filwraidd ar bob un o faeslywyddion mawr Ffraingc; a chymmhwysodd ei hun i ymdrechu yn erbyn ac i wynebu yr hwn, o bossibl, oedd y rhyfelwr penaf a fu yn y byd er dyddiau Hannibal!

Nis gallwn yma fyned i fanylion gweithrediadau rhyfelgyrchoedd y Gorynys; ond rhaid i ni gyfyngu ein hunain i gymmeryd golwg ar ychydig o'r prif weithrediadau. A chyn gwneuthur hyn, ni a ymdrechwn gymmeryd golwg gyffredinol ar yr yr anhawsderau ar ba rai y wynebai Wellington, er gosod ei athrylith a'i alluoedd mewn goleuni boddhaol. Yn gyntaf oll, rhaid i ni ystyried y gelynion yn erbyn y rhai yr ymdrechai efe. Yr oedd yn Yspaen a Phortugal ynghylch dau can mil o filwyr Ffraingc:—dynion oeddynt wedi peri i Ewrop grynu, ac wedi arfer buddugoliaethu. Llywyddid hwy gan arweinwyr oedd wedi dringo i'w safleoedd yn ngrym eu galluoedd milwraidd. Yr oedd yr amddiffynfeydd yn eu dwylaw hefyd. Yr oedd y wlad wedi ei blino gan ryfel maith, a'r anhawsderau i deithio yn ddirfawr; ac yr oedd sefyllfa y boblogaeth yn druenus i'r eithaf. Coleddid gobeithion am y Portugeaid. Yr oeddynt, mae yn wir, yn dlodion, ac wedi eu gwanychu fel cenedl; ond yr oeddynt yn ddewrfrydig, ac yn gyfryw ag y gellid ymresymu â hwy. Am yr Yspaeniaid, ar y llaw arall, nid oedd fawr o gynnorthwy i'w ddisgwyl ganddynt, oddi eithr fel gwibfilwyr yspeilgar. Gyda'r anhawsder mwyaf y gellid eu perswadio i werthu darpariaethau i'r Prydeiniaid. Yn nydd y frwydr, yr oeddynt naill ai yn rhy gyndyn i ddyfod i'r maes, neu yn rhy lwfr i sefyll eu tir; a phan oedd eu gorchfygiad yn ymddangos yn sicr, dyfethent eu byddinoedd trwy eu danfon i ddannedd y perygl yn y modd mwyaf anystyriol. Rywbryd cyn brwydr Talavera, er enghraifft, buasai taro dyrnod â byddin unedig yn chwilfrywio byddin Ffraingc; ond nid oedd yn bossibl symmud yr Yspaeniaid.* Wedi colli y cyfle hwn, pa fodd bynag, hwy a ruthrasant i wyneb byddinoedd Ffraingc, a chawsant eu dyfetha yn ddiarbed. Blinodd yr Yspaeniaid lawer ar Wellington. Yn ei fyddin ei hun, ar y llaw arall, yr oedd angen am ddiwygiadau mawrion cyn y gellid coleddu gobeithion cryfion am lwyddiant. Yr oedd y prwyaduriaeth (*commissariat*) yn neillduol o ddiffygiol, a chostiodd ymdrechion mawr i Wellington cyn y llwyddodd i beri gwellhâd yn hyn.

Ond, mewn trefn i gael golwg gyflawn ar yr anhawsderau yn erbyn pa rai yr oedd y cadfridog Prydeinig yn gorfod myned, rhaid cofio fod iddo wrthwynebiad cryf gartref. Yr oedd yr wrthblaid yn y wlad hon yn ei wrthwynebu yn selog ac yn benderfynol. Ymdrechent i brisio ei fuddugoliaethau am lai na'u gwerth; a phob enciliad neu golled a gaffai, yr oeddynt yn ceisio eu mwyhau. Rhaid cymmeryd yr holl anhawsderau a'r attalfeydd hyn i ystyriaeth cyn y gellir ffurfio barn am y gwaith a wnaeth Wellington yn y Gorynys. Yr oedd yn llwyr argyhoeddedig fod yn bossibl amddiffyn Portugal, gan fod y môr o'r tu cefn iddo i sicrhau darpariaethau ac adgyfnerthion. Yn gynnar yn y fl. 1809, efe a laniodd drachefn yn Portugal; a dechreuodd ar ei anturiaeth fawr, yn hyderus o lwyddiant. Cyrhaeddodd Wellington i Lisbon ar yr 22ain o Ebrill, yn y flwyddyn uchod; a galluogwyd ef i gymmeryd llywyddiaeth byddin o 25,000 o wŷr—yn cynnwys y Portugeaid o dan lywyddiaeth Beresford. Efe a daflodd ysbryd a bywiogrwydd i bob rhan o'r gwasanaeth milwraidd; trefnodd y prwyaduriaeth yn briodol ac effeithiol; gwnaed pob trefniadau angenrheidiol, a chymmerodd y gofal o bob pennodiad ei hun; ac fel hyn yn llaw un a allai ei llywodraethu, aeth y fyddin Brydeinig yn mlaen yn galonog a gobeithiol ar yrfa lwyddiannus o ryfelgyrchoedd. Dechreuodd Wellington yn ddioed ar ei ymdaith tua'r gogledd. Yr oedd Oporto wedi ei chymmeryd gan Soult; ac yr oedd Wellington yn dymuno ei alw i'r maes yn ddioedi, fel na chaffai encilio yn hollol ddirwystr. Yr oedd myned dros y Douro—afon lydan, ddofn, a chyf-

Digitized by Google

lym ei rhediad, yn Villa Nova—yn wyneb gelyn galluog, a hwnw wedi symmud pob bâd a chwch i'r lan arall, yn un o weithrediadau mwyaf eofn a llwyddiannus y rhyfel. Aeth Wellington i mewn i Oporto yr un dydd, ac aeth ar ol y fyddin Ffrengig: gyrodd Soult yn fuan o Portugal, a chyhoeddwyd ef gan Dywysog Rhaglaw Portugal yn faeslywydd cyffredinol byddinoedd Portugal. Syrthiodd y Ffrangcod yn ol ar fan lle yr oeddynt i dderbyn adgyfnerthion; a throdd Wellington tua'r de-ddwyrain, er gweithredu yn Yspaen ar linell y Tagus, mewn cydweithrediad â'r cadfridog Yspaenaidd Cuesta; ac ar y 27ain a'r 28ain o Orphenaf, ymladdwyd brwydr waedlyd Talavera. Yr oedd y fyddin Ffrengig yn cael ei gwneyd i fyny o alluoedd unedig y brenin Joseph a'r maeslywydd Victor. Yr oedd y lladdfa a gymmerodd le yn y frwydr hon yn echryslawn, gan y gellir yn mron ddyweyd am dani ei bod yn frwydr law-law. Un o'r brwydrau hyny oedd hi; a ddigwyddodd fwy nag unwaith yn y Gorynys, yn y rhai, ar ol ymdrechfa galed, y gyrwyd y gelyn yn ol; ond, o herwydd prinder nifer, neu o ddiffyg meirchfilwyr, yr oedd y Prydeiniaid yn gwbl analluog i'w dilyn i fyny trwy ymlid ar ol y gelyn gorchfygedig.

Ar lan ogleddol yr afon Tagus, yn nhalaeth Yspaenaidd Castile Newydd, y saif tref Talavera: y tu hwnt iddi, i'r gogledd, y mae gwastadedd lled uchel, ac yn y pellder o ddwy filldir y mae bryn, a dyffryn o gryn faintioli yn ymestyn y tu hwnt iddo. Ar y dyffryn hwn y dewisodd Wellington i'w fyddin wynebu yr eiddo Victor; a'r bryn ar yr hwn y gorphwysai yr aden aswy o'i fyddin oedd y lle pwysicaf. Yr oedd ei linell yn edrych tua'r dwyrain, i wynebu y Ffrangcod, y rhai a ddeuent tua'r gorllewin. Ar du y deheu, yn gorphwys ar dref Talavera, ac mewn safle mor gadarn a diogel gan amddiffynfeydd naturiol nes eu gwneyd o'r bron yn anorchfygol, yr oedd yr Yspaeniaid; ond ni ellid rhoddi unrhyw ddibyniaeth arnynt hwy. Yr hyder cryfaf y gellid ei roddi ynddynt oedd, nad oedd berygl iddynt ffoi, ac y gallent ymosod ar elynion gorchfygedig. Yr oedd y gweddill o'r llinell yn cael ei meddiannu gan y Prydeiniaid, a'i therfyn yn gorphwys ar y bryn a grybwyllwyd. Y bryn hwn—yr allwedd i'r safle—wrth gwrs oedd prif nôd ymosodiadau Victor. Ar y 27ain o Orphenaf, fel y crybwyllwyd, y dechreuodd yr ymladdfa. Yr oedd y frwydr yn ymestyn ar hyd y llinell Brydeinig, ond yn benaf ar yr aswy. Ar un foment, o herwydd gwendid y fyddin Brydeinig ar y llanerch, trowyd ei hystlys, a medrodd y Ffrangcod feddiannu pen y bryn: ond rhuthrodd y dewrfrydig Hill rhagddo gyda milwyr nad oeddynt wedi bod mewn tân o'r blaen, a gollyngodd gawod ddinystriol o ergydion arnynt; yna rhuthrasant yn mlaen â'u bidogau noethion ar flaen eu drylliau. Hyrddiwyd y gelyn yn ol i lawr y bryn, ac ni chafodd feddiant o hono cyn machlud haul. Hwyrhaodd, a thywyllodd y nos, a rhoddodd y Prydeiniaid eu harfau o'r neilldu nes y gwawriai boreu dranoeth. Ond gwyddai Victor ei fod yn hanfodol bwysig iddo ennill y bryn hwnw. Gwnaed ymosodiad dibwys ar gwr arall o'r llinell Brydeinig; ac o dan orchudd y nos, esgynwyd i fyny y bryn. Casglodd y Ffrangcod eu milwyr dewraf yno; ond yr oedd gelyn mor ddewr a hwythau yn effro ac yn barod iddynt. Yr oeddynt hwy yn dyfod yn nes nes atynt o hyd, a'u llinellau yn haws i'w canfod trwy y gwyll; ac yn ddisymmwth dyna y bryniau yn adsain gan un daran follt o ergydion o ddrylliau y Prydeiniaid. Eilwaith ac eilwaith yr ymdrechodd colofnau y Ffrangcod i gadw meddiant o'r tir gwastad ar ben y bryn, ond yr oedd y cawodydd o ergydion yn parhau i ymdywallt arnynt o rengoedd ein milwyr dewr; ac o'r diwedd gyrwyd hwynt i lawr y llechwedd â blaen y bidogau. Ciliodd y Ffrangcod, a chymmerodd y ddau lu ychydig o oriau i orphwys; ond erbyn pump yn y boreu yr oeddynt wrth eu gwaith ofnadwy eilwaith. Dechreuodd y magnelau ruo ar doriad y dydd. A'r bryn ar yr aswy oedd gwrthddrych mawr ymosodiad y Ffrangcod o hyd. Daeth colofn ar ol colofn i ymosod arno—ond yn hollol ofer. Disgynent i lawr y bryn gan amlygu y dewrfrydigrwydd a'r ddysgyblaeth a fu yn foddion i ennill iddynt gynnifer o frwydrau o'r blaen; ond safai y Prydeiniaid yn ansigledig, gan syllu arnynt gyda phenderfyniad tawel; ac fel y cyrhaeddent ben y bryn drachefn, tywalltent eu hergydion, a rhuthrent yn mlaen gyda'u bidogau, gan eu gyru yn ol yn ddiarbed. Felly y parhaodd pethau hyd wyth o'r gloch y boreu, pan y gorfodwyd yr ymladdwyr gan wres yr haul i roddi heibio ymladd. Ac yn awr, cymmerodd digwyddiad hynod effeithiol le. Yr oedd ffrwd fechan o ddwfr yn llifo tua'r Tagus, o flaen y fyddin Brydeinig, yn ysgaru y byddinoedd oddi wrth eu gilydd. Daeth milwyr y ddwy fyddin yno i gyrchu dwfr. Rhoddasant heibio am y munyd eu tueddiadau rhyfelgar, a rhoddasant o'r neilldu eu harfau, ac ymddygasant tuag at eu gilydd fel brodyr. Dygwyd yn mlaen ymdrafodaeth rhyngddynt ar delerau cyfeillgar—ymddiddanent â'u gilydd, a chynnorthwyent eu gilydd mewn pethau angenrheidiol, gan ymgeleddu clwyfedigion y naill y llall. Yn mhen ychydig funydau, chwythwyd yr udgyrn i'w galw yn ol i'w rhengoedd: ysgydwasant ddwylaw â'u gilydd fel cyfeillion, ac yna ymaflasant yn eu drylliau a'u bidogau—ac i'r frwydr! Golygfa ddyeithr a phruddaidd oedd hon, ac etto yr oedd rhywbeth yn hynod o brydferth ynddi.

Ar ol hyn yr ymladdwyd y frwydr galetaf. Gwnaed y prif ymosodiad gan y Ffrangcod ar ganol y fyddin Brydeinig. Cyfarfuwyd âg ef, a gyrwyd yr ymosodwyr yn ol mewn modd gwrolfrydig: ond aeth y gwarchodwyr (*guards*) yn eu beiddgarwch yn rhy bell, yr hyn a barodd iddynt fod ychydig yn annhrefnus. Yr oedd dysgyblaeth berffaith y Ffrangcod yn eu galluogi i weled hyn, a chymmerasant fantais ar yr amgylchiad. Daethant i fyny drachefn, a bu raid i'r gwarchodwyr gilio yn ol. Gwnaeth y gelyn gryn ddifrod yn ein mysg y pryd hwn; ac yr oedd y gatrawd Almaenaidd, yr hon oedd ar y tu aswy, yn siglo. Ymddangosai buddugoliaeth megys yn nwylaw y Ffrangcod; ond yr oedd llygad craff y cadlywydd Wellington yn sylwi ar y cyfan oddi ar y bryn ar y tu aswy—a llygad oedd yr eiddo ef nad oedd ond yn anfynych yn methu gweled yr hyn oedd angenrheidiol ei wneyd ar y foment. Gorchymynodd ar i gatrawd o wŷr traed, ac ysgwadron o feirchfilwyr ysgeifn, fyned yn ddioed i'r fan, i wynebu y Ffrangcod yn eu dyfodiad yn mlaen. Cyflawnwyd y gwasanaeth tra anhawdd hwn gyda phenderfyniad a dewrder digyffelyb yn mron. Attaliwyd y gelyn yn mlaen. Yna ymffurfiodd y Prydeiniaid o'r tu ol drachefn; a chyda bloedd uchel, rhuthrasant yn mlaen â'u bidogau noethion. Cymmerwyd y floedd i fyny gan gatrawd



Digitized by Google

Wyddelig, a thrachefn ar hyd yr holl linell Brydeinig. Rhaid fod hyn yn ymddangos yn rhyfedd yn ngolwg y Ffrangcod:—fod llinell oedd wedi ei dryllio, ei medi i lawr, a'i theneuo yn ddirfawr, etto mewn ysbryd i floeddio megys rhai yn buddugoliaethu. Enciliodd y gelyn; ac fel hyn yr ennillwyd brwydr gofiadwy Talavera. Cyflwynwyd i'r cadlywydd ddiolchgarwch y senedd am fuddugoliaeth Talavera, a gwnaed Syr Arthur Wellesley yn aelod o Dŷ yr Arglwyddi, o dan y teitl o Barwn Douro o Wellesley, ac Is-iarll Wellington o Talavera, gyda 2,000*p.* o flwydd-dâl.

Yn mis Mai, 1810, ymgasglodd y Ffrangcod o dan Massena yn y fath nerth o'i flaen, fel y darfu i Wellington gilio yn ol i Busaco—ac yno efe a safodd. Ar y 27ain o Fedi, gwnaeth y Ffrangcod ddau ymosodiad egnïol arno, ond gyrwyd hwy yn ol gyda lladdfa fawr. Wedi hyn efe a enciliodd o fewn llinellau Torres Vedras. Tref ydoedd, oddi wrth yr hon y rhoddwyd yr enw hwn ar y llinellau amddiffynol, o fewn pa rai y cymmerodd Wellington ei noddfa, gan y gwelai fod amddiffyn y cyffiniau y tu allan iddynt yn nesaf peth i ammhossibl yn erbyn byddinoedd Ffrainge. Yr oedd y llinell gyntaf, neu yr allanol, yn ymestyn o Alhandra, ar y Tagus, i enau yr afon Sizandro, ar lan y môr, ac yn dilyn troadau y bryniau, am naw milldir ar hugain o ffordd:—yr ail (a'r gryfaf o lawer), yn gorwedd rhwng chwech a deng milldir y tu cefn i'r gyntaf, gan ymestyn o Quintella ar y Tagus, i enau y St. Lorenza, pellder o bedair milldir ar hugain:—y drydedd, ar yr ochr dde-orllewinol i Lisbon, yn ngenau y Tagus. Nid oedd y llinell hon ond ber, yn gymmaint ag mai ei hamcan oedd amddiffyn a diogelu y fyddin ar ei henciliad i'r llongau, pe buasai hyny yn angenrheidiol. Yr oedd yr oll o'r tir a amddiffynwyd yn y modd yma yn bum can milldir ysgwâr. Darfu i ddull medrus a dewr Wellington yn cadw y llinellau hyn yn y diwedd arwain i lwyddiant rhyfel y Gorynys yn fwy, o bossibl, na dim arall. Gan fod Massena yn analluog i gael darpariaethau ar gyfer ei fyddin, efe a ddechreuodd ei enciliad i Santarem, pryd y daeth Wellington allan dros linellau Torres Vedras, i'w yru yn ol yn gyflymach ar hyd y llinell i Mondego. Yn Ebrill, 1811, derbyniodd ddiolchgarwch y senedd am ryddhau Portugal. Yr oedd Yspaen, pa fodd bynag, wedi ei darostwng gan y Ffrangcod. Llwyr ddinystriwyd ei byddinoedd; ac yr oedd o'r pwys mwyaf i Wellington fod yn alluog i gadw y wlad y tu ol iddo yn glir hyd y Tagus. Gan hyny efe a osododd warchau ar Almeida, a gwnaeth Massena ymdrech i'w gwaredu; ond wedi brwydrau gwaedlyd Fuentes de Onoro, Mai y 3ydd a'r 5ed, gyrwyd ef yn ol. Cwympodd Almeida yn fuan, a gorchymynodd Wellington i amgylchu ac i warchau Badajos. Yr oedd ganddo y pryd hwn achos mawr i gwyno nad oedd efe yn derbyn cynnaliaeth ac adgyfnerthion priodol o Brydain. Nid oedd ganddo dan ei lywyddiaeth ond y lluoedd a ymlidiasant Massena o Torres Vedras, a'r rhai hyny wedi eu lleihau mewn nifer yn fawr, yn gymmaint a bod tua naw mil o honynt wedi eu lladd a'u clwyfo yn y brwydrau gwaedlyd a ymladdwyd. Dygwyd y gwarchau yn mlaen yn egnïol; ond deallodd Wellington fod Soult a Marmont yn bwriadu uno eu byddinoedd, a'u gwneyd yn un, mewn trefn i waredu Badajos: a chan nad oedd rhifedi ei filwyr ef yn ei gyfiawnhau i feiddio ymladd brwydr â hwy, efe a gyfododd y gwarchau, ac a enciliodd i gyffiniau Portugal. Yna gosododd warchau ar amddiffynfa gref Ciudad Rodrigo; ac ar noson y 19eg o Ionawr, 1812, cymmerwyd y lle trwy ruthr, a gwnaed y gwarchodlu yn garcharorion. Anrhydeddwyd ef â theitl Yspaenaidd gan raglaw y wlad hono am ei wrhydri yn darostwng y lle cadarn hwn. Derbyniodd gyda hyny ddiolchgarwch senedd ei wlad ei hun, a blwydd-dal chwanegol hefyd o 2,000*p.* yn flynyddol, ynghyd â'r teitl o Iarll Wellington.

Y peth nesaf a wnaeth efe oedd myned tua Badajos. Amgylchodd hi yn mis Mawrth, a chymmerodd hi trwy ruthr y 6ed o Ebrill, ar ol lladdfa arswydus. Lladdwyd dros fil o'i wŷr, a chlwyfwyd 3,800 o honynt yn yr ymdrechfa waedlyd hon. Fel hyn y dywed Napier yr hanesydd:—"Pan wnaed y dinystr a wnaethpwyd y noson hono yn hysbys i Argl. Wellington, rhoddodd diysgogrwydd ei natur y ffordd am foment; ac er ei holl falchder o herwydd y goncwest, torodd allan i wylo o herwydd colli ei filwyr dewr." Ond nid ydoedd y gwaith gwaedlyd wedi ei ddwyn i derfyniad etto. Yr oedd Marmont, yr hwn a gymmerodd le Massena fel cadweinydd byddin Ffrainge, weithiau yn teithio yn mlaen, a phryd arall yn syrthio yn ol; ac yr oedd Wellington yn awyddus am allu gwneyd ymosodiad arno. O'r diwedd cymmerodd fantais ar gamgymmeriad a wnaeth ei wrthwynebwr, a syrthiodd arno. Yn mis Mehefin, efe a aeth yn mlaen i Salamanca: cymmerodd y mynachlogydd yno, oeddynt wedi eu cadarnhau ac yn cael eu hamddiffyn gan y Ffrangcod, a gyrodd Marmont tua'r Douro. Ar yr 22ain o Orphenaf, efe a ennillodd un o'i fuddugoliaethau mwyaf ysblenydd yn Salamanca. Estynodd Marmont ei linellau yn mlaen gyda'r amcan o roddi tro i aden ddeheu byddin Wellington. Gwelodd yr olaf ei fod drwy hyn wedi gwanhau ei ystlys aswy a chanol ei linell, ac fe ymosododd yn egnïol ar y manau gweiniaid; ac wedi gwrthsatiad cyndyn o du y Ffrangcod, gyrwyd yr holl fyddin ar ffo. Cafwyd cad-ddarpariaethau, a darpariaethau ereill, un ar ddeg o fagnelau, a 7,000 o garcharorion yn ysbail yn y frwydr hon. Nid oedd colled y cynghreiriaid ond 700 o laddedigion, a 4,000 o glwyfedigion. Collodd Marmont un fraich, a lladdwyd pedwar o'i gadfridogion. Derbyniodd Wellington urdd y Cnuf Aur: aeth i Madrid, a phennodwyd ef yn brif gadlywydd byddinoedd Yspaen, a chafodd y teitl o Ardalydd Wellington yn ei wlad ei hun. Cyflwynwyd iddo ddiolchgarwch y senedd etto, a phleidleisiwyd iddo gael 100,000*p.* yn anrheg, i'w defnyddio i brynu tir i fod yn eiddo iddo ef, ei etifeddion, a'i olynwyr. Yn mis Medi, efe a aeth yn mlaen at Burgos; ond methodd a'i darostwng, ac enciliodd drachefn i dueddau Portugal. Ymwelodd Wellington â Lisbon a Cadiz, ac yn y ddau le cafodd dderbyniad tywysogaidd gan y bobl. Gydag amryw fyddinoedd Ffrengig galluog yn y maes, a phob un o honynt mor gref a'r eiddo ef ei hun, efe a farnodd mai doeth oedd iddo dreulio gauaf 1812—13 yn Portugal—y gauaf hwnw, yn ystod pa un y collodd Napoleon 350,000 o wŷr yn y rhyfelgyrch i Rwssia. Agorodd rhyfelgyrch 1813 yn ffafriol i'r Prydeiniaid a'u cynghreirwyr. Gorfodwyd yr ymherawdwr Napoleon, o herwydd yr anffodion trymion a ddigwyddasai i'w fyddinoedd yn Rwssia, i alw Soult o Yspaen, ynghyd âg 20,000

Digitized by Google

o wŷr. Gadawodd yno er hyny fyddin o tua 70,000 o wŷr; ond yr oedd tua 100,000 chwaneg mewn amryw barthau o Yspaen, o dan Suchet, a chadfridogion ereill.

Nis gallai ymherawdwr Ffraingc hebgor dim chwaneg o filwyr i fyned tu hwnt i'r Pyrenees. Gwyddai Wellington hyn, a gwnaeth ddarpariadau ar gyfer ymgymmeryd â rhyfelgyrch egniol. Aeth yn mlaen yn gyflym i Yspaen, a thrwy y symmudiadau milwrol mwyaf medrus, gorfododd y Ffrangcod i adael Madrid a Toledo, i syrthio yn ol ar Burgos, ac wedi hyny ar yr Ebro. Safasant yno mewn trefn i fod yn barod i attal y Prydeiniaid i'w chroesi; ond yr oedd Wellington yn ofalus am gadw ei fyddin mor ddiogel ag oedd yn bossibl, a thrwy newid ychydig ar ei symmudiadau llwyddodd i groesi yr afon yn uwch i fyny. Ar hyn, ciliodd y gelyn drachefn. Daeth y Prydeiniaid, pa fodd bynag, i ymyl y fyddin Ffrengig yn Vittoria. Llywyddid y Ffrangcod gan Joseph Bonaparte, brenin Yspaen, a'r maeslywydd Jourdan. Ac ar yr 21ain o Fehefin, 1813, ymladdwyd brwydr Vittoria; yn yr hon y cafodd Wellington oruchafiaeth hollol ar ei wrthwynebwyr. Collodd y gelyn 151 o fagnelau, a'i gad-ddarpariaethau; a syrthiodd cerbyd y brenin, a'i lythyrau, &c., i ddwylaw y gorchfygwyr. Yn gyfnewid am berllysg (*baton*) Jourdan, yr hon a gafwyd ar y maes, ac a anfonwyd i'r wlad hon, anfonodd y Tywysog Raglaw ferllysg maeslywydd Lloegr drosodd i Wellington. Trwy y gyfres bwysig hon o fuddugoliaethau ysblenydd, efe a gyrhaeddodd ben pinacl ei ogoniant milwraidd. Yr oedd gwaredigaeth Yspaen yn awr oddi wrth y Ffrangcod yn mron yn sicr. Yn ol tystiolaeth Wellington ei hun, yr oedd ei draedfilwyr yn gyfryw ag a allent "fyned lle y mynent, a gwneyd yr hyn a fynent;" ac nid oedd ei gydwladwyr erbyn hyn yn edrych hyd yn oed ar oresgyn Ffraingc yn beth ammhossibl. Pan glywodd am ganlyniadau y frwydr hon, dychrynwyd Napoleon yn ddirfawr, ac anfonodd Soult yn ddioed i geisio troi llanw y digwyddiadau hyny yn ol. Gwnaeth Soult egnion mawrion i yru y Prydeiniaid, a'u cynghreiriaid Portugeaidd ac Yspaenaidd, yn ol; ond ar ol cyfres o ymladdfeydd celyd a gwaedlyd, a adwaenir o dan yr enw 'brwydrau y Pyrenees,' bu raid iddo encilio yn ol i Ffraingc. Aeth Wellington ar ol y fyddin hon trwy Pampeluna. Methodd gymmeryd San Sebastian trwy ruthr, Gorphenaf 25ain; ond ennillodd frwydr bwysig arall ar Soult yn mylchau y Pyrenees, ac enciliodd byddin y Ffrangcod i'w gwlad eu hunain. Gwnaed ail ymgais i ddarostwng San Sebastian trwy ruthr, a bu yn llwyddiannus; ond costiodd 2,500, rhwng y lladdedigion a'r clwyfedigion. Yna croesodd Wellington y Bidassoa, a goresgynodd Ffraingc. Ymostyngodd Pamplona iddo. Ar ol croesi y Nivelle, ac ymladd brwydr yno, a chroesi y Nive, ymosodwyd ar fyddin fuddugoliaethus Wellington, ar y 10fed o Ragfyr, ar yr ochr dde ac aswy iddi, gan Soult; ond gorthrechwyd ef. Gadawodd Wellington ddwy adran o'i wŷr i warchau Bayonne, ac aeth ar ol Soult gyda'r gweddill o'i fyddin. Ar y 27ain o Chwefror, 1814, efe a orchfygodd Soult yn Orthes, a chroesodd yr Adour. Bu ychydig ymladd yn Aire a Tarbes; ac wedi hyny croeswyd y Garonne; ac ar y 10fed o Ebrill, diweddodd y gyfres ysblenydd hon o fuddugoliaethau yn ngorchfygiad Soult drachefn o dan furiau Toulouse. Gyda'r frwydr hon y terfynodd rhyfel y Gorynys. Yr oedd yr holl rwystrau a'r anhawsderau oeddynt ar ffordd Wellington wedi eu llwyr orchfygu gan ei fedrusrwydd ef a dewrder ei fyddin, a byddinoedd goreu Ffraingc wedi eu curo yn ol ganddo; ac erbyn hyn yr oedd hyd yn oed y rhai a fynent ei iselu wedi cau eu geneuau.

Gan fod byddinoedd cynghreiriol Rwssia a'r Almaen wedi myned i mewn i Paris, a Napoleon wedi arwyddo a llawnodi ei fod yn rhoddi ei awdurdod i fyny ychydig ddyddiau cyn hyny, ni buasai y frwydr ddiweddaf hon wedi cael ei hymladd o gwbl oni buasai fod y newyddion am y digwyddiadau hyny wedi bod yn hir yn cyrhaedd Wellington. Mewn ychydig wythnosau yr oedd yntau yn Paris—yn cyflwyno arwyddion buddugoliaeth ei ryfelgyrch ysblenydd i'r penau coronog cynghreiriol. Daeth drosodd i Loegr, ar ol bod yn absennol am bum mlynedd, a chafodd y derbyniad mwyaf croesawus a chalonog yn mhob man. Ar y 3ydd o Fai, gwnaed ef yn Ardalydd Douro, ac yn Dduc o Wellington yn y bendefigaeth Brydeinig, a derbyniodd rodd chwanegol o 400,000*p.* Derbyniodd gyda hyny ddiolchgarwch y senedd am y deuddegfed tro am ei wasanaeth. Ar yr 28ain o Fehefin y cymmerodd efe ei eisteddle am y waith gyntaf yn Nhŷ yr Arglwyddi. Bu o flaen bàr Tŷ y Cyffredin yn dadgan ei ddiolchgarwch, ac anerchwyd ef gan y llefarydd. Diplomyddol oedd y gweithrediadau nesaf yr ymgymmerodd efe â hwy. Pennodwyd ef yn llysgenhadwr anghyffredinol Prydain i lys Ffraingc yn Ngorphenaf, 1814. Daeth gweithrediadau cynnadledd Vienna i derfyniad buan trwy y newydd fod Napoleon wedi diangc o ynys Elba, a dyfod i Ffraingc, lle yr oedd y fyddin yn ymgasglu o dan ei faner ef; ac wedi hyny ei fod yn y Tuileries, tra yr oedd y brenin Bourbonaidd yn ffoi tua Ghent. Tynodd cynnrychiolwyr y galluoedd mawrion oeddynt wedi ymgasglu i Vienna bapur allan, yn yr hwn y cyhuddid Bonaparte o fod yn derfysgwr ar heddwch y byd; a chyhoeddwyd ei fod y tu allan i amddiffyniad cyfraith (*outlaw*). Yna pennodwyd Wellington yn ben cadlywydd lluoedd Prydain oedd ar gyfandir Ewrop; aeth yntau o Vienna i Brussels i ymuno â'r fyddin yno. Yr oedd Wellington wedi cyrhaedd Brussels yn mis Ebrill, 1815, i ddarparu ar gyfer yr ymdrechfa agoshaol. Yn ol y trefniadau y cynlluniwyd arnynt, yr oedd y byddinoedd cynghreiriol i ymgyfarfod ar y Rhine; ac i'r dyben o gadw y cydgasgliad cyffredinol hwn yn ddirgelwch, ac hefyd o amddiffyn Belgium, y penderfynodd Wellington osod ei bencadlys yn Brussels. Amcan Napoleon, ar y llaw arall, oedd llethu byddin Prydain, a gyru yn ol gymmaint o'r milwyr Prwssiaidd ag a ddeuent i Flanders, cyn i'r cynghreirwyr gael amser i gasglu ynghyd eu byddinoedd mawr. Yr oedd gan Wellington o dan ei lywyddiaeth tua 40,000 o Brydeiniaid a Hanoveriaid, a 36,000 o Almaenwyr a Belgiaid. Yr oedd y Prwssiaid, tua 80,000 o nifer, o dan lywyddiaeth y maeslywydd Blucher, yn gwersyllu yn Namur. Trwy ymdrech fawr yr oedd Napoleon wedi casglu ynghyd fyddin o 120,000 o wŷr.

Ac ar yr 16eg o Fehefin, 1815, ymosododd y Ffrangcod, dan arweiniad Napoleon, ar y Prwssiaid, dan arweiniad Blucher, yn Ligny, a drylliwyd y fyddin yn ei chanol. Ymladdodd y Prwssiaid gyda dewrder mawr nes y daeth y nos; ond llwyr orchfygwyd hwynt, er y medrodd

Digitized by Google

Blucher encilio mewn trefn lled dda i Wavre. Ar yr un dydd, ymosododd y maeslywydd Ney ar y tywysog o Orange yn Quatre Bras, ond gyda'r adgyfnerthion a anfonwyd iddo gan Wellington yn ddioed, medrodd y diweddaf wrthsefyll ei holl ymosodiadau yn llwyddiannus. Yn ol y cynllun y rhagbenderfynwyd arno gan y cadfridogion cynghreiriol, yr oedd hyn yn cael ei ragweled; ac yn unol â'u cynllun o wneuthur gwrthsafiad diysgog, ac i encilio os byddai hyny yn angenrheidiol (er cael amser i'r Prwssiaid a'r Awstriaid i ddyfod ar gyffiniau Ffraingc), syrthiodd Blucher yn ol tua'r gogledd (yn lle i'r dwyrain, fel y disgwyliai Napoleon), yn nes i'r fan yr oedd Wellington, yn Mont St. Jean; tra y darfu i'r fyddin o dan Wellington gilio yn ol i'r llinell oedd o'r bron yn gyfochrog nes y daethant i goedwig Soignies; ac yn y fan hono ymffurfiwyd yn drefnus o flaen y goedwig yn barod i frwydr, gan wynebu i'r deheu. Tybiodd Napoleon fod y Prwssiaid ar lawn ffoedigaeth, a bod yn ngallu y cadfridog Grouchy, gyda 33,000 o wŷr, a ddanfonasid ar eu hol, eu chwalu yn llwyr; a chroesodd i Quatre Bras gyda'r gweddill o'i fyddin, lle yr ymunodd â Ney, ac oddi yno aethant i chwilio am Wellington, a chyrhaeddasant i wastadedd Waterloo erbyn yr hwyr. Yr oedd y ddwy fyddin a wynebent eu gilydd yno, er eu bod agos yn gyfartal o ran rhif, yn cael eu gwneyd i fyny o ddefnyddiau tra gwahanol. Rhifai y fyddin Ffrengig o 69,909 i 72,247 o wŷr, a 246 o gyflegrau, yn ol yr awdurdodau Ffrengig. Ond y mae haneswyr ereill yn eu cyfrif o 74,000 i 90,000, er nas gellir dyweyd yn fanwl hyd sicrwydd, yn gymmaint a bod y cyfrifon swyddol ar goll; ac yr oeddynt oll o'r bron yn hen filwyr profedig —ac unwaith yn rhagor yr oeddynt wedi ymrestru o dan faner y penaeth a'u harweiniodd i fuddugoliaeth gynnifer o weithiau o'r blaen. Rhifedi byddin Wellington oedd 69,894, a 156 o gyflegrau. Nid oedd ynddi ond 25,389 o Brydeiniaid—gyda 6,793 o leng Almaenaidd y brenin, 10,995 o Hanoveriaid, 2,926 o Nassauiaid, 6,303 o Brunswickiaid, a 17,488 o Iseldirwyr. Gydag eithriad bychan o hen filwyr y Gorynys, milwyr ieuaingc oeddynt; ac yr oedd cyfartaledd mawr o honynt heb fod erioed mewn un frwydr o'r blaen. Nid oedd yr Hanoveriaid, mewn gwirionedd, ond cartreflu yn unig, ac nid oedd rhai o honynt yn gymmhwys ond i wneyd gwaith gwarchodlu; ac yr oedd ymddygiadau rhai o'r milwyr Belgiaidd yn ystod y frwydr yn dangos yn eglur nad oeddynt hwythau o nemawr ddefnydd ond i chwanegu rhifedi y fyddin, gan iddynt adael y gwaith o amddiffyn yr Iseldiroedd rhag cam yn benaf i'r Isellmyniaid. Yr oedd gan y Ffrangcod 240 o fagnelau—tra nad oedd gan eu gwrthwynebwyr ond tua 156. Gyda'r fath fyddin, yr oedd sefyll ar yr ochr amddiffynol, o flaen byddin mor brofedig, yn cael eu harwain gan gadfridog mwyaf ei oes, yn orchwyl a alwai am holl alluoedd a phenderfyniad Wellington i ymgymmeryd âg ef; ond gwnaeth y gwron hyny, gan ddibynu ar addewid Blucher y byddai iddo ymuno âg ef tuag un o'r gloch yn y prydnawn.

Erbyn y 18fed, yr oedd y ddwy fyddin hyn gyferbyn â'u gilydd, wedi eu gosod mewn trefn barod i frwydr. Yr oedd y cynghreirwyr wedi eu trefnu ar linell o fryniau, â'u haden aswy yn gorphwys ar Frischermont, ac amaethdy La Haye Sainte o flaen canol y fyddin; ac yr oedd eu haden ddeheu yn amgylchu yn un llinell o'r tu ol i Hougomont, ac yn gorphwys ar Merke Braine. Yr oedd byddin y Ffrangcod wedi ei threfnu ar y rhes o fryniau cyferbyniol. Yr oedd ysgarmesau yn myned yn mlaen ar hyd y boreu; ond ni wnaed yr ymosodiad difrifol cyntaf cyn tuag un ar ddeg o'r gloch, pan y daeth cyfran o gorphlu cyntaf y Ffrangcod yn mlaen i ymosod ar Hougomont, gyda'r amcan o guddio ymosodiad pwysicach y bwriedid ei wneyd yn erbyn aden aswy byddin Wellington. Daliwyd i wneyd yr ymosodiad rhagbarotoawl hwn, pa fodd bynag, er yn aflwyddiannus, am gryn amser, hyd nes y darfu i Napoleon, gan ei fod yn ofni colli mwy o amser, ddarparu ar gyfer gwneyd ei ymosodiad mawr ar ganol yr aden aswy. Y pryd hwn, tua hanner awr wedi un o'r gloch, deallodd fod blaenfyddin y pedwerydd corphlu Prwssiaidd, o dan Bulow, yn dyfod i'r golwg tua dwy neu dair milldir i'r deheu iddo; a gorfodwyd ef i anfon ei chweched corphlu, o dan Lobau, gyda nifer o'i feirchfilwyr, y tu ol i'w aden ddeheu, er eu hattal; ac o herwydd hyn bu raid iddo wneuthur cyfnewidiad yn ei gynllun ymosodol ar y cynghreirwyr, a gorchymynodd i Ney ymdrechu tori drwy eu canol. Ynghylch dau o'r gloch, ar ol i'r magnelau fod yn tanio yn galed, oddi wrth ba rai y darfu i Wellington ddiogelu ei wŷr drwy eu harwain i gysgod y llechwedd, daeth Ney yn mlaen yn erbyn canol yr aden aswy, gydag 20,000 o wŷr, ond ni lwyddodd ond i beri i frigad Belgiaidd ffoi; ac yna ymosodwyd arno yn egnïol, a churwyd ef yn ol gan adran Syr Thomas Picton, a gwnaeth y meirchfilwyr Prydeinig ddinystr mawr yn mysg ei filwyr, a chymmerasant 2,000 yn garcharorion. Er hyny, yn mhen ychydig, ymosododd Ney arnynt drachefn, a chymmerodd amaethdy La Haye Sainte, er fod ei ymosodiadau ar y traedfilwyr oedd mewn meddiant o'r lle hwnw wedi methu lawer gwaith, a'i golofnau enciliedig yn gorfod dioddef yn ddirfawr oddi wrth y meirchfilwyr Prydeinig; ac er fod y diweddaf hefyd, yn eu tro, yn gorfod dioddef yn dost oddi wrth feirchfilwyr y gelyn. Erbyn hyny (hanner awr wedi pedwar), yr oedd Bulow wedi llwyddo i ddyfod o'r goedwig, ac aeth yn mlaen yn erbyn Planchenoit, o'r tu ol i aden ddeheu y Ffrangcod, a chariodd ef ar ol ymladdfa ffyrnig. Wedi cael adgyfnerthion o'r gwarchodwyr, pa fodd bynag, ail gymmerwyd y lle gan adran Ffrengig Lobau, a gyrwyd y Prwssiaid yn ol i'r goedwig; a thrwy hyny diogelwyd ystlys ddeheuol y Ffrangcod am ryw gymmaint o amser, a theimlai Napoleon yn lled hyderus y gellid dinystrio y cynghreirwyr cyn i'r Prwssiaid allu dwyn unrhyw gynnorthwy effeithiol iddynt. Yn adeg yr ymdrechfa â Bulow yr oedd Ney wedi bod yn ymosod yn egnïol ar ganol ac ar aden ddeheu y fyddin gynghreiriol, ac wedi gwneuthur cais i adennill coedwig Hougomont ac amaethdy La Haye Sainte—yr hyn a fu yn achos o laddfa fawr o bob tu.

Yna penderfynodd Napoleon wneuthur un ymosodiad egnïol a phenderfynol arall ar ganol y fyddin Brydeinig, yr hon oedd eisoes wedi profi ei hun bron yn ansigledig; a galwodd ei filwyr goreu a mwyaf profedig i'r gwaith. Fel yr oedd y Ffrangcod yn nesau yn mlaen taniwyd arnynt o bob dryll a magnel a allai eu cyrhaedd; a gyrwyd eu colofn ymosodol gyntaf i lawr y llechwedd yn ol gan y gwarchodwyr Prydeinig. Gyrwyd yr ail golofn drachefn i lawr yr un modd gan frigad Adam; a dilynwyd y ffoedigion gan

Digitized by Google

y meirchfilwyr Prydeinig. Erbyn hyn (saith o'r gloch), yr oedd adranau o fyddin y Prwssiaid dan arweiniad y cadfridog Ziethen wedi ymuno â'r llinell Brydeinig; ac un arall dan Bulow, ar ol derbyn adgyfnerthion, wedi adgymmeryd Planchenoit, ac yn gyru aden ddeheuol y Ffrangcod o'i flaen. Ar yr adeg yma dyma y gorchymyn bythgofiadwy gan Wellington, meddir, yn cael ei roddi, "*Let the whole line advance*"—"Bydded i'r holl linell symmud yn mlaen." Yna trwy ymosodiad unedig a phenderfynol ar y Ffrangcod enciliedig gan y Prydeiniaid a'u cynnorthwywyr ar un tu, yn ol gorchymyn Wellington, a'r meirch-filwyr Prwssiaidd dan Blucher ar y llall, nid yn unig llwyr orthrechwyd y blaenaf, ond gwasgarwyd hwynt i bob cyfeiriad. Yr oedd y ffyrdd tua'r deheu, ac yn enwedig yr hon a arweiniai i Genappes, wedi eu llenwi â ffoedigion yn cael eu hymlid gan y gwŷr meirch; ac ymddengys i'r Prwssiaid, mewn rhai amgylchiadau, ymddwyn yn dra chreulawn yn yr ymlidiad hwn. Yr oedd y golled a gafwyd yn y frwydr hon, o herwydd y dewrder a'r penderfyniad â pha rai yr ymladdwyd, o angenrheidrwydd yn fawr. Y mae y ffigyrau a geir fel y canlyn:—Prydeiniaid a Hanoveriaid, 11,678; Brunswickiaid, 687; Nassauiaid, 643; yr Iseldirwyr, 3,178; y cyfanrif, 16,186—pa rai, yn chwanegol at y 6,999 o Brwssiaid, sydd yn gwneuthur colled y cynghreirwyr yn y cwbl yn 23,185. Collwyd o'r Ffrangcod, rhwng lladdedigion a chlwyfedigion, 18,500, a chymmerwyd 7,800 o garcharorion, a 227 o fagnelau. Fel hyn yr ymladdwyd, ac yr ennillwyd y frwydr enwog a phwysig hon; yr hon y gellir ei hystyried yn orchestwaith mawr gyrfa filwraidd Wellington. Ar ol y frwydr fythgofiadwy hon, ffodd Napoleon i Paris; a chan y gwelai nas gallai wrthsefyll yn hwy, ymddiswyddodd—a chyda hyny daeth 'rhyfel mawr y Cyfandir,' yr hwn oedd wedi parhau cynnifer o flynyddoedd, ac yn yr hwn yr aberthwyd cynnifer o filoedd o fywydau, i derfyniad.

Y mae brwydr Waterloo wedi bod yn achlysur o lawer o ymddadleu yn mysg yr haneswyr Prydeinig, Ffrengig, ac Almaenaidd. Y pwyntiau mewn dadl ydynt, yn 1af, y nifer o filwyr oedd yn ymladd o'r naill ochr a'r llall: yn 2il, y gallu a amlygwyd gan y maeslywyddion yn nhrefniad eu byddinoedd ar gyfer yr ymdrechfa: yn 3ydd hefyd, pa mor bell y darfu i'r Prwssiaid gynnorthwyo i gynnyrchu yr hyn a gymmerodd le. Hwyrach y gellir atteb hyn yn fyr, ac yn lled foddhaol. Gwyddys pa beth oedd nerth byddin Prydain oddi wrth yr ysgrifeniadau swyddol. Yr oedd byddin Ffraingc, fel y gwelid oddi wrth eu gweithrediadau ar hyd y dydd, yn lliosocach: ac er nas gellir penderfynu yn fanwl beth oedd ei nifer, y mae yn ddiau ei bod dros 70,000, a than 80,000. Ond y mae y ffaith fod llawer o'r Belgiaid oedd yn myddin Wellington wedi ffoi ymaith i Brussels mor fuan ag y gwelsant y Ffrangcod, yn chwanegu at yr anghyfartaledd. Nid oedd gan y Prwssiaid ond 35,000 o wŷr yn wynebu y tân yn Waterloo, ac ni bu hanner y rhai hyny o flaen y tân ond am hanner awr. Y mae rhai yn beio Wellington am feiddio ymladd â choedwig o'r tu cefn iddo. Ond y mae ei eglurhad ef ei hun ar fanteision y sefyllfa a ddewisodd efe i'w fyddin yn y frwydr hon yn atteb digonol i bob sylwadau o'r fath. Fel hyn y dywedodd efe wrth un oedd yn coffau sylwadau anffafriol rai o ysgrifenwyr Ffraingc—y rhai a ddywedent nad oedd ganddo un ffordd y tu cefn i'w fyddin, i allu diangc pe buasai wedi ei orchfygu. "Pa fodd bynag," meddai y duc, "methasant a phrofi yr angenrheidrwydd am dani. Yr oedd pob llathen o'r ffordd i Brussels yn bossibl i'w defnyddio i'r amcan hwn. Yr oeddwn yn adnabyddus o bob troedfedd o'r tir a orweddai y tu draw i'r goedwig, a'r llwybrau a'r ffyrdd drwyddi. Yr oedd y goedwig ar bob ochr i'r *chausée* yn ddigon agored i wŷr traed, a gwŷr meirch, ac hyd yn oed i fagnelwyr, ac yn hawdd iawn i'w hamddiffyn. Pe buaswn i yn encilio drwyddi, a allasent hwy fy nilyn? Yr oedd y Prwssiaid ar eu hystlys—ac yna buasent o'r tu ol iddynt. Yr oeddwn yn disgwyl ac yn cyfrif ar gydweithrediad y Prwssiaid pan yn ffurfio fy nghynllun—ac ni chefais fy siomi. Ond ni ddarfu i mi erioed feddwl am gilio yn ol i Brussels. Pe y cawswn fy ngorfodi i symmud o'm safle, buaswn yn cilio yn ol i'r deheu—tua'r arfordir, a'r llongau, lle yr oedd fy adnoddau. Gosodais Hill mewn sefyllfa y gallasai efe estyn cynnorthwy pwysig i mi mewn llawer o ddigwyddiadau anffodus a allasent gymmeryd lle—ac yr oedd yn bossibl i hwn fod yn un. Ac etto, gofynaf (meddai), pe buasai i mi gilio tua'r deheu, a fuasai Napoleon yn beiddio fy nilyn yno? Pe y gwnaethai hyny, buasai y Prwssiaid, oedd yn barod ar ei ystlys, o'r tu ol iddo. *Ond fy nghynllun i oedd dal fy nhir hyd nes yr ymddangosai y Prwssiaid, ac yna y pryd hwnw gwneyd ymosodiad ar holl fyddin y Ffrangcod—a chariais fy nghynllun allan.*"

Prif gamsyniadau Napoleon oedd, iddo fod mor hwyr yn dechreu taraw; a'r modd afradus y danfonodd ei feirchfilwyr yn erbyn petryalau ansigledig y traedfilwyr Prydeinig, i gael eu dinystrio yn mron yn anocheladwy; a'i waith yn esgeuluso cymmeryd i'r cyfrif y diysgogrwydd, er iddo gael ei rybuddio o hyny gan Soult, â pha un y cadwai y traedfilwyr Prydeinig eu tir. Y mae yn dra sicr fod ymosodiad Bulow ar Planchenoit wedi tynu llawer o sylw Napoleon, a chymmeryd 10,000 o'i filwyr i'w wrthwynebu. Ond pe na buasai y Prwssiaid wedi dyfod i fyny, ni allasai y frwydr, dybygid, fod yn ddim amgen nag un ammhenderfynol. Pa fodd bynag, yr oedd effaith yr ymosodiad unedig llwyddiannus a wnaed ar aden ddeheu y Ffrangcod, yn troi yr hyn a fuasai, yn ol pob golwg, yn frwydr ammhenderfynol, yn fuddugoliaeth ogoneddus. Y mae y tair cenedl yn hòni eu hawl i roddi enw i'r ymdrechfa enwog hon. Geilw y Ffrangcod hi yn 'frwydr Mont St. Jean'—palas o'r tu ol i'r llinellau Prydeinig. Y Prwssiaid a'i galwant yn 'frwydr La Belle Alliance.' Ac y mae y gwir orchfygwyr ar y maes gwaedlyd hwn yn hòni eu hawl i roddi arni yr enw 'Brwydr Waterloo.' Yn y frwydr hon y llethwyd gallu ac awdurdod Napoleon am byth!

Aeth y byddinoedd cynghreiriol yn mlaen tua Pharis, dan lywyddiaeth Wellington a Blucher; ac aeth y fyddin Ffrengig o Paris o dan gyttundeb; a daeth y brenin Louis XVIII. i Paris dranoeth ar ol y byddinoedd cynghreiriol. Dygwyd y maeslywydd Ney i brawf fel bradwr i Ffraingc am ei waith yn ymladd dan Napoleon yn Quatre Bras a Waterloo, a chondemniwyd ef i farw. Appeliodd Ney at Wellington gan ddeisyf arno wneuthur ei oreu i'w waredu ef—ond yn ofer! Hwyrach y gallasai y diweddaf a'i gyfeillion ddadleu nad oedd cyfiawnder, nac hyd yn oed anrhydedd, yn galw am iddo wneyd hyny. Ond gweithred hardd a chymmeradwy ydyw estyn

Digitized by Google

trugaredd i'r gorchfygedig. A ŵyr pawb pe buasai Wellington wedi arfer ei ddylanwad i'r perwyl hwn, y cawsai bywyd y dyn dewr hwnw ei arbed. Nid awn i ddyweyd fod hyn yn ysmotyn ar ddisgleirdeb ei gymmeriad; o herwydd gallwn ddychymygu, gyda'i arferion manwl ef o ymlyniad wrth reolau, a'i anewyllysgarwch i fyned yn mhellach mewn dim na'i awdurdod a'i allu, a gwylder naturiol ei gymmeriad, nad oedd efe yn teimlo fod angenrhaid neillduol arno i ymyryd yn yr achos. Ond pe buasai am y tro wedi ymddiosg o bob teimlad o'r fath, ac ymdrechu yn egnïol i waredu Ney, buasai yn adlewyrchu gogoniant chwanegol arno; ac am hyny, y mae yn achos o ofid na buasai efe wedi gweled ei ffordd yn glir i ymddwyn felly.

Ar ddymuniad y penaduriaid cynghreiriol, cymmerodd Wellington lywyddiaeth y fyddin oedd yn cadw meddiant o Paris, a phreswyliodd yn y ddinas hono o'r fl. 1815 hyd 1818. Gwnaed dau ymgais aflwyddiannus yn ystod yr amser hwn, ar ei fywyd. Gosodwyd pylor yn seler ei dŷ gyda'r amcan o'i chwythu i fyny; a darfu i ddyn o'r enw Cantillon danio llawddryll ato i'w gerbyd. Pan y gadawodd y byddinoedd cynghreiriol Ffraingc, yn 1818, gwnaeth ymherawdwyr Awstria a Rwssia, a brenin Prwssia, Wellington yn faeslywydd eu byddinoedd hwy. Rhoddwyd iddo y teitl o Dywysog Waterloo gan frenin yr Iseldiroedd. Yn y cyfamser, amlygwyd diolchgarwch y genedl Brydeinig iddo yn y modd gwresocaf a mwyaf brwdfrydig. Cyfodwyd cerfluniau o hono er ei anrhydeddu yn y brifddinas. Pleidleisiodd y senedd 200,000*p.*, yn chwanegol at ei rhoddion blaenorol iddo; a phrynwyd palas ac etifeddiaeth Strathfieldsaye, i fod yn eiddo iddo ef a'i etifeddion am byth. Gwnaed ef yn benaeth cyffredinol y cyflegrau—swydd sydd yn awr wedi ei diddymu; ond yr hon oedd y pryd hyny yn cynnwys llywodraeth dros y magnel-lu. Ar goroniad Sior IV., yn 1821, gwasanaethodd fel arglwydd argeidwad (*lord constable*) Lloegr. Yn mis Hydref, 1822, efe a gynnrychiolodd Brydain yn nghynnadledd Verona, lle yr ymarferodd ei ddylanwad, ond yn aneffeithiol, i geisio attal goresgyniad Yspaen gan fyddin Ffraingc, er cynnal i fyny egwyddorion unbenaethol. Yn 1826, efe a aeth ar genadwriaeth arbenig i St. Petersburg, pan y darbwyllodd efe yr ymherawdwr Nicholas i gydweithredu â Lloegr a galluoedd ereill, fel cyfryngwyr yn y cweryl rhwng Twrci a Groeg. Ar ei ddyfodiad yn ol, pennodwyd ef yn geidwad y Tŵr. Yn 1827, dilynodd y duc o Gaerefrog fel pencadlywydd y fyddin, a gwnaed ef yn filwriad y gwarchodwyr.

O'r pryd hwn y gellir dywedyd fod ei yrfa wleidyddol yn cychwyn. O angenrheidrwydd, nis gallwn ond rhoi trem frysiog ar ddigwyddiadau y rhan yma o'i oes lafurus. Pan y derbyniodd Mr. Canning orchymyn oddi wrth Sior IV. i ffurfio gweinyddiaeth, darfu i Wellington, ynghyd â chwech ereill o aelodau gweinyddiaeth arglwydd Liverpool (ac yn eu plith arglwydd Eldon, a Mr. Peel), ymddiswyddo. Yn yr eglurhâd a roddodd efe ar ei waith yn gwneyd hyn, dywedodd mewn modd pendant nad uchelgais am lenwi y swydd o brif weinidog ei hun a barai iddo wneuthur hyny; a dywedai fod ei anghymmhwysder i'r fath swydd y fath fel y buasai yn orphwylldra iddo feddwl am dani. Yn Awst, 1827, ar ol marwolaeth Mr. Canning, derbyniodd Wellington drachefn gadlywyddiaeth y fyddin, ond rhoddodd y swydd hono i fyny pan alwyd arno gan Sior IV. i ffurfio gweinyddiaeth, Ionawr 8fed, 1828. Yr oedd yn Dory penderfynol mewn gwleidyddiaeth; er hyny, efe oedd y gweinidog cyntaf o'r blaid hono, oddi eithr Mr. Canning, a ddangosodd duedd i ymostwng i'r farn gyhoeddus. Diddymiad deddfau y proflwon a'r corphoraethau, a rhyddfreiniad y Pabyddion, oedd yn mysg y mesurau cyntaf a ddygwyd yn mlaen ganddo yn y senedd-dymmor dyfodol, a hyny o herwydd fod teimladau y bobl yn yr Iwerddon yn gyffrous, a heddwch y wlad mewn perygl. Bu y mesur hwn yn achlysur iddo ef ac iarll Winchelsea i ymladd gornest; ond ni ddigwyddodd niwed i'r naill na'r llall. Ymddengys fod chwyldroad Ffraingc, yn 1830, wedi dylanwadu arno er peri iddo gymmeryd safle benderfynol yn erbyn diwygiad seneddol, i'r un graddau ag y bu yn achlysur i gynnhyrfu y bobl hefyd i wneyd cais mwy egnïol am eu hawliau. A phan y darfu i'r ymdrechfa yn erbyn y gallu unbenaethol ar y Cyfandir gryfhau y llef am ddiwygiad seneddol yn y wlad hon, efe a gymmerodd fantais ar y cyfle cyntaf i ddadgan ei farn ar berffeithrwydd anghyfnewidiol trefn gynnrycholiadol y wlad; ac ni phetrusodd amlygu penderfyniad ei lywodraeth i wrthwynebu pob mesurau o ddiwygiad seneddol a gynnygid. Yr oedd efe ar hyn o bryd yn hynod o anmhoblogaidd yn mysg y bobl; ac yr oedd yn ddigon llygadog i weled fod y cyffro yn rhy gryf iddo allu ei wrthsefyll yn llwyddiannus. Gan ei fod yn disgwyl gorchfygiad yn Nhŷ y Cyffredin, ar gynnygiad Mr. Brougham ar ddiwygiad seneddol, rhoddodd Wellington ei swydd i fyny ar yr 22ain o Dachwedd, 1830; a dilynwyd ef gan iarll Grey fel prif weinidog, gyda'r amcan proffesedig o ddwyn diwygiad seneddol o amgylch gyda holl ddylanwad y weinyddiaeth. Gan hyny, ar y 1af o Fawrth, 1831, fe ddygwyd y mesur ar ddiwygiad seneddol i mewn i Dŷ y Cyffredin gan arglwydd John Russell. Cymmerodd yr ymraniad cyntaf ar y mesur le ar yr 22ain o'r un mis, pan y cariwyd yr ail ddarlleniad gyda'r mwyafrif o un. Ar y cynnygiad i fyned i bwyllgor, ar y 19eg o Ebrill, cynnygiodd y cadfridog Gascoyne, fel gwelliant—"Na ddylai nifer y cynnrychiolwyr dros Loegr a Chymru gael eu lleihau;" ac ar yr ymraniad, cariwyd y gwelliant gyda'r mwyafrif o wyth. Mewn canlyniad i'r penderfyniad hwn, rhoddodd y llywodraeth y mesur i fyny; ac yn mhen tridiau wedi hyny, sef ar yr 22ain, torwyd y senedd. Ymgyfarfu y senedd newydd ar y 14eg o Fehefin, ac yr oedd effeithiau y cyffro a fu yn yr etholiad cyffredinol i'w canfod yn eglur. Dygwyd y mesur i mewn o'r newydd ar y 24ain o Fehefin; ac ar y 4ydd o Orphenaf, cariwyd yr ail ddarlleniad gyda mwyafrif o gant ac un ar bymtheg; ac ar y 12fed o Fedi, darllenwyd ef y drydedd waith gyda mwyafrif o gant a thri ar ddeg, a phasiodd Dŷ y Cyffredin. Yna dygwyd ef i mewn i Dŷ yr Arglwyddi yn ddioed; ond ar gynnygiad arglwydd Wharncliffe, ei fod i gael ei ddarllen yn mhen chwe mis, taflwyd ef allan gyda mwyafrif o un a deugain. Pan yr ymgynnullodd y ddau dŷ drachefn, dygwyd y mesur i mewn i Dŷ y Cyffredin y drydedd waith, ar y 13eg o Ragfyr, a chariwyd ef gyda mwyafrif mawr ar bob darlleniad; ac ar y 26ain, dygwyd ef i Dŷ yr Arglwyddi gan iarll Grey; ac unwaith etto, cafodd ei daflu allan. Yn mhen deuddydd, pa fodd bynag, ymddiswyddodd y gweinidogion;

Digitized by Google

ond yr oedd y weinyddiaeth mor gref, o herwydd fod llais y wlad o'u tu, fel y cawsant gan y brenin awdurdod i greu lliaws o arglwyddi newyddion; yr hyn a'u galluogodd i gario y mesur drwy y tŷ uchaf yn llwyddiannus o'r diwedd. Aeth achosion y wladwriaeth yn mlaen dan weinyddiaeth y Whigiaid, hyd nes y darfu i arglwydd Melbourne ymddiswyddo yn Tachwedd, 1834. Yna galwodd William IV. am Wellington, a chynnygiodd iddo y swydd o brif weinidog y wladwriaeth; ond gwrthododd Wellington ei derbyn. Ymddiriedodd y brenin iddo, fodd bynag, holl ofal y llywodraeth, a seliau y tri ysgrifenydd gwladwriaethol, hyd nes y dychwelai Syr Robert Peel o Rufain. Ar ei ddychweliad, ymgymmerodd Syr Robert a ffurfio gweinyddiaeth newydd Doryaidd, yn yr hon y cymmerodd Wellington y swydd o ysgrifenydd tramor. Ac ar y 18fed o Ebrill, 1835, ymddiswyddodd Peel; ac o hyny allan ni chymmerodd Wellington ran amlwg iawn yn ngweinyddiad llywodraeth y wladwriaeth.

Rhoddodd groesawiad calonog a haelfrydig i'r maeslywydd Soult, ei hen wrthwynebwr yn rhyfeloedd y Gorynys, pan y daeth y diweddaf i'r wlad hon yn gynnrychiolydd Ffraingc yn adeg coroniad y frenhines Victoria, yn 1837; a chafodd ei dderbyn gyda gwresowgrwydd mawr gan y bobl ar yr achlysur hwn. Yn mis Awst, 1839, rhoddwyd gwledd ardderchog iddo yn Dover, fel arglwydd warcheidwad y Pum Porth; ac ar yr achlysur hwn, cynnygiwyd yfed ei iechyd mewn araeth ganmoliaethol ysblenydd gan arglwydd Brougham. Yn 1841, derbyniodd sedd yn ngweinyddiaeth Syr Robert Peel, ond heb un swydd ynglŷn â hi. Yn 1842, ymwelodd brenhines Prydain âg ef yn Nghastell Walmer; ac yn yr un flwyddyn ail bennodwyd ef yn brif gadlywydd y fyddin. Yn 1845, ammheuai y doethineb o ddiddymu deddfau yr ŷd; ond yn unol â'i arferiad cyffredin, o gymmeryd i ystyriaeth "y modd yr oedd llywodraeth y frenhines i gael ei dwyn yn mlaen," efe a benderfynodd gefnogi Syr Robert Peel yn ei ymgais i'w diddymu. Nid yn unig penderfynodd Wellington i gadw ei sêdd yn y weinyddiaeth, ond derbyniodd y swydd o lywydd y cynghor, yn lle y swydd fwy dibwys o arglwydd y gyfrinsêl. Pan ddaeth y mesur i ddiddymu y deddfau hyn o flaen Tŷ yr Arglwyddi, cymmhellodd Wellington, gyda theimlad a difrifwch, y pendefigion i beidio er dim ag ymddangos yn wrthwynebol i'r Goron a Thŷ y Cyffredin ar y mater. Gwnaeth ei araeth argraph anghyffredin ar y tŷ, a phasiwyd ail ddarlleniad y mesur gyda chryn fwyafrif. Ymneillduodd gyda gweinyddiaeth Peel yn 1846. Ar ol y digwyddiad hwn, gellir dywedyd iddo ymgadw o hyny allan rhag cymmeryd rhan mewn bywyd politicaidd cyhoeddus; a diammheuol i'r rhan a gymmerodd yn niddymiad deddfau yr ŷd chwanegu yn fawr at ei boblogrwydd am y gweddill o'i oes. Yn 1848, efe a alwodd sylw at sefyllfa anfoddhaol amddiffynfeydd y deyrnas, mewn llythyr at Syr John Burgoyne. Fel prif gadlywydd y fyddin, parodd i ddarpariadau mawr gael eu gwneuthur er attal terfysg a fygythid gan y Siartiaid ar y 10fed o Ebrill. Yr araeth ddiweddaf a draddodwyd ganddo yn Nhŷ yr Arglwyddi oedd araeth gefnogol i fesur y cartreflu; pan ddywedodd fod Prydain wedi bod yn cario yn mlaen ryfeloedd yn mhob parth o'r byd gyda gallu milwraidd oedd yn annigonol, ond yn amser heddwch. Ar y 14eg o fis Medi, 1852, syrthiodd i lewyg fasglwyfus (*epileptic fit*) yn Nghastell Walmer:—collodd ei barabl, a bu farw y prydnawn hwnw, yn 83ain mlwydd oed! Anrhydeddwyd ef â chladdedigaeth gyhoeddus. Symmudwyd ei gorph, ar ol gorwedd dan ei deyrngrwys (*lie in state*) yn nawddle Chelsea, i'r Horse Guards; ac ar foreu y 18fed o Dachwedd, cymmerwyd ef drwy heolydd Llundain i'w gladdu i eglwys gadeiriol St. Paul, lle y dodwyd ei gorph i orphwys yn ochr gweddillion arglwydd Nelson. Yr oedd ei angladd yn un nodedig o rwysgfawr, a heolydd Llundain wedi eu gorlenwi â phobl ar hyd yr holl ffordd yr elai yr orymdaith.

Talodd canghellydd y trysorlys (Mr. Disraeli), yn adeg ei farwolaeth, y warogaeth ganlynol i'w goffadwriaeth yn Nhŷ y Cyffredin:—

"Ganwyd y person tywysogaidd sydd newydd ein gadael mewn oes mwy ffrwythlawn mewn digwyddiadau mawr a phwysig nag odid un arall. O'r digwyddiadau mawrion hyn, yr oedd a wnelo efe â'r mwyaf o honynt; a dygwyd oddi amgylch y rhai ag y bu y canlyniadau pwysicaf iddynt ganddo trwy offerynoliaeth moddion annigonol yn wyneb yr anhawsderau mwyaf. Yr oedd efe, gan hyny, nid yn unig yn fawr, ond y dyn mwyaf mewn oes o ddynion mawr. Yn nghanol cynnhyrfiadau a therfysgoedd diwedd y ganrif o'r blaen, cododd un o'r dynion hyny sydd yn ymddangos megys wedi eu geni i feistroli dynolryw. Nid ydyw yn ormodiaeth i ddyweyd fod Napoleon wedi uno yn ei berson ei hun angerddoldeb ymherodrol Alexander a chadofyddiaeth bwyllog Hannibal. Yr oedd brenhinoedd yn syrthio ger bron ei athrylith ystrywgar, a bygythiai ddinystr ar yr unig wlad a feiddiai anufuddhau iddo, a bod yn rhydd. O'r braidd y gwelwyd goruwchlywodraeth Rhagluniaeth dros y byd yn amlycach un amser na phan y cofir hyn—mai yr un flwyddyn ag y ganwyd ymherawdwr y Ffrangcod, y daeth Wellington i'r byd; ac yn yr un flwyddyn yr ymaflasant yn yr un alwedigaeth. Ac, er eu bod yn frodorion o wledydd ereill, aethant i dderbyn eu haddysg filwraidd i'r un wlad, yr hon yr oedd y naill a'r llall o honynt i'w darostwng yn eu tro. Yn ystod yr ymdrechfa faith hono am ein rhyddid, ein hanrhydedd—ïe, gallaf ddyweyd, ein bodolaeth—ymladdodd Wellesley, ac ennillodd bymtheg o frwydrau, ac oll o'r dosbarth blaenaf, gan orphen gydag un o'r brwydrau coronog hyny sydd yn rhoddi eu nôd ar hanesyddiaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, gellir dywedyd am dano yr hyn nas gellir ei ddyweyd am un cadfridog arall; sef, wrth gymmeryd tair mil o fagnelau mawrion, na chollodd efe gymmaint ag un fagnel ei hun. Ond yr oedd mawredd ei orchestion, fe allai, yn llai hynod na mawredd yr anhawsderau y bu raid iddo weithio ei ffordd drwyddynt. Yr oedd ganddo i'w gwrthwynebu lywodraeth egwan, gwrthblaid anynad, pobl dihyder, cynghreirwyr gwarthus, a'r gelyn cryfaf a mwyaf galluog ar wyneb y ddaear. Ennillodd fuddugoliaeth gyda milwyr ar hanner newynu, a chariodd warchauadau heb yr offerynau priodol i ddwyn y fath weithrediadau yn mlaen. Ond erioed ni thywyllodd seren Wellington......Ei gymmeriad ef ei hun a gerfiodd ei ffordd iddo, a gyflawnodd ei orchestion, ac a'i cadwodd rhag anffodion; o herwydd yr oedd ei hunan-lywodraethiad yn rheoli ei enwogrwydd......Y mae y duc o Wellington wedi gadael cymmunrodd fawr i'w wlad—mwy nag hyd yn oed ei enwogrwydd: y mae wedi gadael i ni ei gymmeriad i'w astudio. Nid wyf am ddywedyd iddo ail fywhau yn Mhrydain y syniad o ddyledswydd—o herwydd yr wyf yn hyderu nad oedd y syniad hwn wedi ei golli; ond gwnaeth y gwasanaeth cyhoeddus yn fwy grymus; a cheryddodd yn llym, drwy ei esampl, bob oferedd a gwagymffrost."

Digitized by Google

Ni byddai ychydig o sylwadau pellach ar ei gymmeriad allan o le yma. Ei nodweddau mawrion oeddynt, tawelwch, gonestrwydd, a nerth. Gellir eu darllen yn eglur ynddo; ac y mae hyn yn esbonio ei weithrediadau yn mhob rhan o yrfa ei fywyd. Gwelir hyn yn y gofal manwl a distaw trwy ba un y casglai ei wybodaeth gyflawn o sefyllfa a thelerau pob ymdrechfa y cymmerodd ran ynddynt; yn y golwg craff â'r hwn y gwelai efe gamgymmeriad gwrthwynebwr; ac yn y tawelwch cryf a ganfyddir yn ei fryslythyrau. Amlygir yr un nodweddau hefyd yn ei ddewrder. Dywed rhai ei fod yn ochelgar a phetrusgar; ond y mae hyn yn seiliedig yn benaf ar gamgymmeriad—fel y canfyddir yn eglur yn y gwaith a wnaeth yn Assaye, wrth groesi y Douro, ac yn mrwydr Salamanca. Yr oedd Wellington, fe allai, mor hapus ag unrhyw gadfridog hen a diweddar yn ei waith yn dewis ei safleoedd. Mewn gofal, cywirdeb, a bywiogrwydd, yr oedd fel Fabius a Scipio: gallai ganfod ar unwaith gamgymmeriad gwrthwynebwr, megys y gwnaeth yn Salamanca. Daw y galluoedd hyn i'r golwg yn mhob rhan o ryfelgyrchoedd y Gorynys; ond yn ddiammheu ni ddaeth holl deithi ei athrylith i weithrediad llawnach ar unrhyw achlysur nag yn rhyfelgyrch 1810, a'r enciliad i Torres Vedras. Y mae llawer wedi ei ddyweyd am oerder teimladau Wellington, a'i fod yn ddiffygiol mewn caredigrwydd. Yn y rhan yma o'i gymmeriad hefyd yr ydym yn canfod y teithi a nodwyd. Yr oedd yn garedig yn ei ffordd ei hun. Rhaid addef na ddarfu iddo erioed amlygu y swyn nodedig hwnw oedd yn attynu eu cyd-ddynion, oedd yn nodweddu Mirabeau, Napoleon, a Hannibal. Etto yr oedd ynddo garedigrwydd oedd yn gweddu yn dda i nerth ei gymmeriad. Yr oedd ei garedigrwydd yn gynnyrch rheswm ystyriol, ac nid yn ffrwyth teimlad. Yr oedd ei lywodraethiad yn India yn garedig a dyngarol, ac yr oedd preswylwyr y taleithiau y gweinyddai ynddynt yn ei fendithio yn eu calonau. Hwyrach nad oedd cymmaint o arwyddion gofid i'w canfod arno o herwydd colledion neu ddinystr personau; ond yr oedd llwyddiant a dedwyddwch cyffredinol cenedl, fel y cyfryw, yn gorwedd yn agos at ei galon. Nid oedd yn gofalu am estyn llawer o ffafrau personol; ond yr oedd yn awyddus am wneyd daioni cyffredinol. Yr un modd hefyd y gellir dyweyd am ei yrfa filwraidd. Os rhaid dyweyd nad oedd yn amlygu serch at bob milwr, y mae yn rhaid addef na charodd un cadfridog erioed ei fyddin yn well. Os oedd raid aberthu y milwr yn bersonol er lles yr holl fyddin, nid oedd yn petruso gwneyd hyny; ac yn gymmaint a bod lles y fyddin yn galw am gysuron a diogelwch pob milwr ynddi, nis gallai y milwr Prydeinig ddioddef llai o galedi yn Yspaen na'r hyn a brofwyd o dan Wellington. Mewn gair, yr oedd y rhai oeddynt dano yn teimlo y diogelwch a geir o dan flaenor cadarn. Gellid appelio at achos mab Dhoondiah fel prawf fod caredigrwydd yn gorwedd yn ddwfn yn ei natur, er nad oedd hyny yn cael ei amlygu mor eglur ganddo tuag at bersonau neillduol.

Y mae llawer o gyferbyniadau wedi eu tynu rhwng Wellington a chadlywyddion enwog ereill. Y mae rhai wedi ei gymmharu i Cromwell, ac mewn rhai pethau yr oedd yn debyg i'r dyn rhyfeddol hwnw. Yr oedd yr un gwelediad clir, yr un egni cyflym, a'r un athrylith i gynllunio a threfnu, yn nodweddu y naill a'r llall. Ond hwyrach fod mwy fyth o debygolrwydd rhwng Wellington a'r duc o Albemarle. Gwel rhai gyferbyniad nodedig yn ngyrfaoedd bywyd Napoleon a Wellington i'r eiddo Hannibal a Scipio. Cydnabyddir yn lled gyffredinol mai Hannibal a feddai yr athrylith filwraidd fwyaf a fu yn y byd erioed. Rhedodd ei yrfa o fuddugoliaeth i fuddugoliaeth, hyd nes y cyfododd cadfridog i'w wrthwynebu, oedd â'i sylw yn wastad ar ddihûn, ei gywirdeb yn ddifêth, ei ddeall yn graff, ei ddewrder yn ddi-ildio, ac a allai ddwyn milwyr i'r maes nas gallai unrhyw ryfelwyr Affricanaidd fod yn hafal iddynt. Cyfarfuant ar wastadeddau Zama. Yr oedd medrusrwydd Hannibal, a dyweyd y lleiaf, yn gyfartal i'r eiddo Scipio; ond yr oedd buddugoliaeth yn ffafrio yr eryrod Rhufeinaidd. Perthynai Wellington i ddosbarth o gadfridogion a gynnrychiolir gan Scipio; a Napoleon i'r rhai a gynnrychiolir gan Hannibal. Y mae gallu gwyllt a dilywodraeth athrylith yn fynych wedi ei goncro gan rym ac egni tawel, ac erioed nid amlygwyd hyn yn eglurach nag yn achos Napoleon a Wellington. Gall y llosgfynydd daflu i fyny folltau ofnadwy o dân, megys pe baent am gyffwrdd â'r cymmylau; ond y mae llaw dawel ac anwrthwynebol attyniad yn ymaflyd ynddynt, ac yn eu dwyn yn ol i'r ddaear. Yr oedd y duc o Wellington yn un o'r dynion mwyaf mawrfrydig a gynnyrchodd Prydain Fawr erioed, ac yn un o'r dynion a gyfodir i wneyd gwaith mawr yn hanes y byd; ac nid oes ddadl nad yw yn hollol deg ei restru yn mysg cadlywyddion enwocaf y ddaear.

HANESION AM DANO.

Yr ydym wedi ymattal rhag rhoddi hanesynau (*anecdotes*) a adroddir am Wellington yn nghorph yr hanes uchod; ond tybiwn y gall ychydig o honynt daflu goleuni pellach arno, a chynnorthwyo y darllenydd i ffurfio barn gywirach am ei gymmeriad. Dywedodd Wordsworth mai y "plentyn yw tad y dyn;" ond mor bell ag y mae hanes Wellington yn hysbys, pan oedd yn ieuangc, o'r braidd y mae cywirdeb y syniad yn cael ei gadarnhau ynddo ef: gan nad oedd hynodrwydd neillduol yn perthyn iddo y pryd hwnw oedd yn rhagargoeli dyfodol enwog iawn.

Dywedir iddo, ar yr ail neu y trydydd dydd ar ol ymuno â'i gatrawd y tro cyntaf, fel banerwr, roddi milwr cyffredin yn y glorian—y tro cyntaf gyda'i arfau, ei arwisgoedd, a'i gad-ddarpariaethau, &c.; ac wedi hyny hebddynt. "Yr oeddwn yn ewyllysio," meddai, "cael rhyw ddirnadaeth o nerth dyn, o'i gymmharu â'r pwysau oedd ganddo i'w gario, a'r gwaith a ddisgwylid iddo ei wneyd." Pan y dadganwyd syndod fod un mor ieuangc yn y gwasanaeth yn dangos cymmaint o feddylgarwch, attebodd, "Pa ham? Nid oeddwn mor ieuangc na wyddwn, wedi i mi ymgymmeryd â galwedigaeth, mai gwell i mi oedd ymdrechu i'w deall." A chwanegodd, "Rhaid cadw yn wastad o flaen y meddwl fod gallu y byddinoedd mwyaf yn dibynu ar yr hyn y mae y milwr yn bersonol yn alluog i'w wneyd a'i ddioddef."

Byddai yn arfer, weithiau, ddarllen yn uchel, gan wneyd sylwadau ar y gweithiau y teimlai ddyddordeb ynddynt. Ond braidd y gwelwyd ef un amser yn dal ei ddwylaw, neu yn hollol segur.

Yr oedd argraph led gyffredin, ond cyfeiliornus, ar feddwl y cyhoedd fod y Duc o Welling-

Digitized by Google

o'r fyddin, rhoddwyd bloeddiadau gorhoenus o groesawiad iddynt, a chwareuai y seindorf yr anthem "Duw gadwo'r Brenin!" Wrth weled symmudiadau, a helbulon y gelyn, rhoddodd Wellington orchymyn i wneyd y symmudiad mawr a goronodd ei ymdrechion ar faes Waterloo â llwyddiant, ac a sicrhaodd heddwch Ewrop. Symmudodd yn mlaen gyda'i holl linell o draedfilwyr, yn cael eu hamddiffyn gan y magnelwyr a'r meirch-filwyr; arweiniodd y traed-warchodwyr ei hun, a dywedodd ychydig eiriau er eu calonogi, yr hyn a ddilynwyd gan fanllefau uchel a chyffredinol; ac yna gwnaed yr ymosodiad mawr, gyda'r llwyddiant llwyraf. "Ymdaenodd dychryn dros yr holl faes mewn eiliad yn mron," medd Wellington ei hun, "ac yr oedd holl fyddin y gelyn yn yr annhrefn mwyaf. Ymgymmysgai eu traed-filwyr, eu meirchfilwyr, a'u magnelwyr â'u gilydd, ac yr oedd yn hollol ammhossibl eu cael i'w lleoedd yn ol." Diammheuol i'r frwydr hon gynnyrchu teimladau yn Mhrydain na anghofiwyd gan y genhedlaeth hono. "Er ein bod," fel y dywed un, "yn ddigon arferol a chlywed am fuddugoliaethau ar dir a môr, er pan y cyfododd seren Wellington—er ein bod yn meddu llawn ymddiriedaeth yn ein cadfridog a'n byddin, nid oedd hyd yn oed y rhai oedd yn teimlo yn fwyaf gobeithiol, ac yn teimlo sicraf o lwyddiant, wedi breuddwydio am lwyddiant mor amlwg, disymmwth, a phenderfynol. Am beth amser, yr oeddid yn teimlo fel pe buasai gogoniant milwrol pob maes arall wedi diflanu. Yn y buddugoliaethau yn Cressy, yn Poictiers, yn Agincourt, yr oedd yr hawsder â pha un yr ennillwyd hwynt yn tueddu i leihau teilyngdod y gorchfygwyr. Nid oedd y gelyn wedi dal mor gyndyn yn Blenheim, ac nid oedd canlyniadau y fuddugoliaeth hono mor bwysig chwaith; ac nid oedd holl frwydrau mawrion ereill Wellington ei hun, o Assaye i Toulouse, yn ymddangos erbyn hyn ond fel rhagbarotoadau i'r fuddugoliaeth fawr ddiweddaf hon. Er cymmaint oedd pwysau y gofid a fu ynglŷn â hi, ac er maint y golled gyhoeddus a gafwyd yn nghwymp Picton, Ponsonby, Gordon, a llawer ereill, ynghyd â blodau y fyddin Brydeinig, etto, arbedwyd ni rhag y gofid—a fu ar adeg flaenorol yn peri i lawer braidd ofidio o herwydd brwydr Trafalgar, am golli Nelson—"o golli gwron mawr Waterloo."

Y mae teimladau Wellington ei hun yn cael eu dadgan ganddo, ar ol y frwydr, mewn llythyr at iarll Aberdeen, pan yn cyflawni y gorchwyl poenus o'i hysbysu o farwolaeth ei frawd:—"Nis gallaf," medd efe, "ddadgan fy ngalar a'm gofid wrth feddwl am y colledion a gafodd y gwasanaeth milwrol a'r wlad; ac nid oedd un o honynt yn fwy na cholli Syr William Gordon. Nid yw yr anrhydedd sydd yn deilliaw o'r fath frwydrau, a ennillir â phwrcas mor ddrud, yn un cysur i mi, ac nis gallaf feddwl ei fod i chwithau. Ond yr wyf yn gobeithio fod y canlyniad o honi yn sicr ac yn benderfynol, ac nad oes erbyn hyn ond ychydig o ammheuaeth na bydd i'n hymdrechion gael eu gwobrwyo trwy ennill ein hamcan blaenaf. Yna gall anrhydedd y brwydrau, yn y rhai y mae ein cyfeillion wedi cwympo, fod yn ffynnonell o ryw gymmaint o gysur i ni." Yr oedd Wellington yn llefaru o helaethrwydd ei galon. Ennillwyd y frwydr yn rhy ddrud i ddwyn gyda hi y llawenydd sydd yn gyffredin yn dilyn buddugoliaethau. Yr oedd y cyfeillion y bu mor fynych yn cydlawenhau â hwynt ar ol buddugoliaeth, wedi syrthio wrth ei ochr; ac ar hyd y dydd dranoeth wylai yntau yn chwerw!

Y mae galar Wellington o herwydd colli ei gymdeithion ar y maes yn cael ei amlygu hefyd yn yr hyn a ganlyn. Yr oedd un o'r tri llythyr a ysgrifenodd efe oddi ar faes Waterloo yn nodyn byr, yn yr hwn y cyfeiriai at rai oedd wedi cwympo, ac yr oedd yn diweddu fel hyn:—"Yr wyf fi wedi diangc heb ddim niwed. Yr oedd bys Rhagluniaeth arnaf!" Diammheu fod ei deimladau yn ddwysion pan yr ysgrifenai y geiriau. Pan oedd y frwydr ofnadwy drosodd, yr oedd ei deimladau, oedd wedi eu cadw o dan lywodraeth hyd yr oedd yn bossibl, yn methu a dal! Fel y marchogai yn nghanol griddfanau y clwyfedigion a'r gyflafan arswydus, ac wrth glywed sŵn y ffoedigion, a gwaeddiadau y buddugoliaethwyr oedd yn ymlid ar eu holau, yn myned wanach wanach yn y pellder o dan orchudd y nos, wylodd yn hidl! Yn fuan dywedodd y geiriau hyn:—"Y mae fy nghalon ar dori, o herwydd y golled ofnadwy wyf wedi ei chael yn marwolaeth fy hen gyfeillion a'm cymdeithion, a'm milwyr, druain! Credwch fi, nis gall dim ond brwydr wedi ei cholli fod hanner mor bruddaidd a brwydr wedi ei hennill. Y mae dewrder fy milwyr hyd yn hyn wedi fy nghadw oddi wrth y drwg mwyaf; ond nis gall ennill y fath frwydr ag un Waterloo, ar draul colli cynnifer o gyfeillion dewrfrydig, fod yn ddim amgen nag anffawd drom, oni bae am y canlyniadau i'r cyhoedd." Dranoeth ar ol y frwydr, rhoddodd orchymyn i'r awdurdodau priodol i barotoi rhestr o'r lladdedigion a'r clwyfedigion, a'i dwyn iddo ef. Wedi darparu y rhestr, prysurodd Dr. Hume i babell Wellington. Digwyddodd yntau fod yn cysgu. Gwyddai Hume am y lludded a'r llafur yr aethai drwyddynt, a phetrusai ei ddeffroi. Ond yr oedd ei orchymyn, ar y llaw arall, mor bendant fel y penderfynodd aflonyddu ar ei gwsg ef. Mewn eiliad, cododd y duc, ac ymwisgodd yn ei lawn wisg filwraidd, ac eisteddodd ar ochr y gwely. "Darllenwch!" medd efe. Darllenodd y doctor am dros awr o amser y rhestr dorcalonus, ac yna pallodd ei lais, a llesteiriwyd ef yn mlaen gan ei deimladau. Ceisiodd fyned yn mlaen—ond nis gallai. Yna cododd ei lygaid at y duc. Yr oedd Wellington yn parhau i eistedd, â'i ddwylaw wedi eu plethu ynghyd. Llifai y dagrau mawr i lawr ei ruddiau, ac ymddangosai fel wedi ymgolli mewn trallod. Ond deallodd fod Hume wedi tewi, a rhoddodd y gorchymyn "Darllenwch yn mlaen!" a thra yr oedd y physygwr yn parhau i ddarllen am bedair awr, eisteddodd Wellington ar erchwyn y gwely, â'i ddwylaw wedi eu gwasgu ynghyd, ond ei gorph yn siglo yn ol ac yn mlaen, mewn teimlad dwys ac angerddol! Dyma y dyn y mynai rhai o'i gydoeswyr ei gyhuddo o fod yn ddiffygiol mewn teimlad!

Yr oedd ei ddiangfeydd o beryglon yn hynod iawn. O'r braidd y bu efe mewn un frwydr na chafodd amryw o'r rhai oedd o'i gwmpas eu lladd neu eu clwyfo. Yn Vittoria aeth drwy ganol yr ergydion a daflwyd allan o fagnelau a drylliau y rhan ganol o fyddin Ffraingc. Yn Sorauren, efe a ysgrifenodd gofnodiad ar y bont, tra yr oedd y gelyn mewn meddiant o'r pentref. Yn ystod y frwydr waedlyd a ddilynodd, efe a eisteddodd ar fryn o fewn cyrhaedd ergyd dryll, yn gwylio symmudiadau y frwydr; ac yn y prydnawn yr oedd ei berygl yn fwy. "Yr oedd

Digitized by Google

yn dwyn gydag ef," meddai y cadfridog Napier, "tuag Echallar, hanner cwmni o'r 43ain gatrawd yn osgorddlu, a rhoddai rhingyll, o'r enw Blood, ynghyd â rhan o honynt i wylio symmudiadau y fyddin elynol, tra yr archwiliai yntau y mapiau. Anfonodd y Ffrangcod, oeddynt yn mron yn ymyl, gyfran o wŷr yno, gyda'r amcan i'w tori oddi wrth eu cymdeithion; a'r fath oedd natur y tir, fel y buasai y milwyr, wrth ruthro gyda chyflymder, yn ddiffael yn syrthio ar Arglwydd Wellington, pe na buasai i Blood, yr hwn oedd ddyn ieuangc gwybodus a medrus, weled y perygl, a chyda chyflymder neillduol neidio, yn hytrach na rhedeg i lawr y clogwyni a'r creigiau, a rhoddi rhybudd i'r cadfridog. Ac, fel yr oedd, daeth y Ffrangcod yno yn ddigon buan i ddanfon cawod o ergydion ar ei ol tra yr oedd efe yn marchogaeth ymaith. Dywedwyd am Napoleon fod rhyw swyn megys o amgylch ei fywyd; ac y mae arwyddion eglur fod rhyw ragluniaeth neillduol wedi bod yn gofalu am fywyd Wellington. "Gorchuddiodd Duw ei ben yn nydd y frwydr, ac ni ddeifiwyd blewyn o wallt ei ben," medd un ysgrifenydd.

Dywedodd Wellington unwaith, "Y mae rhyw Ffrangcwr wedi dywedyd fod y gair *dyledswydd* i'w gael yn mhob tudalen o'm bryslythyrau, ac nad ydyw y gair *anrhydedd* (*glory*) yn cael ei ddefnyddio unwaith. Fe'm hysbysir fod hyn yn cael ei fwriadu fel condemniad; ond nid yw y dyn ynfyd yn gallu canfod, pe *anrhydedd* yn unig fuasai fy amcan, mai gwneyd fy *nyledswydd* ydyw y *moddion* mwyaf effeithiol i'w gyrhaedd."

Pan y cynnygiwyd diddymu deddfau yr ŷd, ac y darfu i'r weinyddiaeth, o'r hon yr oedd y duc yn aelod, ar ol ymddiswyddo, ail ymaflyd yn ei swyddau, daeth y duc o flaen Tŷ yr Arglwyddi fel pe buasai wedi ei droi yn bleidiwr gonest i'r mesur. "Penderfynais," ebe fe, "y gwnawn i, fel un, sefyll yn ffyddlawn wrth fy nghyfaill gwir anrhydeddus, Syr Robert Peel. Teimlais mai dyna fy nyledswydd. Yr oeddwn o'r farn fod ffurfiad llywodraeth, yn yr hon y buasai gan ei mawrhydi ymddiried, o bwysigrwydd mwy na barn unrhyw berson neillduol ar ddeddf yr ŷd, nac un ddeddf arall." Gyda y rhagymadrodd hwn, gofynai am gymmeradwyaeth yr arglwyddi "o'r egwyddor a osodid i lawr yn y mesur."

WELLESLEY, RICHARD COLLEY WELLESLEY, ARDALYDD: gwladweinydd Prydeinig—oedd fab hynaf Garrett, iarll Mornington, ac Anne, iarlles Mornington, yr hon oedd ferch i Arthur, is-iarll Dungannon. Ganwyd ef yn heol Grofton, yn ninas Dublin, ar yr 20fed o Fehefin, 1760. Yr oedd Wellesley o darddiad Sacsonaidd, a'i deulu yn perthyn i swydd Sussex; ond yr oedd un aelod o'r teulu hwn wedi myned o Loegr yn fanerwr i Harri II., yr hwn a roddes iddo etifeddiaethau eang yn swyddi Meath a Kildare; ac ymsefydlodd yntau yn yr Iwerddon. Gwysiwyd William de Wellesley i'r senedd fel barwn Noragh, yn 1334; a safai y gŵr hwnw yn uchel yn ffafr Edward II. a'r III. Ysgrifenid yr enw yn *Wellesley* hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, pan y talfyrwyd ef i *Wesley*. Priododd Mr. Garrett Wesley o Dangan, swydd Meath, gyda Miss Colley, o Gastell Carbery; ac ar farwolaeth ei fab ef yn ddiblant, rhoddwyd ei etifeddiaethau mewn cymmunrodd i'w gefnder, Richard Colley, yr hwn ar hyny a gymmerodd yr enw Wesley. Yr oedd y Colleyiaid hefyd yn deulu hynafol, ac wedi dyfod drosodd i'r Iwerddon o swydd Rutland. Gwnaed Richard Colley, i'r hwn y disgynodd etifeddiaeth y Wellesleyaid, er nad oedd yn berthynas o waed i'r Wellesleyiaid boreuol, yn farwn Mornington. Cafodd ei fab hynaf, yn 1760, ei wneyd yn is-iarll Wellesley, ac yn iarll Mornington; ond anrhydedd mwy oedd bod yn dad i wrthddrych y sylwadau hyn, a'i frawd enwog hefyd, Arthur—y duc o Wellington. Yr oedd tad Wellesley, sef iarll Mornington, er yn adnabyddus yn benaf am ei dalent fel cyfansoddwr cerddorol, yn ddyn o alluoedd mawr. Derbyniodd Wellesley ei addysg yn Eton, ac wedi hyny yn Eglwys Crist, Rhydychain: cydnabyddid ei ragoriaeth fel ysgolhaig yn y ddau le. Traddododd araeth hyawdl yn Eton mor foreu a 1778; ac yn 1780, efe a ennillodd wobr y brifysgol am y cyfansoddiad barddonol goreu yn yr iaith Lladin—yn yr hyn y rhagorai ar hyd ei oes. Bu farw ei dad yn 1781; ac ar ei ddyfodiad i'w oed, yr oedd eisteddle yn Nhŷ y Pendefigion yn ei aros. Efe a gymmerodd arno ei hun ymrwymiadau arianol ei dad, a rhoddodd yr etifeddiaethau o dan reolaeth ei fam, yr hon a fu byw ar ol ei phriod am yn agos i hanner can mlynedd. Talwyd dyledion yr iarll diweddar; ond methodd Wellesley gadw yr hen etifeddiaethau yn feddiant i'r teulu. Yr oedd efe yn un o farchogion cyntaf St. Patrick, pan sefydlwyd yr urdd gan Sior III. yn 1783. Ymddengys, oddi wrth ohebiaeth a gymmerodd le rhwng Pitt a'r duc o Rutland, ei fod, pan yn bedair ar hugain oed, wedi argyhoeddi y ddau wladweinydd y byddai iddo wneyd enw iddo ei hun, a gwneyd gwasanaeth da hefyd i'r cyhoedd.

Teimlai yn anfoddlawn i'r maes cyfyng oedd yn yr Iwerddon i amlygiad ei alluoedd; ac yn 1784, efe a gafodd eisteddle yn Nhŷ y Cyffredin, fel aelod dros Beeralston. Yn 1786, pennodwyd ef yn un o arglwyddi y trysorlys, pryd yr etholwyd ef yn aelod dros Saltash; ond diseddwyd ef mewn canlyniad i ddeiseb a anfonwyd i Dŷ y Cyffredin. Cafodd yr eisteddle dros Windsor, ac yn fuan ennillodd ffafr neillduol Sior III. Cyfeiriodd ei sylw at India; ac yn 1795, dewiswyd ef yn un o aelodau y bwrdd llywodraethol—ond heb dâl. Yn 1797, dyrchafwyd ef i Dŷ yr Arglwyddi fel 'barwn Wellesley;' ac ar gyfnod pwysig dewiswyd ef yn llywodraethwr cyffredinol yr India Ddwyreiniol. Yr oedd llywodraeth India ar y pryd yn rhanedig rhwng pedwar o alluoedd—y Prydeiniaid; Tippoo Sahib; y Nizam; a'r Mahrattas, yn cynnwys Scindia, Holkar, a *rajahiaeth* Berar. Ac yr oedd gorllewinbarth India wedi ei oresgyn, gan y Shah Zemaum. Yr oedd Tippoo yn casau y Saeson, ac yn cynllunio ffordd i'w gyru o India; a byddinoedd y Nizam a'r Mahrattas yn cael eu harwain gan swyddogion Ffrengig.

Pan y cyrhaeddodd Wellesley i Calcutta, yn Mai, 1798, yr oedd Napoleon wedi gorchfygu yr Aipht; galluoedd brodorol India yn elynol i lywodraethiad y Prydeiniaid; a'r Ffrangcod yn gwneyd eu goreu i chwanegu y teimlad gelynol hwn. Yr oedd y weithred gyntaf a wnaeth efe yn un yn gofyn eofndra mawr. Er gwaethaf Cynghor Madras, efe a orchymynodd i'r Nizam i anfon ymaith 14,000 o filwyr, oedd wedi eu hamgylchynu gan lu Prydeinig, a chymmerodd chwech ugain a phedwar o swyddogion Ffraingc, y rhai a ddanfonwyd yn ddioed i Ewrop. Wedi llethu dylanwad y Ffrangcod, ymosododd ar y

Digitized by Google

gwaith o ddarostwng ymherodraeth Mysore. Ar y 3ydd o Chwefror, 1799, gorchymynodd i'r cadfridog Harris arwain byddin o 20,000 o wŷr i brifddinas Mysore. Aeth yntau ei hun i Madras er bod yn nes i'r lle y dygid y gweithrediadau hyn yn mlaen. Yn mhen mis o amser yr oedd amddiffynfa Seringapatam wedi ei chymmeryd, Tippoo Sahib wedi ei ladd, a'i diriogaethau wedi eu dosranu. Wedi iddo, mewn pymtheng mis o amser, ddinystrio dylanwad Ffraingc, peri dychryn i'r tywysogion brodorol, a dymchwelyd gelyn penaf llywodraeth y Prydeiniaid yn India, efe a ddychwelodd i Bengal. Hyd y pryd hwn, iarll Mornington oedd ei deitl; ond yn Rhagfyr, 1799, gwnaed ef yn ardalydd Wellesley, a derbyniodd ddiolchgarwch y senedd. Cynnygiodd Cwmni yr India Ddwyreiniol iddo 100,000*p.* o arian yr ysbail a gafwyd yn Seringapatam; ond efe a'u gwrthododd, gan na fynai ymgyfoethogi âg ysbail rhyfel! Derbyniodd wedi hyny flwydd-dâl o 5,000*p.* a bleidleisiwyd iddo gan lys y perchenogion. Y cam nesaf a gymmerodd efe oedd rhoddi tiriogaeth Nabob y Carnatic o dan weinyddiaeth y cwmni mewn canlyniad i fradwriaeth y tywysog hwnw. Cwblhaodd gyttundeb â Phersia—i'r hyn y priodolai efe "gwymp y Shah Zemaum, dyryswch llywodraeth Afghanistan, a llethiad y cynllun blynyddol i oresgyn Hindwstan o Cabul." Yn 1801, efe a anfonodd lu o 7,000 o wŷr i fyny y Môr Coch, i gynnorthwyo i gymmeryd yr Aipht oddi ar y Ffrangcod. Yr oedd y fyddin dan lywyddiaeth y cadfridog Baird; ac ar ol cyrhaedd yr Aipht, medrodd y cadfridog uno yr eiddo ef â'r fyddin a ddaeth o Loegr; ond yr oedd y Ffrangcod wedi ymostwng cyn hyny. Yn 1802, mewn canlyniad i anghydwelediad rhyngddo a llys y cyfarwyddwyr, penderfynodd Wellesley ymddiswyddo; ond perswadiwyd ef i ddal ei swydd hyd 1805. Torodd rhyfel y Mahrattas allan, ymladdwyd brwydrau Laswaree, Assaye, Argaum, a Delhi, a darostyngwyd Scindia, Holkar, a Rajah Berar. Chwanegwyd llawer drwy hyn at eangder y tiriogaethau Prydeinig; ac yn 1805, dychwelodd Wellesley i Loegr. Yr oedd ei weinyddiaeth yn nodedig am ei rhwysg a'i bri. Efe a adeiladodd y palas yn Calcutta; a sylfaenodd goleg i achlesu llenyddiaeth Indiaidd, ac a fu yn noddwr da iddo; rhoddodd bob cefnogaeth i ymdrechion Ewropiaid a brodorion i ddwyn i'r golwg drysorau llysieuol, mwnawl, ac anianyddol y wlad; dygodd i mewn ddiwygiadau cyllidol pwysig, ac mewn cyfnod byr efe a gododd gyllid y cwmni o saith i bymtheng miliwn o bunnau. Ar ei ddyfodiad adref, derbyniwyd ef gyda phob arwyddion o barch gan y cyfarwyddwyr; ond cwynai rhai fod ei weinyddiaeth wedi bod yn un dreulfawr, a'i fod yn gormesu ar y tywysogion brodorol, ac yn enwedig Nabob Oude. Cyflwynwyd cyhuddgwyn yn ei erbyn gan Mr. Paull, yn Nhŷ y Cyffredin. Ond barn y cyhoedd y pryd hwnw oedd, ac y mae amser wedi ei chadarnhau, fod gwladlywiaeth yr ardalydd Wellesley, yn yr amgylchiadau yr oedd yr ymherodraeth ddwyreiniol ynddynt, ar y cyfan y doethaf a'r oreu a allesid ei mabwysiadu. Yr oedd ei lywodraeth yn ddechreuad cyfnod gwell ar lywodraeth y Saeson yn India.

Dymunai Sior III. arno fod yn un o ysgrifenyddion y wladwriaeth yn ngweinyddiaeth y duc o Portland; ond efe a wrthododd y cynnygiad. Aeth i Ysbaen yn llysgenhadwr anghyffredinol yn 1809; a glaniodd yn Cadiz ar y diwrnod yr ymladdwyd brwydr Talavera; ac ar yr 2il o Dachwedd, cyfarfu â'i frawd, y duc o Wellington, yn Seville. Pennodwyd ef yn ysgrifenydd tramor yn Rhagfyr, 1809; ac yn 1810, dewiswyd ef yn un o farchogion y gardas. Yr oedd yn ffafriol, pan mewn swydd ac allan o swydd, i ddiddymiad y deddfau cospawl a effeithient ar y Pabyddion; a phan yn Ionawr, 1812, y darfu i'r Tywysog Raglaw wrthod caniatau hawliau y Pabyddion, efe a ymddiswyddodd. Yn ystod y deng mlynedd cyntaf o weinyddiaeth arglwydd Liverpool, yr oedd Wellesley yn cefnogi yr wrthblaid. Gwrthdystiai yn erbyn annigonolrwydd y moddion a roddwyd at wasanaeth y duc o Wellington, a hawliai ar iddo gael ei gynnorthwyo hyd yr oedd trysorfa ac adnoddau y wladwriaeth yn caniatau; a pharhaodd i wneyd hyn hyd nes y croesodd y duc fynyddoedd y Pyrenees yn flaenor byddin fuddugoliaethus, ac y dygodd y rhyfel i derfyniad o flaen Toulouse. Pan ddaethpwyd i benderfynu achosion Ewrop yn 1815, gwrthdystiai Wellesley yn erbyn bod yn esgeulus o fanteision masnachol Ewrop—ond yn aneffeithiol. Ymunodd yn awr â'r adran fwyaf rhyddfrydig o'r Ceidwadwyr, y rhai a edrychent ar Mr. Canning fel eu harweinydd, a derbyniodd y swydd o arglwydd raglaw yr Iwerddon. Cadw bodd a chymmod oedd egwyddor ei wladlywiaeth; ond daliodd y swyddau bum mlynedd heb allu gwneyd nemawr i ysgafnhau beichiau y wlad hono, o herwydd yr anhawsderau a godent o'r cyfreithiau cospawl oedd mewn grym. Galwyd ef o'r Iwerddon gan ei frawd pan y cymmerodd efe swydd yn 1828. Derbyniodd Wellesley y swydd o arglwydd oruchwyliwr y tŷ brenhinol gan iarll Grey yn 1830; ac yn 1833, yn y 74ain mlwydd o'i oedran, efe a bennodwyd drachefn yn arglwydd raglaw yr Iwerddon, lle y bu nes yr appwyntiwyd Syr Robert Peel yn brif weinidog yn 1834. Ar adferiad plaid y Whigiaid i awdurdod, gwnaed ef yn arglwydd ystafellydd—swydd a ddaliodd efe am ychydig fisoedd. Daeth yn wybyddus i Gwmni yr India Ddwyreiniol ei fod mewn amgylchiadau lled gyfyng i ddyn o'i safle ef, ac nad oedd yn cael ond ychydig fantais oddi wrth y 5,000*p.* blynyddol a bennodwyd iddo; gan hyny, hwy a benderfynasant gyflwyno y swm o 20,000*p.* i ofal ymddiriedolwyr at ei wasanaeth ef. Yn 1841, penderfynwyd cyfodi cerflun o hono yn ystafell y cwmni, fel amlygiad o'u hedmygedd o hono, a'u diolchgarwch diffuant iddo. Bu farw yn Kingston House, Knightsbridge, ar y 25ain o Fedi, 1842, yn 82ain mlwydd oed; ac mewn cydymffurfiad â'i ewyllys, claddwyd ef yn nghapel Coleg Eton. Cyhoeddwyd cofnodion o'i weinyddiaeth yn India, o dan olygiaeth Mr. Montgomery Martin, yn bum cyfrol.

WELSH, JOHN: Protestant Presbyteraidd enwog, a anwyd o deulu hynafol a chyfrifol, yn Colliston, yn swydd Dumfries. Y mae rhai ysgrifenwyr, mewn camgymmeriad, wedi enwi Irongray fel lle ei enedigaeth. Y mae yr amser y ganwyd ef yn anhysbys, ond y mae yn debygol mai yn y fl. 1568 y digwyddodd hyny. Ymddengys fod rhai o aelodau ei deulu wedi bod mewn swyddi uchel yn yr Eglwys Babaidd. Ymwelodd mynach o'r enw Jerome â'r gymmydogaeth lle ganwyd ac y magwyd Welsh; ac ymddengys mai Jerome oedd y cyntaf i ddadguddio gwrthuni Pabyddiaeth. Ac ar annogaeth yr

Digitized by Google

am heddwch, ac nid rhyfel. Wedi i frwydr o'r fath derfynu, ac iddo dybied fod rhywbeth wedi ei wneuthur tuag at heddychu gelynion, parai i fwrdd gael ei arlwyo ar yr heol; ac yno yr eisteddai yr ymladdwyr, ac yntau fel heddychwr, i gydfwyta—ac yn gyffredin terfynid y cyfan trwy ganu salm. Cofnodir fod ei ddylanwad, ei esampl, a'i athrawiaeth, wedi ennill parch dwfn y bobl, a'i fod yn llwyddo i gael ganddynt gladdu yno eu hymrysonau gwaedlyd; a bod tref Ayr, o dan weinidogaeth John Welsh, yn debyg i dref Kidderminster o dan weinidogaeth Richard Baxter. Yn mhen llawer blwyddyn wedi ei farw, pan oedd yr enwog David Dickson yn llafurio yn llwyddiannus yn Irvine, a phobl yn siarad llawer am ei lwyddiant, arferai y gŵr hwn ddyweyd, "fod cynhauaf y grawnwin yn Ayr, yn amser Welsh, yn llawer mwy ffrwythlawn nag oedd Irvine yn ei amser ef." Tra yr oedd Welsh yn fyw, ac wedi iddo farw, priodolid iddo y ddawn brophwydol gan ei gydoeswyr, fel y gwnelid i'w dad-yn-nghyfraith enwog, John Knox; a dywedir fod llawer o enghreifftiau nodedig yn cael eu dwyn yn mlaen i brofi hyn. Wrth gwrs, pan y teimlai Protestaniaid awydd i wawdio y Pabyddion am roddi crediniaeth i'r pethau a ddywedid am St. Francis a St. Theresa, yr oedd gan y Pabyddion le teg i ad-dalu yn ol i'r Protestaniaid; o herwydd yr oedd yn mysg cyfeillion Welsh rai yn dwyn tystiolaeth am dano, ei fod yn ei ardd un noson, a hwythau wedi myned i'w ymofyn, o herwydd ei fod yn aros yno yn hir, a chael ei fod wedi ei amgylchu â chylch o oleuni gogoneddus, ac yn llefaru geiriau annhraethadwy o lawenydd.

Ymddengys fod y cyfnod a dreuliodd Welsh yn Ayr yn un a fwynhawyd ganddo yn fawr, ac iddo fod yn offeryn yn llaw yr Arglwydd i effeithio llawer o gyfnewidiad er gwell yn muchеddau a moesau y trigolion: llwyddodd hefyd i'r fath raddau i'w gwneyd yn gyffelyb o ran eu syniadau iddo ef ei hun, fel, yn mhen blynyddoedd, pan ymdrechodd rhyw weinidog ddwyn i mewn syniadau a seremoniau Pabaidd ac esgobaethol, y cyfododd yr holl gynnulleidfa, ac yr aethant allan, gan adael y gweinidog yno mewn syndod, yn unig wrtho ei hun. Nid ydyw yn hysbys ar ba delerau yr oedd efe yn byw gyda'r brenin a'r llys y pryd hwnw; er y gwyddys fod rhyw drafodaeth gyfeillgar rhyngddynt, a bod y brenin yn tueddu i gymmeradwyo ei lafur yn erbyn Pabyddiaeth. Ond daeth dydd y prawf o'r diwedd:—yr oedd y brenin yn benderfynol i orfodi Ysgotland i dderbyn esgobyddiaeth; ac yr oedd Welsh, a'r rhai a gydlafurient âg ef, yn edrych ar hyn gyda dychryn ac adgasrwydd. Dyma oedd sylfaen yr anghydfod newydd a dorodd allan rhwng Welsh a'r brenin. Nis gallwn fanylu ar yr oll a gymmerodd le mewn cyssylltiad âg ef; ond yn unig ddyweyd iddo syrthio yn aberth i ddichellion y llys; a therfynodd ei weinidogaeth yn Ayr, ac yn Ysgotland, yn 1605. Yr oedd wedi treulio y rhan fwyaf o'r nos mewn gweddi, megys yn rhagdybied fod ei waith yn mron a dyfod i ben, ac yn gyffrous o herwydd y blinderau a welai yn debyg o gyfarfod yr eglwys. Efe a aeth i orphwys am ychydig amser; ond cyn ei fod wedi deffro, yr oedd cenad y brenin yn ei dŷ yn ei gyrchu yn garcharor, i'w ddwyn o flaen y cyfringynghor. Ond nis gallai feddwl am adael ei bobl heb gael un cyfarfod gyda hwynt. Canwyd y gloch fawr, i'w galw ynghyd i'r gwasanaeth crefyddol:—yr oedd yr eglwys yn orlawn. Ei destyn oedd, "Nid oes, gan hyny, yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu." Ymgasglodd y gynnulleidfa o'i amgylch yn eu dagrau ar derfyn y gwasanaeth; ac yr oedd yr heolydd yn llawn o bobl mewn galar dwys—nid yn unig o herwydd ei golli o'u mysg, ond hefyd am fod y gwaethaf yn cael ei ofni gyda golwg ar y dyfodol. Cymmerodd tri o swyddogion yr eglwys eu meirch, ac aethant i'w hebrwng ef i'w daith. Ymofynwyd am sylwadau ei bregeth olaf, a chymmaint o rai ereill a draddodwyd ganddo ag y gellid cael gafael ynddynt, mewn ysgrif: yna copiwyd, a lledaenwyd hwynt drwy'r gymmydogaeth; ac wedi ei farwolaeth, casglwyd a chyhoeddwyd hwynt yn un gyfrol. Nid oedd pobl Ayr i weled ei wyneb mwy. Yr oedd yn fuan yn garcharor yn Blackness—carchar tra adnabyddus ar y pryd, a saif ar graig ar lan ddeheuol y Forth, tua phedair milldir o Linlithgow. Ymddengys fod y gell y taflwyd Welsh iddi yn un o'r rhai gwaethaf yn y lle. Ar yr uchel lanw rhedai y dwfr i mewn iddi: nid oedd ynddi le i gynneu tân, a dim ond rhigol pedair modfedd ar ddeg o hyd, a phedair o led i ollwng goleuni ac awyr i mewn! Yr oedd amryw o gyfeillion Welsh yn yr un carchar, ond cedwid hwynt mor ofalus oddi wrth eu gilydd, mewn celloedd gwahanol, fel nas gallent gysuro a dyddanu y naill y llall; ond ymddengys eu bod yn mwynhau cysuron crefydd yn eu hunigrwydd i raddau helaeth. O'r diwedd, ar ol llawer o fisoedd o garchariad, hysbyswyd i Welsh a'i gydgarcharorion fod dydd eu prawf yn agoshau. Ar y 9fed o Ionawr, 1606, deffrowyd ef o'i gwsg gan sŵn traed meirch gwarchlu y brenin o Linlithgow. Pan glywodd Welsh sain yr udgorn, dywedodd wrth ei gydweinidogion, y rhai y caniatawyd iddynt ei weled, "Ymwrolwch, frodyr! Yn awr canwn yr unfed Salm ar ddeg;" a gwnaethant hyny gyda'u gilydd nes oedd muriau yr hen garchar tywyll yn diaspedain. Yna dygwyd hwynt fel troseddwyr i Linlithgow, a mentrodd iarll ac iarlles Linlithgow eu croesawu yn lletygar; a thrwy eu caredigrwydd hwy hefyd, caniatawyd iddynt ddal cymmundeb âg amryw frodyr enwog yn y weinidogaeth a ddaethant o wahanol barthau o Ysgotland er eu calonogi ar eu prawf. Y mae llawer o hanfod y pethau a wnaed yn gynnwysedig yn yr ymadroddion eglur a tharawiadol a ganlyn, y rhai a lefarwyd gan Welsh yn enw pob un o'r rhai oedd yn sefyll eu prawf, yn mha rai y gwrthodent gydnabod awdurdod y brenin o gwbl yn y mater:—

"Fy Arglwyddi, yn gymmaint ag y gall rhai deimlo yn dramgwyddus tuag atom am ein gwaith yn ymwrthod â dyfarniad arglwyddi y cynghor dirgel ar ein hachos, megys pe buasem yn ymwrthod â'u hawdurdod yn mhob achosion, yr ydym gan hyny yn dymuno hysbysu eich arglwyddiaethau ein bod yn cydnabod awdurdod ei fawrhydi mewn achosion gwladol, ac awdurdod cynghor ei fawrhydi, can belled ag y gwna neb yn y wlad, ac yn ymostwng gyda phob parch i'w benaduriaeth, ac i farn cynghor dirgel ei fawrhydi, yn mhob peth, mor bell ag y gofynir i ddeiliaid wneyd, neu y gallai deiliaid wneyd; ond am achosion teyrnas Crist, dylem wrthod, ac yn gyfreithlawn yr ydym yn ymwrthod â barn unrhyw awdurdod gyfreithiol, gan ystyried mai i Iesu Grist yn unig, fel unig Frenin ei eglwys a'i deyrnas, y perthyn llunio deddfau am bob peth perthynol iddynt. Ië, y mae hi wedi bod yn arferiad gan ymherawdwyr a thywysogion Cristionogol i

farnu achosion gwladol trwy swyddogion gwladol; ond mewn achosion eglwysig, i gydfarnu â'r eglwys fel aelodau yr eglwys yn unig; felly yr eglwys yn unig sydd i farnu mewn pethau eglwysig, a'r brenin yn unig fel y mae yn aelod o'r eglwys."

Yr oedd yr ymadroddion hyn eu hunain ar gael eu galw yn "deyrnfradwriaeth;" gan fod y barnwr yn cyhoeddi fod yr holl arglwyddi yn cael fod gwrthodiad y carcharorion i gydnabod awdurdod y brenin a'r cynghor dirgel yn cael ei ystyried felly. "Na ddywedwch yr oll, fy arglwydd," ebe yr iarll Mar; "o herwydd y mae yma rai nad ydynt, ac na fyddant byth, o'r farn yna." Cefnogwyd yr iarll yn ei wrthdystiad gan ereill—ond yr oedd y cyfan yn ofer. O'r diwedd, condemniwyd y gweinidogion gan y rheithwyr, â mwyafrif o naw yn erbyn chwech. Dadganodd John Livingstone, o Dunnipace, un o'u nifer, ei fod ef, "nid yn unig yn rhyddhau y carcharorion yn ngwyneb y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth, ond hefyd yn cydnabod eu bod yn weinidogion gonest i Iesu Grist, ac yn ddeiliaid ffyddlawn i'r brenin." Ymddengys fod amryw ereill o'r rheithwyr wedi eu meddiannu gan euogrwydd y noson hono, o herwydd eu dyfarniad; a chyda'r eithriad o'r arglwyddi, cenhadon y brenin, oedd yn gyru yr erlyniad yn mlaen, yr oedd galar a syndod wedi disgyn ar galonau dynion drwy y wlad mewn canlyniad i ddyfarniad y rheithwyr. Yr oedd y carcharorion eu hunain mor siriol ag erioed. Ni chyhoeddwyd dedfryd arnynt ar y pryd: yr oedd hyny yn rhy beryglus. Pa beth bynag oedd ewyllys y brenin, buasai dedfryd ysgafn yn taflu math o sarhâd arno ef; a buasai un drom yn creu dychryn a chyffro y buasai yn anhawdd eu llywodraethu. Cymmerwyd y carcharorion yn ol i Blackness. Siomwyd Elizabeth Welsh yn fawr; canys yr oedd yn disgwyl yn obeithiol y cawsai ei phriod ei ryddhau. Daeth o Ayr i Blackness, pellder o bymtheng milldir a thrigain, er gweled beth a ddeuai o hono; ond dangosodd ei mawrfrydigrwydd a'i diysgogrwydd arferol yn wyneb y siomedigaeth chwerw a blin. Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol ei daflu eilwaith i'w hen gell, efe a ysgrifenodd lythyr at Lilias Grahame, y *Countess* o Wigtoun, yn dadgan ei barodrwydd i roddi ei fywyd i lawr yn achos y gwirionedd. O'r diwedd, cyhoeddwyd y ddedfryd—yn mhen wyth mis ar ol i'r prawf fyned heibio. Y mae y ddedfryd wedi ei dyddio, "Hampton Court, Medi 26ain, 1606." Y ddedfryd oedd alltudiaeth am oes dan boen marwolaeth.

Caniatawyd i'r carcharorion gael mis o amser yn Blackness er parotoi ar gyfer eu hymadawiad. O borthladd Leith, wedi canu ffarwel â'u carchar annedwydd, ar awr gynnar yn y boreu, ac yn ngolwg tyrfa anferth o bobl—y rhai a gynghorwyd ganddo i lynu wrth y gwirionedd a ddysgodd efe—hwyliodd Welsh a'i gymdeithion tua gororau Ffraingc. Arosodd y lliaws a ddaethant i'w gweled yn cychwyn yno cyhyd ag y bu y llong yn y golwg; ac yr oedd yr alltudion wrth adael eu cyfeillion galarus yn canu y drydedd Salm ar hugain. Bu Welsh yn teithio drwy y rhanau hyny o Ffraingc a'r Cyfandir lle yr oedd Protestaniaeth yn cael achles; a diammheu fod ei enw yn dra adnabyddus cyn hyny i'r Huguenotiaid. Aeth i Rochelle—"Geneva Ffraingc," fel y gelwid hi gan Voltaire—diogelfa Protestaniaeth ar y Cyfandir. Yr oedd yr eglwysi diwygiedig yn gryfion ar y pryd—yn rhifo dros ddwy fil, a llawer o honynt yn cynnwys dwy fil o aelodau bob un. Ond heulwen o flaen tymmestl a dywynai arnynt. Cyrhaeddodd Welsh i Rochelle ynghylch yr amser yr oedd y gymmanfa yn eistedd; a gwahoddwyd ef i gymeryd ei le yn mysg y rhai a eisteddent yno, a phennodwyd dirprwyaeth i wneyd ymchwiliad i angenrheidiau y brodyr alltudiedig, gyda golwg ar eu cynnorthwyo. Rhaid maddeu, dybygid, i Welsh am ei waith yn sori ychydig, o herwydd fod y ddirprwyaeth yn gwneyd ymchwiliad i'w amgylchiadau a'i achosion arianol ef. Digon isel oedd ei amgylchiadau y pryd hwn: ond anfonodd yr eglwys a wasanaethai yn Ayr ei gyflog yn rheolaidd iddo, y mae'n wir, am lawer o flynyddoedd wedi iddo gael ei alltudio—yr hyn oedd yn weithred anrhydeddus o'i heiddo. Gwrthod cynnorthwy y gymmanfa a wnaeth Welsh. Croesodd deg ar hugain o'i hen wrandawyr yn Ayr drosodd, gan wynebu tymmhestloedd geirwon y Bay o Biscay, er cael un olwg arno yn y cnawd—yr hyn sydd yn llefaru yn uchel am ei serch mawr tuag ato. Rhoddwyd neuadd at wasanaeth Welsh i bregethu ynddi i'r rhai a ddaethant ar ymweliad âg ef o Ayr, heb law llawer o Saeson, Isellmyniaid, ac ereill a ddeallent yr iaith Ysgotaidd; a chafwyd yn ddiammheuol oedfaon effeithiol, o herwydd yr oedd natur Welsh yn llawn o dynerwch, a theimlad, a gwres. Wedi i'w hen gyfeillion o Ayr droi yn ol, dechreuai yntau feddwl pa fodd y treuliai efe y gweddill o'i fywyd. Yr oedd blynyddoedd ei grwydriadau mor ddyddorol ag un rhan o'i oes. Ni a'i cyfarfyddwn mewn llawer o fanau—yn enwedig yn Jonsac. Yr oedd ei wraig a'i blant gydag ef yno; ond nid oeddynt yn gysurus yn y lle hwnw: ni bu eu hiechyd yn dda yno o gwbl. Yr oeddynt yn preswylio mewn bwthyn truenus, ac ni ddangosai y bobl un cydymdeimlad â hwy, nac un duedd i ddarparu lletty mwy cysurus iddynt. Teimlodd Welsh oddi wrth ei ofidiau yma yn fwy nag yn Blackness. "Yr wyf," medd efe, "yn barod i farw gan lesgedd; y mae fy enaid yn edwino ac yn diflanu; ond fe enfyn yr Arglwydd waredigaeth pan y gwel yn dda." Bu son am sancteiddrwydd ei fywyd am flynyddoedd lawer wedi iddo ymadael o gymmydogaeth Jonsac. Wedi iddo ymadael oddi yno, bu yn teithio o amgylch yn ngodrau y Pyrenees, gan weinidogaethu yn benaf yn Nerac, ac yn St. Jean d' Angely. Saif Nerac yn ffyddlawn hyd heddyw i'w hen draddodiadau Protestanaidd. Yno y bu Welsh ddedwyddaf o un man, ar ol gadael ei wlad, er fod llai o olion am dano yno nag mewn amryw o fanau ereill; ond yr oedd carchariad maith, a phryder, a digwyddiadau gofidus wedi gadael eu heffeithiau arno, a hadau afiechyd anfeddyginiaethol wedi gwreiddio yn ei gyfansoddiad, fel yr oedd hyd yn oed awelon adfywiol ac iach y Pyrenees yn methu dwyn adferiad iddo. Ysgrifenodd at hen gyfaill yn Ysgotland y pryd hwnw fel y canlyn:—"Cynnorthwywch fi â'ch gweddïau parhaus i orphen y gweddill o fy mhererindod yn ddiargyhoedd, a chyda rhywfaint o ddyddanwch. Nid ydyw amser fy ymddattodiad yn mhell. Bydded i Dduw ddarparu fy lamp!"

St. Jean d'Angely oedd y lle diweddaf y bu Welsh yn llafurio ynddo yn Ffraingc. Yr oedd ei weinidogaeth yno yn glodfawr, ac o nodwedd mor hynod ag yr oedd wedi bod yn ei wlad ei hun. I bob golwg, yr oedd yn byw yn lled gysurus yma am rai blynyddoedd, nes y darfu

Digitized by Google

i elyniaeth y llywodraeth i'r grefydd ddiwygiedig dori allan, pryd y gwarchauwyd y ddinas: ac yn y cyfyngder hwnw dangosodd Welsh y gallai wneuthur rhywbeth fel milwr. Mynegir iddo wneuthur un peth neillduol, oedd mor hynod fel yr attaliwyd y dinystr oedd yn hongian uwch ben y ddinas, ac a arweiniodd i ammodau cyttundeb gael eu gwneyd. Yr oedd y brenin ei hun yn y gwarchau, ac arosodd yn St. Jean am rai dyddiau ar ol dyfod i gyttundeb er rhoddi gorphwysfa i'w fyddin. Yn ystod yr amser hwnw, erfyniodd cyfeillion Welsh yn daer arno beidio ymddangos yn gyhoeddus ar y Sabbath; o herwydd yr oedd dwyn yn mlaen wasanaeth crefyddol Protestanaidd mor agos i'r llys yn beth hollol ddyeithr yn Ffraingc; gan yr ystyrient y rhoddai dramgwydd, ag y byddai ei fywyd yntau o ganlyniad mewn perygl. Ni fynai ei berswadio, fodd bynag. Penderfynodd gyflawni ei waith fel arfer; ac yr oedd ei gynnulleidfa yn lliosocach nag arferol y diwrnod hwnw. Tra yn myned yn mlaen gyda'r gwasanaeth, anfonodd y brenin y duc o Espernon, a nifer o filwyr, i'w ddal. Wrth eu gweled yn dyfod tuag ato, canys yr oedd Welsh yn adnabod y duc wrth ei wisg, dywedai y pregethwr wrth y bobl, mewn llais awdurdodol, am iddynt wneuthur lle i'r cadlywydd, a darparu eisteddleoedd iddo ef a'r rhai oedd gydag ef, fel y gallent wrando Gair Duw. Naill ai o herwydd ei fod wedi ei daro gan ei gydwybod, neu am ei fod yn gweled mai annoeth oedd gwneyd carcharor o un yn mwynhau mesur mor helaeth o ffafr y bobl, yn lle attal y pregethwr, eisteddodd y duc i wrando arno hyd ddiwedd y gwasanaeth. Wedi hyny, arweiniodd ef at y brenin i atteb am ei waith yn cynnal moddion crefyddol. Yr oedd y brenin yn dra digllawn; a gofynai pa ham y meiddiai efe bregethu heresi mor agos i'w berson. "Pe gwnaethai eich mawrhydi yn iawn," ebe Welsh, "chwi a ddaethech eich hun i'm clywed yn pregethu; a buasech yn cynghori holl Ffraingc i ddyfod i'm gwrando; o herwydd yr wyf fi yn pregethu yn hollol wahanol i'r rhai yr ydych chwi yn arfer eu gwrando. Y mae fy mhregethiad i yn gwahaniaethu oddi wrth yr eiddynt hwy yn y ddau beth hyn:—Yn gyntaf, yr wyf fi yn pregethu fod yn rhaid eich cadw trwy farwolaeth a theilyngdod Iesu Grist, ac nid yr eiddoch eich hun; ac yr wyf yn sicr fod eich cydwybod eich hun yn dywedyd wrthych, na wna eich gweithredoedd da byth deilyngu ac ennill y nefoedd i chwi. Yn nesaf, yr wyf yn pregethu, fel yr ydych yn frenin Ffraingc, nad ydych o dan awdurdod na llywodraeth un dyn ar y ddaear. Y mae y rhai yr arferwch chwi eu gwrando yn gyffredin yn eich gwneuthur yn ddarostyngedig i'r pab o Rufain—yr hyn nis gwnaf fi byth." Boddhawyd Louis gan syniadau Welsh ar y mater yma, gan eu bod yn gydunol â'r eiddo ef ei hun ar annibyniaeth ac awdurdod brenhinoedd, ac â phenderfyniad senedd Paris; ac mewn tymmer dda efe a ddywedodd, "Wel, wel, chwi gewch fod yn weinidog i mi;" ac ar yr un pryd, galwai ef yn 'dad'—enw yn arwyddo parch. Twyllodrus, pa fodd bynag, i raddau y troes y brenin allan: ymddygodd yn iselwael tuag at y dref a'i phreswylwyr; ac yn fuan iawn yr oedd gorthrwm a Phabyddiaeth yn llywodraethu o fewn ei muriau. Ond nid anghofiodd y brenin John Welsh, fodd bynag. Gorchymynodd i'r cadben oedd yn llywyddu yn y ddinas i ddangos pob caredigrwydd iddo—i osod gwylwyr o flaen ei breswylfod, a darparu gwageni i'w gludo ef, a'i deulu, a'u dodrefn, i Rochelle. Rochelle oedd Ierusalem Ffraingc; ond yr oedd y ddinas hono wedi ei hamgylchu gan fyddinoedd. Cynghorwyd Welsh gan ei feddyg i ofyn caniatâd i ddychwelyd i'w wlad enedigol, gan y buasai anadlu ei hawyr yn tueddu i sefydlu ac adferu ychydig ar ei iechyd; ond gwrthodwyd y ffafr hon iddo gan Iago I. Ond os dewisai, caniatawyd iddo breswylio yn Llundain. Bu Mrs. Welsh yn ymddiddan â'r brenin ar yr achos hwn; ac fel y canlyn y mae y Parch. James Young, bywgraphydd Welsh, yn cofnodi yr ymddiddan:—

"Gofynai y brenin, 'Pwy oedd ei thad!' 'John Knox,' oedd yr attebiad. 'Knox a Welsh!' ebe'r brenin; 'ni wnaeth y d——l erioed y fath briodas a hon yna.' 'Y mae yn bur debyg, syr,' ebe hithau, 'o herwydd ni ddarfu i ni erioed ymgynghori âg ef.' Y peth nesaf a ofynodd ei fawrhydi oedd, 'Pa nifer o blant a adawodd eich tad ar ei ol, a pha un ai meibion ynte merched oeddynt?' 'Tri,' ebe hithau, 'ac i gyd yn ferched.' 'Diolch i Dduw,' ebe Iago, gan ddyrchafu ei ddwylaw i fyny; 'o herwydd pe buasent yn dri o feibion, ni chawswn i byth fwynhau fy nhair teyrnas mewn heddwch.' Yr oedd Mrs. Welsh yn daer am i'r brenin ganiatau i'w gŵr gael dychwelyd i anadlu awyr ei wlad ei hun. 'Rhoddi iddo awyr ei wlad ei hun,' ebe'r brenin—'rhoddi iddo'r d——l!' 'Rhoddwch hwnw i'r llyswyr gwangcus!' ebe hithau yn ddigllawn. O'r diwedd, dywedodd y brenin wrthi, os llwyddai hi i berswadio ei gŵr i ymostwng i'r esgobion, y byddai iddo ganiatau iddi ei dymuniad. Cododd Mrs. Welsh ei harffedog, a daliodd hi o flaen ei fawrhydi, a dywedodd fel arwres, 'Rhynged bodd i'ch mawrhydi—byddai yn well genyf dderbyn ei ben yma, yn hytrach na hyny!' Y mae y cofiadur oddi wrth pa un y derbyniasom y ffaith hon yn chwanegu fod y brenin Iago yn ofni Welsh yn fawr; o herwydd ceryddai ef yn fynych am ei arferiad o dyngu a rhegi. Os byddai ar unrhyw adeg wedi bod yn rhegi mewn lle cyhoeddus, troai o gwmpas, a gofynai a oedd Welsh yn agos."

Cyfarfyddiad hynod oedd yr uchod. O'r diwedd, caniatawyd i Welsh gael aros yn Llundain, lle y ceir ei hanes yn pregethu unwaith—a dim ond unwaith. Ond yr oedd ei gyfansoddiad wedi ei wisgo allan erbyn hyn; ac yn fuan ar ol ei ddychweliad i'r wlad hon, efe a fu farw yn y fl. 1622, yn 54ain mlwydd oed. Claddwyd ef mewn modd syml yn St. Botolph, Bishopsgate, Llundain; ond nid oes yno un gofadail na beddfaen yn nodi y llanerch lle y claddwyd ef. I garedigrwydd un a fu unwaith yn arglwydd faer y ddinas yr oedd efe yn ddyledus am gladdedigaeth gymmhwys. Nid hir y bu ei briod fyw ar ei ol ef. Bu hithau farw yn 1625. Yn debyg i hyn yna y bu fyw, ac y bu farw, un o gedyrn penaf y Diwygiad Protestanaidd yn Ysgotland.

WESLEY, JOHN, A.C. Ganwyd ef yn mharsondy Epworth, swydd Lincoln, ar yr 17eg o Fehefin, 1703. Ei enw yn llawn ydoedd John Benjamin Wesley; ond gadawodd allan 'Benjamin' o'i enw mor fore ac mor llwyr fel nad oes ond un o'i fywgraphwyr yn crybwyll am dano. Efe a ddisgynodd o deulu uchel a rhagorol, hanedig o ddeheubarth Lloegr. Orgraph wreiddiol y cyfenw *Wesley* oedd *Westley*, yr hyn a barodd i'r diweddar Dr. Clarke dybied fod y gair o darddiad Arabig, a bod y teulu yn frodorion o Yspaen. Ond dyry Mr. Beal eglurhâd llawer mwy naturiol ar yr achos, gan

hynod John Dunton, y llyfrwerthwr; a Susannah, ei ferch ieuengaf, oedd gwraig offeiriad Epworth, a mam John Wesley. Yr oedd mam ein gwrthddrych yn ddynes brydweddol, uwchraddol mewn galluoedd meddyliol, ac wedi derbyn yr addysg oreu y gellid ei gael yn y dyddiau hyny. Meddai gydnabyddiaeth dda â phedair o ieithoedd; sef, Saesneg, Groeg, Lladin, a Ffrancaeg. Nodweddid ei meddwl hefyd gan dreiddgarwch, annibyniaeth, a threfnusrwydd. Darllenai a myfyriai gryn lawer, cyfansoddodd ychydig, a bu yn gynnorthwy mawr i'w phriod yn nygiad i fyny ei deulu lliosog; o blegid yr oedd ei llywodraeth deuluol yn gynllun o berffeithrwydd, o ran trefn a dysgyblaeth; ac i'w mab yn ei lafur fel efengylydd, ac yn ngwyneb ei anhawsderau fel trefnydd, a hyny i'r fath raddau fel yr erys ei hol ar y cyfundeb Wesleyaidd am oesau lawer. Y mae mwyafrif y dynion mawr a ymddangosasant ar y ddaear, mewn byd ac eglwys, yn feibion i famau uwchraddol ac anghyffredin. Yr oedd John Wesley felly, ac yn hanu o deuluoedd athrylithgar, dysgedig, a phregethwrol, ar du ei dad a'i fam.

Yr oedd ein gwrthddrych yn aelod o deulu mawr; canys ganwyd i'w dad a'i fam bedwar-arbymtheg o blant mewn un ar hugain o flynyddau. Bu naw o honynt feirw yn eu mabandod, ond arbedwyd y deg arall hyd aeddfedrwydd oedran; ïe, rai o honynt hyd henaint a phenllwydni. Cynnwysai y rhan arbedol o'r teulu hwn dri mab, a saith o ferched. Dywedir fod y merched, fel y fam, yn brydweddol, athrylithgar, darllengar, a chrefyddol. A daeth pob un o'r meibion i safleoedd uchel, yn enwedig John a Charles. Samuel oedd enw y mab hynaf: ganwyd ef yn 1690; cafodd ei addysgu yn Ysgol Westminster, yn yr hon y dringodd cyn hir i fod yn brif athraw. Yr oedd yntau yn alluog a dysgedig, ac yn Eglwyswr selog hyd ei fedd. Amlygodd bryder mawr, fwy nag unwaith, yn nghylch y cwrs a gymmerasai ei frodyr; a mawr ofnai ganlyniad y symmudiad diwygiadol —afreolaidd fel y tybiai efe—a effeithid drwy eu hofferynoliaeth. Charles, y brawd ieuangaf, a anwyd Rhagfyr 18fed, 1708. Cafodd yntau addysg gartref gan ei fam, yna yn Westminster, ac wedi hyny yn Rhydychain. Yn ystod ei arosiad yn Westminster, digwyddodd amgylchiad gwerth ei grybwyll. Boneddwr o'r Iwerddon, o'r enw Garret Wesley, a gynnygiodd fabwysiadu Charles yn blentyn iddo ei hun, a sefydlu ei etifeddiaeth arno. Nid oedd y berthynas leiaf rhwng y teuluoedd a'u gilydd, namyn yr enw. Gellid casglu fod y rhieni yn foddlawn i dderbyn y cynnygiad caredig; ond o herwydd gwrthwynebiad y bachgen ei hun, gwrthodwyd ef. Pan ddeallodd y boneddwr hyny, mabwysiadodd un Richard Colley, a adwaenid wedi hyny fel R. C. Wesley, yn lle Charles. Wedi marwolaeth ei gymmwynaswr, daeth y mabwysiedig i feddiant o'r etifeddiaeth, etholwyd ef yn aelod seneddol; ac o dan deyrnasiad Sior II., gwnaed ef yn farwn. A hwnw ydoedd taid yr Ardalydd Wellesley, sef Llywydd Cyffredinol India, ynghyd â'r Duc o Wellington, arwr maes Waterloo. Diau mai y digwyddiad hwn a barodd i rai haneswyr dybio fod y *Wesleys* yn geraint i'r Duc o Wellington, er nad oeddynt yn perthyn y radd leiaf i'w gilydd. Pan yn ddeunaw oed, etholwyd Charles i Goleg Eglwys Crist, Rhydychain. Graddiodd yn B. A., a gwnaed ef yn athraw colegawl pan nad ydoedd ond un ar hugain oed. Yn y fl. 1735, aeth allan gyda'i frawd John i Georgia, yn y cymmeriad o ysgrifenydd i Oglethorpe; ond ar ol bod yno flwyddyn, dychwelodd i Loegr. Yn fuan wedi ei ddychweliad i'r wlad hon, cyfarwyddwyd ef i afael iachawdwriaeth bersonol a phrofiadol gan Peter Böhler, gweinidog y Moraviaid. Yna dechreuodd efengylu i'r bobl; yr hyn a ddyfal-barhaodd ei wneuthur hyd derfyn ei oes, gan amdeithio cryn lawer yn nechreu ei fford. Yn y fl. 1749, ymbriododd gyda Sarah, merch Marmaduke Gwynne, Ysw., Garth, sir Frycheiniog. Dychwelasid y boneddwr hwnw, dan amgylchiadau nodedig, trwy weinidogaeth Howell Harris ("*Meth. Cymru*," cyf. i., td. 366). Yr oedd y boneddwr hwn yn ustus heddwch, yn byw mewn llawnder, ac yn ddylanwadol yn y wlad; ac yr oedd ei ferch yn foneddiges ragorol mewn moes a chrefydd. Bu Charles Wesley yn ffodus yn ei briodas. Bu fyw bellach yn Bristol am bedair blynedd ar bymtheg, sef hyd 1768, pryd yr ymsymmudodd i Lundain, lle y treuliodd weddill ei oes. Mawrth 29ain, 1788, bu farw yn ddedwydd yn yr Arglwydd. Dyn bychan o gorpholaeth ydoedd yntau, fel ei dad a'i frawd, hoyw ei ysgogiadau, hardd a glanwedd ei berson; ond llafuriai dan yr anfantais o olwg byr. Yr oedd o dymmer gynnes a sydyn, ond yn hollol ddiymhongar; yn Uchel-Eglwyswr o ran barn a chydymdeimlad, ac yn Geidwadol i'r eithaf yn ei olygiadau am wladyddeg byd ac eglwys, er y profodd ei hun yn well na'i gredo fwy nag unwaith gyda golwg ar y pethau hyn. Wedi mwynhau manteision addysg uchel, yr oedd yn ysgolhaig gwych mewn llenyddiaeth glasurol a Beiblaidd. Medrai bump o ieithoedd, ac yr oedd yn gyfarwydd iawn yn ngweithiau Horace a Virgil; a dywedir fod y rhan fwyaf o'r "*Æneid*" ar ei gof i'w adrodd pryd y mynai. Dywedir ei fod yn ddyn o deimladau serchog a ffyddlawn, duwiolfrydig ac ymroddgar, gydag eil-liw o brudd-der, yn ymylu ar bruddglwyfedd ar adegau, yn amgylchu ei fynegiant. Er y parodd beth rhwystr i'w frawd, yn nghychwyniad Methodistiaeth, trwy wrthwynebu pob gogwyddiad a welai at Ymneillduaeth oddi wrth drefn yr Eglwys Sefydledig, a thrwy sefyll hyd y diwedd, fel y gwnaeth, yn erbyn i ymwahaniad ffurfiol gymmeryd lle, gan adael arogl Eglwysyddol, anfanteisiol, ar y cyfundeb am amser maith; etto, gwnaeth wasanaeth, mewn mwy nag un cylch o lafur, sydd yn gwrthbwyso yr holl anfanteision a nodwyd. Efe oedd aelod cyntaf y "Clwb Sanctaidd," fel ei gelwid, yn Rhydychain, a'r cyntaf i gael ei alw yn *Fethodist*. Efe oedd y cyntaf o'r ddau frawd i adnabod crefydd brofiadol, a'r cyntaf i weinyddu y sacramentau mewn addoldai Wesleyaidd; yr hyn a ddengys nad oedd yn Eglwyswr cysson iawn âg ef ei hun. Pregethodd lawer yn ei oes yn hyawdl a thanllyd, a myn rhai ei fod yn amgen pregethwr na'i frawd. Ond fel emynwr yr hynododd ef ei hun, ac y cyflawnodd y gwasanaeth gwerthfawrocaf i grefydd a Wesleyaeth. Efe a gyfansoddodd gannoedd yn y dosbarth goreu o emynau sydd yn yr iaith Saesnig; a'i waith ef ydyw yr emynau goreu sydd yn llyfr y Wesleyaid Saesnig. Cyfieithwyd llawer o honynt i'r Gymraeg gan Mr. Bryan ac ereill, a phrin y ceir dim rhagorach na hwynt yn llyfr hymnau Cymraeg y cyfundeb. Isaac Watts a Charles Wesley ydyw yr emynwyr rhagoraf a fagodd Lloegr erioed; ac o'r ddau hyn, tybia rhai mai

Digitized by Google

yr olaf ydyw y blaenaf o ran teilyngdod llenyddol, yn gystal a lliosogrwydd ei gyfansoddiadau. Cyfansoddodd efe nifer fawr iawn o emynau. Yn ddiweddar, casglwyd hwynt ynghyd gan Dr. Osborn, a chyhoeddwyd hwynt dan ei olygiaeth ef mewn tair-ar-ddeg o gyfrolau wythplyg. Charles Wesley, yn ddiau, ydoedd bardd Methodistiaeth yn Lloegr.

Wedi bwrw byr olwg ar hanes a nodweddau hynafiaid, tad a mam, brodyr a chwiorydd John Wesley, ymdrechwn bellach i gyfyngu ein sylw ato ef ei hun, yn hanes ei fywyd a'i farwolaeth; ei lafur, ei anhawsderau, a'i lwyddiant; nodweddau ei athrylith a'i weinidogaeth, ynghyd â'i wasanaeth i'r byd fel awdwr, cyhoeddwr, a threfnydd.

Yn y flwyddyn 1709, pan nad ydoedd John Wesley ond chwech oed, llosgwyd y parsondy am yr ail waith; a bu agos i'w fywyd fyned yn ysglyfaeth i'r fflamau. Un noson, pan oedd y teulu oll wedi myned i dawel hûn, deffrowyd y clerigwr gan lais o'r heol yn gwaeddi "Tân, tân!" Pan ddeallodd efe ystyr y waedd, cyfododd ac agorodd ddrws ei ystafell wely, a gwelai fod y tŷ ar dân, a'r tô ar syrthio i mewn. Yn ddiattreg, galwodd ei deulu i fyny, ac ar unwaith i ddiange allan am eu heinioes; ac yn mhen ychydig funydau, wedi diangc o honynt, rhai trwy y ffenestri, a'r lleill trwy ddrws yn nghefn y tŷ, wele y tad a'r fam, y plant a'r morwynion, allan o gyrhaedd y perygl. Ond wedi ymbwyllo ac edrych, Och! yr oedd John bach ar ol! Ymddiengys fod Charles, y baban dau fis oed, tair chwaer bach, John eu brawd, a'r fagwraig, oll yn cysgu yn yr un ystafell pan dorodd y tân allan. Yn ei dychryn a'i brys, wedi cipio y baban yn ei breichiau, a gorchymyn i'r plant ereill i'w dilyn, rhuthrodd y llangces allan, gan adael John ar ol, heb gofio ei ddeffro. Pan welwyd ei golli, yr oedd y braw yn ddirfawr! Ar hyn, clywyd gwaedd plentyn yn nghanol y tân. Rhuthrodd y tad drwy y mŵg a'r tân i mewn trwy y drws, gan geisio dringo y grisiau i achub ei blentyn; ond torodd y grisiau llosgedig dan ei draed. Pan welodd hyn, penliniodd yn y cyntedd tanllyd i gyflwyno ei blentyn i ofal Gwaredwr y tri llangc. Yn y cyfamser, deallodd y bachgen ei berygl, dringodd ar y ffenestr, a thaflodd hi yn agored. Yna gwelwyd ef—ond pa fodd y gellid ei achub? Nid oedd ysgol yn agos, nac amser i gyrchu un o bell. Angenrhaid yw mam dyfais. Mor gyflym ag ymdaith y fellten, safodd un dyn cryf wrth y pared dan y ffenestr, dringodd dyn arall i fyny ar ei ysgwyddau; a phan oedd y tô ar syrthio, a'r gwyddfodolion yn dal eu hanadl, achubwyd y plentyn, "fel pentewyn o'r tân!" Arweiniwyd y fam feddylgar gan yr amgylchiad hwn i gasglu fod gan Dduw waith o bwys i'w mab achubedig i'w gyflawni; a gwnaed argraph ddofn o ddifrifwch ar ei feddwl yntau hefyd, yr hon a barhaodd am weddill ei oes.

Dygwyd ef i fyny yn y modd mwyaf gofalus a deheuig, a dechreuodd ymddadblygu yn foreu mewn dealltwriaeth a chrefyddolder. Fel y nodwyd, chwech oed ydoedd pan achubwyd ef o'r tân. Yn ei wythfed flwyddyn, derbyniodd y cymmun o law ei dad; a phan oedd yn ddeng mlwydd a hanner, efe a anfonwyd oddi cartref i'r ysgol. Fel ei holl frodyr a'i chwiorydd, addysgwyd John Wesley yn elfenau addysg gan ei fam. Ei rheol hi ydoedd, peidio dysgu y wyddor i blentyn dan bump oed; yna, ei orfodi i'w meistroli yn drwyadl mewn un diwrnod. A bu yn llwyddiannus, gyda'r eithriad o ddau o'r plant, i weithio allan ei chynllun; ac nid John oedd un o'r ddau hyny, canys efe a orchfygodd y llythyrenau ar y cynnyg cyntaf. Yn y fl. 1714, anfonwyd ef i Ysgol y Charterhouse, yn nghanol dinas Llundain. Cafwyd y ffafr o fyned yno iddo trwy garedigrwydd y Duc o Buckingham, gor-ystafellydd y llys brenhinol ar y pryd. Codasid y Charterhouse ar y cyntaf gyda'r bwriad o'i wneyd yn fynachlog. Yn 1611, prynwyd ef gan fasnachwr cyfoethog o'r enw Thomas Sutton, a gwnaed ynddo ysbytty i'r hen, ac ysgol i'r ieuangc. Yno yr addysgwyd Addison a Steele, a Barrow a Blackstone, ac ereill. Er fod John Wesley yn derbyn ei ddillad a'i addysg yn rhad yno, dioddefodd gryn galedi a cham oddi ar law y bechgyn mawr, ac ofnai y buasai ei iechyd wedi pallu oni bae am yr arferiad oedd ganddo o redeg dair gwaith o gwmpas yr ardd bob boreu, yn ol gorchymyn pendant ei dad. Tra yr ydoedd efe, a Charles ei frawd, yn y Charterhouse, mawr flinid eu teulu yn Epworth gan rywbeth a aflonyddai ar y parsondy. Cyfeirir at hyn gan ei holl fywgraphwyr, a chynnygia y naill a'r llall at esbonio y dirgelwch. Dywedir y clywid yn ac o ddeutu y tŷ ryw sŵn dyeithrol—yn awr fel griddfanau trymion, ac yna fel curiadau uchel, a thrachefn yn debyg i sŵn traed dyn yn disgyn ac yn esgyn y grisiau. Clybuwyd pethau o'r fath yma gan holl deulu y tŷ, y dydd fel y nos, drachefn a thrachefn, am o ddeutu dau fis, a pharodd anghysur dirfawr iddynt. Ond pa gyfrif oedd i'w roddi am dano? Priodolai Isaac Taylor y cwbl i ofergoeledd y teulu. Ond credai John Wesley ei hun ei fod yn rhywbeth gwrthddrychol a goruwchnaturiol; ac amddiffynir ei olygiad yn fedrus gan y breninfardd Southey, a chan Tyerman ei fywgraphydd diweddaraf a rhagoraf. Modd bynag, gwnaeth "*Old Jeffrey,*" fel y gelwid y bwgan, argraph annileadwy ar ei feddwl ef a'i deulu o barth i fodolaeth ac agosrwydd y byd ysbrydol. Wedi treulio wyth mlynedd yn y Charterhouse—y tymmor mwyaf y gellid aros yno—etholwyd ef i Goleg Eglwys Crist yn Rhydychain, lle y bu hyd ar ol ei ordeiniad yn y fl. 1725. Nid ydoedd ond ieuangc pan aeth yno. Cynnyddodd yn gyflym mewn gwybodaeth a dysg; a phan yn dair mlwydd ar hugain oed, etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg Lincoln; yr hyn oedd yn anrhydedd iddo, ac yn ffynnonell o elw arianol blynyddol iddo tra y parhaodd yn ddibriod. Llonwyd ei dad yn ddirfawr pan glywodd am hyn. Ar ol ennill ei gymmrodoriaeth, bu yn gurad i'w dad am ddwy flynedd mewn lle o'r enw Wroote; ond ar gais Dr. Morely, rector Coleg Lincoln, cefnodd ar y guradiaeth, a dychwelodd i Rydychain, lle y daeth yn athraw ac yn gymmedrolwr y dadleuon a gynnelid yn y neuadd chwe gwaith yn yr wythnos. Ac yno y bu nes yr ymfudodd i Georgia, yn 1735. Dylid manylu ychydig yma, o blegid fod yr wyth mlynedd dilynol i'w etholiad i gymmrodoriaeth Lincoln yn un o'r cyfnodau pwysicaf yn mywyd ein gwrthddrych, yn ogystal ag yn hanes crefydd yn y deyrnas hon. Dyma y pryd y ffurfiwyd y "Gymdeithas Sanctaidd," fel y gelwid hi, o'r hon yr ymddadblygodd y Methodistiaid; ac yn fuan, y Diwygiad Methodistaidd yn Lloegr. Cyfansoddwyd y gymdeithas hono gan gynnifer o fyfyrwyr ieuaingc duwiolfrydig a ymwasgent ynghyd i

annog eu gilydd i gynnyddu yn ngras a gwybodaeth yr efengyl, ac i ymarfer gyda dyfalwch neillduol ddefosiynau yr eglwys. Boreu-godent, gan neillduo oriau pennodol i ymarferion dirgelaidd. Cyfranogent o'r cymmun yn rheolaidd bob Sabbath, ymprydient bob dydd Mercher a dydd Gwener, ac ymgyfarfyddent bob prydnawn i efrydu y Testament Groeg, ac i gyfoethogi eu hunain mewn gwybodaeth grefyddol trwy gyd-ddarllen llyfrau da ereill. Ymgyssegrent gyda sêl i weithredoedd o gymmwynasgarwch ymarferol trwy ymweled â charcharorion, egwyddori plant yn y Catecism, cyfranu elusenau i'r tlodion, ceisio lleshâd ysbrydol y myfyrwyr ereill, ac achub pob cyfleusderau i dderbyn a gwneuthur daioni. O herwydd fod cynllun, cyssondeb, a rheol i'w gweithrediadau, galwyd hwynt oddi ar wawd yn *Drefnyddion* (*Methodists*), yr hwn enw a lynodd hyd y dydd heddyw wrth ddysgyblion Wesley a Whitfield. Pedwar oedd nifer yr "*Holy Club*" ar y cyntaf: wedi hyny chwyddodd eu rhifedi i naw. Heb roddi enwau yr oll o honynt, dylid nodi fod James Hervey, George Whitfield, a Charles Wesley yn aelodau amlwg; ond enaid a llywydd y gymdeithas oedd John Wesley. Achlysur ei ffurfiad ydoedd sefyllfa isel y brifysgol mewn moesoldeb. Teimlai gwŷr ieuaingc cydwybodol nad oedd modd iddynt fyw yn y fath le, yn agos fel y dylid, heb ymneillduo oddi wrth arferion a chymdeithas y myfyrwyr ereill. Cafodd ei sylfaenu ar egwyddor gaeth-Eglwysaidd a sacramentaidd. Buasai yn cyd-daraw yn hollol â golygiadau Keble a Pusey; a phe na buasai cyfnewidiad dirfawr wedi cymmeryd lle ar ol hyny yn marn a chyflyrau ei aelodau, diau mai diwerth, os nad niweidiol, fuasai dylanwad y Methodistiaid hyny ar y byd. Ondynglŷn â'r gwaith da a wnaed ar eu cyflyrau ar ol hyny, profodd ffurfiad a dylanwad y gymdeithas yn rhagbarotoad gwerthfawr iddynt hwy at waith eu hoes, ac o fendith fawr i grefydd. Yn y cyfnod yma, effeithiwyd ar feddwl John Wesley gan lyfrau dau neu dri o awdwyr oedd yn cario cryn ddylanwad ar ddosbarth o ddarllenwyr y pryd hyny. Pan yn 22ain oed, daeth dan ddylanwad Thomas A. Kempis a Jeremy Taylor, trwy ddarllen "Dilyniad Crist" o waith y cyntaf, a "Byw a marw yn sanctaidd" gan yr olaf. Yn fuan wedi hyny, daeth i gyffyrddiad â llyfrau William Law, yn enwedig yr "Alwad Ddifrifol," a'i "Berffeithrwydd Cristionogol;" a chydweithiai yr holl ddylanwadau hyn i wneuthur o hono Uchel-Eglwyswr defodol, cyfriniol, a hunangyfiawn!

Yn mis Ebrill, 1735, bu farw ei dad; ac aeth yntau yn y cyflwr a nodwyd, a'i frawd Charles, yn genhadon i Georgia, gyda'r amcan penaf o ddychwelyd yr Indiaid Americanaidd. Dywed rhai o'i fywgraphwyr y gallasai John Wesley gael bywoliaeth Epworth mewn canlyniad i'w dad, ond na fynai ei cheisio; tra y mŷn ereill o honynt ddarfod iddo ei cheisio, a chael ei nacau. Ond y mae cystal sail i'r naill dyb ag sydd i'r llall yn ysgrifeniadau Mr. Wesley. Ffolineb yw ceisio gwadu un o honynt, gan mor gryfed yw y profion sydd drostynt. A dengys Tyerman fod y ddwy dyb yn gywir, ac yn berffaith gysson â'u gilydd, yn ngoleuni ffaith arall, sef y cyfnewidiad a gymmerodd le ar y pryd yn meddwl Wesley gyda golwg ar ei gylch mewn bywyd. Ymddengys mai bwriad Wesley un adeg oedd byw a marw yn Rhydychain. A thra yn y cyfryw gyflwr meddwl, efe a wrthododd wneuthur cais am fywoliaeth Epworth yn adeg selni ei dad, pan fawr gymmhellid hyny arno gan ei dad, a'i frawd Samuel. Yn y cyfamser, bu dadl alluog a brwd rhyngddo a'i frawd crybwylledig ar y mater hwn: ac y mae llawer o'r llythyrau hyny ar gael hyd heddyw, ac yn werth eu darllen. Ar un llaw, dadleuai efe mai ei ddymuniad a'i ddyledswydd ydoedd treulio ei oes yn 'ysgol y prophwydi' yn Rhydychain i geisio puro y ffynnon; tra y dadleuai ei frawd, ar y llaw arall, yn gryf a medrus mai ei ddyledswydd ddiammheuol fel gweinidog ordeiniedig oedd gwasanaethu yr eglwys a'i genhedlaeth trwy bregethu a bugeilio; a bod termau ei ordeiniad yn ei rwymo i hyny yn y fath fodd fel nas gallai ymddwyn yn wahanol heb dori ei air. O'r diwedd, rhesymau Samuel Wesley a orfuasant: argyhoeddwyd ein gwrthddrych o'i gamsyniad; ac ar farwolaeth ei dad, gwnaeth gais am Epworth: ond erbyn hyn, yr oedd hi yn rhy ddiweddar—yr oedd y fywoliaeth wedi ei haddaw i ymgeisydd arall; ac wrth gwrs, cafodd yntau ei nacau. Felly, gwir ydyw ddarfod i John Wesley, oddi ar ei fwriad i dreulio ei fywyd yn y brifysgol, wrthod ceisio bywoliaeth Epworth, yn ol un dosbarth o'i fywgraphwyr; a gwir hefyd ydyw iddo ar ol hyny wneyd cais am dani, a chael ei nacau, yn ol haeriad y dosbarth arall o honynt. A'r esboniad ar hyn oll yw, y cyfnewidiad a gymmerodd le yn ei feddwl gyda golwg ar ei gylch mewn bywyd. Dyddorol yw cofio mai yn yr adeg yma y daeth George Whitfield i gydnabyddiaeth âg ef gyntaf, ac y rhestrwyd ei enw yn mhlith Methodistiaid Rhydychain. Derbyniasid Whitfield fel gweinydd (*servitor*) i Goleg Pembroke dair blynedd cyn hyn; ac yr oedd er's peth amser wedi dechreu gweddio a chanu salmau bum waith yn y dydd, yn mawr edmygu y *Wesleys*, ac ereill, ac yn awyddus iawn i ffurfio cydnabyddiaeth âg aelodau y 'Gymdeithas Sanctaidd.' Ond gan nad oedd ond gwas bach i'r myfyrwyr, ac yn ieuangc, pallai ymwthio i'w sylw. Modd bynag, ynglŷn â rhyw helynt a fu yn y *workhouse* cyfagos, mewn canlyniad i ymgais rhyw wraig oedd yno i gyflawni hunan-laddiad, cafodd Whitfield gyfleusdra i ddyfod i sylw Charles Wesley:—gwahoddwyd ef i frecwesta gyda'r brodyr: ac mewn canlyniad i hyny, derbyniwyd ef i'r cylch a fawr ddymunasai.

Pan oedd John Wesley yn ewyllysgar i adael Rhydychain, ac Epworth wedi cau yn ei erbyn, daeth iddo ymwared o le arall. Y pryd hyny, yr oedd ymdrech ar droed yn y deyrnas hon i sefydlu trefedigaeth yn America, a alwyd ar enw y brenin yn *Georgia*. Cymmerid dyddordeb mawr yn y symmudiad gan ein dyngarwyr; yn enwedigol felly gan Dr. John Burton, o Rydychain. Ymddengys fod y wasgfa a oddiweddasai y wlad hon mewn canlyniad i fethiant y *South Sea Bubble* yn galw am ryw ddarpariaeth o'r fath rhag suddo i fethdaliad cyffredinol. Cynllun Dr. Burton ydoedd sefydlu trefedigaeth Georgia i dyfu llin, a chywarch, a sidan. Caniatawyd breinlen gan Sior II.; pennodwyd ymddiriedolwyr i ddal y lle mewn ymddiried i'r tlodion am un mlynedd ar hugain; a ffurfiwyd cronfa o 36,000*p*. mewn amser byr i osod y cynllun mewn gweithrediad. Yn mhen pum mis ar ol arwyddiad y freinlen, yr oedd y fintai gyntaf o ymfudwyr, yn cynnwys chwech ugain o eneidiau, yn hwylio tua'r gorllewin, gyda James Edward Oglethorpe fel eu llywydd bwriadedig, a'r Parch.

Digitized by Google

Henry Herbert, clerigwr, fel eu gweinidog. Yn fuan ar ol tirio, gwelodd Oglethorpe, fel y tybiai, fod y drws yn agor i efengyleiddio yr Indiaid brodorol, os gellid sicrhau cenadwr i lafurio yn eu plith fyddai yn abl i ddysgu eu hiaith. Cyn hir, dychwelodd y llywydd i Loegr, gan ddwyn i'w ganlyn un Tomo-Chichi, ac Indiaid ereill, gyda'r bwriad o ennill cydymdeimlad Cristionogion â'r amcan a goleddai i'w hefengyleiddio. Cafodd ei ddymuniad yn hyn, canys cymmerodd "Cymdeithas Lledaeniad yr Efengyl mewn Gwledydd Tramor" y pwngc mewn llaw, ac anfonwyd y Parch. S. Quincy drosodd i Georgia fel cenhadwr. Yn ngwyneb dymuniad y cenhadwr hwnw i ddychwelyd, ceisiwyd gan John Wesley i gymmeryd ei le. Wedi ymgynghori â'i gyfeillion, a chael cydsyniad ei fam, efe a aeth yno. Rhoddodd ei fam atteb nodweddiadol iawn ar yr achos hwn, trwy ddadgan, "Pe buasai genyf ugain o feibion, llawenychaswn wrth weled pob un o honynt yn dilyn gwaith mor dda" (a llafurio fel cenhadon mewn gwledydd tramor). Ar y 14eg o Hydref, 1735, ar fwrdd llong hwyliau o'r enw "*Simmonds*," wele efe yn y cymmeriad o genhadwr, ynghyd â Charles ei frawd yn y nodwedd o ysgrifenydd i Oglethorpe, yn cychwyn am Georgia. Yn mhlith y teithwyr yr oedd mintai fechan o Forafiaid; ac i'r dyben o fedru ymddiddan â hwynt, ymgymmerodd yn ddiattreg â dysgu yr Almaenaeg, yn yr hon y daeth, yn mhen blwyddyn ar ol hyny, yn ddigon cyfarwydd i gyfieithu emynau o honi i'r Saesneg, ac i ymgydnabyddu cryn lawer â llenyddiaeth Germany. Chwech ar hugain oedd nifer y Morafiaid hyn, trwy Mr. D. Nitschman, eu gweinidog. Buont bedwar mis yn croesi y Werydd. Pan oeddynt o ddeutu taith pythefnos i'r lan ar yr ochr draw, y môr, gan wynt mawr yn chwythu, a gododd. Waeth-waeth yr elai, torai y tonau dros y bwrdd, drylliwyd yr hwylbren, a rhuthrai yn afonydd i mewn trwy ffenestri y caban. Parhaodd y dymmhestl am ddyddiau yn olynol, gan gynyddu mewn gerwindeb. Ar y chweched dydd, torodd tòn dros ben Wesley, a diangfa gyfyng a gafodd am ei fywyd. Yn mhen wyth niwrnod, ymgynddeiriogodd y dymmhestl i gyflwr dychrynllyd. Rhuodd y gwynt gan rwygo yr hwyliau, mygai y môr fel pe buasai ar dân, fflamiai yr awyr gan fflachiadau y mellt, a chwyrndeflid y llestr gyda'r fath rym hyd nes yr ofnid bob eiliad iddi ymollwng yn ysgyrion. Ond y pryd yma, pan yr oedd y dwylaw mewn braw, y teithwyr Saesnig yn gwaeddi ac yn llewygu gan ofn, a John Wesley ei hunan yn crynu gan ofn mawr, yr oedd y Morafiaid duwiol yn canu salmau yn uwch na holl chwiban y ddrycin, gan ymddangos yn berffaith ddedwydd a hunan-feddiannol. Synwyd y clerigwr ieuangc gan hyn; ac mor fuan ag y gostegodd y dymmhestl, prysurodd atynt, gan ofyn, "A oedd arnoch ddim ofn?" Attebasant, "Nac oedd, diolch i Dduw." "A oedd ar y gwragedd a'r plant ddim ofn?" gofynodd yntau eilwaith. "Nac oedd (meddai), ac nid oes arnynt hwythau chwaith ddim ofn marw," oedd yr attebiad a gafodd. Synwyd ef yn fwy pan glywodd hyn, a gwnaeth ymholiadau pellach, pryd y cafodd allan mai y dirgelwch o hyn oll oedd yr adnabyddiaeth brofiadol a feddai y bobl o ffafr Duw. Effeithiodd hyn yn ddwys ar ei feddwl, a chyfranodd ryw gymmaint tuag at greu ynddo anesmwythder a arweiniodd i gyfnewidiad mawr yn ei gyflwr crefyddol. Dyfnhawyd yr argraph hon gan y golygiadau cyfeiriadol ynghylch "tystiolaeth yr Ysbryd" a roddwyd iddo ar ei diriad yn Georgia, gan henuriad Morafiaidd o'r enw Spangenberg. Yn ddioed ar ol glanio, ar y 5ed o Chwefror, 1736, sefydlwyd ein gwrthddrych mewn tref a elwid Savannah, i breswylio yn y parsondy coed, ac i fugeilio y trefedigaethwyr. Hon oedd y dref Saesnig fwyaf yn y sefydliad, er nad oedd yn cynnwys namyn deugain o dai coed; ac yn mhen dwy flynedd ar ol hyn, nid oedd yno ond rhyw hanner dwsin o drefi Saesnig yn Georgia, un o'r rhai mwyaf o ba rai oedd Frederica, yr hon a safai gan milldir i'r deheu o Savannah. Nid oedd ond ychydig o'r tir wedi ei arloesi: yr oedd y gweddill o'r sefydliad yn goedwigoedd, corsydd, a *phrairie*, a feddiennid gan yr Indiaid cochion a bwystfilod gwylltion. Dyma faes llafur John Wesley yn y byd gorllewinol. Dydd Sul, Mawrth 7fed, dechreuodd ar ei waith, gan gynnal gwasanaeth am naw yn y boreu, yna am ddeuddeg, ac un arall yn y prydnawn; ac ar derfyn y dydd, cyhoeddodd ei benderfyniad i fynychu hyny bob Sabbath rhag llaw, ynghyd â gweinyddu y cymmun unwaith bob Sabbath, a phob dydd gŵyl. Llafuriodd yn ol y drefn uchod fel gweinidog i'r trefedigaethwyr am o ddeutu blwyddyn a hanner. Fel y nodwyd eisoes, amcan John Wesley yn croesi y môr oedd llafurio fel cenhadwr yn mhlith y brodorion; a dylid nodi yn y fan hyn y rhesymau a'i lluddiodd i gario allan yr amcan hwnw. Ar un llaw, yr oedd gweinidog pennodedig y Saeson wedi ymadael o'r diriogaeth, a'r plwyfolion fel defaid heb fugail arnynt; ac ar y llaw arall, yr oedd y Ffrangcod a'r Yspaeniaid yn peri cymmaint o flinder i'r Indiaid fel mai hollol ofer oedd i ddyn gwyn geisio cymmhell yr efengyl arnynt y pryd hyny. Yn ngwyneb hyn, cydsyniodd Wesley â chais yr awdurdodau i dreulio yr holl amser y bu yn Georgia i fugeilio y trefedigaethwyr, yn hytrach na llafurio fel cenhadwr yn mhlith y paganiaid brodorol. Ymroddodd o ddifrif, yn ol y goleuni a feddai, i lafurio yn ei blwyf, er na bu ei lwyddiant ond bychan. Profodd ei olygiadau sacramentaidd, a llymder diarbed y ddysgyblaeth a weinyddai, yn dra anfanteisiol i'w gysur personol yn gystal ag i'w ddefnyddioldeb gweinidogaethol. Credir gan lawer y dyry hyn gyfrif mor foddhaol a dim am lawer o'r ammharch a dderbyniodd yno, yn nghyd â'r trallodion cymdeithasol a ddioddefodd. Ac er nad ydoedd cenhadaeth Wesley i Georgia yn fethiant hollol, fel y dengys Whitfield yn ei lythyrau; etto, a siarad yn gymmharol, rhaid addef mai methiant ydoedd hyd yn oed yn mhlith y trefedigaethwyr; a'i Uchel-Eglwysyddiaeth yn ddiau a barodd hyny hefyd. Llafuriodd yn ddiarbed yno. Dysgodd dair o ieithoedd Ewropaidd yn weddol lwyr yn y cyfamser; sef, yr Almaenaeg, yr Italaeg, a'r Yspaenaeg. Ymwelodd â phob teulu yn y drefedigaeth, gan gymmeryd cyfrif manwl o honynt oll. Ymdrechodd yn deg yn mhlaid sefydlu moddion addysg i'r plant, a theithiodd gryn lawer ar hyd a lled y wlad i bregethu yr efengyl, a pharotoi y ffordd i gynnyrchu llwyddiant uchaf y preswylwyr. Wrth weled nad oedd gobaith iddo gael llafurio yn mhlith yr Indiaid, ac yn herwydd yr helbul cymdeithasol y darostyngasid ef iddo trwy ddialgarwch ynad heddwch o'r enw Mr. Causton, barnodd ef a'i gyfeillion Morafiaidd mai doeth iddo fyddai gadael Georgia; ac felly

y gwnaeth. Gadawodd Savannah Rhagfyr 2il, 1737, a glaniodd yn Lloegr yn mhen tri mis, ar ol bod oddi cartref am ddwy flynedd a phedwar mis. Yr oedd sefyllfa iechyd Charles wedi ei orfodi ef i ddychwelyd rai misoedd yn gynt. Ymddengys fod meddwl John Wesley y pryd hwn mewn cyflwr o anesmwythder mawr am weled goleuni, a byw. Ysgrifenodd yn ei ddyddlyfr, "Aethum i America i ddychwelyd yr Indiaid—ond Och! pwy a'm dychwel i? Pwy yw efe a'm gwared i oddi wrth fy nghalon ddrwg o anghrediniaeth?...Y mae hi yn awr yn ddwy flynedd, ac agos i bedwar mis, er pan adewais wlad fy ngenedigaeth i ddysgu Cristionogaeth i Indiaid Georgia—ond pa beth a ddysgais i yn y cyfamser? Hyn (y peth olaf a feddyliaswn o ddim) —sef, fy mod i, yr hwn a aeth i America i ddychwelyd ereill, heb gael fy nychwelyd at Dduw erioed." Dyma ei eiriau a'i gyflwr yn yr argyfwng pwysig yma. Yn ddiattreg ar ol cyrhaedd Lloegr, cyfarfu â Peter Böhler, gweinidog y Morafiaid oedd newydd gyrhaedd Llundain o Germany, yr hwn yn garedig a "agorodd iddo ffordd Duw yn fanylach." Er cael mwynhau cyfeillach a chyfarwyddyd y bobl hyn, a'u gweinidog, efe a ymsefydlodd yn Llundain, a bu yn cyfarfod gyda'r Morafiaid yn Fetter Lane am o ddeutu dwy flynedd; yr hyn a brofodd yn fuddiol i'w hyfforddi yn dda yn egwyddorion crefydd fewnol. Buan y daeth yn ymofynydd pryderus am dani, er y bu am dalm o amser heb brofi gollyngdod. Yn yr ystyr yma, yr oedd Charles, ei frawd, yn Nghrist o'i flaen ef. Mai 24ain, 1738, aeth i gyfarfod a gynnaliai y Morafiaid yn heol Aldersgate, gyda chalon drom a phryderus; ond pan oedd un o'r brodyr yn darllen rhagdraeth Luther i'w Esboniad ar y Rhufeiniaid, profodd yntau ddarfod ei symmud o farwolaeth i fywyd. "O ddeutu chwarter cyn naw," ebe fe, "teimlais fy nghalon yn gwresogi yn hynod; teimlais fy mod yn ymddiried yn Nghrist yn unig am iachawdwriaeth; a derbyniais sicrwydd ei fod ef wedi cymmeryd ymaith fy mhechodau! —ïe, yr eiddof fi!—ac iddo fy 'rhyddhau oddi wrth ddeddf pechod a marwolaeth.'" Dechreuodd hyn gyfnod newydd yn hanes ei fywyd fel Cristion a phregethwr. Arweiniai fywyd diargyhoedd, a phregethai lawer o'r blaen. Ar ei ddychweliad o America, gwahoddid ef i bregethu mewn amryw eglwysydd yn Llundain a'r cyffiniau, ac ymgasglai y bobl i wrando arno; ac ar gyfrif y sôn oedd am dano fel cenhadwr a fu yn pregethu i'r Indiaid gwylltion, yn ogystal a'i dalent fel pregethwr, daethai yn boblogaidd ar unwaith. Cynnygiwyd bywoliaeth iddo yn swydd Lincoln, yr hon (gyda llaw) a wrthododd, a thelid gradd dda o barch iddo yn y brifddinas. Ond ar ol y cyfnewidiad ysbrydol a nodwyd, "wele, gwnaethpwyd pob peth o'r newydd." Gwnaed ef yn ddyn o ysbryd arall, a phregethai gyda nerth cwbl ddyeithr a newydd. Yn mhen naw mis ar ol hyn, efe a ymwelodd â'r Morafiaid yn Germany. Byth ar ol eu cyfarfod ar y fordaith yn Georgia, mawr ddymunai gael golwg ar y sefydliad oedd ganddynt yn eu gwlad eu hunain. Ond nis gallwn yma ddisgrifio yr hyn a welodd ac a glywodd yno. Digon yw nodi iddo dderbyn cryfhâd i'w ffydd yno, a symbyliad newydd i ymroddiad Cristionogol. Pan ddychwelodd i Lundain, ennynai ei enaid gan sêl Duw, a phregethai dan arddeliad mawr, gan amcanu adfywio Cristionogaeth ysgrythyrol yn yr Eglwys Sefydledig. Ar yr adeg yma, nid oedd ganddo un amcan pellach. Glynai mewn cymmundeb â'r Eglwys Sefydledig hono, a pharhaodd i gyfyngu ei weinidogaeth i'w hadeiladau cyhyd ag y cadwyd ei drws yn agored iddo. Yr oedd Charles, ei frawd, a Whitfield, dan yr un bedydd ysbrydol, ac yn cydlafurio yn egnïol gyda golwg ar yr unrhyw amcan—i adfywio crefydd bur yn yr Eglwys. Cyn hir, cauwyd llawer o'i phulpudau i'w herbyn, fel nad oedd ganddynt ddim i'w wneuthur namyn pregethu yn yr awyr agored. Y cyntaf i gymmeryd y cam beiddgar, ond gwerthfawr, hwn oedd Whitfield. Yn y fl. 1739, yn ol esampl a thrwy annogaeth Whitfield, torodd John Wesley hefyd drwyddi, a phregethodd allan yn Bristol i dair mil o wrandawyr. Creodd hyn gyfnod newydd yn hanes y Methodistiaid, fel eu gelwid. Cyn hyny, dygid hwy yn gaeth gan y syniad defodol o sancteiddrwydd lleol; ac addefodd Wesley y golygai y pryd hyny y buasai braidd yn bechod achub enaid, os na wnelsid hyny tu fewn i furiau cyssegredig. Ond rhoddwyd terfyn bythol ar yr ofergoeledd hwn pan ddechreuasant bregethu allan; ac oni buasai yr oruchafiaeth hon, diammheu genym na fuasai eu llwyddiant fel diwygwyr yn agos y peth yw, na Threfnyddiaeth Wesleyaidd, fel y mae, erioed wedi dechreu bodoli. Bellach, ar ol cael ei hyfforddi gan y Morafiaid yn ffordd iachawdwriaeth, cafodd adnabod yr iachawdwriaeth hono yn bersonol, ynghyd â bwrw ymaith un o erthyglau sylfaenol ei uchel-eglwysyddiaeth:—a dechreuodd John Wesley ar waith mawr ei oes gyda dwylaw rhyddion, a gweithiodd o ddifrif. Er nad oedd ganddo y bwriad lleiaf i sylfaenu sect o'r tu allan i gyffin yr Eglwys Wladol, etto, fel canlyniad naturiol, os nad anocheladwy, i'w lafur a'i lwyddiant, daeth enwad felly i fodolaeth yn mron er ei waethaf. Dan nerth ei weinidogaeth ef a Whitfield, cynnhyrfwyd y deyrnas; ac yn eithaf naturiol, ymwasgodd y bobl a ddwysbigwyd yn eu calonau at y diwygwyr am ymgeledd ysbrydol; ac ar gais y bobl hyn, ffurfiodd Wesley gymdeithas grefyddol yn y fl. 1741, o'r hon y tyfodd yr enwad lliosocaf o Ymneillduwyr sydd ar wyneb y ddaear. [Am y manylion, gwel d. g. WESLEYAETH.] Dechreuwyd yr achos yn Bristol, a chyfodwyd yno gapel; a phrynwyd hen *foundry* yn Llundain, i'r gymdeithas oedd yn y brifddinas i ymgartrefu ynddi. Fel y lliosogai y dychweledigion, amlhëid y cymdeithasau hyn, a dosbarthwyd hwynt yn rhestrau dan ofal blaenoriaid. Darfu ymeangiad y gwaith greu angenrheidrwydd am drefniad pellach a manylach. Bu raid pennodi swyddogion cyllidol, a sefydlu llysoedd eglwysig; adeiladu addoldai, a rhanu y maes yn gylchdeithiau; galw allan, ac yn y man ordeinio cynnorthwywyr, cynnal cynnadleddau blynyddol, a thynu allan weithredoedd cyfreithiol; ac yn ganlynol, ffurfiwyd y cyfundeb sydd yn aros hyd heddyw. Ac wedi dechreu fel hyn ar ei waith fel efengylwr, gan ddilyn cyfarwyddyd rhagluniaeth Duw yn ei drefniadau, a chymmhelliad cariad Crist yn ei brofiad, efe a ymhelaethodd mewn llafur, gan deithio, pregethu, ysgrifenu, dysgyblu, a chyfundrefnu fwy na mwy am bump a thrigain o flynyddoedd; a gorphenodd ei yrfa mewn oedran teg ac anrhydedd mawr yn y flwyddyn 1791!

Bellach, ar ol rhoddi i'r darllenydd syniad am deulu ac amlinellau gyrfa bywyd ein gwrthddrych, ni a ymdrechwn fanylu ychydig gyda'r ymgais o gyfleu rhyw drem ar helaethrwydd ei

Digitized by Google

lafur, meithder a lliosawgrwydd ei deithiau, ynghyd â'r ammharch a'r erlidiau a ddioddefodd fel Cristion oddi wrth gaseion crefydd a brodyr gau yn mlynyddau cyntaf ei oes; ac yna rhoddwn grynodeb o'i wasanaeth i lenyddiaeth fel awdwr a chyhoeddwr, hanes ei ddadleuon, teithi ei gymmeriad, cyrchnod terfynol ei fywyd, ynghyd â chrybwyllion am ei safle, ei yni, a'i brofiad yn niwedd ei oes.

Digwyddodd dau amgylchiad yn lled fuan ar ol iddo dori allan fel efengylydd y dylid eu nodi; ac hwyrach mai doeth fyddai gwneuthur hyny yn y fan yma. Cyfeiriasom eisoes at fam rinweddol a thalentog ein gwrthddrych. Cafodd hi fyw i weled dechreuad y Diwygiad Methodistaidd, a dwfn oedd y dyddordeb a gymmerai ynddo. Yn 1739, pan brynwyd ac y neillduwyd yr hen *foundry* yn Llundain i bwrpas crefyddol, symmudwyd hi yno, i fyw yn y tŷ oedd yn gysylltiol â'r capel, a mynychai y moddion a gynnelid ynddo hyd ddiwedd ei hoes. Ond dydd ei hymddattodiad hithau a nesaodd. Gorphenaf y 23ain, 1742, pan oedd ei phump merch, a'i mab John, o amgylch ei gorweddle, bu farw mewn tawelwch mawr; ac yn ol ei chais diweddaf, canasant salm, mor gynted ag yr ehedodd ei hysbryd ymaith. Y Sabbath canlynol, claddwyd ei gweddillion yn nghladdfa enwog Bunhill Fields, yn mhresennoldeb tyrfa fawr o bobl. Darllenwyd y gwasanaeth claddu gan ei mab; a phan y defnyddiodd efe y geiriau "fy mam," yn lle "y chwaer ymadawedig," torodd y dorf allan mewn wylofain mawr. Pregethodd yn y capel ar yr achlysur i gynnulleidfa yn hynod ddifrifol. Yn mhen deuddeng mis ar ol hyn, ymwelodd âg Epworth, ei hen gartref, a mynai y plwyfolion iddo bregethu. Ond gan na chaniatâai y curad yr eglwys at ei wasanaeth, gwasgai y bobl arno i bregethu ar y fynwent; ac am chwech o'r gloch un prydnawn Sabbath, efe a safodd ar feddfaen ei dad, ac a bregethodd yr efengyl gyda dylanwad mawr ar y pryd; a dilynwyd yr oedfa hono gydag effeithiau bendigedig.

Wedi planu cymdeithasau crefyddol yn Llundain, Bristol, a Kingswood, fel y prif orsafon cenhadol, efe a ymroddodd i amdeithio yr holl deyrnas, gan bregethu, ffurfio cymdeithasau, a chyfundrefnu, i ba le bynag yr elai. Pregethai ar gyfartaledd, yn ystod yr hanner can mlynedd dilynol, o ddeutu ugain o weithiau yr wythnos, a theithiai yn ol pum mil o filldiroedd yn y flwyddyn. Fel hyn, a thynu allan o'r cyfrif swm da ar gyfer ei arafwch yn mlynyddoedd diweddaf ei oes, bernir iddo bregethu o ddeutu deugain mil o weithiau, a theithio yn agos i chwarter miliwn o filldiroedd yn y deyrnas hon yn ystod ei lafur fel efengylwr. A dylid cadw mewn cof ddarfod iddo bregethu gynnifer a hyny o weithiau dan amgylchiadau anfanteisiol yn fynych, a phan oedd ganddo lawer iawn o bethau ereill i'w cyflawni—a theithio y cyfanswm enfawr o filldiroedd a nodwyd cyn i'r agerlong a'r ager-gerbyd gael eu dyfeisio, pryd yr oedd ffyrdd goreu y deyrnas yn anhygyrch a drwg, ac heb gymmaint a *stage coach* yn teithio yn uwch tua'r gogledd na dinas York; ïe, a darfod iddo deithio y rhan fwyaf ar gefn ei geffyl; ac y byddai y rhan amlaf, yn maint ei ddyhewyd i brynu yr amser, yn darllen wrth farchogaeth. Un o'i deithiau cyntaf a wnaed yn 1742, i ogledd Lloegr, ar gais John Nelson a'r Arglwyddes Huntingdon, pryd y dechreuwyd yr achos yn Newcastle. Yn y flwyddyn 1743, efe a dreuliodd o ddeutu pedair wythnos ar ddeg yn Llundain, deng wythnos yn Bristol, tair wythnos ar ddeg yn Newcastle, tair wythnos yn Cornwall, a deuddeng wythnos yn ngogledd Lloegr. Yr oedd yn ddyn aeddfed, o ddeutu deugain oed, y pryd yma, ac yn dechreu o ddifrif ar ei lafur amdeithiol. Yn ystod y flwyddyn hono, ceir ei hanes hefyd yn ymweled â rhanau o Gymru. Gofod a ballai i'w ddilyn gyda math yn y byd o fanylwch o flwyddyn i flwyddyn, er y buasai yn angenrheidiol gwneuthur hyny cyn y gellid cyfleu syniad cyflawn i'r darllenydd am helaethrwydd ei lafur a'i deithiau; ond ceir rhyw drem arnynt pan nodir mai ei arferiad am y rhan fwyaf o'i oes ydoedd ymweled â'r holl eglwysi unwaith yn y flwyddyn, ac na byddai byth yn dychwelyd o'i deithiau heb sefydlu rhai gorsafau newyddion. Am yr un mlynedd ar bymtheg cyntaf, teithiai ei frawd Charles gryn lawer i'w gynnorthwyo; ond o'r flwyddyn 1757 hyd derfyn ei oes, yn 1788, cyfyngodd efe ei wasanaeth i Bristol a Llundain. Yn 1747 y talodd John Wesley ei ymweliad cyntaf â'r Iwerddon. Croesodd yno o Bristol, a glaniodd yn Dublin. Gwnaeth hyn ar gais un o'r enw Thomas Williams, yr hwn a lwyddasai i ffurfio cymdeithas yn y ddinas oedd yn rhifo 280 o aelodau. Glaniodd yn ninas Dublin yn mis Awst, a chroesawyd ef yn nhŷ Mr. Lunell, y *banker*, yr hwn a gyfranodd wedi hyny 400*p*. at adeiladu capel Whitefriar-street. Treuliodd bythefnos yno, cychwynwyd achosion yn yr ynys yn ddiattreg, a dechreuwyd cydnabyddiaeth ddymunol rhwng ein gwrthddrych â'r Gwyddelod. Aeth yn hoff neillduol o honynt, a chroesodd y Cyfyngfor ddwy a deugain o weithiau er eu mwyn; a phe y gosodid ei holl ymweliadau ynghyd, treuliodd dros chwe blynedd o'i fywyd prysur yn yr Iwerddon. Yn 1751, ymwelodd y waith gyntaf âg Ysgotland. Ni fwriadai bregethu yno o gwbl y tro hwnw; ond ar gais tyrfa o bobl a ymgasglent at dŷ y cyfaill a'i llettyai, efe a bregethodd droion iddynt, gan adael Mr. Hopper, un o'i gynnorthwywyr, yno ar ei ol, a'r hwn a lafuriodd yno am bythefnos. Fel y mae yn hysbys, ni chafodd Wesleyaeth nemawr o afael yn mhlith yr Ysgotiaid o gwbl, oddi gerth yn Edinburgh a Glasgow, fel na theithiodd John Wesley yn agos gymmaint yno ag yn rhanau ereill y Deyrnas Gyfunol, er na pheidiodd efe ymweled âg Ysgotland drachefn a thrachefn.

Gyda maes mor eang i'w lafurio, a'r fath anghyfleusderau ac annybendod i deithio ar fôr a thir, a mynychder yr oedfaon a gynnaliai, y mae yn anhawdd ffurfio dirnadaeth am faint ei lafur mewn blwyddyn o amser. Cymmerer un yn enghraifft. Efe a dreuliodd ddau fis cyntaf y flwyddyn yn Llundain. Yna, ddechreu Mawrth, cychwynodd am yr Iwerddon. Marchogodd o Lundain i Gaergybi, gan bregethu dair neu bedair o weithiau bob dydd ar hyd y ffordd. Hwyrach y cedwid ef yn Nghaergybi, naill ai i ddisgwyl am long, neu am hindda, am lawer o ddyddiau, pa rai a dreuliai goreu y gallai i bregethu yn y dref, ac yma a thraw yn Ynys Môn. Wedi cael cyfleusdra i groesi y môr, treuliai rai misoedd i deithio, pregethu, a chyfundrefnu yn yr Iwerddon. Oddi yno cyfeiriai am Bristol, gan dreulio, hwyrach, bedair wythnos yno mewn llafur diball. Yna elai i lawr i Cornwall am fis, ac oddi yno trwy y siroedd deheuol yn ol i Lundain. Yna dringai i fyny trwy siroedd Bedford a Northampton a chanolbarth y wlad i sir York yn eithafoedd y gogledd, ac weithiau croesai y

Digitized by Google

Tweed i Ysgotland. Yna dychwelai i Lundain erbyn y gauaf, gan wneuthur pump neu chwech o deithiau wythnosol oddi allan i'r brifddinas i wahanol gyfeiriadau. Ac fel hyn, nid oedd nemawr i eglwys, neu 'gymdeithas,' fel y dewisai efe eu galw, nad ymwelai â hi unwaith yn y flwyddyn o ddydd ei sefydliad hyd o fewn ychydig i ddiwedd ei oes. Yr oedd ei arolygiaeth dros yr holl waith yn bersonol a thrwyadl. Os gogwyddai yr achos yn rhywle at benrhyddid, ymrafaelion, neu farweidd-dra, cyn y gallai adfeilio llawer trwy ddiofalwch swyddogion neu ymgecraeth aelodau, galwai John Wesley heibio, gan rybuddio, a dysgyblu, neu os byddai raid, diarddel yr afreolus: a thrwy y ddysgyblaeth a weinyddai, a'r pregethau miniog a nerthol a draddodai, efe a gasglai gynnulleidfa, a lliosogai yr eglwys, ac yn gyffredin adferid drefn a brawdgarwch, purdeb, a bywyd i'w plith cyn eu gadael. A diau mai i'w ymdrechion diflino i ymweled â'r eglwysi, a'i lafur mawr personol yn eu mysg, y dylid priodoli cyfran helaeth o lwyddiant y cyfundeb mawr a sefydlwyd trwyddo. Ond pwy ond efe a allasai ymgynnal dan y fath lafur? Etto, nid oedd ei weinidogaeth amdeithiol ond rhan o'i lafur ef.

Aeth trwy lafur dirfawr, a chyflawnodd wasanaeth ammhrisiadwy, fel awdwr, cyhoeddwr, a threfnydd. Yn ngoleuni disglaer ei sêl fel efengylydd, a'i fedrusrwydd fel trefnydd, collir golwg ar ei gyrhaeddiadau a'i wasanaeth fel llenor. Fel y dengys ei nodiadau yn ei ddyddlyfr, yr oedd John Wesley yn ddarllenwr mawr. Darllenai lawer ar bron bob cangen o wybodaeth, a gwnelai hyny yn drwyadl a beirniadol. Ceir cyfeiriadau yn ei ddyddlyfr at brif weithiau Locke, Peter Browne, Bolingbroke, Reid, Leibnitz, a Butler, a'r rhan fwyaf o awdwyr goreu y cyfnod ar athroniaeth naturiol, feddyliol, a moesol, ynghyd â'r prif weithiau a geid y pryd hwnw ar athroniaeth crefydd. Darllenai lawer o farddoniaeth glasurol a diweddar. Mawr edmygai arwrgerdd Fingal gan Ossian. Ceir enw bron bob awdwr o bwys ar restr y llyfrau a ddarllenodd ar hanes yr eglwys. Rhoddodd gryn lawer o'i sylw i feddygiaeth. Ymgydnabyddodd yn helaeth â bywgraphiadau cymmeriadau cyhoeddus, ynghyd â hanes teithiau ar dir a dwfr. Hoffai hynafiaethau a hanesiaeth yn fawr. Wrth gwrs, efrydai weithiau duwinyddol, yn enwedig yr adran ddadleuol. Arferai ddarllen wrth farchogaeth—a darllenodd gannoedd o gyfrolau felly ar ei deithiau. Ac nid yn arwynebol, anghofus, a darniog y darllenai efe; ond yn ddeallus, yn drwyadl, ac i bwrpas. Yr olaf oedd ei ffordd gyda phob peth. Cadwai ei lygad yn agored, ac edrychai lyfr drwyddo cyn ei ollwng o'i law. Ceir llawer o nodiadau beirniadol, miniog, a gwerthfawr ar lyfrau yn ei *Journals*. Haeddai y cymmeriad o fod yn ddarllenwr mawr yn ngwir ystyr y gair.

Pan feddylir am ei deithiau, ei lafur gweinidogaethol, a chylch ei ddarllenyddiaeth, y syndod yw, pa fodd y cafodd amser i ysgrifenu dim; ac o'r tu arall, pan olygir swm ei ysgrifeniadau, y syndod yw, pa fodd y cafodd amser i wneuthur dim arall. Prin y gallem gredu fod y fath beth yn bossibl i unrhyw ddyn hyd nes y deuwn i wybod am ei gyflymder a'i ddiwydrwydd. Codai am bedwar o'r gloch yn y boreu, treuliai ei amser a'i waith yn y modd goreu, a gwnelai y goreu o ddeunaw awr allan o'r pedair ar hugain. "*Leisure and I have taken leave of one another,*" meddai. Yr oedd ei ddiwydrwydd yn ddihafal. A rhaid ei fod yn meddwl ac yn ysgrifenu yn gyflym, fel y ceir gweled, ond ystyried byrdra yr amser a gymmerai i barotoi ei lyfrau i'r wasg. Pan yn hanner can mlwydd oed, pallodd ei iechyd, a bu yn analluog i bregethu am bedwar mis—yr unig fwlch yn ei oes. Ond yn ei gystudd, pan y gwellhaodd ychydig, dechreuodd ysgrifenu ei nodiadau ar y Testament Newydd. Treuliai un awr ar bymtheg arno bob dydd; ac yn mhen deng wythnos, yr oedd yn barod ar y pedair efengyl; a rhywbryd yn ystod y flwyddyn ddilynol (1755), dygodd allan ei holl esboniad ar y Testament Newydd, yn gyfrol bedwarplyg 762 t.d. Buasai gorchwyl fel hyn yn llawn ddigon o waith i'r cyffredin o ddynion yn nghanol iechyd a nerth; ond aeth efe drwyddo, o leiaf y rhan fwyaf o hono, yn ei waeledd a'i wendid. Ac yn chwanegol at ei esboniad ar y Testament, chwe blynedd a gymmerodd i dalfyru hen gyfrolau unplyg mawrion, eu hadysgrifenu oll, a'u cyhoeddi mewn ffurf gryno a destlus, dan yr enwad o "*Christian Library,*" mewn hanner cant o gyfrolau deuddegplyg. Nid ychydig oedd y gwaith o ysgrifenu yn unig yn y fath ymgymmeriad, heb sôn am y gwaith meddwl a threfnu a gynnwysid ynddo. Cyhoeddodd lawer iawn o lyfrau yn ei oes, rhai o honynt o'i awdwriaeth ei hun, a'r lleill yn dalfyriadau neu yn argraphiadau newyddion o waith awdwyr ereill, a ddygid allan dan ei olygiaeth, ac ar ei draul ef. Yn y flwyddyn 1774, cyhoeddodd ei waith ei hun mewn 32 o gyfrolau deuddegplyg, yn cynnwys traethodau, a chant a deugain ac un o bregethau. Yn 1831, cyhoeddwyd argraphiad newydd—y trydydd—o'r gwaith hwn dan olygiaeth y Parch. Thomas Jackson, mewn pedair ar ddeg o gyfrolau wythplyg. Cyhoeddodd nodiadau ar yr Hen Destament yn dair cyfrol pedwarplyg; ei waith ar athroniaeth naturiol mewn pum cyfrol deuddegplyg; ac yn y fl. 1778, cychwynodd gyhoeddiad misol, sef yr "*Arminian Magazine,*" yr hwn a barhaodd i ymddangos yn rheolaidd a difwlch tra bu Wesley byw. Arno ef ei hun y disgynai y rhan fwyaf o'r llafur mewn ysgrifenu a golygu y cyhoeddiad hwn. Ysgrifenai a chyhoeddai ei "*Journals*" o bryd i bryd, sydd yn cynnwys cofnodau manwl am waith a helyntion pob dydd yn ei ddydd, o adeg ei ymfudiad i Georgia, yn 1735, hyd fis Hydref, 1790, ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth. Wedi eu casglu ynghyd, cyfansoddant bedair cyfrol mor ddyddorol i'w darllen a dim o'r fath sydd yn yr iaith Saesnig. Dygai yn mlaen ohebiaeth gyfrinachol eang, a llafurus weithiau, ar hyd ei oes; ac ysgrifenai bob llythyr â'i law ei hun. Cymmerodd ran helaeth yn nadleuon ei oes, ac ysgrifenodd lawer yn mhob modd i amddiffyn ei olygiadau athrawiaethol, yn ogystal a'r cwrs a gymmerai mewn materion o ffurflywodraeth eglwysig. Bu mewn cryn ddadl gyda'r Morafiaid yn nechreuad ei ffordd; ac yn fuan wedi hyny, aeth yn ymwahaniad rhyngddo a'i gyfaill mynwesol Whitfield, o blegid eu hanghyttundeb mewn barn ar etholedigaeth. O'r un ffynnonell, tarddodd dadleuon rhyngddo a Hervey, a Toplady, ac ereill. Ac nid bychan oedd y gwaith oedd ganddo i amddiffyn Methodistiaeth yn ngwyneb yr ymosodiadau tanllyd a lliosog a wneid arni gan glerigwyr yr Eglwys Wladol. Ac at yr oll, ysgrifenodd draethawd maith a galluog ar "Pechod Gwreiddiol," mewn gwrthwynebiad i

Digitized by Google

Roughlee, cafodd efe a'i ddilynwyr driniaethau creulawn. Llogasid ysgubion y bobl i'w derbyn i'r dref gydag ŵyau pydredig, a phob ammharch, ac i'w arwain drwy yr heolydd gan heddwas meddw o flaen mintai arfog gyda ffyn yn eu dwylaw, a diod gadarn yn eu cylla. Lluchid ei ddilynwyr â chawodydd o geryg; a llusgid rhai o honynt drwy y llaid gerfydd gwallt eu penau, heb arbed na rhyw nac oedran; gollyngid cynddaredd yr erledigaeth ar hen wŷr a hen wragedd, gwyryfon gweiniaid a phlant; curid rhai â ffyn yn ddidrugaredd, a gorfodwyd un o'r dychweledigion i neidio oddi ar graig uchel i'r afon! Yn Bolton, ger Manchester, ymgasglodd torf frochus gan waeddi, a chablu, o amgylch y tŷ lle y llettyai. Taflasant gyfaill iddo a aethai allan i ymliw â hwy i'r llaid, gan ei sathru dan eu traed; torasant ddrws y tŷ, a rhuthrasant i mewn; ac y mae yn anhawdd dyfalu pa beth fuasai y canlyniad, oni buasai iddo ef eu hwynebu gyda dewrder a'u daliodd â syndod, a'u tawelu gyda'i attebion parod a'i bresennoldeb parchedig. Mewn lle arall, tarawyd ef â chareg yn ei dalcen pan yr oedd ar ganol pregethu; ond gyda nerth goruwchddynol, ar ol sychu y gwaed o'i lygaid, aeth yn mlaen gyda'i bregeth. Yn Wednesbury, amgylchwyd ei letty gan y terfysglu a waeddent "Dewch â'r pregethwr allan: rhaid i ni gael y pregethwr allan!" A rhag iddynt losgi neu ddinystrio tŷ ei gymmwynaswr, aeth allan atynt, fel oen i ganol bleiddiaid; ac Och! y driniaeth a gafodd! Llusgwyd ef yn ammharchus am filldir o ffordd trwy wlaw trwm, ar noson dywyll, at dŷ yr ynad heddwch. Ar y ffordd, yr oedd terfysglu Walsall yn ymosod ar derfysglu Darlaston; ac aethant i ymladd am dano fel bwystfilod rheibus am ysglyfaeth, a chariwyd ef i ddwylaw yr ymosodwyr newyddion hyn. "Ofer," meddai, "oedd ceisio siarad â hwynt, canys yr oedd y sŵn ar bob llaw fel rhuad y môr." Llusgasant ef yn ol i'r dref; a phan amcanodd ddiangc oddi arnynt trwy droi i mewn i ddrws tŷ mawr a pharchus oedd yn agored ar fin yr heol, daliwyd ef gan ryw ddyhiryn wrth wallt ei ben, gan ei lusgo yn ol i'w dwylaw. Ar hyn, tarawyd ef yn ei enau nes y ffrydiodd y gwaed allan, a chariwyd ef dros bont, ger llaw afon ddofn, gan ofni bob munyd gael ei daflu iddi, a'i foddi; ond cyfryngwyd ar ei ran, a diangodd yn fyw o'r enbydrwydd yno, fel pob un arall cyffelyb cyn ac ar ol hyny! A dywedir fod ei hunanfeddiant, ei ddewrder diymollwng, a'i ysbryd maddeugar ac efengylaidd yn nodedig, yn ngwyneb y triniaethau creulawn hyn oll. Gwelwyd hyfdra annuwiol ymosodwyr yn gwywo dan awch ei eiriau parod a chyfeiriadol; ac nid unwaith na dwywaith y diffrwythwyd eu dwylaw gan ei hunanfeddiant a'i ddewrder. Bu yn cerdded trwy ganol terfysglu brochus, gan ddangos y fath wroldeb fel na feiddiai neb ei gyffwrdd, er eu bod wedi ymgasglu o bwrpas i'w ddal a'i ddyfetha. A llawer gwaith y dychwelodd erlidwyr o'r oedfaon dan weddïo.

O ran ei berson, nid oedd gan John Wesley ond corph bychan—ychydig byrach na'r taldra canolig, ond fod hwnw o'r defnyddiau goreu, ac o'r gwneuthuriad mwyaf hylaw a chymmesurol i'w alluogi i gyflawni gwaith mawr ei oes yn y modd esmwythaf iddo ei hun. Yr oedd ei lywethau fel gwïail haiarn o ran gwydnwch; nid oedd ganddo ronyn o gnawd afreidiol o'i gwmpas, ac yr oedd adnoddau ei yni anianyddol yn ddihysbydd. A diau fod ei arferiad o foreugodi, newid awyr, teithio ar geffyl, a phregethu yn y boreu, ynghyd â'i reoleidd-dra perffaith mewn llafur, ymborth, a chwsg, wedi caledu ei gyfansoddiad a sefydlu tôn uchel o iechyd iddo i fesur anhygoel. Y mae lliosogrwydd y llyfrau a ddarllenodd, a'r gweithiau a gyhoeddodd, ei ofal a'i lafur yn mhob modd gyda'r ysgrifbin a'r wasg; y mae y teithiau hirion ac anhygyrch a gefnodd; y llafur bugeiliol a phregethwrol a gyflawnodd; yr anghysur, yr erledigaethau, a'r caledi a ddioddefodd yn ystod ei oes faith; ynghyd â'r ffaith ddarfod iddo fyw mor hir, teimlo mor lleied o ludded a dihoender, a chael ei oddiweddyd gan mor ychydig o anhwylderau a chystuddiau, yn eglur ddangos fod ganddo gyfansoddiad naturiol cadarn iawn. Ond dylid nodi, y bu yntau, er cryfed ydoedd, yn afiach am bedwar mis, pan yr oedd yn ddeg a deugain oed, ac yn analluog i deithio a phregethu; ond dyma yr unig fwlch yn ei oes. Ofnai ei gyfeillion am dano y pryd hyny; a chan barotoi gogyfer â'r gwaethaf, cyfansoddodd feddargraph iddo ei hun, er na bu angen am dano am yn agos i ddeugain mlynedd wedi hyny. Tra y dengys y ffaith olaf a nodwyd ei fod ei hun yn ofni fod ei afiechyd i farwolaeth, dengys ffaith arall nad oedd pethau mor ddrwg; o blegid yn ei gystudd, ïe, o herwydd ei fod yn rhy nychlyd i deithio a phregethu, ymgymmerodd âg ysgrifenu Esboniad ar y Testament Newydd. Treuliai un awr ar bymtheg y dydd ar y gorchwyl: yn mhen deng wythnos, yr ydoedd y copi yn barod ar y pedair efengyl; a rhywbryd yn y flwyddyn ddilynol (sef 1755), cyhoeddwyd ei nodiadau ar yr holl Destament yn gyfrol bedwarplyg 762 tudalen. Buasai y gorchwyl yn unig yn llawn ddigon o waith i'r cyffredin o ddynion yn nghanol iechyd a nerth, ond aeth ef trwy y rhan fwyaf o hono pan dan afiechyd; ïe, yr unig afiechyd bron fu arno yn ystod ei oes. Ac fel y mae yn hysbys, bu fyw i fyned yn hen, ac yn anarferol o hoyw a llafurus yn ei hen ddyddiau. Arfaethodd ymweled âg America yn ei 67ain mlwydd oed; a buasai wedi cyflawni ei fwriad hefyd oni bae fod yn ammhossibl iddo adael yr holl eglwysi oedd dan ei ofal yn y deyrnas hon. Ysgrifenodd air yn ei ddyddlyfr i'r perwyl "nad oedd wedi colli un noson o gwsg yn ystod y 70ain mlynedd." Ymwelodd â Holland ddwy waith ar ol pasio ei 80ain oed. Pan yn 82ain, cawn ei hanes yn cychwyn am yr Iwerddon. Pregethai ar hyd y ffordd o Lundain i Liverpool, a phregethai ddwy neu dair gwaith yn y dydd yn yr Ynys Werdd tra y bu yno. Dychwelodd i Lundain yn mhen dau fis, ar ddydd Gwener; a'r Sabbath canlynol, pregethodd ddwywaith yn City Road, a chyfarfyddodd â chynnulleidfa aruthrol o blant yn yr un lle am bump o'r gloch y boreu dranoeth. Cyfansoddai bregethau newydd gyda chywirdeb neillduol pan yn 86ain. A phan yn 87ain, tynodd allan iddo ei hun blan pregethu am dri mis, a chadwodd bob cyhoeddiad oedd arno, a chryn lawer o oedfaon achlysurol heb law hyny. Dywedir fod llyfnder a gloywder dyn deugain oed yn prydferthu ei rudd, a disgleirdeb a bywiogrwydd llengcyn ugain oed yn gwreichioni yn ei lygad, pan yr oedd eira pedwar ugain gauaf yn gorphwys ar ei ysgwyddau! Goroesodd brydles yr hen *foundry*, a phregethodd yn Kingswood dan gysgod coed a blanwyd yno â'i law ei hun! Pan fu farw, deuddeng mlynedd oedd rhyngddo a bod yn fab can mlwydd!

ddiogelu nawdd llywodraeth y wlad dros y cyfundeb yn ei hanfodiad gwahaniaethol, fod cyfnewidiad dirfawr wedi cymmeryd lle yn ei feddwl: o herwydd bu adeg pan y buasai yn ei ystyried bron yn bechod achub enaid, os na chymmerai le mewn eglwys. Os mynir ei hawlio fel Eglwyswr, canfyddir y gwneir hyny ar draul ei wneuthur yr Eglwyswr mwyaf anghyson âg ef ei hun y clybuwyd am dano erioed. Ar y llaw arall, hollol anghywir fyddai sôn am John Wesley yn rhwygo yr eglwys er mwyn ffurfio sect o ddilynwyr iddo ei hun. Yr oedd hyny mor bell o fod yn amcan ganddo ag ydyw y dwyrain oddi wrth y gorllewin. Nid yn hyn y ceir yr agoriad i'w fywyd cyhoeddus, ond yn hytrach yn ei gwbl ymroddiad i "efengylu i'r tlodion." Iachawdwriaeth y werin ydoedd arwyddair ei fywyd. Dewisodd yr amcan yma yn gynnar, ac ymwerthodd iddo hyd derfyn ei oes. Hyn sydd yn cyfrif am symledd ei arddull, nodwedd ei gyhoeddiadau, a helaethrwydd ei elusenau. A chanlyniad ei lwyddiant yn hyn a roddodd fodolaeth i Drefnyddiaeth Wesleyaidd. Ymddengys fod ei olwg ar hyn cyn ei dröedigaeth. Dyma a'i cymmhellodd i ymweled â charcharorion pan yn Rhydychain, yn gystal ag i groesi y môr gyda'r bwriad o lafurio fel cenhadwr yn Georgia. Yn apostol y werin y treuliodd ei fywyd cyhoeddus. Yn gysson â'r amcan hwn, ceir fod nodwedd y llyfrau a gyhoeddodd, o ran maintioli, pris, ac arddull, yn iswasanaethgar i'r un amcan. Trefnai ei oriau pregethu am bump o'r gloch yn y boreu, ac am saith yn yr hwyr; ac i'r un perwyl y cynnaliai yr holl sefydliadau elusengar a feddai yn Llundain, a manau ereill. Sefydlodd *Dispensary* a *Poorhouse*, ysgol ddyddiol, a thrysorfa fenthyciol; a chynnaliai *apothecari* a llaw-feddyg yn Llundain at wasanaeth y tlotion. Pan geisiodd Mr. Hopper ganddo neillduo 100*p*. a dderbyniasai fel cymmunrodd yn ewyllys Miss Lewin, at Orphan House, Newcastle, gwrthododd Wesley gydsynio â'r cais, gan atteb, mai "goruchwyliwr y tlodion" oedd efe—a'r tlodion a gafodd bob hatling o honynt. Yr oedd ei elusengarwch yn ddiguro. Nid oedd ganddo derfyn, namyn llogell wâg. Dyma oedd ei gylch, yn ol argyhoeddiad ei feddwl ac ymarferion ei fywyd maith a llafurus. Ac oddi ar lwyddiant ei ymdrechion yn y cylch hwn y cynnyddai ei barchusrwydd a'i ddefnyddioldeb, ac y daeth Methodistiaeth i fod. Y mae yn ammheus a oes un arferiad na gweithred o bwys yn ei fywyd ef, nac un reol nac egwyddor yn y cyfundeb a sefydlodd, nad y rheswm am danynt, yn y naill ffordd neu y llall, ydoedd, awyddfryd llywodraethol ei galon i geisio sicrhau iachawdwriaeth y werin.

Ond dylid cofio mai sylfaen ei holl allu a'i lwyddiant fel trefnydd a diwygiwr ydoedd ei ddoniau pregethwrol. Nid oedd mor enwog a'i gyfaill, Whitfield:—a pha ryfedd, o blegid yr oedd hwnw yn un o bregethwyr goreu cred. Mewn cymmhariaeth iddo, collai Wesley mewn llais, dull, a nwyd; ond tybia llawer y rhagorai arno o ran defnyddiau, trefnusrwydd, dillynder, a chyfeiriad ei bregethau. Mynych y byddai Wesley yn cyfarch miloedd, gan siarad mewn llais cryf, treiddgar, yn hyglyw iddynt oll. Os byddai amser yn caniatau, pregethai yn faith a llafurfawr, fel dyn yn methu gollwng y dyrfa ymaith; ac ni byddai neb yn blino arno. Agor yr Ysgrythyrau trwy eu hesbonio, a delio gyda deall ei wrandawyr trwy ymresymu, gan gymhwyso y cyfan at y gydwybod mewn appeliadau cyfeiriadol a grymus, y byddai efe wrth bregethu; a mynych ddilynid ei weinidogaeth â difrifwch ofnadwy a derfynai mewn argyhoeddiadau dwysion a dychweliadau lawer. Cerddai ei eiriau miniog fel saethau trwy y tyrfaoedd aruthrol a ymgasglent i wrandaw arno; ac er na chodai efe ei lais, ac nad oedd ei ddull yn ddrychebol (*dramatic*) i'r mesur lleiaf, cwympai dynion cryfion megys meirwon, fel pe wedi eu taraw âg ergyd magnel; a theimlid oddi wrth yr oedfaon a gynnaliai am flynyddoedd, gan mor ddwfn oedd yr argraphiadau a wneid. Y mae yn anhawdd barnu oddi wrth ei bregethau argraphedig beth oedd min, a grym, ac awdurdod ei weinidogaeth gyhoeddus, os na cheir awgrymiad yn niweddglo ei bregeth ar "Rhad Ras." Prin y credwn fod rhai o'i fyfyrwyr wedi cyfleu syniad cywir am dano fel pregethwr. Hwyrach mai y brenin-fardd, Southey, a wnaeth fwyaf o degwch âg ef yn hyn. Yr oedd y tyrfaoedd a ymdyrent i'w wrandaw, meithder y pregethau a draddodai heb flino y bobl, yr effeithiau dwysion, ofnadwy ddwysion, a ddilynent ei weinidogaeth yn yr awyr agored, a'r gwaith mawr a bendigedig a gwblhawyd trwy ei offerynoliaeth, yn dangos y rhaid ei fod yn bregethwr rhagorol.

Ond daeth ei fywyd maith, llafurus, a defnyddiol yntau i'r pen. Gofod a ballai i ni ymhelaethu nemawr ar ei hen ddyddiau a'i farwolaeth: digon yw sicrhau y darllenydd ei fod yn anarferol o "dirf ac iraidd yn ei henaint," ac "mai diwedd y gŵr hwn ydoedd tangnefedd." Wedi dioddef llawer o anghlod, a drygair, ac erledigaeth yn nechreuad ei ffordd, cafodd dreulio blynyddoedd olaf ei oes yn nghanol parch ac edmygedd cyffredinol. Taflwyd drysau eglwysig, a gauwyd unwaith i'w erbyn, yn agored o'i flaen; cyrchai llenorion a seneddwyr i wrandaw arno yn pregethu, a llenwid drysau y tai âg edrychwyr pan glywid fod "John Wesley yn myned heibio." Daeth yn un o'r cymmeriadau mwyaf adnabyddus a pharchus yn y wlad hon ac America at ddiwedd ei oes. Estynwyd ei nerth, a gwasanaethodd ei synwyrau a'i gynneddfau meddyliol iddo yn rhyfedd hyd o fewn ychydig ddyddiau i'w farwolaeth. Llywyddodd y gynnadledd (un 1790) a gynnaliwyd yn Bristol o fewn chwe mis i'w ymddattodiad. Treuliodd dair wythnos ar ol y gynnadledd yn Nghymru, gan bregethu yn fynych. Pregethodd droion ar ei daith i Lundain, a chymmerodd rai teithiau byrion allan o'r brifddinas cyn terfyn y flwyddyn, gan drefnu a phregethu yn mhob man yr ymwelai. Pan ar un o'r teithiau hyn y gwelwyd ac y clybuwyd ef gan Henry Crabb Robinson, yn Colchester. Erbyn hyn, teimlai fod ei fywyd bron rhedeg i ben, a threfnodd ei dŷ gogyfer a hyny. Tynodd allan "*Deed Poll*," i ddiogelu nawdd dros y cyfundeb, a gwnaeth ei "ewyllys olaf" ar ei eiddo personol. Ysgrifenodd amryw lythyrau tra dyddorol yn ystod dau fis olaf ei oes; a'i lythyr diweddaf oll ydoedd ar "Gaethwasiaeth," yn gyfeiriedig at Wilberforce, i'w gefnogi yn ei ymgais i ddileu y fasnach felldigedig hono. Pregethodd am y waith olaf yn nhŷ annedd heddynad, o fewn saith niwrnod i'w farwolaeth; sef, ar ddydd Mercher, Chwefror 23ain. Yn mhen deuddydd ar ol hyn, cyflym wanychai: galwyd am y meddyg, ond yn ofer: canys yr oedd olwynion ei gyfansoddiad bron sefyll, a'i nerth wedi ei dreulio allan. Cyfododd i'w gadair

Digitized by Google

y Babaeth, ac adferu Cristionogaeth i'w phurdeb gwreiddiol. Ymddengys i athrawiaeth Wicliff ddylanwadu yn ddwfn arno. Yr oedd y gwahaniaeth hynod hwn rhwng Luther a Wessel:—ymosododd Luther ar sylfaen y gyfundrefn Babaidd; ond nid ysgrifenodd Wessel ond yn erbyn athrawiaethau neillduol, megys y purdan, yr esgymmundod, a llythyrau maddeuant, &c.; ac yr oedd ei resymau yn cael eu defnyddio o gyfundrefnau athronyddol y canoloesoedd yn llawn mor aml ag o dystiolaethau syml yr efengyl ei hun. Ammheuid ef o fod yn heretic; ac ar ol ei farwolaeth, darfu i rai o fynachod Groningen losgi rhanau gwerthfawr o'i lawysgrifau. Dadleuai Wessel nad oedd y pab yn anffaeledig, ac mai 'cynghorau cyffredinol' yn unig oedd felly. Ysgrifenodd Luther, yr hwn a barchai Wessel yn fawr, ragymadrodd i un o'i weithiau, a gyhoeddwyd yn Basel, yn 1523.

WEST, BENJAMIN: un o'r arlunwyr hanesyddol goreu o'r ysgol Saesnig. Ganwyd ef ar y 10fed o Hydref, 1738, yn Springfield, Pennsylvania, yn yr Unol Daleithiau. Crynwyr oedd ei hynafiaid. Yr arwydd cyntaf a roes West o'i dalent at arluniaeth oedd pan yn saith mlwydd oed, pan wedi ei osod i wylio maban ei chwaer hynaf oedd yn cysgu. Tynodd ddarlun o'r plentyn mewn inc coch a du—gorchest ryfeddol yn ngolwg ei rieni. Pan tuag wyth oed, daeth mintai o Indiaid heibio i Springfield, a synent wrth weled darluniau West ieuangc o adar, ffrwythydd, a phethau ereill; a dysgasant ef pa ffordd i ddarpar lliwiau coch a melyn o'r fath ag oedd ganddynt hwy i liwio eu harfau; a chyda phwyntelau wedi eu gwneuthur o flew wedi eu tynu o gynffon y gath, tynodd ragorach darluniau na'r rhai a wnaed ganddo â phin ac inc. Gwelodd ewythr iddo, marsiandwr o'r enw Pennington, ei waith, a phrynodd bwynteli, lliwiau, a darluniau iddo. Gadawodd West ieuangc yr ysgol am ychydig amser, a chauodd ei hun i fyny mewn ystafell neillduedig, er copïo y darluniau hyny, a llwyddodd yn rhyfedd, ac ystyried mor ieuangc ydoedd. Pan yn naw mlwydd oed, aeth gyda Mr. Pennington i Philadelphia, a daeth y bachgen felly i gydnabyddiaeth âg arlunydd o'r enw Williams, yr hwn a hoffai ei waith yn fawr, ac a roddodd genad iddo ddyfod i weled ei ddarluniau ef pan y mynai. Penderfynodd West o hyny allan y mynai fod yn arlunydd.

Pan yn un ar bymtheg oed, dechreuodd dynu darluniau o bersonau neillduol yn y pentrefydd o amgylch Philadelphia, a phaentiodd ei ddarlun hanesyddol cyntaf; sef, "Marwolaeth Socrates." Ymrestrodd yn wirfoddol o dan Syr Peter Halket, er myned allan i chwilio am y gweddillion o fyddin y cadfridog Bradock; ond galwyd ef adref yn fuan i weled ei fam, ac ni chafodd ond prin gyrhaedd i'w gweled yn marw. Pan yn ddeunaw oed, gosododd ei hun i fyny yn ardebluniedydd yn Philadelphia, ac wedi hyny yn Efrog Newydd, lle y darfu i ryw farsiandwyr cyfoethog fod mor haelgalon a'i gynnorthwyo i fyned i Italy i astudio campweithiau celfyddyd yno. Yn Rhufain, cafodd nawdd Arglwydd Grantham, ffurfiodd gyfeillgarwch â Mengs, ac, fel y lluniedydd Americanaidd cyntaf a welwyd yn Italy, efe a dynodd gryn sylw. Paentiodd ei "Cimon ac Iphigenia," a'i "Angelica a Medora;" a chafodd ei ethol yn aelod o athrofâau enwog Florence, Bologna, a Parma. Ymwelodd â Lloegr, yn 1763, ar ei ffordd yn ol i'w wlad ei hun; a bu mor ffodus a chyfarfod yn Llundain â thri o'i gyfeillion goreu; sef, Allen, Hamilton, a Smith, y rhai oeddynt wedi teimlo dyddordeb mawr yn ei lwyddiant ef. Paentiodd amryw ddarluniau yn Llundain, a llwyddodd i'r fath raddau nes cymmeryd ei berswadio i aros yn y wlad hon; ac yn 1765, efe a briododd gydag Eliza Shewell, boneddiges o America. Tynodd rhai o'i weithiau sylw Sior III., yr hwn a fu yn gyfaill ac yn noddwr ffyddlawn iddo am ddeugain mlynedd; ac yn ystod yr amser hwnw efe a amlinellodd neu a baentiodd tua phedwar cant o ddarluniau. Darfu i'w ddarlun o "Farwolaeth y Cadfridog Wolfe," yr hwn a dynwyd gyda'r personau a gynnrychiolid ynddo yn ngwisg y cyfnod, yr hyn a wnaed ganddo yn groes i farn yr arlunwyr enwocaf, greu chwyldroad yn mron mewn arluniaeth hanesyddol. Gwnaeth West gyfres o wyth ar hugain o ddarluniau ar destynau ysgrythyrol i'w gosod yn Nghastell Windsor.

Ar farwolaeth Syr Joshua Reynolds, yn 1792, etholwyd ef yn unfrydol yn llywydd yr athrofa frenhinol, ac anfonodd y brenin y Duc o Gloucester ato i ymofyn a fuasai efe yn derbyn y teitl o farchog; ond gyda dadganiad o ddiolchgarwch am y cynnyg, efe a'i gwrthododd. Ei ddarluniau mwyaf adnabyddus a rhagorol ydynt "Crist yn iachau y cleifion," "Marwolaeth y march gwelwlas," a "Brwydr La Hague." Yr oedd ar hyd ystod ei oes yn gyfaill, cyfarwyddwr, a noddwr ffyddlawn i arlunwyr ieuaingc. Bu farw yn Llundain, ar yr 11eg o Fawrth, yn y fl. 1820, a chladdwyd ef gyda rhwysg mawr yn eglwys gadeiriol St. Paul. Gadawodd ar ei ol ddau o feibion. Yr oedd ei briod wedi marw ddwy flynedd o'i flaen ef. Er fod gweithiau West yn ddiffygiol mewn lliwiau a mynegiant yn fynych, y maent yn amlygu gallu mawr i gynllunio; a diammheu, a chymmeryd pob peth at eu gilydd, y gellir ei ystyried yn un o arlunwyr penaf ei oes; ac nid oes un arlunydd Saesneg wedi rhagori nemawr arno mewn darluniau hanesyddol hyd heddyw.

WEST, GILBERT: oedd fab i'r Parch. Dr. West, a Mary, ei wraig—yr hynaf o dair chwaer Syr Richard Temple, wedi hyny Arglwydd Cobham. Tybir fod West wedi ei eni yn 1705. Bwriadai ei dad ei ddwyn i fyny yn glerigwr i'r Eglwys Sefydledig; a chyda'r amcan hwnw anfonwyd ef i Eton, ac wedi hyny i Rydychain: ond yn gymmaint ag iddo gael cynnyg swydd yn y fyddin, trwy ddylanwad ei ewythr, Argl. Cobham, efe a'i derbyniodd. Tybir, pa fodd bynag, nad oedd y fyddin yn cydfyned â'i chwaeth, a rhoddodd ei swydd i fyny yn fuan; a chafodd ei appwyntio yn ysgrifenydd i Argl. Townshend, un o ysgrifenyddion y wladwriaeth; a pharhaodd yn y swydd hono, dybygid, hyd y flwyddyn 1730, pan yr ymddiswyddodd Townshend. Mynegir iddo unwaith gael cynnyg ar y swydd o athraw i George, Tywysog Cymru, ond ei fod yn gofyn am fwy o awdurdod dros ei ddysgybl nag a dybid yn briodol i'w ganiatau iddo. Yn 1752, pennodwyd ef yn un o ysgrifenyddion y cyfringynghor: yn fuan ar ol hyny, ei gyfaill Pitt, oedd erbyn hyn mewn awdurdod, a'i henwodd yn drysorydd Meddygdy Chelsea. Ond nid hir y parhaodd i fwynhau y chwanegiad hwn at ei dderbyniadau arianol. Collodd ei unig fab yn 1755; ac ar yr 20fed o Fawrth, 1756, cariwyd yntau ymaith gan ergyd o'r parlys.

Digitized by Google

filwriad ar gatrawd Wyddelig oedd yn ei wasanaeth ef. Ond taledigaeth fechan oedd hon, o'i chymmharu â'r hyn a gollwyd ganddo adref, o herwydd ei ymddygiad gorphwyllog yn ymladd yn erbyn ei wlad. Parodd hyn iddo golli ei deitl a'i etifeddiaethau, a chyhuddwyd ef o deyrnfradwriaeth. Cyn i hyn ddigwydd, pa fodd bynag, yr oedd Wharton wedi ysgrifenu at yr ymhònwr, yn cynnyg dyfod yn ol i Rufain; ond yr attebiad a dderbyniodd efe oedd, mai gwell iddo oedd gwneyd ei ffordd yn ol i Brydain; a cheisio dyfod i ddealltwriaeth â'r awdurdodau yno. Wedi hyn, aeth i Paris, a chyrhaeddodd yno yn mis Mai, 1728. Symmudodd o Paris i Rouen; ac yno y clywodd efe gyntaf am y cyhuddgŵyn a ddygasid yn ei erbyn, a mynegir i ddau genad ddyfod ato oddi wrth Mr. Walpole, llysgenhadwr Prydain yn Paris, yn ei gynghori i ymostwng i'r llywodraeth; ac felly, o bossibl, ochel y gosp fygythiedig. Ond ni dderbyniodd y cynghor. Treuliodd y gweddill o'i amser yn crwydro o amgylch yn Ffraingc ac Yspaen, gan wario un diwrnod yr hyn a dderbyniai mewn afradlonedd, a phryd arall dioddefai ar drothwy newyn ac eisieu. O'r diwedd, rhoddodd ffordd i iselder meddwl, a syrthiodd i'r darfodedigaeth; ac erbyn dechreu y fl. 1731, yr oedd wedi colli defnydd ei aelodau, ac nid oedd yn alluog i gerdded o'r gwely at y tân heb gynnorthwy. Daeth ychydig yn well trwy yfed dyfroedd mwnawl yn mynyddoedd Catalonia; ond aeth yn waeth drachefn, ac yr oedd mewn tlodi mawr. Cymmerodd rhyw fynachod drugaredd arno, a dygasant ef i'w mynachdy yn Tarragona. Wedi dihoeni yn y mynachdy hwn am wythnos, bu farw ar yr 31ain o Fai, 1731, a chladdwyd ef dranoeth gan y mynachod yr un modd ag y buasent yn claddu un o honynt eu hunain. Y mae gan Pope amlinelliad o dalent ddisglaer, a bywyd afreolaidd ac aflywodraethus y dyn nodedig hwn yn ei "*Moral Essays*" yn y llinellau sydd yn dechreu fel y canlyn:—

"Wharton, the scorn and wonder of our days."

Yr oedd ei fywyd yn esampl nodedig o alluoedd ysblenydd wedi eu diraddio a'u gwneyd yn waeth na diwerth trwy fywyd o afradlonedd ac anfoesoldeb.

WHATELY, RICHARD: archesgob Dublin, a anwyd yn Cavendish Square, yn Llundain, ar y 1af o Chwefror, 1787. Y pedwerydd mab ydoedd efe i Dr. Joseph Whately, côr-beriglor Bristol, ficer Widford, a darlithiwr yn ngholeg Gresham. Mewn amser priodol, anfonwyd ef i ysgol breifat yn Bristol: o hono, yn 1805, aeth i Goleg Oriel, Rhydychain. Graddiodd yn wyryf yn y celfyddydau yn 1808, gan gymmeryd ei le yn yr ail ddosbarth mewn clasuriaeth a mesuroniaeth. Ennillodd y traethawd arobryn Saesneg yn 1810; a'r flwyddyn ddilynol, etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg Oriel. Yr oedd ar lechres cymmrodorion y coleg hwnw ar y pryd amryw enwau nodedig ar gyfrif eu talent a'u dysg. Yn 1815, dewiswyd ef yn un o athrawon y coleg; ac ynghylch y pryd hwn yr ysgrifenodd efe (yn wreiddiol i'r "*Encyclopædia Metropolitina*") ei draethodau (ond a helaethwyd ganddo wedi hyny) ar "*Logic*" a "*Rhetoric.*" Priododd yn y fl. 1821 gyda merch W. Pope, Ysw., Hillingdon, Middlesex. Yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd ddau waith:—un yn gyfrol o bregethau; a'r llall yn un o'r rhai mwyaf arbenig a nodedig o'i weithiau, sef ei "*Historic Doubts relative to Napoleon Bonaparte.*" Yr amcan yn y gwaith hwn oedd gwawdio y feirniadaeth a gyhoeddid gan ysgrifenwyr anffyddol ar yr hanes a adroddid gan yr Efengylwyr, trwy gymmhwyso yr un rheol o feirniadu at ddigwyddiadau oedd o fewn cof rhai oedd yn fyw, a chyfodi ammheuon a oedd y digwyddiadau hyny erioed wedi cymmeryd lle. Parodd cyhoeddiad y gwaith hwn gyffro neillduol. Cyfieithwyd ef i amryw o ieithoedd y Cyfandir. Cyflwynwyd i Whately fywoliaeth Halesworth, yn Suffolk, yn 1822; ac yn yr un flwyddyn efe a draddododd "ddarlithiau Bampton" yn Rhydychain. Testyn y darlithiau oedd "*The Use and Abuse of Party Feeling in Religion.*" Yn 1825, pennodwyd ef gan Arglwydd Grenville yn brif athraw Alban Hall; ac o dan ei reolaeth ef ennillodd Alban Hall yn fuan y cymmeriad yr oedd wedi ei golli yn y brifysgol. Pennodwyd ef, yn 1829, yn broffeswr trefnidedd gwladol; ond ni chadwodd y swydd hon yn hwy nag i allu traddodi cyfres o ddarlithiau rhagarweiniol ar y mater. Yn 1831, darfu i lywodraeth Arglwydd Grey, ar gais Arglwydd Brougham, ei appwyntio yn archesgob Dublin ac yn esgob Glendallach. Wedi hyny, yn y flwyddyn 1846, eangwyd ei ofalon esgobawl drwy chwanegu atynt esgobaeth Kildare.

Yn ysbaid y deng mlynedd cyn ei bennodiad yn archesgob, yr oedd Whately yn ysgrifenu ac yn cyhoeddi ei weithiau yn barhaus, y rhai oeddynt yn benaf ar byngciau duwinyddol ac eglwysig. Perthynai efe i'r hon a elwir yn ysgol ryddfrydig mewn crefydd a gwleidyddiaeth. Yr oedd yn wrthwynebol i uchel-eglwysyddiaeth a Phabyddiaeth mewn duwinyddiaeth, ac i Doryaeth mewn gwleidyddiaeth. Teimlai ddyddordeb neillduol yn nghwestiynau gwladol y dydd. Hynododd ei hun yn arbenig yn y brif ysgol trwy ei waith yn dadleu dros ryddfreiniad y Pabyddion; i'r hyn yr oedd y blaid yn yr Eglwys ag oedd yn cydymdeimlo mwyaf â'u golygiadau duwinyddol yn wrthwynebwyr penderfynol. Wedi i Syr Robert Peel newid ei farn ar ryddfreiniad, pan y cynnygiodd ei hun yn ymgeisydd am gynnrychiolaeth prifysgol Rhydychain, daeth Whately, er mai Tory oedd Syr Robert, yn mlaen i'w gefnogi; ac yr oedd efe yn un o'r rhai mwyaf gweithgar i geisio sicrhau ei lwyddiant. Ymddangosodd ei "*Essays on some of the Peculiarities of the Christian Religion,*" yn 1825; ei "*Elements of Logic,*" yn 1826; ei "*Elements of Rhetoric,*" yn 1828; ei "*Essays on some of the Difficulties in the Writings of St. Paul,*" &c., yn yr un flwyddyn; ei "*Thoughts on the Sabbath,*" yn 1830; ac yn yr un flwyddyn, ei "*Errors of Romanism traced to their origin in Human Nature.*" Cyhoeddwyd ei "*Lectures on Political Economy,*" yn 1831. Erbyn hyn, yr oedd ei weithgarwch, ei alluoedd, a'i ysgrifeniadau, wedi ei osod yn mysg dynion blaenaf y brifysgol, ac hefyd yn mysg meddylwyr ac ysgrifenwyr mwyaf hynod ei oes. Er fod llawer yn methu ymddiried ynddo fel Rhyddfrydwr, ac yn ammheu cywirdeb rhai o'i syniadau duwinyddol, ac yn ystyried fod ei ddull a'i arferion yn hynod, etto nid oedd neb yn ammheu ei alluoedd a'i gymmeriad, na'i gymmhwysder, o ran y naill a'r llall, i'r safle uchel yr hon yr oedd Arglwydd Grey wedi ei ddyrchafu iddi.

Digitized by Google

gwybod dim am gerddoriaeth y bobl hyny. Gwnaethant hyn yn destyn ymddiddan damweiniol, fel y gallesid tybied, wrth y bwrdd. Am beth amser, yn groes i'w arferiad cyffredin, ni chymmerodd efe ran yn yr ymddiddan. Wedi iddynt hwy, pa fodd bynag, ddywedyd cymmaint ag a allent ar y mater, efe a sylwai, "Yr oeddwn i wedi fy nghamddysgu, ac i raddau yn gamsyniol, yn mherthynas i gerddoriaeth y Chineaid, pan ysgrifenais yr erthyglau o ba rai yr ydych wedi casglu eich gwybodaeth." Daliwyd hwynt fel hyn yn eu rhwyd eu hunain, ac yr oedd raid iddynt, fel ar achlysuron ereill, ymostwng i gymmeryd eu dysgu ganddo ef.

WHITBY, DANIEL, D.D.: duwinydd Saesneg o enwogrwydd yn ei ddydd; ac y mae rhai o'i weithiau mewn cryn fri hyd heddyw. Ganwyd ef yn Rusden, yn swydd Northampton, yn y flwyddyn 1638. Yn 1653, aeth i Goleg y Drindod, Rhydychain, lle yr etholwyd ef yn ysgolor yn 1755: graddiodd yn B. A. yn 1657, ac yn A. C. yn 1660, ac etholwyd ef yn gymmrawd o'i goleg yn 1664. Pennodwyd ef yn gaplan i esgob Salisbury, ac yn gôrberiglor yn ei eglwys gadeiriol yn 1668; ac yn 1672, cafodd y gradd o D. D. Ynghylch yr un amser, cyflwynwyd iddo berigloriaeth St. Edmund, yn ninas Salisbury; ac er iddo fyw am dros hanner can mlynedd ar ol hyn, dyma y dyrchafiad diweddaf a gafodd. Bu farw yn Salisbury, yn wyth a phedwar ugain mlwydd oed, ar y 24ain o Fawrth, 1726.

Y mae yn bossibl egluro, fe allai, pa ham yr attaliwyd ei ddyrchafiad, gan fod dechreuad ei yrfa mor addawol, wrth ystyried hanes ei gyfansoddiadau llenyddol, yr hyn sydd yn ffurfio hanes ei fywyd mewn rhan fawr. Y cyfansoddiadau cyntaf a gyhoeddodd efe oedd cyfres o ymosodiadau ar Babyddiaeth, yn nghwrs y ddadl fywiog a gadwyd i fyny ar y mater hwn yn barhaus, o amser adferiad Siarl II., hyd y chwyldroad yn 1688. Ysgrifenodd a chyhoeddodd bump neu chwech o weithiau ar y mater hwn. Ond yn anffodus i'w dawelwch a'i gymmeriad, rhoddodd heibio ymosod ar y Pabyddion, a throdd i amddiffyn yr Ymneillduwyr. Yn 1683, cyhoeddodd "*The Protestant Reconciler*," &c. Nid oedd enw yr awdwr wrtho, ond cafwyd allan pwy oedd; a dechreuwyd ymosod arno o amrywiol gyfeiriadau. Mewn cyfarfod a gynnaliwyd, condemniodd Prifysgol Rhydychain y llyfr i gael ei losgi yn gyhoeddus; ac ar y 9fed o Hydref, llawnododd Whitby ddadganiad cryf o'i ofid a'i edifeirwch am ei fod, "o herwydd diffyg pwyll a gwarogaeth i awdurdod," wedi ei gyhoeddi, ac yn galw yn ol amryw o'r egwyddorion a amddiffynid ynddo, fel rhai twyllodrus, cyfeiliornus, ac ymbleidiol. Yr un flwyddyn hefyd, efe a gyhoeddodd ei ail ran o'r "*Protestant Reconciler*," &c., yn yr hwn y cynghorai yr Ymneillduwyr lleygol i ymuno mewn llawn gymmundeb â'r Eglwys Sefydledig, gan atteb y gwrthddadleuon a ddygid yn mlaen yn erbyn cyfreithlondeb eu hymostyngiad i ddefodau a chyfansoddiad yr Eglwys. Yn 1684, dychwelodd at ei hen bwngc, a chyhoeddodd amryw o draethodau ar gyfeiliornadau Pabyddiaeth. Daeth allan wedi hyny trwy gyhoeddi dau draethawd er amddiffyn chwyldroad y fl. 1688; ac yn 1691, ymddangosodd amryw weithiau duwinyddol o'i eiddo; ac yn eu plith draethawd Lladin yn erbyn Ariaeth a Sociniaeth.

Yn 1703, ymddangosodd, mewn dwy gyfrol unplyg, ei brif waith, "*A Paraphrase and Commentary on the New Testament.*" Y mae yr esboniad hwn wedi myned trwy lawer o argraphiadau, ac y mae yn parhau mewn bri gan y rhai sydd yn glynu wrth y gyfundrefn Arminaidd. Cyfansoddodd a chyhoeddodd amryw weithiau mewn amddiffyniad i'r gyfundrefn Arminaidd. Yr oedd wedi ei ddwyn i fyny yn Galvin; a'i holl athrawon yn y brifysgol yn Galviniaid o ran barn; ac fel y dywed ei hun mewn rhagymadrodd i un o'i weithiau, ei olrheiniadau a'i fyfyrdodau ei hun a'i dygodd ef yn raddol i fabwysiadu syniadau gwahanol. Ond aeth ei olygiadau dan gyfnewidiad pellach drachefn. Wrth ddarllen y "*Scripture Doctrine of the Trinity*," gan Dr. Clarke, yr hwn a ymddangosodd yn 1712, mabwysiadodd syniadau Ariaidd, a chyhoeddodd draethawd Lladinaidd mewn amddiffyniad i'w gredo newydd, ynghyd âg amryw draethodau Saesnig i'r un pwrpas. A bu dadl rhyngddo a Dr. Waterland ar y pwngc. Parhaodd i ysgrifenu yn ddiwyd hyd bron ddiwedd ei oes; ac o'r braidd y gwyddys am neb a ysgrifenodd fwy nag efe. Yr oedd ei barodrwydd a'i ddiwydrwydd yn nodedig.

WHITE, GILBERT: a adwaenir fel awdwr y "*Natural History of Selborne*," ac a anwyd yn Selborne, ar y 18fed o Orphenaf, 1720. Derbyniodd ei addysg foreuol yn Basingstoke, dan y Parch. Thomas Warton, tad y bardd o'r enw hwnw. Ar ei ymadawiad o Basingstoke, derbyniwyd ef yn efrydydd i Goleg Oriel, Rhydychain, a graddiodd yn wyryf yn y celfyddydau yn 1743. Etholwyd ef yn gymmrawd o'i goleg yn 1744, graddiodd yn A. C. yn 1746, a gwnaed ef yn brwyadur hynaf y brifysgol yn 1752. Yr oedd ynddo hoffder at lenyddiaeth, a thuedd i astudio hanesiaeth naturiol er yn ieuangc; ac i'r dyben o feithrin y duedd hon yr ymneillduodd efe, ar gyfnod cymmharol gynnar ar ei oes, i'w bentref genedigol. Yma y preswyliodd, wedi ei amgylchu gan gyfeillion, yn dilyn ei hoff ymchwiliadau drwy ei fywyd. Bu farw ar y 26ain o Fehefin, 1793. Er iddo gael cynnygion mynych o ddyrchafiadau yn yr Eglwys, gwrthododd hwynt oll:—nid am ei fod yn teimlo yn wrthwynebus i gyflawni dyledswydd y swydd glerigol; o herwydd yn ystod y rhan fwyaf o'i oes bu yn gurad yn ei blwyf genedigol, Selborne; ac yr oedd cyn hyny wedi cyflawni dyledswyddau y swydd hono yn mhlwyf cymmydogaethol Faringdon. Y gwaith ar ba un y mae enwogrwydd White fel naturiaethwr yn gorphwys, a'r hwn a hawlia iddo le amlwg yn mysg diwyllwyr gwyddoniaeth, yn gystal ag ysgrifenwyr clasurol Prydain Fawr, ydyw ei "*Natural History of Selborne.*" Cyhoeddwyd y gwaith hwn gyntaf yn 1789, pedair blynedd cyn marwolaeth yr awdwr. Yn yr argraphiad hwn, ymddangosodd pennod ar hynafiaethau Selborne; ac y mae y bennod hon wedi ei chyhoeddi mewn llawer o argraphiadau ereill o hono. Ar ol marwolaeth Gilbert White, cyhoeddodd Dr. Aikin waith o'r enw "*A Naturalist's Calendar*," &c.—oll wedi ei ddethol o ddyddlyfr yn cynnwys sylwadau ar hanesiaeth naturiol, yr hwn a gedwid gan White am bum mlynedd ar hugain. Y mae amryw argraphiadau o weithiau White wedi eu cyhoeddi, o dan olygiaeth John Mitford, Syr William Jardine, Cadben Brown, ac ereill.

Y mae ysgrifeniadau White wedi eu cyfan-

Digitized by Google

gyfoethog yn yr eglwys gadeiriol yn Gloucester. Ond yn fuan, cafwyd allan ddarfod iddo dderbyn cynnorthwy mawr i gyfansoddi y darlithiau rhagorol a galluog hyn gan Dr. Parr a'r Parch. Samuel Badcock. Dyrchafwyd ef gan y goron i ganoniaeth Eglwys Crist; ac ar ei briodas yn y fl. 1790, cyflwynodd ei goleg iddo fywoliaeth Melton, yn Suffolk. Cyhoeddodd White amryw weithiau ereill, gwreiddiol a chyfieithedig, a bu farw yn ei breswylfod yn Rhydychain, yr 22ain o Fai, 1814, yn yr 68ain mlwydd o'i oedran.

WHITFIELD, GEORGE: y duwinydd a'r pregethwr enwog. Ganwyd ef yn ngwestty y Gloch, yn Gloucester, ar yr 16eg o Ragfyr, 1714. Yr oedd rhai o'i hynafiaid, fel yr eiddo ei gydlafurwr, John Wesley, yn glerigwyr yn yr Eglwys Sefydledig, er fod ei dad a'i daid yn lleygwyr. Enw ei hen daid oedd Samuel Whitfield, yr hwn a fu yn beriglor yn North Ledyard, yn swydd Wilts, ac a fu wedi hyny yn beriglor Rockhampton, swydd Gloucester; ac yn y berigloriaeth ddiweddaf, dilynwyd ef gan ei fab o'r un enw ag ef, yr hwn a fu farw yn ddiblant. Bu un arall o'i feibion, sef Andrew, yr hynaf, dybygid, yn trigiannu fel boneddwr ar ei etifeddiaeth ei hun. Dygwyd Thomas, yr hynaf o feibion yr Andrew hwn, i fyny yn fasnachydd gwin, a bu yn dilyn y fasnach hon am beth amser yn Bristol, lle yr ymunodd mewn priodas gyda Miss Elizabeth Edwards, boneddiges o deulu cyfrifol; ond trodd ei fasnach allan yn anffodus, a symmudodd yntau i Gloucester, a chymmerodd westty yn y ddinas hono. Bu iddo, heb law un ferch, chwech o feibion: o ba rai, George, gwrthddrych y cofiant hwn, oedd yr ieuangaf. "Ganwyd fi," ebe Whitfield ei hun, "yn swydd Gloucester, yn mis Rhagfyr, 1714. Yr oedd fy nhad a'm mam yn cadw gwestty y Gloch."

Bu farw ei dad pan nad oedd George ond dwy flwydd oed; ond gwnaeth ei fam, yr hon a barhaodd i gadw y gwesty, ei goreu, er fod ei hamgylchiadau yn gwaethygu, i'w fagu a'i ddwyn i fyny yn gyfrifol; canys hi a arferai ddywedyd, hyd yn oed pan yr oedd efe yn faban, ei bod yn disgwyl mwy o gysur oddi wrtho ef nag oddi wrth un o'r plant ereill. "Yr oedd fy mam," medd Whitfield, "yn ofalus iawn am fy addysg, a chadwai fi yn wastad pan yn ieuangc (am yr hyn nis gallaf fod byth yn ddigon diolchgar iddi) rhag ymyryd yn y graddau lleiaf â masnach y dafarn." Y mae efe wedi paentio gwrthnysigrwydd ei ddyddiau boreuol mewn lliwiau tywyll; ond ymddengys nad oedd ond bachgen lled fywiog ac agored i gyflawni y drygau hyny ag y mae bechgyn ereill, fel yntau, yn rhy gyffredin yn agored iddynt, a bod llawer o bethau o'i gwmpas y pryd hyny oedd yn argoeli yn addawol am y dyfodol. Yn ei ffordd arw ei hun o osod y mater, efe a ddywed, "Yr oeddwn mor anifeilaidd nes y casawn addysg; ac yr arferwn, yn fwriadol, gilio rhag y cyfleusderau i'w derbyn. Rhoddais yn fuan brawfion o dymmer afrwydd. Yr oeddwn yn dra chwanog i ddywedyd anwiredd, a defnyddio geiriau aflan, a gwâg ddigrifwch. Ar rai prydiau, arferwn regu—os nad tyngu. Nid ystyriwn fod dwyn oddi ar fy mam yn lladrad, ac ni phetruswn wario arian wedi eu cymmeryd o'i llogell. Bûm yn anffyddlawn i'w hymddiried lawer gwaith, a mwy nag unwaith gweriais arian wedi eu cymmeryd o'r tŷ i borthi moethusrwydd, trwy brynu ffrwythydd, pasteiod, &c. Torais lawer o Sabbothau; ac yn gyffredin nid oeddwn yn ymddwyn yn barchus yn nghyssegr Duw. Llawer o arian a dreuliais mewn chwaréyddiaethau a difyrwch cyffredin yr oes." Ond er hyny y mae Whitfield, ar ol achwyn mor chwerw arno ei hun, yn cydnabod ei fod yn gwybod rhywbeth am argraphiadau crefyddol yn nyddiau ei ieuengctid. "Y fath," medd efe, "oedd gras Duw tuag ataf, fel, er fod llygredigaeth yn gweithio yn egnïol yn fy enaid, ac yn cynnyrchu y fath ffrwyth chwerw, etto yr wyf yn cofio yn dra boreuol am gynnhyrfiadau Ysbryd yr Arglwydd ar fy nghalon. Yr oeddwn yn ddeiliad argyhoeddiadau boreuol. Unwaith, yr wyf yn cofio, pan oedd rhyw bersonau yn fy mlino ac yn aflonyddu arnaf, aethum yn uniongyrchol i'm hystafell, a disgynais ar fy ngliniau; ac yn gymmysg â llawer o ddagrau, gweddïais uwch ben *Salm* cviii., lle yr ail edrydd Dafydd yr ymadrodd hwnw mor fynych—'ond yn enw yr Arglwydd mi a'u toraf hwynt ymaith.' Yr oeddwn bob amser yn hynod awyddus am fod yn glerigwr, ac arferwn yn fynych ddynwared y gweinidog yn darllen y gweddïau, &c. Rhoddwn ran o'r arian a gymmerwn oddi ar fy mam i'r tlodion."

Pan oedd o gylch deuddeg oed, cafodd ei roddi yn ysgol rammadegol St. Mary de Crypt, yn ei ddinas enedigol, lle y gwnaeth gryn gynnydd yn yr iaith Ladin; a chan ei fod wedi ei gynnysgaeddu â dawn ymadrodd, ac â chof lled fywiog, yr oedd ei areithiau o flaen aelodau y gorphoraeth, ar eu hymweliad blynyddol â'r ysgol, yn tynu sylw neillduol. Hefyd, yr oedd yn dra hoff o ddarllen chwareawdau ac esgeulusai yr ysgol am ddyddiau yn olynol, er ymbarotoi i'w chwareu; ac ar brydiau ymwisgai mewn dillad merch er cymmeryd rhan gyda'i ysgolheigion i chwareu ger bron aelodau y gorphoraeth. Yr oedd yr adgof yn ei ofidio ar ol hyn; ac yn mhen peth amser blinodd ar hyny. "Cyn fy mod yn bymtheg oed," medd efe, "wedi gwneuthur, fel y tybiwn, ddigon o gynnydd yn yr ieithoedd clasurol, ac yn hiraethu o galon am gael fy ngollwng yn rhydd o hualau caethion yr ysgol, dywedais wrth fy mam un diwrnod, gan nad oedd ei hamgylchiadau yn caniatau i mi fyned i'r brif ysgol, y byddai i chwaneg o ddysgeidiaeth fy anghymmhwyso i fod yn fasnachydd; gan hyny fy mod yn ystyried mai y ffordd oreu oedd i mi beidio dysgu Lladin yn hwy. Ar y cyntaf, hi a wrthodai gydsynio; ond yn fuan fy llygredigaethau a orfuant. Y pryd hyny, am beth amser, troais i ddysgu ysgrifenu yn unig. Ond gan fod amgylchiadau fy mam yn gwaethygu, mi a'i cynnorthwywn hi yn achlysurol yn y gwesty. Er fy mod yn gwasanaethu mewn gwesty mawr, ac ar adegau â gofal yr holl dŷ ar fy nwylaw fy hun, etto cyfansoddais ddwy neu dair o bregethau yno, a chyflwynais un o honynt i fy mrawd." Yn mhen o ddeutu blwyddyn, priododd ei frawd hynaf, a gadawodd ei fam y gwesty; a chan nas gallai Whitfield gyttuno yn dda gyda'i chwaer yn nghyfraith, aeth yntau oddi yno ar ol ei fam yn mhen ychydig fisoedd. Er fod amgylchiadau y fam yn isel, y mae yn ymddangos nad oedd y naill na'r llall o honynt wedi rhoddi i fyny y meddylddrych iddo ef wneuthur ei ffordd i'r brifysgol. "Wedi byw am gryn amser gyda fy mam," meddai Whitfield, "daeth ysgolor ieuangc, yr hwn a fu unwaith yn gydysgolhaig â

a hyny gyda llwyddiant neillduol. Daeth yn ol i Lundain yn mis Hydref, a bu adfywiad mawr yn y Tabernacl. Wedi hyny aeth i bregethu i Bristol, Stroud, Dursley, &c., a chafodd, fel arfer, gynnulleidfaoedd lliosog. Bu am rai wythnosau yn Nghymru y pryd hwn; a dywed iddo "weled tua deng mil o bobl yn yr un cyfarfod yn codi eu dwylaw i fyny, ac yn gwaeddi, 'Gogoniant!' a Bendigedig!'"

Yn mis Mai, 1743, efe a ddychwelodd i Lundain, ac yn ngwyliau y Sulgwyn arferai tyrfaoedd mawrion ymgynnull i Moorfields, i fod yn dystion o'r chwareyddiaethau a gynnelid yn y lle. Aeth Whitfield yno i bregethu, a bu yn hynod lwyddiannus i ennill sylw y lliaws a ymgasglent ynghyd. Yr oedd efe yn ddraen yn ystlysau y chwareuwyr. Cariai ei weinidogaeth ddylanwad anarferol ar ei wrandawyr, a dwysbigwyd yn eu calonau lawer o honynt. Teithiodd lawer yr haf hwn, o fan i fan, ar hyd y wlad; ac yn mhob man yr oedd arwyddion amlwg fod yr Arglwydd yn bendithio ei lafur. Yn nechreu Awst, 1744, hwyliodd Whitfield drachefn am America, er fod sefyllfa ei iechyd yn lled wael ar y pryd; ac ar ol mordaith flinderus a maith o un wythnos ar ddeg, glaniodd yn Efrog Newydd. Cymmerwyd ef yn glaf iawn yn y lle hwnw, ac ofnid mai marw a wnai; ond trwy ofal Rhagluniaeth adferwyd ef yn raddol megys o safn marwolaeth; ac ail ymaflodd yntau yn ei ddyledswyddau llafurus. Aeth i Boston, a manau ereill, a phregethodd i filoedd o bobl oedd yn cyrchu o bob man i wrandaw arno. Ymddengys ei fod wedi meddwl peidio dychwelyd mwy i'w wlad enedigol. A'r pryd hwn yr oedd ei deithiau, ei ofalon, ac yn enwedig y ddyled oedd ar Dŷ yr Amddifaid yn feichiau trymion arno. Mynych y dywedai ei fod yn glaf ac yn iach, ac y dymunai gael marw yn y pulpud, neu yn fuan ar ol dyfod o hono.

Annogwyd ef er mwyn ei iechyd i fyned i'r Bermudas. Cymmerodd yntau y cynghor, a chyrhaeddodd yno ar y 15fed o Fawrth, 1748, a chafodd groesaw calonog: teithiodd yr ynys o'r naill ben i'r llall, a phregethai ddwywaith bob dydd, a bu ei lafur yn hynod ddefnyddiol. Yr oedd y cynnulleidfaoedd a'i gwrandawent yn fawrion; ond gan ei fod yn cyfarfod a chymmaint o bersonau oedd yn hynod anwybodus hyd yn oed yn egwyddorion cyntaf Cristionogaeth, yr oedd ei feddwl yn cael ei fawr ofidio. Casglodd yno gan punt tuag at Dŷ yr Amddifaid, ac anfonodd hwynt i Georgia; ac, am ei fod yn ofni i'w afiechyd ail ymaflyd ynddo os dychwelyd a wnelai i America, efe a hwyliodd yn ol i Loegr, a chyrhaeddodd yn ddiogel i Deal; a thranoeth ar ol glanio, cychwynodd tua Llundain, ar ol absennoldeb o bedair blynedd. Ar ei ddychweliad, cafodd Whitfield fod ei gynnulleidfa yn y Tabernacl wedi myned gryn lawer ar wasgar yn ystod ei absennoldeb, a bod ei amgylchiadau bydol yntau yn myned yn isel, gan ei fod wedi gwerthu holl ddodrefn ei dŷ yn mron er ceisio talu y ddyled ar Dŷ yr Amddifaid. Dechreuodd ei gynnulleidfa yn awr, pa fodd bynag, gyfranu tuag at ei gynnorthwyo; ac yn raddol yr oedd yntau yn gallu talu ei ddyled. Y pryd hwn yr anfonodd Arglwyddes Huntington ato, trwy gyfrwng Mr. Howel Harris, i ddeisyf arno ddyfod i'w thŷ hi yn Chelsea i bregethu i amryw o aelodau y bendefigaeth, oedd yn awyddus am ei glywed ef; yn mhlith pa rai yr oedd Iarll Chesterfield ac Arglwydd Bolingbroke—dau anffyddiwr proffesedig. Dadganodd y blaenaf ei fod wedi ei foddhau yn fawr ynddo; a'r olaf a ddywedai wrtho, yn ol tystiolaeth Whitfield ei hun, ei fod "wedi gwneuthur cyfiawnder mawr â'r priodolaethau dwyfol yn ei bregeth."

Yn mis Medi 1748, efe a ymwelodd y drydedd waith âg Ysgotland; ac yn Edinburgh, Glasgow, a lleoedd ereill, yr oedd tyrfaoedd mawrion yn ymgasglu i'w wrandaw. Yn nechreu y flwyddyn 1749, aeth ar daith i Exeter, Plymouth, a manau ereill yn ngorllewinbarth Lloegr; a derbyniwyd ef yn frwdfrydig, a phregethodd i gynnulleidfaoedd na welwyd eu cyffelyb yno o'r blaen; a chyn dychwelyd i Lundain yn ol, yr oedd wedi teithio chwe chant o filldiroedd yn y parth hwnw o'r wlad. Yn Mai, 1749, efe a aeth i Portsmouth a Portsea—lleoedd y bu yn boblogaidd a defnyddiol iawn ynddynt. Yr oedd llawer y pryd hwn, trwy offerynoliaeth ei bregethau ef, yn cael eu troi "o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw!" Yn mis Medi aeth i Nottingham a swydd Gaerefrog, lle y pregethai i gynnulleidfaoedd a rifent yn fynych ddeng mil o wrandawyr, a chafodd wrandawiad astud ac ystyriol, fel rheol: mewn un neu ddau o leoedd yn unig yr ymddygwyd tuag ato yn angharedig. Yn gynnar yn y flwyddyn 1751, efe a ymwelodd â'r Iwerddon, a dymunol iawn ganddo oedd gweled cynnifer o bobl yn cyrchu i wrando yr efengyl yn Dublin, a lleoedd ereill yn yr ynys hono; lle, fel arferol, yr oedd ei lafur yn nodedig o ddefnyddiol a bendithiol. Aeth o'r Iwerddon i Ysgotland—lle hefyd y cafodd gefnogaeth galonog i barhau yn ymdrechgar yn ei waith mawr. Ar y 6fed o Awst, cychwynodd o Edinburgh tua Llundain, mewn trefn i hwylio unwaith etto i'r America. Wedi canu yn iach i'w gyfeillion gartref, efe a hwyliodd yn yr *Antelope*, cadben Maclellan; ac ar y 27ain o Hydref, glaniodd yn Savannah, a chafodd fod Tŷ yr Amddifaid mewn sefyllfa flodeuog. Gan ei fod yn flaenorol wedi gorfod dioddef yno yn ei iechyd o herwydd yr hinsawdd, efe a benderfynodd beidio treulio yr haf yn America; gan hyny efe a hwyliodd yn ol am Lundain yn mis Ebrill, 1852, a chyrhaeddodd yma yn ddiogel, ar ol mordaith gysurus. Yn ganlynol i hyn bu yn teithio yn Portsmouth, Bath, Cymru, Ysgotland, &c.; ac wrth gwrs, yr oedd ei boblogrwydd yn anarferol, y bobl yn ymgasglu o bob cyfeiriad i'w wrandaw, pa le bynag y pregethai efe. Gofidiai yn fawr fod ei amser yn myned heibio mor gyflym; a chan faint ei awydd i wasanaethu ei Dduw, a'i Waredwr, nid oedd yn cymmeryd nemawr o ddim seibiant. "Ac O!" ebe efe, "na byddai genyf gymmaint o dafodau ag sydd genyf o wallt ar fy mhen!"

Yr oedd ei feddwl bywiog a gweithgar ar waith yn barhaus yn dyfeisio rhyw gynllun i eangu teyrnas y Gwaredwr; ac yn awr daeth i'w fryd i adeiladu Tabernacl newydd, yn Tottenham Court Road. Tynodd gynllun y capel newydd hwn; a rhoddwyd ei gareg sylfaen i lawr ar y 1af o Fawrth, 1752, ac agorwyd ef ar y 10fed o Fehefin, yn y flwyddyn ddilynol. Ei destyn ar ei sylfaeniad oedd *Exod*. xx. 24; ac ar ei orpheniad 1 *Bren*. viii. 11, yn y boreu, a 2 *Cron*. xxix. 9 yn y prydnawn. Bu drachefn yn ymweled âg Ysgotland; a mawr anarferol a fu ei lwyddiant yn Newcastle, Hull, a lleoedd ereill yn ngogleddbarth Lloegr. Cyrhaeddodd i Lundain tua diwedd mis Medi; ac yr oedd

Digitized by Google

wedi teithio yn y daith hon ddeuddeg cant o filldiroedd, a phregethu gant a phedwar ugain o weithiau. Sabbath, Tachwedd 25ain, yr agorodd efe y Tabernacl newydd yn Bristol. Hwyliodd am yr America drachefn yn mis Mawrth, 1754; ond bu raid iddo aros yn Lisbon am rai wythnosau. Cyrhaeddwyd i Beaufort, yn Carolina Ddeheuol, pa fodd bynag, ddiwedd Mai.

Yr oedd ei iechyd yn lled dda ar y daith hon. Efe ei hun a ddywed, "Er fy mod yn marchogaeth y nosweithiau hyd ddydd y boreu, ac yn agored i dymmhestloedd o fellt a tharanau, a gwlawogydd trymion, etto yr wyf yn teimlo braidd yn well na chyffredin; ac mor bell ag y gallaf farnu, nid wyf i farw yn fuan." Teithiodd lawer y tro hwn mewn gwahanol ranau o'r wlad. Dychwelodd yn ol i Loegr, Mai 8fed, 1755; a theithiodd drwy Bristol, Bath, Norwich, Northampton, Liverpool, Bolton, a Manchester, &c. Tachwedd 7fed, 1756, yr agorodd efe ei gapel newydd yn Tottenham Court Road. Ei destyn ar yr achlysur hwn oedd 1 *Cor*. iii. 11. Ymgasglai torfeydd aruthrol i'r capel newydd hwn; a byddai cannoedd yn gorfod troi oddi wrtho yn feunyddiol, gan eu bod yn methu cael lle i fyned i mewn. Yr oedd bychan a mawr, yr uchel a'r iselradd, yn ymhyfrydu gwrandaw arno. Pan y gofynwyd i'r anffyddiwr, Hume, ei farn am dano, efe a ddywedodd, "Y mae yn un o'r pregethwyr mwyaf celfydd a glywais erioed. Y mae yn werth myned ugain milldir o ffordd i wrandaw arno." Yna efe a adroddai y rhan ganlynol o'i bregeth ef:—"Ar ol sefyll ychydig heb ddyweyd dim, anerchai Mr. Whitfield y gynnulleidfa liosog yn debyg i hyn: 'Y mae yr angel gweinyddol ar adael y trothwy, ac esgyn i'r nef. A gaiff efe esgyn heb y newydd fod cymmaint ag un pechadur yn y dorf liosog hon wedi ei waredu o gyfeiliorni ei ffyrdd?'" Er rhoddi mwy o rymusder yn y floedd, tarawai lawr y pulpud â'i droed, cyfodai ei olygon i'r nef, ac â dagrau yn llifeirio dros ei ruddiau, gwaeddai yn uchel, 'Aros, Gabriel! aros, Gabriel! Aros, cyn myned i mewn i'r pyrth cyssegredig, i ddwyn y newydd am un pechadur wedi ei ddychwelyd at Dduw.' Wedi hyny, efe a ddisgrifiodd mewn modd hollol ddiaddurn, ond mewn iaith rymus, yr hyn a alwai yn gariad trengawl y Gwaredwr at bechadur, nes oedd yr holl gynnulleidfa yn toddi mewn dagrau. Yr oedd ei ystumiau ar y pryd mor fywiog, etto naturiol, fel y tra rhagorai ar bob pregethwr arall a welais nac a glywais erioed." Dyna dystiolaeth David Hume, yr anffyddiwr adnabyddus, am dano.

Ymwelodd âg Ysgotland drachefn yn 1757, a dywedir nad oedd dim llai na chant o weinidogion yr efengyl yn gwrando arno ar un adeg yn Edinburgh. Aeth drosodd wedi hyny i'r Iwerddon; ac o'r braidd y diangodd y tro hwn rhag cael ei ferthyru gan y werinos. Cymmerodd hyn le yn Oxman-town-Green. Taflwyd cawodydd o geryg ato o bob cyfeiriad, nes oedd yn mron wedi colli ei anadl, ac yn orchuddiedig â gwaed. Yn nhŷ gweinidog oedd yn byw ger llaw y cafodd noddfa. Bu am amser heb allu dyweyd gair, a chydag anhawsder yr oedd yn gallu anadlu. Ond cafodd gyfeillion caredig i weinyddu arno, a golchwyd ei friwiau. Yn haf y fl. 1758, teithiodd lawer trwy sir Gloucester a Deheubarth Cymru, er ei fod ar y pryd yn llesg ac yn egwan ei iechyd. Yn mis Gorphenaf, aeth i Ysgotland; ac yr oedd yn mron credu mai yno y gorphenai ei yrfa ddaearol. Ond efe a ddaeth ychydig yn well, a bu wedi hyny yn pregethu yn ngogleddbarth Lloegr; a daeth yn ol i Lundain o ddeutu diwedd Hydref. Yn ei ymweliad âg Ysgotland yn 1759, yr oedd cynnulleidfaoedd mor liosog ac astud ag erioed yn gwrandaw arno. Yn ystod yr ymweliad hwn, digwyddodd amgylchiadau a dueddent i glirio ei gymmeriad o gyhuddiad a ddygwyd yn anghyfiawn yn ei erbyn o fod yn ariangar. Cynnygiodd boneddiges ieuangc o'r enw Miss Hunter ei holl etifeddiaeth iddo, yn arian ac yn diroedd; ond efe a'u gwrthododd. Ac yn gymmaint ag nad oedd yn foddlawn i'w derbyn at ei wasanaeth ei hun, cynnygiwyd hwynt ganddi i'r sefydliad yn Georgia; ond gwrthod y cynnygiad hwn hefyd a wnaeth efe. Y mae yr hanesyn canlynol a adroddir am dano yn tueddu hefyd i ddangos mor ddisail oedd y cyhuddiad. Yn un o'i deithiau, mynegwyd i Whitfield am wraig weddw gyda theulu lliosog. Yr oedd ei meistr tir wedi cymmeryd meddiant o'i dodrefn, ac ynghylch gwneyd arwerthiant arnynt os na thelid yr ardreth. Nid oedd pwrs Whitfield un amser yn llawn; ond yr oedd ei gydymdeimlad yn fawr, a rhoddodd ar unwaith i'r weddw ddigymmhorth y pum gini oedd yn angenrheidiol i'w gwaredu. Awgrymodd y cyfaill a gyddeithiai âg ef fod y swm yn fwy nag y gallasai efe yn rhesymol ei fforddio. I hyn attebodd yntau, "Pan y mae Duw yn dyfod âg achos o angen ger ein bron, ei amcan ydyw ein cael ni i estyn ymwared i'r hwn fydd mewn angen." Yr oedd y ddau deithiwr yn myned yn mlaen ar eu taith; a chyn hir daeth lleidr pen ffordd i'w cyfarfod, yr hwn a hawliai eu harian oddi arnynt, a rhoddwyd hwynt iddo. Trodd Whitfield y byrddau ar ei gyfaill, ac adgofiodd iddo, gymmaint yn well oedd i'r weddw dlawd gael y pum gini, na'r lleidr oedd wedi eu hysbeilio! Nid oeddynt wedi myned yn mhell yn mlaen cyn i'r dyn ddychwelyd, a hawlio côb Whitfield, am ei bod yn well na'r eiddo ef. Caniatawyd iddo hyn hefyd; a derbyniodd Whitfield gôb dyllog yr yspeiliwr hyd nes y gallai gael ei gwell. Yn fuan wedi hyny gwelent yr un gŵr yn carlamu nerth traed ei farch ar eu hol drachefn; ond, yn awr, gan eu bod yn ofni fod eu bywyd mewn perygl, gyrasant hwythau eu meirch; ac yn ffodus, cyrhaeddasant at ryw fwthynod, cyn i'r lleidr pen ffordd eu hattal. Cafodd yr ysbeiliwr ei siomi, a diammheuol ei fod yn teimlo yn wir ofidus; o herwydd pan y cymmerodd Whitfield y gôb garpiog oddi am dano, cafodd yn un o'i llogellau sypyn bychan, wedi ei lapio yn ofalus, yn cynnwys can gini!

Treuliodd y gauaf yn Llundain, ac eangodd ei gapel; a bu yn yr haf dilynol yn teithio yn sir Gloucester a Chymru; ac wedi hyny aeth i ddinas Bristol. Casglodd yn ei gapeli yn Tottenham Court a'r Tabernacl, ar ddau achlysur, yn y fl. 1761, y symiau o 400*p*., a 600*p*., i'r Protestaniaid oedd mewn cyfyngder yn Prwssia a'r Almaen. Teimlai yn fynych yn awr oddi wrth waeledd ei iechyd, a thybiai fod amser ei ymddattodiad yn neshau; ond gwelodd yr Arglwydd yn dda adferu ei iechyd i raddau, ar ol iddo fod am rai wythnosau yn methu pregethu o herwydd ei lesgedd. Cynnorthwyid ef y pryd hwn gan amryw glerigwyr o'r wlad; ac yn enwedig gan y Parch J. Berridge, o Everton, sir Bedford, yr hwn a bregethai yn aml yn ei le yn ei gapeli yn y brif ddinas. Yn Ebrill, 1762, efe

Digitized by Google

gladdedigaeth gan Mr. Smith, yr hwn a ddaeth gyda Whitfield o Loegr, ac a'i dilynodd ef ar ei deithiau:—

"Dydd Sadwrn, Medi 29ain, 1770, marchogai Mr. Whitfield yn y boreu o Portsmouth i Exeter, pellder o bymtheng milldir, a phregethodd ar y maes i gynnulleidfa liosog. Wrth ei weled yn fwy anesmwyth nag arferol, dywedodd Mr. Clarkson wrtho, 'Syr, mwy addas fyddai i chwi fyned i'ch gwely nag i'r pulpud.' 'Gwir,' ebe Whitfield; ond gan edrych o'r neilldu, a phlethu ei ddwylaw ynghyd, chwanegai, 'Arglwydd Iesu, yr wyf yn flinderus *yn* dy waith, ond nid *ar* dy waith. Os nad ydwyf wedi gorphen fy ngyrfa, caniatäer i mi gael myned unwaith etto i'r maes i selio y gwirionedd, a dyfod i mewn a marw.' Y testyn olaf y llefarodd oddi arno oedd 2 *Cor.* xiii. 5. Ciniawodd gyda'r cadben Gillman; ac ar ol ciniaw, marchogodd gyda Mr. Parsons i Newbury. Ni chyrhaeddais i yno am ddwy awr ar eu hol. Gofynais i Mr. Whitfield pa fodd yr oedd yn teimlo ar ol y daith. Attebodd, mai lluddedig; a chan hyny, ei fod yn cymmeryd swper cynnar, ac am fyned i'r gwely. Ychydig a fwytaodd, ac nid ymddiddanodd fawr. Mr. Parsons, ar ei ddymuniad ef, a aeth drwy wasanaeth y ddyledswydd deuluaidd; ac yn ganlynol i hyn, aeth Mr. Whitfield i fyny y grisiau. Dywedodd ei fod yn bwriadu eistedd a darllen nes y deuwn ato. Cefais ef yn darllen y Beibl, a Salmau Dr. Watts hefyd yn agored o'i flaen. Gofynodd am ychydig o *gruel*, a chymmerodd o hono tua hanner cymmaint ag arferol. Yna aeth ar ei liniau, gan ddibenu yr hwyr mewn gweddi. Ar ol ychydig ymddiddan, aeth i orwedd, a chysgodd hyd ddau o'r gloch yn y boreu, pryd y deffrodd fi, ac y gofynodd am ychydig o osai (*cyder*). Yfodd tua llonaid gwin-wydr o hono. Gofynais iddo pa fodd yr oedd yn teimlo: attebai, fod y clefyd ar ei ysgyfaint yn dyfod arno drachefn; fod yn rhaid iddo gael deuddydd neu dri o esmwythdra; ac y gwnai deuddydd o farchogaeth, heb bregethu, ei wella etto. Yn fuan wedi hyny, gofynodd am gael agor y ffenestr ychydig yn fwy, er ei bod yn agored drwy y nos—'canys,' medd efe, 'nis gallaf anadlu. Ond yr wyf yn gobeithio y deuaf yn well yn fuan. Digon o chwŷs y pulpud heddyw a fy ngwellhäai: byddaf yn well ar ol pregethu.' Dymunwn arno beidio pregethu mor fynych. Ei atteb oedd, 'Gwell genyf ymdreulio allan, na rhydu allan.' Dywedais innau wrtho fy mod yn ofni iddo gael anwyd y dydd o'r blaen. Attebai yntau ei fod yn meddwl yr un peth. Yna cyfodai ar ei eistedd, a gweddïai am i'r Arglwydd fendithio ei lafur yn mhob man—am gyfarwyddyd ynghylch ei arosiad yn ystod y gauaf yn Boston, neu a ddychwelai efe i ardaloedd mwy deheuol—am fendithio ei athrofa yn Methesda, a'i anwyl deulu yno—am fendithio ei gynnulleidfaoedd yn y Tabernacl, &c., yr ochr draw i'r môr; ac yna gorweddodd i lawr i gysgu eilwaith. Yr oedd hyn tua thri o'r gloch yn y boreu. Deffrodd drachefn tua chwarter i bedwar, a dywedodd, 'Y mae fy niffyg anadl yn dyfod etto. Buasai yn dda genyf pe nad addawswn bregethu yn Haverill ddydd Llun: nid wyf yn meddwl y gallaf.' Daeth Mr. Parsons i'r ystafell, a gofynodd i Mr. Whitfield pa fodd yr ymdeimlai efe. 'Bron a mygu,' oedd yr attebiad: 'yr wyf yn methu anadlu, y mae y clefyd ar fy ysgyfaint yn mron a'm tagu.' Yna cyfododd o'i wely, ac aeth at y ffenestr am wynt. Yr oedd hyn am bump yn y boreu. Aethum ato, ac ni chanfyddwn ddim perygl arno am o ddeutu pum munyd—ond yn uniongyrchol ei fod mewn caledi mawr yn cyrchu ei anadl, fel yr oeddwn wedi ei weled lawer gwaith o'r blaen. Trodd ataf yn fuan wedi hyny, a dywedodd, 'Yr wyf yn marw!' Yna rhedodd at y ffenestr arall, gan ddyheu am anadl. Aethum i gyrchu y Dr. Sawyer; ac ar fy nychweliad, yr oedd angeu i'w ganfod ar ei wedd. Dywedodd drachefn, 'Yr wyf yn marw!' Yr oedd ei lygad wedi sefyll. Aeth tua'r ffenestr, a chynnygiasom win cynhes iddo, â diferynnau o *lavender*—ond gwrthododd ei yfed. Yn mhen ychydig, dywedai Mr. Parsons ei fod yn meddwl fod Mr. Whitfield yn anadlu yn rhwyddach, ac y byddai iddo wella. Ond nid oeddwn o'r un farn âg ef. Pan ddaeth y meddyg i mewn, a'i weled yn y gadair â'i ben yn gorphwys ar fy mynwes, teimlodd ei waedgur, a dywedodd yn y fan, 'Y mae efe yn ddyn marw!' 'Nid wyf yn credu hyny,' ebai Mr. Parsons. 'Y mae yn rhaid i chwi ymdrechu gwneuthur rhywbeth iddo, doctor.' 'Nis gallaf,' oedd yr atteb, 'y mae yn awr ar gymmeryd ei anadl olaf.' Ac yn wir, felly yr oedd; canys nid anadlodd ond unwaith mwy, gan estyn allan ei draed, a marw, yn gymmhwys am chwech o'r gloch yn y boreu. Traddodwyd ei bregeth angladdol gan y Parch. Mr. Jewel, a rhoddwyd ei gorph i orwedd yn dawel mewn daergell a barotowyd iddo yn Newbury, yn ol ei ddymuniad ei hun, o flaen areithfa y Parch. Mr. Parsons. Yna, ar ol dwyn y gwasanaeth i derfyniad gyda gweddi fer, gollyngwyd y bobl ymaith, y rhai a aethant yn dorfeydd mawr dan wylo drwy yr heolydd i'w cartrefleoedd. Ei anwyl gyfaill, John Wesley, oedd y gŵr a draddododd ei bregeth angladdol yn y Tabernacl, oddi ar *Num.* xxiii. 10."

Dywed Venn am dano, "Gallwn dystio yn ddiogel na ddarfu yn mron i un o weinidogion Crist, er dyddiau yr apostolion, ragori, nac o'r braidd ddyfod i fyny â Whitfield." At hyn, gellir chwanegu tystiolaeth ei gydoesydd enwog Toplady, awdwr enwog yr emyn anfarwol, "*Rock of Ages*:"—

"Nid gormod fyddai ei alw yn apostol ymherodraeth y Saeson, gyda golwg ar ei sêl dros Dduw, gyrfa faith o lafur diflino a diorphwys, a defnyddioldeb eang a digyffelyb ..... Os ydyw cael awdurdod llwyr dros dymmherau cynnulleidfaoedd lliosog yn arwydd o areithydd perffaith, efe, yn ddiammheuol, oedd areithydd penaf ei oes. Os ydyw synwyr da, calon haelfrydig, mwyneidd-dra syml a swynol, sirioldeb disglaer, a ffraethineb parod, yn gwneyd i fyny ragoriaethau cymdeithasol, yna efe oedd un o'r cyfeillion goreu yn y byd. Os ydyw bod yn sicr, diymmod, a helaethion yn ngwaith yr Arglwydd; ac os ydyw undeb y doniau gweinidogaethol mwyaf ysblenydd a sylweddol, yn cael eu mantoli gan brofiad dwfn a gostyngedig o ras, a'u coroni â'r llwyddiant mwyaf yn nychweliad pechaduriaid ac adeiladaeth y saint, yn arwyddion o awdurdod o'r nef, nis gall George Whitfield lai na sefyll yn uchaf ar y lechres ddiweddar o weinidogion Cristionogol. Cafodd Prydain yr anrhydedd o gynnyrchu y gwŷr mwyaf agos yn mhob cangen o wybodaeth. Yn ben ar y rhai hyn y mae—Bradwardin, tywysog y duwinyddion; Milton, tywysog y beirdd; Newton, tywysog yr athronyddion; a Whitfield, tywysog y pregethwyr."

Mewn tôn ac ymadroddion cyffelyb, yr oedd tystiolaethau cyffredinol cydoeswyr Whitfield yn cael eu dadgan am dano. Y mae natur, helaethrwydd, a pharhâd ei boblogrwydd fel pregethwr yn arwyddion sicr fod rhyw swyn annisgrifiadwy yn ei areithyddiaeth. Dechreuodd ei boblogrwydd gyda'i bregeth gyntaf; a daliodd hyd y bregeth ddiweddaf a draddododd, drwy weinidogaeth a barhaodd am bedair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd! Yr oedd yn boblogaidd yn mhob man lle yr elai iddo—yn Lloegr, yn Nghymru, yn Ysgotland, yn yr Iwerddon, ac yn America; a hyny yn mhlith trigolion o bob gradd a sefyllfa. Y bobl gyffredin—y werin, "a'i gwrandawent ef yn ewyllysgar;" ac nid yn unig hwy, ond y dysgedig a'r boneddig hefyd; ac athronwyr, anffyddwyr, gwŷr y llys, a ganmolent y pregethwr, er na byddent yn ufudd i'r efengyl. Ni byddai gwrthwynebiadau iddo, o ba le bynag y cyfodent, ond yn chwanegu at ei

Hyn a ennillodd iddo y teitl o seraph: nid yn ystyr ysgolheigiol y gair, ond yn ei ystyr angylaidd. Ond seraph dynol oedd efe; ac felly, llosgodd i ffwrdd yn ngwres ei dân ei hun. Beth wed'yn?—esgynai yn fynych ynddo, fel angel y cyfammod yn fflam aberth Manoah, a gwnai bethau rhyfedd yn wastad pan ddisgynai. Yr oedd mor aml ger llaw yr orsedd, ac yn wastad mor agos ati, fel, yn gyffelyb i'r angel yn Llyfr y Dadguddiad, y deuai i lawr, 'wedi ei wisgo â'r enfys.'"

Y mae ei weithiau argraphedig, heb law argraphiad o "Esboniad Clarke" ar y Beibl, yr hwn a gyhoeddwyd ganddo yn 1759, yn gynnwysedig yn benaf o bregethau, naill ai wedi eu hargraphu o'i lawysgrif ef ei hun, neu wedi eu cymmeryd i lawr gan ysgrifenwyr pan y traddodid hwynt; ychydig o draethodau dadleuol, a darnau achlysurol ereill; a dyddlyfr llawn o'i fywyd a'i lafur, a thair cyfrol o lythyrau. Cyhoeddwyd casgliad o'i bregethau, ei draethodau, a'i lythyrau, yn chwe chyfrol, yn Llundain, yn y fl. 1771.

WHISTON, WILLIAM: duwinydd a mesuronydd enwog. Ganwyd ef yn Morton, yn sir Leicester, ar y 9fed o Ragfyr, 1667, lle yr oedd ei dad, Josiah Whiston, yn beriglor. Derbyniodd elfenau cyntaf ei addysg gartref; wedi hyny bu yn ysgolhaig gyda Mr. Antrobus, yn ysgol rydd Tamworth; ac oddi yno efe a symmudodd i Gaergrawnt, lle yr ennillodd glod mawr, yn enwedig fel efrydydd mesuroniaeth. Graddiodd yn 1690, etholwyd ef yn gymmrawd o'i goleg yn mis Mehefin yr un flwyddyn, ac ordeiniwyd ef yn 1793. Y flwyddyn ganlynol, cafodd ei bennodi yn gaplau i Dr. Moore, esgob Norwich; ac yn 1798, ar ol cael perigloriaeth Lowestoft, yn Suffolk, efe a briododd Miss Antrobus, yr hon oedd ferch ei hen athraw; ac o ganlyniad yr oedd yn gorfod rhoi i fyny ei gymmrodoriaeth. Yn y cyfamser, 1796, yr oedd ei "*Theory of the Earth*" wedi ymddangos: a gwaith, er gwaethaf cynnifer o ddamcaniaethau rhyfedd a gafwyd ynddo, a gododd ei gymmeriad yn lled uchel. Fod iddo gymmeriad fel gwyddonydd, sydd eithaf eglur oddi wrth y ffaith ei fod, trwy ddylanwad Syr Isaac Newton, yn 1703, wedi ei bennodi i fod yn olynydd iddo ef fel athraw yn Nghaergrawnt. Ar dderbyniad y pennodiad hwn, rhoddodd ei fywoliaeth i fyny, ac ymsefydlodd drachefn yn y brifysgol. Yn chwanegol at ei ddyledswyddau fel athraw, ymgymmerodd â chyflawni gwaith clerigwr; a'r fath oedd ei boblogrwydd fel pregethwr, fel y mae yn debyg iawn y cyrhaeddasai i safle uchel yn yr eglwys, oni bae fod ei opiniynau duwinyddol wedi ymddadblygu i'r heresi Ariaidd—a darfu i'w onestrwydd yn rhoddi amlygiad o hyn yn ei ysgrifeniadau a'i bregethau arwain, yn 1710, i'w ddiswyddiad yn y brifysgol. Yn yr un flwyddyn hefyd yr ymddangosodd y mwyaf nodedig o'i holl ysgrifeniadau gwreiddiol, sef ei "*Historical Preface to Primitive Christianity Revived.*" Y mae ei erlyniadau yn y llysoedd eglwysig yn gwneyd i fyny bennod lled ddyrus yn y cyfryw hanesion. Y canlyniad o'r erlyniadau a fu—ar ol pum mlynedd o ansicrwydd pryderus, yn ystod pa rai yr oedd y gweithrediadau yn gŵyro yn y modd rhyfeddaf o blaid ac yn erbyn Whiston—caniatawyd iddo aros yn aelod o Eglwys Loegr. Arwyddai llawer o'r clerigwyr, pa fodd bynag, anfoddlonrwydd mawr o blegid hyn; yn neillduol felly Dr. Sacheverel, yr hwn a daranai o'r pulpud yn ei erbyn ef, ac a wrthodai ganiatau iddo gymmuno:—esampl a ddilynwyd gan ereill. Un peth sydd yn ymddangos yn dra arwyddocaol o'r gwarthrudd cymdeithasol oedd ynglŷn âg ef yn meddyliau y rhai uniawngred oedd, pan y darfu i Halley, yn 1720, ei gynnyg yn aelod o'r Gymdeithas Frenhinol, fod ei hen gyfaill, Newton, wedi gwrthwynebu ei etholiad yn llwyddiannus. Yr oedd Whiston yn un o'r rhai mwyaf hunandybus y gellid eu cyfarfod, ac ymddengys ei fod yn teimlo yn argyhoeddedig mai yr hyn a gymmhellodd Newton i wneuthur hyn oedd eiddigedd ato ef o herwydd rhagoriaeth ei dalentau disglaer—syniad, mae'n debyg, nad oedd ond ychydig yn cyttuno âg ef ynddo. Yn gymmaint ag nad oedd gan Whiston foddion cynnaliaeth neillduol i syrthio arnynt, yr oedd yn fynych mewn cryn galedi; er hyny, yr oedd ganddo gyfeillion caredig, oeddynt yn barod i'w gynnorthwyo. Yr oedd yn parhau yn ddiflino i geisio gwasgaru ei opiniynau crefyddol, ac yr oedd ei weithiau dadleuol yn lliosog; hefyd, byddai ar brydiau yn traddodi darlithiau; a sefydlodd gymdeithas grefyddol, cyfarfodydd yr hon a gynnelid yn ei dŷ ei hun. Bu farw ar yr 22ain o Awst, 1752, wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 85ain mlwydd. O'i holl weithiau lliosog, ei gyfieithiad o weithiau Josephus sydd wedi bod y mwyaf poblogaidd: ac y mae y cyfieithiad hwn o'i eiddo wedi myned trwy lawer iawn o argraphiadau. Cyhoeddodd gofiant o hono ei hun yn ystod ei fywyd (1749—50), yn yr hwn yr ydym yn cael darlun bywiog o'r dyn hynod a mympwyol, ond trwyadl gydwybodol hwn.

WHITGIFT, JOHN: trydydd archesgob Protestanaidd Caergaint. Ganwyd ef yn Great Grimsby, yn sir Lincoln, yn y flwyddyn 1530, o rieni cyfrifol: yr oedd ei dad yn farsiandwr yn y dref hono, a'i fam yn foneddiges o deulu parchus yn yr un lle. Pan oedd Whitgift yn ieuangc, ymddiriedwyd ef i'w addysgu i ofal ewythr iddo, Robert Whitgift, abad mynachdy Wellow, ger Grimsby. Ymddengys fod yr abad hwn yn rhagweled cwymp yr Eglwys Babaidd, o herwydd ei llygredigaeth, rai blynyddoedd cyn i'r Diwygiad Protestanaidd gymmeryd lle; a chlywyd ef yn dywedyd yn fynych, ei fod wedi darllen yr Ysgrythyrau Sanctaidd drosodd a throsodd drachefn, ond nad oedd efe wedi gallu cael allan fod eu crefydd hwy (y Pabyddion) wedi ei sylfaenu gan Dduw." Ar ol bod gyda'i ewythr am rai blynyddau, aeth Whitgift i ysgol St. Anthony, yn Llundain. Tra yn yr ysgol hon, llettyai gyda modryb iddo, yr hon oedd Babyddes selog, a rhoddai dramgwydd mynych iddi trwy wrthwynebu defodau a seremoniau yr Eglwys Babaidd. Yn ofer y ceisiai ganddo ddyfod gyda hi i Eglwys Gadeiriol St. Paul i wasanaeth yr offeren, nes o'r diwedd y penderfynodd na oddefai Whitgift ieuangc yn hwy o dan ei chronglwyd. Wrth ei ddanfon adref at ei dad, hi a ddywedodd, ei bod yn "tybied ar y cyntaf ei bod yn derbyn sant i'w thŷ; ond ei bod yn gweled mai cythraul oedd." Yn 1548, anfonwyd ef i brifysgol Caergrawnt, ac aeth i Goleg y Frenhines. Symmudodd oddi yno i Pembroke Hall, i'r hwn yr oedd cymmeriad mwy Protestanaidd. Yr oedd Ridley yn athraw ynddo; ac yr oedd Bradford (y merthyr) a Grindal yn gymmrodorion o'r coleg hefyd. Graddiodd yn wyryf yn y celfyddydau yn 1554; a'r

y cyfreithiau, fy nghydwybod fy hun, a'm dyledswydd, gyda mi." Dadganodd Arglwydd Burghley, yr hwn oedd gyfaill diysgog i Whitgift, ei anfoddlonrwydd o'i lymder; ac etto, er ei gynghorion ef a'r cynghor, mynodd Whitgift gael math o chwilys yn yr Eglwys, yr hwn a barodd i lawer o ddynion duwiol a da ymadael o'i chymmundeb. Pa un ai am iddo ddyfod yn argyhoeddedig o ddrygedd y fath chwilys, neu ynte ei fod o'r diwedd am roddi y ffordd i gynghorion ereill, ni wyddys: ond yr ydym yn ei gael yn 1585, yn ol cyfarwyddyd Walsingham, yn cyttuno i beidio gofyn i neb lawnodi yr erthyglau, ond y rhai oedd yn myned i'r weinidogaeth, neu i fywoliaethau newyddion, gan adael yn llonydd y sawl oedd eisoes mewn meddiant o fywoliaethau, os byddent yn arfer darllen y *Llyfr Gweddi Cyffredin* yn ol y ffurf pennodedig.

Mewn trefn i geisio sicrhau undeb barn, efe a gafodd gan y *Star Chamber*, o ba un yr oedd efe yn aelod, basio penderfyniad i attal rhyddid y wasg. Dadganwyd y penderfyniad hwn ar y 23ain o Fehefin, 1585; ac yn ol y dadganiad nid oedd un argraphwasg i gael ei goddef yn un man, ond yn Llundain, Rhydychain, a Chaergrawnt; ac yr oedd eu rhifedi i gael ei benderfynu gan yr archesgob ac esgob Llundain. Ni oddefid i un llyfr gael ei argraphu heb iddynt hwy gael ei ddarllen; ac yr oedd pawb a werthent, neu hyd yn oed a rwyment lyfrau anawdurdodedig, yn ddarostyngedig i dri mis o garchariad. Er mor fanwl oedd Whitgift yn ei olygiadau mewn materion o ddysgyblaeth eglwysig, ymddengys fod ei gymmeriad yn naturiol yn rhydd oddi wrth erwindeb a llymder. Tystia ei hen gyfaill, Iarll Salisbury, am dano, "nad oedd dim i'w ofni yn fwy yn ei lywodraethiad, yn enwedig tua diwedd ei oes, na'i dynerwch a'i addfwynder. Enghreifftiau o hyny oedd ei ymbiliau taerion ar i'r frenhines faddeu i Udal, ac i ereill a ddedfrydwyd i farw am derfysg: ac am ryddhâd Cartwright, a gweinidogion ereill, o afael y *Star Chamber*. A chafodd boneddwyr ereill, ar ei eiriolaeth ef, faddeu dirwyon a charchariad, am noddi argraphwyr llyfrau drwg, a argrephid ac a gylchdaenid yn ddirgelaidd." Amlygwyd ei barch i ddysgeidiaeth, ac i ddynion dysgedig, ar lawer o achlysuron. Iddo ef y cyflawnodd Hooker ei "*Ecclesiastical Polity*." Trwy ddylanwad Whitgift y pennodwyd y duwinydd dysgedig hwnw i Eglwys y Temple, Llundain, ac wedi hyny i fywoliaeth Boscomb, a pherigloriaeth Bishopthorp, ger llaw Caergaint. Nid oedd sylw Whitgift yn cael ei gyfyngu yn hollol at weithiau o nodwedd grefyddol. Dywedai yr hynafiaethydd dysgedig, Stow, yr hwn a gyflwynodd iddo ei "*Annals*" yn 1600, am dano fel y canlyn:—"Fod ei hoffder a'i serch mawr at bob efrydiau daionus yn gyffredinol, ac at hynafiaethau yn arbenig, mor nodedig, fel yr oedd pawb a hoffent efrydu y pethau hyny yn edrych arno fel eu prif noddwr." Teimlai yr archesgob hefyd ddyddordeb mawr yn rheoleiddiad elusenau cyhoeddus, a chyfranai yn helaeth at achosion cyhoeddus. Yn 1584, efe a adferodd hen nawddle Eastbridge, er cynnorthwyo y tlodion, yn ninas Caergaint: eangodd y gwaddoliadau, a gosododd ef ar well sylfeini. Adeiladodd a gwaddolodd hefyd, yn hollol o'i gyllid ei hun, feddygdy, ysgol rydd, a chapel yn Croydon—y rhai a orphenwyd yn ystod ei fywyd. Yr oedd ei haelfrydedd yn peri i lawer dybied ei fod yn gyfoethocach nag ydoedd.

Ar farwolaeth y frenhines Elizabeth, ofnai Whitgift y gwnaethai y brenin Iago gyfnewidiad yn ffurfwasanaeth yr Eglwys; ac mewn trefn i geisio cadw ar delerau da âg ef, efe a anfonodd Dr. Nevyl, deon Caergaint, at ei fawrhydi i Ysgotland, i gymmhell Eglwys Loegr i'w ffafr a'i amddiffyniad ef. Yr oedd attebion y brenin yn ffafriol; ond y mae tôn gohebiaeth Whitgift y pryd hwnw yn dangos ei fod mewn ofnau parhaus i gyfnewidiad gymmeryd lle. Yr oedd wedi arfer am gyhyd o amser ddibynu gyda'r fath sicrwydd ar gyfeillgarwch sefydlog y frenhines, fel yr oedd esgyniad dyeithrddyn i'r orsedd, o blegid fod hyny yn calonogi y sawl oedd yn anfoddlawn yn yr Eglwys, yn peri dyryswch a gofid i'r prelad oedranus, am fod ganddo ei ammheuon ynghylch y dyfodol. Yn Hydref, 1603, cyhoeddodd y brenin broclamasiwn yn galw ynghyd gynnadledd o'r clerigwyr er cymmeryd i ystyriaeth sefyllfa yr Eglwys. Cynnaliwyd y gynnadledd y mis Ionawr canlynol, yn yr hon y cymmerodd yr archesgob ran flaenllaw er egluro ac amddiffyn o flaen y brenin athrawiaethau ac ymarferiadau yr Eglwys. Y canlyniad a fu, nodi dirprwyaeth at yr archesgob, ac at amryw o'r esgobion ac arglwyddi y cynghor, er rheoleiddio achosion yr Eglwys. · Y materion pwysicaf a ddygwyd ger eu bron oeddynt, "fod gofal yn cael ei gymmeryd i gael un cyfieithiad unffurf o'r Beibl wedi ei argraphu, a'i fod i'w ddarllen yn yr eglwysydd heb eglurhad na sylw;" a bod ystyriaeth yn cael ei roddi i'r cwestiwn, "pa bennodau yn yr *Apocrypha*, ac yn yr Ysgrythyrau canonaidd, sydd fwyaf priodol i'w darllen yn yr eglwysydd." Ni chafodd efe fyw i gydweithredu yn ymgynghoriadau y ddirprwyaeth hon. Yn fuan ar ol y gynnadledd, cafodd anwyd tra yn hwylio ar yr afon yn ei gwch i Fulham; a'r Sabbath canlynol, ar ol bod yn ymddiddan yn hir â'r brenin, syrthiodd i lewyg, a derfynodd mewn parlysiad, a chollodd ei allu i siarad. Bu farw y 29ain o Chwefror, 1604, yn y 73ain mlwydd o'i oedran, a chladdwyd ef yn eglwys y plwyf, Croydon. Dywedir i'w farwolaeth gael ei brysuro gan ofnau am ragolygon yr Eglwys. Ei weddi ddiweddaf oedd dros eglwys Dduw, ac un o'r pethau olaf a ddywedodd oedd, y byddai "farw ar adeg pan oedd yn well ganddo roddi cyfrif i Dduw am ei esgobaeth, na'i gweinyddu yn hwy yn mysg dynion."

Diammheu fod ei benderfyniad a'i sêl dros sefydlu Eglwys Loegr yn gadarn yn y wlad wedi ei arwain i lymder gormodol; ond yr oedd ganddo lawer o edmygwyr ar gyfrif ei onestrwydd, ei grefyddoldeb, a'i ddysg; ac yn mhell ar ol ei farw, dywedodd T. Fuller ei fod "yn un o esgobion teilyngaf Eglwys Loegr."

WICKLIFF, neu WICKLIFFE, JOHN DE. Y mae llawer o wahanol ffyrdd yn cael eu defnyddio i sillobu ei enw; ond y ddau uchod yw y rhai mwyaf arferedig. Efe oedd y penaf o'r holl ddiwygwyr o flaen y Diwygiad Protestanaidd. Brodor ydoedd o blwyf Wickliff, ar lan y Tees, ger Richmond, yn swydd Gaerefrog. Ganwyd ef yn y lle hwnw yn 1324. Ychydig a wyddys am ei rieni a'i hynafiaid. Yn ol traddodiad a ffynai yn y gymmydogaeth, yr oedd yn perthyn i deulu o'r enw Wickliff, neu Wyckliff, neu De Wyckliffe, y rhai oeddynt arglwyddi y maenor, a noddwyr y berigloriaeth, o amser Gwilym y Goresgynydd i lawr hyd y fl. 1606; pan aeth yr eiddo i feddiant teulu arall drwy i'r

Digitized by Google

ymresymiadol ar gwestiynau, gan eu harfer i glywed pethau newydd ac i oddef cael eu gwrthwynebu. Ymgasglai lliaws mawr o efrydwyr i wrando ar ei ddarlithiau, ac yn raddol yr oedd ei opiniynau yn gweithio argyhoeddiad yn y rhai a'u gwrandawent, ac yn ymledu i gylchoedd mwy cyhoeddus. Tra yr oedd Wickliff fel hyn yn dysgu yr arweinyddion, nid oedd efe chwaith yn esgeuluso y lliaws; o herwydd, yn chwanegol at ei wasanaeth fel athraw, efe a bregethai yn gyhoeddus yn rheolaidd: a byddai yn ennill llawn cymmaint o glod a chymmeradwyaeth yn y pulpud ag yn nghadair yr athraw. Pregethai yn ddifrifol iawn ar athrawiaethau yr efengyl, mor bell ag y teimlai ei bod yn ddiogel iddo wneyd hyny, a'r dyledswyddau cyssylltiedig â hwynt; ac ar adegau, traethai yn hyf a di-dderbyn-wyneb ar lygredigaethau yr eglwys, afradlonedd y clerigwyr, a gormes y pab. Llefarai ar y materion hyn gyda gwres a nerth mawr, gan brofi yn eglur ei fod yn deall y tir y safai arno, ac nad oedd yn ofni nac yn arswydo rhag y canlyniadau. Ac yr oedd ei ddifrifwch a'i hyawdledd yn gyfryw ag oedd yn cario argyhoeddiad i feddyliau lliaws o'i wrandawyr o bob gradd. Yn y fl. 1372, yn ol Dr. Vaughan, y cymmerodd Wickliff y teitl o ddoctor mewn duwinyddiaeth. Dywed Lewis hefyd fod ei ddarlithiau duwinyddol yn cael eu gwerthfawrogi yn fawr. "Yn y darlithiau hyn," meddai, "gwnai sylw yn fynych ar lygredigaethau y mynachod cardotedig—ar y cyntaf mewn dull lled dyner, wedi hyny mewn dull mwy eglur a di-dderbyn-wyneb. Y mae rhai o'i draethodau wedi eu hysgrifenu, dybygid, tua'r pryd hwn, er nad oes genym brawf pendant o hyny."

Y ffaith sicr nesaf y gwyddys am dani yn ei hanes ydyw ei bennodiad, yn Ngorphenaf, 1374, yn un o aelodau y genadwriaeth a anfonodd Iorwerth III. at y pab Gregory XI., yr hwn a breswyliai yr adeg hono yn Avignon, i geisio dyfod i gyd-ddealltwriaeth âg ef ynghylch yr arferiad o dalu teyrnged, a phethau ereill, yn erbyn pa rai yr oedd senedd Lloegr wedi pasio amryw gyfreithiau a phenderfyniadau yn ddiweddar; ac yn enwedig y cyfreithiau yn dwyn perthynas â gwaith y pab yn enwi rhai i fywoliaethau cyn marwolaeth perigloriaid, ac hefyd â charcharau a dirwyon (*statutes of provisors and præmunire*) a basiwyd yn 1350. Yr oedd y dewisiad o Wickliff yn amlygiad o ddoethineb, yn gystal ag o barch iddo, ar du y goron; o herwydd ni allesid cael neb a edrychai yn fwy dibris ar honiadau y pab, oedd yn casau ei orthrwm yn fwy, na neb oedd yn fwy annhebyg o gymmeryd ei ddylanwadu gan lwgrwobrwyon. Y mae y ffaith fod enw Wickliff yn sefyll yn ail yn rhestr y ddirprwyaeth frenhinol (yr enw cyntaf oedd yr eiddo John, esgob Bangor) yn arwydd o'r cymmeriad uchel yr oedd wedi ei ennill erbyn hyn. Penderfynwyd fod y gynnadledd i eistedd yn Burges; a therfynodd yr ymdrafodaeth a ddygwyd yn mlaen ynddi mewn ysgafnhau, i raddau, y beichiau y cwynid o'u plegid. Ond tybir fod casineb Wickliff at drefniadau eglwysig yr amseroedd hyny wedi cynnyddu yn fawr mewn canlyniad i'w ymweliad â Rhufain ac â llys y pab. Daeth yno i gydnabyddiaeth mwy â chynllwynion ac â dichellion y Babaeth; ac o'r pryd hwnw, yr oedd yn ei ddarlithiau a'i bregethau yn defnyddio mwy o'i hyawdledd yn erbyn camarferion ac anghyssonderau gwrthun y Pabyddion. Ceryddai, yn yr iaith lymaf, fywyd penrhydd y clerigwyr, ac ymosodai yn ddidrugaredd ar yr athrawiaethau anysgrythyrol a gyhoeddid ganddynt. Nid oedd chwaith yn cyfyngu ei gyhuddiadau at eu balchder, eu cribddeiliaeth, a'u diogi; ond cyhuddai hwynt o anwybodaeth, hunanolrwydd dichellgar, a rhagrith, ac hefyd o esgeuluso cyflawni eu dyledswyddau crefyddol, rhag y buasai hyny yn attalfa i'w manteision bydol. Ië, a dyrchafai ei lef yn erbyn hyd yn oed y pab ei hun.

Yn 1375, pennodwyd ef gan y brenin yn gorberiglor eglwys Westbury yn esgobaeth Worcester; a thua'r un amser, fel yr ymddengys, y cyflwynwyd iddo berigloriaeth Lutterworth, yn swydd Leicester—a ddisgynasai y tro hwn i ran y goron i'w chyflwyno, o blegid fod Arglwydd Henry de Ferrars, o Groby, ei noddwr, yn digwydd bod o dan oed. Tybia Lewis i Wickliff adael Rhydychain y pryd hwn, neu o leiaf ei fod yn wastad yn aros yn Lutterworth yn ystod yr amser pan nad oedd yr efrydwyr yn Rhydychain. "Yma," medd efe, "fel yr ymddengys oddi wrth ei bregethau, sydd etto mewn llawysgrif, y cyflawnodd efe waith pregethwr yn y modd mwyaf diwyd ac addysgiadol—nid yn unig ar y Sabbothau, ond hefyd ar ddyddiau gwyliau yr Eglwys; ac yr oedd gyda hyny yn fugail diwyd a gofalus. Y mae tua thri chant o'r pregethau hyn o'i eiddo ar gael etto mewn llawysgrifen.

Fel y cyfeiriwyd o'r blaen, llefarai ei syniadau yn rhydd ac agored yn erbyn y pab a'r Eglwys Babaidd. Y mae Lewis yn dyfynu yr ymadrodd canlynol o un o'i ysgrifeniadau, neu ei ddarlithiau, yn fuan ar ol ei ddychweliad o Rufain, lle y geilw efe y pab yn "anghrist—offeiriad balch a bydol Rhufain—a'r mwyaf ofnadwy o'r holl ysbeilwyr." Y canlyniad o hyn fu—mewn cynnadledd o'r clerigwyr, a gynnaliwyd ar y 3ydd o Chwefror, 1377, penderfynwyd anfon gwŷs iddo i ymddangos yn St. Paul ar y 19eg o'r un mis, i atteb y cyhuddiad o gynnal cyfarfodydd yn y rhai y cyhoeddai athrawiaethau cyfeiliornus a hereticaidd. Ymddengys mai camgymmeriad o eiddo Lewis ydyw tybied i hyn gymmeryd lle yn y fl. 1378. Ymddangosodd Wickliff ar y dydd appwyntiedig, a chydag ef John o Gaunt, y duc o Lancaster, ac Arglwydd Henry Percy, cadlywydd y deyrnas. Bu dadl fawr rhwng y pendefigion hyn a Courtney, esgob Llundain:—torodd y dyrfa, yr hon oedd yn lliosog iawn, allan mewn terfysg; a'r canlyniad a fu, fod y llys wedi cyfodi heb wneyd dim. Ymddengys fod y lliaws yn cefnogi yr esgob yn erbyn Gaunt a Wickliff. Sonia Vaughan am gyfeiriad a wnaeth y diweddaf yn senedd gyntaf Richard II., yr hon a gyfarfu yn mis Hydref, 1377, at y pwngc o hawl y deyrnas i gadw ei thrysor, pan yr oedd arni ei angen er ei hamddiffyniad ei hun, er i'r trysor gael ei hawlio gan y pab; ac hefyd iddo ysgrifenu amddiffyniad i'r hawl hono. Tybia ereill iddo ysgrifenu y fath bapur, ond nid mewn ufudd-dod i gais y senedd. Bydded hyn fel y bo, dechreuodd fod yn wrthddrych mwy o erledigaeth. Derbyniodd archesgob Caergaint ac esgob Llundain bab-archiad oddi wrth y pab Gregory, ar yr 22ain o Fai, 1377, yn eu cyfarwyddo i wysio Wickliff o'u blaen; ac anfonwyd archiadau ereill, wedi eu dyddio yr un pryd, i'r brenin, yn deisyf ei ffafr a'i gynnorthwy yntau yn yr achos; ac i brifysgol Rhydychain, yn dymuno ar iddi hithau dynu ei

Digitized by Google

Luther o'r Ysgrythyrau i'r Almaenaeg yn hanes yr iaith hono. Yr oedd y diwygiwr wedi cwblhau ei waith mawr erbyn 1382; ond ar ol gorphen y cyfieithiad, yr oedd yr anhawsderau i'w gyhoeddi yn dechreu. Nid oedd y gelfyddyd o argraphu wedi ei dyfeisio y pryd hwnw, nac un llyfrwerthwr a chyhoeddwr i ofalu am ledaeniad llyfrau: gwaith y cymmerai yr awdwr ei hun ei ofal oedd hyn. Yr oedd y dull o gyhoeddi llyfrau y pryd hwnw yn amrywiol. Ymddengys mai yr un mwyaf cyffredin oedd rhoddi copi o'r gwaith mewn rhyw fynachlog, neu yn llyfrgell rhyw goleg, lle y byddai croesaw i bawb ddyfod i'w ddarllen; ac os dymunent, i ysgrifenu copi o hono at eu gwasanaeth eu hunain. Arferai ereill sefyll mewn croesffyrdd, neu leoedd cyhoeddus ereill, i ddarllen rhanau o'u gwaith i'r rhai a ddymunent wrandaw arnynt, a gallai y rhai a ewyllysient brynu copi at eu gwasanaeth eu hunain. Ond yr oedd y dyddordeb yn ngwaith Wickliff y fath fel nad oedd raid iddo ef wneuthur hyn. Er fod ugeiniau o ysgrifenwyr celfyddgar yn ei gopïo, nid oeddynt o lawer yn gallu diwallu y galw oedd am dano. Archai rhai gopïau cyflawn, tra yr oedd ereill yn boddloni ar ranau o hono; ac yn fynych yr oedd yr un copi yn gwasanaethu i amryw deuluoedd. Rhwng pob peth, cafodd cyfieithiad Wickliff o'r Beibl ledaeniad helaeth mewn ychydig amser.

Y Saesneg oedd yr iaith ddiweddar gyntaf i ba un y cyfieithwyd yr Ysgrythyrau; ac yr oedd cyhoeddiad Gair Duw yn iaith y bobl gyffredin yn peri gofid dwys i awdurdodau yr Eglwys Babaidd. Ac fel y canlyn y rhoddwyd amlygiad i'r teimlad hwn gan un o honynt, sef Henry de Knighton, canon Leicester:—"Cyflwynodd Crist," medd efe, "ei efengyl i'r clerigwyr, ac i ddoctoriaid yr eglwys, fel y byddai iddynt hwy gyfranu o honi i'r lleygwyr a phersonau gwanach, yn ol sefyllfa yr amseroedd ac angenion dynion. Ond y mae Meistr John Wickliff wedi ei chyfieithu o'r Lladin i'r Saesneg, ac felly y mae yn fwy agored i'r lleygwyr, ac i ferched sydd yn medru darllen, nag oedd gynt i'r rhai dysgedicaf o'r clerigwyr; ie, hyd yn oed i'r rhai yn perchen y deall cryfaf. Ac yn y modd hwn y mae gemau yr efengyl yn cael eu taflu allan, a'u mathru o dan draed moch; a'r hyn oedd gynt yn werthfawr i'r clerigwyr a'r lleygwyr yn cael ei wneyd megys yn destyn cellwair iddynt!" Cyfododd yr offeiriaid a'u canlynwyr yn uchel yn erbyn y diwygiwr fel heretic a dyn ansanctaidd; ac yr oedd raid iddo wynebu yr ystorm ei hunan. Ond teimlai ef yn dawel yn wyneb y cwbl, a thaflai yn ol i wyneb ei wrthwynebwyr y cyhuddiadau a ddygid i'w erbyn. "Chwi a ddywedwch," meddai efe, "ei fod yn heresi i sôn am yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn y Saesneg. Yr ydych yn fy ngalw i yn heretic o herwydd i mi gyfieithu y Beibl i iaith gyssefin y bobl. A wyddoch chwi pwy yr ydych yn ei gablu? Oni roddes yr Ysbryd Glân Air Duw ar y cyntaf yn iaith gyssefin y cenhedloedd, i ba rai yr ysgrifenwyd ef? Pa ham yr ydych chwi yn llefaru yn erbyn yr Ysbryd Glân? Chwi a ddywedwch fod eglwys Dduw mewn perygl oddi wrth y llyfr hwn. Pa fodd y gall hyny fod? Onid o'r Beibl yn unig yr ydym yn dysgu fod Duw wedi sefydlu y fath gymdeithas ag ydyw yr eglwys ar y ddaear? Onid y Beibl sydd yn rhoddi ei holl awdurdod i'r eglwys? Onid y Beibl sydd yn rhoddi ar ddeall i ni pwy ydyw adeiladydd a Phen yr eglwys—beth yw y cyfreithiau â pha rai y llywodraethir hi, ac iawnderau a rhagorfreintiau ei haelodau? Heb y Beibl, pa freinlen sydd gan yr eglwys i'w ddangos am hyn oll? Chwychwi sydd yn gosod yr eglwys mewn enbydrwydd trwy guddio yr awdurdod ddwyfol, cenadwri frenhinol ei Brenin, yr hwn sydd yn sail i'r awdurdod a ymarferir ganddi, a'r ffydd a ddysgir ynddi."

Er fod Wickliff yn awr yn tynu yn mlaen mewn dyddiau, ei iechyd hefyd yn gwanhau, a'i fywyd wedi bod yn un llafurus; etto ni theimlai fod yr adeg iddo noswylio wedi dyfod. Penderfynodd lefaru ac ysgrifenu yn erbyn athrawiaethau yr Eglwys Babaidd. Ac er ymosod ar un athrawiaeth neillduol, efe a alwodd allan ei holl nerth, sef yr athrawiaeth o draws-sylweddiad, neu athrawiaeth y presennoldeb corphorol yn y cymmun—un o brif gyfeiliornadau y Babaeth. Yn gynnar yn y fl. 1381, gosododd Wickliff ddeuddeg o osodiadau i fyny mewn lleoedd cyhoeddus yn Rhydychain yn gwadu yr athrawiaeth o draws-sylweddiad, ac yn gwahodd pwy bynag a farnai yn wahanol i ddadleu y mater gydag ef. A mawr y cyffro a barodd hyn yn Rhydychain. Ond er fod pawb yn tystio fod y diwygiwr yn cyhoeddi heresi, nid oedd neb yn barod i dderbyn yr herfeiddiad. Ond gwysiodd William de Barton, canghellydd y brifysgol, ynghyd gynghor o ddeuddeg—pedwar o ddoctoriaid lleygol, ac wyth o fynachod. Ac yn unfrydol pasiodd y cynghor hwn ddedfryd gondemniol ar opiniynau Wickliff fel rhai hereticaidd, a bygythid cospi pwy bynag a'u dysgai, neu a wrandawent ar ereill yn eu dysgu. Yna galwyd y cynghor hwn ynghyd, dybygid, yn ddirgelaidd, canys ni wyddai Wickliff am dano; a phan yr oedd yn egluro natur y cymmun i'r efrydwyr yn ystafell y dosbarth, agorwyd y drws, a gwnaeth cenad oddi wrth y cynghor ei ymddangosiad, yr hwn a ddarllenodd ddedfryd y doctoriaid. Archai y ddedfryd i Wickliff fod yn ddistaw ar y pwngc o draws-sylweddiad, o dan boen carchariad, a'i ddiosg o'i swydd o athraw, a'i esgymmuno. Yr oedd hyn yr un peth a'i yru ymaith o'r brifysgol. "Ond chwi a ddylech," ebe Wickliff, "yn gyntaf ddangos fy mod yn cyfeiliorni." Rhoddwyd ar ddeall iddo, fodd bynag, fod yn rhaid iddo naill ai ymostwng i ddedfryd y llys, neu ddioddef y gosp. "Gan hyny," ebe yntau, "yr wyf yn appelio at y brenin a'r senedd." Ond yn gymmaint ag nad oedd y senedd yn cyfarfod am rai misoedd wedi hyny, ymneillduodd Wickliff i Lutterworth, ac yno yr oedd y tu allan i gylch awdurdod y canghellydd. Treuliodd ei amser yno mewn tawelwch, gan ddysgu i'w wrandawyr yr athrawiaethau hyny y teimlai efe mor selog drostynt.

Ond cyn i Wickliff gael dwyn ei appeliad o flaen y senedd, yr oedd terfysg wedi tori allan yn Lloegr yn mysg y werin, o dan arweiniad un o'r enw Wat Tyler, a mynach llygredig o'r enw Ball. Ni chyfyngwyd y terfysgoedd hyn i Loegr yn unig, ond cafodd Ffraingc, a gwledydd ereill ar y Cyfandir, deimlo oddi wrthynt. Ar er nad oedd dim yn yr addysg a gyfranai Wickliff yn tueddu i gyffroi y cyfryw derfysgoedd, etto gwasanaethai amcanion ei elynion i geisio gosod yr achos o honynt wrth ei ddrws ef. Nid oes angen amddiffyn y diwygiwr enwog rhag y cyhuddiad disail hwn. Yn y terfysg, daliwyd Sudbury, archesgob Caergaint, a lladdwyd ef. A'r hwn a ddyrchafwyd i'w le oedd Courtney—gelyn penderfynol Wickliff. Yr oedd y blaenaf

Digitized by Google

i'w attal. Gadawodd Rydychain, ac ymneillduodd i'w berigloriaeth yn Lutterworth.

Yr oedd efe yn gweithio mwy yn awr gyda'i ysgrifell nag erioed. Yn wir, y mae y gwaith y tybir iddo ei gyflawni y pryd hwn o'r bron yn anghredadwy: ond ymddengys iddo, yr adeg yma, dderbyn gwŷs oddi wrth y pab, Urban VI., i ymddangos yn Rhufain, i atteb am ei heresi yno. Yr oedd sefyllfa ei iechyd, fodd bynag, y fath fel nas gallai efe feiddio gwynebu y fath daith, gan ei fod wedi cael ei daro â'r parlys; a buasai y daith, dan yr amgylchiadau, yn beryglus i'w fywyd. Ond ysgrifenodd lythyr, yr hwn, er ei fod yn finiog ei sylwadau, oedd yn hynod grefyddol a Christionogol ei ysbryd; a diammheu fod y pab a'i gardinaliaid wedi teimlo mwy oddi wrth lythyr wedi ei ysgrifenu yn y fath ysbryd na phe buasai yn fwy gerwin. Un o'r pethau cyhoeddus diweddaf a wnaeth Wickliff oedd hyn: ac nid hir y bu fyw ar ol hyny. Yn gymmaint a'i fod wedi sefyll yn hyf a gwrol yn erbyn yr awdurdodau eglwysig, a bod yr archesgob, y brenin, a'r pab yn wrthwynebwyr penderfynol iddo, nid oedd yn disgwyl dim amgen nag y buasai yn rhaid iddo selio ei dystiolaeth i'r gwirionedd â'i waed. A rhyfeddod fawr oedd fod dyn a wnaeth y gwaith a gyflawnodd efe, ac a safodd, fel y safodd efe, yn bleidiwr diildio i'r gwirionedd, ac i argyhoeddiadau ei gydwybod, wedi cael marw yn dawel ar ei obenydd, pan yr ystyrir gelyniaeth mawr yr 'offeiriaid' yn ei erbyn. Ar y Sabbath olaf o 1384, yr oedd i weinyddu y cymmun yn eglwys Lutterworth; a phan yn dechreu ar y gwaith, tarawyd ef y drydedd waith gan y parlys, a syrthiodd i lawr yn y man y safai. Cariwyd ef i'w dŷ, ac i'w wely, a bu farw ar yr 31ain o Ragfyr—y dydd olaf o'r fl. 1384, yn 60ain mlwydd oed.

Bu marwolaeth Wickliff yn achlysur o orfoledd mawr i'r Pabyddion mwyaf dallbleidiol, fel y gwelir oddi wrth yr ymadroddion canlynol a ddefnyddiwyd gan un o honynt, o'r enw Walsingham:—"Yr oedd sôn ar led," medd efe, "ei fod wedi darparu achwyniadau a chableddau, y rhai yr oedd yn bwriadu (ar y diwrnod y cymmerwyd ef yn glaf) eu traethu yn erbyn Thomas à Becket, sant a merthyr y diwrnod; ond trwy farn Duw, tarawyd ef yn ddisymmwth, ac ymaflodd y parlys yn ei aelodau." Yna y mae yn myned yn mlaen i ddyweyd mai amlygiad o ŵg a melldith Duw a'i goddiweddodd. Dengys hyn y llid oedd yn meddiannu y dyn yma yn erbyn y gwasanaethwr ffyddlawn hwn i Grist; a diammheu fod llawer ereill yn teimlo yr un modd ag ef. Tua deng mlynedd ar hugain ar ol marwolaeth Wickliff, dadganodd cynghor Pabaidd yn Constance ddedfryd yn ei erbyn, fel un wedi marw yn heretic cyndyn; gan hyny, gorchymynasant fod i'w esgyrn gael eu codi o'r bedd, a'u taflu ar y domen. Etto, ni chyflawnwyd y gorchymyn hwn y pryd hyny; ond tua thair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach, danfonodd y pab, Martin V., lythyr gorchymynol yn ei achos at Fleming, esgob Lincoln, yn yr hon esgobaeth yr oedd plwyf Lutterworth. Yn ganlynol i hyn, anfonodd yr esgob swyddogion i gyflawni yr archeb:—a chyfodasant ei esgyrn o'r bedd, a llosgasant hwynt, a bwriasant y llwch i afon a redai ger llaw. Dichon nad oes dim yn dangos i ni wir gymmeriad Wickliff fel diwygiwr yn fwy na'r casineb a'r adgasedd a amlygwyd tuag ato gan y Pabyddion mwyaf eithafol.

Yr oedd Wickliff yn meddu cyfuniad nodedig o'r ansoddau sydd yn cydgyfarfod i wneyd dyn mawr. Yr oedd yn hynod o hyddysg yn holl ddysgeidiaeth yr ysgolwyr, ac er hyny yn hollol ymarferol. Canfyddai wraidd y drygau oedd yn blino y wlad, a phenderfynodd ar y moddion i'w symmud. Y drwg mawr oedd anwybodaeth, a'r feddyginiaeth iddo oedd goleuni. Cyfieithodd Air Duw i iaith y bobl, a threfnodd i gorph o bregethwyr fyned allan i'w bregethu yn y croesffyrdd a'r heolydd, a lleoedd cyhoeddus yn y pentrefydd a'r trefydd. Yr oedd y mesurau gwleidyddol a fabwysiadodd y senedd yn erbyn gormes y pab, yn ol cynghor Wickliff, yn profi ei fod yn adnabod y Babaeth fel cyfundrefn wleidyddol. Yn ei amser ef y darfu i ryddid y wlad gael y cynnhyrfiad cryf cyntaf. Er fod y Freinlen Fawr wedi ei chaniatau gan y brenin Ioan, yr hyn a wnaeth fwyaf i wir ryddid Lloegr oedd y Beibl Saesneg! Ac un o ragoriaethau penaf y diwygiwr mawr hwn oedd ei ymostyngiad i Air Duw. Dyma a'i gwnaeth yn un o'r diwygwyr blaenaf. Credai fod y Beibl yn cynnwys dadguddiad perffaith o ewyllys yr Arglwydd, ac yn rheol berffaith o'r hyn sydd i ddyn gredu, a'i wneyd—a galwai ar bob dyn i roddi ymostyngiad llawn i'r Gwirionedd Dwyfol. Nid edrych yr oedd efe at y pab a chynghorau yr eglwys am gyfarwyddyd—ond "at y Gair, ac at y dystiolaeth" yr elai. Am ffurflywodraeth eglwysig, yr oedd yn wirfoddolwr, ac yn annibynol ei ysbryd. Yr oedd yn wrthwynebol i esgobyddiaeth, yn wrthwynebol i sefydliadau gwladol o grefydd, ac yn wrthwynebol i waddoliadau. Daliai allan y dylesid cynnal y clerigwyr â rhoddion gwirfoddol yn unig, a bod pob dyn i fod yn eglwys iddo ei hun, mor bell ag yr oedd hyny yn bossibl.

Yr oedd ysgrifeniadau Wickliff yn ddysgedig ac yn lliosog; a'r athrawiaethau a gredai yn gyffredin yn gyffelyb i'r rhai a fabwysiadwyd gan yr Eglwys Ddiwygiedig; a diammheu iddo fod yn offeryn effeithiol i ddwyn oddi amgylch y Diwygiad Protestanaidd; a phriodol y gelwir ef yn "Seren foreu y Diwygiad." Yr oedd llawer yn ei amser ef yn distaw goleddu ei syniadau, a lliosogodd y rhai hyny ar ol ei farwolaeth ef. Fel y crybwyllwyd, yr oedd ei ysgrifeniadau yn lliosog; ond bu y Pabyddion yn ofalus am losgi y rhan fwyaf, er fod rhai o honynt ar gael yn awr—rhai wedi eu hargraphu, ond ereill mewn llawysgrifen.

**WILBERFORCE, WILLIAM**: dyngarwr tra enwog. Ganwyd ef yn Hull, ar y 24ain o Awst, 1759. Yr oedd ei dad, Robert Wilberforce, yn ddyn cyfoethog, yn farsiandwr yn y dref hono, a'i hynafiaid wedi bod yn preswylio am amser maith yn yr ardaloedd oddi amgylch. Plentyn o gyfansoddiad egwan ydoedd Wilberforce, a bychan o gorph. Am rai blynyddoedd yn yr adeg hon, coleddid cryn ofnau a fuasai efe byw. Dywed ef ei hun mai trugaredd, am yr hon y dylasai fod yn ddiolchgar, oedd, "ei fod wedi ei eni ar amser pan yr oedd gwareiddiad mor uchel; gan y tybiasid gynt fod yn ammhossibl magu plentyn mor wael." Ychydig a wyddys am dymmor ei faboed, ond yn unig ei fod yn blentyn hynod serchog, a'i ddawn i siarad yn nodedig. Pan yn saith mlwydd oed, danfonwyd ef i ysgol rammadegol ei dref enedigol; lle, fel y dywed Isaac Milner, wedi hyny deon Carlisle, yr "arferid ei godi ar y bwrdd i ddarllen yn

Digitized by Google

mlaen. Yr oedd llafur Wilberforce am ugain mlynedd, tra y parhaodd yr ymdrechfa, yn ddi-ffino. Ond blwyddyn ar ol blwyddyn yr oedd ei obeithion yn cael eu gwanhau a'u hoedi. Ar un adeg, lluddiwyd ef gan arholiadau maith ar dystion; bryd arall yr oedd mwyafrif o bleid-leisiau yn cael eu cofnodi yn ei erbyn—yn awr yn Nhŷ y Cyffredin, a phryd arall yn Nhŷ yr Arglwyddi; ond er y cwbl, nid oedd yn meddwl rhoddi i fyny yr ymdrech. Ond dygodd ei gyn-nygion yn mlaen yn flynyddol. Gwnaeth am-ryw o areithiau rhagorol wrth ddwyn yr achos yn mlaen yn y senedd, a gwnaeth wasanaeth mawr iddo trwy gasglu a threfnu tystiolaethau. Nid oedd byth yn colli ei olwg ar yr un amcan mawr pan allan o'r senedd. Yn ei ymddidd-anion a'i lythyrau, ceisiai ddwyn pob plaid i'w ffafrio. Annogai weinidogion y wladwriaeth, a'i gyfeillion personol ei hun, i bleidio diddym-iad y fasnach. Ni arbedwyd dim llafur er gol-euo y wlad trwy y wasg. Gwnai Wilberforce hyn gyda'i ysgrifell ei hun, yn gystal a'r eiddo ei gyfeillion. Ar yr un pryd, yr oedd yn cadw ei sylw ar yr holl gyfnewidiadau gwleidyddol a gymmerent le gartref ac oddi cartref, ac yn barod i ddal ar bob cyfle i wellhau sefyllfa y negro-aid, trwy gario yn mlaen ymdrafodaeth â gallu-oedd tramor, a thrwy ddylanwad y llywodraeth gartrefol. Heb law y gwrthwynebiad a gafodd efe oddi wrth y rhai yr oedd eu meddiannau yn yr India Orllewinol, arweiniodd y gweithred-oedd anfad a gyflawnwyd yn adeg Chwyldroad Ffraingc, a gwrthryfel y caethion yn St. Do-mingo, lawer i gyssylltu diddymiad y gaethfas-nach â chynlluniau y Jacobiniaid. Llesteiriodd yr achos hwn yn unig yn ddiau lawer ar lwydd-iant Wilberforce a'i gydlafurwyr am dros saith mlynedd. Yn y cyfamser, er ei fod mewn ystyr foesol wedi ei gymmhwyso mewn modd arbenig i fod yn arweinydd y symmudiad yn senedd y wlad, y mae yn syndod pa fodd y gallodd, gyda'i gyfansoddiad corphorol egwan, ddal i fyny dan y llafur yr elai drwyddo. Yn ngwanwyn 1788, pan yr oedd efe yn wynebu ar waith mawr a llafurus, ymddangosai ei iechyd fel pe buasai wedi llwyr ddarfod, o herwydd diffyg treuliad ymborth. Ar ol ei archwilio, a chael ymgyng-horiad ar ei achos, darfu i'r phỳsygwr blaenaf oedd yn y wlad ddadgan wrth ei deulu, "nad oedd ganddo ddigon o nerth i fyw am fwy na phythefnos:" ac er, yn ffodus, iddo ymadferu o'i afiechyd, dywedai ei hun ar y dydd cyntaf o'r flwyddyn 1790, "Pan yn ddeng mlwydd ar hugain a hanner oed, yr wyf o ran fy nghyfan-soddiad yn drigain." Dioddefai o'i febyd oddi wrth lygaid gweiniaid; ac yr oedd ei lafur a'i ymdrechion yn cael eu lluddias yn fynych gan y gwendid hwn. Er hyny, ar ol pob siomedig-aeth yr oedd ei obeithion yn ymadnewyddu; yr oedd yn meddu yr ymddiried llwyraf y byddai i'r achos dyngarol a bleidiai lwyddo. O'r di-wedd, daeth adeg y fuddugoliaeth:—yn mis Ionawr, 1807, efe a gyhoeddodd lyfr yn erbyn y gaethfasnach, yn union yn yr adeg yr oedd y bwngc i gael ei ystyried yn Nhŷ yr Arglwyddi. Pasiodd mesur y diddymiad Dŷ yr Arglwyddi, ac yn ddilynol i hyny pasiodd drwy Dŷ y Cyff-redin hefyd, er llawenydd dirfawr i'r awdwr. Terfynodd Syr Samuel Romilly araeth hynod effeithiol o blaid y mesur trwy gymmharu "teimladau Napoleon gyda'i holl fawredd a'i allu â'r eiddo Mr. Wilberforce, yr hwn a blygai ei ben ar ei obenydd y nos hono gan deimlo nad oedd y gaethfasnach mewn bod mwyach;" ac ar hyn dywedir i'r holl aelodau dori allan mewn bloeddiadau clodforus, a llongyfarch yr aelod anrhydeddus â thair banllef. Am Wilberforce ei hun, yr oedd y cyfeiriadau tyner a wnaeth-pwyd gan Syr Samuel Romilly wedi effeithio cymmaint arno fel nad oedd yn ymwybodol o'r hyn a gymmerai le o'i gwmpas. Adref, llongyf-erchid ef gan ei deulu a'i gyfeillion; tra yr oedd barn y cyhoedd eisoes wedi ei chyhoeddi gan brif gyfnodolyn y dydd, sef yr "*Edinburgh Re-view:*"—"Bydded i'n diolch gael ei gyflwyno i'r dyn, yr hwn oedd un o gychwynwyr blaenaf, ac a fu y prif offeryn i gario yn mlaen yr ymdrechfa ogoneddus hon—a gyflwynodd ei holl ddydd-iau a'i holl dalentau i'r anturiaeth—yr hwn nad ydyw yn ceisio nac yn ymofyn dim yn gyfnewid am ei lafur ond yr ymwybodolrwydd a'r bodd-hâd o wneyd lles i'w gydgreaduriaid—yr hwn a roddodd i ddynolryw yr hyn y mae ereill wedi ei aberthu i blaid, ac a ystyriai yn fwy o an-rhydedd gael byw yn adgofion byd diolchgar na mwynhau gwobrwyon uchelgais ar faes mwy cyfyng."

Yn ysbaid yr holl amser hwn teimlai Wilber-force ddyddordeb yn holl byngciau cyhoeddus ereill y dydd. Gwrthwynebodd y rhyfel â Ffraingc, er i hyny fod yn achos i Pitt oeri yn ei gyfeillgarwch am dymmor: gwrthwynebodd y llys a'r weinyddiaeth pan yr oeddynt yn ym-drechu chwanegu at y swm blynyddol o arian a dderbyniai Tywysog Cymru; ac ymddieithrodd oddi wrth ei gyfeillion boreuol wrth gefnogi y cyhuddgŵyn yn erbyn Arglwydd Melville. Ac nid oedd neb a deimlai yn fwy na Wilberforce pan yn aberthu cyfeillgarwch mewn amgylch-iadau o'r fath. Pan y dannodwyd iddo ei fod yn anghysson âg ef ei hun wrth beidio ymuno yn yr orymdaith i St. James gyda'r anerchiad i ofyn am symmudiad Arglwydd Melville o'r weinyddiaeth, dros yr hyn y pleidleisiodd efe yn Nhŷ y Cyffredin, yr oedd ei amddiffyniad yn ardderchog:—"Nis gwn," medd efe, "pa beth a ofynai rhinwedd Spartaidd, neu falchder Stoic-aidd, oddi wrthyf; ond mi a wn y dysgir i mi wers wahanol, ie, a gwell, gan un mwy na Ly-curgus ac na Zeno. Nid ydyw Cristionogaeth yn gofyn y fath aberthau. Y mae hi yn gofyn i ni yn wir i wneyd cyfiawnder, ond geilw arnom i hoffi trugaredd hefyd. Nid wyf yn dysgu yn ei hysgol hi y gallaf ymorfoleddu, hyd yn oed uwch ben cyfaill cwympedig."

Yn nghanol ei amrywiol rwymedigaethau yr oedd wedi gwneuthur gwasanaeth cyhoeddus i grefydd. Yn y flwyddyn 1797, efe a gyhoedd-odd ei draethawd "*Practical View of the prevail-ing Religious system of professed Christians in the higher and middle classes of this Country, con-trasted with real Christianity.*" Cyfarfu y gwaith hwn â llwyddiant anghyffredinol. Aeth allan o argraph yn mhen ychydig ddyddiau ar ol ei gyhoeddi, ac mewn llai na chwe mis o amser yr oedd pump o argraphiadau (7,500 o gopïau) wedi dyfod o'r wasg. Er y pryd hwnw y mae wedi myned trwy lawer o argraphiadau yn Mhrydain ac America. Y mae hefyd wedi ei gyfieithu i'r Ffrangcaeg, yr Italaeg, yr Yspaenaeg, yr Isell-mynaeg, a'r Almaenaeg. Cydnabyddir teilyng-dod a rhagoriaeth y gwaith gan ddynion blaenaf yr oes mewn byd ac eglwys. Treuliodd y gwlad-weinydd a'r athronydd enwog, Edmund Burke, y deuddydd olaf o'i oes yn ei ddarllen, ac an-fonodd genad arbenig i ddiolch i Wilberforce am

Digitized by Google

ei ysgrifenu. Cafodd Cymdeithas Genhadol yr Eglwys, ynghyd â chymdeithasau crefyddol a dyngarol ereill, yn Wilberforce gyfaill haelfrydig a phleidiwr selog.

Yr oedd wedi cynnrychioli swydd Gaerefrog yn ystod ei yrfa seneddol. Etholwyd ef bum waith yn ddiwrthwynebiad, ac yr oedd y chwe etholiad yn rhoddi prawf cryfach ar serch ei etholwyr nag hyd yn oed eu brwdfrydedd blaenorol. Cyfodwyd tanysgrifiadau mawrion yn ddioed i amddiffyn Wilberforce yn erbyn ei wrthwynebwyr cyfoethog; a'r fath oedd sêl y rhydd-ddeiliaid i bleidleisio drosto, fel nad oedd yr holl draul o ddwyn ei fwyafrif mawr i bleidleisio ond 28,600*p.*, tra yr oedd treuliau Argl. Milton a Mr. Lascelles yn yr etholiad hwn yn 200,000*p.* O'r diwedd, pan y disgwylid toriad y senedd yn 1812, penderfynodd roddi i fyny ei sedd dros y sir, er na ddisgwylid y buasai gwrthwynebiad iddo. Yr hyn a'i harweiniodd ef yn benaf i wneyd y penderfyniad hwn oedd y galw mawr oedd ar ei amser a'i nerth mewn cynnrychiolaeth mor liosog a phwysig, a'i ddymuniad i wylio dros a gofalu am addysg ei blant.

Yr oedd wedi priodi, yn 1797, Miss Barbara Anne, merch hynaf J. Spooner, Ysw., o'r hon y bu iddo chwech o blant; ac yn 1812, yr oedd yr hynaf o honynt yn bedair ar ddeg oed. Er ei fod yn awyddus am roddi i fyny gynnrychiolaeth swydd Gaerefrog, am ei fod yn analluog i gyflawni y dyledswyddau cyssylltiedig â hi i'w foddlonrwydd ei hun, yr oedd yn anfoddlawn i ymneillduo yn hollol o Dŷ y Cyffredin; a derbyniodd gynnrychiolaeth Bramber. Ymddengys ei fod yr un mor ddiwyd yn cyflawni ei ddyledswyddau seneddol yn ei sefyllfa newydd ag oedd o'r blaen yn yr hen. Ei amcan mawr bellach oedd ceisio darbwyllo galluoedd tramor i ddilyn esampl Prydain trwy ddiddymu y gaethfasnach Affricanaidd: ac ni adawodd efe i un cyfle fyned heibio heb wneyd cais i hyrwyddo yr amcan hwn yn mlaen. Cymmerodd fantais ar adferiad y Bourboniaid yn Ffraingc, ymweliad y penaduriaid cynghreiriol â'r wlad hon, a chynnadledd Vienna, fel achlysuron ffafriol i ddwyn o flaen llywodraethau Ewrop y pwngc o ddiddymiad y fasnach. Ymdrechai, trwy ymddiddanion personol a thrwy ohebu, i blanu ei egwyddorion yn meddyliau y dynion mwyaf dylanwadol yn Ewrop. Ymohebodd â'r ymherawdwr Alexander, â brenin Prwssia, Talleyrand, y Duc o Wellington, ac Arglwydd Castlereagh. Ië, ac ni chafodd y pab lonydd ganddo; ond gwnaeth ymdrech i gael ei ddylanwad yntau i gondemnio y gaethfasnach.

Hyd y flwyddyn 1822 yr oedd ei ymdrechion cyhoeddus wedi eu cyfyngu i lethu y gaethfasnach yn gyffredinol: ond nid oedd ei olygiadau ar ddiddymiad hollol caethiwed ei hun wedi eu cadw yn hollol ddirgel; ac yn awr daeth allan i'w dadgan yn glir. Nid oedd sefyllfa ei iechyd, pa fodd bynag, gan ei fod yn gwaelu, yn caniatau iddo gyflwyno cymmaint o amser a llafur at y gwaith hwn ag at yr un blaenorol. Ymddiriedodd ei ddygiad yn mlaen yn Nhŷ y Cyffredin i Mr. Fowell Buxton; ac yn 1825, ymneillduodd o'r senedd, wedi treulio chwe blwydd a deugain yn aelod o Dŷ y Cyffredin. Treuliodd y gweddill o'i oes mewn neillduaeth cymmharol, gan gyflwyno, fel y gwnaethai trwy ei fywyd, lawer o'i amser, ac yn agos i un ran o dair o'i eiddo, i ddybenion haelionus ac elusengar. Dioddefodd yn dawel ac ymroddgar ofidiau teuluaidd a cholledion arianol; a siriolwyd ei ddyddiau diweddaf gan y ffaith fod caethiwed ar gael ei diddymu gan deyrnas Prydain. Bu farw yn Cadogan Place, Llundain, ddydd Llun, y 29ain o Orphenaf, 1833, yn 74ain mlwydd oed; ac ar eisteddiad diweddaf Tŷ y Cyffredin, y dydd Gwener cyn hyny, darllenwyd y mesur dros ddiddymiad caethiwed yr ail waith! "Diolch i Dduw," ebe Wilberforce, "fy mod wedi cael byw i weled y diwrnod pan y mae Prydain yn foddlawn i roddi ugain miliwn o bunnau er mwyn diddymu caethiwed yn ei thiriogaethau!" Claddwyd ef yn Mynachlog Westminster, a chafodd yr holl anrhydedd a berthyn i gladdedigaeth cyhoeddus; ac y mae yn yr adeilad gerflun i'w goffadwriaeth wedi ei godi.

WILBRORD: yr hwn a elwir yn gyffredin yn 'Apostol y Ffrisiaid,' ac a elwir hefyd Sant Wilbrord, oedd frodor o deyrnas Sacsonaidd Northumbria, lle y ganwyd ef, B. A. 657. Enw ei dad oedd Widgils. Rhoddwyd ef, pan yn blentyn, dan ofal mynachod mynachdy Wilfrid, ger Ripon; a bu yno hyd nes y cymmerodd lŵ yr urdd mynachol, yn yr ugeinfed flwydd o'i oedran. Tua'r pryd hwn, talodd ymweliad â'r Iwerddon, a bu yn gwrandaw ar weinidogaeth Egbert a Wigbert. Yr oedd Wigbert wedi bod yn Friesland yn pregethu Cristionogaeth am ddwy flynedd, ond heb un arwydd o lwyddiant. Arosodd Wilbrord yn yr Iwerddon am dair blynedd ar ddeg, ac yna penderfynodd wneuthur ymgais i ddychwelyd y rhai yr oedd ei athraw wedi llafurio yn ofer yn eu mysg. Ymadawodd o'r Iwerddon yn y fl. 690, gan gymmeryd gydag ef ddeuddeg o ddysgyblion. Yr oedd Pepin y pryd hwnw newydd gael goruchafiaeth ar y Ffrisiaid, a rhoddodd y gorchfygwr i Wilbrord dderbyniad cynnes. Penderfynodd yr olaf, yn chwanegol at ddylanwad Pepin, i ymdrechu cael cefnogaeth y pab; a chyda'r amcan hwn, talodd ymweliad â Rhufain yn 692. Yn mhen tair blynedd, aeth yno drachefn; a phennodwyd ef yn esgob gan y pab Sergius I., gyda'r enw eglwysig, Clement. Yn Utrecht y sefydlodd efe sedd ei esgobaeth, lle yr adeiladodd eglwys, ac yr adgyweiriodd un arall. Yn mhen rhai blynyddoedd ar ol hyn, aeth Wilbrord ar daith bregethwrol i'r wlad o amgylch ei esgobaeth. Cyrhaeddodd hyd at y Daniaid—lle, er fod y llywodraethwr, Ongend, yn arfer ei holl ddylanwad yn ei erbyn, yr enillodd amryw broselytiaid. Aeth gyda'r môr i ynys a elwid Fositisland—yr un, fel y tybir, a Heligoland. Ystyrid fod yr anifeiliaid oedd ar yr ynys hon yn gyssegredig, ac nad oeddynt i'w defnyddio yn ymborth; a thybid fod dwfr ei ffynnonau yn sanctaidd. Cyffrodd gwaith Wilbrord yn tori newyn ei ddilynwyr â chnawd yr anifeiliaid, ac yn arfer dwfr y ffynnon wrth fedyddio y dychweledigion, eiddigedd y Ffrisiaid a'u penaeth yn ddirfawr; a bu yn wrthddrych cryn ymosodiad. Ar farwolaeth Pepin, yn 714, ymaflodd Radbod, penaeth paganaidd yr ynys, yn y llywodraeth yn Friesland; ac ymddengys fod llawer o'r bobl wedi troi yn ol at baganiaeth. Ond mewn canlyniad i lwyddiant Charles Martel, adsefydlwyd dylanwad yr esgob; a bu yn llwyddiannus drachefn i ennill proselytiaid. Efe a sefydlodd fynachlog yn Epternach, ger llaw Treves; ac yno y bu efe farw, ac y claddwyd ef, yn y flwyddyn 738, yn yr 81ain mlwydd o'i oedran.

Digitized by Google

offerynoliaeth y cenhadon Anglo-Sacsonaidd. Cyrhaeddodd Wilfrid i Rufain, a chymmerodd y pab ei blaid; ond ar ei ddychweliad yn ol i Loegr, ni chymmerodd y brenin un sylw o'r hyn a gymmeradwyai y pab, a thaflwyd ef i garchar. Efe a ddiangodd oddi yno, pa fodd bynag, ac a aeth i Sussex, a phregethodd yno i'r preswylwyr paganaidd. Galwyd ef yn ol i'w esgobaeth; a gwnaed cynnygiad i'w ddyrchafu, a'i wneyd yn archesgob; ond gwrthwynebwyd ef, ar y tir o'i fod yn arweinydd i'r blaid oedd yn ffafriol i'r Babaeth; ac o'r diwedd, diswyddwyd ac esgymunwyd ef. Aeth drachefn i Rufain, lle yr arosodd am rai blynyddoedd; ond dychwelodd yn ol i Loegr yn y fl. 705, a bu farw yn Oundle, yn swydd Northampton, yn 709.

WILKES, JOHN: gwleidyddwr o gryn hynodrwydd. Ganwyd ef yn Clerkenwell, yn Llundain, ar yr 17eg o Hydref, yn y flwyddyn 1727. Darllawydd oedd ei dad, yr hwn a roddodd iddo addysg dda. Ar ol bod rai blynyddoedd mewn ysgolion yn Hertford a swydd Buckingham, anfonwyd ef i brifysgol Leyden. Ar ei ddychweliad yn ol i Loegr yn 1849, efe a briododd foneddiges o'r enw Miss Mead, yr hon oedd yn meddu eiddo, ond yn ddeng mlynedd hynach nag ef. Darfu i'w ddysg, ei ffraethineb, a'i garedigrwydd, yn ei dŷ ac wrth ei fwrdd, ddwyn iddo lawer o gyfeillion; ond o herwydd ei afradlonedd a'i wastraff, arweiniwyd ef yn fuan i gyfyngder. Ymwahanodd ei briod ac yntau. Ar gynghaws cyfreithiol a ddygwyd yn mlaen, daeth ffeithiau i'r golwg oedd yn hynod ddiraddiol i'w gymmeriad. Er hyn oll, enwyd ef yn uchel sirydd swydd Buckingham yn 1757, a chafodd ei ddychwelyd i'r senedd yn aelod dros Aylesbury. Fel aelod o Dŷ y Cyffredin, efe a ymunodd gyda'r lliaws yn eu hymosodiad ar weinyddiaeth Arglwydd Bute; ac yn Mehefin, 1762, dygodd allan newyddiadur a elwid *North Briton*, yn yr hwn y gwnaed y fath ymosodiadau ar ei arglwyddiaeth fel yr ymddiswyddodd yn fuan o herwydd ei ammhoblogrwydd mawr yn y wlad. Ymosodwyd yr un mor chwerw ar y weinyddiaeth ddilynol; ac awgrymid, er fod Mr. Grenville yn brif weinidog mewn enw, fod Arglwydd Bute yn meddu dylanwad mawr ar y brenin. Yn rhifyn 45 o'i newyddiadur, efe a gyhuddodd y brenin o fod wedi dyweyd yr hyn nad oedd wir yn ei araeth o'r orsedd; ac mewn canlyniad i hyny, rhoddwyd gwŷs gyffredinol allan i ddal awdwyr, argraphwyr, a chyhoeddwyr y *North Briton*. Yn rhinwedd y wŷs hon, aed i dŷ Wilkes, a chymmerwyd ei bapurau oddi arno. Cymmerwyd ef i'r Twr ar wŷs gyffredinol; ond rhyddhawyd ef gan y prif farnwr Pratt, ar y sail o'i fod yn aelod seneddol. Llosgwyd y *North Briton* yn gyhoeddus, drwy orchymyn Tŷ y Cyffredin, ond cymmerodd terfysg le mewn canlyniad; yr hyn a ddengys fod cydymdeimlad y cyhoedd i raddau pell gyda Wilkes. Ar hyn, dygodd y diweddaf gynghaws cyfreithiol yn erbyn is-ysgrifenydd cartrefol y wladwriaeth am gymmeryd ei bapurau oddi arno; a phan y daeth y prawf yn mlaen, cafodd ddedfryd y rheithwyr yn ei ffafr, a derbyniodd 1,000*p*. o iawn gan y llywodraeth. Ar yr achlysur hwn, dadganodd y prif farnwr Pratt, yr hwn a elwid wedi hyny Arglwydd Camden, fod gwŷsiadau cyffredinol, o nodwedd yr hon a weinyddwyd arno ef yn yr amgylchiad hwn, yn anghyfansoddiadol ac yn anghyfreithlawn.

Yn y cyfamser, yr oedd Wilkes wedi ei alw gan Dŷ y Cyffredin i atteb y cyhuddiad o fod yn awdwr y cabldraeth; ond ymesgusododd, o herwydd y boen a ddioddefai oddi wrth archoll a gawsai wrth ymladd gornest. Yn fuan ar ol hyn aeth i Ffraingc, ac anfonodd at lefarydd Tŷ y Cyffredin dystysgrif feddygol yn hysbysu fod ei iechyd yn wan, ac felly ei fod yn analluog i ymddangos o flaen y Tŷ. Ni dderbyniwyd ei esgusawd; ond cariwyd yn mlaen yr ymchwiliad i awduriaeth yr erthygl yn y *North Briton;* ac wedi cael prawf digonol mai Wilkes oedd yr awdwr, torwyd ef o fod yn aelod, ar y 19eg o Ionawr, 1764. Ar yr 21ain o Chwefror, condemniwyd ef yn y brenin-lys, am ail gyhoeddi rhifyn 45 o'r *North Briton*, ac argraphu a chyhoeddi pryddest, neu gân, a elwid "*Essay on Woman.*" Cân aflan oedd y ddiweddaf, nad oedd efe wedi argraphu ond deuddeg copi o honi; ond gallodd argraphydd fu yn gweithio iddo gael un o honynt yn lladradaidd. Trwy ei gospi am anfoesoldeb, disgwyliai gweinidogion y llywodraeth y gallasent hwy oeri brwdfrydedd y bobl; ond darfu i'r modd a ddefnyddiwyd i gael gafael yn y llyfr, beri i ddigllonrwydd y bobl yn erbyn y llywodraeth gynnyddu, yn gystal a chwanegu eu cydymdeimlad o blaid yr hwn a gospid. Arosodd Wilkes ar y Cyfandir am rai blynyddoedd; ond yn nechreu y fl. 1768, efe a ddychwelodd i Loegr; ac yn mis Mawrth, efe a ymddangosodd yn ymgeisydd am aelodaeth seneddol dros ddinas Llundain. Ond er fod y bobl gyffredin yn selog drosto, nis gallodd gael mwyafrif o'i du. Yna dadganodd ei hun yn ymgeisydd am swydd Middlesex; ac ar yr 28ain o'r mis, dychwelwyd ef gyda mwyafrif mawr. Cymmerodd terfysg mawr le ar y ddau etholiad; a dywed plaid y llys fod y ddinas, ac hyd yn oed palas y brenin, mewn perygl. Ar ol yr etholiad, daliwyd ef, gan ei fod allan o nawdd y gyfraith (yn *outlaw*); ac ar ei ffordd i'r carchar, rhyddhawyd ef trwy drais gan y lliaws. Wedi i'r bobl chwalu, pa fodd bynag, efe a aeth yn dawel i'r carchar, ac a roddodd ei hun i fyny i'r awdurdodau. Pan ymgynnullodd y senedd, ymgasglodd tyrfa fawr er ymffurfio yn osgordd iddo i Dŷ y Cyffredin. Cymmerodd terfysg le. Gorchymynwyd i'r milwyr danio ar y bobl yn St. George's Fields; a chlwyfwyd llawer o bersonau, a lladdwyd un. Dychwelodd y rheithwyr a eisteddasant ar y trengholiad y rheithfarn o lofruddiaeth wirfoddol yn erbyn yr ustus a orchymynodd i'r milwyr danio; a phrofwyd ef ar y cyhuddiad, ond rhyddhawyd ef. Galwyd yn ol y ddedfryd o ddinoddiad gan Arglwydd Mansfield; ond traddodwyd barn arno am y ddau gabldraeth, a dedfrydwyd ef i dalu dwy ddirwy o 500*p*. yr un, ac i gael ei garcharu am ddeng mis am un, a deuddeg am y llall. Cafodd Wilkes afael mewn copi o lythyr a ysgrifenwyd gan Arglwydd Weymouth at gadeirydd brawdlys chwarterol Lambeth, cyn adeg terfysg St. George's Fields; yn yr hwn yr oedd y pendefig hwnw yn cymmeradwyo y gwaith o ddefnyddio y milwyr i roddi i lawr derfysgoedd yn Llundain. Cyhoeddwyd y llythyr gan Wilkes gyda rhagymadrodd, yn yr hwn y cyhuddodd ysgrifenydd y wladwriaeth o "gynllunio a phenderfynu dwyn oddi amgylch y gyflafan ofnadwy yn St. George's Fields," dair wythnos o amser cyn i hyny gymmeryd lle. Cwynai Arglwydd Weymouth o herwydd y cyhoeddiad o hono yn Nhŷ yr Arglwyddi. Anfonwyd cŵyn hefyd i

Digitized by Google

olynol i Arglwydd Say, Arglwydd Berkeley, a Charles, brein-iarll y Rhine—yn mhreswylfod yr hwn y bu yn aros am amser tra y bu yn Lloegr. Medrusrwydd Wilkins mewn mesuroniaeth a barodd i'r pendefig hwn gymmeryd dyddordeb neillduol ynddo. Ysgrifenodd amryw draethodau byrion y pryd hwn ar anianyddiaeth beirianyddol. Yr oedd ei addysg foreuol wedi rhoddi gogwyddiad Puritanaidd i'w egwyddorion crefyddol; ac ar doriad allan y rhyfel cartrefol, cymmerodd ochr gyda'r senedd a'r Presbyteriaid, a daeth yn un o'r rhai a ymunodd yn y Cynghrair a'r Cyfammod Difrifol. Yr oedd Wilkins yn cymmeryd rhan flaenllaw yn y cyfarfodydd a gynnaliwyd yn Llundain, y y rhai a arweiniasant i sefydliad y Gymdeithas Frenhinol. Ac yn ol tystiolaethau Sprat a Wallis, efe oedd prif gefnogwr y cyfarfodydd hyn—o ba rai yr oedd pob dadleuon gwleidyddol a duwinyddol yn cael eu cau allan, ond pob cangen o anianyddiaeth naturiol yn cael ymdriniaeth parod. Yn y fl. 1648, etholwyd ef yn warden coleg Wadham; ac yn niwedd y fl. 1649, cymmerodd lŵ o ffyddlondeb i'r llywodraeth newydd. Ar ol ei symmudiad o Lundain, yr oedd efe yn analluog i fod yn bresennol yn nghyfarfodydd y gymdeithas y sonir am dani uchod; ond bu yn offeryn i sefydlu un gyffelyb iddi yn Rhydychain. O ddeutu y flwyddyn 1656, priododd Wilkins gyda Robina, gweddw Peter French, a chwaer i Oliver Cromwell; gan yr hwn y cafodd oddefiad i gadw ei wardeiniaeth, er fod y rheolau yn gofyn i'r swyddog hwnw fod yn ddibriod. Yn gynnar yn y fl. 1659, ar ol marwolaeth Oliver Cromwell, pennodwyd Wilkins yn feistr Coleg y Drindod, Caergrawnt, gan Richard Cromwell; a gwnaeth ei oreu yno i fagu chwaeth at anianyddiaeth naturiol, yn gystal ag i feithrin ysbryd o haelfrydigrwydd yn mysg gwahanol bleidiau. Ar yr adferiad, yn y flwyddyn ddilynol, diswyddwyd ef yn Nghaergrawnt, a bu am beth amser allan o ffafr y llys ac archesgob Caergrawnt, o herwydd ei gyssylltiad priodasol. Pan yr oedd ei amgylchiadau yn lled isel, dewiswyd ef yn bregethwr Cymdeithas Gray's Inn; a thrwy hyn, dygwyd ef drachefn i breswylio i Lundain, a chymmerodd ran flaenllaw yn ngweithrediadau y gymdeithas anianyddol, â'r hon yr oedd efe wedi bod mewn cyssylltiad blaenorol, yr hon erbyn hyn oedd wedi cymmeryd ffurf mwy rheolaidd. Cyflwynwyd iddo beriglorieth St. Lawrence, Jewry, gan y goron; ac ar sefydliad y Gymdeithas Frenhinol yn y flwyddyn ddilynol, gwnaed ef yn aelod o'r cynghor. Wedi cael ffafr y llys, dyrchafwyd ef yn ddeon Ripon; ac yn 1868, cafodd ei bennodi yn esgob Caerlleon. Dywedir iddo gael yr esgobaeth hon trwy ddylanwad y duc o Buckingham—nid yn unig heb gydsyniad, ond yn groes i ewyllys yr archesgob Sheldon; yr hwn, ar ol dyfod i'w adnabod yn well, a gyfaddefodd fod y rhagfarn a deimlai yn ei erbyn yn hollol ddisail. Bu farw Wilkins ar y 19eg o Dachwedd, 1672, yn 58ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn eglwys St. Lawrence, Jewry.

Gwnaeth opiniynau Wilkins ar gwestiynau eglwysig ef yn agored i gryn feirniadaeth; ond yr oedd hyd yn oed ei wrthwynebwyr yn dwyn tystiolaeth i'w dalentau gwych. Fel y canlyn y dywed Anthony Wood am dano:—"Yr oedd yn ddyn o alluoedd anghyffredin, yn dduwinydd ac yn bregethwr tra rhagorol, yn feirniad manwl, yn fesuronydd ac arbrofiedydd galluog, ac mor gyfarwydd â gallofyddiaeth ac athronyddiaeth a neb yn ei oes." Dywed hefyd yn mhellach:—"Nid oedd dim yn ddiffygiol ynddo, ond ei fod yn lled ansefydlog yn ei feddwl a'i egwyddorion;" ac y mae ysgrifenwyr ereill yn cyfeirio at ei gymmeriad mewn ymadroddion cyffelyb. Yr hyn a roddir yn ei erbyn yn benaf gan rai Eglwyswyr a gymmerant olwg anffafriol arno ydyw, ei ysbryd cymmedrol a goddefol tuag at Ymneillduwyr, a'i barodrwydd i dyngu llŵ o ffyddlondeb i unrhyw lywodraeth a ddigwyddai fod mewn awdurdod; ond cydnabyddir ei fod yn ddyn caredig, ac yn meddu digon o ddewrder i'w alluogi i sefyll yn wyneb y mân gyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn. Y mae rhai o weithiau Wilkins yn hynod gywrain; ond fel y gellid disgwyl oddi wrth sefyllfa gwyddoniaeth yn ei oes ef, cynnwysant lawer o bethau dychymygol ac anghysson. Ei brif weithiau ydynt y rhai canlynol:—"*Discovery of a New World;*" "*Discourse concerning a New Planet;*" "*Mercury, or the Secret and Swift Messenger;*" "*Mathematical Magic;*" "*Essay towards a Real Character and a Philosophical Language;*" heb law pregethau ar amrywiol faterion, a Thraethawd ar Egwyddorion a Dyledswyddau Crefydd Naturiol.

WILLIAM, Y TYWYSOG O ORANGE: sylfaenydd annibyniaeth yr Iseldiroedd: a anwyd yn Dillenberg, Ebrill 16eg, 1533. Mab oedd i William, ail fab y Count John o Nassau Dillenberg, yr hwn a ddaeth i berchenogaeth o feddiannau Almaenaidd y teulu; a daeth ei frawd hynaf, Henry, i feddiant o'r etifeddiaethau helaeth yn Luxemburg, Brabant, Flanders, a Holland. Trwy ei briodas â Claudie o Chalons, daeth Henry i feddiant hefyd o dywysogaeth fechan werthfawr a dymunol Nassau, yn chwanegol at ei feddiannau eang ereill; ond gan i'w fab, Rene, farw yn ddiblant, efe a adawodd Orange, yn gystal a'i etifeddiaethau yn yr Iseldiroedd, i William yn 1546. Yr oedd William wedi byw yn Dillenburg dan ofal ei dad, yr hwn oedd yn Lutheriad selog; ond pan ddaeth yn un o'r arglwyddi mwyaf ei awdurdod yn yr Iseldiroedd, anfonwyd ef i lys y frenhines raglaw yn Brussels, a dygwyd ef i fyny yno yn y grefydd Babaidd. Pan yn bymtheg mlwydd oed, cymmerwyd ef i wasanaeth yr ymherawdwr, Siarl V.; ac yr oedd yn rhagweled yn y bachgen arwydd o'r gwladweinydd dyfodol, yn gwylio yn ofalus ddadblygiad ei gymmeriad, yn caniatau iddo fod yn bresennol pan y derbyniai lysgenhadwyr gwledydd tramor, ac yn dadguddio iddo ei ddirgelion. Ac yr oedd William yn deilwng o'i ymddiried, yn gymmaint a'i fod yn arfer ei ddoethineb i beidio siarad yn y fath fodd fel yr oedd eisoes wedi ennill iddo ei hun yr enw "y Distaw;" ac nid oedd yr ymherawdwr yn cywilyddio i gydnabod yn gyhoeddus ei fod yn ddyledus i ddyn mor ieuangc ag efe am lawer o awgrymiadau a ddiangodd ei graffder a'i synwyr ef ei hun. Yn ngweithred gyhoeddus olaf ei fywyd, pan y rhoddodd i fyny ei orsedd i'w fab, Phylip II., pwysai Siarl ar fraich William o Orange: ac iddo ef hefyd, er nad oedd ond yn y drydedd flwydd ar hugain o'i oedran, y darfu i'r penadur oedd yn ymddiswyddo gyflwyno y genadwri anrhydeddus o drosglwyddiad ei goron ymherodrol i'w frawd, Ferdinand.

Ymddengys fod syniadau Siarl am dano yn

Digitized by Google

yn parhau i gael ei gydnabod yn benadur gan y lleill. Nid oedd William, pa fodd bynag, ar ol iddo ymdrechu ac ymladd am amser maith dros ryddid ei wlad, i fwynhau am dymmor maith yr anrhydedd a osodwyd arno; o herwydd, ar y 15fed o Fawrth, 1580, darfu i Phylip, yn ol cynghor Granville, addaw 25,000 o goronau (5,000*p.*, yr hyn yn y dyddiau hyny oedd yn swm mawr iawn) i bwy bynag a gymmerai ei fywyd oddi arno. Gwnaed amryw geisiadau i ddwyn ei fywyd mewn canlyniad i hyn; a bu y diweddaf o honynt yn llwyddiannus. Bradlofruddiwyd ef yn Delft, ar y 10fed o Orphenaf, 1584, gan un o'r enw Balthasar Gerard, Burgundiad o genedl, yr hwn a'i saethodd ef yn farw âg ergyd o lawddryll; a dywedir ei fod wedi ei gymmhell i gyflawni y weithred anfad hon gan offeiriad Pabaidd. Bu William yn briod deirgwaith, a gadawodd ar ei ol, heb law amryw ferched, dri o feibion, o ba rai yr oedd Phylip William, yr hynaf, wedi ei gymmeryd, pan yn ieuangc, gan Alva, a'i ddanfon i Yspaen, a'i addysgu yn y wlad hono yn y grefydd Babaidd; ond yn y diwedd adferwyd ef i dywysogaeth Orange, a chyrhaeddodd y ddau ereill, sef Maurice a Henry, yr urddas a'r anrhydedd o benllywyddion y taleithiau unedig, y naill ar ol y llall.

WILLIAM I., yr hwn a gyfenwid Y CONCWERWR, neu GWILYM Y GORESGYNYDD. Mab ordderch, ac unig fab, oedd efe i Robert, y Duc o Normandy. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1027. Yn ol chwedl a adroddid gan y werin, Arlette, merch i Fulbert le Croy, barcer a chrwynwr, o Falaise, oedd ei fam ef; a'r olwg gyntaf a gafodd Robert arni oedd yn dawnsio yn nghwmni rhai o'i chymdeithion benywaidd. Yn ol William o Jumieges, mam y Goresgynydd ydoedd Herleva, merch i Fulbert—swyddog yn perthyn i dŷ Robert. Ar ol marwolaeth Robert, hi a briododd farchog Normanaidd o'r enw Herluin; o'r hwn y bu iddi ddau fab, y rhai a fuont yn ddynion amlwg yn eu dydd: sef, Robert, yr hwn a wnaed yn iarll Mortagne a Normandy, ac Odo, esgob Bayeux; heb law merch, yr hon a briododd Odo, iarll Albermarle.

Cyn marwolaeth ei dad, yr hyn a gymmerodd le yn 1035, yr oedd gofal William wedi ei ymddiried i Harri I., brenin Ffraingc; a chymmerwyd ef i Rouen, a gosodwyd ef mewn meddiant o diriogaethau ei dad. Ond o herwydd ieuengctid y tywysog, a'i fod yn blentyn ordderch, darfu i amryw o benaethiaid Normandy ymgodi yn erbyn ei awdurdod. Guido, y Count o Macon, oedd ei brif wrthwynebwr; ac aeth yn derfysg drwy yr holl dduciaeth. Parhaodd yr anrhaith a'r dinystr a wnaed mewn canlyniad i hyn, nid yn unig yn Normandy, ond drwy holl Ffraingc, i raddau mwy neu lai, tra y bu William o dan oed. Ond fel yr oedd efe yn tynu at oedran gŵr, gollyngwyd ef i hòni a sefydlu ei awdurdod; ac mewn buddugoliaeth a ennillwyd ganddo yn y Val de Dunes, yn 1047, llethodd ei brif wrthwynebwr Guido o Macon, a chefnogwyd ef yn mron gan yr oll o'r pendefigion Normanaidd. Yn 1054, efe a orchfygodd wrthymgeisydd arall, sef William, y Count o Arques; ond yn y ddau amgylchiad, cynnorthwywyd ef gan y Ffrangcod. Dechreuodd ei uchelgais yn awr i ymestyn tua Lloegr, lle yr oedd Iorwerth y Cyffeswr yn teyrnasu ar y pryd. Pan ar ymweliad â'r wlad hon, deallodd fod ei obaith am fod yn olynydd i Iorwerth yn cael ei gadarnhau yn fawr gan nerth dylanwad y Normaniaid yn nghynghorau y brenin hwnw. Ar farwolaeth Iorwerth, pa fodd bynag, darfu i'r senedd (*witenagemôte*) ddewis Harold, mab i Godwin, iarll Caint, i lenwi yr orsedd yn ei le ef; ac wrth wneuthur hyny, medd hen groniclwyr mynachaidd a dueddent i fod yn ffafriol i Normandy, taflwyd o'r neilldu ewyllys a dymuniad Iorwerth, yr hwn oedd yn ffafr William. Yna daeth William drosodd i wneyd yn dda ei honiadau i'r orsedd gyda byddin liosog, yr hon y bu am wyth mis yn ei chasglu ynghyd. Hwyliodd o St. Valery-sur-Somme, a glaniodd yn Bulverhithe—lle rhwng Pevensey a Hastings, ar oror deheuol yr ynys. Yr oedd Harold wedi myned yn gyntaf i Lundain; ac o ganlyniad, ni chyrhaeddodd i gymmydogaeth y gwersyll Normanaidd hyd y 13eg o Hydref, 1066. Boreu dranoeth, mewn lle a elwid y pryd hwnw yn Senlac, tua naw milldir o Hastings, cymmerodd brwydr fawr a phwysig le, yr hon a elwir 'brwydr Hastings.' Parhaodd ar hyd y dydd; ac o'r diwedd llwyr orchfygwyd y Saeson. Cwympodd Harold ei hun, wedi ei drywanu gan saeth yn ei ben; ac yr oedd ei ddau frawd, Gurth a Leofwine, wedi eu lladd o'i flaen. Canlyniad y fuddugoliaeth hon oedd rhoddiad coron Lloegr i'r Duc o Normandy; ac y mae ei ddisgynyddion yn eistedd ar yr orsedd hyd heddyw. Ar ol marwolaeth Harold, pa fodd bynag, dewisodd y Saeson Edgar Atheling yn olynydd iddo. Bu raid i Edgar, modd bynag, roddi i fyny ei hawl yn fuan; a choronwyd William yn frenin Lloegr yn mynachlog Westminster, ar y 25ain o Ragfyr, 1066.

Ymddengys fod y mesurau cyntaf a gymmerodd yn hynod o dyner a heddychol; a dywedir nad oedd efe, wrth wobrwyo y Normaniaid, yn difeddu y Saeson o ddim yr oeddynt yn meddu hawl deg iddo. Parchodd hefyd ryddid y cyhoedd yn gystal ag iawnderau personol; gwnaed ceisbwliaid y wlad yn fwy effeithiol, ac ar yr un pryd arferid tynerwch wrth gasglu y trethi; ac nid oedd Lloegr wedi cael ei llywodraethu yn well a doethach, dybygid, er dyddiau Alfred a Canute. Ond o herwydd amgylchiadau a gymmerasant le, yr oedd yn ammhossibl i'r sefyllfa hon barhau. Ar un llaw, yr oedd hen feddiannwyr y wlad yn gwylio am gyfle i ddial; ar y llaw arall, yr oedd dyrnaid o dramorwyr, yn ymfalchïo yn eu llwyddiant, yn teimlo fod eu diogelwch yn eu cleddyfau; ac yr oedd yn hyn elfenau ffrwydrol, hyd yn oed pe buasai nwydau a thymmerau William yn fwy o dan lywodraeth nag oeddynt. Yr oedd y Sacsoniaid a'r Normaniaid yn perthyn i'r un hiliogaeth fawr Deutonaidd, ond bob amser wedi arfer bod yn wrthymgeiswyr a gelynion, mor bell ag y gellir olrhain eu hanes. Y mae yn anhawdd meddwl fod mwynder a thynerwch llywodraeth William ar ddechreuad ei deyrnasiad yn ddim amgen na gwladlywiaeth ddichellgar, a fabwysiadwyd ganddo i'w alluogi i sefydlu ei awdurdod yn gadarnach, cyn cario allan yr hyn a dybid y pryd hyny, ac mewn oesoedd llawer diweddarach, yn hawliau diammheuol gorchfygwr. Mewn gwirionedd, nis gallasai gadw meddiant o'r wlad, os na roddai diroedd i'w ddilynwyr, yn gystal a chymmeryd coron iddo ei hun. Yn mhen ychydig fisoedd, terfynodd yr undeb oedd rhwng y Saeson a'u llywodraethwyr newydd. Yn gynnar yn y fl. 1067, aeth William drosodd i Normandy, heb un amcan o

Digitized by Google

yntau, drwy yr hyn y niweidiwyd ef mor dost fel y cariwyd ef yn ol i Rouen, ac nis gadawodd ei wely mwy. Bu farw yno ar y 9fed o Fedi, yn drigain mlwydd oed, ac yn yr unfed ar hugain o'i deyrnasiad.

Y mae yn amlwg oddi wrth yr amlinelliad uchod pa fath ddyn oedd y Goresgynydd. Y mae un o'r croniclwyr Sacsonaidd, a feddai adnabyddiaeth bersonol o hono, yn dyweyd ei fod yn ddyn o ewyllys gref ac anhyblyg, ac o benderfyniad di-ildio. Dyma un o nodweddau amlycaf ei gymmeriad. Diau ei fod yn arw a chreulawn, mewn rhai amgylchiadau, etto y gwyddai pa fodd i lywodraethu cenedl, a'i hamddiffyn rhag ymosodiadau tramorwyr. Yr oedd Lloegr am ddau can mlynedd cyn ei amser ef wedi ei blino yn ddirfawr ac yn fynych gan heidiau o fôrladron. Rhoddodd derfyn ar hyn. Ni feiddiodd y gwibiaid gogleddol ddangos eu wynebau ar ororau Lloegr ar ol amser William. Yr oedd yn hynod o ammhleidiol yn ngweinyddiad cyfiawnder; a gellir priodoli, fe allai, llawer o'i lymder mewn rhan i'w gasineb at annhrefn gwladol. Yr oedd ei ymddygiad at yr awdurdodau eglwysig yn cael ei gymmeradwyo. Nodai allan derfynau llywodraeth yr eglwys yn glir; a phan yr oedd y pab enwog a balch, Hildebrand, yn dymuno am i'r Concwerwr dalu gwarogaeth iddo dros deyrnas Lloegr, gwrthodiad hyf ac eofn a roddodd efe i'r cais.

WILLIAM III.: Tywysog Orange, penllywydd (*stadholder*) y Taleithiau Unedig, ac wedi hyny brenin Prydain Fawr: un o wroniaid rhyddid gwladol a chrefyddol yn Ewrop Brotestanaidd. Mab ydoedd efe i William II. o Orange, a Mary, merch hynaf Siarl I., brenin Prydain Fawr. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1650. Gan fod William II. yn fab i'r penllywydd Frederick Henry, yr hwn oedd fab ieuangaf 'William y Distaw,' a Louisa, merch yr enwog lyngesydd Coligni, yr oedd William III. yn or-ŵyr i sylfaenydd y weriniaeth Isellmynaidd, ac hefyd yn ddisgynydd uniongyrchol o'r arweinydd Huguenotaidd mawr. Bu farw ei dad cyn ei eni ef, a bu raid iddo, yn ei ieuengctid, ddioddef oddi wrth ei gamymddygiadau ef. Yr oedd y penllywydd, Frederick Henry, yn wahanol i'w frawd Maurice, wedi gweinyddu ei swydd heb wneyd un ymgais i gyfyngu ar ryddid y weriniaeth, na chynnyrchu eiddigedd rhwng gwahanol daleithiau: ond yr oedd ei fab, William II., hyd yn oed yn ei yrfa fer (o herwydd bu farw yn y bedwaredd flwydd ar hugain o'i oed), trwy ei annhegwch a'i ymyriad â hawliau cyfansoddiadol, wedi ail godi ammheuon a drwgdybiau y cyhoedd o barth i fwriadau ei deulu i ymosod ar ryddid y wladwriaeth; a chymmerodd y blaid wrthwynebol i deulu Orange fantais ar amgylchiadau y mab, i'w attal i fod yn olynydd i'w dad, trwy beidio ei ethol i'r swydd o benllywydd, oedd yn cael ei hystyried megys yn dreftadol yn llinach Nassau. Yr oedd uniad y teulu hwnw â theulu Stuart wedi cyffroi eiddigedd Oliver Cromwell hefyd; yr hwn, pan wnaed heddwch rhwng gweriniaeth y wlad hon a'r Taleithiau Unedig, yn 1654, a geisiai gan yr holl daleithiau i wneuthur ymrwymiad difrifol i beidio gwneyd dewisiad o'r tywysog ieuangc yn benllywydd, ac hefyd i ymwrthod â phob un o'i ddisgynyddion; a gwnaeth Holland, yr hon oedd brif dalaeth yr undeb, gyttundeb i'r perwyl hwnw.

Tueddai adferiad teulu Stuart i orsedd Lloegr yn mhen amryw o flynyddoedd yn ddilynol i hyny, pa fodd bynag, ar unwaith i ddyrchafu gobeithion pleidwyr teulu Orange, ac i chwanegu at bryder eu gwrthwynebwyr; ond yn y fl. 1667, llwyddodd y gwerinwyr mwyaf pendefigaidd, yn cael eu blaenori gan y brodyr enwog John a Cornelius De Witt, i gael gan y taleithiau i basio y "Gyfraith Barhaol;" yn ol yr hon y diddymid am byth y swydd o benllywydd. Ond darfu i ormes brenin y Ffrangcod, sef Louis XIV., ar y weriniaeth yn 1672, yn fuan roddi terfyn ar weithrediad y gyfraith hon. Pa mor gywir bynag oedd bwriadau y brodyr De Witt, yr oedd eu mesurau wedi gwneyd y weriniaeth yn hynod ddiamddiffyn. Wrth ymddiried yn nghyfeillgarwch Ffraingc, a cholli ymddiried yn swyddogion goreu y fyddin, yr oedd byddin y weriniaeth mor egwan fel nad oedd un gobaith iddi ddal ei thir yn y maes o flaen y goresgynydd. Cododd plaid Orange ei llef yn uchel yn erbyn gweinyddiaeth ei gwrthymgeiswyr: a chyfododd y bobl gyffredin, y rhai oedd bob amser wedi bod yn ffafriol i deulu Nassau, mewn gwrthryfel. Cyffrodd eu llidiawgrwydd yn erbyn y ddau De Witt i'r fath raddau fel y rhoddwyd hwynt i farwolaeth ganddynt yn y dull mwyaf barbaraidd; a dyrchafwyd y tywysog ieuangc o Orange i'r swydd o benllywydd, yr hon oedd wedi ei dileu trwy y gyfraith uchod. Nid oedd William ond dwy flwydd ar hugain oed pan y galwyd ef yn y modd hwn, yn ddisymmwth, i gymmeryd awenau llywodraeth gwlad gynnhyrfus, poblogaeth ddireol, a byddin. Galwyd arno, o dan yr amgylchiadau anfanteisiol hyn, i wynebu brenin Ffraingc, oedd yn perchen byddin o gan mil o wŷr cynnefin âg arfau, ac yn cael eu harwain gan gadfridogion mwyaf medrus yr oes. Ond yn ffodus i'w wlad ac i'r byd, dangosodd William ar unwaith ei fod yn meddu ar synwyr a diysgogrwydd yn mhell y tu hwnt i ddisgwyliadau pawb oddi wrth un mor ieuangc, a'i fod yn etifeddu rhagoriaethau ei hynafiaid enwog, William y Distaw a Maurice. Ymdrechodd brenhinoedd Ffraingc a Lloegr ei ddarbwyllo rhag pleidio achos y weriniaeth—ond yn ofer. Ei benderfyniad oedd "marw yn y ffos olaf," fel y dywedodd ei hun wrth y Duc o Buckingham, os byddai raid, mewn amddiffyniad iddi. Gwyddai hefyd pa fodd i gyffroi calon ac ysbryd yn ei gydwladwyr anobeithiol. Ac effeithiodd esampl eu harweinydd ieuangc mewn modd nodedig arnynt i beri iddynt ymwrthod â cheisiadau trahausfalch eu gelynion. Ac un o'r pethau hynotaf mewn hanesyddiaeth yw, fod y byddinoedd Ffrengig oeddynt wedi ymdaenu dros y Taleithiau Unedig, mewn dau ryfelgyrch byr, wedi eu gyru yn ol yn llwyr o diriogaeth y weriniaeth. Cymmerodd y tywysog ieuangc fesurau i ddwyn yr hen ryfelwr Condé i frwydr; ac er iddo orfod dioddef o herwydd hyn yn y gorchfygiad yn Seneffe, efe a ymddygodd mor ddewrfrydig fel yr addefodd ei wrthwynebwr anrhydeddus a haelfrydig ei fod "wedi gweithredu yn mhob peth fel hen arweinydd, oddi eithr yn ei waith yn anturio ei fywyd yn rhy debyg i filwr ieuangc."

Am y gweddill o'r rhyfel, yr hwn, ar ol gwneyd heddwch rhwng Prydain a'r Taleithiau, a barhaodd rhyngddynt a Ffraingc am bedair blynedd yn hwy, ac a derfynodd gyda chyttundeb heddwch Nimeguen yn 1678, parhaodd William i roddi profion o'i dalentau gwleidyddol a milwraidd; ac ychydig cyn terfyniad y rhyfel, yr

Digitized by Google

pleidwyr y penadur alltudiedig; gan y Toryaid yn gyffredinol, y rhai a deimlent gasineb personol tuag ato; a chan y Whigiaid a'r gwerinlywodraethwyr, y rhai a ddymunent, i raddau mwy neu lai, wanhau neu gwtogi ei allu brenhinol. Un o'r pethau cyntaf, gan hyny, a wnaeth y senedd ar ol heddwch Ryswick, oedd ei orfodi i leihau y fyddin yn fawr, ac anfon o'r deyrnas y catrodau o ymnoddwyr Protestanaidd Ffrengig, yn gystal a'i warchodwyr (*guards*) Isellmynaidd ef ei hun. Effeithiodd hyn, ac ymddygiadau ereill cyffelyb, gymmaint ar ei feddwl fel y dywedir iddo ddadgan ei ofid mewn iaith gref o herwydd iddo erioed ymyryd âg achosion cenhedloedd mor anniolchgar a drwgdybus.

Yr oedd annedwyddwch ei gyssylltiadau cartrefol yn peri iddo dalu mwy o sylw i achosion Ewrop, a dilyn ei hoff gynllun o geisio darostwng gallu brenin Ffraingc; ac yn enwedig y pryd hwnw, pan yr oedd iechyd Siarl II., brenin Yspaen, yr hwn oedd yn ddiblant, a hòniadau teulu Bourbon i'r olyniaeth i orsedd y wlad hono, yn eu gwneuthur yn fwy peryglus nag erioed. Ond troi yn fethiant a wnaeth ei ymgais i attal y Bourboniaid i orsedd Yspaen; o blegid ar farwolaeth Siarl II., yn 1700, Phylip, y duc o Anjou, ŵyr Louis XIV., a esgynodd i orsedd y wlad hono. Yr oedd iechyd William erbyn hyn yn dechreu gwaelu, a diau fod a fyno methiant ei gynlluniau i raddau pell â hyny: ond gyda'i egni arferol ymdrechodd i ffurfio cynghrair newydd yn erbyn Ffraingc; a darfu i weithred sarhaus Louis XIV. y pryd hwnw yn rhoddi i fab Iago II., ar farwolaeth y tywysog hwnw, y teitl o frenin Prydain, gynhyrfu llidiawgrwydd preswylwyr Prydain i'r fath raddau nes peri iddynt bleidio yn selog ddymuniad eu penadur am ryfel. Ond, yn nghanol parotoadau prysur i ddechreu y rhyfel, dygwyd bywyd William yn ddisymmwth i derfyniad. Yr oedd ei gyfansoddiad, yr hwn nid oedd ar y goreu ond egwan a gwael, erbyn hyn yn mron wedi ei wisgo allan gan drafferthion a phryder. Syrthiodd yn ddamweiniol oddi ar ei farch, a thorodd bont ei ysgwydd—yr hyn a roddodd ysgytiad marwol i'w holl gyfansoddiad; a bu farw ar y 12fed o Fawrth, 1702, yn ddeuddeg a deugain mlwydd oed.

Yr oedd William yn ddiammheuol yn ddyn o athrylith gref; ac y mae o'r bron yn anhawdd prisio yn rhy uchel y gwasanaeth a wnaeth efe i Brydain Fawr, yn gystal ag i'w wlad enedigol. Yn ystod ei deyrnasiad ef y sylfaenwyd Ariandy Lloegr, y mabwysiadwyd y drefn ddiweddar o gyllidaeth, y cydnabyddwyd cyfrifoldeb gweinyddiaethau y wlad i'r senedd, ac y diogelwyd rhyddid y wasg, ac y sefydlwyd y cyfansoddiad Prydeinig ar seiliau cedyrn a safadwy. Gwnaeth wasanaeth hynod o werthfawr hefyd i Brotestaniaeth y wlad hon.

WILLIAM II., brenin Lloegr, yr hwn a gyfenwid RUFUS (*y Coch*), yn golygu *gwyneb-goch*, neu *pen-goch* fel y dywed rhai, oedd fab i William y Concwerwr. Ganwyd ef yn Normandy, yn 1056. Addysgwyd ef o dan ofal yr enwog Lanfranc, yr hwn a alwyd gan ei dad o'i neillduaeth yn St. Bee yn 1063, i fod yn llywydd ar fynachdy St. Stephan, yn Caen; a'r hwn a ddyrchafwyd ganddo i archesgobaeth Caergaint yn 1070. Lanfranc oedd athraw y tywysog ieuangc, nid yn unig mewn dysg a chrefydd, ond yn y gelfyddyd o ryfela; a Lanfranc a wnaeth Rufus yn farchog. Ymddengys ei fod er yn fachgen yn anwylyn ei dad; ac efe a ganfyddai fwy o'i nodwedd ei hun yn cael ei adlewyrchu ynddo nag yn Robert, ei fab hynaf. Ychydig o ddyddiau cyn marw, galwodd y Concwerwr y barwniaid a'r esgobion a ddigwyddent fod gyd âg ef yn Rouen ynghyd, a hysbysodd ei fod yn foddlawn i adael duciaeth Normandy, a dderbyniodd efe oddi wrth ei hynafiaid, i'w gyntafanedig, Robert; ond am yr olyniaeth i orsedd Lloegr, yr hon a ennillwyd ganddo â'i gleddyf, dymunai ei adael i benderfyniad y Goruchaf. Chwanegodd, pa fodd bynag, ei fod yn gobeithio yn fawr y disgynai i William; a chynghorai y tywysog hwnw, oedd yno ar y pryd (nid oedd Robert yn bresennol), i fyned yn uniongyrchol i Loegr; a rhoddodd iddo lythyr o gymmeradwyaeth at yr archesgob Lanfranc. Ni chollodd William amser cyn cychwyn am yr arfordir; a phan yr oedd ynghylch hwylio o Wissant, ger Calais, derbyniodd y newydd am farwolaeth ei dad. Cadwodd hyn yn ddirgelwch, pa fodd bynag, ar ol glanio, hyd nes y cafodd feddiant o amddiffynfeydd Dover, Pevensey, a Hastings; yna efe a brysurodd i Winchester, a pherswadiodd feistr y drysorfa frenhinol i roddi iddo yr allweddau, a choronwyd ef yn mynachlog Westminster gan yr archesgob Lanfranc ar y 26ain o Fedi, 1087.

Y peth cyntaf a wnaeth William oedd cadarnhau ei orsedd. Yr oedd ei frawd Robert, yn y cyfamser, wedi ei gydnabod yn dduc Normandy; ac y mae yn lled debyg y buasai yn foddlawn ar y dreftadaeth hon o eiddo ei hynafiaid pe cawsai ei adael iddo ei hun; ond o dan yr amgylchiadau, o'r braidd y gallasai hyny fod. Yr oedd Odo, esgob Bayeux, yn awyddus am ddiorseddu William; a llawer o'r barwniaid Saesnig oedd yn perchen etifeddiaethau yn y ddwy wlad yn awyddus am beidio eu hysgaru. Gwnaeth Odo ei drefniadau erbyn y Pasc, 1088, a dechreuodd gwrthryfel dori allan mewn amryw barthau o'r wlad. Ond ni ddaeth cynnorthwy effeithiol oddi wrth Robert; gwnaeth William appeliad yn ddioed at ei ddeiliaid Sacsonaidd i sefyll drosto yn erbyn yr arglwyddi Normanaidd; ac yn mhen ychydig amser, llethwyd y gwrthryfel yn mhob man. Wedi i'r ymgais hwn droi yn fethiant, mewn ffordd o ddial, goresgynodd William Normandy yn Ionawr, 1091. Ond trwy gyfryngiad Phylip I. o Ffraingc, cymmodwyd Robert a William, a throisant eu harfau yn erbyn eu brawd Henry, yr hwn a brynasai gan Robert ddosbarth Cotentin—yn cynnwys yn agos i un ran o dair o Normandy. Trodd y rhyfel yn erbyn Henry, ac anfonwyd ef i alltudiaeth. Pan ddychwelodd Rufus i Loegr, daeth Robert gydag ef; ond deallodd nad oedd i gael yr arian a addawyd iddo am y meddiannau a gymmerwyd oddi arno yn Normandy, a dychwelodd yn ol mewn digofaint i'w diriogaeth ei hun. Yn niwedd y fl. 1091, arweiniodd Rufus fyddin i Ysgotland er dial ar Malcolm Canmore, yr hwn a gymmerodd fantais ar ei absennoldeb ef yn Normandy i oresgyn Northumberland. Gwnaeth y ddau frenin gymmod, modd bynag, cyn taro, trwy wneyd cyttundeb, yn ol telerau yr hwn yr addawai Malcolm dalu gwarogaeth i William. Torodd rhyfel allan drachefn rhwng y ddwy wlad yn mhen dwy flynedd. Gwnaeth Malcolm ymosodiad penderfynol arall ar Northumberland yn ngauaf 1093; ac yn yr ymgais i gymmeryd Castell Alnwick,

Digitized by Google

lladdwyd ef, a'i fab hynaf, y 13eg o Dachwedd. Yn ngwanwyn 1094, aeth William drosodd i Normandy, lle yr oedd ei frawd wedi galw am gynnorthwy brenin Ffrainge, a thorodd rhyfel allan rhyngddynt eill dau. Wrth weled ei fod yn troi braidd yn ei erbyn, mabwysiadodd Rufus ei hen gynllun: anfonodd ddirprwyaeth drosodd i Loegr i gyfodi 20,000 o wŷr yn ddioed; a phan oedd y llu hwnw wedi ymgasglu ynghyd, ac yn barod i hwylio o Hastings, daeth gorchymyn sydyn iddynt ddychwelyd adref. Ond yr oedd yn rhaid i bob un brynu y rhyddid hwn â'r swm o ddeg swllt, yr hyn a dybid a dderbyniai pob un gan ei arglwydd i'w gynnal yn ystod y rhyfelgyrch. Rhoddodd William yr arian hyn i Phylip, ac yntau mewn canlyniad a dynodd yn ol o'r rhyfel. Galwyd am Rufus i Loegr, am fod gwrthryfel wedi tori allan yn Nghymru; a chadwyd ef wedi hyny yn Lloegr gan wrthryfel a dorodd allan yn mysg ei ddeiliaid Normanaidd yn Northumberland, dan arweiniad iarll Northumberland. Gwnaeth ddau ryfelgyrch lled aflwyddiannus yn erbyn Cymru yn 1094 a 1095. Yn 1096, darfu i'w frawd Robert, yr hwn a benderfynodd fyned i Palestina, werthu duciaeth Normandy iddo am ddeng mil o bunnau. Nid oedd gan William y pryd hwn fwy o arian na'i frawd anghenus; ond trwy offerynoliaeth Ralph Flambard, yr hwn, er marwolaeth Lanfranc yn 1089, oedd y prif-weinidog, ac yn brif offeryn i gario allan ei fesurau gormesol, medrodd gael y swm gofynol trwy godi trethi trymion oddi ar y tlodion. Ymostyngodd pobl Normandy yn lled dawel i'r ymdrafodaeth hon. Ond cyfododd Helie de la Flèche, yr hwn a ddadleuodd yn erbyn hawl Robert i ddosbarth Maine, faner gwrthryfel. Ond gan nad oedd Helie yn alluog i sefyll o flaen William a'i wŷr, gorchymynodd i'w ddilynwyr ddiarfogi, a ffodd yntau ei hun. Dyma y tro diweddaf i Rufus gymmeryd y maes. Ar yr 22ain o Awst, 1100, saethwyd ef yn farw â saeth oddi ar fwa, pan yn hela yn y New Forest; ond gan bwy, nis gellir bod yn hollol sicr. Yn ol chwedl a gredir yn gyffredin, ac a gofnodir gan rai o'r hen groniclwyr mynachaidd, priodolir y weithred i Syr Walter Tyrrel—neu, fel y gelwid ef, oddi wrth ei etifeddiaethau, yn Ffrainge, Walter de Poix—a dywedir fod saeth a annelodd efe at garw wedi ei throi o'r neilldu wrth daro yn erbyn pren; ac iddi daro y brenin o dan ei fraich ddeheu, a myned i'w galon. Gadawyd y corph marw yn y fan lle y cwympodd nes ei bod yn hwyr y prydnawn, pan y daethpwyd o hyd iddo gan losgwr golosg (*charcoal-burner*) tlawd, yr hwn a'i rhoddodd yn ei bedrolfen, ac a'i cludodd i Winchester.

Ni bu Rufus erioed yn briod. Yr oedd croniclwyr yr amseroedd hyny oll yn wŷr eglwysig —a hwynthwy sydd wedi rhoddi darluniad o hono, ac y mae ei gymmeriad wedi ei dynu ganddynt yn y lliwiau duaf; ond gellir cymmeryd yn ganiataol ei fod yn ddyledus am ryw raddau o'r dirmyg a deflir arno i'r dull yr ymddygai tuag at yr eglwys; canys nid oedd mor hyblyg ag y buasai awdurdodau yr eglwys yn dymuno iddo fod. Ar yr un pryd, y mae yn ddigon eglur, fel dyn ac fel brenin, nad oedd yn gofalu llawer am fyw o fewn terfynau priodol. Yr oedd yn byw yn afradlawn a llygredig; etto, nid oedd yn ddiffygiol yn rhai o'r rhagoriaethau hyny a hynodent ei dad. Meddiannai ran fawr, nid yn unig o'i ddewrder a'i egni, ond hefyd o'i dalent wleidyddol. Er cymmaint o erwinder a berthynai i nodwedd Rufus, yr oedd ganddo chwaeth at rai o'r celfyddydau a ddiwyllir mewn gwledydd gwareiddiedig. Cyflwynai gyfran o'i olud at gyfoethogi archadeiladaeth—yr unig un o'r celfau teg y gallai brenin eu cefnogi yn yr amseroedd hyny. Yn mhlith adeiladau ereill a gyfodwyd ganddo, efe a adeiladodd neuadd gyntaf Westminster.

WILLIAM IV.: brenin Prydain Fawr a'r Iwerddon—oedd trydydd mab Sior III., ac a anwyd ar yr 21ain o Awst, 1865. Bu gyda Thywysog Cymru, a'r tywysog Frederick, dan ofal addysgawl Dr. Majendie hyd y fl. 1771. Yna rhoddwyd ef a'r tywysog Edward—wedi hyny y Duc o Caint—o dan warcheidiaeth y milwriad Bude. Yn Mehefin, 1779, aeth i'r llynges fel medlongwr (*midshipman*) ar fwrdd y *Prince George*, oedd o dan lywyddiaeth y llyngesydd Digby. Ymunodd y llong hon âg ysgwadron y llyngesydd Rodney, oedd yn myned i Gibraltar. Ar ol gweled cryn lawer o wasanaeth, gwnaed y tywysog William yn is-gadben yn Mehefin, 1785—ac yn 1786, yn gadben y *Pegasus*. Dychwelodd adref heb orchymyn i hyny; ac fel cospedigaeth, anfonwyd ef i'r India Orllewinol yn llywydd yr *Andromeda*, a bu yn Jamaica hyd wanwyn y fl. 1789. Yn mis Mai y flwyddyn hono, dyrchafwyd ef i Dŷ yr Arglwyddi, o dan y teitlau o Duc o Clarence a St. Andrews, ac iarll Munster; a chaniatawyd iddo 12,000*p.* yn flynyddol. Ar ol hyn, darfu i amryw o weithredoedd anymostyngol o'i eiddo beri anhawsder i'w ddyrchafiad yn ei alwedigaeth; ond cafodd ei godi yn ffurfiol, fodd bynag, trwy wahanol swyddau, nes y gwnaed ef yn llyngesydd yn 1801. Yn y cyfamser, yr oedd wedi bod yn byw gyda Mrs. Jordan, chwareyddes enwog, â'r hon y daeth yn gydnabyddus yn 1791. Bu ganddo deulu o honi o ddeg o blant—pump o feibion, a phump o ferched—y rhai a arferant y cyfenw *Fitzclarence;* a rhoddwyd iddynt urddas pendefigol. Ar yr 11eg o Awst, 1818, efe a briododd Adelaide, merch hynaf y duc o Saxe-Meiningen. Bu iddo ddwy o ferched o'r briodas hon, y rhai a fuont feirw yn eu mabandod. Ar ei briodas, chwanegodd y senedd 6,000*p.* at y swm blynyddol a dderbyniai ei uchelder brenhinol, a chwanegwyd 3,000*p.* drachefn iddo ar farwolaeth y Duc o Gaerefrog yn 1827. Wedi appwyntiad Mr. Canning yn brif weinidog yn Ebrill y flwyddyn hono, pennodwyd y Duc o Clarence yn benaeth y llynges, fel arglwydd brif lyngesydd; ond ni ddaliwyd y swydd hon ganddo yn hwy na'r mis Medi canlynol—pan yr ymddiswyddodd. Ar farwolaeth Sior IV., Mehefin 26ain, 1830, dyrchafwyd ef i orsedd Prydain.

Yr oedd y digwyddiadau a gymmerasant le yn ystod teyrnasiad William IV. yn cymmeryd eu cyfeiriad i ryw raddau oddi wrth symmudiadau gwleidyddol ar gyfandir Ewrop. Bu cryn gyffro yn Mhrydain mewn canlyniad i chwyldroad y tri diwrnod yn Paris, diorseddiad Siarl X., a throsglwyddiad coron Ffrainge i'r Duc o Orleans; a mis yn ddiweddarach, dechreuodd chwyldroad cyffelyb yn Brussels, yr hwn a derfynodd yn ysgariad Holland a Belgium. Ymgyfarfu y senedd newydd a etholwyd ar ol esgyniad y brenin newydd, ar y 26ain o Hydref, 1830. Dilynwyd y dadganiad a wnaeth y weinyddiaeth—y byddai iddynt wrthwynebu

Digitized by Google

mesur o ddiwygiad seneddol, ar y 14eg o Dachwedd, gan ymddiswyddiad Syr Robert Peel a'r Duc o Wellington, a'r gweinidogion ereill; ac yn mhen yr wythnos, yr oedd gweinyddiaeth Arglwydd Grey mewn swydd, o dan faner diwygiad seneddol. Ar y 1af o Fawrth, 1831, cynnygiodd Arglwydd John Russell ddarlleniad cyntaf y mesur o ddiwygiad seneddol yn Nhŷ y Cyffredin. Cariwyd yr ail ddarlleniad trwy fwyafrif o 302 o bleidleisiau yn erbyn 301: ond ar yr 20fed o Ebrill, gorchfygwyd y weinyddiaeth, a thorwyd y senedd. Ymgynnullodd y senedd newydd ar y 14eg o Fehefin, a chariwyd mesur diwygiad seneddol 'yn Nhŷ y Cyffredin. Ond yn y Tŷ uchaf, ar yr ail ddarlleniad o hono ar y 3ydd o Hydref, taflwyd ef allan gan fwyafrif o 199 o bleidleisiau yn erbyn 158. Ar yr 20fed, gohiriwyd hi. Dechreuodd senedd-dymmor newydd ar y 6ed o Ragfyr; ac ar y 12fed, darfu i Arglwydd John Russell ddwyn i mewn y trydydd mesur o ddiwygiad seneddol. Ar y 13eg o Ebrill, 1832, cariwyd yr ail ddarlleniad yn Nhŷ yr Arglwyddi, gyda mwyafrif o 184 yn erbyn 175. Ond ar y 7fed o Fai, gorchfygwyd y weinyddiaeth gan fwyafrif o 151 yn erbyn 115, ar gynnygiad Arglwydd Lyndhurst i ohirio yr ystyriaeth o'r adran gyntaf (yr un yn dal cyssylltiad â difreiniad) yn y mesur; ac ar hyn, ymddiswyddodd y gweinidogion yn ddioed. Ar yr 17eg, yr oedd Iarll Grey, a'i blaid, mewn awdurdod drachefn; ac ar y 4ydd o Fehefin, pasiodd Tŷ yr Arglwyddi y mesur trwy i 106 bleidleisio dros y cynnygiad, a dim ond 22 yn ei erbyn. Yn mhen tridiau, derbyniodd y cydsyniad brenhinol, a daeth y mesur yn gyfraith y wlad.

Yr oedd y dygiad o amgylch o'r cyfnewidiad mawr hwn wedi cymmeryd i fyny yn mron holl amser y senedd am y ddwy flynedd gyntaf o deyrnasiad William, fel na thalwyd nemawr o sylw i gwestiynau a mesurau ereill. Yna dechreuodd peirianwaith newydd y gynnrychiolaeth weithio. Torwyd y senedd a basiodd fesur diwygiad seneddol ar y 29ain o Ionawr, 1833. Dilynwyd diwygiad seneddol gan ddiddymiad caethwasiaeth yn y trefedigaethau, a diwygiad cyfreithiau y tlodion, a diwygiad yr Eglwys Sefydledig. Ar yr un pryd, aeth y weinyddiaeth ddiwygiadol o dan restr o gyfnewidiadau. Yn Mawrth, 1833, ymddiswyddodd Arglwydd Durham, yr hwn oedd arglwydd y gyfrin-sêl, o herwydd afiechyd; yn nesaf, dilynodd ymneillduad Mr. Stanley (wedi hyny Arglwydd Derby), Syr James Graham, Arglwydd Ripon, a'r duc o Richmond o'r weinyddiaeth, o herwydd anghydwelediad â'u cydswyddogion; ac yn ddiweddaf oll, ar y 9fed o Orphenaf, rhoddodd yr arglwyddi Grey ac Althorpe eu swyddi i fyny, mewn canlyniad i anghydwelediad â Mr. O'Connell yn mherthynas i fesur gorfodaeth yr Iwerddon. Pennodwyd Arglwydd Althorpe i ail ymaflyd yn ei swydd; ond yr oedd y brenin erbyn hyn wedi colli ei ymddiried yn y weinyddiaeth; ac ar yr 16eg o Dachwedd, anfonodd ei fawrhydi am y Duc o Wellington, a chyfarwyddodd ef i ffurfio gweinyddiaeth newydd. Ar yr 8fed o Ragfyr, cwblhawyd y weinyddiaeth, gyda Syr Robert Peel yn brif arglwydd y drysorlys, a'r Duc o Wellington yn ysgrifenydd tramor; a llanwyd y swyddau ereill â rhai perthynol i'r blaid Doryaidd a gwrth-ddiwygiadol. Ac ar y 30ain, torwyd y senedd. Nid hir y parhaodd y trefniant hwn, pa fodd bynag. Ar y dydd y cyfarfu Tŷ y Cyffredin, sef y 19eg o Chwefror, 1835, gorchfygwyd y gweinidogion ar etholiad llefarydd y Tŷ trwy fwyafrif o 316 o bleidleisiau yn erbyn 306; ac ar y 24ain, gorchfygwyd hwy drachefn ar yr anerchiad i'r brenin gan fwyafrif o 309 yn erbyn 302. Cadwasant yn mlaen gyda'r ymdrech am saith wythnos yn hwy; ond o'r diwedd, cariodd Arglwydd J. Russell gynnygiad yn eu herbyn ar ddegwm yr Iwerddon, gyda mwyafrif o 285 yn erbyn 254, ar y 7fed o Ebrill —a rhoddodd y weinyddiaeth eu swyddi i fyny dranoeth. Deallid yn awr fod y brenin yn hollol wrthwynebus i'w hen gyfeillion, y Whigiaid; ond gwaith ofer iddo oedd gwneyd gwrthsafiad pellach: erbyn y 18fed o'r mis, yr oedd y diwygwyr eilwaith mewn awdurdod, gydag Arglwydd Melbourne yn brifweinidog. A pharhaodd gweinyddiaeth Melbourne am y gweddill o oes William. Un o'r mesurau pwysicaf a basiwyd ganddi oedd mesur yn dal cyssylltiad â chorphoraethau dinesig. Bu farw William IV. yn Windsor, ar ol byr gystudd, Mehefin 20fed, 1837. Ei olynydd i'r orsedd oedd ei nith—y frenhines Victoria.

WILLIAM o WYKEHAM: a anwyd yn Wickham, yn swydd Hants, yn y flwyddyn 1324. Addysgwyd ef yn Winchester—ac yn ol traddodiad, gan noddwr cyfoethog, o'r enw Nicholas Uvedale, yr hwn oedd arglwydd ar maenor Wickham, ac yn llywodraethwr Castell Winchester. Wedi hyny, mynegir iddo gael ei gymmeradwyo gan Uvedale i'w gyfaill Edyngdon, esgob Winchester, ac i'r ddau ei ddwyn i sylw y brenin Iorwerth III. Mae rhai yn tybied iddo fod yn efrydydd yn Rhydychain; ond y mae tebygolrwydd cryf na chafodd ddim o'i addysgiaeth yno. Nid oedd efe yn hòni ei fod yn fedrus yn nysgeidiaeth ysgolheigaidd yr oes yr oedd yn byw ynddi. Yr oedd ei gryfder ef yn nerth naturiol ei athrylith a'i alluoedd. Yn ol adroddiadau ei gydoeswyr, ymddangosodd yn y llys yn y fl. 1348, pan oedd tua phedair ar hugain oed; ond y swydd gyntaf y mae sicrwydd yn ei chylch a ddaliwyd ganddo oedd ysgrifenydd gweithiau y brenin yn maenorydd Henle a Yethampsted, i'r hon y pennodwyd ef yn 1356; ac yn yr un flwyddyn, ceir ef yn arolygwr gweithiau y brenin yn mharc a chastell Windsor. A dywed un ysgrifenydd cydoesol âg ef mai ar ei annogaeth ef yr ymgymmerodd y brenin Iorwerth â thynu i lawr ac adeiladu rhan fawr o'r castell hwn. Wykeham oedd prif arolygwr y gwaith yn ei ddygiad yn mlaen. Adeiladwyd castell Queenborough hefyd o dan ei arolygiaeth ef. Tebygol yw ei fod wedi cymmeryd yr urdd ddiaconol yn lled gynnar ar ei oes; ac ordeiniwyd ef yn offeiriad ar y 12fed o Fehefin, 1362. Yn y cyfamser, yr oedd periglorïaeth Fulham wedi ei rhoddi iddo yn 1357; a chôrberigloriaeth yn Lichfield yn 1359. Yn yr un flwyddyn, pennodwyd ef yn arolygydd ar amryw faenorydd a chestyll, a chafodd ddyrchafiadau ereill yn yr eglwys a'r wladwriaeth. Ar y 4ydd o Fai, 1364, cafodd ei bennodi yn geidwad y gyfrinsêl; ac yn fuan wedi hyny, yn ysgrifenydd i'r brenin—neu, yr hyn a elwir yn bresennol, yn brif ysgrifenydd y wladwriaeth.

Ar farwolaeth William de Edyngdon, yn niwedd y fl. 1366, pennodwyd ef, yn gyttunol âg ewyllys y brenin, yn esgob Winchester; a neillduwyd ef yn gyhoeddus i'r swydd hon yn Hydref y flwyddyn ddilynol. Yn y cyfamser,

Digitized by Google

yr oedd wedi ei appwyntio yn arglwydd brif ganghellydd. Ond yn y fl. 1371, rhoddodd y swydd olaf a nodir i fyny, pan y cyflwynwyd deiseb i'r brenin yn erbyn i'r llywodraeth fod yn rhy hir yn nwylaw dynion yn dal swyddau eglwysig. Nid oedd gan esgob Winchester ar yr adeg hon ddim llai na deuddeg o wahanol gestyll neu balasau—oll wedi eu dodrefnu yn lleoedd cymmhwys iddynt breswylio ynddynt. Ar ol ei bennodiad i'r esgobaeth, y peth cyntaf yr ymosododd Wykeham arno oedd, gwneyd llawn adgyweiriad ar y palasau esgobol. Costiodd hyn o ddeutu 20,000 o farciau, neu tua 13,400*p*. Arferodd ddiwydrwydd a sêl mawr hefyd i ddiwygio y mynachdai, a'r tai crefyddol o bob math, drwy ei esgobaeth. Ond yr hyn a gymmerodd fwyaf o'i sylw oedd sylfaeniad dau goleg, yn y rhai yr addysgid efrydwyr, "er gogoniant i Dduw a chwanegu at ei wasanaeth, a chynnal a dyrchafu y ffydd Gristionogol, a gwellhau y celfyddydau breiniol a'r gwyddonau." Agorwyd ei goleg rhagbarotoawl yn Winchester yn 1373; ac yr oedd yn flaenorol i hyn wedi pwrcasu tir yn ninas Rhydychain, ar yr hwn yr oedd y coleg yno, a alwyd wedi hyny 'y Coleg Newydd,' i'w adeiladu, ac i'r hwn yr ystyrid yr un yn Winchester yn fagwrfa ragbarotoawl. Llesteiriwyd ef i gario allan yr amcanion gwladgarol a chrefyddol hyn am dymmor gan y dymmhestl a gyfodwyd yn ei erbyn gan y Duc o Lancaster. Dygwyd ef ger bron dirprwyaeth, gymmysgedig o bendefigion, esgobion, a chyfringynghorwyr, yn 1376; a chafwyd ef yn euog, a phasiwyd dedfryd lem arno. Newidiwyd hi, pa fodd bynag, i ddirwy; yr hon a faddeuwyd iddo ar esgyniad Richard II. i'r orsedd, yn 1377. Parhaodd i sefyll yn uchel yn ffafr y senedd tra y parhaodd Richard o dan oed; ac yr oedd yn un o'r pedwar ar ddeg a bennodwyd yn gynghor gan y brenin yn 1386: ac yn 1389, gosodwyd ef eilwaith yn arglwydd ganghellydd. Ni pharhaodd i weinyddu y swydd hon ond am ddwy flynedd. Ac o hyny allan, nid ydyw yn ymddangos i Wykeham gymmeryd rhan flaenllaw mewn achosion cyhoeddus. Yr oedd efe yn bresennol yn y senedd a gynnaliwyd ar y 30ain o Fedi, 1399, pan ddiorseddwyd Richard II.; ac hefyd yn eisteddiad y senedd gyntaf a alwyd gan Harri IV., ychydig ddyddiau yn ddilynol: ond hono oedd yr olaf y rhoddodd ei bresenoldeb ynddi. Parhaodd, pa fodd bynag, i gyflawni ei ddyledswyddau esgobol am ddwy neu dair o flynyddoedd yn hwy. Dechreuodd ail adeiladu eglwys gadeiriol Winchester yn 1395, a chafodd fyw i'w gweled yn mron wedi ei gorphen. Bu farw yn South Waltham, Medi 27ain, 1404, yn 80ain mlwydd oed.

Yr oedd Wykeham yn ymhyfrydu gwneyd ei oreu i'r eglwys: ond nid oedd yn benboethyn. Hoffai ddysg, trefn, gwareiddiad, a phurdeb mewn moesau; ac fel esgob Winchester, enwogodd ei hun fel diwygiwr camarferion eglwysig. Ond nid oedd ganddo y duedd leiaf at Brotestaniaeth, fel y cyfryw; ac yn hyn yr oedd yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth ei gydoesydd enwog, John Wickliff. Gellir cymmeryd William o Wykeham fel yn cynnrychioli dosbarth o Eglwyswyr, y rhai oedd i'w cael cyn, ac ar ol y Diwygiad Protestanaidd—dynion nad oeddynt yn cael eu nodweddu gan sêl dros gwestiynau oedd yn dwyn cyssylltiad âg athrawiaethau crefydd, ond er hyny yn selog dros urddas a llwyddiant yr Eglwys.

WILLIAMS, DANIEL, D. D.: ganwyd y gŵr enwog hwn yn Ngwrecsam, tua'r flwyddyn 1643 neu 1644. Y mae amgylchiadau a sefyllfa fydol ei rieni yn anhysbys yn awr; ond y mae yn ymddangos yn debygol eu bod yn parchu crefydd ymarferol, ac yn egwyddori eu plant yn ei hathrawiaethau, ac yn eu cynghori i ymarfer yn rheolaidd â'i dyledswyddau. Gan mai yr efengylaidd a'r poblogaidd Morgan Llwyd oedd yn gweinidogaethu yn Ngwrecsam am y pymtheng mlynedd cyntaf o fywyd Daniel Williams, nid ydyw yn annaturiol i ni gasglu iddo gael y fraint o ddyfod i gyffyrddiad mynych, a chyfranogi yn lled helaeth o ysbryd hunanymwadol gŵr oedd yn ganolfan y fath ddylanwad yn yr eglwys ar y cyfnod hwnw. Ni chafodd fawr o fanteision addysg pan yn ieuangc; ond trwy ddyfal-barhâd i gasglu gwybodaeth a diwyllio ei alluoedd naturiol, cododd i safle anrhydeddus fel ysgolhaig a duwinydd. Y mae arddull ei gyfansoddiadau cyhoeddedig yn dwyn profion o ddiffygion ei addysg foreuol; ond y maent, er hyny, yn profi cryfder cynhenid ei feddwl, a diwydrwydd a llwyddiant personol ei feddwl i gasglu gwybodaeth. Yr oedd ei dueddfryd, er yn fachgen, at grefydd yn ei holl ranau; a hynodid ef yn mhlith ei gyfoedion fel gŵr ieuangc hynaws a difrifol. Er pan yr oedd efe yn bump oed, ei hoffder penaf oedd darllen ei Feibl, a myfyrio ar wirioneddau goruchel yr efengyl. Pan yr oedd yn bedair ar ddeg neu bymtheg, galwyd arno i bregethu; ac yr oedd efe yn mysg y rhai cyntaf a ymgymmerasant â'r weinidogaeth wedi troad allan y ddwy fil yn 1662. Ni chywilyddiodd arddel ei hun yn Ymneillduwr, a hyny mewn adeg pan yr oedd Ymneillduaeth yn ei osod yn agored i wawd, ac erledigaeth, a cholled. Pe y gallasai efe gydymffurfio âg ammodau yr Eglwys Sefydledig, y mae yn dra sicr y cawsai ei feddwl well manteision diwylliant, ac hefyd y buasai holl freintiau a dyrchafiadau y sefydliad yn agored iddo; ond dewisodd, yn hytrach, ddilyn argyhoeddiad ei gydwybod, a chyssegru ei oes i lafurio fel Ymneillduwr.

Wedi bod yn pregethu yn achlysurol mewn gwahanol leoedd am rai blynyddoedd, cafodd allan fod sefyllfa yr amseroedd yn anfanteisiol iawn i gyflawni yr holl weinidogaeth yn ddirwystr a dibrofedigaeth yn y deyrnas hon. Teimlai braidd yn ddigalon i feddwl am lafurio yn ngwlad ei enedigaeth, o blegid amlder yr erlidwyr a chwerwedd y profedigaethau; ond tra yr ydoedd mewn cyfyng gynghor am y dyfodol, agorodd Rhagluniaeth ddrws iddo yn yr Iwerddon. Pan oedd ar ymweliad â'r foneddiges dduwiol hono, yr Arglwyddes Wilbraham, yn Weston, swydd Amwythig, cafodd wahoddiad annisgwyliadwy i fod yn gaplan i Iarlles Meath. Derbyniodd y cynnyg gyda diolchgarwch a llawenydd; a chafodd yno noddfa rhag yr holl ystormydd, a llawer o gyfleusderau i wneuthur daioni dros ei Arglwydd. Wedi gwasanaethu am dymmor felly, galwyd ef i'r weinidogaeth reolaidd a sefydlog gan yr eglwys yn Wood Street, Dublin. Bu yn llafurio yn yr Iwerddon am ugain mlynedd. Daeth i gydnabyddiaeth â llawer o deuluoedd pendefigaidd ac urddasol, a bu ei addysg a'i dduwiolfrydedd yn foddion i gadarnhau llawer o'r cyfryw yn y ffydd Brotestanaidd. Cyfeillachodd lawer â gweinidogion ereill; ac yr oedd unplygrwydd ei gymmeriad a lledneisrwydd ei ysbryd yn ennill iddo gyfeillgarwch ac ymddiried ei holl gydnabod. Yn y

Digitized by Google

cyfnod hwn priododd foneddiges o deulu parchus a chyfoeth mawr, yr hyn a'i galluogodd i ymhelaethu mwy mewn haelioni a gweithredoedd da na'i holl frodyr. Yn yr amseroedd trallodus tua diwedd teyrnasiad y brenin Iago, gosodwyd ef yn agored i beryglon chwerw gan ormes ac erledigaeth y weinyddiaeth Babaidd. Yr oedd y Pabyddion yn yr Iwerddon yn llawer mwy trahaus na'u cydgrefyddwyr yn Lloegr, ac yr oedd gwrthwynebiad Dr. Williams i bob ffurf o Babyddiaeth yn ffyrnigo ei wrthwynebwyr, ac yn ei osod yntau mewn perygl am ei einioes. Barnodd, er mwyn diogelwch personol, mai gwell oedd iddo ddyfod drosodd i Loegr; a symmudodd i Lundain yn y flwyddyn 1687. Mor fuan ag y daeth yn adnabyddus i Gristionogion efengylaidd y ddinas, gwerthfawrogid ei gyfeillach a'i bregethau yn anghyffredin. Profodd o wasanaeth mawr i Ymneillduwyr y ddinas, a hyny ar adeg gyfyng iawn. Yr oedd amryw o swyddogion y llys yn arfer eu dylanwad i gael gan yr Ymneillduwyr i gyflwyno anerchiad o ddiolchgarwch i'r brenin ar ei waith yn gwneuthur i ffordd â'r deddfau cospawl gorthrymus a fodolent. Cynnullodd brif arweinwyr yr Ymneillduwyr yn y ddinas i gyfarfod â hwynt; ac oni buasai am graffder a gwroldeb Mr. Williams, buasent wedi eu dal yn y rhwyd a daenwyd iddynt gyda'r fath ofal a rhagrith. Dadleuai efe fod llymder cyfreithiau y teyrnasiad blaenorol yn erbyn yr Ymneillduwyr o blegid eu bod yn gwrthwynebu unbenaeth y brenin, ac nid o blegid eu hymneillduaeth grefyddol; a dadleuai yn mhellach y buasai yn well iddynt hwy oddef gwaradwydd a cholled personol na chefnogi mesurau oeddynt yn tueddu i ddinystrio rhyddid deiliaid y goron. Cyttunodd pawb â'i olygiadau, ac aeth dirprwywyr y llys ymaith yn dra siomedig. Mewn lle arall, cynnaliai offeiriaid Eglwys Sefydledig y ddinas gynnadledd i'r un pwrpas, a llawenychwyd eu calonau yn ddirfawr pan ddeallasant y penderfyniad y daeth eu brodyr ymneillduol iddo. Profodd hefyd yn wasanaethgar iawn i'r ffoedigion o'r Iwerddon. Yr oedd yr erledigaeth yno yn peri fod lliaws yn gorfod diange i rywle am noddfa; ac os gallent gyrhaedd Llundain, yr oedd Mr. Williams yno gyda chalon hael, a llogell lawn, yn barod i'w cynnorthwyo.

Ar ol chwyldroad gogoneddus 1688, ymgynghorid âg ef yn fynych gan y brenin William yn nghylch materion Gwyddelig, ac edrychid arno gan y llys fel y cymmhwysaf o bawb i nodi allan bersonau a allent fod o wasanaeth i'r llywodraeth yn yr ynys hono. Pan y talodd ymweliad â'r Iwerddon yn y flwyddyn 1700, i drefnu rhyw amgylchiadau perthynol i'w etifeddiaeth yno, derbyniodd ddiolchgarwch unol a gwresog y Protestaniaid am ei garedigrwydd i'w brodyr yn eu cyfyngderau.

Wedi bod am rai blynyddoedd yn pregethu bob Sabbath i wahanol gynnulleidfaoedd, tua diwedd y flwyddyn 1688, ar farwolaeth Mr. John Oakes, derbyniodd wahoddiad unfrydol gan gynnulleidfa Hand Ally, yn Bishopsgate Street, i ddyfod i'w bugeilio yn yr Arglwydd. Gan fod yr alwad mor unfrydol a thaer, cydsyniodd â'r cais; a gwasanaethodd yno mwyach am saith mlynedd ar hugain yn olynol. Un o'i brif resymau dros ymgymmeryd â'r weinidogaeth yn y lle hwn oedd "y cawsai lawer o waith, ac ychydig o gyflog" gan y bobl. Er pan ddaeth i Lundain y tro cyntaf, cyfeillachodd lawer â Mr. Richard Baxter; ac yr oedd y gŵr enwog hwnw yn coleddu meddyliau mor uchel am dano fel y pennodid ef i draddodi y *Merchant's Lecture*, yn Pinners' Hall, pan y digwyddai Mr. Baxter fod yn afiach. Ar farwolaeth Mr. Baxter yn 1691, dewiswyd Mr. Williams yn olynydd iddo, fel darlithydd; ond nid heb gryn wrthwynebiad y derbyniodd efe yr anrhydedd hwn. Cynnygiwyd Mr. Woodcock fel cydymgeisydd; yr hwn oedd yn ddyn dysgedig, ac wedi bod am dymmor yn athraw llwyddiannus yn y brif athrofa. Pan gyfrifwyd y pleidleisiau, yr oeddynt yn hollol gyfartal, a phenderfynwyd y ddadl trwy fwrw coelbren, a'r coelbren a syrthiodd ar Mr. Williams; ac felly gosodwyd ef yn y swydd er boddhâd a llawenydd hyd yn oed i'w wrthwynebwyr. Nid yn hir y bu y darlithwyr hyn cyn dyfod i wrthdarawiad anhyfryd, o blegid yr athrawiaethau gwahanol a bregethid ganddynt. Cyhuddid Mr. Williams o bregethu yn rhy lym yn erbyn Antimoniaeth, a ffurfiwyd cynllwyn i'w fwrw allan; ond deallwyd hyny yn brydlawn, a chydunodd llawer o'r tanysgrifwyr i gefnogi Mr. Williams. Ond er gwneuthur ymdrechion egnïol, methwyd adferu heddwch; ac ymneillduodd pedwar o'r darlithwyr—sef, Dr. Bates, Mr. How, Mr. Alsop, a Mr. Williams—i sefydlu darlith arall yn Galters' Hall. Achlysurodd hyn lawer o dwrw ac ysgrifenu ar y pryd; ond cadwodd Mr. Williams ei le mor anrhydeddus fel na chollodd gymmaint ag un o'i wir gyfeillion.

Tua'r adeg hon, ysgrifenodd Mr. Williams amryw lyfrau duwinyddol gwerthfawr i wrthwynebu a gwrthweithio syniadau Dr. Crisp; a theimlid gan y craffus a'r myfyrgar, nid yn unig ei fod yn feistr ar ei bwngc, ond hefyd ei fod yn fwy na meistr ar ei wrthwynebydd. Bu dadl rhyngddo hefyd âg un Mr. Stephen Lob, yr hwn a'i cyhuddodd o ffafrio Undodiaeth. Nis gallai orwedd dan gyhuddiad mor ddifrifol a hwn heb ymwingo ac anfoddloni, a sicrhau i'w gymmeriad personol a'i syniadau efengylaidd ar Berson Crist a'r Iawn yr amddiffyniad mwyaf trwyadl. Gan hyny, cyttunodd Mr. Williams a Mr. Lob i appelio at Dr. Stillingfleet, esgob Worcester, a Dr. Jonathan Edwards, o Rydychain, am eu barn ar y cwestiwn mewn dadl rhyngddynt. Meddent hwy gymmhwysderau neillduol i fod yn farnwyr cyfiawn a diduedd mewn achos o'r fath; ac wedi cael amser i ddarllen llyfrau Mr. Williams, y maent yn ei gyhoeddi yn hollol rydd o ddal golygiadau Undodaidd; ac felly y terfynodd y ddadl mewn modd anrhydeddus iddo. Tynodd y dadleuon hyn lawer o chwerwder i'w gwpan, a throdd ambell gyfaill yn elyn iddo; ond yr oedd calon ddiddichell a chydwybod ddirwystr yn ei gynnal mewn tawelwch ysbryd yn nghanol yr holl groesau.

Cyfarfyddodd â blinderau ereill nad oeddynt mewn cyssylltiad â dadleuon duwinyddol. Cododd dynion eithafol a di-ras i'w gyhuddo o anfoesoldeb cyhoeddus, gan amcanu sathru ar ei gymmeriad a dinystrio ei ddylanwad yn llwyr fel Cristion a gweinidog. Pan dorodd yr ystorm erchyll hon arno, y mae yn appelio at gyfangorph gweinidogion Ymneillduol y brif ddinas, gan ddymuno arnynt chwilio yn fanwl i'r cyhuddiadau, a chyhoeddi eu dedfryd. Dewisodd y cyfryw chwech o wyr pwyllog o'u plith eu hunain i wneuthur ymchwiliad i'r mater. Eisteddodd y pwyllgor am ddau fis, gan wrando pob tystiolaeth a ddygid yn ei erbyn: holasant

Digitized by Google

dystion lawer o'r ddau du, ac ni chymmerasant amser i orphwys nes myned i ddyfnderau pob cŵyn; ac ar ddiwedd yr ymchwiliad cyhoeddasant eu barn unol fod Mr. Williams yn hollol ddiniwed yn ngwyneb yr holl gŵynion a osodwyd yn ei erbyn gan ei elynion. Er fod rhagfarn wedi ei fagu mewn llawer calon tuag ato trwy ddylanwad yr erledigaeth hon, etto glynodd ei eglwys yn ffyddlawn wrtho, ac yr oedd lliaws ar hyd y ddinas yn cydymdeimlo âg ef yn ei drallod blin, ac yn gweddio am i'r Arglwydd anfon ymwared a dyddanwch iddo. Ymgadwodd ei hun dan lywodraeth ysbryd crefyddol pan yr oedd yr ystormydd yn ymosod waethaf arno, ac yr oedd ei ledneisrwydd a'i addfwynder yn lleddfu llawer ar greulondeb ysbryd ei elynion mwyaf penboeth. Bu llawer o honynt fyw i dderbyn argyhoeddiad trwyadl o anghyfiawnder eu hymddygiadau tuag ato, ac i gyfaddef mewn edifeirwch a dagrau pa fodd yr hud-ddenwyd hwy i'r fath amryfusedd cadarn. Dengys yr amgylchiad hwn pa mor bell yr â dynion dan ddylanwad ysbryd plaid. Nid oedd un math o sylfaen i'r cyhuddiadau y ceisiwyd ei brofi yn euog o honynt; ond o blegid fod rhyw ddynion penboeth yn wahanol iddo yn eu barn am rai o athrawiaethau crefydd, dialent eu llid arno trwy geisio cuddio ei gymmeriad moesol â gwaradwydd. Rhyfedd i amynedd y Duw mawr oddef i ddyhirod di-ras bardduo cymmeriad ei bobl; ond y mae yr adeg i ddadguddio y fath ddichellion dieflig, a'r dydd i dalu y pwyth iddynt yn agoshau.

Yn y flwyddyn 1701, priododd Mr. Williams ei ail wraig—sef, Jane, gweddw y diweddar Mr. Francis Barckstead. Yr oedd hon etto yn meddu ar gryn gyfoeth, ac yn nodedig yn mysg ei chydnabod am ei duwioldeb personol. Disgynai o deulu Protestanaidd anrhydeddus; a chollodd ei thad etifeddiaeth werthfawr yn Tours, yn Ffraingc, o herwydd ei ffyddlondeb i'w grefydd. Buont fyw gyda'u gilydd am bymtheng mlynedd, gan fwynhau cysuron teuluaidd a chrefyddol i raddau helaeth iawn.

Er ei fod yn pregethu agos yn feunyddiol, ac yn parotoi llyfrau defnyddiol i'r wasg yn barhaus, ac yn dra gofalus am ddyledswyddau bugeiliol ei eglwys, etto yr oedd yn talu sylw manwl i symmudiadau gwleidyddol yr oes, fel yr oeddynt yn arweddu ar Ymneillduaeth. Gwyliai bob deddfau a gynnygid yn y senedd gyda'r bwriad i leihau rhyddid yr Ymneillduwyr gyda manylrwydd, ac arferai bob dylanwad o fewn ei gyrhaedd i attal eu derbyniad gan yr aelodau rhyddfrydig. Mewn ffordd dawel a distaw felly, bu o wasanaeth mawr iawn i ryddid crefyddol yn y deyrnas hon.

Blinwyd ei ysbryd yn fawr pan y gosodwyd prawf sacramentaidd mewn gweithrediad ar Ymneillduwyr yr Iwerddon. Pasiwyd deddf yn 1704, gyda'r bwriad ymddangosiadol o amddiffyn y Protestaniaid rhag llid ac erledigaeth y Pabyddion; ond gosodwyd yr adran grybwylledig ynddi mewn modd dirgel gan ryw bersonau bradwrus. Parodd hyn flinder a chythrwfl mawr yn yr Iwerddon; ond yn amser teyrnasiad y brenin George, cyhoeddwyd deddf gan y Tŷ Cyffredin Gwyddelig oedd yn symmud ymaith i raddau dymunol iawn y rhanau hyny o'r ddeddf oedd yn peri fwyaf o anghyfleusdra i gydwybodau y bobl.

Yn y flwyddyn 1707, arferodd ei ddylanwad personol a'i ysgrifell i hyrwyddo yr undeb gwladol âg Ysgotland; o blegid y buasai hyny, yn ol ei farn ef, a lliaws o wŷr meddylgar ereill, yn foddion i sicrhau parhâd yr olyniaeth frenhinol Brotestanaidd; a phan benderfynwyd ac y cadarnhawyd hyny, llawenychodd ei galon yn ddirfawr. Tua'r flwyddyn 1709, cyflwynwyd iddo y gradd o D. D. gan brif athrofa Edinburgh a Glasgow. Gosodwyd anrhydedd cyffelyb yr un pryd ar Dr. Oldfield a Dr. Calamy. Nid oedd hyn mewn un modd yn anrhydedd a chwenychodd efe; ond yr oedd ei holl gydnabod yn meddu argyhoeddiad dwfn ei fod yn ei gyfiawn haeddu. Yr oedd bob amser wedi teimlo dyddordeb neillduol yn helyntion crefyddol y parth hwnw o'r deyrnas, ac wedi arfer ei holl ddylanwad i gael gan wŷr ieuaingc a fwriadent ymgyssegru i'r weinidogaeth yn Lloegr i gymmeryd eu haddysg yn un o brif athrofeydd Ysgotland. Wrth gymmeryd yr holl amgylchiadau i ystyriaeth deg ac ammhleidgar, yr oedd yn dra naturiol i'r gogleddwyr gynnyg iddo yr anrhydedd a enwyd.

Tua diwedd teyrnasiad y frenhines Anne, cymmerodd amgylchiad pwysig le a ddygodd iddo lawer o chwerwder ysbryd. Teimlai bryder mawr yn herwydd sefyllfa gythryblus yr amseroedd, ac yn arbenig am ddiogelwch yr olyniaeth frenhinol. Cwestiwn difrifol i'r oes hono oedd hwn: mewn gwirionedd yr oedd cadernid a llwyddiant ein holl sefydliadau gwladol a chrefyddol yn ymddibynu ar fod hwn yn cael ei benderfynu yn y ffordd oreu, a'r unig ffordd fuasai yn dderbyniol gan y wlad. Yr oedd Dr. Williams yn gyfeillgar iawn âg Iarll Oxford; yr hwn, fel pendefig, oedd ar y pryd yn llywyddu amgylchiadau y deyrnas. Bernid nad oedd yr iarll yn ymddwyn yn unplyg a gonest mewn cyssylltiad â'r amgylchiad hwn, a bu Dr. Williams yn ddigon cydwybodol i fynegu hyny wrtho, a'i gynghori i fod yn fwy gochelgar rhag arwain y wlad i ddyryswch a therfysg. Digiodd y pendefig yn aruthr wrtho, er nad oedd yn gallu gwadu y cyhuddiad, na gwrthddywedyd y cynghor: a chafodd yr iarll gyfleusdra yn fuan i ddial ei lid arno. Derbyniodd Dr. Williams tua'r amser hwn lythyr oddi wrth ryw gyfeillion iddo yn yr Iwerddon yn dymuno cael ei feddwl yn helaeth ar sefyllfa yr amseroedd, ynghyd â'i gynghor iddynt pa fodd i ymddwyn yn eu profedigaethau blinion. Mewn cydsyniad â chais taer ei hen gyfeillion, cymmerodd amser i ysgrifenu attebiad cyflawn:—anfonodd un copi iddynt hwy, a chadwodd y llall yn ei logell. Digwyddodd fod arno ar y pryd angen ymgynghori â bargyfreithiwr ar ryw fater personol; ac wrth ymddiddan âg ef, tynodd lawer o bapyrau o'i logell. Gosododd hwynt yn ol yn ddiogel, fel y tybiai; ond syrthiodd yr adysgrif o'i lythyr i'r Iwerddon i'r llawr, ac yno y gorweddodd nes i Williams ymadael. Yna cymmerwyd hi i fyny gan y bargyfreithiwr, a darllenodd hi gydag aiddgarwch a boddhâd mawr. Gan fod y llythyr yn cynnwys sylwadau anffafriol ar weinyddiaeth gyhoeddus Iarll Oxford, cymmerodd y bargyfreithiwr y llythyr at y pendefig hwnw!—yr hwn, wedi deall ei gynnwysiad, a ddigiodd yn anfaddeuol wrth ei awdwr. Yr oedd y weithred fradwrus hon o eiddo y bargyfreithiwr yn dra annheilwng, o blegid yr oedd wedi derbyn caredigrwydd sylweddol fwy nag unwaith oddi ar law Dr. Williams. Diau iddo feddwl y buasai yn sicrhau ffafr y pendefig wrth fradychu ei gyfaill; ond yr oedd gweithred

Digitized by Google

mor ddiegwyddor yn dwyn ei chospedigaeth ei hun; ac y mae yn dra thebyg iddo gael dioddef euogrwydd cydwybod a gwaradwydd cyhoeddus fel ad-daliad am ymddygiad mor wael. Tawelwyd ei holl ofnau am ddiogelwch yr olyniaeth Brotestanaidd trwy esgyniad y brenin George i'r orsedd. Medi 28ain, 1714, ymwelodd dirprwyaeth o weinidogion gwahanol enwadau Ymneillduol y ddinas â'r brenin, i gyflwyno anerchiad iddo, yn dadgan eu llawenydd ar ei ddychweliad diogel i'r deyrnas, a'i esgyniad heddychol i'r orsedd. Dr. Williams oedd blaenor y ddirprwyaeth hon, ac efe a ddarllenodd yr anerchiad. Derbyniwyd hwy yn garedig, a diolchodd y brenin iddynt yn gynnhes am eu teyrngarwch a'u dymuniadau da am lwyddiant a chadernid ei deyrnas. Bellach, y mae tymmor ei lafur ar y ddaear yn agoshau i derfyniad. Cyssegrodd oes gyflawn i wasanaethu yr Arglwydd, ac y mae efe yn cael y fraint o orphen ei yrfa mewn llawenydd. Wedi ychydig ddyddiau o gystudd poenus, bu farw Ionawr 26ain, 1715, yn dair ar ddeg a thrigain oed. Claddwyd ef yn Bunhill Fields. Traddodwyd ei bregeth angladdol gan Dr. Evans, ei gydlafurwr yn y weinidogaeth am un mlynedd ar ddeg. Hunodd yn dawel yn yr Iesu, a galarwyd ar ei ol gan bawb oedd yn cydymdeimlo â lledaeniad a llwyddiant efengyl syml y Testament Newydd.

Meddai ar alluoedd meddyliol cryfach na'r cyffredin. Bendithiwyd ef â chorph iach a chryf, ac yr oedd gweithrediadau naturiol ei feddwl yn fanwl a chyflym. Meddai ar gof gafaelgar: os unwaith yr äi ffaith neu wirionedd i mewn iddo, nid oedd berygl iddo ddiangc mwyach. Caffai ei wrthwynebydd mewn dadl deimlo nerth ei wybodaeth yn dra buan, a deuai allan o bob ymgyrch dadleuol yn mron yn fwy na gorchfygwr. Trwy iddo gael mwynhau iechyd da, galluogwyd ef i barhau yn nghyflawniad ei ddyledswyddau hyd ddiwedd ei oes o'r bron.

Nodweddid ef fel pregethwr gan symledd ac eglurder. Ymdrinai âg athrawiaethau crefydd mewn dull hollol efengylaidd. Nid oedd yn cael ei ystyried yn un o areithwyr penaf ei oes; etto yr oedd yn bregethwr tra chymmeradwy a defnyddiol. Pregethodd am hanner can mlynedd; ac y mae yn dra sicr fod gweinidogaeth gysson am dymmor mor faith wedi gwneuthur daioni dirfawr. Yr oedd yn talu sylw arbenig i addysg a diwylliant crefyddol ieuengctyd, ac arferai draddodi pregeth neillduol iddynt ar bob dydd Nadolig; a chyrchai minteioedd o ieuengctyd o bob parth o'r ddinas i wrandaw arno ar achlysuron felly. Ennillodd hyder a chariad gweinidogion ieuaingc, o blegid ei dynerwch atynt, a'i barodrwydd i'w cynnorthwyo yn mhob cyfyngder. Rhoddid iddo barch mawr gan wŷr anrhydeddus ar gyfrif ei bwyll a'i gallineb cyffredinol. Digwyddodd fod Syr Charles Wolesey yn cyd-deithio âg ef unwaith i'r Iwerddon; a chafodd y barwnig ei synu yn rhyfeddol at wybodaeth fanwl y gweinidog am amgylchiadau gwleidyddol y byd; a thystiai y dylasai fod yn un o weinidogion ei fawrhydi, ac nid yn bregethwr Ymneillduol. Bendithiwyd ef â thymmer mor addfwyn, ac â'r fath helaethrwydd o ddylanwadau gras, fel yr oedd yn rhwydd ganddo faddeu i'w elynion penaf. Fel yr awgrymwyd yn ei hanes, cafodd brofedigaethau chwerw; a derbyniodd ymosodiadau creulawn oddi wrth bersonau y gwnaeth efe drugaredd â hwy mewn cyfyngder. Ond nid oedd yn llettya llid atynt, a gofalai na byddai yr haul "yn machludo ar ei ddigofaint." Galluogwyd ef trwy ei gyfoeth i estyn elusen i'r tlawd, a chymmhorth i'r anghenus. Arferai fyw yn syml a dirodres, a chyfranai symiau mawr o'i gyfoeth bob blwyddyn at achosion daionus a chrefyddol. Gan nad oedd ganddo deulu, cyflwynodd ran fawr o'i etifeddiaeth drwy ewyllys er budd achosion crefyddol yn Nghymru. Darfu i Mrs. Roberts, chwaer Dr. Williams, ammheu cyfreithlondeb yr ewyllys, o blegid fod yr hyn a ysgrifenwyd ynddi rhwng y llinellau heb ei lawnodi gan dystion. Gwnaeth hyn, nid oddi ar ddybenion ariangar, ond oddi ar y grediniaeth nad oedd ei brawd wedi gadael digon o arian at achosion teilwng yn Nghymru. Boddlonodd roddi i fyny ei hawl i'w eiddo yn hollol ar yr ammod i'r ymddiriedolwyr dalu 60*p*. yn y flwyddyn yn y cyfeiriad a grybwyllwyd. Wedi cael awdurdod llys cyfreithiol, cyttunwyd â'r ammod; ac y mae felly ragor yn dyfod i Gymru nag oedd Dr. Williams ei hun wedi ei fwriadu. O herwydd fod gwerth eiddo wedi chwanegu, y mae yn rhywle tua 700*p*. o gymmunrodd Dr. Williams, a'i chwaer, Mrs. Roberts, yn cael eu rhanu yn Nghymru bob blwyddyn. Galluogir yr ymddiriedolwyr hefyd i ranu Beiblau a Thestamentau yn achlysurol; a chydrhwng yr oll, gwnaeth Dr. Williams ddaioni mawr yn ei fywyd. Undodwyr sydd yn awr yn gweithredu fel ymddiriedolwyr ar ei eiddo.

WILLIAMS, DAVID, Troed-rhiw-dalar (neu fel yr adnabyddid ef yn fwy cyffredin am lawer o flynyddoedd, 'WILLIAMS, *Llanwrtyd*'), ydoedd weinidog Cynnulleidfaol. Ganwyd ef yn Nant-y-dderwen fawr—amaethdy bychan yn nghwm cul, clyd, digynnyrch, ond rhamantus y Cerdin, yn mhlwyf Llanwrtyd, yn sir Frycheiniog. Efe ydoedd cyntafanedig ei rieni—enwau pa rai oeddynt Rees a Margaret Williams. Yr oedd Rees yn fab i Roderick, yr hwn a symmudodd o le a elwid Nonsits (*Nonsuch?*) yn Nghwm y Tywi, yn mlaenau sir Gaerfyrddin, i blwyf Llanwrtyd. Disgynodd o Williamsiaid Abergwesyn; y rhai oedd yn hynod fel defaidwyr mawrion, ac hefyd ar gyfrif eu hirhoedledd. Argyhoeddwyd Roderick oddi tan weinidogaeth danllyd yr anfarwol Rowlands, o Langeitho. Wedi ei symmudiad i Lanwrtyd ymunodd â'r eglwys Gynnulleidfaol yn y Gelynos, lle y parhaodd yn aelod ffyddlawn a gweithgar hyd ei farw. Hefyd derbyniwyd Rees yn aelod o'r un eglwys; a daeth yntau yn aelod defnyddiol, a pharhaodd felly nes y terfynodd ei yrfa yn 1823. Yr oedd Margaret, ei fam, yn ferch i David Anthony, Tir-abad, yr hwn a argyhoeddwyd dan weinidogaeth gynnhyrfus Howel Harris, o Drefecca, pan ar ymweliad â Chefn-gorwydd. Er mai David *Anthony* ydoedd tad Margaret, etto, yn ol arferiad y dyddiau hyny, arwyddodd hi ei phriodas yn Margaret *Davies*. Disgynodd Catherine, gwraig David Anthony, a mam Margaret Davies, o'r un teulu a'r merthyr Cymreig, John Penry, o'r Cefn-brith. Priododd Rees Williams â Margaret Davies yn eglwys Llanwrtyd, Rhagfyr, 1777, ac aethant i fyw i Nant-y-dderwen fawr; lle y ganwyd David Williams, Ionawr 27ain, 1779. Gwehyddion wrth eu galwedigaeth ydoedd ei dad a'i daid, a dalient y tyddyn bychan a enwyd hefyd; ac fel amaethwyr yr ardal yn gyffredin, dibynent i raddau pell ar y praidd. Y mae yr annedd-dy erbyn hyn

Digitized by Google

yn aelod ffyddlawn a gweithgar tra y bu yn y lle. Cynnelid cyfarfodydd wythnosol gan y ddau enwad mewn tŷ a safai y pryd hwnw ar y fan lle y saif addoldy y Methodistiaid yn bresennol. Mynychai efe y cyfarfodydd hyn, ynghyd â chyfarfodydd a gynnelid yn y Fron a Chefntelych, fel nad esgeulusodd efe feithriniad ei natur foesol tra yr arosai yno; a bu hyn hefyd yn gadwraeth arno rhag ymlygru gyda gwyllt langciau y dref. Hynodid ef gan ofal mawr am ei holl ennillion yn yr adeg dan sylw, ac ni ffurfiodd arferion llygredig. Dywedai ddarfod iddo fod mor afradlawn a gwario un geiniog am ddiodydd meddwol tra y bu yn y lle:—meddai, "Dobin o'ent yn galw y mesur, a cheiniog oedd ei bris." Llefara hyn yn uchel am y modd y treuliodd ei amser yn Llanymddyfri. Hefyd, cofnododd y ffaith ganlynol:—"Y mae un peth a fwynheais yno sydd yn dda genyf ei nodi. Yr oedd fy nghartref gyda John Price, yn mhen uchaf Heol y Ceryg. Yr oeddwn yn cysgu yno wrthyf fy hun. Pan oeddwn ar ben fy ngliniau wrth ochr fy ngwely (yr oedd yn fellt a tharanau rhyfeddol), gwenodd y Nefoedd arnaf, ciliodd y cymmylau, a thywynodd haul arnaf. Cyfodais ar fy nhraed, a bûm o gylch dwy awr yn mwynhau ac yn diolch i Dduw. Y mae y noswaith hono fel arwydd ffordd genyf i droi ati etto rai gweithiau."

Ymadawodd â Llanymddyfri yn y flwyddyn 1796 am Merthyr Tydfil. Trefnodd i ymadael ar ddydd ffair, fel y cawsai weled ei dad cyn ei fyned ymaith, gan y disgwylid ef i'r dref ar yr adeg. Pan gychwynodd, aeth ei dad i'w anfon ran o'r ffordd, yn llawn pryder wrth feddwl ei fod yn myned i Merthyr; yr hwn le a ystyrid y pryd hwnw fel derbynfan gwehilion cymdeithas yr holl siroedd cymmydogaethol. Wrth ymadael, cofleidiasant eu gilydd, ac wylasant eill dau: a'r cynghor a roddodd ei dad iddo yn ei ddagrau pan ymadawsant oedd, "Fy machgen bach i, gofala am dy grefydd!" Felly aethant bob un i'w ffordd—ei dad yn ei ol i'r ffair, yn llawn pryder ac ofn am ddyfodol ei fab, ac yntau tua Morganwg; ac fel yr ymiachäai oddi wrth yr ysgydwad a gafodd wrth ymadael, paentiai gobaith y wlad dda odiaeth o'i flaen. Wedi ei ddyfod i Ferthyr, cafodd waith gan ŵr o'r enw Thomas Miles, am yr hwn y dywedai, "Yr oedd yn ddyn duwiol, yn aelod gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ac yn cadw addoliad teuluaidd." Ystyriai ddarfod iddo fod yn ffodus iawn i gael ei arwain gan Ragluniaeth at y gŵr da hwn. Edrychai ar yr adeg a dreuliodd yno fel adeg ei barotoad at y weinidogaeth. Pan ofynid iddo a fu efe mewn athrofa, dywedai, "Do: yn athrofa Thomas Miles yn Merthyr."

Cynghorodd ei gyflogwr ef i ymuno â'r frawdoliaeth fechan oedd yn cychwyn achos newydd yn *long room* y *Crown*—gan yr ystyrid fod y weinidogaeth yn yr Ynysgau y pryd hyny yn rhoddi sain anhynod: ac felly y gwnaeth. Nid oeddynt ond o bymtheg i ugain o aelodau ar y pryd yn y *long room;* a Lewis Foster, aelod o'r Groeswen, a ystyrid ganddynt fel eu blaenor. Am yr adeg hon, dywed, "Yr oeddwn am wythnosau lawer, os nad misoedd, heb un bregeth. Nid oedd ond wyth ar hugain o weinidogion gyda'r Annibynwyr yn y fl. 1800 yn y Deheudir, a dim ond deunaw yn y Gogledd—chwech a deugain oedd gan yr enwad yn Nghymru y pryd hwnw. Ond er nad oeddym yn cael ond ychydig o bregethau, yr oedd undeb, cariad, a chydweithrediad yn blodeuo yn ein plith—a Duw yn gwenu arnom. Yr oedd pawb o honom yn ei dro yn cael arfer ei ddawn—pob un yn ei gylch yn gweddio yn gyhoeddus." Hefyd, cofnodir ganddo yr hanesyn canlynol:—"Daeth atom un o'r enw Thomas Rees, o eglwys y Mynydd-islwyn. Yr oedd gan y brawd hwn rai daliadau gwahanol i'r eiddom ni. Yn mysg pethau ereill, daliai yr hyn a alwai yn 'llawn sicrwydd gobaith;' sef yw hyny, nad oedd neb yn dduwiol heb fod y person ei hun yn sicr o hyny. Parodd hyn gryn dipyn o ddadleu yn ein plith. Yr oedd rhai dros, ac ereill yn erbyn y syniad; ac yr oedd ereill nad oeddynt na thros nac yn erbyn y cyfryw syniad; ond dalient eu hunain yn ei wyneb, a chaent eu hunain yn methu dyfod i fyny âg ef. Yn mhlith y dosbarth hwn yr oeddwn i fy hun. Parodd i mi anesmwythder meddwl mawr, gan nad oeddwn bob amser wedi cyrhaedd y tir yr oedd efe yn ei nodi. Un noswaith, wedi i mi fyned i'r gwely gyda y cyfaill yr oeddwn yn arfer bod gydag ei, nis gallwn roddi cwsg i'm llygaid, na hûn i'm hamrantau, a hyny gan ofn am fy nghyflwr. Bu gorfod i mi godi a myned i gornel yr ystafell i weddio. Bûm yno am gryn amser—nis gwn pa faint; ond cyn i mi roddi i fyny cefais ffydd i gydio yn y gair hwnw a lefarodd Crist wrth ei ddysgyblion:—'Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd.' Cyfodais gyda llawenydd, a chysgais weithian yn esmwyth."

Yn yr ysbaid y bu oddi cartref, llafuriodd gyda dyfalwch mawr yn ei oriau hamddenol am wybodaeth o bob natur; ond yn neillduol am wybodaeth dduwinyddol a Beiblaidd. Pan yn Merthyr, derbyniodd "*Gorph Duwinyddiaeth*" Dr. Lewis, a rhai llyfrau da ereill, a myfyriai ynddynt gyda hyfrydwch mawr. Ac anaml y byddai yn gweithio heb fod y Beibl yn agored o'i flaen; ac felly, trysorodd lawer o hono yn ei gof, a bu yn neillduol wasanaethgar iddo yn mlynyddoedd dyfodol ei fywyd. Hefyd, ymddadblygai ei ddoniau yn gyflym iawn—yn gymmaint felly fel y cymmhellwyd ef yn daer i ymgyssegru i waith y weinidogaeth. Yr oedd yn gogwydd er yn blentyn at y gwaith hwnw, fel y gwelsom; etto, gwrthododd ddechreu arno yn Merthyr, a phenderfynodd, os dechreuai o gwbl arno, yr äi adref i wneyd hyny.

Hynodid ef hefyd am yr ysbaid hwn gan ddiwydrwydd gyda'i alwedigaeth. Nid hir y bu cyn ennill y sedd anrhydeddusaf yn ngweithfa Thomas Miles. Ymwelodd hefyd â Chaerdydd, a Chasnewydd, a bwriadai fyned i Lundain; er ymberffeithio yn ei gelfyddyd. Ond yr oedd gan yr Arglwydd gylch arall iddo ef i'w lenwi, a deisyfai ei gyfeillion arno i ddychwelyd—ac yn eu plith yr oedd y Parch. Isaac Price. Dywedai ei hun hefyd, "Yr oeddwn yn meddwl dyfod adref i ddechreu pregethu i dŷ fy mam, ac ystafell yr hon a'm hymddug—yr hen eglwys yn yr hon y'm derbyniwyd." Am hyny canodd yn iach i Merthyr, a Thomas Miles, a'r frawdoliaeth yn y *long room*, yn nechreu Mai, 1799; a daeth adref at ei rieni, y rhai oeddynt yn byw yn Melin-maes-gwaelod, ger llaw Llanwrtyd—i'r hon yr oeddynt wedi symmud cyn ei ymadawiad. Ac yno y gosododd ei alwedigaeth i fyny: a bu Rees Jones, ei hen athraw, yn cael gwaith ganddo. Dywedid ei fod yn ddiguro fel crydd, a bod yr holl ardal yn cael eu hesgidiau ganddo. Dywedai, "Yr oeddwn yn cael digon o waith, ac yn debyg o wneyd yn gysurus."

Digitized by Google

i bregethu mewn tref ar ganol dydd, ar un o'i wibdeithiau cymmanfaol. Yr oedd ei enw mor hysbys i ni ag enw Dafydd Rhobert, ein cymmydog nesaf, a theithiasom rai milldiroedd i'w weled a'i glywed. Cyn dechreu y cwrdd, gwelem ddyn byr, gewynog, corphorol, cadarn, a het lwyd, â galarwe arni, am ei ben, côb a gwasgod ddu, clos melfed du, a hosanau bach duon, yn myned tua'r addoldy. Yr oedd yn un o'r troedwyr mwyaf heinyf a welsom erioed. Ei gamrau oeddynt fyrion, chwyrn, a chryno. Wedi i ŵr arall golli llawer o chwys a tharth wrth bregethu o'i flaen, y mae yn esgyn grisiau y pulpud bron ar 'redeg. Gallesid meddwl, wrth edrych arno yn ystod y bregeth gyntaf, ei fod yn yr ing meddwl dwysaf. Yr oedd pryder poenus i'w weled yn ei wedd, a'r llygaid bywiog yn treiglo mewn anesmwythder diorphwys. Yr oedd adroddiad emyn byr fel yn lliniaru ychydig ar ei boenau. Y mae ei ddwyfron yn eang ac agored, a digon o le ynddi i feginau yr ysgyfaint chwareu yn ddirwystr. Ei wddf sydd fyr, ei brydweddau yn dywyll, a'r gwallt y pryd hwnw yn dduach nag yw yn awr. Y mae ei dalcen yn grwn a llawn, ei drwyn yn cyfodi ychydig yn y blaen, a chyhyrau ei wyneb fel llinynau ystwyth, yn hollol dan lywodraeth yr ewyllys. Ei wefusau ydynt o dewder canolig, ac ymddangosant fel wedi eu gwneyd o bwrpas i siarad. Gellid meddwl eu bod, fel clorianau, yn pwyso ei frawddegau. Dyna yr olwg a gaem arno ar y pryd; ond yr oedd ei agwedd yn boenus o ddifrifol. Nid oedd yn ymddangos fel dyn â chanddo genadwri ddifrifol at ereill yn unig—ond ymddangosai mewn ingoedd dirdynol ei hunan. Parhaodd yr olwg hon drwy y canu, ac yna darllenodd destyn mewn llais araf, ymchwyddol, a difrifol:—'Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad, yw hyn; ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd.' Bob yn ronyn, ymddangosai baich y pregethwr yn ysgafnhau, yr oedd ei lygaid yn sirioli, ei ymadrodd yn cyflymu, ei lais yn chwyddo, ei law dde yn cael ei thynu o goryn ei ben dros ei iâd i lawr; ac yn mhen ychydig, yr oedd y ddwy law yn brysur, brysur, gyda'r un gwasanaeth. Yr oedd gwahanol grefyddau y byd yn cael eu pwyso, eu mesur, a'u cymmharu, yn eu haflendid, eu llygredigaeth, a'u creulondeb, â'r grefydd bur a dihalogedig, dyner, a difrycheulyd y soniai am dani. Yr oedd y gwrandawyr yn sirioli; ac er nad oedd y lle yn nodedig am amenau, yr oedd llawer un yn llithro allan, nes oedd y pregethwr yn gwaeddi am awdwr y grefydd a ganmolai, 'Parch iddo!' 'Bendigedig fo'i enw!' a 'Myrdd o goronau fo ar ei ben!' Ac wedi dwyn pawb i hwyl, yn gystal ag ef ei hun, mae yr areithiwr hyawdl yn tewi, gan adael arogl esmwyth ar ei ol i lanw y lle."

Pan yn adolygu hanes Mr. Williams, teimlwn awydd diolch i'r Arglwydd am dano ef, a dynion o gyffelyb ysbryd, fel rhoddion oddi wrtho i'n gwlad. Yr oedd wedi ei wneyd gan natur o ran corph, meddwl, a doniau, i atteb amgylchiadau yr eglwys yn ei ddyddiau ef. Ond "efe a fu farw!" a dios genym ddarfod i'w Arglwydd groesawu ei enaid i'r trigfanau dedwydd yn y geiriau melus hyny:—"Da was, da a ffyddlawn, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd." "Canys Dafydd, wedi iddo wasanaethu ei genhedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw a hunodd, ac a ddodwyd at ei dadau, ac a welodd lygredigaeth." Ond da genym gofio y geiriau—"Rhaid i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb!"

WILLIAMS, DAVID: **awdwr llawer o lyfrau a phamphledau, oedd fab i bregethwr o'r enw David Williams. Ymddengys mai brodor o sir Aberteifi oedd ei dad, ond iddo symmud i Forganwg**, lle y ganwyd gwrthddrych y sylwadau hyn yn y fl. 1738. Yr oedd ei dad yn gweled fod y bachgen yn meddu talent a gallu meddyliol; a'i awydd penaf oedd ei barotoi i fod yn bregethwr yr efengyl. A rhoddodd iddo bob manteision addysgol a allai. Nid oedd y bachgen un amser, pa fodd bynag, yn amlygu dim awydd am ymroddi i'r gwaith y mynai ei dad iddo ymgymmeryd âg ef; ond mewn ufudd-dod i ddymuniad yr olaf, pan oedd ar ei wely angeu, efe a benderfynodd ymgyflwyno i'r gwaith; ac aeth am ysbaid i Goleg Caerfyrddin, er ymbarotoi at y gwaith. Yn mhen peth amser, cafodd alwad oddi wrth eglwys Ymneillduol yn Frome, Gwlad yr Haf, i fod yn weinidog iddi; a mawr hoffid ef yno gan ei gynnulleidfa. Ond yn fuan cafodd alwad i fod yn olynydd i ddau o weinidogion enwog yn ninas Exeter; ac yno y neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth mewn eglwys oedd yn coleddu syniadau Ariaidd. Gallasai fod yn eithaf hapus yn Exeter; ond nid oedd gwaith y weinidogaeth yn un yr ymhyfrydai efe ynddo; a phenderfynodd fyned i'r brifddinas, gan obeithio cael rhywbeth i'w wneuthur mwy cydunol â'i dueddiadau. Ond yn gymmaint ag nas gallai daro yn rhwydd ar ddim felly, efe a aeth am dymmor yn weinidog i Highgate; a chyhoeddodd ddwy gyfrol o'r pregethau a adroddwyd ganddo yno; a chyhoeddodd hefyd ei "*Philosopher,*" a'i "*Letter to Garrick.*" O herwydd rhyw anghydwelediad, torodd bob cyssylltiad â'r Ymneillduwyr. Yr oedd wedi talu llawer o sylw i bwngc addysg, a chyhoeddodd draethawd ar y cwestiwn yn 1773; ac yn hwn yr oedd yn cymmeradwyo cynlluniau Commenius a Rousseau. Cymmerodd dŷ yn Chelsea, a phriododd gyda boneddiges ieuangc wedi cael addysg ragorol, er nad oedd yn gyfoethog. Agorodd ysgol ei hun, a chafodd gefnogaeth dda; ond tra yr oedd ei ysgolheigion yn lliosogi, a'i ysgol yn dyfod yn mlaen yn llwyddiannus, bu farw ei wraig—ergyd a deimlwyd ganddo yn ddirfawr. Methodd ei dal, torodd bob peth i fyny, ac ymneillduodd i le unigol yn sir Derby, i ofidio yno wrtho ei hun! Ond dychwelodd i Lundain drachefn; ac yn y fl. 1773, efe a agorodd gapel ger llaw Cavendish square: ond yr oedd ei syniadau erbyn hyn yn mron yn hollol anffyddol; ac yn mhen rhai blynyddoedd gwaghaodd y capel, ac yr oedd yntau yn myned i ddyled wrth geisio ei gadw yn agored. Cyhoeddodd nifer fawr o weithiau llenyddol, ac yn eu plith ei "*Lectures on Education,*" "*Lectures on Political Principles,*" "*History of Monmouthshire,*" &c., &c. Daeth, drwy ei olygiadau duwinyddol a gwleidyddol, i gydnabyddiaeth â'r blaid Girondinaidd yn Ffraingc. Williams oedd sylfaenydd y *Literary Fund*, yr hon a drefnwyd er estyn cynnorthwy i awdwyr tlodion—a bu ei hun yn derbyn o'r drysorfa hon yn niwedd ei oes. Y mae y sefydliad rhagorol hwn yn parhau hyd heddyw. Bu farw ar yr 22ain o Fehefin, 1816, yn 78ain mlwydd oed, a chladdwyd ei weddillion yn eglwys St. Ann, Soho, Llundain.

WILLIAMS, EDWARD, yr hwn a adnabyddir yn well wrth ei enw barddonol, *Iolo Morganwg*, B. B. D. Y mae yn rhyfedd, braidd, fod gwahanol ysgrifenwyr ar y dyn hynod hwn yn gwahaniaethu cymmaint ynghylch blwyddyn ei enedigaeth. Mynega dau iddo gael ei eni yn 1745; un yn 1746; a dau yn 1747. Y ddau olaf sydd gywir; canys dywed efe ei hun, fel y

Digitized by Google

oedd arno, a'u taflai ymaith yn sarug, gan ddyweyd, "Sothach yr amser" (*Trash of the day*)—ac allan âg ef heb ddywedyd gair yn chwaneg. Yna gofynodd Iolo i'r masnachwr, "Pwy oedd y boneddwr trahaus yna?" "Y Doctor Johnson," meddai y llyfrwerthwr. "Beth!" ebe Iolo, "y pen-geiriadurwr; awdwr y '*Rambler,*' '*Rasselas,*' a'r '*Vanity of Human Wishes!*' Pe gwybuaswn mai efe a eisteddai ar y gadair mor agos ataf, sylwaswn yn fanylach arno; a dichon y casglaswn ddigon o wroldeb i'w anerch." Dywedodd y llyfrwerthwr y byddai y Doctor yn sicr o alw, os byw ac iach, yn ol ei arfer, ar y cyntaf o'r mis, i edrych dros y cyhoeddiadau, pan y gallai gael ei ddymuniad. Gofalodd y Cymro ieuangc am fod yno ar yr amser penodedig; ac yn lled fuan ar ol iddo fyned i mewn, gwnaeth y "Doethawr chwyrnllyd" (*the growling Doctor*) ei ymddangosiad, gan eistedd ar y gadair, fel o'r blaen, i droi a thrafod y misolion. Cymmerodd Iolo dri o Rammadegau i'w law, er mwyn tynu sylw y dyn mawr, a dywedodd yn ostyngedig mai Cymro tlawd oedd efe, yn awyddus am ddysgu Saesneg yn gywir; ac y byddai yn dra diolchgar i'w fawredd, os byddai mor garedig a'i hysbysu pa un o'r llyfrau hyny oedd y goreu er cyrhaedd yr amcan. Wedi i'r cawrddyn edrych yn gibog arno, ac yna ar y llyfrau, er gwybod pwy oedd yr awduron, dywedodd yn swrth, "Gwna y naill neu y llall y tro i chwi, ŵr ieuangc." Teimlodd y bardd croen-deneu y sarhâd, ac attebodd yn bur annibynol, "Purion, syr! mi brynaf y tri, ynte, er mwyn bod yn sicr o'r goreu." Tybia T. D. Thomas, un o fywgraphwyr Iolo, mai E. Williams oedd y llyfrwerthwr crybwylledig—cyhoeddwr yr argraphiad cyntaf o "*Eiriadur Dr. Pughe,*" "*Caniadau Llywarch Hen,*" "*Coll Gwynfa,*" "*Barddoniaeth D. ab Gwilym,*" a'r "*Cambrian Biography,*" &c.

Dywed y bardd y bu dros ddwy neu dair blynedd, y pryd hyn, yn Llundain, Caerodor (*Bristol*), a manau ereill yn y gororau hyny. Y mae yn debyg mai yn ystod ei arosiad y pryd hwn yn Llundain y daeth Iolo yn gydnabyddus â'r Dr. Pughe, y Dr. D. Samwell, John Jones (*Sion Glan y Gors*), Ned Môn, ac ereill o'r Cymreigyddion. Y mae dwy o'i ganiadau Saesnig (y rhai cyntaf, ond odid, a gyfansoddodd) wedi eu hamseru yn ystod ei arosiad y waith hon yn Llundain.—"*Poems,*" cyf. i. td. 14, 15.

"Yn 1773," ebe fe, "aethum i Gaint (*Kent*), lle yr arosais dros yn agos i bedair blynedd... Erbyn hyn yr oedd gan ddychweliad at wrthddrychau gwledig effaith hyfryd a nerthol ar fy meddwl; a hyn, ynghyd â'm cyfarfyddiad â'r Dr. Aikin's '*Essays on Song Writing,*' y rhai a fawr hoffwn, a adnewyddodd fy chwaeth farddonol; ac mi a ysgrifenais lawer o'r darnau sydd yn y cyfrolau hyn, '*Poems,*' mewn dwy gyfrol, yn Caint." Wrth ddwy o'i ganiadau y mae amseriad diammheuol yn ystod ei arosiad yn Caint ['*Poems,*' cyf. i., td. 49; cyf. ii., td. 35]; ond dichon fod amryw sydd heb amseriad wrthynt wedi eu cyfansoddi y pryd hwn. Mewn tref fechan o'r enw Dartford, yn swydd Caint, tua phymtheng milldir i'r de-ddwyrain o Lundain, yr arosai y pryd hyn, yn dilyn ei alwedigaeth fel saer maen. Dywed Waring ei fod, yn y cyfamser, yn ysgrifenu hefyd i'r "*Town and County Magazine,*" y "*Monthly Magazine,*" a'r "*Gentleman's Magazine,*" a bod golygydd yr olaf yn talu yn anrhydeddus iddo am ei ohebiaeth.

Y mae Waring yn adrodd dau ddigwyddiad lled ddigrifol a'i cyfarfu tra yn Dartford. Un noswaith, archodd ei oruchwyliwr iddo fyned y boreu dranoeth i fesur mur mynwent yr oeddynt wedi bod yn gweithio arno, fel y gallai anfon hawl-ysgrif (*bill*) am y gwaith. Aeth Iolo i'w wely â'i feddwl yn llawn o'r gorchwyl oedd o'i flaen; ac wedi cysgu, "cododd drwy ei hun;" gwisgodd am dano, mesurodd y mur, a dododd y mesur i lawr yn rheolaidd yn ei lyfr. Dihunwyd ef wrth i gloch yr eglwys daro dau, pan y cafodd ei hun, er ei syndod, yn nghanol y tywyllwch yn y fynwent, a'r llath-fesur mewn un llaw a'r llyfr yn y llall. Wedi ymbwyllo, deallodd iddo fyned yno yn ei gwsg; a cherddodd o amgylch y fynwent nes iddi ddyfod yn ddigon goleu i fesur y mur. Ond erbyn iddo edrych ei lyfr, canfu ddarfod iddo fesur y mur eisoes yn ei gwsg, a'i fod yn berffaith gywir. Adroddai Iolo yr amgylchiad yma fel prawf a gafodd ei hun o gwsg-rodiad.

Y mae y chwedl arall yn ddigrifach fyth. Gan fod Iolo yn ymneillduo i ddarllen ac i gyfansoddi bob cyfle a gaffai, a'i fod weithiau yn siarad yn bur uchel âg ef ei hun, tybiai amryw ei fod yn dal cyfeillach âg ysbrydion. Bostiai gŵr y tŷ ei fod ef yn Saducead trwyadl; ac nad oedd yn credu mewn nac ysbryd na byd arall, fel y credai pobl weiniaid, anwybodus. Ond blinodd Iolo o'r diwedd ar ei ymffrost; ac er mwyn ei argyhoeddi, dywedodd y codai efe y neb a fynai o farw iddo, ac y plygai ef ger ei fron. Dygwyd yr anghredadyn i ystafell dywyll, a chan gymmeryd arno fod yn swynwr, aeth y bardd i gylch a wnaethai â marm (*chalk*) ar y llawr; a thrwy gydweithrediad gŵr arall mewn is-ystafell, yr hwn a wnai sŵn annaearol wrth ddyfod i fyny, parasant y fath ddychryn ac arswyd ar ŵr y tŷ fel y bu yn bur barchus o drigolion y byd arall o hyny allan.

Yn 1777, aeth o Gaint i Lundain; ond nid arosodd yno y pryd hwn ond ychydig, eithr dychwelodd i Gymru yn ebrwydd; a dywed ddarfod i'w ddychweliad i olygfeydd ei faboed fawr fwyhau ei awydd at farddoniaeth. Ymddengys iddo ymroddi i gyfansoddi barddoniaeth ar ol dychwelyd i fro ei enedigaeth, lle y treuliodd y rhan fwyaf o weddill ei oes. Y mae tair ar ddeg o'i ganiadau Saesnig sydd yn y "*Poems*" wedi eu hamseru o'r flwyddyn 1777 hyd 1780; ac y mae yn debyg mai yn yr adeg yma y cyfansoddodd amryw o'r rhai sydd heb amseriad wrthynt yn y ddwy gyfrol.

"Yn 1781," ebe fe, "mi a briodais; ac fel yr oedd fy nheulu yn graddol gynnyddu, gorfodwyd fi i roddi heibio yr hyn hyd yma oedd fy hoff fyfyrdod." Ei wraig ydoedd Margaret, unig ferch Rees, a'i wraig Elizabeth, o Eglwys Fair (*Mary Church*), yn Morganwg. Bu iddynt bedwar o blant:—un mab, Taliesin (*Ab Iolo*), a thair o ferched. Ond er gwaethaf prysurdeb teuluaidd wrth fagu y plant, cipiai ambell orig i weini yr Awen; canys y mae naw o ganiadau Saesnig sydd yn y "*Poems,*" wedi eu hamseru o 1782 hyd 1793; ond ni wyddys pa faint o'i rai di-amseriad a gyfansoddwyd yn ystod yr un mlynedd ar ddeg hyny.

Yn y flwyddyn 1790, digwyddodd etholiad cyffredinol yn Mhrydain, a hyny pan yr oedd y chwyldroad Ffrengig yn myned yn mlaen yn orwyllt—a lliaws yn y wlad hon, ac yn eu plith Iolo, yn cydymdeimlo âg ef o'u calon; a bu y cynnhyrfiadau hyn yn foddion i roddi egni newydd yn awen gyffrous y bardd. Tynodd ei gan-

Digitized by Google

at y prif weinidog, yr hwn a ddiolchodd iddo am dani; a rhoes wahoddiad iddo ymweled âg ef yn bersonol, â'r hyn y cydsyniodd yntau yn ebrwydd. Cafodd bob croesaw gan Mr. Pitt, yr hwn a'i canmolodd am ei graffder, gan ddywedyd y byddai y darganfyddiad o werth i'r llywodraeth.

Fe allai mai ar ol yr ymweliad yma â Pitt y canodd y bardd y gân Saesnig sydd yn cynnwys y llinellau hyn:—

"If thou dost meet a tyrant king,
Up fist, and knock him down."

A'r gân Gymreig sydd yn cynnwys y pennillion canlynol:—

"Clyw, 'r brenin balch di-ras,
A thi, 'r offeiriad bras,
Dau ddiafl yn un:
Hir buoch fel dau gawr,
I'r byd yn felldith fawr,
Yn sarnu'n llaid i'r llawr
Holl freiniau dyn.

Anrheithio'r byd, a lladd
Eich brodyr o bob gradd,
Fu'ch gwynfyd oll:
Cyfiawnder trwy'r sarhâd,
Ymguddiai rhag eich brâd,
Cyfrifid e'n mhob gwlad,
Fel peth ar goll.

O pa'm! frenhinoedd byd,
Y malwch ewyn c'yd,
Mewn poethder gwŷn?
Clywch orfoleddus gaingc;
Mae'r gwledydd oll, fel Ffraingc,
Yn rhoddi 'r orseddfaingc
I freiniau dyn.

Orfoledd! cwyd dy lais;
Cwymp holl deyrnasoedd trais;
Maent ar eu crŷn:
Cawn deyrnas hardd ei gwedd,
Dan farn Tywysog Hedd,
Yn hoenus cawn o'r bedd
Holl freiniau dyn."

Cyhuddwyd y bardd o blegid y llinellau uchod a'u cyffelyb, gan ysbïwyr dichellgar, o fod yn fradwr y llywodraeth; ac yn lle ei wahodd yn dirion, fel y troion o'r blaen, i ymweled â Mr. Pitt, rhoddwyd gorchymyn i attafaelu ei ysgrifau; a rhoddwyd gwŷs iddo yntau i ymddangos yn ddioed ger bron y prif weinidog, ac un o'i gydswyddwyr. Darllenwyd ei bapurau, eithr ni chafwyd dim bradwriaeth ynddynt; ond dywedodd Mr. Pitt yn barchus wrtho, fod ganddo rai llinellau, megys y rhai a ddyfynwyd uchod, oedd yn rhy anwyliadwrus, gan ei annog i fod yn fwy gofalus rhag llaw. Wedi hyny dywedodd, "Yn awr, Mr. Williams, gellwch fyned â'ch holl bapurau adref, a bod yn berffaith dawel." Ond dywedodd yr hen Iolo, gan i'r awdurdodau gymmeryd ei bapurau oddi arno heb ei gydsyniad ef, y disgwyliai i'r un awdurdodau eu dychwelyd; a barnwyd fod hyny yn deg a rhesymol. Byddai y bardd yn mynych ganmawl mwynder Mr. Pitt, a'i ymddygiad boneddigaidd tuag ato.

Yn ebrwydd ar ol hyn, traddodwyd pregeth gan un o weinidogion y Bedyddwyr yn Llundain, ar y modd y dylai brenhinoedd deyrnasu, a barnwyr weinyddu cyfiawnder; a bwriwyd ef i garchar i adfyfyrio arni. Creodd hyn gydymdeimlad cyffredinol â'r carcharor yn mhlith pob dosbarth, ond yr erlidwyr eu hunain. Clywodd Iolo Morganwg am yr erledigaeth; ac yr oedd deall iddo gael ei garcharu am ddywedyd ei feddwl yn ddigon i ennyn dyddordeb angerddol yn meddwl y bardd tuag ato:—aeth i ymweled âg ef ar unwaith. Gofynid i bob ymwelydd ysgrifenu ei enw, a'i breswylfod, mewn llyfr a gedwid yn ystafell y porthor. Cydsyniodd Iolo â'r cais, ond mewn rhan yn unig; canys yn lle ei breswylfod, ysgrifenodd efe "Edward Williams, *Bard of Liberty*." Tynodd hyn sylw un o'r swyddogion; ac archwyd i'r porthor ei nodi allan os deuai yno drachefn. Nid arosodd Iolo ond ychydig amser cyn myned yno, ar fedr ail ymweled â'r carcharor; ond adnabyddwyd ef yn y fan fel awdwr yr ysgrifen ddrwgdybus; a dywedodd y swyddog wrtho, "Felly! chwychwi yw 'Bardd Rhyddid,' ai e?" "Ië 'n siwr, syr," ebe Iolo. Yna, meddai y swyddog, "gan hyny, Mr. 'Bardd Rhyddid,' yr ydych i ddeall mai yr unig 'ryddid' a ganiateir i chwi yma yw 'rhyddid' i fyned yn ol ar hyd yr un ffordd ag y daethoch." "O! purion, Mr. Swyddog," ebe Iolo, 'rwy'n eithaf boddlawn; ac mi ddymunwn na chaffo un 'Bardd Rhyddid' byth waeth triniaeth, na chael gorchymyn i fyned allan o'r carchardy." Wedi dychwelyd i'w letty, cyfansoddodd Iolo ganig fechan i Kirby, sef ceidwad carchar Newgate, yr hon a anfonodd efe iddo dranoeth; a gyrodd yntau hi i'r newyddiaduron Saesnig yn ddioed. Er ei bod yn cynnwys syniadau llawn mor chwyldroadol a dim a gyfansoddwyd gan Iolo; etto canfu y prif weinidog craffus, Pitt, wrth archwilio ei ysgrifau blaenorol, fod hen 'Fardd Rhyddid' yn rhy wyliadwrus i gyfansoddi dim a'i bradychai fel teyrnfradwr; o herwydd pa ham, cafodd lonydd mwyach gan weision y llywodraeth.

Yn 1793, cynnaliodd y bardd, mewn cyssylltiad â lluoedd o Gymry a Saeson Llundain, ac yn eu plith Tywysog Cymru (y brenin Sior IV. wedi hyny) "Orsedd," neu fath ar "Eisteddfod Gyfarch," a gyhoeddasid flwyddyn cyn hyny, ar Fryn y Briallu (*Primrose Hill*), lle yr adroddodd gân Saesnig faith, ac arweiniad helaeth ar "Gyfriniaeth yr hen Feirdd Brytanaidd, yn ol dull Taliesin:"—"*Poems*," cyf. ii., td. 193. Yna efe a adroddodd "Gywydd Hywel," yn Gymraeg; ac wedi hyny urddodd Miss Seward yn "ofyddes yn mraint a defod Beirdd Ynys Prydain"—yr hon oedd foneddiges dalentog, ac yn mhlith cyfeillion penaf y bardd.

Ar ol i'r "*Poems*" gael gorphen eu hargraphu tua diwedd 1793, cafodd genad i ymweled â Thywysog Cymru, i'r dyben o ofyn ei ganiatâd i gyflwyno ei Ganiadau Saesnig iddo; a gwnaeth y parotoadau rhyfeddaf a ddyfeisiwyd gan fardd erioed i ymddangos yn y llys. Ymwisgodd yn ei ddillad goreu, yn addurnedig âg arwyddion ei gelfyddyd fel saer maen. Rhwymodd ffedog wen o ledr newydd am ei lwynau, a chymmerth lwyarn (*trowel*) newydd yn ei law; ac felly, ymddangosodd ger bron y tywysog, gan yr hwn y cafodd dderbyniad croesawgar a gwengar; a chaniatâd i gyflwyno ei ganiadau iddo. Y mae y cyflwyniad yn nechreu y gyfrol gyntaf o'r "*Poems*." Y mae rhyw anghyssondeb rhyfedd yn ymddangos rhwng y cyflwyniad hwnw a chynnwys amryw o'r caniadau cyflwynedig, yn y rhai y bwrlymir y dduchan chwerwaf yn erbyn brenhinoedd, tywysogion, ac offeiriaid; canys, fel y dywed Cynddelw, "Breiniau dyn oedd anwylbwngc Iolo; a'r ellyllon gwaethaf ac aflanaf yn ei olwg oedd *kingcraft* a *priestcraft*." Dywed Waring mai arwydd o "ddidwylldra yr awdwr" oedd y cyflwyniad dan sylw. Yr ydym

Digitized by Google

gwerthfawr, gan gyhoeddwr y "*Gwyddoniadur,*" yn 1861, yn un gyfrol wythplyg breiniol hardd, yn cynnwys 1248 o dudalenau.

Tra yr oedd Iolo ar ei daith trwy Wynedd, yn casglu defnyddiau at y "*Myvyrian,*" efe a urddodd Dafydd Ddu Eryri, Gutyn Peris, ac ereill, yn Feirdd Cadair Dinorwig; a dadganodd ei "Gywydd Gorymbil ar Heddwch ger bron beirdd ynys Prydain, yn Ngorsedd Gyfarch, ar Fryn Dinorwig, yn Arfon, ar Wyl yr Alban Elfed, pan oedd oed Crist yn 1799." Bernir mai y cywydd hwn yw ei brif gampwaith yn y Gymraeg; ac yn ddiau y mae ynddo rai darnau tra phrydferth. Cyhoeddwyd y cywydd dan sylw yn yr ail gyfrol o'i "*Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch.*" O gylch yr amser ag y cynnaliwyd Gorsedd Gyfarch ar Fryn Dinorwig, cyfansoddodd Iolo saith ar hugain o "Englynion Hyfforddiant, sef Cynghor i wneuthur Englyn yn flasus a dyddan; ac yn hardd a gloyw ei syniadau, y meddyliau, a'r mydryddiaeth, neu'r ganiadaeth; ac yn ddefnyddfawr ei addysg ar foesgarwch a chynnildeb buchedd; ar ddymuniad mebyn ieuangc o Wynedd." Dywedir mai y "mebyn" hwn oedd Dewi Wyn o Eifion, yr hwn, y pryd hyny, oedd o gylch pymtheg oed. "Y mae gwerth mewnol yr englynion yn fawr," ebe Cynddelw; "ond y mae un gwendid amlwg ynddynt. Y mae y rhan liosocaf o honynt yn diweddu mewn cynghanedd ddinerth a llipa, ac y mae yn amlwg na ddilynodd Dewi Wyn mo'i 'Hyfforddiant' yn y peth hwnw; canys un o'i brif ragoriaethau ef oedd diweddu englyn yn nerthol a chlymgar." Un o hynodion yr englynion dan sylw ydyw, eu bod oll yn terfynu â gair unsill; yr hyn, yn ddiau, sydd yn achos fod amryw o honynt mor "ddinerth a llipa."

Y mae gan Iolo ddeunaw o "Englynion Rhagosteg y Salmau," ar ddechreu y gyfrol gyntaf o "*Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch,*" y sawl a derfynant oll â gair unsill, fel y rhai uchod. Hefyd, y mae ganddo wyth a deugain o englynion ar ol ei wahanol Salmau yn yr ail gyfrol; ond y mae deg o'r rhai hyn yn terfynu â geiriau lliaws-sill. Fe allai, gan hyny, mai damwain, ac nid mympwy, oedd yr achos fod cynnifer o'i englynion yn terfynu â geiriau unsill.

Rywbryd yn lled fuan ar ol i Iolo orphen ei daith trwy Gymru i gasglu defnyddiau at y "*Myvyrian,*" yr "*Iolo MSS.,*" a "*Chyfrinach y Beirdd,*" pennodwyd Gwallter Mechain gan y "Bwrdd Amaethyddol" i arolygu ymchwiliad trwy Ddeheubarth Cymru; a chyflogodd yntau Iolo Morganwg i fod yn gydweithiwr âg ef—yr hwn oedd waith wrth fodd calon yr hen fardd; canys yr oedd efe wedi myfyrio, nid hynafiaethau a barddoniaeth yn unig, ond hefyd amaethyddiaeth a llysieuaeth—yn enwedig yr olaf. Cyhoeddwyd ffrwyth eu llafur yn 1815, wrth yr enw "*General View of the Agriculture and Domestic Economy of South Wales,*" &c., gan Walter Davies, M. A., dwy gyfrol wythblyg. Yn y rhagymadrodd, ar ol diolch i'w gynnorthwywyr ereill, y mae yr arolygwr gonest yn cydnabod gwasanaeth Iolo fel hyn:—"Yn olaf, y mae yn ddyledus arnaf enwi Mr. Edward Williams, o Flemstone [Trefflemiug], yn agos i Bont Faen, yr hwn a gyflogais er dechreuad yr ymchwil, i'm cynnorthwyo, ac i gydweithio â mi; ac o herwydd ei gynnorthwy ef, a'r defnydd a wnaed o'i bapyrau, y mae yr arolygiad canlynol wedi ei ysgrifenu yn y person cyntaf o'r rhif liosog."

Bernir mai ar ei daith yn sir Aberteifi yn yr ymchwil yma yr ydoedd pan y cyfarfu â'r digwyddiad canlynol, yr hwn sydd eglurhâd hynod ar un o'i brif ragoriaethau, sef ei ddyngarwch. Pan yn mhell oddi wrth dŷ pob cyfaill, daliwyd ef gan noswaith dywyll, wlawog, a thymmhestlog; am hyny, trodd i lettya i dafarndy ar ymyl y ffordd. Un swllt oedd ganddo ar y pryd yn ei logell; sef, prin ddigon i dalu am ei fwyd, a lletty noswaith. Yn fuan wedi iddo fyned i mewn, pan y safai o flaen tân cysurus, daeth masnachydd treigl (*pedlar*), dan faich trwm, i mewn; ac ymddangosai ei fod yn dioddef yn dost gan anwyd a lludded. Gofynodd i'r tafarnwr am letty noswaith; ond dywedodd yn onest nad oedd ganddo ddim arian, o blegid iddo fethu gwerthu dim yn yr ardal hono; ond fod ganddo nwyddau gwerthfawr yn ei ysgrepan, ac y caffai y tafarnwr yr hyn a fyddai resymol o honynt am ei letty. Ond er mor luddedig, gwlyb, a gwelw yr ymddangosai y truan tlawd, dywedodd y tafarnwr calon-galed wrtho yn sarug am fyned allan o'i dŷ ef yn y fan, os nad oedd ganddo bres i dalu. Edrychai y bardd ar yr olygfa gyda theimladau cymmysg o dosturi a digllonedd. Tynodd ei unig swllt o'i logell; rhoddodd ef yn llaw y teithydd tlawd, blinedig; a dywedodd y talai hyny am ei letty, ac mai lletty a gaffai er gwaethaf yr adyn didrugaredd a fynai ei droi allan i ddyfnder nos mor dymmhestlog; ac yna, gan daflu edrychiad o ddirmyg a digofaint i wyneb y tafarnwr annynol, dywedodd wrtho, "Y dyhiryn! a wyt ti yn galw dy hunan yn ddyn? Tydi! yr hwn a fynit droi teithiwr tlawd, lluddedig, a llesg o'th dŷ ar y fath noswaith a hon! Y mae wedi cynnyg i ti lawn ddigon am ei letty, ond ti a'i gwrthodaist. A oeddit yn bwriadu myned allan ar ei ol, a'i ysbeilio? fe allai ei lofruddio! Y mae genyt galon llofrudd; ac yr wyt yn warth i ddynoliaeth. Nid arosaf fi funyd yn hwy dan dy gronglwyd esgymmun; ond tro di y teithiwr lluddedig yma allan ar dy berygl! Y mae ganddo fodd i dalu yn awr, ac ni feiddi ei wrthod." Ar hyny ymaflodd yn ei ffon, ac allan âg ef i'r ystorm a'r oerfel. Cerddodd ar hyd y nos, yn nghanol y gwlaw a'r dymmestl; ac erbyn iddo gyrhaedd tŷ ei gyfaill, y boreu dranoeth, yr oedd bron methu symmud gan oerfel a lludded. Cafodd dwymyn drom mewn canlyniad; ac ni bu alluog i fyned rhagddo ar ei daith dros amryw wythnosau. Ond er y cystudd a'r cyfan, edrychai yn ol ar y noswaith hono, a'i chanlyniadau gyda boddhâd hyd ddiwedd ei oes. Cyfarfu â'r masnachydd wedi hyny, yr hwn a ddywedai nas gallai edrych arno yn ddim llai na'i achubydd o safn marwolaeth; a bu daer arno dderbyn y swllt, a defnydd y wasgod oreu yn ei fwrnel yn llôg arno; ond ni fynai y bardd dyngarol y naill na'r llall; ac wedi hir ymddiddan âg ef, terfynodd yn ngeiriau ein Gwaredwr, gan ddywedyd, "Dos, a gwna dithau yr un modd." Dywed Waring nad ydyw hon ond un esampl o lawer cyffelyb a gyflawnodd y bardd yn ystod ei oes.

Yn mhlith câs bethau Iolo Morganwg, y peth casaf oll, ond rhyfel, oedd caethwasanaeth. Yr oedd yr enwog ddyngarwr, William Wilberforce, wedi dechreu gwrthwynebu y fasnach ofnadwy yn y senedd mor foreu a 1788; a pharhaodd i wneuthur hyny yn egnïol a di-ildio, nes y llwyddodd i gael dilead y gaethfasnach yn gyfraith y tir yn Mhrydain yn 1807, er llawenydd anhraethol iddo ei hun a'i gydlafurwyr. Yr oedd tri brawd i Iolo, sef Thomas, John, a Miles, wedi

Digitized by Google

fy hun, a thrwy hyny gadw hanner hawl yr ysgrif o leiaf yn fy meddiant; ac heb hyny ni chânt byth eu cyhoeddi. Yr wyf yn gobeithio y bydd fy mab byw i wneuthur hyny.

Myfi a ysgrifenodd y Byr-olyniad ar hen Lawysgrifau Cymreig sy'n rhagflaenu y gyfrol gyntaf o'r '*Myr. Arch.*,' lle y cynnygiais rai rhesymau er amddiffyn awdurdod y llawysgrifau Cymreig. Ar ol hyny, mi a'u helaethais i faintioli cyfrol; a hyderaf fy mod wedi llwyddo i lwyr ddymchwel enllibiau y Pinkertoniaid.

Heb law y rhai uchod, yr wyf bron wedi gorphen fy '*Nhraethawd dosraniadol o'r Iaith Gymraeg.*' Hefyd, fy '*Ngrammadeg ar briodiaith Essyllwg*,' hen a diweddar. Y mae yr hen briodiaith lenyddol yn Essylliaeth bur. Fy '*Ngrammadeg*' hefyd o'r briodiaith lenyddol ddiweddar, ar wahân, ac yn ddigymmysg â'r hen.

Yr wyf wedi gwneyd llawer o welliadau yn fy '*Nghaniadau Saesnig*,' gan ddarpar at yr ail argraphiad o honynt; ond ni chaf fi byth weled ei ddwyn i ben. Er hyny, yr wyf wedi gwneyd llawer o chwanegiadau; a hyderaf eu bod cystal, os nad gwell, a dim o'r rhai argraphedig.

Yr wyf wedi ysgrifenu twysged o hanes fy mywyd....Treuliwyd rhan fawr o'm hamser hamddenol yn y deunaw mis diweddaf i drefnu fy '*Marddoniaeth Gymraeg*,' yr hyn sydd fwy dewisol genyf na'm holl ymdrechion llenyddol ereill."

Mewn llythyr at Mr. D. Williams, Ionawr 16eg, 1810, dywed:—

"Yr wyf wedi ysgrifenu rhan fawr o '*Hanes fy Mywyd*.' Ymdrechaf ei wneyd yn gyfrwng y fath sylwadau ag a allaf ar lenyddiaeth Cymru, hen a diweddar; ar yr iaith Gymraeg, a'i gwahanol gangenieithoedd; ar hanesyddiaeth y Cymry, eu moesau, a'u dull o fyw; ac amryw hynafiaethau poblogaidd cyffelyb,...Fy mhrif amcan yn y gwaith hwn, fydd amlygu llenyddiaeth, hanes, a moesau cenedl y Cymry: yr unig destynau a'i gwnant yn bwysfawr, ac nid digwyddiadau bywyd un mor ddinôd a distadl ag ydwyf fi."

Yn y fl. 1812, cyhoeddodd y gyfrol gyntaf o "*Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch.*" Yn ei ragymadrodd i'r gyfrol hon, efe a ddywed,

"Ynghylch y flwyddyn 1794, fe'm hannogwyd gan gyfeillion dysgedig (yn eu plith y Dr. Gregory, capelwr Esgob Llandaf; y Dr. Kippis; y Parch. Theophilus Lindsey, ac ereill, yn gystal yn yr Eglwys Sefydledig ag yn mhlith yr Ymneillduwyr) i ysgrifenu rhyw nifer o Salmau neu Hymnau Cymraeg, o'r cyfryw ag a allai Cristionogion diragfarn, o bob enw a phlaid, ymuno ynddynt i foliannu yr un Duw, a Thad oll. Parch i'r achos yn gyntaf; ac yn ail, parch i'm hannogwyr dysgedig, ac eglurnod am eu hymarweddiad Cristionogol, a'm cynhyrfodd i gymmeryd y gorchwyl mewn llaw; a bu yn ddiddanwch nid bychan i mi dros amryw flynyddau digon trallodus gan wasg yr amseroedd, clefydau, a dyhirdra twyll-gyfeillion. Llwyddais, dan ddwyfol ragluniaethau—nid llawer, os dim, llai na gwyrthiol—i ysgrifenu dros chwe chant o'r cyfryw ag yr wyf yn awr yn eu gosod o flaen fy ngwlad a'm cenedl. Pa gymmeriad a gaf i waith fy ngalluoedd bychain, dan drymwasg oedran, dim llawer llai na deng mlwydd a thrigain, nis gwn: odid fawr na chaf ragfarn yr anffaeledigion yn daer i'm herbyn, neu yn hytrach i'm brâd-ergydio drach fy nghefn. Yr wyf yn deall fod rhai yn ymbarotoi at y gwaith, maddeuaf iddynt, dan obeithio y maddeu Duw iddynt hefyd."

Rhif y salmau yn y gyfrol gyntaf yw 204; at y rhai y chwanegwyd "Cywydd y Mochyn Mawr, neu hanes ymrysonau gwŷr y moch; sef, darlun y crefyddol trachwantus goludgar, y beilchion, cenawon rhagrith, a'r bydol-ddoethion yn gyffredin."

Y mae rhai o'r salmau yn bur dda; ond ychydig o'r tân byw barddonol sy'n treiddio trwyddynt, yr hwn a deimlir wrth ddarllen Hymnau Williams o Bant y Celyn, ac Ann Griffith. Yr oedd gormod o'r hynafiaethydd, yr hanesydd, y grammadegwr, a'r cyffelyb, yn yr hen Iolo, i wneyd prydydd o'r radd uchaf. Bardd celfyddyd oedd efe, yn hytrach na bardd natur; gan hyny, nid rhyfedd ei fod yn ammheu gwirionedd yr hen ddiareb, "*Poeta nascitur, non fit.*"

Yr hanes llenyddol nesaf sydd i'w gael am hen Fardd Morganwg yw ei gyssylltiad âg Eisteddfod Caerfyrddin, a gynnaliwyd yn 1819.

"Yr oedd llafur Owain Myfyr, Gwilym Owain (y Dr. Pughe), ac yntau," medd Stephens, yn "dechreu dwyn ffrwyth yn niwedd ei oes ef; ac nid oes nemawr o achos ammheuaeth mai i'w llafur hwy yr ydym yn ddyledus am adfywiad yr eisteddfodau yn yr hanner canrif diweddaf....Nid oedd gan Iolo unrhyw law yn nghychwyniad Eisteddfod 1819, yr hon a osodwyd ar droed gan yr esgob (Burgess), ar gynnygiad y Parch. David Rowlands, Caerfyrddin, a chefnoigad y Parch. John Jenkins (*Ifor Ceri*), a Walter Davies (*Gwallter Mechain*)....Pan glywodd Iolo fod cynllun ar droed i adfywio eisteddfodau yn y Deheubarth, gorfoleddodd am y digwyddiad; ac er ei fod y pryd hyn yn oedranus, cynhyrfodd y newydd egni chwanegol yn ei gyfansoddiad; ac yna cychwynodd tua Chaerfyrddin, yn fawr ei hwyl a'i obaith. Ar ymweliad Iolo â'r dref, penderfynodd y *Cambrian Society*:—

1. Fod Mr. Edward Williams i gael ei wahodd i fyw i Gaerfyrddin am dymmor pennodol yn mhob blwyddyn, i arolygu argraphiad o'u cyhoeddiadau, ac i roddi addysg i bobl ieuaingc yn marddoniaeth a llenyddiaeth y Cymry.

2. Fod ei dderbyniad o'r swydd i'w gofrestru yn llyfrau y gymdeithas.

3. Fod y cynllun o gasgliadau at '*Hanes y Cymry*,' newydd eu casglu a'u cyfieithu o hen ysgrifau hanesyddol yn yr iaith Gymraeg gan Edward Williams, i gael eu hargraphu ar draul y gymdeithas."[1]

Ymddengys i hyn ddigwydd ryw bryd yn ystod 1818; canys ni chynnaliwyd yr eisteddfod yn Nghaerfyrddin hyd Orphenaf, 1819. Y beirniaid yn yr eisteddfod hon oedd y Parch. Eliezer Williams, y Parch. David Rowlands, Iolo Morganwg, a Bardd Nantglyn. Trwy annogaeth Iolo, medd Waring, y cyhoeddwyd y dadganiad canlynol yn yr eisteddfod hon, er ceisio gwneyd mesurau Dosbarth Morganwg, a elwir "yr Hen Ddosbarth," o'r un awdurdod a Phedwar Mesur ar Hugain Dafydd ap Edmwnt, a elwir "Dosbarth Caerfyrddin," a'r "Dosbarth Newydd:"—

"Ac yn yr eisteddfod hon (1819), yn mhlith pethau ereill a ddarweiniwyd dan ystyriaeth, y barnwyd yn unfryd unllais, heb nag na gwrtheb na llaw na thafawd, fod y rheithiau cerdd a freiniwyd yn Eisteddfod Caerfyrddin yn y flwyddyn 1451, dan enw y Pedwar Mesur ar Hugain, yn cyfyngu awen bardd o fewn llyffetheiriau rhy gaethion; a bod, yn rhy fynych o'r achos, synwyr a rhwyddineb iaith yn cael eu hoffrwm ar allor gwag-orchest egwanbwyll a diansawdd. Herwydd hyn, barn yr eisteddfod hon ydyw, fod o hyn allan ryddid i feirdd Ynys Prydain gyfansoddi caniadau ar y mesurau mwyaf teilwng a chyfaddas i'w testynau; ac na byddo rhag llaw wahaniaeth o barth teilyngdod i'w roddi i fesurau yr un dosbarth, na'r hen na'r newydd, ragor neu uwch na'u gilydd; ond fod urddas cerdd neu 'awdl' uwch ereill, i gael ei farnu wrth gymmhwylliadau synwyr a phwyll, a chynghanedd rywiog a diledryw, yn hytrach nag wrth amrywiaeth mesurau."

[1] Y mae yn debyg mai y dernynach sydd yn yr "*Iolo MSS.*" a olygir yma.

Digitized by Google

yma, yr hwn nid yw ond ychydig yn well nag a allai dyn dall ei ysgrifenu. Dysgais ferch ieuangc ddall i ysgrifenu; a gallasech ddarllen ei llythyron hi yn rhwyddach na'm hysgrif i. Y mae fy llygaid yn weinion iawn yn awr, a minnau yn drwm fy nghlyw. Yr wyf yn gorfod defnyddio bagl dan un fraich, a ffon yn fy llaw arall, pan rodiaf ychydig yn fy ngardd. Y mae '*Three Warnings*' Mrs. Piozzi, sef 'Cloffni, Byddarwch, a Dallineb,' yn swnio yn uchel yn fy nglustiau, ac yn fy ngalw allan o'r byd hwn. Clywaf sŵn traed marwolaeth yn fy nghanlyn." "Cafodd yr ymadrodd barddonol yma," meddai Waring, "effaith ryfeddol ar foneddiges oedd yn fy nhŷ ar y pryd; a dygodd hi i'm cof lawer gwaith wedi i'r hen fardd ganu yn iach i'r fuchedd hon."

Ymwelodd Ab Iolo â'i dad yn mis Rhagfyr, 1826; a phan yn ymadael, bendithiodd yr hen fardd ef gyda difrifwch prophwyd, gan ddywedyd, "Yr wyf yn gwybod na welaf chwi mwyach yn y byd hwn. Buoch yn fab rhinweddol—a bydded i'r Hollalluog Dduw eich bendithio." Ar y 18fed o'r un mis, dododd ei ben i orphwys ar ochr ei gadair esmwyth, gan ddywedyd wrth ei ferch yr ymdeimlai yn bur ddiboen, ac y cysgai efe ychydig. Cwsg marwolaeth ydoedd hwnw! Yr unig arwydd a gafwyd fod ei enaid "wedi myned at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef," oedd methu clywed sŵn ei anadliad. Pan ddygwyd goleuni, yr oll oedd yno o'r dyn talentog a rhyfedd hwn oedd corphyn teneu, mewn agwedd o orphwysdra tawel, â'i ddwylaw ar ei ddau ben glin, a'i wyneb yn ymddangos fel mewn trwmgwsg diniwed. Yn y dull esmwyth yma y bu farw hen fardd Morganwg, yn un a phedwar ugain mlwydd oed!

Wedi traethu cymmaint am yr enwog Iolo Morganwg fel hanesydd, hynafiaethydd, llenor, a bardd, o'i gryd i'w fedd, credir yr hoffai y darllenydd gael darlun byr o'i ddyndod, ei hynodion, a'i grefydd. Yr ydym yn llwyr gydsynio â'r diweddar Cynddelw, "fod Iolo Morganwg yn un o'r dynion mwyaf, ar rai golygiadau—ac yn un o'r dynion hynotaf yn mhob golygiad."

O ran corpholaeth, yr oedd braidd is law y taldra cyffredin. Yr oedd ei wynebpryd yn llym; ei edrychiad yn dreiddgar; ei lygaid yn llwyd-leision a siriol; ei dalcen yn uchel, cyflawn, ac yn ymwthio allan uwch law ei lygaid; yr aeliau yn drymion a bwäog; y trwyn yn hir, a'r ên yn fain. Gwisgai gôb las, hir, gynffonfain, ac arni fotymau prês mawrion a gloywon; clôs pen-glin o gord y rhi (*corduroy*), a hosanau gleision, am y credai mai glâs a weddai i fardd. Esgidiau isel a wisgai, a'r rhai hyny wedi eu hanner gorchuddio gan fyclau mawr. Cylymai ei napcyn gwddf fel ar ddamwain—a byddai ei gor nelau yn fynych, un i lawr a'r llall i fyny. Ymgodai coler ei gôb yn erbyn ymyl ei het, nes y byddai yr ymyl hwnw o'r tu ol i'w ben bob amser yn troi i fyny; ac oddi tani, hongiai ei wallt llwydaidd yn geingciau annhrefnus dros ei ysgwyddai. Cerddai wrth ffon hir, â bagl fechan ar ei phen; ond nid oedd y fagl, hyd y gwyddys, o ddim gwasanaeth iddo; canys ymaflai am y ffon gyferbyn â'i chlust, o herwydd y barnai fod dal ei fraich i fyny felly, wrth gerdded, yn tueddu i eangu ei fynwes, er rhoi digon o le i'r ysgyfaint weithio. Cariai ysgrepan wen yn wastad ar draws ei ysgwyddau, yn cynnwys, heb law ei ddillad, ei ysgrifau o bob math; ac yn ei hen ddyddiau, gwisgai ddrychwydrau ar ei drwyn, a chludai lyfr yn ei law aswy. Yr oedd yr olwg arno gan hyny yn hynod a hynafol dros ben.

Teithiai yn wastad ar ei draed, fel y crybwyllwyd eisoes, yn ol ac yn mlaen, ar draws ac ar hyd yr holl deyrnas gyfunol, heb unrhyw gymmhorth, ond y ffon hir grybwylledig. Dywedir mai unwaith yn ei holl oes y gwelwyd ef yn marchogaeth; a hyny pan yr oedd efe yn mhell oddi cartref, ac y daeth y newydd ato fod ei dad ar drangcedigaeth. Cymmerth geffyl, a charlamodd dros bant a bryn: torodd ar draws y perthi a'r cloddiau, gan wir awydd am weled ei riant unwaith yn chwaneg ar dir y byw. Gadawodd y daith hono y fath effaith annymunol ar ei gorphyn, a'r fath adgofion alaethus ar ei feddwl, fel nas gellid ei ddarbwyllo i fyned ar geffyl byth mwyach. Bu yn cadw ceffyl dros ryw dymmor at wasanaeth ei deulu; ac yr oedd ymlyniad y naill wrth y llall yn dra nodedig. Gwyliai y ceffyl holl ysgogiadau y bardd, a dilynai ef yn fynych mor bell ar ei deithiau a Chaerdydd, tua deuddeng milldir o Drefflemming. Cydgerddent fel dau gyfaill: talai Iolo y tollpyrth, a mynych y prynai dorth o fara i borthi ei gyd-deithydd ffyddlawn. Tra y byddai y bardd o dŷ i dŷ yn Nghaerdydd yn gwneuthur ei negeseuon, ac yn cyfeillachu â'i gyfeillion, cerddai y march serchog yn ol ac yn mlaen ar hyd yr heolydd ger llaw, yn pryderus ddisgwyl am dano. Cyd-ddychwelent tua Threfflemming gyda'r hwyr; ond cydgerdded y byddent byth a hefyd: canys ni fynai Iolo, ar un cyfrif, fod yn faich i'w gydymaith ffyddlawn.

Ceir hanes digrifol dros ben am dano unwaith, pan oedd yn byw dan yr oruchwyliaeth lysieuol, er ymbarotoi i fyned i'r America, fel y crybwyllwyd, i chwilio am y Madogiaid. Pan ar ei daith yn chwilio am hen ysgrifau yn sir Gaernarfon, yn nghymdeithas cydymaith o'r un archwaeth lysieuol ag yntau, yn groes i bob rheol o'i fywyd, torodd ef, a'r llall, yr wythfed gorchymyn, trwy fyned i gae meillion (*clover*), ger Abergwyngregyn, i dori eu newyn! A thra yr oeddynt ar eu pedair bêr yn dyfal bori, fel Nebuchodonosor gynt, pwy a ddaeth ar eu traws ond perchenog y maes meillion; ac wrth weled y ddau yn prysur ddifa ei gnwd ef, bygythiodd yn dost eu gwarchau yn ffald y plwyf, fel anifeiliaid barus ereill, nes y deuai rhywun i dalu drostynt; ac os amgen, y gwerthai efe hwynt mewn amser cyfaddas i dalu dros eu porfa! Pa wedd bynag, trugarhau wrthynt a wnaeth perchenog y maes yn y diwedd, gan gredu mai gorphwylldra a barai eu hamryfusedd cadarn. Er y digwyddiad digrifol yma, yr oedd gan foneddigion, a phawb a adwaenent Iolo, y fath hyder yn ei onestrwydd fel y cai rydd fynediad i lyfrgelloedd pawb yr äi ar eu gofyn; ac ni bu llyfrgell neb yn wacach o ddalen o'r herwydd.

Ymddengys nad oedd hyd yn oed Waring yn gwybod yn fanwl beth oedd syniadau crefyddol hen fardd Morganwg. Arferai ddywedyd, ebai Stephens, "Nid wyf fi gaethwas i unrhyw blaid, na phenboethyn i unrhyw sect." Yn ol ei gyffes, wrth y Dr. Jenkins, o Hengoed, yr oedd yn Undodwr mewn rhai pethau, yn Grynwr mewn pethau ereill, yn Fethodist Calvinaidd gyda golwg ar drefn pregethu, yn Annibynwr ynglŷn â threfn eglwys, ac yn Fedyddiwr gyda golwg ar fedydd! Nid oedd un o'r cyfundebau crefyddol yn ei foddio yn mhob peth; etto yr oedd yn cymmeradwyo rhyw bethau ynddynt

Digitized by Google

Fôn. Bu yn gweini hefyd yn y manau canlynol yn Môn; sef, yn Neuadd Gemmaes, Rhos y bol, Asgellog, ger llaw Amlwch, a Brwynog (hen drigle Siôn Brwynog, y bardd), yn Llanddeusant.

Pan oedd o gylch un mlwydd ar hugain oed, penderfynodd fyned i Loegr, er mwyn gweled mwy o'r byd, a dysgu Saesneg; ond attaliwyd ef i'r anturiaeth hono trwy glywed fod y ddirdorf (*press-gang*) yn dal pawb a allai, i'w rhoi yn y gwasanaeth milwrol. Yn y cyfamser, clywodd fod yr Arglwydd Penrhyn yn cymmeryd dynion i agor cloddfa lechi ger llaw Bangor, fel y dywedid y pryd hyny, cyn i Bethesda ddyfod i fri. Y gwaith cyntaf a gafodd yno oedd hwylio berfa olwyn i 'arloesi,' am yr hyn y rhoddid iddo swllt yn y dydd ar ei fwyd ei hun. Ar ol bod wrth y gorchwyl hwnw am rai misoedd, cafodd fyned yn 'bartner mewn bargen,' fel chwarelwr. Tra wrth y gorchwyl yma, disgynodd careg ar feilwn ei goes chwith, gan ei ddryllio yn echrys, nes y bu agos iddo waedu i farwolaeth. Wedi bod dan law meddygon yn ofer am naw mis, meddyginiaethwyd ef yn wych o'r diwedd gan Robert Jones, o Wmwlch Fawr, yn Eifionydd. Yr oedd wedi ennill arian yn wych yr haf blaenorol wrth gynnorthwyo John Williams, Bryn Hafod y Wern, yr hwn a gymmerasai ddegwm blith Llanllechid, yr hwn ni wyddai pa fodd i godi degwm, ac na fedrai ddarllen tir-lyfr y plwyf, nac ysgrifenu llyfr y degwm. Wedi iddo iachau o'r adwyth a gawsai yn Chwarel Cae Braich y Cafn, dychwelodd yno yn ol.

Ar yr 21ain o Fehefin, 1794, ac efe yn bump ar hugain mlwydd oed, priododd Elizabeth, merch Ellis Jones, Braich Talog, o Landegai. Aeth i ddechreu byw i'w hen gartref yn Llanberis; ond yn mhen dwy flynedd wedi hyny, pan yr oedd yn saith ar hugain mlwydd oed, gosodwyd ef yn oruchwyliwr ar y gweithwyr wrth y dydd gan Benjamin Wyatt, Ysw., pen distain yr Arglwydd Penrhyn. Yna gosododd y tŷ yn Llwyn celyn, a daeth i fyw i Fwlch y defeitty, Llandegai; ac wedi iddo fod yno dair blynedd a hanner, aeth ei deulu yn nghyfraith i Liverpool, gan adael y Braich Talog iddo i fyw ynddo. Yr oedd wedi ei ddyrchafu cyn hyny i fod yn farciwr isaf, o ddau. Marcio y gelwid cymmeryd cyfrif o'r llechi a wneid yn y gloddfa bob dydd, a myned â'u cyfrif i'r cyfrifydd unwaith bob mis; canys bob mis y telid i'r dynion a'u gweithient wrth y dynell ac wrth y fil. Yn mhen ychydig drachefn, dyrchafwyd ef yn ben marciwr; a chwanegid peth at ei gyflog bob tro y newidid ei swydd. Treuliodd 30ain mlynedd o flodau ei ddyddiau dan deulu y Penrhyn yn Chwarel Cae Braich y Cafn. Y mae y bardd yn cyfeirio yn brydferth at yr amgylchiadau uchod yn ei "Gywydd Anerch Gwilym Peris," fel hyn:—

"Er digoll arfoll erfai,
Llondeg wŷr yn Llandegai,
Ar hyd y lle yr ydwyf,
Yn gweini i'm Rhi a'm Rhwyf;
Da ŵr hael, ni wadir hyn;
Pwy unrhyw Iôr y Penrhyn?
Yn ei wlad anwyl ydyw,
A Phen Dragon Arfon yw.
Er im' gael yr ymgeledd
A allo hwn, oll a'i hedd:
Cael y gân mewn cil gynnes,
A chael tŷ i ochel tes;
A chael yn oruchwyliwr,
Drigfod dan gysgod y Gŵr."

Pan aeth iechyd y bardd yn rhy ammharus i gyflawni gwaith goruchwyliwr, efe a gymmerth fargen, a chadwai ddynion dano i'w gweithio wrth y dydd, trwy yr hyn y cafodd fwy o seibiant, a llai o ofalon, yn ystod y tair blynedd ar ddeg olaf o'i oes.

Dechreuodd Gutyn Peris goleddu yr awen yn foreu ar ei oes. Dywedir y byddai yn arfer prydyddu, ac yn teimlo cymmhelliadau cryfion at hyny, er pan oedd yn wyth neu naw mlwydd oed. Y mae yn anhawdd gwybod yn fanwl pa bryd y dysgodd y 'Mesurau Caethion;' ond y mae yn amlwg oddi wrth y "Cywydd" crybwylledig mai Abraham Williams, yr hwn hefyd a elwid "Abraham y Cwmglas," a "Bardd Eryri," o Flaen y Gwïail, Llanllechid, oedd ei athraw barddonol cyntaf ef a Gwilym Peris, awdwr "Awen-gerdd Peris," ac mai Dafydd Ddu o Eryri oedd eu hail athraw barddonol; ac y mae yn amlwg fod y ddau ddysgybl yn dra hoff o'u gilydd. Dyma fel y dywed ein bardd yn y cywydd y dyfynwyd o hono uchod:—

"Gwilym Peris, glwm parod,
Ai cof, heb angof ein bod
Yn chwarau gan ochrau geillt
Llanberis, goris geirw-eillt?
Heb gynnal un gofal gynt:
Dyddiau ein mebyd oeddynt!
Dau oeddym un dueddiad
At gân fwyn, teg awen fad.
Ein hathraw, hylaw helynt;
Tua'r Derwas o Gwmglas gynt;
A Dafydd, bardd rhydd yr oes,
O Eryri, ŵr eirioes:
Dysgynt in' drefn dewisgerdd,
Rheol iaith, a gwaith y gerdd.
Neshau ein dau, rhag sŵn dig,
I geudod y gaeadwig.
I blethu gwawd o blith gwŷdd
Ar finion yr afonydd."

Awgryma Gwilym Peris, yn ei atteb i'r cywydd yma, nad oedd y bardd o Gwmglas, yr hwn a eilw efe yn "lloer," ac a aeth i'r America cyn iddynt hwy orphen dysgu Cyfrinach y Beirdd, yn rhyw gelfydd iawn yn y "gelfyddyd fawr;" ond bod "yr ail athraw," sef Dafydd Ddu o Eryri, a ddynoda efe yn "haul," yn dra dysgedig ynddi; ac iddo ef ddangos iddynt bethau nas archwaethasant o'r blaen. Wele ei ddisgrifiad:—

Gutyn, fardd edmyg hardd-ddoeth,
Perchen awen gymmen goeth;
Da oedd gan ein hanian ni
Aros wrth fron Eryri,
Ein cynfaethfam, hoenfam hen,
Gan ieuangc sugno awen:
A thynwyd peth awenydd
O fron ein mam radlon, rydd;
Etto'n bod dan gysgod gwyll
Ein dau, 'n rhigymu 'n dywyll;
Yn fethiant mewn ceunant caeth,
Enbydus anwybodaeth.
O waelod nant, drangc-nant drom,
Dir isel, dwyrëasom,
Hyd Gwmglas balas, uwch ben,
Lle 'r oedd in' borth, lloer addien;
Gwen wiwdlos, hardd ganeidloer,
Osgeddig, wawledig loer.
Bu gwawl hon i'n mawr loni,
A phlaid rhwydd ei phelydr hi:
Eres ei naws, rhoes i ni
Yr addysg allai roddi;
E' roddodd (ar a wyddai)
Argraph o bob ergraff bai.
Collwyd ef, er called oedd,
Wedi, o'r parth yr ydoedd:

Digitized by Google

Rhoes hyder ar Amerig,
Goror wlad dramor, lle trig.

Rhodio 'n uwch fu raid i ni,
I'r aruthr fawr Eryri;
I eirian oror araul,
Glana' rhwysg oleuni'r haul:
Diogel fynydd digoll,
Dad wr, goruwch Gwyndud oll;
Bywyd disgleirdeb awen
Oedd eglur, wiw bur i'w ben.
Du ei farf, a'i bais arfau;
Er du wawr, mae'n glodfawr glau:
Nodaf, disgywen ydyw,
Diau doeth, er dued yw:—
Mae achles a lles ger llaw,
Rheol uthr yr ail athraw;
Mae gwleddoedd a grym gloywddwr,
A gwin i'w gael gan y gŵr,
Yn awr yn agos i ni,
O'i gelloedd, cyn ei golli;
Pethau nas archwaethasom,
Croesaw cu, i'w rhanu rhòm.

Ar ol bod dan addysg farddonol Dafydd Ddu, daeth Gutyn yn adnabyddus i amryw wŷr Eglwysig dysgedig; megys y Parch. Richard Davies, periglor Llantrisant, Môn; y Parch. John Morgan, Llanberis, ac ereill; a bu yn cyfeillach, neu yn gohebu, â holl feirdd y Dywysogaeth oedd yn cydoesi âg ef. Pan oedd efe o gylch deng mlwydd ar hugain oed, daeth Iolo Morganwg drwy Wynedd, i gasglu defnyddiau at y "*Myvyrian Archaiology of Wales;*" ac efe a raddiodd Dafydd Ddu o Eryri, Gutyn Peris (gwrthddrych yr erthygl hon), ac Ieuan o Leyn, dan yr enw "Beirdd Cadair Dinorwig, ar ŵyl yr Alban Elfed, 1799."

Dechreuodd y bardd ymgyfarch â'r awen yn foreu, fel y gwelsom, a daliodd i'w choleddu hyd hwyr ei einioes; a dilys y cyrhaeddodd radd uchel yn ail ddosbarth beirdd y wlad. Cafodd amryw wobrau lled bwysig yn ei oes. Y gyntaf a gafodd, hyd y canfyddwn, oedd gwobr y Gwyneddigion, yn 1803, ac efe yn dair a deugain mlwydd oed, am yr awdl oreu er "Coffadwriaeth am Goronwy Owen." Un o'i gydymgeiswyr yn y gystadleuaeth hono oedd Dewi Wyn, pan oedd efe o gylch deunaw mlwydd oed, ac efe a farnwyd yn ail oreu: ond pa fardd bynag a gymmharo y ddwy awdl yn bwyllog a diduedd, a wêl ar unwaith fod awdl yr olaf yn cynnwys llawer mwy o dân barddonol, gwir ffrwyth crebwyll a darfelydd, nag un Gutyn. Sylwa Cynddelw II. yn briodol, y camsyniodd golygwyr argraphiad cyntaf "*Blodau Arfon*," wrth feddwl mai o herwydd colli yn 1803 y canodd Dewi y "Cywydd Difyfyr" i ddychanu Gutyn. Cyfansoddwyd y cywydd hwnw rywbryd ar ol y ddadl ar yr awen a fu rhwng Gutyn a Dewi yn 1807; ac at yr ymrysonfa hono y cyfeirir. Sylwer ar y pethau canlynol:—1. Cyhuddir Gutyn, yn y cywydd, o ladrata gwaith Dewi; ond nid oedd ganddo waith yn 1803 i'w ladrata. 2. Nid "deg gini," fel y nodir yn y cywydd, ond bathodyn arian, oedd y wobr am "Goffadwriaeth Goronwy Owen." 3. Yn 1808 y canodd Gutyn farwnad yr Arglwydd Penrhyn; a chafodd "ddeg gini" yn wobr gan yr hen Arglwyddes. Argraphwyd y farwnad hono yn llyfr, yr hwn a wasgarwyd ar hyd y wlad; ac y mae yn debyg fod hwnw yn profi iddo fenthyca rhyw linellau o waith Dewi. 4. Pechod mwyaf Gutyn Peris yn erbyn Dewi oedd lladrata—"I'n goror yn blaguro." Yn "Molwch Ynys Prydain," a gyfansoddwyd yn y fl. 1805, y mae y llinell hono; ac yn "Awdl Jubili" Gutyn y mae hi yn lladrad. Ennillodd Gutyn gwpan arian ar "Jubili Sior III.," yn Eisteddfod Llanelwy, 1810; felly, rhaid mai tua 1811 y cyfansoddodd Dewi y "Cywydd Difyfyr." Cafodd Gutyn wobr hefyd yn yr un eisteddfod, fel yr ymddengys, am "Goffadwriaeth y Frenhines Charlotte." Yn 1811, cafodd dri gini gan Gymdeithas Amaethyddol sir Gaernarfon am awdl ar "Amaethyddiaeth." Pan oedd yn drigain mlwydd oed, cyfansoddodd awdl ar "Wledd Belsassar," testyn cadair eisteddfod Dinbych yn 1828, lle y barnwyd Ieuan Glan Geirionydd yn fuddugol, ac yntau yn ail oreu; a chafodd 5*p.* o wobr gan y pwyllgor, ynghyd âg anrheg o 20*p.* o gydroddion gwirfoddol boneddigion oedd yn bresennol yn yr eisteddfod. Yn mhen pedair blynedd wedi hyny, cyfansoddodd awdl ar "Ddrylliad y *Rothsay Castle*," testyn cadair Eisteddfod Beaumaris yn 1832, lle y barnwyd Caledfryn yn oreu o bedwar ar bymtheg o ymgeiswyr ar y testyn, a Gutyn Peris yn ail oreu; a chafodd 10*p.* o wobr, a thlws gwerth 5*p.* Argraphwyd yr awdl hon o'i waith yn nesaf i awdl Caledfryn yn "*The Gwyneddion for* 1832," td. 112. Dechreua yr awdl hono fel hyn:—

"Ys aethus, aethus hanes, weithion—cwymp
*Rothsay Castle* i'r eigion;
A dihenydd y dynion,
Y rhai a deithient ar hon."

Nid ydym yn gwybod i Gutyn Peris ymgystadlu byth ar ol hyny. Ysgrifenodd amryw draethodau i'r "*Gwyliedydd*" o blaid rheolau barddoniaeth, wrth yr enwau "Carwr Rheol" a "Charwr Cristionogaeth;" ac y mae ei gywyddau ymryson ef â Dewi Wyn ar "Fonedd yr Awen" yn "*Seren Gomer*," 1818, ac 1820. A dichon fod yn y "*Seren*," a'r "*Gwyliedydd*," amryw erthyglau o'i waith. Ni chyhoeddodd efe ond un llyfr o'i waith yn ei oes, o'r enw "*Ffrwyth Awen*," yn 1816; ond gadawodd ddefnyddiau mewn ysgrifen, dan ofal ei fab, at ddau, o leiaf, o lyfrau ereill, yn barod i'w hargraphu. Clywsom mai math ar Rammadeg Cymraeg oedd un o honynt.

Nid oedd odid neb yn ardaloedd Llandegai a Llanllechid, ond y clerigwr yn unig, a wyddai braidd ddim am Rammadeg Cymraeg, na llenyddiaeth o un math, pan ymsefydlodd Gutyn Peris yno gyntaf. Bu ef yn dra diwyd yn y ddau blwyf hyny, ac yn fynych yn mhlwyf Aber, Llanfair y Penmaen, hefyd, dros amryw flynyddau ar ol priodi, yn cynnorthwyo mewn ysgolion Sabbothol ac ysgolion nos, i geisio dwyn y trigolion i ddysgu darllen, a deall yr hyn a ddarllenent. Pan gyhoeddwyd Grammadeg Robert Davies, Nantglyn, galwodd am gymmaint a 300 copi o hono, o dro i dro, i'r ardaloedd hyny, a 200 o Reitheg Gymraeg William Salisbury; a bu yn ddyfal yn yr ysgolion nos i ddefnyddio y llyfrau hyny, nes dyfod o lawer o honynt yn ddarllenwyr, ysgrifenwyr, grammadegwyr, ac areithwyr gwych a medrus.

O berthynas i'w grefydd, efe a ddywed ei hun:—"Aelod gwan o'r Eglwys Sefydledig ydwyf fi o'm mebyd; ond nid ydyw hanes fy mywyd crefyddol ond annheilwng o goffadwriaeth. Er hyny, y mae yn deilwng i mi ddywedyd na adawodd Duw fy enaid yn ddiymgeledd; eithr y mae yn parhau hyd yma yn ei oruchwyliaeth ar fy nghyflwr. Byddaf yn ofni yn aml am fy nghyflwr, ac yn arswydo rhag bod

Digitized by Google

yn debyg i'r morwynion ffol, gan ammheu pa un a oes genyf rym duwioldeb a weinydda gysur i mi yn angeu, ai nid oes. I'r graddau y mae yr Ysbryd Glân, trwy y gair, yn fy ngoleuo i weled mawredd, purdeb, sancteiddrwydd, a chyfiawnder Duw—i'r graddau hyny yr wyf yn gweled fy niddymdra, fy llygredd, fy aflendid, a'm hanghyfiawnder fy hun; ac i'r graddau yr wyf yn canfod y pethau a enwyd—i'r graddau hyny yr wyf yn adnabod fy hun, ac yn ffiaidd genyf fy hun, ac yn cael fy hun yn euog; ac i'r graddau yr adnabyddwyf ac y teimlwyf y pethau hyn, dyna radd fy argyhoeddiad hefyd a'm gwir edifeirwch; ac os ychydig yr edifeirwch, ychydig yr ymgais am faddeuant. A thrachefn, i'r graddau y mae yr Ysbryd Glân, trwy y gair, yn fy ngoleuo i weled digonolrwydd ac addasrwydd Crist fel Cyfryngwr, a pharodrwydd y Tad i dderbyn pechaduriaid yn ei enw ef—i'r graddau hyny yr wyf yn credu yn Nghrist, ac yn ymorphwys arno; ac i'r graddau yr wyf yn credu yn Iesu Grist—i'r graddau hyny yr wyf yn gallu gwir a ffyddlawn agoshau at y Tad yn ei enw ef, a gwaeddi Abba Dad."

"Yr oedd Gutyn Peris," ebai Cynddelw, "yn fardd dillynwych, yn hynafieithydd cyfarwydd, yn ddyn da, crefyddol ei ysbryd, a dichlynaidd ei fuchedd." Goddefodd boen tost gan ddiffyg anadl, caethder, a pheswch, dros y pedair blynedd olaf o'i oes; a therfynodd ei yrfa ddaearol ar y 18fed o Fedi, 1838, yn ddeg a thrigain mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Llandegai; a chyfodwyd beddadail ddichlynaidd ar ei orweddfa, trwy gyfraniadau rhai a barchent ei goffadwriaeth.—"*Y Gwladgarwr*," "*Y Gwyliedydd*," "*Seren Gomer*," "*Awen-Gerdd Peris*," "*Ffrwyth Awen*," "*Blodau Arfon*," &c.

WILLIAMS, JOHN (*Ioan Rhagfyr*): ydoedd fab i William Robert Williams, gwneuthurwr hetiau llawban *(felt hats)*; a'i fam ydoedd gyfnither i'r bardd a'r cyfieithydd enwog, y Parch. Edward Samuel, periglor Llangar. Ganwyd John ar y 26ain o Ragfyr, 1740, mewn lle o'r enw Hafotty Fach, Celynin, sir Feirionydd. Symmudodd ei rieni yn lled fuan ar ol ei eni ef, i dyddyn a elwir Tal y waen, ger llaw Dolgellau. Dywedir mai tri mis o ysgol a gafodd efe gan ei rieni, a dygwyd ef i fyny yn nghelfyddyd ei dad. Byddai masnachwyr gwlân o'r Amwythig yn dyfod i ardal Tal y waen yn y dyddiau hyny; ac ymddengys yr arferai rhieni John Williams eu llettya. Sylwodd y rhai hyny fod John yn dra hoff o ddarllen ac ysgrifenu, a'i fod yn fachgen synwyrol, llariaidd, a phur gymmwynasgar; a chynnygiasant ei anrhegu â thri mis, neu chwaneg, o ysgol yn yr Amwythig—yr hyn a dderbyniwyd yn ddiolchgar gan y bachgen ieuangc, a'i rieni. Hynododd ei hun yn fuan yn yr ysgol hono fel dysgwr cyflym, ac fel un hoff o gerddoriaeth. Ymddengys mai yno y cafodd y gwersi cyntaf i ganu y bibell Germanaidd *(German flute)*, a'r udgorn *(trumpet)*, o'r sawl yr oedd efe yn hoff dros ben ar hyd ei fywyd.

Wedi iddo ddychwelyd adref o'r Amwythig, arferai ymneillduo, ar ol noswylio, i'r mynydd o'r tu cefn i Dal y waen, er mwyn gwella yn yr ymarferiad o'i hoff offerynau. Yr oedd y fath gerddoriaeth yn hollol ddyeithr yn yr ardal hono ar y pryd; a thaenwyd y chwedl yn y gymmydogaeth fod rhyw ganu rhyfedd i'w glywed yn yr awyr o gyfeiriad Tal y waen; y byddai weithiau i'w glywed yn beraidd a hyfryd; pan yn ymyl hyny y clywid sain uchel a nerthol, ond eithaf perorol, yn rhwygo yr awyr. Credai yr hen bobl mai arwyddion o ddynesiad diwedd y byd oedd y fath ganu rhyfedd yn yr awyr—pan, mewn gwirionedd, nad oedd ddim amgen na seiniau soniarus pibell ac udgorn Ioan Rhagfyr.

Dywedir iddo ddechreu prydyddu a cherddori o gylch yr un amser; sef, pan oedd tua dwy ar bymtheg oed. Ymddengys mai un John Symmons, o sir Drefaldwyn, yr hwn a arferai fyned i Ddolgellau, a manau ereill, i ddysgu cerddoriaeth eglwysig, ydoedd ei athraw cyntaf yn y gangen hono o gerddoriaeth; ond ni wyddys pwy oedd ei athraw barddonol. Bu yn cydoesi dros dymmor â Llywelyn Ddu o Fôn, Goronwy Owain, Ieuan Brydydd Hir, a thros dymmor hir (naw a thrigain o flynyddoedd) â Dafydd Ionawr; ond ni chrybwyllir iddo fod mewn cyssylltiad âg un o honynt. Yr unig lyfrau argraphedig yn cynnwys rheolau y mesurau caethion ar y pryd, oedd "*Grammadeg*" Sion Dafydd Rhys, a gyhoeddwyd yn 1592; "*Barddoniaeth*" William Myddelton, 1593; "*Grammadeg*" Sion Rhydderth, 1728; a "*Geiriadur*" T. Richards, 1751. Ond pa fath bynag oedd ei fanteision yn y gelfyddyd farddonol, dywedir ei fod wedi cyfansoddi amryw englynion, cywyddau, ac awdlau, ar wahanol destynau erbyn ei fod yn ddwy ar hugain oed. Ymddengys mai ei gyfansoddiad cerddorol boreuaf oedd tôn ar y Salm gyntaf, tra nad oedd efe ond glaslangc, yr hon a ddysgwyd yn Eglwys Llanfair, Dolgellau. Pan ddaeth Symmons ar ei dro i'r dref, i roddi gwersi cerddorol i'w ddysgyblion yno, fel yr oedd yn myned at yr eglwys clywai y dôn yn cael ei chanu: ac ynaeth at y cantorion, a gofynodd pwy oedd awdwr y dôn wael hono. Attebodd John Williams yn bur wylaidd, mai efe oedd yr awdwr; ond y gwnai efe un well y tro nesaf. Erbyn i Symmons fyned i Ddolgellau drachefn, yr oedd Ioan Rhagfyr wedi cyfansoddi anthem ar y geiriau "Parod yw fy nghalon;" ac wedi i Symmons ei gweled, a chlywed ei chanu, dywedodd mewn syndod wrth Ioan, "Wel, yr wyt wedi myned â'm tamaid o'm pen am byth yn Nolgellau!" Pa wedd bynag, bu y ddau yn gyfeillion calon o hyny allan; a mynych yr anfonent eu cyfansoddiadau cerddorol i'w gilydd, i'w barnu a'u diwygio.

Pan yr oedd o gylch tair ar hugain oed, efe a briododd Jane Jones, merch William Jones, perchenog Bryn rhyg, ger llaw Dolgellau; ond gan na bu iddynt blant, ymddengys na chafodd efe fawr o gynnysgaeth i'w chanlyn. Am hyny, efe a dilynodd ei gelfyddyd fel hetiwr; ac yn ol arfer y dyddiau hyny, teithiai lawer i ffeiriau a marchnadoedd y gwahanol siroedd, i werthu ei hetiau; yr hyn a roddes gyfleusdra iddo i gael cydnabyddiaeth â'r rhan fwyaf o gerddorion Gogledd Cymru. Gwyddys ei fod yn gyfaill mynwesol i'r cerddorion hyn:—Owen Williams, Tŷ hir, Môn, cyhoeddwr "*Brenhinol Ganiadau Seion;*" Richard Ellis, organydd Beaumaris; R. Roberts, Caergybi; O. Williams, Pentraeth; R. Griffith, Caernarfon; John Ellis, Llanrwst; John Jeffreys, a William Wilson, ac ereill. Yr oedd Ioan Rhagfyr yn hoffus o'i gyfeillion cerddorol. Pan oedd ar ei daith unwaith trwy Ddyffryn Clwyd, yn nghymmydogaeth Llanynys, cyfarfu â chynhebrwng; a phan fynegwyd iddo mai ei gyfaill, John Jeffreys, oedd y trangcedig, efe

Digitized by Google

yn debyg yr argyhoedda y traethawd hwn neb diduedd sydd yn hyddysg mewn hanes eglwysig fod Eglwys Loegr wedi parhau "yn anymddibynol ar Eglwys Rhufain hyd amser y Diwygiad;" etto, arwydda y traethawd drwyddo fod yr awdwr yn credu hyny yn ddiffuant, er gwaethaf tystiolaeth ddiammwys yr haneswyr cydoesol.

Ar yr 11eg o Orphenaf yr un flwyddyn, 1836, priododd Ab Ithel âg Elizabeth, merch Owen Lloyd Williams, Ysw., o Ddolgellau. Yn 1838, graddiwyd ef yn B. A. Yn 1841, ennillodd wobr yn Eisteddfod Abertawe am y traethawd Saesneg goreu ar y cwestiwn "*Whether the British Druids offered Human Sacrifices?*" Cyhoeddwyd y traethawd yn llyfryn wythplyg yn 1842. Yn y gwaith hwn y mae efe yn gwadu fod yr hen Dderwyddon Brytanaidd yn aberthu dynion. Seilia ei holl ddadleuon braidd ar y "*Trioedd*" Cymreig, y rhai sydd yn ddiamseriad; ac ar syniadau Iolo Morganwg a'i ysgol. Y mae ei syniadau yn hollol groes i dystiolaeth Tacitus, yr unig hen awdwr cydoesol sydd yn traethu ar arferion a defodau hen Dderwyddon Prydain.

Yn 1843, symmudodd Ab Ithel o Lanfor i guradiaeth barhaol Hannercwys (*Nerquis*), sir Fflint. Yn 1844, pan yn y lle hwn, y cyhoeddodd y gwaith Saesneg llafurfawr a elwir "*The Ecclesiastical Antiquities of the Cymry; or the Ancient British Church: its History, Doctrines, and Rites.*" Llyfr wythplyg ydyw hwn, fel y lleill, yn cynnwys 336 o dudalenau. Math ar helaethiad eang ydyw hwn ar ei draethawd Cymraeg cyntaf; a'i brif awdurdodau ydyw y cyfreithiau, y "*Trioedd,*" a'r achau Cymreig. Am hyny, nid yw ei awdurdod hanesyddol ond bychan; eithr dengys ymchwiliad dyfal a llafurus i hen draddodiadau a chwedlau Cymreig.

Efe, mewn cyssylltiad â'r Parch. H. Longueville Jones, a gynlluniodd yr "*Archæologia Cambrensis,*" y gyfrol gyntaf o'r hwn a gyhoeddwyd yn 1846. Ysgrifenodd Ab Ithel lawer i'r cyhoeddiad prydferth a difyrus yma, yr hwn a ddygid allan yn rhifynau chwarterol, 3*s.* yr un; a daeth amryw o'i brif erthyglau iddo allan wedi hyny yn llyfrynau ar wahân.

Yn 1849, dyrchafwyd Ab Ithel i berigloriaeth Llanymawddwy, yn sir Feirionydd, lle y bu yn preswylio dros bedair blynedd ar ddeg. Yn 1852, cyhoeddodd y "*Gododin,*" ynghyd â chyfieithiad Saesneg, a nodiadau beirniadol lliosog, yn gyfrol wythplyg bychan hardd, yn cynnwys 104 o dudalenau. Y mae yn anhawdd penderfynu pa mor bell y llwyddodd efe i ddeall y gân hynafol hono, yr hon a briodolir i Aneurin Gwawdrydd, yn y chweched ganrif; ond amlwg ydyw ddarfod iddo ef lafurio yn egnïol i geisio ei deall. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng ei gyfieithiad ef o'r hen gân, a chyfieithiad y Parch. D. Silvan Evans (*Hirlas*), sydd yn Skene's "*Four Ancient Books of Wales,*" cyf. i., td. 374. Pa un o'r ddau sydd agosaf i ystyr yr hen gân, ni pherthyn i ni draethu, pe byddem alluog. Wrth y "*Gododin*" y canfyddwn ni ei enw am y tro cyntaf fel "The Rev. John Williams (*Ab Ithel*), M.A."—y dull y defnyddiodd efe ei enw o hyny hyd ddiwedd ei oes.

Yn 1856, cyhoeddodd *The Welsh MSS. Society* y gwaith a elwir "*Dosbarth Edeyrn Dafod Aur; or, the Ancient Welsh Grammar,*" &c. Cyfrol wythplyg ydyw hon, yn cynnwys 358 o dudalenau. Haerir yn yr arweiniad i'r 'Dosbarth' dan sylw, "y tynnwys Edeyrn yr honn Ddosbarth o'r cadw a wnaeth Einion offeiriad; yr hwnn a gafwyd arno Farn ac Awdurdawd Llys Arglwydd a Rhaith Gwlad. Ac ar y rhoddes Edeyrn at hono, y cafas yntef yr un modd Farn Llysoedd ei Arglwyddi, a Rhaith Gwlad. Ac fal y mae ymma, y rhoddes ef ei gadw yn gadwedig, ac yn gadwedigaeth, rhag colli dosparth ar y Llythyrenau, a'r Ymadroddion, a'r Mesurau Cerdd Dafawd, a chelfyddyd bardd, a barddoniaeth, yr honn a roddes Duw, drwy'r Ysbryd Glân i Feirdd Ynys Prydain, a genedl y Cymry, er yn oes oesoedd." Dywedir fod Edeyrn yn ei flodau o gylch B. A. 1270; ac Einion offeiriad o gylch B. A. 1150. Cafodd Ab Ithel y copi a gyhoeddodd efe "o adysgrif y Parch. W. J. Rees, Cascob, sir Faesyfed, a gopïwyd ganddo yn 1832 o adysgrif Mr. Lewis Edwards, o Darowen, yn sir Feirionydd, a amserwyd yn 1821. "Ymddengys i Richards gymmeryd ei gopi o adysgrif Iolo Morganwg," medd Ab Ithel, "a chafodd Iolo ei gopi o lyfr Iago ab Dewi, yr hwn a ddywedai ei fod yn 'Llyfr Coch Hergest,' td. 1117." Ond yn ol cynnwysiad y "Llyfr Coch" sydd yn y "*Cambro-Briton,*" cyf. ii. td. 108, "Cymdeithas Amlyn ac Amyc" sydd yn y tudalen hwnw; sef, chwedl am eu cwymp mewn brwydr o dan Carl-y-maen (*Charlemagne*); ac nid oes dim son am "Ddosbarth Edeyrn" mewn un man yn y cynnwysiad hwnw. Gwelir gan hyny, mai pur ammheus ydyw hynafiaeth y copi a ddefnyddiodd Ab Ithel. Un o'i brif ddiffygion ef oedd credu diffuantrwydd pob hen ysgrifau Cymreig, heb eu holrhain yn ddigonol. O herwydd ei fod ef ei hun mor ddiffuant, credai fod pawb arall yn gyffelyb. Tystiodd mewn llythyr a welsom o'i eiddo, mai "Dosbarth Edeyrn" a ddylai fod yn safon i ysgrifenwyr yr oes hon; yn gymmaint a bod, nid awdurdod wladol yn unig, ond un ddwyfol hefyd, wrth gefn y "Dosbarth" hwnw, fel y tystia ei awdwr yn yr arweiniad iddo. Pa wedd bynag, nid ydys yn gwybod am neb arall yn ei ystyried yn awdurdod ieithyddol; ac ni welsom neb yn cyfeirio ato fel y cyfryw, nac yn ei ystyried yn ddim amgen na chyfansoddiad o gywreinrwydd hynafol.

Ar ol bod yn cydolygu yr "*Archæologia Cambrensis*" dros rai blynyddoedd, ymadawodd Ab Ithel âg ef o herwydd rhyw achos anhysbys i ni, a sefydlodd gyhoeddiad lled debyg iddo, ac o'r un pris, dan yr enw "*Cambrian Journal,*" a pharhaodd i olygu hwnw hyd ei farwolaeth.

Yn 1857, bu yn foddion i gyhoeddi Eisteddfod Llangollen, yr hon a gynnaliwyd trwy ei ymdrech ef bron yn gwbl, yn 1858; a'r flwyddyn ganlynol, sefydlodd gyhoeddiad chwarterol, o'r enw "*Taliesin,*" i gyhoeddi cynnyrchion yr Eisteddfodau, a bu yn ei olygu hyd ei derfyniad yn 1860. Y mae yn ddigon sicr mai cynllun "*Taliesin*" Ab Ithel a roddes y syniad i'r eisteddfodwyr i sefydlu y cyhoeddiad a elwid "*Yr Eisteddfod,*" yr hwn a gychwynwyd yn 1864, ac a derfynodd yn 1866, pan oedd y sefydliad a elwid yr Eisteddfod Genedlaethol yn edwino. Bu Ab Ithel yn ymgeisydd am rai gwobrau eisteddfodol, heb law yr un a nodwyd, megys yn Eisteddfod y Fenni, yn 1854, ar "*Origin of Trial by Jury,*" pan y gorchfygwyd ef; yn Eisteddfod Llangollen, yn 1858, ar "*Barddas,*" pan yr ennillodd; yn Eisteddfod Dinbych, yn 1860, ar "*Dderwyddiaeth,*" pan y bu yn aflwyddiannus. Yn yr un flwyddyn etto (1860), bu yn golygu

Digitized by Google

i'w llywyddu. Yno y cafodd John Williams addysg glasurol pan yn fachgen. Cynnyddodd yn gyflym iawn mewn gwybodaeth, ac nid hir y bu cyn iddo ennill y safle uchaf yn yr ysgol.

Cyn myned yn mlaen i sôn am y grymusder a wnaethpwyd ganddo yn ei yrfa, da fydd i ni ddarlunio yn fyr ei ddoniau personol. Nid yw y corph ddim ond plisgyn yr enaid, ond y mae harddwch pryd a gwedd yn dalent o roddiad Awdwr Bywyd, ac yn werthfawr yn ei le. Y mae yn hen air, mai da ydyw gweled athrylith yn preswylio mewn lletty harddwych. Yr oedd John Williams wedi derbyn y dalent hon, ac yr oedd yn anhawdd gweled dyn harddach nag ef. Pan yr aeth efe, yn fachgen ieuangc, i efrydu yn Nghaergrawnt, yr oedd yn nodedig am ei bryd a'i wedd, a'i aelodau lluniaidd. Yr ydym wedi bod yn syllu fwy nag unwaith ar y darlun mawr o hono sydd yn hongian ar bared yr ystafell giniaw yn Nghastell Penrhyn. Y mae ei ben mawr cydnerth, cyflawn, crwn, a'i wyneb glân, agored, cariadus, ond penderfynol, yn dangos yn eglur i'r edrychydd fod ewyllys gref, athrylith ddisglaer, a chalon wresog wedi bod yn preswylio yn y lletty a ddarlunir yn yr argeb.

Ond yr oedd ganddo un ddawn arall yn fwy gwasanaethgar tuag at ennill gwybodaeth, a llwyddo yn nghystadleuaeth y bywyd cymdeithasol, hyd yn oed na harddwch corphorol. Yr oedd ganddo gyfansoddiad iach, a galluog i oddef pwys llafur parhaus diddarfod. Dywedir am dano fod tair awr o gwsg yn ddigon ganddo er adnewyddu ei alluoedd lluddedig; a'i fod ef yn y prydnawn yn dechreu efrydu am chwech o'r gloch, yn dal ati dan dri o'r gloch y boreu cyn myned i'w wely, ac yn codi wedi hyny i ddechreu ar ei waith am 7 o'r gloch. Y mae Pliny yn adrodd dywediad Aristo, "*Vivendi breve tempus homini datum, quoniam somnus veluti publicanus dimidium dufert;*" hyny yw, 'Amser byr i fyw a roddwyd i ddyn, gan fod cwsg, fel publican, yn dwyn yr hanner o hono yn dreth.' Y mae Dr. Hackett yn sylwi mai nid yn aml y gwelwyd un dyn yn talu treth mor ysgafn a John Williams. Gan fod ganddo ddeall cyflym, cynneddfau cryfion, a chof a nerth digyffelyb, yr oedd yn ammhossibl i efrydwr mor ddiwyd fethu yn ei ymgais.

O ran ei dymmer a'i deimlad, yr oedd yn ddyn caredig a haelionus, â chalon rydd, yn llawn o awydd i lesoli dynoliaeth, fel y dangosodd trwy ei elusenau pan yn fyw, a thrwy yr arian a adawodd ar ei ol, er darparu moddion addysg a gwrteithiad i ysgolheigion tlawd. Cawn fanylu ar hyn yn mhellach yn mlaen. Y mae ei fywgraphydd yn cyfaddef fod ynddo un gwall anwadadwy; sef, tymmer wyllt, o danbeidrwydd angerddol. Byddai yn dueddol i ymgynnhyrfu mewn digofaint nwydwyllt am amser byr; ac y mae lle i feddwl fod y diffyg yna yn ei hunanlywodraeth wedi bod yn achos o lawer o helbul iddo, trwy ennyn llid a chreu casineb tuag ato. Ond os oedd yn colli tipyn yn y cyfeiriad yna, yr oedd ganddo rinwedd arall yn fwy na digon i wrthbwyso y gwall. Yr oedd yn hollol ddifalais, ac yn faddeugar tu hwnt i'r cyffredin. Od oedd yn digio am funyd, dros ennyd fechan yr oedd ei ddigofaint yn parhau; ac nid yn aml y byddai yr haul yn machlud cyn iddo lwyr faddeu. Nid oedd ysbryd dialedd yn cael cartrefu yn ei fynwes. Cafodd ei erlid gan elynion creulawn, fel mab Iesse gynt. Cafodd hefyd fyw, fel Dafydd, weled y dydd pan yr oedd ei elynion o fewn cyrhaedd blaen ei waewffon. Ond gommeddodd dalu iddynt ddrwg am eu drwg; maddeuodd iddynt o'i galon; ac er fod ganddo gyfleusdra i ddïal arnynt, yr oedd yn well ganddo adael ei achos i'r Barnwr cyfiawn. Yr oedd maddeugarwch Williams yn nodwedd ardderchog, ac yn brif ogoniant ei gymmeriad moesol.

Awn yn mlaen yn awr i daflu adolwg byr ar wahanol ranau ei yrfa, o Ysgol Rammadegol Rhuthyn, ac i goffhau pa fodd yr efrydodd, yr ennillodd enwogrwydd yn mhlith dysgedigion, y safodd ger bron brenhinoedd, y gweinyddodd ddeddfau ei wlad, y bu yn gynghorwr doeth i'w frenin ac i'w genedl, y gwasanaethodd yn ffyddlawn swydd esgob ac archesgob yn eglwys Dduw, yr ymdrechodd o blaid achos cyfiawnder, gwirionedd, a rhyddid, yn ol goleuni ei farn, yr aeth dan gwmmwl digofaint y brenin, y dioddefodd erledigaeth greulawn, yr enciliodd i wlad dawel ei enedigaeth i dreulio prydnawn ei oes mewn efrydiaeth a gweddi, ac y bu farw yn ddedwydd yn nhŷ ei gares, yr Arglwyddes Mostyn, yn Ngloddaeth, ac y claddwyd ef yn mynwent Llandegai.

Pan yr oedd wedi bod yn Ysgol Rammadegol Rhuthyn am rai blynyddoedd, ac wedi cynnyddu yn ddirfawr, digwyddodd i Dr. Vaughan, yr hwn fu wedi hyny yn esgob Llundain, ymweled â'r ysgol. Yr oedd y gŵr enwog hwnw yn perthyn i deulu Aberconwy. Yr oedd yn llawen iawn ganddo weled ei berthynas ieuangc, John Williams, yn dangos arwyddion mor addawol. Symmudwyd ef ar gais Dr. Vaughan o Ruthyn i brifysgol Caergrawnt; ac yno, dodwyd ef dan athrawiaeth a gofal Mr. Owen Wynn, Cymro enwog oedd yn athraw y pryd hyny yn Ngholeg St. Ioan.

Ar ei sefydliad cyntaf yn Nghaergrawnt, yr oedd John Williams yn wrthddrych edmygedd ei holl gydwladwyr yn y brifysgol. Yr oedd yr hen Gymry, medd Dr. Hackett, yn hoff iawn yn mhob man o ganmawl ei ddoniau. Ond er fod ei gyfeillion yn ei foli, dywedir fod yno rai o'r ysgolheigion yn hoff o chwerthin am ei ben, o herwydd ei fod yn siarad Saesneg mewn dull lled Gymreigaidd. Ac yr oedd yn air cyffredin yn Ngholeg St. Ioan fod ganddo chwaneg o Ladin a Groeg nag o Saesneg pur. Yr oedd un effaith dda yn tarddu oddi wrth ei ddull Cymreigaidd, a chwerthiniad ei gydefrydwyr. Nid oedd yn hoffi bod yn rhy aml mewn cymdeithas, ac ymroddai gyda mwy o ddiwydrwydd i ddarllen, ac i berffeithio ei iaith. Y oedd yn foreu iawn wedi gosod ei fryd ar fod yn bencampwr mewn areithyddiaeth. Cyrchodd yn ddiwyd tuag at y nôd yna nes cyrhaedd y gamp.

Yr ydym wedi son am haelioni ei galon. Nodwn un enghraifft. Pan yn fachgen yn y brifysgol, yr oedd ei rieni, ac ereill o'i berthynasau goludog, yn anfon digon o arian iddo at ei wasanaeth. Nid oedd yn eu treulio mewn oferedd. Digwyddodd iddo glywed fod Mr. Edward Siveley, prif athraw Hebraeg, mewn amgylchiadau mor gyfyng nes yr oedd dan angenrhaid i werthu rhai o'i lyfrau er mwyn cael ymborth i'w deulu. Aeth y Cymro ieuangc caredig ato, a rhoddodd iddo arian i gyflenwi ei angen, gan arbed llyfrgell anwyl y dyn dysgedig.

Yn y flwyddyn y bu y frenhines Elizabeth farw y graddiodd ef yn febydd y celfyddydau (*bachelor of arts*); ac yn fuan wedi hyny etholwyd ef i fod yn gymmrawd yn Ngholeg St. Ioan. Dywedir fod rhai o'r cymmrodwyr yn wrthwyn-

Digitized by Google

ebol i'w etholiad. Yr oedd ei ddoniau disglaer wedi ennyn eu cenfigen, a pheri iddynt ofni, os cai ef fynediad i mewn i'r gymdeithas, y byddai yn sicr o ennill y flaenoriaeth arnynt oll. Oni buasai i ddylanwad y brenin Iago I. weithio o'i du, y mae lle i ofni y buasai gwenwyn y blaid wrthwynebol wedi llwyddo i'w gau allan. Ond yr oedd ganddo gyfaill gwresog yn Dr. Playfair, prif athraw duwinyddiaeth, yr hwn a ennillodd ddylanwad y brenin i weithredu o'i blaid.

Ar ol graddio yn febydd, yr oedd yn rhaid aros tair blynedd cyn y gallai fod yn addfed i raddio yn athraw y celfyddydau. Ar hyd y cyfamser yna, parhaodd i efrydu yn ddiwyd yn holl feusydd athroniaeth, hanesyddiaeth, a duwinyddiaeth. Yr oedd efe, hefyd, yn nghanol gorchwylion mwy pwysig, yn medru cael amser i gynnyddu mewn medrusrwydd a gwybodaeth fel cerddor. Ar hyd ei oes yr oedd yn arfer lloni ei ysbryd, a dyrchafu ei deimlad, a difyru ei gyfeillion trwy ei ddoniau cerddorol. Yn y blynyddoedd hyn cafodd lawer iawn o garedigrwydd a chefnogaeth werthfawr gan Arglwydd Lumley—yr hwn oedd ei hun yn ŵr dysgedig, ac yn hoffi dysgedigion. Yr oedd y Cymro ieuangc yn cael ganddo gyflawnder o arian ac o lyfrau at ei angenion.

Yn y flwyddyn 1605 y graddiodd ef yn A. C. Wedi hyny aeth yn mlaen yn gyflym, a chyrhaeddodd safle uchel yn y coleg, ac ennillodd ddylanwad mawr. Yr oedd gan y coleg diroedd lawer, a meddiannau helaeth. Lle bydd meddiannau, yno hefyd y bydd ymrafaelion yn codi, a dadleuon ynghylch hawliau gwrthwynebol. Nid yn hir y bu John Williams yn gymmrawd Coleg St. Ioan, gan hyny, cyn iddo gael cyfleusdra i ddangos ei allu i ddeall cyfreithiau, ac i ddadleu hawliau o bob math. Os byddai unrhyw ymrafael pwysig iawn yn codi yn mhlith y cymmrodwyr eu hunain, neu rhwng Coleg St. Ioan a rhyw gymdeithas arall, y Cymro ieuangc fyddai yn cael ei ddewis bob amser i dori y ddadl, neu i gynnrychioli ei frodyr. Anfonwyd ef un tro i siarad dros ei goleg ar ryw fater o flaen yr Archesgob Bancroft. Gwnaeth y fath argraph ar feddwl yr archesgob, nes y darfu iddo ei bennodi i fod yn Archddiacon Ceredigion. Yn y flwyddyn 1613, eisteddodd yn y Confocasiwn yn rhinwedd y swydd hono. Cafodd ei anfon drachefn i siarad dros y coleg ger bron yr Arglwydd Ganghellydd Egerton; ac wedi hyny pennodwyd ef gan lywydd a chymmrodwyr y coleg i fyned i lys y brenin i erfyn drostynt am chwanegiad at eu hadnoddau. Trwy ddyfod fel yna i gydnabyddiaeth âg Arglwydd Egerton, ac yn enwedig trwy gael cyfleusdra i ennill sylw y brenin, yr agorwyd y ffordd iddo ymddyrchafu i'r safle uchel a gyrhaeddodd.

Yn y flwyddyn 1610, ennillodd enwogrwydd fel pregethwr, trwy bregeth alluog ar *Luc* xvi. 22, a draddodwyd ganddo o flaen y brifysgol. Wyth mis wedi hyny, cafodd ei alw i bregethu yn Royston, ger bron y brenin, a Thywysog Cymru. Yn y flwyddyn ganlynol, sef 1611, dewiswyd ef gan yr Arglwydd Ganghellydd Egerton i fod yn gaplan iddo; ond cyn ymafael yn ngwaith ei gaplaniaeth, arosodd am flwyddyn yn Nghaergrawnt i wasanaethu yn ei swydd fel ynad y brifysgol (*proctor*). O fewn ystod y flwyddyn hono, daeth y Duc o Wittenburgh o'r Almaen i'r wlad hon, a thalodd ymweliad â phrifysgol Caergrawnt. Gan ei fod yn bendefig tra dysgedig, yr oedd y brenin yn dymuno iddo gael clywed dadleuaeth athronawl rhwng rhai o gewri y brifysgol. Mr. Williams oedd yn llywyddu ar yr achlysur, a dangosodd gymmaint o allu a dysgeidiaeth, nes yr ennillodd glod uchel gan y duc, ac y cafodd ei wahodd i fod yn aml yn ei gymdeithas.

Bu yn aros am amser yn nhŷ Arglwydd Egerton, yn cynnyddu mewn gwybodaeth a phrofiad amrywiol. Yn y flwyddyn 1613, cafodd ei bennodi i fywoliaeth Waldegrave, i fod yn brif gerddor (*precentor*) Eglwys Gadeiriol Lincoln; ac o fewn y tair blynedd canlynol cafodd amryw ddyrchafiadau eglwysig ereill. Yn 1619, pennodwyd ef i fod yn Ddeon Salisbury; ac yn y flwyddyn ganlynol, cafodd ei ddyrchafu i ddeoniaeth bwysicach Westminster.

Yn y blynyddoedd hyn yr oedd yr Ardalydd Buckingham yn ŵr mawr yn y deyrnas, gan ei fod wedi ennill calon a chlust y brenin. Yr oedd yntau wedi dyfod i adnabod talentau Williams—a thrwyddo ef y dyrchafwyd ef i Westminster. Ond yn y flwyddyn 1621, pan yn bedair ar bymtheg ar hugain oed, y cyrhaeddodd y Cymro enwog binacl uchaf ei lwyddiant, pan yr appwyntiwyd ef gan y brenin i fod yn arglwydd geidwad y sêl fawr—ac ar yr un pryd i fod yn Esgob Lincoln, heb encilio o Ddeoniaeth Westminster. Yr oedd ef yn awr yn un o brif lywodraethwyr y deyrnas. Yr oedd y lleygwyr, fel yr oedd yn naturiol, yn wrthwynebol i ddyrchafiad Williams, ac yn dadleu nad oedd gŵr eglwysig ddim yn addas i lenwi y swydd. Ond gorfu i bawb gydnabod cyn hir amser fod y brenin wedi dewis yn ddoeth. Yr oedd ganddo gymmaint o wybodaeth, deall mor dreiddiol, a diwydrwydd mor ddiflino, fel y profodd ei hunan yn farnwr rhagorol. Safodd ei farn bron ar bob achos a fu o'i flaen yn gadarn, ac ni welwyd ymgais i ymchwelyd ei ddedfrydau.

Yr oedd yn wleidyddwr doeth, craff, hirben, ac wedi ennill ymddiried llwyraf y brenin Iago. Yr oedd yn deilwng o'i ymddiried, a da fuasai i'w olynydd, Siarl I., pe buasai yntau hefyd wedi gwrandaw ar lais Williams, fel y gwnaeth ei dad. Yr oedd ef yn sefyll, yn ol ein barn ni, yn uwch na neb o'i gyfoedion, fel gwleidyddwr doeth, galluog i weled arwyddion yr amserau, i ganfod y creigiau peryglus oedd yn gorwedd yn guddiedig dan wyneb y dyfroedd, a medrus dros ben i droi llyw y wladwriaeth mewn pryd er mwyn gyru y llong yn mlaen, er gwaethaf y drycin a'r dymmestl, yn ddiogel ar ei thaith. Yr oedd yn meddu cymmhwysderau neillduol i wynebu anhawsderau gwleidyddol yr oes hono. Nid oedd y cyfansoddiad Prydeinig y pryd hyny wedi dyfod i'w lun a'i ffurf yn gyflawn. Yr oedd y terfynau heb eu gosod i lawr rhwng hawliau y bobl a theyrnfreintiau y pen coronog. Methodd y genedl eu gosod hwynt i lawr yn bennodol heb fyned trwy foroedd o waed. Nid oedd dim rhesymeg, fe allai, na doethineb, na phwyll, a allasai ddwyn pethau i drefn heb ryfel a chwyldroad. Yr oedd yn rhaid, fe allai, fyned o gaethiwed i ryddid drwy y Môr Coch. Ond os oedd unrhyw ŵr yn y deyrnas yn ddigonol i gymmedroli yn llwyddiannus rhwng y pleidiau, Williams yn ddiammheuol oedd y gŵr hwnw. Nid dyn unochrog, unllygeidiog, dallbleidiol ydoedd efe. Yr oedd yn gallu dal clorian rheswm yn deg i bwyso gwirioneddau a ymddangosent yn wrthwynebol i'w gilydd. Ar un ochr yr

Digitized by Google

oedd efe yn hollol deyrngarol, ac yn weinidog ffyddlawn i'r brenin oedd wedi ei alw ef i'w swydd uchel. Ar yr ochr arall, yr oedd efe yn ystyried hawliau, ac yn deall nerth y bobl, ac yn gwybod yn dda pa bryd i wrthwynebu, a pha bryd i ildio. Pe buasai efe yn cael siarad gydag awdurdod yn nghynghor y brenin, o 1625 hyd 1640, y mae yn anhawdd genym beidio credu na fuasai y brenin wedi cymmeryd llwybr doethach, wedi rhoddi i'r bobl eu hawliau, ac wedi arbed y genedl rhag llawer o derfysg a galanasdra.

Ond nid felly yr oedd pethau i fod. Yn 1623, aeth Tywysog Cymru gydag Ardalydd Buckingham i Yspaen, gyda'r bwriad o briodi chwaer brenin y wlad hono. Yr oedd y tywysog Siarl yn hollol dan ddylanwad Buckingham—yn cael ei droi ganddo fel y mynai. Yn annoeth ac yn anweddaidd y darfu i Buckingham ymddwyn yn Yspaen; a bu ei ymddygiad ef a'r tywysog yn gyfryw ag i beryglu yr heddwch oedd yn bodoli rhwng y ddwy wlad. Nid priodas, ond rhyfel, a darddodd yn y diwedd o'r garwriaeth a aeth yn mlaen dan ddylanwad Buckingham. Yr oedd yr arglwydd-geidwad Williams yn defnyddio ei holl dalentau, ei holl ddiwydrwydd, a'i holl gallineb gwleidyddol i rwystro rhyfel, ac i wrthweithio y drwg a wnaeth ymddygiad yr ardalydd. A bu am amser yn llwyddiannus, gan fod y brenin Iago yn llwyr ymddiried yn ei gynghorion, ac yn eu dilyn hefyd. Pan ddychwelodd y tywysog gyda Buckingham i'r wlad hon, nid oedd yr arglwydd-geidwad yn celu ei farn am annoethineb ymddygiad Buckingham; ac y mae lle i feddwl ei fod ef wedi dyweyd ei farn dipyn yn rhy groew wrth yr ardalydd. Yr oedd y gwaed Cymreig yn boeth yn ei wythïenau, ac yr oedd ei dafod dipyn yn rhy arw i fod wrth fodd calon gŵr mor fawr a chyfaill mynwesol etifedd y goron. Digiodd Buckingham wrtho, ac ymdrechodd â'i holl ddylanwad i'w ddisodli. Ond tra y bu yr hen frenin fyw, methodd yn ei holl ymdrechion. Yr oedd Williams yn sefyll yn rhy gadarn yn ymddiried ac ewyllys da ei feistr brenhinol.

Ond yn 1625, ar ol marwolaeth Iago, ac esgyniad Siarl i'r orsedd, daeth cyfnewidiad mawr yn fuan. Cyn diwedd y flwyddyn, collodd Williams ei swydd uchel, a gorchymynwyd iddo fyned o Lundain i breswylio yn ei esgobaeth. Ufuddhaodd, ac aeth i fyw i Bugden; ac am flynyddoedd efe a weithiodd yn ffyddlawn, gyda holl egni ei alluoedd mawrion, i gyflawni ei swydd fel bugail eneidiau. Yn y blynyddoedd hyn yr oedd gŵr eglwysig arall, o olygiadau ac ysbryd gwahanol i Williams, yn dechreu dringo i ddylanwad. Yr oedd y doctor William Laud wedi cael ei bennodi eisoes yn esgob Tŷ Ddewi yn amser Iago, ar gais Williams. Yr oedd y brenin yn anfoddlawn i'w ddyrchafu, ac wedi rhoddi y llinyn mesur ar ei gymmeriad yn bur gywir, gan ddywedyd, "Y gwir ydyw, yr wyf yn cadw Laud i lawr, rhag cael llywodraeth ac awdurdod, gan fy mod i yn cael ynddo ysbryd diorphwys, yn methu ymfoddloni ar gyflwr pethau pan y maent yn eithaf da, ond yn hoffi terfysg a newydd-bethau, gan geisio cyfnewid trefniadau yn ol ei fympwyon ei hunan." Ond trwy daerineb Williams, cafodd Laud ei ddyrchafu; ac yn raddol ennillodd y prif ddylanwad mewn materion crefyddol ar y brenin Siarl, a'i gyfaill Buckingham. Symmudwyd ef o Dŷ Ddewi i lenwi esgobaethau pwysicach. Bu yn Esgob Llundain; ac yn 1633, esgynodd i brif esgobaeth Caergaint.

Yr oedd Laud yn hollol onest a difrifol, ac yn wir dduwiol yn ol ei olygiadau ei hun. Yr oedd yn ddyn galluog a phenderfynol, ond yr oedd yn hynod o gul-farn. Yr oedd ei sêl angerddol dros daeniad ei olygiadau neillduol yn ei wneyd ef yn gynghorwr peryglus i'r brenin. Yr oedd ysbryd Laud hefyd yn dräarglwyddaidd. Nid oedd yn medru mesur yn gywir y nerth oedd yn llifeiriant y teimladau poblogaidd. Yr oedd y genedl wedi cyfnewid llawer er yr amser pan y bu teulu Tewdwr yn teyrnasu. Nid oedd yn awr yn foddlawn i oddef y ffrwyn a'r ffiangell a ddefnyddid y pryd hyny. Ond yr oedd Laud yn anghofio hyn, ac yn perswadio y brenin i'w anghofio hefyd.

Nid oes dim lle i ammheu mai cynghorion Laud fu yn un o'r prif achosion i ddwyn oddi amgylch y rhyfel rhwng y senedd a'r brenin. Yr oedd ef, ar ol ennill clust y brenin, yn defnyddio ei ddylanwad i yru Williams yn mhellach fyth o ffafr ac ymddiried. Y mae Dr. Hackett yn priodoli i'w waith ef yr erledigaeth greulawn a ddioddefodd Williams am flynyddoedd maith. Dechreuodd yr erledigaeth yn 1627, pan y cyhuddwyd ef o gyhoeddi cyfrin-gynghorion y brenin. Bu y cyhuddiad yn hongian yn fygythiol uwch ei ben am ddeng mlynedd. Ond gan fod ei elynion yn methu cael profion i'w gondemnio, newidiwyd y cyhuddiad yn ei erbyn. Yr oedd y llysoedd o dan ddylanwad brenhinol yn y dyddiau hyny; ac yn rhy aml, penderfynent achosion, nid yn ol cyfiawnder, ond yn ol llid a digofaint y brenin. Collfarnwyd Williams i dalu 10,000*p.*, ac hefyd i gael ei garcharu yn Nhŵr Llundain. Yr oedd ei elynion wedi penderfynu ei ddwyn ef i dlodi ac iselder; ac yn 1638—9, dygasant yn ei erbyn gyhuddiad gwael arall; sef, ei fod wedi derbyn llythyrau oddi wrth brif athraw ysgol Westminster, yn cynnwys rhai ymadroddion ammharchus ynghylch yr archesgob Laud. Ar y sail ffugiol yna, condemniwyd ef drachefn i dalu dirwy arall o 8,000*p*.

Cadwyd ef hefyd ar hyd yr amser yn y carchar hyd y flwyddyn 1640. Yn y flwyddyn hono, anfonodd ddeiseb at y brenin i ofyn am ryddhâd. Ond trwy ddylanwad Laud, gwrthodwyd ef. Ond erbyn hyn yr oedd y senedd newydd, y senedd hirhoedlog, wedi ymgynnull; ac yn mhen pythefnos darfu i Dŷ yr Arglwyddi ollwng Williams o'i garchar, a'i alw i eistedd yn y tŷ. Gallasai yn awr, pe buasai yn dymuno, ddial hyd yr eithaf ar ei holl elynion. Yr oedd y senedd yn taer ddymuno iddo erlyn Laud, a'i elynion ereill. Ond er yr holl gamwri a'r anghyfiawnder a ddioddefodd, yr oedd yn well ganddo faddeu iddynt; a gommeddodd yn lân roddi unrhyw achwyniad yn eu herbyn. Yn holl hanes y deyrnas hon, ni chofnodwyd un enghraifft fwy gogoneddus o ysbryd mawrfrydig, yn caru maddeu, ac yn talu da am ddrwg.

Yn y flwyddyn ganlynol, sef 1641, dyrchafwyd y Cymro enwog i fod yn Archesgob Caerefrog. Ond yr oedd y rhyfel cartrefol yn awr yn dechreu; ac yn 1642, gorfu i Williams adael Caerefrog, a dychwelyd ar ffo i wlad ei enedigaeth. Yn y blynyddoedd terfysglyd hyny, yr oedd efe yn gysson âg ef ei hunan. Y mae yn aros o hyd yr un gŵr ag ydoedd yn ei fawredd. Nis gallai gymmeryd golwg cul, unochrog. Nis gallai roddi ei holl galon i un blaid yn fwy nag

Digitized by Google

yr heol, ac yn disgwyl am rai o'i gymdeithion llygredig, gyda pha rai yr oedd wedi cyttuno i dreulio yr hwyr hwnw mewn tafarn, daeth Mrs. Tonkin, gwraig ei feistr, heibio, yr hon oedd ar y pryd ar ei ffordd i'r Tabernacl, yn Moorfields. Hi a'i perswadiodd i fyned gyda hi: a digwyddai y Parch. Timothy East, o Birmingham, fod yn pregethu yno y noson hono; a chafodd y bregeth y fath effaith arno fel y gweithiwyd cyfnewidiad trwyadl ynddo. Yn lle bod yn fachgen ieuangc a dueddai at fod yn wyllt a difeddwl, daeth yn wrandawr cysson o'r Gair, ac yn awyddus am wybodaeth grefyddol; a chyn pen hir, ymunodd â'r eglwys yn y Tabernacl, ac â dosbarth y gwŷr ieuaingc a berthynai i'r lle, a phennodwyd ef yn athraw yn yr Ysgol Sabbothol. Yr oedd gweithrediadau cenhadol yn cynnyrchu dyddordeb mawr ar y pryd yn mysg y rhai oedd yn gwneyd i fyny eglwys a chynnulleidfa y Tabernacl, a'r Parch. Matthew Wilks, y gweinidog, yn ymdrechu eangu y syniad am eu pwysigrwydd: ac yn un o'r cyfarfodydd a gynnaliwyd i'r amcan hwn, gwnaed argraph ddofn ar feddwl Williams, nes y teimlodd ddymuniad angerddol am gael cyflwyno ei hun i weithio yn y maes cenhadol. Wedi rhoddi llawer o ystyriaeth i'r mater, efe a gynnygiodd ei wasanaeth i Gymdeithas Genhadol Llundain, yn mis Gorphenaf, 1816, a derbyniwyd ef yn llawen; ac mewn canlyniad, caniataodd Mr. Tonkin ei ryddid iddo, er nad oedd ei amser i fyny gydag ef.

Ynysoedd y Môr Tawelog, y rhai a ddarganfyddwyd gan y Cadben Cook, ac ereill, a ddewisodd sylfaenwyr Cymdeithas Genhadol Llundain fel maes cyntaf ei llafur. Ychydig iawn a fu y llwyddiant ar lafur y cenhadon a anfonwyd yno yn y blynyddoedd cyntaf; ond cyn i Williams gynnyg ei hun, yr oedd llawer o'r brodorion wedi eu dychwelyd i gofleidio Cristionogaeth, ac arferion creulawn eilunaddoliaeth wedi eu rhoi heibio yn llwyr yn rhai o'r ynysoedd. Yr oedd nifer y cenhadon i'w hebgor i'r maes gobeithiol hwn yn hollol annigonol i atteb i'r gofyn; ac anfonwyd ceisiadau taerion am chwaneg o genhadon at y gymdeithas i Loegr. Dan yr amgylchiadau hyn, penderfynwyd anfon Williams, a dynion ieuaingc ereill, oedd heb gael ond ychydig fisoedd o amser i barotoi at waith oedd mewn rhyw ystyr yn gofyn blynyddoedd o ddarparu ar ei gyfer. Yn ystod y cyfnod byr o amser a ganiatawyd i'r pwrpas hwn, ni chyfyngodd Williams ei hun at efrydiau llenyddol a duwinyddol yn unig; ond ymwelai â llaw-weithfaoedd y wlad, gan wneuthur ei hun yn hysbys yn y dull o ddwyn gwaith yn mlaen, yn unol â'i syniadau ei hun am y gwaith cenhadol; yr hyn, ynghyd â'r addysgiadau oddi wrth y gymdeithas a'i danfonodd ef allan, amcan yr hon yn wastad—yn ddarostyngedig i'r amcan mwyaf, sef dysgu yr efengyl—ydyw sefydlu yn mysg y paganiaid gelfyddydau cymdeithas wareiddiedig, a fu o wasanaeth arbenig iddo ar ol hyny. Yr oedd y cyfarfod cyhoeddus, yn yr hwn y neillduwyd ef at y gwaith, yn gyfarfod tra hynod. Cynnaliwyd ef yn Nghapel Surrey, ar y 30ain o Fedi, 1816; ac yr oedd yr adeilad eang yn orlawn o bobl. Ordeiniwyd naw o genhadon yn yr un cyfarfod, o ba rai y pennodwyd pump i fyned i lafurio i ddeheubarth Affrica, a phedwar i Tahiti; ac er cymmaint oedd y dyddordeb a deimlwyd gan y gwyddfodolion yn y cyfarfod hwnw, ychydig a feddylid fod gyrfaoedd cenhadol mor enwog a llwyddiannus yn aros dau yn neillduol o'r brodyr hyny; o herwydd neillduwyd John Williams a Robert Moffat gyda'u gilydd y diwrnod hwnw i lafurio yn genhadon dros Grist yn y byd paganaidd! Nid i'r un maes, y mae yn wir, yr anfonwyd hwynt; o herwydd aeth y blaenaf i Ynysoedd Môr y De, ac aeth yr olaf i ddeheubarth Affrica. Y mae Robert Moffat yn aros hyd heddyw, ac wedi dychwelyd o faes ei lafur, er's rhai blynyddoedd bellach, yn gyflawn o anrhydedd ac o ddyddiau; ac y mae yn cael ei barchu fel un o'r cenhadon Cristionogol mwyaf ymroddgar a llwyddiannus a fu yn llafurio yn y byd paganaidd o fewn y ganrif bresennol. Yn mis Hydref, priododd Williams Miss Mary Chauner, yr hon a fu yn gydymaith ammhrisiadwy iddo yn ei lafur dilynol; ac ar yr 16eg o Dachwedd, hwyliodd Mr. a Mrs. Williams, yn nghwmni y cenhadon ereill oedd yn myned gydag ef, am Sydney; eithr nid arosasant yno yn hir. Galwasant heibio i New Zealand; ac o'r diwedd, glaniasant yn ynys Eimeo, yn Môr y Deheu, yn mis Tachwedd, 1817, yn mhen deuddeng mis wedi eu hymadawiad o Lundain.

Arosasant yno am rai misoedd: cynnorthwyai Williams y cenhadon oedd ar yr orsaf hono yn flaenorol, a pherffeithiai ei hun yn iaith Tahiti. Yn ystod y tymmor hwn hefyd, efe a wnaeth y gwaith haiarn, gan ei fod yn fedrus yn y gwaith, a berthynai i lestr fechan oedd yn cael ei hadeiladu gan y cenhadon at wasanaeth Pomare, brenin Tahiti. Yr oedd y genhadaeth Dahitaidd yn dechreu cynnyddu, a myned yn gref. Yr oedd penaethiaid ynysoedd y Leeward, yr Huahine, a Raiatea, y pryd hwnw yn dychwelyd adref o ryfel—ac wedi dysgu a deall rhyw gymmaint yn nghylch yr efengyl yn Eimeo, yn awyddus am gael cenhadon gyda hwy i'w cartrefi. Yr oedd ar yr ynys hono un ar bymtheg o genhadon ar y pryd. Ymddengys yn beth rhyfedd fod y cyfarwyddwyr wedi anfon cymmaint o weithwyr i faes mor gyfyng, a phoblogaeth mor deneu. Ond yr oedd y cynllun yn un doeth, o herwydd amryw resymau. Yr oedd y genhadaeth yn newydd—pob peth heb ei brofi yn deg; a dechreuasant hwythau mewn terfynau cyfyng, er mwyn gwneyd y gwaith yn fwy llwyr. Yn awr cymmerwyd tir newydd i fyny: aeth yr Ellisiaid i drigo i'r Huahine; a'r Williamsiaid a'r Threkeidiaid, ar ddymuniad Tamatoa, i Raiatea—y fwyaf o ran maint, a'r fwyaf canolog o'r swp ynysoedd hyny. Tua 1,300 oedd nifer ei phoblogaeth y pryd hwnw; ond yr oedd ei dylanwad gwleidyddol yn llawer mwy nag y gallesid disgwyl oddi wrth rif y preswylwyr, a derbyniai ei phrif benaethiaid anrhydedd fel duwiau, yn gystal ag ymostyngiad a theyrnged, gan yr ynysoedd cylchynol. "Yr oedd yr ynys hon, er cyn cof," ebe Mr. Prout, "yn ganolfan ac yn ffynnonell yr eilunaddoliaeth gwrthun oedd yn tywyllu, yn anfoesoli, ac yn dinystrio ei phreswylwyr hi ei hun, ac ynysoedd ereill o'i hamgylch. Yma, y canfyddid esamplau o'r arferion mwyaf isel a chreulawn wedi dyfod yn bethau cyffredin yn mhlith y bobl; y cedwid cofnodau eu chwedleuon crefyddol; ac yma hefyd yr oedd teml ac allor Oro, neu Iau a Moloch Môr y De: ac yr oedd gweithredoedd mwy gwaedlyd yn hynodi ei hanes hi nag un o'r ynysoedd ereill. Dygid bodau dynol yno o bell ac agos i'w haberthu ar allorau yr eilun-dduwiau."

Williams a gafodd yr anrhydedd o gyhoeddi gwirioneddau Cristionogaeth yno gyntaf; ac efe, ynghyd â Pomare, a phedwar ar bymtheg

Digitized by Google

gwragedd, a phlant, yn rhoddi eu presennoldeb yn y gwasanaeth crefyddol; a bod gweddi deuluaidd yn beth cyffredinol iawn trwy yr ynys. Pelydrai llawenydd yn ngwyneb pawb, a dyrchafai diolchgarwch o bob calon, wrth glywed y newyddion da hyn. Prysurasom i'r lan, er gweled yr hyn a wnaethid. Ymgasglai y brodorion yn dyrfaoedd o amgylch y cwch, a chan fod yn rhaid ei lusgo gryn bellder, difyrent ni yn fawr; o herwydd, yn lle yr ystumiau anweddaidd a'r caneuon trythyll â pha rai y'm derbyniwyd ar fy ymweliad cyntaf â'r gororau, yr oedd rhai yn awr yn sillebu geiriau hirion, ereill yn adrodd darnau o'r catecism, neu weddi; un yn gofyn bendith ar ei ymborth; ac ereill yn canu hymnau. Yn wir, ymddangosai pob un megys yn bryderus am ddangos y fath gynnydd a wnaethai y grefydd newydd yn y lle.

Yn ebrwydd yn mron ar ol glanio, ni a alwasom am gyfarfod o'r penaethiaid a'r bobl, yn mha un y dadganasom ein llawenydd am glywed yr hyn a glywsom, a gweled yr hyn a welsom; am eu gweled yn cofleidio efengyl Crist, ac yn adeiladu tŷ mor rhagorol ac eang i addoli yr unig wir a'r bywiol Dduw ynddo."—*Miss. Enter.*, td. 58, 59.

Wedi hyny, ymdrechodd gario allan hen fwriad o'i eiddo, sef ymdrechu darganfod ynys Rarotonga; yr hon nid oedd yn anhysbys i'r cenhadon. Cawsant wybodaeth yn ei chylch oddi wrth adroddiadau ychydig o frodorion yr ynysoedd. Methodd yn ei ymgais cyntaf, ond ymwelodd â Mangaia ac ynysoedd ereill; ac o'r diwedd, fel y disgrifir yn y chweched bennod o'r "*Missionary Enterprises,*" efe a ddarganfu yr ynys y chwiliai am dani, yr hon ydyw y ragoraf a'r fwyaf poblogaidd o Ynysoedd Hervey. Gadawodd ddysgawdwr brodorol ar ei ol yno, gydag addewid yr anfonai iddynt fwy o gynnorthwy; a dychwelodd yn yr *Endeavour* i Raiatea, a hwyliodd yn fuan oddi yno ar hynt arall i Rurutu a Rimatara. Er mor fechan oedd y llong i'r fath amcan, yr oedd y cenhadwr ymroddgar yn darparu ar gyfer gwneuthur hynt bellach i Ynys y Navigator, ac ynysoedd ereill, pan yr attaliwyd ei gynlluniau yn sydyn, trwy iddo dderbyn hysbysrwydd fod llywodraethwr Deheudir Cymru Newydd wedi cyttuno â rhyw fasnachwyr neillduol yn mherthynas i'r trefniadau cyllidol; yr hyn a fu yn attalfa bwysig ar ffordd dadblygiad masnach yn Ynysoedd Môr y Deheu, ac o'r braidd y gellid cadw yr *Endeavour* ar ol hyn. Ar yr un pryd, efe a dderbyniodd hysbysrwydd o Brydain oddi wrth gyfarwyddwyr y gymdeithas yn amlygu eu hanghymmeradwyaeth o'r llwybr a gymmerasai yn mherthynas i'r llong, gan eu bod yn eiddigus rhag i ddim, hyd yn oed mewn ymddangosiad, roddi nodwedd fydol i'w gweithrediadau. Yn y modd hwn, gorfodwyd ef i anfon y llong, yn llwythog o'r cynnyrchion mwyaf marchnadol a allai gasglu, i Sydney, gyda gorchymyn i'w gwerthu hi a'r llwyth. Er dwysed y teimlai Williams y siomedigaeth hon, ni roddodd i fyny ei gynllun; ond gadawodd ef yn llonydd am dymmor, tra yr ymdrechai mewn gwahanol ffyrdd i wellhau sefyllfa y Raiateaid. Ond bu raid symmud y sefydliad i'r ochr arall i'r ynys, o herwydd fod ystormydd dinystriol yn digwydd yno mor fynych.

Yn niwedd yr haf, yn y fl. 1825, ymwelodd Mr. Bourne, un o gydweithwyr Williams yn y maes cenhadol, mewn llong a elwid *Haweis*, wedi ei llogi gan y gymdeithas genhadol, â Rarotonga ac ereill o Ynysoedd Hervey. Yn mis Rhagfyr, yr un flwyddyn, ymunodd Mr. a Mrs. Pitman gyda Williams, y rhai a bennodwyd i fod yn yr orsaf newydd yn Rarotonga; ond arosasant gydag ef am rai misoedd yn Raiatea. Yn Ebrill, 1827, cawsant long i hwylio i Rarotonga, ac aeth Mr. a Mrs. Williams gyda hwynt, gan fwriadu aros am ychydig fisoedd gyda'u cyfeillion oedd yn llai protiadol na hwynthwy. Y mae yr hyn a fynegwyd yn mherthynas i Raiatea yn arwyddo natur y gwaith oedd i'w wneuthur yn yr ynysoedd ereill; ond yr oedd anhawsder newydd yn eu cyfarfod yma, yn cael ei achlysuro gan y gwahaniaeth oedd rhwng tafodiaith Rarotonga a'r hon yr oedd y cenhadon yn hysbys o honi; sef, iaith Tahiti—yn yr hon yr oedd eu holl lyfrau wedi eu hargraphu. Wedi gorchfygu anhawsderau yr iaith mor bell ag i fod yn alluog i bregethu i'r Rarotongiaid, llafuriodd Williams i ddarparu llyfrau, a chyfieithu rhanau o'r Beibl i'r iaith; i'r hon, wrth gwrs, yr oedd raid iddo roddi ffurf ysgrifenedig a threfn ramadegol. Ar ol, o'r diwedd, bod yn barod i ddychwelyd i Raiatea, disgwyliodd fis ar ol mis am gyfleusdra i hyny; a phan nad ymddangosai un gobaith fod un llestr yn myned heibio o fewn cyrhaedd golwg a galw, efe a benderfynodd adeiladu llong, er lleied oedd ei wybodaeth am adeiladu llongau, ac er nad oedd ganddo neb i'w gynnorthwyo ond yr hyn a allai y brodorion ei wneyd, ac hefyd er ei fod ar brinder o haiarn ac arfau gweithio. Un o'r pethau cyntaf oedd i'w wneyd ar gyfer cario allan yr amcan oedd cael megin gôf; ac er cael lledr ati lladdwyd tri neu bedwar o eifr yr ynys. Ond yn anffodus, ar ol cwblhau yr offeryn, nid oedd yn gweithio yn briodol, o herwydd rhyw ddiffyg bychan yn y gwneuthuriad; a dygwyd y cwbl i derfyn sydyn gan waith llygod mawr, y rhai oeddynt yn heidiau difaol ar yr ynys, yn dinystrio pob peth yn dal cyssylltiad â'r gwaith, ond y coed. Ond ni lwfrhaodd Williams, fodd bynag, yn wyneb yr anffawd hon. Dyfeisiodd beiriant arall i chwythu tân, yr hwn a ddisgrifir yn llawn ganddo yn y "*Missionary Enterprises,*" ac nid oedd angen lledr i'w wneyd. Gan nad oedd ganddo ef yr un llif, holltai y coed trwy ddefnyddio cynion; a chan nad oedd ganddo daclau i gael ager i'w ddefnyddio i blygu plangciau, yr oedd raid cael plangciau ceimion. Nid yn fynych y bu y fath ddyfeisio i wneyd i fyny angen ag a fu i gael at ei gilydd y llestr hono, oedd yn ugain llath o hyd, ac yn chwech o led, ac a gwblhawyd yn gymmhwys i fyned i'r môr mewn pymtheng wythnos. Gydag angorau wedi eu gwneyd o goed a cheryg, a chyda dwylaw oedd yn gynnwysedig o frodorion yn unig, y rhoddes Williams y prawf cyntaf ar ei long, yr hon a alwyd ganddo yn "*Genad Hedd,*" mewn mordaith o gant a deg a thrigain o filldiroedd, i Aitutaki; a daliodd y prawf heb i un anffawd neillduol ddigwydd ond tori y brif hwylbren, a hyny mewn canlyniad i ddiffyg profiad y dwylaw brodorol; ac yn mhen ychydig amser, dychwelodd y llestr yn ol i Rarotonga, âg arni lwyth gwerthfawr o foch, cnau cocoa, a chathod. Yr oedd y creaduriaid olaf a enwyd yn gaffaeliad rhagorol mewn lle yr oedd cymmaint o lygod ynddo.

Yn fuan wedi hyn daeth Mr. a Mrs. Buzacott i Rarotonga; a chyda hwy, yn mysg pethau ereill, gryn swm o haiarn—yr hyn a alluogodd Williams i gadarnhau ei long cyn hwylio tua Tahiti, pellder o wyth gant o filldiroedd; a chyflawnodd y fordaith hon hefyd yn llwyddiannus a diogel. Daeth y cenhadwr dewr yn awr i'r penderfyniad i ymgymmeryd â'r fordaith yr oedd wedi gosod ei feddwl arni er's talm; sef, un i'r

Digitized by Google

Testament Newydd i iaith Rarotonga. Penderfynodd y pryd hwn dalu ymweliad â Phrydain, ac anfonodd y *Genad Hedd* i Tahiti; gyda gorchymyn iddi gael ei gwerthu, os llwyddid i gael prynwr, a bod i lestr arall gael ei llogi a'i hanfon iddo ef. Gan ei fod heb glywed dim o Tahiti, efe a orphenodd lestr fechan oedd wedi ei dechreu gan Americanwr oedd ar y pryd yn Rarotonga; ac yn mis Gorphenaf, 1833, efe a hwyliodd tua Tahiti. Yr oedd gwaith y genhadaeth yn galw am iddo ymweled drachefn â Rarotonga cyn cychwyn i Brydain; ond o'r diwedd, ar ol unwaith yn rhagor ymweled â Raiatea, efe a gymmerodd le mewn llong oedd yn hwylio i'r wlad hon, ac a gyrhaeddodd i Lundain yn mis Mehefin, 1834. Yr oedd y dyddordeb oedd wedi ei godi yn meddyliau pobl y wlad hon gan anturiaethau bywyd cenadol Williams yn gyfryw fel yr oedd galw mawr am ei wasanaeth yn mhob cŵr o'r wlad yn y cyfarfodydd cenhadol a gynnelid; ac yr oedd yr awyddfryd mor gryf am ei glywed yn mhob rhan o'r deyrnas, fel nad oedd ei lafur gartref yn nemawr ysgafnach nag oedd wedi bod yn Ynysoedd Môr y Deheu. Cyfarfod mawr blynyddol Cymdeithas Genhadol Llundain, yr hwn a gynnaliwyd yn neuadd Exeter, Llundain, yn mis Mai, 1837, yn yr hwn y rhoddodd Williams adroddiad llawn o'i hanes, oedd yr ardderchocaf, yn ddiammheuol, a gynnaliodd y gymdeithas hono erioed.

Tra yr oedd ei lafur wrth areithio, darlithio, a phregethu bron yn ddiorphwys, etto ni chollodd Williams ei olwg ar ei ymrwymiadau oedd yn dal cyssylltiad uniongyrchol â llwyddiant a ffyniant Polynesia. Gosododd ger bron cyfarwyddwyr Cymdeithas Genhadol Llundain, ac wedi hyny o flaen y cyhoedd yn gyffredinol, gynlluniau er sefydlu coleg duwinyddol yn Rarotonga, er addysgu cenhadon brodorol, ac ysgol yn Tahiti, i gyfranu addysg uwchraddol i feibion penaethiaid, ac i wasanaethu hefyd fel coleg athrawol er rhoi addysg i ysgolfeistri. Gosododd ei lawysgrif o'i gyfieithiad o'r Testament Newydd i iaith Rarotonga ger bron cyfarwyddwyr y Feibl Gymdeithas, ac wedi hyny bu yn arolygu y gwaith o'i argraphu gydag amryw o weithiau ereill er gwasanaeth yr ynyswyr; ac ysgrifenodd hanes rhai o'r amgylchiadau pwysicaf o yrfa ei fywyd anghyffredinol, yr hwn a ymddangosodd yn mis Ebrill, 1837, o dan y teitl "*A Narrative of Missionary Enterprises in the South Sea Islands*," &c. Cynnyrchodd y gyfrol hynod hon ddyddordeb dwfn ar unwaith—nid yn unig yn mysg y rhai a glywsant adroddiadau yr awdwr, neu y rhai hyny y gallesid disgwyl, oddi wrth eu harferion a'u cyssylltiadau, y cawsent eu harwain yn naturiol i'w darllen; ond hefyd yn mhlith pob dosbarth—yn mysg dynion mewn swyddau uchel yn yr Eglwys Wladol, yn gystal ag yn mhlith yr Ymneillduwyr, a gwyddonwyr, a phendefigion. Teimlai rhai, a arferent edrych ar weithrediadau cenhadol yn ddim amgen nag anturiaethau Utopaidd, ac arwyddion o benboethni, awydd am fwynhau cymdeithas y cenhadwr llafurus a gostyngedig; a chafwyd llawer o roddion anrhydeddus trwyddo ef tuag gario allan amcanion cyffredinol y genhadaeth, yn gystal ag at ddybenion neillduol ag yr oedd y gymdeithas yn dewis yn hytrach eu gadael o dan ei reolaeth uniongyrchol ef ei hun. Yn mysg pethau ereill yr oedd efe wedi meddwl llawer am danynt, yr oedd pwrcasu llong at wasanaeth y genhadaeth yn un o'r rhai penaf. Gellir ffurfio syniad am y dyddordeb a deimlid yn y gwaith hwn oddi wrth y ffaith fod tri argraphiad o hono wedi eu cyhoeddi mewn dulliau gwahanol, a bod deunaw mil ar hugain o gopïau wedi eu gwerthu o fewn pum mlynedd o amser. Fel prawf o'r effaith a gynnyrchwyd gan y gwaith, yn gystal a chan appeliadau personol Mr. Williams, gellir dywedyd, wedi iddo osod ei syniadau am bwysigrwydd yr anturiaeth, mewn ystyr fasnachol, o flaen cynghor dinesig dinas Llundain, fod y corph hwnw yn unfrydol wedi pleidleisio iddo y swm o 500*p.* tuag at y llong genhadol. Tanysgrifiwyd o ddeutu 4,000*p.* i'r amcan yma yn unig; â pha rai y prynwyd y llong *Camden*. Adgyweiriwyd hi, a gwnaed hi yn gymmhwys i droi allan; ac ar yr 11eg o Ebrill, 1838, hwyliodd Mr. a Mrs. Williams ynddi o Gravesend, gydag un ar bymtheg o genhadon ereill, a'u gwragedd, y rhai a adawyd yn eu gwahanol orsafoedd ar eu mordaith.

Ar ol aros dros ychydig amser yn Mhenrhyn Gobaith Da, ac ychydig yn Sydney, moriodd y *Camden* am ynysoedd y Samoas. A chyrhaeddodd Williams yno yn ddiogel, ar ol bod yn absennol am yn agos i bum mlynedd. Ymwelodd yn ddioed â llawer o'r ynysoedd cylchynol; yna efe a hwyliodd i Rarotonga, ac wedi hyny i Tahiti a Raiatea, ac ynysoedd ereill; a hwyliodd y *Camden* oddi yno drachefn i Samoa, pan y disgwyliodd y cenhadwr ymroddgar a llafurus y gallai gario allan hen fwriad oedd ganddo; sef, ymweled âg ynysoedd pellach i'r gorllewin, lle nad oedd dim wedi ei wneyd ynddynt tuag at addysgu y preswylwyr anwaraidd. Yr oedd yr hynt yn myned yn mlaen yn llwyddiannus, a hwythau wedi cyrhaedd i'r New Hebrides, pan, ar y 29fed o Dachwedd, 1839, y glaniodd nifer o'r rhai oedd ar y llong yn Machwy Dillon, yn ynys Erromanga; pan y darfu i'r barbariaid, wedi eu cythruddo, fel y tybir, gan greulonderau a gyflawnesid gan ddwylaw llestr arall a ymwelodd a'r ynys, ymosod arnynt, a llofruddio Mr. Williams—yr hwn oedd ar y pryd yn y bedwaredd flwydd a deugain o'i oedran, a Mr. Harris hefyd, yr hwn a fwriadai ymsefydlu yn genhadwr yn y Marquesas. Yn y modd barbaraidd hwn y terfynodd bywyd gwerthfawr y cenhadwr apostolaidd, a hyny yn nghanol ei nerth a'i ddefnyddioldeb. Cynnyrchodd yr hysbysiad am y digwyddiad pruddaidd y cyffro dyfnaf yn yr ynysoedd lliosog ag yr oedd llafur a gwaith y cenhadwr diflino yn cael eu dwyn yn mlaen ynddynt, yn gystal ag yn y wlad hon; ac yr oedd y parch cyffredinol a deimlid tuag ato yn cael ei arddangos yn y dadganiadau dyfnaf o ofid o herwydd yr amgylchiad galarus! Cafodd cymmaint o weddillion corph y cenhadwr ag a allesid eu cael wedi hyny (o herwydd yr oedd y rhan fwyaf wedi ei fwyta gan ddynion-fwytâwyr Erromanga) eu claddu yn barchus yn Apia, yn ynys Upolu, lle yr oedd Williams wedi arfaethu preswylio, pe yr arbedasid ei fywyd. Ond y mae hi yn ffaith ddymunol, na thaflwyd attalfa ar y gwaith gogoneddus a ddygwyd yn mlaen gan Williams trwy ei farwolaeth anamserol ef; ond fod gwirioneddau Cristionogaeth wedi parhau i gael eu cyhoeddi yno, er i'r cadarn gwympo dan ddwylaw y trigolion llofruddiog.

Nis gallwn o fewn cylch yr erthygl hon roddi golwg gyflawn ar gymmeriad Williams. Mewn trefn i ganfod ei sêl hunan-ymwadol, ei ddyfalbarhâd di-ildio yn y gwaith o ddwyn o amgylch amcanion mawr ei genhadaeth, a chyffredinedd ei

Digitized by Google

WILLIAMS, MOSES: hynafiaethydd dysgedig a rhagorol. Mab ydoedd efe i'r Parch. Samuel Williams, ficer Llandyfriog a Nantgunllo, swydd Aberteifi. Yr oedd ei fam yn dyfod o deulu Nant-yr-ymenyn, plwyf Llandyssul, ac yn berthynas i fam Rhys Pritchard, ficer Llanymddyfri. Ganwyd ef mewn lle o'r enw Glaslwyn, yn yr un sir, ar yr 2il o Fawrth, 1685. Yn ysgol rammadegol Caerfyrddin yr addysgwyd ef; a phan symmudodd oddi yno, aeth i goleg y brifysgol, yn Rhydychain, yn 1705, a graddiodd yno mewn amser priodol yn A. C. Cafodd ei urddo yn ddiacon yn 1713, ac yn offeiriad yn 1715; a phennodwyd ef i fywoliaeth Llanwenog, sir Aberteifi. Yn 1716, cyflwynwyd iddo ficeriaeth Defynog, yn sir Frycheiniog, gan Dywysog Cymru; ond yn 1724, cyfnewidiodd Defynog am beriglorïaeth Chilton Trinity, a ficeriaeth St. Mair, yn Bridgewater. Cafodd ei ddewis yn gymmrawd o'r Gymdeithas Frenhinol yn 1732. Dygwyd allan ddau argraphiad o'r Beibl Cymraeg, o dan ei olygiad ef. Cynnwysai yr argraphiad cyntaf ddeng mil o gopïau, a chyhoeddwyd ef yn 1718; a chynnwysai yr ail ugain mil o gopïau, a daeth allan yn 1727. Ymddangosodd argraphiad o gyfreithiau Hywel Dda yn 1730; a dywedir ar y wyneb-ddalen ei fod wedi ei gyfieithu i'r Lladin gan Dr. Wootou, yn cael ei gynnorthwyo gan Mr. Williams; ond y mae llawer o bethau yn arwyddo na chafwyd ond benthyg enw y doctor, ac mai Williams oedd y gwir awdwr. Ceir yn llyfr ysgrifol Ben Simon y crybwylliad canlynol am dano:—"Moses Williams oedd fab hynafiaethydd a Chymreigydd tra chelfyddgar. Yr oedd ar fwriad argraphu grammadeg a geirlyfr Cymraeg, helaethach a pherffeithiach nag a welwyd etto yn Nghymru; ac yn bwriadu argraphu llawer peth a dueddai i gynnyddu gwybodaeth yn mhlith y Cymry yn eu hiaith eu hunain; a phan ddeallwyd hyny gan rai o'r esgobion Cymreig, rhybuddiasant a phregethasant yn ei erbyn yn eu hymweliadau pennodol, ac ar eu hol hwy yr archddiaconiaid yn eu hymweliadau, gan haeru nas dylid achlesu yr iaith Gymraeg, eithr ei hanfon i dir anghof mor ebrwydd ag y gellid, a rhwystro pob gwybodaeth ynddi; ac o hyny allan, attaliwyd rhag Moses Williams y parch a dderbyniasai efe hyd hyny gan rai o foneddigion Cymru; ac o achos hyny, meddir, y bu farw o dôr calon, canys hyny yn ddechreuol oedd achos ei ddolur angeu ef." Bu farw yn Chwefror, 1746, a chladdwyd ef yn eglwys St. Mair, Bridgewater. Gadawodd yn gymmunrodd yn ei ewyllys i Arglwydd Macclesfield, ei noddwr, gasgliad gwerthfawr o lyfrau a llawysgrifau, yn ymdrin yn benaf â phyngciau hanesiol ac ieithyddol, ac arferion gwlad ei enedigaeth.

WILLIAMS, ROBERT (*Robert ap Gwilym Ddu*). Ganwyd Robert Williams yn y Bettws Fawr, yn Nghwmmwd Eifionydd, yn sir Gaernarfon, yn y fl. 1767. Enwau ei rieni oeddynt William Williams a Jane Williams—yr hon a elwid gan ei chymmydogion yn Jane Parry, yn ol ei henw morwynol, ac yn ol arfer y wlad yn y dyddiau hyny. Unig fab ei dad a'i fam oedd Robert, a chafodd ei fagu yn nghanol maeth a llawnder. Ni wyddai efe ddim am logell wâg a chefn llwm, fel y gwyddai llawer o feirdd Cymru yn yr amser hwnw. Tyfodd yn ddyn corphol yn ieuangc, ac yr oedd yr olwg arno yn profi iddo gael magwraeth fras. Dyn amrosgo o ran ei ffurf ydoedd. Talcen llydan, a gwallt afluniaidd, Llygaid gloewon yn picio o'i ben. Bochgernau esgyrnlawn, a gwefusau trwchus, yn gwarchod genau lled fawr. Gên gref yn dynodi cryn lawer o benderfyniad. Gwar llydan, o duedd ymgrymol, a mynwes uchel a chadarn. Gwisgiad gwladaidd, a cherddediad araf a thrwsgl. Llawer gwaith y clywid ei gymmydog, Dewi Wyn, yn dyweyd: "Rhyw horwth o ddyn yw Robert y Bettws." Nid oedd dim yn yr olwg gyntaf arno yn arwyddo rhyw fawredd neillduol. Ond os cretfid arno pan y byddai yn siarad ar ryw bwngc dyddorol, gallesid gweled tân athrylith yn gwreichioni o'i lygaid; a gallasai y dyn mwyaf dyeithr ddeall ei fod yn mhresenoldeb dyn llawer mwy na'r cyffredin. Nid llawer o fanteision addysg oedd yn Eifionydd yn nyddiau ieuengctid Robert Williams; ond cafodd bob mantais y gallasai ei rieni ei roddi; ac ymddengys iddo gyrhaedd gradd dda mewn dysgeidiaeth. Yr oedd yn ddarllenwr mawr er yn fachgen, ac yr oedd arwydd darllen ar ei holl ymddiddanion. Ystyrid y Bettws Fawr yn brif ddarllendy Eifionydd yn y dyddiau hyny; ac edrychid ar Robert ap Gwilym Ddu fel oracl y wlad. Yr oedd son am dano fel darllenwr pwysleisiol; ac un waith cymmerodd yn ei ben i ddysgu bachgen o was oedd ganddo i ddarllen y drydedd bennod o'r Epistol at y Rhufeiniaid, ac i ofalu am iddo roddi y pwyslais yn ei le. Un tro pan oedd gweinidog i'r Bedyddwyr yn lletya yn ei dŷ, gofynodd i'r gweinidog ddarllen y bennod grybwylledig wrth gadw dyledswydd deuluaidd. Pan yr oedd y gweinidog yn darllen y rhan gyntaf o'r ail adnod, sef "Llawer yn mhob rhyw fodd," digwyddodd iddo roddi y pwyslais ar y "fodd," pryd y gwaeddodd y bardd dros y tŷ, "Nid fel yna!" Wedi hyny, dywedodd wrth y gwas oedd yn ei ymyl: "Darllen di hi, Wil." Yna fe ddarllenodd y gwas yr adnod, a rhoddodd y pwyslais ar y geiriau "yn mhob." "Dyna synwyr 'rwan," ebe yntau. Llwyddodd i gyfodi torf o ddarllenwyr rhagorol yn Eifionydd, ac y mae rhai o'i hen ddysgyblion yn fyw etto. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn hen langc, fel ei gymmydog Dewi Wyn; a gelwid ef gan ei gydnabod yn "Hen Langc y Bettws." Ond yn ddamweiniol, daeth merch ieuangc brydweddol, o Ddolgellau, i aros i'r Plas hen, palasdy perthynol i'r Mostyniaid yn Eifionydd, ac yn ebrwydd syrthiodd y bardd mewn cariad â hi; ac er syndod i bawb, ymunodd y ddau yn yr ystâd anrhydeddus o briodas. Ganwyd iddynt un eneth, yr hon a dyfodd i fyny yn ferch brydferth, synwyrol, a dysgedig. Ond bu farw pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed; ac effeithiodd ei marwolaeth yn drwm ar feddwl ei thad. Yr oedd Robert ap Gwilym Ddu yn ddyn penderfynol ei feddwl, a chredai fod ei farn yn anffaeledig ar bob pwngc. Clywsom ef yn dadleu â'i holl egni unwaith dros fedydd trwy drochiad; ac aeth mor bell a dyweyd na byddai neb yn gadwedig gan yr Arglwydd heb eu trochi. Ond er ei fod yn dwyn y fath sêl dros drochi, ni chymmerodd efe ei hun ei drochi; ac ni ymunodd âg un math o enwad crefyddol yn ei oes. Yr oedd ganddo dalent gref at gerddoriaeth—yn neillduol cerddoriaeth y cyssegr. Ymddengys mai Mr. J. R. Jones, Ramoth, oedd ei athraw cerddorol; o blegid crybwylla hyny yn ei awdl farwnad i Mr. Jones. Y mae yn dra thebygol hefyd mai y gŵr o Ramoth, a ddylanwadodd ar

Digitized by Google

wl i gredu mor gryf mewn bedydd trwy
d; o blegid Bedyddiwr selog oedd efe.
bardd yr enwogodd Robert ap Gwilym
hun; ac fel y cyfryw yr edrychir arno
g enwogion ei genedl. Os oes dylanwad
gfeydd y wlad ar feddwl ei phreswyl-
d ydym yn rhyfeddu i Robert ap Gwilym
tyfod yn fardd mor rhagorol; o herwydd
aml y ceir golygfeydd mor farddonol a'r
ydd a geir o gylch y Bettws Fawr. Wrth
n ymyl porth y Bettws, gellir gweled ar
wg y Wyddfa, a Chadair Idris, y ddau
n, Carnfadryn, Castell Harlech, Castell
h, a'r môr. Yn nghanol y golygfeydd
ganwyd y Bardd Du, ac yma y treuliodd
Dywedir mai yn yr awyr agored, hyd
n Abney Park, ac o dan gysgod cangau
erddi Abney Palace, y byddai Dr. Isaac
yn myfyrio, ac yn cyfansoddi ei emynau
dd. Ond fodd bynag am hyny, y mae yn
ai ar hyd y meusydd, y ffyrdd, a glanau
ydd, y byddai Robert ap Gwilym Ddu
er prydyddu. Pan ddigwyddodd y diffyg
haul, ar y dydd Sabbath, tua deugain
dd yn ol, yr oedd y bardd yn sefyll wrth
lawdd o ddrain; ac wrth edrych ar y diffyg
ned dros wyneb yr haul, cyfansoddodd y
au rhagorol hyn:—

"Nôño tros haul y nefoedd
Yn llaw Duw y lleuad oedd;
Gorlawn yw'r tywyll gwrlyd,
Dôr i gau daear i gyd!
Oerodd yr wybren araul,
Plwm yw yr hin! Ple mae'r haul?"

eddai syniadau uchel am yr hen feirdd
eig, ac ni byddai dim yn hoffach ganddo
n am eu gorchestion. Byddai wrth ei fodd
hyfeillach beirdd o'r iawn ryw; ac o ddeu-
Nadolig, bob blwyddyn, byddai yn mynu
cyfarfod o honynt yn y Bettws. Llawer
h y bu Dafydd Ddu Eryri, Dewi Wyn,
n Peris, Gwilym Cawrdaf, Gwilym Padarn,
n Williams (Waen fawr), Siôn Dwyfor,
Owen (Cefn y Meusydd), ac Eben Fardd,
nder, Ioan Madog, Siôn Wyn o Eifion, a'i
ll hoff, Gwilym Caledfryn, yn mwynhau
feillach wrth ei fwrdd llawn a danteith-
Byddai yr awen ar amserau yn ei lyngcu i
yn llwyr. Digwyddodd iddo fyned ar ei
i'r felin un diwrnod, ac ar ei ffordd yr oedd
a phont-bren i fyned drosti. Pan ddaeth
bont, disgynodd oddi ar ei farch, a gadaw-
iddo fyned drwy yr afon wrth ochr y bont,
feiriodd yntau ei gamrau i fyned dros y
Ond pan oedd ar ei chanol, llyngcwyd ef
yr awen, a safodd yn y fan mewn synfyfyr-
Aeth y march yn ei flaen tua'r felin, canys
dd yn ddigon adnabyddus o'r ffordd. Ad-
y melinydd y march, a chymmerodd yr ŷd
ar ei gefn; ac wedi ei falu, troes ben y
ch tuag adref. Erbyn i'r march ddyfod yn
t yr afon, yr oedd y prydydd ar y bont byth
symmud. Yr oedd Robert ap Gwilym Ddu
hoff iawn o glywed rhywun yn adrodd ei
th—yr hyn oedd yn arddangos fod ynddo
er o'r plentyn. Y tro cyntaf y cawsom ni
hyfrydwch o fod yn ei gymdeithas, gofynodd
ddym yn cofio rhywbeth o'i waith: dywed-
om ninnau ein bod; ac adroddasom dri neu
dwar o'i englynion. "Tad anwyl! y maent
dlysion: dywedwch hwy etto," ebe fe; a dy-
edasom hwy drosodd drachefn; ac yr oedd yr
wg arno wrth wrando fel un yn cael boddhâd
gwynfydol. Yn y fl. 1819, anfonodd englyn i'r
delyn i eisteddfod Caerfyrddin; ond Gwallter
Mechain a gafodd y wobr. Digiodd yntau yn
aruthrol am i Gwallter gael y wobr; canys
credai mai ei englyn ef oedd y goreu. Dyma ei
englyn:—

"Peiriant i gerddor parawd—areithfa
Yr wythfys a'r ddwyfawd;
Tery eithaf tri wythawd,
Eurllaes gorph i arllwys gwawd."

Wedi ei siomi fel hyn yn Nghaerfyrddin, sor-
odd i'r fath raddau wrth yr eisteddfodau fel na
ddanfonodd linell byth i unrhyw gystadleuaeth.
Ac o herwydd hyny, ni chafodd na thlws na
chadair eisteddfodol erioed. Ond nid edrychai
ei genedl arno yn ddim llai na bardd o herwydd
hyny. Ond os troes ei gefn ar yr eisteddfodau,
ni throes ei gefn ar farddoniaeth. Parhaodd i
feithrin yr awen, ac i swyno y wlad â'i chyn-
nyrchion. Yn y fl. 1841, casglodd ei brif gyf-
ansoddiadau ynghyd, a chyhoeddodd hwynt yn
llyfr, o dan yr enw "*Gardd Eifion;*" yr hwn a
olygid gan Gwilym Caledfryn. Nid yw y llyfr
hwn yn fawr; ond y mae yn wir farddoniaeth, o
glawr i glawr. Cynnwysa englynion, cywyddau,
awdlau, carolau, emynau, a llawer o ganiadau
moesol. Canodd Gwilym Hiraethog fel hyn
i "*Ardd Eifion*:—

"Addefir fod *Gardd Eifion*,
Heb ei hail—mae wyneb hon
Dan dw'niad gwên haulwen hâ,
Un wedd ag Eden Adda,
Mwy ehelaeth doraeth da
Gardd Eifion na Gardd Efa."

Fel yr adwaenir natur y pren wrth ei ffrwyth,
felly yr adwaenir teithi meddwl y bardd wrth
ei waith. Y peth cyntaf a welir wrth graffu ar
waith Robert ap Gwilym Ddu yw ei naturioldeb.
Llifeiria ei holl feddyliau fel y ffrydiau o'r ffyn-
non; ac y mae ei holl syniadau yn profi iddo
gael ei eni yn fardd. Beth sydd yn fwy natur-
iol na'r llinellau hyn i afon Dwyfach?

"Mor fwyn fy llaw-forwyn fach,
Yn dyfod at lan Dwyfach;
Mynu eistedd mwyn osteg,
Ar fin dŵr tir Eifion deg!
Eilio, mân byngcio, mwyn bill,
Dan lawen wybren Ebrill;
Difyr gael, dan dewfrig wydd,
Roi anadl i'r awenydd."

Heb law fod ei waith yn llawn o natur, y mae
hefyd yn gymmhleth o gelfyddyd. Nid yn
fynych y gwelwyd bardd mor athrylithlawn yn
gallu cyfansoddi mor gelfyddydol. Y mae ei
fesur, ei gorfanau, ei gynghaneddion, ei odlau,
wedi eu cymmhlethu mor naturiol a chywrain,
fel y mae rhyw fath o wynfydedd cyfriniol yn
llenwi y meddwl wrth eu darllen. Y mae yr
hir a thoddaid hwn, i "Byddaf angeu i ti o
angeu," yn un o'r pethau mwyaf cywreinfyw:—

"Poen a gofid, ein pen a gafodd,
Poen a du lafur, pan y dolefodd;
Poen i'w gorph anwyl, pan y gorphenodd,
Poen a loesau mawrion, pan lesmeiriodd;
Poenau, arteithiau, a'i todd—a diau
Poenwyd yr angau ei hun pan drengodd!"

Ond er mor gywrain ydyw yn y gelfyddyd,
nid yw yn tywyllu dim ar ddysgleirdeb ei fedd-
yliau. Mae ei holl waith mor dryloew a'r goleu-
ni. Pentyra rhai beirdd ansoddeiriau, i'r dyben
o gryfhau a thewychu eu cynghaneddion; a
gwnant hyny ar draul tywyllu hyny o feddwl
fyddo ganddynt. Ond ni pherthynai efe i'r

Digitized by Google

barth hwn: canys bardd oedd efe yn caru rhodio wrth liw dydd, ac nid wrth liw nos. Ni bu bardd yn Nghymru yn gallu tywallt mwy o deimlad i'w waith nag ef. Y mae ei awdl alarnadol i'w unig eneth, Jane Elizabeth Williams, yn tori drosodd o deimlad calon hiraethlawn. Rhaid cael calon o ddur i beidio wylo wrth ddarllen y llinellau hyn:—

Och gur! pwy fesur pa faint
Yw nghŵyn mewn ing a henaint!
At bwy trof yn fy ngofid,
A chael lle i ochel llid?
Angeu arfog, miniog mawr,
Ar ei gadfarch ergydfawr,
Dorodd i lawr, drwy fawr feth,
Ein diddig unig eneth.

Ymholais, crwydrais, mewn cri—Och alar!
Hir chwiliais am dani;
Chwilio'r celloedd oedd eiddi,
A chwilio heb ei chael hi.

Gwywais o geudeb, wel'd ei gwisgiadau,
Llanwai y meddwl o'i llun a'i moddau;
Dych'mygion gweigion yn gwau—a'm twyllodd,
Hynod ammharodd fy ngwan dymmherau.

Och! am sôn, ni cheir seinio—un mesur,
Na miwsig piano;
Mae'r gerdd anwyl yn wylo,
A'r llaw wen dan grawen gro.

Ochenaid uwch ei hanedd—a roisom,
Mae'n resyn ei gorwedd;
Lloer iefangc mewn lle rhyfedd,
Gwely dibarch—gwaelod bedd.

Y mae yn demtasiwn i ni ddyfynu rhagor o'r awdl hiraethlawn hon; ond y mae ein gofod yn rhy gyfyng, ac y mae yr hyn a ddyfynwyd yn ddigon i arddangos fel y gallai Robert ap Gwilym Ddu arllwys teimlad i'w waith. Nid yn fynych y byddai ei awen yn goleuo mellt, ac yn taranu; ond gallai gynneu mellt nes goleuo y wlad, a thaflu taran nes crynu y mynyddoedd; ond nid yn llewyrch y mellt, ac nid yn sŵn y taranau, yr oedd efe yn hoffi bod. Ni byddai byth yn cyfansoddi yn faith, ac nid oedd ganddo hoffder i ddarllen cyfansoddiadau meithion. Gwell oedd ganddo efe gyfansoddiadau byrion, cryno, a chynnwysfawr. Ac er mwyn i'r darllenydd gael rhyw fath o ddirnadaeth am ei ddull cryno o gyfansoddi, dyfynwn yr englynion canlynol, y rhai ydynt yn enghreifftiau teg o'i arddull:—

CRIST GER BRON PILAT.

Dros fai, nas haeddai, mae'n syn—ei weled
Yn nwylaw Rhufeinddyn;
A'i brofi gan wael bryfyn,
A barnu Duw ger bron dyn!

YR IAWN.

Pa ham y gwneir cam â'r cymmod—neu'r Iawn,
A'i rinwedd dros bechod?
Dywedwch faint y Duwdod,
Yr un faint yw'r Iawn i fod!

Ceir llawer o feirdd yn englynwyr da, ond yn emynwyr gwaelion. Ond yr oedd efe mor ragorol yn y naill a'r llall. Profodd llawer y nefoedd ar y ddaear wrth ganu ei emynau; a diau y profa llawer etto yr un peth. Dyma emyn a genir tra y darllenir yr iaith Gymraeg:—

Mae'r gwaed a redodd ar y groes
O oes i oes i'w gofio;
Rhy fyr fydd tragwyddoldeb llawn
I dd'weyd yn iawn am dano.

Prif destyn holl ganiadau'r nef
Yw iddo ef a'i haeddiant;
A dyna sain telynau glân,
A'r uwchaf gân gogoniant.

'Mhen oesoedd rif y tywod mân,
Ni bydd y gân ond dechreu;
Rhyw newydd wyrth o'i angeu drud,
A ddaw o hyd i'r goleu.

Bardd y cyssegr oedd Robert ap Gwilym Ddu, ac at wasanaeth y cyssegr y cyssegrodd ei athrylith. Prif destyn ei awen seraphaidd ydoedd bywyd a marwolaeth y Cyfryngwr. Yn ngolwg Calfaria a'r groes yr hoffai rodio; ac yma yr ymddangosai yn ei lawn nerth, fel y dengys y llinellau rhyfeddol hyn:—

Heb loes, fu ar groes fawr gref—i un oll,
Ni ellid cael tangnef;
Na gweddus fodd i'n goddef,
Na byw dyn heb ei waed ef.

Nid hoelion ddydd y talu—a'i daliodd,
Na dwylaw Rhufein-lu;
Ei dda fodd—nid Iuddew fu
Yn dwyn oes ein dyn Iesu.

Dygodd ei oes fendigaid—do'n orthrwm,
Dan warth pechaduriaid;
Gwaedu'i fron, gwedi fu raid,
Bron yr Oen—Brynwr enaid.

Gwir wylaf ddagrau heli—o lwyr Och!
I lawr af dan waeddi;
At ei orsedd, mewn gweddi,
A gwaed y Mab gyda mi.

Cafodd Robert ap-Gwilym Ddu fyw i weled pedwar tymmor bywyd. Gwelodd ei wanwyn yn blaendarddu, ei haf yn blodeuo, ei gynhauaf yn ffrwythloni, a'i auaf yn gwywo. Bu farw yn y Mynachdy bach, Gorphenaf 11eg, 1850, yn dair a phedwar ugain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Abererch, ger Pwllheli. Fe allai na wnawn ddim yn well na diweddu ein herthygl â'r englyn rhagorol hwn o'i eiddo:—

Yr Iôn, pan ddelo'r enyd—ar ddiwedd,
O'r ddaear a'n cyfyd;
Bydd dorau beddau y byd
Ar un gair yn agoryd.

WILLIAMS, ROBERT, o Aberdyfi, ydoedd weinidog cymmeradwy yn nghyfundeb y Trefnyddion Calvinaidd. Ganwyd ef yn Ysbytty Ifan, sir Ddinbych, yn 1809, o rieni nodedig o grefyddol. Amddifadwyd ef o'i dad pan yn bur ieuangc; ac yn mhen ychydig flynyddau collodd ei fam hefyd. Ond ymddengys, er ieuanged oedd, fod dylanwad eu crefyddolder, yn enwedig yr eiddo ei fam, wedi gadael argraph ddofn ar ei feddwl. Arferai adrodd ei fod yn cofio am ei fam yn dwyn yr addoliad teuluaidd yn mlaen wedi marwolaeth ei dad; a bod ei haddysgiadau a dwysder ei gweddïau yn dilyn ei feddyliau trwy ei oes. Pan tua phedair blwydd ar ddeg oed, symmudodd i'r Bala, i ddysgu gwaith gwehydd; a bu yno yn cartrefu ac yn gweithio yr alwedigaeth hono am chwech neu saith mlynedd. Yr oedd ei awydd am wybodaeth, ac yn enwedig hynawsedd a chrefyddolder ei ysbryd —prif linellau ei gymmeriad trwy ei oes—yn tynu sylw pawb o'i gydnabod yn yr oedran cynnar hwnw. Yr oedd bron yn ddigymmhar am drysori yr Ysgrythyrau yn ei gof. Pan yn bedair ar bymtheg mlwydd oed, ac yn aros yn y Bala, y dechreuodd bregethu; ac er nad oedd manteision addysg yn hawdd iawn eu cyrhaedd y pryd hwnw, yn enwedig i un o'i sefyllfa ef, yr oedd ei awydd mor angerddol am gymmhwyso ei hun yn briodol i'r gwaith mawr yr ymgym-

Digitized by Google

trefnus, yn enwedig yn y rhan olaf o hono, ac aneglurdeb iaith yn achlysurol; a gresyn na chymmerai rhywun galluog y gorchwyl mewn llaw o'i ail drefnu a'i egluro, fel 'y caffer argraphiad da a chymmeradwy o hono; canys nid oes genym ddim yn agos gyfartal iddo ar fesurau cynghaneddol y Deheubarth; a cheir llawer o gynnorthwy ynddo i ddeall hen fesurau y cynfeirdd a gogynfeirdd sydd yn y "*Myvyrian Archaiology*" ac yn "*The Four Ancient Books of Wales.*"

Yr oedd, ac y mae etto, cryn ammheuaeth yn mhlith hynafiaethwyr Cymreig, ynghylch yr hynafiaeth mawr a briodolai Iolo Morganwg, ac ychydig ereill, i'r llythyrenau a elwir "Coelbren y Beirdd;" am hyny, cynnygiodd pwyllgor Eisteddfod y Fenni, yn 1838, ariandlws a gwobr am draethawd ar "Hynafiaeth ac Awdurdodaeth Coelbren y Beirdd." Ysgrifenodd Ab Iolo draethawd tra llafurfawr ar y testyn; ac iddo ef y barnwyd y wobr. Cyhoeddwyd y traethawd yn 1840, yn llyfr wythplyg, yn cynnwys 52 o dudalenau; ac ystyrir yn gyffredin mai y gwaith hwn yw prif orchestgamp Ab Iolo. Heb law lliaws o ddyfyniadau o Llewelyn Siôn, Iolo Morganwg, a hen ysgrifau a Thrioedd diamseriad a'u hawduriaeth yn anhysbys, mewn rhyddiaeth, y mae gan yr awdwr 88 o ddyfyniadau o waith y beirdd, o'r caniadau a briodolir i Taliesin, hyd Siôn Phylips, os nad rhai diweddarach; ond nid oes yr un o'r cyfryw ddyfyniadau yn enwi "Coelbren y Beirdd" o gwbl. *Coed, gwydd, naddu, bwyall*, a'r cyffelyb eiriau, ydyw y rhai a Italeiddir gan Ab Iolo fel rhai yn cyfeirio at y "Coelbren;" ond y mae yn ymddangos i ni yn bur ammheus eu bod yn arwyddo llythyrenau y "Coelbren," oddi eithr eu bod felly, ond odid, yn ngwaith beirdd Morganwg, o Gwilym Tew i waered. Fel esampl, dodwn yma y dyfyniad cyntaf sydd ganddo, a rhan o'r olaf:—

"Wyf llogell cerdd wyf lle ynydd (llienydd)
Curaf y gorwydd a gorail clyd (clydd—rhyglydd)."

*Taliesin—Buarth Beirdd, Myv. Arch. Cyf.* I. *t*.27.

Fel hyn y mae'r llinellau uchod yn llyfr Taliesin:—

"Vyf logell kerd vyf lle ynnyet,
Karaf y gorvyd a goreil clyt."

*Skene's Four Anc. Books of Wales*, cyf. vii. td. 115.

Dyma gyfieithiad y Parch. R. Williams, Rhyd-y-croesau, o honynt:—

"I love the despository of song; I am a literary man;
I love the high trees, that afford a protection above.

*Skene's F. A. B. of Wales*, cyf. i. td. 524.

Y mae yn amlwg wrth y cyfieithiad yma mai at goed uchel, cysgodfawr, y cyfeiriai y bardd, ac nid at "Goelbren y Beirdd." Wele y dyfyniad arall y cyfeiriwyd ato:—

"Dechre gwawd Diochri gwydd
Etto 'ddwyf iti Ddafydd
Ymhen Catterwen teiriaith
Mae lle 'm roi mwyall ar waith
O derfydd coedydd ceudawd
Dafydd ti yw gwydd y gwawd
Goreu deunydd Ddafydd wyd
Gwydd awdl 'ne gywydd ydwyd
Ti yw coed deunydd tŷ cerdd
Ti yw trefn iawngefn ungerdd."

*Gutto'r Glynn i Ddafydd Llwyd o Gedewin*, 1465.

Onid yw yn berffaith eglur mai at Dafydd Llwyd, ac nid at "Goelbren y Beirdd" y cyfeiria *gwydd, catterwen, coed*, a'r cyffelyb, yn y dyfyniad uchod? Nis gallwn ni weled fod y dyfyniadau ereill un mymryn mwy priodol a phenderfynol; na bod dim sôn wedi bod erioed am "Goelbren y Beirdd" cyn amser Gwilym Tew, Llywelyn Siôn, ac ereill o'u cydoeswyr yn Morganwg. Y mae yn bur amlwg hefyd mai dynwarediad o lythyrenau yr hen Roeg, yr Etryxaeg, yr hen Lladin, a'r Rhwnaeg, yw llythyrenau "Coelbren y Beirdd" (gwel *Y Gwyddoniadur, Cyf.* iv. *t.* 242).

Heb law y gwaith dan sylw, cyhoeddodd Ab Iolo gân Seisnig yn 1827, wrth yr enw "*Cardiff Castle, with historical notes;*" ac yn 1837, cyhoeddodd gân Seisnig arall, o'r enw "*The Doom of Colyn Dolphin,*" gyda nodiadau yn egluro traddodiadau ac ofergoelion Morganwg. Yr oedd ei fân gyfansoddiadau yn ymgais am wobrau yn yr eisteddfodau yn bur lliosog; ac yn gyffredin, ystyrid hwy yn rhai teilwng. Yn Eisteddfod Caerdydd, a gynnaliwyd yn 1834, efe a gafodd dlws a gwobr y gadair am awdl ar 'Dderwyddon Ynys Prydain;" ac efe hefyd, oedd ysgrifenydd Cymreig yr eisteddfod hono! Yn 1836, ail gyhoeddodd yr "Adolygiad ar Hen Lawysgrifau Cymreig," o waith ei dad, a ymddangosodd ar y cyntaf yn y "*Myvyrian Archaiology;*" a golygodd ail argraphiad ac ail gyfrol o "*Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch,*" o waith ei dad. Y gwaith llenyddol olaf a wnaeth Ab Iolo oedd golygu a chyfieithu i'r Saesneg yr hen lawysgrifau a gasglasai ei dad, i Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig; ond bu ef farw ar yr 16eg o Chwefror, 1847, cyn gorphen y gwaith yma. Hyd at y tudalen 450 y cyrhaeddodd ei lafur ef. Gorphenwyd y gwaith, yn cynnwys 262 o dudalenau wythplyg breiniol yn chwaneg, oll yn 712 o dudalenau, gan lenorion ereill dros y gymdeithas; a chyhoeddwyd y gwaith yn 1848, wrth yr enw "*Iolo Manuscripts.*" Y mae y rhan Gymraeg o'r gwaith hwn yn cynnwys yr esamplau goreu ar a feddwn o lafarwedd (*idiom*) ysgrifenedig y Deheubarth yn y bymthegfed a'r unfed ganrif ar bymtheg; ac y mae y rhan fwyaf o'r dernynach yn hynod o ddifyr i'w darllen; ond ychydig o awdurdod hanesyddol a hynafiaethol sydd iddynt. Gadawodd Ab Iolo lawer o draethodau ysgrifenedig o'i waith ei hun heb eu cyhoeddi, megys hanes Siôn Ceint, Glyn Nedd, Nos Galan Gauaf, a'r cyffelyb, ynghyd â lliaws o ysgrifau a gasglasai ei dad. Bu yn feirniad yn Eisteddfodau Merthyr Tydfil ac Abergafenni, ac mewn amryw o rai llai yn yr ardaloedd hyny.—"*Williams' Eminent Welshmen,*" "*Bywgraph. Iolo Morganwg,*" gan T. D. Thomas; "*Cyfr. Beirdd,*" "*Coelbren y Beirdd,*" "*Iolo Mss,*" &c.

WILLIAMS, THOMAS: pregethwr a phrydydd enwog. Ganwyd ef mewn amaethdy a elwir Tre'rhedyn, yn mhlwyf Pendeulwyn, yn agos i'r Bontfaen, Morganwg, Mawrth 1af, yn y flwyddyn 1761. Amaethwr, mewn amgylchiadau bydol tra chysurus, oedd ei dad, Richard Williams. Nid oes genym hanes ei fod ef na'i wraig yn grefyddol; ond nid ymddengys eu bod, fel llawer o'u cydoeswyr, yn elynion i grefydd. Y mae yn ymddangos mai Thomas oedd yr ieuengaf o feibion ei rieni. Dywedir ei fod o'i febyd yn blentyn nodedig o ddifrifol a meddylgar. Dysgodd ddarllen y Beibl pan yn ieuangc iawn, a byddai yn teithio milldiroedd i wrandaw pregethau pan nad oedd ond plentyn

Digitized by Google

o swynol. Fel pregethwr, yr oedd yn ffraeth, tarawiadol, ac anarferol o effeithiol. Tua hanner awr, fynychaf, fyddai hyd ei bregeth; ond yr oedd hi, tra y parhäai, mor felused a'r mêl. Efe oedd y pregethwr goreu o bawb yn nghyfrif pobl Bethesda; ac oni buasai iddo dreulio ei ddyddiau goreu yn neillduedig oddi wrth bob enwad crefyddol, y mae yn ddiammheuol y buasai yn adnabyddus drwy yr holl wlad, ac yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd o fewn y Dywysogaeth. Yr oedd efe yn hynod am ei ffraethineb a'i benderfyniad, i ddweyd a gweithredu yn ol ei farn a'i deimlad ei hun; a chan fod ei ddylanwad yn mysg ei bobl mor fawr, gallasai fforddio dywedyd a gweithredu yn y fath fodd nas goddefasid i nemawr ddyn arall i lefaru a gweithredu. Un tro, mewn cyfeillach grefyddol yn Bethesda, wedi i ryw frawd ddarllen a gweddïo, ac iddo yntau agor y cyfarfod âg anerchiad byr, gofynodd i dri neu bedwar a oedd ganddynt rywbeth ar eu meddyliau; ac wedi i'r naill ar ol y llall atteb nad oedd ganddynt ddim, dywedodd yntau, "Pa ddyben i ni aros yma yn fudion?" ac aeth i weddi i derfynu y cyfarfod. Wrth gyflawni gwasanaeth crefyddol ar gladdedigaeth gwrthgiliwr, wedi darllen a gweddïo, dywedodd, "Dyma ddyn a fu fyw yn hwy na'i grefydd. Claddwch y marw allan o'r golwg!" a dyna yr oll a ddywedodd y tro hwnw. Dro arall, caniatawyd lle i gladdu crwydryn, a fuasai farw yn y gymmydogaeth, yn mynwent Bethesda, wedi i ddau barson yn y plwyfydd cyfagos wrthod lle beddrod iddo yn eu mynwentydd: ond y cwbl a ddywedodd efe wrth ei gladdu, gyda darllen pennod a gweddïo, oedd, "Dyma ddyn na fu yma erioed yn fyw, ac ni buasai yn dyfod yma yn farw chwaith pe cawsid lle iddo yn rhyw fan arall. Claddwch ef allan o'r golwg." Achwynai un wrtho unwaith fod ei bregeth yn rhy fer. "A gofiaist ti y cwbl a ddywedais?" gofynai. "Naddo," ebai'r dyn. "Wel," attebodd yntau, "yr oedd hi yn rhy hir i ti."

Gan ei fod mewn amgylchiadau bydol cysurus, ni dderbyniodd ddim am ei wasanaeth fel pregethwr; a barnai rhai iddo wneyd cam mawr felly â phobl ei ofal, ac âg achos crefydd yn mro frâs Morganwg. Yr oedd amryw deuluoedd cyfoethog yn ei gynnulleidfa, a gallasent yn ddidrafferth gasglu hanner can' punt y flwyddyn at y weinidogaeth, yn ol y graddau y cyfrenid at achosion crefyddol y pryd hwnw; ac os nad oedd eisieu yr arian ar y gweinidog, yr oedd digon o alwad am danynt i adeiladu capeli, a sefydlu Ysgolion Sabbothol ar hyd a lled y fro; yr hon oedd y pryd hwnw, ac i raddau pell etto, yn ddigrefydd a phaganaidd iawn. Nid gwiw celu y ffaith mai lled ddiffrwyth fu bywyd gweinidogaethol Thomas Williams, er rhagored ei alluoedd, ac er mor fawr oedd ei ddylanwad yn mysg ei bobl. Boddlonodd efe a hwythau i fwynhau eu hunain yn addoldy bychan Bethesda, heb wneyd unrhyw ymdrech i helaethu lle y babell, a thori allan ar y dde ac ar yr aswy.

Ei ragoriaeth fel prydydd sydd wedi anfarwoli enw Thomas Williams. Yr oedd yn emynwr ac yn gyfansoddwr marwnadau rhagorol. Cyhoeddodd yr argraphiad cyntaf o'i emynau yn y flwyddyn 1812, dan yr enw "*Llais y ddurtur yn y wlad;*" a chyhoeddodd yr ail argraphiad, gyda llawer o chwanegiadau, yn y flwyddyn 1824, dan yr enw, "*Dyfroedd Bethesda.*" Cynnwysa yr argraphiad hwn 143 o emynau, a deg o ganiadau ar destynau crefyddol—ac yn eu mysg, y gân ddigyffelyb o anerchiad a anfonodd i Margaret Watkins, un o aelodau Bethesda a ymfudasai i Gaerefrog Newydd yn 1818. Yn sicr, nid oes un cyfansoddiad prydyddol yn y Gymraeg yn rhagori ar hwn mewn tlysni, tynerwch, a naturioldeb. Byddai yn anhawdd cael un dyn na dynes, wedi ymfudo o'i wlad, a allai ei ddarllen heb wylo. Y mae ei farwnadau i'w wraig, i Peter Williams, Jones o Langan, ac i Jones o Bont-y-pool, &c., yn orlawn o'r ergydion barddonol grymusaf, na chyfarfyddir â'u rhagorach yn mhennillion Williams, o Bant-y-celyn. Gresyn na chymmerai rhyw un cymmhwys y gorchwyl o gasglu a dwyn allan mewn un gyfrol hardd holl gyfansoddiadau prydyddol Thomas Williams. Byddai y gyfrol yn anrheg dra rhagorol i'r darllenwyr Cymreig hyny sydd yn hoff o brydyddiaeth grefyddol lawn o dân teimlad.

**WILLIAMS, WILLIAM,** o Bant-y-celyn:—enw sydd yn aros ac i aros ar dafod-lafar gwlad o genhedlaeth i genhedlaeth: ond ychydig sydd i'w gael o hanes ei fywyd, fel aml un arall o enwogion ein cenedl oeddynt yn gydoeswyr âg ef, a rhai o'i flaen ac hefyd ar ei ol. Casglodd y Parch. T. Charles, o'r Bala, yr hwn, am rai blynyddau, oedd gydoeswr a chydlafurwr âg ef (ond blynyddau yn ieuangach) gymmaint a allasai efe ei gael o'i hanes, a chyhoeddodd ef yn ei "*Drysorfa,*" cyf. ii. td. 44. Dywed Mr. Charles:—

"Ganwyd William Williams yn 1717, yn Cefn-y-coed, yn mhlwyf Llanfair y Bryn, yn agos i Lanymddyfri, swydd Gaerfyrddin. Ei rieni, John a Dorothy Williams, oeddynt yn proffesu crefydd gyda'r Ymneillduwyr, ac mewn gobaith cariad yn bobl dduwiol. Ei dad, John Williams, oedd amaethydd gonest a pharchus. Enw ei fam, yn ferch ieuangc, oedd Lewis. Yr oedd ei gŵr yn llawer hynach na hi, ac a fu farw pan oedd ei fab William ond ieuangc; ond ei fam, Dorothy, a fu byw i fod yn bymtheg a phedwar ugain mlwydd oed, ac a fu farw ond saith mlynedd o flaen ei mab. Brawd hynaf ei dad a fedyddiwyd gan y Parch. Rees Pritchard, ficer enwog a duwiol Llanymddyfri. Wedi i'w dad farw, pan oedd ei fam ynghylch deng mlwydd a deugain oed, bu hi byw yn weddw hyd ddydd ei marwolaeth. Efe oedd y pedwerydd o chwech o blant, a'r unig un a dyfodd i oedran gŵr o dri o feibion. Ewythr iddo, o du ei fam, pan yr oedd efe yn ieuangc, a adawodd etifeddiaeth weddus iddo ef, a'i fam. Gorphenodd ei ddysg mewn ysgol yn Llwyn-llwyd, yn agos i'r Hay, yn sir Frycheiniog, dan ddysg un Mr. Powell, gweinidog yr Ymneillduwyr, o Maes yr Owen. Yr oedd yr athrofa hon yn dra enwog y dyddiau hyny. Ei fwriad oedd bod yn feddyg; ac efe a astudiodd physygwriaeth yn ddyfal, a bu o les i lawer hyd ddydd ei farwolaeth trwy ei gyfarwyddiadau meddygol. Ond galwodd yr Arglwydd ef drwy ras, a llwyr ymroddodd i waith y weinidogaeth. Wrth ddyfod adref o'r athrofa, B.A. 1738, cafodd ei alw wrth wrandaw ar Mr. Howel Harris yn traethu ei genadwri bwysig ar ol y gwasanaeth yn mynwent Talgarth."

Yn ei fyr-gofiant o flaen "Holl weithiau prydyddawl a rhyddieithawl" W. Williams, rhydd y golygydd galluog, y Parch. J. R. Kilsby Jones, y ffeithiau canlynol am dano ef, a'i deulu:—"Yr oedd tad ei fam yn byw yn, ac yn perchen ar Bant-y-celyn, yr hwn sydd o ddeutu dwy filldir oddi wrth Cefn-y-coed (ei le genedigol). Yr oedd iddi hi, ei fam, ddau o frodyr; y rhai

Digitized by Google

bywyd? Ai amser i dewi a sôn oedd y fath amser a hwn? Ai callach a doethach fuasai cadw a dilyn trefn, gosodiadau, ffurfiau, a chanonau dynol, yn hytrach na threfn a chanon yr awdurdod sydd yn gorchymyn, "Ewch i heolydd ac ystrydoedd y ddinas—i'r prif-ffyrdd a'r caeau, a chymmhellwch hwynt i ddyfod i mewn," &c.? Felly y gorchymynai bugail ac esgob eneidiau dynion. Na: nid felly y dywedai esgobion yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru y dyddiau hyny (a'r dyddiau hyn hefyd, am a wyddom) wrth eu hordeinio i'r weinidogaeth: na, nid felly. Eithr yn hytrach, "Nac ewch i un man allan o'ch plwyf pennodol eich hun, nac i'r tu allan i furiau cyssegredig eglwys eich plwyf; ac os ewch, cewch deimlo anfoddlonrwydd a cherydd llys eich esgob." Ar ba un o'r ddau esgob y dylid gwrandaw? Y mae gorchymyn y naill yn taraw yn uniongyrchol yn erbyn y llall. Dywedai apostol dan amgylchiad cyffelyb, wrth awdurdodau eglwysig ei ddydd ef, "Ai cyfiawn yw ger bron Duw wrando arnoch chwi, yn hytrach nag ar Dduw? bernwch chwi." "Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion."

Heb law hyny, y mae y syniad hwn oedd ganddo am ei ymddygiad ei hun yn anghysson â'r hyn a ddywed efe am G. Jones, o Landdowror, a Howel Harris, yn ei farwnad i'r olaf. Am G. Jones, dywed:—

"Gan nad oedd ei foreu ond tywyll,
Ac nad oedd ei ffydd ond gwan,
Fe arswydodd fyn'd i'r meusydd,
Ac i'r lleoedd nad oedd llan."

Drachefn, am H. Harris:—

"Yntau Howel, heb arddodiad
Dwylaw dynion o un rhyw,
Na chael cenad gan un esgob,
Ac sy'n llawer llai na Duw,
Fe bregethodd yr efengyl,
A'i hanfeidrol ddwyfol stôr,
O derfynau Hafren dawel
Obry i'r Gorllewin Fôr."

Felly, gwendid ffydd G. Jones a'i cadwai rhag myned allan "i'r meusydd, ac i'r lleoedd nad oedd llan," i bregethu; ond "afreolaeth a byrbwylldra" ynddo ef oedd gwneyd hyny! Gogoniant Howel Harris oedd ei waith yn troi allan i bregethu yr efengyl o derfynau Hafren i Fôr y Gorllewin—heb arddodiad dwylaw na chael cenad gan un esgob i wneyd hyny; ond diffyg ystyriaeth, pwyll, ac arafwch oedd gwneyd hyny ynddo ef!

Yn ei fyrgofiant am dano, gwna golygydd ei weithiau, y Parch. Kilsby Jones, y sylw canlynol ar yr amgylchiad hwn yn ei hanes:—

"Pe buasai Paul yn esgob Tŷ Ddewi, cawsai Williams ryddid i bregethu yn mhob man lle y gallesid cael creadur i wrando arno. Ond beth a dâl chwalu—pe byddai Paul yn talu ymweliad â Phrydain yn awr, ac yn anfon ei gyhoeddiad i bregethu yn Eglwys St. Paul, yr hon a gyssegrwyd i'w enw ef ei hun, ni fedrai esgob Llundain roddi cenad iddo heb ddeddf seneddol. Os na wnai ymostwng i dderbyn urdd esgobol oddi ar ei law—ac anhawdd genym gredu y gwnaethai yntau gydsynio â'r fath delerau—pur chwithig gan Apostol mawr y Cenhedloedd fuasai cael ei gyfyngu gan ffiniau gwellt o waith dynion, ar ol cael, nid yn unig genad, ond gorchymyn (o'r nef) i bregethu yr efengyl i bob creadur. Y mae bod yn Gristion o lawer mwy pwys na bod yn Ymneillduwr, neu yn Eglwyswr, onid è, buasai yn anhawdd maddeu i Williams am gwyno iddo fod yn euog o afreoleiddiwch pan y dewisodd ymadael o'r Eglwys Sefydledig, neu y gorfodwyd ef i wneyd hyny; ac fel prawf, dybygid, o wirionedd ei edifeirwch am ei ymddygiad afreolaidd, dygodd ei ddau fab i fyny yn 'offeiriaid,' er i John ddilyn esampl ei dad, ac ymneillduo oddi wrth yr Eglwys Sefydledig ar ol ei gwasanaethu am saith mlynedd."

Crybwyllir y pethau uchod yn unig am eu bod yn gyfran bwysig yn hanes bywyd y peraniedydd, ac o hanesiaeth eglwysig Cymru yn y cyfnod hwnw.

Y crybwylliad nesaf a gawn gan Mr. Charles am dano a ddywed:—

"Y Gymdeithasfa gyntaf yn mhlith Methodistiaid Cymru a gynnaliwyd yn nhŷ Jeffrey Dafydd, o'r Rhiwiau, yn mhlwyf Llanddeusant, swydd Gaerfyrddin. Yr oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwnw Mr. Howel Harris, y Parchn. D. Rowlands, W. Williams, a dau neu dri o gynghorwyr. Dywedir i Mr. Harris, mewn cymmanfa foreu wedi hyn, annog pawb oedd yno i gyfansoddi ychydig brydyddiaeth, i edrych a oedd yr Arglwydd wedi rhoddi dawn prydyddiaeth i un neu arall o honynt —a phwy oedd hwnw. Felly y gwnaethant. Ac wedi iddynt ddarllen eu cyfansoddiadau, penderfynwyd yn gydunol mai Mr. W. Williams a gawsai y ddawn odidog hono; ac annogodd Mr. Harris a phawb ereill ef i'w harferyd er gogoniant Duw a lles i'w eglwys."

Rhoddodd yr annogaeth hono gan Howel Harris gyfeiriad newydd i athrylith y gŵr o Bant-y-celyn. Dichon nad oedd efe ei hun, na neb arall, wedi meddwl cyn hyny fod awen barddoniaeth ynddo; ond deffrowyd hi ar yr amgylchiad hwnw. Tarawyd y graig, a'r dyfroedd a ddylifodd; ac y mae cynnulleidfaoedd efengylaidd Cymru yn parhau i yfed o honynt gyda blas mawr o hyny hyd yn awr, a hwy a barhânt i wneyd felly tra bo efengyl a Chymraeg yn aros yn y Dywysogaeth.

Diangodd yn rhyfedd yn ei deithiau i bregethu trwy Dde a Gogledd Cymru rhag y triniaethau creulawn a ddioddefodd amryw o'i gydlafurwyr. Dywed Mr. Charles:—

"Nid llawer a ddioddefodd o erledigaethau o herwydd crefydd. Adroddai yn aml am un tro a fu arno yn rhywle yn Ngwynedd. Yr oedd wedi ei gyhoeddi i bregethu mewn tafarndy. Ar yr amser gosodedig, daeth gŵr boneddig â bygylwyr gydag ef i'w erlid. Y tafarnwr a'i gwisgodd a'i ddillad ei hun, er iddo gael diangc yn anadnabyddus iddynt. Wedi iddo ddyfod i'w plith heb neb yn ei ammheu, daeth yr Ysgrythyr hono gyda'r fath effaith i'w feddwl, 'Pwy bynag a'm gwado i ger bron dynion,' &c., fel y gorfu iddo fyned yn ei ol, a gwisgo ei ddillad ei hun—a daeth felly i'w plith. Ymosodwyd arno yn fuan, ond y tafarnwr a'i hachubodd, ac ni chafodd niwed."

Etto, rhydd Kilsby, yn ei gofiant am dano, y ddwy chwedl ddifyrus a ganlyn, yn y rhai yr amlygir hynodion cymmeriad y gwrthddrych:—

"Daeth y bardd i fod yn hoff iawn o ddalen yr India (*tea*); a chan ei fod mor *thorough man of business*, arferai brynu cistaid gyfan o hono ar y tro. Ac yna wedi diwallu ei angen ei hun, rhanai y gweddill rhwng ei gyfeillion; ac fel cipolwg ar y bardd yn y cymmeriad o *tea man*, nid drwg genyf drawsgrifio, o hen lyfryn coffadwriaeth pethau darfodedig, y manylion bychain plu-ysgafn, ond adeiladol (serch hyny), canlynol:—

'Of the two dozen and a half [pwys o dê] I took with me to Llangeitho, I gave seven to Mary of Llanbadarn-fach, four to William Harry, six to man of Velindre, a dozen left at Cwmcynon.'

'Mor werthfawr ag aur coeth' ydyw y dyfyniad

ddywedodd, "Onid yw yn anhawdd iawn dioddef peth fel hyn, i un yn ceisio ymdrechu ei oreu am ychydig o adferiad iechyd?" "Ydyw yn wir, syr," ebe y llall, "y mae." "A oes genych chwi amcan o ba le y mae yn dyfod?" "Oes," meddai yntau, "y mae genyf dybiaeth pur gryf pwy ydyw, ac y mae hyny yn gwneyd yr achos yn waeth; canys buasai yn well genyf pe na buasai genyf yr un dychymmyg am yr ysgrifenydd. Ond nid yw y peth o nemawr bwys!"

Amgylchiad tra hynod yn ei fywyd oedd y pryd yr amlygodd ei syniadau a'i deimladau wrth nifer o'i frodyr yn y weinidogaeth unwaith yn nhref Dinbych. Yr oedd hyn ar amser adagoriad y capel Cynnulleidfaol yno. Nid oedd efe yn ddigon iach ar y pryd i ddyfod i'r addoliad, er nad oedd wedi myned i afael nychdod mawr. Yr oedd yn llettya yn nhŷ boneddiges garedig yno, ac yr oedd mewn ystafell eang a chynhes. Yr oedd wedi amlygu dymuniad am gael gweled yr holl weinidogion yno cyn ymadael o honynt o'r dref; a phennodwyd ar awr neillduol, boreu dranoeth, ar ol y cyfarfod; a chynnullodd y brodyr oll yn brydlawn, yn ol ei ddymuniad. Eisteddai wrth y tân, â gwrthban am ei wàr. Er ei fod yn ymddangos yn hynod o siriol, etto gallesid yn hawdd ganfod arwyddion fod afiechyd wedi gafael yn ei natur. Yr oedd cyhyrau ei wyneb wedi ymollwng i raddau; safai ei drwyn, yr hwn a ymddangosai yn rhy Rufeinig, yn rhy amlwg rhwng ei ruddiau; yr oedd ei wefusau fel pe buasent yn lled grynu weithiau; ac yr oedd ei wedd ar y cyfan yn lled welw; ond yr oedd ei lygaid yn fflam, a'i lais yn glir, a'i yni yn lled hoew, er pob peth. Yr oedd yn hawdd deall fod ei enaid yn orlawn o feddyliau, ac fel pe buasai yn llawenhau wrth feddwl am gael y cyfle i gyfeillachu â'i frodyr, cyn iddynt ymadael bawb i'w daith. Wedi i bawb gymmeryd eu lle, yn rhes o'i amgylch, dechreuodd fynegu mor dda oedd ganddo gael eu gweled; ac os byddai ganddo unrhyw gynghor caredig a allai roddi iddynt, y byddai yn bur barod i'w roddi, yn gystal a gwrando arnynt hwythau yn eu tro yn adrodd eu golygiadau. Dechreuodd drwy awgrymu fel y dylasai fod teimladau y frawdoliaeth, oll yn cysgodi, fel tarian, y naill dros y llall, fel y dywedai yr apostol—"Y gofal sydd arnaf dros yr holl eglwysi." "Mae cynnal teimladau da, yn ofn Duw," meddai, "yn werthfawr mewn cymdeithas fel hon. Yr oeddwn yn meddwl y cymmerwn fy rhyddid i gyfeirio gair at amgylchiad neu ddau." Yr oedd dadleu lled chwerw ynghylch dirwest yn y wasg ar y pryd. "Dyna y symmudiad newydd am sobrwydd sydd yn y wlad yn awr," meddai: "nid dywedais i erioed air yn erbyn dadl deg ar y pwngc, gan nad pa mor benderfynol y byddai pob ochr; ond byddai yn dda iawn genyf pe gellid dangos mwy o foneddigeiddrwydd ar bob llaw, a gochel pob ymosodiad personol, yr hyn nad yw yn atteb nemawr ddyben heb law chwerwi teimladau mewn cymdeithas, a magu cynhenau mewn gwlad." Ni enwodd neb wrth wneyd ei nodiadau, ond gwyddid yn lled dda at ba bwynt yr oedd cyfeiriad y saethau. Yr oedd yn awyddus i gyfeirio gair at amgylchiad arall hefyd. Yr oedd un o'r gweinidogion wedi trechu holl helwyr cedyrn y wlad fel saethydd gyda y dryll ar y maes. Ni allai efe oddef cyssylltu y fath enwogrwydd mewn un modd ag urddas y weinidogaeth. Bu yn ddigon gochelgar rhag cyfeirio at enw neb; ond dadganodd yn groew pa mor ddedwydd y teimlasai, ond i'r awgrymiadau hyn gael derbyniad caredig. Tystiai yn ddifrifol nad oedd ganddo un amcan wrth wneyd y sylwadau mewn golwg ond anrhydedd y frawdoliaeth a lles yr achos. "Yr wyf wedi bod fel arweinydd gyda chwi lawer gwaith," meddai yn wylaidd, "ac y mae gan y cadfridogion, fel y gwyddoch, eu cynnrychiolwyr ar y maes, yn gwylio ysgogiadau y byddinoedd, ac yn cludo pob hanes iddynt. Felly yr wyf finnau wedi bod er dechreu y cyfarfod yma; yr wyf wedi cael adroddiad manwl am bob pregeth a draddodasoch yma. Yr wyf wedi cael pob boddlonrwydd am eich cenadwri, ac yn dawel hollol i adael yr achos mawr yn eich dwylaw. Pe buasai genyf ddifrifoldeb yr apostol, buaswn yn dueddol i roddi cynghor caredig i chwi, yn enwedig pan y dywedai, 'Yr ydwyf fi, gan hyny, yn eich gorchymyn ger bron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, a'r etholedig angylion, yr hwn a farna y byw a'r meirw yn ei ymddangosiad a'i deyrnas, ar i chwi gyflawni eich gweinidogaeth, modd y byddoch yn lân oddi wrth waed pawb oll. Pregethwch y gair; byddwch daer mewn amser ac allan o amser; argyhoeddwch, ceryddwch; annogwch gyda phob hir ymaros ac athrawiaeth." Dechreuai edrych yn llym iawn, a thremiai ar a thrwy y brodyr oll: yr oeddynt fel pe buasent yn ei ofni ac yn ei garu ar yr un pryd. "Na chymmerwch yn angharedig ynof," meddai, "am wneyd fy hun yn lled rydd gyda chwi am dro fel hyn. Yr oeddwn yn meddwl am gyfarfod tebyg i hwn, yn enwedig mewn tref boblog a chyhoeddus fel hon, lle y mae lliaws yn dyfod i wrando arnom, na ddeuant ond ar amgylchiad fel hyn. Bob tro y deloch ar y fath achlysur, gofalwch am ddyfod yn eich dillad Sabbothol; y pregethau goreu, o'r cyfansoddiad mwyaf trwyadl, ar y testynau mwyaf detholedig a chymmhwys; y rhai a fyddo oreu ar eich côf, a'ch tafod, a'ch ysbryd. Y mae nifer mawr yn dyfod i wrando arnoch o gywreingarwch, ac yn ffurfio eu barn am yr enwad wrth eich gwrandaw. Ni fynwn i chwi fod yn ol i neb am eich prydferthwch allanol, mewn iaith na thraddodiad. Pwy a ŵyr pa argraph a ellwch ei wneyd ar ddosbarth fel hyn o wrandawyr. Ond o drugaredd, y mae genych lawer mwy yn dyfod i'ch gwrandaw o barch at grefydd, ac o serch at yr efengyl. Bydded eich holl enaid yn y gwaith. Deuwch i'r cyfarfod wedi ymgyfammodi ar ben deulin â'ch Meistr mawr, i ymdrechu gadael rhyw argraph teilwng ar eich ol; mynwch ochel bod yn wagnodau, ac yn gymmylau di-ddwfr, er dim; ymwystlwch mewn penderfyniad i wneyd a alloch er ennill eneidiau at Grist. Mynwch gymmeryd y dref—*take the city by storm!* Y mae yn ddiau genyf, ond i chwi gael eich dwyn i'r agwedd a'r ysbryd hwn, na adewir mo honoch yn unig; ond y cewch eich gwisgo â nerth o'r uchelder, ac y bydd udgorn bloedd brenin yn eich plith. Yr oedd yr apostolion yn rhoddi gliniau i lawr i weddïo cyn ymaflyd mewn pob gorchest fawr, ac yr oedd Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, a doniau yr Ysbryd Glân yn ol ei ewyllys ei hun." Teimlai pob un wrth ymadael fel pe buasai wedi bod yn bur agos i fynydd y gweddnewidiad; ac nid yn fuan y dileir yr argraphiadau oddi ar feddwl yr ychydig weddill sydd wedi eu gadael yn fyw hyd heddyw oedd yno.

Yr oedd gan Mr. Williams, hyd yn oed yn

Digitized by Google

syrthio ar ei wadnau ei hun yn hollol; ac nid bychan oedd y llifeiriant a redai yn ei erbyn yn mhob ystyr yn y cychwyniad. Ac fel y daeth i fwy o sylw fel bardd a llenor, chwanegodd y gwrthwynebiadau; a hyny yn llawer am nad ydoedd efe am ennill ffafr neb ar draul aberthu egwyddor. Y mae efe wedi dadgan ei olygiadau ar lywodraeth, ddysg, ac ar bob peth arall, yn ddiofn; ac os oes rhyw ragoriaeth yn perthyn iddo, y mae efe wedi cyrhaedd hyny dan ddyweyd yn groes i farn y lliaws ar y rhan fwyaf o bethau. Ni wnaeth efe aberth o egwyddor, nac o gyfaill, erioed er dringo i'r safle y mae y wlad wedi roddi iddo; ac ni arferodd erioed unrhyw ystryw i'w gyrhaeddyd. Os oes ambell un siomedig yn cenfigenu wrth ei lwyddiant, nid oes ganddo ef ddim help. Nid ydoedd yr awdwr heb wybod am y llwybr i gyrhaedd enwogrwydd drwy blygu i bob awel; nac heb ddeall y ffordd i fyned yn mlaen drwy wasgu egwyddorion i mewn pan na byddai yn gyfleus eu gwadu yn llwyr; ond y mae efe wedi ymglymu mor gadarn wrth yr egwyddorion a goledda, fel mai gwell ganddo eu harddel yn amlwg, er fod hyny wedi peri niwed i'w amgylchiadau lawer tro. Ni buasai efe yn ystyried ei hun yn gwneyd cyfiawnder â'r oes, pe cyfansoddasai ei waith heb ynddo ddim oll i fynegu pa beth yw yr awdwr o ran ei syniadau a'i olygiadau ar bethau sy'n pasio o'i amgylch. Dylai y bardd ddwyn tystiolaeth yn erbyn yr hyn a anghymmeradwya, yn gystal a dyddanu a difyru."

Ymddengys mai yn ystod ei arosiad yn Nghaernarfon yr ysgrifenodd yr awdwr y rhan fwyaf o'i gyfansoddiadau pwysicaf, ac efe rhwng deg ar hugain a deugain mlwydd oed. Y mae amseriadau un ar hugain, o leiaf, o'i ganiadau yn profi mai yn Nghaernarfon yr ysgrifenodd hwy; a diau mai yno y cyfansoddodd lawer o'i rai diamseriad hefyd; ac y mae yn bur debyg mai yno yr ysgrifenodd ei "*Rammadeg*," er mai yn ystod ei arosiad yn Llanrwst y cyhoeddodd efe hwnw, a'i "*Ganiadau.*" Yn 1830, cyhoeddodd ail argraphiad o'r "*Cyfarwyddiadur, gyda chwanegiadau helaeth:*"—tua diwedd y tymmor y bu yn Llanerchymedd, ond odid.

Yn lled fuan wedi iddo ymsefydlu yn Nghaernarfon, efe a briododd Mrs. Griffith, gweddw Mr. Griffith, barcer. Merch ydoedd hi i Mr. Morgan, Ystâd Glasynys, ger llaw Harlech. Bu iddynt ddau o blant, sef Margaret-Mary a William. Priododd y ferch Mr. John T. Jones, Bangc, Pwllheli. Y mae hi weithian (1877) yn weddw, ac yn byw yn Eifionydd. Arlunydd enwog ydyw ei fab, Mr. W. M. Williams (*Ab Caledfryn*), yn byw yn Llundain.

Yn ystod 1831, y flwyddyn gyntaf o'i breswyliad yn Nghaernarfon, y cyfansoddodd efe ei brif gampwaith barddonol, sef, "Awdl ar ddrylliad yr agerlong *Rothsay Castle*, ger llaw Beaumaris, Awst 17eg, 1831." Barnodd y ddau feirniad, Gwallter Mechain a Gwrgant, yn unfryd un-llais, mai yr awdl hono oedd yr oreu o bedair ar bymtheg o gyfansoddiadau, a'i bod yn wir deilwng o Gadair Eisteddfod Frenhinol Beaumaris yn 1832; a derbyniodd yr awdwr wobr o 20*p.*, a'r tlws cadeiriol, gwerth 5*p.*; ac yn chwanegol at hyny, cafodd dlws cydroddedig gan ei Huchelder Brenhinol y Dduces o Caint (*Duchess of Kent*), a'r Dywysoges Victoria y pryd hyny—ond brenhines Prydain Fawr bellach er's llawer dydd. Felly,

"Cadeiriwyd, mewn coed derwen
Y bardd a farnwyd yn ben,"

gyda rhwysg mawr gan y beirdd cadeiriol oedd yn bresennol; sef, Ieuan Glan Geirionydd, Bardd Nantglyn, a Chawrdaf. Dyna Caledfryn, erbyn hyn, wedi ei godi i'r pinacl barddonol uchaf y gallai gwŷr ei wlad ei ddyrchafu. Dywedodd Gwrgant y dymunodd ei gydfeirniad, Gwallter Mechain, arno ef ddarllen y ddwy awdl oreu, â phenderfyniad yr hwn am yr awdl oreu yr oedd efe yn llwyr gydweled; ac ystyriai hi yn un o gynnyrchion prydferthaf athrylith farddonol, a'i bod y cynnhyrfiad hynotaf o'r awen Gymraeg a ddaethai erioed dan ei sylw ef. Er mwyn cadarnhau hyn, darllenodd amryw ddyfyniadau; a therfynodd drwy sylwi, pe nad attebai yr eisteddfod un dyben ond cynnyrchu yr awdl hon, y byddai ei chefnogwyr a'r Dywysogaeth wedi eu gwobrwyo yn llawn ddigonol.

Yn y seithfed flwyddyn o'i arosiad yn Nghaernarfon, sef 1838, barnodd Taliesin ab Iolo Morganwg a Chawrdaf, dau feirniad cadair Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni, o'r wyth o ymgeiswyr, mai Caledfryn a deilyngai wobr y gadair, sef 10*p.* gan y Cymreigyddion, a 5*p.* yn chwanegol gan y Parch. D. Rhys Stephen, ynghyd âg anrhydedd y gadair, am "Awdl er coffadwriaeth am y diweddar Barch. Joseph Harris (*Gomer*), ac am Ieuan Ddu o Lan Tawy, ei fab." Yn yr un flwyddyn, cyfansoddodd Caledfryn "Alareb ar farwolaeth y diweddar Barch. Christmas Evans," ar y mesur 8, 7:—y dernyn hwyaf ar a welsom ni o'i waith yn y mesur rhydd.

Yn y flwyddyn ganlynol, sef 1839, cyhoeddodd Caledfryn ei "*Ddrych Barddonol; neu Draethawd ar Farddoniaeth;*" ac hefyd yr awdl fuddugol ar ddrylliad y *Rothsay Castle*, yn llyfr 12plyg, yn cynnwys dan gant o dudalenau:—y traethawd helaethaf a manylaf sydd genym ar natur a mesurau barddoniaeth, ond "*Cyfrinach y Beirdd.*" Ymgyfynga Caledfryn at bedwar mesur ar hugain Dafydd ap Edmwnt, neu Ddosbarth Gwynedd, a chyfansoddiad Emynau, tra y cymmer y "*Gyfrinach*" y ddwy ddosbarth i mewn, sef Dosbarth Gwynedd a Dosbarth Morganwg; ac felly y cymmer Cynddelw yn "*Nhafol y Beirdd.*" Yn 1840, cyhoeddodd bregeth angladdol Mr. Williams o'r Wern; ac yn 1841, cyhoeddwyd caniadau Robert ab Gwilym Ddu o Eifion, wrth yr enw "*Gardd Eifion,*" dan olygiad Caledfryn, gyda rhagymadrodd helaeth o'i waith ef. Yn 1848, y flwyddyn olaf o'i arosiad yn Nghaernarfon, cyfansoddodd awdl ragorol "Ar ymweliad ei Mawrhydi, y frenhines Victoria, â Chymru, 1847."

Heb law y cyfansoddiadau sydd âg amseriad wrthynt, a berthyn i'r cyfnod hwn o'i arosiad yn Nghaernarfon, y mae yn ddiau fod llawer o gyfansoddiadau diamseriad yn perthyn i'r un cyfnod. Ysgrifenai hefyd yn fynych yn ystod yr un amser i wahanol gyfnodolion a newyddiaduron y Dywysogaeth; ac y mae yn debygol mai yn ystod y cyfnod hwn y cyfansoddodd ei draethawd sydd ar ddiwedd y "*Caniadau,*" ar "Pa beth yw Barddoniaeth?" Yn ystod yr un amser y bu yn olygydd "*Tywysog Cymru,*" misolyn a gychwynwyd gan y Parch. T. P. Thomas, gweinidog y Bedyddwyr yn Mangor. Gan ein gwrthddrych hefyd yr oedd y llaw benaf yn sefydliad y "*Seren Ogleddol,*" yr hon a gyhoeddid gan Mr. J. T. Jones yn Nghaernarfon; a bu yn olygydd iddi yn ystod ei holl gylchdro yn ffurfafen llenyddiaeth ei wlad. Mewn cyssylltiad â Mr. H. Hughes (*Cristion*), cychwynodd newyddiadur eilwaith, dan yr enw "*Tarian Rhyddid:*" cyhoeddiad oedd wedi ei fwriadu yn bennodol i ymosod ar gestyll trais a gormes, mewn byd ac

Digitized by Google

ar yr olaf yn ganmoliaeth bron oll i'w gwrthddrych. y mae y rhai ar Dewi yn llynion, a braidd yn ddiraddiol; ac yn ymylu yn fynych ar fod yn goeg-feirniadol. Nid anhawdd rhoddi cyfrif am hyn. Yr oedd dawn farddonol R. ab Gwilym Ddu yn llawer tebycach i'w ddawn ef ei hun nag oedd dawn farddonol Dewi Wyn! Cynlluniau byrion a hawdd eu canfod, ffugrau eglur a thlws, geiriad cywir a manwl, a chynghaneddion gofalus a llyfnion, ac oll fel dwfr camlas, yn rhedeg yn rheolaidd, oedd holl nwyddau barddonol R. ab Gwilym Ddu. Ond yr oedd dawn farddonol Dewi Wyn, fel y dywed ei adolygydd, yn "hyrddiog," yn debycach i'r môr mawr llydan, nag i gamlas—tonau yr hwn, ar amserau, a ddyrchafant hyd y cymmylau, gan ysgubo pob peth o'u blaen, nes "synu pensyfrdanu dyn;" a phryd arall yn "llyfndeg, yn rhedeg yn rhydd, heb arno don ar hyd ei wyneb;" neu, byddai dawn Dewi, weithiau, fel y dywedir am yr eiddo Homer, "yn hepian." Yr oedd cynlluniau Dewi, ar amserau, yn eang, ac weithiau yn anhawdd eu dirnad, ei ffugrau yn fawreddog a dyfnion, ei eiriad yn hedegol, a'i gynghaneddion yn hytion a newyddion.

Yn y flwyddyn 1854, yr oedd Caledfryn yn un o brif feirniaid Eisteddfod Liverpool; ac ar yr 28ain o Chwefror o'r flwyddyn nesaf, 1855, bu "priod yr awdwr" farw, ar ol yr hon y canodd efe yr englyn canlynol:—

"Un oedd fu'n wraig rinweddol—yn goron
I'w gŵr, yn fendithiol:
Mae ei henw dymunol
Yn barchus, serchus o'i hol."

Nid ymdeimlai yn esmwyth yn Llanrwst ar ol marwolaeth ei briod; ond y mae yn amlwg ei fod wedi aros yno hyd ar ol mis Medi, 1856; canys y pryd hyny, o'r "Coed Llydan, Llanrwst," yr amserodd efe ei gyfarchiad "At y Darllenydd," sydd o flaen ei "*Ganiadau*," y rhai a gyhoeddodd efe y flwyddyn hono. Yn fuan ar ol cyhoeddi y "*Caniadau*," rhoddodd eglwysi Llanrwst a Threfriw i fyny, a symmudodd i Fangor, lle y cymmerodd eglwys fechan Beulah, ger llaw Bangor, dan ei ofal. Yn y cyfamser, priododd ei ail wraig, Mrs. Edwards, gweddw y Dr. Edwards, o Dublin; enw morwynol yr hon oedd Jane Owen—merch Owen Williams, clochydd Tydweiliog, yn Lleyn.

Yn y flwyddyn 1857, derbyniodd alwad o hen eglwys gyfrifol y Groeswen, yn sir Forganwg, a symmudodd yno; ac yno y treuliodd weddill ei oes. Derbyniodd alwad o'r un lle yn y fl. 1840; ond dewisodd aros yn Nghaernarfon y pryd hwnw; ac y mae yn debyg ei fod yn gymmhwysach i'r Groeswen pan aeth yno, na phed aethai yno ugain mlynedd yn gynt. Cafodd y bardd brofedigaeth chwerw yn fuan ar ol myned i'r Groeswen. Yr oedd Mrs. Williams wedi syrthio i bruddglwyf peryglus cyn iddynt symmud o Fangor; ac aeth mor bell yn y clefyd hwnw wedi myned i'r Groeswen, fel y bu farw cyn diwedd 1858. Ond efe a briododd drachefn mewn amser cyfaddas, ar ol claddu ei ail wraig, âg un Mrs. Hughes, oedd yn Llundain ar y pryd, ond yn ddechreuol o Fachynlleth. Bu y wraig rinweddol hon o gysur mawr iddo yn mhrydnawn ei fywyd. Gadawodd hi yn weddw; a dychwelodd hithau i'r brif ddinas ar ol ei farwolaeth.

"Dichon na bu efe ar un cyfnod yn ei fywyd gweinidogaethol," medd awduron '*Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*,' "yn ddedwyddach, nac mor ddedwydd, ag y bu yn y Groeswen. Yr oedd ef a hwythau wedi eu gwneyd ar gyfer eu gilydd. Yr oedd y gwresawgrwydd oedd yn yr eglwys yn hollol gydnaws â bywiogrwydd ei dymmer fel pregethwr; ac yr oedd yr amgylchiadau a'i cyfarfu wedi rhywiogi a llarieiddio llawer ar ei ysbryd, rhagor yr hyn ydoedd yn nyddiau ei nerth; heb law ei fod wedi disgyn i fysg pobl grefyddol, y rhai a fedrent werthfawrogi ei gymmhwysderau gweinidogaethol, a gwneyd aberthau i dangnefedd a chydweithrediad.....................Pan aeth i'r Groeswen gyntaf, o herwydd ysbaid maith o farweidd-dra crefyddol, a hefyd am fod y ddwy gangen yn Ebenezer, Glantaf, a Chaerphili, wedi cael eu ffurfio yn eglwysi Annibynol, yr oedd nifer yr aelodau wedi myned yn fychan, a rhif y gwrandawyr yn ychydig. Tybiai llaweroedd fod yr hen eglwys, yr hon a welsid yn ogoniant yr ardaloedd, ac yn gyrchfan y llwythau, megys yn eistedd ei hunan, ac yn llin arni; ac yn wir, y gellid dyweyd am dani, 'Yr oedd hi yn wylo yn hidl liw nos, â'i dagrau ar ei gruddiau.' Wedi dyfodiad Mr. Williams yma, daeth gwedd newydd ar bethau: rhoddodd yr Arglwydd brawf amlwg o'i foddlonrwydd i'w ddyfodiad i'r lle. Gwelwyd afradloniaid yn dychwelyd i dŷ eu Tad; a gwiriwyd y geiriau hyny, 'Pe gyrid rhai o honoch hyd eithaf y nefoedd, etto mi a'u ceisiaf hwynt oddi yno, ac a'u dygaf i'r lle a etholais i drigo o'm henw ynddo.' Darfu i weinidogaeth danllyd Mr. Williams, gyda dylanwad grasol yr Ysbryd Glân, beri bod gwedd newydd ar yr achos yn fuan. Cynnyddodd rhif y gwrandawyr yn fawr, ac adferwyd hen deimladau gwresog yr eglwys, nes y daeth fel aelwyd o dân yn y coed. Tua diwedd y flwyddyn 1858, ymwelodd yr Arglwydd mewn modd neillduol â'i bobl; a gwelwyd amryw yn ymofyn y ffordd tua Seion, â'u hwynebau tuag yno. Ac o ddechreu y fl. 1859 hyd ddiwedd 1861, derbyniwyd dros 200 o aelodau newyddion. Blwyddyn a hir gofir yw 1859. Yn un Sabbath, sef yr 16eg o Hydref, cafodd 41 eu derbyn i gymmundeb eglwysig. Nid anghofia ugeiniau y Sabbath hwnw byth.................Yn ystod gweinidogaeth Mr. Williams yr ail adeiladwyd capel Nantgarw, yr helaethwyd capel Cwm yr Aber, y cyfodwyd Ysgoldy Brytanaidd wrth y Groeswen, yr helaethwyd y fynwent, ac y prynwyd yr holl fynwent, ynghyd â'r tir sydd dan y capel a'r ysgoldy, fel y mae y cwbl yn eiddo y gynnulleidfa am byth...... Gweithiodd Mr. Williams yn ffyddlawn tra fu yma. Meithrinodd ysbryd ymchwilgar yn yr ieuengctyd; gweithiodd ynddynt awydd am ddarllen; dysgodd y bobl i gyfranu at achosion crefyddol; gosododd fri ar yr eglwys; a chydnabyddid ei ddylanwad gan bawb—tlawd a chyfoethog."

Ymddengys ddarfod i Caledfryn ymroddi mwy at grefydd na llenyddiaeth yn ystod ei arosiad yn y Groeswen; canys nid ydym yn gwybod iddo gyfansoddi ond ychydig yn yspaid y tymmor hwnw, heb law i'r cyfnodolion a'r newyddiaduron. Ond galwyd arno yn fynych i feirniadu yn ein prif eisteddfodau; megys Llangollen, 1858; Dinbych, 1860; Aberdar, 1861; Caernarfon, 1862; Abertawe a Rhyl, 1863; Llandudno, 1864; Aberystwyth, 1865; Caerlleon, 1866—ac eisteddfodau lleol, neu gyfarfodydd llenyddol, ond odid, nad ydym ni yn gwybod am danynt.

Am ei ddyddiau olaf, nis gallwn wneyd yn well na dyfynu yr hyn a ganlyn o waith rhai oedd mewn cyfleusdra i wybod:—

"Bu ei iechyd yn wael a gwanaidd am amryw fisoedd cyn ei farwolaeth, fel y gorfu iddo roddi i fyny bregethu yn Nantgarw ac Aber (Cwm yr Aber); ond parhaodd i bregethu yn y Groes (Wen) bob boreu Sabbath hyd y diwedd. Yr oedd yn Sabbath cymmundeb yno y Sabbath diweddaf (yr 21ain o Fawrth, 1869); a phregethodd yn hynod effeithiol oddi wrth 2 *Cron.* xxxviii. 12, 13, ar ymostyngiad a dychweliad Manasseh. Nid yn fuan yr anghofir

Digitized by Google

didderbyn-wyneb. Cydymdeimlai â'r trallodus, a chydlawenhâai â'r dedwydd a'r llwyddiannus. Llanwai ei holl gylchoedd personol, teuluaidd, a chyhoeddus yn anrhydeddus a boddhaol. Coleddai farn uchel dros ben am yr eglwysi y perthynai efe iddynt fel gweinidog. Credai nad oedd yn Nghymru oll gynnulleidfaoedd cyfartal yn mhob ystyr i rai Caernarfon a'r Groeswen. Ymddengys yr elai i eithafion yn hyn; ac yr oedd y naill eithafion yn creu eithafion cyferbyniol. Pan siomid ef mewn dynion, neu pan gredai ei fod yn cael ei siomi ynddynt, syrthient yn is yn ei olwg, ond odid, na'u gwir deilyngdod. Yr oedd diffyg yn ei farn mewn pethau fel hyn; ac yr oedd yn rhy fyrbwyll, weithiau, pan yn rhoddi ei farn mewn gweithrediad.

Bydd enw Caledfryn, fel bardd a llenor, mor hysbys yn Nghymru yn yr oesau dyfodol, cystal a'r oes bresennol, ag enw Dafydd ap Gwilym, Dafydd ap Edmwnt, Tudur Aled, Iolo Goch, William Lleyn, Goronwy Owain, Dafydd Ionawr, Gwallter Mechain, Dewi Wyn, Eben Fardd, Ieuan Glan Geirionydd, neu Emrys, ac amryw enwogion ereill sydd yn awr yn fyw. Y mae efe wedi cerfio ei enw yn llenyddiaeth ei wlad yn annileadwy, ac yno y bydd tra y darllener yr iaith Gymraeg. Tybir mai rhai o'i brif ansoddau fel bardd a llenor oedd byrdeb cynlluniau, cywirdeb, eglurder, a thlysni iaith, cynghanedd, ffugrau, a meddyliau. Yr oedd mor fanwl yn y pethau hyn, fel y disgynai ambell dro i derfynau sychder. Y mae ganddo lawer o ddarnau barddonol nas dichon eu bod yn dlysach; ond nid llawer o rai mawreddog sydd ganddo, yn ymgodi i awyrgylch aruchel crebwyll a darfelydd hyf a hedegog. Yr oedd efe yn debycach i Robert ab Gwilym Ddu, Pedr Fardd, ac Alun, nag i Dewi Wyn, Ieuan Glan Geirionydd, ac Eben Fardd.

Am Caledfryn, fel beirniad ar farddoniaeth yn y mesurau caethion, yr oedd efe yn ddiammheu i'w restru yn mysg prif feirniaid y genedl ar ol Gwallter Mechain. Yr oedd yn graff, manwl, a phenderfynol yn ei farn, ac yn dra chydwybodol yn ei ddedfrydau. Wrth ddyweyd hyn, nid ydym yn golygu ei fod yn fwy cydwybodol na lliaws o'n beirniaid llenyddol. Gwnaeth ei feirniadaethau eu hol er daioni ar farddoniaeth Cymru; a diau na welir llawer o feirniaid rhagorach nag ef mwyach.—"*Caniadau;*" "*Drych Barddonol;*" a "*Grammadeg Caledfryn;*" "*Seren Gomer;*" "*Y Dysgedydd;*" "*Y Traethodydd;*" "*Y Cronicl;*" "*Enwogion Cymru;*" "*Hanes Eglwysi Annibynol Cymru;*" "*Cymru Hanesyddol;*" "*Y Gwladgarwr,*" &c.

WILLIAMS, JOHN, Rhos, awdwr "*Yr Oraclau Bywiol,*" ydoedd weinidog enwog gyda'r Bedyddwyr. Ganwyd ef mewn tyddyndy bychan a elwid y Waen, yn agos i Glanwydden, Cwmmwd y Creuddyn, swydd Gaernarfon, ar yr 20fed o Fehefin, 1806. Enwau ei rieni oedd Robert ac Elizabeth Williams. Brodor o ardal Llanddoged, ger Llanrwst, ydoedd Robert Williams, a gôf wrth ei alwedigaeth; ac yr oedd yn ddyn cadarn a nerthol, yn weithiwr caled. Yr oedd mor ddiofal, meddir, ag anifail am wybodaeth lenorawl a gwrteithiad meddyliol. Ond yr oedd ei wraig o dymmheredd fwy meddylgar, ac o anianawd mwy tyner a llednais; ac felly, meddiannodd John fwy o ddwysder anianol ei fam nag o erwinder naturiol ei dad; a thyfodd yn fachgen llednais, arnwythus, ond hoff o'i lyfr o'i febyd. Yr oedd rhyw fath o wendid gienol ac arnwythed meddyliol yn ei nodweddu er yn blentyn. Cafwyd trafferth fawr i gael ganddo daflu heibio ei wisg-beisiau babanaidd, a gwisgo llodrau, fel bechgyn ereill. Byddai y plant yn cael difyrwch mawr ar ei draul, wrth ei weled wedi tyfu i fyny yn greadur main, heglog, a synllyd, gyda'r hen bais gwta yn gylch am ei ganol, ac yn cyrhaedd prin at ben ei lin, a dyeithriaid yn ei gymmeryd yn lle geneth; ond goddefai bob peth yn dawel, os caffai lonydd i eistedd yn y gornel i ddarllen hen gerddi, neu i ganu ysturmant (*giwgaw*). Yr oedd yn ddarllenwr gwancus, dealler, cyn gadael ei bais-wisgoedd; efe a ddysgodd ddarllen yn nosbarth Joseph Hobson yn hen gapel Glanwydden (*Ffolt*); ac efe a fynychai yr ysgol ddyddiol yno hefyd, yr hon a gedwid gan John Evans, y gweinidog; ac amlygodd, pan yn dra ieuangc, fod ganddo alluoedd eneidiol llawer cryfach na'r cyffredin. Wedi hyny, aeth i'r ysgol i Mochdref; a gedwid gan y Parch. John Jones, o Runcorn ar ol hyny—mab i hen fardd Maes-y-plwm. Wedi gorphen tymmor ei addysg, aeth adref at y fegyn a'r eingion, ac ymdrechodd ei dad wneyd gôf o hono; ond ni bu erioed amcan mwy di-farn, na chynnyg mwy aflwyddiannus. Nid oedd y llengcyn eiddil ac ofnus yn gymmhwys i bedoli ebolion gwylltion, ac nis gallasai y meddwl ymchwilgar oedd yn ymhyfrydu mewn olrhain pob peth i'w elfenau ymfoddloni yn nghymdeithas yr efail. Adeg boenus i John Williams oedd y blynyddoedd 1820—26, pan yn gorfod gweithio yn yr efail:—ond diangai bob tro y medrai i'r tŷ i'r siamber, neu allan i'r caeau, gyda'i lyfrau. Y mae cof am dano yn yr ardal yn gorwedd yn y rhychau ŷd gyda'i lyfr ar hyd y dydd, gan fwyta mwyar duon, a phethau o'r fath, er mwyn cael llonydd i ddarllen. Yr oedd ei awydd am wybodaeth y pryd hwn yn angerddol. Pyngciau ei efrydiaeth oedd ieithyddiaeth, mesureg, ac athroniaeth feddyliol a moesol. Yn y blynyddoedd hyn, efe a ddechreuodd ohebu i "*Seren Gomer*" dan y ffugenwau *Ieuan o Arfon*, a *Philologos*. Yn y *Seren* am Medi, 1824, cawn ysgrif ganddo ar "Amrywiaeth Ieithyddol;" ac yn y flwyddyn nesaf, sylwadau ar y gair *Iehofah*, a sylwadau ar "Hâd Abraham." Dengys yr ysgrifau hyn fod yr awdwr ar y pryd, er nad oedd ond deunaw mlwydd oed, ac erioed heb fod dan unrhyw athraw clasurol, yn lled gydnabyddus â'r Hebraeg, y Roeg, a'r Lladin. Yn 1826—27, efe a gyflawnodd orchest lenyddol; sef, cyfansoddi "*Grammadeg ddwyieithawg, neu Rammadeg o'r iaith Saesnig yn Gymraeg a Saesneg, er budddioldeb Cymroaidd.*" Yr argraphydd oedd John Jones, o Lanrwst; a daeth y gwaith allan yn bedair rhan, chwe cheiniog yr un. Dyma yr awdwr grammadeg ieuangaf y gwyddom am dano; a buasai y gwaith yn anrhydedd i awdwr llawer hynach.

Bu golwg ar ranau cyntaf y grammadeg yn foddion i agor llygaid Mr. Alban, parson Llandrillo yn Rhos, i weled teilyngdod yr awdwr, ac i gynnhyrfu boneddigion Bodysgallen a'r Marl i benderfynu rhoi ysgol iddo, er ei ddwyn i fyny yn glerigwr. Felly, cyn diwedd 1827, anfonwyd ef i Landdulas, at Mr. Hughes, y parson, er ei barotoi i fyned i'r brifysgol; ac yno y bu am dymmor yn yfed addysg gyda chyflymdra rhyfeddol; a boneddigesau Bodysgallen, a'r 'hen Lwyd o'r Marl,' yn ei gynnal, ac yn rhyfeddu at ei athrylith fel dysgwr.

Digitized by Google

Yr oedd Mr. Williams mor boblogaidd y pryd hwn fel nad oedd y capel mwyaf yn yr ardal yn ddigon i gynnwys y bobl a ddeuent i wrandaw arno. Yr oedd yn bedyddio hefyd yn fynych, ac felly yn cael cyfleusdra i bregethu egwyddorion y Bedyddwyr i gynnulleidfaoedd mawrion yn yr awyr agored; a bu ei lwyddiant yn achlysur dadleu brwd ar fedydd yn yr ardal.

Yr oedd Mr. Williams y pryd hwn, sef yn 1838, wedi ymaflyd yn ngorchwyl mawr a phenaf ei fywyd; sef, ail gyfieithu y Testament Newydd i'r iaith Gymraeg; a mawr oedd yr enllib a'r athrod a deflid arno o blegid hyny gan lawer o'i frodyr ei hun—ac yn neillduol gan enwadau ereill, y rhai a ddywedent "fod y Bedyddwyr yn gwneyd Beibl newydd!" a llawer o bethau cyffelyb. Cydnebydd y deallus nad oedd dim allan o le mewn ail gyfieithu y Testament Newydd i'r Gymraeg. Y mae holl enwadau crefyddol y deyrnas wedi cyduno erbyn hyn i gael cyfieithiad diwygiedig o'r Ysgrythyrau i'r iaith Saesnig; a gwyddai y rhai a adwaenent Mr. Williams nad oedd neb yn Nghymru cymmhwysach nag ef i wneyd cyfiawnder â'r hyn a gymmerodd mewn llaw. Ond yr oedd tybiaeth ar led fod cyssylltiad rhwng y gwaith âg Alexander Campbell, o America; ac mai dwyn 'Campbelliaeth' i Gymru oedd amcan y cyfieithiad. Hel law hyny hefyd, cyfodwyd gwaedd enbyd yn y cyhoeddiadau misol, fod Mr. Williams yn gadael allan yr hyn a olygid gan rai gwŷr dysgedig, a'r hyn a gredai efe hefyd, nad oeddynt yn perthyn i'r ysgrifau gwreiddiol; megys 1 *Ioan* v. 7. Ond er y cwbl, yn mlaen yr aeth y cyfieithydd, gan gredu, yn ddiau, fod y gwirionedd o'i du—a daliodd ati nes gorphen ei waith, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1842, dan yr enw "*Yr Oraclau Bywiol.*" Yr oedd Mr. Williams erbyn hyn wedi gadael y Rhos a Brymbo, ac ymsefydlu yn y Drefnewydd. Dechreuodd ei weinidogaeth yno yn Mai, 1841. Yr oedd yno gapel eang, a chynnulleidfa fawr, a'r addoliad yn cael ei ddwyn yn mlaen yn yr iaith Saesnig; ond yr oedd yno gryn lawer o bethau, y rhai nad olrheiniwn yn awr, oedd â thuedd ynddynt i'w ddigaloni. Aeth Mr. Williams i'r Drefnewydd yn ŵr lled gryf o ran nerth ac iechyd, ond adfeiliodd ei natur yn fuan. Aeth ei ewynau yn aflonydd a chynnhyrfus, ei galon i ddychlamu yn orwyllt, ei ymenydd i ferwi, ei gwsg i gilio oddi wrtho, a'i gylla i wrthod ymborth, nes aeth yn gorph o ofid a thrueni: a diau iddo fod ar fin gwallgofrwydd. Nis gallai oddef sŵn cloc yn tinciau yn yr un tŷ ag ef, yn enwedig yn y nos. Yr oedd ei boenau gwirioneddol yn annirnadwy, a'i ddychymyg yntau, yn y fath gyflwr effro ac ofnus, yn eu mwyhau yn ddirfawr hefyd. Bu yn y cyflwr gresynus hwn tua deuddeng mlynedd; ac yr oedd yn marw yn raddol drwy yr holl amser hwnw! Yr oedd Mr. Williams yn boblogaidd iawn yn y Drefnewydd, ac yn derbyn parch calon gan lawer. "The great Mr. Williams," y gelwir ef yno hyd heddyw; ond y mae yn amlwg na bu efe yn hoff o'r lle; ac aeth o'r diwedd i'w gashau, fel y penderfynodd ymadael, a rhoddodd rybudd i'r eglwys o hyny, er syndod i bawb. Tybiai y buasai ffoi o'r Drefnewydd, a dychwelyd i'w hen gynnefin, i ardal Pen y cae, yn ei wella o'i holl anhwyldeb. Dygwyd ei symmudiad o gwmpas trwy offerynoliaeth y Parch. R. A. Jones, Llanfair-caereinion, y pryd hwnw; yr hwn a aeth i Ben-y-cae i gwrdd eglwys i hysbysu y brodyr yno y gallent gael Mr. Williams yno ac i'r Rhos; a rhoddwyd galwad gwresog iddo ar unwaith. Gan ei frys i ffoi o'r Drefnewydd, daeth ef a'i deulu i dŷ Mr. Jones i Lanfair, a buont yno am bythefnos; ac yno yr oeddynt pan gynnaliwyd y cwrdd sefydlu yn Mhen-y-cae. Yn y cyfarfod hwnw y dywedodd gŵr o'r enw Ellis Evans, "fod Mr. Williams wedi dyfod i Haran, ac y deuai yn fuan i Wlad yr Addewid."

Yr oedd erbyn hyn yn saith a deugain oed; ac o ran dyddiau yr oedd mewn addfedrwydd oedran i gyflawni gorchestion penaf ei fywyd; ond yr oedd cystudd wedi darostwng ei nerth ar y ffordd, fel nad oedd mwyach ond cysgod ac adfeilion o'r hyn a fuasai gynt. Etto, bu ei symmudiad i'r Rhos a Phen-y-cae yn llawer iawn o adfywiad i'w ysbryd ef am dymmor byr. Ymgymmerodd yma â bod yn brif olygydd y "*Greal,*" yr hwn a gyfoethogid yn ddirfawr â ffrwyth ei ysgrifell yn y blynyddoedd 1855—56. Gresyn na roddasid rhyw gyhoeddiad misol o dan ei ofal flynyddau yn gynt; o blegid cawsai y genedl felly lawer mwy o gynnyrchion ei feddwl galluog. Erbyn hyn yr oedd wedi myned yn dra isel o ran ei gorph a'i feddwl. Yr oedd yn analluog i bregethu, oddi eithr yn achlysurol, bron ar hyd y flwyddyn 1856, a'r achos yn hytrach yn gwanychu gydag ef; ond er y cyfan, ni chafodd fod mewn eisieu na phrinder. Yr oedd ar ei wely angeu yn awyddus iawn am gael byw i lafurio dros ei Waredwr; ac yr oedd ei serch at lyfrau yn gryfach nag erioed. Pan nesaodd amser ei ymddattodiad, efe a ddymunai yn daer gael myned at yr Arglwydd; ac ar y 15fed o Dachwedd, 1856, efe a gafodd ei ddymuniad mewn tawelwch mawr. Daearwyd ei weddillion yn nghladdfa Pen-y-cae.

Cyttuna y rhai a adwaenent Mr. Williams oreu nad yw y cynnyrchion llenyddol a adawodd efe ar ei ol ond enghreifftiau pur ammherffaith o'i alluoedd ef; ac y mae yn hawdd genym gredu hyny, pan ystyriom nad oedd efe ond ychydig gyda deugain oed pan gyfieithodd efe "*Yr Oraclau Bywiol,*" ac mai mewn afiechyd a gwendid mawr y treuliodd efe weddill ei oes. Nid oes ammheuaeth nad fel ieithydd a beirniad ysgrythyrol y rhagorai efe yn benaf. Efe a ysgrifenodd ddau rammadeg—un o ba rai a adawodd efe yn anorphenol, a lliaws mawr o ysgrifau ar ddeongliaeth Feiblaidd. Ond ei brif orchest yw "*Yr Oraclau Bywiol;*" ac mewn cyssylltiad â'r cyfieithiad hwn o'r Testament Newydd y trosglwyddir enw John Williams i lawr i'r oesoedd a ddêl. Bwriadodd, tua diwedd ei oes, ddwyn allan ail argraphiad o'r gwaith hwn gyda diwygiadau. "Gwn," ebe fe, mewn llythyr at Cynddelw, Chwefror 18fed, 1856, "y gallwn wneyd llawer o welliantau ynddo; a gresyn fyddai i brofiad pymtheng mlynedd fyned yn ofer." Ond bu farw cyn cyrhaedd ei amcan.

Pa welliantau a fwriadai efe eu gwneuthur, nis gwyddom; ond y mae y pethau canlynol yn ddiffygion yn y gwaith yn ein golwg ni:—

1. Aflonyddu ar hen eiriau yn ddiachos, trwy ddwyn i mewn eiriau newyddion ac anarferedig yn eu lle hwynt; megys *Seibiaeth*, am Sabbath; Mair y *Fagdalëad*, am Mair Magdalen; *cynnulleidfa*, am synagog; *cwynos*, am swper; *cyhoeddi*, am bregethu; *essill*, am eppil; *rhad*, am ras, &c.

2. Nid yw rhai o'i gyfieithiadau yn ddim ond aralleiriadau, megys *Mat.* iv. 9;—"Os ymgrymi i lawr a'm haddoli i." *Marc* xvi. 17:—"Lleferant â thafodau anadnabyddus iddynt o'r blaen."

wrth glywed y twrw, neidio o'i wely at y ffenestr, a gwaeddi dros y tŷ, mewn cyffro mawr:—

"Sarah! mae'r tŷ 'n myn'd yn siwrwyd!"

Boreu dranoeth, dywedodd Morris yr holl hanes wrth ei feistr, Robert ab Gwilym; a dywedodd yr hen fardd wrtho: "Os clywi di Dewi yn gwaeddi fel yna etto, dywed tithau wrtho yn groch dros bob man fel hyn:—

"Os wyt fyw, erglyw o'th glwyd."

Priododd Morris a Sarah yn ystod y flwyddyn hono, a chawsant fyned i fyw yn fuan i'r Cae-coed-bach. Yn chwanegol at Morris, bu i'w rieni ddau fab a dwy ferch, y rhai a ddaethant oll yn bobl o gymmeradwyaeth mawr. Yn fuan wedi geni Nicander, symmudasant i fyw i fwthyn bychan o'r enw Coety; a 'Morris y Coety' y gelwid Nicander yn gyffredin, pan yn blentyn; a dywedir mai felly y parhaodd llawer o'i gydnabod i'w alw ef tra y bu fyw. Gwelir, er mai cyffredin oedd sefyllfa ei rieni yn y byd, eu bod o gymmeriad derbyniol iawn, fel pobl gyffredin, a theulu crefyddol, oedd yn gymmeradwy yn ngolwg y cyhoedd, mewn cyssylltiad â'r Trefnyddion Calvinaidd.

Er nad oedd rhieni Morris Williams ond isel o ran eu hamgylchiadau bydol, yr oeddynt yn dra awyddus am i'w plant gael addysg, yn yr ysgol oreu y gallent hwy ei chael. Dywedir y byddent, ar nosweithiau hirnos gauaf, yn gwneyd eu goreu i addysgu eu plant yn yr Ysgrythyrau, a hyny yn fynych wrth oleu y tân; a mynegir mai eu hymddyddanion penaf a fyddai am grefydd a rhinwedd, yn ol yr arferiad cyffredin ar yr aelwydydd Cymreig. Tua yr amser hwn yr oedd gŵr medrus, a lled ddysgedig, o'r enw Richard Davies yn cadw ysgol yn mhentref Llanymstundwy; ac ymddengys mai gydag ef y cafodd Nicander fanteision addysg gyntaf. Mynegir hefyd yn mhellach mai bara sych a phiser gwâg fyddai ganddo yn myned i'r ysgol bob boreu, ac mai ei arferiad fyddai myned o amgylch o amaethdy i amaethdy i ymofyn am ychydig laeth i'w yfed gyda'i enllyn yn yr ysgol. Dyma yr olwg a gawn ar blentyn athrylith yn dechreu dringo gwerthydoedd yr ysgol at orsaf uchaf dysgeidiaeth. Pwy a allasai ragddyfalu ar y pryd hwnw y gwelsid ef, mewn adeg ddyfodol, yn cael ei resu yn mysg prif feirdd, yn gystal a dysgedigion penaf ei wlad? Y mae hyn yn annogaeth gref i bob herlod ieuangc i ymarfogi, i weithio ei ffordd yn yr un cyfeiriad, a gosod nôd digon uchel iddo ei hun i gyrchu tuag ato, a phenderfynu mynu gweled y dydd i'w gyrhaedd yn gyflawn, er ei wir anrhydedd.

Wedi bod yn yr ysgol ynLlanystundwy am tua phedair blynedd, pan yr oedd wedi cyrhaedd tua phedair ar ddeg oed, rhoddwyd ef yn egwyddorwas yn nghelfyddyd saer coed gyda hen ŵr parablus yn Mhen-cae-newydd, ger llaw Penmorfa, Tremadog. A dywedai Ellis Owain, y bardd o Gefn-y-meusydd, mai "Morris bach y llifiwr," y byddai y bobl yn ei alw yn gyffredin yn yr ardal hono. Cyfansoddodd un o hen feirdd y gymmydogaeth yr englyn canlynol iddo:—

"Ni chafwyd bachgen amgenach—na llaw,
I drin llif yn hoewach;
Nid oes un llifiwr siwrach,
Yn y byd na Morris bach."

Felly y parhaodd gyda gorchwylion cyffredin yr alwedigaeth hon hyd nes yr oedd tua phedair ar bymtheg oed. Tua yr amser hwn, ymddengys iddo fod yn gweithio gyda ei feistr mewn gwahanol fanau; ac yn mhlith lleoedd ereill, yn Nol-melyn-llyn, yn sir Feirionydd, Tra y bu efe yno, cymmerodd Mr. Roberts, o'r Ddôl, yn fawr ato, a bu yn offerynol i'w gefnogi i fyned rhagddo mewn dysg a barddoniaeth. Yr oedd chwaeth Mr. Roberts yn rhedeg yn naturiol yn y ffordd hono; ac yr oedd yn gyfaill serchus i'r beirdd, ac yn enwedig felly i Ieuan Glan Geirionydd. Llwyddodd Mr. Roberts i gael gan Ieuan roddi ei ddylanwad o'i blaid, ac i'w gael i'r Ysgol Rammadegol yn Nghaerlleon. Yn y flwyddyn 1828, llwyddodd iddo gael derbyniad yno, er cychwyn ei addysgiaeth briodol, fel arweiniad at athrofa uwch; ac felly, ymadawodd âg Eifionydd, a chanodd yn iach i arfau saerniaeth coed, gan ymestyn at y gorchestion oedd yn ei aros, ar dir llenyddiaeth glasurol yn y dyfodol. Wedi dyfod i Gaerlleon, cafodd letty gyda rhieni y cerddor enwog, Owain Alaw; ac felly, gwelir ei fod yn cael ei anadl mewn awyrgylch lenyddol—yr hyn a brofodd yn fendith ammhrisiadwy iddo wedi hyny.

Treuliodd tua dwy flynedd yn Nghaerlleon, gyda diwydrwydd diorphwys yn ei efrydiaeth, ac â llwyddiant anarferol yn nghynnydd ei ysgolheigiaeth. Cafodd ei ddyrchafu i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1830. Yr oedd Ab Ithel yn Rhydychain gydag ef; ond ymddengys nad oedd fawr o gyfeillach rhyngddynt a'u gilydd; a dywedai amryw nad oedd hyny yn achos o unrhyw syndod, o blegid fod eu chwaeth naturiol, ac ansawdd eu meddyliau a'u tymmherau mor wahanol i'w gilydd. Yr oedd tuedd naturiol Ab Ithel yn bwyllog a difrifddwys, ac fe 'allai weithiau yn lled oeraidd; a Nicander ar yr ochr arall, yn hoyw a chwareus. Meddai pob un ei ragoroldeb yn ei ffordd ei hun; ond yr oedd elfenau meddwl y ddau mor anghydnaws, fel nad oedd dim cymmrwd a allasai eu hasio ynghyd. Wedi i Nicander dreulio pedair blynedd yn Rhydychain, graddiwyd ef yn A. C., ac urddwyd ef yn fuan i'r weinidogaeth. Yr oedd erbyn hyn wedi cyrhaedd i wrolaeth, ac yn llawn o yni a phenderfyniad; ac ansawdd ei ysbryd, fe allai, yn ymgodi i uchelgais penderfynol yn y naill gangen a'r llall.

Tybir mai ar y ffordd, wrth gefnu ar dref Rhydychain, a phryder y coleg, y cyfansoddodd yr englyn canlynol, ac yn ei ragolwg ar breswylio a llafurio yn Nhreffynnon:—

"O dynion bléth gadwyni—ac oer dawch
Côr Rhydychain ddifri,
Ac o wlad Sais, cludais i
I gain froydd Gwenfrewi!"

Yn y flwyddyn 1834, y dechreuodd ar ei lafur gweinidogaethol. Gadawodd Rydychain, fel y sylwyd, gyda theimlad o ollyngdod i'w feddyliau, drwy gael ei wared o rwymau ymdrafod âg ieithoedd, a pharotoi at yr arholiadau oll; a defnyddio cymmhariaeth Williams, o'r Wern—"cael terfyn ar hogi y cryman, i gael myned i dori yr ŷd i lawr ar feusydd eang y cynhauaf mawr." Pennodwyd ef i guradiaeth Treffynnon, swydd Fflint, fel olynydd i'r awenber Alun: a dywedir ei fod wedi ennill serch y trefedigion a'r ardalwyr mor fawr tra yn preswylio yno, nes llwyddo i lanw yr eglwys â gwrandawyr, gan godi y lle i sylw y cyhoedd, mewn modd mwy arbenig na dim a welsid yn flaenorol. Y mae yn debyg mai yno y cyfansoddodd yr englyn chwareus hwn, wrth weled Gwyddel yn crogi ei ffyn-baglau dan gronglwyd sydd wedi ei hadeiladu dros Ffynnon Gwenfrewi, lle y mae

Digitized by Google

r o hen greiriau o bob math i'w gweled law y ffynnon:—

'At Wenfrewi, tan ei friwion—heddyw
Daeth Gwyddel ar ddwyffon,
Ond mendiodd—lluchiodd yn llon,
Ei ffyn i ben y ffynnon!"

di treulio pedair blynedd yn Nhref-y-ffyn- symmudodd i guradiaeth Bangor Fawr yn neid, a chapeloriaeth Pentir, yn sir Gaer- n. Yn ystod ei arosiad yno, ymddyrch- i'r fath gyhoeddusrwydd ac anrhydedd cydnabyddid gwerth ei gymmeriad, a dis- eb ei dalentau, gan y cyhoedd yn gyffred- Dyma yr adeg y cyfansoddodd Dewi yr englynion canlynol iddo:—

"Morus William yw'r Selef—yr Heman
A'r Homer digyfref;
Difeth un, dau o'i fath ef
A wnai Wynedd yn wiwnef.

Morus sy'n Forus anfarwol—Morus
Sy'n un mawr ryfeddol,
Ni fu ei enw ef yn ol
Ond Morus anghydmarol."

edi llafurio yn y cylch pwysig hwn am mor o chwe blynedd, gyda chymmeradwy- mawr, dyrchafwyd ef yn gurad i'r Deon ton, yn Llanllechid, lle y bu yn gwasan- am ddwy flynedd. Yn y flwyddyn 1846, alwyd ef i fod yn gurad parhaol yn Am- , yn Môn; ac yno bu yn gwasanaethu am air blynedd ar ddeg. Yna symmudodd oddi trwy ei ddyrchafiad i bersonoliaeth Llan- ddlad, a Llanfflewin, a Llanrhwydrus; lle edd wedi ei godi i sefyllfa annibynol yn y gyda phump neu chwe chant o bunnau yn wyddyn o gydnabyddiaeth. Yr oedd hon un o'r bywoliaethau brasaf yn Môn. Felly dd fantais i roddi ei holl alluoedd mewn ym- rad, a'i holl amser at ei alwad ei hun, fel nidog, llenor, a bardd. Yma yr ymroddodd llafur cyhoeddus fel ysgrifenydd i bwrpas; yr oedd cylch y llafur hwn yn eang.

r oedd Nicander wedi dechreu coleddu a thrin yr awen yn foreu iawn. Cyfansoddodd englynion i Gymreigyddion Dolbenmaen cyn i yn ddeuddeng oed. Yr oedd yr ardal lle y nwyd ef yn etifeddiaeth deg, ac yn "fryn tra wythlawn" i'r awen wir. Yr oedd beirdd y mmydogaeth hon yn bigion awenyddion Cym- , ac yn lliosog. Y mae yr ystyriaeth hon yn ngos natur y fagwraeth foreuol a gafodd. allem gyfeirio at Robert ab Gwilym Ddu yn y ttws Fawr, Dewi Wyn yn y Gaerwen, Siôn yn yn Chwilog, Siôn Dwyfawr yn Mreth- a Gwynfryn, Ellis Owain yn Nghefn-y-meus- d, Hywel Eryri yn Treana; Eben Fardd yn nlynog; a nifer fawr yn chwaneg y gellid eu enwi; a'r cyfan o'r "iawn hâd oll:" ac yntau u eu canol fel planhigyn olewydd o amgylch u bord, yn nghanol yr ardd. Dywedir iddo yfansoddi awdl ar y pedwar mesur ar hugain, an tua deunaw oed, ar yr enwau priodol a geir n y Beibl; a cheir dychymyg am natur y cyf- ansoddiad oddi wrth y pennill canlynol:—

"Selec, Iron, Salu, Cora,
Asir, Siah, Isar, Sehon,
Melei, Amnon, Milca, Imna,
Silem, Hogla, Salum, Eglon,
Meros, Hela—'Morus William!'"

Bu y cynnygion boreuol hyn yn achlysur i dynu cryn sylw ato, a disgwyliad oddi wrtho yn y dyfodol. Er nad oes neb yn meddwl fod barddoniaeth yn nghlymiad yr enwau hyn ynghyd, mewn gwê gynghaneddol, etto y mae yn dangos mor naturiol yr oedd efe yn dyfod yn feistrolgar yn ei holl gywreinrwydd. Yr oedd ganddo reolau neillduol iddo ei hun am y cynghaneddion, fel y profwyd yn yr amser dilynol. Dangoswyd hyn yn neillduol ganddo tra y darllenai ei feirniadaeth ar englynion ar y "Compawd," mewn eisteddfod yn Llanerchymedd. Collfarnai y llinell ganlynol yno, o waith Trebor Mai:—

"Dros don, pe d'rysid anian,"

a gwrthodai hi, o herwydd fod ynddi ymsathr odl, fel yr haerai ef ar y pryd. Pa fodd bynag, mynodd y beirdd sylw ar y pwngc yn y cyfarfod hwyrol, ac olrheiniad trwyadl ar y pwngc; a'r penderfyniad unfrydol yno oedd, gan mai "cynghanedd groes ddisgynedig" ydoedd, nad oedd yr hyn a ddywedai ef yn fai o gwbl oll. Dywedodd Gwalchmai ar y pryd ei fod wedi gofyn i Caledfryn unwaith, a oedd y llinell ganlynol o eiddo Emrys yn rheolaidd—"Ar ran y pererinion;" ac mai ei attebiad oedd, ei bod yn hollol reolaidd; o blegid yn y gynghanedd hon, fod yr *n* gyntaf yn y terfyniad yn ngrym y pwyslais yn ysgafnhau yr olaf, fel nad oedd yn un math o drosedd ar deimlad y glust. Felly y cyttunwyd y pryd hwnw; ond etto, er hyn i gyd, ni phlygai efe! Yr oedd ganddo lawer o graffder beirniadol; gallai gynnwys hanfod testyn yn ei feddwl yn dda; ac yr oedd ganddo syniad priodol am y cynllun mwyaf cymmhwys at yr amgylchiadau a fyddai ger bron, yn gystal ag am y nwyd, y teimlad, a'r adroddiad. Ar yr un pryd, rhaid addef y byddai weithiau yn cyndyn ymlynu wrth yr argraph cyntaf a fyddai wedi taraw ei feddwl wrth feirniadu. Os byddai rhyw ddrychfeddwl yn ei daraw yn lled rymus, yr oedd yn agored i gael ei gario yn rhy bell gyda'r gwres hwnw. Yr oedd yn ieithydd da, ac yn gynghaneddwr medrus; ond nid oedd efe heb ei golliadau mympwyol. Byddai yn arfer chwareu yn ddoniol iawn ar y gynghanedd weithiau, heb nemawr o wir ystyr yn ei linellau. Cawn enghraifft o hyn yn ei awdl gadeiriol yn Aberdâr, ar "Genedl y Cymry," fel y gwelir yn y dyfyniadau canlynol:—

"Nid hwyrach nad rhyw gant o eiriau—bach,
A bychain o sillau," &c.

"Holwch Nelson a Boni—a holwch
Wellington fawrfri,
Ac Incerman am dani,
A chewch res o'i hanes hi," &c.

Yn y cywydd a anfonodd efe i Eisteddfod Llangollen, yr oedd wedi cynnyg am drefn newydd ar hyd y llinellau—ac arfer, weithiau saith, weithiau wyth, naw, neu ddeg sill, yn yr un fraich, ac heb gadw at y rheol o gyplysu pob cwlwm â'r un nifer o sillau, fel y gwelir wrth y llinellau canlynol:—

"Offeiriad, Ephesiad, y ffydd,
A'i bader yn y bedydd;"

lle y mae wyth a saith sill mewn cyssylltiad â'u gilydd. Yr oedd yn dywedyd mewn nodyn ar odreu y ddalen, fod cyfyngu llinell cywydd i saith sill yn ormod o gaethiwed ar freintiau y bardd, ac y dylai yr awdwr gael ei ryddid i arfer yr hyd a ddewisai; ond ni dderbyniwyd y newyddiant hwn gan neb, ac nid ymddengys iddo yntau ei ddefnyddio byth mwy. Yr oedd yr ysfeydd hyn, a ddisgynent arno weithiau, yn tueddu i'w niweidio fel beirniad.

Digitized by Google

Haven. Ond yn 1631, adeg glaniad Roger Williams yno, nid oedd etto ond dwy drefedigaeth wedi eu sefydlu—New Plymouth a Massachusetts Bay. Y sefydliad cyntaf yn y drefedigaeth oedd Salem; ond trwy ddylifiad didor o ymfudwyr i'r drefedigaeth, buan y lliosogodd i tuag ugain ereill yn Massachusetts yn unig. Yn eu plith yr oedd Boston, Cambridge, Lynn, Concord, Ipswich, Waterford, Charlestown, Hingham, Dorchester, a Roxbury. O'r trefydd hyn, Boston a ddewiswyd i fod yn seddle y llywodraeth.

I drefedigaeth Massachusetts, ac i'w phrif ddinas, Boston, y daeth Roger Williams. Yr oedd ei enwogrwydd fel pregethwr wedi ei ragflaenu i'r wlad newydd, a sicrhaodd iddo yn uniongyrchol alwad unfrydol oddi wrth eglwys Boston i gyflawni y swydd o athraw:—un o'r pedair swydd a gydnabyddid gan eglwysi ymneillduol y cyfnod. Ymddengys, fodd bynag, na chariwyd mo'r trefniant hwn allan o gwbl; o blegid cyn derbyn yr alwad, hysbysodd Roger Williams yr eglwys nas gallai efe gydsynio âg amryw bethau a ddelid ac a ymarferid ganddi. Rhai o'r pethau hyn a nodwyd ganddo. I ddeall yn briodol y drafodaeth a ddilynodd y dadganiad a wnaethai Williams o'i farn ar yr adeg hon, y mae yn ofynol bwrw golwg frysiog ar safle grefyddol y drefedigaeth ar yr adeg. Cynnulleidfaoliaeth oedd y gyfundrefn eglwysig a ffynai yn y drefedigaeth. Ond yr oedd Cynnulleidfaolwyr Lloegr Newydd yn mhell o fod yn deall yn drwyadl egwyddorion y gyfundrefn a broffesent. Er esampl, credent fod gan y wladwriaeth hawl i ymyryd yn llywodraethiad yr eglwys. Ond nid yn mhlith Cynnulleidfaolwyr Lloegr Newydd yn unig y bodolai y grediniaeth hon. Yr oedd, yn ogystal, yn nodweddiadol o'r cyfundeb yn Lloegr, ac ar y Cyfandir. A ganlyn ydyw tystiolaeth Barrow a Greenwood, merthyron cyntaf Cynnulleidfaoliaeth, neu Annibyniaeth, yn Lloegr, ar y pen hwn, mewn llythyr unedig at Arglwydd Burleigh:—"Yr ydym yn cydnabod y dylai y tywysog orfodi yr holl ddeiliaid i wrando Gair Duw yn ngweinyddiadau cyhoeddus yr eglwys." Hefyd, fe ysgrifenodd Barrow ar wahân:—"Y tywysog a erchir i, ac o ddyledswydd a ddylai, edrych ar fod gweinidogion yr eglwys yn cyflawni eu dyledswydd, ac yn dysgu deddf Duw yn ddyfal a diledryw." Hefyd, ysgrifenodd Greenwood ar wahân:—"Dylai yr ynadon orfodi anffideliaid i wrando dysgeidiaeth yr eglwys; ac hefyd, gyda chymmeradwyaeth yr eglwys, anfon allan ddynion cymmhwys, gyda doniau a grasusau, i ddysgu yr anffyddwyr." Etto, Johnson, gweinidog cyntaf yr eglwys Annibynol Saesnig gyntaf ar y Cyfandir, a ddywedodd:—"Geill, a dylai tywysogion o fewn eu tiriogaethau ddileu pob gau addoliad, a phob gau weinidogaethau o unrhyw fath, a sefydlu y gwir addoliad a gweinidogaeth a appwyntir gan Dduw yn ei Air, gan orchymyn a gorfodi eu deiliaid i ymarfer yr un arall ond y cyfryw. Etto rhaid iddynt ei adael i berswadio y gydwybod, a chwanegu at yr eglwys, o bryd i bryd, y cyfryw a fyddant cadwedig." Yr un wedd, ac yr un mor gryf a diammwys, y dysga Robinson ryddfrydig, sylfaenydd y math o Annibyniaeth a dderbynid yn fwyaf cyffredinol yn y cyfnod hwnw fel hyn:—"Mai ynadon duwiol sydd, drwy orfodaeth, i ddarostwng eilunaddoliaeth hynod a chyhoedd; ac, hefyd, i ddarparu fod gwirionedd Duw yn ei ordinhadau yn cael ei gyhoeddi yn eu tiriogaethau—nid wyf yn amheu. Gallai hefyd nad ydyw yn anghyfreithlawn ynddynt, drwy ryw gosp neu gilydd, i symbylu eu deiliaid yn gyffredinol i wrandaw, er eu haddysg a'u tröedigaeth; ïe, yn wir, i ganiatau iddynt osod yr unrhyw (sef y gosp) arnynt, os, wedi addysg gymmhwys, na chynnygiant eu hunain i'r eglwys."

Etto: a ganlyn ydyw iaith yr eglwys Annibynol gyntaf yn Llundain, yn ei chyffes ffydd a ddanfonodd allan yr un flwyddyn ag y sefydlwyd hi, sef yn 1616:—"Yr ydym ni yn credu y dylem ni, a phob gwir eglwys, gael ein harolygu a'n cadw mewn trefn dda, a heddwch; ac y dylem gael ein llywodraethu yn oruwchraddol ac yn israddol gan yr ynad gwladol; ïe, mewn achosion crefyddol, os bydd angen." Gwir fod i'w cael amryw yn ddigon pell yn mlaen yn eu syniadau am ysbrydolrwydd eglwys Crist fel y carasent wrthdystio yn erbyn y cyfryw syniadau ynghylch swyddogaeth yr ynad gwladol yn nglŷn â chrefydd; ond mai y syniadau a gynnwysir yn y dyfyniadau uchod oedd syniadau yr arweinyddion, ynghyd â chorph mawr yr enwad, sydd ffaith ddiymwad. Er pelled graddau a gyrhaeddodd y dynion rhagorol a dewraidd hyn mewn syniadau cywir am ysbrydolrwydd teyrnas Crist, ni lwyddasant i lwyr ymryddhau yn mhob peth oddi wrth yr hen lefain Pabyddol. Nid oedd y syniadau a ddalient ynghylch hawl yr ynad i ymyryd â phethau crefydd ond olion y cyfryw lefain. Ac ni wyddom am well esgusawd dros eu methiant hwn i gyrhaedd perffeithrwydd ar yr ergyd gyntaf nag a geir mewn brawddeg o eiddo Robinson ei hun yn ei anerchiad ymadawol i'r ymfudwyr cyntaf i Loegr Newydd. "Nid ydyw yn bossibl," meddai efe, "fod y byd Cristionogol, yr hwn a fuasai mor ddiweddar yn nhywyllwch dygn Anghristiaeth, wedi cyrhaeddyd ar unwaith i lawn perffeithrwydd gwybodaeth." Geiriau doeth, a theilwng o dad annibyniaeth y Diwygiad, ydyw y rhai hyn; ac yn sicr ni ddylem eu hanghofio mewn unrhyw ddyfarniad a wnelom o safle a syniadau Ymneillduwyr y cyfnod dan sylw.

Rhaid cofio mai Annibyniaeth, neu Gynnulleidfaoliaeth, fel ei deallid gan y merthyron Barrow a Greenwood, Robinson o Leyden, Johnson o Amsterdam, a Jacob o Lundain, oedd yr Annibyniaeth a drosglwyddwyd gan yr ymfudwyr Puritanaidd i sefydliadau Lloegr Newydd. Yr oedd gwrthwynebiad y bobl hyn i'r Eglwys Sefydledig yn hollol ar gyfrif ei threfniant esgobyddol a'i heresiau duwinyddol. Nid ystyrient ei pherthynas â'r wladwriaeth yn beth gwrthwynebol ynddi. Credent mai Cynnulleidfaoliaeth, neu Annibyniaeth, oedd unig wir drefn eglwys, ac mai y cyfryw a ddylasai fod yn sefydledig. Yn unol â'r daliadau hyn y gweithredasant ar eu sefydliad yn y byd newydd: ffurfiasant lywodraeth eglwysig ar y cynllun o Gynnulleidfaoliaeth dan reolaeth a nawdd yr ynad gwladol. Y gwahaniaeth rhyngddi ag eglwysi sefydledig Lloegr ac Ysgotland oedd, fod y rhai hyny yn sylfaenedig:—y gyntaf ar egwyddor Esgobawl, a'r ail ar egwyddor Bresbyteraidd, a hithau ar egwyddor Gynnulleidfaol. Yr oedd gwahaniaeth arall rhyngddynt, na ddylid colli golwg arno, ffafriol i Gynnulleidfaoliaeth Lloegr Newydd; sef, nad oedd undeb yr olaf â'r wladwriaeth yn sicrhau cynnaliaeth orfodol i'r gweinidogion.

Golygai yr undeb, fodd bynag, bedwar peth:—yn gyntaf, rhwymedigaeth y wladwriaeth i orfodi

Digitized by Google

â'r Indiaid. Cymdeithasai lawer â'u prif ddynion, gwnai ymgyrchiadau mynych i'w mangreoedd, a thrigai yn eu plith, i'r perwyl o ymgydnabyddu â'u hiaith a'u harferion. Dywed ef ei hun—"Rhoddodd Duw i mi ysbryd llafurus ac amyneddgar, i lettya yn eu tyllau budron a myglyd, fel y dysgwn eu tafodiaith." Bu y cyfeillgarwch hwn â'r Indiaid, a'i gydnabyddiaeth â'u hiaith, yn gynnorthwy mawr iawn iddo ar adegau pwysig, ac ynglŷn â thrafodaethau dyfodol rhyngddo a hwynt pan yn sefydlu trefedigaeth Providence. Pregethai Grist iddynt, ac ennillodd eu hymddiried a'u teimladau da i raddau mwy nag y gwnaed gan nemawr i ddyn gwyn cyn hyny, nac wedi hyny, heb eithriadu hyd yn oed William Penn. Arosodd Roger Williams ddwy flynedd yn Plymouth. Symmudodd oddi yno yn ol ar gais unfrydol eglwys Salem, fel cynnorthwywr i Mr. Skelton—yr hwn, erbyn hyn, oedd yn oedranus a methedig. Felly, yn Awst, 1633, dychwelodd Roger Williams yr ail waith i Salem. Ennillodd serch a pharch pobl Plymouth i gymmaint graddau fel y darfu i liaws symmud eu trigfa i Salem, er mwyn cyfranogi o'i weinidogaeth. Nid cynt, fodd bynag, yr ail sefydlodd efe yno nag yr ail ddechreuodd ei dreialon. I ddeall yr achlysur cyntaf o'r helynt, y mae yn ofynol deall fod y trefedigaethwyr yn dal y tir a feddiannent drwy freinlen oddi wrth y brenin. Yn ei gyfraniad o'r breinleni hyn, cymmerai y brenin yn ganiataol ei hawl i ddosranu y tir fel y mynai, ac i'r sawl y mynai, heb ymgynghori â'r Indiaid; y rhai ni chymmerai i ystyriaeth o gwbl yn y mater, mwy na phe buasent ddim yn bodoli. Gwir nad oedd y trefedigaethwyr yn meddiannu dim o'r tir, serch y freinlen, heb dalu yn onest i'r Indiaid am dano. Er hyny, nid ydyw i'w ryfeddu fod yr Indiaid yn teimlo fod yr arferiad o ddosbarthu a dosranu eu tiriogaethau, drwy freinleni, i ereill, heb yr ymgynghoriad lleiaf â hwy, yn anghyfiawn i'r eithaf. Yr oeddynt yn llwythau annibynol, ac heb fod mewn un ystyr yn ddeiliaid i frenin Lloegr. Nid oeddynt yn gyfrifol iddo, nac yn cael eu llywodraethu gan ei ddeddfau. "Pa hawl," gofynent, "gan hyny, oedd ganddo i drosglwyddo trwy freinleni i'r trefedigion un hawl na feddai efe ei hun?"

Trwy ei ymgyfathrachiad â'r Indiaid yn ystod ei arosiad yn Plymouth, daeth Roger Williams i gydnabyddiaeth â'r teimlad hwn oedd yn mhlith yr Indiaid. Fel hyny y gwasgwyd ar ei feddwl yr hyn a alwai efe yn "bechod y breinleni;" hyny yw, arferiad "brenhinoedd Cristionogol (a elwid felly) yn rhinwedd eu Cristionogaeth, yn cymmeryd ymaith diroedd a thiriogaethau dynion ereill." Ac mor ddwfn y teimlai yr anghyfiawnder hwn tuag at yr Indiaid, fel y cymmhellwyd ef i ysgrifenu llythyr—"nid heb gymmeradwyaeth rhai o lywiawdwyr Lloegr Newydd, y rhai hefyd y pryd hwnw oeddynt dyner ger bron Duw ar y pen hwn—cyfeiriedig at y brenin ei hun, yn gostyngedig gydnabod drygedd y rhan hono o'r breintleni a berthynai i gyfraniad tiroedd." Heb law hyn, meddodd Roger Williams y gwroldeb i osod ei syniadau ar y pen hwn ger bron awdurdodau a boneddigion Plymouth. Pa ddylanwad a gafodd ar y personau hyny, nis gwyddom. Y tebygolrwydd yw, mai ffrwyth y llythyr hwn oedd y tynerwch cydwybod cyfeiriedig ato uchod, a'r gymmeradwyaeth a gafodd oddi wrthynt i ysgrifenu at y brenin. Wedi dyfodiad Roger Williams i drefedigaeth Massachusetts, defnyddiodd ei hawl fel dinesydd i ddwyn yr un achos o flaen yr awdurdodau yno, yn yr un llythyr ag a ddanfonodd at awdurdodau Plymouth. Gwnaeth hyny yn mis Rhagfyr, 1633: fodd bynag, parodd syniadau y llythyr gythrwfl nid bychan yn mhlith yr awdurdodau. Dychrynwyd hwy gan y dyb ei fod yn gwrthwynebu eu hawl i'w tiroedd, a mynent ei fod yn ysgrifenu yn erbyn hawliau ac awdurdod y brenin; ac felly yn euog o deyrnfradwriaeth. Ond llwyddodd Roger Williams i'w darbwyllo eu bod wedi camddeall yn hollol bwynt ei lythyr. Ac mewn cyfarfod o'r cynghor a gynnaliwyd yn mhen tua mis wedi hyny, buont mor deg fel yr addefasant eu bod wedi camddeall amcan y llythyr, ac wedi cymmeryd tramgwydd diachos.

Yn Awst, 1634, bu farw Mr. Skelton, i'r hwn yr oedd Williams yn gynnorthwywr. Yn fuan wedi hyny penderfynodd eglwys Salem ddewis Roger Williams i lenwi y swydd o athraw, fel olynydd i Mr. Skelton. Ar hyn danfonodd yr ynadon atynt gan ddymuno arnynt beidio; ond ni thalodd gwŷr Salem un sylw i'r dymuniad, ac aethant yn mlaen â'r gwaith o'i appwyntio yn rheolaidd i'r swydd. Galwyd yr ymddygiad hwn o du yr eglwys gan yr ynadon a'r gweinidogion "yn ddirmyg mawr ar awdurdod;" ac ni ddiangodd yn hir heb gosp, fel y cawn weled yn mhellach yn mlaen.

Yn Ebrill, 1635, cawn fod Williams yn wysiedig unwaith etto ger bron y cynghor yn Boston, i atteb i gyhuddiad ynghylch llŵon. "Yr achlysur oedd, ei fod yn dysgu yn gyhoeddus na ddylai ynad weinyddu llŵ i ddyn heb ei ail eni; o blegid ei fod drwy hyny yn cymdeithasu â dyn annuwiol yn addoliad Duw, ac yn achosi iddo gymmeryd enw Duw yn ofer." Dyma y ffurf yn mha un y dodai ei farnwyr y cyhuddiad yn ei erbyn. Ymddengys, oddi wrth sylwadau mewn ysgrifeniadau diweddarach o'i eiddo, ei fod yn edrych ar lŵ fel gweithred o addoliad:—"y gallai Cristion gymmeryd un ar adegau priodol, er nad ar achosion dibwys—nas gall dyn anghrefyddol gyflawni yn wirioneddol y weithred hon o addoliad; ac na ddylai un dyn gael ei orfodi i gyflawni hon, mwy na rhyw weithred arall o addoliad." Yr oedd y syniadau hyn am natur a chyfrifoldeb llŵ yn gosod Roger Williams ar dir ar ba un yr oedd yn rhwym o wrthwynebu deddf ag oedd newydd ei gosod, o'r enw "*Freedmen's Oath.*" Yr oedd y llŵ o ffyddlondeb i'r llywodraeth (*oath of allegiance*) yn ofynol gan bob dyn dros un-ar-bymtheg oed; ac yn rhinweddol yn trosglwyddo y gwladychwyr oddi wrth y brenin i lywodraeth y drefedigaeth. "Gwrthwynebodd Williams y ddeddf fel peth gwrthwynebol i'r freinlen dan yr hon y dalient eu tiriogaeth, ac yn anghydweddol â dyledswydd deiliaid Prydeinig, ac â'r egwyddor fawr o ryddid crefyddol dilyffethair." Y canlyniad o'i wrthwynebiad penderfynol a diysgog ef fu i'r cais gael ei roddi i fyny.

Ond nid hir y goddefwyd i Roger Williams fwynhau ffrwyth yr oruchafiaeth hon o blaid rhyddid crefyddol. Yn mhen tri mis ar ol hyn, gwysiwyd ef drachefn i ymddangos o flaen y cynghor yn Boston, i atteb i'r cyhuddiadau peryglus, fel eu gelwid, canlynol:—Ei fod yn dysgu, yn gyntaf, na ddylai yr ynadon gospi am droseddiadau o'r llech gyntaf, oddi eithr eu bod yn ymyryd â'r heddwch cyhoeddus. Yn ail, na ddylid gweinyddu llŵ i bersonau di-ailanedig.

Digitized by Google

ystryw i'w cael i weithredu yn amgen; ac aethpwyd mor bell yn y cyfeiriad hwn ag i fygwth, os na chydsynient, yr attelid pob cyfathrach trafnidiol a chymdeithasol â hwy.

Yn y flwyddyn 1671, daeth galwad, am y bedwaredd waith, am wasanaeth Roger Williams i gyfryngu gyda'r Indiaid er attal rhyfel. Pan ddeallodd llywydd a dirprwywyr Plymouth fod Phylip, penaeth yr Indiaid, yn gwneyd parotoadau i'r perwyl o wneyd rhyfel â'r dynion gwynion, gyda'r amcan o'u hymlid o'r wlad, danfonasant gais ato i'w cyfarfod hwy yn Taunton. Phylip, yn ammheu eu hamcan, a ddanfonodd attebiad, os oedd arnynt eisieu ei weled ef, am iddynt ei gyfarfod yn ei le ei hun. Ond ar waith Williams yn cynnyg ei hun, gydag un o'r enw Brown, yn wystl o'i ddiogelwch, cydsyniodd Phylip i anturio i Taunton, a chyttuno i heddwch. Felly, trwy feddylgarwch a dewrder amlwg y ddeuddyn hyn, llwyddwyd y tro hwn etto i osgoi rhyfel. Tra yr oedd R. Williams fel hyn yn llafurio mor ddiwyd ac ymroddgar ar ran cynnydd a llwyddiant tymmorol a gwleidyddol y Drefedigaeth, nid oedd fymryn llai ymdrechgar o blaid llwyddiant crefydd. Tra yr estynai amddiffyniad gwladol i bob math o opiniynau, tra nad ymyrent â heddwch y cyhoedd, ar yr un pryd deuai allan yn selog i wrthwynebu yn eofn, drwy reswm ac arfau *moesol*, yr hyn a gredai yn heresiau niweidiol. Yn unol â hyny, cawn ef yn cymmhell ac yn cyfarwyddo ei gydwladychwyr i wrthod cydsynio â chais Massachusetts, a'r trefedigaethau ereill, i ymlid y Cwaceriaid o'u tiriogaeth, ac yn parotoi ar gyfer eu gwrthwynebu yn wrol ar dir rheswm.

Yn 1672, ymwelodd George Fox â'r drefedigaeth. Penderfynodd Williams achub y cyfleusdra i wrthdystio yn erbyn ei gyfeiliornadau, fel y galwai hwy. Felly, danfonodd at George Fox bedwar ar ddeg o osodiadau, gan ei wahodd i ddadl gyhoeddus gyfeillgar arnynt. Ond am ryw achos neu gilydd, ni chyrhaeddodd y gosodiadau na'r gwahoddiad mo Fox mewn pryd cyn iddo fod wedi hwylio i Loegr. Ond dygwyd y ddadl yn mlaen gyda thri o ddysgyblion Fox yn y drefedigaeth. Parhaodd y ddadl am bedwar diwrnod—heb gynnyrchu unrhyw gyfnewidiad barn y naill ochr na'r llall. Pa fodd bynag, arweiniodd i gyhoeddiad llyfr o gryn helaethrwydd gan Roger Williams, dan y teitl "*George Fox digged out of his Burrows; or, An offer of Disputation on fourteen Proposals, made this last summer,* 1672, *unto G. Fox, then present on Rhode Island.*"

Yn 1675, torodd allan ryfel waedlyd rhwng y Pokanokets a threfedigaeth Plymouth. Gwasgarwyd difrod a galanasdra dros yr holl sefydliadau. Parhaodd am fwy na blwyddyn. Hyd yma, yr oedd Trefedigaeth Rhode Island wedi bod yn ddiogel oddi wrth bob ymosodiad oddi wrth unrhyw un o'r llwythau Indiaidd; a hyny drwy syniadau uchel yr Indiaid am Williams, a'u hymddiried yn niffuantrwydd ei gyfeillgarwch tuag atynt. Ond bygythiai y rhyfel hwn Rhode Island gyda'r lleill. Pan ymddangosodd yr Indiaid ger llaw y lle, cymmerodd Williams ei ffon; a chydag eofndra dibryder, anturiodd i'w cyfarfod, gan obeithio y llwyddai, fel ar achlysuron blaenorol, i droi draw eu cynddaredd, ac i'w cymmodi:—a daeth nifer o'r hen ryfelwyr yn mlaen i'w gyfarfod. Ceisiodd Williams ddangos iddynt ffoledd eu gwaith, ac mor anobeithiol oedd eu llwyddiant yn erbyn holl adnoddau y trefedigaethau, ynghyd âg eiddo brenin Lloegr. "Hefyd," ebai efe wrthynt, "gall Massachusetts godi mil o ddynion y funyd hon; a phe y lladdech chwi hwy, llanwai brenin Lloegr eu lle mor gynted ag y syrthient." Attebodd un o'r Indiaid, "O'r goreu, ynte! Deuant yn mlaen. Yr ydym yn barod iddynt. Ond am danoch chwi, frawd Williams, yr ydych chwi yn ddyn da. Buoch chwi yn garedig i ni dros lawer o flynyddoedd. Ni chyffyrddir â blewyn o wallt eich pen chwi." Ni bu Williams yn llwyddiannus y tro hwn. Ymosododd yr Indiaid ar y dref, a distrywiasant lawer o dai, a difrodwyd swm mawr o eiddo; ond ni chollwyd bywydau, o herwydd yr oedd y trigolion wedi cilio o honi. Terfynwyd y rhyfel hwn drwy farwolaeth Phylip—y penaeth Indiaidd.

Heb law ei lafur mawr, a'i ymdrechion hunanymwadol ynglŷn â'r drefedigaeth yn ei hamrywiol achosion a thrafodaethau, llafuriai Williams lawer yn mhlith yr Indiaid, gan eu dysgu, a phregethu yr efengyl iddynt. Ac un o'r pethau olaf a wnaeth, tua diwedd ei oes, pan yr oedd ei wendid corphorol yn ei analluogi i fyned oddi amgylch a chymmeryd rhan weithgar yn nhrafodaethau a gorchwylion yr amserau, oedd galw i gof, ac ysgrifenu, gyda'r bwriad o'u cyhoeddi, y pregethau a gyhoeddasai i'r Indiaid a'r Saeson gwasgaredig dros diriogaethau y Narragansett. Yr oedd hyn yn 1682, pan yn ddwy ar bymtheg a thrigain mlwydd oed. Bu farw ar y degfed o Fai y flwyddyn ddilynol, yn yr oedran cyflawn o ddeunaw a thrigain mlwydd oed—yn y drefedigaeth a sefydlasai saith a deugain mlynedd yn flaenorol; ac i hyrwyddo cynnydd, ac i sicrhau llwyddiant tymmhorol ac ysbrydol yr hon y cyssegrodd efe ei eiddo, ei amser, a'i alluoedd meddyliol cryfion a disglaer.

Yr oedd Roger Williams yn ddyn nodedig—o gymmeriad arwraidd, yn ystyr eangaf y gair. Meddai alluoedd meddyliol anarferol o gryfion. Yr oedd ei amgyffrediad o wirionedd yn gyflym, o nodwedd greddfoldeb athrylith; a lle y gwelai yn glir, teimlai yn ddwfn. Edrychai yn graff, gwelai yn oleu, daliai yn dŷn, a llefarai yn eglur! Yr oedd ei ddewrder i ddadgan ac i gario allan ei egwyddorion yn gyfartal i dreiddgarwch ei amgyffrediad o honynt. Yr oedd ei allu, fel y prawf hanes ei fywyd, i ddioddef yn herwydd ei argyhoeddiadau yn ddi-ben-draw. Chwanegai at hyn dduwioldeb dwfn—llawn o raslonrwydd a thynerwch. Nid oes angen am brawf sicrach, nac uwch, o hyn na'i ymddygiad dros ei holl fywyd tuag at ei erlidwyr. Er y teimlai yn ddwfn chwerwedd y driniaeth a dderbyniai oddi ar eu llaw, ni choleddai y gradd lleiaf o soriant tuag atynt. Prawf diymwad o hyn oedd ei amryw ymdrechion dewrwych a llwyddiannus i'w diogelu rhag ymgyrchiadau yr Indiaid, ynghyd â'i ymgais parhaus, drwy bob moddion, ond heb roddi i fyny ei argyhoeddiadau, i ennill eu cymmod a'u cydweithrediad cyfeillgar yn mha bethau bynag a dueddent er llwyddiant tymmhorol ac ysbrydol eu gwahanol sefydliadau. Y mae yn ddiau fod ymddygiad caruaidd a Christionogol Williams tuag at ei wrthwynebwyr yn adlewyrchu cymmaint o anrhydedd arno ag y gwnai ei wroldeb yn dioddef dros ei egwyddorion. Gellir symio i fyny ei fywyd a'i gymmeriad i'r tri pheth hyn :—craffder yn ei amgyffred o egwyddorion cyssefin, beiddgarwch dihafarch yn eu gweithiad allan, ynghyd â hynawsedd ysbryd dihysbydd—hynawsedd a gofleidiai yn ddiwa-

Digitized by Google

Yn yr arholiad am ysgoloriaethau y brifysgol, efe a lwyddodd i ennill ysgoloriaeth Battie. Yn nhymmor Gŵyl Mihangel, 1838, fe gymmerodd ysgolheigion yn Nghaergrawnt; ac yn ystod tymmor gorphwysfa y Nadolig, ac hefyd tymmor gorphwysfa yr haf canlynol (1839), gweithredai fel athraw preifat i'r Cadben Burton, o Dunstall Priory, Kent.

Darllenai yn ddiwyd lawer o wahanol lyfrau, ac astudiai hwynt mor drwyadl nes gwneyd eu cynnwysiad yn eiddo iddo ei hun. Ni adawai un pwngc heb ei lwyr feistroli. Nodweddid ei gymmeriad gan deimlad crefyddol dwfn. Fel yn Eton, arferai gyfansoddi gweddïau. Yn ei ddyddlyfr yr ydym yn ei gael, mewn llwyddiant ac aflwyddiant, yn cyfeirio y cwbl at Dduw; ac mewn ymgystadleuaeth, yn gweddïo ar iddo "beidio byth deimlo cnofeydd cenfigen a malais." Arweiniwyd ef yn foreu gan dueddfryd naturiol ei feddwl, a difrifwch ei gymmeriad, i deimlo dyddordeb neillduol mewn pyngciau duwinyddol. Ymddengys fod athroniaeth crefydd yn meddu swyn neillduol iddo ef. Y pryd hwn geilw Coleridge "fy eilun mawr;" ac mewn adeg ddiweddarach ar ei oes, siaradai am y dylanwad a gafodd ei ysgrifeniadau arno yn ei ddyddiau boreuaf, gan ddywedyd mai efe, yn fwy na neb arall, oedd ei dad deallawl. Yr oedd yn hoff iawn o farddoniaeth, ac yr oedd yn fardd rhagorol ei hun. Yr ydym yn cael ei fod, yn haf 1840, yn bresennol yn yr eisteddfod a gynnaliwyd yn yr Amphitheatre, yn Liverpool; a'i fod wedi traddodi araeth ynddi i atteb y gwrthddadleuon a godid yn erbyn eisteddfodau fel sefydliadau oedd yn cefnogi amcanion difudd ac afreidiol, ac yn tueddu i ysgaru cenhedloedd oedd yn unedig dan yr un goron.

Gan fod ei iechyd yn awr yn mhell oddi wrth fod yn gryf, efe a benderfynodd deithio am flwyddyn, ac arferodd penaeth Coleg y Brenin ei ddylanwad i gael ysgoloriaeth deithiol iddo. Ond yr oedd y cais yn rhy ddiweddar; ac o ganlyniad, efe a roddodd i fyny ei hoff ddymuniad i ymweled â'r dwyrain, a chychwynodd i daith ar y Cyfandir. Teithiodd o Paris i Lausanne, a thrwy ran fawr o Switzerland, yn benaf ar ei draed, ac yn gyffredinol ei hunan. Croesodd y Simplon i Visp, a Mynydd Cervin i Piedmont. Dywed hen gyfaill iddo, fod ei hoffder o wlad ei enedigaeth wedi peri iddo gael ei garcharu am ychydig ddyddiau yn Isella, pan yn Sardinia. Gan iddo wadu mai Sais ydoedd, cymmerwyd ef o flaen y swyddog fel Almaenwr, a rhoddwyd ef yn ngharchar nes i'w achos gael ei brofi. Yn ol yr hanes a roddir ganddo ef ei hun am y digwyddiad, dygwyd ef o flaen yr awdurdodau mewn canlyniad i ymrafael rhyngddo âg arweinydd; yr hwn a wrthododd fyned yn mhellach na hanner y ffordd yr oedd efe wedi cyttuno âg ef; ac am hyny, gwrthododd y Cymro dewr a thalu mwy na hanner yr arian iddo. Yna dychwelodd dros y Simplon i Switzerland; ymwelodd â Chamouni; a gorchfygwyd ef gan ludded a llymder y tymmor. Yna prysurodd i Geneva am gynghor meddygol; a chan iddo gael ei annog i orphwys ac i fod yn ofalus, rhoddodd i fyny gerdded, ac aeth i Paris.

Ar ei ddychweliad i Loegr, cynnygiwyd iddo y swydd o athraw; a chyda chryn anewyllysgarwch ar ei ran ef efe a'i derbyniodd, ac aeth i Eton fel athraw cynnorthwyol yn Ionawr, 1842. Ond nid oedd y gwaith yn unol â'i chwaeth; ac ymddengys ei fod wedi ymgymmeryd â'r swydd yn benaf oddi ar barch i ddymuniad ei rieni, a chynghor ei gyfeillion. Ond ni bu ei arosiad yn ei swydd ond byr. Ymosododd ennyniad yr ysgyfaint arno. Cynghorwyd ef gan ei feddyg i ymadael o Eton, ac o ganlyniad dychwelodd i Gaergrawnt. Yr oedd efe wedi cymmeryd ei radd o B. A. (1841), cyn myned i Eton; ac yn Hydref, 1842, efe a ordeiniwyd yn ddiacon gan Esgob Lincoln; ac ordeiniwyd ef yn offeiriad gan yr un esgob y flwyddyn ddilynol. Er nad oedd ganddo un fywoliaeth reolaidd, rhoddai ei gynnorthwy yn rhwydd ac yn rhad i glerigwyr a lethid gan fawredd eu llafur yn Nghaergrawnt a'r gymmydogaeth. Pregethai yn mron o'r dechreu heb lyfr na nodiadau ysgrifenedig, a hoffid ei arddull yn fawr, yn enwedig gan yr amaethwyr a'r llafurwyr; ar y rhai y gwnai argraph ddofn trwy ddifrifwch ei ysbryd a'i iaith feistrolgar. Yn Ngorphenaf, 1843, appwyntiwyd ef yn athraw clasurol yn Ngholeg y Brenin; a chymmerodd y swydd ar y 10fed o Hydref, a chyflawnodd ei ddyledswyddau gyda diwydrwydd mawr am o chwech i saith mlynedd.

Yn y Gymdeithas Brydeinig a gynnaliwyd yn Nghaergrawnt ar y 24ain o Fehefin, efe a ddarllenodd bapyr yn yr is-adran o ddosbarth Cenedleg ar "wahaniaeth lleol ac etifeddol lliw y gwynebpryd yn Mhrydain Fawr, gyda sylw damweiniol ar y Cimbri." Ymddengys nad oedd ei bapur ond nodiadau yn unig; y rhai, yn ol ei ddull arferol, a lanwodd efe i fyny wrth ddarllen. Tynodd adroddiad a anfonodd efe i'r "*Chester Courant*" sylw mawr, a chyfieithwyd ef i'r Gymraeg yn y "*Protestant.*" Diwedda ei nodiadau gyda'r sylw fod ei ddamcaniaeth yn tueddu i raddau bychain tuag at gefnogi y syniad o undeb y ddynoliaeth. Dengys ei bod o un gwaed, neu un natur yma, ac un gobaith yn y byd arall.

Yn y gwanwyn, yn 1846, efe a gyhoeddodd, dan y ffugenw o "Goronva Camlan," ei "*Lays from the Cimbric Lyre.*" Ennillodd wobr y brifysgol am draethawd; yr hwn, ar ol gwneyd llawer o chwanegiadau ato, a gyhoeddwyd dan yr enw "Cristionogaeth a Hindŵaeth," yr hwn a ystyrir yn un o'i weithiau galluocaf. Cyflwynwyd copi o'r traethawd i'w uchelder brenhinol y Tywysog Albert, yr hwn a'i derbyniodd yn rasol. Yr oedd y traethawd yn nodedig am y wybodaeth eang a'r ymchwiliad manwl a amlygid ynddo, yn gystal ag am ei fedrusrwydd ymresymiadol. Mewn canlyniad i'r traethawd hwn y darfu i'r Tywysog Albert, yn 1848, gynnyg iddo y swydd o gaplan yn India; ond efe a'i gwrthododd. Yn Hydref, 1848, efe a ymgeisiodd am y swydd o areithiwr cyhoeddus, yn erbyn Dr. Bateson, o Goleg St. John; ond gorchfygwyd ef. Treuliodd dymmor 'gorphwysfa maith' y fl. 1849 ar y Cyfandir. Ychydig cyn cychwyn oddi cartref yr oedd efe wedi ysgrifenu llythyr i'r "*Quarterly Review,*" ar "Fethodistiaeth yn Nghymru;" ac yr oedd yn myned trwy y wasg tra yr oedd efe yn Schwalbach, a diwygiodd ei dad y prawfleni. Y mae yn disgrifio ynddo y sefyllfa farwaidd i'r hon yr oedd yr eglwys yn Nghymru wedi syrthio, a'r "adfywiad a ddechreuodd oddi mewn iddi hi ei hun (1740—1762); ond yr hwn, o herwydd diffyg ystwythder yn ei ffurfwasanaeth, a adfeiliodd i ymraniad," ac a arweiniodd i godiad a chynnydd cyflym Methodistiaeth. Rhydd hanes bywiog disgrifiadol am yr arweinyddion Methodistaidd boreuol; ac y mae yn amlwg, er nad oedd yn

Digitized by Google

cynghor da, a phob gweithred gytiawn:—Nad oes yn llyfrau yr Hen Destament, gyda'r eithriad possibl o un, dau, neu dri pharagraph, un elfen o ragfynegiad dwyfol ysbrydoledig am bersonau na digwyddiadau dyfodol:—Nad oedd y prophwyd Ionah yn berson hanesiol gwirioneddol, ac na chafodd y llyfr canonaidd a ysgrifenwyd ganddo ef, ac a gorphorwyd yn yr Hen Destament, mewn gwirionedd ei ysgrifenu ganddo ef; ac nad oedd Llyfr Daniel yn waith y prophwyd Daniel, ond rhyw berson arall:—Nad ydyw Llyfr y Datguddiad, yr Epistol at yr Hebreaid, ac Epistolau Pedr, yn rhanau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd:—Y gellir darllen a deall adroddiad yr Ysgrythyrau Sanctaidd gyda golwg ar ffeithiau hanesiol mewn ystyr hollol ffugrol, ac mewn ystyr annaturiol i'w geiriad eglur, ac i'w hamcan: — Na ddioddefodd Crist, ac na bu efe farw, i gymmodi ei Dad â ni, ac i fod yn iawn dros bechodau dynion:—Mai St. Awstin a ddygodd i mewn yn gyfeiliornus y syniad o bechod gwreiddiol cyssylltiedig â phob dyn a enir i'r byd, ac yn haeddu digofaint a damnedigaeth Duw:—Mai ysbrydol hollol ydoedd ymgnawdoliad ein Harglwydd Iesu Grist; ac na chymmerodd Mab Duw natur dyn yn mru y Forwyn Fair:—Nad ydyw cyfiawnhâd trwy ffydd yn arwyddo ond yn unig heddwch meddwl, neu deimlad o gymmeradwyaeth ddwyfol; yr hwn sydd yn deilliaw oddi wrth ymddiried mewn Duw cyfiawn: ac mai dedfryd o faddeuant ydyw cyfiawnhâd ar ein hedifeirwch, ac o dderbyniad ar offrymiad ein calonau.

Ar ol gwrando y dadleuon o bob tu, cyhoeddodd barnwr archlys Caergaint ddedfryd yn erbyn Dr. Williams a Mr. Wilson. Appeliodd y ddau yn ei herbyn, at bwyllgor barnwyr y cyfringynghor, a diddymwyd hi. Cynnyrchodd dedfryd eu harglwyddiaethau o'u plaid deimlad dwfn, a syndod cyffredinol.

Wedi i helynt a chyffro yr erlyniad ddarfod, ail ymroddodd Dr. Williams i lafur llenyddol. Aeth yn mlaen gyda'i gyfieithiad o'r prophwydi Hebreaidd, yr hwn oedd yn un o'i weithydd penaf. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf; ond bu farw cyn gorphen yr ail. Yn ei oriau hamddenol, cyfansoddodd "*Owen Glyndwr*," gyda'r amcan o amddiffyn y rhyfelwr enwog hwnw yn ngwyneb y cyhuddiad o addaw cynnorthwyo Hotspur yn ei wrthryfel yn erbyn Bolingbroke. Ei waith olaf oedd "*Psalms and Litanies, Counsels and Collects*:" oddi wrth yr hwn y gellir casglu ei fod yn feddiannol ar deimlad crefyddol dwfn.

Yn 1869, dioddefodd gryn lawer oddi wrth anwyd a llesgedd. Ychydig cyn y Nadolig, cafodd anwyd trwm iawn; ac ar y 18fed o Ionawr, 1870, bu farw yn Ficerdy Broadchalke.

O barth i gymmeriad cyffredinol Dr. Williams, gallwn ddyweyd ei fod yn cynnwys llawer o'r elfenau naturiol mwyaf rhagorol. Yr oedd yn feddiannol ar alluoedd naturiol cryfion a threiddgar, ac athrylith o'r radd flaenaf. Trwy ei lafur diflino, cyrhaeddodd safle uchel mewn dysgeidiaeth. Nid oedd un terfyn i'w ddiwydrwydd ar hyd ei oes: ni threuliai byth un awr yn segur. Ei ymgais gwastadol oedd cael gafael ar y gwirionedd gyda phob pwngc a astudid ganddo; ac ni byddai byth yn petruso dadgan yn gyhoeddus yr hyn a gredid ganddo, er iddo fod yn groes i'r farn gyffredinol, ac yn debyg o attal ei lwyddiant personol ef ei hun. Er ei fod yn mhell o fod yn uniongred, yn ol ein barn ni, ar amryw o byngciau pwysig, nis gallwn lai na chredu ei fod yn hollol onest a chydwybodol. Teimlai bob amser ei fod yn gyfrifol i Dduw am bob peth a gredid ganddo, yn gystal ag am ei holl weithredoedd. Dengys ei lythyrau, ei nodiadau yn ei goflyfrau, a'r gweddïau a ysgrifenwyd ganddo ei fod yn meddu teimlad crefyddol dwfn. Yr oedd yn ddyn nodedig o awyddus i wneyd daioni yn mhob man. Dysgodd ddosbarth yn ei Ysgol Sul yn Broadchalke, wedi iddo dderbyn bywoliaeth y plwyf hwnw, a chyfranodd lawer tuag at gynnorthwyo tlodion ei blwyf. Byddai bob amser yn barod i wneuthur pob cymmwynas a allai i bawb. Ymgynghorai awduron yn fynych âg ef ar byngciau dyrys; ac estynai ef gymmhorth iddynt yn ddioed, gan eu dwyn allan o'u dyryswch. Yr oedd yn Gymro gwladgarol, yn teimlo ymlyniad cryf wrth wlad ei enedigaeth, ac yn awyddus am weled ei genedl yn ymddyrchafu mewn crefydd, addysg, a chyfoeth.

WILLIAMS, WILLIAM, Llandilo, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef mewn amaethdy a elwir Yr Hafod, yn mhlwyf Llangathen, Ionawr 12fed, 1811. Yr oedd ei rieni, Henry ac Elizabeth Williams, yn aelodau ffyddlawn o'r eglwys Annibynol yn Nghapel Isaac; a bu ei dad am lawer o flynyddau yn ddiacon defnyddiol yn yr eglwys hono. William oedd yr ieuangaf o'r plant. Yn ei febyd a'i ieuengctid, yr oedd yn nodedig yn mysg ei gyfoedion am ei fywiogrwydd a'i ffraethineb. O'r pryd y dysgodd ddarllen, amlygai fwy o hoffder mewn llyfrau na nemawr o'i oed yn yr ardal. Ni bu ar un cyfnod o foreu ei oes yn anfoesol; ond hyd nes yr ymunodd â'r eglwys, yr oedd braidd yn fwy chwareus ac ysgafn ei deimladau a'i ymddiddanion na phlant ac ieuengctyd yn gyffredinol. Yn nechreu Mehefin, 1828, torodd diwygiad crefyddol grymus iawn allan yn hen eglwys Capel Isaac; a chyn canol mis Gorphenaf, yr oedd rhai ugeiniau o bobl yr ardal, o bob oed—o'r hen ŵr pedwar ugain hyd at y bachgen deuddeg oed—wedi ymwasgu i'r cyfeillachau crefyddol, a difrifoldeb cyffredinol wedi meddiannu trigolion yr ardal. Yr oedd y rhan fwyaf o gyfeillion ieuaingc William Williams wedi myned i'r 'gyfeillach' wythnos neu ddwy o'i flaen ef. Parhaodd yntau am amryw ddyddiau i ymgyndynu; ond o'r diwedd, ar nos y Sabbath olaf yn Gorphenaf, 1828, "torodd drwyddi," fel y dywedai, a daeth i'r gyfeillach mewn teimladau drylliog iawn. Yr oedd ef, a naw ar hugain ereill, yn cael eu derbyn i gyflawn aelodaeth ar foreu y Sabbath, Hydref 5ed: ac af o honynt oll; sef, Dr. Rees—yn awr o Aber- o'r deg ar hugain a dderbyniwyd i'r eglwys yn Nghapel Isaac y Sabbath hwnw, nid yw yn debygol fod un yn fyw yn bresennol ond yr ieuangtawe. Dechreuodd Williams hynodi ei hun yn ddioed wedi ymuno â'r eglwys fel gweddïwr effeithiol, canwr rhagorol, athraw medrus yn yr Ysgol Sabbothol, ac esboniwr da yn y cyfarfodydd egwyddori. Tynodd ei dalentau yn fuan sylw yr eglwys; ac yn mis Awst, 1830, darfu iddo ef, a'i gyfaill mynwesol, John Stephens, wedi hyny o'r Brychgoed, gael eu hannog i ddechreu pregethu. Yr oedd dau ereill o blant y diwygiad yn yr eglwys hono wedi dechreu pregethu tua dau fis o'u blaen hwy; ac yn mhen blwyddyn ac ychydig fisoedd ar eu hol, dechreuodd dau neu dri ereill. Wedi bod yn pregethu yn ei fam-eglwys, a rhai o'r eglwysi cymmydogaethol, am o ddeutu blwyddyn, aeth ef a'i gyfaill,

Digitized by Google

ei eglurder, ei agosrwydd at ei wrandawyr, y synwyr cyffredin a nodweddai bob peth a ddywedai; a phereidd-dra ei lais yn y rhan olaf o'i bregeth, yn ddigon o iawn, yn nghyfrif ei wrandawyr, am bob diffyg y gallasai clust beirniadol ei glywed ynddo.

WESLEYAETH: dynoda yr enw y golygiadau athrawiaethol a'r ddysgyblaeth eglwysig a ddysgwyd ac a sefydlwyd gan Mr. John Wesley, a'i gydweithwyr. Am ei hanes personol ef, gwel yr erthygl ar WESLEY, JOHN. Y mae *Wesleyaeth* yn ffurfio rhan bwysig o'r diwygiad Methodistaidd; ac y mae hanes dechreuad Wesleyaeth yn hynod o gymmhlethedig â hanes y diwygiad cyffredinol hwnw. Ond rhaid i'r erthygl hon fod yn gyfyngedig yn benaf i hanes y gangen Wesleyaidd o'r symmudiad, er nad ellir ysgoi cyfeiriadau achlysurol at Fethodistiaeth yn gyffredinol.

Er cael golwg gywir ar achlysur y symmudiad pwysig hwn yn y byd crefyddol, rhaid adgofio sefyllfa foesol, grefyddol, a llenyddol Prydain ar y pryd. Yr oedd moesau y wlad yn hynod o isel. Gollyngid y ffrwyn ar wàr amrywiol chwantau llygredig y natur ddynol, ac yr oedd pechod yn ei wahanol ffurfiau yn ymdori allan, nes gwneyd cyflwr cymdeithas yn hynod o isel. Yr oedd sefyllfa grefyddol y wlad yn resynus. Dynion diddysg ac anwybodus ydoedd mewn urddau yn yr Eglwys Sefydledig, ac ni ragorai llawer o honynt ar braidd eu gofal mewn moes a duwioldeb. Nid oedd y canghenau Ymneillduol oedd ar wasgar drwy y wlad yn aros yn eu perffeithrwydd. Yr oedd ysbrydolrwydd a duwiolfrydedd y tadau Puritanaidd i raddau pell wedi ei golli, a ffurfioldeb a sychder ysbryd wedi meddiannu eu holynwyr. Gyda hyny, yr oedd gogwyddiad crefyddol yr oes at anffyddiaeth, a gweithiau Hobbes, Tindal, Collins, Shaftesbury, a Chubb yn cael cylchrediad lled gyffredinol. Pan yn efrydydd yn Rhydychain, ni allasai John Wesley fod yn ddall i sefyllfa cymdeithas o'i gwmpas, ac yn arbenig i sefyllfa ei gyd-efrydwyr. Yr oedd eu moesau isel, a'u gogwyddiadau anffyddol, yn cyffroi ei ysbryd. Arweiniodd hyn i ffurfiad y "Clwb Sanctaidd." Ymgynnullai y ddau Wesley, ac ychydig ereill o'r cyffelyb feddwl, er cynnal cyfarfodydd crefyddol—manteisiol i feithrin tueddiadau ac arferion sanctaidd. Nid oeddynt hyd yn hyn yn y goleu am natur gwir sancteiddrwydd, nac am y moddion i'w gyrhaedd. Tueddent yn ormodol at gynnyrchu hunan-gyfiawnder, ac at sicrhau hunan-bureiddiad. Yr oeddynt yn ddidwyll a gonest; ond heb ddeall ffordd Duw yn fanwl. Dyma hedyn cyntaf *Trefnyddiaeth.* Yn wir, dechreuasant gael yr enw o *Drefnyddion* y pryd hyn:—a dyma pa ham y cyfrifir Rhydychain yn gryd Trefnyddiaeth.

Yn y fl. 1738, daeth y ddau Wesley i gydgyfarfyddiad â Peter Böhler—un o bregethwyr y Moraviaid. Defnyddiwyd ef gan Ragluniaeth i agoryd llygaid y ddau frawd am natur ffydd gadwedigol. Daeth y ddau frawd yn fuan i weled eu bod yn amddifad o'r ffydd sydd i fywyd; ond o dan gyfarwyddyd eu hathraw newydd, dygwyd hwynt yn fuan i berchenogi gwir ffydd, a'r profiad o iachawdwriaeth sydd yn dilyn. Buont am beth amser yn ymwasgu at y Moraviaid, ond nid ar draul gollwng gafael o'r eglwys yn yr hon y dygwyd hwynt i fyny. Y mae yr amgylchiad hwn yn werth ei gofnodi, am ei fod yn esboniad ar rai o arweddion mwyaf amlwg y diwygiad Methodistaidd. Y mae amgylchiadau y fl. 1738 yn galw am ein sylw. Yr oedd Charles Wesley y pryd hwn yn gwneyd ymegnïon canmoladwy i gynnyrchu cyffroadau crefyddol yn Llundain. Cymmeradwyid ei olygiadau a'i ymdrechion gan amryw glerigwyr, a chwanegai dychweledigion yn ddyddiol o dan ei weinidogaeth; ond yn fuan, cauid drysau eglwys ar ol eglwys yn ei erbyn. Ymgymmerodd â churadiaeth Islington; ond trowyd ef ymaith yn fuan—nid yn gymmaint o herwydd ei olygiadau duwinyddol, ond yn fwy o herwydd ei sêl a'i frwdfrydedd crefyddol. Ymgymmerodd â mynychu Newgate, er dysgu trefn iachawdwriaeth i'r trueiniaid condemniedig a gaethiwid yno. Ymwasgai, hefyd, at y mân gynnulliadau perthynol i'r Moraviaid. Yn Medi, 1738, dychwelodd John Wesley o Germany. Yr oedd ei ysbryd yntau erbyn hyn yn llawn tân. Ymwelai â'r eglwysi, a phregethai ynddynt gyda nerth, tra y parhaodd y drysau yn agored; ond cauwyd drws ar ol drws yn ei erbyn yntau hefyd. Nid oedd ganddo bellach ond ymwasgu at gymdeithasau y Moraviaid, talu ymweliad â'r carcharau er "dysgu ffordd Duw" yno, a myned yn ol a blaen i eglwysi gwledig, lle y caffai dderbyniad. Glynai John Wesley yn dyn, hyd yn hyn, wrth drefniadau manylaf yr Eglwys Sefydledig. Yr oedd angen am ryw Ioan Fedyddiwr i barotoi y ffordd i lafur eangach a mwy cyffredinol. Yn Rhagfyr, 1738, cyrhaeddwyd Llundain gan George Whitfield, ar ol bod yn gwneyd gwaith mawr yn America. Cyfarfyddwyd ef gan John Wesley—a llongyfarchent eu gilydd. Cafodd Whitfield yr un driniaeth a'r ddau Wesley. Mewn tri diwrnod, cafodd bump o eglwysi yn gauedig yn ei erbyn. Ond bu y culni hwn yn achlysur daioni mawr. Ymwasgodd yntau at gymdeithasau y Moraviaid, ac ad-daniwyd ei sêl gan symledd eu haddoliadau. Trodd Whitfield ei wyneb i Bristol—ei ddinas enedigol. Yr ydoedd yr eglwysi yn agored iddo ar y cyntaf; ond yn mhen pythefnos, yr oedd pob drws yn gauedig yn ei erbyn, ond drws carchardy Newgate; ac yn fuan, cauwyd hwnw hefyd, trwy orchymyn y maer. Nid oedd gan Whitfield, bellach, ond gwrandaw yn fwy ar lais rhagluniaeth Duw nag ar drefniadau dynion. Dydd Sadwrn, Chwefror 17eg, 1739, gwynebodd ar Kingswood—cymmydogaeth a breswylid gan löwyr, yn benaf; pa rai a gyfrifid yn hynod am eu drwg-foesau a'u hannuwioldeb. Yr oeddynt yn gwbl amddifad o foddion gras, ac wedi ymollwng i arferion isel a phaganaidd. Yma, teimlodd yn rhydd i bregethu yn yr awyr agored, er fod hyny yn afreoleidd-dra eithafol yn ol safonau yr eglwys y perthynai iddi. Ymgymmerodd â mynychu y lle; ac yr oedd ei weinidogaeth yn at-dynol a llwyddiannus iawn. Daeth dwy fil i'w wrando ar ei ail ymweliad; o bedair i bum mil ar ei drydydd ymweliad; ac yn raddol, cynnyddasant i ddeg, pedair-ar-ddeg, ac ugain o filoedd! Wedi hyn, ymwrolodd a safodd ar *bowling-green* Bristol, a phregethodd i filoedd oedd wedi ymgasglu ynghyd. Wrth weled ei lwyddiant, anfonodd at Mr. Wesley i ddyfod i'w gynnorthwyo. Prin y gallasai efe ymgymmodi ar y cyntaf â'r "annhrefn" hwn. "Yr oeddwn yn meddwl," meddai, "y buasai achub eneidiau bron yn bechod, oddi eithr iddo gael ei wneyd o fewn yr eglwys." Ymadawodd Whitfield—ac ymgymmerodd Wesley â phreg-

Digitized by Google

Wesley yn aiddgar dros olygiadau athrawiaethol Arminius—nid dros yr Arminiaeth ddirywiedig a goleddwyd gan rai o'i ddysgyblion, ac a ddysgwyd yn Ewrop; ond yr Arminiaeth sydd i'w chael yn ysgrifeniadau y duwinydd galluog, James Arminius, ac a eglurwyd gan y gwrthdystwyr (*Remonstrants*) yn Nghymmanfa Dort. Gan fod y golygiadau athrawiaethol hyn yn un o brif arweddion Wesleyaeth, ac mai dyma brif achos yr ymraniad rhwng Wesley a Whitfield, dyma y cyfleusdra goreu a gawn i osod yr athrawiaethau hyny ger bron:—

1. Fod Duw wedi rhaglunio i roddi iachawdwriaeth i'r rhai a ragwelai a weithredent ffydd yn Nghrist, yn ddirwystr, hyd angeu; ac ar y llaw arall, ei fod wedi trefnu colledigaeth dragwyddol yr anghredinwyr a wrthsafent eu gwahoddiadau, i ddiwedd eu bywyd.

2. Fod Iesu Grist, trwy ei angeu, wedi rhoddi iawn dros holl bechodau pawb, a phob un, o ddynolryw; etto, nad oes neb ond credinwyr i fod yn gyfranogion o'i ddwyfol fanteision.

3. Nad all neb o hono ei hun, na thrwy alluoedd ei rydd ewyllys, gynnyrchu na chenhedlu ffydd yn ei enaid ei hun: a chan fod dyn wrth natur yn ddirywiol, ac yn annigonol i feddwl na gwneuthur yr hyn sydd dda, fod yn angenrheidiol iddo gael ei "eni drachefn," a'i adnewyddu gan Dduw, trwy yr Ysbryd Glân, er mwyn Crist.

4. Fod y dwyfol ras, neu y dylanwad hwn, sydd yn iachau dyn, yn perffeithio yr oll a ellir ei alw yn ddaioni gwirioneddol ynddo; etto, nad yw y gras hwn yn gorfodi neb yn groes i'w ewyllys, er y gellir teimlo cyndynrwydd yn yr ewyllys.

5. Fod y sawl a unir â Christ drwy ffydd, yn cael eu cynnysgaeddu â nerth digonol i orchfygu pechod; ond fod yn bossibl i ddyn golli ei ffydd, a syrthio ymaith oddi wrth ras.

Parotowyd y gwahaniad hwn gan yr ohebiaeth a ddygid yn mlaen cydrhwng Wesley a Whitfield tra yr oedd yr olaf yr ochr arall i'r Werydd. Ond wedi glaniad Mr. Whitfield yn y wlad hon, Mawrth 11eg, 1741, y cyrhaeddodd pethau y pwynt terfynol. Ymlusgodd amryw fân betheuach i mewn i'r anghydwelediad, nad oeddynt yn perthyn i athrawiaeth, â thuedd ynddynt i oeri serchiadau y ddau arweinydd y naill at y llall, ac i attal llwyddiant yr adfywiad crefyddol; ond y gwahaniaeth barn am athrawiaethau oedd wrth wraidd y gwahaniad wedi y cwbl. Ni ddygwyd credo athrawiaethol yn safon aelodaeth yn y cymdeithasau. Diarddelwyd Acourt yn Llundain, a Cennick yn Kingswood—nid am eu bod yn coleddu y golygiadau Calvinaidd, ond am eu bod yn achosi trwst ac afreoleidd-dra yn yr amlygrwydd a roddent i'w credo yn y cymdeithasau. Bellach, dyma Drefnyddiaeth (*Methodism*) wedi ymranu.

Dilyn hanes Trefnyddiaeth Wesleyaidd fydd ein hunig orchwyl yn yr erthygl hon. Rhaid cadw y sylw yn benaf ar ymffurfiad y cyfundeb yn ol yr amgylchiadau, yn gymmaint ag mai amgylchiadau fuont yr achlysuron o'r gwahanol sefydliadau a berthynant iddo.

Ar ol y gwahaniad, ymgyssegrodd Mr. Wesley, a'i frawd Charles, ac ereill o'u cydweithwyr, i gadw tân yr adfywiad yn fyw, ac i ymledu yn ei derfynau. Dyma yr adeg y codwyd pregethwyr llëygol. Y cyntaf oedd Thomas Maxfield. Yr oedd efe, ac ereill, yn gynnorthwywyr, trwy gynghori, darllen, ac egluro yr Ysgrythyrau cyn hyn; ond dyma adeg cychwyniad pregethu gan lëygwyr. Yr oedd Wesley ar y cyntaf yn wrthwynebol iawn i hyn, a gadawodd Bristol am Lundain er rhoddi attalfa ar yr hyn a gyfrifai yn annhrefn. Ond yr oedd ei fam yn fwy blaenllaw nag ef i ymryddhau oddi wrth osodiadau ac arferion y sefydliad eglwysig gwladol; ac o dan ei dylanwad hi y cydsyniodd i gyd-ddwyn â phregethwyr llëygol. Wrth bregethwyr llëygol, y deallir rhai heb dderbyn urddau esgobol. Nid oedd Mr. Wesley y pryd hwn yn cydnabod awdurdod unrhyw urddiad arall. Cynnyddodd eu rhif yn ystod y flwyddyn gyntaf i dri-ar-hugain o bregethwyr teithiol, heblaw amryw o bregethwyr lleol. Un o'r rhai amlycaf o honynt ydoedd John Nelson—saer maen wrth ei alwedigaeth. Yr oedd yn frodor o swydd York. Dilynai ei alwedigaeth yn ystod y dydd, a threuliai ei nosweithiau i bregethu a chynnal cymdeithasau. Yn y flwyddyn hon hefyd y sefydlwyd y rhestr-gyfarfod (*class-meeting*) cyntaf. Gwnaed hyny yn Bristol; ac ar ddychweliad Mr. Wesley i Lundain, ffurfiwyd y cyffelyb gyfarfodydd yno. Hyd yn hyn, yr oedd yr oll o'r aelodau yn cydgyfarfod â'u gilydd; ond yn ffurfiad y rhestr-gyfarfodydd, dosbarthwyd y cymdeithasau yn ddosranau o ddeuddeg, a gosodwyd hwy o dan ofal un dyn a elwid yn flaenor (*leader*)—gwaith yr hwn oedd gofalu am weled pob aelod yn ei restr unwaith yn yr wythnos. Cynnelir y cyfarfodydd hyn mewn canu mawl, darllen yr Ysgrythyrau, adrodd profiadau crefyddol, a rhoddi cyfarwyddyd, cynghor, rhybudd, a chysur, gan y blaenor, yn ol cyflwr ac amgylchiadau pob aelod. Yn y flwyddyn hon hefyd y sefydlwyd gwylnosau (*watch-nights*). Cynnelid hwy ar y cyntaf yn achlysurol, yn ol y cyfleusderau; ond yn awr, nid ydynt yn cael eu cynnal ond yn unig ar ddiwedd y flwyddyn, a therfynir hwy mewn gweddi ar ddyfodiad y flwyddyn newydd i fewn. Yr oedd yr adfywiad yn ymledu yn ei derfynau yn barhaus. Cludwyd y tân i swydd York, Lincoln, Cornwall, a manau ereill yn Lloegr; a chymmerid gwibdaith i Gymru, yn awr a phryd arall, gan y ddau Wesley. Yn y cyfnod yma y talodd John Wesley ymweliad âg Epworth, ei le genedigol, ac y pregethodd bob nos am wythnos ar gareg fedd ei dad—amgylchiad sydd yn cael ei adgofio trwy gyfrwng darlun hynod o darawgar. Treuliai y dydd i ymweled â gwahanol bentrefi a chymmydogaethau o fewn cyrhaedd Epworth, i draddodi y genadwri iawr. Pan ar ymweliad â Newcastle yn Chwefror, 1743, a gweled y cyffro oedd wedi ei gynnyrchu mewn ardaloedd cylchynol, gwelodd Mr. Wesley yr angenrheidrwydd am drefnu ei lafur teithiol wrth gynllun mwy cysson a rheolaidd, a pheidio byth a "tharaw cymmaint ag un ergyd lle nad allai ddilyn gydag ergydion ereill." O hyn yr ymgododd ei gyfundrefn "gylchdeithiol"—cynllun a sefydlwyd ganddo yn fuan ar gyfer llafur ei holl gynnorthwywyr. Meddylddrych y cynllun ydyw, gosod nifer o leoedd, yn amrywio o ddeg i ddeg-ar-hugain, o dan ofal un neu ddau o bregethwyr teithiol—gorchwyl pa rai ydyw pregethu, cyfarfod y rhestrau, a gweinyddu dysgyblaeth yn y lleoedd hyny. Y mae llwyddiant y gwaith, a lliosawgrwydd y cymdeithasau, wedi peri fod cylch y teithiau lawer iawn yn gyfyngach nag oeddynt yn y cychwyniad. Ni oddef ein terfynau i ni ymdroi i sylwi yma ar yr arddangosiadau anianyddol oedd i'w

Digitized by Google

Rochdale; a throes Edward Jones ei wyneb tua'i hen gartref, o dan bwysau afiechyd. Nid oedd ganddo ef ar y pryd olwg ar ddim pellach nag adferiad iechyd; ond yr oedd gan Dduw waith yn ei aros. Nid oedd y bachgen yn neb amgen na Mr. Edward Jones o Bathafarn—tad Wesleyaeth Gymreig.

Ar ei ffordd adref, galwodd gyda'r gweinidogion Wesleyaidd Saesnig yn Nghaer, i ofyn a ddeuent i bregethu i Ruthyn. Cydsyniodd y ddau weinidog—y Parchn. Thomas Hutton, a George Morley—ac hefyd, Mr. John Bryan; yr hwn oedd ar y pryd yn aros yn Nghaer, ac yn pregethu yn gynnorthwyol gyda'r Saeson, er yn enedigol o Lanfyllin, yn sir Drefaldwyn, ac yn Gymro o ran iaith, os nad o ran cenedl.

Ionawr 3ydd, 1800, aeth Mr. Jones i Ruthyn, a chymmerodd lofft fawr Mr. John Edwards, cwriwr, o dan ardreth, fel lle i gydgyfarfod ynddo i addoli. Dyma yr addoldy cyntaf a fu gan y Wesleyaid Cymreig erioed. Ymroddodd Mr. Jones i wneyd daioni. Casglai esgeuluswyr moddion gras i'r 'llofft fawr,' i ddarllen a gweddïo gyda hwy. Ymunodd amryw â'r gymdeithas newydd a ffurfiwyd, a phennodwyd Mr. Jones yn flaenor arnynt gan un o weinidogion Caer. Yr oedd cylch ei lafur yn ymeangu. Elai i gynnal moddion i Lanfair, Tan-y-graig, Llandegla, Llanelidan, a manau ereill; ac ymledai y sôn am 'Mab Bathafarn,' ac ymgasglai cryn nifer i'r 'llofft fawr.'

Yn mis Ebrill, ar un Sabbath, ymwelodd Mr. Bryan â'r lle. Pregethodd am ddau ar *Gal.* iii. 13; ac am chwech ar *Marc.* xvi. 15. Ymwelodd drachefn â'r lle y dydd cyntaf o Fehefin, yn yr un flwyddyn. Pregethodd am chwech ar *Act.* ii. 11. Ymunodd amryw â'r achos y naill dro a'r llall. Ond er hyny, "llin yn mygu" oedd yr achos hyd yma. Yr oedd ymweliad y pregethwyr yn anfynych, a Mr. Jones yn teimlo nad oedd efe yn ddigonol ar gyfer y gwaith mawr oedd wedi ei ddechreu.

Yn y flwyddyn 1800, yr oedd y gynnadledd yn cael ei chynnal yn Llundain—y Parch. James Wood yn llywydd, a'r Parch. Samuel Bradburn yn ysgrifenydd. Yn ystod y gynnadledd, bu peth ymddiddan ynghylch anfon cenhadon i Gymru. Arweinid yr ymddiddan gan Mr. Gaulter a Mr. W. Jenkins. Ond siarad oedd yr oll, a Chymru yn cael ei gadael heb neb ar ei chyfer i'r Cymry—yr holl weinidogion wedi eu sefydlu. Cyn i'r gynnadledd fyned drosodd, cyrhaeddodd Dr. Coke yno o'r Iwerddon. Teimlai eiddigedd sanctaidd yn ennyn o fewn ei fynwes yn achos Cymru. Gosododd achos ei wlad ger bron; a dadleuodd yn glir, yn gryf, ac yn anorchfygol, y dylasai cenhadon Wesleyaidd gael eu hanfon i Gymru. Ennillodd gydymdeimlad y gynnadledd:—a phennodwyd y Parchn. O. Davies a J. Hughes ar gyfer yr anturiaeth, ac enwyd Rhuthyn fel canolbwynt maes eu llafur. Yr oedd Mr. Owen Davies yn Gymro o ran cenedl. Ganwyd a magwyd ef yn Llanrhaiadr-yn-Mochnant, yn sir Ddinbych; ond gan iddo dreulio y rhan fwyaf o'i ddyddiau boreuol yn mhlith y Saeson, yn yr iaith hono yr oedd yn fwyaf cyfarwydd. Bu yn gweinidogaethu yn mhlith y Saeson am ddeng mlynedd cyn hyn; ond meddai lawer o gymmhwysderau ar gyfer ei gylch newydd. Yr oedd yn ddyn o synwyr cryf, o dymmheredd siriol, o gydymdeimlad dwfn âg achos y Gwaredwr, ac wedi cael cryn brofiad o drafferthion y weinidogaeth. Yr oedd Mr. John Hughes yn frodor o Aberhonddu. Bwriadai ei rieni iddo geisio urddau yn yr Eglwys Sefydledig; ond rhoddodd ef ei fryd ar y weinidogaeth deithiol yn mhlith y Wesleyaid. Derbyniodd addysg uwchraddol, a rhagorai yn ngwahanol ganghenau gwybodaeth. Cymmerai ddyddordeb neillduol yn hanes cenedl y Cymry; a chyfaddasodd hyn ef, at lawer o gymmhwysderau ereill, i droi ei wyneb i'n gwlad. Yr oedd y pedair blynedd a dreuliodd eisoes yn y weinidogaeth yn barotoad ar gyfer y gwaith. Cyrhaeddasant Rhuthyn ar y 30ain o Awst, 1800. Pregethodd Mr. Hughes y noson hono ar *Salm* xxxiii. 12. Pregethodd eilwaith ar y 7fed o Fedi ar *Rhuf.* viii. 1. Dygasant gyda hwynt i Gymru neillduolion yr enwad. Nos Lun, Tachwedd 24ain, cynnaliwyd cariad-wledd. Heb law yr aelodau eglwysig yn Rhuthyn, yr oedd yno rai o Lanfair a Llanrhaiadr, gyda saith o Ddinbych, a thri o Gorwen. Yr oedd y cyfan tua chant o bersonau. Cafwyd cyfarfod nodedig o dda; a dygid tystiolaeth i waith gras Duw. Yr oedd amryw yn dadgan yn groyw fod y weinidogaeth Wesleyaidd wedi bod "yn allu Duw er iachawdwriaeth" iddynt, fod eu beiau wedi eu maddeu, a'r cymmod wedi ei selio. Bu hyn yn adgyfnerthiad mawr i'r achos:—adlonodd eu hysbryd, a gwrolodd eu calon. Fel hyn, yn Rhuthyn y rhoddwyd yr "hedyn mwstard" i lawr: yma yr ardrethwyd y lle cyntaf i addoli ynddo; yma y dewiswyd y blaenor cyntaf, yn mherson Mr. Jones, Bathafarn; yma a bennodwyd yn brif orsaf y gylchdaith gyntaf; yma y cynnaliwyd y cyfarfod chwarterol cyntaf, ac y pennodwyd Mr. Harrison, Llaneurgain, a Mr. R. Williams, Acran, yn mhlwyf Gresford, yn oruchwylwyr cylchdaith gyntaf. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, yr oedd y gylchdaith yn cymmeryd i fewn Dinbych, Llanelwy, Tremeirchion, Treffynnon, Llaneurgain, Wyddgrug, Llanarmon-yn-iâl, Llanfair, ynghyd âg amryw fân leoedd ereill o amgylch Rhuthyn. Ffurfiwyd cymdeithas eglwysig yn y gwahanol leoedd hyn; ac yr oedd Mr. Davies a Mr. Hughes yn ymweled yn gysson â hwy. Ymwelid â'r lleoedd yn achlysurol hefyd gan Mr. Bryan, o Gaer. Nid ydyw rhif y dychweledigion yn ystod y flwyddyn ar gael.

Yn nghynnadledd y flwyddyn 1801, pennodwyd Mr. Bryan i gydlafurio â Mr. Davies a Mr. Hughes yn nghylchdaith Rhuthyn; ac mewn canlyniad, helaethwyd terfynau y gylchdaith, gan gymmeryd i mewn Gwrecsam, Bangor-is-y-coed, Bersham, Caergwrle, Brymbo, Caerlleon. Llangollen, Llandegla, Bryneglwys, ynghyd âg amryw bentrefi rhwng y lleoedd uchod a'u gilydd; ac yn wir, yr oedd y gylchdaith yn cymmeryd i mewn y rhan fwyaf o swyddi Dinbych, Fflint, Meirion, a Maldwyn. Bu llwyddiant mawr ar ymdrechion llafurfawr y cenhadon yn ystod y flwyddyn. Yr oedd yr holl ddychweledigion erbyn diwedd y flwyddyn yn bum cant a phump a deugain (545).

Yn nghynnadledd y fl. 1802, fe chwanegwyd enwau Mr. Edward Jones, Bathafarn, a Mr. John Maurice at rif y cenhadon. Hyd yn hyn, llafurio fel blaenor, cynghorwr, a phregethwr cynnorthwyol, yr oedd Mr. Jones; ond bellach, daeth i ymgymmeryd yn llawn â gwaith y weinidogaeth. Nis gellir dyweyd am dano ei fod yn alluog fel pregethwr, yn ystyr arferedig y gair; ond yr oedd yn eglur, syml, swynol, a llwyddiannus iawn. "Mab dyddanwch" ydoedd efe: denu, adeiladu, a chysuro, oedd ei hyfryd waith.

Digitized by Google

i Lockhart, i'r hwn y cyflwynodd efe ei waith a edmygwyd gymmaint yn ei ddydd, sef "*Peter's Letter to his Kinsfolk.*" Etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg Wadham, Rhydychain; ond yn gymmaint a'i fod yn teimlo y cariad hwnw at ei wlad enedigol oedd yn nodwedd mor amlwg yn y teulu hwn, efe a ddychwelodd i Gymru, ar farwolaeth ei dad; a derbyniodd y pennodiad o brif athraw i ysgol Ystradmeurig, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth; yr hyn a gymmerodd le yn 1824, er galar dwys i'w holl gydnabod, tra nad oedd efe ond cymmharol ieuangc. Thomas ac Anne oeddynt efeilliaid: bu y blaenaf yn uchgadben yn ngwasanaeth Cwmni yr India Ddwyreiniol, a phriododd y ddiweddaf gyda'r Parch. Richard Morgan. Letitia a briododd Dr. Davies, wedi hyny Syr David Davies, physygwr i'r diweddar frenin William IV., a'r frenhines Adelaide. Cafodd John ei addysg foreuol yn ysgol Ystrad, dan ofal ei dad; a chan ei fod yntau yn meddu talentau disglaer, rhoddes ernes buan o'r enwogrwydd a gyrhaeddodd mewn oedran addfetach. Bu ei gynnydd mor gyflym mewn dysg a gwybodaeth, fel y cymmerodd y Parch. Thomas Horn ef, pan oedd yn un ar bymtheg mlwydd oed, i'w gynnorthwyo fel athraw clasurol yn ysgol Cheswick—swydd a lanwodd dros flwyddyn. Yna dychwelodd i gynnorthwyo ei dad yn ysgol Ystradmeirig; yn yr hon yr oedd nifer yr ysgolheigion yn cyrhaedd cynnifer a naw ugain. Wedi treulio dwy flynedd yn y gorchwyl pwysig yma gyda'i dad, aeth am ychydig amser i ysgol Llwydlo (Ludlow), lle yr ennillodd ysgoloriaeth; ac yn mis Tachwedd, 1810, aeth i ysgol Baliol, Rhydychain, ac efe yn bedair blwydd ar bymtheg oed.

Dilynodd ei efrydiaeth yn Rhydychain gyda diwydrwydd a llwyddiant mawr; ac yn ngwanwyn 1814, gosodwyd ef yn un o bedwar yn y dosbarth cyntaf. Un o'r tri ereill oedd yr enwog Ddoctor Arnold; yr hwn, fel Williams ei hun, a ddaeth wedi hyny yn un o brif ddysgawdwyr y Deyrnas Gyfunol. Prif efrydiaeth Williams hyd yn hyn oedd yr ieithoedd clasurol a hanesyddiaeth, yn y rhai yr ymenwogodd yn ddirfawr; ond yn fuan wed'yn, trodd i astudio mesuroniaeth (*mathematics*); a dangosodd yr un gallu yn y gelfyddyd fawr hono. Clywsom y chwedl ganlynol flynyddoedd yn ol am ei arholiad yn Rhydychain ar derfyn ei efrydiaethau yno. Nid ydym yn atteb am ei chywirdeb yn ei holl fanylion; ond y mae mor agos ag y gallwn ei chofio. Y pryd hwnw byddai yr efrydwyr a gynnygient eu hunain am arholiad gydag anrhydedd (*honours*), yn enwi pa lyfrau yr oeddynt am gael eu harholi ynddynt; ond byddai nifer y llyfrau yn ddealladwy. Ac yr oedd y nifer yn fwy po uchaf yr anrhydedd a geisient —ai y dosbarth cyntaf (*first class*), neu yr ail, &c. Ond pan aeth Williams i gael ei arholi, casglodd yr holl lyfrau Groeg o ddim pwys y gallai gael gafael arnynt, ac anfonodd hwynt ar ferfa i'r ystafell lle y cynnaliwyd yr arholiad. Ymgasglodd llu o'r efrydwyr yno hefyd. Pan welodd yr arholwyr yr hyn oedd o'u blaen, deallasant amcan y dyn ieuangc ar unwaith, a thybient ei fod yn hanner ynfydu, gan fod golwg led drymaidd arno, neu ei fod wedi cymmeryd llawer gormod arno ei hun, a bod eisieu 'ei dynu i lawr,' fel y gallai adnabod ei le yn well, a ffurfio syniad mwy cywir am ei alluoedd yn y dyfodol. Rhoddasant iddo un o dreisganau (*tragedies*) Euripides, yr ydym yn meddwl, i'w chyfieithu. Pa fodd bynag, nid oedd testyn yr un a gafodd yn gyflawn, fel y byddai raid iddo ei gyflawni, yn gystal a'i gyfieithu. Pan welodd ei waith, gloewodd ei lygaid, a dywedodd "Nis gallai ei gyfieithu fel y dymunwn; ond mi a'i cyfieithai cystal ag y mae yn bossibl i neb ei gyfieithu." Yna dechreuodd ar y gorchwyl, a pharhaodd i fyned rhagddo mewn modd mor gywir a meistrolgar fel yr edrychodd yr arholwyr ar eu gilydd mewn syndod, a thynasant eu capiau oll fel cydnabyddiaeth o'r orchest a gyflawnodd y Cymro:—ac, fel y gellid meddwl, ennillodd anrhydedd uchaf y brif ysgol.

Yn fuan ar ol hyny, pennodwyd ef yn gynnorthwywr i Dr. Gabell, penaeth Coleg Caer-wynt (Winchester); a bu yn y swydd hono dros bedair blynedd, gan roddi boddlonrwydd cyffredinol i'w uwchafiaid. Yna ordeiniwyd ef yn ddiacon gan Esgob Ripon, a thrwyddedwyd ef i guradiaeth Dirley, yn swydd Hants; ac yn fuan ar ol hyn, urddwyd ef yn 'offeiriad' gan esgob Caerwynt. Wedi iddo ymadael â Dr. Gabell, aeth yn gynnorthwywr i'r Meistri Richards, yn ysgol Hyde Abbey, Caer-wynt. Yn ystod y ddwy flynedd y bu yn y lle yma, ennillodd serch ac edmygedd amryw o wŷr dysgedig—cyfeillach pa rai a fu o fudd a chynnorthwy mawr iddo yn ei efrydiau.

Yn 1820, pan yr oedd yn wyth ar hugain oed, cynnygiodd y Dr. Burgess, esgob dysgedig Tŷ Ddewi, ficeriaeth Llanbedr Pont Stephan iddo; gan ddadgan ei ddymuniad ar yr un pryd ar iddo ddwyn yn mlaen yr ysgol a sefydlwyd yno gan y ficer blaenorol. O herwydd fod Mr. Williams, fel ei dad, yn llawn o ysbryd gwladgarol, ni phetrusodd dderbyn y cynnyg hwn; gan yr hyderai y caffai gyfleusdra weithian i fod o les a gwasanaeth uniongyrchol i'w gydwladwyr—y Cymry. Am hyny rhoes brif arolygiaeth ysgol Hyde Abbey i fyny yn ddibetrus, ynghyd â rheithoriaeth St. Lawrence, Caer-wynt, i'r hon yr oedd newydd ei bennodi; a dychwelodd yn llawen i hen wlad ei enedigaeth. Yr oedd y Dr. Burgess y pryd hyn yn dra awyddus am adeiladu coleg yn Llanddewi-brefi; ond dangosodd Mr. Williams iddo y byddai yn llawer mwy cyfleus yn Llanbedr, gan y byddai yr ysgol rammadegol oedd yn y dref hono yn barod yn gnewyllyn a maethle rhagorol i'r coleg. Cydsyniodd yr esgob â'r Cymro craffus; ac o ganlyniad, yn Llanbedr yr adeiladwyd y coleg. Yr ydym yn tybied mai o gylch y pryd hwn y gwnaed Williams gan yr esgob Burgess yn Archddiacon Ceredigion, yn Ganon Tŷ Ddewi, ac yn Gantor Aberhonddu, er na fynegir hyny gan neb o'i fywgraphwyr, hyd y gwelsom ni. Ond y maent oll yn cyttuno ei fod yn dal y swyddogaethau hyny.

Tra yn ficer Llanbedr, ac yn brif athraw ysgol Llanbedr, efe a gymmerai ysgolheigion preifat i'w haddysgu; ac yn mhlith ereill, gellir enwi Charles Scott, mab Syr Walter Scott, y nofelydd a'r bardd enwog; William Forbes Mackenzie, yr hwn a fu yn un o brif ysgrifenyddion y trysorlys, dan weinyddiaeth Arglwydd Derby: a Villiers Surtees, wedi hyny Syr Villiers Surtees, yr hwn a fu am lawer o flynyddau yn brif farnydd y Mauritius. Cynnygiwyd y swydd o lywydd y coleg newydd i Mr. Williams gan yr archesgob Burgess; ond nis gallai efe gydsynio â golygiadau yr esgob ynghylch y modd yr oedd y coleg i gael ei ddwyn yn mlaen; gan hyny, efe a'i gwrthododd. Yr oedd athrofa newydd yn

Digitized by Google

derbyniodd yr alwad; ac ar y 27ain o Fawrth, 1776, neillduwyd ef i 'gyflawn waith y weinidogaeth,' yn ol yr hen derm a arferir yn Nghymru. Traddodwyd y cynghor i Mr. Williams gan ei hen athraw, Dr. Davies, oddi wrth 1 *Tim.* iii. 15; a'r cynghor i'r gynnulleidfa gan y Parch. Mr. Fawcett, o Kidderminster. Pan oedd yn Ross, ar yr 28ain o Orphenaf, 1777, priododd merch ieuangc o'r enw Mary Llewellyn; yr hon oedd yn foneddiges o deulu parchus, o foesau neillduol o ddymunol, ac o dduwioldeb diffuant.

Byr fu arosiad Mr. Williams yn Ross. Derbyniodd alwad o Groesoswallt (Oswestry), a symmudodd yno yn Medi, 1777. Bu am ysbaid o amser yn athraw i nifer o fyfyrwyr a gyflwynodd boneddiges o'r enw Lady Glenorchy i'w ofal. A chyn hir ar ol ei symmudiad i Groesoswallt, symmudwyd yr athrofa o Abergafenni yno, fel y cai yr efrydwyr fantais o fod dan ei addysg ef, fel y cymmhwysaf a feddai yr enwad i ymddiried yr athrofa i'w ofal. Nid heb bryder dwys, ac ymgynghoriad â'i gyfeillion, a gweddïau am arweiniad y Nefoedd, y derbyniodd efe y pennodiad i'r swydd bwysig hon, fel y dengys ei lythyrau. Ond derbyniodd hi, ac ar y 14eg o Fai, 1782, cyrhaeddodd y llyfrau a'r offerynau gwyddonol a berthynent i'r sefydliad i Groesoswallt, a dilynwyd hwynt gan amryw o'r efrydwyr. Cafodd llawer o weinidogion Gogledd a Deheudir Cymru eu haddysgu ganddo tra yn Nghroesoswallt. Llafuriodd yn hynod o galed yn y dref hono—rhwng pregethu, addysgu y myfyrwyr, ac ysgrifenu: ac yno y daeth ei alluoedd fel ysgrifenydd i'r golwg gyntaf.

Pan yn llywydd ar yr athrofa ddywededig yn Nghroesoswallt, ar gyffiniau gwlad ei enedigaeth, cyhoeddodd argraphiad, wedi ei dalfyru a'i ddiwygio, o Maurice's "*Social Religion Exemplified,*" gyda rhai nodiadau ar y llyfr buddiol a difyrus hwnw. Cyhoeddodd hefyd, mewn pedair cyfrol, dalfyriad o Esboniad Dr. Owen ar yr Epistol at yr Hebreaid. Yr amcan wrth dalfyru y gwaith llafur-fawr hwnw oedd crynhoi sylwadau meithion yr awdwr galluog i lai o gwmpas; a gobeithiai y gallai ei wneyd drwy hyny yn fwy cyfaddas at wasanaeth Cristionogion yn gyffredin:—a llwyddodd hefyd yn ei amcan daionus. Yn y gyfrol gyntaf o'r gwaith, ysgrifenodd Williams ddau lythyr gwerthfawr:—un at Dr. Priestley, yr Undodiad enwog; a'r llall at Mr. David Levi, yr Iuddew; gan gymmhell y ddau i ddarllen yr Epistol at yr Hebreaid, ac i gymmeryd y Beibl yn unig, ac nid traddodiadau nac opiniynau ereill, na dychymygion, i benderfynu y cwestiynau pwysig yr ymdrinir â hwynt yn yr epistol. Cyhoeddodd hefyd bregeth ar yr adeg hon ar "*Ddylanwad Ymarferion Crefyddol ar ein hymofynion am y Gwirionedd;*" a llythyr at Mr. Belsham, mewn cyssylltiad â hi. Ond y prif waith a ysgrifenodd, pan yn Nghroesoswallt, oedd ei waith ar "Fedydd"—at yr hwn y cawn gyfeirio etto.

Yr oedd Mr. Williams yn llafurio yn rhy galed yn y blynyddoedd hyny; a daeth yntau ei hunan i weled hyny yn raddol. Efe oedd yn cael ei ystyried fel oracl yr Annibynwyr yn Ngogledd Cymru ar yr adeg hono. Ac heb law ei ddyledswyddau dyddiol a pharhaus, yr oedd ganddo lawer o ofalon achlysurol gyda golwg ar gynnulleidfaoedd cymmydogaethol, ac ysgolion rhad dyddiol a Sabbothol hefyd yn Nghymru. Y diweddar Barch. Griffith Jones, o Landdowror, a dorodd y dywarchen hon o ddaear Cymru gyntaf i bwrpas; ac y mae'n eglur mai efe a fu y mwyaf llwyddiannus o neb yn yr ystyr hwn. Yr oedd ganddo, mor foreu a'r flwyddyn 1760, gynnifer a 215 o ysgolion dyddiol rhâd mewn unar-ddeg o'n siroedd, ac yr oedd ynddynt y pryd hwnw 8,687 o ysgolheigion [gwel cyf. vi. td. 368]; a bu farw yn y flwyddyn 1761—pan nad oedd Dr. Williams ond tuag un-ar-ddeg oed, a'r Parch. T. Charles, o'r Bala, tua phump oed. Ond y mae yn eglur fod y tri yn adnabod angenion Cymru yn dda—ac wedi ymroddi o ddifri i'w cyflawni. Cafodd Dr. Williams gymmhorth arianol gan gyfaill iddo, yn Lloegr, o'r enw Henry Thornton, Ysw., aelod seneddol oedd yn byw yn Llundain, yr hwn fyddai yn cyfranu at achosion teilwng tua 5,000*p.* yn y flwyddyn. Cynnorthwywyd ef hefyd yn fawr gan foneddiges o'r enw Mrs. Davenport. A thrwy eu cynnorthwyon hwy, efe a sefydlodd ysgolion dyddiol a Sabbothol rywbryd cyn y flwyddyn 1789 (fel y dengys llythyr a ysgrifenodd at Mr. Thornton, dyddiedig Mai 14eg, 1789), yn y lleoedd canlynol—Treffynnon, Dinbych, Caernarfon, Bala, a Llanfyllin. Ac fel y dengys llythyr arall a ysgrifenodd at yr un person, dyddiedig Rhagfyr 31ain, 1790, yr oedd Pentre, Sarnau, Bangor, a Machynlleth, erbyn hyny wedi eu chwanegu at y nifer. At wasanaeth yr ysgolion hyn y cyhoeddodd efe ei "*Evangelical Catechist,*" yn y ffurf o holiadau ac attebion, gydag adnodau—yn debyg i lyfrau eraill cyffelyb yn ein hiaith. Cyhoeddwyd y llyfr yn Saesneg, yn dair rhan. Yr oedd y rhan gyntaf o hono wedi ei gyhoeddi cyn y flwyddyn 1790, fel y dengys y llythyr y cyfeiriwyd ato uchod; a bwriadai yr awdwr ei gyfieithu ei hun i'r iaith Gymraeg, "er mwyn y rhai nad allent ddarllen y Saesneg." Y mae y rhan gyntaf wedi ei fwriadu i blant; yr ail, i ddosbarthiadau hynach; a'r trydydd, i ddosbarthiadau hynach drachefn. A gallai y cyhoeddiad o honynt yn awr yn yr iaith Gymraeg fod o wasanaeth i ieuengctyd ein Hysgolion Sabbothol, heb gyffwrdd dim â'r llyfrau gwerthfawr eraill a ddefnyddir; gan eu bod oll wedi eu bwriadu i wneyd prif ffeithiau y Beibl yn hysbys ynglŷn âg enwau y personau hynotaf y ceir eu hanes ynddo.

Ond agorodd drws iddo allu ymddiosg o'i ofalon mawr am dymmor, a hyny yn dra naturiol. Derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwys yn Carr's Lane, Birmingham—a chydsyniodd â hi. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yno Ionawr 1af, 1792, pan yr oedd efe yn y ddeugeinfed flwydd o'i oedran. Ei bregeth gyntaf yn Carr's Lane oedd ar *Gal.* vi. 14. Pan yn myfyrio ar y testyn hwn y derbyniodd y newydd ei fod wedi cael ei raddio yn Ddoctor mewn Duwinyddiaeth gan brif ysgol Edinburgh. Yr oedd pump ar hugain o broffeswyr dysgedig wedi arwyddo y *diploma.* Ni raid i ni ddyweyd wrth neb sydd yn gydnabyddus â gweithiau a chymmeriad Mr. Williams fod yr anrhydedd hwn wedi dyfod iddo heb yr ymgais lleiaf ar ei ran ef i'w gael. Yr oedd rhai o'i weithiau mor adnabyddus mor foreu a hyn, ac wedi cyrhaedd cymmaint o enwogrwydd, fel nad oedd neb yn rhyfeddu fod yr anrhydedd wedi disgyn i'w ran, fel y dengys y dyfyniad canlynol o lythyr a ysgrifenodd Dr. Davies, o Lundain, ato ar y pryd:—"Nid eich canmawl yr ydwyf," meddai; "ond traethu fy marn yn gywir a diragrith, wrth ddywedyd nad oes, yn fy marn i, un gweinidog Ymneillduol wedi derbyn yr arwydd hwn o anrhydedd, sydd mor haeddiannol o hono ag yr ydych chwi, o fewn

ac yn weinidog ar yr eglwys a ymgynnullai yn Masbro, yn nghymmydogaeth y dref a enwyd. Derbyniodd wahoddiadau taer i ymgymmeryd â'r ddwy swydd cyn marwolaeth Mrs. Williams; ond ar ol ei chladdu hi y penderfynodd eu hatteb yn gadarnhaol. Yr oedd ei ymadawiad o Birmingham yn achos o ofid dwfn a dwys i'r eglwys yn Carr's Lane—i'r hon y bu y diweddar Barch. John Angell James yn gweinidogaethu ar ei ol am lawer o flynyddoedd, a lle y mae Mr. R. W. Dale yn llafurio yn awr—ond fod y capel wedi ei helaethu. Pan yr ymgymmerodd efe a gofal yr eglwys hon, yr oedd hi mewn sefyllfa hynod o anfoddhaol, a'i hamgylchiadau yn ddyrys a therfysglyd; ac yr oedd y gynnulleidfa hefyd yn llawer llai mewn canlyniad—fel y gallesid disgwyl. Ond yr oedd gŵr o grefyddolder, a doethineb, pwyll, ac ysbrydolrwydd Dr. Williams, yr hwn oedd hefyd mor fawr ei sêl dros y gwirionedd, ac mor alluog i'w amddiffyn—yr oedd gŵr o'i fath ef yn dra chymmhwys i adferu pethau i drefn; a bendithiwyd ei lafur â llwyddiant mawr. Ar adeg ei ymadawiad o'r dref i gymmeryd gofal yr athrofa a enwyd, derbyniodd lythyrau oddi wrth lawer o bersonau yn amlygu eu serch tuag ato, ac yn dwyn tystiolaeth i'r lles a dderbyniasant o dan ei weinidogaeth; ac yr oedd un o honynt wedi ei lawnodi gan bump ar hugain o ddynion ieuaingc, oedd wedi bod yn arfer mynychu cyfarfodydd, yn y rhai yr arferid ymdrin â thestynau o'r Ysgrythyrau, a chwestiynau duwinyddol, o dan ei arolygiaeth ef. Ac mor fawr oedd parch yr eglwys a'r gynnulleidfa hono tuag ato, fel y gosodasant goflech o farmor yn mur yr adeilad—ac y mae hi yno hyd heddyw—yn goffadwriaeth am gyssylltiad Dr. Williams â hwynt.

Ar y 30ain o Fedi, 1795, y dechreuodd efe ar ei orchwylion pwysig yn Masbro, ac agorwyd yr athrofa ar y 5ed o Dachwedd dilynol. Yn y lle hwn y llafuriodd hyd derfyn ei oes:—â Rotherham, bellach, y cyssylltir ei enw, ac fel 'Dr. Williams, o Rotherham' yr adnabyddir ef o hyn allan. Pregethodd, a dysgodd, ac ysgrifenodd lawer iawn yn y lle hwn. Ar yr 28ain o Orphenaf, 1796, galwyd arno ar fyr rybudd, i draddodi siars i'r cenhadon cyntaf, y rhai oeddynt ynghylch cael eu hanfon allan i Ynysoedd Môr y Deheu gan Gymdeithas Genhadol Llundain. Cyhoeddwyd y siars yma:—ac mewn math o ymddiheurad a gyhoeddwyd gydag ef, rhoddir ar ddeall mai mewn diwrnod y cafodd ei gyfansoddi, iddo gael ei draddodi y dydd canlynol, a'i argraphu y trydydd dydd, a'i ddanfon hefyd i'r wasg heb ei ail ysgrifenu. Amgylchiadau oedd yn peri fod y brys yma yn angenrheidiol: er hyny, y mae yn anerchiad galluog a rhagorol—yn sylfaenedig ar *Gen.* xvii. 1. Y mae y cynghorion a roddir, a'r cymmhellion a ddefnyddir, yn hynod briodol i'r achlysur, ac yn cael eu gosod allan yn yr arddull gref a chlir oedd yn nodweddu ei bregethau a'i weithiau.

Wedi iddo ymsefydlu a chartrefu yn Rotherham, cyhoeddodd amryw lyfrau a thraethodau tra gwerthfawr. Mewn cyssylltiad â'r Parch. Edward Parsons, o Leeds, cyhoeddodd Weithiau y Dr. Doddridge, mewn deg o gyfrolau heirdd; y rhai a gyfoethogwyd yn fawr gan nodiadau o'i eiddo ef ei hun, ar lawer o'r pyngciau yr ymdriniai Dr. Doddridge â hwynt. Cyhoeddodd hefyd weithiau yr Arlywydd Edwards—neu, fel yr adnabyddir ef oreu gan lawer yn Nghymru, '*President* **Edwards,' neu 'Jonathan Edwards o** America'—gyda nodiadau gwerthfawr o'i eiddo ei hun, er egluro, coethi, diwygio, ac amddiffyn amrywiol bethau yn ngwaith y gŵr mawr ac enwog hwnw. Y mae sylwadau Dr. Williams ar draethawd Edwards ar yr ewyllys yn nodedig o werthfawr. Cyhoeddodd hefyd bregeth o'i eiddo ei hun ar Etholedigaeth, gydag olnodion. Tynodd y bregeth hon sylw mawr yn Lloegr a Chymru: a gwrthwynebwyd ei olygiadau ar "darddiad drwg moesol," y rhai a welir yn yr olnodion yn cael eu hegluro i raddau, gan amryw o ddynion galluog; ond barna llawer nad oeddynt yn amgyffred y pwngc cystal ag y buasai yn ddymunol. Cyhoeddodd hefyd amryw bregethau ereill, ac anerchiadau, o bryd i bryd. Cyhoeddodd argraphiad o Salmau a Hymnau Dr. Watts, gydag attodiad gwerthfawr, a "*Musical Hints*" at wasanaeth cantorion cynnulleidfaol. Cyhoeddodd hefyd lyfr gwerthfawr iawn i bregethwyr yr efengyl, o'r enw "*Y Pregethwr Cristionogol.*" Ond y ddau waith mawr a gyhoeddodd efe, pan yn Rotherham, oeddynt y traethawd a enwyd o'r blaen, sef ei "*Equity and Sovereignty,*" a'i "*Defence of Modern Calvinism,*" yr hwn oedd yn attebiad i haeriadau Dr. Tomline, esgob Lincoln, gyda golwg ar Galviniaeth; ar ba rai y cawn sylwi yn mhellach rhagllaw.

Casglwyd gweithiau Dr. Williams ynghyd, ychydig o flynyddoedd yn ol, a chyhoeddwyd hwynt yn bedair cyfrol, dan olygiaeth y Parch. Evan Davies, o Dalston; yr hwn, drwy hyny, a wnaeth wasanaeth gwerthfawr i ddynion myfyrgar yn mysg pob enwad crefyddol. Nid yw y cyfrolau hyn yn cynnwys ei nodiadau ar Weithiau Edwards, ac Owen, a Doddridge, na'i "*Christian Preacher,*" na "*Social Religion Exemplified*" chwaith.

Wrth gymmeryd golwg ar y gweithiau hyn, yn y cyfrolau a gyhoeddwyd gan y Mri. Nisbet a'i Gyf., o Lundain, gwelir mai y tri sydd yn sefyll allan yn mlaenaf yn mysg cyfansoddiadau Dr. Williams, ydynt, ei lyfr ar "Fedydd," ei "*Equity and Sovereignty,*" a'i "*Defence of Modern Calvinism.*" Nid oes un o honynt wedi gwneyd eu ffordd i'r Gymraeg, o herwydd yr anhawsder fyddai ynglŷn â'u cyfieithu yn ddealladwy, gan mor athronyddol y mae efe yn ymdrin â'r holl gwestiynau sydd yn dyfod dan ei sylw. Ni a gymmerwn ein rhyddid, gan hyny, i agor ychydig ar y trysorau sydd ynddynt, er mwyn rhoddi cyfleusdra i'n cydgenedl ddyfod i adnabod y Cymro hwn a'i ysgrifeniadau yn well, ac i weled y lle mawr a lanwodd yn llenyddiaeth grefyddol y deyrnas yn niwedd y ganrif ddiweddaf, a dechreu yr un bresennol.

Y mae ei waith ar "Fedydd;" sef, ei "*Antipædobaptism Examined,*" yn cynnwys sylwedd yr oll y gellir ei ddywedyd o blaid taenellu, a bedyddio babanod. Ond nid yw efe yn myned mor bell a llawer o'r Cynnulleidfaolwyr, a'r Eglwys Sefydledig, ac ereill, drwy bleidio bedyddiad babanod pawb, fel y gwelir yn y sylwadau canlynol. Yr hyn a barodd iddo ysgrifenu y llyfr hwn oedd cyhoeddiad gwaith ar Fedydd, gan ysgrifenydd galluog iawn a berthynai i'r Bedyddwyr, o'r enw y Parch. Abraham Booth, yn y flwyddyn 1784, dan y teitl "*Pædobaptism Examined.*" Yr oedd Mr. Booth yn selog dros olygiadau yr enwad y perthynai iddo, ac y mae ei ysgrifeniadau yn gyfryw ag a dueddent i ddylanwadu yn fawr ar y neb a'u darlleno. Y mae yn ddiammheuol fod y cynllun a dynodd Mr. **Booth allan iddo ei hun yn y gwaith hwn yn**

Digitized by Google

efe, dealler, yn egluro ac yn amddiffyn golygiadau Calvin ei hun, ond "Calviniaeth Ddiweddar"—"*Modern Calvinism,*" fel y geilw efe hi. A dyma y Galviniaeth a gredir ac a ddysgir gan y rhan fwyaf o lawer yn y blynyddoedd hyn. Yr ydym yma yn rhoddi ei olygiadau ef ei hun, allan o'r rhagymadrodd i'r gwaith:—

"Y mae y term 'Calviniaeth Ddiweddar,' sydd yn gosod allan y Galviniaeth a 'amddiffynir' yma, yn cael ei fabwysiadu am dri rheswm. Yn gyntaf, o herwydd ei fod yn amlwg mai dyma yr hyn yr oedd ei arglwyddiaeth yn dymuno ei wrthwynebu —cynnydd cyflym yr hwn, fel yr ymddengys, sydd wedi ei anfoddloni. Y mae efe yn gwybod fod Calviniaeth yn cael ei lledaenu yn ddiwyd ac yn llwyddiannus; a thrwy ddyfynu rhyw ddarnau anghymmeradwy o weithiau Calvin y mae efe yn ymdrechu i argyhoeddi meddyliau y cyhoedd y dylid gwrthwynebu y fath athrawiaethau. Y mae yn briodol, gan hyny, rhoddi ar ddeall hefyd i'r cyhoedd, nad ydyw Calviniaeth corph y bobl yr ymosodir arnynt yn ddiwahaniaeth gan ei arglwyddiaeth yn cynnwys yr oll o'r hyn y mae efe yn ei briodoli iddynt. Yr ail reswm dros fy mod yn defnyddio y term ydyw, o herwydd fod y mwyafrif mawr o'r rhai sydd yn myned dan yr enw cyffredinol hwn, mewn amseroedd diweddar, yn ystyried, am rai o osodiadau Calvin, nad ydynt ond casgliadau yn unig, a dynwyd ganddo oddi wrth ranau o'i gyfundrefn ei hun gyda gormod o brysurdeb, neu rhy ychydig o ochelgarwch. Y maent yn ystyried fod y casgliadau hyny (yn enwedig rhai casgliadau a dynir oddi wrth yr athrawiaeth am arfaethau Duw) yn niweidiol, a'u bod yn anurddo prydferthwch cyffredinol ei gyfundrefn dduwinyddol, heb chwanegu dim at ei nerth gwirioneddol. Mewn gair, ystyrir fod ei gynseiliau, wrth gymmeryd golwg arnynt mewn goleuni priodol, yn gyfryw fel nad oes arnynt angen am, ac nad ydynt yn goddef rhai o'i gasgliadau:—y rhai sydd wedi rhoddi achos teg o anfoddlonrwydd i ddosbarth mawr o Gristionogion sydd yn parhau i gymmeryd eu galw ar ei enw, a'r rhai sydd yn cael eu cymmhell i'w barhau (fel nôd o wahaniaeth), am eu bod yn barnu nad oes un o'r Diwygwyr Protestanaidd, mewn unrhyw wlad, nac hyd yn oed un o'r tadau Cristionogol, wedi dangos mor brydferth, neu amddiffyn mor alluog yr athrawiaeth ysgrythyrol o ras penarglwyddiaethol Duw. Y trydydd rheswm pa ham yr wyf yn arfer y gair yw, o herwydd nad ydyw y Calviniaid diweddar yn gyffredinol, yn y wlad hon, yn mabwysiadu y ddysgyblaeth eglwysig oedd yn wreiddiol yn gynnwysedig yn y term 'Calviniaeth.' Y mae yr ystyriaethau hyn yn cyfiawnhau, yn marn yr awdwr ei hun, y tir y mae efe wedi ei gymmeryd, yn gystal a'r teitl a fabwysiadodd efe i'w lyfr."

Nid oedd, hyd y pryd hwn, ddadganiad eglur a manwl o Galviniaeth Ddiweddar yn ei chyfanrwydd wedi ei gyhoeddi. Yr oedd, y mae'n wir, gyhoeddiadau ar ei hamrywiol byngciau; ond hyd pan gyhoeddodd Dr. Williams ei waith ef, nid oedd ei gwahanol athrawiaethau wedi eu harddangos yn eu perthynas â'u gilydd, ac fel rhanau o un gyfundrefn. Ond yma, y mae rhanau hanfodol cyfundrefn Calvin—y rhanau hyny o honi sydd yn gysson âg anrhydedd yr Iehofah, ac â chyfrifoldeb dyn—yn cael eu hamddiffyn gyda nerth a rhesymau anattebadwy, ac yn cael eu dangos yn gysson â thystiolaethau y Beibl. Wrth wneuthur hyn, y mae Dr. Williams wedi arddangos, a bwrw o'r neilldu fel yn anghysson âg Ysgrythyr a rheswm, hyny o gymmysgedd a ymddangosai yn nghyfundrefn yr hen ddiwygiwr—yr hwn, yn ei dyb ef, na lwyddodd efe i'w weithio allan i foddlonrwydd; a'r hwn sydd wedi creu rhagfarn yn meddyliau llaweroedd yn erbyn holl olygiadau Calvin ei hun. Y mae pob tudalen o'r gwaith yn arddangos ysbryd boneddigaidd ac ysgolheigdod uchel ei awdwr, a'i onestrwydd a'i addfwynder Cristionogol.

Ni oddef ein terfynau i ni ymhelaethu yn mhellach ar ei weithiau; ond ymfoddlonwn ar roddi rhestr o'r gweddill o honynt. Ac yr ydym yn hyderu fod digon wedi ei ddywedyd i roddi mantais i'n cydwladwyr weled natur ei ysgrifeniadau, a'r lle uchel yr oedd efe yn ei feddu yn marn rhai o'r dynion enwocaf a welodd y ganrif bresennol. Ein rheswm dros feithder ein sylwadau arno mewn gwaith o fath hwn—os oes eisieu y cyfryw hefyd—ydyw, mai Cymro ydoedd, a Chymro a addefai yn wastad gyda balchder ei berthynas â'i wlad a'i genedl; ac nad ydym yn gwybod fod un o'i weithiau wedi eu cyhoeddi yn y Gymraeg, na chofiant am dano o unrhyw fath. O herwydd hyn, yr oedd yn rhwym o fod yn dra adnabyddus i'n cydwladwyr; a diammheu y bydd yn dda ganddynt gael y cyfleusdra i ymgydnabyddu â'i hanes. Y mae y rhestr ganlynol yn cynnwys yn unig y rhai na chyfeiriwyd atynt o'r blaen yn y tudalenau blaenorol:—"*Sermons:*" "*Charges:*" *Dissentations* "*On the present state of Moral Science;*" "*Evidence in Moral Science;*" "*Power—its different kinds;*" "*Voluntary operations;*" "*Liberty and Necessity;*" "*Nature of Things, and Hypothetical Tendencies;*" "*Divine prescience and Scientia Media;*" "*On a First Cause;*" "*On a Necessary Agent;*" "*Moral Obligation and Inability;*" "*Moral Evil;*" "*Motives;*" "*Virtue and Vice;*" "*God's Ultimate End in Creation;*" "*Views on War;*" "*Internal Evidence of Christianity;*" and "*Justification:*" *Academic Exercises*—"*Hints to the Students;*" "*Syllabus of Lectures:*" "*Church Fellowship:*" ac amryw ysgrifeniadau ereill.

Yr oedd yn rhaid fod ei gyfansoddiad yn gadarn, a'i feddwl yn gryf i allu cyfansoddi y fath weithiau, yn chwanegol at y dyledswyddau lliosog eraill oedd yn galw am ei sylw fel gweinidog, fel llywydd y gwahanol athrofäau a gawsant fwynhau ei wasanaeth, fel tad, ac yn chwanegol at y cwbl yn wyneb llawer o bryder yn cael ei achosi gan afiechyd ei wraig. Ar ddiwedd pob blwyddyn byddai yn arfer cyflwyno i Fwrdd Trysorfa y Cynnulleidfäwyr, yn ngofal yr hwn yr oedd y colegau wedi eu hymddiried, adroddiad manwl o'r efrydiau a ddilynwyd yn nghorph y flwyddyn flaenorol, ac o ymddygiadau a chynnydd pob efrydydd oedd dan ei ofal. Y mae rhan o un o'r adroddiadau hyn ger ein bron yn awr. Ar ol nodi cymmeriad ac ymddygiad pob dyn ieuangc ar ei ben ei hun, y naill ar ol y llall, a rhoi hysbysrwydd llawn am ei efrydiau llenyddol, y mae yn enwi testynau y darlithiau y bu efe ei hun yn eu traddodi iddynt; sef,

"Ar Hanesiaeth Eglwysig, a Hynafiaethau Iuddewig (*Ecclesiastical History, and Jewish Antiquities*); Beirniadaeth Ysgrythyrol (*Sacred Criticism*); Duwinyddiaeth, fel cyfundrefn, ac yn ei gwedd ddadleuol (*Controversial and Systematic Divinity*); ac Anianyddiaeth Naturiol (*Natural Philosophy*). Y mae ein nosweithiau," medd efe, "wedi cael eu treulio gyda Rheitheg (*Logic*), duwinyddiaeth, a'r darlleniad o awduron Saesnig, ynghyd â'r hyn sydd yn cael ei ystyried yn fwyaf angenrheidiol mewn Mesuroniaeth (*Mathematics*). Y mae cynlluniau o bregethau, a phregeth wythnosol lawn hefyd, wedi cael eu chwilio yn gysson genyf."

Yr oedd ganddo, y mae yn wir, athraw yn ei gynnorthwyo gyda gwaith y coleg; ond efe ei hun oedd yn cyflawni y pethau uchod. Y mae

Digitized by Google

yn eglur gan hyny ei fod yn gydwybodol yn cyssegru, nid yn unig ei ddyddiau, ond ei nosweithiau hefyd at waith yr athrofa; ond er hyn oll, ar derfyn y flwyddyn y cyfeiria y dyfyniad uchod ati, dyma yr olwg a gymmerai efe ar ei waith:—

"Ar y cyfan, nis gallaf ddyweyd fy mod yn medru adolygu fy llafur gwael y flwyddyn ddiweddaf gyda'r un boddhâd a'r eiddo blynyddoedd blaenorol:—yr hyn sydd, fe ddichon, wedi ei achosi gan waeledd fy iechyd, a gofidiau lawer yn fy nheulu, a phethau ereill hefyd."

Heb law y manteision hyn oedd ganddynt yn y coleg i gasglu gwybodaeth, ei arferiad ydoedd cymmhell ymddiddanion rhydd ar giniaw ar faterion o bwys iddynt. Byddai yr efrydwyr, ni dybiwn, yn byw yn y coleg; a'i arferiad oedd cyflwyno cwestiwn i'w sylw un diwrnod ar ryw bwngc cyffredinol, neu galw eu sylw at ryw anhawsderau neillduol mewn duwinyddiaeth, neu foeseg (*morals*), neu wyddoniaeth, &c.; ac ar giniaw y dydd canlynol, ymddiddanent â'u gilydd arno. Byddai yr efrydwyr yn arfer traethu eu golygiadau y naill ar ol llall, a byddai y Dr. yn gweithredu fel llywydd, os cyfodai dadl rhyngddynt. Ac yn y diwedd, rhoddai grynodeb o'r sylwadau a gafwyd yn yr ymddiddanion, ac yna ei olygiadau ei hun ar y cwestiwn. Yr oedd yn eglur ei fod ef ei hun yn mwynhau yr ymddiddanion hyn; a chofid hwynt gyda hyfrydwch mawr gan y rhai fuont dan ei ofal. Ni welid un amser arwyddion o'r hyn y gellid ei alw yn ysgafnder arno: yn hytrach, byddai mor feddylgar a difrifol ei ysbryd fel yr ystyriai yr efrydwyr fod cael gwên ar ei wynebpryd yn rhagorfraint. Er hyny, edrychent arno ef fel cyfaill calon, a theimlent ei fod yn gwir haeddu y cymmeriad hwnw, ac yn barod i roddi gwrandawiad iddynt pa bryd bynag y dymunent am ei gyfarwyddyd a'i gynghor: a byddai mor bryderus ynghylch eu llwyddiant yn y dyfodol ag y gallai tad fod am lwyddiant ei blant. Nid llawer sydd wedi llwyddo i ennill cariad a pharch gwirioneddol y rhai fuont dan eu gofal yn gymmaint ag ef.

Dan bwys ei holl lafur, fel y dywedwyd, pan yn Nghroesoswallt, ymddangosodd arwyddion fod ei nerth i raddau yn gwanhau; ond cryfhaodd tra y bu yn weinidog yn Carr's Lane, Birmingham, gan fod ei lafur yno gryn lawer yn llai. A pharhaodd yn lled gryf am amser wedi symmud i Rotherham; ond cafodd amryw o rybuddion, trwy ymosodiadau o'r cryd melyn, fod ei babell yn adfeilio, gan iddynt ei adael mewn gwendid mawr. Ac yn y dyfyniad canlynol o lythyr a ysgrifenodd at gyfaill, sef y Parch. Mr. Weaver, o Mansfield, Mawrth 29ain, 1806, y mae efe yn disgrifio y teimladau a adawyd gan yr ymosodiadau adnewyddol hyn:—

"Y mae yr afiechyd hwn yn hwy ei barhâd nag un a gefais er's llawer o flynyddoedd o'r blaen; ac y mae genyf achos i ddyweyd iddo fod yn fendith i mi. O! na byddai iddo gynnhyrfu, i raddau helaethach nag erioed, 'heddychol ffrwyth cyfiawnder.' Yr wyf yn gweled, gyda phrofion cryfach nag arferol, y mawr bwys o gael cymmundeb â Duw, ac o feddu tymmer addolgar. Mewn adeg o adfyfyrdod difrifol, ac yn ngolwg y byd tragwyddol, mor fychain, mewn cymmhariaeth, yr ymddengys holl bethau y byd hwn! Y pethau a'r gweithrediadau sydd yn effeithio fwyaf ar ein sefyllfa dragwyddol sydd yn ymddangos yn fwyaf pwysig dan ddylanwad cystuddiau sancteiddiedig. Y mae y llinellau syml a ganlyn, y rhai a welais yn rhywle, wedi gwneuthur argraph dwfn ar fy meddwl, am werth amser, a'r modd goreu i'w iawn ddefnyddio:—

"Use the talent God hath given—
Work on earth, and rest in heaven."

[Y dalent gefaist gan dy Dduw
Defnyddia i'w glod ef;
Llafuria'n ddiwyd ar y ddae'r,
A gorphwys yn y nef.]

Dyna yw fy nheimlad, a dyna fel yr wyf yn dymuno teimlo, o berthynas i fy niffygion a'm colliadau yn yr amser a aeth heibio, fel y mae fy enaid yn ymddarostwng yn isel ger bron Duw. Y fath drugaredd ydyw, yn yr olwg ar bechod, wreiddyn a changen—y pechodau a gyflawnwyd, a'r dyledswyddau a esgeuluswyd—fod genym, ac y gallwn edrych ar yr Eiriolwr sydd gyda'r Tad, yr hwn 'nid yw gywilyddus ganddo ein galw ni yn frodyr'—yr hwn sydd yn meddu ein natur ni, etto heb bechod—cyfiawnder yr hwn sydd yn berffaith a thragwyddol, a gwaed yr hwn sydd 'yn glanhau oddi wrth bob pechod!'

"Ar ddechreu blwyddyn newydd, bydded i mi ddechreu ar yrfa newydd o fywyd sanctaidd, gan anghofio y pethau sydd o'r tu ol, ac ymestyn at nôd fy nghamp uchel! O! tydi, Dad y trugareddau! maddeu i mi fy mhechodau a aethant heibio, a thyn fi atat dy hun! O! tydi, yr Emmanuel anwyl! fy Arglwydd, a'm Hathraw bendigedig, dysg i mi wneuthur dy ewyllys! O! tydi, Ysbryd y gwirionedd! goleua ac arwain fi i bob gwirionedd. Ysbrydola fi â sêl sydd yn ol gwybodaeth, ac â chariad nas gall dyfroedd lawer ei ddiffodd, na llifeiriant ei foddi! O! tydi, y Drindod sanctaidd! unwaith etto yr wyf yn adnewyddu yr ymgyflwyniad o honof fy hun i ti! Fy enaid a'm corph, fy efrydiau a'm talentau, fy nheulu a'r eglwys—yr wyf yr awr hon yn eu cyssegru i Dduw, fy Ngwaredwr. Iesu bendigedig! bydded i'th ras fod yn ddigon i mi, a pherffeithier dy nerth yn fy ngwendid.

EDWARD WILLIAMS.

Y mae y llyfr hwn yn dyst o hyn.
Y mae yr ystafell hon yn dyst hefyd."

Cafodd ei adferu o'r afiechyd hwn, pa fodd bynag, ond ymosodwyd arno amryw weithiau drachefn; a byddai bob amser, fel y gellir barnu oddi wrth y dyfyniad uchod, yn hynod ddioddefgar yn ei gystudd. Ond daeth yr ymosodiad olaf o'r diwedd; ac ar y 9fed dydd o Fawrth, yn y flwyddyn 1813, llithrodd yn araf, ac yn ddistaw, mewn cwsg esmwyth i huno yn yr Iesu, a chafodd orphwys yn dragywyddol oddi wrth ei lafur, yn y drydedd flwyddyn a thrigain o'i oedran. Ymwelodd un o'i hen efrydwyr âg ef ychydig o ddyddiau cyn ei farwolaeth, a chafodd ef yn dawel ac yn ymwybodol hollol, fel y disgwyliodd y byddai; a dywedodd wrtho fod ei holl obeithion wedi eu sylfaenu ar

"LWON, ADDEWIDION, A GWAED."

Claddwyd ef mewn beddgell dan yr areithfa lle y pregethodd efe yr efengyl mor fynych ac mor onest i bechaduriaid.

Dysgyblion iddo ef oedd y Parch. T. Jones, o Newmarket, a'r Parch. John Roberts, o Lanbrynmair; y Parch. Joseph Gilbert, o Nottingham, a'r enwog Ddr. J. Pye Smith, o Lundain, &c.

O ran ei berson, lled dal ydoedd, a theneu; ond yr oedd ei gorph yn lluniaidd, a'i symmudiadau a'i holl ymddygiad yn foneddigaidd. Yn ei wynebpryd yr oedd yn debyg i Gymro, ond tueddai at fod yn hir. Yr oedd ei lygaid yn llawn o fywyd; a phelydrent yn danbaid, yn enwedig pan yn ymresymu, neu mewn ymddiddanion a'i cynnhyrfai; er hyny, gorphwysai rhyw dawelwch urddasol ar ei holl agweddiad. Yr oedd ei ben o ffurfiad prydferth, a'i dalcen yn llydan ac uchel, yn arddangos meddwl bywiog a nerthol; ac yr oedd ei holl ymddangosiad



Digitized by Google

yn gadael argraph ar feddyliau y neb a sylwent arno, ei fod yn ŵr pwyllog a mawreddog, ac o fyfyrdod dwfn. Pan yr ymwelai dyeithriaid âg ef, ymddangosai iddynt yn fynych, ar yr olwg gyntaf, fel pe buasai yn tueddu i gilio oddi wrthynt; ond nid oedd hyny i'w briodoli ond i'w hoffder o fyfyrdod, yn hytrach nag ymddiddan. Ond gwisgai hyny ymaith yn fuan, a cheid ei fod ef yn dyner, calon-agored, caredig, ac mor hollol ddifalais a diragrith a phlentyn. Ond er mor dawel yr arferai fod, byddai ei deimladau yn fynych yn cael eu cyffroi gan y cwestiynau y myfyriai neu y traethai arnynt. Gellir tybied fod ei deimladau ar ddechreu ei fywyd yn agored i gael eu cyffroi yn fyrbwyll; ond trwy wyliadwriaeth a gras, dygwyd hwynt yn gwbl dan lywodraeth—fel pan y byddai yn cael ei gynnhyrfu fwyaf, nid oedd un arwydd i'w weled ond fod ei lygaid wedi llymhau, ac fe allai yr ymddangosai gwrid ysgafn ar ei wyneb; ond byddai ei iaith a'i ymddygiad yn parhau yr un ag o'r blaen. Ni byddai y gwrthwynebiadau a dderbyniodd gan ei frodyr, na sylwadau mwyaf angharedig ac anffafriol y wasg ar ei ysgrifeniadau yn effeithio dim ar dawelwch ei feddwl; a chariai gydag ef i bob man yr un ymddangosiad tawel a heddychol, ond penderfynol; yr hwn a arddangosai yn eglur ei fod yn feddiannol ar gydwybod ddirwystr, a bod ei amcanion yn anrhydeddus a chywir. Ychydig o ddynion sydd i'w cael, meddai Mr. Gilbert—un o'i efrydwyr—sydd wedi gallu cyfuno penderfyniad mor ddiysgog gyda chymmaint o fwyneidd-dra Cristionogol. Yn ei deulu, yr oedd yn gariadlawn, a cherid ef gan bawb; ac nid oedd gyfaill ffyddlonach nag ef i'w gael. Yr oedd ei dduwioldeb yn ddiammheuol, etto yn gwbl ddiymhongar; ac ymddangosai fel pe byddai yn byw mewn awyrgylch crefyddol, a'i enaid wedi ei lenwi â myfyrdodau ar y cwestiynau pwysig a berthynent i Gristionogion; fel y dengys yr ychydig ddyfyniadau canlynol o'i ddyddlyfr:—

"Ai nid oes ryw bechodau yn cael eu cyflawni bob dydd nad ydyw yn ngallu y diafol eu cyflawni; a rhyw hapusrwydd yn cael ei fwynhau ar y ddaear y mae yr angylion yn ddyeithriaid iddo?"

"Oddi wrth ddiffrwythder a gwywder enaid, Arglwydd daionus, gwared ni! O Arglwydd! anfon lwyddiant yn awr i dy was, fel y delwyf ger dy fron 'mewn gorfoledd, dan gludo fy ysgubau.'"

"A ydyw yr arddull a'r agwedd coegynaidd (*gay*) ac ysgafn a glywir ac a welir yn rhy fynych yn y pulpud, yn gysson â'r dwysder dwfn ac ofnadwy o ddifrifol sydd yn teyrnasu yn mhregethau ein Harglwydd, a'i apostolion?"

"Yr oedd doe i mi yn Sabbath pruddaidd; ond oddi wrth yr hyn y gallaf ei gasglu, y mae mwy wedi derbyn bendith yndde nag ar amserau pan y byddwn i yn mwynhau y rhyddid mwyaf. O Arglwydd! Duw eiddigus ydwyt ti, ac 'ni orfoledda un cnawd ger dy fron.'"

"Tynwyd fy enaid allan boreu heddyw, yn ddirgel ac yn gyhoeddus, tuag at Dduw mewn modd nas gellir ei draethu. Tybiwn fod y byd—fy hunan—ie, yr holl greadigaeth—wedi ymgolli yn y mawr ragorol ogoniant. O Arglwydd! bydded i mi fwynhau yr ymweliadau nefol hyn yn fynych."

"Pum mis i heddyw y daethum i'r dref hon. A ydyw fy enaid yn agosach at, neu yn mhellach oddi wrth Dduw nag yr oedd? Pa ddaioni a wnaethum i?—pa bechodau a gyflawnais?—pa drugareddau a dderbyniais?—pa ddyledswyddau a esgeulusais?—pa faint o amser a gollais?—pa dalent sydd yn cael ei hymarfer oreu?—a pha un sydd yn cael ei hesgeuluso fwyaf?"

"O! tydi, ffynnonell goleuni a chariad! cymmer dy eiddo dy hun, dy hawliau hanfodol dy hun, o bara i y cefaist dy ysbeilio am dymmor mor faith. Dy eiddo di ydwyf—achub fi. O! pa bryd y caiff hunanoldeb ei ddifodi, 'fel y byddo Duw oll yn oll?' Mor gyndyn y mae y dymuniad yn ymgodi at Dduw, ac mor chwannog ydyw i ymsuddo iddo ei hunan!"

"Po leiaf a wneir genyf, lleiaf yn y byd yr wyf yn gallu ei wneyd. Y mae esgeulusdra yn y cyflawniad o un ddyledswydd yn dadleu dros yr un peth gydag un arall, nes y sefydlir hyny yn arferiad. Daw hunan-arbediad i mewn yn fynych o dan gochl angenrheidrwydd; ac nis myn ei fwrw allan, ond trwy orfodaeth a thrais sanctaidd."

"'O Arglwydd! bydded i'm geiriau fod fel symbylau, neu fel hoelion wedi eu sicrhau mewn man sicr;' o blegid onid hyn ydyw fy llawenydd? Pwy a lawenychai yn fwy yn llwyddiant yr efengyl? Onid ydyw fy nghalon yn sychedu—onid ydyw fy enaid yn gorfoleddu yn y syniad—ac onid ydyw fy ngewynau yn ymnerthu yn y gobaith y gallai hyn gymmeryd lle drwy fy ymdrechiadau gwael i?"

"Ai nid ydyw gogoniant yr Arglwydd wedi ymadael i fesur mawr o'i eglwys yn y dyddiau hyn? Ai nid ydyw *secinah* yr efengyl yn bygwth ymadael o deml yr eglwysi proffesedig, gan adael yr Ierusalem isaf hon yn anghyfannedd, a chilio i'r nefoedd, ei chartref brodorol ei hun? Pa beth a ddichon fod y prif achosion o'r adfeiliad sydd ar wir dduwioldeb? Gan y gellir dyweyd mai athrawiaeth ac ymarferiad ydyw crefydd, ai nid oes ryw ddiffygion yn ymlusgo i mewn bob dydd yn y ddau beth hyn? Ai nid yw 'cydymffurfiad â'r byd' yn un o'r rhwystrau mwyaf sydd ar ffordd llwyddiant crefydd, a'r amlygiad o'i nerth?"

"Ai nid allwn ddarganfod yn mhregethau Whitfield arwyddion o wir hyawdledd? Onid ydyw holl beirianwaith areithyddiaeth gyssegredig yn cael ei dadblygu mewn llawer o'i bregethau? Os unoliaeth amcan, a threfniad syml, ac ymadroddiad eglur, ydynt yr ansoddau mwyaf hanfodol o ddernyn perffaith, ai nid ydyw ei bregethau ef yn meddu teilyngdod? A oes ryw bregethau yn yr iaith Saesnig sydd yn alluog i gynnhyrfu teimladau duwiolfrydig—i ysbrydoli enaid â gorfoledd sanctaidd—ac yn goddef nerth a gwres yn y traddodiad o honynt, i'r fath raddau a'i gyfansoddiadau ef? I mi, y mae y gwas hwn i Grist yn rhagori cymmaint ar Demosthenes a Cicero, mewn unoliaeth, symledd, nerth, a theimlad, ag yr oedd yr achos oedd ganddo ef yn rhagori ar yr eiddynt hwy."

"Unwaith yn rhagor yr ydwyf yn adnewyddu yr ymgyflwyniad o honof fy hun i ti, O Arglwydd! Y mae gwendidau lawer yn peri gofid i fy enaid—llawer o bechodau yn amcanu at gael y llywodraeth ar y galon—ond 'yn enw yr Arglwydd, mi a'u toraf hwynt ymaith.' Y mae arnaf angen am amynedd, ac yr ydwyf yn cael fod pethau mân a dibwys yn profi y gras hwn yn fwy na gofidiau trymion. Y mae unrhyw beth sydd yn profi y dymmer yn fwy anhawdd i'w orchfygu na dioddefiadau corphorol mwy. Yr wyf yn cael nad ydyw yn bossibl morio yn llwyddiannus heb falastr. Os na chwerylwn ni â phechod, y mae pechod yn sier o gweryla â ni; ac os na byddwn yn ddigon ffyddlawn ac eofn i geryddu ereill, fe dry ein cydwybodau arnom ein hunain. Dyro i mi, O Dduw! ddeall cywir, calon lawn o gariad a sêl, a'r arferiad parhaus o sirioldeb—ond nid heb fod ffyddlondeb a diragrithrwydd bob amser mewn undeb âg ef."

Gallesid chwanegu llawer o ddyfyniadau cyffelyb o'i ddyddlyfr, a ddangosant ei dduwiolfrydedd dwfn, a bywiogrwydd, a nerth, a gweithgarwch gwastadol ei feddwl cryf—yn cymmeryd gafael mewn cwestiynau pwysig, ac yn byw arnynt fel pe byddent yn hanfodol i'w fodolaeth. Ond y mae y dyfyniadau uchod yn ddigon er egluro hyn.

Digitized by Google

Cyn diweddu ein herthygl, yr ydym yn ystyried y dylem roddi mantais i'n darllenwyr ffurfio rhyw ddirnadaeth am y dylanwad a ddilynodd ysgrifeniadau a golygiadau Dr. Williams. Y mae y dyfyniadau a gyhoeddasom o sylwadau gwŷr mor enwog a Dr. Chalmers, a Dr. Hamilton, o Ysgotland, yn ddigon o sicrwydd fod ei ysgrifeniadau yn derbyn cymmeradwyaeth galonog meddyliau galluocaf y blynyddoedd hyny y tu allan i 'Hen Wlad y Bryniau.' A gallasem chwanegu tystiolaeth Dr. Wardlaw, ac ereill hefyd, pe buasai angen. Ac yn ei "*Gofiant*" y mae ei fywgraphydd yn gwneyd y sylw cyffredinol hwn gyda golwg ar Loegr ac Ysgotland:—

"Yn Lloegr, y mae ei ysgrifeniadau yn ddistaw wedi parhau i ennill tir; ac y mae hi yn ffaith fod, nid yn unig gweinidogion unigol, ond rhai eglwysi cyfain, wedi cael eu hennill drwyddynt oddi wrth gyfeiliornadau Antinomaidd. Yn Ysgotland hefyd y mae cynnyrchion ei ysgrifell yn awr yn cael eu derbyn gyda chymmeradwyaeth; ac yn mysg pleidwyr gwresog ei olygiadau, gellid cynnwys rhai o weinidogion mwyaf galluog yr eglwysi Annibynol."

Cawsant ddylanwad mawr hefyd ar lawer o wŷr deallus, darllengar, ac enwog, a berthynent i wahanol enwadau crefyddol y Dywysogaeth ar y pryd. Am y deugain mlynedd cyntaf yn y ganrif hon, yr oedd dadleuon beunyddiol yn bod rhwng pleidwyr golygiadau gwahanol ar athrawiaethau yr efengyl. Ceid y dadleuon hyny yn fynych rhwng pleidwyr golygiadau Wesley a Calvin. Ond yr ydym yn tybied na chamgymmerem pe y dywedem fod y dadleuon yn llawer poethach, ac yn fwy cyffredinol, rhwng y rhai a bleidient olygiadau eithafol Calvin ei hun, ac eraill a gymmerent olygiadau mwy cyffredinol ac eang ar iawn y Cyfryngwr, a galwad yr efengyl, a chyfrifoldeb dyn, a'r lliaws cwestiynau pwysig sydd yn gyssylltiedig â'r cyfryw. Ac yr oedd y dadleuon hyny i'w cael yn mysg pob enwad. Teimlai yr Annibynwyr i raddau oddi wrthynt; ond yr oeddynt hwy yn gyffredinol wedi cofleidio y golygiadau newyddion yn foreuach na'u brodyr. Yr oedd llawer o'r Bedyddwyr hefyd wedi eu hennill i'w cymmeradwyo yn lled gynnar; a diammheu fod ysgrifeniadau y Parch. Andrew Fuller hefyd wedi dylanwadu cryn lawer arnynt hwy. Ond y Methodistiaid a fuont yn fwyaf ymlyngar wrth uchel-Galviniaeth yr hen Ddiwygiwr; ac aml a blin fu y dadleuon a gafwyd yn y cymmanfaoedd chwarterol, a'r cyfarfodydd misol, a chylchoedd ereill, ar y cwestiynau hyn yn y blynyddoedd hyny. Y golygiadau a ddysgid gan Dr. Williams, a balmantodd y ffordd i'r dadleuon hyn; a "Dr. Williams, a'r *system* newydd," oedd y geiriau a glywid yn fynych yn eu hymddiddanion; ac yr oedd lliaws yn ei ystyried, ac yn ei gondemnio hefyd, fel un o'r hereticiaid penaf a gyffyrddodd â chwestiynau duwinyddol erioed. Ond erbyn hyn nid llawer a geir mewn unrhyw enwad yn Mhrydain Fawr sydd yn proffesu Calviniaeth a arddelant y golygiadau eithafol a ystyriai efe yn anghywir.

Yn mysg llythyrau cymmeradwyol eraill a ganfyddir yn ei fywgraphiad, yr ydym yn gweled rhai a ysgrifenodd yr hen weinidog poblogaidd, y diweddar Barch. John Roberts, o Lanbrynmair —tad y Parchn. Samuel a John Roberts—o ba rai yr ydym yn rhoddi y dyfyniadau canlynol:—

"Yr wyf yn credu y bydd eich Traethawd o wasanaeth mawr yn Nghymru. Er y dichon na ddarllenir ef gan nemawr o'r bobl gyffredin, yr wyf yn ystyried y darllenir ef gan y rhan fwyaf o'r gweinidogion. Er pan ddechreuasom ddarllen eich pregeth ar Etholedigaeth, a'ch nodiadau ar Doddridge ac Edwards, yr wyf yn meddwl fod llawer o honom yn dechreu teimlo fod y tir yr ydym yn sefyll arno fel Calviniaid yn llawer cadarnach nag yr oeddym o'r blaen. Yr wyf o'r farn fod yr hyn a ddywedwch am 'amcan llywodraethol' marwolaeth Crist yn destyn mwy o siarad yn ein plith na dim arall sydd o fewn y Traethawd. Am danaf fy hun, yr wyf wedi arfer credu er's talm, y rhaid fod marwolaeth Crist wedi ei fwriadu i fod, mewn rhyw ystyr, mor gyffredinol a galwad yr efengyl; ond yr wyf yn ddyledus i chwi am lawer o oleuni ar y pwngc."

Etto:—

"Y mae genyf bob sail i gredu fod eich Traethawd wedi ei wneyd yn fendith i laweroedd o'n gweinidogion Cymreig. Yr wyf wedi bod yn ymddiddan â rhai sydd wedi ei ddarllen a'i ystyried yn drwyadl; ac y maent yn ymddangos yn ei gymmeradwyo yn fawr, ac wedi derbyn llawer o les oddi wrtho. Y canlyniad o hyn yw, fod gwelliant mawr wedi cymmeryd lle yn y pregethu yn ein mysg. Y mae pregethwyr fel pe baent yn teimlo fod ganddynt sylfaen dan eu traed wrth gymmhell y Gwaredwr ar bechaduriaid, ac wrth gyhoeddi, heb fod un ammheuaeth yn eu meddyliau, nad oes un rhwystr y tu allan iddynt eu hunain, ar ffordd eu hiachawdwriaeth. Yr wyf yn credu fod llawer o honom yn gwneuthur hyn mewn rhyw fodd, cyn darllen eich gwaith chwi erioed; ond nid oeddym y pryd hwnw yn adnabod cadernid y tir yr oeddym yn sefyll arno. Yr wyf wedi cyfarfod rhai—gweinidogion Saesnig, gan mwyaf—a ymddangosent fel pe byddent yn barod i gondemnio y Traethawd yn gwbl a hollol; ond yr oeddwn yn meddwl eu bod yn arddangos anwybodaeth mawr am y prif egwyddorion a gynnwysir ynddo; a gallaf ddyweyd yn ddiragrith na bûm yn ymddiddan â chymmaint ag un person oedd yn deall eich golygiadau, nad oedd hefyd yn eu cymmeradwyo yn galonog. Ac yn ol fy marn i, nis gall un dyn da, wedi iddo unwaith eu deall, beidio a'u cymmeradwyo chwaith—gan mor gydnaws yr ymddangosant â'r hyn, fel yr wyf fi yn tybied, y mae yn rhaid i bob creadur sanctaidd yn y nefoedd a'r ddaear ei deimlo..... Nis gallaf fi mewn un modd gael allan y rheswm pa ham y mae y gyfundrefn a ddysgwch chwi yn cael ei chondemnio gan rai dynion da, ond yn unig ar y tir ei bod yn cael ei chamddeall yn hollol; ac nid wyf heb ofni fod y camddealltwriaeth hwn i'w briodoli i ragfarn."

Ond fe ddichon y gofyna rhywrai pa fodd y gallasai ei weithiau ddylanwadu ar feddyliau gweinidogion, ac eraill, yn Nghymru, nad allasent ddeall y Saesneg, gan nad oeddynt wedi ymddangos mewn gwisg Gymreig. Gellir atteb y gofyniad hwn trwy ddyweyd fod pregethau llaweroedd oedd yn deall yr iaith hono wedi eu hysbrydoli ganddynt; a byddai llawer hefyd yn gwneyd ei olygiadau yn destyn o ymddiddanion mynych â'r sawl nad oeddynt yn eu deall, fel y dengys y dyfyniad canlynol o "*Gofiant John Jones, o Dal-y-sarn, gan y Parch. O. Thomas.*" Cyfeirio y mae yr awdwr galluog yma at gyfarfodydd a gynnelid gan y Parch. Evan Evans (*Ieuan Glan Geirionydd*), yn nhŷ ei dad, yn Nhan-y-celyn, ger Trefriw, ar nosweithiau yr wythnos, i ymddiddan âg amryw o wŷr ieuaingc crefyddol ar wahanol byngciau mewn duwinyddiaeth. Dyn ieuangc oedd Mr. Evans, o ddefnyddioldeb mawr; a'r pryd hyny, yr oedd yn aelod o eglwys y Methodistiaid yn y lle hwnw. Ond wedi hyny, ymunodd â'r Eglwys Wladol, a chyrhaeddodd safle uchel, yn enwedig fel bardd.

Digitized by Google

Dyma fel yr adrodda Mr. Thomas yr hanes:—

"Yn y cyfarfodydd y cyfeiriasom atynt, hwy a aethant dros lawer o waith Dr. Edward Williams, '*On the Equity of Divine Government and the Sovereignty of Divine Grace*,' ac hefyd ei '*Defence of Modern Calvinism*,' sef, ei attebiad i'r '*Gwrthbrawf i Galviniaeth*,' a gyhoeddasid gan yr Esgob Tomline. Darllenai Mr. Evans ran o Dr. Williams iddynt yn y Gymraeg. Yna ymchwilid yn fanwl i ystyr yr adran. Wedi penderfynu eu meddyliau ar hyny, cymmerid y golygiad yn destyn ymddiddan, ac yn gyffredin yn destyn dadl—y naill yn cymmeryd plaid y Doctor, a'r lleill yn gwrthwynebu. Ac os cynnwysai bwngc o bwys mawr, y cyfryw ag a safai yn destyn dadl yn y byd Cristionogol, fe dreulid amryw gyfarfodydd arno. A mawr fyddai y chwilio a'r myfyrio arno erbyn y cyfarfod dilynol. Bu dau brif lyfr y Dr. Williams, fel hyn, dan ymchwiliad manwl ganddynt, gan eu gosod, o frawddeg i frawddeg, fel ar arteithglwyd—y naill yn tynu un ffordd, ac eraill ffordd arall, er prawf o rym y gosodiadau a ddysgid ynddynt. Bu y cyfarfodydd hyn, fel y gellid yn hawdd meddwl, ac fel y cydnabyddai efe ei hunan gyda diolchgarwch hyd ddiwedd ei oes, o fantais ddirfawr i'r Parch. John Jones—nid yn unig am nad oedd yn deall y Saesneg ei hunan, ond hefyd am nad oedd ganddo ar y pryd ond ychydig iawn o lyfrau Cymraeg. Agorwyd maes eang newydd o flaen ei feddwl y pryd hwn, y bu wedi hyny yn llafurio yn ddiwyd arno yn ei fyfyrdodau am lawer blwyddyn. Nis gallai oddef, hyd ddiwedd ei oes, glywed neb yn dywedyd dim yn isel am waith y Dr. Williams. Byddai yn enwedig yn rhyfeddu clywed dynion o syniadau Calvinaidd yn gwneuthur hyny; a barnai yn wastad fod y cyfryw, naill ai heb ddarllen ei ysgrifeniadau eu hunain, neu wedi gwneuthur hyny dan lywodraeth rhagfarn yn eu herbyn, neu ynte yn anghymhwys, o ran galluoedd eu meddyliau, i osod barn deg ar y fath ysgrifeniadau. Pa fodd bynag, y mae yn eithaf amlwg ei fod ef ei hunan wedi derbyn llesâd mawr oddi wrthynt, ac oddi wrth yr ymdrafodaeth â hwynt yn y cyfarfodydd hyn, ar ei gychwyniad cyntaf allan i waith pwysig y weinidogaeth."

Dyma enghraifft o'r modd y byddai crefyddwyr ieuaingc yn nechreu y ganrif hon yn casglu gwybodaeth dan anfanteision, ac o'r ysbryd penderfynol a'u carient yn llwyddiannus drwy rwystrau dirfawr; a dyma un esampl i ni, yn mysg eraill y gallesid eu henwi, o'r dylanwad a gafodd golygiadau Dr. Williams ar feddyliau un o weinidogion enwocaf y Methodistiaid.

Yr oedd llawer o flaenoriaid y blynyddoedd hyny yn gydnabyddus â gweithiau y Dr. hefyd. Cofus genym glywed y gŵr enwog hwnw yn eu mysg, sef Mr. Thomas Evans, o Faes-y-coed, yn agos i Gaerwys, yn adrodd yr hanes, a hyny gyda llawer iawn o frwdfrydedd, pa le, a pha fodd y cafodd efe afael ar yr "*Equity and Sovereignty*" gyntaf; ac iddo ei ddarllen eilwaith a thrachefn, nes meistroli ei gynnwysiad, a chanfod ei ragoriaethau. A hynod mor ddoniol a dyfal y byddai yn agor ei drysorau, ac yn ceisio planu ei olygiadau yn meddyliau pregethwyr ieuaingc, ac, yn wir, pawb eraill a ymddangosent iddo yn alluog i'w hamgyffred, pan yn llettya gydag ef yn Maes-y-coed: a dioddefodd lawer oddi wrth ei frodyr o'r herwydd. Yr ydym yn enwi Mr. Evans, am ei fod, yn mhob ystyr, yn un o'r dynion goreu a mwyaf goleuedig a adwaenem ar y cwestiynau yr oedd efe wedi talu sylw iddynt. Talodd y diweddar Barch. John Elias deyrnged o barch i'w alluoedd a'i wybodaeth yn y geiriau canlynol, pan yr oedd rhywun mewn ymddiddan âg ef yn cyfeirio ato:—"Thomas Evans, o Faes-y-coed (meddai)—nid dyn cyffredin yw Thomas Evans mewn un modd. Byddai yn well genyf gyfarfod â llawer deuddeg o ddynion na Thomas Evans, o Faes-y-coed." Y mae yn dda genym ddefnyddio y cyfleusdra i godi enw y dyn ffyddlawn, cydwybodol, a duwiol hwn i sylw darllenwyr ein herthygl, fel un enghraifft o'r gwŷr cryfion a goleuedig oedd yn mysg blaenoriaid y cyfnod hwnw; a gobeithiwn y bydd i eglwys Dduw drwy yr oesoedd feddu lliaws mawr o ysbryd a galluoedd cyffelyb; o blegid heb hyny ymddengys yn ammhossibl i Gristionogaeth gyrhaedd ei hamcanion mawr a goruchel yn y byd.

Clywsom un o weinidogion enwocaf y Dywysogaeth hefyd, yr hwn sydd yn fyw yn awr, ac a gydnabyddir fel un o'n duwinyddion goreu, yn dyweyd fel y canlyn:—"Wedi i mi ddarllen ysgrifeniadau Dr. Williams, rhoddais y cwestiynau yr ymdriniai â hwy ar yr astell, wedi eu penderfynu i foddlonrwydd llawn fy meddwl; ac ni theimlais un awydd i'w tynu i lawr byth!" Ac fel hyn yr ysgrifenodd efe yn ddiweddar:—

"Dr. Williams, yn ddiau, oedd y mwyaf o dduwinyddion diwedd y ganrif a aeth heibio, a dechreu yr un bresennol. Ni fagodd Cymru, er y Diwygiad Protestanaidd, ei gyffelyb, fel meddyliwr ac ymresymwr. Yr oedd Dr. Williams, yn mhob ystyr, yn deilwng i sefyll wrth ochr Jonathan Edwards, fel duwinydd ac arddansoddydd. Yn wir, yr oedd duwinyddiaeth Williams yn fwy cysson, ac yn fwy gloyw na'r eiddo Edwards, er godidoced ydyw gweithiau y *president*. Ni chafodd Calviniaeth gymmedrol a diweddar erioed y fath amddiffyniad ag a gafodd gan Dr. Williams yn ei '*Modern Calvinism Defended*;' sef, y llyfr diweddaf a ysgrifenodd efe."

Bu Dr. Williams yn briod ddwywaith. Priododd Miss Mary Llewelyn, fel y dywedwyd, Gorphenaf 28ain, 1777; a bu ganddynt naw o blant, pedwar o ba rai a fuont feirw yn eu babandod. Bu Mrs. Williams farw Gorphenaf 22ain, 1795, yn y 37ain flwydd o'i hoed, a gadawodd y pump eraill yn fyw; sef Elizabeth, Sarah, Anna Maria, Samuel, a Theophilus. Priododd Elizabeth y Parch. Thomas Hill; ac Anna Maria y Parch. John Whittenbury—dau weinidog Annibynol, a hen efrydwyr gyda'r Dr. Dygwyd Samuel i fyny yn gyfreithiwr, a bu fyw yn Plymouth; ac ymunodd Theophilus â'r Eglwys Sefydledig, ac ordeiniwyd ef yn weinidog. Priodwyd Dr. Williams drachefn â Miss Yeomans, o Worcester, ddiwedd y flwyddyn 1796; a ganwyd iddynt un mab, enw yr hwn ydoedd Edward; yr hwn a ddygwyd i fyny yn feddyg, ond a fu farw yn ddibriod. Bu Mrs. Williams fyw hyd Chwefror 2il, 1823; a bu yntau fyw ar ei hol. Y ddiweddaf o'i blant a fu byw oedd Mrs. Whittenbury—yr hon a fu farw yn y flwyddyn 1870; ac y mae dwy ferch iddi yn byw yn awr yn Leamington.

Gyda hyn o nodiadau, ni a adawn y Dr. "Yr oedd efe yn byw," fel yr ysgrifena golygydd ei weithiau, "mewn adeg o ddigwyddiadau mawr—ac o ganlyniad, o ddynion mawr. Yr oedd yr adeg hono yn fawr mewn gwleidyddiaeth, yn fawr mewn gwyddor, yn fawr mewn llenyddiaeth, yn fawr mewn meddyliau cryfion a difrifol, yn fawr mewn drygau mawr, ac yn fawr mewn rhinweddau mawr. Yn ei gylch ei hun, cyfranodd Dr. Williams ran fawr tuag yr hyn oedd dda yn y mawredd hwnw." Bydded heddwch i lwch y Cymro cywir a galluog; yr hwn a wnaeth ei ran yn anrhydeddus i oleuo y byd, ac i beri fod ein cenedl yn sefyll yn uchel ac yn barchus yn mysg cenedloedd eraill y ddaear.

Digitized by Google

WILSON, JOHN: yr hwn a gyfenwai ei hun *Christopher North*, oedd un o brif ysgrifenwyr "*Blackwood's Magazine*," a phroffeswr athrawiaeth foesol yn mhrif athrofa Edinburgh. Ganwyd ef yn Paisley, Mai 18fed, 1785. Derbyniodd elfenau cyntaf ei addysg gan Dr. M'Letchie, gweinidog Mearns. Wedi hyny, bu o dan ofal y Parch. Joseph Macintyre, Glenorchy, yn yr ucheldiroedd. Yn 1803, aeth i goleg Magdalen, Rhydychain; ac wedi ennill amryw wobrau yno, graddiodd yn B.A. yn 1807, ac yn M.A. yn 1810. Prynodd ei dad etifeddiaeth ar lan Llyn Windermere, yn Westmoreland; a daeth Wilson i breswylio i'r llanerch ddymunol hono, lle y daeth yn gydnabyddus â Wordsworth, De Quincey, Southey, a Coleridge. Yn 1810, efe a briododd Miss Jane Penny, boneddiges o dref Liverpool —undeb a fu yn un hynod o ddedwydd. Yn 1812, efe a gyhoeddodd ei "*Isle of Palms;*" ac yn 1816, ei "*City of the Plague*"—dau gyfansoddiad barddonol. Ond y mae yn gwestiwn, er fod llawer o dlysni, peroriaeth, a theimlad yn ei farddoniaeth, a fuasai Wilson yn alluog i ddadblygu y nerth gwirioneddol cynhenid oedd yn ei athrylith mewn barddoniaeth. Pan sefydlwyd "*Blackwood's Magazine*," yn 1817, cafodd faes cymmhwys i lafurio. Yr oedd anffawd arianol wedi ei gyfarfod ef trwy afradlonedd perthynas, fel yr oedd y 30,000*p*. a adawyd yn gynnysgaeth iddo gan ei dad wedi eu lleihau; a bu raid iddo newid ei ddull o fyw, ac ymadael o Elleray. Ar hyn, efe a aeth i Edinburgh, ac yn 1815, galwyd ef at y bàr yno; ond nid ymddengys iddo ymarfer yn gyhoeddus. Cynnygiodd ei wasanaeth i Mr. Blackwood. Gwelodd y cyhoeddwr anturiaethus y gallasai Wilson a Lockhart, yr hwn hefyd a gynnygiai ei wasanaeth iddo ar yr un pryd, fod o wasanaeth iddo; a gellir dyweyd mai y ddau hyn oeddynt brif offerynau llwyddiant "*Blackwood's Magazine*" yn ei flynyddoedd cyntaf. Ond yn fuan, aeth Lockhart yn olynydd i Gifford fel golygydd y "*Quarterly Review;*" ac er na bu Wilson ar un adeg yn wir olygydd arno, edrychai y cyhoedd arno fel y cyfryw. Yn 1820, pennodwyd ef yn olynydd i'r Dr. Thomas Brown, yn broffeswr athroniaeth foesol yn mhrifysgol Edinburgh; ac yr oedd ei lwyddiant yn y swydd yn llawenhau ei gyfeillion, ac yn cau genau y rhai a fynent ei ddarostwng. Parhaodd i ysgrifenu yn ffyddlawn i "*Blackwood*." Yn 1840, cafodd golled anadferadwy yn marwolaeth ei wraig. Yn 1842, cyhoeddodd, mewn dwy gyfrol, ddetholiad o'r traethodau a ysgrifenodd, o dan yr enw "*Recreations of Christopher North*." Rhoddodd ei broffeswriaeth i fyny yn 1853, o herwydd gwaeledd ei iechyd, a chaniatawyd iddo flwydd-dâl o 300*p*. gan Arglwydd John Russell; ond ar y 3ydd o Ebrill, 1854, bu farw yn Edinburgh.

Heb law ei farddoniaeth a'i ysgrifeniadau cyfnodol, efe a gyhoeddodd ei "*Light and Shadows of Scottish Life*," yn 1822; yr hwn a ddilynwyd y flwyddyn ganlynol gan ei ystori, "*Margaret Lindsay*," y rhai a chwanegasant at ei enwogrwydd llenyddol. Ond yn ei draethodau rhyddiaethol, beirniadol, a disgrifiadol, ac yn fwyaf neillduol yn ei gyfres enwog o ymddiddanion, a elwir "*Noctes Ambrosianæ*," y mae nerth gwirioneddol ei athrylith yn cael ei amlygu. Nis gall fod cwestiwn am ei athrylith; ond a ddefnyddiodd efe hi yn ei chylch naturiol ei hun sydd gwestiwn. Gyda Burns a Scott, ystyrid ei fod ef yn un o brif gymmeriadau llenyddol y wlad hono. Ond y mae yn ddiammheuol fod ei waith yn ysgrifenu o fis i fis i gyfarfod y galw oedd arno, wedi bod yn anfantais ac yn attalfa iddo grynhoi ei nerth a'i egnïon ar weithiau llenyddol mawr a phwysig, a fuasent yn sicr o fod yn anfarwol.

WILSON, RICHARD: parthluniedydd (*landscape painter*) o enwogrwydd mawr. Mab oedd efe i glerigwr o'r enw John Wilson. Ganwyd ef yn Penegoes, yn sir Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1713. Yr oedd ei fam yn un o deulu y Wynniaid, a breswylient yn Coed-llai, ger y Wyddgrug, swydd Fflint. Yn fuan ar ol geni ei drydydd mab, Richard, cafodd ei dad ei bennodi i fywoliaeth y Wyddgrug; a symmudodd yno i fyw. Daeth tueddfryd y bachgen at y gelfyddyd yr esgynodd i'r fath enwogrwydd ynddi i'r golwg yn foreu; a darfu i Syr George Wynn, ei ewythr, ei roddi o dan addysg lluniedydd yn Llundain, o'r enw Thomas Wright. Ychydig a wyddys, pa fodd bynag, am ei efrydiau boreuol, ond y mae yn amlwg iddo ennill safle uchel fel paentiwr arluniau, o herwydd cafodd yr anrhydedd o dynu darlun o Tywysog Cymru, a'i frawd, y duc o Gaerefrog, yn y flwyddyn 1748. Wedi bod yn ymarfer ei gelfyddyd am dymmor yn y brif ddinas, aeth i Italy i astudio gweithiau y prif feistriaid Italaidd. Ychydig, os dim prawf a roddasai efe hyd yn hyn ar ei allu mewn paentio golygfeydd; ond tra yn Venice, talodd ymweliad â Zuccarelli, y parthluniedydd, yr hwn a ddigwyddai fod allan o'r tŷ; ac i basio yr amser gwnaeth Wilson amlinelliad mewn olew o'r olygfa a geid o ffenestr yr ystafell. Meddyliodd Zuccarelli mor uchel o'r amlinelliad hwn, fel y cynghorodd Wilson i roddi i fyny y gwaith o baentio golygfeydd. Cafodd yr un cynghor hefyd gan yr arlunydd Ffrengig, Vernet. O hyn allan efe a ymroddodd i ddiwyllio y gangen hon o'i gelfyddyd, ac ennillodd gymmeriad uchel yn fuan; ac yr oedd ganddo amryw ysgolorion hyd yn oed yn Rhufain. O hyny allan astudiodd natur, yn hytrach na chopïo gweithiau meistriaid y gelfyddyd; a daeth yn feistr ar yr arddull eofn naturiol, ond etto glasurol, sydd yn nodweddu ei weithiau.

Dychwelodd i Lundain yn 1755. Arddangosodd ei ddarlun mawr o "*Niobe;*" yr hwn a bwrcaswyd gan y Duc o Cumberland. Sefydlodd y darlun hwn ei gymmeriad yn Lloegr fel un o barth-arlunwyr cyntaf ei oes. Yn 1765, arddangosodd ei "*View of Rome;*" yr hwn a brynwyd gan yr Ardalydd Tavistock. Efe oedd un o aelodau cyntaf yr athrofa frenhinol, a sylfaenwyd yn 1768; ac ar farwolaeth Hayman, yn 1770, pennodwyd ef yn llyfrgellydd yn ei le. Ei angen a barodd iddo gymmeryd y swydd hon. Yr oedd llawer o'r athrofawyr, ac yn enwedig Reynolds, y llywydd, yn wrthwynebwyr iddo. Y mae cyfeillion Reynolds yn priodoli hyn i ymddangosiad gwledig Wilson, a'i arferion hynod a thrwsgl; ond nis gall yr amgylchiadau anffafriol hyn gyfrif am ymddygiad angharedig y llywydd. Os credir yr hyn a ddywedir am dano gan Northcote, nid oedd gerwinder Wilson ond ymddangosiadol ac allanol yn unig: "Yr oedd meddwl Wilson," medd efe, "mor oleuedig a choeth ag oedd ei berson a'i arferion o drwsgl ac anhygar; ond yr oedd raid ei adnabod, a bod yn gyfarwydd âg ef, er darganfod y perl anghaboledig oedd dan ei orchudd garw." Y mae yn

Digitized by Google

rhyfedd fod ei ddarluniau, sydd yn awr yn cael eu hystyried o gymmaint gwerth, yn anfarchnadol y pryd hwnw. Tra yr oedd celfyddydwyr gwaelach yn cael eu noddi gan y cyhoedd, yr oedd efe yn cael ei esgeuluso; ac arferai werthu ei weithiau i fasnachwyr mewn darluniau am yr hyn a ewyllysient hwy roddi am danynt. Ar un achlysur, pan y cymmerodd ddarlun i un o'r cyfryw, arweiniwyd ef gan y masnachydd i lofft uchel, a dangoswyd iddo bentwr o'i ddarluniau o olygfeydd nas gallai eu gwerthu, er ei fod wedi talu am danynt er's tair blynedd! Ac y mae yn ffaith fod rhai o'r darluniau hyn, na dderbyniodd Wilson ond ychydig o bunnau am danynt, wedi eu gwerthu ar ol hyny am yn agos gynnifer a hyny o gannoedd o bunnau. Yr oedd Wilson mor anffodus wrth geisio gwerthu ei weithiau, fel pan y caffai un werthiant hwylus, ac y tynai fwy o sylw nag arfer, y paentiai efe un arall yr un fath. Gwyddys iddo baentio rhai bedair a phum waith, a hyny heb wahaniaethu ond ychydig rhyngddynt; paentiodd bum darlun o balas Mæcenas yn Tivoli. Y rheswm am hyn, dybygid oedd, am eu bod yn gwerthu yn lled rwydd.

Yn y tair neu y pedair blynedd diweddaf o'i oes, yr oedd mewn llawnder, o herwydd daeth i feddiant o gyfoeth ar ol ei frawd. Ymneillduodd i Gymru, a threuliodd y blynyddoedd hyn yn y Wyddgrug; a chyda pherthynas, Mrs. Catherine Jones, mewn palas a elwir y Colomendy, yn mhlwyf Llanferres, ger y Wyddgrug; ac yn y lle olaf y bu farw, yn mis Mai, 1789, yn naw a thrigain mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent y Wyddgrug, lle y mae cist, â beddargraph arni, yn dangos y fan lle y gorphwys ei weddillion.

Yn 1814, arddangoswyd o ddeutu deg a thrigain o ddarluniau Wilson, gyda rhai gweithiau ereill, yn y Sefydliad Prydeinig; ac ymddangosodd y sylwadau beirniadol cywir a ganlyn ar weithiau y celfyddydwr athrylithgar a mawr hwn yn y "*Sun*," un o newyddiaduron y brif ddinas:—"Mewn llawer o'r darluniau hyn y mae Italy megys yn cael ei sylweddoli; ac ar un olwg galluogir ni i fyned i mewn i'r teimladau bywiog a chyffrous a gynnhyrfir gan yr adgof o'r hyn a ddysgwyd i ni yn ein hefrydiau boreuol yn mherthynas i'r wlad arwrol hono—eisteddle yr ymherodraeth enfawr a gyfodwyd gan rinwedd, ond a ddinystriwyd gan foethusrwydd, nes yr aeth yn ddarostyngedig i'r golygfeydd pruddaidd a bortreadir mor rymus ac effeithiol yn narluniau Wilson.. .Y maent yn gyfansoddiadau ysblenydd, yn cymmysgu golygfeydd tlysaf natur, lle y mae natur yn fwyaf tlws, gydag arwyddion o anrhaith a dinystr." Y mae certiadau o lawer o'i weithiau wedi eu gwerthu; ond y mae llawer o'i ddarluniau heb eu certio erioed. Y mae ei weithiau yn lliosog; ond pan y digwydd un o honynt ddyfod i'r farchnad, ceir pris uchel am dano; yr hyn a brawf eu bod yn dal prawf a beirniadaeth amser.

WINDHAM, WILLIAM: gwladweinydd Prydeinig. Ganwyd ef yn Llundain, ar y 3ydd o Fai, 1750. Unig fab oedd efe i'r Milwriad Windham, o Felbrigg, yn swydd Norfolk. Yr oedd ei deulu wedi ymsefydlu yn y swydd hono er y ddeuddegfed ganrif. Addysgwyd ef yn Eton, ac wedi hyny yn mhrifysgol Glasgow. Yn 1767, aeth i Goleg y Brifysgol, Rhydychain. Ar ol ei ymadawiad â Rhydychain, bu yn teithio ar y Cyfandir. Ymunodd â'r hynt a droes allan o dan arweiniad y llywydd Phipps tua phegwn y gogledd yn 1773; ond methodd o herwydd afiechyd fyned yn mhellach na gororau Norway. Dychwelwyd ef i'r senedd yn aelod dros Norwich, yn y fl. 1781, a thaflodd ei goelbren gyda'r blaid Whigaidd. Ar ffurfiad gweinyddiaeth y Duc o Portland, o'r hon yr oedd Fox ac Argl. North yn aelodau, pennodwyd ef yn ysgrifenydd i Arglwydd Northington, arglwydd raglaw yr Iwerddon; ond ymddiswyddodd yn fuan. Yn 1785 y traddododd Windham ei araeth gyntaf yn Nhŷ y Cyffredin, a llongyfarchodd Fox y tŷ ar y "chwanegiad at ei alluoedd a amlygwyd drwyddi." Ail etholwyd Windham yn aelod dros Norwich yn 1790. Pan yr ymunodd y blaid Whigaidd, yn fuan ar ol y digwyddiadau a achoswyd gan y chwyldroad yn Ffraingc, cymmerodd ef ei ochr gyda Burke, yr arglwyddi Spencer a Fitzwilliam, a'r Duc o Portland; a chefnogodd yn selog y rhyfel â Ffraingc. Yn 1794, pennodwyd ef yn ysgrifenydd y rhyfel o dan Mr. Pitt, ac hefyd yn aelod o'r cyfringynghor. Ymosododd yn awr ar ei gyfeillion blaenorol gyda'r chwerwder mwyaf. Aeth allan o swydd gyda Pitt yn 1801, a chondemniai gyttundeb heddwch Amiens. Parodd hyn iddo golli ei eisteddle dros Norwich, ond etholwyd ef dros Mawes; a phan y daeth plaid Grenville i awdurdod, gwnaed ef yn ysgrifenydd y trefedigaethau. Yn 1806, efe a ddaeth â'i gynllun newydd yn mlaen o ymrestru i'r fyddin. Cynnygiai ar fod i'r gwŷr traed ymrestru am saith mlynedd yn unig, gyda chaniatâd i adnewyddu eu gwasanaeth am saith mlynedd ereill, gan dderbyn chwanegiad yn eu taliadau; y gwŷr meirch a'r magnelwyr i ymrestru am ddeng mlynedd—yr ail gyfnod chwech, a'r trydydd cyfnod pum mlynedd. Cynnygiodd chwanegu at daliadau a blwydd-daliadau y swyddogion a'r milwyr cyffredin, a gwellhau eu sefyllfa yn gyffredinol. Cafodd y cynllun wrthwynebiad penderfynol, ond pasiodd yn gyfraith. Aeth allan o swydd yn 1807. Ac ar y 3ydd o Fehefin, 1810, efe a fu farw.

Yr oedd Windham yn siaradwr rhagorol, ac yn un o ddadleuwyr mwyaf medrus ac effeithiol ei oes, fel y prawf ei areithiau sydd wedi eu cyhoeddi. Dywedai Fox am dano, na chyfarfu efe erioed â dyn myfyrgar mor weithgar ag efe, nac â dyn darllengar â chymmaint o wybodaeth ymarferol ganddo. Dywedai Pitt fod ei areithiau yn gynnyrchion ysblenydd. Disgrifia Canning ei hyawdledd, os nad y mwyaf meistrolgar, o leiaf y mwyaf swynol a glywyd erioed yn Nhŷ y Cyffredin. Canmolai Dr. Johnson ef yn fawr am ei gydnabyddiaeth â llenyddiaeth. Yr oedd yn meddu ar alluoedd ymddiddanol o'r radd uchaf. Yn ei fywyd politicaidd, yr oedd y syniad o anrhydedd yn cario dylanwad cryf arno; ac os byddai ei olygiadau weithiau yn gogwyddo gormod at ochelgarwch—megys, er enghraifft, ar y pwngc o ddiwygiad seneddol, yr hwn a wrthwynebid ganddo o'r dechreu i'r diwedd—yr oedd efe yn meddu ar wroldeb i wneuthur arddeliad o'i olygiadau, hyd yn oed pan y byddai drwy hyny yn gwrthwynebu y rhai yr arferai gydweithredu â hwy, ac er i hyny ei wneuthur hefyd yn wrthddrych o anghymmeradwyaeth y cyhoedd.

WINWYN (*betzâlim*): gardd-blanhigyn tra adnabyddus. Nid oes ddadl gyda golwg ar

Digitized by Google

ystyr y gair Hebraeg, yr hwn a ddigwydda yn unig yn *Num.* xi. 5, pan y cyfeirir at y winwyn fel rhai o bethau dymunol yr Aipht, yr oedd yr Israeliaid yn gofidio o herwydd eu colli. Nid mor hawdd yw adnabod rhai planhigion y sonir am danynt yn y Beibl; ond nid oes un ammheuaeth nad ydyw *betzâlim* yn golygu y winwyn cyffredin. Nid ydyw cartref brodorol y winwyn yn hysbys; ond y tebygolrwydd yw, mai mewn rhai o ardaloedd Persia y cafwyd hwy gyntaf mewn sefyllfa wyllt ac anniwylliedig. Y maent i'w cael yn gyffredin iawn yn Persia, o dan yr enw *piaz;* ac y maent hefyd yn cael eu diwyllio yn India, lle y rhoddir yr un enw arnynt. Yr oedd y winwyn yn ymborth a fawr hoffid gan yr Aiphtiaid gynt ["*Her.*" ii. 125; "*Plin.*" xxxvi. 12]; ac nid heb reswm digonol, gan fod y wlad yn nodedig o gymmhwys i gynnyrchu rhywogaethau da o honynt. Y mae winwyn yr Aipht yn llawer mwy hyfryd i'r archwaeth na rhai y wlad hon. Dywed Hasselquist, y teithiwr, fel y canlyn am winwyn yr Aipht:—"Pwy bynag sydd wedi archwaethu winwyn yr Aipht, rhaid iddynt addef nas gellir cael eu rhagorach mewn un cŵr o'r byd. Yn yr Aipht, y maent yn beraidd; mewn gwledydd ereill y maent yn gryfion a chyfoglyd. Yma y maent yn feddal; tra y maent yn gelyd mewn gwledydd gogleddol. ...Bwyteir hwynt wedi eu rhostio, a'u tori yn bedwar o ddarnau, gydag ychydig o gig rhostiedig, a elwir gan y Tyrciaid yn yr Aipht yn *kebab;* ac y maent yn hoffi y ddysglaid hon mor fawr fel y clywais hwy yn gobeithio y caffent ei mwynhau yn mharadwys. Y maent hefyd yn gwneyd cawl o honynt."

Gellir tyfu winwyn mewn unrhyw dir bras a da, os na bydd yn rhy wlyb neu gleiog, neu, ar y llaw arall, yn rhy sych ac ysgafn. Gellir eu tyfu yn olynol ar yr un ysmotyn am amryw flynyddoedd. Y mae cyflawnder o wrtaith yn angenrheidiol i'r tir er cael cnwd da. Amser hau ydyw o ganol Chwefror hyd ganol Mawrth, yn ol sefyllfa y tir a'r tywydd. Gellir hau ar y wyneb neu mewn rhesi beision. Y mae yn haws eu cadw yn lân wedi eu hau yn ol y drefn ddiweddaf. Yn y naill ffordd neu y llall, ni ddylid eu gorchuddio â phridd, ond mor ysgafn ag sydd modd. Pan y bydd y dail yn arwyddo, drwy fod eu blaenau yn melynu, eu bod yn addfedu, dylid eu plygu; ac yn fuan wedi hyny eu codi, a'u gadael ar y ddaear fel y byddo i'r gwreiddiau sychu a gwywo yn yr haul. Yna cadwer hwynt mewn lle sych ac agored. Dylid hau winwyn a fwriedir i'w cyffeithio (*pickle*) ar dir gwael a sych. Er cael winwyn ieuaingc yn y gwanwyn, dylid hau yn mis Awst.

WISEMAN, NICHOLAS: cardinal, ac archesgob Pabaidd Westminster. Ganwyd ef ar yr 2il o Awst, 1802, yn Seville, yn Yspaen. Hanai o deulu Gwyddelig oedd wedi ymsefydlu yn y wlad hono. Dygwyd ef drosodd i'r Iwerddon pan yn blentyn, ac yn Waterford y derbyniodd efe elfenau cyntaf ei addysg; a symmudwyd ef i Goleg Pabaidd St. Cuthbert, Ushaw, ger Durham. Pan yn un ar bymtheg oed, derbyniwyd ef yn efrydydd i'r coleg Saesneg yn Rhufain; ac wedi bod yn hynod lwyddiannus i ymgyfoethogi mewn dysg, efe a gymmerodd urddau eglwysig yn Rhufain yn 1823; ac ar yr un pryd, rhoddwyd iddo y gradd o ddoctor mewn duwinyddiaeth, a phennodwyd ef yn is-beriglor y coleg Saesneg, ac yn athraw ieithoedd dwyreiniol yn mhrifysgol Sapienza. Cyhoeddodd ei "*Horæ Syriacæ*" yn 1828; ac yn niwedd yr un flwyddyn, pennodwyd ef yn beriglor y coleg Saesneg. Tra y bu yn dal y swydd hon y traddododd efe ei "*Lectures on the Connection of Science and Revealed Religion.* Daeth drosodd i Loegr yn 1835; ac yn fuan, ystyrid ef yn ddarlithiwr ac yn bregethwr enwog; ac yn y grawys, 1836, traddododd gwrs o ddarlithiau yn eglwys St. Mair, Moorfields, ar athrawiaethau ac ymarferion yr Eglwys Babaidd, y rhai a gyhoeddwyd wedi hyny o dan y teitl "*The Doctrines of the Catholic Church.*" Dilynwyd hwn yn fuan gan ei "*Treatise on the Holy Eucharist.*" Ar ol hyn, talodd ymweliad â Rhufain, lle yr arosodd am ychydig amser; a mynegir mai efe yn benaf a fu yn offerynol i berswadio y pab Gregory XVI. i chwanegu nifer y ficeriaid apostolaidd yn Mhrydain. Ar ol dychwelyd o Rufain, pennodwyd ef yn 1840 yn ficer apostolaidd cynnorthwyol yn nosbarth canolbarthol Lloegr, o dan y teitl o 'esgob Melipotamus.' Ar yr un pryd, appwyntiwyd ef yn llywydd Coleg St. Mair, Oscott. Ymwelodd Dr. Wiseman â Rhufain drachefn yn 1847, gyda'r amcan, o gael ymddiddan â'r pab yn mherthynas i'r cyfnewidiadau a wnaed yn y wlad hon gyda golwg ar lywodraethiad yr Eglwys Babaidd. Ar farwolaeth yr esgob Griffiths, yn 1848, pennodwyd Wiseman yn ficer apostolaidd dros ddosbarth Llundain; ac yn fuan wedi hyny, enwyd ef yn gynnorthwywr i'r esgob Walsh, pan y symmudwyd ef i Lundain. Yna, ar farwolaeth Dr. Walsh, yn y fl. 1849, pennodwyd Dr. Wiseman yn olynydd iddo yn y ficeriaeth apostolaidd. Daeth enw Wiseman i'r golwg yn fwy amlwg yn y flwyddyn ddilynol, yn ystod yr amser y cymmerodd cyfnewidiad le yn safle Eglwys Rhufain yn Mhrydain; yr hyn am dymmor a fu yn achlysur o gyffroad mawr yn y wlad. Er teyrnasiad y frenhines Elizabeth, yr oedd esgobaethau Lloegr a Chymru wedi cael eu llenwi gan esgobion yr Eglwys Sefydledig, gan ei fod yn drosedd cospadwy i esgob neu offeiriad o Eglwys Rhufain wasanaethu yn Mhrydain; gan hyny, galwai y Pabyddion eu hesgobion hwy yn ficeriaid apostolaidd. Yr oedd y ffurf hon ar lywodraethiad eglwysig wedi ffynu, gyda rhai cyfnewidiadau er dyddiau Iago I.; ond penderfynodd y pab Pius IX., yn 1850, i adferu yr hen ddull o lywodraethu yr Eglwys Babaidd, trwy bennodi esgobion rheolaidd; a dosbarthwyd y deyrnas yn ddeuddeg o esgobaethau—ac un o honynt yn archesgobaeth.

Pennodwyd Dr. Wiseman i archesgobaeth Westminster, yr hon a gynnwysai ran fawr o'r dosbarth oedd eisoes o dan ei ofal ef; ac ar yr un pryd, gwnaed ef yn gardinal. Nid oedd yr enwadau Protestanaidd yn y wladwriaeth yn edrych yn foddhaol ar hyn; a thybiai llawer ei fod yn oresgyniad ar hawliau y goron ac urddas yr Eglwys Sefydledig, ac ysgubodd ystorm gref o gyffroad crefyddol dros y wlad—y fath ag na welodd yr oes un gyffelyb iddi. Tra yr oedd y cyffroad hwn yn rhedeg yn uchel, ac yr ymddangosodd llythyr a ysgrifenodd y prif weinidog—Argl. John Russell—at esgob Durham, yr oedd y cardinal newydd wedi myned i Rufain i dderbyn yr het gardinalaidd. Pan ddychwelodd yn ol, efe a gyhoeddodd anerchiad eglurhaol, yn yr hwn y dangosai ei fod yn feddiannol ar allu a phwyll; ond etto, safai yn gadarn dros yr hyn a alwai efe yn hawliau cyfansoddiadol ei

Digitized by Google

gyd-Babyddion; a dichon fod yr anerchiad yma, ynghyd â darlithiau a draddodwyd ganddo, ac a gyhoeddwyd ac a ledaenwyd yn helaeth, wedi effeithio i raddau er tawelu y cyffro; ond er hyny, bu dadleu gwresog yn y senedd, a phasiwyd Deddf y Teitlau Eglwysig. Ond llythyren farw a fu y ddeddf hon, a diddymwyd hi yn 1872. Yr oedd y cardinal Wiseman yn meddu ar dalentau o radd uchel, a chydnabyddid ef yn un o'r ysgolheigion goreu yn Ewrop. Yr oedd yn gydnabyddus â'r rhan fwyaf o'r ieithoedd Ewropaidd, ac yn dra hyddysg yn yr Hebraeg a'r ieithoedd dwyreiniol; ystyrid ef yn ysgolhaig Beiblaidd rhagorol, yn feirniad pwyllog, ac yn gyfarwydd â phob cangen o wyddoniaeth yn mron. Yr oedd ei weithiau llenyddol yn lliosog; ac yn chwanegol at y rhai a enwyd, gellir nodi ei "*Connection between the Arts of Design, and those of Production,*" "*The Influence of Words on Thought and Civilization,*" "*The Points of Contrast between Science and Art,*" "*Recollections of the last Four Popes,*" "*The Real Presence,*" &c., a gweithiau cyffelyb. Bu farw ar y 15fed o Chwefror, 1865, yn dair a thrigain mlwydd oed.

WISHART, GEORGE, yr hwn a elwir "Y Merthyr," oedd un o ddiwygwyr Protestanaidd boreuol Ysgotland. Tybir mai brodor o swydd Forfar oedd efe, a'i fod yn fab i James Wishart, o Pittarrow, yn Mearns, yr hwn oedd arglwydd faenor y lle yn nheyrnasiad Iago V. Ni wyddys hyd sicrwydd amser ei enedigaeth; ond y farn gyffredin yw, mai ynghylch y flwyddyn 1515, neu 1516, y ganwyd ef. Yr olwg gyntaf a geir arno mewn hanesyddiaeth sydd yn cadw ysgol rammadegol yn Montrose, lle yr enwogodd ei hun trwy ddysgu yr iaith Roeg ynddi. Dechreuodd bregethu athrawiaethau y diwygiad pan oedd yn ieuangc; a bu raid iddo ddiangc i Loegr, lle hefyd y bu yn pregethu yr un gwirioneddau. Yr oedd yn Mhrifysgol Caergrawnt yn 1843. Yn ol y disgrifiad a roddir o'i nodwedd a'i ymddangosiad y pryd hwnw gan Emery Tylney, "yr oedd yn ddyn tal, yn tueddu at foelni ar ei goryn, ac yn gwisgo am ei ben yn gyffredin gap Ffrengig o'r fath oreu. Yr oedd ei edrychiad yn brudd, ei wallt yn ddu, a'i farf yn llaes, ei berson yn hardd a lluniaidd; a dywedid yn dda am dano yn ei wlad ei hun, Ysgotland. Yr oedd yn ddyn mwyn, gostyngedig, a hawddgar." Dywedir am dano yn mhellach, ei fod yn hynod am ei haelfrydedd a'i elusengarwch.

Dychwelodd yn ol i Ysgotland, naill ai yn 1543, neu 1544, gyda'r dirprwywyr a anfonwyd gan Harri VIII. i wneuthur cyttundeb am barhâd heddwch, ac i geisio trefnu priodas rhwng y tywysog Edward a'r dywysoges ieuangc oedd i fod yn frenhines yr Ysgotiaid. Yr oedd ei dymmer yn rhy aiddgar, a'i gariad at ei Waredwr yn rhy gryf, fel nas gallai fod yn edrychydd digynnhwrf ar anwybodaeth ei wlad, a gofalu am ei fanteision neu ei ddiogelwch ei hun i'r fath raddau nes bod yn attalfa ar ei ffordd rhag gwneyd ei oreu i'w symmud ymaith. Ymroddodd gan hyny yn gwbl i'r gwaith o gyhoeddi a phregethu yr efengyl.

Dechreuodd Wishart lafurio yn Montrose, ac ymroddodd gyda sêl a ffyddlondeb mawr i bregethu Crist; ac fel pregethwr, yr oedd yn ddoniol, yn nerthol, ac yn llwyddiannus. A'r dybiaeth fwyaf cyffredin ydyw, nad oedd efe wedi derbyn urddau eglwysig. Tra yn Montrose, dechreuodd erlidwyr ymosod arno, nes gwneyd ei sefyllfa yn anghysurus yno; a symmudodd yntau i Dundee. Yn y dref hono, darlithiai a phregethai ar yr Epistol at y Rhufeiniaid; ac yr oedd y pregethau hyn yn cael eu mawr edmygu, ac yn gwneyd argraph dwfn ar y gwrandawyr. Cynnhyrfodd hyny y Pabyddion, a daethant allan i gondemnio yr athrawiaethau a ddysgid ganddo; a haerai yr offeiriaid mai yr un athrawiaethau oeddynt ag a ddysgid mewn llyfr hereticaidd a ysgrifenwyd gan Martin Luther—yr hwn a anfonasid gan y diafol i'r byd i ddinystrio eneidiau dynion. Cafodd orchymyn i ymadael o Dundee. Gwyddai yntau mai ffolineb oedd iddo, wrtho ei hun, geisio gwrthwynebu y gallu cryf oedd wedi ymfyddino yn ei erbyn. Agorodd lleoedd eraill eu breichiau i'w dderbyn; a chan fod lleoedd eraill yn ymawyddu am ei wasanaeth, tybiai mai ei ddyledswydd oedd myned ymaith, yn hytrach na pheryglu ei fywyd trwy aros yn Dundee. Gan hyny, efe a ymadawodd o'r dref hono; ond cyn myned ymaith, efe a adgofiodd y trigolion iddo gynnyg iachawdwriaeth iddynt, er ei fod drwy hyny yn peryglu ei fywyd; a dywedodd ei fod yn ofni fod drwg oddi wrth yr Arglwydd ar eu goddiweddyd. Ceisiai llawer ei berswadio i beidio ymadael o Dundee, neu o leiaf o'r gymmydogaeth; ond yr oedd wedi gwneyd ei feddwl i fyny ar hyn. Yna, aeth tua'r gorllewin; a chafodd yn Ryle—lle oedd ar y pryd yn noddfa i Gristionogion erlidiedig—rai parod i'w dderbyn fel cenad yr Arglwydd. Pregethodd mewn llawer o blwyfydd yn sir Ayr, ond yn benaf yn eglwys Ayr. Clywodd esgob Glasgow am effeithiau ei bregethau, a daeth yno, a gofalodd am fyned i'r eglwys o flaen y diwygiwr. Ond ymgasglodd amryw o ddynion dylanwadol o amgylch Wishart, a phenderfynent fynu yr eglwys at ei wasanaeth er gwaethaf yr esgob; ond yr oedd ganddo ef ei hun syniad mwy cywir am yr esgob fel pregethwr. "Gadewch iddo," medd efe, "ni wna ei bregeth fawr o niwed. Gadewch i ni fyned at groes y farchnad." Felly y bu, ac efe a bregethodd gydag arddeliad neillduol; tra yr oedd yr esgob yn yr eglwys yn ceisio dywedyd rhywbeth wrth nifer fechan oedd wedi dyfod ynghyd i wrando arno. Nid oedd gan y diweddaf un bregeth i'w thraddodi; ond addawodd ymbarotoi yn well erbyn y tro nesaf. Aeth yn ebrwydd o'r dref; ac ni cheir hanes ei fod wedi dychwelyd yno i bregethu drachefn.

Arosodd Wishart yn y gymmydogaeth am beth amser, gan bregethu i gynnulleidfaoedd mawrion. Un tro, efe a fwriadodd bregethu yn Mauchlin, neu Macklene; a'r noson o'r blaen, gosododd sirydd Ayr nifer o filwyr yn yr eglwys er ei gadw oddi yno. Mynai rhai osod Wishart yn y pulpud er gwaethaf y sirydd a'r milwyr; ond ni oddefai Wishart hyny. "Frodyr," medd efe, "gair tangnefedd wyf yn ei bregethu i chwi. Na thywallter gwaed heddyw yn ei achos. Y mae Iesu Grist mor alluog yn y meusydd ag yn yr eglwys; ac efe ei hun, pan oedd yma yn y cnawd, a bregethai yn amlach yn y diffaethwch, ac ar lan y môr, nag yn y deml yn Ierusalem." Wedi hyny, pregethodd ar ddarn o dir oedd ar ochr dde-orllewin y dref am dair awr o amser; ac yr oedd nerth neillduol yn ei eiriau, a bu yn foddion dychweliad i lawer. Yn fuan ar ol hyn, daeth hysbysrwydd iddo fod y pla wedi tori allan yn Dundee. Teimlai yn wastad ddyddordeb mawr yn y lle hwnw; ac yr oedd sefyllfa y

Digitized by Google

bobl yno yn agos iawn at ei galon. Penderfynodd brysuro yno; ac nis gallai ei gyfeillion mewn un modd ei berswadio i newid ei feddwl. Wedi cyrhaedd i'r ddinas hono, gan ei fod wedi teimlo ar ei galon ei hun yn ddwfn nerth yr efengyl i gysuro a chynnal y meddwl, efe a wahoddodd y bobl ynghyd at borth dwyreiniol y dref, a gosododd y rhai iach oddi mewn, a'r rhai afiach oddi allan i'r porth. Dewisodd yn destyn *Salm* cvii. 20; "Efe a anfonodd ei air, ac a'u hiachaodd hwynt," &c. Yr oedd sefyllfa y bobl yn peri iddynt deimlo yn ddwfn, a rhoddi ystyriaeth ddyfal i'r hyn a draddodid i'w clywedigaeth; ac ni ellir, y tu yma i'r dydd olaf, wybod faint oedd dylanwad y pregethau a draddododd Wishart y pryd hwnw. Ymroddodd hefyd i ymweled â'r cleifion, i'w cysuro yn eu cyfyngderau. Gwnaeth yr un man yn bulpud am ddyddiau. Ond pwy a fuasai yn disgwyl, tra yr oedd Wishart yn peryglu ei fywyd ar y fath adeg, er cynnyg bywyd tragwyddol i rai oedd wedi ei esgeuluso, y cymmerasai ei elynion fantais ar y cyfleusdra i gynllwyn am ei einioes. Ond felly y bu. Cyflogodd y cardinal Beaton ddyn—offeiriad hefyd—i gario allan fwriadau ei elynion trwy ei roddi i farwolaeth ar y llanerch lle yr arferai bregethu. Ond yn rhagluniaethol, cafodd ei waredu. Ymddengys fod Wighton, yr offeiriad cyflogedig, wedi cymmeryd ei safle wrth risiau y mur, gan feddwl cyflawni ei fwriad, a dianc yn y dorf heb neb yn ei adnabod. Ond digwyddodd i Wishart graffu arno, a'i ammheu; ac fe allai iddo gael cipolwg ar ei ddagr hefyd. Gofynodd iddo, "Gyfaill, beth ydyw dy amcan?" Yna gafaelodd yn y dagr, gan ei ddwyn oddi arno. Ar hyn, yn ei ddychryn, addefodd yr offeiriad ei ddrygioni; a mynai y bobl oedd o'i ddeutu gael dial arno, o herwydd yr oedd ei ymddygiad wedi eu cythruddo yn ddirfawr. Ond Wishart, gan ei gymmeryd yn ei freichiau, a ddywedodd wrthynt, "Rhaid i bwy bynag a'i niweidio, fy niweidio innau; ni wnaeth efe ddim niwed i mi, ond fy nysgu i fod yn fwy gochelgar o hyn allan."

Wedi i'r pla ddiflanu, neu o leiaf leihau, yn Dundee, symmudodd Wishart, ac aeth i Montrose. Defnyddiodd ei amser yno i fyfyrio a phregethu. Nid oedd Beaton yn dawel; ond ceisiai yn mhob ffordd ddwyn dinystr arno. Ni theimlai, fodd bynag, yn dawel iddo amlygu ei gasineb a'i ddigofaint tuag ato yn gyhoeddus; gan hyny, ymdrechai i ffurfio brad-gynllun arall i'w rwydo. Ymdrechodd ei gael i'w afael trwy ysgrifenu llythyrau ffugiol at Wishart, yn proffesu dyfod oddi wrth ei gyfeillion, yn deisyf am ei gynnorthwy. Pan yr oedd o'r bron wedi llwyddo, daeth y twyll i'r amlwg, ac arbedwyd Wishart am dymmor; ond darfu i'r amgylchiad hwn beri iddo feddwl yn gryf y cymmerai ei elynion ei fywyd oddi arno yn fuan. Deisyfai ei gyfeillion o sir Ayr yn daer ar iddo eu cyfarfod hwy yn Edinburgh. Cydsyniodd yntau; a phan ddaeth yr adeg, efe a adawodd Montrose, er fod hyny yn groes iawn i ddymuniadau ei gyfeillion. Yr oedd yn debyg i Paul yn wynebu i Ierusalem —yn nacau cymmeryd ei berswadio i aros, er fod perygl yn ei amgylchu. Gweddïai lawer yn ystod ei daith; dywedodd ei fod yn llwyr gredu fod ei lafur yn mron ar ben; "Am hyny, medd efe, "gweddïwch drosof, na byddo i mi gilio yn ol pan yr elo y frwydr yn boeth."

Cyrhaeddodd Leith gydag ychydig gyfeillion; a phan na chyfarfu â'r rhai a ddisgwyliodd yno, ac na chlywodd ddim am danynt, efe a arosodd yno yn ddirgel am rai dyddiau. Ond blinôdd ar hyn. "Pa wahaniaeth," meddai efe, "sydd rhyngof a dyn marw; ond fy mod yn bwyta ac yn yfed?" Pregethodd ar y Sabbath canlynol yn Leith; ond ofnodd y canlyniadau, gan y gwyddai am elyniaeth a gallu y clerigwyr oedd yn Edinburgh, a bod y cardinal yn cael ei ddisgwyl yno yn fuan; gan hyny, efe a aeth o le i le, ond nid ymddangosodd yn gyhoeddus. Pregethodd, pa fodd bynag, gyda nerth yn eglwys Inveresk, ac wedi hyny yn Tranent, Brunstone, Ormistone, a manau ereill; ac yr oedd effeithiau y pregethau yn amlwg ar y rhai a'u gwrandawent. Ynghylch gŵyliau y Nadolig, aeth i dref Haddington, lle y disgwylid y buasai tyrfaoedd mawrion o bobl yn dyfod ynghyd; ond yn wahanol y bu, canys yr oedd dylanwad Iarll Bothwell yn fawr yno, a hyny yn cadw y bobl draw. Ar yr achlysur cyntaf y bu yn pregethu, ychydig a ddaethant ynghyd; ac ar yr ail, yr oedd y nifer yn llai drachefn. Yr oedd hyn yn blino ei feddwl yn fawr; a dywedai wrth John Knox, yr hwn oedd gydag ef y dyddiau hyny, a'r hwn a gafodd les mawr oddi wrth ei weinidogaeth, ei fod "wedi blino ar y byd, wrth weled fod dynion yn dechreu blino ar Dduw." Bu yn ffyddlawn iawn yn traethu y gwirionedd yn ei bregeth—yr olaf a draddododd efe. Tra y cyfarwyddai ei wrandawyr at "y gobaith a osodwyd o'u blaen," ceryddodd hwynt yn llym am eu pechodau, a dangosodd iddynt fawredd a chyfiawnder Duw. Canodd yn iach mewn modd serchog a difrifol âg ychydig o'r ffyddloniaid a ymgasglasant o'i gwmpas ar ddiwedd y moddion hwnw. Ar ol traddodi ei bregeth olaf, aeth Wishart i lettya gyda Mr. Cockburn, i Ormistone, East Lothian. Amlygodd Knox ei ddymuniad i fyned gydag ef. "Na, na," attebai yntau, "y mae un yn ddigon i fod yn aberth. Ar ol swpera, a chynnal gwasanaeth crefyddol yn y teulu trwy ganu, darllen, a gweddïo, a chael ymddiddan addysgiadol ar bethau crefyddol, ymneillduodd Wishart i'w ystafell wely. Ond tua hanner nos, ac yn hollol ddirybudd, amgylchynwyd y tŷ gan Bothwell, a chwmni o filwyr. Ffolineb fuasai ceisio ei wrthsefyll, neu ffoi, o dan yr amgylchiadau. Mor fuan ag y deallodd Wishart beth oedd yn bod, efe a ddywedodd, "Agorwch y drysau; ewyllys yr Arglwydd a wneler!" Yna gollyngwyd Bothwell, ac ychydig foneddigion, i mewn. Addawodd Bothwell yn neillduol ei gadw yn ddiogel rhag pob niwed: a dywedodd, "Nid yn unig mi a amddiffynaf eich corph rhag pob trawsder a fwriedir i'ch erbyn heb drefn cyfraith; ond mi a'ch cadwaf yn fy nhŷ fy hun hyd oni chaffwyf, naill ai eich gollwng yn rhydd, neu eich dychwelyd i'r man lle yr wyf yn eich derbyn." Ar hyny, caniataodd ei gyfeillion i Wishart fyned gyda Bothwell, yr hwn a'i dygodd yn ddioed at y cardinal i Elphinstone; a'r hwn, ar ol cael gafael yn Wishart, a anfonodd rai i ddal arglwyddi y maenorydd, sef Ormistone, Brunstone, a Calder. Brunstone yn unig a ddiangodd. Anfonwyd y lleill i gastell Edinburgh. Medrodd Ormistone ymryddhau; ond ni ryddhawyd Calder am beth amser, a hyny mewn canlyniad i'w ymostyngiad i Beaton.

Cymmerodd Bothwell ei garcharor i Edinburgh, ac wedi hyny i'w balas ei hun yn Hailes. Ond cafodd y fam-frenhines a'r mawrion Pabaidd ganddo dori ei addewid ddifrifol; a thraddodwyd Wishart i gastell Edinburgh. Erbyn hyn,

Digitized by Google

yr oedd yn ngafael yr awdurdodau Pabaidd, a'r cardinal oedd yn sychedu am ei waed. Yr oedd y rhaglaw, Arraw, yn ddigon ystwyth i'w ollwng i'w crafangau. O ddeutu diwedd mis Ionawr, 1546, symmudwyd ef i St. Andrews, lle yr oedd Beaton wedi gwysio yr esgobion a phrif Eglwyswyr y wlad i fath o gymmanfa a gynnelid yno. Ufuddhawyd i'r wŷs. Daeth y clerigwyr yno mewn rhwysg. Ar yr 28ain o Chwefror, daethant ynghyd i'r eglwys fynachlogaidd. Ar ol pregeth eofn, ond gochelgar, gan y deon Winram, yr hwn a ammheuid o fod yn coleddu syniadau y Diwygwyr, a'r hwn, dybygid, a bennodwyd i'r gwaith yma gyda'r amcan o roddi mantais iddo osod ger bron ei opiniynau tybiedig, neu ynte ymwrthod â hwynt trwy ddadleu dros awdurdod ac athrawiaethau yr Eglwys Babaidd —ar ol y bregeth, gosodwyd Wishart yn y pulpud, fel y gallai pawb ei weled tra y gwrandawai ar y cyhuddiad a ddygid i'w erbyn. Darllenwyd y cyhuddiad gan offeiriad o'r enw Lauder, yr hwn, ar ol ei ddarllen, a boerodd i wyneb Wishart, gan ddywedyd, "Pa beth sydd genyt i'w atteb i'r pethau hyn—tydi grwydryn, bradwr, a lleidr?" Nid yw yn angenrheidiol nodi y gwahanol erthyglau ar ba rai y condemniwyd Wishart. Byddai galw y gweithrediadau ffugiol a ddygwyd yn mlaen ar yr enw prawf yn gellwair â'r gair: digon ydyw dywedyd fod y cyhuddiad wedi ei ffurfio yn y fath fodd fel ag i amcanu creu y casineb mwyaf tuag ato yn mysg y bobl. Yn mhlith cyhuddiadau ereill a ddygwyd yn ei erbyn, dywedid ei fod yn gwadu awdurdod yr eglwys a'r pab, ei fod yn gwrthwynebu y saith sacrament, a chyffesu yn nghlust yr offeiriad, yr enneiniad diweddaf, a thraws-sylweddiad; a'i fod yn dysgu nad oedd un purdan yn bod, ac nad oedd pechod yn cael ei gyflawni drwy fwyta cig ar ddydd Gwener, a bod gweddïo ar y seintau neu yr angylion yn bechadurus.

Yr oedd yr amddiffyniad a wnaeth Wishart iddo ei hun yn dawel, yn eofn, ac anattebadwy; a theimlid ei ddadl yn un mor gref fel y gorfodwyd yr esgobion i ddyweyd, "Os rhoddwn iddo drwydded i bregethu, y mae efe mor graff, ac mor gyfarwydd yn yr Ysgrythyrau, fel y llwydda i berswadio y bobl i goffeidio ei olygiadau, ac i'w cyfodi yn ein herbyn ni." Y mae y dystiolaeth hon yn werthfawr, er wedi ei rhoddi yn anfwriadol, gan ei bod yn cydnabod awdurdod yr Ysgrythyrau. Ond yr oedd wedi ei dynghedu ganddynt i'r fflamau. Cyhoeddodd Beaton ei ddedfryd, a gorchymynodd ei gymmeryd yn ol i'r carchar hyd nes y cynneuid y tân. Daliodd Wishart yn gadarn a diysgog: syrthiodd ar ei liniau i weddïo am faddeuant i'r rhai oedd yn dwyn ei fywyd oddi arno, ac yna arweiniwyd ef ymaith. Anfonwyd ato ddau fynach i dderbyn ei gyffesiad. Nid oedd dim mewn golwg wrth hyn, dybygid, ond ei attal i gael y llonyddwch hwnw gyda'i fyfyrdodau ei hun a ewyllysiai, gan y gwyddent nad oedd yn debyg o dderbyn y cyfryw ymwelwyr. Gwrthododd eu gwasanaeth, a dymunodd am gael gweled Winram, yr hwn a bregethasai y diwrnod hwnw. Aeth Winram ato yn ddioed. Ni bu yr ymddiddan rhyngddynt ond byr, ac ni wyddys beth oedd ei gynnwys, er fod ereill yn ei ammheu—fod cadben y castell, ynghyd âg amryw ereill, wedi dyfod i'r ystafell lle yr oedd Wishart, â bara a gwin ganddynt, er cael cymmuno gydag ef; a chan ei fod yn barnu eu bod yn onest yn eu cais, efe a ymfoddlonodd. Cyn tori y bara, efe a ymhelaethodd ar natur yr ordinhâd, ar ddioddefaint ac angeu y Gwaredwr, ac ar ei eiriolaeth yn y nefoedd, gan annog i gariad ac ufudd-dod. Wedi gweinyddu y bara a'r gwin, efe a ddiolchodd, ac a weddïodd am gryn ysbaid. Ac wedi canu yn iach i'w ymwelwyr, aeth i'w wely.

Boreu dranoeth, sef Mawrth 1af, 1546, wedi rhwymo ei ddwylaw ar ei gefn, a rhoddi rhaff am ei wddf, a chadwen haiarn am ei ganol, arweiniwyd Wishart allan i'r dïenyddle. Pan y daeth efe at yr ystangc, efe a orchymynodd ei ysbryd i ddwylaw Duw, ei Iachawdwr, mewn gweddi fer, ond taer. Yna trodd at y bobl, a dywedodd:—"Frodyr a chwiorydd Cristionogol, yr wyf yn attolwg arnoch, na thramgwyddoch wrth Air Duw o achos y poenau a welwch yn cael eu darparu i mi....Pe buaswn wedi dysgu athrawiaethau dynion, cawswn fwy o ddiolch gan ddynion. Ond er mwyn Gair Duw yr wyf yn awr yn cael dioddef:—nid o'm hanfodd, ond â chalon a meddwl llawen. I hyn y'm danfonwyd i, fel y dioddefwn y tân hwn er mwyn Crist. Edrychwch fy wyneb. Ni chewch fy ngweled yn newid fy ngwedd: nid ydwyf yn ofni y tân. Ac os erlidiau a ddaw arnoch chwithau er mwyn Gair Duw, attolwg 'nac ofnwch y rhai a ddichon ladd y corph,' ac na feddant allu i niweidio yr enaid." Wedi hyn, efe a weddïodd dros ei gyhuddwyr. Pan rwymwyd ef wrth yr ystangc, ni phallodd ei ddiysgogrwydd, ac nid aeth dim rhyngddo a gwedd wyneb ei Arglwydd, a'r llawenydd a deimlai ynddo. Efe a gynghorodd y dyrfa oedd yn edrych arno i feddu ffydd, edifeirwch, ac i ymdrechu ymburo; amddiffynai ei hun yn wyneb cyhuddiadau ei elynion, a chyfeiriai at amser gwell yn mlaen, pan y byddai i arch Duw nofio yn fuddugoliaethus ar y dyfroedd. Gweddïai yn ostyngedig a thaer dros ei erlidwyr, ar iddynt edifarhau, a chael maddeuant. Gwnaethpwyd argraph ddofn ar feddyliau y lliaws edrychwyr wrth weled ei dawelwch, ei ddewrder, a'i boenau. Nis gallent ymattal rhag amlygu eu cydymdeimlad â'r dioddefydd, a'u digofaint tuag at ei erlidwyr creulawn. Cynneuodd y tân o'i amgylch, a pharhaodd yntau am beth amser i ddioddef arteithiau dirfawr, ond yr oedd yn mwynhau llawenydd a gorfoledd yn ei enaid; ac yn fuan yr oll oedd ar gael o'i gorph oedd ychydig o ludw llosgedig. Fel yna y terfynodd y gwas ffyddlawn hwn i Grist ei yrfa ddaearol.

Ymddengys fod ei arch-elyn, y cardinal Beaton, yn edrych o ffenestr ei balas—yr hon oedd gyferbyn â'r dïenyddle—ynghyd âg amryw o'i gyfeillion; a'i fod wedi ymwisgo yn ei wisgoedd swyddol, ac yn mwynhau yr olwg ar y merthyr ymroddedig yn ei boenau. Y mae amryw o adroddiadau yn cael eu gwneyd yn mherthynas i oriau diweddaf Wishart, nas gellir, o bossibl, eu cadarnhau hyd sicrwydd. Mynegir iddo, o ganol y fflamau, edrych tua'r castell ar y cardinal a'i gyfeillion, ac ebe fe, "Yr hwn sydd yn awr, o'r uchelder acw, yn porthi ei lygaid wrth edrych ar fy mhoenau i, efe a gaiff cyn hir ei hongian o'r ffenestr acw, gyda chymmaint o ddirmyg ag ydyw ei rodres a'i falchder heddyw." Ac yn gymmaint ag i hyny yn llythyrenol gymmeryd lle cyn pen tri mis ar ol merthyrdod Wishart, priodolir gan lawer y dywediad uchod i ysbryd prophwydoliaeth. Ond ar wahân oddi wrth y gwrthwynebiadau duwinyddol sydd yn ymgodi yn erbyn y syniad hwn, y mae rhai sydd wedi gwneuthur ymchwiliad manwl i'r

Digitized by Google

seiliau ar ba rai y gorphwys ei wiredd yn ei ammheu, am nad oes tystiolaeth eglur i'w chael fod yr ymadroddion uchod wedi cael eu llefaru gan Wishart. Tybid eu bod yn gorphwys ar dystiolaeth Knox, am eu bod i'w cael mewn argraphiadau o'i hanes ef. Ond yr ydys wedi cael allan eu bod wedi eu rhoddi yn hanes Knox ddeg a thrigain o flynyddoedd ar ol ei farwolaeth ef, a thua chan mlynedd wedi merthyrdod Wishart. Y mae y chwedl yn cael ei hadrodd gan Spotswood fel peth hollol gredadwy; ond er y gall efe fod yn ei chredu, etto nid ydyw hyny yn brawf sicr o'i gwirionedd, o herwydd yr oedd can mlynedd rhyngddo ef ag amser Wishart. Y dull llofruddiog y rhoddwyd Beaton i farwolaeth, dybygid, a fu yn achos o'r chwedl brophwydol hon.

WITENAGEMOTE: yn llythyrenol, y mae y gair hwn yn arwyddo "cynnulliad o wŷr doeth," ac yn tarddu o'r gair Anglo-Sacsonaidd *gemoth*, sef 'cynnulliad,' a *witan* 'i wybod.' Er fod prif benaethiaid yr Anglo-Sacsoniaid, bron i lawr hyd amser y gorchfygiad, o dan Gwilym y Concwerwr, yn gwisgo y teitl o frenin, ac yn eu breinleni a'u llythyrau yn arfer amryw o enwau cyfystyr; etto, mewn gwirionedd, nid oeddynt hwy er hyny wedi eu dyrchafu fawr uwch mewn awdurdod a gallu na phenaethiaid ereill eu cenedl. Y penaethiaid hyn a etholent y brenin i'w swydd; ac os disgynai y deyrnwïalen yn ei hiliogaeth, yr oedd yn digwydd felly, os nad mewn canlyniad i etholiad newydd, yn ddiammheuol mewn cydffurfiad â gwaith y pendefigion yn cydnabod y brenin newydd mewn cyfarfod wedi ei alw ynghyd i'r perwyl hwnw. O'r cynnulliad hwn yr oedd prif wŷr eglwysig y deyrnas, yr archesgobion a'r esgobion, a'r aelodau, ynghyd â'r barnwyr (os oedd barnwyr appwyntiedig y pryd hwnw), a'r tirfeddiannwyr mwyaf yn ffurfio rhan. Dywedir gan rai fod meddiannu cyfran pennodol o dir yn hanfodol i hyn. Y mae yn ammheus a oedd gan gorph mawr y bobl lais yn y cynghor mawr: y tebygolrwydd ydyw, fod rhai o bob dosbarthiadau, neu ardaloedd yn bresennol yn y cyfarfyddiadau cenedlaethol hyn, trwy gyfrwng eu swyddogion cyfrifol a'u cynnrychiolwyr. Ar yr un pryd, tybiwn nad oedd un gynnrychiolaeth drefnus o'r boblogaeth, o bersonau wedi eu hethol i'r dyben hwnw yn bennodol, yn y Witenagemote.

Nid oedd y cynnulliadau hyny yn cael eu rhoddi heibio ar ol dewisiad brenin. Yr oedd y cyfarfodydd, os nad yn gofnodol, o leiaf yn cael eu cynnal yn fynych, a hyny yn gyffredin yn adeg gŵyliau mawr y flwyddyn—yn y Sulgwyn, y Nadolig, ac yn enwedig y Pasc. Ffurfiai y cynnulliadau hyn y llys cyfreithiol uchaf yn y deyrnas: gelwid hwy ynghyd gan y brenin pan y digwyddai i ryw achos gwleidyddol o bwys alw am hyny. Yn y rhagymadrodd i'r cyfreithiau, crybwyllid yn wastad am eu cydsyniad; ac yr oedd hyn yn angenrheidiol er eu grymuso, ac hefyd, dybygid, er rhoddi grym mewn rhoddion brenhinol a breinleni. Ac yr oedd y prif ddynion a'u mynychent yn aml yn amlygu eu cymmeradwyaeth o'r gweithrediadau brenhinol hyn trwy lawnodi eu henwau o dan yr eiddo y brenin. Pan oedd y talaethau Sacsonaidd yn unedig o dan lywodraeth un brenin, trwy uno y talaethau lleiaf yn un deyrnas, cadwai y cynghor cenedlaethol ei awdurdod a'i allu. Y mae yn rhaid casglu beth oedd cyfansoddiad y cynghor hwn oddi ar ymadroddion yn y rhai y crybwyllir am ei aelodau, ac o'i gymmharu â chyfarfodydd gwleidyddol llai pwysig. Y mae Sharon Turner yn rhoi, o amryw freinleni sydd yn awr ar gael, yr enwau a roddai y brenin ar ei gynghor mawr yn y rhagymadrodd i'w gyfreithiau, neu y rhai a chwanegid gan yr aelodau eu hunain at eu henwau; ac y mae Syr Francis Palgrave, yn ei "*Rise and Progress of the English Commonwealth*," yn disgrifio yn llawnach lawer o'r ysgrifeniadau a dueddant i daflu goleuni ar hyn. Ar ol yr enwau, neu yn fwy mynych y croesau wrth yr enwau (!) y ceir y teitlau, megys *esgob*, *abad*, *diacon*, *tywysog*, *henadur*, &c. Wrth rai breinleni, ceir enwau a chroesau wrth enwau tywysogesau o'r gwaed brenhinol, ac abadesau!

Darfu i'r Witenagemote, yn nheyrnasiad Ethelwolf, B. A. 855, ganiatau y degwm i'r eglwys, gyda chydsyniad y brenhinoedd, y pendefigion, y barwniaid, a'r bobl. Y mae wythfed deddf Iorwerth y Cyffeswr yn enwi y bobl; ac yn y bymthegfed-ar-hugain, yn rhoi ar ddeall ei fod wedi ei mabwysiadu trwy gyfarwyddyd a chydsyniad cyffredinol yr holl esgobion, tywysogion, penaethiaid, ieirll, a'r holl wŷr doeth, a henuriaid, a phobl yr holl deyrnas. Y mae Ruffhead, yn ei ragymadrodd i'r deddfau, yn tybied, ond ar yr un pryd yn cyffesu ei anwybodaeth, fod y *Falcmote* yn mhlith yr Anglo-Saxoniaid yn ymdebygu i dŷ y cyffredin, yr *Ealra-witenagemote* i dŷ yr arglwyddi, a'r *Witenagemote* i'r cyfringynghor. Diammheu ei fod yn disgyn ar y diweddaf i weini rhai o'r swyddau a gyflawnid mewn amserau llawer diweddarach gan y cyfringynghor: er enghraifft, yr oedd eu cymmeradwyaeth yn angenrheidiol cyn bod grym mewn gweithredoedd neillduol o eiddo y brenin; ac yn gyffredin, ymddengys fod eu swydd, nid yn gymmaint i ddyfeisio mesurau, ag i roddi cydsyniad â'r rhai a ddygid ger bron. Wrth gydsynio â breinleni, ac â rhoddion brenhinol, yr oedd y Witenagemote yn cyflawni dau waith ar yr un pryd; sef cydsynio â, ac hefyd bod yn dystion o'r rhoddion a'r breiniau hyn.

Yn yr achosion hyny pan yr oedd yn ammhossibl gweinyddu cyfiawnder yn y llysoedd sirol, naill ai am nad oeddynt yn meddu awdurdod, neu ynte o herwydd gallu a dylanwad rhai o'r pleidiau, yr oedd appeliadau yn cael eu gwneuthur at y cynghor hwn; a'r genedl yn ymrwymo i gefnogi gallu gweinyddol y brenin, ac yn rhoi i'w drefniadau awdurdod cyfraith. Yn y modd hwn y gosodwyd teulu galluog Godwin, iarll Caint, tu allan i nawdd y gyfraith yn 1043, ac yr adferwyd hwy trwy awdurdod yr un cynghor yn 1052. Mewn achos arall, cydnabyddwyd hawl tirfeddiannydd mawr i'w etifeddiaethau, er fod y cof-ysgrifau yn dangos fod ei hawl wedi ei dinystrio; a chaniatawyd iddo weithred newydd yn nodi allan derfynau ei feddiannau. Yn ystod yr amseroedd Anglo-Sacsonaidd, yr oedd meddiannau y brenin, a'r taliadau arferol oedd yn cael eu gwneyd i'r goron gan y tirfeddianwyr, ynghyd â'r trethi a delid gan wahanol adranau o'r wlad, yn ddigon ar gyfer angenrheidiau cyffredin y llywodraeth; yn enwedig gan fod trethi yn cael eu codi i adgyweirio ffyrdd a phontydd, cadw i fyny furiau y trefydd, a gwrthsefyll goresgyniad. Yr oedd gan y brenin hefyd hawl i godi tollau ar nwyddau a werthid yn y rhan liosocaf o'r marchnadoedd a'r ffeiriau, ac hefyd ar nwyddau a ddygid drosodd o wledydd ereill i'r wlad hon; a gelwid ar y Witenagemote i gydsynio

Digitized by Google

â'r dreth a godid. Os oedd achosion cartrefol y genedl yn cael eu hystyried gan y cynnulliad hwn, diau fod cyttundebau â gwledydd tramor hefyd yn cael eu gosod o'i flaen, er cael cydsyniad a chymmeradwyaeth yr aelodau. Yn y modd hwn y gwnaed cyttundeb rhwng Alfred Fawr a Guthrun, yr arweinydd Danaidd, mewn cydymffurfiad â'r hwn y gadawodd y Daniaid y siroedd dwyreiniol. Yr oedd dyledswyddau y Witenagemote, gan hyny, mewn rhan yn ddeddfwriaethol, ac mewn rhan hefyd yn frawdlysol, neu yn cyflawni gwaith llys barn. Yr un peth ydoedd i'r holl genedl ag oedd y llys sirol yn ei ddosbarth ei hun. Ynddo yr oedd cyfreithiau a gosodiadau pwysicaf y brenin yn cael eu cyhoeddi, ei hawliau eu hamddiffyn, a chyfiawnder ei weinyddu, os gommeddid gwneyd hyny mewn lleoedd ereill: ac wrth enwi y gweithrediadau hyn, arweinir ni yn naturiol i sylwi ar y tebygolrwydd oedd rhwng y cynnulliad hynafol pendefigol hwnw a Thŷ yr Arglwyddi mewn amseroedd diweddar.

Pan yr oedd y goresgynwyr Normanaidd wedi dinystrio iawnderau y Saeson, pobl y wlad, ni ddifodwyd o'u cof a'u meddyliau eu sefydliadau gwladol; felly, ar un llaw, cymmerai y brenin fantais ar y sefydliadau hyny i gadarnhau ei hawliau, neu i gefnogi ei gynlluniau; ac ar y llaw arall, gwelai y pendefigion Normanaidd ynddynt ffordd i ymuno â chorph mawr y bobl, mewn trefn i roddi attalfa neu i gyfyngu ar allu a gormes y goron. Parodd amgylchiadau y goresgyniad Normanaidd, a'r ffaith fod y pendefigion a ddaethai gyda Gwilym, ac a gymmerasant ran yn ei anturiaeth, yn hytrach yn gydanturiaethwyr na deiliaid, o angenrheidrwydd iddo ef a'i olynwyr alw ynghyd gynghor cyffredinol o'i benaethiaid—weithiau, yn bennodol er mwyn ymgynghori o bwrpas ar achosion perthynol i'r wladwriaeth, ac weithiau yn unig er mwyn cadw, ar ei draul ef, gŵyliau mawr crefyddol y flwyddyn. Y mae Thierry, gan ddyfynu o'r "*Chronique d'Angleterre,*" yn rhoddi ar ddeall cyn i Gwilym ymgymmeryd â'i anturiaeth yn erbyn Lloegr, fod ei brif gynghorwyr, cydsyniad y rhai a gawsai efe, wedi ei rybuddio "fod yn rhaid iddo ofyn am gynghor a chynnorthwy y bobl yn gyffredinol, am mai cyfiawn ydyw i'r hwn sydd yn talu gael ei alw i roddi ei gydsyniad;" a bod y duc wedi galw ynghyd y prif benaethiaid, a'r gwŷr eglwysig, a'r marsiandwyr. Dywed Syr Francis Palgrave, nad oedd cynghor mawr Gwilym y Concwerwr yn gwahaniaethu oddi wrth y Witenagemote, a bod yr uchelwyr Sacsonaidd yn cydgymmysgu ynddo â'r barwniaid Normanaidd. Yn ddiammheuol, yr oedd y cynnulliad a fu yn Salisbury, neu Winchester, o'i gymdeithion Normanaidd, neu eu meibion, yn nghyd â'u dilynwyr, yn y fl. 1086, sef y flwyddyn cyn iddo farw, yn cyfranogi i raddau o natur cynghor cenedlaethol a chyfansoddiadol, er i aelodau y cynghor adnewyddu eu llŵ o ffyddlondeb iddo. Dywed Orderius Vitalis fod tua 60,000 o bobl wedi ymgynnull at eu gilydd y pryd hwnw. Darfu i Harri I. hefyd, yr hwn a broffesai ei fod yn awyddus am fod ar delerau da â'i ddeiliaid brodorol, wysio ynghyd gynghor cenedlaethol o dan yr hen enw Witenagemote.

Yn raddol, adfeddiannodd y Saeson rai o'u hawliau gwleidyddol. Caniataodd y llywodraethwyr Normanaidd, o leiaf mewn geiriau, fod ganddynt hawl i adferu hen arferion; neu, fel y gelwid hwynt gan y bobl, 'Cyfreithiau Iorwerth y Cyffeswr:' Yr oedd y trefniadau oedd mewn bod eisoes yn y trefydd degwm, y cantrefi, a'r siroedd, ynghyd â'r cynghorau a'r swyddogion oedd ganddynt, yn ddefnyddiol i gasglu cyllid y goron, ac hefyd i gadw y wlad mewn trefn; o blegid yr oedd pob dosbarth o'r wlad yn gyfrifol am weithredoedd ei breswylwyr. O ganlyniad, er fod yr hen swyddog poblogaidd a elwid y maer (*reeve*) wedi ei ddiswyddo gan y count Normanaidd, yr is-iarll, a'r ceisbwl, y rhai a dderbynient eu hawdurdod yn uniongyrchol oddi wrth y goron; etto yr oedd cyfarfod y bobl, sef y cynnulliadau sirol, a'r hen ddefod o gynnrychiolaeth yn y cynnulliad hwnw, yn parhau yn y bwrdeisdrefi a'r cantrefi. Ni roddwyd o'r neilldu, gan hyny, awdurdod yr elfen bendefigol (yr hon, yn ddiau, oedd yr elfen gyntaf) yn y Witenagemote, er fod dadleuon, mwy neu lai eu pwysigrwydd, yn digwydd yn fynych rhwng y bendefigaeth a'r goron. Yr adeg y dangoswyd ei dylanwad gyntaf oedd yn 1215, pan y darfu i'r pendefigion lwyddo i orfodi y brenin Ioan i ganiatau y freinlen fawr (*magna charta*). Cymmerodd yr elfen boblogaidd yn y Witenagemote ffurf amlwg, pan, yn y teyrnasiad dilynol, yn 1265, y darfu i Simon de Montfort, iarll Leicester, prif oruchwyliwr y deyrnas, ddanfon allan wysiadau yn enw y brenin i siryddion y gwahanol siroedd, yn gorchymyn iddynt ddychwelyd i'r senedd ddau farchog dros bob sir, a dau fwrdais dros bob bwrdeisdref, i ymgynghori ynghylch achosion y wladwriaeth. Gwel SENEDD.

**WITT, JOHN DE**: gwladweinydd Isellmynaidd. Mab oedd efe i Jacob de Witt, treflyw (*burgomaster*) Dort, a chynnrychiolydd yn senedd Holland. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1626, a derbyniodd ei addysg yn Dort; ond aeth i Leyden i gwblhau ei addysgiaeth. Pan yn dair ar hugain oed, efe a gyhoeddodd ei "*Elementa Linearum Curvarum.*" Pennodwyd ef yn dalwas (*pensionary*) ei ddinas enedigol, a chyflawnodd ei swydd mor alluog, fel, yn mhen dwy flynedd, y pennodwyd ef yn ben talwas Holland—swydd a ddaliwyd ganddo hyd y fl. 1672. Am yr ugain mlynedd dilynol, efe yn rhinweddol oedd prif swyddog gwladol Holland. Yr oedd y cyfnod yn un pwysig i'r wlad hono. Yn y blynyddoedd blaenaf, galwyd ar De Witt i wrthwynebu Oliver Cromwell; ac yn y blynyddoedd diweddaf, i wrthwynebu Louis XIV., ynghyd âg ymbleidiau mewnol. Pan ymaflodd De Witt yn awenau y llywodraeth, yr oedd y weinyddiaeth mewn rhyfel â Lloegr. Bu amryw o frwydrau rhwng y ddau allu ar y môr, ond heb i fuddugoliaeth benderfynol gael ei hennill gan y naill na'r llall, a gwnaed heddwch rhyngddynt yn 1654. Chwanegwyd erthygl ddirgelaidd at y cyttundeb, i'r pwrpas nad oedd teulu Stuart i dderbyn dim cynnorthwy gan y Taleithiau Unedig, nac un tywysog o dŷ Orange i'w ethol yn benllywydd, neu yn benllyngesydd. Gweithiodd De Witt yn egnïol i gyrhaedd yr amcan diweddaf. Y blaid werinol oedd yn oruchaf yn Holland, ond plaid Orange yn Zealand. Am y taleithiau ereill, yr oeddynt yn petruso, rhwng y naill blaid a'r llall. Llwyddodd De Witt, yn y flwyddyn 1667, i gael cydsyniad senedd y talaethau i basio y "gyfraith barhaol," yn ol yr hon yr oedd y swydd o benllywydd i gael ei dileu am byth. Amcan mawr arall De Witt oedd dwyn cyllid y weriniaeth i drefn; a llwyddodd yn hyn yn rhagorol.

Digitized by Google

Yr oedd cyfeillgarwch rhwng De Witt a'r cadlywydd Turenne. Ceisiodd y diweddaf gan lywodraeth Ffraingc wneyd cyttundebau â Phortugal a'r Taleithiau Unedig, er rhoddi attalfa ar uchelgais Yspaen, ond ni lwyddodd. Ond ar ol marwolaeth cardinal Mazarin, llwyddodd i gyrhaedd yr amcan hwn. Yn ol y cyttundeb a wnaed rhyngddynt, yr oedd brenin Ffraingc yn addaw sicrhau i'r Isellmyniaid yr hyn a geisient—yr hawl i bysgota ar ororau Prydain Fawr a'r Iwerddon. Er i weinyddiaeth Prydain ymdawelu yn wyneb hyn, ni orweddai y peth yn esmwyth ar feddyliau y cyhoedd; ac yn fuan, cododd anghydwelediad am bethau ereill, yn gymmaint a bod masnachwyr a morwyr y ddwy genedl yn cweryla â'u gilydd yn fynych ar duedda Affrica, ac yn yr India. Cyhoeddwyd rhyfel rhwng Holland a Phrydain yn y fl. 1665. Dangosodd De Witt ddewrder mawr y pryd hwn; yn enwedig pan yn cymmeryd llywyddiaeth y llynges, pan oedd morfilwyr proffesedig yn petruso, ac yn gommedd gwneuthur hyny. Terfynwyd y rhyfel drwy gyttundeb heddwch Breda, yn mis Gorphenaf, 1667. Talodd De Witt sylw yn awr i drefniadau mewnol y wladwriaeth; ond yn fuan goresgynodd Louis XIV. yr Iseldiroedd Yspaenaidd. Syrthiodd y naill amddiffynfa ar ol y llall i ddwylaw Turenne, a gwnaed cyttundeb rhwng Holland, Prydain, a Sweden, er ceisio gan Ffraingc ac Yspaen i wneuthur heddwch. Llawnodwyd a chadarnhawyd y cynghrair triphlyg ar y 23ain o Ebrill, 1668. Yn ganlynol i hyn, gwnaed cyttundeb heddwch Aix-la-Chapelle, ar yr 2il o Fai. Yn 1670, tynodd Siarl II. yn ol o'r cynghrair. Yn 1671, gwnaeth esgob Munster, ac amryw o dywysogion Pabaidd, gynghrair â Ffraingc yn erbyn Holland. Ymosodwyd arni gan Louis, a'r tywysogion Almaenaidd, yn y fl. 1672. Cymmerodd pleidwyr tŷ Orange fantais ar y cyffroad cenedlaethol i geisio diddymu y 'ddeddf barhaol.' Er fod De Witt a'i blaid yn ddigon cryf i wrthsefyll hyn, methasant attal pennodiad y tywysog o Orange yn gadben ac yn llyngesydd cyffredinol ar y 25ain o Chwefror, 1672. Llwyddodd gelynion De Witt i godi tymmestl fawr yn ei erbyn. Cyhoeddwyd rhyfel yn erbyn Holland gan Ffraingc, Prydain, etholydd Cologne, ac esgob Munster; a dioddefodd yr Isellmyniaid yn fawr, ar dir a môr. Gwnaed ymgais i fradlofruddio De Witt, ond trodd yn fethiant. Cymmerodd y terfysgwyr afael yn ei frawd, Cornelius de Witt, ar y cyhuddiad twyllodrus o fod yn cynllwyn i wenwyno y Tywysog o Orange, a dedfrydwyd ef i alltudiaeth. Yr oedd John de Witt yn parotoi i fyned gyda'i frawd i alltudiaeth; ond fel yr oeddynt eu dau yn gadael yr Hague, darfu i'r bobl gyffrous ac aflywodraethus eu llofruddio yn y dull mwyaf barbaraidd. Cymmerodd hyn le ar y 24ain o Orphenaf, 1672. Fel yna y syrthiodd y brodyr rhinweddol hyn—un o honynt wedi gwasanaethu ei wlad fel y prif ustus am ugain mlynedd, yn ffyddlawn ac ymroddgar; a'r llall, drwy ei synwyr cryf a'i onestrwydd pur, wedi gwneyd yr oll a allai i gefnogi mesurau a ducddent tuag at wellhau a dyrchafu ei gydwladwyr.

**WILLIAMS, PETER**: awdwr yr hen esboniad Cymraeg tra adnabyddus, a elwir yn gyffredin "*Beibl Peter Williams.*" Ganwyd ef yn Morfa Llacharn, sir Gaerfyrddin, Ionawr 7fed, 1722. Yr oedd ei dad yn amaethwr, ac efe a'i briod wedi hanu o deulu cyfrifol. Yr oedd hi yn dyfod o dylwyth y Baylys, Meidrim, y rhai oeddynt yn ddisgynyddion o'r Dr. Bayly, esgob Bangor, yn 1616. Am ei fam, ysgrifenai Peter Williams yn y geiriau canlynol:—

"Yr oedd yn fy mam archwaeth at grefydd; ac weithiau, elai i wrandaw y gweinidog llafurus a defnyddiol hwnw i Grist, Mr. Griffith Jones, Llanddowror. Pan oeddwn tua phump neu chwech mlwydd oed, hi a'm cymmerai wrth ei hysgil ar geffyl, i wrandaw y gweinidog efengylaidd hwnw; ac er fod ganddi ddau blentyn heb law myfi, mab a merch, a bod pob un o honom wedi cael addysg foreuol, fel y dysgasom ddarllen ac ysgrifenu, etto myfi ydoedd hoff blentyn fy mam, o herwydd fy mod, fel y dywedai hi, yn cymmeryd mwy o bleser i gofio ac adrodd rhanau neillduol o'r Ysgrythyrau, megys hanes y plant a watwarasant y prophwyd, ac a laddwyd gan yr arth; neu y dyn a labyddiwyd i farwolaeth am dori y Sabbath; neu Joseph, a werthwyd gan ei frodyr, ond o'r diwedd a ddyrchafwyd i anrhydedd yn yr Aipht. Hi a gymmerai lawer o ofal am fy nygiad i fyny—megys Rebecca ac Iacob gynt. Clywais ryw fechgyn drwg yn tyngu, ac ymddengys i mi geisio efelychu eu hiaith halogedig hyd y gallwn. Clybuwyd fi gan fy mam; yr hon a'm galwodd i gyfrif, ac a roddes i mi y gurfa oreu a gefais yn fy mywyd. Y canlyniad fu, na chynnygiais dyngu byth mwyach."

Megys Hannah gyda Samuel, dymuniad ei fam ydoedd ei roddi i'r Arglwydd, a'i weled yn weinidog efengyl Crist, gan gredu fod ei mab, Peter, i fod yn rhywun mawr. Pan yn un-arddeg oed, efe a gafodd freuddwyd hynod, pryd y gwelai ddyeithriaid yn dyfod i dŷ ei rieni, a dau o honynt yn hardd yr olwg arnynt, fel dau angel, y rhai a eisteddent ar yr ystôl arbenig yr arferai ei fam eistedd arni, ac a elwid yn ystôl y fam; ac yr oedd efe yn teimlo yn hyfryd wrth eu gweled. Boreu dranoeth, efe a adroddodd ei freuddwyd wrth ei fam; yr hon, ynddi ei hun, a'i hesboniodd fel math o brophwydoliaeth arwyddol, ac a'i mynegodd i'w dad. Byddent ar yr aelwyd yn arfer siarad yr iaith Saesnig, ac felly y plant ar y pryd yn fwy hyddysg yn yr iaith hono. Hi a adroddodd y breuddwyd a'i ddeongliad wrth ei phriod yn Gymraeg, gan dybied nad oedd Peter, yr hwn oedd wyddfodol, yn deall eu hymddiddan. Yr oedd y breuddwyd, meddai y fam, "yn rhagfynegu y byddai hi farw yn fuan, ac felly ei hystôl yn wâg o honi hi; ond," chwanegai, "Crist a gynnal fy lle, yn nghyd â gofal y plentyn, ac a rydd iddo sefyllfa yn ei dŷ, fel y gwnaeth i Pedr gynt." Pa fodd bynag, yr oedd Peter bach yn deall yr ymddiddan yn rhy dda, ac yn teimlo yn ddwys oddi wrtho. Ynghylch blwyddyn wedi hyn, marw a fu y fam serchog mewn gwirionedd—o lycheden, meddir; a'r flwyddyn ganlynol, bu farw ei dad. Felly, gadawyd y tri phlentyn yn amddifaid, pan yr oedd y chwaer yn bedair blwydd ar ddeg, Peter tua deuddeg, a'i frawd ynghylch deg oed. Bellach gwasgarwyd y plant. Gwraig foneddig o Bristol a gymmerodd y ferch, gyda yr hon y bu yn aros am flynyddau; a bu farw yno. Ewythr o du y tad a gymmerodd y brawd ieuangaf, ac ewythr arall o du y fam a gymmerodd Peter. Byddai ar adegau yn cynnorthwyo ei ewythr mewn llafur amaethyddol ar y tyddyn, yn enwedig ar brydiau hau a chynhauaf: ac ar adegau ereill, anfonid ef i'r ysgol; ac yr oedd ei hyfrydwch penaf mewn derbyn addysg. Cymmaint oedd ei awydd am ddysg, fel y darllenai hyd yn oed pan yn eistedd wrth y bwrdd

Digitized by Google

i fwyta: ac ar ddyddiau gŵyliau, pryd na byddai yr un ysgol, byddai efe, yn lle canlyn bechgyn eraill i chwareu, yn ddiwyd wrth ei lyfrau, yn enwedig ar ol iddo ddechreu dysgu Lladin a Groeg; ac efe a ddaeth yn fuan yn lled hyddysg yn yr ieithoedd hyny.

Erbyn iddo gyrhaedd un ar bymtheg oed, yr oedd ei ewythr, yr hwn, fel yr ymddengys, oedd ŵr synwyrol a charuaidd, yn ei gynghori i ddewis rhyw alwedigaeth fwy cymmhwys at ei gynnal yn barchus mewn bywyd; ond nis gallai efe gael ei feddwl yn rhydd i benderfynu ymgymmeryd âg unrhyw alwedigaeth dymmhorol neu fydol, gan ei fod wedi rhoddi ei fryd ar fod yn weinidog yn Eglwys Loegr. Etto, yr oedd yn mawr ofni y byddai y draul yn ormod iddo allu cyrhaedd digon o wybodaeth a dysgeidiaeth tuag at ymgymmhwyso yn anrhydeddus i'r swydd oruchel hono. Er ei holl awydd y pryd hwnw am fyned yn weinidog, nid oedd efe etto "yn gwybod ofn yr Arglwydd," nac wedi derbyn y cymmod trwy yr efengyl. Nid oedd ganddo neb yn gofalu am ei enaid, nac yn mynegu iddo ffordd iachawdwriaeth. Ond er hyny, efe a gydnabyddai fod yr Arglwydd yn dirion wrtho yn amseroedd ei anwybodaeth, a ffolineb ei ieuengctid, fel nas goddefodd iddo gyflawni pechodau rhyfygus, na thynu un gwarth cyhoeddus ar ei gymmeriad.

Pan oedd yn ddwy ar bymtheg neu ddeunaw oed, cafodd ei anfon, yn ol ei ddymuniad ei hun, i Ysgol Rammadegol Caerfyrddin, o dan nawdd Eglwys Loegr, ac o dan addysgiad athrawol y Parch. Thomas Einon. Bu yno yn ysgolhaig dyfal a llwyddiannus am dair blynedd, lle yr ennillodd gymmeradwyaeth arbenig ei athraw; at yr hwn, wedi iddo ymadael â'r ysgol, yr ysgrifenodd lythyr yn Lladin, yn diolch iddo am ei ofal am dano, a'i garedigrwydd iddo, fel un o'i ysgolorion; a thebygol i'r llythyr hwnw fod o les ar ol hyny tuag at rwyddhau ei ffordd i'r urdd glerigol.

Rhyw ychydig o fisoedd cyn adeg ymadawiad Mr. Williams âg ysgol Caerfyrddin, daeth y gair ar led fod yr enwog George Whitfield yn dyfod ar ymweliad pregethwrol â'r dref, ac y byddai yn pregethu dan yr awyr agored yn Heol Lammas, ar ddiwrnod penodol. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1743, pan yr oedd Whitfield tua naw ar hugain oed, wedi bod ddwywaith ar deithiau gweinidogaethol yn America, heblaw dwywaith yn Ysgotland, yn pregethu gyda'r effeithioldeb mwyaf; ac yn Llundain, ac amryw barthau o Loegr, yr oedd llwyddiant anarferol wedi dilyn ei weinidogaeth, a sôn mawr am dano trwy dref a gwlad. Yr oedd efe wedi bod yn Nghymru yn nechreu y flwyddyn o'r blaen, Ionawr 5ed a 6ed, 1742, yn nghymdeithasfa gyntaf y Methodistiaid Calvinaidd Cymreig, yr hon a gynnaliwyd yn Watford, ger llaw Caerphili; ac efe oedd llywydd y gymdeithasfa hono; a daeth yn awr i'r ail gymdeithasfa, a gynnaliwyd yn yr un lle, Ebrill 6ed, 1743, ac efe oedd yn llywyddu yno drachefn. Arosodd yno amryw ddyddiau gyda'r brodyr yn Nghymru, gan eu cynnorthwyo i sefydlu llawer o gymdeithasau neillduol (*private societies*), fel eu gelwid y dyddiau hyny—ond a elwir yn awr yn eglwysi. Bu yn y Dywysogaeth am rai wythnosau yn pregethu gyda llwyddiant neillduol yn Nghaerdydd, Llantrisant, Castell Nedd, Abertawe, Llanelli, Lacharn, Cydweli, Llanymddyfri, Aberhonddu, Trefecca, Llanfairmuallt, a llawer o leoedd ereill, ac yn eu mysg efe a ddaeth i Gaerfyrddin. Teithiodd ynghylch pedwar can milldir yn y daith hono. Ysgrifenai—"Y mae y gwaith a ddechreuwyd gan Mr. Griffith Jones yn taenu ar led yn fawr yn Neheubarth a Gogledd Cymru, lle y gwnaeth yr Arglwydd Mr. Howel Harris yn offerynol er dychweliad amryw o glerigwyr, ac ereill. Yr oedd gallu Duw yn y cymmun, dan weinidogaeth y Parch. Daniel Rowlands, yn ddigon i beri i galon dyn losgi oddi fewn iddo. Am saith o'r gloch y boreu, gwelais, hwyrach, gymmaint a deng mil, o amrywiol barthau, yn nghanol y bregeth, yn gwaeddi 'Gogoniant!' 'Bendigedig!' ac yn barod i neidio o lawenydd."

Yr oedd Mr. Einon, athraw yr ysgol yn Nghaerfyrddin, yn gweled yn angenrheidiol rhybuddio pob un o'r gwŷr ieuaingc a berthynent i'r dosbarth cyntaf—y rhai, gan mwyaf, oeddynt ymgeisyddion am urddau Eglwysyddol—i beidio myned i wrandaw Mr. Whitfield, rhag iddynt fyned i afael yr haint Fethodistaidd. Byddai yr athraw, o un ar ddeg i ddeuddeg o'r gloch bob dydd, yn rhoddi i'r cyfryw rai wersi priodol, er mwyn eu parotoi yn ddyladwy i'w hordeinio. Nodai pa awdwyr a ddylent eu darllen a'u hastudio, a pha fodd yr oeddynt i fyned yn mlaen mewn efrydiau duwinyddol. Ond ei siars fawr arnynt y diwrnod hwnw oedd iddynt ochelyd y dyeithr-ddyn a ddisgwylid i bregethu am hanner dydd yn y dref—"Canys dywedir i mi," ebe fe, "ei fod yn pregethu pechod gwreiddiol, a bod yn rhaid i ddyn gael ei ail eni, ac mai trwy ffydd, ac heb ddim gweithredoedd, y mae cyfiawnhau dyn ger bron Duw!" Ond os "ffrwyth gwaharddedig" gan y meistr oedd y gwrandawiad ar Mr. Whitfield, penderfynodd pedwar o'r gwŷr ieuaingc, a Peter Williams yn eu mysg, fyned yn ddirgel i feddiannu y ffrwyth hwnw. Ymwthiasant i ganol y dyrfa, i wrandaw a barnu drostynt eu hunain. Testyn pregeth Whitfield y tro hwn oedd *Esa.* liv. 5; "Dy briod yw yr hwn a'th wnaeth; Arglwydd y lluoedd yw ei enw." Yn ei ddull arbenig ei hun, dangosai y berthynas rhwng Duw yn Nghrist a'r bobl, dan y gymmhariaeth o briodas. Dywedai mai sail y briodas ydoedd Duw wedi ymddangos yn y cnawd; ac am natur neu ddull y briodas, mai cariad oedd y rhwymyn i gyssylltu Duw â'r enaid dros byth. Gwahoddai bawb oedd yn ei wrandaw i gyfranogi o'r dedwyddwch o fod wedi eu dyweddïo â Mab Duw, rhagoriaethau yr hwn, fel priod, a ddynodai efe mewn modd arbenig a thra effeithiol.

"A fyn neb," medd efe, "gael priod doeth? Wele, doethineb ei hunan yw Iesu Grist. Neu, os dewisir priod cyfoethog, acy mae ar bawb o honom eisieu cyfoeth tuag at dalu eu dyled. Wele, y cwbl a fedd y Tad tragywyddol yn eiddo Crist, megys y dywedai gwas Abraham wrth ganmawl ei feistr ieuangc Isaac, fod ei dad wedi rhoddi iddo yr hyn oll oedd ganddo. Ac am briod gostyngedig a thirion, nid oes neb yn debyg iddo; ac mewn tegwch a hawddgarwch, y mae yn rhagori ar feibion dynion. A oes yma neb mewn dyled? y mae efe yn barod i dalu y ffyrling eithaf, heb wgu dim. O! fy nghydbechaduriaid tlodion, dyma ni oll yn ddyledwyr i ddeddf Duw; 'canys pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw.' Yr ydym mewn perygl bob munyd i gael ein cymmeryd i'r ddalfa gan gyfiawnder dwyfol, ein tori i lawr gan fwyell anwrthwynebol brenin y dychryniadau, a'n bwrw i uffern. Nid rhyfedd i Felix grynu wrth wrando am gyfiawnder, dirwest, a'r farn a fydd! Yn awr,

Digitized by Google

'A äi di gyda y gŵr hwn?' A dderbyni di iachawdwriaeth rad, gan fwrw ymaith dy eilunod, a dychwelyd at dy ŵr cyntaf—ymbriodi â Christ, credu ynddo ef, a byw byth o gyrhaedd taranau Sinai, yn ddiogel oddi wrth ofn angeu a'r farn? Derbyniwch y gogoniant—deled i'ch calonau; derbyniwch y fodrwy aur, yr arwydd o gariad tragywyddol. Rhoddwch eich hunain i Waredwr cryf, yr hwn sydd yn barod i dderbyn pwy bynag a ddêl ato ef. O! rhoddwch eich cydsyniad calonog â'r cyttundeb; gelwch yr Ysbryd yn dyst; ysgrifenwch â'ch llaw, Eiddo yr Arglwydd ydwyf fi! ac ymgyfenwch ar enw Israel. Yna, ac nid cyn hyny, y gellwch chwi farw mewn gobaith am fywyd tragywyddol gyda Christ yn y nefoedd. Etto, y mae rhai dynion yn coledd y fath dyb uchel am eu rhinwedd a'u daioni eu hunain, fel y maent yn barod yn wyneb pob achwyniad i ddadleu 'Dieuog' mewn diystyrwch cyhoeddus ar ddeddf yr efengyl. Pe hyny a fyddai i fod yn ddadl gan ddyn, yna bu Crist farw yn ofer; ond hyn fyddai yn ynfydrwydd o'r fath fwyaf afresymol ag y gellir ei ddychymygu, gan y byddai yn achwyniad ar ddoethineb a chyfiawnder dwyfol. Y gwir yw, mai Crist ydyw ein bywyd ni: nid oes fywyd ond ynddo ef, a thrwyddo ef. Ofer a rhyfygus, gan hyny, yw i un dyn ddywedyd. Nid wyf yn gwneuthur drwg; o herwydd yn hytrach efe a ddywedai, ped adwaenai ei galon ei hun yn dda, Nid wyf yn gwneuthur dim da—fel y dywed Paul, 'Nid oes ynof fi, hyny yw, yn fy nghnawd i, ddim da yn trigo.' Pe gelwid y goreu oll o honom i farn, ac i ni gael ymddwyn tuag atom yn ol ein haeddiant, yn foesol neu grefyddol, nyni a allem bawb o honom gael ein dyfarnu i uffern am byth."

Fel hyn yr oedd y pregethwr grymus yn myned rhagddo gydag awdurdod, a Peter Williams yn ymdeimlo fel un yn cael ei glwyfo i'r byw, ond etto heb ei daflu i lawr at droed y groes. Ond dyma Whitfield ëofn a hyawdl yn myned yn mlaen yn fwyfwy difrifol a nerthol; a chyn hir y mae yn bloeddio yn gyffrous, "Fy anwyl gyfeillion, bûm i fy hun dros rai blynyddoedd mor ddiwyd a neb o honoch; yr oeddwn yn gweddïo seithwaith yn y dydd, yn ymprydio ddwywaith yn yr wythnos, yn myned i'r eglwys bob dydd, ac yn derbyn y sacrament bob Sabbath, ac etto am yr holl amser heb fod yn Gristion." Y cyfryw ymadroddion, yn cael eu traddodi gyda dwysder angerddol, a darawsant yr ymgeisydd ieuangc mor nerthol nes yr oedd ei holl natur yn crynu. Gwelai ei hun yn cael ei ddiosg o'i hunan-gyfiawnder; a chan nad allai ei holl ymdrechion a'i lafur diball ei gyfiawnhau, teimlai ynddo ei hun ddymuniad cryf am i'r pregethwr rhyfedd egluro iddo drefn y cadw, ac esbonio iddo beth oedd bod yn Gristion mewn gwirionedd. Gyda bod y cyfryw ddymuniad yn codi yn ei galon ef, beth a glywai efe gan Whitfield ond y geiriau rhyfedd, "Yn awr, fe allai fod rhai o honoch yn barod i ofyn i mi, Pa beth ydyw bod yn Gristion? Mewn gair, derbyn Crist yw —'canys od oes neb heb Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef.' Rhaid i chwi deimlo eich trueni wrth natur—adnabod a theimlo eich angen am Waredwr. Rhaid i chwi gredu mai Mab Duw ydyw y dyn Crist Iesu, a'i fod ef yn alluog i wneuthur y gwaith y daeth i'r byd i'w gyflawni: eich gwaredu oddi wrth bechod—oddi wrth arglwyddiaeth, euogrwydd, a halogrwydd pechod. Bod yn Gristion yw adnabod ei lais ef, cyfodi y groes a'i ganlyn ef, bod yn un âg ef, asgwrn o'i asgwrn, cnawd o'i gnawd, aros ynddo ef, ac yntau ynom ninnau, bod yn deml iddo, cymdeithasu âg ef, gwybod ei ewyllys, a byw i'w ogoniant." Wedi myned ychydig yn mlaen yn y modd yna, dywedai gŵr Duw yn mhellach: —"Eneidiau gwerthfawr! fe allai eich bod yn meddwl fy mod yn dwyn rhyw bethau dyeithr i'ch clyw; ac yr wyf yn addef nad oes lawer iawn o amser er pan yr oedd y fath athrawiaeth yn ymddangos yn ddyeithr i mi fy hun. Gwelais lyfr a elwid '*Bywyd Duw yn enaid dyn*,' ac nis gallwn ddeall beth a olygai yr awdwr; ond wedi ystyriaeth bellach, ac wedi chwilio i fewn i'r mater, argyhoeddwyd fi mai yr awdwr oedd gywir, a'm bod innau yn gyfeiliornus—ei fod ef wedi ei ddysgu yn berffeithiach na mi yn athrawiaeth Crist Iesu. Ac fe all Ysbryd y gwirionedd ein dysgu ninnau oll i ddilyn yr Arglwydd." Dyna ranau o'r bregeth a fendithiwyd gan Dduw y nefoedd i beri i Peter Williams lwyr ymroddi i geisio yr Arglwydd. Gallai rhyw ddarllenydd feddwl ein bod yn ymdrin gormod gyda phregeth George Whitfield; ond tegwch â gwrthddrych ein hanes ydyw dodi i lawr ei adroddiad dyddorus ef ei hun am foddion ei dröedigaeth at yr Arglwydd; ac i'r neb sydd yn meddiannu y gyfrol Saesnig o bregethau Whitfield, gall fod yn ddifyr a buddiol iddynt gymmharu y dyfyniadau hyn gan Peter Williams â'r bregeth ar yr un testyn a geir yno yn gyflawn.

Y mae y darluniad a ddyry efe ei hun o'i deimladau dan ei argyhoeddiad ar y pryd, yn werth eu cofnodi:—

"Yr oedd fy nghymdeithion yn gwrandaw gydag astudrwydd mawr, ac yn canmawl y pregethwr; ond nis gwyddent hwy ddim am y gwaith rhyfedd oedd yn myned yn mlaen yn fy enaid i—am y creadur newydd a ffurfiwyd ynof o fewn yr awr bwysig hono. Ymddengys fod amser rhagosodedig i bob peth. Teimlais argyhoeddiadau mynych o'r blaen, a gwnaethum addunedau lawer gwaith i fwrw ymaith fy eilunod; ond yr oeddwn yn esgeuluso talu fy addunedau i'r Arglwydd, ac yn anghofio fy angel gwarcheidiol. Er hyny, ymwelwyd â mi 'godiad haul o'r uchelder;' cyflawnwyd fy nhröedigaeth, dygwyd i'm cof fy holl bechodau mewn meddwl, gair, a gweithred, fel pe buasai llifddor wedi ei agor, a'r llifeiriant brochus yn ymdywallt arnaf yn ddiarbed, nes yr oedd fy enaid wedi ei orlethu gan warthrudd ac arswyd. Pob peth o'm deutu a ymddangosai yn chwithig a dyeithr; nid oedd yr adeilad harddaf ond megys tomen ffiaidd yn fy ngolwg; nid allwn ymbleseru mwyach yn yr hen awduron cenedlig; er fy mod yn myned i'r ysgol, nis gallwn yno grynhoi fy meddyliau i efrydu. Yr oeddwn yn ymdrechu celu fy anhwyldeb hyd y gallwn; ond daeth yr athraw i ddeall fod y bregeth a wrandawswn ar draws ei waharddiad ef wedi dwys effeithio arnaf; etto nid ynganodd air am hyny wrthyf. Yr oeddwn innau yn disgwyl y byddwn at fy rhyddid yn fuan i ymofyn am gyfeillion newyddion, a wyddent rywbeth am Dduw; ac yr oedd y cyfryw feddwl yn lliniaru rhywfaint ar fy nhrallod. Yr oedd fy nghymdeithion blaenorol yr awr hon yn cefnu arnaf; a'm hen gyfeillion mynwesol ni'm cydnabyddent; eithr troent draw ar yr heol i'm gochel. Yr oedd fy nghydnabod wedi eu siomi ynof, gan y disgwylient fy nghael yn ysgolor gwych ac yn weinidog cyfeillgar; yr oedd yn ddrwg ganddynt glywed, meddent hwy, fy mod wedi troi yn wallgof, hyny yw, fy mod wedi cofleidio Methodistiaeth.........Pa fodd bynag, yr ydwyf yn barnu nad oedd ganddynt hwy ddim mwy o achos i fod yn ddig wrthyf fi nag oedd gan yr Iuddewon i erlid Paul am ufuddhau i'r llais o'r nef. Eithr er hyny, cefais gâr a chyfaill yn cael eu gyru yn mhell oddi wrthyf; nid oedd genyf neb a adwaenwn yn cydymdeimlo â mi yn fy nhrallod, oddi gerth merch ieuangc a berthynai i'r teulu lle yr oeddwn yn llettya; yr hon, fel yr wyf yn barnu yn obeithiol, a gawsai dröedigaeth effeithiol dan yr un bregeth ag y cefais innau hyny. Nis

Digitized by Google

gallaf ond rhyfeddu a mawrhau doethineb Duw yn holl oruchwyliaethau grasol ei ragluniaeth. Yr oeddwn wedi cydsynio i ymuno âg un neu ddau o wŷr ieuaingc digrifol i dalu i gerddor neu delynor, am y tymmor, fel y dywedir, sef Gwyliau y Pasc, y Sulgwyn, a thoriad yr ysgol, pan y bwriadem ymddifyru mewn canu, dawnsio, &c. Ond yn y cyfwng, ychydig cyn y Pasc, wele fi wedi fy nychwelyd at Grist; ac felly, yn hytrach na myned yn mlaen gydag ef, rhoddwyd pen hollol ar y cynllun hwnw i foddhau y cnawd."

Ond os nad oedd y cnawd yn cael ei foddio, yr oedd gan y gŵr ieuangc erbyn hyn lawenydd wedi ei roddi yn ei galon llawer mwy na'r amser y cenid ac y dawnsid gyda'r delyn a'r dympan; canys yr oedd bellach "yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu."

Yr oedd efe yn awr yn un ar hugain oed, a'r amser wedi dyfod iddo ymadael â'r ysgol, a gwynebu ar y byd, i ddarpar drosto ei hun, ac i 'ddechreu byw' o ddifrif. Cafodd ei annog i gadw ysgol yn mhentref plwyf Cynwil Elfed, o fewn pum milldir i dref Caerfyrddin; ac felly y gwnaeth efe. Heb law addysgu ei ysgolheigion yn y gwersi arferol, bu yn hynod ymdrechgar, ac nid yn aflwyddiannus, i'w lleshau yn ysbrydol. A bu y gymmydogaeth yn gyffredinol ar ei mantais oddi wrth ei sêl grefyddol; o herwydd yr oedd efe 'fel canwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll.' Yn Nghynwil Elfed, ymroddodd yn egniol i astudio duwinyddiaeth; yr hyn nad oedd wedi bod ond ychydig dan ei sylw pan yn efrydu yn Nghaerfyrddin. Wrth lafurio fel hyn, cryfhaodd ei awydd am bregethu yr efengyl, ac ymgyssegru i'r weinidogaeth; ond nid oddi ar yr un cymmhellion ag a'i tueddai at hyny pan yn fachgen gyda ei ewythr, ond oddi ar ystyriaethau annhraethol uwch. Yr oedd cariad Crist, weithian, yn ei gymmhell, a gair y cymmod yn ei galon yn llosgi fel tân, wedi ei gau o fewn ei esgyrn, fel nas gallai efe ymattal. Nid cael pregethu er mwyn byw, ond byw er mwyn pregethu oedd yn awr ei nôd. Ond yr oedd anhawsderau ar ei ffordd, yn enwedig y cyhuddiad a roddid i'w erbyn ei fod yn Fethodist, neu yn 'Bengrwn,' yr hyn oedd yn ei wneyd yn annerbyniol gan yr urdd offeiriadol yn gyffredin. Eithr cafodd un cymmhorth da o gŵr nad oedd wedi ei ddisgwyl. Ei hen athraw, yr hwn a'i rhybuddiasai ef a'i gymdeithion rhag myned i wrandaw Whitfield, a drodd yn awr yn gefnogydd iddo, ac a wnaeth ei oreu drosto, gan ddwyn yn mlaen y llythyr Lladin a ysgrifenasai ei ysgolhaig ato, fel y crybwyllwyd, yn arganmoliaeth iddo; a thrwy hwnw yn benaf, dybygid, y llwyddodd Peter Williams i gael yr urdd ddiaconaidd yn y flwyddyn 1745. Ymsefydlodd fel curad yn eglwys Gymun, ar gyffiniau sir Gaerfyrddin a sir Benfro. Yr oedd ficer y plwyf yn meddu hefyd fywoliaeth werthfawr yn Lloegr, ac yn ŵr tra chyfoethog. Ni ddeuai efe i'w blwyf yn Nghymru ond rhyw unwaith yn y flwyddyn, pryd y deuai i dderbyn ei ddegwm plwyfol. Nid oedd efe yn gofalu dim am eneidiau ei blwyfolion; eithr yr oedd ganddo, fel y gwelir, ofal am y degwm. Felly, yr oedd yr holl ofal plwyfol yn disgyn ar Mr. Williams, tra yr oedd ei gyflog mor fychan fel y gorfodwyd ef i gadw ysgol ddyddiol tuag at ei gynnaliaeth. Ni ddywedir pa faint oedd swm y cyflog a dderbyniai oddi wrth ei ficer goludog; eithr cesglir, oddi ar sail gredadwy, meddir wrthym, nad oedd yn cyrhaedd ugain punt yn y flwyddyn! Pa fodd bynag, gyda help ei ysgol, a thrwy fyw yn gynnil, yr oedd efe yn mhen y flwyddyn yn gallu cael pâr o ddillad newyddion, a cheffyl; ac fe gofir fod ceffylau yn rhâd iawn yn y dyddiau hyny.

Am ryw ysbaid, bu yn cael ei barchu yn fawr yn y plwyf, fel un âg awydd a chymmhwysder ynddo i wneuthur daioni; ond yn fuan, dechreuodd rhywrai sibrwd ei fod yn "rhy gyfiawn," a bod ei bregethau a'i ymddygiadau yn sawru yn ormodol o rywbeth tebyg i Fethodistiaeth. Un o'i droseddau mawrion, yn nghyfrif ei gondemnwyr oedd, ei fod yn annog ei blwyfolion i gynnal cyfarfodydd gweddïau yn wythnosol, gan enwi tri neu bedwar o dai yn mha rai y gallent gydgyfarfod yn gylchynol, a'i fod ef ei hun yn myned i'r cyfryw gyfarfodydd, lle y byddai yn cynghori y bobl, ac yn gweddïo gyda hwynt. Ond ei bechod mwyaf oedd pregethu am nifer o funydau heb ddarllen allan o lyfr. Byddai efe yn arfer ysgrifenu ei bregethau yn gyflawn, a'u darllen, yn ol yr arferiad cyffredinol. Ond un Sabbath, pan ddigwyddodd iddo godi ei olwg oddi ar ei bregeth ysgrifenedig, efe a ganfu langc a merch ieuangc yn cellwair, ac yn gwthio eu gilydd, ac yn dwyn blodeuglwm y naill oddi ar y llall, a phobl ereill yn ymddangos yn ymddigrifo wrth edrych arnynt. Y curad a ddistawodd am ychydig amser, gan ddisgwyl y buasai y distawrwydd yn peri iddynt gywilyddio, ac ymddwyn yn weddus rhagllaw; ond nid oedd hyny yn tycio dim i'w cael i ymddwyn yn deilwng. Yna efe a roddes bapur ei bregeth o'r neilldu, gan gadw ei fŷs ar y fan lle y darllenai olaf, a chyfarchai y pâr afreolus yn ddifrifol, gan eu galw i ystyried yn mha le yr oeddynt, a pha beth oedd amcan yr ymgynnulliad, a'r amharch a roddent ar Wrthddrych Dwyfol yr addoliad. Yr oedd efe erbyn hyn wedi tynu ei fŷs oddi ar y bregeth; a phan aeth ati eilwaith, methodd gael allan yn mha le yr oedd i ddechreu ail ddarllen. Bellach, yr oedd raid iddo lefaru yn ddifyfyr, fel y dywedir, neu derfynu mewn cywilydd yn y fan hono. Felly, efe a anturiodd ar gymmhorth Duw, ac a allodd fyned rhagddo i'r pen yn lled rwydd. Yr amgylchiad damweiniol hwn a wnaeth i'r rhai oedd yn meithrin rhagfarn yn ei erbyn o'r blaen, benderfynu mai Methodist ydoedd efe mewn gwirionedd; ac yr oedd efe bellach, meddent, wedi taflu ymaith y *mask*, a dangos beth ydoedd yn ddigêl. Yn mysg ei feirniaid gwrthwynebus, yr oedd gwraig y ficer, yr hon a ysgrifenodd at ei gŵr oedd yn Lloegr, i achwyn ar ei gurad. Hwnw a ysgrifenodd lythyr bygythiol at Mr. Williams, gan adrodd yr achwyniadau arno; ac yn enwedig ei fod yn cael ei gyhuddo o "bregethu pechod gwreiddiol, cyfiawnhâd trwy ffydd, a'r angenrheidrwydd anhebgorol am adenedigaeth." Aufonodd yntau yn ostyngedig at ei feistr plwyfol hwn, gan ddywedyd, "Can belled ag yr wyf fi yn deall, cynnwysir y gwirioneddau crybwylledig yn erthyglau Eglwys Loegr. Byddwch mor fwyn, syr, a gadael i mi wybod eich barn ynghylch y pyngciau uchod; a mi a ymdrechaf, mor bell ag y gallwyf gyda chydwybod rydd, ddilyn eich cyfarwyddyd." Ond ni chafodd efe un attebiad i'w lythyr hwn. Yn fuan wedi hyny, daeth y ficer i Gymru, ac i Eglwys Gymun; ac yn ddiseremoni, heb rith o brawfholiad, na rhoddi dim lle i Mr. Williams i amddiffyn ei hun, efe a'i trodd allan o'i guradiaeth. Ac nid ymddygodd ei esgob (Tŷ Ddewi) ato ronyn gwell. Galwyd ef o flaen yr 'arglwydd'

Digitized by Google

hwnw, yr hwn a ddywedodd wrtho, "Yr ydwyf wedi clywed eich hanes. Chwi a fuoch yn pregethu yn Llanlleian a Chapel Ifan." "Gwir yw hyny," attebai Mr. Williams; "mi a wyddwn mai lleoedd cyssegredig perthynol i Eglwys Loegr oeddynt." "Wele," ebe yr esgob, "os bydd i chwi ymddwyn yn weddus am dair blynedd, heb weinidogaethu yn un-lle, yna mi a roddaf i chwi gyflawn urddau." "Pa fodd y gallaf fyw gyhyd heb swydd na chyflog?" Ond nid oedd yr esgob yn gofalu dim am hyny, eithr yr oll a ddywedodd ydoedd, "Gwnewch gystal ag y medroch;" ac o'r palas esgobol yr ymadawodd y truan, heb neb wedi cynnyg iddo fwyd na diod.

Wedi ei daflu allan yn ddidrugaredd fel hyn, yn unig am ei ffyddlondeb i Grist, nis gadawyd ef gan ei Feistr Nefol, yr hwn a ddarparodd iddo gymmwynaswr yn y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, hen gyfaill ac anwyl weinidog ei fam dduwiol. Clywodd Mr. Jones am helynt Peter Williams, ac efe a gafodd ac a roddodd hanes lle iddo fel curad yn Abertawe. Wedi cael yr hysbysiad hwn, aeth Mr. Williams i gyrchu ei geffyl, yr hwn a gedwid gan ŵr cyfrifol oedd yn byw yn agos i Lanlleian; a'i geffyl ynghyd â'r pâr dillad crybwylledig, oedd ei holl gyfoeth. Merch i'r gŵr caredig hwnw a briododd efe yn mhen tair blynedd ar ol hyn. Ar ei farch yr aeth i Abertawe, lle y cafodd ei dderbyn yn groesawus. Yr oedd yno yn gwasanaethu dwy eglwys; yn Gymraeg yn Eglwys Ifan, ac yn Saesneg yn Eglwys Fair. Ond ni bu efe yno yn hir cyn cyfarfod â chyffelyb wrthwynebiad ag a gawsai yn Eglwys Gymmun. Wedi cael ei alw i bregethu i'r maer, ac ereill o swyddogion trefol, ar ddiwrnod pennodol, ei destyn y pryd hwnw oedd 2 *Cron.* xix. 6, 7; "Ac efe a ddywedodd wrth y barnwyr, Edrychwch beth a wneloch; canys nid dros ddyn yr ydych yn barnu, ond dros yr Arglwydd; ac efe a fydd gyda chwi wrth roddi barn. Yn awr, gan hyny, bydded ofn yr Arglwydd arnoch chwi; gwyliwch a gwnewch hyny; o herwydd nid oes anwiredd gyda'r Arglwydd ein Duw, na derbyn. wyneb, na chymmeryd gwobr." Yr oedd y cyfeiriad a'r cymmhwysiad yn disgyn fel tân poeth ar deimlad urddasolion y dref, ac nis gallent oddef y fath bregethwr argyhoeddiadol. Ac yr oedd ei bregethau efengylaidd ar brydiau ereill yn rhy Fethodistaidd gan y bobl fwyaf oedd yn gwrandaw arno, er y bu efe o les mawr i amryw o rai sychedig am Air yr Arglwydd. Yn mhen y mis, wele efe wedi ei daflu allan o Abertawe etto.

Bu wedi hyny am ryw ddeufis yn athraw i fab gŵr boneddig, nid yn mhell o Gaerfyrddin. Yno cafodd hanes fod eisiau curad yn Llangranog a Llandysilio, sir Gaerfyrddin; a dechreuodd weinidogaethu yno, gan lwyddo i ennill serch corph y bobl. Ond wedi bod yno dros ddau fis, mynai rhywrai gael yn ol y curad a fuasai yno o'i flaen, ac a ymadawsai o eisieu cael codiad yn ei gyflog. Un boreu Sabbath, dyma Williams yn cael yr eglwys yn nghauad; eithr nid wedi ei chau yn ei erbyn ef, ond yn erbyn y curad arall, yr hwn a fynasai wasanaethu y boreu hwn. Pan agorwyd y drws, y ddau gurad a ruthrasant i mewn, a lliaws y gynnulleidfa ar eu holau. Gan brysuro tua'r pulpud, ymaflodd y ddau glerigwr yn ysgwyddau eu gilydd, pryd y profodd Peter Williams ei fod yn ddyn cryfach na'i wrthwynebwr, ac yr ennillodd y pulpud iddo ei hun. Pan yn adrodd am hyn, yn mhen wyth mlynedd a deugain ar ol i'r amgylchiad fyned heibio, efe a ddywedai, "Yr oeddwn yn ieuangc a chadarn y pryd hwnw; eithr yr ydwyf yn awr yn hen." Llwyddodd ar yr adeg i dawelu y bobl, a phregethodd wedi y cyffro yn alluog iawn; ond penderfynodd yn y fan na wnai efe byth ar ol hyny ymryson am bulpud cyssegredig, ond y gwnai bregethu yr efengyl, pa un bynag ai i mewn neu allan, yn y maes neu ar y domen, os gallai rywfodd ennill eneidiau at yr Iachawdwr. Ond wedi y cwbl, y gŵr arall a orfuodd, ac a gafodd y guradiaeth, gan gael y codiad tâl; o herwydd "y byd a gâr yr eiddo;" eithr ni chafodd Peter Williams dâl o gwbl am ei wasanaeth yn y llanau hyny.

Tua'r pryd hwn, efe a glywodd am ryw "gynghorwr" enwog o sir Benfro; ac efe a aeth i'w wrandaw yn pregethu mewn ardal fynyddig yn agos i Gastell y Gwair (*Hay Castle*); a chafodd y fath fwynhâd bendithiol dan y bregeth hono, fel nas gallai ar ei diwedd lai na thori allan mewn gweddi—yr hyn a wnaeth gyda'r fath eneiniad nes oedd y bobl yn synu ac yn moli Duw, a phawb yn ymholi pwy oedd y gŵr dyeithr ieuangc a pharchedig hwn. Ni ddywedir pwy oedd y "cynghorwr" hwnw; ond gwelsom un ysgrifenydd yn enwi y Parch. Howel Davies, o sir Benfro; eithr nid yw yn debyg y buasai y clerigwr enwog hwnw yn cael ei alw yn gynghorwr; canys enw ar bregethwr di-urddau oedd cynghorwr gan yr hen Fethodistiaid. Pa fodd bynag, daeth Peter Williams yn gydnabyddus yn fuan â Howel Davies; o herwydd y cynghorwr a ddug y gweddïwr rhyfedd gydag ef i gymmanfa neu gyfarfod perthynol i'r Methodistiaid Calvinaidd a gynnelid yn rhywle ar gyffiniau sir Benfro, lle yr oedd Mr. Davies yn blaenori. Y canlyniad a fu i Mr. Williams fwrw ei goelbren gyda'r Methodistiaid; a'r ymuniad hwn a gymmerodd le yn y flwyddyn 1746, pan yr oedd efe yn bedair blwydd ar hugain oed.

Yr oedd efe bellach yn ŵr rhydd i fyned trwy Gymru i efengylu anchwiliadwy olud Crist, heb achos iddo ofyn am le cyssegredig tuag at bregethu yr Arglwydd Iesu. Efe a ddywed am yr adeg hon ar ei oes—"Ni wyddwn ond ychydig am y gwahaniaethau athrawiaethol rhwng Calviniaid, Arminiaid, Baxteriaid, Moraviaid, &c.; er hyny, yr oeddwn wedi dysgu fod pregethu Crist wedi ei groeshoelio dros bechaduriaid yn ddigon i enaid yn sychedu am gyfiawnder." Nid rhyfedd mai fel hyn yr ydoedd etto, fel y sylwai ysgrifenwr synwyrlawn "*Methodistiaeth Cymru*:"—"Yr oedd y pregethau a glywsai hyd yn hyn yn Eglwys Loegr gan mwyaf yn llawn o ûs a sothach, ac yn wâg o efengyl. Nid oedd natur yr addysg a dderbyniasai yn yr ysgol yn gwasanaethu nemawr i eangu a chywiro ei syniadau am bethau teyrnas nefoedd; ac nid syn genym, gan hyny, ei gael, ar ei ymuniad cyntaf â'r Methodistiaid, mewn ystâd a alwai am arweiniad a chynnorthwy. Hyn a gafodd, a hyn a ddefnyddiodd."

Wedi iddo fod yn pregethu rai gweithiau yn nghlyw y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho, yr hwn a ystyrid fel tywysog ac apostol Methodistiaeth Gymreig, cymmhellwyd ef i fyned ar daith trwy Ogledd Cymru; ac yr oedd efe yn hynod gymmhwys i deithio fel efengylwr—yn ŵr o gorph cryf a golygus, o feddwl bywiog ac ysbryd penderfynol, ac yn ymadroddwr rhwydd a grymus, a'i ddoniau yn hynod o gyfaddas at



Digitized by Google

gyrhaeddiadau ei wrandawyr yn y dyddiau tywyll hyny, heb ond

"Y ddau iawn bwngc ganddo'n bod—
Y camwedd, a threfn cymmod."

Yn gynnar ar ei daith, daeth i dref Llanidloes, lle y dywedwyd wrtho fod gŵr o'r enw Evan Morgan, crydd, yn caru Iesu Grist, yr hwn a'i derbyniai i'w dŷ. Wedi edrych yn ddyfal am siop grydd, a chanfod un, efe a ymofynodd am Evan Morgan. Gŵr y tŷ a attebai fod rhai yn ei alw ef dan yr enw Evan Morgan. "A pha beth sydd arnoch chwi ei eisieu ganddo?" meddai. Ofnai Mr. Williams ei fod wedi camgymmeryd ei ddyn; ond tra yr oedd mewn cyfyng-gynghor pa beth i'w atteb, pwy a ddaeth yn mlaen ond y gwir Evan Morgan, gan ofyn "Ai am danaf fi yr oeddych chwi yn ymofyn?" Nid oedd gan y llall ond cywilyddio am ei ymdrech i dwyllo y gŵr dyeithr; a chyda rheg, dywedai, "Ië, dyma fe yn awr." Pe buasai y drygddyn wedi llwyddo yn ei amcan i gamarwain y pregethwr, ac heb weled neb yn gefn iddo, mae yn ddigon tebyg y buasai efe yn gwneyd yn hysbys i werinos y dref mai crwydryn o Gradociad ydoedd, ac y cawsai felly ei erlid yn greulawn. Ond os diangodd efe yn groeniach yn Llanidloes, cafodd ei faeddu yn dost mewn llawer o leoedd ereill ar ei daith bregethiadol gyntaf hon. O Lanidloes, efe a aeth rhagddo trwy Drefnewydd, gan bregethu yma a thraw yn y manau lle y rhoddid derbyniad iddo, ac weithiau ambell gyfaill yn dyfod yn gydymaith iddo o'r naill le i'r llall. Tra yn rhoi ebran i'w farch yn y Drefnewydd, rhywrai oedd yn sylwi arno a ammheuasant ai nid oedd efe yn un o bregethwyr "y sect newydd oedd wedi codi yn erbyn y wir Eglwys," a dechreuasant gynnhyrfu, a'i luchio â cheryg, fel y bu raid iddo yn frysiog adael y dref. Yna efe a gyfeiriodd tua Llanfair-caereinion, lle yr oedd yn byw foneddwr y daethai yn gydnabyddus âg ef yn ffynnonau Llandrindod. Wedi cyrhaedd ei dŷ, cafodd yno letty cysurus y noswaith hono; a phregethodd dranoeth yn yr annedd-dy hwnw.

Oddi yno, efe a aeth yn mlaen nes cyrhaedd y Bala, lle yr oedd nifer o bersonau wedi eu hennill i garu a phroffesu yr efengyl yn y tymmor cynnar hwnw ar Fethodistiaeth yn Ngogledd Cymru, a rhai o honynt yn dda arnynt o ran eu hamgylchiadau bydol. Un o honynt oedd yn Ysgotiad o enedigaeth, yr hwn oedd wedi priodi ac ymsefydlu yn y Bala; a chydag ef y llettyai Mr. Williams y noson y daethai yno. Y dydd canlynol, gwnaed yn hysbys i'r ychydig gyfeillion a'r caredigion efengylaidd fod y pregethwr yno; a daeth ynghyd chwaneg nag a wahoddasid—i'r rhai y pregethodd Mr. Williams yn ei ŵn clerigol, gan ddisgwyl y buasai hyny yn ennill mwy o sylw a thawelwch gwrandawiad; ond er hyny, yr oedd amryw yn mysg y rhai a ddaethent ynghyd yn dangos cryn duedd i wawdio ac i erlid. Eithr, ar y cyfan, yr oedd ymweliad Peter Williams â'r Bala y tro hwn yn un hyfryd mewn cymmhariaeth i'r driniaeth dost a gafodd Howel Harris yno ryw bump neu chwe blynedd cyn hyny. O'r Bala, aeth Mr. Williams yn mlaen ar ei daith hyd barthau Lleyn ac Eifionydd, gan bregethu yn yr awyr agored mewn amryw leoedd; a bu ei weinidogaeth yno, meddir, er tröedigaeth llawer o eneidiau.

Yr oedd efe yn disgwyl cael cyfarfod yn Eifionydd â'r gŵr duwiol, Mr. William Pritchard, Glasfrynfawr; ond erbyn hyn yr oedd y gŵr da hwnw, o herwydd gelyniaeth erledigaethus y Canghellydd Owens, o Lanor, wedi gorfod ymadael â'r Glasfryn, ac wedi myned i Blas Penmynydd, ger llaw Llangefni, yn Môn. Achlysurodd hyn i Peter Williams groesi afon Menai i ymweled â sir Fôn; ac wedi clywed gan William Pritchard am y tywyllwch ysbrydol oedd yn gordoi trigolion yr ynys, efe a bregethodd mewn amryw fanau yno—ac nid heb fesur helaeth o gymmhorth o'r nef, ac o wrthwynebiad oddi wrth y fall. Yr oedd efe wedi clywed am un pregethwr oedd, ychydig amser cyn hyny, yn sefyll wrth y ffordd fawr i bregethu Crist, pryd yr oedd y gynnulleidfa o'i flaen ac o'i amgylch yn dra therfysglyd, ond yn rhanedig mewn tuedd; rhai yn dywedyd, "Gadewch i ni glywed pa beth sydd gan y cablwr i'w fynegu," ac ereill yn bloeddio "Na: mynwn ei guro i ffwrdd o'r wlad." A'r ddwy blaid hyn a aethant i ymladd â'u gilydd, nes colli gwaed, a gyru ymaith y llwch o'u blaen, fel pe gwelsid cawod o wlaw yn disgyn o'r cymmylau. Ond nid oedd unpeth a glywsai yn gallu dychrynu Peter Williams rhag cynnyg pregethu i'r bobl, y rhai a gyrchent o bob man, gan lefain y naill wrth y llall, "Un o'r 'penau cryniaid' a ddaeth atom i bregethu!" Nid arosai efe i lawer o honynt ymgasglu, ond dechreuai efengylu yn ebrwydd wrth yr ychydig oedd wedi dyfod ynghyd ar y dechreu; ac wedi ennill clustiau y rhai hyny, ac yn fynych eu calonau, byddent hwy yn amddiffyn da iddo rhag terfysgwyr a ddeuent ar ol. Mynych y byddai efe yn cael pobl o sefyllfa ganolig—ac, yn wir, rhai tlodion—yn gofyn iddo ddyfod i lettya atynt hwy, gan fod iddo, meddent wrtho, groesaw calon i'r fath le ag oedd ganddynt hwy. Adrodda Mr. Williams iddo y pryd hwn gael cyfaill anwyl mewn ail fab i ŵr boneddig, yr hwn a ennillwyd i dderbyn yr efengyl dan weinidogaeth Mr. Howel Harris. Daeth y gŵr ieuangc cyfrifol gydag ef i lawer o fanau, heb arno ddim ofn erledigaeth—ond yn foddlongar yn cyfodi ei groes. Efe a ddygodd Mr. Williams i sylw amryw gyfeillion, ac a'i harweiniodd ef i leoedd y byddai debycaf o gael gwrandawiad heddychol.

"Yr oeddym," ebe y pregethwr eofn, "yn myned trwy dref, yr hon, o'r blaen, oedd elyniaethol i'r efengyl, ond yn awr yn gymmwynasgar, ac agos â dyfod allan o honi trwy ganol llawer o bobl anfoesgar:—rhai yn dirmygu ac yn gwatwar, a rhai yn ceisio dychrynu ein ceffylau gyda chŵd a cheryg wedi ei rwymo wrth ben polyn hir, gan ei ysgwyd yn dda; eithr nid oedd yno ond ychydig neu ddim o luchio ceryg. Ond yn mhen y dref, fe ddaeth rhyw grydd allan o'i weithdy, ac a gymmerodd lonaid ei law o laid yr heol ar dywydd gwlyb, ac a'i taflodd i fy ngwyneb, nes yr oedd fy nau lygad yn nghauad am ennyd, heb fy mod yn gallu gweled mwy na dyn dall. Pa fodd bynag, mi a'i crafais ymaith mor ebrwydd ag y gallwn; a chan edrych o'm hamgylch, mi a welwn fy ffordd fel cynt. Yna llawenychais, a bu dda genyf ddarfod fy nghyfrif yn deilwng o gael fy erlid er mwyn Crist a'i bur efengyl."

Ar y daith hon, dybygid, y bu efe yn pregethu wrth dŷ tafarn yn agos i Benrhos-llugwy. Erbyn ei ddyfodiad yno, yr oedd cwmni o greaduriaid di-serch yn disgwyl am dano. Nis caniateid iddo fyned i'r tŷ, ac ni roddid chwaith le i'w geffyl. Ond gan ei fod mor wrolfrydig, a'r bobl yn ei weled o ymddangosiad boneddigaidd,

yr oeddynt yn methu ei wrthsefyll. Efe a safodd i fyny, ac mewn dull grymus, gydag awdurdod, efe a roes y pennill Salm canlynol allan i'w ganu:—

> "Yr Arglwydd bïa'r ddaear lawr,
> A'i llawnder mawr sydd eiddo;
> Yr Arglwydd bïau yr holl fyd,
> A'r bobl i gyd sydd ynddo."

Cerddodd y fath nerthoedd gyda'i adroddiad o'r pennill, nes yr oedd y gwŷr a fynasent derfysgu yn taflu y pastynau, a'r cyrn, a holl gelfi yr aflonyddwch o'u dwylaw, ac yn dechreu nesau yn mlaen, ac yn cael eu dylanwadu i wrandaw yn llonydd hyd ddiwedd y cyfarfod. Ac yn fwy na hyny, yr Arglwydd a ddug dystiolaeth i air ei ras y tro hwn, trwy beri i'r bregeth fod yn foddion dychweliad Owen Thomas Rowland, a fu wedi hyny yn hynod fel Cristion a phregethwr yn Môn, a Richard Hughes, Llain wen, a fu yn ŵr arbenig mewn duwioldeb a sêl gyda chrefydd Crist, ac a ddioddefodd lawer er ei mwyn.

Ar ei ddychweliad o Fôn, pregethodd mewn amryw leoedd yn siroedd Caernarfon a Dinbych, gan gyfarfod agos yn feunyddiol âg erlidiau ffyrnig. Yn Nhrefriw, ger llaw Llanrwst, trinwyd ef yn erchyll. Yr oedd yno ryw ychydig o gyfeillion crefyddol, yn fwy eu sêl na'u gwybodaeth, wedi rhoddi y gair allan fod y Parchedig Peter Williams i bregethu yn y pentref ar y pryd a'r pryd, yr hyn a roes fantais i'r erlidwyr ymgynnull yn brydlawn i'w wrthwynebu; a'r canlyniad a fu, ei rwystro i bregethu yno y tro hwnw. Yr oedd yno ddau foneddwr mewn enw, ond yn ddynsodion anfoneddigaidd iawn mewn ymddygiad ac ymarferiad, yn blaenori y werin; a buont yn ddigon hyf a digyfraith i ddal y pregethwr, a'i gadw megys carcharor mewn tafarndy yn nghanol mintai o watwarwyr o tua chwech o'r gloch ddechreu-nos hyd ddau o'r gloch y boreu, fel Samson yn mhlith y Philistiaid, i beri iddynt chwerthin. Cymmhellent ef i yfed, a rhoddent iddo liaws o goeg-gwestiynau am ei ddysg, ei athrawiaeth, a'i ganlynwyr. Mewn gwawd gofynent, "Ar ba destyn y buoch yn pregethu y boreu heddyw?" Yntau a'u hattebodd yn llariaidd, "Os gwelwch chwi fod yn dda, foneddigion, adroddaf i chwi y testyn, a'r holl bregeth hefyd." Parai hyn iddynt chwerthin yn uchel a gwawdlyd am ennyd drachefn a thrachefn. Pan y galwodd efe am ymborth, ac y dywedai y dymunai gael myned i'r gwely, hwy a uchel chwarddent drachefn; ac un o honynt a ddywedai yn goeglyd, "Cewch fwyd a gwely hefyd cyn hir." Gan yr olwg gythreulig a welai efe arnynt, ofnodd mai ei fwrw allan a wnelid, ac â cheryg ei faeddu i farwolaeth, ac y gwnelid felly yn nhywyllwch nos ben am ei einioes. "Etto," ebe fe, "rhoddais fy hun i fyny i Dduw, a pharheais i offrymu saeth weddïau, gan nas goddefai fy ngwawdwyr rhagrithiol i mi weddïo na phregethu yn hyglyw; ond, yn wir, yr oeddwn yn griddfan am y gorfyddai arnaf wrandaw ar eu llwon, eu maswedd, a'u cableddau. Eithr er hyny oll, nid oedd genyf achos i gwyno, o herwydd dangoswyd mwy o ffafr i mi nag a gawsai fy Arglwydd a'm Meistr, yn gymmaint ag i mi gael fy rhyddhau cyn caniad y ceiliog." Wedi i ddau flaenor yr erlid a'r terfysg orchymyn i ŵr y tŷ roddi iddo fwyd a diod, am yr hyn y talasant, ac arddodi yn siars arno yntau na phregethai yn y pentref hwnw, hwy a gymmerasant eu ceffylau, ac a aethant ymaith—ac ar eu hol, eu dilynwyr hefyd a ymwasgarasant. Yr oedd cyfaill a ddaeth i Drefriw gydag ef, wedi ei adael yn ddychrynedig, pan yr amgylchynwyd ef gan yr erlidwyr; ac yr oedd hwnw wedi hysbysu gŵr y dafarn, yr hwn a'i hysbysai ef pwy ydoedd. Y tafarnwr, pan gafodd gyfleusdra, a sibrydodd wrth Mr. Williams fod y ceffylau, a'r codau, a phob peth perthynol iddo ef a'i gyfaill yn ddiogel, ac y dygai efe ei gyfaill ato cyn gynted ag yr elai y dyrfa derfysglyd ymaith. Yn y man, aeth y pregethwr a'i gyfaill i'r gwely i orwedd; ac yno Mr. Williams a gysgodd am ychydig oriau, ond nis gallodd ei gyfaill gysgu dim.

Wedi iddynt gyfodi, dyma ŵr arall yn dyfod atynt, gan gymmeryd arno fod yn dra chyfeillgar, a gofyn i Mr. Williams weddïo drosto ef a'i gymmydogion, a dymuno hefyd am gael gweled ei urdd-lythyrau, y rhai a ddangosasai efe y noson o'r blaen i'r boneddigion erlidgar. Yntau a'u rhoes yn ei law i'w hedrych; ond ar hyny bwriodd y cadnaw drwg olwg chwithig arno, gan nacau eu dychwelyd yn ol; a chyfododd, ac aeth ymaith ar gefn ei farch. Yn fuan, aeth Mr. Williams ymaith, heb gael un cyfle i ddyweyd gair yn gyhoeddus dros yr Arglwydd yn Nhrefriw y tro hwnw, yr hyn oedd yn ofid mawr iddo; etto teimlai yn ddiolchgar am gael dwyn tystiolaeth dros y gwirionedd trwy ddioddef ammharch am gynnyg ei bregethu, ac am iddo yno gael diangfa mor ryfedd yn mron ag a gawsai Daniel o ffau y llewod. Efe a'i gyfaill a aethant i le arall, tua saith milldir oddi yno, lle yr oedd iddynt gyfeillion adnabyddus. Cyn pen dwy awr wedi cyrhaedd y lle hwnw, wele ferch ieuangc ar farch yn dyfod at y tŷ, ac yn gofyn am y dyeithriaid. Pan yr aeth Mr. Williams i'r drws ati, hi a ddywedai mai merch oedd hi i'r gŵr a gymmerasai ymaith ei urddysgrifau y boreu hwnw, ac mai ei neges hi yn dyfod ato oedd eu dychwelyd yn ol iddo. Bernid mai deall a wnaethai y gŵr, ar ol iddo ymffrostio wrth rai o'i gymmydogion y fath weithred ardderchog a gyflawnasai mor gyfrwys, y gallesid ei ddodi yn ngafaelion llymion y gyfraith, a pheri iddo lawer mwy o golled nag a allai gael o ennill trwy gadw trwyddedau y pregethwr dyeithr.

Y mae Mr. Robert Jones, o Rhos-lan, yn ei "*Ddrych yr Amseroedd,*" yn rhoddi hanes arall am driniaeth ammharchusach fyth a gawsai Mr. Williams yn Nhrefriw; a dywed efe iddo gael yr hanes gan hen ŵr duwiol ag oedd yno yn y cyfamser, yn gweled ac yn clywed y cyfan o'r dechreu i'r diwedd; ac onid ê, mai anhawdd a fuasai credu yr hanes, gan wrthuned ydoedd. Meddylia rhai mai yr un tro oedd hwn a phan yr ymddygwyd, fel y dywedwyd, at Mr. Williams gan y ddau foneddwr a'r haid a'u dilynent. Nid yw yr hanes a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun, yr hwn sydd yn dibenu gyda'r amgylchiad crybwylledig yn Nhrefriw, yn dywedyd dim am yr hyn a fynegir gan Robert Jones; a thybiant hwy mai teimlo yr oedd Mr. Williams fod yr anfadwaith yn rhy ffiaidd i'w adrodd. Ond gan y dywed yr adroddiad yn y "*Drych,*" fod Mr. Williams wedi pregethu yno yn y diwedd, rhaid mai ar ymweliad olynol â Threfriw, ar daith arall, y bu yr hyn a adroddir yno. Y tro hwnw darfu i'r erlidwyr annynol ymaflyd mewn merch ieuangc gyfrifol oedd wedi dyfod i wrandaw ar y gŵr dyeithr, a chodi ei dillad hi, a diosg rhan

Digitized by Google

o'i wisg yntau, a'i wthio ati mewn modd anifeiliaidd, yn y dull mwyaf digywilydd. Dichon fod un neu y ddau o'r boneddwyr (?) crybwylledig o'r blaen yno ar y tro hwn hefyd, ac wedi adwaen mai yr un gŵr oedd y pregethwr, a'r hwn, ar ol ei ammharchu ganddynt o'r blaen, y rhoisant iddo y siars i beidio pregethu yn mhentref Trefriw; ac mai eu ffyrnigrwydd ato am feiddio dyfod yno drachefn, a barodd iddynt gyflawni y fath ysgelerder gydag ef yn awr. Pa fodd bynag, yr oedd yn mysg y dyrfa y waith hon un dyn tra nerthol o gorph, ond tynerach ei feddwl na'r lleill, yr hwn y cynnhyrfwyd ei ddigter yn angerddol gan yr ymddygiad ffiaidd at y gŵr parchedig a'r ferch gyfrifol; ac efe a waeddodd allan, "Ffei dd——! Dyma ffieidddra na welwyd erioed ei fath!" a dechreuodd ymosod ar y fileiniaid digydwybod, nes chwalu y dorf o'i gwmpas fel gwybed. Efe a fynodd ddychwelyd y dilledyn i Mr. Williams hefyd, ac ymgeleddodd ef. "Ac wedi y cyfan," medd yr adroddiad gan R. Jones, "pregethodd Mr. Williams yn wrol, ac ni feiddiodd neb ei aflonyddu, gan arswyd y gŵr oedd yn ei amddiffyn."

Buasai llawer un, pe yn cyfarfod â'r cyfryw driniaethau bryntion ag a ddaeth i ran Peter Williams ar ei daith gyntaf trwy Wynedd, yn digaloni ar y canol, ac yn troi adref ar frys. Ond yr oedd ei awyddfryd dirfawr ef am ogoneddu enw ei Waredwr, ac achub eneidiau ei gydwladwyr rhag y llid a fydd, yn gyssylltiedig â'i ddewrder naturiol, yn peri iddo ef, fel ei Arglwydd o'i flaen, osod ei wyneb fel callestr; a gallasai ddefnyddio geiriau Paul fel ei arwyddwers, "Nid wyf fi yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw."

Ar ol y diystyrwch a'r gwrthwynebiadau a gawsai yn Nhrefriw y tro cyntaf, wele efe, yn mhen deuddydd neu dri etto, yn y gymmydogaeth yn llawn ysbryd pregethu, ac yn Llanrwst yn dechreu ar ei bregeth wrth dalcen Neuadd y Dref. Ond gyda ei fod yno yn cychwyn pregethu, dyma ferch ieuangc o wasanaethyddes yn dyfod allan o dŷ gerllaw, ac yn ei luchio âg wyau gorllyd nes llychwino ei ddillad yn resynus. Eithr pan welai yr herlodes fod perthynas agos iddi hi, o'r enw Gabriel Jones, yr hwn a safai yn agos at y pregethwr, yn cael ei ddifwyno hefyd gan yr wyau ammhuraidd, hi a ymattaliodd; ac er mwyn ei chefnder, cafodd y pregethwr lonydd gan y ferch anrasol. Ond buan y gwelwyd mai nid hi oedd unig offeryn tywysog y tywyllwch y diwrnod hwnw yn Llanrwst. Wedi iddi roddi heibio luchio, wele haid o ddyhirwyr barbaraidd yn ymaflyd yn y pregethwr, ac yn ei lusgo gyda hwynt at làn yr afon; ac yno yr oedd rhai yn dal ei freichiau i fyny, a'r lleill yn codi dwfr o'r afon, ac yn ei arllwys i'w lawes, a hyny ar rew-wynt llym. Ond pan yn nghanol eu drygwaith creulawn, daeth gŵr o'r enw Richard Roberts, Tŷ mawr, heibio, yr hwn oedd ŵr cadarn a nerthol, ac yn un o gymmeriad da. Wedi iddo ddeall pa beth oedd yn cael ei wneuthur gan y creaduriaid drygionus, efe a ymosododd yn rymus arnynt, gan eu gwasgaru yn chwimwth ar bob llaw, ac achub y diniwed o'u dwylaw. Cymmerodd hefyd y gŵr dyeithr gydag ef i'w dŷ, gan weini iddo y noson hono bob ymgeledd angenrheidiol; ac aeth dranoeth i'w anfon rai milldiroedd o ffordd, rhag iddo ddigwydd ail syrthio i ddwylaw cynllwynwyr erlidgar. Yr oedd y cymmhorth hwn yn rhagluniaethol ac amserol i was yr Arglwydd; o herwydd nid oedd Richard Roberts yn teimlo pleidgarwch at Ymneillduwyr nac Ymneillduaeth. Eglwyswr oedd efe, ac felly y parhaodd trwy ei oes; ond yr oedd aml rinweddau dynol a Christionogol yn ei brydferthu—yn yr hyn, meddir, y mae llawer o'i hiliogaeth yn aros yn ganmoladwy hyd heddyw.

Cawn hanes am Mr. Williams yn dyfod trwy Ddinbych ar y daith hon; ac efe a wnaeth yma gais at bregethu. Ond yn lle cael sylw a gwrandawiad, ymosodwyd arno gan dorf o fileiniaid, y rhai, heb law dangos ammharch iddo, a'i hysbeiliasant agos o gymmaint ag a feddai ar y pryd. Yr oedd ysbeiliad cyhoeddus fel hyn yn myned dros ben ei ddioddef. Ac felly, wedi i Mr. Williams ddychwelyd adref, ac adrodd yr hanes, eiddigeddodd ei gyfeillion drosto, a thros achos yr efengyl, o herwydd yr hyn yr oedd efe yn dioddef hyny; a thrwy gyfreithiwr yn Aberhonddu, codwyd yr achos i Lundain; a gwysiwyd wyth o'r ymosodwyr penaf yn Ninbych, ac yn eu mysg un gŵr ieuangc o deulu cyfrifol a chyfoethog, i sefyll eu prawf yn y brif ddinas, lle y cafwyd hwy yn euog, ac y rhoddwyd cosp ddyledus arnynt. Parodd y cyfryw gynghaws a dedfryd ymwared mawr ar y pryd i'r crefyddwyr Methodistaidd yn Ninbych a'r gymmydogaeth, gan yr ofnid bellach wneyd ymosodiadau arnynt hwy na'u pregethwyr yn yr ystyr gorphorol, er y bu eu gelynion yn dangos eu dannedd, ys dywedir, ar achlysuron wedi hyny.

Bu Mr. Williams lawer gwaith ar ol hyn ar deithiau pregethiadol trwy Ogledd Cymru; ac un o'r rhai cymmhwysaf i deithio felly ydoedd efe, a hyny fel dyn yn gystal ag fel pregethwr, gan ei fod o ran ei gyfansoddiad yn gallu llafurio lawer, a dal teithiau mawrion, yn wrol i sefyll yn wyneb peryglon a gwrthwynebiadau, ac yn hynaws yn medru cyd-ddwyn â lluniaeth o'r fath fwyaf cyffredin, a lletty gwael. Y mae yn ymddangos hefyd ei fod yn barod ei ymadrodd ar bob achlysur. Adroddir ei fod, pan unwaith yn Môn, yn pregethu ar y Garnedd fawr, yn ymyl Mechell, a bod offeiriad, yr hwn a fuasai yn gydysgolhaig âg ef yn ysgol Caerfyrddin, wedi dyfod i'r cynnulliad, a dywedyd wrtho yn uchel, "Ffei, Peter! pa fodd y meiddi di bregethu mewn lle anghyssegredig?" "Maddeuwch fy anwybodaeth," attebai ei hen gydymaith; "yr oeddwn i yn coleddu y syniad fod yr holl ddaear wedi ei chyssegru i grefydd yr efengyl er y dydd cyntaf y gosododd Ceidwad pechadur ei droed arni." Disgynodd yr attebiad fel dyrnod ar deimlad y clerigwr, ac yr oedd yn methu gwrthatteb; ac nid oedd ganddo ond gadael rhwng y pregethwr a'r gynnulleidfa—yr hon, bellach, a gafodd bob seibiant i fyned yn mlaen hyd ddiwedd y cyfarfod.

Ynglŷn â'r ymweliadau â Môn, adroddir am dro digrifol a gymmerodd le ger llaw eglwys Penrhos-llugwy, ar brydnawn Sabbath, lle yr oedd Mr. Williams wedi dyfod i bregethu ar y pryd. Rhoddasom hanes o'r blaen am y tro y buasai efe yn efengylu wrth dafarndy yn agos i Benrhos; ond amgylchiad ac amser arall oedd hwn. Yr oedd lliaws o bobl wedi ymgynnull i gwrdd "y pregethu allan" ar y prydnawn Sul yma; rhai, yn ddiau, er mwyn gwrandaw efengyl Duw, ac ereill i'r dyben o ddiystyru, ac os gallent, rwystro y gwasanaeth crefyddol; ac

Digitized by Google

yr oedd y mwyafrif o'r rhai olaf hyn wedi dwyn eu pastynau gyda hwynt. Yn mhlith y tylwyth anghrefyddol ac erlidgar, yr oedd yno hen ŵr wedi dyfod ar gefn caseg wen, gyda phastwn erchyll yn ei law. Bwriadu yr oedd efe arwain y fyddin ddyhir i wneuthur ymgyrch ffyrnig yn erbyn y pregethwr, druan. Wedi iddo ddyfod i ymyl y gynnulleidfa, digwyddodd i rywun yn ddamweiniol gyffwrdd â chrwper y gaseg, a hithau a ddechreuodd gicio a gwingo yn erwin. Gyda hyn yr oedd ymblaid y gwatwarwyr yn gweled y gallai y gaseg wen weini iddynt oll ddifyrwch nid bychan; a dyma un yn gosod ei law, ac arall ei bastwn, ar ei chrwper, ac felly yn ddidrugaredd, nes yr oedd hi yn neidio, a chicio, a dangos pob arwydd o wylltineb, a hyny yn cynnyrchu y difyrwch mwyaf i'w phoenydwyr. Ofer oedd i'w pherchenog appelio at drugaredd y rhai y daethai efe yno i gydweithredu â hwy, ïe, i'w blaenori, fel ei gyfeillion: yr oedd pob un am gael prawf drosto ei hun ar gymmydogaeth ogleisiog crwper y gaseg; a thaledigaeth dda iddynt am eu llafur dirieidus oedd gweled y greadures wenflewog yn taflu ei thraed yn gynddeiriogwyllt, tra yr oedd ei hen farchogwr gyda'r ymdrech mwyaf yn ceisio cadw ei hun ar y cyfrwy. A chan ddilyn ei ysgrubliad ac yntau ar y ffordd tua'i gartref, y dorf afreolus a adawsant y pregethwr, a'r rhai a fynent wrandaw arno, mewn heddwch i fwynhau yr hyn a ddymunent.

Unwaith, pan yn pregethu yn y Llofft wen, yn Adwy'r clawdd, ger llaw Gwrecsam, bu yn wrthddrych trahâ barwnig Wynnstay. Yr oedd Syr Watkin Williams Wynn y dyddiau hyny, yn wahanol i'w hiliogaeth yn ein dyddiau ni, yn erlidiwr ffrom a chreulawn ar y Methodistiaid: a'r pryd hwn, wedi deall am y pregethu yn y Llofft wen, efe a anfonodd wŷr i ddal y pregethwr, ac i'w ddwyn ato ef i'w balas, tua phum milldir o'r Adwy, gan fod ganddo awdurdod i roddi y fath orchymyn, meddai ef, fel ustus heddwch. Yno y dygwyd Mr. Williams, ond ni ddywedir pa fath holiad a fu arno gan y gŵr mawr; eithr ni chafodd y cenhadwr dros Grist well lle i lettya na thŷ y cŵn (*dog-kennel*)! Yn y boreu, efe a ollyngwyd yn rhydd; ac efe a gyfeiriodd ei gamrau tua thŷ Moses Lewis, amaethwr, ac un o'r "cyfeillion" yn nghymmydogaeth yr Adwy. Yno, yr heddgeidwaid a'i dilynasant—nid oddi ar archiad eu huwchradd, dybygid, ond oddi ar wir ddygasedd at y pregethwr, a chan dybied y gallent wneuthur ychydig wasanaeth iddynt eu hunain. Gŵr y tŷ, yn eu gweled yn dyfod tua'i annedd, ac yn ammheu eu hamcan, a gymmerodd oriadur Mr. Williams o'i logell ef, ac a'i cadwodd ei hun. Hwynthwy wedi cyrhaedd y tŷ, yn lle cyflawni eu swydd yn ol eu henwau o heddgeidwaid, a dorasant yr heddwch a'r gyfraith, ac yn lladradaidd a gymmerasant yr ychydig arian a gawsant arno, yr hyn nad oedd ond tri swllt a chwech cheiniog, ynghyd â'i flwch trewlwch. Ond ar ei daer ddeisyfiad, dychwelasant y blwch iddo. Ni wyddent hwy fod yn y blwch hanner gini yn nghadw, ac onid ê y mae yn sicr nas dychwelasent ef iddo.

Ond nid yn Ngogledd Cymru yn unig y cafodd Mr. Williams ei ran o anfri a thrais; eithr erlidiwyd ef hefyd mewn amryw leoedd yn y Deheubarth, ac yn mysg ereill yn nhref Cydweli, yr hon oedd o fewn ychydig filldiroedd i'w gartref. Ar brydnawn Sabbath, yn mhell ar ol iddo briodi, efe a aeth yno i gynnyg pregethu, ac a safodd ar gareg farch ger llaw tŷ gŵr o'r enw John Rees, pan y daeth tua dau ddwsin o oferwyr afrywiog i'w aflonyddu, yn cael eu blaenori gan ddau ddyn yn gyrn y gynnen—un o ba rai a enwid yn Ddio Goch, a'r llall yn ddyn mawr a chryf o gorpholaeth, ac wedi eu gosod ar waith, meddid, gan glerigwr y plwyf. Yr oedd Mr. Williams wedi darllen pennod o'r Beibl, ac ar fyned i weddïo, pryd y neidiodd y dyn cryf a nodwyd tuag ato, gan gipio y llyfr cyssegrlan o'i law, a'i dynu i lawr oddi ar y gareg farch. Wedi eu cymmhwyso i'w herchyllwaith trwy ymlenwi â diod gref, ymosodasant arno yn ddidrugaredd. Eraill a gymmerasant ei geffyl, ac a'i gyrasant yn greulawn ar hyd y morfa, gan ei symbylu i neidio dros y ffosydd; a rhyfedd ydoedd na buasai y march wedi tori ei goesau, a'r marchog wedi tori ei wddf. Wedi hyny, llusgasant Mr. Williams i'r dafarn, gan benderfynu ei feddwi, ac felly ei wneuthur yn fwy o destyn gwawd. Estynent y ddiod iddo mewn modd gorfodol; ac efe yn ddirgelaidd a'i tywalltai, nid i'w enau, ond i'w fotasau, nes yr oeddynt, weithian, yn llawn. Yr oedd Mrs. Williams, wrth gael nad oedd ei phriod wedi cyrhaedd adref yn agos i'r amser a ddisgwylid, yn myned yn anesmwyth yn ei gylch, a hi a anfonodd y gweision i ymofyn am dano. Hwy a'i cawsant yn garcharor yn nwylaw y werindorf benrhydd; a thrwy eu hymdrech amserol ac egnïol hwy y cafodd efe ymwared.

Yr oedd Mr. Williams, y pryd hwn, yn byw yn y Gelli, yn mhlwyf Llandyfeiliog, sir Gaerfyrddin; ac yno y trigodd hyd derfyn ei einioes. Nid mynych y byddai efe gartref ar ddydd yr Arglwydd, gan ei fod wedi ymroddi i'r weinidogaeth deithiol, ac i'w gael yn barhaus, yn mhell neu yn agos, yn efengylu iachawdwriaeth. Ond pan y digwyddai iddo fod gartref, dywedir y byddai yn awr ac eilwaith yn myned fel gwrandäwr i eglwys y plwyf. Yr oedd periglor Llandyfeiliog ar y pryd, yn gyffelyb i liaws o'i frodyr clerigol yn yr amseroedd hyny, yn hollol ddiofal am eneidiau ei blwyfolion, ac yn chwannog i yfed hyd ormodedd o ddiod gadarn; ond yr oedd efe yn mhell o fod yn erlidgar, ac yn hyny yn annhebyg i fwyafrif o glerigwyr yr oes hono, y rhai a ymdrechent drwy bob moddion i lethu Methodistiaeth Gymreig. Ei enw oedd James Edwards; ac o herwydd ei dymmer lonydd, a diofalwch ei ysbryd, gelwid ef fynychaf yn "Jemmy ddiddig." Pan y canfyddai efe Peter Williams yn mhlith y gynnulleidfa, galwai arno i gyfarch y bobl, ar ol iddo ef orphen y gwasanaeth; ond nid oedd i fyned i'r pulpud. Felly, yr oedd y pregethwr efengylaidd ac elfro yn cael cyfle yn y lle cyssegredig i ddysgu ei gymmydogion yn y pethau a berthynent i'w heddwch; ac yr oedd llawer gwell a chynnhesach efengyl i'w chael o'r côr nag a geffid o'r pulpud. Yn mhen amser, cymmerodd Mr. Williams annedddŷ bychan ger llaw y llan, dan rwymysgrif, i'r dyben o bregethu ynddo. Rhoes bulpud i fyny yn un pen iddo, a hen wraig i fyw yn y pen arall, ac a osododd felly gychwyniad effeithiol i Fethodistiaeth yn Llandyfeiliog. Bu yn brif offeryn hefyd i sefydlu yr achos Methodistaidd mewn amryw leoedd eraill yn ei sir enedigol. Ar ei dir ef yn Heol y dŵr, yn nhref Caerfyrddin, ac agos yn gwbl ar ei draul ef, yr adeiladwyd ac yr agorwyd y capel i'r Methodistiaid yno.

Pe buasai efe yn myned yn mlaen, yn ol fel y

Digitized by Google

dechreuodd gydag ysgrifenu hanes ei fywyd, sef, trwy adrodd am ei flynyddoedd boreuol, a chychwyniad ei lafur gweinidogaethol, y mae yn ddiau y gallesid cael adroddiadau am lawer o ddigwyddiadau hynod, a llafurwaith llwyddiannus er pob gwrthwynebiadau, ynglŷn â'i helynt fel gweinidog ac efengylwr yn nhymmor dyddorus blaendarddiad a chynnydd dechreuol Methodistiaeth yn Nghymru, ond y rhai a gollwyd i'r oesoedd dyfodol o ddiffyg eu cofnodi. Ond gellir casglu pa fath un ydoedd fel pregethwr a gweinidog yn mlynyddoedd canol a diwedd ei oes oddi wrth yr hyn a groniclwyd eisoes am dano. Yr hynafgwr hybarch, John Evans, o'r Bala, a ddywedai am dano, "Gŵr cryf o gorph ac o feddwl oedd Mr. Peter Williams, a phregethwr da. Llafuriodd yn ddiwyd ac yn ffyddlawn; a bu ei weinidogaeth yn dra bendithiol, a chafodd llawer eu galw trwyddo."

Yn nghanol ei holl waith a'i deithiau fel pregethwr, daeth i'w feddwl y dymunoldeb o barotoi sylwadau byrion a tharawgar ar bob pennod o'r Beibl, a chyhoeddi y Beibl gyda'r sylwadau hyny, ac hefyd gyfeiriadau ar ymyl y ddalen, er mantais i'w gydwladwyr; ac wedi iddo gael y meddwl am hyny, ymroes trwy bob trafferthion at y gorchwyl, er fod ei gyfeillion ar y cyntaf yn barnu mai rhyfyg oedd iddo ymgymmeryd â'r fath waith; ac ni roes i fyny nes iddo yn hyn gyflawni ei amcan. Fel y dywedir genym mewn lle arall, "Yr oedd y pryd hwnw brinder mawr o Feiblau yn y wlad, tra nad oedd un math o esboniad ar yr Ysgrythyrau wedi ymddangos yn yr iaith Gymraeg. Ychydig iawn o'r Cymry, mewn cymmhariaeth, oedd yn medru darllen. Ac nid oedd Ysgolion Sabbothol etto wedi eu cychwyn. Yr oedd Cymru, mewn cyferbyniad i'w rhifedi heddyw, yn anaml ei thrigolion, ac yn llawer anamlach ei chrefyddwyr. Yr oedd rhai gwŷr o ddylanwad—megys y mae etto!—yn darogan dinystr buan y Gymraeg, ac yn dadleu na ddylesid dosbarthu ond Beiblau Saesnig i'r werin Gymreig. Yn y fath amser, y mae yn rhaid mai antur bwysig i un person ydoedd cyhoeddi yn y Gymraeg Feibl mawr pedwarplyg, heb sôn am y llafur dygn o ysgrifenu sylwadau ar bob pennod. Ond yr oedd Peter Williams yn ddiarebol am ei ddewrder, yn gystal ag am ei fedr." Y mae efe ei hun yn adrodd amgylchiadau ei anturiaeth fel y canlyn:—

"Y mae mor angenrhaid, dybygaf, i'r Cymry wrth agoriadau ar y Beibl ag i'r Saeson. Y mae ein hanwybodaeth gymmaint a'r eiddynt hwythau, a'n heneidiau yn gwbl mor werthfawr. A pha ham na buasai rhywrai yn dodi esboniad byr ar y Beibl, nis gwn—oddi eithr am fod gormod gelyniaeth at rym duwioldeb yn para etto yn ein mysg, a'r un ysbryd Pabaidd am gadw y bobl mewn anwybodaeth, fel y gwelir oddi wrth gymmaint o halogi y Sabbath y sydd, trwy chwareÿddiaethau, dawnsiau, &c., neu wâg-ddymuniad ereill i ddiwreiddio a dileu yr iaith Gymraeg yn llwyr o'r byd; neu o eisieu calon i ymosod ynghylch y fath orchwyl maith a phwysfawr. Yn wir, yr oedd hyd yn ddiweddar brinder o Feiblau, yn gystal a diffyg esboniadau Cymraeg; canys er cynnifer argraphiadau a fu o hono, ac er mor fynych y dosbarthwyd, etto, trwy ryw esgeulusdra neu wall drefn, yr oedd amryw deuluoedd heb un Beibl ganddynt; ïe, rhai a fawr ewyllysient ei gael—yr hyn a gododd ynof ddirfawr hiraeth am weled rhyw wŷr addas i'r gwaith yn ei gymmeryd mewn llaw. Eithr wedi disgwyl dros flwyddyn, heb weled dim argoelion, ond yn y gwrthwyneb yn clywed fod llaweroedd, a gwŷr Eglwysig rai, yn chwennych dwyn Beiblau Saesnig i'r Cymry yn lle rhai Cymraeg, ni fedrwn ymattal yn hwy, eithr cychwynais i fyned ynghylch y gwaith. A chan nad oedd nemawr yn credu y dygid y fath orchwyl pwysig i ben, nid oeddynt awyddus i gryfhau fy mreichiau yn y dechreuad; eithr calonau llawer a agorwyd o bryd i bryd pan y'm gwelsant yn trafaelio, a rhoisant eu dwylaw yn garedig i'm cynnorthwyo i'w ddwyn i'r byd, fel yr wyf yn rhwymedig bellach i ddiolch i Dduw a dynion am gymmhorth cyfamserol, nes gorphen yn gysurus. Nid ydyw yr esboniad ond byr ac ammherffaith. Pa fodd bynag, ddarllenydd Cristionogol, o ddiffyg gwell, gwna ddefnydd o hwn. Nid wyf yn cymmeryd arnaf ddeongli'r cwbl, nac i ganfod eithaf y dirgelwch a gynnwysir yn yr Ysgrythyr Lân, er fod genyf ysgwyddau llawer o ddysgawdwyr enwog i sefyll arnynt, megys Ostervald, Lightfoot, Ainsworth, Hall, Babington, Trap, Henry, Pool, Hammond, Burkitt, &c. Ond gallaf yn hyf ddywedyd mai cariad at fy nghenedl, y Cymry, a gwir ddymuniad am eu hiachawdwriaeth, a'm cymmhellodd i ysgrifenu yr hyn a ysgrifenais; ac y mae yn dda genyf gael cyfle fel hyn i fwrw fy hadling i'r drysorfa, ac i fod o ryw ddefnydd dros yr efengyl yn fy nydd a'm cenhedlaeth."

Er na cheir yn "Meibl Peter Williams," fel ei gelwir yn gyffredin, nodiadau ar yr adnodau yn gyffredinol—dim ond sylwadau ar bob pennod—etto ceir ganddo olwg gryno ar brif fater pob pennod, ac ymgais teg i egluro yr adnodau anhawsaf eu deall, gyda gwersi da o gymmhwysiad ymarferol. Yn mysg pethau ereill, y mae yn hynod o hapus am dynu addysgiadau priodol a buddiol oddi wrth hanesyddiaeth ysgrythyrol. Wele ychydig enghreifftiau, allan o lawer:—

Bu Iacob fyw gyda Ioseph yn yr Aipht ddwy flynedd ar bymtheg, sef cynnifer blwyddyn ag y bu Ioseph gydag yntau; yr hyn a ddylai ddysgu plant na flinont feithrin mewn henaint y rhai a'u meithrinodd hwythau mewn ieuengctid.

Fel ag yr oedd Moses yn ddoeth, ac Aaron yn ffraeth, fe ddylai gweision yr Arglwydd ddysgu cydgyfranu eu doniau i'w gilydd.

Yr atteb a wnaeth Moses, pan ddywedwyd wrtho fod Eldad a Medad yn prophwydo yn y gwersyll, a ddylai ein dysgu i beidio cenfigenu wrth ddoniau rhai ereill; eithr ymlawenhau pan welom waith Duw yn llwyddo, pwy bynag fyddo yr offeryn.

Pan achwynodd Ephraim a Manasseh fod eu hetifeddiaeth yn rhy gyfyng, Iosuah a roes orchymyn iddynt dori y coed i lawr, a gyru y Canaaneaid allan; yr hyn sydd yn dangos i ni mai ofer a di-lês yw achwyniadau heb arfer ymdrechiadau, ac mai anhaeddiannol o wobr yw yr hwn ni wnelo waith.

Gwelwn Ieroboam, wedi anghofio Duw ei ddyrchafydd, yn canlyn eilunod, ac yn gyru ymaith offeiriaid a Lefiaid yr Arglwydd, am na chydffurfient âg ef, a hwythau yn dyfod at Rehoboam i Ierusalem. Disgwylied Cristionogion eu gwrthod gan broffeswyr gau, a dysgwn bawb fyned lle byddo arch Duw.

Megys y gosododd Iehosaphat lywiawdwyr mewn pethau yn perthyn i'r Arglwydd, ac mewn pethau yn perthyn i'r brenin, yn wahanol, ni ddylid eu cymmysgu yn mysg Cristionogion, canys swydd gweinidogion yr efengyl yw porthi y praidd.

Yn gymmaint a bod ein Harglwydd yn pregethu mewn llong, er nad oedd yn ymwrthod â'r deml neu y synagog pan y byddai yn gyfleus iddo, dysgwn mai nid y lle sydd yn sancteiddio yr ordinhâd, ond yr ordinhâd yn sancteiddio y lle.

Pwy oedd y gwŷr a gydymgynghorasent pa fodd y lladdent yr Iesu? Nid rhai anwybodus, eithr yr archoffeiriaid a'r ysgrifenyddion. Odid i ddiafol anfon y ffol i neges, eithr y dynion mwyaf cyfrwys. Edryched y dysgedigion rhag iddynt ddefnyddio eu doniau i fradychu achos Crist.

Digitized by Google

Nid oedd o'r blaen un math o esboniad ar y y Beibl, mawr na bychan, wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg; ac er yr holl anfanteision oedd yn gysylltiedig â chyhoeddi llyfrau Cymreig, ac yn enwedig llyfr mawr ac uchel ei bris, mewn cymmhariaeth, o'r fath ag ydoedd "Beibl Peter Williams," cafodd ei dderbyn yn groesawgar gan y Cymry. Yr argraphiad cyntaf, yr hwn a ddaeth allan yn y fl. 1770, pan yr oedd Mr. Williams yn wyth a deugain oed, oedd yn cynnwys 3,600 o gopïau, y rhai a werthwyd yn fuan. Yn 1779, dygwyd allan ail argraphiad o 6,400 o gopïau; ac yn 1796, argraphiad arall o 4,000 o gopïau. Cyn i'r trydydd argraphiad ddyfod o'r wasg, yr oedd ysgrifenydd hybarch y sylwadau, er's rhai misoedd, wedi "marw yn yr Arglwydd." Am nifer copïau yr aml argraphiadau lliosog ar ol ei farwolaeth hyd yn awr, nis gellir dywedyd. Dyma, yn ddios, Feibl teuluaidd y Cymry.

Buasai yn hyfryd genym allu gorphen ar hyn ynghylch yr esboniad hwn; ond anghyflawn a fyddai yr hanes am Peter Williams heb i ni gyfeirio at yr ychydig nodiadau ar athrawiaeth y Drindod a fuont yn achlysur o ddadleuon ac ymrysonau mawr, ac a barasant yr anghysur mwyaf iddo ef yn ei hen ddyddiau. Yn y sylwadau ar y bennod gyntaf o Efengyl Ioan yn neillduol, ceir ymadroddion yn milwrio yn erbyn yr hyn a gyfrifir fel y syniad "uniongred" am y Drindod Sanctaidd. "Y mae Duw," meddir yno, "yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân o dragywyddoldeb, yn ei ewyllys dragywyddol ei hun; 'nid mewn dull angenrheidiol o fod pe na buasai raid achub un dyn, na sancteiddio un enaid,' fel y mae rhai mewn annoethineb yn dywedyd; eithr am ei fod yn ewyllysio achub a sancteiddio." Ac y mae nodiadau eraill yn cyfleu y syniad fod y Tad a'r Ysbryd, yr un modd a'r Gair, yn cyfansoddi yr un Cyfryngwr; neu fod y dyn Crist Iesu, o ran ei natur ddwyfol, yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân. Nid yn ebrwydd y craffwyd ar yr ymadroddion dyeithrol ac ammheus; ond yn fuan, daethant i sylw ei frodyr, ac edrychid arnynt fel cyfran o egwyddordraeth Sabellius, yr hwn a flodeuodd yn y drydedd ganrif, a chyfeiliornadau yr hwn a gollfarnwyd gan yr hen dadau Cristionogol. Yn ol Sabellius, y mae y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, nid yn Drindod mewn hanfod, eithr yn Drindod mewn amlygiadau; y Tri Pherson i'w hystyried yn y Duwdod yn dri chymmeriad, neu mewn tair perthynas, a hyny mewn cyssylltiad â threfn yr iachawdwriaeth. Galwyd Mr. Williams i gyfrif gan ei frodyr mewn cymdeithasfa am ei syniadau hyn; ac yntau a ddadleuodd yn wresog dros ei farn, heb ildio i'r gradd lleiaf, nac addaw bod yn ddistaw o hyny allan ar y pwngc oedd yn achosi dadl. Bu dadleu ar yr achos mewn gwahanol gymdeithasfaoedd am lawer o flynyddoedd; a rhaid addef fod y gymdeithasfa wedi dangos cryn bwyll a gochelgarwch ynglŷn â Mr. Williams, gan y gadawyd ef yn bregethwr yn nghyfundeb y Methodistiaid am tuag ugain mlynedd ar ol cyhoeddiad yr argraphiad cyntaf o'r esboniad. Yr oedd yr enwog Daniel Rowlands, a gyfrifid yn dad y gymdeithasfa, yn egnïo ei oreu i gael gan Peter Williams, ar y naill law, ddistewi, a chan y brodyr, ar y llaw arall, dawelu; ond aflwyddiannus a fu ei ymdrechion tangnefeddol. Etto, nid oedd Mr. Rowlands, na Mr. Williams o Bant-y-celyn, yr hwn a gyfrifid yn ail i Rowlands mewn dylanwad yn y gymdeithasfa, er eu bod yn anghyttuno â'r syniadau crybwylledig, yn foddlawn i "fwrw eu hen gyfaill allan o'r synagog." Mewn cymdeithasfa yn Aberystwyth, yn mha un nid oedd Daniel Rowlands na William Williams yn bresennol, yr oedd y llywyddiaeth ar y pryd wedi dyfod i law Nathaniel Rowlands, mab i'r tywysog parchedig o Langeitho, a chlerigwr o ddoniau helaeth a pharod, ond heb feddu naws ysbryd crefyddol ei hybarch dad. Y mae yn ymddangos fod achos Peter Williams dan ymdriniaeth yno, pan yr ymosodwyd yn dra haerllug arno gan N. Rowlands, ac y methodd yntau ddal yn ei larieidd-dra arferol. Adroddir am ymweliad Nathaniel â'i dad ar ol y gymdeithasfa hono—fod Rowlands yr hynaf wedi dywedyd wrth Rowlands yr ieuangaf, gyda golwg ar y drafodaeth yn Aberystwyth, "Nat, Nat: ti a gondemniaist dy well!" Bu Daniel Rowlands farw tua chwe blynedd o flaen Peter Williams, yr hwn a gyfansoddodd farwnad ar ei ol, lle y dywed:—

"O! mrawd Rowland, ni'th anghofiaf,
Ti ro'ist i mi lawer sen:
Yn mhob tywydd, yn mhob dirmyg,
Pwy ond ti orchuddiai 'mhen?"

Y mae y llinellau hyn yn addef nad oedd yr hen dad o Langeitho yn cymmeradwyo rhyw bethau yn Mr. Williams, tra yr oedd efe er hyny yn ei noddi rhag y rhai a fynent ymosod arno.

Pan ddaeth yr ail argraphiad o'i esboniad ef allan o'r wasg, canfyddwyd fod yr ymadroddion a wrthwynebid yn yr argraphiad cyntaf wedi eu gadael i mewn etto. Ac yn y Beibl bychan a gyhoeddodd drachefn, gyda nodiadau byrion o'i eiddo ei hun, a nodau cyfeiriol John Canne, yr oedd mesur o'r un syniadau tramgwyddus yn hwn etto; ac yn arbenig mewn pennill a rydd efe, oddi ar *Dad.* xxii. 13, "Myfi yw Alpha ac Omega," &c., yr ydym yn darllen

"Nid ail, ond Alpha ydyw ef
A wnaeth y ddaear faith a'r nef;
Mae'n Dad, yn Fab, yn Ysbryd Glân,
Yn Dduw, yn ddyn, yn ddiwahân."

Traetha ei farn am fabolaeth Crist, mai "nid trwy genhedliad tragywyddol o sylwedd y Tad, fel y dywed rhai, ond o herwydd y natur ddynol a genhedlwyd trwy yr Ysbryd Glân o Fair y Forwyn, y cafodd ei alw yn Fab." Ac mewn 'amddiffyniad' a gyhoeddodd rai blynyddoedd ar ol cychwyniad y ddadl, y mae yn dywedyd, "Nis meiddiaf haeru fod Trindod yn angenrheidiol i hanfodiad Duw, fel y mae rhai yn dal yn rhyfygus; ond yr wyf yn dywedyd, ac yn credu, fod Trindod yn anhebgorol angenrheidiol i'r dadguddiad o Dduw i etifeddion bywyd tragywyddol." A thrachefn:—"Bydded i ni gofio fod yr enwau Tad, Mab, ac Ysbryd Glân, yn cael eu rhoddi, nid i arwyddo dull o hanfodiad, ond modd o weithrediad, ac yn enwedig yn ngwaith y prynedigaeth." Parhau a chynnyddu yr oedd y ddadl rhyngddo ef a'i frodyr:—rhywrai o'r frawdoliaeth, fe ddywedir, yn ymosod arno yn rhy ffyrnig, heb gyd-ddwyn, fel y dylesid erbyn hyn, â'i henaint, ac yntau o'r tu arall yn ymgyndynu fwyfwy; a'r diwedd a fu, mewn cymdeithasfa a gynnaliwyd yn Llandeilo, yn y flwyddyn 1791, ei ddiarddelwi o gyfundeb y Methodistiaid, ar ol iddo fod yn un o'r pregethwyr blaenaf yn eu plith am chwech a deugain o flynyddoedd. Robert Jones, Rhos-lan, henadur profedig am ei gywirdeb a'i gallineb, pan yn ysgrifenu "*Drych yr Amseroedd,*" ac oedd yn bersonol yn dyst o ryw gymmaint o'r drafodaeth

Digitized by Google

gyda Mr. Williams, a ysgrifenodd yn mhen tua deng mlynedd ar hugain ar ol hyny:—"Cymmerodd rhai y gorchwyl mewn llaw i'w gyhuddo a'i geryddu yn llym, yn lle ei gynghori fel tad, yn ol addysg yr apostol yn 1 *Tim.* iv. 1. Yn yr ymryson a'r dadleu ynghylch y pwngc—a diau yw na ddylesid goddef neb yn y Corph ag a safai yn gyndyn dros y fath gyfeiliornad dinystriol ag yw Sabeliaeth—collodd ef a hwythau, raddau, ysbryd addfwynder; ac mewn gormod o fyrbwylldra, yn lle gwneyd pob ymgais tuag at ei adgyweirio, bwriwyd ef allan o'r synagog. Y mae lle i ammheu i rai oedd yn blaenori yn y gwaith ruthro ar ŵr cyfiawnach na hwy eu hunain. Ond er pob tymmhestloedd, 'coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig.'"

Ysgrifenwyd pethau chwerwon o bryd i bryd, a chan rywrai mewn blynyddoedd diweddar, yn erbyn y Methodistiaid Calvinaidd fel cyfundeb, mewn cyssylltiad â'u gwaith yn tori y berthynas rhwng Mr. Williams a hwythau; megys, iddynt ymddwyn ato yn hyn yn annhêg a diachos, a bod yn achlysur o golledion trymion mewn ystyr arianol iddo o barth i werthiant ei Feiblau, &c., a hollol ymddyeithro oddi wrtho. Nis gellir yma wneuthur yn well na dodi i mewn rai o sylwadau awdwr craff a llednais "*Methodistiaeth Cymru*" ar yr ymdrin hwn:—

"Gan addef yn rhwydd y dichon fod rhyw beronau wedi ymddwyn yn annoeth ac anfrawdol tuag ato, yr ydym er hyny yn methu cael lle i feddwl fod gan y Methodistiaid, fel y cyfryw, un amcan i ddrygu yr hen frawd, na bod dim cymmhelliad iddynt geisio at hyny, gan y perchid ef yn fawr ganddynt. Yn hytrach na pharodrwydd i'w ddarostwng a'i ddrygu, ni a allwn feddwl mai haws fuasai ganddynt edrych heibio ei waeleddau, pe gwaeleddau hefyd, ar gyfrif ei oedran a'i ddefnyddioldeb. Pa les a allasai ei ddarostyngiad fod i'r cyfundeb? a pha gysur a allasai ymwrthodiad âg ef fod i'r rhai a gydnabyddent yn rhwydd ei lafur maith, a'i wasanaeth gwerthfawr? Os gwnaed cam âg ef, o gamsyniad y bu hyny, ac nid o fwriad. Os bwriwyd ef allan gyda gormod o ffrwst a haerllugrwydd, fe wnaed hyny mewn poethder dadl, ac oddi ar syfrdandod yr ymryson. Ac os ymddyeithro yn ormodoi a wnaed ar ol hyny oddi wrtho, gwnaed hyny, ond odid, am yr ofnid y buasai yr amryfusedd diweddaf yn waeth na'r cyntaf, gan fod profion ar gael fod yr hen frawd yn dal yn gadarn wrth yr egwyddorion a barasent yr ymrysonau. Oddi wrth yr hyn a fedrais gasglu am y drafodaeth anniddan hwn, yr wyf yn cael fy arwain i'r penderfyniadau canlynol: 1. Fod profion ar gael nad oedd syniadau y Parch. Peter Williams am y Drindod ddim yn unol â syniadau y rhan fwyaf o'i frodyr, y Methodistiaid. 2. Fod llawer o'r gwŷr blaenaf yn eu plith yn golygu y materion mewn dadl yn rhai pwysig—y fath nas gellid goddef yn y cyfundeb neb pwy bynag a'u dysgai yn gyhoeddus, neu a ddadleuai yn gyndyn drostynt. 3. Fod y brawd cyhuddedig yr un modd yn synied yn gydwybodol mai y gwirionedd yr oedd ef yn ei ddal, ac felly ei fod yn ei amddiffyn yn ei ymddiddanion a'i ysgrifeniadau. 4. Fod y drafodaeth ar yr achos o bryd i bryd eisoes wedi achosi ymrysonau chwerwon a theimladau archolledig, a bod rhai o'r brodyr ar yr achlysuron hyn wedi arddangos rhy fychan o hynawsedd ac addfwynder ysbryd tuag ato, a'i fod yntau wedi syrthio i raddau i'r un tymmher, ac yn para i amddiffyn ei olygiadau, nes fod y gobaith am heddwch a chydweithrediad wedi colli yn mron yn llwyr. Ac yn 5ed, Nad all neb lai na gresynu na buasai modd lliniaru y dymmesti drwy bob hirymaros a hynawsedd tuag ato; a chael ganddo yntau, o leiaf, i beidio gosod amlygrwydd ar y syniadau a ddelid ganddo ef yn wahanol i'w frodyr, fel ag iddo barhau yn eu cymdeithas i ddibenu ei yrfa, yn hytrach na'i fwrw ef ymaith yn llwyr, ac ymddyeithro oddi wrtho yn gwbl o hyny allan."

Anffawd fawr, yn ddiau, i Gymru, pryd yr oedd achos crefydd efengylaidd ynddi etto yn egwan ac ieuengaidd, yn gystal ag i ysbryd Mr. Williams ei hun, oedd fod gŵr o'i fath ef, a gychwynasai mor wresog ac egnïol fel efengylydd, ac a wnaethai gymmaint tuag at ledaenu newyddion da iachawdwriaeth, a phlanu eglwysi, yn awr yn estyn i'r dysgyblion esgyrn sychion dadleuon duwinyddol, yn lle eu porthi yn gwbl â bara y bywyd a llaeth y gair. Wedi yr ymwahaniad rhwng ei hen gyfeillion ag ef, yr oedd efe bellach yn cael ei gornelu i ychydig leoedd —yn lle bod, fel cynt, o wasanaeth da i leoedd lawer trwy ei weinidogaeth deithiol. Efe a gadwodd feddiant iddo ei hun o'r capel a adeiladasai yn Heol y Dwr, Caerfyrddin; a byddai hefyd yn pregethu yn achlysurol yma a thraw yn nghapelau yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr. Gwnaeth rai ceisiadau i gael ei le gyda'r Methodistiaid fel o'r blaen, ond heb ymsymmud dim oddi wrth yr egwyddorion oedd wedi peri yr ymadawiad; ac felly yr oedd yr ymgeisiau hyny yn aflwyddiannus. Yr oedd amser ei ymddattodiad, pa fodd bynag, heb fod yn mhell. Rhyw bum mlynedd ar ol ei ysgariad â'r frawdoliaeth Fethodistaidd ar y ddaear, yr oedd efe wedi ei symmud i gymmanfa a chynnulleidfa y cyntafanedigion nefol—nid yn dadleu byth mwyach ynghylch y Drindod anfeidrol, ond yn ddedwydd mewn gogoniant, ac yn rhoddi "gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân." Adroddir iddo orphen ei yrfa yn orfoleddus; yr hyn a gymmerodd le yn y Gelli, ei drigfan er's llawer o amser, ar Awst 8fed, 1796, yn 74ain mlwydd oed. Ar ol ei farwolaeth, prynodd y Methodistiaid gapel Heol y Dŵr gan ei deulu; a hwnw, wedi ei helaethu amryw weithiau ar ol hyny, yw capel mawr yr enwad yn Nghaerfyrddin.

Heb law y sylwadau ar y Beibl, cyhoeddodd Mr. Williams y "*Mynegair Ysgrythyrol*," yr hwn a aeth trwy amryw argraphiadau. Dywed Mr. Charles o'r Bala am y llyfr hwn—"Gwaith defnyddiol iawn i'r Cymry, oedd o'r blaen heb un cyhoeddiad o'r fath i'w gael yn gyffredin. Cyhoeddwyd un o'r blaen, sef yr un a argraphwyd yn Pennsylvania. 'Hwnw a ddilynais,' medd Mr. P. Williams, 'ond gorfu i mi ddiwygio peth, a chwanegu llawer.' Y mae y gwaith yn dda ac yn fuddiol, a thrueni fod un teulu hebddo. Y mae yn wir ei fod yn ammherffaith o ran geiriau, a'r Ysgrythyrau dan yr amrywiol eiriau; ond hyd nes y caffom un gwell, defnyddiwn yr un sydd genym." Cyhoeddodd hefyd amryw draethodau byrion a defnyddiol o bryd i bryd, ac un bregeth ar yr un testyn ag oedd gan George Whitfield ar y pryd yr ennillasid ef yn Gristion; sef, ar *Esa.* liv. 5. Ac yr oedd efe yn brydydd lled rwydd; ac er nad yn gystal emynydd a'i gyfaill o Bant-y-celyn, cyfansoddodd rai pennillion rhagorol; megys,

"Y canol fur a ddaeth i lawr,
A rhwygwyd y wahanlen fawr;
'D oes derfyn mwy i efengyl rad,
Mae'r drugareddfa yn mhob gwlad."

A chyda phennill o'i waith mewn marwnad y terfynwn ei hanes hwn:—

"Pan ymadawo 'r duwiol,
Ei goffadwriaeth fydd
Yn bêr a bendigedig,
Tra fyddo yn y pridd:

Digitized by Google

Daw rhai i hoffi ei lwybrau,
A'i olrhain tua'r nef;
Ond enw'r dyn annuwiol
A bydra gydag ef."

WILLIAMS, SYR WILLIAM: cyfreithiwr a gwladweinydd o gryn enwogrwydd. Ganwyd ef yn Nantanog, yn sir Fôn, yn y fl. 1634. Ei dad, y Parch. Hugh Williams, B.D., oedd beriglor Llantrisant, yn yr un sir, ac un o ganoniaid Bangor. Unig ferch ac etifeddes John Dolben, Ysw., Caeau Gwynion, ger llaw Dinbych, oedd ei fam; yr hon hefyd ydoedd nith i Dr. Dolben, esgob Bangor. Aeth Williams i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, yn 1652; ac wedi bod yno am ddwy flynedd, symmudodd i Gray's Inn, gyda'r amcan o gymmhwyso ei hun i'r alwedigaeth gyfreithiol; ac wedi gorphen ei dymmhor o efrydiaeth yno, daeth allan yn fargyfreithiwr. Pan ar un o'i deithiau yn nghylchdaith Gogledd Cymru, digwyddodd fyned i ddawnsfa yn Nghroesoswallt, lle y dawnsiodd gyda merch i Walter Kyffin, Ysw., o'r Glascoed, ger llaw Llansilin, a syrthiodd y ddau mewn cariad â'u gilydd. Pan yr aeth y cyfreithiwr at ei thad i ofyn caniatad i ddwyn y garwriaeth yn mlaen, "gofynodd yr hen foneddwr iddo yn sarug, "Pa beth sydd genych?" canys yr oedd yn awyddus am wybod beth oedd sefyllfa fydol yr ymofynydd. Yr atteb a gafodd oedd, "Y mae genyf, dafod a gŵn (*gown*), Syr;" a bu y tad yn ddigon llygadog a doeth i weled nerth yr attebiad. Mynegir hefyd i Williams sicrhau ffafr Mr. Kyffin trwy lwyddo i ennill achos cyfreithiol i'r boneddwr hwnw yn mrawdlys Amwythig; ac yn ol un chwedl, yr oedd yn ddadleuydd mewn cynghaws ynghylch dilysrwydd gweithred gyfreithiol, yn mherthynas i'r hon y dywedodd Kyffin, os oedd y weithred yn eiddo ef, y ceid dernyn chwe cheiniog y tu fewn i'r sêl; ac felly fu. Trodd y cyfreithiwr hyny i fantais dda, ac ennillodd y fuddugoliaeth. Priododd Williams gyda Miss Kyffin yn 1664.

Cafodd ei bennodi yn gofnodydd dinas Caerlleon yn 1667; ac etholwyd ef yn aelod seneddol dros y ddinas hono yn 1678. Yn y cyfamser, yr oedd wedi bod yn gyfreithiwr hynod lwyddiannus. Etholwyd ef yn llefarydd Tŷ y Cyffredin yn yr eisteddiad a gyfarfu yn Hydref, 1679, a'r un a gyfarfu yn Rhydychain yn 1680. Bu yn eistedd yn Nhŷ y Cyffredin wedi hyny fel aelod dros fwrdeisdrefi Môn, a thros sir Gaernarfon. Pan yn llefarydd Tŷ y Cyffredin, cyhuddwyd ef o gyhoeddi athrod ar foneddwr o'r enw Thomas Dangerfield; am yr hyn y dirwywyd ef i 10,000*p.*, a mynegir iddo dalu 8,000*p.* Y barnwr Jeffreys a eisteddai yn y llys pan y dirwywyd ef; a'r tebygolrwydd yw, y gellir priodoli llymder y ddirwy i'r ysbryd dialgar oedd yn Jeffreys, yr hwn a fu ar un achlysur yn derbyn cerydd gan Syr William, pan y gweinyddai y diweddaf ei swydd fel llefarydd Tŷ y Cyffredin. Ond ar ol y chwyldroad yn 1688, cyhoeddodd Tŷ y Cyffredin y ddedfryd yn un anghyfreithlawn. Pan dorodd yr hyn a elwir y fradwriaeth Bresbyteraidd allan, etholwyd ef yn amddiffynwr i'r rhai a gyhuddid o fod yn gyfranog ynddo, megys John Hampden, Lawrence Braddon, Syr Samuel Barnardisten, ac ereill. Pennodwyd ef yn ddadleuydd cyffredinol yn Rhagfyr; ac yn y flwyddyn ddilynol, gwnaed ef yn farwnig. Pan yn gweinyddu y swydd hon, efe a erlyniai y saith esgob; ond er iddo ymdrechu yn galed eu cael i mewn yn euog, troi yn fethiant a wnaeth yr ymgais, er mawr lawenydd i'w wrthwynebydd Jeffreys; yr hwn a wyddai pe y llwyddasai y buasai y swydd o arglwydd ganghellydd yn cael ei rhoddi iddo. Yn 1675, prynodd etifeddiaeth Llanforda, ger Croesoswallt, gan yr olaf o'r Llwydiaid, yr hwn a ysgrifenodd at gyfaill i ddyweyd wrtho nad oedd ganddo fodd i waredu ei hun "ond trwy gymmeryd ei lyngcu gan lefiathan mawr ein cyfreithiau a'n tir." Gadawodd ddau fab ar ei ol. Yr hynaf oedd Syr William Williams, o Lanforda; yr hwn a briododd i deulu y Wynniaid, o Wydr, pan y cymmerodd yn wraig Jane Thelwall, merch Edward Thelwall, o Blas-y-ward, ger Rhuthyn, ŵyres i William Wynn, cynnodiadur (*prothonotary*) Cymru, a chweched mab y barwnig cyntaf o Wydr. A'r foneddiges hon oedd fam y Syr Watkin Williams Wynn cyntaf, o Wynnstay, Rhiwabon; yr hwn a wnaed yn aer yr etifeddiaethau, ac a chwanegodd yr enw Wynn at yr enw Williams. Dilyn yr alwedigaeth gyfreithiol yn llwyddiannus yn Nghaerlleon y bu John, mab ieuangaf y cyfreithiwr cyffredinol, ac o hono ef y mae y Williamsiaid o Bodelwyddan, wedi hanu. Bu farw Syr William Williams yn Gray's Inn, yn mis Mehefin, 1700, yn 66ain mlwydd oed; ond dygwyd ei gorph i lawr i'w gladdu yn nghangell eglwys Llansilin. Yr oedd Syr William yn ddyn galluog, yn cael ei ystyried yn gyfreithiwr rhagorol, ac yn amddiffynwr ar hawliau y bobl yn nheyrnasiad Siarl II.

WOLF, FREDERICK AUGUSTUS: ysgolhaig clasurol, a beirniad Almaenaidd enwocaf ei oes. Ganwyd ef ar y 15fed o Chwefror, 1759, yn mheutref Haynrode, ger llaw Nordhausen. Addysgwyd ef yn ofalus gan ei dad, yr hwn oedd organydd a meistr côr y lle; ac wedi hyny, anfonwyd ef i ysgol Nordhausen. Yn 1777, efe a symmudodd i brifysgol Gottingen, gyda'r amcan o astudio ieithyddiaeth. Antynych y gwelid ef yn wrandäwr ar y darlithiau a draddodid, gan ei fod yn hoff o efrydu wrtho ei hun. Byw yn neillduedig yr oedd tra y bu yn y sefydliad hwn. Rhoddai wersi yn yr ieithoedd diweddar, ac yn enwedig yn y Saesneg. Yn 1779, pennodwyd ef yn athraw yn ngholeg Ilfeld; ac yno y priododd efe. Yn fuan ar ol hyny etholwyd ef yn llywydd yr ysgol fawr yn Osterode, yn ngodrau mynyddoedd yr Harz. Y flwyddyn ddilynol, derbyniodd ddau wahoddiad—un i fod yn llywydd ysgol Gera, a'r llall i fod yn broffeswr athroniaeth yn mhrifysgol Halle. Er nad oedd y swydd yn Halle yn dwyn cymmaint o elw iddo, etto efe a'i dewisodd, o herwydd ei bod yn agor maes eangach iddo weithio. Ac yma yr oedd pan y cyhoeddodd efe y gweithiau ieithyddol llafurfawr a dysgedig, yn gyssylltiedig â pha rai y daeth ei enw mor hysbys. Yr oedd ei lafur fel athraw yn nodedig. Er cael rhyw syniad am dano, gellir crybwyll y ffaith iddo, yn ystod y tair blynedd ar hugain y bu yno, draddodi hanner can cyfres o ddarlithiau ar wahanol destynau yn dwyn perthynas â hynafiaethau, yn annibynol ar yr hyn a wnaeth gyda'r ysgol ieithyddol. Cyhoeddodd y blynyddoedd hyny lawer o weithiau, yn profi ei fod yn feirniad clasurol o allu anghyffredinol. Gwahoddwyd ef i Leyden yn 1796, i Copenhagen yn 1798, ac i Munich yn 1805. Ond gwrthododd y gwahoddiadau hyn oll, a gwobrwywyd ef am hyny gan lywodraeth Prwssia, trwy gyfodi ei

Digitized by Google

gyflog, a chael ei appwyntio yn aelod o'r cyfringynghor. Ar ol yr anffodion a ddigwyddodd mewn canlyniad i'r rhyfel Prwssiaidd, yr hwn a dorodd allan yn 1806, gwasgarwyd aelodau prifysgol Halle, a gwasgwyd Wolf am dymmor i amgylchiadau lled gyfyng. Pa fodd bynag, cafodd le tra cymmhwys fel aelod o athrofa y gwyddonau yn Berlin, lle y cymmerodd ran yn ad-drefniad y brifysgol, a phennodwyd ef yn athraw, ac arferai lliaws mawr o ddynion enwog ddyfod i wrandaw ar ei ddarlithiau. Rhoddodd i fyny ei swydd fel athraw, gan gadw iddo ei hun y fraint o ddarlithio i'r brifysgol ar y cyfryw destynau ag yr ewyllysiai. Pallu yr oedd ei iechyd; ac er ceisio adferiad, aeth i ddeheubarth Ffraingc yn Ebrill, 1824, ond bu farw yn Marseilles ar yr 8fed o Awst, yr un flwyddyn. Nis gallwn roddi rhestr o weithiau Wolf, gan eu bod yn rhy liosog. Cynnwysant yn benaf argraphiadau beirniadol o weithiau ysgrifenwyr clasurol, gyda rhagdraethodau a nodiadau, ac yn fynych gyfieithiadau rhagorol o honynt i'r Almaenaeg, neu i'r Lladin.

WOLFE, JAMES: cadfridog Prydeinig enwocaf ei ddydd, yr hwn a anwyd yn Westerham, yn Nghaint, ar y 15fed o Ionawr, 1726. Yr oedd ei dad, Edward Wolfe, yn swyddog yn y fyddin Brydeinig. Derbyniodd James elfenau cyntaf ei addysg mewn ysgol fechan yn y gymmydogaeth, ac er yn blentyn amlygai duedd i ddilyn yr alwedigaeth filwraidd fel ei dad. Yn 1742, pennodwyd ef yn fanerwr y ddeuddegfed gatrawd o wŷr traed, ac aeth gyda hi yn fuan i Flanders. Yn y flwyddyn ddilynol, cymmerodd ran yn mrwydr enwog Dettingen; ac er nad ydoedd ond bachgen, yr oedd yn rhagweinydd (*adjutant*) ei gatrawd. Ar ol brwydr Fontenoy, yn 1845, galwyd y milwyr Prydeinig adref o Flanders, i roddi y gwrthryfel cartrefol i lawr. Yr oedd efe yn mrwydrau Falkirk a Culloden. Yr oedd yn bresennol hefyd yn mrwydr Laufeldt, yn 1747, lle y clwyfwyd ef yn ysgafn; ond gwnaeth yno enw iddo ei hun. Yn 1749, pennodwyd ef yn uchgadben yr ugeinfed gatrawd; ac yn absennoldeb y milwriad disgynodd y llywyddiaeth arno ef. Er mor ieuangc ydoedd efe, ymddygodd Wolfe yn ddoeth, a rhagorol. Bu gyda'i gatrawd yn Ysgotland hyd y fl. 1753, pryd y dychwelodd i Loegr. Efe oedd penlluestwr (*quarter master general*) y fyddin yn yr anturiaeth anffodus yn erbyn Rochefort yn 1757; a phe buasai cyfarwyddiadau Wolfe wedi eu derbyn y pryd hwnw, yn ol pob argoelion, buasai y canlyniadau yn wahanol i'r hyn a fuont. Aeth allan gyda'r ymgyrch yn erbyn Penrhyn Breton, pan y cymmerwyd Louisbourg, ac efe a ystyrid yn "arwr Louisbourg." Yr oedd Mr. Pitt y pryd hwnw yn penderfynu gyru y Ffrangcod allan o Canada; ac efe a bennododd Wolfe yn arweinydd byddin o rhwng 8,000 a 9,000 o rifedi i ymosod ar Quebec, prifddinas y gelyn; ac ar yr 17eg o Chwefror, 1759, efe a hwyliodd allan o Loegr. Ar y 26ain o Fehefin, glaniodd ei luoedd ar Ynys Orleans, gyferbyn a Quebec, a phrysurodd i addfedu ei gynlluniau tuag at wneuthur yr ymosodiad. Canfu ar unwaith fod y gwaith yn fawr, ac o'r bron yn ammhossibl. Yr oedd Montcalm hefyd, cadfridog y Ffrangcod, yr hwn a amddiffynai y ddinas, yn wrthwynebwr medrus a gochelgar. Yn ei holl ymosodiadau, er ei fod yn cael ei gynnorthwyo yn alluog gan y llyngesydd Saunders, llwyr ddyryswyd ef; ac yr oedd y gauaf yn dynesu, pryd nas gallesid dwyn yn mlaen weithrediadau milwraidd. Ond o'r diwedd, ar wawriad y boreu, Medi 13eg, aeth ef a'i fyddin fechan i ben bryniau Abraham, uwch ben y ddinas; a bu raid i Montcalm, er fod hyny yn groes i'w ewyllys, ymladd brwydr âg ef yn y maes agored. Penderfynodd Wolfe anturio pob peth ar un ymdrech egnïol terfynol; gan hyny, yn ystod y nos, llwyddodd ef a'i wŷr i ddringo i fyny y clogwyni mewn man nad oedd y gelyn yn ei wylio yn ddigon gofalus—a gwaith mor anhawdd a pheryglus, nad oes yn nghofnodion rhyfel ddim o'r bron a ddeil gymmhariaeth âg ef. Nid ammheuai na chawsai fuddugoliaeth; er nad oedd ganddo, erbyn gadael rhai ar ol, ond 5,000 o filwyr at y gwaith, tra yr oedd gan y gelyn 8,000, heb law cynnorthwywyr Indiaidd. Sylweddolwyd ei ddisgwyliadau. Ar ol ymdrechfa fér, gyrwyd y gelyn o'r maes yn llwyr; rhoddwyd Quebec i fyny ychydig ddyddiau wedi hyny; a chyda cwympiad Quebec penderfynwyd tynged Canada. Ond ni chafodd Wolfe fyw i fedi o ffrwyth ei fuddugoliaeth, canys bu farw yn mrig y fuddugoliaeth. Pan yn arwain yr aden ddeheu ei hun, clwyfwyd ef y drydedd waith, a chariwyd ef o'r maes; ond bu fyw i glywed fod y fuddugoliaeth wedi ei hennill. Pan ddeallodd hyny, efe a ddywedodd, "Moliant i Dduw! Yr wyf yn marw mewn tangnefedd!" Cwympodd ei wrthwynebwr dewrfrydig Montcalm hefyd yr un dydd.

Derbyniwyd y newydd am gwymp Quebec gyda'r llawenydd mwyaf yn Mhrydain, ond yn gymmysgedig â galar dwfn am golli yr arwr yr oedd y genedl yn benaf yn ddyledus iddo am hyny. Claddwyd ei weddillion yn eglwys y plwyf yn Greenwich; lle y cyfodwyd coflech iddo gan bobl ei blwyf genedigol, a phenderfynodd Tŷ y Cyffredin godi cofadail iddo hefyd yn mynachlog Westminster. Wrth gwrs, nis gall un campwaith milwrol, pa mor enwog bynag y bo, benderfynu cymmeriad un fel rhyfelwr mawr; Ond o'r braidd y gall neb ammheu nad oedd Wolfe yn perchen athrylith filwraidd gref, os nad o'r radd flaenaf, ac nad oedd arno eisieu ond amser a chyfleusderau i ennill enwogrwydd mwy. Ymgododd yn fuan yn y fyddin trwy ei deilyngdod ei hun. Nid oedd ond deng mlwydd ar hugain oed pan dorwyd ef i lawr. Yr oedd yn ddyn o serchiadau gwresog, a natur agored a haelfrydig. Er ei fod o ran ei dymmer braidd yn dwymn a chyffrous, ychydig a gerid yn fwy cyffredinol; ac ychydig o ddynion o'r fath enwogrwydd a adawsant ar eu hol gymmeriad mor bur a diargyhoedd.

WOLSEY, THOMAS: y cardinal enwog, yr hwn a anwyd yn Ipswich, yn swydd Suffolk, yn y fl. 1471. Y mae yr adroddiad mai mab i gigydd oedd efe yn debyg o fod yn wir, er nad oes sierwydd hollol am hyny. Ymddengys, er nad oedd ei rieni, Robert a Joan Wolsey, ond pobl mewn amgylchiadau lled gyffredin, eu bod yn meddu ar ddigon o foddion i ddarparu addysg dda i'w mab. Wedi derbyn addysg rhagbarotoawl, anfonwyd ef pan yn dra ieuangc i Goleg Magdalen, yn Rhydychain, a graddiodd yn B. A. pan yn ddeunaw mlwydd oed. Etholwyd ef yn fuan yn gymmrawd o'i goleg, a phennodwyd ef yn addysgydd mewn ysgol yn dal cyssylltiad âg ef, a chafodd ei ordeinio. Yr oedd tri o feibion yr Ardalydd Dorset yn yr ysgol hono, a daeth

Digitized by Google

Wolsey i gydnabyddiaeth â hwynt; a thrwy eu nawddogaeth hwy y cafodd ei bennodi i'w fywoliaeth gyntaf yn Lymington, Gwlad yr Haf. Tra yn Rhydychain, mynegir iddo ddyfod i gydnabyddiaeth â'r enwog Erasmus, yr hwn yn ddiau oedd yn Lloegr ar y pryd. Yr oedd Wolsey erbyn hyn yn naw ar hugain oed, yn ddyn o alluoedd naturiol cryfion, ac yn meddu craffder a gallu arbenig i ddarllen cymmeriadau, yn gystal a'i fod yn hynod o ennillgar ei foes, yr hyn a fu yn gynnorthwyon i'w ddyrchafiad. Er nad oedd bob amser yn ddoeth a gochelgar, y mae yn eglur ei fod yn ennill cyfeillgarwch a hyder, pa le bynag y preswyliai. Darfu iddo, ar un achlysur, tra yn Lymington ddwyn ei hun i helynt. Bu mor anffodus, meddir, a meddwi mewn ffair yn y gymmydogaeth; a dywedir fod un o ustusiaid y sir, sef Syr Amias Poulet, wedi gorchymyn ei ddodi yn y cyffion (*stocks*). Y mae yn lled sicr iddo fod yn y cyffion; ond nid yw y dystiolaeth yn gref mai meddwdod oedd yr achos. Medrodd Wolsey ddial ar Syr Amias, o blegid llwyddodd ar ol hyny i'w garcharu am chwe blynedd. Pennododd Syr John Nafant, trysorydd Calais, ef yn gynnorthwywr iddo; a thrwy ddylanwad yr un gŵr yn y llys, appwyntiwyd Wolsey yn gaplan i'r brenin Harri VII., a daeth yn fuan i ffafr fawr gan y penadur hwnw. Yr oedd ei swŷn cymdeithasol, ei arferion ennillgar, a'i alluoedd mawr yn dylanwadu ar y brenin. Arferai clerigwyr yn fynych yn yr amseroedd hyny weinyddu swyddi gwladol. Anfonwyd Wolsey i Flanders gyda chenhadwri yn dal cyssylltiad â phriodas y brenin, a gwnaeth y daith mewn cyn lleied o amser fel mai o'r braidd yr oedd y brenin yn deall ei fod wedi cychwyn. Yn 1508, pennodwyd ef i ddeoniaeth werthfawr Lincoln. Bu farw y brenin y flwyddyn ddilynol, a dilynwyd ef gan Harri VIII.

Nid oedd Wolsey wedi cael cyfle i gymmeryd rhan mewn unrhyw waith mawr. Cyfododd yn brysur, y mae yn wir; ond gan ei fod yn hanu o deulu cyffredin, nid oedd wedi cael digon o amser i ymgodi yn uchel iawn. Yr oedd amryw bethau yn arwyddo fod dyrchafiadau yn ei aros. Pennodwyd ef yn elusenwr y brenin, ac ymgododd fwy-fwy i ffafr y brenin; ac anrhegwyd ef â thiroedd gwerthfawr, ac â thai yn mhlwyf St. Bride, yn Fleet-street. Yn 1510, gwnaed ef yn beriglor Torrington; yn 1511, yn ganon Windsor, a chofrestrydd Urdd y Gardas; yn 1512, yn gôrberiglor Caerefrog, ac yn esgob Tournay yn Ffrainge; yn 1514, yn esgob Lincoln, ac yn yr un flwyddyn yn archesgob Caerefrog. Yn 1515, gwnaed ef yn gardinal, yn brif weinidog, ac yn olynydd i Warham fel canghellydd. Yn 1516, pennodwyd ef yn genad y pab—yr hyn a roddodd iddo allu diderfyn bron dros y clerigwyr. Swydd oedd hon a ddygai iddo elw mawr; ac yn chwanegol at yr eiddo a ddeuai i'w feddiant drwy y ffynnonellau hyn, ac ereill, yr oedd brenhinoedd Ffrainge ac Yspaen, a duglyw (*doge*) Venice, yn talu arian yn flynyddol iddo. Yr oedd prif allu y wladwriaeth, yn wladol a chrefyddol, yn nwylaw Wolsey; a derbyniai o ffynnonellau cartrefol a thramor gyfoeth nad oedd un o ddeiliaid Prydain erioed wedi mwynhau ei gyffelyb. Yr oedd ei gyfoeth a'i ddylanwad, mewn gwirionedd, o'r braidd yn gwasgu ar urddas y goron. Ond nid oedd ei uchelgais etto wedi cyrhaedd ei eithaf-nod; dangosai yn eglur ei fod yn awyddus am esgyn i orsedd y pab; a bu ganddo seiliau i gredu, fwy nag unwaith, fod y dyrchafiad hwn yn mron yn ei gyrhaedd. Ei siomi gafodd, pa fodd bynag; a thybir fod ei ddialgarwch ar Siarl V., i'r hwn y priodolai ei aflwyddiant yn ei ymgais, wedi penderfynu, i raddau pell, wladlywiaeth dramor y wlad hon.

Nid oedd neb yn Lloegr yn byw mor rwysgfawr a Wolsey. Yr oedd yn ei breswylfod yn York Place (Whitehall, yn awr) bob moethusrwydd; ac adeiladodd iddo ei hun balas ardderchog yn Hampton Court, yr hwn wedi hyny a gyflwynwyd yn anrheg ganddo i'r brenin. Ymwisgai mewn gwisgoedd addurniadol, ac yr oedd ei ddull o fyw yn gostfawr, a thylwyth ei dŷ yn gynnwysedig o bum cant o bersonau; ac yn eu plith amryw o bobl o radd uchel, megys Iarll Derby, ac Arglwydd Henry Percy, ac ereill. Dywedodd ei fywgraphydd, Cavendish, fod ei "oruchwyliwr ef yn wastad, naill ai yn ddeon neu yn offeiriad; ei drysorydd yn farchog; a llywodraethwr ei dŷ yn yswain; a bod y rhai hyn yn cario ffon wen bob un. Yr oedd yn ei gegin brif gogydd, yn ymwisgo bob dydd mewn sidan a melfet, a chadwen aur am ei wddf." Fel hyn yr oedd y cyfoeth mawr a dderbyniai yn cael ei afradloni. Rhaid cydnabod ei fod yn gefnogwr haelfrydig a chysson i ddysgeidiaeth. Y mae prifysgol Rhydychain yn ddyledus iddo am Goleg Eglwys Crist. Sylfaenodd hefyd ysgol yn Ipswich, ei dref enedigol; ac yr oedd yn noddwr haelionus i ddysgedigion a llenyddion. Yr oedd efe ei hun yn ysgolhaig gwych; a dywedir ei fod yn cynnorthwyo y brenin, trwy ei gydnabyddiaeth manwl â gweithiau ei hoff awdwr, Thomas Aquinas, ac ysgrifenwyr duwinyddol ereill, pan yr oedd y penadur hwnw yn cyfansoddi ei draethawd yn erbyn Luther. Rhoddodd Wolsey esgobaeth Durham, i'r hon y pennodasid ef yn ddiweddar, i fyny, a chymmerodd esgobaeth Winchester yn ei lle. Ymddengys nad oedd efe yn ffafriol i un cyfnewidiad mewn athrawiaeth yn mysg y clerigwyr; ac ni siglwyd ei ffydd ef yn yr Eglwys Babaidd. Ychydig o gynnydd a wnaeth y Diwygiad yn ei amser ef, er fod ei hadau yn cael eu hau y pryd hwnw. Yr oedd ei ddull ef o fyw, a'r camddefnydd a wnelai o gyllid yr eglwys yn brofion argyhoeddiadol fod angen am ddiwygiad. Yr oedd rhoi cynnifer o swyddi i'r un person, tra nas gallai gyflawni eu dyledswyddau, yn beth nas gallesid ei oddef yn hir. Darfu i'w ymddygiad fel cenad y pab yn achos ysgariaeth y frenhines Catherine brysuro gwawr y Diwygiad.

I amgylchiadau cyssylltiedig â'r ysgariaeth a fu rhwng Harri a Catherine y gellir priodoli yn benaf gwymp Wolsey. Er y perswadiai efe y brenin i roddi Catherine heibio, ni fynai iddo briodi Anne Boleyn; ac felly, tramgwyddodd y naill ochr a'r llall. Yr oedd yn naturiol fod iddo lawer o elynion, parod i gymmeryd mantais ar bob peth er ceisio ei ddarostwng. Ymunodd y duciaid o Norfolk a Suffolk, ac Arglwydd Rochford, tad Anne Boleyn, yn eu hegnïon i'w dynu i lawr. Llwyddwyd i gael gan y brenin ei ddiosg o'i holl anrhydedd, a'i ddanfon mewn gwarth o'r llys. Gorchymynwyd iddo ymneillduo i Esher, palas yn y wlad a berthynai i esgobaeth Winchester, lle na chaniatawyd iddo fwynhau cysuron cyffredin bywyd. Syrthiodd i iselder meddwl mawr, nes yr oedd hyd yn oed ei elynion yn teimlo drosto. Yn y flwyddyn ddilynol, ymddangosai arwyddion fod Harri yn meddwl ei adferu yn ol i'w ffafr; ond troi yn dwyllodrus a wnaethant. Yr oedd Wolsey ar y pryd yn

Digitized by Google

swydd Caerefrog, yr archesgobaeth wedi ei hadferu iddo, ynghyd â rhai swyddau ereill, pan y daliwyd ef ar y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth, a gorchymynwyd ei ddwyn i Lundain i sefyll ei brawf. Ni fynegir am ba beth yn neillduol y cyhuddwyd ef. Cychwynodd tua'r brif ddinas, gan farchogaeth ei asyn; ond ar y ffordd, tarawyd ef gan glefyd y gwaed. Ac fel yr elai i mewn drwy y porth i fynachdy Leicester, dywedai, "Dad abad, yr wyf yn dyfod i ddodi i lawr fy esgyrn yn eich mysg;" a phrofodd hyny yn wirionedd. Cariwyd ef i'w wely gan y mynachod; ac yn mhen tridiau, bu farw. Digwyddodd hyn yn mis Tachwedd, 1530. Cyfnewidiodd Shakespeare ychydig ar yr ymadroddion a ddywedodd Wolsey pan ar ei wely angeu wrth Kyngston, is-gadben y Tŵr, ac nid wrth Cromwell, fel y ceir hwy yn y chwareuawd:—

"Had I but served God with half the zeal
I served my King, he would not in mine age
Have left me naked to mine enemies."

Y mae yr hanesydd Hume yn dywedyd fod "y brenin yn gofidio yn fawr pan glywodd am ei farwolaeth, a phob amser yn siarad yn ffafriol am dano ar ol ei ymadawiad; yr hyn a brawf mai nwyd, yn hytrach na rheswm, neu unrhyw ddarganfyddiad o fradwriaeth, a achlysurodd yr erledigaeth ddiweddaf yn ei erbyn."

Diammheu fod Wolsey yn ddyn o dalent a dysg, ond o uchelgais diderfyn. Yr oedd hefyd yn falch a dialgar, ac yn nodedig o hoff o wneyd ymddangosiad rhwysgfawr ac ysblenydd. Nid oes dadl na ddefnyddiodd ei ddylanwad gartref ac oddi cartref i godi a dyrchafu ei hun; ond ar y cyfan, bu yn weinidog gwerthfawr a ffyddlawn i'r brenin, ac yr oedd yn ddyn goleuedig—ac ystyried yr oes yr oedd yn byw ynddi. Pan oedd mewn llawn awdurdod, llwyddai i leddfu llawer ar nwydau y brenin. Yr oedd y rhan olaf o deyrnasiad Harri VIII. yn llawer mwy annioddefol a gorthrymus na'r amser pan oedd Wolsey yn brif weinidog iddo. Dywed Syr James Mackintosh, mai "y rhan a gymmerodd efe yn marwolaeth y duc o Buckingham oedd ei drosedd mwyaf: ac mai yr hyn a lefarai yn fwyaf ffafriol drosto oedd ymlyniad ei weision, a'r rhai oedd yn ddibynol arno, wrtho." Rhaid addef, er y cwbl, mewn amser pan yr oedd safon moesoldeb yn isel, nad oedd yn nghymmeriad Wolsey ddim a dueddai i'w dyrchafu.

WOOD, ANTHONY: hynafiaethydd enwog, a anwyd yn ninas Rhydychain, Rhagfyr 17eg, 1632. Cafodd ei addysg yn benaf yn ei le genedigol; ac yn y fl. 1647, derbyniwyd ef i Goleg Merton. Cymmerodd ei radd o B.A., yn 1652, a M.A. yn 1655. Talai sylw mawr i'r crwth, ac ymarferodd lawer ar yr offeryn hwnw; a dywedir ei fod wedi cyrhaedd cryn fedrusrwydd i chwareu arno. Yr oedd yn dra hoff o baentio hefyd. Astudiodd archofyddiaeth (*heraldry*), yr hyn oedd yn dra chydnaws â'i chwaeth at hynafiaeth. Tynodd ei ddyfalwch yn darllen yn llyfrgell gyhoeddus y brifysgol sylw Dr. Thomas, y prif lyfrgellydd, yr hwn a ymddygodd yn dra charedig tuag ato. Yn y fl. 1656, cyhoeddodd Dugdale ei "*Antiquities of Warwickshire*," a darllenodd Wood y gwaith hwnw gyda hyfrydwch mawr. Cynnyddodd ei hoffder at hynafiaethau. Yna cafodd genad gan Dr. Wallis, yn 1660, i chwilio cofrestrau y brifysgol, ac ysgrifeniadau a gedwid yn nhŵr yr ysgolion. Cafodd yma fwnglawdd rhagorol i weithio ynddo, a gosododd i lawr sylfaen ei "*History and Antiquities of Oxford*." Aeth i Lundain yn 1667, a bu yn chwilio llawysgrifau llyfrgell Cotton, a'r cofnodion a gedwid yn y Tŵr. Cwblhaodd ei "*Antiquities*," a chafodd gan punt am yr hawlysgrif gan y brifysgol: a chyfieithwyd ef i'r Lladin er i dramorwyr allu ei ddarllen.

Yn y fl. 1691, cyhoeddodd Wood, fel ffrwyth ymchwiliadau pellach, ei "*Athenæ Oxonienses*." Er nad ydyw arddull y gwaith hwn yn dda, cynnwysa drysorfa werthfawr o ddefnyddiau, wedi eu dethol yn ofalus, er nad yn wastad yn ddiragfarn a chwaethus. Yn y gwaith hwn, efe a ymosododd ar gymmeriad iarll Clarendon, yr hanesydd mawr; ac am hyn, dygwyd ef o flaen llys y brifysgol; a'r ddedfryd a gyhoeddwyd arno oedd cael ei fwrw allan o honi. Nid hir y bu efe byw ar ol hyn; canys bu farw ar y 29ain o Dachwedd, 1695, yn dair a thrigain mlwydd oed. Yr oedd yn ddyn mawr a chryf o gorpholaeth. Cadwodd lawn feddiant o'i alluoedd meddyliol hyd y diwedd. Gadawodd ei lyfrau, a chymmaint o'i lawysgrifau ag a dybiai oedd o werth, i brifysgol Rhydychain; o'r hon yr oedd efe wedi peidio a bod yn aelod.

WORDSWORTH, WILLIAM: bardd Saesneg o fri ac enwogrwydd mawr. Ganwyd ef yn Cockermouth, Cumberland, ar y 7fed o Ebrill, 1770. Hanai o linach henafol, o ochr ei dad a'i fam. Yr oedd ei fam o deulu y Crackenthorps, o Newbiggen Hall; ac yr oedd teulu ei dad wedi ymsefydlu yn Cumberland er's canrifoedd. Cyfreithiwr oedd ei dad, John Wordsworth, a goruchwyliwr i Iarll Lonsdale. Derbyniodd William elfenau cyntaf ei addysg yn Penrith; ond ar ol marwolaeth ei fam, symmudwyd ef i ysgol rammadegol Hawkshead, yn sir Lancaster. Y mae golygfeydd y gymmydogaeth hon yn brydferth a swynol dros ben; a diammheu iddynt wneuthur argraph ddofn ar ei ddarfelydd ieuangc, a chario dylanwad sydd yn amlwg ar ei gyfansoddiadau barddonol yn nghyfnodau olynol ei oes. Yr oedd eisoes wedi amlygu fod gogwydd ei feddwl yn gryf at farddoniaeth. Ychydig o Ladin a ddysgai, a llai o Roeg; ond darllenai yn ddibaid weithiau Cervantes, Swift, Pope, Gray, Goldsmith, a Fielding. Aeth i goleg St. Ioan, Caergrawnt, yn 1787; ac yno hefyd dilynai i raddau pell yr un cwrs o efrydiau. Arosodd yn y coleg am bedair blynedd. Yn y fl. 1791, efe a adawodd Gaergrawnt, ar ol graddio yn B. A. Yn ystod misoedd y cynhauaf y flwyddyn o'r blaen, teithiodd ef a chyd-efrydydd iddo ar eu traed drwy Ffraingc, pan oedd y trigolion yn llawn brwdfrydedd dros y chwyldroad mawr; ac wedi gadael y coleg, efe a ddychwelodd i'r wlad hono. Yr oedd yn cydymdeimlo yn llawn âg amcanion y chwyldroad; a gwnaeth gyfeillion o rai o'r Girondiaid; yr hyn a allasai ei arwain i anhawsderau oni bae fod amgylchiadau arianol, dybygid, wedi ei alw yn ol i Loegr; o herwydd yn fuan ar ol ei ddychweliad rhoddwyd amryw o'i gyfeillion i farwolaeth. Yn mhen peth amser, ymwrthododd Wordsworth â'i syniadau gwerinol, a choffeidiodd olygiadau lled geidwadol. Ymddangosodd o flaen y cyhoedd fel awdwr, am y waith gyntaf, yn y flwyddyn 1793, pan y cyhoeddodd efe ei "*Evening Walk*," a'i "*Descriptive Sketches*." Y mae y darnau hyn yn gyflawn o feddylddrychau coethedig a gwreiddiol, ond ni wnaethant hwy

Digitized by Google

argraph ddofn ond ar ychydig feirniaid manylgraph; ac yn eu mysg Samuel Taylor Coleridge, yr hwn oedd ar y pryd yn Nghaergrawnt. Yr oedd Wordsworth yn awr mewn sefyllfa ddyrus, gan fod yr ychydig arian a feddai yn mron wedi darfod: ac er fod ei gyfeillion yn awyddus am iddo gymmeryd urddau eglwysig, teimlai efe ei hun wrthwynebiad cryf i hyny; yn gymmaint a bod barddoni wedi dwyn ei fryd, a'i fod yn awyddus am ymgyflwyno yn llwyr i gyfansoddi barddoniaeth; er, yn ol pob argoelion, yn anffodus, nad oedd ei farddoniaeth yn debyg o dalu iddo.

Yn gymmaint ag nas gallai bardd fyw ar y gwynt, angenrhaid a osodwyd ar Wordsworth i chwilio am foddion cynnaliaeth; ac yr oedd yn mron ar gychwyn i fyny i Lundain gyda'r amcan o gynnyg ei wasanaeth i ysgrifenu i rai o newyddiaduron rhyddfrydig y brif ddinas, pan, yn ddisymmwth, y daeth gwaredigaeth iddo mewn cymmunrodd a adawyd iddo. Haedda enw Mr. Raisley Calvert gael ei gofio ynglŷn â Wordsworth. Yr oedd yn gyfaill mynwesol i'r bardd, ac wedi ffurfio barn uchel am ei athrylith; ac ar adeg ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le yn 1795, tra nad oedd ond dyn ieuangc, deallwyd ei fod wedi gadael yn ei ewyllys naw cant o bunnau i Wordsworth, mewn trefn iddo allu mwynhau rhai blynyddoedd o lonyddwch a thawelwch, er cael mantais i ddadblygu ei alluoedd yn llawn. Anfynych y rhoddwyd arian i well dyben; ac er lleied yr ymddengys y swm, i ddyn o chwaeth ac amcanion syml y bardd yr oeddynt yn ddigon iddo dros amryw flynyddoedd. Ymsefydlodd yn awr yn y lle a elwir Racedown Lodge, yn swydd Dorset, gyda'i unig chwaer, Dorothy, yr hon a fu yn gydymaith ffyddlawn iddo dros ei holl fywyd; a'r hon oedd yn credu yn drwyadl yn ei alluoedd, ac yn meddu ar gryn athrylith ei hun. Ond symmudodd oddi yno yn 1797 i Alfoxden, yn Ngwlad yr Haf, mewn trefn i fod yn agos i'w gyfaill Coleridge; yr hwn oedd wedi ymsefydlu yn Nether-stowey—rhyw dair milldir oddi yno. O'r gyfrinach gyfeillgar yma y deilliodd y "*Lyrical Ballads,*" a gyhoeddwyd dros y ddau fardd gan Cottle yn Mristol yn 1798. Ni bu y gyfrol yn llwyddiannus; ond nid oedd hyn yn effeithio i iselhau meddwl Wordsworth, gan ei fod yn meddu ei farn ei hun am ei gyfansoddiadau ei hun: ac o bawb efe a fuasai yr olaf i gymmeryd ei ddigaloni wrth weled eraill yn methu gwerthfawrogi ei lafur. Nid oedd efe yn ymawyddu am boblogrwydd; ond ymfoddlonai ar gymmeradwyaeth ei deimlad a'i farn ei hun ar ei gyfansoddiadau.

Yn 1802, ymwelodd â Ffraingc a'r Almaen yn nghwmni ei chwaer a chyfaill, a dychwelodd yn fuan i Cumberland, ei sir enedigol, ac ymsefydlodd yno fel lle ei breswylfod ar ol hyn. Ar farwolaeth yr hen Arglwydd Lonsdale, cydnabyddwyd hawl y Wordsworthiaid i gyfran o'r etifeddiaethau; ac yn 1802, rhoddwyd y swm o 8,000*p.* gan ei olynydd i'r teulu. Yr oedd y gyfran a ddaeth i ran Wordsworth a'i chwaer yn dra derbyniol, dybygid; o herwydd, gellid meddwl eu bod erbyn hyn yn mron a dyfod i ben â'r 900*p.* a adawyd iddynt gan Mr. Raisley Calvert. O hyn allan, yr oedd ganddynt ryw gymmaint o gynnysgaeth i ddibynu arno; ac yn y flwyddyn hono priododd Wordsworth gyda Mary Hutchinson, ei gyfnither. Ymsefydlodd yn Grasmere ar y cyntaf; yn 1808, symmudodd i Allan Bank, yn yr un gymmydogaeth; ac yn 1813, ymsefydlodd yn Rydal Mount—y lle ag y mae ei enw yn fwyaf cyssylltiedig âg ef. Yn yr un flwyddyn, trwy garedigrwydd Arglwydd Lonsdale, efe a bennodwyd yn ddosbarthwr y stampiau dros swydd Westmoreland:—sefyllfa, er nad oedd y gwaith cyssylltiedig â hi ond bychan, a ddygai iddo 500*p.* yn flynyddol. Yn y flwyddyn ganlynol, pan y cyhoeddodd ei bryddest fawr, sef "*The Excursion,*" efe a'i cyflwynodd (*dedicate*) hi i Argl. Lonsdale, mewn canig, yn arwyddo parch uchel a diolchgarwch dwfn am y chwanegiad cysurus uchod at ei eiddo, gan ei fod yn dra derbyniol i ddyn ag yr oedd ei deulu yn lliosogi. Yn y cyfamser, cyn ymddangosiad y gwaith mawr hwn, yr oedd enw a chymmeriad y bardd yn ymgodi yn raddol, ond yn sicr. Yn 1800, cyhoeddodd ddwy gyfrol o'r "*Lyrical Ballads,*" gan wahanu ei gyfansoddiadau ei hun oddi wrth yr eiddo Coleridge, a chwanegu llawer o fater newydd; ac yn 1802 ac 1805, daeth allan argraphiadau o honynt drachefn. Yn 1807, daeth allan gasgliad newydd o'i weithiau barddonol, o dan y teitl "*Poems,*" mewn dwy gyfrol. Yr oedd yn ei weithiau boreuol rai pethau yn tueddu i gynnyrchu gwawd a gwatwaredd; ac am gryn amser, nid oedd adolygwyr yn gwneyd dim ond gwawdio Wordsworth, ac yn enwedig felly Jeffrey, yr hwn, fel golygydd yr "*Edinburgh Review,*" a ystyrid yn mysg beirniaid penaf y dydd. A rhoddwyd yr enw "Ysgol y Llyn" (*Lake School*) ar farddoniaeth Wordsworth, Southey, a Coleridge; y rhai a breswylient yn yr un dosbarth o'r wlad. Nid oedd yn bossibl dirgelu yn hir, pa fodd bynag, nad oedd yn y cyfrolau hyn a gyhoeddwyd gan Wordsworth, er fod rhywbeth yn hynod yn y testynau a ddewiswyd ganddo i ganu arnynt, gorph mawr o wir farddoniaeth o nodwedd wreiddiol a newydd. Daeth cylch o edmygwyr gwirioneddol, yn cynnwys dynion fel Leigh Hunt, De Quincey, a John Wilson, i ddadleu rhagoriaethau y bardd; ac ar ol cyhoeddi yr "*Excursion,*" daethpwyd i weled a theimlo yn amlycach, ac yn ddyfnach, fod y gwawdwyr yn camgymmeryd; ac er ei fod, yn awr ac eilwaith, megys pe yn ymhyfrydu mewn cyfansoddi rhai pethau hynod, yr oedd yn hawdd gweled ei fod yn ŵr o athrylith farddonol gref anghyffredin, ac nas gallai gwawdiaith lwyddo i'w ddarostwng a'i gadw i lawr yn barhaus. Ond cafodd y dosbarth a'i gwawdient achlysur i ddefnyddio eu talentau i wneyd hyny drachefn pan ymddangosodd ei "*Peter Bell,*" yn 1819—pryddest, er yn meddu ar deilyngdod uchel, yn anffodus, ag yr oedd asyn yn arwr iddi. Ond ar y cyfan, yr oedd adeg y diystyru a'r gwawdio llym drosodd; a dechreuodd llanw mawr cymmeradwyaeth Wordsworth lifo i mewn, fel, yn mhell cyn ei farw, yr ystyrid ef y penaf o feirdd ei wlad. Treuliodd ei flynyddoedd olaf yn siriol a thawel, yn cael ei anrhydeddu yn gyffredinol. Cafodd ei raddio yn LL.D. gan brifysgol Rhydychain, yn 1839. Yn 1842, penderfynodd y llywodraeth iddo gael blwydd-dal o 300*p.* yn flynyddol; ac ar farwolaeth ei gyfaill, Robert Southey, yn 1843, pennodwyd ef yn fardd brenhinol. Bu farw ar y 23ain o Ebrill, 1853, oddi wrth effeithiau anwyd a gawsai o ddeutu chwech wythnos yn flaenorol, yn ddwy a phedwar ugain oed.

Y gweithiau ereill a ymddangosodd o'i eiddo, heb law y rhai a enwir uchod, oeddynt "*The White Doe of Rylstone;*" "*The Waggoner;*" "*Sonnets on the River Duddon;*" "*Memorials*

Digitized by Google

*of a Tour on the Continent;*" "*Ecclesiastical Sonnets;*" "*Yarrow Re-visited,*" &c. Cyhoeddodd argraphiad cyflawn o'i holl weithiau yn 1842. Yn fuan ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd prydd-est hunan-gofiantol faith o'i eiddo yn y mesur diodl, dan y teitl "*The Prelude.*"

Yr oedd Wordsworth, o ran ei berson, braidd uwch law y taldra cyffredin, yn sefyll tua phum troedfedd a deng modfedd, yn gyfartal gydnerth, ac yn alluog i lafurio a dioddef cryn lawer, ond nid yn lluniaidd iawn o gorph. Yr oedd yn meddu gwyneb rhagorol; er nad oedd ei dalcen yn uchel, yr oedd yn hynod am ei led a'i lawnder. Yr oedd ei drwyn yn fawr a bwäog, y genau yn amlygu diysgogrwydd, a'r llygaid yn arwyddo difrifwch, ac yn pelydru gan oleuni barddonol. Rhywbeth yn debyg i hyn yna oedd y bardd, o ran y dyn oddi allan. Am ei farddoniaeth, anhawdd ydyw dyweyd nemawr o fewn terfynau cyfyng. Un o'i nodweddau amlycaf ydyw gwybodaeth eang a hoffder dwfn o natur. Y mae efe, nid yn unig yn disgrifio y mynydd, yr afon, y dyffryn, y seren hwyrol, lleuad Medi, a'r blodeuyn; ond efe a'u dwg i gyd-darawiad uniongyrchol â chalon a meddwl y darllenydd, gan eu dangos yn eu perthynasau dyfnaf a mwyaf dirgel. Diammheu i'r nodwedd yma yn marddoniaeth Wordsworth ddylanwadu yn rymus ar farddoniaeth ei oes a'i wlad. Er hyny, o'r braidd y gellir edmygu yr oll a ysgrifenodd efe. Rhaid addef fod rhai pethau a ysgrifenwyd ganddo yn lled gynnar ar ei yrfa yn tueddu i gynnyrchu digrifwch. Pe yr aethai yn mlaen i ysgrifenu darnau cyffelyb i "*Betty Foys*" ac "*Alice Fells,*" y rhai a godid i fyny gan Jeffrey yn destyn gwawd a chwerthiniad, ni buasai wedi gwneyd dim yn teilyngu cadw ei enw mewn coffadwriaeth. Ond efe a gyfansoddodd ddarnau sydd yn sicr o fod yn anfarwol, a bydd iddo le uchel yn mysg beirdd ei wlad tra y pery yr iaith Saesnig.

WORTHINGTON, WILLIAM, D. D.: duwinydd enwog am ei ddysg a'i dduwioldeb, a anwyd yn sir Feirionydd, yn y flwyddyn 1703. Derbyniodd ran o'i addysg foreuol yn Ysgol Rammadegol Croesoswallt. Aeth oddi yno i Goleg yr Iesu, Rhydychain; a thrwy ei dalent a'i ymroad, efe a dynodd sylw ac a ennillodd barch. Pennodwyd ef yn athraw Ysgol Croesoswallt. Cyflwynwyd iddo ficeriaeth Llan-y-blodwel gan ei gyfaill yr esgob Hare, o Lanelwy; ac yno, efe a bregethodd yr efengyl gydag egni a brwdfrydedd i'w gynnulleidfa wledig. Cafodd hefyd beriglorïaeth Darowen yn 1737, ac hefyd ficeriaeth Llanrhaiadr-yn-Mochnant yn 1747. Cyfnewidiodd Darowen am beriglorïaeth Hope, sir Fflint, yn 1751, a gwnaeth gyfnewid drachefn o'r ddiweddaf am un Llanfor, ger y Bala, yn 1774. Wrth gwrs, yr oedd amryw o honynt yn wâg-swyddau. Yr oedd hefyd yn gôrberiglor yn Llanelwy a Chaerefrog. Yn 1743, efe a gyhoeddodd ei "*Essay on the Scheme and Conduct, Procedure and Extent of Man's Redemption;*" ac yn fuan wedi hyny, ei "*Historical Sense of the Mosaic Account of the Fall,*" ei "*Instructions concerning Confirmation,*" a'i "*Disquisition concerning the Lord's Supper.*" Yn 1764, efe a gyhoeddodd bregeth a draddododd o flaen prifysgol Rhydychain. Yn y blynyddoedd 1766, 1767, a 1768, traddododd gyfres o bregethau ar y profion o wirionedd Cristionogaeth, yn y ddarlith a sylfaenwyd gan yr Anrhyd. Robert Boyle. Cyhoeddodd y pregethau wedi hyny mewn dwy gyfrol, a chawsant ledaeniad helaeth, a chanmoliaeth uchel. Yn y fl. 1773, efe a gyhoeddodd "*The Scripture Theory of the Earth,*" &c. Yn 1775, yr ymddangosodd ei "*Irenicum.*" Y gwaith olaf a gyhoeddodd y dyn da hwn oedd, "*An Impartial Inquiry into the case of the Gospel Demoniacs.*" Ysgrifenwyd y gwaith mewn attebiad i draethawd y Parch. Hugh Farmer ar yr un testyn. Galwodd hyn allan attebiad llawn o ysbryd gan y diweddaf; a pharotodd Dr. Worthington attebiad iddo drachefn, yr hwn ni chyhoeddwyd hyd ar ol ei farwolaeth ef. Yn Llanrhaiadr y treuliodd Worthington ei flynyddoedd olaf, lle y perchid ef yn fawr; ac yno y bu farw ar y 6ed o Hydref, 1773, yn bymtheg a thrigain mlwydd oed; a theimlid galar cyffredinol am dano.

WREN, SYR CHRISTOPHER: archadeiladydd enwog, a anwyd yn East Knoyle, swydd Wilts, ar yr 20fed o Hydref, 1632. Mab oedd efe i Dr. C. Wren, deon Windsor, a nai i Matthew Wren, yr hwn a fu yn olynol yn esgob Hereford, Norwich, ac Ely. Anfonwyd ef yn dra ieuangc i ysgol Westminster, lle y bu o dan addysg yr enwog Dr. Busby; a chyn bod yn bedair ar ddeg oed, aeth yn gyffredinwr i goleg Wadham, yn Rhydychain. Gwnaeth gynnydd neillduol mewn mesuroniaeth, a thynodd gryn sylw trwy ddyfeisio offerynau mesuronyddol, a thrwy ei sêl a'i frwdfrydedd yn gwneyd arbrawfiadau anianyddol. Yn 1650, efe a raddiodd yn B.A., ac yn 1653 yn M.A.; ac yr oedd yn flaenorol i hyny wedi ei ethol yn gymmrawd o goleg All Souls. Ymunodd â chymdeithas oedd yn Rhydychain er gwellhau anianyddiaeth naturiol ac arbrawfiadol. Erbyn hyn, yr oedd tua phedair ar hugain oed, ac yn eithaf adnabyddus i ddysgedigion Ewrop drwy ei amrywiol ddamcaniadau, dyfeisiau, a gwelliantau. Yn Awst, 1657, pennodwyd ef yn broffeswr seryddiaeth yn ngholeg Gresham, Llundain. Yn mis Mai, 1661, pa fodd bynag, dychwelodd yn ol i Rydychain, i weinyddu yno y swydd o broffeswr seryddiaeth. Yn yr un flwyddyn, derbyniodd y gradd o D.C.L. Cyn ymadael o Lundain yr oedd efe, mewn undeb âg Arglwydd Brouncker, yr Anrhydeddus Robert Boyle, Mr. Bruce, Dr. Wilkins, Syr Robert Moray, ac ereill, y rhai a arferent ymgynnull ynghyd i goleg Gresham, wedi gosod i lawr sylfeini y Gymdeithas Frenhinol. Galwyd am Wren o Rydychain i gynnorthwyo Syr John Denham, ac i'w gyfarwyddo ar destynau archadeiladol. Y diweddaf oedd arolygwr cyffredinol adeiladau y goron, er na wyddai efe ond ychydig am natur ei waith.

Yr oedd Wren wedi talu llawer o sylw i archadeiladaeth pan yn ddyn pur ieuangc, er cymmaint oedd ei ymroddiad i efrydu mesuroniaeth, seryddiaeth, fferylliaeth, a difyniaeth. Yn 1663, yn ei swydd fel arolygwr cyffredinol cynnorthwyol, cynnygiwyd iddo gyflog mawr am fyned i Tangier, i arolygu a chyfarwyddo gweithiau y porthladdoedd a'r amddiffynfeydd yno; ond gwrthododd y cynnygiad hwn. Yr un flwyddyn, cyttunodd deon a chlwysgor St. Paul gyda Wren i wneuthur archwiliad ar yr eglwys gadeiriol, gyda'r amcan o weled pa adgyweiriad oedd angenrheidiol arni. Gwnaeth adroddiad manwl a gofalus ar sefyllfa yr adeilad, gydag awgrymiadau am welliantau, a thynodd allan gynlluniau o'r cyfnewidiadau a gynnygiai efe.

Digitized by Google

Gosodwyd y cyfan ger bron y brenin; ond cyn i ddim yn mhellach gael ei wneuthur ynghylch yr adgyweiriad, yr oedd yr adeilad hwnw wedi ei wneyd yn gydwastad â'r llawr gan y tân mawr a ddigwyddodd yn Llundain yn y fl. 1666, ac a ddinystriodd gyfran mor helaeth o'r ddinas; yr hyn a barodd i Wren gael ei bennodi yn arch-adeiladydd i eglwys newydd, yn ol ei syniad a'i gynllun ei hun, ac nid yn adfesurydd ac adgyweirydd i'r hen. Agorodd y tân hwn feusydd eang ereill i Wren amlygu ei dalentau trwy gynllunio a chario allan amryw o brif adeiladau y ddinas. Un gwaith a ddisgynodd arno ydoedd archwilio yr holl adfeilion, a thynu allan gynllun er ffurfio heolydd llydain a rheolaidd. Ond collwyd golwg ar y cynllun hwn yn hollol pan yn ail adeiladu y ddinas. Wrth weled ei feddylddrych o gynllunio dinas newydd hollol yn cael ei roddi o'r neilldu, trodd ei sylw at adeiladau neillduol:—ac yn eu plith gellir enwi y Gyfnewidfa Frenhinol (*Royal Exchange*), y Gyllidfa (*Custom-house*), *Temple Bar*, Cofadail (*Monument*) Llundain, ac amryw eglwysydd; ac yn eu mysg St. Stephan, Walbrook—yr oll o ba rai a adeiladwyd cyn iddo ddechreu adeiladu St. Paul. Gellir nodi yma iddo dderbyn yr urddas o farchog yn 1672; ac yn 1674, iddo briodi merch i Syr John Coghill; ac wedi ei marwolaeth hi, priododd ferch i'r Is-iarll Fitzwilliam.

Nid oedd Wren yn segur yr holl amser hwn yn mherthynas i'r eglwys gadeiriol fwriadedig; ond yr oedd wedi darparu amryw gynlluniau. Rhoddwyd o'r neilldu, modd bynag, yr un ag yr oedd efe ei hun yn fwyaf awyddus am ei fabwysiadu, a dewiswyd yr un a gariwyd allan yn yr adeilad presennol, ond nid heb iddo wneyd rhai cyfnewidiadau ynddo, a'r rhai hyny yn groes i'w farn ef ei hun. Rhoddwyd i lawr y gareg gyntaf o'r adeilad presennol yn 1675, ac agorwyd y côrgell i gynnal gwasanaeth crefyddol yn 1697, a gorphenwyd yr holl waith mewn pymtheng mlynedd ar hugain, pryd y gosodwyd y gareg ddiweddaf ar y pen uchaf gan fab yr archadeiladydd, yn 1710. A'i chymmeryd oll yn oll, y mae Eglwys Gadeiriol St. Paul yn adeilad ysblenydd—y mae y crymdwr yn mron yn ddigyffelyb. Tynodd gynllun o ddeg a deugain o eglwysydd ereill, yn lle y rhai a ddinystriwyd gan y tân yn Llundain, a bu yn archadeiladydd i lawer o adeiladau rhagorol ereill yn y brif ddinas, ac allan o honi. Yn 1680, etholwyd ef yn llywydd y Gymdeithas Frenhinol. Yn 1684, pennodwyd ef yn arolygwr y gweithiau yn Nghastell Windsor; ac yn 1685, dewiswyd ef yn brif feistr urdd y Seiri Rhyddion. Etholwyd ef hefyd yn aelod seneddol dros Windsor yn 1789. Bu farw yn ei gadair, ar ol ciniaw, ar y 25ain o Chwefror, 1723, yn ddeg a phedwar ugain oed, a chladdwyd ef yn eglwys St. Paul, lle y codwyd beddfaen iddo, ac yn gerfiedig arno—"*Si monumentum requiris, circumspice*"—Os mynwch weled fy nghofadail, edrychwch o'ch cwmpas.

**WROTH, WILLIAM**: tad Ymneillduaeth Cymru. Ganwyd ef, fel y tybir, yn Llanelen, ger llaw Abergafenni, yn sir Fynwy, yn 1570. Nid ydyw enw ei dad yn hysbys, ac nid oedd ei enw bedydd yn hysbys nes i awdwr "*History of Nonconformity in Wales*" wneuthur ymchwiliad yn nghoflyfrau prif Athrofa Rhydychain yn y fl. 1860. Y cwbl a ddywedir yno am ei deulu ydyw, ei fod yn fab i foneddwr o sir Fynwy. Yr oedd y Wrothiaid yn deuluoedd lliosog iawn yn Mynwy yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ac yn dirfeddiannwyr mawr. Derbyniwyd William Wroth yn fyfyriwr i Goleg Iesu, Rhydychain, yn llangc un mlwydd ar bymtheg oed, Ionawr 21ain, 1586. Ei athraw cyntaf yno oedd un o'r enw Dr. Case—gŵr o dueddiadau Pabyddol iawn. Gan i'r llangc, Wroth, gael ei osod dan ofal dyn o'r fath syniadau, y mae yn naturiol casglu fod ei rieni yn Babyddion, neu o leiaf, yn uchel-Eglwyswyr; a chadarnheir y dyb hon gan y ffaith fod nifer fawr o foneddigion Mynwy yn yr oes hono yn Babyddion. Bu am amser maith yn yr athrofa; canys ni chymmerodd ei radd o wyryf yn y celfyddydau cyn Chwefror 18fed, 1595. Nid yw yn hysbys pa le, na pha bryd yr urddwyd ef. Cafodd ei osod yn ficer Llanfaches tua y flwyddyn 1600, neu cyn hyny, gan Syr William Lewis, o'r Fan, ger llaw Caerphili, yr hwn oedd yn berchenog bywoliaeth Llanfaches. Yn ol yr hanes a gawn, yr oedd Wroth, fel y rhan fwyaf o'i gydoeswyr offeiriadol, yn ddyn hollol ddigrefydd pan yr ymgymmerodd â bod yn weinidog ar blwyf Llanfaches. Yr oedd yn dra hoff o gerddoriaeth, ac yn grythwr medrus iawn. Byddai yn myned â'i grwth gydag ef i'r pulpud ar y Sabbothau; ac ar ddiwedd y gwasanaeth, elai allan i'r fynwent i chwareu y crwth, a'r gwrandawyr yn dawnsio i'r tônau. Yn y modd hwnw tynai liaws i'r eglwys; ond y mae yn hawdd i bawb weled nad oedd yn gwneyd un lles ysbrydol iddynt. Cymmerodd ei dröedigaeth le yn y dull rhyfedd a ganlyn:—Dyn sengl ydoedd efe, yn llettya yn nhŷ boneddwr o berthynas iddo a gyfanneddai yn ei blwyf. Ar un amser, digwyddodd fod gan y boneddwr hwnw gynghaws cyfreithiol pwysig i'w brofi yn Llundain; ac wedi i'r achos droi allan yn ei ffafr ef, anfonodd adref i orchymyn i'w deulu ddarparu gwledd rwysgfawr erbyn y dydd y bwriadai gyrhaedd gartref, a gwahodd ei gyfeillion yno i gydorfoleddu âg ef am ei lwyddiant gyda'r gyfraith. Gwnaeth y teulu ddarpariadau mawrion, a gwahoddwyd llawer ynghyd i'r wledd. Aeth Wroth, un o'r dyddiau blaenorol, drosodd i Gaerodor i brynu crwth newydd gyferbyn â'r amgylchiad. Ar y dydd pennodedig, ymgasglodd y gwahoddedigion ynghyd; ac yr oeddynt oll yn disgwyl yn awyddus am ddychweliad gŵr y tŷ er coroni y wledd. Ond tua yr amser y disgwylid ef, daeth cenad yno â'r newydd trwm ei fod wedi marw yn ddisymmwth ar y ffordd! Yn nghanol y cyffroad a gynnyrchwyd gan y newydd, ymaflodd Wroth yn ei grwth newydd, a bwriodd hi yn erbyn y llawr, nes yr aeth yn ddrylliau; a chyda hyny syrthiodd ar ei liniau yn mysg y dorf alarus, a dechreuodd weddïo gyda theimlad angerddol am drugaredd iddo ei hun a'i gydbechaduriaid. Ac o'r dydd hwnw allan, gweddïo, pregethu, a gwneyd pob peth a fedrai i gael ei gydwladwyr i ffoi rhag y llid a fydd fu ei waith hyd derfyn ei oes. Cafwyd yr hanesyn hwn mewn hen lawysgrif yn sir Fynwy er's mwy na chan mlynedd yn ol; ond gan nad oedd yr ysgrif yn nodi yr amser y cymmerodd hyn le, nis gellir bellach ei wybod. Y mae genym seiliau cryfion i farnu iddo gymmeryd lle rywbryd rhwng y blynyddoedd 1600 a 1610.

Wedi ei dröedigaeth, trodd Mr. Wroth allan yn bregethwr rhyfeddol o effeithiol, llafurus, a phoblogaidd. Ac aeth y sôn am dano allan yn mhell ac yn agos, a daeth Llanfaches yn fuan i fod i Ddeheubarth Cymru yr hyn ydoedd Ierusalem gynt i'r Iuddewon. Ymgyrchai lliaws o

Digitized by Google

bobl yno o bob parth o Fynwy, a llawer o Forganwg, Brycheiniog, Maesyfed, ac amryw o siroedd ereill yn Nghymru a Lloegr. Deuai y fath dorfeydd ynghyd yno ar Sabbothau teg fel na chynnwysai yr eglwys un o bob ugain o honynt; ac felly, gorfodid ef i bregethu iddynt a y fynwent. Aeth ei enw yn fuan yn adnabyddus drwy y rhan fwyaf o Loegr, ac adnabyddwyd ef yno wrth yr enw "Apostol Cymru." Gan y byddai llawer yn myned o wahanol barthau o Gymru i Lanfaches i wrandaw yr apostol enwog, ac i amryw o honynt gael eu dychwelyd at yr Arglwydd trwyddo, yr oedd yn naturiol iddynt ei gymmhell i ddyfod i'w hardaloedd i bregethu; fel y gallai eu cymmydogion anystyriol gael cyfleusdra i'w glywed. Cydsyniodd â chais amryw a thrwy hyny troseddodd reolau yr Eglwys Wladol, y rhai a waharddent i un clerigwr fyned i blwyf clerigwr arall i bregethu, heb gael caniatâd ganddo. Tynodd felly ar ei ben ŵg a melldithion y clerigwyr anfoesol a diog. Y canlyniad fu iddynt osod cŵyn yn ei erbyn gydag esgob Llandaf, rhyw amser rhwng y fl. 1619 a 1627. Dr. Theophilus Field ydoedd yr esgob y pryd hwnw. Pan ofynodd yr esgob iddo pa reswm oedd ganddo dros droseddu rheolau yr eglwys trwy fyned allan o'i blwyf i bregethu mewn annedd-dai anghyssegredig, attebodd—"Fy arglwydd, y mae fy nghydwladwyr wrth y miloedd yn myned i drueni heb neb yn eu rhybuddio o'u perygl. Tosturi at eu heneidiau gwerthfawr a barodd i mi wneyd hyny." Dywedodd hyn gyda dagrau, ac mor effeithiol fel y dywedir i'r esgob fethu ymattal rhag wylo. Gollyngodd ef ymaith yn garedig, gan ddyweyd wrtho, "Dos, ac na phecha mwyach." Ond os pechod ydoedd, pechodd wedi hyny fwy nag o'r blaen. Tra y bu Dr. Field yn esgob Llandaf, ni chafodd Mr. Wroth un aflonyddwch oddi wrtho; ond mor gynted ag y dyrchafwyd yr archerlidiwr Laud i archesgobaeth Canterbury, cafodd Mr. Wroth, a phob Puritan selog arall, yn fuan deimlo pwys ei ddyrnau. Yn y fl. 1633, gwysiwyd ef gan Laud i'r *Court of High Commission*, a pharhawyd i'w boeni yno hyd 1638, pryd y trowyd ef allan o'i fywoliaeth am wrthod darllen Llyfr y Chwarëyddiaethau. Cafodd William Erbury a Walter Cradoc, ei gurad, eu troi allan hefyd o Eglwys Fair, Caerdydd, am yr un trosedd. Gan mai curad yn unig oedd Cradoc, trowyd ef allan yn ddiseremoni yn 1634; ond rywfodd, goddefwyd i Wroth ac Erbury, fel ficeriaid, gadw eu lleoedd hyd y fl. 1638. Ar ol ei droi allan o'r eglwys, parhaodd Mr. Wroth i bregethu yn ddirgel mewn annedd-dai, pa le bynag y caffai alwad i hyny; ac yn Tachwedd, 1639, ffurfiodd ei ddysgyblion yn Llanfaches a'r cylchoedd yn eglwys Annibynol. Hon oedd yr eglwys Ymneillduol gyntaf a ffurfiwyd erioed yn Nghymru; ac ar ol myned trwy lawer o gyfnewidiadau, y mae yn bodoli hyd y dydd hwn. Yn mhen ychydig fisoedd ar ol ffurfiad yr eglwys yn Llanfaches, ffurfiwyd amryw eglwysi eraill, yn Mynyddislwyn, Caerdydd, Abertawe, a dwy neu dair yn siroedd Brycheiniog a Maesyfed. Yr oedd Mr. Wroth erbyn hyn yn heneiddio, ac yn tynu at derfyn ei oes; ond yr oedd nifer o ddynion ieuaingc a ennillasid drwyddo ef at yr Arglwydd wedi ymroddi i waith y weinidogaeth, ac yn barod i'r gwaith erbyn fod yr Arglwydd yn galw ei hen was ffyddlawn oddi wrth ei waith at ei wobr, megys Walter Cradoc, Henry Walter, David Walter, a Richard Symmonds, &c. Yn nechreu y flwyddyn 1642, yr oedd yr anghydfod rhwng y brenin Siarl I. a'r senedd wedi myned yn rhwyg mawr; a dywedir i Mr. Wroth, yr hwn a ragwelai mai rhyfel fuasai y canlyniad, ei wneyd yn fater gweddi neillduol ar yr Arglwydd am ei ollwng ef i wlad yr heddwch cyn y buasai i'r rhyfel ddechreu; a chafodd ei ddymuniad. Bu farw yn ngwanwyn y flwyddyn 1642, tua mis neu ddau cyn i'r rhyfel dori allan; a chladdwyd ef, yn ol ei ddymuniad, dan drothwy eglwys Llanfaches.

Gadawodd Mr. Wroth ei ol yn annileadwy ar Gymru fel cychwynydd effeithiol Ymneillduaeth efengylaidd. Ei blant ef yn yr efengyl ydoedd agos pob un o'r pregethwyr grymus fu yn efengyleiddio yn y wlad yn nhymmor y werin-lywodraeth; a rhai a ennillwyd at yr Arglwydd ac a faethwyd dan ei weinidogaeth ef oedd y crefyddwyr cryfion hyny a gyfansoddent yr eglwysi cyntaf a ffurfiwyd yn y wlad yn 1639 a 1642.

Yn amser y rhyfel cartrefol, pryd yr oedd y gweinidogion oll wedi myned ymaith i Loegr, ar gais yr eglwysi, er diogelu eu bywydau, elai yr aelodau ffyddlawn o dŷ i dŷ yn nghanol holl beryglon y rhyfel o 1642 hyd 1646, i ymddiddan â dynion am achos eu heneidiau; a than yr amgylchiadau enbyd ac anfanteisiol hyny ennillasant dros wyth cant o eneidiau at yr Arglwydd. Wedi darfod y rhyfel, anfonwyd allan ddau ar bymtheg o aelodau yr eglwysi yn Llanfaches a Mynyddislwyn yn bregethwyr teithiol ar hyd a lled y wlad; a buont yn gymmhorth dirfawr i'r gweinidogion urddedig i efengyleiddio y genedl. Un enwad ydoedd holl Ymneillduwyr Cymru am fwy na saith mlynedd ar ol marwolaeth Mr. Wroth. Annibynwyr oedd yr Ymneillduwyr, nes i'r Bedyddwyr gyfodi yn 1649, a'r Crynwyr yn y flwyddyn ganlynol. Y mae Mr. William Erbury, yn 1652, yn rhoi y darluniad canlynol o gymmeriad dysgyblion Mr. Wroth cyn i Ymneillduwyr Cymru ymranu i wahanol sectau:—"Eglwys annibynol oedd yr un gyntaf. Yn ddiweddar yr ymddangosodd ac y cynnyddodd yr eglwysi Bedyddiedig yn Nghymru; a dim ond y rhai gwanaf o'r Cristionogion sydd wedi syrthio i'r dwfr. Yr wyf yn dywedyd y gwirionedd heb bleidgarwch. Nid oedd saint mwy ysbrydol a dioddefgar mewn un rhan o'r deyrnas nag oedd yn Nghymru—mor hunan-ymwadol, ac mor farw i'r byd—ïe, y fath Gristionogion doeth o galon a gwybodus oeddynt; dyweded a thystied yr holl siroedd Seisnig oddi ar gylch pa gynnifer o saint o Wlad yr Haf, sir Gaerloew, sir Henffordd, sir Faesyfed, sir Forganwg, &c., a gyrchent yn lluoedd i Lanfaches. Y fath oleuni a'r fath deimladau ysbrydol oedd yno! Mor nefolfrydig oeddynt! Y fath iaith rasol a arferent! Mor wyliadwrus oeddynt! Y fath weddïau a weddïent ddydd a nos—ar y ffordd wrth gerdded, gyda'u gwaith, wrth ddilyn yr aradr, ac yn mhob man yr oedd ysbryd gweddi a phurdeb calon yn ymddangos. Nid oedd unrhyw sôn am ordinhadau y pryd hwnw, ond yn unig amlygiad o ofn ynddynt eu hunain, a rhybuddion cysson i eraill i ochel ymorphwys ar bethau allanol crefydd. Ysbryd a bywyd oedd y cwbl yr edrychai y saint yn Nghymru am dano y pryd hwnw."

Yr oedd Mr. Wroth ei hun yn ddyn mor dra rhagorol, a sanctaidd, a da, fel nas gallasai ei gymmeriad difwlch lai na dylanwadu yn dda ar eraill. A'r fath ydoedd purdeb difrycheulyd ei gymmeriad, ei ragoriaethau fel pregethwr a

Digitized by Google

gweinidog, a diniweidrwydd a boneddigeiddrwydd ei ymddygiad, fel yr oedd hyd yn oed y Pabyddion, a dynion gelynol i'w athrawiaeth a'i ddull o grefydda, yn gorfod cydnabod mai dyn sanctaidd ydoedd. Dywedir fod ei ymddangosiad yn yr areithfa yn brydferth dros ben, bod ei lais yn gryf a pheraidd, bod ei bregethau oll yn ddigon eglur i'r gwanaf ei ddeall i gael budd oddi wrthynt, a bod ei ddull o draddodi yn gyfaddas i gyffroi cydwybodau yn gystal a goleuo deall ei wrandawyr.

WOTTON, WILLIAM, D.D. Ei hynodrwydd yn benaf oedd nerth anarferol ei gof, a'r cynnydd boreuol a wnaeth efe yn y cyrhaeddiadau hyny sydd yn fwyaf dibynol ar y gynneddf hono. Ganwyd ef yn y fl. 1666, yn Wrentham, yn Sussex, lle yr oedd ei dad yn beriglor y plwyf. Dangosodd allu anghyffredinol i ddysgu ieithoedd pan yn blentyn; a phan nad oedd ond pum mlwydd oed, o dan addysg ei dad, yr hwn oedd yn ysgolhaig da, gallai ddarllen a chyfieithu yr ieithoedd Lladin, Groeg, a Hebraeg yn lled dda. Aeth i Ysgoldy Catherine yn Nghaergrawnt, yn Ebrill, 1676, cyn bod yn ddeg oed, a gwnaeth gynnydd cyflym—nid yn unig yn yr ieithoedd, gan chwanegu y Galdaeg, y Syriaeg, a'r Arabaeg at y Lladin, y Groeg, a'r Hebraeg, ond hefyd mewn rhesymeg, athroniaeth, mesuroniaeth, &c. Yn 1670, cymmerodd Wotton ei radd o B. A.; ac etholwyd ef yn gymmrawd o goleg St. Ioan, a chymmerodd ei radd o M. A. yn 1683. Yn y fl. 1691, cyflwynwyd iddo fywoliaethau Llandrillo yn Rhos, yn sir Ddinbych; a Middleton Keynes, yn swydd Buckingham.

Yn 1694, y cyhoeddodd Wotton y cyntaf, a'r mwyaf adnabyddus hefyd yn ddiammheuol, o'i holl weithiau; sef, ei "*Reflections on Ancient and Modern Learning.*" Ennillodd gwaith Wotton sylw neillduol, yn gymmaint ag iddo fod yn achlysur i Swift ysgrifenu ei "*Battle of the Books.*" Yr oedd Wotton yn rhagori yn hytrach yn helaethrwydd ac amrywiaeth, nag yn manylrwydd a dyfnder ei ddysgeidiaeth. Ei "*View of Hickes's Archæological Treasure of the Ancient Northern Languages,*" yr hwn a gynlluniwyd mewn rhan gan Hickes ei hun. Y mae ei argraphiad ef o'r hen gyfreithiau Cymreig, gyda chyfieithiad i'r Lladin o honynt, a gyhoeddwyd o dan y teitl "*Cyfreithiau Hywel Dda, ac ereill; neu, Leges Wallicæ Ecclesiasticæ et Civiles Hoeli Boni et aliorum Walliæ principum,*" wedi ei droi o'r neilldu, i raddau, gan ymddangosiad gwaith cyflawnach a chywirach y Dirprwywyr Cofnodol, yr hwn a ddaeth allan o dan olygiad ein cydwladwr talentog, y diweddar Aneurin Owen, Ysw., yn 1841, o dan y teitl "*The Ancient Laws and Institutes of Wales:*"—y rhai a geir yn yr argraphiad diweddaf o'r "*Myvyrian Archaiology of Wales,*" a gyhoeddwyd gan Mr. Gee. Yr oedd Wotton yn alluog i bregethu yn lled rwydd yn yr iaith Gymraeg. Yn 1707, derbyniodd y gradd o ddoctor mewn duwinyddiaeth gan yr archesgob Tenison. Bu farw Chwefror, 1726.

WYATT, SYR THOMAS: yr hwn a gyfenwid "Yr Hynaf," er ei wahaniaethu ef oddi wrth ei fab o'r un enw, a anwyd yn nghastell Allington, yn Nghaint, yn y flwyddyn 1503. Yr oedd yn cynnrychioli teulu o gryn bwys yn swydd Gaerefrog; ac ymddengys i'w dad, Syr Henry Wyatt, gymmeryd plaid y Duc o Richmond—Harri VII., wedi hyny—a thrwy hyny darfu iddo wellhau ei amgylchiadau; a pharhaodd i dderbyn ffafrau ganddo ef a'i fab, Harri VIII., ar ei ol ef. Aeth i Goleg St. Ioan, Caergrawnt, yn 1515, ac efe yn ddeuddeng mlwydd oed—lle mewn amser priodol y graddiodd efe. Tra yn ieuangc iawn, priododd Elizabeth Brook, merch Arglwydd Cobham. Nid ydyw adeg ei briodas yn hysbys; ond ganwyd mab iddo, naill ai yn 1521, neu 1523. Meddai ar gymmhwysderau arbenig i ddisgleirio yn y llys, gan ei fod yn un o'r dynion mwyaf coeth yn ei ddydd, yn meddu ar berson hardd a moes dymunol, ac yn hynod fedrus i drin achosion a ddeuent dan ei sylw, ac yn ddyn gwir anrhydeddus. Treuliodd y rhan olaf o'i fywyd yn ngwasanaeth diplomyddol ei wlad. Bu yn llysgenhadwr Prydeinig yn y llys Yspaenaidd o Ebrill, 1537, hyd Ionawr y flwyddyn ganlynol; ac yn mis Mai, anfonwyd ef yn ol i Yspaen; a bu gyda'r ymherawdwr Siarl V. yn Nice pan aeth y penadur hwnw yno i gyfarfod y pab, a Francis I.; ac wedi hyny yn Barcelona. Yn Mehefin, 1539, y dychwelodd efe o Yspaen. Y gwasanaeth mwyaf, o bossibl, a wnaeth efe i Harri yn ystod yr amser hwn oedd ei wneyd yn hysbys o gynllwynion y llys Yspaenaidd. Yr oedd Wyatt yn cefnogi yn selog ymdrechion Arglwydd Cromwell i ddwyn oddi amgylch briodas rhwng Harri ac Anne o Cleves; ac yn ystod ei arosiad yn yr Iseldiroedd, dadleuai yn aml dros gefnogi y Duc o Cleves, a thywysogion Protestanaidd yr ymherodraeth. Ond wrth gymmeryd y cwrs hwn, yr oedd yn myned yn groes i dueddiadau y brenin; ac fel Cromwell, collodd ei ffafr ef. Treuliodd weddill ei oes mewn neillduaeth yn Allington; a bu farw Hydref 11eg, 1542, yn 39ain mlwydd oed.

WYNN, SYR WATKIN WILLIAMS. Y cyntaf o'r enw, o'r teulu hynafol a gwladgarol hwn, a anwyd yn y flwyddyn 1692. Ei dad oedd yr ail Syr William Williams, o'r Glasgoed; yr hwn a briododd Jane Thelwall, or-wyres i William Wynn, cynnodiadur Cymru, chweched mab y barwnig cyntaf o deulu Gwydyr: a'r foneddiges hon oedd mam gwrthddrych ein herthygl. Yn rhinwedd perthynas ei fam â Syr John Wynn, o Wynnstay, y daeth efe i feddiant o'r palas hwnw, a'r etifeddiaethau cyssylltiedig âg ef. Bu farw Syr John yn y fl. 1719, yn 90ain mlwydd oed; ac yn 1720, daeth Mr. Watkin Williams i mewn yn etifedd ei feddiannau helaeth; ac ar y pryd efe a chwanegodd *Wynn* at ei enw. Amlygwyd llawenydd neillduol mewn amryw o barthau o'r wlad pan y cymmerodd efe yn ffurfiol feddiant o'i etifeddiaethau; ac yn Ngwrecsam rhostiwyd eidion cyfan, ac y mae ei gyrn, wedi eu gweithio mewn arian, ar gael yn awr—y naill yn Wynnstay, a'r llall yn Peniarth.

Yr oedd Mr. Watkin Williams Wynn yn faer Croesoswallt yn 1728. Y mae rhai cofnodion hynod yn ei gylch yn rhai o hen gyfnodolion yr amseroedd hyny. Yn y fl. 1732, dywedir "fod gweision lifrai Watkin Williams Wynn, Ysw., wedi eu harfogi â llawddrylliau, wedi myned ar feirch i mewn i ddinas Caerlleon ar yr 11eg o Hydref, yn cael eu dilyn gan naw cant o Gymry yn cario ffyn, a phastynau, ac arfau peryglus eraill, gan waeddi "I lawr â seneddwyr y gloren (*rump*), gan guro i'r llawr ac archolli llawer o bersonau." Yr oedd meistr y dilynwyr ffyddlawn hyn wedi cyrhaedd i'r dref o'u blaen hwy, i'r dyben o gynnorthwyo plaid Grosvenor yn yr etholiad; ac amcan y Cymry yn ei ddilyn yno,



Digitized by Google

meddir, oedd amddiffyn yr ynadon yn eu bwriadau anghyfreithlawn i wneyd tri chant o ryddfreinwyr anrhydeddus." "Y dinasyddion, yn teimlo yn eiddigus dros eu hawliau, a ymarfogasant mewn hunan-amddiffyniad, ac a yrasant y Cymry allan o'r ddinas." Ond aeth yr adgof am hyn drosodd yn fuan, dybygid; o herwydd yr ydym yn cael Syr Watkin yn faer Caer yn 1736.

Bu farw ei dad yn 1740, ac etifeddodd yntau ei deitl. Yn yr etholiad cyffredinol y flwyddyn ddilynol, enwyd ef yn ymgeisydd am gynnrychiolaeth sir Drefaldwyn a sir Ddinbych yn Nhŷ y Cyffredin. Cyhoeddodd W. Middleton, Ysw., mai John Middleton, Ysw., a etholwyd dros y sir ddiweddaf. Deisebodd Syr Watkin yn erbyn y cyhoeddiad hwn; a'r canlyniad a fu iddo ennill yr eisteddle. Cyflwynwyd anerchiad iddo oddi wrth etholwyr sir Ddinbych, a manau eraill o'r Dywysogaeth, yn ei gydnabod am ei ymdrechion dros burdeb etholiadol. Llongyfferchid Syr Watkin fel gwladgarwr. Adwaenid ef fel y "Syr Watkin Fawr;" a phan aeth i fyny i Lundain i gyflawni ei ddyledswyddau seneddol, dywedir fod yr holl seneddwyr Cymreig wedi dyfod mor bell a Finchley i'w gyfarfod ef, lle yr ymffurfiasant yn orymdaith i osgorddio y barwnig poblogaidd i mewn i'r ddinas. Ysgrifena Smollett, fod Syr Watkin "yn ddyn gwrol, gwyneb-agored, a llettygar; a'r dystiolaeth yn lled gyffredinol am dano ydyw, ei fod yn ddyn hawddgar a chyfiawn." Y mae yn rhaid addef, pa fodd bynag, ei fod ef, fel llawer o foneddwyr a mawrion y dyddiau hyny, yn lled hoff o erlid yr Ymneillduwyr; o herwydd byddai yn dirwyo y rhai a ddygid ger ei fron yn ddibetrus. Ond dylid cofio fod rhai yn ei sefyllfa ef yn cael eu camarwain yn fawr yn yr adeg hono; a gellir meddwl fod hyn yn codi yn fwy oddi ar ddiffyg gwybodaeth, na dim arall.

Yr hyn a achosodd ei farwolaeth oedd cwymp oddi ar ei farch tra yn hela yn agos i Acton, ger Gwrecsam, yn nghynhauaf y flwyddyn 1749. Yn ol y chwedl a adroddir, dywedir fod ei wraig yn teimlo yn bryderus ar iddo beidio myned allan ar y diwrnod hwnw, gan ei bod wedi ei meddiannu gan ragdybiaeth y byddai i ryw anffawd ei gyfarfod. Dywedir fod yr arglwyddes wedi breuddwydio dair gwaith y digwyddai rhyw niwed i'w phriod wrth hela; ond myned a wnaeth, gan fod yn ddiystyr o'i rhybuddion—a lladdwyd ef gan y ddamwain. Bu Syr Watkin yn briod ddwy waith. Ei wraig gyntaf ydoedd Anne, merch Edward Vaughan, Ysw., o Lwydiarth, yr hon a briododd efe yn 1715; a'r ail ydoedd Frances, merch G. Shakerley, Ysw., Gwersyllt.

WYNN, Syr WATKIN WILLIAMS. Ganwyd yr ail Syr Watkin yn Wynnstay, yn y fl. 1749—pum mis ar ol marw ei dad. Prynodd ei fam lawer o diroedd ar ei ran cyn iddo ef gyrhaedd un ar hugain oed; ac yn mhlith eraill etifeddiaethau Mathafarn a Rhiwsaeson. Cafodd holl fanteision addysg y cyfnod i un o'i sefyllfa uchel ef. Priododd, pan yn ugain oed, â'r Arglwyddes Henrietta Somerset, merch y pedwerydd Duc o Beaufort; a chyn pen tri mis yr oedd yn weddw. Pan y daeth i'w oed, yn mis Ebrill y flwyddyn ddilynol (1770), cynnaliwyd gwledd fawr yn mharc Wynnstay, a dywedir nad oedd yno ddim llai na phymtheng mil o bersonau yn eistedd wrth y byrddau yn ciniawa ar yr un pryd. Y mae cyfrif o'r holl bethau a fwytawyd yn yr adeg hon wedi ei gadw mewn llaw-ysgrif yn Wynnstay; a dywed yr "*Annual Register*," yr hwn a gyhoeddwyd y pryd hwnw, fod "tri cherbyd yn llawn o gogyddion wedi eu danfon i lawr o Lundain erbyn yr amgylchiad." Ymddengys nad arbedwyd dim traul er gwneyd hwn yn amgylchiad i'w gofio. Yn mis Rhagfyr, 1771, efe a ail briododd, gyda Charlotte, merch yr anrhydeddus George Grenville, a chwaer i'r Ardalydd Buckingham. Yn ystod y flwyddyn hon, neu yr un flaenorol, ar ddymuniad y perchenog, y talodd Garrick ymweliad â Wynnstay.

Yr oedd yr ail Syr Watkin yn hynod o hoff o gerddoriaeth, ac yn un o noddwyr dadganiad y treithganau yn Mynachlog Westminster. Ymhyfrydai yn fawr mewn chwareyddiaethau; ac adeiladodd chwareudy yn Wynnstay, lle y dygid yn mlaen chwareyddiaethau preifat. Pennodwyd ef yn arglwydd raglaw sir Feirionydd yn 1775. Fel ei dad, bu yntau hefyd yn faer Croesoswallt yn y fl. 1774. Efe a sefydlodd gyfrinfa o'r Seiri Rhyddion yn Wynnstay. Dywedir am dano, er ei fod yn amlwg iawn fel cerddor, a noddwr celfyddyd, chwareuwr dramayddol, &c., ei fod yn ddyn o ymddygiadau gwylaidd, ac nad oedd yn meddu dim tebyg i'r egni oedd yn ei dad. Yr oedd yn hawddgar, ac yn un a fawr hoffid gan ei holl gydnabod. Bu farw yn y fl. 1789, yn y 41ain mlwydd o'i oedran. Bu ei fam fyw am flynyddoedd ar ei ol ef, a chyfododd golofn goffadwriaethol am dano yn mharc Wynnstay.

WYNN, Syr WATKIN WILLIAMS: y pummed barwnig o'r teulu, a thad preswylydd presennol Wynnstay. Ganwyd ef Hydref y 26ain, 1772. Ei dad oedd y trydydd Syr Watkin, ond y pummed barwnig, a'i fam oedd Charlotte, merch i'r Anrhyd. George Grenville, a chwaer i'r Ardalydd Buckingham. Trwy farwolaeth ei dad yn 1789, daeth gwrthddrych y cofiant hwn i feddiant o'r teitl cyn iddo fod yn llawn ddwy ar bymtheg oed. Amlygodd pan yn ieuangc ei fod yn ddyn bywiog ac egniol, ac ynddo duedd gref at fywyd milwraidd; yr hyn a feithrinid gan amgylchiadau y wlad hon ac Ewrop yn y dyddiau hyny. Yn fuan wedi iddo gwblhau ei unfedflwydd ar hugain, efe a gododd gatrawd o wirfoddolwyr—gwŷr meirch—yr hon a alwyd y "Diffyn-filwyr Brythonaidd" (*Ancient British Fencibles*). Y lle y bu y gatrawd hon yn gorwedd ynddo gyntaf oedd Gloucester. Yn mysg y swyddogion cyntaf a berthynent iddi, gellir enwi Mr. Richard Puleston (wedi hyny Syr R. Puleston, Bar.), yn uchgadben; a Mr. William Wynne, tad y Mr. Wynne presennol, o Beniarth; a Meistri. Richard Cummings, a Gwilym Lloyd Wardle, ac Edward Lloyd, yn gadbeniaid. Ni bu y diffyn-filwyr hyn yn gwneyd un gwasanaeth o bwys neillduol hyd y flwyddyn 1798, pan y cymmerasant ran yn y gwaith o lethu y gwrthryfel yn yr Iwerddon. Dichon fod amgylchiadau yn galw am iddynt ymddwyn yn lled lym yno: modd bynag, cwynid mai felly y gwnaethant; a gwyddys y parai clywed yr alaw "Difyrwch Syr Watkin," yn cael ei chwareu, neu ei chanu, i'r Gwyddelod gyffroi drwyddynt am flynyddoedd ar ol y digwyddiad hwnw. Y ddwy frwydr bwysicaf y buont ynddynt oedd brwydr Newtown Barry a brwydr Arklow. Ymddengys i'r gatrawd ddioddef yn drwm yn ystod y flwyddyn a hanner y buont yn yr Iwerddon, canys dywed Apperley, un o'i swyddogion, fel y canlyn am dani:—"Gellir barnu pa mor dost y bu

Digitized by Google

colledion y diffyn-filwyr oddi wrth y ffaith i mi gael fy enwi y banerwr ieuangaf yn mis Ebrill, 1798; a daethum o fewn blwyddyn a hanner o amser i fod yr is-gadben hynaf ar y rhestr." Yr oedd y rhan fwyaf yn awyddus am barhau yn y gwasanaeth milwraidd yn hwy, ac yn amlygu eu parodrwydd i ddilyn Syr Watkin i unrhyw le yn "ngwasanaeth eu brenin a'u gwlad." Ond yn 1800, torwyd y gatrawd i fyny yn Wynnstay.

Yr oedd Syr Watkin yn gefnogwr rhagorol i amaethyddiaeth; fel y prawf ei waith yn sefydlu cyfarfod amaethyddol yn Wynnstay yn 1806, yr hwn a gynnelid yn mis Medi am rai blynyddoedd, ac a fwriedid i leshau holl Ogledd Cymru. Rhenid gwobrwyon; ac yn niwedd y cyfarfyddiad yr oedd pump neu chwe chant yn arfer ciniawa yn Wynnstay yn niwedd y dydd. Parhaodd y cyfarfodydd hyny yn boblogaidd am flynyddoedd. Yr oedd y barwnig yn noddwr i addysg hefyd. Tua'r flwyddyn 1810, pan oedd yr ysgolion Lancastriaidd yn cael eu sefydlu ar hyd y wlad, efe a anrhegodd bobl Gwrecsam âg adeilad ddigon o faint i gynnwys pum cant o blant i dderbyn addysg ar gynllun Lancaster, heb law tanysgrifio yn hardd tuag ati. Yn y flwyddyn 1814, yr oedd y dwymyn ryfelgar wedi disgyn yn drom ar y wlad hon; ac adnewyddodd hen wresogrwydd milwraidd y barwnig o Wynnstay, a pharotodd gatrawd o gartreflu sir Ddinbych i fyned drosodd i Ffraingc er amddiffyn anrhydedd eu gwlad, ac yntau yn arweinydd iddi. Erbyn cyrhaedd y wlad hono, yr oeddynt yn rhy ddiweddar i ymladd brwydr Toulouse—yr olaf a ymladdwyd cyn i Napoleon roddi ei hun i fyny; yr hyn a barodd gryn siomedigaeth i'r milwyr cyffredin—canys bu raid iddynt ddychwelyd yn ol heb danio ergyd. Cafodd Syr Watkin dderbyniad croesawus ar ei ddychweliad. Rhoddwyd gwledd ardderchog iddo gan Gymry Llundain ar ddydd gŵyl Dewi, 1815; ac mor frwdfrydig oedd y derbyniad a gaffai, fel y dywedir i'r Tywysog Raglaw sylwi, pan y cyflwynwyd y barwnig iddo, "Yn sicr, mae'n rhaid mai chwi ydyw Tywysog Cymru!" "Nage," meddai Syr Richard Puleston, yr hwn oedd yn wyddfodol yno, "Syr Watkin ydyw y tywysog yn Nghymru!" Ac yr oedd y derbyniad a roddid iddo yn Nghymru yn dywysogaidd. Tanysgrifiodd boneddigion a phreswylwyr sir Ddinbych at gwpan neu ddysgl arian fawr, yr hon a gyflwynwyd iddo yn nhref Rhuthyn. Pwysa y gwpan hon 1,500 ŵns, a chostiodd 19*s.* 6*c.* yr ŵns : mesura dair troedfedd a dwy fodfedd wrth ddwy droedfedd a phedair modfedd ar ei thraws, a deil bedwar galwyn ar ddeg. Yn y fl. 1817, priododd Syr Watkin yr Arglwyddes Henrietta Antonia Clive. Ac yn y flwyddyn 1820, ganwyd ei fab a'i etifedd, y Syr Watkin presennol, pryd yr amlygwyd arwyddion o lawenydd neillduol mewn llawer o ardaloedd yn Ngogledd Cymru, a chyffiniau Lloegr.

Trodd Syr Watkin ei sylw drachefn at amaethyddiaeth, a gwnaeth brawf ar dyfu hopys (*hops*) ar ei etifeddiaethau yn sir Ddinbych; yr hyn, dybygid, ni bu yn llwyddiannus; ac yn 1820 efe a ennillodd fathodyn aur y Gymdeithas er cefnogi y Celfyddydau, &c., am blanu, ar yr ucheldir ger llaw Llangollen, 80,000 o dderw, 63,000 o gastanwydd Yspaenaidd, 102,000 o befrwydd, 110,000 o ffawydd Ysgotaidd, 90,000 o larwydd, 30,000 o lwyfanod llyfnddail, 30,000 o lwyfanod y mynydd, 80,000 o goed ynn, a 40,000 o sycamorwydd.

Yn nghynhauaf y flwyddyn 1832, talodd y Dywysoges Victoria, ac yn awr brenhines Prydain Fawr, ymweliad â Syr Watkin yn ei breswylfod yn Wynnstay. Yn 1840, efe a fu farw; a phrysurwyd yr amgylchiad hwn, dybygid, gan ddamwain a gawsai ychydig o fisoedd cyn hyny, tra yn myned mewn cerbyd gyda'i chwaer, Miss Frances Wynn, o Wynnstay i Nant-y-belan, pan y taflwyd hwy allan o hono, ac y codwyd ef i fyny yn ddideimlad. Tarawyd ef gan y tân iddwf, ac nid adferodd yn hollol ar ol hyn. Claddwyd ei weddillion yn eglwys Rhiwabon; ac yn ol yr adroddiadau, nid oedd dim llai na deng mil o bobl yn ei angladd. Yr oedd yn cynnrychioli sir Ddinbych yn Nhŷ y Cyffredin o'r flwyddyn 1794 hyd ei farwolaeth, ac hefyd yn Arglwydd Raglaw y sir. Ceidwadwr oedd efe o ran ei egwyddorion gwleidyddol. Yr oedd yn perchen etifeddiaethau eang yn Ngogledd Cymru, ac yn un o'r tir-feistri mwyaf teg a haelfrydig yn Mhrydain.

WYNNE, Y PARCH. ELLIS, awdwr "*Gweledigaethau y Bardd Cwsg.*" Buasai yn dra dymunol genym gael pob manylion am awdwr digyffelyb y gweledigaethau rhyfeddol hyn. Hoffasem gael gwybod hyd yn oed pa fath wyneb oedd ganddo; pa fath oedd ei enau, a'i drwyn; pa liw oedd ar ei lygaid, a pha mor dreiddgar yr edrychai; pa faint oedd lled ac uchder ei dalcen, ac o ba liw oedd ei wallt; pa fath gorph a gosgedd oedd iddo—pa un ai dyn tàl esgyrniog, fel John Elias a Gwilym Hiraethog, ynte llaprwth corphorol, fel Christmas Evans, John Hughes, Pont Robert, neu Cynddelw ydoedd. Hoffasem hefyd pe y gallesid gwybod pa fath ydoedd yn blentyn ac yn llangc, nes y daeth i oedran addfed; pa fanteision addysg a gafodd, a pha mor gyflym neu arafaidd y dysgai, a'r cyffelyb; eithr, ysywaeth, ychydig iawn a geir o hanes am dano, ond a ellir ei gasglu oddi wrth ei waith. Tueddir un ysgrifenydd i farnu mai yr achos o ddistawrwydd y beirdd, prif gyfryngau yr oes hono i drosglwyddo hanes personau a digwyddiadau i'w holynwyr, oedd ei ddull didderbyn-wyneb ef yn dynoethi llygredd y frawdoliaeth hono. Y mae yn amlwg fod y gŵr hynod hwn yn dra eiddigus dros ddyrchafu rhinwedd yn mhlith ei genedl, ac yn bur llym yn erbyn pob drygfoes; a thraethai ei farn yn gwbl ddiseremoni. Ac o herwydd hyny, y mae yn debyg iddo dynu arno ei hun ŵg beirdd, a rhai parsoniaid hefyd—dau ddosbarth oedd ar y pryd yn dra llygredig; ac nid gronyn gwell oedd y ddau ddosbarth dysgedig arall, sef y cyfreithwyr a'r physygwyr. Am hyny, nid oedd yntau odid ddim tynerach wrthynt, fel y prawf y dyfyniadau canlynol:—

"Oddi yno, ni a aethom lle y clywem drwst mawr, a churo a dwndro, a chrïo a chwerthin, a bloeddio a chanu. 'Wel, dyma Fedlam yn ddiddadl,' ebe fi. Erbyn i ni fyned i mewn, darfuasai yr ymddygwd [cythrwfl]; acun ar y llawr yn glwt; un arall yn bwrw i fyny: un arall yn pendwmpian uwch ben aelwydaid o fflageni [costrelau] tolciog, a darnau pibelli a godardau [cwpanau pridd clustiog]; a pheth, erbyn ymorol, ydoedd ond cyfeddach rhwng saith o gymmydogion sychedig, curych [sef, tincerdd], a lliwydd, a gôf, mŵn-gloddiwr, ysgubwr simneiau, a phrydydd, ac offeiriad a ddaethai i bregethu sobrwydd, ac i ddangos ynddo ei hun wrthuned o beth ydyw meddwdod; a dechreu y ffrwgwd diweddar oedd dadleu ac ymdaeru a fuasai rhyngddynt, pa un oreu o'r seithryw a garai bot a

phibell; a'r prydydd a aethai â'r maes ar bawb, ond yr offeiriad: a hwnw, o barch i'w siaced, a gawsai y gair trechaf o fod yn ben y cymdeithion da; ac felly, cloes y bardd y cwbl ar gân:—

'O'r dynion ple 'r adwaenych,
Ar ddaear faith, saith mor sych?
A'r goreu o'r rhai 'n am gwrw rhudd,
Offeiriedyn a phrydydd.'

Wedi blino ar y moch abrwysg hyn, ni a aethom ......trwy fyrddiwn o gysgodion ac ymlusgiaid, a beddau, mynwentau, a beddrodau; ni a aethom yn mlaen i weled y wlad yn ddirwystr, tan na welwn i rai yn troi ac yn edrych arnaf; a chwipyn, er maint oedd y distawrwydd o'r blaen, dyma sï o'r naill i'r llall, fod yno ddyn bydol [dyn o'r byd]. 'Dyn bydol!' ebe un. 'Dyn bydol!' ebai y llall! tan ymdyru ataf, fel y lindys, o bob cŵr. 'Pa fodd y daethoch, syre?' ebe rhyw furgyn o angeu bach oedd yno. 'Yn wir, syr,' ebe fi, 'nis gwn i mwy na chwithau.' 'Pa beth y gelwir chwi?' ebe yntau. 'Gelwch fi yma fel y mynoch yn eich gwlad eich hun, ond fe'm gelwid i gartref Bardd Cwsg.' Ar y gair, gwelwn gnap o hen ddyn gwargam, a'i ddeupen fel miaren gan lawr, yn ymsythu, ac yn edrych arnaf yn waeth na'r dieflyn coch; a chyn dywedyd gair, dyma fe'n taflu penglog fawr heibio i'm pen i. Diolch i'r gareg fedd a'm cysgododd. 'Llonydd, syr, erdolwg,' ebe fi, 'i ddyn dyeithr na fu yma erioed o'r blaen, ac ni ddaw byth, pe cawn unwaith ben y ffordd adref.' 'Mi wnaf i chwi gofio eich bod yma!' eb efe; ac eilwaith âg asgwrn morddwyd, gosododd arnaf yn gythreulig, a minnau yn osgoi fy ngoreu. 'Beth,' ebe fi, 'dyma wlad anfoesol iawn i ddyeithriaid. Oes yma un ustus heddwch?' 'Heddwch?' ebe yntau—'pa heddwch a haeddit ti, na adewit lonydd i rai yn eu beddau?' 'Attolwg, syr,' ebe fi, 'a gawn ni wybod eich enw chwi; o blegid nis gwn i flino ar neb o'r wlad yma erioed.' 'Syre,' ebe yntau, 'gwybyddwch mai fi, ac nid chwi, ydyw y Bardd Cwsg; ac a gês lonydd yma er's naw cant o flynyddoedd gan bawb ond chwychwi;' ac aeth i'm cynnyg drachefn. 'Peidiwch, fy mrawd,' ebe Merddyn, oedd yn agos, 'na fyddwch ryboeth; diolchwch iddo yn hytrach am gadw coffadwriaeth parchus o'ch enw ar y ddaear.' 'Yn wir, parch mawr,' ebe yntau, 'oddi wrth y fath benbwl a hwn. A fedrwch chwi, Syre, ganu ar y pedwar mesur ar hugain; a fedrwch chwi ddwyn achau Gog a Magog, ac achau Brutus Ab Silvius hyd gan-mlwydd cyn difa Caer Troia? A fedrwch chwi frutio pa bryd, a pha beth a fydd diwedd y rhyfeloedd rhwng y llew a'r eryr, a rhwng y ddraig a'r carw coch? Na!' 'Hai! gadewch i minnau ofyn iddo gwestiwn,' ebe un arall, oedd wrth efyddan fawr yn berwi, [1] soc, soc, dy gloc, dy gloc. 'Tyred yn nes,' eb efe, 'pa beth yw meddwl hyn?—

'Mi fyddaf hyd ddydd-brawd,
Ar wyneb daear-brawd,
Ac ni wyddys beth yw 'nghnawd,
Ai cig ai pysgawd.'

'Dymunaf eich enw, syr,' ebe fi, 'fel y'ch attebwyf yn gymmhwysach.' 'Myfi,' eb efe, 'yw Taliesin Ben Beirdd y Gorllewin; a dyna beth o'm difregwawd i.' 'Nis gwn i,' ebe finnau, 'beth a allai eich meddwl fod, onid allai'r fâd felen a ddyfethodd Faelgwn Gwynedd eich lladd chwithau ar y feisdon, a'ch rhanu rhwng y brain a'r pysgod.' 'Taw, ffwl!' eb efe, 'brutio yr oeddwn i am fy nwy alwedigaeth, gŵr o gyfraith a phrydydd; a pha un, meddi di yr awrhon, debycaf, ai cyfreithiwr i gigfran reibus, ai prydydd i forfil? Pa sawl un a ddigia un cyfreithiwr i godi ei grombil ei hun? ac O! mor ddifater y gollwng ef y gwaed, a gadael dyn yn lled-farw! A'r prydydd yntau, pa le y mae'r pysgodyn sy'r un lwngc ag ef! ac y mae hi yn 'fôr arno bob amser, etto ni thŷr y môr heli mo'i syched ef. Ac erbyn y bai dyn yn brydydd ac yn gyfreithiwr, pwy a ŵyr pa un ai cig ai pysgod fydd? ac yn sicr, os byddai yn un o wŷr llys, fel y bûm i, ac yn gorfod iddo newid ei flas at bob genau. Ond dywaid i mi,' eb efe, 'a oes yr awran nemor o'r rhai hyny ar y ddaear?' 'Oes,' ebe finnau, 'ddigon: os medr un glytio rhyw fath ar ddyri, dyna fe'n gadeir-fardd. Ond o'r lleill,' ebe fi, 'y mae'r fath bla yn gyfarthwyr, yn fân dwrneiod, a chlarcod, nad oedd locustiaid yr Aipht yn ddim pwys ar y wlad wrth y rhai hyn. Nid oedd yn eich amser chwi, syr, ond bargeinion bol clawdd, a lled llaw o ysgrifen am ddyddyn can-punt, a chodi carnedd, neu goeten Arthur, yn goffadwriaeth o'r pryniant a'r terfynau. Nid oes mo'r nerth i hyny yr awran, ond y mae chwaneg o ddichell ddyfeisddrwg, a chyfled a chromlech o femrwn ysgrifenedig i sierhau'r fargen; ac er hyny, odid na fydd, neu fe fynnir rhyw wendid ynddi.' 'Wel, wel,' ebe Taliesin, 'ni thalwn i yno ddraen: ni waeth genyf lle'r wyf: ni cheir byth wir lle bo llawer o feirdd, na thegwch lle bo llawer o gyfreithwyr, nes y caffer iechyd lle bo llawer o physygwyr.'"

Er fod yn ddigon naturiol casglu, fel y crybwyllwyd, mai llymder fflangellau yr enwog Fardd Cwsg, megys yn y dyfyniadau uchod, ar ddyhirwch y beirdd a'r gwŷr llen a gydoesent âg ef, ac a'i goroesasant, oedd yr achos na chanwyd na phennill nac englyn, ac nad ysgrifenwyd cymmaint a thudalen ganddynt i goffa na'i rinweddau na'i golliadau; etto, dichon fod yr un mor debyg mai rhy ymroddgar oeddynt yn y gwaith o borthi eu rhysedd i gael amser i gofnodi dim o bwys i'r oesoedd dyfodol; canys ychydig iawn sydd genym o hanes gwŷr enwog eraill a fucheddent o gylch yr un cyfnod ag Ellis Wynne, megys y Dr. Davies, o Fallwyd, Edward James, ac eraill cyffelyb. Neu ynte, fe allai nad oedd beirdd a llenorion Cymru gynt wedi digwydd meddwl yr un fath a dysgedigion gwledydd eraill; sef, "O bob cyfansoddiadau llenyddol, mai bywgraphiadau yw y mwyaf difyrus ac adeiladol." Pa wedd bynag, er pob esgeulusdra, fe lithrodd ychydig o hanes ein llenor campus i lawr hyd atom ni, yr hyn a adroddwn weithian mor fanwl ag y caniatâ ein defnyddiau.

Ganwyd Ellis Wynne—y *Bardd Cwsg*—yn y Lasynys, palasdy o ddeutu milldir o dref Harlech, yn swydd Feirionydd, yn y fl. 1671. Mab ydoedd i Edward Wynne, yr hwn a briododd etifeddes y Lasynys; a mab oedd Edward, ei dad, i Ellis, trydydd mab i William Wynne, o Lyn Cywarch, a Lowri, merch Edward Thomas. Yr oedd yr hen dŷ lle y ganwyd, y magwyd, ac y bu farw y Bardd Cwsg ynddo yn aros mor ddiweddar a'r fl. 1853; a dichon ei fod felly etto yn awr: a dangosid yr ystafell i ddyeithriaid, yn yr hon, yn ôl traddodiad, yr ysgrifenwyd "*Gweledigaethau y Bardd Cwsg.*" Pa fanteision dysg a gafodd, ac yn mha le y derbyniodd ei ddysg, nid yw hysbys. Nid oes brawf iddo fod erioed mewn prifysgol; ac os bu, y mae yn ddiau na chafodd un radd athrofaol. Awgrymir yn un o englynion Edm. Prys, ficer Clynnog Fawr yn Arfon, gor-ŵyr yr archddiacon Prys, sydd o flaen cyfieithiad y Bardd Cwsg o "*Taylor's Rule and Exercises of Holy Living,*" a elwir "Rheol Buchedd Sanctaidd," ei fod yn deall tair iaith, heb law y Gymraeg. Dyma yr englyn:—

"Sugno, anturio teir-iaith—yn fwythus
I faethu dy[2] fam-iaith:
Cym'raist i'th gŵys wiw-ddwys waith,
Dwfn ail yw dy fanylwaith."

[1] Cyfeiriad sydd yma at Bair Ceridwen y sonir am dano yn "Hanes Taliesin" *(Myvyrian Archaiology td. 22)*, a'r "soc, soc," &c., sydd ddyfais-eiriau oddi wrth sŵn pair yn berwi.

[2] *Di* sydd yn y gwreiddiol, yn lle *dy*; ond diau mai camargraph ydyw.

Digitized by Google

Dywedir nad oedd ynddo lawer o duedd at yr offeiriadaeth, ac mai ar gais y Dr. Humphrey Humphreys, esgob Bangor, y cymmerodd efe ei urddo; ac ymddengys na ddigwyddodd hyny nes ei fod ef mewn gwth o oedran. Dichon mai rhagoroldeb y "Rheol Buchedd Sanctaidd," yr hwn a gyflwynasai y bardd i'r esgob Humphreys, a barodd i'r esgob ei gymmhell i ymgymmeryd â'r offeiriadaeth: os felly, ni ddigwyddodd hyny hyd onid oedd yn ddeg ar hugain oed o leiaf. Urddwyd ef yn ddiacon ac yn offeiriad yr un dydd; a thranoeth, cyflwynwyd ef i beriglor-iaeth Llanfair, ger llaw Harlech. Gwnaed ef hefyd yn beriglor Llandanwg a Llanbedr, yn yr un gymmydogaeth; ac felly, cafodd fyw ar hyd ei oes yn ardal ei enedigaeth, ac ar dreftadaeth ei hynafiaid, yn y Lasynys.

Yn 1702, ac efe yn un mlwydd ar ddeg ar hugain oed, priododd Lowri Llwyd, o Hafod Lwyfog, yn mhlwyf Beddgelert, sir Gaernarfon; a bu iddynt bump o blant—tri mab, a dwy ferch. Bu y mab hynaf, William, yn beriglor yn Llanbedr, wrth Abermaw: iddo ef y disgynodd tir-iogaeth y Lasynys, a bu yn meddiant y teulu nes ei gwerthu gan ei ŵyr, John Wynne Pugh. Y mab ieuangaf, Edward, a fu beriglor Penmorfa a Dolbenmaen, yn Eifionydd, o'r fl. 1759 hyd ei farwolaeth yn 1767. Wyr Edward Wynne, yn llinach ei fab Ellis, periglor Llanferras, yn sir Ddinbych, oedd y Parch. John Wynne, oedd beriglor Llandrillo yn Edeyrnion yn 1853; a dichon ei fod yn fyw etto.

Bu farw Ellis Wynne (y *Bardd Cwsg*), yn mis Gorphenaf, 1734, yn dair a thrigain mlwydd oed; a chladdwyd ef ar yr 17eg o'r un mis, o dan fwrdd y cymmundeb, yn eglwys Llanfair, ger llaw Harlech, heb gymmaint a llinell ar na maen na mynor i nodi y fan lle y gorphwys gweddillion marwol y bardd athrylithgar—cymmwynaswr ei genedl, ac addurn llenyddiaeth ei wlad. Ceir y cofnodiad canlynol o'i gladdedigaeth yn llyfr gwyn eglwys Llanfair:—"Elizæus Wynne, Cler. nuper Rector dignissimus hujus Ecclesiæ, sepultus est 17mo die Julii, 1734"= Claddwyd Ellis Wynne, clerigwr, diweddar deilyngaf beriglor yr eglwys, ar yr 17eg dydd o Orphenaf, 1734. Dywedir y bu ei wraig, Lowri Llwyd, fyw ar ei ol, ac y priododd un o'r enw Humphreys.

Y gwaith llenyddol cyntaf a wnaeth Ellis Wynne oedd "*Rheol Buchedd Sanctaidd*:—yn dangos y moddion a'r arfeu i ennill pob gras, a meddyginiaeth rhag pob rhyw bechod, a myfyrdodau cymmwynasgar i wrthwynebu pob profedigaeth. Ynghyd â gweddïau yn cynnwys holl ddyledswydd Cristion. A'r rhanau o ddyfosiwn wedi eu cymmhwyso ar bob achosion, a'u cyfansoddi at bob angenrheidiau. Gan Jer. Taylor, D.D. O'r deunawfed argraphiad yn Saesneg. Argraphwyd yn Llundain, 1701." 12-plyg.

Gwelir nad yw enw Ellis Wynne ar y ddalen enwol; ond y mae "E. W." ar ol y cyflwyniad i'r esgob Humphreys; "Ell. Wynne," ar ol y rhagymadrodd, ac "E. W."ar ol yr englynion at y darllenydd. Y mae cymmaint o anian y Bardd Cwsg yn y cyflwyniad "I'r Parchediccaf Dâd yn Ghrist, Humphrey, Arglwydd Escob Bangor," sydd o flaen y gwaith hwn; ac y mae y syniadau am bechod a byrder oes dyn, ac am ansawdd crefydd ar y pryd, mor rhyfedd, a'r dull mor hynod wreiddiol a hynafol, tra y mae y llyfr mor nodedig o anhawdd ei gael weithian, fel y credwn, gan nad yw y cyflwyniad ond byr, y bydd yn hoff gan y darllenydd ei gael yn gyflawn yn ei ddull gwreiddiol; a dyma fe:—

"F'ARGLWYDD,—Yn nherfynau yr oesoedd y cyfleodd y Llywodraethwr Mawr nyni, a'r Dynghedfen grafangddu agos a dirwyn holl Gorph Amser bob ychydig oddi arnom, ninneu megis â'n gafael ynddo gerfydd ei droed, a hwnnw ar ddiangc i Dragwyddoldeb. Gwenwynodd y Sarph ei BEN ef, a welsai Adda yn aur-goronog o Degwch a Hyfrydwch, Diniweidrwydd a Pherffeithrwydd. Cwttogodd y Diluw FWNWGL yr Hir oes, a diffrwythodd FREICHIAU y Cryfdwr. Yna syrthiodd y ddwy Lêch yn dra phwysfawr ar DDWYFRON y Gydwybod, onid oedd yr holl Gorph yn gwegian o lescedd. Hyd pan ddaeth Tynged at y GALON, yno cafwyd gweriddyn y bywyd; pan gododd Haul y Cyfiawnder, adfywiodd yr Amser trancedig gan Dês ysplenydd yr Efengyl, a Gwres Cariad perffaith. Ond gwae feddwl i fagddu Pabyddiaeth bendifadu Crefydd o'r galon i'r BOL, trigfa'r Anghymmedrolder; ac oddi yno i'r DIRGELWCH, lle y trowyd grâs Duw yn drythyllwch. A phan ail lewyrchodd ymwahaniad rhwng Crist ac Anghrist, megys ynghyfwng MORDDWYDYDD yr AMSER, ciliodd yr ammhuredd a'r gwaed afiach i'r forddwyd asswy sy'n unchwydd aruthrol o Babyddion, Iuddewon, Tyrciaid, ac Anffyddloniaid. Eithr y gwaed da a'r ymborth pur, trwy ddirgel bibellau, a drosglwyddwyd o'r Galon i'r forddwyd ddeheu, lle mae'r wir Athrawiaeth yn tramwy'n rhedegog mewn dyledus gwrs a rheol. Ac er digwydd i ni y GOES leiaf ac iachusaf, etto, och Dduw hael, faint sy rhyngddi hithau a bôd yn holliach! Onid oes yn hon aml ymrysonau rhwng y gwythi, ïe, rhwng amryw geinciau o'r un wythïen? aml gramp a chreppychiad? aml lannerch o gîg marw anheimladwy? A pha ryfedd er fferri'n Cariad, a phelled ydym oddi wrth y Galon? pa ryfedd er oeri'r diwrnod a'r Haul yn ymron machludo? Am hynny nghanol y fâth Ryndod ac Oerfel cyffredin od oes Allor o dân cynnes-fawr yn llosci yn ddibaid oddi mewn, a hefyd yn ffaglu allan ar bôb achlysur, od oes Ffynnon ferwedic o Gariad naturiol a chrefyddol i'r Wlâd, ai rhyfedd bod tynn ac ymgyrch llaweroedd at honno? Felly, na ryfeddwch chwithau, f' Arglwydd, weled hyn o ledfegyn noethlwm [ymhlith eraill] yn hedeg tan adenydd eich Nodded, am achles a chynnesrwydd i'w gryfhau cyn anturio peryglon yr Awyr yma sy' sywaeth mor annhymmerus gan adwyth Annuwioldeb, a niwl Anwybodaeth: eithr o'ch Dadawl diriondeb ac awdurdod, bendithiwch ac urddwch ef. Canys er maint ei barch a'i groesaw yn Lloegr [eisys yn ei ddeunawfed wisc], nid yw ef etto ond dieithr yn Ghymru, ac ymdeithydd egwan ac ieuangc yn y Mynydd-dir. Eich swydd a'ch arfer chwithau yw derbyn y dyeithr, noddi'r gwan, a hyfforddi'r ieuangc. Hefyd, gan mai neges hwn yw Llês cyffredin y Wlad, ni all o rann hynny na bo iddo groesaw gennychwi; drachefn, pan wypper wrth eich Henw iddo gael croeso a chymmeriad gennychwi, fe a fydd cymmeradwyach gan y Wlad; ac felly, f' â'r llês yn gyffredinach. Am hynny, ynteu i'ch ymgeleddus Nodded y gadawaf, i chwi fy Arglwydd yr anrhegaf; a chwitheu sy well Anrheg a orch'mynnaf i well Arglwydd, sef i geidwadaeth Penbugail ac Escob yr eneidiau: Cadw o hwnnw chwi [i aros eich trosglwyddo i blith y nefolion archoffeiriaid] mewn heddwch a hiroes, yn un o Golofnau Eglwys Loegr, yn un o bedair Têth ysprydol y Praidd Cymreig, yn Llês ac yn Harddwch i'ch Gwlâd, ac yn Llawenydd i'ch Cenhedl a'ch Cydnabod, yw taer a beunyddiol Weddi,

Barchusaf Arglwydd,
Eich Ufuddaf rwymedicaf Wasanaethwr,
E. W."

Y mae rhagymadrodd y cyfieithydd yr un mor nodedig, ond ni oddef lle i ni ddodi ond ychydig linellau o hono ger bron, a hyny fel esampl yn unig:—

Digitized by Google

"ANWYL GARIADUS GYMRO,—Yr wyt ti a phawb rywffordd neu i gilydd â'th gais ar fod yn Ddedwydd, nid oes fodd i ti amgen na thaer-ddeisyfu Happusrwydd a Gwynfyd; ac etto, nid oes fodd bŷth i oddiwes Gwynfyd amserol na thragwyddol ond trwy Fywoliaeth sanctaidd; nid oes ffordd i Wlâd y Dedwyddwch ond hyd lwybrau Sancteiddrwydd. Dyma i titheu Scwîr neu Reol Buchedd Sanctaidd, dyma i ti Ganllaw ar Sarn gûl Grâs a'th dywys yn ddiogel i dragwyddol gaereu Gogoniant. I ddal ar y llwybr grasol hwn, ac i ddyfod i'r diben gogoneddus hwnnw y gwnaeth dy Greawdr di; yr anfonodd ei Fab i'th brynu â'i werthfawr waed; a'i Ysbryd Glân i'th sancteiddio, trwy ddirgel gynnyrfiadau, trwy weinidogaeth ei Air a'i Sacramentau, a thrwy lyfrau ysprydol a yrrodd efe i'r Wlâd. Canys heblaw'r BIBL, Brenhin y llyfrau, daeth attat amryw lyfrau dâ eraill megis yn swyddogion tan hwnnw, rhai i'th ddyfyn, rhai i'th helpu, rhai i'th ddenu i'r Daith nefol, i'r unic Waith angenrheidiol hwn.

Pan gynnygier i ti Arfau at ynnill rhyw Râs, neu i attal rhyw Fai, ymorol pa un o honynt sy gymmwysaf i ti ac i'th achosion, a dewis hwnw yn hytrach na'r llcill; modd yr ymrwymech wrth hynny mewn celfyddyd ysprydol a chadwraeth gwyliadwrus ar dy enaid. O blegid megis mai trin yr enaid yw'r hwsmonaeth fuddiolaf ôll, felly y rwystrusaf ôll ydyw, lle mae'r gofalon a'r gofynion yn amlaf ôll, a'r peryglon a'r damweiniau yn fwyaf ac yn daeraf oll. Ac mae cadw Enaid yn fwy camp a chywreindeb nac achub Tyddyn o dir, neu iachau Corph clwyfus. Cydnebydd dithau â'r Gwirionedd mawr hwn; trwy galedrwydd synhwyrol a diwydrwydd dyfal-barhaus yn hôll Foddion Gras: Ac felly chwanegi wobr y Gwrda a'u casglodd, ac y teli i minneu bwyth fy llafur yn eu cyfieithu er dy fwyn, â'm bryd ar ogoniant Duw, a chyssur amserol a Gwynfyd tragwyddol i'th enaid titheu, yr hyn yw gwir ewyllys a difrifol ymgais dy Gydwladwr caredicaf,

ELL. WYNNE."

Y mae deg o englynion hefyd o waith y Bardd Cwsg o flaen y llyfr hwn, am y sawl y tybia rhai iddynt gael eu cyfansoddi ar gyfer "Gweledigaeth y Nef," y bwriadai efe ei hysgrifenu fel yr ail ran o "*Weledigaethau y Bardd Cwsg;*" ond pan welodd na chyhoeddai y rhan hono, darfu iddo eu dodi o flaen y llyfr hwn. Eithr credwn fod y dyb yna yn anghywir, canys ni chyhoeddodd efe y rhan gyntaf o'r "*Gweledigaethau*" hyd yn mhen dwy flynedd ar ol y llyfr yma; ac nid ysgrifenodd efe yr ail ran, os gwnaeth byth, hyd yn mhen llawer o amser ar ol hyny.

Y mae yn amlwg wrth yr englynion hyn, o'r chweched hyd yr olaf, mai at y "Rheol Buchedd Sanctaidd" y maent yn cyfeirio; ac nid at "Weledigaeth y Nef," 'yr hon y bwriadai yr awdwr ei hysgrifenu. Dywed un ysgrifenydd "fod Ellis Wynne yn llawn gwell [yn well] cyfansoddwr na chyfieithydd," gan ei fod "yn ymrwymo yn rhy gaeth wrth y gystrawen Saesnig;" tra y dywed un arall mai "rhydd gyfieithiad o'r gwaith Saesneg ydyw; ac y gellir ei restru yn ddiammheu yn mhlith y cyfieithion goreu yn yr iaith."

Y mae wedi ei ysgrifenu yn llithrig, ac yn ngwir arddull Gymreig ddiledryw yr eilfed ganrif ar bymtheg, cyn iddi ddechreu cael ei hanystwytho a'i hestroneiddio gan arddull Saesneg y ddwy ganrif ddilynol; a gresyn na buasai y gwaith yn nghyrhaedd darllenwyr cyffredin yr oes hon; canys nid ydym yn gwybod iddo byth gael ei argraphu.

Ail orchwyl llenyddol Ellis Wynne, a'i bencampwaith, cystal ag un o bencampweithiau ein cenedl, ydyw "*Gweledigaethau y Bardd Cwsg.*" Y Rhan Gyntaf. Argraphwyd yn Llundain gan E. Powell, i'r Awdwr, 1703." 24plyg.

Argraphwyd y llyfr gorchestol hwn naw gwaith, o leiaf, ar ol yr argraphiad yna; sef, yn yr Amwythig, gan Thomas Durston, heb amseriad, ond rywbryd rhwng 1734 ac 1753, 16plyg; yn yr Amwythig, gan J. Eddows, 1768, 16plyg; yn yr Amwythig, gan Stafford Prys, yn 1774, 24plyg; yn Nghaerfyrddin, yn 1811, 12plyg; yn Nolgellau, yn 1825, 12plyg; yn Llanrwst, 12plyg (diamseriad); yn Nghaernarfon, 16plyg (diamseriad); yn Nghaerfyrddin, 1853 ac 1865, 16plyg, dan olygiad y Parch. D. S. Evans. Yr argraphiad cyntaf (1703), a'r olaf (1865), yw y rhai cywiraf. Y mae y rhan fwyaf o'r lleill yn wallus ac yn anghelfydd. Yr oedd Theophilus Jones, awdwr yr "*History of Breconshire,*" wedi bwriadu cyfieithu y llyfr hwn i'r Saesneg; ond bu farw cyn rhoi ei fwriad mewn grym. Clywsom fod George Borrow, awdwr y "*Wild Wales,*" wedi cyhoeddi rhyw fath ar gyfieithiad Saesneg o hono, ond nad ydyw deilwng mewn un modd o'r gwaith gwreiddiol.

Y mae yn ddigon amlwg fod yr awdwr wedi bwriadu ysgrifenu "Ail Ran" o'r "*Gweledigaethau,*" gan y dywedir ar ddalen enwol yr argraphiad cyntaf, y "Rhan Gyntaf;" ac ar derfyn y llyfr dywedir "Diwedd y Rhan gyntaf." Dywedir iddo ysgrifenu yr ail ran, sef "*Gweledigaeth y Nef;*" ond o blegid i rywrai edliw iddo mai llenladrad oedd ei "*Weledigaethau*" blaenorol, wedi eu cyfieithu o waith yr Yspaenwr, Quevedo, y taflodd efe yr ysgrif i'r tân mewn digllonedd. *Od ydyw hyn yn wir, gresyn dirfawr oedd i'r hen fardd gymmeryd ei gythruddo i'r fath raddau gan feibion dirmygiedig anghof; y rhai erbyn hyn nad yw hyd yn oed eu henwau ar gof a chadw. Y mae yn wir ddarfod i Quevedo ysgrifenu gweledigaethau (*suênos*) ar yr un pyngciau a rhai y Bardd Cwsg, y rhai a gyhoeddwyd yn 1649, ac a gyfieithwyd i'r Saesneg gan Syr Roger L'Estrange, ac a gyhoeddwyd yn 1668, dair blynedd cyn geni Ellis Wynne. Y mae yn ddigon amlwg hefyd ei fod ef yn gydnabyddus â Gweledigaethau Quevedo, a bod gradd o debygolrwydd rhyngddynt; "ond nid cymmaint," fel y dywed un ysgrifenydd, "ag sydd rhwng Homer a Virgil. Nid yw yn ymddangos fod Ellis Wynne yn fwy dyledus i'r awdwr Yspaenaidd nag yr oedd Shakspeare neu Milton i awdwyr blaenorol oedd wedi cyfansoddi ar yr un testynau a hwy......Y mae pob meddwl yn cael ei achlysuro gan ryw feddwl arall, a'r naill lyfr yn fynych gan lyfr arall. Y mae yn ddiammheu fod Ellis Wynne wedi darllen '*Gweledigaethau Quevedo;*' ac y mae lle i gasglu mai darlleniad y llyfr hwnw a barodd iddo synio gyntaf am ysgrifenu y '*Bardd Cwsg.*' Er hyny, y mae delwedd ei feddwl ef i'w weled yn y cwbl; ac nid ydym yn petruso dyweyd fod ein hen gyfaill Cymreig, ar y cyfan, yn waith gwreiddiol a diledryw." John Walters, y geiriadurwr enwog, a ddywed yn ei draethawd godidog ar yr iaith Gymraeg am y gwaith fel hyn:

"Y mae cyfansoddiad gwreiddiol yn y Gymraeg, a elwir y '*Bardd Cwsg*' yn cynnwys tair gweledigaeth. Math ar ddychan ydyw, mewn rhan yn llythyrenol, ond gan mwyaf yn arallegol, lle y ffrewyllir drygioni, ynfydrwydd, a gwagedd yn gampus dros ben. Tynir hwynt yn y lluniau mwyaf dychrynllyd (sef, eu lluniau mwyaf priodol), ac arddangosir hwy yn holl amrywiaeth alaethus gwae.

Digitized by Google

Yn y gwaith hwn y mae y personiadau mwyaf tarawiadol a phrydyddol, y darluniadau mwyaf bywiog ac ysbrydlawn, a'r ehediadau dychymmygol mwyaf ardderchog a geir yn unlle, pa un bynag ai mewn rhyddiaith ai mewn barddoniaeth. Nid yw Gweledigaethau Quevedo mewn un modd i'w cystadlu â'r rhai hyn, fel y canfyddir ac y cydnabyddir gan bwy bynag a'u cymmharo â'u gilydd, boed hyny mor arwynebol ag y byddo. Clywais am un â'i serch gymmaint ar Don Quixote, fel y cymmerth y drafferth i ddysgu yr Yspaenaeg, er mwyn cael yr hyfrydwch o ddarllen ei hoff awdwr yn yr iaith wreiddiol. Ni ryfeddwn ddim pe dysgai llawer yr iaith Gymraeg, fel y gallent ddarllen y '*Bardd Cwsg*,' pe y gallent ond unwaith amgyffred ei ragoroldeb."

Y Parch. W. Jones, hefyd, yn ei "*Draethawd ar Swyddogaeth Barn a Darfelydd*," a ddywed fel y canlyn:—

"Fe allai mai y '*Bardd Cwsg*' yw y cyfansoddiad mwyaf hynod am gymmhlethiant barn fanwl a darfelydd grymus a hedegog, o'r holl weithiau sydd yn meddiant y genedl. Barddoniaeth lawn o dân awenyddol ydyw, mewn gwisg rydd ddigynghanedd. Beth? barddoniaeth heb gynghanedd? Iê, ddarllenydd, a barddoniaeth ardderchog hefyd! Y mae yn y '*Bardd Cwsg*' gryn lawer o anian, ond ei bod wedi ymwisgo mewn dull ffugrol; yr hyn, ar yr un pryd, sy'n peri fod y gwaith yn fwy barddonol. Er fod cryn lawer o ddiffyg yn chwaeth y cyfansoddiad, etto y mae yr iaith yn anghymmharol gref, fel nad oes dim yn y Gymraeg yn dyfod yn agos iddo yn y peth hwn. Nid yw bob amser yn hollol gywir yn ei rammadeg, y mae yn wir; ond gwna iawn am hyn yn ei nerth, a'i ieithwedd, yr hon sydd mor drwyadl Gymroaidd. Y mae yn tynu llun personau, ac yn corpholi pechodau a llygredigaethau, gan eu harddangos yn eu gwrthuni, mewn dull hynod o argraphawl. Y mae y '*Bardd Cwsg*' yn un o'r llyfrau y byddai yn ddymunol ei fod yn mhob teulu, ac yn fynych, yn llaw pob dyn ieuangc, ac yn arbenig pob prydydd ieuangc yn y Dywysogaeth."

Awdwr arall a ddywed:—

"Ysgrifenodd mewn dull dychymmygol; etto, yr oedd yn darlunio pethau oedd yn bod mewn gwirionedd y pryd hwnw. Ond nid ydym i gymmeryd y cyfan mewn ystyr naturiol fel eu gosodir i lawr. Yr oedd yn cyfaddasu ei ddychymmyg a'i holl sylwadau at briod-ddull yr amser. Geilw yr ysbrydion aflan yn 'dylwythion teg,' o blegid dyma oedd cred yr oes am ymddangosiad y cyfryw fodau. Dengys, os creffir arno, fod yr ysbrydion aflan yn dra lliosog yn y byd hwn, ac am ddrygu yr holl hîl ddynol gymmaint ag a allent; a bod yr angylion da yn gwylio ac yn cadw dynion rhag niweidiau. Yn hyn yr oedd ei olygiadau yn dra ysgrythyrol."

Cyhuddir yr awdwr yn lled gyffredin o ddiffyg chwaeth, ac weithiau o ddefnyddio ymadroddion anweddus; ond, fel y dywed y Parch. D. S. Evans:—

"Cyn y gallwn ei gyhuddo o ddiffyg chwaeth, rhaid i ni ystyried yr oes yr oedd yr awdwr yn byw ynddi, a'r dosbarth o bobl yr oedd efe yn eu hanerch yn benaf. Y mae ansawdd cymdeithas yn Nghymru wedi cyfnewid llawer yn ystod cant a hanner o flynyddoedd; ac nid yw yn canlyn mewn modd yn y byd fod yr hyn sy'n werinaidd y dydd heddyw yn rhwym o fod yn werinaidd yn y dyddiau hyny. Y mae llawer o eiriau, a ystyrid y pryd hwnw yn weddaidd ac yn lledneis, wedi myned erbyn y pryd hwn yn anghoeth ac yn serthus; ac ni chlywir byth mo honynt ond yn ngenau gwehilion y byd.......Dylid cadw y pethau hyn oll mewn golwg wrth feirniadu ar chwaeth y Bardd Cwsg, ac ar weddnod y dafodiaith arferedig ganddo. Ac os cymmer neb y drafferth i'w gymmharu â chyfieithiad L'Estrange o Quevedo, yr hwn oedd mewn bri yn ei amser ef, ac yn ddilys ddigon wedi cael ei ddarllen ganddo, ceir gweled ar unwaith fod ein cydwladwr yn haeddu clod dauddyblyg am goethder ei chwaeth, a gweddusder ei syniadau a'i ymadroddion; ac etto, er ei holl serthedd a'i fydriaith, yr oedd y gwaith Saesneg mor boblogaidd a derbyniol yn ei ddydd, fel yr ymddangosodd dim llai na deg argraph o hono mewn ysbaid deugain mlynedd; ond y mae ei werinoldeb yn gyfryw ag y byddai yn waith ofer ei gynnyg yn marchnad lenyddol y dydd heddyw. Y mae gan bob oes, i ryw raddau, ei phriod chwaeth ei hun; ac nid teg fyddai ei barnu yn hyn o beth wrth archwaeth oesoedd ereill. Diau mai gwella, ac nid drygu, chwaeth a moes ei gydgenedl oedd yr amcan mewn golwg gan Ellis Wynne; ac yr ydym yn gweled iddo lafurio yn helaethach na nemawr o'i gydoeswyr i ddwyn yn mlaen ddiwygiad yn eu plith.......Diau fod ymddangosiad ei lyfr fel brâth cleddyf i laweroedd; ond pwy a glywai ar ei galon wrthwynebu y bardd diweniaeth a'r offeiriad glân fucheddol yn yr amser hwnw? Oes lawn o bob ofer goel, anwybodaeth, ac anfoesoldeb, oedd yr oes yr oedd efe yn byw ynddi; ymdrechodd yntau yn egnïol i chwalu y tywyllwch oedd yn gorchuddio y Dywysogaeth, ac i yru ar ffo y cymmylau duon oedd yn crogi uwch ben ei thrigolion; dynoethodd ormes a rhagrith, gwagedd a ffolineb y byd isod hwn, a hudoliaethau aneirif merched Belial yn y Ddinas Ddihenydd; ac annogodd bawb i gymmeryd buchedd sanctaidd yn rheol i'w tywys yn ddiogel i ddinas Immanuel."

Gorchwyl llenyddol nesaf Ellis Wynne, a'r olaf a gyhoeddwyd yn ei oes ef, ydoedd golygu argraphiad newydd a diwygiedig o'r "*Llyfr Gweddi Gyffredin*," yr hwn a argraphwyd yn Llundain, ac a gyhoeddwyd yn 1710, yn gyfrol unplyg fawr, at wasanaeth yr eglwysi plwyfol. Cymmerodd y gorchwyl yma mewn llaw ar gais esgobion Cymru ac esgob Henffordd, gan y rhai y mae wedi ei gymmeradwyo a'i orchymyn. Y mae yr "hysbysiad" i'r argraphiad hwn wedi ei gyfansoddi yn ngwir arddull yr awdwr; ond er mor ddyddorol ydyw, o blegid ei ieithwedd a'i hynafiaeth, ni oddef lle i ni ddodi ond rhai esamplau o hono ger bron:—

"Os gormod i'r llyfrau goreu y bo amryw benne yn eu cydwylio, ymhóni o fod yn gwbl ddifai, ofer yn sicr i hwn, lle nid oedd ond un egwan, a hwnw wedi digwydd i amgylchion rhy rwystrus ac afrwydd i gywreinio gwaith yn berffeithgwbl, ac yn lân bur hyd yr eithaf; rhwng chwithigrwydd ac amhrydlonwch yr hwyliad. Ac yn enwedig os ystyrir un peth—ychwaneg a gydnebydd pawb deallus yn hyrwydd; sef, faint rhwystr i ddifeio yr hwn oedd y lliaws o feiau, sy'n dryfrith yn ei hynafiaid ef, sef yn yr holl argraphiadau o'r blaen. Er hyn oll, gan fod fy mynwes yn tystio i mi wrthladd fy ngoreu ar y rhwystrau hyn uchod, drwy ofal a dichlynrwydd cyfaddas i orchwyl mor bwysfawr, yr wy'n mawr obeithio, na bydd e mewn rhan yn y byd yn anghymmeradwy, nac yn anfuddiol i'm gwladwyr. Canys pe rhon ymlithro llawer o fân frycheu i hwn, ynghysgod yr hen rai mawrion a oedd yn y lleill ar gynnydd; mae'n gryn gymmwynas frâs nithio y rhai mwyaf ymaith, i wneyd y lleiaf yn amlwg (yn yr argraph brâs yma, yn sicr), pettei hwn ddim ond grîs at gyfuchio y llyfr nesaf â chywirdeb ieithoedd ereill. Ond i oruwch-reolwr rhwystrau a chynnorthwywr y gwaelaf o offer ei wasanaeth, y bo'r unig ddiolch—ni welaf fi ar ail olygiad amgen nas gall hwn ymgystadlu âg amryw o lyfrau Seisnig. A diddadl y ceir e'n llawer cywirach a chyflawnach nag yr un a fu erioed yn Gymraeg.......Weithian ar air, am ddiwygiad yr hen, a chyfieithiad a chwanegion, wedi i farn cydwybod a ffyddlondeb f' ymgais, rhaid gadael yr Affaith a'r Arwydd sy ag ansawdd gwaith dan farn y ddwyryw gyffredin, y da a'r drwg, boddus ac anfoddus, ac odid nad oes yn hwn a foddio 'r ddeuryw; canys

Digitized by Google

gall yr ehud-farnwyr anfoddus hel yma rai beiau i borthi 'r drygwyr edliwgar honno. Ond i'r darllenyddion rhinweddol, cariadlawn, a gwybodol, ymddengys y cwbl a sy yma o wallau (er nad yw traean hyny chwaith, ond mewn rhai o'r llyfrau cyntaf oll) yn hawdd i ychydig gariad eu cuddio a'u diwygio; a'r llyfryn yn ei grynswth yn mhell goruwch oll a fu o'i flaen, yn urddas a chymmwynas i'n teuluoedd, ac yn hwylusder a harddwch i gyhoeddawl wasanaeth Duw yn ein heglwysau:—ond i roi un blaenweddi gyffredin ar i Dduw deilyngu ei fendithio a'i dderbyn e'n offeryn i hyfforddi ei foliant a'i addoliant ei hun a'n dyledswydd ninnau. Hyn ddylei fod cyrchfa a chanolbwynt ein holl orchwylion; hyn yn ddiau oedd fwriad a phen ergyd ei gyfansoddwyr cyntaf; a hyn, gobeithio, oedd ac a fydd prif-berwyl a thuedd-nod gofal ei olygwr presennol.—E. W."

Yn 1755, casglodd a chyhoeddodd Edward, trydydd mab Ellis Wynne, oedd ar y pryd yn gurad Llanbedr, lyfr o'r enw "*Prif Addysc y Cristion*," yn cynnwys, yn mhlith pethau ereill, "*Esboniad Byr ar y Catecism*," o waith y Parchedig Ellis Wynne, o Lasynys, parson Llanfair; ac yn niwedd y gyfrol y mae amryw "Hymnau a Charolau," o waith yr un awdwr. Hefyd, trodd amryw o'r Salmau ar fesur cerdd; ac y mae ol yr un ddawn ac athrylith ar y rhai hyn a'i gyfansoddiadau ereill. Fel un esampl, cymmerer ei fydriad o *Salm* cxlviii.:—

"O! molwch yr Arglwydd,
O'r nef wen lawen lu,
Clodforwch e'n un swydd
Holl fro uchelder fry;
Angylion glân, moliennwch ef,
Holl luoedd nef, o fawr i fân.

Chwi, haul a lloer er lles,
A'r sêr a'r goleu i gyd,
Nef a'r holl nefoedd nes,
I'ch brenin rhowch bob pryd
Dda fawl ddifeth, ffurfafen draw,
Cymmylau'r gwlaw, gwnewch chwi 'r un [peth.

Brenhinoedd daear gron,
A'r bobloedd oll ynghyd,
Pob t'wysog sydd ar hon,
Holl swyddwyr, barnwyr byd,
Pob llangc, gwell yw, pob morwyn glau,
Pob hen, pob iau, addolwch Dduw.

Can's tra rhagorol yw
Ei unig enw ef,
Ei ardderchawgrwydd gwiw
Sy' mhell uwch dae'r a nef:
Can's codi bydd, gorn grym a pharch,
I'w bobl, a'u parch a glyw bob dydd.

Dadseinied ei holl saint,
Ar led ei lawn glôd glân,
Dadganant ei fawr fraint
Blant Israel, fawr a mân,
A phawb a nes i wneyd a bair
Ef yn ei air, i'w lwyddfawr les."

Y mae yn amlwg wrth holl waith Ellis Wynne, yn enwedig ei "*Weledigaethau*," ei fod yn un o ddiwygwyr penaf ei oes yn yr Eglwys Sefydledig. Ysgrifenai yn llym a di-dderbyn-wyneb yn erbyn seguryd, llygredigaeth, a meddwdod y parsoniaid; yn erbyn gloddest, trahausder, a gormes y gwŷr mawr; yn erbyn rhaib, twyll, ac anonestrwydd y cyfreithwyr a'r meddygon; ac yn erbyn halogrwydd, trythyllwch, ac anfoesoldeb y dosbarthiadau isaf. Ar fyr, gwnaeth ei oreu i buro moesau ei genedl, i ddyrchafu ei chwaeth, ac i goethi ei llenyddiaeth; ac y mae ei waith ef, a'i gydoeswr, Edward Samuel, yn mysg y cynlluniau goreu a feddwn o ieithweddau (*idioms*) ystwyth a diledryw yr iaith Gymraeg; ac erys ei goffadwriaeth yn glodfawr yn Nghymru "tra môr tra Brython."—Williams' "*Eminent Welshmen*;" "*Adgofiant yr Awdwr*," gan D. S. Evans; "*Llyfryddiaeth y Cymry*;" y "*Traethodydd*," &c.

WYNNE, SYR JOHN, o Wydir: ydoedd fab ac etifedd Morris Wynne, o Wydir; a'i fam oedd Jane, merch Syr Richard Bulkeley, Beaumaris, Môn. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1553; ond yn mha fis o'r flwyddyn hono, ac yn mha le, ni fynegir. Preswylfod hynafiaid y Wynniaid, ar ol iddynt symmud o'u hen gartrefle yn Eifionydd, sir Gaernarfon, oedd Castell Dolyddelen, hyd oni phrynasant Wydir gan rai o hiliogaeth Dafydd Goch, mab ordderch Dafydd, brawd y Tywysog Llywelyn ab Gruffydd.

Y mae dau dŷ a elwir Gwydir yn bur agos i'w gilydd, medd Daines Barrington; sef, Gwydir Isaf a Gwydir Uchaf; a saif y ddau yn sir Gaernarfon, ar ochr orllewinol yr afon Gonwy, gyferbyn a thref Llanrwst. Saif Gwydir Isaf, medd Pennant, wrth odrau craig a elwir Careg y Gwalch. Adeiladwyd ef yn grwn, ac yn llys mwy a llai. Uwch ben y fynedfa y mae y fl. 1555, ac I. W.; sef John Wynne ab Meredydd, taid yr enwog Syr John Wynne—gwrthddrych yr erthygl yma. Dengys hyn fod 1553, amser tybiedig marwolaeth y blaenaf, yn anghywir.

Y mae awdurdodau pur uchel yn gwahaniaethu yn eu barnau am ystyr yr enw *Gwydir*. Barrington, cyhoeddwr cyntaf "*The History of the Gwedir Family*" (Hanes Teulu Gwydir)," a hysbysa "y dywedir mai ystyr *Gwedir* ydyw gwydr (*glass*); a bod yn debyg mai hwn oedd y tŷ cyntaf yn y parthau hyny y gwydrwyd ei ffenestri." Pennant a ddywed, "Cymmer y lle ei enw oddi wrth *Gwaed-dir*; o blegid y brwydrau a ymladdwyd yma gan Llywarch Hen, o gylch B.A. 610; neu, fe allai, oddi wrth y frwydr greulawn yn 952, rhwng meibion Hywel, a'r tywysogion Ieuaf ac Iago; a gellir chwanegu trydedd, rhwng Gruffydd ap Cynan a Thrahaern ap Cradog, oedd yn llawn mor waedlyd. Nid oes sail dda i'r dyb y deillia yr enw oddi wrth mai hwn oedd y tŷ cyntaf yn Nghymru a feddai ffenestri gwydr, gan fod y cyfleusdra hwnw yn adnabyddus er's hir amser cyn hyny. Y mae Syr John Wynne ei hun yn crybwyll bod yr amseriad 1512 ar ffenestr yn Dolyddelen, yr hyn oedd yn mhell cyn adeiladu Gwedir. Ond y mae y llinell ganlynol o waith prydydd oedd yn ei flodau rai canrifoedd cyn hyny, yn brawf cadarnach fyth o hynafiaeth gwydr yn ein gwlad:—

"Trwyd ffenestri gwydr yd y'm gwelent."[1]

Ond Philip Yorke, awdwr "*The Royal Tribes of Wales*," a ddywed, "*Gwydir*, o *gŵy* (*aqua*, dwfr), a *tir* (*terra*); am fod y tir yn bur ddarostyngedig i gael ei orlifo gan yr afon Gynwy." Tueddir ni i gredu mai hwn ydyw y tarddiad tebycaf o fod yn gywir.

Ond at Syr John ei hun. Ni wyddys ddim am ei flynyddoedd boreuaf; ond pan oedd yn un ar hugain mlwydd oed, yn 1574, anfonwyd ef i Lundain, i fyfyrio y gyfraith. Ni wyddys dros ba hyd y bu yn y brifddinas y waith hon; a pha un a ddarfu i'w "gynneddfau bywiog, a'i ymddygiad boneddigaidd, ei ddwyn i sylw y llys brenhinol," yn ystod ei arosiad yno yn awr, fel y dywed rhai o'i fywgraphwyr, ai peidio.

Bu ei dad, Morris Wynne, farw yn 1580, pan

[1] Cynddelw Brydydd Mawr, o gylch 1250.

oedd Syr John tua saith ar hugain mlwydd oed; a daeth yntau i feddiant o'i holl diriogaethau llydain. Gellir casglu oddi wrth oedran John, ei fab hynaf, yr hwn, yn ol Yorke, a fu farw yn un ar ddeg ar hugain mlwydd oed, pan yn ymdaith yn Lucca, yn yr Ital, yn y fl. 1612, ddarfod i Syr John briodi yn ebrwydd ar ol dyfod i feddiant o dreftadaeth ei hynafiaid, yn 1580. Ei wraig ydoedd Sidney, merch Syr William Gerrard, arglwydd ganghellydd yr Iwerddon, o'r hon y bu iddo un ar ddeg o feibion, a dwy o ferched; ond pa nifer a fu byw ar ol eu tad, ni wyddys.

Bu Syr John yn sirydd dros sir Gaernarfon, yn 1588; dros sir Feirionydd, yn 1589; ac yr oedd yn cynnrychioli sir Gaernarfon yn y senedd a ymgyfarfu ar y 29ain o Hydref, 1596. Bu yn sirydd drachefn dros sir Feirionydd yn 1601; a thros sir Gaernarfon etto yn 1603. Yn y flwyddyn hon hefyd, fe ddechreuodd ffrwgwd chwerw rhyngddo a'r Dr. William Morgan, esgob Llanelwy, ynghylch degwm, fel y dengys llythyrau dyddorol y naill at y llall, a gyhoeddwyd yn "*Yorke's Royal Tribes of Wales.*" Mynai Syr John i'r esgob roi prydles iddo, yn cynnwys tair oes, ar berigloriaeth Llanrwst, am 50*p.* y flwyddyn; ond gwrthodai yr esgob hyny, "o gydwybod," rhag ysbeilio yr eglwys, "gan fod y peth yn werth 140*p.* y flwyddyn." Haerai Syr John mai trwy ei offerynoliaeth ef y dyrchafwyd yr esgob; ac am hyny, bod yr esgob yn dangos anniolchgarwch trwy ei nacau; ond gwâd yr esgob hyn yn bendant, ond cyfaddefa iddo dderbyn rhai cymmwynasau dibwys gan Syr John, y rhai a wnelai y boneddwr, fel yr ymddangosai i'r esgob yn awr, er ei fwyn ei hun. "Yr wyf yn tystio," ebai yr esgob yn ei lythyr at Syr John, "bod eich cais y fath, pe caniatawn ef, y profwn fy mod yn ddyn anonest, anghydwybodol, ac anghrefyddol; a chwithau yn gyssegrladratäwr, yn ysbeiliwr bradwrus fy eglwys, ac yn llesteiriwr annaturiol pregethwyr ac ysgolheigion daionus; yr hyn a fyddai yn ddychryn ac artaith parhaus i'm cydwybod." Mewn llythyr yn atteb i'r esgob, gwna Syr John wawd o'i "gydwybodolrwydd;" ac edliwia ei fod yn ddyn "anniolchgar a digymmwynas," a'r cyffelyb. Parhaodd Syr John i boeni yr Esgob Morgan ynghylch "degwm" hyd o fewn deufis i farwolaeth yr esgob; canys mewn llythyr yn atteb i Syr John, y 24ain o Awst, 1604, cwyna yr esgob rhag ei gamymddygiad ynglŷn â "degwm Llangystenyn a degwm Bodyscallan;" ac ar y 10fed o Fedi, y flwyddyn hono, bu farw yr Esgob Morgan. Dengys Syr John yr anfoddlonrwydd chwerw a deimlai o blegid gwrthodiad yr esgob, yn ei nodiadau bywgraphyddol sydd yn attodiad i argraphiad Angharad Llwyd o "*History of the Gwydir Family,*" a gyhoeddwyd yn 1827; lle y dywed efe am yr esgob, pan "y cyfieithodd yr Hen Destament i'r iaith Gymraeg, cafodd les a chynnorthwy gwaith yr Esgob Davies a William Salisbury, y rhai a wnaethant ran fawr o hono, etto efe a gymmerth yr enw am y cyfan." Dengys hyn na wyddai yr hen Syr John nemawr am y Gymraeg; pe amgen, nis gallasai lai na gwybod nas dichon bod mwy o wahaniaeth nag y sydd rhwng Cymraeg ystwyth a dealladwy yr Esgob Morgan, a Chymraeg clogyrnog ac anarferedig yr Esgob Davies a W. Salisbury; heb law mai y Testament Newydd a gyfieithasant hwy—gwellhau ac ystwytho Cymreigiad yr hwn oedd yn gymmaint, os nad mwy, o waith i'r Dr. Morgan nag a fuasai ei gyfieithu oll o newydd. Pa wedd bynag, dywed Syr John y bu yr esgob "farw yn ddyn tlawd; a'i fod yn ysgolhaig da yn y Groeg a'r Hebraeg."

Yn y fl. 1604, efe a adeiladodd dŷ newydd, â'i enw Gwydir Uchaf, ar graig ychydig uwch law Gwydir Isaf. Dywedir fod hwn yn orchwyl nodedig, ac yr ystyrid ef y pryd hwnw yn un o'r tai goreu yn y Dywysogaeth; yr hwn, fel y tybia rhai, a gynlluniwyd gan yr hyglod Inigo Jones—yr hwn, yn ol traddodiad, a anwyd yn y gymmydogaeth hono. Dywed Barrington fod muriau y tŷ hwn wedi eu tryfritho â darlleniadau mewn gwahanol ieithoedd, o'r sawl nid oedd ond ychydig yn aros yn ei oes ef (yn y fl. 1770), gan fod yr estyll a hulient y parwydydd wedi cael eu defnyddio yn ddiweddar i adgyweirio amaethdai ar ranau eraill o'r etifeddiaeth; ond yr oedd yr hyn a ganlyn yn weladwy uwch ben y fynedfa yn amser Barrington:—

"Bryn Gwydir gwelir gole—adeilad
Uwch dolydd a chaure;
Bryn gwych adail yr ail ne,
Bron wen henllys brenhinlle.

Huw Bach ap Howel ap Shenkin a ganodd yr englyn uchod, ddeng mlynedd cyn amcanu gwneuthur yr adeilad hon."

Yr oedd traddodiad yn amser Barrington i'r palas hwn gael ei fwriadu i dderbyn y teulu brenhinol, pan yn myned ar eu teithiau y ffordd hono i'r Iwerddon; ond gan fod yn debyg nas gallai neb o'r teulu brenhinol feddwl am y fath daith yn 1604, ebe fe, tebycach ydyw iddo gael ei fwriadu i groesawu yr arglwyddi rhaglawiol ar achlysuron eu mynediad y ffordd hono i'r Iwerddon. Tybiai Pennant yr ymddengys i Gwydir Uchaf gael ei adeiladu er mwynhau yr olygfa brydferth a welir o hono ar y dolydd ffrwythlawn a ddyfrhëir gan y Gonwy, ynghyd â'u cyffiniau ceinwych; ac mai math ar hafdy godidog ydoedd. Dywed, yn 1781, y distrywiwyd ef yn ddiweddar, ond fod y capel oedd yn agos iddo yn sefyll byth, a gwasanaeth dwyfol yn cael ei gyflawni ynddo bob nos Sabbath.

Yn 1610, adeiladodd Syr John elusendai yn Llanrwst, y rhai a alwodd yn *Jesus' Hospital;* a neillduodd gyfran helaeth o ddegwm Eglwys Fach at eu cynnal, yn ol rheolau a ysgrifenodd i'r perwyl. Ystyrid y gwaddol crybwylledig yn werth 200*p.* yn 1770; ond aethant yn fwy ddwywaith, a chwaneg, wedi hyny. Parhaodd yr elusen, yn ol cynllun Syr John ei hun, dros tua dau can mlynedd; eithr o gylch 1810, attaliwyd y gynnaliaeth, sef y Ro Fawr a'r Ty'n y Fynwent.

Yn 1611, gwnaed Syr John yn farwnig; a'i arfbais oedd Tri Eryr yn cael eu harddangos mewn ffunen eurlliw (*fess or*), megys disgynydd o Owain Gwynedd. Gwnaed ef hefyd yn un o gynghorwyr cyffiniau Cymru; ac efe a gludai faner fawr Henry, Tywysog Cymry, yn angladd y tywysog hwnw, ar y 7fed o Ragfyr, 1612.

Dywed Yorke i Syr John dynu gŵg llys y cyffiniau arno ei hun yn 1615, pan y dywedodd y canghellydd ar y pryd, yr Arglwydd Ellesmere, iddo gael ei hysbysu bod yn ammhriodol i Syr John Wynne, marchog a barwnig, barhau mwyach yn aelod o'r llys hwnw; ac na ddylai ei enw fod yn y ddirprwyaeth dros sir Gaernarfon; ond prynodd Syr John heddwch llys llygredig Iago I., trwy dalu iddo lwgr-wobr o 350*p.*

Tua blwyddyn cyn ei farwolaeth, yr oedd

Digitized by Google

Syr John yn cynllunio i argau darnau helaeth o dir a orlifid gan y môr rhwng Meirionydd ac Arfon yn y Traeth Bach a'r Traeth Mawr; ac y mae llythyrau ar gael oddi wrtho at Syr Hugh Myddelton ar y pwngc. Ond ymddengys iddo gael ei luddias gan angeu i roddi ei amcan mewn grym; canys bu Syr John farw yn y flwyddyn ganlynol, sef 1626, ar y 1af o Fawrth, yn dair ar ddeg a thrigain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn eglwys Llanrwst.

Dilynwyd Syr John i'r etifeddiaeth gan ei ail fab, Syr Richard Wynne; yn gymmaint ag i'w fab hynaf, o'r un enw ag ef ei hun, farw yn Lucca, fel y crybwyllwyd eisoes, ddeuddeng mlynedd o flaen ei dad. Parhaodd yr etifeddiaeth yn y teulu hyd 1678, pan yr aeth i deulu y Duc o Ancaster, trwy i Mary, merch ac etifeddes Syr Richard Wynne, briodi Robert, Ardalydd Lindsey; ac yna meddiannwyd hi gan Peter Burrell, a wnaed yn Farwn Gwydir, yn 1796, yn hawl ei wraig Priscilla, Barwnes Willoughby, chwaer hynaf Robert, y Duc o Ancaster.

Gellir casglu bod Syr John Wynne yn un o gymmeriad pur hynod yn ei oes, ac yn ddyn o gynneddfau crython ac ymchwilgar. Gall y craffus gael cipdrem ar ansawdd ei gymmeriad yn yr ohebiaeth y cyfeiriwyd ati yn barod, a fu rhyngddo a'r Dr. Morgan. Y mae yr un ysbryd i'w ganfod yn y "cyfarwyddiadau" rhyfedd canlynol, y rhai a ysgrifenodd efe "i'w gaplan, John Prys, er ei ddysgu pa fodd i ymddwyn yn ei wasanaeth." Anfonwyd y papur a gynnwysai y "cyfarwyddiadau" hyn i Pennant, gan ei gyfaill, Paul Panton, o Blas Gwyn, Pentraeth, Môn. Y mae y "cyfarwyddiadau," fel y gwelir, yn gymmysg o drahausder rhyfedd hefyd. Dyma hwy:—

"Yn gyntaf. Yr ydych i gael yr ystafell a ddangosais i chwi yn fy mhorth, yn neillduedig i chwi eich hun, ynghyd â chlò, ac agoriad, a phob peth angenrheidiol.

Yr wyf yn disgwyl y bydd i chwi gyfodi yn y boreu, ac adrodd gweddïau yn fy neuadd wrth fy nheulu is law, cyn iddynt fyned at eu gwaith; a phan y dychwelont yn y nos, bod i chwi alw yr holl weithwyr ger eich bron, yn enwedig yr ieuengctyd, a chymmeryd cyfrif o'u credo, ac o'r hyn a ddysgwyd iddynt gan Syr Meredydd. Dymunaf arnoch aros y rhan fwyaf o'ch amser yn y tŷ isaf: yr ydych i sylwi beth a wneir yno, fel y galloch fynegi i mi am bob annhrefn a wneler yno. Y mae genyf flaenorydd a chludydd (*baylyf of husbandry and a porter*), y rhai sydd i fod wrth eich gorchymyn chwi.

Wedi i chwi godi yn y boreu, a dywedyd gweddïau, fel y crybwyllwyd, mynwn i chwi ymroddi i fyfyrio, neu ryw ymarferiad cymmeradwy er lles eich corph.

Cyn cinio yr ydych i ddyfod i fyny i ddywedyd gras bwyd, neu weddïau, o bydd rhywbeth cyhoeddus; ac os na bydd dyeithriaid mwy, yr ydych i ddwyn y plant i fyny, y rhai yr ydych i'w dysgu yn eich ystafell eich hun.

Pan y cymmerir y bwrdd i fyny, o'i hanner i waered, yr ydych chwithau i gyfodi, a cherdded yn y cynteddau ger llaw, hyd amser dywedyd gras ar ol bwyd, ac i ddyfod i mewn at yr amcan hwnw.

Ar ol cinio, o byddaf fi yn brysur, gellwch chwi fyned at y peli (*bowles*), y tawlfwrdd (*shuffel board*), neu rhyw ddifyrwch gonest a gweddus arall, nes yr elwyf fi allan. Os gwelwch fi allan o waith, ac ar fyned i farchogaeth, yr ydych i erchi gwastrodau yr ystabl i barotoi meirch, ac i fyned gyda mi. Od af at y peli neu'r tawlfwrdd, hoffwn i chwithau fy nilyn, os na lenwir y lle gan ddyeithriaid.

Mynwn i chwi fyned bob Sul i ryw eglwys gyfagos, i bregethu, gan rybuddio y plwyfolion i ddwyn yr ieuengctyd ynghyd i'r eglwys yn yr hwyr, i'w catecisio; yn yr hyn, yn anad dim, y mynwn i chwi fod yn ymroddgar, gofalus, a diwyd.

Gochelwch dafarnau, ac eistedd yn nghymdeithas meddwon yno, yr hyn yw y gwarth mwyaf a ddichon fod i'ch urdd a'ch galwad."

Heb law yr ysbryd trahaus sydd yn treiddio trwy y dyfyniadau uchod, y mae genym le i gasglu fod yr hen Syr John yn gryn orthrymwr hefyd. Y Dr. Morgan, wrth amddiffyn ei hun yn wyneb cyhuddiadau Syr John arno wrth Mr. Martyn, a ddywed:—

"Yr wyf yn gweddïo ar i Dduw faddeu ymddygiad caled Mr. Wynne at y tenantiaid hyn, tyddynod y rhai nis gallasai chwennych heb anfadrwydd."

Yorke hefyd a ddywed am dano:—

"Yr oedd efe yn ddyn galluog, ac yr oedd yn ddysgedig yn hanesion ei wlad, a gwnaeth lawer at eu haddurno; ac nid oedd yn esgeuluso ei les cyffredin ei hun: ond yr oedd yn gyfrwys a llwyddiannus yn ei drafnidiaeth. Am hyny arwciniwyd y bobl i feddwl ei fod yn eu twyllo, ac yn eu gorthrymu; ac y mae yn ofergoel yn y lle hyd heddyw (1770), fod ysbryd yr hen ŵr boneddig yn gorwedd dan ddisgyniad mawr Rhaiadr y Wenol, lle y poenir, y golchir, y pistyllir arno, ac y purir ef oddi wrth y gweithredoedd anfad a gyflawnodd efe yn nyddiau ei gnawd."

Am Syr John fel awdwr, y mae yn sicr ei fod yn alluog, a'i fod wedi chwilio llawer i hynafiaethau ei wlad, yn enwedig hen groniclau ac achau Cymreig, a daflent ryw oleu ar ei deulu ef, a'u hynafiaid; ond y mae yn ddilys ddiammheu nad oedd efe gywir bob amser yn ei fynegiadau hanesyddol. Wrth sylwi ar gywydd Rhys Goch o Eryri, efe a ddywed:—"Hon yw y gân hynaf a'r a allaf fi ganfod a gyflwynwyd i neb o'm hynafiaid i er teyrnasiad Iorwerth y Cyntaf, yr hwn a barodd i'r holl feirdd gael eu crogi yn ol cyfraith filwrol, fel cynnhyrfwyr y bobl i wrthryfel, esampl yr hwn a ddilynwyd gan lywodraethwyr Cymru, hyd amser Harri y Pedwerydd, er llwyr ddinystr i'r dosbarth yma o wŷr." Ammheuai Carnhuanawc gywirdeb yr haeriad yma, a wnaed yn mhen dros dri chan mlynedd ar ol lladdiad Llywelyn ab Gruffydd, ein llyw olaf, gan filwyr Iorwerth I.; ond profodd T. Stephens ei anghywirdeb, trwy gyhoeddi rhestr o dri ar ddeg a deugain o feirdd, o leiaf, rhwng lladdiad Llywelyn a Rhys Goch.

Heb law yr ychydig o waith Syr John sydd yn Pennant's "*Tours*," Yorke's "*Royal Tribes*," a'r chwanegiadau o'i waith sydd yn argraphiad Angharad Llwyd o'r "*History of the Gwydir Family*," tybir yn gyffredin mai ato ef y cyfeiria Rowlands ["*Mon. Antiq.*," argraph. 1723, t.d. 122], pan y dywed:—"Fel y canfyddaf y sylwir yn nghopi Gwydyr, yn mhlith nodiadau defnyddiol eraill ar derfynau Gogledd Cymru."

Ond y mae yn ddigon hysbys mai ei "*History of the Gwedir Family*," ydyw prif waith Syr John Wynne. Y mae gwaith yr awdwr yn cyfeirio ar ddechreu y llyfr hwn ["*Hist. Gwedir Family*," argraphiad 1770, t. d. 3], at Powell's "*Chronicle*" yn profi na ddechreuodd efe ei ysgrifenu hyd ar ol cyhoeddi Croniel Powell, yn B.A. 1584. Bu y gwaith mewn ysgriflaw hyd 1770, pan y cyhoeddwyd ef, fel yr awgrymwyd eisoes, gan yr Anrhyd. Daines Barrington, yn llyfr 12plyg bychan, yn cynnwys 160 o dudalenau, mewn llythyren fras, gyda nodiadau achlysurol ar odrau y dail gan y cyhoeddwr. Cyhoeddwyd

Digitized by Google

ef drachefn yn 1781, yn "*Barrington Miscellanies;*" a chyhoeddwyd trydydd argraphiad o hono yn 1827, yn Rhuthyn, dan olygiad Angharad Llwyd, yn cynnwys amryw chwanegiadau o waith Syr John, megys hanes cydoeswyr enwog yr awdwr, a'r cyffelyb.

Prif bwngc yr awdwr, drwy'r holl lyfr, fel y cyfaddefa ei hun, ydyw profi ei fod ef a'i deulu wedi disgyn yn syth o Gruffydd ap Cynon, Tywysog Gwynedd, yr hwn a fu farw B.A. 1137; a'u bod yn berthynasau i holl brif bendefigion a boneddigion Gwynedd a Deheubarth; canys, ebe yr awdwr, "y mae hyn yn fendith dymmorol fawr iawn; ac esmwythyd mawr i galon dyn ydyw canfod ei fod o darddiad da; a gofid calon i rai difonedd, a boneddigion o'r pen cyntaf, yw edrych yn ol ar eu haniad isel; ac mi wn i am lawer o'r cyfryw sydd yn casau boneddigion o'u calon, heb un achos ond eu bod yn foneddigion." Dengys hyn nad ystyriai Syr John neb yn wir foneddigion ond y rhai a allent olrhain eu hunain i bendefigion a thywysogion; gan hyny, nid rhyfedd iddo gymmeryd y fath boen a thrafferth i olrhain hen achau a chroniclau, er mwyn profi ei fod ef a'i deulu wedi hanu o'r fath gyff ardderchog; ond y mae yn wir ryfeddod ei fod wedi gallu gwneuthur llyfr mor ddyddorol o'r fath ddefnyddiau sychion a difywyd ag ydyw hanes teulu Gwydir.

WYTHNOS (שבוע, o שבע, "saith"—y seithfed o unrhyw beth: ond gair a ddefnyddir yn bennodol am y cyfnod o saith niwrnod). Pa faint bynag o anghydwelediad a ddichon fod ynghylch tarddiad neu ddechreuad yr wythnos, nid oes unrhyw ddadl ynghylch ei hynafiaeth mawr; ac ar adegau neillduol, o leiaf, fod yr hiliogaethau Semaidd yn mesur amser yn ol y cyfnod o saith niwrnod. Tybia rhai fod yr ymadrodd a ddefnyddir mewn cyssylltiad âg aberthau Cain ac Abel (*Gen.* iv. 3), "wedi talm o ddyddiau," yn golygu yn llythyrenol, "yn niwedd y dyddiau" —dyddiau yr wythnos. Gellir olrhain yr wythnos yn yr hanes a roddir o ddyfroedd y diluw yn treio ac yn llonyddu (*Gen.* viii. 10), "ac efe a arosodd etto saith niwrnod." Ac yr ydym yn cael fod Laban, y Syriad, yn cydnabod y cyfnod hwn o amser, pan y dywed efe, "Cyflawna di wythnos hon;" *Gen.* xxix. 27. Ni raid dyweyd fod y rhaniad hwn ar amser yn nodwedd amlwg yn y gyfraith Foesenaidd, canys y mae y Sabbath yn eglur ddangos hyny. Y mae dechreuad y rhaniad hwn ar amser wedi achosi llawer o ddyfaliadau. Y mae ei hynafiaeth mor fawr, a'r arferiad o hono mor gyffredinol, a'i le mor bwysig mewn cyssylltiad â phethau cyssegredig, fel y tybir ef yn bur gyffredin yn ol mor foreu a chreadigaeth dyn; yr hwn, yn ol y dybiaeth hon, a wnaed yn hysbys o'r dechreu pa fodd i ddosbarthu ei amser ar y cynllun a gymmerodd y Creawdwr i weithio a gorphwys. Os felly yr oedd, y mae yr wythnos a'r Sabbath mor hen a dyn ei hun; ac ni raid chwilio am resymau yn y meddwl, neu yn y ffeithiau â pha rai y daw i gydgyfarfyddiad â hwynt, dros fabwysiadu y rhaniad yma ar amser, am nad yw i'w briodoli i feddwl nac i ewyllys dyn. Fel hyn gosodir i lawr sail dduwinyddol i'r wythnos a chyssegredigrwydd y rhif saith. Y mae y sawl sydd yn mabwysiadu y golygiad hwn yn ei gadarnhau trwy gyfeirio at y chwe diwrnod yn y rhai y crewyd y byd, a gwaith Duw yn gorphwys ar y seithfed; yr hyn yn ol eu barn hwy a wnaed yn hysbys i ddyn o'r dechreuad: ac appelir hefyd at hynafiaeth y rhaniad hwn o'r amseroedd boreuaf—rheswm sydd yn cryfhau, os dadleuir nad oes un achos naturiol yn ymddangos i'r dosbarthiad.

I hyn oll, pa fodd bynag, attebir gan eraill, ein bod yn y tywyllwch gyda golwg ar yr amser y gwnaed gwaith y chwe diwrnod yn hysbys; er fod y rhaniad yn cael ei gydnabod dros barthau eang, etto nad ydyw yn gyffredinol hollol; fod y cenedloedd nas gwyddent am dano yn rhy bwysig i oddef i'r ymresymiad drosto sefyll, am ei fod yn cael ei fabwysiadu gan gynnifer o genedloedd; ac yn hytrach na bod dim sail i hyny mewn natur, y mae yn amlwg nad oes un cynllun mwy cyfleus i'w gael i ddosbarthu y mis.

Hawdd y gall y naill ochr a'r llall gydnabod fod yr wythnos yn gorphwys ar seiliau duwinyddol. Ond dadleuir nad ydyw y gydnabyddiaeth hon yn penderfynu pa beth oedd yr achos gwreiddiol o'r dosbarthiad hwn ar amser. Diammheuol fod cofnodion y cread, a'r pedwerydd gorchymyn, yn gosod allan seiliau dyfnaf y dosbarthiad wythnosol; ond hwyrach nad ydyw hyn yn cau allan y possiblrwydd iddo gael ei fabwysiadu am ryw resymau cyn i'r naill na'r llall fod yn hysbys. Pa un a roddodd yr wythnos gyssegredigrwydd i'r rhif saith, ai ynte a fu y rhif hwnw rywfodd yn gymmhorth i benderfynu yr wythnos, y mae yn ammhossibl dyweyd gyda sicrwydd. Gall hynodrwydd y rhif saith orphwys ar wahanol seiliau. Saith oedd rhif y planedau, yn ol yr hen seryddwyr; saith ydyw nodau y raddeg trydonol (*diatonic*); ac y mae yn rhif i lawer o bethau eraill mewn natur sydd yn tynu sylw.

Y mae y dull o ranu amser yn wythnosau yn ddiammheu yn arfer pur gyffredinol; ond dadleuir fod yn angenrheidiol iddo fod yn fwy cyffredinol nag ydyw, er rhoddi grymusder mawr yn yr ymresymiad a geir oddi wrth gyffredinolrwydd yr arferiad. Mabwysiadwyd yr wythnos gan yr holl hiliogaethau Semaidd; ac yn y cyfnod diweddaf o'u hanes, o leiaf, gan yr Aiphtiaid. Yr ydym yn cael yr un dosbarthiad dros y Werydd, neu un yn mron yr un fath, yn mysg y Peruviaid. Ac y mae yn bresennol yn cael ei ddefnyddio gan yr Hindŵaid hefyd; ond ammheua rhai hynafiaeth yr arferiad yn eu mysg hwy, gan fod yn bossibl ei fod wedi ei ddwyn i India gan yr Arabiaid a'r Mahometiaid. Fe'i ceir hefyd yn China; ond pa un a ydyw yn hollol gyffredinol yno, ai yn mhlith y Buddhistiaid yn unig y mae, sydd braidd yn ammheus. Ar y llaw arall, nid oes genym seiliau i gredu fod yr wythnos yn adnabyddus i'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid hyd gyfnod lled ddiweddar. Dadleuir hefyd fod yr wythnos yn ddosbarthiad ar amser, â sail iddo yn ei natur. Lle yr oedd y dyddiau yn cael eu henwi ar enwau y duwiau planedawl, megys yr oeddynt yn mlaenaf yn mysg yr Assyriaid a'r Caldeaid, ac wedi hyny yn mysg yr Aiphtiaid, yno, wrth gwrs, buasai cyfnod o saith niwrnod yn gyflawn. Ond yn mhellach, dywedir fod yr wythnos y dosbarthiad mwyaf naturiol, ac o'r braidd yn ddosbarthiad manwl o'r bedwaredd ran o fis; ac o ganlyniad, y dichon fod chwarteri y lloer wedi ei hawgrymu.

Nid ydym yn amcanu yn awr i sylwi ar ddosbarthiad amser yn wythnosau yn mysg cenedloedd eraill heb law yr Iuddewon. Ag wythnos y Beibl y mae a fynom. Hyd yn oed pe gellid

Digitized by Google

profi fod wythnos blanedawl yr Aiphtiaid, fel y disgrifir hi gan Dion Cassius, yn bod yn amser, neu cyn amser mynediad Israel o'r Aipht, ni ddarfu i feibion Israel gopïo honno. Gan y Sabbath yn unig y penderfynid eu hwythnos hwy; ac nid oes genym un prawf fod un diwrnod arall ganddynt hwy, âg enw neillduol yn gyssylltiedig âg ef. Ymddengys fod y dyddiau yn cael eu gwahaniaethu drwy eu rhifo mewn cyssylltiad â'r Sabbath. Yr ydym yn canfod oddi wrth *Gen.* xxix. 27, fod yr wythnos yn adnabyddus i'r Syriaid y pryd hwnw, oddi wrth y cynghor a roddir i Iacob i "gyflawni yr wythnos;" yr hyn sydd yn arwyddo ei bod yn gyfnod pennodol i ryw ŵyliau arbenig. Yr esboniad tebycaf o fod yn gywir ar y geiriau hyn ydyw, fod Laban yn cynghori Iacob i gyflawni wythnos Leah, sef y cyfnod priodol iddo gadw gŵyl ei briodas gyda hi, ac wedi hyny y gallai gael Rahel hefyd (cymmh. *Barn.* xiv.). Felly yr un modd ar amser claddu, megys yn nghladdedigaeth Iacob, dywedir am Ioseph, "Canys gwnaeth alar dros ei dad saith niwrnod;" *Gen.* l. 10. Ond nid ydyw y naill na'r llall o'r enghreifftiau hyn, mewn ystyr manwl, yn myned yn ddim pellach na dangos yr arferiad o gymmeryd y cyfnod o saith niwrnod i gadw math o ŵyliau ar amgylchiadau o bwys. Yn Llyfr Exodus, pa fodd bynag, y mae yr wythnos yn dyfod yn bur amlwg. Yr oedd dwy o'r gŵyliau mawr, sef gŵyl y Pasc a gŵyl y Pebyll, yn cael eu cadw am saith niwrnod: *Exod.* xii. 15—20. Er nad oedd gŵyl y Pentecost yn parhau ond am un diwrnod, etto yr oedd yr amser y cedwid hi yn cael ei gyfrif yn ol yr wythnosau o amser y Pasc, a dyna y rheswm dros ei galw yn "ŵyl yr wythnosau." Yr oedd y dosbarthiad o saith yn cael ei ddefnyddio er gwneuthur y seithfed mis a'r seithfed flwyddyn yn Sabbothol. Yn y Testament Newydd hefyd yr ydym yn gweled fod yr wythnos yn cael ei chydnabod mor eglur fel mai o'r bron y mae yn angenrheidiol cyfeirio at hyn. Er mor gyssegredig oedd y rhaniad hwn, ac er mor ddwfn yr oedd wedi ei argraphu ar feddyliau ac arferion pobl yr Arglwydd, y mae y difrifwch a'r cyssegredigrwydd yn fwy pan yr ystyrir fod ein Harglwydd, yn ei Basc diweddaf, wedi casglu ynghyd, megys, waith ei oes i wythnos o amser. O ganlyniad, yr oedd yr Eglwys Gristionogol o'r dechreu yn gyfarwydd â'r wythnos: ac y mae iaith Paul, yn 1 *Cor.* xvi. 2, yn dangos hyn. Y mae Dion Cassius, yr hwn a ysgrifenai yn yr ail ganrif, yn sôn am y rhaniad hwn ar amser fel peth cyffredinol y pryd hyny; ond dywed mai o'r Aipht y tarddodd yr arferiad. Gwel SABBATH.

WYTHNOSAU, GWYL YR. Gwel PENTECOST.

WYTHNOS—AU Y CYDGORIAU (*Ember Weeks*): wythnosau arbenig ar y flwyddyn wedi eu neillduo i fendithio yr Arglwydd am gynnyrch y ddaear trwy weddi ac ympryd, ac wedi arfer cael eu cadw, meddir, gan yr Eglwys Gristionogol mor foreu a'r drydedd ganrif. Calixtus, esgob Rhufain, oedd y cyntaf i gyhoeddi hyn yn osodiad rheolaidd; ac a ordeiniodd fod yr wythnosau hyn i gael eu cyflwyno yn bennodol gan y clerigwyr i ddarparu ar gyfer eu hordeiniad i'w swydd. Crybwyllir am y tymmorau hyn yn neddfau Alfred a Canute. Nid oedd dyddiau neu wythnos gyntaf y Cydgoriau yn cael eu cadw yn wastad gan wahanol eglwysi ar yr un pryd; ond darfu i Gynghor Placentia, B.A. 1095, bennodi ar fod i ddyddiau Cydgoriau y gwanwyn a'r haf i fod ar y Mercher, y Gwener, a'r Sadwrn ar ol y Sabbothau cyntaf yn y Grawys a'r Sulgwyn; a rhai y cynhauaf a'r gauaf ar ol gŵyl y groes sanctaidd (Medi 14eg) a Sant Lucia (Rhagfyr 13eg). Y mae y Sabbothau sydd yn uniongyrchol yn dilyn y tymmorau hyn yn cael eu pennodi etto gan Eglwys Loegr i ordeinio ei gweinidogion, yn ol yr unfed canon ar ddeg ar hugain a berthyn iddi. Gelwir y pedair wythnos, yn y rhai y mae dyddiau y Cydgoriau yn digwydd, yn "wythnosau y Cydgoriau." Yr Eglwys Babaidd, fel y gwelir, a neillduodd y cyfnodau hyn gyntaf; a dilynodd Eglwys Loegr hi yn hyn, fel mewn gormod o bethau ereill.

Digitized by Google

# X.



XANTHUS: un o haneswyr boreuol Groeg. Yn ol tystiolaeth Suidas, yr oedd efe yn fab i Candaules, ac wedi ei eni yn Sardes. Y mae Strabo hefyd, ynghyd â haneswyr eraill, yn addef mai Lydiad oedd Xanthus; ond dywed nad oedd yn wybyddus hyd sicrwydd pa un ai brodor o Sardes, ynte o ryw le arall, oedd efe. Ynghylch yr amser y blodeuai:—ni a wyddom, oddi wrth ddernyn o waith Ephorus, ei fod yn hynach na Herodotus; am yr hwn y dywedir ei fod wedi cymmhell Xanthus i ymgymmeryd âg ysgrifenu ei waith hanesyddol mawr. Ond ymddengys nas gallasai Xanthus fod ryw lawer yn hynach na Herodotus; o blegid fod Dionysius, o Halicarnassus, yn crybwyll am dano yn mysg yr ysgrifenwyr oedd yn byw ychydig o amser o flaen y rhyfel Peloponnesiaidd; ac oddi wrth un o'r darnau a ysgrifenodd Xanthus ei hun, y mae yn eglur ei fod yn ysgrifenu yn nheyrnasiad Artaxerxes I., yr hwn a deyrnasodd o C. C. 465 hyd 425. Y mae adroddiad Suidas, iddo gael ei eni o ddeutu yr amser y cymmerwyd Sardes gan yr Ioniaid, C. C. 499, hefyd yn cyttuno â'r ffeithiau hyn. Ysgrifenodd Xanthus ei waith ar Lydia, mewn pedwar o lyfrau, yn nhafodiaith Ionia; o'r hwn, pa fodd bynag, nid oes ond ychydig ddarnau ar gael, a'r rhai hyny wedi eu cadw yn ngweithiau Strabo, ac ysgrifenwyr eraill. Y mae dilysrwydd y darnau hyn wedi bod yn bwngc llawer o ymddadleu, o herwydd y mae Athenæus yn dywedyd, ar awdurdod Artemon, o Cassandrea, i Dionysius, a gyfenwid Scythobrachion, ffugio gwaith ar Lydia yn enw Xanthus. Ond, yn y lle cyntaf, nis gellir gwadu bodolaeth Xanthus, yr hanesydd: yn ail, y mae y rhan fwyaf o'r darnau sydd ar gael ar ei enw â phrawfion mewnol cryfion ynglŷn â hwy eu bod yn gynnyrchion gwirioneddol iddo ef: ac yn olaf, nid oes nemawr un o honynt y gellir dywedyd hyd sicrwydd mai ffugiol ydynt.

Llefarai Dionysius o Halicarnassus, yr hwn, dybygid, oedd â gweithiau Xanthus o'i flaen, yn uchel am danynt; a dywedai fod yr awdwr yn ddyn yn meddu gwybodaeth fanwl o hanes chwedlofyddiaeth hynafol, ac nad oedd yn ol i neb a ysgrifenodd ar Lydia. Mor bell ag y gellir barnu oddi wrth y darnau sydd ar gael, y rhai ydynt yn cynnwys gwybodaeth werthfawr o amryw bethau, ac yn enwedig am hanesyddiaeth a daearyddiaeth Asia Leiaf, ymddengys fod gwaith Xanthus yn un o deilyngdod uchel. Gwnaeth un o'r enw Menippus dalfyriad o hono. A dywed rhai hen awduron, fod Xanthus wedi cyfansoddi llyfr ar y Magïaid a chrefydd Zoroaster; ond o'r braidd nas gellir penderfynu oddi wrth y ddau ddernyn a ddygir yn mlaen fel yr eiddo ef mai cynnyrch ysgrifell rhyw rammadegwr diweddarach ydynt.

XAVIER (St. FRANCIS): cenhadwr Pabaidd enwog. Ganwyd ef yn Nghastell Xavier, yn Navarre, yn Yspaen; derbyniodd ei addysg yn Paris, a daeth yn un o ddysgyblion cyntaf a mwyaf selog Ignatius Loyola, â'r hwn y ffurfiodd efe y cyfeillgarwch agosaf. Anfonwyd ef gan Ioan III., brenin Portugal, i India y Dwyrain i bregethu yr efengyl. Cyrhaeddodd i Goa yn 1542, a lledaenodd y grefydd Gristionogol, nid yn unig yn y ddinas hono, ond yn Hindwstan, y Moluccas, Japan, a'r ynysoedd cyfagos; ac yr oedd efe ar lanio yn China fel cenhadwr Cristionogol pan y bu farw, yn y fl. 1552.

XENOCRATES: brodor o Chalcedon, a anwyd yn y flwyddyn 396 C. C., ac a fu farw yn 314, yn ddwy flwydd a phedwar ugain oed. Bu yn gyntaf yn ddysgybl i Æschines, yr athronydd Socrataidd, ac yna i Plato. I Diogenes Laertius yr ydym yn ddyledus yn benaf am yr ychydig sydd genym o hanes ei fywyd. Yn ol Diogenes, efe a aeth gyda Plato i Sicily. Yr oedd Xenocrates yn naturiol yn hwyrfrydig o ddeall; yr hyn a barodd i Plato ddywedyd fod Xenocrates yn gofyn yr ysbardun, ond Aristotle y ffrwyn. Yr oedd yn hynod ar gyfrif ei gymmedroldeb, ac nid oedd neb a allai ei demtio i ŵyro y gradd lleiaf oddi wrtho. Glynai yn ddiysgog wrth wirionedd a chyfiawnder ar bob amgylchiad. Dywedir y byddai yr Atheniaid yn caniatau iddo ef roddi ei dystiolaeth heb lŵ, er mai yr arferiad cyffredinol oedd gofyn i dystion gymmeryd llŵ. Nid ydyw yn ymddangos yn gysson iawn â'r hanes yma ei fod unwaith wedi cael ei werthu yn gaethwas gan yr Atheniaid, am nad allai dalu y dreth a arddodid ar ddyeithriaid a drigent yn eu plith. Dywedir i Demetrius Phalereus dalu yr arian, a'i ryddhau ef: priodolir y weithred ganmoladwy hon hefyd i'r areithiwr enwog Lycurgus. O'r braidd y mae yr adroddiadau eraill—ei fod wedi cael ei anfon gan yr Atheniaid fel llysgenhadwr at y brenin Phylip o Macedonia, ac at Antipater, ar ol y rhyfel Lamiaidd—yn fwy credadwy. Efe a ddilynodd Speusippus, 339 C. C., yn yr athrofa, prif athraw yr hon a fu efe am bum mlynedd ar hugain. Rhoddir rhestr faith o'i ysgrifeniadau gan Laertius; ond nid oes dim o honynt ar gael wrth eu henwau.

Ni wyddom ond ychydig am athrawiaethau Xenocrates, ond gellir casglu ei fod wedi gosod ei syniadau mewn ffurf gyfundrefnol, ac nid mewn ffurf o ymddiddanion, fel ei feistr, Plato. Iddo ef y priodolir dosbarthiad athroniaeth yn dair cangen—Rhesymegol, Moesol, a Naturiol. Cymmerai yn ganiataol fod tair ffurf o fodolaeth yn bod:—yr anianol, yr un a ganfyddir gan y deall, a'r un sydd yn gynnwysedig o syniad neu opiniwn.

Digitized by Google

Edrychai ar undod a deuoliaeth fel y duwiau sydd yn llywodraethu y byd, ac ar yr enaid fel yr hunan-ysgogydd. Ystyriai fod y syniad o Dduwdod yn treiddio drwy bob peth, a'i fod hyd yn oed yn y creaduriaid a alwn ni yn greaduriaid direswm. Credai fod dosbarth o ddiafliaid yn bod, neu rywbeth rhwng y dwyfol a'r marwol; yr hwn oedd yn gynnwysedig, yn ol ei farn ef, o ansoddau yr enaid. Yn ei addysg foesol, ystyriai fod dedwyddwch yn gynnwysedig, nid yn y meddiant o feddwl rhinweddol yn unig, ond hefyd o'r holl alluoedd sydd yn gweinyddu iddo, ac yn ei alluogi i gyflawni ei fwriadau.

Y mae ymddiddan "Axiochus" "Ar farwolaeth," yr hwn, yn ol y farn gyffredin, a gyfansoddwyd gan Æschines, wedi cael ei briodoli gan rai i Xenocrates.

XENOPHON: mab Gryllus, dinesydd Atheniaidd. Brodor ydoedd o randir Erchia. Nid oes sicrwydd pa bryd y ganwyd ef; ond gellir gwybod hyny yn lled agos oddi wrth y ffaith hon—fod Xenophon wedi syrthio oddi ar ei farch yn y ffoad ar ol brwydr Delium, a'i fod wedi ei gymmeryd i fyny gan Socrates, yr athronydd, yr hwn a'i cariodd ef ar ei ysgwyddau am bellder o amryw ystadau. Ymladdwyd brwydr Delium yn y flwyddyn 424 C. C. rhwng yr Atheniaid a'r Bœotiaid; ac felly, nid ydyw yn debygol fod Xenophon wedi ei eni ar ol y flwyddyn 444. Nid ydyw amser ei farwolaeth chwaith yn cael ei gofnodi gan unrhyw hen ysgrifenydd. Dywed Lucian ei fod wedi cyrhaedd i uwch law deg a phedwar ugain mlwydd oed; ac y mae Xenophon ei hun yn crybwyll am lofruddiaeth Alexander o Pheræ, yr hyn a ddigwyddodd yn 357. Rhwng 424 a 357, y mae tymmor o 67ain o flynyddoedd; ac fel hyn, y mae genym brawf fod Xenophon yn fyw o ddeutu 70ain mlynedd wedi i Socrates achub ei fywyd ef yn Delium. Dywedir fod Xenophon wedi bod yn ddysgybl i Socrates pan yn bur ieuangc; yr hyn sydd yn gysson â'r cyfeillgarwch a allasai ymgodi oddi wrth y ffaith fod Socrates wedi achub ei fywyd. Y digwyddiad mwyaf hynod yn mywyd Xenophon ydyw ei gyssylltiad â byddin Groeg, yr hon a aeth dan Cyrus yn erbyn Artaxerxes yn 401 C.C. Y mae Xenophon ei hun yn crybwyll [*Anab.* iii. 1] yr amgylchiadau dan ba rai yr ymunodd efe â'r fyddin hon. Yr oedd Proxenus, cyfaill Xenophon, eisoes gyda Cyrus; ac efe a wahoddodd Xenophon i ddyfod i Sardis, gan addaw ei gyflwyno ef i'r tywysog Persiaidd. Ymgynghorodd Xenophon â'i feistr Socrates, yr hwn a'i hannogodd ef i ymgynghori âg Oracl Delphi; canys yr oedd yn beryglus iddo fyned i wasanaeth Cyrus, yr hwn a ystyrid yn gyfaill i'r Lacedæmoniaid, ac yn elyn i Athen. Aeth Xenophon i Delphi, ond ni ofynodd i'r duw pa un a äi efe, ai peidio. Y mae yn debygol ei fod wedi gwneyd ei feddwl i fyny. Ni wnaeth efe ond yn unig gofyn i ba dduwiau yr aberthai, mewn trefn i fod yn llwyddiannus yn ei anturiaeth. Nid oedd Socrates yn foddlawn ar ddull ei ddysgybl o ymgynghori â'r oracl; ond gan ei fod wedi cael attebiad, efe a ddywedodd wrtho am fyned; ac aeth Xenophon i Sardis, yr hon yr oedd Cyrus ar ei gadael. Efe a aeth gyda Cyrus i Asia Uchaf. Yn mrwydr Cunaxa, collodd Cyrus ei fywyd, gwasgarwyd ei filwyr barbaraidd, a gadawyd y Groegiaid eu hunain ar y gwastad-diroedd llydain rhwng y Tigris a'r Euphrates. Ar ol cyflafan fradwrus Clearchus, ac eraill o'r llywyddion Groegaidd, gan y rhaglaw Persiaidd Tissaphernes, y daeth Xenophon yn mlaen. Nid oedd efe wedi dal un llywyddiaeth yn myddin Cyrus, nac mewn gwirionedd erioed wedi gwasanaethu fel milwr. Yn awr, dewiswyd ef yn un o'r cadfridogion, ac efe a gymmerodd y rhan benaf yn arweiniad y Groegiaid yn eu henciliad bythgofiadwy ar hyd y Tigris dros ucheldiroedd Armenia i Trapezus (Trebizond), ar y Môr Du. O Trapezus, arweiniwyd y milwyr i Chrysopolis, yr hon sydd gyferbyn â Byzantium. Yr oedd y Groegiaid mewn cyfyngder mawr, ac aeth rhai o honynt dan Xenophon i wasanaeth Seuthes, brenin Thrace. Gan fod y Lacedaemoniaid, dan Thimbron, yn awr mewn rhyfel â Tissaphernes ac â Pharnabuzus, gwahoddwyd Xenophon a'i fyddin i ymuno â byddin Thimbron, ac arweiniodd Xenophon hwynt yn ol allan o Asia i ymuno â Thimbron yn y flwyddyn 399. Gwnaeth Xenophon, yr hwn oedd yn bur dlawd, ryfelgyrch i wastadedd Caicus gyda'i filwyr cyn iddynt ymuno â Thimbron, i ysbeilio tŷ ac eiddo Persiad, o'r enw Asidates. Cymmerwyd y Persiad, gyda'i wragedd, ei blant, a phob eiddo symmudol oedd ganddo; a thrwy yr ysbail hwn, llanwodd ei logellau gweigion.—*Anab.* vii. 8, 23. Y mae yn adrodd yr hanes ei hun fel pe na buasai arno un cywilydd o hono. Rhoddwyd Socrates i farwolaeth yn 399; ac y mae yn ymddangos yn debygol fod Xenophon wedi ei alltudio un ai ychydig cyn neu ychydig ar ol y digwyddiad hwnw. Nid alltudiwyd ef ar yr amser pan yr oedd yn arwain y milwyr yn ol i Thimbron (*Anab.* vii. 7, 57); ond ymddengys fod ei eiriau yn hytrach yn cynnwys y rhaid fod ei alltudiaeth wedi cymmeryd lle yn fuan ar ol hyny. Nid ydyw yn sier beth oedd efe yn ei wneuthur wedi i'r milwyr ymuno â Thimbron. Gan nad ydym yn gwybod dim am ei symmudiadau, dylid casglu ei fod wedi aros yn Asia; ac y mae yn debygol, gyda Thimbron, a'i olynwr Dercyllidas. Yr oedd Agesilaus, brenin Sparta, yn llywyddu y galluoedd Lacedæmonaidd yn Asia yn erbyn y Persiaid yn y flwyddyn 396; ac yr oedd Xenophon gydag ef, o leiaf yn ystod rhan o'r rhyfelgyrch. Pan ail alwyd Agesilaus (394), aeth Xenophon gydag ef; ac yr oedd o ochr y Lacedæmoniaid yn y frwydr a ymladdwyd ganddynt yn Coronea (394) yn erbyn yr Atheniaid. Ymddengys ei fod wedi myned i Sparta gydag Agesilaus ar ol brwydr Coronea; ac yn fuan ar ol hyny, efe a ymsefydlodd yn Scillis yn Elis, heb fod yn mhell oddi wrth Olympia—llanerch ag y mae efe wedi rhoddi disgrifiad o honi yn yr "*Anabasis*" (v. 3, 7, &c.). Yma ymunwyd âg ef gan ei wraig, Philesia, a'i blant. Addysgwyd ei blant yn Sparta. Yr oedd Xenophon yn awr yn alltud, ac yn Lacedæmoniad, mor bell ag y gallai efe ddyfod yn un. Defnyddiai ei amser yn ystod ei breswyliad maith yn Scillus i hela, ysgrifenu, a chroesawu ei gyfeillion; ac hwyrach mai yma y cyfansoddwyd yr "*Anabasis*" a rhan o'r "*Hellenica.*" Y mae yn debygol mai yn ystod yr amser hwn hefyd yr ysgrifenwyd y traethawd ar hela, pan yr oedd difyrwch ac ymarferiadau o'r natur yma yn ffurfio rhan o'i alwedigaeth. O'r diwedd, bwriwyd Xenophon allan o'i loches dawel yn Scillus gan yr Eleaniaid, ar ol aros yno am o ddeutu ugain mlynedd. Ar gynnygiad Eubulus, diddymwyd y ddedfryd o alltudiad o Athen; ond yn mha flwyddyn y gwnaethpwyd hyny, ni

Digitized by Google

wyddys yn sicr. Yn mrwydr Mantinea, yr hon a ymladdwyd yn y flwyddyn 362, yr oedd y Spartiaid a'r Atheniaid yn wrthwynebol i'r Thebiaid, ac ymladdodd dau fab Xenophon, sef Gryllus a Diodorus, ar ochr y cynghreiriaid. Cwympodd Gryllus yn yr un frwydr ag y collodd Epaminondas ei fywyd ynddi. Nid oes un prawf i Xenophon erioed ddychwelyd i Athen. Dywedir iddo ymneillduo i Corinth ar ol ei fwriad allan o Scillus; a chan na wyddys ddim yn chwaneg yn ei gylch, cymmerir yn ganiataol ei fod wedi marw yno. Ysgrifenwyd yr "*Hipparchicus*" ar ol diddymiad y dedfrydiad o alltudiad, ynghyd â'r traethawd ar gyllid Athen. Dengys y digwyddiadau y cyfeirir atynt yn yr "*Epilogus*" i'r Cyropædia [*pen.* viii. 8, 4] fod yr Epilogus o leiaf wedi ei ysgrifenu ar ol y flwyddyn 362. Dichon ei fod wedi marw yn mhen ychydig flynyddoedd ar ol hyny. Ysgrifenodd Xenophon bymtheg o lyfrau a thraethodau ar wahanol byngciau; ond yr enwocaf o honynt oll ydyw yr "*Anabasis*," neu "Hanes Rhyfelgyrch Cyrus yr Ieuangaf, ac enciliad y Groegiaid," y rhai oeddynt yn ffurfio rhan o'i fyddin. Y mae y gwaith hwn wedi anfarwoli enw Xenophon.

XERXES: brenin Persia yn 485—465 C.C. Dywed Herodotus [vi. 98] fod yr enw yn arwyddo rhyfelwr, ond y mae yn debygol mai yr un gair ydyw a'r gair Sanscrit *Kshatra*, "brenin." Mab ydoedd Xerxes i Darius ac Atossa. Priododd Darius ddwywaith. O'i wraig gyntaf, merch Gobryas, cafodd dri o blant cyn iddo gael ei ddyrchafu i'r orsedd; ac o'i ail wraig, Atossa, merch Cyrus, cafodd bedwar o blant ar ol iddo ddyfod yn frenin. Hònai Artabazanes, y mab hynaf o'r briodas flaenorol, ac Xerxes, y mab hynaf o'r olaf, hawl bob un i'r olyniaeth; ond penderfynodd Darius yn ffafr Xerxes, y mae yn ddiammheu trwy ddylanwad ei fam Atossa, yr hon oedd yn meddu llywodraeth hollol arno ef. Dilynodd Xerxes ei dad yn nechreu y fl. 485. Yr oedd Darius wedi marw yn nghanol ei barotoadau milwraidd a llyngesol yn erbyn Groeg, y rhai oeddynt wedi eu hattal gan wrthryfel yr Aiphtiaid. Gorchwyl cyntaf Xerxes oedd darostwng y genedl olaf. Gan hyny, efe a ymosododd ar yr Aipht yn nechreu yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad (484 C.C.), gorfododd y bobl drachefn i ymostwng i iau Persia, ac yna dychwelodd i Persia, gan adael ei frawd Achæmenes yn llywodraethwr yr Aipht. Treuliwyd y pedair blynedd nesaf i wneyd parotoadau i ymosod ar Groeg. Yn ngwanwyn 480, efe a gychwynodd o Sardis ar ei ryfelgyrch nodedig yn erbyn Groeg. Efe a groesodd yr Hellespont dros bont o fadau, a pharhaodd ei daith trwy Chersonesus Thraciaidd hyd nes y cyrhaeddodd i wastadedd Doriscus, yr hwn a groesir gan yr afon Hebrus. Yma, efe a benderfynodd gyfrif galluoedd ei fyddin a'i lynges. Y mae Herodotus wedi gadael i ni restr fanwl a dyddorol o'r cenhedloedd oedd yn cyfansoddi y fyddin aruthrol hon, gyda'u hamrywiol wisgoedd milwraidd, a'u dull o ryfela. Cynnwysai y fyddin chwech a deugain o wahanol genedloedd [*Herod.* vii. 61, &c.] Yn ei daith drwy Thrace a Macedonia, derbyniodd Xerxes chwanegiad pellach at ei nerth; a phan gyrhaeddodd efe i Thermopylæ, yr oedd ei holl alluoedd ar y tir a'r môr yn cyrhaedd i gynnifer a dwy filiwn, chwe chant ac un a deugain o filoedd, a chwe chant a deg (2,641,610) o ymladdwyr. Nid ydyw hyn yn cynnwys y gweinyddion, y caethion, dwylaw y llongau ymborth, &c.; y rhai, yn ol tybiaeth Herodotus, oeddynt yn lliosocach na'r ymladdwyr; ond a thybied eu bod yn gyfartal, yr oedd holl nifer y dynion a ganlynasant Xerxes i Thermopylæ yn cyrhaedd i bum miliwn, dau cant ac wyth deg a thair o filoedd, dau cant ac ugain (5,283,220)! Y mae yn rhaid i ni wrthod yr hanes am y fath nifer fel un hollol anghredadwy; ond pan yr ystyriwn fod y fyddin hon yn ganlyniad ymdrech anghyffredin trwy yr holl ymherodraeth, a bod ymborth wedi ei gasglu am dair blynedd cynt ar hyd llinell y daith, gallwn yn hawdd gredu fod nifer byddin Xerxes yn fwy nag a gasglwyd erioed yn yr hen oesoedd, neu hwyrach mewn unrhyw gyfnod adnabyddus o hanesiaeth. Ar ol adolygu ei fyddin yn Doriscus, aeth Xerxes yn mlaen ar ei daith trwy Thrace. Wedi cyrhaedd i Acanthus, ger culdir Athos, gadawodd Xerxes ei lynges, yr hon a dderbyniodd orchymyn i hwylio drwy y camlas oedd wedi ei wneuthur yn flaenorol ar draws y culdir—ac olion yr hwn sydd etto i'w gweled—a disgwyl ei ddyfodiad yn Therme, a alwyd wedi hyny yn Thessalonica. Ar ol ymuno â'i lynges yn Therme, teithiodd Xerxes trwy Macedonia a Thessaly heb gyfarfod âg un gwrthwynebiad hyd nes y cyrhaeddodd i Thermopylæ. Yma penderfynodd y Groegiaid ei wrthsefyll. Arweiniodd Leonidas, brenin Sparta, fyddin dros y tir i Thermopylæ; a'i gydswyddog, Eurybiades, a hwyliodd gyda llynges Groeg i du y gogledd i Eubœa, a chymmerodd ei sefyllfa ar y glan gogleddol, yr hwn oedd yn wynebu Magnesia—a galwyd ef Artemisium oddi wrth deml Artemis, perthynol i dref Hestiæa. Cyrhaeddodd Xerxes yn ddiogel gyda'i alluoedd tirol o flaen Thermopylæ: ond goddiweddwyd ei lynges gan ystorm ddychrynllyd, a chorwynt ofnadwy, ger glenydd Sepias yn Magnesia—drwy yr hon y dinystriwyd o leiaf 400 o longau rhyfel, yn gystal a nifer aruthrol o drosglwyddlongau. Yna gwnaeth Xerxes ymgais i wthio ei ffordd trwy fwlch Thermopylæ, ond gyrwyd ei filwyr yn ol drachefn a thrachefn gan Leonidas; hyd nes y dangosodd Maliad o'r enw Ephialtes i'r Persiaid fwlch dros fynyddoedd Oeta; a thrwy hyny galluogasant hwynt i ymosod ar du ol y Groegiaid. Teimlai Leonidas a'r Spartiaid wrthwynebiad i ffoi, a lladdwyd hwynt oll. Ar yr un dyddiau ag yr oedd Leonidas yn ymladd â galluoedd tirol Xerxes, ymosododd llongau Groeg yn Artemisium ar lynges Persia. Yn y frwydr gyntaf, y Groegiaid a enillasant fantais; ac yn y noson ganlynol dioddefodd llongau Persia fwy fyth oddi wrth ystorm. Yn mhen deuddydd ar ol hyny, adnewyddwyd yr ymdrechfa: ac ymladdodd y ddwy ochr gyda'r gwroldeb mwyaf. Er fod y Groegiaid yn y diwedd yn parhau i gadw eu sefyllfa, ac wedi dinystrio nifer mawr o longau y gelyn, etto yr oedd eu colled hwy eu hunain yn fawr, ac yr oedd hanner y llongau Atheniaidd wedi eu hanalluogi. Dan yr amgylchiadau hyn, rhoddodd llywyddion Groeg Artemisium i fyny, ac enciliasant i Salamis, gyferbyn a glenydd deorllewinol Attica. Yr oedd yn awr yn rhy ddiweddar i anfon byddin i Bœotia; ac felly, yr oedd Attica yn agored i lawn dialedd yr ymosodwr. Symmudodd yr Atheniaid eu gwragedd, eu plant, a'r hen a'r methedig, i Salamis, Ægina, a Troezan. Yn y cyfamser, teithiodd Xerxes trwy Phocis a Bœotia; ac o'r diwedd,

Digitized by Google

cyrhaeddodd i Athen. O ddeutu yr un amser ag yr aeth Xerxes i mewn i Athen, cyrhaeddodd ei lynges i fôrgilfach Phalerum. Yn awr, efe a benderfynodd ymladd â llynges Groeg. Edrychai Xerxes ar y frwydr hon oddi ar eisteddle uchel, yr hon a wnaed iddo ef ar un o lechweddau Mynydd Ægaleos; ac fel hyn gwelodd â'i lygaid ei hun orchfygiad a gwasgariad ei lynges nerthol. Yn awr, ofnodd Xerxes am ei ddiogelwch ei hun, a phenderfynodd adael Groeg yn ddioed. Cadarnhawyd ef yn ei benderfyniad gan Mardonius, yr hwn a ymgymmerodd â'r gorchwyl o gwblhau y gorchfygiad gyda 300,000 o'i filwyr. Gadawodd Xerxes i Mardonius y nifer o filwyr a ofynid ganddo, a chyda'r gweddill cychwynodd i'w daith gartref. Efe a gyrhaeddodd i'r Hellespont mewn pump a deugain o ddyddiau, o amser ei ymadawiad o Attica. Wedi cyrhaedd i'r Hellespont, cafodd fod y bont o fadau wedi ei dinystrio gan ystorm, a chroesodd drosodd i Asia mewn llong. Aeth i mewn i Sardis tua diwedd y fl. 480. Yn y flwyddyn ganlynol (sef 479), parhawyd y rhyfel yn Groeg; ond gorchfygwyd Mardonius yn Platæa gan alluoedd unedig y Groegiaid; ac ar yr un diwrnod ennillwyd buddugoliaeth arall ar y Persiaid, yn Mycayle yn Ionia.

Y flwyddyn nesaf (478), collodd y Persiaid eu meddiant olaf yn Ewrop trwy gwymp Sestos ar yr Hellespont. Fel hyn dygwyd yr ymdrechfa mewn effaith i derfyniad, er i'r rhyfel barhau am amryw flynyddoedd ar ol hyny. Ni wyddys ond ychydig iawn chwaneg am hanes personol Xerxes. Yn 465 c. c., ar ol teyrnasiad o ugain mlynedd, llofruddiwyd ef gan Artabanus, yr hwn a ddymunai ddyfod yn frenin ar Persia yn ei le ef. Dilynwyd Xerxes gan ei fab, Artaxerxes I.

XIMENES DE CISNEROS, CARDINAL FRANCIS: gwleidyddwr Yspaenaidd enwog, a aned yn 1437, yn Torrelaguna, yn hen Castile, ac addysgwyd ef yn Alcala a Salamanca. Wedi llenwi amryw o fywoliaethau, efe a ddaeth yn fynach o'r urdd Franciscaidd, ac ennillodd boblogrwydd mawr fel pregethwr. Yn ei unfed flwydd ar bymtheg a deugain, gwnaeth y frenhines Isabella ef yn gyffeswr iddi; a dwy flynedd ar ol hyny, fe'i codwyd ef i archesgobaeth Toledo. Modd bynag, gwrthododd dderbyn y swydd urddasol o archesgob hyd nes y derbyniodd orchymyn pendant y pab, ac efe a barhaodd i ddilyn arferion llym y Franciscaid. Wedi hyny, efe a ddaeth yn brif weinidog, ac yn gardinal; a darfu i Ferdinand, ar ei wely angeu, ei bennodi yn rhaglaw hyd ddyfodiad Charles V. i'w oed. Efe a fu farw yn 1517. Ni ddarfu i ond ychydig o weinidogion lywodraethu gyda'r fath allu a sefydlogrwydd a Ximenes. Yr oedd efe hefyd yn noddwr i ddysgeidiaeth; sylfaenodd amryw o sefydliadau athrofaol, ac ysgolion eraill; a defnyddiodd y dynion mwyaf dysgedig o bob gwlad i olygu y Beibl Amlieithog Complutensiaidd enwog. Rhydd Mr. Butler, yn ei "*Reminiscences*," gymmeriad uchel iawn iddo fel Cristion.

Digitized by Google

# Y.



YCH—AIN. Nid oedd unrhyw anifail yn nhrefnidedd gwledig yr Israeliaid, nac yn wir yn eiddo yr hen ddwyreinwyr yn gyffredinol, a berchid yn fwy na'r ych; ac yn haeddiannol felly, canys yr ych oedd yr anifail ar lafur amyneddgar yr hwn y dibynai yr holl weithrediadau amaethyddol arferol. Nid oedd neb yn meddwl am aredig gyda cheffylau y dyddiau hyny. Y mae yn wir fod asynod yn cael eu defnyddio i'r pwrpas hwn; ond ar yr ych gan amlaf y disgynai y gwasanaeth pwysig hwnw. Gwelir gwerth arbenig yr ych i genedl o lafurwyr y ddaear fel yr Israeliaid, oddi wrth y cyfeiriadau a wneir yn yr Ysgrythyrau at yr amrywiol ddybenion i ba rai y defnyddid ef. Defnyddiwyd ychain i aredig (*Deut.* xxii. 10; 1 *Sam.* xiv. 14; 1 *Bren.* xix. 19; *Iob* i. 14; *Amos* vi. 12, &c.); i sathru ŷd allan (*Deut.* xxv. 4; *Hos.* x. 11; *Mica* iv. 13; 1 *Cor.* ix. 9; 1 *Tim.* v. 18); i dynu llwythi, pan y byddent yn gyffredin yn cael eu hieuo yn barau (*Num.* vii. 3; 1 *Sam.* vi. 7; 2 *Sam.* vi. 6); i gario beichiau (1 *Cron.* xii. 40); bwyteid eu cig (*Deut.* xiv. 4; 1 *Bren.* i. 9; iv. 23; xix. 21; *Esa.* xxii. 13; *Diar.* xv. 17; *Neh.* v. 18); a defnyddid hwynt yn yr aberthau. Gwel ABERTHAU.

Mewn cyssylltiad â phwysigrwydd ychain yn nhrefnidedd gwledig yr Iuddewon y mae cyfreithiau manwl, y rhai yn drugarog a wnaed gan Dduw er eu hamddiffyniad a'u cadwraeth. Nid oedd safn yr ych fyddai yn dyrnu mewn un modd i gael ei gau; yr oedd i fwynhau gorphwysfa ar y Sabbath yn gystal a'i feistr (*Exod.* xxiii. 12; *Deut.* v. 14); ac yr oedd i gael hyn nid yn unig er lles y bobl, o blegid nis gall anifail wneuthur gwaith heb gymmhorth dyn, ond er ei les ei hun.

Nid oes un ammheuaeth na bu y gyfraith oedd yn gwahardd lladd unrhyw anifail glân, oddi eithr fel "offrwm i'r Arglwydd o flaen y tabernacl," yn ystod yr amser y trigodd yr Israeliaid yn yr anialwch (*Lef.* xvii. 1—6), er ei bod wedi ei bwriadu yn bendant i gadw y bobl oddi wrth eilunaddoliaeth, yn foddion i gadw eu hychain a'u defaid, y rhai ni oddefid iddynt eu lladd oddi eithr yn gyhoeddus. Y mae yn sicr mai anfynych iawn y defnyddient ychain a defaid fel ymborth yn ystod y deugain mlynedd o grwydriadau; o herwydd hyn yr oedd arnynt chwant cig yn fynych.

Nid hawdd ydyw penderfynu pa un a fyddai yr hen Hebreaid yn arfer dysbaddu eu hanifeiliaid, ai peidio. Gellir darllen yr adnod yn *Lef.* xxii. 24 mewn dwy ffordd, un ai fel y mae yn y cyfieithiad awdurdodedig, neu fel hyn—"Ni chewch offrymu i'r Arglwydd yr hyn sydd ysigedig," &c., "ac na wnewch yn eich tir y fath beth." Credai Le Clerc y buasai yn ammhossibl defnyddio ych heb ei ddysbaddu i ddybenion amaethyddol am y buasai yn beryglus. Ar y llaw arall, y mae Michaelis, yr hwn sydd yn dyfynu tystiolaeth bendant Josephus, yn dadleu fod dysbaddiad yn hollol waharddedig, ac yn cyfeirio at awdurdod Niebühr, yr hwn sydd yn crybwyll y ffaith fod Ewropiaid yn defnyddio ystalwyni yn feirch milwraidd. Yn y dwyrain y mae yn eithaf hysbys nad ydyw meirch yn y cyffredin yn cael eu dysbaddu. Lle y mae pobl yn gynefin â thrin anifeiliaid heb eu dysbaddu, sylwa Michaelis eu bod yn mhell oddi wrth fod mor beryglus ag yr ydym ni, o herwydd ein diffyg o brofiad, yn barod i ddychymygu.

Ymddengys yn eglur, oddi wrth *Diar.* xv. 17, a 1 *Bren.* iv. 23, fod gwartheg weithiau yn cael eu porthi i mewn, er fel rheol gyffredinol y mae yn debygol eu bod yn pori yn y gwastattiroedd, neu ar fryniau Palestina. Fod yr Aiphtiaid yn porthi ychain mewn corau, sydd amlwg oddi wrth y darluniau a welir ar y cofadeiladau. Y mae yn ddiammheu y byddai y gwartheg a borent yn rhydd yn y wlad agored yn fynych yn myned yn ffyrnig a gwyllt; canys dylid cofio fod y llew, a bwystfilod ysglyfaethus ereill, yn crwydro o amgylch Palestina. Oddi wrth hyn, y mae yn ddiammheu, y cododd y cyfreithiau gyda golwg ar "gornio," a'r ymadrodd "os yr ych oedd yn cornio o'r blaen" (*Exod.* xxi. 28, &c.): ac oddi wrth hyny gwelir nerth cŵyn y Salmydd yn erbyn ei elynion—"Teirw lawer a'm cylchynasant: gwrdd deirw Basan a'm hamgylchasant;" *Salm* xxii. 13. Y mae yr arferiad o amgylchynu gwrthddrychau sydd yn ennyn eu drwgdybiaeth yn dra nodweddiadol o wartheg hanner gwyllt.

Ceir ar gofadeiladau yr Aipht ddarluniau o ychain o rywogaeth y cyrn hirion, cyrn byrion, moelion, ac amrywiaeth o ychain India. Dangosant fod gwartheg yr Aipht yn yr hen oesau yn anifeiliaid heirdd: ac y mae yn ddiammheuol y gellir eu cymmeryd hwy fel esampl o wartheg Palestina yn yr un cyfnod. "Parhaodd anifeiliaid yr Aipht," medd y Milwriad H. Smith, "yn nodedig am eu prydferthwch am oesoedd ar ol y gorchfygiad Mahometaidd, ac y mae gwartheg ardderchog yno yn awr; ond ymddengys fod gwartheg Palestina wedi dirywio, o leiaf o ran eu maintioli, er yr amserau Beiblaidd. "Anfynych y gwelir gyr o wartheg," medd Schubert; "bychain a gwael yw ychain cymmydogaeth Ierusalem; nid ydyw biff a chig llo ond danteithion anghyffredin. Etto, y mae yr ych yn ffynu yn well, ac i'w weled yn fwy mynych, yn nyffryn uchaf yr Iorddonen; hefyd ar Fynydd Tabor, ac yn agos i Nazareth; ond yn enwedig o du y dwyrain i'r Iorddonen ar y ffordd o bont Iacob i Damascus." Sylwa Thomson nad ydyw y perygl i un gael ei gornio wedi darfod



Digitized by Google

"yn mhlith y gyroedd hanner gwyllt sydd yn crwydro dros y porfeydd breision mewn rhanau neillduol o'r wlad."

YCH GWYLLT. Gwel BUAL.

YD. Y mathau mwyaf cyffredin o ŷd yn Ngwlad Canaan oeddynt wenith, haidd, rhyg, a miled. Nid ydyw ceirch yn cael eu crybwyll ond yn unig gan ysgrifenwyr Rabbinaidd. Cyfrifir y cnydau ŷd etto yno yn gymmaint ugain gwaith a'r hyn a heuir, ac yr oeddynt gynt yn llawer mwy na hyny. Nid ydyw "saith dwysen ar yr un gorsen" yn beth anghyffredin yn y dyddiau hyn; *Gen.* xli. 22. Y mae corsen gyda llawer o dwysenau yn beth cyffredin yn ngwenith Palestina; ac wrth gwrs, ŷd coliog ydyw. Dichon fod "twr gwenith wedi ei amgylchu â lili" (y rhai y mae yn debygol a dyfent yn y maes gydag ef) yn cyfeirio at yr arferiad o addurno yr ysgubau felly: *Can.* vii. 2. Cedwid gwenith (gwel 2 *Sam.* iv. 6) yn y tŷ i ddybenion teuluaidd. Yr oedd "canol y tŷ" yn arwyddo rhan mwy neillduedig na'r ystafell gyffredin lle y croesawid ymwelwyr. Ond cedwir ef yn awr yn fynych mewn ffynnon sych; ac hwyrach fod "malurion ŷd" (2 *Sam.* xvii. 19), wedi ei fwriadu i roddi ar ddeall fod y pydew yn cael ei ddefnyddio felly. O amser Solomon (2 *Cron.* ii. 10, 15)—*h. y.*, fel yr oedd amaethyddiaeth yn cael ei dadblygu dan lywodraeth sefydlog—yr oedd Palestina yn wlad oedd yn allforio ŷd; a chymmerid ei hŷd yn helaeth gan ei chymmydog masnachol Tyrus; *Ezec.* xxvii. 17; gwel hefyd *Amos* viii. 5. Yr oedd "amldra o ŷd" yn rhan o fendith Iacob: *Gen.* xxvii. 28; gwel *Salm* lxv. 13. Hwyrach mai y canlyniad o'r difrod a wnaed gan fyddinoedd Assyria oedd y "selerydd i gnwd yr ŷd" a grybwyllir yn 2 *Cron.* xxxii. 28, a adeiladwyd gan Hezeciah (cymmh. 2 *Bren.* xix. 29). Heb y cyfryw amddiffyniad, buasai y wlad yn ei sefyllfa wanaidd wrth drugaredd ysbeilwyr yr anialwch.

Yr oedd y cnydau ŷd yn ddarostyngedig i "fallder" a "deifiad" (gwel 1 *Bren.* viii. 37) yn gystal, wrth gwrs, ag i dân, trwy ddamwain neu falais: *Exod.* xxii. 6. Gwel AMAETHYDDIAETH; GWENITH; HAIDD, &c.

Dechreuwyd amaethu ŷd gyntaf, meddir, gan Ceres—yr hon, wedi dysgu y gelfyddyd i'r Aiphtiaid, a wnaed yn dduwies ganddynt yn y flwyddyn 2409 c.c. Priodolir y gelfyddyd o amaethyddiaeth, a'r dull o wneuthur bara o wenith, a gwin o reis, gan y Chineaid i Ching Noung, olynydd Fohi, ac ail benadur China, 1998 c.c. Defnyddiwyd ŷd yn ymborth o oesoedd boreuaf y byd: gwel *Exod.* xii. 15. Y dadforiad cyntaf o ŷd i Loegr ag y mae genym ni hanes am dano, oedd yn y fl. 1347. Gwnaed cyfraith yn ei attal yn 1361, a gwnaed deddfau cyffelyb ar ol hyny. Mewn canlyniad i gynnydd llaw-weithfeydd, teimlwyd yn ddwys o herwydd y cyfreithiau a wnaed yn erbyn dadforiad ŷd, a llaciwyd ychydig arnynt yn 1773. Yn 1815, pasiwyd cyfraith yn goddef ei ddadforiad di-doll, pan y byddai gwenith yn 80*s.* y chwarter. Yn ystod y dadleuon ar y mesur hwn, ymgynnullodd torfeydd o derfysgwyr yn Llundain, a niweidiwyd llawer o dai ei gefnogwyr, Ionawr 28ain, 1815, a chymmerodd terfysg le yn Westminster o'r 6ed i'r 9fed o Fawrth, yn yr un flwyddyn. Wedi pasio y mesur ŷd yn Nhŷ y Cyffredin, gwrthodwyd ef gan Dŷ yr Arglwyddi, trwy adran a gynnygiwyd gan y Duc o Wellington, ac a gariwyd trwy fwyafrif o 4, ar y dydd cyntaf o Fehefin, 1827. Ar y 15fed o Orphenaf, 1828, pasiwyd y gyfraith a elwid '*sliding scale*,' trwy yr hon y caniatawyd i wenith gael ei ddadforio trwy dalu treth o 1*p.* 5*s.* 8*c.* y chwarter, pa bryd bynag y byddai canolbris Lloegr oll o dan 62*s.*; o 62*s.* i 63*s.*, 1*p.* 4*s.* 8*c.*; ac felly ei raddol leihau i 1*s.* pan y byddai y canolbris yn 73*s.*, ac uchod. Ar y 29ain o Ebrill, 1842, pasiwyd y gyfraith 5 Vict. c. 14—sef, ail gyfraith y '*sliding scale*,' yr hon oedd yn rheoleiddio y dreth ar wenith yn ol cyfartaledd ei bris, o 1*p.* i lawr i 1*s.* Ar y 26ain o Fehefin, 1846, derbyniodd Mesur Dadforiad Yd, a ddygwyd i mewn gan Syr Robert Peel (9 a 10 Vict. c. 22), y cydsyniad brenhinol; drwy yr hwn y gostyngwyd y dreth ar ŷd i 4*s.* pan y gwerthid ef am neu uwch law 53*s.* y chwarter, hyd Chwef. 1af, 1849. Ar ol y diwrnod hwnw daeth y dreth yn 1*s.* y chwarter ar bob math o ŷd a ddadforiwyd i'r Deyrnas Gyfunol, am unrhyw bris. Dilewyd y dreth o 1*s.* drachefn trwy gyfraith a basiwyd Mehefin 24ain, 1869. Ar y 24ain o Fehefin, 1828, agorwyd Marchnadfa Yd, Mark Lane, Llundain, yr hon a gostiodd 90,000*p.* Gwnaed y farchnadfa hon yn lle un a adeiladwyd yn 1747.

YDWYF: enw a roddodd yr Arglwydd arno ei hun wrth Moses pan yn ei anfon i waredu yr Israeliaid o'r Aipht. "YDWYF YR HWN YDWYF. YDWYF a'm hanfonodd atoch:" *Exod.* iii. 14. Yn *adn.* 13, y mae Moses, fel llysgenhadwr oddi wrth Dduw, yn gofyn am gyfarwyddyd neillduol ganddo, ynghylch yr hyn a ddywedai wrth y bobl. Gan nad ydyw llysgenhadon i siarad eu geiriau eu hunain, ond geiriau yr hwn sydd yn eu hanfon hwynt, a chan fod Duw yn cael ei alw wrth lawer o enwau, yr oedd o bwys wrth ba enw y crybwyllid ef yn awr wrthynt; yn enwedig gan fod llawer o'r enwau yn cael eu camddefnyddio, trwy gael eu cymmhwyso at eilunod. Y mae yn debygol fod yr Israeliaid y pryd hwn wedi dyfod yn eilun-addolwyr, a bod ganddynt, fel yr Aiphtiaid, lawer o dduwiau; am hyny y byddai arnynt eisieu gwybod enw Duw Moses. I'r pwrpas hwn sylwa rhai fod Duw, pan y mae efe yn barnu, yn cael ei alw yn "Elohim;" pan yn rhyfela, "Sabaoth, Arglwydd y lluoedd;" a phan yn hòni trugaredd, "Iehofah:" *Exod.* xxxiv. 6. Modd bynag, yr oedd gan Moses reswm da (er nad yw yn ymddangos yn y testyn) pa ham y gofynodd efe y cwestiwn; ac y mae Duw trwy ei atteb yn profi ei fod yn foddlawn iddo ei ofyn. "Ydwyf yr hwn Ydwyf." Yn ol y Deg a Thrigain, "Ydwyf yr hwn Ydwyf yn hanfodi." Yn ol yr Hebraeg, "Byddaf yr hyn a fyddaf." Canys y mae yr amser dyfodol yn fynych yn yr Hebraeg yn cael ei ddefnyddio am yr amser presennol; ac y mae yn arwyddo Bod tragywyddol a hunan-hanfodol, yn ol ymadrodd yr apostol yn *Heb.* xiii. 8; *Dad.* xvi. 5; a bod anamgyffredadwy ac annibynol, ar yr hwn y mae pob peth arall yn dibynu am eu dechreuad a'u parhâd; ac hefyd bob amser yn cyflawni ei addewid, gan ei fod yn meddu gallu anwrthwynebol ac ewyllys anghyfnewidiol i gyflawni ei air.

YEZIDIAID: sect ddwyreiniol, a elwir felly ar ol ei sylfaenydd, Yezid, tywysog Arabaidd, yr hwn a laddodd ddau o feibion Ali, tad-ynnghyfraith Mahomet; am yr hyn yr ystyrid ef

Digitized by Google

yn lleiddiad dyn, ac yn heretic, a fficiddid ei ddilynwyr gan yr holl Fahometiaid. Cyfrifai M. Le Fevre, yn y ganrif ddiweddaf, fod y sect hon y pryd hwnw yn rhifo tua dau can mil yn Persia a Thwrci; ond yr oeddynt i'w cael yn benaf yn mynyddoedd Sangara. Y maent yn ddau fath; sef, y du a'r gwyn, fel eu gelwir. Y blaenaf ydyw eu mynachod, neu *ffakiriaid*. Y mae y rhai diweddaf yn ymwisgo fel y Tyrciaid, gydag ychydig o wahaniaeth; ond nid ydynt yn enwaedu ar eu plant, oddi eithr pan y gorfodir hwy i wneyd hyny gan y Mahometaniaid —y rhai a gasëir ganddynt i'r fath raddau, fel pan felldithiant rhyw greadur yn eu digofaint, y galwant ef yn 'Fahometan.' Y maent yn fwy cyfeillgar gyda'r Cristionogion, am nad ydynt yn cael eu gorthrymu ganddynt. Proffesant eu bod yn credu yn y Beibl ac yn y "*Coran*," er nad ydynt yn darllen y naill na'r llall, ac y maent yn hynod o anwybodus. Y maent yn arfer bod gyda'u gilydd yn gwmnïau, fel yr Arabiaid, ac yn newid lle eu preswylfod yn fynych; ond nid oes ganddynt leoedd o addoliad. Y maent yn hoff iawn o win, ac weithiau galwant ef yn "waed Iesu Grist;" oddi wrth yr hyn y tybir eu bod yn ei ddefnyddio yn grefyddol rai gweithiau; ac hefyd y maent yn dymuno bod ar delerau da â'r diafol; ac o ganlyniad, nid ydynt yn siarad yn gàs am dano, a'r enw a roddant arno ydyw y "penaeth mawr."

YMARWEDDIAD: buchedd, rhodiad, neu ymddygiad dyn. Cyfeirir yn y Testament Newydd at ddau fath o ymarweddiad: gelwir un yn "ofer ymarweddiad"—yn ymarweddiad gwâg a difudd (1 *Pedr* i. 18); a gelwir y llall yn "ymarweddiad sanctaidd" (2 *Pedr* iii. 11). Y mae y cyntaf yn codi ar egwyddor ddrwg, ac yn groes i Air Duw, ac yn felldith i'r dyn ei hun, ac i bawb o'i amgylch; yr olaf yn codi oddi ar egwyddor dda, yn unol â Gair Duw, ac yn fendith i bawb o'i amgylch. Ystyr y gair gwreiddiol am ymarweddiad yn *Phil.* iii. 20, ydyw gwladwriaeth, dinas, neu gymdeithas:—"Ein gwladwriaeth ni sydd yn y nefoedd." "Ein dinas ni sydd yn y nefoedd." Yr ydym ni yn ymddwyn fel dinasyddion y nefoedd, gan ystyried ein hunain fel dinasyddion yr Ierusalem Newydd, ac heb fod yn ddim ond dyeithriaid a phererinion ar y ddaear. Am hyny yr ydym yn cefnogi manteision y gymdeithas ogoneddus hono, yn dysgu ei harferion, ac yn ymddwyn yn deilwng o'n perthynas â hi.

YMBLEIDIO: ffurfio plaid, glynu wrth blaid, a meithrin ysbryd plaid, yr hyn sydd yn hollol groes i ysbryd Cristionogaeth. "Na byddo ymbleidio yn eich plith;" 1 *Cor.* i. 10. Gan ei fod yn ammhossibl rhanu Crist, rhaid fod y cyfryw ymbleidio yn ynfyd ac yn bechadurus iawn. "Gan nad oes ond un Pen," medd Hodge, "nis gall fod ond un corph." Y mae yr eglwys i fod yn un, am nad oes ond un Crist. Ac yn yr ail le, am nad oes ond un dysgawdwr yn ganolbwynt undeb i'r eglwys. Nid gan ei dysgawdwyr y cafodd yr eglwys ei phrynu a'i gwaredu, ac nid yw ei haelodau wedi rhwymo eu hunain i ymlynu wrth y naill ddysgawdwr mwy na'r llall. Yr oedd yr ymbleidiau hyn, gan hyny, yn cyfodi, ar un llaw, oddi ar anghof o'r berthynas sydd rhwng yr holl Gristionogion fel eu gilydd â Christ: ac ar y llaw arall, oddi ar gamsyniad am y berthynas sydd rhwng credinwyr a'u dysgawdwyr." Nid oes dim yn gwneuthur mwy o niwed i eglwys Dduw nag ymbleidio, ymrysonau, ac ymraniadau. Y mae hyn, y rhan amlaf, os nad bob amser, yn codi oddi ar anghariad a chenfigen: 1 *Cor.* iii. 3; *Gal.* v. 20.

YMBORTH. Gwel BYWYD.

YMDDIRIED: hyder, cred, goglud, dibyniad ar, a disgwyliad wrth. Y mae y gair *ymddiried* yn yr Ysgrythyrau yn gyffredinol yn arwyddo yr un peth a chredu. Dylai ein hymddiried yn yr Arglwydd fod, 1. Yn ddiragrith a hollol—ynddo yn unig ac nid mewn dim arall, ac nid mewn rhan ynddo ef, ac mewn rhan ynom ein hunain: *Diar.* iii. 5, 6. 2. Yn gyffredinol, gyda golwg ar achos ein heneidiau, a'n hamgylchiadau bydol—pethau y byd hwn a'r byd a ddaw: 1 *Pedr* v. 7. 3. Yn barhaus, ar hyd ein hoes, ac yn mhob amgylchiad: *Esa.* xxvi. 4. 4. Gyda disgwyliad bywiog am ei fendith: *Mica* vii. 7. Y mae y gefnogaeth sydd genym i ymddiried ynddo yn codi, 1. Oddi wrth ei haelioni a'i drugaredd: *Rhuf.* viii. 32; *Salm* lxxxiv. 11. 2. Ei allu: *Iago* i. 17. 3. Ei berthynas â ni fel ein Creawdwr, ein Cynnaliwr, a Duw ein hiachawdwriaeth: *Salm* ciii. 13. 4. Ei addewidion i ni yn y Gair am holl angenrheidiau corph ac enaid, mewn amser ac i dragwyddoldeb: *Esa.* xxxiii. 16. 5. Ei ymddygiad yn mhob oes tuag at y rhai a ymddiriedasant ynddo: *Gen.* xlviii. 15, 16; *Salm* xxxvii. 25. Y mae dedwyddwch y rhai a ymddiriedant ynddo ef yn fawr, os ystyriwn, 1af, Eu diogelwch: *Salm* cxxv. 1. 2il, Eu gwroldeb: *Salm* xxvii. 1. 3ydd, Eu heddwch: *Esa.* xxvi. 3. 4ydd, Eu cymmeriad a'u ffrwythlonrwydd: *Salm* i. 3. 5ed, Eu diwedd tawel a chysurus: *Salm* xxxvii. 37; *Iob*, v. 26. Gwel FFYDD.

YMDRECHWR. Gwel CAMPAU OLYMPAIDD.

YMENYN: llaeth ceuledig, i'w wahaniaethu oddi wrth laeth croyw. Yn *Gen.* xviii. 8, crybwyllir ymenyn a llaeth yn mhlith y pethau a osododd Abraham ger bron ei ymwelwyr nefol: cymmh. *Barn.* v. 25; 2 *Sam.* xvii. 29. Cynnygir llaeth yn gyffredinol i deithwyr yn Mhalestina mewn sefyllfa geuledig neu sûr, mor dew yn mron ag ymenyn. Ac yn *Deut.* xxxii. 14, yr ydym yn cael "ymenyn gwartheg" (neu yn ol y gwreiddiol, 'llaeth gwartheg') yn mhlith y bendithion, y rhai yr oedd Israel wedi eu mwynhau; lle, fel yr ymddengys, y mae llaeth gwartheg yn cael ei gyferbynu â llaeth defaid. Yn y ddwy adnod yn *Iob* (xx. 17; xxix. 6), lle y mae y gair "ymenyn" yn digwydd, mwy priodol fyddai ei gyfieithu 'llaeth;' a gellir dyweyd yr un peth am *Salm* lv. 21, yr hon y dylid ei chymmharu âg *Iob* xxix. 6. Yn *Diar.* xxx. 33, tybia Gesenius mai caws a feddylir, gan fod y gair gwreiddiol yn arwyddo gwasgiad, yn hytrach na chorddi. Nid oedd ymenyn mewn arferiad yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid ond yn unig i ddybenion meddygol; ond nid ydyw y ffaith hon o un pwys gyda golwg ar ei absennoldeb o Palestina. Crybwylla Robinson fod ymenyn yn cael ei ddefnyddio yn y dyddiau hyn, ac hefyd y dull o'i gorddi; ac oddi wrth hyn, gallwn yn ddiogel gasglu fod y gelfyddyd o wneuthur ymenyn yn hysbys i'hen drigolion y wlad, gan nad oes yn mron ddim cyfnewidiad wedi cymmeryd lle yn arferion pobl

Digitized by Google

Palestina yn ystod canrifoedd. Byddai Crist-ionogion yr Aipht yn llosgi ymenyn yn eu lamp-au, yn lle olew, yn y drydedd ganrif. Yn Affrica, gwneir ymenyn llysieuol o ffrwyth y pren a elwir *shea tree;* ac y mae ei flâs yn gryf-ach nag unrhyw ymenyn a wneir o laeth buwch. Bu treth o bum swllt y canpwys ar ddadforiad o ymenyn tramor yn y wlad yma; yr hon, yn 1859, a gynnyrchodd 104,587*p.* ar 421,354 o gan-pwysi. Ond diddymwyd hi yn 1860.

YMGELEDD: amddiffyniad, cymmhorth, gofal, arolygiaeth. Y mae y gair Hebraeg a gyfieithir "ymgeledd" yn arwyddo ymweled. "A'th ymgeledd (ymweliad) a gadwodd fy ys-bryd." Y drychfeddwl yw, fod Duw wedi gwylio drosto, ac wedi ei gadw ef, ac mai ei ymweliad parhaus ef a gadwodd, a gynnaliodd, ac a gysurodd ei ysbryd; ac oni buasai am hyny, y buasai efe wedi llwfrhau, a suddo mewn digalondid. Defnyddir y gair, yn *Gal.* iv. 2, i ddynodi golygwyr a noddwyr—"Y mae efe dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr." Y mae y blaenaf o'r ddau air hyn yn golygu yn fwyaf neillduol gwarcheidwaid neu ymddiriedolwyr, cynnrychiolwyr cyfreithiol yr etifedd, y rhai a gymmerent ofal am ei berson, ynghyd â'i addysg a'i ddygiad i fyny; tra y mae "llywodraeth-wyr" yn golygu goruchwylwyr, y rhai a ofal-ent am ei dŷ a'i feddiannau. Er ei fod yn eti-fedd, yr oedd angen ymgeleddwyr arno, o her-wydd ei fod dan oed. Amcan y geiriau ydyw dangos sefyllfa wanaidd ac ammherffaith yr eg-lwys dan yr hen oruchwyliaeth.

YMHERAWDWR—WYR (*Imperátor: Em-peror*). Yn mysg y Rhufeiniaid boreuol byddai y teitl o *ymherawdwr* (*imperátor*) yn cael ei roddi trwy floeddiadau gorfoleddus y milwyr yn y gwersyll, a chan bleidlais y senedd yn Rhuf-ain, ar gadlywydd a enwogasai ei hun trwy ladd rhyw nifer neillduol o'r gelynion.—Tacitus, "*An-nals,*" iii. 74. Yn raddol ymestynodd y term, a chymmhwysid ef at unrhyw gadlywydd a an-fonid allan ar ryfelgyrch o bwys: ond yr oedd yn parhau i fod yn deitl a roddid i ddynodi an-rhydedd arbenig. Cymmerodd Julius Cæsar ef fel cyuenw (*Imperátor Julius Cæsar*), arferiad a ddilynwyd gan ei olynwyr, fel y gellir gweled ar eu harian bathol; o'r hyn y ceir esampl yn yr arian a fathwyd gan Antonius, Aurelius, &c. Ar y tu arall i'r arian bathol hyn, yn uheyrnas-iad Aurelius, yr oedd yn gerfiedig "*Imp.* VIII." —hyny yw, ymherawdwr yr wythfed waith; yr hyn a ddengys, fel y gellir profi trwy esamplau, fod yr ymherawdwyr Rhufeinaidd yn cymmeryd y teitl yn fynych ar achlysuron arbenig, pan y byddent hwy, neu ynte eu cadfridogion, wedi ennill brwydr bwysig. Nid oedd y teitl hwn o ymherawdwr, gellir sylwi, o dan yr ymherawd-wyr boreuol, i'w ystyried fel yn dynodi unrhyw allu neu awdurdod penadurol. Rhoddid ef ar bersonau ereill ar yr achlysur o lwyddiant mil-wraidd mawr, a hyny mor ddiweddar ag amser Hadrian; ac fe allai hefyd yn ddiweddarach.

Ar ol amser Antonines, ymddengys fod y teitl o ymherawdwr wedi dyfod yn raddol i arferiad cyffredin, fel un o'r teitlau a roddid ar benadur y byd Rhufeinaidd, er fod y gair *princeps* (ym-adrodd yn golygu penaeth, tywysog, neu ar-glwydd) wedi ei ddefnyddio am amser maith fel yn arwyddo yr un gradd ac awdurdod. Y mae yn anhawdd penderfynu yn fanwl pa bryd y daeth y gair *ymherawdwr* i gael ei ddefnyddio yn hollol er gosod allan y penadur llywodraethol yn Rhufain. Yn ei arweiniad i mewn i'r deddf-lyfr "*De Conceptione Digestorum,*" y mae Jus-tinian yn cymmeryd y teitl hwn—Ymherawdwr Cæsar Flavius Justinianus, &c. Yn y rhagar-weiniad i'r "*Institutes,*" defnyddia Justinian yr ymadroddion ei "fawrhydi ymherodrol" i osod allan ei awdurdod penadurol, ac etto yn yr un paragraph y mae yn galw ei hun *Princeps*—term oedd wedi disgyn i lawr o ddyddiau y Werin-iaeth, ac yn arwyddo y flaenoriaeth a roddid i un o aelodau neillduol y senedd. Mabwysiad-wyd y teitl hwn gan Augustus fel y teitl o urddas y teimlid lleiaf o genfigen tuag ato, a chymmhwyswyd ef wedi hyny at ei olynwyr.

Oddi wrth ymherawdwyr y gorllewin y dis-gynodd y teitl hwn, yn B. A. 800, i Charlemagne, neu Siarl Fawr, sylfaenydd ail ymherodraeth Almaenaidd y gorllewin. Pan ddarfu y gangen Almaenaidd o deulu Charlemagne, y gwnaed y goron ymherodrol yn un etholiadol, a pharhaodd i fod felly hyd y ganrif ddiweddaf. Rhoddwyd heibio y teitl o Ymherawdwr yr Almaen gan Francis II., yr hwn a gymmerodd yn ei le y teitl o Ymherawdwr Awstria. Ond fe ddarfu i Frederick William, brenin Prwssia, adnewyddu y teitl o Ymherawdwr yr Almaen, a'i gymmeryd arno ei hun yn y fl. 1871. Defnyddiwyd y teitl ymherodrol gan Napoleon Fawr yn Ffraingc, a chan Napoleon III. wedi hyny. Ond nid oes yn awr ond penaduriaid Awstria, Rwssia, a Phrws-sia yn eu defnyddio yn Ewrop. Darfu i benad-uriaid Rwssia, ynghylch y flwyddyn 1520, gyf-newid y teitl o dduc neu ucheldduc Rwssia, am yr un o Czar neu Tzar. Mewn amseroedd bor-euol, haerid gan y rheithofyddwyr fod perchen-ogiad o'r goron ymherodrol yn rhoddi i ymher-awdwyr yr Almaen, fel penaduriaid y byd mewn enw, uchafiaeth ar holl frenhinoedd Ew-rop, er na cheisiwyd erioed i gario hyny allan yn ymarferol, a'u bod yn gwadu bodolaeth unrhyw ymherodraeth arall: ond er hyn y mae yn eithaf sicr fod amryw o frenhinoedd Ffraingc yn galw eu hunain yn ymherawdwyr. Mewn breinlen a roddwyd ganddo i Oswald, esgob Winchester, galwai y brenin Edgar ei hun yn *basileus;* yr hwn sydd yn mron yn gyfystyr â'r gair *ymher-awdwr.* Alfonso VII. hefyd, yn y ddeuddegfed ganrif, a alwai ei hun yn ymherawdwr Yspaen. Yn 1876, pasiwyd deddf fol, a di-alw am dani, yn senedd Prydain Fawr yn gwneyd y frenhines Victoria yn Ymherodres India; a gwnaed y cy-hoeddiad ffurfiol o honi yn Delhi, gan arglwydd raglaw India, ar y laf o Ionawr, 1877.

YMLUSGIAID: anifeiliaid heb draed, neu y cyfryw draed byrion fel y maent yn ymddangos yn ymlusgo ar y llawr. Rhestrir seirph, locust-iaid, a llindys yn mhlith yr ymlusgiaid. Y mae yr Hebreaid yn rhoddi pysgod hefyd yn mhlith yr ymlusgiaid (gan nad oes ganddynt draed), beth bynag fo eu natur neu eu ffurf; *Gen.* i. 21.

YMNEILLDUAETH. Gwel ANGHYDFFURF-IAETH.

YMPRYD: ymattaliad gwirfoddol hollol, neu mewn rhan, oddi wrth fwydydd; yn enwedig yr ymattaliad hwnw a arferir pan yn ymostwng yn edifeiriol am bechod, gan ymbil am drugaredd; *Barn.* xx. 26; *Mat.* xv. 32. Yr unig ymadrodd a ddefnyddir yn y gyfraith i ddynodi yr arferiad

Digitized by Google

crefyddol o ymprydio yw "cystuddio yr enaid;" *Lef.* xvi. 29—31; xxiii. 27; *Num.* xxx. 13.

Un ympryd yn unig a orchymynwyd gan y gyfraith; sef, ar ddydd gŵyl y Cymmod. Ni chrybwyllir am unrhyw ympryd cyfnodol arall yn yr Hen Destament, oddi eithr yn *Zech.* vii. 1—7; viii. 19. Oddi wrth yr adnodau hyn, ymddengys fod yr Iuddewon, yn ystod eu caethiwed, yn ymprydio bedair gwaith yn y flwyddyn—yn y pedwerydd, y pummed, y seithfed, a'r degfed mis. Pan oeddynt wedi dechreu adeiladu yr ail deml, anfonodd y rhai oeddynt wedi aros yn Babilon genadwri at yr offeiriaid yn Ierusalem i ofyn, pa un a ddylid rhoddi i fyny gadw ympryd y pummed mis. Cymmerodd y prophwyd achlysur i geryddu yr Iuddewon am yr ysbryd ammhriodol yn yr hwn yr oeddynt wedi cadw ympryd y seithfed mis, yn gystal ag ympryd y pummed mis (vii. 5—6); ac wedi hyny (viii. 19), gan roddi gwedd efengylaidd i'r pwngc, y mae yn dyweyd y tröir y pedwar ympryd yn "llawenydd a hyfrydwch." Nid ydyw Zechariah ond yn unig yn gwahaniaethu yr ymprydiau oddi wrth y misoedd yn y rhai y cedwid hwynt; ond y mae y "*Mishna*" ac S. Jerome yn rhoddi hanes rhyw ddigwyddiadau hanesiol, y rhai y bwriadwyd hwynt i gadw coffadwriaeth am danynt; sef,

Ympryd y pedwerydd mis.—Toriad llechi y gyfraith gan Moses (*Exod.* xxxii.), ac ystormiad Ierusalem gan Nebuchodonosor: *Ier.* lii.

Ympryd y pummed mis.—Dychweliad yr ysbïwyr, &c. (*Num.* xiii.; xiv.), a llosgiad y deml gan Nebuchodonosor, a thrachefn gan Titus; ac arddiad i fyny safle y deml, gyda chwymp Bether, yn yr hon yr oedd nifer mawr o Iuddewon o Ierusalem wedi cymmeryd noddfa yn amser Hadrian.

Ympryd y seithfed mis. — Llwyr anrheithiad Ierusalem gan Nebuchodonosor, a marwolaeth Gedaliah; 2 *Bren.* xxv.

Ympryd y degfed mis.—Derbyniad y newydd gan Ezeciel, a'r caethion ereill yn Babilon, am ddinystr Ierusalem.

Y mae rhai digwyddiadau ereill a grybwyllir yn y "*Mishna*" yn cael eu gadael allan fel rhai dibwys. O'r rhai a enwir uchod, nis gallai fod dim a wnelai amryw o honynt â'r ymprydiau yn amser y prophwyd. Mae'n ymddangos, oddi wrth y dull yn mha un y mae efe wedi eu cyssylltu hwynt ynghyd, mai amcan gwreiddiol y pedwar mis oedd cadw coffadwriaeth am yr amgylchiadau cyssylltiedig â dechreuad y caethiwed, a bod y digwyddiadau eraill wedi eu cyssylltu â hwynt ar ol hyny, ar sail rhyw gyddarawiad gwirioneddol neu ddychymygol yn yr amser y cymmerasant le. Gyda golwg ar ympryd y pummed mis, o leiaf, nid oes unrhyw ammheuaeth nad oedd yr Iuddewon yn ei gymmhwyso yn hollol at ddinystr y deml, a bod S. Jerome yn iawn wrth ystyried y ffaith nad oedd iddo mwyach un amcan ar ol dechreu adeiladu y deml newydd fel rheswm digonol dros beidio ei gadw. Gan fod yr ympryd hwn, yn gystal a'r tri ereill, yn cael ei gadw etto yn y Calendar Iuddewig, rhaid i ni gasglu, naill ai nad oedd yr offeiriaid yn cyttuno âg Iuddewon Babilon, neu fod yr ympryd, ar ol cael ei roddi i fyny am amser, wedi ei adnewyddu ar ol dinystr y deml gan Titus.

Y mae nifer yr ymprydiau blynyddol yn y Calendar Iuddewig wedi eu lliosogi i wyth-arhugain—rhestr o ba rai a roddir gan Reland.

Yn achlysurol, cedwid ymprydiau cyhoeddus, i arddangos ymostyngiad cenedlaethol o herwydd pechod neu anffawd, neu i ofyn am y ffafr Ddwyfol gyda golwg ar ryw anturiaeth fawr, neu ryw berygl bythgofiadwy. Pan y byddai y perygl yn fawr, ymddengys y byddai y proclamasiwn yn cael ei wneuthur gyda chwythad udgyrn; *Ioel* ii. 1—15. Cofnodir yr enghreifftiau canlynol o ymprydiau hollol genedlaethol:—Casglodd Samuel "holl Israel" i Mispah, a chyhoeddodd ympryd, gan, ar yr un pryd gyflawni math o ddefod arwyddluniol o buredigaeth, pan gyffesodd y bobl eu pechod yn gwasanaethu Baalim ac Astaroth (1 *Sam.* vii. 6):—appwyntiodd Iehosaphat un "trwy holl Iudah" pan yr oedd yn parotoi y rhyfel yn erbyn Moab ac Ammon (2 *Cron.* xx. 3):—yn nheyrnasiad Iehoiacim, cyhoeddwyd un i'r "holl bobl yn Ierusalem, i'r holl bobl a ddaethent o ddinasoedd Iudah i Ierusalem," pan y darllenwyd prophwydoliaeth Ieremiah yn gyhoeddus gan Baruch (*Ier.* xxxvi. 6—10):—tri diwrnod ar ol gŵyl y Pebyll, pan y gorphenwyd yr ail deml, "meibion Israel a ymgynnullasant mewn ympryd, ac mewn sachliain, a phridd arnaddynt," i wrandaw ar ddarlleniad y gyfraith, ac i gyffesu eu pechodau; *Neh.* x. 1. Ceir cyfeiriaidau at ymprydiau cyffredinol gan y prophwydi (*Ioel* i. 14; ii. 15; *Esa.* lviii.), a chrybwyllir am ddau o'r cyfryw yn llyfrau y Maccabeaid: 1 *Macc.* iii. 46—47; 2 *Macc.* xiii. 10—12.

Y mae cryn nifer o enghreifftiau o ddinasoedd a chyrph o ddynion yn ymprydio ar achlysuron oedd yn dal perthynas arbenig â hwynt. Yn nyddiau Phinees, ŵyr Aaron, pan yr oedd gwŷr Iudah wedi eu gorchfygu gan wŷr Beniamin, hwy a ymprydiasant wrth ymbarotoi erbyn brwydr arall: *Barn.* xx. 26. Ymprydiodd Dafydd a'i wŷr hefyd am ddiwrnod o herwydd marwolaeth Saul (2 *Sam.* i. 12): ac ymprydiodd gwŷr Iabes Gilead saith niwrnod hefyd ar gladdedigaeth Saul; 1 *Sam.* xxxi. 13. Appwyntiodd Iezebel, yn enw Ahab, ympryd i drigolion Iezreel—i hynodi, fel yr ymddengys, y gospedigaeth oedd ar gael ei gweinyddu ar Naboth; 1 *Bren.* xxi. 9—12. Cyhoeddodd Ezra ympryd i'w gymdeithion wrth afon Ahafa, pan yr oedd efe yn gofyn am help ac arweiniad Duw yn y gwaith yr oedd efe ar ymgymmeryd âg ef; *Ezra* viii. 21—23. Pan yr oedd Esther yn myned i eiriol gydag Ahasferus, hi a orchymynodd i Iuddewon Susan beidio bwyta nac yfed am dri diwrnod: *Esth.* iv. 16.

Fe allai y gellir cael profion yn y bennod gyntaf a'r ail o Lyfr Ioel fod ymprydiau o herwydd tywydd drwg a newyn yn cael eu cynnal.

Cydnabyddir ymprydiau personol achlysurol mewn un adnod yn y gyfraith; *Num.* xxx. 13. Ceir llawer iawn o enghreifftiau o bersonau yn ymprydio dan ddylanwad gofid, poen, neu bryder: 1 *Sam.* i. 7; xx. 34; 2 *Sam.* iii. 34; xii. 16; 1 *Bren.* xxi. 27; *Ezra* x. 6; *Neh.* i. 4; *Dan.* x. 3. Wrth gwrs, y mae ymprydiau Moses (*Exod.* xxiv. 18, xxxiv. 28; *Deut.* ix. 18) ac Elias (1 *Bren.* xix. 8) am ddeugain niwrnod, i'w hystyried fel gweithredoedd arbenig o ddysgyblaeth ysbrydol, ac fel cysgodau gwanaidd, ond hynod, o'r ympryd hwnw yn anialwch Iudea, yr hwn sydd yn taflu goleuni ar bob gwir ympryd.

Yr unig gyfeiriadau yn y Testament Newydd at ymprydiau Iuddewig yw y crybwylliadau am "yr ympryd" yn *Act.* xxvii. 9 (yr hwn, fel y

Digitized by Google

deallir yn gyffredinol, oedd yr ympryd ar ddydd y cymmod), a'r cyfeiriadau at yr ymprydiau wythnosol: *Mat.* vi. 16, a ix. 14; *Marc* ii. 18; *Luc* v. 33, xviii. 12; *Act.* x. 30. Dechreuodd ymprydiau beth amser ar ol y caethiwed. Cedwid hwynt ar yr ail a'r pummed dydd o'r wythnos; y rhai, gan eu bod wedi eu pennodi fel dyddiau ympryd cyhoeddus, a ddewiswyd, fel yr ymddengys, i'r ymprydiau gwirfoddol hyn. Dywed y "*Gemara*" eu bod wedi eu dewis o herwydd ddarfod i Moses fyned i ben Mynydd Sinai ar y pummed dydd, a dyfod i lawr ar yr ail.

Rhagfynegir amser o ympryd i gredinwyr yn Nghrist yn *Mat.* ix. 15, a rhoddir gocheliad ar y pwngc yn *Mat.* vi. 16—18. Siaredir am ympryd a gweddi fel ffynnonellau mawrion nerth ysbrydol yn *Mat.* xvii. 21; *Marc* ix. 29; 1 *Cor.* vii. 5.

Cedwid yr ymprydiau Iuddewig gydag amrywiol raddau o fanylrwydd. Weithiau, llwyr ymattelid oddi wrth fwyd: *Esth.* iv. 16, &c. Ar achlysuron eraill, ymddengys nad oeddynt ond yn unig yn cyfyngu eu hunain i fwyd syml: *Dan.* x. 3. Ceir rheolau yn y "*Talmud*" gyda golwg ar y dull yn yr hwn y dylid ymprydio ar achlysuron neillduol. Yn ol Josephus, ystyrid fod ympryd y dydd yn terfynu gyda machlud haul; ac y mae Jerome yn siarad am yr Iuddewon ymprydiol fel rhai a ddisgwylient yn awyddus am godiad y sêr. Ni chedwid ymprydiau ar y Sabbothau, y newydd-loerau, y gwyliau mawrion, na dyddiau y Purim a'r Cyssegriad.—*Iudith* viii. 6.

Byddai y rhai a ymprydient yn fynych yn ymwisgo mewn sachlïan, neu yn rhwygo eu dillad, ac yn rhoddi lludw ar eu penau, neu yn cerdded yn droednoeth: 1 *Bren.* xxi. 27; *Neh.* ix. 1; *Salm* xxxv. 13. Ond yr hyn oedd yn cyfansoddi gwir werth ympryd yn ngolwg Duw oedd yr hyn a amlygir yn yr hen air a ddefnyddir yn y gyfraith; sef, "cystuddio'r enaid." Dengys rhybuddion mynych a bygythion llymion y prophwydi mor dueddol oedd yr Iuddewon, yn eu hymprydiau ffurfiol, i golli y drychfeddwl o ddysgyblaeth ysbrydol, ac i edrych arnynt fel pethau oeddynt ynddynt eu hunain yn foddion i ennill ffafr Duw; neu, mewn ysbryd gwaeth fyth, i wneuthur arddangosiad o honynt mewn trefn i ymddangos yn grefyddol ger bron dynion: *Esa.* lviii. 3; *Zech.* vii. 5, 6; *Mal.* iii. 14; cymmh. *Mat.* vi. 16.

Pa mor ysgafn bynag yr edrycha rhai ar ymprydiau crefyddol, ymddengys ei fod yn cael ei arfer o'r amser boreuaf gan y rhan fwyaf o genedloedd hynaf ac enwocaf y byd. Yr oedd gan yr Aiphtiaid, y Phœniciaid, a'r Assyriaid eu hymprydiau, yn gystal a'r Iuddewon. Haera Porphyry y byddai yr Aiphtiaid bob amser, cyn eu haberthau sefydlog, yn ymprydio am lawer o ddyddiau; weithiau am chwech wythnos. Ymprydiai y Groegiaid i raddau helaeth yn yr un dull. Yn Rhufain, ymprydiai brenhinoedd ac ymherawdwyr. Dywedir wrthym hefyd fod gan Ninna Pompilius, Iulius Cæsar, Augustus, Vespasian, ac eraill, eu dyddiau ympryd sefydlog; a chedwid hwy mor fanwl gan Iulian y Gwrthgiliwr, fel yr oedd efe yn hyn yn rhagori hyd yn oed ar yr offeiriaid eu hunain. Mynych yr ymprydiai y Pythagoreaid yn llym am amser maith; a dywedir y byddai Pythagoras, eu meistr, yn ymprydio am ddeugain niwrnod gyda'u gilydd. Y mae gan y Brahminiaid a'r Chineaid hefyd eu hymprydiau sefydlog.

YMWAHANWYR. Y mae amrywiol gyrph crefyddol wedi derbyn yr enw hwn, neu wedi cael eu galw wrtho. Mewn amserau Pabaidd, gelwid Protestaniaid weithiau felly, a chondemnid hwynt fel y cyfryw. Mewn amserau mwy diweddar, yr oedd y boneddwr tra adnabyddus, John Walker, o Dublin, yn weinidog ar gorph o Ymwahanwyr manwl, y rhai a wrthodent gymmuno gydag unrhyw blaid arall. Blaenorid corph arall o Ymwahanwyr Iuddewig gan Mr. Kelly. Y mae Ymwahanwyr yn fynych yn myned yn bobl feilchion a chwyddedig, ac y maent yn condemnio cyrph eraill yn ddiarbed. Credant fod ganddynt hawl i feio a chondemnio pawb sydd yn coleddu syniadau gwahanol iddynt hwy.

YMWYBYDDIAETH. I. Ymwybyddiaeth, fel gweithrediad meddyliol. Y wybodaeth sydd genym o'r *myfi* personol a berthyn i ni, ac o'i amrywiol sefyllfaoedd—pa un bynag ai gwybod, teimlo, ai ewyllysio. Yn mhob un o'r sefyllfaoedd uchod, y mae yr enaid yn ymwybod; hyny yw, yn gwybod ei fod yn gwybod, yn gwybod ei fod yn teimlo, yn gwybod ei fod yn ewyllysio. Y mae yn gwybod ei hun ynddynt oll fel gweithredydd, yn gystal a gwybod y sefyllfaoedd eu hunain fel gwrthddrychau. Y mae yn ymwybod yn y weithred o wybod. Y mae y naill yn gydfynedol ac yn gymmhlethedig â'r llall. O herwydd hyn, gelwir hi yn yr iaith Saesneg, ar ol y Groegiaid, yn *consciousness;* hyny yw, cydwybyddiaeth—am fod ein gwybodaeth am bob gwrthddrych allanol, ac o sefyllfaoedd amrywiol y meddwl, yn dwyn gyda hi, megys, ein gwybodaeth am danom ein hunain fel gweithredyddion. Yn ngoleuni ymwybyddiaeth, gan hyny, y gwelwn ni oleuni, yn yr enaid; ac hebddo, nis gallwn weled dim. O herwydd hyn golygir ymwybyddiaeth gan athronwyr yn fynych fel goleuni neu weledigaeth fewnol, yn yr hon yn unig y gwneir yn weledig a gweladwy bob peth a gymmer le yn yr enaid. Drachefn, am yr un rheswm, nis gellir deffinio, er y gellir disgrifio ymwybyddiaeth. Am ei fod yn wreiddyn ein holl wybodaeth, ac fel y cyfryw, yn taflu goleuni ar bob peth, nis gallwn gael dim i daflu goleu arno ond yn unig ef ei hunan yn y profiad o hono. Os dywedir, fel y gwna rhai, mai teimlad ydyw, gwelir ar unwaith fod y teimlad yn beth ag yr ydym yn ymwybyddol o hono; ac felly y rhaid i ni ddyfod yn ol at ymwybyddiaeth. Mewn gair, eglurir ymwybyddiaeth fel teimlad, a theimlad drachefn fel ymwybyddiaeth:—enghraifft o ymresymu mewn cylch. Gellir dyweyd yr un peth gyda golwg ar unrhyw ddeffiniad arall; megys, mai crediniaeth, neu wybodaeth, neu gynnwysiad mewnol ydyw. Os dad-elfenwn y drychfeddwl o ymwybyddiaeth, cawn allan ei fod yn cynnwys tri o bethau; sef, 1. Y myfi, fel gweithredydd. 2. Y myfi, fel gwrthddrych. 3. Y berthynas rhwng y naill a'r llall o ran gwybodaeth. Y trydydd o'r rhai uchod sydd mewn modd arbenig yn dynodi y weithred neillduol o ymwybod. Gwelir ar unwaith fod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth yn cynnwys ac yn rhagdybied y naill y llall. Y mae gwybodaeth yn rhagdybied ymwybyddiaeth, ac y mae ymwybyddiaeth yn golygu gwybodaeth. Yn y naill, yr ydym yn gwybod; yn y llall, yn gwybod ein bod yn gwybod. Nis gellir eu gwahanu, ond rhaid eu gwahaniaethu. Mewn ymwybyddiaeth, fel gweithred o wybodaeth, y mae y meddwl yn talu mwy o sylw iddo

Digitized by Google

ei hun fel gweithredydd nag i'r hyn sydd yn cyfansoddi gwrthddrych y wybodaeth; ond mewn gwybodaeth, telir mwy o sylw i'r gwrthddrych a wybyddir nag i'r myfi sydd yn gwybod. Y mae y wybodaeth a gynnwysir mewn ymwybyddiaeth yn un weithredol—nid yn un bossibl; hyny yw, y mae o flaen y meddwl ar y pryd. Hefyd, y mae yn un uniongyrchol a phresennol—nid yn un anuniongyrchol a gorphenol. Yn nesaf, y mae yn golygu gweithred o wahaniaethu. Yr ydym yn ymwybyddol o rywbeth: ond nis gallwn fod yn ymwybyddol o ddim. Ac yr ydym yn golygu y rhywbeth hwnw fel peth i'w wahaniaethu oddi wrth yr hyn nid ydyw, neu oddi wrth bethau eraill.

Y mae yn gwestiwn ag sydd wedi ei ddadleu rhwng athronwyr, pa un ai gallu neu gynneddf neillduol ydyw ymwybyddiaeth, ynte sefyllfa gyffredinol y meddwl yn mhob gweithrediad o'r eiddo—pa un ai ymwybyddiaeth sydd yn allu, ai ein galluoedd neillduol, yn ffurfiau amrywiol o'n hymwybyddiaeth. Y mae Reid a Stewart yn hôni mai gallu ydyw ymwybyddiaeth sydd yn cael ei gyfyngu at weithrediadau y meddwl ei hun ar wahân oddi wrth eu gwrthddrychau. Yr ydym yn gwybod, yn ol y golygiad hwn, ein bod yn gwybod, yn teimlo, yn ewyllysio; ond nid ydym yn meddu ymwybyddiaeth o wrthddrychau ein gwybodaeth, ein teimladau, a'n hewyllysiau. Ond y mae Hamilton wedi dangos yn eglur a chryf fod hyn yn afresymol gyda golwg ar weithrediadau holl alluoedd y meddwl. Nis gallwn wybod y perthynasol heb wybod y ddwy ochr i'r berthynas. Y mae gwybod pa beth ydyw tad yn golygu gwybod pa beth ydyw y cyd-berthynas, sef plentyn; ac nis gallwn ni wybod y naill heb wybod y llall. Yn awr, nid ydyw ein gwybodaeth yn ddim ond perthynas; hyny yw, gallu i ganfod perthynas dau ddrychfeddwl; ac am hyny rhaid i'r meddwl fod yn abl i wybod y cyfryw. Y mae ymwybyddiaeth fel hyn yn weithred bur o wybodaeth, yn weithred ddeallol. Gall fod y sefyllfaoedd o eiddo y meddwl sydd yn wrthddrychau iddi fod naill ai yn ddeall, teimlad, neu ewyllys; ond y mae y weithred drwy ba un yr ydym yn ymwybod y cyfryw, o angenrheidrwydd, yn un ddeallol. Y mae yn weithred uniongyrchol o wybodaeth heb angen oll am gof nac ymresymiad. Ei chynnyrch ydyw drychfeddwl. Y mae yn weithrediad neillduol o wybyddiaeth o ran ei natur ac ar ei phen ei hun, o herwydd fod ei gwrthddrych a hi ei hun fel gweithrediad yr un; ac nid fel y mae gyda gweithrediadau eraill gwybodaeth, yn y rhai y mae yn rhaid i'r gwrthddrych fod cyn i'r meddwl ei wybod. Mewn ymwybyddiaeth y mae y gwrthddrych a'r weithred o'i wybod yn gydfynedol, nid yn unig o ran amser, ond hefyd o ran trefn meddwl; ac am hyny nis gellir ei olygu, fel y gwna rhai (Herbert Spencer, er enghraifft), fel cof. Yn wir, y mae y cof ei hun yn ammhossibl, ond ar y dybiaeth fod ymwybyddiaeth yn gydfynedol â'n gwybodaeth, ein teimlad, neu ein hewyllys; canys pa fodd y gallwn gofio yr hyn nad oeddym yn ei wybod, ac yn ei ymwybod pan y cymmerodd le? Nid oes dim grym chwaith yn yr wrthddadl fod yr iaith a ddefnyddir i osod allan ymwybyddiaeth yn dangos fod ymwybyddiaeth yn ystyr cyffredin y gair yn ammhossibl. Y mae y weithred o wybod, meddir, a'r gwrthddrych a wybyddir, yn cael eu gosod allan gan ddau ymadrodd gwahanol, ac felly nis gallant gydfyned â'u gilydd mewn un gweithrediad meddyliol. Digon ydyw atteb ar hyn fod genym enghreifftiau lliosog o fod geiriau gwahanol yn cael eu defnyddio i osod allan yr hyn yr ydym yn ei wahaniaethu yn y meddwl, ond nas gallwn ei wahanu mewn amser nac mewn ffaith. Er enghraifft o'r diweddaf, nis gallwn wahanu hyd oddi wrth led mewn arwynebedd, pan yr ydym o dan angenrheidrwydd i'w gwahaniaethu. Hefyd, y mae yn deilwng o sylw mai gwrthddrych priodol ymwybyddiaeth ydyw bod, neu rhyw sefyllfa, neu ystâd berthynol i fod. Fel gweithrediad, ymadferth gweithredydd neu fod ydyw ymwybyddiaeth, ond fel gwrthddrych bod ysbrydol ydyw, yr hwn a wahaniaethir oddi wrth y weithred drwy yr hon y mae yn cael ei adnabod a'i olygu fel bod gwirioneddol. Dyma, yn ddiau, ydyw ystyr dyfnaf dywediad Descartes—"*Cogito ergo sum,*" *h. y.*, Yr wyf yn meddwl, ac am hyny yr wyf yn bod. Nid yr ystyr ydyw yn unig ein bod yn casglu ein bodolaeth oddi wrth y ffaith o'n bod yn meddwl, ond fod y ffaith o'n bod yn meddwl mewn ymwybyddiaeth yn golygu ynddo ei hun ein bod yn dyfod wyneb yn wyneb â'n bodolaeth ein hunain, ac yn cael y sicrwydd uchaf o hono; yr hyn a ddengys i ni gywirdeb y dywediad fod ammheuaeth yn ammhossibl, os addefwn wirionedd ymwybyddiaeth—a pha fodd y gallwn wadu hyny heb wrthddywedyd ein holl natur? Trwy yr un ystyriaeth cadarnheir a sefydlir hefyd wirionedd y perthynasau a berthynant i fodolaeth—eu gwahaniaeth, a'u cyffelybrwydd.

II. Ymwybyddiaeth, fel ffynnonell ac offeryn ein gwybodaeth ynghylch gweithrediadau a sefyllfaoedd y meddwl. Prin y mae angen profi mai ymwybyddiaeth ydyw gwir ffynnonell a moddion ein gwybodaeth am y meddwl; o herwydd y mae yn cael ei addef yn gyffredinol gan athronwyr. O ganlyniad, yr ydym i dderbyn tystiolaethau ein hymwybyddiaeth fel gwirionedd sicr a dadguddiad anffaeledig ar y pethau hyn; neu os na wnawn hyny, rhaid i ni roddi i fyny bob ymgais at ffurfio athroniaeth feddyliol; canys hanfod y cyfryw ydyw dwyn allan yn drefnus a rheolaidd yr hyn y mae ymwybyddiaeth yn ei dystio i ni. Y mae gan hyny o'r pwys mwyaf i'r deddfau hyny, o dan ba rai y gellir yn deg gymmhwyso ymwybyddiaeth fel moddion, i ystyried a deall gweithrediadau meddyliol. Y mae Syr William Hamilton yn gosod y cyfryw i lawr fel y canlyn:—1af, Ni ddylid cymmeryd dim yn ganiataol fel ffaith o ymwybyddiaeth, ond yr hyn sydd yn syml a therfynol. Geilw hon yn "ddeddf cynnildeb," am ei bod yn ein dysgu i gyfyngu. Nid pob ymddangosiad neu weithrediad o eiddo y meddwl, ebe fe, sydd yn deilwng o gael eu hystyried a'u galw yn "ffeithiau ymwybyddiaeth;" ond y rhai hyny yn unig ag sydd o natur cyffredinol—megys, er enghraifft, y gwahaniaeth a wneir yn y meddwl, a chan y meddwl rhwng y *myfi* a'r *nid myfi*. Nis gallwn ddattod y ffaith feddyliol hon i un arall symlach a mwy cyffredinol: y mae yn derfynol, ac am hyny y mae yn ffaith ymwybyddiaeth yn ystyr priodol y gair. Y mae hefyd yn elfen pob cyfuniad o eiddo y deall, ac am hyny y mae hi yn egwyddor gyntefig. Drachefn, adwaenir ffeithiau ymwybyddiaeth wrth eu nodwedd o angenrheidrwydd, yn gystal ag wrth eu cyffredinolrwydd. Y maent yn gyfryw ag y byddai yn wrthddywediad i'w gwadu, ac yn ammhossibl i ni beidio a'u credu a'u meddwl. Heb law hyny, y mae ffeithiau mawr a sylfaenol

Digitized by Google

ymwybyddiaeth yn cynnwys eu rheswm ynddynt eu hunain. Nis gallwn ofyn am eu *pa fodd*, neu eu *pa ham*. Nid oes ganddynt y cyfryw; canys pe byddai ganddynt, byddai y cyfryw yn ffeithiau mwy cyffredinol na hwy eu hunain, ac felly ni byddent mwyach yn ffeithiau ymwybyddiaeth. Y mae ffeithiau ymwybyddiaeth yn ddau fath; sef, yn gyntaf, y rhai a roddir yn ein hymwybyddiaeth ar wahân oddi wrth yr ystyriaeth o'u gwirionedd fel ffeithiau ynddynt eu hunain; ac yn ail, y rhai a roddir nid yn uniongyrchol yn yr ymwybyddiaeth ei hun, ond ganddo fel prawf neu dystiolaeth. Er enghraifft, y mae yn ffaith mewn ymwybyddiaeth fod y meddwl yn gwahaniaethu rhwng y *myfi* a'r *nid myfi* yn ei holl weithrediadau. Y mae hyn yn ffaith sicr a diammheuol; ac nid oes neb a feddylia am ei gwadu am foment. Ond y mae y casgliad a wneir gan y meddwl, fod y gwahaniaeth hwn sydd yn cael ei wneyd gan y meddwl rhwng y *myfi*, a'r *nid myfi*, yn un cywir a gwirioneddol, ac yn ffaith arall o eiddo ein hymwybyddiaeth, ac hefyd yn wahanol o ran ei natur. Gellir ei gwadu heb wrthddywediad o leiaf; ac yn wir, y mae y rhan liosocaf o athronwyr wedi ei gwadu: yr hyn sydd yn dangos nad ydyw hi yn ffaith o'r un natur, ac yn meddu yr un hunan-sicrwydd a'r llall.

II. Yr ail ddeddf ydyw, fod yn rhaid i'r meddwl gymmeryd i'r cyfrif yr holl ffeithiau perthynol i ymwybyddiaeth; sef, y cyfryw ag a ddarluniwyd uchod. Gelwir hon yn Ddeddf Cyfanrwydd.

III. Na ddylid cymmeryd i ystyriaeth ond y ffeithiau uchod. Gelwir hon yn Ddeddf Cysondeb.

Mewn gair, nis gall y meddwl ffurfio un gyfundraeth feddyliol gywir heb gynnwys a dadblygu ffeithiau ymwybyddiaeth, a hyny heb dynu oddi wrthynt, eu gŵyrdroi, na chwaith chwanegu atynt; ac fel hyn gael allan yr hyn y mae ymwybyddiaeth yn ei dystio "fel gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir," am dano ei hunan.

Gyda golwg ar athroniaeth feddyliol fel ffrwyth ymwybyddiaeth adfyfyrdodol, gwel d.g. ARISTOTLE, PLATO, SPINOZA, KANT, a HEGEL.

YMYSGAROEDD.—Defnyddir y gair *ymysgaroedd* yn fynych gan yr ysgrifenwyr Hebreaidd am y rhanau tumewnol yn gyffredinol—y dyn oddi mewn, ac hefyd 'y galon,' fel yr ydym ni yn arfer yr enw hwnw. O herwydd hyn, edrychir ar yr ymysgaroedd fel eisteddle tynerwch, trugaredd, a thosturi. Dywedir yn yr Ysgrythyrau fod yr "ymysgaroedd yn cyffroi," i ddynodi fod cyfyngder neu bryder meddyliol mawr yn effeithio ar yr holl gyfansoddiad tumewnol. Priodolir ymysgaroedd i'r Arglwydd, i arddangos ei fod ef yn llawn o drugaredd a thosturi. Y mae yr ymadrodd "ymysgaroedd Iesu Grist" (*Phil.* i. 8) yn arwyddo y cydymdeimlad mwyaf tyner, a'r cariad mwyaf gwresog, wedi eu cynnyrchu gan Ysbryd Crist yn y galon. Dengys mai cariad Crist ydoedd yn ysgogi yn nghalon Paul—fel pe buasai person yr apostol yn y fath undeb â pherson Crist, fel yr oedd calon Crist yn curo yn ei fynwes. Nid hiraethu am danynt yn ei ymysgaroedd ei hun y dywed yr apostol ei fod, ond yn ymysgaroedd Iesu Grist: yr un peth a phe y dywedasai fod Iesu Grist yn hiraethu am danynt. Defnyddir y gair weithiau fel eisteddle doethineb a deall: *Iob* xxxviii. 36; *Salm* i. 10; *Esa.* xvi. 11. Gwel DYN.

YNDINIAID: plaid grefyddol yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yr hon oedd yn credu mai nerth neu allu Crist, ac nid arwydd o ddrylliad ei gorph a thywalltiad ei waed oedd Swper yr Arglwydd.

YNYSOEDD. Gwel DAEARYDDIAETH.

YNYS—OEDD. Ystyr gwreiddiol y gair Hebraeg ydyw 'lle preswyliedig;' mewn cyferbyniad i ddwfr; ac yn yr ystyr hwn y mae yn digwydd yn *Esa.* xlii. 15. O herwydd hyn, ei ail ystyr ydyw unrhyw ddosbarth arforawl, yn perthyn i gyfandir neu ynys: fel hyn, defnyddir ef am làn Môr y Canoldir (*Esa.* xx. 6; xxiii. 2, 6), ac am ynysoedd Elisah (*Ezec.* xxvii. 7); *h.y.*, Groeg, ac Asia Leiaf. Yn yr ystyr hwn, cyfyngir ef yn fwyaf neillduol i lenydd Môr y Canoldir, weithiau, yn yr ymadrodd oddi ar "ynysoedd y môr" (*Esa.* xi. 11), neu "ynysoedd y Cenhedloedd" (*Gen.* x. 5; cymmh. *Zeph.* ii. 11); ac weithiau yn unig fel "ynysoedd" (*Salm* lxxii. 10; *Ezec.* xxvi. 15, 18; xxvii. 3, 35; xxxix. 6; *Dan.* xi. 18). Y mae eithriad i hyn, modd bynag, yn digwydd yn *Ezec.* xxvii. 15, lle y mae yn dynodi glanau y culfor Persiaidd. Yn achlysurol, y mae y gair yn cael ei ddefnyddio yn arbenig am ynys, megys am Caphtor neu Creta (*Ier.* xlvii. 4), a Chittim neu Cyprus (*Ezec.* xxvii. 6; *Ier.* ii. 10), neu am ynysoedd, mewn cyferbyniad i gyfandir (*Esth.* x. 1). Ond yn fwy cyffredinol, cymmhwysir ef am unrhyw ddosbarth sydd yn cael ei ysgaru oddi wrth Palestina gan ddwfr, fel y disgrifir yn *Ier.* xxv. 22—"yr ynysoedd y rhai sydd dros y môr;" y rhai, oddi wrth hyn, a ystyrid fel parthau pellaf y ddaear (*Esa.* xxiv. 15; xlii. 10; lix. 18. Cymmharer yr ynysoedd yn *Esa.* lxvi. 19, "ynysoedd pell," ac hefyd fel rhai mawrion a lliosog: *Esa.* xl. 15; *Salm* xcvii. 1). Defnyddir y gair yn fwy neillduol gan y prophwydi.

YOUNG, ARTHUR. Ychydig sydd wedi ennill mwy o enwogrwydd fel ysgrifenydd ar amaethyddiaeth nag Arthur Young. Y mae ei enw, fel y cyfryw, yn dra adnabyddus; ac fe allai yn llawn cymmaint felly ar y Cyfandir ag yn y wlad hon. Ganwyd ef yn Bradfield, yn Suffolk, ar y 7fed o Fedi, 1741. Yr oedd ei dad yn ddoctor mewn duwinyddiaeth, yn gôrberiglor yn Nghaergaint, ac yn gaplan i Arthur Onslow, llefarydd Tŷ y Cyffredin. Arthur oedd ei drydydd mab. Pan yn saith mlwydd oed, anfonwyd ef i ysgol Lavenham. Pan yn yr ysgol, dangosodd ei fod yn feddiannol ar gryn dalent; ac arosodd ynddi hyd y flwyddyn 1758, pan y rhwymwyd ef yn egwyddorwas yn nhŷ masnachol Mr. Robinson, yn Lynn, gyda'r gobaith y deuai yn farsiandwr medrus: ond nid oedd ei dueddiadau yn y cyfeiriad hwn mewn un modd; a byddai yn arfer gofidio bob amser na chawsai yr arian a gostiodd ei rwymo yn farsiandwr eu gwario i'w gadw yn y coleg, gan y teimlai awydd bod yn glerigwr—ac yn enwedig yn Bradfield, fel olynydd i'w dad; gan ei fod yn blwyf amaethyddol mawr, ac y gallai ryw fodd neu gilydd gael mantais i amlygu ei hoffder o amaethyddiaeth. Ychydig o duedd oedd ganddo, fel yr awgrymwyd, at fasnach; gan hyny, ymroddodd i ddarllen pob llyfr o fewn ei gyrhaedd yn Lynn. Pan yn ddwy ar bymtheg oed, efe a gyfansoddodd bamphled gwleidyddol, am yr hwn y cafodd gan y cyhoeddwr werth deg punt o lyfrau; yr

Digitized by Google

hyn oedd yn drysor gwerthfawr iddo. Ar ol marwolaeth ei dad, yr hyn a gymmerodd le yn 1759, yr oedd yn ei fryd ymuno â'r fyddin; ond gan fod hyny yn groes i ewyllys ei fam, ymattaliodd. Yna dechreuodd gyfnodolyn, dan yr enw "*Universal Museum;*" ond ar gynghor Dr. Johnson, rhoddodd ef i fyny ar ol cyhoeddi chwe rhifyn. Yr oedd ei feddiannau y pryd hwnw yn gynnwysedig mewn ugain erw o dir dan wrogaeth (*copyhold*), gwerth ugain punt yn y flwyddyn. Yr oedd gan ei fam fferm o bedwar ugain erw o dir yn Bradfield o dan brydles; ac ar adnewyddiad y brydles, hi a'i rhoddodd dan ei reolaeth ef; a dechreuodd yntau ar y gwaith o amaethu y tir, heb wybod dim yn ymarferol am y gorchwyl. Ac addefai wedi hyny, fod ei ben ar y pryd yn llawn o syniadau gwylltion. Y flwyddyn ganlynol, efe a ysgrifenodd i'r "*Museum Rusticum:*"—y gwaith amaethyddol cyntaf yr ymddangosodd cynnyrch ei ysgrifell ynddo. Yn yr un flwyddyn, 1765, efe a briododd Martha Allen, o Lynn; ond o herwydd rhyw hynodion a berthynent i'r naill a'r llall, ymddengys nad oedd yr undeb yn un dedwydd iawn. Yn 1767, cymmerodd fferm a elwid Samford Hall, yn Essex—yn cynnwys tri chant o erwau o dir, i'w hamaethu ei hun. Yr oedd yno yn ei elfen, yn gwneyd arbrawfiadau, ac yn eu nodi i lawr yn ofalus; a chyhoeddodd y cyfan mewn dwy gyfrol fawr pedwarplyg, o dan y teitl, "*A Course of Experimental Agriculture,*" &c. Ond cyhoeddwyd y gwaith hwn ar ol ei "*Tour through the Southern Counties of England:*"—gwaith a ddaeth yn dra phoblogaidd. Yr oedd Young yn sylwedydd craff, ac yn medru cyfleu ffrwyth ei sylw mewn dull bywiog ger bron ei ddarllenwyr; er y rhaid addef ei fod weithiau yn rhy brysur yn tynu ei gasgliadau, ac yn rhy arwynebol yn ei sylwadaeth. Ar ol i bum mlynedd ddyfod i ben, ac iddo ddioddef colledion a siomedigaethau lawer, yr oedd yn dda ganddo, pa fodd bynag, roddi 100*p.* i amaethwr ymarferol am gymmeryd y brydles oddi ar ei law. Ond er i'r amaethwr llenyddol a gwyddorol fethu, llwyddodd yr ymarferol i gasglu arian yno, fel mewn llawer man arall. Difyrus ydyw darllen yr hyn a ddywedai mewn ffordd o gondemniad ar bob peth perthynol i'r fferm hon: ond pan ystyrir nad oedd efe yn ei gweled ond o ddydd Sadwrn hyd ddydd Llun, a'i fod yn cyflawni y gwaith o adroddwr (*reporter*) seneddol am y gweddill o'r wythnos, nis gellir rhyfeddu llawer at ei aflwyddiant.

Yn y flwyddyn 1768, wrth weled mor lwyddiannus yr oedd hanes ei daith yn neheubarth Lloegr, aeth ar daith i ogleddbarth Lloegr; o'r hon y cyhoeddodd hanes manwl, mewn pedair cyfrol, y rhai a werthwyd yn fuan. Nid oedd ei feddwl bywiog yn cael ei gyfyngu at ei ysgrifeniadau ar destynau amaethyddol; ond byddai yn cyfansoddi traethodau ar drefnidedd gwladol. Yn 1770, ymgymmerodd â'i daith ddwyreiniol, a chyhoeddodd ei sylwadau mewn pedair cyfrol. Yr oedd teithiau Arthur Young yn creu y dyddordeb mwyaf yn mhawb oedd yn dal cyssylltiad âg amaethyddiaeth, naill ai fel perchenogion neu deiliaid; ac nid oes ddadl, os nad ei weithiau ef a gynnyrchodd y sêl am welliantau mewn diwyllio ac amaethu y tir, na ddarfu iddynt roddi ysgogiad cryf i hyny, a'i ennyn yn fflam. Yr oedd llawer taith wedi ei gwneyd trwy bob rhan o Brydain, a disgrifiadau bywiog o leoedd neillduol wedi eu cyhoeddi; ond nid oedd amgylchiadau amaethyddol a gwleidyddol y gwahanol ardaloedd yn cael eu gosod allan mor fanwl gan neb. Pa le bynag yr elai, derbynid ef gan yr amaethwyr a pherchenogion tiroedd gyda'r caredigrwydd mwyaf. Yn ei ymddiddanion â hwynt ar ei deithiau, sonid llawer am y dull o amaethu y ddaear; a chafodd drwy hyn lawer o wybodaeth ymarferol, a chyfranodd yntau lawer o wybodaeth yn ol. Dysgai ei lettywyr, trwy osod o'u blaen ffordd mwy rhesymol a chynnil a fabwysiedid mewn ardaloedd ereill i drin y tir, ac arweiniai hwynt i wneuthur arbrawfiadau; ac os na byddai y rhai hyny bob amser yn llwyddiannus, byddent yn wastad yn tueddu i beri i ddynion ystyried a chymmharu, ac yn fynych i'w dwyn i weled yn mha bethau yr oeddynt yn methu wrth drin eu tiroedd. Trwy gyfrwng y llythyrau a gyhoeddodd efe, daeth parthau pellenig o'r wlad yn gydnabyddus âg arferion oedd yn hollol anhysbys y tu allan i'r cylchoedd yr oeddynt wedi eu mabwysiadu ynddynt; ac os byddai ar brydiau yn arwain ei ddarllenwyr ychydig ar gyfeiliorn, hawdd oedd maddeu iddo o herwydd ei amcan a'i sêl. Yn 1771, y cyhoeddodd efe y "*Farmer's Calendar*"—gwaith hynod o ddefnyddiol, ag sydd wedi myned trwy lawer o argraphiadau, ac a ystyrir hyd heddyw yn waith o werth mawr iawn ar amaethyddiaeth. Ar yr un pryd, cyhoeddodd ei "*Political Essays,*" &c., a'i "*Observations on the Present State of Waste Lands.*" Mewn trefn i allu chwanegu at ei dderbyniadau blynyddol, yr hyn, er ei fod yn cael cryn elw oddi wrth ei weithiau llenyddol, oedd yn rhy fychan i gyfarfod ei dreuliau a'i arbrawfiadau, yr oedd wedi cymmeryd y swydd o fod yn adroddwr seneddol i'r *Morning Post;* a bu yn cyflawni y gwaith hwn am amryw flynyddoedd.

Yn 1774, y cyhoeddodd efe ei "*Political Arithmetic*"—gwaith a gyfieithwyd yn fuan i amryw o ieithoedd y Cyfandir. Yn 1775 a 1776, bu ar daith yn yr Iwerddon, a chwanegwyd llawer at ei wybodaeth yn y daith hono, os nad o barthed i berffeithrwydd diwylliant y tir, o leiaf am y diffygion o hyny yn y wlad gynnyrchiol hono. Dadganodd ei hollol anghymmeradwyaeth o'r hyn a delid i'r llywodraeth am gael cario ŷd ar hyd y ffordd i Dublin; yr hyn a dynodd sylw yr awdurdodau llywodraethol at y mater: ac yn eisteddiad nesaf y senedd, gostyngwyd y tâl hwnw i'r hanner; ac yn fuan wedi hyny, llwyr ddiddymwyd ef. Yr oll a gafodd Young am y gwasanaeth pwysig hwn i'r Iwerddon, oedd diolch oeraidd gan Gymdeithas Dublin. Cefnogai yn wresog hefyd hawliau y Pabyddion i'w rhagorfreintiau gwladol. Yn 1777, efe a dderbyniodd fathodyn oddi wrth Gymdeithas Amaethyddol Salford, yn gydnabyddiaeth am ei wasanaeth i'r cyhoedd. Wedi hyn, ymgymmerodd â'r gofal am etifeddiaethau Arglwydd Kingsbury, yn swydd York, lle yr arhosodd ddwy flynedd. Yn 1779, dychwelodd at ei fam i Bradfield; ac yr oedd yn ei fryd y pryd hwnw ymfudo i America—bwriad a roddwyd heibio ganddo o herwydd gwrthwynebiad ei fam. Ymroddodd gyda mwy o sêl nag erioed i lafurio y ddaear, gan aredig y tir â'i ddwylaw ei hun. Ond yr oedd ei ben yn llawn o ymchwiliadau gwyddonol, yn elfenu tiroedd, ac yn gwneyd llawer o bob math o arbrawfiadau—am yr hyn y derbyniodd fathodyn Cymdeithas y Celfyddydau. Yn 1782, bu mewn dadl frwd gyda Mr. Capel Loft, ar y priodoldeb i swydd

Digitized by Google

Suffolk anrhegu y llywodraeth â llong yn cario 74 o fagnelau. Dygwyd y ddadl yn mlaen yn un o newyddiaduron lleol y sir hono, a bu yn fanteisiol i dynu sylw at y newyddiadur hwnw. Yr oedd enwogrwydd Arthur Young yn awr wedi ymdaenu yn mhell ac agos; ïe, yr oedd wedi cyrhaedd i ardaloedd rhewllyd y gogledd. Anfonodd yr ymherodres Catherine, o Rwssia, dri o Rwssiaid ieuaingc i gael eu haddysgu ganddo mewn amaethyddiaeth; ac yn y flwyddyn ddilynol, hi a anfonodd iddo ef flwch aur ardderchog, a dwy fantell ysblenydd i'w wraig a'i ferch.

Dechreuodd gyhoeddi ei "*Annals of Agriculture*" yn 1784, a pharhaodd i ddwyn allan y gwaith hwn nes iddo gyrhaedd pump a deugain o gyfrolau, a'r rhai hyny yn cynnwys trysorfa fawr o wybodaeth amaethyddol. Y mae yr oll a ysgrifenwyd yn y gwaith âg enwau yr awdwyr wrthynt:—yr hyn, mewn rhyw ystyr, sydd yn chwanegu at ei awdurdod: ac ymostyngodd hyd yn oed Sior III. i ddanfon i Young hanes fferm Mr. Ducket, yn Petersham, o dan yr enw Ralph Robinson. Yn mhlith ysgrifau pwysig ereill a ymddangosodd yn y cyfrolau hyn, gellir nodi y llythyrau ar sefyllfa amaethyddiaeth yn Italy, gan Dr. Symonds; yr hwn y pryd hwnw oedd yn broffeswr hanesyddiaeth yn Mhrifysgol Caergrawnt. Bu farw mam Young yn y fl. 1785. Yr oedd efe bob amser yn teimlo y serch dyfnaf tuag ati; ac mewn amryw enghreifftiau wedi rhoddi heibio hoff gynlluniau oedd ganddo, yn unig mewn cydsyniad â'i dymuniad hi. Y flwyddyn ganlynol i hyny, collodd ei ewythr hefyd, yr hwn oedd yn ddyn hynod o barchus. Bu farw mewn canlyniad i godwm a gafodd oddi ar ei farch tra yn hela gyda Sior III.

Cafodd wahoddiad taer i ymweled â Ffraingc yn ngwanwyn 1787, ac i fyned yn nghwmni y Comte de la Rochefoucauld i'r Pyrenees; yr hyn a dderbyniwyd yn llawen ganddo, a dychwelodd i Loegr yn y gauaf canlynol. Ar yr adeg hon y cymmerodd dadl le ar fesur y gwlân, a darfu i amaethwyr swydd Suffolk bennodi Mr. Young i gefnogi deiseb yn ei erbyn. Ymunodd Syr Joseph Banks âg ef yn yr achos hwn, yr hwn a anfonwyd o swydd Lincoln i'r un pwrpas. Ni buont yn gwbl lwyddiannus; ond llwyddasant, pa fodd bynag, i leddfu yr adranau y teimlai yr amaethwyr fwyaf o wrthwynebiad iddynt yn y mesur. Gwnaed gŵr gwellt o Young, a llosgwyd ef yn Norwich gan y llaw-weithwyr (*manufacturers*), er mantais i'r rhai y pasiwyd y mesur; ond derbyniai longyfarchiadau y tirfeddiannwyr a'r amaethwyr. Yn yr haf dilynol, efe a deithiodd ar farch drwy y rhan fwyaf o Ffraingc, a chyhoeddodd ei "*Agricultural Survey*" o'r wlad hono; a thrwy hyn, fel yr addefa yr ysgrifenwyr Ffrengig ar amaethyddiaeth, agorwyd eu llygaid hwynt i weled diffygion eu dulliau o amaethu y tir. Ni chyhoeddodd ei "*Survey*," pa fodd bynag, hyd nes yr aeth trwy ei drydedd daith yn y wlad eang hono. Y mae ei ddisgrifiadau o'r teithiau hyn a wnaeth yn Ffraingc yn hynod o ddifyr, bywiog, a dyddorol. Ynghylch y pryd hwn, efe a ddechreuodd ohebiaeth gyd â'r Cadfridog Washington, yr hon wedi hyny a gyhoeddwyd mewn pamphledyn. Yn 1793, cyhoeddodd bamphledyn a fu yn hynod lwyddiannus, o dan y teitl "*The Example of France a Warning to Britain.*" Derbyniodd ddiolchgarwch oddi wrth amryw gymdeithasau am hyny, tra yr oedd yr wrthblaid yn ei gyhuddo o fod yn wrthgiliwr, gan ei fod hyd yn hyn yn tueddu i ffafrio y blaid ryddfrydig, a chymmeradwyo y chwyldroad Ffrengig; ond dychrynwyd ef, fel llawer ereill, gan y gweithredoedd anfad ac ysgeler a gyflawnwyd yno.

Mewn trefn i osod mewn ymarferiad ei amrywiol gynlluniau er adferu ac amaethu tiroedd anniwylliedig, efe a bwrcasodd 4,400 o erwau o dir anniwylliedig yn swydd Caerefrog; ond yn ffodus i'w logell, yr hon, dybygid, a gawsai ddioddef yn ddwys yn y prawf, sefydlwyd bwrdd amaethyddiaeth, a chynnygiwyd iddo ef y swydd o ysgrifenydd iddo. Yr oedd y swydd yn hollol gyfaddas i'w chwaeth a'i dueddiadau; ac yr oedd 400*p.* o gyflog blynyddol, a thŷ diardreth, yn ei gwneyd yn dderbyniol iddo yn ei angen ar y pryd. Talwyd gwarogaeth uchel i Arthur Young yn 1801, gan y Llywgor Ffrengig, o herwydd gorchymynwyd i'w weithiau gael eu cyfieithu, a'u cyhoeddi yn Paris, mewn ugain o gyfrolau. Ar ddymuniad bwrdd amaethyddiaeth, efe a dynodd allan yr adroddiadau sirol—gan ddechreu gydag un Suffolk; at yr hwn y chwanegwyd yn olynol Lincoln, Norfolk, Hertfort, Essex, a Rhydychain.

Effeithiodd marwolaeth ei ferch, yr hyn a gymmerodd le yn y fl. 1797, yn ddwfn ar feddwl Young. Trodd ei sylw yn fwy at bethau crefyddol; yr hyn, yn nghanol ei drafferthion gyda'i orchwylion bydol, nid oeddynt wedi cael llawer o'i sylw yn flaenorol i hyny. Dechreuodd yn awr ddarllen a chwilio, er boddloni ei hun gyda golwg ar byngciau pwysicaf crefydd. Ond ni bu hyn yn attalfa iddo fyned yn mlaen gyda'i orchwylion eraill; ac yn 1798, efe a gyhoeddodd lythyr cyfeiriedig at Mr. Wilberforce, "*On the State of the Public Mind,*" ac yn y fl. 1800, bamphledyn o dan y teitl, "*On the Question of Scarcity.*"

Yn 1804, cafodd fathodyn Cymdeithas Bath a Gorllewinbarth Lloegr. Yn yr un flwyddyn, derbyniodd anrheg o flwch oddi wrth y Count Rostopchin, llywodraethwr Moscow; yr hwn a dorwyd allan ganddo ef ei hun allan o ddarn o dderw prydferth, ac a addurnwyd â gemau, ac yn gerfiedig arno yn yr iaith Rwssiaidd, "Oddi wrth ddysgybl i'w athraw." Yn 1805, ar gais llysgenhadwr Rwssia, anfonodd Mr. Young ei fab i Rwssia, i'r dyben o wneuthur arolygiad a mesuriad ar dalaeth Moscow, a thynu allan adroddiad, am yr hyn y talwyd iddo yn anrhydeddus; a chyda'r swm a gafodd, efe a brynodd etifeddiaeth o 10,000 o erwau o dir bras yn y Crimea, ac a ymsefydlodd yno.

Yn 1808, cafodd Mr. Young fathodyn aur gan y bwrdd amaethyddol, yn gydnabyddiaeth o'i "lafur a'i wasanaeth maith a ffyddlawn i amaethyddiaeth." Yn fuan ar ol hyn, rhoddwyd cryn attalfa ar ei ymdrechiadau, o herwydd fod ei olygon yn pallu. Yn gymmaint ag nad oedd efe yn alluog i gymmeryd ymarferiad corphorol fel yr arferai, daeth i deimlo oddi wrth ddiffyg treuliad ymborth, yr hyn yn ddiammheuol a arweiniodd i'r afiechyd a roddodd derfyn ar ei fywyd defnyddiol. Nid oeddid yn disgwyl ei fod mor agos i derfyn ei yrfa hyd o fewn wythnos i'w farwolaeth. Ofnai ddallineb a dolur y gareg hefyd; a'r olaf a fu yn achos o'i farwolaeth, er nad oedd efe yn hysbys o hyny. Trwy ofal a medrusrwydd ei feddygon, lleddfwyd ei boenau, ac ni bu yn ddarostyngedig i'r arteithiau hyny a arswydai efe mor fawr. Bu farw ar y 12fed o Ebrill, 1820, yn agos i bedwar ugain mlwydd

Digitized by Google

oed. Claddwyd ef mewn beddgell yn mynwent Bradfield.

Ychydig o ddynion a ennillodd gymmeriad mor uchel mewn amaethyddiaeth ag Arthur Young. Dechreuodd fel ysgolhaig, a daeth yn athraw. Os arweinid ef weithiau gan dymmer frwdfrydig a dychymyg bywiog i fabwysiadu damcaniaethau ammheus, efe a gywirai hyny drachefn trwy arbrawfiadau manwl. Nis gellir dywedyd iddo sylfaenu unrhyw gyfundrefn newydd o amaethyddiaeth; ond casglodd yn nghyd a threfnodd hanes yr holl welliantau a wnaed gan wahanol bersonau; ac yn y modd hwn, efe a wasgarodd swm dirfawr o wybodaeth ymarferol, oedd o'r blaen yn wasgaredig.

YOUNG, EDWARD, D.D.: awdwr enwog y "*Night Thoughts.*" Ganwyd ef yn Upham, yn sir Hants, yn y flwyddyn 1684. Mab oedd efe i Edward Young, periglor plwyf Upham. Addysgwyd ef yn Ysgol Winchester; ac yn 1703, aeth i Rydychain. Yn 1708, cyflwynwyd iddo gymmrodoriaeth gyfreithiol gan yr archesgob Tenison, yn Ngholeg All Souls; yn mha le yr ymddengys ei fod wedi ymroddi i astudio mwy ar farddoniaeth nag ar y gyfraith, ac yno y gwreiddiodd yn yr egwyddorion crefyddol y glynodd wrthynt drwy ei oes. Y mae Tindal, yr anffyddiwr, yr hwn a ymwelai yn fynych â'r coleg, wrth son am dano, yn dyweyd, "Gallaf yn wastad atteb y bechgyn eraill; o blegid yr wyf yn gwybod o ba le y maent yn cael eu rhesymau, y rhai a ddarllenais ganwaith; ond am Young, y mae efe bob amser yn fy mlino â rhyw bethau o'r eiddo ei hun." Yn 1714, cafodd y gradd o B. C. L.; a D. C. L. yn 1719. Yn y cyfamser, yr oedd wedi ymddangos fel bardd, trwy gyhoeddi amryw ddarnau barddonol; ac yn eu plith "*The Last Day;*" "*The Force of Religion;*" "*A Poem on the Death of Queen Anne.*" Ennillodd y cyfansoddiadau hyn ryw gymmaint o enw iddo fel bardd. Yn 1719, cyhoeddodd ei "*Paraphrase on a part of the Book of Job,*" a'i dreisgan (*tragedy*) "*Busiris,*" yr hon a ddygwyd allan ar y chwareufwrdd yn Drury Lane; a bu yn lled lwyddiannus. Tua'r pryd hwn y daeth Young i gydnabyddiaeth â'r Duc o Wharton; ac ynghylch diwedd y flwyddyn, bu gyda'r pendefig hynod hwnw ar y cyfandir am ychydig amser. Ymddengys fod y duc yn teimlo ato yn garedig, ac yn ymddwyn tuag ato yn dra haelionus. Ar ol marwolaeth y duc, yr hyn a gymmerodd le yn Yspaen, yn 1731, gwnaeth Young yn dda ei hawl i flwydd-dâl o 200*p.* o etifeddiaeth y pendefig ymadawedig, ar sail addewid y diweddaf. Yn 1721, y daeth allan ei dreisgân, "*The Revenge;*" yr hon, er iddi fod yn aflwyddiannus ar y pryd, wedi hyny a gafodd well derbyniad: a dyma yr unig un o'i ddarnau a ddygir yn achlysurol ar y chwareufwrdd hyd heddyw. Y trydydd ymgais a wnaeth efe yn y maes hwn oedd "*The Brothers,*" a ddaeth allan yn 1753. Rhwng y blynyddoedd 1725 a 1728, yr ymddangosodd ei duchangerddi, o dan y'teitl "*The Love of Fame, the Universal Passion.*" Buont yn hynod o lwyddiannus. Dywed Herbert Croft, fod Young wedi derbyn 3,000*p.* oddi wrth eu gwerthiant; ond y mae yn ei adael yn ammhenderfynol pa fodd y cafodd efe y swm hwn, trwy ddywedyd ar awdurdod Spence, fod y Duc o Grafton wedi rhoddi 2,000*p.* am danynt. Y maent yn llawn o arabedd ac o sylwadau miniog. Yn 1727, efe a gymmerodd urddau eglwysig, ac enwyd ef yn un o'r caplaniaid brenhinol. Cyhoeddodd amryw o gyfansoddiadau barddonol yn 1728—9. Yn 1730, pennodwyd ef yn beriglor Welwyn, yn swydd Hertford. Yn y flwyddyn ddilynol, efe a briododd yr Arglwyddes Elizabeth Lee, gweddw y Milwriad Lee, a merch i Iarll Lichfield. Ganwyd mab iddo yn 1733; a thybir fod ei fywyd priodasol yn un tra dedwydd, gan yr amlygai alar dwfn ar farwolaeth ei briod, yr hyn a gymmerodd le yn y fl. 1741. Ymddengys i'r bardd ddechreu cyfansoddi ei "*Night Thoughts*" yn fuan ar ol ei marwolaeth. Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn Llundain, yn 1742—6. Y "*Night Thoughts,*" yn benaf, sydd wedi cadw ei enw mewn coffadwriaeth. Parhaodd ei feddwl yn gryf hyd ddiwedd ei oes. Cyhoeddodd amryw o weithiau llenyddol eraill; ond y maent yn awr yn mron wedi eu llwyr anghofio, oddi eithr ei "*Resignation,*" a ddaeth allan yn 1762. Yn yr un flwyddyn, efe a arolygodd argraphiad llawn o'i holl weithiau, mewn pedair cyfrol. Cymmerodd ei farwolaeth le Ebrill 12fed, 1765.

Ymddengys fod Young, o ddechreu ei yrfa hyd ei therfyn, fel awdwr, yn dra awyddus am ddyrchafiad, ac nad oedd yn esgeuluso un cyfle i dalu gwarogaeth i'r sawl y tybiai fod yn eu gallu ei gynnorthwyo; ond lled aflwyddiannus fu er y cwbl. Yr oedd yn fanwl yn nghyflawniad ei ddyledswyddau crefyddol, yn deuluaidd a chyhoeddus. Arferai yn feunyddiol rodio yn mysg y beddau yn mynwent Welwyn; er hyny nid ymddengys ei fod yn ddyn pruddaidd. Yr oedd yn hynod o hoff o arddwriaeth. Ei brif nodwedd meddyliol oedd ffrwythlonrwydd ei ddychymyg. Y mae ei "*Last Day*" yn cynnwys cyfres o ddisgrifiadau o'r rhyfeddodau a gymmerant le mewn cyssylltiad â dinystr y greadigaeth, dychrynfeydd yr annuwiol, a gwynfydedigrwydd y saint. Ymddiddaniad barddonol ydyw y "*Force of Religion*" rhwng Argl. Guildford a'r Arglwyddes Jane Grey, yn flaenorol i'w dïenyddiad. Gwneir ymgais yn ddiau at y toddedig yma; ond ni bu Young erioed yn feistr ar hyn. Cyfres o duchangerddi ydyw ei "*Love of Fame,*" nad ydynt yn amlygu llawer o graffder i ddarllen cymmeriadau, nac i olrhain amcanion a chymmhellion; ond y maent yn dra difyrus, ac fel y nodwyd yn barod, yn ffraeth a miniog. Cyfres o bryddestau ymresymiadol ydyw y "*Night Thoughts*" yn y mesur diodl, yn profi anfarwoldeb yr enaid a gwirionedd Cristionogaeth; ac o ganlyniad, yr angenrheidrwydd am ymarweddiad moesol a chrefyddol. Y mae efe yn disgrifio bywyd fel un wedi ymgymmysgu llawer â'r byd, a thalu sylw manwl i'r hyn a gymmerai le o'i gwmpas; ac er fod y gwaith hwn yn gyffredinol o'r braidd yn bruddaidd, ac yn eithafol yn ei ddarluniadau, y mae yn arwain meddwl y darllenydd at wirioneddau pwysig.

YOUNG, THOMAS: un o athronwyr enwocaf y ganrif bresennol. Ganwyd ef yn Milverton, Gwlad yr Haf, ar y 13eg a Fehefin, yn y fl. 1773. Perthynai ei rieni i'r sect fanylaf o'r Crynwyr. Mewn ysgol fechan yn Minehead, lle yr oedd Mr. Robert Davies, ei daid o du ei fam, yn byw, y cafodd efe elfenau cyntaf ei addysg. Dywedir ei fod yn alluog i ddarllen pan yn ddwy flwydd oed, a bod ei gof yn gryf nodedig. Yn 1780, anfonwyd ef i ysgol fyrddiol yn Stapleton, ger Bristol, lle yr arosodd am tua dwy flynedd; a

Digitized by Google

rhoddwyd ef wedi hyny mewn ysgol yn Compton, yn swydd Dorset. Pan y gadawodd yr ysgol hon, cyn bod yn bedair ar ddeg oed, heb law ei fod yn dra hysbys yn yr ieithoedd Groeg a Lladin, a mesuroniaeth, yr oedd wedi dysgu y Ffrangcaeg a'r Italaeg; ac er nad oedd ganddo neb i'w addysgu, gwnaeth cryn gynnydd yn yr Hebraeg, y Bersiaeg, a'r Arabaeg. Yn 1787, aeth i fyw at Mr. David Barclay, Youngsbury, aelod enwog yn mhlith y Crynwyr—mewn rhan fel cyd-ysgolhaig, ac mewn rhan yn athraw i ŵyr y boneddwr hwnw, sef Hudson Gurney. Galwyd ar un Mr. Hodgkin i gynnorthwyo y ddau langc yn eu hefrydiau; ond dangosodd Young yn fuan ei fod yn rhagori ar ei addysgydd. Parhaodd i fyw gyda Mr. Barclay hyd 1792, ac astudiodd Roeg a Lladin, yr ieithoedd diweddar dwyreiniol, yn gystal ag Ewropaidd, a mesuroniaeth, ac anianyddiaeth naturiol; ac fel difyrwch, astudiodd lysieuaeth a milofyddiaeth. Ymarferodd ei hun i ysgrifenu Lladin a Groeg gyda hylithrwydd a thlysineb. Bu hefyd yn gwrando darlithiau ar fferylliaeth yn Llundain yn ngauafau 1790 a 1791.

Tua diwedd 1792, dechreuodd astudio physygwriaeth, o dan gyfarwyddyd ei ewythr, Dr. Brocklesby, physygwr enwog yn Llundain; a bu yn gwrando darlithiau yn ysgolion Llundain am ddwy flynedd, ac wedi hyny am flwyddyn yn mhrifysgol Edinburgh. Wedi myned i Edinburgh, rhoddodd heibio wisgoedd a rhai o arferion y Crynwyr, ymgymmysgodd yn rhydd mewn cymdeithas, ac yn achlysurol ymwelai â'r chwareudai. O'r diwedd, parodd y cyfnewidiadau hyn iddo ymddyeithro oddi wrth y Crynwyr. Aeth o Edinburgh i brifysgol Gottingen, lle y graddiwyd ef yn M. D. Dychwelodd yn ol i Brydain yn 1797. Ac ar ei ddychweliad aeth i Goleg Emmanuel, Caergrawnt, lle y graddiodd yn 1799—gan fod aelodaeth o Goleg y Physygwyr ar y pryd yn cael ei gyfyngu i rai wedi graddio, naill ai yn Rhydychain neu Gaergrawnt. Yn 1800, efe a ddechreuodd ymarfer fel physygwr yn Llundain. Yr oedd ei ewythr, Dr. Brocklesby, wedi marw yn 1797, a gadael iddo waddol o 10,000*p.*, heb law ei dŷ yn Llundain, ei ddodrefn, ei lyfrau, a'i gasgliad o ddarluniau, fel yr oedd erbyn hyn yn meddu cryn eiddo. Yn 1801, pennodwyd ef yn broffeswr anianyddiaeth naturiol yn y sefydliad brenhinol. Fel darlithydd, nid oedd yn boblogaidd, gan fod ei arddull yn rhy gryno a chynnwysfawr, a mater ei ddarlithiau braidd yn anghyfaddas i gynnulliadau cymmysg. Yn 1802, efe a gyhoeddodd ei "*Syllabus of a Course of Lectures on Natural and Experimental Philosophy*," lle, yn mysg pethau ereill, y gwnaeth efe yn hysbys gyntaf ei ddarganfyddiad mawr o ddeddf ymyriad (*interference*) goleuni; yr hyn ynddo ei hun, fel y sylwa Syr John Herschel, oedd yn ddigon i sicrhau iddo anfarwoldeb fel gwyddonydd. Dyma y gwasanaeth penaf a wnaeth Young i wyddoniaeth. Yr oedd wedi ei ddewis yn gymmrawd o'r Gymdeithas Frenhinol pan yn un ar hugain oed; ac yn 1802, nodwyd ef yn ysgrifenydd tramor iddi—swydd a ddaliodd hyd derfyn ei oes. Y darlithiau a draddodwyd ganddo yn y Sefydliad Brenhinol oedd sylfaen ei "*Course of Lectures on Natural and Mechanical Philosophy*," a gyhoeddwyd yn 1807—gwaith mawr, a gynnwysai gyfundrefn gyflawn o anianyddiaeth naturiol a gallofyddol. Etholwyd ef yn aelod o Goleg y Physygwyr yn 1808, ac yn un o physygwyr meddygdy St. George yn 1810. Cyhoeddodd amryw weithiau meddygol wedi hyn; y rhai a brofant ei fod yn hynod o gyfarwydd yn hanes pob math o afiechyd, ac â barnau y prif feddygon arnynt. Yn ystod blynyddoedd olaf ei oes, yr oedd yn aelod o'r cynghor a bennodwyd i gyfarwyddo y morlys yn mherthynas i fanteision gwyddoniaeth.

Yn nesaf at ei ddarganfyddiad o ddeddf ymyriad goleuni, y peth penaf a wnaeth oedd mewn cyssylltiad âg arwyddluniau. Efe oedd y cyntaf i awgrymu y llwybr trwy ba un yr ydys wedi dyfod i allu darllen yr arwyddluniau dwyreiniol. Yn misoedd olaf ei oes, yr oedd yn gweithio ar Eiriadur Aiphtaidd; ond nis gallodd ei gwblhau. Bu ei iechyd yn gwaelu am amryw fisoedd; ac ar y 10fed o Fai, 1829, bu farw. O ran ei nodwedd, yr oedd yn ddyn nodedig o hawddgar, a chanddo liaws mawr o gyfeillion: ac nid oedd neb yn ei oes a lafuriodd yn galetach nag ef.

YSBWNG. Crybwyllir y gair yn unig yn y Testament Newydd yn yr adnodau hyny, y rhai sydd yn adrodd y digwyddiad a gymmerodd le ar amser y croeshoeliad; sef, fod un o'r rhai oedd yn y lle wedi cymmeryd ysbwng, ac wedi ei lenwi â finegr, gan ei roddi "ar gorsen" (*Mat.* xxvii. 48; *Marc* xv. 36), neu "ynghylch isop," a'i gynnyg i'n Harglwydd ar y groes.

Yr oedd gwerth masnachol yr ysbwng yn hysbys o amser tra boreu; ac er yr ymddengys nad oes un crybwylliad am dano yn yr Hen Destament, etto y mae yn debygol ei fod yn cael ei ddefnyddio gan yr hen Hebreaid; y rhai yn rhwydd a allent gael cyflenwad helaeth o hono o Fôr y Canoldir. Y mae Aristotle yn crybwyll amryw fathau, ac yn sylwi hefyd ar y rhai oeddynt wasanaethgar i ddybenion teuluaidd.

Y mae yr ysbwngoedd yn greaduriaid o gyfansoddiad hynod isel, ac y mae gwahaniaeth barn pa un ai i'r deyrnas anifeilaidd ai i'r lysieuol y perthynant. Ond y mae naturiaethwyr yn awr yn gyffredinol yn cyttuno i'w hystyried hwynt fel creaduriaid. Fe allai mai hwy ydynt yr isaf o'r rhagtilod. Y maent i'w cael fel planhigion, yn ymlynedig wrth greigiau neu sylweddau eraill mewn dwfr; a'r rhan fwyaf o honynt yn forawl. Y maent yn gyfansoddedig o sylwedd gludiog ac ystwyth, ac yn amrywio o ran eu ffurf: y mae rhai o'r bron yn grwn, ac eraill yn hirgrwn ac edefaidd. Y mae arwyneb ysbwng byw wedi ei orchuddio â mân-dyllau, trwy ba rai y sugnir y dwfr, gan gario awyr a themigau organaidd gydag ef i mewn er cynnal bywyd.

Ceir yr ysbyngau a ddefnyddir at ddybenion teuluaidd yn moroedd yr hinsoddau poethion. Dygir y rhan fwyaf o ddau fath o hono o'r Levant, ac un gwaelach o India y Gorllewin a glenydd Florida.

Y mae y fasnach mewn ysbwng yn lled fawr. Cerir hi yn mlaen yn benaf gan y Tyrciaid, a thrigolion ynysoedd Bahama.

YSGALL. Gwel DRAIN, ac YSGALL.

YSGARIAETH. Ceir y gyfraith berthynol i ysgariaeth yn *Deut.* xxiv. 1—4, ac adroddir yr achosion yn y rhai y collai gŵr ei hawl i ysgaru ei wraig yn *Deut.* xxii. 19, 29. Sail ysgariaeth ydoedd yr hyn a elwir yn y gyfraith yn "rhyw aflendid." Am ystyr y geiriau hyn, yr oedd y doctoriaid Iuddewig yn nhymmor yr Hen

Digitized by Google

Destament yn gwahaniaethu yn fawr. Gwadai ysgol Shammai hawl y gŵr i ysgâr â'i wraig ond o achos godineb; tra yr hònai ysgol Hillel y gallai wneyd hyny am bob achos, ar bwys unrhyw gyhuddiad, o ba natur bynag, y gallai ei ddwyn yn ei herbyn; megys, er enghraifft, y gallai ysgaru â'i wraig os digwyddai iddi losgi yr ymborth a ddarperid ganddi iddo. Gyda golwg ar briodol ystyr y geiriau yn *Deut.* xxiv. 1, yr oedd y ddwy blaid yn methu cyttuno. Dadleuai dilynwyr Shammai fod y geiriau a gyfieithir yno, "O achos iddo gael rhyw aflendid ynddi," yn arwyddo godineb yn unig; tra yr oedd canlynwyr Hillel yn barnu eu bod yn cynnwys unrhyw beth yn ei pherson neu yn ei hymddygiad a barai iddi golli ffafr ei gŵr. Fe allai fod y Phariseaid yn ewyllysio gyru ein Gwaredwr ben-ben â'r ysgolion gwrthwynebol hyn drwy y cwestiwn a ofynasant iddo (*Mat.* xix. 3):—yn ei attebiad i'r hwn, yn gystal ag yn ei arwirdeb blaenorol (*adn.* 31), y mae efe yn dywedyd na buasai y cyfryw gwestiynau yn ymgodi o gwbl, oni buasai am eu calon-galedwch hwy. Etto, oddi wrth y gwahaniaeth a wnaed ganddo, "Ond yr ydwyf yn dywedyd i chwi" (*Mat.* v. 31, 32), ymddengys ei fod yn caulyn ei fod ef yn ystyried fod pob achos llai na "godineb" yn sefyll ar dir rhy wan; ac ni sylwodd ar y gofyniad gyda golwg ar pa fodd i egluro geiriau Moses. Gan hyny, byddai yn rhesymol i ni dybied mai "godineb" a feddyliai Moses wrth y "rhyw aflendid," i'r hyn yr oedd efe yn cyfyngu y feddyginiaeth o ysgariaeth; canys ni buasai hyny yn ddim amgen na dirymu y gyfraith, yr hon sydd yn gorchymyn fod i'r cyfryw gael ei "llofruddio:" *Ioan* viii. 5; *Lef.* xx. 10. Modd bynag, lleiheir yr anhawsder ymarferol i egluro geiriau Moses, os ystyriwn ni y buasai hyd yn oed rhoddi "llythyr" (neu yn hytrach "llyfr") ysgâr (gwel *Esa.* l. 1; *Ier.* iii. 8), yn gofyn am wasanaeth Lefiad, nid yn unig i sicrhau cywirdeb ffurfiol yr ysgrif, ond o herwydd fod y gelfyddyd o ysgrifenu y pryd hwnw yn gyffredinol yn anhysbys. Dygai hyn y mater dan sylw yr awdurdod cyfreithiol, ac yr oedd yn tueddu i attal yr ymarferiad rhyfygus o'r hawl gan y gŵr. Y mae yn debygol y gwnai opiniwn traddodiadol a hynafiaeth yr arferiad bennodi safon yr "aflendid;" a chyda'r moesoldeb llac cyffredinol oedd yn nodweddu adfeiliad y wladwriaeth Iuddewig, y mae yn ddiammheuol y gostyngid y safon hono. Fel hyn, y mae "*Gemar. Babil. Gittin,*" 9, yn caniatau ysgariaeth am i wraig nyddu yn gyhoeddus, neu fyned allan yn bennoeth, neu gyda gwisg rhy garpiog i guddio ei pherson o'r golwg. Ond y mae llawer o ansicrwydd ynglŷn â'r pwngc. Dywed Selden ei bod yn arferiad i'r gŵr, pan y byddai yn myned i ryfel, i roddi ysgariaeth i'w wraig; ond y mae ei awdurdod dros ddyweyd hyny yn wanaidd iawn, ac y mae y ffaith yn dra annhebyg. Y mae yn wrthwyneb i holl arferiad y dwyreinwyr i ni dybied fod yr hawl i adael ei gŵr, ac i ddewis un arall, yn cael ei ganiatau i ferch yn mhlith yr Hebreaid. Nid oedd yn gyfreithlawn i ddyn ail briodi merch y byddai efe wedi ysgaru oddi wrthi.

Gwnaed ymgais i wneyd ysgariaeth yn hawddach yn Lloegr yn y fl. 1539. Yn Ebrill, 1857, cyhoeddodd y dirprwywyr ar Gyfraith Ysgariaeth eu hadroddiad cyntaf. Yn 1857, yr oedd 317 o ysgariaethau wedi cymmeryd lle trwy ddeddf seneddol; yn Ysgotland, trwy y gyfraith, 174 o ysgariaethau er 1846; yn 1858—67, diddymwyd 1,279 o briodasau, ac ysgarwyd 213 yn gyfreithiol. O sefydliad y llys ysgariaeth, hyd Mawrth, 1859, yr oedd 37 o ysgariaethau wedi eu caniatau allan o 288 o ddeisebau: o Tachwedd, 1860, i Gorphenaf, 1861, 164. Yn 1857, trwy y 20 a 21 Vict. *pen.* 85, diddymwyd awdurdod y llysoedd eglwysig yn mherthynas i ysgariaeth, &c., a sefydlwyd Llys Achosion Ysgariaethol a Phriodasol, yn yr hwn y byddai tri o farnwyr—barnwr Llys Profiad Ewyllysiau i fod yn un o honynt, os yn bossibl. Ar y 10fed o Fai, 1858, eisteddodd y llys; sef, Arglwydd Campbell, y prif farwn Pollock, Syr Cresswell Cresswell (barnwr Llys Profiad Ewyllysiau), pan y diddymwyd pump o briodasau. Mewn canlyniad i gynnydd gwaith y llys hwn, diwygiwyd y gyfraith uchod trwy gyfreithiau a basiwyd yn 1858—60. Ar yr 21ain o Orphenaf, 1868, pasiwyd Cyfraith Diwygiad Ysgariaeth (*Divorce Ammendment Act*).

YSGARLAD: lliw coch dwfn a disglaer: *Esa.* i. 18; *Ier.* iv. 30. Cynnyrchid y lliw o drychfilyn, lled debyg i'r coch-bryf; yr hwn a geir yn helaeth yn Armenia, a gwledydd dwyreiniol ereill. Y mae yn mynychu canghenau math o gelyn. Ar y rhai hyn y mae yn dodwy ei ŵyau yn dyrau, y rhai a orchuddir â math o fân-blu, fel y maent yn ymddangos yn debyg i gnapiau llysieuog bychain yn tyfu ar y pren ei hun. Porphor, yn hytrach nag ysgarlad, oedd y lliw a gynnyrchid. Yr unig wrthddrych naturiol y dywedir yn y Beibl ei fod yn meddu y lliw hwn yw y gwefusau, y rhai a gymmherir i edau ysgarlad; *Can.* iv. 3. Edrychai Josephus arno fel arwyddlun o dân. Dewisid edau ysgarlad fel marciau gwahaniaethol, ar gyfrif eu disgleirdeb (*Gen.* xxxviii. 28); ac o herwydd hyn, defnyddid y lliw i ddynodi yr hyn oedd ddisglaer: *Esa.* i. 18. Gwisgid ysgarlad yn helaeth gan y cyfoethogion: 2 *Sam.* i. 24; *Diar.* xxxi. 21; *Ier.* iv. 30; *Galar.* iv. 5; *Dad.* xvii. 4; xviii. 12, 16. Yr oedd hefyd yn lliw priodol i wisg rhyfelwr, oddi wrth ei debygolrwydd i waed (*Nah.* ii. 13; cymmh. *Esa.* ix. 5); a gwisgid ef yn arbenig gan swyddogion yn y fyddin Rufeinig: *Mat.* xxvii. 28. Y mae pechod yn cael ei gyffelybu i ysgarlad, i ddynodi ei natur a'i ysgelerder dychrynllyd; *Esa.* i. 18.

YSGELERDER: mawr-ddrwg, trosedd anfad, ffieidd-dra, creulondeb, neu bechod ffiaidd. Defnyddir y gair yn y Beibl i ddynodi pechod o'r natur mwyaf ffiaidd ac annioddefol—"Canys ysgelerder ydyw hyn" (*Iob.* xxxi. 11); *h.y.*, ystyriai Iob fod godineb yn bechod o'r natur mwyaf ffiaidd. Teimlai nad oedd un esgus i'w roddi drosto; ac ni fynai efe ar un cyfrif geisio ei amddiffyn. Edrychai arno fel trosedd a ddylai gael ei drafod a'i gospi gan farnwyr. Pechodau y galon oedd y rhai a enwasid yn flaenorol gan Iob; ond yma, y mae efe yn cyfeirio at drosedd yn erbyn cymdeithas—trosedd oedd yn galw am gyfryngiad yr ynad. Arferir y gair *ysgelerder* yn fynych i ddynodi llosgach, a phechodau ffiaidd yn erbyn natur: *Lef.* xviii. 17; a xix. 29; a xx. 14. Cospid godineb yn y rhan fwyaf o wledydd yr hen oesoedd â marwolaeth. Defnyddir y gair *ysgelerder* i ddynodi gwrthryfel yn erbyn Duw: "Efe a chwanegodd ysgelerder at ei bechod" (*Iob* xxxiv. 37); hyny ydyw, at y pechod a gyflawnwyd ganddo yn flaenorol, a'r hwn a ddygodd arno ef yr holl helbulon hyn, y

Digitized by Google

*Mishna*, yr oedd y plant i gael eu haddysgu yn yr Ysgrythyrau pan yn bum mlwydd oed; yn y *Mishna* pan yn ddeg; ac yn yr holl gyfraith pan yn dair ar ddeg (gwel *Luc* ii. 46); a phan yn bymtheg dechreuent astudio y *Gemara*. Yr oedd gwyddoniaeth hefyd yn ffurfio rhan o'r addysg a gyfrenid iddynt. Ychydig sydd genym o hanes addysgiaeth merched yn yr Ysgrythyrau; ond y mae yn eglur fod ysgolion y prophwydi yn eu cynnwys hwy, y rhai yn achlysurol oeddynt yn meddu ar awdurdod gyffelyb i'r eiddo y prophwydi eu hunain: *Barn*. iv. 4; 2 *Bren*. xxii. 14. Yr oedd gwaith edau a nydwydd yn ffurfio rhan fawr o'u haddysg hwy, er nad dyma yr unig beth yr addysgid hwynt ynddo.

Yn mysg y Mahometiaid, y mae addysg bechgyn yn cael ei gyfyngu yn mron yn llwyr i'r elfenau cyntaf; ond llai drachefn a gyfrenir i'r benywod. Y mae llawer o golegau ac ysgolion cyhoeddus yn Persia, ond yn eu cartrefi yr addysgir yn benaf blant y rhieni cyfoethocaf. Y *Coran* ydyw y llyfr o'r hwn y cyfrenir iddynt eu haddysg, yn gymmaint a'i fod yn cael ei ystyried yn gynllun, nid yn unig o athrawiaeth, ond hefyd o arddull, ac yn faen-prawf yr holl wybodaethau. Dysgir mesuroniaeth hefyd i ryw raddau yn rhai o'r colegau hyn.

Ond âg addysg ac ysgolion ein gwlad ni ein hunain y mae a fynom yn awr yn benaf. Yn y canol-oesoedd yr oedd ysgolion i'r dosbarth isaf yn Mhrydain mewn cyssylltiad â mynachdai a mynachlogydd; a sefydlwyd colegau i'r dosbarthiadau uchel a chanol. Ond yr oedd amryw amgylchiadau, yn chwanegol at gynnydd y boblogaeth, yn peri fod yr angen am addysg, ac ysgolion i'w gyfranu, yn cael ei deimlo yn fwy yn barhaus; o herwydd yr oedd y wlad yn cynnyddu mewn cyfoeth, a'i masnach yn eangu, fel, tua diwedd y ganrif ddiweddaf, y teimlid angenrheidrwydd mawr am wellhau moddion addysg i blant tlodion. Y canlyniad o hyn a fu cychwyniad cyfres o ymdrechion a arweiniasant i ganlyniadau dymunol yn y cyfeiriad hwn.

Cychwynwyd yr Ysgolion Cenedlaethol mewn canlyniad i'r cyffroad a roddwyd gan Dr. Andrew Bell, yr hwn oedd yn frodor o Ysgotland. Ar ol myned trwy gwrs ei efrydiau yn mhrifysgol St. Andrews, a aeth yn gaplan i'r India Ddwyreiniol, o dan Gwmni yr India Ddwyreiniol. Pennodwyd ef yn arolygwr nawdd-dy y meibion yn Madras, a sylwodd yno yn fanwl ar ddull yr Hindwaid o ysgrifenu yn y tywod, a moddau eraill o gyfranu addysg; yr hyn a wnaed yn hysbys ganddo mewn amryw weithiau a gyhoeddodd. Cydnabyddwyd rhagoriaeth y drefn y dadleuai efe drosti, a mabwysiadwyd hi; ond gosodwyd i fyny gyfundrefn gyffelyb gan Joseph Lancaster; a chyfododd dadl, yr hon yn y diwedd a arweiniodd i ffurfiad dwy gymdeithas; sef, y Gymdeithas Genedlaethol, a'r Gymdeithas Frytanaidd a Thramor—y flaenaf yn cael ei chynnal yn benaf gan aelodau yr Eglwys Sefydledig, oedd â'u bwriad i hyrwyddo addysg mewn cyssylltiad â'r eglwys hono: a'r ail yn cael ei chefnogi yn benaf gan yr Ymneillduwyr, ac yn cynnyg addysgu unrhyw blant yr oedd eu rhieni yn foddlawn iddynt gael addysg yn sylfaenedig ar y Beibl. Bu farw Dr. Bell yn Cheltenham yn Ionawr, 1832, a gadawodd yn ei ewyllys y swm o 120,000*p*. tuag at hyrwyddo yn mlaen lenyddiaeth ac addysg.

Aelod o gymdeithas y Crynwyr oedd Joseph Lancaster. Ganwyd ef yn 1771. Milwr oedd ei dad, perthynol i'r gwarchodwyr traed. Teimlai dosturi wrth weled sefyllfa druenus y plant oedd yn byw yn nghymmydogaeth tŷ ei dad, yn Borough road, Southwark, Llundain, ac agorodd ysgol er cyfranu addysg iddynt, a gwnaeth y lle yn barod ar ei draul ei hun; a chyn ei fod yn ddeunaw mlwydd oed, yr oedd deg a phedwar ugain o blant o dan ei ofal. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1789, cyfnod o brinder, yn gystal a chyfnod anwybodus iawn; a pharodd angenrheidrwydd iddo wneuthur rhyw arbrawfiadau mewn addysgiaeth, gyda'r amcan o gyfranu addysg i'r plant yn rhadlawn. Tynodd sylw y Duc o Bedford yn lled fuan; ac yn 1805, anrhydeddwyd ef, trwy gael ei alw i bresennoldeb Sior III.; yr hwn a ddywedodd wrtho ar yr achlysur hwnw yr ymadroddion a ganlyn, "Yr wyf yn dymuno i bob plentyn tlawd o fewn fy nherfynau fod yn alluog i ddarllen ei Feibl." Gan fod Lancaster yn Ymneillduwr gonest, efe a wrthododd gynnygion dengar gyda golwg ar fanteision bydol, y gallasai eu mwynhau pe yr ymunasai â'r Eglwys Sefydledig. O 1807 hyd 1811, efe a deithiodd yn y Deyrnas Gyfunol agos i saith mil o filldiroedd, a darlithiodd i tua hanner can mil o bobl; a thrwy hyn rhoddodd gyffro mawr i achos addysg elfenol. Yn 1812, ymdrechodd i sefydlu ysgol i blant rhieni oedd mewn sefyllfa dda o ran eu hamgylchiadau: ond dyrysu a wnaeth ei amgylchiadau ef ei hun; ac yn 1818, efe a ymfudodd i'r Unol Daleithiau, lle y cafodd dderbyniad caredig. Gwnaeth wasanaeth mawr i achos addysg yn y wlad hono; ond lleihawyd effeithiau ei lafur gan ddiffyg doethineb o'i du ef. Talodd ymweliad â Canada yn 1829, a chroesawyd ef yn anrhydeddus. Pleidleisiwyd amryw roddion gan senedd-dy Canada Isaf i ddybenion addysgol. Aeth ei amgylchiadau yn ddyrys eilwaith; ond ymunodd amryw o'i hen gyfeillion i bwrcasu blwydd-dâl bychan iddo. Bu farw yn Efrog Newydd, ar yr 22ain o Hydref, 1838, wedi bod y prif foddion i sefydlu cyfundrefn o addysg elfenol yn y rhan fwyaf o wledydd gwareiddiedig y ddaear—cyfundrefn a adnabyddid yn Lloegr a Chymru o dan yr enw hwn—"Ysgolion Lancastriaidd," o dan nawdd Cymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd a Thramor.

Y mae ysgolion plant bychain, neu ysgolion babanod (*infant schools*), fel y gelwir hwynt, wedi eu hamcanu i ddysgu plant ieuaingc i fyw yn rhinweddol, ac i feithrin ynddynt deimladau caredig, yn gystal ag i blanu ynddynt awydd am wybodaeth. Ymddengys mai sylfaenydd gwirioneddol ysgolion babanod oedd Oberlin; yr hwn a bennododd ysgolfeistri yn y gwahanol ddosbarthiadau yn Ban de la Roche, ac a dalodd iddynt o'i logell ei hun: hefyd, efe a barotodd ystafelloedd lle y gellid addysgu plant o ddwy i chwech mlwydd oed ynddynt. Sefydlwyd ysgol i fabanod yn yr Almaen gan y dywysoges Pauline o Lippe-Detmold, yn Detmold, yn 1802, i blant o un i bedair oed.

Mr. Robert Owen—y Cymro, o bossibl—oedd y cyntaf i sefydlu ysgol i fabanod yn Mhrydain ar safon eang, ac i ddybenion pennodol; ond yn ddiammheu cynnorthwywyd ef i ffurfio y meddylddrych gan briod y Parch. W. Turner, o Newcastle-on-Tyne; yr hon yn y flwyddyn 1818, mewn ymddiddan âg Owen, a sylwai, ei bod yn mynych ddymuno ar i ryw foddion gael eu mabwysiadu i gael plant tlodion o ddwylaw eu rhieni yn gynnarach, cyn iddynt ffurfio arferion

Digitized by Google

drwg ar yr aelwyd gartref, ac hefyd yn mysg plant segur o'u cwmpas. Dywedwyd llawer o bob tu ar y dymunoldeb o gael ysgolion babanod; a sefydlodd Owen un yn ddioed ar ei ddychweliad i Lanark. Y mae llawer o glod yn ddyledus i Arglwydd Brougham am y dyddordeb a gymmerodd, a'r cymmhorth a roddodd i sefydlu yr ysgolion hyn. Ond hwyrach mai yr hwn a lafuriodd fwyaf, ac a fu fwyaf llwyddiannus, yn y wlad hon ar y pryd gyda'r gwaith da yma oedd Mr. Wilderspin.

Ond o bawb a roddodd gyffroad i addysg foreuol, fe allai mai yr hwn a wnaeth fwyaf oedd Pestalozzi. Ganwyd Henry Pestalozzi yn Zürich, yn Switzerland, yn 1745, o rieni cyfrifol. Collodd ei dad pan oedd yn ieuangc, a gadawyd ef i ofal ei fam, yr hon a ddarostyngwyd i gryn dlodi. Yr oedd rhywbeth yn hynod yn ei ymddygiadau pan yn ddyn ieuangc; a nodweddid ef yn hytrach gan dynerwch a charedigrwydd, na chan nerth ei ddeall. Nid oedd yn foddlawn ar y dull o addysgu yn y dyddiau hyny. Credai nad oedd y drefn a fabwysiedid i gyfranu addysg yn gymmhwys i ddarparu dynion tuag at gyflawni dyledswyddau, nac i fwynhau bywyd; a phenderfynodd wneyd prawf ar drefn addysgol newydd. Dewisodd ei ysgolheigion o blith y dosbarth isaf. Trowyd ei sefydliad yn nawdd-dy; lle y darperid ymborth, dillad, ac addysg i hanner cant o blant tlodion. Yr oedd ei amcan yn genhedlaethol, gan y dymunai ddangos i'r wladwriaeth pa fodd y gallesid ymarfer y tlodion i'w haddysgu a'u gwellhau eu hunain; felly gwelir mai un o'i egwyddorion mawrion oedd hunan-addysgiaeth. Dyryswyd y cynllun hwn; ond nid cyn iddo wneuthur daioni mawr i fwy na chant o blant tlodion, a chwanegu hefyd at ei brofiad ei hun: a gwnaeth hyn oll yn hysbys i'r byd mewn amryw o weithiau dengar ac addysgiadol a gyhoeddwyd ganddo. Wedi cyfarfod â llawer o anhawsderau, gwnaeth Pestalozzi, gyda chynnorthwy y llywodraeth, arbrawf addysgol arall. Ymdaflodd ar allu cariad yn nghalonau y plant, fel yr unig foddion i sicrhau ufudd-dod; ac yr oedd yr effaith yn cyfatteb i ddisgwyliadau yr athraw. Nid oedd ganddo ddim dodrefn yn ei ysgol: efe a'r plant yn unig oedd yno. Ond pa fodd yr oedd i'w dysgu? O'r diwedd, ar ol llawer o brofion a methiant, arweiniwyd ef i gyfranu addysg iddynt â gair ei enau, yn lle llyfrau. Pa fodd bynag, mewn canlyniad i ryfel a gymmerodd le, torwyd ei sefydliad i fyny; a dyrysodd ei feddwl a'i amgylchiadau i raddau, a gwnaed ef yn wrthddrych gwawd gan ynfydion. Ond dilynodd ei waith yn mlaen, a chymmerwyd ef i mewn yn gynnorthwywr i ysgol a gedwid gan ferch. Yno, agorodd cylch eangach iddo yn fuan. Rhoddodd llywodraeth Switzerland flwydd-dâl bychan iddo, a chastell gwâg, yn yr hwn yr oedd digon o ystafelloedd —ond dim dodrefn. Dechreuodd yntau weithio, a daeth yr ysgol yn Burgdorf yn fuan yn wrthddrych sylw. Ond o herwydd iddo rywfodd dramgwyddo talaeth bendefigol Berne, bu raid iddo symmud i dalaeth De Vaud. Yno bu yn llafurio yn nghastell Yeerdon. Ond nid oedd ganddo yno ond muriau moelion, a golygfeydd ardderchog i edrych arnynt; ond gwnaeth y lle hwn yn llanerch prysur a hapus yn fuan. Yr oedd Pestalozzi er hyny yn meddu ar fwy o gymmhwysder i ffurfio a chychwyn damcaniaethau nag i weithio allan yn ymarferol ei syniadau ei hun. Syrthiodd ei sefydliad diweddaf i'r llawr o ddiffyg arweinydd priodol. Bu farw yn 80ain mlwydd oed, a bu farw heb fedi dim o wobr ei lafur, ond y boddlonrwydd mewnol a deimlai ei fod wedi cyflawni ei ddyledswydd.

Pe buasai yr argyhoeddiad yn gyffredinol yn yr oesoedd o'r blaen fod plant y tlodion i gael eu haddysgu, y mae yn dra thebygol y buasai moddion priodol i ddwyn yr amcan oddi amgylch wedi eu dyfeisio a'u cario allan yn gynt. Ond yn bresennol, er fod golygiadau gwahanol o berthynas i'r cynllun ar yr hwn y mae addysg y bobl i'w ddwyn yn mlaen, o'r braidd y mae gwahaniaeth barn yn bod o gwbl gyda golwg ar yr angenrheidrwydd o addysgu y boblogaeth mewn rhyw ffurf neu gilydd. Y mae y ffaith hon ynddi ei hun yn deilwng o sylw. Bu amser, a hyny o fewn cof personau sydd yn awr yn fyw, pan yr ystyrid gan lawer mai etifeddiaeth briodol a braint arbenig rhyw ychydig nifer ydoedd addysg. Fel y canlyn y mae Edward Twistleton, Ysw., yn ysgrifenu yn ei adroddiad ar addysg plant a fegid ar elusen plwyfol yn 1841:—"Y mae yn ammhossibl," medd efe, "i un gau ei lygaid ar y ffaith fod cyfran neillduol o'r dosbarthiadau uchaf a chanol yn coleddu diffyg ymddiried dwfn yn y cynlluniau a ffurfir i addysgu y tlodion. Wrth gyflawni fy nyledswyddau arferol yr wyf wedi cael yn fynych gyfleusderau i weled y teimlad hwn yn cael ei amlygu mewn modd diammwys....Yn mhlith amaethwyr bychain, a rhai o'r boneddwyr, amddiffynir yr anewyllysgarwch hwn i addysgu y tlodion trwy ddwyn yn mlaen resymau dros hyny; a sicrhawyd i mi yn ddifrifol, ychydig o amser yn ol, gan farsiandwr yn preswylio mewn tref borthladdol, nad oedd y llafurwr amaethyddol ond ychydig iawn uwch law yr anifail, ac mai yr holl effaith a wnai addysg arno fyddai ei wneuthur yn anfoddlawn i'w sefyllfa." Nid oes ond ychydig o amser mewn cymmhariaeth wedi myned heibio er pan oedd ysgolion, fel yr ydym yn awr yn deall y gair, o'r bron yn hollol anhysbys yn mysg y dosbarth gweithiol o'r boblogaeth; y rhai a ddibynent am ychydig o addysg i'w plant ar ysgolion bychain, a gedwid gan ferched yn gyffredin, neu ynte ar ymdrechion gwirfoddolwyr, a chefnogwyr yr Ysgolion Sabbothol; y rhai, yn ddiammheuol a balmantodd y ffordd i sefydliad yr ysgolion dyddiol sydd yn bresennol mor gyffredinol yn mhob rhan o'r wlad.

Yn nechreu y ganrif bresennol yr oedd addysg genhedlaethol, fel y cyfryw, o'r bron yn beth anhysbys, a gwirionedd yn y sylw a wnaeth Malthus yn ei "*Essay on Population,*" pan y dywedodd "Y mae yn warthrudd cenedlaethol fod addysg y dosbarth isaf o'r bobl yn Lloegr yn cael ei adael i ychydig o Ysgolion Sabbothol yn cael eu cynnal gan danysgrifiadau personol." Y mae ffeithiau yn dangos fod hyn yn ddisgrifiad cywir; gyda'r eithriadau o ychydig ysgolion a gynnelid o dan nawdd y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Yn 1808, y gwnaeth y Gymdeithas Ysgolion Frytanaidd a Thramor ymgais i gyfarfod y drwg hwn. Yn mhen tair blynedd wedi hyny, sef yn 1811, sefydlwyd y Gymdeithas Genhedlaethol er addysgu y boblogaeth yn egwyddorion yr Eglwys Sefydledig. Ymgasglodd cyfeillion addysg o amgylch y cymdeithasau hyn; a gwelwyd yn fuan eu heffeithiau daionus, nid yn unig yn y chwanegiad a wnaed at nifer yr ysgolion a'r ysgolheigion, ond hefyd yn rhagoriaeth yr addysg a

Digitized by Google

gyfrenid. Mor bell a hyn, dygid y gwaith yn mlaen yn benaf trwy ymdrechion personol; ond yn awr, dechreuodd cymdeithasau ymaflyd yn y gwaith a wnaethid o'r blaen gan bersonau unigol, ac felly mewn amser daeth y genedl i deimlo ei rhwymedigaeth i gefnogi ac i adgyflenwi ymdrechion personol a chymdeithasol. Yn raddol, pa fodd bynag, y daeth pethau i'r sefyllfa hon; ac yr oedd argyhoeddi y senedd o'i rhwymedigaeth a'i dyledswydd yn y peth hwn yn fwy gorchwyl nag y gallesid tybied ar y cyntaf. Daeth Mr. Whitbread â'r pwngc ger bron Tŷ y Cyffredin yn 1807, pan y dadleuai dros sefydlu ysgolion plwyfol i blant gweithwyr, mewn trefn iddynt gael o leiaf ddwy flynedd o addysgiaeth rhwng yr oedran o saith a phedair ar ddeg; ond gwrthod y cynnygiad a wnaed, a hyny am ddau reswm, dybygid—mewn rhan er mwyn meithrin cynnildeb, ac mewn rhan ar y sail fod gormod o addysg i'r dosbarth gweithiol yn tueddu i'w gwneuthur yn anfoddlawn i'w sefyllfa a'u dyledswyddau. Ond os troi yn fethiant a wnaeth cynnygiad Mr. Whitbread ar y pryd, rhoddodd gychwyniad i symmudiad a ennillodd nerth yn raddol.

Gweithiodd y ddwy gymdeithas a enwyd uchod yn egniol, ac ennillent dir yn feunyddiol: agorwyd ysgolion mewn llawer o fanau, nes yn 1818 yr oedd y symmudiad wedi casglu digon o nerth i beri i Mr. Brougham wasgu ar y senedd y ddyledswydd o bennodi pwyllgor er gwneuthur ymchwiliad i'r holl gwestiwn—yr hyn a ganiatawyd. Y ffordd a fabwysiadwyd gan y pwyllgor hwn oedd, anfon cylchlythyr at berigl pob plwyf yn Mhrydain Fawr, yn gofyn rhestr o gwestiynau ynghylch nifer yr ysgolion gwaddoledig ac anwaddoledig, a nifer yr ysgolheigion oedd yn yr ysgolion dyddiol a Sabbothol. Rhoddwyd attebion mwy cyffredinol o'r braidd nag y gallesid disgwyl; a cheir canlyniad yr ymofyniad yn y daflen ganlynol:—

| | |
|---|---|
| Ysgolion dyddiol ... ... ... | 19,230 |
| Ysgolheigion ... ... ... ... | 674,283 |

Cyfartaledd yr ysgolheigion i'r boblogaeth—un yn mhob 17.25.

| | |
|---|---|
| Ysgolion Sabbothol .. ... ... | 5,463 |
| Ysgolheigion ... ... ... ... | 477,225 |

Cyfartaledd yr ysgolheigion i'r boblogaeth—un yn mhob 24.40.

Cyfrifid nad oedd cyfartaledd y plant o dan addysg yn yr adeg ond un yn mhob dau ar bymtheg. Gwnaeth Mr. Brougham ymdrech cyffelyb yn 1828, gyda'r amcan o roddi prawf ar y cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y deng mlynedd, ac yr oedd y ffrwyth yn dra boddhaol, ac ystyried yr amgylchiadau; a theimlwyd cymmaint o ddyddordeb yn yr achos fel y pennododd y llywodraeth, yn mhen pum mlynedd, ar fod i ymchwiliad arall gael ei wneuthur. Oddi wrth y cyfrifon a ddaeth i law y pryd hwnw, cafwyd fod rhifedi yr ysgolheigion wedi mwy na dyblu yn ystod y pymtheng mlynedd blaenorol; sef, o 1818 hyd 1833. Ac yr oedd 'ysgolion babanod,' y rhai oedd yn cael eu dwyn yn mlaen yn Ysgotland er's rhai blynyddoedd, wedi eu sefydlu hefyd mewn amryw barthau o Loegr, ac yn lled lwyddiannus.

Dengys y daflen ganlynol ffrwyth yr ymchwiliad hwn:—

| | |
|---|---|
| Ysgolion dyddiol ... ... ... | 38,971 |
| Ysgolheigion ... ... ... ... | 1,276,947 |

Cyfartaledd yr ysgolheigion i'r boblogaeth—un yn mhob 11.27.



| | |
|---|---|
| Ysgolion Sabbothol ... ... ... | 16,828 |
| Ysgolheigion ... ... ... ... | 1,548,890 |

Cyfartaledd yr ysgolheigion i'r boblogaeth—un yn mhob 9.28.

Pan gyhoeddwyd y daflen hon, rai blynyddoedd wedi hyny, mewn cyssylltiad â chofrifiad y fl. 1851, gan Mr. Horace Mann, sylwodd y gŵr hwnw ei fod yn bendant o'r farn fod y ffigyrau hyn yn llai na'r gwir gyfrif, ac nad oedd cyfartaledd yr ysgolheigion i'r boblogaeth yn fwy na deg yn y cant. Rhaid cadw mewn golwg, wrth gwrs, fod cryn gyfartaledd o'r ysgolheigion Sabbothol eisoes wedi eu cyfrif yn mysg yr ysgolheigion dyddiol. Gellir chwanegu at yr adroddiad uchod yr un canlynol, ynghylch nifer y plant oedd dan addysg yn 1833, ac yn ei dderbyn yn gwbl neu mewn rhan yn rhad:—

| | |
|---|---|
| Ysgolheigion ar waddoliadau .. ... | 153,764 |
| Ysgolheigion ar danysgrifiadau ... | 178,517 |
| Ysgolheigion yn derbyn eu haddysg trwy danysgrifiadau a thâl personol | 215,217 |

Yn gwneyd cyfanswm o 547,498 o blant o dan addysg mewn ysgolion yn cael eu cynnal, i raddau mwy neu lai, gan offrymau gwirfoddol. Yn y fl. 1833—sef, blwyddyn gyntaf y senedd ddiwygiedig—dygwyd y mater unwaith drachefn o flaen y tŷ, a chanfyddwyd ar unwaith fod cyfnewidiad dirfawr wedi cymmeryd lle er y dyddiau y traddododd Whitbread ei araeth, pan y pleidleisiwyd 20,000*p.* tuag at godi ysgoldai i addysgu plant y dosbarthiadau isaf, naill ai mewn cyssylltiad â'r Gymdeithas Genedlaethol, neu y Gymdeithas Frytanaidd a Thramor. O'r pryd hwnw allan, yr oedd yn amlwg fod y senedd yn dyfod yn nes o hyd i gydnabod yr egwyddor, fod addysgu plant tlodion yn ddyledswydd genedlaethol, a'r ymdrechion y tu allan i ddiwallu angen y boblogaeth gyda golwg ar hyn yn cryfhau. Yr oedd trysorfeydd y cymdeithasau yn chwyddo; ac wedi i'r swm o 20,000*p.* gael eu rhoddi yn flynyddol gan y senedd hyd 1838, chwanegwyd y rhodd i 30,000*p.* yn ystod y flwyddyn hono; ac yn yr un flwyddyn pennodwyd pwyllgor o'r cyfringynghor i dalu sylw arbenig i'r holl gwestiwn, ac i weinyddu yr arian a bleidleisid gan y senedd. Cyfodwyd y rhodd seneddol i 40,000*p.* yn 1842, a safodd felly hyd 1845, pan y chwanegwyd hi i 75,000*p.*; ac y mae wedi parhau i gynnyddu yn raddol bob blwyddyn o hyny hyd yn awr, fel y dengys y daflen ganlynol:—

| | P. | | P. |
|---|---|---|---|
| 1846—1850 ... | 115,000 | 1864 ... ... | 705,404 |
| 1851 ... ... | 150,000 | 1865 ... ... | 695,078 |
| 1852 ... ... | 160,000 | 1866 ... ... | 694,530 |
| 1853 ... ... | 260,000 | 1867 ... ... | 705,865 |
| 1854 ... ... | 263,000 | 1868 ... ... | 781,324 |
| 1855 ... ... | 396,921 | 1869 ... ... | 840,711 |
| 1856 ... ... | 451,213 | 1870 ... ... | 914,721 |
| 1857 ... ... | 541,233 | 1871 ... ... | 1,458,402 |
| 1858 ... ... | 663,435 | 1872 ... ... | 1,551,560 |
| 1859 ... ... | 836,920 | 1873 ... ... | 1,299,803 |
| 1860 ... ... | 798,167 | 1874 ... ... | 1,356,852 |
| 1861 ... ... | 803,734 | 1875 ... ... | 1,548,563 |
| 1862 ... ... | 842,119 | 1876 ... ... | 1,881,728 |
| 1863 ... ... | 804,002 | 1877 ... ... | 2,127,730 |

Bu cryn wrthwynebiad yn y ddau dŷ o senedd i'r cwrs hwn a gymmerwyd gan amryw lywodraethau yn olynol. Weithiau, boddlonai y gwrthwynebwyr ar wneyd gwrthdystiad yn unig; ond ar achlysuron eraill gwrthwynebid yr egwyddor ar ba un y caniatawyd y rhodd at addysg. Pan y cynnygiodd Arglwydd John Russell, yn 1847,

Digitized by Google

godi y rhodd flynyddol i 100,000*p.*, cynnygiodd Mr. T. Duncombe ar fod i bwyllgor detholedig gael ei bennodi i wneuthur ymchwiliad i'r angenrheidrwydd am barhâd gweithrediadau y Cynghor Addysg, pan y cyfododd Mr. Macaulay, ac y traddododd araeth ardderchog ar ddyledswydd y wladwriaeth yn mherthynas i addysgiaeth y tlodion; a diammheu i'r araeth nodedig hono wneyd ei rhan yn dda i gryfhau dwylaw y llywodraeth, ac i hyrwyddo yr achos yn mlaen. Yr oedd y gwrthwynebiad a deimlid i gynllun y llywodraeth yn gryf, fodd bynag, gan fod y mwyafrif o'r Anghydffurfwyr oedd yn aelodau o'r tŷ, yn cael eu harwain gan Mr. John Bright, yn sefyll i fyny dros y gyfundrefn wirfoddol; canys nid oeddynt etto wedi eu hargyhoeddi o gymmhwysder a phriodoldeb addysg wladwriaethol. Yr unig wahaniaeth oedd rhyngddynt oedd yn nghylch y ffordd i ddarparu addysg i'r bobl. Safai yr Ymneillduwyr i fyny gan mwyaf dros addysg wirfoddol yn benaf, gan y tybient ei bod yn fwy cydnaws â nodwedd y genedl, yn ffafriol i ryddid gwladol a chrefyddol, ac yn debyg o gynnyrchu mwy o ddaioni i'r wlad. Ond er fod yr wrthblaid yn gref, nis gallai sefyll ar ffordd y teimlad dros gynnorthwyo yr ymdrechiadau gwirfoddol oedd yn cael eu gwneyd dros addysg, drwy fod y wladwriaeth yn estyn mwy o gymmhorth nag yr arferai wneyd. Y mae yn briodol dywedyd yma, mai yr hyn a barai i'r aelodau Anghydffurfiol wrthwynebu y chwanegiad hwn yn y rhodd oedd, eu bod yn ofni y defnyddiasid hi i'r amcan o gryfhau yr Eglwys Sefydledig ar draul gwanhau Ymneillduaeth. Ond dadleuai Arglwydd John Russell "nad cyfundrefn o addysg wladol oedd; ond cyfundrefn yn cael ei mabwysiadu yn unig er cynnorthwyo ysgolion oedd mewn bod o'r blaen, heb osod telerau ar unrhyw ysgolion nad oeddynt yn berffaith gydsyniol â'r rheolau a'r trefniadau oedd wedi eu sefydlu yn barod gan sylfaenwyr a rheolwyr yr ysgolion hyny." Mewn geiriau eraill, gan fod y wladwriaeth yn flaenorol wedi rhoddi cynnorthwy i adeiladu ysgoldai, ei bod yn awr yn cynnyg cynnorthwy tuag at gynnal is-feistriaid a dysgybl-athrawon. Yna cydsyniwyd â'r rhodd o 100,000*p.*; a gwrthodwyd cynnygiad Syr William Clay, fod i blant ag yr oedd eu rhieni yn gwrthwynebu dysgu crefydd iddynt gael cyfranogi o'r addysg fydol; a gwrthwynebwyd hefyd gynnygiad Syr W. Molesworth, i alluogi y Pabyddion i gyfranogi o'r rhodd. Addawai y llywodraeth ddefnyddio yr arian ar y sylfeini eangaf yn bossibl; ac mewn amgylchiadau lle y gwrthwynebid i arolygiaeth mewn gwybodaeth grefyddol gymmeryd lle ar seiliau crefyddol, y byddai pwyllgor addysg yn barod i roddi yr ystyriaeth ddyfalaf i'r mater. Yr unig gyfnewidiad arall o bwys a ddygwyd i mewn gan Arglwydd John Russell ac Ardalydd Lansdowne oedd y gyfundrefn o gael athrawon a dysgybl-athrawon tystysgritiol (*certificated*).

Cafwyd cyfle yn adeg cofrifiad 1851 i gasglu ynghyd ystadegau y gellid dibynu arnynt o berthynas i nifer y plant oedd dan addysg yn y wlad hon; ac er fod yr hysbysiadau gyda golwg ar hyn yn cael eu rhoddi yn wirfoddol, gellir eu hystyried ar y cyfan yn gywir. Cynnwysa y daflen ganlynol ffrwyth yr ymchwiliad:—

| | |
|---|---|
| Ysgolion dyddiol cyhoeddus ... ... | 15,518 |
| Ysgolion preifat ... ... ... | 30,524 |
| **Cyfanswm** ... ... ... ... | 46,042 |
| Ysgolheigion cyhoeddus ... | ...1,422,982 |
| Ysgolheigion preifat ... ... | ... 721,396 |
| Cyfanswm ... ... | ...2,144,378 |
| Ysgolion Sabbothol ... ... | ... 23,514 |
| Ysgolheigion ... ... ... | ...2,407,642 |
| Ysgolion nosawl ... ... ... | 1,545 |
| Ysgolheigion ... ... ... ... | 39,788 |

Os chwanegwn at y daflen hon un arall, yn cyfleu y ffigyrau sydd wedi eu dyfynu yn barod fel y cafwyd hwy yn 1818 a 1833, gellir gweled y cynnydd dirfawr a wnaed yn y cyfnod hwnw:

| Dyddiad. | Ysgolion dyddiol. | Ysgolheigion. | Cyfartaledd yr ysgolheigion i'r boblogaeth. |
|---|---|---|---|
| | | | Un yn mhob |
| 1818 | 19,230 | 674,883 | 17.25 |
| 1833 | 38,971 | 1,276,947 | 11.27 |
| 1851 | 46,040 | 2,144,378 | 8.36 |

Fel y canlyn y safai yr Ysgolion Sabbothol:—

| Ysgolion Sabbothol. | Ysgolheigion. | Cyfartaledd yr ysgolheigion i'r boblogaeth. |
|---|---|---|
| | | Un yn mhob |
| 5,463 | 477,225 | 24.40 |
| 16,828 | 1,548,890 | 9.28 |
| 23,514 | 2,407,642 | 7.45 |

Y cyfnewidiad, neu yn hytrach y dadblygiad pwysig nesaf yn y gyfundrefn ar ba un y caniatawyd rhoddion y llywodraeth, a wnaed yn 1853, pan y sefydlwyd yr hyn a elwir yn 'arian y penau' (*capitation grant*) yn 1853, am bob ysgolor a fu yn yr ysgol 176 o weithiau yn y flwyddyn; a chyda hyn o chwanegiadau at gynllun gwreiddiol Arglwydd Russell, dygwyd yn mlaen achos addysg gydag egni a sêl cynnyddol hyd y fl. 1858, pan y gwnaed ymdrech i wybod beth oedd y cynnydd a wnaethpwyd er pan y cafwyd cyfrifon o'r blaen. Appwyntiwyd dirprwyaeth yn y flwyddyn hono "i wneuthur ymchwiliad i sefyllfa bresennol addysg y bobl yn Lloegr, ac i ystyried a gwneyd adroddiad pa fesurau sydd angenrheidiol er helaethu addysg elfenol dda a rhadlawn yn mysg pob dosbarth o'r boblogaeth." Y dirprwywyr pennodedig oeddynt, y duc o Newcastle, Syr J. T. Coleridge, y Parchn. W. C. Lake a W. Rogers, y Proffeswr Goldwin Smith, Mr. N. Senior, a Mr. E. Miall. Ar ol gweithio am dair blynedd, pryd yr oedd y dirprwywyr cynnorthwyol yn casglu ffeithiau a hysbysiadau o wahanol barthau y wlad iddynt, cyflwynodd y dirprwywyr hyn eu hadroddiad i'r senedd; ac y mae o'r bron yn sicr ei fod yn cynnwys yr hysbysiadau gwerthfawrocaf ar y mater a gasglwyd erioed—nid yn unig mewn ffordd o ystadegau, ond yn y ffurf o dystiolaethau gan lygaid-dystion yn meddu ar farn addfed a chywir. Y casgliadau a dynwyd gan y dirprwywyr, fel ffrwyth cyffredinol y gyfundrefn o addysg genedlaethol oedd mewn grym ar y pryd, a symiwyd i fyny yn ngeiriau Mr. Walpole, pan y dywedodd fod ei manteision, yn ol yr adroddiad, yn bedwar mewn nifer. Yn gyntaf, mai dyna yr unig gyfundrefn trwy gyfrwng yr hon y gellid dwyn yn mlaen addysg grefyddol. Yn ail, gan ei bod yn egwyddor fawr yn y gyfundrefn i dynu allan ymdrechion personol o blaid addysg, nad oedd mewn un modd yn amcanu aflonyddu ar hyny. Yn drydydd, fod effeithiolrwydd cyffredinol dysgyblaeth, arferion, a threfn yr ysgolion yn gyflawn. Ac, yn bedwerydd, fod mabwysiadu y cynllun o gael dysgybl-athrawon wedi bod yn hollol lwyddiannus. Dyna, yn marn y

Digitized by Google

dirprwywyr, oedd manteision y gyfundrefn a dyfodd mor ddistaw o'r flwyddyn 1833. Ar yr un pryd, cydnabyddent fod ymdrechion chwanegol yn angenrheidiol er addysgu plant tlodion mewn ardaloedd a esgeulusid. Ystyrient fod symmud plant o'r ysgol, pan oedd eu haddysg elfenol yn ddiffygiol, yn ddrwg mawr; hefyd, gofidient am nad oedd y plant yn mynychu yr ysgolion yn fwy rheolaidd, a bod can lleied o ystyriaeth yn cael ei roddi i addysgiaeth y dosbarth ieuangaf. Er gwneyd i fyny y diffygion hyn, darparwyd y deddfau diwygiedig (*revised code*) gan y Pwyllgor Addysg, a dygwyd hwy ger bron Tŷ y Cyffredin gan Mr. Lowe, is-gadeirydd y pwyllgor. Prif nodweddion y cynllun hwn oedd, ei fod yn pennodi un rodd, yn lle yr amrywiol roddion a gyfrenid yn flaenorol, fel yr arferid o dan gynllun yr Ardalydd Lansdowne ac Arglwydd Russell: ac amcan y cyfnewidiad oedd, rhoddi prawf ar bob peth drwy archwiliad, a gwneuthur yr archwiliad hwnw, i raddau mawr hefyd, yn bersonol. Cyfarfu y cynnygiad hwn, ynghyd â'r cynnygiad fod y wobr am bresennoldeb plant, wedi iddynt gyrhaedd un ar ddeg oed, yn cael ei hattal, âg ystorm o anghymmeradwyaeth oddi wrth glerigwyr, rheolwyr ysgolion, athrawon, a llawer o wleidyddion; ac mewn canlyniad, galwyd yn ol y deddfau diwygiedig. Cynnygiwyd yr un peth drachefn mewn ffurf ddiwygiedig yn 1862, ond gwrthwynebwyd ef yn bendant gan Dŷ y Cyffredin. Ar hyn cyfododd dadl fawr arall ar addysg, yr hon y gellir ei chymmharu i'r hon a gymmerodd le yn 1847. Gwrthwynebwyd cynllun Mr. Lowe gan Mr. Forster; yr hwn a draddododd araeth ragorol ar ysgolion ac addysg yn gyffredinol.

Am yr wyth mlynedd a ddilynodd, nid llawer o gyffro a fu yn mherthynas i addysg, ond yr oedd y gwaith yn myned rhagddo yn dda; ac yn y cyfamser, yr oedd y farn gyhoeddus yn raddol ymffurfio ar y mater yn ei holl gyssylltiadau, a'r argyhoeddiad yn dyfnhau y dylesid mabwysiadu mesur mwy cyflawn nag un oedd mewn gweithrediad o'r blaen. Er fod ymdrechion canmoladwy yn cael eu gwneyd gan gefnogwyr addysg wirfoddol, a chryn gynnydd wedi ei wneyd y naill flwyddyn ar ol y llall yn rhoddion y llywodraeth, a chefnogwyr cyfundrefn yr Ysgolion Carpiog yn gweithio yn egniol, teimlid nad oedd y gwaith yn cael ei wneyd ond yn ammherffaith, ac nad oedd y wlad yn cyflawni ei dyledswydd ar y mater pwysig hwn. Y mae yn wir fod nifer yr ysgolheigion ar lyfrau yr ysgolion a dderbynient gynnorthwy y llywodraeth yn Lloegr a Chymru yn unig yn cyrhaedd i'r nifer o tua 1,500,000; ond yr oedd llawer y tu allan i'r nifer yma nad oeddynt yn cael eu cyrhaedd gan y cynlluniau oedd ar droed. Dywedai Mr. Forster, yr hwn oedd olynydd Mr. Lowe, yn y swydd o is-gadeirydd y pwyllgor, fod tri pheth yn attalfa i'n cyfundrefn addysgol fod yn hollol lwyddiannus. Yn y lle cyntaf, nis gallai y plwyfydd bychain yn y wlad ddyfod i fyny â'r gofynion angenrheidiol er derbyn cynnorthwy y wladwriaeth; neu, mewn geiriau eraill, nid oedd eu hysgoldai yn dyfod i fyny â'r safon a ofynid gan yr awdurdodau, na'u trysorfeydd yn eu galluogi i sicrhau gwasanaeth athrawon cymmhwys i weithio y plant i fyny i'r safon a ofynid gan y Swyddfa Addysg. Yn nesaf, yr oedd dosbarth lliosog oedd yn derbyn elusen plwyfol, ac eraill yn y trefydd mawrion, nad oeddynt yn danfon eu plant i ysgol o gwbl. Ac yn olaf, yr oedd dosbarth nas gallent yn gyfleus wneyd heb wasanaeth eu plant; ac o blegid hyny, nid oeddynt yn eu cadw yn yr ysgol am ddigon o amser. Pa fodd i ddarparu ar gyfer y plant hyn, ac ar yr un pryd i drefnu pethau fel ag i beidio ymyryd â'r gwaith oedd yn cael ei wneyd yn effeithiol—ac nad oedd y llywodraeth yn talu am dano, er ei bod yn cynnorthwyo i hyny—nid oedd yn amlwg. Dyna yr anhawsderau oedd i'w cyfarfod gyda'r cwestiwn o addysg genedlaethol.

Pan agorwyd y senedd ar yr 8fed o Chwefror, 1870, cynnwysai araeth ei Mawrhydi hysbysiad fod "addysg i ddyfod o dan sylw y ddau dŷ, a bod mesur wedi ei ddarparu er helaethu, ar raddeg eang, foddion addysg genedlaethol." Wythnos yn ddiweddarach, dygwyd y mesur addawedig o flaen Tŷ y Cyffredin gan Mr. Forster, mewn araeth alluog; yn yr hon yr adgofiai y Tŷ nad oedd ond dau o bob pump o blant gweithwyr, rhwng chwech a deg oed, ac un ran o dair o rai rhwng deg a deuddeg, ar gofrestrau llyfrau yr ysgolion a dderbynient gynnaliaeth o'r wladwriaeth. Yna efe a aeth yn mlaen i ddadblygu ei gynllun er dwyn y lliaws yn raddol i fwynhau manteision addysg. Credai fod y wlad yn disgwyl i'r senedd amcanu at ddau beth; sef, gorchuddio y wlad âg ysgolion, a chael gan rieni i ddanfon eu plant iddynt:—ac yr oedd y mesur wedi ei fwriadu i gyrhaedd y ddau amcan yna. Yn ol ei ddarpariadau, yr oedd y wlad i'w rhanu yn ddosbarthiadau addysgol, a moddion i'w harfer er cael sicrwydd a oedd cyflenwad priodol o ysgolion effeithiol yn y dosbarthiadau hyny; ac os felly, yr oedd pob peth i'w adael yn llonydd. Os amgen, yr oedd byrddau ysgol i gael eu ffurfio, wedi eu dewis gan y plwyfolion, a'r byrddau hyny i gael eu hawdurdodi â galluoedd i orfodi plant i ddyfod i'r ysgolion: ac yr oeddynt i gael eu cyflenwi âg arian i ddwyn y gwaith yn mlaen gan y plwyfolion, wedi eu cyfodi trwy drethi, i'r dyben o adeiladu a chynnal nifer o ysgolion chwanegol lle y byddai angen am danynt. Yr oedd arolygiaeth enwadol i gael ei ddiddymu, ac adran cydwybod i'w mabwysiadu, o dan yr hon y gallasai rhieni hawlio i'w plant gael eu hesgusodi rhag bod dan addysg grefyddol yn yr ysgolion hyny a dderbynient o roddion y llywodraeth. Yn mherthynas i'r olwg gyllidol ar y cwestiwn, nid bwriad y llywodraeth oedd parotoi addysg rydd, er fod gan y byrddau hawl i roddi tocynau rhydd pan y gwelent hyny yn angenrheidiol; ond cynnygid dal i fyny yr un drefn o gyfranu rhoddion, ac felly fod un rhan o dair o gostau yr ysgolion i gael eu codi gan y rhieni, un rhan o dair i'w chael gan y llywodraeth, a'r rhan arall o'r trethi. Dyna, yn fyr, amlinelliad o'r mesur sydd wedi gwneuthur chwyldroad yn nghyfundrefn addysg elfenol Lloegr a Chymru.

Penderfynodd y wlad hon yn awr wneuthur yr hyn yr oedd Prwssia wedi dadgan iddi hi ei wneuthur yn agos i ddeugain mlynedd yn flaenorol, sef darparu moddion addysg ar gyfer pob plentyn mewn angen am dano. Wrth geisio dangos, i ryw raddau, pa mor bell y mae Deddf Addysg Elfenol 1870 yn cyflawni yr hyn a ddisgwylid oddi wrthi, byddai yn briodol i ni, fe allai, unwaith etto ddeffinio yn fanwl ei hamcan yn ngeiriau adroddiad y Swyddfa Addysg am y fl. 1872—73, lle y mynegir mai amcan blaenaf Deddf Addysg 1870 ydoedd diogelu a darparu cyflenwad o ysgolion er cyfarfod âg anghenion

Digitized by Google

addysgol yr holl wlad. Gellid gwneyd i fyny yr angen hwn yn mhob dosbarth, naill ai trwy ymdrechion gwirfoddol, neu gan fyrddau cynnrychioliadol wedi eu hethol gan y trethdalwyr; a gellid sefydlu y byrddau hyn yn wirfoddol gan y dosbarth, neu ynte yn orfodol, pan y byddai y Swyddfa Addysg wedi iddi gael sicrwydd o ddiffyg nad ydoedd yn cael, ac na byddai iddo gael ei gyfarfod gan ymdrechion gwirfoddol. Nis gallwn yma fyned i mewn i'r cwestiwn am natur yr addysg a gyfrenir yn ysgolion elfenol y wlad, pa un bynag ai mewn cyssylltiad â'r amrywiol gyfundebau crefyddol, neu o dan fyrddau ysgolion y byddent; ond gallwn ddywedyd y rhaid i'r addysg yn mhob achos gyrhaedd safon y llywodraeth mewn trefn i ennill rhodd y llywodraeth. Ein hamcan yn awr ydyw dangos yr hyn sydd yn cael ei wneyd dros achos addysg yn Lloegr a Chymru, o'i gymmharu â'r hyn oedd yn cael ei wneyd tua hanner can mlynedd yn ol.

Cyn myned yn mlaen i sylwi ar gyfundrefn bwrdd ysgol yn ei gwaith, nid ammhriodol fyddai cymmeryd adolygiad byr ar yr amgylchiadau o dan ba rai y mabwysiadwyd y gyfundrefn. Cyfrifai y Swyddfa Addysg, allan o boblogaeth y pryd hwnw o tua 15,000,000 yn Lloegr a Chymru, y dylasai cynnifer a 3,000,000 fod yn ddyddiol mewn ysgolion elfenol da ac effeithiol; ac y dylesid darparu lle yn yr ysgoldai, wrth gwrs, i gryn lawer yn chwaneg. Ond y gwirionedd oedd, gyda golwg ar yr ysgolion a dderbynient o'r rhoddion seneddol blynyddol, nid oedd ynddynt le i fwy na dwy filiwn a chwarter. Yn y cyfrif hwn, cauid allan ysgolion elfenol eraill nad oeddynt yn agored i arolygiaeth y llywodraeth; ond ar ol caniatau ar gyfer y rhai hyny, yr oedd y gwaith mor fawr fel nad oedd y wlad mwyach yn foddlawn i ymddiried i weithrediad graddol y gyfundrefn wirfoddol; a chefnogwyd y cynllun, a rhoddwyd i'r Swyddfa Addysg allu i orfodi ffurfiad byrddau ysgol yn mhob dosbarth o'r wlad lle nad oedd digon o ddarpariaeth yn yr ysgolion ar gyfer y boblogaeth. Y mae rhai wedi gwrthwynebu y cynllun, ar y sail mai yr amcan yn ei ffurfiad oedd rhoi dyrnod marwolaeth i'r gyfundrefn wirfoddol. Ond fel prawf i'r gwrthwyneb, gellir dyfynu ymadroddion isgadeirydd y Cynghor wrth ddwyn y mesur yn mlaen, pan y dywedodd:—"Rhaid i ni gymmeryd gofal i beidio dinystrio, wrth geisio adeiladu —i beidio dinystrio sefydliadau sydd mewn bod, wrth osod i lawr rai newyddion. A thra yn cadw mewn golwg ein hamcanion, fe ddylid treulio mor lleied ag sydd bossibl o arian y cyhoedd, ac ymdrechu hyd y mae ynom i beidio gwneuthur niwed i ysgolion sydd yn barod yn gwneyd eu gwaith yn effeithiol. Ein hamcan ni ydyw perffeithio y gyfundrefn wirfoddol bresennol, llenwi i fyny yr adwyau, arbed arian y cyhoedd pan y gellir gwneyd hebddynt, helaethu y gyfundrefn lle y mae angen am hyny, cael cymmaint ag a ellir o gynnorthwy rhieni, a chroesawu hyd y mae yn bossibl gefnogaeth y bobl ddyngarol hyny sydd yn dymuno cynnorthwyo eu cymmydogion." Chwanegodd hefyd:— "Yr ydym yn meddwl y dylem ganiatau digon o amser i ewyllysgarwch a sêl unrhyw wirfoddolwyr sydd yn dymuno cynnorthwyo; ond ni ddylem ganiatau chwaneg, am nas gallwn aros yn hwy. Os na leinw sêl ac ewyllysgarwch y wlad â'r ysgolion angenrheidiol, rhaid i'r wladwriaeth gymmeryd y gorchwyl i fyny, gan nas gellir gadael y plant yn hwy heb addysg."

Cyn gadael y cwestiwn gyda golwg ar amcan blaenaf y Ddeddf Addysg, yn ol proffes y rhai a'i cynlluniodd, hwyrach y byddai yn briodol i ni ddyfynu geiriau Mr. Forster etto yn mherthynas i'r hyn y mae llawer o siarad ac o ysgrifenu wedi bod arno; sef, yr hyn a elwir yn gyffredin "yr anhawsder crefyddol." Mewn gwirionedd, dyma yr hyn y teimlai lliaws o gefnogwyr addysg —a chefnogwyr selog i'r mesur hwn hefyd—yn enwedig yn mysg yr Anghydffurfwyr, y gwrthwynebiad mwyaf iddo. Yr oedd eu gwrthwynebiad yn gyfyngedig yn hollol o'r bron i'r pummed adran ar hugain o'r mesur, yr hwn sydd yn ymwneyd â'r pwngc o addysg grefyddol. Mewn cyfeiriad at y mater hwn, dywedai Mr. Forster, ar ol dadgan ei fod ef a'r llywodraeth yn gryf yn ffafr adran cydwybod fanwl yn yr ysgolion gwirfoddol, ac ysgolion y bwrdd, eu bod yn gwrthwynebu i'r wladwriaeth roddi attalfa ar ffordd addysg grefyddol y plant. Fel hyn y dywedodd efe:—

"Gellir gofyn, 'Pa ham nad ydych yn gwahardd addysg grefyddol yn hollol?' Wel, pe gwnaethem hyny, ni a ddeuem allan o'r anhawsder crefyddol i anhawsder anghrefyddol. Nid oes un ammheuaeth yn fy meddwl i na bydd y nifer liosocaf o rieni yn dymuno fod addysg grefyddol a Beiblaidd yn yr ysgolion. Pe gwaharddem addysg grefyddol, onid dyweyd y byddem mai yr unig lyfr nad ydyw i'w ddefnyddio yn ein hysgolion ydyw yr un ar yr hwn y mae y grefydd a broffeswn yn sylfaenedig? Ond dywedir eilwaith na ddylid dysgu athrawiaethau. Ond pa fodd y gellir attal hyny? A ydym i ddywedyd fod y Beibl i'w ddarllen, ond nid i'w esbonio? A ydym ni i dynu allan wersi ysgrythyrol gyda'r gofal mwyaf, fel na byddo i ddim o nodwedd athrawiaethol gael ei ddysgu i'r plant? Nid wyf yn dywedyd nas gellid gwneyd hyn. Yn hytrach na methu yn marn y wlad, byddwn i yn barod i gyfarfod y gwaith hwnw; ond yr wyf yn dywedyd mai gwaith nad yw yn perthyn i'r llywodraeth fel y cyfryw ydyw, a'r tebygolrwydd yw mai troi yn fethiant a wnelai hyny. Etto, pell oddi wrthym ni fyddai dywedyd y dylai y Beibl gael ei ddysgu yma, o herwydd fe allai y bydd rhieni mewn rhai dosbarthiadau, heb fod yn wrthwynebus i grefydd mewn un modd, y bydd yn fwy dewisol ganddynt gael ysgol i roddi addysg fydol hollol i'w plant, ac iddynt gael eu haddysg grefyddol yn rhywle arall; a dylai y rhieni hyny gael caniatâd i wneuthur fel y mynont."

Mewn geiriau eraill, tra yn dadgan, ar ei ran ei hun, a'i gydweinidogion, wrthwynebiad cryf i adael allan addysg grefyddol, ac awgrymu os cyfrenid addysg felly y byddai, i raddau mwy neu lai, yn athrawiaethol neu byngciol, symmudwyd y cyfrifoldeb o benderfynu y mater pwysig hwn oddi ar ysgwyddau y llywodraeth, a gosodwyd ef ar y llywodraeth leol. Dyna amddiffyniad Mr. Forster i'w gynllun yn mherthynas i addysg grefyddol. Rhoddwyd ar ddeall yn eglur nad oeddid yn dymuno ymyraeth â'r ysgolion gwirfoddol, nac â'u haddysg grefyddol; ond gwnaed darpariaeth i gyfarfod rhieni a wrthwynebent i'w plant gyfranogi o'r addysg grefyddol yn y cyfryw ysgolion, i'w tynu oddi yno yn ystod yr amser y cyfrenid hyny. Dyna amcan y ddeddf addysg, o dan ba un y daeth y 'bwrdd ysgol' yn rhan o beirianwaith addysgol y deyrnas.

Y mae y cynnydd a wneir o dan y gyfundrefn hon yn galw am ein sylw. Rhoddwyd cyfarwyddiadau gan y llywodraeth i gael cyfrif o bob tref a chymmydogaeth yn Lloegr a Chymru mewn perthynas i rifedi yr ysgolion elfenol a

Digitized by Google

rhif y plant oedd mewn angen addysg elfenol yn y gwahanol ddosbarthiadau. Yn yr adeg y rhoddwyd y cyfarwyddiadau yr oedd 14,881 o blwyfydd yn Lloegr a Chymru yn cadw eu tlodion eu hunain. Yn ol cofrifiad 1861, yr oedd holl boblogaeth y plwyfydd hyny yn cyrhaedd 20,066,224; ac wedi deall hyn, yr oedd gan y Swyddfa Addysg sylfaen i weithio allan ddarpariadau y ddeddf. Derbyniodd y swyddfa gynnifer o appeliadau i ffurfio byrddau ysgol, fel y barnwyd yn angenrheidiol i ffurfio trefniadau yn ddioed ar gyfer ethol y byrddau hyny —yr hyn hefyd a wnaed. Dengys y daflen ganlynol y cyfrif, yn ol yr hwn y ffurfiwyd y byrddau, yn annibynol ar fwrdd Llundain—sefydliad yr hwn a bennodasid gan y ddeddf ei hun:—

| Dyddiad. | Gorchymyn yn cael ei roddi i ffurfio byrddau yn y | |
|---|---|---|
| | Bwrdeisdrefi corphoredig. | Plwyfydd gwledig. |
| Gorphenaf 7fed, 1871 | 96 | 188 |
| Gorphenaf 5ed, 1872 | 100 | 279 |
| Mehefin 30ain, 1873 | 103 | 445 |
| Mehefin 10fed, 1874 | 104 | 594 |
| Mehefin 16eg, 1875 | 113 | 1,100 |
| Mehefin 1af, 1876 | 119 | 1,534 |
| Mehefin 9fed, 1877 | 123 | 1,667 |

Y mae gan bob un o'r tair tref ar ddeg sydd yn Lloegr ag y mae eu poblogaeth dros 100,000 yn awr fwrdd ysgol; ac o'r un dref ar hugain, gyda phoblogaeth yn amrywio o 50,000 i 100,000 y mae Preston yn sefyll wrthi ei hun, heb fod un bwrdd ynddi. O'r 69 trefydd nesaf, gyda phoblogaeth yn amrywio o 20,000 i 50,000, y mae 45 yn meddu byrddau, a 24 heb un. Y mae y boblogaeth sydd yn awr o dan fyrddau ysgol fel y canlyn:—

| | Poblogaeth. |
|---|---|
| **Lloegr.** | |
| Llundain ... ... ... | 3,266,987 |
| 108 o fyrddau ysgol mewn 108 (allan o 202) o fwrdeisdrefi ... ... | 5,358,374 |
| 1,424 o fyrddau mewn 1,965 o blwyfydd ... ... ... | 3,451,175 |
| | 12,076,536 |
| **Cymru.** | |
| 15 o fyrddau mewn 15 (allan o 21) o fwrdeisdrefi ... ... | 185,582 |
| 243 o fyrddau mewn 381 o blwyfydd | 567,713 |
| | 753,295 |
| Cyfanswm yn Lloegr a Chymru ... | 12,820,831 |

Canfyddir oddi wrth hyn fod cyfundrefn y byrddau ysgol yn barod wedi ei mabwysiadu i raddau helaeth iawn. Ac yn ol yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Addysg, dyddiedig Mehefin, 1877, y mae y swyddfa hono yn parhau i roddi rhybuddion am ffurfiad byrddau newyddion, naill ai ar ddymuniad gwirfoddol y dosbarthiadau, neu o herwydd fod y ddarpariaeth i'r nifer gofynol o blant yn yr ysgolion yn ddiffygiol. Pan y sefydlir bwrdd ysgol mewn unrhyw gymmydogaeth, y mae yn gorphwys ar yr aelodau i wneuthur cyfreithiau lleol i orfodi y plant i ddyfod i'r ysgol; ac y mae eu gwaith yn cymmeryd mantais ar eu galluoedd yn y ffordd hon yn cael ei ddangos gan y ffaith hon:—Ebrill 1af, 1877, yr oedd y frenhines wedi caniatau deddfau lleol i wneyd hyn yn Llundain, mewn 109 o'r bwrdeisdrefi corphoriaethol (allan o 123 yn y rhai y mae byrddau ysgol wedi eu dewis), ac mewn 612 o blwyfydd gwledig, allan o 2,346 o blwyfydd yn y rhai y mae byrddau ysgol wedi eu hethol. Y mae yr holl blwyfydd hyn yn gynnwysedig mewn 1,667 o fyrddau ysgol, o ba rai y mae 612 wedi pasio deddfau lleol i orfodi y plant i fyned i'r ysgolion. Y mae yr egwyddor orfodol yn awr yn gyfraith yn mysg hanner holl boblogaeth Lloegr a Chymru—yn cynnwys o ddeutu 84 y cant o boblogaeth y bwrdeisdrefi.

Dadgenir barnau gwahanol gyda golwg ar y modd y mae y drefn orfodol yn gweithio. Mewn rhai cynnadleddau a gynnaliwyd gan y Gymdeithas Genhedlaethol, haerai rhai ei bod yn fethiant i raddau o dan fwrdd ysgol Llundain. Ond ar y llaw arall, addefir, o'r bron yn gyffredinol, hyd yn oed yn mysg y prif wrthwynebwyr, mewn rhyw ffurf neu gilydd, naill ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, fod gorfodaeth yn angenrheidiol dan gyfundrefn y bwrdd ysgol.

Mater lled bwysig mewn cyssylltiad â byrddau ysgol ydyw eu treuliau—nid yn unig o berthynas i'r hyn sydd yn angenrheidiol i gario yr ysgolion sydd dan eu llywodraeth yn mlaen yn flynyddol, ond hefyd yn mherthynas i'r benthycion a wneir gan y byrddau. Canys y mae gan y byrddau hyn awdurdod, ar ddiogelwch y trethi, i gyfodi benthyg arian, i'w gwario yn benaf ar weithiau parhaol, megys adeiladu ysgoldai, a swyddfeydd, &c. A rhaid talu y benthycion hyn yn ol yn symiau blynyddol cyfartal, yn cynnwys y llôg hefyd, ond wedi eu gwasgaru dros gyfnod o flynyddoedd heb fod dros ddeg a deugain, neu drwy ffurfio trysorfa sawdd (*sinking fund*), fel y darperir gan adran 58 o ddeddf 1870. Y mae y gwaith o ad-dalu y benthycion hyn, sydd yn estynedig dros gyfnodau heb fod dros hanner can mlynedd, o angenrheidrwydd, yn araf; ac ychydig o wrthwynebiad a gyfodir gan y trethdalwyr, fel rheol, i'r taliadau hyn. Y ffynnonell o'r hon y telir y cyfalaf a'r llôg, yn gystal a'r arian i gyfarfod dwy ran o dair o dreuliadau cyffredin yr ysgolion, ydyw treth a godir yn ol gwerth eiddo, ar yr un tir a threth y tlodion. Rhaid i'r byrddau wneuthur amcangyfrif o'r treuliadau sydd yn debyg o ddisgyn arnynt bob hanner blwyddyn, a phenderfynu pa faint y bunt fydd yn angenrheidiol i gyfarfod y gofyn; ac wedi anfon i'r festri pa swm fydd yn ofynol, neu at gynghor y fwrdeisdref mewn corphoraeth, y mae yn disgyn ar y corph hwnw i gasglu y cyfryw swm gyda'r trethi plwyfol eraill. Arbeda hyn y draul a ddisgynasai ar y byrddau pe buasai raid iddynt gasglu y trethi eu hunain. Y mae y byrddau, wrth gwrs, yn rhwym o barotoi mantolen (*balance sheet*), a rhoi cyfrif o'u treuliadau er hysbysrwydd i'r cyhoedd. Amrywia swm y trethi yn fawr mewn gwahanol ardaloedd; ond nid ydyw fod y dreth yn uchel yn profi o angenrheidrwydd fod gwastraff wedi ei arfer; gan fod anghenion rhai cymmydogaethau yn gofyn mwy o arian nag eraill er gwneyd y diffyg i fyny.

Pwngc arall o gryn ddyddordeb cyhoeddus mewn cyssylltiad â gweithiad allan cyfundrefn y byrddau ysgol ydyw nodwedd yr addysg grefyddol a gyfrenir yn yr ysgolion o dan lywodraeth y byrddau. Y mae hyn i raddau pennodol yn cael ei adael at ddoethineb y byrddau. Mewn rhai amgylchiadau y mae y byrddau yn defnyddio y rhyddid a ganiateir iddynt i raddau lled bell; ond o dan 'adran Cowper-Temple,' y mae eu dwylaw yn rhwym, fel nas gallant awdurdodi dysgu catecismau. Yn ol y cyfrifon diweddaf

Digitized by Google

a gafwyd gwelir fod rhai byrddau yn cau allan, nid yn unig ddysgu pyngciau, ond mewn saith ar hugain o'r ysgolion, ymddengys y gwaherddir darllen y Beibl ynddynt; ac y mae pob addysg grefyddol yn cael ei gau allan o drigain a saith eraill. Gadewir yr addysg grefyddol i'w gweinyddu mewn lleoedd eraill. O dan rai byrddau, y mae canu hymnau, gweddïau, a darllen ac egluro hanesyddiaeth y Beibl, yn ffurfio rhan o'r addysg arferol; a gofynir hefyd ar fod y Deg Gorchymyn a Gweddi yr Arglwydd yn cael eu dysgu i'r plant. Mewn ysgolion eraill, darllenir y Beibl, "heb sylw nac esboniad" arno; ond nid oes emynau i'w canu, ac ni oddefir i'r athrawon ymdrin â'r athrawiaethau hyny sydd yn destyn dadl rhwng Cristionogion proffesedig. Dengys hyn mor fanwl y mae rhai byrddau yn penderfynu cadw at lythyren deddf 1870, i wahardd addysg enwadol. Nid ydyw cyfundrefn addysg 1870 yn berffaith; etto yn ddiammheuol, y mae yn gyfryw ag sydd yn gam pell yn yr iawn gyfeiriad; a chyn pen ychydig flynyddoedd etto, bydd yr effeithiau daionus o honi wedi dyfod yn eithaf amlwg yn rhagoriaeth yr addysg a gyfrenir yn ysgolion y byrddau, yn gystal ag yn yr ysgolion elfenol gwirfoddol hefyd.

Y mae y daflen ganlynol, yr hon sydd wedi ei chasglu o ffynnonellau swyddol, yn mherthynas i'r ysgolion elfenol yn Mhrydain Fawr (heb gynnwys yr Iwerddon), yn rhoddi golwg ar y cynnydd a wnaeth addysg o'r flwyddyn 1868 hyd y flwyddyn 1876:—

| Blynyddoedd yn terfynu ar yr 31ain o Awst. | Rhifedi yr ysgolion a arolygwyd | Nifer y plant y gellid eu cymmeryd i mewn i'r ysgolion | Cyfartaledd rhif y plant oedd yn yr ysgolion. |
|---|---|---|---|
| 1868 ... | 9,894 | 1,970,610 | 1,241,780 |
| 1869 ... | 10,337 | 2,076,344 | 1,332,786 |
| 1870 .. | 10,949 | 2,215,235 | 1,453,531 |
| 1871 ... | 11,465 | 2,357,025 | 1,547,195 |
| 1872 ... | 12,713 | 2,665,157 | 1,651,425 |
| 1873 ... | 13,954 | 2,963,186 | 1,783,730 |
| 1874 ... | 15.671 | 3,344,071 | 1,985,394 |
| 1875 ... | 16,957 | 3,636,114 | 2,175,522 |
| 1876 ... | 17,787 | 3,946,775 | 2,340,277 |

YSGOLWYR: dosbarth o ddynion dysgedig oedd yn blodeuo yn y ddeuddegfed, y drydedd-ar-ddeg, a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, am y rhai y gellir dywedyd iddynt ffurfio cyfundrefn newydd o dduwinyddiaeth, yr hon a elwid yn 'dduwinyddiaeth yr ysgolwyr.' Yr oedd yr ysgolwyr hyn yn amcanu sylfaenu, yn gystal a chadarnhau, eu duwinyddiaeth ar athroniaeth Aristotle; ac fel y dywedodd y Dr. Gill, gwneir eu duwinyddiaeth hwy i fyny o ddadleuon ymrysongar ac anorphen, cwestiynau dyrus, a gwahaniaethau manwl a chywrain. Dyfeisiwyd yr holl gynllun yn benaf er cadarnhau Anghristiaeth; ac o ganlyniad, yr oedd tywyllwch Pabaidd yn cynnyddu, a duwinyddiaeth gwir Gristionogol yn mron wedi ei alltudio allan o'r byd yn yr amser yr oedd yr ysgolwyr yn blodeuo. Wrth sylwi ar eu hymchwiliadau arddansoddol, y mae un yn dyweyd eu bod yn blino y darllenydd trwy ddilyn rhyw byngciau dansoddol, a gwneyd gwahaniaethau diddarfod; ac ymddengys mai eu hamcan ydoedd trefnu a deffinio yn gywir y gwrthddrychau hyny y gweithreda y meddwl arnynt, yn hytrach na gweithrediadau y galluoedd meddyliol eu hunain. Ansawdd drychfeddyliau neillduol a chyffredinol, amser, lle, ac anfeidroldeb, a hanfodiad neu fodolaeth Duw, yn benaf oedd yn tynu sylw y dynion ag oedd yn meddu y meddyliau mwyaf treiddiol ac athronyddol yn y canol-oesoedd. Yr oedd yr ysgolwyr yn meddu ar graffder arbenig, wedi ei danio yn rhyfeddol âg amynedd a dyfal-barhâd i ystyried, a meddwl, ac i ad-feddwl; ond er hyny, gan eu bod yn camgymmeryd wrth roddi cyfeiriad i'w galluoedd, ymdröent ac ymdreulient yn nghanol cwestiynau dyrus, ag yr oedd mwy o gywreinrwydd manwl yn dyfod i'r golwg ynddynt nag o ddyfnder athronyddol. Dewisent yn hytrach droi i mewn i lwybrau dyrus a thywyll athroniaeth feddyliol, na myned yn mlaen ar yrfa ddarganfyddiadol, a allasai fod yn ddefnyddiol a gwasanaethgar i'r byd. Ac yn gymmaint ag nad oedd eu gweithiau yn cael eu haddurno â chwaeth bur, na chwaith yn ffrwyth gwybodaeth eang, y canlyniad fu i'r bobl fyned yn raddol i'w hesgeuluso, pan y daethpwyd i goleddu golygiadau mwy cywir ac athronyddol ar wirioneddau. Etto, y mae gweithiau yr ysgolwyr yn parhau yn golofnau amlwg o'r hyn y gall y meddwl dynol ei wneuthur yn y maes yr oeddynt hwy yn llafurio ynddo. Os nad yw yr athronydd meddyliol yn cael defnyddiau tuag at gyrhaedd ei amcan yn eu gweithiau hwy, caiff fod astudio eu hysgrifeniadau yn tueddu i wneuthur lles mawr iddo drwy roddi min ar ei alluoedd ei hun. Hwy a'i cynnorthwyant i fod yn fwy craff a manwl, er fe allai na bydd iddynt chwanegu llawer at ei wybodaeth.

Gyda Thomas Aquinas a Duns Scotus y cyrhaeddodd ysgoliaeth ei phwynt uchaf. Mewn amser, cydweithiodd amryw achosion i ddwyn oddi amgylch ei dadfeiliad a'i chwymp. Yn raddol, darfu i dduwinyddiaeth y cyfrinwyr ei ddadblygu ei hun yn wrthwynebol i'r eiddo yr ysgolwyr. Yr oedd Bernard a Bonaventura, yn y ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg, er yn amymwybodol yn mron, yn wrthwynebol i ysbryd ac arddull yr ysgolwyr. Ac ysgydwyd y gyfundrefn drwyddi gan y Diwygiad Protestanaidd, a Luther ei hun oedd arweinydd yr ymosodiad; ond rywfodd daliai ei gafael mor gryf mewn bywyd, fel yr oedd olion o honi yn y prif ysgolion hyd yr eilfed ganrif ar bymtheg, ac hyd yn oed yn ddiweddarach na hyny. Mewn rhai gwledydd Pabaidd, megys Yspaen, y mae athroniaeth yr ysgolwyr yn cadw ei meddiant etto. Y ddau ddiwygiwr deallawl mawr y darfu i'w hysgrifeniadau effeithio trawsffurfiad o ddull y canoloesoedd i'r dull diweddar o feddwl, oeddynt Bacon a Descartes; a hwynthwy a roddasant y dyrnod marwol i ysgoliaeth. Cynnyrchodd yr ysgolwyr gnwd toreithiog o lenyddiaeth. Er enghraifft, y mae gweithiau argraphedig Albertus Magnus, Thomas Aquinas, a Duns Scotus yn llenwi un ar ddeg a deugain o gyfrolau unplyg. Ond gallwn deimlo yn falch fod teyrnasiad ysgoliaeth drosodd, a bod yn ddiolchgar hefyd i ddynion fel Laurentius, Valla, Erasmus, Rudolf, Agricola, a Ramus—y rhai fuont yn offerynol i wanychu y gyfundrefn drwy eu hymosodiadau arni.

Yn mysg y rhai enwocaf o'r ysgolwyr, gellir enwi Abelard, Anselm, Damascene, Lanfranc, Alexander Hales, Peter Lombard, Bonaventure, Thomas Aquinas, Duns Scotus, Albertus Magnus, a Durandos. Gwel Lanfranc; Lombard, Peter; Scotus, John Duns; Thomas Aquinas; a Duwinyddiaeth.

YSBAIL: ysglyfaeth, anrhaith. 1. Yr hyn a gymmerir oddi ar eraill trwy drais, ac yn enw-

Digitized by Google

edig mewn rhyfel; yr ysbail a gymmerir oddi ar elyn. 2. Yr hyn a ennillir trwy nerth mewn ymdrech. 3. Yr hyn a gymmerir oddi ar arall heb ganiatâd. "Gogoneddusach wyt a chadarnach na mynyddoedd yr ysbail;" *Salm* lxxvi. 4. Y mae yr Arglwydd yn fwy gogoneddus a chadarn na'r holl alluoedd ymosodol, y rhai a geisient orthrymu ei bobl, er y gellir eu cymmharu o ran eu gallu a'u mawredd i fynyddoedd. Yr oedd Assyria wedi ysbeilio y gwledydd nes yr oedd wedi ymgyfoethogi â mynyddoedd o ysbail; a siaredid am hyn yn mhlith dynion fel gogoniant. Ond y mae y Salmydd yn dirmygu y cyfryw enwogrwydd, ac yn dadgan fod yr Arglwydd yn llawer iawn mwy gogoneddus.

YSBIWR. 1. Person a anfonir i wersyll gelynion i archwilio eu gweithydd, i wybod am eu nerth a'u bwriadau, i wylio eu symmudiadau, ac i roddi hysbysrwydd dirgelaidd i'r swyddog priodol. Yn ol cyfreithiau rhyfel, yn mhlith y cenedloedd gwareiddiedig, y mae ysbïwr yn ddarostyngedig i gael ei roddi i farwolaeth. 2. Person a anfonir neu a gyflogir i wylio gweithrediadau, symmudiadau, ac ymddygiad, &c., un arall, neu eraill.

Anfonodd Moses ddeuddeg penaeth (*Num.* xiii. 17) i ysbïo neu archwilio Gwlad Canaan; deg o ba rai a roisant anghlod iddi, gan ddyweyd, "Y tir yr aethom drosto i'w chwilio, tir yn difa ei breswylwyr yw efe." Ond rhoddodd Caleb ac Iosuah adroddiad calonogol o'u taith (*Num.* xiv. 6, 7), gan ddweyd, "Y tir yr aethom drosto i'w chwilio sydd dir da odiaeth;" ac annogasant y bobl i fyned yn nerth yr Arglwydd i'w meddiannu. Bu farw y deg yn yr anialwch; ond cafodd Caleb ac Iosuah fyned i mewn i'r wlad yn mhen o ddeutu deunaw ar hugain o flynyddoedd ar ol hyny. Pan yr oedd Iosuah ar fyned dros yr Iorddonen, efe a anfonodd ddau ysbïwr i Iericho, y rhai a dderbyniwyd "yn heddychol," trwy ffydd, gan Rahab; ac o herwydd hyn "ni ddyfethwyd Rahab y butain gyda'r rhai ni chredent;" *Heb.* xi. 31.

YSBRYD GLAN, YR. Y trydydd person yn y Drindod Sanctaidd. Ni a geisiwn yn yr erthygl hon roddi golygiad cryno ar ddysgeidiaeth yr Ysgrythyrau gyda golwg ar ei berson, a'i waith, trwy ddangos

I. Ei fod yn berson gwirioneddol a gwahaniaethol yn yr hanfod ddwyfol.

II. Ei fod yn Berson Dwyfol.

III. Ei fod, fel Person Dwyfol, yn drydydd yn yr hanfod ddwyfol, ac yn deilliaw o'r Tad, ac o'r Mab.

I. Ei fod yn berson gwirioneddol a gwahaniaethol yn yr hanfod ddwyfol. Profir hyn allan o'r Ysgrythyrau trwy ddangos fod nodweddion personol yn cael eu cyfrif iddo; megys (*a*) teitlau; (*b*) galluoedd; (*c*) gweithrediadau; (*d*) ei fod yn wrthddrych gweithrediadau personol; (*e*) ymwybyddiaeth personol, yn yr hwn y mae yn gwahaniaethu ei hun fel "myfi" oddi wrth y personau eraill; (*f*) y perthynasau personol sydd rhyngddo ef a phersonau y credinwyr, a rhyngddynt hwythau ag ef; (*g*) a gwrthgyferbynir ef âg ysbrydion drwg, y rhai y cyfaddefir eu bod yn sylweddau personol: 1 *Sam.* xvi. 14; *Mat.* xii. 27, 28.

Rhoddwn yma y cyfeiriadau mwyaf neillduol:

*a.* *Ioan* xv. 16; 1 *Ioan* v. 8.

*b.* Deall: 1 *Cor.* ii. 10, 11; *Rhuf.* viii. 27. Serch: *Rhuf.* xv. 30. Ewyllys: *Ioan* iii. 8; a 1 *Cor.* xii. 8.

*c.* Dysgu: *Luc* xii. 12; *Ioan* xiv. 26; 1 *Ioan* ii. 27. Hefyd, argyhoeddi, tywys, mynegu, &c. Gwel *Ioan* xiv. 15, 16; *Rhuf.* viii. 16; 1 *Tim.* iv. 1.

*d.* Lleferir am dano fel un y gellir ei dristau, ei ddigio, ei wrthwynebu, ei gablu, ei ddiffodd, a phechu yn gyffredinol yn ei erbyn: *Esa.* lxiii. 10; *Mat.* xii. 31, 32; *Marc* iii. 29; *Act.* v. 3, a vii. 51; *Eph.* iv. 30; 1 *Thes.* v. 19.

*e.* *Act.* xiii. 2; *Ioan* xv. 26. Dywed yr Iesu am dano "efe," mewn modd arbenig.

*f.* Bedyddir yn ei enw ef (*Mat.* xxviii. 19); ac y mae efe yn arweinydd, yn ddysgawdwr, ac yn Ddyddanydd, &c., iddynt. Yn wyneb y tystiolaethau a gynnwysir yn y rhanau uchod, y mae yn ammhossibl i ni beidio derbyn yr argraph yn ddiammheuol fod y Beibl yn amcanu ein dysgu fod yr Ysbryd Glân yn berson gwirioneddol—yn berson sanctaidd, doeth, a deallus. Dadleuir gan y rhai sydd yn gwadu ei bersonoliaeth, nad ydyw yr ymadroddion uchod, er eu bod yn ei osod allan fel pe byddai yn berson, ddim o angenrheidrwydd yn ei ddisgrifio fel person; ac fod yn bossibl i ni eu golygu fel ymadroddion ffugrol neu bersonoliad, yn gyffelyb fel y gwneir gyda golwg ar y gras o gariad yn 1 *Cor.* xiii., a'r "Ysgrythyr" yn *Gal.* iii. 8. Ond fel y dengys Dr. Owen, y mae rheswm a natur pethau yn ddigonol i'n harwain a'n diogelu rhag cyfeiliornad gyda golwg ar bersonoli yr Ysgrythyr a'r gras o gariad; ond nis gellir dyweyd hyny gyda golwg ar yr athrawiaeth am yr Ysbryd Glân. Os nad ydyw yr Ysbryd yn berson gwirioneddol, rhaid addef fod ymadroddion personol y Beibl gyda golwg arno yn ein harwain yn naturiol i gredu hyny am dano. Ond anhawdd yw credu y buasai y cyfryw ymadroddion yn cael eu defnyddio fel ag i beryglu camddealltwriaeth ar fater mor bwysig, pe buasai yr Ysbryd Glân i'w olygu yn unig fel enwad ar allu neu ansawdd ddwyfol, ac nid fel person. Hefyd, dadleuir, ar y llaw arall, fod ymadroddion yn cael eu defnyddio am yr Ysbryd Glân, y rhai nad ydynt yn gyfaddas i'w defnyddio gyda golwg ar berson; megys rhoddi, tywallt, rhoddi "wrth fesur," &c. Ond gellir atteb fod yr ymadroddion uchod yn cyfeirio yn amlwg at weithrediadau yr Ysbryd, neu yr Ysbryd yn ei weithrediadau, yn hytrach nag at ei berson o ran ei sylwedd; a thrachefn, pe byddai raid i ni olygu rhai o honynt fel yn cyfeirio at ei berson, y mae yn amlwg eu bod yn cael eu defnyddio yn ffugrol, fel y gwna y Salmydd yn y geiriau hyn—"Tywalltwn fy enaid ynof pan gofiwn hyny," &c. Hefyd, dywedir mai yr oll a feddylir pan ddywedir wrthym yn yr Ysgrythyrau am rywbeth y mae Ysbryd Duw yn ei wneuthur ydyw, fod Duw (y Tad) yn gwneuthur y cyfryw trwy ei allu fel Ysbryd pur a pherffaith. Ond mewn attebiad i hyn etto, gellir dywedyd fod gweithrediadau yn cael eu cyfrif i'r Ysbryd Glân—y cyfryw nas gellir eu golygu yn cael eu gweithredu gan y Tad, am mai efe a olygir fel eu *gwrthddrych*, ac nid eu gweithredydd; megys pan ddywedir fod yr Ysbryd Glân yn eiriol dros y saint gyda Duw. Yr un modd dywedir fod yr Ysbryd yn deilliaw ac yn *dyfod* oddi wrth y Tad, yr hwn sydd yn ei *anfon*. Hefyd, dywedir am dano na lefara "o hono ei hun," ond yr hyn a *glywo; h.y.*, gan y Tad.

II. Ei fod yn Berson *Dwyfol*. Profir hyn o

Digitized by Google

herwydd fod teitlau, priodoliaethau, gweithredoedd, ac addoliad dwyfol yn cael eu cyfrif iddo.

*a. Esa.* vi. 9; cymmharer âg *Act.* xxviii. 25; 2 *Sam.* xxiii. 2; 1 *Cor.* iii. 16, a vi. 19; *Ier.* xxxi. 31, 34; cymmh. *Heb.* x. 15; *Exod.* xxxiv. 34, cymmh. 2 *Cor.* iii. 16, 17.

*b. Salm* cxxxix. 7; 1 *Cor.* ii. 10; *Heb.* xix. 14; *Gen.* i. 2; *Iob* xxvi. 13; xxxiii. 4; *Salm* civ. 30; *Luc* i. 35, &c.; *Ier.* xxiii. 24.

*c. Gen.* i. 2; *Rhuf.* viii. 11; *Salm* xxxiii. 6, a civ. 30; *Mat.* xii. 28; 1 *Cor.* xii. 4; *Luc* i. 35; *Ioan* iii. 5; 1 *Cor.* vi. 11; *Act.* xiii. 2; xv. 28; xx. 28; *Ioan* xvi. 13; 1 *Cor.* xii. 7; *Eph.* i. 17, 18; 2 *Thes.* ii. 13; 1 *Pedr* i. 2.

*d.* 2 *Cor.* xiii. 13; *Dad.* i. 4; 1 *Cor.* vi. 20, a chymmh. iii. 16.

*e.* Gosodir ef allan fel gwrthddrych y gellir pechu yn ei erbyn yn *Act.* v. 3, 4, &c. Gwel uchod hefyd.

Ond y mae yn angenrheidiol i ni etto ddwyn profion o'i fod, nid yn unig yn Berson Dwyfol, ond yn berson gwahaniaethol oddi wrth y Tad. Dadleuir gan y gwrth-Drindodwyr, nad ydyw fod yr Ysbryd Glân, neu Ysbryd Duw, yn Berson Dwyfol arno ei hun ddim yn profi ei fod yn berson *arall* a *gwahaniaethol* oddi wrth y Tad. Dywedir fod ein syniadau am Dduw o angenrheidrwydd yn cael eu ffurfio oddi wrth yr hyn sydd yn perthyn i'n meddyliau ni ein hunain; a chan nad ydyw ysbryd dyn, er ei fod yn ysbryd personol, o herwydd ei fod yn perthyn i berson, ei hunan yn berson arall a chwanegol at y person dynol ei hun y perthyna iddo, felly nad ydym i olygu Ysbryd Duw ond yn unig fel yr un o ran ei berson a Duw. Mewn attebiad i hyn, gallwn ddywedyd yn gyntaf, os ydyw yr Ysgrythyrau, fel y dangoswyd uchod eu bod, yn gwahaniaethu dull hanfodiad ysbryd fel y mae yn Nuw, o'i gymmharu â'r hyn yw mewn dyn, rhaid i ni gredu hyny ar sail tystiolaeth Duw am dano ei hun; gan ystyried, er fod cyffelybrwydd rhwng yr Ysbryd anfeidrol a'r ysbryd sydd mewn dyn, yr hwn a grewyd ar ei lun a'i ddelw; etto, o angenrheidrwydd, y rhaid fod gwahaniaeth gyda chyffelybrwydd rhyngddynt. Ac ni a wyddom, gyda golwg ar y priodoliaethau dwyfol, ein bod yn ffurfio ein syniadau am danynt drwy ddyrchafu ein syniadau am alluoedd cyfattebol yn ein meddyliau, a chwanegu atynt y drychfeddyliau o anfeidroldeb a pherffeithrwydd: ac yn gyfattebol y mae y Beibl yn rhoi lle i ni olygu ein bod i chwanegu a dyrchafu ein syniadau am Ysbryd trwy gyssylltu âg ef, pan yn ei gymmhwyso at Dduw, y drychfeddyliau o bersonoliaeth ac anfeidroldeb. Mewn dyn, y mae ysbryd yn bersonol, ond nid yn berson: yn yr Anfeidrol, y mae ei Ysbryd fel efe ei hun, yn berson gwirioneddol arall a gwahaniaethol.

III. Ei fod, fel Person Dwyfol a gwahaniaethol, yn drydydd yn yr hanfod ddwyfol, ac yn deilliaw o'r Tad ac o'r Mab. Y mae'r Ysbryd Glân yn drydydd person, nid yn unig o ran trefn geiriau a disgrifiad, ond o ran hanfodiad mewnol yn y Drindod. Y mae y Duwdod yn cael ei gyfranu, nid o'r Mab i'r Tad, ond o'r Tad i'r Mab; ac am hyny y mae y Tad yn gyntaf, a'r Mab yn ail. A'r un modd y mae y Duwdod yn cael ei gyfranu gan y Tad a'r Mab i'r Ysbryd—nid gan yr Ysbryd i'r Tad a'r Mab—ac am hyny y mae yr Ysbryd yn drydydd o ran trefn hanfodiad. Prin y mae angen sylwi fod trefn amser neu barhâd i'w gau allan yn gwbl o'r hanfodiad dwyfol a perthyn i'r Personau Dwyfol, am ei fod, fel Duw ei hun, yn dragywyddol. Y mae deilliad yr Ysbryd Glân o ran ei berson o'r Tad yn cael ei ddysgu yn eglur yn yr Ysgrythyrau; megys yn *Ioan* xv. 26, lle y dywedir ei fod yn "deilliaw o'r Tad." Y mae yn amlwg fod yr ymadrodd yn cynnwys mwy na *dyfodiad* yr Ysbryd *oddi wrth* y Tad; o herwydd y mae yn cael ei wahaniaethu oddi wrth y cyfryw yn yr adnod ei hun—"Eithr pan *ddêl* y Dyddanydd yr hwn a *anfonaf* i chwi *oddi wrth* y Tad." Yn unol â'r ymadrodd hwn, yn ddiau, gan hyny, y dylem ddeall ymadroddion eraill, megys "yr Ysbryd sydd o Dduw;" "Ysbryd y Tad;" "Ysbryd Duw;" "Ysbryd yr hwn a gyfododd Grist o feirw," &c. Drachefn, y mae hefyd yn deilliaw o'r Mab. Y mae hyn yn cael ei olygu, er nad ydyw yn cael ei ddywedyd yn llythyrenol ac yn uniongyrchol, o herwydd fod yr un ymadroddion yn gymmhwys ag a ddefnyddir am yr Ysbryd Glân yn ei berthynas â'r Tad hefyd yn cael eu defnyddio gyda golwg ar yr Ysbryd Glân yn ei berthynas â'r Mab. Canys gelwir ef yn Ysbryd y Mab (*Gal.* iv. 6); yn Ysbryd Crist (*Rhuf.* viii. 9; 1 *Pedr* i. 11); ac yn Ysbryd Iesu Grist (*Phil.* i. 19). Yn awr, gan fod yr Ysbryd Glân yn cael ei alw yn Ysbryd y Tad, ac yn Ysbryd Duw, am ei fod yn deilliaw o'r Tad ac o Dduw, y mae yn naturiol i ni gasglu fod yr Ysbryd yn cael ei alw yn Ysbryd Crist ac yn Ysbryd y Mab, am ei fod yn deilliaw o'r Mab hefyd. Drachefn, gan y dywedir fod y Tad yn anfon y Mab—ond ni ddywedir fod y Mab yn anfon y Tad un amser, am fod y Mab yn derbyn y Duwdod trwy genhedliad o'r Tad: felly, pan ddywedir fod y Mab yn anfon yr Ysbryd, ac na ddywedir fod yr Ysbryd un amser yn anfon y Mab na'r Tad, am na dderbyniodd na'r Tad na'r Mab y Duwdod o'r Ysbryd—y mae yn amlwg fod hyny yn cael ei ddyweyd am fod yr Ysbryd wedi derbyn y Duwdod trwy ddeilliad o'r Mab: ac am yr un rheswm y dywedir fod y Tad hefyd yn anfon yr Ysbryd. Y mae yn wir fod Eglwys Groeg, o'r dechreuad, wedi anghyttuno â hyn mewn *geiriau*, sef *deilliad* yr Ysbryd o'r Tad ac o'r Mab; ond yr oedd hi yn ei gydnabod yn rhinweddol trwy ymadroddion eraill. Cydnabyddai ei fod yn deilliaw o'r Tad, ac yn *derbyn* o'r Mab; a diau mai yr un drychfeddwl a olygid ganddi yn y gair hwnw—sef, cyfranogiad trwy ewyllys o'r Duwdod o'r Mab, yn gystal ag o'r Tad. Ac am hyny yr oeddynt yn foddlawn i'w alw yn "Ysbryd y Mab." Gyda golwg ar waith y Person gogoneddus hwn, ni pherthyn i ni mewn erthygl gyffredinol fanylu ar y naill a'r llall o'r gweithredoedd a gyflawnir ganddo; gan y ceir ymdriniaeth arnynt dan y geiriau priodol, megys AILENEDIGAETH, SANCTEIDDHAD, &c. Ni a gyfyngwn ein hunain, gan hyny, at sylwadau er ceisio egluro ei natur yn gyffredinol—mewn natur, ac yn y prynedigaeth hefyd. Y mae holl weithredoedd Duw, y rhai a gyflawna y tu allan iddo ei hun, yn cael eu cyflawni gan y tri pherson; ond y mae rhyw agwedd iddynt oll ag sydd yn perthyn yn neillduol i'r naill neu y llall o'r tri pherson. Yn awr, yn gydweddol â *threfn* hanfodiad y personau dwyfol, yn yr hon y mae yr Ysbryd Glân yn drydydd, ac yn deilliaw o'r cyntaf a'r ail, gwelir yn amlwg yn yr Ysgrythyrau fod gweithredoedd y Creawdwr mewn natur yn cael eu perffeithio trwy weithrediad yr Ysbryd. Efe sydd yn rhoddi bodolaeth allanol iddynt, ac yn eu perffeithio i gyfatteb i'w cynllun yn meddwl Duw.

"*The Spirit*," ebe Dr. Hodge, "*is the executive of the Godhead*." Yn a thrwy yr Ysbryd, a'i allu, y mae y creaduriaid oll yn cyrhaedd yr hanfodiad allanol hwnw sydd yn perthyn yn briodol iddynt fel creaduriaid yn ol ystyr llythyrenol y gair Lladin *existentia*, o'r hwn y deillia *existence* y Saeson, a'r hwn a arwydda *safiad allan*. Yr Ysbryd a wnaeth i'r sylweddau amrywiol sefyll allan o'r Duwdod a roddes hanfodiad iddynt; er eu bod yn yr hanfodiad hwnw ar yr un pryd yn *bod* yn Nuw, yn yr hwn y mae pob peth "yn byw, yn symmud, ac yn bod." Ei waith priodol ef oedd cymmeryd y drychfeddyliau mawrion oedd yn perthyn yn briodol i'r Gair, yr ail berson, a'u sylweddoli, a'u dangos allan trwy rym ei weithrediad hollalluog. Yn gyfattebol i hyny, ei waith priodol yn nhrefn y prynedigaeth ydyw cymmeryd o eiddo Crist a'i fynegu: *Ioan* xvi. 14. Efe sydd yn effeithioli pob peth yn y greadigaeth newydd, fel yn yr hen, o ran bodolaeth a pherffeithrwydd. Pa beth bynag sydd yn Nghrist—bywyd, goleuni, cyfiawnder, sancteiddrwydd, nerth, a gogoniant—y mae yr Ysbryd yn rhoddi hanfodiad iddynt oll yn y rhai sydd yn credu ynddo. Drachefn, gyda golwg ar gyfansoddiad Person Iesu Grist fel Duw-ddyn, a gweithrediad ei aberth a'i haeddiant, y mae yr Ysbryd Glân yn cael ei ddarlunio fel *effeithydd* yn y naill ac yn y llall. Er mai y Mab oedd yn cael ei wneuthur, ac yn cymmeryd ei wneuthur yn gnawd, neu yn ymgnawdoli; etto, yr Ysbryd oedd yn *effeithio* y cyfryw, trwy greu, cyfaddasu, a chynysgaeddu ei natur ddynol â phob rhinwedd a pherffeithrwydd: *Luc* i. 35; ii. 40. A'r un modd, er mai y Mab oedd yn rhoddi ei hun yn offrwm ac yn aberth difai i Dduw, etto gwnaeth hyny "trwy yr Ysbryd tragywyddol" (*Heb.* ix. 14) fel effeithydd. Gellir cymmhwyso yr un egwyddor at ei ddyrchafiad (*Rhuf.* viii. 11; *Act.* ii. 33; a 1 *Pedr* iii. 18, 19); ei bresennoldeb gyda'r bobl (*Mat.* xxviii. 20; *Ioan* xiv. 16, 18); a'i holl waith yn adeiladu, ac yn perffeithio ei eglwys. Yn yr ystyr hwn, gan hyny, y mae golygiad Dr. Owen, ac eraill, gyda golwg ar natur gwahaniaethol gwaith yr Ysbryd Glân, o'i gymmharu â gwaith y Tad a'r Mab, yn eithaf cywir a phriodol; sef, mai *perffeithio* pob peth y mae yr Ysbryd. Ond nid yn yr ystyr o berffeithiad graddau, yn gymmaint ag yn yr ystyr o *weithio allan* ynom yr hyn a weithir gan y Tad tuag atom, a chan y Mab drosom. Yn unol â'r syniad hwn, gellir dosbarthu ei waith yn y greadigaeth, ac yn nhrefn yr iachawdwriaeth, fel y canlyn:—

I. *Yn y greadigaeth:—*

*a.* Rhoddi hanfodiad *gweithredol* ac *allanol* i bob peth o ddim.

*b.* Cyfranu bywyd yn weithredol i bob peth bywydol.

*c.* Rhoddi cynnaliaeth ac egwyddor o ymddadblygiad a pherffeithrwydd yn yr oll a grewyd, yn ol cyfaddasrwydd natur yr amrywiol wrthddrychau a grewyd.

II. *Yn y greadigaeth newydd:—*

*a.* Rhoddi hanfodiad gweithredol i'r ddynoliaeth yn mherson yr Emmanuel—y Duw-ddyn.

*b.* Ei gyflenwi â phob gras a rhinwedd, er ei gymmhwyso i fod yn awdwr iachawdwriaeth.

*c.* Rhoddi effeithiolrwydd i'w holl ewyllys a'i weithrediad yn ei fywyd, ei angeu, ei adgyfodiad, a'i ddyrchafiad.

*d.* Cymmeryd o'i gyflawnder anfeidrol ef, a'i fynegu, a'i gyfranu i'r credinwyr. Drwy hyn y maent yn cael eu hail-eni, eu sancteiddio, a'u perffeithio ar ei ddelw.

*e.* Cynnyrchu ffydd, fel y mae yn rhodd Duw ac yn weithrediad dwyfol, yn eneidiau y saint, i dderbyn o'r cyflawnder sydd yn Nghrist, a'u huno âg ef.

*f.* Darparu y moddion allanol cyfaddas er cynnyrchu yr effeithiau uchod—trwy 1af, Ysbrydoliaeth ddwyfol yn y dadguddiad dwyfol o'r gwirionedd fel y mae yn y Gair ysgrifenedig. 2il, Trwy weithrediad dwyfol yn galw ac yn cymmhwyso gweinidogion yr efengyl, a swyddogion yr eglwys, i'w hadeiladu yn y sancteiddiaf ffydd, ac yn yr adnabyddiaeth o'r gwirionedd, yr hwn sydd yn ol duwioldeb. 3ydd, Trwy nerth dwyfol a hollalluog yn cydweithio â'r gwirionedd drwy arwyddion, a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, &c.: *Heb.* ii. 3, 4.

*g.* Efe sydd yn effeithio yn weithredol yr undeb a'r cymmundeb sydd rhwng Crist fel pen, a'r eglwys fel aelodau; ac yn gweithio y cyfryw rhwng yr aelodau a'u gilydd fel corph Crist.

*h.* Efe fydd gweithredydd effeithiol "diwedd pob peth," yn yr adgyfodiad a'r farn ddiweddaf.

Gyda golwg ar y modd y mae yr Ysbryd Glân yn cael ei drefnu yn ngweinyddiad ei waith, y mae Dr. Owen, yn *pen.* v. o'i weithiau (td. 105) yn sylwi fod pump o eiriau yn cael eu defnyddio i osod allan weithrediad Duw y Tad gyda golwg ar hyn; sef, 1, rhoddi; 2, anfon; 3, gweinyddu; 4, tywallt; 5, gosod. A thrachefn, fod pump o ymadroddion yn cael eu defnyddio i osod allan weithrediad yr Ysbryd Glân ei hun yn ngweinyddiad yr hyn a berthyn iddo fel gwaith yn y greadigaeth newydd; sef, 1, deilliaw; 2, dyfod; 3, syrthio; 4, gorphwys; 5, ymadael.

Yn y dosbarth cyntaf, gosodir allan, yn 1af, y drychfeddyliau o awdurdod, a haelfrydedd, a rhyddid; 2il, y drychfeddwl o waith *neillduol;* 3ydd, y syniad o drefn a rhag-ddarpariaeth; 4ydd, y drychfeddwl o effeithiolrwydd; ac yn 5ed, gosodir allan y meddylddrych o helaethrwydd.

Yn yr ail ddosbarth drachefn, arwyddir yn 1af, ewyllysgarwch ei weithrediadau; 2il, dechreuad gweithredol ei waith; 3ydd, ei weithrediadau disymmwth ac annisgwyliadwy ar y pryd; 4ydd, parhâd ac ymhyfrydiad; ac yn 5ed, attaliad ei weithrediadau mewn modd ceryddol neu farnol. Y mae gweithrediadau a gwaith yr Ysbryd yr un a'r unrhyw yn mhob oes, dan yr hen gyfammod fel o dan y newydd, o ran eu natur a'u dyben hanfodol; ond y mae gwahaniaeth amlwg yn y dull a'r graddau o'u gweinyddiad. O dan yr hen gyfammod, yr oedd efe yn gweithredu fel Ysbryd *Crist* (1 *Pedr* i. 11): o dan y newydd, fel Ysbryd *Iesu* Grist: *Phil.* i. 19. Y mae yn cael ei gyfranu yn bresennol mewn cyssylltiad agos â dynoliaeth ogoneddedig y Cyfryngwr: *Ioan* vii. 39. Dan yr hen oruchwyliaeth, yr oedd yn cael ei *roddi:* o dan y newydd, y mae yn cael ei *dywallt.* Yn y naill yr oedd yn *gweithredu:* yn y llall y mae yn *aros*, ac yn trigo ei hun yn y saint, y rhai a wneir "yn deml i Dduw trwy yr Ysbryd."

HANES YR ATHRAWIAETH.

Sylwa Neander, yn ei "*History of Christian Dogmas*," nad oedd yr unrhyw gymmhelliad yn pwyso ar yr eglwys i weithio allan yr athrawiaeth am yr Ysbryd ag ydoedd i ddadblygu yr athrawiaeth am y Mab; ac am hyny, parhaodd am amser maith heb ei sefydlu. Yr oedd yr ymwybyddiaeth yn yr Eglwys Gristionogol

Digitized by Google

o ddylanwad yr Ysbryd Glân o'i mewn yn parhau yn ddifwlch; canys yn y gydnabyddiaeth ymarferol o'r Ysbryd Glân fel ffynnonell bywyd dwyfol yn tarddu o Grist, fel rhwymyn undeb yn mhob peth perthynol i'r eglwys, yr oedd cydgordiad cyflawn. Ond nid oedd y mynegiad deallol o berthynas yr Ysbryd â'r natur ddwyfol yn cyfatteb i hyny. Yn y ganrif gyntaf, yr ydym yn cael fod yr hereticiaid boreuaf yn tueddu yn hytrach at wadu personoliaeth yr Ysbryd Glân nag at wadu ei Dduwdod—gan ei olygu fel tarddiad, neu effeithiolrwydd, neu allu dwyfol, yn hytrach nag fel Person Dwyfol. Fel hyn y syniai yr heretic cyntaf oll, Simon Magus, ynghyd â'i ddilynwyr, y Gnosticiaid. Yn hytrach nag ymhelaethu mewn ffordd hanesyddol ar y golygiadau a goleddwyd gan y prif ysgrifenwyr Cristionogol, a rhoddi dyfyniadau o'u gweithiau, yr hyn a barai i'r ysgrif fyned yn rhy faith, ni a ymfoddlonwn ar roddi crynodeb o'r cyfryw mewn ffurf daflenawl.

A. Y cyfnod, o'r oes apostolaidd hyd amser Cystenyn.

*a.* Y tadau dwyreiniol.

1. *Justin Ferthyr.* Golygiadau cymmysglyd:—weithiau yn gwahaniaethu, ac weithiau fel yn cymmysgu y Gair a'r Ysbryd â'u gilydd.

2. *Theophilus o Antioch.* Gwahaniaetha yr Ail a'r Trydydd Person yn eglur. Y cyntaf i ddefnyddio y gair *Triawd* am y Drindod.

3. *Athenagoras.* Gwahaniaetha y Person, ond yn aneglur.

4. *Origen.* Yr Ysbryd ydyw ffynnonell *hunanhanfodol* y bywyd dwyfol a roddir trwy Grist i'r credinwyr. Wedi ei *genhedlu* o'r Tad drwy y Mab.

*b.* Y tadau gorllewinol.

1. *Irenæus.* Y Mab a'r Ysbryd Glân yn *egwyddorion* tragwyddol yn Nuw. Y Mab yn egwyddor *greadigol*, a'r Ysbryd yn egwyddor *reoleiddiol.*

2. *Tertullian.* Yr Ysbryd yn tarddu o'r Tad drwy y Mab, fel y ffrwyth a'r gwreiddyn drwy y canghenau.

B. Y cyfnod, o amser Cystenyn Fawr hyd amser Gregory Fawr (B.A. 300 hyd 700). Nid oedd yr eglwys mewn cyflwr cyfaddas o ran gwybodaeth athrawiaethol yn amser Cynghor Nicea i chwanegu fod yr Ysbryd o'r un sylwedd a'r Tad a'r Mab. Y mae yn amlwg nad oedd syniadau priodol am y Trydydd Person, o ran ei ogyfuchder â'r Tad, yn ffynu yn mhlith rhan fawr o ysgrifenwyr yr adeg hono. Ond yr oedd eraill yn fwy clir ar hyn.

Y TADAU GROEGAIDD.

1. *Hilary.* Fod yr Ysbryd yn cyfranogi o'r hanfod ddwyfol.

2. *Athanasius.* Fod yr Ysbryd Glân o'r un natur a'r Tad, ac yn gydweddol âg ef.

3. Y ddau *Gregory*—yn gyffelyb. Gwrthwynebwyd yr athrawiaeth hon gan y Macedoniaid—neu, fel y gelwid hwynt hefyd, Pneumatomachi—y rhai a addefent *gyffelyb* sylwedd, ond nid yr un a'r unrhyw sylwedd a'r Tad, fel yn perthyn i'r Ysbryd Glân.

Y TADAU LLADINAIDD.

Tra yr oedd y tadau Groegaidd yn tueddu mor foreu a hyn i olygu fod yr Ysbryd Glân yn deilliaw o'r Tad *drwy* y Mab, yr oedd y tadau Lladinaidd yn hòni ei fod yn deilliaw o'r Tad *ac o'r Mab.*

1. *Awstin.* Yr Ysbryd Glân yn deilliaw o'r Tad ac o'r Mab—ond o'r Tad yn *arbenig.*

2. *Cyril.* Fod yr Ysbryd yn deilliaw o Grist, yn gystal ag o'r Tad—yn erbyn Theodoret. Yn Nghynghor Caer Cystenyn (B.A. 381), dodwyd yn y credo yr ymadrodd "yn deilliaw o'r Tad;" ac yn Nghynghor Ephesus (B. A. 431), cyhoeddwyd nad oedd dim chwanegiad i gael ei wneuthur at y credo. Ond darfu i eglwysi Yspaen a Ffraingc chwanegu y geiriau, "ac o'r Mab" (Lladin, *filioque*). Bu yr un gair hwn yn asgwrn cynnen a dadl am oesoedd. Dodwyd ef yn nhrydydd Cynghor Toledo (B. A. 589).

C. Y cyfnod o amser Gregory I. hyd y Diwygiad Protestanaidd.

*a. John Damascenus.* "Nid o'r Mab." Yn gynnar yn y nawfed ganrif, appeliwyd at y pab Leo III., a chynnaliwyd cynghorfa yn Aquisgranum, lle y penderfynwyd na ddylid gwneuthur chwanegiad at gredöau yr eglwys. Nid oes angen i ni flino y darllenydd trwy roddi yn y lle hwn fanylion yr ymryson rhwng y pab Nicholas, a Photius, patriarch yr Eglwys Roegaidd; ond yn unig nodi ddarfod i Gynghor Caer Cystenyn (B. A. 879) orchymyn tynu ymaith y gair *filioque.* Yn 1053, adgyfododd yr ymryson rhwng y pab Leo IX. a Michael Cesularius, sef patriarch Caer Cystenyn. Galwodd y pab gynghor ynghyd yn Rhufain, ac esgymunodd y Groegiaid. Fel hyn, ac o achos hyn, ynghyd âg amryw achosion eraill, y cyfododd y rhwyg rhwng Eglwys y Gorllewin ac Eglwys y Dwyrain—yr hwn sydd yn aros etto heb ei gyfanu.

YSBRYDOLIAETH AC ANFFAELEDIGRWYDD Y BEIBL. Ni a ymdrechwn yn yr erthygl hon i roddi golygiad cryno ar y materion canlynol:—

I. Ystyr a natur ysbrydoliaeth.

II. Y profion o hono.

III. Ei rym, fel prawf o berffeithrwydd yr Ysgrythyrau.

IV. Ei gynnyrch; sef, y Beibl, yn yr hyn ydyw, o ran purdeb a pherffeithrwydd dwyfol.

I. Ystyr a natur ysbrydoliaeth. Wrth ysbrydoliaeth y Beibl, y mae i ni olygu y gweithrediad hwnw o eiddo yr Ysbryd Glân ag oedd yn angenrheidiol i alluogi ysgrifenwyr amrywiol y Beibl i gyfansoddi yr holl lyfrau a gynnwysir ynddo, fel y maent, o ran y dadguddiad a gynnwysir ynddynt o wirioneddau ysbrydol cuddiedig oddi wrth y meddwl dynol, ac hefyd o ran y cyfaddasiad a'r trefniad sydd ynddynt o wirioneddau eraill y gallasent eu darganfod o ran eu natur eu hunain, i atteb dyben dadguddiad dwyfol. Ac ynghyd â hyny, cynnwysa y bywyd dwyfol sydd yn anadlu, ac yn treiddio drwy ei holl gynnwysiad, yr hwn sydd ei hun yn brawf i bawb, a'i hadnabyddo ac a'i teimlo fel y cyfryw, o darddiad dwyfol y llyfr ei hun. Y mae y gair *ysbrydoledig* (*theopneustos*), yr hwn a ddefnyddir gan yr Apostol Paul yn ei Ail Lythyr at Timotheus, a'r hwn a gymmhwysir ganddo at yr holl Hen Destament, yn arwyddo yn llythyrenol 'wedi ei anadlu gan Dduw;' yr hyn sydd yn gyfystyr â'r ymadrodd, "wedi ei fywhau gan Dduw," o herwydd y mae y gair ffugrol 'anadlu' yn arwyddocaol o'r drychfeddwl o fywhau. Ac yn unol â hyn, cyssylltir y ddau air â'u gilydd yn Llyfr Iob, yn yr ymadrodd; "ac anadl yr Hollalluog a'm bywiocaodd i." Dywedir yn nechreu Llyfr Genesis ddarfod i'r Arglwydd Dduw "anadlu yn ffroenau" y dyn cyntaf "anadl einioes, a'r dyn a aeth yn enaid byw." Y mae ystyr yr ymadrodd, gan hyny,

Digitized by Google

yn ei gyssylltiad â'r Beibl fel llyfr Duw, yn amlwg. Fel y darfu i'r Creawdwr, trwy ei Ysbryd, anadlu bywyd naturiol i'r dyn cyntaf, felly hefyd y darfu iddo, trwy ei Ysbryd, anadlu ei fywyd dwyfol ei hun i'r llyfrau y cyfeirir atynt, fel y maent o ran eu gwir natur yn "ysbryd a bywyd." Ond er mai yr Ysbryd, neu Dduw trwy ei Ysbryd, a anadlodd y bywyd dwyfol hwn fel effeithydd mawr pob peth sydd yn cael hanfodiad gwirioneddol ac allanol, etto y mae yn amlwg mai trysorfa y bywyd dwyfol hwnw yw yr Ail Berson, yr hwn a elwir gan Ioan yn Air Duw. Nid ydyw yr Ysbryd yn cymmeryd o'i eiddo ei hun—ond o eiddo Crist, y Gair tragywyddol. "Efe a'm gogonedda i," &c.: *Ioan* xvi. 14. "Ynddo ef," fel y Gair, ebe Ioan; "yr oedd bywyd, a'r bywyd oedd oleuni dynion." Yn y greadigaeth naturiol, gwaith yr Ysbryd ydoedd cymmeryd o'r goleuni a'r bywyd oedd yn y Gair, a'i gyfranu i ddynion; a'r un modd y gwna gyda golwg ar y greadigaeth newydd. Ei waith ef ynddi hi oedd cymmeryd o'r bywyd a'r goleuni sydd yn Nghrist, a'i fynegu yn y Gair ysgrifenedig:—yr hwn, gan hyny, sydd yn cael ei dreiddio drwyddo oll â bywyd a gwirionedd dwyfol. Y mae ysbrydoliaeth y Beibl fel Gair Duw, gan hyny, yn golygu y ddau ddrychfeddwl mawr o fywyd a goleuni, gan fod y Gair personol, o'r hwn y maent yn amlygiad uniongyrchol, ei hun yn oleuni ac yn fywyd—yn oleuni y bywyd. Ac am hyny, y dywed efe am ei eiriau, eu bod "yn ysbryd a bywyd," yn gystal ag yn wirionedd. Yr oeddynt felly fel y llefarodd hwynt yn yr Ysbryd; ac y maent felly hefyd fel y maent wedi eu cofnodi a'u hysgrifenu trwy weithrediad yr un Ysbryd yn y dynion sanctaidd a appwyntiwyd i'w rhoddi i ni mewn ysgrifen. Fel y mae pelydr yr haul yn cynnwys ynddo oleuni a gwres, felly y mae y Gair ysgrifenedig yn cynnwys ynddo wirionedd a bywyd, yn tarddu trwy weithrediad yr Ysbryd Glân, yn cymmeryd ar y naill law o eiddo Crist, ac yn mynegu ar y llaw arall i'r ysgrifenwyr sanctaidd —yr hyn yw gwir ystyr a hanfod ysbrydoliaeth. Nid ydym, gan hyny, i olygu ysbrydoliaeth, megys y gwna rhai, fel gweithrediad o eiddo Ysbryd Duw, yn diogelu yr hyn a elwir yn anffaeledigrwydd neu berffeithrwydd gwirionedd; na chwaith, ar y llaw arall, fel gweithrediad dwyfol yn rhoi bywyd, ysbryd, neu deimlad yn y gwirionedd—ond y ddau gyda'u gilydd. Gan fod gwirionedd a bywyd yn Nghrist, fel y gwrthddrych mawr sydd yn dadguddio, ac a ddadguddir ynddo, a chan mai yr Ysbryd Glân sydd yn trosglwyddo y gwirionedd a'r bywyd hwnw i derfynau ac o fewn cylch deddfau iaith ddynol, y mae yn rhaid i ni olygu ysbrydoliaeth fel yn cynnwys y ddau ddrychfeddwl. Yn y Beibl, gan hyny, fel maes ysbrydoliaeth dwyfol, ni a gawn wirionedd a bywyd dwyfol wedi cael hanfodiad dirgeledig, ond gwirioneddol, mewn iaith, fel rheol ffydd a gwybodaeth ac fel moddion ein sancteiddiad ar ddelw Duw.

Wedi ceisio penderfynu fel hyn ystyr y drychfeddwl, ni a ymofynwn am ei natur; neu, mewn geiriau eraill, pa fodd y mae synied gyda golwg ar y modd y mae y gweithrediad hwn o eiddo yr Ysbryd Glân wedi ei ddwyn oddi amgylch, can belled ag y mae o bwys i ni synied am dano fel ag i'n cadw a'n harwain rhag ei gamddeall. Y mae yn amlwg, yn ol yr ystyr a roddwyd uchod, fod y drychfeddwl o ysbrydoliaeth yn golygu cyfuniad o elfenau dynol a dwyfol mewn rhyw fodd neu gilydd trwy weithrediad Ysbryd Duw. Y mae y meddwl dynol wedi methu ymattal rhag gofyn—Pa fodd y mae i ni synied ynghylch y cyfuniad hwn? Pa bethau ydyw yr elfenau sydd wedi eu cyfuno? A pha beth ydyw natur yr undeb rhyngddynt? Gyda golwg ar yr elfenau, y mae yn amlwg mai un ydyw meddwl dadguddiedig Duw, ac un arall ydyw iaith a meddwl dynion fel cyfryngau i gludo y meddwl hwnw. Y mae'r amrywiol dybiaethau ynghylch natur ysbrydoliaeth yn troi ar y syniad a goleddir genym gyda golwg ar natur y berthynas a'r undeb sydd rhwng yr elfenau hyn a'u gilydd. Os esgeulusir cadw golwg briodol ar yr elfen ddynol, y canlyniad fydd y syniad peiriannyddol ynghylch ysbrydoliaeth, hanfod yr hwn ydyw golygu holl gynnwysiad y Beibl— pob ffaith ac amgylchiad a gofnodir ynddo, pob athrawiaeth a ddysgir ynddo, pob gair, pob ymadrodd, pob brawddeg, ynghyd â holl drefniad a chynllun y cyfan—fel wedi ei gynnyrchu yn uniongyrchol trwy awgrymiad, cynnhyrfiad, a llefariad yr Ysbryd Glân. Yn ol y syniad hwn, yr oedd yr ysgrifenwyr sanctaidd yn gwbl oddefol yn eu gwaith, ac y maent i'w golygu yn fwy fel ysgrif-binau yr Ysbryd nag fel ei ysgrifenwyr. Yn erbyn y dybiaeth hon, gellir dywedyd fod yn annhebyg, yn mlaen llaw, y buasai Ysbryd Duw yn defnyddio moddion ag ydoedd yn darostwng, yn hytrach nag yn dyrchafu y dynion sanctaidd a ddewiswyd ganddo fel cyfryngau y dadguddiad dwyfol. Drachefn, y mae y syniad yn groes i gyfattebiaeth (*analogy*), fel y gellir disgwyl fod rhwng gweithrediadau cyffredinol yr Ysbryd Glân ar ysbrydoedd dynion i'w goleuo a'u sancteiddio a'r gweithrediad goruwchnaturiol a amlygir yn nghyfansoddiad y Beibl. Gwyddom am y cyntaf, trwy brofiad, nad ydynt yn croesi, nac mewn un modd yn treisio deddfau cyffredinol ein natur—yr hyn sydd yn raghrawf nad ydoedd yn gwneuthur hyny chwaith yn y llall. Yn drydydd, y mae y ffaith fod gwahaniaeth mor amlwg o ran geiriau, ymadroddion, arddull, ac felly yn y blaen, rhwng yr amrywiol ysgrifenwyr yn profi eu bod yn cael eu gadael yn rhydd yn y pethau hyny i weithredu yn ol eu hathrylith, eu tueddiadau, a'u neillduolion eu hunain. Fel y mae y dwfr yn cymmeryd ffurf y llestr y doder ef ynddo, ac fel y mae bywyd yn ymddarostwng i ddeddfau y mater yr ymwisga âg ef, felly y mae y meddwl dwyfol yn y Gair Sanctaidd yn ymgyfaddasu i rydd weithrediad deddfau naturiol a chyffredinol iaith, ac hefyd i'w hagweddau neillduol, yn y rhai a ysgrifenodd y naill a'r llall o'r llyfrau cyssegredig. Nis gallwn mewn modd yn y byd fabwysiadu golygiad Tweston, mewn ffordd o roddi cyfrif am y gwahaniaeth a nodwyd rhwng yr ysgrifenwyr sanctaidd; sef, fod yr Ysbryd Glân wedi cynnhyrfu yr ysgrifenwyr i ddefnyddio y geiriau hyny ag y *buasent* yn eu defnyddio *pe y gadawsid* hwynt iddynt eu hunain. Nis gallwn gredu y buasai yr Ysbryd Dwyfol yn arfer unrhyw rith o'r fath, wrth ddadguddio y gwirionedd puraf. Yn wyneb yr ystyriaethau hyn, gan hyny, nis gallwn olygu gweithrediadau yr Ysbryd Glân mewn ysbrydoliaeth fel yn cael eu dwyn yn mlaen *ar*, ond yn hytrach *trwy* yr ysgrifenwyr sanctaidd. (2.) Os esgeulusir cadw golwg ar yr elfen ddwyfol, byddwn mewn perygl gwrthgyferbyniol o briodoli yr hyn na ddylem i alluoedd a thueddiadau yr ysgrifenwyr dynol. Canlyniad hyn ydyw y syniadau

Digitized by Google

cyfeiliornus a goleddir gan ysgrifenwyr diweddarach gyda golwg ar yr Ysgrythyrau; megys yr eiddo Schleiermacher, a'i ganlynwyr—y rhai a honant mai *ysbryd* y Beibl, ac nid ei lythyrau sydd yn ddwyfol ac ysbrydoledig; ac mai unig fuddioldeb y llythyren ydyw bod yn gyfrwng i awgrymu a chludo yr ysbryd sydd yn gorwedd oddi tano. Golygiad arall o'r dosbarth hwn ydyw yr un sydd yn addef fod Gair Duw *yn* y Beibl, ond yn gwadu *fod y Beibl yn* Air Duw. Ac o'r un duedd, yn ddiau, y mae y golygiad ynghylch gwahanol *raddau* o ysbrydoliaeth yn y Beibl—o leiaf, fel y mae yn cael ei ddeall gan y rhai a'i pleidiant. Yr unig beth a'n diogela rhag gŵyro i'r naill neu i'r llall o'r eithafion hyn yw dal ein golwg yn sefydlog ar y ddwy elfen —y ddynol, a'r ddwyfol—fel y maent wedi eu cyfuno yn brydferth yn nghyfansoddiad yr oll o'r Ysgrythyrau, a rhoddi i'r naill a'r llall eu lle a'u gweithrediad priodol eu hunain. Yr oedd yn ammhossibl, ar un llaw, i ddadguddiad o feddwl Duw gael ei roddi i ni mewn ysgrifen ond trwy gyfrwng gweithrediad dwyfol yr Ysbryd Glân yn cymmeryd o eiddo Crist, ac yn ei fynegu i ni; ond yr oedd mor ammhossibl drachefn i ni *dderbyn* a deall y cyfryw heb iddo gael ei gyflwyno i ni yn agwedd meddyliau dynion, ac yn ngwisg iaith ddynol. Yr oedd yn rhaid, gan hyny, i'r Ysbryd Glân lefaru trwy ddynion sanctaidd, yn cael eu cynnhyrfu a'u harwain ganddo i ysgrifenu yn ol deddfau a theithi eu meddyliau a'u hathrylith personol ac unigol eu hunain. Yn unol â hyn, rhaid golygu y gweithrediad dwyfol fel yr achos gwreiddiol a chychwynol o ysbrydoliaeth, a'r gweithrediad dynol fel unig ammod cludiad dadguddiad a bywyd dwyfol i ddynion; ac felly, yn cydweithio yn ol cynnhyrfiad y gallu dwyfol cychwynol. Yn debyg fel yn nhroedigaeth pechadur, y mae gras Duw yn gweithio *ei hun* i ddechreu, fel gwreiddyn a chychwyniad y cwbl; ond ar ol hyny, *cyd*weithia yr un gras â galluoedd y galon a'r meddwl dynol: felly y mae yma. Yn unol â'r syniad hwn am ysbrydoliaeth fel gallu gweithiol, ac nid fel peiriannwaith fel y mae yn dwyn perthynas â'r ysgrifenwyr sanctaidd, gwelwn fod undeb a chymmundeb rhydd a phrydferth trwy gyfrwng gweithrediad yr Ysbryd Glân rhwng y meddwl dwyfol ar un llaw ac iaith ddynol ar y llaw arall. Nid iaith yn annibynol ar feddwl, ond fel mynegiad o'r cyfryw.

Y mae cyfattebiaeth, gan hyny, yn nghyfansoddiad y Beibl yn y cyfuniad a geir ynddo o'r elfenau dynol a dwyfol â chyfansoddiad Person y Cyfryngwr; ond nid fel y darlunir ef weithiau, fel pe byddai Person yr Ysbryd wedi ymuno âg iaith dynion; ond yn hytrach, o herwydd fod y meddwl dwyfol wedi cael hanfodiad bywydol yn y Beibl mewn iaith ddynol trwy weithrediad yr Ysbryd Glân, fel y cafodd y natur ddwyfol hanfodiad yn y natur ddynol trwy weithrediad yr un Ysbryd. Lle a gwaith yr Ysbryd yn y naill, fel yn y llall, ydyw *gweithredu yn allanol* yr amcan mewn golwg. Yn awr, fel yn yr ymgnawdoliad, y mae y natur ddynol yn cadw ei holl briodoliaethau heb eu newid na'u treisio mewn un modd, er yr undeb sydd rhyngddi â'r natur ddwyfol—a'r ddwyfol yr un modd yn ei pherthynas â'r ddynol; felly yr oedd meddyliau yr ysgrifenwyr sanctaidd yn rhydd i weithrediad eu cynneddfau, a'u galluoedd, a'u teithi priodol eu hunain yn yr undeb oedd rhyngddynt, drwy weithrediad yr Ysbryd, â'r meddwl dwyfol. Ond yma, y mae anhawsder yn cael ei deimlo gan rai yn ngwyneb y ffaith nad ydyw y rhan fwyaf o gynnwysiad a mater y Beibl yn cynnwys *dadguddiad* yn ystyr manwl y gair; hyny yw, gwirioneddau nas gallasai y meddwl dynol o hono ei hun byth eu darganfod, i ddirnad pa fodd y mae angenrheidrwydd a phriodoldeb i gyfrif ysbrydoliaeth i'r rhanau hyny. Y mae yr anhawsder a deimlir yn codi o ddiffyg ystyried y gwahaniaeth sydd rhwng dadguddiad ac ysbrydoliaeth. Y mae yn amlwg fod yr *holl* Ysgrythyr wedi ei rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw—wrth yr hyn y mae i ni olygu, y gweithrediad hwnw o eiddo yr Ysbryd Glân, drwy yr hwn y galluogwyd yr ysgrifenwyr sanctaidd i ysgrifenu, nid yn unig y gwirioneddau hyny ag ydynt, yn ystyr manwl y gair, yn ddadguddiad dwyfol, ond yr holl faterion eraill sydd yn y Beibl wedi eu crynhoi o amgylch y cyfryw, ac yn wasanaethol iddynt. O ganlyniad, y mae *holl* gynnwysiad y Beibl yn ysbrydoledig. Yr oedd eisieu gweithrediad yr Ysbryd Glân, i gyfaddasu y gwirioneddau a'r ffeithiau cyffredinol ag sydd yn y Beibl fel ag i'w cymmhwyso i'r dadguddiad dwyfol sydd yn gnewyllyn iddynt oll. Heb law hyny, yr oedd ei eisieu i anadlu bywyd ac ysbryd dwyfol drwy y cyfan; o herwydd nid gwirionedd yn unig a gyfrenir trwy yr Ysgrythyrau, eithr y maent hefyd yn ysbryd a bywyd. Fel y mae dynion yn alluog i daflu eu hysbryd i'w hysgrifeniadau, felly hefyd y mae Ysbryd Duw. Y mae yn wir fod ysbryd yr ysgrifenwyr yn treiddio drwyddynt—ysbryd Moses yn treiddo drwy ysgrifeniadau Moses, ac ysbryd Esaiah hefyd trwy ysgrifeniadau Esaiah; etto y mae Ysbryd Duw yn cyd-dystiolaethu â'u hysbryd hwy—ac nid yw eu hysbryd hwy ond megys adlais o leferydd Ysbryd Duw. Fe allai y dadleuir nad ydym yn abl i deimlo yr Ysbryd a'r bywyd hwn yn yr *oll* o'r Beibl. Pwy a all ei deimlo pan yn darllen, yn nechreu Llyfr y Cronicl, yr adnod "Adda, Seth, Enos?" Ond attebwn nad ydyw hyny yn profi nad ydyw yn rhedeg trwy hyd yn oed yr enwau moelion hyny fel achau Crist, er nas gallwn ni ei deimlo ond yn unig yn y cyssylltiad sydd rhwng yr enwau a rhanau eraill o'r llyfr. Gwyddom fod bywyd mewn rhanau o'r corph dynol, er nas gallwn ei deimlo yn y rhanau hyny yn uniongyrchol.

Nis gallwn gydolygu â Lee gyda golwg ar y gwahaniaeth sydd rhwng ysbrydoliaeth a dadguddiad; sef, mai yr Ail Berson yw ffynnonell y naill, a'r Ysbryd Glân y llall; o herwydd yr Ail Berson ydyw ffynnonell, nid yn unig y gwirionedd sydd yn yr Ysgrythyrau, eithr efe ydyw ffynnonell y bywyd sydd ynddynt; ac o'r ochr arall, y mae yr Ysbryd Glân yn ei weithrediad dwyfol yn ysbrydoli yr ysgrifenwyr sanctaidd —nid yn unig yn effeithydd y bywyd sydd ynddynt, ond hefyd y *gwirionedd* a ddadguddir ynddynt. Dywed Hodge fod dadguddiad ac ysbrydoliaeth yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd o ran eu hamcan, ac o ran eu heffeithiau. Amcan dadguddiad, eb efe, ydyw cyfranu gwybodaeth: amcan ysbrydoliaeth ydyw diogelu anffaeledigrwydd mewn athrawiaeth. Effaith dadguddiad ydoedd gwneyd ei dderbynydd yn fwy gwybodus; effaith ysbrydoliaeth oedd ei gadw rhag cyfeiliornad wrth ddysgu. Yr ydym yn tueddu i gredu mai y gwir wahaniaeth ydyw yr un a nodwyd uchod; sef, fod dadguddiad yn golygu gwaith yr Ysbryd yn dadlenu o flaen

Digitized by Google

meddyliau yr ysgrifenwyr sanctaidd wirioneddau newyddion, y rhai nas gallasai y meddwl dynol eu darganfod byth—ac ysbrydoliaeth, ei waith yn eu cymmhwyso i'w hadrodd a'u hysgrifenu; ac hefyd i gydgyfaddasu â hwynt, er eu hegluro a'u cadarnhau, yr holl bethau eraill a gynnwysir yn yr Ysgrythyrau. Cwestiwn arall y mae dadl yn ei gylch ydyw ynghylch natur y gweithrediad hwnw o eiddo Ysbryd Duw ar feddyliau yr ysgrifenwyr—pa un a ydym, ai nid ydym, i'w olygu yn naturiol, ynte yn oruwchnaturiol, a pha un a ydyw yr un o ran ei natur a'i weithrediadau yn y saint, ynte yn wahanol. Ac os oes gwahaniaeth, pa beth yw y gwahaniaeth? Y mae'n amlwg ei fod yn gwahaniaethu oddi wrth weithrediad yr Ysbryd mewn natur a rhagluniaeth; canys yn hwnw gweithreda yn ol deddfau naturiol neu ail achosion. Ond pa fodd y mae i ni wahaniaethu rhyngddo a gweithrediadau yr Ysbryd Glân pan yn goleuo ac yn sancteiddio y credinwyr? Onid ydyw y gweithrediad hwnw yn un goruwch-naturiol? Y gwir attebiad, dybygid, ydyw, fod gweithrediad yr Ysbryd er sancteiddio ac ymgeleddu ei bobl yn weithrediad *ar* y credinwyr, tra yr oedd ei weithrediad ar yr ysgrifenwyr sanctaidd yn un *trwy* y gwrthddrychau. Yn y naill, yr Ysbryd ei hun *ydyw* y gwir weithredydd; yn y llall, gwneyd eraill yn weithredyddion y mae, trwy weithredu arnynt. Yr amcan hefyd yn y naill ydyw, gwella ac adnewyddu y galon a'r meddwl unigol: yr amcan yn y llall ydyw cynnyrchu gwirionedd a bywyd—nid yn dufewnol, ond yn allanol, a hyny i fod yn foddion i'w cyfranu yn dufewnol. Y mae y gwahaniaeth hwn yn peri fod y ddau weithrediad, er eu bod fel eu gilydd yn oruwch-naturiol, etto yn wahanol hollol i'w gilydd yn y dosbarth hwn o weithrediadau.

II. Y profion o ysbrydoliaeth. Ar y dybiaeth fod y Beibl yn cynnwys dadguddiad o feddwl Duw, y mae amryw ystyriaethau wrth ba rai, yn mlaen llaw, yr arweinir ni i ddisgwyl y byddai i ryw weithrediad dwyfol gael ei drefnu i alluogi ysgrifenwyr y cyfryw i wneuthur hyny gyda chywirdeb perffaith, a chan arddangos yn eu hysgrifeniadau yr Ysbryd sydd o Dduw. Un ystyriaeth yw, y duedd sydd hyd yn oed mewn dynion eu hunain i ofalu am gyflwyno eu darganfyddiadau pwysig a'u drychfeddyliau aruchel gyda phob cywirdeb, ac yn yr ysbryd a'r teimlad â'r hwn y cawsant eu cyfansoddi, i genedlaethau dyfodol. Pa faint mwy y mae yn naturiol i ni gredu yn mlaen llaw y buasai y Creawdwr yn arfer y cyfryw ofal gyda golwg ar y dadguddiad a roddodd o'i feddwl i ddyn pechadurus a cholledig. Ystyriaeth arall o'r un natur ydyw y duedd ammheus sydd yn y meddwl dynol, yn enwedig i gyfarfod â'r anhawsderau a'r anghyssonderau ymddangosiadol yr oedd yn rhaid eu bod yn gyssylltiedig âg ysgrifeniadau o fath y rhai sydd i'w cael yn y Beibl; y rhai ydynt yn ymestyn dros y fath arwyneb o hanesyddiaeth y byd, ac yn cyfeirio at y fath amrywiaeth o amgylchiadau ag sydd erbyn hyn o angenrheidrwydd yn aneglur ac yn anhawdd i ni eu dirnad yn llawn. Ond y mae o fwy o bwys i ni ymofyn, fe allai, pa rai ydyw y profion uniongyrchol. Gallwn enwi yn gyntaf, fel prawf, y ffaith fod eglwys Dduw dan y ddwy oruchwyliaeth wedi coleddu, megys yn reddfol, o leiaf yn naturiol, yr argyhoeddiad o fod y llyfrau a gynnwysir yn y Beibl wedi eu cyfansoddi o dan gynnhyrfiad a thrwy arweiniad yr Ysbryd Glân. I'r rhai sydd yn credu, fel yn ddiau y dylid credu, fod yr eglwys yn cael ei harwain o oes i oes, yn enwedig yn ei hargyhoeddiadau cyffredinol ac oesol, gan yr Ysbryd, y mae y prawf hwn yn sicr o fod yn un o rym ac effeithiolrwydd. Nid ydyw yn perthyn i ni, yn yr erthygl hon, brofi y ffaith; ond yn hytrach, ei defnyddio fel y mae yn cyfansoddi y prawf o ysbrydoliaeth y Beibl. Ond y prawf mawr, wedi y cyfan, ydyw tystiolaeth yr ysgrifenwyr sanctaidd eu hunain am danynt eu hunain. Ac nid oes dim yn fwy amlwg na hawdd i'w brofi allan o'r Ysgrythyrau eu hunain na'u bod yn hòni fod yr ysgrifenwyr wedi cyfansoddi ac ysgrifenu cynnwysiad y llyfrau o dan ddylanwad a chyfarwyddyd dwyfol; a'u bod, fel y cyfryw, yn llafurio yn enw ac awdurdod Duw ei hun.

Cymmerai ormod o le i ni ddyfynu y rhanau mewn geiriau, ac ymhelaethu arnynt mewn ffordd o'u hegluro; ac o herwydd hyny, ni a ymfoddlonwn ar roddi i lawr yma y lleoedd y mae y cyfryw i'w cael ynddynt.

1. Y mae y teitlau a roddir iddynt fel cyfanwaith yn dangos hyny; megys yr Ysgrythyr, yr Ysgrythyrau, yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yr Ysgrythyr Lân, Ysgrythyrau y prophwydi, &c.: *Ioan* ii. 22; *Act.* viii. 32; *Rhuf.* iv. 3; *Mat.* xxii. 29; *Marc* xiv. 49; *Luc* xxiv. 27; *Ioan* v. 29; *Gal.* iii. 8; *Rhuf.* ix. 17; *Rhuf.* xvi. 26; 2 *Pedr* i. 20; 2 *Tim.* iii. 16. Gyda golwg ar y Testament Newydd, y mae genym sicrwydd fod Iesu Grist, ar bedwar o achlysuron gwahanol, wedi rhoddi addewidion eglur a phendant am yr Ysbryd Glân, i'w cyfarwyddo pa fodd i lefaru yn ei enw a'i awdurdod, fel y byddent yn offerynau i amlygu ei feddwl a'i ewyllys ef—y rhai a gyflawnwyd; ac fel ffrwyth o hyny, y maent genym yn ysgrifenedig yn y Testament Newydd. Yr achlysuron hyn oeddynt:—

(1) *a. Mat.* x. 19, 20; *Marc* xiii. 3, 11. *b. Luc* xii. 11, 12. *c. Luc* xxi. 14, 15.

(2.) Yn Efengyl Ioan—*pen.* xiv., xv., xvi. amryw adnodau. Etto, y mae yr ysgrifenwyr sanctaidd eu hunain yn rhoddi eu tystiolaeth fod yr hyn a ragfynegwyd ac a addawyd wedi ei gyflawni ynddynt hwy:—cymmharer *Luc* xxiv. 48, 49, âg *Act.* v. 32; a *Ioan* xv. 26, 27, hefyd, â 1 *Pedr* i. 12. Mewn lleoedd eraill, y mae yr ysgrifenwyr hyd yn oed yn *unoli* eu hunain â'r Ysbryd Glân; megys, 1 *Tim.* iv. 11. Hefyd, gwel *Act.* xi. 28; xiii. 1, 2; xx. 23; a xxi. 11. Drachefn, mewn amryw fanau, ni a'u cawn yn hòni iddynt eu hunain, fel offerynau yr Ysbryd, anffaeledigrwydd ac awdurdod dwyfol: *Luc* i. 4; 1 *Cor.* xiv. 37; *Gal.* i. 8; 2 *Thes.* iii. 12; *Heb.* ii. 4; a *Ioan* v. 10. Ac os dywedir mai gyda golwg ar yr hyn a *lefarid* ganddynt y dywedir hyn, gellir dyfynu yr unrhyw ymadroddion fel yn cael eu defnyddio am yr hyn a *ysgrifenent: Ioan* xx. 31; 2 *Thes.* ii. 15.

III. Y prawf a gynnwysir yn ysbrydoliaeth y Beibl o'i ddwyfol darddiad a'i berffeithrwydd. Dadleuir weithiau fod ceisio profi fod y Beibl yn ysbrydoledig oddi wrth ei dystiolaethau ef ei hunan—ac etto, ar yr un pryd, ceisio profi fod y Beibl yn wir, am ei fod yn ysbrydoledig—yn anghysson, ac mai dyma a wneir gan amddiffynwyr y Beibl a'i ysbrydoliaeth. Ond y mae y gosodiad olaf hwn yn anghysson; canys y prawf a ddygir o wirionedd cynnwysiad y Beibl yw yr holl ffeithiau a'r rhesymau hyny sydd yn ffurfio corph yr hyn a elwir yn brofion Cristionogaeth; megys 1af, gwyrthiau; 2il, y ddadl seiliedig

Digitized by Google

ar gyfattebiaeth; 3ydd, tystiolaeth hanesiaeth, a hynafiaethau; 4ydd, hunan-aberthiad ei sylfaenwyr cyntaf, &c. Ar sail y profion cedyrn hyn, yr ydym yn ddiogel yn derbyn gwirionedd cynnwysiad y llyfrau cyssegredig. O ganlyniad, nid oes dim yn afresymol—i'r gwrthwyneb, y mae yn gwbl rhesymol—i ni dalu sylw a gwneyd ymchwiliad i natur y gweithrediad neu y dylanwad drwy yr hwn y darfu i'r llyfrau hyn gael eu cyfansoddi gan eu hamrywiol ysgrifenwyr, a hyny yn ngoleuni eu tystiolaeth hwy eu hunain. O herwydd, gan eu bod wedi eu profi yn eirwir ar y dybiaeth gyda golwg ar gynnwysiad eu llyfrau yn gyffredinol, a hyny er fod y cyfryw mor ryfedd ac annhebyg i bob peth a gymmerodd le o'r blaen yn hanes y byd, y mae yn deg i ni wrando ar yr hyn a ddywedant gyda golwg ar y gweithrediad a'u cymmhellodd ac a'u cyfarwyddodd i ysgrifenu y pethau hyny; ac nis gallwn ar dir teg ei wrthod. I ddefnyddio cymmhariaeth y Proffeswr Lee—ar yr un tir gallem wrthod tystiolaeth llysgenhadwr gyda golwg ar ei awdurdod a ffynnonell ei hysbysiadau, a hyny ar ol i ni gael boddlonrwydd o barth i lythyrau ei awdurdod a'i eirwiredd personol. Yn awr, os rhaid i ni yn deg gredu ysbrydoliaeth y Beibl, yn ol y tystiolaethau a nodwyd, y mae yn amlwg ei fod yn llyfr o darddiad dwyfol; ac fel y cyfryw, yn dwyn delw ei wir awdwr mewn gwirionedd a pherffeithrwydd. Fel y mae y profion o wirionedd Cristionogaeth yn profi gwirionedd y llyfr, felly y mae y prawf o ysbrydoliaeth y llyfr, ar sail ei dystiolaeth ef ei hun, yn brawf o ddwyfoldeb y llyfr—ei fod yn wir Air Duw.

IV. Cynnyrch ysbrydoliaeth ydyw perffeithrwydd a gwir anffaeledigrwydd y Beibl. Y mae un dosbarth o ysgrifenwyr yn tueddu i unoli ysbrydoliaeth ac anffaeledigrwydd y Beibl, neu o leiaf i'w gwneuthur ,bron yn gwbl gyfystyr. Ond ymddengys i ni mai achos ydyw y naill, ac effaith yn tarddu o'r achos hwnw ydyw y llall; ac nad ydyw anffaeledigrwydd y Beibl ond un effaith sydd yn tarddu oddi ar ysbrydoliaeth. Fel y nodwyd uchod, y mae y teimlad o'r eneiniad a'r ysbryd sydd yn anadlu trwy y Beibl yn effaith arall llawn mor bwysig. Felly, y mae yn rhaid i ni olygu ysbrydoliaeth fel gweithrediad bywydol, yn gystal ag athrawiaethol. Y mae, nid yn unig yn allu rheoleiddiol, ond yn allu creadigol hefyd—yn cynnyrchu bywyd a gwirionedd, gwres a goleuni ysbrydol, a'r naill fel y llall mewn perffeithrwydd digymmhar. Ond y mae hyn yn ein harwain i fater ag y mae llawer o anhawsderau yn gorwedd o'i amgylch, ac ynddo; sef, pa beth a gynnwysir yn yr anffaeledigrwydd ag y mae yn rhaid i ni, ar gyfrif ei ysbrydoliaeth, ei briodoli i'r Beibl. Os wrth anffaeledigrwydd y golygir yn unig fod y Beibl yn cynnwys dadguddiad cyflawn o feddwl ac ewyllys Duw, ac wedi ei gyfansoddi yn y modd perffeithiaf ag yr oedd yn bossibl iddo fod o ran ei awduriaeth ddwyfol-ddynol i atteb dyben ei ysgrifeniad, y mae yn anhawdd meddwl y gellid cael neb a wadai ei anffaeledigrwydd yn yr ystyr hwn—hyny yw, neb ag sydd yn addef ei wirionedd a'i ysbrydoliaeth ddwyfol. Ond mwy priodol i osod allan y rhagoriaethau uchod o eiddo y Beibl fyddai y gair *perffeithrwydd*, yn hytrach nag *anffaeledigrwydd*. Ond ai perffeithrwydd ydyw anffaeledigrwydd? Gall perffeithrwydd gynnwys *ffaeledigrwydd* ynddo fel elfen, o leiaf trwy *oddefiad*. Y mae bodolaeth pechod yn profi hyny. Dylid felly wahaniaethu rhwng perffeithrwydd ac anffaeledigrwydd y Beibl. Y mae yn bossibl i un gredu perffeithrwydd y Beibl, ac etto wadu ei anffaeledigrwydd, gan olygu fod *goddef* diffygion a chyfeiliornadau dynol, gyda golwg ar faterion dibwys, yn hollol gysson â'i berffeithrwydd, trwy gredu eu bod yn cael eu goruwchlywodraethu i wasanaethu amcan mawr Duw yn rhoddi dadguddiad i ddynion. Nid ydym yn dyweyd yn bresennol mai felly y mae; ond y gall yr hwn sydd yn credu yn ysbrydoliaeth a pherffeithrwydd y Beibl honi nad oes dim yn anghysson iddo ef gredu fod y Beibl yn ffaeledig. Y cwestiwn mawr, gan hyny ydyw, nid, A ydyw y Beibl yn llyfr perffaith? ond A ydyw fel y cyfryw yn cau allan ffaeledigrwydd, ai nid ydyw? Mewn gair, a ydyw, ai nid ydyw, yn cynnwys diffygion a chyfeiliornadau dibwys ac anhanfodol i ddybenion y dadguddiad dwyfol sydd ynddo? O amgylch y cwestiwn hwn, fel pegwn, ymddengys i ni y rhaid i'r amrywiol bleidiau ag sydd yn cydnabod ysbrydoliaeth y Beibl droi y dyddiau hyn i chwilio am oleuni. Gadewch i ni, gan hyny, edrych ar yr hyn a ddywedir, neu a ellir ei ddywedyd, mewn ffordd o atteb y cwestiwn. O blaid yr atteb cadarnhaol iddo—sef, fod y Beibl yn ffaeledig, er ei fod yn ysbrydoledig—gellir dadleu, yn y lle cyntaf, fod iawn ystyriaeth o'r elfen ddynol sydd yn y Beibl yn gofyn i ni ganiatau fod rhyw fath a rhyw radd o ffaeledigrwydd ynddo. Gan fod dyn yn ffaeledig, ac mai dynol, fel y dywed y ddiareb Ladinaidd, ydyw cyfeiliorni, y mae priodoli anffaeledigrwydd i'r elfen ddynol sydd yn yr Ysgrythyrau yr un peth, mewn gwirionedd, a gwadu ei awduriaeth ddynol. Os ydyw yn *wir* ddynol, rhaid ei fod i ryw raddau yn ffaeledig. Os ydyw yn anffaeledig, yna nid ydyw yn wir ddynol. Fel na chafodd y natur ddynol yn mherson Crist ei newid a'i dwyfoli trwy ei hundeb â'r Person Dwyfol, felly nid ydyw yr elfen ddynol yn nghyfansoddiad Gair Duw wedi ei ysgrifenu, wedi ei newid a'i dwyfoli, o herwydd ei hundeb â'r elfen ddwyfol sydd ynddo. O ganlyniad, y mae priodoli anffaeledigrwydd i'r elfen ddynol sydd yn y Beibl yr un peth yn hanfodol a chyfeiliornad yr Eutychiaid; y rhai a honant fod y natur ddynol yn mherson y Gwaredwr wedi ei newid a'i sugno i mewn, a'i llyngcu i fyny yn gwbl gan ei natur ddwyfol. Y mae y ddadl hon, fel y mae yn amlwg, wedi ei sylfaenu ar y syniad fod cyfattebiaeth rhwng Person Crist, yn yr hwn y mae y Gair tragwyddol wedi ymgnawdoli, â'r Beibl, yn yr hwn y mae meddwl yr Ysbryd, fel Ysbryd Crist, y Gair, wedi ei amlygu mewn iaith. "Y mae tuedd gynnyddol (ebai Dr. Hannah, yn ei '*Bampton Lectures*' am 1863, td. 6) i gymmeryd yr undeb sydd rhwng y natur ddynol a'r natur ddwyfol yn mherson Crist fel cynllun ein crediniaeth yn ei air ysgrifenedig." Dywed Dr. William Lee, yn ei waith ar "*Ysbrydoliaeth*" (rhagymadrodd i'r trydydd argraphiad td. xii.), mai y cyntaf i ddefnyddio y gymmhariaeth hon oedd yr awdwr gwir Blatonaidd, John Smith, o Cambridge. Gwrthddadleuir yn erbyn y defnydd a wneir o honi mewn cyssylltiad âg anffaeledigrwydd y Beibl, trwy ddal allan nad ydyw y cyfattebiaeth yn un gwirioneddol. Yr hyn sydd yn cyfatteb mewn gwirionedd, dywedir, i ddynoliaeth y Gwaredwr yn y gymmhariaeth, ydyw *iaith* y Beibl—nid iaith, yn ystyr cyfansawdd y gair, ond iaith fel bodolaeth arddansoddol—nid unrhyw dafodiaith bennodol, megys yr Hebraeg,

Digitized by Google

neu y Gymraeg, neu y Roeg—ond iaith yn gyffredinol. Yn awr, os cymmerir y gymmhariaeth yn y goleu a'r ystyr hwn, y mae yn amlwg nas gall wasanaethu oll er egluro a phrofi ffaeledigrwydd y Beibl yn yr elfen ddynol a berthyn iddo. O blegid yr unig ffaeledigrwydd perthynol i iaith, yn ystyr arddansoddol y gair, ydyw ei hanallu a'i gwendid fel cyfrwng i amlygu teimlad a meddwl dyn, ac i osod allan ddrychfeddyliau sydd o ran natur eu tarddiad yn annibynol ar, ac uwch law pob profiad.

I'r gwendid hwn o eiddo iaith yn ystyr cyffredinol y gair, yr hyn sydd yn atteb yn y gymmhariaeth ydyw y gwendidau dibechod perthynol i ddynoliaeth y Gwaredwr—megys tlodi, gwendid, syched, lludded, ac felly yn y blaen; y rhai, er eu bod yn ffrwyth a chanlyniad pechod yn y natur, nid oeddynt yn dwyn cyssylltiad uniongyrchol âg unrhyw weithrediadau personol o eiddo y dyn Crist Iesu, yr hwn nid adnabu bechod. Ond yn y defnydd a wneir o'r gymmhariaeth dan sylw, cyferbynir dynoliaeth ddibechod y Gwaredwr, nid âg iaith yn gyffredinol, eithr â'r nodweddion ffaeledig a phechadurus hyny o eiddo ysgrifenwyr y Beibl ag ydynt yn ffrwyth a chanlyniad natur wedi ei llygru a'i hammharu trwy bechod; yr hwn gyferbyniad sydd yn hollol anghysson ac annheilwng. Hyn ydyw sylwedd yr wrthddadl a ddygir yn mlaen gan Lee, ac eraill, yn erbyn y defnydd a wneir mor aml y blynyddoedd diweddaf o'r gymmhariaeth uchod er ceisio egluro a phrofi ffaeledigrwydd y Beibl o ran ei elfen ddynol. Ond i'r wrthddadl hon, gellir atteb, fod y camgymmeriadau a'r diffygion hyny ag y mae yn ofynol i ni gredu y gallant fod yn y Beibl yn gyfryw ag y dylid eu priodoli, nid i unrhyw amcan bwriadol yn yr ysgrifenwyr i dwyllo neu arwain y darllenwyr i gyfeiliornad, ond i'w gwendidau a'u hammherffeithrwydd dynol angenrheidiol ac anocheladwy hwy (heb dybied gwyrth arbenig i'r dyben)—y cyfryw ag sydd i'w cael ac i'w disgwyl yn y llyfrau dynol goreu a chywiraf mewn bod. Gellir, o herwydd hyny, eu cyferbynu yn deg a chywir â'r gwendidau dibechod hyny ag y cyfaddefir eu bod yn natur ddynol y Gwaredwr, a'u golygu fel canlyniad pechod yn yr hiliogaeth ddynol; ond nid, o angenrheidrwydd, yn ffrwyth uniongyrchol gweithrediad pechadurus o eiddo y personau unigol hyny a ddewiswyd i fod yn ysgrifenwyr y gyfrol sanctaidd. Drachefn, ar y llaw arall, megys yr oedd natur ddynol y Gwaredwr, o herwydd ei hundeb â'r Person Dwyfol, wedi ei dyrchafu a'i phuro o ran ei galluoedd naturiol, fel, er ei bod ynddo ef, fel ynom ni, yn ddarostyngedig i derfynoldeb a gwendid, yr oedd hi ar yr un pryd yn dynesu, hyd yn oed yn nyddiau ei gnawd, yn nes at berffeithrwydd nag y gwelwyd hi mewn un o feibion dynion —felly hefyd y mae ysgrifeniadau y Beibl, o herwydd yr elfen ddwyfol sydd yn rhedeg ac yn treiddio drwyddynt, yn annhraethol fwy rhydd, yn ol cyfaddetiad cyffredinol iawn, hyd yn oed oddi wrth y gwendidau llenyddol hyny nag y mae genym enghraifft yn nghynnyrchion penaf ac uchaf ysgrifenwyr dynol yn unig.

II. Dywedir fod y Beibl ei hun yn cynnwys awgrymiadau a gosodiadau sydd yn wrthwynebol i broffes o anffaeledigrwydd llwyr. Fel prawf o hyn, cyfeirir at ymadroddion ag sydd yn dynodi ansicrwydd. Er enghraifft, dywed Ioan yn yr hanes am y briodas yn Cana, y daliai y dwfr-lestri bob un ddau ffircyn neu dri. Y mae yn amlwg nad oedd yr efengylwr yn gwybod pa un ai dau, ynte tri, neu rywfaint rhyngddynt. Os oedd o ryw bwys i ni wybod pa faint a ddalient oll, hònir fod o bwys i ni wybod hyn yn fanwl; ac os ydyw y Beibl i'w olygu yn anffaeledig, gallasem ddisgwyl yn mlaen llaw y buasai yr Ysbryd Glân yn rhoddi cyfarwyddyd manwl gyda golwg ar hyn. Y mae yn amlwg fod yr ymresymiad uchod yn gyfeiliornus. Nid ydyw yn canlyn, am fod o bwys i ni wybod fod y dwfrlestri yn dal rhywle tua dau ffircyn neu dri yr un, ei fod o bwys hefyd i ni wybod yn fanwl pa faint. Yr oedd gwybod rhywle o gwmpas y swm yn ddigonol ac yn angenrheidiol, ond nid oedd yn angenrheidiol ei wybod i fanylrwydd; gan hyny, gadawodd ysbrydoliaeth ddwyfol yr efengylwr yn ei ansicrwydd, a chaniataodd iddo ysgrifenu yr hanes yn unol â'r cyfryw ansicrwydd. Gellir atteb, mewn modd cyffelyb, y rhanau eraill a ddygir yn mlaen i'r un perwyl; megys anwybodaeth Paul ynghylch pwy a fedyddiodd yn Corinth. Y mae Macknaught yn gwneyd llawer o'r ffaith nad ydyw Luc, yn nechreu ei Efengyl, yn awgrymu i Theophilus ei fod yn ysgrifenu dan gyfarwyddyd anffaeledig, er ceisio profi nad ydyw anffaeledigrwydd i'w briodoli i'r Efengyl a ysgrifenodd. Gan mai ei amcan yn nechreu ei Efengyl ydyw rhoddi y profion angenrheidiol o gywirdeb ei Efengyl er rhoddi "sicrwydd diammheuol" i'r darllenydd, gofyna, a ydyw yn debyg y buasai yn gadael allan y prawf oddi wrth ysbrydoliaeth, yr hwn oedd yn diogelu anffaeledigrwydd? Y mae amryw ymadroddion eraill y gallesid cyfeirio atynt; ond y mae hyn yn ddigon fel enghraifft. Bellach, ni a geisiwn gymmeryd golwg ar y rhesymau a roddir o blaid anffaeledigrwydd y Beibl fel llyfr ysbrydoledig.

1. Ceisir ymresymu, yn mlaen llaw (*à priori*), oddi wrth y ffaith o gymmeriad anffaeledig yr hwn sydd unwaith wedi ymddangos yn hanes y byd, fod cyfattebiaeth yn rhoddi lle a sail cryf i ni ddisgwyl y buasai Duw, yr hwn a anfonodd ei Fab i'r byd fel esampl perffaith, hefyd yn darparu llyfr anffaeledig fel cyflawniad (*complement*) i'r person anffaeledig hwnw—i gofnodi ei hanes, cadw ei ddysgeidiaeth, a defnyddio y gwirioneddau mawr hyny sydd yn dwyn cyssylltiad â'i berson. Fel attebiad i hyn, gellir dywedyd fod dadleuon o'r natur yma yn troi allan yn siomedig; ac am hyny, nas gellir ymddiried iddynt. Er enghraifft, gellid defnyddio dadl o'r un natur i geisio profi yr annhebygolrwydd sydd o ddyfodiad pechod i fod, o herwydd fod Duw yn Fod anfeidrol berffaith a da, ac nas gallwn dybied y buasai yn goddef iddo ddyfod i mewn i'w lywodraeth; eithr yn hytrach y buasai yn defnyddio ei hollalluawgrwydd i'w attal a'i ragflaenu. Ond gwyddom, mewn effaith, a hyny er ein galar, mai nid felly y bu. Daeth pechod i fod—goddefwyd iddo fod, er fod Duw yn anfeidrol berffaith a da yn ei hanfod a'i waith. I hyn etto, gellir atteb yn ol, fod gwahaniaeth mawr yn yr amgylchiadau rhwng y ddwy enghraifft o ymresymiad. Yn y diweddaf, yr ydym yn hollol amddifad o un ffaith arall gyffelyb, fel ag i seilio cyfattebiaeth; tra yn y gyntaf, y mae genym y cyfryw, yn ymddangosiad Mab Duw yn y cnawd fel person anffaeledig, fel sail cyfattebiaeth i ymresymu oddi wrthi at y tebygolrwydd o ymddangosiad llyfr anffaeledig. Fe chwanegai Platoniad cryf at hyn o bossibl fod y drychfeddwl am lyfr anffaeledig yn gyfryw ag y mae yn rhaid fod sylweddoliad o hono yn rhywle

Digitized by Google

neu gilydd:—ac yn mha le y caem y cyfryw os nad yn y Beibl, yr hwn sydd wedi ei brofi yn llyfr ysbrydoledig? Fel y mae y drychfeddwl am gylch perffaith yn profi fod yn rhaid fod y cyfryw wedi ei sylweddoli yn rhywle neu gilydd, er nad ydym ni wedi ei ddarganfod yn y byd materol, felly y mae yn rhaid fod llyfr perffaith i'w gael yn rhywle neu gilydd; a chan fod y Beibl, yn ol y dybiaeth, yn llyfr dwyfol, onid ydyw yn rhesymol i ni gredu mai y Beibl hefyd ydyw y sylweddoliad gwirioneddol o'r drychfeddwl am lyfr anffaeledig?

2. Tynir dadl, a ystyrir yn gref, gan rai, dros anffaeledigrwydd yr Ysgrythyrau, oddi wrth angen y byd am y cyfryw i fod yn rheol ddiammheuol a sicr o wirionedd a dyledswydd dynion. Pe gellid profi fod llyfr anffaeledig yn wir angen o eiddo y byd, byddai grym yn y ddadl; ond yn aml wrth geisio profi hyn, llithrir oddi wrth y drychfeddwl o angen at y dymunoldeb o hyn, fel pe byddai pob peth ag sydd yn ddymunol yn angenrheidiol. Dylid cofio, pa fodd bynag, fod gwahaniaeth mawr rhwng y ddau ddrychfeddwl. Gall llawer peth fod yn ddymunol, ac etto heb fod mewn gwirionedd yn angenrheidiol. Gellir dymuno, nid yn unig fod llyfr anffaeledig wedi ei ysgrifenu, ond hefyd fod esboniad anffaeledig wedi ei gyfansoddi ar y llyfr hwnw; ac os ydyw y dymuniad yn profi ei gyflawniad yn y naill, y mae felly hefyd yn y llall; ac yna rhaid i ni chwilio am ryw awdurdod anffaeledig i esbonio y cyfryw, fel yr hòna y pab o Rufain ei fod ef, i roddi y gwir ddeongliad ar gynnwysiad yr Ysgrythyrau. Y mae yn wir, pan fyddo y dymuniad mewn dynion yn un mor gryf a chyffredinol fel y mae yn briodol ei olygu fel dyhëad angerddol a mewnol ein natur, y gellir ymresymu oddi wrtho at y tebygolrwydd o leiaf o'i gyflawniad yn rhyw fodd neu gilydd. Felly y dywedir wrthym yn gyffredin y bu gyda golwg ar yr ymgnawdoliad; a defnyddir dadl gyffelyb dros anfarwoldeb yr enaid, oddi wrth y dyhëad sydd yn enaid dyn am y cyfryw, a'r enciliad brawychus sydd yn y fynwes ddynol rhag diddymiad hollol. Ond a ellir profi fod y dymuniada m lyfr anffaeledig yn ddyhëad y ddynoliaeth? Y mae yn bossibl, pa fodd bynag, y dywedir fod cyhoeddiad llyfr anffaeledig, nid yn unig yn ddymunol, ond yn beth ag y gellir profi yr *angen* am dano. Addefir fod y grediniaeth sydd wedi bod am ganrifoedd, a dyweyd y lleiaf, yn anffaeledigrwydd yr Ysgrythyrau wedi bod yn fantais i'r byd Cristionogol, a bod y fantais hono yn un bwysig—yn gymmaint felly fel ag y byddai bod hebddi yn symmud ymaith yr hyn ag y mae ar eglwys Crist ei wir eisieu; sef, rheol anffaeledig o ffydd ac ufudd-dod.

Teimlodd Coleridge hyn, ac o herwydd hyny addefodd yn ei "*Confessions*" fod ei deimlad yn erbyn rhoddi anffaeledigrwydd yr Ysgrythyrau, er ei fod yn cael ei gymmhell gan ei reswm i hyny. Yn awr, os ydyw crediniaeth o anffaeledigrwydd y Beibl yn dwyn gwir fantais, a hono yn un bwysig, gellir edrych ar anffaeledigrwydd fel gwir angen o eiddo y byd, ac ymresymu oddi wrth yr angen hwnw at y tebygolrwydd o'i gyflawniad mewn llyfr y caniateir ei fod, yn ol ein tybiaeth, yn cynnwys dadguddiad dwyfol, ac wedi ei ysgrifenu trwy gyfryngiad neu ysbrydoliaeth ddwyfol.

3. Dywedir hefyd fod y Beibl ei hun yn cynnwys tystiolaethau eglur a chryfion ar anffaeledigrwydd. Ni a ymfoddlonwn ar nodi y rhanau a ddygir yn mlaen yn gyffredin mewn llyfrau i'r dyben hwn:—yr hyn a welir yn td. 348.

Yn awr, er addef fod y rhanau uchod yn rhoddi awdurdod i ni gredu anffaeledigrwydd y Beibl o ran ei gynnwysiad cyffredinol, ac yn arbenigol y gwirioneddau mawrion ysbrydol a gynnwysir ynddo, nis gallwn olygu eu bod yn penderfynu anffaeledigrwydd manwl y Beibl. Yr ydym, ar ol eu darllen yn ofalus, a'u hystyried yn ddiragfarn, yn methu a chanfod eu bod yn ein rhwymo i olygu y dylem gau allan bob ffaeledigrwydd o'r Ysgrythyrau. Nis gellir pwyso ar yr ymadrodd, "efe a'ch tywys i bob gwirionedd," neu 'yr holl wirionedd' fel y darllenir ef weithiau, i ddwyn y syniad hwn allan o hono, heb ddirdyniad annaturiol. Ac ni ellir golygu fod y geiriau yn Ioan, "a'r Ysgrythyr nis gellir ei thori," yn penderfynu y ddadl: o herwydd hòna y rhai sydd yn gwadu anffaeledigrwydd manwl y Beibl nad ydyw y diffygion a'r camgymmeriadau dibwys ag sydd ynddo ddim yn effeithio ar y cyfanwaith, fel ag i'w ddirymu i'r graddau lleiaf. Ond gan adael o'r neilldu y tystiolaethau neillduol sydd yn y Beibl, gellir gofyn, ai nid ydyw holl dôn a dullwedd y Beibl yn rhoi argraph o ymhòniad i anffaeledigrwydd hyd yn oed yn ei fanylion? Y mae yn rhaid addef fod grym yn yr ystyriaeth hon. Y mae, dybygem, yn ffaith hynod am yr Ysgrythyrau, na cheir mewn un o'r llyfrau ddim arwydd o betrusder nac ammheuaeth gyda golwg ar ddim a ddywedir ynddynt, hyd y manylion mwyaf dibwys; ond yn hytrach, cawn yn yr oll o honynt, a thrwy yr oll, amlygiad o sicrwydd diammheuol. Y mae pob peth yn cael ei ddywedyd gyda thôn o hyder cryf yn ei gywirdeb manylaf. Fe allai y rhoddir cyfrif am hyn drwy fod yr arddull beirniadol yn anadnabyddus y pryd y cafodd y Beibl ei ysgrifenu; ond nis gellir dyweyd hyny am yr oes yr ysgrifenwyd y Testament Newydd ynddi. Y mae mwy o rym yn y sylw, fod yr un nodwedd i'w ganfod yn yr "*Apocrypha;*" ond ar gyfer hyn drachefn, y mae yr ystyriaeth fod yn naturiol i ni ddisgwyl i awdwyr y llyfrau Apocryphaidd geisio efelychu arddull a thôn y llyfrau Canonaidd.

4. Hònir yn gryf gan amddiffynwyr anffaeledigrwydd y Beibl fod y drychfeddwl o ysbrydoliaeth, yr hon yr ydym yn tybied sydd yn cael ei addef o bob tu, yn rhag-dybied anffaeledigrwydd; neu o leiaf, y gellir casglu yr olaf oddi wrth y blaenaf. Wrth reswm, y mae y ddadl hon yn deg a phenderfynol, os rhaid i ni addef fod y deffiniad o ysbrydoliaeth yn cymmeryd i mewn iddo ei hun o angenrheidrwydd y drychfeddwl o anffaeledigrwydd. Ond y mae hyn yn bwnge o ddadl. Nid ydyw y gair *ysbrydoliaeth* yn deg yn golygu mwy na bod bywyd ac ysbryd, neu deimlad ac eneiniad dwyfol yn treiddio trwy y Beibl, fel ffrwyth gweithrediad goruwchnaturiol o eiddo yr Ysbryd Glân yn ac ar yr ysgrifenwyr amrywiol: 2 *Tim.* iii. 12; 2 *Pedr.* Ond y cwestiwn mawr ydyw, i ba raddau y mae yr ystyriaeth fod yr ysbryd a'r teimlad hwn yn anadlu geiriau y Beibl yn ein rhwymo i gredu eu bod am hyny, nid yn unig yn gyffredinol, ond hefyd yn ddieithriad, yn rhydd oddi wrth bob math o wallau a chamgymmeriadau. Nis gallwn gredu y buasai yr Ysbryd Glân, yr hwn a elwir ac sydd yn Ysbryd y Gwirionedd, yn rhoi ei anadl i dreiddio trwy unrhyw lyfr neu gyfres o lyfrau heb fod y cyfryw o leiaf yn dwyn y nodwedd o wirionedd yn eu cynnwysiad cyffredinol; ond a

Digitized by Google

ydym yn teimlo yr un anallu i olygu y gallasai yr un Ysbryd *oddef* i ddiffygion a chamgymmeriadau dibwys—y cyfryw ag na fyddent yn dwyn cyssylltiad bywydol â'r gwirioneddau mawrion, er mwyn y rhai y cafodd y Beibl ei ysgrifenu—fod yn rhan o gyfrol ysbrydoledig. Goddef yr ydym yn ei ddywedyd—ac nid cynnyrchu. Pe buasai y Beibl yn ffrwyth a chynnyrch awduriaeth ddwyfol yn unig, heb fod meddyliau a theimladau dynol wedi eu defnyddio yn ei gyfansoddiad; mewn gair, pe buasai ei awduriaeth yn unigol, hyny yw, yn ddwyfol, yn lle, fel y mae, yn ddwbl—hyny yw, yn ddwyfol a dynol mewn undeb â'u gilydd—buasai angenrheidrwydd i ni gredu fod y cyfan o hono yn hollol wir a chywir i'r manylrwydd eithaf. Ond gan fod awduriaeth dwyfol a dynol ynddo, y mae genym le i ofyn y cwestiwn, A ydyw yn ofynol i ni gredu fod yr awduriaeth ddynol yn anffaeledig, o herwydd ei bod mewn undeb â'r un ddwyfol? A ydyw yr undeb rhwng y dwyfol a'r dynol yn y Beibl yn gyfryw ag i roddi sêl ac awdurdodiad ar yr hyn oll a gynnwysir ynddo yn ei holl fanylion? Attebir gan rai ei fod, ar sail yr ystyriaeth hwn—fod gwir awduriaeth yn golygu fod awdurdod personol yr awdwr yn cael ei gyfrif i'r holl lyfr ag sydd wedi ei gyhoeddi yn ei enw. Yn awr, gan fod Duw yn wir awdwr y Beibl yn rhinwedd ei ysbrydoliaeth, rhaid fod awdurdodiad dwyfol ynglŷn â'i holl ddysgeidiaeth; a chan fod yn ammhossibl i Dduw y gwirionedd fod yn gelwyddog, nis gall fod ynddo gymmaint ag un camgymmeriad, anghyssondeb, na chyfeiliornad o un math. I hyn, gellir atteb etto ar y tu arall, fod awduriaeth ddwbl yn beth nad oes genym yr un enghraifft arall o hono; ac am hyny, ein bod yn analluog i farnu yn benderfynol ammodau a therfynau angenrheidiol y dirgelwch mawr hwn sydd yn gorwedd yn nghyfansoddiad y Beibl. Y mae yn bossibl i ni dybied fod yr awduriaeth ddwyfol yn dwyn perthynas agosach a mwy uniongyrchol, er nad mwy gwirioneddol, â'r gwirioneddau ysbrydol sydd yn cyfansoddi dadguddiad y Beibl, nag â'r rhanau eraill—y rhai ydynt yn unig yn gwasanaethu fel cyfrwng i gludo y gwirioneddau uchod sydd i'w priodoli yn fwy uniongyrchol i'r awduriaeth ddynol; ac o herwydd hyn, fod anffaeledigrwydd i'w ddisgwyl o angenrheidrwydd ynglŷn â'r cyntaf, ac hefyd â'r olaf; ond nid i'r un graddau hollol a manwl ag â'r cyntaf. Gadawer i ni dybied am foment nad ydyw y dadguddiad dwyfol a gynnwysir yn y Beibl yn un gorphenol, a bod yr Ysbryd Glân yn cynnhyrfu un o'r bobl yn y dyddiau hyn i ddadguddio gwirioneddau newyddion, gan ei gyfarwyddo i wneuthur hyny trwy gyfrwng rhanau pennodol o hanesiaeth Lloegr. Nid oes dim yn yr athrawiaeth o ysbrydoliaeth yn gwahardd i ni dybied am yr ysgrifenydd ei fod yn chwilio i mewn i'r hanesion dynol goreu sydd i'w cael ar y cyfnodau hyny, ac yn eu cyfaddasu i atteb y dyben mewn golwg; o herwydd gwyddom fod yr efengylydd Luc wedi gwneuthur y cyffelyb beth gyda golwg ar hanes y Gwaredwr.

Yn awr, i ba raddau y mae yn rhaid i ni gredu y buasai Ysbryd Duw yn cyfryngu i ddiogelu cywirdeb ac anffaeledigrwydd yn y gwaith hwn? Yn gyntaf, y mae yn rhaid i ni gredu na buasai yr Ysbryd Glân yn ei gadarnhau i ysgrifenu dim a fuasai yn ffrwyth twyll bwriadol, na chwaith yn effaith diofalwch, diogi, neu esgeulusdra. Nis gallwn feddwl am dano yn dewis dynion fyddent yn euog o'r fath bethau i fod yn wrthddrychau ei ysbrydoliaeth. Ond ar y llaw arall, dadleuir yn gryf nad oes un angenrheidrwydd i ni gredu y buasai yr Ysbryd Glân yn cyfryngu yn wyrthiol i'w cadw uwch law pob gwendidau ac ammherffeithrwydd llenyddol, can belled ag y mae y cyfryw yn rhydd oddi wrth ddrwg moesol, fel ag i'w hattal rhag y possiblrwydd o wneuthur camgymmeriadau mewn pethau dibwys, megys amseriad, rhifedi, trefn lleoedd, &c.; ond yn unig lle byddai y cyfryw yn dwyn perthynas hanfodol â'r gwirioneddau er mwyn pa rai y cawsant eu neillduo i'w hysgrifenu. Ystyriaeth arall a ddengys hyn ydyw, nad ysgrifenu hanes Lloegr fyddai amcan yr Ysbryd Glân yn ol y dybiaeth. Pe buasai hyny yn amcan, gallesid disgwyl i'r cyfan fod yn anffaeledig, hyd yn oed o ran y manylion mwyaf dibwys; ond yn ol y dybiaeth, nid ydyw yr hanes ond megys ystôf i gydweu y dadguddiad newydd âg ef. Yn gyffelyb i hyn, meddir, y mae i ni synied am y dadguddiad gwirioneddol sydd wedi ei roddi i ni yn y Beibl. Gofynir, pa angenrheidrwydd sydd am i ni ddisgwyl perffeithrwydd anffaeledig mewn manylion nad ydynt yn dal perthynas bywydol â'r gwirioneddau mawr ac ysbrydol, er mwyn pa rai y cafodd y Beibl ei ysgrifenu? Onid ydyw yn rhesymol i ni gredu, hyd yn oed yn mlaen llaw, na buasai Duw yn cyfryngu trwy ddylanwad goruwch-naturiol i attal y cyfryw: yn hytrach, onid rhesymol i ni farnu mai eu *goddef* a wnaethai fel gwendidau dynol, fel y byddai y dynol yn y Beibl yn wir ddynol? Onid oes genym gyfattebiaeth i hyn yn yr elfen ddynol yn mherson yr Arglwydd Iesu? Gallasai Duw, yn ddiau, ddyrchafu ei ddynoliaeth ef yn mhell uwch law pob gwendid ac ammherffeithrwydd; ond buasai felly yn llai dynol, ac am hyny, er yn fwy perffaith ynddi ei hun (*per se*), etto yn fwy ammherffaith i atteb dyben mawr ei hymddangosiad ar y ddaear. Yn gyffelyb y gellir dyweyd am yr ysgrifenwyr sanctaidd. Drachefn:—onid rheol gyffredinol Duw ydyw peidio a chyfryngu trwy y goruwch-naturiol heb fod gwir angenrheidrwydd am hyny? Felly, os nad oedd gwir angenrheidrwydd i atteb dybenion dadguddiad dwyfol i attal pob diffygion i fod yn y Beibl, y mae yr egwyddor o gynnildeb sydd i'w weled yn holl oruchwyliaethau Duw mewn natur, ac uwch law natur, meddir, yn ein dysgu i gredu na ddarfu iddo wneuthur unrhyw gyfryngiad goruwchnaturiol i'r dyben o attal camgymmeriad fel ffrwyth gwendid dynol yr ysgrifenwyr.

Yn nesaf, dadleuir dros anffaeledigrwydd hollol a manwl y Beibl, yn erbyn ei anffaeledigrwydd cyffredinol, o herwydd yr anhawsder, os nid yr ammhossiblrwydd, i wahaniaethu pa ranau o hono sydd yn ffaeledig. Gofynir i bleidwyr ffaeledigrwydd, ar ba egwyddor y mae i ni wahaniaethu rhwng y naill a'r llall—rhwng y rhanau anffaeledig a'r rhanau ffaeledig. Yr attebiad a roddir ar yr ochr arall ydyw, mai trwy ymchwiliad yn unig y mae i ni gael allan y rhanau ffaeledig; a bod y Beibl, ar y dybiaeth y gall fod ynddo wallau o natur dibwys, y cyfryw ag ydynt yn hollol annibynol ar y gwirioneddau mawrion ac ysbrydol a ddysgir ynddo, yn hollol ar yr un tir a rhyw lyfr arall, o ran y moddion i'w harfer er sicrhau pa rai yw y gwallau hyny. Yr unig wahaniaeth, meddir, yw, fod y terfyn uchod yn cael ei roddi i'n hymchwiliad, yr hwn sydd yn cael ei wneuthur yn anhebgorol angenrheidiol,

am fod y Beibl yn llyfr ysbrydoledig. Ac o herwydd ei fod yn gyfryw, yr ydym dan rwymau i fabwysiadu y terfyn a nodwyd er mwyn cyssondeb, a thuag at ein diogelu rhag gwrthweithio natur ac amcan uniongyrchol y llyfr fel cynnyrch dwyfol ysbrydoliaeth. Yn awr, os ceir, ar dir ymchwiliad gonest a didwyll, fod ynddo ryw wallau neu gamgymmeriadau ag sydd yn cadw o fewn y terfyn a enwyd, dylid ar unwaith, yn ol y golygiad hwn, eu cydnabod fel camgymmeriadau gwirioneddol, ac nid fel rhai ymddangosiadol; a dylid eu priodoli i wendid ac ammherffeithrwydd dynol a dibechod yr ysgrifenwyr. Ni raid i ni olygu am hyny fod yr Ysbryd Glân yn rhoddi ei sêl wrth y camgymmeriadau hyn, fel ag i'w cadarnhau fel gwirioneddau. Pe felly, buasai yn awdwr celwydd—yr hyn sydd ammhossibl; canys ammhossibl ydyw i Dduw fod yn gelwyddog, ac "nid oes," fel y dywed yr apostol Ioan, "yr un celwydd o'r gwirionedd." A'r rheswm pa ham na raid i ni gredu fod Duw yn rhoddi ei sêl a'i awdurdod wrth gamgymmeriadau o'r fath yw, mai eu *goddef* a ddarfu iddo, ac nid eu cynnyrchu—eu gadael, heb gyfryngu i'w hattal yn wyrthiol rhag bod yn gyfran o'r gyfrol ysbrydoledig. Er y gallasai drwy gyfryngiad gwyrthiol eu rhagflaenu a'u hattal, etto, am nad oedd caniatau iddynt aros yn y Beibl yn gwrthweithio amcan mawr y llyfr, nac yn effeithio ar ei gywirdeb cyffredinol, goddefodd iddynt fod fel amlygiad o ammherffeithrwydd dynol, fel yr ymddangosai y dynol trwy hyny yn wir dynol. Dylid cadw mewn golwg ar yr un pryd fod yr ammherffeithrwydd hwn i'w briodoli o ran gweithrediad i ddynion, ac o ran y goddefiad yn unig i'r Ysbryd Glân. Os dadleuir fod y dynol, nid yn unig yn golygu ammherffeithrwydd a gwendid, ond pechod hefyd, ar yr un tir, meddir, y dylem gredu y buasai Duw yn goddef hyd yn oed i dwyll pechadurus gael ei arfer yn ysgrifeniad yr Ysgrythyrau. Yr attebiad i hyn yw, nad ydyw pechadurusrwydd yn ansawdd angenrheidiol i ddynoliaeth. Pe buasai dyn wedi ymgadw rhag pechu yn erbyn Duw, buasai terfynoldeb ac ammherffeithrwydd ynglŷn â'i feddwl o leiaf, yn ei ystâd dechreuol. O leiaf, nid oes dim yn y drychfeddyliau yna ag sydd yn groes i ddynoliaeth *wirioneddol*. Ond i'r graddau ag y mae dyn yn bechadurus y mae yn gwrthweithio ei ddynoliaeth, o herwydd y mae pechod yn annaturiol, ac am hyny yn annynol. Drachefn, buasai goddef yr ysgrifenwyr sanctaidd i weithredu yn ol eu hanian bechadurus, a gadael i gynnyrch hyny ymddangos yn y Beibl, yn sicr o beri i gywirdeb *cyffredinol* y Beibl gael ei lygru; ac felly, buasai yn effeithio o angenrheidrwydd ar y gwirioneddau hanfodol a gynnwysir ynddo; y rhai, fel y dangoswyd o'r blaen, sydd yn cael eu diogelu o ran eu cywirdeb drwy y ffaith o ysbrydoliaeth. Os, ar y llaw arall, wrth ddarllen y Beibl, a'i chwilio, y cyfarfyddwn â rhyw anghyssondeb neu gamgymmeriad, neu gyfeiliornad ymddangosiadol, y cyfryw ag sydd yn effeithio ar y gwirioneddau hanfodol ac ysbrydol ag sydd yn cael eu dysgu i ni ynddo, yr ydym ar dir teg, yn ol y dybiaeth addefedig o'i ysbrydoliaeth, i olygu y cyfryw fel anhawsder ymddangosiadol, ac nid gwirioneddol; ac i geisio ei egluro, a rhoddi cyfrif am dano trwy unrhyw dybiaeth ag a fyddo yn ddigonol i hyny: neu, os nad ellir cael y cyfryw, dylem ei adael a'i olygu fel anhawsder, ac o bossibl fel anhawsder nas gellir byth ei ddadrys—wedi ei drefnu, fe ddichon, fel anhawsder au cyffelyb yn ngoruchwyliaethau Rhagluniaeth Duw, i brofi ein ffydd a'n gostyngeiddrwydd. Ond os gofynir etto, Pa rai ydyw gwirioneddau hanfodol ac ysbrydol y Beibl? a pha rai ydyw y lleill? a phwy sydd i'n cyfarwyddo i wahaniaethu rhyngddynt? Yr un attebiad a roddir etto i'r cwestiwn hwn, mai trwy astudiaeth ac ymchwiliad yn unig y mae i ni ddysgu a gwybod hyn—i wneuthur yr hyn y rhoddwyd i ni gan y Creawdwr gynneddfau a galluoedd naturiol; ac yn chwanegol at y pethau hyn, y ceir yn y Beibl ei hun addewid am oleuni a dysgeidiaeth yr Ysbryd Glân i'n tywys i bob gwirionedd. Os dywedir er hyn, ein bod yn cael ein gadael mewn ansicrwydd, gan y dichon i un dyn olygu gwirioneddau pennodol fel yn ddibwys ac anhanfodol, tra y mae un arall yn edrych arnynt fel rhai hanfodol bwysig—i hyn ceir yr atteb, yn gyntaf, mai mater o ddeongli y Beibl ydyw y gwaith hwn o wahaniaethu rhwng gwirioneddau a'u gilydd o ran eu natur a'u pwysigrwydd cymhariaethol; ac nad oes genym un sail i ddisgwyl i gynnwysiad y Beibl fod yn gyfryw ag i ddiogelu anffaeledigrwydd yn yr esboniad a ddyry dynion arno—y rhaid i bob dyn, yn hyn o beth, ymarfer cydwybod i ddefnyddio y galluoedd a roddwyd iddo yn y modd mwyaf gonest a diragfarn i ddeall meddwl Duw yn ei air, ac ar ol hyny fod yn sicr yn ei feddwl ei hun. Yn ail, pe byddai i bob dyn ag sydd yn chwilio y Beibl iawn ymofyn am y cynnorthwyon sydd wedi eu haddaw i'r rhai a'u ceisiant gan yr Ysbryd Glân i fyned i mewn i gynnwysiad ac ystyr y Beibl, ni byddai yr amrywiaeth y cyfeiriwyd ato, meddir, ddim yn bod. Y mae ei fodolaeth yn ddyledus i'n hammherffeithrwydd a'n hesgeulusdra ni, ac nid i ddim yn y Beibl; ac y mae yr ammherffeithrwydd hwn sydd ynom ni ar hyn yn gyfryw ag sydd yn bechadurus, ac hefyd yn gyfryw ag y dylem ymofyn am ei symmud; ac yn adeg y llwyddiant mawr ar grefydd, fe fydd wedi ei symmud, meddir, yn ol tystiolaeth y Beibl ei hun.

Yr ydym wedi ceisio gosod ger bron y darllenwyr mor gryno ag y gallasem, y dadleuon a'r gwrthddadleuon, o blaid ac yn erbyn anffaeledigrwydd y Beibl. Y mae yn bryd i ni, bellach, ymofyn pa beth ydyw y penderfyniad tebygol, os nad sicr, y deuai un iddo, oddi ar edrych ar y mater yn y wedd ymofyniadol a gyflwynwyd uchod. Cyffelyb i hyn yr edrychir ar ffaeleddau y Beibl gan y rhai sydd yn credu ei fod yn llyfr wedi ei ysgrifenu trwy ddwyfol ysbrydoliaeth, ac yn cynnwys dadguddiad dwyfol wedi ei gludo trwy gyfrwng llenyddiaeth ddynol, yr hon sydd o ran ei chynnwysiad cyffredinol yn arddangos cywirdeb a rhagoriaeth na cheir mo'i chyffelyb mewn un llyfr arall ar wyneb y ddaear. Wrth ddywedyd fod y perffeithrwydd uchaf i'w gyfrif iddo, nid oes angenrheidrwydd, meddir, i gau allan bob ammherffeithrwydd *perthynasol* o hono. Y mae yn berffaith yn ystyr uchaf y gair—nid er, ond am ei fod yn cynnwys ammherffeithrwydd perthynasol; sef, ammherffeithrwydd dynol. Y mae ei berffeithrwydd hollol—hyny yw, dwyfol—yn rhoddi lle i ganiatau o'i fewn, ïe, yn gofyn i ni olygu ei ammherffeithrwydd perthynasol; hyny yw, dynol. Fel y mae perffeithrwydd hollol y greadigaeth yn rhoddi lle i ammherffeithrwydd perthynasol a rhanol, ac na buasai y cyfanwaith yn berffaith, heb ammherffeithrwydd achlysurol yn y rhanau, felly hefyd

Digitized by Google

gyda golwg ar gyfanwaith y Beibl. Buasai cyfundraeth fawr natur fel cyfanwaith yn llai perffaith pe na buasai ynddi enghreifftiau o ammherffeithrwydd yn y rhanau; ac yn gyffelyb pe na buasai yn y Beibl ammherffeithrwydd o un math, buasai am hyny yn llai perffaith fel cyfanwaith. Gallwn dybied am iaith, arddull, a threfn y Beibl fel yn nes at safon cynlluniol perffeithrwydd ynddo ei hun nag y maent yn weithredol; ond pe buasent felly, buasai y Beibl, fel llyfr i atteb ei ddyben priodol ei hun, yn llai perffaith. Fel y mae, canfyddwn ynddo, er ein syndod a'n mawrygiad, arwyddion o ddoethineb dwyfol sydd wedi gofalu ar iddo gael ei gyfansoddi yn y fath fodd ag i arddangos y perffeithrwydd uchaf, a thrwy hyny argraphu ar ein meddyliau argyhoeddiad o'i wir ddwyfoldeb.

Drachefn, wrth briodoli iddo yr anffaeledigrwydd uchaf, nid ydyw yn angenrheidiol cau allan o'r syniad bob ffaeledigrwydd perthynasol, yn enwedig gan, yn ol y dybiaeth, fod y ffaeledigrwydd hwnw o ran ei ffynnonell yn ddynol, ac nid yn ddwyfol. Y mae yn wir fod y goddefiad o hono yn ddwyfol; ond gellir cyfiawnhau hyny o herwydd y dybenion goruchel oedd mewn golwg gan Dduw yn ei oddef, fel y dywedir pan yn sôn am ei waith yn goddef dyfodiad pechod i'w lywodraeth. Ac fel y mae llywodraeth foesol Duw yn fwy anffaeledig nag y buasai, o herwydd i Dduw oddef i bechod ddyfod i fod ynddi, i gael ei oruwchlywodraethu i fwy o ogoniant iddo ei hun, a mwy o ddaioni o bossibl i'w greaduriaid; felly hefyd y mae y Beibl yn fwy anffaeledig yn ei berthynas â Duw, am ei fod ef fel, ei awdwr, wedi goddef i'r awduriaeth ddynol gynnwys ffaeleddau dynol—y cyfryw ag nad oeddynt yn cyffwrdd â hanfod y dadguddiad cynnwysedig ynddo, na chwaith â chywirdeb cyffredinol y rhanau hyny ag sydd yn gwasanaethu i fod yn gludyddion y dadguddiad hwnw, am ei fod yn goruwchreoli y ffaeleddau hyny i ddangos gwendid dyn iddo ei hun pan ar y goreu, ac i ogoneddu ei allu a'i fawredd dwyfol ei hun. Tybier fod arluniwr enwog yn ymgymmeryd â gwneuthur darlun o ryw amgylchiad yn hanes ein Harglwydd Iesu Grist:—dywedwn, er enghraifft, yr hanes am dano yn adgyfodi Lazarus. Gallwn ddychymygu fod y celfyddydwr yn crynhoi holl nerth ei athrylith personol ei hun i bortreadu person a gwedd yr Arglwydd Iesu, canol wrthddrych y darlun; a'i fod yn cyflawni ei waith yn deilwng a gorchestol. Gadawer i ni dybied hefyd ei fod yn dewis cynnorthwy celfyddydwyr eraill llai enwog nag ef ei hunan, ac yn gadael iddynt hwy y gweddill o'r gwaith. Iddynt hwy y rhoddir y gwaith o dynu darluniau o'r gwrthddrychau dynol; megys Lazarus, a'r dysgyblion, &c. Gan fod o bwys i'r darluniau o'r rhai hyn fod yn gywir o ran gwedd a mynegiad, am eu bod yn dwyn perthynas hanfodol a bywydol â thestyn y darlun, efe a ofala eu bod yn gyfryw ag na byddo perygl iddynt esgeuluso cywirdeb a ffyddlondeb yn y pethau hyny, a chynnorthwya hwynt â'i bresennoldeb yn y gwaith; ond am yr amgylchoedd allanol, y rhai ydynt heb fod yn dwyn unrhyw berthynas â'r testyn—megys y mynyddoedd yn y pellder, yr awyr, y coedydd, a'r llysiau—gedy hwynt yn hollol i'w dwylaw a'u chwaeth unigol eu hunain, heb gyfryngu i attal anghywirdeb neu ammherffeithrwydd possibl ynddynt, am nad oedd yn gweled o bwys eu rhagochel; ac hefyd, am ei fod yn rhagweled y gall yr ammherffeithiau hyny wasanaethu, yn ol deddf gwrthgyferbyniad, i osod allan berffeithrwydd y rhanau eraill i fwy o fantais, fel y mae y cysgod mewn darlun yn cael ei ddodi i mewn i ddangos y goleu i fwy o fantais a disgleirdeb. Cyfansoddai y diffygion felly i olwg y prif arluniwr fath o gysgod (*shade*) i roddi mwy o'r hyn a elwir yn *effect* i'r holl waith. Yn bresennol, gofynir a fyddai y darlun tybiedig yn fwy ffaeledig yn y cyfan, am fod y rhanau dibwys a enwyd yn cynnwys ffaeleddau. I'r gwrthwyneb—dywedai pawb ei fod yn llai felly, ac yn fwy anffaeledig. Ynddynt, ac o honynt eu hunain, rhaid addef eu bod yn ffaeleddau; ond fel y maent wedi eu goddef, er hyny, i gydweu eu cyfanwaith, gwasanaethant i gyfranu, nid yn unig at ei berffeithrwydd cynlluniol, ond hefyd at ei anffaeledigrwydd gweithredol.

Ond wedi y cyfan, er i ni addef er mwyn ymresymiad yn mlaen llaw (*à priori*) *y possiblrwydd* i gyfrif y perffeithrwydd, ac yn wir yr anffaeledigrwydd uchaf i'r Beibl, hyd yn oed pe byddai raid i ni gredu fod ynddo engreifftiau o ffaeledigrwydd a chamgymmeriadau o'r natur a ddisgrifiwyd, ac o fewn y terfynau a nodwyd; ac etto wrth i ni gymmeryd y Beibl fel y mae, a gwneuthur ymchwiliad i'w gynnwysiad, ac ymofyn a oes hyd yn oed y cyfryw gamgymmeriadau *mewn ffaith* i'w cael ynddo, y mae yn fater o syndod a gwir ryfeddod, fel y mae amddiffynwyr anffaeledigrwydd hollol y Beibl wedi gallu dal a chadw eu tir yn wyneb yr holl ymosodiadau a wnaed i geisio profi ffaeledigrwydd y Beibl mewn pethau dibwys, ac heb fod yn dwyn perthynas ganfyddadwy â gwir ddyben ei ysgrifeniad. Y mae yn ffaith hynod nad oes un o'r prif enghreifftiau—os yn wir, un o'r cyfan—o'r anghyssonderau hônedig a ddygir rhwng yr ysgrifenwyr sanctaidd a'u gilydd, nad ydys wedi gallu profi ar dir teg fod yn bossibl, ac mewn aml i enghraifft fod yn rhaid, rhoddi cyfrif am danynt trwy ffeithiau adnabyddus neu ystyriaethau tebygol, fel rhai ymddangosiadol, ac nid fel rhai gwirioneddol. Drachefn, gyda golwg ar yr enghreifftiau o anghyssondeb rhwng tystiolaethau y Beibl a'r eiddo awduron a haneswyr anghyssegredig, yr ydys wedi llwyddo mewn rhai enghreifftiau i gadarnhau tystiolaethau y Beibl, a hyny trwy ddarganfyddiadau annisgwyliadwy a tharawiadol: ac mewn enghreifftiau eraill, y mae gosodiadau y Beibl wedi cael y cyfryw gadarnhâd trwy ymchwiliadau pellach ag sydd yn ddigonol o leiaf i ddirymu y gwrthddadleuon; ac y mae hyn oll yn rhoddi sail digonol am yr ychydig weddill a all fod etto yn aros, y daw goleuni cyffelyb i glirio y niwl o dywyllwch ac anhawsder sydd yn aros arnynt hwythau. A'r un modd gyda golwg ar y gwrthdarawiadau tybiedig sydd rhwng cynnwysiad y Beibl a darganfyddiadau gwirioneddol gwyddoniaeth, yr ydym ar dir i allu dywedyd nad oes dim yn nghynnwysiad y Beibl wedi ei egluro a'i ddeongli ar egwyddorion cywir, yn milwrio, nid yn unig yn erbyn darganfyddiadau priodol gweithredol, ond yn erbyn darganfyddiadau possibl gwyddoniaeth; tra ar y llaw arall y mae gwyddoniaeth, fel y dywed un awdwr, trwy ei ddarganfyddiadau diweddar, wedi ein dysgu i raddau mawr iawn pa fodd i ddeall y Beibl yn well nag yr oeddid yn gallu cyn i'r cyfryw ddarganfyddiadau gael eu gwneuthur.

Ymddengys i ni y byddai cymmharu a mantoli y dadleuon a'r gwrthddadleuon a enwyd yn barod, ar y naill ochr i'r cwestiwn ac ar y llall,

Digitized by Google

yn debyg o ddwyn un i'r casgliad canlynol; sef, fod y Beibl, o herwydd, ac yn gymmaint a'i fod, yn ol y dybiaeth y cychwynwyd allan arni, yn cynnwys dadguddiad dwyfol, ac yn chwanegol at hyny wedi ei ysgrifenu trwy gyfryngiad dwyfol—yr hyn a elwir yn gyffredin yn *ysbrydoliaeth*—yn llyfr sydd yn cael ei nodweddu gan y perffeithrwydd a'r anffaeledigrwydd uchaf. Ond cyn terfynu ein herthygl, er mwyn dangos mor agos at eu gilydd mewn gwirionedd y mae pleidwyr anffaeledigrwydd hollol a manwl y Beibl ar un tu, a phleidwyr anffaeledigrwydd mwy rhydd ar y llaw arall, dyfynwn y rhan ganlynol allan o draethawd y Proffeswr Elliott, sydd newydd ei gyhoeddi (1878) gan Clark, o blaid anffaeledigrwydd manwl y Beibl:—"Os ceir unrhyw wallau yn yr Ysgrythyrau, rhaid profi ei fod yn bod yn yr ysgrifau gwreiddiol, ac nid wedi eu dwyn i mewn trwy gamgymmeriad copïwyr, cyn y gellir eu cyfrif ar yr ysgrifenwyr sanctaidd......Dylai y gwrthwynebydd ddangos fod y gwallau yn gyfryw ag sydd yn niweidio y llyfrau yn y rhai y ceir hwynt......Gallai ysgrif gynnwys gosodiad anghywir, neu ryw beth wedi ei adael allan, ac etto fod o awdurdod anffaeledig ar y pwynt y bwriedir ei brofi. Nid oedd ysbrydoliaeth yn gwneuthur yr ysgrifenydd sanctaidd yn hollwybodol:—yn unig diogelai hwynt rhag cyfeiliornad yn eu dysgeidiaeth. Y mae, gan hyny, yn hollol ddirnadwy pa fodd y gallai ysgrif a ddefnyddid ganddynt i ddyben neillduol, ac yn anffaeledig i atteb y dyben hwnw [cyfeiria at y rhestr Iuddewig o achau y Messiah] gynnwys gosodiadau anghywir."

Swm a sylwedd yr hyn a ddywedwyd, o ran tuedd ac amcan, ydyw argraphu ar feddyliau ein darllenwyr anffaeledigrwydd gwirioneddol ac ysbrydoliaeth hollol y Beibl fel Gair Duw, fel ag i ni, ar y seiliau cryfaf, allu credu ei fod, nid yn unig yn *cynnwys*, ond hefyd ei fod drwyddo yn ddadguddiad perffaith o feddwl ac ewyllys Duw i ddynion. Ac hefyd, i ddangos lle byddo un yn methu a rhoddi lle yn ei feddwl i gredu, o ran y *theory*, yr hyn a elwir yn "anffaeledigrwydd manwl" y Beibl, etto nad ydyw hyny, mewn un modd, yn ei gyfreithloni ef i daflu ymaith y Beibl fel gwir Air Duw. Gwel Proffeswr Lee "*On the Inspiration of Scripture;*" Rudelbach "*On Inspiration;*" Proffeswr Elliott's "*Lectures on Inspiration;*" Bannermann "*On the Inspiration of the Bible;*" Hodge's "*Systematic Theology;*" Westcott "*On the Canon;*" Turretin's "*Institutions;*" ac "*Ysbrydoliaeth y Beibl,*" gan D. C. Davies, &c.

YSGOL—ION SABBOTHOL: un o'r sefydliadau mwyaf gwasanaethgar i foesoldeb a chrefydd y gellir ei enwi. Y mae gwasanaeth yr Ysgol Sabbothol, i'r naill a'r llall, yn mhob gwlad y mae wedi ei sefydlu ynddi, wedi bod eisoes yn ammhrisiadwy. Diammheuol y bydd enw Robert Raikes, o Gloucester, yr hwn a ystyrir fel y prif offeryn yn ei sylfaeniad, mewn côf yn hir gan oesau dyfodol, ac y cofir ef gyda pharch a diolchgarwch, nid yn unig yn ei wlad ei hun, ond hefyd gan yr hil ddynol o bob cenedl ac iaith. Er yr haerir nad efe oedd y sylfaenydd gwreiddiol o'r Ysgolion Sabbothol, a siarad yn fanwl, gan y tybir fod eraill yn Ysgotland, yn Lloegr, ac yn Nghymru hefyd, o bossibl, wedi bod yn cynnal cyfarfodydd i ddysgu darllen Gair Duw o gyffelyb natur; ac yn wir, y mae hyn yn cael ei gydnabod gan ei fywgraphydd ef, a chan Gymdeithas yr Ysgol Sul. Ond er hyny, efe a fu yr offeryn i ddwyn yn mlaen a sefydlu yr ysgolion yn Lloegr; a hyny heb ei fod yn gwybod fod dim yn debyg iddynt wedi bod mewn arferiad yn awr ac eilwaith mewn lleoedd eraill yn Lloegr, Ysgotland, ac fe allai Cymru.

Yr oedd y Parch. Theophilus Lindsey, yn fuan ar ol cymmeryd meddiant o ficeriaeth Catterick, yn sir Gaerefrog, yn 1763, wedi arfer defnyddio cyfran o'r Sabbath i addysgu plant ag yr oedd eu haddysg ysgrythyrol yn cael ei esgeuluso. Am ddau o'r gloch, cyn dechreu y gwasanaeth crefyddol prydnawnol, yr oedd Mr. Lindsey yn rhoddi awr o amser, bob yn ail Sabbath, i holwyddori plant y plwyf, ac i esbonio y Beibl i fechgyn ysgol fawr oedd yn rhifo tua dau cant. Ac ar ol y gwasanaeth hwyrol, byddai gwahanol ddosbarthiadau o ddynion a merched ieuaingc yn ei gyfarfod yn ei fyfyrgell, i'r dyben o dderbyn addysg. A'r un modd hefyd, byddai gan Mrs. Lindsey, mewn lle arall, ddau ddosbarth o fechgyn a genethod, bob yn ail. Dywed Mrs. Cappe, priod y Parch. Newcome Cappe, o Gaerefrog—Miss Harrison y pryd hwnw—yn ei Hunangofiant, fel y canlyn:—"Mi a ymdrechais efelychu yn Bedale yr esampl a edmygwn mor fawr yn Catterick. Sefydlais fath o Ysgol Sabbothol yno—cesglais ynghyd nifer o blant tlodion, y rhai a gynnorthwyais i ddysgu darllen, a rhoddais iddynt lyfrau, &c., gan ddysgu iddynt gatecism lleiaf Dr. Watts, ynghyd â'i hymnau rhagorol; ac ymdrechais gyfranu iddynt y fath addysg gyffredinol ac a'u galluogent i ddarllen y Beibl gyda gwell gobaith i'w ddeall. Nid oedd genyf le i'w derbyn ond y gegin gefn; yr oedd hono yn fechan, ac o blegid hyny byddai y lle yn hynod lawn. Ond i'r dyben o attal annhrefn, dosranais hwynt yn ddosbarthiadau, y rhai a ddeuent i mewn y naill ar ol y llall; ac felly, yr oeddwn ar hyd y Sabbath yn cyfranu addysg i blant, oddi eithr yr amser a dreuliwn yn yr eglwys."

Yn y fl. 1769, dechreuwyd Ysgol Sabbothol yn High Wycombe, sir Buckingham, gan Miss Ball, yr hon oedd foneddiges hynod o grefyddol, a thra awyddus am wneyd daioni. Ei harfer hi oedd casglu ynghyd gymmaint a deg ar hugain neu ddeugain o blant ar foreu Sabbath, mewn trefn i'w clywed yn darllen yr Ysgrythyrau, ac yn adrodd y catecism a'r colect cyn myned i'r eglwys.

Dywed y Dr. John Brown fod yn Ysgotland hefyd ysgolion yn cael eu cario yn mlaen cyn i Raikes sefydlu un yn Gloucester; ac ymddengys ei fod wedi myned i gryn drafferth i brofi hyny. Dywed iddo glywed Dr. Burns, o blwyf y Barony, Glasgow, yn dywedyd fel y canlyn:—"Yr wyf yn cofio i'r Ysgolion Sabbothol gael eu sefydlu yn Glasgow, ac yn mhlwyf y Barony, yn 1782; a chredaf eu bod wedi eu sefydlu cyn i ni dderbyn hysbysrwydd o'r hyn a wnaed gan Mr. Raikes. Yr wyf yn gwybod fy mod i yn myned yn rheolaidd i ysgol a gynnelid yn y Calton yn 1782." Crybwylla Syr John Sinclair am ysgolfeistr yn Banchory Devinick, yn swydd Aberdeen, oedd wedi dechreu Ysgol Sabbothol naill ai yn niwedd 1781 neu ddechreu 1782, heb ei fod yn meddu un wybodaeth am ysgolion Gloucester. Ond y prif ffeithiau ar ba rai y mae Dr. Brown yn seilio ei grediniaeth am fodolaeth Ysgolion Sabbothol yn Ysgotland cyn amser Raikes ydynt y rhai canlynol. Mewn ymddiddan â gymmerodd le rhyngddo ef a Mr. Chartres, Berwick, dywedai y gŵr hwnw ei fod

Digitized by Google

ef yn gwybod am ysgol yn Norham cyn i Mr. Raikes sefydlu yr eiddo ef; yr hon a gynnelid gan y Parch. Mr. Morrison, gweinidog y Presbyteriaid; a'i fod yn adnabod rhai hen bobl a fu yn arfer myned iddi. Ac ar ddymuniad Dr. Brown, medrodd Mr. Chartres gael y manylion a ganlyn yn mherthynas i'r ysgol hono, mewn llythyr oddi wrth Mr. Gilchrist:—

"NORHAM, *Tach. 6ed*, 1829.—Mr. Chartres; Syr, Ar eich dymuniad yr wyf wedi gwneyd ymchwiliad ynghylch yr Ysgol Sabbothol. Aethum at Robert Robison; ond nis gallai efe gofio iddo fod ynddi: ond dywedodd ei wraig wrthyf iddi hi fod yn arfer myned yno am beth amser, ond nis gallai ddyweyd yn fanwl beth oedd ei hoedran ar y pryd. Aethum at ei brawd, Robert Hall: dywedai efe ei fod yno pan y dechreuodd yr Ysgol; a'i fod yr adeg hono tua naw mlwydd oed, ac y mae yn awr yn agos i ddwy a phedwar ugain. Yn ol yr hanes hwn yr oedd hyny o leiaf ddeuddeng mlynedd a thrigain yn ol. Yr wyf wedi cael hysbysrwydd hefyd oddi wrth ddau eraill, y rhai a roddent i mi yr un hanes.

Ydwyf, Syr,
Eich cyfaill diffuant,
JAMES GILCHRIST."

Gwelir fod hyn yn myned yn mhell i brofi fod yn Ysgotland Ysgol neu Ysgolion Sabbothol yn cael eu cynnal yn 1757, neu bedair blynedd ar hugain cyn i Mr. Raikes gychwyn rhai yn Gloucester. A dywed Dr. Brown yn mhellach fod seiliau da i gredu fod ysgol gyffelyb wedi bod yn cael ei dwyn yn mlaen yn Simprin am flynyddoedd cyn y flwyddyn uchod, gan y Parch. David Landert, gweinidog y lle. Ond er y gellir dangos fod yn Lloegr ac Ysgotland, a Chymru hefyd, fe allai, ryw gyfarfodydd tebyg i'r Ysgolion Sabbothol yn cael eu cynnal cyn eu sefydliad yn Gloucester gan Robert Raikes—yr hyn a gymmerodd le naill ai yn 1781 neu 1782—rhaid i bawb addef mai efe oedd y prif offeryn i roddi yr ysgogiad effeithiol yn y symmudiad mawr hwn, sydd wedi ei deimlo mor gyffredinol, ac wedi gwneyd gwaith mor ganmoladwy; ac mai iddo ef y perthyn yr anrhydedd fel y cyfryw. Y mae yr amgylchiadau a awgrymodd y meddylddrych o'u sefydliad iddo gyntaf wedi eu hysbysu yn y llythyr canlynol at y Mil. Townley:—

"Yr oedd dechreuad y cynllun hwn," medd efe, "i'w briodoli yn hollol i ddamwain. Arweiniwyd fi gan ryw achos, un boreu, i fyned i gyffiniau y ddinas, lle y mae y bobl iselaf (y rhai yn benaf sydd yn gweithio yn y gwaith pinau) yn preswylio gan mwyaf. Tynwyd fy sylw at dyrfa o blant, mewn dillad gwael a charpiog, yn chwareu yn yr heol. Parodd yr olwg arnynt i mi deimlo yn ddwys yn eu hachos. Gofynais i breswylydd, a oedd y plant hyny yn perthyn i'r rhan hono o'r dref? a dadgenais fy ngofid wrth edrych ar eu hagwedd druenus. 'Ah, syr,' ebai y wraig yr ymddiddanwn â hi, 'pe gallech gael golwg ar y rhan hon o'r dref ar y Sabbath, parai ddychryn i chwi yn sicr; o herwydd y pryd hwnw y mae yr heolydd yn llawn o'r creaduriaid truenus hyn—pa rai, ar ol eu rhyddhau y diwrnod hwnw oddi wrth eu gwaith, a dreuliant eu hamser mewn sŵn, terfysg, a chwareu o bob math, a thyngu a rhegu yn y modd mwyaf ofnadwy, fel ag i gyfleu i bob meddwl difrifol y syniad o uffern, yn hytrach nag o un man arall. Y mae genym glerigwr teilwng (ebe hi), gweinidog ein plwyf, yr hwn sydd wedi rhoddi rhai o honynt yn yr ysgol; ond ar y Sabbath, gadewir iddynt ddilyn eu tueddiadau llygredig yn ddiymattal, gan fod eu rhieni yn hollol anystyriol, fel hwythau; ac nis gallant gyfleu i feddyliau y plant egwyddorion y maent hwy eu hunain yn berffaith ddyeithr iddynt.'

Awgrymodd yr ymddiddan hwn i mi y byddai yr ymgais yn un diniwed, o leiaf, os na chynnyrchid daioni mawr drwyddo, pe y gallesid ffurfio rhyw gynllun bychan er ceisio rhoddi attalfa ar yr halogiad hwn ar ddydd yr Arglwydd. Yna gofynais i'r wraig a wyddai hi am ryw wragedd da yn y gymmydogaeth oedd yn cadw ysgolion i ddysgu darllen? Cyfeiriodd hithau fy sylw at bedair o'r cyfryw. Appeliais at y rhai hyn, a gwnes gyttundeb â hwy. i dderbyn cymmaint o blant ag a anfonwn i atynt ar y Sabbath, i'w dysgu mewn darllen ac yn Nghatecism yr Eglwys. Ymrwymais i dalu iddynt swllt y Sabbath bob un am y gwaith hwn. Ymddangosai y merched yn eithaf boddhaol i'r telerau. Yna aethum at y clerigwr y cyfeiriwyd ato o'r blaen, a dadguddiais fy nghynllun iddo ef. Boddlonwyd ef gymmaint gan y meddylddrych, fel yr ymgymmerodd â rhoddi pob cynnorthwy oedd o fewn ei allu i'r gwaith, trwy fyned o gwmpas yr ysgolion ar brydnawniau y Sabbothau er chwilio pa gynnydd a wnaethid, ac i geisio sefydlu rheol a threfn yn mysg y fath gynnulliadau o baganiaid bychain.

Dyna, syr, oedd cychwyniad fy nghynllun. Y mae yn awr o ddeutu tair blynedd er pan y dechreuasom; ac yr wyf yn dymuno eich gweled yma, er mwyn i chwi wneyd ymchwiliad i'r effaith a gynnyrchir. Dywedodd gwraig wrthyf, ychydig amser yn ol, sydd yn preswylio mewn heol, yn yr hon y sefydlais ysgol, fod y lle yn awr fel nefoedd ar y Sabbothau, o'i gymmharu â'r hyn yr arferai a bod. Y mae nifer y rhai sydd wedi dysgu darllen ac adrodd y catecism mor liosog fel y mae yn destyn syndod i mi. Y mae yr athrawesau yn cymmeryd eu hysgolheigion i'r eglwys bob prydnawn Sabbath—lle nad arferent hwy na'u hynafiaid byth fyned er gogoniant i Dduw yn flaenorol i hyn. Ond yr hyn sydd yn peri i mi ryfeddu yn fwy drachefn ydyw—o fewn y mis hwn, y mae y creaduriaid bach carpiog hyn, lawer o honynt, wedi cymmeryd yn eu penau ddyfod i'r gweddïau boreuol, a gynnelir bob dydd yn yr eglwys gadeiriol am saith o'r gloch. Yr wyf yn credu fod yno yn rhywle tua hanner cant o honynt y boreu heddyw," &c.

Y clerigwr y cyfeirir ato, yn ddiau, oedd y Parch. Mr. Stock, periglor St. Ioan, Gloucester, o herwydd bu Mr. Raikes ac yntau yn cydweithio yn egnïol gyda'r amcan daionus; a'r hyn a ganlyn ydyw adroddiad Mr. Stock o ddechreuad y sefydliad, mewn llythyr wedi ei ddyddio Chwefror 2il, 1788:—

"Cyfarfu Mr. Raikes â mi un diwrnod yn ymyl drws fy nhŷ; ac yn nghwrs yr ymddiddan a gymmerodd le rhyngom, gofidiai yn fawr o herwydd sefyllfa isel y dosbarthiadau isaf o'r boblogaeth, gan wneuthur sylw neillduol ar sefyllfa y plant tlotaf. Dywedais innau fy mod wedi sylwi ar yr un peth; a'm bod yn barod, os byddai iddo fy nghynnorthwyo, i wneuthur rhyw ymgais i wrthweithio y drwg yn fy mhlwyf fy hun. Aethom at y gwaith yn ddioed; ac wedi cael enwau deg a phedwar ugain o blant, gosodasom hwy o dan ofal pedwar o bersonau am rai oriau pennodol ar y Sabbath. Fel gweinidog y plwyf, mi a gymmerais arnaf fy hun brif arolygiaeth yr ysgolion, a dygais un ran o dair o'r draul. Y mae cynnydd y sefydliad hwnw drwy y deyrnas i'w briodoli yn deg i'r cyhoeddusrwydd beunyddiol a roddasai Mr. Raikes i'n gweithrediadau yn y newyddiadur a gyhoeddir ganddo (y *Gloucester Journal*), a'r manteision mawrion sydd yn deilliaw mewn canlyniad i'w sefydliad."

Y mae yr hyn a ganlyn yn gerfiedig ar gofadail o farmor hardd, a bwrcaswyd drwy danysgrifiadau preswylwyr y plwyf, ac a osodwyd i fyny yn nghangell eglwys St. Ioan Fedyddiwr, ac y mae wedi ei ysgrifenu gan y Parch. F. T. Bailey, olynydd Mr. Stock:—"Er coffadwriaeth am y Parch. Thomas Stock, A. C., periglor yr eglwys hon, yr hwn oedd y cyntaf a wnaeth yr awgrymiad i sefydlu Ysgolion Sabbothol; ac

Digitized by Google

mewn cyssylltiad â Mr. Robert Raikes, a sefydlodd ac a gynnaliodd y pedair Ysgol Sabbothol cyntaf a sylfaenwyd yn y plwyf hwn a St. Catherine yn 1780. Bu farw Rhagfyr 27ain, 1803, a chladdwyd ef yn eglwys St. Aldate."

Canfyddir, er nad ydyw yr adroddiadau uchod yn eiriol yn gwbl yr un fath, eu bod yn hanfodol yn cynnwys yr un peth. Yr oedd yn ammhossibl i effeithiau o'r fath ag a ddisgrifir gan Mr. Raikes yn y dyfyniad uchod o'i lythyr beidio cyffroi dyddordeb dwfn yn ninas Gloucester, lle y dygid y gwaith yn mlaen; ac yn mhob man arall, gwnelid hwynt yn hysbys ynddo. Dechreuwyd ar y gwaith o sefydlu ysgolion cyffelyb yn fuan mewn rhanau eraill yn Lloegr; a pho mwyaf cyffredinol yr ymledent, mwyaf yn y byd oedd y ganmoliaeth a roddir iddynt. Dywedai Dr. Adam Smith (ac nid oes neb am foment a dybia ei fod ef, mewn achos o'r fath, yn tueddu i fod yn frwdfrydig a phenboeth) wrth gyfaill fel y canlyn am danynt:—"Nid oes un cynllun yn addaw effeithio y fath gyfnewidiad mewn moesau, a hyny mewn dull mor syml a hawdd, wedi ei gynnyg er dyddiau yr apostolion. Dadganodd archesgob Caergaint, a'r holl fainge esgobol, eu barn yn 1785, a dywedasant hwy eu bod yn eu hystyried yn dra chyfaddas i wellhau meddyliau y bobl gyffredin, a'u bod wedi eu profi yn sefydliadau tra llesol a manteisiol. Galwyd am Robert Raikes at y frenhines Charlotte, yr hon a ddadganodd iddo y meddwl uchel oedd ganddi o'i gynllun, a'i bod yn edrych arno gyda chymmeradwyaeth mawr. Ffurfiwyd Cymdeithas yr Ysgolion Sabbothol yn fuan, er cefnogi sefydliad yr ysgolion hyn yn mhob parth o'r wlad; yr hon, yn mhen amser, a ddilynwyd gan Undeb yr Ysgolion Sabbothol: ac mor gyflym y lliosogwyd hwynt, ac mor ddymunol oedd eu heffeithiau, fel y synai pawb; ond nid oedd neb yn synu mwy at hyny na'u prif sylfaenydd ei hun. Y mae Raikes yn dadgan ei olygiadau am weithrediadau yr ysgolion yn y paragraph canlynol, a ymddangosodd yn y "*Gloucester Journal*" am Tachwedd 3ydd, 1783, tua dwy flynedd ar ol eu sylfaeniad:—

"Y mae rhai o'r clerigwyr mewn gwahanol ranau o'r sir hon yn penderfynu ymdrechu cael diwygiad yn mysg y plant; ac o blegid hyny, yn sefydlu Ysgolion Sabbothol, er mwyn eu cael o dan addysg ar ddydd yr Arglwydd, yr hwn sydd hyd yn hyn wedi ei ddarostwng i ddybenion drwg. Y mae amaethwyr y wlad a phreswylwyr y trefydd a'r pentrefydd yn cwyno fod mwy o niwed yn cael ei wneyd i'w heiddo ar y Sabbath nag ar holl ddyddiau eraill yr wythnos ynghyd; ac y mae hyn i fesur mawr yn cael ei achosi gan sefyllfa aflywodraethus y dosbarth ieuangaf, y rhai a oddefir i redeg o gwmpas yn wyllt ar y diwrnod hwnw, heb neb i roddi attalfa arnynt. Er ceisio gwella y drwg hwn, gosodir personau cymmhwys ar waith i addysgu y rhai nas gallant ddarllen, ac addysgu y rhai sydd wedi dysgu darllen yn y catecism, a chymmhellir hwy i fynychu yr eglwys. Drwy eu cadw ar waith fel hyn, y mae y diwrnod yn myned heibio yn fuddiol, ac ar yr un pryd yn ddifyr. Sicrhëir i ni fod y plant, o ran eu hymddygiadau, wedi eu gwareiddio yn fawr yn y plwyfydd hyny lle y mae y cynllun wedi ei fabwysiadu. Y mae yr anwybodaeth barbaraidd yr oeddynt yn byw ynddo i raddau yn cael ei chwalu ymaith; ac y mae hyn yn profi fod y sawl sydd yn ystyried fod y dosbarth isaf o gymdeithas yn anobeithiol i'w gwellhau, ac o blegid hyny yn meddwl nad ydyw o un dyben ceisio eu gwellhau, neu o leiaf nad ydyw yn werth y drafferth, yn gwneuthur camgymmeriad pwysig."

Ymaflodd Anghydffurfwyr y deyrnas o ddifrif yn y gwaith o sefydlu ysgolion, a rhoddasant eu holl ddylanwad yn fuan o blaid y symmudiad; ac mor gyflym y lliosogai yr ysgolion, fel y gellir dywedyd eu bod yn mhen ychydig flynyddoedd wedi eu sefydlu yn mhob cŵr o Loegr, a Chymru, Ysgotland, a'r Iwerddon. Nid hir, ar ol y prawf llwyddiannus a wnaed ar yr Ysgolion Sabbothol mewn amryw barthau o Loegr, y bu y bobl hyn, a deimlent fwyaf dros sefyllfa isel Cymru mewn moesau a chrefydd, heb eu hargyhoeddi na buasai yr un sefydliad yn atteb dyben daionus yn Nghymru hefyd. Yr oedd sefyllfa Cymru ar y pryd yn isel iawn. Mae'n wir fod y diwygiad mawr Methodistaidd wedi dechreu er's peth amser, ac yn parhau i fyned yn mlaen yn llwyddiannus, er pob rhyw rwystrau a deflid ar ei ffordd. Ond er hyny, isel iawn ydoedd sefyllfa moes a chrefydd yn y wlad. Tua phump neu ddeg ar hugain o flynyddoedd cyn sefydliad yr Ysgol Sabbothol yn Nghymru, yr oedd y Parch. Griffith Jones, o Landdowror, yn disgrifio sefyllfa y wlad hon fel y canlyn:—

"Byddai yn ddigon i ofidio a chyffroi duwioldeb pobl dda, i weled eithafion trueni, anfad ddrygioni, a dygn anwybodaeth pechaduriaid truain paganllyd mewn gormod o leoedd—crefydd wedi suddo allan o olwg yn eu mysg—can lleied o wybodaeth, a llawer llai o fywyd ac ysbryd Cristionogaeth, fel nad oes ganddynt gymmaint a'r ffurf, a phrin yr enw o honi. Llygredigaeth, a phob math o anfoesoldeb, yn cynnyddu mor gyflym, fel y mae eisoes wedi alltudio addoliad Duw allan yn mron o bob teulu; ac ofni yr wyf, os cynnyddu a wna yr anghrefydd hwn, y bydd hefyd wedi ei alltudio yn fuan o'r genedl......Mor fynych yr ŷm yn clywed am lofruddiaethau, ac ysbeilwyr yn blino y wlad. Y maent ar y cyntaf yn dorwyr Sabbothau cyhoeddus, yna troant allan yn ddyhirod ysgeler, er fod troseddwyr yn cael eu cludo yn fynych yn llwythi troliau i'r crogbren. Ac onid am eu dirmyg o ordinhadau sanctaidd Duw y mae fod cynnifer yn ymddangos wedi eu rhoddi i fyny yn farwol i gnawdolrwydd, ffiaidd aflendid, gorthrymder, anffyddiaeth, a gau dybiau o'r fath waethaf, a bradwriaeth, tyngu halogedig, ac anudoniaeth echrydus, dan yr hyn bethau y mae y tir yn griddfan? Nis gall un dyn fod yn ddiogel am ei feddiannau, pan y gellir prynu llŵ adyn anwybodus, di-gred, er di-brofi ei hawl. At hyn y gellid chwanegu llawer o lygredigaethau adgas eraill, rhy gynnyddol yn ein hamser, yn enwedig yr arferiad ammharchus a halogedig o enw sanctaidd Duw mewn ymddiddanion cyffredin, gan ddiystyru ei fawredd goruchel ef; yr hwn, yn y ddeddf, a roddes efe gyda thân fflamllyd a tharanau, a gadarnhaodd i ni na bydd i'r hwn a gymmero ei enw arswydlawn ef yn ofer gael ei ystyried yn ddieuog, na diange yn ddigosp. Etto, y mae llawer nad ydynt prin yn meddwl fod hyn yn un math o drosedd."

Dyna y darluniad pruddaidd a dynodd yr efengylydd o Landdowror o Gymru yn ei amser ef. Y mae'n ddiau fod y diwygiad grymus a gymmerodd le mewn canlyniad i weinidogaeth danllyd a chyffrous Howel Harris, Daniel Rowlands, a'u cydlafurwyr ffyddlawn ac ymroddgar, wedi cynnyrchu daioni anamgyffredadwy, a goleuo ychydig ar y darlun tywyll cyn sefydliad yr Ysgolion Sabbothol; etto, y mae yn sicr fod llawer o'r prif linellau ynddo yn eithaf cywir i osod allan nodwedd a sefyllfa yr amseroedd hyny. Yn wyneb hyny, nid rhyfedd fod dyn o ysbryd gwladgarol cryf, a theimlad crefyddol dwfn, fel y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, ac eraill o gyffelyb ysbryd ag ef, yn teimlo yn ddigon dwys dros sefyllfa eu cymmydogion nes

Digitized by Google

ennyn awyddfryd ynddynt i roddi prawf ar ddyfais oedd wedi bod yn llwyddiannus i gynnyrchu daioni mewn lleoedd eraill. Yr oedd Mr. Charles wedi sefydlu "ysgolion cylchnewidiol," fel y gelwid hwynt, am eu bod yn cael eu symmud o'r naill gymmydogaeth i'r llall, er addysgu'r plant yn benaf i ddarllen yn yr iaith Gymraeg. Yr oeddynt wedi eu ffurfio ar gynllun ysgolion y Parch. G. Jones, o Landdowror, cyn hyny; a theimlai Mr. Charles ddyddordeb mawr yn yr ysgolion hyn, gan ofalu am athrawon iddynt, a gofalu hefyd am dâl i'r athrawon hyny; ac yr oedd hyn, gan fod lliaws o honynt yma a thraw ar hyd y wlad, yn chwanegu yn fawr at ei ofal a'i lafur. Mewn rhai amgylchiadau, mynegir ei fod yn gorfod parotoi yr athrawon ar gyfer eu gwaith, gan nad oeddynt yn meddu ar yr holl gymmhwysderau angenrheidiol heb hyny. Deuddeg punt yn y flwyddyn oedd tâl yr athrawon hyn. Ar gyfartaledd, am naw mis yr arosai yr ysgolfeistr mewn cymmydogaeth: ac yna symmudid ef i gymmydogaeth arall, gan y tybid fod hyny o amser yn ddigon i allnogi y plant i ddysgu darllen y Gymraeg. Fel hyn y dywed Mr. Charles ar y mater hwn:—"Yr ydym yn cael fod naw mis yn llawn ddigon i'n plant ddysgu darllen eu Beiblau yn dda yn yr iaith Gymraeg. Yr wyf fy hun yn ymweled â'r ysgolion, ac yn eu holwyddori ar gyhoedd: yr wyf yn cael y boddlonrwydd annhraethol o weled agwedd gyffredinol y wlad yn newid yn dra rhyfedd—gweled yr anialwch yn blodeuo fel rhosyn, a'r sychdir yn ffrydiau dyfroedd. Drwy yr ysgolion, a phregethiad yr efengyl, y mae gwybodaeth grefyddol yn ymdaenu yn mhob man. O fy enaid! bendithia yr Arglwydd!" Yn gymmaint ag nad oedd llyfrau elfenol cymmhwys i'w cael i addysgu plant, disgynodd y gwaith o barotoi y rhai hyny arno ef; a chyfansoddodd dri llyfr bychan i'r pwrpas hwn, heb law dau holwyddoreg. Pan y bwriadai Mr. Charles sefydlu ysgol mewn ardal, ei arfer oedd myned yno ei hun, ac ymddiddan â rhai o brif bobl y gymmydogaeth; ac yna galwai ynghyd y penau teuluoedd, ac anerchai hwynt yn serchog, gan ddangos iddynt y pwys a'r fantais i'w plant ddysgu darllen y Beibl, a'u hysbysu ei fod yn bwriadu sefydlu ysgol yno i'r perwyl hwnw; ac annogai y bobl mewn oedran fyddent yn analluog i ddarllen i fyned at yr ysgolfeistr ar y Sabbath, neu ar nosweithiau yr wythnos. Cynnyrchodd yr ysgolion hyn effeithiau daionus a bendithfawr; buont yn foddion i ddadebru meddwl ac i godi syched yn y bobl ieuaingc am wybodaeth, ac awydd am fedru darllen yr iaith Saesnig, er cael mantais chwanegol i gyrhaedd yr amcan hwn.

Wrth glywed am lwyddiant yr Ysgolion Sabbothol oedd wedi eu sefydlu yn Lloegr, a'r ymroddiad â pha un yr ymdaflodd llawer o ddynion crefyddol i'r symmudiad, ynghyd â'r effeithiau grasol a ddilynai eu hymdrechiadau, nid rhyfedd i Mr. Charles deimlo awyddfryd cryf am weled rhyw symmudiad cyffelyb yn cael ei fabwysiadu yn Nghymru hefyd. A'r ymgais cyntaf a wnaeth er ceisio gweithio allan y meddylddrych hwn oedd, perswadio athrawon yr ysgolion dyddiol i ymgymmeryd â neillduo rhyw ran o'r Sabbath i ddysgu Gair Duw, ac i gyfranu gwybodaeth grefyddol—nid yn unig i'r plant, ond i rai mewn oed hefyd. Ac nid ymfoddlonai efe ar hyn—ond gwasgai ar ddynion da a chrefyddol, yn mhob cymmydogaeth, i fod yn gynnorthwywyr i gario yn mlaen y symmudiad newydd hwn; ac yn raddol, daeth llawer i weled gwerth yr Ysgol Sabbothol, ac i wneuthur yr hyn a allent o'i phlaid. Nid oedd Mr. Charles, gan faint ei sêl dros y moddion yma i ddyrchafu ei wlad, yn foesol a chrefyddol, yn arbed unrhyw lafur nac ymdrech o'i blaid. Nid oedd un amser yn colli cyfleusdra i ddwyn yr achos ger bron ei frodyr, pan ymgynnullent yn y cymmanfaoedd a'r cyfarfodydd misol; a chymmhellai yno yn y modd taeraf ar bawb i roddi holl rym eu dylanwad o blaid yr Ysgolion Sabbothol. Wrth gwrs, fel llawer o symmudiadau newyddion, cafodd lawer o wrthwynebiad, a chyfodai gwrthwynebiadau yn fynych o leoedd na ddisgwylid hwynt. Ond cyfarfyddai Mr. Charles y gwrthddadleuon yn ei ddull deheuig ac addfwyn ei hun, a diarfogai hwynt, gan weithio argyhoeddiad i feddyliau ei wrandawyr o ddefnyddioldeb yr hyn y dadleuai drosto. Yn wir, mewn llawer cymmydogaeth hefyd, yr oedd y crefyddwyr yn ddifraw, ac weithiau yn wrthwynebol i'r sefydliad; ond er hyny, graddol ennill tir yr oedd y syniad o ddyledswydd i ymdrechu o'i blaid; ac yn mysg enwadau Cymru, yr oedd ysgolion yn cael eu sylfaenu yn gyflym, a'r dynion goreu a mwyaf crefyddol yn ymroddi i lafurio gyda hwynt. Daeth yr Ysgolion Sabbothol yn nghwrs amser mor flodeuog yn Nghymru, os nad yn fwy felly, nag mewn un wlad arall y sefydlwyd hwynt ynddi. Gweler hefyd d. g. JONES, GRIFFITH; a WILLIAMS, EDWARD, &c.

Y mae yn ammhossibl prisio yn rhy uchel y gwasanaeth annhraethol werthfawr y mae yr Ysgolion Sabbothol wedi ei wneyd i grefydd, ac i addysg grefyddol yn Nghymru. Byddai yn hawdd dyfynu tystiolaethau Saeson i ragoriaeth yr ysgolion Cymreig. Dywed Mr. Symons, un o ddirprwywyr y Llywodraeth, wrth gyfeirio at ysgolion yr Ymneillduwyr, fel y canlyn:—

"Y mae y drefn o addysgu yn rhagorol; ni wneir dim i flino neb; ceir amrywiaeth parhaus o lafur meddyliol. Un o'r prif ragoriaethau ydyw y gwaith o addysgu a rhagbarotoi yr athrawon. Y mae yn ammhossibl, wrth ymweled âg ysgolion Ymneillduol, beidio teimlo dymuniad am fod chwaneg o'r un sylw, cydymdeimlad, a llafur, yn cael ei ddangos gan y dosbarthiadau cyfoethog, dysgedig, tuag at y rhai is law iddynt, ag a ddangosir gan y goreuon o'r dosbarthiadau gweithiol tuag at eu cymmydogion tlotaf...Pan yr ystyrir fod y miloedd a ymgynnullant i'r ysgolion hyny yn perthyn yn hollol yn mron i'r dosbarth gweithiol, a'u bod yn rhoddi i fyny y rhan oreu o'u hunig ddiwrnod; a phan gofir mai y bobl hyn yn unig a gadwasant grefydd yn fyw mewn llaweroedd o fanau, ac a weiniasant yr unig foddion effeithiol er gwneyd yr efengyl yn hysbys, rhaid i mi ddwyn fy nhystiolaeth i'w buddioldeb a'u gwasanaethgarwch," &c.

Wele yn canlyn hefyd dystiolaeth Syr Charles Reed (cadeirydd Bwrdd Ysgol Llundain yn bresennol), yr hwn a ymwelodd â Chymru ar gais Undeb yr Ysgolion Sabbothol yn 1851:—

"Y mae yr ysgolion yn gynnwysedig, nid yn gymmaint o blant oddi ar yr heolydd, ag o blant yn perthyn i'r eglwysi. Ceir ynddynt blant mewn oed, ynghyd â phobl o bob oedran. Gwelir ugeiniau o hen bobl yn cyfeirio eu ffordd, gyda chamrau llesg, i'r Ysgolion Sabbothol; ac allan o'r bron o bob tŷ, prysura tad, a mam, a phlant. Yn yr ysgol, y mae yr olygfa yn hynod o ddyddorol. Gwelais ysgolion yn mron yn mhob sir yn Lloegr, a llawer o honynt, ond ni welais erioed ysgolion fel y rhai hyn. Y maent yn mhell yn ol mewn cynllun a threfn, ac yn amddifad o fanteision a feddiennir gan ysgolion

Digitized by Google

Seisnig; ond y mae y ffurfioldeb, sydd yn hytrach yn attal nag yn rhwyddhau ein gweithrediadau ni, yn ddyeithr iddynt hwy. Yr oedd y bywyd a'r difrifwch a berthyna i addysg grefyddol i'w weled yn amlwg. Ymdrechid gwneyd y pethau a ddysgid yn ddyddorol a deniadol; ymddangosai pob llygad fel wedi ei sefydlu, a phob meddwl wedi ei gaethiwo ......Nid rhyfedd ei fod yn cael ei ddywedyd am Gymru, 'mai yr Ysgol Sabbothol a fu iddi yn brif offeryn gwareiddiad ac addysg grefyddol.'"

Un o nodweddau mawr Ysgolion Sabbothol Cymru ydyw, fod personau wedi tyfu i fyny, a rhai oedranus, yn feibion a merched, yn eu mynychu—yn llawer mwy yn ddiau nag mewn un rhan arall o'r deyrnas. Nid yw deiliaid ffyddlawn Ysgolion Sabbothol Cymru byth yn meddwl ymadael â hi. Ond eithriad ydyw gweled rhai felly yn Ysgolion Sabbothol Lloegr—oddi eithr fel athrawon. "Y mae Cymru (gwlad yr Ysgolion Sabbothol), yn cael ei nodweddu," medd un ysgrifenydd Saesneg, "gan ddau beth arbenig; sef, presennoldeb personau mewn oed yn yr ysgolion, yn gystal a phlant, a'r ymarferiad o holwyddori yn gyhoeddus gan y gweinidogion." Fel rheol, nid ydyw yr Ysgolion Sabbothol mor boblogaidd, nac yn cael eu dwyn yn mlaen mor effeithiol, ag y byddai yn ddymunol yn Lloegr, er fod diwygiad mawr yn cymmeryd lle gyda golwg arnynt mewn llawer o fanau. Mewn llawer o honynt, yn yr amser a aeth heibio o leiaf, yr oedd yr addysg yn cael ei gyfyngu yn benaf, os nad yn hollol, i ddysgu darllen; ac mewn rhai pethau, yn ngogledd Lloegr, yr oeddid gynt, pan yr oedd moddion addysg fydol yn brinach nag ydynt yn bresennol, yn dysgu i'r plant ysgrifenu a rhifo yn yr ysgol ar y Sabbath. Ond yn Nghymru, gwyddys nad ydyw dysgu darllen yn cael ei ystyried ond un rhan o waith yr ysgol, a bod defnydd mawr yn cael ei wneuthur o honi fel moddion i weinyddu addysg grefyddol, a chyfranu gwybodaeth ysgrythyrol yn yr ystyr eangaf. Gellir dywedyd fod hyn yn un o nodweddion neillduol yr Ysgol Sabbothol yn Ysgotland hefyd. Yn gymmaint a bod addysg yn ffynu mor gyffredinol yn y wlad hono, nid ydyw yn angenrheidiol dysgu i'r bobl ddarllen ar y Sabbath; gan hyny, y mae yr amser yn cael ei dreulio i weinyddu addysg grefyddol yn ystyr manwl y gair.

Y mae cynnydd cyflym a dylanwad mawr yr Ysgolion Sabbothol yn nodwedd arbenig yn hanes diweddar ein gwlad; ac y mae pwyllgor Undeb yr Ysgol Sabbothol wedi ei wneyd yn un o'r amcanion mewn golwg i gasglu a threfnu ystadegau ysgolion cyssylltiedig â'r gymdeithas hono, yn y trefydd a'r wlad: ond yn gymmaint ag nad ydyw y mwyafrif o'r Ysgolion Sabbothol yn y deyrnas yn ymgasglu yn undebau, nis gellir cael ystadegau y gellir dibynu arnynt am gywirdeb hollol ond y cyfrifon seneddol a wnaed yn 1818 a 1833, a'r cofrifiad (*census*) addysgol yn 1851. Yr oedd cyfrifon y cofrifiad yn hynod gyflawn a gwerthfawr—yn cynnwys nid yn unig nifer yr Ysgolion Sabbothol, yr athrawon, a'r ysgolheigion, a berthynent i'r gwahanol enwadau, ond hefyd yn cynnwys yn fanwl y nifer oedd yn bresennol yn yr ysgolion ar y 30ain o Fawrth y flwyddyn hono. Y mae y tri chofrifiad hwn yn rhoddi prawf boddhaol am gynnydd a helaethiad graddol cyfundrefn yr Ysgol Sabbothol yn mysg pobl y wlad.

Dengys y daflen gymmharol ganlynol nifer yr Ysgolion Sabbothol a'r ysgolheigion yn Lloegr a Chymru yn y blynyddoedd 1818, 1833, ac 1851.

| | Ysgolion. | Ysgolheigion. | Poblogaeth. |
|---|---|---|---|
| 1818 | ... 5,463 | ... 477,225 | ... 11,642,683 |
| 1833 | ... 16,828 | ... 1,548,890 | ... 14,336,415 |
| 1851 | ... 23,541 | ... 2,409,642 | ... 17,927,609 |

Daw y cynnydd graddol hwn yn amlycach wrth sylwi ar y daflen a ganlyn:—

1818—1 o bob 24.40, neu 4.09 y cant
1833—1 o bob 9.28, neu 10.78 y cant
1851—1 o bob 7.45, neu 13.43 y cant

Nid ydyw y ffigyrau uchod yn cyfeirio ond at Loegr a Chymru yn unig; ond yn y daflen nesaf y mae cyfrifon Ysgotland a'r Ynysoedd Prydeinig yn cael eu chwanegu, ac amcangyfrif yn cael ei wneyd am yr Iwerddon hefyd. Ni chyhoeddwyd un cyfrif swyddol yn mherthynas i Ysgolion Sabbothol yr Iwerddon; ond yn adroddiad Cymdeithas Ysgol Sabbothol yr Iwerddon am 1851, mynegir fod rhif yr ysgolheigion yn yr ysgolion cyssylltiedig â hi yno yn 226,512. Ac yn gymmaint ag nad ydyw y ffigyrau hyn yn cynnwys yr holl ysgolion Protestanaidd, na dim o'r ysgolion Pabaidd, gellir yn hawdd eu hystyried yn rhifo 400,000; ac yna safai holl nifer yr ysgolheigion yn Mhrydain Fawr a'r Iwerddon fel y canlyn:—

| | Ysgolheigion yn 1851. | Poblogaeth yn 1851. |
|---|---|---|
| Lloegr ... ... | ... 2,136,991 | ... 16,921,888 |
| Cymru ... ... | 270,741 | ... 1,005,721 |
| Ysgotland ... ... | 292,549 | ... 2,888,742 |
| Yr ynysoedd yn y moroedd Prydeinig ... | 15,677 | ... 143,126 |
| Iwerddon (amcangyfrif)... ... ... | 400,000 | ... 6,515,794 |
| Cyfanswm ... | 3,115,658 | ... 27,475,271 |

Nid oes gyfrifon, ac awdurdod yn perthyn iddynt y gellir dibynu yn hollol arnynt, wedi eu cael er y flwyddyn 1851, o herwydd yn anffodus nid ydyw y Llywodraeth wedi barnu yn ddoeth i wneuthur ail ymofyniad ynghylch cyfartaledd ysgolheigion yr Ysgolion Sabbothol ac addoliad crefyddol. Y mae genym bob lle i gredu, pa fodd bynag, fod cyfartaledd deiliaid yr Ysgolion Sabbothol wedi cadw i fyny yn llawn gyda chynnydd y boblogaeth o'r fl. 1851—yn enwedig wrth ystyried fod cynnydd amlwg a mawr wedi ei wneyd yn y brifddinas, ac mewn rhai dosbarthiadau o'r wlad hefyd. Yr oedd poblogaeth Lloegr a Chymru, yn y fl. 1871, yn 22,760,359; ac yn ol yr amcangyfrif cywiraf a ellir ei gael, yr oedd y boblogaeth yn nghanol y fl. 1876 yn 24,244,010; gan hyny, os ydyw cyfartaledd ysgolheigion yr Ysgolion Sabbothol yn parhau yr un ag yn y fl. 1851, sef, 13.43 y cant, y rhif yn Lloegr a Chymru yn nghorph y fl. 1876 fuasai 3,255,922. A chymmeryd yn ganiataol fod ysgolion Ysgotland, yr Iwerddon, a'r ynysoedd Prydeinig wedi cynnyddu yn gyffelyb, nis gall nifer y rhai sydd o dan addysg fod yn nemawr llai na 4,200,000, a'r rhai hyny yn cael eu dysgu gan o leiaf o ddeutu 450,000 o athrawon—yr hyn sydd yn gwneyd holl ddeiliaid yr Ysgolion Sabbothol yn holl Brydain Fawr a'r Iwerddon tua 4,650,000 o nifer.

YSGORPION. Yr anifail tra adnabyddus o'r enw hwnw, yr hwn a grybwyllir ddwy waith yn yr Hen Destament, a phedair gwaith yn y Testament Newydd. Cyfeirir mewn modd arbenig at anialwch Sinai fel lle a breswylid gan ysgorpionau yn amser mynediad yr Israeliaid

Digitized by Google

Digitized by Google



CYHOEDDEDIG GAN T. GEE, DINBYCH.

Digitized by Google

# YSGOTLAND.

## YSTYR Y TALFYRIADAU A ARFERIR YN Y MAPIAU.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ., *neu* Bay ... | Machwy. | Mt., *neu* Mountain ... | Mynydd. |
| ank, Banks ... | Bryn, Bryniau. | Mts., *neu* Mountains ... | Mynyddoedd. |
| ., *neu* Cape ... | Penrhyn. | New ... ... | Newydd. |
| astle ... ... | Castell. | North, Northern ... | Gogledd, Gogleddol. |
| oast ... ... | Arfordir. | Ocean ... ... | Cefnfor. |
| h., *neu* Channel ... | Sianel. | P., *neu* Port ... | Porth. |
| ast, Eastern ... | Dwyrain, Dwyreiniol. | Pen., Pena., Peninsula | Gorynys. |
| nglish Miles ... | Milldiroedd Saesnig. | Plateau ... ... | Gwastadedd uchel. |
| quator ... ... | Cyhydedd. | Pt., *neu* Point ... | Pwynt. |
| irth, *neu* Frith ... | Morgaingc. | R. *neu* River ... | Afon. |
| t., *neu* Fort ... | Caerfa, Amddiffynfa. | Ruins of ... ... | Adfeilion. |
| . of, *neu* Gulf of ... | Llyngclyn. | S., *neu* Sound ... | Culfor. |
| ., Havn., *neu* Haven | Porthladd, *neu* Machwy | St., *neu* Saint ... | Sant. |
| d., *neu* Head ... | Penrhyn. | Sea, *neu* Sea of ... | Môr. |
| ills ... ... | Bryniau. | Shoal, Shoals ... | Bas-le, Bas-leoedd. |
| ., Isle, *neu* Island ... | Ynys. | South, Southern ... | Deheu, Deheuol. |
| s., Isles, *neu* Islands . | Ynysoedd. | Str., *neu* Strs., Straits. | Culfor, Culforoedd. |
| L., *neu* Lake ... | Llyn. | Town ... ... | Tref. |
| Land ... ... | Tir. | Tropic ... ... | Trofan. |
| Loch, *neu* Lough ... | Llwch:—llyn agored i'r môr. | West, Western ... | Gorllewin, Gorllewinol. |

## CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU SYDD AR Y MAP HWN.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Atlantic Ocean ... | Cefnfor yr Atlantic. | Moray Firth ... | Morgaingc Moray. |
| Caledonian Canal ... | Y Camlas Caledoniadd. | North Channel ... | Sianel y Gogledd. |
| Dornoch Firth ... | Morgaingc Dornoch. | North Sea ... | Môr y Gogledd. |
| England ... ... | Lloegr. | Orkney Islands ... | Ynysoedd Orkney. |
| Firth of Clyde ... | Morgaingc y Clyde. | Portland Firth ... | Morgaingc Portland. |
| Firth of Forth ... | Morgaingc y Forth. | Shetland Islands ... | Ynysoedd Shetland. |
| Hebrides, or Western Isles ... ... | Yr Hebrides, neu yr Ynysoedd Gorllewinol. | Solway Firth ... | Morgaingc Solway. |
| Ireland ... ... | Yr Iwerddon. | Sound of Jura ... | Culfor Jura. |
| Kilbrannan Sound ... | Culfor Kilbrannan. | Sua Bay ... ... | Machwy Sua. |
| Little Minch ... | Minch lleiaf. | The Minch ... | Y Minch. |
| | | Wigton Bay ... | Machwy Wigton. |

## UCHDER RHAI O BRIF FYNYDDOEDD YSGOTLAND.

| | Troedfeddi. | | Troedfeddi. |
|---|---|---|---|
| Ben Nevis, yn swydd Inverness ... | 4,406 | Ben Lomond, yn swydd Stirling ... | 3,190 |
| Ben Macdhui, yn swydd Aberdeen ... | 4,295 | Goat Fell, yn Arran ... | 2,865 |
| Cairngorm, yn swydd Banff ... ... | 4,095 | Bryniau Cheviot, yn swydd Roxburgh ... | 2,657 |
| Ben Lawers, yn swydd Perth ... ... | 3,984 | Hart Fell, yn Peebles ... ... | 2,635 |
| Ben Avon, etto ... ... | 3,931 | Lowthers, yn swydd Lanark ... ... | 2,522 |
| Ben More, etto ... ... | 3,818 | Queensberry, yn swydd Dumfries ... | 2,259 |
| Ben Cruachan, etto ... ... | 3,670 | Pentlands, yn Edinburgh ... ... | 1,878 |
| Schehallion, etto ... ... | 3,564 | Sêdd Arthur, etto ... ... | 822 |
| Ben Wyvis, yn swydd Ross ... ... | 3,422 | | |

Y MAE yn ymddangos i Brydain Fawr a'r Iwerddon gael eu poblogi ar y cyntaf gan bobl o darddiad Celtaidd o Asia; ac ar wahanol adegau hefyd, dybygid, o amryw barthau o Gyfandir Ewrop.

Yr ydym wedi rhoddi hanes preswylwyr boreuaf Prydain Ogleddol neu Ysgotland, d.g. PICTIAID. Hiliogaeth Geltaidd oedd yr Ysgotiaid, a breswylient ar y cyntaf yn yr Iwerddon. Yn Argyle, yr oedd eu sefydliad cyntaf yn Ysgotland, yr hon a ennillwyd ganddynt trwy gongcwest, neu a feddiannwyd trwy gyttundeb, cyn diwedd y bummed ganrif; ac oddi yno hwy a ymwasgarasant ar hyd yr arfordir gorllewinol, o Forgaingc Forth hyd i'r lle a elwir yn awr yn Ross. Yn y ddegfed ganrif y rhoddwyd yr enw *Ysgotland* ar deyrnas unedig y Pictiaid a'r Ysgotiaid. Gelwid hi weithiau y pryd hwnw, er mwyn gwahaniaethu rhyngddi a'r Iwerddon, yn *Ysgotland Newydd* (*Scotia Nova*); a chryn amser wedi hyny y cymmhwyswyd yr enw yn hollol ati hi, ar wahân oddi wrth yr Iwerddon. Bu y newidiad hwn ar enwau yn achos o gryn ymddadleu rhwng ysgrifenwyr Gwyddelig ac Ysgotaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ac wedi hyny.

Y mae yr elfen Geltaidd yn amlwg iawn yn mhoblogaeth yr Ynysoedd Prydeinig, er fod y Sacsoniaid neu y Teutoniaid, i raddau pell, yn hiliogaeth lywodraethol drwy y rhan fwyaf o'r deyrnas. Yn Nghymru, yn yr Iwerddon, yn Ucheldiroedd Ysgotland, yn Ynys Manaw, yn Devon a Chernyw, ac yn Llydaw, y ceir yr elfen Geltaidd gryfaf yn y ddyddiau presennol.

Digitized by Google

Y mae pump o adraniadau o'r hiliogaeth Geltaidd yn awr yn siarad gwahanol ieithoedd, neu dafod-ieithoedd yn tarddu o'r un iaith; sef,

1. Y Gaeliaid (yr hen Galedoniaid), y rhai a breswyliant y rhan fwyaf o ucheldiroedd gogledd-orllewinol Ysgotland, a'r ynysoedd gorllewinol:—lle y siaredir y Gaelaeg.
2. Y Mancsiaid, sydd yn preswylio Ynys Manaw:—lle y siaredir y Mancsaeg.
3. Y Gwyddelod, a breswyliant ranau o'r Iwerddon, gyda'r eithriad o ranau o'r gororau gogleddol, dwyreiniol, a de-ddwyreiniol:—lle y siaredir y Wyddelaeg.
4. Y Cymry, sydd yn preswylio y Dywysogaeth:—lle y siaredir y Gymraeg.
5. Y Cernywaid, y rhai a breswyliant Cernyw ac Ynysoedd Scilly:—gan ba rai y siaredid y Gernywaeg. Y mae eu hiaith hwy wedi colli yn raddol o arferiad yn ystod y saith ugain mlynedd diweddaf.

Yn ddiweddar, gwnaeth Mr. E. C. Ravenstein, M.R.G.S., gyfrif manwl o boblogaeth y Deyrnas Gyfunol oedd yn siarad yr ieithoedd Celtaidd, a chyflwynodd ffrwyth ei ymchwiliadau i gyfarfod o'r Gymdeithas Ystadegol a gynnaliwyd yn Ngholeg y Brenin, yn Llundain, yn Ebrill, 1879.

Y testyn a gymmerodd oedd "Rhaniad Daearyddol y boblogaeth sydd yn llefaru y Geltaeg yn yr Ynysoedd Prydeinig:" ac ni a roddwn yma rai o'r ffeithiau a roddodd am danynt:—Dywedodd nad oedd yn yr Iwerddon yn 1871 ond ychydig siroedd nad oedd yr hen iaith yn cael ei siarad ynddynt. Yr oedd y boblogaeth yn 5,412,377, ac yr oedd 817,875 o honynt yn gallu siarad y Wyddelaeg; ond fe allai mai nifer fechan o honynt oedd yn alluog i ddarllen llyfrau yn yr iaith hono; ac nid oedd un newyddiadur Gwyddelaeg yn cael ei gyhoeddi o gwbl. Yn Ynys Manaw, yr oedd tuag un ran o bedair o'r boblogaeth yn deall y Manawaeg. Yr oedd tua'r ddeuddegfed ran o holl boblogaeth Ysgotland yn gallu siarad y Gaelaeg; ac yn y rhanau pellaf o'r Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, yr oedd y Gaelaeg yn dal ei thir.

Yn mysg yr holl lwythau Celtaidd a siaradant y Geltaeg yn Mhrydain, y Cymry, meddai, oedd y llwyth pwysicaf; ac yr oeddynt yn dangos y penderfyniad mwyaf i gadw eu hiaith. Os ydyw y cyfrif yn gywir fod 62,000 o Gymry yn Lloegr, yr oedd 996,130 o bobl, meddai, yn gallu siarad Cymraeg yn yr Ynysoedd Prydeinig. Yr oedd y rhan Saesnig o sir Fflint yn 1871 yn cynnwys 23,685 o drigolion: ac yr oedd y rhan Gymraeg yn cynnwys 52,560; ac o honynt yr oedd naw o bob deg yn gallu siarad Cymraeg. Yr oedd sir Ddinbych, gyda'r eithriad o'r rhan yn nghyfeiriad Gwrecsam, yn mron yn Gymreig. Yr oedd rhan fach o orllewin sir Amwythig yn Gymreig. Yn sir Drefaldwyn, yr oedd yr iaith yn colli tir. Yr oedd yn sir Gaerfyrddin ddyfnach Cymraeg nag yn sir Forganwg. Yr oedd Aberteifi yn mron yn gwbl Gymreig. Yn sir Gaernarfon, deallwyd Saesneg gan lawer, ond ni siaredid hi ond gan ychydig mewn cymmhariaeth. Y mae y Gymraeg yn sefyll ei thir yn mysg yr hen a'r ieuaingc yno. Yr oedd yn sir Feirionydd gystal Cymraeg ag yn sir Gaernarfon, a deallir y Saesneg yno mewn llawer o barthau hefyd. Yr oedd Ynys Môn yn drwyadl Gymreig yn mron. Effeithiwyd ar Gymraeg sir Frycheiniog yn fawr o herwydd ei hagosrwydd i'r rhanau yn mha rai y defnyddir y Saesneg; ond hyd yn hyn y mae nifer fawr yn deall Cymraeg. Yn sir Fynwy, nid oedd ond ychydig o'r parth gorllewinol yn defnyddio y Gymraeg. Yn sir Forganwg y defnyddid y Saesneg fwyaf o un parth arall o Gymru; ond yr oedd iaith corph yr addoliadau crefyddol yn Gymraeg.

Y cyfanrif o'r bobl a ddefnyddiant y Geltaeg yn Mhrydain, meddai, oedd fel y canlyn:—Y Wyddelaeg, 817,875; Y Mynawaeg, 13,790; Y Gaelaeg, 290,953; Y Gymraeg, 996,130:—yn gwneyd cyfanswm o 2,118,748; neu yn agos i saith yn mhob cant o holl drigolion Prydain Fawr a'r Iwerddon.

Y mae yn ammhossibl penderfynu i foddlonrwydd pa mor bell y mae y ffigyrau uchod yn gywir. Dichon eu bod yn rhy ffafriol am sefyllfa yr ieithoedd Celtaidd mewn rhai rhanau neillduol o'r deyrnas. Ond y mae yn eglur fod Mr. Ravenstein wedi cymmeryd llawer iawn o drafferth i gasglu ei ffeithiau ynghyd o bob ffynnonell oedd o fewn ei gyrhaedd; a chan nad ydyw ei enw yn arwyddo ei fod wedi hanu o un o'r canghenau Celtaidd ei hun, y mae pob lle i feddwl ei fod wedi traethu ei farn ar y cwestiwn heb fod dan lywodraeth unrhyw deimlad cenedlaethol. Bydd pob Cymro sydd yn meddu ar galon gwir Gymreig yn llawenhau yn fawr wrth ddarllen y ffigyrau hyn; ac yn ddiau yn teimlo yn benderfynol i wneyd ei ran i gadw yr hen iaith yn fyw am oesoedd etto, drwy siarad Cymraeg, trwy ohebu â'i gyfeillion ynddi, a thrwy gefnogi llenyddiaeth a chyfarfodydd crefyddol Cymreig. Gan mai mantais fawr i bob dyn ydyw gallu siarad unrhyw ddwy iaith, yn hytrach nag un, mantais i drigolion Cymru fydd gallu siarad y Gymraeg a'r Saesneg; ac yr ydym yn gobeithio y dysgir y ddwy, ond y ceidw yr hen iaith ei lle yn ein teuluoedd ac yn ein haddoldai crefyddol, ac y caiff y byd brawf o wirionedd hen brophwydoliaeth a draddodwyd pan yr oedd y Celtiaid ar chwâl drwy y ddwy ynys hon.

"Eu Nêr a folant,
Eu hiaith a gadwant,
Eu tir a gollant,
Ond Gwyllt Walia."

Yn nghwrs amser daeth i'r Iwerddon a Lloegr, y naill ar ol y llall, lawer o Deutoniaid o Scandinavia, Belgium, Saxony, ac hefyd o Normandy. Yr oedd y Normaniaid yn ddiammheuol eu hunain o darddiad Scandinaviaidd. Yn siroedd dwyreiniol, de-ddwyreiniol, a gogleddol Lloegr y mae yr hiliogaethau Teutonaidd yn fwyaf digymmysg; ond y mae cryn gymmysgedd o'r hiliogaethau Cymreig a Chernywaeg yn y gorllewin. Yn Ysgotland, y mae y Teutoniaid, y Pictiaid, a'r Scandinaviaid, a ddaethant yno, yn preswylio y dyffrynoedd ar hyd goror ddwyreiniol y wlad; ac y mae yr hiliogaeth Sacsonaidd, yn llai cymmysgedig, i raddau mwy neu lai, yn preswylio y rhan ganolbarthol o'r wlad. Ond Celtiaid pur, yn mron, ydyw preswylwyr y gororau gorllewinol, a'r ynysoedd cyfagos. O darddiad Scandinaviaidd y mae preswylwyr ynysoedd Orkney a Shetland yn mron yn gwbl.

Digitized by Google

(*Deut.* viii. 15); ac y mae y creaduriaid hyn hyd heddyw yn gyffredin yn yr un dosbarth, yn gystal ag mewn rhai parthau o Palestina. Dywed Ehrenberg fod pum rhywogaeth o honynt i'w cael yn agos i Fynydd Sinai, a bod rhai o honynt i'w cael yn Mynydd Libanus. Annogir Ezeciel (*pen.* ii. 6) i beidio ofni yr Israeliaid gwrthryfelgar, y rhai a gyffelybir yma i ysgorpionau. Yr oedd yr apostolion wedi eu cynnysgaeddu â gallu i wrthsefyll niwed colynod seirph ac ysgorpionau: *Luc* x. 19. Yn ngweledigaeth Ioan (*Dad.* ix. 3, 10), dywedir fod gan y locustiaid a ddaethant allan o fŵg y pwll diwaelod "gynffonau tebyg i ysgorpionau," tra y cyfeirir at y boen sydd yn codi oddi wrth golyn y creadur hwn yn *adn.* 5. Y mae yn debygol mai ymadrodd diarebol oedd ysgorpion am ŵy: *Luc* xi. 12. Dywedir fod yr ysgorpion, pan wedi amgau am dano ei hun, yn bur debyg o ran ei ffurf i ŵy. Ceir ysgorpionau yn gyffredinol mewn lleoedd sych a thywyll, dan geryg ac mewn adfeilion, yn benaf mewn hinsoddau poethion. Y maent yn byw ar bryfed ac ednogynod, ac yn ymsymmud yn mlaen mewn agwedd fygythiol gyda'r gynffon yn ddyrchafedig. Y mae gan y colyn, yr hwn sydd yn gorwedd yn nghŵr eithaf y gynffon, yn ei waelod chwaren, yn yr hon y mae hylif gwenwynig, yr hwn a dywelltir i'r archoll trwy ddau dwll yn ei gŵr eithaf. Mewn hinsoddau poethion, y mae y colyn yn fynych yn achosi dioddefiadau mawr, ac weithiau yn cynnyrchu arwyddion dychrynllyd iawn. Y mae yn amlwg nad ydyw "ysgorpionau," yn 1 *Bren.* xii. 11, 14, a 2 *Cron.* x. 11, 14, yn cyfeirio mewn un modd at y creadur; ond at ryw offeryn a ddefnyddid i ffangellu. Ond dichon nad ydyw yr ymadrodd yn ddim ond cyffelybiaeth. Cyffelybir dynion drwg, creulawn, i ysgorpionau yn *Ezec.* ii. 6; *Luc* x. 19; *Dad.* ix. 5, 10.

YSGOTLAND: y gyfran ogleddol o Brydain Fawr sydd yn unedig â Lloegr a Chymru, yn cael ei therfynu ar du y gorllewin gan Fôr y Werydd, ar du y gogledd gan gyfran o'r Werydd Ogleddol, ar du y dwyrain gan Fôr yr Almaen, ar du y de-ddwyrain gan Loegr, ar y dde gan Fôrgaingc Solway, a'r de-orllewin gan y gyfran o Fôr yr Iwerddon a elwir yn Sianel Ogleddol. Ychydig o wledydd yn Ewrop sydd â'u llinell arforawl yn eangach, canys y mae ei holl hyd yn mesur 2,506 o filldiroedd. Y culforoedd a'r machwyau sydd yn rhedeg i mewn i'r tir yma a thraw sydd yn achosi hyn. Dosberthir y wlad i dair ar ddeg ar hugain o siroedd. Ei hyd mwyaf o'r gogledd i'r deheu ydyw 276ain o filldiroedd; ond mewn llinell uniongyrchol, o Carlisle yn ogleddol i Fôrgaingc Moray, nid yw yn fwy na 180ain o filldiroedd. Y mae ei lled yn amrywio o 147ain i 70ain, ac hyd yn oed i 30ain o filldiroedd. Ei harwynebedd, a chynnwys ynysoedd yr Hebrides, yr Orkneys, y Shetland, &c., ydyw 28,896 o filldiroedd ysgwâr, heb law 638 o filldiroedd sydd o dan ei hafonydd a'i llynau.

Y mae gwyneb y wlad yn cael ei amrywio yn fawr gan fynyddoedd. Yn y rhan ogleddol, y mae gan mwyaf yn fynyddog a diffrwyth; tra y mae dyffrynoedd cynnyrchiol ar yr ochr ddeheuol iddi. Y mae hi yn rhanedig i ddau ddosbarth mawr—yr Ucheldiroedd a'r Iseldiroedd; a rhenir hi hefyd yn ddosbarthiadau gogleddol, canolbarthol, a deheuol. Cynnwysa y dosbarth gogleddol yn gyffredin fynyddoedd uchel; ac yma a thraw ceir dyffrynoedd ffrwythlawn. Y mae y dosbarth canolbarthol hefyd gan mwyaf yn fynyddig. Yn y ddau ddosbarth hwn, sydd yn gwneyd i fyny fwy na dwy ran o dair o Ysgotland, nid ydyw y tir llafur ond rhan bychan, mewn cymmhariaeth i'r ardaloedd mynyddig. Ar yr arfordir dwyreiniol, pa fodd bynag, y mae y cyfartaledd o dir diwylliedig i'r tir anniwylliedig yn llawer mwy. Yn y dosbarth deheuol, y mae ei hwyneb yn dra amrywiol:—dyffrynoedd ffrwythlawn, yn cael eu dyfrhau gan afonydd mawrion, a'u gorchuddio âg anifeiliaid; bryniau llechweddog a glynoedd dymunol, yn cael eu gorchuddio â choedwigoedd prydferth, dolydd teg, a meusydd ŷd; mynyddoedd cribog, creigiau ysgythrog, a cheunentydd dyfnion; ond ceir yno hefyd rosdiroedd diffaeth o gruglwyni anniwylliedig.

Y mae yr afonydd yn lliosog. Yn y dosbarth gogleddol, y prif afonydd ydynt y Beauly, Naver, Thurso, &c.; yn y dosbarth canol, y Spey, y Dee, y Don, a'r Esk ogleddol a'r deheuol; tua deg ar hugain o filldiroedd i'r deheu y mae y Tay, un o'r afonydd mwyaf yn Mhrydain. Yn y dosbarth deheuol, y mae y Forth, y Clyde, a'r Tweed, a'r lliaws afonydd sydd yn ymarllwys i Fôr yr Iwerddon a Morgaingc Solway; yr Ayr, y Girvan, y Dee ddeheuol, y Nith, yr Annan, a'r Liddal. Y prif lynau ydynt y Lomond, yr Awe, y Ness, y Shin, y Maree, y Tay, yr Erich, y Shiel, y Lochy, a'r Katrine.

Am yr hinsawdd, y mae yn hynod o amrywiol. Oddi wrth sefyllfa ynysig (*insular*) y wlad, pa fodd bynag, nid yw oerni y gauaf mor dost, na gwres yr haf mor fawr, ag ydyw gwledydd sydd yn yr un lledredau ar y Cyfandir; ac er fod y gwresfesurydd yn amrywio llawer, nid yn aml y mae yn parhau yn eithafol am dymmor maith. Gellir ystyried mai cyfartaledd y tymmheredd blynyddol ydyw o 45° i 47°. Yr un anifeiliaid gwylltion sydd yn Ysgotland ag yn y rhanau eraill o Brydain; a'r un adar, dôf a gwyllt. Ceir fod adar y dwfr yn dra lliosog yn yr ynysoedd yno. Y mae gwenith, rhug, haidd, ceirch, pŷs, ffa, gwair, cloron, maip, llin, a chywarch, a chnydau a dyfir yn gyffredin yn y rhanau deheuol o'r ynys yn cael eu codi yno hefyd. A'r un modd y gellir dywedyd am goed a ffrwythydd. Er's rhai blynyddoedd bellach, y mae llawer o goed wedi eu planu mewn tir oedd yn hollol anniwylliedig cyn hyny. Ceir ynddi gyflawnder o geryg a mŵn haiarn, ac yr ydys wedi darganfod copr hefyd mewn llawer o fanau yno. Y mae digon o lô yn y dosbarthiadau gogleddol a deheuol o'r wlad. Ceir ceryg calch, ceryg nadd, a llechfeini yn mhob dosbarth o honi. Y mae meini gwerthfawr hefyd wedi eu darganfod yn mynyddoedd Ysgotland, ond nid ydys wedi cael adamant yno hyd yn hyn. Y mae y llaw-weithfeydd wedi eu dwyn i sefyllfa uchel o berffeithiad gan y trigolion. Y mae pysgota yn cael ei ddwyn yn mlaen ar raddfa eang ar y glenydd; a llawer o lestri Ysgotland yn troi allan yn flynyddol i bysgota morfilod yn Nghulfor Davis, ac yn Greenland. Y prif nwyddau a ddadforir yn Ysgotland yw cotwm, llin, cywarch, gwlân, llian, haiarn, ŷd, coed, gwêr, tê, sugr, a chynnyrchion tramor eraill; a brethyn, a nwyddau mettelaidd. Allforir hefyd oddi yno nwyddau cotwm, sachlian, defaid, gwartheg duon, glô, haiarn, a physgod. Prif borthladdoedd y wlad ydynt, Leith, Dundee, Arbroath, Montrose, Aberdeen, Peterhead, Banff, ac Inverness.

Y mae hanes preswylwyr hynafol y rhan hon

Digitized by Google

o Ynys Prydain wedi ei roddi o'r blaen. [Gwel PICTIAID.] Y *Scotia* wreiddiol oedd yr Iwerddon; a'r *Scoti*, neu Ysgotiaid, pan yr ymddengys eu henwau gyntaf ar ddalenau hanesyddiaeth, a drigent yn yr Iwerddon. Hiliogaeth Geltaidd ydyw yr Ysgotiaid, a'r lle yr ymsefydlasant gyntaf yn Ysgotland oedd Argyle—lle a bercheunogwyd ganddynt naill ai trwy ymsefydlu yn drefedigaeth yno, neu ynte drwy orchfygiad, cyn diwedd y bummed ganrif; ac oddi yno ymwasgarasant ar hyd yr arfordir o Fôrgainge Clyde hyd at y Ross ddiweddar. Ymddengys i'r enw *Ysgotland* gael ei roddi i deyrnas unedig y Pictiaid a'r Ysgotiaid yn y ddegfed ganrif. Ond bu yr enw yn achos o ddadl wresog rhwng ysgrifenwyr Ysgotaidd a Gwyddelig yn yr unfed ganrif ar bymtheg, a'r un ddilynol.

Y tywysog cyntaf o eiddo yr Ysgotiaid Prydeinig a grybwyllir yn y cofnodion ydyw Fergus, mab i Erc, yr hwn a groesodd drosodd i Brydain B.A. 503. Yr oedd yr Ysgotiaid wedi eu troi at Gristionogaeth trwy offerynoliaeth Padrig Sant, a mynegir gan yr hen groniclwyr i Fergus ei hun dderbyn ei fendith ef pan yn nyddiau ei ieuengctid. Ei or-ŵyr ef, Conal, oedd yn teyrnasu ar yr Ysgotiaid Prydeinig pan y dechreuodd Columba efengylu i'r Pictiaid gogleddol. Ac yn ol yr awdurdodau goreu, y tywysog hwnw a gyflwynodd ynys Iona at wasanaeth cenhadaeth Columbia. Olynydd Conal oedd ei nai, Aidan, yr hwn a gyhoeddwyd yn benadur gan Columba yn ynys Iona. Yr oedd Aidan yn dywysog galluog, a goresgynodd gyffiniau Lloegr fwy nag unwaith; ond yn agos i ddiwedd ei deyrnasiad, llwyr orchfygwyd ef gan Ethelfrid, tywysog Northumbria, yn mrwydr Degsestan.

Nid clir na dyddorol iawn ydyw hanes olynwyr Aidan, oddi gerth i rai sydd yn teimlo hyfrydwch mawr mewn efrydu hanesiaeth foreuol. Yr oedd teyrnas yr Ysgotiaid yn cael ei chuddio o'r golwg i raddau gan deyrnas alluocach eu cymmydogion, y Pictiaid; gyda pha rai, yn gystal a chyda'u cymmydogion yn y deheu—sef, Brythoniaid Cumbria—yr oeddynt mewn cwerylon yn fynych. Buont yn ddarostyngedig i Saeson Northumbria am ychydig amser; ond adfeddiannasant eu hannibyniaeth ar orchfygiad a marwolaeth y brenin Egfrid—yr hyn a gymmerodd le mewn brwydr gyda'r Pictiaid yn Nechtansmere, yn 685. Yn nghanol y nawfed ganrif, mewn canlyniad i ryw chwyldroad, nad yw ei natur yn ei fanylion yn wybyddus, cafodd yr Ysgotiaid oruchafiaeth ar eu gwrthwynebwyr yn ngogleddbarth Prydain. Olynodd Kenneth, mab Alpin, disgynydd uniongyrchol o Fergus ac Aidan, ei dad fel brenin yr Ysgotiaid yn 826. Gwanhawyd teyrnas y Pictiaid gan ymraniadau mewnol, a dadleuon ynghylch yr hawl i'r goron. Seiliai Kenneth ei hawl iddi fel y gwir etifedd yn y llinach fenywaidd, a chydnabyddwyd ef yn frenin yn y flwyddyn 843. Gwnaeth Kenneth ei breswylfod yn Forteviot yn Stratherne, yr hon a fuasai yn brifddinas y Pictiaid, a phenododd yn fuan wedi hyny fod y brifddinas eglwysig i fod yn Dunkeld—lle yr adeiladodd efe eglwys. Yn raddol, ymgymmysgodd y Pictiaid a'r Ysgotiaid â'u gilydd yn un genedl—y naill a'r llall yn siarad tafodiaith o'r iaith Geltaidd; ac yr oedd eu tiriogaeth yn ymestyn o fôrgeingciau y Forth a'r Clyde i gyrau gogleddol eithaf Prydain. Disgynodd y goron i linell o dywysogion o deulu Kenneth, llywodraeth y rhai a ddygodd undeb a thawelwch cymmharol i Ysgotiaid Prydain, y fath na bu Ysgotiaid yr Iwerddon yn ei feddu ar un adeg. Yr ymyriad cyntaf â disgyniad y goron yn llinach Kenneth oedd teyrnasiad trawsfeddiannydd o'r enw Grig, o gwmpas enw yr hwn y mae cwmwl o ffugchwedlau wedi ymgasglu. Modd bynag, adferwyd yr hen deulu yn ol ar ei ddiorseddiad ef yn y flwyddyn 893.

Yr oedd teyrnasiad Cystenyn, mab Aodh, yr hwn a esgynodd i'r orsedd yn 904, yn hynod. Yn ei amser ef, dybygid, y trosglwyddwyd yr archesgobaeth o Dunkeld i St. Andrews, ac y penderfynwyd i breswylfod y brenin fod yn Scone. Yn y lle diweddaf, yn y chweched flwyddyn o'i deyrnasiad, crybwylla y croniclwyr i Cystenyn, y brenin, a Kellach, yr esgob, a'r Ysgotiaid, gymmeryd llŵ i gadw dysgyblaeth y ffydd a chynnal hawliau yr eglwysi a'r efengyl. Y mae hyn yn rhyw led arwyddo cyfarfyddiad rhyw fath o gynghor, gwladol neu eglwysig, neu yn fwyaf tebygol cynghor cymmysg, yn ol y drefn a ffynai ar y pryd yn mhlith y cenedloedd Celtaidd a Theutonaidd. Hyd yn oed cyn sefydlu teyrnas y Pictiaid a'r Ysgotiaid o dan Kenneth, yr oedd gogleddbarth Prydain wedi dioddef oddi wrth ymosodiadau gelynion newyddion, sef y goresgynwyr Scandinavaidd; neu, fel yr adwaenir hwy yn fwyaf cyffredin, y Daniaid. Gwrthwynebodd Cystenyn hwynt yn ddewr, ond tua diwedd ei deyrnasiad gwnaeth gynghrair â hwynt i wrthwynebu y Saeson. A glaniodd fyddin gref ar yr Humber, yn cael ei gwneyd i fyny o Ysgotiaid a Phictiaid, Brythoniaid a Daniaid; a chyfarfyddodd Athelstan, brenin Lloegr, hwynt yn Brunanburgh. Ymladdwyd brwydr yno—y gyntaf o restr o frwydrau anffodus a ddygwyd yn mlaen gan y tywysogion Ysgotaidd ar diriogaeth y Saeson. Gorchfygwyd y fyddin gynghreiriol; ac er i Cystenyn ei hun ddiange, yr oedd ei fab yn mysg y lladdedigion. Wedi blino ar fywyd cynnhyrfus brenin yn y dyddiau hyny, efe a ymneillduodd ar ol hyn i fynachdy Culdee yn St. Andrews, a gwnaed ef yn abad y lle; ac yno y bu efe farw, yn y flwyddyn 953.

Yn ystod teyrnasiad Malcolm, olynydd Cystenyn, darfu i Edmund, brenin Lloegr, yr hwn oedd wedi cymmeryd oddi ar y Brythoniaid ran o deyrnas Cumbria, a gynnwysai Cumberland a chyfran o Westmoreland, ei roddi yn ol i'r penadur Ysgotaidd. Y rhodd hon oedd sail yr hawl hono i warogaeth a wnaed gan frenhinoedd Lloegr ar y penaduriaid Ysgotaidd, a fu wedi hyny yn esgus dros yr ymrysonau a fu rhwng y ddwy genedl. Chwanegwyd mwy drachefn at y deyrnas ogleddol yn nheyrnasiad Kenneth, mab Malcolm, drwy iddo gael y Lothian, a Chumbria ogleddol, neu Strathclyde, o dan ei awdurdod. Yr oedd y dalaeth flaenaf cyn hyny yn rhan o deyrnas Northumbria, a'i phoblogaeth i gyd yn Saeson, a rhoddwyd hi i Kenneth gan Edgar, brenin Lloegr. Yr oedd teyrnas Cumbria, yr hon ar un adeg oedd yn ymestyn ar hyd y gororau gorllewinol, o Fôrgainge Clyde i gyffiniau Cymru, wedi ei gwanhau drwy golli ei thiriogaethau deheuol; a syrthiodd yn awr o dan lywodraeth y brenin Ysgotaidd. Cafwyd y chwanegiad deheuol olaf at Ysgotland yn amser Malcolm II., mab Kenneth, yr hwn a gafodd y Merse a Teviotdale oddi ar iarll Northumbria; ac felly cyrhaeddai ei deyrnas hyd derfyn dwyreiniol y Tweed. Parhaodd teyrnasiad Malcolm o 1003 hyd 1033. Y mae y brenhinoedd a fuont yn ganlynwyr uniongyrchol iddo yn fwy adna-

byddus i ddarllenwyr cyffredin na'u rhagflaenoriaid, gan fod eu henwau wedi eu hanfarwoli gan y beirdd. Olynydd Malcolm oedd ei wyr, Duncan—teyrnasiad byr yr hwn a ddilynwyd gan Macbeth. Yr oedd y diweddaf yn llywodraethwr synwyrol a galluog, ac yn haelionus tuag at yr eglwys; ac enwogodd ei hun y pryd hwnw fel yr unig frenin Ysgotaidd a aeth ar bererindod i Rufain. Ond er ei fod trwy briodas yn dal cyssylltiad â'r llinach frenhinol, yr oedd yn analluog i ddiogelu serch ei ddeiliaid. Trwy gymmhorth ei berthynas, Siward, iarll Northumbria, goresgynodd Malcolm, mab hynaf Duncan, Ysgotland. Gorchfygwyd a lladdwyd y trawsfeddiannydd yn Lumphanan, yn Mar, yn y fl. 1056, a chydnabyddwyd Malcolm yn frenin yn ei le. Yr oedd teyrnasiad maith Malcolm III. yn ddechreuad chwyldroad cymdeithasol a gwleidyddol mawr yn Ysgotland. Arweiniodd ei waith yn trigo yn Lloegr, a'i briodas gyda'r dywysoges Saesnig, Margaret, chwaer i Edgar Atheling, y wlad i fabwysiadu llawer o arferion y Saeson, a'r iaith Seisnig, a daeth llawer o'r Saeson i breswylio i ddosbarthiadau gogleddol a gorllewinol y deyrnas, oedd hyd hyny yn cael eu preswylio gan mwyaf gan yr hiliogaeth Geltaidd. Cynnyddodd y trefedigaethwyr Saesnig mewn canlyniad i ormes Gwilym y Concwerwr a'i ddilynwyr Normanaidd. Derbyniwyd pawb yn groesawus gan y brenin Ysgotaidd—amcan yr hwn oedd gwneyd sefyllfa ei ddeiliaid Ysgotaidd yn gyffelyb i'w cyd-ddeiliaid yn y Lothian; a'r hyn nis gallai y brenin, o herwydd ei sarugrwydd naturiol, er ei fod yn ddyn haelfrydig a theg, ei ddwyn oddi amgylch, a wnaethpwyd drwy y tiriondeb a'r rhinweddau Cristionogol oedd yn nodweddau mor amlwg yn nghymmeriad ei wraig—yr hon oedd yn Saesnes.

Cwympodd Malcolm mewn brwydr a ymladdwyd o flaen Castell Alnwick yn y fl. 1093; ac ni bu ei frenhines, Margaret, fyw ond ychydig ddyddiau ar ei ol ef. Pan y digwyddodd hyn, yr oedd pethau yn ymddangos fel pe buasai holl waith eu teyrnasiad i gael ei ddymchwelyd yn hollol. Glynai y Celtiaid yn Ysgotland wrth eu hen arferion, diystyrasant ac ammharchasant hawliau plant Malcolm, a dyrchafasant ei frawd ef, Donald Bane, i'r orsedd fel olynydd iddo. Am dymmor byr, pa fodd bynag, y parhaodd llwyddiant yr ymdrech hwn i adferu y barbareidd-dra ag yr oedd y rhan oreu o'r genedl wedi ei daflu ymaith; a chydnabyddwyd Edgar, mab hynaf Malcolm a Margaret yn frenin. Yr oedd hyd yn oed enw y penadur newydd yn awgrymu fod dylanwad y Saeson yn cael ei deimlo yno. Parhau i gynnyddu a wnaeth y dylanwad hwn, a'r holl effeithiau da a'i dilynai ar hyd teyrnasiadau Edgar, a'i frawd, a'i olynydd, Alexander I. Dal i fyned yn mlaen yn sefydlog a wnaeth y cyfnewidiad o dan lywodraeth ddoeth a dyngarol Dafydd, yr hwn oedd fab ieuangaf Malcolm. Ymestynodd ei deyrnasiad ef o 1124 hyd 1154, ac ymroddodd y brenin yn ystod yr amser yna i wneyd ei oreu yn mhob modd i wellhau sefyllfa ei ddeiliaid—ac nid yn fynych y gwnaed gwaith o'r fath yn fwy effeithiol. Ymddengys fod y Dafydd hwn yn mhob ystyr yn gynllun o frenin rhagorol. Yr oedd yn grefyddol, yn ddyngarol, a haelfrydig, ac etto yn gyfiawn ac effro. Llywodraethid ef gan egwyddorion crefyddol, a phroffesai barch mawr i'r eglwys; ond yr oedd yn cofio mai iddo ef, ac nid i'r clerigwyr, yr oedd llywodraethiad y wlad wedi ei ymddiried. Mewn gwirionedd, yr oedd Dafydd i Ysgotland yr hyn a fu Alfred Fawr i Loegr, a hefyd y brenin a elwir yn Sant Louis i Ffraingc. Pe buasai y brenin hwn wedi digwydd teyrnasu ar genedl gref a galluog, diau y buasai ei enw yn un o'r rhai mwyaf adnabyddus yn mysg tywysogion Ewrop. Y mae yr Ysgotiaid yn gyffredin yn arfer parchu ac anrhydeddu ei gymmeriad ef. Yn adeg esgyniad Dafydd, nid oedd Ysgotland wedi ei gwareiddio ond mewn rhan; ac o angenrheidrwydd ar y pryd yr oedd yn dibynu i raddau pell ar gymmeriad y llywodraethwr, pa un ai yn ol neu yn mlaen yr elai. Gwnaeth teyrnasiad Dafydd argraph arosol a pharhaol arni. Gwellhaodd y boblogaeth Geltaidd mewn ystyr moesol, cymdeithasol, a chrefyddol; ac ar hyd yr arfordir dwyreiniol planwyd trefedigaethau Normanaidd, Ffleminaidd, a Saesnig; ac yn raddol aeth y rhai hyn yn fwy i mewn i'r wlad, a sefydlasant iaith ac arferion yr hiliogaeth Deutonaidd hono sydd yn ffurfio poblogaeth y rhan fwyaf o Ysgotland. Cefnogodd a sefydlodd Dafydd y sefydliadau newydd drwy ddwyn i mewn gyfundrefn o gyfreithiau ysgrifenedig, yr hon yn raddol a gymmerodd le yr hen arferion traddodiadol Celtaidd. Y mae y casgliadau cyntaf o'r cyfreithiau Ysgotaidd yn perthynu i'w deyrnasiad ef. Ymddengys fod Dafydd yn gymmaint diwygiwr yn yr eglwys yn ei ffordd ef ag oedd yn y wladwriaeth. Yr oedd y gyfundrefn eglwysig a ffynai yn Ysgotland yn mron hyd ei amser ef yn gwahaniaethu mewn rhyw bethau oddi wrth yr un oedd wedi ei sefydlu yn Lloegr, ac ar y Cyfandir, ac yn ymdebygoli i'r un oedd wedi ei mabwysiadu yn yr Iwerddon: yn wir, y mae yn ymddangos mai oddi yno y deilliodd. Sefydlodd esgobaethau; cefnogodd ddosbarthiad y wlad yn blwyfydd, a'u gwaddoliad; darparodd ar gyfer cynnaliaeth y clerigwyr trwy ddegymau; dinystriodd yr hen gyfundebau mynachaidd Celtaidd, a chefnogodd yr urddau Benedictaidd ac Awstinaidd.

Ond er fod Dafydd, fel y crybwyllwyd, yn cyflwyno ei holl egni at wellhâd ei ddeiliaid, mor bell ag yr oedd efe yn gweled y ffordd i hyny, etto nid oedd efe yn ysgoi gwaith nad oedd yn teimlo cymmaint o hyfrydwch ynddo. Gwyddai fod penadur Ysgotaidd yn cadw ei goron drwy nerth y cleddyf, ac nid oedd un o'i hynafiaid rhyfelgar yn rhyfelwr mwy glew na Dafydd. Amlygwyd ei ddewrder a'i fedrusrwydd, er yn aflwyddiannus, yn Mrwydr y Faner. Fel cynnrychiolydd, drwy ei fam, o hen frenhinoedd Lloegr, yr oedd ganddo lawer o gyfeillion yn y wlad hono; a phe buasai y fyddin Ysgotaidd yn llwyddiannus, gallasai hanes y ddwy deyrnas mewn rhai ystyriaethau fod yn wahanol i'r hyn ydyw. Fel yr oedd, efe a ymfoddlonodd ar bleidio achos plentyn ei chwaer, yr ymherodres Matilda, yn erbyn y brenin Stephen. Teyrnasodd wyr Dafydd, sef Malcolm IV., am ddeuddeng mlynedd; a'r brenin nesaf oedd William y Llew, brawd Malcolm, yr hwn a deyrnasodd o 1165 i 1214. Dilynodd y tywysogion hyn yr un wladlywiaeth a'u taid gyda'r un penderfyniad ag yntau, er nad oeddynt bob amser yn llwyddo i'r un graddau ag efe. Yr oedd eu cyssylltiad â Harri II., brenin Lloegr, yn rhwystr mawr iddynt—yr hwn a gymmerodd fantais ar ei allu a'i awdurdod uwchraddol i daflu attalfeydd a rhwystrau annoeth ac anghyfiawn ar ffordd annibyniaeth y penaduriaid Ysgotaidd, ac ar ffordd annibyniaeth teyrnas y wlad hono—

Digitized by Google

gwladlywiaeth a osododd sylfaen i ymrysonfeydd cenedlaethol annedwydd a gymmerasant le mewn blynyddoedd ar ol hyny. Gochelwyd hyn am beth amser trwy waith Richard I. yn lliniaru ei fesurau gormesol yn 1189. "Am fwy na chan mlynedd," medd Arglwydd Hailes, "ni bu unrhyw gweryl cenedlaethol, na rhyfel cenedlaethol rhwng y ddwy deyrnas:—cyfnod bendithiol." Defnyddiwyd y cyfnod hwnw yn dda gan y ddau frenin a deyrnasodd drachefn, sef Alexander II. ac Alexander III., mab ac ŵyr i William y Llew, i sefydlu a chadarnhau sefydliadau y deyrnas, a helaethu a grymuso yr hyn a gychwynasid gan Dafydd. Alexander III. yn ddiammheu oedd un o frenhinoedd galluocaf a goreu Ysgotland. Trwy gyttundeb a wnaeth gyda brenin Norway, efe a chwanegodd at ei deyrnas amryw o'r ynysoedd yn y Môr Gorllewinol, oedd yn cael eu dal gan y Norwegiaid. Yr oedd ei farwolaeth ddisymmwth yn y fl. 1286 yn un o'r anffodion mwyaf a allasai gyfarfod Ysgotland. Gydag ef daeth i ben gyfnod o lwyddiant, a chwrs o welliant na fwynhawyd dim yn debyg iddo am rai canoedd o flynyddoedd ar ol hyny. Hwyrach y gellir dyweyd fod hanes y cyfnod dyddorol hwn hyd yma heb ei ysgrifenu fel y dylai gael. Yr unig hanesiaeth diweddar o werth neillduol ydyw yr hyn a geir yn nghofnodion cywir, ond byrion, yr Arglwydd Hailes. Dechreuodd Tytler ei hanes gyda theyrnasiad Alexander III.; ac y mae Robertson, yn ei hanes am y ddau deyrnasiad—yr hwn a ystyrir yr hanes mwyaf poblogaidd o Ysgotland, o bossibl, a ysgrifenwyd hyd yma—yn sôn am yr hyn a gymmerodd le yr holl amser, o'r adeg yr ymunwyd â'r Pictiaid hyd farwolaeth Alexander III., fel digwyddiadau y gellid cyffwrdd yn ysgafn â hwynt, ond nad oeddynt yn teilyngu gwneuthur unrhyw ymchwiliad dwfn a manwl iddynt.

Ar farwolaeth ŵyres ac etifeddes Alexander III., pan yn blentyn, yn 1290, dechreuwyd dadleu a chweryla ynghylch yr olyniaeth i'r orsedd. Nid oedd y cwestiwn rhwng y ddau brif hawlydd, sef Baliol a Bruce, yn ol syniadau y cyfnod hwnw, yn rhydd oddi wrth ammheuon; ac ymddengys fod Iorwerth I. o Loegr, ger bron yr hwn y dygwyd yr achos i'w benderfynu, yn gweithredu ar y cyntaf yn eithaf egwyddorol. Ond yr oedd y penadur galluog hwnw, yr hwn oedd eisoes wedi darostwng Cymru, yn awr â'i fryd ar uno yr ynysoedd Prydeinig o dan un deyrnwïalen; ac mewn trefn i gyrhaedd yr amcan hwnw, yr oedd yn barod i aberthu dynoliaeth, anrhydedd, a chyfiawnder—a bu y canlyniadau yn wir ofidus. Cynnhyrfwyd ysbryd cenedlaethol yr Ysgotiaid; ac ar ol ymrysonfa faith, o dan Wallace a Bruce, hwy a ddiogelasant eu hannibyniaeth ar faes gwaedlyd Banockburn [gwel ROBERT BRUCE; a WALLACE, WILIAM]. Ennillwyd buddugoliaeth rhyddid; ond costiodd hyn yn ddrud i dawelwch a gwareiddiad y wlad. Anrheithid y siroedd cyfliniol yn barhaus gan y Saeson; yr oedd y rhanau canolbarthol yn cael eu poeni yn fynych gan ymrysonau yn mysg y penaethiaid a'r pendefigion, a'r ucheldiroedd yn parhau i fyned yn fwy barbaraidd; y llwythau Celtaidd yn adfeddiannu eu hen uchafiaeth, yn gyffelyb fel yr oeddynt yn yr Iwerddon yn yr amseroedd cynnhyrfus pan y goresgynwyd y wlad hono gan Edward Bruce. Gallasai braich gref Robert Bruce, dybygid, ddarostwng yr annhrefn pe y cawsai ei fywyd ei arbed ychydig yn hwy ar ol cyttundeb Northampton; ond bu ei farwolaeth ef, ac esgyniad ei fab, yr hwn nad oedd ond plentyn, i'r orsedd, yn achlysur i daflu y wlad drachefn i'r holl drueni sydd ynglŷn â rhyfel cartrefol a thramor. Pan y tyfodd y mab hwnw, sef Dafydd II., i fyny yn ddyn, profodd ei hun yn mhob ystyr yn annheilwng o'i dad enwog. Ei deyrnasiad ef, ynghyd â'r eiddo ei olynwyr Robert II., a Robert III., y ddau dywysog cyntaf o deulu Stuart a fu ar yr orsedd, oedd y cyfnod mwyaf truenus yn hanes Ysgotland. Buasai hanner y deyrnas wedi ei gwneuthur yn farbaraidd, pe na buasai goresgyniad arglwydd yr ynysoedd wedi ei attal yn Harlaw, trwy fedrusrwydd iarll Mar, a dewrder marchogion a bwrdeisiaid yr iseldiroedd.

Dechreuodd amser dedwyddach wawrio ar y wlad pan ryddhawyd Iago I. o'i gaethiwed yn mysg y Saeson, yn 1424. Y mae digwyddiadau y cyfnod a ddilynodd yn fwy adnabyddus; a bydd cyfeiriad byr at y rhai pwysicaf o honynt yn ddigonol yma. Adferodd teyrnasiad grymus Iago I. dawelwch i'r deyrnas—tawelwch nad oedd hi wedi mwynhau ei gyffelyb er's llawer o flynyddoedd; ond pan y brad-lofruddiwyd y brenin, ail ddechreuodd terfysgoedd ac ymrysonau yn y wlad. Un o'r anffodion mwyaf a berthynai i'r blynyddoedd hyn oedd, fod rhai o dan oed yn digwydd bod yn etifeddion y goron. Yr oedd Iago ei hun wedi dyfod i'r frenhiniaeth pan yn blentyn: felly hefyd y daeth Iago II., Iago III., Iago IV., Iago V., Mary, ac Iago VI. oll i'r orsedd pan o dan oed; ac oll, oddi gerth Iago IV., pan yn ddim amgen na phlant. Yr oedd y gwroldeb a'r gallu a amlygid gan y teulu hwn, pa fodd bynag, yn annigonol i adgyweirio y drygau a effeithid gan ereill yn nechreuad eu teyrnasiadau, ac i roddi terfyn ar yr hyn oedd yn un o brif achosion anffodion a thrueni y wlad, sef ymrysonau beunyddiol pendefigion galluog. Yn nheyrnasiad Iago III. y gwnaed y chwanegiad olaf at deyrnas Ysgotland, pan y rhoddwyd ynysoedd Orkney a Zetland yn gynnysgaeth i'w wraig ef, sef Margaret o Denmarc. Yr oedd priodas Iago IV. gyda Margaret o Loegr yn llawer pwysicach yn ei ganlyniadau; canys hyn, yn nyddiau ei or-ŵyr, a arweiniodd i'r uniad tangnefeddus hwnw â Lloegr a lesteiriwyd trwy farwolaeth morwynig Norway yn y drydedd ganrif ar ddeg. Pasiwyd llawer o gyfreithiau da yn amser y penaduriaid hyn; ond yr oedd doethineb y ddeddfwriaeth Ysgotaidd yn amlycach wrth eu ffurfio nag oedd penderfyniad y llywodraeth i'w rhoddi mewn grym. Un o'r gwelliantau mwyaf a ddygwyd oddi amgylch yn y cyfnod hwn oedd sefydliad y prifysgolion—y gyntaf o ba rai oedd un St. Andrew, yr hon a sefydlwyd yn ystod yr amser yr oedd Iago I. o dan oed—a sefydliad coleg cyfiawnder (*college of justice*) hefyd gan Iago V.

Yn ystod teyrnasiad Iago V., chwanegodd ymrysonau crefyddol elfen arall o anghysur i Ysgotland. Yr oedd llygredigaeth yr eglwys yno yn fwy nag yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop; ac un o'r canlyniadau o hyn oedd, i egwyddorion y Diwygiad Protestanaidd gael eu gyru yn mhellach yno nag yn un wlad arall. O'r braidd y gwelid yr ymdrechfa rhwng Protestaniaeth a Phabyddiaeth, na ddechreuodd un arall rhwng esgobyddiaeth a henaduriaeth—y gyfundrefn flaenaf yn cael ei chefnogi gan y brenin, a'r ddiweddaf gan y bobl gyffredin; a

Digitized by Google

thaflai y pendefigion eu dylanwad i'r naill ochr neu y llall, yn ol fel y gwasanaethid eu hamcanion ar y pryd. Ymdrechodd Iago VI. yn galed i sefydlu uchafiaeth hollol, yn yr eglwys a'r wladwriaeth—yn groes i blaid alluog, nad oedd yn cydnabod unrhyw awdurdod brenhinol o gwbl dros y flaenaf. Mewn canlyniad i farwolaeth Elizabeth o Loegr yn 1603, Iago V. oedd ei holynydd i'r orsedd, o dan y teitl Iago I.; a dyna y pryd yr unwyd coron y ddwy wlad, ac y galwyd y penadur yn "Frenin Prydain Fawr"—yr hon, wrth gwrs, sydd yn cynnwys Lloegr, Ysgotland, a Chymru. O hyny allan, y mae hanes Ysgotland yn gymmhlethedig â hanes Prydain. Gwel PRYDAIN.

Yr ydym yn cyfleu yn y daflen ganlynol rai o'r prif ddigwyddiadau a gymmerasant le yn hanes y wlad hon o'r nawfed ganrif i lawr hyd y blynyddoedd diweddaf:—

| | B.A. |
|---|---|
| Cymmeryd Camelon, prif ddinas y Pictiaid, gan Kenneth II., a phob un o'r preswylwyr yn cael eu dyfetha gan y cleddyf ... | 843 |
| Sefydlu y gyfundrefn wriogaethol gan Malcolm II.... ... ... ... | 1004 |
| Dosbarthu y wlad yn farwniaethau ... | 1032 |
| Gyru y Daniaid o bob rhan o Ysgotland ... | 1040 |
| Llofruddio Duncan I. gan ei berthynas, Macbeth, yr hwn a gymmerodd y goron iddo ei hun ... ... ... ... | 1040 |
| Malcolm III., yn cael ei gynnorthwyo gan Iorwerth y Cyffeswr, yn cyfarfod y trawsfeddiannydd yn Dunsinane; a Macbeth yn cael ei ladd gan Macduff ... ... | 1057 |
| Yr iaith Sacsonaidd-Seisnig yn cael ei dwyn i Ysgotland gan ffoaduriaid o Loegr a ddiangasant yno rhag y Normaniaid ... | 1080 |
| Gwarchauad Alnwick; lladd Malcolm III. gan y llywodraethwr | 1093 |
| Teyrnasiad ysblenydd David I., yr hwn a gasglodd ynghyd ddeddfres o gyfreithiau | 1124 |
| Goresgyniad Ysgotland gan Hacho o Norway, gyda 160 o longau, ac 20,000 o wyr; a llwyr orchfygiad y goresgynwyr gan Alexander III., yr hwn a adfeddiannodd ynysoedd y gorllewin ... ... ... | 1263 |
| John Baliol ac Edward Bruce yn ymgeisio am y goron... ... ... ... | 1290 |
| Iorwerth I. o Loegr, fel canolwr, yn penderfynu yn ffafr Baliol ... ... | 1290 |
| John Baliol, brenin Ysgotland, yn amddiffyn ei achos ei hun yn neuadd Westminster yn erbyn Iarll Fife ... ... ... | 1293 |
| Iorwerth yn dymuno cael uno Ysgotland a Lloegr, yn diorseddu Baliol, ac yn anrheithio y wlad ... ... ... | 1296 |
| Cymmeryd William Wallace yn garcharor gan y Saeson, a'i ddienyddio yn Smithfield | 1305 |
| Robert Bruce yn adfeddiannu y goron, ac yn gorchfygu y Saeson yn Bannockburn ... | 1314 |
| Cymmeryd David II. yn garcharor yn mrwydr Durham, gan y frenhines Philippa o Loegr, ac yn cael ei gadw mewn caethiwed am un mlynedd ar ddeg ... ... | 1346 |
| Brwydr Chevy Chace rhwng Hotspur, Percy, ac Iarll Douglas ... ... | 1388 |
| Iago I. yn cael ei gymmeryd gan y Saeson ar ei fordaith i Ffraingc ... ... | 1406 |
| Sylfaenu prifysgol St. Andrews ... ... | 1411 |
| Iago yn cael ei gadw yn garcharor yn Lloegr am ddeunaw mlynedd; yn priodi merch iarll Somerset; ac yn cael ei ryddid ... | 1424 |
| Yn cael ei fradlofruddio yn ei wely gan gyfeillion, y rhai a gospwyd ganddo am gamarfer eu hawdurdod yn ystod ei garchariad | 1437 |
| Iago II. yn dechreu teyrnasu yn saith mlwydd oed ... ... ... ... | 1437 |
| Sylfaenu prifysgol Glasgow gan yr esgob Turnbull ... ... ... | 1451 |
| Lladd Iago II. yn ngwarchau Roxburgh B.A. | 1460 |
| Iago III., yr hwn a demtiwyd i fod yn achos o lofruddiaeth ei frawd John, yn cael ei ladd mewn terfysg a ddigwyddodd yn maes Bannockburn ... ... ... | 488 |
| Sylfaenu prifysgol Aberdeen, gan yr esgob Elphinstone ... ... ... | 1494 |
| Brwydr Flodden Field, lle y lladdwyd Iago IV., ac y dinystriwyd ei fyddin ... | 1513 |
| Iago V. yn sefydlu yr orseddlys ... ... | 1532 |
| Mary, brenhines yr Ysgotiaid, yn dilyn ei thad, Iago V., i'r orsedd pan nad oedd ond ychydig ddyddiau oed ... ... | 1542 |
| Mary yn priodi y Dauphin, wedi hyny Francis II. o Ffraingc ... ... ... | 1558 |
| Francis II. yn marw, gan adael Mary yn weddw ieuangc ... ... ... | 1559 |
| Y Diwygiad Protestanaidd yn cymmeryd lle yn Ysgotland, pan oedd Mary o dan oed, rhwng ... ... 1550 a | 1560 |
| Y Diwygiad yn cael ei gwblhau yno o dan arweiniad John Knox ... ... | 1560 |
| Mary, ar ol bod yn absennol o Ysgotland am dair blynedd ar ddeg, yn glanio yn Leith... | 1561 |
| Y frenhines Elizabeth, ar ol gwneyd ymchwiliad swyddol, yn cael nad oedd ond 58ain o Ysgotiaid yn Llundain ... | 1562 |
| Mary yn priodi ei chefnder, Henry Stuart, Arglwydd Darnley... ... ... | 1565 |
| David Rizzio, yr hwn a ennillodd ymddiried a ffafr Mary, ac a bennodwyd yn ysgrifenydd iddi, yn cael ei lofruddio gan Darnley yn ei phresennoldeb ... ... | 1566 |
| Arglwydd Darnley yn cael ei chwythu i fyny â phylor yn ei dŷ ei hun Chwefror 10fed, [Ammheuir Mary o fod â llaw ganddi yn nygiad oddi amgylch ei farwolaeth]. | 1567 |
| James Hepburn, Iarll Bothwell, yn cymmeryd meddiant o berson y frenhines, yr hon a'i priododd ef ... Mawrth 9fed, | 1567 |
| Carcharu yr anffodus Mary gan ei phendefigion ... ... ... ... | 1567 |
| Coroniad ei mab, Iago VI., ac appwyntiad Iarll Murray yn rhaglaw Gorphenaf 22ain, | 1567 |
| Mary yn diangc o'r carchar, yn casglu byddin fawr, yr hon a orchfygwyd gan y rhaglaw Murray, yn mrwydr Langside Mai 15fed, | 1568 |
| Pennodi Iarll Lennox yn rhaglaw y deyrnas... | 1570 |
| Marwolaeth y diwygiwr mawr, John Knox—oed 67ain ... ... ... | 1571 |
| Sylfaeniad Prifysgol Edinburgh... ... | 1580 |
| Mary, ar ol cymmeryd noddfa yn Lloegr, yn cael ei thaflu i garchar gan y frenhines Elizabeth; ac wedi bod yn y carchar am ddeunaw mlynedd, yn cael tori ei phen yn nghastell Fotheringay Chwefror 8fed, | 1587 |
| Bradgynllwyn Gowrie ... ... | 1600 |
| Uno coronau Ysgotland a Lloegr, ac Iago VI. i orsedd Prydain ... ... ... | 1603 |
| Siarl I. yn cael ei fradychu gan y fyddin Ysgotaidd i ddwylaw y gwrthryfelwyr Saesnig ... ... ... ... | 1647 |
| Rhoddi yr Ardalydd Montrose i farwolaeth yn Edinburgh ... ... ... | 1650 |
| Ysgotland yn cael ei huno â gweriniaeth Lloegr gan Oliver Cromwell ... ... | 1651 |
| Brenhiniaeth yn cael ei hadferu gan Siarl II. | 1660 |
| Bradlofruddio yr archesgob Sharpe ... | 1679 |
| Y chwyldroad yn ffafr William III., a sefydliad yr henaduriaeth ... .. | 1688 |
| Cyflafan y Macdonalds yn Glencoe ... | 1691 |
| Iago II. o Loegr, o linell Stuart, yn marw mewn alltudiaeth ... ... ... | 1701 |
| Uniad Ysgotland â Lloegr, yn ffurfio ynghyd deyrnas Prydain Fawr .. ... | 1707 |
| Gwrthryfel yn Ysgotland yn ffafr mab Iago II., a elwid 'yr Ymhonydd' ... ... | 1715 |
| Gorchfygu pleidwyr yr Ymhonydd yn mrwydr Sheriffmuir ... ... | 1715 |
| Eu gorchfygu eilwaith yn mrwydr Preston... | 1715 |

Digitized by Google

Lladd Cadben Porteous gan derfysgwyr yn Edinburgh ... ... B. A. 1736
Yr ymdrech olaf yn cael ei wneyd gan deulu Stuart i adfeddiannu perchenogaeth o'u hen goron; yr Ymhonydd ieuangc yn ennill brwydr Preston-pans ... ... 1745
Yna yn ennill brwydr Falkirk ... ... 1746
Ond yn cael ei lwyr orchfygu yn Culloden ... 1746
Dienyddio arglwyddi Kilmarnock a Balmerino ar Towerhill am deyrnfradwriaeth ... 1746
Gwaharddiad gwisg yr Ucheldir gan gyfraith seneddol; ond diddymwyd y gyfraith wedi hyny ... ... ... ... 1746
Dienyddio Arglwydd Lovat yn 80ain mlwydd oed ... ... ... ... 1747
Yr hen Ymhonydd yn marw yn Rhufain, yn 87ain mlwydd oed .. ... ... 1765
Marwolaeth y tywysog Charles Edward, yr Ymhonydd ieuangaf, yn yr un ddinas ... 1788
Marwolaeth Robert Burns ... ... 1796
Marwolaeth y Cardinal York—yr hwn oedd yr olaf o deulu Stuart ... ... 1807
Ffurfiad yr arsedd-lys yn ddau lys .. 1807
Sefydliad rheithlys, o dan arglwydd brif ddirprwywr ... ... ... ... 1815
Ymweliad Sior IV. âg Ysgotland ... 1822
Marwolaeth Syr Water Scott ... ... 1832
Diswyddiad saith o weinidogion henaduriaeth Strathbogie gan Gymmanfa Gyffredinol Eglwys Ysgotland am ufuddhau i'r ddeddf wladol, yn hytrach nag i'r un eglwysig ... 1841
Y Gymmanfa Gyffredinol yn condemnio nawddogaeth, ac yn penderfynu y dylid ei ddiddymu ... .. ... 1842
Y frenhines Victoria a'r tywysog Albert yn ymweled âg Ysgotland ... ... 1842
Pedwar cant o weinidogion yn troi allan o Eglwys Ysgotland yn adeg y Gymmanfa Gyffredinol, ac yn ffurfio yr Eglwys Rydd 1843
Ffurfiad Cymdeithas Genhedlaethol er amddiffyn hawliau y wlad hono Tachwedd, 1853
Deddf er gwella llywodraethiad y prifysgolion yn cael ei phasio ... Awst, 1858
Pasio deddf y pysgodfeydd ... Gorphenaf, 1864
Pasio deddf Diwygiad Seneddol i Ysgotland Gorphenaf, 1868
Pasio deddf Cofrestriad a Theitlau Tiroedd Gorphenaf, 1868
Pasio deddf Gwellhâd Etholiad i'r Cynghorau Dinesig ... ... ... ... 1870
Marwolaeth Robert Chambers, yr awdwr a'r cyhoeddwr enwog ... Mawrth 17eg, 1871
Ymuniad y gwahanol enwadau Presbyteraidd â'u gilydd ... .. ... 1876
Y Gynghorfa Gyffredinol Bresbyteraidd gyntaf yn Edinburgh ... Gorphenaf, 1877

YSGRAFF: trosglwyddiad—"Ac ysgraff a aeth drosodd i ddwyn trwodd dylwyth y brenin;" 2 *Sam.* xix. 18. Defnyddir ysgraff etto ar y rhan hono o'r afon. Geilw Josephus hi yn bont o fadau. Cyfeiria y Deg a Thrigain hyn at y dynion, gweision Siba, a gweision Simei, y rhai a helpiasant i gario aelodau y teulu brenhinol dros yr afon, a hwy a gyflawnasant y gwasanaeth o gario y brenin drosodd. Hwy a aethant drosodd trwy gasglu ynghyd (ar lan orllewinol yr Iorddonen) dylwyth y brenin, "ac i wneuthur yr hyn oedd dda yn ei olwg ef."

YSGREPAN: côd ydoedd, tebyg i'r eiddo milwr, yn yr hon y cariai teithiwr ei angenrheidiau i'w daith. Dywed Lightfoot mai coden ledr ydoedd; ond rhydd Kitto ar ddeall mai rhawn neu wlân ydyw ei defnydd yn bresennol. Arferir hi hyd y dydd hwn gan y bugeiliaid a'r amaethwyr. Yn yr ysgrepan y dododd Dafydd y ceryg llyfnion: 1 *Sam.* xvii. 40. Dywed Dr. Thomson mai o groen mynod geifr y gwneir hwynt; ac nid, fel y dywed Dr. Kitto, o wlân neu rawn.

YSGRIFENU: y gelfyddyd drwy yr hon y trosglwyddir fleithiau neu ddrychfeddyliau oddi wrth y naill berson i'r llall trwy gyfrwng arwyddion, megys arwyddluniau neu lythyrenau. Y syniad a goleddwyd yn fwyaf cyffredinol yw fod ysgrifenu wedi ei arfer a'i ddysgu gyntaf i ddynolryw pan ysgrifenodd Duw y Deg Gorchymyn ar lechi meini; ond y mae distawrwydd yr Ysgrythyr ar y pwngc yn hytrach yn awgrymu fod celfyddyd mor angenrheidiol yn adnabyddus yn mhell cyn yr amser hwnw, neu y mae yn debygol y buasai yr hanesydd sanctaidd yn chwanegu y dadguddiad anghyffredin a dwyfol hwn at y rhanau ereill o'i hysbysrwydd yn mherthynas i'r ymdrafodaeth ar Fynydd Sinai. Yn nesaf at y ddawn o lefaru (yr hon oedd yn hanfodol i greaduriaid rhesymol), ymddengys mai ysgrifenu oedd y ddawn fwyaf gwasanaethgar a phwysig y gellid ei rhoddi i ddynion; y rhai, o herwydd eu hamgylchiadau, oeddynt dan yr angenrheidrwydd o ymranu ac ymwasgaru dros yr holl ddaear; a chan hyny, o herwydd anghenion eu sefyllfaoedd, oeddynt yn gorfod cario ymdrafodaeth yn mlaen â'u gilydd.

Yn yr amserau boreuaf, yr oedd yn rhaid i deuluoedd ymwahanu oddi wrth eu gilydd: yr oedd bywyd bugeiliol yn gofyn llawer iawn o le i'r defaid a'r gwartheg; ac fel y cynnyddai cyfoeth pob teulu, yr oedd yn rhaid i'r lle rhyngddynt fyned yn fwy. Ac oddi wrth yr achosion diball hyn, gorfodid rhyw rai bob blwyddyn i ymfudo i leoedd pellach: *Gen.* xiii.

Ond hyd yn oed yn oesoedd cyntaf y byd, yr oedd yn angenrheidiol, nid yn unig cadw gwybodaeth am Dduw yn ddihalog, ond yr oedd yn rhaid hefyd cael rhyw ddull i drosglwyddo a derbyn hysbysrwydd oddi wrth y teuluoedd gwasgaredig, o natur mwy sier nag y gallasai cenadwriaethau mewn geiriau fod byth: ac nid ydyw yn debygol y gadawsid fi ddigwyddiadau oeddynt wedi eu bwriadu i effeithio ar holl oesoedd y byd i nofio ar ffrwd ansier traddodiad, pan y gallesid, drwy y gelfyddyd o ysgrifenu, eu trosglwyddo, heb chwanegiad na lleihâd, i oesoedd diweddaf y byd. O'r braidd y gellir credu fod y ddawn ryfeddol o ysgrifenu heb ei dysgu i ddynion hyd nes yr oedd y byd wedi ei boblogi yr ail waith.

Cofnodir gweithio mewn haiarn a gwneuthuriad offerynau cerddorol yn *Gen.* iv. 21, 22; tra na wneir dim mwy o gyfeiriad, cyn nac ar ol y tymmor hwnw, at wreiddyn neu ddarganfyddiad ysgrifenu nag at wreiddyn iaith ei hun. A ydyw, gan hyny, yn ormod i ni gredu fod Duw, trwy ddadguddiad uniongyrchol, wedi cyfranu i ddynolryw y ddawn o ysgrifenu? Nid ydyw yn ymddangos yn debyg ddarfod i unrhyw berson erioed ddyfeisio egwyddor neu lythyrenau, yr hwn nid oedd yn flaenorol wedi clywed am neu wedi gweled un; a byddai pob cenedl oedd yn feddiannol ar y gelfyddyd bob amser yn proffesu ei bod wedi ei derbyn gan yr Arglwydd. Heb ysgrifen, nis gallesid trosglwyddo unrhyw hysbysrwydd gyda chywirdeb i genhedloedd pellenig. Nid oes ond ychydig o bersonau yn ail adrodd peth yn fanwl yn y geiriau yn mha rai yr adroddwyd ef wrthynt; a gall y cyfnewidiad mwyaf dibwys mewn ymadrodd ddyrysu y cwbl, neu lwyr ddinystrio yr ystyr o hono. Ond nis

Digitized by Google

gall hyny fod os bydd ysgrifen yn gyfrwng cymmundeb, o blegid y mae yn bossibl i bob peth a hysbysir yn bendant fel hyn gael ei ddeall cystal gan y rhai yr anfonir ef iddynt a chan y rhai a'i hysgrifenant. Nid ydyw Duw byth yn cyflawni gwyrthiau yn afreidiol; ond buasai yn rhaid iddo wneuthur hyny os cof ac ymadrodd nifer o ddynion oeddynt yr unig foddion i gadw mewn bod hanes ei ymddygiadau tuag at ddynolryw am dros ddwy fil o flynyddoedd.

Yr oedd o'r pwys mwyaf i hanes manwl gael ei gadw am y greadigaeth, cwymp dyn, y diluw, cymmysgedd yr ieithoedd, a llawer o brophwydoliaethau oeddynt o'r dyddordeb mwyaf i genedlaethau dyfodol. O'r braidd y gallesid cadw hanes oesoedd ac achau y patriarchiaid—mesurau yr arch—y llywodraeth frenhinol gyntaf yn Assyria—hanes Abraham a'i hiliogaeth am 430 o flynyddoedd, yn cynnwys amgylchiadau, cyfnewidiadau, ac ymddiddanion manwl, mewn llawer o wahanol wledydd: o'r braidd, meddwn, y gallesid cadw hanes y pethau hyn yn berffaith trwy draddodiad ymadrodd am ddwy fil o flynyddoedd. Ond a chaniatau fod y gelfyddyd o ysgrifenu wedi ei rhoddi gydag iaith, nid oes un anhawsder; ac y mae yn amlwg y cofnodid ac y cedwid felly hanes pob digwyddiad yn fanwl fel y dadguddiwyd ef, neu fel y cymmerodd le.

Nid ydyw yn ammhriodol i ni dybied fod yr hanes am y greadigaeth, a'r holl ddigwyddiadau a ddilynasant, fel yr adroddir hwynt yn fyr gan Moses, wedi eu cymmeryd o hen ysgrifeniadau oedd yn meddiant yr Israeliaid. Coleddir y syniad hwn gan Calmet. Nid ydyw doniau ysbrydoliaeth, fel yr eiddo natur, byth yn cael eu rhoddi yn afreidiol. Wedi i Dduw unwaith ddadguddio i'r patriarchiaid yr hyn oedd "yn y dechreuad," nid oedd un angen mwyach am ddadguddiad newydd; a gallai yr hanesydd Hebreaidd gasglu o gofnodion blaenorol yr hyn oedd yn ddigon i ddynolryw i'w wybod yn mherthynas i wreiddyn y "pethau a welir."

Yn y bummed bennod o Genesis, dywedir, "Dyma lyfr cenhedlaethau Adda." Pe na buasai ganddynt ddim ond adgofion traddodiadol am "genhedlaethau Adda," wedi eu cadw yn unig trwy drosglwyddiad o'r naill gof i'r llall am fwy na mil o flynyddoedd, buasai yn dra ammhriodol cymmhwyso y gair "llyfr" atynt; ac y mae yn ddiammheu na chawsai ei ddefnyddio. Cyfrifir Llyfr Iob yr ysgrif hynaf yn y byd, ac y mae wedi ei ysgrifenu yn ffurf pryddest. Haera Hales fod Iob yn byw o leiaf ddau gant o flynyddoedd cyn mynediad yr Israeliaid o'r Aipht. Y mae ein cyfieithiad ni o'r Ysgrythyrau yn pennodi amser Iob yn 1520 c. c.; yr hyn nid yw yn goddef ond yn unig naw mlynedd ar hugain rhwng ei gyfnod ag ymadawiad yr Israeliaid o'r Aipht. Bydded hyny fel y byddo, y mae dadganiadau Iob yn profi fod llythyrenau a llyfrau yn hysbys iddo ef, ac i'w gydwladwyr—y rhai oeddynt genedl hollol wahanol i'r Hebreaid. Yn y bedwaredd bennod ar bymtheg o Iob (*adn.* 23, 24), dywedir, "O! nad ysgrifenid fy ngeiriau yn awr. O! nad argrephid hwynt mewn llyfr. O! nad ysgrifenid hwynt yn y graig dros byth â phin o haiarn ac â phlwm!" Hefyd, yn *Iob* xxxi. 35, dywedir, "ac ysgrifenu o'm gwrthwynebwr lyfr." Ni allesid defnyddio y cyfryw ymadroddion, ac ni buasai un ystyr iddynt, pe buasai y gelfyddyd o ysgrifenu yn anhysbys; ac nis gallasai fod y fath eiriau a "llyfr" a "phin," pe na buasai y pethau eu hunain yn hanfodi.

Gan hyny, os caniateir fod Llyfr Iob wedi ei ysgrifenu, a bod y cyfryw ymadroddion yn ffynu cyn ymadawiad yr Israeliaid o'r Aipht, y mae yn amlwg oddi wrth yr hanesiaeth gyssegredig fod ysgrifenu, nid yn unig mewn bod cyn i'r ddeddf gael ei rhoddi ar Fynydd Sinai, ond ei fod hefyd yn hysbys yn mhlith llwythau patriarchaidd, heb law plant Israel. Yr oedd yr ysgrifenydd tybiedig, Elihu, mab Barachel y Buziad (*Iob* xxxii. 2), yn disgyn o Nachor, brawd Abraham (*Gen.* xxii. 20, 21); a gallasai fel hyny fod yn feddiannol ar ba gelfyddydau bynag yr oedd teulu Terah wedi eu hetifeddu oddi wrth Noah. Ceir ymadrodd nodedig arall yn *Iob* ix. 25; "A'm dyddiau i sydd gynt na rhedegwr." Cynnwysa hyn drosglwyddiad rheolaidd o wybodaeth o le i le trwy genhadon appwyntiedig; ac er nad ydyw yn ganlyniad angenrheidiol fod y cyfryw bersonau ar bob achlysuron yn cario llythyrau, y mae yn fwy na thebyg fod y dull hwn o drosglwyddo hysbysiadau wedi ei sefydlu mewn gwledydd, lle yr oedd llyfrau, ysgrifbinau, ac ysgrifenu yn adnabyddus.

Cyn rhoddiad y gyfraith gan Dduw i Moses, yr oedd efe wedi gorchymyn ysgrifenu hanes y digwyddiadau pwysig oeddynt wedi cymmeryd lle yn ystod taith yr Israeliaid o'r Aipht i Ganaan; canys yn *Exod.* xvii. 14, dywedir, "a'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Ysgrifena hyn mewn llyfr." Hanes gorchfygiad yr Amaleciaid ydyw y peth cyntaf y dywedir iddo gael ei ysgrifenu gan Moses. Ymladdwyd y frwydr hon cyn i'r bobl adael Rephidim (*Exod.* xvii. 13), o ba le yr ymadawsant i anialwch Sinai (*Exod.* xix. 2); gan hyny, ysgrifenwyd yr hanes hwnw cyn i'r digwyddiadau ar y mynydd gymmeryd lle. Ysgrifenwyd y gyfraith "â bŷs Duw," tua 1491 o flynyddoedd cyn Crist. Er y pryd hwnw nid oes un ammheuaeth gyda golwg ar fodolaeth y gelfyddyd o ysgrifenu. Ysgrifenwyd y gorchymynion ar ddwy o lechau ceryg (*Exod.* xxxiv. 1); ond yn ddioed ar ol hyny, pan oedd Moses yn eiriol gyda Duw dros yr eilunaddolwyr pechadurus, efe a ddywed, "Dilea fi; attolwg, allan o'th lyfr a ysgrifenaist;" *Exod.* xxxii. 32. Pe buasai ysgrifen mewn llythyrenau yr egwyddor wedi ei gweled gan Moses am y waith gyntaf ar y "llechau o geryg," nis gallasai gael oddi wrth y rhai hyn y dychymyg lleiaf am lyfr—yr hwn beth sydd gyfansoddedig o ddalenau neu roliau, ac am yr hwn ni allasai y ceryg neu y llechau roddi iddo un drychfeddwl.

Yn mhen deugain mlynedd ar ol rhoddiad y ddeddf, cymmerodd yr Israeliaid feddiant o wlad Canaan, lle yr oedd y "dinasoedd yn gaerog ac yn fawrion iawn;" *Num.* xiii. 28. Yn mhlith lleoedd ereill a orchfygwyd, yr oedd un dref a elwid ganddynt yn Debir; ond enw gwreiddiol yr hon oedd Ciriath-sepher, sef dinas y llyfrau, neu Ciriath-sannah, sef dinas llythyrenau; *Jos.* xv. 49; *Barn.* i. 11. Nis gallasai y Canaaneaid ennill eu gwybodaeth o lythyrenau neu o lyfrau oddi wrth yr Hebreaid, â pha rai yr oeddynt yn hollol anghydnabyddus neu mewn rhyfel; ac am hyny rhaid eu bod wedi ei chael o ffynnonellau eraill. Gan fod y Canaaneaid yn disgyn o Canaan, mab Ham, y mae yn debygol eu bod wedi cadw a diwyllio yr un celfyddydau a gwyddorion ag a gariwyd gan Misraim, mab arall Ham, i'r Aipht: *Gen.* x. 6. Crybwyllir am "lyfr yr uniawn" (*Jos.* x. 13) gan Iosuah; ond pa un ai fel cronicl o ddigwyddiadau yr amser a aeth heibio, ynte yr amser presennol, ni wyddys yn sicr.

Digitized by Google

Rhaid fod Moses, yr hwn oedd "ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aiphtiaid" (*Act.* vii. 22), yn dra chydnabyddus â llyfrau ac âg ysgrifenu; canys yr oedd y genedl hono, pan aned ef, wedi cyrhaedd gradd uchel mewn gwareiddiad. Pan ddarganfyddodd Dr. Young yr allwedd, drwy yr hwn y gellir deall ystyr yr arwyddluniau dirgelaidd, cafwyd allan fod yr Aipht, o'r cyfnod boreuaf, yn meddu gwybodaeth am ysgrifenu. Heb dderbyn y dyddiad pell a roddir gan rai amseryddwyr, yr hwn sydd yn pennodi dechreuad y teyrnach brenhinol cyntaf yno mor bell yn ol a 5867 c. c., nis gallwn lai na meddwl fod yr amseryddiaeth a fabwysiadwyd gan Usher yn rhy fŷr i gynnwys llawer o'r digwyddiadau ysgrythyrol. Nid ydyw amseryddiaeth yn ddim amgen na mater o opiniwn, wedi ei seilio ar hysbysiadau a geir o amrywiol ffynnonellau. Nid ydyw yn erthygl o ffydd; gan hyny, gellir ei newid a'i gwellhau yn unol â ffeithiau sicr a thystiolaethau y gellir ymddibynu arnynt.

Dywed Hales, gan ddilyn Josephus, fod Menes, brenin cyntaf y teyrnach Aiphtaidd cyntaf, wedi dechreu ei deyrnasiad yn y flwyddyn 2412 c.c. Ond yr oedd yr Aipht wedi cael ei llywodraethu gan olyniaeth o offeiriaid am amser maith cyn ei esgyniad ef i'r orsedd; ac yn eu dwyflywiaeth ystyrient mai Thoth neu Hermes, un o'u duwiau, oedd dyfeisydd llythyrenau. Ni ddarfu i'r Aiphtiaid erioed briodoli dechreuad y gelfyddyd o ysgrifenu i ddynion.

Arferid tair math o ysgrifen yn yr Aipht:—1af, Yr arwyddluniol, neu y llythyrenau cyssegredig. 2il, Yr offeiriadol, yr hon oedd yn fath o ysgrifen dalfyredig. 3ydd, Yr ysgrifen boblogaidd, yr hon oedd mewn arferiad cyffredin. Haera Leipsius fod yr Aiphtiaid yn defnyddio dwy gangheu-iaith yn eu hymddiddanion cyffredin, y rhai oeddynt yn hollol wahanol i'w gilydd; sef, y glasurol neu offeiriadol, a'r boblogaidd. Ysgrifenid y flaenaf bob amser mewn llythyrenau cyssegredig ac arwyddluniol; tra yr ysgrifenid y llall yn y llythyrenau poblogaidd. Tybia Wilkinson mai yr arwyddluniol oedd yr unig ddull o ysgrifenu yn yr amserau mwyaf hynafol; etto, addefa fod yr offeiriadol yn cael ei defnyddio yn yr hen oesoedd. Ond os ydyw darganfyddiad M. Prisse yn gywir, o *papyrus* y dywedir ei fod wedi ei ysgrifenu yn nheyrnasiad brenin, oedd hyd hyny yn anhysbys, yn y teyrnach Memphaidd cyntaf, ac mewn llythyrenau offeiriadol, ceir ei bod yn llawn mor hen a'r math arwyddluniol.

Os na cheir ysgrifen cyffredin (canys ni ellid rhoddi llythyrenau cyffredin ar gofadeiladau neu feddrodau, y rhai oeddynt gyssegredig) hyd o ddeutu y flwyddyn 600 c.c., nid ydyw yr amgylchiad hwnw yn profi fod y cyfryw ddull o ysgrifenu yn anhysbys yn yr amserau boreuaf; canys y mae yn amlwg, oddi wrth yr hanes am gladdedigaeth Iacob (*Gen.* l. 9), ac oddi wrth Gân Moses (*Exod.* xv. 1, a xiv. 26), fod gwŷr meirch yn rhan o fyddin yr Aipht; er hyny, nid oes ond enghraifft o ddyn ar gefn ceffyl yn mysg yr amrywiaeth mawr o gerfluniau yn gosod allan eu harferion a'u defodau. Gellir casglu oddi wrth y darluniau o'r dull y dygid y treialon yn mlaen o flaen y barnwyr fod yr Aiphtiaid yn ysgrifenu pob peth i lawr yn y modd mwyaf manwl. Yr oedd yn eu plith ysgrifenyddion brenhinol ac offeiriadol; ond rhaid fod graddau gwahanol yn cael eu defnyddio gan ddosbarthiadau ereill, gan fod yr achwynydd yn eu llys oedd cyfreithiol bob amser yn adrodd ei achos mewn ysgrifen, a'r diffynydd yn ei atteb hefyd mewn ysgrifen. Gellir casglu oddi wrth yr amgylchiad hwn, pe na byddai un arall, fod rhyw ysgrifen gyffredin boblogaidd yn bod i'r cyfryw ddybenion, heb law yr ysgrifen arwyddluniol gyssegredig, neu yr ysgrifen offeiriadol. Yn y darluniau sydd yn gosod allan y farn ar ol angeu, y mae Thoth, yr hwn a elwir "Ysgrifenydd Cyfiawnder," bob amser yn cael ei ddarlunio gyda'i lech, a'i ddull pan ar ddechreu ysgrifenu.

Ni wnelid nemawr yn yr Aipht heb ysgrifen. Defnyddid ysgrifenyddion ar bob achlysur, pa un bynag ai i benderfynu cwestiynau cyhoeddus ynte neillduol; ac ni wneid bargen o bwys heb ddangosiad ysgrifenedig o honi. Ar feddrod, y dywedir ei fod wedi ei adeiladu o ddeutu yr amser y gwnaed y pyramidiau, gwelir darlun o oruchwyliwr yn rhoddi cyfrif o nifer gwartheg a defaid ei feistr. Nis gallai yr ysgrifenwyr a'r goruchwylwyr, y rhai a ddefnyddid mewn cyngLawsion teuluaidd, trosglwyddiad tir, ac amaethyddiaeth, ddefnyddio y llythyrenau cyssegredig yn eu hymdrafodaeth; a phe buasent yn eu defnyddio, nis gallasai y bobl yn gyffredinol eu deall. Gan hyny, gellir casglu mai yr ysgrifen gyffredin oedd yr un a ddefnyddid gan y bobl yn eu holl ymdrafodaethau â'u gilydd.

Addefir yn gyffredinol mai o Phœnicia y dygwyd llythyrenau i Ewrop gyntaf, a'u bod wedi eu dwyn oddi yno gan Cadmus i Groeg, tua phymtheg cant o flynyddoedd cyn Crist:—yr hwn amser sydd yn digwydd ar yr un pryd a'r deunawfed teyrnach Aiphtaidd. Ond er nad oes neb yn mron yn gwadu mai dyma fel y daeth llythyrenau yr egwyddor i Ewrop, nid ydyw hyn yn profi mai y Phœniciaid oedd dyfeiswyr ysgrifen. Meddiannwyd Phœnicia gan y bobl hyny yn gynnar ar ol y diluw; ac os oedd y patriarch a'i feibion yn meddu gwybodaeth o lythyrenau, y mae yn ddiammheu y byddai i'w hiliogaeth gadw y coffadwriaeth a'r arferiad o'r cyfryw gymmunrodd ammhrisiadwy—yr hyn a drosglwyddid gan eu trefedigaeth i Groeg ac Affrica. Yn y Byd Newydd, cafwyd nad oedd gan y Peruiaid un gyfundrefn o ysgrifenu, er fod y Mexiciaid wedi gwneuthur cynnydd mawr mewn paentyddiaeth arwyddluniol.

Arferai y Semitiaid dori llythyrenau â chŷn ar briddfeini. Ceir enghreifftiau nodedig o hyn yn mhlith hen briddfeini Ninefeh a Babilon. Crybwylla Pliny fod priddfeini, gydag ysgrifeniadau arnynt, yn cael eu defnyddio i wneyd sylwadau seryddol gan y Babiloniaid. Nid oes, modd bynag, un prawf iddynt erioed gael eu defnyddio gan yr Hebreaid; y rhai yn dra boreu a arferent y dull mwy anhawdd, ond mwy parhaol, o ysgrifenu ar geryg (*Exod.* xxiv. 12; xxxi. 18; xxxii. 15; xxxiv. 1, 28; *Deut.* x. 1; xxvii. 1; *Jos.* viii. 32), ar y rhai y torid llythyrenau gyd âg offeryn haiarn (*Job* xix. 24; *Jer.* xvii. 1). Yr oeddynt hefyd yn gydnabyddus â'r gelfyddyd o gerfio ar fettel (*Exod.* xxviii. 36) a gemau: *Exod.* xxviii. 9. Defnyddid coed ar rai achlysuron (*Num.* xvii. 3), a chrybwyllir am ystyllod bocs i ysgrifenu arnynt yn 2 *Esdr.* xiv. 24. Tybir fod y plwm, at yr hwn y cyfeirir yn *Job* xix. 24, yn cael ei dywallt pan yn doddedig i'r tyllau a wnelid yn y gareg gyda chŷn o ddur, mewn trefn i'w gwneuthur yn barhaol; ond nid yw yn ymddangos iddo erioed gael ei ddefnyddio gan yr Hebreaid fel defnydd i ysgrifenu arno. Ysgrifenid pob hysbysrwydd y bwriedid iddo

Digitized by Google

fod yn barhaol ar lechau o bres [1 *Macc.* viii. 22; xiv. 27]; ond oddi wrth y dull yn yr hwn y crybwyllir hwynt, y mae yn eglur mai eithriad fyddai iddynt gael eu defnyddio. Y mae yn dra thebygol mai y defnydd hynaf, yn gystal a'r mwyaf cyffredin, a arferid gan yr Hebreaid i ysgrifenu arno oedd croen wedi ei barotoi at hyny mewn rhyw ddull neu gilydd. Yr ydym yn gwybod fod yr Hebreaid yn arfer trin crwyn (*Exod.* xxv. 5; *Lef.* xiii. 48); a dichon eu bod wedi cael gwybodaeth am y gelfyddyd gan yr Aiphtiaid, yn mysg pa rai yr oedd hyn wedi cyrhaedd gryn berffeithrwydd. Yn mysg pethau eraill, dichon fod yr Hebreaid wedi benthyca y defnyddiad o bapur (*papyrus*) oddi wrth yr Aiphtiaid; ond nid oes genym un prawf sicr o hyn. Yr unig gyfeiriad yn y Beibl at y defnyddiad o bapur ydyw yn 2 *Ioan* 12. Yn Josephus [*Hyn.*, iii. 11, *adr.* 6] dywedir fod y prawf o odineb wedi ei wneuthur trwy ysgrifenu enw Duw ar groen: a chymmerodd y deg a thrigain o wŷr a anfonwyd at Ptolemy o Ierusalem gan yr archoffeiriad Eleazar, i gyfieithu y gyfraith i'r Groeg, gyda hwynt grwyn, ar y rhai yr ysgrifenwyd y gyfraith mewn llythyrenau euraidd [*Hyn.*, xii. 2, *adr.* 10]. Ysgrifenid y cofnodion Persiaidd hynaf ar grwyn; ac ymddengys mai crwyn a ddefnyddid y rhan amlaf gan y Semitiaid, os nad oeddynt yn neillduol iddynt. Defnyddid memrwn i ysgrifenu Pum Llyfr Moses arno yn amser Josephus. Un o'r darpariaethau yn y *Talmud* oedd, fod i'r gyfraith gael ei hysgrifenu ar grwyn anifeiliaid glân, dôf neu wyllt, neu hyd yn oed adar glân. Ffurfid y crwyn, wedi ysgrifenu arnynt, yn rholiau (*Salm* xl. 8: cymmh. *Esa.* xxxiv. 4; *Ier.* xxxvi. 14; *Ezra* ii. 9; *Zech.* v. 1): a rholid hwynt ar un neu ddau o roliau, a rhwymid hwynt âg edaf, penau yr hwn a sêlid: *Esa.* xxix. 11; *Dan.* xii. 4; *Dad.* v. 1, &c. O herwydd hyn, defnyddir y geiriau "plygu" (*Esa.* xxxiv. 4; *Dad.* vi. 14), a "lledu" (2 *Bren.* xix. 14; *Luc* iv. 17), am gau ac agor llyfr. Yn gyffredinol, ysgrifenid y rholiau ar un tu yn unig, ond dywedir eu bod wedi eu hysgrifenu ar y ddau du yn *Ezra* ii. 9, a *Dad.* v. 1. Gelwid y câs, yn yr hwn y cedwid y rholiau, yn *teuchos*. Ond heb law crwyn, y rhai a ddefnyddid i'r mathau mwyaf parhaol o ysgrifen, defnyddid argraph-lechi (*Luc* i. 63), wedi eu gorchuddio â chŵyr, i bob dybenion cyffredin. Cyssylltid amryw o'r rhai hyn wrth eu gilydd, a ffurfient gyfrolau. Ysgrifenid arnynt gyda phin blaenllym (*Iob* xix. 24)—weithiau o haiarn: *Salm* xlv. 2; *Ier.* viii. 8; xvii. 1. I sylweddau caletach, defnyddid cŷn (*Exod.* xxxii. 4; *Esa.* viii. 1): a gelwid y pwynt caled "ewin o adamant;" *Ier.* xvii. 1. Ar femrwn neu groen, defnyddid corsen i ysgrifenu (3 *Ioan* 13); ac yn ol rhai, nid oedd y gyfraith i'w hysgrifenu â dim arall. Yr oedd yr inge (*Ier.* xxxvi. 18), yn llythyrenol, yn "ddu" (2 *Cor.* iii. 3; 2 *Ioan* 12; 3 *Ioan* 13); a cherid ef mewn corn, yr hwn a grogid wrth y gwregys (*Ezra* ix. 2, 3)—fel y gwneir yn y dyddiau hyn yn y dwyrain.

YSGRIFEN-LAW. Tybia rhai mai y ddeddf foesol a olygir wrth yr "ysgrifen-law," yr hon a ysgrifenwyd â bys Duw ar y llechi, a'r hon oedd yn ein herlyn, ac yn ein dal yn euog. Haera eraill mai y ddeddf seremonïol oedd y ddeddf "mewn ordeiniadau." Dywed Calvin mai yr "ysgrifen-law" oedd "ordeiniadau" y ddeddf seremonïol, fel yr oeddynt yn gydnabyddiaeth o ddyled dyn i'r holl ddeddf. Yr oedd pob defodau—y golchiadau, a'r aberthau, &c.—yn cyfeirio at euogrwydd dyn; neu yn ddyleb (*bill*) yn erbyn dyn, yn cyhoeddi ei euogrwydd, ac yn deffro ynddo ymwybyddiaeth o hono. Ond trwy farwolaeth Crist, y mae yr euogrwydd yn cael ei ddileu, ac y mae y *bill*, neu y defodau oeddynt yn ei gydnabod, yn cael ei ddileu. Nid oes gan y ddeddf allu condemniol mwy yn erbyn y credadyn, o blegid y mae cyfiawnder Crist yn gyfiawnder iddo ef.

YSGRIFENYDDION. Y mae y sefyllfa dra phwysig a feddiennir gan yr ysgrifenyddion yn hanesiaeth yr efengyl yn ddigon ynddo ei hun i wneuthur gwybodaeth o'u bywyd a'u haddysg yn hanfodol angenrheidiol er iawn ddeall gwaith yr Arglwydd Iesu. Trwy eu dylanwad hwy, i raddau helaeth, yr oedd ffurf diweddaf Iuddewiaeth wedi ei gyfansoddi. Trwyddynt hwy cyhoeddwyd "athrawiaeth newydd," o'r fath ag ydoedd. Yr oeddynt yn ddangosiad llawer cywirach o fywyd y genedl nag yr oedd yr offeiriaid na'r Lefiaid. Ar y llaw arall, rhaid i ni wybod pa beth oeddynt mewn trefn i ddeall y gwahaniaeth rhwng eu geiriau a'u gweithredoedd hwy a'r eiddo ein Harglwydd. Ar y llaw arall, rhaid i ni beidio anghofio y ffaith eu bod mewn rhai pethau, o angenrheidrwydd, yn debyg i'w gilydd. Er mor groes oedd ei addysg ef, o ran ei hegwyddorion hanfodol, i'r eiddynt hwy, etto yr oedd efe, yn ngolwg dynion, fel un o'u hurdd—yn Ysgrifenydd yn mysg yr ysgrifenyddion, ac yn Rabbi yn mysg y rabbiniaid.

Gyda golwg ar eu henw, gellir sylwi fod tri o ystyron yn cael eu cyssylltu â'r ferf *saphar*, gwreiddyn y gair *sopherim*—1. ysgrifenu; 2. gosod mewn trefn; 3. cyfrif. Defnyddiwyd pob un o'r rhai hyn fel eglurhâd ar y gair. Gelwid y *sopherim;* felly, o herwydd eu bod yn ysgrifenu y gyfraith allan, neu o herwydd eu bod yn dosbarthu ac yn trefnu ei gorchymynion hi, neu o herwydd eu bod yn cyfrif gyda manylrwydd mawr bob adran a llythyren a gynnwysid ynddi. Yr oedd traddodiadau yr ysgrifenyddion, y rhai a ymffrostient yn eu gorchestion eu hunain, yn ffafriol i'r olaf o'r ystyron hyn. Yr ail ydyw y mwyaf cydweddol â'r dyledswyddau milwrol cyssylltiedig â'r gair yn amserau boreuaf eu hanes. Barna y rhan fwyaf o'r ysgolheigion Hebreaidd mai y cyntaf ydyw ei wir ystyr. Y mae y gair Groeg cyfystyr yn attebi'r gair a darddodd o hono, yn hytrach nag i'w ystyr gwreiddiol. Yr oedd ysgrifenydd llywodraeth Groeg, nid yn unig yn ysgrifenydd, ond yn geidwad ac yn gofrestrydd yr ysgrifeniadau cyhoeddus: *Act.* xix. 35. Yr un modd yr oedd ysgrifenyddion Ierusalem yn geidwaid ac yn esbonwyr yr ysgrifeniadau ar ba rai yr oedd gwladlywiaeth y genedl yn gorphwys. Ceir geiriau eraill a gymmhwysir at yr un dosbarth yn y Testament Newydd. Defnyddir "cyfieithwyr" yn *Mat.* xxii. 35; *Luc* vii. 30; x. 25; xiv. 3: a "doctoriaid y gyfraith" yn *Luc* v. 17; *Act.* v. 34. Ymddengys mai y gair *ysgrifenydd* ydyw y mwyaf cyffredin.

Dichon fod yr enw *Ciriath-Sepher* (yn ol y Deg a Thrigain, "ysgrifenydd y ddinas:" *Ios.* xv. 15; *Barn.* i. 12) yn dal cyssylltiad â rhyw ddefnydd boreuol o'r teitl. Yn Nghân Deborah (*Barn.* v. 14), ymddengys fod y gair yn cyfeirio at ddyledswyddau milwraidd. "Pin yr ysgrifenydd," y mae yn debyg, ydoedd y wialen, neu y deyrnwialen, a ddefnyddid gan y llywydd pan yn rhifo neu yn arwain ei filwyr. Ymddengys



Digitized by Google

y teitl yn fwy eglur yn hanes boreuol y frenhiniaeth. Crybwyllir tri o ddynion fel yn cyflawni y swydd o ysgrifenydd yn olynol dan Dafydd a Solomon: 2 *Sam.* viii. 17; xx. 25; 1 *Bren.* iv. 3. Ni ddywedir wrthym pa ddyledswyddau a gyflawnid ganddynt; ond y mae y lle uchel a roddir iddynt, ochr yn ochr gyda'r archoffeiriad a chadben y llu, yn cynnwys eu bod yn meddu awdurdod ac anrhydedd. Gellir tybied mai ysgrifenyddion y brenin oeddynt, ac mai hwy fyddent yn ysgrifenu ei lythyrau, yn cyfansoddi ei ddedfrydau, yn arolygu ei gyllid (cymmharer gwaith yr ysgrifenydd dan Ioas, yn 2 *Bren.* xii. 12). Mewn tymmor diweddarach, cyssylltir y gair drachefn â'r weithred o rifo gallu milwraidd y wlad: *Ier.* lii. 25; *Esa.* xxxiii. 18. Pa fodd bynag, dechreuodd cyssylltiadau eraill ymgasglu o'i amgylch o ddeutu yr un amser. Arweiniodd sêl Hezeciah ef i gefnogi corph o ysgrifenwyr—gwaith pa rai oedd adysgrifenu hen gofnodion, neu ysgrifenu yr hyn oedd wedi ei drosglwyddo i lawr â'r genau: *Diar.* xxv. 1. Gan hyny, i'r tymmor hwn y perthyn pwysigrwydd newydd y teitl. Nid ydyw mwyach yn dynodi swyddog yn unig yn llys y brenin, ond dosbarth o bobl—astudwyr, ac esbonwyr y gyfraith, y rhai a ymffrostient yn eu doethineb: *Ier.* viii. 8.

Rhoddodd deng mlynedd a thrigain y caethiwed ogoniant newydd i'r enw. Gellir tybied fod yr alltudiaid yn awyddus uwch law pob peth i gadw y llyfrau cyssegredig, y cyfreithiau, yr hymnau, a phrophwydoliaethau yr amser a aeth heibio. Gwybod pa beth oedd yn werth ei gadw, adysgrifenu yr hen ysgrifeniadau Hebraeg yn gywir, pan yr oedd iaith lafaredig y bobl yn pasio i'r Aramaeg, ac egluro yr hyn oedd yn anhawdd a thywyll—dyma yr hyn a ofynid gan anghenion yr oes hono. Gelwid y dyn a allai wneyd hyn yn "Ezra yr Ysgrifenydd," gan fod ei ddyledswyddau offeiriadol wedi eu taflu i'r cysgod gan y swydd o ysgrifenydd. Rhydd *Ezra* vii. 10, ddisgrifiad o ddyledswyddau uchaf y swydd newydd. Y mae yr ysgrifenydd "i geisio cyfraith yr Arglwydd, ac i'w gwneuthur, ac i ddysgu yn Israel ddeddfau a barnedigaethau." Hyn, yn llawer mwy na'i offeiriadaeth, oedd gwir ogoniant Ezra. Yn ngolwg hyd yn oed brenin Persia, yr oedd efe yn "ysgrifenydd deddf Duw y nefoedd;" *adn.* 12. Cynnorthwyid ef yn ei waith gan eraill—yn benaf gan Lefiaid. Yr oeddynt yn darllen ac yn egluro y gyfraith yn gyhoeddus, ac hwyrach eu bod hefyd yn ei chyfieithu o'r Hebraeg—yr hon oedd eisoes yn mron wedi myned allan o arferiad, i Aramaeg y bobl: *Neh.* viii. 8—13.

Nid oes genym ond ychydig o hanes yr amser a ddilynodd. Daeth swydd yr ysgrifenyddion yn fwy i'r amlwg yn barhaus. Ceir olion o'u gwaith a'u dylanwad yn y llyfrau canonaidd mwyaf diweddar. Cydnabyddid hwynt eisoes fel "meistriaid y gynnulleidfa," yn gweithredu dan "un bugail," ac yn meddu rhyw gymmaint o fywyd corphoriaethol: *Preg.* xii. 11. Fel y cyfryw, hwy a osodasant eu bryd yn sefydlog i amddiffyn y gyfraith a'r prophwydi, ac i gau oddi wrth bob cydraddoldeb â hwynt y "llyfrau lawer," ar y rhai "nid oes dyben;" *Preg.* xii. 12. Ymddangosent fel dosbarth ar wahân—"tylwyth yr ysgrifenyddion"—gyda lle neillduol i breswylio ynddo: 1 *Cron.* ii. 55. Casglent, fel yn nau lyfr y Cronicl, grynodeb o hanesion helaethach: 1 *Cron.* xxix. 29; 2 *Cron.* ix. 29. Dengys y digwyddiad o'r gair *midrash* ("histori—ymyl y ddalen, 'esboniad'—y prophwyd Ido"), a ddaeth wedi hyny mor nodedig, yn 2 *Cron.* xiii. 22, fod y gwaith o esbonio ac egluro yr Ysgrythyrau wedi dechreu yr amser hwnw.

Yn awr, ni a sylwn ar ddadblygiad athrawiaeth yr ysgrifenyddion. Ffaith neillduol gyda golwg ar ysgrifenyddion y tymmor hwn ydyw, nad oes genym, gyda'r eithriad o Ezra a Sadoc, gofnodion o'u henwau. Anrhydeddodd oes ddiweddarach hwynt gyda'u gilydd fel dynion y Synagog Fawr, gwir olynwyr y prophwydi; ond y mae y dynion eu hunain, trwy offerynoliaeth pa rai yr ysgrifenwyd Ysgrythyrau yr Hen Destament yn eu llythyrenau presennol, yn aros yn anhysbys i ni. Ni wnaethpwyd erioed, hwyrach, waith mor bwysig mewn dull mor ddistaw. Credir eu bod wedi gwneyd felly yn fwriadol. Unig amcan yr ysgrifenyddion boreuol hyny oedd meithrin parch i'r gyfraith, gan ei gwneyd yn rheol bywyd ac ymarweddiad y genedl. Nid ysgrifenasant ddim o'u heiddo eu hunain, rhag i eiriau llai teilwng gael eu hystyried yn gydradd âg oraclau Duw. Os oedd eisieu esboniad, nid oedd i gael ei roddi ond â'r genau yn unig. Nid oedd un gorchymyn i'w ystyried fel yn gorphwys ar eu hawdurdod hwy. Treulient eu hamser i adrodd, darllen (fel yn *Neh.* viii. 8), ac i astudio y testyn yn fanwl; a gosodasant i lawr reolau i'w ysgrifenu gyda'r manylrwydd mwyaf.

Priodolir dywediad i Simon y Cyfiawn (300—290 c.c.), yr olaf o olyniaeth gwŷr y Synagog Fawr, yr hwn sydd yn cynnwys yr egwyddor ar yr hon yr oeddynt wedi gweithredu, ac yn ein galluogi i olrhain y cam nesaf yn nghynnydd eu cyfundrefn. "Y mae ein tadau," ebe fe, wedi dysgu i ni dri pheth; sef, bod yn ochelgar wrth farnu, dysgu llawer o ysgolheigion, a gwneyd clawdd o amgylch y gyfraith." Ewyllysient wneuthur cyfraith Moses yn rheol bywyd i'r holl genedl, ac i bob dyn ar ei ben ei hun. Ond o angenrheidrwydd, y mae pob cyfraith o'r fath, pob *code* anffurfiol a hanner rheolaidd, yn codi cwestiynau y rhai nid ydyw yn eu penderfynu. Y mae amgylchiadau yn newid, tra y mae y gyfraith yn aros yr un. Y mae achosion yn digwydd yn nghanol amrywiaeth diderfyn bywyd nad ydyw hi wedi gwneyd darpariaeth ar eu cyfer. Buasai cyfreithiwr Rhufeinaidd neu Roegaidd yn ymwneyd â'r rhai hyn ar egwyddorion y tu allan i orchymynion y gyfraith. Iddo ef, safent oll ar yr un tir—yr oeddynt oll mor ddwyfol a'u gilydd. Yr oedd yn rhaid i bob achos gael ei benderfynu drwy eu hawdurdod hwy.

Dangosodd y canlyniad fod eu hymlyniad cryf wrth y llythyren yn hyn, fel mewn amgylchiadau eraill, wedi bod yn ddinystriol i'r parch oddi ar yr hwn y cododd. Yn raddol, aeth yr ysgrifenyddion i goleddu syniadau y buasai cynnrychiolwyr boreuol yr urdd yn cilio oddi wrthynt gyda dychryn. Ffurfiasant eu dedfrydau ar wahanol byngciau yn gyfundrefn ddyrus o reolau newyddion i benderfynu ammheuon cydwybod. Gan fod y rheolau newyddion, y rhai etto a drosglwyddid â'r genau, yn fwy cyfaddas i amgylchiadau bywyd dynion na'r hen rai, daethant yn ymarferol i gymmeryd eu lle. Anrhydeddid "geiriau yr ysgrifenyddion" (y rhai erbyn hyn a ddefnyddiwyd yn gyffredin i ddynodi y dedfrydau hyn) uwch law y gyfraith. Yr oedd yn fwy o bechod troseddu yn eu herbyn hwynt nag yn erbyn y gyfraith. Edrychid arnynt hwy fel gwin, tra yr edrychid ar orchymynion y

Digitized by Google

gyfraith fel dwfr. Yna dechreuasant ddiddymu gorchymynion Duw er mwyn eu traddodiadau eu hunain. Defnyddiasant ammheuon cydwybod fel rhyw ddyfeisiau dichellgar i ochelyd y dyledswyddau egluraf, gan hòni hawl i ymyryd â chydwybodau dynion: *Mat.* xv. 1—6. Nid yn unig anghofiasant y berthynas oedd rhwng gorchymynion moesol a gorchymynion seremonïol, ond rhoisant y naill yn hollol yn lle y llall.

Ceir hanes llawn o ddadblygiad y tueddiadau hyn dan y gair TALMUD. Yma, digon yw sylwi pa fodd yr oedd addysg yr ysgrifenyddion yn amser ein Harglwydd yn arwain i'r canlyniad hwn. Eu gwaith cyntaf oedd adrodd dedfrydau rabbiniaid blaenorol. Y rhai hyn oeddynt yr *Halachoth;* sef, gorchymynion rhwymedig ar y gydwybod. Fel y lliosogent, byddai raid eu casglu ynghyd, a'u gwneuthur yn ddosbarthiadau. Tyfodd cyfundrefn (*code*) newydd arall, —y *Mishna*—allan o honynt, i ddyfod yn ei thro yn destyn cwestiynau ac esboniadau newydd. O'r diwedd, cymmerodd ysbryd yr esbonwyr fwy o ryddid. Yna dygwyd i mewn hanesynau yr ysgolion, neu lysoedd y gyfraith, dywediadau rabbiniaid, a chwedlau Iuddewaidd (*Tit.* i. 14), gyda neu heb fod un berthynas rhyngddynt a'r cyd-destyn, a llanwyd i fyny fesur Gosodiadau y Gyfraith Rabbinaidd gan y *Gemara* gyda'u gilydd, fel yr ystyrir fod y *Talmud* (addysg), yn cynnwys "athrawiaeth a dysgeidiaeth angenrheidiol" pob Iuddew dysgedig.

Ochr yn ochr gyda hyn, yr oedd dadblygiad mewn cyfeiriad arall. Nid fel cyfundrefn o gyfreithiau yn unig yr astudid y llyfrau cyssegredig. Perthynai y gorchwyl o chwilio i'w hystyr o'r dechreu i'r swydd o ysgrifenydd. Credai yr ysgrifenyddion fod yr hwn a'i chwiliai hwynt felly yn gwbl sicr o fywyd tragywyddol: *Ioan* v. 39. Ond yma hefyd, awgrymai y llyfrau feddyliau, nas gellid trwy resymeg eu tynu o honynt. Deuai dynion atynt gyda chredoau newyddion (newydd o ran eu ffurf, os nad o ran eu hanfod); a chan nad oeddynt yn cael un sail iddynt mewn esboniad llythyrenol, gorfodwyd hwynt i'w hesbonio mewn dull hollol wrthlythyrenol. Ymddengys ffrwyth yr ymdrech hwn i gael yr hyn nad oedd ynddynt yn y *Midrashim* (ymchwiliadau) ar amrywiol lyfrau yr Hen Destament. Y gweithrediad neu y modd drwy yr hwn y ceid allan yr ystyr moesol neu gyfriniol, a elwid *Hagada* (dywediad, opiniwn). Y mae'n amlwg nad oedd un terfyn pennodol i'r cyfryw weithrediad. Yna daeth yn ddiareb, na ddylai un dyn dreulio un diwrnod yn Beth-ham—*Midrash* ('tŷ yr esboniwr') heb gael rhyw oleuni newydd. Ond yr oedd gradd uwch hyd yn oed na'r *Hagada*. Cyrhaeddodd yr ysgol esboniadol gyfriniol i'w phwynt uchaf yn y *Kabbala;* sef, yr athrawiaeth a dderbynid. Daeth pob llythyren, pob rhif, yn llawn o ddirgelion, a rhoddent yr esboniad mwyaf dychymygol ac annaturiol arnynt.

Fel y dywedwyd, aeth enwau yr ysgrifenyddion boreuol heibio heb eu cofnodi. Ymddengys mai Simon yr Uniawn (o ddeutu 300—290 C. C.) oedd yr olaf o wŷr y Synagog Fawr, ac ystyrir ef fel dechreuwr cyfnod newydd. Cymmerwyd rhan arbenig gan y personau hynod a ddilynasant—Antigonus o Socho, Sadoc, Boothos—yn y gwrthwynebiad a ddangoswyd i'r gyfundrefn draddodiadol a ffynai ar y pryd. [Gwel SADUCEAID.] Modd bynag, ni bu erioed ond lleiafrif bychan yn ymlynu wrth ddaliadau y Saduceaid. Yr oeddynt yn tueddu, drwy eu bod yn sefyll dros ddigonolrwydd llythyren y gyfraith, hyd yn oed i ddinystrio galwedigaeth ysgrifenydd, a'r dosbarth oedd, fel y cyfryw, yn perthyn i blaid eu gwrthwynebwyr. Cyssylltid y geiriau 'ysgrifenyddion' a 'Phariseaid' ynghyd trwy rinwedd y berthynas agos oedd rhyngddynt: *Luc.* v. 30. [Gwel PHARISEAID.] O fewn y blaid hono yr oedd graddau ac is-ddosbarthiadau; ac mewn trefn i ddeall eu perthynas â'u gilydd yn amser ein Harglwydd, neu eu cyssylltiad â'i fywyd a'i addysg, rhaid i ni edrych yn ol at yr hyn a wyddys am y pum cwpl o ddysgawdwyr, y rhai oeddynt yn cynnrychioli yr olyniaeth ysgrifenyddol. Pa ham yr enwir dau, a dim ond dau, yn mhob achos, nis gallwn ond dyfalu yn unig. Ond nid ydyw y traddodiad rabbinaidd, fod un bob amser yn *Nasi* neu Lywydd y Sanhedrim fel cynghor, a'r llall yn *Ab-beth-din* (Tad Tŷ Barn), yn llywyddu yn y llys uchaf, neu yn y Sanhedrim, pan y byddai yn eistedd fel y cyfryw, yn annhebyg o fod yn gywir.

Y ddau enw sydd yn sefyll yn mlaenaf mewn trefn ydynt Ioses fab Ioezer, offeiriad, ac Ioses fab Iochanan, y rhai oeddynt yn byw o ddeutu 140—130 C. C. Dengys yr addysg a briodolir iddynt hwy duedd at fwy o fanylrwydd gyda'r holl reolau cyssylltiedig â halogiad seremonïol. Dichon mai eu dymuniad i ysgaru eu hunain a'u dysgyblion oddi wrth bob achlysuron o halogiad a barodd i'r enw *Pharisead* gael ei ddefnyddio gyntaf. Yr oedd yr ymdrechfa ddewr â brenhinoedd Syria wedi troi yn benaf ar gwestiynau o'r natur yma; a dymuniad y ddau ddysgawdwr oedd parotoi y bobl erbyn unrhyw ymdrechfa ddyfodol trwy sylfaenu brawdoliaeth (y *Chaberim*—y cymmrodorion) fyddai yn rhwymedig i gadw y gyfraith yn y modd manylaf. Ymrwymai pob aelod o'r urdd ar ei dderbyniad i wneuthur hyn, yn mhresennoldeb tri *Chaberim*. Edrychent ar eu gilydd fel brodyr; ond byddent yn edrych ar y gweddill o'r genedl fel "pobl y ddaear." Yna cynnyddodd ysbryd ysgrifenyddiaeth. Cyfeiriai y gorchymyn cyssylltiedig âg enw Ioses, fab Ioezer—sef, "Bydded dy dŷ yn gyrchfan i'r doethion; llychia dy hun â llwch eu traed; ŷf yn awyddus o'u geiriau"—at gynnydd pellach. Ac o'r braidd yr attaliwyd ef gan wawd y Saduceaid—"y purai y Phariseaid hyn yr haul ei hun."

Yr oedd Iosuah, fab Berachiah, a Nithai o Arbela, yn gydoeswyr âg Ioan Hyrcanus (o ddeutu 135—108), ac yn mwynhau ei ffafr hyd tua diwedd ei deyrnasiad, pan y darfu i fympwy neu hunan-lês beri iddo fyned drosodd i wersyll y Saduceaid. Dengys y dywediad a briodolir i Iosuah—"Cymmer i ti dy hun ddysgawdwr (*rab*), ceisia i ti dy hun gymmrodor (*chaber*), barna bob dyn ar ei ochr oreu"—mor hawdd y gallai dyn beidio cydnabod dim o'r tu allan i derfynau ei sect neu ei urdd ei hun.

Dygodd enciliad Hyrcanus y Phariseaid, ac am hyny yr ysgrifenyddion fel dosbarth, i ddyryswch. Attaliwyd cyfarfodydd y Sanhedrim, neu daeth yr elfen Saduceaidd yn oruchaf ynddynt. Dan ei olynydd, Alexander Iannai, bu dylanwad Simon fab Shetach ar y fam-frenhines Salome yn foddion i adsefydlu uchafiaeth yr ysgrifenyddion am ychydig amser. Yna ymgynnullodd y Sanhedrim drachefn, heb neb i wrthwynebu uchafiaeth y blaid Phariseaidd. Cadwyd diwrnod y cyfarfod wedi hyny fel dydd gŵyl, yr hwn a ystyrid, o ran ei bwysigrwydd,

Digitized by Google

yn ail i ŵyliau y Purim a'r Cyssegriad. Trodd dychweliad Alexander o'i ryfelgyrch yn erbyn Gaza y byrddau drachefn. Cymmerodd wyth gant o Phariseaid noddfa mewn amddiffynfa:—gwarchauwyd hwynt, a chymmerwyd hwynt, a rhoddwyd hwy i farwolaeth. Gyrwyd Iosuah, mab Berachiah, pen hybarch yr urdd, i alltudiaeth; a bu raid i Simon fab Shetach, ei olynydd, ennill ei fywoliaeth trwy nyddu llin. Modd bynag, methodd y Saduceaid ennill ymddiried y bobl. Gan nad oedd ganddynt un corph o draddodiadau geneuol i syrthio arnynt, hwy a ddechreuasant gasglu cyfundrefn. Cyhuddid hwy gan eu gwrthwynebwyr o ddymuno gosod i fyny gyfreithiau newyddion, cydradd â chyfreithiau Moses; ond bu raid iddynt roddi yr ymgais i fyny. Ar farwolaeth Iannai, yr oedd dylanwad ei weddw, Alexandra, yn hollol o ochr yr ysgrifenyddion; ac ymaflodd Simon fab Shetach, ac Iudah fab Tabbai, yn eu gwaith fel cyd-ddysgawdwyr. Danynt hwy, daeth gwedd gyfreithiol swyddogaeth yr ysgrifenyddion yn fwy amlwg. Yr oedd eu rheolau yn troi yn benaf ar gyfreithiau tystiolaeth. Dangosasant trwy ddwy enghraifft hynod pa aberthau yr oeddynt yn barod i'w gwneyd er cefnogi y cyfreithiau hyny. Yr oedd Iudah, ar un achlysur, wedi condemnio gau dystion i farwolaeth. Arweiniodd ei sêl yn erbyn y pechod ef i esgeuluso y rheol a oddefai y gospedigaeth hono yn unig pan y byddai yn ganlyniad y cyhuddiad gwreiddiol. Cerydd-odd ei gydswyddog ef yn llym, gan ddyweyd, "Tydi a dywelltaist waed gwirion." O'r diwrnod hwnw, penderfynodd Iudah na byddai iddo ef byth gyhoeddi dedfryd heb yn gyntaf ymgynghori â Simon, ac ymdaflai bob dydd ar fedd y dyn yr oedd wedi ei gondemnio, gan erfyn ei faddeuant. Dangosodd Simon, yn ei dro, syniad cyffelyb am awdurdod oruchaf y gyfraith. Dygwyd ei fab ei hun o'i flaen ef fel troseddwr, ac efe a'i dedfrydodd ef i farwolaeth. Ar y ffordd i'r dienyddle, cyfaddefodd y tystion eu bod wedi rhoddi cam-dystiolaethau; ond y mab, yn fwy awyddus am iddynt hwy ddiangc nag am iddo ef ei hun gael byw, a drodd o amgylch, ac a erfyniodd ar ei dad i beidio attal cyflawniad y ddedfryd. Nis gallasai cymmeriad y fath ddyn lai na dylanwadu yn fawr ar ei ganlynwyr. I'w ddylanwad ef, y mae yn debygol, y gellir olrhain y gwroldeb anghyffredinol a ddangoswyd wrth amddiffyn y deml—yr hwn a ennillodd edmygedd hyd yn oed y cadfridogion Rhufeinig.

Yr oedd y ddau a ddilynasant, Semaiah ac Abtalion, yn amlwg am reswm arall. Yn awr, am y waith gyntaf, nid oedd yr athrawon a eisteddent yn nghadair Moses hyd yn oed o blant Abraham. Gan mai proselytiaid, neu feibion i broselytiaid, oeddynt hwy eu hunain, dyrchafwyd hwynt i'r swydd hon o herwydd rhagoriaeth eu gwybodaeth o'r gyfraith. Cynnhyrfodd hyn eiddigedd yr archoffeiriad. Fel yr ymgasglai y bobl o amgylch eu hoff Rabbi, pan fyddai yn cyhoeddi y fendith, efe a edrychodd o amgylch; a chan droi ei fendith yn wawd, efe a ddywedodd gyda phwyslais arbenig, "Bydded i feibion yr estron rodio mewn heddwch!" Yr oedd attebiad y ddau ddysgawdwr yn amlygu y teimlad o ddirmyg gyda'r hwn yr oedd y naill urdd yn dechreu edrych ar y llall:—"Ië: caiff meibion yr estron yn wir rodio mewn heddwch, canys y maent hwy yn gwneuthur gwaith heddwch. Nid felly mab Aaron, yr hwn nid ydyw yn dilyn esampl ei dad." Cawn yma hefyd rai dywediadau llawn o ystyr. Attaliwyd y cariad cynnyddol at deitlau o anrhydedd gan Semaiah drwy y cynghor, "y dylai dynion garu y gwaith, ond casau y Rabbiniaeth." Ceryddwyd y duedd oedd at opiniynau newyddion gan Abtalion hefyd mewn gorchymyn sydd yn cynnwys dammeg:—"Cymmer ofal am dy eiriau; rhag, os crwydri, i ti ddisgyn ar fan lle y mae y ffynnonau wedi eu gwenwyno, ac i'th ysgolheigion, y rhai a ddeuant ar dy ol, yfed llawer, a meirw." Syrthiodd coelbren y rhai hyn hefyd ar ddyddiau drwg. Yr oeddynt yn ddigon gwrol i geisio lluddias Herod yn ei wrthwynebiad beiddgar i'r Sanhedrim. Ond pan ddangosodd ei fod yn anwrthwynebol, yr oeddynt hwy yn ddigon doeth i ymostwng; a chaniatawyd iddynt fyned yn mlaen gyda'u gwaith mewn heddwch. Modd bynag, yr oedd ei ogoniant, i fesur mawr, wedi darfod. Ni thaflwyd eu hysgol yn agored yn hwy i bawb a ddeuent iddi, fel y gallai torf fawr wrandaw ar eu dysgawdwr; ond yr oedd yn rhaid talu swm pennodol wrth fyned i mewn. Dichon fod y trefniant hwn wedi ei fwriadu i attal dynion ieuaingc Ierusalem rhag rhoi eu presennoldeb yn nosbarthiadau Ierusalem; ac ymddangosai ei fod yn effeithiol. Ar farwolaeth Semaiah ac Abtalion, nid oedd unrhyw olynwyr cymmhwys i gymmeryd eu lle. Meddiannwyd ef dros amser gan ddau fab Bethera; ond yr oeddynt hwy eu hunain yn ymwybodol o'u hanghymmhwysder. Dygwyd cwestiwn o'u blaen hwynt, yr hwn nis gallent hwy, nac un o'r ysgrifenyddion eraill, ei atteb. Ac o'r diwedd, hwy a ofynasant, yn eu cyfyngder, "A oedd yno neb yn bresennol oedd wedi bod yn ddysgybl i'r ddau oeddynt wedi eu hanrhydeddu mor fawr?" Attebwyd y cwestiwn gan Hillel y Babiloniad, a adnabyddid hefyd, y pryd hwnw, neu ar ol hyny, fel mab Dafydd. Efe a benderfynodd yr anhawsder—appeliodd at egwyddorion; a phan ofynent am awdurdod, yn gystal ag am reswm, efe a ddiweddodd trwy ddyweyd, "Felly y clywais gan fy meistriaid, Semaiah ac Abtalion." Fel hyn, penderfynwyd yr anhawsder. Yna enciliodd meibion Bethera. Gwahoddwyd Hillel, trwy fanllefau o gymmeradwyaeth, i ymaflyd yn ei swydd uchel: a dichon fod ei haniad hônedig o deulu Dafydd wedi chwanegu at ei boblogrwydd.

O'r braidd y mae enw Hillel, yr hwn a anwyd o ddeutu y fl. 112 c. c., wedi derbyn y sylw a deilynga oddi wrth astudwyr hanesiaeth yr efengyl. Edrychir arno ef fel cynnrychiolydd ardderchocaf ei urdd, a chanfyddir ynddo y ffrwyth goreu y gallai cyfundrefn yr ysgrifenyddion ei gynnyrchu. Nid oes ammheuaeth na wnaeth efe lawer i barotoi y ffordd i'r addysg uwch oedd i ddilyn. Adroddir hanes dechreuad ei yrfa mewn chwedl; yr hon, er ei bod wedi ei hanffurfio gan yr hyn a chwanegwyd ati gan y Rabbiniaid, sydd etto yn newydd ac yn ddigon naturiol. Yr oedd Hillel, yr astudiwr ieuangc, wedi dyfod o Golah yn Babilonia i astudio dan Semaiah ac Abtalion. Nid ydoedd efe ond bachgen tlawd—ac heb ddim arian. Yr oedd y rheol newydd oedd yn gofyn tâl mewn grym. Treuliai y rhan fwyaf o'i amser i weithio i gael modd i fyw: cadwai ei hun â hanner ei ennillion, a thalai y gweddill fel taliad i borthor y coleg. Ond un diwrnod, yr oedd efe wedi methu a chael gwaith; a gwrthododd ceidwad y drws ei agor iddo, gan nad allai dalu; ond yr oedd ei awydd am wybodaeth yn anorchfygol. Efe a safodd o'r tu allan, dan ffenestr, i gopio yr hyn

Digitized by Google

a allai o eiriau yr ysgrifenyddion oddi mewn. Y gauaf oedd hi, a dechreuodd yr eira ddisgyn; ond efe a barhaodd i aros yno. Disgynodd hyd nes y gorweddodd chwe chufydd o uchder (!) o hono arno ef, a thywyllwyd a chauwyd y ffenestr i fyny. O'r diwedd, sylwodd y ddau ddysgawdwr ar y digwyddiad anghyffredin, ac anfonasant rywun allan i edrych pa beth oedd yn ei achosi; a phan y cawsant allan, derbyniasant yr ysgolhaig awyddus heb dâl. "Er mwyn y cyfryw ddyn," ebe Semaiah, "gallai un hyd yn oed dori y Sabbath." Yn nyddiau boreuaf ei weithgarwch, cydlafuriai Menahem â Hillel. Yr un person, y mae yn debygol, oedd y Menahem hwn ag Essene Manaen a grybwyllir gan Josephus. Modd bynag, hudwyd ef gan allu cynnyddol Herod; ac efe a aeth, ynghyd â nifer mawr (pedwar ugain, yn ol y traddodiad Rabbinaidd) o'i ganlynwyr, i wasanaeth y brenin; ac ymwrthodasant yn y fan â'u galwedigaeth fel ysgrifenyddion, ac â'u harferion defosiynol hefyd. Llanwyd y lle, a aeth yn wâg fel hyn, yn fuan gan Shammai. Perchid y naill yn mron yn llawn cymmaint a'r llall. Yn iaith yr Iuddewon, y Nasi oedd un, ac Ab-beth-din y Sanhedrim oedd y llall. Modd bynag, nid oeddynt yn addysgu fel yr oedd eu rhagflaenoriaid wedi gwneyd, mewn cyssondeb perffaith â'u gilydd. Ymgododd, am y waith gyntaf yn mhlith plaid y Phariseaid, ac yn mhlith urdd yr ysgrifenyddion, ddwy ysgol, o dueddiadau hollol groes i'w gilydd—un yn proffesu uniongrededd llym a manwl, a'r llall hefyd yn honi ei bod yn uniongred, ond fod ei huniongrededd yn llawer mwy rhyddfrydig. Yr oeddynt yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd mewn llawer iawn o bethau. Nid ydyw y rhan fwyaf o honynt, ac yn enwedig cwestiynau ynghylch achosion halogiad, ac ynghylch cyfraith cyttundebau ac ewyllysiau, o un dyddordeb arbenig i ni. Ar y dosbarth cyntaf o destynau, yr oedd ysgol Shammai yn cynnrychioli y dadblygiad eithaf o'r ysbryd Phariseaidd. Yr oedd pob peth y cyffyrddai pagan neu Israeliad aflan âg ef, yn dyfod drwy hyny yn aflan. Yr oedd "halogiad" fel afiechyd heintus, yr hwn yr oedd yn anhawdd iawn ei ochelyd, hyd yn oed gyda'r gofal manwl a ddisgrifir yn *Marc* vii. 1—4. Yr oeddynt hefyd yn ymgadw yn fanwl at gyfraith y Sabbath. Barnent ei fod yn anghyfreithlawn gwneyd unrhyw beth cyn y Sabbath, yr hwn a fyddai, mewn gwirionedd mewn gweithrediad yn ystod y Sabbath; er esampl, rhoddi brethyn mewn cerwyn lifo, neu rwydi yn y môr: ac nid oedd yn gyfreithlawn rhoddi arian i'r tlodion, neu ddysgu plant, neu ymweled â'r cleifion ar y Sabbath. Cadwent gyfraith priodas yn ei manylrwydd, a dalient nas gallai dim ond godineb y wraig gyfiawnhau ysgariaeth. Ni ddylem dybied, modd bynag, eu bod yn rhai gorfanwl yn eu bucheddau. Arddangosai y byd Iuddewig y pryd hwnw, fel yn fynych ar ol hyny, lawer iawn o anghyssonderau. Y "sect fanylaf" oedd hefyd y fwyaf bydol. Dywedid fod Shammai ei hun yn gyfoethog, yn loddestgar, ac yn hunananwesog. Ond parhaodd Hillel hyd ddydd ei farwolaeth mor dlawd ag oedd yn ei ieuengctid.

Yr oedd cymmeriad personol Hillel yn fwy hoffus a deniadol nag oedd cymmeriad personol Shammai. Tra, ar un llaw, y dysgai fel un tra chydnabyddus â thraddodiadau yr hynafiaid, yr oedd efe, ar y llaw arall, yn mhell o fod yn ddilynwr slafaidd i'r traddodiadau hyny. Efe oedd y cyntaf a osododd i lawr reolau i ddëongli y gyfraith ar egwyddor deg a rhesymol. Pan na byddai llythyren cyfraith—fel, er enghraifft, cyfraith blwyddyn rhyddhâd—mwyach yn gyfaddas i'r amseroedd, ond yn gweithio, mor bell ag y cedwid hi o gwbl, yn unig er drwg, efe a awgrymai esboniad arni a gyfarfyddai â'r anhawsder, neu a'i gosodai yn ymarferol o'r neilldu. Yr oedd ei addysg hefyd gyda golwg ar ysgariaeth yr un modd yn gyfaddas i dymmer yr oes. Byddai yn gyfreithlawn i ŵr roddi ymaith ei wraig am unrhyw achos a barai iddi golli ei ffafr—hyd yn oed am drosedd mor fychan a dyfetha ei giniaw drwy ei chogyddiaeth wael. Dangosir cymmeriad neillduol y dyn mewn rhai o'i ddywediadau; y rhai sydd yn dwyn ar gôf i ni dôn Iesu mab Sirach, ac yn cynnwys ychydig o debygolrwydd i addysg uwch:—"Nac ymddiried a ynot dy hun hyd ddydd dy farwolaeth." "Na farna dy gymmydog nes y byddi yn ei le." "Na âd ddim yn dywyll ac yn aneglur, gan ddywedyd wrthyt dy hun, Egluraf ef pan y caf amser: canys pa fodd y gwyddost ti y daw yr amser?" cymmh. *Iago* iv. 13—15. "Yr hwn a ennilla enw da, a'i hennilla iddo ei hun; ond yr hwn a ennilla wybodaeth o'r gyfraith a ennilla fywyd i dragywyddoldeb:" cymmh. *Ioan* v. 39. Mewn un rheol nodedig, yr ydym yn cael y tebygolrwydd mwyaf i'r gorchymyn mawr a geir yn yr efengyl:—"Na wna ddim i'th gymmydog nad ewyllysiech iddo ef ei wneyd i ti."

Daeth y gwahaniaeth rhwng addysg y ddau i'r golwg yn ymddygiad eu canlynwyr, yn gystal ag yn ymddygiad y dysgawdwyr. Yr oedd dysgyblion Shammai yn hynod ar gyfrif eu ffyrnigrwydd: appelient at nwydau y bobl, a defnyddient y cleddyf i benderfynu eu dadleuon. Allan o'r ysgol hon y tyfodd y blaid hono yn Galilea a elwir *Zelotiaid*—dallbleidwyr ffyrnig a dïalgar, a wrthodent dalu teyrnged i'r Rhufeiniaid. Ond yr oedd dysgyblion Hillel, fel ef ei hun, yn ochelgar, yn hynaws, yn ddioddefgar, yn wrthwyneb i wneyd gelynion, ac yn foddlawn i adael i bethau gymmeryd eu cwrs. Gwrthwynebid astudiaeth o lenyddiaeth Groeg gan un ysgol:—dangosai y llall duedd i'w meithrin. Ceisiai un arddodi ar y proselyt oddi wrth baganiaeth holl faich y gyfraith:—mynai y llall iddo gael ei drin gyda gradd o gydymdeimlad a thynerwch. A dengys un pwngc o ddadl rhwng y ddwy ysgol fod y gwahaniaeth yn myned yn ddyfnach na'r cwestiynau hyn, ac yn cyffwrdd â phethau pwysig iawn; megys, er enghraifft, "A oedd sefyllfa dyn mor lawn o drueni fel y buasai yn well iddo beidio a bod erioed? Neu, a oedd y bywyd hwn, gyda'i holl ddioddefaint, yn rhodd Duw, ac i'w werthfawrogi a'i ddefnyddio fel dysgyblaeth ar gyfer ryw sefyllfa uwch yn y dyfodol?" Fel y gallesid disgwyl, cymmerai ysgol Shammai y golygiad tywyllaf—ac ysgol Hillel y golygiad disgleiriaf a doethaf.

Yn allanol, rhaid fod addysg ein Hiachawdwr yn ymddangos i ddynion yn wahanol iawn i'r naill a'r llall. Tra yr adroddent hwy draddodiadau yr hynafiaid, llefarai ef "fel un âg awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion;" *Mat.* vii. 29. Cymmh. yr ymadrodd "meddaf i chwi," yr hwn a ail adroddir yn fynych. Tra y cyfyngent hwy eu haddysg i ddosbarth o ysgolheigion, byddai ef yn "tosturio wrth y torfeydd;" *Mat.* ix. 36. Tra na byddent hwy i'w cael ond yn unig yn y cynghor, neu yn eu hysgolion, byddai ef yn teithio trwy y dinasoedd a'r pentrefydd: *Mat.* iv. 23; a ix. 35, &c. Tra y llefarent hwy am

Digitized by Google

deyrnas Dduw yn aneglur, ac fel peth pell, dadganai efe ei bod hi eisoes wedi dyfod yn agos at ddynion: *Mat.* iv. 17. Ond am y rhan fwyaf o'r pyngciau oedd mewn dadl rhwng y ddwy ysgol, ymddangosai ef yn hollol wrthwynebol i ysgol Shammai, ond yn cydymdeimlo âg ysgol Hillel. Yn ei sylwadau ar y cwestiynau a ymgodasant yn mherthynas i gyfraith y Sabbath (*Mat.* xii. 1—14; ac 2 *Ioan* v. 1—16, &c.), a'r drychfeddwl am burdeb (*Mat.* xv. 1—11), cafwyd profion amlwg o hyn. Hyd yn oed yn y ddadl ynghylch ysgariaeth, tra mai ei brif waith oedd amddiffyn y gwirionedd yr oedd y dadleuwyr o bob ochr yn colli eu golwg arno, efe a gydnabyddodd reol Hillel fel esboniad cywir ar y gyfraith: *Mat.* xix. 8. Pan symiodd efe i fyny y gorchymyn mawr yn yr hwn y cyflawnid y gyfraith a'r prophwydi, efe a ail adroddodd y gorchymyn a roddwyd gan y dysgawdwr hwnw i'w ddysgyblion: *Mat.* vii. 12; xxii. 34—40. Mor bell, ar y llaw arall, ag yr oedd tymmer ysgol Hillel yn un o gyfaddasiad noeth at deimladau y bobl, gan lynu wrth draddodiad, ac yn ddiffygiol o syniadau priodol am fywyd uwch, y mae yn rhaid eu bod yn teimlo fod addysg Crist yn gondemniad diarbed arni.

Yn ol traddodiad y Rabbiniaid, bu Hillel fyw i gyrhaedd yr oedran mawr o 120; ac am hyny, dichon ei fod yn bresennol yn mhlith doctoriaid *Luc.* ii. 46; ac mai Gamaliel, ei ŵyr a'i olynydd, oedd penaeth yr ysgol hono yn ystod holl weinidogaeth Crist, yn gystal ag yn y rhan foreuaf o hanesiaeth Llyfr Actau yr Apostolion. Fel hyn, galluogir ni i egluro y ffaith, yr hon y mae cynnifer o adnodau yn yr Efengylau yn ein harwain ni i'w chasglu; sef, bodolaeth plaid ar hyd yr holl amser hwn yn mhlith yr ysgrifenyddion eu hunain, yr hon oedd yn tueddu, i raddau mwy neu lai, i gydnabod Iesu o Nazareth fel dysgawdwr (*Ioan* iii. 2; *Marc* x. 17), ac heb fod yn mhell oddi wrth deyrnas Dduw (*Marc* xii. 34), ac yn amddiffyn y priodoldeb o oddefgarwch (*Ioan* vii. 51):—ond ar y llaw arall, yn ofnus a gwasaidd, yn analluog i gyffesu hyd yn oed eu hanner crediniaeth, yn ofni cymmeryd eu safle yn erbyn y cynghrair dyeithr ac eithafol, yr hwn a gefnogid gan y dosbarth Saduceaidd yn yr offeiriadaeth, a chan ddilynwyr uwch-Phariseaidd Shammai. Pan ddaeth yr ymchwiliad mawr diweddaf, ymddengys eu bod wedi ymfoddloni ar ymgadw draw (*Luc* xxiii. 50, 51)—er ei fod yn bossibl na chawsant hyd yn oed eu gwysio; ac felly, cyfarfod wedi ei alw ynghyd yn frysiog, ac yn gyfansoddedig o gynghreiriaid, ac nid y Sanhedrim reolaidd, oedd y cynghor a gondemniodd ein Harglwydd. Yr oedd ei holl weithrediadau—sef yr ymchwiliad brysiog, a'r ddedfryd fyrbwyll—yn hollol afreolaidd. Ar ol hyny, pan nad oedd achos mwyach i ofni trais, a theimlad y bobl wedi troi, yr ydym yn cael fod Gamaliel yn ddigon gwrol i amddiffyn y priodoldeb o oddefgarwch: *Act.* v. 34.

Dechreuai yr addysg arbenig i swydd ysgrifenydd o ddeutu tair mlwydd ar ddeg oed. Yn ol y "*Pirke Aboth*" [v. 24], dechreuai y plentyn ddarllen y *Mikra* yn bump oed, a'r *Mishna* yn ddeg oed. Tair blynedd yn ddiweddarach deuai pob Israeliad yn blentyn y gyfraith, ac yr oedd yn rhwym o'i hastudio ac ufuddhau iddi. Ymfoddlonai corph mawr y bobl ar yr ychydig addysg a dderbynient yn y synagogau, ar ddeall ac adrodd eu *Tephillim*, a'r adnodau oeddynt yn ysgrifenedig ar eu phylacterau. I'r bachgen a fwriedid gan ei rieni, neu a ymgyflwynai i'r alwedigaeth o ysgrifenydd, yr oedd rhywbeth mwy yn ofynol. Elai i Ierusalem, a gofynai am dderbyniad i ysgol rhyw rabbi enwog. Os byddai yn dlawd, yr oedd yn ddyledswydd ar synagog ei dref neu ei bentref i dalu am ei addysg, a'i gynnaliaeth hefyd mewn rhan. Profid ei allu i ddysgu trwy arholiad ar ei dderbyniad i mewn. Os pasiai yr arholiad, deuai yn "un etholedig" (*Ioan* xv. 16), a dechreuai ar ei waith fel dysgybl. Ymgyfarfyddai yr athraw â'i ddysgyblion —y blaenaf a eisteddai ar gadair uchel, yr ysgolheigion hynaf ar faingc is, a'r ysgolheigion ieuangaf ar y llawr—y naill a'r llall yn llythyrenol "wrth ei draed." Ymgyfarfyddai y dosbarth mewn ystafell yn y deml wedi ei neillduo at y pwrpas hwnw, neu yn ysgol neillduol y rabbi. Yn chwanegol at y rabbi, neu y prif athraw, yr oedd athrawon cynnorthwyol, ac un cyfieithydd, neu gyhoeddwr—gwaith yr hwn oedd cyhoeddi yn uchel i'r holl ysgol pa beth yr oedd y rabbi wedi ei lefaru yn ddistaw: cymmh. *Mat.* x. 27. Holwyddorol yn benaf oedd yr addysg: rhoddai yr ysgolhaig achosion i lawr, a gofynai gwestiynau arnynt, ac yna holai yr athraw ef arnynt: *Luc* ii. Gallent fod yn foesol: megys, "Pa un oedd y gorchymyn mwyaf o'r cwbl?—Beth sydd raid i ddyn ei wneyd i etifeddu bywyd tragywyddol?" neu yn fater cydwybod—"Beth y gallai dyn ei wneyd, neu ei adael heb ei wneuthur, ar y Sabbath?" neu yn seremoniol—"Beth oedd, neu nid oedd, yn ei wneyd yn aflan?" Mewn adeg briodol, pasiai yr ysgolhaig yn mlaen at gyfreithiau meddiannau, cyttundebau, a thystioloethau. Mor bell a hyn, yr oedd efe o fewn cylch yr *Halachah*—esboniad syml ar "eiriau traddodiadol yr ysgrifenyddion." Gallai ymfoddloni ar hyn, neu gallai basio yn mlaen at wybodaeth uwch y *Beth-ham Midrash*, gyda'i ystorfeydd dihysbydd o esboniadau dirgelaidd. Yn y ddau achos, yn enwedig yn yr olaf, cyfrenid llawer o addysg iddo trwy ddammegion. Adroddai yr athraw y gyffelybiaeth, a gadawai i'w wrandawyr ei hesbonio drostynt eu hunain. Fod y berthynas rhwng y ddau yn fynych yn dra serchog, gallwn gasglu oddi wrth ddywediad un ysgrifenydd enwog—"Dysgais lawer gan y rabbiniaid, fy athrawon: dysgais fwy gan y rabbiniaid, fy nghyd-athrawon: ond dysgais fwy gan fy nysgyblion nag a ddysgais gan y cwbl."

Ar ol tymmor digonol o addysg, y mae yn debygol, yn yr oed o ddeng mlwydd ar hugain, derbynid yr ymgeisydd yn ddifrifol i'w swydd. Cyhoeddai y rabbi llywyddol y ffurf—"Yr wyf yn dy dderbyn di, ac yr ydwyt wedi dy dderbyn i gadair yr ysgrifenydd." Ordeiniai ef yn ddifrifol trwy arddodiad dwylaw, a rhoddai iddo ef, fel arwyddlun o'i waith, lechi, ar y rhai yr oedd efe i ysgrifenu i lawr ddywediadau y doethion, ac "agoriad gwybodaeth" (cymmh. *Luc* xi. 52), â'r hwn yr oedd efe i gau neu i agoryd trysorau y ddoethineb ddwyfol. Wedi iddo gael ei dderbyn fel hyn, cymmerai ei le fel *Chaber*, neu aelod o'r frawdoliaeth. Nid ystyrid ef mwyach yn "anllythyrenog ac annysgedig" (*Act.* iv. 13); ond yr oedd erbyn hyn i gael ei neillduo yn hollol oddi wrth "y bobl anwybodus, y rhai ni wyddent y gyfraith;" *Ioan* vii. 15, 49.

Yr oedd etto amryw o swyddau yn agored i ddewisiad y dysgybl. Gallai ymroddi i unrhyw un gangen o astudiaeth, neu uno dwy, neu chwaneg, o honynt. Gallai ymgodi i sefyllfaoedd uchel; sef, dyfod yn ddoctor y gyfraith, yn

Digitized by Google

gylafareddwr mewn ymgyfreithiau teuluoedd (*Luc* xii. 14), yn brif athraw mewn ysgol, neu yn aelod o'r Sanhedrim. Dichon y byddai raid iddo ymfoddloni ar y gwaith mwy distadl o adysgrifenwr am dymmhor; sef, copïo y gyfraith a'r prophwydi at wasanaeth y synagogau, neu y *Tephillim* at wasanaeth crefyddol; neu fod yn nodiadur i ysgrifenu cyttundebau gwerthiant, a chyfammodau, &c. Wrth gwrs, byddai sefyllfa y mwyaf ffodus yn un gysurus. Yn ol y syniad cyffredin, nid oedd y swydd o ysgrifenydd i fod yn ffynnonell o gyfoeth. Y mae'n ammheus pa mor bell yr oedd yr arian a delid gan yr ysgolheigion yn cael eu meddiannu gan yr athraw. Gweithiai yr enwog Hillel fel llafurwr wrth y dydd. Nid oedd y gwaith o wneuthur pebyll, na gwaith ein Hiachawdwr fel saer, mewn un modd yn anghysson â'r syniad poblogaidd am sefyllfa y rabbi mwyaf anrhydeddus—ond i'r gwrthwyneb. Dygai yr ysgolheigion hefyd yn aml roddion i'w hathrawon. Cynnaliai gwragedd gweddwon cyfoethog a chrefyddol rabbi fel gweithred o dduwioldeb yn fynych, a hyny er niwed i'w perthynasau: *Mat.* xxiii. 14. Gwobrwyid pob gweithred o eiddo y nodiadur hefyd, neu gylafareddiad y cyfreithiwr, â rhodd.

Am eu sefyllfa gymdeithasol, gellir dweyd fod anghyssondeb mawr rhwng eu damcaniaethau a'u hymarferion. Nid oedd gan yr ysgrifenyddion hynaf un teitl: fel y gwelsom, rhybuddiodd Shemaiah ei ddysgyblion yn eu herbyn. Yn amser ein Harglwydd, yr oedd yr awydd am enwogrwydd yn eu plith yn anniwalladwy. Yr oedd y raddfa esgynol, o *rab, rabbi, rabban* (yr hyn sydd yn dwyn ar gof i ni ein *parchedig, tra pharchedig*, a *gwir barchedig* yn mhlith clerigwyr Eglwys Loegr), yn arddangos cynnifer o risiau ar ysgol uchelgais. Ac y mae yn sicr fod y sylw mawr a wneir yn mysg Ymneillduwyr o deitlau, ac o wŷr y teitlau athrofaol, a'r arddangosiad gwâg a wneir o honynt yn fynych mewn cyfarfodydd crefyddol, yn arwydd o'r un ysbryd ag a welir yn y sefydliad, er nad ydyw yn ymddangos yn yr un ffurf. Ac nid oedd ffurfiau o fydolrwydd yn ddyeithr iddynt hwy. Y cyfarchiadau yn y marchnadoedd hefyd—y cusan parchus a roddid gan yr ysgolheigion i'w meistr, neu gan rabbiniaid i'w gilydd—yr anerch arferol o *Abba, dad*—eu phylacterau llydain—ac ymylwaith helaeth eu gwisgoedd:—y mae yr holl bethau hyn yn gwneyd i fyny y darlun o fywyd ysgrifenydd. Gan eu bod yn tynu atynt eu hunain yn mron holl alluoedd a nerth meddyliol Iuddewiaeth, yr oedd yr urdd offeiriadol yn analluog i ymgystadlu â hwynt. Os na ddeuai yr offeiriad yn ysgrifenydd hefyd, efe a arosai mewn dinodedd. Rhoddid y lleoedd goreu iddynt mewn gwleddoedd, a'r prif gadeiriau yn y synagogau: *Mat.* xxiii. 6; *Luc* xiv. 7.

Dan effaith y dylanwadau hyn, nodweddid yr urdd gan ragrith dwfn ac anfeddyginiaethol; er fod rhai o honynt "heb fod yn mhell oddi wrth deyrnas Dduw," ac yn offerynau trwy ba rai yr oedd doethineb Duw yn addysgu dynion: *Mat.* xxiii. 34. Ac yr oedd yr enw etto yn parhau yn anrhydeddus. Yr oedd yr apostolion eu hunain i fod yn ysgrifenyddion yn nheyrnas Dduw: *Mat.* xiii. 52. Ac ni ddarfu i'n Harglwydd ei hun wrthod yr anerchiadau oedd yn ei gyfarch ef fel rabbi.

YSGRIF-LYFRAU: cyn dyfeisio y gelfyddyd o argraphu, yr oedd gweithiau llenyddol yn cael eu hysgrifenu â llaw mewn llyfrau. Ysgrifenid hwy yn fynych ar femrwn, neu groen. A gellir yn hawdd ddileu yr ysgrifen trwy ddefnyddio y cabol-faen (*pumice stone*), neu rywbeth cyffelyb, i'w rwbio; ac yn enwedig os bydd yr ysgrifen yn hen. Ac os bydd i'r wyneb gael ei wneyd yn llyfn a chaboledig wedi hyny, nis gall neb, wrth edrych arno, o'r braidd ganfod fod ysgrifen wedi bod yno erioed. Yr oedd yr arfer o ail ddarparu crwyn, a defnyddiau ereill, i'w hail ddefnyddio, yn adnabyddus i'r hynafiaid; a gelwid y memrynau hyn ganddynt hwy yn adysgrif-lyfrau (*palimpsests*). Nid oes ammheuaeth nad oedd y dull hwn o ddarparu memrwn, i'w ddefnyddio yr ail neu y drydedd waith, yn adnabyddus gynt, nid yn unig yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, yn yr adegau yr oedd eu llenyddiaeth hwy yn ei bri uchaf, ond hefyd yn mysg yr Aiphtiaid. Y mae yr adysgrif-lyfrau llawysgrifol, sydd wedi bod yn fwnglawdd mor werthfawr i ymchwiliadau dysgedigion diweddar, o ddyddiad diweddarach; a diau iddynt gael eu dechreuad yn mhrinder a drudaniaeth defnyddiau i ysgrifenu, o'r seithfed ganrif i lawr. A'r adysgrif-lyfrau hyn y bydd a fynom yn benaf yn yr erthygl hon.

Yn nghyfnod boreuol yr ymherodraeth Rufeinig, yr oedd y cyflenwad helaeth o'r *papyrus* a ddygid o'r Aipht yn gwneuthur i ffwrdd â'r angenrheidrwydd o'r hyn nad oedd, ar y goreu, ond gwaith digon diflas a thrwsdan—sef, yr ail ddarpariad o ddefnyddiau oedd wedi bod dan ysgrifen o'r blaen i ysgrifenu drachefn arnynt. Ac o'r amser y darfu i Theodoric Fawr, yn nechreu y chweched ganrif, ddiddymu y dreth ar ddadforiad *papyrus*, darfu i ysgrifenyddion a chopïwyr y gorllewin, i raddau pell, gyfyngu eu hunain i'w ddefnyddio, oddi gerth pan yn ysgrifenu rhyw ysgrifau pwysig. Ond mewn cyfnod diweddarach na hwnw, pan ranwyd yr ymherodraeth yn hollol, yr hyn a barodd fod y cymmundeb rhwng y gorllewin a'r dwyrain yn anhawdd i'w gario yn mlaen, ac yn afreolaidd, adnewyddwyd yr hen drefn o adysgrifenu drachefn; ac, fel y bu ar ol hyny, mewn canlyniad i'r annhrefn a ddilynodd gwymp Italy i ddwylaw buddugwyr barbaraidd, adfeiliodd y celfyddydau a'r llaw-weithfeydd, ac nid oedd ond ychydig grwyn yn cael eu parotoi i ysgrifenu arnynt. O'r diwedd, wedi i'r Saraceniaid, drwy eu gwaith yn gorchfygu yr Aipht a Syria, ysbeilio Ewrop yn hollol o'r *papyrus*, daeth yr arferiad o lanhau ac ail ddarparu crwyn ag yr oedd ysgrifen wedi bod arnynt o'r blaen i arferiad cyffredinol; canys dyna bron yr unig beth y gellid ei gael i ysgrifenu arno, oedd yn ddigon rhad i gopïwyr y gorllewin i'w ddefnyddio, gan nad oeddynt yn gyffredin yn ddynion yn meddu ar lawer o gyfoeth. O ganlyniad, ffynai yr arferiad o gopio ar grwyn wedi eu hail ddarparu, os gellir barnu oddi wrth yr esamplau sydd wedi dyfod i lawr i'r amseroedd hyn, braidd yn foreuach yn y gyfran orllewinol o'r ymherodraeth, lle y teimlwyd yr angen am y *papyrus* yn gynt. Cyfarfyddir â llawysgrifau Lladinaidd, y rhai, yn ol pob ymddangosiad, yr ail ysgrifenwyd arnynt mor fuan a'r wythfed, ac hyd yn oed y seithfed ganrif: ond yn yr ysgrifau Groegaidd, y mae yr ail ysgrifen yn ddyddiedig yn gyffredinol—naill ai o'r unfed ar ddeg, y ddeuddegfed, neu o'r drydedd ganrif ar ddeg. Tybir yn gyffredin i hyn fod yn achlysur i liaws mawr o hen ysgrifau gael eu haberthu; ac y mae llawer yn

Digitized by Google

priodoli i hyn, yn gystal ag i ddiofalwch, ac i wrthwynebrwydd y cyfnod hwn i ddysgeidiaeth yr hynafiaid, golliant cynnifer o'r llawysgrifau Groegaidd a Lladinaidd—o herwydd colli pa rai y mae ysgolheigion diweddar yn gofidio cymmaint. Ond nid ydyw y llawysgrifau y gwyddys eu bod wedi eu hail ysgrifenu, sydd wedi eu darganfod hyd yn hyn, yn profi fod unrhyw ddinystr bwriadol wedi ei wneuthur ar hen ysgrifeniadau cyflawn. Y mae yr holl weddillion o lenyddiaeth Roegaidd a Rhufeinaidd, sydd yn gynnwysedig yn y rhai helaethaf o'r adysgrif-lyfrau hyn ag y gellir eu darllen, neu y gwyddys eu bod ar gael, mewn cytlwr mor ddrylliog a darniog, fel ag i awgrymu, yn y rhan fwyaf o enghreifftiau, y grediniaeth hon—eu bod eisoes, pan y parotowyd hwynt i'w hail ddefnyddio drachefn, yn ammherffaith, ac fe allai, wedi eu bwrw o'r neilldu fel yn ddiwerth. Nid oedd adysgriflyfr Brun o waith Livy yn cynnwys ond darn o'r unfed llyfr ar ddeg a phedwar ugain; na'r ysgriflyfr o "*Natural History*" Pliny chwaith, a ddarganfyddwyd gan Mone, yn cynnwys ond ychydig o'r llyfrau cyntaf; ac felly y gellir dywedyd am lawer ereill. Y maent, yn anffodus, mewn cyflwr mor ammherffaith, fel y mae yn anhawdd meddwl fod copiau gwreiddiol yr awdwyr, ar y rhai y gosododd yr adysgrifiwr ei law, yn ddim amgen na darnau nad oeddynt ond o ychydig werth, o herwydd y diffygion oedd ynddynt. Y mae rhai o'r adysgrif-lyfrau hyn y gellir dywedyd am danynt nad ydynt yn ddim amgen na mân ddarnau o weithiau gwahanol awduron.

Ond pa beth bynag oedd cyflwr yr ysgrifau gwreiddiol a ddetholwyd gan gopïwyr y canoloesoedd i ail ysgrifenu arnynt, y mae hyd yn oed y darnau o hen ysgrifeniadau y maent wedi bod yn offerynol i'w cadw yn ddiddadl o ddyddordeb mawr, ac mewn llawer o amgylchiadau o werth mawr, i'r rhai sydd yn talu sylw i addysg yr hynafiaid. Gyda'r craffder beirniadol a'i nodweddai, galwodd Montfaucon sylw yn gynnar at y ffrwyth toreithiog y gellid ei ddisgwyl oddi wrth ymchwiliadau manylaidd gofalus i'r trysorau cuddiedig hyn; ac nid ydyw yr ymchwiliadau a wnaed wedi troi yn siomedig. Y mae llafurwaith dysgedigion a fu yn llafurio yn y maes hwn eisoes wedi ei wobrwyo â llawer o ddarganfyddiadau, ac yn addaw mwy etto. Y mae rhai darnau o weithiau hynafol, y tybid eu bod wedi eu colli yn hollol, eisoes wedi eu darganfod; ac y mae hyn, o angenrheidrwydd, yn creu gobaith y gwneir darganfyddiadau cyffelyb etto yn yr un cyfeiriad. Y mae gwerth yn cael ei roddi yn mhob parth o Ewrop yn awr ar hen lawysgrifau, a chesglir a chedwir hwynt gyda'r gofal mwyaf. Am beth amser ar ol dyfeisio y gelfyddyd o argraphu, tybid, ar ol i gynnwysiad llawysgrif gael ei gopïo, a'i wasgaru drwy gyfrwng yr argraph-wasg, nad ydoedd yr ysgrif wreiddiol o un defnydd mwyach. Ond yn gymmaint a bod gwahanol lawysgrifau o'r un gwaith yn fynych yn amrywio mewn manau neillduol, deallwyd fod yn angenrheidiol casglu a chwilio nifer o honynt, mewn trefn i geisio gwneyd allan y darlleniadau cywir; ac heb y gofal rhagbarotoawl hwn, ni dderbynir argraphiad newydd o waith hynafol yn gymmeradwyol gan ddysgedigion. Dyna y defnydd mwyaf gwirioneddol sydd i hen lawysgrifau:—pan y defnyddir hwynt yn briodol, cynnorthwyant ni i gael gafael ar y gwir ddarlleniad—yr hwn a all fod wedi ei golli trwy yr adysgrifiad mynych o hono.

Ond wrth chwilio yn fanylach i ddosbarth neillduol o lawysgrifau, ymddengys fod gwerth arbenig ynddynt, yn gymmaint a'u bod yn gopïau mwy hynafol na'r copiau oedd yn hysbys o'r blaen; a bod ynddynt rai darnau o weithiau pwysig y tybiwyd eu bod wedi eu llwyr golli. Llawysgrifau ydyw y rhai hyn ag y mae ymgais wedi ei wneyd i ddileu rhyw hen ysgrifen oedd arnynt o'r blaen, mewn trefn i barotoi y memrwn neu y croen ar gyfer derbyn un arall, ond fod y gwaith wedi ei wneyd mor drwsgl fel y mae olion yr hen ysgrifen yn aros yn ganfyddadwy, ac yn y fath gyflwr fel y gall archwilwyr cywrain ac amyneddgar ei gwneyd allan. Yr ydys wedi darganfod fod llawer o lawysgrifau lled hynafol yn cuddio eraill oedd ganrifoedd yn hynach, ac yn fynych hefyd o fwy o werth a dyddordeb. Y mae nifer y cyfryw lawysgrifau, neu gyfranau o lawysgrifau, a gedwir yn ngwahanol lyfrgelloedd mawrion Ewrop yn dra lliosog. Gwahaniaetha yr adysgrif-lyfrau hyny gryn lawer o ran eu nodwedd a'u hymddangosiad. Mewn rhai o honynt y mae'r hen ysgrifen wedi ei dileu mor ammherffaith, naill ai trwy ei golchi, neu trwy ei rhwbio â chabol-faen neu ryw sylwedd arall, fel nad ydyw yr ysgrifen ddiweddaf yn nemawr o rwystr i ddarllen y wreiddiol: o ganlyniad, gall llygad cyfarwydd ei darllen a'i deall yn lled rwydd. Am eraill, pa fodd bynag, y mae, nid yn unig y cabol-faen a'r ysbwng, ond y gyllell hefyd wedi cael ei defnyddio, fel nas gellir, ond gyda chynnorthwy defnyddiau fferyllol cryfion, goleu clir, a gwydrau mwyhaol da, gael allan eu cynnwysiad. Yn yr oesoedd a ddilynodd yn uniongyrchol yr oes yn mha un y dyfeisiwyd y gelfyddyd o argraphu, yr oedd sylw dysgedigion wedi ei dynu mor llwyr at y rhifedi mawr o lawysgrifau o weithiau hen awduron oedd ar estyll yr holl lyfrgelloedd mawr, fel y diangodd llenyddiaeth yr adysgrif-lyfrau, neu yr ysgrifen gyntaf oedd ar y crwyn, bron yn ddisylw. Ond mor fuan ag y casglwyd i mewn y cynhauaf cyntaf, fel y gellir ei alw, ac y dechreuodd dynion werthfawrogi hyd yn oed y gweddillion a adawyd ar ol gan y llafurwyr cyntaf, nid hir y buwyd heb osod pris uchel ar y trysorau cuddiedig hyn. Y mae yn wir nad yw yr adysgrif-lyfrau sydd wedi eu darganfod hyd yn hyn ond darnau; a bod llawer o honynt yn gynnwysedig o weithiau oeddynt yn adnabyddus o'r blaen mewn ffurf cyflawnach. Ond gwelir, er hyny, fod eisoes amryw o'r rhai y gellid eu darllen wedi llenwi i fyny adwyau yn llenyddiaeth yr hynafiaid; a bod hyd yn oed y rhai sydd yn cynnwys gweithiau sydd eisoes wedi eu cyhoeddi, yn atteb pwrpas beirniadaeth, gan eu bod yn gopïau boreuach o amryw ganrifoedd na'r llawysgrifau o'r un gweithiau oedd cyn hyny ar gael. Y mae pwysigrwydd mawr iawn yn hyn—yn enwedig i'r beirniad ysgrythyrol.

Gellir casglu beth ydyw y canlyniadau a ddisgwylir etto oddi wrth yr ymchwiliadau a wneir yn y maes hwn, oddi wrth hanes y llwyddiant a gafwyd yn barod. Gellid rhanu yr adysgriflyfrau hyn yn ddau ddosbarth; sef, yn gyntaf, adysgrif-lyfrau cyssegredig; ac, yn ail, adysgriflyfrau mewn llenyddiaeth gyffredinol.

1. Y rhai mwyaf pwysig ydyw yr adysgriflyfrau Beiblaidd. Ymddengys mai y llawysgrif Feiblaidd adysgrifenedig y gwnaed y defnydd cyntaf o honi ydyw y *Codex Ephremi*, neu *Codex Regius* Paris. Y mae yr ysgrifen ddiweddaf yn

Digitized by Google

yr adysgrif-lyfr hwn yn cynnwys gweithiau o eiddo Ephrem y Syriad, wedi eu cyfansoddi yn yr iaith Roeg; ac ymddengys fod y mwyaf hynafol yn cynnwys yr oll o'r Hen Destament a'r Newydd, mewn llythyrenau ac arddull a briodolir gan y Dr. Tischendorf, o Leipsic, i'r bummed ganrif. Y mae yn awr ar gael o'r adysgriflyfr dyddorol hwn 209 o ddalenau—145 o ba rai a berthynant i'r Testament Newydd, yn cynnwys yn agos i ddwy ran o dair o'r holl destyn. Ond i'r ymchwilwyr cyntaf arno, ymddangosai y dalenau wedi eu cyfleu mor bell o'u lle, ac mor gymmysglyd, a chyda cymmaint o wagleoedd o amryw fathau, fel o'r braidd y gellid gwneyd allan un gair mewn dalen gyfan. Er hyny, ni ddarfu i'r anhawsderau hyn beri i feirniaid craff ymattal rhag ymdrechu gwneuthur y defnydd goreu oedd yn bossibl o *Codex Ephremi*. Yr hwn a sylwodd ar ac a archwiliodd y llawysgrif hwn gyntaf, oedd Jean Boivin, yr hwn a roddodd i Kuster amryw awgrymiadau pwysig gyda golwg ar y darlleniadau, y rhai a ddygwyd i mewn ganddo yn yr adargraphiad o Destament Groeg Mill yn y fl. 1710; a darfu i Wetstein wedi hyny gymmharu yn fanwl yr oll o'i chynnwysiad o destyn y Testament Newydd. Y mae Griesbach yn ystyried mai hwn ydyw y llawysgrif hynaf y bu Wetstein yn ei chyd-gymmharu; ac nid oes dadl nad yw y darlleniadau a gafodd fel hyn yn rhoddi gwerth neillduol ar ei argraphiad ef o'r Testament Newydd. Am amser maith, pa fodd bynag, ni wnaed dim yn y ffordd o ddeongli yr adysgrif-lyfr hwn; ond o'r diwedd, yn 1834—5, y darfu i Mr. Hase, trwy ddefnyddio darpariaeth fferyllol a elwir *Tinctura Giobertina*, lwyddo i ddwyn i'r amlwg yr hen ysgrifen yn mhell y tu hwnt i ddisgwyliadau yr archwilwyr cyntaf; ac yn 1840—1, ymroddodd Dr. Tischendorf i barotoi i'r wasg y darnau oedd arni o'r Testament, Newydd—yr hyn a orphenodd yn 1843. Yn 1845, efe a gwblhaodd y gwaith drwy chwanegu y darnau o'r Hen Destament sydd yn gynnwysedig yn y llawysgrif. Yr hyn a chwanega at ddyddordeb a gwerth yr adysgrif-lyfr cywrain hwn ydyw y ffaith, cyn iddo gael ei droi i'r defnydd diweddaf a wnaed o hono gan adysgrifiwr gwaith St. Ephrem, yn y drydedd ganrif ar ddeg, fod yr ysgrif wreiddiol wedi bod yn ddarostyngedig i dri o welliantau neillduol, gan wahanol ddwylaw ar wahanol adegau, yn y chweched, y nawfed, a'r unfed ganrif ar ddeg, neu y ddeuddegfed; ac y mae y rhan fwyaf o'r gwelliantau hyny yn hawdd i'w holrhain yn awr, ac yn esboniad ymarferol dyddorol ar hanes y testyn.

Yr oedd y darganfyddiad nesaf a wnaed mewn llawysgrifau o'r disgrifiad hwn yn un tra dyddorol. Gwyddys fod Ulphilas, esgob y Gothiaid yn y bedwaredd ganrif, wedi cyfieithu yr holl Ysgrythyrau i iaith gyssefin y bobl hyny, y rhai oeddynt yn coffeidio Ariaeth. I'r dyben hwn, efe a ddyfeisiodd iddynt wyddor (*alphabet*) newydd, yn gynnwysedig o lythyrenau wedi eu benthyca yn benaf o'r Groeg. Yr oedd y gwaith hwn, pa fodd bynag, wedi bod ar goll am dymmor maith—gyda'r eithriad o'r gyfran hono a gynnwysai y pedair Efengyl, a gedwid yn llyfrgell prifysgol Upsal, mewn llawysgrif a elwid *Codex Argenteus*, am ei bod wedi ei hysgrifenu yn benaf mewn llythyrenau o arian. Ond yn y flwyddyn 1755, wedi i F. A. Knittel gael ei bennodi yn archddiacon Wolfenbuttel, efe a ddechreuodd archwilio y trysorau a gynnwysid yn y llyfrgell Awstinaidd oedd yn y ddinas hono; ac yn nghwrs ei archwiliadau, cyfeiriwyd ef at adysgrif-lyfr, yn cynnwys *Origines* Isodorus o Seville, fel un oedd yn cynnwys, o dan yr ysgrifen hono, y cyfieithiad o'r Epistol at y Rhufeiniaid gan Ulphilas, ynghyd â dau o ddarnau Groegaidd o'r Efengylau. Yr oedd y cyntaf o honynt yn cael ei wneyd i fyny o dair a deugain o ddalenau, ac yn cynnwys rhanau o bob un o'r Pedair Efengyl. Credir ei fod wedi ei ysgrifenu er y chweched ganrif, a mawr werthfawrogir y darlleniadau arni gan ddysgedigion. Gwneir yr ail i fyny o dair ar ddeg o ddalenau —a chynnwysa Efengylau Luc ac Ioan. Ymddengys fod y gyfran hon hefyd o'r un cyfnod a'r llall. Ond yn y darn o Ulphilas, pa fodd bynag, yr oedd Knittel yn teimlo y dyddordeb mwyaf. Erbyn chwilio, cafwyd nad oedd y llawysgrif yn cynnwys yr oll o'r Epistol at y Rhufeiniaid, ond yn unig gyfran o'r rhan olaf o hono; sef, yr unfed ar ddeg, a'r pennodau canlynol, mor bell a'r drydedd adnod ar ddeg o'r bymthegfed; gyda chyfieithiad i'r Lladin wedi ei ysgrifenu ar golofnau cyfochrol, yr hwn hefyd sydd yn dra dyddorol, gan ei fod yn gyfieithiad boreuach na chyfieithiad y *Vulgate* gan Jerome. Dechreuodd Knittel ar unwaith i astudio yr adysgrif-lyfr cywrain hwn; ac er fod yr anhawsder i wneuthur hyny yn fawr o herwydd sefyllfa y dalenau, etto y fath oedd ei sêl fel y cariwyd ef yn mlaen gyda'r gwaith. Ac yn niwedd y flwyddyn 1758, gwnaeth yn hysbys ei fwriad i'w gyhoeddi, ond cael nifer digonol o enwau i'w gynnorthwyo i'w ddwyn allan. Ymddangosodd amryw rwystrau ar y ffordd, fodd bynag, fel y llesteiriwyd ei ymddangosiad hyd y fl. 1762, pan y galluogwyd y deonglwr llafurus ac ymroddgar i gyhoeddi yr oll o hono mewn cyfrol pedwarplyg, gyda deuddeg o ddarluniau, ynghyd âg adroddiad yn cynnwys hanes y lawysgrif, ac eglurhadau helaeth ar ei chynnwysiad. Yr oedd diwydrwydd Knittel y fath fel na adawodd efe ddim allan a allai wneuthur y darnau a feddianwyd o'r ddwy lawysgrif Roegaidd, a'r cyfieithiad Gothaidd, yn ddefnyddiol. Cymmharodd y diweddaf yn neillduol yn ofalus â'r *Codex Argenteus* yn Upsal, a chafodd sicrwydd nad oedd adysgrif-lyfr Wolfenbüttel yn ffurfio rhan o'r un lawysgrif, ond o un gyffelyb. O'r darnau gwahanol, cafodd allan yr holl amrywiol ddarlleniadau. Argraphwyd y darnau gan Busching yn y fl. 1773, a chan Zhan yn 1805. Ond gwnaed y chwanegiad mwyaf o lawer at gylch ein gwybodaeth o'r cyfieithiad yn 1817, a'r blynyddoedd dilynol, gan yr enwog Angelo Mai, a'i gyfaill a'i gydlafurwr, Count Carlo Castiglione, o bump o adysgrif-lyfrau a ddarganfyddwyd gan Mai yn Llyfrgell Ambrosaidd Milan, yn cynnwys, o dan adysgrifau o weithiau amryw awdwyr—Gregory Fawr, Jerome, Plautus, Seneca, ac Actau Cynghor Chalcedon—yn agos i bedwar cant o dudalenau yn cynnwys darnau o'r cyfieithiad Gothaidd o Epistolau Paul, o Efengyl Matthew, a rhai o lyfrau yr Hen Destament. Casglwyd holl ddarnau y cyfieithiad hwn, o ba ffynnonell bynag y deuent, i argraphiad Gabelentz a Lobe, a ymddangosodd yn rhanau olynol yn Leipsic, o 1836 hyd 1845; ac y mae argraphiad beirniadol cyflawn wedi ei gyhoeddi yn ddiweddarach gan Dr. Massmann, yn 1855. Y nesaf o ran trefn amser yn mysg yr adysgrif-lyfrau Beiblaidd yw yr un a gyhoeddwyd gan Dr. Barrett, o Goleg y Drindod, Dublin; yr hon sydd gyfrol brydferth,

Digitized by Google

yn cynnwys rhan fawr o Efengyl Matthew, wedi ei chopïo o'r llawysgrif adysgrifenedig sydd yn llyfrgell y coleg hwnw. Ymddengys i'r ysgrif-lyfr hwn gael ei adysgrifenu yn y ddeuddegfed neu yn y drydedd ganrif ar ddeg, ar ddarnau o lyfrau oedd yn llawer hynach na hyny. Y gyfran fwyaf pwysig, pa fodd bynag, oedd yr un a gynnwysai y copi o Efengyl Matthew, oedd wedi ei ysgrifenu mewn llythyrenau breision; yr hwn, a barnu oddi wrth ei arwyddion cyffredin o hynafiaeth, a berthynai, o leiaf, i'r chweched ganrif. Cafwyd hefyd fod yn ysgrifenedig arno gyfran o Lyfr y Prophwyd Esaiah, yn yr iaith Roeg, a rhai o Areithiau Gregory o Nazianzen; ond ystyrid nad oedd y rhai hyn mor bwysig. Y mae yr hyn oedd ynddo yn weddill o Efengyl Matthew wedi ei argraphu ar drigain a phedwar o dudalenau, wedi eu cerfio ar lafnau yr un fath a'r llawysgrif—pob un yn cyfatteb i ddalen o hono, ac yn cynnwys o un ar hugain i dair ar hugain o linellau, wedi eu trefnu mewn un golofn, gyda'r testyn yn y llythyrenau Groegaidd cyffredin ar y tudalenau cyferbyniol. Dechreua y dernyn gwerthfawr hwn gyda rhan o'r achau, *adn.* 17 o *pen.* i.—ac oddi yno yn mlaen, ond fod rhai diffygion ynddo, hyd *pen.* xxvi., *adn.* 71. Ac y mae yr un nifer o dudalenau ynddo, wedi eu hargraphu yn y llythyrenau Groegaidd cyffredin. Y mae iddo ragnodiadau helaeth, yn y rhai y rhoddir hanes manwl o sefyllfa a nodwedd y llythyrenau yn y llawysgrif; ac ynglŷn â hyny gymmhariad gofalus â'r *Codex Montfortianus*, yr hwn (sef, argraphiad Wetstein) sydd yn yr un llyfrgell. Yn anffodus, pa fodd bynag, nid yw y testyn, fel yr argrephir ef yn y llythyrenau Groegaidd cyffredin, yn adysgrifiad hollol gywir o'r llafnau cerfiedig; a'r amgylchiad hwn, ynghyd â chyflwr diffygiol llawer o'r dalenau, a greodd y dymuniad cyffredinol a arwyddwyd am wneuthur ail ymchwiliad i adysgrif-lyfr Dublin. Ac yn 1853, darfu i Dr. Tregelles, trwy gynnorthwy defnyddiau fferyllol mwy effeithiol nag oedd gan ei ragflaenoriaid, lwyddo i ddwyn i oleuni "yr holl ysgrifen hynaf, a hyny o'r bron yn well nag y disgwyliwyd." Y mae yn ofidus, fodd bynag, orfod dyweyd, wrth ail rwymo yr adysgrif-lyfr, ar ol i Dr. Barrett gyhoeddi ei gymmeriad, fod rhai rhanau o'r hen ysgrifen wedi eu colli, drwy i ryw weithwyr anwybodus o'i werth, wrth ymdrechu gwneyd eu gwaith yn ddestlus, dori y dalenau er eu cael yn wastad yn eu hymylon, a thrwy hyny eu mawr niweidio.

Y darganfyddiad pwysicaf o lawer, yn ddiammheu mewn llenyddiaeth adysgrifiol Feiblaidd, ydoedd dwyn i'r golwg y casgliadau o lawysgrifau a gafwyd amryw flynyddoedd yn ol yn llyfrgelloedd mynachlogydd y gwledydd dwyreiniol sydd ar lenydd Môr y Canoldir, y rhai sydd wedi eu rhoddi i gadw yn yr Amgueddfa Brydeinig, ac yn y *Bibliothèque Imperiale*, yn Paris.

Yn un o'r rhai hyn—sef, y *Codex Nitriensis*, yr hwn a gafwyd yn mynachlog St. Mair Deipara, yn niffaethwch Nitria—y darganfyddodd Dr. Cureton, heb law darn o'r "*Iliad*," bump a deugain o ddalenau, yn cynnwys rhan o Efengyl Luc, dros yr hon yr oedd cyfieithiad Syriaidd o draethawd Severus o Antiochia, yr hwn a ysgrifenwyd ganddo yn erbyn Grammaticus, wedi ei ysgrifenu. Yr oedd yr ysgrifen ddiweddaf mor drom ac mor ddu, ac yr oeddid wedi bod mor lwyddiannus i ddileu yr ysgrifen wreiddiol, fel yr oedd yn waith anhawdd iawn gallu darllen y gyntaf yn gywir; ond trwy lawer o anhawsder, llwyddodd Dr. Tregelles i wneyd hyny yn 1854, a pharotowyd y cyfan ganddo i'w gyhoeddi; a buasai wedi gwneyd hyny, oni buasai fod Dr. Tischendorf wedi ei ragflaenu, trwy gyhoeddi casgliad, at yr hwn y cyfeirir etto. Credir fod y darnau hyn yn perthyn i'r chweched ganrif—ac i ddechreu y ganrif hono.

Y mae llawysgrif Syriaidd arall, yn yr Amgueddfa Brydeinig, a archwiliwyd ganddo, yn cynnwys rhai dalenau ar ba rai yr ysgrifenwyd yn flaenorol; ac y mae y dalenau hyn o hynafiaeth mawr, a'r ysgrifen isaf arnynt yn cynnwys rhanau o Efengyl Ioan. Y mae y llythyrenau Groegaidd yn ymdebygu yn fawr i lythyrenau y *Codex Vaticanus*; ac y mae y gyfran Roegaidd wreiddiol o'r adysgrif-lyfr yn hynod o gywrain, gan ei bod wedi ei hysgrifenu drosti ddwywaith yn y Syriaeg; ac o ganlyniad, perthyna i'r dosbarth hwnw o lawysgrifau sydd wedi eu hysgrifenu deirgwaith drosodd.

Diammheu nad oes neb wedi llafurio yn fwy dyfal ac yn fwy llwyddiannus yn y maes hwn, i archwilio ac i gael allan i amlygrwydd lawysgrifau Beiblaidd nag y gwnaeth Dr. Tischendorf. Yn chwanegol at ei gasgliadau a'i adargraphiadau o bron yr holl argraphiadau boreuol o'r testyn ysgrythyrol, y mae, gydag ymröad a diwydrwydd digyffelyb, wedi rhoddi i'r cyhoedd lawer o ddarnau cywrain a gwerthfawr o'r Hen Destament a'r Newydd, y rhai a gasglwyd ganddo ef ei hun o lawysgrifau y canol-oesoedd. Y mae ychydig o'r rhai hyn o darddiad gorllewinol—ond y rhan fwyaf o'r rhan werthfawrocaf o honynt o'r adysgrif-lyfrau Syriaidd ac Armeniaidd. Y maent, gan mwyaf, yn gynnwysedig yn ei *Monumenta Sacra Inedita*, yr hwn a ymddangosodd mewn dwy gyfrol ardderchog, y rhai a gyhoeddwyd yn 1855 ac 1857. Cynnwysa y gyfrol gyntaf ddarnau wedi eu deongli o saith o adysgrif-lyfrau—pump o ba rai a ddygwyd o'r dwyrain. Cynnwysa y cyntaf wyth tudalen a deugain, yn cael eu gwneyd i fyny o ddarnau o'r Testament Newydd—o'r Efengylau, yr Actau, ac Epistolau Paul at y Corinthiaid a Thitus. Yr ail, a gynnwysa ddarnau o Lyfr Numeri, ac o Esaiah. Y trydydd, yn yr hwn y mae darnau o lyfrau Numeri, Deuteronomium, Iosuah, a'r Barnwyr, y Brenhinoedd, ac Esaiah. Y pedwerydd a'r pummed, a gynnwysant ddarnau eraill o lyfrau y Brenhinoedd. Ac ar bob un o'r rhai hyn y mae gweithiau eraill gan wahanol awdwyr wedi eu hysgrifenu yn ddiweddarach, yn yr ieithoedd Groegaidd, Arabaidd, ac Armeniaidd. Yn mysg y pethau pwysicaf yn yr ail gyfrol, gellir rhestru y darnau hyny o Efengyl Luc yr ydys wedi cyfeirio atynt eisoes, a ddarganfyddwyd gan Dr. Cureton yn y *Codex Nitriensis*. Y maent yn llenwi tua phymtheg a phedwar ugain o dudalenau. Cynnwysa y gyfrol hon hefyd ddarnau o Efengyl Ioan, o lawysgrif yr adysgrifenwyd arni yn y Syriaeg rai o hymnau Severus; ac ychydig dudalenau o Ezeciel, o adysgrif-lyfr Syriaidd arall; a dau dudalen o drydydd Llyfr y Brenhinoedd, o adysgrif-lyfr wedi ei ysgrifenu mewn rhan yn y Syriaeg, ac mewn rhan yn y Goptaeg.

Gellir ystyried y rhai a nodir uchod yn mysg y rhai mwyaf nodedig o'r llawysgrifau adysgrifenig sydd yn tueddu i daflu goleuni ar y testyn ysgrythyrol. Yn ol pob golwg, nid ydynt ond ernes o'r hyn y gellir ei ddisgwyl etto; ond y maent o'r fath werth fel nas gall ond ysgolheigion sydd yn gydnabyddus â'r ffaith, mai prin

Digitized by Google

ydyw ffynnonellau hynafol beirniadaeth Feiblaidd, eu prisio yn briodol. Fe allai, o'r holl lawysgrifau sydd ar gael o'r testynau gwreiddiol, mai y *Codex Vaticanus* a'r *Codex Alexandrinus* ydyw yr unig rai sydd yn hynach na rhai o'r darnau gwerthfawr a ddarganfyddwyd yn y modd annisgwyliadwy y gwnaed. O'r braidd y mae angen chwanegu, fod pob rhan o'r testyn ysgrythyrol, pa mor fychan bynag fyddo, yn meddu gwerth o'i eiddo ei hun, yn hollol annibynol ar y cyd-destynau, neu y cysylltiad; ac o herwydd hyny, nis gall y beirniad ysgrythyrol fforddio myned heibio yn ddisylw i'r gyfran leiaf o'r gwirionedd dwyfol.

Y mae amryw adysgrif-lyfrau eraill, o natur grefyddol, wedi eu cyhoeddi—y rhai mwyaf pwysig o ba rai ydynt gyfres o ddarnau o ffurfwasanaeth boreuol, perthynol i eglwysi Groeg a Rhufain, a ddarganfyddwyd yn y llyfrgell yn Karlsruhe, mewn llawysgrif ar yr hon yr oedd yn adysgrifenedig Esboniad Jerome ar Efengyl Matthew. Cyhoeddwyd y gweddillion dyddorol hyn gan Mone, yn Frankfort, yn 1850. Yr ydys yn gwybod fod llawer o ddarnau eraill o nodwedd gyffelyb ar gael—ffurf-weddïau, sacrament lyfrau, defod-lyfrau, canonau, a homiliau, &c. Y mae amryw o honynt wedi eu cyhoeddi gan yr un golygydd, a chan y Cardinal Mai; ac y mae cryn wybodaeth i'w chael ynddynt yn mherthynas i ffurf-weddïau boreuol.

Y mae y chwanegiadau a gaed mewn llenyddiaeth glasurol o'r ffynnonau hyn yn llawer mwy lliosog, gan eu bod yn cynnwys darnau mawr o weithiau clasurwyr Groegaidd a Rhufeinaidd oeddynt wedi myned ar goll; ac o destynau yr hen gyfreithiau Rhufeinig, ynghyd âg esboniadau ar y testyn. Y golygydd cyntaf o adysgrif-lyfr o lenyddiaeth glasurol oedd P. J. Bruns. Yn 1773, darganfu Bruns ddarn o'r unfed llyfr ar ddeg a phedwar ugain o weithiau Livy, mewn llawysgrif adysgrifiol yn y Vatican yn Rhufain; a chyhoeddwyd ef yr un flwyddyn gan y darganfyddwr yn Hamburgh, a chan Giovenazzi yn Rhufain. Ystyrir fod y dernyn hwn yn hollol antfugiol a gwirioneddol; ac y mae wedi ei roddi i mewn yn yr argraphiadau diweddaf o Livy, a chynnwysa y gyfran hono ag sydd yn ymdrin â rhyfel Sertorius yn Yspaen; a'r unig beth sydd yn ein gofidio mewn cyssylltiad âg ef ydyw, ei fod mor fyr. Wedi bod yn ffodus yn archwilio yr adysgrif-lyfr hwnw, dechreuodd Bruns i wneyd ymchwiliadau yn y wlad hon, ac ymdrechodd i gael allan pa beth a allai fod nifer y cyfryw lawysgrifau yn y Llyfrgell Bodleiaidd yn Rhydychain. Methodd Bruns ddarllen cyfran fechan o'r unfed llyfr ar ddeg a phedwar ugain o Livy o lawysgrif, ond llwyddodd Niebuhr i'w darllen ar ol hyny; ac efe a wnaeth i fyny rai diffygion eraill ynddo hefyd, ac a gyhoeddodd yr holl lyfr, ynghyd â dernyn arall o waith Cicero, yn Berlin, yn 1820.

Ond un arall, ag yr ydys eisoes wedi cyfeirio at ei enw, a lafuriodd fwyaf, ac a fu hefyd yn fwyaf llwyddiannus yn y maes ymchwiliadol dyddorol hwn, oedd Angelo Mai. Efe a ragorodd ar ei holl ragflaenwyr a'i gydoeswyr—nid yn unig mewn darganfod llawysgrifau adysgrifiol, ond hefyd mewn cael allan o honynt weithiau, neu ranau o weithiau, y tybid eu bod wedi eu colli yn anadferadwy.

Yn 1814, y gwnaeth Mai ei hun yn hysbys fel darganfyddwr gweithiau oedd ar goll. Dechreuodd wneuthur ei ymchwiliadau ar lawysgrif adysgrifiol anghyhoeddedig, yn cynnwys darnau o dair o areithiau Cicero; sef, rhai amddiffynol i Scaurus, Tullius, a Flaccus. Perthynai y llawysgrif gynt i fynachdy hynafol iawn yn Bobium, neu Bobbio, yn nhiriogaethau Milan, a sylfaenwyd gan St. Columban—yr hwn hefyd a ffurfiodd ei llyfrgell. "Wrth archwilio yn ofalus y llawysgrifau oedd yn y Llyfrgell Ambrosaidd yn Milan," meddai Mai, yn ei ragymadrodd, "mi a sylwais ar un adysgrif-lyfr o hynafiaeth mawr. Yr ydoedd hwn wedi bod yn perthyn i fynachdy Bobbio, yn Liguria; yr hwn sydd yn nghanol yr Apennines, ac a sylfaenwyd gan St. Columban yn y flwyddyn B.A. 612—mynachod yr hwn a gyfrifid yn enwog am eu dysg, yn gystal ag am eu bywyd diargyhoedd. Gerbert, Ffrangcwr, yr hwn a etholwyd yn bab o dan yr enw Sylvester II., ac a ennillodd enw mawr am ei ddysg, oedd penaeth y mynachdy hwn yn y ddegfed ganrif; ac efe a chwanegodd yn fawr at enwogrwydd y lle, ac hefyd at gynnwysiad y llyfrgell. Pwrcasodd y Cardinal Borromeo, yr hwn a sylfaenodd y Llyfrgell Ambrosaidd yn nechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg, y rhan fwyaf o'r casgliad o lawysgrifau oedd yn Bobbio, a dygodd hwynt i Milan. Tra yr oeddwn yn archwilio y llawysgrifau hyn," efe a chwanega, "mi a sylwais fod un, yr hwn a gynnwysai ysgrifeniadau Sedulius, y bardd Cristionogol, yn adysgrif-lyfr; ac wrth edrych yn bur graff a manwl, darganfyddais olion yr ysgrifen flaenorol arno o dan yr un ddiweddaf." Yna, gyda thrafferth a gofal, efe a fu yn alluog i ddeongli yr holl ddarnau o'r areithiau a enwir uchod, oedd ar goll. Yr oeddynt wedi eu hysgrifenu mewn llythyrenau mawrion a phrydferth, a phob tu dalen wedi ei ddosbarthu i dair colofn. Cyhoeddwyd hwy yn Milan, yn 1814.

Yn nghorph yr un flwyddyn, daeth Mai â chyfrol arall allan, oedd yn cynnwys amrywiol ranau o dair o areithiau eraill Cicero, gyda rhai hen nodiadau nad oeddynt erioed wedi eu cyhoeddi o'r blaen. Yr oedd y trysorau hyn yn gorwedd yn guddiedig o dan gyfieithiad Lladinaidd o ddeddfau Cynghorfa Chalcedon, a thybiai y darganfyddwr eu bod yn perthyn i'r bedwaredd ganrif. Yr oedd yr adysgrif-lyfr hwn hefyd yn ffurfio rhan o'r casgliad a gafwyd o Bobbio. Yr oedd yr ysgrifen hynaf mewn llythyrenau breision a heirdd, ond nid mor brydferth a'r ysgrif-lyfr cyntaf y cyfeiriwyd ato yn y paragraph blaenorol; ac nid oedd ond dwy golofn yma ar bob tudalen—amgylchiad sydd yn lled arwyddo nad oedd yr ysgrifen ddim mor hen a'r llall. Bu y flwyddyn 1815 yn ffrwythlawn mewn darganfyddiadau cyffelyb, a chyhoeddwyd tair o gyfrolau o weithiau nad oeddynt gyhoeddedig o'r blaen. Y mae un o honynt yn hynod gywrain a gwerthfawr, gan y cynnwysa ranau helaeth o amryw o areithiau Symmachus. Epistolau yr areithydd enwog hwn ydoedd yr unig gynnyrchion o'i ysgrifell oedd ar gael cyn hyny; ond yn y darnau hyn ceir enghraifft o'i hyawdledd ef. Tybir fod y llawysgrif wreiddiol yn perthynu naill ai i'r seithfed, neu i'r wythfed ganrif. Cyhoeddwyd y darnau dyddorol hyn yn Frankfort yn y fl. 1816. Yr un flwyddyn, cafwyd adysgrif-lyfr hynafol arall yn y Llyfrgell Ambrosaidd, oedd yn cynnwys holl ddigrifchareuawdau Plautus sydd wedi dyfod i lawr i'r amser presennol, ond pedair; a dernyn o'r *Vidularia*, digrif-chwareuawd oedd ar goll, oddigerth tuag ugain llinell, a gadwyd gan Priscian a

Digitized by Google

Nonius. Y mae yr ysgrifen hynaf yn y llawysgrif hon yn nodedig o brydferth, a thybir ei bod wedi dyfod i lawr o amser Antonines; ac y mae yr ysgrifen ddiweddaraf yn cynnwys rhan o'r Hen Destament yn y Lladin, yr hwn a ysgrifenwyd, fel y tybir, yn y seithfed ganrif. Yr oedd y darganfyddiad hwn, gan hyny, yn un pwysig—nid yn gymmaint ar gyfrif yr hyn a adfeddiannwyd, ag o herwydd y disgwyliadau y mae yn ei godi. O blegid os cafodd Mai Feibl Lladin, a'r un lawysgrif hefyd yn cynnwys copi cyflawn yn mron o waith Plautus, nis gellir penderfynu hyd sicrwydd fod gweithiau un awdwr clasurol wedi eu colli yn llwyr hyd nes y byddo pob Beibl sydd mewn llawysgrif, a phob ysgrif arall ar femrwn neu groen, wedi eu harchwilio yn fanwl. Ni wyddys yn y byd pa bryd y gellir gwneyd darganfyddiad pwysig a gwerthfawr, os bydd i'r gwaith o chwilio y memrynau gael ei gario yn mlaen. O'r braidd y gellir ammheu nad oes yn llyfrgelloedd cyhoeddus Prydain Fawr lawer o'r adysgrif-lyfrau hyn, ac yn enwedig yn y Llyfrgell Bodleiaidd yn Rhydychain, yr hon sydd yn hynod iawn o gyfoethog mewn llawysgrifau. Y mae nifer y llawysgrifau sydd yn Yspaen hefyd yn dra lliosog; ac nid yw yn ammhossibl, nac annhebyg chwaith, na adferir llawer o weithiau, neu ranau o honynt, sydd yn awr ar goll, gan awdwyr Lladinaidd yn y wlad hono. Profi yn lled aflwyddiannus y mae yr ymchwiliadau diweddar wedi troi allan yn yr ymgais i ddarganfod llawysgrifau gwir werthfawr; ond hwyrach y gellir bod yn fwy llwyddiannus wrth archwilio memrynau gyda'r amcan o wybod ai ni bu arnynt ysgrifen flaenorol o dan yr un bresennol, ac ai nid ydyw rhai o weddillion gwerthfawr athrylith a hyawdledd yr hynafiaid yn orchuddiedig gan ysbwrial y croniclwyr a'r ysgrifenwyr eglwysig. Diau fod llawer o weithiau clasurwyr wedi trengu yn anadferadwy. Gwnaed dinystr mawr ar hen ysgrif-lyfrau mewn gwledydd Protestanaidd yn amser y Diwygiad. Cyn hyny, yr oedd y cyfrolau mawr, yn y rhai yr oedd y gwasanaeth crefyddol a ddarllenid yn ysgrifenedig, yn lliosog yn yr eglwysydd a'r mynachlogydd. Dygasid y rhan fwyaf o honynt yn uniongyrchol o Rufain; ac yn y dyddiau pan oedd raid ysgrifenu llyfrau o'r fath, fe allai fod rhai yn ei hystyried yn weithred grefyddol i ddileu yr ysgrifeniadau blaenorol, yn enwedig os byddent yn anghyflawn, er gwneyd lle i'r ysgrifen yn cynnwys y gwasanaeth crefyddol. Yn wir, oddi wrth natur y llyfrau hyn, nis gellir ammheu nad oedd llawer o hen femrynau yn cael eu defnyddio i'w hysgrifenu; a chan y gofelid am danynt rhag y digwyddai iddynt ddamweiniau neu niweidiau, y mae yn naturiol disgwyl fod ar lawer, ac fe allai ar y rhan fwyaf o honynt, weddillion ysgrifeniadau hynach. Llosgwyd llawer o'r cyfryw adysgrif-lyfrau; ac yn y modd hwn collwyd pob gobaith, o bossibl, am adferu llawer o weithiau colledig. Ond er cymmaint a gollwyd yn yr adeg yma, y mae digon etto yn aros i'n hargyhoeddi, pe ceid chwaneg o ddynion fel Mai i archwilio a darllen yr hen adysgrif-lyfrau, y gwneid chwanegiadau mawrion a phwysig at y rhai sydd ar gael yn hysbys eisoes. Pwy a ŵyr nad oes yn y gyfrol fwyaf gwael a di-olwg arni rai o weithiau o eiddo yr haneswyr mwyaf hyawdl.

Y darganfyddiad nesaf a wnaethpwyd gan Mai o lawysgrif o'r un dosbarth, ydoedd dyfod o hyd i ddarnau o waith yr areithiwr Fronto, yr hwn a flodeuai yn nheyrnasiad Hadrian. Yr oedd yr ysgrifenydd hwn, er mai Affricanwr oedd efe o enedigaeth, yn cael ei ystyried o'r bron yn ail Cicero; etto nid oedd ar gael o'i weithiau ond ychydig o frawddegau gwasgaredig, oedd i'w cael yma a thraw yn ngweithiau awduron ereill. Medrodd Mai, pa fodd bynag, trwy graffder a diwydrwydd, adferu cryn lawer o'i ysgrifeniadau, y rhai a gyhoeddwyd ganddo yn Milan, yn 1815, mewn dwy gyfrol. Yn yr adysgrif-lyfr o'r hwn y llwyddwyd i ddarllen y gweddillion cywrain hyn, yr oedd yr ysgrifen ddiweddaraf yn gwneyd i fyny ran o hanes Cynghor Chalcedon; ond yn anffodus, yr oedd y lawysgrif mewn sefyllfa dra ammherffaith. Ysgrifenodd Fronto lawer, a chyfansoddodd weithiau ar amryw byngciau; ac yn eu plith yr oedd goganiaeth ar y Cristionogion. Yr oedd iddo gymmeriad uchel fel areithiwr, ac edrychid arno fel Cicero ei ddydd, er mai o'r braidd yr oedd ei arddull yn rhoddi iddo hawl i'r fath ddyrchafiad. Buasai ysgrifeniadau y fath un, o dan unrhyw amgylchiadau, â dyddordeb mawr yn cael ei deimlo ynddynt; ond cyssylltwyd â hwy ddyddordeb mwy, gan y dull rhyfeddol drwy yr hwn y daethant i oleuni.

O herwydd enwogrwydd Mai yn y maes hwn o ddarganfyddiad, tynwyd sylw y pab Pius VII. ato, a phennodwyd ef ganddo ef yn geidwad llyfrgell y Vatican; ac yn fuan iawn, daeth y doethineb o hyn i'r golwg; o herwydd gwnaeth ddarganfyddiadau o fwy o ddyddordeb a gwerth na dim a wnaethai efe cyn hyny. Mewn adysgrif-lyfr a ddygwyd o Bobbio, yr hwn a gynnwysai yn yr ysgrifen uchaf oedd arno gyfran o esboniad Awstin ar y Salmau, deallodd Mai fod yr ysgrifen isaf a'r fwyaf hynafol yn cynnwys y llyfrau oedd wedi bod mor hir ar goll o "*De Republica*" Cicero—yr enwocaf o'i holl weithiau; ac am yr hwn nid oedd dim yn wybyddus mewn amseroedd diweddar, heb law y darnau a geid yn ysgrifeniadau Macrobius, Lactantius, Awstin, Nonius, ac ereill. Paul V. oedd wedi pwrcasu y gyfrol werthfawr hon, er's mwy na dau can mlynedd cyn hyny, gyda'r dealltwriaeth ei bod yn adysgrif-lyfr, ac yn cynnwys rhan o draethawd Cicero; ond trwy ryw esgeulusdra, rywfodd, gadawyd y gwaith o'i wneyd allan, ei ddarllen, a'i ddwyn i oleuni i Mai. Yr oedd mewn trefn dda, a'r llythyrenau yn freision ac yn eglur; ac o'r dalenau oedd yn ngweddill, nid oedd nemawr dudalen nad ellid ei ddarllen; ond yr oedd llawer o'r dalenau yn eisieu. Er hyny, cafwyd ar y tudalenau gwerthfawr hyn ran fawr o'r llyfrau cyntaf, ac o'r traethawd enwog, a rhai mewn sefyllfa mor berffaith fel yr adferwyd ef yn llwyr trwy lafur a chraffder Monsignore Mai. Cyhoeddwyd y rhanau hyn o'r gwaith yn Rhufain yn 1821. Ni ddarfu i sêl a diwydrwydd Mai leihau dim gyda'i lwyddiant. I'r gwrthwyneb, yn fuan wedi ymddangosiad y dernyn o draethawd y "*De Republica*," gan Cicero, efe a gyhoeddodd draethodau eraill o lawysgrifau cyffelyb a gafodd mewn adysgrif-lyfr yn llyfrgell y Vatican.

Ond gwnaeth ddarganfyddiad mwy gwerthfawr, ac un o ddyddordeb mwy cyffredinol, drachefn. Y mae efrydwyr hanesiaeth Rhufain yn gofidio o herwydd sefyllfa ammherffaith gweithiau ei holl ysgrifenwyr yn mron, brodorol a thramor, ag sydd wedi dyfod i lawr i'r oesoedd hyn. Nid oes ond ychydig iawn wedi eu diogelu

Digitized by Google

o weithiau yr awduron Groegaidd ar achosion Rhufain; megys, Polybius, Diodorus Siculus, Dionysius o Halicarnassus, Appian, Dion Cassius, Iamblichus, Dexippus, Eunapius, a Menander o Byzantium, &c.; ac y mae y rhai hyn yn mhell o fod mewn sefyllfa foddhaol, o barthed i gywirdeb a chyflawnder y testyn. Ond yn ffodus, gallnogwyd Mai i adferu i'r byd ddyfyniadau meithion o bob un o'r haneswyr hyn; y rhai, o ran helaethrwydd a phwysigrwydd hanesyddol, a ragorent ar bob chwanegiadau eraill a wnaed at eu testynau er yr adeg y cyhoeddasid hwynt gyntaf, yn y bymthegfed a'r unfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd yr adysgrif-lyfr gwreiddiol, lle yr oedd y darnau gwerthfawr hyn yn guddiedig, yn llyfr digon cyffredin yr olwg arno, wedi ei gasglu trwy orchymyn yr ymherawdwr dysgedig Constantine Porphyrogenitus; ac mewn rhan, yn wir, wedi ei gynllunio a'i ysgrifenu ganddo ef ei hun. Cynnwysa ddyfyniadau o'r awduron enwocaf, wedi eu trefnu o dan wahanol benawdau, oeddynt yn wreiddiol yn dri ar ddeg a deugain o nifer. O'r tri phenawd ar ddeg a deugain, pa fodd bynag, nid oedd ond dau o honynt yn hysbys cyn darganfyddiad Mai. Yr oedd pob olion o'r gweddill, gyda'r eithriad o enwau dau ar hugain o honynt, wedi eu colli; a rhaid barnu amrywiaeth a gwerth y detholion o'r hen ysgrifenwyr cynnwysedig ynddynt wrth y darnau sydd wedi eu hadferu. Er fod yr adysgrif-lyfr, o'r hwn y cafwyd y darnau hyn, yn mhell o fod yn 'gyflawn, cynnwysai nifer mawr o ddyfyniadau o'r llyfrau oedd ar goll yn ngweithiau yr awduron a enwir uchod. O'r pymtheg llyfr ar hugain o waith Polybius (allan o ddeugain, oedd yn gwneuthur i fyny ei hanes ef), er enghraifft, yr oedd yn yr adysgrif-lyfr ddyfyniadau lled helaeth o'r cwbl ond y diweddaf, a'r oll yn cynnwys 100 o dudalenau pedwarplyg. Ceir cyflenwad lled dda hefyd o "*Historical Library*" Didorus Siculus; o ba un y mae pedwar ar hugain o lyfrau, allan o ddeugain, wedi myned ar ddifancoll. Gwna yr holl ddyfyniadau a gafwyd yn yr adysgrif-lyfr hwn tua 130 o dudalenau. Dechreua y dyfyniadau hyn gyda'r chweched llyfr, i fyny hyd y deugeinfed. Y mae naw, allan o ugain, o lyfrau y "*Roman Antiquities*," gan Dionysius o Halicarnassus, wedi eu colli. Cynnwysa adysgrif-lyfr y Vatican ddyfyniadau o honynt oll, a gwnant i fyny 64 o dudalenau pedwarplyg. Y mae y darnau o Dion Cassius a gafwyd yn yr adysgrif-lyfr yn mhell o lenwi i fyny y gwagle mawr sydd yn ei hanes maith; ond dyma y rhai helaethaf a phwysicaf a ddaethant i'r golwg hyd yn hyn; a llanwant tua 100 o dudalenau. Y mae yr hyn a gafwyd o weithiau awduron eraill yn llai; ond y maent, er hyny, o werth neillduol. Mewn gair, yr oedd ymddangosiad "*Historical Palimpsest*" Mai, fel y gelwir ef weithiau, yn gyfnod arbenig yn yr ymchwiliad am lenyddiaeth golledig Groeg a Rhufain. Ymddangosodd, nid fel gwaith annibynol, ond fel un gyfrol o gasgliad mawr o weithiau yn mhob dosbarth o lenyddiaeth hynafol, duwinyddol, a chyffredinol, wedi eu casglu o'r llawysgrifau anghyhoeddedig sydd yn ystordy y Vatican—yn gwneyd i fyny ddeg o gyfrolau pedwarplyg mawr, o dan y teitl, "*Scriptorum veterum Nova Collectio.*" Yr "*Historical Palimpsest*" oedd gwaith mawr diweddaf Mai yn y ffordd hono. Y mae y tri chasgliad a gyhoeddodd efe ar ol hyny, yn cynnwys ffrwyth rhai o'i hen ymchwiliadau—darnau o Lucan, Juvenal, Persius, Gargilius Martialis, ac Aristotle; ac y mae y cyfan o'r defnyddiau yn mron wedi eu cael o lawysgrifau argyhoeddedig y Vatican.

Ond yn mhell cyn i Mai roddi i fyny y gwaith o archwilio yr adysgrif-lyfrau, yr oedd gweithiwr llafurus ac ymroddgar arall, ac un yn meddu ar gymmhwysderau uchel, yn llafurio yn yr un maes, sef Niebuhr. Yr oedd llyfrgell glwysgor Verona wedi bod yn enwog am dymmor maith ar gyfrif lliaws mawr o lawysgrifau oedd ynddi; a deallwyd hefyd eu bod yn hynod gyfoethog mewn llawysgrifau yn dal cyssylltiad â rheithofyddiaeth. Yr oedd Maffei, yn 1732, wedi cyhoeddi rhestr o honynt oll, ac wedi gwneyd crybwylliad am amryw o ddalenau crwyn, yn cynnwys darnau o sylwedd yr holl gyfraith wladol, a wnaed wrth orchymyn yr ymherawdwr Justinian, a phethau ereill. Rhwymwyd y dalenau hyn mewn cyfrol fechan, yn gynnwysedig o ddarnau o wahanol lawysgrifau. Ond ychydig o sylw a gafodd y gweddillion cywrain hyn, hyd nes y darfu i Mai adfywio chwilfrydedd dysgedigion. Yn y flwyddyn 1816, yr oedd Niebuhr yn myned trwy Verona ar ei ffordd fel cenhadwr Rwssiaidd i lys y Vatican, a thalodd ymweliad â llyfrgell y glwysgor. Gwnaeth ymchwiliad i amryw lawysgrifau yno, ac yn eu plith un ag yr oedd yr ysgrifen weledig arni yn cynnwys rhai o epistolau Jerome; ond yr oedd ysgrifen mwy hynafol oddi danodd. Wrth wneuthur ei archwiliad, deallodd Niebühr fod yr olaf yn cynnwys gwaith rhyw hen reithofyddwr. Ac wedi gwneuthur ei ddarganfyddiad yn hysbys i Savigny, a chyda ei gynnorthwy ef, efe a gyhoeddodd gyfran o hono mewn rhyw waith cyfnodol, ynghyd âg esboniad ac eglurhâd manwl arno; a dywedai fod y llawysgrif yn cynnwys Deddfau Gaius, sef y rheithofyddwr Rhufeinig enwog, yr hwn oedd yn byw yn amser Marcus Aurelius, dybygid—person a hanes yr hwn sydd wedi bod yn destyn cymmaint o ddamcaniaethu a dyfalu yn ei gylch gan ysgrifenwyr ar gyfraith Rhufain; a dadleua fod y dernyn hwn yn rhan o'r "*Præscriptionibus et Interdictis.*" Sefydlwyd yn llawn gywirdeb y casgliad hwn. Anfonwyd dau lafurwr arall o Berlin gan Athrofa y Gwyddonau i weithio y mwnglawdd hwn a agorwyd gan Niebuhr; ac wedi cael caniatâd y glwysgor, adysgrifenasant gynnwysiad y llawysgrif yn mron yn llwyr: ond yr oedd tua'r nawfed ran o'r cyfan yn y fath sefyllfa fel nas gellid ei ddarllen. Argraphwyd "*Institutions*" Gaius yn Berlin yn y fl. 1820. Y mae y llawysgrif o ba un yr ysgrifenwyd y gyfran werthfawr hon o hen gyfreithiau yr hynafiaid yn cynnwys 127 o ddalenau, ac y maent wedi cael ysgrifenu arnynt dair gwaith. Y mae yr ysgrifen ddiweddaraf, yr hon sydd mewn llythyrenau breision, ac o gryn hynafiaeth, yn cynnwys rhai o weithiau Jerome—yn benaf ei epistolau; sef, chwech ar hugain mewn nifer. Y mae y ddwy ysgrifen hynaf o ddau fath; ac un o honynt, sef y cyntaf, yn hynod am ei hynafiaeth a'i phrydferthwch; ond nid ydyw yr ail, neu y ganol, mor nodedig am ei haddurniadau. Yn nghylch yr oes yr ysgrifenwyd y llawysgrif gwreiddiol, traethodd Niebuhr ei farn ei bod yn hynach nag amser Justinian; ac ar ol gwneyd ymchwiliad manwl ar y llythyrenau, dadganodd Kopp ei fod yntau o'r un farn ag ef. Dilynwyd y darganfyddiad hwn o eiddo Niebühr âg un cyffelyb gan Peyron, yr hwn a gafodd adysgrif-lyfr yn llyfrgell Turin a gynnwysai ddarnau o ddeddf-lyfr Justinian.

Digitized by Google

Ond mwy dyddorol ydyw hanes yr adysgrif-lyfrau clasurol. Yn 1854, darganfyddodd Dr. Fridegar Mone lawysgrif yn cynnwys esboniad Jerome ar Lyfr y Pregethwr, mewn mynachdy Benedictaidd yn Corinthia; ac yr oedd yr ysgrifen isaf arni yn cynnwys y cyntaf, yr unfed ar ddeg, y deuddegfed, y trydydd ar ddeg, a'r pymthegfed o lyfrau Pliny. Y mae yr ysgrifen wreiddiol yn hynod hynafol. Y mae Dr. Mone yn ei phriodoli i'r ail ganrif—a chyda'r anhawsder mwyaf y bu efe yn alluog i'w gwneyd allan. Yn gymmaint a bod hanesiaeth naturiol Pliny wedi dyfod i lawr yn gyflawn i ni, y mae adferiad y darnau hyn yn llai pwysig nag y buasai adferiad cyfran oedd ar goll o weithiau rhyw awdwr clasurol; ond y mae dysgedigion yn adnabod eu gwerth, canys gwyddant mor dywyll a chymmysglyd i bob ymddangosiad ydyw testyn Pliny; a gwyddant am y goleuni a daflwyd ar y chwe llyfr diweddaf gan y darlleniadau o lawysgrif Bamberg, a roddwyd gan Sillig yn y gyfrol ddiweddaf o'i argraphiad ef. Argraphwyd yr adysgrif-lyfr Carinthiaidd gan Dr. Mone mewn llythyrenau sydd yn debyg iawn i'r ysgrifen wreiddiol.

Y mae adysgrif-lyfrau y dwyrain, i'r rhai y mae beirniadaeth ysgrythyrol mor ddyledus, wedi chwanegu hefyd rai pethau o gryn bwysigrwydd at lenyddiaeth glasurol. Yn y *Codex Nitriensis*, a ddisgrifiwyd yn barod, yn chwanegol at ddarnau o Efengyl Luc a ddeonglwyd ac a gyhoeddwyd gan y Dr. Tischendorf, darganfyddwyd hefyd, o dan draethawd Syriaidd Severus o Antiochia, ail adysgrif-lyfr, yn cynnwys darnau o "*Iliad*" Homer. Un o'r casgliad dwyreiniol o lawysgrifau Syriaidd ac eraill, a bwrcaswyd i'r Amgueddfa Brydeinig, oedd y *Codex Nitriensis* wreiddiol. Ei feddiannydd blaenorol oedd M. Pacho. Pan yr archwiliwyd ef gyntaf, cafwyd ei fod yn ddiffygiol; ond yn ffodus, darganfyddwyd y dalenau oedd ar goll mewn ail gasgliad a ddygwyd o'r dwyrain gan Dr. Tattam; a chynnwysa y *Codex* yn awr 115 o ddalenau, ac yn ysgrifenedig ar fwy na'u hanner y mae gwaith Homer. Deonglwyd y cyfan yn ofalus gan Dr. Cureton, a chyhoeddwyd ef mewn cyfrol brydferth, ar draul ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Brydeinig, yn 1857. Cynnwysa yr holl ddarnau hyn 3,873 o linellau; ac er fod eu cynnwysiad yn hysbys o'r blaen, etto deallir eu gwerth beirniadol wrth ystyried fod y gwreiddiol, o'r hwn yr argraphwyd hwynt, yn fwy hynafol o amryw ganrifoedd na'r llawysgrif hynaf o'r *Iliad* oedd yn wybyddus o'r blaen. Gallwn gyfeirio at un arall o'r adysgrif-lyfrau Syriaidd, yr hwn a gafwyd o'r un casgliad yn yr Amgueddfa Brydeinig, ac a gyhoeddwyd yn Berlin yn y fl. 1857, gan y Dr. Pertz. Yr oedd tad y Dr. Pertz—sef yr hanesydd a'r hynafiaethydd o'r enw hwnw—wedi sylwi ar ac adysgrifenu cyfran o'r adysgrif-lyfr hwn; ond yn y flwyddyn 1856, cwblhaodd Dr. Pertz, yr ieuangaf, yr adysgrifeniad; yr hyn, fel yr ymddengys, oedd yn orchwyl hynod anhawdd. Y mae y *Codex* o ba un y cafwyd y gweddillion hyn yn llawysgrif ar yr hon yr ysgrifenwyd deirgwaith; ac y mae yn gwahaniaethu oddi wrth yr adysgrif-lyfr yn cynnwys "*Institutions*" Gaius, trwy fod yr ysgrifen uchaf a'r ddiweddaraf yn yr iaith Syriaidd, ac yn y ffurf fwyaf anhawdd a chymmysglyd, ar y llythyrenau hyny. Y mae yr ail ysgrifen yn y Lladin, ac yn gynnwysedig o ranau neillduol o waith rhyw rammadegwr anadnabyddus—am yr hwn ni wyddys ddim ond yn unig ei fod yn blodeuo rhwng yr ail a'r bummed ganrif o'r cyfnod Cristionogol. Y mae yr ysgrifen isaf, a'r foreuaf, mewn llythyrenau mawr, ac yn gwneuthur i fyny gyfranau o bump o lyfrau; ac yn cynnwys hanes Rhufeinaidd, gan gofnodydd o'r enw Gaius Granus Licinianus, yr hwn a enwir gan Macrobius, a chan esboniwr ar weithiau Virgil Servius, ond am yr hwn nid oes dim arall yn adnabyddus. Ceir yn y darnau adferedig brawf amlwg ei fod wedi ei ysgrifenu ar ol llyfrau hanesyddol Sallust, ac o flaen yr eiddo Livy. Y maent wedi eu cymmeryd o'r chweched llyfr ar hugain, yr wythfed ar hugain, y trydydd ar ddeg ar hugain, a'r pymthegfed a'r unfed ar bymtheg ar hugain; ac y maent yn ymdrin â chyfnod o ddyddordeb neillduol, sef o 509 hyd 679 o oed Rhufain. Y rhai mwyaf diffygiol o'r pennodau ydynt y rhai sydd yn ymdrin â'r rhyfel Cimbriaidd, y rhyfel cartrefol, a'r rhyfel Mithridataidd; ond rhaid addef fod y darnau adferedig yn taflu goleuni newydd hyd yn oed ar y digwyddiadau hyn. Y mae y darganfyddiadau sydd wedi eu gwneyd yn mysg llawysgrifau hynafol yn hynod ddyddorol ynddynt eu hunain, ac ar yr un pryd yn dal allan obaith y gwneir darganfyddiadau pellach etto yn yr un cyfeiriad, ac yr adferir trysorau eraill sydd yn awr ar goll.

Gyda golwg ar ymddangosiad a nodweddion cyffredinol yr adysgrif-lyfrau:—cael eu gweled a'u chwilio, wrth gwrs, a rydd y syniad goreu am danynt i bawb. Ychydig o'r llyfrgelloedd mawrion sydd nad oes ynddynt, o leiaf, un neu ragor o honynt. Er ffurfio rhyw syniad am y dull o'u hadferu a'u deongli dylid deall fod dwy ffordd yn cael eu defnyddio gan yr hynafiaid i ddileu yr ysgrifen wreiddiol—yr un wlyb a'r un sych. Yn ol y gyntaf, gwlychid wyneb y croen, trwy ei olchi âg ysbwng, a'i rwbio i lawr â chabol-faen (*pumice-stone*). Yn ol yr ail, yr oedd dau ddull:—naill ai yr oedd yr holl linell yn cael ei chrafu ymaith gydag offeryn miniog pwrpasol, neu cymmerid blaen yr offeryn i grafu ymaith bob llythyren ar ei phen ei hun, y naill ar ol y llall. Yr oedd yr ingc a ddefnyddiwyd hefyd o dri math:—un yn fettelaidd (yr hwn a ddefnyddid yn fwyaf cyffredin), y llall yn llysieuol, a'r trydydd yn anifeilaidd. A chan nad oedd effaith yr ingc, o ba ddefnydd bynag y byddai, yn cael ei gyfyngu i'r wyneb, ceir, hyd hyd yn oed ar ol i olion ei liw golli, mewn rhan neu yn hollol, y gellir ei ddwyn i eglurdeb trwy driniaethau gofalus. Y dull blaenaf, ac un a fabwysiedid yn fynych gan Mai, ydoedd golchi yr arwyneb â thrwyth bustl, ac wedi hyny ei adael am ychydig i ddylanwad y goleuni a'r awyr. Yr oedd hyn, yn nwylaw Mai, mewn llawer o amgylchiadau yn ddigon effeithiol i adferu yr ysgrifen golledig—fel, mewn goleuni cryf, y gallai person yn deall hen ysgrifen ei dehongli. Mewn achosion eraill, effaith y driniaeth hon oedd duo y croen, a gwneyd yr arysgrifen a'r un ddiweddarach yn hollol annealladwy. Wedi deall hyn, defnyddiodd M. Peyron o Turin foddion arall, a gymmeradwywyd gan y fferyllydd Giobert. Golchai efe y croen yn gyntaf yn ofalus mewn dwfr cyffredin; yna, trochai ef mewn dau wlybwr arall; sef, yn gyntaf, mewn *muriatic acid*, ac wedi hyny mewn *prussiate of potash*. Profodd hyn yn hollol lwyddiannus, ac y mae cymmysgedd yn cael ei arfer yn awr, sylfaenedig ar y prawf hwn, a elwir *Tinctura Giobertina*. Pan yn ymdrechu deongl

Digitized by Google

ysgrif-lyfr Granus Licinianus, tarawyd y Dr. Pertz gan yr amgylchiad hynod, nad oedd yr un driniaeth yr un mor lwyddiannus ar y naill ochr i'r croen ag oedd ar y llall. Yr hyn a ddefnyddiai efe ar y cyntaf oedd *sulphuretted ammonia;* ond bu raid iddo arfer y *Tinctura Giobertina.* Pan y mae yr ingc yn yr ysgrifen gyntaf yn un llysieuol, y mae darllenwyr galluog yn methu adferu yr ysgrifen wreiddiol fel ag i allu ei dehongli. Am ingc yn cynnwys sylwedd anifeilaidd (megys gwaed y môr-lawes —*cuttle-fish*), y mae Dr. Mone yn cynghori fod y llawysgrif i gael ei rhoddi mewn llestr cauedig wedi ei lenwi âg olew, a'i dwymno hyd 400° R. Y mae llawer, pa fodd bynag, yn dibynu ar brofiad a barn y darllenwyr.

YSPAEN (*Espana*): gwlad ar gyfandir Ewrop, sydd yn gwneyd i fyny y rhan fwyaf o'r gorynys mawr a ffurfia gongl dde-orllewinol y cyfandir Ewropaidd. Terfynir arni o du y gogledd gan Fachwy Biscay a Ffraingc, oddi wrth yr hon y mae yn cael ei hysgaru gan fynyddoedd y Pyrenees; ar du y deheu a'r dwyrain, gan Fôr y Werydd a Môr y Canoldir; ac ar du y gorllewin, gan y Werydd a Phortugal. Mesura, o Benrhyn Finisterre ar du y dwyrain hyd Benrhyn Creuze yn y gorllewin, ynghylch 650 o filldiroedd; ac o Fuenterrabia yn y gogledd hyd Tarifa yn y deheu, 560 o filldiroedd. Ei lled cyfartal ydyw tua 380 o filldiroedd. Ei harwynebedd, a chymmeryd i mewn yr Ynysoedd Beleeraidd ac Ynysoedd y Canary, ydyw 182,758 o filldiroedd ysgwâr. Yr oedd y boblogaeth, yn adeg y cofrifiad cyffredinol diweddaf a gymmerodd le yn 1860, yn 16,301,851; ond yn ol yr amcangyfrif a wnaed yn niwedd y flwyddyn 1870, yr oedd yn 16,835,506—yn dangos cynnydd o 533,655 er cofrifiad 1860. Y mae y deyrnas, gan gynnwys yr ynysoedd cyfagos, yn cael ei rhanu i naw talaeth a deugain—dosbarthiad a wnaed yn 1834; er fod y dosbarthiad blaenorol oedd arni i bedair ar ddeg o deyrnasoedd, neu daleithiau, yn cael ei ddefnyddio weithiau hyd heddyw.

*Yr Arfordir.*—Y mae llinell arfordir Yspaen, heb gymmeryd i'r cyfrif y cilfachau bychain lliosog a geir yno, yn 1317 o filldiroedd o hyd—o ba rai y mae 712 yn cael eu golchi gan Fôr y Canoldir, a 605 gan ddyfroedd y Werydd. Nid ydyw yr arfordir gogleddol, o Fuenterrabia Orllewinol i Benrhyn Ortegal, yn cael ei dori gan fylchau o bwys. Y mae mur o greigiau ysgythrog, o ddeg ar hugain hyd dri chant o droedfeddi o uchder, yn rhedeg ar hyd y lan hon, a'r dwfr yn lled ddwfn yn agos i'r traeth. Y mae yr arfordir gogledd-orllewinol, o Benrhyn Ortegal yn y deheu i enau yr afon Minho—sydd yn gwahanu talaeth Yspaenaidd Gallicia oddi wrth Portugal—er yn greigiog, yn is, ac yn llawer mwy bylchog na'r glenydd a olchir gan Fachwy Biscay; ac y mae yn y cilfachau borthladdoedd cyfleus a diogel. O enau y Guadiana, ar du y deheu, hyd Gulfor Gibraltar, y mae yr arfordir yn isel, tywodlyd, ac weithiau yn gorsiog. O Gibraltar i Benrhyn Palos, y mae y glenydd, gyda pha rai y mae trum mynyddoedd Sierra Nevada yn rhedeg yn gyfochrog, yn gyffredin yn greigiog ac uchel, er yn wastad yma a thraw: ac nid oes yma ond dau borthladd; sef, Carthagena a Malaga. Y mae yr arfordir isel, a chan mwyaf tywodlyd, sydd yn ymestyn yn ogleddol o Benrhyn Palos, yn ymgodi yn glogwyni uchel yn nghymmydogaeth Denia, ond yn ymestyn yn wastadeddau tywodlyd o Denia i enau yr afon Ebro. O enau yr afon hon, yn ogleddol tua chyffiniau Ffraingc, y mae yr arfordir yn amrywio, weithiau yn uchel, a phryd arall yn isel, a'r prif borthladdoedd ydynt Barcelona a Rosas.

*Arwynebedd a Dosbarthiad Naturiol.*—Y mae sefyllfa a chyflëad y wlad hon wrthi ei hun—rhwng dau fôr, a'r rhai hyny y rhai enwocaf, ac mewn ystyr masnachol y pwysicaf hefyd, yn yr holl fyd—yn neillduol o ffafriol iddi; ac felly hefyd y mae nodwedd ei harwyneb, yr hwn sydd yn fwy amrywiol na'r eiddo unrhyw wlad arall o'i maint yn Ewrop. Y mae ucheldir eang—yr uchaf sydd ar y cyfandir—yn gwneyd i fyny ei rhanau canolbarthol, ac yn cael ei derfynu ar du y gogledd a'r gorllewin gan gyfres o fynyddoedd; ar du y gogledd-ddwyrain, gan ddyffryn yr Ebro; ac ar du y deheu, gan ddyffryn Guadalquivir. Y mae yr ucheldir mawr hwn yn ymgodi i'r uchder o ddwy i dair mil o droedfeddi, ac yn mesur dros 90,000 o filldiroedd ysgwâr, neu tua hanner holl arwynebedd y wlad. Dosberthir yr holl orynys Pyreneaidd gan ddaearyddwyr Yspaenaidd i saith o drumiau mynyddig; a'r rhai canlynol ydynt y rhai penaf:—1. Y Mynyddoedd Cantabriaidd a'r Pyrenees, yn ffurfio y trum gogleddol. 2. Y Sierra de Guadarrama, yn ysgaru Leon a Hen Castile oddi wrth Estremadura a Castile Newydd, ac yn ymgodi yn nghlogwyn Penalara 7,764 tr. uwch gwyneb y môr. 3. Y Montes de Toledo, sydd yn ffurfio rhan o'r dyfr-arllwysfa (*watershed*) rhwng y Tagus a'r Guadiana. 4. Y Sierra Morena, rhwng dyfroedd uchaf y Guadiana a Guadalquiver. 5. Y Sierra Nevada, sydd yn rhedeg yn gyfochrog â glenydd Môr y Canoldir, drwy Murcia ddeheuol ac Andalucia, ac yn ymgodi yn y lleoedd uchaf yn uwch nag unrhyw fynyddoedd yn Ewrop, oddigerth yr Alpau. Y mae i'r amryw drumau mynyddig, neu *Cordilleras* Yspaen, fel y gelwir hwynt, yn gyffredin gyfeiriad dwyreiniol a gorllewinol; a rhyngddynt rhêd yn yr un cyfeiriad y dyffrynoedd cyfochrog—y Douro, y Tagus, y Guadiana, a'r Guadalquiver, y rhai a ddisgrifir yn eu lleoedd priodol.

*Yr Hinsawdd a'r Tir.*—Y mae hinsawdd Yspaen, o herwydd eangder a chydluniad y wlad, yn hynod o amrywiol. Yn y taleithiau gogleddorllewinol, y mae yn llaith a gwlawog am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Yn Madrid, yr hon o ran ei safle sydd tua 11° mwy i'r deheu na Llundain, a dim ond 5° mwy i'r gogledd na glenydd gogleddol Affrica, y mae gauafoedd mor erwin a llym wedi digwydd yno fel y mae gwylwyr milwraidd, tra yn cyflawni eu dyledswyddau, wedi rhewi i farwolaeth; tra y mae y taleithiau deheuol a dwyreiniol yn gynnes hyd yn oed yn y gauaf, ac yn agored i wyntoedd poethion o'r deheu, ac i wres trofanol o'r bron yn yr haf. Y mae daearyddwyr, hen a diweddar, wedi mabwysiadu y gwahaniaeth sydd yn yr hinsawdd fel rheol i ddosbarthu y gorynys yn rhaniadau pennodol. O'r rhaniadau hyn, y cyntaf a'r mwyaf gogleddol ydyw yr un a gynnwysa Gallicia, Asturias, taleithiau Basque, Navarre, Catalaria, a pharthau gogleddol yr Hen Castile ac Aragon. Y mae y gauaf yn faith yn y parth hwn, a'r gwanwyn a'r cynhauaf yn wlawog; ac y mae gwyntoedd y gogledd a'r gogledd-ddwyrain yn chwythu yn oer oddi ar gopäau y Pyrenees, sydd yn wastad yn orchuddiedig âg eira. Y mae y wlad, yr hon sydd yn cael ei hamrywio gan

Digitized by Google

fryniau a dyffrynoedd, yn cael ei dyfrhau yn helaeth gan afonydd cyfoethog o bysgod, ac y mae ynddi ddolydd sydd yn oludog o borfeydd breision. Nid ydyw ŷd yn addfedu yn dda yn y parthau mwyaf agored; ond y mae grawn o bob math yn cael ei gynnyrchu yn y parthau eraill, yn gystal a ffrwythydd, a gwinwydd, a choed gwerthfawr. Ffurfir cylch (*zone*) canol yr hinsawdd yn benaf, gan yr ucheldir mawr canolbarthol, a chynnwysa Valencia Ogleddol, Castile Newydd, Leon, ac Estremadura, ynghyd â pharthau deheuol yr Hen Castile, ac Arragon. Nid ydyw hinsawdd y rhan yma o'r wlad yn ddymunol, ond yn unig yn y gwanwyn a'r cynhauaf. Ar hyd y gauaf llym, y mae tymmhestloedd gerwinol yn ysgubo dros yr ucheldiroedd di-goed; ac yn yr haf, y maent yn cael eu llosgi i fyny gan wres-yr haul. Y mae y tir yn gyffredin yn ffrwythlawn, ac ŷd a gwin yn cael eu cynnyrchu mewn helaethrwydd. Cynnwysa y deheu, wlad fras, sydd yn ymestyn rhwng ochr ddeheuol yr ucheldir canolbarthol a glanau Môr y Canoldir—yn cynnwys Andalucia, Murcia, a Valencia Ddeheuol. Amddiffynir y parth hwn oddi wrth wyntoedd oerion y cylch canol gan yr amgaerau creigiog sydd ar du y gogledd; ond ni chysgodir ef rhag y gwyntoedd poeth sydd yn yr haf yn chwythu yn ogleddol o Affrica, ac yn peri fod y tymmor o'r bron yn annioddefol i Ewropiaid. Yma y mae y gauaf yn dymmerus, a'r gwanwyn a'r cynhauaf yn hynod o ddymunol. Wrth ddisgyn o'r parthau canolbarthol oer a mynyddig i'r dosbarth hwn o'r wlad, sydd o'r braidd yn drofanol o ran ei wres a'i ffrwythlonrwydd, y mae gwahaniaeth mawr yn cael ei deimlo. Am y tir, yr hwn a ddyfrheir yn gelfyddydol, y mae yn hynod gyfaddas tuag at ddybenion amaethyddol, a diwylliant y ffrwythydd a dyfant mewn hinsoddau cynnhes. Cynnwysa y cynnyrchion sugr, cotwm, reis, aurafalau, lemonau, a phalmaeron.

*Cynnyrchion, llysieuol a mwnawl, a masnach.*—Ar un adeg, Yspaen ydoedd y deyrnas fwyaf cyfoethog yn Ewrop; ond o herwydd amryw achosion, erbyn y ddeunawfed ganrif yr oedd ei sefyllfa yn hynod iawn o isel. Yr oedd ysbryd anturiaethus megys wedi ei lwyr golli o honi, a difaterwch a thlodi wedi cymmeryd lle llafur a chyfoeth. Cyn diwedd y ganrif ddiweddaf, pa fodd bynag, dechreuodd y wlad daflu ymaith ei difaterwch; ac y mae yn parhau i wellhau yn raddol yn yr ystyr yma, ac yn enwedig er y fl. 1851. Y mae y boblogaeth wedi, ac yn parhau i liosogi yn gyflym; y mae amaethyddiaeth yn fwy llwyddiannus, a llaw-weithfaoedd yn cynnyddu ac yn amlhau; ac y mae yn y wlad lawer o ffyrdd haiarn, y gyntaf o ba rai a ddechreuwyd yn 1848; ac erbyn hyn, y mae dros bedair mil o filldiroedd wedi eu cwblhau. Y mae y chwanegiad beunyddiol sydd at y boblogaeth yn brawf fod y wlad yn gwellhau ac yn llwyddo. Gwyddys fod ei phoblogaeth wedi lleihau yn raddol, o ddwy i dair miliwn, o ddechreu yr unfed ganrif ar bymtheg hyd ddiwedd yr eilfed ar bymtheg. Ond yn ystod y can mlynedd oedd yn terfynu yn 1870, yr oedd y boblogaeth yn mron wedi dyblu. Yn 1768, nifer ei phoblogaeth ydoedd 9,159,999; ond yn 1870, yr oedd yn 16,835,506. Mewn amaethyddiaeth, yn gystal ag yn rhifedi y boblogaeth, y mae cynnydd amlwg wedi bod ynddi yn ystod yr un amser. Defnyddir mynyddoedd eang y wlad yn borfeydd, ac y maent wedi eu dosbarthu yn ffermydd mawrion. Ond yn y dyffrynoedd cynnhes a ffrwythlawn, ac yn enwedig yn yr ardaloedd lle y ceir cyflawnder o ddwfr, y mae y ffermydd yn fychain. Yr oedd rhifedi y ffermydd o bob maintioli yn 3,426,083 yn y flwyddyn 1860—o ba rai yr oedd 750,000 yn cael eu dal gan denantiaid, a'r gweddill yn cael eu hamaethu gan eu perchenogion. Y mae rhifedi dirfawr y ffermydd yn dangos eu bod yn fychain; ond gwyddys hyd sicrwydd mai y talaethau lle y dosberthir y tiroedd yn ddarnau mân ydyw y rhai cyfoethocaf. Tra ammherffaith ydyw ystadegau Yspaenaidd o bob math; ond, a barnu oddi wrth y glô a'r haiarn a ddadforir yno, y mae llaw-weithfaoedd yn cyflym gynnyddu yn y wlad, er gwaethaf pob peth sydd yn tueddu i'w cadw yn ol. Y mae y dadforion a'r allforion ar gynnydd beunyddiol. Y wlad sydd yn anfon mwyaf o nwyddau iddi ydyw Ffraingc, a'r nesaf ati ydyw Prydain Fawr—ond y diweddaf sydd yn derbyn mwyaf o'i hallforion.

*Y Fyddin a'r Llynges.*—Cafodd byddin Spaen ei hail drefnu yn y flwyddyn 1868, ar gynllun byddin Ffraingc. Dosberthir y wlad, i ddybenion milwraidd, yn bump o ddosbarthiadau; a rhifa y fyddin, yn cynnwys pob rhan o honi, tua 150,000. Cynnwysa y llynges ynghylch 122 o longau, bychain a mawr; ac y mae y morwyr a'r môr-filwyr a berthynant iddi yn rhifo tua 16,500.

*Crefydd ac Addysg.*—Crefydd sefydledig Yspaen ydyw yr un Babaidd:—ac y mae yr holl boblogaeth yn perthyn iddi, gyda'r eithriad o ryw 70,000. Hyd yn lled ddiweddar, yr oedd y rhan fwyaf o boblogaeth Yspaen mewn sefyllfa dra anwybodus. Peth anghyffredin yn niwedd y ganrif ddiweddaf, neu ddechreu yr un bresennol, fuasai taro ar wladwr neu weithiwr cyffredin, yn alluog i ddarllen; ac o'r braidd nad edrychid ar hyny mewn cyssylltiad â benywod fel peth na ddylasai fod. Yr oedd addysg y bobl yn gwbl yn nwylaw yr offeiriaid Pabaidd hyd y flwyddyn 1808; ond y mae cyfreithiau a basiwyd ar ol hyny wedi gosod eu haddysg yn nwylaw y llywodraeth, a chyfnewidiad mawr wedi ei effeithio. Nid ydyw y wladwriaeth, pa fodd bynag, yn talu ond swm bychan tuag at addysg y cyhoedd. Gadewir ef yn benaf yn ngofal rhieni plant, ac eraill; ond y mae arolygiaeth y llywodraeth dros addysg wedi arwain i welliantau mawr. Yn ol y cyfrifon a gyhoeddwyd yn 1848, nifer yr ysgolheigion drwy y wlad oeddynt 663,711; ond yn ol y cyfrifon swyddol diweddaf, a gyhoeddwyd yn 1868, yr oedd nifer yr ysgolheigion yn 1,251,653 yn yr ysgolion cyhoeddus a phreifat—neu un o bob tri ar ddeg o'r boblogaeth. Rhoddir addysg o radd uwch mewn deunaw a deugain o golegau cyhoeddus, gan 757 o athrawon, i 13,881 o ysgolheigion.

*Ei hanes.*—Pan y gwneir y crybwylliad cyntaf am Yspaen gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, preswylid hi gan bobl gymmysg o ran eu tarddiad. Tybir ei bod ar y cyfan yn cael ei phoblogi gan hiliogaeth o bobl a elwid yr Iberiaid; ond meddylir i'r Celtiaid oresgyn y wlad, gan ddyfod i lawr o'r Pyrenees. Yn yr amser boreuaf y mae genym gofnodion am danynt, yr oedd y ddwy genedl hyn wedi ymgymmysgu, a gelwid hwy yn Celtiberiaid; ac yr oeddynt gan mwyaf yn preswylio canolbarth y gorynys—yn mharthau gorllewinol Lusitania, ac ar y gororau gogleddol. Yr oedd yn Bætica (Andalucia) gymmysgedd cryf o'r elfen Phœniciaidd, ac ar y gororau deheuol a dwyreiniol drefedigaethau Phœniciaidd,

Digitized by Google

Carthagenaidd, a Rhodaidd. Ymwelid yn fynych â rhanau o'r glenydd deheuol, a elwid Tartesus (Tarsis yr Ysgrythyrau), gan farsiandwyr Phœniciaidd, er masnachu yn ei golud mwnawl, ac yr oedd "llongau Tarsis" yn adran neillduol yn mysg llongau masnachol Tyrus. Ymddengys fod y rhwymyn oedd yn cyssylltu yr Iberiaid â'r Phœniciaid o nodwedd fasnachol hollol. Tua diwedd y drydedd ganrif cyn Crist, dechreuwyd teimlo dylanwad y Carthageniaid yn fawr yn Iberia, a dygwyd rhanau helaeth o'r wlad o dan lywodraeth Carthage gan Hamilcar, yr hwn a sylfaenodd ddinas Barcelona. Yn ystod yr wyth mlynedd a ddilynodd, cryfhaodd gallu y Carthageniaid, a chwanegwyd at eu nerth gan Hasdrubal, mab-yn-nghyfraith Hamilcar; yr hwn a sylfaenodd Carthago Nova, ac a wnaeth gyttundeb â'r Rhufeiniaid, yn ol yr hwn nid oedd efe i ddyrchafu ei faner yn ogleddol i'r Iberus (Ebro). Cymmerodd Hannibal, mab Hamilcar, a'r penaf o'r cadlywyddion Carthagenaidd, lywyddiaeth y gorynys. Ymosododd ar, a dinystriodd Saguntum, a thrwy hyn torodd y cyttundeb a wnaed rhwng ei dad a'r Rhufeiniaid. Dinystrio Saguntum oedd achos yr ail ryfel Punicaidd. Ar ol i'r Rhufeiniaid yru y Carthageniaid o'r gorynys yn 206 c.c., gwnaed y wlad yn dalaeth Rufeinig. Ni ddarfu i Cantabri ac Astures, yn y gogleddbarth, roddi eu harfau i lawr hyd y flwyddyn 25 c.c., pan y gwnaethant hyny i'r Ymherawdwr Augustus.

Ar ol darostwng y wlad, dosbarthwyd hi yn dair talaeth; sef, Tarraconensis (yn cynnwys y taleithiau gogleddol a dwyreiniol), Bætica (Andalucia), a Lusitania; sef, Portugal a'r taleithiau gorllewinol. Parhaodd y dosbarthiad hwn ar y wlad hyd deyrnasiad Cystenyn Fawr, yn y bedwaredd ganrif. O'r adeg y cymmerodd y Rhufeiniaid feddiant o Yspaen hyd farwolaeth Cystenyn, yr oedd y wlad wedi bod yn hynod lwyddiannus. Pan y dygwyd y preswylwyr o dan lywodraeth gref yr ymherodraeth, gorfodwyd hi am amser maith i roddi heibio yr ymrysonau mewnol, a'r rhyfeloedd, a ddygid yn mlaen rhyngddynt a'u gilydd, a mabwysiadwyd iaith, cyfreithiau, ac arferion y gorchfygwyr, ac ymroisant i lafurio gyda diwydrwydd, a chynnyddasant yn fawr mewn rhifedi a chyfoeth. Adeiladwyd trefydd o nodwedd Rufeinig drwy yr holl wlad; ac yn mhlith y rhai penaf, gellir enwi Leon, Emerita Augusta (Merida), Pax Julia (Beja), Cæsar Augusta (Saragossa); a llawer o ddyfrffosydd (*aqueducts*), pontydd, ac amchwareufeydd, &c.—adfeilion pa rai a barant i deithwyr diweddar ryfeddu. Costiodd ennill a chadw Yspaen i'r Rhufeiniaid aberthau mawrion mewn bywydau a meddiannau; ond am dros dair canrif, hi oedd y dalaeth gyfoethocaf gan yr ymherodraeth. Ei meusydd cynnyrchiol hi am amser maith oedd prif ystordy ŷd Rhufain, ac o'i mwngloddiau hi y cafwyd arian ac aur i lenwi coffrau yr ymherodraeth. Dywed Gibbon fod "ugain mil o bwysi o aur yn cael eu derbyn yn flynyddol o daleithiau Awstria (Asturias), Gallicia, a Lusitania."

Yn B. A. 409, daeth minteioedd o farbariaid, Alaniaid, Vandaliaid, a Sueviaid, dros y Pyrenees, gan oresgyn ac anrheithio y gorynys. Ymsefydlodd y Vandaliaid gan mwyaf yn Bætica, yr Alaniaid yn Lusitania, a'r Sueviaid yn Leon a Castile. Ynghylch y flwyddyn 412, goresgynodd y Visigothiaid y wlad, a sefydlodd eu brenin Athaulf, yr hwn a gydnabyddai mewn enw uchafiaeth yr ymherawdwr Rhufeinaidd, y frenhiniaeth Gothaidd yn Catalonia. Am y Visigothiaid—gan y rhai y darostyngwyd y Sueviaid, ac y gyrwyd y Vandaliaid a'r Alaniaid o'r wlad, ac yr unwyd rhan fawr o Gaul â thiriogaeth Yspaen—eu brenhinoedd enwocaf oeddynt Wallia (415—418), yr hwn a helaethodd lawer ar derfynau y frenhiniaeth Gothaidd; ac Euric (466—483), yr hwn, heb law helaethu ei diriogaethau, a ddygodd i mewn gorph o gyfreithiau, ac a wnaeth lawer i gefnogi gwareiddiad; Wamba (673—680), yr hwn a adeiladodd lynges i amddiffyn y gororau; a Roderic, yr hwn a laddwyd yn Xeres de la Frontera yn B. A. 711, mewn brwydr gyda'r Mooriaid. Cafodd y Mooriaid, mewn canlyniad i'r frwydr hon feistrolaeth hollol yn mron ar yr oll o Yspaen, yn gystal ag ar dalaeth Gothaidd Septimania (Languedoc) yn Ffrainge; a gwnaeth y gweddillion o'r Gothiaid eu noddfa yn ucheldiroedd Asturias, Burgos, a Biscay, lle y darfu iddynt gadw eu hannibyniaeth.

Cadwodd yr Arabiaid, neu yn fwy priodol y Mooriaid, Yspaen, yn ystod y blynyddoedd cyntaf y buont yn ei llywodraethu, fel lle dibynol ar dalaeth Affrica Ogleddol; ond ar ol cwymp Muza, a'i fab Abd-el-aziz, y rhai a fuont yn islywodraethwyr ynddi, llywodraethwyd y wlad gan dywysogion a bennodid gan raglaw Damascus. Y cynllun a ffafrid fwyaf gan y tywysogion llywodraethol hyn oedd darostwng chwaneg o dir Gaul, ac esgeuluso talu sylw i allu cynnyddol y Gothiaid yn Asturias: cymmerasant ynysoedd Belearic, Sardinia, a Corsica, a rhanau o Apulia a Calabria. Yr oedd eu llongau hefyd yn britho Môr y Canoldir; ond attaliwyd eu mynediad buddugoliaethus yn mlaen yn ogleddol mewn modd effeithiol, ar wastadedd Tours, gan Charles Martel. Annhrefn a thywallt gwaed oedd yn hynodi y deugain mlynedd cyntaf o lywodraethiad y Mahometaniaid yn Yspaen. Gwrthryfelai y llywodraethwyr lleol yn fynych yn erbyn y llywodraethwr cyffredinol, yn gystal ag yn erbyn eu gilydd. O fewn y deugain mlynedd hyn, ni bu yno lai nag ugain o lywodraethwyr cyffredinol, neu *emiriaid*. Ond mewn canlyniad i chwyldroad yn Damascus, diorseddwyd teulu Ommiade, a daeth teulu Abbaside i feddiant o'r rhaglawiaeth; ond yn gymmaint a bod is-lywodraethwyr Yspaen, gan mwyaf, yn ffafriol i'r blaenaf, gwahoddwyd un o'r blaid hono i ddyfod yn rhaglaw annibynol yn Yspaen. Fel hyn y sylfaenid rhaglawiaeth, neu galiphiaeth, Cordova; ac yn B. A. 778, ennillodd y Ffranciaid yn ol eu holl diriogaethau yn ogleddol i'r Pyrenees, a pharthau gogledd-ddwyreiniol Yspaen hyd at yr Ebro; ac o hyny allan, bu y rhan hono o'r wlad yn nwylaw y Mooriaid a'r Ffranciaid bob yn ail.

Yn ysbaid tymmor llywodraethiad y Mooriaid, yr oedd teyrnas fechan annibynol Asturias, a sylfaenwyd gan Pelayo, wedi parhau i gynnyddu o ran ei gallu a'i therfynau. Chwanegwyd Gallicia ati yn 758, a rhanau o Leon a Castile tua diwedd y ganrif. Yn 758, sylfaenwyd teyrnas annibynol arall gan rai a broffesent Gristionogaeth yn Sobrarve, a chafwyd ati ddarnau o Navarre ar un llaw, ac o Aragon ar y llall; ond llyngcwyd hi i fyny gan raglawiaeth Cordova yn 801. Pa fodd bynag, tua deugain mlynedd yn ddiweddarach, sylfaenodd un o bendefigion Navarre deyrnas Navarre. Ynghylch y fl. 900, yr oedd teyrnas Asturias (Leon erbyn hyn) wedi



Digitized by Google

gwanhau, o herwydd ymraniadau mewnol; a buasai hi a theyrnas Navarre yn syrthio yn rhwydd yn ysglyfaeth i'r Mooriaid, oni bae fod yr olaf wedi gosod eu bryd y pryd hwnw ar ddarostwng Morocco. Sylfaenwyd teyrnas Castile yn 933, yr hon yn fuan a ddaeth yr alluocaf o daleithiau Yspaen, yn enwedig ar ol cyssylltu Leon gyda hi. Cymmerwyd dosbarth helaeth o Aragon oddi ar y Mooriaid gan Sancho III. o Navarre, yn nechreu yr unfed ganrif ar ddeg. Parhaodd y tair teyrnas, sef Castile a Leon, Navarre, ac Aragon, weithiau mewn undeb â'u gilydd, a phryd arall ar wahân, i ryfela yn erbyn y gelyn cyffredin, sef y Mooriaid; a pha bryd bynag y deuai adgyfnerthion newydd o Affrica, neu yr esgynai rhyw galiph egniol i awdurdod i fygwth perygl difrifol i un o'r tair, deuai y lleill yn mlaen yn gyffredin i gynnorthwyo yr un fyddai yn y perygl.

Pan ddaeth teyrnach yr Ommiade i ben yn Yspaen yn 1031, ac y dosbarthwyd y rhaglawiaeth yn fân deyrnasoedd, megys Cordova, Seville, Toledo, Lisbon, Saragossa, Tortosa, Valencia, Murcia, Badajos, a saith eraill, cymmerodd brenhinoedd Castile ac Aragon fantais ar hyny i wneyd ymosodiad, gan ddarostwng rhai o honynt; ac mewn ychydig flynyddau, llwyddasent i lethu y Mooriaid yn ddiammheu oni bae i Mohammed o Cordova geisio cynnorthwy llwyth Arabaidd, oedd wedi gwneyd gwhydri milwraidd yn ngogleddbarth Affrica. Y llwyth hwn, yr Almoraviaid—hyny yw, dynion ymroddedig i wasanaeth Duw—wedi gwneyd eu hunain yn feistriaid ar daleithiau Affrica ac Almagreb, a sylfaenodd ymherodraeth Morocco. Ar gais Mohammed, croesodd yr Almoraviaid drosodd i Yspaen, gorchfygasant frenin Aragon a Castile, ac adfeddiannwyd llawer o Castile newydd. Yno, troisant ar Mohammed, a gorfodasant ef i roddi i fyny daleithiau Cordova a Seville, a dilynodd holl dywysogion y taleithiau Mooraidd lleiaf ei esampl; fel erbyn 1094, daeth y penaeth Almoravaidd i gael ei gydnabod yr unig benadur Mahometaidd yn Yspaen. Dechreuodd gallu y llwyth hwn wanhau, modd bynag, ynghylch y fl. 1130, a gyrwyd hwy o'r golwg gan yr Almohadiaid, sect benboeth o Fahometiaid a laniodd yn Yspaen yn nghanol y ddeuddegfed ganrif, ac a orchfygasant y tiriogaethau Mahometaidd yn y wlad hono. Yn nheyrnasiad y trydydd brenin o'r deyrnach hon y cymmerodd y frwydr fawr le rhwng byddinoedd unedig Castile, Leon, Navarre, Aragon, a Phortugal, â'r Mooriaid; yn yr hon y cafodd y fyddin unedig y fuddugoliaeth enwocaf a ennillodd y Cristionogion erioed ar eu 'gelynion Mahometaidd—pan y collodd y diweddaf, yn ol y cyfrif a anfonwyd i'r pab, 100,000 wedi eu lladd, a 50,000 wedi eu cymmeryd yn garcharorion. Ymladdwyd y frwydr waedlyd hon ar wastadeddau Tolosa, ar yr 16eg o Orphenaf, 1212, a dinystriwyd awdurdod yr Almohadiaid yn Yspaen. Ar ol cwymp yr Almohadiaid, brenin Jaen a gymmerodd y lle blaenaf yn mysg y tywysogion Mahometaidd, ac a sylfaenodd deyrnas Granada yn 1238. Gorfodwyd brenin Granada yn fuan i dalu gwarogaeth i Castile; ac o'r pryd hwn allan, yr oedd pob perygl oddi wrth y gallu Mahometaidd drosodd. Nid oes dim yn galw am roddi y manylion am fân deyrnasoedd Yspaen cyn eu huno. Yr oedd llys Castile yn mron yn wastad yn llawn ymrysoniadau mewnol, yn gystal ag yn dwyn rhyfel yn erbyn Granada, neu yn erbyn ei ddeiliaid aflonydd ei hun. Yr oedd Aragon, ar y llaw arall, yn mron yn hollol rydd oddi wrth gynnhyrfiadau mewnol; yr hyn mewn rhan y gellir ei briodoli i'r dyddordeb a gymmerai brenhinoedd Aragon mewn gwleidyddiaeth Italaidd. Yn y rhan gyntaf o'r drydedd ganrif ar ddeg, gorchfygodd Jayme I. Valencia a Majorca; ac efe oedd y cyntaf o frenhinoedd Aragon a gafodd lŵ gwirfoddol o ufudd-dod gan ei ddeiliaid. Yn y gyfran ddiweddaf o'r un ganrif, meddiannodd Pedro III. Sicily, Minorca, ac Iviza; a gorchfygodd Jayme II. Sardinia a Corsica. Yn nghanol y bymthegfed ganrif, gorchfygwyd Naples gan Alfonso V. A darfu i Ferdinand II., y Catholig, penadur olaf Aragon, yr hwn a briododd Isabella, brenhines Castile, yn 1469, orchfygu Granada yn 1492, a Navarre yn 1512, ac uno holl Yspaen, a Navarre yn Ffraingc, o dan un llywodraeth.

Yn y flwyddyn 1492, yn nheyrnasiad Ferdinand ac Isabella, y darganfyddwyd yr America hefyd. Yr oedd Yspaen yn awr yn un ymherodraeth o'r Pyrenees i Gulfor Gibraltar, a rhyfel wedi tawelu; a chyfandir mawr, llawn o gyfoeth, wedi ymagor i ysbryd anturiaethus yr Yspaeniaid. Ond yn gymmaint a bod yr Yspaeniaid mwyaf anturiaethus yn awr yn ymfudo i'r ochr arall i'r Werydd, yr oedd tiroedd Yspaen, a'i thrysorau mwnawl, a'i ffynnonellau cynnyrchiol o gyfoeth, yn cael eu hesgeuluso am dymmorau y tu hwnt i'r môr; am yr hwn le yr oedd pawb yn tybied fod yn hawddach cael aur ynddo nag oedd cael haiarn yn yr hen wlad. Heb law y lliaws mawr a ymfudent o Yspaen, yr oedd anfoniad yr Iuddewon a'r Mooriaid oddi yno wedi cynnyrchu effeithiau o'r fath waethaf; a gellir dyweyd fod adfeiliad ymherodraeth ysblenydd Yspaen, ar yr hon nid oedd yr haul y pryd hwnw yn machlud, wedi dechreu yn yr un achos ag a gododd y wlad i'w hardderchawgrwydd penaf. Siarl I. (Siarl V. o'r Almaen) oedd olynydd Ferdinand; ac yn ei deyrnasiad ef, chwanegwyd Mexico a Pheru at y meddiannau Yspaenaidd yn y gorllewin. Darfu i Phylip II., trwy ei ormes a'i dreuliau milwraidd anferth, osod i lawr sylfaen sicr i ddadfeiliad y wlad. Pan alltudiwyd y Mooriaid oddi yno, gellir dywedyd i law-weithfeydd, masnach, ac amaethyddiaeth gael eu gyru ymaith ar yr un pryd; ac yn nheyrnasiadau Phylip III., a Phylip IV., yr oedd ei hadfeiliad yn cael ei brysuro gan ryfeloedd â'r Isellmyniaid, Rhyfel y Deng Mlynedd ar Hugain â Phrotestaniaid yr Almaen, ymyriad Olivarez yn achosion Italy Ogleddol, gwrthryfel y Cataliaid, a gwrthryfel Portugal (1640)—yr hon oedd wedi ei huno âg Yspaen gan Phylip II. Bu rhyfel Siarl II. yn fwy anffodus drachefn; ac ar farwolaeth y diweddaf, cymmerodd rhyfel le ar bwngc yr olyniaeth i'r orsedd.

Phylip V. oedd y cyntaf o deyrnach Bourbon a fu yn eistedd ar orsedd Yspaen. O dan Siarl III. (1759—1788), yr hwn oedd dywysog doeth a goleuedig, dechreuodd ail adfywiad y wlad; a dechreuodd crefftwriaeth a masnach ddangos arwyddion o fywyd. Yn nheyrnasiad Siarl IV. (1788—1808), torodd rhyfel allan rhwng Yspaen a Phrydain Fawr yn 1796, a bu yn eithaf anffodus i'r Yspaeniaid; ac un arall drachefn yn 1804, yr hwn a fu yr un mor anffodus iddynt. Ymneilldoodd Siarl yn ffafr ei fab hynaf, tywysog Asturias, yr hwn a esgynodd i'r orsedd dan yr enw Ferdinand VII. Ond gorfodwyd yntau gan Napoleon i roddi i fyny bob hawl i goron

Digitized by Google

Yspaen, a gwnaed ef yn garcharor y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad; a chyhoeddwyd Joseph, brawd Napoleon, yn frenin Yspaen a'r India Orllewinol, yr hwn a aeth i Madrid i ymaflyd yn ei awdurdod. Ond cyn hyn, yr oedd y wlad yn mhob cŵr o honi yn mron wedi codi mewn arfau. Etholwyd cynghorau, yn gynnwysedig o brif ddynion y gwahanol gymmydogaethau; a gwaith y cynghorau hyn oedd gweinyddu y cyfreithiau, codi milwyr, enwi swyddogion, &c. Y cynghor uchaf, sef un Seville, a gyhoeddodd ryfel yn erbyn ymherawdwr y Ffrangcod ar y 6ed o Fehefin, 1808. Gwnaed heddwch rhwng Prydain ac Yspaen yn mis Gorphenaf, a chydnabyddwyd Ferdinand yn frenin; ac anfonwyd byddin i gynnorthwyo y rhai a ymgodent yn erbyn awdurdod y brenin Joseph. Aeth Joseph i Yspaen ar y 9fed o Orphenaf; a thrwy ei gadfridog Bessières, gorchfygodd yr Yspaeniaid yn Rio Seco, ac aeth i mewn i Madrid ar yr 20fed o'r un mis. Ond darfu i orchfygiad Dupont gan Castanos gyfnewid sefyllfa pethau yn hollol; a bu raid i Joseph, ar ol amddiffyn ei brifddinas am yr ysbaid byr o ddeng niwrnod, ei gadael, ac encilio i Vittoria. Glaniodd Syr Arthur Wellesley, wedi hyny y Duc o Wellington, gyda byddin Brydeinig yn Machwy Mondego ar y 5ed o Awst, a dechreuwyd rhyfel y Gorynys trwy orchfygu y Ffrangcod yn Roliza a Vimiera; ond er gwaethaf ei wrthwynebiad, llawnodwyd cyttundeb Cintra. Yn Tachwedd, 1808, anfonodd Napoleon 100,000 o filwyr i Yspaen; ac am beth amser, buont yn dra llwyddiannus. Llwyr orthrechodd Soult y cadfridog Yspaenaidd Belvedere ar y 10fed o Dachwedd, a Blake yn Reynosa ar y 13eg. Gorchfygwyd Castanos yn Tudela gan Lannes; ac yn nechreu Rhagfyr, aeth Napoleon i Madrid. Y pryd hwnw yr oedd y lluoedd Prydeinig o dan lywyddiaeth Syr John Moore; yr hwn, gan ei fod yn ymwybodol mor fyr yr oedd efe o adnoddau a rhifedi ei filwyr, a enciliodd yn orllewinol o Salamanca, i'r lle y daeth i gymmeryd llywyddiaeth y galluoedd cynghreiriol, a chyrhaeddodd i Corunna ar yr 11eg o Ionawr, 1809. Ar yr 22ain o Ebrill, cyrhaeddodd y cadfridog Wellesley i Portugal, a dechreuodd weithredu ar unwaith. Gyrodd Soult o Oporto, a chymmerodd feddiant o Portugal; yna, yn cael ei ffafrio gan y diffyg undeb a chydweithrediad oedd rhwng y tair neu bedair o fyddinoedd Ffrengig oedd yn Yspaen, cyfeiriodd ei ymosodiad yn erbyn y fyddin ganolbarthol, gan encilio pan ddelai un o'r lleill i'w chynnorthwyo: a thrwy eofnder anturiaethus, efe a lwyddodd, ar ol pedwar rhyfelgyrch, i yru y Ffrangcod o'r wlad. Bu cydweithrediad y Portugeaid, a milwyr afreolaidd Yspaen, a dialgarwch a chasineb pobl y wlad yn erbyn y Ffrangcod, o gymmhorth mawr iddo i gyrhaedd ei amcanion. Nid oedd Napoleon yn ewyllysio colli ei afael ar y gorynys: gan hyny, efe a anfonodd Soult, y cadfridog y gosodai fwyaf o ymddiried ynddo, i geisio attal y Prydeiniaid i Ffrainge; ond darfu i frwydrau y Pyrenees, y Nivelle, Orthez, a Toulouse, ddwyn yr ymrysonfa galed a chyndyn hon i derfyniad.

Yn 1812, dyfeisiwyd cyfansoddiad, oedd ar y cyfan braidd yn rhyddfrydig, i'r wlad gan senedd Cadiz. Diddymwyd ef, pa fodd bynag, gan Ferdinand VII., yr hwn a ymddygodd yn gwbl anniolchgar tuag at ddeiliaid oedd wedi amlygu cymmaint o ymlyniad wrtho; a chafodd gynnorthwy Ffrainge i sefydlu gorthrwm yn y wlad. Cythryblwyd teyrnasiad ei ferch, Isabella II., gan wrthryfel y Carlistiaid yn y blynyddoedd 1834—1839, yn yr hwn y darfu i'r Prydeiniaid gynnorthwyo y frenhines trwy anfon byddin yno, dan lywyddiaeth Syr De Lacy Evans. Y digwyddiad nesaf o bwys i'w gofnodi oedd yr ymrysonfa a gymmerodd le rhwng Espartero, y rhaglaw, a'r frenhines waddolog Christina, am yr awdurdod uchaf, yn ystod yr amser y bu y frenhines Isabella o dan oed. Bu Espartero yn llwyddiannus o 1840 hyd 1843, ond bu raid iddo ffoi o flaen Narvaez ac O'Donnell yn y flwyddyn ddiweddaf a nodir; ac ni adferwyd ef hyd 1847. Cyfnewidiadau mynych yn y weinyddiaeth, gwrthryfel achlysurol yn awr ac eilwaith, alltudiad y frenhines waddolog Christina (1854), ffurfiad gweinyddiaeth O'Donnell (1858), y rhyfel â'r Mooriaid, uniad St. Domingo yn 1861, a'r cwerylon rhwng Yspaen a'i threfedigaethau blaenorol, Peru a Chili, a fu y digwyddiadau mwyaf pwysig hyd 1866. Tynodd y senedd allan gyfansoddiad newydd yn 1867, wedi ei sylfaenu ar gyfansoddiad Cadiz, er yn gwahaniaethu mewn llawer o fanylion. Yn 1868, torodd gwrthryfel allan, ac alltudiwyd y frenhines Isabella. Sefydlwyd gweriniaeth dan lywyddiaeth Serrano; ond ar y cyfan, ymddengys nad oedd y wlad yn barod i'r ffurf hwn o lywodraeth. Cododd gwrthryfel o dan Don Carlos yn 1872, yr hwn a honai ei hawl i'r goron, a dygwyd yn mlaen ryfel cartrefol annedwydd a gwaedlyd; ond ar yr 31ain o Ragfyr, 1874, cyhoeddwyd Alfonso XII., mab y gyn-frenhines Isabella, yn frenin Yspaen; ac erbyn hyn y mae y wlad yn mwynhau seibiant a thawelwch.

Y mae y daflen ganlynol yn cynnwys rhai o'r digwyddiadau pwysicaf mewn cyssylltiad â'r wlad hono.

| | |
|---|---|
| Y Carthageniaid yn sefydlu trefedigaethau yn Yspaen ... ... | C.C. 360 |
| Hamilcar yn eangu tiriogaethau y Carthageniaid yn Yspaen ... ... | 238—233 |
| Y ddau Scipio yn cael eu gorchfygu a'u lladd gan Hasdrubal ... ... ... | 212 |
| Sertorius yn gwrthryfela, ac yn cael ei ddarostwng gan Pompey, a'i ladd ... ... | 72 |
| Iulius Cæsar yn darostwng gwrthryfel ... | 67 |
| Pompey yn llywodraethu Yspaen ... | 60—50 |
| Yspaen yn gwrthryfela ... ... | 48—47 |
| Gorchfygu Yspaen gan Augustus | 38 |
| Y Vandaliaid, yr Alaniaid, a'r Sueviaid yn cymmeryd Yspaen oddi ar y Rhufeiniaid | B.A. 409 |
| Y Vandaliaid yn ymadael oddi yno, ac yn myned i Affrica ... ... ... | 427 |
| Theodoric I. yn gorchfygu y Sueviaid ... | 452 |
| Gwahodd yr Arabiaid i Yspaen i wrthwynebu y brenin Roderick ... ... ... | 709 |
| Y Saraceniaid yn ymsefydlu yn Cordova ... | 711 |
| Gorchfygu y Saraceniaid yn Tours gan Charles Martel ... ... | 733 |
| Charlemagne yn goresgyn y wlad ... | 777 |
| Sefydliad teyrnas Aragon o dan Ramirez I. ... | 1035 |
| Portugal yn cael ei chymmeryd oddi ar y Saraceniaid gan Harri o Besancon ... | 1095 |
| Gorchfygu y Mooriaid mewn amryw frwydrau gan Alfonso o Leon ... ... | 1144 |
| Cordova, Toledo, Seville, &c., yn cael eu cymmeryd gan y brenin Ferdinand o Castile a Leon ... ... | 1233—48 |
| Dechreuad teyrnas Granada gan y Mooriaid | 1238 |
| Teyrnasiad Pedro y creulawn ... | 1350 |
| Gorchfygu a lladd Pedro yn Montiel ... | 1369 |
| Ferdinand II. o Aragon yn priodi Isabella o Castile, 1469; a holl diriogaethau Cristionogol Yspaen yn mron yn cael eu huno yn un frenhiniaeth ... ... ... | 1479 |

Digitized by Google

Sefydlu y Chwilys ... ... B.A. 1480—4
Cymmeryd Granada, a gyru y Mooriaid o Yspaen gan Ferdinand ... ... 1492
Anfon Columbus o Yspaen i archwilio y Cefnfór Gorllewinol ... ... 1492
Erlid ac alltudio y Mahometiaid ... 1499
Tŷ Awstria yn esgyn gorsedd Yspaen: cyhoeddi Siarl I. yn frenin ... ... 1516
Ethol Siarl yn ymherawdwr yr Almaen ... 1519
Phylip o Yspaen yn priodi Mari o Loegr ... 1554
Phylip II. yn dechreu ei erledigaeth waedlyd ar y Protestaniaid ... ... ... 1561
Portugal yn cael ei huno âg Yspaen ... 1580
Dinystrio yr Arf-lynges Yspaenaidd (*Spanish Armada*) ... ... ... 1588
Phylip III. yn alltudio 900,000 o'r Mooriaid rhwng y blynyddoedd ... 1598—1610
Phylip IV. yn colli Portugal ... 1640
Marwolaeth Siarl II., yr olaf o dŷ Awstria; esgyniad Phylip V., o deulu Bourbon, i'r orsedd. ... ... ... ... 1700
Cymmeryd Gibraltar gan y Prydeiniaid ... 1704
Siarl, mab Phylip V., yn gorchfygu Naples 1735
Siarl III., brenin y ddwy Sicily, yn esgyn gorsedd Yspaen ... ... ... 1759
Rhyfel â Phrydain ... ... 1762—63 a 1796
Y Prydeiniaid yn cymmeryd llongau Yspaenaidd, y cyfrifid eu gwerth yn 3,000,000 o ddoleri ... ... ... 1804
Y Ffrangcod yn myned i Yspaen; byddin Yspaenaidd yn cael ei danfon tua thaleithiau y Baltic ... ... ... 1807
Y Ffrangcod yn cymmeryd Madrid ... 1808
Siarl IV. yn ymddiswyddo yn ffafr Ferdinand, Mawrth 19eg; ac yn Bayonne, yn ffafr ei "gyfaill a'i gynghreiriydd" Napoleon, fel y dywedai, pan y rhoddodd Ferdinand i fyny ei goron ... Mai 1af ,,
Joseph Bonaparte yn myned i Madrid fel brenin Yspaen, Gorphenaf 12fed, ac yn ymneillduo oddi yno, Gorphenaf 29ain ... ,,
Brwydr Vimiera, yn yr hon y gorchfygwyd y Ffrangcod ... ... Awst 21ain ,,
Cymmeryd Madrid gan y Ffrangcod, a Joseph yn cael ei adferu i'r orsedd Rhagfyr 2il, ,,
Napoleon mewn rhwysg yn myned i mewn i Madrid ... .. Rhagfyr 4ydd, ,,
Gorchfygu y Ffrangcod yn Corunna, Ionawr 16eg; cymmeryd Ferrol, Ionawr 27ain; Saragossa, Chwefror 21ain; a Cordova a Seville, yn mis Tachwedd ... .. 1809
Y Cadfridog Ney yn cymmeryd Ciudad Rodrigo... ... ... .. 1810
Wellington yn gorchfygu Massena yn Fuentes de Onoro .. ... ... 1811
Cymmeryd Ciudad Rodrigo trwy ruthr, gan Wellington, Ionawr 19eg. Cymmerodd Badajos hefyd trwy ruthr, Ebrill 6ed; a gorchfygodd Marmont yn Salamanca Gorph. 22ain, 1812
Wellington yn meddiannu Madrid ... 1813
Ferdinand VII. yn adferu y cyfansoddiad a daflodd efe o'r neilldu ... ... 1814
Diddymiad y gaethfasnach trwy roddi iawn 1817
Cychwyn chwyldroad gan Riego ... 1820
Y senedd yn symmud y brenin o'r llys i Seville... ... ... Mawrth, 1823
Y Ffrangcod yn myned i Yspaen Ebrill 7fed, ,,
Riego yn cael ei roddi i farwolaeth am ei drosedd ... ... Tachwedd 7fed, ,,
Gwneyd Cadiz yn borthladd rhydd ... 1829
Cefnogwyr Don Carlos a Christina yn ymffurfio yn bleidiau ... ... ... 1830
Brenhines Yspaen yn cael ei phennodi yn rhaglywies yn ystod tymmor afiechyd y brenin .. ... ... ... 1832
Don Carlos yn cyhoeddi ei hun yn olynydd cyfreithlawn i'r brenin Ebrill 29ain, 1833
Marw Ferdinand VIII.; a Christina yn cymmeryd y teitl o frenhines lywodraethol hyd nes y deuai ei merch Isabella II. i'w hoed ... ... Medi 29ain, B.A. 1833
Y Frenhines Christina yn priodi Ferdinand Munoz ... ... Rhagfyr 28ain, ,,
Don Carlos yn ymddangos yn ddisymmwth yn Yspaen ... Gorphenaf 10fed, 1834
Syr De Lacy Evans yn codi lleng Brydeinig at wasanaeth brenines Yspaen ... 1835
Gorchfygu y Carlistiaid yn St. Sebastian ... 1836
Espartero yn ennill brwydr Bilboa, Rhag. 25. ,,
Y Cadfridog Evans yn cymmeryd Irun ... 1837
Y Carlistiaid, o dan Maroto, yn gadael Don Carlos, ac yn dyfod i heddwch, Awst 29ain, 1839
Don Carlos yn encilio, ac yn gwneyd ei noddfa yn Ffrainge ... ... Medi 13eg, ,,
Rhoddi Morello i fyny ... Mai 28ain, 1840
Cabrera, y Cadfridog Carlistaidd, yn cymmeryd noddfa yn Ffrainge Gorphenaf 7fed, ,,
Espartero, y prif weinidog, yn myned yn fuddugoliaethus i Madrid Hydref 3ydd, ,,
Espartero yn anfon ymaith y genad a anfonodd y Pab ato Rhagfyr 29ain, ,,
Y senedd yn cyhoeddi Espartero yn rhaglaw hyd nes y byddai i'r frenhines ddyfod i'w hoed, ... Ebrill 12fed, 1841
Gwrthryfel yn ffafr Christina, o dan y cadfridogion O Donnell a Concha, Hyd. 2il, ,,
Y Cadfridog O'Donnell yn diange i diriogaethau Ffrainge ... Hydref 21ain, ,,
Maddeuant cyffredinol yn cael ei gyhoeddi i bawb a gymmerodd ran yn ngwrthryfel Hydref; os nad oeddynt wedi eu profi eisoes, ... ... Rhagfyr 13eg, ,,
Gwrthryfel yn Barcelona, Tachwedd 13eg; Espartero yn darostwng y dref Rhag. 4ydd, 1842
Terfysgoedd yn Malaga, ... Mai 25ain, 1843
Dyfodiad y Cadfridog Narvaez i Madrid, a'i ddinas yn ymostwng Gorphenaf 15fed, ,,
Y llywodraeth newydd yn diosg Espartero o'i deitlau a'i swyddau, Awst 16eg; ac yntau yn cyrhaedd i Lundain ... Awst 23ain, ,,
Y fam-frenhines yn dychwelyd i Yspaen ... 1844
Don Carlos yn rhoddi i fyny ei hawl i'r goron yn ffafr ei fab ... ... ... 1845
Narvaez a'i weinyddiaeth yn ymddiswyddo, Chwefror 12fed; yn dychwelyd i awdurdod, Mawrth 17eg; yn ymddiswyddo drachefn, Mawrth 28ain ... ... 1846
Cyhoeddi maddeuant i droseddwyr gwleidyddol ... ... Hydref 18fed, ,,
Syr Henry Lytton Bulwer, y llysgenhadwr Prydeinaidd, yn cael gorchymyn i adael Yspaen o fewn wyth awr a deugain ... 1848
Adnewyddu ymdrafodaeth ddiplomyddol â Phrydain ... ... 1850
Merino yn gwneyd ymgais i lofruddio y frenhines ... ... ... ... 1852
Alltudio Narvaez i Vienna ... ... 1853
Y cadfridogion O'Donnell, Concha, ac eraill, yn cael eu hanfon allan o'r wlad Ion. 17eg, 1854
Gwrthryfel milwraidd o dan O'Donnell, ger Madrid ... ... Mehefin 28ain, ,,
Y senedd (*cortes*) yn mabwysiadu cyfansodd iad newydd ... Ionawr 13eg, 1855
Marw Don Carlos ... Mawrth 10fed, ,,
Gwrthryfel yn Valencia ... ... 1856
Espartero yn ymddiswyddo fe seneddwr ... 1857
Rhyfel â Morocco ... .. ... 1859
Gorchfygiad y Mooriaid, ger Tetuan Chwefror 4ydd, 1860
Uniad St. Domingo âg Yspaen yn cael ei gadarnhau ... . ... 1861
Gwrthryfel yn St. Domingo ... ... 1863
Anghydfod rhwng Yspaen a Pheru Ebrill, 1864
Alltudio y Cadfridog Prim o'r wlad, am fradwriaeth, ... Awst 13eg, ,,
Gwneyd heddwch a Pheru Ionawr 27ain, 1865
Rhoddi i fyny St. Domingo Mai 5ed, ,,
Gwrthryfel milwrol yn Aranjuez, yn cael ei arwain gan y Cadfridog Prim, Ion. 3ydd... 1866

Digitized by Google

| | B.A. |
|---|---|
| Prim yn croesi i Portugal, ac yn rhoddi ei arfau i lawr; a'r gwrthryfel yn terfynu gyda hyny ... ... Ionawr 20fed, | 1866 |
| Gwrthryfel milwrol yn Madrid yn ffafr Prim; a hwnw yn cael ei ddarostwng yn ddioed gan y maeslywyddion O'Donnell a Narvaez, ... ... Mehefin 26ain | ,, |
| Rhoddi addysg gyhoeddus y wlad o dan ofal y clerigwyr, ... Hydref 3ydd | ,, |
| Ymgais at wrthryfel mewn amryw barthau o'r wlad yn troi yn fethiant, yn mis Awst | 1867 |
| Gonzalez Bravo Murillo yn ffurfio gweinyddiaeth newydd ... Ebrill 24ain | 1868 |
| Y Maeslywydd Serrano, y Cadfridog Dolce, ac eraill, yn cael eu hanfon ymaith i alltudiaeth, ... Gorphenaf 10fed | ,, |
| Prim yn cyrhaedd Cadiz, Medi 17eg; yn cyhoeddi llywodraeth ddarbodol, Medi 19eg | ,, |
| Y frenhines yn diangc i Bayonne, Medi 29ain | ,, |
| Cyhoeddiad o ymddiswyddiad y frenhines yn Madrid, ... Medi 29ain, | ,, |
| Derbyniad Prim yn frwdfrydig yn ol i Madrid, ... ... Hydref 7fed, | ,, |
| Gwrthryfel yn erbyn y llywodraeth ddarbodol yn tori allan yn Cadiz Rhagfyr 5ed, | ,, |
| Y senedd yn ethol y Maeslywydd Serrano yn rhaglaw ... ... Mehefin 18eg | 1869 |
| Prim yn ymddiswyddo Ionawr 4ydd, | 1870 |
| Isabella II. yn rhoddi i fyny ei hawl i'r orsedd yn ffafr Alfonso ... Mehefin 25ain, | ,, |
| Amadeus, y duc o Aosta, yn derbyn y cynnyg i fod yn ymgeisydd am y goron Hyd. 20fed, | ,, |
| Y mae efe yn cael ei ethol yn frenin gan y senedd, ... ... Tachwedd 16eg | ,, |
| Tanio at, a chlwyfo Prim yn ei gerbyd gan chwech o ddynion, Rhagfyr 27ain, ac yntau yn marw o'i glwyfau dranoeth ... | ,, |
| Y brenin yn dyfod i Madrid, ac yn cymmeryd y llŵ ... ... Ionawr 2il, | 1871 |
| Gweinyddiaeth newydd yn cael ei ffurfio o dan Serrano Ionawr 5ed, | ,, |
| Gwrthryfel y Carlistiaid yn cael ei gymmhell a'i hyrwyddo gan yr offeiriaid yn Navarre a Leon, &c. ... Ebrill 20fed, | 1872 |
| Y Carlistiaid, wrth y cannoedd, yn rhoddi eu harfau i lawr, yn ystod mis Mai ... | ,, |
| Serrano yn cynnyg maddeuant i'r Carlistiaid a ymostyngent ... Mai 25ain, | ,, |
| Y Gwerinwyr yn cyfodi mewn gwrthryfel yn y Ferrol ... Hydref 11eg, | ,, |
| Gorchfygu minteioedd o Garlistiaid, a lladd amryw o'u cadfridogion ... Ionawr, | 1873 |
| Y brenin Amadeus yn anfon cenadwri i'r senedd, gan ddadgan ei fod yn ymneillduo o'r orsedd. Y ddau dŷ o senedd ar ol hyny yn ymuno i bleidleisio dros weriniaeth yn y wlad .. Chwefror 11eg, | ,, |
| Anghydweledíad mawr rhwng y Radicaliaid a'r Gwerinwyr; ymladd â'r Carlistiaid yn y taleithiau yn gynnar yn mis Mawrth ... | ,, |
| Agor y senedd newydd Mehefin 1af, | ,, |
| Y senedd yn cadarnhau y bleidlais flaenorol am weriniaeth ... Mehefin 9fed, | ,, |
| Cyhoeddi Alfonso XII., mab Isabella II., yn frenin yn Madrid Rhagfyr 31ain, | 1874 |
| Terfyniad y rhyfel Carlistaidd; ac Alfonso yn myned i mewn i Madrid Mawrth 20fed | 1876 |
| Alfonso yn priodi y dywysoges Mercedes, merch y duc o Montpensier, Ion. 24ain, | 1878 |

YSGWYDD. 1. Y cymmal drwy yr hwn y cyssylltir braich bod dynol, neu goes blaen creadur pedwar troediog, â'r corph. 2. Y rhan uchaf o goes blaen anifail wedi ei dori i'r farchnad; megys, ysgwydd o gig dafad. 3. Ysgwyddau, yn y lliosog. Y rhan uchaf o'r cefn. 4. Yn ffugrol, cynnaliaeth; gallu cynnaliol, neu yr hyn sydd yn dyrchafu ac yn cynnal. "Dwyn ar ysgwyddau" a arwydda dwyn yn anrhydeddus fel brenhinoedd a phendefigion: *Esa.* xlix. 2. 5. Gallu ac awdurdod i gyflawni swydd. Yn yr hen oesoedd, dygent arwydd-nodau o anrhydedd, swydd, a llywodraeth, ar yr ysgwyddau. O herwydd hyn, yr oedd agoriadau ar ysgwyddau yn dynodi awdurdod lywodraethol gŵr mewn swydd ac awdurdod: *Iob* xxxi. 36; *Esa.* xx. 22. Felly y dywedir fod y llywodraeth ar ysgwydd iad yr eglwys wedi eu hymddiried yn gwbl iddo ef: *Esa.* ix. 6. 6. Cyffiniau gwlad: "Hwy a ehedant ar ysgwyddau y Philistiaid tua'r gorllewin;" *Esa.* xi. 14:—neu, yn ol Lowth, "Rhuthr-Crist:—y mae gofal, llywodraeth, ac amddiffynant ar gyffiniau y Philistiaid tua'r gorllewin." Dywedir fod yr Arglwydd yn aros rhwng ysgwyddau Beniamin, am fod ei deml yn sefyll ar Moriah yn nghyffiniau llwyth y Beniaminiaid: *Deut.* xxxiii. 12.

YSGYFARNOG. Cyfrifir yr ysgyfarnog yn mhlith yr anifeiliaid aflan (*Lef.* xi. 6; *Deut.* xiv. 7), o herwydd er ei bod yn cnoi ei chil, nid yw yn fforchogi'r ewyn. Y mae gan anifeiliaid sydd yn cnoi y cil bedwar cylla, dannedd malu, ac asgwrn gên wedi ei ffurfio a'i gyfaddasu yn neillduol i'r symmudiad cylchol o gnoi y cil. Ond nid ydyw yr ysgyfarnog yn meddu un o'r nodweddau hyn; ac ar y llaw arall, y mae ganddi hi ddannedd tori yn yr ên uchaf, y rhai nid oes gan y dosbarth sydd yn cnoi y cil. Ceir llawer o ysgyfarnogod yn Syria, Arabia, a'r Aipht. Bwytëid cig ysgyfarnogod gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, er gwaethaf y syniad a ffynai, nad oedd yn iach iawn; felly hefyd y gwna yr Arabiaid diweddar. Y mae y Tyrciaid a'r Armeniaid, ar y llaw arall, yn ei ffieiddio.

YSGYMUNIAD. Gwel ESGYMUNDOD.

YSNODEN: rhwymyn, rhwymyn pen; y cnydyn dedwydd; ysnoden gorni, ysnoden y môr; ysnoden mair. "A'r ysnodenau;" *Esa.* iii. 20. Cyfieithir yr un gair yn "dlysau" yn *Ier.* ii. 22; yr hwn air a arwydda addurn pen, a wisgid gan ferched yn y dwyrain.

YSTAD: mesur Groegaidd o 125 o gamrau; neu 625 o droedfeddi Rhufeinig, cyfartal â 606 o droedfeddi, a 9 modfedd Prydeinig. Felly, yr oedd yr ystâd Groegaidd yn atteb yn bur agos i'n *furlong* ni. Dyma brif hyd-fesur y Groegiaid.

YSTAFELL, GORUWCH. Yr ystafell bwysicaf yn nhai yr Iuddewon, yn yr hon yn fynych y byddai ystafell y gwesteion: *Luc* xxii. 12; *Act.* i. 13; ix. 37; xx. 8. Byddai ffenestri yr oruwch-ystafell yn fynych yn taflu troedfedd neu ddwy allan, ac yn ffurfio ystafell haf neu ystafell ddellt—yr hon a addurnid yn hardd. Dichon mai y cyfryw ydoedd yr "ystafell fechan ar y mur," a wnaed, neu yn hytrach a neillduwyd i Eliseus gan y Sunamees: 2 *Bren.* iv. 10, 11 Felly hefyd "ystafell haf" Eglon (*Barn.* iii. 20, 23): ac "ystafell" neu lofft y wraig weddw o Sarephtah: 1 *Bren.* xvii. 19. Hwyrach fod y "dellt," drwy yr hwn y syrthiodd Ahaziah, yn perthyn i oruwch-ystafell o'r natur yma (2 *Bren.* i. 2); ac hefyd y "drydedd lofft," o'r hon y syrthiodd Eutychus: *Act.* xx. 9:—cymmharer *Ier.* xxii. 13. Tybia Olshausen mai *megys* marw yr oedd efe; ond nid oes un sail i'r dybiaeth. Gan iddo syrthio o ffenestr y drydedd lofft, yr hon a daflai allan uwch ben y ceryg yn yr heol,

Digitized by Google

buasai yn wyrth iddo beidio marw. Gwnaeth Paul â'r marw yn gyffelyb i Elias (1 *Bren.* xvii. 21), ac Eliseus (2 *Bren.* iv. 34), mewn amgylchiadau cyffelyb. Nis gall pob dyn diragfarn lai na chydnabod mai amcan Luc ydyw adrodd hanes un yn cael ei fywhau o feirw, ac nid hanes un yn cael ei adferu o lewyg.

YSTAFELLYDD. 1. Ceidwad ystafell wely brenin; neu ei oruchwyliwr—yr hwn, y rhan amlaf, fyddai eunuch: *Esth.* i. 10. 2. Arferir y gair hefyd am drysorydd neu am oruchwyliwr dinas: *Rhuf.* xvi. 23.

YSTLUM: creadur a restrir gan gyfraith Moses yn mhlith y pethau aflan, y rhai nis gellir eu bwyta: *Deut.* xiv. 18, 19, a *Lef.* xi. 19, 20. Disgrifir ef yn gywir yn yr adnod olaf fel "ehediad a ymlusgo ac a gerddo ar bedwar troed;" canys y mae gan yr ystlum grafangau ar ei esgyll, gyda pha rai y mae yn ymlynu wrth arwyneb ei drigfa, ac yn ymlusgo ar hyd-ddo. Dywed golygydd "*Calmet,*" ei fod yn rhy debyg i aderyn i fod yn briodol yn anifail, ac yn rhy debyg i anifail i fod yn briodol yn aderyn. Modd bynag, rhestrir ef yn awr yn gyffredinol yn mhlith y llwythau anifeilaidd; yr hyn y mae ei waith yn dwyn ei rai ieuaingc yn fyw, ei flew, ei ddannedd, yn gystal a'r gweddill o'i gyfansoddiad, yn amlwg yn dangos ei fod. O'r braidd y mae yn debyg i aderyn mewn dim neillduol, oddi eithr yn ei allu i ymgynnal yn yr awyr; ac o'r braidd y mae yr amgylchiad hwn yn ddigon i orbwyso y neillduolion a grybwyllasom fel rhai sydd yn ei osod ef yn mysg yr anifeiliaid pedwar-troed. Y mae gan y fenyw ddwy ddiden, ac eppilia ddau ar unwaith. Bydd weithiau yn ehedeg, â'i rhai ieuaingc yn glynu wrth ei didenau.

Y mae coesau yr ystlum wedi eu ffurfio mewn dull tra neillduol, ac yn hollol wahanol i bob creadur. Y mae yn ymlusgo â'r un offerynau ag y mae yn ehedeg gyda hwynt. Yn ystod y gauaf oll y mae yn ymlechu yn ei dwll, fel y mae yn gwneyd, hefyd, yn ystod y dydd, hyd yn oed yn yr haf; ac nid ydyw byth yn anturio allan, oddi eithr am awr neu ddwy yn yr hwyr, mewn trefn i'w ddiwallu ei hun âg ymborth. Y lle arferol yn yr hwn y gwna efe ei breswylfod ydyw ceuedd coeden, ogof dywyll, neu agen rhyw adeilad adfeiliedig, o'r hwn yr ymddengys yn dra hoff. Y mae hyn yn egluro *Esa.* ii. 20; "Yn y dydd hwnw y teifl dyn ei eilunod arian, a'i eilunod aur (y rhai a wnaethant iddynt i'w haddoli) i'r wadd, ac i'r ystlumod;" hyny yw, efe a deifl ei eilunod i'r ogofeydd tywyll, hen adfeilion, neu leoedd anghyfannedd, i'r rhai y ffoa ef ei hun am noddfa; ac felly, efe a'u rhydd hwynt i fyny, ac a'u gedy hwynt i'r anifeiliaid budron, y rhai sydd yn mynychu y cyfryw leoedd, ac wedi cymmeryd meddiant o honynt fel eu preswylfod briodol. Y mae ystlumod yn gyffredin iawn yn y dwyrain. Disgrifia Layard ei ymweliad âg ogof ar lenydd y Kharbour, yr hon oedd yn llawn o ystlumod. "Gan ehedeg tua'r goleuni," chwanega, "gorfododd yr anifeiliaid trystiog hyn ni i encilio. Yr oeddynt yn syrthio ar ein dillad, ac yn glynu wrthynt; ac o'r braidd y gallai ein dwylaw eu hattal rhag disgyn ac ymsefydlu ar ein gwynebau hefyd. Yr oedd twrf eu hesgyll fel sŵn gwynt mawr, a chododd drygsawr annioddefol o enau yr ogof."

YSTLYS-BOST. Post ochr drws. Yr oedd gwaed oen y Pasc i gael ei daenellu ar y "ddau ystlys-bost, ac ar gapan y drws" yn nhai yr Israeliaid yn yr Aipht, fel y gallai yr angel dinystriol, wrth weled y gwaed, basio heibio iddynt. Nid oedd dim o'r gwaed i gael ei osod ar y trothwy—i gael ei sathru dan draed.

Ceir y gair yn *Exod.* xii. 7, 22, a *Deut.* vi. 9, ac mewn lleoedd eraill, yn mhob un o ba rai y mae yn arwyddo "ystlys-bost." Nid oes iddo un ystyr arall yn yr Ysgrythyr. Yn yr adnodau y cyfeiriwyd atynt yn awr, y mae yr un gair i'w gael yn y gorchymyn hwn:—"Ysgrifena hwynt hefyd ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth." Dealla yr Iuddewon hyn, yn wrthwyneb i'r rhan fwyaf o ysgrifenwyr Cristionogol, yn yr ystyr llythyrenol; a dichon ei fod yn cael ei ddilyn yn yr ystyr hwn yn y dwyrain, lle y mae y Mahometaniaid hyd heddyw yn fynych yn ysgrifenu ar neu uwch ben drysau eu tai, ac ar ranau eraill o honynt, adnodau o'u llyfr cyssegredig, y *Coran*. Gan hyny, os oedd yr Iuddewon cyn eu gwasgariad yn esbonio y gorchymyn hwn yn llythyrenol, y mae yn debygol eu bod yn ei gymmhwyso yn yr un dull. Ond pan ddaethant i wledydd gorllewinol, lle nid oedd hyny yn arferedig, a lle y gallai yn fynych brofi yn anghyfleus iddynt nodi allan eu tai fel hyn fel rhai yn perthyn i Iuddewon, hwy a fabwysiadasant yr arferiad o ysgrifenu y gorchymynion ar rôl o femrwn, yr hwn a ddodent mewn câs neu amwisg, ac a'i cyssylltent wrth ddrysau eu tai a'u hystafelloedd. I'r rholiau a amgauid fel hyn rhoddir yr enw *mezuzoth*, ond yn lled ammhriodol.

Gan hyny, y *mezuzah* (rhif unigol) sydd ddarn o femrwn, wedi ei barotoi i'r pwrpas yn ol y rheolau a osodwyd i lawr gan y rabbiniaid, ar yr hwn yr ysgrifenid gydag inc wedi ei barotoi gyda'r gofal mwyaf, y geiriau yn cynnwys y gorchymyn; sef, *Deut.* vi. 4—9, a xi. 13—30. Yna rholir y memrwn i fyny, gyda phenau y llinellau tuag i mewn; yna ysgrifenir y gair Hebraeg *Shaddai*, "Hollalluog," ar y tu allan, a rhoddir of mewn corsen wâg, neu chwibol (*tube*) crwn o blwm, yn yr hwn y torir twll, fel y bydd y gair *Shaddai* yn y golwg. Cyssylltir y chwibol hwn wrth bôst y drws gyda hoelen yn mhob pen.

Canlynir cyssylltiad y chwibol â gweddi, "Bendigedig ydwyt ti, O Arglwydd ein Duw! Brenin y Greadigaeth, yr hwn a orchymynaist i ni osod y Mezuzah!" Gan fod y gorchymyn yn y rhif liosog, "ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth," cesglir y dylid gosod y Mezuzoth ar holl ddrysau y tai, pa un bynag fyddont ai palasau, ystafelloedd gwelyau, ceginau, neu selerydd, ar ddrysau ysguboriau neu ystordai, neu ar byrth dinasoedd neu drefydd. Yn gyffredinol, gosodir y Mezuzah ar yr ochr ddeheu i'r fynedfa; a bydd y rhai a ystyrir yn Israeliaid mwyaf crefyddol yn cyffwrdd âg ef, ac yn ei gusanu yn fynych, wrth basio. Gan mai tŷ gweddi, ac nid preswylfod cyffredin, ydyw synagog, nid ydyw yn gofyn un Mezuzoth.

YSTORMYDD, ydynt gynnhyrfiadau cyffrous yn yr awyrgylch, a ddigwyddant yn mhob hinsawdd, ond yn enwedig yn y cylch trofanol, ac y maent yn gwahaniaethu oddi wrth gynnhyrfiadau awyrol eraill yn yr eangder yr ymledant drosto, eu gallu dinystriol, a'r cyfnewidiadau disymmwth a gymmerant le yn nghyfeiriad y gwynt. Yr ydys wedi sylwi mor helaeth

Digitized by Google

ar hyn yn yr erthyglau ar CORWYNT—OEDD, a GWYNT—OEDD, fel nad ydyw yn angenrheidiol i ni yma ond gwneuthur ychydig grybwyllion yn unig. O'r braidd y gellir nodi un cwestiwn mewn gwyddoniaeth yn mherthynas i'r hwn y mae cymmaint o wahanol dybiau a ffeithiau wedi bod o berthynas iddo ag sydd yn yr ymgeisiau a wnaed i ddarostwng yr ymddangosiadau a ddilynant ystormydd dan ddeddfau cyffredinol. A'r rheswm mawr am hyny ydyw, am fod sylwadau awyryddol yn rhy ychydig mewn nifer, ac yn rhy wasgarog ac ansicr, i alluogi neb i fynegi cwrs cyffredinol y gwyntoedd, na disgyniad y gwlaw, heb anturio llawer ar dybiau yn unig. Yn awr, pa fodd bynag, yn gymmaint a bod llawer o wyddonwyr wedi talu sylw neillduol i, a gwneyd nodiadau manwl ar oruchioneg (*meteorology*), a gwledydd gwareiddiedig y byd wedi cynnorthwyo yn yr ymchwiliadau, y mae seiliau lled deg wedi eu cael i roddi adroddiad llawnach a mwy boddhaol o'r ffeithiau sydd yn dwyn perthynas uniongyrchol âg ystormydd a gwyntoedd.

Y mae maes pob ystorm, yn mron, naill ai yn grwn neu yn hirgrwn; a phan yn hirgrwn, anfynych y mae ei hyd yn fwy ddwywaith na'i led. Weithiau, yn Ewrop, ac yn amlach yn America, fodd bynag, y mae ffurf eu meusydd yn ymestyn yn hwy. Wrth gwrs, yn achlysurol y mae yr amlinelliad yn dra afreolaidd; ond pan y byddo felly, ceir fod yr ystorm wedi ymranu yn ddwy—y rhai a arosant ar wahân am beth amser, ond a ymunant drachefn. Y mae y ffurf crwn hwn ar ystormydd, ar ol archwiliad ar rai cannoedd o honynt, ac yn enwedig yn Ewrop, yn dangos mai dyna ydyw eu nodwedd gyffredinol; ac y mae hyn yn dra phwysig, naill ai er penderfynu ar reolau ymarferol er cyfarwyddo morwyr mewn ystormydd, neu er rhagddywedyd ymweliad ystormydd mewn porthladdoedd neillduol, ynghyd â'r cyfeiriad o ba un y gellir disgwyl iddynt ddyfod, a chwildroadau y gwynt yn ystod eu parhâd. Am eangder y meusydd dros ba rai y mae ystormydd yn ymestyn, y maent yn dra amrywiol; ond anfynych y maent yn llai na chwe chan milldir o drawsfesur, ac yn aml yn ddwy neu dair gwaith, neu chwaneg, yn fwy na hyny. Bydd yr oll o Ewrop yn mron, weithiau, wedi ei orchuddio gan un ystorm fawr yr un pryd. Nid ydyw maes pob ystorm yr un faint o ddydd i ddydd, ond y mae yn amrywio mewn maintioli; weithiau yn ymeangu, a phryd arall yn lleihau. Ac y mae yn deilwng o sylw, pan y mae ystorm yn cyfyngu ei maes, fod dirwasgiad yr awyr yn ei ganol yn dangos arwyddion o'i fod yn ymlenwi, a'r ystorm yn gwanhau ac yn darfod. Ar y llaw arall, pan y byddo yn ymledu mewn eangder, y mae y dirwasgiad yn y canol yn myned yn ddwysach, yr ystorm yn cynnyddu mewn grym, ac yn achlysurol yn hollti yn ddwy neu yn dair o ystormydd gwahanol, a'r gwynt yn chwyrnellu o gwmpas pob un.

Cymmera ystormydd gyfeiriadau neillduol; ond dylid dywedyd, mai wrth gyfeiriad ystorm y golygir—nid cyfeiriad y gwynt fel y cyfryw, ond y llwybr a ddilynir gan ganolbwynt y cyffroad. Gwahaniaetha y cyfeiriad a gymmera ei symmudiadau mewn gwahanol barthau o'r byd; o herwydd fod hyn i raddau yn cael ei lywodraethu gan y gwyntoedd a fyddont yn chwythu. Y mae o ddeutu hanner ystormydd canolbarth a gogleddbarth Ewrop yn teithio o'r de-orllewin tua'r gogledd-ddwyrain; a phedair ar bymtheg o bob ugain, o leiaf, yn teithio tua rhyw gyfeiriad o'r pedwaran (*quadrant*) o'r gogledd-ddwyrain i'r de-ddwyrain. Nid ydyw yr ystormydd bob amser yn teithio yn mlaen yn yr un cyfeiriad unffurf o ddydd i ddydd; ac er nad yw y cyfnewidiad a ddigwydd yn nghyfeiriad eu symmudiad yn gyffredin ond bychan, etto yn achlysurol y mae yn lled fawr. O'r lliaws nodweddion oedd yn perthyn i'r ystorm fawr a ysgubodd dros Ewrop yn nechreu Rhagfyr, 1863, nid oedd dim yn fwy hynod na'r cyfnewidiadau disymmwth a fu yn ei symmudiad yn mlaen. Sylwyd arni gyntaf yn ngorllewinbarth yr Iwerddon: symmudodd oddi yno yn ddwyreiniol tua Liverpool: yna trodd i'r deheu, trwy Worcester a Rhydychain, ac i Cherbourg, yn Ffraingc; ac oddi yno aeth yn ddwyreiniol i Copenhagen. Erbyn yr adeg y cyrhaeddodd Copenhagen, nid oedd eangder ei maes ond y bedwaredd ran o'r hyn oedd y dydd o'r blaen. Deuddeg awr yn ddiweddarach, yr oedd yr awyrgylch wedi adfeddiannu ei gydbwysedd, a'r ystorm wedi treulio ei nerth allan erbyn dyfod at Fôr y Baltic. Cymmera ystormydd Môr y Canoldir gwrs gwahanol. Y mae llawer o honynt hwy yn teithio o'r gogledd i'r deheu—y mae awyr gynnes Anialwch Sahara, dybygid, yn effeithio arnynt. Ond y mae eraill, drachefn, yn ymlwybro yn mlaen i'r gorllewin dros wlad Groeg ac Italy tua'r Alpau: a sylwir fod ychydig yn teithio mewn cyfeiriad dwyreiniol. Am y rhan fwyaf o ystormydd Gogledd America, y maent hwy yn codi yn y gwastadedd anferth sydd yn gorwedd yn uniongyrchol i'r dwyrain o'r Mynyddoedd Creigiog; ac oddi yno ânt yn mlaen mewn cyfeiriad dwyreiniol dros yr Unol Daleithiau; ac y mae rhai o honynt yn croesi y Werydd, ac yn ymdori ar ororau gorllewinol Ewrop. Y mae ystormydd yr India Orllewinol yn gyffredinol yn cymmeryd eu tarddiad yn agos i'r ardaloedd tawelog (*regions of calms*), gan gyfeirio yn gyntaf tua'r gogledd-orllewin, ac yna yn troi i'r gogledd ddwyrain, a llawer o honynt yn myned ar hyd gororau Gogleddbarth America mor bell a Nova Scotia. Dilynant gwrs gwrthgyferbyniol ar yr ochr ddeheuol i'r cyhydedd. Yn y Werydd Deheuol a'r Môr Indiaidd, y maent yn myned ar y cyntaf tua'r de-orllewin, ac yna yn graddol droi o gwmpas i'r de-ddwyrain. Y mae ystormydd mawr Hindwstan yn gyffredin yn cymmeryd eu llwybr ar hyd y gororau dwyreiniol tua Calcutta; ac yna, troant i'r gogledd-orllewin, i fyny Dyffryn y Ganges. Am dymmhestloedd mawrion y moroedd Chineaidd, y maent yn gyffelyb yn y cwrs a gymmerant i ystormydd yr India Orllewinol. Nid ydyw y sylwadau sydd wedi eu gwneyd yn mharthau eraill y byd ar hyn yn ddigon manwl i benderfynu cwrs yr ystormydd.

Y mae y llwybr a dorir allan gan ystormydd yn cael ei benderfynu gan drefn gyffredinol y gwyntoedd, a chan y dosbarth anghyfartal o dir a dwfr sydd ar wyneb y ddaear. Ymddengys hefyd fod ffeithiau yn awr yn ein gwarantu i dynu y casgliad cyffredinol hwn:—fod ystormydd yn dilyn y rhedlifiad awyrol, yn yr hwn y dygir yn mlaen yr ymweithiad trwy ba un y mae y tarth sydd yn yr awyr yn tewychu ac yn crynhoi, a thrwy hyny yn achosi y gwlaw sydd yn dilyn.

Y mae gwahaniaeth yn y cyflymder yn mha un y teithia yr ystormydd. Cymmerer ystorm

Digitized by Google

a ddigwyddodd y 1af o Dachwedd, 1863, fel enghraifft. Teithiodd yn ol $16\frac{2}{3}$ milldir yr awr, neu 400 o filldiroedd mewn pedair awr ar hugain. Ond yr oedd yr un ystorm, y dydd canlynol, yn teithio yn ol $17\frac{1}{2}$ o filldiroedd yr awr, neu 420 milldir mewn pedair awr ar hugain. Ychydig gydag un filldir ar bymtheg yr awr, fe allai, ydyw tua chyfartaledd cyflymder ystormydd Ewrop weithiau: ond yn fynych, disgynant mor isel a phymtheng milldir yr awr; ac weithiau, codant i ddeg ar hugain o filldiroedd yr awr. Yn y cylch trofanol, y mae ystormydd, wrth symmud yn mlaen, yn achlysurol yn ymgodi i ddeugain milldir. Pan y dywedir fod ystormydd yn amrywio wrth ymsymmud yn mlaen o bymtheg i ddeugain milldir, yr hyn a olygir ydyw, mai dyna yr amser a gymmerant i deithio o'r naill le i'r llall; ond nid ydyw hyn yn arwyddo gerwinder yr ystorm. Y mae hyny yn cael ei benderfynu gan gyflymder cylchdroawl y gwynt o gwmpas canolbwynt yr ystorm; yr hyn, yn Ewrop ac America, sydd yn fynych yn cyrhaedd i drigain neu ddeg a thrigain o filldiroedd yr awr, a hyny yn barhaol am beth amser. Yn Liverpool, ar y 3ydd o Ragfyr, 1863, chwythai y gwynt mewn hyrddwynt dysbeidiol gyda'r cyflymder o dair ar ddeg a phedwar ugain o filldiroedd yr awr! Ond rhagorir ar y cyflymder hwn yn aml yn yr ystormydd a gymmerant le yn y cylch trofanol o'r ddaear.

Y mae perthynas rhwng tymmeredd, gwlaw, a chymmylau âg ystormydd. Y mae y tymmeredd yn cyfodi ychydig o raddau yn y lleoedd y bydd blaen yr ystorm yn nesau atynt, a thra yn myned drostynt; ond yn disgyn yn y lleoedd dros ba rai y mae blaen yr ystorm eisoes wedi pasio. Mewn geiriau eraill, y mae y tymmeredd yn codi yn ol fel y bydd yr hin-fynag (*barometer*) yn disgyn, ac yn disgyn fel y bydd yn codi. Pan y bydd yr hin-fynag yn disgyn am amser, dechreua y cymmylau orchuddio y ffurfafen, a gwlaw ddisgyn ar brydiau; ac fel y bydd canolbwynt yr ystorm yn dynesu, y mae y gwlawogydd yn dyfod yn fwy cyffredinol, yn drymach, a mwy parhaol. Wedi i ganolbwynt yr ystorm fyned heibio, neu pan y bydd yr hinfynag yn dechreu codi, y mae y gwlaw yn lleihau, gan ddisgyn yn gawodydd, yn hytrach nag yn barhaus; a'r cymmylau yn tori ac yn chwalu, a hin deg ac awelon oer yn chwythu. Dylid dywedyd yma, os bydd y tymmeredd yn codi yn fuan ar ol ystorm, y gellir disgwyl ail ystorm yn lled fuan drachefn. Y mae disgyniad y gwlaw yn gyffredin mewn cyfartaledd i sydynrwydd a dyfnder disgyniad yr hinfynag yn y lle. Y mae y sylwadau sydd wedi eu gwneuthur yn y blynyddoedd diweddaf wedi chwanegu llawer at ein gwybodaeth am y deddfau sydd yn llywodraethu ystormydd, er yn ddiau fod llawer etto i'w wneyd cyn y gellir penderfynu ar ddamcaniaeth gyflawn a boddhaol o berthynas iddynt. Y mae y wybodaeth hon o'r pwys mwyaf i forwyr yn arbenig; o herwydd os bydd llywydd llong yn gwybod oddi wrth arwyddion adnabyddus a sicr am ddyfodiad tymmhestl, a'r cyfeiriad o'r hwn y chwyth y gwynt, gall roddi ei long yn y fath gwrs ag a'i galluoga ef, ond medru hwylio, i ddiangc o afael ei gerwinder, neu i'w chyfarfod gyda mor lleied o berygl ag sydd bossibl. Ac y mae y rhybuddion a roddir yn y blynyddoedd hyn o ddyfodiad ystormydd, a chywirdeb y rhybuddion hyny, mewn llawer o amgylchiadau, yn profi yn amlwg fod y deddfau sydd yn llywodraethu ystormydd yn dyfod yn fwy adnabyddus yn barhaus. Ac y mae yn sicr fod y pellebyr wedi bod o wasanaeth mawr i ni ddeall deddfau ystormydd yn well, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio rhwng gwledydd a'u gilydd, a rhwng rhanau hefyd o'r un gwledydd, bob dydd yn gysson mewn rhai manau, ac amryw weithiau yn y dydd mewn eraill, i anfon gwybodaeth o bob cyfnewidiadau sydd yn cymmeryd lle yn y tywydd. Er esampl, byddwn yn fynych yn derbyn cenadwri y dyddiau hyn o America fod ystorm yno, ac y gellir ei disgwyl mewn rhyw ranau neillduol o Brydain o fewn ychydig ddyddiau—a bron yn ddieithriad y mae y rhybudd yn cael ei wirio, er fe allai y bydd ychydig yn gynt neu yn ddiweddarach.

Yr ydym yn cyfeirio y darllenydd at yr erthyglau CORWYNT—OEDD, a GWYNT—OEDD, yn mha rai yr ymdrinir â'r hyn a ddygir i sylw yn yr erthygl hon.

YSTRYD. Gwel HEOL.

YSWAIN. 1. Cludydd arfau rhyfelwr enwog: "Ei yswain hefyd oedd yn lladd ar ei ol ef;" 1 *Sam.* xiv. 13. 2. Yn y wlad hon, teitl boneddwr yw—y nesaf mewn gradd at farchog. 3. Gweinyddwr mewn llys. 4. Yn yr Unol Daleithiau, arferir ef fel teitl i ynadon a chyfreithwyr. Yn Lloegr Newydd, rhoddir ef mewn modd neillduol i ustusiaid heddwch a barnwyr; ond yn Pennsylvania, i ustusiaid heddwch yn unig. 5. Y teitl a roddir yn gyffredin i foneddigion gwledig. 6. Enw cyffredin am gydymaith gwrywaidd; megys, "Nac amddifedwch hi o'i hyswain."

Y WADD: twrch daear. Yn *Lef.* xi. 30, rhestrir ef yn mhlith yr "ymlusgiaid a ymlusgo ar y ddaear." Tybiai yr hynafiaid nad oedd gan y creadur hwn lygaid; ond y mae naturiaethwyr diweddar wedi gwrthbrofi y dybiaeth hon trwy ddangos fod y rhywogaeth o hono a geir yn y wlad hon yn meddu llygaid, ond eu bod yn hynod o fychain. Er hyny y mae ereill wedi profi fod rhywogaeth o honynt yn hollol amddifad o lygaid. Ceir y rhywogaeth hon yn Italy, ac mewn amryw o wledydd dwyreiniol. Y mae holl aelodau y twrch daear yn nodedig o gyfaddas i'w sefyllfa danddaearol, ac i ymweithio drwy y pridd. Y mae efe yn byw ar wreiddiau, pryfed, llyffaint, a chreaduriaid o gyffelyb natur.

Digitized by Google

# Z



ZAANAIM, GWASTADEDD: neu yn fwy cywir, 'derwen Zäanäim,' gan mai hyny, y mae yn debygol, ydyw ystyr y gair *êlôn.* Coeden—coeden gyssegredig, y mae yn debygol—a grybwyllir fel yn nodi y llanerch yn ymyl yr hwn y gwersyllodd Heber y Cenead pan y cymmerodd Sisera noddfa yn ei babell: *Barn.* iv. 11. Nodir ei sefyllfa fel yn "ymyl Cedes;" *h. y.*, Cedes Naphtali—enw sydd etto yn cael ei roddi ar yr ucheldir, o du y gogledd i *Safed*, ac o du y gorllewin i Lyn *el Huleh;* yr hwn, fel y tybir yn gyffredin, ydyw yr un a Dyfroedd Merom. Rhydd y *Targum*, fel geiriau cyfystyr i'r enw, *mishor, agganiya*, 'gwastadedd y gors;' yr hwn sydd yn cyfeirio, fel y tybir, at y gors sydd yn terfynu ar lyn *Huleh* o du y gogledd; a'r hwn, y mae yn debygol, oedd yn helaethach yn amser Deborah nag ydyw yn awr. Ar y llaw arall, barna y Proffeswr Stanley fod y goeden hynod hon wrth wastadedd gwyrddlas, yr hwn sydd yn cyssylltu o du y deheu â'r gwastadedd sydd yn cynnwys gweddillion Cades.

ZAANAN: lle a enwir gan Micah (i. 11) yn ei anerchiad i'r trefydd oedd yn rhandir Iudah. Bernir mai yr un ydyw a ZENAN.

ZAAFAN: penaeth Horiaidd—mab Eser, mab Ser: *Gen.* xxxvi. 27; 1 *Cron.* i. 42.

1. ZABAD: ('Duw a'i rhoddodd ef'): mab Nathan, mab Attai, mab Alai, merch i Sesan: 1 *Cron.* xi. 41. Yr oedd hefyd yn un o gedyrn Dafydd; ond nid oes un o'i weithredoedd wedi eu cofnodi. Y peth mwyaf dyddorol mewn cyssylltiad âg ef ydyw ei linach; yr hwn sydd o gryn bwys mewn ystyr amseryddol, ac fel y mae yn taflu goleuni damweiniol ar gyfansoddiad Llyfr y Croniclau, a gwerth hanesiol y llinachau sydd ynddo. Fel hyn, yn 1 *Cron.* ii. 26—41, cawn y llinach, a'r cenedlaethau o flaen Ierameel yn cael eu dodi yn mlaenaf:—

| | |
|---|---|
| 1. Iudah. | 13. Nathan. |
| 2. Pharez. | 14. Zabad. |
| 3. Hesron. | 15. Ephlal. |
| 4. Ierameel. | 16. Obed. |
| 5. Onam. | 17. Iehu. |
| 6. Sammai. | 18. Azariah. |
| 7. Nadab. | 19. Heles. |
| 8. Appäim. | 20. Eleasah. |
| 9. Isi. | 21. Sisamai. |
| 10. Sesan. | 22. Salum. |
| 11. Alai ei ferch (= Iarha yr Aiphtes. | 23. Iecamïah. |
| | 24. Elisama. |
| 12. Attai. | |

Felly, dyma linach o bedair cenhedlaeth ar hugain, yn dechreu gyda'r patriarch, ac yn terfynu lle nis gwyddom ar yr olwg cyntaf; ond gan ein bod yn digwydd gwybod, oddi wrth yr hanes lle yr oedd Zabad, mab Alai, yn byw, yr ydym o leiaf yn sicr o'r ffaith hon—fod y bedwaredd genhedlaeth ar ddeg yn ein dwyn at Dafydd; ac yr ydym yn sicr hefyd fod hwn o ddeutu y nifer cywir, o herwydd allan o saith o linachau perffaith eraill, yn gorchuddio yr un cyfwng o amser, y mae pedair yn meddu yr un nifer (pedair ar ddeg), a dwy yn meddu pymtheg, a llinach Dafydd ei hun un ar ddeg.

Ond y mae hefyd yn digwydd fod person arall yn y llinach yn berson hanesiol, yr hwn y gwyddom ei fod yn byw yn ystod trawsfeddianniad Athalïah; sef, Azarïah mab (*h.y.* ŵyr) Obed: 2 *Cron.* xxiii. 1. Yr oedd efe yn bedwerydd ar ol Zabad; tra yr oedd Iehoram, gŵr Athaliah, yn chweched ar ol Dafydd:—cyfattebiaeth berffaith foddhaol pan y cymmerwn hyn i'r cyfrif, y dichon fod Zabad yn llawer iawn ieuangach na Dafydd, a bod priodasau cynnar y brenhinoedd yn meddu tuedd barhaus i gynnyddu nifer y cenhedlaethau yn y llinach frenhinol. Drachefn, yr enw diweddaf yn y llinach ydyw y chweched ar ol Azarïah; ond Hezeciah oedd y chweched brenin ar ol Athaliah; a gwyddom fod llawer o'r llinellau wedi eu hysgrifenu allan gan "wŷr Hezeciah," ac am hyny eu bod yn dyfod i lawr i'w amser: 1 *Cron.* iv. 41; *Diar.* xxv. 1. Felly, gallwn benderfynu gyda gradd o sicrwydd fod y llinach hon yn terfynu yn amser Hezeciah, a bod ei holl ddalenau yn berffaith.

Y mae un pwngc pwysig arall yn aros i sylwi arno; sef, fod Zabad yn cael ei alw, ar ol ei hen nain, yn sylfaenydd ei dŷ, mab Alai. Canys y mae yn sicr, oddi wrth 1 *Cron.* ii. 31, mai Alai oedd enw merch Sesan; ac y mae hefyd yn sicr, oddi wrth *adn.* 35, 36, mai o'i phriodas âg Iarha y disgynodd Zabad yn y drydedd genhedlaeth. Gan hyny, y mae mor sicr ag y gall pethau fod fod Zabad, mab Alai, un o gedyrn Dafydd, wedi ei alw felly oddi wrth Alai ei hynafiad benywaidd. Y mae yr achos yn cyfatteb i achos Ioab, ac Abisai, ac Asahel, y rhai sydd bob amser yn cael eu galw yn feibion Serfiah, gan fod Serfiah, fel Alai, wedi priodi tramoriad. Neu, os oes rhyw un yn tybied fod gwahaniaeth rhwng bod dyn yn cael ei alw yn fab ei fam, ac yn fab i'w hen nain, gellir cael cyfattebiaeth gywirach yn *Gen.* xxv. 4, a xxxvi. 12, 13, 16, 17; lle y mae hiliogaeth Ceturah, a gwragedd Esau, yn y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth, yn cael eu galw yn "feibion Serfiah," "meibion Adah," a "meibion Basemath."

2. ZABAD: Ephraimiad—os ydyw ein cyfieithiad ni o 1 *Cron.* vii. 21 yn gywir.

3. ZABAD: mab Simeath, Ammonees, yr hon, gyda Iehozabad, a laddodd y brenin Ioas, yn ol 2 *Cron.* xxiv. 26. Ond yn 2 *Bren.* xii. 21,

Digitized by Google

y mae ei enw—ac yn fwy cywir—yn Iozachar. Yr oedd efe yn un o weision teuluaidd y palas, ac, fel yr ymddengys, yn gefnogwr i fradwriaeth gref: 2 *Cron.* xxv. 3; 2 *Bren.* xiv. 5. Yr oedd Ioab wedi dyfod yn ammhoblogaidd o herwydd ei eilunaddoliaeth (2 *Cron.* xxiv. 18), ei orthrwm (2 *Cron.* xxiv. 22), a'i drallodion hefyd: 2 *Cron.* xxiv. 23—25. Disgrifir marwolaeth dreisiol y brenin, yn gystal ag ymosodiad blaenorol y Syriaid, fel barn Duw arno am dywallt gwaed diniwed Zechariah; ond nid o blegid fod llofruddion eu hunain yn cael eu llywodraethu gan un dymuniad i ddial marwolaeth Zechariah. Rhoddwyd y ddau i farwolaeth gan Amaziah, ond arbedwyd eu plant mewn ufudd-dod i gyfraith Moses: *Deut.* xxiv. 16.

4. ZABAD: un o feibion Zattu, yr hwn a roddodd ymaith ei wraig ddyeithr trwy orchymyn Ezra: *Ezra* x. 27.

5. ZABAD: un o hiliogaeth Hasum, yr hwn oedd wedi priodi gwraig ddyeithr: *Ezra* x. 33.

6. ZABAD: un o feibion Nebo, enw yr hwn a grybwyllir dan yr un amgylchiadau a'r ddau flaenorol: *Ezra* x. 43.

1. ZABBAI: un o hiliogaeth Bebai, yr hwn oedd wedi priodi gwraig ddyeithr yn nyddiau Ezra: *Ezra* x. 28.

2. ZABBAI: tad Baruch, yr hwn a gynnorthwyodd Nehemiah i ail adeiladu mur y ddinas: *Neh.* iii. 20.

ZABATHIAID: canlynwyr Zabathai Zevi (neu Sabatai Sevi), twyllwr Iuddewig enwog, yr hwn a ymddangosodd yn Smyrna o ddeutu y flwyddyn 1666; a chan hòni mai efe oedd y Messiah, addawai waredu yr Iuddewon, a'u hadsefydlu yn eu gogoniant cyntefig. Twyllwyd lluoedd o'i genedl ganddo, a chymmerai llawer o'i ganlynwyr arnynt eu bod yn gweled gweledigaethau rhyfedd, ac yn meddu dawn i brophwydo. O'r diwedd, syrthiodd i ddwylaw Sultan Twrci, yr hwn a orchymynodd iddo gael ei osod yn nôd i'w saethyddion, i brofi pa un a ellid ei ladd ai peidio, gan ei fod yn haeru ei fod yn anfarwol; ond i ochel y prawf peryglus hwn, efe a drodd yn Fahometiad.

Parhaodd ei sect ar ei ol, a dywedir fod rhyw nifer o honynt etto yn Salonichi; y rhai, tra yn proffesu eu bod yn Fahometiaid, sydd yn arfer y defodau Iuddewig yn ddirgel, yn priodi yn eu plith eu hunain, ac oll yn byw yn yr un parth o'r ddinas, heb ymgymmysgu â'r Tyrciaid oddi eithr mewn masnach, ac yn y temlau Mahometaidd. Ymddengys fod gan Zevi ganlynwyr hefyd yn mhlith yr Iuddewon yn Lloegr, Holland, Germany, a Pholand; ac y mae rhai yn aros hyd heddyw.

ZABBUD: un o feibion Bigfai, yr hwn a ddychwelodd yn yr ail fintai gydag Ezra: *pen.* viii. 14.

1. ZABDI: mab Zerah, mab Iudah, hynafiad Achan: *Ios.* vii. 1, 17, 18.

2. ZABDI: Beniaminiad, o feibion Simhi: 1 *Cron.* viii. 19.

3. ZABDI: swyddog Dafydd ar gynnyrch y gwinllanoedd i'w dwyn i'r selerau gwin: 1 *Cron.* xxvii. 27. Gelwir ef "y Siphmiad;" hyny yw, yn ol pob tebygolrwydd, brodor o Siphma.

4. ZABDI: mab Asaph y cerddor (*Neh.* xi. 17); a elwir mewn lle arall Zaccur (*Neh.* xii. 35), a Zichri (1 *Cron.* ix. 15).

1. ZABDIEL: tad Iasobeam, y penaf o gard Dafydd; 1 *Cron.* xxvii. 2.

2. ZABDIEL: offeiriad, mab i un o'r gwŷr mawr: *Neh.* xi. 14. Yr oedd efe yn arolygwr ar gant ac wyth ar hugain o'i frodyr ar ol y dychweliad o Babilon.

ZABUD: mab Nathan: 1 *Bren.* iv. 5. Disgrifir ef fel offeiriad, ac fel "penllywydd," ac fel un oedd yn dal yn llys Solomon y swydd gyfrinachol o "gyfaill i'r brenin;" yr hon oedd wedi bod yn cael ei meddiannu gan Husai yr Arciad yn ystod teyrnasiad Dafydd: 2 *Sam.* xv. 37, a xvi. 16; 1 *Cron.* xxvii. 33. Y mae yn amlwg fod y sefyllfa, os oedd yn un swyddol, yn wahanol i'r swydd o gynghoriad, a feddiennid gan Ahitophel dan Dafydd, ac yr oedd mwy o nodwedd cyfeillgarwch preifat o'i hamgylch, canys y mae Absalom yn galw Dafydd yn "gyfaill" Husai: 2 *Sam.* xvi. 17.

ZABULON: y ffurf Groegaidd o'r enw Zabulon: *Mat.* iv. 13, 15; *Dad.* vii. 8.

ZABULON: y degfed o feibion Iacob, yn ol y drefn yn yr hon yr enwir eu genedigaethau; a'r chweched a'r olaf o Leah: *Gen.* xxx. 20; xxxv. 23; xlvi. 14; 1 *Cron.* ii. 1. Cofnodir ei enedigaeth yn *Gen.* xxx. 19, 20, lle y mae gwreiddyn yr enw fel arferol yn cael ei briodoli i ddywediad o eiddo ei fam—"Fy ngŵr a drig weithian gyda mi, o blegid chwech o feibion a ymddygais iddo ef; a hi a alwodd ei enw ef Zabulon."

Nid oes dim wedi ei gofnodi yn mherthynas i'r person Zabulon. Y mae y rhestr yn *Gen.* xlvi. yn priodoli iddo dri o feibion, sef sylfaenwyr prif deuluoedd y llwyth (gwel *Num.* xxvi. 26) yn amser yr ymfudiaeth i'r Aipht. Yn y traddodiadau Iuddewig, enwir ef fel y cyntaf o'r pump a gyflwynwyd gan Ioseph i Pharaoh: a Dan, Naphthali, Gad, ac Aser oedd y lleill.

Yn ystod y daith o'r Aipht i Palestina, yr oedd llwyth Zabulon yn ffurfio un o'r gwersyll cyntaf gydag Iudah ac Issachar (y rhai hefyd oeddynt feibion Leah), gan deithio dan faner Iudah. Ei nifer, pan yn ymyl Sinai, ydoedd 57,000; a Simeon, Dan, ac Iudah yn unig oeddynt yn lliosocach nag ef. Yn Sittim, yr oeddynt yn rhifo 60,500:—heb leihau, etto heb gynnyddu agos cymmaint ag y gallesid yn naturiol ei ddisgwyl. Penaeth y llwyth yn Sinai oedd Eliab mab Helon (*Num.* vii. 24); ac yn Siloh, Elisaphan mab Pharnach: *Num.* xxxiv. 25. Ei gynnrychiolydd yn mhlith yr ysbïwyr ydoedd Gadïel mab Sodi: *Num.* xiii. 10. Heb law yr hyn a roddir ar ddeall drwy ei ymddangosiadau yn y rhestrau hyn, ni ddywedir fod y llwyth wedi cymmeryd rhan, er drwg na da, yn un o ddigwyddiadau y crwydriad na'r gorchfygiad. Ei randir oedd y trydydd o'r ail ddosbarth: *Ios.* xix. 10. Yr oedd Iudah, Ioseph, a Beniamin wedi cael meddiant o ddeheu a chanolbarth y wlad. I Zabulon y disgynodd un o'r tecaf o'r rhanau ereill. Hwyrach ei fod yn ammhossibl, yn sefyllfa bresennol ein gwybodaeth, nodi ei derfynau yn fanwl; ond y mae yn debygol fod adroddiad Josephus, ar y cyfan, yn gywir—ei fod yn cyrhaedd o un tu at Lyn Genesaret, ac o'r tu arall at Carmel a Môr y Canoldir. O du y deheu, terfynid ef gan randir Issachar, yr hwn a orweddai yn y gwastadedd mawr, neu ddyffryn Cison; ac o du y gogledd, yr oedd Naphtali ac Aser. Yn y dosbarth hwnw, yr oedd y llwyth

Digitized by Google

yn meddiannu y fynedfa allan (*Deut.* xxxiii. 18) o'r wastadedd Acca; pysgodfeydd Llyn Galilea; manteision amaethyddol gwastadedd mawr y *Buttauf* (yr hwn oedd yn llawn mor ffrwythlawn, ac yn mron gymmaint a dyffryn Iezreel, a chyda'r fantais aruthrol o beidio bod, fel yr oedd hwnw, yn brif-ffordd y Bedwiaid); ac yn olaf, ond nid y lleiaf, yr oedd yn cynnwys lleoedd wedi eu cryfhau mor fawr gan natur, fel y profasant yn ymdrechfeydd olaf y genedl yn fwy anorchfygol nag un yn yr holl wlad. Ymddengys fod Zabulon wedi cyfranogi gydag Issachar o fynydd cyssegredig Tabor (*Deut.* xxxiii. 19), a rhoddwyd ef a Rimmon i'r Lefiaid Meraraidd: 1 *Cron.* vi. 77. Ond taflwyd yr hen gyssegrfeydd hyn o eiddo y llwyth i'r cysgod gan y rhai a ymgodasant o'i fewn wedi hyny, pan y cyfnewidiwyd enw y rhan hon o'r wlad o *Zabulon* i *Galilea*. Yr oedd Nazareth, Cana, Tiberias, ac y mae yn debygol tir Genesaret ei hun hefyd, oll yn gorwedd o fewn ei derfynau.

Y mae y ffaith a gydnabyddir gan Josephus, fod rhandir Zabulon yn ymestyn at Fôr y Canoldir —er nad yw yn cael ei chrybwyll na'i chynnwys, mor bell ag y gallwn ni ddeall, yn y rhestrau a geir yn llyfrau Iosuah a'r Barnwyr—yn cael cyfeirio ati yn mendith Iacob (*Gen.* xlix. 13):— "Zabulon a breswylia yn mhorthleoedd y môr; ac efe a fydd yn borthladd llongau, a'i derfyn fydd hyd Sidon"—adnod sydd yn dangos fod y llwyth, yn yr amser yr ysgrifenwyd hi, yn cymmeryd rhan yn masnach Phoenicia. Yr oedd "ffordd y môr" (*Esa.* ix. 1), y ffordd fawr o Damascus at Fôr y Canoldir, yn myned trwy ran helaeth o diriogaeth Zabulon; a rhaid ei bod wedi dwyn ei phobl i gyffyrddiad â marsiandwyr a nwyddau Syria, Phœnicia, a'r Aipht.

Gan ei bod yn gorwedd mor bell oddi wrth ganolbarth y llywodraeth, y mae Zabulon yn aros drwy yr hanes, gydag un eithriad, yn y tywyllwch ag sydd yn amgylchynu yr holl lwythau gogleddol. Y mae yr eithriad hwnw, modd bynag, yn un nodedig. Yr oedd ymddygiad y llwyth yn ystod yr ymdrechfa gyda Sisera, pan yr ymladdasant gyda gwroldeb mawr ochr yn ochr â'u brodyr o Naphtali, yn gyfryw ag a barodd iddynt gael canmoliaeth uchel gan Deborah, yr hon sydd yn eu nodi hwynt allan oddi wrth y llwythau eraill (*Barn.* v. 18):— "Pobl Zabulon a roddes eu heinioes i farw, felly Naphtali ar uchel-fanau'r maes." Cynnwysa yr un gân frawddeg sydd yn rhoddi ar ddeall fod y Zabuloniaid, ar wahân oddi wrth yr enwogrwydd a ennillasant drwy eu hymddygiad yn yr ymdrechfa hon, wedi ennill safle bwysig yn mhlith y llwythau—"Y deddfwyr a ddaeth i wared o Machir, yr ysgrifenyddion o Zabulon;" gan gyfeirio, y mae yn debygol, at y swyddogion, y rhai a gofrestrasant ryfelwyr y fyddin: *Ios.* i. 10. Dichon mai un o'r ysgrifenyddion hyn oedd Elon, yr unig farnwr a gynnyrchwyd gan y llwyth, yr hwn y dywedir ei fod wedi dal swydd am ddeng mlynedd: *Barn.* xii. 11, 12.

Cyfeirir at gymmeriad cyffelyb yn y crybwylliad am y llwyth yn mhlith y rhai oeddynt yn bresennol ar yr achlysur o ddechreuad teyrnasiad Dafydd yn Hebron. Y mae yr ymadroddion etto yn neillduol:—"O Zabulon, y rhai a aent allan i ryfel, yn medru rhyfela â phob arfau rhyfel, deng mil a deugain, yn medru byddino, a hyny yn ffyddlawn;" 1 *Cron.* xii. 33. Modd bynag, dengys yr un adnod, tra yr oeddynt yn fedrus fel milwyr, nad oeddynt yn esgeuluso gorchwylion bywyd heddychol; ond eu bod ar fryniau coediog a gwastattiroedd ffrwythlawn eu dosbarth yn cynnyrchu bara, blawd, ffigys, resinau, gwin, olew, ychain, a defaid yn helaeth: *adn.* 40. Penaeth y llwyth yr amser yma oedd Ismaiah, mab Obadiah: 1 *Cron.* xxvii. 19.

Ni ddywedir wrthym mewn un lle fod pobl Zabulon wedi eu cario ymaith i Assyria. Ysgubodd Tiglath-pileser holl Naphtali ymaith (2 *Bren.* xv. 29); ac yn yr un modd, cymmerodd Salmaneser "Samaria" (2 *Bren.* xvii. 6); ond er nad yw alltudiaeth Zabulon ac Issachar yn cael ei hysbysu mewn cynnifer o eiriau, dywedir (2 *Bren.* xvii. 18) fod yr holl lwythau gogleddol wedi eu symmud; a chyfeirir hefyd yn Esaiah at gystudd Zabulon a Naphtali (ix. 1), yr hwn nis gall gyfeirio at ddim ond at ymosodiad Tiglath-pileser. Y cyfeiriad hanesiol olaf at y Zabuloniaid ydyw hanes nifer mawr o honynt yn myned i Ierusalem i Basc Hezeciah; pan, trwy haelioni y brenin, y galluogwyd hwynt i fwyta y Pasc: hyd yn oed er nad oeddynt, trwy hir esgeulusdra o ddarpariaethau y gyfraith, wedi ymlawenhau yn y dull pennodedig gan y gyfraith seremoniol. Crybwyllir yn briodol yn ngweledigaethau Ezeciel (*pen.* xlviii. 26—33) ac Ioan (*Dad.* vii. 8) at y llwyth hwn.

ZABULONIAD, ELON Y: aelod o lwyth Zabulon. Cymmhwysir yr enw yn unig at Elon —yr unig farnwr a gynnyrchwyd gan y llwyth: *Barn.* xii. 11, 12.

ZABULONIAID, Y: aelodau o lwyth Zabulon: *Num.* xxvi. 27.

ZACCAI: meibion Zaccai, saith gant a thrigain, y rhai a ddychwelasant gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 9; *Neh.* vii. 14. Yr un ydyw yr enw ag sydd yn ymddangos yn y Testament Newydd yn y ffurf adnabyddus o *Zaccheus.*

1. ZACCUR: Reubeniad, tad Sammua—yr ysbïwr a ddewiswyd o'i lwyth: *Num.* xiii. 4.

2. ZACCUR: Lefiad Meraraidd, mab Iaaziah: 1 *Cron.* xxiv. 27.

3. ZACCUR: mab Asaph y cerddor, a phenaeth trydydd dosbarthiad côr y deml fel y trefnwyd hwynt gan Dafydd: 1 *Cron.* xxv. 2, 10; *Neh.* xii. 35.

4. ZACCUR: mab Imri, yr hwn a gynnorthwyodd Nehemiah i ail adeiladu mur y ddinas: *Neh.* iii. 2.

5. ZACCUR: Lefiad, neu deulu o Lefiaid, y rhai a lawnodasant y cyfammod gyda Nehemiah: *Neh.* x. 12.

6. ZACCUR: Lefiad, mab neu ddisgynydd yr hwn, Hanan, oedd un o'r trysoryddion a appwyntiwyd gan Nehemiah: *Neh.* xiii. 13.

ZACHARIAH, neu yn briodol ZECHARIAH: mab Ieroboam II., pedwerydd brenin ar ddeg Israel, a'r olaf o deulu Iehu. Nid hawdd ydyw penderfynu yn fanwl pa bryd yr oedd yn teyrnasu. Dywedir wrthym fod Amasiah wedi esgyn i orsedd Iudah yn yr ail flwyddyn i Ioas, brenin Israel, a'i fod wedi teyrnasu naw mlynedd ar hugain: 2 *Bren.* xiv. 1, 2. Dilynwyd ef gan Uzziah neu Azariah, yn y seithfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Ieroboam II. olynydd Ioas (2 *Bren.* xv. 1); ac Uzziah a deyrnasodd ddeuddeg a deugain o flynyddoedd. Ar y llaw arall, Ioas, brenin Israel, a deyrnasodd un mlynedd

Digitized by Google

ar bymtheg (2 *Bren.* xiii. 10); dilynwyd ef gan Ieroboam, yr hwn a deyrnasodd un mlynedd a deugain (2 *Bren.* xiv. 23), ac yntau a ddilynwyd gan Zachariah, yr hwn a ddaeth i'r orsedd yn y ddeunawfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Uzziah, brenin Iudah: 2 *Bren.* xv. 8. Fel hyn, cawn (1.) o esgyniad Amaziah i'r 38ain o deyrnasiad Uzziah, 29+38=67 o flynyddoedd; ac (2.) o'r ail flwyddyn o deyrnasiad Ioas hyd esgyniad Zachariah (neu o leiaf hyd farwolaeth Ieroboam) cawn 15+41=56 o flynyddoedd. Yn mhellach, yn ol y cyfrif uchod, digwyddodd esgyniad Uzziah, a osodwyd yn y seithfed ar hugain o Ieroboam, yn y bymthegfed. Ac hefyd y mae y cydamseriad olaf hwn yn cael ei gadarnhau, a chyda hyny y dybiaeth ynghylch y seithfed ar hugain o Ieroboam yn cael ei wrthbrofi, gan 2 *Bren.* xiv. 17, lle y dywedir fod Amaziah, brenin Iudah, wedi byw bymtheng mlynedd ar ol Ioas brenin Israel. Cymmer y rhan fwyaf o amseryddwyr yn ganiataol fod cyfwng o un mlynedd ar ddeg rhwng marwolaeth Ieroboam ac esgyniad Zachariah, yn ystod pa rai yr oedd y deyrnas yn dioddef oddi wrth aflywodraeth a gododd oddi wrth y cweryl ynghylch yr olyniaeth; ond y mae hyn yn ymddangos yn annhebygol ar ol teyrnasiad llywodraethwr penderfynol fel Ieroboam, ac nid yw yn penderfynu y gwahaniaeth rhwng 2 *Bren.* xiv. 17, a xv. 1. Gorfodir ni i dybied fod yma rifyddiad anghywir yn ein llawysgrif presennol ni, ac i roddi pymtheg yn lle saith ar hugain yn 2 *Bren.* xv. 1; a chredu fod Ieroboam II. wedi teyrnasu ddeuddeg neu dair ar ddeg a deugain o flynyddoedd. Y mae Josephus yn gosod esgyniad Uzziah yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Ieroboam, gan fod gwahaniaeth o flwyddyn yn y cydamseriadau hyn yn anocheladwy, am nad ydyw y cofnodydd Hebreaidd, wrth roddi eu hamseriadau, yn cyfrif rhanau o flynyddoedd. Ond pa un bynag a wnawn ni ai cymmeryd yn ganiataol fod cyfwng, neu fod gwall yn y llawysgrif, rhaid i ni osod esgyniad Zachariah yn y flwyddyn 771—2 cyn Crist. Ni pharhaodd ei deyrnasiad ond chwe mis. Lladdwyd ef mewn bradwriaeth, penaeth yr hwn oedd Salim; a thrwy yr hwn y cyflawnwyd y brophwydoliaeth yn 2 *Bren.* x. 30. Dywedir wrthym ddarfod iddo, yn ystod tymmor byr ei awdurdod, wneuthur drwg, a chadw i fyny addoliad y llo; yr hyn a etifeddodd efe oddi wrth yr Ieroboam cyntaf, yr hwn addoliad yr oedd ei dad wedi ei gynnal gyda rhwysg brenhinol yn Bethel: *Amos* vii. 13.

2. ZACHARIAH. Yr oedd efe yn dad i Abi, neu Abiah: 2 *Bren.* xviii. 2. Yn 2 *Cron.* xxix. 1, gelwir ef Zechariah.

1. ZACHARIAS: offeiriad, yn nheyrnasiad Iosias.—1 *Esdr.* i. 8.

2. ZACHARIAS. Yn 1 *Esdr.* i. 15 y mae Zacharias yn meddiannu lle Heman yn 2 *Cron.* xxxv. 15.

3. ZACHARIAS: tad Ioan Fedyddiwr: *Luc* i. 5, &c. Gwel IOAN FEDYDDIWR.

ZACHARIAS: pab; a brodor o Groeg. Dilynodd Gregory III. yn 741. Llwyddodd i wneuthur heddwch rhwng duciaeth Rhufain a Luitprand, brenin y Longobardiaid. Rhyddhaodd brif ddynion Ffraingc oddi wrth eu teyrngarwch i'r brenin Childeric III., a chymmeradwyodd ddyrchafiad Pepin i'r orsedd. Gwaharddodd y gaethfasnach yn Italy, ac ymddygodd yn garedig tuag at glerigwyr a phobl Rhufain. Bu farw yn y flwyddyn 752.

ZACHER: un o feibion Iehiel, tad neu sylfaenydd Gibeon, o'i wraig Maachah: 1 *Cron.* viii. 31. Yn 1 *Cron.* ix. 37, gelwir ef Zechariah.

ZACCHEUS: enw treth-gasglydd yn ymyl Iericho; yr hwn, gan ei fod yn fychan o gorpholaeth a ddringodd i sycamorwydden, gyda'r bwriad o gael golwg ar yr Iesu pan yr oedd efe yn myned drwy y lle hwnw. Luc yn unig sydd wedi adrodd y digwyddiad: *pen.* xix. 1—10. Iuddew oedd Zaccheus, fel y gellir casglu oddi wrth ei enw, ac oddi wrth y ffaith fod y Gwaredwr yn siarad am dano yn bendant fel "mab Abraham." Felly y dylid deall yr ymadrodd olaf, ac nid mewn ystyr ysbrydol; canys y mae yn amlwg ei fod wedi ei fwriadu i ddadgan ei fod ef yn un o'r genedl etholedig, er gwaethaf rhagfarn rhai o'i gydwladwyr fod ei swydd ef dan y llywodraeth Rufeinig yn ei wneyd ef yn alltud ac yn esgymmunedig oddi wrth freintiau yr Israeliaid. Y mae yr enw sydd yn dynodi y swydd hon, "pen publican," yn un anarferol. Ond y mae yn ddiammheu ei fod yn ei ddisgrifio ef fel prif arolygwr y tollau neu y deyrnged yn nosbarth Iericho, lle yr oedd efe yn byw, fel un wedi ei bennodi gan y prif bublican Rhufeinaidd i gasglu y trethi a osodwyd ar yr Iuddewon gan y Rhufeiniaid, a'r hwn, yn y cyflawniad o'r ymddiriedaeth hono, a ddefnyddiai is-swyddogion, y rhai oeddynt yn gyfrifol iddo ef, fel yr oedd yntau i'w uwch-swyddog, pa un bynag ai yn Rhufain, fel y digwyddai fynychaf, ai yn y dalaeth ei hun, y byddai efe yn preswylio. Rhaid fod y swydd yn un ennillgar yn y fath ddosbarth; ac nid ydyw yn rhyfedd fod Zaccheus yn cael ei grybwyll gan yr efengyl fel dyn cyfoethog. Dywed Josephus fod coed palmwydd Iericho, a'i gerddi balsam, wedi eu rhoddi fel ffynonell o gyllid gan Anthony i Cleopatra; ac ar gyfrif eu gwerth, y prynwyd hwynt gan Herod Fawr er ei fudd ei hun. Nid ydyw sycamorwydd i'w cael mwyach yn y gymmydogaeth hono; ond ni ddylai neb synu o herwydd hyn, gan fod "hyd yn oed yr unig goeden oedd yn ngweddill o'r goedwig palmwydd, a welwyd mor ddiweddar ag 1838"—yr hon a dyfai yn agos i Iericho, yn awr wedi diflanu. Yr oedd awydd Zaccheus am weled yr Iesu yn codi o wreiddyn dyfnach na chywreinrwydd noeth. Rhaid ei fod wedi cael rhyw wybodaeth, trwy adroddiad o leiaf, am addysg Crist, yn gystal ag am ei allu i wneyd gwyrthiau; ac fel hyn fe allai fod gradd o wir deimlad crefyddol wedi ei gynnyrchu ynddo, yr hwn oedd wedi ei wneuthur ef yn fwy awyddus i weled cyhoeddwr y newyddion da, y rhai oeddynt mor bwysig i ddynolryw fel pechaduriaid. Y mae parodrwydd Crist i "aros yn ei dŷ ef," a'i ddadganiad fod "iachawdwriaeth" wedi dyfod y diwrnod hwnw i dŷ ei groesawydd, yn ddigon i brofi i foddlonrwydd ei fod yn "gwybod beth sydd mewn dyn," ac yn canfod ynddo deimlad crefyddol ag oedd yn ei wneuthur ef yn gymmhwys i dderbyn bendithion ysbrydol. Ymddengys fod adfyfyrdod ar ei ymddygiad ar ran Zaccheus wedi dadguddio iddo ddiffygion oeddynt yn terfysgu ei gydwybod; ac yr oedd efe yn barod, pan ddysgid ef yn berffeithiach gyda golwg ar ffordd bywyd, i "dalu ar ei bedwerydd" pob eiddo a allai fod wedi dyfod i'w feddiant trwy "gam-achwyn." Pa fodd bynag,

Digitized by Google

nid oedd efe wedi byw yn y fath fodd fel ag i orchfygu y rhagfarn a goleddid gan yr Iuddewon yn erbyn personau neillduol o'i ddosbarth, a disgynodd eu cerydd arno ef, yn gystal ag ar Grist, pan ddywedasant fod yr olaf wedi darostwng ei hun trwy fyned i "lettya at ŵr pechadurus." Y mae yn debygol fod y Gwaredwr wedi treulio y noson yn nhŷ Zaccheus, a'i fod wedi myned yn mlaen dranoeth ar ei daith i Ierusalem. Yr oedd efe yn y fintai o Galilea, yr hon oedd yn myned i fyny yno i gadw gŵyl y Pasc.

Yr ydym yn darllen yn yr ysgrifeniadau rabbinaidd hefyd fod Zaccheus, yr hwn oedd yn byw yn Iericho yn yr un tymmor, yn dra adnabyddus ar ei gyfrif ei hun, ac yn enwedig fel tad yr enwog rabbi Iochanan mab Zaccai. Dichon fod hwn yn perthyn i'r Zaccheus a elwir yn yr hanes ysgrythyrol. Yr oedd teulu Zaccai yn un hynafol iawn, yn gystal ag yn dra lliosog. Crybwyllir am danynt yn llyfrau Ezra (ii. 9) a Nehemiah (vii. 14) fel yn mhlith y rhai a ddychwelasant o gaethiwed Babilon dan Zorobabel, pan yr oedd eu nifer yn cyrhaedd i saith gant a thrigain. Dylid sylwi mai Zaccai ydyw yr enw sydd yn cael ei arfer yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Hen Destament.

ZAFAN: 1 *Cron.* i. 42.

ZAHAM: mab Abihail, merch Eliab: 2 *Cron.* xi. 18. Gan mai Eliab oedd yr hynaf o frodyr Dafydd, y mae yn fwy tebygol mai Abihail oedd ei ŵyres.

ZAMZUMMIAID: yr enw Ammoniaidd am bobl, y rhai gan eraill (ond pwy oeddynt, ni wyddys) a elwid yn Rephaim: *Deut.* ii. 20. Dywedir eu bod yn wreiddiol yn genedl nerthol a lliosog o gawri: "pobl fawr, ac aml, ac uchel" —yn preswylio y dosbarth, yr hwn, yn amser y gorchfygiad Hebreaidd oedd yn meddiant yr Ammoniaid, gan ba rai yr oedd y Zamzummiaid er's amser maith cyn hyny wedi eu dinystrio. Yn mha le yr oedd y dosbarth hwn, nid ydyw yn bossibl, hwyrach, penderfynu yn fanwl; ond y mae yn debygol ei fod yn gorwedd yn nghymmydogaeth Rabbath-Ammon—yr unig ddinas o eiddo yr Ammoniaid ag y mae ei henw neu ei sefyllfa yn ein meddiant ni. Am hyny yr oedd o du y dwyrain i'r wlad gyfoethog, o'r hon yr oedd y Moabiaid wedi eu gyru allan gan yr mAoriaid.

ZANCHIUS, JEROME. Ganed ef yn Alzano, yn 1516; a daeth yn aelod o gynnulleidfa canoniaid rheolaidd St. Giovanni di Laterano, pan nad oedd ond pymtheg oed; a thra yn y gymdeithas hono efe a ffurfiodd gyfeillgarwch agos â'r enwog Pedr Ferthyr, yr hwn oedd hefyd yn aelod o'u cyfundeb. Dylanwadodd esampl ac ymddiddanion y dyn enwog hwn yn fawr ar feddwl Zanchius, yn gystal ag ar lawer o'i frodyr; yr hyn a gynnyddwyd yn mhellach gan y darlithoedd a draddododd Pedr ar ol hyny yn Lucca. Y canlyniad fu i Zanchius, gyda deunaw o'i gymdeithion, ymwrthod yn gyhoeddus â'r grefydd Babaidd. Gosododd yr enciliad hwn ef dan yr angenrheidrwydd o ymadael o Italy; ac wedi ceisio noddfa yn gyntaf yn Geneva, ac yn nesaf yn Strasburg a Chiavenna, efe a dderbyniodd y swydd o broffeswr duwinyddiaeth yn Heidelberg, yn 1568; lle yr ymsefydlodd dan nawdd uniongyrchol Frederick III.—ar gais yr hwn y cyfansoddodd efe ei draethawd mawr yn erbyn Antinomiaeth. Parodd marwolaeth y tywysog hwn, yn 1578, iddo roddi ei swydd i fyny; a symmudodd i Newstadt; ond dychwelodd i Heidelberg yn 1585, a bu farw yno yn 1590. Y mae ei draethawd ar yr "Athrawiaeth o Ragarfaethiad" wedi ei gyfieithu i'r Saesneg gan Dr. Toplady.

1. ZANOAH. Yn yr ach-restrau o lwyth Iudah yn 1 *Cron.*, dywedir mai Iecuthiel oedd tad Zanoah (*pen.* iv. 18); ac mor bell ag y gellir deall yr adnod, ymddengys ei bod yn rhoddi ar ddeall fod rhyw gyssylltiad rhyngddo a "Bithiah, merch Pharaoh." Zanoah sydd enw un o drefydd Iudah; ac y mae yn debygol fod y crybwylliad hwn am Bithiah yn cyfeirio at ryw sefydliad a ffurfiwyd yn y lle gan yr Aiphtiaid, neu gan yr Israeliaid yn uniongyrchol o'r Aipht.

2. ZANOAH: tref yn nhiriogaeth Iudah, a enwir yn yr un dosbarth a Soreah ac Iarmuth. Dywed Jerome ei bod yn nosbarth Eleutheropolis, ar y ffordd i Ierusalem. Y mae yr enw yn digwydd yn ei hen gyssylltiad yn rhestrau Nehemiah, ac ail breswyliwyd hi, a'r dref arall o'r un enw, gan bobl Iudah ar ol y caethiwed (*pen.* xi. 30), a chan y rhai a gynnorthwyasant i adgyweirio mur Ierusalem: *pen.* iii. 13.

3. ZANOAH: tref yn nosbarth mynyddig Iudah: *Jos.* xv. 56. Enwir hi yn yr un rhestr a Maon, Carmel, Ziph, a lleoedd ereill y gwyddys eu bod yn gorwedd o du y deheu i Hebron. Y mae yn debygol mai yr un ydyw a Sanute, yr hon a grybwyllir gan Seetzen, fel islaw Sanuta, ac ymddengys ei bod o ddeutu deg o filldiroedd i'r deheu o Hebron. Pan ymwelodd efe â'r dref, hi oedd y lle preswyliedig olaf i'r deheu. Yn ol adroddiad ach-restrau 1 *Cron.*, sylfaenwyd Zanoah gan Iecuthiel: 1 *Cron.* iv. 18. Yma crybwyllir hi hefyd gyda Socho ac Estemoa, y rhai sydd i'w cael yn nghymmydogaeth Zanûtah.

ZAPHNATH-PAANEAH. Ni wyddys yn sicr beth ydyw ystyr yr enw hwn. Deonglir ef gan y rabbiniaid fel gair Hebraeg yn yr ystyr o 'ddadguddydd dirgelwch.' Eraill a farnant—ac yn eu plith Jerome—mai gair Aiphtaidd yw, ac mai ei ystyr ydyw, 'iachawdwr y byd.' Er pob ymchwiliad a wnaed hyd yma, y mae ei ystyr yn dra ammheus.

ZARA: mab Iudah: *Mat.* i. 3.

ZARAH: yn briodol Zerah, mab Iudah o Tamar: *Gen.* xxxviii. 30.

ZAREAH: yr un lle a Zorah a Zoreah: *Gen.* xi. 29.

ZARED: afon yn rhedeg y tu hwnt i'r Iorddonen, ac i'r Môr Marw: *Num.* xxi. 12; *Deut.* ii. 13.

ZARLINO, JOSEPH: ysgrifenydd Italaidd enwog ar gerddoriaeth; yr hwn yn moreu ei oes oedd yn aelod o gôr eglwys Sant Marc, yn Venice. Pennodwyd ef ar ol hyny yn organydd yr eglwys hono, ac yn gyfarwyddwr cerddoriaeth yno. Efe oedd yr ysgrifenydd mwyaf ar gerddoriaeth a gynnyrchwyd erioed gan ei wlad. Ganed ef yn Chioggia, yn nhaleithiau Venice, yn 1519; a bu farw o ddeutu y flwyddyn 1570.

Digitized by Google

ZATTU: meibion Zattu oeddynt deulu o Israeliaid, y rhai a ddychwelasant gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 8; *Neh.* vii. 13. Aeth ail fintai gydag Ezra, er fod yr enw, yn y testyn Hebraeg o *Ezra* viii. 5, wedi ei adael allan. Yr oedd amryw aelodau o'r teulu hwn wedi priodi gwragedd dyeithr: *Ezra* x. 27.

ZAZA: un o feibion Ionathan, o dylwyth Ierameel, mab Hesron, o Iudah: 1 *Cron.* ii. 33.

1. ZEBADIAH: Beniaminiad, o feibion Beriah: 1 *Cron.* viii. 15.

2. ZEBADIAH: Beniaminiad, o feibion Elpaal: 1 *Cron.* viii. 17.

3. ZEBADIAH: un o feibion Ieroham o Gedor —Beniaminiad, yr hwn a ymunodd â Dafydd yn ei enciliad yn Siclag: 1 *Cron.* xii. 7.

4. ZEBADIAH: mab Asahel, brawd Ioab: 1 *Cron.* xxvii. 7.

5. ZEBADIAH: mab Michael o feibion Sephatiah: *Ezra* viii. 8. Dychwelodd gyda phedwar ugain o'i dylwyth yn yr ail fintai gydag Ezra.

6. ZEBADIAH: offeiriad o feibion Immer, yr hwn a briodasai wraig ddyeithr ar ol y dychweliad o Babilon: *Ezra* x. 20.

7. ZEBADIAH: trydydd mab Meselemiah y Corhiad: 1 *Cron.* xxvi. 2.

8. ZEBADIAH: Lefiad, yn nheyrnasiad Iehosaphat; yr hwn a anfonwyd i ddysgu y gyfraith yn ninasoedd Judah: 2 *Cron.* xv. 8.

9. ZEBADIAH: mab Ismael, a thywysog o dŷ Iudah yn nheyrnasiad Iehosaphat: 2 *Cron.* xix. 11. Mewn cyssylltiad âg Amariah yr archoffeiriad, appwyntiwyd ef i arolygu y Lefiaid, yr archoffeiriaid, a'r penaethiaid, y rhai oeddynt i benderfynu pob achos, gwladol ac eglwysig, a ddygid o'u blaen. Dichon eu bod yn ffurfio math o lys appeliadol—Zebadiah yn gofalu am fanteision y brenin, ac Amariah yn awdurdod uchaf mewn materion eglwysig.

ZEBAH: un o ddau o 'frenhinoedd' Midian; y rhai, fel yr ymddengys, a lywyddasant yr ymosodiad mawr ar Palestina, a'r rhai yn y diwedd a syrthiasant trwy law Gedeon ei hun. Cyssylltir ef bob amser â Salmunna, a chrybwyllir am dano yn *Barn.* viii. 5—21; *Salm* lxxxiii. 11.

Y mae yn enghraifft nodedig o symledd didwyll yr adroddiad a gynnwysir yn *Barn.* vi. 33, a viii. 28, nad oes un crybwylliad yn cael ei wneuthur am un o benaethiaid y Midianiaid yn ystod y rhan gyntaf o'r hanes, nac yn wir nes y mae Gedeon yn dyfod i gyffyrddiad gweithredol â hwynt. Yna yr ydym yn cael (*Barn.* viii. 18), tra yr oedd y Bedwiaid yn anrheithio y cnydau yn nyffryn Iezreel, cyn ymosodiad Gedeon, fod tri neu chwaneg o'i frodyr wedi eu cymmeryd, a'u rhoddi i farwolaeth, gan yr Arabiaid, trwy ddwylaw Zebah a Salmunna eu hunain. Nid ydyw y ffaith bwysig hon yn cael ei chrybwyll ond yn unig yn ddamweiniol.

Y mae *Salm* lxxxiii. 12, yn rhoddi ar ddeall ei bod wedi cadw geiriau y floedd â'r hon y rhuthrodd Zebah a Salmunna gyda'u lluoedd o'r Iorddonen i'r gwastadedd mawr ffrwythlawn:—"Cymmerwn i ni gyfanneddau Duw i'w meddiannu!"

Tra yr oedd Oreb a Zeeb, dau o arweinyddion israddol y rhuthrgyrch, wedi eu lladd, gyda nifer mawr o'u pobl, gan yr Ephraimiaid, wrth rydau canol yr Iorddonen, yr oedd y ddau frenin wedi llwyddo i ddiangc trwy ryd pellach i'r gogledd, ac oddi yno trwy Gilead i Carcor—lle a orweddai, fel y credir, yn uchel i fyny ar yr Hauran. Yma yr oeddynt yn gorphwys gyda 15,000 o wŷr, gweddill eu byddin aruthrol, pan oddiweddwyd hwynt gan Gedeon. Pe buasent yn eu gwrthsefyll, nid oes yn mron un ammheuaeth nad allasent yn hawdd orchfygu y fintai fechan o ddewrion "lluddedig," y rhai oeddynt wedi eu herlid hwynt i fyny bylchau erchyll y mynyddoedd. Ond yr oedd enw Gedeon etto yn llawn dychryn, ac yr oedd y Bedwiaid yn hollol ammharod i gyfarfod ei ymosodiad:—hwy a ffoisant mewn braw, a chymmerwyd y ddau frenin yn garcharorion.

Y cyfryw ydoedd trydedd act y galanasdra mawr. Y mae dwy etto yn aros. Yn gyntaf, y dychweliad i lawr y bylchau hirion sydd yn arwain at yr Iorddonen. Yn amlwg yn eu plith ymddengys y fintai o gamelod, â cholerau am eu gyddfau. Marchogai y penaethiaid caethgludedig, wedi ymwisgo mewn clust-dlysau aur, "heb law'r colerau, a'r arogl-bellenau, a'r gwisgoedd porphor." Cerddai Gedeon, y mae yn debygol, wrth ochr ei garcharorion. Hwy a aethant heibio i Penuel, lle yr oedd Iacob wedi canfod gweledigaeth wyneb Duw; ac aethant heibio i Succoth; croesasant ffrwd gyflym yr Iorddonen; esgynasant yr ucheldiroedd o du y gorllewin i'r afon; ac o'r diwedd cyrhaeddasant i Ophrah—pentref genedigol eu caethgludwr. Ac yna o'r diwedd, cafodd y cwestiwn, yr hwn y mae yn rhaid ei fod ar dafod Gedeon yn ystod yr holl holl daith yn ol, ei ddwyn i oleuni. Nid ydyw yn ymddangos fod un cyfeiriad wedi ei wneuthur ato o'r blaen; ond y mae yn rhoddi eglurhâd ar yr holl erlidiad. Marwolaeth ei frodyr, "plant ei fam," a gynnhyrfodd Gedeon i arfer y fath ddyfal-barhâd, yn wyneb cynnifer o'rwystrau mawrion. "Pa fath wŷr oedd y rhai a laddasoch chwi yn Tabor?" meddai. Dichon fod y penaethiaid, hyd hyny, yn credu eu bod yn cael eu cadw, i'w prynu; ond wedi i'r geiriau hyn unwaith gael eu llefaru, nis gallai fod ammheuaeth beth oedd eu tynged i fod. Hwy a'i cyfarfyddasant, fel plant ardderchog yr anialwch, yn hyf a diofn. Un cais yn unig a wnaethant —fod iddynt gael marw trwy ddyrnod sicr y gwron ei hun:—"a Gedeon a gyfododd ac a'u lladdodd hwynt;" ac nid aeth un meddwl am ysbeilio i'w galon ef hyd nes iddo ddial dros ei frodyr. Yna, ac nid hyd y pryd hwnw, y gosododd efe ei law ar y trysorau oedd yn addurno eu camelod.

ZEBAIM. Crybwyllir meibion Pochereth o Sebaim yn rhestr teuluoedd "gweision Solomon," y rhai a ddychwelasant o'r caethiwed gyda Zorobabel: *Ezra.* ii. 57; *Neh.* vii. 59. Y mae yr enw yn y gwreiddiol yn dra thebyg i'r enw Zeboim, cyd-ddinas Sodom; a chan ei bod yn ymddangos fod llawer o "weision Solomon" o haniad Canaaneaidd, y mae yn bossibl fod teulu Pochereth wedi disgyn o un o'r bobl a ddiangasant o Zeboim yn nydd y trychineb mawr yn Nyffryn yr Iorddonen. Modd bynag, ni ellir derbyn hyn ond yn unig fel tybiaeth. Ar y llaw arall barna rhai nad yw y ddau enw, Pochereth a Zebaim, yn cyfeirio at le; ond mai eu hystyr ydyw, 'maglwr neu heliwr iyrchod.'

ZEBEDEUS: pysgottwr o Galilea, tad yr apostolion, Iago Fawr ac Ioan (*Mat.* iv. 2), a gŵr

Digitized by Google

Salome: *Mat.* xxvii. 56; *Marc* xv. 40. Y mae yn debygol ei fod ef yn byw, naill ai yn Bethsaida, neu yn rhyw le yn ei chymmydogaeth. Cesglir oddi wrth y crybwylliad am ei "gyflogddynion" (*Marc* i. 20), ac oddi wrth y gydnabyddiaeth oedd rhwng yr apostol Ioan a'r archoffeiriad Annas (*Ioan* xviii. 15) fod teulu Zebedeus mewn amgylchiadau cysurus (cymmharer *Ioan* xix. 27), er nad uwch law llafurio â'u dwylaw: *Mat.* iv. 21. Er fod yr enw Zebedeus yn digwydd yn fynych fel enw eu tad, mewn trefn i wahaniaethu ei ddau fab oddi wrth eraill oeddynt yn dwyn yr un enwau, nid ydyw yn digwydd ond unwaith yn unig yn hanesiaeth yr Efengylau—yn *Mat.* iv. 21, 22, a *Marc* i. 19, 20—lle y gwelir ef yn ei gwch gyda'i ddau fab yn cyweirio eu rhwydau. Ar yr achlysur hwn y mae efe yn caniatau i'w feibion ei adael ef ar orchymyn y Gwaredwr, heb godi un wrthddadl, er nad ydyw yn ymddangos ei fod ef ei hun wedi bod erioed yn ddysgybl i Grist. Er hyny, ymddengys ei wraig yn rhestr y gwragedd duwiol oeddynt yn gweini yn barhaus ar y Gwaredwr tua diwedd ei weinidogaeth; y rhai a'i gwyliasant ef ar y groes, ac a weiniasant arno hyd yn oed pan yr oedd yn y bedd: *Mat.* xxvii. 55, 56; *Marc* xv. 40; xvi. 1; cymmh. *Mat.* xx. 20, a *Luc* viii. 3. Y mae yn rhesymol i ni gasglu fod Zebedeus wedi marw cyn yr amser yma. Y mae yn deilwng o sylw, ac hwyrach y gellir ei ystyried fel cadarnhâd o wirionedd yr hanes yn yr Efengylau, fod yr enw *Zebedeus* yn mron yr un o ran ei ystyr a'r enw *Ioan*. Yr oedd yn naturiol iddo ddymuno i'w enw barhau yn ei deulu, er mai mewn ffurf ychydig yn wahanol.

ZEBINA: un o feibion Nebo, y rhai a gymmerasant wragedd dyeithr ar ol y dychweliad o Babilon: *Ezra* x. 43.

ZEBOIM: un o bum dinas y "gwastadedd," neu gylch yr Iorddonen. Crybwyllir hi yn *Gen.* x. 19; xvi. 2, 8; *Deut.* xxix. 23; a *Hos.* xi. 8:—yn mhob un o'r rhai y mae naill ai yn cael ei chyssylltu âg Admah, neu yn cael ei gosod yn agosaf ati yn y rhestrau. Y mae enw ei brenin, Semeber, ar gael: *Gen.* xiv. 2.

ZEBOIM, DYFFRYN: ymddengys mai ceunant ydoedd, o du y dwyrain i Michmas, yr hon a grybwyllir yn unig yn 1 *Sam.* xiii. 18. Disgrifir ef yno gyda manylrwydd nad ydyw mwyach, yn anffodus, yn ddealladwy. Gosodir allan y ffordd sydd yn rhedeg o Michmas i'r dwyrain fel "ffordd y terfyn sydd yn edrych tua dyffryn Seboim, tua'r anialwch. Ac y mae yn ddiammheuol mai yr anialwch ydyw y dosbarth o dir mynyddig ac anniwylliedig sydd yn gorwedd rhwng dosbarth canolbarthol Beniamin a Dyffryn yr Iorddonen; ac ymddengys mai yma y dylid chwilio am fwlch Seboim.

ZEBUDAH: merch Pedaiah o Rumah: 2 *Bren.* xxiii. 36.

ZEBUL: "llywodraethwr" dinas Sichem yn amser y rhyfel rhwng Abimelech a'r Canaaneaid brodorol. Y mae ei enw yn digwydd yn *Barn.* ix. 28, 30, 36, 38, 41. Llywodraethai y dref fel "swyddog" Abimelech tra y byddai yr olaf yn absennol; ac efe a gymmerodd ran yn erbyn y Canaaneaid, drwy eu cau hwynt allan o'r ddinas pan yr oedd Abimelech yn gwersyllu o'r tu allan iddi. Y mae ei ymddiddan â Gaal, yr arweinydd Canaaneaidd, pan yr oeddynt yn sefyll yn mhorth Sichem yn gwylio dynesiant y minteioedd arfog, yn rhoddi hynodrwydd arbenig i Zebul yn mhlith lliaws cymmeriadau yr amser dyryslyd hwnw.

1. ZECHARIAH: yr unfed ar ddeg mewn trefn o'r deuddeg prophwyd lleiaf. Am ei hanes personol, ni wyddom ond ychydig. Y mae yr enw Zechariah yn arwyddo un 'y mae yr Arglwydd yn ei gofio.' Gelwir ef yn ei brophwydoliaeth yn fab Barachiah, ac yn ŵyr Ido; tra yn Llyfr Ezra (*pen.* v. 1; vi. 14), y dywedir mai mab Ido ydoedd. Y mae amryw ymdrechion wedi cael eu gwneuthur i gyssoni yr anghyssondeb hwn. Tybia Cyril o Alexandria mai Barachiah oedd tad Zechariah, yn ol y cnawd; ac mai Ido oedd ei ddysgawdwr, ac y gellid edrych arno fel ei dad ysbrydol. Y mae Jerome hefyd, yn ol rhai llawysgrifau, wedi dodi "mab Barachiah, mab Ido" yn *Zech.* i. 1, fel pe buasai yn tybied mai gwahanol enwau ar yr un person oedd Barachiah ac Ido; ac y mae yr un camgymmeriad yn digwydd yn y Deg a Thrigain—"mab Barachiah, mab Ido." Ystyria Gesenius a Rosenmüller fod y gair "mab" yn y brawddegau yn Ezra yn arwyddo 'ŵyr,' fel y mae Laban yn cael ei alw yn "fab," *h.y.* yn 'ŵyr' Nachor. Barna eraill, drachefn, mai yr achos pa ham na wneir un crybwylliad yn Ezra am Barachiah ydyw, ei fod ef eisoes wedi marw; neu am mai Ido oedd y person enwocaf, ac a ystyrid yn gyffredinol fel penaeth y teulu. Meddylia Knöbel fod yr enw Barachiah wedi ymlusgo i destyn presennol Zechariah o *Esa.* viii. 2, lle y gwneir crybwylliad am un Zechariah "fab Ieberechiah," yr hwn, mewn effaith, sydd yr un a Barachiah. Ei dybiaeth ef ydyw, mai gwaith y Zechariah hynaf (*Esa.* viii. 2) mewn gwirionedd, ydyw y pennodau ix. hyd xi. o lyfr presennol Zechariah:—ond fod ysgrifenydd diweddarach, wrth gael fod dau lyfr, un yn dwyn enw Zechariah mab Ido, a'r llall enw Zechariah mab Barachiah, wedi eu gwneuthur yn un, ac ar yr un pryd wedi uno teitlau y ddau; ac mai oddi wrth hyn y cododd y dyryswch sydd yn bodoli yn bresennol. Pa fodd bynag, o'r braidd y mae hon yn dybiaeth debygol o fod yn gywir. Yn sicr, y mae yn fwy naturiol tybied, gan fod y prophwyd ei hun yn crybwyll enw ei dad, tra nad ydyw llyfrau hanesiol Ezra a Nehemiah yn crybwyll ond Ido yn unig, fod Barachiah wedi marw yn gynnar, ac nad oedd felly ddolen gydiol rhwng y taid a'r ŵyr. Nid yw y mab, wrth roddi ei achau, yn gadael allan enw ei dad: ond y mae yr hanesydd yn ei basio heibio, fel enw un nad oedd ond ychydig yn gwybod am dano, neu eisoes wedi ei anghofio. Cadarnheir y golygiad hwn os tybiwn mai yr Ido a grybwyllir yma oedd Ido yr offeiriad; yr hwn y dywedir yn *Neh.* xii. 4, ei fod wedi dychwelyd o Babilon gyda Zorobabel ac Iesua. Dywedir yno fod ganddo fab o'r enw Zechariah (*adn.* 16), yr hwn oedd yn gydoeswr âg Ioiacim mab Iesua; ac y mae hyn yn cyttuno â'r dybiaeth fod Zechariah, o herwydd rhyw achos anhysbys—marwolaeth ei dad, fe allai—wedi dyfod yn gynnrychiolydd nesaf y teulu ar ol ei daid, Ido. Yn ol y golygiad hwn, yr oedd Zechariah, fel Ieremiah ac Ezeciel o'i flaen, yn offeiriad yn gystal ag yn brophwyd. Ymddengys ei fod wedi ymaflyd yn ei swydd tra nad oedd efe etto ond ieuangc (*Zech.* ii. 4;

Digitized by Google

cymmh. *Ier.* i. 6); a rhaid ei fod wedi ei eni yn Babilon, o'r lle y dychwelodd efe gyda'r fintai gyntaf o alltudion dan Zorobabel ac Iesua.

Yn yr wythfed mis o'r ail flwyddyn i Darius, y cyflawnodd ei swydd yn gyhoeddus gyntaf. Yn hyn cydweithredai â Haggai, yr hwn oedd yn hynach o gryn lawer, os oedd Haggai, fel yr ymddengys yn debygol, wedi ei gario i gaethiwed; ac felly yr oedd efe ei hun yn un o'r rhai a welsant "dŷ" yr Arglwydd "yn ei ogoniant cyntaf;" *Hag.* ii. 3. Yr oedd gan y ddau brophwyd yr un amcan mawr o'u blaen; a defnyddiodd y ddau eu holl alluoedd i gefnogi y gwaith o adeiladu yr ail deml. Ymddengys mai Haggai a arweiniodd y ffordd yn y gwaith hwn; ac yna ei fod wedi ei adael yn benaf yn nwylaw ei gydoeswr ieuangach. Yr oedd sylfeini yr adeilad newydd yn barod wedi eu gosod yn amser Cyrus; ond yn ystod teyrnasiad Cambyses a'r ffug Smerdis, yr oedd y gwaith wedi sefyll trwy eiddigedd y Samariaid. Modd bynag, pan esgynodd Darius Hystaspis i'r orsedd (yn 521), trodd pethau allan yn fwy ffafriol. Ymddengys ei fod yn dywysog haelfrydig a hynaws, ac yn teimlo yn garedig at yr Iuddewon. Wedi eu cefnogi gan y gobeithion a ddelid allan gan ei esgyniad, gwnaeth y prophwydi eu goreu i sicrhau gorpheniad y deml.

Gwelir mor bwysig, dan y cyfryw amgylchiadau, ac er cyflawni y ddyledswydd arbenig a ymddiriedwyd iddo, a fyddai gwreiddyn offeiriadol Zechariah. Yn rhy fynych, byddai raid i'r prophwyd sefyll yn benderfynol yn erbyn yr offeiriad. Mewn oes pan oedd gwasanaeth Duw wedi myned yn ffurfiol, ac nad oedd gwefusau yr offeiriaid mwyach yn cadw gwybodaeth, y prophwyd oedd y tyst dros y gwirionedd, yr hwn a orweddai dan y defodau allanol, ac heb yr hwn yr oedd y defodau allanol yn hollol ddilês. Yr hyn oedd i'w ofni yn awr ydoedd ffurfioldeb ofergoelus, ac nid esgeulusdra oeraidd. Yr oedd perygl i galon a bywyd crefydd golli mewn teml ardderchog, yn nghanol gwychder defodau rhwysgfawr, a mŵg aberthau oedd bob amser yn esgyn i'r nefoedd. Y mae adfeiliad yn debyg o gymmeryd lle bob amser, ac yn mhob gwlad, mewn amgylchiadau o fath y rhai hyn. Ac y mae lle cryf i ofni, o leiaf, fod Cristionogaeth yn adfeilio yn Mhrydain, o herwydd boneddigeiddrwydd yr eglwysi a'r cynnulleidfaoedd, a gwychder yr addoldai, a'r hyn a elwir yn 'dalentau y gweinidogion,' i raddau llawer mwy nag y mae neb yn ei dybied.

Yr oedd sylfeini y deml wedi eu gosod—ond dyna y cwbl: *Ezra* v. 16. Wedi digaloni gan y gwrthwynebiad a ddangoswyd iddynt ar y cychwyn, yr oedd yr Iuddewon wedi dechreu adeiladu, ond yr oeddynt yn analluog i orphen; ac hyd yn oed pan ddaeth y llythyr oddi wrth Darius yn caniatau iddynt wneyd y gwaith, ac yn addaw ei amddiffyniad, ni ddangosasant unrhyw frwdfrydedd am fyned yn mlaen gydag ef. Ar y fath amser, ni ellid cael offeryn cymmhwysach i gyffroi y bobl, calonau y rhai oeddynt wedi oeri, nag un oedd yn cyssylltu âg awdurdod prophwyd sêl a thraddodiadau teulu offeiriadol.

Gan hyny, i ddylanwad Zechariah yr ydym yn cael ail adeiladiad y deml yn cael ei briodoli i fesur mawr. "A henuriaid yr Iuddewon a adeiladasant," meddir, "ac a lwyddasant trwy brophwydoliaeth Haggai y prophwyd, a Zechariah fab Ido;" *Ezra* vi. 14. Y mae yn hynod yn y cydgyflead hwn o'r ddau enw nad ydyw y ddau yn cael eu galw yn brophwydi: nid "Haggai a Zechariah y prophwydi," ond "Haggai y prophwyd, a Zechariah *fab Ido.*" Ai tybiaeth annhebygol ydyw, fod Zechariah yn cael ei alw ar enw ei dad (neu ei daid), yn hytrach nag oddi wrth ei swydd, mewn trefn i ddwyn ei gymmeriad offeiriadol ar gôf i ni? Bydded hyn fel y byddo, yr ydym yn cael profion eraill o'r undeb agos oedd yn hanfodi y pryd hwn rhwng yr offeiriaid a'r prophwydi. Yr oedd amrywiol ddigwyddiadau cyssylltiedig â chymmeriad Ierusalem a'r caethiwed yn Babilon wedi arwain i sefydliad dyddiau gŵyl difrifol; ac yr ydym yn cael, pan y cododd cwestiwn gyda golwg ar y priodoldeb o gadw y dyddiau gŵyl hyny, pan yr oedd y ddinas a'r deml yn cael eu hail adeiladu, y cyflwynwyd y cwestiwn i ystyriaeth "yr offeiriaid, y rhai oeddynt yn nhŷ yr Arglwydd, a'r prophwydi:"—cydnabyddiaeth, nid yn unig o gydawdurdod, ond o'r undeb a ffynai rhwng y ddau gorph, sydd heb ei gyffelyb mewn hanesiaeth Iuddewig. Dengys y dull hefyd yn yr hwn y siaredir am Iosuah yr archoffeiriad yn y brophwydoliaeth hon, mor fywiog yr oedd cydymdeimlad Zechariah âg ef.

Y mae traddodiadau diweddarach yn cymmeryd yn ganiataol, yr hyn yn wir sydd yn dra thebygol, fod Zechariah yn bersonol wedi cymmeryd rhan weithredol yn y gorchwyl o ddarparu ffurf-wasanaeth i'r deml. Dywedir ei fod ef, a Haggai, wedi cyfansoddi Salmau gyda'r amcan hwn. Yn ol y Deg a Thrigain, cyfansoddwyd *Salm* cxxxvii. a cxlv.—cxlviii.; yn ol y "*Peshito,*" *Salm* cxxv. a cxxvi.; yn ol y "*Vulgate,*" *Salm* cxi., gan Haggai a Zechariah. Tybiwyd fod yr ymadrodd buddugoliaethus "Molwch yr Arglwydd," gyda'r hwn y mae llawer o honynt yn dechreu yn nodweddiadol o'r Salmau hyny a ganwyd gyntaf yn yr ail deml, gan y rhai oeddynt newydd gael eu hadferu i'w gwlad enedigol.

Os gellir coelio yr hanesion Iuddewig diweddaraf, yr oedd Zechariah, yn gystal a Haggai, yn aelod o'r Synagog Fawr. Nid ydyw crybwyllion tadau yr eglwys am y prophwyd hwn yn werth dim. Yn ol y rhai hyn, efe a gyflawnodd ei swydd brophwydol yn Caldea, ac a wnaeth lawer o wyrthiau yno; ac wedi heneiddio, efe a ddychwelodd i Ierusalem, lle y cyflawnodd efe ddyledswyddau yr offeiriadaeth: ac yno y bu efe farw, ac y claddwyd ef wrth ochr Haggai.

Nid ydyw ysgrifeniadau dilys Zechariah yn rhoddi ond ychydig o help i ni ffurfio barn am ei gymmeriad. Modd bynag, gellir canfod ynddynt rai olion gwan o'i addysg yn Babilon. Nid ydyw mor rydd ac annibynol a phe buasai o'i febyd wedi anadlu awyrgylch gwlad farddonol y prophwydi; ond y mae yn amlwg ei fod yn dibynu i raddau ar awdurdod y prophwydi hynaf, ac yn fynych yn copïo eu hymadroddion. Ymddengys mai Ieremiah yn arbenig oedd ei hoff awdwr; ac oddi wrth hyn y cododd y dywediad Iuddewig, fod "ysbryd Ieremiah yn trigo yn Zechariah." Ond yn yr hyn y gellir eu galw yn neillduolion ei brophwydoliaeth, y mae yn nesau yn fwy at Ezeciel a Daniel. Fel hwynt, y mae efe yn ymhyfrydu mewn gweledigaethau; ac fel hwy, y mae efe yn defnyddio arwyddluniau ac alegorïau, yn hytrach na'r ffugrau a'r cyffelybiaethau grymus ag sydd yn rhoddi y fath nerth a phrydferthwch i ysgrifeniadau y prophwydi boreuaf; fel hwy, yn gweled

Digitized by Google

angylion yn gweinyddu ger bron yr Arglwydd, ac yn cyflawni ei orchymynion ar y ddaear. Efe ydyw yr unig un o'r prophwydi sydd yn siarad am Satan. Fod rhai o'r neillduolion hyn yn ddyledus i'w addysg Caldeaidd sydd yn mron yn ddiammheuol. Y mae o leiaf yn hynod fod Ezeciel a Daniel, y rhai oeddynt dan ddylanwad yr un cyssylltiadau, mewn rhai o'r ystyriaethau hyn mor debyg i Zechariah, er eu bod mewn ystyriaethau eraill yn annhebyg iawn iddo.

Hwyrach y gallai beirniadaeth fanwl ddarganfod hyd yn oed yn ffurf y gweledigaethau rai olion o addysg foreuol y prophwyd. Dichon fod yr ymadrodd "myrtwydd yn y pant" yn y weledigaeth gyntaf wedi ei awgrymu gan Caldea, yn hytrach na chan Palestina. Beth bynag, y mae yn ffaith hynod nad ydyw myrtwydd byth yn cael eu crybwyll yn hanes yr Iuddewon cyn yr alltudiaeth. Heb law yn yr ymadrodd hwn o eiddo Zechariah, crybwyllir am danynt yn *Esa.* xli. 19; lv. 13, ac yn *Neh.* viii. 15. Ymddengys fod y ffurf o brawf yn y drydedd weledigaeth, lle y mae Iosuah yr archoffeiriad yn cael ei gyhuddo, wedi ei fenthyca oddi wrth arferiad llysoedd Persia, yn hytrach na llysoedd Iuddewig. Y dillad budron yn mha rai yr ymddengys Iosuah, ydyw y rhai hyny y bydd yn rhaid i'r cyhuddedig eu gwisgo pan ddygir ef o dan brawf. Y wisg wen a roddwyd iddo yw y *caftan*, neu y wisg o anrhydedd, yr hon a roddir am weinidog y llywodraeth, a ryddhawyd oddi wrth y cyhuddiadau a roddwyd yn ei erbyn. Y mae gweledigaeth y wraig yn eistedd mewn ephah hefyd yn ddwyreiniol o ran ei chymmeriad. Yn olaf, y mae yn mron yn sicr y rhaid fod gweledigaeth y cerbydau yn dyfod allan oddi rhwng dau fynydd o bres wedi ei hawgrymu gan ryw arwyddlun Persiaidd.

*Cynnwysiad y Brophwydoliaeth.*—Y mae hi yn gynnwysedig o bedair rhan:—1. Arweiniad i mewn, neu ragymadrodd (*pen.* i. 1—6); yn yr hwn y mae y prophwyd yn hysbysu ei awdurdodiad. 2. Cyfres o weledigaethau:—*pen.* i. 7, hyd ddiwedd *pen.* vi. Gwelwyd y rhai hyn oll mewn un noson, ac y maent o natur arwyddluniol. 3. Athrawiaeth (*pen.* vii. ac viii.)—yn cynnwys attebiad i ofyniad y Betheliaid yn mherthynas i ŵyl neillduol. Ac 4. Prophwydoliaeth:—*pen.* ix. i'r diwedd. Y mae y chwe phennod olaf hyn yn rhagfynegu rhyfelgyrch Alexander ar hyd glanau gorllewinol Palestina i'r Aipht; amddiffyniad Duw i'r Iuddewon, y pryd hwnw, ac o dan y Maccabeaid; dyfodiad dioddefiadau, a theyrnasiad y Messiah; dinystr Ierusalem gan y Rhufeiniaid, a diddymiad y ffurflywodraeth Iuddewig; eu troedigaeth a'u hadferiad; dymchweliad y cynghrair drygionus a ymosodai arnynt yn Nghanaan, ac ymuniad y Cenhedloedd yn eu haddoliad sanctaidd. Y mae y gwahaniaeth rhwng arddull y pennodau blaenaf a'r pennodau olaf i'w briodoli i wahaniaeth eu testyn: y mae y chwe phennod cyntaf o nodwedd arwyddluniol a neillduol, tra y mae arddull barddonol y pennodau olaf yn hynod o gyfaddas i'r pyngciau yr ymdrinir â hwynt. Y mae y teitlau (*pen.* ix. 1; xii. 1) yn cyttuno â'r mater prophwydol sydd yn dilyn; ac nid ydyw yn angenrheidiol, er undeb awduriaeth, fod i'r ffurfiau rhagarweiniol sydd yn digwydd yn yr wyth pennod cyntaf ddigwydd yn y chwe phennod olaf. Nid ydyw y diffyg cyfeiriad yn y chwe phennod olaf at orpheniad y deml, ac adferiad y ffurflywodraeth Iuddewig ar ol y caethiwed, ond yr hyn y buasem yn ei ddisgwyl; os, fel y mae yn ymddangos yn debygol, yr ysgrifenwyd y pennodau hyn yn mhen amser maith ar ol gorpheniad y deml ac adferiad y ffurflywodraeth wedi y caethiwed, gan fod yr amgylchiadau yn wahanol i'r rhai yr oedd y prophwyd ynddynt pan yr ysgrifenodd y pennodau cyntaf.

Y mae yr arddull yn amrywio gyda'r testyn:—weithiau yn ymddiddanol, a phryd arall yn brophwydol. Y mae ei arwyddluniau yn ddychymygol, ac am hyny canlynir hwynt gan eglurhâd. Y mae ei ryddiaeth yn debyg i'r eiddo Ezeciel—yn wasgarog, unffurf, ac amleiriog. Y mae y mydr a'r gynghanedd yn lled anghyfartal, a'r cyfochredd (*parallelism*) heb fod yn hollol gymmesurol. Etto, ceir yn fynych lawer o'r arucheledd a welir yn y prophwydi boreuaf, a chydgordiad cyffredinol rhwng yr arddull a'r testynau. Ei nodwedd neillduol ydyw bywiogrwydd disgrifiadol. Ceir ynddo yn awr ac eilwaith rai brawddegau Caldeaidd. Nodwedd arbenig yn Llyfr Zechariah ydyw y ffaith ei fod yn dwyn bodau ysbrydol i mewn i'w olygfeydd prophwydol.

*Cyfanrwydd y llyfr.*—O herwydd fod *Mat.* xxvii. 9, yn dyfynu *Zech.* xi. 12, 13, fel geiriau Ieremiah, y mae Mede yn ammheu dilysrwydd pennodau ix., x., xi. xii., xiii., xiv., ac yn eu priodoli hwynt i Ieremiah. Tybia na chafwyd y pennodau hyn hyd ar ol y dychweliad o'r caethiwed; a chan iddynt gael eu cymmeradwyo gan Zechariah, chwanegwyd hwynt at ei brophwydoliaethau, fel y chwanegwyd diarhebion Agur at ddiarhebion Solomon. Y mae yr holl awdurdodau hynaf, oddi eithr dwy lawysgrif o'r hen gyfieithiad Italaidd, yn darllen "Ieremiah" yn *Mat.* xxvii. 9. Nid ydyw y dyfyniad yno wedi ei gopïo yn llythyrenol o Zechariah. Y mae yn bossibl fod *Ier.* xviii. 1, 2, a xxxii. 6—12 o flaen meddwl Matthew, ac hwyrach hefyd o flaen meddwl Zechariah, pan yr oedd y ddau yn ysgrifenu. Yr un modd meddylia Hengstenberg—fod Matthew yn enwi Ieremiah yn hytrach na Zechariah, i alw sylw at y ffaith nad yw prophwydoliaeth Zechariah ond ail adroddiad o'r bygythiad dychrynllyd yn *Ier.* xviii. a xix., yr hwn oedd i gael ei gyflawni yn ninystr y genedl Iuddewig. Yr oedd Ieremiah yn barod, trwy gyffelybiaeth llestr y crochenydd, wedi disgrifio eu dinystr yn ymosodiad Nebuchodonosor; a chan fod Zechariah, mewn effaith, yn ail adrodd y bygythiad hwn, yr hwn oedd i gael ei gyflawni drachefn dan y Messiah am wrthodiad y genedl o hono ef, y mae Matthew, mewn effaith, trwy grybwyll Ieremiah, yn rhoddi ar ddeall fod "maes y gwaed," a brynwyd yn awr â "gwobr anwiredd" yn nyffryn Hinnom, er's amser maith yn wrthddrych prophwydoliaeth; yn yr hon, yn arwyddluniol, y rhagfynegwyd trychineb arswydus: fod pryniant presennol y maes hwnw am bris y bradwr wedi adnewyddu y felldith—melldith a gyhoeddwyd gynt gan Ieremiah, ac a gyflawnwyd unwaith yn y gwarchau Babilonaidd—a melldith a ail gyhoeddwyd gan Zechariah, ac oedd i gael ei sylweddoli drachefn yn ninystr Rhufain. Tybia Lightfoot, ond gyda llai o debygolrwydd o fod yn gywir, fod y trydydd rhaniad o'r Ysgrythyr, sef y prophwydi, yn dechreu gydag Ieremiah, a bod holl gorph y prophwydi yn cael eu dyfynu wrth yr enw "Ieremiah." Nid ydyw y crybwylliad am "Ephraim" ac "Israel" yn y pennodau hyn, fel ar wahân oddi wrth Iudah, yn profi fod y



Digitized by Google

brophwydoliaeth wedi ei hysgrifenu tra yr oedd y deg llwyth yn hanfodi fel teyrnas ar wahân. Yn hytrach, y mae yn cynnwys, nid yn unig fod Iudah, ond y deg llwyth hefyd, i gael eu hadferu mewn amser dyfodol—ernes o'r hyn oedd y nifer o'r deg llwyth a ddychwelasant gyda'u brodyr, yr Iuddewon, o'r caethiwed dan Cyrus, brenin Persia. Nid oes dim yn y pennodau hyn yn rhoddi ar ddeall fod brenin yn teyrnasu yn Iudah y pryd hwnw. Cyssylltodd golygydd y canon Hebraeg y pennodau hyn â Zechariah, ac nid âg Ieremiah; a chadarnhwyd hyn gan y Deg a Thrigain, dri chan mlynedd cyn genedigaeth Crist..

2. ZECHARIAH: mab Meselemiah, neu Selemiah, Corahiad, a phorthor porth gogleddol pabell y cyfarfod (1 *Cron.* ix. 21) yn nhrefniad y porthorion yn nheyrnasiad Dafydd.

3. ZECHARIAH: un o feibion Iehiel, tad neu sylfaenydd Gibeon: 1 *Cron.* ix. 37. Yn 1 *Cron.* viii. 31, gelwir ef "Zacher."

4. ZECHARIAH: Lefiad yn mhlith cerddorion y deml, fel y trefnwyd hwy gan Dafydd, "i ganu nablau ar Alamoth;" 1 *Cron.* xv. 20. Yr oedd efe o'r ail radd o Lefiaid (*adn.* 18)—porthor neu geidwad porth; ac y mae yn bossibl mai yr un ydoedd a Zechariah mab Meselemiah.

5. ZECHARIAH: un o dywysogion Iudah yn nheyrnasiad Iehosaphat, y rhai a anfonwyd gydag offeiriaid a Lefiaid i ddysgu cyfraith yr Arglwydd i'r bobl: 2 *Cron.* xvii. 7.

6. ZECHARIAH: mab Iehoiada yr archoffeiriad, yn nheyrnasiad Ioas, brenin Iudah (2 *Cron.* xxiv. 20); ac felly, yr oedd efe yn gefnder i'r brenin. Ar ol marwolaeth Iehoiada, dilynwyd ef yn ei swydd, y mae yn debygol, gan Zechariah; ac wrth geisio attal y symmudiad yn ffafr eilunaddoliaeth, a gychwynwyd yn ddioed ar ol hyny, syrthiodd yn aberth i fradwriaeth a ffurfiwyd yn ei erbyn ef gan y brenin, a llabyddiwyd ef â meini yn nghyntedd y deml. Cadwyd cof hir am y weithred anghyfiawn hon yn y traddodiad Iuddewig. Adroddir chwedl yn Nhalmud Ierusalem am bedwar ugain mil o offeiriaid ieuaingc, y rhai a laddwyd gan Nebuzaradan am waed Zechariah; ac y mae yr afael amlwg yr oedd yr hanes wedi ei gymmeryd yn meddyliau y bobl yn ei gwneyd yn debygol mai yr un ydyw Zecharias fab Barachias, "yr hwn a laddwyd rhwng y deml a'r allor" (*Mat.* xxiii. 35), a Zechariah fab Iehoiada; a bod enw Barachias fel ei dad wedi ymlusgo i'r testyn oddi wrth eglurhâd ar ymyl y ddalen, drwy i'r ysgrifenydd gamgymmeryd y Zechariah hwn am Zechariah y prophwyd, yr hwn oedd yn fab i Berechiah, neu am Zechariah arall, mab Ieberechiah: *Esa.* viii. 2.

7. ZECHARIAH: Lefiad Cohathaidd yn nheyrnasiad Iosiah. Yr oedd efe yn un o arolygwyr y gweithwyr oedd yn adgyweirio y deml: 2 *Cron.* xxxiv. 12.

8. ZECHARIAH: arweinydd meibion Phaos, y rhai a ddychwelasant gydag Ezra: *Ezra* viii. 3.

9. ZECHARIAH: mab Bebai, yr hwn a ddaeth i fyny o Babilon gydag Ezra:—gwel *Ezra* viii. 11.

10. ZECHARIAH: un o benaethiaid y bobl, y rhai a wysiodd Ezra i gydymgynghori âg ef wrth yr afon sydd yn myned i Ahafa, cyn i'r ail fintai ddychwelyd o Babilon: *Ezra* viii. 16. Safai wrth ddeheulaw Ezra pan yr oedd efe yn egluro y gyfraith i'r bobl: *Neh.* viii. 4.

11. ZECHARIAH: un o deulu Elam, yr hwn a briododd wraig ddyeithr ar ol y caethiwed: *Ezra* x. 26.

12. ZECHARIAH: hynafiad Athaiah, neu Uthai: *Neh.* xi. 4.

13. ZECHARIAH: Siloniad, un o hiliogaeth Peres: *Neh.* xi. 5.

14. ZECHARIAH: offeiriad, a mab i Pasur: *Neh.* xi. 12.

15. ZECHARIAH: cynnrychiolydd teulu offeiriadol Ido yn nyddiau Ioiacim, a mab i Iesua: *Neh.* xii. 16. Yr oedd efe o bossibl yr un a Zechariah y prophwyd, mab Ido.

16. ZECHARIAH: un o'r offeiriaid, a mab i Ionathan, yr hwn a chwythodd yr udgyrn ar gyssegriad mûr y ddinas gan Ezra a Nehemiah: *Neh.* xii. 35, 41.

17. ZECHARIAH: penaeth y Reubeniaid yn amser y caethiwed yn Tiglath-Pileser: 1 *Cron.* v. 7.

18. ZECHARIAH: un o'r offeiriaid a chwythasant yr udgyrn yn yr orymdaith a ganlynodd yr arch o dŷ Obed-edom: 1 *Cron.* xv. 24.

19. ZECHARIAH: mab Isiah, neu Iesiah; Lefiad Cohathaidd wedi hanu o Uzziel: 1 *Cron.* xxiv. 25.

20. ZECHARIAH: pedwerydd mab Hosah, o blant Merari: 1 *Cron.* xxvi. 11.

21. ZECHARIAH: Manassiad:—Ido, mab yr hwn oedd benaeth ei lwyth yn Gilead yn nheyrnasiad Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 21.

22. ZECHARIAH: tad Iahaziel. Yr oedd efe yn un o'r Lefiaid Gersonaidd yn nheyrnasiad Iehosaphat: 2 *Cron.* xx. 14.

23. ZECHARIAH: un o feibion Iehosaphat: 2 *Cron.* xxi. 2.

24. ZECHARIAH: prophwyd yn nheyrnasiad Uzziah; yr hwn, fel yr ymddengys, a weithredai fel cynghorwr i'r brenin, ond am yr hwn nid ydys yn gwybod dim: 2 *Cron.* xxvi. 5.

25. ZECHARIAH: tad Abiah, neu Abi, yr hon oedd fam i Hezeciah: 2 *Cron.* xxix. 1.

26. ZECHARIAH: un o deulu Asaph y cerddor; yr hwn, yn nheyrnasiad Hezeciah, a gymmerodd ran gyda'r Lefiaid eraill yn mhuredigaeth y deml: 2 *Cron.* xxix. 13.

27. ZECHARIAH: un o lywodraethwyr y deml yn nheyrnasiad Iosiah: 2 *Cron.* xxxv. 8.

28. ZECHARIAH: mab Ieberechiah, yr hwn a gymmerwyd gan y prophwyd Esaiah fel un o'r "tystion ffyddlawn" i dystiolaethu pan yr ysgrifenodd efe yn mherthynas i Maher-shalal-hasbaz: *Esa.* viii. 2. Nid yr un oedd a Zechariah y prophwyd, yr hwn oedd yn byw yn amser Uzziah, ac a fu farw o flaen y brenin hwnw. Ond dichon mai y Lefiad o'r enw hwnw oedd efe; yr hwn, yn nheyrnasiad Hezeciah, a gynnorthwyodd i buro y deml: 2 *Cron.* xxix. 13.

ZEALAND NEWYDD. Rhoddir yr enw hwn ar dair o ynysoedd yn y Cefnfor Tawelog Deheuol. Darganfyddwyd hwy gyntaf gan Tasman, ac y maent yn awr yn drefedigaeth Brydeinig. Y maent yn gorwedd o ddeutu 1,200 o filldiroedd i'r de-ddwyrain o Awstralia. Eu harwynebedd ydyw 94,000 o filldiroedd ysgwâr. Lled anwastad a bryniog ydyw wyneb cyffredinol y wlad. Ceir dau losgfynydd yn yr Ynys Ogleddol—un yn 6,200, a'r llall yn 8,840 o droedfeddi uwch law wyneb y môr.

Y mae yr holl ynys ogleddol, gyda'r eithriad o ychydig lanerchi ar ei hochr orllewinol, yn hynod o gyfaddas i ddybenion amaethyddol.

Digitized by Google

Ar y gwastad-diroedd, ac ar hyd y glenydd, y mae y tir yn gyffredinol yn ffrwythlawn ac yn goediog. Y mae ffynnonau, ac afonydd, a llynoedd hefyd yn lliosog iawn yno, ac y mae eu dyfroedd yn rhagorol.

O ran ei hinsawdd, y mae yn iachus iawn. Anfynych y mae eira yn disgyn yno; ond y mae ystormydd a gwlawogydd trymion yn digwydd yn aml. Nid oes yno yr hyn a elwir mewn gwledydd eraill yn dymmor gwlawog. Tyfir gwenith, haidd, ceirch, a phytatws yn yr ynysoedd hyn; a cheir cnydau rhagorol, ac y mae digonedd o borfeydd ar y meusydd drwy y flwyddyn.

Nid oes yno ond ychydig iawn o greaduriaid gwylltion—yn enwedig rhai pedwar troediog. Y mae adar yn lliosog, ac y mae rhai o honynt yn heirdd iawn, ac yn meddu llais nodedig o bêrseiniol. Ceir cyflawnder o bysgod yn yr afonydd a'r llynoedd, y rhai sydd mor iachus a blasus a dim pysgod o fewn y byd.

Pan yr ymwelodd y Cadben Cook gyntaf â Zealand Newydd, yn 1769, nid oedd y trigolion yn ddim gwell na channibaliaid; ond yr oeddynt yn meddu cyfaddasrwydd neillduol i dderbyn addysg grefyddol. Bu am lawer o flynyddoedd ar ol hyny yn gyrchfa llestri pysgota môrfilod: ond yn 1814, sefydlwyd y cenhadon Cristionogol cyntaf yno gan y Parch. Samuel Marsden, yr hwn sydd yn dra adnabyddus ar gyfrif yr ymdrechion egnïol, a'r dyfalwch, a'r medrusrwydd, gyda pha rai y darfu iddo ei chario yn mlaen. Cyfarfyddodd â llawer o anhawsderau; ond parhaodd yr ymsefydlwyr newydd i lafurio yn ddibaid i efengyleiddio y brodorion; a choronwyd eu llafur â llwyddiant mawr. Ymwelwyd drachefn â'r sefydliadau gan Mr. Marsden yn 1819, pryd y prynwyd darn o dir, yn gynnwysedig o 13,000 o erwau, gan un o'r penaethiaid, a sefydlwyd y cenhadon arno. Ymgymmerodd hefyd â thaith ar draws yr ynys: darganfyddodd afon fawr yn llifo i'r môr ar y lan gyferbyniol; a galwodd hi wrth yr enw *Gambier*. Ymwelodd ar ol hyny â'r sefydliadau cenhadol, i arolygu a chalonogi y cenhadon yn y cyflawniad o'u gwaith. Yn 1840, daeth Zealand Newydd yn drefedigaeth Brydeinig; ac er y pryd hwnw, y mae nifer mawr wedi ymfudo iddi y naill flwyddyn ar ol y llall. Y mae yno dros dri chan mil o Ewropiaid; ac y mae nifer y brodorion dros drigain mil. Yn 1844, ymgododd y brodorion mewn gwrthryfel: ond o'r tymmor hwnw hyd 1860 parhasant yn hollol dawel. Yn y flwyddyn hono cymmerodd gwrthryfel arall le, ac ymddangosai fel rhyfel rheolaidd; ond terfynodd yn ffafriol i'r Prydeiniaid. Yn yr un flwyddyn, torodd gwrthryfel allan drachefn rhwng y trefedigion Prydeinig a'r Maoriaid, y rhai oeddynt yn anfoddlawn iawn i'w sefyllfa. Ar y dechreu, yr oedd y bobl hyn yn llwyddo; ond yn y diwedd, gorchfygwyd hwynt. Y mae Zealand yn cynnyddu yn gyflym yn ei llwyddiant yn mhob ystyr o'r bron; ac y mae yno yn awr rhwng deugain a thrigain o sefydliadau cenhadol.

**ZEDAD**: un o derfynau gogleddol Gwlad Canaan, fel yr addawyd hi gan Moses (*Num.* xxxiv. 8), ac fel yr adferwyd hi gan Ezeciel (*pen.* xlvii. 15); yr hwn, y mae yn debygol, a basiodd drwyddi ar ei ffordd i Assyria fel caethwas. Yn y lle blaenaf, y mae hi yn digwydd rhwng mynedfa Hamath a Ziphron; ac yn yr olaf, rhwng y ffordd i Hethlon a Hamath. Mae lle o'r enw Sûdûd yn gorwedd o du y dwyrain i'r cŵr mwyaf gogleddol o fynyddoedd Anti-Libanus, o ddeutu 50ain o filldiroedd i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o Baalbec, a 35ain i'r deddwyrain o Hums. Y mae yn bossibl y ceir allan rywbryd mai yr un ydyw hwn a Zedad; ond yn bresennol, y mae yr adnodau yn y rhai y crybwyllir yr olaf yn cael eu deall mor ammherffaith, ac y mae mor lleied o ymchwiliad wedi ei wneyd i'r rhan hon o'r wlad fel nad ellir gwneyd dim heb law galw sylw at y cyd-darawiad sydd yn yr enwau.

1. **ZEDECIAH**: brenin olaf Iudah ac Ierusalem. Mab i Iosiah ydoedd efe, o'i wraig Hamutal, ac am hyny yr oedd yn frawd i Ioahaz: 2 *Bren.* xxiv. 18; cymmh. xxiii. 31. Ei enw gwreiddiol oedd *Mattaniah*, yr hwn a newidiwyd i *Zedeciah* gan Nebuchodonosor, pan y cariodd efe ymaith ei nai, Iehoiacim, i Babilon, gan ei adael ar orsedd Ierusalem. Nid oedd Zedeciah ond un ar hugain oed pan y gosodwyd ef fel hyn yn frenin ar wlad dlawd—dinas yr hon, er ei bod etto yn gref yn ei hamddiffynfeydd naturiol a chelfyddydol, a amddifadwyd yn mron yn llwyr o'i hamddiffynwyr. Ond gallasai Ierusalem aros yn ben ar dalaeth Fabilonaidd Iudah, a theml yr Arglwydd barhau i sefyll, pe buasai Zedeciah yn meddu digon o ddoethineb a sefydlogrwydd i fod yn ffyddlawn i'w gynghrair â Babilon. Ond nid oedd efe felly: *Ier.* xxxviii. 5. Cynnwysir ei hanes yn y crynodeb byr o ddigwyddiadau ei deyrnasiad a geir yn 2 *Bren.* xxiv. 17—xxv. 7, a chyda rhai amrywiadau dibwys yn *Ier.* xxxix. 1—7, a lii. 1—11, ynghyd â'r crynodeb byrach fyth yn 2 *Cron.* xxxvi. 10, &c.; ac hefyd yn *Ier.* xxi.—xxiv., xxvii., xxviii., xxix., xxxii., xxxiii., xxxiv., xxxvii., a xxxviii.; sef pennodau yn cynnwys y prophwydoliaethau a draddodwyd gan Ieremiah yn ystod y teyrnasiad hwn, a'i adroddiad o amryw ddigwyddiadau a effeithient i raddau mwy neu lai ar Zedeciah; a gw. *Ezec.* xvi. 11—21. At y rhai hyn dylid chwanegu adroddiad Josephus ["*Hynaf. Iudd.*," x. 7, 1—8, *adr.* 2], yr hwn sydd wedi ei gyfansoddi mewn rhan trwy gymmharu yr ysgrifau a nodwyd uchod; ond cynnwysa hefyd hysbysrwydd wedi ei gael o ffynnonellau annibynol eraill. Oddi wrth y pethau hyn, y mae yn amlwg nad dyn drwg o galon, ond gwan o feddwl, oedd Zedeciah. Yr oedd efe yn un o'r cymmeriadau anffodus a geir yn fynych mewn hanesiaeth, fel Siarl I. yn ein gwlad ni, a Louis XVI. yn Ffrainge; y rhai nid oeddynt yn meddu digon o nerth meddyliol i'w galluogi i wneuthur yr hyn y gwyddent ei fod yn iawn. Yr oedd efe yn hollol dan ddylanwad tywysogion ei lys, fel yr addefa ei hun yn ei ymddiddan âg Ieremiah: *pen.* xxxviii. "Nid yw y brenin," meddai, "ŵr a ddichon dim yn eich erbyn chwi." Fel hyn gyrwyd ef i ddiystyru cynghorion y prophwyd; y rhai, fel y profodd y canlyniad, oeddynt yn berffaith gywir; a thrwy hyny dygodd ei wlad, y deml, a'i deulu, i ddinystr, ac efe ei hun i gaethiwed caled.

Y mae yn amlwg oddi wrth *Ier.* xxvii. a xxviii. fod y rhan gyntaf o deyrnasiad Zedeciah wedi ei hynodi gan gyffro mawr trwy holl Syria yn erbyn iau Babilon. Cymmerodd Ierusalem y blaen yn hyn; canys yr ydym yn cael yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad fod llysgenhadon o'r holl deyrnasoedd cyfagos; sef, Tyrus, Sidon, Edom, a Moab, yn ei lys, i ymgynghori

Digitized by Google

pa fesurau y dylid eu cymmeryd. Digwyddodd hyn un ai yn ystod absennoldeb y brenin, neu yn ddioed ar ol ei ddychweliad o Babilon, i'r lle yr aeth efe ar ryw neges—natur yr hon ni hysbysir; ond yr hon, fe ddichon, a fwriadwyd i ddallu llygaid Nebuchodonosor gyda golwg ar ei fwriad i wrthryfela: *Ier.* li. 59. Ymosododd Ieremiah ar y cynllun gyda'r rhybudd cryfaf o ffolineb y cyfryw gwrs—a chadarnhawyd hyny gan y ffaith nodedig fod dyn o Ierusalem, o'r enw Hananiah, yr hwn oedd wedi ei wrthwynebu gyda dadganiad, yn enw yr Arglwydd, yr adferid ysbail y deml o fewn dwy flynedd, wedi marw, yn unol â rhagfynegiad Ieremiah, o fewn dau fis ar ol ei draddodi. Ymddengys fod hyn, ac hwyrach hefyd yr ammhossiblrwydd i ffurfio un cynghrair gwirioneddol rhwng Iudah a'r gwledydd oedd o'i hamgylch, wedi rhoi attalfa ar y pryd i'r symmudiad gwrth-Fabilonaidd. Rhaid fod marwolaeth ddisymmwth Hananiah wedi cynnyrchu argraph ddofn ar ddyn o dymmher Zedeciah; a gallwn gymmeryd hwn fel yr amser yn yr hwn y mynodd efe gael gwneuthur llestri arian at wasanaeth y deml, yn lle y llestri aur a gariwyd ymaith gyda'i ragflaenor gan Nebuchodonosor.

Y weithred gyntaf o wrthryfel cyhoeddus am yr hon y mae genym unrhyw hanes, oedd ffurfiad cynghrair â'r Aipht; yr hwn oedd ynddo ei hun yn gyfystyr â dadganiad o elyniaeth yn erbyn Babilon. Mewn gwirionedd, yn ol adroddiad y Croniclau, Ezeciel (*pen.* xvii. 13), a Josephus, yr oedd yn hollol wrthwynebol i'r llŵ o ffyddlondeb a gymmerwyd yn enw yr Arlgwydd, drwy yr hwn y rhwymwyd Zedeciah gan Nebuchodonosor i gadw y deyrnas iddo ef, a pheidio myned i unrhyw gynghrair â'r Aipht: *Ezec.* xvii. 13; 2 *Cron.* xxxvi. 13; ["*Hynaf.*" Josephus, x. 7, *adr.* 1]. Fel canlyniad naturiol, parodd i'r Caldeaid wneuthur ymosodiad dioed ar Ierusalem. Nid oes un crybwylliad am y digwyddiad hwn yn y Beibl, ond yn unig yn *Ier.* xxxvii. 5—11, a xxxiv. 21, ac *Ezec.* xvii. 15—20. Y mae Josephus [x. 7, *adr.* 3] yn adrodd ei hanes yn llawer llawnach, ac yn dywedyd pa bryd y digwyddodd; sef, yn yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad Zedeciah. Y mae yn debygol hefyd fod y bygythion yn erbyn y cynghrair â'r Aipht, a gynnwysir yn *Ier.* ii. 18, 36, yn cyfeirio at yr un amser. Ymddengys fod Nebuchodonosor, gan ei fod wedi ei wneyd yn hysbys o anffyddlondeb Zedeciah, naill ai trwy ei waith yn gwrthod talu y deyrnged, neu trwy ryw ffordd arall, wedi anfon byddin ar unwaith i anrheithio Iudea; a darostyngodd yr holl wlad, oddi eithr Ierusalem, a dau le cryf yn y gwastadedd gorllewinol, sef Lachis ac Azecah, y rhai a barhasant i sefyll allan: *Ier.* xxxiv. 7. Yn y dychryn a ddilynodd ymddangosiad y Caldeaid, llwyddodd Zedeciah i ddarbwyllo y tywysogion, ac eraill o drigolion Ierusalem, i ddiddymu yr arferiad adgas a ffynai yn eu plith o gaethiwo eu cydwladwyr. Cyflawnwyd y ddefod ddifrifol yn y deml (*adn.* 18), yr hon oedd yn lled debyg o ran ffurf i'r dull y gwnaed cyfammod gwreiddiol y genedl âg Abram (*Gen.* xv. 9, &c.); a rhyddhawyd torf o Israeliaid, yn feibion ac yn ferched, o gaethiwed.

Yn y cyfamser, yr oedd Pharaoh wedi myned i gynnorthwyo ei gynghreiriaid. Pan glywsant am ei ddynesiant, cododd y Caldeaid y gwarchau, ac aethant yn mlaen i'w gyfarfod ef. Cymmerodd y pendefigion fantais ar y seibiant i ail hòni eu hawdurdod ar y brenin, ac i herio yr Arglwydd, trwy ail gaethiwo y rhai yr oeddynt mor ddiweddar wedi eu rhyddhau; ac ar hyn y mae y prophwyd yn cyhoeddi melldith ofnadwy ar y dyhirod; yr hon, o ran ffyrnigrwydd ei thôn, a rhai o'i hymadroddion, sydd yn debyg iawn i'r melldithion a gyhoeddwyd gan Elias yn erbyn Ahab: *adn.* 20. Pa mor hir y bu y Babiloniaid yn absennol o Ierusalem, ni ddywedir wrthym. Cymmerai o leiaf amryw fisoedd i symmud byddin fawr, a'i chludgelfi, drwy y wlad anhygyrch sydd yn gorwedd rhwng Ierusalem a gwastadedd y Philistiaid, ac i yru byddin yr Aiphtiaid yn llwyr allan o Syria; yr hyn, medd Josephus, a wnaethant. Yr oll yr ydym yn ei wybod yn sicr ydyw, fod y Caldeaid drachefn o flaen y muriau ar y degfed dydd o'r degfed mis o'r nawfed flwydd o deyrnasiad Zedeciah: *Ier.* lii. 4. O hyn allan aeth y gwarchau yn mlaen yn raddol, ond yn sicr, i'w orpheniad, gyda'i ganlyniadau arferol; sef, newyn a haint. Cyfryngodd Zedeciah drachefn i gadw bywyd Ieremiah rhag dialedd y tywysogion (*pen.* xxxviii. 7—13); ac yna cymmerodd yr ymddiddan le rhwng y brenin a'r prophwyd am yr hwn y crybwyllwyd yn barod; yr hyn sydd yn dangos y sefyllfa wasaidd i'r hon yr oedd hir wrthwynebiad wedi dwyn y penadur gwanfeddwl. Ymddengys, oddi wrth yr ymddiddan hwn, fod cryn lawer eisoes wedi encilio at y gwarchauwyr; yr hyn sydd yn dangos fod llawer o'i gydwladwyr o'r un farn a'r prophwyd am sefyllfa pethau. Ond collodd Zedeciah anffodus y cyfleusdra i'w gadw ei hun, a'r ddinas a roddwyd iddo gan y prophwyd, yn ei ofn y gwawdid ef hyd yn oed gan yr Iuddewon oeddynt eisoes wedi cymmeryd y cam yr oedd Ieremiah yn ei annog i'w gymmeryd: *pen.* xxxviii. 19. Yr un pryd, ni ddarfu i'w ofn o'r tywysogion, y rhai oeddynt wedi aros yn y ddinas, leihau dim; ac hyd yn oed ymostyngodd i dwyllo y prophwyd, gyda'r amcan o gelu gwir ystyr ei ymddiddan oddi wrth y bobl hyn oeddynt yn ei orthrymu: *adn.* 24—27.

Ond tra yr oedd y brenin yn petruso, yr oedd y diwedd yn prysur agoshau. Yr oedd y ddinas wedi ei darostwng i'r cyfyngderau mwyaf. Yr oedd tân y gwarchauwyr drwyddo oll wedi bod yn dra dinystriol [Josephus]; ac erbyn hyn yr oedd yno newyn tost. Yr oedd y bara wedi ei dreulio er's amser maith (*Ier.* xxxviii. 9), ac yr oedd yr holl foddion dychrynllyd wedi eu harfer y gorfodir trigolion truenus tref warchauedig i'w harfer er achub eu bywydau eu hunain. Yr oedd mamau wedi berwi, ac wedi bwyta, cnawd eu babanod: *Galar.* iv. 10. Yr oedd personau o'r safle uchaf a'r cyfoeth mwyaf i'w gweled yn chwilio y tomenydd am damaid o fwyd. Fe grwydrai y pendefigion moethus, y rhai gynt a ymffrostient yn eu harddwch, yn yr heolydd fel ysgerbydau duon—ond byw: *Galar.* iv. 5, 8. Etto, gwelwyd y brenin yn gyhoeddus yn eistedd yn y porth, lle y gweinyddid cyfiawnder, er nad oedd ganddo un cymmhorth i'w roddi iddynt: *Ier.* xxxviii. 7.

O'r diwedd, wedi i un ar bymtheg o fisoedd arswydus ymlusgo yn mlaen, daeth y trychineb. Ar y nawfed dydd o'r pedwerydd mis, o ddeutu canol mis Gorphenaf, ac ar ganol nos, fel y mae Josephus yn hysbysu i ni gyda manylrwydd mawr, y gwnaed adwy yn muriau cryfion a hybarch y ddinas. Yr oedd y lleuad, yr hon oedd yn naw niwrnod oed, wedi myned i lawr islaw

Digitized by Google

y bryniau sydd yn gorwedd o du y gorllewin i Ierusalem; neu, beth bynag, yr oedd hi yn rhy isel i oleuo y tywyllwch dudew sydd yn teyrnasu yn heolydd culion tref ddwyreiniol—lle y mae y trigolion yn myned i orphwys yn gynnar, a lle nad oes ond ychydig o ffenestri i ollwng allan hyny o oleuni fydd yn y tai. Yr oedd y gweddill truenus o'r fyddin, yn newynog ac yn lluddedig, wedi gadael y muriau, ac nid oedd yno neb i wrthwynebu dyfodiad y Caldeaid i mewn. Gan fyned iddi drwy yr adwy, hwy a aethant yn mlaen, yn ol eu harfer, i ganol y ddinas; ac am y waith gyntaf aeth byddin elynol i mewn i'r deml, ac yna holl dywysogion llys y brenin a gymmerasant eu heisteddleoedd mewn dull rhwysgfawr yn mhorth canol tŷ yr Arglwydd! Ymledodd y newydd dychrynllyd yn gyflym drwy y ddinas gysglyd, a Zedeciah, gan gasglu ei wragedd a'i blant [Josephus], a'i amgylchu ei hun âg ychydig filwyr oeddynt wedi goroesi digwyddiadau y gwarchau, a wnaeth ei ffordd allan o'r ddinas yn y pen cyferbyniol i'r hwn yr aeth yr Assyriaid iddi, drwy heol, yr hon a redai rhwng dau fur, ac a derfynai mewn porth uwch law y gerddi brenhinol, a Llyn Siloam. Oddi yno cymmerodd y ffordd tua'r Iorddonen; gan obeithio, hwyrach, cael noddfa, fel y cafodd Dafydd, mewn rhyw le yn y mynyddoedd ar ei hochr ddwyreiniol: ond ar y ffordd, cyfarfyddwyd ac adnabuwyd hwynt gan rai o'r Iuddewon, y rhai oedd yn flaenorol wedi encilio at y Caldeaid. Ganddynt hwy trosglwyddwyd y newydd, gydag awyddfryd bradwrus encilwyr, i'r cadfridogion yn y ddinas [Josephus]; ac, mor fuan ag y caniataodd gwawriad y dydd iddynt wneyd hyny, hwy a'u herlidiasant gyda'r brys mwyaf. Rhaid fod mintai y brenin wedi cychwyn rai oriau o'u blaen hwy, ac nid oedd un rhwystr ar eu ffordd i gyrhaedd yr Iorddonen; ond naill ai o herwydd eu bod ar eu traed, ac yn weiniaid a digalon, tra yr oedd eu hymlidwyr ar geffylau, neu hwyrach oddi wrth y rhwystrau a godent oddi wrth y merched a'r cludgelfi, goddiweddwyd hwynt yn agos i Iericho—pan yn ngolwg yr afon. Nid oedd ond ychydig o'r bobl yn unig yn aros o amgylch person y brenin. Yr oedd y gweddill wedi ffoi yn mhob cyfeiriad, ac felly cymmerwyd ef gyda'r hawsder mwyaf.

Yr oedd Nebuchodonosor y pryd hwnw yn Riblah, wrth ben uchaf dyffryn Libanus—rhyw 35ain o filldiroedd y tu hwnt i Baalbec, ac am hyny, o ddeutu taith deng niwrnod o Ierusalem. Anfonwyd Zedeciah a'i feibion yno; ond cadwyd ei ferched yn Ierusalem, ac yn fuan wedi hyny syrthiodd i ddwylaw Ismael yn Mispah. Pan ddygwyd ef o flaen Nebuchodonosor, ceryddodd y brenin ef yn yr iaith lymaf—yn gyntaf am dori ei lŵ o ffyddlondeb, ac yn nesaf am anniolchgarwch [Josephus]. Yna, gyda chreulondeb oedd yn nodweddu yr amseroedd creulawn hyny, gorchymynodd i'w feibion gael eu lladd o'i flaen ef, ac yn olaf i'w lygaid ef ei hun gael eu tynu allan. Yna llwythwyd ef â llyffetheiriau pres; ac mewn tymmor diweddarach, cymmerwyd ef i Babilon, lle y bu efe farw. Ni ddywedir wrthym pa un a oddefwyd iddo ohebu â'i frawd Iehoiachin, yr hwn hefyd oedd y pryd hwnw mewn caethiwed yno; ac ni wyddom pa bryd y bu efe farw; ond oddi wrth fod ei enw wedi ei adael allan o'r adroddiad am ryddhâd Iehoiachin gan Efil-Merodach, mab Nebuchodonosor, 26ain o flynyddoedd ar ol cwymp Ierusalem, gallwn gasglu iddo farw cyn hyny.

Y mae y ffaith ei fod wedi ei ddwyn o flaen Nebuchodonosor yn Riblah, ac wedi ei gario yn ddall i Babilon, yn cyssoni dau ragfynegiad o eiddo Ieremiah ac Ezeciel; y rhai, pan draddodwyd hwynt, a ymddangosent yn anghysson, a'r rhai a enwir yn neillduol gan Josephus fel y rheswm a adroddwyd gan Zedeciah dros beidio talu mwy o sylw i Ieremiah. Y blaenaf o'r rhai hyn (*Ier.* xxxii. 4) a ddywed y byddai i Zedeciah "ymddiddan â brenin Babilon enau yn ngenau," ac yr "edrychai ei lygaid ef yn ei lygaid yntau;" yn olaf (*Ezec.* xii. 13), y "dygid ef i Babilon, ac na welai efe hi," er mai "yno y byddai efe marw." Y mae yr holl ragfynegiad hwn o eiddo Ezeciel—prophwydoliaethau yr hwn, fel yr ymddengys, a draddodwyd yn Babilon (*Ezec.* i. 1—3; xl. 1)—yn dra nodedig fel y mae yn mron yn rhoddi disgrifiad cywir o amgylchiadau ffoedigaeth Zedeciah.

2. ZEDECIAH: mab Cenaanah, prophwyd yn llys Ahab; a phenaeth, neu, os nad oedd yn benaeth, efe mewn effaith oedd arweinydd y coleg. Nid ydyw yn ymddangos ond unwaith; sef, fel siaradwr pan y mae Ahab yn ymgynghori â'r prophwyd ynghylch y canlyniad o'i ryfelgyrch cynnygiedig i Ramoth Gilead: 1 *Bren.* xxii.; 2 *Cron.* xviii.

Yr oedd Zedeciah yn ymbarotoi erbyn yr ymweliad gyda phâr o gyrn haiarn, yn ol arferiad arwyddluniol y prophwydi (cymmh. *Ier.* xiii., xix.)—cyrn y *reem*, neu yr ych gwyllt (*buffalo*), y rhai oeddynt arwyddlun addefedig llwyth Ephraim: *Deut.* xxxiii. 17. Gyda'r rhai hyn, cyn dyfodiad Michaiah, efe a eglurodd y dull yn yr hwn y gyrai Ahab y Syriaid ymaith o'i flaen. Wedi i Micaiah ymddangos, a thraddodi ei brophwydoliaeth, rhuthrodd Zedeciah yn mlaen, ac a roddodd ddyrnod iddo ar ei wyneb, gan ei ganlyn â sèn wawdus. Am hyn, bygythir ef gan Micaiah mewn geiriau nad ydynt yn gwbl ddealladwy i ni yn awr, ond y rhai y mae yn amlwg oeddynt yn cyfeirio at ryw berygl personol i Zedeciah.

Nid ydyw yr adroddiad yn y Beibl yn rhoddi ar ddeall fod y dyrnod a roddwyd gan Zedeciah wedi ei gynnhyrfu gan ddim mwy na digofaint disymwth, neu ddymuniad i sarhau a darostwng prophwyd yr Arglwydd. Ond y mae Josephus yn cymmeryd golygiad pur wahanol, yr hwn a adroddir ganddo yn helaeth.—"*Hyn.*," viii. 15, *adr.* 3. Dywed fod Zedeciah, wedi i Micaiah lefaru, wedi dyfod yn mlaen drachefn, gan ei gondemnio ef fel gau-brophwyd, ar y sail fod ei brophwydoliaeth yn groes i ragfynegiad Elias, y llyfid gwaed Ahab gan gŵn yn maes Naboth o Iezreel; ac fel prawf pellach mai twyllwr ydoedd, efe a'i tarawodd ef, gan ei herio ar y pryd i wneuthur yr hyn a wnaethai Ido, mewn amgylchiadau lled debyg, i Ieroboam; sef, gwywo ei law.

Y mae y chwanegiad hwn yn nodedig, ond y mae yn cael ei adrodd gan Josephus mewn dull tra amgylchiadol; ac y mae yn ddiammheu ei fod wedi ei gael o'r ffynnonell hono, yr hon, yn anffodus, sydd erbyn hyn wedi myned ar goll, o'r hon y chwanegodd efe gynnifer o adroddiadau tarawiadol at yr hanes sanctaidd.

Gyda golwg ar y cwestiwn beth oedd Zedeciah a'i ganlynwyr—pa un ai prophwydi yr Arglwydd, ynte prophwydi rhyw gau dduw? o'r braidd y mae yn bossibl coleddu unrhyw ammheuaeth. Y mae yn wir eu bod yn defnyddio enw yr Arglwydd; ond arferai gau brophwydi

Digitized by Google

wneyd hyny (*Ier.* xxviii. 2; gwel *pen.* xxix. 21, 31); ac y mae gwahaniaeth mawr rhwng y dull damweiniol yn yr hwn y crybwyllant yr enw ofnadwy, a'r dull llawn a rhwydd yn yr hwn y mae Micaiah yn ei gyhoeddi ac yn ei adrodd drosodd lawer gwaith. Wrth ystyried hefyd mai addolwyr proffesedig Baal ac Astaroth oedd Ahab a'r frenhines, a bod ganddynt, ychydig o flynyddoedd cyn y digwyddiad hwn, sefydliad yn gynnwysedig o ddau gorph—un o 450, y llall o 400—o brophwydi y gau addoliad hwn, y mae yn anhawdd tybied y gallai fod hefyd 400 o brophwydi yr Arglwydd yn ei lys. Ond ymddengys fod gofyniad brenin Iudah yn penderfynu y pwngc. Ar ol clywed rhagfynegiad Zedeciah a'i gymdeithion, y mae efe ar unwaith yn gofyn am un o brophwydi yr Arglwydd: "Onid oes yma un prophwyd i'r Arglwydd etto mwyach, fel yr ymgynghorem âg ef?" 2 *Cron.* xviii. 6. Y casgliad naturiol yw, mai nid prophwydi yr Arglwydd oedd y lleill, ond mai hwy oeddynt y 400 o brophwydi Astaroth a ddiangasant rhag cleddyf Elias: gwel 1 *Bren.* xviii. 19, a 22, 40. Yr oeddynt wedi llefaru yn ei enw ef, ond yr oedd rhywbeth o'u hamgylch—rhywbeth yn eu dull, eu gwisg, neu eu hagwedd—oedd yn cynnyrchu drwgdybiaeth Iehosaphat; a chan ei fod yn byw yn nghanol addoliad yr Arglwydd, ac yn deall arwyddion gwir brophwyd yn dda, efe a gyhoeddodd mai gau brophwydi oeddynt.

3. ZEDECIAH: mab i Maaseiah, gau brophwyd yn Babilon yn mhlith y gaethglud a gymmerwyd gydag Iechoniah: *Ier.* xxix. 21, 22. Condemniwyd ef gan Ieremiah am iddo, gydag Ahab mab Colaiah, galonogi y bobl â gau obeithion, ac am ei ymddygiad halogedig ac anfad. Yr oedd eu henwau i fod yn ddiareb, a'u tynged ddychrynllyd yn rhybudd i eraill rhag ymddwyn yn gyffelyb. Am y dynged hon, nid oes genym un hysbysrwydd uniongyrchol, nac am y dull yn yr hwn y dygasant hi arnynt eu hunain. Nid ydyw y prophwyd ond yn unig yn cyhoeddi y syrthient i ddwylaw Nebuchodonosor, ac y llosgid hwynt i farwolaeth. Yn "*Nhargum R. Joseph*" ar 2 *Cron.* xxxviii. 3, fe adroddir yr hanes fod Iosuah mab Iosedec yr archoffeiriad wedi ei fwrw i ffwrnes o dân gydag Ahab a Zedeciah; ond tra y difäwyd hwynt, yr achubwyd ef er mwyn ei gyfiawnder.

4. ZEDECIAH: mab Hananiah: un o dywysogion Iudah, y rhai a ymgynnullasant yn ystafell ysgrifenyddion palas y brenin, pan y cyhoeddodd Micaiah fod Baruch wedi darllen geiriau Ieremiah yn nghlustiau y bobl o ystafell Gemariah yr ysgrifenydd: *Ier.* xxxvi. 12.

ZEDEUR: tad Elisur, o lwyth Reuben: *Num.* i. 5.

ZEEB: un o ddau dywysog Midian yn yr ymosodiad mawr ar Israel—israddol i'r brenhinoedd Zebah a Salmunnah. Enwir ef bob amser gydag Oreb: *Barn.* vii. 25; viii. 3; *Salm* lxxxiii. 11. Y mae yr enw yn yr Hebraeg yn arwyddo 'blaidd,' yn union fel y mae Oreb yn arwyddo 'brân;' ac mae y ddau yn eithaf priodol i arferion y rhyfelwyr ysbeilgar fyddant yn ymhyfrydu mewn rhoddi y cyfryw enwau ar eu penaethiaid.

Ni chafodd Zeeb ac Oreb eu lladd yn ngorchfygiad cyntaf yr Arabiaid is law ffynnon Harod; ond mewn rhan ddiweddarach o'r ymdrechfa, wrth groesi yr Iorddonen, y mae yn debygol, mewn rhyd yn mhellach i lawr yr afon, yn agos i'r bylchau, y rhai sydd yn disgyn o Fynydd Ephraim. Trengodd nifer mawr o'u canlynwyr hefyd gyda hwynt.

ZEISBERGER, DAVID: cenhadwr Morafiaidd yn mysg Indiaid Gogledd America. Ganwyd ef yn Moravia, yn Germany, yn 1721; o ba le yr ymfudodd ei rieni i Herrnhut, yn Lusatia Uchaf, er gallu mwynhau rhyddid crefyddol. Yn 1738, efe a aeth i Georgia, lle yr oedd rhai o'i frodyr wedi ymsefydlu, fel y gallent bregethu yr efengyl i'r Groegiaid. Oddi yno efe a symmudodd i Pennsylvania, a chynnorthwyodd i gychwyn sefydliadau Bethlehem a Nazareth. O 1746, bu am drigain a dwy o flynyddoedd yn genhadwr yn mhlith yr Indiaid: ac y mae'n debyg na ddarfu i un dyn erioed bregethu yr efengyl am dymmor mor faith yn eu plith, ac yn nghanol cymmaint o drallodion, caledi, a phrofedigaethau. Bu farw yn Gosen, ar yr afon Muskingum, yn Ohio, ar yr 17eg o Dachwedd, 1808, yn 87ain mlwydd oed.

Dyn bychan o gorpholaeth ydoedd, o ymddangosiad siriol, o feddwl treiddgar, ac o ysbryd penderfynol. Yn nghanol ei holl galedi a'i beryglon, ni chlywyd ef erioed yn cwyno; ac ni ddarfu iddo erioed edifarhau o herwydd iddo ymgyssegru fel y gwnaeth i wasanaeth y Gwaredwr. Ni chydsyniodd erioed i dderbyn cyflog am ei lafur! Ond ymddiriedai yn yr Arglwydd am angenrheidiau bywyd, ac edrychai i'r byd a ddaw am ei wobr! Anfynych y gwelwyd dyn erioed mor rydd oddi wrth hunangarwch, ac mor lawn o gariad at Dduw a dyn; ac nid yn aml y gwelwyd cymmeriad mor berffaith yn rhodio y ddaear.

O ddeutu y flwyddyn 1768, ysgrifenodd ddau rammadeg o'r iaith Onondagaidd—un yn yr iaith Saesnig, a'r llall yn y Germanaeg, ynghyd â geiriadur Germanaidd ac Indiaidd, yn cynnwys dros ddau cant ar bymtheg o dudalenau. Cyhoeddodd lyfr hymnau hefyd, yn cynnwys uwch law pum cant o hymnau, wedi eu cyfieithu mewn rhan o'r Germanaeg, ac mewn rhan o'r Saesneg. Cyhoeddodd hefyd amryw o lyfrau a phregethau i blant.

ZELAH: un o'r dinasoedd yn rhandir Beniamin: *Ios.* xviii. 28. Ei lle yn y rhestr ydyw rhwng Taralah ac Eleph. Modd bynag, nid oes yr un o'r lleoedd hyn etto wedi eu darganfod. Yr unig beth sydd yn gwneyd Zelah yn ddyddorol yw y ffaith ei bod yn cynnwys beddrod Cis, tad Saul (2 *Sam.* xxi. 14), yn yr hwn y claddwyd esgyrn Saul ac Ionathan; ac hefyd, fel yr ymddengys, dau fab a phump ŵyr Saul, ac aberthwyd i'r Arglwydd ar fryn Gibeah: 2 *Sam.* xxi. 13. Gan ei bod yn cynnwys eu beddrod, Zelah, yn ol pob tebygolrwydd, oedd lle genedigol teulu Cis; ac am hyny ei gartref, a chartref Saul cyn i'w ddewisiad fel brenin ei ddwyn i enwogrwydd. Ymddengys fod hyn wedi cael ei esgeuluso yn gyffredinol; ond y mae yn bwysig, o herwydd ei fod yn rhoddi cychwynfa wahanol i'r un a roddir yn gyffredin i daith Saul i chwilio am asynod ei dad, yn gystal a chychwynfa i'w ddychweliad ar ol ei eneinio; ac er nad ydym yn gwybod am sefyllfa Zelah (ac na cheir byth, hwyrach, wybod am ei sefyllfa), etto, y mae cael gwybod mai nid Gibeah—lle yr oedd preswylfod brenhinol Saul wedi iddo ddyfod yn frenin—o angenrheidrwydd oedd y lle y cychwynodd nac

Digitized by Google

y dychwelodd efe o hono, yn gam nes at benderfynu anhawsderau dyrys y daith hono.

ZELOTES: yr enw a roddir i'r dysgybl Simon, i'w wahaniaethu ef oddi wrth Simon Pedr: *Luc.* vi. 15. Yn *Mat.* x. 4, gelwir ef yn "Simon y Canaanead:" llygriad ydyw yr enw olaf o'r ffurf Aramaidd, o'r hwn y mae y gair Groeg *Zelotes* yn gyfystyr. Gwel CANAANEAID, SIMON 5.

ZELZAH: lle nad ydyw yn cael ei enwi ond unwaith (1 *Sam.* x. 2), fel ar derfyn Beniamin, yn agos i fedd Rahel. Hwn ydoedd y pwynt cyntaf yn nhaith Saul wedi iddo gael ei eneinio gan Samuel. Dangosir bedd Rahel etto ychydig bellder i'r gogledd i Bethlehem; ond nid ydym hyd yma wedi cael un sicrwydd ynghylch y man lle y safai Zelzah.

ZEMIRAH: un o feibion Becher mab Beniamin: 1 *Cron.* vii. 8.

ZENAN: un o'r trefydd oedd yn gorwedd yn rhandir Iudah, ac yn gorwedd yn nosbarth Shefêlah: *Ios.* xv. 37.

ZENAS: credadyn, ac fel y gellir casglu oddi wrth y cyd-destyn, pregethwr yr efengyl, yr hwn a grybwyllir yn *Tit.* iii. 13, mewn cyssylltiad cyfagos âg Apolos, ac sydd yno yn cael ei gyflwyno gydag ef gan Paul i ofal a llettygarwch Titus, a'r brodyr yn Creta. Disgrifir ef yn mhellach fel 'cyfreithiwr.' Y mae yn ammhossibl penderfynu gyda sicrwydd oddi wrth yr ymadrodd hwn pa un ai cyfreithiwr Rhufeinaidd, ynte cyfreithiwr Iuddewig, ydoedd Zenas. Y mae Grotius yn derbyn y dybiaeth flaenaf, ac yn meddwl mai Groegwr ydoedd, wedi astudio cyfraith Rhufain. Y mae y modd y defnyddir y gair νομικος yn y Testament Newydd yn ein harwain yn hytrach i'r casgliad arall.

ZENES: gwraig Haman yr Agagiad [*Esth.* v. 10, 14, a vi. 13], yr hon a'i cynghorodd ef i barotoi y crogbren i Mordecai; ond rhagfynegodd ddinystr ei gŵr mor fuan ag y cafodd wybod mai Iuddew oedd Mordecai.

ZENO: sylfaenydd sect y Stoiciaid. Ganwyd ef o ddeutu y flwyddyn 362 C.C., yn Citium, yn ynys Cyprus, a gadawodd fasnach gan fwriadu bod yn athronydd. Wedi iddo dderbyn gwersi gan Crates, Stilpo, Xenocrates, a Polemo, efe a agorodd ysgol ei hun i ddysgu athroniaeth yn y Stoa, neu y porth—oddi wrth yr hyn y derbyniodd ei ganlynwyr yr enw *Stoiciaid.* Yr oedd ei onestrwydd a'i gywirdeb mor fawr fel y darfu i'r Atheniaid ymddiried iddo agoriadau yr amddiffynfa, a'i anrhydeddu â choron o aur, a chofadail o bres. Dilynodd ei swydd fel dysgawdwr am 58ain mlynedd, a bu fyw i'r oedran o 98ain—ac yna ymgrogodd yn y flwyddyn 264 C.C.

ZENOBIA: brenhines Palmyra. Un o'r merched enwocaf a fu erioed yn gwisgo coron. Addysgwyd hi gan yr enwog Longinus, a gallai siarad yr ieithoedd Lladin, Groeg, a Syriaeg, gyda hyawdledd. Priodwyd hi âg Odenatus, brenin Palmyra—yn llafur milwraidd a llywodraethol yr hwn yr oedd hi wedi bod yn gyfranog. Ac ar ol ei farwolaeth ef, cymmerodd hi y benaduriaeth. Ond ar esgyniad Aurelian, aeth y tywysog rhyfelgar hwnw gyda byddin gref yn ei herbyn, a gwarchauodd Palmyra, yr hon a amddiffynodd hi hyd yr eithaf. Ond wrth geisio diangc, cymmerwyd hi, a dygwyd hi i Rufain i anrhydeddu ei fuddugoliaeth; a bu farw yno mewn neillduedd tua B.A. 300.

ZEPHI: 1 *Cron.* i. 36. Gwel ZEPHO.

ZEPHO: mab Eliphaz, mab Esau (*Gen.* xxxvi. 11), ac un o dduciaid Edom: *Gen.* xxxvi. 15. Yn 1 *Cron.* i. 36, gelwir ef Zephi.

ZEPHON: mab Gad (*Num.* xxvi. 15); hynafiad teulu y Zephoniaid.

ZEPHONIAID, Y: cangen o lwyth Gad, wedi hanu o Zephon, neu Ziphion: *Num.* xxvi. 15.

ZER: un o'r trefydd caerog yn rhandir Naphtali: *Ios.* xix. 35. Gellir casglu oddi wrth yr enwau sydd yn ei dilyn yn y rhestr ei bod yn nghymmydogaeth ochr de-orllewinol Llyn Gennesaret.

1. ZERAHIAH: offeiriad, mab Uzzi, yr archoffeiriad, ac un o hynafiaid Ezra yr ysgrifenydd: 1 *Cron.* vi. 6, 51; *Ezra* vii. 4.

2. ZERAHIAH: tad Elihoenai o feibion Pahath-moab: *Ezra* viii. 4.

1. ZERAH: mab Reuel, mab Esau (*Gen.* xxxvi. 13; 1 *Cron.* i. 37), ac un o dduciaid yr Edomiaid: *Gen.* xxxvi. 17. Hwyrach fod Iobab o Bosrah, un o frenhinoedd boreuol Edom, yn perthyn i'w deulu: *Gen.* xxxvi. 33.

2. ZERAH: yn llai priodol Zarah. Mab gefell, gyda'i frawd hynaf Phares, o Iudah a Tamar: *Gen.* xxxviii. 30; 1 *Cron.* ii. 6; *Mat.* i. 3. Galwyd ei hiliogaeth yn Zerahiaid, Ezrahiaid, ac Izrahiaid (*Num.* xxvi. 20; 1 *Bren.* iv. 31; 1 *Cron.* xxvii. 8, 11); a pharhasant, o leiaf, i lawr at amser Zorobabel: 1 *Cron.* ix. 6; *Neh.* xi. 24. Ni adroddir dim yn bersonol am Zerah, heb law amgylchiadau neillduol ei enedigaeth: *Gen.* xxxviii. 27—30.

3. ZERAH: mab Simeon (1 *Cron.* iv. 24): a gelwir ef Zohar yn *Gen.* xlvi. 10.

4. ZERAH: Lefiad Gersonaidd, mab Ido neu Adaiah: 1 *Cron.* vi. 21, 41.

5. ZERAH: yr Ethiopiad neu y Cusiad, yr hwn a ymosododd ar Iudah, ac a orchfygwyd gan Asa. Ymddengys fod y rhyfel rhwng Asa a Zerah wedi digwydd yn fuan ar ol y ddegfed, ac ychydig cyn y bymthegfed, flwyddyn o deyrnasiad Asa—yn ddiweddar, y mae yn debygol, yn y bedwaredd-ar-ddeg, fel y cawn weled wrth chwilio yr adroddiad. Gan hyny, digwyddodd yn y bedwaredd ar ddeg o deyrnasiad Usarcen II., pedwerydd brenin o'r eilfed teyrnach ar hugain, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu o ddeutu yr un amser a brenin Iudah.

Ni aflonyddwyd ar y deng mlynedd cyntaf o deyrnasiad Asa gan unrhyw ryfel. Yna ymgynghorodd Asa â'i ddeiliaid, ac a adeiladodd ddinasoedd cedyrn yn Iudah, gan eu "hamgylchu hwynt â muriau, a thyrau, a drysau, ac â barau." Hefyd, cadwodd fyddin o 580,000 o wŷr; 300,000 o waywffyn Iudah, a 280,000 o Beniaminiaid yn dwyn tarianau, ac yn tynu bŵa; "y rhai hyn oll oedd wŷr grymus." Y mae yn debygol mai dyma oedd ei holl nifer o ddynion

Digitized by Google

galluog i ddwyn arfau: 2 *Cron.* xiv. 1—8. O'r diwedd, yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Asa, y mae yn debygol, digwyddodd y trychineb a ddisgwyliwyd. Ymosododd Zerah yr Ethiopiad, gyda byddin alluog o filiwn o wŷr, Cusiaid a Lubiaid, gyda thri chant o gerbydau, ar y deyrnas; ac efe a aeth yn mlaen yn ddiwrthwynebiad yn y maes mor bell a Maresah. Gan fod yr ymosodwyr ar ol hyny wedi encilio ar hyd ffordd Gerar, a bod Maresah yn gorwedd ar du y gorllewin i wlad fryniog Iudah, lle y mae yn ymgodi allan o wastadedd y Philistiaid, ar linell y daith o'r Aipht i Ierusalem, nid oes un ammheuaeth nad o Ierusalem y daethant. Rhwng y terfyn ar ochr Gerar a Maresah, nid oedd un dref bwysig yn gorwedd, ond Gath. Cadarnhawyd Gath a Maresah âg amddiffynfeydd gan Rehoboam cyn ymosodiad Sisac, brenin yr Aipht (2 *Cron.* xi. 8); ac y mae yn ddiammheuol eu bod wedi eu cymmeryd, ac y mae yn debygol wedi eu dinystrio, gan y brenin hwnw (gwel 2 *Cron.* xii. 4)—rhestr yr hwn o'r trefydd a orchfygasid ganddo, &c., a ddengys nid yn unig ei fod wedi cymmeryd rhai trefydd cryfion, ond ei fod wedi llwyr ddarostwng y wlad. Buasai oediad cwymp Gath, lle y dichon fod y Philistiaid rhyfelgar wedi dangos gwrthwynebiad cyndyn, yn symmud yr unig rwystr ar y ffordd i Maresah, a thrwy hyny sierhau yr enciliad a wnaed wedi hyny ar hyd y ffordd hono. O Maresah, neu ei chymmydogaeth, yr oedd ffordd i Ierusalem, heb unrhyw anhawsderau ond anhawsderau gwlad fryniog; canys nid oedd un dref bwysig yn gorwedd rhwng y brifddinas a'r orsaf bellenig hono o eiddo llwyth Iudah. Yr oedd y fyddin elynol wedi heidio dros y terfyn, ac wedi dyfetha meusydd y Philistiaid cyn y gallasai Asa fyned i'w chyfarfod. Nid oedd y pellder o Gerar, neu o derfyn de-orllewinol Palestina, i Maresah, yn llawer mwy nag o Maresah i Ierusalem. Wrth ystyried natur y dosbarthiadau, buasai yn cymmeryd o ddeutu yr un amser i'w deithio; ac nis gallasai dim ond y cyfryw oediad ag a achosid gan warchau Gath a Maresah alluogi Asa i frysiog gasglu byddin ynghyd, a myned i gynnorthwyo y dref warchaeedig, neu gadw y bylchau. Ymgyfarfyddodd y ddwy fyddin yn Nyffryn Zephathah yn Maresa. Nis gallwn benderfynu maes y frwydr yn fanwl. Yr oedd Maresah, yn ol yr *Onomasticon*, yn gorwedd o fewn dwy filldir i Eleutheropolis; ac y mae Dr. Robinson yn rhesymol yn tybied fod ei sefyllfa yn cael ei nodi gan glawdd celfyddydol nodedig, milldir a hanner i'r deheu o sefyllfa y dref olaf. O'r braidd y byddai ei ystyr, 'yr hyn sydd wrth y pen,' yn gyfaddas i sefyllfa wrth ymagoriad dyffryn. Ond ymddengys fod dyffryn cul yn terfynu, ac un llydan yn dechreu, yn y safle dybiedig. Tybia Dr. Robinson mai Dyffryn Zephathah, sef 'tŵr gwyliadwriaeth,' ydyw yr olaf—glyn llydan, yn disgyn o Eleutheropolis mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol tua Tel-es-Sâfieh; a barna fod yr enw olaf yn cynnwys olion yr hen. Nid oes un math o gyssylltiad rhwng y ddau, ac y mae tybiaeth Robinson yn dra annhebygol o fod yn gywir. Os gwir ydyw mai yr un lle ydynt, rhaid i ni dybied fod Zerah wedi encilio o flaen Maresah tua'r gwastadedd, fel y gallasai ddefnyddio ei gerbydau a'i wŷr meirch yn effeithiol, yn lle iddynt gael eu dyrysu yn y dyffrynoedd culion sydd yn arwain tuag at Ierusalem. Oddi wrth weddi Asa, ni a allwn farnu ddarfod iddo, pan y daeth efe i ymyl y fyddin ymosodol, weled ei nerth mawr a'i lliosogrwydd, fel y gorweddai yn wasgaredig yn y dyffryn oedd oddi tano. Rhydd y cofadeiladau Aiphtaidd help i ni ddeall trefniad byddin Zerah. Yr oedd y cerbydau yn ffurfio y corphlu cyntaf mewn llinell sengl neu ddwbl; o'r tu ol iddynt, yn llengoedd mawrion, yr oedd y milwyr trwm-arfog; ar yr ystlysau, y mae yn debygol, y safai y saethyddion a gwŷr meirch ysgafnach. Mae'n rhaid fod Asa, gan ei fod yn teithio i lawr y dyffryn, wedi ymosod yn llu mawr; canys nis gall neb ond milwyr wedi eu dysgyblu yn dda ymffurfio yn llinell yn wyneb gelyn. Gwŷr y gwaewffyn o Iudah a fuasent yn cyfansoddi y golofn hon. Buasai pob ochr i'r dyffryn yn cael ei feddiannu gan saethyddion Beniamin, fel y rhai hyny a ddaethant at Dafydd—"cynnorthwywyr y rhyfel, yn arfogion â bwäau, yn medru, o ddeheu ac o aswy, daflu â cheryg, a saethu mewn bwäau;" 1 *Cron.* xii. 1, 2. Y mae yn ddiammheu fod yr Ethiopiad, yn hyderus yn ei nerth, yn ysgornio ymosod ar yr Hebreaid na chlirio y bryniau; ond disgwyliodd yn y dyffryn llydan, neu y gwastadedd. Y mae gweddi Asa o flaen y frwydr yn llawn o ffydd gref oes y Barnwyr: "O Arglwydd! nid yw ddim i ti gynnorthwyo, pa un bynag ai gyda llawer ai gyda'r rhai nid oes ganddynt gryfdwr: cynnorthwya di ni, O Arglwydd ein Duw! canys pwyso'r ydym ni arnat ti, ac yn dy enw di y daethom yn erbyn y dorf hon: O Arglwydd! ein Duw ni ydwyt ti, na orfydded dyn i'th erbyn." Oddi wrth yr hanes am fuddugoliaeth Abïah ar Ieroboam, gallwn dybied fod yr offeiriaid yn lleisio eu hudgyrn, a bod gwŷr Iudah yn disgyn gyda bloedd: 2 *Cron.* xiii. 14, 15. Y bryniau a'r mynyddoedd oedd hoff wersyllfaoedd yr Hebreaid, y rhai yn gyffredin a ruthrent i lawr ar eu gelynion lliosocach a mwy medrus yn y gwastadeddau a'r dyffrynoedd. Pe buasai y fyddin wedi ei threfnu yn bwyllog i'r frwydr, buasai yr ymladd yn dechreu yn gynnar yn y boreu, yn ol arfer cyffredin yr amserau hyn, gan na byddid yn gwneyd ymosodiadau annisgwyliadwy yn y nos, fel pan hëriodd Goliath yr Israeliaid (1 *Sam.* xvii. 20—23); ac fel y gallwn farnu oddi wrth yr ymlidiau meithion yn y tymmor hwn, buasai yr haul yn llygaid byddin Zerah, a thrwy hyny buasai ei saethyddion yn ddilês. Rhaid fod y cerbydau, gan eu bod wedi eu tori gan yr ymosodiad, a'r meirch wedi eu gwneuthur yn aflywodraethus gan saethiad y bwäau, wedi eu gyru yn ol ar y llu mawr oedd o'r tu ol. "Felly yr Arglwydd a darawodd yr Ethiopiaid o flaen Asa, ac o flaen Iudah; a'r Ethiopiaid a ffoisant. Ac Asa, a'r bobl oedd gydag ef, a'u herlidiasant hwy hyd Gerar: a syrthiodd yr Ethiopiaid fel na allent ymadgryfhau."

Ymddengys fod y frawddeg olaf hon yn cyfeirio at ddymchweliad anfeddyginiaethol ar y dechreu; ac, yn wir, pe na buasai felly, ni buasai yr ymlidiad, yn ol pob tebygolrwydd, yn cael ei gario dros y terfyn. Mor llwyr oedd y dymchweliad, fel y gallodd yr Hebreaid gymmeryd ac ysbeilio y dinasoedd o amgylch Gerar, yr hon oedd mewn cynghrair â Zerah. O'r dinasoedd hyn cymmerasant "anrhaith fawr iawn," a "lluestai'r anifeiliaid hefyd a darawsant hwy, ac a gaethgludasant lawer o ddefaid a chamelod;" 2 *Cron.* xiv. 9—15. Ymddengys fod mwy wedi eu cymmeryd oddi ar yr Arabiaid

Digitized by Google

nag oddi ar fyddin Zerah: ac y mae yn debygol fod y fyddin yn gynnwysedig o ganolgorph o filwyr rheolaidd, a bod o'u hamgylch lu mawr o filwyr teyrngedol, y rhai a ymwasgarasant yn mhob cyfeiriad, gan adael y wlad yn agored i anrheithwyr. Ar ei ddychweliad i Ierusalem, cyfarfyddwyd âg Asa gan Azariah, yr hwn a'i cynghorodd ef a'r bobl i fod yn ffyddlawn i Dduw. Gan hyny, gwnaeth Asa ail ddiwygiad, a chasglodd ei ddeiliaid yn Ierusalem yn y trydydd mis o'r bymthegfed flwyddyn o'i deyrnasiad, a gwnaeth gyfammod, ac aberthodd o'r anrhaith "saith gant o eidionau, a saith mil o ddefaid;" 2 *Cron.* x. 1—15. Oddi wrth hyn, ymddengys fod y frwydr wedi ei hymladd yn y gauaf blaenorol. Tynodd llwyddiant Asa, a'r fendith amlwg oedd yn ei ddilyn ef, ato yr Ephraimiaid, y Manassiaid, a'r Simeoniaid.

Yr oedd ei dad yn barod wedi cymmeryd dinasoedd yn nhiriogaeth Israel (2 *Cron.* xiii. 19), ac yr oedd yn meddiannu dinasoedd yn Mynydd Ephraim (2 *Cron.* xv. 8), ac yr oedd efe y pryd hwnw mewn heddwch âg Israel. Yr oedd yn naturiol i Simeon, yr hwn a fyddai bob amser at drugaredd pob brenin galluog fyddai yn teyrnasu yn Iudah, droi ato ef. Ni bu Dafydd erioed yn gryfach ar ol enciliad y deg llwyth; ond yn fuan syrthiodd y brenin i'r cyfeiliornad drygionus, a gyflawnid mor fynych, o alw y paganiaid i'w gynnorthwyo yn erbyn yr Israeliaid; ac efe a gyflogodd Benhadad, brenin Syria, i anrheithio eu dinasoedd, pan y galwodd Hanani y prophwyd ar gof iddo y fuddugoliaeth fawr yr oedd efe wedi ei hennill pan yr oedd efe yn ymddiried yn yr Arglwydd: 2 *Cron.* xvi. 1—9. Poenwyd blynyddoedd canlynol Asa gan ryfeloedd (*adn.* 9); ond rhyfeloedd gyda Baasa oeddynt: 1 *Bren.* xv. 16, 32. Yr oedd Zerah a'i bobl wedi eu llethu yn rhy lwyr i ymosod arno ef drachefn.

Coleddir gwahanol syniadau ar y cwestiwn pwy oedd Zerah. Tybiwyd mai Cusiad o Arabia ydoedd, neu Cusiad o Ethiopia uwch law yr Aipht. Ond yn ddiweddar, tybiwyd mai enw Hebraeg Usarcen I., ail frenin yr eilfed deyrnach Aiphtaidd ar hugain oedd Zerah; neu hwyrach, yn fwy tebygol Usarcen II., ei ail olynydd. Y mae y cwestiwn yn fwy eang nag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Rhaid i ni chwilio ai nid byddin brenin Aiphtaidd oedd byddin Zerah; ac os bydd yr attebiad yn gadarnhaol, pa un ai gan Usarcen I., ynte yr II., yr arweiniwyd hi.

Yr oedd rhyfel Sisac wedi darostwng congl Arabia oedd yn gwahanu yr Aipht oddi wrth Palestina. Y mae yn debygol fod Sisac yn analluog i ymosod ar yr Assyriaid, a'i fod wedi gwneuthur ymdrech, trwy ddiogelu y darn tir hwn, i warchod y ffordd i'r Aipht. Os byddin Aiphtaidd oedd yr eiddo Zerah, rhoddai hyny gyfrif am ei chyssylltiad â phobl Gerar a llwythau bugeiliol y gymmydogaeth; ac eglurid adfeiliad disymmwth gallu yr Aipht ar ol teyrnasiad yr Aipht gan ddymchweliad byddin yr Aipht yn ddiweddarach o tua deng mlynedd ar hugain.

Yr oedd cyfansoddiad byddin Zerah, o Ethiopiaid a Lubiaid (2 *Cron.* xvi. 8), yn debyg iawn i gyfansoddiad byddin Sisac, o Lubiaid, Succiaid, ac Ethiopiaid (2 *Cron.* xii. 3). Yr oedd gan y ddwy fyddin hefyd gerbydau a gwŷr meirch: 2 *Cron.* xvi. 8; xii. 3. Dichon yr Ethiopiaid fod yn Ethiopiaid Asiaidd; ond nis gall y Lubiaid fod yn ddim ond Affricaniaid. Gan hyny, rhaid mai byddin brenin yr Aipht, neu Ethiopia uwch law yr Aipht, ydoedd. Symmudir yr ansicrwydd gan y ffaith fod brenhinoedd yr eilfed teyrnach ar hugain yn defnyddio cyflog-filwyr o fysg y Mashuwashaid, llwyth Libiaidd; yr hwn, fel yr ymddengys, oedd yn cyflenwi y rhan bwysicaf o'u gallu cyflogedig. Yn mhellach, yr oedd y fyddin, fel yr oedd yn gynnwysedig mewn rhan, os nad yn hollol, o allu cyflogedig, a chyda cherbydau a gwŷr meirch, yn hollol, oddi eithr yn ei gwŷr meirch, yr hyn a fuasai byddin Aiphtaidd yr ymherodraeth. Gan hyny, nis gall fod ond ychydig o ammheuaeth nad byddin brenin yr Aipht ydoedd.

Gyda golwg ar y cwestiwn, ai yr un ydoedd Zerah ag Usarcen, nis gallwn atteb mor benderfynol. Dylid cymmharu y ffaith ei fod yn cael ei alw yn Cusiad â digwyddiad yr enw Namuret, Nimrod, yn llinell yr Usarceniaid; ond ymddengys fod y llinell hono o Ethiopiaid yn ddwyreiniol, yn hytrach nag yn orllewinol. Tybiwyd mai yr enw Usarcen ydyw Surgon [gwel SISAC]; ac os felly, y mae yn annhebygol, ond nid yn ammhossibl, fod enw Hebraeg neu Semaidd arall wedi ei fabwysiadu i osod allan y ffurf Aiphtaidd. Ar y llaw arall, yr oedd brenhinoedd yr eilfed teyrnach ar hugain o deulu rhyfelgar, a byddai eu meibion yn barhaus yn llenwi swyddau milwraidd uchel. Nid ydyw yn debygol yr ymddiriedid byddin bwysig i neb ond brenin neu dywysog. Yn ol un cyfrif, gallai Zerah fod yn Usarcen II., ac yn ol cyfrif arall yn Usarcen I.; ac felly, nid ydyw Usarcen mor bell oddi wrth Zerah ag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf.

Y mae gorchfygiad byddin yr Aipht gan Asa heb ei chyffelyb yn hanes yr Iuddewon. Ni ddarfu i fyddin yr Israeliaid ar unrhyw achlysur arall gyfarfod byddin un o'r galluoedd mawrion, a'i gorchfygu. Ni wrthwynebwyd Sisac, ni chyfarfyddwyd Senacherib ar y maes; ond cyfarfyddwyd Necho, a gorchfygwyd byddin Iosiah; ni chafodd fuddugoliaeth Nebuchodonosor, fel yr eiddo Sisac, ond yn unig ei hoedi gan amddiffynfeydd. Fel hyn y mae gorchfygiad Zerah yn enghraifft ar ei phen ei hun—yn codi yn fwy o nerth ffydd nag o wroldeb yr Hebreaid, ac yn dangos mai yr un oedd Duw Israel etto ag oedd pan yn arwain ei bobl drwy y Môr Coch, a'i fod hefyd yn barod i roddi yr un cymmhorth iddynt. Yn wir, nid oes genym un adroddiad sicr mai gwyrth ydoedd gorchfygiad Zerah: ond y mae genym ddigon o brawf fod Duw yn rhaglunaethol wedi galluogi yr Hebreaid i orchfygu byddin annhraethol fwy o ran nifer, cryfach o ran arfau rhyfel, yn meddu gwŷr meirch a cherbydau rhyfel, ac yn rhagori llawer o ran medrusrwydd milwraidd arnynt hwy.

ZEREDAH: lle genedigol Ieroboam, arweinydd gwrthryfel y llwythau gogleddol, a brenin cyntaf teyrnas Israel. Nid ydyw y gair yn digwydd ond yn unig yn 1 *Bren.* xi. 26. Hi ydoedd un o amddiffynfeydd cadarnaf Ephraim: a dyma y dref gaerog a wnaed gan Ieroboam i Solomon yn Mynydd Ephraim. Yno yr aeth efe ar ei ddychweliad o'r Aipht; yno y cynnullodd lwyth Ephraim; ac yno yr adeiladodd efe amddiffynfa. Gyda golwg ar ei sefyllfa, ni ddywedir ddim, ond ei bod yn "mynydd Ephraim:" ond ymddengys oddi wrth natur yr achos y rhaid ei bod yn ganolbarthol. Yn ol y Deg a Thrigain, hi oedd preswylfod Ieroboam pan fu farw ei blentyn. A'r un oedd hi, fe allai, a Zeredathah.

Digitized by Google

ZEREDATHAH: lle nad ydyw yn cael ei enwi ond yn unig yn 2 *Cron.* iv. 17, wrth nodi sefyllfa tawdd-dai gweithydd pres teml Solomon. Yn yr adnod gyfochrog yn 1 *Bren.* vii. 46, y mae yn cael ei enwi yn lle Zeredathah, gan fod y gweddill o'r adnod yn llythyrenol yr un fath. Ond pa un ai amrywiad damweiniol yn unig o'r naill enw ydyw y llall, ai ynte a oes cyssylltiad, fel y mae lle i gredu fod, rhwng Zeredah, Zeredathah, Zererath, a Zarthan, ni ellir penderfynu.

ZERETH: mab Assur, sylfaenydd Tecoa, o'i wraig Helah: 1 *Cron.* iv. 7.

ZERFAH: mam Ieroboam, mab Nebat: 1 *Bren.* xi. 26.

ZERERATH: lle nad ydyw yn cael ei enwi ond yn unig yn *Barn.* vii. 22, wrth ddisgrifio ffoedigaeth y Midianiaid o flaen Gedeon. Credir mai yr un lle ydyw Zererath a Zeredathah. Ymddengys fod y ddau le yn nyffryn yr Iorddonen; a chyda golwg ar y gwahaniaeth yn yr enwau, nid ydyw eu terfyniad o un pwys. Drachefn, ymddengys fod Zeredathah yn gyfystyr â Zarthan.

ZERI: un o feibion Ieduthun yn nheyrnasiad Dafydd: 1 *Cron.* xxv. 3. Yn *adn.* 11, gelwir ef yn Isri.

ZEROR: Beniaminiad, hynafiad Cis, tad Saul: 1 *Sam.* ix. 1.

ZERUSADAI: tad Serumiel, penaeth llwyth Simeon yn amser y mynediad allan o'r Aipht: *Num.* i. 6; ii. 12; vii. 36, 41; x. 19.

ZETHAR: un o saith eunuch Ahasferus, y rhai a weinyddent ar y brenin, ac a orchymynwyd i ddwyn Hasti i'w bresennoldeb: *Esth.* i 10.

ZETHAM: mab Laadan, Lefiad Gersonaidd: 1 *Cron.* xxiii. 8. Yn 1 *Cron.* xxvi. 22, y mae yn ymddangos fel mab Iehiel, neu Iehieli; ac felly yr oedd efe yn ŵyr i Laadan.

ZEUS: gwel JUPITER.

ZEUXIS: o Heraclea. Paentiwr Groegaidd enwog oedd efe, yr hwn a astudiodd ei gelfyddyd dan Apollodorus, ac ar yr hwn y rhagorodd efe. Ystyrid ef yn ddigyffelyb am dynu darluniau o ferched. Defnyddiai bob math o liwiau gyda chymmaint o fedrusrwydd fel nad oedd ond ychydig o wahaniaeth rhyngddynt a lliwiau natur ei hun. Y mae Pliny yn adrodd ei ymgystadleuaeth gyda Parrhasius am wobr, fel y canlyn:—Paentiodd Zeuxis rai grawnsypiau mor naturiol, fel yr arferai yr adar ddisgyn arnynt, a'u pigo. Ond darfu i Parrhasius baentio croglen (*curtain*) mor fedrus fel y gorchymynodd Zeuxis iddi gael ei gwthio o'r neilldu, fel y gallai weled y darlun oedd o'r tu ol iddi. Pan welodd ei gamgymmeriad, efe a addefodd ei fod wedi ei guro, gan nad oedd efe ond yn unig wedi twyllo adar, tra yr oedd Parrhasius wedi twyllo un oedd yn feirniad yn y gelfyddyd. Ei orchestwaith penaf oedd darlun o Helen—i weled yr hwn y cyrchai pobl o wledydd pell. Yr oedd efe yn meddu ei enwogrwydd mwyaf yn ei gelfyddyd o ddeutu y flwyddyn 400 C.C.

ZIA: un o'r Gadiaid, oeddynt yn preswylio yn Basan: 1 *Cron.* v. 13.

ZIBA: person, yr hwn sydd yn chwareu rhan arbenig, er nad anrhydeddus iddo ef ei hun, yn un o ddigwyddiadau bywyd Dafydd: 2 *Sam.* ix. 2—12; xvi. 1—4; xix. 17, 29. Yr oedd efe wedi bod yn gaethwas yn nheulu Saul cyn dymchweliad ei deyrnas, ac wedi ei ryddhau, hwyrach, yn amser ymosodiad mawr y Philistiaid, yr hwn a fu mor ddinystriol i deulu ei feistr. Yr oedd efe wedi gwneuthur defnydd mor dda o'r manteision a roddwyd iddo fel hyn, fel pan y cyfarfyddwn âg ef gyntaf yn yr hanes yr ydym yn ei gael yn ben sefydliad o bymtheg o feibion ac ugain o gaethion. Effeithiodd derbyniad Dafydd o Mephiboseth i daflu Ziba, a'i holl sefydliad, yn ol i sefyllfa o gaethiwed, o'r hon yr oedd efe wedi bod yn rhydd am amser mor faith. Darostyngodd ef o fod yn dirfeddiannydd annibynol i'r sefyllfa o gaethwas. Y mae gwybod y ffaith hon yn rhoddi esboniad ar ei holl ymddygiad at Dafydd a thuag at Mephiboseth.

ZIBIA: Beniaminiad, mab Saharaim o'i wraig Hodes: 1 *Cron.* viii. 9.

ZIBIAH: brodor o Beerseba, a mam y brenin Ioas: 2 *Bren.* xii. 1; 2 *Cron.* xiv. 1.

ZIBEON: tad Anah, merch yr hwn, Aholibamah, oedd gwraig Esau: *Gen.* xxxvi. 2. Er ei fod yn cael ei alw yn Hefiad, y mae yn debygol mai yr un ydoedd a Zibeon mab Seir yr Horiad.

ZIF: yr ail mis o'r flwyddyn gyssegredig, a'r wythfed mis o'r flwyddyn gyffredin yn mhlith yr Iuddewon. Yr oedd yn cynnwys naw ar hugain o ddyddiau, ac yn cyfatteb i ran o Ebrill. Gelwid ef "mis y blodeu;" 1 *Bren.* vi. 37.

1. ZIHA: meibion Ziha oeddynt deulu o Nethiniaid, y rhai a ddychwelasant gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 43; *Neh.* vii. 46.
2. ZIHA: penaeth y Nethiniaid yn Ophel: *Neh.* xi. 21.

ZILPAH: Syriad, a roddwyd gan Laban i'w ferch Leah fel morwyn (*Gen.* xxix. 24), a chan Leah i Iacob fel gordderchwraig. Hi oedd mam Gad ac Aser; *Gen.* xxx. 9—13; xxxv. 26; xxxvii. 2; xlvi. 18.

1. ZILTHAI: Beniaminiad, o feibion Simhi: 1 *Cron.* vii. 20.
2. ZILTHAI: un o gadbeniaid miloedd Manasseh, yr hwn a enciliodd at Dafydd i Siclag: 1 *Cron.* xii. 20.

1. ZIMMAH: Gersoniad Lefiaidd, mab Iahath: 1 *Cron.* vi. 20.
2. ZIMMAH: Gersoniad arall, a mab Simei (1 *Cron.* vi. 42):—yr un, y mae yn bossibl, a'r blaenorol.
3. ZIMMAH: tad neu hynafiad Ioah, Gersoniad oedd yn byw yn nheyrnasiad Hezeciah: 2 *Cron.* xxix. 12.

ZIMMERMAN, EBERHARD AUGUSTUS WILLIAM. Germaniad dysgedig oedd efe, a ganwyd ef yn 1743 yn Uelzen. Derbyniodd ei addysg yn gyntaf yn Göttingen, yna yn Leyden.

Digitized by Google

Wedi hyny aeth yn broffeswr athroniaeth naturiol yn Ngholeg Caroline yn Brunswick.

ZIMRAN: mab hynaf Ceturah: *Gen.* xxv. 2; 1 *Cron.* i. 32. Ni chrybwyllir am ei hiliogaeth, ac ni roddir un awgrymiad ei fod yn sylfaenydd llwyth: ymddengys yn hytrach mai i'r gwrthwyneb yr oedd yn bod. Tybia rhai mai yr un oedd Zimran a'r Zimri sydd yn *Ier.* xxv. 25; ond yr oedd y Zimri, dybygid, yn rhy bell i'r gogledd. Cynnygia Hitzig a Lengerke gyssylltu yr enw Zimran â Zimiris—dosbarth o Ethiopia a grybwyllir gan Pliny; ond y mae Grotius, gyda mwy o debygolrwydd, yn credu ei fod yn cael olion o hono yn y Zamereni—llwyth yn nghanolbarth Arabia.

1. ZIMRI: mab Salu, penaeth Simeonaidd, a laddwyd gan Phineas gyda'r dywysoges Fidianaidd Cozbi: *Num.* xxv. 14. Pan darawyd yr Israeliaid yn Sittim â phläau am addoli Baal Peor, ac yr oeddynt yn wylo o flaen y tabernacl, Zimri, gyda diystyrwch cywilyddus o'i sefyllfa uchel ei hun, a dioddefiadau ei lwyth, a ddygodd i'w presennoldeb y Midianees, yn ngolwg Moses ac yn ngolwg yr holl gynnulleidfa. Eiddigeddodd Phinees dros ei Dduw; a thrwy ddial yn ddioed ar y troseddwyr, rhoddodd y prawf cyntaf o'r ysbryd nodedig hwnw a'i hynododd ef mewn tymmor diweddarach ar ei oes. Yn *Nhargum* Jonathan mab Uzziel, chwanegir amryw o fanylion traddodiadol. Dywedir fod Zimri wedi cyhuddo Moses ei fod ef ei hun wedi cymmeryd Midianees yn wraig, a bod dialedd Phinees wedi cael ei ddilyn gan ddeuddeg o arwyddion gwyrthiol.

2. ZIMRI: pummed penadur teyrnas wahanedig Israel, gorsedd yr hon a feddiannwyd ganddo am y tymmor byr o saith niwrnod yn y flwyddyn 930 neu 929 c.c. Yr oedd efe yn wreiddiol yn llywydd ar hanner y cerbydau yn y fyddin frenhinol; ac efe a ennillodd y goron trwy lofruddio y brenin Elah mab Baasa; yr hwn, ar ol teyrnasu am ychydig dros flwyddyn, ydoedd yn porthi ei chwant mewn gloddest feddwol yn nhŷ ei oruchwyliwr Arsa, yn Tirsah, yr hon y pryd hwnw oedd y brif ddinas. Yn nghanol y wledd feddwol hon, lladdodd Zimri ef; ac yn ddioed ar ei ol ef, efe a laddodd y gweddill o deulu Baasa. Ond pan glywodd y fyddin oedd y pryd hwnw yn gwarchau ar dref Philistaidd Gibbethon am lofruddiaeth Elah eu brenin, hwy a gyhoeddasant eu cadfridog, Omri, yn ei le. Efe a aeth yn ddioed gyda'i fyddin yn erbyn Tirsah, a chymmerodd hi: yna ciliodd Zimri i'r rhan nesaf i mewn o balas y brenin diweddar, rhoddodd ef ar dân, a threngodd yn yr adfeilion: 1 *Bren.* xvi. 9—20.

3. ZIMRI: un o bum mab Zerah, mab Iudah: 1 *Cron.* ii. 6.

4. ZIMRI: mab Iehoadah, a disgynydd o Saul: 1 *Cron.* viii. 36; ix. 42.

5. ZIMRI: enw tywyll, a grybwyllir (*Ier.* xxv. 25) mewn cyssylltiad, y mae yn debygol, â Dedan, Tema, Buz, ac â holl frenhinoedd Arabia, a'r 'bobl gymmysg'—yr oll o ba rai sydd yn cael eu henwi yn ddioed o'i flaen, heb law pobl eraill. Y mae i'r paragraph ystyr eang; ond ymddengys fod ynddo gyfeiriad, fel y dynodwyd uchod, at lwyth o feibion y dwyrain. Ni ellir cael dim chwaneg o wybodaeth am Zimri; ond y mae yn bossibl mai yr un ydyw a Zimran, neu ei fod yn deilliaw o Zimran. Gwel Zimran.

ZINA: ail fab Simei (1 *Cron.* xxiii. 10), y Gersoniad.

ZINZENDORF, NICHOLAS LOUIS, Iarll: esgob yr eglwys Morafiaidd, a anwyd yn Misnia, yn y flwyddyn 1700. Mor fuan ag y daeth efe i'w oed, prynodd Bethelsdorf, yn Lusatia Uchaf, lle y rhoddodd efe noddfa i Christian David, a'r gweddill o'r brodyr Morafiaidd. Yna adeiladasant bentref yn agos i Hutburg, neu Bryn y Wyliadwriaeth—oddi wrth yr hyn y galwyd ef Herrnhut, neu 'Wyliadwriaeth yr Arglwydd.' Yn Lloegr, cydnabyddwyd y brodyr fel eglwys esgobol; ond ymosododd llawer iawn o ysgrifenwyr arnynt gyda ffyrnigrwydd, fel sect anghymmhwys i'w goddef. Dioddefodd yr iarll a'i gyfeillion y dirmyg hwn yn ddistaw; ac y mae amser wedi llwyr wrthbrofi yr athrod a bentyrid arnynt. Bu Iarll Zinzendorf fyw am lawer o flynyddoedd yn y wlad hon; ond bu farw yn Herrnhut, ar y 9fed o Fai, 1760.

ZION. Gwel Sion.

ZIPPOR: tad Balac, brenin Moab. Nid ydyw ei enw yn digwydd ond yn unig yn yr ymadrodd "mab Zippor," yn *Num.* xxii. 2, 4, 10, 16; xxiii. 18; *Ios.* xxiv. 9; *Barn.* xi. 25. Pa un ai efe oedd "brenin Moab, yr hwn a fuasai o'r blaen," y cyfeirir ato yn *Num.* xxi. 26, ni ddywedir i ni; ac nis gwyddom iddo ef erioed deyrnasu. Y traddodiad Iuddewig [gwel Moab] ydyw, fod Moab a Midian wedi eu cyssylltu yn un deyrnas, ac yn cael eu llywodraethu gan frenin wedi ei ddewis bob yn ail o bob un. Yn y cyssylltiad hwn, y mae y tebygolrwydd rhwng yr enwau Ziphor a Zephorah (yr olaf o'r rhai, fel y gwyddys, oedd enw Midianees) yn deilwng o sylw, am ei fod yn awgrymu y gallai Balac fod o rieni Midianaidd.

1. ZIPH: tref yn y deheu, a enwir rhwng Ithnan a Thelem: *Ios.* xv. 24. Nid ydyw yn ymddangos drachefn yn yr hanes—canys y mae Ziph, lle anturiaethau Dafydd, yn lle hollol wahanol—ac ni chyfarfyddwyd âg un o'i holion.

2. ZIPH: tref yn y dosbarth ucheldirol, a enwir rhwng Carmel ac Iudah: *Ios.* xv. 55. Y mae y lle wedi ei anfarwoli trwy ei gyssylltiad â Dafydd—rhai o beryglon mwyaf a diangfäau dedwyddaf yr hwn a gymmerasant le yn ei chymmydogaeth: 1 *Sam.* xxiii. 14, 15, 24, a xxvi. 2. Dengys yr adnodau hyn fod anialwch a choed yn ei hymyl yr amser hwnw. Y mae yr olaf wedi diflanu, ond y mae y blaenaf yn aros. Ceir lle o'r enw *Zif* o ddeutu tair milldir i'r deheu o Hebron, mewn cyssylltiad â bryn crwn can troedfedd o uchder, yr hwn a elwir *Tel Zif.* O ddeutu yr un pellder yn mhellach i'r deheu y mae Kûrmûl (Carmel), a rhyngddynt, ychydig bellder i'r gorllewin o'r ffordd, y mae *Yŭtta* (Iuttah).

3. ZIPH: mab Iehaleleel: 1 *Cron.* iv. 16.

ZIPHA: un o feibion Iehaleleel, teulu yr hwn a restrir mewn achrestr aneglur o lwyth Iudah: 1 *Cron.* iv. 16.

ZIPHION: mab Gad: *Gen.* xlvi. 16.

ZIPHRON: pwynt yn nherfyn gogleddol Gwlad yr Addewid, fel y mae Moses yn ei ddisgrifio: *Num.* xxxiv. 9. Y mae yn gorwedd rhwng Sedad a Hasar-Enan. Os Sedad ydyw

Digitized by Google

*Sûdûd*, ac os Hasar-Enan ydyw *Kurietein*, fel y mae yn debygol, yna rhaid chwilio am Ziphron yn rhywle rhwng y ddwy.

ZISCA, neu ZIZKA, JOHN: pendefig Bohemiaidd enwog, yr hwn a ddaeth yn arweinydd yr Hussiaid. Yn ei fywyd boreuol, bu yn gweithredu fel un o weision Wenceslas, brenin Bohemia ac ymherawdwr Germany. Wedi hyny, gwasanaethodd gyda'r Prydeiniaid yn eu rhyfeloedd â Ffraingc. Llywyddai gorphlu Bohemiaidd a Morafiaidd yn mrwydr Tannenburg, yn 1410, lle y lladdwyd 40,000 o farchogion a milwyr Teutonaidd. Yn 1415, efe a'i enwogodd ei hun yn mrwydr Agincourt, pryd yr ymladdodd dan faner Prydain Fawr. Yn fuan ar ol hyny, efe a gofleidiodd athrawiaethau John Huss; ac ar farwolaeth y diwygiwr enwog hwnw, efe a benderfynodd gymmeryd arfau i fyny er amddiffyn rhyddid crefyddol y Bohemiaid. Yn 1419, torodd cweryl allan yn Prague rhwng y Pabyddion a'r Hussiaid, canlyniad yr hwn oedd y cyhoeddiad o'r rhyfel Hussiaidd. Parhaodd y rhyfel dychrynllyd hwnw am un mlynedd ar bymtheg; am bump o ba rai yr oedd Zisca yn llywyddu. Fel cadlywydd ar y fyddin ddychrynllyd hono, efe a ennillodd dair ar ddeg o frwydrau mawrion, a bu yn fuddugol mewn uwch law cant o warchauon a brwydrau. Ond nodweddid ei fedrusrwydd milwraidd gan gryn lawer o greulondeb. Rhaid addef, fodd bynag, ei fod bob amser yn ystyried ei hun fel offeryn y dialedd dwyfol ar y mynachod a'r offeiriaid llygredig. Yr oedd ei chwaer wedi ei denu gan fynach; a phryd bynag y clywai alarnadau offeiriad Pabaidd yn llosgi wrth ystanc, dywedai, "Dyna briodasgân fy chwaer." Pan yn ieuangc, collodd un llygad; ac yn 1421, amddifadwyd ef o'r llall yn ngwarchau Raby; etto, parhaodd i wrthwynebu yr ymherawdwr Sigismund, yr hwn a anfonodd lysgenhadon i gynnyg llywodraeth Bohemia iddo. Yn nghanol yr ymdrafodaeth hon, bu Zisca farw o'r pla, Hydref 12fed, 1424. Ganwyd ef yn Trocznov, yn Bohemia, o ddeutu y flwyddyn 1360—yn ol rhai, yn 1380.

ZITHRI: un o feibion Uzziel, mab Cohath: *Exod.* vi. 22.

ZIZ, RHIW: y bwlch (yr hyn ydyw ystyr mwy priodol y gair *maâlêh*) drwy yr hwn y gwnaeth llu y Moabiaid, yr Ammoniaid, a'r Mehuniaid, eu ffordd i fyny oddi wrth lan y Môr Marw at anialwch Iudah ger Tecoa: 2 *Cron.* xx. 16, 20. Nid oes un ammheuaeth nad bwlch *Ain Jidy* ydoedd—"yr un llwybr," fel y sylwai Dr. Robinson, ag a gymmerir gan yr Arabiaid yn eu rhyfelgyrchoedd yn y dyddiau hyn —ar hyd y lan mor bell ag at Ain Jidy, ac yna i fyny y bwlch, ac felly tua'r gogledd is law Tecoa.

1. ZIZA: mab Siphi, penaeth y Simeoniaid; y rhai yn nheyrnasiad Hezeciah a wnaethant ruthrgyrch ar fugeiliaid heddychol Gedor, ac a'u tarawsant hwynt, "am fod porfa i'w praidd hwynt yno;" 1 *Cron.* iv. 37.

2. ZIZAI: mab Rehoboam o Maachah, ŵyres Absalom: 2 *Cron.* xi. 20.

ZIZAH: Lefiad Gersonaidd. Yr oedd efe yn ail fab i Simei: 1 *Cron.* xxiii. 11:—a gelwir ef Zina yn *adn.* 10.

ZOAN: hen ddinas yn yr Aipht Isaf, yr hon hefyd a elwir *Tanis.* Yr un yw ystyr y ddau enw, sef 'lle ymadawiad.' Gorweddai Zoan yn agos i derfyn dwyreiniol yr Aipht Isaf. Gan hyny, ymddengys nad ydyw yr ystyr o ymadawiad, neu symmudiad, yn dynodi yn unig lle gorphwysfa i finteioedd o deithwyr, ond lle ymadawiad o wlad.

Saif Zoan yn lled. gog. 30°, a hyd. dwyr. 31° 55', ar lan ddwyreiniol y camlas, yr hwn gynt oedd y gangen Tanitaidd o hono. Yn yr hen amserau yr oedd gwastadedd cyfoethog yn ymestyn i'r dwyrain mor bell a Pelusium, tua deng milldir ar hugain o bellder, gan raddol gulhau tua'r dwyrain; ac felly nid oedd yn fwy na hanner y lled hwn mewn cyfeiriad de-ddwyreiniol o Tanis. Yn yr oesoedd boreuaf, adnabyddid yr holl wastadedd hwn, mor bell i'r deheu a'r gorllewin, a Tanis, wrth yr enwau 'y Meusydd,' 'y Gwastadeddau,' neu 'y Morfeydd.' Trwy ddisgyniad glenydd Môr y Canoldir, y mae yn awr yn mron wedi ei gorchuddio gan lyn mawr Menzeleh. Gynt, yr oedd yn dir porfa cyfoethog, yn cael ei ddyfrhau gan bedair o saith cangen y Nilus—y Pathmitaidd, y Mendesiaidd, y Tanitaidd, a'r Pelusiaidd—ac yn cael ei ysgubo gan awelon oerion Môr y Canoldir. Tra yr oedd yr Aipht yn cael ei llywodraethu gan frenhinoedd brodorol, Tanis oedd prif dref y diriogaeth hon, ac yr oedd hi yn orsaf bwysig tua'r terfyn dwyreiniol.

Mewn tymmor pell, rhwng yr oes pan yr adeiladwyd y pyramidiau ac y ffurfiwyd yr ymherodraeth—o ddeutu 2080 C.C.—ymosodwyd ar yr Aipht, a goresgynwyd a darostyngwyd hi gan y dyeithriaid a adnabyddir wrth yr enw 'Bugeiliaid,' y rhai, neu o leiaf y llwyth cyntaf o honynt, oeddynt Arabiaid yn hanu o'r un gwreiddyn a'r Phœniciaid. Pa fodd yr aethant i'r Aipht, ni wyddys. Yn mhen amser, hwy a wnaethant un o honynt eu hunain yn frenin—un o'r enw Salatis; yr hwn a deyrnasodd yn Memphis, gan orfodi yr Aipht Uchaf ac Isaf i dalu teyrnged, a gosod gwarchodlu yn y lleoedd cyfaddasaf, gyda gofal arbenig am ddiogelwch y taleithiau dwyreiniol, y rhai yr oedd efe yn rhagweled y dymunai yr Assyriaid ymosod arnynt. Wrth ganfod yn nhalaeth Saite, ar du y dwyrain i'r gangen Bubastaidd, ddinas gymmhwys o'r enw Avaris, efe a'i hail adeiladodd, ac a adeiladodd furiau cedyrn o'i hamgylch, gan osod gwarchodlu o 240,000 ynddi gyda'r amcan hwn. Efe a aeth yno yn amser y cynhauaf i roddi ŷd i'r milwyr, ac i dalu eu cyflogau, ac i'w dysgyblu yn y fath fodd fel ag i ddychrynu tramoriaid. Dyna'r adroddiad a roddir gan Manetho am sylfaeniad Avaris—amddiffynfa gref y Bugeiliaid. Codir amryw bethau i sylw ganddo. Yr ydym yn gweled ar unwaith nad oedd Manetho yn gwybod mai Avaris oedd Tanis. Erbyn ei amser ef, yr oedd y ddinas wedi syrthio i ddinodedd, ac nis gallai gyssylltu *Ha-awar* ei gofnodion brodorol â Tanis y Groegiaid. Gan hyny, ni ddylid rhoddi llawn ymddiried yn ei adroddiad ef o'i hanes boreuol. Yr ydym drwyddo yn canfod dylanwad y balchder a barodd i'r Aiphtiaid gasau a dirmygu y Bugeiliaid uwch law eu holl orchfygwyr, oddi eithr y Persiaid. Amcan Salatis ydoedd—nid cadw yr Aipht dan ofn, ond cadw yr Assyriaid allan; nid dychrynu y brodorion, ond yr estroniaid hyn; y rhai, os yw cofnodion hanesiol ereill yn gywir, nid oeddynt y pryd hwnw yn ffurfio gwladwriaeth bwysig.

Digitized by Google

Y mae sefyllfa Tanis yn egluro yr achos. Fel prif ddinasoedd eraill y parth hwn—Pelusium, Bubastis, a Heliopolis—yr oedd yn gorwedd ar ochr ddwyreiniol yr afon, tua Syria. Felly yr oedd o'r tu allan i linell ddiffynol fawr, ac yn diogelu amddiffyniad i'r tiroedd amaethedig i'r dwyrain, a rhwystr ar ffordd ymosodwyr. Yr oedd yn bossibl bob amser encilio o honi, tra y byddai yr Aiphtiaid yn dal yr afon. Er ei fod yn sicr fod Tanis wedi ei chadarnhau â muriau, mewn rhan gyda'r amcan o wrthsefyll ymosodiad, yr oedd yn rhy bell i mewn yn y tir i amddiffyn y terfyn. Yr oedd hi yn ddigon agos i fod yn gychwynfa i'r minteioedd masnachol, ond nid yn ddigon agos i gadw ffordd yr Aipht. Gorweddai Pelusium ar y ffordd fawr i Palestina —hyd yn ddiweddar gosodwyd hi yn rhy bell yn y gogledd—ac yr oedd y gwastadedd yma yn gul, o'r gogledd i'r deheu, fel nas gallai un ymosodwr yn ddiogel basio yr amddiffynfa; ond yn fuan daeth yn lletach, a thrwy droi mewn cyfeiriad de-orllewinol, gadawai byddin elynol, wrth deithio yn mlaen, Tanis yn mhell tua'r gogledd, ac anfonai gadfridog dewr allan i gadw ei gwarchodlu danodd, ac i ymosod ar Heliopolis a Memphis. Buasai gallu mawr o gartreflu sefydlog, wedi eu gosod yn Bucolia, fel y gosodwyd cartreflu yr Aipht ar ol hyny mewn dosbarthiadau cyfagos o'r Delta, a chyda'i bencadlys yn Tanis, yn ddigon i ddychrynu yr Aipht, ac i sicrhau ffordd i encilio os byddai eisieu, heb law cadw meddiant o ran dda o'r tir mwyaf cynnyrchiol yn y wlad: ac yn benaf i gyrhaedd y ddau amcan blaenorol y cadarnhawyd Avaris â muriau.

Dywed Manetho yn bendant fod Avaris yn hynach nag amser y Bugeiliaid; ond y mae lle i ammheu ei gywirdeb yn y mater hwn. Y mae yn debycach fod yr enw o wreiddyn tramor nag Aiphtaidd. Y mae Zoan yn dynodi lle ymadawiad pobl ymfudol, tra nad ydyw Avaris yn arwyddo dim ond 'arosfa ymadawiad.'

Y mae adnod nodedig yn Llyfr Numeri ag sydd hyd yn awr heb ei hegluro:—"A Hebron a adeiladasid saith mlynedd o flaen Zoan yn yr Aipht" (xiii. 22). Y mae hon, yn ol pob tebygolrwydd, yn penderfynu y cwestiwn. Hebron, yn yr hen amserau, oedd Dinas Arba, a Ciriath-Arba; ac yr oedd dan reolaeth yr Anaciaid. Yr oedd yr Anaciaid hyn o'r hen lwyth rhyfelgar Palestinaidd a fu am amser maith yn arglwyddiaethu ar y Canaaneaid deheuol. Yma, gan hyny, cyssylltir yr Anaciaid â Zoan. Ymddengys fod y Bugeiliaid, y rhai a adeiladasant Avaris, o gyff Phœniciaidd. Yr oedd Hebron eisoes wedi ei hadeiladu yn amser Abraham, a bernir fod y Bugeiliaid wedi gwneyd eu hymosodiad o ddeutu yr un amser. Pa un a ddilynwyd rhyw bentref neu ddinas hynach gan Avaris, nid ydyw o un pwys. Y mae ei hanes yn dechreu yn nheyrnasiad Salatis.

ZOBA, neu ZOBAH, ydyw enw rhan o Syria, yr hon oedd yn ffurfio teyrnas ar wahân yn amser y brenhinoedd Iuddewig, Saul, Dafydd, a Solomon. Y mae yn anhawdd rhoi disgrifiad manwl o'i sefyllfa a'i therfynau; ond ymddengys fod seiliau i gredu ei bod yn gorwedd yn benaf o du y dwyrain i Cœle-Syria, ac yn ymestyn oddi yno i'r gogledd-ddwyrain a'r dwyrain, tua, os nad hyd yn oed at, yr Euphrates. [Gwel SYRIA.] Buasai fel hyn yn cynnwys ystlys ddwyreiniol y gadwen fynyddig, yr hon sydd yn cau i mewn Cœle-Syria ar yr ochr hono, a'r ucheldir o amgylch Aleppo, ynghyd â'r rhan fwyaf gogleddol o anialwch Syria.

Yn mhlith dinasoedd Zobah yr oedd Hamath (2 *Cron.* viii. 3), yr hon ni ddylid ei chymmeryd am 'Hamath Fawr' (*Hamath-Zobah*); lle a elwir Tibhath neu Betah (2 *Sam.* viii. 8; 1 *Cron.* xviii. 8), yr hon, fe allai, yw *Taibeh*, rhwng Palmyra ac Aleppo; a lle arall a elwir Berothai, yr hon, fel y tybir, yw Beyrût. Y mae y dybiaeth olaf hon yn dra annhebygol, canys rhaid fod teyrnas Hamath rhwng Zobah a'r glenydd.

Yn amser Saul yr ydym yn clywed gyntaf am Zobah, pan y cawn grybwylliad am dani fel gwlad ar wahân, yn cael ei llywodraethu, fel yr ymddengys gan nifer o frenhinoedd, y rhai nid oedd ganddynt un penaeth: 1 *Sam.* xiv. 47. Ymladdodd Saul yn erbyn y brenhinoedd hyn, ac a'u poenodd hwy, fel y poenodd efe ei gymmydogion eraill. Yn mhen deugain mlynedd ar ol hyn, yr ydym yn cael Zobah dan un llywodraethwr—Hadadezer, mab Rehob; yr hwn, y mae yn ymddangos oedd yn benadur galluog. Bu yn rhyfela yn erbyn Toi, brenin Hamath (2 *Sam.* viii. 10); ond yr oedd cyfeillgarwch mawr yn ffynu rhyngddo a brenhinoedd Damascus, Beth-rehob, ac Istob, &c., a daliai amryw o fân dywysogion Syria dan ei iau fel deiliaid dan wriogaeth: 2 *Sam.* x. 19. Yr oedd ganddo gryn ddylanwad hyd yn oed yn Mesopotamia, tu hwnt i'r Euphrates; a chafodd ar un achlysur allu milwraidd cynnorthwyol pwysig o'r parth hwnw:—gwel teitl *Salm* lx. Gan fod Dafydd wedi penderfynu cymmeryd meddiant llawn o'r holl diriogaeth a addawyd yn wreiddiol i hiliogaeth Abraham (2 *Sam.* viii. 3; cymmh. *Gen.* xv. 18), efe a ymosododd ar Hadadezer yn y rhan gyntaf o'i deyrnasiad: gorchfygodd ei fyddin, a chymmerodd oddi arno fil o gerbydau, saith gant (saith mil, 1 *Cron.* xviii. 4) o wŷr meirch, ac 20,000 o wŷr traed. Gan fod Syriaid Damascus, cynghreiriaid Hadadezer, wedi myned i'w gynnorthwyo, gorchfygodd Dafydd hwynt mewn brwydr fawr, yn yr hon y collasant 22,000 o wŷr. Y mae cyfoeth Zobah yn amlwg yn hanes y rhyfelgyrch hwn. Yr oedd amryw o swyddogion byddin Hadadezer yn cario "tarianau aur" (2 *Sam.* viii. 7); wrth yr hyn, y mae yn debyg, yr ydym i ddeall fframiau coed neu haiarn wedi eu gorchuddio â phlatiau o'r mettel gwerthfawr. Yn mhellach, cynnyrchodd y dinasoedd y rhai a gymmerodd Dafydd, sef Betah (neu Tibhath) a Berothai, iddo "lawer iawn o bres;" *adn.* 8. Nid ydyw yn eglur pa un a ddarfu i Syriaid Zobah ymostwng, a dyfod dan deyrnged ar yr achlysur hwnw; neu, er iddynt gael eu gorchfygu, a ddarfu iddynt gadw eu hannibyniaeth. Beth bynag, yn mhen ychydig flynyddoedd ar ol hyn, yr oeddynt dan arfau yn erbyn Dafydd. Y waith hono, gweithredai y brenin Iuddewig ar y diffynol. Cynnhyrfwyd y rhyfel gan yr Ammoniaid, y rhai a gyflogasant wasanaeth Syriaid Zobah, yn mhlith eraill, i'w cynnorthwyo hwynt yn erbyn pobl Israel; a chafodd yn y dull hwn 30,000 o ddynion i'w gynnorthwyo. Gorchfygwyd y cynghreiriaid mewn brwydr fawr gan Ioab, yr hwn a ymladdodd â'r Syriaid ei hun, gyda goreuon ei wŷr: 2 *Sam.* x. 9. Ar hyn gwnaeth Hadadezer ei ymdrech olaf. Efe a anfonodd genhadau dros yr Euphrates i Mesopotamia, a hwy a "ddygasant allan y Syriaid y rhai oedd o'r tu hwnt i'r afon" (1 *Cron.* xix. 16), y rhai nid oeddynt hyd hyny

Digitized by Google

wedi cymmeryd un rhan yn y rhyfel. Gyda'r cynghreiriaid hyn, a'i filwyr ei hun, efe a ail gychwynodd unwaith etto yr ymdrechfa gyda'r Israeliaid, y rhai yn awr a lywyddid gan Dafydd ei hun, gan ei bod yn ymddangos fod y perygl yn gyfryw ag oedd yn gofyn presennoldeb y brenin ei hun. Ymladdwyd brwydr yn agos i Helam—dinas na wyddys yn sicr yn mha le y safai—lle y gorchfygwyd Syriaid Zobah, a'u cynghreiriaid newydd, gyda lladdfa fawr, gan golli rhwng 40,000 a 50,000 o wŷr. Ar ol hyn, nid ydym yn clywed son am chwaneg o ymladd. Trosglwyddodd y mân dywysogion oeddynt hyd hyny dan deyrnged i Hadadezer eu teyrngarwch i frenin Israel; ac y mae yn debygol iddo ef ei hun hefyd ddyfod dan deyrnged i Dafydd.

Modd bynag, er i Zobah gael ei darostwng, parhaodd i beri helbul i'r brenhinoedd Iuddewig. Gan i ddyn o Zobah, un o ddeiliaid Hadadezer —Rezon, mab Eliada—ddiangc o frwydr Helam, a "chynnull gwŷr ato" (*h.y.*, corph o anrheithwyr ysbeilgar), efe a aeth tua'r deheu, a llwyddodd i'w wneyd ei hun yn frenin ar Damascus—lle y teyrnasodd efe, fel yr ymddengys, am hanner can mlynedd, gan wrthwynebu Israel holl ddyddiau Solomon: 1 *Bren.* xi. 23—25. Ymddengys hefyd fod Solomon ei hun wedi bod yn rhyfela â Zobah. Yr Hamath-Zobah yn erbyn yr hon yr "aeth efe i fyny" (2 *Cron.* viii. 3), y mae yn debygol oedd dref yn y wlad hono a wrthwynebodd ei awdurdod, ac ar yr hon, am hyny, yr ymosododd efe gan ei gorchfygu. Dyma y crybwylliad olaf a gawn yn yr Ysgrythyrau am Zobah. Modd bynag, ceir yr enw mewn dyddiad diweddarach yn Arysgrifeniadau Assyria, lle yr ymddengys fod teyrnas Zobah yn gorwedd rhwng Hamath a Damascus, ac felly ar linell reolaidd taith y byddinoedd Assyriaidd. Y mae amryw o'r penaduriaid Assyriaidd yn hysbysu eu bod wedi cymmeryd teyrnged oddi ar Zobah, tra y dywed ereill eu bod wedi ei theithio ar eu ffordd i neu o Palestina.

ZOHELETH, MAEN. Yr oedd y maen hwn wrth En-Rogel (1 *Bren.* i. 9); ac am hyny, os En-Rogel ydyw yr *Um-ed-Deraj* ddiweddar, yn ol pob tebygolrwydd, nid oedd y maen hwn, wrth yr hwn y lladdodd Adoniah 'ddefaid a gwartheg,' yn mhell oddi wrth Ffynnon y Forwyn. Cyfieithir ef gan y Targumiaid yn 'faen treigl;' a haera Iarchi mai careg fawr ydoedd, ar yr hon y profai dynion ieuaingc eu nerth yn ceisio ei threiglo. Eraill a'i gwnant yn 'sarph-faen,' am fod y gair yn tarddu o wreiddyn yn arwyddo 'ymlusgo.' Cyssyllta eraill ef â dwfr rhedegog; ac nid oes dim yn ammhriodol yn ei alw yn 'faen dyfr-bistyll,' oddi wrth ei agosrwydd at ddwfr-bistyll mawr y graig, neu y dwfrbistylloedd a ymdywalltent i Siloam. Barna Bochart fod y gair Hebraeg *Zohel* yn dynodi 'symmudiad araf.' "Yma gwasgai y panwyr y dwfr allan, a syrthiai oddi wrth y dillad y rhai yr oeddynt wedi eu golchi yn y ffynnon a elwir Rogel." Os ydyw hyn yn gywir, yna ceir ychydig o weddillion yr hen ddefod hon yn y bronglawdd (*breast-work*) mawr is law y *Birket el-Hamra* presennol, lle y mae y mulod yn disgwyl am eu llwyth o grwyn o'r ffynnon, a lle y gellir gweled y golchwragedd Arabaidd hyd heddyw yn curo eu dillad.

Y mae yr arferiad o osod meini, a'u henwi oddi wrth bersonau neu ddigwyddiadau, yn dra chyffredin yno. Gwnaeth Iacob felly yn Bethel (*Gen.* xxviii. 22; xxxv. 14); a gwnaeth hyny drachefn pan yr ymadawodd oddi wrth Laban: *Gen.* xxxi. 45. Gosododd Iosuah geryg i fyny yn yr Iorddonen a Gilgal, drwy orchymyn Duw (*Ios.* iv. 9—20); a thrachefn yn Sichem: *Ios.* xxiv. 26. Yn agos i Beth-semes yr oedd yr *Eben-gedolah* (sef, "y maen mawr," 1 *Sam.* vi. 14), a elwid hefyd *Abel-gedolah;* sef, "y galar mawr:" 1 *Sam.* vi. 18. Yr oedd *Eben-Bohan*, o du y deheu i Iericho, yn ngwastadedd yr Iorddonen, sef "maen Bohan, mab Reuben:" *Ios.* xv. 6; xviii. 17. Y mae y Rabbiniaid yn cadw coffadwriaeth am y maen hwn mewn llyfr a elwir "*Eben-Bohan*," neu y maen prawf. Gosodwyd careg i fyny rhwng Mispah a Sen, *Ebenezer*, sef maen y cymmhorth: 1 *Sam.* vii. 11, 12. Ar faen mawr y lladdodd Samuel yr aberthau, ar ol brwydr Saul gyda'r Philistiaid: 1 *Sam.* xiv. 33. Y mae ceryg mawrion bob amser wedi cael enwau neillduol iddynt eu hunain, oddi wrth eu ffurf, eu sefyllfa, a'u cyssylltiad hefyd â phersonau neu ddigwyddiadau.

ZOHETH: mab Isi, o lwyth Iudah: 1 *Cron.* iv. 20.

ZOPHAH: mab Helem, neu Hotham, mab Heber, un o'r Aseriaid: 1 *Cron.* vii. 35, 36.

ZOPHAI: Lefiad Cohathaidd, mab Elcanah, a hynafiad Samuel: 1 *Cron.* vi. 26. Yn adnod 35, gelwir ef "Zuph."

ZOPHIM, MAES: llanerch ar, neu yn agos i, ben Pisgah, oddi ar yr hwn y cafodd Balaam ail olwg ar wersyll Israel: *Num.* xxiii. 14.

ZOROASTER, neu yn hytrach ZARATHUSTRA —yr hwn yn y Groeg a'r Lladin a lygrwyd i ZARASTRADES a ZOROASTRES: ond darfu i'r Parsiaid ei newid i ZERDUSHT). Efe oedd sylfaenydd yr hyn a adnabyddir yn awr fel y grefydd Barsiaidd. Ni wyddys yn sicr beth yw ystyr gwreiddiol y gair; ond y mae yn debygol mai dynodi y mae y syniad o *benaeth, hynafiad*, neu *arch-offeiriad*. Yr oedd hwn yn enw cyffredin ar arweinydd a phenaeth ysbrydol dosbarth neu dalaeth.

Ymddengys ei fod wedi ei eni yn Bactria; ond ni wyddys ond ychydig iawn o hanes ei fywyd. Ffugiol ydyw yr holl hanes a geir am ei fywyd a'i weithiau gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid; a cheir y rhan fwyaf o hyny yn hen lyfrau cyssegredig Zoroaster. Gosodir ef allan i raddau helaeth—nid fel person gwirioneddol, ond fel person dychymygol, wedi ei gynnysgaeddu â galluoedd goruwch-ddynol; neu yn hytrach, â galluoedd dwyfol—ac fel un yn sefyll uwch law yr archangylion, ac yn nesaf at Dduw.

Yn yr hen Yazna (saith o bennodau, yn cynnwys caniadau a gweddïau) yn unig yr ymddengys efe fel sylwedd byw, fel dyn yn cyflawni rhan fawr ac amlwg yn hanes ei wlad, a hanes dynolryw. Ymddengys mai enw ei dad oedd Pourushâspa; ac mai enw ei ferch, yr unig un a grybwyllir o'i blant, oedd Pouruchista. Hyd yn oed yn ol yr hanes hwn, y mae llawer o dywyllwch ynghylch yr amser pan yr oedd efe yn byw. Ond y mae yn sicr o'r bron y rhaid ei fod yn perthyn i oes foreu—dim diweddarach, beth bynag, na mil o flynyddoedd c.c.

Prif ddrychfeddwl duwinyddol Zoroaster oedd un-dduwiaeth. Beth bynag a achosodd sefydliad

Digitized by Google

deu-dduwiaeth, sef y duw da a'r duw drwg, yn y grefydd Bersiaidd—deu-dduwiaeth oedd mor amlwg yn amser y prophwyd Esaiah, fel y barnodd efe yn angenrheidiol i wrthdystio yn bendant yn ei herbyn—nid Zoroaster a'i cyhoeddodd. Y mae ei ddeu-dduwiaeth ef o natur tra gwahanol. Nid oedd ond yn unig egwyddor ei athroniaeth ddamcaniadol ef—neu dybiaeth fod dau achos gwreiddiol i'r byd naturiol a'r byd deallol. Yr oedd ei athroniaeth foesol, ar y llaw arall, yn gynnwysedig o driad—sef, meddwl, gair, a gweithred. Ni cheir cyfundrefn gyflawn o athroniaeth Zoroastriaidd yn y *Zend-Avesta;* ond oddi wrth yr hyn a gesglir yn ysgrifeniadau y Gâthas, nid oes un ammheuaeth nad oedd Zoroaster yn feddyliwr mawr a dwfn—llawer uwch law ei gydoeswyr, ac hyd yn oed llawer o ddynion mwyaf goleuedig yr oesoedd dilynol.

Gyda golwg ar y pwngc cyntaf, sef ei un-dduwiaeth, digon ydyw crybwyll hyn :—tra yr oedd y tân-offeiriaid o'i flaen ef, sef y Soshyantôsiaid, yn addoli lliosogrwydd o ysbrydion da a elwid yn Ahurasiaid, yn wrthwynebol i'r Devasiaid Indiaidd, efe a leihaodd y lliosawgrwydd hwn i un duw. Yr un bod goruchaf hwn a alwodd efe yn Ahurô Mazdaô (yr Ahura hwnw, yr hwn yw Mazdaô), neu greawdwr y bydysawd. Ystyriai Zoroaster mai y duw goruchaf hwn oedd "creawdwr bywyd daearol ac ysbrydol, ac arglwydd yr holl greadigaeth, dan lywodraeth yr hwn y mae pob creadur." Ond am y cwestiwn dyrus hwnw, sydd wedi peri y fath ddyryswch i ddynion meddylgar—sef, gwreiddyn pechod, a'i anghyssondeb â daioni, sancteiddrwydd, a chyfiawnder Duw—ceisiai Zoroaster ei benderfynu trwy gymmeryd yn ganiataol fod iddo ddau achos gwreiddiol; y rhai, er yn wahanol, oeddynt yn unedig, ac a greasant y byd materol, yn gystal a'r byd ysbrydol. Gelwir yr hwn a gynnyrchodd sylweddolrwydd (*gaya*) yn Vohu Mano, sef y meddwl da. Enw y llall, drwy yr hwn y gwreiddiodd y disylweddolrwydd (*ajyâiti*), ydyw Akem Mano, sef y meddwl diddym. I'r cyntaf y perthyna pob peth da, gwir, a pherffaith; ac i'r ail, pob peth twyllodrus, pechadurus, a drygionus. Galwai efe y ddau achos cynnhyrfiol gwreiddiol hyn o'r greadigaeth yn efeilliaid; a thybiai eu bod wedi ymledaenu yn mhob man—yn Nuw, fel mewn dyn. Yr oedd y ddau mor anwahanol, yn ol ei olygiad ef, ag ydyw dydd a nos; ac er yn wrthwynebol i'w gilydd, yr oeddynt yn anhebgorol angenrheidiol er cadwraeth y greadigaeth. Ymddangosai yr ysbryd disglaer yn y wen-fflam—ond presennoldeb yr ysbryd tywyll yn y coed pan yn cael eu troi yn golosg. Y mae y naill yn creu goleuni y dydd, a'r llall dywyllwch y nos; y mae y blaenaf yn deffro dynion at eu dyledswyddau, ond y llall yn eu suo i gysgu. Cynnyrchir bywyd gan un, a diddymir ef gan y llall; yr hwn, hefyd, trwy ryddhau yr enaid oddi wrth lyffetheiriau y corph, sydd yn ei alluogi i esgyn i fyny at anfarwoldeb a bywyd tragwyddol.

Ond ni pharhaodd un-duwiaeth gwreiddiol Zoroaster yn hir. Ymlusgodd deongliadau twyllodrus, a chamddealltwriaeth, cyfnewidiadau, a llygredigaethau i mewn; ac yna sefydlwyd deudduwiaeth mewn duwinyddiaeth. Y pryd hwnw, daeth y ddwy egwyddor am y waith gyntaf yn ddau allu, gelynol i'w gilydd; ac o ganlyniad, ymdrechant yn barhaus i ddymchwelyd y naill y llall.

Crybwyllir yn mhellach yn y *Zend-Avesta* am ddau ddeall, a dau fywyd. Wrth y blaenaf y deallir y ddoethineb nefol, ysbrydol; ac wrth y ddiweddaf, y ddoethineb ddaearol; hyny yw, yr hon a ddysgir drwy addysg a phrofiad cyffredin. Yn yr un modd, gwahaniaethir y ddau fywyd fel y corphorol a'r meddyliol; hyny yw, corph ac enaid. Oddi wrth y ddau fywyd hyn, modd bynag, rhaid gwahaniaethu y bywyd cyntaf a'r diweddaf—geiriau sydd yn cyfeirio at y bywyd hwn a'r bywyd sydd i ddyfod. Y grediniaeth yn yr olaf, ac mewn anfarwoldeb, oedd un o brif athrawiaethau Zoroaster; a barna llawer o feirniaid dysgedig nad trwy ddylanwad Persiaidd y daeth yn hysbys o'r athrawiaeth Iuddewig a Christionogol hon. Gelwir y nefoedd yn 'Dŷ Emynau;' sef, y fan lle y mae angylion yn moliannu Duw yn ddibaid. Gelwir hi hefyd y 'bywyd goreu,' neu Paradwys. Ond gelwir uffern yn 'Dŷ Dinystr;' ac yn benaf, 'preswylfod offeiriaid y grefydd ddrwg ydyw.' Geilw y Persiaid diweddar y flaenaf yn 'Behehst;' a'r olaf yn "Duzak." Rhwng y nefoedd ac uffern y mae pont y casglwr neu y Barnwr, dros yr hon y mae enaid y duwiol yn pasio heb dderbyn un niwed; ond hyrddir y drygionus oddi arni i uffern.

Y mae adgyfodiad y corph yn cael ei ddynodi yn eglur ac yn amlwg yn y *Zend-Avesta;* ac yn ol pob tebygolrwydd, y mae yn perthyn i athrawiaeth wreiddiol Zoroaster—pa le bynag y cafodd efe afael arni. Ceir disgrifiad manwl o'r adgyfodiad a'r farn ddiweddaf yn y "*Bundehesh.*" Yr un ymresymiad, sef hollalluawgrwydd y Creawdwr, ag a ddefnyddir yn awr i ddangos y possiblrwydd i'r elfenau, yn doddedig ac yn wasgaredig fel y dichon y byddant, gael oll eu dwyn yn ol drachefn, ac iddynt unwaith yn rhagor ffurfio y corph i'r hwn y perthynent unwaith, sydd yn cael ei ddefnyddio yno i brofi yr adgyfodiad.

Y mae ynddo etto elfen bwysig i sylwi arni; sef, y Messiah, neu y Sosiosh; oddi wrth yr hon y creda rhai y tarddodd y syniadau Iuddewig a Christionogol am Fessiah. Efe sydd i ddeffro cyrph y meirw, i adferu pob bywyd a ddinystriwyd gan farwolaeth, ac i weinyddu yn y farn ddiweddaf. Yma, drachefn, mewn tymmor diweddarach, dygwyd i mewn liosawgrwydd o dduwiau—ac yn enwedig Trindod. Y mae tri prophwyd mawr hefyd i ymddangos pan y bydd diwedd y byd yn agoshau, yn dwyn yr enwau hyn—Lleuad y Rheolaeth Ddedwydd, Goleuni Gogleddol Rheolaeth Ddedwydd, a'r Sosiosh. Tybir mai mab ydyw y diweddaf i Zarathustra; ac efe a ddwg gydag ef gyfran newydd o'r *Zend-Avesta,* sydd hyd yma yn guddiedig oddi wrth ddyn. Dengys hyd yn oed trem arwynebol ar y crynodeb hwn i'n darllenwyr y tebygolrwydd hynod sydd rhwng y syniadau Iuddewig a Christionogol ar un llaw, a 'syniadau Zoroaster ar y llaw arall. Wrth ddiweddu, rhoddwn yma y crynodeb canlynol o brif athrawiaethau Zoroaster, wedi eu cymmeryd o araeth (a gynnwysir yn y "*Gâthas*") yr hon, yn ol pob tebygolrwydd, a draddodwyd gan Zoroaster ei hun :—

"1. Yn mhob man yn y byd, y mae deuoldeb i'w ganfod; megys y da a'r drwg, goleuni a thywyllwch; y bywyd presennol a'r bywyd dyfodol; doethineb ddynol a doethineb ddwyfol.

2. Y bywyd presennol yn unig sydd yn dyfod yn ysglyfaeth i farwolaeth; ond nid ydyw y bywyd dyfodol, ar yr hwn nid oes gan yr ysbryd dinystriol un awdurdod, yn dyfod yn ysglyfaeth iddo.

3. Y mae yn y greadigaeth, o'r dechreuad, ddau

ysbryd yn gweithio:—un yn cynnyrchu bywyd, y llall yn ei ddinystrio.

4. Perthyna i'r ddau ysbryd hyn alluoedd deallawl, yn gosod allan ddrychfeddyliau y gyfundrefn Blatonaidd, ar yr hon y mae yr holl fyd moesol yn gorphwys. Hwy sydd yn achosi yr ymdrechfa rhwng da a drwg, a'r holl ymrysonfeydd yn y byd a derfyniant yn muddugoliaeth yr egwyddor dda.

5. Prif ddyledswydd dyn yn y byd hwn ydyw ufuddhau i air a gorchymynion Duw.

6. Cospir anufudd-dod â marwolaeth y pechadur.

7. Ahuramazda a greodd ddrychfeddwl y da; ond nid ydyw yn un âg ef. Y drychfeddwl hwn a gynnyrchodd y meddwl da, yr Ysbryd Dwyfol, yr hwn sydd yn gweithio mewn dyn a natur, ac yn cynnyrchu crefyddolder yn y galon, ac yn gwneuthur dyn yn ufudd.

8. Nis gellir gwrthsefyll yr Ysbryd Dwyfol.

9. Bydd y rhai a ufuddhânt i Air Duw yn rhydd oddi wrth bob diffyg, ac yn anfarwol.

10. Y mae Duw yn arfer ei lywodraeth yn y byd trwy weithrediad yr Ysbryd Dwyfol, yr hwn sydd yn gweithio mewn dyn ac mewn natur.

11. Dylai dynion weddïo ar Dduw, a'i addoli. Y mae efe yn gwrando gweddïau y rhai da.

12. Y mae pob dyn yn byw yn gwbl trwy drugaredd Duw.

13. Fe fwynhâ enaid y pur yn y byd a ddaw fywyd tragywyddol; ond rhaid i enaid y drygionus ddioddef cospedigaeth dragywyddol—yr hon y mae y duwinyddion Parsiaidd diweddar yn ei egluro—hyd ddydd yr adgyfodiad.

14. Y mae pob creadur yn eiddo i Ahuramazda.

15. Efe ydyw sylwedd pob meddwl da, pob gair da, a phob gweithred dda."

ZOROBABEL: penaeth llwyth Iudah yn amser y dychweliad o Gaethiwed Babilon yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Cyrus. Nid yw yn hollol sicr pwy oedd ei rieni, trwy ei fod bob amser yn cael ei alw yn fab Salathiel (*Ezra* iii. 2, 8; v. 2, &c.; *Hag.* i. 1, 12, 14, &c.), ac yn ymddangos fel y cyfryw yn yr achau (*Mat.* i. 12; *Luc.* iii. 27); ac yn 1 *Cron.* iii. 19, y mae yn cael ei osod allan fel mab Pedaiah, brawd Salathiel; ac o ganlyniad, fel nai Salathiel. Y mae yn debygol fod yr achau yn 1 *Cron.* yn gosod allan ei wir rieni; ac mai efe a ddilynodd ei ewythr fel penaeth teulu Iudah—tybiaeth ag sydd yn cyttuno â'r ffeithiau fod Salathiel yn ymddangos fel cyntaf-anedig, ac na ddywedir fod ganddo blant.

Fel y canlyn y mae hanes Zorobabel yn yr Ysgrythyrau:—Yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Cyrus, yr oedd efe yn byw yn Babilon, ac efe oedd tywysog addefedig Iudah yn y caethiwed; yr hwn mewn amser diweddarach a elwid "Tywysog y Caethiwed," neu "y Tywysog." Pan gyhoeddwyd deddf Cyrus, efe a gymmerodd fantais arni yn ddioed, a gosododd ei hun yn ben ar y rhai hyny o'i gydwladwyr, y rhai "y cyffrodd Duw eu hysbrydoedd i fyned i fyny i adeiladu tŷ yr Arglwydd, yr hwn oedd yn Ierusalem." Y mae yn debyg ei fod yn ngwasanaeth brenin Babilon, oddi wrth ei fod, fel Daniel a'r tri llangc, wedi derbyn enw Caldeaidd, ac oddi wrth ei fod wedi derbyn gan Cyrus y swydd o lywodraethwr Iudea. Gan fod y llestri cyssegredig, y rhai a ddygodd Nebuchodonosor o'r deml, wedi eu hadferu, ac anrhegion helaeth o arian ac aur, a nwyddau, ac anifeiliaid wedi eu rhoddi i'r caethion, aeth Zorobabel allan yn ben ar y dychweledigion o'r caethiwed, yn cael ei ganlyn gan Iosuah yr archoffeiriaid, ac hwyrach gan y prophwydi Haggai a Zechariah, a chryn nifer o offeiriaid a Lefiaid, a phenau teuluoedd Iudah a Beniamin gyda'u canlynwyr. Wedi cyrhaedd i Ierusalem, y peth cyntaf a wnaeth Zorobabel oedd adeiladu yr allor ar ei hen safle, ac adferu yr aberth dyddiol. Dywedir hefyd yn *Ezra* iii. 4, eu bod wedi cadw gŵyl y Pebyll. Ond ei waith mawr, ar yr hwn y dechreuodd efe yn ddioed, oedd adeiladu y deml. Gan ei fod wedi cael gan Cyrus rodd o goed a cheryg at yr adeilad, ac o arian at gostau yr adeiladwyr (*Ezra* vi. 4), yr oedd efe wedi casglu y defnyddiau, yn cynnwys coed cedrwydd wedi eu dwyn o Libanus i Ioppa, yn ol yr enghraifft yn amser Solomon (2 *Cron.* ii. 16), a chafodd ynghyd seiri meini a seiri coed i wneuthur y gwaith, erbyn dechreu yr ail flwyddyn ar ol eu dychweliad i Ierusalem. Ac am hyny, yn yr ail mis o'r ail flwyddyn o'u dychweliad, gosodwyd sylfaen y deml gyda chymmaint o rwysg ag a allent—yr offeiriaid yn eu gwisgoedd gyda'u hudgyrn, a meibion Asaph gyda symbylau, gan ganu yr un salm o fawl i Dduw am ei fawr drugaredd i Israel ag a ganwyd pan gyssegrodd Solomon y deml (2 *Cron.* v. 11—14); tra yr attebodd y bobl gyda bloedd fawr o lawenydd, o herwydd fod sylfaen tŷ yr Arglwydd wedi ei gosod. Mor ryfedd y rhaid fod teimladau Zorobabel ar yr adeg hon!—pan y safai efe ar Fynydd Seion, ac y canfyddai oddi ar ei ben anghyfannedd-dra Ierusalem, safle y deml yn wâg, palas Dafydd yn bentwr o ludw, beddrodau ei dadau wedi eu halogi a'u gorchuddio âg ysbwrial, a distawrwydd ymadawiad a gwagder yn crogi yn bruddaidd uwch ben heolydd a diffeithleoedd, yr hon oedd unwaith yn ddinas lawen; ac yna cofio y modd yr oedd ei hynafiad enwog, Dafydd, wedi dwyn yr arch i fyny mewn buddugoliaeth i'r man ar yr hwn yr oedd efe y pryd hwnw yn sefyll, y modd yr oedd Solomon wedi teyrnasu yno yn ei holl fawredd a'i allu, a'r modd yr oedd mân frenhinoedd a phenaduriaid y gwledydd cyfagos wedi bod dan deyrnged iddo! Y mae yn rhaid fod ei galon yn chwyddo bob yn ail gan falchder, ac yn curo gan ofid, ac yn suddo mewn digalondid! Yn nghanol yr adgofion nerthol hyn, nid oedd efe ond swyddog i ormes-deyrn paganaidd tramor, penaeth gweddill bychan o gaethion wedi eu hanner rhyddhau, cadben ar fintai o bobl nad oeddynt prin yn ddigon dewr i ddal eu penau i fyny yn mhresennoldeb eu cymmydogion gelynol ac eiddigeddus; er hyny, yno yr oedd efe, mab Dafydd, etifedd addewidion mawrion a dirgelaidd, wedi ei ddychwelyd gan ragluniaeth ryfeddol i gartref ei hynafiaid. Ar ei orchymyn ef, yr oedd yr aberth dyddiol wedi ei adferu, ar ol ymattaliad o hanner cant o flynyddoedd; a'r pryd hwnw, gosodwyd sylfeini y deml i lawr yn nghanol caniadau y Lefiaid, y rhai a ganent yn ol trefniad Dafydd, a bloeddiadau llwyth Iudah. Yr oedd ei sefyllfa ef yn un hynod o gyffrous; ac er gwaethaf yr holl bethau oedd ynddi yn tueddu i'w ddigaloni, nid oes un ammheuaeth na bu yn foddion i roddi bywyd newydd yn ei ffydd a'i obaith.

Ond cyfarfyddodd â rhwystrau lawer cyn gorphen y gwaith. Haerai y Samariaid, yn gryf fod ganddynt hawl i ymuno â'r Iuddewon i adeiladu y deml; a phan y gwrthododd Zorobabel oddef iddynt gydweithredu â hwy, ceisiasant eu rhwystro i gyflawni eu hoff amcanion, a chyflogasant gynghreiriaid i geisio eu dyrysu. Y mae yn debygol ddarfod iddynt, yn y lle cyntaf, gynllunio i attal y cyflenwadau o goed a cheryg, a chyflogau y gweithwyr, y

Digitized by Google

rhai a delid allan o gyllid y brenin, ac yna trwy gam adroddiad i'w darostwng hwynt yn llys Persia. Fel hyn, hwy a lwyddasant i attal y gwaith yn ystod y saith mlynedd eraill o deyrnasiad Cyrus, a thrwy yr wyth mlynedd o deyrnasiad Cambyses a Smerdis. Ac ymddengys nad oedd Zorobabel yn hollol ddifai am yr oediad maith hwn. Nid oedd yr anhawsderau ar ffordd adeiladu y deml yn gyfryw fel yr oedd eisieu attal y gwaith; ond yn ystod yr attaliad maith hwn o un mlynedd ar bymtheg, yr oedd Zorobabel a'r gweddill o'r bobl wedi bod yn prysur adeiladu tai costus iddynt eu hunain; a gallai un hyd yn oed dybied fod y cedrwydd, y rhai oeddynt wedi eu dwyn yno i wneyd y deml, wedi eu defnyddio i addurno eu tai eu hunain: gwel *Hag.* i. 4, a 1 *Bren.* vii. 3, 7. Yr oeddynt mewn gwirionedd wedi myned yn ddifater ynghylch anghyfannedd-dra y deml (*Hag.* i. 2—4), ac heb sylwi fod Duw yn ceryddu eu clauarineb trwy attal ei fendith oddi wrth eu llafur: *Hag.* i. 5—11. Ond yn yr ail flwyddyn o deyrnasiad Darius, gwawriodd goleu ar dywyllwch y drefedigaeth o Babilon. Yn y flwyddyn hono, cymmerodd y digwyddiad hynotaf yn mywyd Zorobabel le; sef, adfywiad nerthol a disymmwth ysbryd prophwydoliaeth yn mysg y gaethglud ddychweledig; a blaenorwyd y distawrwydd maith oedd i ddilyn hyd weinidogaeth Ioan Fedyddiwr gan brophwydoliaethau cyffrous Haggai a Zechariah. Eu geiriau a ddisgynent fel gwreichion o dân ar lian golosg (*tinder*). Yn ddioed, Zorobabel, wedi ei gyffroi o'i ddifrawder, a dallodd ei holl nerth i'r gwaith, a chefnogwyd ef yn wresog gan Iosuah a'r holl bobl. Heb gymmeryd eu rhwystro gan ymgais newydd o eiddo eu gelynion i'w hattal i adeiladu, hwy a aethant yn mlaen gyda'r gwaith hyd yn oed tra yr oedd yr achos yn cael ei ddwyn at Darius; ac wedi darganfod gorchymyn gwreiddiol Cyrus yn Achmetha neu Ecbatana, anfonwyd allan orchymyn hynod o rasol a ffafriol gan Darius, yn peri i Tatnai a Setharboznai gynnorthwyo yr Iuddewon â phob peth angenrheidiol ar draul y brenin; ac aeth y gwaith yn mlaen mor gyflym fel y gorphenwyd y deml ar y trydydd o fis Adar, yn y chweched flwyddyn o deyrnasiad Darius, a chyssegrwyd hi gyda rhwysg mawr. Y mae yn anhawdd dyfalu pa faint o effaith a gafodd prophwydoliaethau Haggai a Zechariah ar Zorobabel er ei galonogi i orphen y gwaith. Gan eu bod yn cael eu cyfeirio yn uniongyrchol at Zorobabel wrth ei enw, ac yn traethu pethau tra gogoneddus am y deml, yr hon yr oedd efe yn ei hadeiladu, a chan roddi i Zorobabel ei hun sicrwydd neillduol am ffafr Duw, a chyssylltu âg ef ragfynegiadau mawreddog a chysurlawn am ogoniant dyfodol Ierusalem, ac Iudah, ac am droedigaeth y Cenhedloedd, yr oeddynt o angenrheidrwydd yn effeithio yn fawr ar ei feddwl: *Hag.* i. 13, 14; ii. 4—9, 21—23; *Zech.* iv. 6—10; viii. 3—8, 9, 18—23. Nid gormod ydyw dyweyd mai y prophwydoliaethau hyn yn mherthynas i Zorobabel oeddynt y moddion uniongyrchol drwy ba rai y cadwyd eglwys a gwladwriaeth Iudah rhag dinystr, ac y derbyniodd fywyd a barhaodd hyd ddyfodiad Crist.

Yr unig weithredoedd eraill o eiddo Zorobabel a gofnodir yn yr Ysgrythyr ydyw adferiad dosbarthiadau yr offeiriaid a chylchoedd y Lefiaid, a'r ddarpariaeth at eu cynnaliaeth, yn ol sefydliad Dafydd (*Ezra* vi. 18; *Neh.* xii. 47); rhestriad y caethion dychweledig yn ol eu hachau (*Neh.* vii. 5); a chadwraeth y Pasc yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad Darius: ac â'r digwyddiad olaf hwn y mae y cwbl a wyddom am fywyd Zorobabel, mab Salathiel, yn diweddu.

Yn yr achau, yn *Mat.* i. 12, a *Luc* iii. 27, gosodir ef allan fel mab Salathiel, er fod Llyfr y Cronicl yn dyweyd wrthym ei fod yn fab i Pedaiah, ac yn nai i Salathiel. Tra y mae Matthew yn olrhain ei achau o Iechonias a Solomon, y mae Luc yn ei olrhain trwy Neri a Nathan. Yma, cawn ben y genedl, tywysog Iudah, dyn blaenaf ei wlad, gyda llinach ddwbl—un yn ei osod ef allan fel yn disgyn oddi wrth holl frenhinoedd Iudah, y llall fel disgynydd o Dafydd, ond trwy linell faith o bersonau anghyhoedd ac anhysbys. Cawn ef, hefyd, yn llenwi y swydd o dywysog Iudah ar amser pan, mor bell ag y mae yr hanes yn ein hysbysu, yr oedd y teulu brenhinol wedi llwyr ddarfod. Ac os oedd efe yn disgyn o'r brenin olaf, ac yn ŵyr iddo, nid yw yr hanes, na'r prophwydi oedd yn cydoesi âg ef, na Josephus, na llyfrau yr Apocrypha, yn rhoddi yr awgrymiad lleiaf ei fod yn berthynas agos i Iechonias; ond os nad oedd yn berthynas agos iawn iddo, y mae yn amlwg oddi wrth Matthew ei fod yn hanu o hono. Y mae y casgliad oddi wrth hyn oll yn amlwg:—fod Zorobabel yn olynydd cyfreithlawn ac yn etifedd etifeddiaeth frenhinol Iechonias, ŵyr Neri, ac yn ddisgynydd uniongyrchol o Nathan mab Dafydd. Gwel SALATHIEL: ACHAU CRIST.

ZUAR: tad Nethaneel, penaeth llwyth Issachar yn amser y mynediad o'r Aipht: *Num.* i. 8; ii. 5; vii. 18, 23; x. 15.

ZUINGLIUS, ULRICH, neu Ulric Zuingle: un o'r Diwygwyr enwocaf. Ganed ef Ionawr 1af, 1484, yn Wildhaus, yn sir Tokenburg, yn nhalaeth St. Gaul, yn Switzerland. Yr oedd Zuinglius yn fab i amaethwr parchus, ac yn un o wyth o feibion. Parodd y protion boreuol a roddodd Ulrich ieuangc o'i fod yn meddu athrylith uwchraddol i'w dad ei gyssegru i'r eglwys. Gyda'r bwriad hwn, efe a'i hanfonodd yn gyntaf i Basel; yna i Bern, lle yr oedd ysgol lenyddol o radd uchel wedi ei sylfaenu ychydig cyn hyny. Lladin a ddysgodd efe yn benaf yno, ond astudiodd lawer hefyd ar weithiau tadau yr eglwys. Y pryd hwnw arferai y Dominiciaid ddylanwad mawr yn ninas Bern; a chan eu bod yn awyddus am gadw yr awdurdod a fwynheid ganddynt, ceisiasant hudo Zuinglius ieuangc, yn mhlith eraill, i gefleidio eu cyfeiliornadau a'u hofergoelion; a llwyddasant i'w ddarbwyllo i ddyfod i breswylio yn eu masnachdy nes y cyrhaeddai yr oedran arferol i dderbyn yr addysg angenrheidiol i'r weinidogaeth. Yr oedd ei dad yn anghymmeradwyo y cam hwn yn fawr; a gorchymynodd iddo adael Bern, a myned i ddinas Vienna—prif ysgol yr hon a ystyrid yn enwog iawn. Ufuddhaodd Zuinglius iddo; ac ymroddodd i astudio athroniaeth. Wedi treulio dwy flynedd yno, efe a ddychwelodd i dŷ ei dad am ychydig. Nid oedd y wybodaeth yr oedd eisoes wedi ei chyrhaedd yn ddigon ganddo. Yr oedd yn awyddus i chwanegu at ei ystôr, yn gystal ag i ddefnyddio yr hyn a feddai eisoes. Gan hyny, aeth yr ail waith i Basel; lle, dan Wyttenbach, y cyfeiriodd ei sylw at dduwinyddiaeth. Gan i gadair athraw fyned yn wâg yno, rhoddwyd hi i Zuinglius, yr hwn nid oedd y pryd hwnw lawn



Digitized by Google

deunaw mlwydd oed; ac efe a lafuriodd yno yn llwyddiannus i gefnogi a meithrin astudiaeth o'r ieithoedd clasurol. Nid oedd dyledswyddau ei sefyllfa mewn un modd yn llyngcu ei holl feddwl bywiog; ac am hyny efe a barhaodd i chwanegu at ei ddysgeidiaeth ei hun, yn gystal ag i gyfranu addysg i eraill. Ond nid esgeulusodd astudio y canghenau neillduol oedd yn angenrheidiol i'w barotoi, yn ol ei farn ef, i'r weinidogaeth.

Yn Basel, cymmerodd Zuinglius y gradd o athraw yn y celfyddydau. Yn nghanol ei lafur egniol gyda dysgeidiaeth, yr oedd efe yn gydymaith siriol a dymunol. Yr oedd wedi bod yn preswylio am bedair blynedd yn Basel, pan y darfu i fwrdeisiaid Glarus, prif ddinas y dalaeth o'r enw hwnw, ei ddewis yn weinidog arnynt. Derbyniodd yr alwad, yr hon a'i dygodd yn nes at ei deulu; ac wedi derbyn 'urddau,' fel y gelwir hwynt, aeth yno. O herwydd hyn, efe a benderfynodd ail ddechreu astudio duwinyddiaeth: a dechreuodd drwy chwilio y Testament Newydd yn fanwl. Mewn trefn i wneyd ei hun yn fwy cydnabyddus âg Epistolau Paul, efe a gopïodd y testyn Groeg â'i law ei hun, gan chwanegu ar ymyl y ddalen lawer o nodiadau, wedi eu dyfynu o weithiau tadau yr eglwys, yn gystal a sylwadau o'i eiddo ei hun. Tynwyd ei sylw trwy y moddion hyn at yr adnodau o'r Ysgrythyrau a ddyfynir yn ffurf gwasanaeth Eglwys Rhufain.

Wedi ymdrechu astudio testyn yr efengyl ar ei ben ei hun, gwnaeth Zuinglius fel hyn ei hun yn gydnabyddus â'r esboniadau a roddir gan dduwinyddion eraill, ac yn enwedig gan dadau yr eglwys. Oddi wrth y tadau, aeth Zuinglius yn mlaen at awdwyr dinôd y canol-oesoedd. Buasai arddull trwsgl a syniadau rhyfedd y cyfryw awdwyr yn fuan yn ei ddigaloni oni buasai ei fod yn ewyllysio cael gwybodaeth fanwl am sefyllfa Cristionogaeth yn ystod yr oesoedd tywyll hyn. Nid oddi ar gywreinrwydd noeth yr ymgymmerodd Zuinglius âg astudio y pethau hyn mor ddiwyd, ac am amser mor faith; ond er mwyn cael sicrwydd fod ei grefydd yn gorwedd ar sylfaen sicr ac ansymmudadwy. Ond yr oedd y canlyniadau o'r ymchwiliad hwn yn dra gwahanol i'r hyn a ddisgwyliodd efe. Ymddangosai llawer o'r esboniadau Pabaidd o'r Ysgrythyrau iddo erbyn hyn yn anghywir, a chredodd fod y dull o addoliad yn oes yr apostolion wedi myned dan gryn gyfnewidiad er gwaeth. Po agosaf at ei ffynnonell yr olrheiniai efe Gristionogaeth, egluraf yn y byd y canfyddai nad oedd wedi ei beichio â'r lliaws defodau yn mha rai yr haerai ei gydoeswyr fod hanfod crefydd yn gynnwysedig. Yn ngolwg Zuinglius hefyd, yr oedd y gallu diderfyn yn mron oedd yn nwylaw yr offeiriaid yn hollol wrthwyneb i'r hyn a ddysgid yn y Testament Newydd. Efe a ysgrifenodd Epistolau Paul yn yr iaith wreiddiol, ac a'u dysgodd hwynt allan; yr hyn a fu o wasanaeth mawr iddo ef ar ol hyny yn ei ddadleuon. Yn ystod ei breswyliad yn Glarus, gorchymynwyd iddo gan y llywodraeth i fyned allan gyda milwyr y dalaeth yn y cymmeriad o gaplan; ac yr oedd efe yn bresennol yn rhyfelgyrchoedd Lombardy yn erbyn Ffrainge yn 1512, 1513, a 1514—am yr hwn wasanaeth y derbyniodd bension gan y pab hyd y flwyddyn 1517. Yn 1516, gwahoddodd y gweinyddwr rhyddfrydig, Geroldseck, ef i ddyfod yn bregethwr yn mynachdy Maria-Einsiedeln, i'r hwn y cyrchai llawer iawn o bererinion. Ac yna dechreuodd Zuinglius bregethu yn erbyn llaweroedd o ddrygau a ffynent yn yr eglwys. Galwodd hefyd ar esgobion Sitten a Constance i wneuthur ymdrech i ddiwygio yr eglwys yn ol Gair Duw. Mor lleied y drwgdybid ef y pryd hwnw, fel y darfu i ddirprwywr Pabaidd, sef Antonio Pulci, roddi iddo, yn 1518, y diploma o gaplan i'r pab! Gan ei fod wedi ennill enwogrwydd mawr, anfonwyd am dano yn fuan ar ol hyny i Zurich; a dechreuodd ar ei swydd fel gweinidog yn yr eglwys fawr gadeiriol yno ar y dydd cyntaf o Ionawr, 1519, gyda phregeth, yn yr hon y dadganai ei benderfyniad i lynu wrth egwyddorion pur a syml yr efengyl. Yn y swydd hon, â'r hon yr unwyd, yn 1521, y swydd o ganon yn yr eglwys gadeiriol, y gosododd efe i lawr sylfaen ei waith dilynol fel diwygiwr.

Yr un achos ag oedd wedi cynnhyrfu gweithgarwch Luther, a roddodd symbyliad i Zuinglius. Yn 1518, daeth Bernardin Samson, Francisciad o Milan, i Switzerland i werthu maddeuant-lythyrau, er manteision arianol i lys y pab. Ond Zuinglius, yr hwn oedd etto yn Einsiedeln, ar ymddangosiad cyntaf Samson, a'i gwrthwynebodd ef yn benderfynol yno, ac ar ol hyny yn Zurich, gyda holl nerth ei hyawdledd fel pregethwr; a llwyddodd i'r fath raddau fel na oddefwyd i Samson fyned i mewn i'r dref hono. O'r amser yma, aeth Zuinglius, er fod y mynachod a llawer o'i frodyr canonawl yn ymosod arno, yn mlaen gyda chyflymdra mawr yn ei yrfa ddiwygiadol; canys cefnogodd ynadon Zurich ei fesurau i'r fath raddau fel y darfu iddynt, mor gynnar a 1520, anfon gorchymyn allan drwy holl derfynau eu hawdurdod, ar fod i Air Duw, heb unrhyw chwanegiadau dynol ato, gael ei ddysgu. Yn 1522, sefydlwyd y Diwygiad yn ffurfiol yn Zurich. Y pryd hwn yr ysgrifenodd Zuinglius ei lyfr cyntaf yn erbyn gwyliau Eglwys Rhufain, ac y darfu iddo hefyd ddechreu astudio yr iaith Hebraeg. Nis gallai y cynnygiad o ddyrchafiad a gyflwynwyd iddo gan Adrian VI. ei ysgogi ef yn y gradd lleiaf. Yn Ionawr, 1523, gwahoddodd llywodraeth Zurich yr holl dduwinyddion a deimlent duedd i ymrestru gyda Zuinglius, i gyfarfod mewn cynnadledd yn Zurich; yn yr hon y rhoddodd chwe chant o glerigwyr a lleygwyr eu presennoldeb. Yr oedd Zuinglius wedi trefnu 67ain o erthyglau ffydd, y rhai oeddynt i fod yn destynau ymddiddan yn y gynnadledd; ac amddiffynodd hwynt mor alluog yn erbyn ymosodiadau yr enwog Joh. Faber (wedi hyny Esgob Vienna), fel y darfu i gynghor Zurich ddadgan yn gyhoeddus ei gymmeradwyaeth o athrawiaethau Zuinglius, ac yr amddiffynid ef a'i gynnorthwywyr yn eu hymlyniad wrthynt.

Cymmerodd yr ail ddadl le Hydref, 1523, yn yr hon y siaradodd Zuinglius ger bron naw cant o bobl yn erbyn addoliad delwau, a'r offeren. Bu y ddadl hon yn achos o symmudiad yr holl ddelwau a'r darluniau o eglwysydd dinas Zurich a'r cyffiniau; a dilynwyd hyn yn 1524 gan ddiddymiad yr offeren. Yr un flwyddyn, priododd Anna Rheinhard, yr hon oedd yn 43ain mlwydd oed:—gweddw ydoedd i bendefig o'r enw Meyer von Knonow. Yn y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd ei gredo "Am y wir a'r gau Grefydd." Fel hyn, mewn ychydig flynyddoedd, efe a osododd y gwaith o ddiwygiad yn ei wlad enedigol ar sylfaen gref. Yna ymwthiodd yn mlaen yn selog yn yr un cyfeiriad; a darfu i ynadon Zurich, y rhai a'i cefnogasant ef yn

Digitized by Google

wresog ar hyd yr holl amser, ddiddymu y Cardod-frodyr, a dwyn materion perthynol i briodas o flaen y llysoedd gwladol, a sefydlu gwell arolygiaeth ar y meddiannau eglwysig. Mewn llawer iawn o bethau, yr oedd Zuinglius yn un â Luther, a'r Diwygwyr Germanaidd eraill. Yn unig gyda golwg ar faterion perthynol i ffurfwasanaeth y darfu iddo gario allan ei ddiwygiad yn fwy radicalaidd yn ol y Beibl, a gwrthod yr athrawiaeth o bresennoldeb Crist yn Swper yr Arglwydd. Mewn trefn i gyfanu y rhwyg oedd, mor foreu a 1524, wedi tori allan rhwng y ddwy blaid o'r grefydd newydd ar y pwngc olaf, cynnaliwyd cyfarfod rhwng y diwygwyr Saxonaidd a Swissaidd yn Marburg, yn 1529. Dygwyd y gynnadledd hon oddi amgylch gan Philip, Landgrave Hesse, a pharhaodd am dri diwrnod; ond ni wnaed ond ychydig o gynnydd tuag at sicrhau undeb barn. Yn 1531, torodd rhyfel allan rhwng Zurich ar un ochr, a thaleithiau Pabaidd Lucerne, Schwyz, Uri, Unterwalden, a Zug, ar yr ochr arall; a bu raid i Zuinglius, trwy orchymyn cynghor Zurich, gymmeryd y maes gyda baner y dalaeth—yr hon oedd bob amser wedi ei dwyn gan 'offeiriad.' Ar yr 11eg o Hydref, daeth y frwydr; a chan fod eu gwrthwynebwyr yn fwy na dwbl eu nifer, ac hefyd yn cael eu harwain yn well, gorchfygwyd y Zurichiaid; ac yr oedd Zuinglius yn mhlith y lladdedigion! Cyhoeddwyd casgliad o'i weithiau yn Zurich, yn 1545, yn bedair cyfrol; ac ymddangosodd detholion, mewn dwy gyfrol, yn 1819—1821, dan olygiad Usteri a Vögelin.

O'r holl ddiwygwyr, nid oes un yn deilyngach o gael ei garu a'i barchu na Zuinglius. Yr oedd ei amcan bob amser yn onest, ei syniadau yn oleu ac eglur, a'i ymlyniad wrth y gwirionedd yn ddiysgog. Os nad oedd efe mor hyawdl a Luther, nid oedd mor boethlyd; ac os nad oedd ei feddwl mor dreiddiol a Chalvin, yr oedd ei ysbryd yn fwy rhyddfrydig. Er nad oedd mor amlwg a'r diwygwyr hyn, yr oedd mor wreiddiol a hwythau. Nid oedd ei waith mor fawr a hwy, na'i ddylanwad mor helaeth; ond yr oedd ei gymmeriad yn llawn mor bur, a'i lafur, mewn rhai ystyriaethau, yn llawn mor barhaol.

ZUINGLIAID: cangen o'r diwygwyr, a alwyd felly oddi wrth Zuinglius, y duwinydd Swissaidd enwog, bywgraphiad yr hwn a roddasom yn yr erthygl uchod.

1. ZUPH, GWLAD: dosbarth, i'r hwn y cyrhaeddodd Saul a'i was ar ol myned trwy ddosbarthiadau Salisah, Salim, a'r Beniaminiaid: 1 *Sam.* ix. 5. Y mae yn amlwg ei fod yn cynnwys y ddinas yn yr hon y daethant i gyfarfod Saul (*adn.* 6), ac y mae yn sicr nad oedd hono yn mhell oddi wrth "fedd Rahel." Tybir mai yr un ydyw Zuph a *Soba*—lle tra adnabyddus, o ddeutu saith milldir i'r gorllewin o Ierusalem, a phum milldir i'r de-orllewin o *Neby Samwil.*

2. ZUPH: Lefiad Cohathaidd, un o hynafiaid Elcanah a Samuel: 1 *Sam.* i. 1; 1 *Cron.* vi. 35. Yn 1 *Cron.* vi. 26, gelwir ef yn Sophai.

ZURIEL: mab Abihail, penaeth y Lefiaid Meraraidd yn amser mynediad yr Israeliaid o'r Aipht: *Num.* iii. 35.

ZUZIAID: enw hen genedl. Gan eu bod yn gorwedd ar lwybr Cedorlaomer a'i gynghreiriaid, hwy a ymosodasant arnynt, ac a'u gorchfygasant. Ni wyddys beth yw gwreiddyn neu ystyr y gair. Cyfieithir ef gan y Deg a Thrigain yn "genedl gref." Tybia eraill mai ei ystyr ydyw 'crwydrwyr.' Ni wyddys i sicrwydd chwaith yn mha le y preswyliai y Zuziaid. Teithiai yr ymosodwyr o'r gogledd i'r deheu. Yn gyntaf, hwy a "darawsant y Rephaimiaid yn Asteroth-Carnaim;" yn nesaf, y Zuziaid yn Ham; ac yn nesaf, yr Emiaid yn Safeh-Ciriathaim. Nid ydys wedi cael allan yn mha le y safai y lle a enwyd olaf, ond y mae yn debygol nad oedd bell i'r gogledd o'r afon Arnon. Gan hyny, y mae lle i dybied fod awgrymiad Ewald yn gywir; sef, fod y Zuziaid yn preswylio gwlad yr Ammoniaid, ac mai yr un oeddynt a'r Zamzumiaid—cewri, y mae yn debygol, o hiliogaeth Ham, y rhai a dorwyd ymaith ac y meddiannwyd eu gwlad gan yr Ammoniaid. Wrth gwrs, nid ydyw hyn ond tybiaeth; ond y mae yn dra thebyg ei fod yn gywir.

Digitized by Google

# ATTODIAD I'R GWAITH.

## A.



ABELARD, PETER: athronydd Ffrengig enwog, yr hwn a hanodd o deulu pendefigaidd. Ganwyd ef yn Palais, ger Nantes, yn Llydaw, yn y flwyddyn 1079. Dywed Mosheim am dano ei fod yn meddu athrylith nodedig, ac i'w ddarlithiau ar athroniaeth a duwinyddiaeth ei ddyrchafu i binacl uchaf enwogrwydd llenyddol. Bu yn olynol yn ganon yn Paris, yn fynach, ac yn abad yn mynachdy Ruys. Nid anrhydeddus, pa fodd bynag, oedd ei ymddygiad at nith ei noddwr, Fulbert—yr enwog Heloise. Cyhuddwyd ef gan Bernard o flaen cynghorau Soissons a Lens, o goledd a dysgu amryw gyfeiliornadau, yn y fl. 1121 a 1140; ac o'r diwedd condemniwyd ef fel heretic. O ran ei dalent a'i ddysg, rhagorai ar bob un o'i farnwyr; ond fel llawer o ddynion o athrylith anghyffredinol a gwyllt, cymmysgai lawer o ddychymmygion anaeddfed gyda gwirioneddau eglur a disglaer. Yn anffodus parodd enwogrwydd Abelard i'w ddull newydd o ymdrin â gwirioneddau duwinyddol gael ei fabwysiadu gan lawer—nid yn unig yn Ffraingc, ond hefyd yn Italy a Lloegr. Yr oedd dull yr ysgolwyr yn hynod o ddysgedig; a chan eu bod braidd yn rhagori ar eu gwrthwynebwyr mewn gallu, athrylith, a doethineb, ennillent edmygedd ieuengctyd meddylgar; y rhai a heidient yn lluoedd i'w hysgolion. Parhaodd doctoriaid o'r ysgol hon mewn cryn fri yn y prifysgolion hyd amser Luther a'r Diwygiad Protestanaidd. Y mae hanes bywyd Abelard, mewn cyssylltiad â hanes Cristionogaeth yn y cyfnod hwnw, yn ddiammheuol yn dra addysgiadol. Yr oedd ei flynyddoedd olaf wedi eu chwerwi gan dreialon personol a theuluaidd, a bu yn wrthddrych cryn lawer o erledigaeth. Terfynodd ei yrfa ddaearol yn mynachlog St. Marcellus, ger llaw Chalons, yn 1142, yn 63ain mlwydd oed. Nid ydyw ysgrifeniadau Abelard yn cyfleu i ni syniad uchel iawn am ei athrylith a'i chwaeth; etto nis gellir gwadu nad oedd yn ddyn o alluoedd cryfion. Rhaid cydnabod mai efe a sefydlodd y dull ysgolorawl o athronyddu, a thrwyddo ef y parotowyd yn y canol-oesoedd yr awdurdod athronyddol eithafol a briodolid i Aristotle. Yn y ddadl rhwng yr Enwolwyr (*Nominalists*) a'r Sylweddolwyr (*Realists*), mabwysiadodd lwybr canol, gan honi fod syniadau cyffredinol yn fwy na gair noeth, sef yn *ymadrodd* (*sermo*).

ABRABANEL, ISAAC: rabbi Iuddewaidd enwog, yr hwn a hawliai ei fod yn ddisgynydd o'r brenin Dafydd. Ganwyd ef yn Lisbon, B. A. 1437. Pennodwyd ef yn gynghorwr i Alphonso v., brenin Portugal; ac wedi hyny i Ferdinand y Catholig; ond yn 1492, gorfodwyd ef i adael Yspaen gydag Iuddewon eraill. Wedi preswylio yn Naples a Corfu, ac amryw ddinasoedd eraill, bu farw yn Venice yn 1508, yn 71ain ml. oed. Ystyrid Abrabanel yn un o'r rabbiniaid mwyaf dysgedig; ac ystyrid ef gan yr Iuddewon yn ddoethawr, tywysog, a gwleidyddwr mawr. Y mae ar gael etto esboniad o'i eiddo ar yr Hen Destament; ond y mae yn lled brin. Glynu y mae efe gan mwyaf yn y gwaith hwn wrth yr ystyr llythyrenol; ac y mae ei arddull yn glir, ond braidd yn gwmpasog. Ei weithiau eraill, ydynt "*Traethawd ar greadigaeth y Byd;*" yn yr hwn y mae efe yn dadleu yn erbyn y safle a gymmerwyd gan Aristotle; sef, fod y byd o ran ei ddefnyddiau yn dragywyddol. Ysgrifenodd hefyd "*Draethawd ar y Prophwydoliaethau ynghylch y Messiah,*" yn erbyn y Cristionogion; a llyfr yn mherthynas i "*Erthyglau y Ffydd,*" a rhai llyfrau eraill. Er ei fod yn amlygu y gwrthwynebiad cryfaf i Gristionogaeth yn ei holl ysgrifeniadau, etto ymddygai yn foneddigaidd tuag at Gristionogion wrth ymdrin âg achosion cyffredin bywyd.

ACHILLES: un o arwyr penaf Groeg. Mab oedd efe i Peleus a Thetis, a brodor o Phthia, yn Thessaly. Addysgwyd ef gan Phœnix; yr hwn a'i dysgodd mewn areithyddiaeth, ac yn y gelfyddyd o ryfela. Yn y gelfyddyd feddygol, addysgwyd ef gan Chiron. Rhagfynegodd ei fam yr ennillai glod, ac y byddai farw yn ieuangc; neu y byddai fyw yn hir, ond yn anenwog. Dewisodd y blaenaf, ac aeth i ryfel Caerdroia; ond ni ddisgwyliai ddychwelyd oddi yno yn fyw. Hynododd ei hun yn fawr drwy gyflawni llawer o weithredoedd arwrol yn ystod y gwarchau. Digiodd wrth Agamemnon o herwydd colli Briseïs, ac ymneillduodd o'r gwersyll, gan gau ei hun i fyny yn ei babell. Ond dychwelodd yno yn ol er mwyn dial marwolaeth ei gyfaill Patroclus. Lladdodd Hector, cylymodd ei gorph wrth ei gerbyd, a llusgodd ef o amgylch muriau Caerdroia. O'r diwedd, clwyfwyd yntau yn ei sawdl â saeth, gan Paris, brawd Hector, pan yr oedd yn y deml yn gwneyd cyttundeb ynghylch ei briodas â Polyxena, merch y brenin Priam. Bu farw o'r archoll hwn, a chladdwyd ef ar fryn Sigæum; ac wedi cymmeryd Caerdroia, aberthodd y Groegiaid Polyxena ar ei fedd ef, mewn ufudd-dod i'w ddymuniad, fel y gallai fwynhau ei chwmni yn 'meusydd gwynfyd' (*Elysium*). Achilles ydyw prif arwr "*Iliad*" Homer. Gosodir ef allan fel yr harddaf a'r dewraf o'r Groegiaid; yn serchog tuag at ei fam a'i gyfeillion; ac yn ddewrfrydig

Digitized by Google

mewn brwydrau, yn y rhai yr ymhyfrydai. Mynegir i Alexander Fawr, pan ddaeth i weled ei fedd, ei anrhydeddu trwy osod coron arno; ac iddo waeddi allan ar yr un pryd fod "Achilles yn ddedwydd yn ystod ei fywyd, am fod ganddo y fath gyfaill a Patroclus; ac ar ol ei farw hefyd, gan iddo gael y fath fardd a Homer i ganu ei glod." Tybir, gan rai fod marwolaeth Achilles wedi cymmeryd lle yn y flwyddyn 1183 cyn y cyfnod Cristionogol.

ADAMS, JOHN: ail arlywydd yr Unol Daleithiau. Ganwyd ef yn Braintree, yn Massachusetts, Hydref 30ain, 1736. Addysgwyd ef yn mhrifysgol Caergrawnt, yn yr un dalaeth, a mabwysiadodd yr alwedigaeth gyfreithiol. Ar ol bod yn ymarfer ei alwedigaeth mewn amryw fanau, symmudodd i Boston. Cymmerodd ran flaenllaw yn y gwaith o sefydlu annibyniaeth yr Unol Daleithiau, a'u hysgaru oddi wrth goron Prydain; ac efe oedd y prif offeryn, o bossibl, i bennodi Washington yn gadlywydd y byddinoedd. Yr oedd efe yn un o ddirprwywyr y gynnadledd a gynnaliwyd yn llys Versailles yn 1777; ac yn fuan ar ol ei ddychweliad i'r America, yn nghynhauaf y flwyddyn 1779, dewiswyd ef yn llysgenhadwr er dwyn oddi amgylch gyttundeb heddwch â Phrydain Fawr, ac hefyd i wneuthur cyttundeb masnachol â hi. Aeth yn gyntaf i Paris, ac oddi yno i Holland, lle y derbyniwyd ef fel cenhadwr yr Unol Daleithiau. Cwblhawyd y cyttundeb heddwch â Phrydain yn 1784; a'r flwyddyn ddilynol, pennodwyd ef yn llysgenhadwr cyntaf yr Unol Daleithiau i'r wlad hon. Arosodd yma hyd ddiwedd 1789, ac etholwyd ef yn is-lywydd yr Unol Daleithiau; ac yn 1793, cafodd ei ail ethol i'r un swydd. Ar ymneillduad Washington o'r arlywyddiaeth, disgynodd y dewisiad ar Mr. Adams, yr hwn a ymgymmerodd â'r swydd yn mis Mai, 1797. Ar derfyn pedair blynedd, etholwyd Jefferson yn olynydd iddo. Ymneillduodd Adams o fywyd cyhoeddus yn 1804, ac aeth i breswylio i'w ardal enedigol. Y tro diweddaf y cymmerodd ran mewn achosion cyhoeddus oedd, fel aelod o gynnadledd er diwygio cyfansoddiad Massachusetts. Yr oedd cyfnewidiadau yn angenrheidiol, gan fod talaeth Maine yn ymwahanu oddi wrthi. Ymddengys ei fod yn mwynhau ei alluoedd meddyliol hyd ddiwedd ei oes faith. Bu farw Gorphenaf 4ydd, 1826, yn y 89ain mlwydd o'i oedran. Gyda bod Adams yn wladweinydd galluog, yr oedd efe hefyd yn ysgolhaig da; ac yr oedd yn dra chyfarwydd yn yr ieithoedd clasurol, ac mewn amryw ganghenau o lenyddiaeth gyffredinol.

ADDISON, JOSEPH: un o brif addurniadau llenyddiaeth Saesnig. Ganwyd ef yn mheriglordy Milston, yn swydd Wilts, Mai 1af, 1672. Yr oedd ei dad, Dr. Lancelot Addison, yn beriglor y plwyf uchod, ac wedi hyny bu yn ddeon Lichfield. Ar ol derbyn elfenau ei addysg gartref, yn Salisbury, a Lichfield, symmudwyd ef i ysgol y Charter House, yr hon oedd y pryd hwnw o dan arolygiaeth Dr. Ellis; ac yno y daeth i gydnabyddiaeth ac y ffurfiodd gyfeillgarwch gyntaf â Mr. Richard Steele. Yn 1687, symmudodd i Goleg y Frenhines, yn Rhydychain; a dwy flynedd yn ddiweddarach, etholwyd ef yn ysgolor o goleg Magdalen. Yn nghwrs y blynyddoedd dyfodol, ennillodd gymmeriad uchel o herwydd ei allu i gyfansoddi barddoniaeth Lladinaidd. Yn 1693 y gwnaeth efe y cais cyntaf i farddoni yn yr iaith Saesnig. Cyfansoddodd gân fechan i anerch John Dryden, y bardd; yr hon a edmygid yn fawr gan y beirniaid goreu. Ymddengys ei fod, ar un adeg, yn barod i ddilyn esampl ei dad, a chymmeryd ei ordeinio yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig; ond disgynodd rhywbeth i beri iddo roddi heibio y penderfyniad hwn. Drwy offerynoliaeth Arglwydd Somers, penderfynodd y llywodraeth roddi iddo flwydd-dâl o 300*p.*; yr hyn a'i galluogodd, tua diwedd y flwyddyn 1699, i foddio ei dueddfryd i fyned ar daith drwy Italy. Ar ei ddychweliad yn ol, yn 1703, cyhoeddodd hanes ei deithiau. Ar farwolaeth William III., daeth y Toryaid i awdurdod, ac attaliwyd ei flwydd-dâl, yr hwn ni dderbyniodd ond am un flwyddyn—a bu Addison am beth amser megys yn segura. Ond yn 1704, dechreuodd cyfnod newydd ar ei fywyd, yr hwn a barhaodd hyd y fl. 1710, pan yr oedd yn ddeunaw ar hugain oed. Dyma gyfnod cyntaf ei yrfa swyddol; ac er ei fod yn hollol ddiffrwyth yn mron o ran cynnyrchion llenyddol, yr oedd efe ddigon uwch law angen; ac o hyny allan yr oedd ei safle fel dyn cyhoeddus wedi ei sefydlu. Cymmeradwywyd ef i sylw Arglwydd Godolphin fel un cymmhwys i ddathlu buddugoliaeth y Duc o Marlborough yn Blenheim. Ac mewn canlyniad i hyny, efe a gyfansoddodd y bryddest a elwir "*The Campaign;*" yr hon a dderbyniwyd gyda chymmeradwyaeth mawr, ac a arweiniodd i'w bennodiad yn un o ddirprwywyr yr appêl perthynol i'r cyllid. Yn 1706, gwnaed ef yn un o ysgrifenyddion y wladwriaeth; a thua'r pryd hwn y cyfansoddodd ei chwareu-gân (*opera*) a elwir "*Rosamond.*" Etholwyd ef yn aelod o Dŷ y Cyffredin yn 1708; ac eisteddai yno gyntaf dros Lostwithiel, ond wedi hyny dros Malmesbury; ac etholwyd ef chwe gwaith i'w chynnrychioli, sef o'r flwyddyn 1710 hyd ei farwolaeth. Methiant ydoedd ei fywyd seneddol yn ddiau. Nid ydyw yn hysbys pa ran a gymmerwyd ganddo yn manylion y gweithrediadau a ddygid yn mlaen, ond yr oedd bob amser yn aelod distaw; oddi eithr ei fod wedi gwneyd ymgais i siarad unwaith, pryd y gorfodwyd ef i eistedd i lawr mewn dyryswch. Mynegir am dano hefyd ei fod mor fanwl ynghylch cyfansoddiad ei frawddegau, fel y byddai hyny yn ei ddyrysu weithiau pan yn parotoi bryslythyr pwysig yn frysiog; ac iddo lawer gwaith orfod rhoddi y gorchwyl i un o'i ysgrifenyddion, er mwyn ei gael mewn pryd.

Yn 1709, aeth drosodd i'r Iwerddon yn ysgrifenydd i'r Ardalydd Wharton, yr arglwydd raglaw, a phennododd y frenhines ef yn geidwad y cofnodion. Y mae y saith mlynedd hyn o'i fywyd swyddol yn mron yn wagnod mewn ystyr llenyddol yn ei hanes—nes y deuir yn agos i'w terfyn. Yn ystod misoedd diweddaf ei dymmor swyddol, pa fodd bynag, ysgrifenodd lawer i'r "*Tatler,*" yr hwn a ddygwyd allan gan ei hen gyfaill Syr Richard Steele. Aeth y Whigiaid allan o awdurdod, a bu y Toryaid yn llywodraethu hyd ddiwedd teyrnasiad Anne, yn 1714; ac felly, rhyddhawyd Addison o hualau swydd, a chafodd gyflwyno pedair blynedd goreu ei oes i gyfoethogi llenyddiaeth y Saeson, ac hefyd i chwanegu yn fawr at ei enwogrwydd ei hun. Treuliwyd y pedair blynedd hyn yn benaf ganddo i gyfansoddi ei draethodau cyfnodol digyffelyb. Rhoddwyd y "*Tatler*" i fyny ganddo yn

Digitized by Google

nechreu 1711, a dilynwyd ef gan y "*Spectator*," yr hwn a ddaeth allan gyntaf ar y 1af o Fawrth, a pharhaodd i ddyfod allan bob dydd ond y Sabbathau hyd y 6ed o Ragfyr, 1712. Erbyn hyny, yr oedd y 555 o rifynau a gasglwyd yn y saith gyfrol gyntaf wedi eu cwblhau. Yr oedd efe yn cydlafurio â Steele ar hyd y ddwy flynedd hyny. I Addison, yn ddiammheu, yr oedd y "*Spectator*" yn ddyledus, i raddau mawr, am ei brif ragoriaethau. Byddai ei bapyrau yn cael eu llawnodi âg un o'r llythyrenau a ffurfiai enw yr awen, sef *Clio:* ac mor fawr oedd poblogrwydd y "*Spectator*" fel y mynegir fod tuag ugain mil o gopïau o hono, weithiau, yn cael eu gwerthu mewn diwrnod. Pan y rhoddwyd ef i fyny, cyhoeddodd Steele y "*Guardian*," yn Mawrth, 1713; ond darfu gyda'r rhifyn 175. Yr oedd tri ar ddeg a deugain o draethodau y "*Guardian*" wedi eu cyfansoddi gan Addison: ond nid ydynt, ar y cyfan, mor ragorol a'i draethodau yn y "*Spectator*." Yn misoedd diweddaf 1714 yr ymddangosodd yr wythfed, a'r olaf, o gyfrolau y "*Spectator*." O'r traethodau sydd yn y gyfrol hon, y mae pedwar ar hugain o gyfansoddiad Addison; ac y mae yn eu mysg amryw o'r rhai rhagoraf o'i holl ysgrifeniadau. Yn 1713 yr ymddangosodd ei dreis-gân "*Cato*." Yr oedd ei llwyddiant yn anarferol, a chafodd ei darllen gydag awyddfryd a phleser drwy y wlad yn gyffredinol.

Daeth gyrfa lenyddol Addison yn mron i ben yn fuan ar ol marwolaeth y frenhines Anne, yn Awst, 1714, gyda ei fod wedi cyrhaedd dwy flwydd a deugain: ond bu fyw bum mlynedd wedi hyny. Yn 1715, dechreuodd gyhoeddi ei "*Freeholder*," yr hwn oedd fath o "*Spectator*" gwleidyddol, ac a ysgrifenwyd yn gwbl ganddo ef ei hun; ond pymtheg rhifyn a deugain yn unig a gyhoeddwyd o hono. Yn y flwyddyn ddilynol, priododd iarlles waddolog Warwick; ond y mae lle i gasglu na chwanegodd hyn nemawr at ei ddedwyddwch. Yn 1717, pennodwyd ef yn un o brif ysgrifenyddion y wladwriaeth; ond y mae yn ymddangos fod y gwaith trwm a ddisgynodd arno mewn cyssylltiad â'r swydd, ynghyd â'r caethder a'r diffyg anadl yr oedd yn ddarostyngedig iddynt o'r blaen, wedi bod yn foddion i wanhau ei iechyd, ac i brysuro dydd ei ymddattodiad. Gan hyny, yn mhen un mis ar ddeg, efe a ymddiswyddodd, a chaniatawyd iddo flwydd-dâl o 1,500*p*. Defnyddiodd ei amser yn awr i gyfansoddi ei draethawd ar "*The Evidences of the Christian Religion;*" ond ni bu fyw i'w gwblhau. Yr afiechyd o'r hwn y bu efe farw oedd diffyg anadl a'r dyfrglwyf. Cymmerodd ei farwolaeth le yn Holland House, Kensington, Mehefin 17eg, 1719, yn y 47ain flwydd o'i oed, a chladdwyd ef yn Westminster Abbey, yn Nghornel y Beirdd.

Ystyrid Addison ar un adeg yn fardd Saesneg mawr; ond yn awr, y mae ei enwogrwydd yn gorphwys yn benaf ar ei bryddestau Lladinaidd, a'i draethodau digyffelyb yn y "*Spectator*," a chyfnodolion eraill. Y mae ei arddull bob amser yn cael ei hystyried fel cynllun o goethder a chywirdeb. "Pwy bynag," medd Dr. Johnson, "sydd yn ewyllysio ymberffeithio mewn arddull Saesneg, gynnefin ond nid anghoeth, brydferth ond nid rhodresgar, rhodded ei ddyddiau a'i nosweithiau i astudio cyfrolau Addison." Mewn gwirionedd, nid oes un o'r clasurwyr Saesneg a werthfawrogir yn fwy ac a ganmolir yn uwch nag efe.

Y bywgraphiad goreu o hono ydyw yr un gan Lucy Aikin; a'r casgliad goreu o'i holl weithiau ydyw yr un a gyhoeddwyd gan Baskerville yn Birmingham, yn y flwyddyn 1761. Cyhoeddwyd y "*Spectator*" o'r newydd yn 1871, gyda nodiadau rhagorol gan Henry Morley.

ADEILYDDIAETH (*Architecture*), ydyw y gelfyddyd o ddyfeisio a chynllunio adeiladau gwladol neu eglwysig; megys palasau, chwareudai, eglwysydd neu gapelydd, neuaddau, pontydd, &c. Er y gellir cymmhwyso y gair at bob math o adeilad, etto trwy gydsyniad cyffredinol y mae yn cael ei gyfyngu at yr adeiladau hyny a fyddont yn amlygu trefniad rheolaidd yn eu cynllun cyffredinol, a chyfaddasiad priodol yn y gwahanol ranau o honynt, fel ag i arddangos dychymmyg uchel, ac i gynnyrchu ynom deimladau o ddyddordeb, prydferthwch, mawredd, a gallu. I deimladau crefyddol dynion y gellir priodoli dechreuad a chynnydd y gelfyddyd hon, yn fwy na dim arall. Y mae yn yr Aipht, ac India, yn ngwlad Groeg ac Italy, yn Gaul a Phrydain, ac yn Mexico a Pheru, adeiladau i addoli ynddynt o'r amseroedd boreuaf ar gael etto. A gellir cymmeryd yn ganiataol, dybygid, mai math o bebyll oedd trigleoedd cyntaf dynion; ac mai wedi i bobl ymgasglu at eu gilydd i ddinasoedd y meddyliwyd am rywbeth mwy arosol na phabell i drigo ynddi.

Y mae genym, o'r amseroedd boreuaf, hanes am gyfodiad allorau, ac heb demlau. Y peth cyntaf a wnaeth Noah ar ol dyfod allan o'r arch oedd adeiladu allor. Adeiladodd Abraham allorau mewn amryw o fanau; ac felly hefyd Isaac ac Iacob; a'r diweddaf ydyw y cyntaf y dywedir iddo gyfodi careg, a'i gosod yn golofn: *Gen.* xxviii. Ar ol deffro, wedi cael ei freuddwyd hynod, efe a ddywedodd, "Diau fod yr Arglwydd yn y lle hwn......nid oes yma onid tŷ i Dduw." "Ac efe a gymmerth y gareg a osodasai efe dan ei ben, ac a'i gosododd hi yn golofn, ac a dywalltodd olew ar ei phen hi. Ac efe a alwodd y lle hwnw Bethel." Dywedodd yn mhellach, "A'r gareg yma, yr hon a osodais yn golofn, a fydd yn dŷ Dduw. Yn nghyfammod Sichem, Iosuah a "gymmerth faen mawr, ac a'i gosododd i fyny yno dan dderwen oedd yn agos i gyssegr yr Arglwydd. Ac Iosuah a ddywedodd wrth y bobl, Wele, y maen hwn a fydd yn dystiolaeth; canys efe a glywodd eiriau yr Arglwydd;" *Ios.* xxiv. 26, 27. Ac ar ol y frwydr â'r Philistiaid yn Mispah, "cymmerodd Samuel faen, ac a'i gosododd rhwng Mispah a Sen, ac a alwodd ei enw ef Ebenezer; ac a ddywedodd, Hyd yma y cynnorthwyodd yr Arglwydd nyni;" 1 *Sam.* viii. 12. Y mae yn amlwg oddi wrth yr Ysgrythyr yr arferid aberthu ar y meini a osodasid i fyny: 1 *Sam.* vi. 14, 15. Gosododd Moses ac Iosuah i fyny ddeuddeg o geryg, yn ol rhifedi y llwythau. Y mae math o gyfattebiaeth rhwng y meini hyn a chromlechau yr hen genhedloedd Celtaidd, dybygid. Y mae Strabo yn son am demlau yr Aiphtiaid, yn disgrifio y rhai hynaf yn eang iawn o ran maint, ac yn gwbl syml a diaddurn. Dywed Lucian a Herodotus nad oedd yn y temlau Aiphtaidd hynaf na cherfluniau na delwau. Y mae Moses yn gorchymyn i feibion Israel yn mherthynas i osod y ceryg i fyny ar ol dyfod dros yr Iorddonen, a'r allor oedd i gael ei gwneyd; sef, nad oedd un "arf haiarn" i gael ei ddefnyddio arnynt. Tuedda hyn i gadarnhau y

Digitized by Google

dyb mai yr amcan oedd eu hattal rhag gwneyd yr hyn yr arferai eu diweddar lywodraethwyr ei wneyd—certio y delwau ar yr allorau neu y colofnau, a thrwy hyny syrthio i eilunaddoliaeth: *Deut.* xxvii. 2—6. Wedi y cyfan, nid ydyw o gymmaint pwys i geisio penderfynu pa un ai o adeiladau cyffredin, ynte rhai cyssegredig, y deilliodd adeilyddiaeth fel y cyfryw. Gan hyny, ni a geisiwn yn awr roddi golwg mor gryno ag y gallwn ar hanes a chynnydd adeilyddiaeth i lawr hyd ein dyddiau ni. Dylid crybwyll yr amrywiol ffurfiau o adeiladau cynhanesyddol, y rhai a ddosberthir fel y canlyn:— **1.** Meini hirion, megys yr un yn Caen ac yn Llydaw, y rhai sydd yn 63ain troedfedd o uchder. 2. Cromlechau, y rhai ydynt yn ddigon adnabyddus. 3. Y Cylch-feini, megys yr un yn Stonehenge, a manan ereill. 4. Tomenydd, neu gytiau, ar ffurf cychod gwenyn, y rhai sydd i'w gweled mewn rhanau o Ysgotland, Cernyw, a Chymru. 5. Y dwfr adeiladau, sef math o fythod wedi eu hadeiladu o goed, fel ag i orwedd ychydig yn uwch na gwyneb dwfr y llynoedd, ar ba rai eu hadeiladwyd. Ceir olion o honynt yn Switzerland, Sweden, ac Italy, &c.

Yr Arddull Aiphtaidd.—Nid oes yn un wlad adeiladau a ddeil eu cymmharu am eangder ac ardderchawgrwydd âg adeiladau o'r arddull hwn. Ar awdurdod yr haneswyr gellir meddwl fod yn y wlad hono gynt adeiladau oedd yn rhagori ar y rhai y mae eu hadfeilion ar gael yno yn awr. Sonia haneswyr hefyd am ddinasoedd Assyria fel yn ddigymmhar yn mron am eangder ac ysblander eu hadeiladau, er nas gellir yn awr ddyfod o hyd i'r man lle y safent. Y mae yr hyn ydyw y pyramidiau a'r temlau sydd yn yr Aipht yn awr, pa fodd bynag, yn ein rhwymo i ddychymygu pa fath oeddynt gynt, yn annibynol ar hanesyddiaeth. Yr oedd Ninefeh a Babilon yn bod unwaith, ond y mae Thebes a Memphis yn aros etto. O'r holl Pharaohiaid, Sesostris, sef y cyntaf o'r bedwaredd deyrnach ar bymtheg, oedd yr enwocaf am y gwaith a wnaeth mewn adeilyddiaeth. Priodolir y rhan fwyaf o'r adfeilion sydd yn yr Aipht, cyn goresgyniad y Persiaid, i'r brenin hwn gan Champollion. Iddo ef y priodolir yr adfeilion enfawr sydd yn Thebes a elwir y *Memnonium*, neu deml-balas Rameses Fawr, neu Sesostris. Y mae yr adeilad ardderchog sydd yn mhentref Carnac, o fewn yr un ddinas, yn rhagori yn mron ar y lleill mewn eangder a mawreddigrwydd. Adwaenir yr adeilad hwn yn gyffredin fel teml Carnac, neu deml Iau Ammon. Adeiladwyd hi gan Thothmosis ɪɪ., rhagflaenydd Amenophis Memnon. Ac oddi wrth yr adfeilion sydd yn Thebes yn awr, a thystiolaethau haneswyr, gellir tybied fod y ddinas hono wedi cyrhaedd ei henwogrwydd uchaf yn amser Sesostris; gan nad oes ond ychydig o'i hadfeilion o ddyddiad diweddarach. Rhaid fod adeilyddiaeth, a chelfyddydau peiriannyddol eraill ar y pryd hwnw yn cael eu deall yn dda. Yn wir, y mae holl gofadeiliau y Pharaohiaid yn yr Aipht a Nubia yn gampweithiau gwyddor a chelf. Dywed Champollion na wnaeth y Ptolemiaid ond ail adeiladu temlau oeddynt wedi sefyll er dyddiau y Pharaohiaid; a dywed yn mhellach na wnaeth y Ptolemiaid a'r Cæsariaid yn Nubia ond yn unig adferu yr hyn a ddinystriodd y Persiaid, gan ail adeiladu y temlau lle y safent o'r blaen. O holl weithiau adeilyddol yr Aiphtiaid, pa fodd bynag, nid oes dim wedi cyffroi syndod a chywreinrwydd yn fwy na'r pyramidiau eu hunain. [Gwel d.g.] Nid oes un arddull adeilyddol mor gymmhwys i wneyd argraph arosol ar y meddwl ag ydyw yr Aiphtaidd. Diau fod yr arddull Aiphtaidd yn un gwreiddiol; ac nid yn tarddu, fel y myn rhai, o'r India; ac y mae yn sicr hefyd ei fod yn cynnwys yr enghreifftiau hynaf o adeilyddiaeth sydd yn y byd. Yma y cawn yr esampl gyntaf o'r golofn yn y gelfyddyd; ond nis gallodd yr Aiphtiaid ei pherffeithio yn ei manylion. Nis gallasant chwaith fyned tu hwnt i'r ffurf onglog at y crwn a'r aml-ochrog. Esgeuluswyd y bŵa ganddynt, er ei fod yn adnabyddus iddynt.

Y defnyddiau a arferid yn y cofadeiliau adeilyddol hyn oeddynt, gan mwyaf, ithfaen, creigronos (*breccia*), ceryg nâdd, a phriddfeini heb eu crasu. Dygid yr ithfaen gan mwyaf o chwarelydd Elephantina a Syene i lawr ar hyd y Nilus; a dygid rhyw fath o geryg i lawr yr afon o Ethiopia; ond nid ydym yn cael fod y defnyddiau wedi eu dwyn o wledydd tramor eraill.

Yr Arddull Persiaidd.—Dywed Herodotus nad oedd gan yr hen Bersiaid gerfluniau, temlau, nac allorau; a dywed Diodorus Siculus na chafodd palasau Persopolis a Susa eu hadeiladu hyd ar ol i Cambyses orchfygu yr Aipht. Y mae yr arddull Persiaidd, er yn wahanol iawn mewn rhai pethau, yn dal perthynas â'r arddull Aiphtaidd. Dywed Syr Robert Porter fod hen adfeilion Persopolis yn ymdebygu i adfeilion yr Aipht. Er hyny y mae llawer yn tybied fod yr arddull Persiaidd yn un gwreiddiol, ac mai ffrwyth damwain ydyw y tebygolrwydd. Nid oes genym hysbysrwydd hanesyddol na hynafol i ddangos beth oedd arddull adeilyddol yr hen Assyriaid. Dywed Lucian, pa fodd bynag, fod eu temlau yn llai hynafol nag eiddo yr Aiphtiaid. Nid ydyw yr adfeilion y credir am danynt mai yr eiddo Babilon oeddynt ond pentyrau o briddfeini, oddi wrth ba rai nis gellir casglu dim ynghylch eu harddull, na'r cynnydd a wnaeth y gelfyddyd yn y wlad hono. Ond y mae rhyw weddillion a gafwyd wrth gloddio yr adfeilion wedi eu dwyn i'r Amgueddfa Brydeinig, sydd yn boddloni dynion ymchwilgar fod yr adeiladau, o ran cynllun cyffredinol, yn gyffelyb i'r eiddo y gwledydd cylchynol. Y mae yr arddull hwn yn un gwreiddiol—heb ei gopïo ar un llaw, ond heb roddi bod i arddull arall. Y mae yn gwbl annhebyg i'r eiddo yr Aipht ac Assyria. Cafodd ei ddadblygu yn gydamserol â'r arddull Groegaidd, ond yn gwbl wahanol. Y mae yr arddull yn un mawreddog, darluniadol, a phrydferth yn ei olion dirywiedig.

Yr arddull Iuddewaidd.—Nid oedd adeilyddiaeth yn debyg o fod yn flodeuog yn mysg llwythau bugeiliol Israel. Mewn gwledydd amaethyddol a masnachol, fel yr Aipht a Groeg, y cynnyrchir yr adeiladau gwychaf; ac nid yn mysg llwythau crwydrol Arabia a Phalestina. Ymddengys nad oedd gan ŵr mor fawr a Saul, brenin Israel, un cartref arosol; a chyflawnwyd seremoniau crefyddol yr Iuddewon yn Gilgal, lle yr oedd y deml, o geryg heb eu naddu, a gyfodwyd gan Iosuah pan y cymmerodd feddiant o wlad yr addewid, ac y gwnaeth gyfammod rhwng Duw a'r bobl, hyd nes yr adeiledid y deml yn Ierhsalem. Gosododd Iosuah allor i fyny ar Fynydd Ebal; ac yn mhen llawer o amser, adeiladwyd teml ysblenydd arall, naill ai ar fynyddoedd Ebal neu Garizim, lle yr addolai y Samariaid. Yn ol a ellir gasglu, nid oedd

Digitized by Google

olynydd Saul, y brenin Dafydd, yn trigo mewn tŷ gorwych, nes y tynodd ei deyrnasiad i'r terfyn, pan y mynegir iddo adeiladu tŷ iddo ei hun; ac hyd nes yr adeiladwyd y deml yn y teyrnasiad dilynol ni bu gan arch yr Arglwydd orphwysfa arosol. Y mae y pethau hyn, ynghyd â gwaith Solomon yn danfon i Tyrus am weithwyr, ac o bossibl am gynllunydd hefyd, gellir tybied, yn brawf sicr, pa sefyllfa bynag yr oedd adeilyddiaeth ynddi yn mhlith yr Iuddewon ar ol adeiladu y deml, ei bod yn isel cyn hyny. Y mae yn anhawdd gwybod yn mha arddull yr adeiladwyd teml Solomon:—y mae cryn wahaniaeth barn ar hyn. Ond am fod y Phœniciaid, y rhai a ddefnyddiwyd i weithio y deml yn adeiladu eu hunain yn yr arddull Aiphtaidd, gellir tybied ei bod yn cyfranogi yn helaeth o'r arddull Aiphtaidd neu y Phœniciaidd. Y mae Clement o Alexandria yn disgrifio teml Aiphtaidd a welodd efe, debyg i'r disgrifiad a roddir o'r deml yn Ierusalem.

Yr arddull Groegaidd.—Ni wyddys am unrhyw adeilad golofnog yn ngwlad Groeg, nac yn un man arall, mewn arddull Groegaidd, o ddyddiad boreuach nag adfeilion teml Corinth, yr hon sydd yn y ffurf symlaf o'r hyn a elwir yr arddull Doraidd (*Doric*). Yr unig weithiau adeilyddol sydd yn aros o eiddo y Groegiaid hynafol, heb law temlau, pyrth, a chofadeiliau corawl, ydynt chwareudai. Y mae y rhai hyn yn gyffredin yn sefyll ar ochr bryn, ac ymddengys eu bod wedi eu cloddio neu eu cerfio allan o'r pridd neu o'r graig, yn hytrach na'u hadeiladu. Nid ymddengys fod yn y chwareudai unrhyw ddarpariaeth i gysgodi yr edrychwyr, nac yn wir y chwareuwyr eu hunain, rhag gwlaw; oddi gerth fe allai rhyw orchudd cul yn ymyl y mur, nas gallai gysgodi ond ychydig o'r lliaws a arferent ddyfod ynghyd; o herwydd yr oedd y chwareudai yn dal o bump i bymtheg, ac hyd yn oed ugain mil o bobl. Yr oedd hyn, a dyweyd y lleiaf, yn gryn anfantais i'r gwyddfodolion, hyd yn oed mewn hinsawdd mor ddymunol ag un Groeg; o herwydd yr oeddynt dan belydrau poeth yr haul pan y tywynai yn gryf, ac yn cael eu hattal i fwynhau eu hunain gan y gwlaw ar dywydd gwlyb. Nid oes enghreifftiau i'w cael o dai y Groegiaid hynafol; ond gellir cymmeryd yn ganiataol eu bod yn llai na'r eiddo y Rhufeiniaid—gan eu bod yn dlotach, ac o angenrheidrwydd yn ymhyfrydu llai mewn moethusrwydd. Y mae ceinder a phrydferthwch yn nodweddu pob peth sydd o darddiad Groegaidd, megys bathodau, llestri, offer amaethyddol, neu arfau rhyfel; ac y mae eu dodrefn yn arwyddo chwaeth dda. Fodd bynag, yr oedd eu hanwybodaeth am y bŵa neu y gromen (*arch*), a'u coed-saernïaeth gwael, yr absennoldeb o wydr, a'u hanwybodaeth ynghylch simneiau, yn anfanteision i'r Groegiaid wrth adeiladu eu palasau, nas gallasai eu chwaeth mewn pethau eraill wneyd i fyny am danynt. Nid oedd y Groegiaid o'r bron un amser yn gosod defnyddiau tramor yn eu hadeiladau. Codent eu meini o'r chwarelau agosaf atynt, yn mha rai, y rhan fynychaf, y ceid ceryg o ansawdd dda. Adeiladwyd prif adeiladau Athen o farmor, a godid o chwarelau Pentelicus.

Y mae yr arddull Groegaidd yn rhagori ar bob un arall mewn prydferthwch, ffurf, a chyfartaledd, ac yn y symlrwydd perffaith a'r cydweddiad hynod sydd yn treiddio drwy holl ranau eu hadeiladau. I'r Groegiaid yr ydym yn ddyledus am berffeithio y golofn, yn ei manylion. Hwy hefyd a ddarganfyddasant y gorpheniad trionglog addurniadol ar dalcen adeiladau, a elwir yn *pediment*.

Yr arddull Rhufeinaidd.—Yr ydys wedi cymmeryd yn ganiataol fod y Groegiaid yn anhysbys o briodoleddau y gromen; ond a ellir priodoli ei dyfeisiad i Italy sydd gwestiwn arall. Os gwnaed y ffos fawr yn Rhufain a elwid Cloaca Maxima yn amser Tarquinius Priscus, rhaid ystyried fod ansoddau y gromen yn adnabyddus yn y wlad hono mewn cyfnod boreuach. Pa fodd bynag, y Rhufeiniaid a wnaeth y defnydd mawr ymarferol cyntaf o honi; a thrwy gyfrwng y ddyfais hon, gwnaethant bethau nad oedd eu blaenafiaid mewn gwareiddiad erioed wedi gallu eu dwyn oddi amgylch. Galluogwyd hwynt i gario ffyrdd ar draws afonydd llydain, ac i wneyd priddfeini yn fwy defnyddiol na marmor goreu y Groegiaid, gan eu bod mewn anwybodaeth am y ddyfais hono. Ond i'r Groegiaid, yr oedd y Rhufeiniaid yn ddyledus am eu gwybodaeth am ffurfiau mwy coethedig o adeilyddiaeth golofnog; canys cyn gorchfygiad Groeg, nid oedd adeiladau y Rhufeiniaid ond anghelfydd a diaddurn. Yr oedd hen Rufain wedi ei hadeiladu, nid o farmor nac o geryg, ond o briddfeini yn benaf. O'r adfeilion presennol, nid oes ond ychydig golofnau â'u haddurniadau uchaf o farmor neu ithfaen. Y mae y gweddill oll o briddfeini, a rhai wedi eu wynebu â marmor neu geryg nâdd. Yn y rhan fwyaf o enghreifftiau, yn Rhufain a'r taleithiau, plastr oedd ar wyneb yr adeiladau, ac arno ef y ffurfid yr addurniadau. Yr oedd mwy o amrywiaeth yn adeiladau y Rhufeiniaid nag yn ngweithiau cenhedloedd gwareiddiedig eraill a ragorent mewn adeilyddiaeth mewn oesoedd boreuach. Y mae yn debyg hefyd fod y Rhufeiniaid yn defnyddio mwy o waith coed yn eu hadeiladau nag y mae yr hen weddillion yn ein harwain i feddwl. Gellir casglu hyn oddi wrth y golosgiad ofnadwy a gymmerodd le yn nheyrnasiad Nero. Ac er nad oedd y Rhufeiniaid yn defnyddio marmor i'r graddau yr ydys wedi tybied, yr oeddynt yn hynod hoff o ddefnyddio meini costfawr. Ymddengys fod adeilyddiaeth, fel un o'r celfau teg, eisoes yn dechreu adfeilio yn mysg y Rhufeiniaid pan symmudwyd eisteddle yr ymherodraeth i Gaer Cystenyn.

Yn yr arddull Rhufeinaidd, copïwyd yn helaeth o ffurfiau amrywiol adeilyddiaeth Groeg.—yn enwedig yr un Corinthaidd. Ond chwanegwyd ffurfiau newyddion; megys, y terfyniad hanner-cylchol (*apse*), y bŵa, a'r cromnen (*dome*). Arddengys fwy o ryddid cynllun, er ei fod yn llawer is mewn coethder. Eu diffyg mwyaf oedd absennoldeb y rhagoriaeth uchaf oll; sef, gallu i grynhoi a chyfuno y rhanau a'r manylion mewn un cyfanwaith mawr.

Yr arddull Gothaidd.—Yn y gwledydd lle y derbyniwyd Cristionogaeth o Rufain, ac nad oedd ynddynt na themlau, amchwareudai, na phalasau gorwych, megys yn Italy, etto adeiladwyd eglwysydd mewn efelychiad i'r rhai oedd yn Rhufain. Gan fod y rhai hyn yn waith dynion lled anghrefyddol, o angenrheidrwydd nid oeddynt ond afrosgo ac anorphenedig. O'r amgylchiad hwn y cyfododd arddull Gothaidd y canol oesoedd; ac nid o unrhyw arddull adeilyddol arall oedd yn bod yn flaenorol yn mysg y cenedloedd gogleddol hyny a oresgynasant Italy, ac a ddarostyngasant allu Rhufain. Y cofadeiliau Celtaidd oedd yr unig enghreifftiau adeil-

Digitized by Google

yddol a feddent hwy. Y mae yn hollol briodol galw yr arddull hwn yn un Gothaidd, gan iddo ddechreu tua'r adeg y goresgynodd y Gothiaid Italy, ac am ei fod yn arferedig yn gyffredinol yn mysg y cenhedloedd Gothaidd. Cododd yr arddull yma yn y bedwaredd ganrif; ond rhoddodd dygiad i mewn y bŵa pigfain yn y ddeuddegfed ganrif fodolaeth i arddull newydd o adeilyddiaeth. Yn mha le y cafodd y bŵa pigfain ei fodolaeth gyntaf, a chan bwy y dygwyd ef i arferiad, nid ydyw yn hysbys. Y mae yr Almaeniaid yn dywedyd mai yn eu gwlad hwy y digwyddodd hyny; a dywed y Ffrangcod mai yn Ffraingc—yr Ysgotiaid mai yn Ysgotland—a'r Saeson mai yn Lloegr; ond y mae tebygolrwydd iddo ddyfod i arferiad ar yr un pryd yn amryw o wledydd gwareiddiedig Ewrop. Oddi wrth eu cofadeiliau, yn union ar eu dychweliad o'r croesgad cyntaf, yn yr hon y cymmerasant oll ran, gan ei fod mewn arferiad yn y dwyrain cyn hyny, y ddamcaniaeth debycaf o fod yn gywir ydyw, fod Rhyfelwyr y Groes wedi ei weled yn y Tir Sanctaidd, a'i ddwyn, ar eu dychweliad yn ol, i mewn i adeiladau eu gwahanol wledydd. Yr ydys wedi cael allan mai o deimladau ac arferion crefyddol y cododd adeilyddiaeth i fodolaeth fel celfyddyd—mai temlau i'r duwiau oedd ei chofgolofnau perffeithiaf yn mysg yr hen genhedloedd paganaidd, a bod cenhedloedd gerwin y gogledd yn y canol-oesoedd wedi ymroddi, ar ol derbyn Cristionogaeth, i adeiladu temlau i'r Goruchaf.

Yr arddull Italaidd.—Pan ddaeth yr arddull hwn i arferiad, rhoddwyd i fyny i raddau yr arddull pigfain, neu Gothaidd. Ond yn ffodus, ni effeithiodd hyny am gan mlynedd, o leiaf, ar ein gwlad ni; ac yn ystod yr amser hwnw yr adeiladwyd rhai o'r adeiladau goreu, ac y gorphenwyd eraill oedd wedi eu cychwyn cyn Rhyfel y Rhosynau. Daeth yr arddull hwn yn boblogaidd yn fuan ar y Cyfandir, ac ynddo y cyfodid yr holl adeiladau mawr yno yn y bymthegfed ganrif; ac o'r diwedd, daeth drosodd i'r wlad hon. Dywed rhai ein bod ni yn ddyledus i dramorwyr, ac yn enwedig i'r Italiaid, am ragoroldeb ein hen adeiladau. Ond os oedd tramorwyr yn cael eu defnyddio i gynllunio ac i weithio ein hadeiladau, y mae yn rhyfedd eu bod yn rhagori ar eu gweithiau hwy eu hunain gartref. Gwyddom fod adeiladau yn arddull Italy a Ffraingc yn y wlad hon wedi eu gwneyd gan dramorwyr yn y cyfnod hwn. Ond am un ganrif llawn, gellir dyweyd i'r Prydeinwyr lynu wrth yr arddull Gothaidd; ac yn ystod y ganrif hono, cynnyrchwyd rhai adeiladau, am wreiddioldeb, prydferthwch, a gwneuthuriad, na wnaed ond anfynych ddim yn gyfartal iddynt:—o leiaf ni ragorwyd arnynt ar unrhyw adeg. Gwnaed hyny tra yr oedd holl archadeiladwyr, celfyddydwyr, a gweithwyr y Cyfandir yn analluog i'w cynnorthwyo, o herwydd y cyfnewidiadau a gymmerasant le yn eu dull hwy eu hunain o weithio. Yn ystod y bymthegfed ganrif, a'r un ganlynol, mabwysiadwyd adeilyddiaeth Italaidd, a defnyddiwyd archadeiladwyr Italaidd hefyd yn Ffraingc, Yspaen, yr Almaen, Prydain Fawr, a gwledydd eraill.

Yr arddull Seisnig.—Pan y cafodd yr arddull Gothaidd y ddyrnod a dderbyniodd yn Lloegr yn nheyrnasiad Harri VIII., ni roddwyd hi i fyny yn hollol ac ar unwaith; ac ni ddaeth yr Italaidd i arferiad yn union ar ei hol. Adfeiliodd y flaenorol yn raddol yn yr unfed ganrif ar bymtheg; ac yn y rhan olaf o'r ganrif, daeth yr hyn a elwir yr arddull Elizabethaidd i arferiad lled gyffredinol. Yn hwn y mae y dulliau Italaidd, gyda rhai o neillduolion yr arddull Gothaidd, yn cael eu cymmysgu â'u gilydd; ac mewn rhai enghreifftiau, yr olaf sydd i'w chanfod yn fwyaf amlwg. Araf iawn y diwyllid yr arddull Italaidd yn y wlad hon, pa fodd bynag; ac yn nheyrnasiad Iago I. yr ymddangosodd ei phroffeswr cyntaf. Cymro, o genedl 'os nad o waed, oedd y gŵr; sef, Inigo Jones. Nid oedd yn cael llawer o waith ar y pryd; o herwydd ar farwolaeth y tywysog Henry, aeth i Italy, lle yr arosodd hyd nes y disgynodd y swydd o fesurydd cyffredinol, yr hon a addewsid iddo, yn wâg. Trwy ei ymdrechiadau ef, i raddau pell, y dygwyd yr arddull Italaidd i arferiad. Yn nheyrnasiad cynnhyrfus Siarl I., ychydig a wnaed gydag adeilyddiaeth; a phan yr adferwyd y frenhiniaeth o dan Siarl II., yr oedd ei chwaeth ef at bethau Ffrengig mewn perygl o effeithio ar adeilyddiaeth y wlad hon pe na buasai i Christopher Wren, gyda'i athrylith gref, sefyll ar y ffordd, neu o leiaf leihau ychydig ar yr effaith—er fod arwyddion o'r dull Ffrengig i'w canfod ar lawer o weithiau Wren ei hun. Ond i ddylanwad arddull ei wlad ei hun ar ei feddwl yr ydym ni yn ddyledus am rai o'i brif weithiau. Y mae Sant Paul yn Llundain, yn ynghyd âg adeiladau eraill, yn aros yn golofnau oesol o'i ragoriaeth a'i fawredd fel archadeiladydd; ac y mae hanes gweithiau y dyn mawr hwn yn cynnwys adeiladyddiaeth y cyfnod yr oedd efe yn byw ynddo.

Ni wnawn yn mhellach ond yn unig chwanegu ychydig sylwadau ar y gwelliantau sydd wedi cymmeryd lle mewn adeilyddiaeth, ar wahân i adeilyddiaeth eglwysig.

Y mae darganfyddiad dinas Pompeii, ar ol bod yn gladdedig am gynnifer o ganrifoedd, wedi dangos yn eglur, faint bynag oedd eangder a thlysni cyffredinol adeiladau cyhoeddus y Rhufeiniaid, fod tai y bobl gyffredin yn hynod o blaen a bychain, ac nad oedd tai y dosbarth uchaf yn brydferth, oddi mewn nac oddi allan. Gwael a bychain hefyd oedd eu hystafelloedd, ac agored iawn i wres yr haf ac oerni y gauaf: ac yn wir, yr oedd palas boneddwr Rhufeinaidd yn debyg o ran ei gynllun i garchar. Yn y canol-oesoedd, y mae'n debyg, y dechreuwyd defnyddio lloriau coed; a dyna'r pryd, o ganlyniad, y cafwyd allan y gellid rhoddi llofft mewn tŷ heb gymmhorth muriau hynod am eu trwch. Parodd y gwelliant hwn, ynghyd â'r defnyddiad o wydr mewn ffenestri, chwanegiad dirfawr at gysuron a chyfleusderau tai yn y canrifoedd diweddar, nad oedd gan yr hynafiaid un syniad am danynt. Fel yr ymdaenodd dysg a gwareiddiad, dechreuodd dynion yn raddol efelychu yn eu tai y tlysni a nodweddai yr eglwysydd a'r mynachlogydd ysblenydd. Y cauad allan gan ffenestri gwydr o'r llifeiriant o awyr oer a gariai y mŵg allan trwy dwll yn nen neuadd neu ystafell fawr, pan y byddai y tân ar ganol y llawr, a arweiniodd i ddyfeisiad simneiau, i gario y mŵg allan mewn ffordd arall. Y mae hyn yn gymmhwysiadol yn benaf at y gwledydd oerion sydd yn ogleddol i'r Alpau; canys ynddynt hwy y mae yr adeiladau hyn yn cael eu deall oreu, ac yn cael eu cyfaddasu fwyaf ar gyfer cysur a chyfleusdra. Hwyrach fod palasau Italy yn fwy ardderchog o ran ymddangosiad allanol nag ydyw preswylfeydd y dosbarth uchaf yn nhrefydd y wlad

Digitized by Google

hon, ond y maent yn ddiffygiol yn y trefniadau mewnol hyny sydd yn tueddu i chwanegu 'at fwyniant a chysuron teuluaidd. Mewn canlyniad i'r coethder sydd erbyn hyn yn nodweddu ein bywyd cymdeithasol, nid ydyw dynion yn ymfoddloni yn unig ar edmygu ardderchawgrwydd adeiladau cyhoeddus, ac ysblander palasau y cyfoethogion; ond y mae pawb yn awyddus am weled y prydferthwch a'r addurn hwnw, i ryw raddau, yn eu preswylfeydd eu hunain. O herwydd hyn, y mae sylw mwy cyffredinol yn cael ei dalu i adeilyddiaeth nag erioed o'r blaen.

ADRIAN IV.: pab; a'r unig Sais a fu yn eistedd yn y gadair Babaidd. Ei enw oedd Nicholas Breakspere. Ganwyd ef yn Langley, ger St. Albans, yn swydd Hereford, tua'r fl. 1100. Yn nechreu ei oes, bu raid iddo ymostwng i wneyd y gorchwylion iselaf, gan mor gyfyng oedd ei amgylchiadau. Teimlai awydd i fod yn fynach yn mynachdy St. Albans; ond gwrthododd yr abad Richard ei dderbyn, o herwydd ei fod yn ddiffygiol mewn dysg. Aeth yntau drosodd i Paris, ac oddi yno i Provence, lle y daeth yn ysgrifenydd rheolaidd i fynachdy St. Rufus. Ni chaniatawyd iddo ymuno yn ffurfiol ar unwaith â'r urdd; ond bu yno am dymmor ar brawf, a gweithiodd ei hun i serch y mynachod drwy y sylw manwl a dalodd i'w gorchymynion: a hyn, ynghyd â harddwch ei berson, a'i gallineb, a'i gwnaeth yn boblogaidd gyda'r mynachod—a derbyniwyd ef yn aelod o'r urdd. Ymroddodd i astudio gyda dyfalwch mawr, nes cyrhaedd gradd helaeth o ddysg; ac ar farwolaeth yr abad, dewiswyd ef yn olynydd iddo. Clywodd y pab Eugenius III. am deilyngdod uchel Nicholas, a gwnaed ef yn gardinal-esgob Alba yn 1146. Dwy flynedd yn ddiweddarach, danfonwyd ef yn genad y pab i Denmarc a Norway, a bu yn offeryn i ddychwelyd y barbariaid hyny i'r ffydd Babaidd. Ar ei ddychweliad yn ol, derbyniwyd ef gydag anrhydedd gan y pab a'r cardinaliaid; a digwyddodd i'r pab Anastasius farw y pryd hwnw, a chafodd Nicholas ei ddewis yn unfrydol i'w le, yn Tachwedd, 1154. Cymmerodd yr enw Adrian IV. Gwrthwynebodd Adrian, ar ddechreu tymmor ei swydd, yn benderfynol yr ymgais a wnaed gan bobl Rhufain i adfeddiannu eu rhyddid o dan y consuliaid, a gorfodwyd yr ynadon hyny i roddi heibio eu hawdurdod, a throsglwyddo llywodraeth y ddinas i'w ddwylaw ef. Yn 1155, gyrodd Arnold o Brescia, yr hwn oedd wedi dechreu pregethu yr angenrheidrwydd am ddiwygiad yn yr eglwys er y fl. 1139, ynghyd â'i ddilynwyr, allan o Rufain. A'r un flwyddyn hefyd, esgymmunodd William, brenin Sicily. Tua'r un adeg, gwnaeth heddwch â Frederick Barbarossa, ymherawdwr Germany, yn agos i Sutrium; a gwnaeth iddo ddal pen ei farch tra yr elai ef ar ei gefn; ac wedi hyny, efe a'i coronodd yn ymherawdwr yn eglwys St. Pedr. Adeiladodd amryw gestyll, a gadawodd y tiriogaethau Pabaidd yn fwy blodeuog nag y cafodd hwynt. Ond er ei holl lwyddiant, teimlai yn eithaf annedwydd; a dywedai unwaith wrth John o Salisbury nad oedd holl galedi ei ddyddiau boreuol ond difyrwch yn ymyl anffodion y swydd o bab; a'i fod yn edrych ar gadair St. Pedr fel y sedd fwyaf anesmwyth i eistedd arni yn yr holl fyd—a bod ei goron megys yn llosgi ar ei ben. Bu farw Medi 1af, 1159, wedi bod yn bab am yn agos i bum mlynedd, a chladdwyd ef yn eglwys St. Pedr.

ÆSCHINES: areithydd Groegaidd enwog. Ganwyd ef yn Attica, c.c. 389. Yn ol ei adroddiad ei hun, hanai o deulu da: yn ol adroddiad Demosthenes, mab ydoedd i chwareuwr cyffredin mewn cwmni o ddigrif-chwareuwyr. Modd bynag, yr oedd ei dalentau yn gyfryw ag a ennillodd iddo glod mawr, ac a'i galluogodd i fod yn gydymgeisydd am y llawryf areithyddol â Demosthenes ei hun. Daeth y ddau areithiwr hyn yn arweinyddion dwy blaid wrthwynebol. Cyhuddai Demosthenes Æschines o dderbyn llwgrwobrwy pan yn genhadwr at Phylip o Macedonia. Ad-dalodd yntau mewn ffordd anuniongyrchol, trwy gyhuddo Ctesiphon, cyfaill i Demosthenes, o gynnyg penderfyniad, yn groes i'r cyfreithiau, i roddi i Demosthenes goron o aur, fel arwydd o gymmeradwyaeth y cyhoedd. Ymgynnullodd tyrfa liosog o farnwyr a dinasyddion i wrandaw ar y ddau yn dadleu, ac i benderfynu y cwestiwn. Defnyddiodd y ddau areithydd eu holl alluoedd a'u hyawdledd; ond Demosthenes a ennillodd y fuddugoliaeth; a danfonwyd Æschines i alltudiaeth; ond trodd digofaint Demosthenes yn garedigrwydd haelfrydig—o blegid pan yr oedd Æschines yn myned i alltudiaeth, ceisiodd Demosthenes ganddo dderbyn swm o arian, yr hyn a barodd iddo ddywedyd, "Yr wyf yn gofidio wrth adael fy ngwlad, yn yr hon y cefais elyn mor haelfrydig; ac yr wyf yn anobeithio cyfarfod â chyfaill fydd yn debyg iddo." Agorodd Æschines ysgol i ddysgu areithyddiaeth yn Rhodes—lle ei alltudiaeth; ac yno dechreuodd draddodi darlithiau trwy ddarllen i'w wrandawyr y ddwy araeth a fuont yn achos o'i alltudiaeth. Derbyniodd ei araeth ef glod mawr, ond gwrandawyd araeth Demosthenes gyda chymmeradwyaeth dirfawr. Gwnaeth Æschines y sylw canlynol, "Pa fodd y buasech yn teimlo pe y clywsech ef yn taranu allan y geiriau hyny ei hunan!" Symmudodd Æschines i Samoa, lle y bu farw yn 74ain ml. oed. Nid oes ond tair o'i areithiau ar gael yn awr.

ÆSCHYLUS: y bardd treisganol Atheniaidd enwog. Ganwyd ef yn Eleusis, c.c. 525. Gwnaeth enw mawr iddo ei hun fel milwr yn mrwydrau Marathon, Salamis, a Platæa. Daeth i sylw yn gyntaf oll fel milwr, a gwladgarwr; ond dewisodd farddoniaeth fel maes neillduol ei lafur. Ennillodd y wobr flaenaf am farddoni yn y flwyddyn c. c. 484. Mynegir iddo gyfansoddi deg a thrigain o dreisganau, heb law chwareu-gerddi duchanol; ond nid oes yn ein meddiant yn bresennol ond saith o honynt. Tua'r flwyddyn c.c. 471, aeth i Sicily, a threuliodd beth amser yn llys Hiero. Ar ol dychwelyd i Athen, bu yn cydymgais â Sophocles am gamp gerddorol; ond ei gydymgeisydd a lwyddodd y tro hwn. Yn fuan ar ol cyhoeddiad ei waith olaf, sef yr "*Oresteia*," efe a ymneillduodd drachefn i Sicily, ac yno y bu farw c.c. 456. Ymddangosodd cyfieithiad Saesneg o dreisganau Æschylus, gan R. Potter, yn 1777. Y mae Miss Swanwick, y deon Milman, ac eraill hefyd wedi cyfieithu amryw o honynt i'r iaith hono. Golygid Æschylus gan y Groegiaid fel tad treisganiadaeth, fel yr oeddynt yn ystyried Homer yn dad yr arwrgerdd, a Herodotus yn dad hanesiaeth. Y mae y gwelliantau a wnaed ganddo yn peri ei fod yn teilyngu y teitl. Efe a ddaeth â'r arferiad o roddi ail chwareuwyr (*actor*) i mewn. Perffeithiodd lawer ar arddang-

Digitized by Google

osiad y dreisgân hefyd; ac efe a ddechreuodd gyfansoddi yr hyn a elwir *trilogy;* hyny yw, treisgân driphlyg, yn yr hon y mae pob un o'r tair yn gyflawn ynddi ei hun, ac etto yn ffurfio rhan o un cyfanwaith.

ÆSOP: awdwr y chwedlau neu y dammegion enwog a briodolir iddo. Ganwyd ef tua'r fl. C.C. 620; ond y mae lle ei enedigaeth yn anhysbys. Y tebygolrwydd yw, mai Cotiœum yn Phrygia, oedd y lle. Tra yn ieuangc dygwyd ef fel caethwas i Athen; ac wedi gwasanaethu o dan amryw feistriaid, rhyddhawyd ef gan Iadmon y Samianiad. Ar hyn talodd Æsop ymweliad â Crœsus, brenin Lydia; yn llys yr hwn, fel y dywed Plutarch, y ceryddodd efe Solon am ei ymddygiad difoes tuag at y brenin. Mynegir iddo ymweled âg Athen yn amser trawslywodraeth Pisistratus. Fel cenhadwr Crœsus i Delphi, ymddiriedwyd iddo y gwaith o ranu swm da o arian yn mysg y dinasyddion; ond mewn canlyniad i ryw ddadl, efe a ddychwelodd yr arian yn ol i Crœsus. Cyffrodd ei ymddygiad y Delphiaid, y rhai a anghymmeradwyent ei waith yn gwneuthur hyny. Cyhuddwyd ef o gyssegr-ladrad, a thaflwyd ef bendramwnwgl dros glogwyn, yn y fl. C.C. 564. Ystyriai y preswylwyr fod y pla a fu yn y ddinas ar ol hyn yn ganlyniad y trosedd yma; ac amlygodd y bobl eu hewyllysgarwch i wneyd pob iawn a allent am achosi ei farwolaeth. Cyfododd yr Atheniaid gerflun ardderchog er ei anrhydeddu.

Mae y tywyllwch sydd yn gorphwys ar hanes Æsop yn gyfryw, fodd bynag, fel y mae rhai yn gwadu nad oes y fath un âg Æsop wedi bod; ond ychydig ydyw nifer y cyfryw. Anhawdd penderfynu a adawodd Æsop ar ei ol, pan y bu farw, ddammegion oeddynt wedi eu hysgrifenu. Tybiai Bentley na wnaeth. Tybia eraill, fodd bynag, fod casgliad wedi ei wneyd o honynt cyn amser Socrates. Y mae yn eithaf sicr, pa fodd bynag, fod chwedlau a briodolid i Æsop yn boblogaidd yn Athen ar yr adeg fwyaf blodeuog o hanes ei llenyddiaeth. Cyhoeddwyd argraphiad cyflawn o'i holl chwedleuon, y rhai ydynt ddau cant ac un ar ddeg ar hugain mewn nifer, yn Breslau, gan J. G. Schneider, yn 1810. Y mae llawer o argraphiadau o honynt yn Saesneg—rhai yn gyflawnach na'u gilydd; ac y mae dau argraphiad o honynt yn y Gymraeg—un mewn rhyddiaeth gan y diweddar Glan Alun, a'r llall mewn barddoniaeth, gan y diweddar Nicander.

AFFRICA. *Ystyr yr enw.* — Y golygiad mwyaf tebygol o lawer ydyw mai newidiad ar y gair Phœniciaidd *Afrigah* ydyw, yr hwn a arwydda trefedigaeth, gyda chyfeiriad at Carthage fel trefedigaeth berthynol i Tyrus. Ymledodd yr enw fel ag i gael ei roddi ar y wlad amgylchynol, ac yn raddol ar y cyfandir—yn debyg fel pe meddyliem am y gair Saesneg *colony* yn cael ei estyn, o arwyddo rhandir neu drefedigaeth, i osod allan gyfandir cyfan.

*Terfynau a Sefyllfa.*—Rhwng 35° gogledd a 38° deheu, ac hefyd rhwng 17° gorllewin a 51° dwyrain. O ogledd i ddeheu mesura tua 5,000 o filldiroedd Prydeinig. Golchir y glanau gogleddol gan Fôr y Canoldir; y gorllewinol gan y Werydd; a'r dwyrain gan Fôr India.

*Ffurf.*—Afreolaidd. Yn y gogledd yn llydan, ac yn fwy amgylchog, ond tua'r deheu yn culhau, nes dyfod i bwynt. Cynnwysa yn rhywle tua 10,000,000 o filldiroedd ysgwâr. Y mae yn fwy nag Ewrop ac Awstralia, ond yn llai nag Asia ac America.

*Ffurf y glanau.*—Rheolaidd ac annhoredig. Y prif doriadau ydynt Gulfor Guinea, o du y gorllewin; culforoedd Sidr a Kabes o du y gogledd; a Chulfor Arabia o du y dwyrain.

*Ei ffurf arwynebol.*—1. Yn y gogledd, gwastadeddau ac isel-diroedd; hyny yw, isel mewn cymmhariaeth â'r rhanau deheuol i'r cyfandir. 2. Bwrdd-diroedd eang ac uchel, ynghyd â chadwen o fynyddoedd uchelfawr, yn cynnwys canol a deheudir y cyfandir.

Y mae y cyntaf yn cymmeryd i mewn

(*a.*) Anialwch mawr y Sahara.

(*b.*) Y rhandir sydd yn amgylchynu Llyn Chad.

(*c.*) Dyffryn y Nilus (isaf).

Nid ydym i synied am y Sahara, fel y gwneir yn fynych, fel un gwastadedd isel anferth, gan ei fod yn amrywiol iawn yn ei ffurf. O du y gogledd cynnwysa fwrdd-diroedd eang, y rhai ydynt yn ymddyrchafu ar unwaith oddi wrth lanau Môr y Canoldir, yn cynnwys y gwledydd a elwir Barbary, Morocco, Tunis, Algeria, Barca. Wedi dyfod trwy y bwrdd-dir hwn tua'r deheu, cyrhaeddwn randir isel o'r anialwch yn cyrhaedd o Gulfor Sidra hyd yr Aipht ganol. Y mae yr ynysoedd gleision (*oases*) Augila a Siwah yn y rhan yma tua 100 troedfedd islaw gwastadedd y môr, a'r wlad rhyngddynt rhwng 100 a 150 troedfedd. Y mae y rhan ddwyreiniol o'r rhandir yma yr un mor isel. Cynnwysa ar y cyfan, mae'n debyg, y tir iselaf ar wyneb y ddaear; ac y mae y syniad wedi ei daflu allan am ollwng dwfr y Werydd i mewn iddo, fel ag i droi yr anialwch yn y fangre hon "yn llyn dwfr," er hyrwyddo masnach a theithio. Dilynir y rhandir isel hon gan ucheldir arall yn cyrhaedd o Gulfor Kabes ar hyd glanau Tripoli, a thrwy anialwch Libya i'r Nilus yn agos i'r rhaiadr cyntaf. Yn y gogledd-ddwyrain, cynnwysa y rhandir hwn y wlad a elwir Hamadah, bwrdd-dir creigiog, anial, tua 2,000 o droedfeddi o uchder, y rhai sydd fel gwregys llydan yn attal cymmundeb rhwng glanau y gogledd a chanolbarth y cyfandir. Yn agos i le a elwir Sokna y mae yr ucheldir hwn yn tori i fyny yn glogwyni a elwir yn Fynyddoedd Duon. Yna y mae yr holl wlad, mor bell ag Air ac Asben, yn gynnwysedig o ucheldiroedd a gwastad-diroedd bob yn ail. Y mae nentydd mawrion yn croesi yr ucheldiroedd—un o honynt yn 600 milldir o hyd. Y mae y nentydd hyn yn rhedeg yn nghyfeiriad y gogledd tuag at randir isel, yn yr hwn y mae llawer o fâs lynoedd heli, y rhai yn yr haf ydynt yn gwbl sych, ag ydynt yn gorwedd gryn lawer yn is na'r môr.

Y rhan fwyaf anial o'r Sahara ydyw yr hwn a elwir yr *Esg;* yr hwn sydd yn ymestyn o'r llynau uchod yn nghyfeiriad y de-orllewin tua'r afon Senegal a'r Atlantic am tua dwy fil o filldiroedd, gyda lled ar y cyfan o tua dau cant o filldiroedd. Fel hyn, cynnwysa Sahara, ar du y gorllewin, wregys o wastadeddau a dyffrynoedd yn amgylchu bwrdd-diroedd eang a sypiau o fynyddoedd uchel. Tebyg ydyw ffurf y rhan ddwyreiniol o hono hefyd, fel y dengys gwlad fynyddig Borgu o amgylch y gwledydd sydd i'r gogledd ddwyrain o lyn Tchad, a Tibesti i'r gogledd o hono. Chwiliwyd y rhan yma gan Dr. Nactigal; yr hwn a ddangosodd fod y wlad hon yn llawn o lysiau ac anifeiliaid.

Digitized by Google

*Yr Ucheldir Canolbarthol.*—Cynnwysa y rhan yma un swm o diroedd uchel, a bwrdd-diroedd dyrchafedig, a mynyddoedd yn sypiau a chadwyni. Yr ymyl ddwyreiniol ydyw yr uchaf, ac ymestyna yn mlaen trwy wledydd Arabia ac Abyssinia i wledydd deheuol Affrica. Yma a thraw, ceir mynyddoedd uchel. Y rhai uchaf oll ydynt Kenia, 18,000 tr.; a Kilmanjaro, 18,715 tr.—y rhai uchaf yn holl Affrica, ac ydynt yn agos i linell y cyhydedd. Yr afon Zambesi ydyw y toriad cyntaf yn ei estyniad parhaus a difwlch. Cyrhaedda yn mlaen i ranau mwyaf deheuol y cyfandir. Y mae yr ymyl deheuol hefyd yn uchel iawn, er nad yn gymmaint felly a'r un dwyreiniol. Y mae yr afon fawr ac ardderchog Congo yn tori ar yr ymyl hwn. O'r tu deheu i'r afon Ogowai, canfyddodd Dr. Chaillu fynydd o tua 12,000 tr., ac y mae mynyddoedd Cameroon yn 13,700 tr. Y mae yr ymyl gogleddol i'r bwrdd-dir hwn yn anadnabyddus. Y mae y Nilus yn disgyn drosto mewn amryw o raiadrau.

Uchder cyffredinol y canolbarth ydyw tua 3,000 neu 4,000 o dr. Y rhai mwyaf neillduol ydynt y Mynyddoedd Gleision, a ddarganfyddwyd gan Baker—y rhai sydd ar du y gorllewin i Lyn Albert, ac yn 10,000 tr. Y mae ucheldir Barbary yn ngogledd y cyfandir yn ymestyn o Benrhyn Bon i lanau y Werydd trwy Tunis, Algeria, a Morocco. Y mae ar du y dwyrain tua dwy fil o droedfeddi o uchder; ac yn y gorllewin, ymddyrchafa i ffurfio mynyddoedd uchel Atlas, o'r rhai y mae Mynydd Miltrim yn 11,400 tr.

O'r holl gyfandiroedd, Affrica sydd wedi cael ei aflonyddu leiaf gan gynnhyrfiadau tanddaearol. Y rhai canlynol yw yr unig fynyddoedd llosg sydd yn awr yn fywiog. Camaroon ar Gulfor Guinea, yr Artali rhwng Abyssinia a'r Môr Coch, a'r Njemsi yn ardal mynydd uchel Kenia a Llyn Victoria.

O'r mŵnau a'r metteloedd, y rhai canlynol a geir yn fwyaf gwasgaredig. Halen (ond mewn rhai manau y mae yn dra phrin), aur, copr, ac adamant. O herwydd sefyllfa y cyfandir hwn o bob tu y cyhydedd, y mae yn gynnhesach na'r lleill, a'r gwres yn cael ei ddosbarthu ar hyd-ddo gyda mwy o gyfartaledd. Y mae yr un peth yn wir am y gwlaw a'r gwynt.

Rhwng hydred 10° gogleddol a 10° deheuol, y mae Affrica tua'r canolbarth yn gyflawn o goedwigoedd mawrion a thrwchus, yn y rhai y mae y coed yn cau allan belydrau yr haul, medd Livingstone, ond yn unig yn y canol-ddydd, pan y mae yn anfon pelydrau meinion rhyngddynt. Y mae disgyniad y gwlaw yn anferthol yn y manau hyn, a'r tir am fisoedd wedi ei orchuddio â dwfr llonydd. I'r gogledd o'r rhandir hwn y mae yn newid yn raddol i dir porfa gwelltog a bras. Y mae glanau y cyfandir hefyd yn gyffelyb tua'r gogledd a'r deheu.

Y mae rhediad y dwfr yn Affrica i'w ranu yn ddau ddosbarth. Yn y cyntaf, yn y gogledd a'r deheu, y mae rhandiroedd mawrion, sef y Sahara a'r Kalahari, lle y mae y ffrydiau yn methu a chyrhaedd y môr. Yn yr ail, y maent yn ymarllwys i'r môr, megys y Nilus, y Niger, y Senegal, &c.

Y mae y llynoedd mawr a ddarganfyddwyd yno yn ddiweddar yn deilwng o'u crybwyll. Y mae y llynoedd Victoria ac Albert yn gyfansoddedig o ddwfr croyw:—y cyntaf tua 30,000 o filldiroedd ysgwâr, ac nid ydyw yn aml yn llawer llai. Yn chwanegol at y rhai hyn, gellir enwi llynoedd Congo, Zambesi, Chad, ac Ugami, ynghyd â llynoedd mawrion eraill, y rhai sydd yn gyfansoddedig o ddwfr hallt.

O ran hinsawdd, Affrica ydyw y poethaf o'r holl gyfandiroedd. Ond nid yn y cyhydedd y mae y man poethaf, lle y mae y gwlaw a'r coedwigoedd yn tymmeru y gwres; eithr yn anialwch y Sabasi yn y gogledd, a Kalahari yn y deheu. Yn yr Aipht uchaf, y mae y gwres yn ddigonol i grasu ŵyau yn y tywod poeth. Yn Nubia, fel y dywed yr Arabiaid, y mae y pridd fel tân, a'r gwynt fel fflam. Ar lanau y môr, tymmerir y gwres gan y môr. Nid oes yno ddisgyniad rheolaidd o eira, oddi gerth ar benau mynyddoedd yr Atlas ac Abyssinia. Nid yw y cyfandir hwn o dan ddylanwad y gwyntoedd rheolaidd, oddi gerth *monsoons* Môr yr India. Y mae rhediadau cyffredin y gwynt yn cymmeryd lle o gyfeiriad y dwyrain dros yr holl gyfandir. Y mae yn hollol rydd yn mron oddi wrth ruthrwyntoedd (*hurricanes*), oddi gerth yn y rhanau de-ddwyreiniol. Yn y diffeithleoedd, y mae corwyntoedd yn fynych yn cymmeryd lle, yn ysgubo y tywod trwy yr awyr, y rhai ydynt yn dra dinystriol. Yn y Sahara a Kalahari, nid oes dim gwlaw yn disgyn un amser yn mron. Yr achos ydyw, fod y gwyntoedd sydd yn cyrhaedd yno yn dyfod o leoedd oerach a lleithach, ac felly yn colli eu lleithdra i'r awyr yn y ffurf o darth. Achos arall ydyw, iseledd y Sahara. Hefyd, y mae mynyddoedd Abyssinia yn lladrata y gwlaw sydd yn cael ei gludo o Fôr yr India cyn iddo gyrhaedd y Sahara. Gwel cyf. I. d.g. AFFRICA.

AGER (*steam*). Dyma y gair a arferir yn gyffredin am y tarth, neu y tawch, sydd yn dyrchafu o gyrph llaith neu hylifol pan y darostyngir hwynt dan ddylanwad gwres; neu mewn geiriau eraill, dwfr neu hylif mewn ffurf nwyol. Ac i ddybenion peirianyddol, dwfr yw yr hylif a ddefnyddir yn gyffredin i'w gynnyrchu; gan hyny, ni a edrychwn yn awr ar ager yn y wedd yma arno. Y mae ager yn naturiol, fel nwyon eraill, yn dryloew, ac heb liw arno; a phan y mae i'w ganfod mewn awyr, y mae hyny i'w briodoli i'r ffaith ei fod mewn rhan yn hylifol, ac yn cynnwys chwysiglenau bychain o ddwfr sydd yn llawn o ager, a'r rhai hyny yn adlewyrchu goleuni.

Gan fod gwres yn gyffredin yn effeithio i chwyddo cyrph, felly y mae dwfr ar ol ei droi yn ager yn cymmeryd mwy o le ddau cant ar bymtheg o weithiau nag yn flaenorol. Y mae gwres wrth doddi rhew yn eithriad i'r rheol hon, gan ei fod yn lleihau ei swm i raddau. Pan y troir rhew neu eira yn hylif, os rhoddir y gwresfesurydd ynddo, erys yn barhaus yn yr un man nes y toddir y cwbl. Os cymmhwysir chwaneg o wres ato, cyfoda yn ol cyfartaledd y gwres a chwanegir. Os cymmhwysir gwres at waelod llestr yn cynnwys dwfr, chwyddir haen isaf y dwfr ganddo, yr hyn a bâr iddo fod yn ysgafnach na'r haenau uchaf; gan hyny cyfyd, gan wneuthur ffordd i ffrwd arall ddisgyn o'r rhan sydd yn oerach, ac yn eu tro cyfyd y rhai hyny hefyd; ac felly gwasgerir y gwres drwy y cyfan. Drwy gymmhwyso chwaneg o wres drachefn, ffurfir chwysiglenau o darth, a chyfodant ar hyd ochr y llestr, ond ânt yn hylif wedi cyrhaedd yr haenau lle y mae y tymmeredd yn is. Pan y bydd y byrlymau hyn yn mwyhau ac yn lliosogi, dilynir eu tewychiad gan seiniau

Digitized by Google

a elwir mewn iaith gyffredin yn '*ganu;*' ac wedi iddynt gael eu poethi yn ddigon i gyrhaedd y wyneb, a meddu digon o hydwythedd i orchfygu dirwasgiad yr awyr, y mae y tarth yn esgyn i'r awyr yn y ffurf o ager; a dyna y pryd y dywedir fod y dwfr yn berwi. Wrth gymmhwyso mwy o wres drachefn ato, y mae y dwfr i gyd yn raddol yn cael ei droi yn ager.

Pan y berwir dwfr mewn llestr agored, nid ydyw tymmeredd y dwfr, na'r ager sydd yn dyrchafu o hono, yn cyfodi yn uwch na 212° ar raddfa Fahreinheit, pa mor boeth bynag y byddo y tân. Y mae y gwres fel yr êl i mewn yn cael ei gario allan yn yr ager. Ond o dan ddirwasgiad, fel mewn berwedydd (*boiler*) peiriant, gellir cyfodi tymmeredd y naill a'r llall i unrhyw radd o'r bron.

AGER-BEIRIANT: peiriant yn yr hwn y mae ager yn cael ei ddefnyddio i'w ysgogi neu i'w weithio; yn gyffelyb i fel y mae pwysau dwfr ar olwyn ddwfr, neu bwysau gwynt ar felin wynt, yn gyru y rhai hyny yn mlaen.

Fel ffynnonell grym, y mae ager yn meddu llawer o fanteision ar wynt a dwfr. Y mae yn annibynol ar y tywydd, gellir ei arfer yn mhob man, y mae yn alluog i beri symmudiadau gwastadol cyfartal, ac y mae yn bossibl ei gynnyddu i atteb i angen peiriannau o faintioli a nerth mawr, yn ol yr angen. Y mae y ddyfais hon, gan hyny, wedi creu cyfnod newydd mewn cyssylltiad â'r celfyddydau; ac y mae y chwyldroad a ddygodd o amgylch mewn gweithfeydd o bob math, yn gystal a'r dylanwad y mae wedi ei gael ar wareiddiad yn gyffredinol, yn gyfryw nas gellir amgyffred ei faint.

Y mae amryw genhedloedd yn hawlio yr anrhydedd o ddarganfod ager fel gallu symmudol; ond y Prydeiniaid a'r Americaniaid yn ddiau a wnaeth ddefnydd helaethaf o hono gyntaf oll; a diammheu fod y byd yn ddyledus i'r Prydeiniaid a'r Americaniaid am y rhan fwyaf o'r gwelliantau a wnaed o bryd i bryd ar y peiriant hwn. Mor foreu a'r flwyddyn 1543, dangosodd y cadben Yspaenaidd, Blasco de Garay, ager-fad o'i ddyfais ei hun yn llongborth Barcelona. Ymddengys oddi wrth gyfeiriad a wnaed mewn pregeth gan Mathesius yn Nuremberg, yn 1562, fod gallu ager yn hysbys hefyd yn yr Almaen y pryd hwnw; ac y mae yr Almaenwr, Sol. de Caus, yr hwn oedd yn ngwasanaeth etholydd llysfreiniol Heidelberg, yn 1615, yn desgrifio ager-beiriant; ond nid oedd hwnw ond dyfais i gyfodi dwfr oedd mewn pelen gopr i fyned trwy bibell drwy gymmhwyso gwres ato. Dyfeisiodd y peirianydd G. Branca, yn 1629, fath o felin wynt yn cael ei gweithio gan ager.

Y sylwadau cyntaf a wnaed yn y wlad hon ar ager fel gallu symmudol, ydyw y rhai a geir mewn cyfrol fechan a gyhoeddwyd yn 1647, gan Nat. Nye, mesuronydd; yn yr hon y mae yr awdwr yn cynnyg rhoddi "ergyd mewn magnel heb bylor," a hyny trwy roddi dwfr ynddo yn lle pylor, a churo i lawr ddarn o bren yn dyn, fel nas gall yr awyr ddiangc heibio iddo, ac yna rhoddi yr ergyd i mewn, a chymmhwyso tân at y twll nes peri iddo ffrwydro yn ddisymmwth. Ond yr ymdrech llwyddiannus cyntaf at hyn, fe allai, oedd yr un a wnaethpwyd gan Ardalydd Worcester. Yn ei "*Century of Inventions*," a ysgrifenwyd yn 1655, y mae efe yn disgrifio yr offeryn â'r hwn y cyfododd efe golofn o ddwfr i'r uchder o ddeugain troedfedd. Hyn, gyda'r eithriad o'r hyn a wnaeth Blasco, oedd yr amcan cyntaf y cymmhwyswyd ager ato er atteb dybenion ymarferol. Dangosodd Sam. Morland gynllun i gyfodi dwfr trwy gyfrwng ager, i Louis XIV. yn 1683. Yn 1698 y cymmerwyd allan y freinteb gyntaf am gymmhwyso ager at wahanol fathau o beiriannau, gan y Cadben Savery. Dangosodd ei gynllun o flaen y Gymdeithas Fronhinol. Darfu i Papnir, yr hwn a wnaed yn hysbys gan Leibnitz o ymdrechion Savery—yr hwn y mae yn rhaid addef hefyd, ei fod yn ddyfeisydd gwreiddiol—ddwyn allan ddisgrifiad cyflawn o'r agerbeiriant yn 1707, ynghyd â darlun o agerbeiriant o'i ddyfais ei hun. Ond dichon mai peiriant Thomas Newcomen, yr hwn a orphenwyd yn 1705, ydyw yr un y gellir edrych arno fel y ddolen gyssylltiol rhwng y peiriannau y cyfeirir atynt a'r un diweddar; o herwydd yr oedd hwnw yn cynnwys egwyddor neu hedyn yr un a weithiwyd allan gan athrylith Watt. Gwellhawyd agerbeiriant Newcomen gan Smeaton, Brindley, a pheiriannwyr eraill, cyn amser Watt. Ond Watt, yn ddiau, a fu y mwyaf llwyddiannus o neb a fu o'i flaen yn ei welliantau. Ar ol ei amser ef y mae George Stephenson, ac eraill, wedi gwneyd eu rhan yn dda tuag at berffeithio yr agerbeiriant, fel erbyn hyn y mae wedi cyrhaedd graddau uchel iawn o berffeithrwydd; ac y mae o wasanaeth ammhrisiadwy yn nygiad yn mlaen gelfyddyd a masnach, ar dir a môr, yn mhob parth o'r byd. Gwel STEPHENSON, GEORGE: a FFYRDD HAIARN (*Attodiad*).

AGER-FORTHWYL. Offeryn sydd wedi bod yn hynod fanteisiol i ddadblygu adnoddau nodedig y fasnach mewn haiarn; ac yn y perffeithrwydd y mae wedi ei gyrhaedd yn awr, edrychir arno fel un o'n camp-weithiau peirianyddol. Ymddengys mai James Watt oedd y cyntaf i'w ddyfeisio, ac iddo gael breinteb arno yn y flwyddyn 1784. Yn ddiweddarach drachefn, yn 1804, cafodd William Deverell, peirianydd o Surrey, freinteb arno; ond er hyny, mor bell ag y gwyddys, ni chafodd yr offerynau hyn erioed eu gwneyd. Yn ol pob arwyddion, collwyd golwg ar y meddylddrych hyd y fl. 1837, pan y darfu i James Nasmyth, o Patricroft, ger Manchester, feddwl am dano: ac anfonodd gynllun o'i forthwyl i Mr. Humphreys, peirianydd Cwmni Agerlong y Great Western —a chymmeradwyodd Humphreys, Brunel, a pheiriannwyr eraill, y cynllun yn fawr, er na chariwyd ef allan y pryd hwnw. Cynnygiwyd y cynllun i lawer o'r ffwrn-feistri a'r peiriannwyr mawr; ond er eu bod oll yn ei edmygu, nid oeddynt yn teimlo ei werth a'i bwysigrwydd, ac ni chariwyd y meddylddrych allan ar y pryd. Ond yn 1842, cafodd Nasmyth freinteb am ei ddyfais, a gwnaed yr ager-forthwyl cyntaf yn ol ei gynllun ef yn Ffwrndy Bridgewater yn gynnar yn 1843. Ond er yr ystyrid ef yn welliant ar yr hen ddull tuag at wneyd y gwaith a ddygir yn mlaen mewn gweithfeydd mawrion, ni phrofodd yn offeryn marchnadol. Yr oedd ynddo ddiffygion pwysig, yn gymmaint ag nas gallesid ei gael yn wastad dan lywodraeth berffaith. O herwydd hyn bu agos i'r dyfeisydd ei daflu o'r naill du: ond ceisiodd Mr. Gaskell, ei gydfasnachydd, gan Mr. Robert Wilson, eu rheolwr peirianyddol, ymdrechu i symmud ei ddiffygion, ac i'w berffeithio. Trodd Wilson ei feddwl ato; a chyn pen yr wythnos, gwnaed

Digitized by Google

cyfnewidiadau ynddo, a'i dygodd i weithio yn rhagorol. Mewn gair, cafwyd y morthwyl dan reolaeth hollol. Gwnaeth Wilson welliantau pwysig eraill yn yr offeryn yn 1856; ac yn 1861 cafodd freinteb arno. Erbyn heddyw, y mae y morthwylion hyn wedi cyrhaedd y fath raddau helaeth o berffeithrwydd, fel y gellir tori cneuen â'r morthwyl heb falu y cnewyllyn; ac â'r un offeryn gellir taro darn o haiarn, neu unrhyw sylwedd arall, fel y bydd pwysau nifer o dynelli yn disgyn arno. Y mae y peiriant yn awr i'w weled yn gyffredin yn mhrif weithfeydd haiarn Ewrop ac America.

AGER-FORWRIAETH. Yn fuan ar ol darganfod gallu ager, cymmhwyswyd ef at forwriaeth; ac yn wir, at hyn y cymmhwyswyd ef gyntaf, a hyny gan un o'r enw Blasco de Garay, Yspaenwr a morwr, yn llong-borth Barcelona. Gwnaed y prawf, meddir, yn mis Mehefin, 1543. Mŷn rhai nad oes sail wirioneddol i'r prawf hwn gael ei wneyd. Pa fodd bynag am hyny, cadwyd y ddyfais yn ddirgelwch, ac nid arweiniodd i unrhyw ganlyniad ymarferol. Y mae Stuart yn ceisio profi mai Ardalydd Worcester oedd y cyntaf a ddechreuodd fordwyo âg ager, er nad ydyw yn ymddangos iddo droi ei ddyfais i lawer o ddybenion ymarferol. Dywed eraill mai i Ffrangcwr, o'r enw Papin, y dylid priodoli yr anrhydedd, er nad ydyw yn ymddangos iddo roddi prawf ar ei gynllun.

Yn Rhagfyr, 1736, caniatawyd breinteb i Jonathan Hulls, am beiriant a ystyrid yn gymmhwys i lusgo badau. Yn 1759, cyhoeddwyd fod cynllun wedi ei ddyfeisio yn Geneva er gwellhau morwriaeth, gan un o'r enw Genevois. Gwnaeth pendefig o Ffraingc, o'r enw Comte d' Auxiron, agerfâd, a rhoddodd brawf arno ar y Seine, ger llaw Paris; ond nid oedd yn y peiriant ddigon o nerth i symmud yr olwynion yn effeithiol. Gwnaed cais yn America gan Fitch a Rumsey yn 1783. Yn y fl. 1788, gyrodd Fitch agerfâd i'r dwfr, ond yn ol pedair milldir yn yr awr y teithiai; a chyn iddo fyned yn mhell, ffrwydrodd y berwedydd. Gwnaed prawf arall gan y Meistri Miller a Taylor, ar lyn bychan yn swydd Dumfries, yn Ysgotland, ar Hydref 14eg, 1788; a bu yn hollol lwyddiannus. Yn 1801, cymmerwyd allan freinteb ar ager-lestr gan Mr. Symington; ac yn 1803, adeiladodd y *Charlotte Dundas* i arwain llestri ar gamlesydd y Forth a'r Clyde; a bu yn hollol lwyddiannus, ond fod y dwfr, oddi wrth weithrediad olwynion y bâd, yn curo ymylon y camlas i lawr. Am hyny, rhoddwyd hi heibio.

Yn y cyfamser, gwnaed ymgeisiau cyffelyb yn America gan Stevens, a Livingstone, ac eraill. Yr oedd Robert Fulton hefyd, Americaniad arall, wedi meddwl am hyn yn 1793: ac yn 1807, y gwnaed y fordaith wir lwyddiannus gyntaf gydag ager o Efrog Newydd i Albany, i fyny yr Hudson. Hwyliodd y llestr gant a deg o filldiroedd mewn pedair awr ar hugain, a hyny yn erbyn y llif a'r gwynt. I Fulton, gan hyny, yn ddiammheuol, y perthyn yr anrhydedd o brofi yn gyntaf mewn modd hollol ymarferol ddefnyddioldeb ager at fordwyaeth; er, fel yr ymddengys, nad oedd dim yn angenrheidiol ond dyfal-barhâd i goroni ymdrechiadau Miller, Taylor, a Symington, â llwyddiant. Pum mlynedd yn ddiweddarach, sef yn 1812, cychwynodd Henry Bell y *Comet* ar y Clyde; ac efe oedd yr hwn a roddodd gychwyniad teg i ager-fordwyaeth yn Mhrydain. Yn y fl. 1815, gwnaeth ager-long fordaith o Glasgow i Lundain; ac yn 1818, teithiai un rhwng Efrog Newydd ac Orleans Newydd; ac yn 1820 y sefydlwyd ager-lestri i fordwyo rhwng Caergybi a Dublin. Blwyddyn gofiadwy yn hanes agerfordwyaeth oedd 1838. Hwyliodd yr agerlong *Sirius* o Cork ar y 4ydd o Ebrill, a'r *Great Western* o Bristol ar yr 8fed o'r un mis; a chyrhaeddodd y ddwy i Efrog Newydd ar y 23ain; ac nid oedd y *Sirius* ond pymtheng awr o flaen y llall. Gwneir y fordaith o Loegr yn awr i Efrog Newydd mewn wyth neu naw niwrnod. Ac erbyn hyn, y mae ager-lestri i'w cael ar foroedd, a llynau, ac afonydd mordwyol yn mhob cwr o'r byd. Defnyddir ager-longau yn y llynges hefyd yn lle yr hen hwyl-longau.

Nid ydyw yr ager-beiriannau a ddefnyddir mewn llestri yn gwahaniaethu yn hanfodol oddi wrth rai cyffredin; er hyny, y mae rhyw wahaniaethau yn eu ffurf, a hyny yn benaf er mwyn eu gwneyd mor ysgeifn ag sydd yn bossibl, a chynnilo lle.

AGER-GERBYD. Yn fuan ar ol cael allan nerth ager, ffurfiwyd cynllun i redeg ager-gerbydau ar ffyrdd cyffredin—nid trwy lusgo cyfres o gerbydau ar eu hol, ond trwy barotoi lle i deithwyr yn gystal ag i'r ager-beiriant yn mhob cerbyd. Ymddengys fod Robinson wedi awgrymu hyn i James Watt mor bell yn ol a'r fl. 1759. Yn 1770, darfu i Ffrangcwr o'r enw Cugnot roddi prawf ar ager-gerbyd; ond aeth y cerbyd gyda'r fath rym yn erbyn mur fel y parodd i ddyfeiswyr eraill arafu. Dangoswyd cynllun o ager-gerbyd gan y peiriannydd Murdoch yn 1782, ac un arall gan Watt yn 1784; ac yn 1786, dangosodd Symington ei gynllun yntau. A'r un flwyddyn, hysbysodd Oliver Evans am gynlluniau cyffelyb yn yr Unol Daleithiau. Yr oedd yr ager-gerbyd am yr hwn y cafwyd breinteb gan y Meistri Trevethick a Vivian, yn 1802, ar egwyddor well na'r rhai a wnaethid cyn hyny. Ond ymddengys mai ychydig o gefnogaeth a gafodd y breintebwyr hyn. Ni bu son am unrhyw ddyfais newydd o'r fath am gryn amser wedi hyn. Gwnaeth Bramah agergerbyd, yn y fl. 1821, ar gynllun y cymmerwyd breinteb arno gan Julius Griffiths. Dyfeisiodd David Gordon un yn 1822, ac un arall yn 1824. Rhwng y blynyddoedd 1824 ac 1841, dyfeisiwyd ffurfiau newyddion o ager-gerbydau gan Goldsworthy, Gurney, Burstall, Hill, James, Hancock, Summers, Ogle, Heaton, Church, Dance, Field, Squire, Maceroni, Scott Russell, Hills, ac Anderson. Yr oedd amryw o honynt yn dangos llawer o gywreinrwydd, ac yn gallu teithio o ddeg i ddeuddeng milldir yr awr ar ffyrdd cyffredin. Rhoddodd Syr Charles Dance brawf ar ei gerbydau trwy sefydlu un i redeg rhwng Gloucester a Cheltenham—pellder o naw milldir. A dechreuodd yr ager-gerbyd hwnw deithio Chwefror 21ain, 1831; a pharhaodd i redeg bedair waith y dydd am bedwar mis, yn lled reolaidd. Yr amser a gymmerai ar gyfartaledd i gwblhau y daith oedd pymtheng munyd a deugain; ond o herwydd gwrthwynebiad y trigolion, bu raid ei roddi i fyny, er na chymmerodd un ddamwain le yn nghorph yr amser y bu yn rhedeg. Yr un flwyddyn, rhedodd Mr. Hancock ei ager-gerbyd yntau rhwng Llundain a Stratford; a rhywbryd wedi hyny, gwnaeth Mr. Scott Russell yr un modd rhwng Glasgow

Digitized by Google

a Paisley. Cario teithwyr yr oedd y tri. Eisteddai y teithwyr mewn rhai o'r cerbydau o flaen y peiriant a'r berwedydd; ac yn y lleill, eisteddent o'r tu ol iddynt. Pa fodd bynag, ymddengys na throdd un o honynt allan yn ddigon llwyddiannus i dalu i'w perchenogion.

Yr oedd dyfeisiau diweddarach yn dal perthynas agosach â cherbydau i gario nwyddau trymion, yn hytrach na theithwyr. Un o'r rhai hynotaf oedd un a yrwyd gan Iarll Caithness o Inverness i'w balas ei hun ger Thurso, yn 1764. Cariai y cerbyd hwn dri neu bedwar o bersonau, ac esgynai a disgynai y gelltydd yn rhwydd, heb amrywio ond ychydig mewn cyflymder.

Cymmerwyd amryw freintebau allan yn y blynyddoedd diweddaf ar ager-gerbydau wedi eu bwriadu i'w harfer i gludo pwysau mawr ar ffyrdd cyffredin. Defnyddir rhai o honynt mewn llong-byrth i lusgo llwythi trymion, ac mewn sefydliadau peiriannyddol mawr, ac yn heolydd y brif ddinas; ac anfonir llawer o honynt allan i Asia a Deheubarth America, i lusgo llwythi trymion mewn ardaloedd lle y mae ffyrdd yn brin ac yn wael, neu lle y bydd y gor-i-fyny yn ormod i anifeiliaid allu eu llusgo ar hyd-ddo, neu lle y claddai olwynion culion yn y meddaldir. Pasiwyd deddfau seneddol yn 1861 a 1865 er rheoli y defnydd a wneir o beiriannau tân ar ffyrdd cyffredin. Achoswyd hyn gan yr ofn a feddiannai llawer y gallasai damweiniau gymmeryd lle i feirch a theithwyr traed os na byddai i'r ddeddfwriaeth osod i lawr reolau pendant o berthynas iddynt. Am hanes ager-gerbydau ar ffyrdd haiarn, gwel FFYRDD HAIARN.

AGRICOLA, CNÆUS JULIUS: cadfridog Rhufeinaidd enwog. Ganwyd ef yn Provence, B.A. 37; ac yn amser yr ymherawdwr Vespasian pennodwyd ef yn ail i Vettius Belanus, yn y llywyddiaeth yn Mhrydain. Ar ei ddychweliad i Rufain, gwnaed ef yn llywodraethwr Aquitania—swydd a ddaliodd am dair blynedd. Yna galwyd ef yn ol i'r brif ddinas, ac etholwyd ef yn gonsul, a phennodwyd ef yn llywodraethwr Prydain; ac enwogodd ei hun yma yn fawr. Cariodd allan lawer o ddiwygiadau yn y wlad. Ac wedi marw Vespasian, gan fod ei fab Titus yn adnabod gallu Agricola, cadwodd ef yn ei swydd. Gosododd Agricola ei ddoethineb ar waith i ddyfeisio cynlluniau i ddwyn y Brythoniaid i gydymffurfio âg arferion y Rhufeiniaid. Cefnogodd y gwaith o adeiladu temlau gorwych, ac adeiladau heirdd eraill. Ac o'r diwedd, dechreuodd y pendefigion brodorol addysgu eu meibion yn nysgeidiaeth y Rhufeiniaid, a'r rhai a deimlent y gwrthwynebiad mwyaf i iaith yr estroniaid, ei hastudio yn ddyfal, ac i arfer eu gwisgoedd, a dilyn eu harferion. Ac, fel y sylwa Tacitus, dygwyd hwy yn raddol i ystyried arferion y goresgynydd yn arwydd o goethder; er nad oedd hyny, mewn gwirionedd, fe allai, ond amlygiad o'u darostyngiad. Y mae llawer gormod o'r un ysbryd i'w ganfod yn ein mysg ni y dyddiau hyn; ac ymddengys mewn cylchoedd na buasid yn ei ddisgwyl. Ond nid ydyw diystyrwch unrhyw genedl o'i hiaith yn anrhydedd iddi. Yn hytrach na phrophwydo ei thrangcedigaeth, ac ymbarotoi i'w chladdu, a hyny cyn iddi farw, dyledswydd pawb ydyw ceisio ei chadw yn fyw, a helaethu ei dylanwad. Aeth Agricola yn mlaen yn ei drydydd rhyfelgyrch mor bell a'r Tweed; ac yn ei bedwerydd rhyfelgyrch gorchfygodd y cenhedloedd oedd ar ei glanau a morgeingciau y Frith a'r Clyde; ac adeiladodd gaerfeydd er cau i fyny y cenhedloedd oeddynt etto heb eu gorchfygu. Yn ei bummed ymgyrch, aeth y tu hwnt i'r môrgeingciau, ac ennillodd diriogaethau newyddion, a gosododd warchodluoedd ar hyd y gororau gorllewinol ar gyfer yr Iwerddon. Yn ei chweched ymgyrch, aeth heibio i'r afon Bodotria; a gorchymynodd i'w lynges, y gyntaf fu gan y Rhufeiniaid erioed yn y parthau hyny, i symmud ar hyd ei glanau, i gymmeryd trem ar y parthau gogleddol. Cyfododd y Brythoniaid fyddin o 30,000 o wŷr yn y gwanwyn dilynol, o dan lywyddiaeth Galgacus, i wrthwynebu y goresgynwyr. Ond ennillodd y Rhufeiniaid y frwydr a ddilynodd, a lladdwyd deng mil o'r Brythoniaid. Digwyddodd hyn yn nheyrnasiad Domitian. Teimlodd yr ymherawdwr yn eiddigus o herwydd llwyddiant Agricola; a galwodd ef adref, dan yr esgus o'i wneuthur yn llywodraethwr Syria. Bu Agricola yn Mhrydain am saith mlynedd, sef o B.A. 78 hyd 85, a bu farw yn mis Awst, 93, yn 55ain mlwydd oed. Y mae yr hanesydd mawr Tacitus, yr hwn a briododd ferch i Agricola, wedi ysgrifenu hanes ei fywyd; ac ystyrir ef yn un o'r bywgraphiadau tlysaf a ysgrifenwyd erioed.

ABBOT, GEORGE: archesgob Caergaint. Ganwyd ef Hydref 29ain, 1562, yn Guildford, swydd Surrey. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychain, a dewiswyd ef yn brif athraw Coleg y Brifysgol yn 1597. Yn y fl. 1599, dyrchafwyd ef yn ddeon Winchester; a'r flwyddyn ddilynol yn is-ganghellydd prifysgol Rhydychain; ac ail etholwyd ef drachefn yn 1603. Dechreuwyd y cyfieithiad o'r Testament Newydd a ddefnyddir yn awr yn yr iaith Saesnig yn 1604, trwy gyfarwyddyd y brenin Iago; a Dr. Abbot oedd yr ail a enwyd o'r wyth ysgolhaig o Rydychain i ba rai y rhoddwyd y gofal o gyfieithu yr oll o'r Testament Newydd, ond yr Epistolau. Yn y fl. 1608, bu efe ac iarll Dunbar yn ceisio sefydlu undeb rhwng eglwysi Ysgotland a Lloegr; ac amlygodd bwyll a doethineb neillduol yn y drafodaeth. Yn fuan ar ol hyny, pennodwyd ef yn esgob Lichfield; ac yna yn mhen mis, sef yn Ionawr, 1610, yn esgob Llundain; ac yn y mis Tachwedd canlynol, dyrchafwyd ef i archesgobaeth Caergaint. Dangosodd Dr. Abbott ei hun yn gyfaill selog i Brotestaniaeth ar hyd ei holl yrfa.

Myn rhai briodoli ei ddyrchafiadau i'w waith yn gwenieithio i'r brenin; a diammheu ei fod ar adegau yn rhy dueddol i hyny, fel eraill o gaplaniaid y llys. Ond beiddiai ar adegau wrthwynebu ewyllys y penadur gyda dewrder a diysgogrwydd: a gwnaeth hyny drwy wrthwynebu Llyfr y Chwareuon, ysgariad priodasol yr Iarlles o Essex, a'r briodas Yspaenaidd. Naw mlynedd yn ddiweddarach, gyda'r un diysgogrwydd, tynodd ŵg Siarl I., trwy ommedd trwydded i bregeth slafaidd o eiddo y Dr. Sibthorpe, yr hon a draddodwyd gyda'r amcan o gyfiawnhau un o weithredoedd anghyfansoddiadol Siarl. Am y weithred anrhydeddus hon, attaliwyd ef i weinyddu ei swydd; ond cafodd ei adferu iddi yn fuan, er nad yn ewyllysgar. Yr oedd Laud a Buckingham yn elynion anghymmodawl iddo. Gofidiwyd ef yn ddirfawr yn ei hen ddyddiau o herwydd iddo, yn ddiammheuol, wrth annelu saeth at garw, saethu un o geidwaid helwriaeth Arglwydd Zouch, fel y bu farw. Taflodd hyn

ef i brudd-der mawr; ac o hyny allan ympryd-iai un dydd Mawrth o bob mis, a rhoddodd 20*p.* o flwydd-dâl i weddw y gŵr a laddwyd. Bu farw yn 1633, yn 71ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn Guildford, lle y gwaddolodd elusendai i'r tlodion. Cyhoeddodd amryw weithiau llenyddol yn ystod ei fywyd.

AINSWORTH, HENRY, D. D.: duwinydd Anghydffurfiol o enwogrwydd mawr yn yr unfed a'r eilfed ganrif ar bymtheg. Y mae amser a lle ei enedigaeth yn anhysbys. Yn y flwyddyn 1590, hynododd ei hun yn mhlith y sect a elwid y Browniaid; a phan yn ieuangc, meddai gymmeriad uchel am ei hyddysgrwydd yn yr ieithoedd dysgedig, ac yn enwedig yr Hebraeg. Gwnaed y Browniaid yn wrthddrychau erledigaeth yn Lloegr; a gorfodwyd Ainsworth, fel llawer eraill, i adael ei wlad enedigol am Amsterdam yn Holland; ac yno y bu hyd ddydd ei farwolaeth. Nis gallai neb ei berswadio i ddyfod adref i'w wlad ei hun. Colled i achos Protestaniaeth oedd i'r dyn mawr a galluog hwn gael ei attal rhag pregethu yn ei wlad enedigol.

Ychydig o awduron a ddyfynir yn amlach nag Ainsworth gan ddysgedigion y gwledydd, o bob sect a phlaid. Yr oedd yn ŵr o ddysg mawr, yn hynod gyfarwydd yn yr Ysgrythyrau, ac wedi darllen yn fanwl weithiau y rabbiniaid Iuddewig. Cyhoeddodd lawer o draethodau, a chynnyrchodd amryw o honynt gryn ddyddordeb; ac yn enwedig ei "*Counter Poison against Bernard and Crashaw.*" Mawr edmygir ei "*Annotations on several Books of the Bible.*" Yn yr "*Annotations*" hyn ar Bum Llyfr Moses, y Caniadau, a'r Salmau, y mae y geiriau Hebraeg yn cael eu cymmharu a'u hegluro gyda'r hen gyfieithiadau Groegaidd a Chaldeaidd, ac â chofnodion Hebreaidd eraill.

Bu farw Ainsworth yn sydyn, naill ai yn 1622 neu 1623; ac ammheuir mai ei wenwyno a gafodd gan Iuddew. Trosglwyddir ei enw i oesau dyfodol, nid yn unig fel dyn teilwng o glod ar gyfrif ei alluoedd a'i ddysg, ond hefyd o efelychiad ar gyfrif purdeb ei fywyd, a'i ymlyniad diysgog wrth ei egwyddorion. Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau gwerthfawr eraill nad ydynt wedi eu henwi uchod; megys, "*Fellowship of the Faithful,*" "*Communion of the Saints,*" "*An Arrow against Idolatry,*" &c.

ALARIC I.: cadfridog Visigothaidd enwog, a ddeilliodd o deulu pendefigaidd. Etholwyd ef yn frenin. Y crybwylliad cyntaf a geir am dano mewn hanesyddiaeth sydd fel arweinydd cynnorthwyol Theodosius Fawr. Bu farw yn Cosenza yn 411. Disgrifir y seremoniau a gymmerasant le ar ei gladdedigaeth mewn modd hyawdl gan yr hanesydd Gibbon.

ALBERT, FRANCIS AUGUSTUS-CHARLES-EMMANUEL: tywysog Saxe-Coburg-Gotha, priod Victoria, brenhines Prydain Fawr. Ganwyd ef Awst 26ain, 1819. Ail fab ydoedd efe i'r diweddar duc o Saxe-Coburg-Gotha, o'i briodas gyntaf gyda Louisa, merch i'r duc o Saxe-Gotha-Altenberg. Addysgwyd ef yn y castell o dan arolygiaeth ei dad, gan athrawon a ddewiswyd o goleg Coburg, hyd fis Mai, 1837, pan yr aeth i brifysgol Bonn, fel efrydydd y gyfraith. Arosodd yno hyd fis Medi, 1838; ac yn y cyfamser yr oedd wedi ennill iddo ei hun enw uchel am ei gyrhaeddiadau mewn gwyddor a chelf, ac wedi sicrhau serch ac edmygedd preswylwyr Bonn o herwydd ei fywyd diargyhoedd a'i garedigrwydd i'r tlodion. Heb law ei efrydiau mewn rheithofyddiaeth a hanesyddiaeth, astudiai gerddoriaeth ac arluniaeth yn ei oriau hamddenol, nes dyfod yn gerddor ac yn arlunydd da. Yr oedd y Count Beust a'r proffeswr Welcker yn mysg ei gyfeillion penaf yn Bonn. Perchid ef yn fawr gan Schlegel, er nad oedd y gŵr hwnw, fel rheol, yn proffesu ond ychydig o barch i dywysogion fel y cyfryw. Yn 1838, talodd y tywysog Albert ymweliad â Phrydain yn nghwmni ei dad, er bod yn bresennol ar goroniad y frenhines Victoria, ac arosodd yn Llundain yn hwy na gwahoddedigion eraill o'r radd uchaf a ddaethant yma ar yr achlysur hwnw. Daeth ar ymweliad â'r wlad hon drachefn yn 1839; ac ar ol hyny amlygodd y frenhines i'r cyfringynghor ei bwriad i ymuno mewn priodas âg ef. Gwnaed hyn yn hysbys hefyd i'r senedd yn araeth y frenhines Ionawr 16eg, 1840. Ar ei briodas cafodd y tywysog y teitl o 'Uchelder Brenhinol,' a gwnaed ef yn ddeiliad dinesig o deyrnas Prydain Fawr, a rhoddwyd iddo y gradd o gadlywydd, urdd marchogol y Baddon, a llywyddiaeth ar gatrawd o feirchfilwyr. Pasiwyd deddf hefyd yn ei bennodi yn rhaglaw y deyrnas pe y digwyddasai i'r frenhines farw cyn i etifedd cyfreithlawn i'r goron gyrhaedd deunaw mlwydd oed.

Gan i'r uniad priodasol hwn fod yn un hynod o ddedwydd, gorlwythwyd y tywysog âg arwyddion o anrhydedd gan y frenhines a'r wlad. Cymmerodd yntau fantais ar bob cyfleusdra i wellhau sefyllfa y tlodion, yn gystal ag i gefnogi a gwellhau dysg a chelfyddyd yn gyffredinol. Yn 1847, derbyniodd gan brifysgol Caergrawnt —ar ol i hyny gael ei gadarnhau gan etholiad— y swydd o ganghellydd; yr hon ar y cyntaf a wrthodwyd ganddo. Yn 1859, dewiswyd ef yn llywydd y Gymdeithas Wyddonol Brydeinig. Teimlai ddyddordeb mewn amaethyddiaeth hefyd, fel y gwelir, nid yn unig gan ei areithiau yn nghyfarfodydd y Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol yn Nghaerefrog yn 1848, a manau eraill, ond yn y gafael a amlygai yn arolygiaeth ei fferm (*model farm*) yn Windsor. Sefyllfa y dosbarthiadau gweithiol oedd pwngc yr araeth bwysig gyntaf a draddododd efe yn gyhoeddus, yn yr un flwyddyn (1848); a'r mater hwn yn ddiammheu a orweddai wrth wraidd y cynllun doeth o gario allan Arddangosfa Fawr 1851, yr hwn y teimlai y tywysog y fath ddyddordeb ynddo. Ni throdd y cynllun hwn yn fethiant yn ei amcan; a pharodd llwyddiant y gyntaf i ail arddangosfa gyffelyb gael ei hagor yn 1852; ond nid oedd y tywysog ar dir y byw pan agorwyd hono. Ar y 25ain o Fehefin, 1857, galwyd ef, mewn canlyniad i drwydded frenhinol, yn *Dywysog Cydweddog* (*Prince Consort*), er ei ddyrchafu i sefyllfa uwch; a byddai felly yn meddu lle mwy dyrchafedig yn mysg aelodau llysoedd tramor na phe buasai yn meddu ar y teitl o 'uchelder brenhinol' (*royal highness*), yr hwn a roddwyd iddo ar ei briodas. Yn gynnar yn Rhagfyr, 1861, amlygodd arwyddion o afiechyd; ond ni thybiwyd fod dim yn ddifrifol wedi ymaflyd ynddo hyd o fewn tridiau neu bedwar i'w farwolaeth. Dydd Sadwrn, Rhagfyr 14eg, ar ol ychydig o arwyddion o wellhâd, y cyhoeddiad o'r hyn a groesawid yn fawr gan y bobl yn gyffredinol, bu farw yn hynod ddiboen er galar dwys a dwfn i'w deulu, a'r wlad

Digitized by Google

yn gyffredinol. Bu farw yn y 43ain mlwydd o'i oedran, a chladdwyd ef yn Nghapel St. Sior, yn Windsor. Symmudwyd ei weddillion wedi hyny i'r beddrod yn Frogmore, lle y cododd y frenhines feddadail ardderchog yn arddangosiad o'i pharch i'w goffadwriaeth.

Ystyrid marwolaeth y tywysog rhagorol hwn yn drychineb cenedlaethol, ac amlygwyd gofid dwys o'i herwydd, nid yn unig yn y tiriogaethau Prydeinig, ond drwy yr holl fyd gwareiddiedig. Gwnaed tanysgrifiad cyhoeddus helaeth ar unwaith er cyfodi cofadail ardderchog i'w goffadwriaeth yn Hyde Park, ar y lle y safai Arddangosfa Fawr 1851. Y mae tair cyfrol wedi eu cyhoeddi, yn rhoddi hanes ei fywyd; a bwriedir cyhoeddi pedwaredd gyfrol. Yr awdwr ydyw Mr. Theodore Martin, ac y mae yn preswylio yn awr yn agos i Langollen. Y mae trigolion Prydain wedi bod hyd yn ddiweddar yn coledd meddyliau tra charedig am y Tywysog Albert, gan eu bod yn credu ei fod wedi ymgadw heb ymyraeth âg achosion y wladwriaeth yn mhellach nag yr oedd y cyfansoddiad yn caniatau: a'r un modd y frenhines hefyd. Ond y mae cyhoeddiad y cyfrolau uchod, ac yn enwedig y drydedd gyfrol, wedi newid y syniad hwn; a barna llawer yn awr ei fod ef a'r frenhines wedi cymmeryd gormod arnynt eu hunain, ac wedi ymyraeth mewn modd tra annoeth ac anweddus âg aelodau amryw o weinyddiaethau, ac wedi pleidio rhyfel y Crimea i raddau llawer rhy bell. Y mae cyhoeddiad y gwaith hwn, y mae lle i ofni, wedi darostwng y tywysog yn ngolwg llaweroedd, ac wedi oeri teimladau nifer fawr iawn o'r deiliaid tuag at y frenhines hefyd, a'r teulu brenhinol.

ALCALI. Cyfansoddir y gair hwn o'r bannod *al*, a'r gair Arabaidd *kali*. Enw planhigyn ydyw, yr hwn y cafwyd sylwedd alcalïaidd gyntaf o'i lwch. Y mae y gair yn awr yn dynodi dosbarth o sylweddau sydd yn meddu ansoddau cyffelyb. Pedwar o alcalïau priodol sydd:—llyshalen (*potash*), llysnur (*soda*), *lithia*, ac *ammonia*. Egrid (*oxide*) metteloedd yw y tri blaenaf; ond cyfuniad fferyllol ydyw yr olaf o florai (*nitrogen*), ac ulai (*hydrogen*): a chan mai math o nwy ydyw, gelwir ef yn alcali hedin neu hedegog (*volatile*). Gan fod llyshalen i'w gael, gan mwyaf, mewn llysiau, gelwir ef yn alcali llysieuol; a chan fod llysnur i'w gael gan mwyaf mewn mŵnau, alcali mŵnol y gelwir yntau. Ammonia ydyw yr unig alcali sydd yn y ffurf o nwy: y mae y lleill oll yn sylweddau celyd. Y mae i'w gael, hefyd mewn gwahanol ffurfiau celyd; sef, blorawd (*nitrate*) ammonia; hâl (*sal*) ammonia; surawd (*acetate*) ammonia; ac ufelawd (*sulphate*) ammonia, &c. Cyfansoddir yr haloedd hyn trwy gyfuno ammonia gydag surion (*acids*). Priodoleddau gwahaniaethol alcalïau ydynt, eu bod yn troi lliwiau gleision llysieuol yn wyrddion, a lliwiau melynion llysieuol yn llwydgoch. Y mae alcalïau yn adferu lliwiau gleision llysieuol, fyddont wedi eu cochi gan surion (*acids*); ac o'r tu arall, y mae surion yn adferu lliwiau llysieuol fyddont wedi eu cyfnewid gan alcalïau.

Y mae alcalïau yn ymuno yn rhwydd gyda surion, gan wneuthur math o halen, nad ydyw ansoddau priodol alcali a surion i'w cael ynddo: ac am hyny y dywedir fod y naill yn lladd effaith y llall. Arferir alcalïau yn fynych mewn meddyginiaeth.

ALCIBIADES, mab Clinias. Un o'r gwladofyddion a'r cadlywyddion enwocaf yn Athen yn adeg y rhyfel Peloponnesiaidd. Gan ei fod wedi ei fendithio â chyfoeth mawr, â chorph tra phrydferth, ac â galluoedd meddyliol anghyffredin, yr oedd yn hawdd rhagfynegi y gadawai ei ol ar hanes Athen. Beiau plentyn wedi ei ddyfetha gan ormod o ffafrau ydoedd beiau Alcibiades. Yr oedd yn anwadal, yn hunangar, yn drahaus, ac yn afradlawn. Ond cymmylu, yn hytrach na chuddio, ei ragoriaethau yr oedd y beiau hyn. Yn y rhyfel Peloponnesiaidd, pennodwyd ef i gydlywyddu â Nicias yn y rhyfelgyrch yn erbyn Syracusa; ond yn ebrwydd wedi iddo gyrhaedd yno, galwyd ef yn ol i Athen, i sefyll ei brawf yn ngwyneb y cyhuddiad o ddifwyno cerf-ddelwau Mercurius. Ond efe, gan ofni y canlyniadau, a giliodd i Sparta; ac yna annogodd y Lacedemoniaid i fyned i ryfel yn erbyn Athen. Yr oedd yn gymmeradwy iawn gan drigolion Sparta; ond gan iddo dynu arno ei hun ddigofaint Agis II., efe a aeth drosodd at Tissaphernes, brenin Persia; a thrwy ei ddylanwad ef, gwahoddodd yr Atheniaid Alcibades i ddyfod yn ol i Athen. Ond ni ddychwelodd adref cyn gorchfygu gelynion ei wlad mewn amryw frwydrau pwysig. Ganwyd ef yn y fl. 450 C.C., a bu farw yn y fl. 404.

ALCUIN: gŵr eglwysig enwog, ac un a fu yn offeryn i adnewyddu dysgeidiaeth yn yr wythfed ganrif. Ganwyd ef yn sir Gaerefrog, ynghylch y fl. 735. Addysgwyd ef yn ninas Caerefrog, o dan gyfarwyddyd yr archesgob Egbert. Nid ydyw yn wybyddus hyd sicrwydd pa swyddau a weinyddodd yn yr eglwys cyn gadael Lloegr, dywed rhai ei fod yn abad Caergaint. Anfonwyd ef i Rufain gan Eanbald, olynydd Ethelbert; ac wrth ddychwelyd oddi yno, cyfarfu â Siarl Fawr (Charlemagne) yn Parma, yr hwn a wyddai am ei deilyngdod, ac a ddymunodd arno i ymsefydlu yn ei lys, a bod yn athraw iddo ef yn y gwyddorau. Addysgwyd Siarl ganddo mewn areithyddiaeth, rhesymeg, a duwinyddiaeth. Enwogodd Alcuin ei hun yn arbenig drwy ei ysgrifeniadau yn erbyn Felix D'Urgel; ac ar fwy nag un achlysur bu ar genadwriaethau pwysig oddi wrth Siarl at Offa, brenin Mercia. Bu hefyd yn offeryn i sefydlu prif athrofäau Paris, Tours, Fulden, Soissons, ac eraill. Treuliodd lawer o flynyddoedd yn llys Siarl, ar y telerau mwyaf cyfeillgar âg ef. Bu farw yn Tours, B.A. 804. Yr oedd ei weithiau yn gynnwysedig o draethodau ar yr Ysgrythyrau, ar athrawiaeth, dysgyblaeth, a moesoldeb, ynghyd â thraethodau hanesyddol, llythyrau, a phryddestau, &c.

ALFFERYLLIAETH (*Alchemy*). Amcan y fferyllydd yw darganfod a dadguddio ansoddau fferyllol sylweddau; ond dau amcan mawr yr hen alfferyllwyr oedd cael allan, yn gyntaf, pa fodd i droi y metteloedd gwaelaf yn aur ac yn arian; ac yn ail, pa fodd i estyn oes dyn ar y ddaear. Barnai yr hen alfferyllwyr fod yr holl fetteloedd yn gyfansawdd, a bod y rhai gwaelaf o honynt yn cynnwys yr un elfenau ag aur, ond wedi eu cymmysgu â llawer o ammhuredd; a phe y gellid glanhau y metteloedd cyffredin oddi wrtho, y gellid eu gwneyd yn gydnaws âg aur. Proffesent wneyd y cyfnewidiad hwn â'r hon a elwid yn "gareg yr athronydd;" yr hon, meddir, nid oedd ond llwch coch, âg iddo arogl



Digitized by Google

neillduol. Ceisient gyrhaedd yr ail amcan trwy gael allan rhyw feddyginiaeth y gellid ei chymmhwyso at bob dyn, ac at bob afiechyd.

Dywed traddodiad mai yr Aipht oedd genidfan y wyddor hon; ac mai Hermes Trismegistus oedd ei thad. Y gweithiau dilys boreuaf sydd yn aros hyd heddyw yw rhai Roger Bacon (1214—1284) ac Albertus Magnus (1205—1280). Roger Bacon oedd y dyn mwyaf yn yr holl ysgol hon. Mynach Ffranciscaidd ydoedd efe, ac fe'i ganwyd yn Ngwlad yr Haf. Condemniai ddewiniaeth a swyngyfaredd; ond er hyny, credai y gellid troi metteloedd cyffredin yn aur; er nad oedd yn proffesu ddarfod iddo allu gwneyd hyny ei hun. Yr oedd ganddo gred hefyd yn effeithiau iachaol dwfr aur (*solution of gold*). Adroddodd unwaith wrth y pab Nicholas IV. am hen ŵr afiach a gafodd wlybwr melyn mewn costrel aur. Gan feddwl mai gwlith ydoedd, efe a'i hyfodd; ac yn ebrwydd, fe'i gwnaed ef yn ddyn iach a heinyf. Diau i Bacon ei hun gymmeryd aml ddogn o'r dwfr aur hwn. O'r diwedd, fe'i carcharwyd am arfer dewiniaeth; ond mewn gwirionedd, am ddarfod iddo ddynoethi anfoesoldeb yr offeiriaid!

Ond yr enwocaf o'r cwbl mewn alfferylliaeth oedd Paracelsus o Basel (1493—1541); canys ynddo ef y cyrhaeddodd y wybodaeth hon ei phwynt uchaf. Daliai yntau, yn debyg i Basel Valentine, fod pob peth, naill ai yn halen, neu yn ufeliar (*sulphur*), neu yn arian byw, neu ynte yn gymmysgbeth; ond credai er hyny nad oedd y pethau hyn oll ond ffurfiau o'r un elfen fawr anadnabyddus, a alwai yn *alcahest*. Tybiai pe ceid gafael ar hon, y gwelid mai hi oedd 'careg yr athronydd,' a'r feddyginiaeth gyffredinol.

Ar ol marwolaeth Paracelsus, ymranodd alfferyllwyr Ewrop yn ddau ddosbarth; sef, y dosbarth ymarferol a synwyrol, a'r dosbarth mympwyol a dychymygol. I'r dosbarth olaf hwn y perthyn dynion o fath Dousterswivel, yr hwn a ddisgrifir gan Syr Walter Scott yn ei "*Antiquary.*" Am fferyllwyr y dosbarth blaenaf, y maent hwy, er gwaethaf eu cyfeiliornadau, wedi gwneuthur llawer er sefydlu fferylliaeth wyddorol a gwirioneddol.

ALFIERI, VITTORIO: bardd Italaidd enwog. Ganwyd ef o deulu hynafol yn Asti, yn Piedmont, yn y fl. 1749, a derbyniodd ei addysg yn Turin. Bu ddwywaith yn Mhrydain; ac arosodd yma y tro diweddaf saith mis. Yn 1775, cyhoeddodd ddwy chwareugân. Gosodwyd hwynt ar esgynlawr y chwareudy, a buont mor lwyddiannus fel y penderfynodd o hyny allan wneyd llenyddiaeth yn brif waith ei oes. Dygodd allan mewn saith mlynedd bedair ar ddeg o chwareugerddi, heb law amryw o weithiau eraill mewn barddoniaeth a rhyddiaeth; ac yn eu plith gyfieithiad o Sallust, a thraethawd ar Orthrwm. Bu yn foddion i ddyrchafu treisganiadaeth Italaidd o'r cyflwr o ddiraddiad yr oedd wedi syrthio iddo. Nis gellir priodoli gwreiddioldeb i gynlluniau ei ganiadau, gan eu bod oll wedi eu seilio ar hanesyddiaeth neu ar chwedloniaeth. Ond yn ei holl gynnyrchion ceir y cynllun Groegaidd puraf; ac y maent yn cael eu treiddio âg ysbryd o annibyniaeth a rhyddid, teilwng o fardd Athenaidd. Esgeulusa gario allan unoliaeth amser a lle i fesur mawr. Ei brif ragoriaeth yw ei allu disgrifiadol. Sylfaenodd ysgol newydd Italaidd mewn chwareuganiadaeth. Bu farw yn Florence yn 1803.

ALFORD, HENRY, D.D.: deon Caergaint. Yr oedd yn fardd, beirniad ysgrythyrol, cerddor, arlunydd, ieithydd, a duwinydd galluog. Ganwyd ef yn Llundain, Hydref 7fed, yn y fl. 1810. Mab ydoedd i'r Parch. Henry Alford, yr hwn a ddygwyd i fyny yn ddadleuydd cyfreithiol, ond a gymmerodd urddau yn Eglwys Loegr yn 1813, ac a fu yn beriglor yn Ampton, Suffolk, ac wedi hyny yn Aston Sandford, swydd Buckingham. Addysgwyd Henry, pan yn ieuangc, yn ysgol rammadegol Ilminster, Gwlad yr Haf, ac oddi yno efe a symmudodd i Goleg y Drindod, Caergrawnt, lle yr hynododd ei hun fel ysgolhaig da. Yn gymmaint a bod ei rieni mewn amgylchiadau da, nid fel mater o angenrheidrwydd y trodd efe ei sylw yn arbenig at lenyddiaeth a barddoniaeth; ond pwngc o ddewisiad yn hollol ydoedd. Yn 1831 y cyhoeddodd efe ei waith barddonol cyntaf, yn Nghaegrawnt, o dan yr teitl, "*Poems and Poetical Fragments*," yr hwn a ddilynwyd, yn 1836, gan "*The School of the Heart, and other Poems*," mewn dwy gyfrol. Etholwyd ef yn gymmrawd o'i goleg yn 1834; ac yr oedd yn flaenorol wedi dadgan ei benderfyniad i gymmeryd urddau eglwysig. Yn 1835, cyflwynwyd iddo fywoliaeth Wymeswold, yr hon a ddaliwyd ganddo hyd y flwyddyn 1853; Efe oedd y darlithydd Hulseaidd yn Nghaergrawnt, yn 1841—42; a thua'r pryd hwn hefyd y cyhoeddodd efe ei "*Chapters on the Poets of Greece.*" Yn 1841, pennodwyd ef yn arholwr rhesymeg ac athroniaeth foesol yn Mhrifysgol Llundain. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o'i argraphiad o'r Testament Groeg, ynghyd â nodiadau beirniadol ac eglurhaol, yn 1841; a'r ail gyfrol yn 1852; a daeth allan y bummed, a'r olaf, yn 1861. Y mae y gwaith hwn yn cael ei ystyried yn un dysgedig a rhagorol, ac yn mysg trysorau gwerthfawrocaf y dosbarth hwn o lenyddiaeth Feiblaidd. Bu yn weinidog yn Nghapel Heol Quebec, o'r fl. 1853 hyd 1857, lle yr ennillodd iddo ei hun gymmeriad uchel am ei hyawdledd pregethwrol. Cyhoeddodd gyfrolau o bregethau o dan y teitl "*Quebec Chapel Sermons.*" Ystyrir mai y ragoraf o'i holl bregethau ydyw yr un ar y geiriau, "Y rhai ni ddichon neb eu rhifo," yr hon a bregethodd yn Eglwys Gadeiriol Canterbury yn fuan ar ol ei ddyrchafiad i'r ddeoniaeth. Ar farwolaeth y deon Ryall, yn 1857, pennodwyd Dr. Alford i fod yn olynydd iddo, fel deon Caergaint, gan y prif weinidog; sef, Arglwydd Palmerston. Daeth ei waith ar "*The Queen's English*" allan yn 1864. Bu yn olygydd am dymmor ar y "*Contemporary Review,*" ac ysgrifenodd lawer o erthyglau rhagorol i "*Good Words,*" a chyfnodolion eraill.

Cymmerwyd ef yn glaf ddydd Llun, Ionawr 9fed, 1871; a'r dydd Iau canlynol, Ionawr 12fed, er galar dwys i gylch lliosog iawn o gyfeillion ac edmygwyr, bu farw o gydgrynhoad yr ysgyfaint, yn 61ain mlwydd oed. Cyhoeddwyd ei ddydd-lythyrau yn 1872, gan ei weddw, o dan ei golygiaeth ofalus ei hunan. Barna un o'i fywgraphwyr y buasai Alford wedi ennill y safle uchaf oll, mewn un neu ddau o'r amrywiol ganghenau o ddysgeidiaeth a gwybodaeth yr oedd efe wedi eu hastudio pe gallasai ddysgyblu a chrynhoi ei feddwl cyfoethog at ryw un o honynt, a'i gwneyd yn brif fater ei astudiaeth.

ALFRED, yr hwn a gyfenwid ALFRED FAWR. Efe oedd yr enwocaf o holl frenhinoedd Sacsonaidd Lloegr. Yr ieuangaf ydoedd efe o feibion

Digitized by Google

Ethelwolf, brenin y Sacsoniaid Gorllewinol. Ganwyd ef mewn lle a elwir Wantage, yn sir Berks, B.A. 849. Yn ystod teyrnasiad ei frawd, Ethelred, enwogodd ei hun mewn amryw o frwydrau yn erbyn y Daniaid; ac ar ei farwolaeth ef meddiannodd Alfred y goron yn y fl. 871, pan yn 22ain mlwydd oed. Yr oedd y Daniaid eisoes wedi dyfod i ganol ei deyrnas; a chyn iddo deyrnasu am fis, bu raid iddo gymmeryd y maes yn eu herbyn. Ar ol ymladd llawer o frwydrau, ac ennill rhai a cholli eraill, gwasgwyd ef i gyfyngder dirfawr, a throes ei ddeiliaid eu cefnau arno. Yna diosgodd Alfred ei ddillad brenhinol, a chymmerodd noddfa yn nhŷ y gŵr a ofalai am ei anifeiliaid. Wedi hyny aeth i Athelney, lle neillduedig yn Ngwlad yr Haf, lle yr adeiladodd amddiffynfa er ei ddiogelwch ei hun a'i deulu, ac ychydig o ddilynwyr ffyddlawn. Wedi bod tua blwyddyn yn y lle neillduedig hwn, a chael hysbysrwydd fod ei ddeiliaid wedi ennill buddugoliaeth fawr ar y Daniaid, a lladd eu penaeth, a chymmeryd eu baner, gwnaeth ei hun yn hysbys, a gwahoddodd y pendefigion i ddyfod ato i ymgynghori âg ef. Ond cyn dyfod i unrhyw benderfyniad terfynol, ymwisgodd Alfred mewn gwisgoedd telynor, ac aeth felly i wersyll y gelyn. Derbyniwyd ef yn groesawus, a bu yn chwareu o flaen y penaeth. Wedi deall eu sefyllfa, dychwelodd at ei bendefigion, a gorchymynodd iddynt gasglu ynghyd gynnifer o ddilynwyr ag y gallent; a phennododd ddiwrnod iddynt i gydgyfarfod yn nghoedwig Selwood, yn swydd Wilts. Cyflawnwyd y gwaith mor gyflym a dirgelaidd fel yr oedd y brenin yn flaenor ar fyddin gref, a daeth i ymyl y Daniaid cyn iddynt wybod dim am dano. Taflwyd hwy i gyffro mawr. Cymmerodd Alfred fantais ar hyn, a llwyr orchfygodd hwynt yn Eddington. Caniataodd y gorchfygwr iddynt well telerau nag a ddisgwyliasant. Addawodd Angles Ddwyreiniol—yn cynnwys yn awr Norfolk, Suffolk, Caergrawnt, ac Ely—i'r rhai a gofleidient Gristionogaeth; ond ar yr ammod eu bod yn danfon eu cydwladwyr eraill oddi ar yr ynys. Bedyddiwyd llawer o'r Daniaid, cadwasant hwythau eu hymrwymiadau, ac ymsefydlasant yn dawel yn y wlad a neillduwyd felly iddynt.

Daeth minteioedd eraill o'r Daniaid i Loegr, pa fodd bynag, a rhoddasant drafferth fawr iawn i Alfred. Ond o'r diwedd, cymmerodd ugain o'u llongau hwynt mewn brwydr; ac wedi profi y carcharorion yn Winchester, condemniwyd hwy i farw. Trwy y mesur llym hwn, ynghyd âg eraill, a gymmerwyd er amddiffyn y wlad, adferwyd heddwch am y gweddill o'i deyrnasiad. Defnyddiodd yntau ei amser yn y tair blynedd diweddaf o'i oes i sefydlu a rheoleiddio ei lywodraeth er ei ddiogelwch ei hun a'i olynwyr, ac er budd i'w ddeiliaid. Ar ol teyrnasiad cynnhyrfus o wyth mlynedd ar hugain, bu farw ar yr 28ain o Hydref, yn y flwyddyn 900, yn 51ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynachlog Hyde, yn Winchester. Codwyd cofadail o faen myldardd (*porphyry*) ar ei fedd.

Y mae yr holl haneswyr yn cyttuno ei fod yn un o'r brenhinoedd mwyaf, doethaf, a goreu a fu erioed yn teyrnasu yn Lloegr; a chydnabyddir yn gyffredinol iddo, nid yn unig ffurfio llawer o gyfreithiau neillduol sydd yn awr mewn grym, ond tybir hefyd mai efe a osododd i lawr sylfaen cyntaf ein cyfansoddiad gwladol presennol. Y mae sail i'r grediniaeth mai i'r tywysog hwn yr ydys yn ddyledus am y sefydliad o brawf drwy reithwyr. Dywedir hefyd mai efe oedd y cyntaf i ddosbarthu y deyrnas yn siroedd. Yr oedd yn ddyn hawddgar, ac o dymmer siriol a serchog at ei gyfeillion, a chyfiawn hyd yn oed tuag at ei elynion, a charedig tuag at bawb. Yr oedd yn hynod ofalus hefyd am wneyd y defnydd goreu o'i amser. Cefnogai lenyddiaeth: a thybir ei fod wedi pennodi personau i ddarllen darlithiau yn Rhydychain; ac o herwydd hyny, ystyrir ef fel sylfaenydd y brifysgol hono. Y mae yn amlwg iddo wneyd cymmaint ag oedd yn ei allu i eangu gwybodaeth yn ei diriogaethau, ac ysgrifenodd lawer o lyfrau.

Y mae y rhestr ganlynol yn cynnwys yr oll ag sydd yn adnabyddus:—1. Llaw-lyfr: ond nid oes un copi ar gael. 2. Deddfau. 3. Hanesiaeth Eglwysig Bede. 4. Hanesiaeth gyffredinol Orosius. 5. Cysuron athroniaeth, gan Boethius. 6. Gofal bugeiliol Gregory.

ALHAMBRA:—hen gastell a phalas brenhinoedd Mŵraidd Granada. Adeiladwyd ef gan Mahomet II., tua'r flwyddyn 1273. Galwodd ei enw yn *Medinet Alhambra;* sef, y Ddinas Goch—am ddarfod ei wneuthur o fath o glai coch. Nid oes dim yn hynod yn yr olwg a geir arno oddi allan, ond y mae o'r tu fewn yn gywreiniach, ond odid, nag un adeilad arall yn Ewrop. Saif yr Alhambra ar fryn uchel ger llaw Granada. Amgylchir ef gan fur cadarn; yr hwn y mae ei arwyneb yn 2,500 troedfedd o hyd, ac yn 650 o led. Dywedir y gellid yn hawdd lettya 40,000 o bobl o'i fewn. Rhed yr afon Darro gyda throed y bryn, o du y dwyrain, a'r gogledd, a'r gorllewin. Cymmerwyd y palas oddi ar y Mahometiaid gan y Cristionogion yn 1491. Gellir cael rhyw syniad am yr adeilad hwn trwy ymweled â'r *Alhambra Court* yn y *Sydenham Crystal Palace,* lle y ceir efelychiad o'r llys, yn rhoddi arddangosiad o orwychder y lliwiau, yr addurn, a'r prydferthwch a berthyn iddo.

ALLEGRI, ANTONIO: yr hwn yn fynych a elwir CORREGGIO, oddi wrth ei le genedigol. Arlunydd hanesyddol o'r radd flaenaf. Ganwyd ef yn y fl. 1494. Er fod llawer o ymchwiliadau manwl wedi eu gwneuthur, ychydig a wyddys am ei ddyddiau boreuol. Ni chafodd erioed gyfle i weled cerfluniau hynafol Groeg a Rhufain, na gweithiau eraill prif feistriaid y gelfyddyd yn Rhufain a Venice. Natur a'i gwnaeth ef yr hyn ydoedd. Efrydiodd a mabwysiadodd Caracci, yr hwn oedd yn fyw hanner can mlynedd yn ddiweddarach, ei arddull; a rhoddodd y flaenoriaeth iddo ar bob arlunydd arall. Am ryw reswm, ni thalodd Correggio erioed ymweliad â Rhufain; ond treuliodd ei holl fywyd yn Parma. Nid oedd arluniaeth yn cael ei phrisio yn uchel yno; o ganlyniad, nid oedd yn cael ei dalu yn deilwng am ei waith. O'r diwedd, bu cydgasgliad o amgylchiadau anffafriol yn achlysur o'i farwolaeth yn yr oedran cynnarol o ddeugain.

ALVA neu ALBA, FERDINAND ALVAREZ DE TOLEDO, Y DUC. Ganwyd y cadlywydd enwog hwn yn 1508, ac yr oedd yn hanu o un o'r teuluoedd mwyaf pendefigaidd yn Yspaen. Aeth yn ieuangc iawn i wasanaeth yr ymherawdwr Siarl V., ac yr oedd gydag ef yn rhyfela

Digitized by Google

yn erbyn Algiers, Tunis, a Pavia. Canfu yr ymherawdwr ei fod yn offeryn cymmhwys odiaeth i ddwyn i ben ei anturiaethau milwraidd; ac am hyny, gwnaeth ef, yn y fl. 1538, yn bentywysog ei fyddin. Ennillodd amryw frwydrau pwysig, a gwnaeth wasanaeth mawr i'w wlad. Bu farw yn Lisbon yn 1582, yn 74ain oed.

AMBROSE, WILLIAM: llenor, bardd, a phregethwr enwog yn mhlith yr Annibynwyr. Ganwyd ef yn Mangor, Awst 1af, 1813. Yr oedd ei rieni, John ac Elizabeth Ambrose, ar y pryd yn cadw y Penrhyn Arms Hotel. Yr oeddynt o ran eu hamgylchiadau mewn sefyllfa gefnog a chysurus, a William oedd eu hunig blentyn, gan i ferch iddynt farw yn ieuangc. Ymddengys na bu ei dad yn aelod eglwysig, er ei fod yn wrandäwr cysson yn nghapel Ebenezer ar weinidogaeth y diweddar ddoctor Arthur Jones; ond yr oedd ei fam yn aelod yno, ac yn cael ei hystyried yn wraig bwyllog, rinweddol, a chrefyddol, ac yn glodfawr am ei gweithredoedd da. Pan fu farw yn nechreu y fl. 1853, collodd eglwys Annibynol Bangor un a gydnabyddid yn "fam yn Israel;" ac y mae yn naturiol meddwl fod William yn wrthddrych serch a gofal neillduol ei rieni. O herwydd gwendid ei fam, rhoddwyd ef pan oedd yn faban i ofal mammaeth, yr hon a breswyliai yn mhlwyf Llandegai, ger llaw Bangor; ond dychwelwyd ef i'w fam mewn amser cyfaddas, a bu hithau yn dra gofalus am ei addysg grefyddol foreuol. Cafodd fanteision addysg fydol dda yn ysgol rammadegol Bangor; ac fel dysgwr, rhagorai yn fawr tra bu yno. Symmudodd oddi yno i Gaergybi, lle y rhoddwyd ef o dan ofal y Parch. W. Griffith; yr hwn, ar y pryd, mewn cyssylltiad â'i lafur gweinidogaethol, a gadwai ysgol i wŷr ieuaingc. Ac wedi i'w dymmor ddyfod i ben yno, daeth yr adeg iddo ymgymmeryd â rhyw alwedigaeth. Penderfynodd ei rieni ei ddwyn i fyny yn *draper;* ac i'r dyben hwnw, rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda masnachydd cyfrifol yn Liverpool, yn y fl. 1828. Mor fuan ag yr aeth i Liverpool, aeth i wrandaw yr efengyl yn y Tabernacl, Great Crosshall Street; ac yn fuan, ymunodd a'r Ysgol Sabbothol, ac â'r eglwys, lle yr oedd y Parch. J. Breeze yn llafurio; a ffurfiodd gyfeillgarwch â gwŷr ieuaingc crefyddol—yr hyn, yn ddiammheuol, a fu yn fantais fawr iddo, fel y mae bob amser i ddynion a ymfudant o Gymru i leoedd mor lawn o demtasiynau ag ydyw trefydd mawr y deyrnas. Symmudodd i Lundain yn y fl. 1834, i weini mewn masnachdy. Nid oedd wedi dechreu pregethu cyn gadael Liverpool, er fod y cyfeillion yno wedi meddwl ei annog ef, a gŵr ieuangc arall, o'r enw John Parsons, i ymgymmeryd â'r gwaith. Gwnaed hyny yn hysbys i'r cyfeillion yn y Borough-road; a thrwy annogaeth yr eglwys hono, dechreuodd bregethu yn y brif ddinas. Yno hefyd y daeth i'r golwg gyntaf fel bardd. Cyfansoddodd awdl yno ar "Gymmedroldeb." Tua dwy flynedd yr arosodd yn Llundain: yna daeth i Fangor yn ol. Erbyn hyn, yr oedd wedi dyfod i'r penderfyniad i 'fyned i'r weinidogaeth,' fel y dywedir.

Nis gallwn wneyd dim yn well yma na rhoddi y dyfyniad canlynol, er ei fod yn lled faith, o'i ysgrifell ei hun, a ymddangosodd gyntaf yn y "*Dysgedydd,*" am Mai, 1870, ac a ddyfynwyd ar ol hyny yn ei "*Gofiant,*" gan y Parch. W. Rees, D.D., yn yr hwn y mynegir yr amgylchiadau a arweiniasant i'w sefydliad yn Mhorthmadog, a'r llwyddiant a ddilynodd ei lafur yno yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth:—

"Yn niwedd mis Awst, 1836," medd Mr. Ambrose, gan gyfeirio ato ei hun, "yr oedd gŵr ieuangc yn dychwelyd i Gymru o Lundain, lle y bu yn aros am yn agos i ddwy flynedd. Yr oedd wedi cael ei ddwyn i fyny mewn masnach, ac wedi treulio wyth mlynedd o'i amser yn Lloegr. Argyhoeddwyd ef ei bod yn llawn bryd iddo wneuthur rhywbeth yn fwy uniongyrchol drosto ei hun, yn hytrach na pharhau yn hwy i roddi ei wasanaeth i eraill. Arfaethai ymsefydlu yn Liverpool, lle yr oedd ganddo gylch eang o gyfeillion. Yr oedd wedi arfer pregethu yn achlysurol er's cryn amser; ac yn ystod ei arosiad yn y brifddinas, gwahoddid ef yn fynych i wasanaethu yn mhulpudau y gwahanol enwadau. 'Nid eiddo gŵr ei ffordd.' Yr oedd y dyn ieuangc y cyfeiriwyd ato yn aros dros dro yn ei hen gartref, cyn troi allan dan bwys a chyfrifoldeb y byd. Yn ystod yr amser hwnw daeth i gydnabyddiaeth â gweinidogion y sir. Bu rhai o honynt mor garedig a'i wahodd i gymmeryd rhan mewn cyfarfodydd pregethu, lle y cafodd lawer o hyfrydwch wrth wrandaw ar, a chymdeithasu â gweision yr Arglwydd......

Yn mis Hydref, 1836, pennodwyd y Parch. W. Williams (*Caledfryn*), Caernarfon, i fyned drwy Leyn ac Eifionydd i geisio cefnogaeth yr eglwysi i gymdeithas oedd wedi ei ffurfio yn y sir i dalu dyledion yr addoldai. Ceisiodd gan y gŵr ieuangc y cyfeiriwyd ato eisoes i fyned gydag ef, a gwasanaethu fel 'cyfaill' iddo ar y daith. Derbyniwyd y gwahoddiad, a dechreuwyd y daith yn nghyfarfod urddiad y Parch. O. Thomas, yn Nhal-y-sarn....Yr oedd y golofn yn arwain heibio i Borthmadog. Cafwyd yno gynnulleidfa fawr, a hwyl ryfeddol. Gan fod yr eglwys yno heb weinidog, gwahoddwyd y cyfaill ieuangc i roddi cyhoeddiad Sabbath. Rhoes addewid am Sul yn fuan ar ol hyny.

Deallodd Caledfryn fod ei gyd-deithydd ieuangc wedi tynu tipyn o sylw y cyfeillion yn y Port. Cyfrifid ef gan Mrs. Williams, Tu-hwnt-i'r-bwlch, yn un tebyg o wneyd gweinidog cymmhwys iddynt. O'r pryd hwnw hyd ddiwedd y daith, ni pheidiodd Caledfryn ag annog ei gydymaith i roddi i fyny bob meddwl am fasnach fydol, ac ymgyssegru yn gwbl i'r weinidogaeth. Yr ydym yn barnu na adawodd un rheswm a feddai heb ei ddefnyddio i ogwyddo tueddiad ei gyfaill. Yr oedd ymrwymiadau y daith ddyddorol a chysurus hono yn diweddu yn nghapel y Bedyddwyr yn Pont-y-cim. Yr oedd cyfarfod blynyddol y Feibl Gymdeithas yn cael ei gynnal yno. D. Pugh, Ysw., Coch-y-big, yn y gadair. Christmas Evans, Caledfryn, a W. Roberts, Clynog, yn siaradwyr. Gofynwyd hefyd i'r brawd ieuangc oedd yno yn ddamweiniol i ddyweyd ychydig. Bu yr hen wron, Christmas, mor hynaws a dyweyd gair annogaethol i'w gefnogi. Wedi dychwelyd o'r cyfarfod, mynegai Caledfryn iddo sylwedd yr ymddiddan a fuasai rhyngddo a'i gyfaill ieuangc ar y ffordd. Taniai llygad yr hen ŵr, a dywedodd ychydig eiriau gydag awdurdod oracl. Yr Arglwydd yn unig a edwyn ganlyniadau yr ychydig eiriau hyny. Buont yn foddion i roddi cyfeiriad newydd i oes na fu o hyny allan yn gwbl annefnyddiol."

Cydsyniodd Mr. Ambrose i ddyfod i Borthmadog am flwyddyn o brawf. Y mae arweiniad Rhagluniaeth i'w ganfod yn eglur yn ngoleu yr hanes a rydd efe o'i ddyfodiad a'i ymsefydliad yn Mhorthmadog—y man lle yr oedd maes ei lafur i fod o hyny allan dros ei oes. Temtir ni etto i ddyfynu yn mhellach yr hyn a ganlyn, gan nas gallwn gael dim arall sydd yn taflu cymmaint o oleuni ar ei hanes y pryd hwn:—

"Nid oedd agwedd pethau yn eglwys Salem ar y pryd hwn yn ymddangos yn ddeniadol i ddyn ieuangc wedi treulio ei oes yn nghanol llawnder, heb

Digitized by Google

deimlo ias o bryder erioed ynghylch y bara beunyddiol. Yr oedd gwyntyll dysgyblaeth, dirywiad, ac enciliad proffeswyr, wedi darostwng nifer yr eglwys, hyd nes gadael ei rhifedi yn bedwar-ar-bymtheg....Yn fuan ar ol sefydliad y gweinidog newydd, agorwyd drws iddo yn nheulu boneddwr yn yr ardal, i fod yn addysgydd i'w unig fab. Rhoes hyn iddo amryw fanteision, heb law gradd o sicrwydd am y bwyd darfodedig, pan yr oedd yr eglwys yn llawer rhy wan i roddi cynnaliaeth iddo. Nid oedd modd peidio gweled llaw Rhagluniaeth fawr yn amlwg yn hyn oll. Daeth y cyfleusdra yn yr adeg yr oedd yn amserol, ac ni symmudwyd yr atteg ymaith nes yr oedd yn ddichonadwy i wneyd hebddo. Dyma y bennod gyntaf yn llyfr Rhagluniaeth wedi cael ei darllen, ac yn gadael effeithiau da ar feddwl un oedd bellach i fod yn ddysgawdwr i eraill. Yn nghorph y flwyddyn gyntaf o lafur y gweinidog presennol, sef 1837, chwanegwyd deunaw at rifedi yr eglwys....Yn niwedd y fl. 1837, cydsyniodd i dderbyn galwad yr eglwys i gymmeryd arno waith cyflawn y weinidogaeth yn Salem, a threfnwyd i'r cyfarfod gael ei gynnal Rhagfyr 7fed....Yn y fl. 1838, chwanegwyd amryw o aelodau newyddion at yr eglwys; ond yr oedd y golled a deimlwyd drwy symmudiadau, marwolaethau, a gwrthgiliadau, yn gwrthbwyso y cynnydd; a'r canlyniad oedd, fod rhestr yr aelodau ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys yr un rhif ag oedd ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol; sef, dau-ar-bymtheg-ar-hugain.

Yr oedd y gynnulleidfa yn cynnyddu i'r fath raddau fel y bu raid chwanegu oriel at yr addoldy, i gyfarfod yr angen am eisteddleoedd. Yn y fl. 1839, bu yr Arglwydd yn dda wrth ei achos yn Salem, a theimlwyd yno ysbryd newydd wrth weled yr awdurdod a'r dylanwad a ddilynai y moddion crefyddol yno. Yr oedd rhif yr aelodau wedi cyrhaedd un-ar-bymtheg-a-thrigain, sef mwy na chymmaint arall a'r flwyddyn o'r blaen. Yn y flwyddyn hono, 1839, daeth awel o adfywiad dros eglwysi yr Annibynwyr yn Nghymru. Bu ymweliad y Parch. R. W. Chidlaw, A.M., o'r America, â'r wlad hon, yn foddion i gyffroi y gweinidogion a'r eglwysi i fwy o egni a difrifoldeb. Y mae yn hyfryd gan lawer hyd y dydd hwn adgofio ei anerchiadau dylanwadol. Ni fendithiwyd Lleyn ac Eifionydd â'i ymweliad; ond yr oedd adsain ei weinidogaeth gynnhyrfiol yn dylanwadu ar yr eglwysi yn y parthau hyn o'r wlad, ac yn creu awydd cynnyddol am fwy o fywyd yn y gwaith. Gwelwyd arwyddion yn Mhorthmadog, fel yr oedd y flwyddyn yn nesau at ei therfyn, fod yr Arglwydd ar gyfodi a thrugarhau wrth ei bobl. Tybiai y gweinidog ei fod yn canfod mwy o bryder yn mysg y gwrandawyr, a mwy o deimlad yn yr eglwys."

Nid aeth y don hon o adfywiad crefyddol dros Ogledd Cymru heb i Borthmadog hefyd gael teimlo ei dylanwad, ac i Mr. Ambrose gael cyfranogi yn helaeth o ysbryd y diwygiad. Yr oedd yr eglwys a'r gynnulleidfa wedi cynnyddu i'r fath raddau yn ystod y fl. 1840, fel y teimlai efe, a llawer o'r aelodau, y dylasent gael capel newydd; ond yr oedd yno eraill yn ofni rhag y buasai baich y ddyled yn eu llethu, gan fod tua 150*p.* o ddyled yn aros ar yr hen addoldy. Yr oedd efe, fodd bynag, mor argyhoeddiadol o'r angenrheidrwydd am gapel newydd, fel, yn ol pob argoelion, pe na chawsai ei ddymuniad, y buasai hyny yn achlysur iddo ymadael o Borthmadog. Cafodd alwad yn yr adeg hono oddi wrth eglwysi Tal-y-bont a Salem, yn sir Aberteifi; ac yr oedd ynddo duedd i'w derbyn: a hyny, fel y dywedai ef ei hun, am "fod yno le i weithio;" yr hyn nad oedd yn gael yn Mhorthmadog, gan mor anfanteisiol y barnai efe y capel. Yn nechreu y fl. 1840, treuliodd dri Sabbath yn y Deheudir—dau yn Llanelli, a'r llall yn Nhal-y-bont. Yn ei absennoldeb, yr oedd awydd yr eglwys a'r gynnulleidfa mor fawr am ei gadw yn eu mysg, fel y penderfynasant yn hollol unfrydol i gael capel newydd; a chyn iddo ddychwelyd yn ol, yr oedd yr hen addoldy wedi ei chwalu, a'r gynnulleidfa yn cydaddoli â'r Wesleyaid. Agorwyd y capel newydd yn mis Medi y flwyddyn hono. Heb law y gweinidogion Cymreig a weinyddent yn y cyfarfod agoriadol, cafwyd gwasanaeth y Parchn. Dr. Vaughan, a J. Blackburn, o Lundain; y rhai a ddigwyddent fod ar ymweliad â Gogledd Cymru y pryd hwnw—wedi dyfod i lawr yn benaf fel cenhadon oddi wrth Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru, i gyfarfod a gynnelid yn Ninbych yn ystod yr un mis. Tybiai llawer fod y capel newydd yn rhy fawr i'r gynnulleidfa; ond deallwyd yn fuan nad oedd sail i'r ofnau hyny, gan fod y capel yn fanteisiol, a Phorthmadog yn lle cynnyddol. Ac yn 1859, daeth yn angenrheidiol iddynt gael capel eangach drachefn; ac yn ystod y flwyddyn hono a'r un ganlynol, adeiladwyd un a gynnwysai eisteddleoedd i wyth gant o wrandawyr. Costiodd hwn dros ddwy fil o bunnau; ond nid hir y buwyd heb lwyr ddileu y ddyled arno. Adeiladwyd ysgoldy newydd cyfleus mewn cyssylltiad âg ef wedi hyny. Llanwyd yr addoldy hwn hefyd o wrandawyr yn fuan. Perthynai un rhagoriaeth arbenig i'r gynnulleidfa yn Porthmadog y byddai yn dda ei grybwyll yma; sef, ei ffyddlondeb yn yr oedfaon ar foreuau Sabbothau. Hwyrach ei bod yn y peth hwnw yn rhagori yn mron ar holl gynnulleidfoedd Ymneillduol y trefydd yn Ngogledd Cymru; ac yr oedd hyn, mewn rhan o leiaf, yn ddyledus i Mr. Ambrose; yr hwn, er mwyn sicrhau hyny, a arferai, meddir, y rhan fynychaf, draddodi yr hon a ystyriai efe fel ei bregeth oreu yn y boreu.

Traddodwyd y bregeth gyntaf yn y Salem newydd ganddo y Sabbath olaf yn Medi, 1860; ac ar y Llun a'r Mawrth, cynnaliwyd cyfarfod ei agoriad. Yr oedd chwanegiad o ugeiniau o aelodau wedi bod at eglwys Porthmadog, fel at lawer eraill o eglwysi Cymru, yn adeg adfywiad crefyddol grymus y blynyddoedd 1859 a 1860. A pharhau i lwyddo a wnaeth yr achos, er i fynediad llawer o'r aelodau a'r gynnulleidfa i'r Borth, ar sefydliad yr achos yno, effeithio arno. Er mai Porthmadog oedd maes arbenig gweinidogaeth Mr. Ambrose, yr oedd mor lawn o ysbryd gwneuthur daioni, ac mor awyddus am weled teyrnas y Gwaredwr yn ymeangu, fel y gellir dywedyd fod ei lafur yn ddi-brin y tu allan i gylch ei weinidogaeth ei hun. Teimlai fod achos y Gwaredwr yn mysg yr Annibynwyr wedi ei esgeuluso yn fawr yn rhanau uchaf sir Gaernarfon, gan fod yr hen weinidogion wedi bod yn hynod ddiofal am sefydlu achosion newyddion; a theimlai hefyd fod amryw achosion oedd wedi eu sefydlu mewn angen mawr am bob cynnorthwy y gallesid ei estyn iddynt. Yr oedd ei awydd ef am sefydlu eglwysi newyddion, ac ymgeleddu rhai gweiniaid, y fath nes peri iddo lafurio yn galed drostynt, a gwneyd aberthau mawrion er eu mwyn—yn enwedig mewn cyssylltiad â Phenrhyn-deudraeth, Penmorfa, Morfa bychan, Criccieth, Beddgelert, a'r Borth, &c. Costiodd yr achos yn Beddgelert lawer o bryder a llafur iddo. Cyn adeiladu capel Annibynol yn y pentref, elai Mr. Ambrose yno ar nosweithiau yr wythnos, ac ar brydnawn Sabbothau, yn fynych iawn, i bregethu—pellder

Digitized by Google

o chwech i saith milldir. Wrth gwrs, nid oedd cylch ei lafur gwerthfawr yn gyfyngedig i'r lleoedd a nodir uchod; ond yr oedd ei ofal a'i barodrwydd i wasanaethu holl eglwysi gweiniaid Lleyn ac Eifionydd yn ddiarebol; ac yr oedd yn barod bob amser i estyn cynnorthwy arianol hefyd iddynt. Cofir yn hir yn y parthau hyny am ei haelfrydigrwydd, yn gystal a'i lafur gweinidogaethol, gyda diolchgarwch. Diammheu iddo, yn ei awydd i wasanaethu achos yr efengyl, wneyd mwy o aberthau na'r rhan fwyaf; ac nid peth bychan yn ei olwg mewn un modd oedd ymgeleddu lleoedd gweiniaid; ac ystyriai ei fod wrth wneyd hyny yn cael braint fawr. Yn ol ewyllys Dr. Daniel Williams, yr oedd deunaw punt yn cael eu talu yn flynyddol yn mhob un o siroedd Gogledd Cymru, tuag at gynnorthwyo ysgolion dyddiol a phregethu yr efengyl mewn ardaloedd tlodion, ac nid oedd neb yn deilyngach o honynt am ei fawr ofal a'i lafur dros achosion crefyddol mewn ardaloedd o'r fath na Mr. Ambrose; ond penderfynu gwneyd y gwasanaeth hwn yn rhad a wnaeth efe, a chyflwyno yr holl rodd "at gynnorthwyo yr eglwysi, yn Penmorfa a manau eraill."

Bu Mr. Ambrose mewn cyssylltiad â'r Feibl Gymdeithas am flynyddoedd, fel goruchwyliwr cynnorthwyol i'r diweddar Dr. Phillips, Henffordd; a dadleuodd lawer ar egwyddorion a hawliau y gymdeithas hono yn alluog iawn yn y ddwy iaith; a thrwy hyny, daeth yn dra adnabyddus yn mhell y tu allan i gylch ei enwad ei hun. Ar y Sabbothau, pregethai yn fynych yn nghapeli unrhyw enwad a'i gwahoddai, yn y cymmydogaethau yr ymwelai â hwynt, a hyny gyda derbyniad anghyffredin. Meddyliai Dr. Phillips mor uchel am dano fel yr oedd yn ei fryd ei gael i fyny i gymmeryd rhan yn nghyfarfod blynyddol y gymdeithas yn neuadd Exeter.

Yr oedd caredigrwydd a chydymdeimlad yn elfenau cryfion yn nghymmeriad Mr. Ambrose. Y mae lliaws yn awr yn fyw o'r rhai a'i hadwaenent oreu yn gwybod yn dda mor wir garedig oedd efe tuag at rai mewn angen, ac mor ddwfn oedd ei gydymdeimlad â'r trallodus. Y mae yn wir y gallai ddyweyd geiriau miniog, a hyny gan ryw hanner cellwair, ac na byddai ar ryw adegau yn petruso gwneyd hyny; ac hwyrach fod hyn ambell waith, fel i eraill a feddiannent yr un gallu, yn brofedigaeth iddo i wneyd gormod o hono. Ond yr oedd elfen o dynerwch a lledneisrwydd arbenig ynddo er y cwbl.

Bu Mr. Ambrose, ynghyd â Hiraethog, Caledfryn, Gwalchmai, Scorpion, a Mr. Pugh, Mostyn, yn gyfranog yn ngolygiaeth y "*Dysgedydd*" o'r flwyddyn 1853 hyd 1866; ac o'r flwyddyn ddiweddaf a nodir hyd ddydd ei farwolaeth, mewn cyssylltiad â'r Parch. Robert Thomas, gynt o Fangor—ond yn awr o'r Bala. Ysgrifenodd gryn lawer iddo yn y blynyddoedd uchod; ond am yr ysgrifau rhagorol a phenigamp hyny o'i eiddo, "*Adgofion fy Ngweinidogaeth,*" gellir dyweyd, hwyrach, nad oes dim yn yr iaith Gymraeg, o'u nodwedd hwy, a ddeil eu cymmharu â hwynt.

Cafodd Mr. Ambrose iechyd cyffredinol da ar hyd ei oes; ond meddyliai, a dywedai yn aml, nad oedd yn disgwyl byw i fyned yn hen; ac ofnai mai y parlys a brofai yn farwol iddo, fel y gwnaethai i'w dad o'i flaen—ac ni chamgymmerodd. Ar ol dychwelyd adref o'r Penrhyn, ar ol yr oedfa ddau, Sabbath olaf Hydref, 1871, cafodd ergyd disymmwth o'r parlys; ac er ei fod wedi gwellhau i raddau, yr oedd effeithiau y dyrnod yn parhau arno. Wedi iddo deimlo ei hun yn cryfhau ychydig, penderfynodd ymaflyd yn ei waith fel o'r blaen, er nad oedd ei feddygon a'i gyfeillion yn ystyried hyny yn ddoeth; ac yn wir, deisyfodd y meddygon arno beidio. Talodd ymweliad â Liverpool yn nechreu y fl. 1873, ac â Llundain yn mis Mawrth yr un flwyddyn, er mwyn bod yn bresennol yn agoriad capel newydd "y Boro." Teimlai yn lled dda ar ol dychwelyd adref. Ond y Sabbath olaf y pregethodd oedd Ebrill 27ain, 1873. Pregethodd y Sabbath hwnw gyda mwy o nerth a hwyl nag arferol; ac yr oedd eneiniad nodedig ar ei waith yn gweinyddu yr ordinhâd o Swper yr Arglwydd yn niwedd y dydd. Ei destyn olaf oedd *Esa.* lvii. 15. Gyda bod y gyfeillach yn terfynu, cafodd ergyd drom arall o'i hen afiechyd, er braw a gofid mawr i'r gynnulleidfa oedd ar gychwyn allan. Bu yn gorwedd heb symmud o'i wely, ac o'r braidd y gellid deall un gair a geisiai barablu, am chwe mis; sef, hyd Hydref 31ain, 1873—pan y bu farw, yn y 60fed flwydd o'i oedran. Yn ystod y tymmor hwnw, gweinyddwyd arno yn y modd mwyaf gofalus gan ei anwyl briod, Mrs. Ambrose; ac nid oedd un aberth yn ormod ganddi i'w wneyd er ceisio esmwythau rhywfaint ar ei afiechyd trwm. Claddwyd ef, yn ol ei ddymuniad ei hun, yn mynwent capel yr Annibynwyr yn Nghapelhelyg, pryd y daeth tyrfa hynod liosog a pharchus ynghyd—y fath na welwyd ei chyffelyb o'r blaen yn y dosbarth hwnw o'r wlad. Yr oedd y cynnulliad mawr o bobl o bob cŵr o Ogledd Cymru, a rhai o drefi Lloegr, oedd yn bresennol yn ei angladd, a'r arwyddion cyffredinol o alar a amlygid, yn dangos yn eglur mor uchel yr oedd y gŵr rhagorol ac enwog hwn yn syniadau, ac mor ddwfn yn serchiadau ei gydwladwyr.

Y mae yr eglwys a'r gynnulleidfa Annibynol yn Mhorthmadog, er dangos eu parch a'u hanwyldeb tuag ato yn awr (yn 1878) yn adeiladu capel hardd coffadwriaethol o hono, yn chwanegol at yr un blaenorol, yn Mhorthmadog; yr hwn a gostia o dair i bedair mil o bunnau, o leiaf.

Ychydig o ddynion yn Nghymru yn ei oes oedd yn fwy adnabyddus fel llenor coeth, bardd awenyddol, a phregethwr rhagorol, na Mr. Ambrose. Meddai ar alluoedd meddyliol naturiol o radd uchel, a diwylliodd hwynt yn y modd manylaf. Pery ei gyfansoddiadau barddonol a rhyddieithol i gael eu gwerthfawrogi fel rhai o gynnyrchion mwyaf coeth a rhagorol yr oes. Anfonodd amryw o'i gyfansoddiadau barddonol i'r prif eisteddfodau a gynnelid, a bu yn fuddugol amryw weithiau. Rhagorai yn y mesurau caethion a rhyddion, fel y dengys ei awdlau ar "Y Greadigaeth," "Gwladgarwch," "Albert Dda," "Llosgiad Tŵr Llundain," &c.; a'i bryddestau a'i ganeuon lliosog. Yn y tlws, y tyner, a'r toddedig yn ddiammheu y rhagorai fel bardd. Ond er cymmaint ei ragoriaethau fel llenor a bardd, nid oedd yn ol i hyny fel pregethwr. Yr oedd yr un elfenau hefyd yn nodweddu ei bregethau mewn modd arbenig: ac uwch law y cwbl, yr oedd wedi yfed yn helaeth o ysbryd yr efengyl; a bu yn hynod lwyddiannus, fel yr eglurwyd yn barod, yn ei ymdrechiadau drosti.

Y mae argraphiad o weithiau barddonol a rhyddieithol Mr. Ambrose, yn cynnwys ei bregethau, wedi eu cyhoeddi; ynghyd â hanes ei fywyd, wedi ei ysgrifenu gan ei gyfaill mynwesol, Dr. Rees, o Gaer.

Digitized by Google

AMSERIADUR—ON. Mesurid amser ar y cyntaf gyda chysgod yr haul ar ddeial; ond gan nas gellid gwneyd hyny yn ystod y nos, nac yn ystod y dydd chwaith pan y byddai yn niwlog neu gymmylog, ceisiodd dynion feddwl am ryw ffordd well i'w fesur. Lluniwyd amryw offerynau, gan hyny, i'r perwyl hwnw; ac un o'r rhai cyntaf o honynt, fe ddichon, oedd yr awrwydr. Mesurid amser gyda'r offeryn hwn trwy osod tywod mân i redeg trwy dwll bychan—lled debyg i'r gwydrau tywod sydd yn adnabyddus yn awr. Ond nis gellir rhoddi llawer o ymddiried yn hwn, o achos nad yw yr un swm o dywod ddim yn rhedeg bob amser o fewn yr un amser; canys pe baid yn ei ysgwyd, elai y tywod drwy y twll yn gyflymach. Y goreu o'r hen offerynau oedd yr amseriadur dwfr (*clepsydra*). Llestr ydoedd hwn a lenwid â dwfr, gyda nodau ar ei ochr i ddangos yr holl oriau, a thwll bychan yn ei waelod. Wrth i'r dwfr redeg allan drwy y gwaelod, yr oedd ei arwyneb, wrth reswm, yn myned i lawr yn raddol o nôd i nôd. Ond buan y cafwyd allan nad oedd y llestr dwfr yn ymwaghau gyda'r un cyflymder o'r dechreu i'r diwedd; canys pan fyddai y llestr yn llawn, yr oedd pwysau y dwfr yn llawer mwy na phan y byddai yn mron yn wâg, a'i rediad o ganlyniad yn gyflymach. Ond diwygiwyd llawer ar y ddyfais hon mewn amseroedd diweddarach. Er y mynegir fod y *clepsydra* wedi ei ddwyn gan Scipio Nasica i Rufain mor foreu a 158 C.C., ac er y dywedir ddarfod i Cæsar gael gafael ar amseriaduron yn Mhrydain 55 C.C., etto y mae yn ymddangos na feddai yr hen Sacsoniaid un offeryn i fesur amser; o blegid y mae yn hysbys mai wrth faint y ganwyll a losgai y mesurid ef gan Alfred Fawr.

Dywed rhai ddarfod gwneyd yr awrlais cyflawn cyntaf gan Saraceniad yn y drydedd ganrif ar ddeg; ond dywed y rhan fwyaf mai yr un cyntaf oedd yr un a wnaeth De Wyck yn Paris yn y flwyddyn 1364 neu 1370. Y peth tebycaf ydyw, nad oedd awrlais De Wyck ond cyfuniad o wahanol ddyfeisiadau a wnaed o'r blaen gan rai mwy anghelfydd nag ef, fel y mae yr awrleisiau sydd genym ni yn awr yn welliantau ar ei awrlais yntau. Yr awrlais cyntaf y gwyddys am dano yn Lloegr, yn gallu cadw amser yn lled gywir, oedd yr un a osodwyd i fyny yn Hampton Court yn 1540.

Tua'r flwyddyn 1658 y gwnaethpwyd gyntaf yr hyn y gellid ei alw yn briodol yn oriadur neu amserell (*watch*). Nis gellir dweyd yn bendant pa un ai yr Hollandiad, Hüyghens, ynte y Sais, Hooke, a ddyfeisiodd amseriadur digon bychan i'w gario mewn llogell. Yn 1797, dodwyd treth ar awrleisiau ac oriaduron; ond yn y flwyddyn ganlynol, dilewyd hi.

Amcan peirianwaith awrlais ydyw ysgogi y dringlyn (*pendulum*), a rhestru rhifedi yr ysgogiadau hyny fel ag i ddangos treigliad amser. Er sicrhau hyn, dodir rhes o olwynion a throellau ar waith gan ryw allu sydd yn gweithredu ar y blaenaf o honynt; tra y cyssylltir yr olaf â'r dringlyn drwy yr hyn a elwir yn ffwyrell (*escapement*). Mewn awrleisiau mawr, sefydlog, y gallu ysgogol yw pwysau, y rhai a grogir wrth raff wedi ei dirwyn am fath o faril. Y mae y baril hwn yn cario olwyn blaenaf yr awrlais, ac yn rhoddi i'r olwynion eraill ysgogiad, a roddir iddo yntau gan ddisgyniad graddol y pwysau. Pe bae y gallu hwn i gyd yn gweithredu ar yr olwynion yn unig—ac felly y gwnai pe cymmerid ymaith y ffwyrell—disgynai y pwysau yn lled gyflym, a throai yr olwynion yn chwyrn. Ond treulir rhan o'r gallu hwn i gadw i fyny ysgogiadau y dringlyn; ac y mae y cyssylltiad rhwng hwn a'r olwynion y fath fel nas gall dant o honynt symmud rhagddo, oni oddefir iddo wneyd hyny gan ymdaffiad y dringyll. O herwydd hyn, ni symmuda awrlais, er ei ddirwyn i fyny, os nad ysgogir y dringlyn; ond wedi iddo ddechreu siglo unwaith, efe a barhâ i siglo hyd nes y tyno y pwysau y llinyn i lawr i'w hyd eithaf. Wrth ddirwyn yr awrlais i fyny troelli yr ydys y llinyn sydd yn dal y pwys eilwaith a thrachefn am y baril. Pwysau hefyd sydd yn gallnogi yr awrleisiau i daro yr amser.

Ond nis gellir arfer pwysau gydag awrleisiau bychain, ac oriaduron. Ysgogir eu holwynion hwy gan dwythell (*spring*) wedi ei gwneuthur o ddûr ystwyth, ac wedi ei dirwyn yn dorch. Sicrheir un pen wrth bwynt pennodol, ac y mae'r pen arall, yn ei ymdrech i ddadymdorchi, yn tynu ar ei ol bob peth a gyssylltir wrtho—ac yn y modd hwn y mae yr holl olwynion yn cael eu symmud.

ANIFEILIAETH. Gwel BYWYDEG.

ANTONINUS, MARCUS AURELIUS, a gyfenwid yr "Athronydd," a anwyd yn Rhufain, B.A. 121. Mabwysiadodd Antoninus Pius ef yn foreu, a rhoddodd Faustina, ei ferch, yn wraig iddo. Pan y bu farw ei chwegrwn, gwnaeth y senedd ef yn ymherawdwr, a dewisodd yntau Lucius Verus i gyd-deyrnasu âg ef. Bu farw yn Pannonia, yn y flwyddyn 180. Parodd ei farwolaeth alar mawr drwy yr holl ymherodraeth, o blegid yr oedd efe yn un o'r rhai goreu a doethaf a fu yn teyrnasu erioed yn Rhufain.

ARAGO, FRANCOIS JEAN DOMINIQUE: un o wyddonwyr enwocaf ei oes. Ganwyd ef yn Estagel, yn Neheudir Ffraingc, yn 1786. Pan yn 17eg mlwydd oed, aeth i Paris i'r ysgol a elwir y *Polytechnique;* a phan orphenodd ei yrfa yno, gwnaed ef yn ysgrifenydd Arsyllfa Paris. Yn fuan wedi hyny, anfonwyd ef, a M. Biot, i Yspaen, i wneyd ymchwiliadau gwyddorol; ond yn y cyfamser, hi a aeth yn rhyfel rhwng yr Yspaen a Ffraingc, fel y bu raid i Arago ddiangc drosodd i Affrica. Ac ar ol cyfarfod o hono â blinderau a pheryglon lawer, ar fôr ac ar dir, glaniodd yn Ffraingc yn 1809. Pan gyrhaeddodd Paris, etholwyd ef yn aelod o Athrofa y Gwyddorion, yn lle yr enwog Lalande, pan nad oedd efe etto ond 23ain oed; a gwnaed ef tua'r un adeg yn broffeswr yn yr Ysgol Amrygelfig (*Polytechnique*). Yr oedd, dan deyrnasiad Louis Philippe, yn meddu lle pwysig yn Nhŷ y Cynnrychiolwyr. Pan ddymchwelwyd y frenhiniaeth yn 1848, gwnaed ef, nid yn unig yn aelod o'r llywodraeth ddarbodol, ond hefyd yn ysgrifenydd rhyfel; ond pan wnaed y cadlywydd Cavaignac yn benrheolwr, daeth gyrfa wleidyddol Arago i ben. Ar ol *coup d' état*, Rhagfyr, 1851, ysgrifenodd Arago lythyr i ddyweyd fod yn well ganddo roddi ei swydd yn yr arsyllfa i fyny na chymmeryd llŵ o ffyddlondeb i Louis Napoleon; ac er clod i Napoleon, dylid dyweyd iddo beri i'w weinidog ysgrifenu ato fel hyn—"Y gwneid eithriad yn ffafr athronydd a wnaethai Ffraingc yn enwog; ac nad oedd y llywodraeth yn ewyllysio gwneyd ei fywyd yn

Digitized by Google

drist." Daliodd ei swydd; a bu farw yn yr arsyllfa yn y flwyddyn 1853.

ARCHIMEDES: mesuronydd enwog. Ganwyd ef yn Syracusa c.c. 287, ac yr oedd yn berthynas i Hero, brenin y lle hwnw. Yr oedd efe yn hynod gyfarwydd mewn serofyddiaeth, meintoniaeth, gallofyddiaeth (*mechanics*), dwfrbwysiant, a thremofyddiaeth (*optics*). Dyfeisiodd chwerfan (*pulley*) i godi pwysau dirfawr, a chronen (*sphere*) i ddangos symmudiadau goleuadau y ffurfafen, a llawer o bethau eraill. Ond wrth amddiffyn Syracusa yn erbyn ymosodiad Marcellus y dangosodd efe fwyaf o'i allu dyfeisgar; canys lluniodd beiriannau cywrain i flino ac i ddyfetha yr ymosodwyr ar fôr ac ar dir, fel yr aeth tair blynedd heibio cyn gallu o honynt gymmeryd y ddinas. Ac ni buasent wedi gallu ei chymmeryd mor fuan a hyny chwaith oni bae am ddiofalwch y dinasyddion yn ystod gŵyl Diana. Rhoddasai Marcellus orchymyn i gadw Archimedes yn fyw pan y gwneid rhuthr ar y ddinas; ond pan oedd yn y weithred o wneuthur ffugrau mesuronol yn y tywod, lladdwyd ef gan ryw filwr nas gwyddai pwy ydoedd. Yn y flwyddyn 212 c.c. y bu hyn. Archimedes yw yr hwn a ddywedodd y medrai efe symmud y ddaear pe gallai ond cael rhyw sylfaen i osod ei beiriannau arno.

ARFDY: lle yn yr hwn y cedwir arfau rhyfel yn barod i'w defnyddio. Y mae arfdy yn mhob amddiffynfa, neu gastell, &c., o'r bron.

ARGRAPHU: y gelfyddyd o gynnyrchu argraphiadau oddi wrth lythyrenau, neu ddarluniau, ar bapyr, neu ryw sylwedd arall fydd mor feddal fel ag i gymmeryd ffurf yr argraph a gymmhwysir ato. Hanfod argraphu ydyw y cynnyrchiad o gopi trwy wasgiad. Y mae amryw o wahanol ganghenau yn perthyn i'r gelfyddyd bwysig hon; sef, argraphu llyfrau, &c., gyda llythyrenau symmudol (*letterpress printing*); argraphu oddi ar blatiau copr neu ddûr (*copper-plate printing*); ac argraphu oddi ar feini (*lithographic printing*).

Ni a ddisgrifiwn yma, yn benaf, y gelfyddyd o argraphu llyfrau; yr hon, yn ddiammheu, ydyw un o'r dyfeisiau dynol mwyaf bendithiol a wnaed erioed.

Nid oes ond ychydig o amser, mewn cymmhariaeth, er pan ddyfeisiwyd y gelfyddyd hon. Prin y mae pedwar cant o flynyddoedd wedi myned heibio er pan yr anfonwyd y llyfr cyntaf allan o'r wasg; etto, y mae genym brofion diammheuol fod egwyddorion y gelfyddyd hynod a bendithiol hon yn bodoli yn mysg yr hen genhedloedd Assyriaidd. Cafwyd lawer o briddfeini cyfain a di-adfail o ddinas a thŵr enwog Babilon gydag amrywiol lythyrenau a ffugrau arwyddluniol wedi eu hargraphu arnynt. Pa fodd bynag, yn hyn, fel yn mhob gweddillion hynafol cyffelyb, yr oedd yr hyn a argraphwyd yn un bloc neu ddarn; ac am hyny, nis gellid ei ddefnyddio i un dyben arall. Yr oedd hyny yn fath o argraphu; ond yr oedd yn hollol ddi-les er lledaenu llenyddiaeth, o herwydd ei gôst a'i annibendod. Y Chineaid ydyw yr unig bobl mewn bod sydd yn parhau i ddilyn y dull hwn o argraphu. Parotöir eu bloeiau fel y canlyn:—yn y lle cyntaf, ysgrifenir y gwaith y bwriedir ei argraphu yn fanwl ar leni o bapur teneuon tryloyw; gludir pob un o'r lleni hyny â'i wyneb tuag i lawr, ar flociau teneuon o bren caled; yna y mae y cerfiwr, âg offerynau priodol, yn tori ymaith y coed yn yr holl ranau lle nad oes ysgrifen arnynt, ac yna byddant yn barod i'w hargraphu. Yn ol y dull hwn, bydd cynnifer o flociau yn angenrheidiol ag fydd o dudalenau. Yr oedd math cyffelyb o argraphu gyda blociau, i wneyd cardiau chwareu, a darluniau o wrthddrychau ysgrythyrol, mewn arferiad yn Ewrop tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Ond y darganfyddiad mawr oedd gwneyd pob llythyren o'r wyddor ar wahân, fel y gellir eu defnyddio eilwaith a thrachefn, a thrwy hyny arbed y llafur diddiwedd o dori blociau newyddion am bob tudalen. Hawlir yr anrhydedd o ddarganfod y gelfyddyd syml, ond rhyfeddol, hon gan yr Is-Ellmyniaid yn ffafr Laurent Coster, rhwng 1420 a 1426; a chan y Germaniaid, ar ran Johann Genszfleisch, neu Gutenberg, o ddeutu y flwyddyn 1440. Ond y mae yn bossibl fod y ddau wedi gwneyd y darganfyddiad yn mron yr un amser. Y mae y dybiaeth hon yn gysson â'r cynnydd cymdeithasol cyffredinol a gymmerodd le yn y tymmor hwnw, a'r ffaith fod y ddau ddyfeisydd wedi bod yn hollol ddistaw yn mherthynas i'w celfyddyd. Llythyrenau o goed oedd y rhai a ddefnyddiwyd gyntaf; ond yn fuan, bwriwyd hwynt mewn mettel. Yr oedd y rhai boreuaf o'r llythyrenau mettel yn debyg i'r llythyrenau duon a ddefnyddid gan adysgrifwyr; ac un o brif amcanion yr argraphwyr cyntaf oedd gwneyd llyfrau tebyg i'r llawysgrifau oedd hyd hyny mewn arferiad. Rhwng 1450 a 1455, llwyddodd Gutenberg i argraphu Beibl—yr hwn sydd yn awr yn brin iawn, ac yn dra anhawdd i'w gael. Ei faint yw pedwar plyg, gyda cholofnau dwbl. Heb law y Beibl hwn, y mae rhai enghreifftiau eraill o waith Gutenberg, cynnyrchion ei wasg yn Mayence, wedi eu darganfod. Y mae yr Is-Ellmyniaid, yn Haarlem yn cadw gyda gofal parchus enghreifftiau cyffelyb o waith boreuol Coster.

Diammheu fod y gelfyddyd o argraphu mewn arferiad yn Mayence, Strasburg, a Haarlem cyn iddi gael ei dwyn i Rufain, Venice, Florence, Milan, Paris, a Tours, a dinasoedd eraill y Cyfandir. Yr oedd wedi cyrhaedd y rhai hyny, ac amryw leoedd eraill, cyn 1471; ac o ddeutu y flwyddyn 1477, dygodd Caxton y gelfyddyd i Loegr, drwy osod argraphwasg i fyny yn Westminster Abbey. Aeth y gelfyddyd i Ysgotland o ddeutu deng mlynedd ar hugain wedi i Caxton ei dwyn i Loegr; ac yn y flwyddyn 1551, cyrhaeddodd i Dublin.


Yn y darlun canlynol, yr ydym yn cael golwg ar swyddfa argraphu gyntaf Caxton yn y wlad hon. Oddi wrth ymddangosiad yr ystafell, syniad yr awdwr yn eglur oedd, ei bod wedi ymsefydlu gyntaf yn Westminster Abbey. Ar yr ochr chwith, ymddengys tri o ddynion yn brysur yn pigo, oddi ar math o astell, y llythyrenau yr oedd arnynt eu heisieu i wneyd geiriau, ac yn eu gosod ar ol eu gilydd—rhywbeth yn debyg fel y bydd cyssodwyr y dyddiau hyn yn gwneuthur. Coed oedd eu llythyrenau hwy, ac yr oeddynt ar y dechreu yn fawrion iawn; ond mettel ydynt yn awr, ac y mae yn rhaid i'n darllenwyr fyned i un o'n swyddfeydd argraphu i weled perffeithrwydd eu trefniadau hwy. Ar yr ochr dde, cawn hen fachgen yn rhoi inc ar ei ddwy belen, i'w parotoi, fel y gallo gyda hwynt roddi inc ar y llythyrenau sydd yn y wasg. Croen neu ledr oedd y pelenau hyn gynt, ac wedi eu llenwi yn y

Digitized by Google

redin â gwlân; ond rholynau (*rollers*) wedi eu wynebu â sylweddau cyfaddas a ddefnyddir yn awr. Yn y canol, y mae gwasg o goed i'w gweled yn ei ffurf gyntefig. Ar ganol y darlun y mae person, sydd wedi ei wisgo yn well na'r lleill, ac yn edrych yn fanwl ar ddalen sydd newydd ei hargraphu gan y dyn sydd â'i ddwylaw ar wif y wasg; yr hwn sydd yn edrych i'w wyneb fel pe mynai wybod ei feddwl am dani. Ymgais y darlunydd y mae yn ddiau, oedd rhoddi darlun o'r dyn a ddygodd i Brydain un o'r celfyddydau mwyaf bendithiol a ddaeth erioed i'n gwlad. Y dyn hwn ydyw Caxton. Yn nghil y drws y mae rhyw offeiriad Rhufeinaidd oedd, trwy ryw foddion neu gilydd, fel y byddant hwy bob amser, wedi clywed fod rhywbeth newydd ar droed; a bod eisieu iddo ef ei wylio, gan y gallai fod perygl ynddo. Ond yspïo y mae efe—ac nid dyfod i mewn, fel y dylai dyn wneyd, neu ynte aros allan, a chilio yn ddigon pell oddi wrth y drws. Y mae yn rhyfedd fod dynion âg enw crefydd arnynt yn euog o'r fath ymddygiadau llechlyd—ond dyna nodweddiad llaweroedd o honynt yn mhob oes; a dioddefodd llawer yn y cynoesoedd mewn miloedd o wahanol ffyrdd oddi wrth eu creulondeb. Nid oedd y gelfyddyd y pryd hwnw ond yn ei babandod; ac ni allai wneuthur rhyw lawer o ddrwg i achos y Babaeth; ac yn wir, bu yr argraphwasg yn blentyn da ac ufudd i Rufain am lawer o flynyddoedd. Ond yn mhen ychydig amser, pan y teimlodd y wasg ei breichiau yn cryfhau, a'i gewynau yn ymgyfnerthu, dechreuodd feddwl drosti ei hun, a phenderfynodd ymladd o hyny allan dros yr hyn a ystyriai yn wirionedd. Ceisiwyd ei mygu a'i dystewi yn mhob modd y gallasai y Babaeth, ond i ddim pwrpas; ac o'r diwedd daeth allan o'r frwydr yn fuddugoliaethus. Sathrodd orthrwm a thrais dan ei thraed, a gwasgodd offeiriadaeth Rhufain allan o'r wlad yn llwyr o'r bron, a chyflawnodd wyrthiau cyffelyb heb rifedi. Ac erbyn heddyw, ond i'r wasg yn gyffredinol ffromi ar unrhyw gynllun, y mae yn sicr o ddiflanu, ac nid oes digon o nerth yn esgeiriau na brenin nac ymherawdwr i anturio i'r frwydr â hi ar dir teg. Yr unig ffordd y gallant hwy ei gorchfygu ydyw ei hattal i siarad—a byddai yn dda gan lawer yn Nghymru yn y blynyddoedd hyn pe y gallent attal ei lleferydd.

Wrth ystyried y ffeithiau uchod, y mae yn ddiammheuol nad yn Mynachlog Westminster y buasai y wasg gyntaf yn cael ei gosod i fyny pe y gallasai yr offeiriaid ragweled yr effeithiau a ddilynent ei sefydliad.

Ni a roddwn yma y darluniad goreu y gellir ei gael o swyddfa Caxton yn y fynachlog hon:—



Dar. 407.—Swyddfa Argraphu gyntaf Caxton yn Mhrydain.

Tra yr oedd y gelfyddyd yn dyfod i sylw yn Ewrop, attaliwyd ei chynnydd gan y dadleuon a gymmerasant le ar ol y Diwygiad Protestanaidd; ac yn fuan ar ol hyny taflwyd rhwystrau ar ei ffordd gan y rhyfel cartrefol yn Mhrydain Fawr. Gwnaeth hyd yn oed yr adferiad niwed iddi; canys arweiniodd i'r ynfydrwydd o lunio cyfraith i attal chwaneg nag ugain o argraphwyr rhag cario eu celfyddyd yn mlaen yn Lloegr. Mewn gair, y mae yr argraphwasg, o herwydd y cymmhorth a roddai i ryddid a chyfiawnder yn gyffredinol, ac heb gydnabod pleidiau, na'r dosbarthiadau uchaf mwy na'r iselaf, wedi cael ei chaethiwo, i raddau mwy neu lai, yn mron yn mhob gwlad; ac y mae hi etto mewn caethiwed mewn amryw o wledydd.

Yn Germany a Holland, lle y dechreuwyd argraphu gyntaf, nid yw y gwaith a gynnyrchir —yn Mayence a Haarlem, er enghraifft—ond canolig iawn o ran ei ddestlusrwydd. Ond y mae y gelfyddyd wedi cyrhaedd graddau helaeth o berffeithrwydd yn Mhrydain, ac yn yr Unol Daleithiau.

Yn Bodedeyrn, pentref bychan yn Môn, y gosodwyd y wasg gyntaf i fyny yn Nghymru, ac yno yr argraphwyd "*Agoriadau Dadguddiad Creadigaeth y Nefoedd*," gan Thomas Williams, o Dal-y-bont, yn y flwyddyn 1760. Dafydd Jones, o Drefriw, oedd un o'r argraphwyr cyntaf yn Nghymru; ac yr oedd yn ei flodau rhwng 1750 a 1780. Anrhegwyd ef âg offerynau argraphu gan yr enwog Lewis Morris, a chariodd


Digitized by Google

y gelfyddyd yn mlaen yn Nhrefriw. Mab i D. Jones, o Drefriw, oedd y diweddar Mr. John Jones, yr argraphydd adnabyddus o Lanrwst. Sefydlwyd swyddfa argraphu hefyd yn lled foreu yn y Bala, gan y diweddar Barch. Thomas Charles, i argraphu y "*Geiriadur Ysgrythyrol*," &c., a daeth y diweddar Mr. Saunderson i ofalu am dani. Yr un modd y gwnaeth y diweddar Barch. Thomas Jones, gynt o Ddinbych, er argraphu "*Hanes y Merthyron*," a "*Gwaith Gurnal*," a llyfrau buddiol eraill; a daeth y diweddar Mr. Gee (tad cyhoeddwr y gwaith hwn) i gario allan ei amcanion yntau. Angen y wlad am lyfrau da, a'r ammhossiblrwydd i Gristionogaeth gyrhaedd ei hamcan hebddynt, yn ddiau—ac nid elw—ydoedd yn cymmhell y ddau ŵr duwiol a defnyddiol uchod, ac eraill, i sefydlu argraphdai yn Nghymru; a chawsant fyw i weled ffrwyth lawer ar eu llafur. Cyn dygiad y gelfyddyd i Gymru, argrephid llyfrau Cymraeg yn Nghaer, yr Amwythig, a Llundain.

O herwydd fod yr argraphwasg yn cael ei chaethiwo fel y dywedwyd o'r blaen, ni dderbyniodd argraphu am rai oesoedd ond ychydig o fantais oddi wrth gywreinrwydd celfyddydol. Er fod y gelfyddyd wedi ei dyfeisio tua chanol y bymthegfed ganrif, parhawyd i'w dwyn yn mlaen mewn dull hynod o drwsgl hyd ganol yr eilfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd y wasg yn debyg i gogwrn gwryf (*screw-press*) ar y cyntaf oll, meddir, gyda darpariaeth yn unig i redeg math o fwrdd, ar yr hwn y byddai y llythyrenau, dan y gwasgydd. Wedi cymmhwyso nerth fel hyn, llaceid y gwryf, a thynid y bwrdd a'r llythyrenau yn ol, gyda'r argraph wedi ei wneyd ar y papur. Gan fod y dull hwn o weithio yn rhy araf a thrwsgl, dyfeisiwyd amryw welliantau, y rhai a ymddangosent y naill ar ol y llall. Yr oedd yr hen argraphweisg yn mron yn gwbl o goed; a pharhasant mewn arferiad cyffredinol yn mhob gwlad yn Ewrop hyd ddechreu y ganrif bresennol. Y mae y darlun uchod yn welliant ar y dyfeisiau cyntaf, yn ddiau; etto, y mae yn mhell ar ol y math o argraphweisg a ddefnyddiwyd ar ddechreu y ganrif hon, o ran hwylusdod i'w gweithio, er nad ydynt yn gwahaniaethu gymmaint yn eu ffurf y naill oddi wrth y llall.

Y gwelliant cyntaf ar ol hyny a wnaed ar yr argraphwasg oedd gan yr Iarll Stanhope; yr hwn a'i gwnaeth o haiarn, a hyny o faintioli digon mawr i argraphu lleni llawer mwy nag y gellid eu hargraphu o'r blaen; ac hefyd, yr oedd y tyniad yn llawer llai poenus i'r gwasgwr. Gellid troi allan hefyd waith gwell gydag ef, a'i weithio yn gyflymach. Yn fuan, fe ddilynodd llawer o welliantau ar eiddo Iarll Stanhope—yn y rhan fwyaf o ba rai nid oedd un sidrwy (*screw*). Yn mhlith y rhai a ennillasant fwyaf o gymmeradwyaeth, gellir crybwyll y wasg Golumbiaidd (*Columbian press*), a ddyfeisiwyd yn America, ac a ddygid i Brydain tua 1848. Gwnaeth Hopkinson a Cope, o Lundain, lawer o welliantau hefyd ar y wasg, fel y gellir gweled yn yr un a elwir yr *Albion press*, yr hwn a ddyfeisiwyd ganddynt, o'r hwn y mae y darlun uchod yn ddangosiad. Y mae yn debyg fod yr argraphwasg hwn wedi ei ddefnyddio yn fwy cyffredinol yn y deyrnas hon nag un arall o fewn y deugain mlynedd diweddaf.


Y mae yr argraphwasg yn parhau i gael ei defnyddio i argraphu niferi bychain o lyfrau a phapyrau etto; a phan y bydd cywreinrwydd a phrydferthwch neillduol yn ofynol, defnyddir hi i argraphu niferi mawr o lyfrau hefyd. Ond




Dar. 408.—ALBION PRESS.

mewn amgylchiadau cyffredin, yn mhob man lle y gellir cael peiriant, ac yn enwedig i gyfarfod â'r alwad am lyfrau rhad a phoblogaidd, a niferi mawr o bapyrau o bob math, y mae peiriannau (*machines*) yn cael eu defnyddio i'w hargraphu —y rhai a weithir gydag ager, neu weithiau â'r dwylaw, neu â'r traed.

Y mae y peiriannau hyn o ddau fath. Y maent weithiau ar ffurf yr argraphwasg, gan ba rai y gwesgir un tu i'r ddalen ar unwaith ar y llythyrenau; ac yna tröir y ddalen, ac argrephir hi ar y tu arall. Mewn eraill, y mae y llythyrenau yn cael eu symmud yn ol ac yn mlaen dan rolyn (*cylinder*) haiarn, ar wyneb yr hwn y mae darn o frethyn, neu wlanen wedi ei gwneyd i'r pwrpas. Y mae'r wlanen wedi ei sicrhau ar y rholyn haiarn, ac yn amddiffyniad i'r llythyrenau rhag cael eu niweidio ganddo, yn gystal ag yn cynnorthwyo i beri fod yr argraph yn berffeithiach. Yr ydym yma yn rhoddi darlun o un o honynt, a weithir â'r traed:—



Dar. 409.

Pan y bydd y ddwy ochr i ddalen yn cael eu hargraphu cyn iddi ddyfod allan o'r peiriant, bydd yn angenrheidiol iddi fyned dan ddau rolyn —dan un yn gyntaf, yna dan y llall. Bydd rhai o ddarllenwyr yr erthygl hon, yn ddiammheu, yn ddigon craff i weled yr anhawsder hwn:—pa fodd y gellir argraphu dau du i ddalen fel y bydd y ddalen ar ol ei plygu, â'r tudalenau arni yn dilyn eu gilydd. Ni a geisiwn ei egluro yn y dull canlynol:—plyged y darllenydd ddalen

Digitized by Google

fechan, neu fawr, dair gwaith, ac yn ei hanner ar bob plygiad; ac fe wna y ddalen hono wyth dalen, neu un ar bymtheg o dudalenau. Yna rhodder y ffigyrau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, ar y tudalenau—gan ddechreu gydag 1 ar y tudalen cyntaf, a bydd 16 yn syrthio ar yr olaf. Yna agorer y ddalen, a cheir gweled pa rai fydd yn cael eu hargraphu ar bob tu i'r ddalen. Yr un modd os plygir y ddalen ddwywaith—pedair dalen, neu wyth tudalen, fydd iddi. Defnyddier yr un llwybr gyda hon, a cheir yr un canlyniadau. Yr arfer cyffredin yw gwlychu y papyr cyn ei argraphu, gan ei fod yn cymmeryd yr argraph yn well.

Y mae y peiriannau rholynog (*cylinder machines*) y cyfeiriwyd atynt, o wahanol fathau, a'r cyflymaf o honynt yn cael eu defnyddio i argraphu newyddiaduron. Cyn i'r dyfeisiau diweddaf oll ddyfod i arferiad, byddent yn gallu argraphu o 4,000 i 6,000 ar un ochr i'r papyr mewn awr. Yna wedi gorphen, argrephid y papyr y tu arall. Ar yr 28ain o Dachwedd, 1814, rhoddwyd ar ddeall i'r cyhoedd mai y *Times* am y dyddiad hwnw oedd y cyntaf erioed a argraphwyd gydag agerbeiriant. Yn 1818, gwnaeth y Mri. Applegath a Cowper welliantau pellach yn y peiriannau hyny. Yna dyfeisiodd eraill beiriannau llawer cyflymach drachefn. Yn 1865, gwnaed gwelliant pwysig iawn ar y peiriannau hyn:—drwy yr hwn y gellid argraphu un llen barhaol o bapur, wedi ei gwlychu yn flaenorol, ac yn cael ei thynu oddi ar rolyn i'r peiriant, a'i hargraphu ar y ddwy ochr. Yr oedd y peiriant yn alluog hefyd i dori pob copi o'r newyddiadur ymaith oddi wrth y gweddill o'r llen wedi iddo gael ei argraphu.

Ond dyfeisiwyd peiriannau perffeithiach drachefn na'r goreu o honynt. Peiriant a elwir y *Victory* ydyw un; ond y mae y *Walter* yn welliant arno yntau. A thybia rhai fod y *Prestonian*, ac eraill, yn welliantau pellach hefyd. Ac ar yr adeg yr ydym yn ysgrifenu, y mae yn debyg y gellir dyweyd mai y tri diweddaf hyn ydyw y peiriannau cyflymaf yn yr holl fyd. Gyda rhai o beiriannau *Walter* yr argrephir y *Times*, a'r *Daily News*, ac eraill; a gallwn ddyweyd fod y *Daily News* yn cael ei argraphu bob dydd gydag wyth o'r peiriannau hyn, a phob un yn alluog i droi allan 14,500 o newyddiaduron cyflawn bob awr. Gwel CYSSODI; YSTRYDEBU, &c., &c.,

ARIANDY: lle i gadw ac i dalu arian; neu, mewn geiriau eraill, sefydliad i fasnachu mewn arian. Gelwir perchenog neu arolygwr y cyfryw sefydliad yn arianydd, neu fancwr; ac y mae y gair *bancio* yn gyffredinol yn cael ei ddefnyddio i ddynodi y rheolau a'r egwyddorion wrth ba rai y mae, neu y dylai ei weithrediadau gael eu rheoleiddio, yn gystal a'r gweithrediadau hyny eu hunain. Y mae y gair *bank*, neu fel yr arferir ef yn Gymraeg *banc*, yn tarddu o'r gair *banco*—mainge, wedi ei gosod yn y farchnadfa, i gyfnewidiwr arian. Ceidwad arian pobl eraill ydyw arianydd. Dyma ydyw ei waith, ac edrych arno yn y wedd mwyaf syml. Ni byddai arianydd, pe na byddai iddo wneyd dim ond croni yr arian a roddir dan ei ofal, ond yn unig ceidwad arian y cyhoedd; ni byddai ei ariandy felly ond lle i gadw arian. Ond pe y cyfyngid y fasnach o fancio at gadw arian, byddai o fantais fawr felly i gymdeithas; gan y rhyddheid y bobl a ddodent eu harian yn yr ariandy oddi wrth y gofal am danynt, ac mewn llawer o amgylchiadau, oddi wrth y drafferth o'u rhoddi i'r rhai y byddai arnynt eisieu eu talu. Os bydd person fydd yn meddu arian mewn ariandy yn dymuno talu arian i un arall, a'r un arall hwnw hefyd yn bwriadu dodi ynddo yr arian a delir iddo, gwneir y trosglwyddiad yn llyfrau yr arianydd oddi wrth y naill i'r llall, pan gyflwynir *cheque* y person fydd yn meddu arian ynddo. Yn ol hyn ni aflonyddir ar yr arian eu hunain. Ond y mae y gwaith o dderbyn arian i mewn, yn mron bob amser, ac yn awr yn gyffredinol, wedi ei gyssylltu â'r gwaith o'u benthyca allan. Nid ydyw arianydd yn croni yr holl arian a roddir iddo: ond y mae yn rhoddi y rhan fwyaf allan yn echwyn—ac y mae rhoi arian allan yn echwyn yn gymmaint rhan o'i fasnach ag ydyw derbyn arian i mewn. Fel hyn, y mae manteision mawrion yn deilliaw i gymdeithas oddi wrth weithrediadau bancwr. Y mae bod miliwn o arian yn cael eu benthyca allan i'w defnyddio, y rhai, oni buasai am hyny, a fuasent yn gorwedd yn farw, un ai yn symiau bychain yn nghoffrau eu perchenogion, neu yn un gronfa fawr yn nghoffrau yr arianydd, yn gwneuthur y byd yn gyfoethocach o un filiwn—neu o leiaf yn ei attal rhag myned yn dlotach o un filiwn; canys nid ydyw arian, tra y cedwir hwynt heb eu defnyddio, yn atteb un dyben i fasnach yn gyffredin. Gyda'r arian a fenthycir fel hyny allan, gall perchenogion ein llaw-weithfeydd brynu defnyddiau crai i'w gweithio, a cheir ymborth a dillad i'w gweithwyr; a gall masnachwyr fyned i farchnadoedd a phrynu nwyddau i'w hail werthu. Ond nid âg arian pobl eraill yn unig y mae arianydd yn masnachu; y mae yn defnyddio hefyd ei arian ei hun. Yr arian hyn ydyw yr hyn a elwir ei ariansawdd: ac y mae yn angenrheidiol, gan na cheid ond ychydig i ymddiried eu harian i berson y gwyddys nad oes ganddo arian ei hun i gyfarfod â cholledion a allant ddigwydd.

Heb law cyflawni fel hyn y swydd o geidwaid yr arian a ymddiriedir iddynt, o herwydd eu bod yn gwneyd elw arnynt, y mae llawer o ariandai yn talu llôg ar yr arian a dderbyniant i mewn. Wrth gwrs, y mae swm y llôg a roddir bob amser yn llai na'r llôg a dderbynir gan yr arianydd. Yn fynych, y mae y person fydd yn rhoddi arian i mewn yn cyttuno â'r arianydd i beidio eu tynu allan heb rybudd blaenorol, hwy, neu fyrach, fel y cyttunir arno; ac yn yr amgylchiad hwn, rhydd yr arianydd, weithiau, fwy o lôg na phan y bydd yr arian i'w talu pa bryd bynag y gelwir am danynt—hyny yw, heb rybudd blaenorol. Yr oedd yr arferiad o roddi llôg ar yr arian a dderbynid i mewn yn ffynu bob amser yn Ysgotland; ond yn Lloegr, nid ydyw ond arferiad diweddar mewn cymhariaeth. Y mae wedi arwain yno, yn y blynyddoedd diweddar, i gynnydd mawr yn swm yr arian a ddodir i mewn; yn enwedig, fel y tybir, mewn symiau bychain. Lle y mae ariandai yn rhoddi llôg ar yr arian a ddodir i mewn, y mae yn beth cyffredin i bersonau ddodi eu harian ynddynt, yn unig er mwyn yr elw a dderbyniant yn y ffurf o lôg yn y modd hwn. Gwell gan y personau hyn y llôg bychan a roddir gan yr ariandai na'r llôg uwch y gellir ei gael gan fenthycwyr personol, neu na'r elw mwy y gallent ei gael pe y masnachent gyda'u harian. Gwneir i fyny am fychandra y llôg gan y diogelwch chwanegol a geir, a'r absennoldeb o drafferth a llafur i'w meddiannwyr.

Digitized by Google

Dyma, gan hyny, ddyledswyddau syml arianydd:—y mae efe yn cael arian yn menthyg, ac yn rhoddi benthyg. Am yr arian a fenthycir ganddo i eraill, y mae yn derbyn llôg gan y benthycwyr; a'r gwahaniaeth rhwng swm y llôg a dderbynia, a'r llôg a dâl i'r rhai a ymddiriedant eu harian iddo, ydyw y tâl a dderbynia efe am ei drafferth yn cymmeryd gofal eu harian, a'i golled trwy ddyledion drwg. Er esampl:—os tâl i'w gwsmeriaid ddwy bunt a deg swllt o lôg am eu harian, ac os derbynia bum punt y cant, bydd ei dâl yn ddwy bunt a chweugian y cant.

Y mae y gwasanaeth a gyflawnir gan arianydd i'w gwsmeriaid fel ceidwad eu harian yn fawr iawn. Derbynia eu harian drostynt yn fynych. Tybier fod dyn yn derbyn llôg ar gyfranau o stoc y llywodraeth, neu ffyrdd haiarn, &c., &c., ond iddo roddi awdurdod i'w arianydd i'w derbyn drosto, y mae y gwaith yn cael ei wneyd yn ddidrafferth hollol iddo.

Y mae arianwr, tra yn derbyn arian yn barhaus, yn ad-dalu yr arian a ymddiriedwyd iddo yn barhaus, yn ol cyfleusderau eu perchenogion; ac y mae y swm fydd yn ei law yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau parhaus. Ar un tymmor o'r flwyddyn, neu mewn sefyllfa neillduol ar fasnach, gall swm yr arian fydd yn ei law fod yn uchel; ar dymmor arall, yn isel. Gan mai egwyddor wreiddiol bancio ydyw, fod i'r arian a ddodir i mewn gael eu talu allan, naill ai pan elwir am danynt, neu yn fanwl ar derfyniad yr amser y cyttunwyd arno, y mae yn canlyn fod yn rhaid cadw bob amser yn nghoffrau ariandai gymmaint o arian ag y mae y tebygolrwydd lleiaf y gelwir am danynt gan y rhai fyddont wedi eu dodi i mewn.

Y mae dau beth arbenig yn hanfodol angenrheidiol i fancio yn ddiogel:—un ydyw, na byddo i'r ariandy roddi benthyg arian, ond ar ddiogelwch da a diammheuol, pa mor fychan bynag fydd yr elw; a'r llall yw, fod i'r ariandy ofalu am gadw digon o arian parod i gyfarfod â phob gofynion. Gelwir hyn yn 'drysorfa wrth gefn.' Ond y mae yn amlwg po fwyaf fydd yn y modd hwn wrth law, lleiaf fydd y swm a fenthycir allan ac y derbynir llôg am danynt. Oddi wrth hyn y cyfyd y demtasiwn y mae ariandy yn agored iddi o fenthyca gormod allan; a dyma yr hyn sydd yn rhy fynych yn achosi methiant ariandai. Am y gwahanol ffyrdd sydd gan yr ariandai i gadw arian y gellir eu cael ar alwad, ni raid i ni yma fanylu, gan eu bod mor amrywiol.

Nid ydyw nodyn ariandy ond yn unig addewid ysgrifenedig o eiddo yr arianwr fydd yn ei roddi, y telir y swm fydd arno i'r dygiedydd, pa bryd bynag y gofyna efe am dano; hyny yw, yn arian cyffredin y wlad. Wrth gwrs, ni dderbyniai un dyn nodyn ariandy, oddi eithr ei fod yn credu fod yr ariandy yn alluog i gyflawni ei addewid o dalu mewn arian bathol. Y funyd y mae drwgdybiaeth yn ymgodi na bydd ariandy yn alluog i gyflawni yr addewid hwn, fe baid ei nodyn a phasio o law i law fel arian bathol. Pan y bydd nodyn ariandy yn treiglo drwy y wlad, y mae yr ariandy yn derbyn ei elw neu lôg, mewn gwirionedd, ar ddarn o bapyr sydd ynddo ei hun yn hollol ddiwerth; ac sydd yn derbyn ei werth oddi wrth ymddiried y cyhoedd fod yr ariandy yn alluog i'w dalu mewn arian pan y gelwir am dano.

Y mae ariandy yn gwneyd ei ennillion drwy fenthyca arian mewn llawer o ffyrdd; a chan fod y ffyrdd hyn mor amrywiol, gellir dyweyd nas gellir dychymygu am unrhyw ddiogelwch boddhaol y gellir ei gyflwyno i ariandy na bydd parodrwydd yn y cyffredin yn mysg arianwyr i fenthyca arian arno. Ond dylid cofio nad benthyca arian am amser maith y bydd arianwyr, ond am ychydig o fisoedd yn y cyffredin.

Y mae yn Lloegr a Chymru (yn 1878) 113 o ariandai cydgyfranogol, heb law Ariandy Lloegr. Eu cyfalaf wedi ei dalu i fyny yw 32,874,926*p.* Yn Ynys Manaw y mae 2, â'u cyfalaf yn 60,000*p.* Yn Ysgotland 11, â'u cyfalaf yn 10,045,280*p.*, ac yn yr Iwerddon 9, â'u cyfalaf yn 6,790,000*p.* Y mae llawer o'r banciau hyn yn rhoddi allan eu nodau eu hunain, ac eraill yn ewyllysio yn hytrach roddi allan nodau Ariandy Lloegr; ond y mae pob un yn cael ei gyfyngu i swm pennodol, yn ol ei gyfalaf (*capital*). Ni oddefir iddynt roddi allan fwy na'r swm hwn; ac y mae swm y nodau fydd ar dreigl yn fynych yn llai o amryw filoedd na'r caniatad. Y mae gan y rhan fwyaf o honynt ganghenau—a chan rai lawer.

Nifer yr ariandai preifat o fewn y Deyrnas Gyfunol (yn 1878) ydyw 257; o bai rai y mae 155 yn y brifddinas, a 102 oddi allan iddi. Yr oedd eu nifer yn fwy flynyddoedd yn ol; ond y mae yn eglur nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddiogel ar y cyfan; ac felly, y mae eu nifer yn lleihau yn brysur.

Gyda golwg ar yr ariandai hyn oll, y mae eu hennillion yn deilliaw yn benaf oddi wrth eu defnyddiad o'r arian a ymddiriedir iddynt. Fel y crybwyllwyd, nid yw swm nodau yr ariandai hyny sydd yn meddu hawl i'w rhoddi allan ond bychan, mewn cymmhariaeth i'r arian fydd yn gorwedd ynddynt. Dechreuwyd y fasnach hon yn yr ail ganrif ar bymtheg gan Ofaint-Aur (*Goldsmith Company*) Llundain—y rhai a fenthyciasant y drychfeddwl oddi wrth arferiad cyffelyb yn Holland. Gwel Gilbart's "*History and Principles of Banking.*"

ARIANDY LLOEGR. Cynlluniwyd yr ariandy, yr hwn ydyw y sefydliad banciol mwyaf a phwysicaf yn yr holl fyd, gan William Paterson, Ysgotiad; a derbyniodd y freinlen o gorphoriad Gorphenaf 27ain, 1694. Ffurfiwyd yr ariandy fel cymdeithas gydgyfranogol, gydag ariansawdd o ddeuddeg can mil o bunnau (1,200,000*p.*), y rhai a fenthyciwyd ar lôg i lywodraeth William a Mary—yr hon oedd ar y pryd mewn cryn helbul. Gan hyny, yr oedd Ariandy Lloegr o'i gychwyniad yn was y llywodraeth; ac y mae wedi mwynhau y cymmeriad hwn, i raddau mwy neu lai, o hyny hyd heddyw. Yn y dechreu, nid oedd breinlen yr ariandy ond am ddeng mlynedd yn unig; ond o herwydd y gwasanaeth mawr y bu y sefydliad i'r llywodraeth, y mae ei breinlen wedi ei hadnewyddu amryw weithiau. Yr adnewyddiad diweddaf fu arni oedd yn 1844; yr hwn sydd etto yn hanfodi, gan fod ei thelerau yn ddarostyngedig i gael eu newid neu eu diddymu gan y senedd wrth ei hewyllys. Trwy gyfraith neu freinlen 1844, rhanwyd yr ariandy yn ddwy adran:—sef, yr adran i anfon nodau allan, a'r adran i dderbyn arian i mewn. Amcan y gyfraith hon oedd attal anfoniad allan mwy na swm pennodol o nodau, oddi eithr fod swm cyfartal o aur ar y pryd yn yr ariandy, fel y byddai i'r cylchrediad cymmysg o nodau ac arian bathol fel hyn gynnyddu a lleihau i gyfarfod â'r angen. Modd bynag, y mae profiad wedi dangos, pan y mae aur yn cael ei gymmeryd ymaith fel hyn

Digitized by Google

gan wledydd tramor, ei fod yn cael ei gymmeryd yn benaf o'r arian sydd wrth gefn yn yr ariandy hwn, gan mai arian a ddodwyd i mewn yn cael eu tynu allan ydynt. Nid ydyw cyfraith 1844 wedi effeithio dim ar swm y nodau fydd yn nwylaw y cyhoedd. Mewn ymarferiad, pa bryd bynag y gwelir arwyddion y cymmerir llawer o aur ymaith gan wledydd tramor, a bod swm yr arian fydd gan yr ariandy wrth gefn yn lleihau, y mae yr ariandy yn gwrthweithio y duedd i gymmeryd aur ymaith trwy godi y llôg, a lleihau ei echwynion. Bwriadwyd y gyfraith hon hefyd i chwanegu at ddiogelwch nodau yr ariandy, trwy sicrhau fod cyflenwad o aur yn barod wrth law bob amser i'w cyfarfod. Ond y mae diogelwch Ariandy Lloegr yn ddiammheuol; ac yn mhob man ystyrir ei nodau fel aur.

Yr ail ran o weithrediadau Ariandy Lloegr ydyw rhoddiad nodau allan i'r cyhoedd. Cyn ysgariaeth y ddau adran yr oedd y llywodraeth yn nyled yr ariandy o 11,015,000*p*. Hysbyswyd fod y swm yma yn awr yn ddyledus i adran y rhoddiad nodau allan; ac nid ydyw yn ofynol i'r ariandy feddu aur ar gyfer y swm yma. Yr oedd hyn yr un peth yn hollol a phe buasai yr ariandy yn wreiddiol wedi benthyca 11,015,000*p*. o'i nodau i'r llywodraeth, a bod hyny o nodau allan mewn cylchrediad. Heb law hyny, caniatawyd i'r ariandy roddi nodau chwanegol allan ar ddiogelion hyd y swm o 3,459,900*p*.; a hyny hefyd heb fod ganddo aur wrth gefn. Swm y nodau y gellir fel hyn eu hanfon allan, heb aur wrth gefn ar eu cyfer, ydyw 14,475,000*p*. Nis gall yr ariandy anfon allan gymmaint a nodyn pum punt uwch law y swm hwn ond yn unig yn gyfnewid am aur. Pan basiwyd y gyfraith yn 1844, pennodwyd mai gwerth y nodau oedd i gael eu rhoi allan ar gyfer dyled y llywodraeth a diogelion oedd 14,000,000*p*.—gan fod profiad wedi dangos nad allasai unrhyw berygl ddyfod trwy fod y swm hwn o nodau yr ariandy yn nwylaw y cyhoedd. Y mae y 475,000*p*. wedi eu hawdurdodi gan y gyfraith i'w rhoi allan yn chwanegol, o herwydd fod rhai ariandai fyddent yn arfer rhoddi eu nodau eu hunain allan wedi peidio a gwneyd hyny. Rhaid i'r ariandy hwn roddi cyfrif i'r llywodraeth am elw clir y nodau chwanegol hyn o 475,000*p*.: a'r elw a dderbynia yr ariandy oddi wrth adran rhoddiad y nodau allan ydyw y llôg a dderbynia ar y 14,000,000*p*. o ddyled y llywodraeth a diogelion; yr hyn, yn ol 3*p*. y cant, sydd yn 420,000*p*. yn flynyddol. Ond allan o hyn y mae yr ariandy yn talu i'r llywodraeth 180,000*p*., am ei freintiau banciol, ac yn lle talu am stampiau. Gan fod traul adran rhoddiad y nodau allan yn 160,000*p*., y mae yr ennill blynyddol clir arni i'r ariandy felly yn 80,000*p*. Y mae yr ariandy hefyd yn gwneuthur elw o 20,000*p*. i 40,000*p*. yn y flwyddyn ar arian anfathedig ac ar arian bathol tramor. Dygir y rhai hyn i'r ariandy am ei nodau. Y maent yn werth 3*p*. 17*s*. 10½*c*. yr wns; ond rhwymir yr ariandy gan ei freinlen i'w prynu am 3*p*. 17*s*. 9*c*. A gwell gan eu perchenogion gymmeryd y pris hwn na gadael i'w harian anfathedig, a'u harian bathol tramor, gael eu bathu iddynt yn ddidâl ar draul y bathdy cyhoeddus, yn unig am fod yr oediad yn eu bathodiad yn gyfartal â cholled o lôg o 1½*c*. yr wns.

Cyfartaledd swm nodau yr ariandy fydd yn nwylaw y cyhoedd ydyw o ddeutu 20,000,000*p*.; ond y mae y swm a anfonir allan gan adran y rhoddiad allan yn fwy. Y gwahaniaeth ydyw y swm fydd yn gorwedd yn yr adran bangciol; ac y mae yn cynnrychioli yr aur sydd gan yr adran hwnw wrth gefn.

Yn ei adran fangciol, y mae Ariandy Lloegr yn gwahaniaethu oddi wrth ariandai eraill trwy ei fod yn arolygu y ddyled wladol, ac yn talu y llôg arni; yn dal yr arian sydd ynddo yn perthyn i'r llywodraeth, ac yn rhoddi benthyg arian iddi pan y bydd yn angenrheidiol; yn cynnorthwyo i gasglu y cyllid cyhoeddus, ac yn ariandy i ariandai eraill. Am arolygu y Ddyled Wladol, derbynia yr ariandy o ddeutu 247,000*p*. yn y flwyddyn—yn erbyn yr hyn rhaid rhoddi 124,000*p*. o gostau. Deillia y gweddill o ennillion yr ariandy oddi wrth ddefnyddio, fel ariandai eraill, yr arian sydd wedi eu dodi ynddo (ar ba rai nid ydyw yn rhoddi un llôg), a'i ariansawdd ei hun. Yr ariansawdd gwreiddiol oedd 1,200,000*p*.; ond yn 1816, yr oedd yn cyrhaedd i 14,553,000*p*.; sef, y swm presennol. Heb law hyn, y mae o ddeutu 3,000,000*p*. a gedwir wrth gefn. Y mae yr arian, cyhoeddus a phersonol, sydd yn cael eu hymddiried iddo yn amrywio yn rhywle rhwng 13,000,000*p*. a 22,000,000*p*.

ARISTIDES: gwladgarwr Athenaidd, yr hwn o herwydd ei uniondeb a gyfenwid 'Y Cyfiawn.' Yr oedd efe yn wrthwynebwr i'r blaid ddemocrataidd a arweinid gan Themistocles: ac yn un o'r deg cadlywydd a bennodwyd i arwain yr Atheniaid yn erbyn y Persiaid yn mrwydr Marathon, yn 490 c.c. Trefnwyd iddynt fod yn llywyddion goruchaf, bob un yn ei ddydd; ond annogodd Aristides ei gydlywyddion i roddi i fyny eu hawliau, ac i wneyd Miltiades yn benllywydd. Ac oni buasai am y trefniad doeth hwn, y mae yn ddiammheuol nad ennillasai yr Atheniaid mo'r frwydr. Y flwyddyn ddilynol, gwnaed ef yn *archon;* ond o herwydd ei wrthwynebiad i Themistocles a'i blaid, fe'i halltudiwyd. Yn mhen rhyw dair blynedd ar ol hyny, fe'i gwahoddwyd yn ei ol, i wrthsefyll ymosodiad y Persiaid dan Xerxes; a bu yn gymmhorth pwysig i'w gydwladwyr yn mrwydrau Salamis a Platæa. Dangosodd ei drugaredd yn ei waith yn ceisio arbed ei wrthwynebydd, Themistocles, rhag alltudiaeth, a'i gyfiawnder yn y ffaith ddarfod iddo, er cymmaint fu ei awdurdod, farw yn dlawd iawn:—tua 467 c.c.

ARISTOPHANES: y digrif-fardd Athenaidd enwog, yr hwn a anwyd tua 45 c.c. Yr oedd efe yn cydoesi â Socrates, a Demosthenes, ac Euripides. Ychydig o'i hanes sydd ar gael. Ysgrifenodd 54 o chwareuon; ond nid oes ond un ar ddeg o honynt ar gael yn awr. Llefarai yn erbyn Socrates, Cleon, ac eraill; a dodai ei wyneb yn eofn yn erbyn beiau gwladol a chymdeithasol, yn enwedig yn erbyn tuedd anghymmedrol y bobl i ryfela, ac i ymgyfreithio. Y mae Aristophanes yn hynod am ei ddychymyg ffrwythlawn, ei arabedd dihysbydd, a symledd a choethder ei iaith.

ARKWRIGHT, SYR RICHARD. Ganwyd y dyfeisiwr enwog hwn yn Preston, yn y flwyddyn 1732. Eilliwr ydoedd efe ar y cyntaf, o ran ei alwedigaeth; ond ymroddodd yn fuan i gynllunio peiriannau i nyddu cotwm. Gan nad oedd efe yn gyfarwydd iawn mewn gweithiau o'r fath, sicrhaodd wasanaeth oriedydd, o'r enw Kay, i'w gynnorthwyo i wneuthur ei offer. Yn 1768, symmudodd o Preston i Nottingham gyda

Digitized by Google

Kay a Mr. Smalley, o Preston, lle y gosododd i fyny, yn 1769, ei ystram nyddu (*spinning frame*) hynod, yr hon oedd yn gynnwysedig o ddau bâr o rolbreni—y pâr cyntaf yn cylchdroi ynghyd yn araf, gan yru y cotwm i'r pâr arall, yr hwn oedd yn chwildroi mor gyflym fel ag i dynu yr edef i'r hyd a'r meinder angenrheidiol. Cyfarfu â gwrthwynebiadau lawer, ond buddugoliaethodd arnynt oll; a phan fu farw yn 1792, yr oedd ei eiddo, meddir, yn hanner miliwn o bunnau. Yn 1786, fe'i pennodwyd yn uchel-sirydd sir Derby; ac yn y swydd hono, daeth i'w ran i longyfarch y brenin Sior III., o blegid'i Margaret Nicholson fethu yn ei hymgais i gymmeryd ei fywyd ef. O herwydd hyn, ac nid o herwydd ei ddyfeisiau, fel y tybia rhai, y gwnaed ef yn farchog.

ARNAULD, ANTOINE: Ffrangcwr: duwinydd, yr hwn a adnabyddir fel 'Arnauld Fawr.' Ganwyd ef yn y flwyddyn 1612. Efe ydoedd yr ieuangaf o ugain mab Antoine Arnauld, y dadleuydd Ffrengig galluocaf yn ei oes. Yn ddadleuydd y mynai ei dad ei ddwyn yntau i fyny; ond gan nad oedd yn hoff ganddo yr alwedigaeth, ymgyssegrodd i wasanaeth yr eglwys. Yn 1642, ordeiniwyd ef yn offeiriad; ac yn y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd lyfr ar "*Gymmundeb Mynych*," yr hwn a gymmeradwywyd gan bawb, oddi eithr y Jesuitiaid. Y gymmeradwyaeth hon a roddodd iddo fynediad i mewn i 'Gymdeithas y Sorbonne.' Ar ol hyn, cyhoeddodd lyfr a fu yn achos o ymryson maith rhyngddo ef a'i wrthwynebwyr; sef, "*Duwinyddiaeth Foesol y Jesuitiaid.*" O blegid hyn, annogodd y Jesuitiaid ganghellydd y Sorbonne i ddwyn y ddadl i Rufain, fel y gorfyddid Arnauld i fyned yno i'w amddiffyn ei hun; ond yn hyn o beth, ni lwyddasant. Ond bwriwyd ef allan o'r Sorbonne, am ysgrifenu dau lythyr i amddiffyn Jansenius, esgob Ypres. Yntau ar hyny a ymneillduodd i leiandy Port Royal des Champs, lle yr oedd ei chwaer Angelique Arnauld yn abades. Yno parhaodd, mewn cyssylltiad â Pascal, Nicole, ac eraill, i ysgrifenu yn erbyn y Jesuitiaid. Ysgrifenodd lawer o lyfrau a thraethodau. Bu farw yn Brussels yn y flwyddyn 1694.

AUBREY, THOMAS: un o gedyrn y pulpud Wesleyaidd yn Nghymru. Ganwyd ef yn Nghefn-coed-y-cymmer, ger llaw Merthyr Tydfil, yn Mawrth, 1808. Glöwr oedd ei dad; ond yr oedd yn aelod anrhydeddus o'r dosbarth hwnw o'n gweithwyr. Yr oedd manteision addysg i blant tlodion yn brin yn y wlad y pryd hwnw, gan nad oedd ond ychydig o ysgolion dyddiol i'w cael; ac ychydig, os dim, o'r manteision hyn a fwynhawyd gan wrthddrych ein sylwadau. Pan yr oedd efe yn bur ieuangc, symmudodd ei dad i breswylio i Nant-y-glô. Elai plant y cymmydogaethau yn ieuaingc i weithio i'r gweithydd heiyrn; ac felly yr aeth Thomas Aubrey gyda'i dad, gan fod llawer o fanteision i blant fyddent yn gweithio y pryd hwnw yn yr ardaloedd hyny. Y gangen o'r gwaith yr ymaflodd efe ynddi oedd gwaith y *roller*—yr hon oedd gangen ennillfawr iawn yn yr adeg hono. Yr oedd y Parchn. John Williams (2il), ac Humphrey Jones (1af), yn weinidogion yn nghylchdaith Merthyr; ac yn nhymmor eu gweinidogaeth hwy yno, yr oedd gŵr o'r enw John Williams, o Lanfair-pwll-gwyngyll, yn digwydd bod yn pregethu yn Nant-y-glô ar ryw nos Sabbath. Ymddengys hefyd fel peth damweiniol ddarfod i Aubrey ieuangc droi i mewn i wrandaw arno; ond y noson hono, glynodd saeth argyhoeddiad yn ei galon; ac yn mhen ychydig nosweithiau, ymunodd â'r eglwys Wesleyaidd yn y lle, a dechreuodd ar gyfnod newydd o fyw. Tua phedair ar ddeg oed oedd efe y pryd hwnw; ond gyda'i fod yn un ar bymtheg oed, dechreuodd bregethu. Arferai fyned o amgylch y wlad yn nghymmydogaeth ei gartref yr amser hwnw gyda'r hen ŵr, Benjamin Williams—"y pregethwr â'r goes bren;" ac yr oedd y ddau yn hynod boblogaidd —un yn fachgen llwydaidd ac eiddil, a'r llall yn ddyn tua chwe throedfedd o daldra, ac o gorph grymus. Yr oeddynt yn hynod gymmeradwy, ac ymofyn mawr fyddai pa bryd y deuent eilwaith i'r un cymmydogaethau drachefn:—a byddai yr Arglwydd yn bendithio eu llafur.

Pan tua deunaw oed, galwyd Aubrey allan i'r weinidogaeth amdeithiol, a disgynodd ei goelbren i lafurio yn nghylchdaith Dinbych a Llanrwst, yn nghwmni y Parchn. Evan Hughes, a Morgan Griffith. Ond yn ol cofnodion y gynnadledd, yr oedd "y brawd Aubrey i roi hanner ei lafur i gylchdaith Rhuthyn." Yr oedd maes ei lafur yn eang iawn, gan, fel y dywedodd y diweddar Dr. W. Davies, ei fod "yn cyrhaedd o Abergele i Benmachno, ac o Gonwy yn Arfon, hyd Brymbo, yn ymyl Gwrecsam!" Ond erbyn hyn, y mae nifer y cylchdeithiau yn lliosocach. Diammheu fod ei lafur corphorol, yn gystal a meddyliol, y pryd hwnw yn fawr iawn. Canfyddwyd yn fuan fod ynddo ddefnyddiau pregethwr rhagorol; ac nid hir y bu heb ddyfod yn boblogaidd drwy y gylchdaith, a thu allan iddi. Nid oedd ei Gymraeg, pan y daeth gyntaf i'r ardaloedd hyn, yn hawdd iawn i'w deall. Cymraeg Morganwg a Mynwy ydoedd, ac o bossibl heb fod y mwyaf cywir o Gymraeg y parthau hyny; ond llafuriodd yn ddiwyd tra bu yn Ninbych i ddeall yr iaith yn dda. Astudiodd yn galed iawn rammadegau yr iaith, "*Geiriadur Dr. William Owen Pughe*," a gweithiau beirdd Cymreig, hen a diweddar. Arferai ef a'i gyfaill, Clwydfardd, gyfarfod yn fynych; a threuliasant lawer awr gyda'u gilydd, gan golli eu cwsg, i'r dyben o ymdrin â'r hen Omeraeg—ei chystrawen a'i gwreiddiau; a thrwy hyn, daeth y dyn ieuangc yn fuan yn feistr arni, ac yn un o'r Cymreigwyr goreu, fe allai, yn ein gwlad.

Symmudodd o Ddinbych i gylchdaith Dolgellau ac Abermaw. Y diweddar Barch. Lot Hughes oedd gweinidog hynaf y gylchdaith, a phreswyliai yn Nolgellau; ac yr oedd ei gynnorthwywr ieuangc, Thomas Aubrey, yr hwn oedd dan ugain oed, yn trigiannu yn Abermaw. Arosodd yn y gylchdaith hon am ddwy flynedd; ac yr oedd ei gynnydd yn amlwg i bawb, a'i boblogrwydd yn mwyhau o hyd. Yna pennodwyd ef i fyned i Lundain, i wasanaethu yr eglwys Gymreig a gyfarfyddai y pryd hwnw mewn capel bychan yn heol St. Mary Axe. Nid oedd y cyfleusderau teithio yr hyn ydynt yn awr, gan nad oedd un ffordd haiarn wedi ei hagor o Gymru i Lundain. O herwydd hyn, anfonodd y gweinidog ieuangc gist, yn cynnwys ei lyfrau, gyda llestr a elwir y *Deve* i'r brifddinas: ond yn rhywle ar y fordaith, aeth y llestr a'r llwyth i waelod y môr. Achubwyd y bywydau. Yr oedd y cadben a'r dwylaw wedi colli y cyfan a feddent; ond rywfodd neu gilydd, daeth y gist â'r llyfrau i'r wyneb; a hi oedd yr unig beth a

Digitized by Google

waredwyd o'r llongddrylliad! Dwy flynedd a fu arosiad Aubrey yn Llundain; ac yn ystod yr amser hwn, aeth capel St. Mary yn rhy fychan. Symmudodd y gynnulleidfa i heol Aldersgate. Yr oedd Cymdeithas Gymreigyddion Llundain y pryd hwnw yn flodeuog, a chymmerai efe ran amlwg yn ei gweithrediadau yn fynych. Tra yn aros yn Llundain, efe a briododd ferch ieuangc o Ruthyn, yr hon y daethai i gydnabyddiaeth â hi tra yr arosai yn nghylchdaith Dinbych, yr hon a fu yn ymgeledd gymmhwys iddo hyd derfyn ei yrfa; sef, Miss Williams, o Lanfwrog. Bu iddynt ddeg o blant. Yn 1831, dychwelodd i lafurio i gylchdaith Rhuthyn a Llangollen. Y cylchdeithiau y bu ynddynt wedi hyny oeddynt Treffynnon a'r Wyddgrug, yn 1832—33; Llanfyllin a Llanfair-caereinion, yn 1834—36; Dinbych a Rhuthyn, yn 1837—39; Liverpool, yn 1840—42; Caernarfon, yn 1843; Llangollen, yn 1844—45; Merthyr Tydfil, yn 1846—48; Liverpool, yn 1849—51; Bangor, yn 1852—54; Treffynnon, yn 1855—56; Bangor, yn 1857—59; Liverpool, yn 1860—62; a Llanfyllin, yn 1863—64. Ac wrth gwrs, yr oedd dyn o alluoedd, ymroddiad, a gallu pregethwrol Thomas Aubrey yn debyg o adael ei effaith yn fawr yn mhob man lle yr elai.

Yn 1854, ymneillduodd y Parch. Edward Anwyl o'r swydd o gadeirydd y Dalaeth Ogleddol, ac ar Thomas Aubrey yr oedd llygad pawb yn disgyn yn naturiol i fod yn olynydd iddo:—ac arno ef y disgynodd y goelbren. Dangosodd yntau, yn ngweinyddiad y swydd, ei fod, nid yn unig yn ymadroddwr hyawdl, ac yn bregethwr o'r radd flaenaf, ond hefyd yn meddu ar fedrusrwydd i fyned i mewn i fanylion pethau, a threfnu yn ddeheuig wahanol faterion a ddygid ger ei fron. Llanwodd y swydd hon gyda llawer mwy o fedrusrwydd nag yr oedd ei gyfeillion goreu yn disgwyl idde wneyd. Cymmerodd lafur mawr arno ei hun; ac er ei fod yn ddyn cryf, ac yn meddu yn naturiol ar gyfansoddiad cadarn, dechreuodd ei lafur mawr yn ei gylchdeithiau, ynghyd â'i lafur mewn manau eraill oddi cartref—gan fod galw mawr am ei wasanaeth drwy y cyfundeb Cymreig—yn raddol i effeithio ar ei iechyd. Pan yn nghylchdaith Llanfyllin—y ddiweddaf y bu yn llafurio ynddi—yr oedd arwyddion amlwg o adfeiliad yn ei iechyd, a nychdod yn ei oddiweddyd. Ac ar gyfrif gwaeledd ei iechyd, caniatawyd iddo ymryddhau oddi wrth ofalon ei swydd fel cadeirydd y dalaeth, a'i ofalon hefyd fel llywydd cylchdaith. Symmudodd yn awr i fyw i ddinas Caer, a bu yn cartrefu yno am tua dwy flynedd. Ond yn haf y flwyddyn 1867, aeth i breswylio i Rhyl. I Ddinbych y bwriadai fyned, gan ei fod yn teimlo yn awyddus am gael cartref yn rhywle lle y gallai gael golwg ar Ddyffryn Clwyd, a lle y gallai dreulio gweddill ei oes mewn tawelwch—yn pregethu, a chynghori, a chynnorthwyo gyda'r achos crefyddol, yn ol fel y byddai ei iechyd yn caniatau. Ond methodd ar y pryd a tharo ar dŷ wrth ei fodd; gan hyny, gosododd ei babell i lawr yn Rhyl. Bu yn Llundain yn mis Mehefin, y flwyddyn uchod, a phregethodd yn Saesneg, ar y 23ain o'r mis hwnw, yn lle y Parch. Richard Roberts—yn y boreu yn nghapel New North Road, ac yn yr hwyr yn nghapel Hackney Road—i gynnulleidfaoedd gorlawn; ac yr oedd nerth mawr yn cydfyned â'i eiriau, yn enwedig yn y boreu. Y nos Lun canlynol, darlithiodd hefyd yn Saesneg yn New North Road, ar "Saul a'r ddewines o Endor." Nos Iau, a'r Sabbath canlynol, pregethodd i'r Cymry yn nghapel Wilson Street, a'r nos yn ysgoldy New North Road i gynnulleidfa liosog. Yna aeth o Lundain i Ferthyr. Pregethodd yno y Sabbath, a thraddododd ddarlith yno y nos Lun dilynol. A'r nos Sabbath hwnw yn Merthyr oedd y tro diweddaf iddo bregethu; a'r ddarlith hono yn Merthyr oedd ei ddarlith ddiweddaf, a'r tro diweddaf am byth iddo anerch cynnulleidfa! Gwaelu a wnaeth yn barhaus ar ol hyny.

Ni weddiodd ac ni phregethodd Mr. Aubrey yn gyhoeddus ar ol dyfod i Rhyl, ar yr 16eg o Orphenaf; ac ni bu yn y capel ond teirgwaith. Disgwyliai wella, a chael byw ychydig yn hwy, i weithio dros ei Waredwr. Ac yr oedd wedi meddwl am bregethu yn Rhyl bob yn ail boreu Sabbath am ddeufis neu dri—gan fod yn ei feddwl gwrs o faterion y bwriadai ymdrin â hwynt. Ond tra yn gobeithio ac yn disgwyl am adferiad ei iechyd, gwaelu yr oedd efe. Er hyny, teimlai yn hollol dawel a dedwydd. Dywedai yn feunyddiol, "Yr wyf yn ei law ef." Yr wyf yn ddedwydd a diolchgar—yn ddiolchgar a dedwydd." Yr oedd yn mwynhau profiad uchel a gorfoleddus yn fynych yn yr adeg hon. Hoff iawn ganddo oedd gweled ei hen gyfeillion, a'i gydlafurwyr yn y weinidogaeth, yn dyfod i edrych am dano. Byddai eu hymweliadau yn godiad i'w feddwl, a byddai ei brofiad aeddfed yntau yn ddiau yn ddyrchafiad i'w meddyliau hwythau, yn ngwyneb yr arwyddion eglur oedd ynddo fod awr ei ymddattodiad yn nesau. Fel y canlyn y disgrifir ei funydau diweddaf gan gyfaill oedd yn bresennol yn yr ystafell:—

"Ychydig funydau cyn iddo ymadael, yr oeddwn yn rhoddi rhyw gynnorthwy bychan iddo; ac edrychai arnaf â'i lygaid yn llawn bywyd. Gofynais iddo a oedd yn fy adnabod. Attebodd yn arwyddocaol ei fod; a phan yr oeddwn yn myned i ofyn rhywbeth arall iddo, yr oedd yn parhau i edrych yn siriol a dedwydd, a thorodd allan i ddyweyd, '*Joyful, joyful!*' fwy na hanner dwsin o weithiau. Ond methodd a dyweyd mwy na '*joyf*' y tro diweddaf; ac ar hanner y gair troes ar ei gefn, estynai ei ddwylaw i fyny, a cheisiai godi yn ei eistedd. Cadwai ei lygaid yn sefydlog tua'r nef, y rhai oeddynt yn llawn o'r bywyd hwnw am ba un yr oeddynt mor nodedig; ac yr oedd rhyw sirioldeb rhyfeddol, rhywbeth nas gallaf ei alw yn ddim ond disgleirdeb goruwch-naturiol, ar ei wedd. Ni welais y fath olygfa erioed! Bu felly am tua thri munyd. Ar ol hyny, ymollyngodd i lawr ar y gobenydd; a chyn pen tri munyd wed'yn yr oedd yr anadl olaf wedi diangc, y llygaid digyffelyb hyny wedi sefyll, a'r bysedd hyn, sydd yn awr yn ysgrifenu yr hanes, yn tynu yr amrantau drostynt am y tro olaf! Felly, am chwarter wedi un ar ddeg, nos Wener, Tachwedd 16eg, 1867, y gorphenodd y Parchedig Thomas Aubrey ei yrfa trwy lawenydd!"

Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol, pryd y daeth llu mawr o bell ac agos i'w angladd, yn mynwent Rhyl—lle y mae beddfaen hardd wedi ei gyfodi ar ei fedd. Yr oedd Mr. Aubrey yn ddyn o wybodaeth gyffredinol anarferol. Pa beth bynag a ddigwyddai fod yn destyn ymddiddan mewn cwmni, pa un bynag ai duwinyddiaeth, hanesyddiaeth, hen neu ddiweddar, daearyddiaeth neu wleidyddiaeth, ymddangosai ef yn hollol gartrefol gyda'r naill yn gystal a'r llall, fel pe buasai y cwbl wedi bod yn destynau efrydiaeth neillduol ganddo. Wrth ystyried anfanteision mawr boreu ei oes, y mae yn rhaid ei fod wedi llafurio yn galed iawn i ddyfod mor

Digitized by Google

hysbys yn ngwahanol feusydd gwybodaeth. Fel y canlyn y mae y diweddar Dr. W. Davies, yr hwn oedd yn ei adnabod yn dda, yn ei ddarlunio:—

"Cefais gystal cyfleusdra a neb i adnabod y dyn drwyddo. Yr wyf wedi cwrdd â dau fath o ddynion—un fel y rhosyn wedi cyflawn ymagor, yn dangos ei geinion y tro cyntaf, ac yna yn colli rhyw harddwch bob tro yr edrychwn arno; y llall fel y *rose-bud* tlws yn dechreu ymagor, ac yn dangos rhyw deleidion newydd bob tro yr edrychwn arno. Perthyn i'r dosbarth olaf, yn ddiau, yr oedd Mr. Aubrey. Meddyliwn yn fawr o hono pan welais ef o bell, megys y tro cyntaf; ond pan ddaethum yn nes ato, ac i'w ymyl, cynnyddai fy mawrygiant o hono bob tro y cawn y fantais a'r fraint o gynnal cymmundeb âg ef. Yr oedd galluoedd meddyliol Mr. Aubrey yn sefyll yn y radd flaenaf, ac uchaf. Yr oedd y gallu amgyffredol yn nodedig o gyflym a chyrhaeddgar; y gallu rhesymiadol yn anarferol o gryf; a'r darfelydd drachefn yn gyfartal fyw a beiddgar. Darllenai lawer, myfyriai lawer, ac ysgrifenai lawer. Ac yn y modd yma gwrteithiai ei feddwl mawr yn dda, a llanwai ef â gwybodaeth. Fel y nodwyd o'r blaen, yr oedd yn feistr ar yr iaith Gymraeg. Nid yn yr ystyr o fod yn feirniad yn ei manylion grammadegol hi, yr wyf yn addef; ond yn yr ystyr uwch, a mwy gwasanaethgar iddo ef, o allu plygu ei hadnoddau goludog i'w amcanion godidog ei hun. Ac at y cwbl, yr oedd ganddo lais ardderchog, ac ymddangosiad tywysogaidd. Trwy y pethau hyn cododd i'r rhestr flaenaf, ac i un o'r lleoedd blaenaf yn y rhestr hono hefyd, fel pregethwr a siaradwr cyhoeddus. Ac nid siaradwr hyawdl yn unig oedd efe. Gallai estroniaid feddwl wrth ei glywed mor hyawdl, mai hyawdledd felly oedd y cwbl i gyd. Ond camsyniad mawr fyddai hyny. Yr oedd yn ddyn llawn—y dyn llawnaf a adwaenais i erioed. Mewn cymdeithas, yr oedd gartref gyda phob testyn o ymddiddan a ddigwyddai fod ar droed—hanes, gwyddoniaeth, gwleidyddiaeth, duwinyddiaeth, wrth gwrs, llyfrau hen a diweddar —pob peth. Mewn gwirionedd, ymddangosai i mi weithiau fel yn gwybod pob peth bron. Mewn pwyllgorau, yr oedd yn ŵr o gynghor a chadernid. Mewn cyfarfodydd talaethol, ac yn y gynnadledd, yr oedd yn ddadleuydd gwrol, gonest, a galluog. A phan esgynai i'r areithfa, yr oedd yn 'feistr y gynnulleidfa,' ac yn 'genad Duw' mewn gwirionedd. Dilynid ef lle bynag yr äi gan luoedd o wrandawyr astud; a theimlir y golled o hono gan filoedd lawer iawn!"

Wrth wneuthur y cyferbyniad rhwng y diweddar Barch. Rowland Hughes a Mr. Aubrey, y mae yr un ysgrifenydd yn gwneyd y sylwadau canlynol:—

"Y mae llais y bobl yn gyffredin wedi codi Rowland Hughes a Thomas Aubrey i'r lle blaenaf fel pregethwyr yn mhlith Wesleyaid Cymru. Y mae hyn yn ddiddadl. Ac etto i gyd y mae hyn yn beth hynod iawn. Y mae felly, beth bynag, ar yr olwg gyntaf; o herwydd ni bu dau erioed yn llai tebyg i'w gilydd. Yn mhob peth—mewn agwedd, mewn tymmer, mewn dawn; yn mhob peth, meddwn, yr oeddynt yn hollol wahanol y naill i'r llall. Edrycher arnynt yn y goleu a fyner, nid oes dim tebygolrwydd rhyngddynt. Dyna un gyda llygaid gleision trymion, a phryd goleu gwelw; y llall gyda llygaid duon, tywyll, a phryd tywyll llewyrchus—hwn yn ymsymmud yn araf, trymaidd, a mawreddog; hwn acw, er yn llawer mwy corphorol a phwysig, etto i gyd yn heinyf, troediog, a chyflym—y naill yn dawedog braidd mewn cwmni, oddi eithr gyda'i gydnabod a'i gyfeillion; y llall yn agored, parablus, a bywiog lle bynag y mae; y blaenaf yn siaradwr cyhoeddus hamddenol, a hunan-feddiannol, ac etto effeithiol iawn; yr olaf yn siaradwr cyflym, llithrig, ac egnïol, yn llawn cyffro, tân, a bywyd, bob rhan a mymryn o hono; Hughes fel afon fawreddog y gwastadedd, yn llifo yn araf, ac yn ymddolenu yn brydferth, â brasder, harddwch, a bywyd yn addurno ei glenydd, a chyfoeth gwledydd pell yn ymnofio ar ei mynwes deg; ond Aubrey, ar y llaw arall, fel afon fwy pybyr y mynyddoedd, yn llifo weithiau yn ffrochwyllt dros ysgwydd y mynydd i lawr, ac yna yn y man yn ymgroni mewn pantle gwastad yn llyn dwfn clir, a gwynebpryd disglaer y ffurfafen, a chymmylau y nefoedd yn cael eu hadliwio ynddi, y pysgod yn nwyfus hapus i'w canfod yn ei gwaelod, a blodau gwylltion yr ucheldiroedd yn cusanu ei mîn, ac eilwaith yn rhuthro allan drachefn dros greigiau a meini mawrion i lawr, nes ymdori yn ewyn briglwyd arianlliw ac ardderchog, pob gronyn tryloew o hono yn adlewyrchu pelydrau yr haul hyd i seithliw godidog yr enfys ei hun. Dyn byw! Yr oedd gwahaniaeth annhraethol yn bod rhwng y ddau!—ac etto i gyd, i'll dau, y naill fel y llall, yn perthyn i'r dosbarth uchaf yn mhlith pregethwyr eu hoes. Mor wir fod pob talent a dawn, ond eu hiawn ddiwyllio a'u harferyd, yn sicr o gyrhaeddyd rhagoriaeth! Ac mor wir yw hefyd, mai ynfydrwydd o'r fath ynfytaf ydyw i ddyn ymwadu â'i ddawn naturiol ei hun, er mwyn dynwared rhywun arall."

AVERROES, neu IBN ROSHD: athronydd a meddyg Arabaidd, yr hwn oedd yn byw tua diwedd y deuddegfed ganrif. Efe oedd y cyntaf a gyfieithodd weithiau Aristotle. Ysgrifenodd hefyd esboniadau arnynt, ac ar "Weriniaeth" Plato. Gwnaed ef yn brif farnwr Morocco gan y caliph Jacob Almanzur; ond gan i'r offeiriaid Mahometaidd ei gyhuddo o heresi, taflwyd ef i garchar. Ond nid hir y bu cyn dyfod eilwaith yn fawr ei barch gyda'r brenin a'r bobl. Ganwyd ef yn Cordova, yn y flwyddyn 1126, a bu farw yn Morocco, yn 1198. Ei brif ddrychfeddwl fel athronydd ydyw yr hyn a elwir yn unoliaeth deall. Golygai mai un ydyw deall yn yr holl fyd, ac nad ydyw y gwahaniaeth rhwng personau unigol, ond gwahaniaeth graddau o gyfranogi yn yr un deall cyffredinol sydd yn rhedeg drwyddynt oll. Dynoliaeth ydyw y llestr fawr yn yr hon y dadguddir "deall." Y mae yn rhaid, gan hyny, fod athronydd i'w gael yn yr hiliogaeth ddynol yn rhywle neu gilydd.

Ysgrifenodd Averroes ar ddeddfwriaeth, grammadeg, llenyddiaeth, meddyginiaeth, ac athroniaeth.

AWSTRALIA: yw yr ynys fwyaf yn y byd. Gellir, yn wir, ei galw yn gyfandir, gan mor fawr ydyw. Ymestyna Awstralia oddi wrth y Môr Tawel hyd at Fôr yr India, ac o Gulfor Bass yn y de, hyd Gulfor Torres yn y gogledd. Ei hyd eithaf o ddwyrain i orllewin yw 2,600; a'i lled o ogledd i ddeheu yw 2,000 o filldiroedd. Y mae ei harwynebedd yn agos i dair miliwn o filldiroedd petryal Er fod llawer o borthladdoedd da ar lenydd Awstralia, etto ychydig o fylchau mawr a wneir ynddynt gan y môr. Yn wir, yr unig un o gryn faintioli yw Morgaingc Carpentaria, yr hwn sydd dros bedwar cant o filldiroedd ei hyd a'i led; ond gan fod y wlad o'i amgylch yn ddigynnyrch, ychydig o ddefnydd y gellir ei wneyd o hono. Yr unig afon o bwys yw y Murray. Y llynoedd mwyaf yw Victoria, Dambeling, a Torrens; ond yn yr haf, nid ydynt amgen na chorsydd heilltion. Y mae tyfolion Awstralia yn wahanol i rai pob rhan arall o'r byd. Y mae'r coed gan mwyaf yn wasgaredig, megys mewn parc, fel nad oes gan y trefedigwr nemawr o waith arloesi. Y mae dail y coed yn

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

# AWSTRALIA.

YSTYR Y TALFYRIADAU A ARFERIR YN Y MAPIAU.

| | |
|---|---|
| B., *neu* Bay | Machwy. |
| Bank, Banks | Bryn, Bryniau. |
| C., *neu* Cape | Penrhyn. |
| Castle | Castell. |
| Coast | Arfordir. |
| Ch., *neu* Channel | Sianel. |
| East, Eastern | Dwyrain, Dwyreiniol. |
| English Miles | Milldiroedd Saesnig. |
| Equator | Cyhydedd. |
| Firth, *neu* Frith | Morgainge. |
| Ft., *neu* Fort | Caerfa, Amddiffynfa. |
| G. of, *neu* Gulf of | Llyngclyn. |
| H., Havn., *neu* Haven | Porthladd *neu* Machwy. |
| Hd., *neu* Head | Penrhyn. |
| Hills | Bryniau. |
| I., Isle, *neu* Island | Ynys. |
| Is., Isles, *neu* Islands | Ynysoedd. |
| L., *neu* Lake | Llyn. |
| Land | Tir. |
| Loch, *neu* Lough | Llwch:—llyn agored i'r môr. |
| Mt., *neu* Mountain | Mynydd. |
| Mts., *neu* Mountains | Mynyddoedd. |
| New | Newydd. |
| North, Northern | Gogledd, Gogleddol. |
| Ocean | Cefnfor. |
| P., *neu* Port | Porth. |
| Pen., Pena., Peninsula | Gorynys. |
| Plateau | Gwastadedd uchel. |
| Pt., *neu* Point | Pwynt. |
| R., *neu* River | Afon. |
| Ruins of | Adfeilion. |
| S., *neu* Sound | Culfor. |
| St., *neu* Saint | Sant. |
| Sea, *neu* Sea of | Môr. |
| Shoal, Shoals | Bas-le, Bas-leoedd. |
| South, Southern | Deheu, Deheuol. |
| Str., *neu* Strs., Straits | Culfor, *neu* Culforoedd. |
| Town | Tref. |
| Tropic | Trofan. |
| West, Western | Gorllewin, Gorllewinol. |

CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU SYDD AR Y MAP HWN.

| | |
|---|---|
| Archipelago | Ynysfor. |
| Calvados Group | Y swp o Ynysoedd a elwir Calvados. |
| Coral Sea | Môr y Coral. |
| Dividing Range | Llinell derfynol. |
| Govr. Farquhar Is. | Ynysoedd y Llywodraethwr Farquhar. |
| Great Barrier Reef (of Coral) | Argae Basgraig Fawr (o Gwrel). |
| Great Victorian Desert | Yr Anialwch Victoriaidd Mawr. |
| Great Sandy Desert (of Warburton 1873) | Yr Anialwch Tywodog Mawr (a ddarganfu Warburton yn 1873). |
| Head of the Australian Bight | Pen y Crigyll Awstraliaidd. |
| Indian Ocean | Cefnfor Indiaidd. |
| King George Sound | Culfor y Brenin Sior. |
| Landsborough furthest 1860 | Lle y cyrhaeddodd gŵr o'r enw Landsborough bellaf yn 1860. |
| Line of Overland Telegraph | Llinell y Pellebyr dros y Tir. |
| Macquarie Harb. | Harbwr Macquarie. |
| Mellabor Plain | Gwastattir Mellabor. |
| New Caledonia | Caledonia Newydd. |
| New Guinea | Guinea Newydd. |
| New Hebrides | Hebrides Newydd. |
| New South Wales | Deheudir Cymru Newydd. |
| New Zealand | Zealand Newydd. |
| Nonda Country | Gwlad Nonda. |
| North I. | Yr Ynys Ogleddol. |
| Northern Territory | Y Diriogaeth Ogleddol. |
| Open grassy plains | Gwastadeddau porfaol agored. |
| Owen Stanley Mounts. | Mynyddoedd Owain Stanley. |
| Pacific Ocean | Cefnfor Tawel. |
| Recherche Archipelago | Ynysfor Recherche. |
| Richards' Desert | Anialwch Richards. |
| Riverine District | Dosbarth Riverine. |
| Ross Desert | Anialwch Ross. |
| Rowley Shoals | Basleoedd Rowley. |
| South Australia | Awstralia Ddeheuol. |
| Southern Ocean | Y Cefnfor Deheuol. |
| South I. | Yr Ynys Ddeheuol. |
| Tropic of Capricorn | Trofan yr Afr. |
| United provisionally to South Australia in 1863 | Unwyd yn ammodol âg Awstralia Deheuol yn 1863. |
| Valley of Lageon | Dyffryn Lageon. |
| Western Australia | Awstralia Orllewinol. |
| York Peninsula | Gorynys Caerefrog. |

Y MAE yr enw *Awstralasia* yn gyfystyr âg Asia Ddeheuol, ond defnyddir ef yn wahanol. Tra y mae Asia Ddeheuol yn gyffredinol yn golygu ardaloedd isaf y cyfandir hwnw, y mae Awstralasia yn cymmeryd i mewn yr ynysoedd mawrion sydd rhwng Ynysfor India neu Malay, a Pholynesia Briodol. Yr ynysoedd hyn ydynt yn benaf Guiana Newydd, Awstralia, Tasmania, Zealand Newydd, Caledonia Newydd, Yr Hebrides Newydd, Iwerddon Newydd, a Phrydain Newydd.

Awstralia ydyw y gyfran dde-orllewinol o Awstralasia. Mŷn rhai, a siarad yn fanwl, ei dynodi yn ynys; tra y mae eraill, heb fod mor fanwl, yn ei galw yn gyfandir. Fel y gwelir ar y map, y mae yn cael ei therfynu ar du y gorllewin gan Gefnfor India; ar du y gogledd, gan Gulfor Torres; ar du y dwyrain, gan y Cefnfor Tawelog; ac ar du y deheu, gan Gulfor Bass. Ychydig mewn cymmhariaeth a ddeallid hyd yn lled ddiweddar am gyfansoddiad daearegol Awstralia; ac yr oedd yr ychydig hyny wedi ei loffa o sylwadau gwasgaredig a wnaethpwyd gan wahanol deithwyr gwyddonol. Ni wyddid ond y nesaf peth i ddim am drysorau mwnawl y drefedigaeth, pan y darganfyddwyd yn 1842, trwy ddigwyddiad hollol ddamweiniol, fwngloddiau efydd (*copper*) Burra-Burra. Hefyd, yn y flwyddyn 1851, yr oedd amaethwyr yn y gymmydogaeth hono yn aredig y tir, ac yn troi i fyny creigrisial mân, a'r rhai hyny yn cynnwys gronynau o aur—a defnyddid hwy i'w rhoi ar lwybrau y gerddi! Yn 1846, pa fodd bynag, yr oedd darnau o geryg a mŵnau wedi eu dwyn o Awstralia Ddeheuol i Syr Roderick Murchison, y daearegydd enwog, ac yr oedd ei lygaid craff ef wedi canfod ynddynt debygolrwydd mawr i greigiau y dosbarth lle y ceid aur ynddo yn Mynyddoedd yr Ural. O hyny allan, yr oedd efe yn teimlo yn hollol sicr fod aur i'w gael yn y drefedigaeth

Digitized by Google

Ac ar ol hyny, y mae archwiliadau daearegol helaeth wedi cael eu gwneuthur yn y wlad. Cafwyd allan fod gwely mawr o 10 ger llaw yr Afon Hunter, a'r afonydd a redant iddi—i lawr hyd at yr arfordir yn Newcastle; ac y mae gwelyau o hono wedi eu darganfod yn Awstralia Orllewinol hefyd, a rhai yn cael eu gweithio mewn rhanau eraill o'r wlad. Yn chwanegol at aur a glô, y mae yno efydd hefyd, a haiarn, a phlwm.

Y mae y coed yn Awstralia yn dra gwahanol rhagor fel y maent i'w cael yn ngwledydd eraill y byd, yn gymmaint ag nad ydynt i'w cael yn fforestydd mawrion, ond ar wasgar yma a thraw. Yn mysg y coed mwyaf a dyfant yno, gellir enwi rhywogaeth o'r *Eucalyptus;* ac y mae rhai o honynt hwy yn tyfu i'r uchder o 150 neu 200 o droedfeddi; ac weithiau, nid ydyw y canghenau yn tori allan ynddynt hyd yn hanner eu huchder. Y mae eu paladrau talgryf yn gyffelyb i golofnau uchel prydferth. Y mae palmwydd a chynnyrchion trofanol eraill yn tyfu yn y parthau gogleddol. Ychydig o goed a phrysgoed Awstralia sydd yn cynnyrchu ffrwythydd bwytadwy. Nid ydyw rhyfon a llygaeron (*currants and cranberries*) Tasmania o nemawr werth. Y mae hadau yr *Araucarius* yn fwytadwy, ac yn lled gyffelyb i almonau. Ychydig o gynnyrchion llysieuol Awstralia sydd yn deilwng o ofal y garddwr, oddi eithr fel gwrthddrychau prydferth neu gywrain; ond y mae cynnyrchion gwledydd eraill sydd yn cael eu diwyllio yno yn ffrwytho yn dda. Yn wir, y mae y coed eurafalau (*orange*), y gwinwydd, y ffigyswydd, y peatuswydd (*peach*), ac amrywiaeth lliosog o eirinwydd—wedi eu dwyn yno o'r arddrych (*hemisphere*) gogleddol, ac sydd yn gynhenid yn gynnyrchion yr Hen Fyd—yn ymddangos yn eithaf cartrefol, ac yn tyfu yn rhagorol yn nhir Awstralia. Y mae fforest-goed Prydain, a gwledydd Ewropaidd eraill hefyd, wedi eu trawsblanu yno; ac y mae arwyddion y bydd iddynt hwythau hefyd ffynu yn y wlad.

Y mae anifeiliaid pedwar-troediog Awstralia yn lliosog, ac yn hynod hefyd; o herwydd nad oes ond ychydig o'r cyfryw i'w cael yn rhanau eraill y byd. Ymbortha rhai o honynt ar lysiau; megys y *kangaroo*, y *wombat*, a'r *potoroo*. Eraill a ymborthant ar lysiau a thrychfilod; megys y *bandicoot*. Ac y mae eraill drachefn yn ymborthi ar gig; megys y dywalgi, a'r gath wyllt. Y mae yno ddosbarth eraill o greaduriaid, sydd megys yn ffurfio y ddolen gydiol rhwng y pedwar-troedigion a'r adar; y rhai sydd, o ran eu ffurf allanol, a'u cyfansoddiad mewn ystyr ddifynol (*anatomical*), yn gyfryw ag na cheir dim cyffelyb iddynt mewn unrhyw barth arall o'r ddaear.

Am adar Awstralia, gellir dywedyd fod llawer o honynt yn hynod o brydferth. Yr *emu* ydyw yr estrys Awstraliaidd. Y mae yr alarch du yn nodedig ar gyfrif ei liw. Y mae hwyaid o wahanol fathau, hebogau, colomenod, parotau, a llawer o adar eraill sydd yn eithaf adnabyddus mewn lleoedd eraill, yn cyssylltu hanesiaeth naturiol y rhan hwnw o'r ddaear âg ardaloedd eraill y byd.

Y mae yno liaws mawr o ymlusgiaid hefyd; er nad ydynt, fel dosbarth, yn meddu ar unrhyw nodweddau arbenig.

Yn mhlith y pysgod sydd ar lenydd ac yn afonydd y wlad, ceir llawer o rywogaethau na cheir mo honynt mewn gwledydd eraill.

Digitized by Google

dra gwydn, ac yn aros arnynt drwy y flwyddyn. Y coed mwyaf eu maint a'u gwerth yw y rhai a elwir *Eucalyptus* a *Casuarina*. Y rhai prydferthaf yw y coed rhedyn. Ychydig o blanhigion cynhenid Awstralia sydd yn dwyn ffrwyth; ond y mae coed ffrwythau a llysiau estronol yn ffynu yn rhagorol yno. Y tyfolion a feithrinir yno yn benaf yw gwenith, grawn India, ffwgws, llin, sugr, olewydd, a gwinwydd; ond magu defaid, er mwyn y gwlân, oedd yn talu oreu i drigolion Awstralia; ac i hyn yn benaf yr oeddynt, flynyddoedd yn ol, yn ymroddi. Ond yn nghorph y blynyddoedd diweddaf, y mae llawer o gig defaid ac anifeiliaid eraill yn cael ei ddwyn oddi yno, ac America, a gwledydd eraill, i'r wlad hon mewn blychau fydd wedi eu diogelu fel nad all yr awyr fyned iddynt; ac y maent yn cadw yn rhagorol, ac yn ddïau yn gynnorthwy i ddiwallu anghenion trigolion yr ynys hon.

Y mae creaduriaid Awstralia yn hynod ar gyfrif y nifer mawr sydd yno o anifeiliaid bolgodog (*marsupial*), megys y cangarŵ. Nid oes dim hynod iawn yn yr adar a'r ymlusgiaid sydd yno. Y mae adar paradwys, crocodiliaid (*alligators*), nadroedd, seirph, ysgorpionau, llyffaint, a geneugoegion yn lliosog iawn. Y mae yno lawer o aur, ac efydd (*copper*), a glô, a haiarn, a phlwm.

Nid llawer o frodorion Awstralia sydd yn y wlad yn awr, ac y maent yn lleihau yn barhaus. Crwydriaid llwyd-goch ydynt, bychain o gorpholaeth, a gwanaidd yr olwg arnynt—yn byw ar ymborth annynol iawn. Cyfrifir hwynt, wrth gwrs, yn ddeiliaid Prydeinig; ac y maent dan amddiffyniad yr un cyfreithiau a'r trefedigion. Y maent yn hynod o goel-grefyddol. Credant mewn dau ysbryd—y naill yn dda, a'r llall yn ddrwg. *Koyan* ydyw yr enw a roddant ar y da, a *Potoyan* ar y drwg.

*Darganfyddiad yr Ynys*, &c.—Y mae peth ammheuaeth yn bodoli ynghylch yr adeg y darganfyddwyd y wlad. Dywed rhai ddarfod i ddilynwyr y morwr Magellan weled Gorllewin Awstralia yn 1522; a bod llong Yspaenaidd wedi morio heibio i Gulfor Torres yn 1545. Mewn 'siarter' Ffrengig, dyddiedig 1542, ymddengys Awstralia o dan yr enw 'Jave La Grande.' Mewn llyfr a ysgrifenwyd gan Cornelius Wytfliet, ac a gyhoeddwyd yn 1598, cyfrifa yr awdwr y gall yr ynys fesur un ran o bump o arwynebedd y byd. Y mae y cyfeiriadau hyn yn myned yn mhell i brofi ddarfod i'r wlad gael ei darganfod yn flaenorol i'r flwyddyn 1606; sef yr adeg y barnai rhai y gwelwyd hi gyntaf. Yn 1688, modd bynag, y gwelodd Sais hi gyntaf; hyny ydyw, mor bell ag y mae yn wybyddus yn awr. Y gŵr anturiaethus hwnw oedd Dampier. Yn 1770, agos i ganrif yn ddiweddarach, yr ydym yn cael fod Cadben Cook yno, tra ar ei fordaith fythgofiadwy o amgylch y ddaear. Ar ol hyny, fe ymwelodd lliaws mawr o ymchwilwyr a morwyr â'r ynys, gan wneyd ffrwyth y cyfryw archwiliadau yn hysbys i'r byd.

Yn 1788, cafodd y sefydliad Prydeinig cyntaf ei sefydlu, yn Port Jackson—y fan lle y saif Sydney arno yn awr. Yn fuan ar ol hyn, er mai yn araf ar y dechreu, cariwyd archwiliadau pellach i mewn i'r tir. Ac erbyn hyn, y mae rhanau helaeth o'r wlad wedi eu poblogi, a'u gwneyd yn hysbys i'r byd.

Y mae yr ynys fawr hon yn cael ei dosbarthu yn 7 o brif dalaethau, neu lywodraethau; sef, Deheudir Cymru Newydd, Victoria, Deheubarth Awstralia, Queensland, Gorllewinbarth Awstralia, Tasmania, a Zealand Newydd. Y mae'r gweddill o'r talaethau yn cael eu gwneyd i fyny gan Ynysoedd Fiji, Guinea Newydd, ac Ynysoedd y Tawelfor Gorllewinol.

Yn mysg yr archwilwyr mwyaf anturiaethus, gellir enwi Oxley, Hamilton Hume, yr Uchgadben Mitchell, E. J. Eyre, Cadben Sturt, J. M'Douall Stuart, Burke a Wills (bu y ddau farw yno o newyn), M'Kinlay, F. F. Gregory, Ernest Giles, y Milwriad Warburton, a John Forest.

*Y Boblogaeth.*—Mae'n debyg nad oes un wlad, yr hon yr aeth ei phoblogaeth dan gyfnewidiad mwy trwyadl mewn amser mor fyr; yn enwedig felly er pan ddarganfyddwyd yr aur yno yn 1851, ag Awstralia. Yn 1788, nid oedd y sefydliad cyntaf yn Botany Bay yn rhifo ond 1,030 o bersonau; a'r rhai hyny oll yn droseddwyr alltudiedig. Erbyn 1835, yr oedd yr ymsefydlwyr Ewropaidd yn Awstralia, gan gynnwys Tasmania, yn rhifo 80,000; ac erbyn y flwyddyn 1851, yr oedd eu nifer yn 350,000. Y flwyddyn hono, darganfyddwyd y meusydd aur—yr hyn a dynodd ymfudwyr yno o bob rhan o'r byd. Yn 1885, rhifent agos i dair miliwn a hanner (3,322,898). Rhwng 1830 ac 1885, cynnyddodd poblogaeth Deheudir Cymru Newydd yn unig o ddeugain mil (40,000), i agos i filiwn (1,000,000). O 1836 hyd 1885, cynnyddodd poblogaeth Victoria o 224 hyd yn agos i filiwn, &c., &c. O 1870 hyd 1880, yr oedd nifer yr ymfudwyr i Awstralia, Tasmania, a Zealand Newydd yn cyrhaedd 160 o bersonau ar gyfartaledd bob dydd, neu tua 58,000 yn y flwyddyn—cymmaint arall a'r cynnydd a wnaed yn Unol Dalaethau yr America am yr un cyfnod. Gwneir y boblogaeth hon i fyny yn mron yn gwbl gan bersonau o haniad Ewropaidd; gan nad oes yn y wlad yn awr ond ychydig, mewn cymmhariaeth, o breswylwyr brodorol wedi eu gadael yn yr ynys. Prydeiniaid ydyw y nifer liosocaf yno. Yn 1881, yr oedd hanner y trigolion wedi eu geni yn y trefedigaethau Prydeinig, ac 800,000 yn y Deyrnas Gyfunol. Yr oedd yno hefyd 36,000 o Ellmyniaid, 5,500 o Americaniaid, a 3,000 o Ffrangcod. Yr oedd ynddi hefyd 31,000 o lafurwyr Chinëaidd. Rhifai yr holl boblogaeth agos i bedwar miliwn a chwarter (4,221,160) yn y flwyddyn 1892.

*Amaethyddiaeth, Cynnyrchion*, &c.—Yn 1892, cyfrifid fod yn y wlad gynnifer a 102,000,000 o ddefaid. Dyma brif gangen diwydrwydd yr ynys; ac o herwydd y swm o wlân a gynnyrchir ynddi y cododd i gymmaint o bwysigrwydd. Bydd y ffeithiau canlynol o ddyddordeb, ac yn foddion i roddi rhyw syniad am sefyllfa amaethyddol y gwahanol drefedigaethau neu dalaethau yn 1892:—

*Deheudir Cymru Newydd.*—Defaid, 58,080,114; yr erwau o dan driniaeth, 1,372,007; gwlân, 323,052,014 pwys; gwerth y mŵnau a godwyd 4,946,842*p*.

*Victoria.*—Defaid, 12,965,306; dan driniaeth, 2,970,000 o erwau; gwlân, gwerth 6,619,141*p*. Gwerth y mŵnau a godwyd:—aur, 1,848,948*p*.; mŵnau eraill, 1,251,614*p*.

*Deheubarth Awstralia.*—Defaid, 7,252,349; y tir dan driniaeth, 2,625,741 erwau; cynnyrchwyd 45,850,292 pwys o wlân; gwerth y mŵnau, 204,418*p*.

*Queensland.* — Defaid, 21,708,310; gwlân,



Digitized by Google

gwerth 4,255,939*p.*; aur, 2,069,418*p.*; mŵnau eraill, 241,974*p.*

*Gorllewinbarth Awstralia.*—Defaid, 1,685,500; tir dan driniaeth, 161,459 o erwau; gwlân, gwerth, 326,703*p.*

*Tasmania.*—Tir dan driniaeth, 535,433 o erwau; defaid, 1,623,338; gwartheg, 170,085; alcan, gwerth, 290,794*p.*; arian, 79,353*p.*

*Llywodraeth,* &c.—Y mae pob un o raniadau mawrion y wlad yn ffurfio trefedigaeth ar ei phen ei hun, yn meddu ar allu gweinyddol ei hun, yn gwneyd ei deddfau ei hun, ac yn penderfynu ar ei thollau ei hun. Y mae pob un o brif raniadau Awstralia yn meddu llywodraeth gyfrifol o'i heiddo ei hun, oddi eithr y Gorllewinbarth. Y mae cyfansoddiad gwladol y rhan hon yn gynnrychioliadol.

Ar y 14eg o Awst, 1885, cafodd deddf ei chymmeradwyo, oedd yn cyfansoddi math o Gynghor Undebol neu Gynghreiriol (*Federal Council*) i'r trefedigaethau, i'r amcan o ymdrin a phenderfynu y cyfryw faterion fydd yn dwyn cyssylltiad âg Awstralia yn y cyfangorph o honi; ac o berthynas i ba rai hefyd yr oedd yn ddymunol i'r trefedigaethau weithredu mewn undeb â'u gilydd. Cynnaliwyd y cyfarfod agoriadol Ionawr 25ain, 1886, yn Hobart Town; ac yr oedd cynnrychiolwyr o Fiji, Queensland, Tasmania, Victoria, a Gorllewinbarth Awstralia yn bresennol. Penderfynodd Deheudir Cymru Newydd, Zealand Newydd, a Deheubarth Awstralia beidio ymuno ar y pryd; ond cafwyd arwyddion y byddai i'r pwngc gael ei godi i sylw drachefn, pan y disgwylid y byddai i'r tiriogaethau hyn gydweithredu â'r lleill.

*Llywodraeth Undebol, neu Gynghreiriol.*—Yn mis Hydref, 1889, cafodd y cwestiwn uchod ei godi i sylw drachefn, trwy i Syr Henry Parkes, prif weinidog Deheudir Cymru Newydd, alw cynnadledd genedlaethol ynghyd, gyda'r amcan o ffurfio cynllun effeithiol i uno llywodraethau y gwahanol drefedigaethau yn un Lywodraeth Gynghreiriol, ac i barotoi eu hawgrymiadau ar y cyfryw gynllun yn y ffordd o adroddiad. Cymmerwyd y mater i fyny gan yr holl lywodraethau; ac ar y 6ed o Chwefror, 1890, ymgyfarfyddodd y gynnadledd yn Melbourne, a phasiwyd penderfyniadau yn ffafr y cyfryw gynllun. Mawrth 2il, 1891, cyfarfyddodd yr hyn a elwir yr *Australian Federal Convention* yn Sydney; a phrif amcan hon oedd tynu allan amlinelliad o gyfansoddiad Tiriogaeth Awstralia. Etholwyd Syr Henry Parkes gydag unfrydedd yn arlywydd, ac yr oedd prif gynnrychiolwyr llywodraethau Deheudir Cymru Newydd, Victoria, Queensland, Deheubarth Awstralia, Tasmania, Zealand Newydd, a Gorllewinbarth Awstralia yn bresennol. Darfu i'r gynnadledd hon, ar y 9fed o Ebrill, basio mesur i sefydlu yr hyn a elwid yn *Federal Constitution.* Yn unol â'r mesur hwn, a thrwy gydsyniad y senedd ymherodrol, a'r gwahanol drefedigaethau, bydd i gyfansoddiad cynghreiriol gael ei sefydlu, gyda llywodraethwr cyffredinol pennodedig gan y frenhines yn llywydd arno. Bydd i bob trefedigaeth, neu dalaeth, anfon i'r senedd genedlaethol gynnrychiolwyr o'i deddfwrfa lleol ei hun. Cynnorthwyir y llywodraethwyr cyffredinol gan saith o brif weinidogion y wladwriaeth; ac fel yn Unol Dalaethau yr America, bydd yno uchel-lys—swyddogaeth yr hwn a wna fodolaeth y Cyfrin-gynghor yn ddiangenrhaid.

*Ffyrdd Haiarn,* &c.—Er y flwyddyn 1870, y mae cynnydd mawr wedi cymmeryd lle mewn ffyrdd haiarn, y pellebrau, &c. Y mae dwy brif ffordd haiarn yn cyssylltu arfordir deheuol Victoria â chyfandir gogleddol y dalaeth hono. Gwnaed ffordd haiarn hefyd o Adelaide, heibio i Melbourne a Sydney, i Brisbane; yr hon a gwblhawyd yn 1888. Rhêd tair llinell fawr hefyd bron ar draws Queensland, o'r draethell ddwyreiniol tua'r canoldir; a chyn pen ychydig flynyddoedd etto, diau y byddant wedi eu cwblhau hyd i orllewinbarth eithaf y dalaeth hono. Y mae gweithwyr wrthi yn brysur yn awr gyda'r gorchwyl o osod llinellau i lawr yn Ngorllewinbarth Awstralia hefyd—y dosbarth mwyaf anhygyrch o'r wlad. Yn niwedd y flwyddyn 1892, yr oedd 10,060 milldir o ffyrdd haiarn wedi eu cwbl orphen. Nid oes dim llai na 113,000,000*p.* wedi cael eu gwario ar y llinellau hyn.

Y mae yr holl dalaethau wedi eu cyssylltu â'u gilydd gyda'r pellebyr, ac hefyd Tasmania a Zealand Newydd; ac y maent hefyd wedi eu cyssylltu felly â'r wlad hon. Dywedir fod y defnydd a wneir o wifrau y pellebyr gymmaint ddwywaith a'r defnydd a wneir o honynt yn Mhrydain Fawr, yn ol rhifedi y boblogaeth. Mesurai y pellebyr ar ddiwedd 1892 tua 73,000 milldir.

*Crefydd.*—Nid oes o fewn Awstralia Eglwys Wladol; ac y mae yr holl enwadau crefyddol yn cynnal eu gwasanaeth eu hunain. Y blaid grefyddol gryfaf yno yw yr Esgobyddion; yn nesaf, daw y Pabyddion; y Presbyteriaid yn drydydd; ac yna y Methodistiaid Wesleyaidd.

*Addysg.*—Y mae addysg, yn ystod y deng mlynedd diweddaf, wedi gwneuthur cynnydd mawr yno. Yn yr oll o'r trefedigaethau, y mae addysg yn rhydd a gorfodol; neu ynte, y mae yr ysgolion elfenol yn cael eu gwaddoli mor ryddfrydig gan y llywodraeth fel ag i osod addysg elfenol yn nghyrhaedd pob dosbarth. Y mae prifysgolion hefyd wedi eu sefydlu yn Melbourne, Sydney, ac Adelaide.

Yn ystod y fl. 1893, dioddefodd yr holl wlad yn ddirfawr oddi wrth effeithiau argyfwng arianol difrifol; yr hyn a barodd gynnhwrf anarferol, nid yn unig trwy Awstralia ei hun, ond hefyd yn Mhrydain, a'r gwledydd eraill yn Ewrop. Yr oedd cynnifer a phedwar-ar-ddeg o ariandai parchus yn analluog i dalu eu gofynion mewn canlyniad i'r argyfwng a nodwyd; a gwnaed miloedd lawer o'u cwsmeriaid yn golledwyr trymion. Modd bynag, gallodd amryw o'r ariandai hyn wrthsefyll yr anffawd yn weddol dda; a buont yn alluog i agor eu drysau drachefn yn mhen rhyw gymmaint o amser. Dechreuodd yr argyfwng yn mis Ebrill; ond yn mis Awst, yr oedd y gwaethaf wedi myned heibio, a sefyllfa pethau yn dechreu gwellhau. Fel y gellir meddwl, effeithiodd anffawd y bangciau yn fawr ar fasnach y wlad; ond y mae pethau, mewn ystyr arianol, yn graddol ddyfod i'w lle; yn enwedig felly mewn cyssylltiad âg amaethyddiaeth. Mae'r allforion oddi yno mewn ymenyn a ffrwythydd yn graddol gynnyddu.

Yn y manylion canlynol, ceir dirnadaeth lled gywir am sefyllfa bresennol yr ynys (1892), yn ol y mesuriadau a'r cyfrifiadau diweddaf a dderbyniwyd yn Mhrydain:—

*Deheudir Cymru Newydd.*—Y brif dref yw SYDNEY. Ei harwynebedd, 310,700 mill. pet.;

Digitized by Google

ei phoblogaeth, 1,132,234; cyllid, 10,501,104*p.*; treuliau cyhoeddus, 15,350,600*p.*; dadforion, 20,776,526*p.*; allforion, 21,972,247*p.*; a'i dyled gyhoeddus, 54,473,433*p.*

*Victoria.*—Prif dref, MELBOURNE. Ei harwynebedd, 87,884 mill. pet; poblogaeth, 1,170,319. Ei chyllid, 7,729,572*p.*; y treuliau cyhoeddus, 8,482,917*p.* Dadforion, 17,174,545*p.*; allforion, 14,214,546*p.*; dyled gyhoeddus, 46,711,287*p.*

*Awstralia Ddeheuol.*—Prif dref, ADELAIDE. Ei harwynebedd, 903,425 mill. pet.; poblogaeth, 336,155; cyllid, 2,538,995*p.*; treuliau cyhoeddus, 2,757,775*p.*; dadforion, 7,395,178*p.*; allforion, 7,819,539*p.*; a'r ddyled gyhoeddus yn 22,556,800*p.*

*Tiriogaeth Ogleddol.*—Prif dref, PALMERSTON. Y mae y ffigyrau eraill yn gynnwysedig yn y rhai a roddir uchod am Awstralia Ddeheuol.

*Queensland.*—Prif dref, BRISBANE. Arwynebedd, 668,224 mill. pet.; poblogaeth, 421,249. Y cyllid, 3,538,806*p.*; y treuliau cyhoeddus, 3,580,984*p.*; dadforion, 4,382,657*p.*; allforion, 9,170,408*p.*; a'i dyled gyhoeddus, 29,457,134*p.*

*Gorllewin Awstralia.*—Prif dref, PERTH. Ei harwynebedd, 975,920 mill. pet.; poblogaeth, 64,046. Cyllid, 651,535*p.*; treuliau cyhoeddus, 550,616*p.*; allforion, 882,148*p.*; y ddyled gyhoeddus, yn 2,147,570*p.*

*Tasmania.*—Prif dref, HOBART. Ei harwynebedd, 26,375 mill. pet.; poblogaeth, 153,144; cyllid, 787,764*p.*; treuliau cyhoeddus, 919,802*p.*; dadforion, 1,497,161*p.*; allforion, 1,346,965*p.*; dyled gyhoeddus, 7,725,124*p.*

*Guinea Newydd* (*rhan*) *a'r Ynysoedd.*—Prif dref, PORT MORESBY. Ei harwynebedd, 305,900 mill. pet.; poblogaeth, 489,000. Eu dadforion, 23,756*p.*; a'u hallforion, 11,289*p.*

ADAMS, JOHN, Cilcain, yn sir Fflint. Ganwyd y gŵr da hwn yn Nghilcain, Awst 8fed, 1790. Gan nad oedd ei rïeni yn grefyddol, tyfodd i fyny yn fachgen ieuangc cellweirus ac anystyriol, ac yn flaenor ar ei gyfoedion mewn chwarëyddiaethau llygredig. Tua'r fl. 1805, daeth un o ysgolfeistriaid y Parch. T. Charles, o'r Bala, i'r gymmydogaeth, i gadw ysgol; ac aeth yntau ato i ddysgu darllen. Yn mhen o ddeutu dwy flynedd ar ol hyn, pan yr oedd efe tua 17eg oed, tueddwyd ef i fyned i wrandaw pregeth; ac yn fuan iawn canfyddwyd fod cyfnewidiad wedi cymmeryd lle yn ei fuchedd. Gadawodd ei hen gyfoedion, a phrynodd lyfrau. Bu y Beibl a Llyfr Gurnal o werth annhraethadwy iddo; er ei fod, trwy ddarllen y cyfryw, yn gwastraffu ei amser, yn marn ei rïeni. Fel hyn y dywedodd efe am y modd y cafodd Lyfr Gurnal gyntaf:—'Cefais Gurnal trwy ffordd ddigrifol. Yr oeddwn wedi cynnilo punt o arian a ennillais trwy chwareu *pitch and toss*, a cheilys; ond wedi i mi weled fy ffolineb yn dilyn fy arferion llygredig gyda'r pethau hyny, meddyliais beth a wnawn â fy ngheilys, a'r arian a ennillais. A phenderfynais nad allwn wneyd dim yn well â hwynt na phrynu Llyfr Gurnal; ac felly y bu: a dyna fendith fwyaf fy oes.' Yr oedd ei dröedigaeth yn llwyr. Tua'r adeg yma, yr oedd yn lled hwyr un boreu cyn cyrhaedd at ei waith; a phan ofynwyd iddo y rheswm, dywedodd:—'Wel, mi a gyfarfyddais â'r hen Betty; ac yr oedd hi yn siarad mor felus am Iesu Grist fel na ddarfu i mi wybod fod yr amser wedi myned heibio mor fuan.' 'Wel, yn wir,' meddai ei gydweithiwr wrth y lleill—'ni ryfeddwn i ddim na bydd hwn yn Fethodist yn fuan.' 'Methodist, William (ebai yntau), beth yw hyny?' 'Wel, y bobl yna sydd yn gwneyd dim byd ond gweddïo. Mae nhw yn dweyd fod yr hen Betty yna yn gweddïo ddydd a nos.' 'O! (ebai yntau), os rhai felly ydynt hwy, gyda help yr Arglwydd, mi fynaf fi ddyfod o hyd iddynt, os ydynt ar y ddaear yn rhywle.' Dyna deimlad gŵr ieuangc oedd ychydig cyn hyny yn gellweiriwr.

Ymddengys fod gweinidogaeth y Parch. Thomas Jones, o Ddinbych, wedi cael effaith neillduol ar ei feddwl; a thrwy bregeth y gŵr da ac enwog hwn y cafodd efe gipdrem gyntaf ar natur gwir grefydd. Cyn ei fod yn 19eg oed, ymunodd â'r Methodistiaid; ac yn fuan efe a dechreuodd gymmeryd rhan yn ngwasanaeth y cyssegr. Yr oedd efe yn ŵr nodedig mewn gweddi:—yn ddifrifol, yn llawn teimlad, ac yn addas i'r amgylchiadau. Dywedir y byddai yn gwneyd pob amgylchiad pwysig ar ei fywyd yn fater gweddi neillduol; a byddai yn arfer dywedyd iddo gael sicrwydd lawer gwaith fod yr Arglwydd wedi ei wrandaw.

Dewiswyd ef yn flaenor cyn bod yn 24ain oed; a'r Parch. Thomas Jones, o Ddinbych (o'r Wyddgrug y pryd hwnw), oedd yn cymmeryd y rhan benaf wrth siarad âg ef ar ei dderbyniad i'r cyfarfod misol. Effeithiodd geiriau Mr. Jones mor fawr arno fel y dywedir iddo dreulio y nos mewn gweddi hyd doriad y wawr. Testyn y weddi oedd am i'r Arglwydd ei wneyd yn ddefnyddiol gyda'i waith, a'i roi mewn sefyllfa yn y byd y gallai dreulio ei holl fywyd yn ei wasanaeth. Felly y bu. Y diwrnod canlynol, yn ol ei eiriau ei hun, 'rhoddodd yr Arglwydd agoriad ei drysorau yn fy llaw, fel y gallwn ddefnyddio fy amser yn gwbl i'w wasanaeth.' Felly y darfu. Ymroddodd i wasanaethu crefydd, gartref ac oddi cartref, gyda bywiogrwydd a ffyddlondeb mawr. Cynnrychiolodd ei sir ar achlysuron yn nghymdeithasfäoedd y cyfundeb y perthynai iddo am ddeugain mlynedd.

Unwyd ef mewn priodas â Miss Jane Davies, o Rydonen, Dyffryn Clwyd; yr hon fu yn briod ffyddlawn iddo, ac yn wraig dduwiol, hynaws, a defnyddiol: a dygasant eu plant i fyny yn grefyddol. Cyfrifid Mr. a Mrs. Davies, o Rydonen—rhïeni Mrs. Adams, a'r holl deulu, yn bobl dduwiol. Felly hefyd ei brawd, Mr. Thomas Davies, a'i briod, a'u plant hwythau—ac yr oeddynt drwy yr holl flynyddoedd yn enwog hefyd am eu caredigrwydd mawr at achos yr Arglwydd, trwy lettya dyeithriaid, ac yn mhob modd. Yr oedd cartref Mr. a Mrs. Adams yr un modd yn agored bob amser i groesawu caredigion yr Arglwydd Iesu; a mawr oedd y gwasanaeth a wnaethant iddynt.

Dywedir fod Mr. Adams yn un o'r rhai goreu am 'gadw seiat,' a'i fod yn feddiannol ar gymmhwysderau mawr i derfynu cwerylon mewn eglwysi; ac o blegid hyn, anfonid ef, pan fyddai galwad, gan ei gyfarfod misol, ar y gorchwyl hwn. Yr oedd John Adams, mewn pob modd, yn ddyn drwyddo:—yn gyfaill pur, yn gymmydog hynaws, ac yn Gristion difrycheulyd ei gymmeriad.

Beichiwyd ei ddyddiau olaf gan gystudd trwm. Ei brofiad yn yr adfyd hwn oedd, fod pob peth wedi ei wneyd yn iawn; a bod 'y dyfodol yn *safe*.' Ac yn y cystudd hwn yr hunodd efe, Awst 6ed, 1858, o fewn dau ddiwrnod i

Digitized by Google

fod yn 68ain mlwydd oed—wedi bod yn proffesu dros 49ain mlynedd; ac yn swyddog eglwysig am agos i 45ain mlynedd.

AEDDAN, mab Blegwryd, ac ŵyr i Morgan Mawr, tywysog Morganwg. Yn y flwyddyn 998, wedi marwolaeth Meredydd ab Owen, tywysog y Deheubarth, ac i Idwal, mab Meurig, tywysog Gwynedd, gael ei ladd mewn brwydr, yr ymddengys Aeddan gyntaf mewn hanesyddiaeth, yn y cymmeriad o arweinydd byddin o'r Daniaid trwy sir Benfro, yn ol cyfarwyddyd Iestyn ab Gwrgant, gan ladd a dinystrio pawb a phob peth a ddeuent yn eu ffordd. Distrywiasant ddinas Tŷ Ddewi â thân, a lladdasant Morgeneu, yr esgob. Teithiodd y gelynion wedi hyny trwy sir Aberteifi tua Gogledd Cymru. Cymmerodd ymladdfa ffyrnig le rhyngddynt yno â Cynan ab Howel, yr hwn a hònai ei hawl i orsedd Gwynedd. Syrthiodd Cynan yn y frwydr; ac yna, yn y flwyddyn 1003, daeth Aeddan yn ben-llywodraethwr ar holl Gymru. Trawsfeddiannydd o'r awdurdod oedd efe, er hyny; ac ni chafodd fwynhau ei allu yn hir. Yr etifedd cyfreithlawn i orsedd Cymru ar y pryd oedd Llewelyn ab Seisyllt; yr hwn, o linach ei fam, a ddisgynai o Rodri Mawr; ac hefyd a briododd Angharad, etifeddes Meredydd ab Owen, tywysog y Deheubarth. Efe a ddaeth allan gyda byddin gref, ac a laddodd Aeddan, ac amryw o'i berthynasau—y rhai a'u cynnorthwyent ef yn y gâd. Bu Llewelyn, ar ol hyny, yn teyrnasu ar Gymru gyda llwyddiant mawr.

AFAON, mab Taliesin. Cyfeirir ato ef yn y Trioedd fel gŵr enwog mewn rhyfel; ac am hyny gelwid ef yn un o'r 'Tri tharw un-ben,' ac yn 'un o'r rhai a barhasant i ladd ar eu beddau.'

AFARWY, mab Lludd, brenin Prydain, ac un o'r 'Tri Charnfradwyr.' Gan i'w dad farw cyn iddo ddyfod i'w oed, cymmerwyd awenau y llywodraeth gan Caswallon, ei ewythr; yr hwn a roddodd Caerludd (Llundain), ac iarllaeth Caint, i Afarwy; a Chernyw i'w frawd, Teneufan. Dyma fel y mae yr hanes am danynt:—'Bu, ar ol i Caswallon gael brwydr fuddugoliaethus ar y Rhufeiniaid, iddo wahodd ei holl oreugwyr a'i dywysogion i wledd fawreddog; yn ystod yr hon y digwyddodd i Hirlas, nai y brenin, a Chyhelin, nai Afarwy, ymrafaelio â'u gilydd, ac ymladd gornest, pan y syrthiodd Hirlas o flaen ei wrthwynebydd. Cynddeiriogodd hyny Caswallon i'r fath raddau nes penderfynu dwyn y llofrudd i brawf; ond gan fod Afarwy yn rhagweled y canlyniadau, efe a ffòdd gyda'i nai i ddinas Llundain; a pharodd hyn i Gaswallon a'i luoedd ymosod ar y ddinas. Wedi i Afarwy fethu ennill cymmod y brenin, efe a anfonodd yn fradwrus at Julius Cæsar i ddyfod drosodd i'w gynnorthwyo, gan addaw y byddai iddo yntau gynnorthwyo Cæsar i ddarostwng Prydain i'r Rhufeiniaid. Ond gwrthododd Cæsar gymmeryd Afarwy ar ei air, heb iddo anfon gwystl. Yna efe a anfonodd iddo ei fab ei hun, ynghyd â deuddeg-ar-hugain o feibion ei benaethiaid; a daeth Cæsar â'i alluoedd ar hyny drosodd. Yna ymunodd Afarwy a'i alluoedd gydag ef, a hwy a orchfygasant Caswallon.

Ond gan nad oedd Afarwy yn ewyllysio i'r Brythoniaid gael eu darostwng yn mhellach, efe a hudodd Cæsar i arwyddo heddwch, ar yr ammod fod y Brythoniaid i dalu iddo dair mil o aur ac arian yn deyrnged flynyddol. Yn yr haf canlynol, fe aeth Afarwy drosodd i Rufain i gynnorthwyo Cæsar yn erbyn Pompey. Tra y bu efe yno, bu farw Caswallon; a Theneufan, ei frawd ieuangaf, a esgynodd i'r orsedd ar ei ol. Yn y Trioedd, cyfeirir at Afarwy fel un o 'Dri Charnfradwyr Ynys Prydain,' am iddo fod yn achos i ddwyn y wlad o dan deyrnged i'r Rhufeiniaid.

ANGHARAD. Hi ydoedd unig ferch ac etifeddes Meredydd ab Owain, a phriod Llewelyn ab Seisyllt, Tywysog holl Gymru. Trwy ei ymuniad â hi, cafodd Llewelyn feddiant o'r Deheubarth a Phowys, yn y flwyddyn 998; ac wedi iddo ladd Aeddan ab Blegwryd yn 1015, daeth i feddiant o Gymru benbaladr. Y mae yn ammhossibl, o'r bron, rhoddi crynodeb o hanes Angharad ond mewn cyssylltiad â gweithredoedd ei phriod; o blegid o dan eu teyrnasiad hwy, meddir, y gwelodd Cymru ei llwyddiant cenedlaethol mwyaf. Dywedir fod llwyddiant y cyfnod hwn yn gyfryw fel yr oedd y 'tir yn rhoddi cnwd dau-ddyblyg, y trigolion yn amlhau, yr anifeiliaid yn lliosogi, a'r bobl yn llwyddo yn eu hamgylchiadau, fel nad oedd un yn cardota ei fara trwy holl Gymru, o Fôr y Deheu hyd Fôr y Gogledd; ond yr oedd gan bawb lawnder—pob tŷ anneddwyr, a phob tref drigolion.' Dywedir fod gan Angharad ran nid bychan yn nygiad o amgylch y sefyllfa hapus hon ar bethau. Hwy oedd wedi adeiladu Castell Rhuddlan, ac a'i gwnaethant yn breswylfa frenhinol. Un mab a anwyd iddynt; sef, Gruffydd ab Llewelyn ab Seisyllt, dan deyrnasiad yr hwn y mŷn rhai awdurdodau y cafodd llinach frenhinol y Stuardiaid ei dechreu yn y castell uchod. Yn 1021, syrthiodd Llewelyn i law llofrudd, yr hwn a roddwyd ar waith gan Madog Min, Esgob Bangor. Wedi ei gadael yn weddw, fe briododd Angharad Cynfyn Hirdref, mab Gwerystan, Arglwydd Cibwyr, yn Ngwent; ac o'r briodas hon ganwyd Bleddyn; yr hwn a fu yn dywysog ar Wynedd a Phowys, o'r fl. 1062 hyd y fl. 1072.

ANGHARAD: merch Owen ab Edwyn, arglwydd Tegeingl, a gwraig Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd. Nid oedd hi o waed brenhinol; ond yr oedd hi yn enwog o herwydd ei phrydferthwch, a'i doethineb; ac hefyd y gorthrymderau y dioddefodd oddi wrthynt.

ANGHARAD, 'Y Lleian,' yn ol traddodiad, oedd unig ferch Ifor Hael, arglwydd Maesaleg. Arni hi, yn ol a ddywedir, y rhoddodd Dafydd ab Gwilym ei serch gyntaf; ac mai hi oedd yr hon y cyfeiriai y bardd ati yn y frawddeg:—

'Dyddgu, a'r gwallt gloywddu glân.'

Ni fynai Ifor glywed sôn am garwriaeth ei ferch â Dafydd; ac am hyny, efe a'i hanfonodd i leiandy yn Môn, ac ni chlybuwyd dim am dani ar ol hyny!

ALABAMA. Enw oedd hwn ar long arfog berthynol i Dalaethau Deheuol yr America, yn amser y Rhyfel Gartrefol; yr hon a barhaodd o 1860 hyd 1865. Yr oedd hi yn 900 tynell, a'i nerth yn 300 o geffylau. Adeiladwyd hi gan y

Digitized by Google

Meistri Laird, o Birkenhead, at wasanaeth y Talaethau Deheuol. Cafodd ei gollwng i'r môr ar y 15fed o Fai, 1862; a chychwynodd ar ei thaith ar Gorphenaf 28ain.

Gwnaeth yr agerlong hon ei hun yn ddychryn i drigolion y Gogleddbarth, o herwydd y dinystr ofnadwy a wnaeth ar longau y Talaethau Gogleddol yn ystod yr amser cythryblus ac ofnadwy hwnw. Adeiladwyd hi dan arolygiaeth arbenig y Cadben Semmes; yr hwn a bennodwyd gan lywodraeth y Talaethau Deheuol yn llywydd arni. Tyngwyd ef i gadw pob peth o berthynas i'r llestr yn guddiedig—yn enwedig felly yr amcan i ba un yr adeiladwyd hi; ac i ofalu mewn modd arbenig rhag gwneuthur dim yn groes i'r deddfau, a rhoddi esgus i'r llywodraeth Brydeinig gymmeryd meddiant o honi. Adnabyddid hi y pryd hwnw wrth rif—'*No.* 290;' ac yr oedd bron yn barod i'r môr cyn i swyddogion Talaethau y Gogledd yn y deyrnas hon ammheu dim o berthynas iddi. Nid oedd Cadben Semmes yn bwriadu arfogi y llestr yn Birkenhead; rhag iddi, drwy hyny, gael ei hattafaelu. Ond o herwydd yr ammheuaeth cryf a ffynai o berthynas iddi, galwodd gweinidog yr Unol Dalaethau am i lywodraeth y wlad hon gadw meddiant o'r llestr, neu o leiaf ei dal yn Birkenhead; am y rheswm ei bod wedi ei bwriadu i fod yn rhyfel-long at wasanaeth y Talaethau Deheuol. Gosodwyd yr achos o dan ystyriaeth cyfreithwyr y goron; y rhai, ar y cyntaf, oeddynt mewn cryn ammheuaeth ar yr achos; ond o'r diwedd, daethant i benderfyniad y dylid cadw meddiant o'r llestr– ac anfonwyd gorchymyn gyda'r pellebyr am ei hattal. Ond yr oedd hi yn rhy ddiweddar erbyn hyn; o blegid llwyddodd '*No.* 290' i ddiangc i'r môr y diwrnod cyn i'r gorchymyn gael ei dderbyn. Yr oedd yr adeiladwyr—y Meistri Laird—yn ymwybodol o'r perygl yr oedd y llestr ynddo, a phrysurasant gyda'u gwaith. Cyn ei chwbl orphen, anfonasant hi ymaith i lawr yr afon Mersey; ac wedi iddi angori am ddyddiau yn Machwy Moelfre, ger sir Fôn, gorphenwyd yr hyn oedd yn angenrheidiol arni. Boreu yr 31ain o Orphenaf, 1862, yn gymmaint a bod rhybudd wedi ei roddi y cymmerid meddiant o honi y diwrnod hwnw, mordwyodd ymaith oddi wrth lanau Prydain; ac aeth i'r Azores, lle yr arfogwyd ac yr ystoriwyd hi. Erbyn y 24ain o Awst, yr oedd hi yn barod i'r môr, ac i'r gwaith y bwriadwyd hi iddo. Codwyd lluman y Talaethau Deheuol ar ei hwylbren; a chafodd ei henwi yn *Alabama.* Ar y 5ed o Fedi, daliodd un o longau y Gogledd; ac yn fuan iawn, yr oedd hi wedi dinystrio eiddo oedd yn llawer iawn mwy o werth na hi ei hunan.

Yr oedd yr *Alabama* wedi ei hadeiladu yn neillduol gyda'r amcan o fordwyo yn gyflym; yr hyn a'i cyfaddasai i ymlid a gorchfygu ei gelynion; ac yna i ddiangc ymaith, os byddai raid, o'u gafael. Daeth i wrthdarawiad â'r rhyfel-long *Hatteras*, a suddodd hi gydag ychydig iawn o drafferth. Gwnaeth ddinystr ofnadwy ar ol hyny yn mysg llongau o wahanol natur; ac yn enwedig felly yn mysg llestri marsiandïol. Daliodd gynnifer a 65ain o longau; a chyfrifir fod yr eiddo a ddinystriwyd ganddi yn werth agos i naw can mil o bunnau. Ond nid yn hyn yr achosai yr *Alabama* y colledion mwyaf. Gan fod cymmaint o berygl i longau syrthio yn ysglyfaeth iddi, gorfodid eu perchenogion i dalu symiau anferth i yswirio eu llongau a'u llwythi; a chyda'r anhawsder mwyaf y ceid marsiandwyr yn foddlawn hyd yn oed i ymddiried eu nwyddau iddynt dan yr ammodau hyn. Ar yr 11eg o Fehefin, 1864, angorodd yr *Alabama* yn mhorthladd Ffraingc, a elwir Cherbourg, gyda'r amcan o dderbyn adgyweiriadau, &c. Yn mhen ychydig ddyddiau, cyrhaeddodd y rhyfel-long *Kearsage*, perthynol i'r Talaethau Gogleddol, i'r un porthladd, o dan lywyddiaeth Cadben Winslow. Dydd Sabbath, Mehefin 19eg, aeth yn ymladdfa rhwng y ddwy y tu allan i'r porthladd; ac mewn llai nag awr, gwelodd Cadben Semmes fod ei long yn suddo. Yn y modd hwn y terfynwyd gyrfa ddinystriol y llong enwog hon.

Yn ngauaf y flwyddyn 1862—63, bu 'helynt yr *Alabama*,' fel ei gelwid, yn un o brif gwestiynau y dydd. Codwyd ef i sylw mewn modd arbenig yn senedd yr Unol Dalaethau, trwy i Mr. Seward ddadgan fod ganddynt hawl i addaliad llawn am y difrod a wnaed ar eiddo y wlad. Yr oedd cryn wahaniaeth barn ar y cwestiwn hwn yn y wlad hon, ac yn y Talaethau; a bu agos yn foddion i arwain y ddwy wlad i ryfel. Yn 1865, bu cryn ddadl ar y cwestiwn rhwng y ddwy lywodraeth; a chyfarfu cynnrychiolwyr y ddwy wlad yn Llundain i ystyried yr achos: ond yn fethiant y trodd. O'r diwedd, daethant i ddealltwriaeth, mor bell ag i'r ddwy wlad appelio at gylafareddwyr—y rhai a bennodid gan y ddwy wlad. Iarll de Grey, Syr Stafford Northcott, ac eraill, oedd yn cynnrychioli Prydain; a'r Ysgrifenydd Fisk, a'r Cadfridog Schenk, ac eraill, oedd yn cynnrychioli y Talaethau. Arwyddwyd y cyttundeb yn Washington, Mai, 1871, yn dadgan y byddai i'r ddwy wlad dderbyn penderfyniad y cylafareddwyr ar yr achos; ac felly, arbed rhyfel. Cyfarfu y dirprwywyr yn Washington ar Mai 25ain; ac yn ol y cyttundeb y daethpwyd iddo yno, yr oedd yr holl achos mewn dadl i'w drosglwyddo i ystyriaeth bwrdd o gylafareddwyr, cynnwysedig o bum aelod—un i gael ei enwi gan bob un o'r personau canlynol:—brenhines Brydain, arlywydd yr Unol Dalaethau, brenin yr Eidal, arlywydd Switzerland, ac ymherawdwr Brazil. Dyma enwau y rhai a ddewiswyd gan y pum teyrnas: — Y Count Frederick Sclopis, dros yr Eidal; y Barwn Staempfl, dros Switzerland; y Viscounte d' Itajuba, dros Brazil; Mr. G. F. Adams, dros yr Unol Dalaethau; a Syr Alexander E. Cockburn, dros Brydain. Cyfarfuasant yn Geneva, Mehefin 15fed, 1872; pan y cyflwynodd Prydain i sylw yr achosion yr oeddid yn methu cydweled â'u gilydd mewn perthynas iddynt; a gohiriwyd y gynnadledd hyd yr 17eg. Y prif achos mewn dadl oedd hyn—Pa un a ellid ystyried Prydain yn gyfrifol am y colledion anuniongyrchol mewn masnach, &c., a ddioddefodd y Talaethau oddi wrth yr *Alabama*—ynte am y colledion a ddioddefwyd trwy ei gwaith hi ei hun. Penderfynodd yr holl gylafareddwyr, yn eu cyfarfod, a gynnaliwyd ar yr 28ain o Fehefin, nad oedd Prydain yn gyfrifol ond am y colledion uniongyrchol yn unig. Yr oedd pedwar o honynt yn barnu fod Prydain yn gyfrifol hefyd am y colledion a ddioddefwyd gan long arall—y *Florida;* ac yr oedd tri o honynt yn ein dal yn gyfrifol am y colledion a ddioddefwyd trwy long arall, a elwid y *Shenandoah.*

Yr oedd y swm a hawlid gan yr Unol Dalaethau, trwy y ddau ddosbarth o golledion,

Digitized by Google

yn agos i naw miliwn a hanner o bunnau—9,476,166*p.* 13*s.* 4*c.*; ond y swm y penderfynwyd arno, drwy'r llôg, oedd 3,229,166*p.* 13*s.* 4*c.*—ychydig dan dair miliwn a chwarter o bunnau! Dywedir fod hyn tua miliwn a chwarter o bunnau (1,250,000*p.*), yn fwy nag y dylesid ei dalu. Yr union swm a dalwyd oedd 3,196,874*p.*; a chydnabyddwyd y derbyniad o'r arian gan yr Ysgrifenydd Fisk, ar Medi 9fed, 1873.

Rhoddodd hyn derfyn ar yr anghyttundeb; ac arbedwyd rhyfel ofnadwy rhwng y ddwy wlad, a rhyfel rhwng ceraint â'u gilydd, a fuasai yn warthus i ddynoliaeth a Christionogaeth. Nid oedd y swm a dalwyd ond cysgod, megys, o'r draul a'r golled a ddioddefid drwy ryfel gan y wlad hon—heb law y buasai nifer anferth o fywydau yn cael eu haberthu. Mr. Gladstone oedd prif weinidog y deyrnas hon y pryd hyny, a'r Cadfridog Grant oedd llywydd yr Unol Dalaethau; a bydd holl hanes yr ymdrafodaeth bwysig hon yn anrhydedd i'r ddau am oesoedd; a'i chanlyniadau, yn mhob ystyr, yn fendith i drigolion y ddwy wlad nas gall neb ddychymygu ei maint.

AMERICA. Enw ydyw hwn ar y Cyfandir mawr Gorllewinol, a'r ynysoedd lliosog sydd yn gyssylltiedig âg ef. Y mae yn ffurfio y cyfangorph mawr o dir sydd o fewn yr Hanner-cylch Gorllewinol (*Western Hemisphere*) o'r ddaear. Y mae America yn fwy nag Ewrop ac Affrica gyda'u gilydd; a mesura 16,500,000 o filldiroedd petryal. Y mae tua phedair gwaith gymmaint ag Ewrop; pum waith gymmaint ag Awstralia; a hanner cymmaint arall a holl gyfandir ëang Affrica. O'r holl gyfandiroedd, Asia yn unig sydd yn fwy nag ef.

*Ynysoedd.*—Y prif ynysoedd ydynt Greenland, Newfoundland, Cape Breton, Anticosti, Prince Edward, yr Ynys Hir, y Bermudas, yr Antilles neu India y Gorllewin, Joannes, Ynysoedd Falkland, Staten Island, a South Georgia, yn yr Atlantic; ac Ynysoedd Aleutian, Kadiak, Vancouver, ac amryw eraill, yn y Môr Tawelog (*Pacific Ocean*). Y mae yno hefyd nifer fawr o ynysoedd llai, nas gellir eu henwi yma.

*Y Cyfandir.*—Ymrana yn ddwy brif ran; sef, y Gogledd a'r Deheu—y rhai a gyssylltir â'u gilydd gan Guldir (*Isthmus*) Panama. Yn ddiweddar, dechreuodd y peiriannydd Ffrengig enwog, M. De Lesseps, dori camlas trwy y gwddfdir hwn; ond trodd yr anturiaeth allan yn fethiant, ac yn golledus iawn. Mewn rhai neillduolion naturiol, ymdebyga Gogledd a Deheu yr America yn fawr i'w gilydd. Rhed llinell o fynyddoedd uchel ar hyd arfordir gorllewinol y naill a'r llall—o ogledd i dde; a rhed eu prif afonydd hefyd yn mron yn yr un cyfeiriad. Yn y deheu, ymdebyga yr afon La Plata a'r Amazon i'r Mississippi a'r St. Lawrence yn y gogledd. Mae'r ddwy ran yn dra thebyg o ran eu harwynebedd mewnol hefyd. Y mae tiroedd uchel yn nghanolbarth y naill a'r llall; a chymmer gostyngiad graddol le ynddynt hyd nes y cyrhaeddir yr arfordir dwyreiniol. Perthyna i'r naill, er hyny, rai neillduolion tra gwahanol i'r llall. Yn y Gogledd, y mae amryw o orynysoedd mawr; sef, Labrador, Nova Scotia, Florida, Hen Galiffornia, &c.; ond nid oes yn y Deheubarth un orynys werth ei henwi. Y mae pedair o brif afonydd y Gogledd yn arllwys eu dyfroedd i'r Tawelfor; sef, yr Yukon, Fraser, Columbia, a'r Colorado; ond nid oes ond ychydig o ddyfrodd y Deheu yn rhedeg i'r cefnfor hwn. Yn y Gogledd, y mae dau fôr sydd bron yn amgylchynedig gan dir; sef, Môr Hudson a Machwy Mexico; ond nid oes yn y Deheu un môr gwerth sôn am dano.

Gelwir Cyfandir yr America, weithiau, wrth yr enw 'Y Byd Newydd;' ac mewn ystyr hanesyddol, y mae'r enw yn dra phriodol iddo; ond nid mewn ystyr ddaearyddol.

AMERICA OGLEDDOL.—Mesura Gogledd America dros naw miliwn (9,000,000) o filldiroedd petryal; ac y mae, felly, yn fwy, fel y gwelir, na'r Deheubarth o gryn lawer. Prif fynyddoedd y Gogledd ydynt y Mynyddoedd Creigiog—nid yn unig mewn uchder, ond hefyd mewn hyd a lled. Y mae y wlad hefyd yn frith o fynyddoedd eraill—mawrion ynddynt eu hunain, ond dibwys a bychain o'u cymmharu â'r Mynyddoedd Creigiog. Yn rhai o'r ynysoedd cyssylltiedig â'r Cyfandir, ceir amryw losgfynyddau. Y mynydd uchaf ydyw Mount St. Elias, yn Alaska; yr hwn sydd yn 19,550 troedfedd o uchder. Yn nesaf ato daw Mynydd Brown, 16,000 troedfedd; Mynydd St. Helena, i'r Gogledd o'r afon Columbia, 15,750 troedfedd; Mynydd Hooker, 15,750 troedfedd; Mynydd Hood, 11,934 troedfedd; Mynydd Takoma, 14,444 troedfedd; Mynydd Whitney, 14,886 troedfedd; Mynydd Shasta, 14,440 troedfedd; a Mynydd King, 14,000 troedfedd; ac y mae amryw eraill sydd heb fod lawer is-law iddynt. Tardda nifer o brif afonydd y wlad o'r mynyddoedd uchel-gribog hyn.

Un o brif neillduolion daearyddol Gogledd America ydyw yr ucheldir mawr canol-dirol; yr hwn a ymestyna o'r gogledd eithaf hyd i Fachwy Mexico yn y deheu. Dyfrheir y rhan ogleddol o hwn gan yr afon Mackenzie; y rhan ddeheuol, gan y Mississippi; a'r rhanau canol, gan y Saskatchewan a'r St. Lawrence. Yr enw mwyaf cyffredin a roddid i wastadeddau uchel yr America ydyw *prairies*; ond y mae amgylchiadau mewnol y wlad wedi newid erbyn hyn, fel nad ydyw yn gosod allan yn hollol gywir yr hyn a olygir wrth y gwastadeddau hyn. Trwy weithrediad amser, ac effeithiau celfyddyd, y mae rhanau o'r gwastadeddau oedd gynt yn ymestyn am filldiroedd lawer, heb fod un pren i dori ar yr olygfa, erbyn hyn yn goediog. Argymhellid yr ymsefydlwyr gan y llywodraeth i blanu coed, &c., er gwneyd y wlad yn fwy cymmhwys i fod yn drigfan bodau dynol; ac y mae yr ucheldiroedd, erbyn hyn, lawer o honynt, wedi eu britho gan fforestydd. Bernid y byddai i gyflawnder o goed fod yn foddion i gynnyrchu gwlawogydd yn yr ardaloedd sych hyny; ond y mae cryn wahaniaeth barn yn bodoli ar hyn. Yr ucheldiroedd, yn yr amseroedd a aethant heibio, oedd cartrefi bwystfilod ac anifeiliaid sydd, erbyn hyn, yn mron wedi eu difrodi o'r wlad; ac y maent yn awr yn cael eu pori gan ddeadelloedd o ddefaid a gwartheg, ac anifeiliaid eraill, at wasanaeth dyn. Croesir rhai o honynt gan ffyrdd haiarn; fel, rhwng pob peth, y mae arwynebedd y wlad wedi cyfnewid yn ddirfawr ragor yr hyn oedd hanner can mlynedd yn ol.

*Y Llynau a'r Afonydd.*—Dyfrheir y Dyffryn Canolog yn dda; ond i'r gorllewin o'r afon Mississippi, ychydig o wlaw a geir yn ystod misoedd yr haf. Prinhau y mae y dwfr, hefyd, fel yr agosheir at y Mynyddoedd Creigiog; ond

Digitized by Google

Digitized by Google




CYHOEDDEDIG GAN T. GEE, DINBYCH

# GOGLEDD AMERICA.

YSTYR Y TALFYRIADAU A ARFERIR YN Y MAPIAU.

| | |
|---|---|
| B., *neu* Bay | Machwy. |
| Bank, Banks | Bryn, Bryniau. |
| C., *neu* Cape | Penrhyn. |
| Castle | Castell. |
| Coast | Arfordir. |
| Ch., *neu* Channel | Sianel. |
| East, Eastern | Dwyrain, Dwyreiniol. |
| English Miles | Milldiroedd Saesnig. |
| Equator | Cyhydedd. |
| Firth, *neu* Frith | Morgainge. |
| Ft., *neu* Fort | Caerfa, Amddiffynfa. |
| G. of, *neu* Gulf of | Llyngclyn. |
| H., Havn., *neu* Haven | Porthladd, *neu* Fachwy. |
| Hd., *neu* Head | Penrhyn, Pentir. |
| Hill, *neu* Hills | Bryn, Bryniau. |
| I., Isle, *neu* Island | Ynys. |
| Is., Isles, *neu* Islands | Ynysoedd. |
| L., *neu* Lake | Llyn. |
| Land | Tir. |
| Loch, *neu* Lough | Llwch:—llyn agored i'r [môr. |
| Mt., *neu* Mountain | Mynydd. |
| Mts., *neu* Mountains | Mynyddoedd. |
| New | Newydd. |
| North, Northern | Gogledd, Gogleddol. |
| Ocean | Cefnfor. |
| P., *neu* Port | Porth. |
| Pen., Pena., Peninsula | Gorynys. |
| Plateau | Gwastadedd uchel. |
| Pt., *neu* Point | Pwynt. |
| R., *neu* River | Afon. |
| Ruins of ... | Adfeilion. |
| S., *neu* Sound | Culfor. |
| St., *neu* Saint | Sant. |
| Sea, *neu* Sea of | Môr. |
| Shoal, Shoals | Bas-le, Bâs-leoedd. |
| South, Southern | Deheu, Deheuol. |
| Str., *neu* Strs., Straits. | Culfor, Culforoedd. |
| Town | Tref. |
| Tropic | Trofan. |
| West, Western | Gorllewin, Gorllewinol. |

CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU SYDD YN Y MAP HWN.

| | |
|---|---|
| Alaska Peninsula | Gorynys Alaska. |
| Arctic Circle | Y Cylch Gogleddol. |
| Arctic Ocean | Cefnfor y Gogledd. |
| Atlantic Ocean | Môr y Werydd. |
| Baffin Bay | Machwy Baffin. |
| Bahama Islands | Ynysoedd y Bahama. |
| Behring Strait | Culfor Behring. |
| Black Hills | Bryniau Duon. |
| British Columbia | Columbia Brydeinig. |
| Caribbean Sea | Môr Caribbeaidd. |
| Central America | Canolbarth America. |
| Davis Strait | Culfor Davis. |
| Dominion of Canada | Arglwyddiaeth Canada |
| Former Russian Territory—transferred to the United States in 1867 | Tiriogaeth Rwssiaidd gynt—adrosglwyddwyd i'r Unol Dalaethau yn 1867. |
| G. of California | Llyngclyn California. |
| G. of Mexico | Llyngclyn Mexico. |
| G. of St. Lawrence | Llynclyn St. Lawrence. |
| Great Bear | Yr Arth Fawr. |
| Greenland | Greenland. |
| Gulf and Isthmus of Tehuantepec | Morgainge a Gyddf-dir Tehuantepec. |
| Hudson Bay | Machwy Hudson. |
| Hudson Straits | Culforoedd Hudson. |
| Iceland | Ynys yr Iâ. |
| L. Michigan | Llyn Michigan. |
| L. Superior | Llyn Superior. |
| Melville Sound | Bâs-fôr Melville. |
| New Orleans | Orleans Newydd. |
| Pacific Ocean | Cefnfor Tawelog. |
| Rocky Mountains | Mynyddoedd Creigiog. |
| South America | America Ddeheuol. |
| Tropic of Cancer | Trofan y Cranc. |
| United States | Yr Unol Dalaethau. |

Am eglurhâd pellach ar y map hwn, gweler y mapiau llawnach, sydd mewn rhanau eraill o'r gwaith hwn, o'r UNOL DALAETHAU a CANADA ar wahân.

Y MAE Gogledd America yn ymranu yn naturiol, mewn ystyr anianyddol, i bump o ardaloedd mawrion:—1. Gwastattir uchel Mexico, gyda llinell o wlad isel sydd ar ei harfordir dwyreiniol a gorllewinol. 2. Yr ucheldir sydd yn gorwedd rhwng y Mynyddoedd Creigiog a'r Cefnfor Tawelog —gwlad y mae ei hawyr yn dyner a llaith mor bell i'r gogledd a chyfred-linell 55°; ond y mae yn ddiffrwyth ac yn oer y tu hwnt i'r terfyn hwnw. 3. Dyffryn mawr canolbarthol y Mississippi; yr hwn a gynnwysa diroedd bras a choediog ar du y dwyrain—noeth, ond nid anffrwythlawn, yn y canol—sych, tywodlyd, a bron yn ddiffeith-dir ar du y gorllewin. 4. Llechweddau dwyreiniol Mynyddoedd yr Alleghany:—ardal lle y mae fforestydd naturiol mawr, ond tir o wahanol natur, a lled wael. 5. Y gwastadedd gogleddol mawr sydd tu hwnt i gyfred-linell 50°—pedair rhan o bump o'r hwn sydd yn anialdir noethlwm, wedi ei orchuddio â nifer mawr o lynau, ac yn ymdebygu i Siberia o ran ei nodweddion anianyddol, ei arwyneb, a llymder a gerwinder ei hinsawdd.

Yr ydym yn cyfleu yma restr o'r prif fynyddoedd sydd yn America Ogleddol, ynghyd â'u huchder mewn troedfeddi o arwyneb y môr, gan ddechreu gyda'r rhai uchaf yn y Mynyddoedd Creigiog:—Mynydd Brown, 15,990 o droedfeddi. Mynydd Hooker, 15,700 o droedfeddi. Mynydd Murchison, 15,789 o droedfeddi. Y Clogwyn Hir, 13,575 o droedfeddi. Clogwyn Iago, 11,320 o droedfeddi. Yn nesaf, ni a roddwn y manylion am gadwen yr Arfordir Gorllewinol:—St. Elias, 17,900 o droedfeddi. Mynydd Fairweather, 14,750 o droedfeddi. Mynydd Baker, 10,700 o droedfeddi. Mynydd St. Helens, 12,000 o droedfeddi. Mynydd St. Rainer, 12,320 o droedfeddi: a Mynydd Hood, 12,000 o droedfeddi. Y mae yr Alleghanies yn cynnwys y rhai canlynol:—Mynydd Washington, 6,620 o droedfeddi; a Mynyddoedd Catskill, 3,100 o droedfeddi. Mynyddoedd Mexico a gynnwysant—Y Popocatepetl, 17,773 o droedfeddi. Yr Orizaba, 17,337. Y Toluca, 15,263. Yr Iztaccihuatl, 13,703; a'r Jorullo, 4,114 o droedfeddi. Yn yr Antilles, ceir y Sierra del Cobre, 7,200 o droedfeddi; Mynydd Coleridge, 8,185 o droedfeddi; a Cibao, 8,000 o droedfeddi.

Digitized by Google


## GOGLEDD AMERICA.

Y mae America yn rhagori ar bob rhan arall o'r byd yn rhifedi a maintioli ei hafonydd mordwyol. Y mae y Mississippi, ynghyd â'r canghenau sydd yn rhedeg iddi, yn rhoddi mwy o fantais i fordwyo ar hyd-ddi i mewn i'r tir na holl afonydd Ewrop. Ond y mae afonydd America, nid yn unig yn rhagori ar holl afonydd eraill y byd yn eu hyd a swm eu dyfroedd, ond y mae eu sefyllfaoedd y fath fel y gellir morio ar hyd-ddynt i ganol y cyfandir. Yn Ngogledd America y mae gwastadedd eangfawr yn ymestyn o'r Mynyddoedd Creigiog i'r Alleghanies, ac felly y mae yn fwy anhawdd treiddio iddo na phe na buasai y mynyddoedd hyn o bob tu iddo. Ond y mae y Mississippi, a'r St. Lawrence, ynghyd â'u canghenau, wedi eu gwau drwy yr ardaloedd hyny, fel pan y bydd y wlad wedi ei llanw â phreswylwyr gwareiddiedig, fel y bydd yn ddiau cyn pen dau can mlynedd etto, bydd gan y rhai a breswyliant yn y pellder o lawer o gannoedd o filldiroedd oddi wrth Gefnfor y Werydd dramwyfa rwydd iddo dros ddyfroedd yr afonydd ardderchog hyn. Yn ol pob arwyddion, bydd ar y Mississippi, yn y Gogledd, yn gystal ag ar yr Amazon a'r La Plata yn Neheu America, fasnach yn cael ei dwyn yn mlaen, yn mhen rhai ugeiniau o flynyddoedd, na welodd y byd etto ei chyffelyb. Y mae y Mississippi yn fordwyol i lestri o'r môr hyd Ddisgyniadau ei phrif gangen, sef y Missouri (*Falls of Missouri*), 1,700 o filldiroedd mewn llinell unionsyth o Forgainge Mexico; neu 3,900 o filldiroedd, a mesur troadau yr afon. Ac yn ol cyfrif sydd wedi ei wneuthur, tybia rhai fod yn bossibl nofio cychod ar yr holl gyfundrefn o afonydd sydd yn dal cyssylltiad â'r Mississippi am 35,000 o filldiroedd—ac eraill a ddywedant eu bod yn mesur llawn 40,000 o filldiroedd!

Gellir dywedyd fod y trefedigaethau Ewropaidd yn America wedi glynu wrth ffurf o lywodraethau cynnrychioliadol; ac wedi cario gyda hwy, a chadw, gydag ychydig o gyfnewidiadau, gyfreithiau, ieithoedd, ac arferion y gwledydd y daethant o honynt. Y mae yr Unol Dalaethau, yn ogystal a phoblogaeth Yspaenig Mexico a Deheudir America, wedi sefydlu gweriniaethau cynnrychioliadol. Efelychiad o frenhiniaeth gyfyngedig Portugal a geir yn Brazil. Y mae Canada, a'r trefedigaethau Prydeinig eraill, wedi glynu wrth frenhiniaeth Prydain; ac y maent oll wedi cael llywodraethau cynnrychioliadol a seneddau:—a than arolygiaeth llywodraethwr a enwir gan y goron Brydeinig, trefnir, a dygir yn mlaen, a gweinyddir y cyfreithiau ynddynt.

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google



# AMERICA DDEHEUOL.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ... | Machwy. | Mt., *neu* Mountain ... | Mynydd. |
| ... | Bryn, Bryniau. | Mts., *neu* Mountains . | Mynyddoedd. |
| ... | Penrhyn. | New ... ... | Newydd. |
| ... | Castell. | North, Northern ... | Gogledd, Gogleddol. |
| ... | Arfordir. | Ocean ... ... | Cefnfor. |
| ... | Sianel. | P., *neu* Port ... | Porth. |
| ... | Dwyrain, Dwyreiniol. | Pen., Pena., Peninsula | Gorynys. |
| ... | Milldiroedd Saesnig. | Plateau ... ... | Gwastadedd uchel. |
| ... | Cyhydedd. | Pt., *neu* Point ... | Pwynt. |
| ... | Morgaingc. | R., *neu* River ... | Afon. |
| ... | Caerfa, Amddiffynfa. | Ruins of ... ... | Adfeilion. |
| ... | Llyngclyn. | S., *neu* Sound ... | Culfor. |
| ven | Porthladd, *neu* Fachwy. | St., *neu* Saint ... | Sant. |
| ... | Penrhyn, Pentir. | Sea, *neu* Sea of ... | Môr. |
| ... | Bryn, Bryniau. | Shoal, Shoals ... | Bas-le, Bâs-leoedd. |
| ... | Ynys. | South, Southern ... | Deheu, Deheuol. |
| ds . | Ynysoedd. | Str., *neu* Strs., Straits | Culfor, Culforoedd. |
| ... | Llyn. | Town ... ... | Tref. |
| ... | Tir. [môr. | Tropic ... ... | Trofan. |
| ... | Llwch:—llyn agored i'r | West, Western ... | Gorllewin, Gorllewinol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ... | Cefnfor y Werydd. | I. of Desolation ... | Ynys Anrheithiad. |
| ... | Guiana Brydeinig. | Pacific Ocean ... | Cefnfor Tawelog. |
| ... | Môr Caribbeaidd. | Porte Desire ... | Porth Dymuniad. |
| ... | Llyn a Thref Cayenne. | Rio Para (principal channel of entrance to Amazons) ... | Rio Para (y brif sianel i fyned i'r Amazons). |
| ... | Afon y Gamwy. | | |
| ... | Afon Dymuniad. | | |
| ... | Diffeithwch Alacutha. | Tierra del Fuego ... | Gwlad y Tânau. |
| ... | Guiana Isellmynaidd. | Tropic of Capricorn ... | Trofan yr Afr. |
| ... | Y Cyhydedd. | United States of Colombia ... ... | Unol Dalaethau Colombia. |
| ... | Guiana Ffrengig. | | |

lir, ar ffurf tair-onglog yn mron, ydyw Deheudir America. Ei hyd mwyaf yw a'i led mwyaf yw 3,200; ac y mae ei arwynebedd yn 6,500,000 o filldiroedd ddeutu tair rhan o bedair o hono rhwng y trofanau, a'r pedwerydd rhan arall yn

rynys hwn yn bum dosbarth anianyddol:—1. Iseldir sydd yn ymylu ar arfordir-elog, yn amrywio o 50 i 150 o filldiroedd o led, a 4,000 o filldiroedd o hyd. Y gaeth hon yn meddu tir ffrwythlawn, ond diffeithdir tywodlyd ydyw y canol. inoco:—gwlad yn cynnwys gwastadeddau neu ddiffeith-diroedd, a elwir *Llanos*, yn hollol amddifaid o goed, neu ynte y mae y coed wedi eu gwasgaru yma a ny y mae wedi ei gorchuddio â rhyw fath o lysiau sydd yn tyfu am y rhan fwyaf y tywydd sych y mae y gwres yn mron yn annioddefol, ac y mae y tir crasboeth u mawrion, lle y gorwedda geneugoegiaid a seirph mewn sefyllfa o syrthni a Y gwastadedd mawr drwy yr hwn y llifa yr afon ardderchog Amazon—yr hwn wy na dwy filiwn o filldiroedd ysgwâr. Y mae yn y gwastadedd hwn dir bras Gorchuddir ef yn mhob man o'r bron â choedwigoedd tewion, y rhai sydd yn hau dirifedi o fwystfilod gwylltion. Preswylir hi yn deneu gan anwariaid, y rth hela a physgota. 4. Y gwastadedd mawr deheuol, yr hwn a ddyfrhëir gan r lliaws afonydd a ddisgynant o uchelderau dwyreiniol y Cordilleras. Y di-wir yn *Pampas*, sydd yn gwneyd i fyny y rhan fwyaf o'r wlad hon. Sych ydyw gyffredin; ac mewn rhai manau y mae yn lled ddiffrwyth hefyd. Ond y mae edi ei gorchuddio â chnwd mawr o chwyn, a glaswellt tàl--ar yr hwn y mae o geffylau a gwartheg yn ymborthi, a lle hefyd y noddir rhai creaduriaid gwyllt-sil, i'r dwyrain o'r Parana a'r Araguay—yr hon sydd yn cael ei hamrywio gan ynoedd, ac sydd wedi ei gorchuddio â choedwigoedd tewion ar yr ochr nesaf i ac yn ymagor i ddiffeith-diroedd, neu i diroedd porfa, yn y rhanau mewnol o'r

lynyddoedd yr Andes yn rhedeg ar hyd ystlys arfordir y Cefnfor Tawelog. Yn ynyddoedd hyn yn cael eu disgrifio fel un gadwen; etto y maent yn cynnwys dd yn cael eu hysgaru oddi wrth eu gilydd gan ddyffrynoedd uchel a chul. Ac h nag yn rhedeg yn llinellau cyfochrog, yn aml yn cyfeirio o ryw bwynt canol-n ymddangos fel cydgasgliad o fân gadwyni. Rhwng lledred 33° a 6° deheuol, y gwreiddiau am 300 o filldiroedd—ac hyd yn oed fwy na hyny, os cymmerir i a berthynant iddynt. Rhwng y trumiau hyn y mae llawer o lynau o gryn nau Ondalgola, Pataipo, Hages, a llyn mawr Titicaca, yr hwn sydd tua 200 o Y llyn hwn, ynghyd â'r Parimè, yn Guiana, ydyw yr unig lynau o ddwfr croew geir yn Neheubarth America. O lledred 6° deheuol i 2° gogleddol, y mae yr

Digitized by Google

Andes yn culhau, ac yn ffurfio math o wastadedd uchel. Uchder canolog y gadwen yn Peru, yn ol cyfrif Humboldt, yw 11,000 neu 12,000 o droedfeddi. Yn ol M. Miers, y mae y brigau uchaf yn Chili yn 15,000 o droedfeddi; ond mewn rhai manau, nid ydyw uchder canolog y gadwen yn fwy nag 8,000 o droedfeddi. Y mae brigau uchaf yr Andes yn cyrhaedd i'r uchder o 20,000 i 25,000 o droedfeddi uwch law arwyneb y môr.

Wrth sylwi ar fap Deheudir America, ceir gweled fod canghenau o'r afon La Plata, a'r Amazon, yn rhedeg trwy holl ranau mewnol y wlad. Y mae llwybrau yr afonydd hyn yn gyffredin yn hynod o wastad; ac anfynych y ceir rhaiadrau ynddynt. Gellir edrych arnynt fel cyfundrefn fawr o gamlesydd naturiol, yn terfynu mewn dau wely mawr, sydd yn dal cyssylltiad â'r môr. Er yr adeg y mae ager-forwriaeth wedi ei dyfeisio, y mae afonydd yn fath o brif-ffyrdd naturiol, yn enwedig mewn gwledydd sydd wedi eu poblogi yn ddiweddar, fydd naill ai yn rhy dlawd neu yn byw yn rhy wasgaredig i allu fforddio gwneyd ffyrdd da, neu ffyrdd haiarn. Y mae yr Amazon ei hun yn arllwys mwy o swm o ddwfr i'r môr nag y mae wyth o brif afonydd Asia; sef, yr Euphrates, yr Indus, y Ganges, yr Oby, y Lena, yr Amour, a'r Afon Felen a'r Kang-tse sydd yn China. Trwy ddilyn yr afon hon—yr Amazon—gall y neb fydd yn byw wrth droed dwyreiniol yr Andes, ddwy fil o filldiroedd mewn llinell uniongyrchol oddi wrth Gefnfor y Werydd, drosglwyddo ei eiddo, neu deithio ei hun, i lenydd y cefnfor hwn mewn pum niwrnod a deugain, heb unrhyw ymdrech yn mron:—dim ond yn unig ymddiried ei fâd i fyned gyda'r llif. Y mae yr Amazon yn llydan, ac yn cynnwys llawer o ynysoedd, ac mewn manau yn ddofn iawn. Y mae yn ngenau yr afon hon, am ddau ddiwrnod o flaen, a dau ddiwrnod ar ol y llawn lloer, dòn yn cyfodi, ac yn rhuthro o'r môr, gwyneb yr hon sydd yn syth fel mur, ac mor uchel a thŷ. Ac os ä unrhyw lestr fechan i'w chyfarfod y mae hi yn sicr o fod yn ddinystr iddi.

Digitized by Google

yn y rhan hono o'r Dyffryn Canolog sydd yn Canada, nid oes byth bron brinder o ddwfr. Y mae yr haf yn hynod sych yn nghyffiniau y Mynyddoedd Creigiog; ac mewn rhai parthau, defnyddir moddion celfyddydol i ddyfrhau, er sicrhau cnydau. Er hyn oll, y mae maintioli anferth yr afonydd, y lliaws canghenau a ymarllwysant iddynt, a'r llynoedd lliosog sydd yn britho y wlad, yn ei dyfrhau, ar y cyfan, yn rhagorol. Yn Canada, y mae yr afonydd a'r llynau yn lliosog iawn; a dywedir fod yr afon St. Lawrence, gyda'r llynau a'r afonydd eraill sydd yn gyssylltiedig â hi, yn cynnwys hanner dwfr croyw y byd. Y mae yr afonydd mawr Yukon, Fraser, Columbia, Saskatchewan, a'r Mackenzie yn y Mynyddoedd Creigiog; a rhwng y mynyddoedd hyn a Hudson Bay, ceir nifer o lynau anferth eu maintioli; sef, y Great Bear, Great Slave, Athabasca, Deer Lake, Winnepeg, ac eraill. Rhwng Canada a'r Unol Dalaethau, y mae Llyn Superior. Dyma y llyn mwyaf o ddwfr croyw yn y byd; ac y mae yn mesur 350 milldir o hyd, wrth 100 milldir o led, a 35,000 milldir petryal o arwynebedd. Y llynau mwyaf eraill ydynt y Michigan, Huron, Erie, ac Ontario. Rhwng y ddau olaf a enwir y mae Rhaiadr ofnadwy y Niagara.

Yn mysg afonydd yr Unol Dalaethau a ymarllwysant i'r Atlantic, ceir y Potomac, St. John, Penobscot, Kennebec, Merrimac, Connecticut, Delaware, Susquehanna, James, Chowan, Tar, Neuse, Cape Fear, Great Pedee, Santee, Savannah, &c., yr oll o ba rai, o'r bron, ydynt yn fordwyol am rai milldiroedd o'r môr. Ymarllwysa yr afonydd canlynol i Fôrgaingc Mexico: — yr Appalachicola, Mobile, Pearl, Mississipi, Sabine, Trinity, Brazos, Colorado, a'r Rio Grande. Y mae yr afon olaf a enwyd yn ffurfio y llinell derfyn rhwng Mexico a'r Unol Dalaethau.

Rhwng yr afonydd a'r llynoedd, nid oes brinder o ddwfr yn y Gogledd, oddi eithr mewn rhai lleoedd. Dyfrheir Canada, a'r rhanau hyny o'r wlad sydd yn llechweddu tua'r Atlantic, yn dda; a disgyna cyflawnder o wlawogydd yno. Ar hyd darn main o dir ar lechweddau y Tawelfor—yr hwn sydd yn ymestyn o San Francisco tua'r deheu hyd Acapulco—y mae dwfr yn brin. Ond o Acapulco i lawr, tua'r deheu, ceir digonedd o wlaw ar gyfer pob angen. Yn hyn o beth, y mae cryn wahaniaeth rhwng tiriogaethau y Gogledd sydd ar lanau y Tawelfor a thiriogaethau y Deheubarth.

*Tymmheredd.*—Gan fod Gogledd America mor fawr, y mae ei dymmheredd yn naturiol yn hynod amrywiol. Mae yn oer iawn yn y rhanau gogleddol yn y gauaf; ac yn boeth, weithiau bron yn annioddefol, yn yr haf, mewn rhanau eraill. Yn y rhanau gogleddol eithaf, y mae'r tymmheredd yn eithafol o oer, yn neillduol felly yn Ngorynys Labrador, yn y Môr Pegynol. Dywedir fod y gauaf yn y lle hwn yn fwy gerwin nag hyd yn oed yn Lapland a Siberia. Y mae rhanau eraill sydd yn yr un lledred, ond yn fwy i'r gorllewin, yn meddu hinsawdd lawer cynnhesach; ac y mae Deheubarth Alaska, er ei fod yn fwy gogleddol na Labrador, yn meddu gauafau cynnes, ar y cyfan, er fod llawer o wlaw yn disgyn yno. Y mae yr hinsawdd mor ffafriol hefyd yn nyffryn mawr Canada, ac yn enwedig felly yn y rhanau gorllewinol o hono, fel y gellir tyfu gwenith yniddo. Ar y llaw arall, y mae y tiroedd diffaeth i'r gorllewin o Forgaingc Hudson yn hollol anghyfaddas i'w hamaethu; a gellir dywedyd yr un peth am ranau helaeth o dir i'r gogledd o Athabasca. Ond a chaniatau hyn, y mae yn sicr fod rhan fawr o diroedd di-boblog yn ngogledd-orllewin Canada yn gyfaddas i dyfu haidd, ceirch, a gwenith gwanwyn o ansawdd rhagorol. Mae yn wir fod gauafau y rhanbarth hwn yn lled erwin; ond y maent yn hawdd eu dioddef, yn gymmaint a bod yr awyr mor sych. Eu meithder, yn hytrach na'u gerwindeb, sydd yn peri fod sefydlwyr yn eu hofni gymmaint. Yn y rhan a orwedd i'r gogledd o'r Canadian Pacific Railway, Indiaid, yn mron yn gwbl, ydyw y boblogaeth deneu bresennol.

*Y prif Raniadau.*—Y mae Gogledd America, yn wladol, yn ymranu fel y canlyn:—

I. Yr hon a elwir Danish America; yr hon sydd yn perthyn i Denmarc; ac yn cynnwys Greenland, a thair ynys fechan yn India y Gorllewin (West Indies).

II. British North America; yr hon sydd yn perthyn i Brydain; ac yn cynnwys Canada, Newfoundland, Labrador, y Bermudas, ynysoedd Prydeinig India y Gorllewin, a'r Honduras.

III. Yr Unol Dalaethau; yn cynnwys hefyd tiriogaeth anghyssylltiedig Alaska.

IV. Mexico.

V. Gweriniaethau Canolog yr America; sef, yr Honduras, Guatemala, Salvador, Nicaragua, a Costa Rica; ynghyd â rhan fechan o dalaeth Panama, yr hon a berthyn i weriniaeth Columbia, yn Neheubarth yr America.

VI. Gweriniaethau Hayti a San Domingo.

VII. Ynysoedd India y Gorllewin, y rhai a berthynant i'r Ellmyn.

*Poblogaeth.* — Y mae poblogaeth Gogledd America uwch law 65,000,000. O'r nifer hwn, tybir fod 6,000,000 yn hanu o'r Indiaid—hen frodorion y wlad. Ceir y nifer fwyaf o honynt yn Mexico, a chanolbarthau y wlad. Rhifa y bobl sydd wedi hanu o negroaid Affrica tuag 8,000,000—y mwyafrif o ba rai sydd yn frodorion o'r Talaethau Unedig. Wedi rhyddhâd y caethion, cynnyddodd y negroaid yn fawr yn y wlad. Y mae cynnydd aruthrol wedi cymmeryd lle yn nifer y boblogaeth yn ystod yr hanner can mlynedd diweddaf. Yn flaenorol i, ac am amser wedi y Chwyldroad Americanaidd, a gymmerodd le yn 1776, anfonid lliaws mawr o garcharorion—drwgweithredwyr o bob natur—drosodd yno o Ewrop; a pharhaodd y wlad am flynyddau lawer i fod yn noddfa ac yn gartref i ladron, llofruddion, a throseddwyr eraill; ac yn wir, y mae hi yn parhau felly, i raddau, etto. Yn nghorph y ganrif ddiweddaf, modd bynag, y mae ymfudiaeth ar raddfa helaeth wedi cymmeryd lle; a'r boblogaeth, mewn canlyniad, wedi lliosogi yn fawr. Ceir trefedigaethau llwyddiannus yno o Saeson, Cymry, Ffrangcod, a chenedloedd Ewropaidd eraill, yn wasgaredig dros arwyneb y wlad. Hyrwyddwyd ymfudiaeth yn fawr gan ysbryd anturiaethus yr oes, ac hefyd gan y rhagolygon gobeithiol a osodid o flaen ymfudwyr. Cynnygid tiroedd rhagorol yn yr Unol Dalaethau ar delerau hynod o ffafriol; ac mewn rhai amgylchiadau, rhoddwyd hwynt yn rhad. Cymmerodd cynnydd mawr le gan hyny yn nifer yr ymfudwyr; a lleihaodd y tiroedd amaethyddol a gynnygid gan y llywodraeth. Ond y mae yn ngwahanol ranau y wlad ddarnau eang o diroedd rhagorol yn

Digitized by Google

meddiant cwmnïau y ffyrdd haiarn, a pherchenogion, y rhai a'i cynnygiant i ymsefydlwyr am brisiau rhesymol a manteisiol. Er pan ddiddymwyd y gaethfasnach yn y Talaethau Deheuol, y mae llawer o ymfudwyr wedi ymsefydlu yno hefyd. Yn Canada, ceir darnau ëang o diroedd amaethyddol da, heb fod neb yn byw arnynt; ond y mae y rhai hyn yn myned yn llai y naill flwyddyn ar ol y llall.

AMERICA DDEHEUOL.—Ar y ddarlunlen, ymdebyga America Ddeheuol gryn lawer i'r Gogledd:—saif y rhan letaf ac ëangaf o'r ddau tua'r gogledd. Er hyny, gwahaniaethant yn fawr mewn amryw bethau.

*Hinsawdd.*—Y mae y rhan ogleddol o Ogledd America yn eithafol o oer, ac yn cael ei derfynu gan y Môr Pegynol, yr hwn a orchuddir gan iâ oesol; ond y mae gogledd America Ddeheuol yn hynod o boeth, yn wlad ffrwythlawn, ac ar y cyfan yn ddymunol i fyw ynddi. Nid ydyw y trigolion yn gwybod pa beth ydyw rhew. Nid yw America Ddeheuol yn ymestyn gymmaint i'r deheu ag y mae America Ogleddol tua phegwn y gogledd; ac felly, nid ydyw y gauaf o lawer mor eithafol o oer, hyd yn oed yn Patagonia, Fuegia, ac Ynysoedd Falkland—y rhanau mwyaf deheuol—ag ydyw yn Canada yn y Gogledd.

*Mŵnau.*—Y mae cyfoeth mwnawl America Ddeheuol yn fawr iawn. Ceir yno aur, arian, copr, arian byw (*mercury*), a mŵnau gwerthfawr eraill, yn Peru: ac arian, copr, *guano*, *nitrate*, a *borax* yn Chili. Yn Bolivia y saif gweithiau arian enwog Potosi. Yn Venezuela a Guiana, codir swm mawr o aur; ac y mae amryw o weithfeydd glô o gryn bwysigrwydd yn Brazil.

*Cynnyrchion.*—Y mae amrywiaeth mawr yn mywyd llysieuol y wlad; ac y mae yr anifeiliaid yn lliosog, ac o amryw rywogaethau. Y mae adnoddau amaethyddol y Deheu yn hynod gyfoethog. Megir anifeiliaid yno ar raddfa ëang. Tyfir coffi mewn cyflawnder yn Brazil; a sugr, myglys, a chotwm yn y rhanbarthau poethaf. O gyffiniau La Plata, allforir swm anferth o wlân yn flynyddol.

*Poblogaeth ac Ieithoedd.*—Bernir fod poblogaeth America Ddeheuol rhyw gymmaint dros 30,000,000. O'r nifer hwn, gwneir y bobl wynion i fyny, gan mwyaf, o Yspaeniaid; y rhai ydynt felly o waed ac iaith. Yn Brazil, preswylia nifer fawr o Bortugëaid; a'u hiaith hwy a ddefnyddir yn benaf yno. Ceir gryn nifer o negroaid yn Brazil, Guiana, a rhanau o Peru.

Yn y daflen ganlynol, rhoddir maintioli, poblogaeth, a phrif drefi gwahanol dalaethau America, Ogleddol a Deheuol—yr oll o ba rai ydynt werin-lywodraethau yn ol y cyfrifiadau diweddaf:—

GOGLEDD AMERICA.

| Llywodraethau. | Arwynebedd mill. pet. | Poblogaeth. | Prif Drefi. |
|---|---|---|---|
| Greenland (Danaidd) | ... 46,740 ... | 9,752 ... | Lichtenfels |
| St. Pierre, &c. (Ffrengig) | ... 81 ... | 5,224 ... | St. Pierre |
| Canada (Prydeinig) | 3,470,392 ... | 4,324,810 ... | Ottawa |
| Newfoundland, &c. | ... 40,200 ... | 179,509 ... | St. John's |
| Bermudas | .. 19 ... | 13,948 ... | Hamilton |
| Honduras Brydeinig | ... 7,562 ... | 27,452 ... | Belize |
| Unol Dalaethau (a'r Indiaid) | 3,602,990. | 50,500,000 ... | Washington |
| Mexico | ... 768,490 ... | 9,577,279 ... | Mexico |
| *Gweriniaethau Canolbarthol.* | | | |
| San Salvador | ... 7,225 ... | 554,785 ... | San Salvador |
| Nicaragua | ... 49,500 ... | 300,000 ... | Managua |
| Honduras | ... 40,000 ... | 400,000 ... | Comayagua |
| Guatemala | ... 50,000 ... | 1,197,000 ... | Guatemala |
| Costa Rica | ... 26,000 ... | 185,000 ... | San Jose |
| Y cyfan .. | 8,109,199 | 67,274,759 | |

YNYSOEDD INDIA Y GORLLEWIN.

| Llywodraethau. | Arwynebedd mill. pet. | Poblogaeth. | Prif Drefi |
|---|---|---|---|
| Hayti | ... 9,500 ... | 572,000 ... | Port au Prince |
| Gweriniaeth Dominica | ... 21,300 ... | 300,000 ... | San Domingo |
| Cuba (Yspaenaidd) | ... 47,500 ... | 1,400,000 ... | Havana |
| Porto Rico | ... 3,720 ... | 754,313 ... | San Juan |
| Jamaica (Prydeinig) ac Ynysoedd Tyrcaidd | 4,193 ... | 580,814 ... | Kingston |
| Trinidad (Pryd.) | 1,754 . | 153,128 ... | Port of Spain |
| Barbadoes | ... 166 ... | 171,860 ... | Bridgetown |
| YNYSOEDD WINDWARD. *Trefedigaeth Unedig berthynol i Brydain—y brif dref, St. George's. Cynnwysa* | | | |
| Grenada (a'r mwyafrif o'r Grenadines) | ... 133 ... | 42,403 ... | St. George's |
| St. Vincent (a rhai o'r Grenadines) | ... 147 ... | 40,548 ... | Kingston |
| Tobago | ... 114 ... | 18,051 ... | Scarborough |
| St. Lucia | ... 237 ... | 38,551 ... | Castries |
| YNYSOEDD LEEWARD. *Trefedigaeth Unedig berthynol i Brydain etto—prif dref, St. John's. Cynnwysa* | | | |
| Antigua a Barbuda | ... 170 ... | 35,244 ... | St. John's |
| Montserrat | ... 32 .. | 10,083 ... | Plymouth |
| St. Kitts (ac Anguilla) | ... 103 ... | 29,137 ... | Basseterre |
| Nevis | ... 50 ... | 11,864 ... | Charlestown |
| Dominica | ... 291 ... | 28,211 ... | Roseau |
| Rhan o Ynysoedd y Forwyn | 57 ... | 5,827 ... | Road Town |
| Y Bahamas | ... 5,390 ... | 43,521 ... | Nassau |
| Guadeloupe, &c. (Ffrengig) | ... 736 ... | 193,883 ... | Basseterre |
| Martinique, &c. ,, | 381 ... | 164,350 ... | St. Pierre |
| St. Bartholomew | 8 ... | 2,898 ... | Gustavie |
| Curaçao, Saba, &c (Isellmyn) | ... 452 ... | 42,530 ... | Millemstedt |
| *Ynysoedd Danaidd.* | | | |
| St. Thomas | ... 23 ... | 33,763 ... | Chistianstadt |
| St. Croix | ... 73 ... | | |
| St. John | ... 21 ... | | |
| Y cyfan .. | 96,551 | 4,672,979 | |

AMERICA DDEHEUOL.

| Llywodraethau. | Arwynebedd mill. pet. | Poblogaeth. | Prif Drefi. |
|---|---|---|---|
| Venezuela | ... 417,000 ... | 2,075,245 ... | Caracas |
| Columbia | ... 332,000 ... | 3,000,000 ... | Santa Fè |
| Ecuador | ... 160,000 ... | 1,100,000 ... | Quito |
| Peru | ... 528,000 ... | 3,000,000 ... | Lima |
| Bolivia | ... 536,000 ... | 2,325,000 ... | Chuquisaca |
| Gweriniaeth Argentine | 1,970,000 ... | 2,940,000 ... | Buenos Ayres |
| Uruguay | ... 72,700 ... | 438,245 ... | Monte Video |
| Paraguay | ... 57,303 ... | 1,646,000 ... | Asuncion |

Digitized by Google

| Llywodraethau. | Arwynebedd mill pet | Poblogaeth. | Prif Drefi. |
|---|---|---|---|
| Chili | 218,925 | 2,300,000 | Santiago |
| Guiana (Pryd.) | 76,000 | 252,186 | Georgetown |
| Guiana (Dutch) | 46,060 | 70,000 | Paramaribo |
| Guiana (Ffrengig) | 48,500 | 26,116 | Cayenne |
| Brazil | 3,288,000 | 11,831,000 | Rio de Janeiro |
| Ynysoedd Falkland (Prydeinig) | 6,500 | 1,523 | Stanley |
| Y cyfan | 7,756,988 | 31,005,315 | |

CYFANSYMIAU. Y mae yr oll o America yn mesur 15,962,738 o fill. pet., a 102,953,053 o boblogaeth.

*Hanes.*—Nid ydyw hanes America yn dechreu cyn y flwyddyn 1492—y flwyddyn y darganfyddwyd y cyfandir gyntaf gan Columbus. Ond dywed daearyddwyr a hynafiaethwyr sydd wedi gwneyd ymchwiliad i'r achos hwn, fod digon o ffeithiau, ar wahân i hanesiaeth, a brofant fod pobl yn byw ar y cyfandir lawer o ganrifoedd cyn hyny. Mŷn rhai fod y Chineaid, nid yn unig yn gwybod am America cyn amser Columbus, ond fod eu morwyr wedi talu ymweliadau mynych â'r wlad. Ond y mae y rhai sydd wedi talu mwyaf o sylw i hyn yn gwadu y syniad fel un annhebyg o fod yn wir. Dywedir, ac nid oes ond ychydig o ammheuaeth am gywirdeb y gosodiad, fod y cyfandir wedi cael ei alw er anrhydedd Amerigo Vespucci [gwel erthygl dan y gair VESPUCCI], yr hwn a ymwelodd â'r Byd Newydd yn 1499. Ar y cyntaf, bernid mai rhan o Asia oedd; ac am y rheswm hwn y gelwid, ac y gelwir ei breswylwyr yn Indiaid. Yn lled fuan wedi darganfyddiad y cyfandir, trodd amryw o archwilwyr o Brydain, Ffrainge, Yspaen, a Phortugal eu hwynebau tuag yno; ond gan eithrio yr Yspaeniaid a'r Portugeaid, y rhai a ddarganfyddasant Brazil yn 1500, ac a arosasant yno, ni ddarfu i'r archwilwyr hyn sefydlu unrhyw drefedigaeth o bwys o fewn y wlad am ysbaid can mlynedd. Newfoundland ydyw y drefedigaeth Saesnig hynaf; ond ni ymsefydlwyd yno hyd y fl. 1610. Ymsefydlodd y Ffrangcod yn Canada; ond yn 1762, difeddiannwyd hwy o'r diriogaeth gan y Saeson. Er hyny, gadawsant eu hiaith a'u traddodiadau yno ar eu hol, i raddau pell.

Yn y rhestr isod, ceir rhai o'r prif ddigwyddiadau a gymmerasant le yn hanes America, o'i darganfyddiad hyd y fl. 1894, a'r blynyddoedd yn mha rai y cymmerodd y cyfryw ddigwyddiadau le ynddi:—

| | |
|---|---|
| Ei darganfyddiad gan Columbus | 1492 |
| Yr Yspaeniaid yn sefydlu yn Hayti | 1495 |
| J. Cabot yn darganfod Newfoundland | 1497 |
| Columbus yn darganfod Cyfandir Deheu America | 1498 |
| Cabral yn Brazil—darganfod yr Amazon | 1500 |
| Cortereal yn archwilio arfordir dwyreiniol Gogledd America | 1500 |
| Pinzon yn glanio yn yr afon Plate | 1508 |
| Caethwasiaeth Negroaidd yn cael ei roddi mewn grym gan yr Yspaeniaid | 1508 |
| Balboa yn darganfod y Môr Tawelog | 1513 |
| Cortez yn gorchfygu Mexico | 1519—21 |
| Magellan yn hwylio trwy y culfor sydd ar ei enw | 1520 |
| Pizaro yn gorchfygu Peru | 1531—32 |
| Cartier yn hwylio i St. Lawrence | 1535 |
| Orellana yn hwylio i lawr yr Amazon | 1541 |
| De Soto yn ymweled â'r Mississippi | 1541 |
| Y Ffrangcod yn trefedigaethu yn Canada | 1542 |
| Drake yn ymweled â glanau gogledd-orllewin Gogledd America | 1578 |
| John Davis yn darganfod y Culfor sydd yn dwyn ei enw | 1587 |
| Gosnold yn archwilio arfordir Lloegr Newydd | 1602 |
| Y Ffrangcod yn ymsefydlu yn Acadie, Nova Scotia | 1604 |
| Sefydlu Jamestown yn Virginia | 1607 |
| Y Ffrangcod yn sefydlu Quebec | 1608 |
| Sefydliad New Amsterdam gan Isellmyn | 1614 |
| Sefydliad y Tadau Pereriniol yn New Plymouth | 1620 |
| Rhoddi Caethwasiaeth mewn grym yn Virginia | 1620 |
| Y Puritaniaid yn sefydlu Salem yn 1628; a Boston yn | 1630 |
| Maryland yn cael ei sefydlu | 1634 |
| Y Ffrangcod yn Guiana | 1635 |
| Gorchfygiad Jamaica gan y Saeson | 1655 |
| Cymmeryd meddiant o New York gan y Saeson | 1664 |
| Sefydliad Pennsylvania | 1682 |
| ,, Louisiana | 1700 |
| ,, Georgia | 1733 |
| Cymmeryd meddiant o Louisburg gan drefedigaethwyr Saesnig | 1745 |
| Y Saeson yn cymmeryd meddiant o Canada oddi ar y Ffrangcod | 1760 |
| Rhyfel rhwng Lloegr a'r Trefedigaethau yn dechreu | 1775 |
| Yr Unol Dalaethau yn cael eu cyhoeddi yn rhydd, yn freiniol, ac yn annibynol, Gorph. 4. | 1776 |
| Terfyniad y rhyfel, a'i Hannibyniaeth yn cael ei gydnabod gan y gwledydd... | 1782 |
| Gwrthryfel yn Hayti yn dechreu | 1791 |
| Prynu Louisiana gan yr Unol Dalaethau | 1803 |
| Symmudiadau chwyldroadol yn dechreu yn Peru, Venezuela, ac Ecuador | 1809 |
| Symmudiadau chwyldroadol yn Buenos Ayres, Chili, a Mexico | 1810 |
| Florida yn cael ei rhoddi i fyny i'r Unol Dalaethau | 1819 |
| Cyhoeddi Brazil yn deyrnas Annibynol | 1815 |
| ,, ,, Ymherodraeth | 1822 |
| Rhyfel rhwng yr Unol Dalaethau a Phrydain | 1812—15 |
| Chili yn ennill ei hannibyniaeth | 1818 |
| Mexico ,, etto | 1821 |
| Guatemala ,, etto | 1823 |
| Gyru yr Ysbaeniaid allan o New Granada | 1826 |
| Gyru yr Ysbaeniaid allan o Peru | 1826 |
| Bolivia yn cael ei sefydlu | 1826 |
| Ail sefydliad Gweriniaeth Dominica | 1843 |
| Rhyfel rhwng yr Unol Dalaethau a Mexico | 1846—47 |
| Gosod y pellebyr tanweryddol cyntaf | 1858 |
| Rhyfel Gartrefol yn yr Unol Dalaethau | 1861—65 |
| Diddymu Caethwasiaeth yn derfynol yn yr Unol Dalaethau | 1865 |
| Alaska yn cael ei gwerthu i'r Talaethau gan Rwssia | 1867 |
| Ffurfiad Tiriogaeth Canada | 1867 |
| Cyfyngder masnachol mawr yn yr Unol Dalaethau | 1868 |
| Y Negroaid yn cael yr un breintiau gwladol a'r bobl wynion yno | 1870 |
| Penderfyniad helynt yr *Alabama* | 1872 |
| Mesur Tollau newydd—a elwir y *Mc' Kinley Tariff*—oedd yn hynod anfanteisiol i fasnach mewn defnyddiau Prydeinig, yn cael ei gymmeradwyo gan gyngres y Talaethau, Medi 20fed | 1890 |
| Y mesur uchod yn cael ei ddiddymu mewn rhan, trwy fesur newydd | 1894 |

ANARAWD. Mab hynaf Rhodri Mawr oedd efe, a Thywysog Gogledd Cymru. Rhanodd Rhodri ei deyrnas, ar ei farwolaeth, rhwng ei

Digitized by Google

dri mab. Rhoddodd Gwynedd i Anarawd, y Deheudir i Cadell, a Phowys i Merfyn. Enwid y tri mab hyn 'Y Tri Thywysog Talaethog,' am, meddir, fod pob un o honynt yn gwisgo ar ei helm fath o dalaith aur lydan, wedi ei haddurno â meini gwerthfawr. Trigai Tywysog Gwynedd mewn palas a adeiladodd ei dad iddo yn Aberffraw; Tywysog y Deheudir yn Dinefawr; a Thywysog Powys yn Mathrafael. Dechreuodd teyrnasiad Anarawd yn y flwyddyn B.A. 877; a dyma'r pryd y daeth lliaws mawr o Frytaniaid Gogleddol Stratclwyd (*Strathclyde Britons*) a Cumberland i Ogledd Cymru i breswylio gyntaf, ac i ymofyn noddfa rhag erledigaeth y Daniaid, y Saesoniaid, a'r Ysgotiaid. Rhoddodd Anarawd ganiatâd i'r bobl hyn ymsefydlu yn y darn hwnw o Gymru sydd rhwng Caerlleon a Chonwy; ond gosododd yr ammod ganlynol gyda'r caniatâd; sef, bod iddynt yru allan o honi y Mersiaid, oedd wedi cymmeryd meddiant o honi. Yn ddioed wedi iddynt ymsefydlu yma, cododd Eadred, un o bendefigion y Mersiaid, yr hwn a elwid gan y Cymry yn 'Edryd Wallt Hir,' fyddin gref i ddyfod allan i'w herbyn, gyda'r bwriad o ail feddiannu y wlad. Yn deall ei fwriad, gyrodd y Brytaniaid eu deadelloedd dros afon Gonwy, er mwyn diogelwch; ac yna parotoisant i ryfela i'w erbyn. Cynnullodd Anarawd ei luoedd i Gymryd, ger llaw Conwy; ac yno ymladdodd frwydr waedlyd yn erbyn y Saesoniaid, ac ennillodd fuddugoliaeth arnynt. Gelwir y fuddugoliaeth hon gan rai 'Gwaith Cymryd Conwy;' ond mynai Anarawd ei galw yn 'Dïal Rhodri,' am mai dyma y pryd y dïalodd efe farwolaeth ei dad, yr hwn a laddwyd gan y Saesoniaid yn y frwydr a elwir 'Gwaith Duw Sul yn Môn.' Fel aberth o ddiolchgarwch am y fuddugoliaeth hon, cyflwynodd Anarawd diroedd a meddiannau i Eglwysi Colegawl Bangor, a Chlynog Fawr, yn Arfon. Yn y cyfamser, medd yr hanes, yr oedd Cadell, Tywysog y Deheudir, yn ei fawr awydd am ragor o derfynau, wedi tori ewyllys ei dad, a thraws-feddiannu talaeth Merfyn, ei frawd. Yn y flwyddyn 893, aeth Anarawd, gyda gallu mawr o Saesoniaid yn ei gynnorthwyo, allan i ddïal cam Merfyn ar Cadell; ac ysbeiliasant oddi arno Geredigion ac Ystradgwy. Tua'r flwyddyn 900, sef ar farwolaeth Cadell, daeth Anarawd yn dywysog ar holl Gymru, a theyrnasodd arni hyd ei farwolaeth, yn 913, gan adael ar ei ol dri mab; sef, Idwal Foel, Elis, a Meurig.

ANWYL, Parch. EDWARD. Gweinidog enwog gyda'r Wesleyaid. Mab oedd i Owen ac Anne Anwyl, Ty'n-y-llan, plwyf Llanegryn, sir Feirionydd. Ganwyd ef Ebrill, 1786. Pan yn ieuangc, mynychai yr Eglwys Sefydledig gyda'i rïeni, y rhai oeddynt yn dra selog yn y gwasanaeth a'r gosper. Mewn canlyniad i farwolaeth ei dad, bu gorfod iddo adael yr ysgol pan tua deuddeng mlwydd oed; ond yn ffodus, cadwyd ef rhag myned gyda'r llifeiriant, o blegid yr oedd annuwioldeb yn uchel iawn ei ben yn y dyddiau hyny. Pan tua deunaw oed, derbyniodd argraph dwfn o dan weinidogaeth y Parch. Griffith Hughes, yn ystod ymweliad cyntaf y gŵr da hwnw â Llanegryn. Dyfnhawyd ei argyhoeddiad gan bregethau Mr. Jones, Bathafarn, a'r Parch. Robert Humphreys. Ymunodd â'r gangen-eglwys Wesleyaidd ar ei sefydliad cyntaf yn Llanegryn; ac yn 1808, dechreuodd bregethu, ar annogaeth y Parch. Hugh Hughes. Ei gylchdaith gyntaf oedd Ynys Môn, lle y llafuriodd gyda'r Mri. John Maurice a Maurice Jones. Yn mis Awst, 1814, priododd â Miss Mathews, Tre-lai, ger Caerdydd; a buont yn cyd-fyw am yr ysbaid maith o ddwy flynedd a deugain. Ar ddechreu ei yrfa weinidogaethol, pregethai lawer yn yr awyr agored, ar bob rhyw fath o dywydd; a chan ei fod yn ddyn o nerth corphorol cryf, yr oedd yn dra chyfaddas at y gwaith. Y mae ar gôf iddo gerdded deuddeng milldir a thrigain, a phregethu dair gwaith—a'r cyfan mewn un Sabbath. Gwnaeth deithiau tebyg i'r uchod pan yn agos i drigain mlwydd oed; a byddai y golwg milwraidd, cadarn-gryf, oedd arno yn cerdded yn tynu sylw cyffredinol. Un tro, pan oedd efe a Mr. Robert Owen yn cyddeithio at un o'r cyfarfodydd talaethol, yr oedd wedi myned yn hwyr arnynt mewn llanerch anghyfanneddol, rhwng Aberhonddu a Llanymddyfri. Yr oedd Mr. Owen ar geffyl, a Mr. Anwyl ar draed. Yn ddisymwth, wele ddyn mawr, â phastwn yn ei law, yn codi o ochr y ffordd, ac yn cyd-gerdded â hwynt; ond ni ddywedai ddim wrthynt. O'u blaen yr oedd coedwig fawr un ochr i'r ffordd, a disgynfa serth yr ochr arall. Yr oedd yn amlwg i'r teithwyr fod drwg wedi ei fwriadu iddynt. Yn ddisymwth, dododd Mr. Anwyl ei ysgwydd yn erbyn y dyn â'r pastwn, a hyrddiodd ef i'r dyfnder islaw. 'Yn awr, Owens, gyrwch arni,' meddai Mr. Anwyl. Ac felly y bu. Yn y man, clywent y creadur anffodus yn ngwaelod y ddisgynfa yn llefain ar ei gymmrodyr. Yn y modd yma y diangasant rhag niwed y tro hwnw.

Fel pregethwr, yr oedd Mr. Anwyl yn barchus, a derbyniol. Ei brif goll oedd diffyg trefn yn ei gyfansoddiadau. Ni byddai un amser yn fyr o feddyliau gwych a gwreiddiol. Bu yn y weinidogaeth am chwe blynedd a deugain; ac yn ystod y tymmor hwn, symmudodd un ar hugain o weithiau. Ei gylchdaith ddiweddaf oedd Llangollen. Yn Nghyfarfod Talaethol Caernarfon, Mehefin, 1854, hysbyswyd ei ymneillduad yn nghanol teimlad dwfn. Ar ol hyn, ymsefydlodd am dymmor yn Rhuthyn, yna yn Nhreffynnon—lle y bu efe farw, Ionawr 23ain, 1857.

ANWYL, Parch. LEWIS:—gynt gweinidog Ysbytty Ifan; wedi hyny Abergele, yn sir Ddinbych. Yr oedd efe yn awdwr y llyfrau a ganlyn:—'*Y Nefawl Ganllaw: neu'r uniawn ffordd i fynwes Abraham.*' '*Myfyrdodau Wythnosawl: sef, myfyrdod am bob dydd yn yr wythnos—yn enwedig amser y Grawys.*' '*Cynghor yr Athraw i Rïeni ynghylch dwyn eu Plant i fyny; yn cynnwys rhai meddyliau neillduol ar y testyn hwnw.*' '*Hyfforddiadau eglur i'r Ieuangc a'r Anwybodus; yn cynnwys eglurhâd hawdd a chryno o Gatecism yr Eglwys, wedi ei gymmhwyso i ddeall a chyffadwriaeth y Rhïeni o'r synwyr iselaf.*' Symmudodd i Abergele yn 1742, gan gymmeryd ei breswylfa yn Nhyddyn Morgan; ac yno y bu efe hyd ei farwolaeth. Claddwyd ef ger llaw y maen bedydd, yn llawr yr eglwys, Chwefror 27ain, 1776. Y mae traddodiad yn Abergele a'r cylliniau mai efe oedd awdwr 'Cathl y Gair Mwys.'

ARMADA. Gair Yspaenaidd, a ddefnyddir yn fynych mewn hanes; yr hwn, yn syml, a

Digitized by Google

olyga gallu arfog, ond a gymmhwysir fel rheol at y llynges Yspaenaidd a anfonwyd allan gan y wlad hono yn y flwyddyn 1588, i'r amcan o ddinystrio Prydain Fawr. Tua'r adeg hon yr oedd cynnydd Protestaniaeth yn peri cymmaint o flinder i ysbryd Philip II., o Yspaen, fel y penderfynodd geisio dinystrio Protestaniaeth trwy orchfygu Lloegr—yr hon wlad a drosglwyddwyd drosodd iddo yn ffurfiol gan y pab Sixtus V. Gwnaed parotoadau ëang yn holl borthladdoedd Yspaen, Portugal, a gwledydd eraill a berthynent iddo, ar gyfer yr anturiaeth; ac nid yn unig hyn, ond ymgasglodd y milwyr Pabaidd enwocaf o bob rhan o Ewrop i gynnorthwyo y brenin uchelgeisiol i gyrhaedd ei amcan. Wedi cwblhau y trefniadau, pennodwyd yr Ardalydd Santa-Crux—llyngesydd o enwogrwydd—yn llywydd y llynges hon, a'r Duc o Parma yn ben-cadfridog ar y milwyr. Yr oedd y duc wedi casglu byddin o 30,000 i Flanders, i ddisgwyl cyrhaeddiad y llynges yno, er ei gynnorthwyo i groesi y culfor. Ni ddaeth i galon Philip, na'i brif swyddogion, fod aflwyddiant yn bossibl yn yr ymdrech hwn; ac yn eithaf naturiol i rai a goleddant y fath syniad oedd galw y gallu ofnadwy hwn yn *Invincible Armada*—y Llynges Anorchfygol. Gellir cael rhyw syniad am ei nerth oddi wrth y ffigyrau a ganlyn:—Rhifai y rhyfel-longau 130; 65 o ba rai oedd yn gallu cario dros 700 tynell. Rheolid hwy gan 8,050 o forwyr; ac ar eu byrddau yr oedd 18,973 o filwyr; 1,382 o wirfoddolwyr (pendefigion, boneddigion, a'u gweision); a 150 o fynachod—gyda Martin Alasco, ficer y Chwilys. Cynnwysai hefyd 3,185 o fagnelau; a chyflawnder o ymborth i gyflenwi 40,000 o wŷr am chwe mis o amser. I gyfarfod y gallu ofnadwy hwn, nid oedd gan y frenhines Elizabeth ond 80 o ryfel-longau—o ba rai nid oedd ond 30 yn llestri o'r dosbarth cyntaf. Ond er yn llai mewn nifer, meddai y llynges Brydeinig beth mantais ar y gelyn, trwy ei bod yn haws i'w rheoli; a mordwyid hi gan 9,000 o forwyr blaenaf Ewrop. Arglwydd Brif lyngesydd Lloegr ar y pryd oedd Argl. Howard, o Effingham—Pabydd selog; ond gŵr o egwyddor uniawn, ac un o ddynion gwrolaf ei oes. Arno ef, yn rhinwedd ei swydd oruchel, y disgynodd llywyddiaeth y llynges; a chynnorthwyid ef gan y fath lyngeswyr enwog a Drake, Hawkins, a Frobisher. Gosodwyd ychydig o longau eraill dan lywyddiaeth Argl. Seymour yn nghyffiniau Dunkirk, gyda'r amcan o wylio y fyddin Yspaenaidd arall, oedd dan lywyddiaeth y Duc o Parma. Tra'r oedd y gallu-oedd hyn yn ymbarotoi i ddinystrio eu gilydd, disgwyliai holl Brotestaniaid Ewrop gyda'r pryder mwyaf am ganlyniad yr ornest ofnadwy; o blegid yr oedd dyfodol eu crefydd yn dibynu ar y modd y tröai y fantol. Dechreuodd anffodion ddisgyn i ran y llynges Yspaenaidd yn lled fuan. Bu y Llyngesydd Santa-Crux farw, pan yr oedd efe ar hwylio allan i'r môr; a pharodd ymosodiad beiddgar Drake ar yr ymborth-longau yn mhorthladd Cadiz i'r ymgyrch oedi peth. Pennodwyd y Duc o Medina Sidonia yn llyngesydd, fel olynydd i Santa-Cruz:—gŵr nad oedd yn meddu y gallu a'r medr angenrheidiol i'r fath swydd uchel. Pan yn Machwy Biscay, ymosodwyd ar y llynges gyda'r fath nerth gan yr ystorm ofnadwy a dorodd allan, fel y bu raid iddi droi i Ferrol am noddfa. Yr oedd yn agos i ddiwedd mis Gorphenaf pan wnaeth y llynges ei hymddangosiad ar ddeuddau deheuol Lloegr—heb fod yn neppell o Lizard Point. Y foment y daeth ei phresennoldeb yn hysbys, gwnaed arwyddion o'r ffaith trwy gynneu coelcerthi ar gopäau y bryniau—y ffordd a ddefnyddid yn yr oes hono, pan nad oedd ffyrdd haiarn, na phellebyr, fel yn y dyddiau hyn. Dynesai y llynges ar ffurf hanner lleuad, fel y dywedir; ac yr oedd yn mesur, o un tertyn i'r llall, tua saith milldir. Yn ol y trefniant cyntaf, yr oedd y llyngesydd Yspaenaidd i alw yn Flanders, i gymmeryd y milwyr drosodd gydag ef; ond taflodd y cynllun hwn heibio, gan benderfynu hwylio yn uniongyrchol i Plymouth; gyda'r bwriad o ddinystrio y llongau Prydeinig oedd yn y porthladd hwnw. Ond cyn iddo gyrhaedd, yr oedd Argl. Howard, a'i longau, wedi diangc allan oddi yno. Gwrthododd sefyll yn uniongyrchol o flaen nerth y gelyn; ac ni fynai ar un cyfrif ddyfod i gyrhaedd ergydion y rhyfel-longau Yspaenaidd. Ond nid oedd efe mewn un modd yn segur. Yn hytrach, ymosododd ar yr Yspaeniaid o'r pellder, gan ddefnyddio ei fagnelau mawrion gydag effeithioldeb ofnadwy. Suddai longau y gelyn y naill ar ol y llall; a gyrai eraill yn ffoedigion o'i flaen, a chymmerodd feddiant o amryw o honynt. Tra yr oedd yr Armada yn hwylio i fyny y Sianel, dilynai y llynges Brydeinig o'i hôl, gan beri blinder anaele iddi. Parhaodd yr ergydio am tuag wythnos, gyda'r fath effaith fel y bu raid i'r Yspaeniaid chwilio am nodded yn mhorthladd Calais. Trwy arfer dichell, llwyddodd y llyngesydd Prydeinig i gael gan y gelyn ymadael o'r porthladd mewn dychryn; ac ar doriad y wawr, daeth y llongau Saesnig o hyd iddynt ger llaw Gravelines. Wedi brwydr a barhaodd am chwe awr, yr oedd llongau goreu yr Yspaeniaid wedi eu dryllio yn arswydus, ac yn symmud o flaen y gwynt i gyfeiriad traethle dywodlyd Holland. Cwympodd dros 4,000 o'r Yspaeniaid, tra na laddwyd ond tua 100 ar y llongau Prydeinig; ac ni chollwyd cymmaint ag un long. Galwodd y llyngesydd Yspaenaidd ei swyddogion ynghyd i drafod y sefyllfa, a phenderfynasant ddychwelyd i'w gwlad; ond gan nas gallent wneuthur hyny ar hyd y llinell feraf, o herwydd y croeswyntoedd, cychwynasant heibio yr Orkneys. Torodd ystormydd y Môr Gogleddol arnynt, a chwblhawyd y dinystr a ddechreuwyd gan lynges Prydain. O'r holl lynges, ni chyrhaeddodd ond 54 o'r 130 yn ol i Yspaen; ac yr oedd lliaws mawr o'u morwyr yn marw oddi wrth effeithiau eu clwyfau, a'r afiechyd oedd yn ffynu yn eu mysg. Fel hyn y terfynodd yr anturiaeth ofnadwy a luniwyd yn meddwl Philip II. i ddinystrio Protestaniaeth yn Lloegr.

ARNOLD, MATTHEW. Un o brif feirdd Lloegr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac un o lenorion blaenaf ei oes. Mab hynaf oedd efe i Dr. Arnold, o Rugby; a ganwyd ef yn Laleham, ger llaw Staines, Rhag. 24ain, 1822. Gorphenodd ei addysg yn Rhydychain, lle yr ennillodd y *Newdigate Prize* yn 1843, am ei gerdd ar Cromwell. Graddiodd gydag anrhydedd yn y clasuron; ac yn 1845, etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg Oriel. Wedi bod am ychydig amser yn gwasanaethu fel ysgrifenydd preifat i Arglwydd Lansdowne, pennodwyd ef, yn 1851, yn arolygydd ysgolion; o'r hon swydd yr ymddiswyddodd yn 1885. Yn 1857, dewiswyd ef yn athraw barddonol yn Rhydychain;

Digitized by Google

ac anfonwyd ef fwy nag unwaith gan y llywodraeth i wneyd ymchwiliad i sefyllfa addysg ar y Cyfandir—yn neillduol felly yn Ffraingc, yr Almaen, a Holland. Tynodd ei adroddiadau gryn sylw yn Lloegr, a chyhoeddwyd hwynt mewn llyfr. Yn 1883, rhoddwyd blwydd-dâl o 250*p*. iddo; a'r un flwyddyn aeth ar daith ddarlithyddol i'r Unol Dalaethau. Gwnaeth Arnold, pan yn gymmharol ieuangc, enw anrhydeddus iddo ei hun fel bardd clasurol o'r dosbarth blaenaf. Yn 1854, cyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth, yn cynnwys detholion o weithiau blaenorol o'i eiddo—a gyhoeddwyd dan y llythyren 'A.' Yn 1885, cyhoeddodd argraphiad gweddol gyflawn o'i farddoniaeth, mewn tair cyfrol; ac ar bwys y rhai hyn, cydnabyddir ei fod yn sefyll yn y rheng flaenaf o feirdd diweddar. O ran purdeb ei ddychymyg, urddasolrwydd ei feddyliau, a chyfoeth ei arddull, y mae efe yn sefyll yn uchel; ac nid oes mewn un linell o'i waith ond yr hyn sydd yn hanfodol. Safai hefyd yn uchel fel beirniad; a dywedir fod ei feirniadaethau i'r cylchgronau Saesnig wedi gwneyd llawer tuag at godi beirniadaeth i'r sefyllfa y mae ynddi yn awr. Teyrnged o'r fath uchelaf i athrylith Arnold, ond nid mwy nag a haeddai, ydyw y syniad a goleddir gan lenorion o bob gradd am ei feirniadaethau; o blegid gosodir y rhai hyn, ynghyd â'i gyfansoddiadau llenyddol eraill, yn mysg clasurolion yr iaith Saesnig. Ei brif weithiau rhyddiaethol ydynt '*Essays on Criticism*;' '*Lectures on the Study of Celtic Literature*;' '*Culture and Anarchy*;' '*Last Essays in Church and Religion*;' '*Mixed Essays*;' '*Irish Essays*;' '*St. Paul and Protestantism*;' a *Literature and Dogma*.'

Bu farw yn ddisymwth, yn Liverpool, ar Ebrill 15fed, 1888.

---

# B.

BADDY, THOMAS. Yr oedd efe yn ysgolhaig gwych, a derbyniodd ei addysg wrth draed yr enwog Samuel Jones, o Frynllywarch. Ymsefydlodd yn Ninbych fel gweinidog yr eglwys Bresbyteraidd, ryw bryd tua'r flwyddyn 1693; ac yn y dref hon y bu yn llafurio hyd ei farwolaeth, yn 1729. Yr oedd efe, meddir, mewn amgylchiadau bydol lled gysurus; a pharai gryn flinder i'w gyd-weinidogion, ac i eraill, trwy wisgo yspardynau arian am ei sodlau pan yn marchogaeth. Yr oedd yn weinidog llafurus a duwiol, ac yn un a wnaeth ei oreu i ddyrchafu y bobl y llafuriai efe yn eu plith. Cyhoeddodd y llyfrau a ganlyn, rai o honynt yn gyfieithiadau :—'*Hymnau Sacramentaidd*, 1703;' '*Doolittle, ar Swper yr Arglwydd*, 1703;' '*Wadsworth, ar Hunan-ymholiad*, 1713;' '*Cynghaneddiad o Ganiadau Solomon, gyda Nodiadau Eglurhaol*, 1725;' a '*Dr. D. Williams, ar Wagedd Mebyd ac Ieuenctid*, 1727.'

BAKER, DAVID. Ganwyd ef yn Abergafenni, yn y fl. 1576. Yr oedd ei dad yn oruchwyliwr i Argl. Abergafenni, a'i fam yn chwaer i Dr. Lewis, barnwr y môrlys. Arfaethwyd ei ddwyn i fyny yn glerigwr Eglwysig; ond cododd rhwystrau yn erbyn hyny; a'r canlyniad fu, iddo gael ei anfon i'r Middle Temple, i efrydu y gyfraith. Blinid ef tua'r adeg yma gan syniadau Atheistaidd; ond yn lled fuan cymmerodd digwyddiad le yn ei hanes a barodd iddo ddyfod yn grefyddwr aiddgar a chydwybodol; a bu felly hyd ddiwedd ei oes. Dygwyd ef i gofleidio Pabyddiaeth; ac wedi cyfarfod â rhai mynachod Benedictaidd yn Llundain, aeth gydag un o honynt i Italy. Yno, yn nhref Padua, yn y flwyddyn 1605, cafodd ei dderbyn yn aelod o Eglwys Rhufain, gan un o'r abadau. Ar yr amgylchiad hwn, efe a newidiodd ei enw David, ac a fabwysiadodd yr enw Augustine yn ei le.

Gadawodd, mewn llawysgrifen, naw cyfrol unplyg mawr ar dduwinyddiaeth, yn Lleiandy Cambray; felly hefyd chwe chyfrol ar '*Hanesiaeth Eglwysig*;' defnyddiau pa rai a gasglwyd ganddo o'r llyfrgelloedd goreu. O'r casgliadau hyn y cafwyd defnyddiau yr '*Apostolatus Benedictinorum in Anglia*,' a gyhoeddwyd gan Reyner; ac hefyd defnyddiau '*Hanes Eglwysig Llydaw*,' a gyhoeddwyd gan Cressy; yr hwn hefyd a gyhoeddodd cyn hyny y '*Sancta Sophia*,' wedi ei gasglu allan o fwy na deugain o draethodau Baker. Bu farw yn Holborn, Awst, 1641, yn 66ain oed; a chladdwyd ef yn eglwys Sant Andreas.

BARTLEY, JOHN. Gweinidog hynod oedd efe, perthynol i'r Wesleyaid. Yr oedd yn fab i Richard a Mary Bartley, Trefriw, yn sir Gaernarfon. Ganwyd ef yn niwedd y flwyddyn 1803. Arferai ei rieni a mynychu eglwys y plwyf; ond pan sefydlwyd achos gan y Wesleyaid yn Llanrwst, bwriasant eu coelbren yn mhlith pobl yr Arglwydd yno; a hyny tua'r adeg y ganwyd y bachgen John, fel y cafodd fagwraeth grefyddol yn nechreuad ei fford. Ystyrid fod ei fam yn wraig rinweddol iawn; a daeth ei dad yn ŵr profiadol a dylanwadol yn yr eglwys ieuangc yn Llanrwst—yn mha le y derbyniodd ei addysg.

Wrth fyw gyda'r llangciau ar y fferm, teimlai John fod cynghorion ei fam yn colli yn eu dylanwad ar ei feddwl, a'i fod yntau yn myned yn fwy difater am foddion gras. Yn y dyddiau hyny, cymmerodd adfywiad crefyddol cryf le yn Nghylchdaith Dinbych a Llanrwst; a than

Digitized by Google

ddylanwad y sôn oedd yn yr ardal am hyny, denwyd ef i wrandaw pregeth ar noson yn yr wythnos i gapel Bron-y-nant, yn mhlwyf Llandrillo. Y diweddar Barch. David Evans (1af) oedd y pregethwr, a'i destyn ydoedd *Esaiah* xxxviii. 19. Yr oedd yr odfa hon yn un rymus anghyffredin. Ceid yno lawer yn wylo yn hidl, a llawer yn llefain am drugaredd, ac eraill yn gorfoleddu; a dyna'r pryd y cyrhaeddodd y Gair galon John Bartley. Cafodd lawer o ddyddiau blinion i'w feddwl o dan argyhoeddiad o bechod cyn iddo gyflwyno ei hun i'r Arglwydd, ac i'w bobl, yn Bettws Abergele.

Traddododd ei bregeth gyntaf yn Llysfaen, Medi 30ain, 1821. Aeth allan y Sabbath hwnw ar gais pregethwr arall; a phregethodd gydag ef heb gael caniatâd y Cyfarfod Chwarterol, na gair i'r perwyl hwnw oddi wrth arolygwr y gylchdaith chwaith. Galwyd sylw y Cyfarfod Chwarterol at hyn fel peth oedd yn hollol afreolaidd; ond gosodwyd ef yn ei le ar ol yr ymdriniaeth hono, trwy ei bennodi i fod yn bregethwr ar brawf, fel eraill o'i flaen. Nid oedd etto yn llawn 18eg mlwydd oed; ond yr oedd galw mawr am ei wasanaeth, o herwydd yr oedd y bobl yn credu fod Duw wedi llefaru wrth y bachgen. Bu yn pregethu yn gynnorthwyol am naw mlynedd yn nghylchdaith Dinbych a Llanrwst; a pherswadiwyd ef, o'r diwedd, i roddi ei hunan yn llawn a llwyr i waith y weinidogaeth. Ei fwriad ef ar y cyntaf oedd pregethu ar y Sabbothau, a thrin y tir ar hyd yr wythnos. Gadawodd gartref clyd i wynebu ar Gymru fel maes ei lafur, gan ddechreu yn Llangollen yr ail wythnos yn Rhagfyr, 1830. Cafodd odfa dda y nos Sabbath cyntaf yn y lle; a chwanegwyd amryw at rifedi yr eglwys y noson hono.

Ni chafodd ond ychydig o gyfleusderau i ddiwyllio ei feddwl trwy efrydiaeth yn ystod ei flwyddyn gyntaf, o herwydd fod maes ei lafur mor ëang. Digwyddodd felly hefyd iddo yn yr ail gylchdaith y llafuriodd ynddi; sef, Caernarfon. Rhanai ei lafur yno rhwng dwy gylchdaith; ac felly, yr oedd ei faes i bregethu ynddo yn cyrhaedd o Benmaenmawr i Aberdaron. Yn y dyddiau hyny, yr oedd cangen o Wesleyaid yn siroedd Caernarfon a Môn o dan yr enw 'Diwygwyr Wesleyaidd,' a phoenasant lawer ar John Bartley yn 1831—32; ond ymwrolodd yn nghanol y cynnhwrf annyddan fel milwr da i Iesu Grist.

Cafodd ddwy flynedd fanteisiol yn Nhreffynnon yn 1832—33; a thra yr oedd yno, meistrolodd yr iaith Saesnig yn ddigonol i fyned trwy ei arholiad mewn duwinyddiaeth heb gynnorthwy cyfieithydd. Yr oedd hyn cyn ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth yn nghynnadledd Llundain, Gorphenaf, 1834. Treuliodd y flwyddyn ganlynol gyda'r Cymry yn Manceinion. Symmudodd i Grughywel yn 1835; i Ferthyr Tydfil yn 1837, ac i Fachynlleth yn 1839. Yn niwedd mis Awst, yn y flwyddyn ddiweddaf a enwyd, ymunodd mewn glân briodas gyda Sarah, merch Thomas ac Anne Jenkins, Brooks, Cadoxton. Tra yn byw yn Machynlleth, efe a draddododd bregeth lafurfawr i wrthwynebu y syniadau dyeithr a gyhoeddwyd gan Mr. Howes, gweinidog gyda'r Annibynwyr, ar 'Y corph a fydd.' Testyn Mr. Bartley ydoedd, 'Pa beth, ai anghredadwy y bernir genych chwi y cyfyd Duw y meirw?' *Act.* xxvii. 8. Cyhoeddwyd y bregeth yn nghyfrol pregethau H. Humphreys, Caernarfon. Yn niwedd Awst, 1841, symmudodd i Lanrwst, gyda'i briod, a'i ferch gyntafanedig. Y mae y cylchdeithiau y llafuriodd efe ynddynt oll yn sefyll fel hyn:—Llangollen, Caernarfon, Treffynnon, Manchester, Crughywel, Merthyr, Machynlleth, Llanrwst, Llanfair-caereinion, Abermaw, Dinbych, Llanasa, Amlwch, Treffynnon, Bagillt, Manchester, Abergele, Llangollen, a Choedpoeth. Aeth yn weinidog 'uwchrif' (*supernumerary*) yn 1870; a chartrefodd am bum mlynedd yn Rhuthyn, a'r gweddill o'i oes yn Nghaergybi. Bu farw yn ddedwydd, wedi bod yn pregethu dros dair a thrigain o flynyddoedd, Chwefror 19eg, 1884, yn 81ain mlwydd oed; gan adael ei weddw, a thair o ferched, i alaru eu colled am briod ffyddlawn, a thad tyner a gofalus. Bu ei yrfa yn llawn o lafur—a lludded yn fynych. Heb unwaith golli ei enw da, parhaodd yn ffyddlawn hyd y diwedd. Cadwodd yn ei feddiant y 'gareg wen a'r enw newydd,' a gorphenodd ei daith a'i waith mewn buddugoliaeth.

Nid hawdd ydyw nodi pa le yr oedd cuddiad ei gryfder ef; canys nid oedd, fel ambell un amlwg, yn hynod mewn un peth; ond yr oedd yn lled gyflawn bron yn mhob peth. Yr oedd ganddo synwyr cyffredin cryf i ddechreu; ac yr oedd yn sylwedydd craffus, ac yn meddu gwybodaeth gyffredinol ëang; a chanddo gôf rhagorol. Gyda'r pethau hyn oll, gallai lenwi cylchoedd parchus, a bod yn ŵr o gynghor mewn cymdeithas; ac efe a fu felly. Yr oedd ganddo feddwl cynnyrchiol ac adgyweiriol hefyd; a gallai, fel 'llong marsiandwr,' ddwyn ymborth o bell.

Yn ei gymdeithas gyda dynion, yr oedd yn synwyrol, hydyn, a ffyddlawn. Tueddai at fod yn wylaidd, a braidd yn ofnus; ac oni bae fod ganddo barch mawr i argyhoeddiad ei gydwybod, a'i fod yn meddu penderfyniad sefydlog, a dyfal-barhâd diflino, ymddangosai ger ein bron fel un â chymmeriad gwan iddo. Nid felly yr oedd efe; ond ffyddlawn, gonest, a chryf; ac yn ddigon caredig i ddangos i'w gyfeillion eu beiau a'u gwendidau, heb eu hedliw iddynt. Er ei fod yn ofalus wrth ddewis ei gyfeillion, yr oedd yn hawdd i bawb fyned ato: canys nid oedd ynddo ef ddim o'r rhwysgfawredd hwnw welir mewn rhai dynion sydd yn cadw y gwan a'r ofnus draw. Yr oedd efe mor lednais a'r 'lili,' ac mor ddiymhongar a 'llygad y dydd,' pan mewn cymdeithas. Byddai yn hynod ddyddan gyda phregethwyr ieuaingc pan yn dwyn i'w sylw lyfrau buddiol, a dywediadau ffraeth enwogion gwahanol enwadau crefyddol; a dywedai yr oll er difyrwch ac adeiladaeth, heb gymmeryd arno ei fod yn eistedd yn eu mysg fel dysgawdwr. Wynebai dynion ieuaingc o dan arholiad ato er mwyn cael gwybodaeth lawn ynghylch eu safle; a phan mewn trallod, nid ofnent ddyweyd eu cŵynion wrtho. Un tadol a charedig ydoedd, a gŵr dyddan mewn cwmni ar daith. Gallai yn hawdd wneuthur defnydd o brif areithiau ein seneddwyr, o ddigwyddiadau neillduol teyrnasoedd, a gweithrediadau arwrol cenhadon hedd ar feusydd tramor; a gwnai hyny heb wthio ei hunan i'r golwg o gwbl, na gwasgu ei hoff bethau ar neb, er mwyn dangos ei ystôr o wybodaeth. Yr oedd ganddo galon i gydymdeimlo â'r custuddiol, a gallu rhyfeddol i fyned i mewn i holl amgylchiadau helbulus plant dynion. Byddai yn hollol ysbrydol yn mysg ei frodyr gweinid-

Digitized by Google

ogaethol, a'r un modd hefyd yn mysg y bobl yn gyffredinol. Yr oedd ei enw yn air teuluaidd ar aelwydydd yn y cylchdeithiau y llafuriodd ynddynt.

Gyda golwg ar Mr. Bartley fel pregethwr, yr oedd yn sefyll yn amlwg yn mhlith pregethwyr ei oes, ac yn boblogaidd hefyd yn anterth ei nerth. Er nad oedd mor boblogaidd a rhai o'i gyd-oeswyr, etto yr oedd efe yn allu cryf yn y weinidogaeth; a chadwodd ei urddas i fyny wedi iddo gyrhaedd hen ddyddiau. Pan safai yn yr areithfa, neu y pulpud, y peth cyntaf a darawai y gwrandawyr ydoedd ei symledd pryderus; ond er hyny, byddai yn hunan-feddiannol. Darllenai yr emyn cyntaf yn hollol naturiol, gyda llais esmwyth—etto hyglyw. Nid oedd dim neillduol i'w glywed yn ei bwysleisiadau, heb law y byddai yn pwyso llawn cymmaint a'r cyffredin ar y 'llafariaid' wrth acenu. Yr oedd ganddo ddawn gweddi hynod ddymunol ac effeithiol. Dygai wahanol anghenion y gynnulleidfa ger ei bron mewn iaith weddus, ac mewn ysbryd gwylaidd. Wedi darllen ei destyn, cymmerai hamdden i ddangos ei gyssylltiadau; a chodai i'r golwg dri neu bedwar o benau o'r gwirionedd a orweddai ynddo, a dwy neu dair o wersi ymarferol ar bwys y gwirionedd hwnw. Nid oedd hyny ond edrych ar wahanol agweddau yr un gwirionedd; ond byddai yn nodi allan yr oll yn nechreu ei bregeth. Yr oedd ei frawddegau, fel rheol, yn hirion, a chanddo gyflawnder o eiriau Cymraeg i'w cynnal i fyny. Siaradai yn naturiol, heb fod ynddo ddim ymgais tuag at wneyd argraph ar ei wrandawyr, trwy y defnyddiad o'r llais dymunol oedd ganddo. Dechreuai yn bwyllog, mewn tôn a llais ymddiddanol; a gwasgai yn mlaen yn ddyfal, ond arafaidd, gan gadw o gwmpas yr un nodyn mewn sain, nes y chwyddai y pwngc o dan ei driniaeth, a chynnhesu o'i ysbryd yntau hefyd. Byddai ei ymresymiad braidd yn hir, fel ei frawddegau, cyn disgyn yn rymus ar feddwl ei gynnulleidfa. Nid oedd yn enwog fel ymresymwr. Byddai yn gryf gyda chymmhariaeth ddewisol pan y dygai hono i egluro ei feddwl; a'r pryd hyny, byddai y gynnulleidfa ac yntau yn ymyl eu gilydd. Newidiai ei lais yn naturiol, a chlywid ynddo rhyw lef orfoleddus; ac felly y parhäai i siarad hyd at y gwersi ar derfyn y bregeth. Anfynych y codai at yr addurnol a'r mawreddog; ond ni byddai byth yn disgyn yn isel, fel ag i dori deddf chwaeth. Ymdrechodd i symmud gyda'r oes, trwy ddarllen y llyfrau diweddaraf. Mynych y newidiai ei hen lyfrau am rai newyddion. Fel gwas ffyddlawn, efe a wnaeth waith efengylwr. 'Pethau buddiol, sef yr edifeirwch sydd tuag at Dduw, a'r ffydd sydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist,' oeddynt brif bethau ei fywyd; a bu yn llwyddiannus i droi 'llawer i gyfiawnder.'

BASSETT, CHRISTOPHER. Mab oedd efe i Christopher Bassett, ac Alice ei wraig, o Aberddawen, yn mhlwyf Penmarc, sir Forganwg. Ganwyd ef, fel y bernir, yn y flwyddyn 1753; a phan ofynodd ei dad iddo pa un fuasai oreu ganddo, myned i Rydychain, neu ynte byw ar ei dir ei hun yn y wlad, attebodd:—'Yr wyf yn gobeithio y caf dreulio fy mywyd i ddyweyd y gwir dros Dduw wrth fy nghyd-greaduriaid, er gogoniant i Iesu Grist, a thragwyddol ddaioni i ddynion.' Ar hyn, penderfynodd ei dad ei ddwyn i fyny i'r weinidogaeth; ac anfonodd ef i Rydychain i berffeithio ei addysg. Wedi graddio yn A.C. yno, derbyniodd alwad i fod yn giwrad i'r enwog William Romaine, yn Blackfriars, ac urddwyd ef i'r weinidogaeth gan Esgob Llundain. Etholwyd ef hefyd yn ddarlithydd i eglwys St. Ethelburg—lle, yn fuan, y daeth ei dalentau disglaer i sylw. Wedi dioddef afiechyd poenus yn y brif-ddinas, ar gais ei rieni, dychwelodd i Gymru. Yn 1778, cawn ef yn giwrad eglwys St. Fagan, ger llaw Caerdydd; a dyma'r pryd y darfu i'w gydymdeimlad â'r Methodistiaid Calfinaidd wneyd ei enw yn hysbys y tu allan i gylch ei sir ei hun. Tua'r pryd hwn, yr oedd y Methodistiaid yn dechreu gwreiddio yn y wlad; ac edrychai Bassett arnynt fel y gallesid disgwyl i Gristion gwirioneddol ac egnïol. Canfyddodd mai dwyn eneidiau at Grist oedd eu hymgais mawr; ac o herwydd hyn, er yn giwrad yn yr Eglwys Sefydledig, cawsant ei gydymdeimlad llwyraf. Er mwyn cefnogi eu hamcan, cymmerodd dŷ dan ardreth gan un o'r enw Batholomew Howell; yr hwn a drosglwyddodd efe i'r Methodistiaid, i gynnal moddion gras ynddo. Parhawyd i addoli yn y tŷ hwn hyd y flwyddyn 1837, pryd yr adeiladwyd capel yn ei le. Tra yn parhau i ddal y giwradiaeth, gwnelai Bassett lawer er llwyddiant achos yr Arglwydd yn y tŷ uchod; ac am hyny, gelwid ef yn 'Fethodus' gan ei frodyr yn y ffydd Eglwysig; ond nid effeithiodd hyn ddim arno. Bu ar daith trwy Ogledd Cymru unwaith, o leiaf; ac yn ol pob tebyg, ei gydymaith ar y daith hon oedd yr enwog Jones, o Langan. Cyn terfyn ei oes, rhoddodd y giwradiaeth i fyny, a throdd i wasanaethu yr eglwys oedd yn Mhorthceri ar fin y môr. Yn haf y flwyddyn 1783, tra yn pregethu yn nghapel Crai, yn Mrycheiniog, tarawyd ef gan afiechyd nas gadawodd ef; ac ar yr 8fed o Chwefror, 1784, bu farw yn Nghaerodor, yn 31ain mlwydd oed. Y Sabbath dilynol, traddodwyd pregeth angladdol iddo gan ei hen gyfaill, y Parch. David Jones, o Langan.

BATTEN, Y PARCH. WILLIAM. Brodor o Ddinbych oedd efe, ac un o flaenffrwyth y weinidogaeth Wesleyaidd yn Ngogledd Cymru. Nid oes hysbysiad manwl am ddydd ei enedigaeth. Tebygol mai ar derfyn y flwyddyn 1778 y ganwyd ef. Ceir yn hen gôf-lyfrau yr Eglwys Wen, yn Nyffryn Clwyd, i'r plentyn 'William Beaton' gael ei fedyddio Chwefror 16eg, 1779. Bu llawer chwyldröad ar fyd ac eglwys er 1778. Nid oedd y Feibl Gymdeithas wedi ei sefydlu—yr Ysgol Sabbothol heb ei chydnabod yn adran o fyddin Arglwydd y Lluoedd gan yr eglwys yn gyffredinol—sefyllfa y wlad yn isel mewn crefydd a moes—ac awen beirdd yn mynych fytheirio dirmyg ar ymdrechion yr ychydig weithwyr yn y winllan—John a Charles Wesley yn anterth eu poblogrwydd, Wesleyaeth yn blaguro tu hwnt i Glawdd Offa, Methodistiaeth Gymreig yn ei babandod, ac odlau pêr Williams, o Bant-y-celyn, ac Anne Griffiths, o Ddolwar, yn cynnorthwyo i wasgaru tân y diwygiad trwy yr holl Dywysogaeth.

Tyfodd William Batten yn ddyn o daldra cyffredin, ei ysgwyddau yn gydbwys, ei wynebpryd yn awgrymiadol, cyfluniaidd o gorph, ysgafndroed yn ei gerddediad, chwim ac eofn ei symmudiadau, bywiog, parod ei ymadrodd, llawn o arabedd tymmherus, teimladwy, a hynod

Digitized by Google

ryddfrydig; yr hyn, er yn ddiarwybod iddo ei hun, a dynai ato lawer o gyfeillion ffordd bynag yr elai. Bu rhai o'r nodau gwahaniaethol hyn yn gymmhwysderau ynddo mewn blynyddoedd diweddarach er ymwneyd â llawer math o bobl y deuai i gyffyrddiad â hwynt, ac er cwmpasu cylchoedd galwadau gweinidogaethol.

Yn gyffelyb i'r mwyafrif o ieuengctyd ei oes y treuliodd ei flynyddoedd boreuaf—yn anystyriol, direidus, a di-Dduw. Er nad ydyw yn llai possibl ymgeleddu y pechadur penaf na'r moesol-ddyn mwyaf bucheddol—achub Saul o Tarsis, na meithriniad crefydd o'i febyd yn Timotheus, ei fab naturiol yn y ffydd—y mae, er hyny, yn fwy trafferthus yn y naill nag yn y llall. Y mae'n amlwg ddigon fod yr Ysbryd Glân yn cael natur ddirywiedig yn fwy gweithiadwy mewn un nag arall o blant dynion—rhai yn fwy o 'bobl barod i'r Arglwydd.' Yn ngwyliau Nadolig 1802, cynnaliwyd cyfarfod chwarterol y Wesleyaid yn nhref Dinbych. Yr oedd y Parch. Lot Hughes yn bresennol. Pregethodd Mr. R. Harrison, Llaneurgain, a Mr. Bryan. Testyn Mr. Bryan oedd *Luc* xiii. 6—9. Yr oedd Mr. Batten y noson hono (nos Calan) yn y dafarn. Yn mîn y nos, dywedodd un o'r cwmpeini:—'Mae Mr. Bryan yn pregethu heno yn nghapel y Wesleyaid—a ddeuwch chwi yno?' Arwyddodd gydsyniad parod ar y cymhelliad cyntaf: aeth o ganol cwmni llawen y gyfeddach i wrandaw yr efengyl y noson hono. Bu yr oedfa, dan fendith, yn foddion ei ddeffroad i iawn ymsyniad am ei gyflwr colledig, fel y penderfynodd roddi ei hunan i'r 'Arglwydd, ac i'w bobl, yn ol ewyllys Duw.' Teimlai mai digon yr amser a aeth heibio i wasanaethu gelyn Duw a dyn. Llefarai yn hyglyw, 'Brysiais, ac nid oedais.' Gwnaeth broffes gyhoeddus, ac arddeliad cysson o'r Arglwydd, yr hwn a'i prynodd, hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd y cyfnewidiad mor drwyadl ynddo fel yr ymdrechai ymgadw rhag pob rhith drygioni; ac nid oedd y rhai a'i hadwaenai oreu yn meddu yr ammheuaeth lleiaf ynghylch ei gyflawn ddychweliad at yr Arglwydd. Ceid prawf ei fod yn bren planedig gan Ddwyfol law yn y 'ffrwythau cyfiawnder a gynnyrchai er gogoniant a moliant i Dduw.' Daeth i ymhyfrydu yn nghyfraith yr Arglwydd; a mwynhau ei ddyddanwch, oedd felusach na dyferiad mêl, a gwerthfawrocach 'na miloedd o arian ac aur.' Byddai ordinhadau y cyssegr yn foreubryd gwelltog a dyfroedd tawel iddo, yn adfywio a llawenychu ei galon. Ni chollai unrhyw gyfarfod crefyddol na theimlai amddifadrwydd blin o'r herwydd. Pleser ei fywyd, erbyn hyn, fyddai 'edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac ymofyn yn ei deml.' Rhyfedd iawn oedd gwaith dwyfol ras yn gwneuthur crwydryn estronol, di-amcan, a di-reolaeth, yn gyd-redol âg ewyllys y Deddf-roddwr mawr, ac yn gyfranog o'i 'sancteiddrwydd ef!'

Yn 1803 y tueddwyd ei feddwl i bregethu; a mynegodd ei deimlad wrth y Parch. Owen Davies, yr hwn a ystyrid yn dad gan yr holl weinidogion y pryd hyny. Pregethodd yn Nantglyn, Ceryg-y-druidion, Henllan, Llandyrnog, a rhai manau eraill. Ar ol hyny, pregethodd 'ei bregeth brawf' yn nghapel Dinbych, o flaen Mr. Owen Davies—yr hwn oedd yn y pulpud y tu cefn iddo. Heb law Mr. O. Davies, yr oedd yno feirniad arall wedi dyfod i'r oedfa. Dyn lled oedranus, o ymddangosiad hynod, â'i ddiwyg yn henafol:—a chap o lian gwyn am ei ben, ac yn eistedd ar ei gyfer yn yr oriel—un y gwyddai oedd yn ddiarebol am ei athrylith i wawdio a chondemnio rhai o'r dynion yn ei ddyddiau ef a ddringent i bulpudau, yn ol ei farn ef, er budr-elw. Nid oedd y gwron hwnw yn neb llai na '*Twm o'r Nant;*' yr hwn a gadwodd ei lygaid llymdreiddiol i syllu arno hyd derfyn y bregeth; ac ysgafnhâd mawr i feddwl y pregethwr ieuangc oedd teimlo yn dadol law '*Bardd y Nant*' ar ei ysgwydd wrth ymadael o'r capel, a'i glywed yn dyweyd wrtho, 'Da, machgen i! Dal ati—a thi wnei y tro!' Dyna hefyd oedd barn y Parch. Owen Davies; ac yn 1804, efe a anfonwyd i'r gwaith teithiol. Bu hyn yn lled gynnarol ar ei yrfa grefyddol hefyd. 'Y cynhauaf yn ddïau sydd fawr, ond gweithwyr sydd anaml.' A barnu yn ddynol, nid oedd y rhagolygon yn bur ddisglaer. Penodwyd ef i lafurio ar gylchdaith Rhuthyn, yr hon a gyrhaeddai i derfynau pellaf sir Drefaldwyn:—maes ëang, ac ychydig o gyfalaf; a llengcyn heb ddiwylliant yn arweinydd y doethion a'r rhai deallus i'r nef, a milwr heb ymarfer ond ychydig â'r arfogaeth yn cymmeryd uchelfanau y maes yn myddinoedd y Duw byw! Y mae meddyliau a ffyrdd Duw yn wahanol, ac yn tra rhagori ar feddyliau a ffyrdd dyn. Ei arfer ef ydyw darostwng balchder a myfiaeth i gywilydd, a dyrchafu y gostyngedig o ysbryd i anrhydedd. Dan yr ystyriaeth fod pob peth o Dduw yn y ffordd o gymmhwysder a llwyddiant yr anturiodd W. Batten i'r maes; ac ni siomwyd ef. Bu yr 'hael Ysbryd' iddo ef yn nerth, yn Ddiddanydd, ac yn arweinydd i bob gwirionedd. Byddai ei bregethau yn syml a hynod ffyddlawn, yn amcanu at ddynoethi cuddfeydd llygredigaeth calon ddrwg, a dadgan yn ddifloesgni barodrwydd Duw i faddeu i'r edifeiriol. Byddai ei appeliadau yn ddwys, tanllyd, a llawn o gydymdeimlad. Darluniai ogoniant, cariad, a dagrau y Gwaredwr mor effeithiol ar rai adegau nes y toddai calonau oedd galetach na'r adamant. Yr oedd yni ei natur mewn corph a meddwl, ynghyd â gras Duw yn y galon, yn gymmhwysder gwerthfawr ynddo er cyrhaedd pwrpas mawr ei weinidogaeth. Nis gallai ymgymmeryd âg esmwythyd, na chyddynu â segurdod. Ni all na byddai teithiau hirion, ar lwybrau geirwon, at gynnulliadau bychain, trwy wlawogydd trymion, yn demtasiwn i dori cyhoeddiad ar lawer adeg; ond nid esgeulusai ac ni anghofiai y praidd bychan wrth odrau'r mynydd yn y pellderau, gan nad faint y llafur i fyned atynt. Yr oedd esampl yr Athraw Mawr, a bregethodd ar hanfod bywyd ysbrydol, ac a eglurodd ddirgelion teyrnas Dduw i mor lleied ag un mewn cynnulliad ar y pryd, yn seren arweiniol ganddo. Elai 'yn bob peth i bawb,' er mwyn ennill rhai. Aberth byw ydoedd! ac ar yr allor y treuliodd ei oes!

Cawn fod agwedd cymdeithas wedi cyfnewid yn fuan mewn chwaeth ac ymarferiad yn y blynyddoedd diweddaf; ac yn neillduol felly y genedl Gymreig—cyfnewidiad er gwell hefyd mewn llawer o bethau. Ond sicr genym na wna darganfyddiadau 'Cymru fydd,' mwy na dadblygion 'Cymru sydd,' gyfreithloni gwthio y cyfarfod gweddi, y seiat, a'r moddion crefyddol ar ddyddiau yr wythnos dros y terfynau. Er pob goleuni newydd a geir ar lwybrau yr anialwch, ac ar ymdaith y pererinion tua'u gwlad, llesmeirio a wna'r teithwyr oll os dyhysbyddir

Digitized by Google

ffynnonau iachawdwriaeth. Byddai y llefain am drugaredd, a'r sain cân a moliant a glywid yn ngwersyll y saint tua dechreu y ganrif hon, yn argoel sicr fod 'Ysbryd y peth byw' yn y cynnulliadau.

Yr oedd W. Batten yn hynod ddeheuig yn gweinyddu ei swydd fel arolygwr cylchdaith. Arferai ddysbwylledd cyn pasio barn derfynol. Yr oedd derbyn wyneb, gweniaeth, ac unochraeth, yn bethau hollol ddyeithr iddo—yn llawn o'r 'cariad ni feddwl drwg,' yn gall a doeth, yn deall y pethau sydd â gwahaniaeth rhyngddynt. Byddai ei ymdriniaeth mewn achos o gamddeall ac ymryson bron yn ddieithriad yn terfynu yn nghwlwm y tangnefedd. Elai y pleidiau pell ymaith mewn cydgordiad brawdol.

Etholwyd ef gan y Cyfarfod Talaethol yn gynnrychiolydd i bwyllgor y sefydliadau (*stations*) yn y gynnadledd dro ar ol tro; a chafodd yr anrhydedd o'i bennodi gan y gynnadledd yn gadeirydd y Dalaeth Ogleddol am bum mlynedd yn olynol; a thrwy ei ddoethineb a'i ffyddlondeb, profodd ei hun yn deilwng o'r ymddiriedaeth bwysig hon. Gweithiodd yn ddifefl, gan iawn gyfranu Gair y bywyd. Pregethai y 'gair mewn amser, ac allan o amser.' Ymwelai â'r cleifion, ac â'r tlodion, a'r rheidus, yn ddi-rwgnach, hyd derfyn ei oes faith. Wedi 39ain o flynyddau mewn llafur cylchdeithiol, caniatawyd iddo fyned i restr 'yr uwchrif;' ond wedi math o encilio o'i gylch mwy cyhoeddus, parhaodd i bregethu bob Sabbath, o'r bron, tra y bu yn alluog. Daliodd ei iechyd cyffredin yn lled ddi-ammhariaeth wedi ei ddyfod yn uwchrif; a bu o wasanaeth gwerthfawr i'r eglwysi yn nghylchdaith Llanfyllin, a'r cyffiniau, am flynyddau. Araf yr adfeiliai ei natur; ond daeth y diwedd! Cafodd un ac ail rybudd fod amser ei ymddattodiad yn nesau. Yr oedd ei waith wedi ei orphen—yr einioes a'i yrfa yn cydderfynu. Nis gallai cyhuddwr y brodyr, na'r gelyn diweddaf, ei gywilyddio am ei obaith. Ei eiriau olaf oedd, 'Digonir fi pan ddihunwyf â'th ddelw di.' Bu farw yn Llansantffraid-yn-Mechain, Medi 1af, 1864, yn ei 86ain mlwydd oed, a'r 61ain o'i weinidogaeth.

BAVARIA. Un o dalaethau ymherodraeth Germany; yr hon, yn ol ei maint, ydyw yr ail mewn pwysigrwydd. Dosrenir Bavaria i ddwy ran anghyfartal, a wahenir gan diriogaethau Baden, a Hesse Darmstadt. Y mae y rhan ddwyreiniol yn un ran ar ddeg allan o ddeuddeg fwy na'r llall. Y mae cyffindiroedd y dalaeth yn cyffwrdd âg Alsace-Lorraine, Prwssia, Bohemia, Awstria, a'r Tyrol. Rhenir Bavaria i wyth o ddosbarthiadau, fel y canlyn:—

| Dosbarthiadau. | | Arwynebedd mewn mill. pet. | | Poblogaeth yn 1885. |
|---|---|---|---|---|
| Bavaria Uchaf | ... | 6,455 | ... | 1,004,716 |
| Bavaria Isaf | ... | 4,133 | ... | 660,616 |
| Palatinate | ... | 2,288 | ... | 696,216 |
| Palatinate Uchaf | ... | 3,845 | ... | 537,953 |
| Franconia Uchaf | ... | 2,702 | ... | 576,028 |
| Franconia Ganol | ... | 2,922 | ... | 671,336 |
| Franconia Isaf | ... | 3,243 | ... | 619,865 |
| Swabia a Neuberg | ... | 3,787 | ... | 649,450 |
| Cyfanswm | ... | 29,375 | ... | 5,416,180 |

*Prif drefi*, &c.—Y mae y wlad ychydig yn llai nag Ysgotland. Y brif dref yw Munich—trigolion yr hon a rifant 261,981. Y trefydd eraill o bwys ydynt Nuremburg, gyda 114,632 o drigolion; Augsburg, gyda 57,000; a Würzburg 6,000. Y mae yn y wlad tua 3,200 milldir o ffyrdd haiarn; ac y mae y rhan hono o'r afon Danube sydd yn rhedeg drwy Bavaria yn 270 milldir o hyd.

*Hinsawdd, Cynnyrchion*, &c.—Amrywia ardymmheredd y wlad yn awr mewn gwahanol ardaloedd; ond gellir ystyried yr hinsawdd, ar y cyfan, yn dyner ac iachus. Profir hyn gan y ffaith fod cyfoeth y wlad yn gyfansoddedig yn mron yn gyfangwbl o gynnyrchion amaethyddol. O'r tu deheu i Munich, y mae gwastadedd ffrwythlawn, a ddisgrifir weithiau fel ŷd-lofft (*granary*) yr Almaen. Yn Franconia, tyfir gwinwydd ar raddfa helaeth; ac y mae y gwin a geir yno o ansawdd ragorol. Cyfrifir fod dros 16,000,000 galwyn o win yn cael ei gynnyrchu yn flynyddol yn Bavaria. Wrth odrau, ac ar lechweddi mynyddoedd yr Alpau, megir anifeiliaid gan yr holl breswylwyr; a dyma eu prif alwedigaeth yn y rhanbarthau hyny. Mŵnau y wlad yn benaf ydynt halen (yr hwn sydd yn feddiant y llywodraeth), glô, a haiarn.

*Cynnyrchion llaw-weithfäol.*—Ond odid nad oes un wlad yn Ewrop y mae y gelfyddyd o ddarllaw cwrw wedi cyrhaedd y fath berffeithrwydd ynddi ag yn Bavaria. Y mae yno agos i bum mil a hanner (5,400) o ddarllawdai, yn mha rai y cynnyrchir o ddeutu 110,000,000 o alwyni o gwrw yn flynyddol; ac yfir hwn yn mron yn gwbl o fewn y wlad ei hun. Dywedir fod dwy ran o dair o holl gyllid y dalaeth yn deilliaw o'r ffynnonell hon yn unig.

*Poblogaeth.*—Y mae rheolau y wlad ynglŷn â phriodasau yn gyfryw fel y dywedir eu bod wedi attal i'r boblogaeth gynnyddu. Nis gall priodas gymmeryd lle nes y ceir caniatâd yr awdurdodau; ac yn enwedig, nes y rhoddir boddlonrwydd trwyadl i warcheidwaid y tlodion y gall y ddeu-ddyn fydd yn arfaethu priodi gadw teulu. Un canlyniad difrifol o'r rheolau caeth hyn ydyw, eu bod yn arwain i gynnydd yn nifer y plant anghyfreithlawn a enir yn y wlad. Yn mhrif dref y dalaeth, y mae nifer y plant anghyfreithlawn a enir, ar adegau, yn cyrhaedd rhif uchel iawn. Er enghraifft, yn 1859, yr oedd y plant anghyfreithlawn trwy'r wlad yn rhifo 23·6 y cant o'r cyfan a anwyd; yn 1884, yr oedd y cyfartaledd yn 13·87 y cant. Y mae y cyfartaledd hwn yn uwch nag mewn un wlad arall yn Ewrop. Poblogaeth Bavaria yn 1817 oedd 3,564,757; yn 1833, yn 4,187,390; yn 1885, 5,416,180; ac yn 1890, yn 5,594,982.

*Crefydd, ac Addysg.* Yn y flwyddyn 1890, ymranai y bobl o ran eu crefydd fel y canlyn:—yr oedd 3,959,077 yn Babyddion; 1,569,176 yn Brotestaniaid; a 53,885 yn Iuddewon; a sectau eraill, 12,844. Y mae y wladwriaeth yn caniatau perffaith ryddid crefyddol, ac yn sicrhau yr un iawnderau gwladol i'r Pabyddion ag a wneir i'r Protestaniaid. Derbynia yr Eglwys Babaidd ei chyllid oddi wrth diroedd a gwaddoliadau; a chynnelir yr Eglwys Brotestanaidd gan y wladwriaeth. Y mae yno gyfundrefn dda o addysg, dan ofal gweinidogion cyhoeddus. Heb law ysgolion elfenol, y mae yno nifer fawr o ysgolion crefftol o wahanol fathau, ynghyd â thair o brif ysgolion, yn Munich, Würzburg, ac Erlangen—un o honynt yn Brotestanaidd.

*Llywodraeth, Cyllid, &c.*—Llywodraeth gyfansoddiadol yw eiddo Bavaria; a'r orsedd yn disgyn yn etifeddol o dad i fab, &c. Nid ydyw

Digitized by Google

cyfansoddiad gwladol presennol y deyrnas hon ond cymmharol ddiweddar, o ran ei sefydliad; o blegid yn y flwyddyn 1818 y cyhoeddwyd y dalaeth yn rhan o'r Almaen Gynghreiriol, neu Unedig (*Confederated Germany*). Y mae y brenin yn corphori ynddo ei hun y gallu gweinyddol; ond delir ei weinidogion yn gyfrifol am eu holl weithredoedd. Cynnwysa y ddeddfwrfa ddau dŷ; sef, tŷ o seneddwyr (*senators*), ac un arall o ddirprwywyr (*deputies*). Cymmer y seneddwyr eu seddau ar yr egwyddor etifeddol; ond etholir dirprwywyr yn y cyfartaledd o un ar gyfer pob 31,500 o'r boblogaeth. Yr oedd cyllid y wlad yn 1892—93 o ddeutu 15,314,613*p.*; a'r treuliau rhywbeth yn debyg. Y ddyled wladol yn 1893 oedd 66,554,707*p.*; ac o'r swm enfawr hwn, gwariwyd y swm mawr o 48,373,020*p.* ar wneuthuriad ffyrdd haiarn.

Y brenin presennol ydyw Otto:—yr hwn a anwyd Ebrill 27ain, 1848; ac a ddilynodd ei ddiweddar frawd, Louis II., Mehefin 13eg, 1886.

BAYLY, LEWIS, D.D. Yr oedd efe yn enedigol o dref Caerfyrddin; a gorphenodd ei addysg yn Ngholeg Exeter, Rhydychain. Ychydig sydd wedi ei gofnodi am ddyddiau boreu ei oes; ond yn nghofnodau Rhydychain am y flwyddyn 1611, ymddengys ei enw fel gweinidog Evesham, yn sir Gaerwrangon; fel caplan i'r Tywysog Harri; a gweinidog eglwys St. Matthew, yn Friday Street, Llundain. Ar sail ei glod fel pregethwr, pennodwyd ef yn gaplan i'r brenin Iago I.; yr hwn a'i gwnaeth yn Esgob Bangor. Urddwyd ef i'r swydd hon yn Lambeth, Rhagfyr 8fed, 1616. Ar y 15fed o fis Mehefin, 1621, bwriwyd ef i garchar yn Fleet Street, am ryw drosedd anhysbys; er y bernir mai o herwydd ei ymddygiad neu ei sylwadau ar briodas y Tywysog Harri â'r Infanta o Yspaen oedd yr achos o hyny. Ni bu yn hir mewn caethiwed; o blegid rhyddhawyd ef, ac ail ymaflodd yn ei ddyledswyddau blaenorol. Efe oedd awdwr traethawd rhagorol yn dwyn y teitl '*The Practice of Piety*,' yr hwn a aeth trwy drigain, namyn un, o argraphiadau erbyn y flwyddyn 1734. Cyfieithwyd ef i'r Gymraeg dan y teitl, '*Ymarfer o Dduwioldeb*.'

Bu Dr. Bayly farw Hydref 23ain, 1631; a chladdwyd ei weddillion yn eglwys gadeiriol Bangor. Gadawodd bedwar o feibion ar ei ol.

BAYLY, THOMAS, D.D. Mab ieuangaf Dr. Lewis Bayly. Wedi graddio yn Nghaergrawnt, pennodwyd ef gan y brenin, yn 1638, i is-ddeoniaeth Wells. Yn 1646, ceir ef yn Nghastell Ragland, gydag Iarll Caerwrangon, yn amddiffyn y castell dros y brenin yn erbyn y Gwerinwyr. Yna aeth i Ffraingc, a gwledydd eraill; o ba rai y dychwelodd ar farwolaeth Siarl I. Yn fuan cyhoeddodd lyfr yn dwyn y teitl '*Certamen Religiosum; or, a Conference between King Charles and Henry, late Marquis of Worcester, concerning Religion in Ragland Castle*, 1649.' Yr oedd y llyfr hwn yn tueddu at Babyddiaeth; a syrthiodd yr awdwr yn fawr yn marn y cyhoedd. Yr un flwyddyn, cyhoeddodd lyfr arall, '*A Royal Charter granted unto Kings by God himself*;' ac ynglyn âg ef un arall, '*A Treatise, wherein is proved that Episcopacy is Jure Divino*.' Canlyniad cyhoeddiad hwn ydoedd, i'r werin-lywodraeth ei daflu ef i garchar Newgate. Tra yno, cyfansoddodd '*Herba Parietis; or, The Wall Flower, as it grows out of the Stone Chamber belonging to the Metropolitan Prison, which is partly true, partly romantic, and morally divine*, 1650.' Yn uniongyrchol wedi ymddangosiad y gyfrol hon, llwyddodd i ddiangc o'r carchar; ac aeth i Holland, lle y gwnaeth broffes gyhoeddus o'i gredo Babyddol. Ar ol hyn, ymsefydlodd yn Douay, lle y cyhoeddodd lyfr galluog arall. Bu farw yn yr Eidal, tua'r flwyddyn 1659, mewn dirfawr gyni.

BEACONSFIELD, ARGLWYDD:—neu, fel yr adnabyddid ef cyn ei ddyrchafiad i'r bendefigaeth—BENJAMIN DISRAELI. Yr oedd efe yn un o wladweinyddion enwocaf y blaid Doriaidd yn y ganrif hon; ac hefyd, yn nofelydd o fri uchel. Ganwyd ef yn Llundain, Rhagfyr 21ain, 1804. Mab hynaf oedd efe i Isaac D'Israeli, awdwr '*Curiosities of Literature*,' a Maria Basevi, ei wraig; y rhai a hanent o deuluoedd Iuddewig a erlidiwyd o Yspaen tua diwedd y bymthegfed ganrif, ac a gawsant nodded dros amser yn nhref Venice, o'r hon y daethant i Loegr yn y fl. 1748. Enwaedwyd arno yn y synagog Yspaenaidd, dan yr enw Bevis Marks; ond yn y fl. 1817, pan yn fachgen deuddeng mlwydd oed, cafodd ei fedyddio yn Eglwys St. Andrews, Holborn—a'r bardd Saesneg enwog, Rogers, yn gwasanaethu fel tad bedydd iddo. Trwy gydymffurfio yn y modd hwn âg arfer yr Eglwys Esgobaethol, daethant i feddiant o'r holl ragorfreintiau a waherddid i'r genedl Iuddewig yn y Deyrnas Gyfunol. Ar y cyntaf, bwriadodd ei rieni ei ddwyn i fyny yn y gyfraith; o blegid, yn 1821, rhoddwyd ef dan addysg cyfreithiwr. Wedi hyny, yn y fl. 1824, aeth i Lincoln's Inn, lle y bu yn efrydu y gyfraith am rai termau; ond yn 1831, o herwydd rhyw achos neu gilydd, symmudwyd ei enw oddi ar y llyfrau. Yn ystod yr amser a nodwyd, trodd ei sylw at lenyddiaeth; ac yn 1826, cyhoeddodd y rhan gyntaf o'i nofel adnabyddus, *Vivian Grey*. Yn y ffugchwedl hon, cyfeiria, megys yn rhagfynegol, at amryw o bethau a ddigwyddent yn hanes ei fywyd hynod ef ei hun; a gwnai sylw, wrth fyned heibio, ar brif ddynion a phrif ddigwyddiadau y dydd, a hyny yn y fath fodd fel y daeth ei chwedl yn destyn siarad yn mhrif gylchoedd cymdeithasol a gwleidyddol y deyrnas. Daeth yr ail ran o'r chwedl allan yn 1827; ond ni thynodd y rhan hon gymmaint o sylw a'r gyntaf. Yn y fl. 1828, ymddangosodd ei *Captain Popanilla*; a'r fl. ddilynol, ei *Young Duke*. Ymattaliodd oddi wrth lafur llenyddol yn mhen amser ar ol hyn; ac yn 1830—31, aeth ar bleserdiath i Fôr y Canoldir. Yn ystod y daith hon, ymwelodd âg Yspaen, Venice, a Jerusalem—pa rai a ddisgrifiwyd ganddo yn feistrolgar mewn cyfres o lythyrau dan y teitl *Home Letters*.

Ar ei ddychweliad i Loegr, yr oedd y wlad yn nghanol y cyffro gwleidyddol bythgofiadwy a achoswyd gan ddygiad yn mlaen y Mesur Diwygiadol. Cyflwynwyd y mesur hwn i Dŷ y Cyffredin gan Argl. John Russell, ar y 1af o Fawrth, 1831; ac wedi i amryw ddadleuon bywiog gymmeryd lle arno, cariwyd yr ail ddarlleniad Mawrth 2il, trwy fwyafrif o 302 yn erbyn 301. Ond nid oedd yr ymraniad hwn, a bychaned y mwyafrif, ond megys dechreuad yr helynt a gymmerodd le ar ol hyny ynglŷn â'r mesur. Pan gynnygiwyd gwelliant y pwyllgor i leihau nifer yr holl aelodau, gorchfygwyd



Digitized by Google

y llywodraeth arno, ac appeliwyd at y wlad mewn etholiad cyffredinol; ond yn yr etholiad dilynol, dychwelwyd y diwygwyr i awdurdod gyda mwyafrif mawr. Cariwyd y mesur eilwaith —y tro hwn gyda mwyafrif o 367 yn erbyn 231: ac yna, cariwyd ef yn derfynol trwy Dŷ y Cyffredin; ond taflwyd ef allan gan Dŷ yr Arglwyddi. Yn Rhagfyr, yr un flwyddyn, dygwyd trydydd mesur diwygiadol yn mlaen; yr hwn a basiwyd yn y Tŷ Isaf trwy fwyafrif o 162. Anfonwyd ef i Dŷ yr Arglwyddi yn 1832, a phasiodd ei ail ddarlleniad Ebrill 14eg; ond ar y 7fed o Fai, pasiodd yr arglwyddi y cyfryw benderfyniad o berthynas iddo ag a wnaeth y mesur yn ddifudd. Gwrthododd y brenin greu rhagor o arglwyddi; gan hyny, ymddiswyddodd y gweinidogion, a cheisiodd y Duc o Wellington ffurfio gweinyddiaeth Doriaidd. Ond bu ei ymgais yn aflwyddiannus; felly, rhwng pob peth, yr oedd y wlad, o'r bron, mewn sefyllfa o wrthryfel. Yn nghanol y cyffro mawr hwn y cyrhaeddodd Benjamin Disraeli i Loegr. Daeth allan ddwywaith fel ymgeisydd Radicalaidd eithafol dros Chepping neu High Wycombe—a chafodd ei gefnogi yn ei ymgeisiaeth gan y fath ddynion enwog a Radicalaidd a Daniel O'Connell, a Joseph Hume; ond bu ei ymdrech yn aflwyddiannus. Yn Hydref, 1832, efe a anfonodd anerchiad maith at etholwyr Chepping Wycombe, o'r hwn yr ydym yn rhoddi y brawddegau canlynol; y rhai sydd yn dangos ei syniadau ar brif gwestiynau y dydd ar yr adeg hono. Gan mor ddyddorol ydyw y rhan hon o hanes Mr. Disraeli, ni a roddwn ranau o'r anerchiad rhagorol hwn yn Saesneg a Chymraeg.

'But, while I am desirous of entering Parliament as an independent man, I have never availed myself of that much abused epithet to escape an explicit avowal of my opinions. I am desirous of assisting in the completion of the machinery of our new constitution, without which perfection I am doubtful whether it will work. I am prepared to support that ballot which will preserve us from that unprincipled system of terrorism with which it would seem we are threatened even in this town.

'I am desirous of recurring to those old English and triennial Parliaments of which the Whigs originally deprived us: and, by repealing the taxes upon knowledge, I would throw the education of the people into the hands of the philosophic student, instead of the ignorant adventurer.

'While I shall feel it my duty to enforce on all opportunities the most rigid economy, and the most severe retrenchment, to destroy every useless place and every undeserved pension, and to affect the greatest reduction, consistent with the maintenance of the public faith and the real efficiency of the government, I shall withhold my support from every ministry which will not originate some great measure to ameliorate the condition of the lower orders, to rouse the dormant energies of the country, to liberate our shackled industry, and re-animate our expiring credit.

'I have already expressed my willingness to assist in the modification of our criminal code. I have already explained how I think the abolition of slavery may be safely and speedily affected.

Yn Gymraeg, y mae yr uchod fel y canlyn:—

'Er fy mod yn awyddus am fyned i'r senedd (meddai) fel dyn annibynol, nid wyf erioed wedi cymmeryd mantais ar yr ansoddair hwn, a gamddefnyddir yn aml, i ddiange rhag gwneyd dadganiad diamwys o fy syniadau. Yr wyf yn awyddus i gynnorthwyo i gwblhau peirianwaith ein cyfansoddiad newydd, heb yr hyn yr wyf yn ammheu a fydd iddo weithio. Yr wyf yn barod i gefnogi y cyfryw 'falot' ag a'n gwaredo oddi wrth y gyfundrefn ddiegwyddor hono o ddychryn, â'r hon, fe ymddengys, y bygythir ni hyd yn oed yn y dref hon.

'Yr wyf yn awyddus i ddychwelyd at yr hen Seneddau Saesnig a thair-blwyddol, y rhai a gymmerwyd oddi arnom ar y cyntaf gan y Whigiaid; a thrwy ddiddymu y trethi ar wybodaeth, buaswn yn taflu addysg y bobl i ddwylaw yr efrydydd athronyddol, yn hytrach nag i ddwylaw yr anturiaethwr anwybodus.

'Tra y byddaf yn ei hystyried yn ddyledswydd i sicrhau, ar bob achlysuron, y cynnildeb llwyraf a'r lleihad mwyaf a ellir ar y treuliau gwladol, i ddiddymu pob swydd ddiangenrhaid, a phob biwydddâl sydd heb ei gwir deilyngu, a'r gostyngiad mwyaf ag sydd yn bossibl yn y trethi, yn gysson â pharhâd ymddiried y cyhoedd, ac effeithiolrwydd gwirioneddol y llywodraeth, bydd i mi wrthod fy nghefnogaeth i bob gweinyddiaeth fydd heb gynllunio rhyw fesur mawr i wellhau cyflwr y dosbarthiadau isel, i gyffroi galluoedd y wlad, y rhai sydd fel yn cysgu, i ryddhau ein diwydrwydd sydd yn awr mewn llyffetheiriau, ac adfywhau yr ymddiriedaeth sydd ynom, ond sydd bellach ar ddiflanu.

'Yr wyf eisoes wedi dadgan fy mharodrwydd i gynnorthwyo i ddwyn o amgylch gyfnewidiad yn y dosbarth o'n deddfau sydd yn ymwneyd â throseddau difrifol. Yr wyf yn barod wedi egluro pa fodd, yn fy marn i, y gellir, yn ddiogel, ac mewn byr amser, ddiddymu caethwasiaeth.

Yn gynnar yn y fl. 1833, yr oedd cynnrychiolaeth Marylebone, yn Llundain, yn debyg o fod yn wâg; a chyhoeddodd Mr. Disraeli anerchiad Radicalaidd—os cyhoeddwyd anerchiad o'r natur hwnw erioed. Yr oedd yn dadgan ei hun yn bleidiol i seneddau tair-blwyddol, y balot, a diddymiad y trethi ar wybodaeth; sef, ar bapur a newyddiaduron, &c.: a chyda hyny, y mae y frawddeg ganlynol yn dangos ei fod am osod treth ar dir:—

'I am desirous of seeing a parliamentary committee appointed to revise the entire system of our taxation, with the object of relieving industry from those incumbrances which property is more capacitated to endure.'

'Yr wyf yn awyddus i weled (meddai) pwyllgor seneddol yn cael ei bennodi i adolygu holl gyfundrefn ein trethi, gyda'r amcan o ryddhau llafur oddi wrth y beichiau hyny ag y mae eiddo yn fwy galluog i'w dwyn.'

Yn y cyfamser, dychwelodd eilwaith at lenyddiaeth. Cyhoeddodd *Contarini Fleming*, yn 1832; *The Wondrous Tale of Alroy*, yn 1833; *The Revolutionary Epick*, yn 1834; *Vindication of the English Constitution*, yn 1835. Aflwyddodd hefyd i gyrhaedd y senedd yn 1835, pan y daeth allan fel ymgeisydd Toriaidd dros Taunton. Yr oedd ei syniadau gwleidyddol yn graddol newid ar yr adeg hon; ac yn 1836, cyhoeddodd gyfres o lythyrau yn dwyn y teitl *The Letters of Runnymede*; y rhai nid oeddynt yn ddim amgen nag ymosodiad ar y blaid Ryddfrydig. Cyhoeddodd hefyd *Henrietta Temple*, a *Venetia*, yn 1837. Yn y fl. hon—y gyntaf o deyrnasiad y frenhines Victoria—dychwelwyd ef yn aelod seneddol Toriaidd dros Maidstone.

Traddododd ei araeth gyntaf yn y tŷ ar ddeisebau yr etholiadau Gwyddelig; ac er ei fod wedi dangos cryn lawer o allu yn yr araeth, trodd ei ymgais i ddylanwadu ar y tŷ yn fethiant trwyadl. Derbynid ei sylwadau gyda chwerthin mawr; yr hyn a barodd iddo wneyd y sylw bythgofiadwy a ganlyn:—'Yr wyf wedi dechreu ar lawer peth amryw weithiau, ac yn

Digitized by Google

fynych iawn yn llwyddo o'r diwedd; ac er fy mod yn eistedd i lawr yn awr, fe ddaw yr amser pan y bydd i chwi roi gwrandawiad i mi.' Mewn llai na naw mlynedd gwiriwyd y rhagfynegiad hwn. Yn ystod y blynyddoedd cyntaf o'i fywyd seneddol, gweithredai i raddau pell fel aelod annibynol, heb gyssylltu ei hunan mewn modd neillduol âg unrhyw blaid wleidyddol, er ei fod trwy y blynyddoedd hyn yn proffesu coleddu yr adgasedd mwyaf at ddaliadau gwleidyddol y Whigiaid. Pan yr ymrwymodd Syr Robert Peel i ddiddymu Deddfau yr Yd, gwnaeth Mr. Disraeli y fath ymosodiad llym arno fel y dygwyd ef ar unwaith i enwogrwydd; a chafodd ei addef yn arweinydd yr ysweiniaid Toriaidd a bleidient ddiffyndollaeth. Cymmerodd hyn le yn Ionawr, 1846. Arweinydd y blaid hon, mewn enw, oedd Arglwydd George Bentinck; ond i bob ymarferiad, ei llywydd gwirioneddol oedd Disraeli; a hynod falch oedd y blaid o gael y fath ŵr i'w harwain. I'r cyfnod hwn yn ei hanes y perthyna ei ffugchwedlau *Coningsby* (1844); *Sybil* (1845); a *Tancred on the New Crusade* (1847). Yn Rhagfyr, y fl. 1852, ymddiswyddodd Arglwydd John Russell; a daeth Arglwydd Derby i awdurdod, gyda Mr. Disraeli fel canghellydd y trysorlys, ac arweinydd Tŷ y Cyffredin hefyd. Ychydig o amser fu y weinyddiaeth hon mewn swydd; ond er mor fyred ydoedd, nid ymddangosodd Mr. Disraeli fel yn teimlo oddi wrth ei anghyssondeb yn ymwadu â'i ddaliadau Radicalaidd blaenorol. Yn ystod y blynyddoedd cyntaf o'i fywyd seneddol, yr oedd yn gefnogydd i Syr Robert Peel; ond pan gynnygiodd efe ddilead deddfau yr Ŷd, trodd Mr. Disraeli at y blaid oedd yn eu cefnogi—y diffyn-dollwyr:—ac, fel y dywedwyd, daeth yn arweinydd iddynt. Yn ei gymmeriad fel canghellydd y trysorlys, cyflwynodd ei gyllideb i sylw y Tŷ; ond cafodd hono ei gwrthod, yn benaf mewn canlyniad i'r ymosodiad meistrolgar a wnaed arni gan Mr. Gladstone. Pan fwriwyd gweinyddiaeth Argl. Derby allan o swydd, daeth Argl. Aberdeen i swydd fel prif weinidog; a dilynwyd Mr. Disraeli fel canghellydd y trysorlys gan Mr. Gladstone. Yn 1858, dychwelodd drachefn i awdurdod gydag Argl. Derby; a dygodd i mewn Fesur Diwygiadol, yr hwn, modd bynag, a wrthodwyd gan Dŷ y Cyffredin; yr hyn a ddilynwyd gan ymddiswyddiad y weinyddiaeth. Yna, daeth y Rhyddfrydwyr drachefn i awdurdod, a chadwasant awenau y llywodraeth y waith hon am saith mlynedd. Yn ystod yr amser hwn, gweithredai Mr. Disraeli fel arweinydd yr wrthblaid; a dangosodd y fath allu fel dadleuydd dros ei syniadau Toriaidd, a'r fath fedr fel blaenor ei blaid, ag a ennillodd iddo edmygedd hyd yn oed ei wrthwynebwyr. Yr oedd ei ymosodiadau ar wladlywiaeth dramor Argl. Palmerston yn feistrolgar a galluog —yn gyfryw ag a'i gosodai yn mysg seneddwyr mwyaf athrylithgar y deyrnas. Meddai, hefyd, allu anghyffredin i wneyd sylwadau ffraeth a miniog, oedd yn fynych yn mron yn anniodd-efol i deimlad ei wrthwynebydd. Ar ei ddychweliad i'r swydd o ganghellydd y trysorlys yn nhrydedd weinyddiaeth Iarll Derby (1866), cymmerodd un o'r digwyddiadau hynotaf le yn holl hanes y senedd. Dygodd Mr. Disraeli Fesur Diwygiadol i mewn oedd yn llawer mwy democrataidd ei ysbryd, ac yn ëangach ei ddarpariaethau, na'r un oedd newydd gael ei wrthod gan y Toriaid a'r Rhyddfrydwyr gweiniaid; ac er fod y frwydr arno yn un benderfynol, a'r ddadleuaeth ar brydiau yn eithafol o chwerw, cafodd y mesur ei gario drwodd. Y mae'n wir fod math o fesur arbrawfiadol o'r un natur wedi cael ei gyflwyno i'r tŷ yn flaenorol; ond yr oedd hwnw lawn mor anfoddhaol a'i ragflaenydd; ac o herwydd hyny, yn annerbyniol gan y mwyafrif o'r aelodau. Nid oedd neb yn gallu sylweddoli hyn yn well na Mr. Disraeli ei hun; a phenderfynodd ddyfod â'r mesur y cyfeirir ato uchod yn mlaen—mesur yn rhoddi yr etholfraint i bersonau oedd yn dal tai yn y bwrdeisdrefi. Anghyttunai amryw o'i gyd-swyddogion âg ef yn hyn. Yn eu mysg yr oedd Argl. Cranbourne—wedi hyny Ardalydd Salisbury: ond bwriodd Mr. Disraeli hwy dros y bwrdd, a chariodd ei fesur. Yn Chwefror, 1868, ymneillduodd Argl. Derby; ac yn naturiol ddigon, dilynwyd ef fel prif weinidog gan Mr. Disraeli ei hun. Ond byr fu tymmor ei swyddogaeth; o blegid yn y Rhagfyr canlynol, efe a ymddiswyddodd, o herwydd fod Mr. Gladstone wedi cario ei benderfyniadau ar yr Eglwys Wyddelig yn erbyn y llywodraeth; ac yn yr etholiad cyffredinol a ddilynodd, cafodd y Toriaid eu gorchfygu yn llwyr. Ar yr achlysur hwn, cafodd Mrs. Disraeli ei dyrchafu i'r bendefigaeth, gyda'r teitl o Is-iarlles Beaconsfield, fel cydnabyddiaeth y frenhines o wasanaeth ei phriod i'r deyrnas. Gweddw Mr. Wyndham Lewis oedd hi—un o gyd-swyddogion cyntaf Mr. Disraeli. Bu farw Rhagfyr 15fed, 1872.

Yn y flwyddyn 1870, ymddangosodd ffugchwedl arall o eiddo Mr. Disraeli, yn dwyn y teitl *Lothair*. Ymddangosodd adolygiad ar hon yn *Blackwood's Magazine*, wedi ei ysgrifenu, meddir, gan Argl. Salisbury, yn yr hwn y ceir y geiriau hyn:—'y buasai yn hawddach gan y blaid Doriaidd ddygymmod â'r syniad fod y chwedl wedi ei hysgrifenu gan Mr. Gladstone.'

Yn 1874, dadgorphorwyd y senedd gan Mr. Gladstone; a phan, yn yr etholiad cyffredinol dilynol, y dychwelwyd y Toriaid i awdurdod gyda mwyafrif o hanner cant, daeth Mr. Disraeli yn brif weinidog yr ail waith. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, pasiwyd mesur i ddiddymu nawddogaeth Eglwysig yn Ysgotland—deddf yn anghymmeradwyo arferion Defodol yn yr Eglwys; ynghyd â mesur rhagorol i amddiffyn bywydau morwyr, yr hwn a wthiwyd ar ystyriaeth y llywodraeth gan Mr. Plimsoll —cyfaill y morwyr. Er fod llawer o faterion cartrefol pwysig yn galw am sylw y pryd hwn, yr oedd gwladlywiaeth dramor y llywodraeth yn fwy at chwaeth Mr. Disraeli. Yn Nhach. 1875, ar ei gyfrifoldeb ei hun yn benaf, er hyny gyda chymmeradwyaeth ei gynghor, gwnaeth Lloegr yn rhan-berchenog o Gamlas Suez, trwy brynu y cyfranau oedd gan Khedive yr Aipht yn y gamlas. Yr oedd eu rhif yn 176,602, (allan o 400,000), a phob un yn werth 20*p.*—y cyfan yn werth 4,080,000*p.* Bu y cwestiwn dan sylw yn Nhŷ y Cyffredin ar y 14eg o Chwefror, 1876; a phleidiwyd y swm yr 21ain. Hawliodd Prydain Fawr, yn Mai a Mehefin, 1877, fod y gamlas yn rhydd ac yn agored i'r byd; ac heb fod yr Aipht yn meddu un awdurdod arni, er ei bod o fewn terfynau y wlad. Sierhawyd hyn gan yr Aipht trwy weithred yn y fl. 1882—3. Er dangos y cynnydd sydd wedi cymmeryd lle yn nifer y llongau a foriant trwy y gamlas—y tynelli a garient, a'r hyn a dderbyniwyd oddi

Digitized by Google

wrthynt fel tollau am gael myned trwyddi, ni a roddwn y ffigyrau canlynol:—Yn 1870, nifer y llongau oedd 486—yn 1890, yr oeddynt yn 3,389. Y tynelli a garient yn 1870 ydoedd 435,911; yn 1890, yr oeddynt yn 9,749,129. Y tollau a dderbyniwyd yn y fl. 1870, oedd 255,488*p.*; yn 1890, yr oeddynt yn 2,679,340*p.* Er fod y swm a dalwyd am y cyfranau yn fawr, fe dalodd yr anturiaeth yn rhagorol, fel y gwelir uchod; a thâl yn well etto, heb law ei bod yn hynod fanteisiol i Brydain, yn gymmaint a'i bod wedi byrhau y fordaith i'r India yn ddirfawr. Yn 1876, efe a gynnygiodd fod y teitl o Ymherodres yr India yn cael ei chwanegu at deitlau blaenorol y frenhines Victoria. Teimlwyd cryn wrthwynebiad i hyn; ond llwyddodd i'w gario. Yr oedd efe yn ffafr y frenhines yn fwy na llawer o'i phrif weinidogion. Yr un flwyddyn, cafodd yntau ei ddyrchafu i Dŷ yr Arglwyddi, gyda'r teitl o Iarll Beaconsfield.

O'r flwyddyn 1841 hyd 1847, bu yn eistedd yn Nhŷ y Cyffredin dros yr Amwythig (Shrewsbury); ac o hyny allan hyd ei ddyrchafiad i'r bendefigaeth, cynnrychiolodd swydd Buckingham. Yn Mawrth, 1876, cyffrowyd teimlad y cyhoedd yn Lloegr yn ddirfawr gan yr adroddiadau a gyrhaeddent y wlad am greulonderau ofnadwy y Tyrciaid tuag at y Cristionogion Bulgaraidd; ac yr oedd y gefnogaeth a roddid gan y llywodraeth i senedd Twrci yn achos o ymosodiadau penderfynol arni gan rai o brif wladweinwyr Rhyddfrydig y deyrnas. Nid oedd Mr. Disraeli yn ymddangos fel yn credu fod creulonderau Bulgaraidd yn werth fawr o sylw; ac mai y peth pwysicaf i Brydain oedd cadw Twrci ar ei thraed fel gwrthglawdd yn erbyn cynlluniau y Rwssiaid. Dadblygodd 'y Cwestiwn Dwyreiniol' fel y gelwid ef, i fod yn llawer mwy difrifol nag y tybiwyd ar y cyntaf; ac yn y blynyddoedd 1876 ac 1877, er maint y gwrthdystiad a wnaed yn y deyrnas, ac ymneillduad dau o'i phrif weinidogion, sef, Argl. Derby, ac Argl. Caernarfon, parhaodd i ymddwyn yn elyniaethus tuag at Rwssia. Aeth pethau o ddrwg i waeth; ac o'r diwedd, ymddangosai y Rwssiaid fel yn bwriadu cymmeryd meddiant o Gaer Cysteuyn, prifddinas Twrci. Ac ar hyn, gorchymynwyd llynges Brydain i'r Dardanelles ar unwaith; pleidleisiwyd chwe miliwn o bunnau tuag at amcanion milwrol a llyngesol, a galwyd cattrodau o fyddin yr India i Ynys Malta, i fod yn barod at amgylchiadau bygythiol. Er yr holl arddangosiad hwn o allu milwraidd a llyngesol, ni chymmerodd y rhyfel a ofnid le. Ond cynnaliwyd cyngres yn Berlin, yn 1878, i ystyried y cwestiwn; yn yr hon yr oedd Iarll Beaconsfield ei hun yn bresennol, gydag Ardalydd Salisbury, fel cynnrychiolwyr Prydain: a bu y rhan a gymmerodd efe yn ngweithrediadau y gyngres enwog hon yn foddion i'w ddyrchafu yn uwch yn marn ei edmygwyr. Yn ol penderfyniad y gyngres, rhoddwyd yn ol i Rwssia yr hyn a gollodd trwy ryfel y Crimea, a gadawyd Twrci cryn lawer yn eiddilach nag oedd yn flaenorol i hyny. Dyma fel y cafodd y Cwestiwn Dwyreiniol ei benderfynu yn heddychol; ac y mae y trefniant yn cael ei adnabod byth er hyny wrth yr enw 'Cyttundeb Berlin.' Ar ol hyn, bu rhyfeloedd Afghanistan a Zululand, y cynnhwrf parhaus yn yr Iwerddon, a'r marweidd-dra masnachol oedd yn ffynu, yn foddion i beri i'r wlad laru ar yr hyn a elwid yn 'wladlywiaeth ymherodrol.' Canlyniad hyn fu, i'r Rhyddfrydwyr, yn etholiad cyffredinol 1880, dderbyn mwyafrif mawr; ac ymddiswyddodd y weinyddiaeth Doriaidd cyn i'r senedd gyfarfod. Cymmerodd Iarll Beaconsfield fantais ar y seibiant hwn i gwblhau, a chyhoeddi ei ffugchwedl ddiweddaf, *Endymion;* yr hon, fel amryw eraill o'i nofelau, sydd yn dilyn hanes y gwleidydd ffortunus a llwyddiannus hyd dymmor diweddarach ar ei oes na'r rhai blaenorol. Yn ngauaf y flwyddyn 1881, cymmerwyd ef yn glaf; ac ar y 19eg o Ebrill, bu farw yn 77ain oed, yn ei breswylfod, yn Curzon Street, Llundain. Claddwyd ef yn ol ei ddymuniad ei hun, a fynegwyd yn ei ewyllys, yn Hughenden, ger Wycombe, a chodwyd cofadail iddo yn Mynachlog Westminister.

Yn ei nofel gyntaf, un o'r egwyddorion y credai Vivian Grey—arwr y nofel hon—fwyaf ynddi oedd, fod pob peth yn bossibl; a buasai yn anhawdd cael gwell enghraifft o sylweddoliad y gred hon na'r awdwr ei hun. Er ei fod yn hanu o genedl o bobl erlidiedig—pobl oedd heb hawliau gwladol; a bron nas gellid dyweyd, heb le i gartrefu ynddo, cododd, trwy nerth ei benderfyniad a'i athrylith, i fod yn brif weinidog y deyrnas alluocaf dan haul; ac yn meddu ar y pryd ddylanwad mawr ar amgylchiadau Ewrop.

Yr oedd yn ddadleuydd seneddol hynod o alluog. Ond nid oedd efe i'w gymmharu â Mr. Gladstone, a rhai eraill y gellid eu henwi, yn eangder ei wybodaeth a'i allu areithyddol, nac yn ei barch i egwyddorion chwaith. Yr oedd yn arweinydd cryf i'w blaid; o blegid tywysai y blaid Doriaidd i'r man y mynai—o fodd, ac o anfodd hefyd. Iddo ef y mae y werin yn ddyledus am eu rhyddfreiniad cyntaf; ond y mae yn sicr nad o wir gariad at yr egwyddorion y dadleuai drostynt ar y pryd y lluniwyd y mesur. Er ei fod yn hynod gul ei farn ar rai o brif gwestiynau y dydd, gwnaeth cryn lawer i amddiffyn y sefyllfa anrhydeddus a fedd Prydain yn mysg teyrnasoedd blaenaf y byd; a gellir ei restri, yn ddiau, yn mysg gwladwyr enwocaf y deyrnas.

Y mae cryn lawer o ddirgelwch yn nodweddu ei ffugchwedlau; y rhai ydynt oll o'r bron yn meddu cyfeiriadau gwleidyddol; a darllenir hwy gyda phleser, pe ond yn unig o herwydd y gwawdluniau a dynir ynddynt o rai o brif wleidyddion y ganrif hon. Yn y nofel *Vivian Grey,* ceir portread gwawdlyd o Argl. Brougham, dan yr enw 'Foaming Judge;' ac o Canning, wrth yr enw 'Charlatan Gas.' Gwneir Argl. Lyttleton yn arwr ei nofel *Conningsby*, a cheir Mr. Gladstone yn chwareu ei ran ynddi dan yr enw 'Oswalld Millbank.'

Y mae amryw fywgraphiadau rhagorol o Argl. Beaconsfield wedi eu cyhoeddi gan Mr. John Mill, yn 1863; Mr. T. P. O'Connor, yn 1879; Brandes, yn 1878; Mrs. Sturge, yn 1880; Ewald, yn 1882; Hitchman, yn 1885; a chan Kebbel, yn 1888.

BEAUFORT, EDWARD SOMERSET: ail Ardalydd Worcester. Yr oedd yn fab hynaf i Henry Somerset, pummed Iarll Beaufort, a'r ardalydd cyntaf. Parhaodd, fel ei dad, yn ffyddlawn i'r blaid frenhinol yn nghyffroadau gwladol y dyddiau hyny; ac fel cydnabyddiaeth am ei ymlyniad, pennodwyd ef gan Siarl I. yn arglwydd raglaw Gogledd Cymru. Hyd nes y llwyddodd i gael ei urddau etifeddol, cyferchid ef gan y brenin wrth y teitl Iarll

Digitized by Google

Morganwg. Cyhuddid y brenin Siarl o anfon y pendefig hwn—crefydd yr hwn, medd Clarendon, oedd o'r fath hono o Babyddiaeth ag oedd adgasaf gan y bobl, gan ei bod y fwyaf Jesuitaidd—i gyttuno â'r Pabyddion Gwyddelig a gwrthryfelgar, a dwyn corph mawr o honynt i wasanaeth y brenin. Cwynai y bobl yn fawr o'r herwydd; yr hyn a barai i'r brenin wadu yn gryf na roddodd efe yr iarll ar waith. Bu yr achos hwn dan sylw am hir amser; a thaerid fod gan y teyrn law ddirgel yn yr achos. Bu farw Ebrill 3ydd, 1675.

BEAUFORT, HENRY SOMERSET. Pummed Iarll Beaufort, a mab i Edward, y pedwerydd Iarll Ragland, yn sir Fynwy. Yr oedd efe yn aelod o senedd gyntaf Iago I. Fel ei fab, Edward Somerset, cymmerodd yntau blaid Siarl I.; ac amddiffynodd Gastell Ragland âg wyth gant o wŷr, o'r fl. 1642 hyd 1646; ond bu raid iddo ei roddi i fyny o'r diwedd i Syr Thomas Fairfax. Hwn oedd y castell diweddaf yn y deyrnas a barhaodd i wrthsefyll ymosodiadau y Gwerinwyr. Dyrchafwyd Beaufort i fod yn Ardalydd Worcester, Tach. 2il, 1642; a bu farw yn y flwyddyn 1646.

BEDO AB HYWEL BACH. Bardd o fri, a flodeuai tua dechreu yr ail ganrif-ar-bymtheg.

BEDO AEDDRAN. Gelwid ef gan rai Bedo Aurdrem, a chan Edward Llwyd yn Ayrdrain. Yr oedd efe yn blodeuo rhwng 1480 a 1510, ac yn fardd o enwogrwydd mawr yn yr oes hono.

BEDO HAFHESP. Bardd o sir Drefaldwyn, a flodeuai, yn ol barn rhai, yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg. Gadawodd rai darnau barddonol ar ei ol, mewn ysgrifen.

BEDO PHYLIP BACH. Yr oedd yn byw tua diwedd y bymthegfed ganrif; a cheir rhai o'i gyfansoddiadau barddonol mewn ysgrifen.

BEDWAS. Sant oedd efe yn byw tuag amser Rhun ab Maelgwyn. Barna rhai mai oddi wrtho ef y cymmerodd Llan Bedwas, yn sir Fynwy, ei henw; ond nid yw yr holl awdurdodau yn cyttuno â hyn. Yn ol Achau y Saint, mab oedd Bedwas i Helig ab Glanawg—tir yr hwn a orlifwyd gan y môr. Hyn fu yn achos i'w ddeuddeg mab ymroi i fuchedd grefyddol, gan ymsefydlu, rai o honynt, yn Mangor Fawr yn Maelawr, ac eraill yn Mangor Cadfan yn Enlli.

BEDWINI. Crybwyllir am dano yn y Trioedd, fel Archesgob y Gelliwig, yn Nghernyw; yr hon, gyda Chaerlleon ar Wysg, a Chaer Rhianedd yn y Gogledd, a ffurfient dair archesgobawd Prydain yn amser y brenin Arthur.

BEDWYR. Un o ryfelwyr gwrolaf Arthur, a phen-trulliad ei lys. Mab oedd efe i 'Pedrawd,' yn ol y Trioedd; neu 'Bedrawd,' yn ol Mabinogi Geraint ab Erbin; neu 'Pedrod,' yn ol y Brut. Gosodir ef allan gan chwedloniaeth fel un o'r ddau farchog a ddetholai Arthur i'w ddilyn i Fynydd St. Michael, yn Normandy, i'r amcan o ddial marwolaeth Helen, nith Hywel ab Enyr Llydaw; yr hon a gymmerwyd ymaith, ac a lofruddiwyd gan gawr o faintioli anferth. Wedi gorchfygu holl Ffrainge, rhoddodd Arthur iarllaeth Normandy i Bedwyr. Yn mhen amser ar ol hyn, dywedir ei fod yn llywyddu adran o'r fyddin, â'r hon y gorchfygodd Arthur y Rhufeiniaid, dan Lucius, yn nyffryn y Seine. Yn y frwydr hon trywanwyd Bedwyr â phicell gan frenin Media. Bu farw Bedwyr, a chymmerwyd ei lofrudd yn garcharor, a rhoddwyd ef i farwolaeth ar gorph Bedwyr. Fel uchod y ceir hanes y dyn gwrolfrydig hwn yn y Brutiau Cymreig; ond y mae rhai ffug-hanesion eraill yn gosod allan fod Bedwyr yn fyw pan yr oedd Arthur ar farw. Yn ol y Brutiau, claddwyd Bedwyr yn Bayeux—dinas a seiliodd efe i fod yn bentref ei iarllaeth yn Normandy; ond yn Englynion y Beddau, dywedir mai yn Allt Tryfan y claddwyd ef.

BELYN, o Leyn. Crybwyllir am dano yn y Trioedd fel penaeth un o 'Dri Hueilogion Teulu Ynys Prydain.' Gelwid hwy ar yr enw hwn am eu bod yn arfer rhwymo eu hunain ynghyd, â hualau eu meirch, er gwrthsefyll ymosodiad Edwin yn Mryn Ceneu; yr hwn le a alwyd wedi hyny yn Bryn Edwin yn Rhos. Y ddau eraill y cyfeirid atynt drwy yr enw uchod oedd eiddo Caswallon Law Hir, a Rhiwallon ab Urien. Caniateid i'r tri theulu hyn wisgo rhwymynau aur fel anrhydedd oedd yn cydnabod eu gwroldeb.

BEVAN, MADAM. Gwraig rinweddol oedd hi, a ddaeth i enwogrwydd fel un o brif gefnogwyr Gruffydd Jones, o Landdowror; ac yn y cymmeriad hwn, gwnaeth lawer er sefydlu a chynnal Ysgolion Elusengar yn Nghymru. Enw gwyryfol Madam Bevan ydoedd Bridget Vaughan, neu Fychan; a chartrefai mewn lle o'r enw Derllys, yn mhlwyf Merthyr, yn agos i Gaerfyrddin. Pregethai Gruffydd Jones yn achlysurol yn Llanllwch; ac o dan ei weinidogaeth effeithiol ef y dychwelwyd hi at grefydd. Priododd Mr. Arthur Bevan, o Lacharn; ond rhwystrwyd hi gan ei pherthynasau i ddilyn Gruffydd Jones. Arferai fyned ar y Sabbothau, naill ai i Landdowror, neu i Landeilo Abercowyn; ond dioddefodd lawer o wawd a dirmyg o herwydd ei sêl a'i hymroddiad. Dechreuodd Gruffydd Jones i sefydlu ei ysgolion tua'r flwyddyn 1737; ond yr oedd cryn lawer o'r llwyddiant dilynol i'w briodoli i lafur hunanymwadol Madam Bevan ei hun. Ceir hanes yr ysgolion hyn yn yr erthygl ar Gruffydd Jones, fel nad yw yn angenrheidiol ei ail adrodd yma. Digon yw dyweyd ddarfod i Mr. Jones adael y swm o 7,000*p.* i Madam Bevan tuag at ddwyn yn mlaen yr ysgolion; ac fe adawodd hithau 10,000*p.* ar ei hol i'r un amcan. Modd bynag, yn fuan iawn ar ol ei marwolaeth, cyfododd yr Arglwyddes Stepney, y gymmun-weinyddes, gydag etifeddion cyfreithlawn y foneddiges, gynghaws yn erbyn yr ewyllys; ac attaliodd hyn ei gweinyddiad am rai blynyddoedd. O'r diwedd, aeth yr achos i Lys yr Arglwydd Ganghellydd; yr hwn, ar ol cryn oediad, a'i penderfynodd yn groes i'r modd y dygwyd yr ysgolion yn mlaen gan eu sylfaenwyr. Gwerth blynyddol yr elusen yn awr (1894) ydyw 852*p.*

BLAIDD RHUDD. Yr oedd efe yn benaeth ar un o'r pum costoglwyth yn ardal y Gest, ger Penmorfa, yn Arfon. Yr oedd yn byw yn y ddeuddegfed ganrif. Gelwid y llwythau hyn yn 'costoglwyth,' neu yn 'llwythau gwerinol;' *h.y.*, mewn cyferbyniad i'r pum brenhinllwyth.

Digitized by Google

Gelwid y llwyth yr oedd Blaidd Rhudd yn benaeth arno ar ei enw; ac olrheinia amryw o hen deuluoedd y rhanbarth uchod o'r wlad eu disgyniad oddi wrth y llwyth.

BLAKE, ROBERT. Llyngesydd Prydeinig oedd efe; yr hwn, gyda'r eithriad o Nelson, oedd yr enwocaf o'n holl lyngeswyr. Ganwyd ef yn Bridgewater, yn 1599; ac efe oedd yr hynaf o ddeuddeg o blant. Cafodd addysg athrofäol yn Rhydychain; wedi hyny, bu yn cario yn mlaen fasnach ei dad fel marsiandwr, gyda graddau o lwyddiant. Hyd nes yr oedd efe tua deugain mlwydd oed, treuliodd fywyd lled dawel yn y wlad. Yna, dychwelwyd ef yn aelod o'r Senedd Fyr, yn 1640—y senedd hono a flaenorodd doriad allan y Rhyfel Cartrefol. Heb y petrusder lleiaf, efe a fwriodd ei goelbren gyda phlaid y senedd; ond ni ddaeth efe yn aelod o'r Senedd Hir hyd y flwyddyn 1645. Yr oedd efe yn werinwr i'r carn; yn ddyn didderbyn-wyneb, ac o gymmeriad ammhlygadwy. Fel y cyfryw, edmygid ef yn fawr gan Cromwell; ond ni bu y ddau ar delerau cyfeillgar iawn. Wedi iddo roddi prawfion dïymwad o'i allu mawr, a'i wroldeb, ar amryw achlysuron ar doriad allan y rhyfel, cafodd Blake, gyda dau arall, eu pennodi, yn 1649, i lywyddu y llynges; yr hon oedd ar y pryd mewn sefyllfa hynod o anfoddhaol. Modd bynag, cyn pen dwy flynedd, llwyddodd i attal holl fasnach Lisbon ar y môr; i ddinystrio ysgwadron y Tywysog Rupert; ac i orfodi y Breninolwyr i roddi i fyny Ynysoedd Scilly a Jersey—y cadarn-leoedd diweddaf oedd yn eu meddiant. Yn gynnar yn y flwyddyn 1652, dechreuodd yr ymdrech ofnadwy hono rhwng Lloegr a'r Is-Ellmyniaid am oruchafiaeth ar y moroedd; ac yn yr ymdrech fyth-gofiadwy hono, cafodd Blake ei hun yn ymladd yn erbyn llyngeswyr o'r fath wroldeb a medr a Van Tromp, De Ruyter, a De Witt. Ar y 19eg o Fai, yn y flwyddyn uchod, ymladdodd Blake gydag ond pymtheg o ryfel-longau, yn erbyn Van Tromp gyda deugain. Yr oedd y llongau Prydeinig, mae'n wir, yn fwy, ac yn meddu rhagorach a chryfach magnelau na rhai yr Is-Ellmyn; a bu raid i'r olaf gilio o'r ymdrech oreu y gallent dan leni y tywyllwch, ar ol colli dwy long. Ar yr 28ain o Fedi, aeth yn frwydr boeth rhwng Blake â De Ruyter a De Witt yn ngenau yr afon Tafwys. Rhifai y llestri tua thrigain a phump ar y ddwy ochr; a'r dydd dilynol, bu raid i'r gelynion ffoi ymaith. Tachwedd 29ain, tra yr oedd Blake ger llaw y Goodwin Sands, ar draethell ddwyreiniol Lloegr, gyda deugain o longau, daeth yr Is-Ellmyniaid o dan Van Tramp ar ei warthaf. Rhifai eu llynges hwy tua phedwar ugain; ac wedi dau ddiwrnod o frwydro caled, ennillwyd buddugoliaeth gan yr Is-Ellmyn. Collodd Blake chwech o'i longau; ond llwyddodd i ddwyn y gweddill, er mewn cyflwr difrifol, i le o ddiogelwch. Mewn canlyniad i'r fuddugoliaeth hon, mordwyai Van Tromp yn herfeiddiol, ol a blaen, yn y Sianel; ond nid hir y goddefwyd iddo barhau. Boreu y 18fed o Chwefror, 1653, gyda llynges a rifai tua phedwar ugain o longau, syrthiodd Blake ar lynges Van Tromp, gyda nifer gyffelyb, ger llaw Portland. Aeth yn frwydr ar unwaith. Anafwyd Blake yn dost; ond ennillodd oruchafiaeth anrhydeddus. Suddodd pump o longau y gelynion. Cymmerodd bedair yn garcharorion, ynghyd â deg-ar-hugain o longau marsiandïol, a weithredent fel gosgordd-longau i lynges Van Tromp. O blegid sefyllfa anfoddhaol ei iechyd, lluddiwyd Blake i fod yn bresennol yn y frwydr ofnadwy a gymmerodd le Gorphenaf 31ain; yn yr hon y llwyr ddinystriwyd uchafiaeth lyngesawl Holland. Gwnaeth Blake enw anrhydeddus iddo ei hun mewn amryw ysgarmesoedd llyngesawl eraill y bu efe ynddynt o dro i dro; ond ei gampwaith penaf oedd yr olaf y bu ganddo ran ynddo. Yn gynnar yn mis Ebrill, 1657, clywodd fod llynges o'r America wedi cyrhaedd Santa Cruz de Teneriffe. Hwyliodd yno yn ddiattreg; ac ar doriad gwawr boreu yr 20fed, cyrhaeddodd i'r fachwy (*bay*), lle yr oedd un-ar-bymtheg o longau yn gorwedd wrth angor. Cyn y nos, yr oedd efe wedi llwyr ddinystrio y llynges—a'r dref a safai ar y lan hefyd. Cyflawnodd y gwrhydri hwn heb golli ond hanner cant o'i for-filwyr, a chwech ugain wedi eu clwyfo. Parodd beiddgarwch a llwyddiant y weithred hon y brwdfrydedd mwyaf yn Mrydain, ac edmygwyd ei allu a'i wrhydri trwy holl Ewrop. Dyma orchestgamp olaf Blake; o blegid bu farw Awst 7fed, 1657, pan yr oedd ei long yn y weithred o hwylio i mewn i borthladd Plymouth. Gorchymynodd Cromwell i'w weddillion gael eu claddu yn Mynachlog Westminster—o ba le y symmudwyd ei gorph ef ar adeg yr Adferiad (*Restoration*). Cyfodwyd ffenestr goffadwriaethol iddo yn Eglwys St. Margaret, Westminster, yn 1888.

BLEDRI. Esgob Llandaf, o'r flwyddyn 983 hyd 1022. Yn Mrut y Tywysogion, gelwir ef yn 'Ysgolhaig penaf Gwlad Cymru. Achaws hyny y gelwid ef Bledri Ddoeth: a chystal y carai wybodau, fal y dodes ar yr offeiriaid gynnal addysg llyfrau llên, bob un yn ei eglwys, mal y gwypai bawb a ddylynt, parth Duw a dynion.'

BLEDRI AB CADIFOR. Arglwydd Gwydigada ac Elfed yn sir Gaerfyrddin. Claddwyd ef yn Llangadog, yn 1119.

BLEGWRYD AB OWAIN. Un o'r ysgolheigion penaf, a chyfreithiwr enwocaf ei oes; ac am hyny gelwid ef wrth yr enw 'Pencyfeistedd.' Yr oedd efe yn frawd i Morgan, brenin Morganwg; yn archddeon Llandaf; ac hefyd yn athraw yn y ddeddf wladol ac eglwysig. Efe, medd rhai, yw 'yr enwog Blegwryd ab Einion' y crybwyllir am dano yn *Llyfr Llandaf;* yr hwn a rwystrodd i ddïalwyr gwaed un o'r enw Merchytir dori i mewn i eglwys St. Jerman a St. Febric, i geisio dwyn allan Ilsi ab Beli, y deon, a'i roddi i farwolaeth. Yn 926, dewiswyd ef gan esgobion Tŷ Ddewi, Llandaf, a Bangor, i fyned gyda Hywel Dda i Rufain, 'i ymgynghori â Doethion am y modd y gwellheid cyfreithiau Gwlad Cymru.' A phan alwodd Hywel Dda y cyfeisteddiad o wŷr doethion ynghyd i'r Tŷ Gwyn-ar-Daf, i wellhau y cyfreithiau, Blegwryd oedd yr ysgrifenydd. Fe fernir fod rhan o leiaf o'r clod a roddwyd i Hywel Dda am y doethineb a amlygir yn y cyfreithiau, ac a roddasant anfarwoldeb i'w enw, yn ddyledus i Blegwryd.

BLEGWRYD FRENIN. Efe, yn ol y *Brut Cymraeg*, a ddilynodd Seisyllt fel brenin Prydain. Gelwid ef 'Duw y Chwareu,' o herwydd

Digitized by Google

ei enwogrwydd mawr mewn peroriaeth leisiol ac offerynol.

BLEIDDIAN. Dyma yr enw ar yr hwn y gelwid Lupus, esgob Troyes, gan yr hen Gymry. Efe, ar gais yr Eglwys Brydeinig, a anfonodd y Gymmanfa Ffrengig yma, gyda Garmon, i ddarostwng heresi Morgan yn y fl. 429. Nid ydyw yn debyg i Bleiddian fod yn Nghymru; ond er hyny, y mae dwy eglwys sydd yn sir Forganwg ar ei enw—Llanfleiddian Fawr, a Llanfleiddian Fach.

BLETHYN, WILLIAM. Brodor o Gymru oedd efe; ond y mae ei le genedigol yn anhysbys. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychain. Wedi graddio yn y gyfraith, yn 1562, pennodwyd ef yn Archddiacon Aberhonddu; ac yn gor-beriglor yn mhrif eglwys Gaerefrog. Yn ddilynol, anrhegwyd ef â chôr-beriglorïaeth St. Dyfrig, yn Llandaf; bywoliaeth Rogyet, yn sir Fynwy, a Sunningwell, yn sir Berk. Dyrchafwyd ef i esgobaeth Llandaf ar Ebrill 17eg, 1575. Bu farw yn 1590, a chladdwyd ef yn eglwys Mathern, yn sir Fynwy; lle hefyd y gorwedda dau o'i ragflaenoriaid yn y swydd.

BODFAN. Un o'r Seintiau Cymreig; a'r hwn, yn ol *Bonedd y Saint*, oedd fab i Helyg ab Glanawg: ac felly yn frawd i Bedwas. Tybia rhai, fodd bynag, mai yr un person oedd efe a Boda.

BOHEMIA. Yr oedd y wlad hon, gynt, yn un o deyrnasoedd Ewrop; ond erbyn hyn, y mae hi yn ffurfio y dalaeth fwyaf ogleddol yn ymherodraeth Awstria-Hungary; ac yn cael ei chylchynu gan Sacsoni a Silicia Brwssiaidd, Moravia, Awstria uchaf ac isaf, a Bavaria. Mae ei harwynebedd yn 19,980 mill. pet.; neu tua dwy ran o dair o faintioli Ysgotland. Ei phoblogaeth yn 1869, oedd 5,140,544; yn 1880, yr oedd yn 5,560,819; ac yn 1893, yn 6,000,000; sef, 4,000,000 o Czechiaid, a 2,000,000 o Ellmyn. Mae y wlad yn gyfoethog o ddinasoedd—agos i 400 mewn nifer; y bwysicaf o ba rai yw Prague, y brif ddinas, a'r drydedd mewn pwysigrwydd o fewn yr holl ymherodraeth. Poblogaeth Prague, yn ol y cyfrifon diweddaf, ydoedd 162,000. Y prif drefydd eraill ydynt, Pilsen—â'i phoblogaeth yn 38,883; Reichenberg, 28,090; Budweis, 23,845; Leitmeritz, 10,854; a Rumburg, 10,142.

*Arwynebedd.*—Amgylchynir y wlad gan fynyddoedd uchel; pigyn uchaf pa rai a fesura tua 5,330 troedfedd. Dyfrheir y tir yn dda gan ganghenau sydd yn rhedeg i'r afon Elbe; sef, y Moldau, Eger, Erlitz, Aupe, Mettau, a Bila.

*Hinsawdd, Cynnyrchion,* &c.—Ar y cyfan, y mae hinsawdd Bohemia yn iachusol; ond y mae'n amrywio yn fawr mewn gwahanol ddosbarthiadau o'r wlad. Yn y dyffrynoedd, y mae hi yn dyner; ond yn y rhanbarthau mynyddig, y mae hi yn oer. Gorchuddir y mynyddau uchaf âg eira dros ran fawr o'r flwyddyn. Y mae y tir, yn y cyffredin, yn ffrwythlawn. Y mae mwy na hanner ei arwynebedd yn dir âr; a'r wythfed ran o hono yn weirgloddiau a gerddi. Tir pori ydyw rhan arall; a gorchuddir y gweddill gan goedwigoedd. Dywed yr awdurdodau fod swm y gwenith, haidd, ceirch a'r rhŷg a godir o fewn Bohemia yn fwy na'r chweched ran o'r oll a dyfir drwy holl ymherodraeth Awstria. Ceir llin a hopys mewn cyflawnder yno. Cyfyngir tyfiant gwinwydd i ddyffrynoedd y Moldau a'r Elbe. Megir gwartheg, defaid, geifr, a moch hefyd mewn rhai parthau; ac y mae gwenyn a gwyddau yn rhan bwysig o gynnyrchion y wlad.

*Cynnyrchion llaw-weithfäol.*—Mae Bohemia, o ran cynnyrchion ei llaw-weithfeydd, yn sefyll yn anrhydeddus yn mysg gwledydd Ewrop. Gwna fasnach fawr mewn lliwio ac argraphu ar galico. Cynnyrchir mwy o lian yno nag yn holl dalaethau eraill yr ymherodraeth gyda'u gilydd. Y prif ganolbwynt o'i masnach mewn gwlaneni yw Reichenberg, a'r lleoedd sydd o'i hamgylch. Y mae mwy na 27,000 o bersonau yn ngweithiau gwydr Bohemia; y rhai ydynt yn adnabyddus dros yr holl Gyfandir. Ceir rhai cannoedd o ddarllaw-dai cwrw a brandi yn y wlad; a gwneir haiarn yno ar raddfa ëang.

*Poblogaeth, Crefydd, ac Addysg.*—Prif dylwythau y wlad ydynt y Czechtiaid a'r Slavs; ac y maent yn byw yn benaf yn nghanolbarth a dwyrain y wlad. Rhifent, yn y fl. 1880, tua 3,470,000. Yr oedd yno dros ddwy filiwn (2,054,000) o Ellmyn yr un flwyddyn; ac y mae effaith y rhai hyn ar fasnach y wlad yn fawr iawn. Y mae tua chan mil o Iuddewon yn y wlad. Pabyddion yw y mwyafrif mawr o'r boblogaeth; ond y mae crefyddau neu sectau eraill yn cael eu goddef. Nid yw y Protestaniaid yn rhifo mwy na 120,000—y rhan fwyaf o ba rai ydynt yn Galviniaid. Y mae y Pabyddion dan lywodraeth Archesgob Prague, a thri o esgobion. Yn y mater o addysg, y mae Bohemia yn rhagori ar dalaethau eraill Awstria. Mae'r brif ysgol yn Prague—lle, er y fl. 1882, y dysgir yr holl efrydwyr yn yr iaith Ellmynig, ac yn ieithoedd y Czechiaid.

*Llywodraeth, &c.*—Medda y wlad fath o senedd dalaethol, gyfansoddedig o 242 a aelodau; ac y mae y ddeddfwrfa hon yn meddu awdurdod i ddeddfu ar bob achosion nad ydynt yn dyfod yn uniongyrchol dan awdurdod y senedd ymherodrol. Yn ddiweddar, yr oedd arwyddion o gryn anesmwythyd yn y wlad mewn ystyr wleidyddol, mewn canlyniad i ddymuniadau y Czechiaid ar fod i'r dalaeth hon gael ei dyrchafu i'r un sefyllfa o anrhydedd ac urddas ag eiddo Hungary.

BOLD, WILLIAM, o Dre'r Ddol; yr hwn a fu yn sirydd Môn yn y bl. 1644, 1649, a 1655. Yr oedd yn swyddog yn myddin Siarl II. yn y rhyfeloedd gwladol; ac enwogodd ei hun yn y fath fodd yn y brwydrau y cymmerodd efe ran ynddynt, fel yr arfaethid rhoddi iddo urdd Marchog y Dderwen Freiniol. Preswyliai amryw o'i ddisgynyddion yn ardal Conwy.

BOLEYN, ANNE. Yr oedd hi yn ail wraig i Harri VIII.; ac yn ferch i Syr Thomas Boleyn, wedi hyny Is-iarll Rochford ac Iarll Wiltshire, o'i wraig Elizabeth Howard, merch y Duc o Norfolk. Ganwyd hi yn y fl. 1507. Pan ddechreuwyd yr ymgais i ysgaru rhwng Harri a'i wraig, Catherine o Aragon, yn 1527, trodd y brenin ei sylw at Anne Boleyn; ac er na chyhoeddodd Cranmer yr ysgariad rhwng Harri a Catherine hyd Mai 23ain, 1533, yr oedd cyfathrach anweddus yn bodoli rhyngddo ac Anne Boleyn yn mhell cyn hyny. Y mis Ionawr dilynol i gyhoeddiad yr ysgariaeth, priodwyd y ddau yn ddirgel. Coronwyd Anne gyda

Digitized by Google

rhwysg a mawredd yn Westminster Hall; ond cyn pen tri mis, rhoddodd Harri arwyddion digamsyniol ei fod wedi llwyr flino arni hithau. Yn mis Medi, 1533, ganwyd iddi Elizabeth, yr hon wedi hyny a esgynodd orsedd Prydain fel y frenhines Elizabeth. Ond ni bu genedigaeth y dywysoges yn foddion i ail gynneu ei serch at ei wraig. Yn Mai, 1856, cymmerwyd Anne i'r ddalfa, ar y cyhuddiad o odinebu âg amryw foneddigion a ddalient gyssylltiadau â'r llys brenhinol; sef, ei brawd, Arglwydd Rochford, Syr Francis Weston, Henry Norris, a William Brereton, a Mark Smeaton hefyd—cerddor wrth ei alwedigaeth. Ar y 12fed o'r mis, condemniwyd y pedwar diweddaf; ac ar y 15fed condemniwyd Anne, a'i brawd, o deyrnfradwriaeth. Yr oedd ei thad ei hun, a'i hewythr, y Duc o Norfolk, â llaw ganddynt yn ei marwolaeth:—yr olaf yn y cymmeriad o lywydd y llys a'i profodd; a'r hwn, hefyd, a gyhoeddodd arni ei thynged ofnadwy. Crogwyd Smeaton ar yr 17eg, a dïenyddiwyd y pedwar eraill. Dau ddiwrnod yn ddiweddarach, dïenyddiwyd Anne hefyd gan y dïenyddwr cyhoeddus ar Tower Green—llanerch adnabyddus yn Llundain yn y dyddiau hyny. Y diwrnod dilynol, priododd Harri Jane Seymour. Y mae'n sicr i Anne gyflawni godineb gyda Harri; ond nid oes brofion am un o'r personau eraill.

**BACH, JOHANN SEBASTIAN**: un o gyfansoddwyr cerddorol mwyaf gwreiddiol a dysgedig yr oesau. Ganwyd ef yn Eisenach, yn Saxony, Mawrth 31ain, 1685. Yr oedd ei deulu wedi bod yn nodedig am eu hathrylith gerddorol er's mwy na chan mlynedd; ond ynddo ef yr ymddadblygodd yr athrylith hwn berffeithiaf. Yr oedd ei weithiau cerddorol yn lliosog; ond y mae llawer o honynt wedi colli, ac eraill hyd heddyw heb eu cyhoeddi. Ond y mae gweithiau cyhoeddedig Sebastian Bach yn profi ei fod yn gyfansoddwr mawr, gwreiddiol, a medrus; er y rhaid addef fod ei gyfansoddiadau yn anhawdd i'w canu.

**BAGDAD.** Prif ddinas talaeth Dyrcaidd o'r un enw. Saif o bob tu i'r afon Tigris, o ddeutu dau can milldir uwch law ei hymuniad â'r Euphrates. Y mae Bagdad yn edrych yn ddymunol o bell; ond y mae y rhan fwyaf o'i dymunoldeb yn colli pan yr elir i mewn iddi; canys isel yw y tai, a gwael yr olwg, am eu bod gan mwyaf wedi eu gwneuthur o glai. Y mae yr heolydd yn aflan, ac heb eu palmantu; ac mor gulion, fel o'r braidd y gall dau farchog basio eu gilydd. Ond y mae tai y cyfoethogion yn hardd, âg iddynt ffenestri o wydr Venice, a chynteddau o'u blaen, a pherllanau o eurafalwydd. Yr adeiladau mwyaf hynod yn Bagdad yw y moscau, y gwesttai, a'r *serai*, neu balas y pasha. Dywedir fod dros gant o foscau ynddi. Y mae y nwyddau a ddangosir ac a werthir yn y masnachdai yn helaeth ac yn amrywiol iawn. Y prif nwyddau a ddygir oddi yno yw lledr coch a melyn, sidan, cotwm, a nwyddau gwlân. Y mae amryw genhedloedd a llwythau yn trigo yn Bagdad; ond y Tyrciaid a'r Arabiaid yw y rhai mwyaf lliosog. Tua 60,000 yw rhifedi ei thrigolion. Sylfaenwyd Bagdad mor foreu a'r flwyddyn 827 B.A. Dywedir mai mewn claddfa tu allan i'r muriau y mae bedd y prophwyd Ezeciel. Aeth Bagdad drwy lawer helynt erioed; a bu agos iddi gael ei llwyr ddinystrio yn 1638 gan Amurath IV. Er y pryd hwnw y mae mewn enw dan lywodraeth y Sultan. Yn y flwyddyn 1848, darganfu Syr Henry Rawlinson olion hen arglawdd o wneuthuriad y brenin Babilonaidd, Nebuchodonosor, ar lan orllewinol y Tigris; yr hyn sydd yn brawf, fel y golygir yn bresennol, fod hen ddinas Assyriaidd yn bod yno yn yr hen amseroedd. Cadarnheir hyn trwy ddarganfyddiad yr enw Bagdad yn y rhestr ddaearyddol Assyriaidd perthynol i amser Sadanapalus.

**BALOT.** Gwel TUGEL.

**BARNES, ALBERT**: yr esboniwr enwog ar y Testament Newydd, ac ar amryw o lyfrau yr Hen Destament. Ganwyd ef yn nhref Rhufain, yn nhalaeth Efrog Newydd, yn Unol Daleithiau yr America, ar y 1af o Ragfyr, 1798. Ymddengys mai brodorion o dalaeth Connecticut oedd ei rieni, a'u bod yn hanu o deuluoedd cyfrifol, er nad oeddynt i'w rhestru ond yn mhlith y cyffredin o ran eu hamgylchiadau. Barcer a lledrwr oedd ei dad wrth ei alwedigaeth, ac yr oedd hefyd yn amaethu fferm fechan. Arosodd Albert adref o dan gronglwyd ei rieni, nes bod yn ddwy ar bymtheg oed, gan weithio galwedigaeth ei dad; a daeth yn ddigon o feistr arni i gario yn mlaen fasnach yn lled dda ar ei ran ei hun. Cymmerodd ei berswadio y pryd hwnw gan ryw gyfeillion i fyned i'r athrofa, yn gymmaint ag nad oedd wedi cael ond manteision addysg gyffredin. Ei amcan drwy hyny oedd ymbarotoi i astudio y gyfraith. Bu yn yr athrofa am dair blynedd; ond ar adegau neillduol, gwasanaethai fel athraw mewn ysgol gyffredin, a hyny mewn trefn i gael modd i dalu am a chwblhau ei addysg. Wedi hyny, ymunodd â'r dosbarth hynaf yn ngholeg Hamilton, yn nhalaeth Efrog Newydd, lle y graddiodd yn y flwyddyn 1820.

Tra y bu yn y coleg, cymmerodd adfywiad crefyddol le, a theimlodd Barnes oddi wrth ei ddylanwad; ac yn fuan wedi hyny, gadawodd y coleg, ac ymunodd â'r eglwys Bresbyteraidd yn ei dref enedigol. Ymddengys ei fod cyn hyn yn coleddu syniadau anffyddol, a'i fod yn ammheuwr trwyadl, er nad oedd yn bucheddu yn anfoesol. Yr oedd ar y pryd hwnw yn mron yn hollol anwybodus am bethau crefydd. Nid oedd Beibl wedi bod yn ei feddiant erioed; a dywedodd ei hunan nad oedd yn meddwl ei fod erioed wedi darllen ugain o bennodau o hono cyn i'w feddwl deimlo yr argyhoeddiad y cyfeiriwyd ato. Aeth i goleg duwinyddol Princeton, yn niwedd y fl. 1820, ac arosodd yno am yn agos i bedair blynedd. Wedi gadael y coleg hwn, ymsefydlodd yn weinidog yr eglwys Presbyteraidd yn Morriston, yn Jersey ogleddol; a bu yno tua phum mlynedd a hanner; sef, hyd y fl. 1830, pan symmudodd i Philadelphia. Gelwid yr eglwys y gweinidogaethai ynddi yno yr eglwys Bresbyteraidd gyntaf; a thybir yn gyffredin mai hi oedd yr eglwys Bresbyteraidd hynaf yn yr Unol Daleithiau. Yr oedd yr eglwys a'r gynnulleidfa y gweinyddai iddi yn un liosog a chyfoethog; ac heb law hyny, ystyrid hi yn gynnulleidfa alluog a deallus, yn gystal ag yn un dra haelionus yn ei chyfraniadau tuag at achosion daionus a chrefyddol.

Y mae enw Albert Barnes yn un tra adnabyddus—nid yn unig yn yr Unol Daleithiau, ond yn Lloegr a Chymru hefyd; ac yn wir, yn mhob gwlad lle y siaredir ac y deallir yr ieithoedd

Saesneg a Chymraeg. Yr hyn sydd wedi gwneyd ei enw mor hysbys ac mor barchus yw, yr esboniad tra rhagorol a defnyddiol sydd wedi dyfod mor hynod o boblogaidd yn America a Phrydain, a elwir yn gyffredin "*Esboniad Barnes.*" Pan feddylir am y llafur dirfawr oedd yn angenrheidiol i gyfansoddi esboniad mor helaeth a manwl a'r eiddo ef ar yr holl Destament Newydd, ac ar lyfrau *Iob*, *Esaiah*, a *Daniel*, &c. hefyd, y mae yn syndod fod yr oll wedi ei gyfansoddi ganddo yn y boreuau cyn ei foreubryd. Gweithiai yn galed am o ddwy awr i dair bob boreu arno, nes y cwblhaodd ei waith mawr. Cyhoeddodd hefyd lawer o draethodau duwinyddol a phregethau, &c. Anfantais fawr y bu y gŵr rhagorol hwn yn ddarostyngedig iddi oedd, iddo gael dolur dirfawr i'w lygaid, nes ei wneyd o'r bron yn gwbl ddall; etto, dan yr anfantais fawr hon, cyflawnodd orchestwaith gwirioneddol, a cherfiodd iddo ei hun enw yn mysg esbonwyr y Beibl nad anghofir ef am ganrifoedd. Cyfrifir fod dros filiwn o gyfrolau o hono wedi eu gwerthu cyn ei farwolaeth. Y mae ei esboniad yn adnabyddus iawn yn Nghymru hefyd; ac yn fwy felly o bossibl nag odid un arall, gyda'r eithriad o "*Esboniad Peter Williams.*" Cyhoeddwyd ef gan Mr. Gee, ac y mae wedi bod o wasanaeth dirfawr i bregethwyr yr efengyl, ac athrawon ac athrawesau, a'r aelodau yn gyffredinol, yn yr Ysgolion Sabbothol. Bu farw ar y 24ain o Ragfyr, 1870.

**BAUR, FERDINAND CHRISTIAN:** sylfaenydd "Ysgol Newydd Dduwinyddol Tübingen." Ganwyd ef ar yr 21ain o Fehefin, 1792; ac yn 1817, gwnaed ef yn athraw athrofa Blauerben, lle y cyhoeddodd ei waith cyntaf, sef "*Credofyddiaeth a Chwedlofyddiaeth; neu, Grefydd Naturiol yr Hynafiaid.*" Yn 1826, fe'i galwyd ef i lanw y gadair dduwinyddol yn Tübingen, lle yr enwogodd ei hun yn fawr trwy ddwyn allan lawer o lyfrau ar feirniadaeth ysgrythyrol a hanes athrawiaethau. Dyma rai o honynt—"*Plaid Crist yn eglwys Corinth,*" yn yr hwn y mae yr awdwr yn ceisio dangos fod Cristionogaeth Paul a Christionogaeth Pedr yn anghyttunol â'u gilydd. Yn ei waith ar "*Y llyfrau a elwir yn Epistolau Bugeiliol Paul,*" ceisio profi y mae nad Paul oedd eu hawdwr, ond darfod eu hysgrifenu yn yr ail ganrif. Cyhoeddodd lyfrau ar "*Athrawiaeth yr Iawn*" hefyd, ac ar "*Athrawiaeth y Drindod a'r Ymgnawdoliad.*" Bu farw yn y flwyddyn 1861.

**BEDAN:** un o farnwyr Israel, yr hwn y sonir am dano yn 1 *Sam.* xii. 11, ac a enwir rhwng Ierubaal (Gedeon) a Jephthah. Yn gymmaint ag nad oes y fath un yn cael ei enwi yn Llyfr y Barnwyr, y mae amryw o wahanol dybiau wedi eu ffurfio yn ei gylch. Tybia rhai mai yr Iair y sonir am dano yn *Barn.* x. 3 oedd efe, yr hwn a elwid yn Bedan er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth yr Iair hynaf, mab Manasseh (*Num.* xxxii. 41), gan fod un Bedan yn cael ei enwi yn mysg disgynyddion Manasseh yn 1 *Cron.* vii. 17. Yn ol y cyfieithiad Caldeaidd, Samson a enwir yn lle Bedan yn 1 *Sam.* xii. 11, a thybia llawer mai enw arall ar Samson ydyw Bedan, fel talfyriad o Ben-Dan (mab Dan). Hwyrach nad yw y naill na'r llall o'r tybiaethau hyn yn gywir. Yn y Deg a Thrigain, yr Arabaeg, a'r Syriaeg, 'Barac' a ddarllenir. Tybia Ewald mai Aldon ydyw y darlleniad cywiraf. Ond yn gymmaint ag nad ydyw Llyfr y Barnwyr yn cynnwys cofnodion llawn o'r cyfnod yr ymdrinia âg ef, y mae yn bossibl fod Bedan yn enw ar un o'r barnwyr nad yw eu henwau wedi eu cofnodi ynddo. Yr unig wrthddadl i'r golygiad hwn ydyw, yn gymmaint a bod Bedan yn cael ei enwi gyda Gedeon, ac Iephthah, a Samuel, y gellid tybied ei fod yn farnwr pwysig; ac o blegid hyny nad ydyw yn debyg y cawsai ei enw ei adael allan. Gellir dwyn yn mlaen yr un wrthddadl yn mherthynas i Abdon ac Iair, y rhai na chrybwyllir am danynt ond yn ddamweiniol.



**BEETHOVEN, LUDWIG VON:** un o'r cyfansoddwyr cerddorol enwocaf mewn amseroedd diweddar. Y mae amser ei enedigaeth yn ansicr. Cafodd ei fedyddio yn Bonn, ar y Rhine, Rhagfyr 17eg, 1770. Daeth ei athrylith ef i'r golwg yn foreu iawn; a dechreuodd ei dad gyfranu iddo addysg gerddorol pan oedd yn bum mlwydd oed. Gosododd ef o dan addysg Van der Eden. Yn 1782, C. G. Neefe oedd ei addysgydd, yr hwn a'i gosododd i astudio gweithiau J. S. Bach a Handel. Synai Beethoven, pan yn blentyn, bawb a'i gwrandawent yn chwareu ar y berdoneg, gan mor fedrus yr ydoedd. Gadawodd ei dref enedigol yn 1793, ac ymsefydlodd yn Vienna, ac astudiodd reolau cyfansoddiad o dan Albrechtsberger. Ymddengys ei fod am y rhan fwyaf o'i oes yn dioddef oddi wrth ddiffyg clyw; ac erbyn ei fod yn wyth ar hugain oed, yr oedd o'r bron yn hollol fyddar. Yn ei ewyllys, yr hon a ddyddiwyd yn 1802, defnyddiodd ymadroddion cryfion i osod allan ei sefyllfa annedwydd. Dywed y dioddefai y fath ing meddwl o blegid hyn fel y temtid ef yn fynych i gyflawni hunanladdiad, ond fod hoffder at gerddoriaeth yn ei attal. Dywedai yn mhellach mai ei fyddardod, yr hyn a achlysurwyd gan gamdriniaeth feddygol, oedd yr achos iddo ymneillduo gymmaint o gymdeithas, ac arwain bywyd mor feudwyol ac unigol. Gofidiai yn ddirfawr am nad allai fwynhau seiniau cerddoriaeth. Fel y canlyn y disgrifir ef gan Russell, y teithiwr, pan oedd tua deg a deugain oed:—

"Er nad ydyw yn ddyn oedranus, y mae Beethoven wedi ei golli i gymdeithas, o herwydd ei fyddardod, yr hyn sydd wedi ei wneyd yn mron yn hollol ddigymdeithas. Gan fod tuedd ynddo i esgeuluso gofalu am ei berson, y mae golwg gwyllt arno. Y mae llinellau a phrydweddau ei wynebpryd yn sefyll allan yn amlwg:—y mae ei lygad yn llawn yni a bywiogrwydd; ei wallt, ar yr hwn ni bu na chrib na siswrn er's blynyddoedd, yn disgyn yn gudynau annhrefnus dros ei dalcen llydan. O ran ei ymddygiad cyffredin, y mae rywbeth yn debyg i'r ymddangosiad anaddawol yma; a phan na bydd yn mysg ei gyfeillion hoffaf, nid ydyw mwynder a hynawsedd yn nodweddion arbenig ynddo. Y mae colli ei glyw wedi ei amddifadu o'r hyfrydwch y gallasai efe ei fwynhau mewn cymdeithas, ac fe allai wedi suro ei dymmer hefyd. Y mae ganddo yn wastad lyfr papyr bychan gydag ef; ac y mae yr ymddiddan a gymmer le rhyngddo ag eraill yn cael ei gario yn mlaen mewn ysgrifen. Yn hwn hefyd y mae efe yn ysgrifenu i lawr yn ddioed unrhyw feddylddrych cerddorol a'i tery. Pan yn chwareu y berdoneg—ei hoff offeryn—yn esmwyth iawn, ni bydd un nòd yn cael ei seinio ganddo yn aml, er ei fod ef yn eu clywed oll yn nghlust ei feddwl. Y mae ei lygaid a symmudiad ysgafn ei fysedd yn dangos ei fod yn dilyn rhediad y gerddoriaeth yn ei enaid ei hun, tra y mae yr offeryn mor fud ag ydyw y chwareuydd o fyddar."

Bu farw Beethoven yn Vienna, Mawrth 27ain,

Digitized by Google

1827. Yn mherthynas i'w alluoedd i chwareu ar y berdoneg, ystyrir fod tystiolaeth Cramer yn lled gywir; yr hwn a ddywed am dano, "nad oedd mewn un modd yn chwareuwr gorphenedig neu fanwl iawn; ond yr oedd yn gawr mewn gosod allan feddylddrychau mawrion, ac yn nerth ei arddull. Yr oedd ei chwareuawd diragfyfyr (meddai) y peth mwyaf ardderchog a wrandewais erioed." Fel cyfansoddwr, saif Beethoven yn y llinell flaenaf. Yr oedd yn feddiannol ar athrylith gref, wreiddiol, a chyfoethog. Yn mherthynas i reoleidd-dra ei gynllun, purdeb ei gynghanedd, a threfniad medrus ei holl ddefnyddiau, a siarad yn gyffredinol, yr oedd yn israddol i Haydn a Mozart; er hyny, y mae ei gynnyrchion yn cael eu nodweddu gan ysbrydoliaeth tanllyd, nerth mawr, a theimlad dwfn, a thynerwch neillduol. Y mae ei holl weithiau, ac yn enwedig y rhai a gyfansoddwyd ganddo yn ei ieuengctid, ac yn y cyfnod canol o'i oes, yn dangos yn eglur ei fod yn ddyn o athrylith gerddorol uwchraddol; ac ystyrir fod ei gyfansoddiadau mewn cerddoriaeth yn gyffelyb o ran eu nodwedd i gyfansoddiadau barddonol Dante yn y byd barddonol.

**BEDYDDWYR.** Gelwir hwy wrth yr enw hwn am mai yn eu syniadau am ddull a deiliaid bedydd y maent yn gwahaniaethu, yn benaf, oddi wrth bleidiau anghydffurfiol ac efengylaidd eraill. Eu barn hwy ydyw na ddylid bedyddio neb os na bydd mewn oedran i ddeall a chredu egwyddorion a ffeithiau mawr y grefydd y bedyddir hwy iddi; a daliant hefyd mai trwy drochiad yn unig y dylid gweinyddu yr ordinhâd. [Gwel BEDYDD.]

Er nas gall y Bedyddwyr hòni eu bod yn hen iawn fel enwad, etto yr oedd yn yr eglwys Gristionogol yn foreu iawn rai a ddalient eu hegwyddorion, ac a weinyddent yr ordinhadau yn yr un modd a hwythau. Dywedant hwy na fedyddid babanod yn yr eglwys Brydeinig cyn dyfodiad Awstin yma; fod y Waldensiaid, y Lolardiaid, a'r Wickliffiaid, yn erbyn bedyddio babanod; ac mai Bedyddiwr o ran ei farn oedd Syr William Sawtree—y merthyr Lolardaidd cyntaf yn Lloegr (1401). Y mae yn sicr y bu bedydd babanod yn destyn dadleuon yn nhir y Swissiaid gyda bod y Diwygiad Protestanaidd wedi dechreu. Dywedir mai yn Zurich y cododd yr hyn a elwir yn Ailfedyddiaeth (*Anabaptism*), ac i'r athrawiaeth gerdded yn fuan oddi yno i daleithiau deheuol Germania. Ond dylid cadw mewn côf fod y Bedyddwyr yn diarddelwi yr enw Ailfedyddwyr, am fod yr enw yn rhoddi ar ddeall fod perthynas rhyngddynt âg Ailfedyddwyr Munster, y rhai a ymddygasant yn dra anghristionogol yn ystod y Diwygiad yn yr Almaen, ac a draethent syniadau y mae y Bedyddwyr presennol yn llwyr ymwrthod â hwynt. Yr unig bwngc y cyttuna'r ddwyblaid yn ei gylch ydyw, fod bedydd babanod yn anysgrythyrol. Dywed rhai, y mae'n wir, fod yn anhawdd gwahaniaethu'r Bedyddwyr pur oddi wrth yr Ailfedyddwyr am rai blynyddoedd ar ol y Diwygiad yn Lloegr; a rhaid addef fod y rhai mwyaf eithafol o'r Bedyddwyr, a'r rhai mwyaf cymmedrol o'r Ailfedyddwyr, yn dwyn y ddwy blaid yn agos iawn at eu gilydd, trwy wneuthur y llinell derfyn rhyngddynt yn aneglur.

Dichon mai y gyntaf o eglwysi rheolaidd y Bedyddwyr oedd yr un a sefydlwyd gan Mr. Smyth yn Amsterdam, ychydig o amser cyn marw y frenhines Elizabeth. Ffoaduriaid Saesnig ydoedd aelodau yr eglwys hono. Bu farw Smyth tua'r flwyddyn 1610, a dilynwyd ef yn ei swydd gan un Thomas Helwisse, yr hwn a ddychwelodd yn fuan wedi hyny i Loegr gyda'i gynnulleidfa. Yn Lichfield, Ebrill 11eg, 1612, y cymmerodd yr enghraifft olaf le o losgi un yn fyw am heresi. Ei enw ydoedd Edward Wightman, Bedyddiwr. Yn 1620, anfonodd y Bedyddwyr hyn ddeiseb i'r senedd i fynegi eu bod yn diarddelwi gau-athrawiaethau yr Ailfedyddwyr; ond er hyny, parhaodd dynion am gryn amser wedi hyny i edrych ar y Bedyddwyr a'r Ailfedyddwyr fel un blaid ddiwahân. Ymddengys fod y Bedyddwyr, yn y cyfnod sydd dan sylw, yn unfarn â'r rhai a elwir yn awr yn Fedyddwyr Cyffredinol; o blegid yr oeddynt yn gwadu etholedigaeth, a pharhâd mewn gras, &c.

Yr eglwys gyntaf o Fedyddwyr Neillduol, neu Galvinaidd, y mae hanes am dani, oedd yr un a ffurfiwyd yn Llundain gan Mr. Spilsbury yn 1633. Gelwid hwy yn Fedyddwyr *neillduol*, am eu bod yn dal yr athrawiaeth o Brynedigaeth neillduol. Ni bu erioed nemawr o ymgystlwn rhwng y ddwy blaid hyn o Fedyddwyr. Bu egwyddorion Ariaidd a Sosinaidd yn ffynu yn mysg y Bedyddwyr Cyffredinol am rai blynyddoedd wedi y chwyldroad, a difrododd heresi Sosinus rai o eglwysi y Bedyddwyr Neillduol hefyd.

Yn 1812, ffurfiwyd yr hyn a elwir yn "Undeb y Bedyddwyr," yr hwn sydd yn cynnwys uwch law mil o eglwysi. Ei amcan ydyw hyrwyddo pob symmudiad a fyddo er lles cyffredin yr eglwysi. Gwael oedd llenyddiaeth gyffredinol y Bedyddwyr hyd yn ddiweddar; ond cododd rhai gwŷr yn eu plith a fuont yn addurn, nid yn unig i'r enwad, ond hefyd i'r eglwys, megys Gale a Carson, y Groegyddion; Gill, yr Hebreydd; Carey, y Dwyreinydd; Andrew Fuller, y duwinydd; Foster, y traethodwr; a Hall, y pregethwr. Y Bedyddwyr oedd yr enwad cyntaf i ffurfio cenhadaeth at y paganiaid. Yn y fl. 1784, sefydlwyd y cyfarfod gweddi ar y dydd Llun cyntaf o'r mis i weddïo am lwyddiant yr efengyl trwy yr holl fyd; yr hyn sydd yn awr yn cael ei arfer gan yr holl eglwysi Protestanaidd.

Ffurfiwyd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yn Kettering yn swydd Northampton, yn y flwyddyn 1792, ar ol pregeth gan yr anfarwol Carey, ar *Esa.* lii. 2. 3. Mae ganddi uwch law dau gant o genhadon yn yr India, Jamaica, a gorllewin Affrica; ac nid yw Bedyddwyr yr Unol Daleithiau chwaith yn ddim llai ymdrechgar i sefydlu cenadaethau na Bedyddwyr y wlad hon.

Y GWAHANOL BLEIDIAU O FEDYDDWYR. Dywedasom eisoes fod y Bedyddwyr yn rhanedig i ddwy gangen fawr, sef y Bedyddwyr Cyffredinol, neu Arminaidd, a'r Bedyddwyr Neillduol, neu Galvinaidd. O herwydd fod y Bedyddwyr Cyffredinol yn gŵyro at Sosiniaeth, darfu i'r dosbarth mwyaf efengylaidd o honynt, dan arweiniad Mr. Daniel Taylor, ymneillduo yn 1770, a ffurfio yr hyn a elwir yn Gyfundeb Newydd; a gelwir y gweddill, er y pryd hwnw, yn Hen Gyfundeb. Y mae'r Hen Gyfundeb yn mron wedi trengu; ac nid ydyw y Cyfundeb Newydd mor liosog o lawer a'r Bedyddwyr Neillduol. Cynnwysir y Cyfundeb Newydd yn gystal a'r Bedyddwyr Neillduol yn "Undeb y Bedyddwyr." Y mae dwy farn yn mhlith y Bedyddwyr Cyffredinol a Neillduol ar *ammodau cym-*

Digitized by Google

*mundeb.* Pwngc y ddadl ydyw hyn:—A ddylai Bedyddwyr ganiatau i bersonau a fedyddiwyd yn eu babandod, ond na fedyddiwyd mewn oedran addfed trwy drochiad, gyfranogi o Swper yr Arglwydd? Gelwir y rhai sydd o blaid caniatau hyn yn Rhydd-gymmunwyr, a'r rhai sydd yn erbyn hyny yn Gymmunwyr caeth. Yn ol "*Llawlyfr y Bedyddwyr*" am 1875, yr oedd yn Mhrydain Fawr 2,612 o eglwysi, 3,321 o dai addoliad, 1916 o weinidogion yn gofalu am eglwysi, a 254,998 o aelodau.

Y Bedyddwyr yn Nghymru. Nid oes dim gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt hwy a Bedyddwyr Lloegr. I'r blaid Neillduol y perthyna y rhan fwyaf o honynt; ac y maent hwythau, gan mwyaf, yn Gymmunwyr caeth. Dywed Dr. F. A. Cox nad oes gynnifer o Fedyddwyr mewn un wlad, yn ol nifer y boblogaeth, ag sydd yn Nghymru. Baban-fedyddwyr Cynnulleidfaol, medd Dr. Thomas Rees, oedd holl Anghydffurfwyr Cymru cyn adeg y rhyfeloedd cartrefol. Ond yn 1649, sef y flwyddyn y dienyddiwyd Siarl I., newidiodd rhai o honynt eu barn am fedydd, ac ymffurfiasant yn eglwys Wrth-fedyddwyr Babanod yn Ilston, ger Abertawe. Sylfaenydd yr eglwys hono—ac yn wir, sylfaenydd enwad y Bedyddwyr yn Nghymru—oedd Mr. John Myles. Er nad oedd efe ar y pryd ond gŵr lled ieuangc, etto yr oedd yn ŵr o allu a dylanwad nid bychan. Buan y tyfodd y winwydden a blanwyd yma dros y muriau i'r Gelli, Llanharan, Caerfyrddin, ac Abergafenni; a chyn hir i lawer o leoedd eraill. Cryfhawyd achos y Bedyddwyr yn fawr drwy ymuniad Vavasor Powell â hwynt tua Nadolig y flwyddyn 1655. Y Parchedig Henry Jessey oedd yr offeryn i'w droi ef i ffydd y Bedyddwyr; ac efe hefyd, ond odid, a'i hail-fedyddiodd. Ond nid ymunodd Vavasor Powell erioed â phlaid y Cymmunwyr caeth, a arweinid gan Mr. Myles. Wrth weled cynnydd cyflym y Gwrth-fedyddwyr Babanod, teimlodd y Baban-fedyddwyr fod yn angenrheidiol gwneuthur rhywbeth tuag at gadarnhau y wlad yn ei hen gredo; felly, darfu i Mr. James Owen, yn y flwyddyn 1693, gyhoeddi llyfr a elwid "*Bedydd Plant o'r Nefoedd.*" Dyma y llyfr cyntaf a ymddangosodd yn yr iaith Gymraeg ar bwngc y bedydd. O herwydd rhyw resymau neu gilydd, ni welodd un o'r Bedyddwyr Cymreig yn dda i ysgrifenu attebiad i'r llyfr hwn; ond cawsant gan Fedyddiwr o Sais, o'r enw Mr. Benjamin Keach, i wneuthur hyny drostynt. Cyhoeddwyd gwaith Saesneg Mr. Keach yn 1696; ac yn fuan ar ol hyny, cyhoeddwyd cyfieithiad Cymraeg o hono. Yr enw, neu yn hytrach ran o'r enw, a roddwyd arno oedd, "*Goleuni wedi tori allan yn Nghymru, neu Gariad Sais at yr Hen Brydeiniaid.*" Y mae yn hawdd i'r darllenydd gasglu nad oedd hyn ond dechreu ar ymddadleu poeth a hirfaith rhwng y ddwyblaid ynghylch pwngc y bedydd. Dyma ystadegau cymmanfäol y Bedyddwyr am 1876—77:—Rhif yr eglwysi (gan gynnwys Mynwy), 622; canghenau, 104; gweinidogion, 435; pregethwyr cynnorthwyol, 315; rhif yr aelodau, 76,794; colegau, 3; athrawon, 6; sef, y Parchedigion Hugh Jones, D.D., a Gethin Davies, Llangollen; T. Davies, D.D., a W. Edwards, B.A., Hwlffordd; W. M. Lewis, M.A., a D. Thomas, B.A., Pont-y-pool.

Y Bedyddwyr Ysgotaidd. Sylfaenydd y blaid hon ydoedd Mr. Carmichael o Cupar; yr hwn, wedi newid ei farn am fedydd, a aeth i Lundain, yn 1765, i'w fedyddio gan Dr. Gill. Yn eu barn am fedydd yn unig y gwahaniaetha'r Bedyddwyr Ysgotaidd oddi wrth yr hen Annibynwyr Ysgotaidd; sef, dysgyblion David Dale. Gwahaniaethant oddi wrth y Bedyddwyr Neillduol yn hyn—fod eu ffurf-lywodraeth eglwysig yn fwy cynnulleidfaol, a'u dysgyblaeth yn llymach na'r eiddynt hwy.

Bedyddwyr yr America.—Yn yr America y ceir y pleidiau a nodir isod; ac felly, priodol ydyw i ni yma ddywedyd gair byr am godiad yr achos yn y wlad hono. Y mae yn wybyddus fod llawer o'r tadau Puritanaidd a aethant drosodd o'r wlad hon i'r America yn Fedyddwyr o ran eu syniadau; ond y cyntaf i'w harddel hwynt yno yn gyhoeddus oedd Roger Williams, y Cymro. [Gwel Roger Williams.] Gan ei fod yn dal nad oedd gan y llywodraeth wladol ddim awdurdod ar gydwybodau dynion, gorfu iddo gilio oddi wrth ei gyd-drefedigion yn Massachusetts, ac ymsefydlu yn Ynys Rhode, lle yr adeiladodd efe ddinas Providence. Yn y flwyddyn ganlynol, sef 1639, sefydlodd eglwys yno, yr hon oedd y gyntaf oll a berthynai i'r enwad a sefydlwyd yn yr America. Yr oedd yn y fl. 1873 yn yr Unol Daleithiau 20,520 o eglwysi, 12,589 o weinidogion, a 1,633,939 o aelodau. Yn 1874, 21,510 o eglwysi, 13,354 o weinidogion, a 1,761,171 o aelodau:—cynnydd yn 1874, eglwysi 996, gweinidogion 756, aelodau 120,632. Y mae y mwyafrif yn perthyn i'r dosbarth caeth.

Bedyddwyr Ewyllys Rydd, y rhai a elwir hefyd gan rai yn 'Randaliaid,' yn 'Oleuadau Newyddion,' ac yn 'Rhydd-ewyllyswyr.' Cychwynwyd yr enwad hwn yn Ngogledd America, yn 1780, gan un Beniamin Randall, yr hwn a ddychwelwyd trwy George Whitfield. Y mae y Bedyddwyr hyn yn gwadu etholedigaeth, ac yn dal iawn cyffredinol. Buasent yn llawer mwy eu rhifedi—yn y Taleithiau Deheuol o'r hyn lleiaf—pe na buasent mor wrthwynebol i gaethwasanaeth.

Bedyddwyr Rhydd.—Cydolyga y rhai hyn â Rhyddgymmunwyr Lloegr ynghylch ammodau cymmundeb. Mewn athrawiaeth a llywodraeth eglwysig cyffelyb ydynt i'r Rhydd-ewyllyswyr. Yn 1841, ymunodd y ddau enwad â'u gilydd; ac am hyny, yr un bobl a feddylir yn awr wrth y naill enw a'r llall.

Bedyddwyr yr Hen Ysgol.—Uchel-Galviniaid yw y rhai hyn o ran athrawiaeth.

Bedyddwyr y Chwech Egwyddor.—Ymgyfenwant felly am eu bod yn dal fod y tair adnod flaenaf yn y chweched bennod o'r Llythyr at yr Hebreaid, fel y maent hwy yn eu hesbonio, "yn cynnwys cynllun dadguddiedig, a ffordd Crist i gadw pechaduriaid." Y chwe pheth a nodir yn y fan hono yw y rhai hyn:—"edifeirwch oddi wrth weithredoedd meirwon;" "ffydd tuag at Dduw;" "athrawiaeth bedyddiadau;" "arddodiad dwylaw;" "adgyfodiad y meirw," a'r "farn dragywyddol." Arminaidd ydynt o ran athrawiaeth. Ni chafodd eu gweinidogion ond ychydig o addysg, nac o gefnogaeth. Nid ydynt wedi dangos eu hunain yn bleidiol i symmudiadau diwygiadol yr oes, megys y rhai yn erbyn caethwasanaeth a meddwdod, ac ni wnaethant erioed ddim ymdrech i sefydlu cenadaethau.

Bedyddwyr y Seithfed Dydd. — Gelwir hwynt wrth yr enw hwn am eu bod yn cadw y Sadwrn yn lle y dydd dilynol, fel Sabbath neu ddydd gorphwys. Ni wyddys yn iawn pa bryd y cododd yr enwad hwn; ond ymddengys fod

Digitized by Google

ganddynt amryw o eglwysi yn Lloegr yn y fl. 1650. Nid oes ond ychydig iawn o honynt yn y wlad hon yn awr; ond y mae ganddynt yn yr Unol Daleithiau tua hanner cant o eglwysi, deugain o weinidogion ordeiniedig, a thua chwe mil o aelodau.

Y TANSODDWYR (*Tunkers*), Y BRODYR, NEU Y BEDYDDWYR GERMANAIDD.—Plaid o Gristionogion yw y rhai hyn, a ymfudasant o'r Almaen i'r America rhwng y blynyddoedd 1718 a 1730. *Tunkers* y gelwir hwynt yn gyffredin; ond "Brodyr" y galwant hwy eu hunain, a hyny o blegid yr hyn a ddywedodd Crist wrth ei ddysgyblion (*Mat.* xxiii. 8):—"Un yw eich athraw chwi, sef Crist, a chwithau oll brodyr ydych." Y maent yn dal prynedigaeth gyffredinol. Y maent, fel y Crynwyr, yn dra syml eu gwisg a'u hiaith. Ni chymmerant lŵ, ac ni fynant ymi ladd. Ni fynant chwaith ymgyfreithio, ac nchymmerant lôg am arian benthyg. Y maent yn cadw cariad-wleddoedd, yn golchi traed eu gilydd, ac hefyd yn "anerch eu gilydd â chusan sancteiddiol." O ran eu llywodraeth eglwysig, y maent yn debyg i'r Bedyddwyr Saesnig, oddi eithr fod gan bob brawd yn eu plith hwy hawl i sefyll i fyny yn y gynnulleidfa i gynghori ac i esbonio. A phan y dengys dyn ei fod yn un "athrawaidd," y mae'r eglwys yn ei ddewis yn weinidog iddi, ac yn ei ordeinio trwy arddodiad dwylaw a gweddi. Y mae ganddynt hefyd ddiaconiaid a diaconesau. Nid ydynt yn talu i'w gweinidogion; ond y maent yn rhoddi cryn lawer o anrhegion iddynt, gan ystyried mai "gwell yw rhoddi na derbyn." Dewisant eu hathrawon a'u diaconiaid trwy bleidlais, a dewisant eu hesgobion o blith eu hathrawon—wedi eu profi yn dda, a'u cael yn ffyddlawn. Y mae eu hesgobion yn rhwym i deithio o'r naill gynnulleidfa i'r llall—nid yn unig i bregethu, ond hefyd i drefnu yr hyn fyddo yn angenrheidiol. Dyledswydd yr athrawon yw cynghori a phregethu yn eu cyfarfodydd rheolaidd, a gweinyddu yr ordinhadau hefyd, pan y gofyno esgob neu henuriad iddynt wneuthur hyny. Mewn tai anedd, gan mwyaf, y cadwant eu cyfarfodydd crefyddol. Y mae aelodau yr enwad hwn yn hyddysg iawn yn yr Ysgrythyrau; ac y mae eu haddfwynder, a'u duwioldeb, mor adnabyddus fel y gelwir hwynt yn "Dunkeriaid Diniwaid."

BELL, SYR CHARLES: difyniwr (*anatomist*), anianydd, a llawfeddyg enwog. Ganwyd ef yn Edinburgh, yn y flwyddyn 1774. Wedi astudio yn ysgol fawr y ddinas hono, ymroddodd yn ieuangc i efrydu difyniaeth. Ar y cyntaf o Awst, 1799, gwnaed ef yn aelod o goleg y 'llawfeddygon, ac yn un o lawfeddygon yr ysbytty brenhinol. Yn 1806, symmudodd i Lundain, lle y dechreuodd yn ddioed i draddodi darlithiau ar ddifyniaeth a llawfeddygiaeth, ac esgynodd yn brysur i enwogrwydd. Cyhoeddodd ei "*Anatomy of Expression*," yn fuan ar ol hyny, yr hwn a dynodd sylw ar unwaith. Iddo ef yr ydys yn ddyledus am y darganfyddiad nad yr un gïeuyn (*nerve*) yn nghyfansoddiad dyn sydd yn peri ysgogiad a theimlad. Fel y mae y rhedwelïau yn cario y gwaed o'r galon i wahanol ranau o'r corph, a'r gwythienau yn ei gario i'r galon yn ol, felly y mae un dosbarth o'r gïau yn cario ysgogiadau yr ewyllys o'r ymenydd, a dosbarth arall yn cario cyffroadau y teimlad i'r ymenydd. Y mae hwn yn cael ei ystyried yn un o ddarganfyddiadau difyniaethol mwyaf yr oesau, ac yn nesaf mewn pwysigrwydd at ddarganfyddiad Harvey. Gwobrwywyd Syr C. Bell am hyn â'r bathodyn blynyddol cyntaf a roddwyd gan Sior IV. yn 1829; a phan sefydlwyd urdd newydd o farchogion, ar esgyniad William IV. i'r orsedd, Syr Charles oedd un o'r rhai cyntaf a anrhydeddwyd. Y mae ei ysgrifeniadau ar wahanol ganghenau ei alwedigaeth yn ei osod yn un o'r awduron penaf ar lawfeddygiaeth. Mwynhaodd ei "*Bridgewater Treatise*" ar y "llaw" boblogrwydd neillduol. Bu farw y dyn rhagorol ac enwog hwn, yn ddisymmwth, ar y 29ain o Ebrill, 1842, yn Hollow Park, Worcester, yn 68ain mlwydd oed.

BELISARIUS: cadfridog yn myddin Justinian, yr hwn a orchfygodd y Persiaid yn y dwyrain, y Vandaliaid yn Affrica, a'r Gothiaid yn Italy. Ganwyd ef yn Germania, yn Illyria, yn 505 B.A. Ond er ei holl ddewrder a'i lwyddiant, cyhuddwyd ef yn faleisus o fradwriaeth yn erbyn bywyd yr ymherawdwr. Darganfyddwyd y gwir fradwyr, a daliwyd hwynt, âg arfau yn guddiedig dan eu gwisgoedd; a rhoddodd un o honynt derfyn ar ei einioes, tra y cymmerwyd y llall yn un o'r temlau, lle y ffoisai am nodded. Wedi ei oddiweddyd gan euogrwydd, neu mewn gobaith am gael maddeuant, cyhuddodd ddau o swyddogion tŷ Belisarius; y rhai a fynegent eu bod yn gweithredu yn unol â dymuniad eu meistr. Ond nid ydyw yr oesoedd dilynol yn credu y chwedl hon am yr hen wron. Ymddangosodd Belisarius o flaen y cynghor yn ddiofn—ond ei gondemnio a wnaed. Arbedwyd ei fywyd, y mae'n wir; ond attafaelwyd ei feddiannau, a chadwyd ef yn garcharor am flwyddyn yn ei balas ei hun. O'r diwedd, cydnabuwyd ei ddiniweidrwydd, ac adferwyd iddo ei feddiannau a'i anrhydedd; ond cyn pen wyth mis ar ol ei ryddhâd, symmudwyd ef ymaith gan angeu B.A. 565. Chwedl ddisail a ddyfeisiwyd mewn oesoedd diweddarach, dybygid, ydyw iddo gael tynu ei lygaid, a'i ddarostwng i gardota ei fara yn heolydd Caer Gystenyn, gan lefain, "Rhoddwch geiniog i Belisarius." Yn y ddeuddegfed ganrif yr ymddangosodd y chwedl gyntaf, mewn llyfr o waith y mynach Italaidd Tzetzes. O ran ei gymmeriad, gellir dywedyd ei fod fel gorchfygwr yn dosturiol, fel dysgyblydd milwrol yn llym, ac fel cadfridog yn anturiaethus a gwyliadwrus. Yr oedd yn wrol, teyrngarol, ac ymarhous at ei elynion. Bu yn foddion i attal dymchweliad yr ymherodraeth Roegaidd yn Nghaer Cystenyn gan y Vandaliaid, y Persiaid, a'r Gothiaid.

BENE-BERAC: un o ddinasoedd llwyth Dan. Yn *Ios.* xix. 46, yn unig y gwneir crybwylliad am dani. Gadewir y lle allan o gwbl yn y rhestr sydd yn 1 *Cron.* ii.—viii.; ac am un teulu y sonir yn *Num.* xxvi. O herwydd prinder hysbysrwydd yn mherthynas i'r llwyth hwn, y mae yn ammhossibl dyweyd a oedd "meibion Berac," y rhai a roddasant eu henwau ar y lle hwn, yn perthyn i Dan—ai ynte, fel y gellir casglu oddi wrth yr enw, rhyw ymsefydlwyr blaenorol a ddifeddiannwyd gan lwyth Dan oeddynt. Nid ydyw y darlleniad Syriaidd, *Baal-debac* yn cael ei gadarnhau gan un cyfieithiad arall. Dywedai Eusebius mai pentref oedd y lle hwn ger llaw Azotus. Ni wyddys am dano yn bresennol.

Digitized by Google

BENE-IACAN: llwyth oedd "meibion Iacan" a roddasant eu henw ar ffynnonau oedd yn yr anialwch lle y gwersyllodd meibion Israel ar eu taith i Gaanan: *Num.* xxxiii. 31. Gelwir yr un ffynnonau yn 'Beeroth' yn *Deut.* x. 6. Diammheu i'r llwyth hwn gael ei enw oddi wrth Iacan, mab Ezer, mab Seir yr Horiad (1 *Cron.* i. 42), yr hwn a elwir yn Acan yn *Gen.* xxxvi. 27. Nid ydyw sefyllfa y ffynnonau hyn yn hysbys. Yn amser Eusebius, dangosid y llanerch tua deng milldir o Petra ar ben uchaf mynydd. Tybia Robinson mai yr un ydoedd a ffynnon fach *et-Taiyibeh*, wrth odrau Bwlch *er-Rubây*, islaw Petra, ychydig o bellder oddi wrth Arabah.

BENTHAM, JEREMY: ysgrifenydd enwog ar ddeddfwriaeth a threfniadedd gwladol. Mab ydoedd i gyfreithiwr, a ganwyd ef yn Houndsditch, Llundain, Chwefror 15fed, 1748. Derbyniodd ei addysg foreuol yn ysgol Westminster; ac yn 1760, aeth i Goleg y Frenhines, yn Rhydychain. Graddiodd yn B.A. yno pan yn un ar bymtheg oed, ac yn M.A. pan yn ugain. Ei waith llenyddol cyntaf a gyhoeddwyd oedd ei "*Fragment on Government*," yr hwn a ymddangosodd yn 1776; yn yr hwn y proffesai wneuthur ymchwiliad i waith Blackstone ar yr un testyn. Ymwelodd Bentham â Ffrainge amryw weithiau; a rhwng y blynyddoedd 1784 ac 1788, teithiodd i Gaer Cystenyn, a thrwy y rhan fwyaf o Ewrop. Ond gwaith mawr ei oes oedd cyfansoddi a darparu ei lyfrau i'r wasg; ac yr oedd yn byw o'r bron yn feudwyol yn Queen square, Westminster. Bu farw Mehefin 6ed, 1832. Yr oedd yn awdwr llawer o lyfrau yn y Saesneg a'r Ffrangcaeg; ac yn eu mysg, gellir enwi ei "*Introduction to the Principles of Morals and Legislation;*" "*Rationale of Judicial Evidence,*" mewn pum cyfrol; "*Book of Fallacies;*" "*Defence of Usury;*" "*Panopticon,*" gwaith rhagorol ar ddysgyblaeth carchardai; "*Constitutional Code;*" "*Plan of a Judicial Establishment*"—un o'i draethodau mwyaf gorphenedig, a argraphwyd yn 1792, er na chafodd erioed ei gyhoeddi yn rheolaidd. Ysgrifenodd lawer o erthyglau i'r "*Westminster Review,*" yr hwn a sefydlwyd ganddo ef yn y fl. 1823, ac i'r "*Annals of Agriculture,*" gan Arthur Young. Gellir priodoli i ysgrifeniadau Bentham, i raddau pell, er fod eu heffeithiau megys yn anweledig, y cyfnewidiad mawr sydd wedi cymmeryd lle yn yr amser a aeth heibio, ac sydd i'w ganfod yn awr ar gwestiynau yn dal perthynas â gwleidyddiaeth. Y maent yn ystorfa o addysg i wladweinwyr, ac yn arfdy at wasanaeth diwygwyr cyfreithiol—"Er ei fod yn cael ei ladrata gan bawb," ebe un, "y mae yn wastad yn gyfoethog."

BENTLEY, RICHARD, D.D.: un o feirniaid mwyaf yr oesoedd diweddar. Ganwyd ef yn Oulton, yn swydd Gaerefrog, Ionawr 27ain, 1662. Mynegir ei fod yn ddyledus am hyd yn oed elfenau ei ddysg clasurol i addysgiaeth ei fam, yr hon a ddisgrifir fel un yn meddu ar allu-oedd rhagorol. Bu yn ysgol rammadegol Wakefield; ac yn 1676, aeth i Goleg St. Ioan, Caergrawnt, lle y graddiodd yn B. A. Pennodwyd ef yn brif athraw ysgol rammadegol Spalding. Gwerthodd ei hawl a'i gyfran yn eiddo Oulton i'w frawd; ac â'r arian a gafodd am hyny, prynodd lyfrau. Bu yn athraw preifat i fab y Dr. Stillingfleet, a chymmerodd ei radd o M. A. yn 1683. Cymmerodd urddau diacon yn yr Eglwys Sefydledig yn 1690. Yn 1692, darfu i bedwar ymddiriedolwr darlith Boyle ei bennodi i draddodi y gyntaf o'r darlithiau hyny. Y testyn a ddewisodd oedd "Bod a Gallu Duw," gan gyfeirio ei resymau yn benaf yn erbyn egwyddorion Hobbes a Spinoza; a chwanegodd cyhoeddiad y darlithiau neu y pregethau hyn yn fawr at ei enwogrwydd blaenorol. Dewiswyd ef drachefn i draddodi ei "*Boyle Lecture*" yn 1694. Yn y ddarlith hon, amddiffynodd Gristionogaeth yn erbyn ymosodiadau anffyddwyr. Cafodd y radd o D. D. o Gaergrawnt yn 1796.

Yr oedd Bentley yn awr yn prysur ddringo i binacl ei enwogrwydd. Pennodwyd ef yn llyfrgellydd i'r brenin; a thra yn y swydd hon bu mewn dadl hynod. Yr oedd Mr. Boyle wedi cael benthyg llawysgrif o'r llyfrgell er cwblhau ei argraphiad o "*The Epistles of Phalaris;*" a phan y gofynodd Bentley am y llyfr yn ol yn gynt nag y disgwylid, arweiniodd hyny i gweryl geiriol, yr hyn a fu yn achlysur i ddadl fawr, yn yr hon yr amlygwyd o bob tu ffraethineb, ysbryd beirniadol, a dysg anghyffredin. Yn 1700, pennodwyd Dr. Bentley yn feistr Coleg y Drindod, Caergrawnt; a thua'r un amser yn Archddiacon Ely; ac yn fuan ar ol hyny yn gaplan i'r brenin. Yn llywodraethiad y coleg, dangosai Bentley yn fynych, meddir, ysbryd gorthrymus. Achwynai y cymmrodorion wrth Esgob Ely, yr ymwelydd, ei fod yn cadw rhywfaint o arian y coleg:—cyhuddiad a arweiniodd i'r dadleuon poethaf. Ond o'r diwedd, ar ol ugain mlynedd o ddadleu, sefydlwyd cymmeriad y meistr am onestrwydd. Fel athraw duwinyddol hefyd, tynodd arno ei hun ŵg y brifysgol; gwrthododd y teitl o D. D. i amryw bersonau, heb iddynt roddi iddo y swm o bedwar gini yr un; am yr hyn yr attaliwyd ef gan y brif ysgol am dymmor i gyflawni ei swydd. Appeliodd at y brenin, a gosodwyd yr achos o flaen barnwyr Llys y Brenin; y rhai a gondemnient yr hyn a wnaeth y brifysgol, a gorchymynasant ei ail osod yn ei swydd yn anrhydeddus. Yn ystod yr amser hwn yr oedd Bentley yn dal i fyny o ran ei feddwl, ac yn defnyddio ei amser mewn ymchwiliadau beirniadol dysgedig. Ac y mae ei argraphiadau o weithiau Terence, a Homer, a Phædrus, a Milton, &c., yn amlygu y wybodaeth eangaf mewn llenyddiaeth glasurol. Wedi bod am flynyddoedd yn gwaelu yn raddol, bu farw yr ysgolhaig a'r beirniad mawr hwn Gorphenaf 14eg, 1742, yn 80ain mlwydd oed. Ei fab, Dr. Richard Bentley, yr hwn hefyd oedd ddyn o ddysg a thalent, a gafodd ei holl lyfrau; ac ar ei farwolaeth ef, pwrcaswyd hwynt gan Lockington, yr hwn a'u gwerthodd i ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Brydeinig.

Fel ysgolhaig, yr oedd Bentley yn sefyll yn y rhes flaenaf. Os ffurfir barn am dano oddi wrth yr hyn oedd, ynghyd â'r hyn a wnaeth, rhaid ei olygu fel un o arwyr dysgeidiaeth clasurol, os nad yn un o'i harwyr penaf. Cyfaddefa Bunsen mai efe oedd sylfaenydd ieithyddiaeth hanesyddol (*historical philology*). Rhoddodd ysbrydoliaeth yn y genhedlaeth nesaf o ddysgedigion clasurol. Gresyn, er mwyn ei enwogrwydd ei hun, yn gystal a lles llenyddiaeth yn gyffredinol, fod cymmaint o'i amser a'i dalent wedi ei gymmeryd i fyny mewn dadleuon difudd ynghylch arian a swyddau. Gydag ychydig llai o nwyd, ac uchelgais, hunanoldeb, a

Digitized by Google

balchder, gallasai fod yn un o addurniadau disgleiriaf ei oes. Yn ei dŷ ei hun yr oedd Dr. Bentley yn llettygar, yn wresog yn ei gyfeillgarwch, ac yn cael ei barchu fel penteulu; braidd y gellir dywedyd fod gŵr o'r fath yn anhawddgar, pan y câ ei dymmer naturiol chwareu teg.

BERANGER, JEAN PIERRE DE: telynfardd mwyaf Ffraingc. Ganwyd y cerddor poblogaidd o rieni tlodion yn Paris, Awst 19eg, 1780. Dioglyd ac ansefydlog oedd yn ei febyd; a phan yn 14eg oed, rhwymwyd ef yn freintwas gydag argraphydd o Péronne; ac o hyny allan, ymroddodd i ddarllen a chyfansoddi. Yn 1795, cymmerodd ei dad ef i Paris i'w gynnorthwyo gyda rhyw orchwylion perthynol i ariandy; ond yn y fl. 1798, methodd yr ariandy, ac felly canodd Beranger yn iach i orchwylion arianol am byth. Buasai yn gyfyng arno am dalm o amser ar ol hyny oni buasai am garedigrwydd y tywysog Lucien Bonaparte; canys trosglwyddodd hwn y cyflog oedd yn dyfod iddo ef fel aelod o Sefydliad Ffraingc i Beranger. Yn 1815 y daeth Beranger gyntaf ger bron y byd fel awdwr, a chafodd y gyfreso ganeuon gwladgar a gyhoeddodd y pryd hwnw groesaw digyffelyb. Yr oedd yn ei ail a'i drydedd gyfres gynnifer o ymosodiadau ar y llywodraeth fel y carcharwyd ef am fisoedd, ac y dirwywyd ef yn drwm; ond talwyd y ddirwy gan ei edmygwyr. Pan etholwyd Louis Philippe yn frenin, gommeddodd Beranger dderbyn gwobr am ei wasanaeth, ac ymneillduodd i Tours, lle y gorphenodd ei bedwaredd gyfres o gerddi. Fel hyn y dywed Göethe am dano, ac am ei gerddi:—"Ni bu Beranger erioed mewn ysgol nac athrofa; ond y mae ei ganeuon, er hyny, mor nodedig am eu coethder, eu haddfedrwydd, eu diwyllder, eu harabedd, a'u gwatwareg ffol, ac y mae eu saernïaeth mor gelfydd, a'u hiaith mor odidog, fel yr edmygir ef gan holl Ewrop wareiddiedig." Ar ol y chwyldroad yn Chwefror, 1848, etholwyd ef yn aelod o Gymmanfa y Cynnrychiolwyr, ond rhoddodd ei le i fyny yn fuan. Bu farw Gorph. 16eg, yn 1857.

BESAI. Yr oedd "meibion Besai" yn mysg y Nethiniaid a ddychwelasant gyda Zorobabel i Iudea: *Ezra* ii. 49; *Neh.* vii. 52.

BESER: mab Sophah, un o benaethiaid teulu Aser: 1 *Cron.* vii. 37.

BEVERIDGE, WILLIAM: prelad ac awdwr duwinyddol enwog. Ganwyd ef yn Barrow, yn swydd Leicester, yn y fl. 1638. Yr oedd ei daid a'i dad hefyd wedi bod yn ficeriaid yn y plwyf hwnw. Derbyniwyd ef i goleg St. Ioan, Caergrawnt, yn 1653; ac yn ystod ei arosiad yno, yr oedd yn hynod am ei ymroddiad i'w efrydiau, ei grefyddoldeb, a'i ymarweddiad diargyhoedd. Yr oedd efe mor ddiwyd ac ymroddedig i'w efrydiau, yn enwedig yr ieithoedd dwyreiniol, fel yr ysgrifenodd draethawd Lladin ar ddefnyddioldeb a rhagoroldeb yr ieithoedd hyny pan yn ddeunaw mlwydd oed, a chyhoeddwyd ef ddwy flynedd yn ddiweddarach. Graddiwyd ef yn B.A. yn 1656, ac yn M.A. yn 1660, ac ordeiniwyd ef yn ddiacon ac yn offeiriad yn ystod y flwyddyn ddiweddaf a nodir. Yn mhlwyf Ealing y bu maes cyntaf ei lafur, ac yno yr ysgrifenodd efe ei waith Lladin ar amseryddiaeth. Etholwyd ef gan faer a henaduriaid Llundain yn beriglor St. Pedr, yn Cornhill, yn y ddinas hono; a rhoddodd i fyny ficeriaeth Ealing. Daeth ei ddifrifwch, ei weithgarwch, a'i ymroddiad yn nghyflawniad ei swydd mor amlwg, fel y dywedid am dano ei fod yn "adferwr ac yn ymadnewyddwr y grefydd gyntefig," a chyfeirid at ei blwyf fel cynllun o drefnusrwydd Cristionogol. Yna cafodd gôrberigloriaeth Chiswick yn eglwys gadeiriol St. Paul yn niwedd y fl. 1674; ac yn 1681, dyrchafwyd ef i archddiaconiaeth Colchester. Llanwodd y swydd hon, fel pob un o'i blaen, yn y modd mwyaf gofalus ac ymroddgar. Yn 1684, enwyd ef yn gôrberiglor Caergaint, a phennodwyd ef yn gaplan i'r brenin. O ddeutu saith mlynedd wedi hyny, pan y gommeddodd y Dr. Ken, esgob Bath a Wells, gymmeryd llŵ o deyrngarwch i'r llywodraeth, cymmerwyd ei esgobaeth oddi arno, a chynnygiwyd hi i Beveridge:—ond ei gwrthod a wnaeth. O blegid hyn, ni chafodd ei ddyrchafu yn esgob am rai blynyddoedd; ond yn 1704, pennodwyd ef yn esgob Llanelwy. Yn nghyflawniad ei ddyledswyddau yn y swydd hon, amlygodd yr un gofal a diwydrwydd ag arferol. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth ar ol ymaflyd ynddi oedd ysgrifenu llythyr bugeiliol, yn yr hwn yr ymdrechai argraphu ar feddwl y clerigwyr y mawr bwys o gateceisio eu plwyfolion. Ni bu y dyn rhagorol hwn yn gweinyddu y swydd esgobol ond prin bedair blynedd; o herwydd bu farw ar y 5ed o Fawrth, 1708, yn y 71ain mlwydd o'i oedran. Claddwyd ef yn eglwys gadeiriol St. Paul.

Gadawodd y rhan fwyaf o'i eiddo i'r Cymdeithasau er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, a Lledaenu yr Efengyl mewn gwledydd Tramor. Y gweithiau a gyhoeddodd yn ystod ei fywyd oeddynt:—"*De Linguarum Orientalium Præstantia et Usu;*" "*Institutionum Chronologicarum Libri Duo;*" "*Συνόδικον Sive Pandectæ Canonum,*" &c.; "*Codex Canonum Ecclesiæ,*" &c.; "*The Church Catechism Explained.*" Ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd ei "*Private Thoughts on Religion and Christian Life;*" "*One Hundred and Fifty Sermons;*" "*Thesaurus Theologicus,*" &c. Gwerthfawrogir ei weithiau yn fawr. Ac y mae yn wir nad ydynt lawn mor wreiddiol o ran eu syniadau, nac mor ffrwythlawn o athrylith, ag eiddo rhai o'i gydoeswyr. Y maent gryn lawer is law cynnyrchion Jeremy Taylor a John Howe yn y pethau hyn; etto nid ydynt yn ol i unrhyw ysgrifeniadau o'r cyfnod hwnw mewn serchawgrwydd a difrifwch, a phob peth sydd yn arwyddo fod meddwl yr awdwr wedi ei lenwi gan ofn yr Arglwydd, ac yn ddarostyngedig i ddylanwad pethau ysbrydol ac anweledig. Cyhoeddwyd ei holl weithiau mewn naw cyfrol, yn 1824, gan y diweddar T. Hartwell Horne.

1. BILHAN: penaeth yn mysg yr Horiaid—mab Ezer, mab Seir. Preswyliai yn mynydd Seir yn ngwlad Edom: *Gen.* xxxi. 27; 1 *Cron.* i. 42.

2. BILHAN: Beniaminiad — mab Iediael: 1 *Cron.* vii. 10. Nid ydyw yn hawdd penderfynu o ba un o feibion Beniamin y deilliodd Iediael, yn gymmaint ag na wneir crybwylliad am dano yn *Gen.* xlvi. 21, nac yn *Num.* xxvi. Ond am ei fod yn fab i Ehud, ac Ehud, fel yr ymddengys oddi wrth 1 *Cron.* viii. 3, 6, yn fab i Bela, yr oedd Iediael, ac o ganlyniad Bilhan, dybygid, yn perthyn i'r un teulu. Y mae braidd yn hynod fod yr enwau Edomaidd Bilhan a Bela yn digwydd yn llwyth Beniamin.

Digitized by Google

**BANGCIAU YSGOTLAND.** Cafodd hen ariandy Ysgotland ei sefydlu mor bell yn ol a'r fl. 1695, yn nhref Edinburgh; a dechreuodd ar y laf o Dachwedd yn y flwyddyn hono. Hwn oedd yr ail sefydliad o'r fath o fewn yr ymherodraeth. Gwaherddid iddo fenthyca arian i'r Goron. Y bangc cyntaf, wedi hyny, i gael ei sefydlu yn yr Ucheldir oedd Bangc Brenhinol Breintiedig Ysgotland, yr hwn a ddechreuwyd Gorphenaf 8fed, 1727. O hyny hyd yn awr, cafodd llawer o ariandai eraill eu sefydlu yno.

**BANGCIAU YR IWERDDON.** Ar y 9fed o Ragfyr, 1721, taflodd Tŷ Cyffredin yr Iwerddon allan fesur a ddygwyd i mewn iddo gyda yr amcan o sefydlu ariandy cenedlaethol yn yr ynys. Yn y blynyddoedd 1727, 1733, a 1758, torodd amryw o fangciau Gwyddelig pwysig i fyny; ac arweiniodd hyn yn raddol i sefydliad Ariandy yr Iwerddon yn St. Mary's Abbey, Dublin, ar y laf o Fehefin, 1783. Symmudwyd ef oddi yno i'r hen senedd-dŷ yn College Green, yn Mai, 1808. Y mae canghenau o'r ariandy hwn wedi eu sefydlu yn y rhan fwyaf o brif drefi yr Iwerddon—oll er y fl. 1828. Dyddiad Cyfraith Bangciau yr Iwerddon ydyw Gorph. 21ain, 1845.

**BLACKFRIARS, PONT.** Y mae y bont adnabyddus hon yn croesi y Dafwys yn Llundain. Gosodwyd careg gyntaf yr hen bont ar yr 31ain o Hydref, 1760; a gorphenwyd hi gan y peiriannydd Mylne yn 1770. Adgyweiriwyd hi ar amryw achlysuron rhwng 1834 ac 1850; ond yr oedd hi yn dechreu suddo. Tynwyd hi i lawr yn 1864, a chodwyd pont yn ei lle i wasanaethu dros amser hyd nes y gwnelid pont arall. Cynlluniwyd pont newydd ardderchog gan Mr. Joseph Cubitt; a gosodwyd ei chareg sylfaen i lawr ar yr 20fed o Orphenaf, 1865, gan yr Arglwydd Faer Hale; ac agorwyd hi gan y frenhines Tachwedd 6ed, 1869. Cyrhaeddodd y gerbydres gyntaf i ddinas Llundain dros bont Ffordd Haiarn Blackfriars ar y 6ed o Hydref, 1864. Cafodd pont ffordd haiarn arall ei chychwyn yn agos yno Ion. 7fed, 1884; a gorphenwyd hi yn fuan.

**BRIDGEWATER, CAMLAS.** Y gamlas hon ydoedd y gwaith mawr cyntaf o'r natur hwn yn Lloegr. Dechreuwyd hi yn 1759 gan y Duc o Bridgewater—yr hwn a ystyrir fel tad mordwyaeth gamlesawl y wlad hon; a chymmerodd y seremoni agoriadol le ar Gorphenaf 17eg, yn y fl. 1761. Y peiriannydd oedd James Brindley. Cychwyna y gamlas hon yn Worsley, saith milldir o Fanceinion. Ac yn agos i Barton Bridge, y mae dyfr-bont (*aqueduct*) sydd am ddau can llath yn cario dwfr y gamlas dros yr afon Irwell. Hyd y gamlas yw 29 milldir.

**BRIDGEWATER, TRAETHODAU** (*Bridgewater Treatises*). Yn Ebrill, 1829, bu farw Francis Henry Egerton, Iarll Bridgewater, yr hwn a adawodd yn ei ewyllys 8,000*p.* i'w talu i awdwr, neu awduron, a bennodid gan Lywydd y Gymdeithas Frenhinol, am ysgrifenu traethawd ar 'Allu, Doethineb, a Daioni Duw, fel yr amlygir hwynt yn y Greadigaeth.' Yn lle ymddiried y gwaith i gael ei gyflawni gan un person, penderfynodd y llywydd ar y pryd, sef Mr. Davies Gilbert, gyda llawer o ddoethineb, ar gynghorion Archesgob Caergaint, ac Esgob Llundain, a chyfaill i'r iarll, fod yr arian i'w rhoddi i wyth o bersonau gwahanol am wyth o draethodau gwahanol. Y maent fel y canlyn:—1. *The Adaptation of External Nature to the Moral and Intellectual Constitution of Man*, gan Thomas Chalmers (1833). 2. *Chemistry, Meteorology, and Digestion*, gan William Proutt, M.D. (1834). 3. *The History, Habits, and Instincts of Animals*, gan Kirby (1835). 4. *Geology and Mineralogy*, gan Deon Buckland (1837). 5. *The Hand, as evincing Design*, gan Syr Charles Bell (1837). 6. *The Adaptation of External Nature to the Physical Condition of Man*, gan J. Kidd, M.D. (1837). 7. *Astronomy and General Physics*, gan Whewell (1839). 8. *Animal and Vegetable Physiology*, gan P. M. Roget, M.D. (1840).

Gadawodd yr iarll 12,000*p.* hefyd i'r Amgueddfa Brydeinig—y llôg oddi wrthynt i'w ddefnyddio i brynu ysgrifau (*MSS.*), ac i dalu i bersonau am ofalu am danynt.

**BRUCE, HENRY AUSTIN** (ARGLWYDD ABERDAR). Ganwyd ef yn y Dyffryn, Aberdâr, ar Ebrill 16eg, 1815. Ail fab oedd efe i Mr. John Bruce Pryce, tirfeddiannwr Cymraeg, o ddaliadau gwleidyddol Ceidwadol. Yn 1832, aeth Henry i Lundain, lle y dechreuodd efrydu y gyfraith dan ei ewythr, Mr. Knight Bruce; yr hwn, wedi hyny, a ddyrchafwyd i fod yn Arglwydd Farnwr. Yn 1837, galwyd ef i fod yn fargyfreithiwr; ond efe a ymneillduodd o'r alwedigaeth yn 1843. Ymmhen pedair blynedd ar ol hyn, pennodwyd ef yn ynad cyflogedig i Ferthyr Tydfil ac Aberdâr; yr hon swydd a ddaliodd hyd 1852—pan yr ymddiswyddodd, am ei fod yn bwriadu ymgynnyg yn ymgeisydd am aelodaeth seneddol dros fwrdeisdrefi unedig Merthyr ac Aberdâr. Dychwelwyd ef yn ddiwrthwynebiad, a pharhaodd i'w chynnrychioli hyd y fl. 1868. Dangosodd Mr. Bruce ei ryddfrydiaeth y noson gyntaf yr ymddangosodd yn y tŷ, trwy bleidleisio yn erbyn gweinyddiaeth Iarll Derby; a thrwy y bleidlais hono, cynnorthwyodd i'w dymchwelyd, a'i weinyddiaeth gydag ef. Daeth i sylw yn fuan fel gwleidydd o gryn allu; ac nid hir y bu cyn i'w dalentau gael eu cydnabod gan y llywodraeth. Wedi gwasanaethu fel aelod o'r Ddirprwyaeth Frenhinol ar Iechyd Mwnwyr, pennodwyd ef, yn y fl. 1862, yn Is-ysgrifenydd i'r Swyddfa Gartrefol; ac yn y fl. 1864, yn Is-lywydd Pwyllgor y Cynghor Addysg—swydd oedd yn dra chydnaws â'i chwaeth, am fod achos addysg bob amser yn hynod agos at ei galon. Ond rhaid dywedyd na chafodd Ymneillduwyr Cymru degwch llawn yn eu cyssylltiad â'r Ysgolion Brytanaidd gan swyddogion y Swyddfa Addysg tra yr oedd efe yn îs-lywydd.

Yn etholiad cyffredinol 1868, collodd Mr. Bruce ei sedd dros Ferthyr. Yr oedd y fwrdeisdref, erbyn hyn, yn meddu hawl i ethol dau aelod i'r senedd. Modd bynag, pennodwyd ef gan Mr. Gladstone yn ysgrifenydd cartrefol—un o'r swyddi pwysicaf yn ei weinyddiaeth; ac yn Ionawr, 1869, cafodd ei ethol dros swydd Renfrew, yn Ysgotland. Yn ystod seneddtymmor y flwyddyn hono, efe a gynnygiodd fod dirprwyaeth yn cael ei phennodi i wneyd ymchwiliad i'r dull o gario yn mlaen etholiadau seneddol a bwrdeisiol, er ceisio darganfod ai nid oedd yn bossibl dyfeisio rhyw ddull dirgel, ac ymarferol, o bleidleisio; a thrwy hyny, sicrhau mwy o ddiogelwch a rhyddid i'r etholwyr

Digitized by Google

bleidleisio yn ol eu hargyhoeddiadau. Ymddangosodd ei enw yn ddiweddarach ar gefn Mesur y Balot. Tra yn y Swyddfa Gartrefol, gweithredodd Mr. Bruce yn egnïol gydag eraill er ceisio sicrhau gwelliantau mewn amryw o ddeddfau pwysig.

Yn 1871, efe a ymdrechodd i gario mesur drwy y tŷ oedd yn cynnwys diwygiadau yn Neddfau y Trwyddedau; ond bu raid tynu y mesur yn ol; ac nid oedd mesur 1872 o lawer mor gryf a'r hwn a gynnygiodd efe yn 1871.

Yn 1873, gwnaed cyfnewidiadau yn ngweinyddiaeth Mr. Gladstone. Pennodwyd Mr. Bruce yn Arglwydd Lywydd y Cynghor; a dyrchafwyd ef i Dŷ yr Arglwyddi gyda'r teitl o Arglwydd Aberdâr. Y flwyddyn ddilynol, dygwyd llywodraeth Mr. Gladstone i derfyniad. Ar ol hyny, ni bu ei arglwyddiaeth yn dal unrhyw swydd weinyddol. Ond ni pheidiodd, modd bynag, a chymmeryd dyddordeb mewn materion cyhoeddus. Efe ydoedd llywydd y *Social Science Association*, a gynnaliwyd yn Brighton yn 1875; ac yr oedd ei anerchiad ar yr achlysur hwnw yn un galluog, a gwnaeth argraph ddofn ar y rhai oedd yn bresennol. Gelwid am ei wasanaeth yn fynych fel llywydd cyfarfodydd y cymdeithasau dysgedig. Llanwodd y swydd hon yn ngwyliau blynyddol y Gymdeithas Hanesyddol, y Gymdeithas Ddaearyddol, a'r Gymdeithas Arddwrol. Efe hefyd oedd llywydd y ddirprwyaeth ar y tlodion oedranus; ac ar ddiwedd y tystiolaethau, darparwyd amlinelliad o adroddiad ganddo; ac yr oedd y ddirprwyaeth i gyfarfod ar y diwrnod y bu efe farw. Mewn canlyniad i farwolaeth y llywydd, ni chymmerwyd y mater i ystyriaeth; ond cyttunodd y ddirprwyaeth ar bleidlais unfrydol o gydymdeimlad â'r teulu.

Daliai ei arglwyddiaeth gyssylltiad agos â symmudiadau cyhoeddus yn Nghymru hefyd; ac yn ystod ei fywyd llafurus, gwnaeth lawer i hyrwyddo manteision y genedl Gymreig y tu fewn i'r tŷ, ac allan o hono hefyd. Fel cefnogydd addysg, yr oedd efe yn enwog trwy y Dywysogaeth. Efe oedd cadeirydd y Pwyllgor (*Departmental Committee*) a bennodwyd gan Iarll Spencer yn 1880, i wneyd ymchwiliad i sefyllfa Addysg Ganolraddol ac Uwchraddol yn Nghymru, ac i gymmhell mesurau er gwella a chwanegu at y darpariaethau oedd yn bod ar y pryd ynglŷn â'r cylchoedd hyn o addysg. Gydag ef ar y pwyllgor hwn yr oedd, hefyd, Mr. Henry Richard, Is-iarll Emlyn, y Proffeswr Rhys, a Mr. Lewis Morris. Ac adroddiad y pwyllgor hwn oedd y sylfaen ar ba un y rhoddwyd i Gymru, yn mhen blynyddoedd, awdurdod ar ei haddysg. Gwnaeth lawer er sicrhau gwaddoliad y tri choleg Cymraeg, a sefydliad ysgolion canolraddol cyhoeddus yn yr holl siroedd; ac yn ddiweddarach, dros uniad y cyfan dan Brifysgol Gymreig. Y prif argymmhellion oeddynt yn adroddiad y pwyllgor a nodwyd oedd, 1af, Gwneuthur darpariaeth ddigonol ar gyfer addysg ganolraddol. 2il, Sefydliad colegau trwy roddion seneddol. Yn 3ydd, Sefydliad Prifysgol yn Nghymru yn meddu awdurdod i ganiatau graddau i efrydwyr llwyddiannus. Y mae yn hyfryd meddwl fod y gŵr y bu ganddo ran mor flaenllaw yn y pwyllgor hwn wedi cael ei arbed yn ddigon hir i weled yr argymmhellion uchod o eiddo y pwyllgor yn cael eu sylweddoli. Yn y tymmor byr o ddeuddeng mlynedd, cafodd yr holl argymmhellion hyn eu cario allan. Ar y 10fed o Fedi, 1890, derbyniodd Coleg Aberystwyth ei breinlen, ac efe oedd ei lywydd cyntaf. Yn 1883, sefydlwyd coleg arall yn Nghaerdydd; ac un yn Mangor y flwyddyn ddilynol. Y mae y tri yn awr yn derbyn gwaddoliadau blynyddol oddi wrth y wladwriaeth. Y mae y bwlch oedd rhwng yr ysgolion elfenol a'r prifysgolion erbyn hyn wedi ei lenwi trwy sefydliad yr ysgolion canolraddol, mewn canlyniad i'r ddeddf a wnaed yn 1889. Yn 1893, caniatawyd siarter y Brifysgol Gymreig hefyd. Cymmerodd Arglwydd Aberdâr ran flaenllaw yn yr holl waith uchod; ac ar y 25ain o Ionawr, 1894, cydnabyddwyd ei lafur trwy i Fwrdd Llywodraethol y Brifysgol ei ddewis yn ganghellydd cyntaf iddi. Ni chafodd efe y fraint o lanw y swydd hon ond am ychydig o wythnosau. Dylasem ddyweyd hefyd, mai efe a gymmerodd ofal y Mesur er Cau y Tafarnau ar y Sabbath yn Nghymru, tra y bu o dan sylw Tŷ yr Arglwyddi. Nid oedd ganddo ffydd ddiffuant yn y mesur hwn; ond am y credai ei fod yn cynnrychioli teimlad y genedl Gymreig ar y cwestiwn, gwnaeth hyny a allai efe i'w gefnogi ar ei daith drwy y tŷ.

Fel y gallesid yn naturiol ddisgwyl, dangosodd ddyddordeb mawr ynglŷn âg achosion oedd yn dwyn perthynas â siroedd Deheudir Cymru. Yn y fl. 1878, ymroddodd o ddifrif, gyda'i gyfaill Mr. Henry Richard, i liniaru y cyfyngder ofnadwy a dorodd allan yno; ac o hyny hyd y dydd hwn fe gofir am eu hymdrechion.

Yn nechreu y flwyddyn 1895, symmudodd ei arglwyddiaeth o'r Dyffryn (ei breswylfod yn Nghymru) i 39, Prince's Gardens, ei breswylfod yn Llundain. Ond yn mhen ychydig ddyddiau, tarawyd ef gan yr anwydwst; ac er pob ymdrech o eiddo ei feddygon, gwaethygodd, a bu farw ar y 25ain o Ionawr, pan o fewn ychydig fisoedd i fod yn fab pedwar-ugain-mlwydd. Yr oedd Tŷ y Cyffredin yn eistedd ar y pryd; a pharodd yr hysbysiad am farwolaeth un a fu gynt yn aelod mor anrhydeddus o hono ofid nid bychan i liaws fu yn gyd-aelodau âg ef; ac i eraill, hefyd, oedd yn adnabyddus o hono.

Bu ei arglwyddiaeth yn briod ddwywaith—y tro cyntaf gyda merch Mr. Richard Beadon, o Clifton; a'r ail waith gyda merch ieuengaf y Cadfridog Syr William Napier—bywgraphiad yr hwn a ysgrifenwyd ganddo. Nid oes fawr o lafur llenyddol heb law y llyfr uchod, a rhai cyfrolau o'i anerchiadau, wedi eu gadael ganddo ar ol. Dilynwyd ef yn y teitl gan yr Anrhydeddus Henry Campbell Bruce—ei unig fab o'r briodas gyntaf.

BUCKINGHAM, PALAS. Preswylfod penadur Prydain Fawr. Adeiladwyd yr hen Buckingham House gan John Sheffield, y Duc o Buckingham, yn 1703. Yn 1761, prynwyd ef gan Sior III.; yr hwn, yn 1775, a'i rhoddodd yn eiddo i'w frenhines, Charlotte. Gwnaeth hi y palas yn breswylfod Llundeinig iddi ei hun; ac ynddo y cafodd yr oll o'i phlant, oddi gerth yr hynaf, eu geni. Ynddo y priodwyd y Duc o Efrog a'r Dywysoges Frederica o Prwssia, yn 1791; y Duc o Gaerloyw â'r Dywysoges Mary, yn 1816; ac eraill o'r teulu brenhinol. Tynwyd y palas i lawr yn 1825; a chodwyd y palas presennol yn ei le. Wedi gwario tua miliwn o bunnau arno, gorphenwyd ef; ac ar y 13eg o Orphenaf, 1837, dechreuodd y Frenhines Victoria breswylio ynddo.

Digitized by Google

**BONNER, RICHARD.** Brodor oedd y gŵr da hwn o Lanarmon-yn-Iâl, ger llaw Rhuthyn, yn sir Ddinbych. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1787, mewn lle o'r enw Tyddyn-y-sach, yn y plwyf hwnw. Yn lled fuan ar ol hyn, aeth ei rïeni i fyw i dyddyn o'r enw Ysgubor; yr hyn a barai i'w gyfeillion ddyweyd yn fynych iddo 'gael ei eni mewn sach, a'i fagu mewn ysgubor.' Yr oedd y cyfenw, 'Bonner,' yn un tra dyeithr yn Nghymru y pryd hwnw; ac y mae'n debyg fod gwaed estronol yn rhedeg trwy ei wythïenau ef. Ychydig sydd yn wybyddus am flynyddoedd boreu ei oes; ond yn ol dadganiad a wnaed ganddo ef ei hun yn nghyfarfod canmlwyddiant Wesleyaeth, yr hwn a gynnaliwyd yn Nghaernarfon, yn y flwyddyn 1839, ymddengys iddo dderbyn ei addysg oddi ar law y Methodistiaid Calvinaidd; ond iddo, mewn blynyddoedd diweddarach, ymuno â'r Wesleyaid, pan yr oedd efe tuag ugain mlwydd oed. Dechreuodd 'deithio' tua'r fl. 1814. Cyn ei ordeiniad, efe a dreuliodd flwyddyn yn mhob un o'r trefi canlynol:—Llanidloes, Llanfyllin, Llanrwst, ac Aberystwyth. Cafodd ei neillduo i gyflawn waith y weinidogaeth yn Leeds, yn y flwyddyn 1818; ac am y 36ain mlynedd dilynol, llafuriodd gydag egni a ffyddlondeb mawr yn nghylchdeithiau Caernarfon, Llanfyllin, Treffynnon, Merthyr Tydfil, Llundain, Amlwch, Pwllheli, Dolgellau, Dinbych, Llangollen, Liverpool, Treffynnon (yr ail waith), Wyddgrug, Llanrwst, Abermaw, Liverpool (yr ail waith), a Manchester, Bangor, a Beaumaris. Yn y fl. 1854, gwnaed ef yn 'uwchrif.' Ymsefydlodd ar ol hyny yn Nghaernarfon, lle y bu farw, Gorphenaf 28ain, 1867, yn 80ain mlwydd oed.

Yr oedd Mr. Bonner yn un o'r cymmeriadau mwyaf adnabyddus mewn cylchoedd crefyddol o fewn y Dywysogaeth. Yr oedd yn ŵr talgryf o gorph, gyda gwyneb hir, bochgernau uchel, talcen llydan, ac edrychiad sarug, braidd. Ond er hyny, yr oedd yn ddyn boneddigaidd, ac o dymmer llednais a charedig. Meddai alluoedd meddyliol cryfion, a dirnadaeth ëang; ac yr oedd wedi llwyddo, drwy hunan-ymroddiad, i gasglu ystôr helaeth o wybodaeth. Gwnaethai fardd da hefyd, pe y rhoddasai sylw digonol i'r dalent oedd ganddo. Yr oedd yn deall y mesurau caethion yn dda, a chyfansoddodd rai darnau tarawiadol ynddynt. Meddai safle uchel yn ei enwad fel pregethwr. Yr oedd ei draddodiad yn araf—ond er hyny yn rhwydd, yn rymus, ac effeithiol; a byddai ei weinidogaeth bob amser yn dderbyniol gan ei wrandawyr. Ychydig o'i gyfansoddiadau rhyddiaethol a gyhoeddwyd. Nid oes wybodaeth ond am ddwy bregeth yn unig—y naill ar 'Gariad Crist,' a gyhoeddwyd mewn llyfr a elwir *Dwfr y Bywyd;* a'r llall ar y 'Dyn yn cael ei gyfnewid,' yr hon a gyhoeddwyd yn yr *Eurgrawn* am 1883.

**BOWEN, EVAN.** Pregethwr enwog oedd efe gyda'r Bedyddwyr, yn sir Frycheiniog, yn nyddiau y Werin-lywodraeth. Yn Chwefror, 1649, gwnaed y ddeddf bwysig ac adnabyddus a elwid *An Act for the Better Propagating of the Preaching of the Gospel in Wales, and for Ejecting scandalous Ministers and Schoolmasters, and for Redress of some Grievances.* Y ddarpariaeth oedd yn gynnwysedig yn y ddeddf hon oedd, fod y dirprwywyr a enwid ynddi, neu unrhyw bump o honynt, yn meddu awdurdod i symmud o'u bywoliaethau y clerigwyr anwybodus, diffrwyth, ac anfoesol; a gosod pregethwyr o ddawn, gwybodaeth, a buchedd dda yn eu lle. Rhoddwn yma enwau y personau yr oedd y dirprwywyr hyn i ymgynghori â hwy, ac i weithredu yn ol eu hawgrymiadau wrth gyflawni y dyledswyddau a osodid arnynt gan y ddeddf uchod; sef, Henry Walter, Walter Cradoc, Richard Simonds, Roger Charnock, Jenkin Lloyd, Morris Bidwel, David Walter, William Seaborn, Edward Ellis, Jenkin Jones, George Robinson, Richard Powell, Thomas Ewen, John Miles, Oliver Thomas, Dr. John Ellis, Ambrose Mostyn, Stephen Lewis, Morgan Lloyd, William Jones, Richard Edwards, Vavasor Powell, Richard Swain, a Rowland Nevet. Yn yr argyfwng pwysig hwn yn sefyllfa y deyrnas, yr oedd amryw o bregethwyr yr Ymneillduwyr yn gymmeradwy yn ngolwg senedd werinol Cromwell; a chafodd cynnifer o honynt ag oedd yn foddlawn i hyny eu gosod yn lle y clerigwyr yn y bywoliaethau plwyfol. Gan fod y *Llyfr Gweddi Cyffredin* wedi ei osod o'r neilldu, a chan nad oedd eu golygiadau a'u harferion crefyddol yn cael eu caethiwo, ond yn hytrach fod rhyddid iddynt ddwyn y gwasanaeth yn mlaen fel y gwna Ymneillduwyr y dyddiau presennol, teimlai llawer o'r pregethwyr Anghydffurfiol fod hwn yn gyfleusdra rhagorol iddynt wneyd daioni i'w cyd-genedl. Gan hyny, derbyniasant y bywoliaethau heb unrhyw betrusder. Yn mhlith y rhai hyn, yr oedd Evan Bowen, yr hwn a osodwyd yn mywoliaeth Llanafan fawr, Mawrth 12fed, 1653, yn lle un William Williams—yr hwn a fwriwyd allan dan ddarpariaethau y ddeddf uchod. Yr oedd Evan Bowen yn bregethwr galluog a phoblogaidd. Nid oedd efe, na'i eglwys, mewn undeb â Chymmanfa y Bedyddwyr; am y rheswm, fe dybir, ei fod yn bleidiol i'r hyn a elwir 'cymmundeb cymmysg;' yr hyn a ystyrid fel trosedd ar un o reolau sylfaenol y gymmanfa. Ychydig yn mhellach na hyn o hanes Evan Bowen sydd ar gael; ond o'i linach ef, meddir, yr hanodd yr enwog Carnhuanawc.

**BOWEN, CADBEN JAMES,** o Lwyn-gwair, Trefdraeth. Boneddwr cyfoethog oedd efe; ac aelod ffyddlawn gyda'r Methodistiaid Calvinaidd ar eu hymneillduad oddi wrth yr Eglwys Esgobaethol, yn 1811. Yn y rhwygiad hwnw, collwyd capel Trefdraeth; a rhoddodd Mr. Bowen dir i godi addoldy arall arno—yr hwn a agorwyd yn 1815. Yn ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le ychydig ar ol hyny, cafodd Ymneillduaeth golled drom.

**BOWEN, DR. JOHN.** Mab ydoedd efe i gadben yn y fyddin; a ganwyd ef Tach. 1815, yn y Cwrt, ger Abergwaun, yn sir Benfro. Ar ol derbyn addysg led dda yn ysgol elfenol Hwlffordd, efe a ymfudodd i Canada, lle yr ymsefydlodd fel amaethwr. Tra yno, daeth yn grefyddwr selog; a phenderfynodd ddychwelyd yn ol i Gymru, gyda'r amcan o ymroddi i waith y weinidogaeth. Aeth i Goleg y Drindod, yn Dublin, lle y graddiwyd ef. Yn ddilynol, ordeiniwyd ef yn giwrad Knaresborough; ac yn lled fuan ar ol hyny, daeth i feddiant o Milton, ger llaw Hwlffordd, ar farwolaeth ewythr iddo. Gosododd ei fryd cyn hyn ar fyned yn genhadwr; ac ar yr adeg hon, cryfhawyd ei ddyhëad



Digitized by Google

yn fawr, a chyflwynodd ei hun i Gymdeithas Genhadol yr Eglwys Sefydledig, yr hon a'i hanfonodd allan i'r dwyrain. Wedi iddo ymweled â Jerusalem, galwodd yn ngorsafoedd cenhadol Syria, Cairo, Mosul, a Smyrna, &c. A bu yn teithio fel hyn am ddwy flynedd a hanner, heb fod neb ond ei was gydag ef; gan anfon adroddiadau am y sefydliadau cenhadol i'r gymdeithas yn Llundain. Wedi dychwelyd yn ol i Loegr, yn 1851, pennodwyd ef i fywoliaeth Orton; o'r hon y dyrchafwyd ef i fod yn Esgob Sierra Leone, yn Affrica. Bu farw yn Awst, 1858.

BOWEN, THOMAS. Boneddwr parchus oedd efe, yn byw yn y Waun-ifor, yn sir Aberteifi. Bu yn hynod gefnogol i Fethodistiaeth ar ei sefydliad yn y parthau hyny. Yn y fl. 1760, adeiladodd gapel Gwaun-ifor ar ei draul ei hun; a rhoddodd ef yn ei ewyllys yn feddiant i'r Methodistiaid dros byth. Gwnaeth efe a'i deulu gryn lawer yn chwaneg i'r achos, fel y mae eu henwau yn anwyl gan yr enwad hyd y dydd hwn.

BRADFORD, JOHN: yr hwn hefyd a adnabyddid wrth ei enw barddonol, *Ieuan Tir Iarll*. Bardd a hynafiaethydd enwog oedd efe. Ganwyd ef yn 1690. Yr oedd efe, pan yn ieuangc, yn un o awenyddion Gorsedd Morganwg, pan lywyddwyd arni gan yr anfarwol Samuel Jones, o Frynllywarch. Erbyn 1760, yr oedd Bradford wedi ennill y safle anrhydeddus o gadeir-fardd yr orsedd. Dywedir mai efe oedd athraw barddonol Iolo Morganwg; ac mai ganddo ef y cafodd Iolo ysgrif *Cyfrinach y Beirdd*, yn ysgriflaw Edward Dafydd, o Fargam. Fel hyn y dywedir gan *Taliesin ab Iolo* ar hyn:—'Ni welodd fy nhad ond dwy ysgrif o *Gyfrinach y Beirdd* erioed—un gan John Bradford o'r Bettws, ac un arall yn llyfrgell Llanharan, ger llaw Llantrisant; a'i gred ef oedd, nad oedd rhagor yn bod. Yr oedd y ddwy yn ymryfaelu rhyw ychydig bach, fel y dengys y nodiadau cwr dalen. Ac yr oedd y ddwy, mae'n debyg, yn ysgriflaw Edward Dafydd.' Gwaith John Bradford yw y sylwadau beirniadol sydd yn britho *Cyfrinach y Beirdd*, wedi eu harwyddo 'J. B.;' ac y mae teilyngdod uchel y sylwadau hyn yn profi fod yr awdwr yn ddyn o alluoedd barddonol tu hwnt i'r cyffredin. Bu farw yn 1780.

BRAN AB DYFNWAL MOELMUD. Yr oedd efe yn gymmeriad adnabyddus mewn hanesiaeth Gymreig; ond ammheua llawer a fu y cyfryw un yn bodoli. Brawd iddo, yn ol yr hanes, oedd Beli; a'u tad oedd Dyfnwal ab Moelmud, y deddfwneuthurwr Cymraeg cyntaf, a brenin holl Brydain tua'r flwyddyn 3529 o oed y byd. Y mae cymmaint o hynodrwydd yn hanes y tri hyn fel yr ammheua llawer a fuont yn bodoli mewn gwirionedd. Ond gellir tybied fod cryn sail i'r hyn a ddywedir am danynt, o herwydd yr argraph ddofn a osodwyd gan Beli a Bran ar y wlad. Y mae yr ysgrifenwyr tramor yn sôn yn fynych yn eu hysgrifeniadau am *Belinus* a *Brennus*, neu *Belgius* a *Brennus*. Yn ol barn awdurdodau craff sydd wedi gwneyd ymchwiliad i'r hanes, yr un yw y rhai hyn a'r Beli a'r Bran a geir mewn hanesiaeth Gymreig. Dywed yr ysgrifenwyr Cymreig mai meibion Dyfnwal Moelmud oeddynt; ac iddynt, ar ei farwolaeth ef, ymrafaelio â'u gilydd am y frenhiniaeth; a bod yr ymrafael wedi ei dwyn i derfyn trwy raniad y deyrnas rhyngddynt. Rhoddwyd i Beli, yr hwn oedd yr hynaf, awdurdod ar yr holl wlad i'r deheu o'r afon Humber; a rhoddwyd y tir i'r gogledd o honi i Bran. Nid oedd efe yn rhyw foddlawn iawn ar ei gyfran, ac aeth i Norway i geisio sicrhau cefnogaeth deiliaid y deyrnas hono. Priododd hefyd Anaor, merch Elsing, brenin Llychlyn; yr hon oedd wedi ei dyweddïo i Guthlac, brenin y Cersoniaid Cymreig (*Denmark*). Tra yr oedd Bran fel hyn yn cynllwyn er ei fantais ei hun, daeth ei fwriad yn hysbys i Beli; ac yn ddioedi, cymmerodd feddiant o'i deyrnas, gan sicrhau ei holl amddiffynfeydd. Heb law yr anffawd hwn, bu priodas Bran âg Anaor yn foddion i ennyn llid Guthlac yn ei erbyn; a thra yr oedd efe a'i lynges ar y môr yn dychwelyd o Norway, goddiweddwyd ef gan Guthlac. Attaliwyd hwy i ymladd ar y pryd gan y gethern a barhaodd am amryw ddyddiau; ond yn anffodus i Bran, llwyddodd Guthlac i gymmeryd meddiant o'r llong yr oedd Anaor ynddi. Yn fuan ar ol hyn, aeth yn llongddrylliad arnynt gyferbyn a Bamborough, yn Northumberland; lle yr oedd Beli a'i luoedd wedi gwersyllu i ddisgwyl glaniad ei frawd, Bran. Rhoddodd dderbyniad anrhydeddus i Guthlac ac Anaor; o blegid yn erbyn ei frawd yr oedd ei elyniaeth.

Yn mhen ychydig ddyddiau, hwyliodd llynges arfog Bran i Albania (*Scotland*); a phan ddeallodd fod ei wraig, Anaor, yn ngwersyll ei frawd Beli, ennynwyd ei ddigter yn ei erbyn yn fawr. Cychwynodd yn ddiattreg i gyfeiriad gwersyll Beli, gan fygwth dinystrio yr holl wlad â thân ac â chleddyf, onid adferid iddo ei wraig a'i deyrnas. Cymmerodd ymladdfa ffyrnig le yn Nghoed *Calaterium*—Llwyn y Caladyr. Bu lladdfa fawr y ddau tu. Collodd Bran y dydd, a chafodd rhan fawr o'i fyddin eu lladd a'u clwyfo; ond efe a lwyddodd i gadw ei einioes, trwy ffoi mewn llong i dir Gâl. Ar derfyniad y frwydr, cafodd Guthlac ryddid i ddychwelyd i'w wlad ei hun, gydag Anaor; wedi, iddo yn gyntaf, lawnodi cyttundeb, trwy ba un y daeth y Gerson Gymroaidd—*Dacia*, yr hon a elwid wedi hyny yn *Denmark*, yn rhan o'r ymherodraeth Brydeinig. Treuliwyd y saith mlynedd dilynol gan Beli mewn heddwch; ac yn yr ymdrech canmoladwy o geisio diwygio deddfau ei deyrnas, &c. Yn y cyfamser, llwyddodd Bran i ennill llaw Seguin, merch tywysog yr Allobroges, yn Gâl; ac ar farwolaeth ei thad, esgynodd yntau i'r orsedd. Cymmerodd fantais o'i awdurdod i gasglu ei fyddinoedd ynghyd; a mordwyodd i Brydain, i'r amcan o adennill ei deyrnas oddi ar ei frawd, Beli. Yn ol traddodiad, cyfarfu y byddinoedd mewn llanerch sydd rhwng Corwen a Llangwm; a phan ar fin taraw, daeth mam y ddau benaeth—sef, Corwena—yn mlaen; a hi a wnaeth appêl mor effeithiol ar iddynt gymmodi â'u gilydd, fel y bwriasant eu harfau i lawr, ac yr ymgofleidiasant ger bron y ddwy fyddin, ac yn nghanol banllefau o gymmeradwyaeth y milwyr synedig.

Wedi ymheddychu yn y modd hwn, penderfynodd y ddau uno eu byddinoedd ynghyd, i geisio darostwng holl Ewrop dan y faner Brydeinig. Cymmerwyd 300,000 o filwyr dros y môr i Gâl; ac yn fuan iawn yr oedd gwlad y Celtiaid o dan eu hawdurdod. Yna ymunodd

Digitized by Google

y Brytaniaid, yr Allobrogiaid, a'r Senoniaid â hwy, ac aethant dros y mynyddoedd i'r Eidal. Gorchfygasant wlad y Sabiniaid, a gorchfygasant y fyddin Rufeinig, ar lan yr afon Allia, yn agos i'r fan yr ymarllwysa i'r afon Tiber. Cymmerodd y frwydr hon le ar Mehefin 6ed, yn y flwyddyn 490 C.C. Yn mhen tridiau, syrthiodd Rhufain oll, oddigerth ei chastell, i ddwylaw y goresgynwyr. Buwyd yn gwarchau y castell am chwe mis; ac yn ystod y gwarchau hwn y cymmerodd yr ymosodiad hwnw le a fuasai yn llwyddiant perffaith, oni bae i glegr y gwyddau a gedwid yn nheml Juno ddeffro y gwarchodlu. Modd bynag, bu raid i'r Rhufeiniaid o'r diwedd roddi i fyny yr ymdrech, a phrynu eu heddwch â mil o bwysau o aur. Tra yr oedd yr aur yn cael ei bwyso yn mhresennoldeb y gwahanol gadbeniaid, taflodd Bran ei wregys a'i gleddyf i ben arall y clorian. 'Beth yw ystyr y weithred yna?' gofynai y prif swyddog Rhufeinaidd. 'Ei hystyr (ebe Bran) yw, Gwae y gorchfygedig!' Dioddefodd y Rhufeiniaid y dirmyg mewn tawelwch. Dywed Polybius a'r *Brutiau* fod Bran a'i fyddin wedi dychwelyd gyda'u hysglyfaeth i Gâl, a Beli i Brydain. Ond yn ol chwedloniaeth Rufeinig, honir ddarfod i'r Rhufeiniaid, dan arweiniad Camillus, ymosod arnynt pan yn ymadael o'r ddinas, a'u lladd bob un.

BRECHFA, IEUAN. Un o feirdd enwocaf ei oes oedd efe; ac un a ennillodd safle uchel hefyd fel hanesydd ac achyddwr. Arwydda ei enw mai brodor oedd o Brechfa, yn sir Gaerfyrddin; ac mai oddi wrth fro ei enedigaeth y cymmerodd efe yr enw hwn. Efe oedd ysgrifenydd y 'Tair Talaeth;' ac y mae crynodeb o hanes Cymru o'i waith, o dan yr enw *Brut Ieuan Brechfa*, yn argraphedig yn nhudal. 716 yn yr argraphiad o'r *Myvyrian Archaiology* a gyhoeddwyd yn y swyddfa hon. Bernir iddo farw tua'r fl. 1500.

BRENDA. Sant Cymraeg, ac un o ddeuddeg mab Helig ap Glanawg.

BRIGHT, JOHN. Un o wleidyddwyr gonestaf, enwocaf, a mwyaf adnabyddus y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mewn cydweithrediad â Richard Cobden, efe a ddaeth i sylw anghyffredin yn ystod y cyffroadau a gymmerasant le ynglŷn â diddymiad deddfau yr ŷd. Mab oedd efe i Mr. Jacob Bright, yr hwn a ddygai fasnach yn mlaen fel gwneuthurwr defnyddiau cotwm yn Rochdale. Ganwyd ef yn Greenbank, ger y dref hono, Tachwedd 16eg, 1811. Perthynai ei rïeni, yn grefyddol, i'r Crynwyr, neu yr enwad a elwir yn awr yn 'Gymdeithas y Cyfeillion' (*Society of Friends*). A'r enwad hwnw yr ymunodd Mr. John Bright pan yn ieuangc; a bu yn aelod ffyddlawn ac anrhydeddus o hono ar hyd ei oes. Treuliodd ei flynyddoedd cyntaf mewn ysgol berthynol i'w enwad yn Ackworth; ac wedi hyny yn Nghaerefrog a Newton; ond gellir dyweyd am dano, fel am amryw eraill o enwogion y genedl, mai gŵr hunan-addysgawl oedd efe, i raddau pell iawn; ac mai i'w ymdrechion egnïol ei hun yr oedd efe yn ddyledus am y safle aruchel yr esgynodd efe iddi mewn blynyddoedd diweddarach. Terfynodd tymmor ei addysg cyn iddo fod yn llawn pymtheg oed; ac yna, fe'i derbyniwyd i felin gotwm ei dad. Arddangosai chwaeth gref at ddarllen, byd yn oed yn y blynyddoedd hyny; a gwnaeth y goreu o bob cyfleusdra a gafodd i chwanegu at ei wybodaeth. Teimlai ddyddordeb mawr mewn achosion cyhoeddus o bob natur; a phan yr oedd wedi cyrhaedd oedran gŵr, bu yn siarad yn gyhoeddus ar y fath gwestiynau amrywiol a'r dreth eglwys, dirwest, a diwygiadau seneddol. Gwnaeth ei ymddangosiad cyhoeddus cyntaf, pan tuag un-ar-hugain mlwydd oed, mewn cyfarfod dirwestol; a bu rhwyddineb ei leferydd, a gwres a nerth ei areithyddiaeth, yn foddion i dynu sylw ei berthynasau a'i gydnabod mewn modd neillduol ato. Yr oedd y dyddordeb cryf a deimlai mewn cyfarfodydd dirwestol yn ei ddwyn yn fynych iddynt; a chafodd, felly, gyfleusderau lawer i arfer ei ddoniau areithyddol, ac i ddringo yn fwy i sylw fel siaradwr. Daethpwyd yn fuan i deimlo ei fod yn meddu ar anhebgorion areithiwr nerthol—wedi ei wneuthur felly gan natur. Gwnaeth yntau yr hyn a allai i gyfoethogi ei feddwl â gwybodaeth fanwl ar y cwestiynau gwleidyddol, a chwestiynau pwysig eraill, oedd ar y pryd yn tynu sylw y wlad. Trwy wneyd y defnydd goreu o'i gyfleusderau a'i alluoedd y cododd efe, erbyn blynyddoedd olaf ei oes, i fod yn un o'r areithwyr penaf, os nad yr hyawdlaf oll, o fewn y deyrnas. Yn y flwyddyn 1835, pan yr oedd tua 25ain mlwydd oed, aeth ar daith i'r gwledydd tramor, gan ymweled â Groeg, yr Aipht, a Gwlad Canaan; ac ar ei ddychweliad, traddododd ddarlithiau ger bron aelodau Cymdeithas Lenyddol Rochdale—i'r hon y bu, gyd ag eraill, yn sefydlydd—ar yr hyn a welodd yn ystod ei deithiau, ac hefyd ar faterion masnachol a gwleidyddol oedd o ddyddordeb cyffredinol.

Un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes Mr. Bright, ac un, o bossibl, a gafodd fwyaf o ddylanwad ar ddyfodol ei fywyd, oedd ei gyfarfyddiad â Richard Cobden. Mewn cyssylltiad âg Addysg Genedlaethol y daethant hwy i gyssylltiad â'u gilydd gyntaf; a ffurfiasant gyfeillgarwch a'u harweiniodd i gymmeryd rhan arbenig ac amlwg yn nghychwyniad un o'r symmudiadau hynotaf yn hanes gwleidyddiaeth y Deyrnas Gyfunol.

Clywodd Mr. Bright fod Mr. Cobden yn gyfaill ac yn gefnogydd gwresog i addysg yn Manchester; ac aeth yno i edrych am dano. Yn fuan iawn, dwyshâodd ac ëangodd eu cydymdeimlad â'u gilydd; a phenderfynasant, nid yn unig i wneyd yr hyn a allent dros addysg y werin bobl, ond, hefyd, gyssegru eu hamser a'u talentau er hyrwyddo rhai cwestiynau mawr ac oll-bwysig eraill oedd yn addfed i gael eu dadleu a'u penderfynu.

Ffurfiwyd y Cynghrair er diddymu Deddfau yr Yd (*Anti-Corn-Law League*) ar Medi 18fed, 1838; a chyhoeddwyd ef gyntaf ar Mawrth 29ain, 1839:—hyny yn benaf trwy ymdrechion Mr. Bright a Mr. Cobden; y rhai, wrth gwrs, oeddynt yn mysg ei aelodau cyntaf. Aelodau eraill oeddynt y Meistri Charles Villiers (ei gadeirydd parhaus), a John Benjamin Smith (y cadeirydd). Yr oedd trigolion y wlad, ar y pryd, yn dioddef yn ddirfawr o herwydd prinder bara; a hyny mewn canlyniad i'r dreth eithafol a godid ar yr ŷd a ddygid i'r wlad hon o wledydd tramor—amcan yr hon oedd cadw rhenti perchenogion y tir yn uchel. Yr oedd sefyllfa pethau yn hynod wasgedig yn mysg poblogaeth trefydd llaw-weithfaol Lancaster, a

Digitized by Google

siroedd eraill y deyrnas; yr hyn fu yn symbyliad uniongyrchol i ddau apostol mawr Masnach Rydd i wneyd egnïon mwy. Gweithiasant yn galed am amryw flynyddoedd er cynnhyrfu y wlad i fynu diddymiad y deddfau gormesol hyn; ac yn yr amser cyffrous hwn, dangosodd Mr. Bright ffyddlondeb, penderfyniad, a hyawdledd mawr; fel y daeth ei enw yn fuan yn adnabyddus, nid yn unig trwy sir Lancaster, ond trwy yr holl deyrnas. Yn ngwanwyn y fl. 1843, cynnygiodd ei hun yn ymgeisydd seneddol dros Durham. Er iddo golli y dydd y waith gyntaf, cafodd ei ethol yn Gorphenaf, yr un flwyddyn, gyda mwyafrif o 78 ar ei wrthwynebydd Toriaidd. Traddododd ei araeth gyntaf yn y tŷ ar y 6ed o Awst, ar ei hoff bwngc o Fasnach Rydd; a phrofodd yr araeth hon o'i eiddo fod chwanegiad pwysig wedi ei wneyd trwy ei etholiad ef, nid yn unig at nifer y blaid Radicalaidd, ond hefyd at ei nerth areithyddol. Wrth gwrs, fe wnaeth appeliad cryf am i'r llywodraeth ysgafnhau y trueni a ffynai yn y wlad mewn canlyniad i brinder ymborth; a thrwy hyny, i symmud ymaith yr achos o'r cyffro oedd yn bodoli ar y pryd trwy y deyrnas yn gyffredinol. Ychydig o effaith a gafodd yr appeliad grymus hwn ar y pwngc neillduol dan sylw ar y llywodraeth y pryd hwnw; ond daeth adeg, cyn hir, pan y bu raid iddi roddi clust o wrandawiad i ymresymiadau Mr. Bright, Mr. Cobden, ac eraill a gydymdrechent â hwy.

Cychwynwyd y cadymgyrch o blaid diddymiad Deddfau yr Yd o fewn y senedd, trwy gynnygiad Mr. Cobden ar fod i bwyllgor etholedig gael ei bennodi i wneyd ymchwiliad i'r modd yr oedd y tollau ar ddadforion yn effeithio ar amgylchiadau tenantiaid amaethyddol a llafurwyr y wlad. Cynnygiwyd hwn ar y 12fed o Fawrth, 1844; ond collwyd ef trwy fwyafrif o 91. Rhoddodd Mr. Bright ei gefnogaeth i'r cynnygiad mewn gair a gweithred—yn y tŷ, ac hefyd y tu allan iddo; ac aeth y frwydr yn mlaen hyd nes y symmudwyd ymaith yr ormes anghyfiawn y cwynent rhagddi.

Ond nid oedd Mr. Bright wedi ymgolli yn ormodol yn y frwydr hon o blaid Masnach Rydd fel ag i anghofio y cwestiynau mawrion eraill oedd ar y pryd yn tynu sylw. Un o'r cwestiynau hyny oedd achos Coleg Maynooth, ynglŷn â'r hwn y daeth yr achos o Gydraddoldeb Crefyddol mewn modd arbenig i sylw. Cymmerwyd cryn lawer o amser y senedd i fyny gan gynnygion o eiddo llywodraeth Syr Robert Peel mewn perthynas i'r coleg hwn; y rhai a godasant gynnhwrf a helynt, nid yn unig yn y senedd ei hun, ond hefyd trwy y wlad. Bu penderfyniad y llywodraeth i ddwyn y cwestiwn yn mlaen yn foddion i beri ymneillduad Mr. Gladstone o'r weinyddiaeth; am nas gallai efe gefnogi yr hyn a ystyriai efe yn waddoliad ar yr Eglwys Babaidd. Gwrthwynebodd Mr. Bright y cynnygion hefyd hyd eithaf ei allu; am y rheswm na ddylai sefydliad cwbl eglwysig fel Coleg Maynooth dderbyn un geiniog allan o drysorfa gyhoeddus y wlad; ac yn yr araeth a draddododd efe ar y pwngc, condemniodd yr Eglwys Sefydledig Wyddelig fel gwreiddyn yr holl ddrwg. Dengys hyn fod Mr. Bright, nid yn unig o blaid cyfiawnder trwy ddilëad Deddfau yr Yd, ond ei fod yn iach hefyd ar y cwestiwn mawr o Gydraddoldeb Crefyddol.

Yn 1845, llwyddodd Mr. Bright i gael gan Dŷ y Cyffredin i bennodi pwyllgor detholedig i ystyried Deddfau yr Helwriaeth; ac hefyd, ar y cwestiwn o dyfiant cotwm yn India. Ynglŷn â'r gyfrol a gynnwysa dalfyriad o'r dystiolaeth a roddwyd ger bron pwyllgor yr helwriaeth, cyhoeddwyd ysgrif o eiddo Mr. Bright, yn dwyn y teitl '*Address to the Tenant Farmers of Great Britain*,' yn yr hon y condemniodd yn ddiarbed Ddeddfau yr Helwriaeth oedd mewn bod y pryd hwnw.

Yn 1847, etholwyd Mr. Bright yn aelod seneddol dros ddinas Manchester; a pharhaodd i'w chynnrychioli am ddeng mlynedd. Yn ystod yr amser hwn, cymmerodd ran yn fynych yn nadleuon seneddol y dydd; ac erbyn hyn, ystyrid ef yn un o'r siaradwyr goreu o fewn y tŷ. Daeth ei egwyddorion gwladol hefyd i fri a chymmeradwyaeth trwy yr holl deyrnas. Cefnogai gynnildeb yn aiddgar a gwresog, a lleihâd yn nhreuliau y gwasanaeth cyhoeddus. Gwrthwynebai yr arferiad creulawn ac annynol o ffangellu yn y fyddin; a chefnogai diddymiad y Dreth Eglwys, Deddfau yr Helwriaeth, ac hefyd y dreth ar bapur. Yr oedd yn gefnogol i estyniad yr etholfraint i'r bobl, ac ad-drefniad yr eisteddfeoedd. Bu ganddo ran helaeth yn nygiad yr holl gyfnewidiadau hyn o amgylch. Edrychid arno gan y Toriaid fel gwleidyddwr hynod o beryglus i'r deyrnas; a chondemnient ef fel aflonyddwr o'r math gwaethaf. Wedi ei etholiad dros Manchester, cydweithredodd â Cobden o blaid dwyn oddi amgylch ddiwygiad ynglŷn â materion arianol; ac ar ffurfiad gweinyddiaeth gyntaf Arglwydd Derby, Chwefror 27ain, 1852, gweithiodd yn galed er ad-drefnu y Cynghrair er diddymu Deddfau yr Yd.

Un o'r cyfnodau pwysicaf yn hanes Mr. Bright ydoedd adeg rhyfel fythgofiadwy y Crimea, yn 1854. Gwrthwynebodd, o'r dechreu, i'r wlad hon ymyryd yn y rhyfel rhwng Twrci a Rwssia; ac yn hyn, cefnogwyd ef gan y fath ddynion a Milner Gibson, Cobden, ac eraill. Ond i ryfel yr aeth y deyrnas; ac yn anffodus, cefnogwyd cynlluniau y llywodraeth gan y wlad. Cyhuddwyd ef, a'i gyfeillion, o fod yn annheyrngarol, ac o goleddu amcanion drwg eraill; ond cyn pen ychydig fisoedd, bu raid i'r mwyaf rhyfelgar ei dueddiadau gydnabod mai da fuasai i Loegr pe y gwrandawsid arno ef, a'i gyfeillion; o blegid trodd y rhyfel allan yn un o'r rhai mwyaf ofnadwy ei chanlyniadau y mae cofnodion am dani ar dudalenau hanes ein teyrnas.

Pan fwriwyd y wlad i bair etholiadol 1857, yr oedd Mr. Bright yn wael ei iechyd; ac wedi myned ar daith i'r Cyfandir, gan obeithio cael adferiad. Bu ei absennoldeb, a'r rhan flaenllaw a gymmerodd efe i wrthwynebu gwladlywiaeth Argl. Palmerston ynglŷn â rhyfel y Crimea, yn anfanteisiol iddo yn yr etholiad hwn. Cafodd ei wrthod gan Manchester; yr hon dref oedd yn lled bleidiol i gynlluniau y llywodraeth. Derbyniwyd ef, fodd bynag, â breichiau agored gan Birmingham; o blegid, ar y 10fed o Awst, yr un flwyddyn, etholwyd ef yn un o aelodau seneddol y ddinas hono yn ddi-wrthwynebiad. Parhaodd i gynnrychioli y dref hono, neu ran o honi, bron hyd ddiwedd ei oes. Yn Chwefror, 1858, Mr. Bright oedd yr aelod a gefnogodd welliant Mr. Milner Gibson ar ail ddarlleniad Mesur y Cydfradwriaeth; yr hwn welliant, trwy gael ei fabwysiadu, a ddymchwelodd weinyddiaeth Argl. Palmerston.

Digitized by Google

Yn nechreu y fl. 1857, torodd y gwrthryfel allan yn India; ac yn ol ei arfer, teimlai Mr. Bright ddyddordeb mawr ynddo, fel yn mhob peth arall cyssylltiedig â'r wlad fawr hono. Yn wir, byddai yn cyfeirio mor fynych at achosion Indiaidd yn y senedd, fel y galwodd Argl. Palmerston ef 'yn aelod dros India.' Ar ol dadleuon a gymmerasant le yn ystod, ac ar ol, y gwrthryfel yn India, annogai Mr. Bright yn gryf fod i lywodraethiad uniongyrchol India, yr hon oedd y pryd hwnw yn nwylaw yr East India Company, gael ei drosglwyddo i Goron Prydain, ynghyd â diwygiadau eraill a effeithient yn ddaionus ar y tiriogaethau Prydeinig yn y dwyrain.

Pan dorodd y Rhyfel Gartrefol allan yn yr America, cymmerodd Mr. Bright blaid y Gogledd, er fod ei fasnach ef, ac yn wir, holl fasnach gotwm swydd Lancaster, wedi dioddef yn erwin drwy y rhyfel. Daeth ei enw yn nesaf i sylw ynglŷn â hyrwyddiant y cynnygiad i ddiwygio cyfundrefn etholiadol y deyrnas—canlyniad yr hyn fu Deddf Ddiwygiadol 1867; yr hon a dderbyniodd y gymmeradwyaeth frenhinol Awst 15fed, ac a ddisgrifiwyd gan Argl. Derby 'yn naid yn y tywyllwch' (*a leap in the dark*).

Y tro cyntaf i Mr. Bright ddyfod yn weinidog y goron oedd yn ngweinyddiaeth Mr. Gladstone, yn 1868. O herwydd y medr, y gallu, a'r ffyddlondeb a ddangosodd efe ynglŷn â chwestiynau yr India, cynnygiodd Mr. Gladstone iddo y swydd o Ysgrifenydd yr India. Gwrthododd ymgymmeryd âg unrhyw swydd ar y cyntaf; ac yno y bu y ddau yn dadleu am tua dwy awr—Mr. Gladstone yn pwyso arno â'i holl nerth, a Mr. Bright yn dwyn ei resymau yn erbyn ymuno âg unrhyw lywodraeth. O'r diwedd, Mr. Gladstone a orfu. Dewisodd Mr. Bright yn hytrach lywyddiaeth y Bwrdd Masnach. Llanwodd y swydd hon gydag anrhydedd iddo ei hun, ac i'r weinyddiaeth; ond yn 1870, o herwydd sefyllfa anfoddhaol ei iechyd, bu raid iddo ymddiswyddo.

Yn 1873, ymgymmerodd eilwaith â dyledswyddau gweinidog, fel Canghellydd Duciaeth Lancaster, i'r hon swydd y pennodwyd ef yn 1881. Yn mis Tachwedd, 1880, etholwyd ef yn Arglwydd Reithor Prifysgol Glasgow. Ymddiswyddodd Mr. Bright o weinyddiaeth Mr. Gladstone yn 1882, o herwydd ei anghyttundeb â chynlluniau y weinyddiaeth ar gwestiwn yr Aipht. Ar ol hyn, anfynych yr ymddangosodd efe yn gyhoeddus; ond yn 1883, efe a'i amddiffynodd ei hun yn Nhŷ y Cyffredin yn erbyn y cyhuddiad o droseddu Deddfau y Tŷ (*breach of privilege*), mewn cyssylltiad â'i areithiau yn Birmingham. Ar derfyn ei chwarter canrif o wasanaeth i'r dref hono fel ei chynnrychiolydd, cafodd hyny ei ddathlu yn Mehefin, 1883, trwy gyfres o arddangosiadau cyhoeddus ar raddfa eang.

Hyd nes yr ymneillduodd o'r weinyddiaeth, yn y fl. 1882, yr oedd Mr. Bright wedi gweithio law-yn-llaw â'r blaid Ryddfrydig drwy yr holl flynyddoedd; ac yn neillduol felly gyda Mr. Gladstone. Ond pan ddygodd Mr. Gladstone ei fesur yn caniatau Ymreolaeth i'r Iwerddon yn mlaen yn 1886, a thrachefn yn 1888, nid oedd gwrthwynebydd cadarnach, na mwy penderfynol, i'r mesur hwnw nag efe; ac o hyny allan, torodd ei gyssylltiad yn llwyr a hollol â'r blaid a arweinid gan y dyn mawr ac enwog hwn. Ni fynai Mr. Bright glywed sôn am Ymreolaeth. Oerodd ei deimladau i raddau pell—ac fe allai yn ormodol felly—at ei hen gydweinidogion, o herwydd eu bod yn cynnyg y fath ddiwygiad. Gofid amlwg iddynt oedd ei glywed yn arfer geiriau caledion tuag atynt yn ystod y frwydr a ddilynodd yr ymrwygiad anffodus. Ond pa mor ammharchus bynag y siaradai am danynt, nid oeddynt hwy wedi lleihau yn y graddau lleiaf yn eu parch tuag ato ef. I'r gwrthwyneb, parhäent i'w edmygu fel un o'r gwleidyddwyr gonestaf, a mwyaf egwyddorol a chydwybodol, a fagodd Prydain Fawr erioed. Am Mr. Gladstone ei hun, nid yw ar gôf iddo erioed gyfeirio un sylw angharedig at Mr. Bright, er iddo gael llawer achlysur i wneyd hyny, pe y dewisasai.

Teimlai Mr. Bright beth dyddordeb mewn amgylchiadau ac achosion Cymreig. Ymwelai yn flynyddol â Llandudno. Bu bachgen iddo farw yn ystod un o'r ymweliadau hyny; a chladdwyd ef yn mynwent eglwys St. Tudno, ar ben y Gogarth, lle y mae cofadail wedi ei chodi iddo.

Yn Rhagfyr, 1881, efe a osododd gareg sylfaen ysgoldai newyddion y Bwrdd Ysgol yn y dref hono. Pan wrth y gorchwyl hwnw, safai ychydig o'r neilldu, tra yr oedd areithiwr hyawdl yn siarad yn yr iaith Gymraeg. Gofynwyd iddo a oedd efe, yn ystod ei ymweliadau blynyddol â Chymru, wedi medru dysgu yr iaith. 'Na,' meddai yntau mewn attebiad: 'y mae yn ddrwg genyf nad ydwyf wedi gwneyd fawr o gynnydd yn fy Nghymraeg; ond y mae yn sicr y bydd raid i mi ei dysgu rywbryd; o herwydd y mae fy hen ffrynd, Henry Richard, yn dyweyd mai hi yw iaith y nefoedd: ac yr wyf yn bwriadu myned yno.'

Teimlai ddyddordeb dwfn yn ymdrechiadau crefyddol a gwleidyddol y genedl; a chefnogai a chanmolai ein Rhyddfrydiaeth, a'n Hanghydffurfiaeth. At hyn oll, amlygai gryn lawer o ddyddordeb yn Mhwngc y Tir yn Nghymru. Yr oedd wedi astudio llawer ar achos amaethwyr Cymru, ac wedi ei ddeall yn drwyadl; ac amlygai bob amser gydymdeimlad cryf â hwynt yn wyneb y deddfau annhêg a gorthrymus y dioddefent danynt.

Bu farw y gŵr galluog, defnyddiol, ffyddlawn, a chydwybodol hwn Mawrth 27ain, 1889, yn 78ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent capel y Crynwyr, Rochdale, y Sadwrn dilynol.

Gwnaed cyfeiriadau parchus a hynod deimladwy at y digwyddiad galarus yn Nhŷ yr Arglwyddi gan Argl. Salisbury ac Iarll Granville; ac yn Nhŷ y Cyffredin gan Mr. W. H. Smith a Mr. Gladstone, ynghyd âg eraill o'i gyd-aelodau gynt: ac yr oedd yn eglur fod ei ymadawiad wedi ei deimlo yn ddwys gan bob dosbarth trwy y deyrnas. Cyhoeddwyd casgliad o'i areithiau yn y fl. 1868. Ymddangosodd hanes ei fywyd yn 1877, wedi ei ysgrifenu gan Robertson; yn 1881, cyhoeddwyd ei fywyd a'i areithiau mewn dwy gyfrol, o dan olygiad G. Barnett Smith.

BRONWEN. Merch i Llyr Llediaeth oedd hi, a chwaer i Bran Fendigaid, a modryb i Caradog. Nid yw dyddiau ei genedigaeth na'i marwolaeth ar gael; ond gan ei bod yn chwaer i Bran Fendigaid, a'i fod ef wedi dychwelyd o Rufain yn B. A. 58, wedi bod yno yn wystl-ddyn (*hostage*) am saith mlynedd, mae'n eglur ei bod

Digitized by Google

hithau yn byw yn gynnar yn y ganrif gyntaf. Y mae cyfeiriadau mynych ati yn y *Mabinogion*, ac y mae ei hanes yn ddyddorol a rhamantus. Yn y *Trioedd*, dywedir iddi dderbyn palfawd (*blow*); yr hyn a alwyd, o blegid ei effeithiau, yn 'un o dri anffawd balfawd Ynys Prydain.' Preswyliai Bronwen, yn ol y chwedl, yn Nghastell Harlech, yn sir Feirionydd; yr hwn gynt a elwid Tŵr Bronwen—ac yn ddilynol, Caer Colwyn. Priododd hi â Matholwch, brenin yr Iwerddon; yr hwn a ymddygodd yn greulawn tuag ati, ac a roddodd iddi balfawd ar ei gwyneb. O herwydd y sarhâd hwn ar ei chwaer, aeth Bran Fendigaid i'r Iwerddon; ac yn ei ddigofaint, efe a laddodd lawer o breswylwyr y wlad. Cymmerodd Bronwen oddi yno gydag ef; ac fel y canlyn y dywed y *Mabinogi* am danynt:—'Glaniasant yn Aber Alaw, Taly-bolion; ac eistedd wnaethant, a gorphwys. A Bronwen a edrychodd tua'r Iwerddon, a thu ag Ynys y Cedyrn; ac wedi eu gweled, 'Gwae fi fy ngeni,' ebe hi. 'Dwy ynys a ddyfethwyd o'm hachos:'—a chan roddi ochenaid fawr, hi a dorodd ei chalon, ac a fu farw ar hyny! Gwnaethant iddi fedd petryal, a chladdwyd hi ar lan yr Alaw.' Y mae y llecyn lle y claddwyd hi o ddeutu deuddeg llath o lan yr Alaw, a thua milldir o bellder o bentref Llantrisant. Adwaenir y lle wrth yr enw Bedd Bronwen, ac Ynys Bronwen. Dyfynir yr hanes dilynol am Fedd Bronwen o *Eiriadur Cenedlaethol Cymru*:—'Yn y flwyddyn 1813, gwnaed yno y darganfyddiad pwysig a ganlyn:—Rhyw amaethwr, oedd yn byw ar lanau yr afon Alaw, ac arno eisieu ceryg at rywbeth, a aeth i'r crugyn yn ymyl yr afon; ac wedi symmud amryw, daeth o hyd i gist o lechfeini geirwon, a chauad ar ei gwyneb. Wedi symmud y cauad, gwelai yno wrn (*urn*) o glai garw, hanner crasedig, yn gorwedd ar ei wyneb, yn llawn o ludw ac esgyrn hanner maluriedig. Aeth y darganfyddiad yn fuan yn hysbys drwy yr ardal; a daeth y dywediad hwnw o'r hen *Fabinogi* i gôf rhai hynafiaethwyr lleol:—

'Bedd petryal a wnaed i Fronwen, ferch Llŷr,
Ar lan Alaw, ac yno y claddwyd hi.'

Gwnaed y ffaith hon yn hysbys i Mr. Richard Fenton, hanesydd swydd Benfro, a thrwyddo ef i Syr Richard Colt Hoare, yr hwn a roddodd yr hanes yn y *Cambro-Briton*, cyf. ii., td. 75. Anfonwyd yr wrn i'r Amgueddfa Brydeinig yn 1834; ac wedi ei throsglwyddo hi a'i chynnwysiad i brawf y gwyddonwyr, fe gafwyd allan y ffeithiau canlynol:—'Bod yr wrn yn perthyn i'r dosbarth Lludwaidd, neu Beddrodawl, a arferid i ddal esgyrn llosgedig. Ei maint yw—uchder, 12 modfedd; tryfesur yn y man lletaf, 11 modfedd; ac yn y geneu, 9 modfedd. Ei defnydd yw clai graianllyd, wedi ei hanner grasu; ac y mae ei hagwedd yn anghelfydd, a hollol syml—heb un addurn, ond ychydig o fân nodau bychain o amgylch y gwddf a'r genau. Fel y canlyn y dywed y naturiaethwr enwog, y Proffeswr Owen, am yr esgyrn a gafwyd yn ngwrn Bronwen:—'Y mae y gyfres esgyrn, yn yr hon y mae darnau o esgyrn yr aelodau, a dau asgwrn yr ên uchaf, yn perthyn i ddynes, gyflawn, neu yn agos i gyflawn oed. Y mae y rhai hyn o gorph a gafodd ei losgi. Y mae un darn o asgwrn y siol heb fod o dan effeithiau tân. Gallai fod yn rhan o ddynes; ond nid oes un rhwystr iddo fod yn rhan o ddyn ieuangc. Y mae hwn yn perthyn i esgyrn-lun gwahanol i'r gweddillion llosgedig. Ni bu erioed ddarganfyddiad mwy dyddorol, gan ei fod yn gwasanaethu i brofi dilysrwydd ein hen ysgrifeniadau Prydeinig, er iddynt gael eu defnyddio i wasanaethu rhamant, fel yn yr enghraifft hon; ac i benderfynu amseriad tebygol y claddedigaethau dan sylw y tu fewn i ychydig flynyddoedd, am yr hyn nad oedd genym obaith byth i gael ein boddhau—amgylchiad at yr hwn yr awgrymir yn brydferth yn niwedd *Barrow Poem* Mr. Bowles.'

BROTHEN. Sant oedd: ac un arall o ddeuddeg mab Helig ab Glanawg. Ymroddodd, fel ei frodyr, i fywyd crefyddol, wedi i diriogaeth ei dad gael ei gorlifo gan y môr:—yr hyn a gymmerodd le tua'r seithfed ganrif. Ymsefydlodd yn sir Feirionydd—yn Llanfrothen, fel y bernir; a chyssegrwyd yr eglwys yno ar ei enw ef.

BROWNING, ELIZABETH BARRETT. Gwraig Robert Browning ydoedd hi; a barddones o athrylith ddiammheuol. Merch oedd i Mr. Edward Moulton; a ganwyd hi yn Carlton Hall, Durham, Mawrth 6ed, 1806. Cymmerodd arni ei hun yr enw Barrett ar ei dyfodiad i feddiant o etifeddiaethau yn Jamaica. Ymddadblygodd ei galluoedd meddyliol yn gynnar; a phan nad oedd hi ond tua deng mlwydd oed, yr oedd yn alluog i ddarllen gweithiau Homer yn y gwreiddiol; a phan yn 14eg oed, ysgrifenodd arwrgerdd ar frwydr Marathon. Ar ol marwolaeth ei mam, aeth y teulu i fyw am dymmor i Sidmouth, ac ymsefydlasant yn ddiweddarach yn Llundain. Cyhoeddwyd ei *Essays on Mind, and other Poems*, cyn ei bod yn 19eg mlwydd oed. Yn 1838, ymddangosodd ei *Seraphim, and other Poems*; yn yr hon gyfrol yr ad-argraphwyd y gân ragorol a gyfansoddwyd ganddi ar farwolaeth Cowper. Yn 1844, gwnaeth gyfrol o *Poems*, gan E. Barrett, ei hymddangosiad. Yn mysg eraill, cynnwysai y gân delynegol, *The Cry of the Children*—yn yr hon y dangosodd yr awdures ei chydymdeimlad dwfn, a'i gofal, am y plant ieuaingc a gyflogid mewn maelfeydd, &c. Yn gynnar yn 1846 y gwelodd hi Robert Browning gyntaf. Priodwyd hwy yn yr Hydref dilynol; ac o herwydd sefyllfa anfoddhaol ei hiechyd, efe a'i cymmerodd i'r Eidal, i geisio adgyfnerthiad. Yn 1850, cyhoeddwyd cyfrol arall o *Poems*, yn gyssylltiedig â'r hon yr oedd cyfieithiad hollol newydd o *Prometheus Bound*, gan Æschylus. Profai y cyfieithiad hwn fod Mrs. Browning, nid yn unig yn meddu ar awen gref, ond hefyd ei bod yn meddu ar ddysgeidiaeth uchel, ac athrylith ddisglaer. Y gweithiau a gyhoeddwyd ganddi yn yr Eidal oeddynt *Casa Guidi Windows*, *Aurora Leigh*, a *Poems before Congress*. Bu farw yn Florence, Mehefin 30ain, 1861, yn yr un mis ag y bu farw y gwleidydd a'r gwladgarwr enwog, Cavour. Yn 1862, cyhoeddwyd *Last Poems* yr awdures ymadawedig gan ei phriod; a'r flwyddyn ddilynol, '*The Greek Christian Poets, and the English Poets.*'

BROWNING, ROBERT. Un o feirdd Saesnig enwocaf y bedwaredd ganrif-ar-bymtheg oedd efe. Ganwyd ef yn Camberwell, ar Mai 7fed, 1812. Yn lled gynnar ar ei yrfa, dechreuodd roddi arwyddion amlwg fod ynddo duedd gref at farddoniaeth a cherddoriaeth. Pan tua

Digitized by Google

19eg oed, ysgrifenodd gerdd ddramäyddol—yr hon a gyhoeddwyd yn 1833, o dan y teitl '*Pauline*.' Yn mhen dwy flynedd, ymddangosodd ei '*Paracelsus*;' yn yr hon y dangosodd fwy o nerth ei athrylith nag yn y gyntaf; yr hon a'i cododd i sylw fel y mwyaf addawol o feirdd ieuaingc yr oes. Cyhoeddwyd ei *Sordello* yn 1840; yr hon gerdd, o herwydd ei chymmhlethiau meddyliol, ac mewn canlyniad, yr anhawsder i'w deall, sydd wedi bod yn fwy o faen tramgwydd i ddarllenwyr Browning nag un arall o'i weithiau. Yn y gerdd hon, y mae yr awdwr yn olrhain dadblygiad yr enaid trwy fywyd, hyd farwolaeth. Yna, dan y teitl o *Bells and Pomegranates*, cyhoeddwyd nifer o chwareugerddi, galargerddi (*tragedies*), a cherddi dramäyddol telynegawl; ac yn mysg y rhai olaf hyn, y mae y cerddi a ddaethant yn fwyaf poblogaidd o holl weithiau Browning. Yn 1846, priododd Elizabeth Barrett Barrett; yr hon oedd ei hunan yn farddones o radd uchel. Aethant eu dau i Florence, yn yr Eidal; lle y buont fyw am bymtheng mlynedd mewn perffaith hapusrwydd. Yn 1850, efe a gyhoeddodd *Christmas Eve, and Easter Day*—cerddi yn gosod allan y daioni sydd yn guddiedig yn ngwahanol ffurfiau Cristionogaeth. Yn 1855, cyhoeddwyd *Men and Women*. Y mae y gyfrol hon yn cynnwys hufen gwaith yr awdwr; megys y cerddi sydd yn dwyn y penawdiau *Fra Lippo*, *Childe Roland*, *Andrea del Sarto*, *Evelyn Hope*, *Holy Cross Day*, ac *Up at a Villa*. Bu Mrs. Browning farw yn 1861; ac yna ymsefydlodd y bardd yn Llundain, gyda'i unig fab; a phan yno, yn 1869, y cyhoeddodd efe y darn hwnw o farddoniaeth a ystyrir gan nifer fawr o'i edmygwyr fel ei ben campwaith —*The Ring and the Book*. Dywedir fod yn y gwaith hwn, a gynnwysa dros un fil-ar-hugain o linellau, ac sydd yn ymwneyd yn benaf â nwydau y ddynoliaeth, rai darnau a ddaliant eu cymmharu âg unrhyw ddarn arall o farddoniaeth a ysgrifenwyd er yr unfed ganrif-arbymtheg. Ychydig cyn ymddangosiad y gân hon, sef yn 1867, etholwyd Browning yn gymmrawd anrhydeddus o Goleg Baliol. Yr un flwyddyn, rhoddwyd iddo y gradd o M. A.; ac mewn cyfnod diweddarach, rhoddwyd iddo y gradd o LL. D. gan Brifysgol Caergrawnt. O'r flwyddyn 1871 yn mlaen, cyhoeddodd amryw weithiau yn lled fuan, y naill ar ol y llall—a phob un o honynt yn gyfansoddiadau o deilyngdod barddonol, athronyddol, a llenyddol uchel iawn. Yn 1881, cafodd cymdeithas ei sefydlu dan yr enw '*The Browning Society*,' i'r amcan o hyrwyddo yr efrydiaeth o weithiau y bardd; ac yn hyn o beth, y mae esampl Llundain wedi ei dilyn gan drefydd mawr eraill yn y wlad hon, ac America. Yn ddiddadl, yr oedd efe yn un o feirdd dysgedicaf a galluocaf y ganrif hon; ac fe ddeil ei weithiau yn anhysbyddedig fel maes o ymchwiliad i athronwyr ac eraill, sydd wedi eu mabwysiadu i'r amcan hwnw. Bu Browning farw yn Venice, Rhagfyr 12fed, 1889 —yr un diwrnod ag y gwnaeth ei gyfrol olaf o farddoniaeth ei hymddangosiad; sef, *Asolando: Fancies and Facts*. Claddwyd ef yn Mynachlog Westminster ar y dydd olaf o'r flwyddyn uchod.

BRUCE. Cyfenw teulu ag sydd yn meddu safle anrhydeddus yn hanes Scotland, ac aelodau yr hwn fu â llaw helaeth yn yr helyntion gwladol yr aeth y wlad hono drwyddynt ar ol dyfodiad William y Gorchfygwr i Ynys Prydain yn 1066. Hanai y teulu oddi wrth Robert de Bruis, marchog Normanaidd; yr hwn a ddilynodd y Gorchfygwr i Brydain; a'r hwn, am ei ymlyniad a'i wroldeb, a gafodd yn wobr ddarnau helaeth o dir yn swydd Gaerefrog. Yr oedd ei fab, Robert yr ail, yn gydymaith milwrol i'r Tywysog David, o Scotland—wedi hyny David I., gan yr hwn y derbyniodd efe arglwyddiaeth Annandale. Ar ddechreu y rhyfel yn Lloegr rhwng Stephen a Matilda, nith i frenin y Scotiaid, bwriodd Robert de Bruis ei goelbren gydag achos Stephen, gan ymwadu â David; a rhoddodd ei diroedd yn Annandale i fyny i'w fab, Robert. Yn 1138, anfonwyd ef gan farwniaid Gogledd Lloegr i gylafareddu gyda David; yr hwn a ddaeth â'i fyddin mor bell a rhan o swydd Efrog i ymladd yn mhlaid achos ei nith, Matilda. Yn y frwydr a ddilynodd, dywed traddodiad iddo gymmeryd ei fab, Robert, yn garcharor, yr hwn nad oedd ar y pryd ond tua 14eg mlwydd oed; a'r hwn hefyd, fel Arglwydd Annandale, a ymladdai gyda'r Scotiaid. Bu farw yn y fl. 1141. Daeth ei fab hynaf, Adam, i feddiant o'r etifeddiaethau yn Lloegr—etifeddion yr hwn, ar yr ochr wrywaidd, a derfynasant yn mherson Peter Bruce, o Skelton, cwnstabl Castell Scarborough, yn y flwyddyn 1271. Yr oedd i Robert Bruce, ail Argl. Annandale, ddau fab:—Robert, yr hwn a fu farw yn ddiblant cyn y flwyddyn 1191; a William, mab yr hwn, y pedwerydd Argl. Annandale, a briododd Isabel, ail ferch David, Iarll Huntingdon a Chaerlleon, brawd William y Llew. Efe, yn y dull hwn, a fu yr achos o sefydliad teulu brenhinol y Bruceiaid. Bu farw yn y fl. 1245.

BRUCE, ROBERT. Yr enwocaf o deulu Bruce, a'r mwyaf gwrol o holl frenhinoedd Scotland. Ganwyd ef yn 1274. Efe oedd yr hynaf o feibion Robert de Bruce, Iarll Carrick. Pan yn nyddiau ei ieuengctid, tueddai at y Saeson; gan ddisgwyl, mae'n debyg, i'w dad gael ei osod ar orsedd Scotland. Wedi marwolaeth ei dad, ac iddo yntau ddyfod i feddiant o'r teitl o Iarll Carrick, tyngodd, yn 1296, lŵ o ffyddlondeb i Iorwerth II. yn Berwick; yr hwn a adnewyddodd y flwyddyn ddilynol yn Carlisle. Cyn hir, fodd bynag, terfynodd ei ymlyniad wrth Iorwerth, ac ymunodd â'r chwyldroad Scotaidd, o dan Wallace. Ond ni bu efe yn hir cyn adgymmodi âg Iorwerth. Ond yn 1298—y flwyddyn y gorchfygwyd y Scotiaid yn Falkirk —cododd drachefn mewn gwrthryfel yn erbyn y teyrn. Gwnaed ei diroedd yn anrhaith gan y Saeson; ac er dial am hyny, llosgodd yntau dref Ayr. Er fod Bruce yn un o bedwar rhaglaw Scotland yn 1299, ni ddarfu iddo ymladd drachefn yn erbyn Iorwerth nes y torodd y chwyldroad terfynol allan yn 1306. Ond tra yn parhau yn ymddangosiadol yn ffyddlawn i achos Iorwerth, yr oedd Bruce, yn ddirgelaidd, wedi ymgyfathrachu â Lamberton, esgob St. Andrews, un o'r rhai mwyaf gwladgarol yn mysg holl glerigwyr Scotland. Fe barhaodd pethau mewn sefyllfa ammhenderfynol am beth amser; ond cymmerodd digwyddiad le a roddodd derfyn ar y sefyllfa hon. Ymddengys fod Bruce wedi gwneuthur math o gyttundeb â John Comyn, yr hwn a elwid '*The Red Comyn*,' o berthynas i hawliau y naill a'r llall o honynt i'r orsedd. Cyfarfyddodd y ddau yn eglwys

Digitized by Google

y Minorite Friars, yn Dumfries, ar y 10fed o fis Chwefror, 1306, ac aeth yn ymrafael rhyngddynt; a than ddylanwad ei nwydau, efe a drywanodd Comyn gyda dagr. Yna rhuthrodd allan o'r adeilad, a llefodd wrth ei wasanaethyddion :—'Mae'n rhaid i mi ddiangc ymaith, o blegid ofnaf fy mod wedi lladd Red Comyn.' Ar hyn rhuthrodd Kirkpatrick, o Closeburn, un o ddilynwyr Bruce, i mewn i'r eglwys, a rhoddodd derfyn ar einioes y Comyn.

Prin y gellir rhoddi goleuni boddhaol ar yr amgylchiadau a arweiniasant i'r llofruddiaeth hwn. Prysurodd Bruce yn uniongyrchol i gastell Lochmaben. Yno, efe a alwodd ei wasanaethyddion a'i ddilynwyr ynghyd, wrth y rhai y cyhoeddodd ei hawl i'r orsedd. Yn mhen dau fis, cafodd ei goroni yn frenin yn Scone; a dyma oedd dechreu gwirioneddol y brwydrau gwaedlyd a ddilynodd. Llywodraethwr Scotland y pryd hwn oedd Iarll Penfro; ac o dan ei lywyddiaeth ef, cymmerwyd meddiant o dref Perth gan fyddin Lloegr. Daethant, hefyd, o hyd i Bruce yn nghoedwig Methven, a bu gorfod iddo gilio yn ol i ddiffaethdir Athole; ac mewn lle o'r enw Dalry, sydd yn agos i Loch Tay, yr ymosodwyd arno gan Alexander, Arglwydd Lorn, penaeth llwyth y Macdougals. Yr oedd yn ewythr i'r gŵr a lofruddiwyd yn Dumfries gan Bruce; a chymmaint oedd nerth ei ymosodiad fel y bu raid i Bruce gilio o'i flaen. Gan ei bod yn myned yn gyfyng arno, anfonodd ei briod a'i boneddigesau i gastell Kildrummie er diogelwch, a pharhaodd yntau i ymdeithio yn ucheldiroedd gorllewinol y wlad. Cafodd nodded yn ynys fechan Rathlin, ar draethell ogleddol yr Iwerddon—lle yr arosodd dros y gauaf. Tybiai lliaws ei fod wedi marw. Yn ei absennoldeb, cymmerodd y Saeson feddiant o gastell Kildrummie; crogasant Nigel Bruce, a phenaethiaid eraill a'i hamddiffynasant; a chipiasant y frenhines a'i thywysoges o gyssegrfa St. Duthac, yn Tain. Attafaelwyd holl etifeddiaethau Bruce, ac esgymmunwyd ef, a'i ddilynwyr, trwy orchymyn y pab. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1307, glaniodd Bruce yn Carrick; ac ar ganol nos, rhuthrodd ar y Saeson yn ei gastell ei hun yn Turnberry; ond bu raid iddo gilio o flaen nerth y gelyn i ranbarthau mynyddig swydd Ayr. Yr un flwyddyn, yn London Hill, efe a orchfygodd y Saeson dan Iarll Penfro. Yn y flwyddyn hon (1307) bu farw y brenin Iorwerth; ac yn ddiattreg, cymmerodd cyfnewidiad le. Yn y blynyddoedd dilynol, fe yrwyd y Saeson o'r wlad; ac adfeddiannwyd yr holl gastelli, gyda'r eithriad o gastell Stirling. Gwylid y castell hwn yn ddyfal gan Edward Bruce; yr hwn a wnaeth gyttundeb â Syr Philip Mowbray, y llywodraethwr, fod i'r olaf roddi y castell i fyny os na ddeuai y Saeson yno i'w ryddhau cyn y 24ain o Fehefin, 1314. Dyma yr hyn a arweiniodd i frwydr enwog Bannockburn; yr hon a ymladdwyd ar y dyddiad uchod. Dywedir fod y Saeson, o dan Iorwerth II., yn rhifo can mil (100,000) o ddynion; ond llwyr orchfygwyd hwynt gan Bruce gyda byddin nad oedd yn rhifo un ran o dair o'u heiddo hwy. Yn 1317, aeth Bruce drosodd i'r Iwerddon i gynnorthwyo ei frawd Edward, yr hwn a etholwyd yn frenin yr ynys. Y flwyddyn ar ol brwydr Bannockburn, ymwelodd y Scotiaid â Lloegr amryw weithiau; ac yn 1318, cymmerasant feddiant o dref Berwick. Yn 1323, bu seibiant; ond ar ol esgyniad Iorwerth III., yn 1327, adnewyddwyd yr ymdrechfa; a bu brwydro mileinig am gryn amser. Yn 1328, dygwyd y rhyfel i derfyniad trwy Gyttundeb Northampton; yn yr hwn y cydnabyddwyd annibyniaeth Scotland, a hawl Bruce i'r goron. O'r diwedd, wele ef, a'i bobl, wedi sicrhau yr uchel-gais oedd ganddynt mewn golwg; ac o'u tu hwy, nid oedd un achos am ryfela mwy. Gan fod Bruce yn dioddef oddi wrth y gwahanglwyf, treuliodd y ddwy flynedd olaf o'i fywyd yn nghastell Cardross. Bu farw yn y flwyddyn 1329, yn 55ain mlwydd oed, a'r drydedd-ar-hugain o'i deyrnasiad. Tynwyd ei galon allan; ac wedi ei pherarogli, rhoddwyd hi i James Douglas i'w chludo i Ganaan, ac i'w chladdu yn Jerusalem. Lladdwyd Douglas tra yn ymladd yn erbyn y Mooriaid yn Yspaen; a chafodd calon Bruce, a chorph Douglas, eu cymmeryd i Scotland, a'u claddu yn Mynachdy Montrose. Rhoddwyd gweddillion Bruce i orwedd yn Eglwys Fynachlog Dunfermline:—ac wrth glirio am sylfaen i drydedd eglwys ar yr un llecyn, yn 1818, darganfyddwyd ei esgyrn.

BRUTUS DARIAN LAS. Efe oedd yr hynaf o ugain mab Efrawg, brenin Prydain; yr hwn, yn ol y *Brutiau*, a ddilynodd ei dad i'r orsedd yn y fl. 3009 o oed y byd.

BRWYNLLYS BEDO. Bardd enwog a breswyliai yn Mrwynllys, ar lan yr afon Llyfni, yn Mrycheiniog. Blodeuai tua chanol y bymthegfed ganrif. Cyfansoddodd ddarnau rhagorol o farddoniaeth. Efe hefyd a gasglodd ynghyd weithiau Dafydd ab Gwilym; y rhai a gyhoeddwyd gan Owain Myfyr a Dr. Owen Pughe, yn 1789. Claddwyd ef yn Llanfor.

BRWYNOG, SION. Enw barddonol oedd hwn ar Sion ab Hywel ab Llewelyn ab Ithel, o Brwynog, ger Llanfflewyn, Môn. Yr oedd efe yn byw rhwng y blynyddoedd 1520 a 1560; a meddai allu fel bardd, pencerdd, a hanesydd o gryn enwogrwydd. Ymddengys ei fod yn gefnogol iawn i achos y Tudoriaid, o Benmynydd, yn Môn; ac yn ei fawr sêl, cyfansoddodd awdl moliant i Harri VIII. Gelwir ef hefyd 'Y Cardiwr Du;' a bu ymrysonfa farddonol rhyngddo unwaith â Gruffydd Hiraethog.

BRYAN, JOHN. Gweinidog enwog gyda'r Wesleyaid. Ganwyd ef yn Llanfyllin, yn sir Drefaldwyn, yn y fl. 1770. Wedi gwasanaethu gyda'r enwad yn Nghymru, efe a symmudodd i Loegr tua'r fl. 1816; a bu yno yn llafurio yn ddiwyd hyd 1824, pryd y peidiodd bregethu, o herwydd rhyw reswm neu gilydd. Yna, ymsefydlodd fel masnachwr yn Lloegr; ac wedi hyny yn Nghaernarfon, lle y bu hyd ddiwedd ei oes. Ganddo ef y cyfieithwyd agos yr oll o emynau y Wesleyaid sydd wedi eu cyfieithu. Ysgrifenodd lawer i'r *Eurgrawn Wesleyaidd*. Cyfieithodd y llyfrau canlynol:—*Bywyd Mr. John Haime*, 1811; *Hanes bywyd John Nelson*, 1812; *Bywyd Iago Arminius; Wesley ar Iachawdwriaeth Gyffredinol*, 1841. Tybir fod ganddo law hefyd yn nghyfieithiad amryw o lyfrau da eraill. Bu farw yn Nghaernarfon, Mai 28ain, 1856, yn 87ain mlwydd oed.

BRYCHAN, RHYS. Bardd a flodeuai tua'r fl. 1500 oedd efe. Ychydig iawn o'i hanes a'i weithiau sydd ar gael.

Digitized by Google

**BINNEY, THOMAS**: un o weinidogion enwocaf a mwyaf poblogaidd yr Annibynwyr yn Lloegr. Ganwyd ef yn nhref Newcastle-on-Tyne, yn y fl. 1798. Bu saith mlynedd gyda llyfrwerthydd. Ar ol hyn bu yn ngholeg duwinyddol Wymondley, Herts. Yn 1824, bu yn weinidog yn eglwys Annibynol, Newport, Ynys Gwyth. Yn y flwyddyn 1829, dewiswyd ef yn weinidog capel y Weigh-House, oedd y pryd hwnw yn Little East-cheap; ac yr oedd yr eglwys yn y capel hwnw wedi bod yn un o'r rhai mwyaf pwysig yn mysg yr Anghydffurfwyr drwy y blynyddoedd. Yr oedd yno ddynion o ddylanwad a gallu wedi bod yn gweinyddu ynddi. Ond yn 1834, symmudodd yr eglwys i gapel Weigh-House yn Fish street Hill. Yr oedd wedi gwneyd iddo ei hun enw uchel fel pregethwr cyn dechreu ar ei weinidogaeth reolaidd, yn enwedig trwy draddodi pregeth yn un o gapelydd y brif ddinas mewn cyssylltiad âg Undeb y Tri Enwad; a phan y dechreuodd Binney ei weinidogaeth yn y Weigh-House, yr oedd disgwyliadau mawr wrtho; ond gwnaeth fwy na llenwi disgwyliadau pawb. Perthynai i bulpudau Lloegr lawer o ragoriaethau; ond nid oedd ynddynt lawer o bregethwyr mawr. Yr oedd y cyffro Wesleyaidd wedi tawelu, a'r blaid efengylaidd yn colli ei dylanwad yn yr Eglwys Sefydledig; ac nid oedd yn mhlith yr Anghydffurfwyr ond ychydig yn meddu doniau poblogaidd:—ac o dan yr amgylchiadau hyn yr ymddangosodd Binney yn Llundain. Ar unwaith, cafodd wrandawiad mawr, a'i gydnabod yn un o brif bregethwyr ei oes a'i genedl. Pan y darllenai ei bregethau, darllenai hwynt yn rhwydd a naturiol; ond yn ddiammheuol, teimlid ei fod yn tra rhagori pan y taflai ei ysgrif o'r neilldu yn hollol. Yr oedd yn perchen meddwl cryf a gafaelgar, galluoedd deallol eang, a chorph anarferol. Yr oedd yn ymresymwr cadarn, clir, trefnus, ac effeithiol, a difrifwch dwfn yn amlwg yn ei holl gyflawniadau. Ychydig o bregethwyr a ddenai fwy o bregethwyr eraill i'w wrandaw nag efe; ac yr oedd ei gynnulleidfa arferol yn y Weigh-House yn cael ei gwneyd i fyny mewn rhan o ddynion ieuaingc mwyaf deallus y ddinas.

Gellir ystyried Mr. Binney yn un o ddiwygwyr cyntaf salmyddiaeth, neu ganiadaeth y cyssegr yn Lloegr. Y mae ei "*Service of Song*" wedi bod yn dra gwasanaethgar i ganu cynnulleidfaol. Gyda'i fod yn ddyn cyhoeddus amlwg, ac yn un o bregethwyr ei wlad, yr oedd hefyd yn awdwr llawer o lyfrau tra rhagorol, megys "*Practical Power of Faith,*" "*Dissent not Schism,*" "*Conscientious Clerical Nonconformity,*" "*Lecture on St. Paul,*" "*Is it Possible to Make the Best of both Worlds?*" "*Forty Years' Ministry;*" ac y mae y nesaf i'r olaf yn neillduol wedi cyrhaedd poblogrwydd mawr yn Lloegr, ac wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, a chael derbyniad da yn Nghymru. Teimlai Mr. Binney fod ei iechyd yn ammharu; ac yn 1857, aeth am fordaith i Awstralia, yn ol cyfarwyddyd meddygol; a bu yn pregethu am dymmor yn y wlad hono gyda derbyniad a chymmeradwyaeth anghyffredinol. Efe oedd prif sylfaenydd y Gymdeithas Genhadol Drefedigaethol, a pharhaodd yn gyfaill ffyddlawn iddi hyd y diwedd. Rhoddodd ei weinidogaeth yn y Weigh-House i fyny Gorphenaf 4ydd, 1869, er fod rhyw gyssylltiad yn parhau rhyngddo a'r eglwys yno hyd derfyn ei oes. Bu farw Chwef. 24ain, 1874, yn 76ain oed.

Yr oedd natur wedi bod yn hael iawn o'i rhoddion i'r gŵr rhagorol hwn. O ran ei berson, yr oedd yn dal a lluniaidd, a'i ben a'i wyneb yn hardd; ac yn enwedig fel yr heneiddiai, yr oedd yr olwg arno yn myned yn fwy tywysogaidd. Sylwid arno gan ddyeithriaid gan mor urddasol yr ymddangosai. Yn nghynnulliadau ei frodyr, safai fel Saul yn mysg ei bobl.

**BIRZAFITH**: enw sydd yn digwydd yn achau Aser (1 *Cron.* vii. 31), ac ymddengys oddi wrth y dull yn mha un y crybwyllir ef mai enw lle ydoedd. Cymmharer yr ymadrodd cyffelyb, "tad Bethlehem," "tad Tecoa," yn *pen.* ii. a iv.

**BITHIAH**: merch Pharaoh, a gwraig Mered, yr hwn oedd yn un o hiliogaeth Iudah: 1 *Cron.* iv. 18. Nis gellir penderfynu pa bryd yr oedd Mered yn byw; canys y mae yr achrestr yn mha un y mae ei enw yn digwydd yn aneglur, gan ei bod yn ymddangos fod rhan o honi wedi colli. Y mae yn debygol, modd bynag, ei fod yn byw cyn yr amser yr aeth yr Israeliaid allan o'r Aipht, neu yn fuan ar ol hyny. Dichon nad teitl brenhinol yr Aipht ydyw; ond enw Hebraeg yn hytrach, neu yn cynnrychioli enw Hebraeg; ond y mae yn debygol fod yr enw Bithiah yn arwyddo tröedigaeth; ac ymddengys fod gwraig arall Mered yn cael ei galw yn "Iuddewes." Dengys yr Ysgrythyrau, yn gystal a'r cofadeiladau Aiphtaidd, fod y Pharaohiaid yn priodi tramoriaid; ond ymddengys fod y cyfryw briodasau yn cymmeryd lle yn unig gyda theuluoedd brenhinol. Gellir tybied fod Bithiah wedi ei chymmeryd yn gaethes. Modd bynag, nid oes un lle i gredu mai gordderchwraig ydoedd. I'r gwrthwyneb, dangosir mai gwraig ydoedd oddi wrth y ffaith ei bod yn cymmeryd y flaenoriaeth a enwir yn arbenig fel y cyfryw.

**BLACKSTONE, SYR WILLIAM**: cyfreithiwr a barnwr enwog. Ganwyd ef yn Llundain, Gorphenaf 10fed, 1723. Sidanwr oedd ei dad, yr hwn a fu farw rai misoedd cyn geni gwrthddrych y sylwadau hyn. Thomas Bigg, llawfeddyg enwog yn Llundain, a brawd i'w fam, a gymmerodd ofal y plentyn o'i febyd. Rhoddwyd ef yn ysgol y Charterhouse pan yn saith mlwydd oed. Aeth i Goleg Penfro, Rhydychain, yn Nhachwedd, 1738. Ennillodd fathodyn aur am bennillion a gyfansoddodd ar Milton. Dilynodd ei efrydiau gyda diwydrwydd mawr; ac er mai mewn Groeg a Lladin yr ymhyfrydai fwyaf, etto nid esgeulusai fesuroniaeth, rhesymeg, a'r gwyddorau eraill. Cyfansoddodd draethawd ar adeilyddiaeth cyn bod yn ugain oed. Penderfynodd ddilyn yr alwedigaeth gyfreithiol; ac i'r dyben hwnw aeth yn efrydydd i'r Middle Temple, yn 1741. Ymroddodd gyda dyfalwch mawr i ddarllen llyfrau y gyfraith. Etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg All Souls, yn 1743; ac o'r pryd hwnw rhanodd ei amser rhwng y brifysgol a'r Temple, lle y cymmerodd ystafelloedd, mewn trefn i fyned i'r llysoedd cyfreithiol. Yn y blaenaf, dilynai ei efrydiau athrofaol; ac yn yr olaf, cyfyngodd ei hun at ei alwedigaeth, a galwyd ef at y bàr yn 1745. Yn haf 1753, penderfynodd ymneillduo i fyw bywyd athrofaol ar ei gymmrodoriaeth, ond etto i ymarfer ei alwedigaeth fel dadleuydd talaethol.

Ymddengys fod traddodi darlithiau ar gyfreithiau Lloegr yn hoff feddylddrych ganddo; a darfu i'r disgwyliadau uchel a goleddid wrth

Digitized by Google

ystyried galluoedd y darlithydd dynu lliaws mawr o ddynion ieuaingc mwyaf gobeithiol o ran cymmeriad, safle, a rhagolygon i'w wrandaw. Ond ni ddarllenwyd y darlithiau yn eu ffurf bresennol yn y brifysgol hyd 1758. Etholwyd Blackstone yn unfrydol yn athraw Vineriaidd yn Hydref, 1758; ac ar y 25ain o'r un mis y darllenodd efe ei ddarlith ragarweiniol, yr hon a gyhoeddwyd wedi hyny yn nechreu y gyfrol gyntaf o'i "*Commentaries*" clodfawr. Daeth y gyfrol o'i "*Commentaries on the Laws of England*" allan o'r wasg yn niwedd y fl. 1765. Yn nghwrs y pedair blynedd dilynol, daeth y rhan arall o'r gwaith rhagorol allan. Dylid mynegu fod ei enwogrwydd fel darlithydd wedi ei ddwyn allan fel dadleuydd yn neuadd Westminster. Etholwyd ef yn aelod o Dŷ y Cyffredin dros Hindon, ac wedi hyny dros Westbury. Cafodd ffiangell lem gan ysgrifell finiog "Junius," am y rhan a gymmerodd efe yn etholiad Middlesex. Gwrthododd y swydd o ddadleuydd cyffredinol yn 1770; ond yn fuan wedi hyny cymmerodd y pennodiad o farnwr yn Llys y Dadleuon Cyffredin. Bu farw Chwefror 14eg, 1780, yn yr 57ain flwydd o'i oedran; ar ol gwneyd enw mawr iddo ei hun fel barnwr, ac yn enwedig fel ysgrifenydd cyfreithiol.

BLACKWELL, JOHN (*Alun*): bardd a llenor Cymreig rhagorol. Ganwyd ef mewn tŷ bychan yn Mhonterwyl, Wyddgrug, tua diwedd y fl. 1797. Y mae y tŷ lle y ganed ef i'w weled yn awr ger llaw gorsaf y ffordd haiarn yn y dref hono. Glöwr oedd ei dad wrth ei alwedigaeth, o'r enw John Blackwell; a hanai o deulu o fwnwyr oedd wedi ymfudo, dybygid, o swydd Derby i swydd Fflint er's oesau; ac yr oedd ei fam, Mary Blackwell, yn enedigol o Langwm, swydd Dinbych. Yr oedd ei fam yn aelod crefyddol gyda'r Methodistiaid yn y Wyddgrug, a'i dad ef hefyd yn wrandawr cysson a dyfal yn yr un lle. Gan fod ei dad yn ddyn diwyd a gofalus, a'i fam yn ddynes gynnil, yr oeddynt yn byw yn lled gysurus o ran eu hamgylchiadau. Arferai y bachgen, John, fyned gyda'i rieni i'r capel, a dygwyd ef i fyny yn yr arferiad o fyned i'r cyfarfodydd eglwysig pan yn blentyn, a diau y gellir priodoli ei argraphiadau crefyddol cyntaf, a'i wybodaeth ysgrythyrol hefyd mewn rhan i hyn. Arferai fod yn aelod cysson o'r Ysgol Sabbothol; a phan yn dra ieuangc, dysgodd allan lawer o Air Duw, ac arferai ei adrodd yn gyhoeddus yn y cynnulleidfaoedd yn y capel; a gwahoddid ef hefyd i Lancurgain, Treffynnon, a lleoedd eraill, i wneyd yr un modd. Yr oedd yn hoff iawn hefyd o emynau Williams, o Bant-y-celyn, ac yn gallu eu hadrodd gyda grym a theimlad. O'i ddyddiau boreuaf yr oedd yn nodedig o awyddus am ddarllen; darllenai hanesyddiaeth, teithiau, cofiantau, nofelau, ac yn enwedig barddoniaeth. Ac ymddengys fod ei awyddfryd i ddarllen yn cryfhau yn feunyddiol. Darllenai, nid yn unig er mwyn y pleser o ddarllen, ond hefyd er casglu gwybodaeth. Yr oedd ei gof yn nodedig. Nid yw yn wybyddus iddo gael ond ychydig iawn o fanteision addysg, gan fod achos addysg yn Nghymru yn ei amser ef yn cael ei esgeuluso yn fawr.

Pan yn un ar ddeg oed, rhwymwyd Blackwell yn egwyddorwas o grydd; ac yr oedd ei feistr, William Kirkham, yn hoff o farddoniaeth, ac yn ychydig o fardd ei hun. Gan hyny, yn hytrach na bod dim rhwystrau wedi eu taflu drwy hyn ar ffordd gwrthddrych y cofiant hwn ar ei yrfa farddonol, cafodd bob annogaeth i fyned yn mlaen. Wedi dyfod yn weithiwr, rhoddai heibio yr hyn a allai ei hebgor o'i ennillion i brynu llyfrau, ac elai ar ei draed i Gaerlleon i'w prynu yn ail law; ac yr oedd drwy hyn wedi dechreu yn gynnar i ffurfio cnewyllyn llyfrfa a ddaeth yn un rhagorol mewn amser dyfodol. Yn y modd hwn y daeth i feddiant o weithiau Shakespeare, Milton, Dryden, Pope, &c., ynghyd â llawer o weithiau eraill mewn hanesiaeth gyffredinol yn yr iaith Saesnig. Cyfarfyddai yn ddamweiniol âg ambell lyfr Cymraeg gwerthfawr; ac os na byddai yn ei feddiant, byddai yn sicr o'i bwrcasu. Cymmerai hefyd gymmaint o'r cyfnodolion Cymreig a ddeuent allan y pryd hwnw ag yr oedd ei amgylchiadau yn caniatau iddo; a byddai cyfeillion mor garedig a rhoddi benthyg rhai eraill iddo. Teithiai ardaloedd gwledig i chwilio am lyfrau yn cynnwys barddoniaeth Gymreig; ac os yn bossibl, prynai hwynt. Cyfansoddodd lawer o farddoniaeth y pryd hwn, ond ni chyhoeddodd nemawr ddim hyd nes bod tua phedair neu bump ar hugain oed. Ymddengys ei fod yn awyddus am beidio eu cyhoeddi, heb eu coethi a'u prydferthu i'r fath raddau nes ennill iddo ei hun enw a lle yn mysg beirdd blaenaf ei wlad. Arferai gweithdy Blackwell, lle yr oedd yn dilyn ei alwedigaeth fel crydd, fod yn gyrchfan beirdd a llenorion o bob cyfeiriad.

Cyfnod pwysig yn mywyd Blackwell oedd y fl. 1823. Ar ddydd gŵyl Dewi y flwyddyn hono, cynnaliwyd eisteddfod leol yn Rhuthyn, ac yr oedd Blackwell yn ymgeisydd ynddi. Efe a gafodd wobr am yr awdl oreu ar "Enedigaeth Iorwerth II.;" ac un arall am yr araeth oreu ar "Ragoriaethau yr Iaith Gymraeg." Yn mis Mai yr un flwyddyn, ennillodd ddwy wobr yn eisteddfod Caerwys—un am draethawd, a'r llall am farddoniaeth; ac yn yr Awst dilynol, ennillodd destyn y gadair, sef awdl ar "Maesgarmon," yn eisteddfod yr Wyddgrug. Cafodd wobr arall hefyd am yr araeth oreu ar "Undeb a Brawdgarwch." Arglwydd Mostyn ydoedd llywydd yr eisteddfod hon, yr hwn a ryfeddai fod dyn o alluoedd mor ddisglaer yn troi mewn cylch cymdeithasol mor isel. Penderfynwyd ar unwaith estyn pob cymmhorth iddo i ymgodi, ac i gael mantais i ddadlenu ei dalentau. Agorwyd tanysgrifiad i'r perwyl hwn yn ddioed. Astudiodd Blackwell rammadeg yr iaith Lladin hyd ddechreu Ionawr, 1824; ac wedi hyny symmudodd i Berriew, Maldwyn, o dan addysg y Parch. T. Richards. Tra yr oedd yn y lle hwn daeth i gydnabyddiaeth â Gwallter Mechain, y Parch. J. Jenkins, a'r Parch. D. Hughes, ac ysgrifenodd lawer i'r "*Gwyliedydd.*" Yma hefyd y cyfansoddodd efe ei draethawd ar yr "Iaith Gymraeg," yr hwn a ennillodd y wobr yn eisteddfod Trallwm. Aeth i Goleg Iesu i Rydychain, yn mis Ragfyr. Yn ystod blwyddyn gyntaf ei arosiad yn Rhydychain, cyfieithodd y "Messiah," gan Pope, ar gyfer eisteddfod Rhuthyn, a rhanwyd y wobr rhyngddo ef a Bardd Nantglyn. Fe fu farw ei dad yn ystod tymmor ei efrydiaeth yn Rhydychain, a'i fam hefyd yn fuan ar ol ei ymadawiad oddi yno. Yn 1828, daeth o Rydychain, wedi ennill y gradd o wyryf y celfyddydau. Yr oedd myned drwy ei arholiad diweddaf wedi bod yn pwyso yn drwm ar ei feddwl; a phan y llwyddodd, yr oedd ei bryder mawr wedi myned heibio. Yr oedd ei

gyfaill, y Parch. J. Jenkins, yn awyddus am iddo aros yn Rhydychain yn hwy er cael mwy o fantais i wrteithio ei feddwl; ond mynai cyfeillion eraill iddo ddyfod i drigiannu yn Nghymru. Yr oedd yn mryd yr esgobion Cymreig ar y pryd hwnw gyhoeddi nodiadau eglurhaol cyfieithedig ar y Beibl, a dewiswyd Blackwell fel y cyfieithydd; ond am ryw reswm neu gilydd, nid aeth y gwaith hwnw yn mlaen.

Yn Medi, 1828, yr oedd Blackwell yn eisteddfod frenhinol Dinbych, ac yn un o'r beirniaid ar rai o'r cyfansoddiadau. Cafodd wobr yno hefyd am yr alarnad oreu ar "Farwolaeth yr Esgob Heber." Rhoddwyd y wobr uchod gan foneddwr oedd heb fod mewn un cyssylltiad a'r eisteddfod—er fod y wobr ar y testyn hwn wedi ei rhoddi ynddi. Yr oedd ei bennodiad fel un o'r beirniaid yn ei attal i fod yn ymgeisydd am y gwobrau a gynnygid gan y pwyllgor. Cadeiriwyd ef fel cynnrychiolydd y Parch. Evan Evans (*Ieuan Glan Geirionydd*), yr hwn a ennillasai ar "Wledd Belsassar," a thraddododd araeth hyawdl. Yn nechreu y fl. 1829, pennodwyd ef yn gurad Treffynnon; ac ymroddodd gyda ffyddlondeb arbenig i gyflawni dyledswyddau ei swydd. Llafuriai yn neillduol yn mysg y tlodion, ac yr oedd ei hyawdledd a'i ddull difrifol yn y pulpud yn ei wneyd yn hynod gymmeradwy fel pregethwr. Ysgrifenai lawer yr adeg hon i'r "*Gwyliedydd*," ond yn wastad o dan ffugenwau. Yn eisteddfod Beaumaris, yn 1832, efe a ennillodd y wobr am yr englynion goreu ar briodas Syr Richard Bulkeley, ac arwisgwyd ef â bathodyn gan y dywysoges (yn awr y frenhines) Victoria. Yr oedd yn un o'r beirniaid yn yr eisteddfod hon, a thraddododd araeth ragorol yno ar yr ail ddydd. Ar ol ei ymsefydliad yn Nhreffynnon, cyflwynwyd ef i sylw yr arglwydd ganghellydd Brougham, yr hyn a arweiniodd i'w ddyrchafiad yn yr Eglwys. Pan aeth bywoliaeth Manordeifi yn wâg, cynnygiwyd hi gan y canghellydd i Blackwell; derbyniodd yntau y cynnygiad, er gofid mawr i bobl Treffynnon, lle yr oedd ei lafur yn cael ei werthfawrogi, ac yntau yn cael ei barchu. Cyflwynwyd iddo anrheg hardd o lestri arian, yn arwydd o serch pobl y dref a'r gymmydogaeth tuag ato. Traddododd ei bregeth ymadawol yno ar y 10fed o Fawrth, 1833, oddi ar *Phil.* i. 27; yr hon, ar ddymuniad y rhai a'i gwrandawsant, a gyhoeddwyd wedi hyny.

Yn fuan ar ol ymsefydliad Alun yn Manordeifi, penderfynodd y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol gyhoeddi cylchgrawn Cymraeg, ar gynllun y "*Penny Magazine*;" a phennodwyd Mr. Blackwell yn olygydd arno. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf o hono yn Ionawr, 1834, o dan yr enw "*Y Cylchgrawn*." Y cyhoeddwr oedd Mr. Rees, o Lanymddyfri. Mynegwyd yn y rhagymadrodd mai yr amcan yn ei sefydliad oedd dwyn cyfnodolyn rhad, yn cynnwys erthyglau ar wybodaeth gyffredinol yn eu hiaith eu hunain, at wasanaeth darllenwyr Cymreig. Ond ni chafodd yr anturiaeth hon y gefnogaeth a deilyngai. Bu Mr. Rees yn golledwr oddi wrtho y flwyddyn gyntaf; ac am yr hanner blwyddyn nesaf dygwyd y cylchgrawn allan gan Mr. Evans, yr hwn a'i rhoddodd ef i fyny ar ol bod yn gryn golledwr oddi wrtho. O ran ei deilyngdod yr oedd y cyhoeddiad yn haeddu lle uchel, ac ysgrifeniadau y golygydd yn cael eu gwerthfawrogi yn fawr gan bob dyn o farn a chwaeth. Dechreuodd iechyd Mr. Blackwell ddadfeilio i raddau tua'r pryd hwn; ac fe allai fod ei gyssylltiad â'r *Cylchgrawn* wedi effeithio rhyw gymmaint i achlysuro hyn; gan y llafuriai yn galed arno, a hyny mewn oriau pan yr oedd natur yn galw am orphwys. Erbyn dechreu y fl. 1836, yr oedd arwyddion amlwg fod ei iechyd yn gwaelu; dioddefodd oddi wrth rywbeth tebyg i ergyd o'r parlys. Y mae ysbryd crefyddol ac ymostyngol iawn i ewyllys yr Arglwydd yn cael ei amlygu yn y llythyrau a ysgrifenodd at gyfeillion yn yr adeg hon, pan y teimlai fod ei iechyd yn rhoddi ffordd. Yn mis Gorphenaf, 1839, ymunodd mewn priodas â Miss Dear, o'r Pistyll, ger Treffynnon; a phrofodd yr undeb hwn yn gysur mawr am y gweddill byr oedd yn aros o'i oes. Yn nechreu 1840, dychwelodd ei afiechyd gyda grym, ac wedi dihoeni hyd Mai 19eg, bu farw yn 43ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Manordeifi, a chyfododd ei weddw gofgolofn hardd iddo yno.

Nid ydyw cyfansoddiadau barddonol Alun yn lliosog. Wrth ystyried eu teilyngdod a'u rhagoriaethau, y mae yn ofidus meddwl ei fod wedi ysgrifenu mor lleied; o herwydd y mae "*Ceinion Alun*" yn cynnwys rhai o'r darnau pryderthaf a mwyaf gorphenedig a choeth sydd yn yr iaith Gymraeg.

BLÜCHER, GEBHARD LEBRECHT VON: tywysog Wahlstatt, a maeslywydd Prwssiaidd; yr hwn, o herwydd ei chwimwthder, a elwid hefyd yn *Marschall Vorwärts*. Ganwyd ef yn Rostock, ger llaw glan y Llychlyn, yn y flwyddyn 1742. Ymunodd â chatrawd o feirchfilwyr Swedaidd pan nad oedd ond pedair blynedd ar ddeg oed; ond gyda bod Rhyfel y Saith Mlynedd wedi dechreu, cymmerwyd ef yn garcharor gan gatrawd o feirchfilwyr Prwssiaidd, a pherswadiwyd ef gan filwriad y gatrawd hono i ymuno â byddin Prwssia. Gwnaed ef yn fuan yn isgadben, ac yna yn gadben; ond pan y dyrchafwyd un annheilyngach, ond cyfoethocach, nag ef yn uchgadben yn yr un gatrawd ag ef, digiodd gymmaint nes anfon at Friedrich Fawr am ganiatâd i ymddiswyddo; a dyma'r atteb a gafodd gan y brenin:—"Y mae yn rhydd i'r Cadben Blücher adael fy ngwasanaeth, a gall fyned at y d——, os gwel yn dda." Ar hyny, ciliodd i Silesia i drin tir, a thrwy ddiwydrwydd daeth i feddu ystâd led fawr. Yno y bu am bymtheng mlynedd; ond pan yr esgynodd y brenin, Friedrich Wilhelm II., i'r orsedd, fe'i gwahoddwyd i ddyfod yn ol, i fod yn uchgadben yn y gatrawd y buasai ynddi gynt. Ac ar ol brwydr Leystadt, yn 1794, dyrchafwyd ef yn uwch. Efe oedd yn arwain y gwŷr meirch yn mrwydr drychinebus Jena; ac wedi iddo ef, ynghyd â rhyw ddeuddeng mil o Brwssiaid, gael eu gwahanu oddi wrth y gweddill o'r fyddin, llwyddodd i encilio gyda hwy mor bell a Lübeck. Ond yno bu gorfod arno roddi ei hun i fyny; ond yn fuan gollyngwyd ef yn rhydd, yn gyfnewid am y cadlywydd Victor. Pan yr ymunodd Prwssia â'r galluoedd eraill yn erbyn Napoleon yn 1813, gwnaed Blücher yn gadlywydd canolbarth y fyddin gynghreiriol. Iddo ef, i fesur mawr, yr oedd y cynghreirwyr i ddiolch am y fuddugoliaeth a gawsant ar Napoleon ger llaw Leipsic. Efe hefyd oedd blaenor asgell ddeheu y fyddin gynghreiriol o flaen Paris yn ystod yr adeg y rhoddodd Napoleon ei orsedd i fyny. Buasai Blücher wedi dial yn ddidosturi ar Paris am yr

Digitized by Google

hyn a wnaeth y Ffrangcod yn Berlin, oni bae ei luddias gan ei frenin a'r maeslywyddion eraill. Daeth gyda'r penaduriaid cynghreiriol drosodd i Loegr, lle y cafodd groesaw mawr. Pan ddiangodd Napoleon o ynys Elba, aeth Blücher i'r maes eilwaith fel llywydd y fyddin Brwssiaidd; ond gorchfygwyd ef yn mrwydr Ligny ar yr 16eg o fis Mehefin, 1815. Parhaodd y frwydr ffyrnig hono hyd ddeg o'r gloch y nos, ac ar ei therfyn saethwyd march Blücher yn gelain, fel y syrthiodd ar ei farchog; ac o dano y bu am ennyd, yn analluog i symmud, a chatrodau o'r curaswyr (*cuirassiers*) Ffrengig yn carlamu drosto, yn eu rhuthr ar ei fyddin. Taenwyd y gair ei fod wedi ei ladd; ond pwy a welid yn dyfod allan o goedwig Frichemont yn mtn hwyr y trydydd dydd, pan yr oedd brwydr Waterloo yn crynu yn y glorian—ond Blücher a'i wŷr! Terfysgodd hyn fyddin y Ffrangcod, fel yr aeth yn gwbl annhrefnus; ac er mwyn chwanegu dinystr at yr annhrefn, gorchymynodd i'w wŷr wneyd ymosodiad cyffredinol arni. Gan ei bod yn noswaith oleu loer, ymlidiwyd gweddillion byddin Napoleon gan y Prwssiaid ar hyd y nos, nes yr oedd y ffyrdd wedi eu tagu gan glwyfedigion a lladdedigion. Ar ol aros yn Mharis am rai misoedd i gynnorthwyo i ail osod i fyny hen lywodraeth Bourbon yn Ffrainge, efe a ddychwelodd i Prwssia. Pan ddechreuodd glafychu, ymneillduodd i'w dŷ yn Silesia; a phan ddaeth y brenin i edrych am dano, ac i ganu yn iach iddo am y tro diweddaf, dywedodd Blücher wrtho, "Gwn y byddaf farw; ac nid ydyw yn ddrwg genyf hyny, o herwydd nis gallaf fod mwyach yn dda i ddim." Fel maeslywydd, nid oedd Blücher nac yn ddoeth nac yn fedrus; ond yr oedd yn wrol ac yn hyderus dros ben; ac yr oedd ganddo allu anghyffredin i gyffroi ysbryd cyffelyb yn ei wŷr. Ei brif nodweddau oeddynt egni ac yni, parodrwydd, a rhagwelediad. Ond ni fuasai ei wroldeb yn tycio nemawr, oni buasai am gynlluniau ei brif swyddog Gneisenau. Bu farw yn Kriblowitz, yn Silesia, ar y 12fed o Fedi, 1819, yn 77ain oed.

BLUMENBACH, JOHANN FRIEDRICH: anianofydd Ellmynaidd enwog. Ganwyd ef yn Gotha, Mai 11eg, yn y fl. 1752; ac ar ol gorphen ei addysg yn Jena Göttingen, gwnaed ef yn broffeswr meddyginiaeth, yn llyfrgellydd, ac yn geidwad y gywreinfa yn mhrif athrofa Göttingen. Y mae'r llyfrau a gyhoeddodd yn werthfawr iawn yn ngolwg anianofyddion. Bu farw yn Göttingen, Ionawr 22ain, yn y flwyddyn 1840.

BOCCACCIO, GIOVANNI: y ffugdraethwr Italaidd enwog. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1313. Y mae cryn lawer o ammheuaeth o barth i le ei enedigaeth. Enwir Florence, a Paris, a Certaldo fel y lle: ond bernir mai yr olaf yw y mwyaf tebygol. Marsiandwr o Florence oedd ei dad, a Ffrangces oedd ei fam. Gadawodd farsiandïaeth a'r gyfraith er mwyn ymroddi i lenyddiaeth. Bu fyw am rai blynyddoedd yn Naples; a thra yno, rhoddodd ei serch ar ferch anghyfreithlawn i Robert, brenin Naples; ac iddi hi, dan yr enw Fiametta, y cyflwynodd efe amryw o'i weithiau—a'r hon a anfarwolodd drwy ei ddychymyg. Yr oedd Boccaccio yn cydoesi â Petrarch; ac yr oeddynt ill dau yn gyfeillion mawr i'w gilydd. Gwnaeth Boccaccio lawer tuag at adgyfodi llenyddiaeth glasurol i fri. Treuliodd lawer o amser ac arian i gasglu hen ysgrifau; ac efe oedd y cyntaf i ddwyn adysgrifau Groeg o'r "*Iliad*" a'r "*Odyssey*" i'r Ital. Er hyny, nid esgeulusodd ddyrchafu llenyddiaeth ei wlad ei hun; canys efe a gyfrifir yn dad rhyddiaith Italaidd, yn enwedig yn ei waith a enwir y *Decameron*. Yn 1361, dygwyd iddo annogaeth ddifrifol oddi wrth fynach oedd ar farw, i fucheddu yn well, ac i ymbarotoi erbyn marw. Gwnaeth y genadwri hon argraph ddwys arno, fel y bu ei fywyd o hyny allan yn llawer mwy diargyhoedd. Yn 1373, dewiswyd ef gan ddinasyddion Florence i lenwi y gadair a sefydlwyd er esbonio y "*Divina Commedia*" o eiddo Dante. Bu farw yn Certaldo, Rhag. 1375. Ei brif waith ydyw y "*Decamerone*"—cant o chwedlau; y rhai y mae ynddynt afiaeth, ac arabedd, lawer iawn, ond yn gymmysgedig â pheth serthedd. Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn 1352; ond yn mhen dau canrif, fe'i condemniwyd gan ddau bab, a chan Gynghor Trent. Y mae ei arddull yn hynod o ystwyth a chryno.

BOEHME (neu BÖHME) JACOB: y rhinofydd (*mystic*) Germanaidd enwog. Ganwyd ef yn Altseidenberg, tua deng milldir o Görlitz, yn y flwyddyn 1575. Crydd ydoedd J. Böehme o ran ei alwedigaeth; a chan ei fod o duedd fyfyrgar, ymroddodd yn ei oriau hamddenol i astudio duwinyddiaeth, anianaeth, a ser-ddewiniaeth. Hònai iddo gael ei amgylchu fwy nag unwaith gan oleuni dwyfol; ac iddo, yn nerth y goleuni hwnw, ddarganfod hanfod, rhin, a defnydd-lysiau y maes. Yr oedd Böehme yn ddyn uniawn a difrifol yn mhob peth. Erlidid ef yn dost gan wŷr eglwysig; ond perchid a mawrygid ef gan bawb eraill—hyd yn oed gan bendefigion, meddygon, a marsiandwyr. Ymdaenodd ei syniadau yn brysur, a darllenid ei weithiau yn ddyfal gan wŷr o fath Syr Isaac Newton, Schelling, a Hegel. Y mae ei ddysgeidiaeth yn gyssegredig yn yr ymgais i brofi angenrheidrwydd pethau trwy olrhain eu tarddiad i briodoliaethau Duw.

O herwydd hyn, cyhuddir ef gan ddarllenwyr arwynebol, a rhagfarnllyd, o goleddu athrawiaeth y Manicheaid. Ond olrhain y gyfattebiaeth y mae sydd rhwng y byd gweledig ac anianol a'r byd anweledig ac uch-anianol. Er gwaethaf llawer o syniadau gwylltion a gynnwysant, y mae yn ei lyfrau wirioneddau mor ddyfnion, a meddyliau mor odidog, fel y maent wedi derbyn cymmeradwyaeth y meddylwyr mwyaf. Ysgrifenodd Böehme tua deg-ar-hugain o lyfrau. Enw y cyntaf a gyhoeddodd yw "*Aurora*," neu "*Y Wawrddydd.*"

Y mae tri chyfnod yn perthyn i awduriaeth Böehme, yn cyfatteb i ddosbarthiad triphlyg ei weithiau:—(1.) Athroniaeth; sef ymgais i ddyfod o hyd i Dduw fel y mae ynddo ei hun. Gwneir hyn yn ei "*Aurora.*" (2.) Bydhaniad—yr amlygiad o'r dwyfol yn y creadur. (3.) Duwinyddiaeth—yr amlygiad o Dduw yn enaid dyn. Y mae ei ddylanwad fel awdwr yn gyfyngedig i ddysgedigion. Un o'i brif feddyliau ydyw, mai Duw ydyw gwaelod pob peth, a'i fod yn gorwedd o dan y cyfan. Yr ydym ni, gan hyny, i ddisgyn i lawr at Dduw, ac nid i ymddyrchafu ato. Y mae Duw i'w gael yn y gweithredol—nid yn y drychfeddyliol. Dylem gychwyn gyda Duw, ac nid ceisio cyrhaedd ato trwy ymdrech meddyliol. Yr oedd Böehme yn ddyledus am ymadroddion a drychfeddyliau cynnorthwyol i Paracelsus, Weiger, Schwenkeld;

Digitized by Google

ond am y gweddill, nyddodd ei holl gyfundraeth o ddefnyddiau ei feddwl ffrwythlawn ei hun. Cyhoeddwyd ei weithiau yn Saesneg gan Ellistone a Sparrow, yn y blynyddoedd 1644—62, ac ail argraphwyd ef yn 1762—84, gan Ward a Langcake. Franz Baader ydyw y mwyaf hynod fel eglurydd ei weithiau. Bu farw yn y flwyddyn 1624.

**BOERHAVE, HERMANN**: un o'r meddygon enwocaf er amser Hippocrates. Ganwyd ef yn Woorhout, ger Leyden, yn y fl. 1668; a phan oedd yn 16eg oed, anfonwyd ef gan ei dad i brif athrofa Leyden i ymbarotoi i'r weinidogaeth. Ond meddyginiaeth oedd yn myned â'i fryd ef: felly, ar annogaeth Vandenberg, maer y ddinas, ymroddodd yn llwyr i astudio y gangen hono dan Drelincourt. Yn 1693, graddiodd yn M.D.; a chymmaint fu y cynnydd a wnaeth fel pan fu farw ei hen athraw yn 1701, y dewiswyd ef yn ddarlithydd meddygol yn ei le. Yn 1709, pennodwyd ef yn broffeswr meddyginiaeth a llysieuaeth; ac yn 1714, pennodwyd ef yn rheithor y brif athrofa, ac i gadair meddyginiaeth ymarferol; ac yn mhen pedair blynedd, i gadair fferylliaeth. Yn 1728, etholwyd ef yn aelod o Athrofa Frenhinol Gwyddorion Paris; ac yn 1730, yn aelod o Gymdeithas Frenhinol Llundain. Yn 1729, gorfodwyd ef gan waeledd iechyd i roddi i fyny gadeiriau fferylliaeth a llysieuaeth; ac yn 1731, rhoddodd i fyny fod yn rheithor y brifathrofa—i ba swydd yr ail etholwyd ef. Yr oedd i Boerhave glod a pharch digyffelyb yn ei gylch ei hun. Mabwysiadwyd ei gyfundrefn yn mhob man; ac anfonid rhai i'w dysgu ganddo o bob rhan o Ewrop. Bu Pedr Fawr ei hun yn derbyn gwersi ganddo; ac nid oedd ei glod yn gyfyngedig i Ewrop; canys yr ydym yn darllen ddarfod i bendefig o China anfon llythyr ato wedi ei gyfeirio fel hyn:—"At yr enwog Boerhave, meddyg yn Ewrop." Daeth y llythyr hwn i'w law yn rhwydd. At alluoedd meddyliol digyffelyb, chwanegai nodweddion hawddgar y galon, pa rai sydd yn rhoi cymmaint o werth arnynt i gymdeithas. Yr oedd ei ymddangosiad personol yn syml a hybarch. Cyfranai addysg gyda rheoleidd-dra a manylwch mawr. Yr oedd ei arddull yn hyawdl, a'i lefariad yn urddasol a phrydferth. Yr oedd yn ieithydd medrus, a chanddo gôf anghyffredin. Tra yr oedd yn elyn penderfynol i eithafion, ystyriai fod difyrwch cymmharol fel halen bywyd. Hoffai gerddoriaeth, a meddai wybodaeth wyddorol o'r gelfyddyd; ac yn ystod y gauaf, byddai ganddo gyngherdd wythnosol yn ei dŷ. Dyn diymhongar a difrycheulyd oedd Boerhave. Mor fuan ag y codai yn y boreu—yn gyffredin yn bur foreu—arferai ymneillduo am awr i weddïo, a darllen yr Ysgrythyrau; a dywedai fod yr arferiad hwn yn rhoddi iddo yni i gyflawni gorchwylion y diwrnod. Da fyddai i bawb ddilyn ei esampl. Cyhoeddodd amryw lyfrau, y rhai a gyfieithwyd i bob iaith yn Ewrop, ac hyd yn oed i'r Arabaeg. "*Institutiones Medicæ*," Leyden, 1708. "*Aphorismi de cognoscendis et curandis Morbis*," Leyden, 1709—hwn oedd *text-book* ei ddarlithiau, a chyhoeddodd Van Swieten esboniad arno mewn pum cyfrol pedwarplyg "*Libellus de Materia Medica et Remediorum Formulis*," Leyden, 1719. "*Institutiones et experimenta Chemica*," Paris, 1724. Traddododd hefyd amryw areithiau a darlithiau godidog. Ar ol dioddef yn amynedgar glefyd maith a phoenus, bu farw y gŵr mawr a da hwn ar y 23ain o fis Medi, 1738. Cododd dinas Leyden gofgolofn ardderchog iddo yn eglwys St. Pedr.

**BOETIUS**, neu **BOECE, HECTOR**: yr hanesydd Ysgotaidd. Ganwyd ef yn Dundee, tua'r flwyddyn 1465. Addysgwyd ef yn Aberdeen, ac wedi hyny yn mhrif athrofa Paris, lle y gwnaed ef yn broffeswr, a lle hefyd y daeth yn gydnabyddus âg Erasmus ac amryw wŷr enwog eraill. Yn nechreu yr unfed ganrif ar bymtheg, gwahoddwyd ef gan yr Esgob Ephinstone i ddyfod yn ben athraw ar yr athrofa a sefydlwyd yn Aberdeen. Cydsyniodd yntau; ac fel arwydd o'i ddiolchgarwch, ysgrifenodd hanes bywyd ei noddwr a'i ragflaenoriaid. Ond y gwaith pwysicaf a ysgrifenodd oedd "*Hanes Ysgotland.*" Bu farw yn y flwyddyn 1536, o ddeutu 71ain mlwydd oed.

**BOLINGBROKE, HENRY ST. JOHN, YR IS-IARLL.** Ganwyd y pendefig hwn yn Battersea, Tachwedd 1af, 1678. Ar ol gorphen ei yrfa fel efrydydd yn Rhydychain, aeth i'r Cyfandir am flwyddyn neu ddwy. Yn 1701, anfonwyd ef i'r senedd i gynnrychioli Wotton Basset. Bu yn Ysgrifenydd Rhyfel yn y Weinyddiaeth Doryaidd rhwng 1704 a 1708; ac yn 1710, gwnaed ef yn Ysgrifenydd Tramor. Yn 1712, gwnaed ef yn Is-iarll Bolingbroke, a phennodwyd ef ar yr un pryd yn Arglwydd Raglaw Essex. Ond o herwydd nas gwnaed ef yn iarll, ymrafaeliodd â'i gydweinidogion, a llwyddodd i droi ei hen gyfaill Harley o'i swydd, ac i fyned yn brif weinidog yn ei le. Ond yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyn, bu farw y frenhines Anne; a phan yr esgynodd Sior I. i'r orsedd, y Whigiaid oedd yn oruchaf; ac wrth weled y teimlad cryf oedd yn ei erbyn yn Nhŷ y Cyffredin, efe a ofnodd, ac a ffodd i Ffraingc. Yno, cymmerodd blaid yr ymhonwr James Edward; ac am hyny, cyhuddwyd ef yn Nhŷ yr Arglwyddi o deyrnfradwriaeth a throseddau eraill. Nid hir y bu ef a James Edward heb syrthio allan; ond ni chafodd Bolingbroke genad i ddychwelyd i'w wlad ei hun hyd 1723. Gan fod yr awdurdodau yn anfoddlawn iddo eistedd eilwaith yn Nhŷ yr Arglwyddi, efe a arferodd ei dalentau i ysgrifenu y weinyddiaeth i lawr, nes y llwyddodd o'r diwedd i daflu Syr Robert Walpole o swydd, yn y fl. 1741. Aeth eilwaith i Ffraingc yn 1735, ac arosodd nes y bu farw ei dad. Ar ol hyny, ymsefydlodd yn Battersea, a bu farw yn 1751, yn 80ain mlwydd oed. Yr oedd Bolingbroke yn gyfaill agos i Pope, Swift, ac awdwyr enwog eraill. Gŵr balch, hunangar, ac afradlawn oedd Bolingbroke fel dyn, uchelgeisiol a diegwyddor fel gwladweinydd, a choeg a bâs fel ysgrifenydd.

**BOSCATH**: un o ddinasoedd Iudah, a enwir gyda Lachis: *Jos.* xv. 39. Crybwyllir hi yn 2 *Bren.* xxii. 1, fel lle genedigol mam y brenin Iosuah. Ni wyddys yn mha le y safai.

**BOSWELL, JAMES**: cyfaill, a bywgraphydd Dr. Johnson. Disgynai ei dad a'i fam o deuluoedd pur urddasol, ac anfonasant ei i efrydu y gyfraith i athrofeydd Glasgow, Edinburgh, ac Utrecht. Ar ol treulio chwe mis yn Utrecht, aeth ar daith drwy y Cyfandir, gyda'i gyfaill Iarll Marischal. Dangosai awydd mawr bob amser i ymgydnabod â dynion enwog; a thra bu

Digitized by Google

ar y Cyfandir, ymwelodd â Voltaire, Rousseau, Paoli, &c. Daeth i gydnabyddiaeth gyntaf â Dr. Johnson ar yr 16eg o Fai, 1763. Derbyniwyd ef yn 1773 i'r Gymdeithas Lenyddol a sefydlwyd gan Johnson, yr hon yr oedd Burke, Goldsmith, Reynolds, a Garrick yn aelodau o honi. Yn yr un flwyddyn, aeth gyda Johnson i ymweled â'r Hebrides; ac o hyny allan, ymgymmerodd â chofnodi pob peth a ddywedai ac a wnai Dr. Johnson. Yn 1785, cyhoeddodd hanes ei daith ef a Johnson i'r Hebrides; ac yn 1790, cyhoeddodd "*Hanes bywyd Johnson.*" Aeth y llyfr hwn yn fawr ei fri ar unwaith: ail gyhoeddwyd ef drachefn a thrachefn; ac fel bywgraphiaeth cywir a naturiol, y mae etto yn parhau heb ei gyffelyb. Ganwyd Boswell yn Hydref 29ain, 1740, a bu farw Mai 19eg, 1795.

BOURDALOUE, LOUIS: pregethwr enwog o Ffraingc. Ganwyd ef yn Bourges, Awst 20fed, 1632. Dechreuodd bregethu yn Paris yn 1669; a chafodd yr anrhydedd o bregethu ddeng waith o flaen Louis XIV. Wedi darfod diddymu cyhoeddiad Nantes, anfonwyd ef yn 1686 i Montpellier i bregethu i'r Protestaniaid, ar ran Eglwys Rhufain. Yr oedd yn gwbl ddiystyr o'r dull chwyddedig oedd yn nodweddu pregethwyr ei oes, a phregethai yn erbyn nwydau, gwendidau, a chyfeiliornadau, mewn modd galluog a difrifol. Gwyddai yn dda pa fodd i gyfaddasu ei hyawdledd at feddyliau y rhai a anerchai. Byddai yn syml gyda'r rhai syml, ac yn ddyfnddysg gyda'r rhai dysgedig; ac o herwydd hyn, yr oedd yn gymmeradwy gan bawb. Y mae ei bregethau ysgrifenedig yn llawn o feddwl, o ddwysder, ac o ddysg. Yr oedd o ran ei berson yn urddasol, ac o ran ei fuchedd yn ddiargyhoedd. Tua diwedd ei oes, rhoddodd heibio bregethu, gan' ymroddi i ymweled âg ysbytai a charcharau, a sefydliadau crefyddol. Bu farw yn Paris, Mai 13eg, 1704.

BRADFORD, JOHN, Y MERTHYR. Yn Manchester y ganwyd y gŵr duwiol hwn, yn nechreu teyrnasiad Harri yr Wythfed, ac yno y cafodd ei addysg boreuol. Ar ol gorphen ei ysgol, aeth i wasanaeth Syr John Harrington, yr hwn oedd yn drysorydd ac yn olygwr ar adeiladau a gwersylloedd y brenin Harri VIII. yn Boulogne. Cyn hir, aeth i Brifysgol Caergrawnt, i ymbarotoi i'r weinidogaeth. Dr. Ridley, esgob Llundain, a'i hurddodd yn ddiacon, a rhoddodd iddo yn fuan drwydded i bregethu, ynghyd â lle gor-beriglor yn Eglwys Gadeiriol St. Paul. Parhaodd i bregethu yr un mor efengylaidd yn amser Mari ag y gwnai yn amser Edward; ond nid hir y goddefodd Mari hyny. Cadwyd ef yn y Tŵr am flwyddyn a hanner; a chan na fynai wadu ei Brotestaniaeth, llosgwyd ef gyda gŵr duwiol arall o'r enw John Leaf yn Smithfield Llundain, Gorph. 1af, 1555. Gwel "*Hanes y Merthyron,*" gan y Parch. T. Jones.

BRAG, BRAGU. Brâg yw heidden wedi ei gorfodi i egino trwy foddion celfyddydol, a'i chrasu ar ol hyny mewn odyn er mwyn addfedu a meluso y paill (*farina*) sydd ynddi, ac felly ei gyfaddasu i amcanion y darllawydd. Y gwaith cyntaf oll yw mwydo y grawn mewn dwfr, drwy yr hyn y mae yn chwyddo, ac yn ymfeddalu. Y mae yr heiddiau goreu, ar gyfartaledd, yn sugno digon o ddwfr i wneuthur eu pwysau yn gymmaint arall ag oeddynt o'r blaen. Am o ddeutu deugain i hanner cant, neu weithiau deg a thriugain o oriau y bydd y grawn yn gorwedd yn y dyfrgistiau yn mwydo. Yn nesaf, bwrir y grawn allan yn swp ar y llawr. Gadewir ef felly am tua chwe awr ar hugain; ac yn ystod yr amser hwnw, dechreua yr haidd flaendarddu a bwrw mân-wraidd, gan faint y gwres fydd ynddo. Yn nesaf, taenir ef ar y llawr, yn haen lled dew ar y cyntaf; yna, yn deneuach, dros fwy o'r llawr; a thaenir a thröir ef fel hyn drachefn a thrachefn nes gostwng yr haen o'r diwedd i tua chwe modfedd o drwch. Erbyn hyn, bydd y blaendardd ar dori y plisgyn—yr hyn sydd yn arwydd fod yr heidden wedi cyrhaedd ei melusder mwyaf. Yn ddiweddaf oll, dodir yr haidd hwn mewn odyn âg iddi lawr o deiliau (*tiles*) llawn o dyllau mân, fel y gallo'r gwres fyned drwyddynt i sychu'r grawn. Penderfynir lliw y brâg gan faint y gwres â'r hwn y sychir ef. Brâg goleuliw a ddefnyddir wrth ddarllaw y mathau gwanaf o gwrw, a brâg o liw tywyll a ddefnyddir i wneuthur y mathau cryfaf. Anfynych y mae neb yn bragu yn yr haf, gan fod tywydd poeth yn tueddu i beri i'r brâg lwydo. Y mae amryw gyfnewidiadau fferyllol yn cymmeryd lle pan y tröer haidd yn frâg, fel y gwelir wrth y ffigyrau canlynol:—

| | HAIDD. | BRAG. |
|---|---|---|
| Desythain (*Dextrine*) ... | ... 5 | ... 8 |
| Syth (*Starch*) ... ... | ... 67. | ... 58.5 |
| Sugr ... ... ... | ... 0.0 | ... 0.5 |
| Croeneg ... ... | ... 9.6 | ... 14.0 |
| Swynwy ... ... | ... 12.7 | ... 13.6 |
| Brasder ... ... | ... 2.6 | ... 2.2 |
| Lludw ... ... | ... 3.1 | ... 3.2 |
| | 100 | ... 100 |

Yn 1697 y gosodwyd y dreth ar frâg gyntaf yn Lloegr. Ei swm y pryd hwnw oedd 6¼c. y pwysel. Y mae hi er 1822 yn 2*s.* 7*c.* y pwysel (*bushel*).

Yn y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 1867, talwyd o dreth i'r llywodraeth yn y deyrnas hon ar frâg, 6,816,386*p.*; yn 1871, talwyd 6,978,370*p.*; yn 1873, talwyd 7,544,175*p.*; ac yn 1876, talwyd 7,887,699*p.*

BRAHE, TYCHO: serofydd enwog. Ganwyd ef yn Knudstorp, yn Denmarc, Rhag. 14eg, 1546. Anfonwyd ef, pan yn dair ar ddeg oed, i brif athrofa Copenhagen; ac yn mhen blwyddyn ar ol hyny, Awst 21ain, 1560, bu diffyg ar yr haul —yr hyn a fu yn achlysur i droi ei sylw at seryddiaeth. Yn 1562, anfonwyd ef i Leipsic i efrydu y gyfraith; ond treulio ei amser a wnaeth efe yno i astudio seryddiaeth, a threulio ei arian i brynu llyfrau ac offerynau priodol. Ac ar ol hyny, aeth o amgylch i weled prif arsyllfaoedd yr Almaen. Treuliai nosweithiau cyfain i sylwi ar y sêr. Yn 1572, canfu seren newydd o'r enw Cassiopeia; a bu i'r hyn a gyhoeddodd yn ei chylch dynu llawer o sylw. Barnai pobl y wlad hono, a'r oes hono, nad gweddaidd ydoedd i bendefig gyhoeddi dim; a chan fod Brahe o deulu pendefigaidd, chwanegodd bechu yn erbyn ei urdd trwy briodi merch o radd isel. Rhag i Denmarc golli yr anrhydedd o'i breswyliad, yn mhen rhyw gymmaint o amser wedi hyn, rhoddodd y brenin, Frederic II., ynys Huen yn feddiant iddo, ac adeiladodd arsyllfa iddo yno, yr hon a alwodd efe yn *Uranienberg*—dinas y nefoedd. Anrhegodd ef â rhoddion lawer, a chyfansoddodd, fel arwydd o'i barch ato, benillion iddo. Bu Brahe

Digitized by Google

yn llafurio yn ddyfal yn y lle hwn am ugain mlynedd; ond pan fu farw y brenin, darfu i'r pendefigion, gan faint eu rhagfarn a'u cenfigen, ddwyn yr arsyllfa oddi arno. Erbyn 1597, aeth yr erledigaeth a ddioddefodd mor boeth fel y gadawodd Denmarc. Yn 1598, gwahoddwyd ef gan yr ymherawdwr Rudolf II. i ddyfod, gyda'i holl offerynau, i Bohemia, gan gynnyg iddo dair mil o *dducats* (gwerth 2*p*. yr un o'n harian ni) fel cyfarwys (*pension*), ynghyd â'i ddewis o dri lle i breswylio ynddo. Dewisodd yntau Benatek, lle y cafodd Kepler i gydweithio âg ef. Yr oeddid ar fedr codi Uranienberg newydd i Tycho Brahe yn Benatek; ond cyn darfod gwneuthur hyny, bu farw yn Prague yn mis Hydref, 1601. Fel arsyllwr seryddol yr ymenwogodd Brahe yn fwyaf. Gwellhaodd lawer ar offer arsyllu—darganfu amrywiol hydredau y lleuad—dangosodd fod comedau yn rhyw bethau amgen na chyrph nwyfreol (*atmospheric*):—yn fyr, gwnaeth lawer er hyrwyddo darganfyddiad deddfau Kepler.

BREESE, JOHN: pregethwr enwog gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanbrynmair, Medi, 1789. Ychydig o fanylion helyntion boreu ei oes sydd yn hysbys; ond ymddengys iddo gael ei ddwyn i fyny gydag ewythr a modryb; y rhai a ymddygasant yn hynod garedig tuag ato: ond gan nad oeddynt ond isel eu hamgylchiadau, bu raid iddo ef droi allan pan yn bur ieuangc i wasanaethu gydag amaethwyr. Ni fwynhaodd, dybygid, nemawr o fanteision addysg pan yn ieuangc, ond yr hyn a gafodd yn yr Ysgol Sabbathol. Gwnaeth y defnydd goreu o'r moddion hyn. Pan yn un ar hugain oed, ymunodd â'r eglwys Annibynol yn Llanbrynmair, yr hon oedd y pryd hwnw o dan ofal y diweddar hybarch John Roberts. Ond ni bu yn aelod yn hir na chanfyddwyd ynddo gymmhwysderau i bregethu; ac annogwyd ef i ddechreu ar y gwaith. Cydsyniodd yntau, a phregethodd ei bregeth gyntaf yn Nol-gareg-wen. Cadarnhawyd y dyb a ffurfiwyd am ei gymmhwysderau i'r weinidogaeth; ac aeth am ychydig amser i ysgol ragbarotoawl yn yr Amwythig; ac wedi hyny derbyniwyd ef i'r athrofa yn Llanfyllin. Arosodd yno am dair blynedd; ac yn y cyfamser, llafuriodd yn galed—ac wrth ystyried ei anfanteision blaenorol gwnaeth gynnydd rhagorol mewn dysg. Yr oedd yn lled boblogaidd fel pregethwr cyn myned i'r athrofa; a thra yno cynnyddodd yn hyny; a disgwylid iddo fod yn un o bregethwyr penaf ei enwad. Cafodd alwad i fyned i lafurio fel gweinidog i eglwys Gymreig Edmund street, Liverpool; a thaer ddymunid ar iddo fyned flwyddyn cyn gorphen ei amser yn llawn yn yr athrofa. Cydsyniodd yntau â'r cais, a dechreuodd ar ei weinidogaeth yn mis Mehefin, 1817. Ni bu Mr. Breese ond am ychydig fisoedd yn Edmund st., gan fod capel y Tabernacl, Great Crosshall st., yn cael ei adeiladu. 'Urddwyd' y gweinidog, fel y dywedir, ac agorwyd y capel yr un pryd; sef, Hydref 2il, 1817. Nid oedd yr eglwys ond bechan—tua thrigain o nifer—pan y cymmerodd efe ei gofal; ond ymroddodd i lafurio o ddifrif gyda ffyddlondeb ac egni mawr. Rhaid fod ei lafur yn fawr wrth ystyried ei fod yn pregethu deirgwaith y Sabbath, ac unwaith yn yr wythnos ar nos Iau. Bu yn ffyddlawn iawn ar sefydliad yr achos Cymreig yn Manchester. Cerddodd lawer gwaith yn ol ac yn mlaen i bregethu i'r lle diweddaf; yr hyn oedd yn llafur corphorol dirfawr iddo. Nid oedd terfyn ar ei lafur. Ar ol dechreu achos Cymreig yn y pen deheuol i Liverpool, elai i bregethu yn rheolaidd yno ar bob tywydd ar nos Fawrth. Er ei fod yn meddu ar gyfansoddiad cadarn yn naturiol, y mae o'r bron yn sicr i'w lafur mawr effeithio i ammharu ei iechyd.

Yn gymmaint a bod baich mawr o ddyled ar y Tabernacl, er holl ymdrechion cyfeillion yr achos yn y lle; yn y fl. 1824, penderfynodd Mr. Breese fyned i Lundain i gasglu tuag ato. Arosodd yn y brif ddinas am dymmor maith—dim llai na blwyddyn a chwarter. Ond ymddengys nad rhyw lwyddiannus iawn a fu efe yno mewn casglu ar ol y cwbl, arosai yno gan ddisgwyl y deuai pethau yn well. Pregethai gyda derbyniad mawr yno i'r Cymry a'r Saeson. Yn y cyfamser yr oedd ei bulpud yn Liverpool yn cael ei lanw gan Mr. Evan Davies (*Eta Delta*), yr hwn oedd newydd adael yr athrofa; ond heb ymsefydlu fel gweinidog yn unman. Nid oedd iechyd Mr. Breese yn dda; a thua'r flwyddyn 1834, aeth ar daith drwy y Deheudir; ac yn mhlith manau eraill, pregethodd yn ystod y daith yn nghapel Heol Awst, Caerfyrddin. Yn mhen ychydig amser, derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwys hono, a symmudodd yntau yno o Liverpool yn nechreu y flwyddyn 1835. Fe dreuliodd saith mlynedd yno—a dyma flynyddoedd olaf ei einioes. Bu farw Awst 8fed, 1842, yn 52ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Heol Awst, a daeth tyrfa liosog i'w angladd, i amlygu eu parch iddo.

Fel hyn y mae y Parch. J. Thomas, Liverpool, yn disgrifio Mr. Breese fel pregethwr:—

"Yr oedd am yr amser y bu yn Liverpool wedi bod yn un o brif bregethwyr ei enwad, yn enwedig yn Ngogledd Cymru. Cyrchai tyrfaoedd mawrion ar ei ol i ba le bynag yr elai, ac nid ystyrid yr un gymmanfa yn llawn heb ei fod ef ynddi. Efe, a Mr. Williams o'r Wern, a ystyrid yn mhob ystyr yn golofnau y cymmanfaoedd yn yr adeg hono. Yr oedd gwahaniaeth mawr rhyngddo ef a Mr. Williams ar yr un pryd. Rhagoriaeth mawr yr efengylwr o'r Wern oedd ei allu nodedig i ddwyn pethau pell a dwfn i ymyl ei wrandawyr, a'u hegluro drwy ychydig eiriau syml, a chymmhariaethau adnabyddus, nes y byddai y gwanaf ei amgyffred yn eu deall. Ond yr oedd Mr. Breese yn cymmeryd pethau oddi wrthym, ac yn eu cipio i'r cymmylau uwch ein penau; ac oddi yno clywem ei sŵn, ond ychydig a ddeallem hyd yn agos i ddiwedd y bregeth, pryd y dechreuai y mellt rwygo y cymmylau, ac y deuai yntau atom gyda dwysder ac angerddoldeb cenad oddi wrth yr Arglwydd. Ond yr oedd ganddo ddylanwad grymus ar ei wrandawyr, a mynych y llwyr orchfygai hwy â'i hyawdledd. Dyn byr, crwn, gwynebgoch, o wneuthuriad cadarn ydoedd. Llais clir, cryf, clochaidd, cyffrous, yn hytrach na deniadol; a chlywid ef gan y gynnulleidfa fwyaf yn dyweyd y gair cyntaf. Siaradai yn gyflym a diball, gyda gwresogrwydd angerddol; ac nid siarad y byddai chwaith—ond areithio. Athrawiaethol oedd nodwedd gyffredin ei weinidogaeth, a'r athrawiaethau dyfnaf a mwyaf dyrus a fyddai dan ei sylw, ac ymdriniai â hwy mewn gwedd byngciol. Yr oedd ei arddull yn dywyll ac aneglur, ei iaith yn uchel ac ansathredig, ac felly yn annealladwy i'r lliaws; ond cordeddai ei eiriau cryfion a mawrion yn frawddegau hirion a chymmylog, nes llenwi ei wrandawyr a syndod ac aruthredd; ac yr oedd y tân oedd yn ei ysbryd, a'r gwresawgrwydd oedd yn ei draddodiad yn rhoddi bywyd yn y cwbl, ac yn peri iddo gario pob peth o'i flaen. Buasai iaith symlach, a llai o osodiadau, a mwy o egluriadau, yn gwneyd ei weinidogaeth yn fwy defnyddiol, gan y

Digitized by Google

buasai felly yn dyfod yn nes at ddealltwriaethau ei wrandawyr. Ond meistr y gynnulleidfa ydoedd ......Ystyriai llawer mai ei bregethau ymarferol bob amser oedd ei rai rhagoraf; a chlywsom lawer o'i hen wrandawyr yn dyweyd mai ei bregethau ar nos Iau bob amser fyddai y rhai goreu; a hyny yn sicr am eu bod yn fwy syml a dealladwy. Ond yr oedd ei weinidogaeth bob amser yn nodedig am ei hiachusrwydd. Dygai fêr a brasder yr efengyl ger bron ei wrandawyr. Iachawdwriaeth pechaduriaid colledig trwy aberth iawnol y groes oedd baich ei weinidogaeth; ac yr oedd, fel Paul, wedi ei lyngcu i fyny gan destyn mawr yr efengyl—"Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio."

BREWSTER, Syr DAVID: anianofydd tra enwog, yr hwn a anwyd yn Jedburgh, Rhagfyr 11eg, 1781. Derbyniodd ei addysg yn Mhrif Athrofa Edinburgh, lle yr enwogodd ei hun yn fawr. Yn 1808, ymgymmerodd â golygu yr "*Edinburgh Encyclopædia.*" A daeth y rhifyn cyntaf allan y flwyddyn hono, ond ni chyhoeddwyd y rhifyn olaf hyd y flwyddyn 1830, ac ysgrifenodd ei hun lawer o erthyglau pwysig iddo. Yn y fl. 1819, darfu iddo, mewn cyssylltiad â'r proffeswr Jameson, sefydlu yr "*Edinburgh Philosophical Journal;*" ac efe hefyd oedd un o brif sefydlwyr y Gymdeithas Wyddonol Brydeinig. Yn ei ymchwiliadau a'i ddarganfyddiadau ar faes tremyddiaeth (*the science of optics*) yr hynododd Brewster ei hun yn benaf. Efe oedd dyfeisydd yr offeryn athronyddol prydferth, a elwir y ceinwelyr (*kaleidoscope*). Cafodd Brewster ei anrhydeddu, mewn rhyw ffordd neu gilydd, gan amryw o athrofeydd, a chan y rhan fwyaf o sefydliadau a chymdeithasau gwyddonol Ewrop. Yn 1831, cafodd ei wneuthur yn farchog, a chafodd hefyd gyfarwys (*pension*) gyda hyny. Ei brif waith yw ei "*Life of Newton;*" ac yn mhlith ei weithiau eraill y mae "*Letters on Natural Magic,*" "*More Worlds than One,*" "*Martyrs of Science,*" a'i draethodau yn yr "*Encyclopædia Britannica,*" a'r "*Edinburgh*" a'r "*North British Reviews.*" Bu farw ar y 10fed o fis Chwefror, 1868, yn 87ain mlwydd oed. Yr oedd yn fwy o sylwedydd ac arbrofiedydd nag ydoedd o ddamcanydd, ac yr oedd ei holl ddarganfyddiadau yn ffrwyth arbrawfiadau cyflawn.

BRINDLEY, JAMES: peiriannydd y camlesydd (*canals*) a elwir y *Bridgewater* a'r *Grand Trunk.* Ganwyd y gŵr hwn yn Thernsett, ger Buxton, yn 1716. Tyfodd i fyny heb ddim addysg; ond dangosodd yn gynnar ei fod yn meddu ar allu hynod fel dyfeisiwr, ac yn gelfydd odiaeth. Tua'r flwyddyn 1758, ar gais y Duc o Bridgewater, ymgymmerodd â gwneuthur camlas o Worsley i Manchester, ac yn fuan ar ol hyny efe a yrodd y gamlas hon yn mlaen hyd yr afon Mersey. Yn 1766, dechreuwyd gwneuthur camlas o'r afon Trent i'r Mersey, dan arolygiaeth Brindley. Gelwir hwn weithiau yn gamlas y *Grand Trunk.* Cynlluniodd gamlas i gyssylltu y *Grand Trunk* â'r Hafren; ac efe hefyd a gynlluniodd gamlas Coventry, ac a arolygodd wneuthuriad camlas Rhydychain—y rhai sydd yn cyssylltu'r afon Tafwys a'r *Grand Trunk.* Bu farw yn Turnhurst, Medi 27ain, 1772. Dyn diddysg ac anghoeth ydoedd, ond o allu meddyliol cynhenid anghyffredin. Camlesydd oeddynt ddrychfeddyliau ei fywyd. Pan ofynwyd iddo pa beth y dyw defnydd afonydd mordwyol, ei atteb oedd "i borthi camlesydd."

BROUGHAM, Arglwydd HENRY. Ganwyd ef yn Edinburgh, yn mis Medi, 1778, ac yno hefyd y derbyniodd ei addysg. Bu yn teithio ar y Cyfandir am beth amser; ac wedi dychwelyd oddi yno, yn 1800, cafodd ei dderbyn i'r bâr Ysgotaidd. Yn 1802, cychwynwyd yr "*Edinburgh Review;*" ac yr oedd Brougham yn un o'r rhai fyddai yn ysgrifenu fwyaf iddo. Ar ol saith mlynedd o ddisgwyl difudd yn llysoedd barn Edinburgh, aeth i fyny i Lundain; ac yn 1808, derbyniwyd ef i'r bâr Seisnig. Yn 1810, etholwyd ef i gynnrychioli Camelford yn y senedd. Croesawyd ef gan arweinwyr y blaid Ryddfrydig fel cynnorthwywr galluog iddynt yn eu hymosodiadau ar y llywodraeth; ac yn mhen ychydig fisoedd ar ol myned i mewn, llwyddodd i gario ei fesur cyhoeddus cyntaf; sef, mesur i wneyd cyfranogiad yn y gaethfasnach yn lladrad. Yn 1812, cystadleuodd â Mr. Canning am gynnrychiolaeth Liverpool; ond gorchfygwyd ef, a bu heb eisteddle hyd y fl. 1816, pryd y dewiswyd ef i gynnrychioli Winchelsea, ac y daeth eilwaith yn aelod amlwg o'r weinyddiaeth. Yr oedd erbyn hyn wedi ennill iddo ei hun enw nid bychan fel dadleuydd hefyd, wrth amddiffyn personau a erlynid gan y goron am enllib. Ond wrth amddiffyn y frenhines Caroline y dangosodd ei fod yn feddiannol ar allu a hyawdledd anghyffredin. O herwydd ei wroldeb a'i ymroddiad i'w hamddiffyn ar yr achlysur hwn, collodd ffafr y goron, ond ennillodd ffafr y wlad; a rhwng y blynyddoedd 1820 ac 1830, efe oedd eilun y bobl. Condemniodd y Cynghrair Sanctaidd (*Holy Alliance*) yn 1823. Yn 1825, o dan ei arolygiaeth ef, cymmerwyd y camrau cyntaf tuag at sefydlu Prif Ysgol Llundain.

Etholwyd ef yn arglwydd reithor dros brif ysgol Glasgow Ebrill 4ydd, 1825; a dewiswyd ef yn gadeirydd y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Fuddiol yn 1827. Yn 1830, traddododd araeth rymus yn erbyn caethwasanaeth; ac mewn canlyniad iddi, dewiswyd ef yn aelod dros gynnrychiolaeth boblog swydd Gaerefrog ar y 5ed o Awst, yr un flwyddyn. Mynasai y Whigiaid mwyaf pendefigaidd ei daflu allan o'r Weinyddiaeth Ddiwygiadol pe y gallasent; ond heb law ei fod yn hynod o gymmeradwy gan y bobl, efe, mewn gwirionedd, oedd eu harweinydd yn Nhŷ y Cyffredin; ac am hyny, yr oedd efe yn anhebgorol i'r blaid. Ond er mwyn ei gael allan o Dŷ y Cyffredin, perswadiwyd ef gan rai o'r Whigiaid mwyaf urddasol, yn erbyn ei dueddiadau ei hunan, i symmud i Dŷ yr Arglwyddi, ac i dderbyn y swydd anrhydeddus o Arglwydd Ganghellydd, Tachwedd 22ain, 1830. Yn niwedd 1834, diswyddwyd y weinyddiaeth yr oedd efe yn aelod o honi gan William IV., ac ni bu efe mewn swydd ar ol hyny.

Fel diwygiwr y gyfraith y cofir Brougham oreu. Yn 1827, mewn araeth alluog, yr hon a gymmerodd chwe awr i'w thraddodi, galwodd sylw at ddiffygion yn mhob cangen yn mron o'r gyfraith Saesnig. Fel areithydd, ac yn enwedig fel dadleuydd seneddol, nid oedd Brougham yn ail i neb yn ei oes, ond i Canning. Yr oedd gwybodaeth Brougham yn llwyr a chyffredinol iawn. Gwnaeth ei oreu i bleidio achos addysg a rhyddid; ac efe, yn wir, oedd prif sylfaenydd Clwb y Gweithwyr a'r Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Fuddiol yn Edinburgh. Ysgrifenodd amryw lyfrau, y rhai a gyhoeddwyd gyda'u gilydd rhwng y blynyddoedd 1855 a 1860. Efe

Digitized by Google

fu farw yn y fl. 1868. Y goreu o honynt oll ydyw ei "*Sketches of the Statesmen of the time of George* III." Yr oedd ei arddull yn frysiog ac yn anghywir. Ni cynnyrchodd un gwaith y gellir ei ystyried yn gampwaith llenyddol.

BRUCE, JAMES: teithiwr enwog. Ganwyd ef yn Kinnaird House, yn swydd Stirling, Rhag. 14eg, 1730. Derbyniodd ei addysg yn ysgol Harrow, ac yn athrofa Edinburgh; ac ar ol bod am beth amser yn masnachu mewn gwin, pennodwyd ef yn gonsul cyffredinol yn Algiers. Ar ol dysgu ieithoedd y dwyrain, a meddygaeth, aeth ar daith trwy Asia Leiaf ac Abyssinia, i chwilio am darddiad yr afon Nilus. Cafodd allan darddiad y Nilus Lâs (*Blue Nile*) Bohr el Agrek, Tachwedd 14eg, 1770. Tybiai ei fod drwy hyn wedi cael allan y dirgelwch am darddiad y Nilus. Yna dychwelodd adref yn 1773. Yn 1790, cyhoeddodd hanes ei daith; a bu farw Ebrill 27ain, 1794.

BRUNEL, SYR MARC ISAMBARD. Ganwyd y gŵr hwn yn Hacqueville, yn Normandy, Ebrill 25ain. Llongwr ydoedd, o'r flwyddyn 1786 hyd 1793. Yn ystod y Chwyldroad yn Ffraingc, ymfudodd i'r America, a gorfodwyd ef gan amgylchiadau i ymgymmeryd â'r alwedigaeth o beiriannydd dinesig (*civil*). Yn Mawrth, 1799, daeth trosodd i Loegr, a chynnygiodd ei wasanaeth i'r llywodraeth. Mabwysiadwyd ei gynllun er gwneuthur blociau llongau gyda pheirianwaith, am yr hyn y derbyniodd, mewn symiau gwahanol, 17,663*p*. Ond y gwaith penaf a wnaeth oedd y tynel sydd o dan yr afon Tafwys, yr hwn a ddechreuwyd Mawrth 2il, 1825, ac a agorwyd yn Mawrth 25ain, 1843. Pennodwyd ef yn is-lywydd y Gymdeithas Freiniol, yn 1832, ac yn 1841 gwnaed ef yn farchog; a bu farw Rhagfyr 12fed, 1849, yn yr 81ain flwydd o'i oed.

BRUNEL, ISAMBARD KINGDOM, mab i'r diweddaf, ac un o beirianwyr penaf ei oes. Efe oedd cynllunydd y *Great Western*—yr agerlong gyntaf a adeiladwyd i groesi y Werydd, yr hon a orphenwyd yn y flwyddyn 1838; a'r *Great Britain*, yr agerlong gyntaf a wnaed gyda throell (*screw*). Yn ol ei gynllun, a than ei arolygiaeth ef yr adeiladwyd y *Great Eastern* hefyd—y llong fwyaf a wnaed erioed; yr hon a wthiwyd i'r dwfr, ar ol llawer o drafferth, Ionawr 31ain, 1858. Efe oedd cynllunydd yr holl dynelau, y pontydd, a'r fforbynt (*viaducts*) ar ffordd haiarn y *Great Western*. Yr oedd yn gymmrodor o amryw o'r cymdeithasau gwyddonol, ac yn Farchog yn Lleng Anrhydedd Ffraingc. Ganwyd ef Ebrill 9fed, 1806, a bu farw Medi 15fed, 1859.

BRUNO, GIORDANO. Athronydd Italaidd, ac un o'r meddylwyr cryfaf a mwyaf annibynol yn ei oes. Ganwyd ef yn Nola, tua'r fl. 1548. Ymunodd yn ieuangc â g urdd y Dominiciaid; ond gan na chydnabyddai rhai o athrawiaethau yr Eglwys Babaidd, bu raid iddo ffoi o'r fynachlog yr oedd ynddi. Yn 1580, aeth i Geneva: ond wrth weled nad oedd ei ammheugarwch (*scepticism*) ddim wrth fodd y Calviniaid, efe a symmudodd i Paris. Yn y darlithiau a draddododd yno ar athroniaeth, dadleuai yn erbyn athrawiaethau yr Aristoteliaid, nes gwneuthur llawer o'r proffeswyr a'r offeiriaid yn elynion iddo. Efe a dreuliodd y ddwy flynedd nesaf yn Lloegr—pryd y daeth i gydnabyddiaeth â Syr Philip Sidney, a gwŷr enwog eraill. Ar ol hyn bu yn teithio ac yn athrawiaethu ar y Cyfandir: ond yn 1598, carcharwyd ef yn Italy wrth orchymyn y Chwilys; ac yn mhen y ddwy flynedd, dygwyd ef allan i'w losgi—yr hyn a wnaed yn Vienna, Chwefror 17eg, 1600. Math o Ollduwiaeth oedd ei athrawiaeth ef. Daliai fod y bydysawd (*universe*) yn annherfynol, a bod pob byd a gynnwysir ynddo yn cael ei fywiocau gan enaid cyffredinol. Benthyciodd Spinosa rai o'i syniadau gan Bruno. Ysgrifenodd lawer o lyfrau yn yr iaith Ladin, ac yn yr iaith Italaidd.

BRUTUS, MARCUS JUNIUS. Ganwyd ef yn y flwyddyn 85 c.c. Ymddengys ei fod wedi treulio ei flynyddoedd ar ol dyfod i oedran gŵr yn hollol i ddilyn ymchwiliadau llenyddol, ac na chymmerodd efe un rhan yn yr ymrysonau gwladol oedd yn cynnhyrfu Rhufain nes iddo gyrhaedd i gryn oed. Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan rhwng Pompey a Cæsar, efe a bleidiodd Pompey; ond ar ol brwydr Pharsalia, ymostyngodd i Cæsar; ac yn y flwyddyn ganlynol, pennodwyd ef yn llywodraethwr Gaul Cassalpinaidd. Wedi dychwelyd i Rufain, ysgarodd oddi wrth ei wraig, mewn trefn i briodi Portia, merch Cato—egwyddorion gwleidyddol yr hwn y proffesai eu dilyn. Llwyddodd Cassius i'w ddarbwyllo i ymuno â'r bradwriaeth a derfynodd yn llofruddiaeth Cæsar. Ond gan fod ymdrechion Brutus i gadw ffafr y cyhoedd ar ol hyny wedi bod yn aneffeithiol i wrthweithio hyawdledd Anthony, bu raid iddo adael Rhufain yn gyntaf, a gadael Italy wedi hyny. Treuliwyd y gweddill o'i fywyd mewn rhan yn Asia Leiaf, ac mewn rhan fel arweinydd gallu ysbeilgar, yr hwn a gynnaliodd ei hun drwy ysbeilio trigolion glenydd dwyreiniol Môr Adria. Wedi cael ei orchfygu gan Anthony ac Octavianus (Augustus) yn mrwydr Philippi (42 c. c.), rhoddodd derfyn ar ei fywyd ei hun trwy syrthio ar ei gleddyf.

1. BUCCI: mab Abisua a thad Uzzi, a'r pummed o Aaron yn llinell yr archoffeiriaid: 1 *Cron.* vi. 5, 51. Pa un a ddarfu i Bucci erioed gyflawni y swydd o archoffeiriad, ai peidio, nid ydyw yr Ysgrythyr yn hysbysu. Y mae Epiphanius, yn ei restr o hynafiaid Iehoiadah (yr hwn, yn ol ei farn ef, oedd yn frawd i Elias y Thesbiad), yn gadael Bucci ac Abisua allan.

2. BUCCI: mab Jogli, penaeth o lwyth Dan: —un o'r deg o ddynion a ddewiswyd i ranu Gwlad Canaan rhwng y llwythau: *Num.* xxxiv. 22.

BUCCIAH: Lefiad Cohathaidd, mab Heman. Un o'r cerddorion yn y deml, ac arweinydd y chweched dosbarth yn y gwasanaeth: 1 *Cron.* xxv. 4, 13.

BUCHANAN, GEORGE: y bardd a'r hanesydd Ysgotaidd enwog. Ganwyd ef o rieni tlodion, yn swydd Stirling, yn nechreu y flwyddyn 1506, a chafodd ei addysgu yn St. Andrews, ac yn Paris. Ar ol ymdrechu yn erbyn tlodi am ddwy flynedd, cafodd ei bennodi yn athraw yn athrofa St. Barbe. Ar ol bod yno dair blynedd ymrwymodd i fyned yn athraw i'r arglwydd ieuangc Cassilis, yr hwn oedd yn byw ar y pryd yn y gymmydogaeth; ac yn mhen y pum mlynedd dychwelodd gydag Arglwydd Cassilis i'w



Digitized by Google

wlad ei hun, lle y pennodwyd ef yn athraw i James Stewart—un o blant ordderch Iago v. Cyn hir, taflwyd ef i garchar gan y cardinal Beaton, am ymosod ar yr offeiriaid mewn cerddi duchan Lladinaidd; ac er diangc o hono o'i garchar, ac o'i wlad, cyfarfyddodd âg erledigaeth o'r bron yn mhob man yr elai iddo. Bu, am rai blynyddoedd wedi hyny yn cyfranu addysg yn athrofeydd Bordeaux, Paris, a Coimbra. Yn y lle olaf hwn, cyhuddwyd ef o fod yn heretic, a chaethiwyd ef am hyny mewn cell yn y fynachlog; ac yno efe a ddechreuodd gyfieithu y Salmau i'r iaith Lladin ar fesur cerdd. Rhyddhawyd ef yn 1551; ac ar ol ymweled yn frysiog â Lloegr, a threulio rhai blynyddau yn Ffraingc, dychwelodd o'r diwedd i Ysgotland. Er ei fod yn Brotestant, cafodd groesaw nid bychan gan y llys; ac yn mhen ennyd, fe'i pennodwyd yn athraw clasurol i'r frenhines ieuangc Mari; ac yn 1570, pennodwyd ef yn un o athrawon ei mab bychan, Iago vi. Gwnaed ef cyn hir yn arglwydd y gyfrin-sêl; yr hon oedd yn swydd ennillfawr, ac anrhydeddus, ac yn rhoddi hawl hefyd iddo i eistedd yn y senedd. Yn yr iaith Lladin yr ysgrifenodd Buchanan ei weithiau. Bu farw yn Edinburgh, yn y fl. 1582. Efe oedd yr ysgolhaig mwyaf a gynnyrchodd Ysgotland erioed. Nid oes un ysgrifenydd diweddar wedi rhagori arno mewn meistrolaeth ar yr iaith Lladin. Y mae ei aralleiriad Lladinaidd o Lyfr y Salmau yn gampwaith tra gorchestol.

BUCER, MARTIN: un o'r diwygwyr eglwysig enwocaf yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ei enw cynhenid ydoedd Martin Kuhorn. Ganwyd ef yn Schelestadt, yn 1491. Ymunodd âg urdd y Dominiciaid; ond yn 1521, dychwelwyd ef at y grefydd ddiwygiedig. Ymsefydlodd yn Strasburg—yr hon oedd yn ddyledus i'w lafur fel bugail a phroffeswr duwinyddiaeth am ugain mlynedd am sefydliad y diwygiad yno. Cymmerodd ran arbenig mewn cynnadleddau, gan obeithio cymmodi Luther a Zuinglius; ond efe a wrthododd danysgrifio "*Interim*" enwog Siarl v. yn nghymmanfa Augsburg. Yn 1548, galwyd ef gan Cranmer, gyda Fagius, i Loegr; a bu am ddwy flynedd yn cyflawni y swydd o broffeswr duwinyddiaeth yn Nghaergrawnt. Ystyrid ef yn enwog am ei dduwioldeb, ei ddysgeidiaeth, a'i ddoethineb, ac yn enwedig am ei wybodaeth o'r Ysgrythyrau. Y mae ei ysgrifeniadau yn lliosog iawn. Bu farw yn Nghaergrawnt yn 1551, a chafodd gladdedigaeth anrhydeddus. Yn mhen pum mlynedd ar ol ei gladdedigaeth, yn nheyrnasiad y frenhines Mari, mynodd y cardinal Pole godi ei gorph ef a chorph Fagius o'r bedd, a llosgwyd hwynt, a'u llyfrau, yn gyhoeddus. Ond yn fuan ar ol esgyniad y frenhines Elizabeth, diddymwyd y ddedfryd anwaraidd a chywilyddus hon, a chafodd y byd fantais i'w hadnabod yn eu cymmeriadau disglaer a gogoneddus eu hunain.

BUFFON, GEORGE LOUIS LE CLERC, Comte: un o naturiaethwyr ac ysgrifenwyr enwocaf y ddeunawfed ganrif. Ganwyd ef yn Montbard, yn Burgundy, Medi 7fed, 1707. Astudiodd y gyfraith yn ngholeg yr Iesuitiaid yn Dijon; ond dangosodd duedd mor gref at seryddiaeth a rhifyddiaeth, fel y goddefodd ei dad iddo ddilyn ei dueddiad ei hun. Yn Dijon, daeth yn gydnabyddus âg Arglwydd Kingston, athraw yr hwn, gan ei fod yn ddyn o ddysgeidiaeth a chwaeth, a gyfarwyddodd Buffon i astudio y gwyddorau. Teithiodd gydag Arglwydd Kingston a'i athraw trwy Ffraingc ac Italy; a daeth i Loegr, lle y darfu iddo, er gwellhau ei wybodaeth o'r iaith Saesnig, gyfieithu "*Fluxions*" Newton, a "*Vegetable Statics*" Hales. Yn y fl. 1733, ysgrifenodd amryw o draethodau gwreiddiol, y rhai a dynasant sylw neillduol yn yr athrofa, o'r hon yr oedd efe wedi ei wneyd yn aelod. Derbyniodd ei gariad cyffredinol at y gwyddonau symbyliad nerthol tuag at filofyddiaeth trwy ei bennodiad, yn 1739, yn arolygwr yr ardd a'r amgueddfa frenhinol. O hyny allan, treuliodd y gweddill o'i oes i astudio ei hoff bwngc, a chyfansoddi y gwaith mawr ar yr hwn y mae ei enwogrwydd yn gorphwys. Creodd ei "*Hanesiaeth Naturiol*" gyfnod newydd yn astudiaeth y gwyddonau naturiol. Yr argraphiad a ystyrir rhagoraf, o ran y darluniau, yw y cyntaf a gyhoeddwyd yn Paris rhwng 1749 a 1804; ond nid yw yn awr yn meddu un gwerth gwyddonol. Cyfieithwyd ef i'r rhan fwyaf o ieithoedd Ewrop, a chafodd ei argraphu lawer o weithiau. Bu farw yn Paris, ar y 15fed o Ebrill, 1788, yn 81ain oed. Yn yr ysbaid a elwir yn Deyrnasiad Dychryn yn Ffraingc, codwyd ei weddillion o'r bedd, a dinystriwyd ei gofadail. Trengodd ei fab, hefyd, trwy gael tori ei ben—am ei fod yn un o bleidwyr y Duc o Orleans.

1. BUNNI: un o'r Lefiaid yn amser Nehemiah: *pen.* ix. 4. Yr un person, fe allai, ag a grybwyllir yn *pen.* x. 15.

2. BUNNI: Lefiad arall, ond yn oesi o flaen yr un blaenorol: *Neh.* xi. 15.

3. BUNNI: enw Iuddewaidd Nicodemus, fel y tybir.

BUNSEN, CHRISTIAN KARL JOSIAS, Barwn: un o wleidyddion ac ysgolheigion enwocaf Germany. Ganwyd ef Awst 25ain, 1791, yn Korbach, yn nhywysogaeth Waldeck, ac astudiodd eiryddiaeth yn Gottingen, o 1809 hyd 1813, dan Heyne. Yr oedd efe wedi ei bennodi yn athraw yn Athrofa Gottingen yn 1811, ond rhoddodd ei swydd i fyny yn 1813; ac yna ymroddodd i astudio y Germanaeg. Mewn trefn i gael chwaneg o fanteision i gynnyddu mewn gwybodaeth o honi, aeth i Holland, ac wedi hyny i Copenhagen, lle y dysgodd iaith Iceland. Yr oedd gweithiau hanesiol Niebühr, a'i gymmeriad fel gwleidyddwr, wedi llenwi Bunsen â brwdfrydedd; a threuliodd rai o fisoedd 1815 yn Berlin, mewn trefn i ddyfod yn gydnabyddus yn bersonol â'r hanesydd. Yn 1816, aeth i Paris, ac astudiodd y Bersiaeg a'r Arabaeg dan Sylvestre de Sacy: ac yn yr un flwyddyn aeth i Rufain, lle y priododd yn y flwyddyn ganlynol Miss Waddington, merch i Mr. B. Waddington, o Lanofer, sir Fynwy. Teimlodd Niebühr, yr hwn oedd yno ar y pryd yn llysgenhadwr dros Prwssia, y dyddordeb mwyaf yn ymchwiliadau gwyddonol Bunsen; ac yn 1818, llwyddodd i gael ei bennodi fel ysgrifenydd i'r llysgenhadaeth. Dylanwadodd preswyliad brenin Prwssia, Frederic Willliam iii., yn Rhufain, yn 1822, yn fawr ar ei yrfa ddilynol. Yn ystod ymddiddan, yn yr hwn yr oedd Bunsen wedi anghyttuno â'r brenin, gofynodd yr olaf pa beth oedd ei olygiadau ar gwestiwn o Ffurfwasanaeth a Llyfr Hymnau Prwssia, yr hwn oedd y pryd hwnw yn cynnyrchu cynnhwrf nid bychan. Er fod ei olygiadau yn wahanol iawn i'r hyn yr oedd y

Digitized by Google

brenin wedi eu clywed, efe a'u cymmeradwyodd; a chydag amlygiad o barch personol, erfyniodd ar Bunsen i barhau yn ngwasanaeth y llywodraeth. Ar ymadawiad Niebuhr o Rufain yn 1824, dygodd Bunsen y llysgenhadaeth yn mlaen dros amser; ac yna yn 1827, pennodwyd ef yn weinidog trigiannol yno. Gan ei fod yn byw mewn cyfeillach agos â Niebuhr, yr oedd Bunsen wedi defnyddio ei amser i chwilio yn ddyfnach i athroniaeth iaith a chrefydd; ac wedi gwneyd athroniaeth Plato a chyfansoddiadau hynafiaeth ar un llaw, a'r Beibl a hanesiaeth eglwysig a ffurfwasanaeth crefyddol, yn wrthddrychau ei sylw arbenig ar y llaw arall. Er nad oedd hyny o fewn cynllun mawr ei fywyd, efe a ysgrifenodd ranau helaeth o'r gwaith a elwir "Disgrifiad o Rufain." Ffurfiodd ymweliad cyntaf Champollion â Rhufain gyfnod newydd yn hanesiaeth hynafiaethol Rhufain. Yr oedd efe yn un o'r gwrandawyr mwyaf selog ar Champollion, a chefnogodd Lepsius hefyd i astudio arwyddluniau. Cafodd y Sefydliad Hynafiaethol, a sefydlwyd yn 1829, yn Bunsen gefnogwr gwresog. Pan y sylfaenodd efe y clafdy Protestanaidd ar graig Tarpeia yn 1835, adeiladodd hefyd yn agos i'w dŷ ei hun addoldy i'r sefydliad, a llafuriodd yn egnïol o blaid Protestaniaeth.

Yn 1841, anfonwyd ef ar genhadaeth arbenig i Lundain, i ddwyn ymdrafodaeth yn mlaen gyda golwg ar sefydlu esgobaeth Saesnig-Brwssiaidd yn Ierusalem; ac yn fuan ar ol hyny pennodwyd ef yn llysgenhadwr i'r llys Prydeinig. Ar yr achlysur o'i ymweliad â Berlin yn 1844, deallir fod ei gyfeillion wedi gofyn iddo ysgrifenu ei olygiadau ar y cwestiwn o ganiatau cyfansoddiad i Prwssia; ac o ganlyniad cyflwynodd gyfres o gofebau yn gosod allan yr angenrheidrwydd am ymgyfarfyddiad cynnadledd; ac hefyd, gwnaeth gynllun cyflawn o gyfansoddiad, tebyg i gyfansoddiad Lloegr. Yn achos Schleswig-Holstein, amddiffynodd Bunsen y golygiad Germanaidd yn gryf, yn erbyn Denmarc, a gwrthdystiodd yn erbyn Protocol Llundain, 1850. Ond yn nghanol ei holl ddyledswyddau politicaidd, parhaodd i ddilyn ei ymchwiliadau llenyddol ac athronyddol gyda diwydrwydd mawr. Gan nad oedd ei olygiadau ar y rhan y dylai Prwssia ei chymmeryd yn y cwestiwn Dwyreiniol yn unol â golygiadau ei lys, peidiodd yn 1854, a chynnrychioli Prwssia yn llys Prydain, ac ymneillduodd i Heidelberg.

Saif Bunsen yn uchel iawn yn marn pobl y wlad hon. Ni ddangosodd un tramoriad erioed fwy o barch i'n nodweddion cenhedlaethol, na chariad cryfach at ein rhyddid cymdeithasol a pholiticaidd. Rhaid cydnabod hefyd ei fod wedi gwneyd gwasanaeth mawr i achos Cristionogaeth oleuedig; canys, tra yn Lloegr, ystyrid ef gan y rhai a'i hadwaenent oreu yn un o'r rhai mwyaf athronyddol a'r mwyaf parchus o dduwinyddion. Yn mhlith ei brif weithiau, y mae "*Eglwys y Dyfodol;*" a "*Hippolytus a'r Oes;*" "*Cristionogaeth a Dynolryw—eu dechreuad a'u rhagolygon;*" a "*Lle yr Aipht yn Hanesiaeth y Byd.*" Y gwaith a deitlir "*Duw mewn Hanesiaeth,*" a olygir gan rai fel yn cynnwys ei feddyliau mwyaf addfed. Bu farw yn Bonn, ar yr 28ain o Dachwedd, 1860, yn 69ain mlwydd oed.

BURCKHARDT, JOHANN LUDWIG: y teithiwr enwog, yr hwn a anwyd yn Lausanne, yn Switzerland, o ddeutu y fl. 1784. Derbyniodd ei addysg yn Leipzic ac yn Göttingen. Daeth drosodd i Brydain yn 1806. Yna cynnygiodd ei wasanaeth i bwyllgor y Gymdeithas Affricanaidd, a derbyniwyd ef yn 1808. Cymmhwysodd ei hun at wasanaeth mawr ei oes trwy astudio yr iaith Arabaidd, fferylliaeth, seryddiaeth, physigwriaeth, a llawfeddygiaeth. Yn Ionawr, 1809, cafodd gyfarwyddiadau gan y pwyllgor i fyned i Syria, i ymberffeithio yn yr Arabaeg; ac oddi yno drwy Cairo i Fezzan, ac i groesi oddi yno drachefn ar draws anialwch mawr Sahara i Soudan. Wedi aros yn Syria am ddwy flynedd a hanner, aeth drwy Palestina, a'r wlad o'r tu dwyreiniol i'r Môr Marw, a thros anialwch Suez i Cairo. Ond gan nad oedd yn gyfleus iddo gychwyn i'w daith fawr, aeth i Nubia. Nid oedd un teithiwr Ewropaidd wedi myned heibio y Derr o'r blaen. Yn 1814, teithiodd trwy anialwch Nubia i lan y Môr Coch ac i Ieddah; ac aeth oddi yno i Mecca, i astudio Mahometaniaeth yn ei ffynnonell. Wedi aros am bedwar mis yn Mecca, aeth ar bererindod i Fynydd Ararat. Yn 1815, dychwelodd i Cairo, ac esgynodd i Fynydd Sinai. Yr oedd y fintai oedd yn myned i Fezzan, am yr hyn y disgwyliodd efe mor hir, o'r diwedd yn barod i gychwyn; ac yr oedd yntau wedi gwneuthur ei barotoadau i fyned gyda'r fintai hono, pan yr ymosodwyd arno gan y gwaedlif—o'r hwn y bu farw yn Cairo, Hydref 15fed, 1817, yn 33ain mlwydd oed.

Gadawodd ei gasgliad o lawysgrifau, y rhai oeddynt yn rhifo tri chant a hanner o gyfrolau, i brifysgol Caergrawnt. Cyhoeddwyd hanes ei deithiau, sydd yn nodedig am eu dyddordeb a'u cywirdeb, gan y Gymdeithas Affricanaidd. Ganwyd Burckhardt i fod yn deithiwr ac yn ddarganfyddwr. Yr oedd ganddo hoffder cynhenid at fywyd anturiaethus, a gallu i sylwi o'r radd flaenaf. Yr oedd ei gymmeriad personol hefyd yn gyfryw ag a'i cymmeradwyai i bawb y deuai i gyffyrddiad â hwynt; a theimlwyd galar mawr o herwydd ei farwolaeth, pan mor ieuangc, nid yn unig yn Mhrydain, ond drwy holl Ewrop. Yr oedd ei weithiau yn cynnwys teithiau yn Nubia, Syria, Palestina, ac Arabia; sylwadau ar y Bedwiniaid a'r Wahabiaid, ac ar foesau ac arferion yr Aiphtiaid.

BURKE, EDMUND: athronydd, areithydd, a gwladweinydd enwog iawn. Ganwyd ef yn Dublin, Ionawr 1af, 1729. Yr oedd ei dad yn gyfreithiwr llwyddiannus. Pan nad oedd ond ieuangc, dangosodd Burke y teithi hyny yn ei feddwl a ymddadblygasant mor ragorol pan y cyrhaeddodd ei nerth. Addysgwyd ef yn ysgol Abraham Shackleton, un o'r Crynwyr, yn Baltimore, ger Carlow; ac yn 1746, aeth i Goleg y Drindod, yn Dublin. Ymddengys mai prif destynau ei efrydiau oeddynt, barddoniaeth, areithyddiaeth, hanesyddiaeth, ac arddansoddiaeth. Graddiodd yn B.A. yn 1748; ac yn 1751, cymmerodd ei radd o M.A. Yna aeth i Lundain, gyda'r amcan o astudio y gyfraith fel galwedigaeth; ond yn gymmaint ag nad oedd ynddo duedd gref at y gwaith, rhoddodd y bwriad o fod yn ddadleuydd i fyny. Ymddengys iddo dreulio ei amser, o 1750 hyd 1756, yn teithio trwy Loegr, yn mwynhau cymdeithas dynion dysgedig, yn efrydu, ac yn ysgrifenu i amryw o gyfrolau. Y gwaith pwysig cyntaf a gyhoeddodd efe oedd ei "*Vindication of National Society,*" yr hwn a ysgrifenwyd mewn efelychiad o, ac yn watwareg

Digitized by Google

ar arddull Arglwydd Bolingbroke; ac yn hwn y mae efe hefyd yn gwrthwynebu syniadau Bolingbroke. Yn ddienw y cyhoeddwyd y gwaith hwn yn 1756, pan oedd yr awdwr yn 26ain oed, a thynodd sylw mawr. Yn y flwyddyn 1759 hefyd y dechreuodd yr "*Annual Register.*" Yn y fl. 1756, ymddangosodd ei draethawd gorchestol ar y "*Sublime and Beautiful.*" Aeth y traethawd hwn yn boblogaidd yn ddioed; ac yr oedd gwŷr enwocaf y dydd yn awyddus am ffurfio cydnabyddiaeth â'r awdwr. Yn mhlith ei gyfeillion yr oedd Garrick, Reynolds, Soame Jenyns, Arglwydd Lyttelton, Warburton, Hume, a Dr. Johnson. Yna bu am dair blynedd yn ysgrifenu i'r cyfnodolion; a rhoddai gymmaint o amser ag a allai hebgor ar yr un pryd at achosion gwleidyddol. Priodolir yn gyffredin y gwaith ar yr "*European Settlements in America,*" a ddaeth allan yn 1757, i'w awduriaeth ef, a'i gefnder, William Burke; ac y mae y gwaith hwn yn dangos mor fanwl yr oedd efe wedi astudio sefyllfa y trefedigaethau Prydeinig. Yn 1761, pennododd W. G. Hamilton, oedd ar y pryd yn ysgrifenydd dros yr Iwerddon, ef yn ysgrifenydd preifat iddo ei hun, a dychwelodd yntau i Dublin. Yn ystod y ddwy flynedd y bu yn gweinyddu y swydd hon, dangosodd ei fedrusrwydd yn ymwneyd â gwasanaeth y wladwriaeth, a derbyniodd yn wobr am ei waith flwydd-dâl o 300*p.*; ond ni chafodd ei fwynhau yn hir.

Dychwelodd i Lundain yn 1764, gyda Reynolds, a sylfaenodd y clwb llenyddol; hanes yr hwn sydd yn dal cyssylltiad âg enwau y rhan fwyaf o lenyddion y cyfnod hwnw. Ond ni ddarfu i gymdeithas y llenorion dynu ei feddwl oddi wrth ei benderfyniad i ymroddi i fywyd gwleidyddol. Pennodwyd ef yn ysgrifenydd i'r Ardalydd Rockingham, y prif weinidog, Gorphenaf 17eg, 1765; ac ar y 14eg o Ionawr, 1766, etholwyd ef yn aelod seneddol am y tro cyntaf dros Wendover. Nid hir y bu efe yn Nhŷ y Cyffredin heb ennill iddo ei hun, drwy ei hyawdledd, y cymmeriad o fod y 'dyn blaenaf' yn mysg aelodau y tŷ hwnw. Ychydig fisoedd, pa fodd bynag, y parhaodd gweinyddiaeth Rockingham. Byddai dilyn gyrfa ddyfodol Burke yn ymestyn dros fwy nag y goddef terfynau ein herthygl. Ond gellir dyweyd fod ei fywyd seneddol wedi parhau o 1766 hyd 1794, pryd yr ymneillduodd o honi ar farwolaeth ei unig fab. Bu yn cynnrychioli yn olynol Wendover, Bristol, a Malton; a daliodd ddwywaith y swydd o ben talawdwr y fyddin (*paymaster of the forces*), sef o dan Rockingham a North. Yr oedd hefyd yn aelod o'r cyfringynghor; ac ar ol gyrfa nodedig o lafurus, ymroddgar, a disglaer, efe a ymneillduodd o'r swydd, ar ol gwasanaethu ei wlad am wyth ar hugain o flynyddoedd, pryd y derbyniodd ddiolchgarwch Tŷ y Cyffredin am y gwasanaeth cyhoeddus mawr a gyflawnwyd ganddo; a gwobrwywyd ef gan y llywodraeth, ar ddymuniad y penadur, gyda blwydd-daliadau a gyrhaeddent yn y cwbl i'r swm o 3,700*p.* Dylid crybwyll, pa fodd bynag, ei fod yn ymwrthod yn fanwl â derbyn rhoddfaelion (*perquisites*) ynglŷn â'i swydd; a thrwy hyn, rhoddodd esampl na roddid yn gyffredin gan ddynion cyhoeddus y cyfnod hwnw.

Ei waith yn amddiffyn hawliau gwladol y Pabyddion, ac yn cefnogi masnach yr Iwerddon, a barodd iddo gael ei ystyried y cyntaf i sefyll dros annibyniaeth y cynnrychiolwyr seneddol. Dadleuai nad peiriannau oedd aelodau y Tŷ i bleidleisio dros fesurau a gymmeradwyid gan eu hetholwyr, am y rheswm hwnw yn unig; ond dynion a meddylwyr, yn ystyried pethau yn bwyllgor, ac yn deddfu er lles y wladwriaeth. Parodd hyn anghydwelediad rhyngddo a'i etholwyr yn Bristol. Rhaid crybwyll hefyd iddo wneyd mwy o wasanaeth i achos dynoliaeth yn ystod ei yrfa wleidyddol nag un dyn yn ei oes. Efe a rag-arloesodd y ffordd i ddiddymiad y gaethfasnach—mesur a addfedodd ac a lwyddodd wedi hyny yn nwylaw y dyngarwr Wilberforce. Dadleuai dros achos dyngarwch yn India yn erbyn gwangc y rhai oedd â'u prif amcan i ymgyfoethogi ar draul y wlad hono. Dadleuai dros wladlywiaeth gyfiawn a heddychol tuag at y trefedigaethau Americanaidd; yr hyn, pe y cawsai ei fabwysiadu, a arbedasai ddychrynfeydd rhyfel annibyniaeth yr Unol Daleithiau, ac a gadwasai y trefedigaethau, fe allai, mewn cydfod parhaus â'r wlad hon—o leiaf, am amser yn hwy. Ac er cefnogi pob achos a gymmerai mewn llaw i ddadleu drosto, yr oedd ganddo ddigon o amynedd i wneyd yr ymchwiliad mwyaf trwyadl iddo, a hyawdledd hefyd na bu ei gyffelyb erioed o'r bron.

Dylid sylwi yn fyr ar ei lafur llenyddol mewn cyssylltiad â'i weithgarwch gwleidyddol. Nis gallwn yma ond yn unig enwi ei weithiau, gan adael heb eu henwi amryw lythyrau a ysgrifenodd efe ar sefyllfa yr Iwerddon. Dylid enwi ei "*Observations on a pamphlet on the present state of the Nation,*" yr hwn oedd ei bamphledyn gwleidyddol cyntaf, ac a gyhoeddwyd yn 1769, mewn attebiad i un arall—a briodolir gan rai i Fox, a chan eraill i Grenville. Yn 1770, cyhoeddodd bamphled arall, "*On the Cause of Present Discontents.*" Ar y 13eg o Chwefror, 1788, y dechreuodd efe ei araeth enwog wrth agor prawf Warren Hastings, cyn-lywodraethwr cyffredinol India:—y prawf hynotaf, fe allai, yn holl hanes y byd. Parhaodd yr araeth hon am bedwar diwrnod; a dywedir mai un ystorm ydoedd o "duchaniaeth finiog a hyawdledd" drwyddi oll o'r bron. Nis gellir braidd ffurfio un dychymyg am yr effaith a gynnyrchodd. Ymestynodd y prawf dros saith mlynedd o amser, a therfynodd drachefn gydag araeth arall dra ysblenydd gan Burke. Parhaodd yr araeth hon am naw niwrnod. A dywedir ei bod mor alluog yn mhob ystyr, ac yn cario y fath ddylanwad, fel yr oedd Warren Hastings ei hun yn addef drachefn ei fod braidd yn meddwl ar y pryd fod yn rhaid ei fod yn euog o'r cyhuddiad a roddid yn ei erbyn—er y gwyddai, pan heb fod dan ddylanwad Burke, nad oedd hyny yn bod. Rhyddhawyd Hastings er y cwbl. [Gwel WARREN HASTINGS]. Tra yr oedd y prawf yn myned yn mlaen, yr oedd Burke yn cael amser i dalu sylw i achosion eraill hefyd. Yn Tachwedd, 1790, yr ymddangosodd ei "*Reflections on the Revolution in France*"—gwaith a ledaenwyd wrth y degau o filoedd; a dywedir iddo gynnyrchu effeithiau na chynnyrchwyd eu cyffelyb gan unrhyw draethawd arall ar wleidyddiaeth cyn nac ar ol hyny. Yr oedd yr awdwr yn cael ei folianu a'i anrhydeddu yn gyffredinol ar ol hyn. Yn Mai, 1791, gadawodd ei hen gyfeillion, Fox a'r Whigiaid, o herwydd ei fod yn anghydweled â hwynt ar gwestiwn Ffraingc. Cynnygiodd i sylw y llywodraeth ei "*Thoughts on French Affairs;*" ond ni chyhoeddwyd hwy hyd ar ol ei farwolaeth. "*Heads for Consider-*

Digitized by Google

ation," &c., a'i "*Reply to a Noble Lord*" a ddilynodd yn nesaf. Y mae ei waith olaf, "*Thoughts on a Regicide Peace*," yn dangos fod ei holl alluoedd yn parhau yn loew hyd y diwedd. Bu farw Gorphenaf 9fed, 1797, yn yr 68ain flwydd o'i oedran. Y mae ei weithiau wedi eu cyhoeddi mewn amryw ffurfiau.

Ychydig o ddynion a ganmolwyd yn fwy na Burke; ac, ar y cyfan, ychydig a deilyngent ganmoliaeth uwch. Yr oedd efe yn ddyn o feddwl mawrfrydig, ac o fywyd diargyhoedd; ac wedi ei ddonio yn helaeth â deall cryf, dychymyg bywiog, gallu rhyfeddol i dalu sylw i bob peth, a diwydrwydd a dyfal-barhâd di-ildio. Nid oedd un pwngc nas gallai efe ei feistroli; ac ar ol ei feistroli, nid oedd un pwngc nas gallai ymdrin âg ef yn yr iaith fwyaf gyfoethog. Yr oedd disgleirdeb ei areithyddiaeth yn cynnyrchu syndod ac edmygedd yn mhawb a wrandawai arno—yn fwy, fe allai, nag yn perswadio drwy ei thôn a'i hymresymiad. Yr oedd yn ddyn o deimladau cryfion, a thuedd anhyblyg; ac o blegid hyny, nid oedd yn ymbleidiwr gwleidyddol hawdd ei drin. Y canlyniad o hyn oedd iddo, i raddau pell, dori ei gyssylltiadau gwleidyddol â'i blaid, a gweithredu yn hytrach ar ei ben ei hun am y tair blynedd diweddaf o'i oes. Ac hyd yn oed ar yr adeg hon, ni ddylid anghofio ei fod yn meddu dylanwad mawr yn nghynghorau y wladwriaeth.

Yn amryw o'i olygiadau ar wleidyddiaeth yr oedd yn mhell o flaen ei oes; ac ystyrid amryw o'i ragwelediadau o'r llwybr a gymmerai amgylchiadau yn debyg i brophwydoliaethau. Fel areithydd, saif yn y rhestr flaenaf yn yr amseroedd diweddar; ac fel awdwr, o ran goludoedd ei iaith, ffrwythlonrwydd ei ddychymmyg, ac ystorfa ddiderfyn ei wybodaeth, rhaid cydnabod nad oes ond ychydig yn gyfartal iddo—a llawer llai, os oes rhywun, yn rhagori arno. Yr oedd efe yn meddu ffydd diffuant yn y grefydd Gristionogol, ac yr oedd ei feddwl mawr wedi ei foldio a'i ddyrchafu gan ei dylanwad pur a goruchel. Gwerthfawrogai amser yn fawr. Dywedai yn aml, "Nid oes genyf amser i segura." Ni wnaeth hyny; ac nid oes ysmotyn ar ei enw da. Er ei fod ef yn ddiammheuol yn un o wladweinyddion ac areithwyr penaf y byd, y mae yn ddyledus i'w goffadwriaeth i ni ddweyd hefyd fod ei ostyngeiddrwydd yn fwy nodedig ac amlwg na'i athrylith. Gwrthododd yr anrhydedd o gael ei gladdu yn y fan lle y cleddir mawrion a blaenion y genedl; sef, yn Mynachlog Westminster. Y mae yn ei wahardd hyd yn oed yn ei ewyllys olaf; gan roddi fel rheswm dros hyny ei fod yn ei fywyd wedi byw yn nghanol "gormod o sŵn ac edmygedd." Ar ddynesiad angeu, ymostyngodd gydag ymroddiad tawel a Christionogol, gan obeithio, fel y dywedai, dderbyn trugaredd trwy iawn ac eiriolaeth y Gwaredwr bendigedig—yr hwn, i ddefnyddio ei eiriau ef ei hun, y bu yn "ymofyn yn ostyngedig am dano dros amser maith; ac at yr hwn yr oedd efe yn edrych mewn gobaith crynedig." Y mae yr adran gyntaf o'i gymmunrodd yn gosod allan yn darawiadol ei olygiadau pwyllog, a'i deimladau dyfnaf ar y pwngc mawr:—"Yn ol yr hen arfer dda," meddai, "yr hon y mae fy nghalon a'm deall yn ei chymmeradwyo, yr wyf yn gorchymyn fy enaid i Dduw, gan obeithio am ei drugaredd ef drwy deilyngdod ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist. Yr wyf yn dymuno i'm corph gael ei gladdu yn eglwys Beaconsfield, ger llaw cyrph fy anwylaf frawd, a'm hanwylaf fab, gan weddïo gyda'r gostyngeiddrwydd dyfnaf, fel y buom byw yn nghyd mewn undeb perffaith, y cawn ynghyd ran yn adgyfodiad y rhai cyfiawn."

**BURKITT, WILLIAM**: duwinydd ac esboniwr rhagorol. Ganwyd ef yn Hitcham, yn Suffolk, Gorphenaf 25ain, 1650. Yr oedd pan yn blentyn yn meddu côf anarferol o gryf. Tra yn y coleg yn Nghaergrawnt, cafodd gystudd trwm; ac yn y cystudd hwnw y dychwelwyd ef at yr Arglwydd. Symmudodd o'r coleg yn gaplan i Bilston Hall, yn Suffolk. Ordeiniwyd ef gan yr esgob Reynolds pan oedd yn lled ieuangc, ac ymsefydlodd yn beriglor yn Milden, lle yr arosodd am un mlynedd ar hugain. Yn 1692, symmudodd i Dedham, yn Essex; a bu yno am un mlynedd ar ddeg. Tarawyd ef yn drwm gan dwymyn, a bu farw yn 1703, yn 53ain mlwydd oed.

Yr oedd Burkitt yn weinidog ymroddgar a ffyddlawn. Pregethai yn eglur a syml. Gyda bod materion ei bregethau yn rhagorol, yr oedd swyn a phereidd-dra yn nodedig yn ei lais; yr hyn a'i gwnai yn dra derbyniol fel pregethwr. Yn ei afiechyd diweddaf, teimlai yn hynod o ddedwydd. Ysgrifenodd esboniad ymarferol da ar y Testament Newydd, yr hwn sydd wedi ei gyhoeddi yn yr iaith Gymraeg; ac yn ei afiechyd diweddaf, diolchai i'r Arglwydd am gael byw i orphen y gwaith.

**BURNET, GILBERT**: esgob Salisbury, hanesydd y Diwygiad. Ganwyd ef yn Edinburgh, 1643. Ar ol derbyn cyfran o'i addysg gartref, anfonwyd ef i goleg Aberdeen. Yn 1663, talodd ymweliad â Chaergrawnt, Rhydychain, a Llundain, a chyfarfu â llawer o brif dduwinyddion Lloegr. Yn y flwyddyn ganlynol, bu yn astudio Hebraeg, dan addysg rabbi enwog yn Amsterdam. Yn 1665, cafodd fywoliaeth Saltoun, lle yr arosodd am bedair blynedd; ac yn 1669, pennodwyd ef yn athraw duwinyddol yn mhrifysgol Glasgow. Ymddiswyddodd, pa fodd bynag, yn 1674, ac ymsefydlodd yn Llundain, lle y pennodwyd ef yn bregethwr yn nghapel y Rolls. Yn 1676, cyhoeddodd ei "*Memoirs of the Duke of Hamilton;*" ac yn 1679, y gyfrol gyntaf o'i "*History of the Reformation;*" a'r ail yn 1681. Cynnygiwyd iddo esgobaeth Chichester; ond gwrthododd hi. O'r braidd y diangodd heb gael ei gyhuddo o fod a fyno â bradgynllwyn y Rye House yn 1683. Gofalodd am amddiffyniad i'w gyfaill Argl. William Russell. Aeth gydag ef i'r dienyddle, ac amddiffynodd ei goffadwriaeth. Amlygodd y brenin ei gasineb tuag at Burnet drwy ei amddifadu o'r swydd o ddarlithiwr yn St. Clements. Ar esgyniad Iago II. aeth Burnet i'r Cyfandir, ac yno y cyfarfu â'r Tywysog o Orange. Pan y daeth William drosodd i'r wlad hon, yr oedd Burnet gydag ef yn y swydd o gaplan brenhinol; ac yn fuan wedi hyny, pennodwyd ef yn esgob Salisbury. Ymaflodd yn selog yn nyledswyddau ei swydd; ond parodd ei lythyr bugeiliol cyntaf, yn yr hwn yr honai hawl William III. i'r orsedd trwy orchfygiad, y fath dramgwydd i'r ddau dŷ o senedd fel y gorchymynwyd ei losgi gan y dienyddwr cyffredin. Ymddiriedai William ynddo, fodd bynag, hyd ddiwedd ei oes. Yn 1699 yr ymddangosodd ei esboniad enwog ar y Namyn un Deugain Erthygl,

Digitized by Google

yr hwn a gondemniwyd fel llyfr anuniongred gan Dŷ yr Arglwyddi. Yn 1715, daeth allan ei drydedd gyfrol o'r "*History of the Reformation.*" Bu farw ar yr 17eg o Fawrth, 1715, yn 72ain mlwydd oed.

Heb law y gweithiau a enwyd, ysgrifenodd Burnet draethawd "*On the Pastoral Care,*" bywgraphiadau o Syr Matthew Hale, ac Esgob Bedell, a'i "*History of his own Times,*" ynghyd âg amryw bregethau a thraethodau ar byngciau dadleuol.

Bu Burnet yn briod deirgwaith; a dywedir fod ei "wraig gyntaf yn nodedig am ei phrydferthwch; yr ail, am ei gwaddol; a'r drydedd am ei duwioldeb."

BURNS, ROBERT: bardd cenedlaethol yr Alban. Ganwyd ef yn 1759, mewn tyddyn bychan yn agos i Ayr. Cafodd gystal addysg ag y gallodd ei rieni ei roddi iddo; er nad oedd hyny, yn wir, yn llawer. Ychydig cyn marw ei dad, cymmerodd Robert Burns a'i frawd dyddyn; ond ni bu yr anturiaeth yn llwyddiannus. Pan yr oedd efe tua 27ain oed, ganwyd iddo ddau efell, o Jean Armour. Gorfodwyd ef gan yr awdurdodau i ymrwymo i dalu tuag at eu cynnal; canys yr oedd rhieni y ferch ieuangc mor ddigofus fel na fynent, er gwaethaf yr hyn a ddigwyddasai, oddef i'r ddeuddyn ieuaingc briodi, ac i'w plant hwy gael eu gwneyd yn etifeddion cyfreithlawn. Penderfynodd yntau, gan hyny, ymadael â gwlad ei enedigaeth, a myned i Jamaica; ond cyn cychwyn, cyhoeddodd gasgliad o'i ganeuon, yn gystal er mwyn cael arian i dalu ei longlôg, ag er mwyn gwneyd iddo ei hun enw. Yr oedd wedi canu yn iach i'w gyfeillion, ac yr oedd ei gist ar y ffordd i Greenock pan y darfu i lythyr a dderbyniodd oddi wrth Dr. Blacklock, o Edinburgh, beri iddo newid ei gynllun. Dywedid wrtho yn y llythyr fod ei ganeuon yn cael eu mawr gymmeradwyo yn Edinburgh, a gwahoddodd ef i ddyfod yno i ddwyn argraphiad newydd o honynt allan:—a hyny a wnaeth. Cafodd groesaw mawr yn y dref hono, hyd yn oed gan y dosbarthiadau mwyaf dysgedig a phendefigaidd. Galluogwyd ef gan yr arian a gafodd am yr ail argraphiad o'i ganeuon, i brynu fferm ger llaw Dumfries; ac yr oedd erbyn hyn wedi priodi Jean Armour. Pennodwyd ef ar ol hyny yn gyllidydd (*exciseman*), a rhoddodd heibio drin tir. Ymollyngodd o hyny allan i foddloni ei chwantau, nes y dinystriwyd ei iechyd a'i amgylchiadau. Bu farw Gorphenaf 21ain, 1796, yn 37ain oed; a chafodd gladdedigaeth anrhydeddus.

Erioed ni chyfansoddwyd barddoniaeth mwy cyfaddas i sicrhau cymmeradwyaeth gyffredinol na'r eiddo Burns. Ychydig o arddunedd ac o ddarfelydd sydd ynddi; ond y mae yn mron heb ei chyffelyb mewn gwreiddioldeb, teimlad, a naturioldeb. Er fod yn y caneuon lawer o ammhuredd, fel yn yr awdwr; etto, nid oes ynddynt ddim y gellir ei alw yn ddichwaeth ac yn isel.

1. BUZ (*dirmygedig*): ail fab i Milcah a Nachor, a brawd i Huz: *Gen.* xxii. 21. Gelwir Elihu yn *Buziad* o genedl Ram; *h. y.*, Aram. Gan hyny, y mae yn debygol mai un o hiliogaeth Buz oedd Elihu; teulu yr hwn, fel yr ymddengys, a ymsefydlodd yn Arabia Ddiffaith neu Garegog, gan fod Ieremiah (xxv. 23) wrth gyhoeddi barnau Duw yn eu herbyn, yn eu crybwyll gyda Thema a Dedan.

2. BUZ: enw yn digwydd yn rhestr achau llwyth Gad: 1 *Cron.* v. 14.

BWRDEISDREF (*bwrdeis—tref*): tref fwrdeisiol, tref freiniol, tref gorphoredig; bwrdeisiaeth; corphoraeth. Ymddengys mai ystyr gwreiddiol y gair hwn, drwy yr hwn yr ydym ni yn dynodi tref gorphoredig, oedd bryn, ucheldir, neu bentwr o bridd; ac y mae yn debygol mai oddi wrth y sefyllfaoedd uchel ar ba rai yr adeiledid amddiffynfeydd, y daeth wedi hyny i arwyddo caerfa neu gastell; ac yn ddiweddaf, casgliad o dai, ac eglwysydd, ac adeiladau eraill, y rhai, mewn amseroedd ansefydlog a arferent ymgasglu dan furiau castell—ynghyd â'u trigolion, a'r trefniadau a wnaed er eu llywodraethu.

Bwrdeisdref, yn yr amser gynt, oedd cwmni o ddeg o deuluoedd yn byw gyda'u gilydd. Y mae yr enw yn awr yn cael ei gymmhwyso at y cyfryw drefydd ag sydd yn anfon aelodau i'r senedd, er pan yr etholwyd bwrdeisiaid yn nheyrnasiad Harri III., 1265.

Y mae y cwestiynau, i bwy yr ydym yn ddyledus am ein corphoriaethau bwrdeisiol?—pa un ai i ddylanwadau Rhufeinaidd, ynte i ddylanwadau Sacsonaidd a Theutonaidd eraill, neu i'r naill a'r llall? ac os i'r ddau, yna i ba raddau y mae pob un wedi cyfranu at eu ffurfiad?—wedi eu dadleu yn fanwl gan ysgrifenwyr ar sefydliadau y wlad hon. Ar yr ochr Rufeinaidd, Syr Francis Palgrave ydyw y gwron mwyaf penderfynol; ond ymddengys i ni mai Mr. Allen ydyw y doethaf. Cefnogir yr ochr Teutonaidd gan y rhan fwyaf o ysgolheigion Anglo-Sacsonaidd Lloegr, a chan ysgrifenwyr Germanaidd yn gyffredinol. Ond o ba ffynnonell bynag y tarddasant, addefir yn gyffredinol fod bwrdeisdrefi Lloegr yn hanfodi—nid fel casgliad o dai yn unig, ond fel cyrph corphoredig, yn amser y Sacsoniaid. Y mae cyfundrefn fwrdeisiol Ysgotland hefyd yn hen iawn. Yr oedd *Hanse*, neu gynghrair o fwrdeisdrefi er amddiffyn eu gilydd a diogelu masnach, mewn bod yn Ysgotland, ac yn adnabyddus wrth yr enw hwn yn nheyrnasiad Dafydd I.—o ddeutu can mlynedd cyn ffurfiad y Cynghrair Hanseataidd, yr hwn a ffurfiwyd gan nifer o drefydd porthladdol yn Germany i gefnogi y naill y llall yn erbyn morladron. Ac o ddeutu yr un amser y gwnaed cyfreithiau bwrdeisiol enwog Ysgotland, y rhai oeddynt yn ffrwyth protiad trefydd Lloegr a Chymru.

Llywodraethir bwrdeisdref yn gyffredin gan gynghor trefol—yn cynnwys maer, a nifer pennodol o aelodau, y rhai a renir yn ddau ddosbarth, sef cynghorwyr (*councillors*) a henuriaid (*aldermen*). Dewisir y cyntaf gan y trethdalwyr, a'r olaf. ynghyd â'r maer, gan aelodau y cynghor. Etholir aelodau y cynghor trefol ar y dydd cyntaf o Dachwedd yn mhob blwyddyn, a'r maer ar y nawfed o'r un mis. Y mae gan y cynghor trefol awdurdod helaeth o fewn ei derfynau. Dan ei ofal ef y mae holl reolaeth achosion y lle, a gall osod trethi at ddwyn yn mlaen welliantau, a thalu costau rheolaeth y fwrdeisdref. Ond y mae rhai bwrdeisdrefi heb gynghorau trefol. Crewyd ynadon bwrdeisiol gyntaf yn amser Siarl I. Dan Gyfraith Corphoriaethau Bwrdeisiol, 5 a 6 William IV. p. 76, yr oedd yr ynadon hyn yn gynnwysedig o'r maer yn ystod blwyddyn ei swydd, ac am un flwyddyn wedi iddi derfynu; y *recorder*, yn rhinwedd ei swydd; a'r cyfryw bersonau ag a

Digitized by Google

bennodwyd gan y goron. Nis gall neb gyflawni eu dyledswyddau yn eu lle; a chyn gweithredu, rhaid iddynt wneuthur y dadganiad, &c., arferol yn ol y gyfraith. Y mae yn angenrheidiol hefyd i holl aelodau y cynghor trefol yr un modd wneuthur y dadganiad arferol ar eu derbyniad hwythau i swydd.

Cariwyd y gyfraith a elwir "*The Act for the Registration of Municipal Corporations,*" drwy y senedd Tach. 9, 1835. Rhifedi trigolion dinasoedd, bwrdeisdrefi, a dosbarthiadau bwrdeisiol Prydain a'r Iwerddon yn 1871 oedd 12,991,763. Rhifedi yr etholwyr yn y bwrdeisdrefi uchod yn 1876—77, oeddynt fel y canlyn:—yn Lloegr, 1,447,834; yn Nghymru, 66,882; yn Ysgotland, 202,852; ac yn yr Iwerddon, 53,953:—y cyfan yn 1,771,528. Y mae y cyfrifon hyn yn dangos cynnydd o 34,362 o etholwyr o fewn y flwyddyn, wrth eu cymmharu â'r flwyddyn o'r blaen. Ac y mae y nifer uchod yn anfon 360 o aelodau i'r senedd.

BYRON, GEORGE GORDON, ARGLWYDD: bardd Saesneg enwog, a anwyd yn Heol Holles, Llundain, Ionawr 22ain, 1788. Unig fab ydoedd i Cadben John Byron, o'r gwarchodlu, a Catherine Gordon, o Gight—etifeddes yn swydd Aberdeen. Nid oedd Cadben John Byron a'i wraig yn cydfyw yn ddedwydd. Diflanodd heddwch teuluaidd yn yr ymdrechfa rhwng eu tymmerau aflywodraethus. Dilynai y gŵr fuchedd anfoesol iawn; ac yn fuan, gwastraffodd gyfoeth ei wraig mewn gloddest, cyfeddach, a hapchwareuon. Wedi ei gwahanu oddi wrth ei gŵr, ymneillduodd y foneddiges i ddinas Aberdeen, gyda'i bachgen bach cloff; ac nid oedd ei holl gyllid yr amser yma ond tua 130*p.* yn y flwyddyn. Pan yr oedd yn un mlwydd ar ddeg oed, dilynodd Byron i deitl ei ewythr, William Lord Byron; ac yn ddioed, gadawodd y fam a'r mab y gogledd am Newstead Abbey, hen balas y teulu; yr hwn sydd yn sefyll ychydig filldiroedd o bellder oddi wrth Nottingham, yn nosbarth rhamantus Coedwig Sherwood. Wedi cael meddiant o'r teitl, gosodwyd Byron mewn ysgol breifat yn Dulwich; ac wedi hyny, anfonwyd ef i Ysgol Harrow. Y peth mwyaf nodedig yn nghylch blynyddoedd boreuol Byron oedd ei ymlyniad wrth enwau personau. Fel yn mron pob aelod o'r llwyth barddol, yr oedd yn hynod o hoff o'r enw *Mary*. Pan oedd yn wyth mlwydd oed, yn swydd Aberdeen, efe a syrthiodd mewn cariad â Mary Duff. Ei eilun nesaf oedd Margaret Parker, ei gyfnither—yr hon a fu farw yn gynnar. Modd bynag, at foneddiges o'r enw Mary Chaworth y teimlai y serch cryfaf. Cyfarfyddodd â'r foneddiges hon gyntaf pan ar ymweliad â Newstead, yn 1803, pan nad oedd ond pymtheng mlwydd oed. Yr oedd tad Miss Chaworth wedi ei ladd mewn ymladdfa âg Arglwydd Byron, hen ewythr y bardd; a disgwyliwyd y buasai y briodas yn iachau yr elyniaeth deuluaidd, ac yn uno yr etifeddiaethau cyfoethog. Ond nid felly yr oedd i fod. Yr oedd Miss Chaworth yn hynach o ddwy flynedd na Byron; ac yr oedd yn amlwg ei bod yn teimlo yn falch o'r cariad cryf a ddangosai bachgen cloff Harrow tuag ati. Ond y flwyddyn nesaf, digwyddodd yr ymweliad ymadawol a ddisgrifir yn "*The Dream.*" Yn 1805, efe a symmudodd i Goleg y Drindod, Caergrawnt; ac yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, argraphwyd ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth, a elwir "*Hours of Idleness,*" yn Newark. Nid oedd y caniadau a gynnwysid ynddi yn hollol amddifad o deilyngdod; ond gallasai unrhyw fachgen wedi cael addysg dda eu cyfansoddi. Ymosodwyd yn llym ar y gyfrol gan Arglwydd (y pryd hwnw Mr.) Brougham yn yr "*Edinburgh Review;*" ond yn lle ei ddigaloni, cryfhaodd ei wawdiaith lem y ddawn farddonol yn meddwl Byron. Ac ysgrifenodd y gogangerdd, "*English Bards and Scotch Reviewers*" mewn attebiad i'r erthygl yn yr "*Edinburgh.*" Yn nghanol dadwrdd y ganmoliaeth a ymgododd yn ddioed, fe ymneillduodd Byron o Loegr: ymwelodd â glenydd Môr y Canoldir, ac ymdeithiodd yn Nhwrci a Groeg. Ar ei ddychweliad yn 1812, cyhoeddodd y ddwy gân gyntaf yn "*Childe Harold,*" gyda chlod mawr; a rhestrwyd ef ar unwaith yn mhlith beirdd mawrion ei wlad. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, cyfansoddodd "*The Giaour,*" "*The Bride of Abydos,*" "*The Corsair,*" a "*Lara.*" Tra yr oedd yn cyfansoddi y darnau ysblenydd hyn, yr oedd efe yn byw yn holl loddest a rhysedd y brifddinas. Yn ei ymdrech i ddianc rhag y dull hwn o fyw, priododd Miss Milbanke, merch Syr Ralph Milbanke, barwnig, yr hwn a breswyliai yn swydd Durham. Profodd yr undeb hwn yn un hynod o anhapus. Ni pharhaodd ond blwyddyn yn unig; ac yn ystod y tymmor byr hwnw, daeth anhawsderau arianol, anghyttundeb, a'r holl drueni cysylltiedig â phriodas annoeth, i ddylanwadu ar eu heddwch a'u cysur. Ar ol genedigaeth ei phlentyn Ada, ymneillduodd yr Arglwyddes Byron i dŷ ei thad; a chynnyrchodd y digwyddiad hwn, o herwydd enwogrwydd un o'r pleidiau, cryn gyffro yn nghylchoedd uchaf cymdeithas. Daeth Byron ar ol hyn yn wrthddrych pob math o athrod. Er mai efe oedd y bardd mwyaf poblogaidd, daeth am dymmor y dyn mwyaf ammhoblogaidd yn y wlad. Yn un o'i lythyrau, a ysgrifenwyd o Italy rai blynyddoedd yn ddiweddarach, gan gyfeirio at yr athrod a ledaenid ar y pryd, y mae yn ysgrifenu fel hyn:—"Cyhuddid fi o bob drygioni gan adroddiadau cyhoeddus a gelyniaeth bersonol. Anurddwyd fy enw, yr hwn oedd wedi bod yn un ardderchog er pan gynnorthwyodd fy nhadau i orchfygu y deyrnas i William o Normandy. Yr oeddwn yn teimlo, os oedd yr hyn a sibrydid, a hustyngid, ac a ddywedid dan ddannedd, yn wirionedd, fy mod yn anghymmhwys i Loegr: ac os nad ydoedd yn wirionedd, yr oedd Lloegr yn anghymmhwys i mi. Ymadewais oddi yno." Rhoddodd ei ysgariaeth oddi wrth ei wraig, a'i ymadawiad o Loegr, symbyliad cryf yn athrylith Byron. Yr oedd elfen newydd o allu wedi ymweithio i mewn i'w brydyddiaeth, a gall y darllenydd ei theimlo wrth ddarllen y drydedd gân yn "*Childe Harold.*" Cynnhyrfodd trueni a digofaint ef i weithgarwch nodedig. Cynnyrchodd arosiad o chwe mis yn Geneva y drydedd gân yn "*Childe Harold,*" ar "*The Prisoner of Chillon.*" Ysgrifenwyd "*Manfred,*" a "*The Lament of Tasso,*" yn 1817. Y flwyddyn nesaf, yr oedd efe yn Venice, a gorphenodd "*Childe Harold*" yno; ac yn y ffraethlym "*Beppo,*" gwnaeth brawf yn y maes newydd, yn yr hwn yr oedd efe ar ol hyny i gyfansoddi gyda'r fath lwyddiant. Yn ystod y tair blynedd nesaf, efe a gyfansoddodd y pum cân gyntaf o "*Don Juan,*" a nifer o chwareyddiaethau o deilyngdod amrywiol. Yn 1822, symmudodd i Pisa, a gweithiodd yno ar "*Don Juan;*" yr hon gân, gyda'r eithriad o "*The Vision of Judgment,*" a

Digitized by Google

gymmerodd ei holl amser yn mron hyd derfyn ei oes.

Yn foesol, yr oedd ei fywyd yn Italy yn anfoddhaol, a llygrwyd ei athrylith gan ei rysedd. Yn niwedd ei yrfa, ymwelwyd âg ef gan ysbrydoliaeth newydd. Yn yr haf, yn 1823, moriodd i Groeg, i gynnorthwyo, gyda'i ddylanwad a'i arian, yn ymdrechfa y Groegiaid am annibyniaeth. Cyrhaeddodd i Missolonghi, Ionawr 4ydd, 1824. Ond yno, ni chafodd ddim ond annhrefn, a phenaethiaid ymrysongar: er hyny, mewn tri mis, efe a lwyddodd i adferu rhyw fath o drefn o'r cymmysgedd terfysglyd. Ar y 9fed o Ebrill, goddiweddwyd ef gan gawod pan ar gefn ei geffyl—a dilynodd y dwymyn a'r cryd cymmalau. Cyn ei farw, suddodd i sefyllfa o gysgadrwydd; a chlywodd y rhai oeddynt ger llaw ef yn sisial ynghylch ei wraig, ei chwaer, a'i blentyn. Ar ol pedair awr a deugain o ddideimladrwydd, efe a drengodd ar y 19eg o Ebrill, 1824. Cludwyd ei gorph i Loegr; a chan i'r awdurdodau wrthod caniatau iddo gael ei gladdu yn Westminster Abbey, dodwyd ef i orphwys yn meddrod y teulu yn eglwys pentref Hucknall, ger Newstead. Yr argraphiad goreu o'i weithiau ydyw yr eiddo Murray.

BYWYD—EG. Y mae y gair hwn yn cael ei ddefnyddio yn bresennol mewn gwyddoniaeth, i gyffredinoli a chrynhoi prif egwyddorion y canghenau gwyddonol hyny ag sydd yn ymwneyd â'r ymddangosiadau a'r gweithrediadau perthynol i fater bywydol.

Yn yr ystyr eang hwn, y mae y gair yn cymmeryd i mewn y gwyddonau meddyliol; megys, Meddyl-draith a Chymdeithasyddiaeth. Ond yn gyffredin, cyfyngir ef yn fwy arbenig at yr ymchwiliadau a wneir i briodoliaethau mater byw, yn wrthgyferbyniol i fater anfywydol. Mewn erthygl fer, nis gallwn ond rhoddi crynodeb talfyredig o'r hyn y mae ymchwilwyr diweddar wedi dyfod hyd ato gyda golwg ar y cwestiwn hwn. Priodoliaethau gwahaniaethol mater byw ydynt—

1. Ei fod yn gyfansoddedig, yn fferyllol, o gyfuniad o'r elfenau, ulyf (*carbon*), ufelai (*oxygen*), ulai (*hydrogen*), a blorai (*nitrogen*)—yr hyn a elwir cyntain (*proteine*), wedi ei gyfuno â dwfr, ac yn ffurfio y prif gyfansoddydd—yr hyn a elwir yn gyn-ddefnydd (*protoplasm*).

2. Ei fod yn wastad yn cael ei ddadgyfansoddi a'i dreulio trwy gyfuniad ac ulai (*oxygen*); ac ar yr un pryd yn cael ei adgyfansoddi trwy ddodiad i mewn o ronynau mater newydd rhwng yr hen rai. Canlyniad y treuliad ydyw cynnyrchu *carbonic acid gas*, tra y mae y mater newydd yn tarddu, naill ai o gynddefnydd wedi ei ffurfio gan ryw sylwedd byw arall, neu o'r cyfryw wedi ei adeiladu a'i gynnyrchu o'r newydd gan y sylwedd ei hun. Pan fyddo y treuliad a'r adgyfansoddiad yn mantoli eu gilydd, y mae maintioli y sylwedd yn aros yr un; ond pan fyddo yr ail yn gryfach ac yn gyflymach na'r cyntaf, y mae yn tyfu.

3. Y mae mater byw yn myned trwy gylch pennodol o gyfnewidiadau, o ran maintioli, ffurf, a gweithrediadau—ar ol cyflawni pa rai y mae yr unigolyn yn marw; ond diogelir parhâd y rhywogaeth trwy ymwahaniad parhaus, rhanau y rhai a dueddant ac a alluogir i fyned drwy yr un cylch o gyfnewidiadau a'r cyfanswm y tarddasant o hono.

Yn chwanegol at y nodweddion hanfodol a gwahaniaethol hyn, y mae yn angenrheidiol i ni chwanegu presennoldeb graddau pennodol o leithder a gwres, fel ammodau angenrheidiol i gynnaliaeth a dadblygiad sylweddau byw. Y mae yr elfen ddwfr yn myned i mewn yn helaeth i gyfansoddiad y cyfryw; ac y mae ei dygiad ymaith, i raddau helaeth, trwy unrhyw foddion, o angenrheidrwydd yn attal gweithgarwch bywydol, a'i llwyr wahaniad yn ddinystr i fywyd. Ond gall y ffurfiau isaf o greaduriaid byw oddef eu sychu i raddau helaeth, ac am amser lled faith (am fisoedd neu flynyddoedd), ac etto heb i'r egwyddor o fywyd ddiflanu—yr hon hefyd a ymadfywia ar ol i'r elfen ddyfrol gael ei hadfer i'r creadur. Y mae yr un sylwadau yn gymmhwysadwy gyda golwg ar wres hefyd. Y mae y terfynau o leithder a gwres, dros ba rai y mae bywyd yn diflanu, yn amrywio yn fawr yn ol natur y sylweddau a'r amgylchiadau, ac yn enwedig eu sychder. Y mae hi yn ffaith dra sicr, fod sychder yn gynnorthwyol iddynt ddal llawer chwaneg o wres neu oerfel. Y mae arbrawfiadau Culme a Kohn, ynghyd â'r eiddo Dr. Roberts, o Fanchester, yn dangos hefyd fod cymmhwyso oerfel llai nag sydd yn angenrheidiol i ddinystrio bywyd am amser meithach yn cael yr un effaith a chymmhwyso oerfel digonol i ddinystrio bywyd mewn amser byr. A llefaru yn gyffredinol, ond nid yn ddieithriad, gellir dywedyd fod y llysiau o'r gradd iselaf yn colli eu bywyd pan yn agored i wres o 60° Centigrade, neu 140° Fahrenheit. Yn ol yr ymchwiliadau goreu a diweddaraf, golygir mai yr achos o attaliad bywyd, ac o'i ddinystr, ydyw ceuliad y sylwedd, cyn-ddefnydd yr hwn sydd yn cynnwys defnyddiau o'i fewn tueddol i geulo, pan gyrhaeddont raddau pennodol, ond amrywiol, o wres neu oerfel. Y mae sylweddau bywydol yn wahanol i rai heb fywyd—yn feddiannol ar gyfluniad; hyny yw, y maent yn adeilwaith rheolaidd—cydrywiol. Y mae cydrywiaeth a bywyd yn canlyn eu gilydd; ac y mae yn amlwg mai nid cyfansoddiad sydd yn cynnyrchu bywyd—ond i'r gwrthwyneb, bywyd cyfansoddiad; gan fod ffurfiau o fywyd yn bod heb gyfansoddiad ac aelodau; megys er enghraifft, yr *Amœbæ* yn y dosbarth cynfywydol (*Protozoa*), y rhai nid oes iddynt unrhyw gyfansoddiad neu ffurf neillduol, ond yn unig a gynnyrchir ar y pryd gan y bywyd cyssylltiedig â'r defnydd llysnafeddol a feddant. Rhaid addef yr un pryd nad oes enghraifft o fater byw wedi ei gael heb fod adeilwaith dyrus o ronynau yn perthyn iddo. Gellir edrych ar sylweddau byw, fel y sylwa Huxley, mewn pedair o agweddau amrywiol; sef,

I. O ran eu ffurf allanol a'u hadeilwaith mewnol. Dyma faes priodol yr hyn a elwir yn ffurfyddiaeth (*morphology*) gyda golwg ar lysiau ac anifeiliaid. Yma y daw i mewn ddifyniaeth rhanau gweledig â'r llygaid noeth (*anatomy*), a rhanau gweledig yn unig trwy y chŵyddwydr (*histology*). Trwy ymchwiliadau y diweddaf, darganfyddwyd fod gwneuthuriad holl ranau llysiau ac anifeiliaid y byd yn gyfansoddedig yn y pen draw o fân gelloedd neu godenau wedi eu cyfansoddi o gyn-ddefnydd weithiau, â chroen cyfansoddedig o'r hyn a elwir yn *cellulose*, weithiau heb ddim o'r cyfryw. "I'r holl fyd o fywyd," medd Huxley, "yr unawd cyntefig ydyw y gell;" ac nid ydyw y creaduriaid mwyaf cyfansawdd a chelfydd ond cydgasgliad o'r cyfryw. Hefyd, yn ol ansawdd bresennol ein gwybodaeth, y mae pob cell yn darddedig o un

Digitized by Google

arall oedd yn bod o'r blaen. "*Omnis cellula 'e cellula*:"—Pob cell sydd yn tarddu o gell. Etto, y mae pob cell, yn ystod ei dadblygiad, yn myned rhagddi, o gyflwr yn yr hwn y mae hi yn debyg i bob cell arall, trwy ddilyniad o wahaniaethau, i gyflwr yn yr hwn y mae hi yn arddangos nodweddion gwahaniaethol gwneuthuriad, a chyfansoddiad neillduol a pherthynol iddi ei hun. Mewn gair, y mae yn ei dadblygiad yn myned rhagddi o'r cyffredinol i'r neillduol. Y mae hyn etto yn wir am gorph a sylwedd, yn gystal ag am y gronyn lleiaf. Yn gyffredinol, gan hyny, gellir dywedyd fod y ffurf, yn yr hwn y mae y creaduriaid byw annhebycaf i'w gilydd, a phellaf oddi wrth eu gilydd, yn gymmhwys yr un. Dyma wir ystyr dywediad Harvey, "*Omne vivum ex vivo*:"—Pob byw sydd o'r ŵy. Y mae dadblygiad yn golygu gwahaniaethiad parhaus rhanau tebyg i rai mwy annhebyg.

II. O ran eu cyflead ar y ddaear, ac mewn amser. Y mae ymchwiliadau i hyn yn perthyn i ddaeareg a daearyddiaeth, ac hefyd fel y maent yn cael eu cyfuno yn bresennol o dan y penawd *physiography*.

III. O ran y galluoedd sydd yn gweithredu arno i'w gyfnewid, a pheri iddo effeithio arno gan wrthddrychau allanol. Dyma briodol faes anianyddiaeth lysieuol ac anifeilaidd.

IV. Achosyddiaeth. Ymofynir yn naturiol pa rai ydyw yr achosion o'r ffeithiau perthynol i fywyd yn y llysiau a'r anifeiliaid; neu, mewn geiriau eraill, Pa beth a wyddom am darddiad bywyd a dechreuad rhywogaethau?

Y golygiad cyffredinol ar hyn yn yr oesoedd boreuol, ac i lawr hyd ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, oedd, fod creaduriaid byw yn tarddu trwy genhedliad o ryw fath neu gilydd o greaduriaid byw cyffelyb iddynt eu hunain. Yn niwedd y ganrif a enwyd, daeth y syniad yn un tra chyffredin, am y creaduriaid o'r rhywogaeth lleiaf ac isaf—eu bod yn cael eu cynnyrchu yn uniongyrchol trwy ymweithiad sylweddau llygredig, gan yr hyn a elwid yn *generatio spontanea*, hyny ydyw, cenhedliad hunan-gynnhyrfiol, neu fel y gelwir ef yn awr, *abiogenesis*; hyny ydyw, cenhedliad o'r hyn nid ydyw fyw. Y mae arbrawfiadau Redi, Spallanzani, ac eraill, wedi dangos fod y syniad yn un cyfeiliornus. Ond hònir etto gan bleidwyr y syniad, fod y creaduriaid bychain a elwir *bacteria* yn brawf o'i blaid.

Dywedir wrthym fod y creaduriaid hyn wedi cael eu gosod yn agored i wres, y tu hwnt mewn graddau i fywyd allu hanfodi ynddo, ac etto eu bod wedi ail ymddangos yn y llestri y gwnaed y prawf ynddynt, heb fod un possiblrwydd iddynt ddyfod i mewn oddi allan; ac o herwydd hyny, rhaid eu bod wedi eu cenhedlu yn uniongyrchol ar ol dyfodiad y lleill. Ond hònir ar y llaw arall nad ydyw y prawf o lwyr farwolaeth y rhai blaenorol yn sicr. Y prawf a ddygir o hyny yw eu hymddangosiad llonydd ac ansymmudol; ond gall fod hyny i'w briodoli i attaliad, yn hytrach nag i lwyr ddinystr y bywyd oedd ynddynt; ac os felly, gellir tybied ddarfod iddynt eilwaith ymadfywio. Y mae yr ammheuaeth yn cael ei gadarnhau gan y ffaith fod y creaduriaid hyn yn treulio rhan o'u hanfodiad mewn ystad o lonyddwch di-egni. Drachefn, y mae y gwahaniaeth mawr sydd rhwng y graddau o wres ac oerni y gall creaduriaid fyw ynddynt yn dwyn elfen arall o ammheuaeth i mewn. Gwel yn mhellach dan y gair YMDDADBLYGIAD (*Evolution*).

BEDYDDWYR, Y*:—Eu SAFLE ATHRAWIAETHOL. Wrth y Bedyddwyr, fel yr awgryma yr enw, y golygir y corph lliosog a pharchus hwnw o Gristionogion yn mhlith yr Ymneillduwyr Protestanaidd ag ydynt wedi talu sylw arbenig i Fedydd fel ordinhâd y Testament Newydd. Teg ydyw nodi, er hyny, nad ystyriant eu hunain yn Ymneillduwyr yn ystyr bresennol y gair; am nad ydynt, fel corph, nac wedi ymneillduo o Eglwys Lloegr nac o Eglwys Rhufain. Ystyriant eu hunain, drwy yr oesoedd, yn Anghydffurfwyr, yn hytrach nag Ymneillduwyr. Cyttunant â'r cyfundebau crefyddol eraill, mewn rhan, yn eu golygiadau ar athrawiaethau sylfaenol crefydd; ond gwahaniaethant gyda golwg ar weinyddiad yr ordinhadau, a threfniadaeth eglwysig. Credant hwy mai Crist ydyw unig Ben yr eglwys. Yn hyn, gwahaniaethant oddi wrth eglwysi Groeg a Rhufain. Er fod cynghor Eglwys Groeg yn gwadu anffaeledigrwydd eu patriarch, etto hwy a wrthodant hawl o farn bersonol i'r gwŷr lleyg mewn achosion crefyddol, a hawliant fod 'etholedigaeth' yn cymmeryd lle oddi ar ragweled-ad, nid oddi ar benarglwyddiaeth Duw: tra y cred y Bedyddwyr yr olaf, ynghyd â'r blaenaf. Gwahaniaethant hefyd oddi wrth gyfundrefn Eglwys Loegr, yr hon sydd Bendefigol; ac felly, ceir hwynt yn glynu wrth eiriau Crist:—'Un yw eich Athraw chwi, a chwithau oll brodyr ydych' Ymrana y byd Cristionogol ar fater y Benogaeth i dair rhan; sef, yr Unbenaethol, megys eglwysi Groeg a Rhufain; y Bendefigol, megys Eglwys Lloegr; a'r Werinol, megys yr holl eglwysi rhyddion. Yn yr adran Unbenaethol, y mae gair y 'patriarch' a'r 'pab' yn derfynol; yn y Bendefigol, y mae y brenin yn rhwym wrth ei esgobion a'i archesgobion; yn y Werinol, y mae yr awdurdodau yn y corph oll yn gydraddol:—a hon yw y safle a gymmera y Bedyddwyr. Daliant bob amser fod Gair Duw yn unig yn derfynol yn mhob mater o athrawiaeth—fod argyhoeddiad personol yn ofynol—a chyfnewidiad cyflwr yn angenrheidiol i fod yn ddeiliaid teyrnas gras. Golygant, felly, fod cymmhwysiad gwaed Crist i flaenori bedydd, a hawliant ryddid crefyddol iddynt eu hunain, ac i bawb. Nid ymladdodd neb yn foreuach na glewach dros ryddid crefyddol na'r Bedyddwyr. 'Ni orthrechwn gydwybodau dynion ar gyfrif eu golygiadau crefyddol,' ebe adran y Bedyddwyr yn myddin Oliver Cromwell. A dywedodd un nad ydoedd yn Fedyddiwr—'y Bedyddwyr oedd pleidwyr cyntaf yr egwyddor wirfoddol.' [The Baptists were the proto-evangelists of the voluntary principle.—*Skeat's History of the Free Churches*, td. 19.] Ac yn mhellach, ymddengys nad oedd y Puritaniaid eu hunain yn deall y pwngc o ryddid crefyddol yn iawn. Nid oes yn mysg holl weithiau y Puritaniaid cyntaf un gyfrol ar fywyd a chymmeriad Crist, na chynnifer ag un a ddengys fod ganddynt ddirnadaeth am natur ysbrydol ei deyrnas ef.

* Yn CYF. I., o dan y gair BEDYDD, y mae dwy erthygl i'w cael, a ysgrifenwyd gan wŷr a fernid ar y pryd y rhai cymmhwysaf i gyflwyno golygiadau y Bedyddwyr, a'r golygiadau cyferbyniol, i sylw darllenwyr y gwaith hwn. Gan fod erthygl yn angenrheidiol yn awr (1891) ar safle y Bedyddwyr fel enwad, cyflwynwyd hon hefyd i ddwylaw un o'u gweinidogion; yr hwn, fel y gwelir, sydd yn rhoddi ystadegau lawer sydd yn dangos safle y cyfundeb ar yr adeg bresennol, ac yn ymdrin gyda hyny â'r cwestiynau sydd mewn dadl rhwng y Bedyddwyr a'r Enwadau Crefyddol eraill. Ceir erthygl bellach ar yr ochr arall, dan y gair TAENELLIAD.—GOL.

Digitized by Google

Erfynient am ryddid o hyd â dagrau yn eu llygaid, a gommeddent ef i'r Bedyddiwr cyntaf a gyfarfyddent. Dysgai Browne, ei hun, fod swyddogion y wladwriaeth yn addas swyddogion i'r eglwys hefyd. Barrowe a Greenwood, y merthyron nesaf mewn bri i Penry ei hunan, a gydnabyddent y brenin yn ben ar faterion eglwysig; ac y mae'n ffaith hanesyddol ryfedd a adroddir etto, gan un nad yw Fedyddiwr, nad oes yn holl hanes y Bedyddwyr gan eraill, o'r dechreu, nac yn eu hysgrifeniadau hwy eu hunain, gynnifer ag un frawddeg a wahardda i ddynion eraill y rhyddid a ofynant iddynt eu hunain (*Skeat's Hist. of Free Churches*, td. 19).

Y ddau beth y gwahaniaethant yn arbenig ynddynt oddi wrth enwadau eraill ydynt, yn nghylch dull a deiliaid bedydd. Yn y flaenaf, gwahaniaethant oddi wrth bawb a ystyriant eu hunain, neu a elwir felly, yn Faban Fedyddwyr; ac yn yr olaf, cydolygant â llyfr Eglwys Loegr, pan y dywed hwnw am 'drochi yn ddiesgeulus.' Yn eu dadl dros y dull, dysgant y golyga y gair Groeg yn ddïeithriad 'drochiad' neu 'dansuddiad;' ac felly, nas gellir bedyddio yn briodol heb hyny. Dadleuant yn selog mai dyma ystyr y gair yn holl lenyddiaeth Groeg yn gyffredinol, megys trochi y piser yn y dwfr, trochi saeth mewn gwenwyn, &c.; ac fod y dynion mwyaf dysgedig yn iaith gynhenid y Testament Newydd, ac mewn hanesyddiaeth eglwysig, yn addef mai dyma oedd yr ystyr gwreiddiol a'r arwyddocad felly, ac y cadarnheir hyn yn nghyfattebiaeth Groeg ddiweddar.

Hònant hefyd fod amgylchiadau gweinyddiad yr ordinhâd o fedydd, fel eu disgrifir yn y Testament Newydd yn nghychwyniad Cristionogaeth, yn derfynol ar hyn. Gyda golwg ar y dull, mynant nad ydynt ar wahân i gorph mawr o Gristionogion yn hyn; a chyfeiriant at dystiolaeth enwogion oddi allan iddynt eu hunain, ac at arferion yr Eglwys Gatholig, yr hen eglwys henadurol Saesnig, ynghyd âg eglwysi Groeg ac Armenia yn y dyddiau presennol. O lawer o dystiolaethau, ni a nodwn yr enghreifftiau a ganlyn:—'Arweinid hwy (y Cristionogion cyntefig) i lawr i'r dwfr, heb unrhyw ddillad ond a orchuddient eu cyrph. Yn gyntaf, rhoddent hwy i lawr yn y dwfr, fel pe y dodid dyn mewn bedd; ac yna, dywedent y geiriau canlynol:—'Yr wyf yn dy fedyddio, neu yn dy olchi di, yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân.' Yna codid hwynt i fyny, a rhoddid dillad eraill am danynt. Oddi wrth hyn y caed y cyfryw ymadroddion o fod wedi eu 'bedyddio i farwolaeth Crist,' o fod 'wedi eu cyd-gladdu gyda Christ,' ac yn 'gwisgo am danom yr Arglwydd Iesu Grist,' ac yn 'dïosg yr hen ddyn, a gwisgo y dyn newydd;' *Rhuf.* vi. 3—5; *Col.* ii. 12; iii. 1—10; *Rhuf.* xiii. 14.—*Esgob Burnet, Exod.* xxxix., *Art.* td. 374. 'Golyga bedyddio dansuddo, megys yr addefa yr holl fyd.'—*Esgob Bossuet.* 'Golyga y gair 'bedyddio' drochi; a gweinyddid y ddefod o drochi gan yr eglwys gyntefig. Ac oddi wrth y geiriau hyn, gellid tybied y gweinyddid bedydd drwy suddo yr holl gorph o dan y dwfr.'—*Calvin*, Esboniad ar *Ioan* iii. 23. 'Arferiad yr eglwysi cyntefig ydoedd, nid taenellu, ond trochi.'—*Esgob Taylor* (*Duct. dubit. B. iii*). 'Elai y personau a fedyddid i lawr i'r dwfr, a chleddid hwy, megys, ynddo.'—*Esgob Pearce* (ei nodiad ar 1 *Cor.* xv. 29). 'Ni a ganiatawn, gan hyny, y gweinyddid bedydd (yn yr amserau cyntefig), drwy olchiad yr holl gorph. Er ein bod ni yn ei ystyried yn gyfreithlawn i roddi i fyny y dull o drochi, ac i arfer llai o ddwfr, etto nid ymgymmerwn â newid yr ystyr na'r arwyddocâd o hono.'—*Baxter.* Ar *Matthew* iii. 6, dywed yr un awdwr, 'Gan hyny, yn ein bedydd, trochir ni yn y dwfr, i ddynodi ein marwolaeth a'n claddedigaeth i bechod.' 'Gan y dywedir mor amlwg yma (*Rhuf.* vi. 4, a *Col.* ii. 12), y cyd-gleddir ni â Christ yn y bedydd, drwy ein claddu mewn dwfr; a chan y cymmerid ymaith yr ymresymiad, yr hwn a'n rhwyma ni i gydffurfiaeth â'i farwolaeth ef, trwy farw i bechod; a chan fod y tansuddiad hwn yn cael edrych arno yn beth crefyddol gan yr holl Gristionogion am dair canrif ar ddeg; a chan fod y cyfnewidiad o hono i daenelliad wedi cymmeryd lle, hyd yn oed heb ganiatâd gan awdwr y sefydliad, nac unrhyw ganiatâd gan unrhyw gynghor eglwysig, yr hwn a hawlia deiliad Eglwys Rhufain o hyd fel ei sail dros ommedd y cwpan i'r gwŷr lleyg, gellid, pe y dewisid, dwyn y dull yma etto i arferiad cyffredinol.'—*Whitby.* Ac fel hyn y rhed tystiolaethau eraill; megys Selden, Whitfield, Doddridge, Wesley, Beza, Vitringa, Salmasius, Archesgob Tillotson, Dr. Campbell, &c..

SAFLE HANESYDDOL Y BEDYDDWYR.—Y Bedyddwyr—hyny yw, y rhai a arferent fedydd trwy drochiad—oedd y brif eglwys, o ddiwedd yr oes apostolaidd hyd ddechreu y drydedd ganrif.

*Y Tadau Apostolaidd.*—Blodeuai y rhai hyn o B. A. 71 hyd 108. Y rhai hyn oeddynt Barnabas, 71; Clement, 96; Hermas, 100; Ignatius, 107; Polycarp, 108. Y pump hyn a elwir yn dadau apostolaidd, am eu bod yn dderbynwyr uniongyrchol gwybodaeth oddi wrth yr apostolion: ac ni soniant hwy air am fedyddio babanod.

*Y Tadau Eglwysig.* — Papias, 116; Justin Ferthyr, 140—165; Tatian, 172; Hegesippus, 173; Melito, 177; Irenæus, 178; Athenagoras, 178; Miltiades, 180; Theophilus, 181; Pantaenus, 192; Alexandria, 194; Polycrates, 196; Heraclitus; Tertullian, 200. Nid ydyw y rhai hyn yn cyfeirio at fedyddio babanod; ond mỳn rhai fod Tertullian yn cyfeirio at hyny. Ond, fel y dywed Bunsen, gwrthwynebu bedyddiad plant ar eu tyfiant y mae efe; ac nid babanod newydd-eni sydd o dan ei sylw. Nid oes sicrwydd fod neb yn pleidio bedydd babanod o flaen Cyprian, B.A. 248; a phrin y gall y byd Cristionogol ei dderbyn fel athraw yn y pwngc, gan mai henafgwr a ddychwelodd at grefydd mewn hen ddyddiau ydoedd, a hyny mewn lle mor dywyll a Carthage, yn Affrica.

Ni hòna y Bedyddwyr olyniaeth apostolaidd; ond fel plaid grefyddol ag sydd wedi amddiffyn yn ddidor yr athrawiaeth o ddigonolrwydd Iawn Crist, a'i ddigonolrwydd ef yn unig fel Athraw, cyfiawnhâd trwy ffydd, a bedydd trwy drochiad, a chyffesu pechodau, credant y gallant olrhain eu hanes hyd yn oed i'r oes apostolaidd. Wedi y llwyddiant mawr a fu ar yr egwyddorion hyn yn Judea, Samaria, Galilea, Antiochia, a thrwy holl Asia, daeth y wybodaeth drosodd i Macedonia. Mawr yw y drafferth a gymmer rhai haneswyr i geisio profi mai yn Germany y cychwynodd y Bedyddwyr, yn y flwyddyn 1521. Pe felly, buasent yn gynnarach na'r enwadau crefyddol presennol. Oni fedyddiwyd Lydia yn B. A. 53? Ac onid hi oedd blaenffrwyth Bedyddwyr Ewrop?

Digitized by Google

*Bedyddwyr Ewrop.*—Onid Bedyddwyr oedd Stephanas, Chrispus, a Gaius? Ac onid Bedyddwyr yn Waldensia, Germany, a Ffraingc oedd y Montaniaid a'r Novatiaid yn y fl. 251—y Donatiaid yn 311—y Manichëaid yn 320—y Gundulphiaid yn 1020—y Berengariaid yn 1035—y Paterniaid a'r Petrobusiaid yn 1110—yr Arnoldiaid yn 1137—a'r Hussiaid yn 1407? A phwy ydoedd Montanus, Novatian, Donatus, Manes, Gundulphus, Berengarius, Pedr o Bruys, Arnold, a Huss? Onid gweinidogion Duw, trwy ba rai y credodd miloedd yn Mab Duw, ac y bedyddiwyd hwynt yn afonydd, llynoedd, a baddonau Ewrop am bymtheg cant o flynyddoedd?

*Bedyddwyr Lloegr.*—Derwyddiaeth a Christionogaeth oedd yr unig ddwy grefydd a erlidid gan y Rhufeiniaid. Dengys hyn ar unwaith fod cydnawsedd, i ryw fesur, yn bodoli rhwng y ddwy gyfundrefn. Yn ol D'Anvers, Robinson, ac Ivimey, nid oedd y Derwyddon yn bedyddio babanod, nac yn cyflwyno eu plant i gythreuliaid, yn ol arferion y cenedloedd eraill. Yr oedd yn addoliad yr Arch *(Arkite worship)*, gyfattebiaeth neillduol i'r bedydd cyntefig; ac effeithiodd addoliad afonydd a llynoedd yn drwm ar Loegr, ac yn arbenig ar Gymru. Pa bryd y daeth yr efengyl i Brydain, sydd ofyniad ag y mae llawer iawn o ddadleu wedi bod yn ei gylch. O Martialis, y bardd Rhufeinaidd, B. A. 58—93, i lawr hyd at Theodoret, esgob Cyropolis, yn B. A. 423—460, ceir amryw dystiolaethau fod crefydd Crist yn y cyfnod wedi cyrhaedd i Brydain. Yr oedd 20,000 o Gymry yn y fyddin Rufeinig a ymladdai yn ninystr Jerusalem yn B.A. 70; yr hyn a ddengys bossiblrwydd i Gristionogaeth lynu yma yn dra boreu. Addefir fod Cristionogaeth wedi meddiannu rhai parthau yn Mhrydain yn lled gyffredin yn y drydedd ganrif. Ac yn y canol-oesoedd, ymddengys fod gwir grefydd yn lled isel yn Lloegr, er ei bod yn achlesu yn Nghymru drwy y cyfnod difrifol hwnw. Marwolaethwyd 14eg o'r Lollardiaid, &c., yn Lloegr yn 1535, a chafodd 30ain eu halltudio yn 1539; a thystia yr Esgob Burnet fod llawer o honynt yn Lloegr yn 1547. Yr oeddynt, yn nyddiau Mari ac Elizabeth, yn gyfryw ag yr oeddid yn deddfwriaethu i'w darostwng; ac erbyn amser Iago I., yr oeddynt mor gryfion nes ymffurfio o honynt yn eglwysi rheolaidd. Meddylddrych tramor, a newydd iawn yn Lloegr, oedd corpholi eglwysi Anghydffurfiol. Yn 1572 y corpholwyd eglwys gyntaf y Presbyteriaid:—*Neal's Hist. of the Purit.*, cyf. i., td. 202. Yn 1611, cyhoeddodd y Bedyddwyr eu *Cyffes Ffydd* yn Amsterdam. Yn 1612, corpholwyd eglwys gyntaf y Bedyddwyr Cyffredinol:—*Evans' Early English Baptists*, cyf. i., td. 265. Yn 1516, eglwys gyntaf yr Annibynwyr:—*Price's Hist. of Noncon.*, cyf. i., td. 528. Y mae yn ddiau mai o Holland y cafwyd y meddylddrych a'r ffurf o gorpholiad:—*Hanes Crefydd yn Nghymru*, td. 504. Fe gyhoeddodd saith o eglwysi y Bedyddwyr Saesnig gyffes yn 1646; Bedyddwyr Gwlad yr Haf gyffes yn 1656; Bedyddwyr Llundain gyffes yn 1660; un arall yn 1678; a'r olaf yn 1689. Ymrana y Bedyddwyr Saesnig er cyn côf yn ddwy blaid:—yr Arminiaid a'r Calviniaid. Enwir y rhai hyn hefyd weithiau yn Fedyddwyr Cyffredinol, a Bedyddwyr Neillduol. Gelwir y rhai olaf yn Neillduol, nid am y gwrthodant dderbyn neb i gymmundeb heb ei fedyddio trwy drochiad, ond ar gyfrif eu golygiadau Calvinaidd ynghylch Iawn Crist. I'r Bedyddwyr Saesnig y perthyn yr anrhydedd o fod wedi cynnyrchu y merthyr cyntaf yn Lloegr—William Sawtree, yn 1401; a'r olaf, Edward Wightman, yn 1612. A hwynthwy a gynnyrchodd y cadeirydd; yr hwn, yn Nhŷ y Cyffredin yn Llundain, a roddodd ei bleidlais derfynol dros gael William III., o Orange, yma; yr hyn a grëodd chwyldroad 1688. Hwynthwy hefyd, yn 1792, a sefydlasant Genhadaeth Dramor, yr hon yw mam yr holl Gymdeithasau Cenhadol Prydeinig.

Yn 1812, sefydlasant Undeb y Bedyddwyr (Saesnig)—i'r hwn y perthyna yn mhell dros 1,000 o eglwysi. Perthyna iddynt, hefyd, Drysorfa Adeiladu gref. Gallant rifo yn mysg eu gweinidogion rai o sêr disgleiraf y pulpud Prydeinig; megys Gale a Carson, ar gyfrif eu gallu mewn Groeg; Gill, ar gyfrif ei wybodaeth Hebraeg a Rabbinaidd; Carey, ar gyfrif ei amrywiol alluoedd mewn ieithoedd ac ymchwiliad dwyreiniol; Fuller, fel un a grëodd gyfnod newydd yn hanes duwinyddiaeth; Hughes, o Battersea, ar gyfrif ei allu trefnyddol yn nghychwyniad y Gymdeithas Feiblaidd, a Chymdeithas y Traethodau; Hall, ar gyfrif rhyferthwy a phrydferthwch ei ymadrodd; a Spurgeon, ar gyfrif ei allu i wahodd tyrfa, a'u dal yn hoeliedig i syllu ar ryfeddodau y groes. Yn 1842, cynnaliwyd iwbili hanner can-mlwyddiant y Gymdeithas Genhadol, pan gafwyd fod y tri wŷr tlawd o Serampore—Carey, Marshman, a Ward—y rhai a waradwyddid, wedi llwyddo, cyn i'r hynaf o honynt farw, i gyfieithu yr Ysgrythyrau, mewn rhan, neu ynte yn gyfan, i 44ain o ieithoedd India, ac wedi argraphu dros hanner miliwn o gopïau. Medda y genhadaeth hon yn awr ei gorsafoedd yn ngwahanol wledydd Ewrop, Asia, America, ac Awstralia, a'r gwahanol ynysoedd. Ac erbyn 1892—ei chanmlwyddiaeth—yr oedd ei chyllid wedi codi o 13*p.* 2*s.* 6*c.* i dros 100,000*p.*

*Bedyddwyr Ysgotland.*—Er fod gwybodaeth o Grist, a deiliaid y bedydd Cristionogol, i'w cael yn y cwr yma o Brydain yn dra boreu, fel y dengys gweithiau y cynfeirdd, etto, yn y fl. 1765 y gwnaethant symmudiad arbenig, o dan arweiniad Archibald M'Lean. Dechreuodd dosbarth arall yno, a'r un mwyaf lliosog, yn nechreu y ganrif bresennol, o dan arweiniad Christopher Anderson, o Edinburgh, a George Barclay, o Irvine. Credant, fel eu brodyr uchod, y dylid gweinyddu Swper yr Arglwydd bob Sabbath. Ychydig yn gymmharol ydyw rhif yr oll o Fedyddwyr Ysgotland:—Eglwysi, 100; gweinidogion, 83; pregethwyr, 156; aelodau eglwysig, 12,721; deiliaid Ysgolion Sabbothol, 12,324. Nid ydyw cyfrif Bedyddwyr y Channel Islands yn hyn.—*Cyfrifon y flwyddyn* 1894.

*Bedyddwyr yr Iwerddon.*—Ychydig etto, yn gymmharol, ydyw rhif Bedyddwyr yr Iwerddon:—Eglwysi, 25; gweinidogion, 22; pregethwyr, 52; aelodau, 1,946; ysgolheigion, 1,427. Fel uchod y safent yn nghyfrifon 1894.

*Bedyddwyr America.*—Cyfansodda y Bedyddwyr yn America y corph eglwysig cryfaf; ac yno, megys yma, hwy a hawliant eu safle fel eglwysi unigol ac annibynol. Nid ydynt, chwaith, wedi bod yn ol i'w brodyr y tu yma i'r Werydd yn mhrif symmudiadau y ganrif. Yn 1814, cychwynasant hwythau eu Cymdeithas

Digitized by Google

Genhadol, o dan ofal Dr. Judson; ac y mae ei changhenau wedi ymestyn bron i bob goror o dan haul. Perthyna iddynt hefyd Genhadaeth Gartrefol, yr hon a wna waith aruthrol. Yn sicr, y maent ar y blaen i'w brodyr yn Mhrydain gyda sefydliadau addysgawl ar gyfer y weinidogaeth, ac fel arall. Sefydlydd yr enwad hwn yn yr America ydoedd Roger Williams—Cymro o sir Gaerfyrddin. Cychwynwyd yr eglwys gyntaf i'r Bedyddwyr yno yn 1639. Deg ydoedd nifer yr aelodau. Erbyn hyn, y maent, fel y nodwyd, y blaid grefyddol liosocaf yn y Talaethau. Yr oedd eu cynnydd fel y canlyn:—Yn 1792, un Bedyddiwr am bob 56 o'r trigolion; yn 1812, un am bob 38; yn 1832, un am bob 33; yn 1854, un am bob 30. Nid yw hyn yn cynnwys y Bedyddwyr Memnonaidd, Bedyddwyr Ewyllys Rydd, na'r Bedyddwyr Campbellaidd:—*American Bapt. Almanac*, 1863. Y mae eu cynnydd yn ddiweddar wedi bod yn fawr—gartref ac yn y gwledydd tramor.

BEDYDDWYR CYMRU.—1. *Cyfeiriadau Croniclau Cynnarol Cymru at Fedydd*, &c.—Yn y *Brut Cymraeg*, ceir y nodiad canlynol ar gyfer y flwyddyn 55:—'Oed Crist, y cawsant (y Lladinwyr) genedl y Cymry yn meddu y ffydd yn Nghrist, ac a gredasant yn Nuw.' Yn nghyfer hyn hefyd, ceir mai 'Bran ab Llyr Llediaeth a ddug ffydd yn Nghrist gyntaf i'r ynys hon;' a chyfeirir at Illtyd fel un 'a droes lawer o'r Cymry i'r ffydd hon.' O hyd yn y croniclau, ceir y geiriau 'cred' a 'ffydd' ynglŷn â bedydd, yr hyn a ddengys natur y bedydd a weinyddid. Dywedir ddarfod yn amser Cyllin ap Caradog, i lawer o'r Cymry gael eu dychwelyd i'r ffydd Gristionogol. Felly yn olynol drwy y canrifoedd. B. A. 154.—Cyfeirir at fedydd yn Ynys Prydain, ac esgyb, a llanau, o ddawn Lles ap Coel, yr hwn a ddysgai 'gred' a 'bedydd.' 380.—'Cyfergyd â'r amseroedd hyn y bu Morien ap Argad Fardd yn ddyscedicaf o neb yn y byd, ac efe a fu yn ammheu bedydd ac aberth corph Crist (y swper ?); ac o achos hyny y bu casineb ac ymrysonau.' Dengys hyn yn amlwg mai nid yn yr ail ganrif ar bymtheg y dechreuodd dadleuon ar fedydd yn Nghymru. 390.—Ceir 'Cystenyn, ymherawdwr, yn gyfnoddwr y ffydd yn Nghrist.' A dyma yr ymherawdwr cyntaf oll i gydnabod fod gan ddyn hawl bersonol i grefydda, neu beidio. Ar gyfer y flwyddyn hon hefyd y dywedir ddarfod 'i un Martin fod yn yr ynys hon yn dysgu bedydd ac aberth yn y modd eu dysgid gan Baul apostol—a dyma eiriau Martin:—'Bedyddier pob dyn yn y byd yn enw y Tad o'r nef, ac yn enw y Mab Rhâd, ac yn enw yr Ysbryd Glân, yr hwn a fydd fel terydr y tês yn gyru goleuni Duw i'r man y delo iddo, ac yr agoro galon a chydwybod.' 425.—Daeth Garmon o dir Gâl (Ffraingc) 'i adnewyddu yn Mhrydain 'Fedydd' ac 'Aberth,' a chred gyfiawn ar y ffydd yn Nghrist, lle yr oedd wedi edwino (dirywio).' 450.—Tegwyn Sant a Meyryg Morganwg ar yr un genadwri a'r uchod. Ac yn y cyfnod hwnw yr arferid dyweyd, 'Cadarnaf llŵ ar bob llŵ, yw a wneler ar fedydd neu aberth corph Crist.'

Wele ni wedi olrhain bedydd yn y *Brutiau Cynnarol Cymreig* hyd y bummed ganrif, ac yn ei gael o hyd yn gyssylltiol â 'chredu.' 550.—Cana Taliesin yn Marwnad Cunedda:—

'Myd wyf Daliesin derydd,
Gwawd goddolaf fedydd,
Bedydd Rhwyf rhifeddau eiddolydd.'

Aralleiriad:—

'Myfi wyf Daliesin, Athraw;
Molaf y Bedyddiedig,
Pendefig Cristionogol, addolwr
Y Bôd Rhyfeddol.'

Mewn pennill arall y dywed:—

'Gwae a gymerth Fedydd,
A chred a chrefydd
Onis tystia.'

Hyny yw:—Gwae y sawl a fedyddir ar broffes o ffydd, oni ymarwedda efe yn deilwng ar ol hyny.

Etto:—

'Iôr nef a daear,
Gwel y rhai hygar,
A fu 'n ddiweddar
Dan yr elfen.'

'Pob peth a dderfydd
Ond cred a bedydd.'

'Nid oedd namyn Duw a Derwyddon,
A ŵyr eu rhif dan ymchwydd y dòn.'
*Carnhuanawc*, td. 185, 342, &c.

Pa ryfedd y gelwir cadair farddol Taliesyn yn 'Gadair Fedydd;' ac nas gellid cael braint athraw ynddi ond a fyddai o dan 'adduned y Ffydd yn Nghrist.' Parhaodd y gadair hono yn ei grym o ddyddiau Taliesin hyd Lewys Morganwg, yn 1520. Ei harwyddair ydoedd, 'Da'r maen gyda'r efengyl.

2. *Bedyddwyr yn Nghymru yn yr oesau tywyll.*—Trochwyr oedd athrawon a deiliaid athrofa Bangor Is-y-coed yn y flwyddyn 600. Ac y mae yn y lle le a elwir 'Llyn Bedydd' hyd yr awr hon. Trochwr oedd y Sant Beuno, sylfaenydd cyfundeb crefyddol Clynog Fawr (Arfon), yn y flwyddyn 616; ac y mae Bedyddfa Wythonglog, ddwy lath o ddyfnder i'w gwaelod, yn yr adfeilion etto.

Canai Jonas o Fynwy yn yr 11eg ganrif am fedydd ein Hiachawdwr fel hyn:—

'Pan ydoedd ein Rhïen
Hyd dros ei ddwyên,
Yn nwfr Urddonen
Yn nirwestfa.'

Canai Gwalchmai ab Meilyr, tua 1260:—

'Aeth i gym'ryd bedydd
Diau Fab Duw, yn nwfr echwydd.'

Trochi yr oeddid yn ardaloedd Rhuddlan a Dyserth, yn ol Dafydd Ddu, a Hiraddug, yn 1340; a chan gyfeirio at yr arferiad o gyffesu ffydd ar ei glan y gelwir afon a rêd drwy yr olaf yn 'Glan Ffyddion' hyd heddyw. A thystiolaeth y Parch. Elias Owen (Eglwyswr) yw, yn ei lyfr ar '*The Holy Wells of North Wales*,' fod y rhai hyny, cyn arferyd y bedyddfaen *(font)*, yn fedyddfanau - fod eu holl hanes yn cadarnhau hyn—fod y rhai hyny yn wythonglog—fod i hyn ystyr Cristionogol, nad oes un enghraifft o fedyddfaen *(font)* ar gael cyn y goresgyniad Normanaidd; ac am amser hir wedi dyfodiad y bedyddfaen i arferiad, defnyddid y ffynnon ei hun yn fedyddfa. [Papur a ddarllenwyd o flaen Cymdeithas Genedlaethol y Cymry, yn Llynlleifiad, 1892].

Yn gydnaws â hyn y canai ficer Llanymddyfri yn 1644. Er ei fod yn rhydd ynghylch y deiliaid, yr oedd efe yn gaeth o ran y dull o fedyddio, pan y gofynai:—

'Beth ydyw 'r nôd gweledig,
A'r arwydd digon tebig,
Sydd yn y bedydd o'r tu fa's
Yn selio 'r gras arbenig?'

Digitized by Google

Atteb:—

'Y dwfr yn y bedyddfan,
Lle trochir y dyn bychan,
Yn enw'r Tad, a'r Mab dri phryd,
A'r sanctaidd Ysbryd purlan.'

Trochi oedd yn Meiblau Wickliff a Thyndal. Bedyddiwr, o ran ei olygiadau, ydoedd John Milton; a'i wraig, Elizabeth Minshall, oedd yn aelod gyda'r Bedyddwyr yn Heledd Wen (Nantwich), lle yr arferai Milton ei hun wrandaw, os nad oedd efe yn aelod hefyd. Yn y fynwent hono y claddwyd ei wraig. Trochwyd y frenhines Elizabeth; ac er deddfu o honi yn erbyn y Bedyddwyr, bu dda iddi am loches yn Nghymru ar dir Arglwydd Cobham ei hun.

3. *Bedyddwyr yn Nghymru yn yr oesoedd diweddar.*—Y mae i Fedyddwyr presennol Cymru chwe tharddiad:—tri yn y Deheu, a thri yn y Gogledd. Y tri sydd yn y Deheu ydynt Dyffryn Olchon, yn swydd Henffordd; a Llanilltyd (Ilston); a Llanharan, yn Morganwg. Y tri tharddiad yn y Gogledd ydynt—y cyntaf yn hanes Thomas Edwards, Rhual, Wyddgrug, yn nghyd â'i gyfeillion; yr ail, Bedyddwyr Heledd Wen; a'r trydydd, y Gymdeithas Genhadol Gartrefol, a sefydlwyd yn y Deheudir yn y fl. 1776. Yr oedd y tri olaf, ar ol y Diwygiad Protestanaidd; a'r olaf o'r tri cyntaf; ond y ddau flaenaf a ânt y tu hwnt iddo. A daw y rhai hyn i'r golwg, cofier, nid fel Ymneillduwyr oddi wrth yr Eglwys Wladol, megys yr oedd eglwys Llanfaches—yr hon y dyddia yr Annibynwyr ei dechreuad yn 1639; ond fel praidd gwasgaredig, heb neb etto i'w cynnull ynghyd ar ffurf eglwysi rheolaidd. Yr hynaf o'r tarddellau hyn yw Olchon—eglwys a ymgynnullai ac a drigai ar lan afon o'r enw a rêd rhwng y Mynyddoedd Duon, gan ymarllwys i'r Fynwy, yn nghwr de-orllewin swydd Henffordd. Yr oedd yma gynnulleidfa o Fedyddwyr, er nad eglwys gorphoredig, mor foreu a 1633: ac yn amser Charles I. yr oedd ganddynt Hywel Fychan yn weinidog cyfaddas arnynt. Ond gan fod cynhauaf yn rhagdybio adeg hau, yr ydym yn naturiol yn gofyn:—O ba le y cafwyd yr hâd a roddes fodolaeth i'r cynnyrch hwn? A chan, gyda Butler, gredu fod llawer o debygoliaethau yn ffurfio prawf moesol [*Analogy*, td. 2], ni a awn yn mlaen at y canlyn:—

Y mae yn ffaith addefedig fod egwyddorion Wickliff yn cynnyrchu Bedyddwyr [*Triologue* x., td. 156—60], a bod llawer o'r Lollardiaid —enw a roddwyd ar y cyntaf i'r Bedyddwyr Is-Ellmynaidd, i'w dynodi, fe allai, fel efrau yn mhlith y gwenith Cristionogol [*Phillips' Hist. of Progress*, rhan ii, td. 194); ond a roddwyd yn gyffredin ar yr hereticiaid o ddaliadau Wickliff yn Lloegr, y rhai a wrthodent fedydd babanod fel seremoni ddisail [*Lond. Ency.*, *Art. Loll.; Collier's Eccl. Hist.*, cyf. i. *T.* 7., td. 619] yn ymlechu ac yn amlhau yn swyddi Henffordd ac Amwythig, mor foreu, o leiaf, ag erledigaeth Arundel, yn 1400. —*Fox*, i. 600. *Bale's Works*, Parker, td. 49. Ganwyd John Wickliff, 'Seren Ddydd y Diwygiad Protestanaidd,' yn Lloegr, o gylch B. A. 1324; a graddiwyd ef yn D. D. yn Rhydychain, yn 1372; wedi hyny, cyfieithodd y Beibl o'r *Vulgate* Lladin i'r Saesneg, a bu farw yn 1384. Dysgybl iddo ef ydoedd Walter Brute, 'Seren Ddydd y Diwygiad Protestanaidd yn Nghymru.' Yn Rhydychain yr argyhoeddwyd ef o wirionedd yr athrawiaeth. Efe oedd y Cymro cyntaf i geisio symmud ei gydwladwyr o dywyllwch Pabyddiaeth. Gwysiwyd ef ger bron Dr. John Trefnant, Esgob Henffordd, yn 1393; yn hen goflyfrau yr hwn y cafwyd ei hanes.—'Erth., Braslun o Hanes Bedyddwyr Cymru,' gan y Parch. J. Spinther James, yn *Y Greal*, Chwef., 1875, td. 32. Yr oedd gan yr hen Fedyddwyr hyny (y rhai a fedyddient fel y Bedyddwyr presennol) addoldy yn Hill Cliffe, ger llaw Warrington, yn swydd Gaer. Pan yn helaethu yr hen addoldy, yn 1841, ac yn cloddio am y sylfaen, &c., daethpwyd o hyd i hen fedyddfa, wedi ei gwneuthur o geryg, wedi ei chymmrydu (*cemented*) yn rhagorol, yn yr hon yr arferid bedyddio yn amser yr erledigaethau. Yn ol y beddfeini yn y tir claddu, perthynol i'r capel, dangosid mai yn amser Luther a Harri VIII. y claddwyd y mwyafrif o'r meirwon; ond dyddiai un maen mor bell yn ol a'r fl. 1357; sef, yr amser yr oedd Wickliff yn gymmrawd yn Athrofa Rhydychain.—*Goodby's Bye-Paths*, td. 22. Yr un modd, hefyd, y tystir ddarfod darganfod beddfeini yn hen dir claddu hen addoldy Olchon (yr hwn oedd is i lawr yn y nant—nid y capel newydd presennol); a bod ar un o honynt y dyddiad 1387.—*Daylight, Bapt. Mag.*, Tach., 1889, td. 234—America.

Yn gyfamserol â hyn cawn hanes y darddell arall, yn Llanharan. Yn ei draethawd ar 'Sefyllfa wareiddiol y Cymry,' profa Stephens fod cyssylltiad rhwng Beirdd Morganwg a'r Albigensiaid [*Traethodydd*, cyf. xiii., td. 322]; ac yn y crynhöad yn yr *Iolo MSS.*, td. 200—203, cawn brofion o fel yr oedd Lollardiaeth, neu 'Y Ffydd Newydd,' wedi gweithio ei ffordd i amryw o deulu Rhys Brydydd oedd yn byw yn Mlaen Cynllan, yn mhlwyf Llanharan, Morganwg, ac yn ei flodau o 1390—1400 (td. 370., col. 2.) Cafodd ei ail fab, Ieuan ab Rhys, ei droi allan o Fynachlog Margam, 'achos ei fod yn Lolleraidd ei farn;' eithr Syr Matthew Caradog, o Abertawe, a'i canlynodd ef â chyfraith am rywbeth, mae'n debyg, yn ei farn am grefydd, hyd oni orfu arno ymadael â Chynffig.

I'r cyfnod hwn y perthynai Syr John Oldcastle, Arglwydd Cobham—Cymro, a Bedyddiwr, a aned yn yr Hen Dŷ, neu yr Old Castle, a ddaliwyd ar le a elwir Cae'r Barwn hyd heddyw; ac a grogwyd gerfydd ei ganol wrth gadwen haiarn, gan ei rostio wrth dân araf i farwolaeth, yn 1418.—*Pale's Exam. and Death of Sir John Oldcastle:* a *Gilpin's Life of Lord Cobham.*

Trydedd darddell y Bedyddwyr oedd eglwys Llanilltyd (Ilston), yn Mrôwyr; yr hwn a saif tua saith milldir a hanner i'r gorllewin-ddeorllewin o Abertawe. Dywed traddodiad fod Bedyddwyr yn y gymmydogaeth hon yn ystod y rhyfel cartrefol. Dywedodd awdwr y *Nonconformity in Wales* 'nad oes y cysgod lleiaf o brawf fod dim gwrthfaban-fedyddwyr (Bedyddwyr) yn Nghymru yn flaenorol i 1649' (td. 104); tra y dywed llyfr eglwys Llanilltyd, a ddyfynir allan o *Backus' History of New England*, &c., (Boston, 1777) fod lliaws o Fedyddwyr yn Llanilltyd (heb sôn am Olchon a Llanharan) cyn hyny, ac y cyfeiria y cofnodiad hwnw at ddeddf seneddol Chwefror 22ain, 1649, fel un yn dwyn i'r golwg enwau y gweinidogion canlynol:—Vavasor Powel, Jenkin Jones, a John Myles—*Y Greal*, Mai, 1875, td. 103.

Y mae y Bedyddwyr wedi derbyn cryn annhegwch oddi ar law haneswyr y cyfnod hwn. A gradd o syndod y darllena y Bedyddiwr yr

Digitized by Google

haeriad ansafadwy ar dir hanes pur a di-lol, nad oedd nemawr wawr ar grefydd yn Nghymru hyd gyfodiad y Methodistiaid; a brawddeg gamarweiniol, yn ddiau, yw hono [*John's Causes of Dissent*, td. 9):—'A siarad yn briodol, hanes y Methodistiaid ydyw hanes Ymneillduwyr yn Nghymru !" Beth am y llu merthyron a aethant i garcharau Henffordd, Abertawe, Caerfyrddin, Hwlffordd, &c., ac a hunasant yn yr angeu cyn erioed i Fethodistiaeth gael ei geni? Yn enw sobrwydd a chyfiawnder, a ydym i anwybyddu llafur a choffadwriaeth y rhai a frwydrasant yn erbyn deddfau ac erledigaethau Mari Waedlyd, Elizabeth, a Charles II.? Heb sôn am eglwysi Olchon, Llanharan, a Llanilltyd, beth am eglwysi lliosog y Bedyddwyr yn Rhydwilym, Hengoed, a Llanwenarth, â'u lliaws canghenau? Yr oedd i Hengoed dros 700 o aelodau; ac i Lanwenarth dros fil o aelodau; ac yn eu plith ddynion mwyaf cyfrifol yr ardaloedd. A dyddiau corphoriad yr olaf oedd 1652; sef, 84 ml. cyn cychwyniad Methodistiaeth. Na chamddealler ni. Y mae genym gymmaint o barch i goffadwriaeth cychwynol pob enwad crefyddol yn Nghymru a neb pwy bynag; ond cam â gwirionedd, ac anonestrwydd hanesyddol, a'n gwna yn wrthddrychau gwawd i haneswyr y dyfodol yw coginio gosodiadau oddi ar safle enwadol na ddaliant i bwyso arnynt yn nydd y prawf. Cam a cholled cenedlaethol yw gweled cyfrol o gryn safle yn hanes Iwbili yr Ysgolion Sabbothol yn anwybyddu y gwron Morgan John Rhys, a wnaeth gymmaint yn Nghymru, a orfu ffoi i Ffraingc, ac a weithiodd gymmaint drosti yn America yn mysg ei gydwladwyr. Cam â chenedl y Cymry, a thorfynygliad ar hanes crefydd yn y Dywysogaeth, yw y disgrifiad a roddir o safle y Bedyddwyr yn *Rees' History of Nonconformity*. Yn wyneb yr hyn a geir yno, parod ydym i ofyn, Pa ham nad all pob hanesydd enwadol fawrygu rhinwedd er ei fwyn ei hun, yn annibynol ar ei gyssylltiadau? Pa ham na addefa efe i eraill yr hyn a hawlia ei hun? Yn ddiweddar, dadganodd aelod seneddol mai tywyll iawn ydoedd ar grefydd, a bod y goleuni yn Nghymru bron wedi diflanu, hyd oni chyfododd Methodistiaeth! Dengys hyn pa mor unochrog y gall haneswyr a darllenwyr hanes crefydd yn Nghymru fod. Rhaid oedd, wrth wrandaw yr hòniad hwn, i wrandäwr ddyfod i synied un o ddau beth; sef, fod y gŵr hwn, sydd mewn pethau gwleidyddol yn addurn i'w genedl, naill ai yn darllen hanes crefydd ei wlad drwy wydrau lliwiedig, neu ynte fod ffynnonellau yn llenyddiaeth grefyddol ei wlad na wyddai ddim am danynt. Cymmerer engraifft arall yn myd llenyddol crefyddol Cymru. Ammheua y Parch. J. Morgan Jones, Caerdydd, yn ei lyfr, *Y Tadau Methodistaidd*, gywirdeb ystadegau y Parch. Dr. Thomas Rees, yn ei *Hanes Anghydffurfiaeth*. A phan y mae y gwŷr hyn yn anghyttuno â'u gilydd, y mae yn bryd chwilio yn ddifrifol am y gwirionedd, neu i hanes crefydd yn y Dywysogaeth gael cam. Yn *Wales* am Medi diweddaf, dwg y Parch. Henry Hughes, Bryncir, lythyr Edmund Jones (1742,) i geisio dangos y gorwedda y gwirionedd rhwng yr hyn a ddywed Rees a Jones. Y mae hyn yn ffordd gymmedrol, os ydyw y seiliau yn deg: ond beth os ydyw y ddau yn cyfeiliorni? Ië, meddwn, beth os ydyw y tri yn cyfeiliorni? Yna rhaid newid y safle yn gyfangwbl! Nid ydyw y Parch. J. Morgan Jones ond wedi dilyn cwrs yr haneswyr un-ochrog ar y pwngc; sef, fod crefydd yn mron diflanu yn Nghymru cyn y Diwygiad Methodistaidd. Ar yr un llwybr, o'i flaen, yn y *Traethodydd*, Gorph., 1850, y cawn y Parch. J. Owen yn rhoddi hanes Daniel Rowlands, ac yn ffurfio taflen i ddangos 'prif gefnogwyr crefydd yn Nghymru, o 1500 hyd 1800.' Beth ydyw rhan y Bedyddwyr ynddi? Un! Wedi enwi o hono ddeuddeg (nid Bedyddwyr) ag oeddynt wedi dechreu y gwaith yn yr 16eg ganrif, chwanega atynt W. Caradog, Peregrine Phillips, T. Gouge, H. Owen, S. Hughes, R. Powel, W. Erbury, a Vavasor Powel, fel rhai wedi cario y gwaith yn mlaen i ryw fesur am y 80ain mlynedd o'r ganrif ddilynol. Yna gadewir bwlch o ddeugain mlynedd gwerthfawr (1680—1720) heb ei lanw! Wele yr hanesydd hwn wedi teithio dros 150 o flynyddoedd heb weled ond *un* Bedyddiwr, a hwnw (bendigedig a fyddo ei goffadwriaeth er hyny,) yn Fedyddiwr rhydd-gymmunol, ac yn aelod o'r adran leiaf o'r enwad yn Nghymru. Yr hyn a adawyd o'r golwg yma ni a'i dangoswn etto.

Cymmerwn yn awr dystiolaeth Dr. Rees, yn ei *Hanes Ymneillduaeth*. Yn ei or-awydd i fawrhau enwadaeth, y mae yntau wedi ei lithio i newid ffurf ac amser brawddeg wrth ddyfynu hanes, nes fforffedio hawl i ymddiried y darllenydd. Enghraifft:—Wrth ddyfynu hanes John Myles, tad Cymmanfaoedd Bedyddwyr Cymru, a Thomas Proud, yn myned i Gymmanfa y Bedyddwyr, yr hon a gynnelid yn Glass House, Broad Street, Llundain; ac wrth gam-gyfieithu a cham-attalnodi y gair '*immediately*' yn yr hanes, taflodd y symmudiad hwn o eiddo y Bedyddwyr rai blynyddoedd yn ddiweddarach, er mwyn rhoi y flaenoriaeth mewn pethau cyffelyb i'r Annibynwyr; a'r hyn sydd fwyaf gofidus yw, ddarfod i'r awdwr parchedig, er cael cofnodion hen eglwys Ilston, a chymmharu cofnodion eglwys Llundain, ger ei fron, goddefodd i'r camsyniad gael ei barhau yn yr ail argraphiad—yn lle, fel hanesydd anrhydeddus, naill ai ei ddiarddel, neu ei unioni. Ac i ddangos mai nid damweiniol ydyw hyn yn y gwaith, ceir y cyfrifon am 1861 yn bradychu yr un diffyg. Ynddynt, y mae yr awdwr wedi gadael allan holl Fedyddwyr swydd Faesyfed, Bedyddwyr swydd Forganwg, a chymmanfa gyfan Bedyddwyr Saesnig Mynwy—y sir ag yr oedd efe ei hun ar y pryd yn preswylio ynddi!

Dychwelwn, etto, at lythyr Mr. Edmund Jones. Gan y cyrhaedda hwnw mor bell yn ol a'r flwyddyn 1742, peth hawdd iawn a fyddai rhoi ymddiried ynddo. Ond pa beth a wnaeth Edmund Jones? Aeth drwy holl Ogledd Cymru heb weled cynnifer ag *un* Bedyddiwr! Naill ai, nid oedd Bedyddwyr Heledd Wen, a Chefn Bychan, a Glynceiriog, yn hysbys iddo; neu, ynte, anwybyddodd hwynt! Ac yn ei ddisgrifiad o'r Deheudir, gwahaniaetha rhwng 'Baptists' ac 'Anabaptists.' Felly, tŷr yr enwad yn ddau; yr hyn, o angenrheidrwydd, a wanhâ ei safle: a gwaeth na hyn, gwna hyny ar draul eu darlunio yn amgen Ymneillduwyr, tra y ceid hwynt yn blaid fwyaf Ymneillduol y cyfnod! Dengys hyn mor bwdr yw yr hyn a ystyrir yn seiliau hanes crefydd yn Nghymru. Gwrthodir y defnyddiau hyn gan 'Gymry Fydd.'

*Rhoddir yma restr o 52 o Weinidogion y Bedyddwyr yn Nghymru, o* 1541 *hyd* 1704; *sef, cyn cychwyniad Methodistiaeth. Cyflenwa hon y* 150 *o flynyddoedd y cyfeiriasom atynt,*

*pan na welodd yr awdwr hwnw ond 'un' Bedyddiwr!*

1541. Jenkin Jones, gweinidog teithiol yn Maesyfed.
1586. John Penry, Cefn brith, Llangammarch, Brycheiniog. Geilw Anthony Wood ef yn 'Flaenor i'r Ail-Fedyddwyr.'—*Athen. Oxon.* cyf. i.
1631. Roger Williams, Caerfyrddin.
1636. Vavasor Powel, Maesyfed.
1636—1653. Robert Morgan, Caerfyrddin.
1638. W. Thomas, Llanfaches.
1641. Thomas Parry, Olchon.
1642. H. Evans, Dolau, Maesyfed.
1643. Morgan Llwyd, Gwrecsam.
1643. Thomas Watkins, Olchon.
1644. Walter Prosser, Llanelli.
1645. John Myles, Ilston.
1645. John Rees Howel, Olchon.
1645. Thomas Proud, Abertawe.
1645—1654. David Davis, Llantrisant.
1646. Morgan Jones, Abertawe.
1646. Howel Thomas, Llantrisant.
1646. Thomas Joseph, Llantrisant.
1646. Thomas Jones, Llantrisant.
1649. William Prichard, Abertawe.
1653. Hywel Fychan, Olchon.
1653. John Tombs, Abergafenni.
1653. Anthony Harris, Trosnant (?)
1653. Morris Evans, Bontnewydd, a Dolau.
1655—1697. Christopher Price, Abergafenni.
1656. Henry Gregory, Dolau, Maesyfed.
1657. Samuel John, Bontnewydd.
1660. ——— Abbot, Abergafenni.
1660. Lewis Thomas, Ilston.
1660. Thomas Powel, Maes-yr-onen.
1660. Thomas Williams, Olchon.
1660. Henry Williams, Llanbrynmair.
1660—1682. Thomas Quarrel, Gogledd Cymru.
1661. Francis Davis, Dolau.
1667. Griffith Howel, Rushacre (Rhydwilym.)
1667. Morgan Rhydderch, Rhydwilym.
1667—1734. James James, Rhydwilym.
1667. Evan Davies, Rhydwilym.
1667—1733. John Jenkins, Rhydwilym.
1668. William Jones, Rhydwilym.
1668. Thomas David Rees, Glandwr, Penfro.
1668. John Evans, Gwrecsam.
1668. George John, Llangolman.
1673. John Price, Maes-y-gelli, Nantmel, Maesyfed.
1682. Henry Morris, Maes-y-berllan, Brycheiniog.
1683. Thomas Griffiths, Melinau, Penfro.
1686. John Gilbert, Olchon.
1687. Elias Keach, Dolau.
1687—1724. Richard Williams, Rhydwilym.
1696. Abel Morgan, Glandwr, Penfro.
1704. Thomas Price, Olchon.
1704. Samuel John, Cilfowyr.

Pe chwilid cofnodion llysoedd Cymru ynglŷn âg adeg y Chwyldroad, dïau y deuid o hyd i bethau rhyfedd. Y mae perlau hanesyddol a chrefyddol y genedl heddyw yn gorwedd yn llwch a lludw ei herledigaethau. Gallesid tybied ar adeg y Chwyldroad yn 1688, na ddaethai dim llwyddiant ar enwad a erlidid mor ddidrugaredd. Ond y mae amser wedi profi yn wahanol. Gallesid meddwl fod natur ei gyfansoddiad, yr hyn a arweiniai lawer o'r eglwysi i fyw yn unigol, a rhagfarn y wlad yn erbyn yr hyn a ystyrid yn ddull anweddaidd (?) o weinyddu bedydd, &c., yn llesteirio y llwyddiant mewn modd rhyfedd. Ond nid felly y bu. Yn hyn cymmhara y Bedyddwyr mewn modd rhyfedd â'r Crynwyr, oeddynt lawn mor selog a lliosog a hwythau. Daliodd y Bedyddwyr ystorm y dadleuon duwinyddol gyda phybyrwch. Gweithiasant eu ffordd, pan yr oedd eraill ar dir cyffredinol yn blaid o fwyafrif i'w herbyn; ac erbyn heddyw, y maent yn blaid liosog a dylanwadol. Meddant eu 'Hundeb;' cyfarfodydd yr hwn a gynnelir o flwyddyn i flwyddyn. Sefydlwyd ef yn y fl. 1866; ac mae ganddo saith o gymdeithasau o dan ei nawdd. Meddant, hefyd, eu Hundeb o'r Ysgolion Sabbothol; a bu cynnydd eu hysgolheigion Sabbothol yn ystod y ganrif fel y canlyn:—

Yr oeddynt yn

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1794 | yn rhifo | 7,058 | 1888 | yn rhifo | 100,563 |
| 1846 | ,, | 28.734 | 1889 | ,, | 102,485 |
| 1872 | ,, | 61,167 | 1890 | ,, | 103,352 |
| 1882 | ,, | 83,302 | 1891 | ,, | 100,934 |
| 1885 | ,, | 95,500 | 1892 | ,, | 106,721 |
| 1886 | ,, | 95,992 | 1893 | ,, | 112,065 |
| 1887 | ,, | 100,230 | a pharhânt i lwyddo. | | |

*Cynnydd aelodaeth eglwysig yn ystod y ganrif.*—Yr ystadegaeth gyntaf sydd genym i'n llywodraethu yn y cyfnod hwn yw yr un a geir yn 'Nghymmanfa Bedyddwyr Cymru,' a gynnaliwyd yn Heol y Prior, Caerfyrddin, yn y fl. 1787 — y flwyddyn y llafuriai Morgan John Rhys yn Hengoed. Yn ol yr ystadegaeth hon, yr oedd yn Nghymru 40 o eglwysi, a 402 wedi eu bedyddio yn ystod y fl. (1786,) 71 wedi marw, 72 wedi eu diarddel, 28 wedi eu hadferyd, 3 wedi eu derbyn trwy lythyrau; a'r cynnydd am y flwyddyn yn 290. Ni cheir yma rif yr aelodau. Yn y fl. 1794, sef yn mhen saith mlynedd ar ol hyn, a saith mlynedd cyn dyfodiad y ganrif hon i mewn, y cafwyd y cyfrifiad cyntaf o'r aelodau, yr hyn oedd 7,058. Erbyn hyn, y mae gan y Bedyddwyr yn Nghymru dair athrofa cyssylltiedig â'r prif ysgolion, deg o Gymmanfaoedd Cymreig, a thair o rai Saesnig; ac er na chyfrifant fabanod yn aelodau, rhifant 100,999 o aelodau, ynghyd â 125,000 o wrandawyr. Meddant yn y Dywysogaeth 780 o eglwysi; 483 o weinidogion yn meddu gofal eglwysi; 491 o weinidogion a phegethwyr cynorthwyol. Bedyddiwyd yn y fl. 1893 agos i 7,000; yr oedd y cynnydd rhydd am y flwyddyn yn 3,396, ac y maent wedi darparu lle i addoli ar gyfer un o bob chwech o'r trigolion.

*Trem ar y Bedyddwyr drwy'r Byd yn* 1893.

CYFANRIF.

| | Eglwysi. | Gweinid. a Chenadon. | Aelodau. | Ysgolheigion. |
|---|---|---|---|---|
| EWROP | 3,705 ... | 2,584 ... | 422,103 ... | 553,895 |
| ASIA | 1,096 ... | 493 ... | 96,639 ... | 20,674 |
| AFFRICA | 50 ... | 125 ... | 3,357 ... | 2,660 |
| AMERICA | 39,508 ... | 25,545 ... | 3,474,920 ... | 1,401,114 |
| A'STRALASIA | 199 ... | 129 ... | 16,670 ... | 24,534 |
| Cyf. 1892 | 44,558 ... | 28,876 ... | 4,013,689 ... | 2,002,877 |
| ,, 1889 | 42.650 ... | 27,858 ... | 3,786,603 | |
| ,, 1886 | 37,478 ... | 22,150 ... | 3,326,542 | |

*Bedyddwyr o fewn yr Ymherodraeth Brydeinig.*

Yn Mhrydain Fawr, yr Iwerddon, ac Ynysoedd y Culfor:—Eglwysi, 2,803; gweinidogion a chenhadon, 1,858; aelodau, 337,409; ysgolheigion, 487,801.

Yn Canada: - Eglwysi. 829; gweinidogion a chenhadon, 280; aelodau, 80,362; ysgolheigion, 59,113.

Yn yr India, a Ceylon:—Eglwysi, 866; gweinidogion a chenhadon, 326; aelodau, 90,979; ysgolheigion, 18,201.

Mewn Talaethau eraill:—Eglwysi, 501; gweinidogion a chenhadon, 194; aelodau, 59,880; ysgolheigion, 59,648.

Yn y gwledydd tramor:—Eglwysi, 39,559; gweinidogion a chenhadon, 26,218; aelodau, 3,445,059; ysgolheigion, 1,378,114.

Prif Gyfanswm:—Yn y flwyddyn 1892—eglwysi, 44,558; gweinidogion a chenhadon, 28,876; aelodau, 4,013,689; ysgolheigion, 2,002,877.

Digitized by Google

Awduron yr ymgynghorwyd â hwynt yn yr erthygl:—*Enwogion y Ffydd*, o dan olygiaeth y Parch. John Peter, a Gweirydd ap Rhys. *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry*, gan Gweirydd ap Rhys. *Hanes y Bedyddwyr*, gan Josuah Thomas—o'r dechreuad hyd 1795. *Hanes y Bedyddwyr*, gan Cynddelw. 'Braslun o Hanes y Bedyddwyr' yn *Y Greal*, 1875. *Yr Hauwr*, Hydref, 1894. *Cyclopædia of Religious Denominations*, 1853. *Geiriadur Mathetes*. *Credöau y Byd*. *History of the Welsh Baptists*, gan J. Davis, Pittsburgh; ynghyd âg eraill a nodir yn nghorph yr erthygl.

BRUTE, WALTER. Ganwyd ef o deulu Cymraeg, oedd yn byw yn nghymmydogaeth Olchon, ar gyffiniau Brycheiniog a Henffordd. Er wedi ei fwriadu i fod yn glerigwr, ni chymmerodd urddau; a dewisodd yn hytrach fod yn amaethwr, a phregethu i'w gydwladwyr—yn annibynol ar glerigaeth. Tra yn Mhrifysgol Rhydychain, coffeidiodd egwyddorion Wickliff. Credai fod llwon, rhyfeloedd, a degymau yn anghyfreithlawn; a phleidiodd, gyda graddau helaeth o sêl, ryddid gwladol a chrefyddol. A barnu oddi wrth rai o'i sylwadau, ymddengys nad oedd efe yn credu yn yr angenrheidrwydd am fedydd dwfr—i fabanod, o leiaf. Meddai gydymdeimlad mawr â'r Bedyddwyr a'r Crynwyr. Tystiolaeth Titus Lewis am dano oedd, 'ei fod yn hynod o ran ei ddysg, ei ddawn, ei wybodaeth, ei sêl, a'i ras; ac mai efe, mae yn debyg, oedd y Cymro cyntaf a ddechreuodd ddiwygio ei gydwladwyr o dywyllwch Pabyddiaeth.' Dyma fel y dywedir am dano gan Charles Edwards hefyd yn *Y Ffydd Ddiffuant*: —'Yn amser y Wickliffiaid, yr oedd un Cymro nodedig, a elwid Walter Brute, o esgobaeth Henffordd; yr hwn oedd ddysgedig, ac yn dyfal gynghori eraill i dduwioldeb, er ei fod ef yn ŵr lleyg. Argyhoeddodd ei gydwladwyr am swyno drwy eiriau neu ddwfr bendigaid, gan ddangos 'na leshaodd enw yr Iesu i feibion Sceva.' Eglurodd mor wrthwynebol i'r Iesu oedd yr ymarweddiad cyffredin; gan fod Crist yn gorchymyn cariad, ac nid tywallt gwaed: a bod yr efengyl wedi diddymu y defodau cnawdol, a bod y pab yn eu hail osod hwynt i fyny.' Am ddynoethi y Babaeth, a dangos ei thwyll i'r bobl, dioddefodd Wickliff a'i ddilynwyr erledigaeth drom. Llwyddodd Wickliff ei hun i ddiangc yn weddol rhag cynddaredd y pab; ond nid felly Walter Brute. Dygwyd ef ger bron Esgob Henffordd ar y cyhuddiad o wrthwynebu y Babaeth, a dyweyd mai anghrist oedd y pab, ynghyd â llawer o bethau eraill. Cymmerodd hyn le tua'r fl. 1391. Ond gan mor eithafol oedd yr erledigaeth yn nghymmoedd ac ogofeydd y Mynydd Du, bu raid iddo ef ymguddio. Cymmaint oedd dylanwad Brute, a'i wrthwynebiad i'r Babaeth, fel, o'r diwedd, y cymmerodd yr esgobion, y parsoniaid, y mynachod, ac uchelwyr yr ardal, yr achos i fyny gyda difrifoldeb; a dywedir fod hyd yn oed Rhisiard II. wedi cymmeryd rhan yn ei erledigaeth. Y mae hyn oll yn myned i brofi fod Walter Brute yn ddyn anghyffredin: a bod ei ddylanwad yn peri dychryn, nid yn unig i'r clerigwyr gwledig, ond hefyd i'r prif awdurdodau Pabaidd. Pa beth a ddaeth o hono ar ol hyn nid oes gwybodaeth; ond gellir bod yn sicr na chafodd efe nemawr o ryddid gan y gelynion anghymmodlawn oedd yn sychedu am ei waed.

BRUTUS. Yn ol yr hanesion ffugiol Cymreig, mab ydoedd efe i Sylvius Ascanius, a brenin cyntaf Prydain. Pan yn bymtheg mlwydd oed, saethodd ei dad yn ddamweiniol, pan allan yn hela; ac am hyn, cafodd ei alltudio o'r Eidal gan ei daid. Ymneillduodd yntau i Groeg, lle y daeth i gyfathrach â nifer o'r Troiaid a wasgarwyd gan ryfel Caerdroiau. Deallasant hwy ei fod o'r un boncyff a hwythau; a chan eu bod yn gweled ynddo deilyngdod uchel, trodd yr holl genedl ato i geisio ei amddiffyn rhag gorthrymder y Groegiaid. Wedi gorfodi i Pandrasus, brenin Groeg, roddi Inogen, ei ferch, yn wraig iddo, a darparu nifer fawr o longau, efe a gychwynodd allan i'r môr. Wedi hyny, cyflawnodd wrhydri lawer ar dueddau Môr y Canoldir; a daeth i Fôr y Werydd, lle yr ennillodd fuddugoliaethau ar frenhinoedd Gaul, ac yr ysbeiliodd hwynt o'u cyfoeth. Yna cyrhaeddodd i ynys, lle yr oedd teml i'r dduwies Diana. Efe a benliniodd, gyda nifer o'i ganlynwyr, ger bron yr allor, lle yr oedd delw y dduwies. Brutus, gan sefyll ger bron yr allor, a dal yn ei law lestr cyssegredig, wedi ei llenwi â gwin, ynghyd â gwaed ewig wen, a anerchodd y dduwies fel hyn:—

'Duwies y Coed! yr hon wyt ddychryn byw
I'r Baeddod gwyllt, a'r holl farbaraidd ryw!
Dros yr awyrawl fyd, dy deyrnedd sydd,
A chylchoedd abred pell—lle nad oes dydd!
Edrycha i lawr ar hwn—dy drydedd fyd—
Dadguddia 'r wlad, lle cawn breswylio 'nghyd,
A chodi i ti deml, lle trwy hawl,
Y gallwn ddathlu iti fythol fawl.'

Adroddodd y geiriau uchod naw gwaith, a rhoddodd bedwar tro o gylch yr allor. Yna tywalltodd y gwin i'r tân, a gorweddodd i lawr ar groen yr ewig, a chysgodd. Ar y drydedd awr o'r nos, medd yr hanes, gwnaeth y dduwies ei hymddangosiad, a rhagfynegodd iddo ei lwyddiant dyfodol fel y canlyn:—

'Brutus! draw, draw yn y Gorllewin Fôr
Ar ynys gain, pennodwyd ti yn bôr,
Meddiannid hi, un waith gan gewri gwrdd,
Y rhai sydd raid i ti eu hymlid ffwrdd;
Yno pennododd ffawd y bydd i ti
Sylfaenu Troai Newydd—ddel mewn bri,
Ac ymherodraeth yn dy freiniol lin,
A bâr drwy oesau 'r byd o hyd yr un.'

Hwyliasant ymaith ar hyn, a glaniasant yn swydd Dyfnaint yn yr ynys hon. Cymmerodd hyn le tua 1200 wedi'r diluw; a galwyd yr ynys wedi hyny yn Brudain, neu Prydain. Bu i Brutus dri mab; sef, Locrinius, Camber, ac Albanactus. Bu farw y 24ain flwyddyn wedi dyfod yma. Ceir hanes manylach am ei daith a'i anturiaeth yn y *Myvyrian Archaiology*.

BRYFFWRCH, SEISYLLT. Bardd o fri oedd efe, yn byw rhwng 1160 a 1210; yr hwn oedd mewn ffafr yn ngolwg Madog ab Meredydd, tywysog Powys Fadog; yr hwn fyddai yn cynnal pencerdd yn ei lys, yn ol yr arferiad cyffredin. Bu ymrysonfa yno unwaith rhwng Seisyllt Bryffwrch a Chynddelw am yr anrhydedd hwn. Ceir tri chyfansoddiad byr o eiddo Seisyllt Bryffwrch yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology*; sef, Awdl Farwnad i Iorwerth fab Owain; Marwnad Owen Gwynedd; a Chân i'r Arglwydd Rhys.

BUGI:—un o feibion Gwynlliw Filwr, Arglwydd Gwenllwg, yn Mynwy. Yr oedd efe yn byw yn y chweched ganrif. Ymroddodd i

Digitized by Google

fywyd crefyddol, a rhoddodd ei holl feddiannau i goleg ei frawd, Cattwg o Lancarfan. Efe oedd tad Beuno.

BULGARIA. Tywysogaeth yn ngorynys y Balkan, yn gorwedd rhwng yr afon Danube a Mynyddoedd y Balkans, ac a wnaed yn dywysogaeth trwy Gyttundeb Berlin, ar Gorphenaf 13eg, 1878.

*Maintioli, ac Arwynebedd*, &c.—Ei maintioli ydyw 24,699 mill. pet.; a Roumelia Ddwyreiniol yn 13,861. Y mae y ddwy gyda'u gilydd tua dwy ran o dair o faintioli Lloegr, heb gyfrif Cymru. Math o wastadedd ffrwythlawn ydyw Gogledd Bulgaria, gyda rhanau bryniog mewn ambell fan. Y mae y deheubarth yn goediog a mynyddig. Mae'r hinsawdd yn dyner, a'r tir yn gyfryw ag sydd yn hawdd ei amaethu. Gellid, gydag ychydig drafferth, ddiwyllio y tir yn y fath fodd ag i gynnal cymmaint bum waith a'r boblogaeth bresennol. Mae cyfansoddiad y wlad yn un o'r rhai mwyaf rhyddfrydig sydd yn Ewrop; a'r bobl, yn y cyffredin, yn ddiwyd ac egniol. Felly, rhwng pobpeth, y mae hawl Bulgaria i fod yn 'deyrnas' yn ddiammheuol, gan nad beth a ddywedir gan Rwssia, a gwledydd eraill sydd yn elyniaethus i'w hawliau.

Y mae Roumelia Ddwyreiniol erbyn hyn wedi ei chyssylltu â Bulgaria; ac y mae hi mewn rhai pethau o flaen y fam wlad. Cafodd addysg, defion, a diwylliant gwledydd eraill Ewrop fwy o ddylanwad arni; a bu ei chynnydd yn gyflymach yn y pethau hyn na Bulgaria Briodol.

*Amaethyddiaeth*, &c. — Y mae neillduolion naturiol y wlad yn amrywiol. Yn ol yr ystadegau diweddaf, yr oedd agos i filiwn a thri chwarter (1,663,000) o erwau o dir dan driniaeth.

*Y Llywodraeth.*—Yn ystod y ddwy flynedd cyntaf o'u cyssylltiad â'u gilydd, yr oedd y ddwy wlad mewn ymryson parhaus â'u gilydd; ond ychydig o drafferth a gafodd y Bulgariaid i sicrhau y llaw uchaf. Yr oedd trigolion y ddwy wlad yn dra awyddus am undeb; a pharodd y sylweddoliad o'r dymuniad hwn i'r wlad ennill gryn lawer mewn ystyr wladol. Y mae maintioli y ddwy wlad gyda'u gilydd yn 38,560 mill. pet.; a'u poblogaeth tua 3,305,458—y rhai sydd yn cael eu gwneyd i fyny o wahanol genhedloedd a llwythau.

Fel y dywedwyd, fe gyhoeddwyd Bulgaria yn dywysogaeth feddiannol ar hunan-lywodraeth trwy Gyttundeb Berlin, yn 1878. Er hyny, mewn enw, yr oedd i fod dan awdurdod Twrci; ond fod y gallu gweinyddiadol i fod yn llaw Tywysog Bulgaria—i'w gynnorthwyo gan gynghor o weinidogion. Yr oedd yr awdurdod deddf-wneuthurol i fod yn llaw yr hyn a elwir Cymmanfa Genedlaethol (*National Assembly*); yr hon oedd i gael ei hethol am dair blynedd—yn ol y drefn, fod un aelod i fod ar gyfer pob deng mil o'r boblogaeth. Yn 1883, cafodd math o senedd arall ei ffurfio yno; a phenderfynwyd fod i bob deddf gael ei harchwilio a'i phasio gan y ddwy senedd, a'i chymmeradwyo gan y tywysog. Yn Mai, 1893, gwnaed cyfnewidiad o berthynas i gyfansoddiad y senedd. Gwnaed deddf newydd—fod aelodau yr *Ordinary Sobranje* i gael eu hethol yn ol un ar gyfer pob ugain mil o'r boblogaeth; ac un ar gyfer pob deng mil i'r *Great Sobranje*. Yn ol hyn, rhif yr aelodau fyddai tua 161 o'r naill, a 322 o'r llall. Hefyd, estynwyd oes pob senedd o dair i bum mlynedd. Yn Rhagfyr, 1892, cyhoeddwyd gan M. Stambuloff, prif weinidog y wlad, nifer o gyfnewidiadau pwysig oedd i gael eu dwyn o amgylch yn y cyfansoddiad gwladol; y pwysicaf o ba rai oedd, fod i'r Tywysog Ferdinand, a'r cyntaf o'i olynwyr, gael mwynhau eu credöau eu hunain, yn hytrach na'u bod yn gorfod mabwysiadu credo gyffredin y wlad.

*Cyllid.*—Yr oedd cyllid y wlad, yn ol yr ystadegau diweddaf, fel y canlyn:—

| | | |
|---|---|---|
| Derbyniadau cyhoeddus, yn 1892... | | *P.*3,305,876 |
| Treuliau cyhoeddus, | etto... | 3,529,923 |
| Cyfanswm y dadforion, yn 1892... | | 3,092,130 |
| „ yr allforion, | etto... | 2,985,614 |
| Dadforion o'r Deyrnas Gyfunol, 1892 | | 717,185 |
| Allforion i'r „ „ | etto.. | 292,268 |

Y prif drefydd ydynt Sofia—eisteddle yr awdurdod gwladol; yr hon sydd yn meddu poblogaeth o 32,452; a Philippopolis, o 33,032; a Tirnova, o 13,673.

BULKELEY, ARTHUR, Ll. D. Yr oedd efe yn aelod o'r teulu henafol sydd yn parhau etto yn Ynys Môn. Wedi cwblhau ei addysg athrofaol, cafodd berigloriaeth eglwysig yn ei wlad enedigol. Yr oedd yn dal bywoliaeth Llanddeusant tua'r fl. 1535; a rhywle o ddeutu yr adeg hono, fe'i gwnaed ef yn gynon (*canon*) Llanelwy. Wedi bod o hono yn dal bywoliaeth yn Llundain am dymmor, dyrchafwyd ef, yn 1541, i esgobaeth Bangor. Y mae profion ar gael iddo gyflawni ei ddyledswyddau esgobawl yn ganmoladwy; ac efe, meddir, oedd yr esgob cyntaf i breswylio o fewn ei esgobaeth am gan mlynedd. Bu farw yn Mangor, yn 1552; a chladdwyd ef o fewn i furiau yr eglwys gadeiriol.

BULKELEY, LANCELOT, D. D.: — Mab ieuangaf Syr Rhisiart Bulkeley, a anwyd yn Beaumaris yn 1568. Graddiodd yn A. C. yn y flwyddyn 1593; ordeiniwyd ef yn ddiacon yr un flwyddyn; ac yn uniongyrchol, derbyniodd fywoliaeth Llanddyfnan. Y mis Mawrth canlynol, cafodd fywoliaeth Llandegfan. Wedi bod am amser yn y plwyfydd uchod, aeth drosodd i'r Iwerddon, a dyrchafwyd ef yn Archddiacon Dublin. Ar yr 11eg o Awst, 1619, gwnaed ef, trwy fraint-lythyrau, yn Archesgob Dublin, i'r hon swydd y cyssegrwyd ef Hydref 3ydd, yr un flwyddyn. Yn mhen ychydig ar ol hyny, pennodwyd ef gan Iago I. yn aelod o'r cyfrin-gynghor. Mewn canlyniad i gythrwfl a godwyd gan y Jesuitiaid a'r Mynachod Carmelaidd, bu ei fywyd mewn cryn berygl o ddeutu'r fl. 1629; ac oni buasai iddo gael nodded mewn annedd-dŷ, y tebygolrwydd ydyw y cawsai ei lofruddio. Efe ydoedd yr archesgob a adnewyddodd yr hen ddadl ynghylch y flaenafiaeth, yr hon a gymmerodd le rhyngddo a'r Esgob Hampton; ac ar ei ol, rhyngddo a'r Archesgob Usher. Ar y 1af o Dachwedd, 1649, traddododd bregeth ymadawol yn Eglwys Gadeiriol St. Patrick; ac ar yr achlysur hwn y darllenwyd y ffurf-wasanaeth yn gyhoeddus ddiweddaf hyd yr Adferiad—oddi eithr yn nghapel y coleg. Am y trosedd hwn, mynodd yr awdurdodau fwrw yr archesgob i garchar. Bu farw yn Tanlaughta, Medi 8fed, 1650, yn 82ain mlwydd oed. Trosglwyddwyd ei gorph oddi yno i Eglwys Gadeiriol St. Patrick; a chladdwyd ef ynddi o dan fwrdd y cymmundeb.



Digitized by Google

**BULKELEY, RHISIARD.** Un o hen deulu Baronhill, ger Beaumaris, a gŵr o gryn enwogrwydd. Y cyntaf o'r teulu i ymsefydlu yn Ynys Môn oedd William Bulkeley; yr hwn a bennodwyd yn gwnstabl Castell Beaumaris yn y flwyddyn 1440; ac o'i hiliogaeth yr hanodd gwrthddrych yr erthygl hon. Priododd William Bulkeley Ellen, merch William Gruffydd, o'r Penrhyn, a gweddw i ŵr o'r enw Robert Paris. O'r briodas hon, y ganwyd Roland Bulkeley, sef Arglwydd Hotcroft, yr hwn a briododd ferch i William Berkinchall, o swydd Gaerhirfryn. Ganwyd iddynt hwy amryw o blant; ac yn eu mysg yr oedd Syr Rhisiard Bulkeley, Argl. Hotcroft; yr hwn a briododd Catrin, merch Syr William Gruffydd, o'r Penrhyn. Yr oedd y boneddwr hwn yn aelod seneddol dros sir Gaernarfon yn y senedd a ddechreuodd yn y 33ain o deyrnasiad Harri VIII.; ac efe a bennodwyd yn sirydd sir Gaernarfon am ei oes, trwy freint-lythyrau. Y mab hynaf o'r briodas uchod oedd Syr Rhisiard Bulkeley; yr hwn a wnaethpwyd yn farchog yn Berwick gan Iarll Warwick, yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Iorwerth VI. Yr oedd efe hefyd yn aelod seneddol dros sir Fôn yn ail senedd y frenhines Elizabeth, a ddechreuodd Ionawr 11eg, 1562–3. Yr oedd efe hefyd yn sirydd swydd Caernarfon yn 1550 a 1558; a gwasanaethodd yr un swydd dros Fôn yn 1561. Bu farw yn y flwyddyn 1569.

Mab i'r uchod oedd Syr Rhisiard Bulkeley, gwrthddrych yr erthygl bresennol. Ganwyd ef yn y fl. 1553; a thyfodd i fyny yn un o gymmeriadau mwyaf nodedig ei oes. Yn y senedd a ddechreuodd Ebrill 2il, 1571, eisteddai fel cynnrychiolydd Môn; a bu hefyd yn aelod swyddol yn ystod teyrnasiadau Iago, a Mari, ac Elizabeth. Bu hefyd yn gwasanaethu fel sirydd Môn yn 1570. Urddwyd ef yn farchog yn Whitehall, Chwefror 17eg, 1576—y dydd cyn ei briodas. Yr oedd efe yn ddarllenwr mawr ar hanesyddiaeth; a meddai wybodaeth helaeth am wahanol wledydd a theyrnasoedd. Meddiannai gôf rhagorol, a gwybodaeth fanwl am amaethyddiaeth, morwriaeth, a llongadeiladaeth, &c. Dygwyd cyhuddiad yn ei erbyn yn nghynghor Arglwydd y Terfynau o fod yn droseddwr yn erbyn y llys hwnw; ond amddiffynodd ei hun mor fedrus fel yr ennillodd fuddugoliaeth drwyadl. Yr oedd yn ddyn caredig a chroesawus—yn hynod am ei lettygarwch, a'i haelioni. Anfonai ddwy long bob blwyddyn i Greenland i ddal pysgod; y rhai a gyfnewidiai yn Yspaen a Malaga am wirodydd. Yr oedd yn feddiannol ar lawer o feirch, ac ymhyfrydai ynddynt. Yr oedd ei etifeddiaethau yn dwyn iddo y pryd hwnw tua 4,300*p.* yn flynyddol. Bu ymryson mawr rhyngddo a Dudley, Iarll Leicester; i'r hwn y rhoddodd y frenhines hawl helwriaeth, neu geidwadaeth coedwigoedd yr Eryri. Wedi cael y swydd hon, ymddygai Dudley yn ormesol tuag at drigolion Meirionydd, Caernarfon, a Môn; a bygythiai ddwyn y rhan fwyaf o diroedd rhydd-ddaliadol y siroedd hyny o fewn terfynau ei awdurdod. Cymmerodd Syr Rhisiard yr achos i fyny; a thrwy ei benderfyniad di-ildio, efe a lwyddodd i ddyrysu holl gynlluniau anfad Dudley. Cythruddwyd yr iarll yn fawr o herwydd hyn; a chyhuddodd Syr Rhisiard o fod yn rhanog yn mradwriaeth Babbington yn erbyn y frenhines. Profodd ef ei ddiniweidrwydd, modd bynag, er mawr foddhâd i'w mawrhydi. Bu farw ar yr 21ain o Fehefin, 1621, yn 88ain mlwydd oed; a chladdwyd ei weddillion yn Beaumaris. Gadawodd deulu lliosog ar ei ol.

**BURMAH, YN 1894.** Tiriogaeth ëang ydyw, yn neheubarth Asia, yn cael ei therfynu ar y gogledd a'r gorllewin gan fynyddodd Thibet, Assam, a Manipur; ar y dwyrain gan diriogaeth China; ac ar y deheu-ddwyrain mewn rhan gan Siam. Y mae y wlad yn rhanedig i ddwy ran fawr—Burmah Uchaf, arwynebedd yr hon yw 83,473 mill. pet.; a Burmah Isaf, yr hon a fesura 87,957 mill. pet. Teneu ydyw y boblogaeth, wrth ystyried maintioli y dalaeth. Yn 1891, rhifai poblogaeth Burmah Isaf tua 4,658,627; a Burmah Uchaf, 2,946,933. Prif dref Burmah Isaf yw Rangoon, gyda phoblogaeth o 180,324. Prif dref Burmah Uchaf yw Mandalay—poblogaeth yr hon yw 188,815.

Y mae tri o lwythau neu deuluoedd mawrion yn y wlad; y penaf o ba rai ydyw llwyth y Mran-má—oddi wrth yr hwn y mae y gair 'Burmah' yn tarddu. Nid oes ond ychydig yn hysbys am haniad a hanes boreuol y brodorion; ond ceir olion yn y wlad, meddir, fod gwareiddiad yn bod yno yn yr oesoedd boreuol. Bernir fod llawer o frwydrau gwaedlyd wedi cymmeryd lle rhwng trigolion y wlad a'u gilydd; ac y mae'n hysbys fod y Chineaid wedi talu dau ymweliad gelyniaethus â hi, o leiaf. Y mae y diriogaeth yn hynod ffrwythlawn, yn enwedig felly yn nyffryn yr afon Irrawaddy; yr hon y gellir ei mordwyo gyda chychod lled fawr am chwe chan milldir o Fau Bengal. Ceir cyflawnder o fŵnau gwerthfawr yno; ac hefyd *rubies*—gemau gwerthfawr fu yn foddion i ddenu morwyr anturiaethus i ymweled â'r wlad yn y blynyddoedd a aethant heibio. Y mae yno gyflawnder o olew *petroleum* hefyd.

Crefydd y trigolion yw Budhistiaeth; ond y mae hi yn gwahaniaethu i raddau oddi wrth y grefydd hono mewn gwledydd eraill; o blegid caniateir pob rhyddid i gredöau eraill, cyhyd ag yr ymattelir rhag proselytio y brodorion. Mae'r wlad yn orchuddiedig â themlau y grefydd hon; y rhai, gyda'r clerigwyr, a gynnelir trwy roddion gwirfoddol y bobl.

Cafodd Burmah Uchaf ei chyssylltu â'r rhan arall o'r wlad yn 1886; a'r pryd hwnw daeth yr holl diriogaeth yn rhan o'r ymherodraeth Brydeinig. Yn ddilynol i hyn, achoswyd helyntion blinion yn y wlad gan y llwythau rhyfelgar. Cyflawnid gweithredoedd ysgeler gan y llwythau hyn; a pharai eu hymgyrchoedd gelyniaethus i fasnach y wlad ddioddef yn fawr. Cymmerodd ysgarmesoedd gwaedlyd le lawer tro rhwng y llwythau uchod a'r milwyr Prydeinig. Cymmerai yr helyntoedd hyn le yn barhaus rhwng 1886 ac 1891. Y llwyth oedd fwyaf yn y camwedd hwn oedd y Chins, neu y Kachins; y rhai oedd yn byw yn nghyrion rhanbarthau Bhamo a Katha, yn Burmah Uchaf. Achosasant drafferth a phryder mawr i awdurdodau Prydain; a lladdwyd lliaws o filwyr y wlad hon, yn gystal a llawer o honynt hwy, yn yr ysgarmesoedd a gymmerasant le. Ond o'r diwedd, trechwyd y gwrthryfelwyr, a thawelwyd y cyffroadau; ac y mae llywodraeth y wlad, bellach, yn cael ei chario yn mlaen yn llwyddiannus a heddychol dan brif ddirprwywr, yr hwn yn bresennol yw Syr Alexander Mackenzie. Cynnorthwyir ef gan nifer o swyddogion eraill.

Digitized by Google

Er dechreu Ionawr, 1886—yr adeg pan chwanegwyd Burmah Uchaf at y diriogaeth Brydeinig, y mae bywiogrwydd mawr wedi cymmeryd lle ynglŷn â gosod i lawr ffyrdd-haiarn yn y wlad. Y mae amryw linellau pwysig eisoes wedi eu gorphen, ac eraill i gael eu gosod i lawr mor fuan ag y bydd hyny yn bossibl. Gan fod Burmah yn gyfoethog mewn adnoddau mwnawl, a'r rhai hyny etto heb eu dwyn i gyrhaedd y marchnadoedd, bydd y ffyrdd haiarn hyn yn foddion arbenig i ddadblygu mwngloddiau y wlad. Gweithir y mwngloddiau gan y llwythau lleol, o dan arolygiaeth Chineaid; ac yn mysg y mŵnau a gloddir yno, ceir aur, arian, *rubies*, *jade*, a glô. Dywedir mai yn y meusydd mwnawl sydd i'r gogledd o Mandalay, yn Burmah Uchaf, y ceir y *rubies* gwerthfawrocaf yn yr holl fyd; ac er y flwyddyn 1888, y mae peiriannau Ewropaidd wedi eu cymmhwyso at weithio y mwngloddiau hyn.

Cyhoeddir rhai ffeithiau dyddorol o berthynas i'r boblogaeth. Personau yn meddu ar gyrph byr cydnerth, ydyw y Burmahiaid. Gwisgant eu gwallt yn hir; ond ychydig o flew a dŷf ar eu hwynebau. Y maent yn bobl o dymmherau bywiog, yn hoff o ddifyrwch, ac yn wrol. Y pechod parod i'w hamgylchu ydyw lladrad; ac y mae y wlad wedi dioddef yn enbydus oddi wrth ymgyrchoedd ysbeilgar ei phreswylwyr ei hun. Cyflawna y lladron hyn lofruddiaethau ysgeler pan ar eu hyntoedd ysbeilgar. Y mae nifer y troseddau, a'r troseddwyr, yn fwy ar gyfartaledd yno nag mewn un dalaeth arall yn India. Derbynia y merched yno driniaeth led foddhaol oddi ar law y dynion—llawer gwell nag a dderbyniant mewn llawer eraill o wledydd y dwyrain. Y mae yn y wlad dros 20,000 o fynachod; y rhai a eilliant eu penau, a wisgant ddillad llaesion, ac a drigant mewn mynachlogydd.

Prif ysgolion y wlad ydyw mynachlogydd y Budhistiaid, yn mha rai y gorfodir pob bachgen i dreulio rhan o'i febyd. Dysgir y bechgyn i ddarllen ac ysgrifenu yn mhob un. Dangosai cyfrifiad 1881—y diweddaf a dderbyniwyd ar y pen hwn—y gallai 61 y cant o'r gwrywod yn Burmah Isaf ddarllen ac ysgrifenu. Ni roddir derbyniad i enethod yn ysgolion y mynachod.

Llywodraethir Burmah, fel y crybwyllwyd yn barod, ar ran Rhaglaw India gan brif ddirprwywr, pencadlys yr hwn sydd yn Rangoon. Rhenir y diriogaeth yn wyth o dalaethau; ar ba rai y mae is-ddirprwywr yn gweithredu fel swyddog barnol, a gweinyddol. Y mae amryw ddirprwywyr cynnorthwyol yn gweithredu dan yr is-ddirprwywyr.

Yr oedd y dadforion yn 1891, yn 1,057 *lakhs of rupees*, neu 10,570,000*p.* o arian Prydain; a'r allforion yn 1,267 *lakhs of rupees*, neu 12,670,000*p.* Y mae *lakh of rupee* yn gyfystyr a 10,000*p.* o'n harian ni.

BURTON, SYR RICHARD FRANCIS. Un o deithwyr beiddgaraf a mwyaf llwyddiannus y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ganwyd ef yn 1821, yn swydd Hertford. Mab ydoedd efe i'r Milwriad J. N. Burton; a derbyniodd ei addysg yn Lloegr a Ffraingc. Ymmunodd â'r fyddin yn 1842, a bu yn gwasanaethu dan Syr Charles Napier yn India. Tra yno, daeth yn hyddysg yn ieithoedd Hindwstan a Persia; a dysgodd siarad iaith Arabia yn debyg fel y gwnai un o frodorion y wlad. Ychydig oedd yn hysbys y pryd hwnw am yr Arabiaid, a'u dull o fyw; gan nad oedd neb, o'r braidd, wedi llwyddo i wneyd taith trwy y wlad. Penderfynodd Burton y mynai daflu goleuni ar y dirgelwch hwn; ac wedi ymweliad byr â Lloegr yn 1851, cychwynodd allan ar y daith beryglus yn niwyg pererin Affghanaidd; a chyhoeddodd ffrwyth ei ymchwiliadau mewn cyfrol yn dwyn y teitl, *A Personal Narrative of a Pilgrimage to El Medinah and Mecca* (1855). Y mae y ffeithiau a geir yn y gyfrol hon yn cynnwys hanes manwl am un o'r anturiaethau mwyaf beiddgar a gyflawnwyd erioed. Y daith nesaf o'i eiddo oedd yr un a wnaeth i wlad Somâlis, yn nwyreinbarth Affrica. Yn 1856, aeth allan gyda'r teithiwr enwog Speke, ar yr ymdaith a arweiniodd i ddarganfyddiad ac i archwiliad llyn enfawr Tanganyika. Wedi hyny, bu yn teithio yn ngogleddbarth yr America. Priododd yn 1861. Yn fuan ar ol hyny, pennodwyd ef yn drafnoddydd dros Brydain yn Fernando Po. Tra yn dal y swydd hon, ymwelodd â Mynyddoedd y Cameroons; ac aeth hefyd ar neges at frenin Dahomey. Yn ddilynol, bu yn gwasanaethu mewn swydd debyg yn Brazil a Damascus; ac yn 1872, dilynodd Charles Lever fel trafnoddydd Prydeinig yn Trieste. Yn y blynyddoedd 1876—78, talodd ddau ymweliad â Thir Midian, ynghyd âg amryw leoedd eraill o fewn cylch ei swyddogaeth. Yr oedd yn gydnabyddus â phymtheg-ar-hugain o ieithoedd a thafod-ieithoedd; ac am ei wasanaeth ammhrisiadwy fel archwilydd a theithiwr, derbyniodd fathodyn aur Cymdeithasau Daearyddol Lloegr a Ffraingc. Gwnaed ef yn farchog yn 1886. Bu farw Hydref 20fed, 1891, yn 70ain mlwydd oed. Yn mysg yr amrywiol lyfrau a ysgrifenodd, gellir enwi *First Footsteps in East Africa* (1856); *The Lake Regions of Central Africa* (1860); *The City of the Saints* (1861); *Wanderings in West Africa* (1863); a *The Nile Basin*, *Vikram and the Vampire* (1869). Ysgrifenodd ddau lyfr ar *Sind* yn Affrica; ynghyd â gweithiau dyddorol a dysgedig ar Goa, Abbeokuta, Paraguay, Brazil, Syria, Zanzibar, Iceland, Bologna, a Midian. Yn 1885—88, cyhoeddodd gyfieithiad newydd a llythyrenol o'r *Arabian Nights*, o dan y teitl o *The Thousand Nights, and a Night*, mewn cynnifer ac un-ar-bymtheg o gyfrolau.

BEECHER, HENRY WARD. Un o ddynion enwocaf yr Unol Dalaethau oedd efe. Yr oedd yn fab i Dr. Lyman Beecher, y duwinydd enwog o New Haven, Connecticut. Yr oedd bron yr oll o'r teulu hynod hwn, yn feibion a merched, yn meddu talentau disglaer; ond yr enwocaf o honynt oedd efe. Ganwyd ef yn Litchfield, Connecticut, Mehefin 24ain, 1813; ac wedi graddio yn Ngholeg Amherst, Massachusetts, yn 1834, efe a fu yn efrydu o dan ei dad yn Athrofa Dduwinyddol Lane. Yn 1839, galwyd ef i Indianapolis, yn Nhalaeth Indiana; lle y bu yn llafurio am wyth mlynedd, ac y daeth i sylw fel un o bregethwyr galluocaf a mwyaf hyawdl y wlad. Gwnaeth enw anrhydeddus iddo ei hun hefyd trwy y dyddordeb mawr a gymmerodd yn rhai o brif gwestiynau y dydd—yn wladol ac yn gymdeithasol. Un o'r cwestiynau, yr hwn a gafodd fwyaf o sylw yn y Talaethau Unedig y pryd hwnw, oedd y gaethfasnach. Cymmerodd ymdrafodaethau le arno mewn gwahanol gylchoedd crefyddol yn

Digitized by Google

ngwahanol dalaethau y wlad, a chynnygiwyd penderfyniadau yn y cymdeithasfaoedd i'r perwyl 'mai dyledswydd pob gweinidog oedd codi ei lais yn erbyn caethwasiaeth, pa le bynag y byddai.' Teimlai Beecher ddyddordeb mawr yn y symmudiad; ac ni bu yn ol o gymmeryd mantais ebrwydd ar y penderfyniad uchod trwy draddodi nifer o bregethau ar y cwestiwn; yn mha rai y condemniodd y gyfundrefn yn y modd mwyaf dïarbed.

Chwaer iddo oedd Mrs. Harriet Beecher Stowe, awdures *Uncle Tom's Cabin*—Caban F'ewythr Twm, yr hwn a gyhoeddwyd yn Gymraeg, ac mewn llawer o ieithoedd eraill; ac a gynnorthwyodd yn ddirfawr i brysuro rhyddhâd y caethion yn yr holl Dalaethau. Cyhoeddwyd y llyfr mewn ffurf hynod yn Gymraeg, dan y teitl *Aelwyd F'ewythr Robert*—yn yr hwn y dangosodd y Parch. William Rees, D.D. *(Hiraethog)*, ei awdwr, ei allu mawr yn ei ddwyn i ffurf oedd yn taro y teimlad Cymraeg yn fwy nag yn y cyfieithiad arall o hono. Gwel d.g. STOWE, HARRIET BEECHER.

Yn 1847, ar sefydliad eglwys Gynnulleidfaol Plymouth, yn Brooklyn, Efrog Newydd, pennodwyd Mr. Beecher i fod yn weinidog arni. Yn fuan iawn, daeth ei enw i feddu dylanwad mawr drwy yr holl Ogledd. Ymgyrchai cynnulleidfaoedd lliosog i wrandaw arno; a rhoddwyd y sylw mwyaf i'w draethiadau ar y cwestiynau mawr yr ymwnelai a hwy. Ni chyfyngodd ei lafur i'w eglwys yn unig; er hyny, gydag ychydig fisoedd o eithriadau, gofalodd yn dyner am dani am y deugain mlynedd nesaf o'i fywyd. Llafuriodd gydag ymroddiad a dyfalwch diildio; a hyny hefyd gyda graddau helaeth o lwyddiant. Bu o gynnorthwy mawr hefyd yn sefydliad cylchgrawn o'r enw *The Independent* —yn yr hwn y rhoddid cryn sylw i gwestiynau gwleidyddol a chrefyddol, ac i'r hwn y bu efe yn ysgrifenydd cysson am tuag ugain mlynedd. Yr oedd efe yn ŵr a dyfai gyda'r amseroedd; ac yn y brwydrau etholiadol yn 1856 ac 1860, rhoddodd ei gefnogaeth i'r ymgeiswyr Gwerinol am yr arlywyddiaeth. Pan dorodd y Rhyfel Cartrefol allan, yr oedd ei deimlad ef, a'r eglwys y gwasanaethai iddi, gymmaint dros gyfiawnder eu hachos, fel y darfu iddynt, drwy eu cyfraniadau, godi a chynnal catrawd o wirfoddolwyr i ymladd ar y maes o blaid diddymiad caethwasiaeth drwy yr Unol Dalaethau. Yn y cyfamser, gweithiai Mr. Beecher yn ddifefl gyda'r achos hwn; a chyda phob achos daionus arall hefyd. Llafuriodd mor galed fel y bu raid iddo ymattal am amser, er mwyn ei iechyd. Cymmerodd fantais ar y cyfleusdra hwn i ymweled âg Ewrop, yn 1863; a thra yn aros yn Lloegr, efe a draddododd gyfres o anerchiadau ger bron cynnulleidfaoedd lliosog ar sefyllfa ei wlad enedigol. Cynnulleidfaoedd oerion, o ran teimlad, oedd y rhai hyn yn aml, a thra hwyrfrydig i dderbyn syniadau yr areithiwr ar y cwestiynau mawr yr ymwnelai efe â hwynt. Ond y mae yn rhesymol credu iddo lwyddo i argyhoeddi lliaws o gyfiawnder yr achosion yr ymdrechai ei lywodraeth o'u plaid.

Ar derfyn y rhyfel, yn y fl. 1865, yr oedd Mr. Beecher yn un o'r rhai blaenaf i ddadleu yn mhlaid ymgymmodiad y pleidiau, ar y cyfryw seiliau ag a droent yn ennill i'r naill a'r llall fel eu gilydd. Yr oedd ei syniadau, ac yn wir ei weithredoedd, yn yr achos hwn o natur mor ryddfrydig fel y buont yn foddion i ddyeithrio llawer o'i gyfeillion gwleidyddol oddi wrtho; ac yn eu mysg, golygydd yr *Independent*. Ar hyn, efe a dorodd bob cyssylltiad oedd rhyngddo â'r cylchgrawn hwnw.

Yn 1870, ymgymmerodd â golygiaeth *The Christian Union*—cylchrediad yr hwn a gynnyddodd mewn un flwyddyn, o 3,000 o gopïau yn wythnosol, i 30,000, ac uchod. Dengys y chwanegiad hwn ei boblogrwydd.

Y mae yn ddrwg genym hysbysu fod cwmwl du wedi codi uwch ei ben yn 1875; yr hwn, y mae'n debyg, oedd profedigaeth fwyaf ei oes. Cyhuddwyd ef gan rywun—o fysg ei elynion, mae'n debyg—o odinebu gydag un o aelodau ei eglwys. Dygwyd yr achos i'r llys; ond anghyttunodd y rheithwyr. Profwyd yr achos drachefn o flaen cynghor eglwysig; a phenderfynodd y cynghor yn ffafr Mr. Beecher. Wrth gwrs, dilynwyd hyn gan gyfnod o bryder nid bychan; ac er iddo deimlo ar hyd ei oes oddi wrth y brofedigaeth hon, ni bu yn hir cyn adennill, i raddau mawr, y dylanwad a'r poblogrwydd a gollodd. Ymwelodd â Phrydain Fawr yn haf y fl. 1886, a thraddododd nifer o anerchiadau a phregethau. Ar ei ddychweliad, ymaflodd yn ei ddyledswyddau gweinidogaethol drachefn mor awchus ag erioed; ac yn nghanol y llafur hwn y bu farw, Mawrth 8fed, 1887.

Heb law ei lafur gweinidogaethol, cyfansoddodd lyfrau o safon uchel, y penaf o ba rai ydynt:—*Star Papers*, a gyhoeddwyd yn 1875, ac a ymddangosasant gyntaf yn yr *Independent; New Star Papers* (1858), y rhai a ail gyhoeddwyd dan y teitl o *Summer in the Soul; Thoughts as they occur*, a gyhoeddwyd gyntaf yn y *New York Ledger*, ac a ail gyhoeddwyd yn 1864 gyda'r teitl o *Eyes and Ears; Lectures to Young Men* (1844 ac 1850); *Aids to Prayer* (1864); *Norwood, or Village Life in New England* (1867); *Lecture Room Talks* (1870); *Yale Lectures on Preaching* (1872—74); a *The Life of Jesus, the Christ*:—yr hwn oedd yn anorphenedig pan y bu farw.

Digitized by Google

# C.



CADAFAEL WYLLT. Mab oedd efe i Cynfedw; a chyfeirir ato yn y *Trioedd* fel tywysog o haniad tramoraidd; ond a etholwyd o blegid ei ddewrder, yn frenin ar Wynedd. Y ddau arall a gyssylltir âg ef yn y *Trioedd* ydynt Gwriad, fab Gwrien, yn y Gogledd; a Hyfaidd, fab Bleiddig, yn y Deheu. Dywedir mewn un arall o'r *Trioedd*, i Cadafael roddi bwyellawd yn mhen Iago ab Beli, brenin Gwynedd.

CADAIR (ail Seithin Seidi); yr hwn hefyd a elwir 'Cadeiriaith Seidi,' a 'Chadraith ab Porthawr Gadw,' a grybwyllir yn y *Trioedd* fel un o 'dri unben llys Arthur,' neu, 'y tri thywysog pen-teyrnawl;' y rhai a ddewisent adael eu tiroedd eu hunain, er mwyn cael preswylio o honynt yn llys Arthur. Y ddau arall oeddynt Gronw a Fleuder. Y mae yr enw 'Cadair,' hefyd, yn cael ei gyssylltu â Gwalchmai a Garwy, i ffurfio Triad, fel 'Tri Marchog Serchogion Llys Arthur,' &c.

CADFAN. Yr oedd efe yn fab i Iago ab Beli, ac yn olynydd ei dad ar orsedd Gwynedd, yn y flwyddyn 603. Wedi ymmuno o hono â Brochwael Ysgythrog, a thywysogion eraill Cymru a Chernyw, gorchfygodd Ethelfrith:—yr adyn a fu yn achos o lofruddiaeth ysgeler mynachod Bangor-is-y-Coed. Cymmerodd y frwydr fawr ac ofnadwy hon le ar lanau yr afon Dyfrdwy. Lladdwyd, yn ol yr hanes, gynnifer a deng mil o Sacsoniaid; a chlwyfwyd Ethelfrith; yr hwn, gyda gweddill ei fyddin, a lwyddasant i ddiangc gyda'u bywydau. Digwyddodd hyn tua'r fl. B. A. 607. Yn mhen amser ar ol hyn, etholwyd Cadfan gan nifer o dywysogion Cymreig a eisteddasant yn Nghaerlleon yn ben teyrn Prydain. Bu farw yn y fl. 630; a chladdwyd ei weddillion yn eglwys Ael, neu Langadwaladr, yn Môn. Y mae ei gofflech ar gael etto; yr hon, amser yn ol, os nad ydyw etto, a wasanaethai fel hiniog drws deheuol yr eglwys hono. Ar y gofflech, yr oedd yr ysgrifen a ganlyn:—CATAMANUS REX SAPIENTISSIMUS OMNIUM REGUM.

CADFARCH SANT. Un o feibion ieuangaf Caradawg Freichfras, tywysog Brycheiniog, oedd efe. Blodeuodd tua chanol y chweched ganrif. Ymroddodd i fywyd crefyddol, mewn canlyniad, fe dybir, i gwymp ei dad yn mrwydr waedlyd Cattraeth. I Cadfarch y priodolir sefydliad eglwys Penegoes, yn Maldwyn.

CADGYFARCH. Mab Cadfrawd, a brawd Gwrmael, oedd efe. Yr oedd yn byw yn y bedwaredd ganrif. Ychydig o'i hanes sydd ar gael.

CADIFOR FAWR. Mab i Collwyn oedd efe; a thywysog Dyfed, yn Neheubarth Cymru. Ceir ei enw yn achyddiaeth y Deheubarth fel y cyff o'r hwn y tarddodd amryw o deuluoedd y rhandir hwnw. Yr oedd ei drigfan yn Mlaen Cuch, yn sir Benfro; ac y mae rhai gweddillion o'i lys, o dan yr enw 'Ffwrn Cadifor,' yn weledig etto. Ei wraig oedd Elinor, ferch i Lluchlawen-Fawr, arglwydd Cilsant. Bu farw o ddeutu'r fl. 1088.

CADO:—yr hwn hefyd a elwid CATAW—oedd sant a flodeuodd tua dechreu y chweched ganrif. Geraint ab Erbin, tywysog Dyfnaint, oedd ei dad. Dywedir am dano yn y *Trioedd* ei fod, gyda dau arall, yn enwog am ei ddoethineb:—'Tri dyn a gafas ddoethineb Addaf—Cado hên, a Beda, a Sibli ddoeth. Cyn ddoethed oeddynt yll tri ag Addaf ei hun.'—*Myf. Arch.*

CADOG. Sant Cymreig, a mab i Brychan. Yr oedd efe yn byw yn y bummed ganrif. Dywedir ei fod yn sylfaenydd amryw o eglwysydd; ac yn eu mysg, Llanspyddyd, yn sir Frycheiniog; Llangadog Fawr, yn sir Gaerfyrddin; a chapel a elwid Llangadog, oedd gynt yn mhlwyf Cydweli. Mŷn Cressy iddo farw yn B. A. 490, ac iddo gael ei gladdu yn Ffraingc.

CADROD (CALCHFYNYDD). Pendefig urddasol oedd yn byw tua dechreu y bummed ganrif, fel y tybir. Mab oedd efe i Cynwyd Cynwydion; a'i wraig oedd Gwrgan, ferch Brychan. Olrheinia rhai hen deuluoedd eu haniad o hono.

CADROD (HARDD):—Arglwydd Talybolion, a phendefig o allu, oedd yn byw yn Bodafon, yn Môn, rywbryd yn ystod y ddegfed ganrif. Y mae Bodafon, meddir, yn meddiant rhai o'i ddisgynyddion hyd heddyw. Hona hen deuluoedd enwog Wynnstay, Bodelwyddan, ac amryw eraill, eu haniad o hono. Mab oedd Cadrod i Gwriad ab Elidyr; a mab iddo yntau oedd Cilmyn Droed-ddu, o'r hwn y mae teulu pendefigaidd Glynllifon yn olrhain eu hachau.

CADWALADR. Un o feibion Rhys ab Gruffydd, tywysog y Deheubarth. Llofruddiwyd ef yn y flwyddyn 1186, a chladdwyd ei weddillion yn y Tŷ-gwyn-ar-Daf.

CADWALADR. Ail fab Gruffydd ab Cynan. Daeth yn enwog trwy ei fuddugoliaethau ysblenydd ar oresgynwyr ei wlad yn y fl. 1135. Aeth gydag Owain, ei frawd, i Geredigion, gyda byddin fawr. Yno, anrheithiasant y tiroedd a feddiennid gan y Normaniaid a'r Fflemingiaid,

Digitized by Google

ac a gymmerasant feddiant o Gastell Gwallter Espec, a Chastell Aberystwyth. Ymunwyd â hwynt yno gan Hywel ab Meredydd, a Rhys ab Madawg ab Idnerth. Wedi hyny, cymmerasant gastell Rhisiard de la Marc, gyda Chaerwedras, a'r Dinerth; a dychwelasant o'r ymgyrch yn llwythog o ysbail. Bu eu llwyddiant hwn yn foddion i'w symbylu i geisio gwaredu eu gwlad enedigol o dan iau gormesol y tramorwyr a'i meddiannodd; ac yn uniongyrchol, daethant allan eilwaith gyda byddin yn rhifo chwe mil o wŷr traed, a dwy fil o feirch-filwyr. Ymunwyd â hwy gan amryw o'r prif bendefigion; a llwyddasant i gymmeryd meddiant o'r holl wlad mor bell ag Aberteifi. Ymladdent gyda'r fath benderfyniad fel yr oedd yr estroniaid yn ffoi o'u blaen. Yn fuan ar ol hyn, darfu i fyddinoedd unedig y Normaniaid, y Ffleminiaid, a'r Saeson, ymosod ar y Cymry yn agos i Aberdyfi; ond y Cymry a orfu, a gadawyd o'r gelyn dros dair mil yn lladdedig ar y maes. Parodd y frwydr hon i'r wlad gael llonydd am beth amser oddi wrth drahâ y goresgynwyr tramor.

Yn y fl. 1142, fe syrthiodd Cadwaladr allan â'i frawd Owain; ac fel y rhelyw o'r anghytundebau a dorent allan rhwng hen benaethiaid Cymreig a'u gilydd, bu yr ymrafael hwn yn achos o flinder mawr i'r wlad. Er mwyn amddiffyn ei hun rhag ymosodiadau Owain, aeth Cadwaladr i'r Iwerddon; a thra yno, llogodd nifer fawr o Wyddelod ac Ysgotiaid, dan lywyddiaeth Octer, i'w gynnorthwyo yn ei adfyd. Glaniodd gyda'r rhai hyn yn Abermenai. Pan oedd y ddwy fyddin ar fin taro, llwyddodd rhai o ddoethion y genedl i gylafareddu rhwng y brodyr. Daethant i gymmod; yr hyn a barodd siomedigaeth fawr i'r milwyr llôg, y rhai a drinwyd yn chwerw am eu parodrwydd i ymyrŷd yn yr helynt. Yn 1146, aeth Cadwaladr i helynt eilwaith:—y tro hwn gyda'i neiaint, Hywel a Chynan, meibion Owain Gwynedd; y rhai a oresgynasant ei diriogaethau, ac a gymmerasant neu a ddistrywiasant ei holl gestyll. Yn 1149, cymmerasant yr hen dywysog ei hun yn garcharor. Yn mhen dwy flynedd, modd bynag, efe a lwyddodd i ad-ennill ei ryddid, ac i gymmeryd meddiant o'r rhan fwyaf o Ynys Môn; ond gan nad oedd efe yn alluog i gyfarfod byddinoedd ei frawd, gorfodwyd ef i encilio i Loegr. Yno, ceisiodd gynnorthwy gan geraint ei wraig; yr hon oedd yn ferch i Gilbert, Iarll Clare. Yn 1156, daeth Harri II. ar gadymgyrch i Gymru, ar gymmhelliad Cadwaladr. Canlyniad hyn fu heddychiad Owain a'i frawd, ac adferiad Cadwaladr i'w etifeddiaethau. Bu farw yn y fl. 1172.

CADWALADR AB RHYS TREFNANT. Bardd oedd efe a flodeuodd tua chanol yr unfed ganrif-ar-bymtheg. Ceir amryw o'i gyfansoddiadau mewn hen lawysgrifau.

CADWALLAWN AB IEUAF, neu IEUAN. Yr oedd efe yn un o dywysogion Gogledd Cymru. Dywedir iddo, ar farwolaeth Hywel ab Ieuan, yr hwn a drawsfeddiannodd dywysogaeth Gwynedd am hir amser, gyhoeddi ei hun fel ei olynydd cyfreithlawn. Ond er sicrhau iddo ei hun y benteyrnaeth, efe a benderfynodd lofruddio ei geraint, Ionafal ac Edwal, yr etifeddion cyfreithlawn. Syrthiodd y blaenaf yn ysglyfaeth i'w gynllwynion; ond llwyddodd Edwal, yr ieuangaf o'r brodyr, i ddiangc yn ddirgelaidd rhagddo. Y flwyddyn ganlynol, daeth Meredydd ab Owain, brenin neu dywysog y Deheubarth, â'i holl allu i Ogledd Cymru. Yn y frwydr a ddilynodd, efe a laddodd Cadwallawn, a'i frawd Meurig, ac a gymmerodd feddiant o Wynedd. Cymmerodd y frwydr hon le tua'r fl. 985.

CADWALLAWN, mab Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd; enw yr hwn a gofnodir yn hanes yr oes hono fel arweinydd byddinoedd ei dad. Yn 1125, efe a laddodd ei dri ewythr —Gronw, Rhiryd, a Meilir, meibion Owain ab Edwin; ond yn mhen pum mlynedd ar ol hyny, rhoddwyd ef ei hun i farwolaeth, mewn lle o'r enw Nanheudwy, gan ewythr arall; sef, Einion ab Owain ab Edwin.

CADWALLAWN. Mab i Owain Gwynedd o'i ail wraig, Crisiant, ferch Gronw ab Owain Ednywain. Myn rhai ei fod yn abad yn Ynys Enlli; eraill a ddywedant iddo gyfarfod â'i angeu yn un o frwydrau gwaedlyd y fl. 1179. Carnhuanawc a ddywed, 'fod y brenin Harri II. wedi ei gythruddo gymmaint gan ei aflwydd ger Aberceiriawg, fel y darfu iddo, yn y modd mwyaf dieflig, beri tynu llygaid y gwystlon; y rhai a oeddynt gwedi eu rhoddi iddaw gynt, a'u hanafu yn echryslawn; sef, Cadwallawn, a Chynwrig, dau fab Owain Gwynedd, a Meredydd, mab yr Arglwydd Rhys, ac eraill.'

CADWGAN:—mab Bleddyn ab Cynfyn, ac olynydd ei dad fel Tywysog Powys, yn 1073. Gwnaeth wrhydri mawr fel rhyfelwr. Yn 1094, gorchfygodd y Normaniaid yn y Deheu; wedi hyny, trechodd fyddin fawr o'r un bobl oedd wedi goresgyn Gogledd Cymru. Hefyd, cymmerodd feddiant o Henffordd, yr Amwythig, a Chaerwrangon. Heb law ei orchestion milwraidd, teimlai beth dyddordeb yn llenyddiaeth ei wlad; o blegid yr ydym yn cael iddo, wedi sicrhau o hono feddiant o Geredigion, roddi gwledd fawreddog yn Nghastell Aberteifi, ar Nadolig, 1107; i'r hon y gwahoddodd dywysogion a phendefigion, beirdd a chantorion enwocaf Cymru; y rhai a ymgystadleuent yn ol rheolau llys Arthur, pa rai a ollyngwyd ymaith ganddo, wedi eu gwobrwyo a'u hanrhydeddu yn fawr. Cymmerodd digwyddiad le ar yr achlysur hwn fu agos a throi yn ddinystr i achos Cadwgan. Yn mysg y rhai oedd yn y wledd, yr oedd Nest, ferch Rhys ab Tewdwr, a gwraig Gerald de Windsor, rhaglaw Castell Penfro. Swynwyd Owain, mab Cadwgan, mor fawr gan brydferthwch Nest, fel y dilynodd hi i Gastell Penfro. Cymmerodd y castell mewn câd-ruthr. Diangodd Gerald oddi yno, a dygodd Owain y ferch gydag ef i wlad Powys. Bu y weithred hon o eiddo yr aflywodraethus Owain yn ddechreuad cyfnod o flinder mawr. Bu raid i Cadwgan, gydag Owain, ffoi am eu bywyd i'r Iwerddon; gan fod ei neiaint, Ithel a Madawg, meibion i Rhiryd ab Bleddyn, trwy gymmhelliad brenin Lloegr, wedi codi byddin gref i ymosod arno, a chymmeryd meddiant o'i diriogaeth. Y flwyddyn ddilynol, dychwelodd Cadwgan; ac wedi profi o hono nad oedd ganddo ran na chyfran yn mudr-waith ei fab Owain, efe a adfeddiannodd ei diriogaethau yn Ngheredigion, ar yr ammod fod iddo dalu swm o arian, ac ymrwymo i attal ei fab Owain i ddychwelyd. Amddiffynodd ei

Digitized by Google

feddiannau yn wrol yn erbyn ymosodiadau ei neiaint hyd y fl. 1110; pan yr ymosodwyd arno yn annisgwyliadwy yn y Trallwm gan Madawg, ac y lladdwyd ef cyn iddo gael amser i ddadweinio ei gleddyf mewn hunan-amddiffyniad.

CADWGAN. Bardd oedd yn byw tua'r fl. 1280—ychydig o hanes yr hwn sydd ar gael.

CADWGAN AB EDNYFED. Bardd a flodeuodd tua'r fl. 1290; ond hanes yr hwn sydd wedi myned ar ddisberod.

CADWGAN AB OWAIN. Mab i Owain, tywysog Ceredigion, ac ŵyr i'r enwog Hywel Dda. Lladdwyd ef gan y Saeson yn y flwyddyn 949.

CAFFO SANT. Un o feibion Caw ab Geraint ab Erbyn; y rhai, wedi i'r Gwyddyl Ffichti eu difeddiannu o'u tiroedd yn ngogledd Lloegr, yn y chweched ganrif, a gawsant diroedd yn Ynys Môn gan Maelgwyn Gwynedd. Caffo a sylfaenodd eglwys Llangaffo, yn yr ynys hono.

CAIAN. Sant oedd yn byw tua chanol y bummed ganrif. Yr oedd efe naill ai yn fab, neu yn ŵyr, i Brychan Brycheiniog. Efe oedd sefydlydd eglwys Tregaian, yn Môn.

CAI HIR O DIR PENCAREG. Efe oedd prif gogydd llys Arthur, ac un o'r pedwar marchog ar hugain a eisteddent o amgylch y Ford Gron. Y mae yr hanes a geir am dano yn gwbl anhygoel. Gelwid ef yn un o 'Dir Thaleithiawg y Gâd,' y rhai a wisgent daleithiau am yr arlais mewn brwydr; ac yn un o'r 'Tri Lledrithiawg Farchawg' hefyd; y rhai, pan yr ymlidid hwynt yn galed, y dywedid y gallent ymffurfio yn mron i'r llun a fynent.

CAIN, RHYS. Arlunydd celfydd oedd efe, a bardd awenbêr, oedd yn byw yn Nghroesoswallt, tua'r fl. 1580. Tybir iddo gael ei eni, naill ai ar lan yr afon Cain, yn mhlwyf Trawsfynydd, yn Meirion, neu yn Mechain-is-coed, yn Maldwyn; ond yn Nghroesoswallt y bu efe yn preswylio hwyaf. Yr oedd efe yn edmygydd mawr o William Lleyn, ac yn ddysgybl iddo; a phan fu farw Lleyn, cafodd Rhys gryn lawer o'i lyfrau. Oddi wrth rai englynion a gyfansoddodd efe, tybir mai Pabydd selog oedd Rhys, o ran ei gredo crefyddol.

CALENIUS, WALTER. Cymro dysgedig, a hynafiaethydd enwog, oedd efe, yn byw yn nechreu y ddeuddegfed ganrif. Barnai rhai mai yr un oedd efe a Walter Mapes; ond mŷn awdurdodau eraill mai dau berson gwahanol oeddynt. Fel y canlyn y dywed Pitts am dano:—'Walter Calenius, Cymro o haniad, ac Archddiacon Rhydychain, oedd yn ei flynyddoedd olaf yn gydnabyddus iawn a Henry o Huntingdon. Yr oedd efe yn hyawdl, yn ddarllenwr cyfarwydd mewn hen awdwyr, yn ymchwiliwr diwyd am hen lyfrau, ac yn glodfawr yn mysg ei gydoeswyr fel ysgolhaig trylen.' Dywed Leland iddo, wrth ddyfal chwilio yn Llydaw am hen ysgrifau, ddarganfod hen ysgrif-lyfr Cymraeg, a'i gymmeryd gydag ef i Brydain; ac iddo, ar gais amryw uchelwyr, a thrwy gymmhorth Sieffre o Fynwy, ei gyfieithu i'r Lladin. Gwrthwynebwyd y gwaith ar y cyntaf; ond ennillodd un Ponticus Virunnius, Eidalydd o genedl, gryn lawer o 'goeledigaeth' trwy gyhoeddi talfyriad o hono. Haera Higden fod Walter ei hun wedi chwanegu ato yn yr oesau dilynol, a pharhau yr hanes hyd ei oes ei hun, trwy gyfnod o fwy na phedwar cant o flynyddoedd. Tybia rhai iddo gael ei wneyd yn Esgob Caeresg (Exeter).

CALLWEN. Santes, yr hon a hanai o deulu Brychan Brycheiniog. Hi a sefydlodd eglwys Callwen, Defynog, yn Mrycheiniog.

CAMBER. Yn ol y *Brutiau*, yr oedd efe yn un o feibion Brutus; yr hwn, ar farwolaeth ei dad, a aeth i feddiant o'r dirogaeth a orweddai y tu yma i'r Hafren. Dywed rhai iddi gael ei galw oddi wrtho yn 'Cambria' a 'Cymru.'

CAMLAS—ESYDD (1894). Yn chwanegol at y rhestr o gamlesydd a enwir yn yr erthygl sydd yn nghyfrol iii, td. 111, o'r gwaith hwn, gellir enwi y rhai a ganlyn:—

| | |
|---|---|
| CAMLESYDD TRAMOR. | |
| Agor y Gamlas rhwng Amsterdam a Môr y Gogledd ... ... ... | 1876 |
| Camlas mewn bwriad i gysylltu yr Atlantic â Môr y Canoldir—rhwng Bordeaux a Narbonne ... ... ... | 1884 |
| Gorpheniad Camlas y Baltic a Môr y Gogledd (61 milldir) ... ... ... | 1891 |
| CAMLESYDD PRYDEINIG. | |
| Gorphen Camlas Caerloew a Berkeley ... | 1827 |
| Agor Camlas fordwyol Northwich a Lowestoft... ... ... ... | 1831 |
| Hwylio i ddechreu Camlas Fordwyol Manchester ... ... ... | 1885 |
| Agoriad Camlas Manchester ... ... | 1894 |

Gwelir manylion am Gamlas Suez dan y gair SUEZ yn cyf. IX.

CAMMARCH. Mab oedd efe i Gwynlliw Filwr, tywysog Gwenllwg, yn Mynwy. Yr oedd efe yn byw yn nechreu y chweched ganrif; ac oddi wrtho ef y cafodd eglwys Llangammarch, yn sir Frycheiniog, ei henw.

CAMPBELL, SYR COLIN (Argl. Clyde):—un o filwyr dewraf, ac un o gadfridogion mwyaf enwog Prydain. Ganwyd ef yn nhref Glasgow, Hydref 20fed, 1792. Saer oedd ei dad, o'r enw Mac Iver; ond mabwysiadodd Colin y cyfenw Campbell, oddi wrth frawd ei fam—y Milwriad John Campbell; yr hwn, yn 1802, a roddodd y bachgen mewn ysgol yn Gosport. Erbyn 1813, yn lled fuan wedi iddo ymuno â'r fyddin, dyrchafwyd Colin i fod yn gadben. Tra yn ymladd yn y rhyfel a elwir Rhyfel y Peninsula, fe'i clwyfwyd ef yn dost yn ngwarchauad San Sebastian. Yn 1814, aeth gyda'r anturiaeth a anfonwyd i'r Unol Dalaethau. Wedi hyny, treuliodd agos i ddeng mlynedd ar hugain mewn gwasanaeth yn Gibraltar, Barbadoes, a Demerara; ac amryw leoedd yn Lloegr. Cymmerodd ran yn y cadymgyrch Chinëaidd yn 1842; a rhoddwyd iddo anrhydedd uchel am ei wasanaeth ardderchog yn Rhyfel Sikh yn 1848—49. Ar ol hyn, bu yn llywydd ar y fyddin am dair blynedd yn Peshawur, yn erbyn y llwythau a breswylient ar y cyffindir. Pan dorodd Rhyfel y Crimea allan, yn 1854, penodwyd ef yn llywydd yr *Highland Brigade;*

Digitized by Google

ac iddo ef, yn benaf, y priodolid y fuddugoliaeth ardderchog a ennillwyd yn mrwydr Alma. Iddo ef, hefyd, y perthynai y clod, yn benaf, am orthrechiad y Rwssiaid yn mrwydr Balaclava. Am hyn, derbyniodd deitlau gan ei mawrhydi; a chleddyf o anrhydedd gan breswylwyr ei dref enedigol. Yn 1856, pennodwyd ef yn arolygydd cyffredinol catrodau y gwŷr traed. Ar yr 11eg o Orphenaf, 1857, cyrhaeddodd y newydd i Loegr fod gwrthryfel wedi tori allan yn mysg y Sepwys (*Sepoys*) yn India. Parodd difrifoldeb y gwrthryfel hwn i Argl. Palmerston gynnyg iddo lywyddiaeth y fyddin yn y wlad hono; a'r diwrnod canlynol, cychwynodd yntau ar ei daith i Calcutta. Cyrhaeddodd yno yn mis Awst. Ar yr 17eg o Dachwedd, gyda 4,700 o ddynion, rhyddhaodd Lucknow yn derfynol o afaelion y gelyn. Ar yr 20fed o Ragfyr, 1858, cafodd y pleser o hysbysu llywodraethwyr India fod y gwrthryfel wedi ei gwbl ddarostwng. O ddeutu pum mis yn flaenorol, dyrchafwyd ef i'r bendefigaeth, gyda'r teitl o Arglwydd Clyde. Ar ei ddychweliad i Loegr yn y flwyddyn ddilynol, gwnaed ef yn faes-lywydd, a rhoddwyd iddo flwydd-dal o 2,000*p*. Bu farw Awst 14eg, 1863; a chladdwyd ei weddillion yn Mynachlog Westminster.

CAMPBELL, ARGLWYDD JOHN. Ganwyd ef Medi 15fed, 1779, yn Cupar Fife; ac efe oedd trydydd mab gweinidog y plwyf. Rhoddwyd iddo addysg golegawl, gyda'r amcan o'i barotoi ar gyfer y weinidogaeth; ond gan iddo benderfynu dilyn yr alwedigaeth gyfreithiol, aeth i Lincoln's Inn yn 1800. Tra yno yn efrydu y gyfraith, gwasanaethai fel gohebydd a beirniad dramäyddol i'r *Morning Chronicle*. Galwyd ef i fod yn fargyfreithiwr yn 1806. Darfu i'w ddiwydrwydd, hynawsedd, a'i alluoedd meddyliol, ynghyd â chyhoeddiad gwaith cyfreithiol dysgedig ganddo, ei ddwyn i sylw yn fuan; ac erbyn y fl. 1824, cydnabyddid ef fel blaenor y bargyfreithwyr ar gylchdaith Rhydychain. Yn 1827, gwnaed ef yn gynghorwr y brenin; yn 1828, yn gadeirydd y Ddirprwyaeth ar Gofrestriad Gweithredoedd; yn 1830, yn aelod o'r Ddirprwyaeth ar Eiddo Gwirioneddol (*Real Property*); ac yn 1832, yn gyfreithiwr cyffredinol. Ar yr achlysur hwn, rhoddwyd iddo urdd marchog, ac etholwyd ef yn aelod dros Dudley. Pan ddyrchafwyd ef yn dwrnai cyffredinol, yn 1834, gorchfygwyd ef pan yn ceisio ail etholiad dros Dudley. Tri mis yn ddiweddarach, dychwelwyd ef dros Edinburgh. Yn 1841, codwyd ef i Dŷ yr Arglwyddi, gyda'r teitl o Arglwydd Campbell o Stratheden; ac ar yr un pryd, dyrchafwyd ef i'r swydd aruchel o Arglwydd Ganghellydd yr Iwerddon. Bu raid iddo ymneillduo o'r swydd hon yn fuan, o blegid gorchfygwyd gweinyddiaeth Arglwydd Melbourne. Ond gwrthododd y blwydd-dal yr oedd ganddo hawl gyfreithlawn iddo. Yn 1846, gwnaed ef yn Ganghellydd Duciaeth Lancaster; yn 1850, yn brif farnwr Mainge y Frenhines; ac yna, yn y fl. 1859, yn Arglwydd Ganghellydd Lloegr. Bu farw Mehefin 22ain, 1861.

O ran ei gredo gwleidyddol, Rhyddfrydwr cymmedrol oedd; a byddai yn arfer ymffrostio mai y bleidlais a roddodd efe yn Nhŷ yr Arglwyddi, i roddi yr hon y daeth o'i gylchdaith yn bwrpasol, a gariodd ail ddarlleniad Mesur Diwygiadol 1832 yn y tŷ hwnw. Tra yn dal swydd fel Prif Farnwr Llys Mainge y Frenhines, efe oedd yn llywyddu yn mhrawf Dr. Newman am athrod yn 1855; a phrawf bythgofiadwy William Palmer yn y fl. 1856 am wenwyno. Yn ei gymmeriad fel Arglwydd Ganghellydd, efe a draddododd y dyfarniad yn achos enwog ymherawdwr Awstria yn erbyn Kossuth.

CANNA. Merch Tewdwr Mawr ab Emyr Llydaw, a gwraig Sadwrn. Daeth i'r wlad hon gyda'i phriod; a sylfaenodd eglwysydd Llangan, neu Llangana, yn Morganwg, a Llangan yn sir Gaerfyrddin.

CANON, SYR THOMAS. Gŵr dysgedig, a hanodd o deulu yn sir Benfro. Yr oedd efe yn byw tua dechreu yr ail-ganrif-ar-bymtheg. Bu dadl frwd rhyngddo a Robert Vaughan, o Hengwrt, o berthynas i Cadell, mab Rhodri Mawr. Dangosodd Canon ei fod yn ddadleuydd craff a phenderfynol.

CANTELLI, WYDDEL. Yn yr Achau, ymddengys ei enw fel un o dri chyff Gwyddelig diweddar; a bernir iddo sefydlu yn Nghymru yn 1120—yn amser Gruffydd ab Cynan.

CARADAWG AB GWYN. Brenin Gwynedd oedd efe, yn niwedd y seithfed ganrif; sef, y cyfnod ofnadwy hwnw pan y cymmerodd y rhyfeloedd gwaedlyd le rhwng Offa, brenin y Mersiaid, a'r Cymry. Lladdwyd ef, a Meredydd, brenin Dyfed, yn mrwydr Morfa Rhuddlan, tua'r flwyddyn 800. Dywedir mai ar yr achlysur hwnw y cyfansoddwyd yr hen alaw fwyn Gymreig, sydd yn adnabyddus wrth yr enw 'Morfa Rhuddlan.'

CARADAWG AB RHYDDERCH. Mab oedd efe i Rhydderch ab Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg; ac un o Gymry mwyaf aflonydd a rhyfelgar ei oes. Yr oedd gelyniaeth farwol yn bodoli rhyngddo a Gruffydd ab Llewelyn ab Seisyllt; yr hwn, ar y pryd, oedd yn ben llywodraethwr ar holl Gymru—'o fôr Udd hyd yn Môr Hafren.' Daeth gyda Rhys, ei frawd, â byddin gref o wŷr Gwent a Morganwg yn erbyn Gruffydd; ac, meddai yr hanes:—'Ymladd a fu rhyngddynt annhebyg i a fu erioed namyn y Gâd Gamlan; a lladdwyd gymmaint o bob plaid, oni orfu ar y ddau lu ymchwelyd yn eu hol heb a ellid ei alw yn ennill i nac un na'r llall o honynt, a gwaedlytted yr aerfa rhyngddynt.'

Ymunodd Caradawg, a'i gyfeillion, yn y fl. 1060, gyda Harold, brenin Lloegr, yn erbyn Gruffydd ab Llewelyn. Lladdwyd Gruffydd yn Muallt, trwy fradwriaeth Madawc Min, Esgob Bangor; yr hwn hefyd, fe dybir, a fradychodd dad Gruffydd o ddeutu deugain mlynedd cyn hyny. Yn 1062, gosodwyd Meredydd ab Owen ab Edwin yn dywysog y Deheubarth gan Harold. Ar yr un adeg, yr oedd Bleddyn ab Cynfyn, a Rhiwallawn, ei frawd, yn meddu awdurdod fel tywysogion Gwynedd a Phowys. Tua'r fl. 1069, aeth yn helynt ofnadwy yn y Deheubarth trwy i Caradawg gyflogi nifer o Normaniaid William Fastardd i'w gynnorthwyo i ddial ar Meredydd ab Owen. Cymmerodd brwydr ofnadwy le rhwng y pleidiau yn Llanfedwy, yn sir Forganwg, yn ystod yr hon y

Digitized by Google

lladdwyd Meredydd, ac y daeth y llywodraeth i feddiant Caradawg. Ond byr fu tymmor ei awdurdod; o blegid yn y flwyddyn hono, daeth y Normaniaid i Dyfed a Cheredigion, gan wneuthur anrhaith ofnadwy yno. Casglodd Caradawg fyddin gref o wŷr Gwent, Morganwg, a Gŵyr, i'w herbyn. Bu llwyddiant ar arfau Caradawg a'i lu gwrolfrydig, y rhai a orfodasant y tramoriaid i ffoi ymaith, heb sicrhau o honynt eu hysbail. Darfu i'r fuddugoliaeth hon ennill i Caradawg boblogrwydd nid bychan yn Nyfed a Cheredigion. Yn mhen o ddeutu blwyddyn ar ol hyn, bu Caradawg farw, oddi wrth effeithiau archoll a gafodd yn y rhyfel. Dilynwyd ef yn y llywodraeth gan Rhydderch, ei fab.

CARADAWG AB IESTYN. Mab Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg, oedd efe; a lladdwyd ef mewn brwydr â'r Saeson tua'r fl. 1031.

CARADAWG FEUDWY. Disgynodd efe o hen deulu enwog yn Mrycheiniog; a phan yn ieuangc, bu am amser yn ngwasanaeth Rhys, tywysog y Deheubarth. Wedi hyny, dechreuodd ar fywyd meudwy yn Llandaf—o'r hon ddinas yr ymneillduodd, fel y tybir, i Ynys Barri, yn Môr Hafren. Ymadawodd oddi yno o blegid i fôr-ladron aflonyddu arno. Sefydlodd, yn ddilynol, yn St. Ismael, Penfro, lle y bu yn preswylio hyd ei farwolaeth yn 1124. Claddwyd ei weddillion yn nghapel St. Andreas, Tŷ Ddewi. Priodolir llawer o wyrthiau iddo; ac ar gais Giraldus Cambrensis, coronwyd ef gan y pab.

CARADAWG FREICHFRAS. Yr oedd efe yn byw yn y bummed ganrif, ac yn enwog fel rhyfelwr. Mab ydoedd i Llyr Merini, tywysog Cernyw, o Gwen, gorŵyres Brychan Brycheiniog. Rhestrir ef yn y *Trioedd* fel un o dri 'Châd Farchogion Ynys Prydain;' a chenir ei glod yn y *Gododin* am ei wroldeb dihafal yn mrwydr Cattraeth—lle y tybir y bu iddo gyfarfod â'i farwolaeth. Yn y *Mabinogion Arthuraidd*, gelwir ef yn brif ynad, a chefnder i'r brenin Arthur, ac yn un o farchogion y Ford Gron. Yr oedd ei wraig, Tegan Eurfron, yn nodedig am ei glendid a'i diweirdeb; a gelwir hi yn y *Trioedd* yn un o dair Gwenrian Llys Arthur.

CARADAWG O LANCARFAN. Mynach dysgedig, a hanesydd enwog, oedd efe, a flodeuodd yn y ddeuddegfed ganrif. Ysgrifenodd hanes Cymru o amser Cadwaladr Fendigaid, yn 686, hyd ei amser ei hun, yn 1157, o dan yr enw *Brut y Tywysogion*:—dau gopi o'r hwn sydd yn ysgrifenedig yn y *Myvyrian Archaiology of Wales*. Dygwyd y copi blaenaf o'r rhai hyn i lawr gan ryw hanesydd hyd y flwyddyn 1280, a'r llall hyd 1196. Tybir i Caradawg farw yn y flwyddyn 1157. Cyfieithwyd *Cronicl Caradawg* gan Humphrey Llwyd, a chyhoeddwyd ef gan Dr. Powell, yr hanesydd; yr hwn a ddywed fod o leiaf gant o gopïau ysgrifenedig o'r *Brut* ar wasgar yn Nghymru yn ei amser ef. Cyfieithwyd y gwaith i'r Saesneg yn 1584 gan Dr. Powell, gyda chwanegiad ato gan Mr. W. Wynne, o Goleg Rhydychain. Ail argraphwyd ef yn 1832, dan olygiaeth Mr. Risiart Llwyd, o Lanerch Brochwell, yn sir Drefaldwyn.

CARANOG. Mab Corun ab Caredig oedd efe; ac yr oedd yn byw tua dechreu y chweched ganrif. Yr oedd yn un o'r Seintiau Cymreig; ac efe oedd sylfaenydd eglwys Llangranog, yn Ngheredigion.

CARAWN:—yr hwn hefyd a elwid CARON, neu CARAUSIUS gan yr ysgifenwyr tramor. Yn ol y *Brutiau Cymreig*, yr oedd yn Gymro genedigol o Menyw (Tŷ Ddewi). Mŷn rhai, foddbynag, nad oedd unrhyw gyssylltiad rhyngddo ef a Chymru; ac mai yn Gâl y ganwyd ef.

CAREDIG AB CUNEDDA WLEDIG, oedd ryfelwr enwog, yn byw tua diwedd y bedwaredd ganrif. Trwy ei wroldeb personol, a dylanwad ei esampl ar ei ddilynwyr, llwyddodd i yru y Gwyddelod ymaith o amryw ranau o Gymru. Ac fel gwobr am hyn, cafodd yn feddiant y rhandir a elwid cyn hyny yn Tyno Coch: ond wedi hyny, a alwyd yn Ceredigion, ar ei enw ef.

CAREDIG FRENIN. Olynydd Maelgwyn Gwynedd yn y llywodraeth Brydeinig oedd efe, tua'r flwyddyn 590. Dywed *Brut Tysilio* nad oedd efe yn boblogaidd yn mysg ei ddeiliaid; ac i'r Saeson gymmeryd mantais ar hyn i wahodd Gormwnt, un o frenhinoedd Affrica, yr hwn a anrheithiodd yr Iwerddon, i ddyfod drosodd i'w cynnorthwyo i ddarostwng Prydain. Derbyniodd Gormwnt y gwahoddiad; a daeth drosodd gyda llu arfog, a gorchfygodd Caredig. Wedi iddo golli y frwydr, ffôdd Caredig yn ddioedi i dref o'r enw Caergeri; o'r hon y gyrwyd ef allan trwy ddichell hynod o gyfrwys. Daliasant lawer o adar y tô, a chylymwyd wrth eu hadenydd fasgl cnau, wedi eu llenwi â phŷg a brwmstan. Wedi eu tanio, gollyngasant yr adar yn rhyddion; ac erbyn dranoeth, yr oedd yr holl ddinas yn goelcerth. Bu raid i Caredig, drwy hyn, ddyfod allan i ymladd â'r gwarchauwyr. Ychydig o lwyddiant a ddilynodd ei arfau; a bu raid iddo ffoi, gyda gweddill ei bobl, dros yr afon Hafren i Gymru. Anrheithiodd Gormwnt yr holl wlad â thân, ac â'r cleddyf, heb arbed hen nac ieuangc; a bu raid i bawb a allent ffoi tua Chymru, Cernyw, a Llydaw. Yn y modd hwn, yn ol y *Brut*, y collodd y Cymry deyrnged Lloegr am byth. Gwel y *Myvyrian Archaiology*.

CAREW, SYR JOHN. Mab oedd efe i Syr Leonard Carew, o Gastell Carew, yn Mhenfro. Gwnaed ef yn farchog gan Rhisiart II., brenin Lloegr; ac yr oedd yn gadben yn mrwydr fythgofiadwy Agincourt—yn yr hon yr ennillodd efe gryn enwogrwydd. Ymunodd Carew, yn ystod yr un teyrnasiad, â Syr George Talbot, yn llywodraethiad y llynges; a chafodd, am ei wasanaeth gan *mark* (tua 2*s*. yr un) yn y flwyddyn am y gweddill o'i oes.

CARFAN: sant Cymraeg, a sylfaenydd eglwys Llancarfan, yn Morganwg.

CARLYLE, THOMAS. Un o'n llenorion enwocaf yn y ganrif hon. Ganwyd ef ar y 4ydd o Ragfyr, 1795, yn Ecclefechan, o fewn plwyf Hoddan, Annandale, yn swydd Dumfries, yn Ysgotland. Yr oedd efe yn ail fab i James Carlyle, yr hwn oedd yn saer maen wrth ei alwedigaeth; ond yn fab hynaf iddo o'i ail wraig, Margaret. Yr oedd amgylchiadau y rhïeni yn gysurus; ac er fod iddynt gynnifer a deg o

Digitized by Google

blant—pump o fechgyn a phump o enethod—llwyddasant i roddi addysg ragorol i'r rhai hyny a ddangosent duedd at efrydiaeth. Dysgwyd Thomas i ddarllen gan ei fam, ac i rifyddu gan ei dad; a chwanegwyd rhyw gymmaint at ei wybodaeth yn ysgol y dref. Cyn ei fod yn wyth mlwydd oed, yr oedd yn ddarllenwr hylaw yn yr iaith Saesnig, yn rhifyddwr gweddol dda, ac yn awyddus neillduol i feistroli Lladin. Yn y fl. 1805, aeth i Athrofa Annan, lle y dysgodd Lladin a Ffrangcaeg yn rhwydd, a gwnaeth gynnydd mewn amryw ganghenau eraill o wybodaeth. Yn mhen pedair blynedd (yn 1809) dechreuodd ei efrydiaeth yn Mhrifysgol Edinburgh; a cherddodd yr holl ffordd iddi—pellder o dros gan milldir. Dibenodd gwrs ei efrydiaeth yno yn 1813; a dechreuodd ymbarotoi ar gyfer gweinidogaeth yr Eglwys Ysgotaidd, trwy ymuno, fel efrydydd, â'i choleg duwinyddol (*divinity hall*). Yna, yn haf y fl. 1814, ymgeisiodd am y swydd o athraw rhif a mesur yn Athrofa Annan; a chafodd hi. Nid oedd ei gyflog ond tua 70*p.* y flwyddyn; ond ar y swm hwn, llwyddodd i fyw yn annibynol ar gymmhorth ei rieni, ac hefyd i gasglu ychydig o arian. Yn y cyfamser, gwnai ddefnydd o bob cyfleusdra i'w ddiwyllio ei hun; ond dymunai symmud o Annan, ac ni feddai duedd gref chwaith at yr alwedigaeth o addysgu. Yn 1816, derbyniodd y swydd o gynnorthwywr i athraw Ysgol Rammadegol Kirkcaldy, gyda chyflog o tua chan punt yn y flwyddyn. Dygodd hyn ef i gyssylltiad cyfeillgar âg Edward Irving; yr hwn, wedi ennill cymmeriad uchel fel athraw, a alwyd i Kirkcaldy i arolygu ysgol arall yn y lle. Daeth Carlyle ac yntau yn gyfeillion mawr, a theithiodd y ddau gryn lawer yn Ysgotland yn nghwmni eu gilydd. Cyflawnai Carlyle ei ddyledswyddau addysgawl yn egwyddorol a chydwybodol; ond cyn pen dwy flynedd, yr oedd wedi blino yn llwyr ar yr alwedigaeth. Yn 1818, ysgrifenodd at ei dad—yr hwn, erbyn hyn, oedd wedi rhoddi ei fasnach yn Ecclefechan i fyny, gan ymsefydlu fel amaethwr yn Mainhill—i'w hysbysu ei fod wedi cynnilo o ddeutu 70*p.*, a'i fod yn bwriadu symmud i Edinburgh, gyda'r bwriad o gael rhyw orchwyl mwy cydnaws â'i chwaeth. Aeth i Edinburgh yn mis Tachwedd yr un flwyddyn; ond bu ei ragolygon am dymmor mor gymmylog fel yr arfaethodd ymfudo i America. Modd bynag, nid hir y bu cyn ennill bywoliaeth led gysurus trwy addysgu yn breifat. Tua'r adeg hon, cymmerodd digwyddiad le a roddodd gyfeiriad newydd i'w yrfa. Dygwyd ef i sylw Mr., wedi hyny Syr David Brewster, golygydd yr *Edinburgh Encyclopædia.* Dymunodd arno ysgrifenu erthyglau bywgraphyddol a daearyddol i'r gwaith galluog hwnw. Ond ychydig a gafodd am hyn. Yn ddilynol, cafodd 50*p.* am gyfieithu 'Elfenau Meidrofyddiaeth' o'r Ffrangcaeg. Yn nechreu 1819, ymunodd â dosbarth cyfreithiol, gyda'r amcan o fyned yn ddadleuydd; ond yn fuan iawn, gwelodd fod y gyfraith yr un mor wrthnaws i'w chwaeth ag oedd duwinyddiaeth. Arhosodd mewn lletty-dai yn Edinburgh hyd 1822; ac yn ystod yr adeg hono, dioddefodd lawer o herwydd sefyllfa anfoddhaol ei iechyd; yr hyn a ddygwyd oddi amgylch drwy efrydiaeth ormodol. Yr adeg hon, blinid ei feddwl yn fawr gan ammheuon ar faterion crefyddol. Ni wyddai neb am yr ammheuon hyn, oddi eithr ei gyfaill, Irving; yr hwn, erbyn hyn, oedd yn gynnorthwywr i'r enwog Dr. Chalmers, yn Glasgow. Am gyfnod, bu, yn ol ei addefiad ei hun, 'yn hollol ddigrefydd;' ond ar unwaith, yn Mehefin, 1821, terfynwyd y sefyllfa annymunol hon pan yr oedd yn cerdded ar hyd y Leith Walk—lle a grybwyllir ganddo yn fynych yn un o'i weithiau (*Sartor Resartus*) wrth yr enw Rue St. Thomas de L'Enfer. Y diwrnod hwnw, cafodd 'enedigaeth newydd,' a llonydd oddi wrth yr ammheuon a'i blinodd. Amlygai ddyddordeb mawr yn yr adeg yma mewn llenyddiaeth Ellmynaidd, yn enwedig gweithiau Schiller a Goethe; a chafodd dylanwad ysgrifeniadau yr olaf effaith fwy parhaol arno nag eiddo un ysgrifenydd arall.

Yn gynnar yn y fl. 1822, argymmhellwyd ef gan Mr. Irving i sylw Mr. Buller, marsiandwr neillduedig, fel athraw cymmhwys i'w dri mab. Yr oedd y cyflog yn 200*p.* yn y flwyddyn, a derbyniwyd y swydd gan Carlyle; ac efe, ar y pryd, a wrthododd bennodiad fel golygydd un o newyddiaduron Dundee. Cafodd fod ei swydd newydd yn fwy at ei chwaeth nag unrhyw orchwylion eraill y bu yn eu cyflawni. Galluogwyd ef i roddi ychydig gynnorthwy arianol i'w deulu, ac i gyfranu addysg hefyd i'w frawd, John; yr hwn, yn ddilynol, a aeth yn feddyg, ond a adnabyddir fel cyfieithydd *Inferno* y bardd Eidalaidd Dante. Yn lled fuan ar ol hyn, ysgrifenodd hanes bywyd Schiller, a chyfieithiad o *Wilhelm Meister* gan Goethe.

Y tro cyntaf yr ymwelodd Mr. Carlyle â Llundain oedd yn y fl. 1824; pryd y daeth i gydnabyddiaeth â nifer o enwogion y deyrnas; megys Coleridge, Thomas Campbell, Proctor, Allan Cunningham, ac eraill. Ar ei ymadawiad o Lundain, ymsefydlodd yn fferm Hoddam Hill, ger Mainhill, yr hon a gymmerwyd ganddo ef ac Alexander, ei frawd, ar brydles. Gwneid gwaith y fferm gan Alexander, tra y treuliai Carlyle ei amser i gyfieithu rhamantau Ellmynaidd. Dyma yr adeg y priododd Miss Welsh, merch y Dr. John Welsh, meddyg adnabyddus yn Haddington; yr hon, fel yntau, oedd yn meddu tuedd gref at lenyddiaeth. Ymsefydlasant yn Edinburgh; ac yn ei gartref newydd y gorphenodd efe ei bedair cyfrol o gyfieithiadau allan o weithiau Tieck, Musæus, a Richter; y rhai a gyhoeddwyd dan y teitl *German Romance.* Yna ysgrifenodd erthygl ar Jean Paul Richter i'r *Edinburgh Review.* Yn 1827, ymgeisiodd am gadair athroniaeth foesol yn Mhrifysgol Glasgow, fel olynydd i Dr. Chalmers; ond bu yn aflwyddiannus. Ymgeisiodd amryw weithiau yn ddilynol i sicrhau pennodiad fel athraw yn y prifysgolion—ond aflwyddodd bob tro.

Yn Mai, 1828, symmudasant o Edinburgh, gan ymsefydlu ar etifeddiaeth fechan Craigenputtock; yr hon oedd yn eiddo i Mrs. Carlyle. Bu yn preswylio yno am tua chwe blynedd; ac ysgrifenai i'r *Edinburgh Review*, y *Westminster Review*, y *Foreign Quarterly*, a *Fraser's Magazine.* Ysgrifenodd hefyd draethodau ar Burns, Samuel Johnson, Goethe, Voltaire, Diderot, a Schiller, ac eraill. Hefyd, ysgrifenodd Hanes Llenyddiaeth Ellmynaidd (*History of German Literature*); amryw ranau o'r hwn, yn ddilynol, a gyhoeddwyd yn y ffurf o draethodau. Yn y fl. 1833—34, ymddangosodd ei *Sartor Resartus* yn bennodau yn *Frazer's Magazine:*—un o'i weithiau mwyaf nodweddiadol, ac un sydd yn arddangos mwyaf o ddylanwad llenyddiaeth yr

Digitized by Google

Almaen ar ei feddwl. Tra yn preswylio yn Craigenputtock yr ysgrifenodd ei *French Revolution.* Talai ymweliadau mynych âg Edinburgh, a manau eraill; a bu unwaith am tua chwe mis yn Llundain; pryd y daeth i gydnabyddiaeth â John Stuart Mill, John Stirling, ac Emerson.

Yn 1834, llwyddodd Carlyle i gynnilo 200*p.*; a chyda'r swm hwn yn ei feddiant, penderfynodd dreio ei ffawd yn Llundain. Ar y 10fed o Fehefin, yn yr un flwyddyn, ymsefydlodd yn 5, Cheyne Row, Chelsea:—yn y tŷ, a ddaeth yn enwog wedi hyny, y bu efe byw hyd derfyn ei oes. Yn 1837, ymddangosodd un o'i weithiau mwyaf adnabyddus; sef, *The French Revolution.* Bu agos i holl ysgrifau y gwaith hwn gael eu dinystrio. Benthyciwyd rhai o honynt ganddo i John Stuart Mill; a llosgwyd y rhan fwyaf o honynt gan eneth o forwyn mewn anwybodaeth. Ond talodd Mr. Mill 100*p.* iddo fel iawn am y golled. Am tua phedair blynedd ar ol hyn—rhwng 1837 ac 1840—traddododd gyfres o ddarlithiau i gynnulleidfaoedd dysgedig ar y fath destynau a Llenyddiaeth yr Almaen, *The Successive Periods of European Culture, The Revolutions of Modern Europe,* a *Heroes, Hero-worship, and the Heroic in History.* Yr oedd ei ennillion blynyddol oddi wrth y darlithiau hyn yn amrywio rhwng 135*p.* a 300*p.*: a bu hyn yn ddigon i'w gadw ef, a'i briod, nes y darfu i'w waith ar y *French Revolution*, nid yn unig ei ddwyn i sylw fel un o ddynion mwyaf athrylithgar y ganrif, ond ei osod hefyd mewn sefyllfa led gysurus.

Yn 1838, ymddangosodd *Sartor Resartus* yn gyfrol; ac hefyd, yr argraphiad cyntaf o'i *Miscellanies.* Yn 1839, cyhoeddodd y gyntaf o nifer o erthyglau yn ymosod ar lygredigaeth cymdeithas, dan y teitl o *Chartism.* Yn 1843, cyhoeddwyd ei gyfrol *Past and Present;* ac yn 1850, ei *Latter-day Pamphlets.* Yn flaenorol i hyn, yn 1845, ymddangosodd *Cromwell's Letters and Speeches*—yr hwn oedd, y mae'n debyg, y mwyaf llwyddiannus o'i holl weithiau, gan iddo ddwyn o amgylch gyfnewidiad hollol yn marn y cyhoedd am gymmeriad Oliver Cromwell.

Yn 1851, cyhoeddodd fywgraphiad o'i gyfaill John Stirling. Ar ol hyn, treuliodd Carlyle bron ei holl amser i ysgrifenu ei brif waith, *The History of Frederick* II., *commonly called Frederick the Great.* Cyhoeddwyd y ddwy gyfrol gyntaf yn y fl. 1858, a gorphenwyd ef yn 1865. Wrth ymbarotoi at y gwaith hwn, talodd yr awdwr ddau ymweliad a'r Cyfandir. Ychydig o ddyddordeb a deimlai mewn symmudiadau cyhoeddus; neu, o leiaf, anaml y gadawai ei lafur llenyddol i ymdrafferthu gyda dim arall. Ond cymmerodd ran bwysig yn y symmudiad a arweiniodd i sefydliad y Llyfrgell Llundeinig, yn y fl. 1839.

Etholwyd Mr. Carlyle yn Arglwydd Reithor Prifysgol Edinburgh Tachwedd 11eg, 1865, trwy fwyafrif o 657 o bleidleisiau, yn erbyn 310 a roddwyd i'w wrthymgeisydd, Mr. Disraeli. Ar yr 2il o Ebrill, y flwyddyn ddilynol, cymmerodd ei urddiad i'r swydd le yn nghanol arddangosiadau anghyffredin o frwdfrydedd. Yr oedd ei anerchiad ar yr achlysur hwnw yn nodweddiadol o hono ei hun. Ar ol y seremoni, aeth o Edinburgh i Dumfries; a thra yno, derbyniodd y newydd am farwolaeth ei anwyl briod; yr hyn a gymmerodd le tra yr oedd hi yn gyru mewn cerbyd yn Hyde Park, Llundain. Ymddengys fod ei dristwch yn fawr; ac yn annhraethol fwy felly pan y canfyddodd oddi wrth rai o'i llythyrau, ac hefyd wrth ei dyddiadur, fod ei dymmer afrywiog ef, a'i anystyriaeth di-feddwl o'i chysuron, wedi bod yn achos o ofid nid bychan iddi ar un cyfnod o'i bywyd priodasol; ond yr hyn na wnaed yn hysbys iddo ganddi. Rhoddir ar ddeall hefyd yn *Letters and Memorials of Jane Welsh Carlyle* na fodolai y teimladau goreu rhyngddynt yn y blynyddoedd 1855 ac 1856, o herwydd y pleser a deimlai yn nghymdeithas yr Arglwyddes Ashburton. Dengys y llythyrau uchod hefyd fod Mrs. Carlyle yn wraig hynod alluog. Nid ysgrifenodd efe gymmaint ag un gwaith o bwys ar ol marwolaeth ei briod. Ond ar ol ei ymweliad â Mentone, yn 1867, cyfansoddodd ei adgofion personol, dan y teitl *Reminiscences.* Gwnaeth argraphiad arbenig o'i weithiau, at ba rai y chwanegodd, yn 1875, gyfrol yn cynnwys hanes brenhinoedd cyntefig Norway, a thraethawd ar *The Portraits of John Knox.* Yn Tachwedd, 1870, ysgrifenodd lythyr i'r *Times* ar yr helynt rhwng Ffraingc a'r Almaen, gan amddiffyn y sefyllfa a gymmerwyd gan y wlad olaf a enwyd. Ychydig, yn gyhoeddus, a wnai efe â gwleidyddiaeth; ond dywedir iddo, yn gyfrinachol, amlygu gwrthwynebiad cryf i amcanion politicaidd Mr. Gladstone tuag at yr Iwerddon.

Yn Chwefror, 1874, derbyniodd urdd anrhydeddus o'r Almaen, fel cydnabyddiaeth o'i waith ar Frederick Fawr; yr hwn a sefydlodd yr urdd. Tua diwedd yr un flwyddyn, cynnygiwyd urdd barwnig iddo gan Mr. Disraeli, gyda blwydd-dâl pennodol; ond gwrthododd y naill a'r llall. Un o'r pethau diweddaf a wnaeth efe yn gyhoeddus ydoedd ysgrifenu llythyr i'r *Times*, yn 1877, yn galw sylw at sibrwd fod yn mryd Mr. Disraeli, fel prifweinidog, fyned i helynt â Rwssia o berthynas i Twrci; yn yr hwn yr oedd yn protestio yn benderfynol yn erbyn y cyfryw fwriad.

Bu farw Chwefror 5ed, 1881, mewn oedran teg. Cynnygiwyd gorweddfan i'w lwch yn Mynachlog Westminster—yr anrhydedd uchaf a ellid roddi i'w weddillion; ond yn unol â'i ewyllys ef ei hun, claddwyd ef yn mynwent Ecclefechan, yn ymyl ei berthynasau.

Mỳn rhai beirniaid ei bod yn rhy fuan etto i gyhoeddi barn derfynol ar safle Carlyle yn y byd llenyddol Saesnig; ond addefir yn lled gyffredinol iddo arfer dylanwad, er da neu er drwg, ar lenyddiaeth Lloegr uwch law neb arall o'i gydoeswyr. Nid oedd hafal iddo yn ei ddefnydd o watwareg; yr hon a arferwyd ganddo bron yn ddi-eithriad i ddwyn ei opiniynau ei hun i sylw. Prin hefyd y gellir cymmharu un awdwr âg ef o ran ei arddull disgrifiadol. Fel dyn, yr oedd dan lywodraeth tymmer flin, a phall amynedd mynych; ond pa beth bynag a wnai, gweithredai gyda'r cydwybodolrwydd mwyaf, a'r amcanion cywiraf. Y mae nifer fawr o lyfrau wedi eu hysgrifenu am dano ef, a'i weithiau, gan rai o brif lenorion yr oes.

CARN, THOMAS. Un o feirdd Gorsedd Morganwg oedd efe, yn y fl. 1598. Defnyddir enghreifftiau o'i waith yn *Nghyfrinach y Beirdd* i egluro Dosbarth Morganwg.

CARNE, SYR EDWARD. Mab oedd efe i Hywel Carne, o Bont-fôn, yn sir Forganwg, o'i wraig Cicely, merch William Kemys, o'r Casnewydd. Yr oedd efe yn ŵr dysgedig yn y

Digitized by Google

gyfraith wladol, ac yn ŵr o ddoethineb uwch law lliaws o'i gydoeswyr. Derbyniodd urdd marchog gan Siarl v. Efe oedd boncyff neu ddechreuad y Carneiaid o Fynachlog Eweny, ond sydd yn awr, trwy briodas, yn dwyn yr enw teuluaidd Turberville. Bu yn llysgenhadwr i Rufain oddi wrth dri o benau coronog Lloegr—Harri VIII., Mari, ac Elizabeth. Yn achos Harri, bu yn dadleu â'r pab nad oedd y brenin yn rhwym wrth y gyfraith i wneyd ei ymddangosiad yn bersonol, na thrwy ddirprwy, yn llys Rhufain, yn ol yr wŷs a anfonwyd iddo i ymddangos yn achos ei ysgariad oddi wrth y frenhines Catherine. Pan y tramgwyddodd y pab o herwydd diddymiad ei awdurdod yn Lloegr, efe a orchymynodd i Syr Edward roddi i fyny ei swydd fel llysgenhadwr ac arolygydd y clafdy Saesneg yn Rhufain. Barna rhai i'r trefniant hwn gael ei wneyd ar gais Syr Edward ei hun—sêl yr hwn dros y grefydd Babaidd oedd yn gyfryw, fel y dewisai aros yn hytrach yn Rhufain na dychwelyd i'w wlad ei hun; yr hon oedd ar y pryd yn mron a chael ei gordoi gan yr hyn a alwai efe yn heresi. Ysgrifenodd lawer o lythyrau o Rufain, a lleoedd eraill yn yr Eidal, o berthynas i'r brenin Harri; a cheir rhai o honynt yn *Burnet's Collection of Records*, cyf. i. Ac yn yr ail gyfrol o *Burnet's History of the Reformation*, ceir amryw o'i lythyrau swyddogol at y frenhines Mari, yn dynoethi y modd y rhagrithiai y pab gydag ef ynghylch heddwch cyffredinol. Bu farw yn Rhufain, yn Ionawr, 1561; a chladdwyd ef yno, yn yr eglwys a berthynai i Fynachlog St. Gregory.

CARTER, HUGH, DINBYCH. Mab oedd efe i Mr. Carter, crwynwr, o'r dref hon; ond a anwyd yn agos i'r Wyddgrug, Mehefin 15fed, 1784. Pan yn ieuangc, ymunodd â chyfundeb y Wesleyaid, i weinidogaeth pa un y galwyd ef yn y fl. 1805; a pharhaodd hyd ddiwedd ei oes i lafurio—yn gyntaf yn mysg y Cymry, ac yn ddilynol gyda'r Saeson. Ennillodd gymmeriad uchel fel pregethwr, fel dyn, ac fel Cristion; ac yn ddiau, yr oedd efe yn un o'r rhai mwyaf adnabyddus o weinidogion y Wesleyaid ar yr adeg hono. Yr oedd hefyd yn llenor gwych; ac ymddangosodd amryw erthyglau o'i eiddo yn nghylchgrawn yr enwad—*Yr Eurgrawn Wesleyaidd*. Cyhoeddodd dalfyriad o'r *Beibl Amlieithawg*. Bu farw yn Northwich, yn sir Gaerlleon, Medi 8fed, 1855, yn 71ain mlwydd oed.

CARWED. Arglwydd Tŵr-celyn, yn Môn; o'r hwn yr hanodd llawer o deuluoedd yr ynys hono. Dywedir iddo ef, a Tegeryn, ei fab, hynodi eu hunain yn fawr yn yr amryw gadgyrchoedd a gymmerasant le rhwng Harri II. ac Owain Gwynedd, ger Coed Eulo, a manau eraill yn sir Fflint, yn 1157.

CARWYD. Sant, a mab i Pabo. Yr oedd efe yn aelod o fynachlog Bangor-is-y-coed—lle y gorphenodd ei yrfa yn nechreu y chweched ganrif.

CAS, mab Seidi, ac un o wroniaid llys Arthur.

CASWALLAWN LAW HIR. Mab i Einion (neu Einiawn) Yrth, ac ŵyr i Cunedda Wledig, tywysog Ystrad Clwyd, a rhanau ëang o Wynedd. Pan y cymmerodd y Gwyddelod feddiant o ranau o Wynedd yn y bedwaredd ganrif, anfonodd Cunedda amryw o'i feibion i Gymru gyda'r amcan o'u gyru oddi yma; ac felly, ad-ennill y tiriogaethau a gollwyd. Yn hyn o beth, hwy a lwyddasant. Rhanasant y tiriogaethau a ennillwyd rhyngddynt; ac ymsefydlodd Einion Yrth yn nghymmydogaeth Caer Einion, yn swydd Drefaldwyn; yr hwn oedd ei ran ef o'r ysbail. Dilynodd ei dad, Cunedda, ar yr orsedd, yn 389; a dilynwyd yntau gan ei fab Caswallawn Law Hir yn 443. Enwogodd ei hun yn ddirfawr trwy orchfygu y Gwyddelod a'r Pictiaid; ac hefyd o blegid y nawddogaeth a roddodd i grefydd yn y wlad. Cymmerodd brwydr waedlyd le rhwng lluoedd Caswallawn a'r Gwyddelod ar, neu yn agos i'r fan y saif Caergybi arno yn awr. Lladdwyd Serigi, blaenor y Gwyddelod, gan y penaeth Cymraeg â'i law ei hun. Yn y modd hwn, efe a lwyr waredodd y wlad oddi wrth ormes trigolion yr Ynys Werdd. Yn ol yr hanes, codwyd capel ar y fan lle y lladdwyd Serigi; yr hwn a elwid gynt 'Capel y Gwyddyl.' Ond newidiwyd yr enw i fod yn Côr Gybi; ac yna llithrodd yn Caergybi—yr enw presennol. Yn mhen amser ar ol hyn, cododd Caswallawn balas heb fod yn neppell o Amlwch, yr hwn a elwid 'Llys Caswallon;' ac un arall yn Nghreuddyn, yr hwn a adwaenid wrth yr enw 'Bodyscallen,' sef Bod Caswallawn. Sefydlwyd tri o gòrau neu athrofeydd yn Ynys Môn yn ei ddyddiau ef, i barotoi dynion ieuaingc ar gyfer y weinidogaeth. Yr oedd un o honynt yn cael ei gynnal yn Nghapel y Gwyddyl, dan lywyddiaeth Cybi; yr ail yn ngogledd-ddwyrain yr ynys, yn agos i lys y brenin, dan lywyddiaeth Elian, oddi wrth yr hwn y galwyd y lle yn Llanelian; a'r trydydd yn nghwr dwyreiniol yr ynys, yn y fan a elwir Penmon, dan lywyddiaeth Seiriol. Oddi wrtho ef y cafodd Ynys Seiriol ei henw. Yr oedd Caswallawn yn gefnogwr gwirioneddol i'r tri llywydd a enwyd; ac yn arfer ei gyfoeth a'i ddylanwad personol i hyrwyddo cynnydd crefydd yn Môn. Elian oedd mewn mwyaf o ffafr yn ei olwg ef; ac y mae y traddodiad canlynol ar lafar y werin yn yr ardal hono hyd heddyw:—Archodd Caswallawn i Elian ollwng ei gi ar ol un o geirw y brenin; a pha faint bynag o dir a amgylchai y carw wrth redeg o flaen y ci, y rhoddai efe hyny at gynnal crefydd yn y rhan hono o'r wlad; ac fel hyn, meddir, y nodwyd allan blwyf Llanelian, yn Môn.' Y mae yno aber fechan yn agos i Borth Elian, a elwir 'Llam y Carw,' yn aros yn goffadwriaeth am y rhedfa uchod. Weithiau, arosai Caswallawn yn ei balas yn Nghreuddyn, ger llaw yr afon Conwy; i'r hwn y deuai Elian ato yn ei gymmeriad o gapelwr iddo. Pan adeiladwyd eglwys yn y fan, galwyd hi yn Llanelian, ar enw y capelwr; a dyma yw enw y llan hyd y dydd heddyw. Yr oedd Caswallawn yn un o 'dri hualogion deulu Ynys Prydain,' am y caniateid iddynt wisgo aur-dorchau. A rhoddid awdurdod brenin iddynt yn eu terfynau eu hunain, dan raith gwlad a chenedl. Bu Caswallawn farw yn y flwyddyn 517, wedi teyrnasu yr ysbaid maith o 74ain ml. Ei ddilynydd ar yr orsedd oedd ei fab, Maelgwyn Gwynedd.

CEDOL. Sant, a sefydlydd eglwys Llangedol, neu Pentir, ger Bangor Fawr yn Arfon.

CEDWYN. Sant, a mab i Gwgan Meigwron, o Madryn, ferch Gwrthefyr Frenin. Sef-

Digitized by Google

ydlwyd eglwys Llangedwyn, yn sir Ddinbych, ganddo; a thybir mai yno y claddwyd ef.

CEIDIO :—mab i Caw Cowllwg. Sant oedd efe, yn byw yn y chweched ganrif. Efe oedd sefydlydd eglwys Ceidio, yn sir Gaernarfon, a Rhodwydd Ceidio, yn Môn. Yr oedd sant arall yn dwyn yr un enw; yr hwn oedd fab i Ynyr Gwent, ac yn aelod o goleg Cattwg.

CEINDRYCH :—merch Brychan Brycheiniog. Yr oedd hi yn byw yn Nghaer Godolawr, yn ol *Bonedd y Saint;* ond yn Llangedwyn, yn ol awdurdodau eraill. Sonir yn y *Trioedd* am un arall o'r un enw, yr hon oedd yn ferch i Elidir Gosgorddfawr.

CEINWEN. Merch Brychan Brycheiniog; a sylfaenydd eglwysydd Llangeinwen, a Cheryg Ceinwen, yn Môn. Santes oedd hi.

CEIRIOG. Gwel d.g. HUGHES, J. CEIRIOG.

CEIRIOG, HUW. Bardd, a anwyd, yn ol pob tebyg, yn Nglynceiriog, yn sir Ddinbych. Blodeuodd rhwng 1580 a 1620.

CEIRIOG, SION. John Edwards ydoedd ei enw. Ganwyd ef yn Nghrogen Wladys, ger Castell y Waen, Glynceiriog, yn y flwyddyn 1747. Efe, Owain Myfyr, a Robin Ddu o Fôn, oedd y tri a sefydlasant Gymdeithas y Gwyneddigion yn Llundain, yn 1770. Owain, meddir, oedd pïau y meddylddrych. Hysbysodd ef i Siôn, a soniodd Siôn am y peth wrth Robin. Bu Siôn yn ysgrifenydd i'r gymdeithas yn 1779 a 1780, ac yn llywydd arni yn 1783. Ar farwolaeth Richard Morus, llywydd y Cymmrodorion, yn 1779, rhoddwyd ef yn destyn marwnad: a chystadleuodd Dafydd Ionawr, Jonathan Hughes, a Richard Jones o Fôn; a chyfansoddwyd yr hyn a elwir yn Awdl Bindaraidd gan Siôn Ceiriog. Owain Myfyr a Robin Ddu oedd y beirniaid; a barnasant hwy mai awdl Richard Jones oedd yr oreu. Ar yr ochr arall, taerai y gymdeithas mai awdl benrydd Siôn Ceiriog oedd yr oreu; ac achosodd y gwahaniaeth hwn ar fater mor bwysig ryfel wyllt yn mysg y beirdd. Bu Siôn farw yn 1792, yn 45ain ml. oed. Yn yr *Eurgrawn* am Mehefin, 1796, ymddangosodd englynion hynod o ganmoliaethol am dano, o waith yr enwog John Jones, o Lan-y-gors.

CELLAN BENCERDD. Prif fardd telyn Gruffydd ab Cynan, yn 1015. Gwyddel oedd efe, a ddygwyd gan Gruffydd i Wynedd, gyd â'r amcan canmoladwy o wella cerddoriaeth o fewn ei diriogaeth.

CELLI, THOMAS. Yr oedd efe yn byw yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg; ac yn adnabyddus fel bardd da a chwaethus. Y darn mwyaf adnabyddus o'i waith yw ei 'Gywydd i'r ddwy fil o Saint aeth i Enlli.' Ceir y cywydd godidog hwn yn argraphedig yn y *Brython.*

CENEDLON, neu CENAU. Yr oedd hi yn ddeunawfed ferch i Brychan Brycheiniog, ac yn un o'r enwocaf yn rhestr y Seintiau Cymreig. Y mae ei hanes, fel y ceir ef gan amryw haneswyr, yn debyg fel y canlyn:—'Pan y tyfodd i addfedrwydd oedran, ceisiwyd hi gan amryw o wŷr urddasol; ond gwrthododd y sefyllfa briodasol, am y rheswm ei bod wedi cyflwyno ei morwyndod i'r Arglwydd trwy adduned barhaus. Am hyny, galwyd hi, o'r pryd hwnw allan, yn Cenedlon y Forwyn. O'r diwedd, penderfynodd adael ei gwlad, a myned i chwilio am ryw lanerch anghyfanneddol, lle y gallai drigo mewn unigedd a myfyrdod duwiol. Wedi croesi yr Hafren, hi a welodd goedwig gyfleus; a gwnaeth gais at arglwydd y wlad hono am y lle er gwasanaethu Duw ynddo. Caniataodd yntau ei dymuniad iddi. Ond yr oedd y lle yn orlawn o nadroedd a seirph, fel nas gallai un dyn nac anifail fyw ynddo. Am hyny, gweddiodd Cenau ar yr Arglwydd, ac efe a drodd y nadroedd a'r seirph yn geryg. A dyna, meddir, y rheswm fod ceryg y lle hwnw (yr hwn a elwir yn awr Keynsham, rhwng Caerodor a Chaerbaddon) yn debyg i seirph troellog hyd y dydd heddyw. Wedi i'w henwogrwydd ymledu dros yr holl wlad, a llawer o gapeli gael eu hadeiladu ganddi, daeth ei nai, St. Cattawg (Cathog Ddoeth), heibio, wrth fyned ar ei bererindod i fynydd St. Mihangel; a cheisiodd ei chymmeryd adref gydag ef. Ond ni chaniatäai y trigolion hyn iddo. Eithr yn mhen ysbaid ar ol hyny, hi a ddychwelodd, ar orchymyn angel, ac a adeiladodd drigfan iddi ei hun ar ben bryncyn, wrth droed mynydd uchel yn swydd Frycheiniog; ac mewn attebiad i'w gweddi, tarddodd ffynnon iachusol allan o'r ddaear yn y lle hwnw, yr hon a elwir Ffynnon Genau, a *St. Keyne's Well:*—i'r hon y perthynai gynt amryw rinweddau; megys iachau clefydau, neu roi awdurdod i'r gŵr neu i'r wraig, a fedrai, ar ol priodi, lwyddo i yfed yn gyntaf o'r dwfr i fod yn ben o hyny allan ar y llall.' Dyna hanes hynod Cenedlon, yn ol fel y gosodir ef allan gan yr haneswyr a enwyd. Y mae plwyf ac eglwys Llangenau yn cael eu galw ar ei henw.

CENT, SION. Gwel SIÔN CENT, cyf. ix.

CERI, HIR LYNGWYN. Dywed y *Trioedd* ei fod yn or-hendaid i'r enwog Caradawg ab Bran; ac mai ei fardd ef, Cerfinwr, a ddyfeisiodd longau hwylio gyntaf i genedl y Cymry.

CERI, HYWEL. Bardd o fri, a flodeuodd rhwng y bl. 1570 a 1600.

CESAIL, CADWALADR. Bardd oedd yn byw mewn lle o'r enw Gesail Gyfarch, yn Eifionydd, rywbryd tua dechreu yr ail ganrif ar bymtheg. Barna rhai mai yr un person oedd efe a Cadwaladr Gruffydd.

CETHIN, GUTYN. Bardd oedd yn byw yn y rhan olaf o'r unfed-ganrif-ar-bymtheg.

CETHIN, SYR LEWIS. Blodeuodd yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg. Yr oedd yn fardd da, ac yn glerigwr cenedlgarol. Gwnaeth gryn lawer er sicrhau yr argraphiad o lyfrau yn yr iaith Gymraeg.

CEUGANT (BEILLIAWG). Rhyfelwr enwog; am gorph yr hwn, ynghyd â Madawg ab Brwyn, a Rhuawn Befr, y dywedir yn y *Trioedd,* pan laddwyd hwy, y rhoddwyd eu pwysau o aur am gael eu cyrph o ddwylaw y rhai a'u lladdodd.

CEWYDD. Yr oedd efe yn fab i Caw, ac

Digitized by Google

yn byw yn y rhan gyntaf o'r chweched ganrif. Efe oedd sylfaenydd eglwysydd Aberedwy, a Diserth, yn sir Faesyfed; a Llangewydd hefyd, yr hon a safai gynt ger Pen-y-bont, Morganwg.

CHALONER, SYR THOMAS. Ganwyd ef yn Llundain, tua'r fl. 1515; ond hanodd o ben deulu Cymraeg o linach urddasol. Wedi gorphen ei addysg yn Nghaergrawnt, aeth i'r Almaen, gyda Syr Henry Kevet, llysgenhadwr Prydain at yr ymherawdwr Siarl v. Ar ei ddychweliad oddi yno, pennodwyd ef yn ysgrifenydd i'r cyfrin-gynghor. Aeth gyda'r Duc o Somerset i Ysgotland, yn ystod teyrnasiad Iorwerth VI.; ac yn mrwydr Musselburgh, efe a ennillodd gymmaint o glod fel y gwnaed ef yn farchog. Bu cymmylau duon yn hofran uwch ei ben yn nheyrnasiad Mari; ac yn brin y diangodd rhag llidiawgrwydd ei elynion. Ond yn nheyrnasiad y frenhines Elizabeth, daeth gwawr ar ei amgylchiadau. Ar ei choroniad hi, anfonwyd ef yn negesydd i'r Almaen; ac yn ddilynol, i'r Yspaen. Bu farw Hyd. 7fed, 1565, yn 40ain ml. oed, a chladdwyd ef yn Eglwys St. Paul.

CHARLES, DAVID, PARCH. (ieu)., Caerfyrddin. Unig fab y Parch. David Charles o'r un dref, a nai y Parch. Thomas Charles o'r Bala, oedd y gŵr uchod. Ganwyd ef yn y fl. 1803, mewn tŷ—un o dai goreu y dref y pryd hwnw—sydd yn Heol-y-brenin. Argraphydd, ac eilliwr sydd yn byw yn y tŷ hwnw er's blynyddoedd bellach. Bu i'r Parch. David Charles, hynaf, bedwar o blant—tair merch, ac un mab; sef, gwrthddrych yr ysgrif hon. Mam y diweddar Brifathraw D. Charles Davies, Trefecca, oedd un o'r merched. Priododd un arall Mr. Hughes, arlunydd; yr hwn a gyhoeddodd *Bregethau a Myfyrdodau* ei dad-yn-nghyfraith: a bu yr ieuangaf—Mrs. Davies, yn cadw un o brif westai y dref (The Ivy Bush) am flynyddoedd lawer. Ein gwrthddrych oedd yr unig fab, a'r ieuangaf o'r plant. Y mab oedd hoff blentyn ac eilun y teulu. Yr oedd pawb, o'r tad a'r fam a'r chwiorydd, hyd at y forwyn leiaf yn y tŷ, yn gwbl at alwad a gorchymyn '*Master David.*' Clywsom Mrs. Davies, Aberystwyth—ei chwaer—yn dyweyd y buasai yn ammhossibl i'r warogaeth a'r gofal a ddangosid am dano lai na dyfetha unrhyw ddyn. Yr oedd yn hawdd canfod fod '*Master David*' wedi cael gormod o'i ffordd, a gormod o dynerwch wrth ei fagu. Ei ewyllys ef oedd oruchaf, fynychaf, ar aelwyd ei barchus a'i enwog dad. Bu hyn yn achos gofid iddo ef, a'i gyfeillion, ar hyd ei oes. Am ei fod wedi arfer cael ei ffordd yn mhob peth, nis gallai oddef cael ei wrthwynebu. Y mae hyn yn wir am bob plentyn a fegir yn gyffelyb iddo.

Byddai Coleridge yn arfer dyweyd mai y rheswm ei fod mor anhawdd cydweithredu gydag ysgolfeistr yw, ei fod wedi arfer cael ei ffordd ei hun—mai ei ewyllys ef sydd oruchaf yn yr ysgol. Gorchymyn yw ei hawlfraint ef—ufuddhau yw dyledswydd a braint yr ysgolheigion. Buasai yn llawer hawddach cydweithredu gyda Mr. Charles pe buasai wedi cael llai o'i ffordd ei hun pan yn blentyn. Hwn yw y rheswm na chafodd ei ddwyn i fyny yn un o brif ysgolion y deyrnas, fel ei ewythr enwog o'r Bala. Yr oedd ei dad mewn ffordd i allu gwneyd hyny; ond gwrthodai yn benderfynol fyned i Rydychain, na Chaergrawnt; a bu raid i'w dad ganiatau iddo gymmeryd at y fasnach a gerid yn mlaen ganddo ef; sef, gwneyd papur a rhaffau. Wrth y gwaith hwnw y parhaodd nes iddo adael tref ei enedigaeth, yn y fl. 1876, bedair blynedd cyn ei farwolaeth; a myned i drigo at ei unig fab, Mr. David Roberts Charles, Swarthdale, Ulverston. Yn nhŷ ei fab y bu farw, ar y 10fed dydd o Fai, 1880; a chladdwyd ef ar y 13eg, yn nghladdfa gyhoeddus Ulverston.

Bu gair ein gwrthddrych, fel yr eiddo ei dad galluog, yr holl amser y bu efe yn flaenor yn eglwys Heol-y-Dŵr, yn ddeddf yn nghyfarfod misol y sir, ac yn nghymdeithasfa y De. Nid oedd hyn ond peth naturiol; o blegid yr oedd ei dad yn ŵr cyfoethog; a mwy na hyny, yr oedd yn un o ddynion galluocaf y Methodistiaid yn y De. Yn wir, nid oedd ei alluocach yn y cyfundeb yr oes hono. Heb law fod Mr. Charles yn fab i ŵr cyfoethog a galluog, yr oedd yn nai i ŵr enwog arall—un y bydd ei enw yn gyssegredig i genedl y Cymry tra y pery haul a lloer; sef, Charles o'r Bala. Yr oedd Mr. Charles wedi penderfynu na ddechreuai ar y gwaith o bregethu yn ieuangach nag yr oedd ei dad pan ddechreuodd efe ar y gwaith. Mab deugain mlwydd oed oedd efe, fel ei dad, pan draddododd efe ei bregeth gyntaf yn sedd fawr Capel Heol-y-dŵr. Tra yn flaenor, bu yn arswyd ac yn fagl i lawer o bregethwyr y De a'r Gogledd; canys yr oedd yn un o'r gwrandawyr salaf. Eisteddai, fel y byddai cyfoethogion y cyfundeb yr oes hono yn arfer gwneyd, yn yr oriel, ac yn un o'r seddau mwyaf amlwg—sedd y ffrynt. Os na byddai y bregeth wrth ei fodd, codai ar ei draed, gan droi ei gefn ar y pregethwr; ac yna ymroddai i besychu! Buasai yn ammhossibl i ddylanwad gŵr o dymmer—tymmer falch ac arglwyddaidd—a hynodion (*oddities*) Mr. Charles barhau yn hir. Ond pan ddechreuodd bregethu, collodd bob gronyn o'i ddylanwad yn y cyfarfod misol a'r gymdeithasfa. Pan esgynodd efe i'r pulpud, peidiodd â bod yn frenin ar y diaconiaid. Ac wedi iddo gael ei restru yn mysg y pregethwyr, tueddwyd rhai yr oedd efe wedi eu clwyfo pan yn archddiacon yn eglwys Heol-y-dŵr, mae'n debygol, i dalu y pwyth yn ol i'r beirniad llym ac annhrugarog. Na ryfedded y darllenydd at hyn; o blegid yr un yw y natur ddynol yn y pulpud ag ydyw yn y sedd fawr. Ond gresyn oedd gweled dyn oedd wedi bod am gynnifer o flynyddoedd yn un o wŷr mwyaf dylanwadol y De, yn colli hwnw, fel cicaion Jonah, mewn noswaith! Gallasai Mr. Charles ieuangaf, er cystal dyn ydoedd, ddyweyd fel Adonibezec gynt:—'Deg a thri ugain o frenhinoedd, wedi tori bodiau eu dwylaw a'u traed, a fu yn casglu eu bwyd dan fy mwrdd i. Fel y gwneuthum, felly y talodd Duw i mi.' A da fyddai i ddiaconiaid a phregethwyr gofio fod deddf ad-daliad yn un o ddeddfau pwysig llywodraeth y Brenin Mawr.

Teimlasom ganwaith drosto wrth weled brodyr llawer llai eu galluoedd yn ymbleseru mor fawr mewn taflu diystyrwch a sarhâd arno; a gwelsom rai yn methu yn lân a chuddio eu llawenydd—y llawenydd o gael cyfle i ad-dalu iddo!

Ond er pob gwendid a hynodrwydd, yr oedd Mr. Charles yn ddyn mawr, ac yn ddyn da. Yr oedd y rhai a'i hadwaenent oreu yn ddiysgog yn eu cred ei fod yn ddyn crefyddol iawn—ei fod yn ŵr Duw, ac yn ceisio yn ddyfal Dduw ei dad.

O ran corpholaeth ac ymddangosiad, yr oedd Mr. D. Charles, fel ei dad, yn ddyn mawr, tal, urddasol, a thywysogaidd iawn yr olwg arno.

Digitized by Google

O ran ffurf y wyneb, a phryd a gwedd, efe oedd y tebycaf i'w dad o'r holl blant. Mae'n sicr ei fod yn fwy o wir fardd na'i dad; ond nid oedd yn gymmaint meddyliwr, nac mor boblogaidd fel pregethwr. Meddylgarwch oedd prif hynodrwydd ei dad. Yr oedd yn nodedig hefyd ar gyfrif treiddgarwch ei weledied, ac ëangder ei amgyffrediad. Yr oedd ei allu i ganfod gwahaniaethau, ac i ddadgyfansoddi, o'r radd uchaf. Dwy ffordd yn unig sydd i ddyfod o hyd i wirionedd; naill ai trwy ddechreu gyda'r egwyddorion pellaf ac uchaf (*á priori*), a chasglu oddi wrthynt hwy pa fodd y mae yn rhaid i bethau fod; neu ynte, dechreu gyda'r ffeithiau mwyaf adnabyddus, ac agosaf atom (*á posteriori*), ac felly ymgodi yn raddol ar sail yr hyn sydd adnabyddus at yr anadnabyddus. Yr olaf, sef ymresymu oddi wrth yr effaith at yr achos, oedd dull, *method*, Mr. Charles (hynaf) yn ei ymchwiliadau duwinyddol.

Nid oedd dim o wreiddiolder y tad yn y mab; ond yr oedd yn dwyn ei ddelw fel brawddegwr. Brawddegwyr sâl oedd y ddau. Nid oedd ol saernïaeth ar frawddegau y naill na'r llall. Ond yr oedd yn wledd o'r fath oreu ei glywed yn darllen pennod, ac yn gweddïo i ddechreu odfa. Elai drwy y rhanau defosiynol o'r gwasanaeth yn ol y drefn Wesleyaidd:—pennill i'w ganu, yna gweddïo, gan orphen gydag adrodd Gweddi'r Arglwydd; yna darllenai y bennod—Salm neu ddwy, fynychaf—rhoddai bennill, ac yna y bregeth. Ni chlywsom neb erioed yn myned drwy y rhan hon o'r gwasanaeth gyda mwy o ddwysder ac urddas—oddi eithr y Parch. Henry Rees.

Nid ydym yn gwybod pa ham y mabwysiadodd Mr. Charles y dull hwn o arwain y gwasanaeth, gan nad oedd neb arall yn nghyfundeb y Methodistiaid Calvinaidd yn gwneyd hyny; os nad oedd ei waith yn mynychu capel y Wesleyaid wedi effeithio arno, a'i dueddu i feddwl mai hyny oedd y ffordd oreu a mwyaf gweddus.

Fod y mab yn rhagori ar y tad fel bardd a chyfieithydd emynau sydd anwadadwy. Beïir ef gan rai o'r beirniaid am iddo osod enw ei dad wrth emynau yn y *Llyfr Hymnau* y dylasai wybod nad ei dad oedd wedi eu cyfansoddi; megys

'O fryniau Caersalem ceir gweled,' &c.

Nid ydym yn gallu cyfrif am ei waith yn gosod enw ei dad wrth emynau y gwyddys erbyn hyn na chyfansoddwyd hwynt ganddo, ond ar y dybiaeth hon; sef, iddo gymmeryd yn ganiataol, gan fod ei dad yn fardd, fod pob pennill a ysgrifenwyd ganddo ar ddiwedd ei bregethau wedi eu cyfansoddi ganddo ef ei hun.

Emynau mwyaf adnabyddus y mab ydynt

'Ffordd Duw sydd yn y dyfroedd,
A'i lwybrau oll yn gudd,' &c.

'O! Salem, fy anwyl gartrefle,' &c.

Ac y mae y pennillion hyny a gyfieithwyd ganddo, sef,

'Mor beraidd i'r credadyn gwan,
Yw hyfryd enw Crist,' &c.

Iawn cystal a'r gwreiddiol.

Gresyn na buasai wedi cyfieithu cyn marw

'Lead, kindly Light,' &c.

Heddwch i'w lwch!

CHARLES, EDWARD. Brodor oedd efe o Glocaenog, ger Rhuthyn; ac adnabyddwyd ef wrth yr enwau 'Siâms o Wynedd,' a 'Sierlyn Fardd.' Bu yn preswylio am y rhan fwyaf o'i oes yn Llundain. Gwasanaethodd fel ysgrifenydd Cymdeithas y Gwyneddigion yn y fl. 1796; ac etholwyd ef yn fardd iddi yn 1800, a thrachefn yn 1810. Bu farw yno yn 1828.

CHARLES, PARCH. WILLIAM. Pregethwr cymmeradwy gyda'r Methodistiaid Calvinaidd. Ganwyd ef yn Tŷ newydd, Gwalchmai, Môn, Hydref 1af, 1817. Ei dad oedd y Parch. John Charles; yr hwn a fu yn pregethu gyda'r un enwad am 46ain o flynyddoedd. Yr oedd yn y bachgen, William, duedd gref at bregethu pan yn ieuangc; ac arferai ei ddawn yn aml mewn lleoedd dirgel. Gan fod pregethu yn elfen gref yn nghymmeriad teulu y Tŷ newydd, nid oedd wiw disgwyl i William fod yn ddim amgen; a phan alwyd ef yn ffurfiol at y gwaith, yr oedd pregethu yn hollol gydnaws â'i natur. Pan tua 14eg oed, anfonwyd ef i ysgol y Parch. W. Roberts, Bodedeyrn; ac i Athrofa y Bala pan yn ugain oed. Arosodd yno am dair blynedd; ac yn lled fuan wedi ei ddychweliad i'w ynys enedigol, priododd Miss E. Edwards, Bodwrog. Un o'i anfanteision mawr oedd iechyd gwan; o blegid glynodd effeithiau twymyn a gafodd yn moreu ei oes wrtho am y gweddill o'i fywyd. Modd bynag, cafodd y fraint o dalu ymweliad, fwy nag unwaith, â holl siroedd Gogledd Cymru i bregethu yr efengyl; a bu hefyd yn rhai o brif drefi Lloegr. O herwydd sefyllfa ei iechyd, ychydig o bregethau a draddodwyd ganddo yn 1846. Traddododd ei bregeth olaf y Sabbath diweddaf yn y flwyddyn 1848. Ac ar y 13eg o Ionawr, 1849, bu farw. Gadawodd goffadwriaeth dymunol ar ei ol, er byred fu ei oes.

CIAN. Rhyfelwr, a bardd o fri, oedd yn byw yn y chweched ganrif; at yr hwn y cyfeirir gan Aneurin, Taliesin, a Gildas. Iddo ef y priodolir sefydliad eglwys Llangian, yn Lleyn; ond y mae rhai yn ystyried mai person arall o'r un enw oedd hwnw.

CILAN, HYWEL. Bardd, oedd yn byw rhwng y bl. 1460 a 1490. Dywedir mai efe oedd perchenog Llawr-y-Cilan, Llandrillo, yn Edeyrnion. Ychydig iawn o'i waith sydd wedi ei argraphu.

CILHWCH AB CILYDD AB CELYDDON. Arwr y Fabinogi 'Cilhwch ac Olwen, neu Hanes y Twrch Trwyth;' yr hon a dybir sydd yn alegori o'r Bardd a'r Awen. Y mae hwn, meddir, yn ddernyn, nad oes un arall mewn llenyddiaeth unrhyw wlad a ragora arno o ran cyfoeth crebwyll a darfelydd, lledneisrwydd chwaeth, ac unoliaeth amcan.

CILMIN DROED-DDU. Mab ydoedd efe i Cador ab Gwriad, a phenaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd. Yn y fl. 819, aeth gyda Merfyn Frych i sir Gaernarfon; ac ymsefydlodd yn Nglynllifon—hen balas a saif rhwng tref Caernarfon a Chlynog Fawr. Y mae hwn yn awr yn meddiant teulu Arglwydd Newborough; yr hwn a hanodd o Cilmin. Y mae hen draddodiad yn hysbysu i Cilmin gynnorthwyo rhyw ddewin i ladrata llyfrau y gŵr drwg; ac iddo, wrth ddiangc, fethu neidio dros rhyw ffrwd; ac i'w droed chwith suddo i'r dwfr:—yr hyn a achosodd iddo droi yn ddu. O herwydd hyn y gelwid ef yn Cilmin Droed-Ddu.

Digitized by Google

CLARENDON, Iarll (George William Frederick Villiers). Diplomydd enwog oedd efe, a anwyd yn Llundain, Ionawr 12fed, 1800. Disgynodd o'r Thomas Villiers hwnw, mab i Iarll Jersey, a briododd etifeddes yr Arglwydd Clarendon diweddaf, o deulu yr Hyde. Addysgwyd ef yn Nghaergrawnt; a phan yn gymmharol ieuangc, ymunodd â'r gwasanaeth diplomyddol. Yn 1833, pennodwyd ef yn llysgenhadydd yn Madrid, lle yr ennillodd ddylanwad mawr; yr hwn a ddefnyddiodd i gynnorthwyo i osod llywodraeth Yspaen ar sylfaen gyfansoddiadol gadarn. Ar farwolaeth ei ewythr yn ddiblant, yn 1838, daeth i feddiant o'r teitl; ac yn 1840, gwnaed ef yn arglwydd y sêl gyfrin, dan Arglwydd Melbourne.

Pan dorwyd y weinyddiaeth Ryddfrydig, neu Whigaidd, i fyny, yn 1841, daeth Villiers yn aelod blaenllaw o'r wrthblaid; ond rhoddodd gefnogaeth wresog i Syr Robert Peel, a'i frawd, Charles Pelham Villiers, yn y cyffrawd a ddigwyddodd o blaid diddymiad deddfau yr ŷd. Yn 1846, pennodwyd ef yn llywydd y bwrdd masnach, o dan Arglwydd John Russell; a'r flwyddyn ddilynol, gwnaed ef yn arglwydd raglaw yr Iwerddon. Ymgymmerodd â gorchwylion y swydd hon mewn adeg gythryblus; ac oni buasai am y mesurau penderfynol a fabwysiadodd, y mae yn sicr y buasai opiniynau Mr. Smith O'Brien, a'i gyfeillon, wedi achosi helyntion ofnadwy yn yr ynys. Modd bynag, trwy ei ddoethineb a'i benderfyniad, adferwyd heddwch cyffredinol yno. Diolchwyd yn gynnes iddo yn Anerchiad y Frenhines yn 1848. Pan yr ymddiswyddodd gweinyddiaeth Arglwydd John Russell, yn 1852, cymmerwyd lle Clarendon gan Iarll Eglington. Ond pan ffurfiwyd gweinyddiaeth Arglwydd Aberdeen, yn y flwyddyn ddilynol, pennodwyd Clarendon yn ysgrifenydd tramor. Ar ei ysgwyddau ef, gan hyny, yn benaf, y disgynodd y cyfrifoldeb oedd ynglŷn â Rhyfel y Crimea. Yn 1855, galwodd Mr. Roebuck sylw y senedd mewn modd arbenig at sefyllfa adfydus ein byddin ni yn y Crimea; a chynnygiodd benderfyniad oedd yn gyfystyr a chondemniad ar y weinyddiaeth. Bu y penderfyniad hwn yn achos i Clarendon golli ei swydd; i'r hon, modd bynag, yr adferwyd ef ar gais Arglwydd Palmerston. O 1859 hyd 1865, delid y swydd o ysgrifenydd tramor gan Arglwydd John Russell; ond pan wnaed ef yn brifweinidog, ar farwolaeth Arglwydd Palmerston, dychwelodd Clarendon i'r swyddfa dramor. Y flwyddyn ddilynol, efe a ymddiswyddodd gyda'r weinyddiaeth; ond ymgymmerodd â'i hen ddyledswyddau yn ngweinyddiaeth Mr. Gladstone yn 1868; a chadwodd y swydd hyd ei farwolaeth, Mehefin 27ain, 1870.

CLARENDON, IARLL (Edward Hyde). Hanesydd a gwladweinydd o fri oedd efe; a ganwyd ef Chwefror 18fed, 1608, yn Dinton, ger Salisbury. Yr oedd efe yn drydydd mab i un o ysweiniaid sir Wilts. Bwriadwyd ei ddwyn i fyny yn glerigwr eglwysig, a rhoddwyd iddo addysg athrofaol dda; ond o herwydd iddo ddyfod yn etifedd eiddo y teulu ar farwolaeth ei frodyr, aeth i efrydu y gyfraith yn y Middle Temple. Gwnaeth gynnydd boddhaol yn ei alwedigaeth; ond yr oedd llenyddiaeth yn fwy cydnaws â'i chwaeth na'r gyfraith. Daeth i gyfeillgarwch â llenorion gwych; sef, Falkland, a Ben Jonson, a Chillingworth, ac eraill tebyg iddynt. Yn nghwmni y rhai hyn byddai bob amser yn ddedwydd.

Yn 1640, dychwelwyd ef yn aelod seneddol dros Wootton Bassett i'r Senedd Fer; ac i'r Senedd Hir dros Saltash. Efe a gymmerodd ran flaenllaw yn ngweithrediadau y senedd, gan gondemnio yn y modd llymaf y dull y gweinyddwyd amgylchiadau y deyrnas am y deuddeng mlynedd blaenorol; yn enwedig felly yr afreoleidd-dra oedd yn rhy gyffredin o berthynas i'r gyfraith, a'i gweinyddiad. Bn yn cydweithio yn galonog am amser â'r hyn a elwid 'y blaid boblogaidd:' ond ar y cwestiwn o lywodraeth eglwysig, ymwahanodd oddi wrth ei blaid, a daeth i gyfathrach agosach â'r brenin. Yn Hydref, y fl. 1641, er nad oedd efe yn meddu un safle swyddol yn y llywodraeth, fe'i gwnaed ef yn gynghorwr cyfrinachol i'r brenin Siarl, ac yn arweinydd ei blaid yn Nhŷ y Cyffredin. Yr oedd Clarendon yn hollol anghymmeradwyo ymgais Siarl i gymmeryd pump o aelodau Tŷ y Cyffredin i'r ddalfa am drosedd dychymygol yn erbyn y frenhines—yr hyn, ar y pryd, a achosodd gyffro anaele mewn cylchoedd gwleidyddol. Ond parhaodd yn ei wasanaeth, gan dynu allan yn ddirgelaidd yr holl attebion brenhinol i'r deisebau seneddol, &c. Pan yr aeth y brenin ymaith i sir Gaerefrog, yn Mai, 1642, llithrodd Claerendon ar ei ol, ac ymunodd âg ef yno. Un o brif orchestion ei fywyd oedd ffurfiad y blaid Gyfansoddiadol Frenhinol—arweinydd ac oracl yr hon oedd efe ei hun. Yn y cymmeriad hwn, llwyddodd i berswadio Siarl i ymgadw rhag gweithredu mewn dull anghyfansoddiadol; ond yn hytrach i sefyll ar ei hawliau a'i iawnderau cyfreithlawn. Yn ngwanwyn y fl. 1643, rhoddwyd iddo urdd marchog; a gwnaed ef yn aelod o'r cyfrin-gynghor, ac yn ganghellydd y trysorlys. Ar ei gais, neu yn hytrach trwy ei gynghor ef, y galwodd y brenin ynghyd y senedd a gyfarfu yn Hydref—y flwyddyn hono, yn Rhydychain. Yn y symmudiadau gwladol, efe oedd prif gynghorwr a goruchwyliwr y brenin; a chydnabyddid pwysigrwydd ei sefyllfa gan y senedd. Pan yr anfonwyd Tywysog Cymru, yn 1645, i orllewinbarth Lloegr, dilynwyd ef gan Hyde fel un o aelodau ei gynghor; a dilynwyd ef hefyd yn ei ffoedigaeth rhag byddin Fairfax—un o gadfridogion plaid y senedd. Yn Medi, 1648, parodd toriad allan y rhyfel cartrefol, a digwyddiadau gwladol pwysig eraill, iddo gael ei alw i Holland i ymuno â'r Tywysog Charles. Ond yn ngwanwyn y flwyddyn ddilynol, anfonwyd ef fel llysgenhadwr i Madrid; ac arhosodd yn Ysbaen hyd y fl. 1651. Ar derfyn y flwyddyn 1652, ail ymunodd â'r brenin ieuangc; ac o'r adeg hono hyd yr adferiad, gweithredodd fel ei brif weinidog. Yn 1658, dyrchafwyd ef yn arglwydd ganghellydd y deyrnas. Yn ystod y cyfnod hwn, efe oedd yn rheoli amgylchiadau arianol y brenin, ac yn cario yn mlaen ei ohebiaethau â llysoedd tramor, ac yn gohebu yn ddi-baid â phersonau a phleidiau anghymmodlawn yn Lloegr. Y mae y gohebiaethau hyn yn nghadw yn y casgliad a elwir *The Clarendon State Papers.* Yn Ebrill, 1661, cafodd y teitl o Iarll Clarendon; ac yn fuan ar ol hyn, cymmerodd un o ddigwyddiadau hynotaf ei fywyd le. Yn y fl. 1660, priododd ei ferch, Anne, yn gyfrinachol â James, y Duc o Gaerefrog—brawd y brenin. Cymmerodd y seremoni le yn mhreswylfod ei thad. Pan glywodd efe y newydd, os oedd yn

Digitized by Google

newydd iddo hefyd, torodd allan mewn tymmer ofnadwy, gan ei chondemnio—yn ymddangosiadol felly o leiaf—â'r iaith fwyaf llem. Modd bynag, barn y bobl oedd, ei fod wedi arfer ei ddylanwad dirgelaidd i gael yr ammhlantadwy Catherine, o Braganza, yn wraig i'r brenin, fel y gallai ei ferch ef ryw ddiwrnod gael esgyn i'r orsedd fel gwraig y Duc o Gaerefrog. Am amser, ymddangosai priodas ddirgel ei ferch fel yn debyg o ddadsylfaenu ei safle aruchel yn y wladwriaeth; ond yn lle hyny, cadarnhaodd ei awdurdod yn fawr. Ond yr oedd ei gwymp yn prysur agoshau. Dygwyd cyhuddiad yn ei erbyn, y gallasai, pe yr ewyllysiai, sicrhau i'r brenin ddigon o gyfoeth i'w wneuthur yn annibynol ar y senedd; ond iddo ddewis peidio gwneyd hyny. Agorodd hyn lygaid y teyrn; ac o hyny allan dechreuodd ei haul fachludo yn raddol; ond nid oedd efe etto wedi gollwng ei afael o awenau y llywodraeth. Cymmerodd ran ar ol hyn mewn amryw o symmudiadau pwysig; ond llwyddodd ei elynion o'r diwedd i ddangos nas gallai parhâd ei swyddogaeth fod yn fanteisiol i'r brenin, nac i lwyddiant y wlad. Yn Awst, 1667, cymmerodd ei gwymp le:—cymmerwyd oddi arno y sêl fawr; cyhuddwyd ef o deyrn-fradwriaeth; ac ar y 29ain o Dachwedd, ar archiad y brenin, efe a ymadawodd o'r deyrnas, gan wneyd ei noddfa yn Ffraingc. Galwodd y senedd arno i ddychwelyd, i sefyll ei brawf; ond gan iddo wrthod, dedfrydwyd ef i alltudiaeth am ei oes. Anfonodd gais taer at Charles am ryddid i ddyfod yn ol i'w wlad, i farw; ond gommeddwyd hyd yn oed hyn iddo. Felly, bu farw yn Ffraingc, Rhagfyr 9fed, 1674.

Y mae barn dynion am Claerendon yn gwahaniaethu yn fawr. Dywed Southey, ei fod 'y doethaf, a'r cywiraf o wleidyddwyr.' George Brodie a'i geilw yn 'wenieithwr ac yn rhagrithiwr diegwyddor.' Ond bernir yn gyffredin fod Southey yn nes i'w le na Brodie, ac y gall y gwir fod yn rhywle rhwng syniadau y ddau. Cred y mwyafrif ydyw, ei fod yn onest, ac yn gysson â'i egwyddorion fel gwleidydd. Meddai yr ymlyniad mwyaf wrth yr Eglwys Wladol; ac arferai ei ddylanwad bob amser i attal cyfnewidiadau yn ei llywodraeth a'i dysgyblaeth. Yn ystod ei amser hamddenol, ysgrifenodd y saith llyfr cyntaf o'i *History of the Rebellion in England*, ynghyd â'r attodiadau llai gwerthfawr iddo; sef, *The History of the Civil War in Ireland;* a *Life of Edward, Earl of Clarendon.* Yn y gwaith olaf hwn, efe a amddiffynodd y rhanau a gymmerwyd gan Charles ac yntau yn amgylchiadau y deyrnas; ac o herwydd hyn, mae'n debyg, y dywed y beirniaid nad ydyw y gwaith mor ammhleidiol ag y dylasai fod. Heb law yr uchod, ysgrifenodd Clarendon amryw o draethodau, a phamphledau.

CLEDWYN. Un o feibion Brychan Brycheiniog oedd efe, ac olynydd ei dad ar yr orsedd. Ennillodd glod ac anrhydedd iddo ei hun trwy ei waith yn ymlid y Gwyddyl Ffichti, gelynion blinion y Cymry, o'r Deheubarth. Y mae eglwys Llangledwyn, yn sir Gaerfyrddin, wedi ei chyssegru ar ei enw.

CLIDRO, ROBERT. Bardd oedd yn byw rhwng y bl. 1600 a 1650. Ceir rhai darnau o'i farddoniaeth yn nghadw mewn llawysgrifen. Hynodir hwynt oll o'r bron gan yr elfen ddigrifol ac ysgafn.



CLOUGH, Y PARCH. R. B., M. A., periglor Corwen. Yr oedd efe yn fardd ac yn llenor dysgedig, ac yn enwog am ei sêl dros lenyddiaeth Gymreig. Yr oedd hefyd yn wladgarwr diammheuol. Argraphwyd rhai o'i gyfansoddiadau yn y *Gwyliedydd.* Bu farw Gorphenaf 11eg, 1830; a rhoddwyd ei farwolaeth yn un o destynau Eisteddfod Dyffryn Edeyrnion y flwyddyn hono.

CLWYDFARDD. Gwel GRIFFITHS, DAVID.

CLYDAI. Un arall o ferched Brychan Brycheiniog. Hi oedd sefydlydd eglwys Clydai, yn sir Benfro.

CLYDNO, EIDDIN. Mab Cynwyd Cynwydion. Yr oedd efe yn benaeth gwrol, yn byw yn y chweched ganrif.

CLYDOG. Sant. Yr oedd efe yn blodeuo rywbryd tua'r bummed ganrif. Sefydlwyd eglwys Clodoc, yn swydd Henffordd, ganddo. Dywed yr hanesydd Cressy, iddo gael ei ferthyru yn y fl. 495.

CLYWEDOG, IEUAN. Bardd, yn byw yn nechreu y bymthegfed ganrif.

CLYWEDOG, SION. Bardd, yn ei flodau rhwng 1580 a 1620.

COEL. Un o hen frenhinoedd Prydain, ac olynydd Cadell ab Geraint ar yr orsedd.

COEL AB CYLLIN AB CARADAWG AB BRAN. Rhestrir ef, gyda Corfinwr a Morddal, i ffurfio 'tri madgyrtinydd' Ynys Prydain. Efe, meddir, a ddygodd felinau a pheiriannau malu gyntaf i'r ynys hon.

COEL AB MEURIG. Olynydd ei dad ar yr orsedd pan oedd Prydain o dan raglawiaeth Agricola, y Rhufeinwr. Gelwir ef yn yr hen *Fabinogion* 'yr hen frenin Coel,' am y dywedir iddo fyw am yr ysbaid maith o 289 mlynedd.

COLERIDGE, JOHN DUKE. Arglwydd Brif-farnwr Lloegr. Ganwyd ef yn 1820. Mab oedd efe i Syr John Taylor Coleridge, D.C.L., yr hwn fu yn olygydd ar y *Quarterly*, yn fywgraphydd i Keble, ac am ugain mlynedd yn un o farnwyr Llys Maingc y Frenhines. Hen ewythr iddo oedd yr enwog Samuel Taylor Coleridge—y bardd, yr athronydd, a'r duwinydd. Addysgwyd ef yn Eaton a Rhydychain; lle, pan yn ddwy ar bymtheg oed, yr ennillodd ysgoloriaeth agored. Yr oedd yn fachgen o dalentau naturiol gloyw; ac aeth trwy ei yrfa golegawl gydag anrhydedd uchel. Yna ymrestrodd fel bar-gyfreithiwr yn y Temple; ac yn fuan iawn, rhoddodd brofion y byddai iddo feddiannu rhai o'r swyddi cyfreithiol uchaf yn y deyrnas. Yn mhen ychydig flynyddoedd, yr oedd ganddo law mewn rhai o brif achosion cyfreithiol y llysoedd—yn neillduol felly mewn cynghawsion eglwysig.

Yn 1861, gwnaed ef yn gynghorwr y frenhines (Q.C.)—yr un adeg ag y derbyniodd Syr John Karslake yr un anrhydedd. Bu y ddau yn ymladd yn benderfynol yn erbyn eu gilydd amryw weithiau; ac yn yr ymdrech am oruchafiaeth, tueddai y cyhoedd i roddi y flaenoriaeth

Digitized by Google

i Coleridge. O'r fl. 1855 hyd 1866, llanwodd y swydd o Gofiadur Portsmouth. Yn 1865, dychwelwyd ef i'r senedd dros Exeter; yr hon sedd a ddaliwyd ganddo am wyth mlynedd. Yn lled fuan wedi ei etholiad, darfu iddo, er yn uchel-Eglwyswr o ran ei ddaliadau, ddwyn mesur i mewn i'r tŷ i ymwneyd â'r hyn a elwid yn *University Tests*—Prawfion y Prifysgolion, y rhai y galwai yr Anghydffurfwyr yn ddibaid am eu diddymiad, ond i ychydig bwrpas. Yr oedd Mr. Coleridge yn selog o blaid diddymiad y deddfau athrofäol hyn, a attalient yr Anghydffurfwyr i dderbyn manteision addysg a graddau yr athrofäau, am na allent lawnodi y Deugain Erthygl ond un. Cymmerodd hefyd ran flaenllaw yn y frwydr a gymmerodd le ar y cwestiwn hwn am y tair blynedd dilynol. Yn ngwanwyn y fl. 1868, cymmerodd yr etholiad cyffredinol hynod hwnw le, pan y dychwelwyd Mr. Gladstone i awdurdod gyda mwyafrif mawr. Erbyn hyn, yr oedd Coleridge wedi ennill cymmeriad uchel fel seneddwr, ac fel un o areithwyr mwyaf hyawdl y tŷ. Yr oedd ei allu, ei hyawdledd, a'i safle fel cyfreithiwr, yn gyfryw fel nad oedd yn un syndod iddo gael ei wneyd gan Mr. Gladstone yn gyfreithiwr cyffredinol yn ei weinyddiaeth gyntaf. Ar yr achlysur hwn, rhoddwyd iddo urdd marchog, yn ol y ddefod arferol ar bennodiadau i'r swydd a enwyd. Yn ystod ei ddyrchafiadau dilynol nid anghofiodd Mr. Coleridge ei fesur yn mhlaid diddymiad y prawfion uchod; yr hyn, bellach, a gymmerwyd mewn llaw gan y llywodraeth. Bu dadleuon mawr o berthynas iddo; ond o'r diwedd, gorfu i Dŷ yr Arglwyddi ildio. Ac yn 1871, gosodwyd y mesur ar ddeddflyfrau y deyrnas. Yn Hydref, 1871, dyrchafwyd Mr. Coleridge yn dwrnai cyffredinol, fel olynydd i Syr Robert Collier; a daliodd y swydd hyd 1873. Y flwyddyn hon, ymneillduodd o Dŷ y Cyffredin, ar ei bennodiad yn Arglwydd Brif Farnwr Llys y Dadleuon Cyffredin *(Lord Chief Justice of the Common Pleas)*.

Yr oedd Arglwydd Coleridge wedi ennill safle anrhydeddus fel bargyfreithiwr yn flaenorol i'w ymuniad â'r weinyddiaeth. Nis gallwn grybwyll yma yr achosion pwysig y bu ganddo law ynddynt; ond yr enwocaf oll oedd achos yr hawlydd Tichborne, yr hwn a gyffrodd y wlad o ben-bwy-gilydd, ac a fu dan sylw y llys am wythnosau lawer. Yr oedd yn meddu gallu hynod i anerch rheithwyr, ac i sicrhau dedfryd ffafriol i'r achos fyddai ganddo mewn llaw; ond ar ei allu fel croesholwr y gorphwysa ei glod yn benaf. Cododd y rhan hon o'i alwedigaeth i fod, meddir, yn un o'r 'celfau cain.' Ni byddai efe byth yn dychrynu y tyst trwy fygythion; ond arweiniai ef yn dawel, ac yn amyneddgar, ond er hyny gyda chyfrwysdra, i'r rhwyd a osodai efe ar ei lwybr. Yr oedd ei waith yn croesholi yr hawlydd Tichborne yn cael ei ystyried yn un o'r pethau goreu a mwyaf meistrolgar a glywyd erioed mewn llys barn. Ar farwolaeth Arglwydd Romilly, gwrthododd Syr John Coleridge gymmeryd ei bennodi i'r swydd anrhydeddus o Feistr y Rholiau. Daliodd ei swydd o Brif Farnwr Llys y Dadleuon Cyffredin am saith mlynedd. Efe oedd yr olaf i lanw y swydd hon; o blegid diddymwyd hi gan y *Judicature Act*. Yn 1880, pennodwyd ef yn Arglwydd Brif Farnwr Lloegr, fel olynydd Syr Alexander Cockburn.

Fel barnwr, prin y gellir ystyried Arglwydd Coleridge yn mysg yr enwocaf. Meddai rai rhinweddau oedd yn anhebgorol i'w wneyd yn boblogaidd ac yn urddasol yn y swydd; megys boneddigeiddrwydd, ei ystyriaeth o gyfleusderau eraill, a'i allu i ffurfio brawddegau perffaith o ran eu harddull, &c. Ond yr oedd eraill yn rhagori arno fel deonglwr o bwyntiau cyfreithiol dyrus, ac fel yn meddu gwybodaeth ddwfndreidiol o'r gyfraith. Modd bynag, cadwodd urddas a chymmeriad y swydd anrhydeddus yn ddilychwin hyd y diwedd. Yr oedd efe yn llenor gwych hefyd—yn meddu ar wybodaeth ëang o gyfrinion llenyddiaeth ei wlad. Ysgrifenodd lawer o erthyglau rhagorol i'r gwahanol gylchgronau; y rhai, meddir, ydynt yn werth eu casglu ynghyd, a'u hail gyhoeddi.

Bu farw Mehefin 14eg, 1894; a dilynwyd ef yn y teitl gan Bernard John Seymore Coleridge, ei fab hynaf; yr hwn, hefyd, sydd yn gyfreithiwr adnabyddus a llwyddiannus. Yn mis Gorphenaf, yn yr un flwyddyn, pennodwyd Syr Charles Russell yn olynydd iddo fel arglwydd brif farnwr; yr hwn a ddyrchafwyd i'r bendefigaeth gyda'r teitl o Arglwydd Russell o Killowen.

COLL AB COLLFREWI. Cymmeriad hynod yn Chwedloniaeth y Cymry. Efe, meddir, a ddygodd haidd a gwenith gyntaf i Ynys Prydain. Gelwir ef yn un o'r 'Tri Gwrddfeichiaid.'

COLLWYN. Penaeth un o'r pymtheg llwyth yn yr wythfed ganrif. Yr oedd efe yn fab i Tango ab Cadfael ab Lludd; ac yr oedd yn Arglwydd Eifionydd, Ardudwy, a rhan o Leyn. Bu yn preswylio dros ysbaid yn Nhŵr Bronwen, yn Harlech; ac oddi wrtho ef y galwyd y lle hwnw yn Caer Collwyn. Olrheiniai llawer o hen deuluoedd Arfon eu llinach o hono.

COLMAN. Sant Gwyddelig, ar enw yr hwn y galwyd Llangolman, a chapel Colman, yn sir Benfro, a Phorth Golman, yn Lleyn. Cesglir, oddi wrth hyn, iddo fod yn preswylio, am dymmor o leiaf, yn Nghymru; ac o bossibl, yn nghymmydogaeth yr ardaloedd uchod.

COLWYN. Rhestrir ef, gyda Phibydd Moel, a Gwesyn, fel 'Tri Defeidydd Gosgordd Ynys Prydain.' Efe oedd pen bugail Bran ab Llyr. Yr oedd ganddo ef, a'r ddau a enwyd, dri chant o gynnorthwywyr bob un, ac arnynt ofal chwe chan mil o ddefaid.

CONWY, HUW: bardd, a flodeuodd rhwng y bl. 1550 a 1580. Brodor oedd efe, yn ol pob tebyg, o Glan Conwy.

CONWY, LEWIS: bardd, a flodeuodd rhwng 1560 a 1600.

CONWY, PYRS. Yr oedd efe yn fab i Conwy Hen, o Fodryddan, ger Rhuddlan; yr hwn oedd yn barson plwyf Llaneurgain, yn sir Fflint, ac yn un o archddiaconiaid Llanelwy. Bu farw yn 1581; ac yn ei ewyllys, gadawodd ddeg *marc* i blwyf Llaneurgain.

COOK, PARCH. W. Ganwyd gwrthddrych yr erthygl hon o deulu crefyddol; a dygwyd ef i fyny dan ofal yr enwog John Ball. Yr oedd efe yn berchen ar gynneddfau naturiol cryfion iawn, ac o ddeall cyflym, a chôf rhagorol o dda.

Digitized by Google

Ac o herwydd ei hyddysgrwydd yn ieithoedd y dwyrain, daeth i sylw yr Esgob Walton, yr hwn a gymmerodd ddyddordeb mawr ynddo. Trwy gyfryngiad Syr John Burgoyne, gosodwyd ef yn ngweinidogaeth yr Eglwys Wladol; a bu yn dal urddau yn gyntaf yn Wroxal, yn swydd Warwick, yna yn Ashby de la Zouch, yn swydd Leicester. Tra yn y lle hwn, bwriwyd ef allan o'r Eglwys Wladol, a chymmerwyd ei swyddau oddi arno, am wrthod o hono lawnodi yr ymrwymiad. Yn ddilynol, cafodd le yn St. Michael, yn ninas Caerlleon; lle y bu yn weinidog llafurus a ffyddlawn, hyd oni fwriwyd ef allan drachefn drwy Ddeddf yr Unffurfiaeth, ar y 24ain o Awst, 1662.

Yr oedd Mr. Cook yn ffafriol a chefnogol i lywodraeth y brenin Siarl; ac ymunodd â Syr G. Booth (wedi hyny Arglwydd Delamere) yn ei gynnygiad i adferu y brenin i'r orsedd, yn y fl. 1659. Perswadiodd ddinasyddion Caerlleon i roddi i fyny y ddinas i'r boneddwr uchod. O herwydd hyny, efe a gymmerwyd i fyny yn garcharor yn Llundain. Dodwyd ef yn gaeth yn ngharchar Lambeth am amser maith; ac oni buasai am adferiad Siarl yr Ail i'r orsedd, prin y diangasai gyda'i fywyd. Modd bynag, er cymmaint ei ffyddlondeb i'r brenin, ni adferwyd iddo ei safle yn yr Eglwys, am na chydymffurfiai â hi fel sefydliad gwladol. Dywedir am dano, iddo gael ei fwrw i garchar gan faer Caerlleon am bregethu yr efengyl yn ei dŷ ei hun. Ni luddiodd hyn ef i lynu yn dŷn wrth ei egwyddorion; a pharhaodd hyd angeu yn weinidog i gymdeithas o Gristionogion enwog mewn duwioldeb yn y ddinas hono. Bernir mai dyma yr amser y dechreuodd yr Ymneillduwyr gynnal eu cyfarfodydd crefyddol fel sect yn ninas Caerlleon; ac mai Mr. Cook oedd eu gweinidog cyntaf. Ni chafodd efe, wedi ei ryddhâd o garchar, lonydd rhag yr erledigaeth a godid i'w erbyn. Bu raid iddo unwaith gilio i le o'r enw Puddington, yn Wirrall, yn swydd Gaer, o herwydd yr erledigaeth newydd a godasid trwy offerynoliaeth 'Cyfraith y Pum Milldir,' fel ei gelwid. Cadwodd at ei grefydd trwy'r holl erledigaethau hyn. Yr oedd yn ŵr o rodiad duwiol, yn hunan-ymwadol, yn weithiwr caled ac egnïol, a phob amser yn fawr ei awydd am weled crefydd yr Arglwydd yn ennill nerth yn y wlad. Gan nad oedd drws Eglwys St. Michael mwyach yn agored iddo, cyflawnai y gwasanaeth crefyddol gan amlaf yn ei dŷ ei hun; ond ar achlysuron, byddai ef a'i deulu yn mynychu eglwys y plwyf—ond fel aelodau o'r gynnulleidfa yn unig, ac nid fel gweinidog. Llwyddodd, er y croes-wyntoedd a gurent arno, i wneyd gwaith canmoladwy yn ngwinllan ei Feistr; a phan ddaeth y diwedd, efe a orphenodd ei yrfa mewn llawenydd. Bu farw Gorphenaf 4ydd, 1864, yn 72ain mlwydd oed.

CORDALIA, neu Cordelia, oedd un o dair merch y brenin Llyr ab Bleiddyd:—*King Lear*, *Shakespeare*.

CORFINWR. Un o'r 'Tri Madgyrfinydd:' a dywedir mai efe a ddygodd longau hwylio, a llyw, gyntaf i Ynys Prydain. Efe oedd bardd Ceri Hir Lyngwyn.

COWRYD. Arglwydd Dyffryn Clwyd; o'r hwn yr hanodd y llwyth a elwid Gwehelyth Ceinmerch.

COX, LEONARD. Yr oedd efe yn enedigol o swydd Fynwy, ac addysgwyd ef yn Nghaergrawnt. Wedi aros o hono am beth amser yn Rhydychain, cawn iddo ymsefydlu fel ysgolfeistr yn Reading, lle y dangosodd garedigrwydd nid bychan at John Frith, y merthyr; yr hwn a gafodd mewn cyflwr truenus yn y dref hono. Ar ol hyn, teithiodd yn Ffraingc, yr Almaen, a Hungary, gan gyfranu addysg yn y clasuron. Yn 1540, cawn ef yn cadw ysgol yn Nghaerlleon, yn sir Fynwy, ac yn cyhoeddi '*Commentaries on Lilly's Construction of the Eight Parts of Speech.*' Cyfieithodd hefyd o'r Groeg i'r Lladin '*Marcus Ermita de Lege et Spiritu;* ac o'r Lladin i'r Saesneg '*The Paraphrase of St. Paul's Epistle to Titus*,' o waith Erasmus. Yr oedd Cox, yn ol Bale, yn ysgolhaig rhagorol, yn rammadegwr, yn areithydd, bardd, a duwinydd, ac yn bregethwr. Yr oedd yn byw yn amser Iorwerth VI.; ond nid oes wybodaeth pa bryd y bu farw.

CRADOC, Syr MATTHEW. Boneddwr oedd yn byw yn Morganwg yn yr hanner olaf o'r bymthegfed ganrif—dylanwad yr hwn oedd yn fawr yn y sir. Yr oedd efe yn hanu, o du ei dad, Rhisiart ab Gwilym, o Einion ab Collwyn; ac o du ei fam, Sionet Horton, o Arglwydd Tregwynt, yn Mhenfro. O hono ef y mae amryw o deuluoedd Morganwg yn y dyddiau hyn—megys yr Herbertiaid, y Treherniaid, a'r Tuberwiliaid, &c.—yn olrhain eu disgyniad. Gauwyd Syr Matthew yn Nghaerdydd, tua'r fl. 1468; ac yn 1489, priododd Alis, merch Philip Mansel. Bu hi farw: a phriododd eilwaith yr Arglwyddes Catrin Gordon, gweddw Perkin Warbeck, yr hwn a grogwyd yn Tyburn am deyrnfradwriaeth, yn 1499. Bu Syr Matthew yn ddistain Bro Gwyr yn 1491 a 1497. O ran ei grefydd, Pabydd selog oedd efe; ac yr oedd, i raddau, yn erlidgar; o blegid ceir iddo garcharu Thomas ab Ieuan ab Rhys, a Rhys Siôn, am eu bod yn Lollardiaid. Bu farw yn y fl. 1531; a chladdwyd ef yn eglwys Abertawe, lle y mae maen hardd yn dynodi ei orweddfan.

CRISTIOLUS. Sant, yn byw yn y seithfed ganrif. Yr oedd efe yn fab, neu ŵyr, i Hywel ab Emyr Llydaw. Oddi wrtho ef y cymmer Llangristiolus, yn Môn, ei enw; ac y mae ei enw yn gyssylltiol â rhai llanau yn sir Benfro.

CUL FYNAWYD PRYDAIN. Penaeth a flodeuodd yn y chweched ganrif, a gofnodir fel tad 'Tair Anniweir-wraig Ynys Prydain;' sef, Essyllt, Bun, a Phenarwen.

CURIG LLWYD, neu Bendigaid. Sant enwog, yn byw yn y seithfed ganrif. Daeth i Gymru o rywle, medd traddodiad, gan lanio yn nghymmydogaeth Aberystwyth. Yna teithiodd i gyfeiriad Mynydd Pumlymon. Gorphwysodd ar gopa mynydd arall yn y pellder o ddwy filldir i'r deheu o Bumlymon; ac wrth arolygu y wlad oddi amgylch oddi ar ei sefyllfa fanteisiol, syrthiodd ei lygaid ar lanerch yn nghantref Llanidloes. Penderfynodd adeiladu eglwys yno, a galwodd y lle yn Llangurig; yr hwn enw a gadwodd hyd y dydd hwn. Steddfa-gurig y gelwir y llecyn lle yr eisteddodd y sant ar y mynydd. Bernir iddo fod yn esgob yn rhyw le yn Nghymru—yn Llanbadarn Fawr, yn fwyaf tebygol. Cedwid ei goffadwriaeth yn anwyl

Digitized by Google

hyd yn oed gan seintiau y bymthegfed ganrif; y rhai, yn ol yr hanes, a gerddent y wlad i werthu delwau o hono, gan gymmeryd caws, gwlân, ac ŷd yn gyfnewid am danynt. Cedwid ei ffon fugeiliol yn ofalus yn eglwys Llanarmon yn amser Giraldus Cambrensis; a phriodolid iddi rinweddau meddygol anhygoel.

CWYLLAWG. Merch Caw, a gwraig Medrawd, nai Arthur. Y mae eglwys Llangwyllawg, yn Ynys Môn, yn gyssegredig i'w choffadwriaeth.

CYDIFOR. Yr oedd efe yn Abad Llanfeithin, ac yn ŵr enwog am ei ddysg a'i dduwioldeb. Blodeuodd yn y nawfed ganrif.

CYDWELI, SYR HARRI:—clerigwr Llandyfeiliog, yn sir Gaerfyrddin, yn y rhan gyntaf o'r bymthegfed ganrif. Yr oedd efe, hefyd, yn fardd lled dda.

CYDWELI, JOHN, LL.D. Ysgolor Cymraeg. Ennillodd ei raddau yn Ngholeg yr Holl Saint, Rhydychain, yn y fl. 1510. Dyrchafwyd ef wedi hyny yn benaeth Neuadd Edward yn y brifysgol.

CYFEILIAWG. Esgob Llandaf, yr hwn a gyssegrwyd i'r esgobaeth gan Ethelred, Archesgob Caergaint, yn y fl. 872. Cymmerwyd ef yn garcharor rhyfel gan y Daniaid yn 915; ond prynwyd ef ganddynt am ddeugain punt gan y brenin Iorwerth (yr hynaf).

CYFEILIOG, HUW. Ganwyd ef yn nghantref Cyfeiliog, Powys, yn y fl. 1164. Cyfranodd lawer o'i eiddo i Fynachlog Enlli. Bu farw yn 1181.

CYFELACH. Rhaglaw Esgob Morganwg, yr hwn a laddwyd mewn brwydr a gymmerodd le rhwng y Cymry a'r Saeson yn sir Henffordd, tua'r fl. 756. Oddi wrtho ef y cymmer eglwys Llangyfelach, yn Morganwg, ei henw; ond dywedir iddi gael ei sefydlu gan Dewi Sant.

CYFLEFYR. Llofruddiwyd ef gan y Saeson yn sir Aberteifi; ac er côf am y weithred ysgeler, galwyd y fan lle y syrthiodd yn Merthyr Cyflefyr. Sant oedd efe, yn byw yn y bummed ganrif. Bodola gradd o ammheuaeth ynghylch pwy oedd ei dad. Myn rhai ei fod yn fab i Brychan; ond eraill a ddywedant mai mab Dingad ydoedd, ac ŵyr i Brychan. Yr olaf sydd yn fwyaf tebyg o fod yn wir.

CYFLEWYR. Sant, oedd yn byw yn y chweched ganrif; ond y mae ei hanes yn anhysbys. Mab ydoedd i Gwynlliw.

CYFYW, neu CYNFYW. Yr oedd efe yn fab i Gwynlliw, ac yn sant perthynol i Goleg Cattwg. Bernir, oddi wrth y ddau ddull o sillebu ei enw, mai efe a sylfaenodd eglwysydd Llangyfyw, ger Caerlleon, yn sir Fynwy, a Llangynyw, yn sir Drefaldwyn.

CYFFIN, MORUS. Gwel KYFFIN MORUS, cyf. VI.

CYFFIN, RICHARD. Daliodd fywoliaeth Llanddwyn, yn Môn, yn y fl. 1485, a dyrchafwyd ef i ddeoniaeth Bangor. Ymddengys iddo gymmeryd rhan flaenllaw gyda'i gydwladwr, Syr Rhys ab Thomas, i sicrhau esgyniad Harri VII. i orsedd Lloegr.

CYLLIN:—mab Caradawg ab Brân, oedd sant a flodeuodd tua diwedd y ganrif gyntaf.

CYMDEITHASAU CENHADOL A DYNGAROL. Er pan ysgrifenwyd yr erthygl a ymddengys yn y drydedd gyfrol o'r gwaith hwn, ac erthyglau eraill, dan enwau amryw o'r cymdeithasau, y mae llawer o gynnydd wedi ei wneyd yn y cyfraniadau a dderbyniasant, yn rhifedi eu haelodau, a llawer o fanylion eraill y teimlir dyddordeb ynddynt. Yr ydys, gan hyny, yn cyhoeddi y manylion diweddaf yn mherthynas i'r cymdeithasau uchod, y rhai sydd wedi eu casglu o'n hadroddiadau am y flwyddyn hon —1894.

CYMDEITHAS GENHADOL YR EGLWYS.
(*Church Missionary Society.*)

Sefydlwyd hon yn y fl. 1800; a byth er hyny y mae hi wedi cynnyddu yn raddol a sicr. Y mae yn perthyn iddi 423 o orsafoedd cenhadol yn Affrica, India, China, Japan, Zealand Newydd, Gogledd America, &c.; ac y mae nifer y cenhadon, ac eraill, sydd yn llafurio mewn cyssylltiad â hi yn 6,229—yn cael eu gwneyd i fyny o Brydeinwyr, a brodorion y gwledydd y llafuria y gymdeithas yn eu mysg. Y flwyddyn ddiweddaf, derbyniwyd 93 o bersonau a gynnygient eu gwasanaeth i fyned allan i'r meusydd cenhadol. Y mae y nifer wedi cynnyddu mor fawr fel y dyblwyd nifer y cenhadon mewn deng mlynedd. Ac y mae cyllid y gymdeithas yn gyfryw ag a'i galluoga i wario hanner can mil o bunnau (50,000*p.*) yn chwaneg ar y gwahanol feusydd nag y gallai ddeng mlynedd yn ol. Yr oedd y derbyniadau yn y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 1894, yn 272,195*p.*; a'r treuliau am yr un tymmor yn 268,482*p.* Nid oedd y symiau a dderbyniwyd y flwyddyn gyntaf, pan sefydlwyd y gymdeithas, ond 911*p.*, a'r treuliau ond 95*p.*

CYMDEITHAS GENHADOL Y BEDYDDWYR.
(*Baptist Missionary Society.*)

Sefydlwyd y gymdeithas hon yn 1792. Y mae meusydd ei llafur yn India, Ceylon, China, Palestina, Affrica, India'r Gorllewin, Llydaw, a'r Eidal. Rhif ei chenhadon, yn ol adroddiad y gymdeithas y flwyddyn uchod, oedd 141; efengylwyr, 773; a gorsafau ac îs-orsafau, 855. Bedyddiwyd 3,341 yn y meusydd cenhadol o fewn y flwyddyn. Nifer yr aelodau eglwysig oedd 51,534; athrawon ysgolion dyddiol, 642; athrawon ac athrawesau Ysgolion Sabbothol, 2,540; ysgolheigion dyddiol, 36,129; aelodau o'r Ysgolion Sabbothol, 36,173. Cyfanswm y derbyniadau oedd 60,213*p.* Yr oedd cyfanswm y derbyniadau yn llai o 14,183*p.* 8*s.* 10*c.* am y flwyddyn na'r treuliau. Y mae yn perthyn i'r gymdeithas yr hyn a elwir yn Drysorfa Ganmlwyddol (*Centenary Fund*), cyfanswm derbyniadau yr hon ar hyn o bryd yw 111,765*p.* 12*s.* 6*c.*; sef, 109,197*p.* 18*s.* 5*c.* mewn cyfraniadau, a 2,567*p.* 14*s.* 1*c.* o lôg ar y cyfryw. Amcan sefydliad y Drysorfa Ganmlwyddol oedd, dathlu canmlwyddiant y gymdeithas trwy anfon allan chwaneg o genhadon nag sydd yn llafurio ar y meusydd yn awr; ac y mae'r drysorfa hon yn cael ei chymmhwyso at yr amcan hwn.

Digitized by Google

CYMDEITHAS GENHADOL Y WESLEYAID.
(*Wesleyan-Methodist Missionary Society.*)

Dechreuodd y gymdeithas hon ar ei gweithrediadau yn y fl. 1816; ac y mae ganddi yn awr genhadon yn Ffraingc, yr Almaen, Awstria, yr Eidal, Switzerland, Yspaen, Ceylon, India, China, Deheubarth a Gorllewinbarth Affrica, America, ynghyd â chenhadon yn llafurio yn mysg y milwyr a'r morwyr. Y mae y gymdeithas dan reolaeth uniongyrchol y Gynnadledd (*Conference*) yn y gwahanol feusydd. Ei gorsafoedd canolog ydynt 335; capeli a lleoedd pregethu, 1,953; cenhadon, a chenhadon cynnorthwyol, 341; goruchwylwyr eraill ynglŷn â'r gymdeithas, 2,429; pregethwyr lleol, athrawon, &c., heb dderbyn tâl, 4,941; aelodau eglwysig, 38,992; ar brawf, 7,867; ysgolheigion dyddiol a Sabbothol, 76,350. Y mae y ffigyrau uchod yn dangos fod cynnydd mawr wedi ei wneyd yn nghorph y deng mlynedd diweddaf; ac yn rhifedi yr aelodau eglwysig hefyd. Yr oedd holl dderbyniadau y gymdeithas am y flwyddyn ddiweddaf yn 122,211*p.* 18*s.* 6*c.*; a'r treuliau yn 129,517*p.* 16*s.* 11*c.* Felly, yr oedd y treuliau yn fwy na'r derbyniadau o 7,305*p.* 18*s.* 5*c.*

CYMDEITHAS GENHADOL LLUNDAIN.
(*London Missionary Society.*)

Sefydlwyd hon yn y fl. 1795; ac y mae ei chenhadon yn gweithio mewn saith o feusydd ëang:—yn India, China, Deheubarth a Chanolbarth Affrica, Madagascar, New Guinea, ac Ynysoedd Môr y De. Ar derfyn y flwyddyn gyllidol ddiweddaf, yr oedd yn perthyn iddi 258 o genhadon Ewropaidd. O'r nifer hwn yr oedd 190 yn wrywod, a 68 yn fenywod. Hefyd, yr oedd 17 o'r nifer yn feddygon. Perthyna iddi 1,476 o genhadon brodorol ordeiniedig, a thros 6,700 o frodorion yn gweithio ynglŷn â hi. Rhifai yr aelodau eglwysig yn yr holl feusydd 94,000; ac yr oedd 400,000 o frodorion o dan addysg ganddi. Ar derfyn y flwyddyn, rhifai ysgolion y bechgyn 1,416, gyda 71,769 o ysgolheigion; ysgolion y genethod 375, gyda 54,215 o ysgolheigesau. Cyfanswm holl dderbyniadau y gymdeithas oedd 141,369*p.* 15*s.* 7*c.*; ond yr oedd y treuliau yn llawer mwy. Pan ddygwyd gwaith y flwyddyn i derfyniad, cafwyd fod dyled yn aros o 33,215*p.* 12*s.* 0*c.*

CYMDEITHAS I LEDAENU YR EFENGYL MEWN GWLEDYDD TRAMOR.
(*Society for the Propagation of the Gospel in Foreign Parts.*)

Sefydlwyd y gymdeithas hon yn 1701, a dechreuodd ar ei gwaith yn Nghyfandir Ewrop yn unig. Erbyn hyn, y mae hi yn llafurio yn America, Newfoundland, India y Gorllewin, Nova Scotia, Canada, Gorllewinbarth Affrica, Awstralia, India'r Dwyrain, Penrhyn Gobaith Da, Guiana Brydeinig, y Mauritius, Zealand Newydd, Borneo, Tir Rupert, Natal, Burmah, Columbia Brydeinig, Honolulu, yr Orange Free State, Madagascar, y Transvaal, Japan, Gogledd China, Honduras Brydeinig, Fiji, Corea, Mashonaland, Guinea Newydd, a Manchuria. Rhifa ei chenhadon ordeiniedig, yn cynnwys deg o esgobion, 718; y rhai ydynt yn wasgaredig fel y canlyn:—yn Asia, 236; Affrica, 176; Awstralia a'r Tawelfôr, 17; Gogledd America, 218; India'r Dwyrain, 36; Ewrop, 35. Y mae hefyd yn gyssylltiedig â'r gwahanol genadaethau 2,300 o athrawon lleygol; 2,600 o efrydwyr yn ngholegau y gymdeithas; a 38,000 o blant yn ysgolion cenhadol Asia ac Affrica. Derbyniwyd 28 o genhadon newyddion yn 1893. Y flwyddyn gyntaf y sefydlwyd y gymdeithas nid oedd ei derbyniadau ond 1,537*p.* Yn 1893, yr oeddynt wedi cyrhaedd 113,079*p.*

CENHADAETH DDINESIG LLUNDAIN.
(*London City Mission.*)

Cafodd y gymdeithas hon ei sefydlu yn 1835, gyda'r amcan o ledaenu gwybodaeth o'r efengyl yn mysg trigolion Llundain, a'i maesdrefi—ac yn neillduol y tlodion—yn annibynol ar enwadaeth, na ffurf-lywodraeth eglwysig o unrhyw fath. Y mae yn perthyn iddi yn awr 483 o genhadon; tra nad oedd ganddi y flwyddyn gyntaf ond 40. Swm y derbyniadau yn 1835 oedd 2,714*p.* 9*s.* 8*c.*; yn 1893 yr oeddynt yn 68,261*p.* 6*s.* 0*c.*. Yn ystod y flwyddyn, rhanwyd 33,823 o Destamentau, a rhanau o'r Ysgrythyrau; 4,985,062 o bamphledau ar faterion crefyddol. Derbyniwyd 2,130 o gymmunwyr newyddion; ymunodd 6,332 o blant â'r Ysgolion Sabbothol; ac annogwyd cynnifer a 1,071 o deuluoedd i gychwyn addoliad teuluaidd. Y mae y gwaith a wneir gan y gymdeithas hon yn anhawdd, ond yn wir angenrheidiol; ac y mae hi yn hynod lwyddiannus.

CARTREFI DR. BARNARDO I BLANT TLODION, A DIGARTREF.
(*Dr. Barnardo's Homes for Orphan and Waif Children.*)

Y mae y cartrefi hyn yn cyfranogi yn fwy o ysbryd dyngarol nag o ysbryd cenhadol. Sefydlwyd hwynt yn Llundain, saith mlynedd ar hugain yn ol, gan Thomas John Barnardo, yr hwn oedd ar y pryd yn efrydydd yn un o ysbyttai y brif ddinas. Galwyd ei sylw mewn modd neillduol at sefyllfa druenus plant bychain digartref y ddinas; ac ar ei gyfrifoldeb ei hun agorodd dŷ bychan yn Stepney Causeway—i'r hwn y derbyniai 'arabiaid' bychain yr heolydd. Dyna ddechreuad y 'Cartrefi' adnabyddus sydd yn awr dan ofal Dr. Barnardo—pa rai sydd yn hysbys i'r holl wlad. Y mae y cartrefi hyn yn cynnwys yn awr 50 o sefydliadau gwahanol; o'r hwn nifer y mae 33 yn Llundain, 12 yn siroedd Lloegr, 1 yn Ysgotland, 1 yn Jersey, a 3 yn Canada. Unig ammod derbyniad plant i mewn i'r cartrefi ydyw, eu bod yn anghenog, ac yn ddi-gartref. Nid ydyw na chenedl, credo, oed, rhyw, na chyflwr yr ymgeisydd yn cael yr ystyriaeth lleiaf fel ammodau o'u derbyniad. Hyd yr adeg bresennol, y mae 24,000 o blant wedi derbyn ymgeledd yn y cartrefi; ac y mae yn awr agos i 5,000 o fechgyn a genethod dan ofal yn y gwahanol sefydliadau. Dysgir hwy yn mhyngciau elfenol crefydd; ac y mae pob un o honynt yn cael ei ddwyn i fyny i ryw grefft neu gilydd. Ynglŷn â'r cartrefi y mae'r hyn a elwir yn 'Gastell y Babanod;' ac ar hyn o bryd y mae ynddo dros 120 o fabanod bychain, dan bum mlwydd oed. Y mae eisoes dros 22,000 o blant wedi eu gwaredu oddi ar yr heolydd, ac wedi eu hanfon allan i'r byd wedi dysgu rhyw gelfyddyd, drwy yr hon y gallant ddisgwyl, gyda chymmeriad da a diwydrwydd, ennill bywoliaethau cysurus. Cynnelir y cartrefi yn gwbl trwy roddion gwirfoddol—y rhai a dderbynir o bob rhan o'r byd. Yr oedd y derbyniadau yn 1893 yn 134,054*p.* Y mae treuliau y cartrefi yn 250*p.* ar gyfartaledd bob dydd o'r flwyddyn; o'r hwn swm y mae 150*p.* yn angenrheidiol i ddarparu ymborth yn unig. Anhawdd

Digitized by Google

ydyw meddwl am un sefydliad sydd yn gwneyd mwy o ddaioni na chartrefi Dr. Barnardo, a sefydliadau Mr. Müller.

CYMDEITHAS I GYNNORTHWYO YR EGLWYSI CYNNULLEIDFAOL, A'R GYMDEITHAS GENHADOL GARTREFOL.
(*Congregational Church-Aid and Home Missionary Society.*)

Math o ad-drefniant ydyw y gymdeithas hon ar yr hon a elwid yn flaenorol wrth yr enw diweddaf yn unig—Cymdeithas Genhadol Gartrefol. Y mae hi wedi ei sefydlu gyda'r amcan o gynnorthwyo eglwysi gweiniaid, planu eglwysi newyddion, darparu ar gyfer pregethiad yr efengyl, a phob gwaith efengylaidd arall, mewn lleoedd nad oes ynddynt y fath ddarpariaeth. Maes ei llafur ydyw Lloegr a Chymru; ac y mae hi yn gweithio gyda'r arwydd-air dymunol hwn :—'Lloegr a Chymru i Grist!' Sefydlwyd y Gymdeithas Genhadol Gartrefol yn 1819. Yn 1840, unwyd hi âg Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru; ac yn 1878—79, adsefydlwyd hi yn ei ffurf bresennol. Perthynai i'r gymdeithas yn 1893—eglwysi a gorsafoedd efengylaidd, 974; gweinidogion ac efengylwyr, 565; eisteddleoedd i addolwyr, 221,917; aelodau eglwysig, 32,580; athrawon yn yr Ysgolion Sabbothol, 7,630; cyfartaledd presennoldeb yr ysgolheigion, 54,626. Cyfanswm derbyniadau 1873 oedd 28,123*p.*; a'r treuliau yn 27,421*p.* Cyfanswm yr hyn a gasglwyd gan yr eglwysi a gynnorthwywyd yn 1893 oedd 94,173*p.*

UNDEB GOBEITHLUOEDD Y DEYRNAS GYFUNOL.
(*United Kingdom Band of Hope Union.*)

Y mae y sefydliad daionus hwn yn cario ei waith yn mlaen yn mysg ieuengctyd yr holl Deyrnas Gyfunol. Y mae yn perthyn i'r Undeb 20,903 o gymdeithasau, a 2,678,674 o aelodau. Yr oedd y cyllid am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 1894, yn 2,188*p.* 4*s.* 11*c.*; ac yr oedd y treuliadau rhywbeth yn debyg. Pum mlynedd yn ol, casglwyd cronfa arbenig o 10,000*p.* i gario gwaith yr Undeb yn mlaen yn yr ysgolion dyddiol; ac yr oedd llwyddiant y gwaith hwnw wedi bod yn gyfryw fel y gwnaed ymdrechion i godi trysorfa arall o 10,000*p.* Llwyddwyd yn hyn; ac y mae y gwaith eisoes wedi ei ddechreu am yr ail dymmor o bum mlynedd.

CYMDEITHAS MORWYR PRYDEINIG A THRAMOR.
(*The British and Foreign Sailors' Society.*)

Dechreuodd y gymdeithas hon ar ei gwaith 77ain mlynedd yn ol; ac fel pob cymdeithas arall gyffelyb iddi, y mae iddi amcanion cenhadol a dyngarol. I gyfarfod â phersonau sydd mor wasgaredig a'r morwyr, y mae yn angenrheidiol i'r gymdeithas anfon allan ei llafurwyr bron i bob porthladd adnabyddus trwy'r holl fyd; ac y mae hi yn gwneuthur hyny. Mewn 97ain o borthladdoedd, y mae hi yn meddu 100 o orsafoedd, a 85 o sefydliadau eraill; megys darllenfeydd, cartrefi, a lleoedd cyfarfod, &c. Gweithia ei chenhadon ar y tir, ac ar y môr. Y mae yn perthyn iddi 3 o'r hyn a elwir yn *Bethels* mordwyol, 3 o agerfadau, 28 o gychod hwyliau, a 150 o weithwyr; sef, cenhadon, a dosbarthwyr llyfrau, &c. Ynglŷn â hi y mae math o undeb wedi ei sefydlu ar gyfer cadbeniaid llongau; ac er y fl. 1865, ymunodd 1,100 o feistriaid llongau â hi. Nid oes ond 477 ar y gofrestr yn awr. Cymmerir dyddordeb yn ngwaith y gymdeithas gan rai o brif bendefigion y deyrnas. Cyfanswm y derbyniadau am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 1894, oedd 20,294*p.* 8*s.* 0*c.*; ond yr oedd yr holl dreuliau yn 22,318*p.* 6*s.* 9*c.*

UNDEB YR YSGOLION SABBOTHOL.
(*The Sunday School Union.*)

Sefydlwyd yr undeb hwn tua'r fl. 1803; a'i amcan, er's blynyddoedd bellach, ydyw dwyn plant yn mhob rhan o'r byd dan ddylanwad yr efengyl. Dygir y gwaith yn mlaen yn benaf o fewn y Deyrnas Gyfunol, ar Gyfandir Ewrop, yn India, ac ynglŷn â llawer o'r gorsafoedd cenhadol sydd yn gyssylltiedig â'r gwahanol gymdeithasau cenhadol. Rhifa yr ysgolion sydd ynglŷn â'r undeb 10,383—cynnydd o 1,214 er y flwyddyn 1892; athrawon, 167,923—cynnydd o 4,760; ac ysgolheigion, 1,736,274—cynnydd o 82,518. Cyfanswm derbyniadau yr undeb am y flwyddyn ddiweddaf, oddi wrth gyfraniadau, casgliadau, rhoddion, &c., oedd 2,001*p.* 15*s.* 10*c.* Derbyniwyd hefyd 1,933*p.* 4*s.* 10*c.* fel elw oddi wrth fasnach mewn llyfrau, &c. Y mae y cyfan felly yn 3,935*p.* 0*s.* 8*c.* Yr oedd y treuliau yn fwy o 142*p.* 13*s.* 6*c.* na'r derbyniadau.

CYMDEITHAS ER DIDDYMU Y FASNACH MEWN OPIWM.
(*Society for the Suppression of the Opium Trade.*)

Nid cymdeithas genhadol ydyw hon; ac nid ydyw yn cyflogi goruchwylwyr i weithio drosti yn China. Y mae hi, er hyny, yn meddu ar ei phwyllgor gynnrychiolwyr y prif gymdeithasau sydd yn awr yn llafurio ar y maes cenhadol yn y wlad hono. Ystyrir hi yn fath o gymdeithas gydweithiol neu attegol i'r cymdeithasau eraill; ac y mae hi yn gweithio er diddymu y fasnach mewn opiwm rhwng India a China—yr hon fasnach, yn ol barn y cenhadon, sydd yn rhwystr mawr ar ffordd lledaeniad yr efengyl. Y mae opiwm yn y ddwy wlad yn gwneyd annhraethol niwed i'r brodorion; ac y mae ei effeithiau yno yn debyg i effeithiau diodydd meddwol yn y wlad hon. Sefydlwyd y gymdeithas yn 1874. Ei llywydd cyntaf oedd y dyn da a'r dyngarwr enwog hwnw, Iarll Shaftesbury. Ei llywydd presennol yw Arglwydd Brassey. Yr oedd y derbyniadau yn 1893 yn 1,922*p.*

CYMDEITHAS I HYRWYDDO GWYBODAETH GRISTIONOGOL.
(*For the Promotion of Christian Knowledge.*)

Nid ydyw hon yn anfon allan genhadon o'i heiddo ei hun; ac ystyrir hi fel math o attegiad i Gymdeithas Genhadol yr Eglwys, a'r Gymdeithas er Lledaenu yr Efengyl mewn Gwledydd Tramor. Ei phrif amcan ydyw cynnorthwyo i waddoli esgobaethau newyddion, adeiladu eglwysydd newyddion, addysgu clerigwyr brodorol, lledaenu y Beibl, a'r *Llyfr Gweddi Cyffredin*, a llyfrau crefyddol eraill yn mhob iaith. Yr un ydyw maes ei llafur a'r cymdeithasau uchod. Sefydlwyd hi yn y fl. 1698. Ei llywydd presennol yw Archesgob Caergaint. Yn mysg y rhoddion a gyfrenir gan y gymdeithas at hyrwyddo addysg grefyddol, allan o gronfa arbenig a gasglwyd i'r amcan, gwnaed a ganlyn i'r esgobaethau Cymreig:—Bangor, 100*p.*; Llanelwy, 150*p.*; Llandaf, 250*p.*; Tŷ Ddewi, 150*p.* Derbyniadau y gymdeithas o bob ffynnonell am y flwyddyn ddiweddaf oedd 42,680*p.* Cyhoeddwyd, o Feiblau, yn ystod y flwyddyn, 139,964; Testamentau, 23,883; y *Llyfr Gweddi*, &c.,

Digitized by Google

346,327; llyfrau eraill, 6,276,214; pamphledau, &c., 5,172,864. Y mae hyn yn gwneyd y cyfanrif o agos i ddeuddeg miliwn (11,959,252). Yn 1892, gwnaeth y gymdeithas rôdd o 10,000*p.* tuag at gynnorthwyo i gyfarfod âg anghenion presennol ysgolion yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr a Chymru. Allan o'r swm uchod, cyfranwyd 1,000*p.* tuag at ail adeiladu Coleg Dysgyblaethol yr Eglwys yn Mangor. Yr oedd yr hen goleg yn Nghaernarfon; ond llosgwyd ef i'r llawr yn 1891, a chymmerwyd mantais ar hyny i'w symmud i Fangor.

Y GYMDEITHAS FEIBLAIDD FRYTANAIDD A THRAMOR.
(*The British and Foreign Bible Society.*)

Yn mysg yr holl gymdeithasau, nid oes un yn fwy adnabyddus na'r hen gymdeithas anwyl a llwyddiannus hon; nac un chwaith sydd wedi gwneyd mwy er hyrwyddo lledaeniad teyrnas Crist ar y ddaear. Y mae y gwaith a gyflawnodd y flwyddyn ddiweddaf yn dangos ei bod yn parhau i ddal ei thir, ac yn ennill nerth hefyd, er yr holl anhawsderau sydd ar ei fford. Amcan mawr, ac unig amcan, y gymdeithas ydyw lledaenu yr Ysgrythyrau Sanctaidd, heb nodiad nac esboniad, gartref ac mewn gwledydd tramor; neu mewn geiriau eraill, cyfieithu, argraphu, a lledaenu yr UN LLYFR; a darparu

'Beibl i bawb o bobl y byd!'

Sefydlwyd hi Mawrth 7fed, 1804; a pherthyna iddi yn awr 5,596 o ganghenau, neu gymdeithasau cynnorthwyol, o fewn y Deyrnas Gyfunol; a 1,719 yn y Trefedigaethau Prydeinig, a Thalaethau eraill—mewn gair, trwy bob gwlad yn mron o fewn yr holl fyd. Y mae hi wedi cyfieithu y Beibl i agos 320 o wahanol ieithoedd a thafod-ieithoedd. Y mae ganddi yn ei gwasanaeth dros 600 o ddosbarthwyr llyfrau, yn wasgaredig trwy y gwahanol wledydd; a 402 o wragedd hefyd—y rhai a elwir yn *Bible-women.* Derbyniadau y gymdeithas o fewn y flwyddyn oedd yn diweddu Mawrth 31ain, 1894, oedd 140,268*p.* 6*s.* 4*c.*; yr hyn sydd yn gynnydd o 4,276*p.* 5*s.* 2*c.* ar y flwyddyn o'r blaen. Derbyniwyd 91,740*p.* 3*s.* 11*c.* hefyd oddi wrth werthiant yr Ysgrythyrau; yr hyn sydd yn dangos lleihâd ar y flwyddyn flaenorol o 8,093*p.* 3*s.* 11*c.* Cyfanswm holl dderbyniadau y Gronfa Gyffredinol oedd 232,008*p.* 10*s.* 3*c.* Gwariwyd o'r Gronfa Gyffredinol y swm o 222,135*p.* 17*s.* 5*c.*—cynnydd o 1,619*p.* 9*s.* 2*c.* ar y fl. 1893. Cyhoeddwyd o Feiblau, Testamentau, a llyfrau unigol allan o'r Ysgrythyr, yn ystod y flwyddyn, y nifer anferth o 3,664,456. Ei llywydd presennol ydyw Iarll Harrowby; a chynnrychiolir hi yn Nghymru gan y Parch. Dr. Dickens-Lewis dros y Gogledd, a'r Parch. Dr. Cynddylan Jones dros siroedd y Deheu.

CYMDEITHAS RHYDDHAD CREFYDD.
(*The Liberation Society.*)

Sefydlwyd hi yn y fl. 1844; a'i hamcan ydyw tori y cyssylltiad sydd rhwng crefydd a'r wladwriaeth yn y deyrnas hon. Er ei gyrhaedd, y mae hi yn gweithio yn egnïol o blaid Dadgyssylltiad yr Eglwys yn Nghymru yn awr, ac yn Lloegr hefyd. Y mae ganddi 20 o oruchwylwyr yn ei gwasanaeth—pedwar o ba rai sydd yn treulio eu holl amser yn y gwaith:—yn casglu arian, trefnu, ac anerch cyfarfodydd, ac yn dosbarthu llenyddiaeth. Gwneir gwaith cyffelyb gan yr un-ar-bymtheg gweddill, ond mewn cylchoedd llai; ac nid ydynt yn treulio ond rhan o'u hamser yn ngwasanaeth y gymdeithas. Cyllid presennol y gymdeithas ydyw tua 3,000*p.* yn y flwyddyn. Y mae hi yn cyfyngu ei llafur yn gyfangwbl i Loegr a Chymru.

CYMDEITHAS Y TRAETHODAU CREFYDDOL.
(*The Religious Tract Society.*)

Sefydlwyd y gymdeithas hon yn 1699, gyda'r amcan o hyrwyddo lledaeniad llyfrau a thraethodau crefyddol mewn gwledydd tramor, yn gystal ag yn y trefedigaethau Prydeinig. Llywodraethir ei gweithrediadau gan bwyllgor, cyfansoddedig o'r un nifer o aelodau o'r Eglwys Sefydledig, a'r enwadau Anghydffurfiol Protestanaidd—y rhai a etholir yn nghyfarfodydd blynyddol y gymdeithas. Er ei chychwyniad, y mae hi wedi cyhoeddi llyfrau a thraethodau mewn 210 o wahanol ieithoedd a thafod-ieithoedd; ac y mae cylchrediad blynyddol ei chyhoeddiadau tua 67,500,000. Hyd Mawrth, 1894, yr oedd cyfanrif y llyfrau, &c., a ledaenwyd ganddi yn cyrhaedd y nifer aruthrol o dair mil ac un-ar-bymtheg-ar-hugain o filiynau, a phum can mil (3,036,500,000). Yr oedd derbyniadau y gymdeithas o bob ffynnonell am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 1894, yn cyrhaedd 181,762*p.* 19*s.* 3*c.* Y swm oedd 200,146*p.* 19*s.* 5*c.* yn y flwyddyn flaenorol. Yr oedd cyllid cenhadol y gymdeithas yn unig yn 29,186*p.* 10*s.* 8*c.* —cynnydd o 1,857*p.* 16*s.* 8*c.* Yn nghorph y flwyddyn, dygwyd 583 o gyhoeddiadau newyddion allan o'r wasg.

CYMDEITHAS GRISTIONOGOL Y GWYR IEUAINGC.
(*Young Men's Christian Association.*)

Sefydlwyd hon yn 1844, gyda'r amcan o wellhau cyflwr ysbrydol, meddyliol, cymdeithasol, ac arianol dynion ieuaingc. Pencadlys y gymdeithas yw Exeter Hall, Llundain; a'i llywydd yw Syr George Williams: yr hwn a fu yn brif offeryn i'w chychwyn. Perthynai i'r fam-gymdeithas y flwyddyn ddiweddaf (1893) 1,893 o ganghenau yn ngwahanol ranau y Deyrnas Gyfunol; a rhifai yr aelodau 87,464. Yn 1883 —deng mlynedd yn ol—nifer ei changhenau oedd 316, a'r aelodau ond yn 45,955. Rhifa yr aelodau yn awr, trwy'r byd i gyd, 467,515.

CYMDEITHAS GENHADOL GARTREFOL METHODISTIAID CALFINAIDD GOGLEDD CYMRU.
(*The Calvinistic Methodist Home Missionary Society in North Wales.*)

Dyben y gymdeithas hon ydyw taenu gwybodaeth grefyddol yn mysg trigolion Goror Clawdd Offa, ynghyd â manau eraill lle y mae amddifadrwydd o foddion gras. Arolygir ei gweithrediadau gan gyfeisteddfod; aelodau yr hwn a bennodir gan y cyfarfodydd misol a'r henaduriaethau. Yr oedd derbyniadau y gymdeithas am y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 31ain, 1893, yn 3,863*p.* 10*s.* 7*c.*

CYMDEITHAS GENHADOL GARTREFOL METHODISTIAID CALFINAIDD DEHEUDIR CYMRU.
(*The Calvinistic Methodist Home Missionary Society in South Wales.*)

Gwna y gymdeithas hon yr un gwaith ag a wna y ddiweddaf. Y mae ganddi 42 o genhadon yn ei gwasanaeth; a chynnorthwyir llawer o eglwysi ganddi trwy roddion. Maes ei llafur yw siroedd y Deheudir, a sir Fynwy. Swm y derbyniadau am y flwyddyn ddiweddaf oedd 948*p.* 3*s.* 9*c.*; a chyfranwyd 576*p.* 17*s.* 1*c.* gan gyfeillion, fel ymdrech neillduol at glirio ymaith y ddyled yr oedd y gymdeithas ynddi.

Digitized by Google

CYMDEITHAS GENHADOL DEHEUBARTH AMERICA.
(*South American Missionary Society.*)

Sefydlwyd hon yn 1844, dan yr enw Cenhadaeth Patagonia. Y mae ganddi 39ain o genhadon a chynnorthwywyr ar waith yn Neheudir America. Y mae hi yn cario ei gwaith yn mlaen yn unol âg athrawiaethau Eglwys Loegr. Ei hamcan hi, fel y cymdeithasau eraill, ydyw lledaenu yr efengyl trwy'r byd. Ei derbyiadau am y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 31ain, 1893, oedd 11,107*p.* 18*s.* 7*c.*

CARTREF Y PLANT.
(*The Children's Home.*)

Cafodd y 'Cartref' hwn ei sefydlu o ddeutu pedair-blynedd-ar-hugain yn ol, gan y Parch. Ddr. Thomas Bowman Stephenson—gweinidog adnabyddus a galluog gyda'r Wesleyaid. Y mae ei hamcan yn gyffelyb i Gartrefi Dr. Barnardo; sef darparu noddfa i blant di-amddiffyn a di-gartref, eu tywys o'r ffyrdd llygredig y maent yn eu tramwy, a'u harwain at Grist fel eu Hiachawdwr. Dyna'r prif amcan. Ond dysgir crefft hefyd i bob plentyn a dderbynir i mewn, er ei alluogi i ymladd ei ffordd drwy'r byd. Derbyniwyd 3,407 o blant i mewn o sefydliad y cartrefi hyd Mawrth 31ain, 1894; ac anfonwyd 2,516 allan i'r byd, gan adael gweddill yn y cartrefi o 891. Cyfanswm y cyllid am y flwyddyn 1893, oedd 18,420*p.* 17*s.* 4*c.*

CENHADAETH DRAMOR Y METHODISTIAID CALFINAIDD.
(*The Calvinistic Methodist Foreign Missionary Society.*)

Gan fod sylwadau helaeth ar y gymdeithas hon i'w gweled yn y drydedd gyfrol, ni roddir yma ond y ffeithiau diweddaf. Nifer cenhadon y gymdeithas ydynt—yn India, 12 o wrywod, a 4 o fenywod; ac yn Llydaw, 3. Yn chwanegol at yr uchod, ymadawodd 2 o genhadesau i'r India dydd Sadwrn, Medi 22ain, 1894; a bydd Dr. Williams a'i wraig yn ymadael cyn diwedd y flwyddyn. Yn Khasia, Jainta, a Sylhet, nifer y lleoedd pregethu yn 1893 oedd 240; cymmunwyr, 2,372; ymgeiswyr, 2,146; plant yn yr eglwysi, 3,369; yr oll sydd yn yr eglwysi, 7,888; derbyniwyd i gymmundeb yn ystod y flwyddyn, 248; bedyddiwyd 631; derbyniwyd i'r eglwysi ar brawf, 756; athrawon yr Ysgol Sabbothol yn 1893 oedd 515; ysgolheigion, 8,801; gwrandawyr, 10,926; ac yn yr ysgol ddyddiol, 5,713. Cyfanswm cyllid y gymdeithas am y flwyddyn oedd 7,774*p.* 1*s.* 7*c.*

BYDDIN YR IACHAWDWRAETH.
(*The Salvation Army.*)

Math o gymdeithas genhadol gartrefol a thramor yw hon, gyda threfniant hanner-milwraidd. Sefydlwyd hi gan y Parch. William Booth, yn y fl. 1865; ac am rai blynyddoedd, gelwid hi wrth yr enw *The Christian Mission.* Yn 1878, rhoddwyd iddi ei henw presennol. Ei phrif amcan ydyw gwaredu y dosbarth iselaf yn y wlad hon, ac yn y gwledydd tramor, y rhai y ceisir eu cyrhaedd trwy foddion arbenig, megys gorymdeithiau yn yr awyr agored yn sŵn seindyrf pres, ac areithiau a phregethau yn yr heolydd, a neuaddau cyhoeddus o bob math. Y mae yn un o'r cymdeithasau mwyaf llwyddiannus o fewn y byd. Llafuria ei swyddogion yn y Deyrnas Gyfunol, Gogledd America, Awstralia, a'r ynysoedd cylchynol; cyfandiroedd Ewrop, Asia, Deheudir America, ac Affrica; ac y mae'n meddu gorsafoedd bron yn mhob tref o bwys yn y gwledydd hyn. Yn 1893, rhifai ei swyddogion 10,791; ac yr oedd y rhai a weithient drosti yn ddi-dâl o fewn ychydig i ddau can mil mewn nifer. Ymunodd dros 234,000 o eneidiau â'r fyddin yn 1893. Y mae yn Llundain yn unig dros 800 o gwmnïau o'r fyddin; a phob cwmni yn rhifo o ddeg i ddeuddeg o aelodau. Yn ystod y flwyddyn ddiweddaf yn unig, anfonwyd o Loegr 59 o genhadon i'r Unol Dalaethau, 31 i Canada, 18 i Ddeheubarth Affrica, ac 11 i Jamaica—yn gwneyd cyfanrif o 119. Y mae yn perthyn i'r fyddin ei chylchgrawn swyddogol—*The War Cry*, neu yn Gymraeg *Y Gâd-Lef.* Cyhoeddir hwn mewn ugain o wahanol wledydd. Ymddengys mewn pymtheg o wahanol ieithoedd; ac y mae ei gylchrediad yn 714,000 o gopïau yn wythnosol. Cyhoeddir wyth o gylchgronau eraill gan y fyddin—cylchrediad unol pa rai sydd yn 115,000 yn yr wythnos. Yn mis Mawrth, 1893, gwnaeth ymdrech egnïol ac arbenig yn yr holl wledydd ar unwaith i ddwyn eneidiau at Grist, gyda chanlyniadau hynod o foddhaol. Cafwyd gan y rhifedi a ganlyn i wneyd proffes gyhoeddus o Grist yn y gwahanol wledydd:—India, 14,350; Prydain Fawr, 13,000; Ysweden, 6,300; America, 5,000; Awstralia, 3,000; Norway, 600; Denmarc, 600; a nifer llai mewn gwledydd eraill. O'r nifer o swyddogion a welir uchod, llafuria 4,310 o honynt yn y wlad hon, a 6,428 mewn gwledydd eraill. O'r nifer yma, cedwir 373 o swyddogion yn Llundain; ac y mae yn y brifddinas eisteddleoedd i drigain mil o filwyr y fyddin. Y mae yn perthyn i'r fyddin nifer o faelfeydd mewn gwahanol leoedd; ac yn y rhai hyn, dysgir lliaws o blant, ac eraill, mewn rhyw gelfyddyd neu gilydd. Yr oedd incwm y fyddin am y flwyddyn yn diweddu Medi 30ain, 1893, yn 67,469*p.* 15*s.* 6*c.* Y mae y gwaith mawr a wna gyda'r swm hwn yn rhyfeddol!

CYMORTH, neu COUTH. Merch i Brychan, a gwraig i Brynach Wyddel.

CYNAN. Mab Cynwyd Cynwydion. Yr oedd efe yn byw yn y chweched ganrif—yn y cyfnod hwnw pan yr oedd cynnifer o enwogion yn blodeuo yn Nghymru.

CYNAN AB IAGO:—mab Iago ab Idwal, o'i wraig Afandred, merch Gweir ab Pyll, a thywysog yn meddu hawl i lywodraeth Gwynedd, yr hon a ddelid ar y pryd gan Gruffydd ab Llewelyn. Priododd Cynan â Ranulph, merch Awloedd, brenin Dublin; yr hyn a fu o gryn fantais i ddylanwadu ar y Gwyddelod i'w gynnorthwyo i ymosod ar Wynedd, a chymmeryd y brenin yn garcharor. Cymmerodd hyn le yn 1042. Nid hir, fodd bynag, y bu y Cymry cyn gallu gwaredu eu teyrn; a lladdasant y Gwyddelod â lladdfa fawr. Yn mhen wyth mlynedd ar ol hyn, gwnaeth Cynan ail gynnyg i sicrhau y llywodraeth; ond methodd. Yna, efe a dreuliodd weddill ei ddyddiau yn yr Iwerddon.

CYNAN AB SITSYLLT. Lladdwyd ef, gyda'i holl feibion, yn mrwydr Ystrad Ywain, yn Morganwg, yn y fl. 1032.

CYNAN; GARWYN. Mab ydoedd efe i Brochwel Ysgythrawg; ac efe oedd ei olynydd fel tywysog Powys yn y seithfed ganrif.

Digitized by Google

**CHURCHILL, Arglwydd RANDOLPH.** Trydydd mab ydoedd efe i'r seithfed Dduc o Marlborough; a ganwyd ef Chwef 13eg, 1849. Nid oes dim hynod ac anghyffredin i'w ddweyd am dano hyd nes yr etholwyd ef yn aelod seneddol dros Woodstock. Ond o hyny allan, arddangosodd lawer o allu. Meddai ddawn areithyddol o radd uchel; a gellir ei restru yn mysg gwleidyddwyr mwyaf adnabyddus y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cymmerodd yr etholiad hwn le yn y fl. 1874; ond prin y daeth efe yn adnabyddus i'r cyhoedd hyd 1878.

Yr oedd ei dad, ar y pryd, yn aelod o'r llywodraeth; ond ni bu hyn yn ddigon o reswm i attal Argl. Randolph rhag gwneyd ymosodiad llym ar y weinyddiaeth. Barnai nad oedd amgylchiadau Tŷ y Cyffredin yn cael eu cario yn mlaen fel y dylasent; a thraddododd yntau y fath araeth ddoniol a beirniadol ar weinidogion y Goron ag a'i dygodd ar unwaith i sylw. Syr Stafford Northcote oedd arweinydd y Tŷ ar y pryd; a gweithredai Mr. Sclater-Booth fel Llywydd Bwrdd y Llywodraeth Leol; ac ar y ddau weinidog anffodus hyn bu ei arglwyddiaeth yn hynod lawdrwm. Gwnaeth ei araeth ar yr achlysur hwn y fath gyffro fel y gwelodd aelodau y Tŷ fod yr areithydd yn gyfryw ag a wnai enw iddo ei hun; ac nid hir y bu efe heb sylweddoli y brophwydoliaeth hon.

Yn senedd 1880, cafodd Arglwydd Randolph ei hun ar feingciau yr wrthblaid; ac o herwydd hyn, yr oedd yn rhyddach i wneyd yr ymosodiadau beiddgar hyny ar wleidyddwyr y Tŷ, a wnaeth ei enw yn adnabyddus trwy y deyrnas. Ni phetrusai arfer ei ddawn ar wleidyddwyr galluocaf y Tŷ, ac ar arweinwyr ei blaid ei hun, yn gystal ag ar aelodau yr wrthblaid. Un diwrnod, ymosodai yn hallt ar Mr. Gladstone; a diwrnod arall, ar Syr Stafford Northcote; a gwnai hyny gyda'r fath ddifrawder ynghylch canlyniadau ei ymosodiadau ag a barai ei fod yn wrthddrych edmygedd neillduol y Toriaid ieuaingc oeddynt, fel yntau, yn blino ar dawelwch ffurfiol Tŷ y Cyffredin.

Ni byddai Argl. Randolph, yn y cyfnod hwn ar ei yrfa seneddol, byth mor hapus a phan yn beirniadu ei gydwleidyddwyr, a'u gwaith; ac fel areithydd ffraethlym, beiddgar, a galluog y dechreuodd efe esgyn yr ysgol a'i harweiniodd i fod yn un o weinidogion y Goron. Fel y dywedwyd eisoes, byddai yn fynych mewn gwrthdarawiad âg arweinwyr ei blaid ei hun; ond tueddent hwy i faddeu iddo, o herwydd fod ei ymosodiadau ar Mr. Gladstone, a'i wleidyddiaeth, wedi profi o werth mawr i'r achos Toriaidd.

Fel yr ydoedd tymmor gweinyddiaeth Mr. Gladstone yn agoshau at ei derfyn, yr oedd amryw yn edrych ar Argl. Randolph fel eu harweinydd; ac yn wir, yr oeddynt yn disgwyl y byddai efe, cyn hir, yn arweinydd cydnabyddedig y blaid Geidwadol. Yn mysg ei gefnogwyr penaf yn yr adeg yma yr oedd Syr Henry Drummond Wolff, Mr. Balfour, a Syr John Gorst. Adnabyddid y pedwar hyn wrth yr enw '*The Fourth Party*'—'Y Bedwaredd Blaid;' sef, pleidiau y Rhyddfrydwyr, y Toriaid, a'r Gwyddelod—a hwythau. Eu cynllun hwy o weithredu oedd peri blinder i'r weinyddiaeth; ac yn fynych iawn, byddai y pedwar hyn, a'r aelodau Gwyddelig, yn cael eu hunain yn yr un lobbi, yn pleidleisio yn erbyn gweinyddiaeth y dydd.



Pan yr ymddiswyddodd gweinyddiaeth Mr. Gladstone yn Mehefin, 1885—yr hyn a ddygwyd oddi amgylch, i raddau pell, trwy gydweithrediad Argl. Randolph â'r blaid Wyddelig—daeth Argl. Randolph allan fel ymgeisydd Toriaidd dros Birmingham, ac fel gwrthwynebydd i Mr. John Bright. Aflwyddiannus a fu ei ymgais, fodd bynag; ond dychwelwyd ef yn fuan ar ol hyny fel aelod dros Ddeheu Paddington. O flaen dadgorphoriad y senedd, cymmerodd ei arglwyddiaeth ran flaenllaw iawn yn nadleuon y llŵ ynglŷn â Mr. Charles Bradlaugh; ac fel arferol, dangosodd y fath fedr dadleuol, dawn areithyddol, a gwybodaeth o amgylchiadau gwleidyddol y dydd, fel y cydnabyddid yn lled gyffredinol ei fod yn 'allu' yn y senedd, a bod ei ddylanwad ar gynnydd. Nid hawdd oedd i Arglwydd Salisbury ffurfio gweinyddiaeth heb roddi swydd iddo; a phan ddaeth y blaid Geidwadol i awdurdod, yn Mehefin, 1885, pennodwyd ef yn Ysgrifenydd India, gyda sêdd yn nghynghor y weinyddiaeth. Tra yn y swydd hon, cafodd Burmah ei gorchfygu gan filwyr Prydain, ac fe'i chwanegwyd at diriogaethau y deyrnas.

Bŷr fu parhâd gweinyddiaeth gyntaf Argl. Salisbury; o blegid yn Nhachwedd, 1885, cymmerodd yr etholiad cyffredinol le, a daeth y Rhyddfrydwyr i awdurdod. Modd bynag, gorchfygwyd Mr. Gladstone y flwyddyn ddilynol ar yr achlysur o ddygiad i mewn ei fesur o Ymreolaeth; ac yn Gorphenaf, yr oedd Argl. Salisbury unwaith etto wrth y llyw, gydag Argl. Randolph y waith hon yn ganghellydd y trysorlys, ac yn arweinydd Tŷ y Cyffredin.

Er mai cymmharol fŷr fu ei arosiad yn y swyddau cyfrifol hyn, gellir dywedyd ei fod wedi dangos yr un medr, yr un penderfyniad di-ildio, yr un gweithgarwch, a'r un gallu i gario allan ei amcanion, ag a wnaeth pan yn aelod o'r 'Bedwaredd Blaid.' Ystyrid ei fod yn meddu cymmhwysderau neillduol i arwain y Tŷ; ond er fod y Toriaid, yn y corph o honynt, yn gorfod cydnabod ei dalentau disglaer, ac yn ufuddhau i gymmeryd eu harwain ganddo, etto i gyd, yr oedd ei anwadalwch yn gyfryw ag a barai anesmwythder parhaol iddynt. Anwadalwch oedd ei brif wendid ef. Wedi iddo gyrhaedd y safle anrhydeddus o arweinydd y Tŷ, dychrynodd yr holl wersyll Toriaidd, a pharodd gyffro nid bychan trwy holl gylchoedd gwleidyddol y deyrnas. Traddododd araeth yn Dartford a elwir hyd y dydd hwn yn 'araeth fythgofiadwy Dartford.' Yn nghwrs yr araeth hon, gosododd ei arglwyddiaeth ger bron y bobl fath o brogram gwleidyddol, yn cynnwys ei syniadau ef ar rai o brif gwestiynau y dydd. Yr oedd golygiadau yr araeth hon mor ryddfrydig—yn wir, ymylent ar fod yn Radicalaidd—fel y gwnaeth Mr. John Morley sylw i'r perwyl hwn:—'Ni ddylai y Rhyddfrydwyr bryderu yn nghylch arweinyddiaeth y gerddorfa Doriaidd, cyhyd ag y byddai iddi chwareu caneuon Rhyddfrydig.'

Bŷr fu llwyddiant ei arglwyddiaeth. Cododd ei haul yn gyflym; ond machludodd gyda chyflymdra mwy. Fel arweinydd y Tŷ, ac am rai blynyddoedd cyn hyny, yr oedd ei enw yn ngenau pawb a deimlent ryw ronyn o ddyddordeb mewn materion politicaidd; ond daeth yr adeg pan y llwyr anghofiwyd ef, a'i waith. Ar y 23ain o fis Rhagfyr, 1886, rhoddodd ei swydd yn y weinyddiaeth i fyny; ac fel yr oedd yn

Digitized by Google

naturiol disgwyl, parodd hyny gyffro anarferol. Y rheswm a roddwyd dros yr ymddiswyddiad hwn oedd yr anghydfod a gododd rhwng ei arglwyddiaeth a gweinidogion eraill y Goron ar amcan-gyfrifon y fyddin a'r llynges; gan ei fod, yn rhinwedd ei swydd fel canghellydd y trysorlys, yn methu gweled ei ffordd yn glir i wario cymmaint o arian y wlad ar y fyddin a'r llynges. Ond tybir fod gwahaniaeth barn rhyngddo a'i gyd-weinidogion ar lawer o gwestiynau eraill; a bod ei sefyllfa yn y weinyddiaeth, o herwydd hyn, wedi dyfod mor annioddefol iddo fel nad oedd ganddo ddim i'w wneyd ond ymddiswyddo. Y foment y gwnaeth efe hyny, darfu ei ddylanwad ar achosion gwleidyddol y deyrnas.

Bu farw Ionawr 24ain, 1895, yn 46ain ml. oed.

CHILI, neu CHILE.—Ffurfiwyd cyfansoddiad y weriniaeth hon gan gynnrychiolwyr y genedl yn y fl. 1833. Ffurfia y wlad ran o Ddeheubarth America. Rhenir hi i 21ain o dalaethau, a 3 tiriogaeth. Mesura y cyfan tua 293,971 mill. pet.—gyda phoblogaeth, yn y flwyddyn 1894, o 3,317,264: yn annibynol ar y Boliviaid, yr Araucaniaid, ac Indiaid America, y rhai a rifent tua hanner can mil. Mesura y wlad, o ogledd i dde, 2,485 mill. wrth 100 mill. o led. Golchir ei thraethell orllewinol gan y Tawelfor; a therfynir hi ar y dwyrain gan fynyddau yr Andes, y rhai sydd yn codi, ar gyfartaledd, i'r uchder o 18,000 troedfedd. Y mynydd uchaf oll ynddi ydyw Aconcagua, yr hwn sydd yn 22,422 troedfedd. Nid oes yn y wlad un afon o bwys. Prif ganghenau ei diwydrwydd ydynt amaethyddiaeth a mŵnyddiaeth. Tyfir gwenith, haidd, ceirch, ffa, pys, tybaco, llîn, cywarch, hopys, a phytatw, mewn cyflawnder yno. Yn y mŵngloddiau, codir llawer o aur. Y mae yno 1,801 milldir o ffyrdd haiarn, 8,346 milldir o wifrau y pellebyr, 484 o lythyrdai, gyda 5,250 milldir o wifrau y pellseinydd (*telephone*). Torodd chwyldröad allan yn Ionawr, 1891, rhwng plaid y Gyngres a phlaid yr Arlywydd; yr hwn a derfynodd Awst 28ain, trwy i'r blaid flaenaf gymeryd Valparaiso. Rhifa y fyddin 5,600 o wŷr.

| | |
|---|---|
| Y cyllid yn 1893, oedd ... ... | *P*.9,500,000 |
| Treuliau ... ... ... | *dolar* 50,000,000 |
| Y Ddyled wladol ... ... ... | *P*.18,300,000 |
| Dadforion yn 1892 ... ... ... | 18,376,000 |
| Allforion yn 1892 ... ... ... | 13,948,000 |

Ei phrif drefydd ydynt Santiago, gyda phoblogaeth o 189,322; Valparaiso, 104,452; Concepcion, 24,180; ac Iquique, 15,391. Yr arlywydd presennol ydyw y Llyngesydd Jorje Montt, yr hwn a etholwyd Rhagfyr 26ain, 1891.

CHINA.—Gan fod erthygl faith ar y wlad hon yn *cyf*. ii., ni wnawn yma ond rhoddi y manylion diweddaf yn mherthynas iddi. Y mae China Briodol, yr hon sydd yn gynnwysedig o 18 o dalaethau, yn mesur 1,534,953 mill. pet., neu tua 1,860 milldir o hyd, a thua 1,520 milldir o led. Os chwanegir ati y tiriogaethau eraill a berthynant iddi, mesura 4,468,750 mill. pet., neu un ran o ddeuddeg o holl dir y byd. Yn ddiddadl, China ydyw y wlad liosocaf ei thrigolion ar y ddaear; ac nis gellir bod yn sicr iawn o'u nifer. Bernir fod y boblogaeth yn rhifo yn awr dros dri chan miliwn (300,000,000)—agos i naw gwaith poblogaeth y Deyrnas Gyfunol. Anhawdd ydyw cael gwybodaeth yn nghylch cyllid a threuliau y wlad. Yn 1875, bernid fod y cyllid yn 25,837,500*p*. Cyfanswm gwerth y dadforion yn 1894 oedd 30,186,000*p*.; a'r allforion yn 23,349,000*p*. Rhifa y fyddin yn ei llawn nerth tua 1,200,000 o wŷr. Llynges eiddil sydd ganddi; a gwanychwyd hi yn ddirfawr yn ystod y rhyfel diweddar â Japan. Y mae China yn awr yn dechreu ymddeffro i'r pwysigrwydd o wneyd ffyrdd haiarn yn y wlad.

Torodd y rhyfel allan rhyngddi â Japan yn 1894. Achos y rhyfel hon oedd ymgais Japan i roddi pen ar sefyllfa gythryblus y Corea—dros yr hon wlad yr oedd China yn hawlio penaduriaeth. Ennillwyd buddugoliaeth ar ol buddugoliaeth gan Japan; ac wedi llwyr orchfygu y Chinëaid, tynwyd allan gyttundeb heddwch rhwng y ddwy wlad. Prif ammodau y cyttundeb hwn ydyw, fod China i gydnabod llwyr annibyniaeth y Corea—gwarogaeth yr hon i China oedd felly i derfynu; fod China i roddi i fyny i Japan orynys Liao-tung, a'r ynysoedd perthynol iddi; ynghyd â Formosa, a'r Pescatores; fod i China dalu i Japan iawn-rhyfel o 200,000,000 o *taels*—pob un yn werth 6*s*. 8*c*., neu dri yn werth 1*p*. Yr oedd i China, hefyd, i wneuthur cyttundeb masnachol newydd gyda Japan. Hefyd, cyttunwyd fod Shashih yn Hupeh, Chung King yn Szechuan, Suchow yn Kiang Su, a Hangchow i gael eu hagor i fasiandwyr Japanaidd; a phenderfynwyd fod i'r Japaniaid gael anfon eu llongau ar yr afonydd Yangtse Kiang Uchaf, a Woosung. Ond daeth Rwssia, Ffraingc, a Germany yn mlaen; a phwyswyd ar Japan ollwng ei gafael ar orynys Liao-tung, am yr hyn yr oedd i dderbyn 7,000,000*p*. o iawn chwanegol. Cyttunwyd, hefyd, fod i'r milwyr Japanaidd ymadael o China o fewn tri mis; ond fod i Wei-hai-Wei gael ei dal dros amser fel sicrwydd y cedwid yr heddwch a thelerau y cyttundeb. Cyfrifir fod y rhyfel wedi costio i China dros hanner can miliwn o bunnau (50,000,000*p*.), heb law yr iawn-rhyfel a nodwyd uchod. Prif dref China yw Peking, poblogaeth yr hon a rifa tua miliwn.

COLOMBIA.—Gweriniaeth ydyw hon, yn Neheubarth America. Ei llywydd yw Miguel A. Caro, a etholwyd yn 1892. Ffurfiwyd y weriniaeth gan Gynnadledd Bogota, yn Medi 1861, gan gynnrychiolwyr naw o dalaethau, y rhai oedd gynt yn ffurfio rhan o Granada Newydd. Y naw talaeth hyn oeddynt, Antioquia, Bolivar, Boyaca, Cauca, Cundinamarca, Magdalena, Panama, Santander, a Tolima. Cynnwysa yr holl wlad 502,000 mill. pet.; gyda phoblogaeth o 5,000,000:—mwy na hanner pa rai sydd yn bobl wynion, a hanner brid. Y mae y wlad hon wedi myned trwy amryw gyfnodau o chwyldröad a rhyfeloedd cartrefol. Ceir ynddi gyflawnder o fahogani, cedrwydd, a choed gwerthfawr eraill; ynghyd â llysiau meddygol. Codir aur, arian, platinum, copr, haiarn, plwm, glô, a meini gwerthfawr ynddi. Tyfir yno dybaco, coffi, cocoa, gwenith, &c. Y mae rhyddid crefyddol hollol yno, a thelir sylw mawr i addysg. Rhifa y fyddin sefydlog 7,000; ond nid oes ganddi lynges. Dechreu gosod ffyrdd haiarn i lawr yno y mae y trigolion.

| | |
|---|---|
| Y cyllid yn 1893—4 oedd ... ... | *P*.4,979,840 |
| Treuliau yn 1893—4 ... ... ... | 5,464,427 |
| Y Ddyled Wladol (o ddeutu) ... | 3,100,000 |
| Y Dadforion yn 1891 . ... ... | 2,889,592 |
| Yr Allforion yn 1891... ... ... | 1,444,786 |

Prif dref y wlad ydyw Bogota, yr hon sydd yn meddu poblogaeth o 100,000.

Digitized by Google

CYNBRYD:—mab Brychan. Efe oedd sylfaenydd eglwys Llanddulas, yn sir Ddinbych. Cafodd ei ladd gan y Saeson mewn lle a elwir oddi wrth hyny yn Bwlch Cynbryd.

CYNDAF. Yn ol *Achau y Saint*, daeth drosodd i Ynys Brydain gyda Brân Fendigaid, gyda'r amcan o 'ddwyn y Ffydd yn Nghrist i genedl y Cymry.'

CYNDEYRN. Sant, oedd yn byw yn y chweched ganrif. Mab oedd efe i Arthog ab Caredig; ac efe a sefydlodd eglwys Llangyndeyrn, yn sir Gaerfyrddin.

CYNDRWYN. Tywysog Powys yn niwedd y bummed ganrif. Mab iddo oedd Cynddylan.

CYNDDELW BRYDYDD LLYCHWYN. Blodeuodd yn y drydedd ganrif ar ddeg. Nid oes dim o'i gyfansoddiadau ar gael.

CYNDDELW BRYDYDD MAWR. Yr oedd efe yn fardd i Owain Gwynedd, Madog ab Meredydd, a Dafydd ab Owain Gwynedd. Ystyrid ef yn mhlith yr enwocaf o'r gogynfeirdd; a blodeuai rhwng 1150 a 1200. Llenwir llawer o dudalenau o'r *Myvyrian Archaiology* gan ei ganeuon.

CYNDDYLAN. Mab Cyndrwyn oedd efe; a dilynodd ei dad i benaduriaeth Powys. Yr oedd efe yn byw yn y chweched ganrif; ond ychydig iawn o'i hanes sydd yn awr ar gael. Hyny o hanes sydd am dano ydyw yr hyn a gesglir oddi wrth farddoniaeth Llywarch Hen a Meigant; yr hyn a geir yn y *Myvyrian Archaiology*. Oddi wrth y rhai hyn, ymddengys iddo gwympo mewn brwydr a fu rhwng y Cymry a'r Saeson wrth amddiffyn un o drefi y wlad. Claddwyd ei weddillion yn Baschurch, ger yr Amwythig. Cyfrifir marwnad Llywarch Hen i Cynddylan gan rai, o herwydd ei theithi barddonol, a'i chyfeiriadau hanesyddol, yn un o'r darnau gwerthfawrocaf yn ein hiaith.

CYNFAR CAD-GADDUG. Penaeth oedd yn byw yn y bymthegfed ganrif, a mab i Cynyr Cynwydion. Rhestrir ef, gyda Gwendoleu ac Urien, i ffurfio y 'Tri tharw Câd.'

CYNFARCH I. Mab Sitsyllt oedd efe; a dilynodd Iago i orsedd Prydain tua 704 C.C.

CYNFARCH II. Mab i Sitsyllt, yr hwn, yn ol un awdurdod, a ddilynodd ei dad i orsedd Prydain o ddeutu 563 C.C.

CYNFARWY. Sant, oedd yn byw yn y seithfed ganrif. Mab oedd efe i Afwy ab Llunawg, tywysog Cernyw, a sefydlydd eglwys Llechgynfarwy, yn Môn.

CYNFELYN. Gelwir ef yn fynych yn Cynfelyn Wledig. Yr oedd efe yn fab i Teneufan ab Lludd ab Beli Mawr:—brenin Prydain yn yr amser yr oedd Tiberius a Caligula yn ymherawdwyr Rhufain. Efe, meddir, ydyw *Cunobelinus* yr hanesydd tramor, a *Cymbeline* Shakespeare. Dygwyd ef i fyny yn Rhufain o dan gyfarwyddyd Julius Cæsar; ac o blegid hyny, dywedir iddo, trwy ei holl deyrnasiad, ddangos pleidgarwch mawr i'r Rhufeiniaid:—a Chymro wedi ei Rufeinio, i raddau pell, oedd efe. Wedi iddo ddyfod yn hyddysg yn arferion a moesau y Rhufeiniaid, gwnaethpwyd ef yn frenin ar y Trinobantiaid, y Catticulaniaid, a'r Dobuniaid; a dywedir iddo ennill y fath ddylanwad ar y Prydeiniaid, er eu cael i ymostwng ac i dalu teyrnged i'w gorchfygwyr, fel y teyrnasodd ar y llwythau hyny mewn heddwch a llwyddiant am ysbaid o tua deugain mlynedd. Cadwai ei lys yn *Camalodunum* (Maldon, yn Essex), lle y bathodd lawer iawn o arian:—ac y mae amryw o honynt, gyda'i enw arnynt, ar gael hyd y dydd hwn. Hyd yn ddiweddar, credid yn lled gyffredinol mai efe oedd y cyntaf i fathu arian yn Mhrydain; ond y mae y syniad hwn wedi ei wrthbrofi. Bu Cynfelyn farw tua'r fl. B.A. 40. Gadawodd ar ei ol ddau fab; sef, Gwydr a Gweirydd; y rhai, yn olynol, a'i dilynasant ar yr orsedd. Ond yn wahanol iddo ef, gwrthodasant dalu teyrnged i Rufain. Dywed Dion Cassius mai Cynfelyn oedd tad Caractacus, Adminius, a Togodumnus. Yn y *Trioedd*, cyssylltir Cynfelyn, a Charadog, ac Arthur, fel 'Tri glewion Unbeniaid Ynys Prydain.'

CYNFELYN DRWSGL. Mab i Cynwyd Cynwydion, yr hwn a elwir yn un o 'dri phôst câd Ynys Prydain.'

CYNFRAN. Mab Brychan oedd, a sefydlydd eglwys Llysfaen, ger Abergele, lle y mae ffynnon a elwir 'Ffynnon Cynfran.' Dywed Edward Llwyd ei bod yn arferiad gan y ffermwyr gynt i offrymu yn y ffynnon hon, gan erfyn 'Rhad Duw, a Chynfran Llwyd ar y da.' Yr oedd efe yn un o'r seintiau Cymreig.

CYNFRIG, neu CYNWRIG AB DAFYDD GOCH. Bardd oedd efe, yn byw tua'r fl. 1420. Ceir rhai o'i gyfansoddiadau yn nghadw mewn hen ysgrifau.

CYNFYN AB GWERYSTAN. Arglwydd Cibwyr yn Ngwent oedd efe, yn byw yn nechreu yr unfed ganrif ar ddeg. Ei wraig ydoedd Angharad, merch Meredydd ab Owain ab Hywel Dda, a gweddw Llewelyn ab Sitsyllt, o'r hon briodas y ganwyd Bleddyn, yr hwn a esgynodd orsedd Gwynedd yn 1062.

CYNFRIG HIR. Brodor o Edeyrnion—a ennillodd glod trwy ei ddewrder yn achub ei dywysog, Gruffydd ab Cynan, o garchar Caerlleon.

CYNGAR. Sant, oedd yn ei flodau yn y chweched ganrif. Mab i Gerain ab Erbyn, tywysog Dyfnaint. Daeth i Cymry o Congresbury, yn Ngwlad yr Haf, ac ymunodd fel aelod â Choleg Garmon. Efe ydoedd sefydlydd coleg neu fynachlog Llangenys, yn Morganwg; eglwysydd Badgworth, a Congresbury, yn Ngwlad yr Haf; Llanestyn, yn sir Fflint; a Llangefni, yn Môn.

CYNGEN I. Mab Cadell Deyrnllwg y cyntaf, ac olynydd ei dad fel tywysog Powys tua'r fl. 500. Enwogodd ei hun trwy ei haelfrydedd, a'r nawddogaeth a roddodd i'r saint. Rhoddodd lawer o diroedd i Fangor-îs-y-coed; ac adeiladodd eglwys yn yr Amwythig, yr hon a gyflwynwyd iddo dan yr enw Sant Cyngen. Ei wraig oedd Tangwystl, merch, neu ŵyres, i Brychan.

Digitized by Google

CYNGEN II. Mab Cadell Deyrnllwg yr ail, ac olynydd ei dad yn ngorsedd Powys, tua'r fl. 804. Tra ar daith yn Rhufain, llofruddiwyd ef yno gan ei weision, tua'r fl. 850.

CYNHAFAL. Sant, a mab Elyd ab Cadfarch ab Caradawg Freichfras. Efe ydoedd sylfaenydd eglwys Llangynhafal, yn Nyffryn Clwyd.

CYNHAFAL AB ARGAD. Bardd a rhyfelwr enwog oedd yn byw yn y seithfed ganrif; yr hwn a restrid fel un o 'Dri Tharw Unben Ynys Prydain.'

CYNHAIARN AB HYGARFOEL. Blodeuodd yn y chweched ganrif; ac y mae Ynys Cynhaiarn, yn Arfon, wedi cael ei galw ar ei enw ef.

CYNHEIDDON. Santes, oedd yn byw yn y bummed ganrif. Hi a sylfaenodd le o'r enw Llangynheiddon, ar fynydd Cyfor, yn sir Gaerfyrddin.

CYNHUDDYN. Mab Bleddyd ab Meirion, a deon Coleg Padarn, yn Llanbadarn Fawr.

CYNIDR. Sant, oedd yn byw yn y bummed ganrif. Ei fam oedd Rhiengar, merch Brychan. Trigodd mewn lle o'r enw Maelienydd, yn sir Faesyfed. Sefydlodd eglwysydd Llangynidr ac Aberyscir, yn Mrycheiniog.

CYNLLO. Sant, oedd yn ei flodau yn y bummed ganrif. Mab oedd i Mor ab Ceneu ab Coel Godebawg. Yn nydd-lyfr yr hen Ffurf-Weddïau Cymreig, coffeir am dano dan y dyddiad Mehefin 17eg, fel 'Cynllo frenin;' ac oddi wrth hyn, tybir ei fod unwaith mewn meddiant o hen diriogaethau treftadol, ac iddo ymgyflwyno, ar ol hyny, i fywyd crefyddol. Sefydlodd eglwysydd Nantmel, Llangynllo, a Llanbister, yn sir Faesyfed; a Llangynllo a Llangoedmor, yn sir Aberteifi. Rhaid fod enw Cynllo yn uchel iawn yn yr oesau tywyll; canys, dywedir yn 'Nghuddiant Elphin,' a briodolir i Taliesin, 'Ni bydd coeg gweddi Cynllo.' Yn ol crybwylliadau a geir yn *Ngweithiau Lewis Glyn Cothi*, y mae ei enw mewn coffadwriaeth yn yr enwau canlynol:—1. *Cerwynau Cynllo*, sef corbyllau yn y graig o dan wely yr afon wedi eu ffurfio gan y dwfr. 2. *Ol traed march Cynllo.* 3. *Ol gliniau Cynllo.* Y mae ffynnon hefyd yn mhlwyf Llanbister o'r enw Pistyll Cynllo.

CYNLLO. Tywysog ar Powys, yn yr wythfed ganrif. Ei dad oedd Beli ab Maelmynan.

CYNLLWG. Bardd a flodeuodd tua dechreu y nawfed ganrif. Nid oes dim o'i farddoniaeth ar gael.

CYNNULLEIDFAOLWYR, Y. Yn yr erthyglau ar yr 'Anymddibynwyr' a'r 'Cynnulleidfaolion,' fe geir golwg ar ddaliadau athrawiaethol yr enwad Cynnulleidfaol. Yn yr erthygl hon, dilynir camrau tŵf a dadblygiad yr enwad yn ngoleuni hanes.

Plentyn y Diwygiad Puritanaidd yw yr enwad Cynnulleidfaol. A dilyn y fligiwr, y mae personoliaeth yr enwad yn ganlyniad ufudd-dod dynion Duw i lais o'r nef yn ffurf addewid a gorchymyn. Geiriau y gorchymyn oeddynt:—'Deuwch allan o'u canol hwynt, ac ymddidolwch, medd yr Arglwydd; ac na chyffyrddwch â dim aflan.' Y mae geiriau yr addewid hefyd fel hyn:—'Ac mi a'ch derbyniaf chwi, ac a fyddaf yn Dad i chwi, a chwithau a fyddwch yn feibion ac yn ferched i mi, medd yr Arglwydd Hollalluog. Canys lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt;' 2 *Cor.* vi. 17, 18; *Mat.* xviii. 20. O amgylch yr ymadroddion ysbrydoledig hyn—cred diammheuol fod y Duw byw yn llefaru ynddynt, a dymuniad diffuant am sylweddoli eu cynnwys—y tyfodd y bobl a elwir yn Annibynwyr i'r ddelw a'r ffurf bresennol sydd arnynt.

I. Y DECHREUAD, A'R PA HAM.

1. Rhwng y blynyddoedd 1580 a 1590 y canfyddir blagur byw yr enwad yn ei ffurf diweddar yn ymwthio gyntaf drwy rwystrau gerwin mewn gwahanol ranau o Loegr i oleuni hanes. Yr oedd ysbryd y Diwygiad Protestanaidd er's tro wedi cyrhaedd Lloegr, o'r Cyfandir. Yr oedd yn yr awyr yn mhob man megys pelydrau y goleuni. Wedi rhwygo llen dew hirnos y meddwl, aeth yn ammhossibl cysgu yn hwy. Dechreuwyd ymystwyrian ac ymysgwyd drwy holl ranau Prydain. Mynai y bobl fywiocaf eu meddyliau, ac iachaf eu heneidiau, godi ac ymwisgo er gwaethaf pawb. Byd gerwin a gafodd yr awdurdodau crefyddol i gadw, fel y tybient hwy, ryw fesur o drefn arnynt. Cymmerodd y deffroad ddwy ffurf—y wladol a'r grefyddol. Rhaid i'n camrau fod yn frâs iawn wrth ddilyn gyrfa dechreuad a thŵf yr enwad hwn. Drwy y ffurf wladol ar y Diwygiad Saesneg, cafodd yr eglwys enw a phen newydd. Galwyd hi yn 'Eglwys Brotestanaidd Lloegr.' Yn yr ymgipris â Harri VIII., collodd y pab ei awdurdod yn y wlad hon fel pen yr Eglwys Wladol; a throsglwyddwyd yr awdurdod i Harri, a'i olynwyr. Addysgwyd y dosbarth llywodraethol yn Lloegr er's oesoodd, fel yn mhob gwlad arall, yn yr hen goel ŵyrgam, fod unffurfiaeth cred a buchedd yn hanfodol i gadernid a pharhâd y llywodraeth wladol. Ond er y newidiad fu ar y pen eglwysig, deallwyd yn union nad oedd lle i ryddid wladychu yn mysg y trigolion. I atteb pwrpas yr amseroedd, penderfynodd yr Eglwys Esgobawl gadw ystoc dysgyblu y pen Rhufeinig at ei gwasanaeth hithau. Ni newidiwyd ysbryd y wladlywiaeth mewn pethau ysbrydol. Ar yr un pryd, er heb yn wybod i'r penaethiaid, yr oedd yr amser i anfon 'gwŷr ffydd' cyn eu hamser i'r byd arall oddi ar yr arteithglwyd a'r crogbrenau ar fin terfynu. Daeth gyda'r Diwygiad ffrwf o deimlad newydd i'r wlad—teimlad a feiriolodd natur y genedl i raddau pell, ac a wnaeth ddynion yn fwy dynol. Caed arwyddion sicr fod gwneyd arddangosiadau o actau gogoneddus ffydd a chariad at egwyddorion crefyddol ger bron lliaws y bobl yn anfantais i unffurfiaeth eglwysig; a dyna'r pa ham y rhoddwyd dysgyblaeth yr arteithglwyd a'r crogbren heibio.

2. Wedi y rhwyg gyda'r Babaeth, yr oedd yn naturiol i adweithiad gymmeryd lle yn erbyn y grefydd hono. Achlysurodd hyny ennyniad angerddol yn ffafr puro yr Eglwys o'i haflendid, a'i diwygio o'i choelgrefydd. Yn llif yr adweithiad, daeth y Puritaniaid a'r Presbyteriaid i'r amlwg. I bob amcan ymarferol, yr oedd y naill a'r llall yn un ar byngciau ffydd a buchedd.

Digitized by Google

Dysgyblion Calvin oeddynt oll. Y mae yn briodol cofio hefyd eu bod hwy yn unfryd ar bwngc crefydd a'r llywodraeth. Dadleuent ei fod o osodiad Duw ei hun. Cymmharent ef i undeb corph ac enaid. Cymmerodd y ddadl y drefn a ganlyn:—1af, Pa beth oedd i'w wneyd â'r defodau Pabaidd yn yr Eglwys Wladol? 2il, Pa ffurflywodraeth eglwysig a ddewisid? Yn 3ydd, Pa fath gredoau duwinyddol? Mewn gair, hawliai yr esgobion Wladwriaeth Esgobol, a'r Puritaniaid Wladwriaeth Galvinaidd, seiliedig, i fesur, ar ffurflywodraeth fydol-eglwysig Geneva. Yr oedd Iorwerth VI., Iago, a Siarl yn pleidio yr Esgobaethwyr, neu yr hen blaid Babaidd. Am Elizabeth, nid oedd hi yn gwybod dim am grefydd, ond drwy hanes; nac yn cymmeryd dyddordeb yn nyrchafiad moesol y genedl. Yr unig werth a welai hi yn yr Eglwys oedd y fantais a geid drwyddi i'r wladwriaeth. Am fod y Diwygiad yn dwyn anghydwelediad crefyddol i blith y bobl, ceisiodd y frenhines, a'i chynghorwyr, ei fygu. Ni feddent gydymdeimlad â'r wedd foesol oedd yn perthyn i'r mudiad. Aberthwyd yr Eglwys Wladol ar allor cyfaddawd (*compromise*). Gwnaed hi yn fan cyfarfod rhwng dysgyblion Calvin a'r pab, a Christ a Belial. Mewn attebiad i gais Cartwright, ar fod y bobl yn cael cenad a rhan yn etholiad eu gweinidogion plwyfol, ysgrifenodd Whitgift, yn 1572, fel hyn:—

'Yn gyntaf [nis gellir caniatau eich cais] o blegid yn amseroedd yr apostolion, yr oedd yr eglwys dan y groes; am hyny, ychydig iawn, mewn cymmhariaeth, oedd rhif y bobl a dderbyniasant yr efengyl; ac, fel rheol, cyd-drigent—o leiaf, cyd-gyfarfyddent yn dra mynych. O ganlyniad, yr oedd y naill yn hollol adnabyddus o'r llall; a hwynthwy eu hunain oedd i farnu pwy yn eu plith oedd y cymmhwysaf i addysgu a hyfforddi, yn gymmaint a bod amldra o rai medrus yn eu plith bob amser. Yn awr, y mae yr eglwys mewn llwyddiant: ac am hyny, y mae rhif y rhai a broffesant yn lliosog, ac wedi eu gwasgaru i laweroedd o fanau; ac mewn aml i blwyf, nid oes neb cymmhwys yn eu mysg i fod yn weinidog, nac yn adnabyddus iddynt, fel nas gwyddant am neb rhyw un i'w alw. Yn ail, yn amseroedd yr apostolion, yr oedd bron yr oll oedd yn Gristionogion yn bobl rinweddol a duwiol, ac yn gwir broffesu y gair; am hyny. yr oedd yn ddiogel ymddiried iddynt y gwaith o ethol eu gweinidogion. Yn awr, y mae yr Eglwys [Gristionogol, Wladwriaethol], yn llawn o ragrithwyr, meddwon, puteiniaid, a rhai trofäus, &c., fel pe y cyflwynid y gwaith o ethol i'w dwylaw, byddent yn sicr o ddewis gweinidogion fel hwy eu hunain. . . Yn bedwerydd, yn amseroedd yr apostolion, nid oedd yn yr eglwys eilunaddolwyr, na phersonau coel-grefyddol, na Phabyddion:—yn awr, y mae yr eglwys yn llawn o Babyddion, atheistiaid, a'u tebyg. . . Yn bummed, yn amseroedd yr apostolion, nid oedd yr eglwys yn sefydledig [hyny yw, yn rhan o'r wladwriaeth], gan nad oedd ynadon Cristionogol yn bod y pryd hwnw; am hyny, yr oedd llywodraeth yr eglwys yn werinol. Yn awr y mae ynadon Cristionogol, a'r eglwys yn sefydledig, ac yn ddarostyngedig i lywodraethwyr. . . . *Whitgift's Works*, cyf. i., td. 378, 382, 389.

Dyna ddarnodiad gwyneb-agored a chywir o natur a chymmeriad yr Eglwys Wladol gan archesgob a chynghorwr cyfrin y frenhines Elizabeth. Er hyn oll, gwir ddeisyfiad yr adran Bresbyteraidd o'r Puritaniaid oedd newid cyfansoddiad yr Eglwys Sefydledig, a'i llunio ar ddelw Eglwys Ysgotland. Ymgynnullodd clerigwyr y blaid yn Nhachwedd, 1572, i ystyried eu sefyllfa, a llunio rhyw fath o ddadganiad er egluro eu syniadau. Daliwyd hwy gan yr awdurdodau; ac yn ngharchar, cawsant gyfleusdra i egluro eu cynllun i gaplan yr archesgob. Wele eu syniad:—'Nid ydym ni am eglwys ddifrycheulyd ar y ddaear; am hyny, er fod yn Eglwys Loegr lawer o ddiffygion, ni fynem o'n bodd ei gadael;' *Waddington's C. Hist.*, cyf. ii., td. 6. Er i'r Puritaniaid, am flynyddau ar ol hyn, ddyfal weithio o blaid cael tro ar fywyd yn yr Eglwys, ni lwyddasant; o blegid fod y cyssylltiad gwladol yn marweiddio pob ymgais o'r fath.

II. YR YMWAHANU, A'R CRYNHOI.

3. O'r methiant hwn y tarddodd mudiad yr Ymwahanwyr (*Separatists*)—y bobl a wrandawsant ar lais y gorchymyn a'r addewid. Gan nad oedd modd adnewyddu yr Eglwys Wladol drwy ei gwneyd yn gartref ysbrydol y pur a'r da, rhaid oedd ei gadael. Puritaniaid oedd yr holl Ymwahanwyr cyntaf:—dynion ysbrydol eu meddyliau, credinwyr didwyll yn awdurdod y Beibl ar fywyd. Dechreuasant ffurfio cymdeithasau ysbrydol dirgel mewn llawer o fanau. Nis gallasent hwy beidio. Aeth yn rheidrwydd crefyddol eu natur. Hiliogaeth ysbrydol y Lollardiaid—Puritaniaid efengylaidd Diwygiad Wickliff oeddynt. Symleiddiodd ac ysbrydolodd y Testament Newydd eu syniad am natur eglwys Iesu Grist. Dysgai yr Esgobaethwyr fod ymgynnull yn yr addoliad cyhoeddus yn llan y plwyf er gwrandaw Gair Duw yn gwneyd dyn yn Gristion. Onid oedd adenedigaeth yn y bedydd yn troi dyn yn ei fabandod yn aelod o Grist, ac yn etifedd teyrnas nefoedd? Nid oedd eisieu yn mhellach ond cydymffurfio â'r addoliad cyhoeddus. O'r tu arall, credai yr Ymwahanwyr fod gwrandaw ar ddarlleniad o'r Ysgrythyr Lân, ac addoli yn gyhoeddus, yn rhan o fywyd pob Cristion; ond dadleuent yn mhellach, nad oedd unrhyw rinwedd mewn cydymffurfiad llac a difeddwl, mewn addoliad cyhoeddus, na dirgel, os heb gredu yn uchafiaeth y Gair Dwyfol, ac ufuddhau o'r galon i ffurf ac ysbryd ei orchymynion. 'Cymdeithas o wŷr a gwragedd yn credu felly (ebe yr Ymwahanwyr)—cydymffurfwyr beunyddiol â'i gyfarwyddiadau ef—sydd yn ffurfio eglwys Crist, a hwy yn unig.' Anadlodd y Diwygiad Protestanaidd ysbryd newydd i feddyliau yr Ymwahanwyr: yr oedd yr addewid am bresennoldeb rheolaidd Crist yr Arglwydd gyda 'dau neu dri' wedi cydymgynnull yn ei enw ef, a'r sicrwydd o arweiniad yr Ysbryd Glân i feusydd pob gwirionedd ysbrydol, wedi eu codi ar unwaith i diriogaeth annibynol ar bob offeiriad, ac esgob.

4. O ddeutu y pryd hwn, daeth Robert Browne, o Tolethorpe, yn swydd Rutland, i sylw neillduol. Yr oedd efe yn amddifad o elfenau arweinydd. Wedi ei addysgu yn Ngholeg Corph Crist, yn Nghaergrawnt, gommeddodd dderbyn trwydded yr esgob i bregethu:—etto, pregethu a fynai. Yr oedd yn ddiwygiwr hyd y carn. Casglodd gynnulleidfa yn Norwich; wedi hyny, ciliodd i Denmarc. Dychwelodd drachefn i Loegr yn y fl. 1585. Wedi ei esgymmuno gan Esgob Peterborough, bu caledi yr amseroedd yn drech nag ef: ail ymunodd â'r Eglwys Wladol; a chyn hir, trwy offerynoliaeth perthynas, gwnaed ef yn rheithor plwyf bychan Achum-cum-Thorpe. Bu farw yn ngharchar Northampton, yn hynafgwr dwy a phedwar ugain oed. Yr oedd efe ar hyd ei oes, i fesur mawr, yn gaethwas i'w

Digitized by Google

dymmherau. Erbyn heddyw, y mae Dexter wedi casglu ffeithiau digonol dros gredu fod a fyno gorphwylledd â'i ymddygiadau am y deugain mlynedd olaf o'i oes. Beth bynag am hyny, yr oedd Browne, am y deugain mlynedd cyntaf, yn ŵr clir ei ddeall, yn ysgrythyrwr cadarn, yn ysgrifenwr grymus a phrydferth, ac yn gynlluniwr rhagorol. Aeth ei lyfrau ar *The Life and Manners of all true Christians*, a *Reformation without tarrying for Anie*, yn dŷ tarianau ac yn gawell saethau yr Ymwahanwyr yn y brwydrau a fu rhyngddynt â'r bobl hyny a fynent barhau eu caethiwed. Derbyniwyd ei lywod-ddysg werinol, eangfrydig, ac ysgrythyrol, fel cynllun aeddfed a therfynol. Llysenwyd ei ddysgyblion yn 'Browniaid;' ond wedi ei enciliad i'r Eglwys Wladol, gwrthododd pawb arddel unrhyw berthynas âg ef. Ar yr un pryd, nis gall fod ammheuaeth nad iddo ef y perthyna y clod o fod yn dad ac yn sylfaenydd yr enwad Cynnulleidfäol.

Er budd ei gynnulleidfa yn Neuadd y Plymwyr, Llundain, darfu i Richarde Fitz, gweinidog, yn y fl. 1567, dynu allan fras-lun o gyfansoddiad eglwys Crist: ond nodau meddwl yn ymbalfalu am y wawr sydd ar ei gynllun ef. Wedi gwneyd ymchwiliad trwyadl, a mantoli pob tystiolaeth, arweinir Dexter i'r dyfarniad canlynol:—

'Ar y cyfan, perswadir fi na raid i ni [fel enwad] gywilyddio i arddel Robert Browne, na chydnabod unrhyw angenrheidrwydd dros geisio cymmeryd oddi arno ei uchafiaeth naturiol yn mhlith meddylwyr mawrion Rhyddfrydiaeth a Chynnulleidfaoliaeth ddiweddar.'—*Cong. as seen in its Lit.*, td. 128.

III. GWASGARIAD, A DYCHWELIAD.

5. Ar yr un pryd, ail beth oedd llywod-ddysg yn mryd cynnulleidfaoedd cyntaf yr Ymwahanwyr; ïe, a'r ail oes o honynt, o ran hyny. Yr oedd yr awdurdodau Esgobawl yn eu herbyn, ac yn eu cospi heb drugaredd. Nid oedd lonyddwch a gorphwysdra digonol ar y pryd i ffurfio cartrefi arosol, ac eglwysi trefnus a rheolaidd. Eithr, megys bob amser, ordeiniodd Rhagluniaeth wynt erledigaeth yn weinidog egwyddorion rhyddid a chydraddoldeb; a mawr fu ei lwyddiant. Amlhaodd y cynnulleidfaoedd yn ddirfawr. Cyhoeddodd Syr Walter Raleigh yn Nhŷ y Cyffredin fod o ddeutu 20,000 o Anghydffurfwyr ('Browniaid' a ddywedodd efe; ond llithriad ar air oedd hyny) yn Lloegr yn y fl. 1580. Nid oedd modd gosod attalfa ar eu cynnydd. Llenwid y carcharau â hwynt; ond yn hytrach na bod eu caethiwed yn anfantais iddynt, trawsnewidid y celloedd yn ystafelloedd myfyrdod a llafur crefyddol. Yn un o gelloedd y Bridewell, yn Llundain, y cyfansoddwyd *Cyffes Ffydd* eglwys Francis Johnson, yn 1589. Wedi gweled o'r esgobion nad oedd na chrogbren na charchar yn tycio, cyttunasant i ganiatau i'r Puritaniaid a'r Ymwahanwyr ymfudo. Aeth yr *Hopewell* a'r *Chancewell* â nifer mawr o Gynnulleidfaolwyr i Canada; ond gwrthodwyd cenad iddynt lanio. Wrth ddychwelyd yn brudd a llesg eu bron, ymwasgarasant. Aeth rhai o honynt i Newfoundland; eraill a ddychwelasant i Ewrop, ac a wladychasant yn Holland. Gwnaethant Amsterdam yn gartref. Yno y sefydlwyd eglwys, ar yr hon yr etholwyd Francis Johnson (cyn-weinidog eglwys yn Llundain) yn weinidog, a Henry Ainsworth yn athraw. Yr Ainsworth hwnw oedd yr ysgolor Hebraeg adnabyddus, ac awdwr yr *Annotations* ar y Beibl. Cyhoeddodd yr eglwys yn Amsterdam ei *Chyffes Ffydd* yn y fl. 1596. Bellach, aeth Holland yn gartref yr erlidiedig. Wedi goddef hyd yr eithaf, gwelwn eglwysi Gainsborough a Scrooby, a'u gweinidog, John Robinson, yn diangc yno am ymwared, yn y fl. 1608. Arweiniwyd cynnulleidfa Robinson i ymgartrefu yn Leyden; a buont yno yn fawr eu parch a'u defnyddioldeb, nes yr ymfudodd corph mawr yr eglwys yn y *Mayflower*, yn 1620, i'r America. O hyny allan, adwaenir ymfudwyr gwrol y *Mayflower* mewn hanes wrth yr enw 'Y Tadau Pererinol' (*The Pilgrim Fathers*). Ymsefydlasant yn nhalaeth Massachusetts. Ffurfiasant drefedigaeth 'Plymouth.' Dylid bob amser gadw mewn côf y gwahaniaeth sydd rhwng Puritaniaid a Thadau Pererinol Lloegr Newydd. Bu tri chyfnod o ymfudo i'r America y pryd hwnw. Sefydlwyd trefedigaeth Saesnig yn Virginia yn 1607; sefydlwyd trefedigaeth y Pererinion yn Plymouth yn 1620; a sefydlwyd trefedigaeth o Buritaniaid yn Boston yn 1630. Esgobaethwyr selog oedd Puritaniaid Boston; er wedi gorfod diangc eu hunain o Loegr, o blegid fod llaw Laud yn drwm arnynt am na fynent gydymffurfio: etto, nid oedd yn eu natur, y pryd hwnw, i oddef rhyddid crefyddol i eraill; a buont yn euog o greulonderau dybryd at y Crynwyr, ac eraill. Annibynwyr Cynnulleidfaol oedd y Tadau Pererinol; a thadau y ffurf bresennol ar Gynnulleidfaoliaeth y Taleithau.

6. Ond i ddychwelyd. Gwnaeth y carcharau, y dirwyon, a'r ymfudo, eu gwaith yn Lloegr. Yn y fl. 1616, ar ddychweliad Henry Jacob o Holland, a phan yr ymsefydlodd ar yr eglwys a gasglodd efe yn Southwark, yn Llundain, nid oedd un eglwys Annibynol arall ar gael drwy holl Brydain. Wedi esgyniad Laud i awdurdod fel archesgob, adferwyd yr erlidiau, â'u holl osgordd poenus. Da oedd cael ffoi i'r Cyfandir a Lloegr Newydd unwaith etto. Dwyseiddiodd yr ymrafael rhwng Uchel-esgobyddiaeth a phob credo a phlaid drwy y tir. Yn y cyfamser, daeth nifer fawr o'r dosbarth canol ac uchaf o'r Puritaniaid Saesnig i gydymdeimlad agosach â'r Cynnulleidfaolwyr. Wedi cwymp Laud, dychwelodd llu o arweinwyr yr enwad o Holland. Safai rhai o'r gweinidogion erlidiedig eilwaith ger bron eu cynnulleidfaoedd—ond heb eu clustiau! Gyda dyfodiad y Werin-lywodraeth, adfywiodd ysbryd crefydd drwy'r holl deyrnas. Esgynodd Annibyniaeth i gryn awdurdod yn mherson Cromwell. Cafodd arweinwyr yr enwad gyfle godidog i wasanaethu rhyddid a chydoddefiad crefyddol; a chydnebydd Gardiner a Green ddarfod iddynt gyflawni eu rhan yn odidog. Yn Nghymmanfa Westminster, yr hon a bennodwyd gan y Werin-lywodraeth i drafod materion Ffydd ac Addoliad Cyhoeddus y genedl, gwnaeth y pum cynnrychiolydd Cynnulleidfaol eu dyledswydd gyda'r fath allu, dysg, a boneddigeiddrwydd, fel yr ennillasant edmygedd eu gwrthwynebwyr Presbyteraidd. Safasant o blaid hawl pob cynnulleidfa grefyddol i reoli ei hamgylchiadau ei hun. Ynglŷn â'r ddadl ynghylch sefydlu Presbyteriaeth yn grefydd genedlaethol, ar sail hawl ddwyfol, dadleuasant fod gan Annibyniaeth Gynnulleidfaol, ar dir y Beibl, gyfartal awdurdod i'r anrhydedd hwnw; eithr ni ddymunent hwy namyn 'goddefiad.' Wrth barhau i ddadleu yn dŷn dros oddefiad, rhoddodd y Presbyteriaid lyseuw

arno, gan ei alw yn 'Diana fawr yr Annibynwyr.' Fel hyn yr ymresymai rhai o weinidogion blaenaf y Presbyteriaid yn y Gymmanfa:—

7. 'Gwna goddefiad ddifwyno unrhyw eglwys a llywodraeth...Cynllun godidog y diafol, ei brif waith, peiriant penaf ei gynllwynion er cynnal i fyny ei deyrnas grynedig, yw cydoddefiad...Mae holl ellyllon uffern, a'u hofferynau, ar waith er hyrwyddo cydoddefiad.' Ac ebe un arall o aelodau y gymmanfa:—'Nid yw goddef i ddynion wasanaethu Duw yn ol eu cydwybod ond cynllun i fwrw allan un diafol, fel y gallo saith o rai gwaeth nag ef fyned i mewn.' Amlygodd Cromwell, tra yn Arglwydd Amddiffynydd, ryddfrydigrwydd prydferth tuag at yr holl enwadau Protestanaidd. Yn anffodus, ni chafodd y Pabyddion ran yn y rhyddid a'r goddefiad hwnw; ond nid ar gyfrif rhagfarn enwad yn gymmaint, eithr am nad allasai cenedl c Brotestaniaid, ar y fath amser, ymddiried yn nidwylledd y Pabyddion. Cyflwynodd Cromwell Westminster Abbey i ofal y Parch. William Strong, M.A.; a bu yno eglwys Annibynol tra y parhaodd y Weriniaeth. Trefnodd y llywodraeth i ranu y nawddogaeth a'r swyddau crefyddol rhwng yr Esgobaethwyr, y Presbyteriaid, y Bedyddwyr, a'r Annibynwyr. Gwnaeth y ddau olaf wrthdystiad cryf, drwy amryw o'u prif weinidogion, yn erbyn pob cyssylltiad â'r wladwriaeth mewn pethau crefyddol. Yr oeddynt yn Ddadgyssylltwyr! Cefnogwyd hwynt yn dra grymus gan John Milton, ysgrifenydd Cromwell. Nid ydym am awgrymu fod holl weinidogion yr enwad o'r farn hono. Yr oedd adran Radicalaidd gref yn perthyn iddynt y pryd hwnw, megys bob amser. Gwahoddwyd yr holl eglwysi Cynnulleidfaol i anfon cynnrychiolwyr i Gynghorfa Savoy — cymmanfa wirfoddol, wedi ei bwriadu i dynu allan fynegiad o ffydd yr enwad. Agorwyd y gynnadledd Medi 29ain, 1658; a chymmerodd uwch law cant o gynnrychiolwyr ran ynddi. Lluniwyd y *Gyffes* gan John Owen, Thomas Goodwin, Philip Ney, a thri eraill, a chyhoeddwyd hi. Erbyn hyn, yr oedd Cromwell yn ei fedd.

IV. Y DILUW, A'R TRAI.

8. Offrymwyd y Werin-lywodraeth ar allor anymddiried yn y bobl, casineb at gydoddefiad crefyddol, a thrachwant yr uchelwyr am awdurdod. Ymunodd y Presbyteriaid a'r Esgobaethwyr Brenhinol i alw ar hil y Stuardiaid i wisgo coron Prydain. Annibynwr gwantan, hollol amddifad o egwyddor, o'r enw Monk—Cadfridog Monk—oedd offeryn y trawsnewidiad. Ar esgyniad Siarl II. i'r orsedd, adferwyd awenau llywodraeth crefydd i ddwylaw ysbryd dïal a chosp. Cronicl cyfnod yr Adferiad yw y duaf, yr hacraf, yr iselaf ei foes, a'r creulonaf ei waith, o holl gyfnodau bywyd y genedl Saesnig. Llanwyd y carcharau eilwaith â dynion crefyddol; a bu farw 8,000 o honynt yn ystafelloedd tywyll, aflan, eu caethiwed. Ar ddydd du Bartholomeus (sef, Awst 24ain, 1662,) trwy gyfrwng Deddf Unffurfiaeth, bwriwyd 2,000 o glerigwyr a gweinidogion Puritanaidd allan o'u bywiolaethau; ac o'r dydd hwnw allan, ni alwyd hwynt mwyach yn Buritaniaid—ond yn Anghydffurfwyr.

Cangen o'r un boncyff a Siarl oedd Iago II. Ni bu cyfnod prysurach ar yr erlidwyr nag yn ei ddyddiau ef. Drylliwyd 70,000 o gartrefi goreugwyr, &c.—dinystriwyd eu masnach hefyd, a thaflwyd eu mamau a'u gwragedd i'r daeardai ffieiddiaf eu harogl, i gyd-fyw, os byw hefyd, â gwehilion iselaf cymdeithas! Eu hunig drosedd oedd gwrthod addoli yn y llanau plwyfol—mewn geiriau eraill, bod yn Ymneillduwyr! Yr oedd y Chwyldroad ger llaw. Dygwyd yr Esgobaethwyr a'r Ymneillduwyr wyneb yn wyneb â gelyn cyffredin, yn ffurf y Babaeth. Peidiodd yr erlid yn y fan; adferwyd hen dermau y Werin-lywodraeth—'Cydoddefiad,' a 'Rhyddid cydwybod mewn pethau crefyddol'—i fri drachefn. Er fod dioddefiadau cyfnod y Stuardiaid yn arswydlawn, etto, dysgyblaeth Deddf Unffurfiaeth oedd yr unig athraw cyfaddas er cadw yr Annibynwyr, a'u brodyr Anghydffurfiol, mewn cyssylltiad bywiol â ffurflywodraeth eglwysig syml y Testament Newydd.

9. Gydag esgyniad William a Mari i'r orsedd, ysgafnhaodd yr awyrgylch gymdeithasol a chrefyddol. Peth newydd iawn i'r deyrnas oedd gweled dyn didwyll, o fywyd peraidd a ffydd bersonol yn y Beibl, ar orsedd y wladwriaeth! Yr oedd William yn garwr rhyddid, ac yn gasäwr pob ffurf ar drais. Yn ei ddyddiau ymunionodd yr Ymneillduwyr yn fuan. Cawsant Deddf Cyd-oddefiad yn achles; cofrestrwyd eu haddoldai; daeth yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid i agosach cyssylltiad â'u gilydd, drwy i'r olaf ymlarieiddio yn eu hysbryd, a phrifio llawer mewn rhyddfrydedd. Nid oedd y clerigwyr Esgobawl yn hoffi hyn. Dywed yr Esgob Burnet, yn ei *History*:—'Dechreuodd y clerigwyr ddangos câs anghymmodadwy etto at yr Anghydffurfwyr; ac ymddangosent fel pe yn deisyf achlysur i adfywio yr hen greulonderau.' Yn wir, bu gradd o adweithiad yn nheyrnasiad Anne. Yr oedd hi o âch y Stuardiaid; ac fel yr oll o honynt, yr oedd hithau yn credu yn ei chalon fod hawl ddwyfol brenhinoedd yn ei gorseddu uwch law deddf. Llwyddodd y Toriaid a'r Uchel-Eglwyswyr i wneyd defnydd o'r frenhines i'w pwrpas. Lluniwyd y cri 'fod yr Eglwys mewn perygl;' dinystriwyd capelau, a dirmygwyd Ymneillduwyr; ond cyn hir, daeth y ddau Sior i'r orsedd, a buont yn Amddiffynwyr goleuedig i'r Anghydffurfwyr. Bu y Diwygiad Efengylaidd yn y ddeunawfed ganrif yn adfywiad i'r holl enwad. Ni fyn efe anghofio ei ddyled i Wesley a Whitfield. Gwnaeth Watts a Doddrige fesur helaeth o ymdrech i ddyfnhau yr argraphiadau bendithiol a dderbyniodd y genedl trwy y deffroad hwnw. Bu gan yr Annibynwyr ran yn ffurfiad y Feibl Gymdeithas, a Chymdeithas y Traethodau Crefyddol. Ni buont yn ail i neb er dwyn oddi amgylch ddilëad yr hen gyfreithiau gorthrymus ac anghyfiawn a wnaethant gynnifer o fathau o ddifrod ac ysbeiliad ar hawliau cyffredin cydwybod grefyddol y deyrnas. Yn mherson John Howard, y dyngarwr, llafuriasant o blaid dynoli cyfreithiau cospawl, a throi carcharau y byd yn ysgolion dysgyblaeth, yn hytrach nag yn nghelloedd dïalgarwch anifeilaidd.

10. Ffurfiwyd Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru yn 1831. Nid oedd un ddolen gyssylltiol rhwng yr eglwysi o'r blaen; etto, nid oeddynt yn hollol farw a di-lafur. Cyfarfyddai yr eglwysi yn ddirgel mewn tai annedd tra y bu Deddf Unffurfiaeth yn ei grym. Nid oedd capeli gan yr enwad. Erbyn y fl. 1700, cyfrifir fod o ddeutu 1,000 o addoldai Cynnulleidfaol yn y wlad. Wedi ffurfiad yr Undeb, daeth yn gyfrwng cydweithrediad cyffredinol mewn pethau gwladol a chrefyddol. Nid yw *Cyffes Ffydd* yr

Digitized by Google

Undeb yn dal un berthynas â'r eglwysi. Yn unig, proffesa fod yn fynegiad o fannau ffydd gyffredin corph yr enwad. Wedi bod yn Ddadgyssylltwyr er dyddiau y Werin-lywodraeth, a chyn hyny, naturiol oedd i Gymdeithas Rhyddhâd Crefydd dderbyn cefnogaeth yr Annibynwyr.

Yn mysg gwaith arbenig y blynyddoedd dyfodol, ymddengys fod yr enwad â'i fryd ar ddiwygio a dyrchafu yr adranau canlynol:—1af, Adfywiad y Genhadaeth Dramor. [Gwel yr erthygl ar 'Gymdeithas Genhadol Llundain.'] 2il, Ad-drefniad y Genhadaeth Gartrefol. Y mae yr adran hon yn cynnwys amrywiaeth; megys, planu gorsafoedd pregethu, codi neuaddau at wasanaeth cymdeithasol, a sefydlu eglwysi, cynnal gweinidogaeth mewn eglwysi gweiniaid, a chael cronfa er talu i weinidogion ar raddfa uwch a theilyngach. 3ydd, Dygiad ieuengctyd yr eglwysi i gyssylltiad agosach â'u gilydd, ac â bywyd eglwysig, trwy gyfrwng *Guilds*, Cymdeithasau yr Ymegnïad Cristionogol, &c. 4ydd, Y ffurf gymdeithasol a elwir yn Breswylfodau *(Settlements)* yn y dinasoedd poblog. 5ed, Ad-drefniad ar yr athrofeydd. Y mae camrau addysg fydol wedi bod mor fràs er sefydliad cyfundrefn y byrddau ysgol, ac agoriad y prifysgolion cenedlaethol, fel y daeth ad-drefnu colegau yr enwad yn fater o raid. Erbyn hyn, y mae gan yr Annibynwyr goleg yn Rhydychain:—Coleg Mansfield, ar yr hwn y mae y Parch. A. M. Fairbairn, D.D.—un o dduwinyddion penaf yr oes hon—yn brifathraw.

11. Ar hyn o bryd, y mae y Cynnulleidfaolwyr Saesnig yn amddifad o gylchgronau chwarterol a misol. Nid oes ganddynt ond dau neu dri o fisolion ceiniog, ac un newyddiadur—yr *Independent.* Ar yr un pryd, y mae yn perthyn iddynt wŷr tra adnabyddus fel duwinyddion, haneswyr, a llenorion. Yn mysg eraill, gellir nodi Fairbairn, Dale, Horton, Simon, Stoughton, Massie, Forsyth, Cave, Parker, Rogers, ac eraill. Nid yw yn ormod dyweyd fod Coleg Mansfield eisoes wedi dechreu magu ysgol newydd o dduwinyddion—ysgol o *specialists.* Yn ngwyneb hyn yna y sylwodd y Dr. Thomas Charles Edwards, dro yn ol, mewn cynnadledd Bresbyteraidd, fod dyfodol duwinyddiaeth Saesnig yn llaw yr Annibynwyr. Hyd yma, y mae yr enwad yn rhyddfrydig; yn iach ei ffydd; a'i bulpudau yn rymusach o feddwl, ac yn loewach eu haddysg nag y buont erioed o'r blaen. Ac y mae tuedd gref yn yr eglwysi Saesnig i chwennych y 'ddawn Gymreig.'

v. CYMRU:—1633.

12. Uchel-eglwysyddiaeth Laud a achlysurodd Anghydffurfiaeth Cymru. Yr oedd Puritaniaeth eisoes wedi ennill cydymdeimlad a chred nifer dda o glerigwyr goreu y genedl. Pan ddaeth gorchymyn Siarl II. i ddarllen *Llyfr y Chwareuon* ar y Sabbath, fel rhan o'r gwasanaeth crefyddol, gwrthododd 106 o weinidogion plwyfol ufuddhau iddo. Wedi hyny, cymmerwyd eu bywoliaethau oddi arnynt. Y gwŷr anhyblyg hyn yw haen isaf—cnewyllyn—hadyd iach, byw, ein Hymneillduaeth. Un o'r dyniog hyn oedd y Parch. William Wroth, ebrwyad Llanfaches, yn Mynwy. Yn Nhachwedd, 1639, corpholodd Mr. Wroth eglwys Annibynol yn ei hen blwyf. Aeth yr eglwys yn fam ac yn gartref ysbrydol i holl Buritaniaid lleyg a llen y Deheubarth. Ymaelododd Ambrose Mostyn, Walter Caradoc, William Erbury, a chlerigwyr eraill, yn mysg ei haelodau. Er yn hynafgwr, etto, yr oedd Mr. Wroth yn bregethwr tanllyd a thra phoblogaidd. Aeth ei eglwys yn ail i Langeitho yn amser Rowlands. Dywedodd Walter Caradoc, mewn pregeth ger bron Tŷ y Cyffredin, fod gan Mr. Wroth 'yn yr eglwys dan ei ofal yn Llanfaches uwch law 800 o bobl bryderus am eu cyflwr.' Wrth reswm, nid pobl yr ardal hono oedd yr oll o'r gwŷr hyn. Ni feddent chwaith namyn tai annedd i ymgynnull i addoli ynddynt. Trefnwyd i'r aelodau clerigol perthynol i eglwys Annibynol Llanfaches fyned allan i'r cyffiniau oddi amgylch i bregethu teyrnas Dduw. Gwnaethant felly. Aeth Caradoc i'r Gogledd, a llafuriodd yn Ngwrecsam, a'r amgylchoedd. Ei bregethau ef a fuont yn foddion i droi Morgan Llwyd o Wynedd. Casglodd Erbury gynnulleidfa yn Nghaerdydd. Henry Walter a gorpholodd eglwys yn Mynyddislwyn. Bu llwyddiant cyffelyb ar lafur Ambrose Mostyn yn Mynydd-bach a Chastellnedd.

Gwasanaetha y rhestr a ganlyn er dangos llafur a llwyddiant yr Annibynwyr cyntaf:— Llanfaches, 1639; Penmain, 1640; Caerdydd, 1640; Merthyr Tydfil, 1642; Gwrecsam, 1646; 'Eglwys sir Drefaldwyn,' 1646; 'Eglwys sir Aberteifi,' 1646; 'Eglwys sir Frycheiniog,' 1646; 'Eglwys Abertawe,' 1646; Llanedi, 1650; Capel Isaac, 1650; Pencader, 1650; Henllan, 1650. Dywed Henry Maurice fod y Cynnulleidfaolwyr, yn 1672, wedi trwyddedu 65 o dai annedd at wasanaeth pregethu. Ymgymmerodd gwŷr fel Samuel Jones, Brynllywarch, a Stephen Hughes, â lenyddiaeth ac addysg.

13. Bellach, yr ydym yn ngolwg Cyfnod yr Ad-weithiad. Dechreuodd dan achles Deddf y Goddefiad, yn 1688; a pharhaodd, i fesur mwy neu lai, hyd ddechreuad y Diwygiad Methodistaidd, yn 1735. Pa mor lwyr y bu yr Ad-weithiad, yw y pwngc sydd hyd yma yn aros i'w benderfynu. Yr oedd y Diwygwyr yn edrych ar gyflwr moesol y wlad mewn goleu neillduol o anffafriol i'r hen Ymneillduwyr; felly hefyd y gwna amddiffynwyr enwadol y Diwygwyr. Y mae Johns, ac eraill o'r haneswyr Esgobaethol, yn cyfranogi o'r un farn. O'r tu arall, dylid cofio fod Edmund Jones, a'i gyfeillion, yn gwrthdystio yn bendant ar y pryd yn erbyn camddarluniadau Pant-y-celyn, a Harris, o ansawdd foesol y Deheubarth. Nid oes un ddadl nad oedd y Diwygwyr yn edrych ar gyflwr y bobl â llygaid diwygwyr. Gwnaeth Pant-y-celyn ei waith fel bardd. Ofnwn fod ei amddiffynwyr ef yn anghofio nad allasai ei awen ef lai na lliwio yn gryf. Ni ddylid anghofio chwaith eu bod yn rhwym o edrych ar lafur crefyddol yr Ymneillduwyr o safle Eglwysig, a chyda llygaid clerigwyr. Yr oedd y ffaith eu bod yn feibion i Anghydffurfwyr yn anfantais, yn hytrach na mantais, iddynt i weled sefyllfa pethau yn hollol fel yr oeddynt. Ai nid felly y gweithreda clerigwyr ein hamserau ni? Ai nid yn y cyfryw fodd y cyflawnodd clerigwyr 'y Llyfrau Gleision' eu gwaith? Nid ammharch ar y Tadau, er eu bod yn ddiwygwyr arddeledig Duw, yw tybied mai dynion oeddynt; a'u bod yn agored i edrych ar y gwaith a wnaethant fel y gwna dynion mewn urddau sanctaidd bob amser. Ar yr un pryd, y mae yn amlwg fod ysbryd cenhadol y gweinidogion Cynnulleidfaol wedi marweiddio, a bod gan y dadleuon duwinyddol a lusgwyd i'r eglwysi ran sicr yn y dirywiad a ddilynodd. Aeth goresgyn pechod

Digitized by Google

ac ymgeleddu pechaduriaid yn orchwyl lled anghyffredin ar yr adeg yma. Mae'n wir fod Philip Pugh wedi derbyn 131 mewn pum mlynedd o amser i eglwys y Cilgwyn; fod Griffith Jones yn dyrchafu ei lef fel udgorn yn erbyn pechod er's blynyddau; a bod dynion fel Lewis Rees yn trydar am y wawr. Bu y Diwygiad yn hir, ond odid, yn yr esgoreddfa; ond tra yr oedd y Cynnulleidfaolwyr a'r Presbyteriaid yn ymgynhenu ynghylch cwestiynau anorphen a di-fudd, gan fwrw dros gôf anghenion ysbrydol eu cydwladwyr di-Dduw, diangodd eu cyfle o'u dwylaw. Galwodd Rhagluniaeth wŷr o gorlanau eraill at y gorchwyl o ddychrynu pechaduriaid o'u llochesau, a'u harwain i gredu yn yr efengyl—gwŷr llawer cymmhwysach at y gwaith, yn gymmaint a'u bod yn meddu llygaid i'w weled, a chalon wedi ei gwisgo âg eofndra dwyfol i'w gyflawni.

### VI. YR ADFYWIADAU.

14. Ond pa fudd uniongyrchol, attolwg, a dderbyniodd yr enwad Cynnulleidfaol drwy y Diwygiad Methodistaidd? Ar ei ddechreu, yr oedd rhif yr eglwysi Annibynol yn 73; ac yn mhen hanner canrif ar ol iddo fyned heibio, nid oeddynt ond 119. Aeth y corwynt mawr ysbrydol heibio gan adael ar ei ol enwad newydd, gyda 150 o eglwysi yn y Dywysogaeth; ond prin y gellir dyweyd iddo effeithio er dychwelyd neb at eglwysi yr hen Ymneillduwyr! Pa fodd bynag, yn niwedd y ganrif o'r blaen, a dechreu yr un bresennol, derbyniodd yr Annibynwyr fesur o adfywiad drwy chwanegiadau gwerthfawr at eu pregethwyr. Hyd yn hyn, llysenwid eu gweinidogion yn 'Sentars sychion.' Wedi cyfodiad David Davies, o Langeler; Griffith Hughes, o'r Groeswen; Morgan Jones, o Drelech; Thomas Phillips, o Neuaddlwyd; a David Davies, o Sardis, peidiodd y sèn. David Davies a newidiodd arddull yr areithfa Annibynol. Cyn hyny, yr oedd y pregethwyr yn undonog, oer, sych, a difywyd. Yr oedd efe yn oludog mewn adnoddau newyddion—llais clir, peraidd, dawn lifeiriol, ac ysbryd o naws tra angerddol. Aeth yn eilun y lliaws. Ni bu gan yr enwad yn y De ei gyffelyb cyn hyny; nac ail iddo chwaith, nes i Mr. Williams, o'r Wern, gymmeryd safle gyffelyb yn y Gogledd.

15. Gyda dyfodiad y ganrif hon i mewn, dilynwyd hi gan gyfres o ddiwygiadau crefyddol maethol iawn. Dilynasant eu gilydd yn y bl. 1807-8-9, yn y De; a chafodd eglwysi y Gogledd brofi eu cyffelyb o 1815 i fyny hyd 1820. Chwanegwyd o ddeutu 20,000 at rif aelodau yr enwad drwy y cawodydd ysbrydol hyny. Yn 1839, cafodd eglwysi y Gogledd adfywiad grymus drachefn. Gwnaeth haint y *cholera*, yn 1848, waith cyffelyb i ddiwygiad ar drigolion y De. Ymunodd ar fin 10,000 mewn pedwar mis o amser â'r eglwysi. Nid ä nerthoedd anghymmharol diwygiad 1859-60 byth o gôf y rhai a'i profasant. Derbyniodd yr enwad y pryd hwnw uwch law 30,000 o chwanegiadau. Gyda'r bendithion hyn, daeth adfywiadau eraill—llenyddol, addysgol, ac eglwysig. Yn 1834-5, gwnaed ymegnïad trefnus ac unol i gasglu 20,000*p.*, er talu ymaith ddyledion beichus eglwysi oedd yn methu ymuniawni dan eu baich. Hwn oedd yr ymegnïad enwadol cyntaf; a phan y dywedwn i 24,000*p.* gael eu casglu, gwelir fod yr ymdrech wedi ei goroni â llwyddiant godidog. Ynglŷn â dathliad y Ddwy Fil—Tadau Anghydffurfiaeth —yn 1862, arfaethwyd cydymegnïad cyffelyb o ran ei natur. Ar y cyntaf, cael colegdy newydd i Aberhonddu, gwerth 10,000*p.*, oedd yr oll yr amcenid ato. Mewn cynnadledd yn Ninbych, Ebrill 12fed, 1862, croesawyd y syniad o ëangu y mudiad drwy greu cronfa o 20,000*p.*—hanner yr hon oedd i'w defnyddio at y colegdy, a'r hanner arall at godi capelau coffadwriaethol, a diddyledu addoldai. Derbyniwyd y syniad gyda brwdfrydedd cyffredinol. Cafwyd addewidion am 17,000*p.* yn ddïymaros, er fod un ran o dair o'r eglwysi heb gael cyfle i addaw dim. Yn anffodus, yr oedd y mudiad yn ei ffurf ëangaf wedi ei dynghedu i fethiant. Rhagwelai rhywrai y buasai un coleg grymus, aml-ganghenog ei gyfleusderau addysgol, yn fwy bendithiol yn y pen draw na thair ysgol gyffredin, er eu bod yn gwisgo enwau uchelradd. Deffrôdd eiddigedd lleol a phersonol yn sŵn y breuddwyd gwyn. Onid oedd yn rhwym o ganoli nerth a dylanwad: onid gelyn yn ffurf cyfaill ydyw? ebe y rhai oedd yn proffesu gweled yn mhell. Aeth cyfeillion Aberhonddu rhagddynt, a chasglasant 11,650*p.* 19*s.* 1½*c.* at eu colegdy.

16. Y mae hyn yn ein harwain at goleg arall —Coleg y Gogledd. Nid oes dim arbenig yn hanes Athrofa y Bala hyd gyfnod drychinog 'Dadl y Cyfansoddiadau.' Nis gellir myned at wreiddyn yr ymrafael hwnw heb chwilio am yr achos o hono y tu allan i'r damweiniau lleol a phersonol a'i hachlysurodd. Sylfaenwyd yr enwad ar ddwy egwyddor; sef, Annibyniaeth a Chynnulleidfaoliaeth—y naill fel y llall yn gyfartal bwysig a hanfodol i'w lwyddiant. Ar y dechreu, yr oedd rhwyfo yn mlaen gyda'r ddwy yn ammhossibl. Annibyniaeth yr eglwysi oedd yr egwyddor gyntaf, a hynaf; ac yn Mhrydain, am ragor na chant a hanner o flynyddoedd, y gyntafanedig a gafodd yr holl feithriniad. Pan y dechreuodd yr ail egwyddor ymadfywio, yn nechreu y ganrif bresennol, gan hawlio perthynas â'r enwad, prin yr oedd neb yn ei hadnabod. Gwaeddai rhyw ddeillion ar fin y ffordd, 'Presbyteriaeth,' ar ei hol. Nid oedd un Samuel Johnson ar gael yn unman i anerch y bloeddwyr, gan ddywedyd, 'Foneddigion, darnodwch eich termau!' Yn America, o dan amgylchiadau gwahanol, cyd-dyfodd y ddwy egwyddor; a bu y naill o fantais a bendith i'r llall. Fel y gallesid disgwyl, prifiodd yr egwyddor Annibynol yn yr eglwysi Cymreig a Saesnig nes bod yn allu gorthrechol. A defnyddio iaith ffugurol, aeth pob eglwys yn 'gastell,' a phob gweinidog yn 'dywysog.' O ddilyn, gyda mesur o ddyfalwch, dreigl y Cynnulleidfaolwyr o'r dechreu, nid ychydig yw yr enghreifftiau sydd ar gael o wrthdarawiad y ddau ysbryd eglwysig sydd, ar amserau, wedi rhanu a rhwygo pob adran o'r Eglwys Gatholig — yr ysbryd cul, anghymdeithasgar, a gynnrychiolir gan Annibyniaeth; a'r ysbryd ëang, hunan-ymwadol, a chymdeithasgar, a gynnrychiolir gan Gynnulleidfaoliaeth. Gornest y ddau ysbryd a fu yn y Bala. Nid oes eisieu gofyn pwy a orchfygodd. Rhaid i'r ysbryd Cynnulleidfaol orchfygu, gan nad pwy fydd yn ymladd dan ei faner. Y mae llwyddiant 'Undeb yr Annibynwyr,' dadblygiad yr undebau sirol, ffurfiad undebau cantu lleol a sirol, ac undebau gweinidogion, ar ol yr ad-uniad, yn attebiad pendant a therfynol i ymholiad felly. Ar bob cyfrif, gwarchoder 'annibyniaeth yr eglwysi' pan y byddo mewn gwir berygl. Y mae yn dreftadaeth rhy werthfawr i'w ddibrisio. Ond hygoeledd colledus i'r

Digitized by Google

eithaf fyddai i un eglwys Annibynol dybied ei bod yn bod er ei mwyn ei hun. Pe felly, peidiai mwyach a bod yn eglwys i Grist. Dyma berygl sefydlog cyfran o Annibynwyr Cymru.

17. Yn 1886, torodd y wawr gyntaf ar achos y Coleg. Cyfranodd y diweddar Mr. Samuel Morley 1,500*p.* at yr ysgol oedd o dan aden y 'Cyfansoddiad Newydd.' Symmudwyd y sefydliad i Fangor, er cael cyfran o fanteision Coleg y Brifysgol. Yn 1889, gwenodd Rhagluniaeth eilwaith. Yn ei ewyllys, gadawodd Mr. John Rylands, Manchester, 5,000*p.* at 'Athrofa'r Bala.' Er nad oedd nemawr o ammheuaeth ynghylch ystyr meddwl Mr. Rylands, canys yr oedd ei gydymdeimlad arianol wedi arfer rhedeg i gynnorthwyo y sefydliad oedd yn Mangor, a chyn hyny yn y Bala, ar yr hwn yr oedd y Parch. Thomas Lewis yn brifathraw; etto, hawliai y naill blaid fel y llall gyfran o'r arian. Wedi cael digon ar ymrysonau, a rhag rhanu eiddo yr ewyllysydd rhwng y cŵn a'r brain, wedi cydymgynghoriad doeth, cyfanwyd y rhwyg. Erbyn hyn, y mae yn perthyn i'r Athrofa, yn Mangor, eiddo gwerth 10,000*p.* Rheolir y sefydliad gan un pwyllgor; ymddeolodd y Parch. M. D. Jones, a chafodd y Parch. Ddr. E. Herber Evans ei ddewis yn benaeth y coleg yn ei le ef.

18. Ni bu y Cynnulleidfaolwyr yn ol i neb mewn darparu a lledaenu llenyddiaeth Feiblaidd, ddefosiynol, farddonol, a bydol, yn Nghymru. Dechreuodd Walter Caradoc gyhoeddi llyfrau — pregethau a dehongliadaeth ysgrythyrol. Caed *Canwyll y Cymry*, *Taith y Pererin*, a'r *Beibl Bach*, drwy egnïon Stephen Hughes; *Llyfr y Tri Aderyn*, gan Morgan Llwyd; llawer o fân lyfrau tra gwerthfawr yn eu dydd gan Iago ab Dewi; emynau melus gan Thomas William, Bethesda-y-fro, a Dafydd Jones, o Gaio; *Cyfundrefn Dduwinyddol* (yn Saesneg), gan Dr. Edward Williams; *Englishman's Greek Concordance*, gan Dr. John Williams; *Corph o Dduwinyddiaeth*, a saith cyfrol o *Esboniad ar y Testament Newydd*, gan George Lewis; *Hanes Crefydd yn Nghymru*, gan David Peter; *Y Llyfr Glâs*, a *Duwinyddiaeth Ryddfrytach*, gan John Roberts, Llanbrynmair; *Geiriadur Duwinyddol* trwchus, gan William Jones, Rhyd-y-bont; *Geiriadur Ysgrythyrol*, yn ddwy gyfrol, gan David Hughes, Tredegar; *Geiriadur Bywgraphiadol o Enwogion Cymru*, yn ddwy gyfrol, gan Josiah Thomas Jones; *Emmanuel*, gan Hiraethog; *Hanes y Nef a'r Ddaear*, a *Chrefyddau y Byd*, gan R. E. Williams; *Enwogion y Ffydd*, a'r *Brytaniaid a'r Cymry*, gan Ioan Pedr a Gweirydd ab Rhys; *History of Nonconformity in Wales*, *Esboniad Barnes*, a'r *Beibl Teuluaidd*, gan Thomas Rees; *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, yn bum cyfrol, gan Rees a Thomas; *Esboniad ar y Rhufeiniaid*, gan Lewis Probert, &c. Gwnaeth yr *Adolygydd* a'r *Beirniad* — dau gyhoeddiad chwarterol—wasanaeth rhagorol i lenyddiaeth yn eu dydd. Nis gellir ysgrifenu hanes Cymru yn y ganrif hon heb roddi lle amlwg yn y cyfryw i ymdrechion gwladgar y *Cronicl*—misolyn S. R. a J. R. Cyflawnodd y *Dysgedydd* a'r *Diwygiwr* waith rhagorol am dymmor maith; a pharhânt i weithio allan eu cenhadaeth yn egnïol hyd y dydd heddyw.

19. Crybwyllwyd eisoes am 'Undeb yr Annibynwyr Cymreig,' yr hwn a sefydlwyd yn 1872. Cynnaliwyd y cyfarfod blynyddol cyntaf yn Nghaerfyrddin, Medi 3ydd, 4ydd, a'r 5ed, y flwyddyn hono. Plentyn Cynnulleidfaoliaeth ydyw yntau. Yr oedd rhagfarnau lawer yn ei erbyn; ac â chasineb nid bychan y casheid ef gan yr ysbryd ceidwadol. Hyd yma, boddlonodd ar fod yn wrthdystiad blynyddol yn erbyn Annibyniaeth oerllyd ac anghymdeithasgar. Y mae argoelion yn lliosogi y gellir gwneyd peiriannwaith o fuddioldeb cyffredinol o hono ar fyrder.

20. Dechreuodd y ganrif bresennol gydag adnewyddiad yn y pulpud—yn cael ei ddilyn âg adnewyddiad yn rhif ac ysbryd yr eglwysi. O'r pryd hwnw hyd yn bresennol, ni phallodd y cyntaf. Cafodd yr enwad nifer anghyffredin o bregethwyr — gwir feistriaid y gynnulleidfa. David Peter, a J. Breece, Caerfyrddin; Griffithisiaid Glandwr, Horeb, Tŷ Ddewi, Castellnedd, Hawen, a Chaernarfon; Rowlands a Lewis, o Henllan; Williams, Llandeilo; Arthur Jones; Stephens, Glantaf; William Williams, o'r Wern; W. Williams *(Caledfryn)*; William Rees *(Hiraethog)*; David Williams, Llanwrtyd; D. Rees, Llanelli; Williams, Llandeilo; Thomas Rees, Abertawe; Thomas Jones, Treforis; Matthews, Castellnedd; S. R. a J. R.; Robert Thomas *(Ap Vychan)*; John Williams, Castellnewydd; John Davies, Cwmaman; John Davies, Caerdydd; Evan Jones *(Ieuan Gwynedd)*; John Thomas, Liverpool; E. Stephen *(Tan-y-marian)*; W. Ambrose *(Emrys)*; William Griffith, Caergybi; David Price, Dinbych; William Nicholson; a Hugh Jones, Birkenhead, &c.

VII. Y TALAETHAU A'R TREFEDIGAETHAU.

21. Fel y gwelsom eisoes, glaniodd y Tadau Pererinol ar graig Plymouth, Lloegr Newydd, yn 1620. Yr oeddynt wedi cefnu ar Brydain yn y cymmeriad o eglwys Annibynol. Gŵr doeth, llariaidd, a thra chymmedrol ei syniadau, oedd John Robinson, eu gweinidog; ac yr oedd ei ddelw ef, i fesur pell, ar ei ddysgyblion. Er fod amgylchiadau gwlad newydd yn ffafriol i ddadblygiadau pellach mewn duwinyddiaeth ac eglwyseg, etto, amlygodd y tadau bwyll neillduol ar eu hymsefydliad yn eu cartref newydd. Wedi ystyried yn dda y ddwy wedd ar eu ffurf-lywodraeth grefyddol—gweriniaeth syml Browne, a henaduriaeth Barrow—penderfynasant fabwysiadu llwybr canol rhwng y naill a'r llall; ac wrth yr enw arwyddocaol, y 'Ffordd Gynnulleidfaol,' yr adwaenid hi. Parhaodd eglwys Gynnulleidfaol Plymouth—nid eglwys 'Annibynol' mwy, canys nid oedd allu bydoleglwysig yn ymyryd â'u rhyddid; am hyny nid oedd angen hòni hawl i fod yn annibynol ar reolaeth esgobion ac ynadon:—do, parhaodd yr eglwys Gynnulleidfaol gyntaf yn ddigyfnewid am naw mlynedd; ond yr oedd yr enwad yn myned rhagddo yn brysur. Erbyn 1648, yr oedd 51 o eglwysi newyddion wedi eu sefydlu yn y dalaeth. Naturiol hefyd oedd i'r enwad ddechreu magu ffurf iddo ei hun. Yr oedd yn mhlith y gweinidogion amryw wŷr nerthol—meistriaid yn y gelfyddyd o gynllunio ac adeiladu cyfundrefnau. Dynion felly oedd Davenport a Norton, Cotton a Mathers; a hwynthwy, yn benaf, a fu yn ffurfio y *siarter* a elwir yn *Cambridge Platform.* Nid oeddynt yn llai Puritanaidd na chynt. Yr oedd eu syniadau ysgrythyrol am natur bur ac ysbrydol eglwys Crist yn aros fel o'r blaen. Yr oedd safon aelodaeth eglwysig yn uchel. Ar yr un pryd, yr oeddynt yn dra gochelgar yn eu arholiadau crefyddol

Digitized by Google

rhag gwneyd cam â ffydd wan yr ymgeiswyr. Ymddengys fod Talaethau New Haven, Massachusetts, a rhai eraill, wedi eu hudo i gyfyngu y bleidlais wladol i aelodau crefyddol yn unig.

22. Fel yr oedd ysbryd rhyddid yn prifio mewn nerth, cododd ei lef yn erbyn y trahâ mewn mantell wen. Er eu clod, y gweinidogion oedd y rhai blaenaf i ddadleu dros y blaid oedd yn hawlio ysgariad y rhagorfreintiau dinesig oddi wrth y broffes eglwysig. Gwelir fod y syniad ynghylch yr angenrheidrwydd am 'gymmeriad uniawn' wedi ymwthio drwy holl gyrion cymdeithas; yr oedd yn seiliedig ar yr egwyddor fod llywodraeth wladol gyfiawn yn annichonadwy heb ddinaswyr cyfiawn. Nid aeth ond ychydig amser heibio, pa fodd bynag, cyn i'r arweinwyr weled fod gostwng safon aelodaeth eglwysig wedi lledu yr argae, fel yr oedd y byd yn llifo at Fwrdd yr Arglwydd i raddau poenus. Rhoddwyd ystyr newydd i'r Cymmun Sanctaidd; dadleuai gwŷr fel Solomon Stoddard ei fod yn foddion adenedigaeth i'r rhai a gyfranogent o hono. Caniateid i bawb gyfranogi o'r Sacrament ar yr ammod eu bod yn cydymffurfio â'r hyn a elwid yn 'Gyfammod hanner y ffordd.' Pan y daeth cenllifoedd tanllyd y diwygiadau crefyddol a achlysurid gan Jonathan Edwards a George Whitfield i oddeithio'r wlad, llosgwyd 'Cyfammod hanner y ffordd,' ac ni chlybuwyd am dano mwyach. Chwanegwyd y dwthwn hwnw at yr eglwysi Cynnulleidfaol 30,000 o wŷr a gwragedd, ac yr oedd arswyd byd arall yn dygyfor yn eu heneidiau.

23. Megys yr ydym eisoes wedi awgrymu, cafodd Cynnulleidfaoliaeth ffordd ddirwystr i ymddadblygu yn y Talaethau. Y mae *Creeds and Platforms of Congregationalism*, gan Dr. Williston Walker, yn oludog o hanes tŵf eu ffydd. O'r braidd nad ellir haeru fod eu cyffesion a'u synodau yn aneirif; ond yn nghanol y cyfan, yr oedd rhyddid a hunan-lywodraeth yr eglwysi yn gwbl ddiogel. Yn y fl. 1801, lluniwyd yr offeryn a elwir yn 'Gynllun Undeb.' Amcan hwnw oedd ffurfio undeb rhwng Presbyteriaid a Chynnulleidfaolwyr yn y sefydliadau newyddion oedd yn ymagor drwy yr holl dalaethau. Yn hytrach na ffurfio dwy eglwys wan perthynol i ddau enwad, cyttunwyd i sefydlu un eglwys gref. Gweithiodd y cynllun hwnw am hanner canrif—pan y gwnaed pen arno yn 1850, gan Gymmanfa Albany. Ymddengys fod y cynllun wedi troi allan yn wahanol i ddisgwyliadau y blaid Gynnulleidfaol. Rywfodd, fel y sylwodd un o'r siaradwyr yn Albany, 'fe ddarfu iddynt odro ein gwartheg Cynnulleidfaol ni, eithr ni chafwyd ond caws ac ymenyn Presbyteraidd o'r llaeth.' Hyd y sylwasom, nid oes neb yn meddwl am wadu na bu yr undeb yn dra manteisiol i'r enwad Presbyteraidd. Pan wnaeth Mr. Crocker (*Catastrophe of the Presbyterian Church*, td. 44) amcangyfrif, yn 1828, o effeithiau traws-symmudol y cynllun, cafodd fod 600 o eglwysi wedi eu hennill at yr enwad Presbyteraidd yn Nhalaethau New York, Pennsylvania, a'r tiriogaethau gorllewinol iddynt. Yn 1889, gwnaeth Dr. Ross ymchwiliad manwl eilwaith i'r achos, yn ei lyfr ar *Union Efforts between Congregationalists and Presbyterians: Results and Lessons*—a dyma ei eiriau:—'Darfu i gynllun yr Undeb drawsffurfio uwch law 2,000 o eglwysi oeddynt ar y cyntaf, o ran eu ffurfiad a'u harferion, yn Gynnulleidfaol, gan eu gwneyd yn eglwysi Presbyteraidd.'



24. Anwybodaeth a ffolineb fyddai priodoli y digwyddiad i gynllwynion dirgel y naill enwad, a diniweidrwydd yr enwad arall. Tarddodd o ddiffyg yn yr enwad Cynnulleidfaol ei hun. Derbyniwyd yr athrawiaeth fod angen am lywodraeth gref, anhyblyg, yn eglwysi y sefydliadau newyddion. Cymmerid yn ganiataol nad oedd gan Gynnulleidfaoliaeth fraich nerthol, nac ysbryd gwrol, i wastrodi yr hyf a'r afreolus. Gan fod yr ymsefydlwyr yn erwin eu moes, ac yn dra annibynol eu hysbryd, gollyngwyd y llywodraeth, bob yn ychydig, i'r adran oedd wrth reddf ac addysgiaeth yn gyfarwydd â thrin ffrwyn a chwip. Ond y mae dau reswm arall sydd yn rhoddi eglurhâd effeithiol ar y traws-symmudiad. Yn gyntaf, nid oedd y cynllun yn darparu gollyngdod i'r eglwysi Cynnulleidfaol allan o'r Henadurfa (*Presbytery*). Gallai eglwys, drwy fwyafrif ei haelodau, gario ei hun a'i heiddo i Henadurfa ewyllysgar i'w derbyn; ond ni allai yr un eglwys dynu yn ol o Henadurfa anfoddlawn i hyny, drwy fwyafrif y bleidlais. Ond heb law hyn yna, syrthiodd llu mawr iawn o'r gweinidogion Cynnulleidfaol i serch dwfn â'r ffurf Bresbyteraidd; a chan fod credo dduwinyddol y naill enwad fel y llall, nis gallasai yr eglwysi Cynnulleidfaol gilio o'r gyfathrach heb osod eu hunain yn agored i gael eu cyfrif yn euog o ŵyro oddi wrth ffurf yr athrawiaeth iachus. Gwedi yr ymwahaniad oddi wrth y Presbyteriaid, llwyddodd yr enwad yn fawr y tu allan i Loegr Newydd—yn neillduol felly yn y gorllewin pell.

25. Cydnabyddir fod y Cynnulleidfaolwyr, er eu hymsefydliad yn America, ar ben y rhes fel plaid ymegnïol gydag addysg yn mhob ffurf arni; achosion elusengar, ac achosion cenhadol. Sefydlasant ysgolion yn y trefedigaethau ar eu tŵf cyntaf. Gwaddolasant Athrofa Harvard yn y fl. 1636—un-mlynedd-ar-bymtheg ar ol eu glaniad yn y wlad. Erbyn hyn, y mae uwch law ugain o athrofeydd drwy y Talaethau, naill ai yn hannerog neu yn gyflawn, o dan ofal Cynnulleidfaolwyr; ynghyd â nifer liosog o *academies*. Meddiannwyd y Tadau Pererinol â mesur helaeth o ysbryd cenhadol. Dechreuodd John Eliot, 'apostol yr Indiaid,' ar ei waith mewn lle o'r enw Nonantum (lle y saif tref Newton yn bresennol), Hydref 28ain, 1646. Sefydlwyd yr *American Board of Commissioners for Foreign Missions* yn 1810, gan Gymmanfa Gyffredinol Massachusetts. Yn 1810, sefydlwyd yr *American Home Missionary Society*. Yn 1880, mewn Cynghorfa Genedlaethol, cyflwynwyd y cymdeithasau canlynol i sylw yr eglwysi:—1af, *Congregational Publishing Society*; 2il, *American Missionary Association*; 3ydd, *American Congregational Union*; 4ydd, *American College and Education Society*; 5ed, *Western Education Society*; ac yn 6ed, *The New West Education Commission*.

26. Mae gan Gynnulleidfaoliaeth y Talaethau amryw gyfryngau at feithrin yr ysbryd cymdeithasol. Un o honynt ydyw y Cynghor Eglwysig (*Ecclesiastical Council*). Ei swydd ydyw 'bod yn offeryn drwy yr hwn y gwna yr eglwysi benderfynu gyda pha eglwysi Cristionogol y dymunant fod mewn cyfundeb.' Un arall o'r cyfryngau yw Cymdeithas neu Gynghorfa yr Eglwysi. Offeryn ydyw hwn er 'rheoli cydweithrediad cyhoeddus yr holl eglwysi fydd mewn cyfundeb â'u gilydd.' Lleol ydyw y cymdeithasau hyn; eithr y mae iddynt hwythau,

Digitized by Google

drachefn, Gynghorfa Dalaethol, yr hon sydd yn cyfarfod yn flynyddol. Ac yn ben ar yr oll y mae y Gynghorfa Genedlaethol, yr hon sydd yn cyfarfod bob tair blynedd. Gwelir fod y peiriannwaith yn ëang a chymmhlethog; etto, nid yw ei weithrediadau yn meddu grym rheithlysol—nid yw yn hòni bod yn ddim amgen na llys ymgynghori. Ar yr un pryd, cydnebydd yr eglwysi ef fel yr offeryn drwy yr hwn y gellir cael barn derfynol ar bob pwngc dadleuol—gweinidogaethol ac eglwysig. Gwedd arall ar arferion cymdeithasol y Cynnulleidfaolwyr yw cymdeithasau gweinidogion. Y mae iddynt ddau amcan:—y cyntaf ydyw cyd-ddiwylliant; a'r ail yw cydweithrediad. Rhan o waith y cymdeithasau hyn ydyw arholi ymgeiswyr am y weinidogaeth mewn gwahanol eglwysi. Gan nad pa fodd yr ymddyga eglwys at ymgeisydd anfoddhaol ei ffydd a'i ymarweddiad, ymwrthodir âg ef gan y gymdeithas weinidogaethol.

27. Erbyn hyn, y mae yr enwad wedi sefydlu eglwysi yn Canada, Nova Scotia, Manitoba, Newfoundland, Labrador, Deuhedir Cymru Newydd, Gogledd a Deheudir Awstralia, Queensland, Tasmania, New Zealand, Natal a Deheu-ddwyrain Affrica, Deheudir Affrica, Jamaica, Guiana Brydeinig, Berbice, India, China, Japan, &c. Yn Ewrop, ceir amryw eglwysi yn Ffraingc, Holland, Bohemia, yr Almaen, ac Ysweden.

## VIII. Ystadegau Enwadol.

28. Hyd yr ydys yn deall, nid yw yn arferiad gan y Cynnulleidfaolwyr i gasglu a chyhoeddi ystadegau blynyddol cyflawn o'u cyllid, eu haelodau, na'u gwaith, mewn un cŵr o'r byd, oddi gerth yn yr Unol Dalaethau. Aeth rhai blynyddau heibio er pan wnaed y gorchwyl yn Nghymru a Lloegr. Ymddengys fod yr enwad yn Nghymru yn darparu ar gyfer cymmeryd cyfrif o'i aelodau a'r cynnulleidfaoedd y flwyddyn nesaf. Gwnaeth yr Undeb Saesneg gais at ryw fath o gyfrifiad eleni; eithr dywed golygydd yr *Year-book* wrthym, na bydd hwnw yn barod hyd ddiwedd y flwyddyn bresennol (1894); am hyny, ni cheir yn y cyfrifon isod ond ychydig o'r ystadegau i fyny i'r dyddiad. Am fod cyfrifon Cymru wedi eu gwneyd ar ddau achlysur gwahanol, a chan bersonau gwahanol, ac hefyd am eu bod mewn undeb â'r cyfrifon Saesnig, dodir y naill a'r llall i mewn yma, rhag i ni, wrth eu dadrys, wneyd cam anfwriadol â hwy. Dechreuir gyda chyfrifon Cymru, y rhai a gasglwyd mewn rhan gan olygwyr *Dyddiadur yr Annibynwyr*, ac a gyhoeddwyd yn 1894; ac mewn rhan gan y Parch. Dr. J. Thomas. Ceir yr holl fanylion sirol a gasglwyd ganddo ef yn *Hanes yr Eglwysi Annibynol*, cyf. v.

1. Cymru (cyfansymiau am 1894):—

| | |
|---|---|
| Capeli .. .. .. .. | 1,159 |
| Eglwysi .. .. .. | 1,039 |
| Gweinidogion .. .. .. | 666 |
| Pregethwyr .. .. .. | 292 |
| Gweinidogion heb eglwysi .. | 91 |
| Eglwysi heb weinidogion .. .. | 159 |
| Colegau .. .. .. | 3 |

Cyfansymiau am 1890:—

| | P. | S. | C. |
|---|---|---|---|
| Gwerth yr eiddo.. .. | 1,210,962 | 2 | 11 |
| Dyled .. .. . | 223,012 | 13 | 1 |
| Casgliadau blynyddol .. | 121,825 | 7 | 11 |

| | |
|---|---|
| Yr aelodau .. .. .. | 130,112 |
| Ar lyfrau yr Ysgolion Sabbothol .. | 131,418 |
| Gwrandawyr a'r plant .. .. | 156,019 |
| Cyfanrif yr aelodau, plant, a gwrandawyr .. .. .. | 286,161 |

| | |
|---|---|
| Myfyrwyr .. .. .. | 88 |
| Cenhadon Cymreig .. .. | 11 |
| Cyhoeddiadau .. .. .. | 8 |

2. Cymru a Lloegr (Cyfrifon 1892):—

| | |
|---|---|
| Capeli ac eglwysi .. .. | 4,634 |
| Gweinidogion .. .. .. | 2,725 |
| Gweinidogion heb eglwysi .. | 634 |
| Eisteddleoedd ar gyfer .. . | 1,666,000 |
| Colegau .. .. .. | 12 |
| Myfyrwyr .. .. .. | 386 |
| Athrawon .. .. .. | 51 |

3. Ysgotland, yr Iwerddon, ac Ynysoedd y Sianel:—

| | |
|---|---|
| Eglwysi. .. .. .. | 139 |
| Aelodau .. .. .. | 2.000 |
| Gwrandawyr .. .. .. | 10,943 |
| Pregethwyr .. .. .. | 46 |
| Ysgolion Sabbothol .. .. | 28 |
| Athrawon .. .. .. | 250 |
| Plant .. .. .. .. | 2,503 |
| Athrofa. .. .. .. | 1 |
| Myfyrwyr .. .. .. | 9 |

4. America (Cyfrifon 1894):—

| | |
|---|---|
| Eglwysi. .. .. .. | 5,236 |
| Gweinidogion ordeiniedig . .. | 5,138 |
| Trwyddedigion .. .. .. | 400 |
| Cymmunwyr .. .. .. | 523,882 |
| | Doleri. |
| Cyfraniadau elusengarol (*benevolent*) .. .. .. . | 2,401,896 |
| Cymmunroddion . .. . | 947,311 |
| Treuliau cartrefol .. . | 7,000,838 |
| Athrofeydd duwinyddol .. .. | 7 |
| Colegau (Rheolaeth ranol) . .. | 27 |
| Cenhadaethau Tramor.. .. | 20 |
| Gorsafoedd .. .. .. | 100 |
| Gorsafoedd gwledig (*out-stations*) .. | 1,107 |
| Cynnulleidfaoedd (Rhif y).. .. | 69,151 |
| Cenhadon (15eg yn feddygon) ordeiniedig .. .. .. | 184 |
| Meddygon (o'r ddau ryw), anordeiniedig .. .. .. | 22 |
| Merched (183 yn ddibriod, 185 yn briod, a 9 yn feddygesau) .. .. | 368 |
| Llafurwyr Americanaidd wedi eu hanfon allan .. .. .. | 571 |
| Pregethwyr ac athrawon brodorol .. | 2,870 |
| Cyfanrif (Americaniaid a brodorion) | 3,441 |
| Eglwysi rheolaidd .. .. | 421 |
| Aelodau. .. .. .. | 40,187 |
| Chwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 3,055 |
| Cyfanrif y dychweledigion o'r dechreuad .. .. .. | 128,648 |
| Athrofeydd duwinyddol, &c. .. | 16 |
| Myfyrwyr .. .. .. | 230 |
| Colegau ac ysgolion uwchraddol .. | 65 |
| Efrydwyr yn yr uchod .. .. | 4,227 |
| Genethod yn yr ysgolion byrddol .. | 3,394 |
| Cyfanrif dan addysg .. .. | 50,106 |
| Cyfraniadau y brodorion .. (Doleri) | 89,146 |

Cylchgronau:—

*Bibliotheca Sacra* (chwarterol], Andover.
*New Englander* (dau-fisol).

| | |
|---|---|
| *Congregationalist*<br>*Outlook*<br>*The Kingdom*<br>*Advance*<br>*Christian Mirror*<br>*Religious Herald*<br>*Pacific* | Newyddiaduron crefyddol. |

5. Trefedigaethau, &c.:—

| | | |
|---|---|---|
| Canada | (Eglwysi) .. .. | 173 |
| Awstralia | „ .. .. | 306 |
| New Zealand | „ .. .. | 21 |
| Natal, &c. | „ .. .. | 34 |
| South Affrica | „ .. .. | 156 |
| Jamaica | „ .. .. | 38 |
| British Guinea | „ .. .. | 40 |
| India | „ .. .. | 35 |
| Cyfandir Ewrop | „ .. .. | 44 |

6. Japan:—

| | |
|---|---|
| Aelodau (yn 1891) uwch law .. | 10,000 |
| Myfyrwyr .. .. .. | 70 |

7. Y mae dwy wlad yn Ewrop, sef Ysweden a Holland, yn y rhai y mae cynnydd anarferol wedi bod yn rhif eglwysi Cynnulleidfaol er y fl.

Digitized by Google

1856. Y pryd hwnw y ffurfiwyd yr *Evangeliska Fosterlandsstiftelsen*, yn Ysweden. Ymneillduwyr oddi wrth yr Eglwys Wladol oeddynt ar y cyntaf; ac yn y fl. 1879, ymffurfiasant yn enwad Cynnulleidfaol. Yr oedd eu hystadegau, yn 1891, fel y canlyn:—

| | |
|---|---|
| Eglwysi . . . . . . | 707 |
| Aelodau . . . . . . | 100,000 |
| Athrofa dduwinyddol . . . . | 1 |
| Cenhadon (wedi eu hanfon allan) . . | 55 |
| Casgliadau cenhadol . . . | P.10,000 |

Y mae Ymneillduaeth ar gynnydd sefydlog yn Holland er's yn agos i hanner canrif. Yn y fl. 1848, nid oedd eu rhif ond un allan o bob deng mil o'r boblogaeth. Cynnyddodd eu nifer i 66,042 yn 1889. Trigolion Friesland sydd yn cymmeryd y blaen yn yr enciliad. Gwerinwyr Sosialaidd ydynt mewn gwleidyddiaeth. Yn ol yr ystadegau sydd newydd eu cyhoeddi, gwelwn fod Ymneillduwyr Holland eleni yn rhifo uwch law 100,000. Y ffurf Gynnulleidfaol sydd ar eu heglwysi; a Chalviniaid cymmedrol ydynt mewn athrawiaeth.

### IX. Nodiadau Cyffredinol.

29. Wrth fwrw golwg dros ystadegau crefyddol yr America, a gweled fod dilynwyr Ioan Fedyddiwr a John Wesley wedi cael y blaen o ddigon ar yr enwad Cynnulleidfaol, y mae yn naturiol ymholi pa ham y bu hyny. Yr ydym yn barod wedi gweled un rheswm a ddichon gyfrif mewn rhan am y gwahaniaeth. Ond y mae dau reswm arall, cywirach, ar gael. Nid ydyw y Cynnulleidfaolwyr erioed wedi bod yn enwad un *idea*. Y mae gan yr Arglwydd ei ryfeloedd—nid un: ymladd â dynion fel pechaduriaid, a'u gorchfygu, ydoedd prif waith y Wesleyaid. Enwad cenhadol fu, ac ydyw. Ni bu y Cynnulleidfaolwyr, hyd yn gymmharol ddiweddar, yn enwad cenhadol. Ymladd brwydrau rhyddid gwladol a chrefyddol y buont; goresgyn teyrnasoedd a fynent—dileu hen ddeddfau gorthrymus, a darparu moddion gwybodaeth a diwylliant ar gyfer meddyliau sychedig. 'Egwyddor yw Cynnulleidfaoliaeth, nid peiriannwaith :'—dylanwad anweledig yw. Ei effeithiau araf, ond sicr, ar fywyd eglwysig pob enwad, yn gystal ag ar deyrnas yr un drwg, yw y prawfion sicraf o'i lwyddiant. Nid drwy ffigyrau y mae mesur ei nerth, ac nid wrth rif yr adnabyddir ei rym. Arweinia eglwysi Henadurol ac Esgobol i chwennych hunan-reolaeth gyflawn. Rhaid i'r meddwl eglwysig unigol, megys y meddwl dinesig unigol, gael o hyd i'w etifeddiaeth — rhyddid. Ni chymmer dynion meddylgar, parod i dalu ardreth cyfrifoldeb, mo'u rheoli byth gan unbenaeth na phendefigaeth eglwysig; dwyseiddia y casineb at lywodraeth drwy un, a thrwy yr ychydig: angenrhaid ydyw i'r bobl fod yn ddeiliaid ufudd iddynt eu hunain, ac yn llywiawdwyr cyfiawn arnynt eu hunain. Megys y dychwel yr ysgyfarnog rywbryd i'w gwâdd, wedi ei dychryn o hono gan ormes yr helwyr, felly hefyd y mae gwerin y gwledydd yn araf, ond sicr, yn dychwelyd yn eu holau, wedi oesau lawer o absennoldeb, i'w hen gartref crefyddol. 'Yn mlynyddau cyntaf ei hanes,' ebe Edwin Hatch am yr eglwys Gristionogol, 'tra ar un llaw yr oedd yn ffydd fawr a byw, felly, ar y llaw arall, yr oedd yn frawdoliaeth anferth a pheiriannol. Ac am ei bod yn frawdoliaeth, yr oedd yn werinol.' Wrth siarad am y Chwyldroad Puritanaidd, ebe Carlyle:—'Galwaf ef unwaith etto yn adran o'r rhyfel cyffredinol, yr hwn yn unig sydd yn gwneyd i fyny wir hanes y byd—rhyfel crediniaeth ddisyfl yn erbyn anghrediniaeth. Gornest dynion â'u bryd ar wir hanfod pethau, yn erbyn dynion â'u bryd ar ymrith a ffurf pethau.' Ië, dyma, yn ddiddadl, ydyw cnewyllyn yr ymrafael o'r dechreuad rhwng Esgobyddion a Chynnulleidfaolwyr.

30. Wedi yr hir wasgariad, y mae ysbryd Cristionogaeth yn crynhoi yr aeddfed o wŷr ffydd yn mhob cyfeiriad y blynyddau hyn i ystyried y cwestiwn, nid o gyfaniad ffurfiol a pheiriannol, ond y cwestiwn o gyfaniad ysbryd a theimlad, ewyllys a chalon, dilynwyr yr Arglwydd Iesu. Un o ffurfiau iach, prydferth, yr attyniad oedd y Cynghor Mawr Cynnulleidfaol a gyfarfu yn Llundain yn 1891. Am y waith gyntaf erioed, cafodd cynnrychiolwyr holl deulu y ffydd Gynnulleidfaol drwy y byd gydgyfarfod i lawenychu yn llwyddiant eu hegwyddorion. Trefnwyd y pryd hwnw i gael ail gymmanfa rhyng-wladwriaethol yn y Talaethau yn 1896. Bu y Cynghor Mawr yn ddrych hynod effeithiol i Gynnulleidfaolwyr weled eu hunain, a gweled eu gilydd; ac o'r pryd hwnw allan, tybir na chlybuwyd ond cynghanedd beraidd, felus, o holl gyrion gwersylloedd yr enwad amgylchogylch y ddaear.

Llen.—*John Robinson's Works*, 3 cyf., Llundain, 1851; *Hanbury's Ecclesiastical Memorials*, 3 cyf., Llundain, 1844; *A Dictionary of Congregational Usages and Principles*, Boston, 1852; *Dexter's Congregationalism; What it is, Whence it is, How it works*, Boston, 5ed argraph., 1879; *Fletcher's Hist. of Independency*, 4 cyf., Llundain, 1842; *Waddington's Congregational Hist.*, Llundain, 4 cyf., 1869-78; *Dexter's Congregationalism as seen in its Literature*, New York, 1880; *International Congregational Council*, Llundain, 1891; *Bradford's The Pilgrim in Old England*, Llundain, 1893; *Walker's The Creeds and Platforms of Congregationalism*, New York, 1893; *Schaff's Creeds*, cyf. i. a iii.; *Hanes yr Eglwysi Annibynol*, gan Rees a Thomas; a *Llawlyfr y Gweinidog a'r Diacon*, gan J. Evans-Owen.

CYNOG: yr hwn hefyd a elwir Kinothus. Yr oedd yn ail esgob Llanbadarn, ac yn olynydd i Dewi Sant yn esgobaeth Tŷ Ddewi, tua'r fl. 544. Ychydig y bu efe byw ar ol y dyrchafiad hwn; o blegid dywed rhai awdurdodau mai Teilo Sant a ddilynodd Dewi yn yr esgobaeth hono. Y mae eglwys Llangynog, yn sir Gaerfyrddin, wedi ei chyflwyno iddo.

CYNOG. Sant oedd yn byw yn y bummed ganrif. Tybir mai mab oedd efe i Brychan, o Banadlwedd, merch i Banadle o Powys. Rhoddwyd ef, pan yn ieuangc, dan ofal gŵr duwiolfrydig, o'r enw Cysten, neu Gastayn; yr hwn a'i bedyddiodd ef. Fel hyn y dywed Cressy, yr hanesydd, am dano:—'Yr oedd enwogrwydd ei fuchedd sanctaidd mewn bri mawr yn mhlith y Siluriaid; a chofnodir ei enw yn y Merthyrdraeth Saesneg ar gyfer Chwefror 11eg. Blodeuodd tua'r fl. 492.' Merthyrwyd ef gan Saeson paganaidd, ar fynydd y Fan, yn Mrycheiniog. Codwyd eglwys ar y fan, a galwyd y lle Merthyr Cynog. Efe a sefydlodd eglwysydd Defynog, Ystradgynlais, Penderin, Battel, a Llangynog, yn sir Frycheiniog; a Llangynog hefyd, yn sir Drefaldwyn.

Digitized by Google

CYNON AB CLYDNO EIDDIN. Efe oedd un o 'Dri Marchog Cynghor Llys Arthur;' yr hwn hefyd a restrir mewn *Triawd* arall fel un o 'Dri Serchogion Ynys Prydain,' gyda Chaswallon a Thrystan. Yr oedd efe, hefyd, yn un o'r pedwar a ddiangasant yn fyw o frwydr Cattraeth. Mae cynnifer a phump o 'Englynion y Beddau' yn cyfeirio at fedd Cynon, oddi wrth ba rai y gellir casglu yn lled sicr mai yn Llanbadarn y claddwyd ef. Cyfeirir gan amryw o feirdd y canol-oesoedd at ei ddewrder fel milwr, ac at ei ffyddlondeb fel cariad-fab.

CYNWAL, RICHARD, o Benmachno—oedd yn fardd yn ei flodau yn 1670; er fod rhai awdurdodau yn dyweyd mai rhwng 1600 a 1630 yr oedd efe yn byw.

CYNWAL, WILLIAM:—bardd enwog oedd yn byw yn Mhenmachno, yn sir Gaernarfon, rhwng 1560 a 1600. Bu dadl farddonol rhyngddo a'r Archddiacon Prys; yr hon a ddygwyd yn mlaen gyda'r fath chwerwder nes y dywedir i Gynwal golli ei fywyd yn mhoethder y frwydr. Y mae tua hanner cant o'r cywyddau ymryson ar gael mewn llawysgrifau. Dywed Goronwy Owain, ar ol darllen y cywyddau, 'nid hen ddyn dwl oedd yr archddiacon, ac ystyried yr amser yr oedd yn byw ynddo; etto, yr wyf yn cyfrif Mr. Cynwal yn well bardd, o ran naturiol anian ac athrylith, ond fod Edmwnd yn rhagori mewn dysg. Nid oedd Cynwal, druan! (ysgolhaig bol clawdd), ond megys yn ymladd â'r dyrnau moelion yn erbyn tarian a llurig.'

CYNWRAITH. Penaeth yn y chweched ganrif oedd efe; a mab i Cyndrwyn, a brawd i Cynddylan. Cwympodd, gyda'i frawd, mewn brwydr fu rhwng yr hen Gymry a'u gelynion.

CYNWRIG BENCERDD. Brodor oedd efe o Dreffynnon. Efe ydoedd y prif gerddor yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin yn 1451. Yn yr eisteddfod hono, barnwyd Dafydd ap Edmwnt yn ben bardd; Cynwrig Bencerdd yn brif gerddor; a Rhys Bwtting, o Brestatyn, yn ben dadganydd:—y tri o sir Fflint.

CYNWRIG, SHON. Bardd a flodeuodd tua'r fl. 1600.

CYNWYD, CYNWYDION:—sant, oedd yn blodeuo yn y chweched ganrif. Yr oedd yn aelod o Goleg Cattwg; ac efe oedd sylfaenydd eglwys Llangynwyd, yn Morganwg. Yr oedd efe yn fab i Cynfelyn ab Garthwys; ac yn dad Clydno Eiddin, Cynan, a Chynfelyn Drwsgl, a Chadrod Galchfynydd—y rhai oll a ymroisant i fywyd crefyddol.

CYNWYD, SHON. Bardd o fri, oedd yn preswylio yn Nghynwyd, yn Edeyrnion, ger Corwen, yn niwedd y ddeunawfed ganrif. Gwehydd oedd efe wrth ei alwedigaeth, ac yr oedd yn ŵr duwiol a bucheddol. Argraphwyd peth o'i waith yn y *Cylchgrawn* am 1793.

CYNWYL. Sant oedd efe, yn byw yn y chweched ganrif—mab Dunawd Ffur, a Dwywe, merch Gwallawg ab Llëenawg. Brawd iddo oedd Deiniol. Yr oedd ganddo law yn sefydliad Colegdy Bangor-is-y-coed; ac efe, hefyd, a sefydlodd eglwysydd Cynwyl Gaio, a Chynwyl Elfed, yn sir Gaerfyrddin; ac Aberporth, yn Ngheredigion. Cyssegrwyd eglwys Penrhos, ger Pwllheli, iddo hefyd.

CYNYR CEINFARFAWG. Gelwir ef weithiau CYNYR FARFDRWCH. Yr oedd yn ŵr enwog yn mysg ei bobl. Penaeth oedd efe, yn byw yn y bummed ganrif, a mab i Gwron ab Cunedda.

CYRRIOG, GUTYN. Bardd oedd yn byw rhwng 1500 a 1530. Preswyliai yn Llanelian, yn Môn; ac y mae rhai o'i ganiadau ar gael etto mewn hen ysgrifau.

CYRYS O IAL: yr hwn hefyd a elwid weithiau 'Yr hen Gyrys o Iâl.' Yr oedd yn enwog fel y casglydd cyntaf o ddiarhebion Cymreig, ac yn byw tua'r unfed ganrif ar ddeg, neu y ddeuddegfed. Nid oes sicrwydd pa nifer o'r diarhebion Cymreig a gyfansoddodd efe ei hun. Y gorchwyl penaf a wnaeth oedd eu casglu a'u trefnu. Cafodd ei waith, yr hwn a elwid *Madwaith Hen Gyrys o Iâl*, neu *Bach Buddugre a Gwynfarch Gyfarwydd*, ei adysgrifenu gan Gruffydd Hiraethog, tua'r fl. 1530; ac eilwaith gan yr enwog Ddoctor Davies, o Fallwyd, tua 1600; wedi hyny gan William Morris, o Gefn y braich, Llansilin, yn y fl. 1675; a chan Evan Evans *(Ifan Brydydd Hir)*, yn 1775. O'r diwedd, cawsant eu hargraphu yn y *Myvyrian Archaiology* trwy hynawsedd Owain Myfyr.

Digitized by Google

# D.



DADWEIR DALLBEN, un o arwyr Llys Arthur. Crybwyllir ei enw yn *Mabinogi Cilhwch ac Olwen;* ac efe oedd perchenog y moch a gadwai Coll ab Collfrewi yn Nyffryn Dallwyr, yn Nghernyw.

DAFYDD AB BELYN. Bardd a flodeuodd rhwng 1520 a 1550. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau—englynion, gan mwyaf—ar gael mewn llawysgrifen etto.

DAFYDD AB BLEDDYN. Cyssegrwyd ef yn Esgob Llanelwy yn y fl. 1315; ac yn ei amser ef y casglwyd y llyfr anwog a elwir *Llyfr Coch Llanelwy.* Nid oes ond ychydig o'r llyfr hwn ar gael; ac felly, y mae llawer o hanes henafol yr esgobaeth wedi colli. Ni wyddys pa bryd y bu farw; ond yr oedd yn fyw yn 1346.

DAFYDD AB RHYS, O'R FENNI. Bardd o Ddyffryn Wysg, oedd yn byw tua'r fl. 1550.

DAFYDD ALAW. Bardd o lan Alaw, yn Môn. Bu farw tua'r fl. 1540.

DAFYDD BACH AB MADOC WLADAIDD. Bardd, a adnabyddid yn fynych wrth ei ffugenw; megys *Sypyn Cyfeiliog*, a *Cnepyn Gwrtheurnion.* Tybir mai Gwrtheurnion, yn Maesyfed, oedd ei wlad enedigol. Blodeuodd rhwng 1400 a 1450.

DAFYDD EMLYN. Dyma oedd ffugenw Dafydd William Prys—clerigwr a bardd oedd yn byw yn y bymthegfed ganrif.

DAFYDD GOCH BRYDYDD. Bardd a flodeuodd rhwng y fl. 1480 a 1520.

DAFYDD GORLECH, neu DAFYDD LLWYD GORLECH—oedd frodor o Abergorlech, a bardd enwog yn nheyrnasiad Harri VII. Ceir amryw o'i ganiadau mewn hen ysgriflyfrau.

DAFYDD LLWYD. Boneddwr a bardd, o'r Henblas, yn Môn, rhwng 1560 a 1600.

DAFYDD LLWYD AB LLEWELYN, o Fathafarn, yn Maldwyn. Bardd a brudiwr enwog; a chanddo etifeddiaeth helaeth ar lanau yr afon Dyfi, uwch law Machynlleth. Ymddangosodd teitlau a llinellau cyntaf amryw o'i gywyddau ar amlen *Greal* Llundain yn 1806; ac yn eu plith y mae Cywydd Marwnad Syr Gruffydd Fychan—gŵr a gymmerodd ran flaenllaw yn ngharchariad y merthyr Cymraeg enwog, Syr John Oldcastle. Adroddir yr hanes a ganlyn am dano fel brudiwr:—'Pan oedd Iarll Richmond ar ei ffordd o Aberdaugleddyf i'r Amwythig, i ymladd â Richard III. am goron Lloegr, efe a farnodd yn ddoeth i droi at brophwyd Mathafarn i ymofyn pa lwyddiant fyddai ar ei anturiaeth. Wedi hysbysu ei neges iddo, petrusodd y brudiwr roddi attebiad iddo; a dymunodd ohirio hyny hyd dranoeth. Deallodd ei wraig fod cyfrwysdra ei phriod yn pallu; a'i fod, mewn canlyniad, yn pruddhau. Hi a'i ceryddodd yn y geiriau a ganlyn:—'Beth! tydi yn fardd—yn frudiwr—yn brophwyd, ac yn methu atteb gofyniad syml fel hwna. Dywed wrtho yn bendant y bydd iddo ennill y frwydr: ac os bydd i hyny brofi yn wirionedd, bydd dy gymmeriad di wedi ei sefydlu. Ond os fel arall y try allan, ni raid i ti byth ofni y dianga efe o ddwylaw Dic Gefngrwm, ac y daw yma i dy gospi di am fod yn gau brophwyd.' Cafodd y brudiwr foddhâd neillduol yn nghynghor ei wraig; a rhoddodd atteb i'r perwyl hwnw i'r iarll. Tarawodd y byddinoedd ar faes Bosworth, a gwiriwyd prophwydoliaeth Dafydd Llwyd. Coronwyd Iarll Richmond dan yr enw Harri VII.; ac ennillodd y brudiwr o Fathafarn lawer o glod am ei brophwydoliaeth. Dywedir mai oddi wrth yr amgylchiad hwn y tarddodd y ddiareb, 'Cynghor gwraig heb ei ofyn.'

DAFYDD LLWYD EPPYNT. Bardd a flodeuodd rhwng 1540 a 1570.

DAFYDD LLYFNI. Bardd, a brodor o Lanllyfni, yn Arfon. Yr oedd yn byw tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.

DAFYDD MAELIENYDD:—yr hwn hefyd a elwid BACH BUDDYGRE, a DAFYDD BACH AB MADAWG WLADAIDD. Yr oedd efe yn frodor o Lanstephan, yn Muddygre, Maelienydd. Y mae llawer o'i 'ddewis bethau' yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology*, ac hefyd yn y *Cydymaith Dyddan.*

DAFYDD MANUEL. Bardd oedd yn ei flodau tua'r fl. 1700. Myn rhai mai brodor o Edeyrnion oedd efe: eraill a ddywedant mai yn mhlwyf Trefeglwys, ger Llanidloes, y preswyliai. Ei waith ef yw cân 'Bustl y Cybyddion,' a argraphwyd yn y *Blodeugerdd.*

DAFYDD MEIFOD. Bardd, a brodor o Feifod, yn sir Drefaldwyn. Blodeuodd rhwng 1630 a 1670. Y mae ychydig o'i waith mewn ysgriflyfrau.

DAFYDD WILLIAM PRYS. Gw. DAFYDD EMLYN.

Digitized by Google

**DAFYDD, MEURIG.** Brodor oedd efe o Lanisan, yn Morganwg, ac un o feirdd yr orsedd hono yn y fl. 1580. Bu ffrwgwd farddonol rhyngddo â Shôn Mawddwy, yr hon a welir yn *Cymru Fu*. Yr oedd yn ei feddiant ysgriflyfr o hynafiaethau, y rhai a argraphwyd yn yr *Iolo MSS*.

**DAFYDD NICHOLAS.** Bardd i deulu Aberpergwm. Tybir mai efe oedd yr olaf o'r cyfryw yn Nghymru. Ganwyd ef yn 1693, a bu farw yn 1769. Y mae pennillion o'i waith, sef 'Achwyniad ar y Dafarn,' wedi eu hargraphu yn y *Fel Awen* a'r *Afalau Awen*. Dywedir yn ei fedd-argraph iddo fod yn 'athraw i'r anwybodus, yn feddyg i'r claf, ac yn bryd-ydd anianol tryddawn.'

**DAFYDD O'R COED.** Bardd enwog, oedd yn byw rhwng 1300 a 1340. Y mae amryw o'i gyfansoddiadau yn y *Myvyrian Archaiology*.

**DAFYDD O'R NANT**:—wrth ei enw priodol, DAVID WILLIAMS. Yr oedd efe yn ficer Penllin, yn Morganwg, yn y rhan olaf o'r ail ganrif ar bymtheg. Yr oedd yn un o benceirddiaid Gorsedd Morganwg; a chydag eraill, yn Eisteddfod y Bewpyr, yn 1681; lle y penderfynwyd ar, ac y mabwysiadwyd dosbarth *Cyfrinach y Beirdd*. Defnyddiwyd llawer o'i waith i egluro y mesurau sydd yn y llyfr hwnw. Yr oedd yn fardd lled wych.

**DAFYDD WILLIAM DAFYDD.** Un arall o feirdd medrus Gorsedd Morganwg. Defnyddiwyd peth o'i waith yntau i egluro mesurau *Cyfrinach y Beirdd*.

**DALLDAF AIL CYNAN COF.** Rhyfelwr enwog oedd yn byw yn y chweched ganrif.

**DANIEL AB LLOSGWRN MEW**, neu MENYW. Yr oedd efe yn fardd awenyddol, yn byw rhwng y bl. 1160 a 1200. Y mae 'Awdl Farwnad i Owen Gwynedd' o'i waith yn y *Myvyrian Archaiology*.

**DANIEL DDU O GEREDIGION.** Gwel EVANS, DANIEL, cyf. iv., td. 542.

**DARON, LEWIS.** Bardd enwog o Aberdaron, yn Lleyn.

**DARONWY.** Rhestrir ef gyda Cath Palug ac Edwin, brenin Northumbria, fel tri aflonyddwyr Ynys Môn.

**DAVID, PARCH. JOB.** Gweinidog gyda'r Bedyddwyr, mewn lle o'r enw Frome, yn Ngwlad yr Haf. Ei dad oedd Job David, yr hwn hefyd oedd yn y weinidogaeth, ac yn gwasanaethu gyda'r un enwad yn Mhen-y-fai, yn sir Forganwg. Ganwyd Job David, ieuangaf, yn y fl. 1746; ac yn 1766, dechreuodd bregethu. Bu yn llafurio yn Frome am ddwy flynedd ar hugain. Yn 1803, cafodd alwad gan eglwys Taunton i fod yn olynydd i Dr. Josuah Toulmin; ond o herwydd sefyllfa ei iechyd, nid arosodd yno ond tua phum mlynedd. Symmudodd i Abertawe er mwyn bod yn agos i'r môr; ond ni chafodd y symmudiad hwn fawr o effaith arno. Gwaethygodd, a bu farw yn 1813. Claddwyd ei gorph yn mynwent Pen-y-fai. Heb law bod yn bregethwr gwych, yr oedd hefyd yn llenor da. Ysgrifenodd lawer ar yr ochr Arminaidd i'r ddadl a gymmerodd le yn y dyddiau hyny yn mhlith y Bedyddwyr. Yn mysg ei gynnyrchion llenyddol, gellir enwi:—*A Letter on the Use of Scriptural Doxology*, &c., yr hwn a'i harweiniodd i ddadl â'i hen athraw, y Parch. Caleb Evans; *A Sermon preached before the Unitarian Society; An Assembly Letter on the Evidences of Christianity; A Reply to Dr. Priestley on the subject of Infant Baptism; A letter to Dr. Coke on the Wesleyan Connection.*

**DAVIES, PARCH. BENJAMIN**, o'r Denant. Yr oedd yn enedigol o dref Abergwaun, yn sir Benfro. Bedyddwyr parchus oedd ei rieni; a phan yn bymtheg oed, derbyniwyd yntau yn aelod o'r eglwys y perthynent hwythau iddi—eglwys Llangloffan. Rhoddodd arwyddion ei fod yn ddyn ieuangc o gymmeriad rhagorol; a chan ei fod yn meddu tuedd at fyned i'r weinidogaeth, anfonwyd ef i dderbyn ei addysg yn Athrofa Caerodor, i'r dyben o'i barotoi i'r gwaith pwysig hwnw. Wedi gorphen ei gwrs athrofaol, ymsefydlodd fel gweinidog ar eglwys Accrington, yn swydd Lancaster. Yn y cyfamser, priododd gyda Miss Mary Owen, o'r Denant—fferm fawr a chnydiog tua thair milldir o Hwlffordd. Hyn, yn benaf, a'i harweiniodd i ymsefydlu dros y gweddill o'i oes yn Nghymru. Yn 1786, dechreuodd ar ei ddyledswyddau fel gweinidog Moleston, yn sir Benfro. Ar yr un pryd, efe a gymmerodd ofal neillduol o gynnulleidfa fechan o addolwyr a addolent mewn tŷ annedd yn agos i'r Denant, lle yr oedd efe yn cartrefu gyda'i deulu-yn-nghyfraith. Aeth y tŷ hwn, cyn hir, yn rhy fychan i'r ddeadell; a thrwy gymmhorth boneddwr o'r enw Mr. Morgan, llwyddwyd i godi capel hardd i'r enwad yn Hwlffordd. Agorwyd yr addoldy hwn yn 1788. Yn 1798, rhoddodd Mr. Davies ofal eglwys Moleston i fyny, gan gyfyngu ei lafur i'r achos yn Hwlffordd. Pan y bu farw, Chwefror 16eg, 1816, rhifai yr eglwys hon ddau gant o aelodau, tra nad oedd ond trigain o rif yn 1798. Rhoddir tystiolaeth uchel i'w allu fel pregethwr, a'i gymmhwysderau fel gweinidog.

**DAVIES, PARCH. DANIEL, D.D.**, (Y PREGETHWR DALL.) Pan gymmerir i ystyriaeth yr amgylchiadau perthynol i wrthddrych yr erthygl hon, tybiwn nad all fod ammheuaeth ei fod, yn ei ddosbarth, yn sefyll ar ei ben ei hun yn y Dywysogaeth, yn ei oes. Y syndod ydyw iddo gyrhaedd y safle yr esgynodd iddo, ac yntau yn ddall er pan yn chwech oed. Anhawdd i ddyn nad ydyw yn adnabyddus â theithi dyn dall fyddai credu yr hyn y gallai ei wneyd, ynghyd â'r hyn a gyflawnodd Daniel Davies.

Ganwyd ef ar y 15fed o Dachwedd, 1797; a bu farw ar Chwefror 19eg, 1876. Bu fyw felly 78 ml. a thri mis. Ganwyd ef mewn ffermdy o'r enw Moelfre, yn mhlwyf Llanfair-ar-y-bryn, yn sir Gaerfyrddin, tua hanner y ffordd o Lanymddyfri i Lanwrtyd, a thua milldir i'r gorllewin o'r Cynghordy—gorsaf ar Ffordd Haiarn Llu. a'r Gog. Or. Bu farw yn Llanelli—yr un sir ag y ganwyd ef. Enw ei dad oedd Josuah Davies; hanes yr hwn sydd yn cael lle amlwg yn *Methodistiaeth Cymru*. Yr oedd amryw o'i berthynasau yn aelodau gyda'r Annibynwyr yn nghymmydogaeth Caio; a rhai o honynt yn ddynion enwog; megys, John Mathews, Jones

Digitized by Google

o Gryg-y-bar, Dr. Davies o Ffrwdfal, &c. Ei fam oedd ferch i amaethwr cyfrifol, yn agos i Lanymddyfri; ond nid oeddynt yn ymwneyd â chrefydd, oddi eithr y byddai y fam yn myned i'r llan ddwy neu dair gwaith yn y flwyddyn. Ond ar ryw noson, yn Nghil-y-cwm, cafodd y ferch—mam gwrthddrych yr ysgrif hon—pan yn 18 ml. oed, ei goleuo gan Ysbryd Duw, dan bregeth gan y dyn rhyfedd—y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho. Yr oedd tad a mam Dr. Davies yn aelodau parchus a ffyddlawn yn eglwys y Trefnyddion Calvinaidd yn Nghil-y-cwm; a chafodd yntau, yn moreu ei oes, ei ddwyn i fyny yn sŵn gweddiau, cynghorion, ac esamplau da rhïeni crefyddol, ac yn egwyddorion yr enwad parchus yr oedd eu gofal am, a'u hymdrech i ddwyn eu plant i fyny yn grefyddol yn ganmoladwy a diarebol yn y dyddiau hyny. Ac ni bu rhïeni Dr. Davies yn ol i neb, pwy bynag, yn y ddyledswydd bwysig hon.

Pan oedd efe tua phedair blwydd oed, cymmerodd amgylchiad le a fu yn achos i'w rïeni ymadael o Moelfre, trwy i'r ysgubor fyned ar dân; ac o herwydd methu cyttuno â'r tirfeistr i'w hail adeiladu. Dywedai ei fod ef yn cofio yr amgylchiad yn eithaf da. Mewn canlyniad i hyn, symmudodd ei dad i fyw i dyddyn yn nghylch dwy filldir o dref Llanymddyfri, lle yr oedd rhyw fath o ysgol ddyddiol; ac yr oedd y gobaith am gael myned i'r ysgol 'i ddysgu' yn gaffaeliad mawr yn ngolwg Daniel bach. Ond bu raid i'w dad, yn mhen amser byr iawn, ymadael â'r lle hwnw; a gwerthodd yr oll oedd ganddo, oddi eithr y dodrefn tŷ, a dau geffyl; a symmudodd i Ferthyr Tydfil, i gludo caws ac ymenyn o'r wlad, i'w hail werthu yno. Wedi dyfod i Ferthyr, cafodd Dafydd bach fyned i'r ysgol, a theimlai fel pe buasai wedi cael cyfoeth lawer. Dywedai:—'Mewn llai na phum mis, aethum dros y llyfr corn, y *Reading made easy*, a'r Testament; ond pan oeddwn, ar foreu Mawrth, 1804, yn myned â Beibl newydd yn fy llaw i'r ysgol, ac yn falch iawn o hono, tarawyd fi ar y trothwy gan ryw anhwylder dyeithr, a deallodd fy mherthynasau, er eu gofid, mai y frech wen ydoedd; yr hon oedd yn ddychryn, ac yn gwneyd difrod mawr yn y dyddiau hyny.' Y canlyniad fu, rhwng y frech wen a'r ennyniad yn ei lygaid, iddo golli ei olwg yn hollol, ac am ei oes, cyn bod yn chwe blwydd a hanner oed. I gyfarfod â'r golled anadferadwy hon, byddai ei dad yn ymdrechu ar y nosweithiau i ddarllen pennodau i'w fachgen dall; yr hwn yr oedd ei gof mor ragorol fel y gallai, ar ol clywed pennod o 20 i 25 o adnodau yn cael ei darllen ddwywaith, ei hadrodd yn hollol gywir; a daeth, pan yn ieuangc iawn, yn gampwr fel adroddwr yn yr Ysgol Sabbothol, ac mewn cyrddau crefyddol cyhoeddus eraill. Pan yr oedd y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, unwaith ar ymweliad â'r gymmydogaeth, efe a ymserchodd yn fawr ynddo; ac a ddywedodd, os dysgai efe 'y Salm fawr' erbyn y deuai yno drachefn, y rhoddai efe 'bresant' iddo. Er ei bod y pryd hyny yn brydnawn Sadwrn, aeth at y gorchwyl o'i dysgu; a nos dranoeth, adroddodd hi yn y capel o flaen Mr. Charles, heb fethu na cholli gair.

Yr oedd o ysbryd annibynol, gonest, ac uchelgeisiol, fel nas gallasai oddef y meddwl o fod yn segur-ddyn, nac ennill ei fywoliaeth wrth ddifyru dynion yn y tafarndai, na chwaith bwyso ar ei rïeni. Gan hyny, efe a aeth, pan rhwng un-ar-ddeg a deuddeg oed, heb yn wybod i'w rïeni, o amgylch y gweithiau i geisio cael rhyw orchwyl i'w wneyd. Ni bu yn hir cyn llwyddo; a chafodd waith i falu *blacking* at wasanaeth y *moulders*. Byddai yn myned y boreu ac yn dychwelyd yr hwyr, dwy filldir bob ffordd, yn cael ei arwain gan ei gi bychan; ond yr oedd y ci yn fwy o gwmpeini iddo nag o arweinydd. Fel hyn, trwy ei benderfyniad, bu y bachgen dall, cyn bod yn ddeuddeg oed, yn alluog i ennill ei fywoliaeth; ac ni phwysodd efe ar neb arall byth mwy. Cafodd yn fuan ddyrchafiad i'r safle o *gaffer;* ac yr oedd mewn parch ac ymddiried gan ei feistri. Ond yr oedd ei awydd yn cryfhau am gael addysg; a chyn bod yn 18 ml. oed, cafodd dderbyniad i Athrofa y Deillion yn Liverpool; lle y cafodd fanteision mawrion. Gwnaeth yntau y defnydd goreu o honynt, fel y daeth yn ddyn ieuangc neillduol o wybodus.

Yr oedd efe yn aelod crefyddol gweithgar, a defnyddiol iawn yn nghyfundeb y Trefnyddion yn mhell cyn ei fynediad i Liverpool. Un o'r pethau diweddaf a ddywedodd ei dad wrtho, pan ar ddychwelyd ar ol ei hebrwng yno, oedd:—'Daniel, fy machgen anwyl, gofala am dy iechyd ac am dy grefydd.' Dilynodd y cynghor yn fanwl tra y bu byw. Proffesodd ei hun yn Ymneillduwr ar ei fynediad i'r athrofa; a bu hyny o fantais fawr iddo. Ar ol iddo fod am ddwy flynedd a hanner yno, daeth adref yn anrhydeddus, wedi dysgu yno ddwy gelfyddyd, a'u meistroli; sef, gwau carpedau, &c., a gwneuthur basgedi, o wahanol faintioli a dulliau. Dychwelodd i Ferthyr pan ychydig gydag ugain oed, â dwy grefft ganddo; ac wedi chwanegu yn ddirfawr at ei ddysgeidiaeth a'i wybodaeth. Yr ydoedd, meddai ef ei hun, yn gystal Sais pan yr oedd yn dychwelyd o Liverpool ag y bu byth ar ol hyny.

Wedi dychwelyd, gosododd i fyny weithdŷ yn Merthyr; a thrwy gymmhelliad, cymmerodd at drefnu ac arolygu Ysgolion Sabbothol y Trefnyddion yn y cylch hwnw; yr hyn a wnaeth efe gyda deheurwydd a llwyddiant nid bychan. Drwy hyn, fe ddaeth yn siaradwr cyhoeddus; ac ni bu yn hir cyn argyhoeddi pawb a'i hadwaenai fod ynddo alluoedd a thalentau—cymmhwysderau neillduol i fod yn bregethwr. Ond nid ar unwaith y gallwyd ei berswadio i gredu hyn. Dywedai, 'Gwell genyf fod yn wehydd da nag yn bregethwr gwael.' Ond wedi hir gymmhell a gwasgu arno, rhoddodd ystyriaeth ddifrifol i'r pwngc; ac yn niwedd hâf, 1818, cyn ei fod yn un-ar-hugain oed, cawn ef yn dechreu pregethu. Daeth, megys ar unwaith, yn eithriadol boblogaidd yn ngolwg pawb; eithr yn neillduol yn ei enwad ei hun. Parhaodd fel hyn yn mhlith y Trefnyddion, gan chwanegu nerth a mwyhau yn ei boblogrwydd, am ddwy flynedd a hanner. Ond pan yr oedd ychydig uwch law tair-ar-hugain oed, cymmerodd tro-bwynt pwysig le yn ei hanes; sef, cymmeryd ei fedyddio, a throi at y Bedyddwyr. Yr oedd yn credu er yn ieuangc mai trochi oedd yr iawn ddull o fedyddio, a hyny yn benaf oddi wrth '*Holwyddoreg Charles*, yr hon oeddwn wedi ei dysgu, bob llythyren. Ond bûm yn hir yn credu fod plant yn ddeiliaid bedydd; o blegid fod Mr. Charles yn dyweyd eu bod yn yr eglwys dan bob goruchwyliaeth, ac nad oes un gorchymyn nac esampl yn y Beibl yn eu tori allan. Ond pan ddarllenais lyfrau y Parch. Abraham

Digitized by Google

Booth, ar *Natur Teyrnas Crist*, mi welais mai geni yn ol y cnawd, o hâd naturiol Abraham, oedd yn rhoddi hawl i fod yn aelodau o eglwys yr hen oruchwyliaeth; ond mai geni drachefn —o'r Ysbryd yn unig—oedd yn rhoi hawl i fod yn ddeiliaid yr eglwys dan yr efengyl.' Wedi cymmeryd amser i wneyd ymchwiliadau pellach i'r pwngc, bedyddiwyd ef y Sabbath cyntaf yn Mehefin, 1821, gan y Parch. D. Saunder, yn afon Tâf, ger y 'Bont harn.' A chan ei fod yn gymmeriad mor adnabyddus, fel y gellid disgwyl, daeth miloedd ynghyd yn foreu yno, o bell ac o agos.

Wedi bod yn pregethu am rai misoedd, gydag edmygedd mawr, yn amryw o eglwysi y Bedyddwyr, derbyniodd alwad i fod yn weinidog ar eglwys Gymraeg o Fedyddwyr yn Llundain —lle y bu am y pum mlynedd dyfodol, gan ddyfod bob hâf i Gymru i'r cymmanfaoedd, &c. Ac i ddyn mor fawr, mor awyddus am wybodaeth, mor ymroddgar a diwyd, bu y pum mlynedd hyn, yn y fath le manteisiol, o gymmhorth dirfawr i'w ddadblygu. Athrofa o werth mawr fu pum mlynedd Llundain iddo.

Yn niwedd hâf 1826, pan yn ymyl bod yn 29ain oed, symmudodd i fod yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr yn Abertawe, yn olynydd i'r enwog Joseph Harris (*Gomer*), yr hwn oedd wedi bod yno yn weinidog am 25ain mlynedd—enw yr hwn oedd yn adnabyddus i bawb trwy y Dywysogaeth yn ei oes. Bu Dr. Davies yn weinidog yno am 29ain mlynedd. Pan ddaeth i Abertawe, nid oedd eglwys arall berthynol i'r Bedyddwyr o fewn wyth milldir i'r lle; ond trwy ei ymdrechion mawrion, a'i ddylanwad, bu yn foddion i adeiladu capel mawr Bethesda, dechreu amryw achosion, ac adeiladu amryw o gapeli yn y cylch; a myned, weithiau, bron yn gyfrifol am y ddyled ei hun. Gwnaeth waith mawr yn y cyfeiriad hwn. Nid yn unig efe oedd y pregethwr enwocaf yn yr holl gymmydogaethau, ond efe hefyd oedd y dyn mwyaf ei ddylanwad yn yr holl gylch. Dywed un o'i gyd-oeswyr, tra y bu yn Abertawe:—'Efe oedd prif ddyn y dref yn mhob mudiad gwleidyddol, rhyddfrydig, a diwygiadol. Yr oedd yn fath o arweinydd i'r fyddin ryddfrydig yn ei hamddiffyniad o'i hawliau, ac yn ei hymosodiadau ar lochesau y gwrthwynebwyr, yn yr etholiadau trefol a seneddol.'

Ond yn niwedd 1853, bu farw ei anwyl briod; yr hon na bu erioed ymgeledd fwy cymmhwys i'w phriod na hi. Annichonadwy oedd bod bywyd priodasol dedwyddach na'u bywyd hwy. Credai mai 'Mary' oedd y fenyw fwyaf cyflawn o rinweddau ar wyneb yr holl ddaear. Bu yn y capel yn yr addoliad, foreu a hwyr, y Sabbath yr oedd ei chorph yn y tŷ—am y credai mai dyna y lle goreu ganddi hi iddo fod. Effeithiodd y golled hon o'i anwyl 'Mary' arno; ac nid oedd Abertawe yr un fath iddo ef byth mwy! Felly, yn hâf 1855, derbyniodd alwad o eglwys Aberteifi. Wedi bod yno bum mlynedd, yn gwneyd gwaith mawr a daionus, symmudodd i ymgartrefu gyda'i unig ferch, yr hon oedd yn byw yn Cwmafon, Morganwg, gyda'r bwriad o beidio cymmeryd gofal eglwys byth mwy. Yr oedd eglwys Aberafon, yr hon oedd ychydig gyda milldir o dŷ ei ferch, heb weinidog ar y pryd; a bu am y pedair blynedd canlynol yn weinidog arni. Wedi hyny ciliodd yn llwyr o'r weinidogaeth sefydlog. Ond ni byddai nemawr Sabbath heb fod, ys dywedai, 'yn yr harness.' Teithiodd lawer, yn ol galwadau, i bregethu yn ystod y pedair-blynedd-ar-ddeg diweddaf o'i fywyd, pan oedd heb ofal eglwys—trwy Ddeheu a Gogledd Cymru, Llundain, Liverpool, Manchester, &c.—heb un arweinydd; ac ni ddigwyddodd iddo un ddamwain. Yr oedd mor gyfarwydd gyda'r gwahanol ffyrdd haiarn, eu gorsafau, ac amser y trênau, &c., fel na chredai llawer mai dall oedd efe.

Yn ngwanwyn, 1873, symmudodd ei fab-yn-nghyfraith o Gwmafon, i fod yn weinidog yr eglwys ieuangc addawol yn Moriah, Llanelli; ac yntau a symmudodd gyda'r teulu. Byddai yn llanw pulpudau yn fynych yn y cylchoedd hyny, hyd o fewn tri mis i ddiwedd ei fywyd.

Yr oedd yn un o'r dynion mwyaf dedwydd. Hoffai gymdeithas pobl ieuaingc—yn neillduol ei wyrion. Nid aeth efe yn hen o gwbl, o ran ei deimladau. Yr oedd yn orawyddus am lyfr newydd hyd ddiwedd ei oes. Pregethodd y tro diweddaf yn Moriah, ar Tachwedd 19eg, 1875, oddi wrth *Hebreaid* iii. 1—6. Yn fuan ar ol hyn, tarawyd ef yn ysgafn â'r parlys; a pharhaodd i'w cael yn drymach—nes, erbyn Sabbath Chwefror 13eg, 1876, yr oedd wedi colli ei lefer ydd. Ni ddywedodd air mwy, ond *ie*, a *nage*. Y nos Fawrth ganlynol, aeth megys i drwmgwsg; ac felly y parhaodd hyd dri o'r gloch boreu y Gwener canlynol—pan y deffrodd yr ochr draw, mewn gogoniant! Hebryngwyd ei gorph y dydd Mercher canlynol gan dorf fawr; ac fe'i rhoddwyd, yn ol ei ddymuniad yn y gell yn mynwent Bethesda, Abertawe, lle yr oedd cyrph ei briod, ei rhïeni, a'i fam yntau.

Wrth derfynu, ceisiwn roddi darluniad byr, a goreu y gallwn, o'i alluoedd a'i nodweddion. Yr oedd yn ddyn o gorph a meddwl nerthol iawn. Yr oedd pob gallu o'i eiddo yn fawr, a'r oll yn agos iawn a bod yn gydbwys. Yr oedd yn gymmaint o ddyn cynnadledd ag ydoedd o ddyn pulpud. Nid oedd gwrthwynebiad iddo ef ond cyfrwng i arddangos ei nerth; etto yr oedd yn hynod gymdeithasgar a chyfeillgar. Defnyddiai resymeg bur yn fynych gyda nerth a deheurwydd i dynu i'r llwch noddfeydd twyll a chyfeiliornad. Byddai rhesymeg yn ei law megys cleddyf Goliath yn llaw Dafydd—gyda'r hwn y byddai yn fynych yn cyflawni gwrhydri ar uchel-fanau y maes—o blaid y dadguddiad dwyfol, cydraddoldeb crefyddol, egwyddorion Cristionogaeth, hawliau yr efengyl ar ddynion, ei rhagoroldeb ar bob cyfundrefn arall, a gorucheledd a chyssondeb yr iachawdwriaeth dragwyddol yn Nghrist: a chodai fanerau y Groes ar hyd tiriogaethau y gelynion yn arwyddion o fuddugoliaeth lwyr a chyflawn.

Yr oedd ei gôf yn ddiarebol a rhyfeddol. Byddai yn sicr o adnabod person wrth ei lais, serch y byddai 30ain mlynedd wedi myned heibio er pan y cyfarfu âg ef. Gallai adrodd y Beibl bron oll; a gallai ddyweyd yn mha lyfr, pennod, ac adnod, y byddai rhan o frawddeg a grybwyllwyd iddo. Yr oedd ei gôf megys llyfrgell fawr, neu drysordy anferth, yn llawn o drysorau amrywiol, yn ddosbarthiadau trefnus, yn eu lleoedd priodol, yn ol eu natur, pan y byddai galwad am danynt; a gosodai yr oll yn wasanaethgar i'r genadwri fawr a gyhoeddai; canolbwynt yr hon oedd—'Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol.'

Yr oedd ei ddychymyg, er mor gryf a beidd-

Digitized by Google

gar, etto bob amser dan lywodraeth ei farn, pa mor uchel bynag yr ymgodai. Pan yn yr 'hwyl fawr,' yn feistr y gynnulleidfa, yr oedd pob peth o dan ei lywodraeth ef. Yr oedd ei holl alluoedd megys cattrawd drefnus, yn cadw eu lleoedd priodol, ac yn cyflawni eu dyledswyddau eu hunain. Yn hyn, yn ddiau, yr oedd yn rhagori, ac yn cael ei gydnabod yn dywysog galluog yn 'myddinoedd y Duw byw.' Yr oedd ei barch a'i ymostyngiad yn ddiderfyn i awdurdod geiriau y Beibl! Yr oedd yr Ysgrythyr iddo ef yn derfynol ar bob pwngc! Credodd, ac ymddibynodd, o'i faboed, yn ddiysgog hyd derfyn ei oes ar yr addewid—'Mi a arweiniaf y deilliaid ar hyd ffordd nid adnabuant,' &c.

Cafodd fyw am dros 78ain mlynedd; ac yr oedd ei fywyd sanctaidd ef yn fywyd o lafur mawr, gwasanaeth mawr, ac o lwyddiant mawr, a bywyd gogoneddus hefyd—a'i ddiwedd oedd 'tangnefedd.'

DAVIES, Parch. DANIEL, o Tan-y-groes. Pregethwr adnabyddus gyda'r Methodistiaid Calvinaidd oedd efe yn Ngheredigion; ac un, o herwydd ei amryfal neillduolion, a ystyrid yn 'gymmeriad,' fel y dywedir. Fel llawer o wŷr blaenaf Cymru yn y blynyddoedd a aethant heibio, ni chafodd efe fanteision addysg elfenol, na'i goethi yn un o'r athrofeydd; a chyda llaw, nid oedd efe yn ffafriol iawn i roddi addysg i bob pregethwr, a'r un faint i bawb. Megys gyda'r asen wyllt, fe'i daliwyd ef yn ei fis, er ei fod cyn hyny yn byw yn annuwiol. Un tro, aeth i wrandaw ar y Parch. Thomas Richards, Abergwaen, yn pregethu yn ei ardal enedigol. Y bregeth oedd yr hon a elwid 'Pregeth y mân Gelwyddau;' ac yr oedd hono drwyddi yn bortrëad mor gywir o'i fywyd ef, fel y dywedodd ynddo ei hun:—'Yr wyf yn cofio fy meiau heddyw; a gwae fi yn awr bechu o honof.' Credai yn llwyr mai ei feistr, Mr. Levi Thomas, o Blas Aberporth, a roddodd i Mr. Richards yr amlinelliad o'i fywyd ef; a theimlai yn flin at Mr. Thomas o'r herwydd. Darbwyllwyd ef o'i gamsyniad, fodd bynag; ac o hyny allan, teimlodd yn ddwys oddi wrth fin y genadwri. Canlyniad y bregeth fu gwneyd Daniel yn ddyn newydd. Ymunodd â chrefydd yn Mlaenanerch, ac yna ymgymmerodd ar unwaith â'i ddyledswyddau. Daeth yn enwog am ei allu i ail adrodd pregethau: a thyrai y bobl o'i amgylch i glywed y cyfryw. Y pryd hwn, yr oedd y Parch. Ebenezer Morris yn byw yn Mlaenanerch; ac yr oedd ganddo ef feddwl go fawr am y gŵr ieuangc.

Wedi priodi â Beti, fel y galwai ei wraig, aethant i fyw i Tŷ hen, ar dir y Plas, ac oddi yno i gymmydogaeth Aberporth. Perthynai iddo amryw neillduolion. Yr oedd yn un rhagorol pan ar ei liniau, a gallu ei feddwl yn fywiog a tharawiadol. Cymhellid ef, o blegid hyn, gan lawer i bregethu; ac yr oedd y Parch. John Jones, Blaenanerch, ac yntau, yn ymgeiswyr ar yr un pryd. Cafodd y ddau ddechreu pregethu yn y fl. 1833; ac yr oedd pregethau Daniel Davies, fel efe ei hun, yn gryno ac yn llawn arabedd, yn cyflwyno trefn y cadw i sylw y gwrandawyr yn glir a hawdd eu deall. Yr oedd galw mawr am ei wasanaeth fel siaradwr dirwestol a gwleidyddol hefyd, o herwydd ei arabedd a'i barodrwydd i ymadroddi. Rhwng pob peth, yr oedd yn gymmeriad hynod, a gwir wreiddiol. Bu farw ar Ionawr 11eg, 1875, yn 78ain mlwydd oed; wedi bod yn pregethu am 42ain mlynedd. Treuliodd ei holl oes o'r bron ger Aberporth; ond aeth yn aelod i Tan-y-groes yn ei flynyddoedd diweddaf.

DAVIES, DAVID: athraw duwinyddol Coleg y Bedyddwyr yn Hwlffordd. Yr oedd yn fab i Benjamin Davies, gweinidog cyntaf y Bedyddwyr yn y dref hono. Yn 1818, derbyniwyd ef i Athrofa y Fenni, pan yr oedd tua deunaw mlwydd oed. Cynnaliwyd ef yn y Fenni gan Athrofa Stepney; ac wedi bod yno am ddwy flynedd, aeth i Stepney i orphen ei addysg. Wedi hyny, efe a ymsefydlodd yn Evesham, yn gyd-weinidog â Laurance Butterworth—wedi marwolaeth yr hwn yr ymgymmerodd â holl ofal yr eglwys. Bu yn llafurio yno yn llwyddiannus hyd 1837; pryd y derbyniodd yr alwad a anfonwyd iddo gan ei fam-eglwys yn Hwlffordd. Pan sefydlwyd Athrofa Hwlffordd, yn 1839, etholwyd ef yn llywydd ac yn athraw duwinyddol arni; yr hon swydd, yn chwanegol at ei lafur gweinidogaethol, a lanwodd efe yn effeithiol hyd ei farwolaeth; yr hyn a gymmerodd le Mawrth 19eg, 1856.

DAVIES, Syr DAVID, K.C.H., M.D. Mab oedd efe i Richard Davies, o'r Llwyn, yn sir Aberteifi. Ganwyd ef yn y fl. 1793. Bu yn dilyn ei alwedigaeth fel meddyg yn Hampton, Middlesex, am amryw flynyddoedd; a daeth mor enwog yn y gelfyddyd hono fel y gwnaed ef yn feddyg teuluaidd i'r brenin William IV., a'r frenhines Adelaide. Gweinyddodd ar ei fawrhydi pan ar ei wely angau. Gwnaed ef yn farchog gan y frenhines Victoria ar ei hesgyniad i'r orsedd. Bu farw mewn lle o'r enw Lucca, yn Italy, Mai 10fed, 1865, yn 72ain mlwydd oed.

DAVIES, Y Parch. D. CHARLES, M.A., Trefecca. Tuag at adnabod, gwerthfawrogi, a manteisio i bwrpas ar gymmeriad, ystyrir ei fod yn angenrheidiol gwybod rhywbeth am le ei enedigaeth, pwy a pha fath oedd ei rieni, o ran amgylchiadau, cymmeriad, a theithi meddyliol, yn gystal ag yn mha amgylchiadau y dygwyd ef i fyny. Y rheswm am hyn yw, fod personau a chymmeriadau yn etifeddu llawer o bethau —megys galluoedd, a thueddiadau naturiol a moesol—yn eu perthynas â'u rhieni; a bod pob rhyw amgylchiad y deuir i gyffyrddiad âg ef, megys natur a nodwedd y golygfeydd a'i hamgylchynent, nodweddion eu cyfoedion, ac yn wir, bob peth o'u hamgylch, yn effeithio arnynt —yn elfenau yn ffurfiad eu cymmeriad. Yn yr amgylchiadau yr amaethir ac y dadblygir galluoedd a thueddiadau cynhenid, ceir weithiau alluoedd cryfion; ond fod yr amgylchiadau yn hynod o anfanteisiol i roddi iddynt amaethiad priodol, a dadblygiad llawn. Bryd arall, ceir fod cyflawnder o amgylchiadau cymmhwys yn gwneyd i fyny ddiffyg galluoedd naturiol ac anghyffredin.

Yr ydym yn casglu fod cyfartaledd dymunol o'r ddau yn hanes gwrthddrych yr ysgrif hon—fod y mewnol cryf a chyfoethog yma, a'r holl amgylchiadau, yn dra ffafriol i ddadblygiad aeddfed. Hanodd o deuluoedd rhagorol, o du ei dad a'i fam; a chan eu bod hwy mewn amgylchiadau bydol cysurus, cafodd bob mantais allanol i'w holl ragoriaethau amrywiol

Digitized by Google

gryfhau, dadblygu, ac aeddfedu yn llawn—gan wneyd cymmwynaswr i'w wlad yn ystyr goreu yr ymadrodd.

Aberystwyth gafodd yr anrhydedd o fod yn lle ei enedigaeth; a hyny ar Mai 11eg, 1826. Enw ei dad oedd Robert Davies—gŵr rhagorol o ran cymmeriad, a thra defnyddiol fel aelod o gymdeithas. Ymddengys fod llafur Cristionogol yn llinell amlwg yn nheulu y tad. Bu gan y teulu hwn law amlwg ac effeithiol yn sefydlu yr achos Methodistaidd yn eu hardal. Yr oedd y diweddar Barch. Owen Jones, o'r Gelli, yn gefnder i Robert Davies; a chawn hwy eu dau gyda'u gilydd yn parhau nodwedd y teulu mewn llafur gyda'r Ysgol Sabbothol yn Aberystwyth, pan yn ddynion ieuaingc. Prawf oedd yr ymdrech fu gyda'r Ysgol Sabbothol yn Nhrefechan o'r defnyddioldeb cymdeithasol Cristionogol oedd yn y teulu, ac a feithrinid i bwrpas ganddynt hwythau.

Yn y flwyddyn 1825, y mae Robert Davies yn ymbriodi âg Eliza, merch y diweddar Barch. David Charles, o Gaerfyrddin; yr hon oedd yn ferch ieuangc grefyddol, rhinweddol, a hynod lafurus gyda'r Ysgol Sabbothol. Cafodd felly briod mewn llawn cydymdeimlad â'i weithgarwch crefyddol ei hun; ac ni phallodd yr ysbryd hwn ynddi tra y bu byw. Ganwyd iddynt bedwar o blant; sef, D. Charles; R. J. Davies, Cwrt Mawr; Mrs. R. Roberts, Bridge street, Aberystwyth; a Mrs. Jenkin Davies; ac y mae defnyddioldeb Cristionogol y rhieni i'w ganfod ynddynt oll. Awyrgylch grefyddol oedd nodwedd yr aelwyd; ac ar yr aelwyd hon, meddir, y cyfarfyddai y diweddar Barch. John Elias, ac eraill, i ffurfio *Cyffes Ffydd* y Methodistiaid Calfinaidd; a diau mai y rheswm am gyfarfod yn y lle hwn oedd cydymdeimlad y teulu â'r amcan.

Naturiol hollol i un mor ymdrechgar gydag addysg grefyddol ei blant ei hun, yn gystal a'r eiddo eraill, oedd gofalu hefyd am addysg fydol ei blant—a hono o'r fath oreu. Yr oedd yr amgylchiadau yn caniatau hyny. Cawn felly D. Charles Davies yn Ysgol Rammadegol Mr. John Evans—gŵr o gyrhaeddiadau meddyliol lled anghyffredin. Bu y diweddar Barch. Lewis Edwards, o'r Bala, hefyd yn yr ysgol hon. Yn y flwyddyn 1837, ar agoriad Athrofa y Bala, y mae gwrthddrych yr ysgrif hon yn mysg yr efrydwyr, pan nad oedd ond rhwng deg ac unar-ddeg oed; ac yr oedd mor ymroddgar, ac mor lwyddiannus, fel yr ennillodd y radd o M.A. yn Mhrif Athrofa Llundain, pan yn un-ar-hugain oed. Bu hefyd, am beth amser, yn Edinburgh. Cynnyddodd mewn gwybodaeth a dysg, a chynnyddodd mewn defnyddioldeb a pharch, fel y cynnygiwyd iddo, yn mhen rhai blynyddoedd, yr anrhydedd o D.D., gan Brif Athrofa Glasgow. Ni theimlai duedd, fodd bynag, i dderbyn y cyfryw; ac yr oedd y gwrthodiad hwn yn hollol nodweddiadol o hono.

Yn Aberystwyth y dechreuodd bregethu; a phan yn chwech-ar-hugain oed, ordeiniwyd ef—yn y flwyddyn 1852. Bu yn weinidog yn Llanfair Muallt; yna yn nghapel Saesneg Windsor street, yn Liverpool; ac aeth i Lanfair Muallt eilwaith. Pan yno yr ail waith yr ymbriododd â Miss Jane Cooper, o Langollen, merch y diweddar Mr. Ebenezer Cooper—gŵr fu o wasanaeth mawr yno, ac yn nghyfarfod misol sir Fflint, am flynyddoedd. Ar ol hyn, yr ydym yn ei gael yn weinidog yn y Drefnewydd. Ond Llundain a gafodd nerth ei weinidogaeth—o ran amser a sylwedd. Galwyd ef yno yn y fl. 1858; a llafuriodd gydag ymroddiad a llwyddiant am tua phedair blynedd ar hugain. Nid oes ammheuaeth na bu ei weinidogaeth ef yn faeth ysbrydol, yn nerth, ac yn amddiffyn i ieuengctyd lawer o Gymru ar hyd y blynyddoedd hyny. Cyfarfu ei weinidogaeth ef, a'r eiddo Dr. Owen Thomas, holl angen y cynnulleidfaoedd, er mor amrywiol oeddynt. Fodd bynag, wedi gwasanaethu yr achos goreu am flynyddoedd maith, gyda ffyddlondeb teilwng o was yr Arglwydd Iesu Grist, gwaethygodd ei iechyd, a phenderfynodd symmud i Fangor i fyw. Ac ar Tachwedd y 5ed, 1882, y pregethodd am y tro olaf fel gweinidog Jewin Newydd. Yr oedd hyn yn ofid calon i holl Fethodistiaid Llundain; ond bu yn gaffaeliad mawr i Gymru; o blegid er ei fod wedi ymneillduo felly, ni bu yn segur. Bu yn Mangor hyd y flwyddyn 1888, a gwasanaethai bawb gyda chymmeradwyaeth. Y mae yn ddealledig iddo gael gwahoddiad i fyned i Drefecca yn y flwyddyn 1863; ond nid oedd sefyllfa ei iechyd yn caniatau iddo ymgymmeryd â'r cyfrifoldeb a'r llafur. Ond pan fu farw y Proff. Howells, ac y taflwyd Cymdeithasfa y De i gryn anhawsder gyda golwg ar y coleg, teimlodd, pan wahoddwyd ef, rwymedigaeth i gydsynio; ac ymdaflodd â'i holl nerth i'r gwaith, gyda boddhâd diderfyn iddo ei hun, a mawr gymmeradwyaeth y cyfundeb, a budd ammhrisiadwy i'r efrydwyr. Teimlad a barn pawb oedd, y dylasai fod yn y cylch hwn er's blynyddoedd. Bu mewn cyssylltiad âg Athrofa y Bala. Traddododd ddarlithiau i'r efrydwyr ar Ysbrydoliaeth y Beibl yn y flwyddyn 1871. Bu yn darlithio yno hefyd yn y flwyddyn 1886, pan yr oedd Dr. Lewis Edwards yn wael ei iechyd. Yr oedd ei gymmhwysderau i agor, maethu, a chryfhau meddyliau ieuaingc yn amlwg i bawb; a phan yr ymgymmerodd â bod yn Brifathraw yn Nhrefecca, gosododd Gymdeithasfa y De o dan rwymedigaeth fawr. Yr oedd yntau wrth fodd ei galon yn y gwaith; a bydd llafur yr ychydig flynyddoedd hyn yn dwyn ffrwyth am amser maith. Darlithiodd lawer pan yn Llundain; ac yr oedd ganddo ddosbarth Beiblaidd digymmhar yn Twr-gwyn, Bangor—ar gyfer pa un y llafuriai yn gydwybodol. Ond, y diwedd a ddaeth—ac yn annisgwyliadwy, ac er mawr drallod, nid yn unig i'r cyfundeb, ond i'r holl genedl. Galwyd y gwas da hwn at ei wobr ar Medi 26ain, 1891, yn Bron Hwfa, Upper Bangor, wedi cystudd cymmharol fyr! Ymadawodd ei ysbryd i'r byd mawr ysbrydol y soniasai gymmaint am dano, a disgynodd prudd-der dros Gymry oll! Medi 30ain, dygwyd ei weddillion i Aberystwyth, i orphwys hyd foreu mawr yr adgyfodiad cyffredinol. Ei ddymuniad ef oedd fod ei angladd yn un *private.* Syml oedd pob peth ynglŷn â'r angladd.

DAVID CHARLES DAVIES,<br>*Born May* 11*th*, 1826,<br>*Died Sept.* 26*th*, 1891,

oedd yr oll oedd ar ei arch! Gwasanaeth syml, tawel, trwy ddarllen ychydig o Air Duw, ac ymostwng mewn gweddi ac addoliad, gafwyd yn Bron Hwfa cyn cychwyn; a'r un modd symledd perffaith oedd y gwasanaeth yn Aberystwyth.

Mawr yw colledion y cyfundeb y blynyddoedd hyn. Yn Awst, yr un flwyddyn, y bu farw Dr. Owen Thomas. Yr oedd y ddau wedi

Digitized by Google

cydlafurio am flynyddoedd; ac yn Prince's Road, Liverpool, hen gapel Dr. Thomas, y pregethodd Mr. Davies y tro diweddaf. Yn mhen pum wythnos, yr oedd yntau yn ei fedd o ran ei gorph, a'i ysbryd mawr yn cartrefu gyda'r Arglwydd.

Yn awr, wrth edrych arno yn ol yr hanes y gellir ei gasglu, ac yn ol peth adnabyddiaeth bersonol, yr ydym yn gweled hâd y rhai sanctaidd yn cael eu bendithio, tŷ y cyfiawn yn cael ei adeiladu, a llafur rhieni ac awyrgylch grefyddol yn dwyn ffrwyth. Gwelwn ynddo efrydydd ymroddgar, gweithiwr dïarbed, priod tyner a serchog, athraw rhagorol, gweinidog cymmhwys y Testament Newydd, ac awdwr gwych yn mhob ystyr. Ynddo gwelwn feddyliwr annibynol cryf, manwl, a threiddgar; a phregethwr yn ffurfio dosbarth ynddo ei hun, heb neb cyffelyb, na neb yn ei bwyll yn ceisio ei efelychu. Gwelwn ynddo un lanwodd bob cylch o gyfrifoldeb ac anrhydedd y gallasai ei gyfundeb osod arno gydag urddas ac effeithiolrwydd.

Yn y flwyddyn 1873, yr oedd yn llywydd y Gymmanfa Gyffredinol. Yn y flwyddyn 1884, yr oedd yn llywydd Cymdeithasfa y Gogledd, a Chymdeithasfa y De yn 1890. Galwyd ef hefyd fwy nag unwaith gan y Gogledd a'r De i wasanaethu ar ordeiniad gweinidogion. Bellach, ni geisiwn edrych ar rai o'i nodweddion yn y cyssylltiadau crybwylledig.

Bychan o gorpholaeth ydoedd, a bywiog ei ysgogiadau. Yr oedd bywyd yn ei lygaid, a sirioldeb yn ei wedd; a theimlid ar unwaith fod y boneddwr, o natur ac ymddygiad, ynddo. Hawdd, ar yr un pryd, ydoedd i'r plant ac i'r tlawd nesau ato ef.

Sail ei fawredd oedd ei feddwl; a chydnabyddir yn gyffredinol ei fod yn un o brif feddylwyr ei oes. Yr oedd y dadansoddol yn amlwg a chryf ynddo; ond dadansoddi mewn trefn i grynhoi ac uno. Rhagorai yn ieuangc mewn rhifyddiaeth; ac yr oedd ol hyny ynddo ar hyd ei oes mewn manylder a chywirdeb. Nis gallai oddef adrodd adnod yn anghywir.

Yn ei gymdeithas yr oedd bob amser yn siriol a serchog, a chymmerai ran helaeth yn yr ymddiddan; a thra y byddai yr ymddiddan fel rheol yn fywiog a dyddorol, byddai bob amser yn ddyrchafol ei natur. Hoffai gyfnewid meddyliau â'r rhai fyddent yn bresennol; yn yr hyn y deuai ëangder ei gydnabyddiaeth â meusydd gwybodaeth i'r golwg. Yr oedd ei barodrwydd yn ddigyffelyb, a'i ddyddordeb yn hanes cymmeriadau cyhoeddus y byd a'r eglwys yn fawr iawn. Y fath oedd bywiogrwydd ei feddwl fel mai prin yr elai dim heibio heb ei sylw. Lawer gwaith y buom yn gresynu na buasai rhywun â llaw-fèr yn ymyl, i gofnodi ei sylwadau cyfoethog mewn ymddiddanion cyfeillgar. Cofus genym, un prydnawngwaith, pan y daeth enwogion y pulpud Cymraeg dan sylw, ac y cymmhellwyd ef i draethu ei olygiadau arno:—ar unwaith, wele adolygiad manwl, ëang, ar brif bregethwyr yr enwadau crefyddol, a'r Eglwys Sefydledig. Ymddangosai yn berffaith adnabyddus â theithi meddyliol y naill a'r llall; ac â maes eu hefrydiaeth, yn gystal ag â'u dull o efrydu. Adnabyddai ragoriaethau a diffygion pob un; ac yn hyn yr oedd mor ddi-wenwyn a baban. Beirniadaeth orchestol, onest, aeddfed hollol, ydoedd; a buasai yr addysg oreu yn bossibl i bregethwyr ieuaingc. Nid gwastraff ar amser oedd cymdeithasu âg ef; ond yn hytrach, dysgyblaeth feddyliol, trysorfa o wybodaeth, a dylanwadau da.

Er ei fod yn hoff o lefaru lle y caffai glustiau a llygaid bywiog, yr oedd efe yn wrandäwr bywiog. Nid pob pregethwr da sydd yn wrandäwr da. Yr oedd efe yn hoff o wrandaw; ac ni chyfyngai hyny i'w enwad ei hun, nac at y pulpud. Gwrandawai â'i holl nerth—yn enwedig pan gaffai yr hyn a'i boddlonai; ac nis gallai beidio dangos ei gymmeradwyaeth. Yr oedd megys pe yn gorchymyn ei hun i wrandaw â'r llwyr ymroddiad a'i nodweddai yn mhob peth.

Fel dyn, a Christion, yr oedd iddo barch dwfn yn marn a theimlad ei holl gydnabod; ac y mae ei goffadwriaeth yn perarogli. Yr oedd ei holl bersonoliaeth yn awgrymu purdeb, fel y dywedai rhywun, 'Os oedd wedi syrthio yn Adda, na chwympodd wedi hyny.' Rhoddai yr argraph o ddyn pur ar ddyeithriaid hollol—hyd yn oed ar yr heol, neu yn yr orsaf. Ac yr oedd y parch hwn iddo yn nheimlad dynion fel boneddwr a Christion yn ddylanwad daionus arnynt; ac yn eu parotoi i roddi gwrandawiad a chrediniaeth i'w eiriau.

Fel pregethwr, mae'n debyg, yr oedd efe yn fwyaf adnabyddus i'r lliaws; ac fel yr ydym wedi awgrymu, nid oedd ei gyffelyb; ac yr oedd ei efelychu yn ammhossibl.

Bywyd oedd ei brif nodwedd. Nid trwst a olygwn; ond yni meddyliol, goleuni, a gwres. Byddai cynnulleidfa astud o wrandäwyr yn cynnhyrfu ei enaid i frwdfrydedd sanctaidd. Yn wir, yr oedd un gwrandawr byw mewn rhyw gongl o'r addoldy yn rhwym o dynu ei sylw; a phregethai i hwnw, os na byddai eraill yn fyw ac yn astud.

Pan ddarllenai ei destyn, ychydig iawn o amcan fyddai gan neb—bydded ddoeth, neu anwybodus—pa fater a gymmerai mewn llaw, na pha agweddau i'r mater hwnw a gymmerai dan sylw. Llwybrau disathr, fel rheol, fyddai ei lwybrau ef; a byddai y gwirionedd, fel yr ymagorai o flaen ei feddwl, yn tanio ei ysbryd. Nid cynnulleidfa o ddynion yn unig a gynnhyrfai ei ysbryd; ond tegwch gwirionedd, a'i gymmhwysder ar gyfer enaid dyn, ac angen pechadur. Sylweddolai y gwirionedd pan yn ei draethu, fel mai nid tân dyeithr oedd y tân. Yn ei oleuni a'i wres, cynnorthwyid a galluogid eraill i sylweddoli y gwirionedd. A'r fath ydoedd y sylweddoliad hwn fel, ar adegau o wendid corphorol, y byddai raid iddo ymgadw o gyfarfodydd cyhoeddus mewn cymmanfa hyd yr adeg y byddai i gymmeryd rhan ei hunan.

Ei fod yn efrydydd ysgrythyrol trwyadl a deimlid bob amser, hyd yn oed gan rai lled arwynebol. Yr oedd efe gartref yn yr Ysgrythyrau. Ac er ei fod yn hyddysg, ïe, yn efrydydd pob cangen o'r braidd o lenyddiaeth, Gair Duw oedd ei gartref; a hwn oedd ei awdurdod. Edmygai natur yn ddiderfyn—natur ei hun, ac nid darluniau o natur. Cwestiwn a ofynodd unwaith, pan yn myned mewn cerbyd trwy le hynod o brydferth, oedd, 'A oes rhywun yn pechu yn y fan hon?' Yr un pryd, y dadguddiad yn yr Ysgrythyrau oedd ei fwyd a'i ddiod ef. Dywedai ei fod yn darllen y Beibl er gwybod ewyllys Duw, ac yn darllen y newyddiadur er gweled pa fodd yr oedd efe yn gweithio allan ei ewyllys. Meddwl Duw a welai efe yn natur, a meddwl Duw yn yr Ysgrythyrau hefyd; ac efrydai hwynt yn eu hegwyddorion

Digitized by Google

cyffredinol. Ac er ei fod yn hoff o ranau neillduol o'r Ysgrythyrau, efrydai yr oll yn eu hegwyddorion tragwyddol, gan ddwyn y cymmhellion mwyaf dyrchafedig i'r dyledswyddau mwyaf distadl. Meistrolai lyfrau eraill—ond ymostyngai i'r Ysgrythyr Lân! 'At y gyfraith a'r dystiolaeth' yr appeliai efe am y gair olaf! Hyn, sylwais, ydyw y rheswm fod y dwyfol i'w deimlo yn ei weinidogaeth. Gallai ddyweyd gyda llawer o briodoldeb, 'Yr hyn a glywais gan fy Nhad a fynegais i chwi.' Safai megys rhwng Duw a dyn! Clust ymwrandawai—yna llefarai! Troai wyneb ei ysbryd at Dduw—ymwrandawai â holl nerth ei ysbryd beth oedd ewyllys Duw—meddwl Duw; ac mewn ffyddlondeb efe a'i mynegai i'w frodyr! Yn mhresennoldeb pob dadganiad o feddwl Duw, safai yn syn, â'i enaid mawr yn llawn gwyleidd-dra a defosiwn, yn darllen meddyliau Duw, gan adael i oleuni dwyfol lewyrchu i mewn i'w holl enaid—Duw yn llefaru—Ysbrydoliaeth yn bresennol! Yn y wedd yna yr edrychai efe ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Mynych y gofynai efe am ryw ymadrodd duwinyddol cyffredin, a oedd yn Feiblaidd? Neu, os nad oedd, pa ymadrodd oedd yn cynnwys y syniad, neu y peth agosaf ato. Fod ymadrodd duwinyddol yn ysgrythyrol a roddai werth ac ystyr ynddo iddo ef. Yr oedd geiriau yr Ysgrythyr yn bwysig felly yn ei olwg. Effaith y parch diderfyn hwn i'r Ysgrythyr, yr hwn a godai o'i efrydiaeth drwyadl o hono, ydoedd yn llanw ei weinidogaeth â difrifwch teilwng, ac urddas mawr, gan ei ddysgu hefyd i roddi gwerth mawr ar enaid dyn, a phwysigrwydd dyladwy i fywyd. Elfenau oedd y rhai hyn a ddywedent i bwrpas ar foethau a phleserau dynion. Nid ymosodiadau mewn ymadroddion cryfion ar bechodau neillduol oedd ei weinidogaeth ef. Na: yr oedd yn rhywbeth llawer mwy effeithiol a difäol i bechod. Mor agos ydoedd at Dduw yn ei fyfyrdodau gwastadol, fel y teimlid dylanwad dwyfol yn ei bregethau. Yr oedd dwyn 'barn a llosgfa' ar lygredd yn ei weinidogaeth. Gallai na byddai yn enwi pechodau neillduol. Ar yr un pryd, trwy y gwerth a roddai ar ddyn, ac yn gymmaint a'i fod ei hun wedi ei fedyddio â'r dwyfol, elai yr ystyriol adref yn gryfach ei ewyllys, ac yn burach ei amcanion. Yr oedd ei feddyliau, nid yn oleuni oer, ond yn wres byw yn ngrym ei sylweddoliad o Dduw, pwysigrwydd gwirionedd a mawredd enaid anfarwol. Yr oedd yn rhwym o deimlo yn ddwfn; a gwresogai ei ysbryd, gan gynnhyrfu ysbrydoedd ei wrandawyr. Nid deall (*intellect*) y wlad a gafodd golled yn ei angau—ond teimladau dyn. Ystyriai deimladau naturiol personol a chymdeithasol yn rhanau cyfreithlawn o ddyn, ac i'w maethu a'u defnyddio. Nid hawdd, fe allai, i'r cyffredin oedd cofio ei bregethau; ond teimlai pob enaid ystyriol, gan gyfranogi o ysbryd, parch, gostyngeiddrwydd, a phob rhyw ragoriaethau. A phan y byddai yn fwyaf effeithiol, distawai dwrf cynnulleidfa—distawai gynnhyrfiadau ac aflonyddwch ysbryd dyn mewn addoliad.

Gweinidogaeth yn sobri y meddwl ydoedd yr eiddo ef mewn modd arbenig. Prin y gallai hyfdra anadlu yn yr addoldy pan y byddai arweiniad y gwasanaeth yn ei law ef. A dyna ddylanwad ei weinidogaeth. Yr oedd yr elfenau yna yn ei weinidogaeth, am eu bod ynddo ef yn nodwedd ei bersonoliaeth. Yn mhob man yr un oedd ei ddylanwad ef. Golwg fyfyrgar oedd arno yn mhob man, â'i feddwl yn llawn gwaith: a pha mor fawr bynag oedd ei allu i oleuo y deall, a dattod anhawsderau, yr oedd lawn cymmaint mewn gwneyd argyhoeddiadau dyfnion, a chynnorthwyo i sylweddoli yr ysbrydol a'r tragwyddol. Effeithiai ar ddynion o bob math—y doeth, a'r anwybodus. Clywsom ef yn dyweyd na wyddai iddo fod yn offeryn tröedigaeth neb erioed; ond yn sicr, yr oedd yr Arglwydd ynddo, a thrwyddo, yn cyffwrdd mewn modd effeithiol âg ysbrydoedd dynion. Nid awchlymu y deall oedd yr unig effaith, na'r penaf, ynddo; ond gwella yr holl enaid. Mewn gair, yn ystyr goreu yr ymadrodd, un o bregethwyr mwyaf effeithiol a dylanwadol ei oes oedd efe.

Fel athraw, drachefn, yr oedd ei ragoriaethau yn llawer, a'i lwyddiant yn fawr. O'r bron na hoffai y cylch hwn yn fwy nag un arall. Cymmerai ddyddordeb anghyffredin yn ei ddysgyblion, gan ffurfio syniad am allu a thueddiadau pob un; a thrwy hyny, yr oedd yn gallu cyfarfod âg angen pob un. Iddo ef yr oedd un enaid yn fawr a phwysig ynddo ei hun. Llafuriai yn gydwybodol ar gyfer ei ddosbarth. Clywsom ef yn dyweyd fod ei ddosbarth Beiblaidd yn costio mwy o barotöad iddo na'r bregeth. Yr oedd y dosbarthiadau hyn yn hynod ddyddorol—ond i rai oedd yn ddibynol hollol ar esboniadau, neu yn gaeth gan dermau duwinyddol. Byddai ganddo ei brif gwestiwn, o gylch yr hwn y gofynai eraill, gan roddi rhyddid i'r neb a fynai ddyweyd ei olygiad. Yna, yn y diwedd, cymmerai ddeng munyd i egluro—yr hyn fyddai o werth mawr. Os codai rhywun wrthwynebiad, neu ddangos tuedd i gael dadl, yr oll a ddywedai fyddai, 'Y mae rhyddid i chwi i feddwl fel yr ydych yn gweled.' Ni ddadleuai â neb.

Yr ydym wedi cael tystiolaethau fod ei ddosbarthiadau yn Nhrefecca yn mhlith y pethau gwerthfawrocaf oedd yn bossibl i rai oedd yn parotoi i'r weinidogaeth. Hoffai yr efrydwyr fel ei blant; a hiraeth plant am dad oedd yr eiddynt hwythau. Yr unig ofid yn y cyssylltiad hwn yw, fod ei dymmor yno mor fyr.

Fel aelod o'r cyfundeb, yr oedd ei le yn fawr yn y De a'r Gogledd. Bu yn llywydd, ysgrifenydd, ac yn arholydd; yn traddodi 'y cynghor' ar ordeiniad, ac yn traethu ar 'Natur eglwys.' Ni chymmerai ran amlwg yn symmudiadau y cyfundeb, er y teimlai y dyddordeb mwyaf yn y cyfarfodydd a'r siaradwyr. Dilynai y gweithrediadau yn fanwl, gan wrandaw yn astud ar bob un a deimlai duedd i agoryd ei enau; a mawr yr hyfrydwch a gaffai wrth adolygu yr areithiau. Ni chlywid ei lais ef, fodd bynag, nes y deuai pwngc o athrawiaeth neu ddyledswydd dan sylw; a phan y byddai lliaws wedi peidio â'u cyffro, ceid prawf amlwg o gyfoeth ei feddwl, a'i barodrwydd digyffelyb. Edrychai ar y mater dan sylw o safle na chyffyrddwyd âg ef gan y rhai a aethant o'r blaen, mwy nag y gwneid gan y rhai a ddeuent ar ol. Dygai i'r golwg 'bethau newydd a hen,' a gwasgarai oleuni a gwres. Er nad oedd dim o'r tyrfus yno, yr oedd yno enaid ar dân, ac yr oedd yn sicr o danio eraill cyn yr eisteddai i lawr.

Ei Ysgrifeniadau.—Gyda golwg ar ei ysgrifeniadau, y maent yn drysorau gwybodaeth a doethineb; ac y mae ei nodweddion ef yn amlwg iawn ynddynt. Cyn iddo fyned i Lun-

Digitized by Google

dain, efe a ysgrifenodd i'r *Traethodydd* ar 'Gydweddiad Ysgrythyr a Chreadigaeth:'—mater na chollodd ei olwg arno hyd y diwedd. Y mae 'y cynghor,' a gedwir yn y *Drysorfa*, yn gynnysgaeth arosol i weinidogion y Gair; ac ni ddarllenasom erioed ddim yn cyfatteb yn well i'r peth ydoedd efe ei hun yn y weinidogaeth. Teimlir fod ei bregethau ar yr Epistol at yr Ephesiaid, y rhai a gyhoeddir yn y *Lladmerydd*, yn gyfoeth llenyddol a duwinyddol. Nid esboniad fel y cyffredin yw ei esboniad ef ar Epistol Cyntaf Ioan. Cymmer afael yn mhrif syniadau y llythyr; ac y mae megys mwnglawdd dihysbydd o gyfoeth. Wedi y cwbl, y mae ei ysgrifau yn y *Traethodydd* ar Gristionogaeth yn ddangosiad o deithi meddyliol neillduol, ac o gydnabyddiaeth fanwl â maes sydd o'r pwys mwyaf yn y dyddiau hyn. Gwelir ei allu dadansoddol i bwrpas yno, yn gystal a chywirdeb barn, a thegwch anrhydeddus yn ei ymwneyd âg ysgrifau awduron eraill. Nid pob dyn a allai gyfarfod syniadau Herbert Spencer, y Proffeswr Seeley, a Comte, gan gydnabod pob gwirionedd a geir gan y cyfryw, a'i ddeol oddi wrth y cyfeiliornadau. Gyda medr dihafal y gesyd y gwirionedd ar un llaw, a'r camddefnydd o hono ar y llaw arall. Diau fod yr ysgrifau hyn yr attebiad pwysicaf sydd wedi ymddangos i'r ysgrifenwyr galluog a grybwyllwyd. Y mae ei ddarlith ar 'Anffyddiaeth yr Oes,' wedi bod yn amddiffyn gwerthfawr i lawer meddwl hefyd.

O ran athrawiaeth, gwnai degwch â dadguddiad yr Ysgrythyrau, 'gan fynegu holl gynghor Duw,' heb weithio un gwirionedd i'r eithafion hyny y paid a bod yn wirionedd. Rhoddai le 'i'r dynol a'r dwyfol yn Nghrist—i Grist fel aberth ac fel esampl—i'r Tadol yn Nuw, heb wneuthur i ffordd â'r Iawn. Amaethai bob da hefyd yn y dyn, a thystiai i'w lygredigaeth:—gosodai grefydd allan fel rhywbeth ymarferol yn y byd hwn; a rhoddai le ar yr un pryd i'r byd tragwyddol yn ei wobrwyon a'i gospau ofnadwy.' Felly, yr oedd yr athrawiaeth yn cyrhaedd y gydwybod; a deuai cyfrifoldeb yn fawr yn nheimlad dyn, purdeb yn brydferthwch, a theimlad o anrhydedd yn rhinwedd. I ddyrchafiad yr holl ddyn, a gogoniant holl briodolaethau Duw, cyssegrwyd ynddo dalentau uchel a disglaer. Nid oedd ei arddull ond ymgais i wneyd tegwch â gwirionedd.

Pa fath oedd ei barotoadau cyffredin ar gyfer y pulpud, a'i ddosbarthiadau, nis gwyddom; ond pa mor lwyr bynag oeddynt, teimlid ei fod yn meddwl ei feddyliau ar y pryd, ac nid yn adrodd cyfansoddiad. Yr ydym yn cofio ei fod yn agor cyfarfod y boreu yn nghyfarfod misol y Gerlan, Bethesda; a'r pwngc oedd, 'Athrawiaeth y Cyfrifiad.' Rhoddodd yr hyn a ddywedodd foddhâd digyffelyb, fel y pasiwyd penderfyniad yn gofyn iddo gyhoeddi ei anerchiad. Ei atteb oedd, nad oedd wedi ysgrifenu un gair; a phe yr elai i ysgrifenu, fod yn bossibl iawn mai nid yn yr un wedd yr edrychai arno. Nid un wedd oedd ar wirionedd iddo ef. I'r un ystyr yr attebodd benderfyniad cyffelyb pan yr oedd wedi agor cyfarfod mewn anerchiad ar 'y Cyfarfod Eglwysig.' Am ei fod yn meddwl ar y pryd yr oedd ei feddyliau yn fyw, ac yn effeithiol, a disgleirdeb yn eu nodweddu. Ac os meddwl yw byw, bu fyw llawer mewn oes fér.

Pan yn rhoddi 'y cynghor,' unwaith, mewn cymdeithasfa, yr oedd yn sôn am i'r gweinidog fod yn Dad yn Nuw i bechaduriaid, ac am bregethu yn agos at y bobl:—nid yn agos at eu deall a'u chwaeth, ond at serchiadau eu calon. Gwirid hyn yn ei weinidogaeth ef. Temtir ni yma i gyfeirio at ddau 'gynghor,' am ei fod ef ynddynt. Yn Aberystwyth, Awst 2il, 1871, yn y cyfarfod ordeinio, sail ei sylwadau oedd *Lefiticus* x. 3:—'Mi a sancteiddir yn y rhai a nesânt ataf.' A'i fater oedd gweinidogion y cyssegr yn sancteiddio Duw. Efe a ddygodd y gweinidog, a'r holl wasanaeth, i berthynas â Duw—addoli Duw, ac amlygu Duw; a'r elfenau tuag at hyny oedd, parch i Dduw, casineb at bechod, a chariad at eneidiau. Dangosodd fel yr oedd parch i Dduw yn dyfnhau parch i ddyn; a rhoddodd brawf ei fod yn teimlo i'r byw oddi wrth ddiffyg parch yn ngwasanaeth y cyssegr. Nid hwyrfrydig y bu tua'r diwedd oedd ei syniad ef am effeithiolrwydd gwasanaeth crefyddol; ond yr oll:—yr emyn, y canu, y weddi, a'r bregeth, a'r gwrandaw hefyd, yn llawn o ddefosiwn ysbryd—a'r gwasanaeth, am ei fod yn fawl i Dduw, yn ddyrchafiad moesol i ddyn. Mynai i'r gwrandaw fod yn ngŵydd Duw—yn mhresennoldeb Duw; lle hefyd y mae dyn yn myned yn fawr a phwysig. Duw a dyn—purdeb a defosiwn—oeddynt yn amlwg ynddo.

Yn 'y cynghor' yn Ninbych, Mehefin 19eg, 1879—yr hwn oedd yn seiliedig ar 1 *Cor.* ix. 22:—'Mi a ymwnaethum yn bob peth i bawb, fel y gallwn gadw rhai'—gwelid mor fyw yr oedd efe i sefyllfa fewnol, feddyliol, a moesol yr oes. 'Pa fath bregethau oedd pregethau i'r oes?' oedd ei fater. Dangosodd mor fyw yr oedd Paul i'w oes ef, a'r tadau Methodistaidd i'w hoes hwythau. Yna cymmerodd yr oes hon yn ei pherthynas âg egwyddorion tragwyddol ac athrawiaethau yr efengyl. Nis gall fod ammheuaeth na ddisgynodd ar yr atteb priodol i'r ymofyniad; sef, mai pregethau er cynnyrchu ac amaethu ysbryd gweddi. Sylwodd fod tuedd yn yr oes i wadu yr athrawiaeth, a pheidio â'r ymarferiad, ac i wadu y sefyllfa ddyfodol, gan gyfyngu bywyd i foesoldeb. Dilynodd hyn i'w achosion; ac i gyfarfod yr agwedd hon ar yr oes, rhaid fod gwirioneddau yr efengyl, trwy fyfyrdod dwys, wedi gwneyd eu gwaith ar ysbryd y gweinidog ei hun—fod mawl a gweddi wedi nawseiddio ei ysbryd ef. Ail elfen yn y pregethu i'r oes hon a ddylai fod cynnyrchu ysbryd cenhadol. Gwelid tuedd i ddibrisio y Sabbath, a'i wneyd yn orphwysfa i'r corph yn unig. Ar gyfer hyn, gweddus oedd fod y weinidogaeth yn argraphu gwerth bywyd, ac yn dwyn i sylw mai mewn gwaith y mae gorphwysfa uchaf dyn. Iachawdwriaeth yr oes, meddai, oedd ysbryd gweddi, ac ysbryd cenhadol. Fel hyn cododd bob cwestiwn i dir uchel. A gwelir mor lwyr yr oedd hyn wedi gafael yn ei feddwl, mewn ysgrif yn y *Drysorfa* am y fl. 1864, ar 'Dduwioldeb a Defnyddioldeb:'—y ddwy elfen fawr a gyfarfyddant yn Nghrist.

Yn y fl. 1867, ceir ysgrif yn y *Drysorfa* ar 'Undeb yr Ysbryd, a dyfalwch i'w gadw;' lle y dengys mai myfyrdod parhaus yn ngwirioneddau yr efengyl a'i cynnyrcha—gwirioneddau a gynnyrchasant yr un naws ar ysbryd Whitfield a Wesley. Undeb ysbryd ydyw, ac nid unffurfiaeth peirianyddol.

Yr oedd efe yn meddu adnabyddiaeth ddofn o Gristionogaeth; a llefarai fel un âg awdurdod ganddo—yr hyn a gyfodai o nerth ei gredíniaeth yn yr efengyl. Yr ydym yn cofio ei fod mewn Seiat Fawr yn Nghymmanfa y Sulgwyn, yn

Digitized by Google

Liverpool, yn gwneyd cyfeiriad at lyfrau ammheuwyr yr oes. Dywedodd ei fod wedi darllen yr oll o honynt oedd yn werth eu darllen; a'i fod yn dawel i ddyweyd mai dynion heb ddeall dim am Gristionogaeth oedd wedi eu hysgrifenu. A phan ddywedodd efe hyny, rhedodd teimlad cryf o dawelwch trwy yr holl gynnulleidfa, a chafodd llawer un fu yn ofni ac yn pryderu orphwysfa yn ei eiriau.

Credai, am hyny llefarai; a cholled i wlad oedd colli un yr oedd ganddi ffydd gref yn ei athrawiaeth.

DAVIES, Parch. EDWARD DAVID. Ganwyd ef Rhagfyr 6ed, 1672. Graddiwyd ef yn M.A. yn Mhrifysgol Rhydychain. Efe a fu yn beriglor St. Bride, ger Pen-y-bont ar Ogwy, a Llansantffraid-ar-Lai, ac yn gorweinydd Llandaf. Bu farw yn 1780, wedi cyrhaedd yr oedran teg o 108 mlwydd.

DAVIES, EVAN: gweinidog yr Annibynwyr yn Llanedi, oedd enedigol o blwyf Llandyssul, Ceredigion, yn y flwyddyn 1749. Urddwyd ef yn weinidog eglwys Llanedi yn 1776; ac un o'r pethau cyntaf yr ymafaelodd ynddo oedd cychwyn symmudiad i adeiladu capel newydd yn y dref. Wedi llwyddo yn hyn, bu yn foddion i sefydlu eglwysi yn Nghydweli, Cross Inn, Penbre, Bethania, a Chapel Als, Llanelli. Dioddefodd lawer o ddirmyg oddi ar law crachfoneddigion y gymmydogaeth; ond ychydig o effaith a gafodd hyn arno, amgen na'i wneyd yn fwy penderfynol i gario ei waith gogoneddus yn mlaen. Cyn hir, trwy ei dynerwch a'i addfwynder, dygodd lawer o'i erlidwyr i edifarhau o herwydd eu camdriniaeth o hono. Yr oedd yn ŵr o ysbryd ëang a duwiolfrydig. Bu farw o'r darfodedigaeth Ebrill 12fed, 1806, yn 55ain mlwydd oed, wedi bod o hono yn y weinidogaeth am ddeng mlynedd ar hugain.

DAVIES, EVAN. Mab oedd efe i Robert ac Elizabeth Davies, o'r Cefn, Llanbrynmair, yn Maldwyn; a nai i'r Parch. Thomas Davies, gweinidog gynt gyda'r Annibynwyr yn Llanuwchlyn. Adnabyddwyd ef yn fynych wrth ei enw barddonol, *Eta Delta.* Ganwyd ef tua'r flwyddyn 1794, a dechreuodd bregethu yn 1820. Derbyniodd ran o'i addysg yn Athrofa Llanfyllin; yr hon, ar y pryd, oedd dan ofal yr enwog Dr. George Lewis. Bu yn pregethu am dymmor yn Bilston, a'r gymmydogaeth; ond yn Llanrwst yr ordeiniwyd ef. Oddi yno, efe a symmudodd i Lanerchymedd; ac oddi yno, drachefn, i Newmarket, sir Fflint, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth, Mawrth 1af, 1855. Yr oedd yn weinidog llafurus, yn Gristion gloew, ac yn ddyn diargyhoedd. Gwnaeth lawer yn ystod ei oes dros yr achos dirwestol; ac er i'w gyfeillion dirwestol wneuthur tysteb iddo, dewisodd yn hytrach fod i'r arian gael eu cymmhwyso at ddwyn traul ei addoldy newydd yn Llanerchymedd. Er mor ragorol oedd efe fel Cristion, yr oedd rhai elfenau yn ei gymmeriad a'i gwnai yn anmhoblogaidd yn mysg ei frodyr. Yr oedd yn coleddu syniadau dyeithr ynghylch cymmhwysderau gweinidogion yr efengyl. Haerai nad oedd plant anghyfreithlawn, annirwestwyr, nac anafusion, yn rhai cymmhwys i'r swydd; a chondemniai y rhai hyny yn mysg ei gyfeillion eglwysig a gystadleuent mewn eisteddfodau ar draul esgeuluso eu gofalon eglwysig. Bu y pethau hyn yn foddion i lawer erthygl ymosodol ymddangos arno yn y cyhoeddiadau cyfundebol. Yr oedd efe yn awdwr amryw o fân lyfrau.

DAVIES, Parch. GRIFFITH, o Nebo. Fe adnabyddid y gŵr da hwn yn fwyaf cyffredin wrth yr enw Gruffydd Dafydd. Ganwyd ef yn y fl. 1777, mewn annedd-dy bychan ar dir Gwredog Isaf, ger llaw Llanerchymedd. Ychydig iawn o fanteision a gafodd efe; o blegid treuliodd y pymtheng mlynedd cyntaf o'i oes bron yn gwbl ar y tir. Wedi hyny, prentisiwyd ef yn wehydd, gydag un Edward Hughes: gŵr da a duwiol a gariai ei fasnach yn mlaen yn Llanerchymedd. Tra yr oedd yn aros yno, daeth i deimlo oddi wrth ei sefyllfa fel pechadur; yr hwn deimlad a ddwyshâwyd yn ddirfawr gan ddylanwad yr adfywiad crefyddol a fodolai ar y pryd yn yr ynys. Bu yn preswylio wedi hyny yn Amlwch, gyda gŵr o'r enw Lewis Jones. Aeth i Gymdeithasfa y Bala; a chlywodd y Parch. John Evans, New Inn, yn pregethu yn Penrhyndeudraeth. O dan y bregeth hono, cafodd y fath oleuni ar drefn yr iachawdwriaeth ag a'i gwnaeth yn ddyn rhydd o hyny allan.

Symmudodd i Nebo yn y fl. 1837; ac yn lled fuan, teimlodd gymmhelliadau cryfion i bregethu yr efengyl; ond cyfarfu â chryn wrthwynebiad. Modd bynag, cafodd ei ddymuniad. Bu yn ddoeth a gostyngedig fel gweinidog Duw, a chyrhaeddodd fesur helaeth o lwyddiant. Yn 1848, yn lled ddiweddar ar ei oes, cafodd ei ordeinio; ac yn y cymmeriad hwn, gwasanaethodd yr achos goreu yn ffyddlawn a diwyd hyd y diwedd. Bu farw Mehefin 26ain, 1856. Mab iddo ef oedd y Parch. Ebenezer Davies, o Lanerchymedd.

DAVIES, HUGH. Naturiaethwr enwog, a anwyd yn rhywle yn sir Fôn, yn y flwyddyn 1739. Mab oedd efe i Lewis Davies, rheithior Llandyfrydog; yr hwn a fu farw pan oedd ei fachgen yn ieuangc. Addysgwyd Hugh yn Ysgol Rammadegol Beaumaris, a Choleg yr Iesu, yn Rhydychain, lle y graddiodd yn B.A. Cymmerodd urddau eglwysig pan yn dair ar hugain oed; ac yn lled fuan wedi hyny, penodwyd ef yn is-athraw yn Ysgol Rammadegol Beaumaris. Yn 1778, rhoddwyd iddo fywoliaeth y dref hono; yr hon a gyfnewidiodd yn 1787 am eiddo Aber, yn sir Gaernarfon. Daeth i enwogrwydd mawr fel naturiaethwr; ac ymofynid am ei farn yn fynych gan wyddonwyr. Yn y fl. 1774, aeth gyda Mr. Pennant i Ynys Manaw; a chydnabu Pennant y cynnorthwy gwerthfawr a dderbyniodd oddi ar ei law, yn enwedig mewn llysieuaeth. I Hugh Davies, ebai Pennant, yr oedd efe yn ddyledus am yr adroddiad o lysiau a phlanhigion Eryri. Efe, hefyd, a gynnorthwyodd Pennant yn mharotoad yr ail argraphiad o'i Fildraethawd Indiaidd, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1792. Y mae ei waith dysgedig a chyflawn ar Lysieuaeth Môn, a gyhoeddwyd yn 1813, yn llyfr rhagorol, ac yn un y cyfeirir ato yn fynych gan awduron diweddar. Yn 1816, efe a ymneillduodd o fywoliaeth Aber, o herwydd ei henaint a'i lesgedd; a bu farw yn Beaumaris, Chwefror 16eg, 1821. Y mae y llysiau canlynol wedi cael eu henwau oddi wrtho: — *Eucalyptus Daviesii, Hydnum Daviesii, Calithamnion Daviesii,* a *Glyphomitrion Daviesii.*

Digitized by Google

**DALE, ROBERT WILLIAM.** Un o weinidogion galluocaf ac enwocaf yr Annibynwyr Saesnig oedd efe; a gŵr a feddai ddylanwad anarferol mewn cylchoedd crefyddol yn Lloegr. Ganwyd ef Rhagfyr 1af, 1829, yn ninas Llundain, lle y treuliodd ei febyd o'i ieuengctid. Cafodd fantais drwy hyn i wybod beth oedd, ac i deimlo oddi wrth ddylanwad temtasiynau, fel yr oedd ganddo, yn ystod ei yrfa ddyfodol, gydymdeimlad anorchfygol â phobl ieuaingc, ac eraill, a syrthient yn ebyrth iddynt. Magwyd ef dan ofal rhïeni duwiol, a manteisiodd yntau oddi wrth eu cyfarwyddiadau a'u hesamplau; ac hefyd, oddi tan weinidogaeth dawel y Dr. Campbell, gweinidog y Tabernacl, Moorfields—yr hwn addoldy a fynychai efe. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, derbyniodd argraphiadau dwfn o berthynas i gyflwr ei feddwl, a chadwedigaeth ei enaid, trwy ddarllen *Yr Ymofynydd Pryderus*—llyfr rhagorol y Parch. John Angell James. Yn wir, dywed ef ei hun, yn ei gofiant i Mr. James, ddarfod iddo dderbyn y fath argyhoeddiad, a'r fath brofiad o ras Duw, trwy ei ddarllen ag a barodd iddo roddi ei hun i'r Arglwydd, a chyfrif ei hun o hyny allan yn eiddo iddo ef. Pan [y]n ddeunaw, eie a adawodd Lundain, ac a symmudodd i Goleg Spring Hill, Birmingham—un o brif golegau yr Annibynwyr. Bu yn efrydu yno am chwe blynedd, a daeth yn hoff ddysgybl i'r Parch. Henry Rogers, yr athraw, ac awdwr y llyfr enwog—*The Eclipse of Faith.* Cyrhaeddodd safle uchel yn y gwybodaethau—ennillodd raddau, a llawer o wobrwyon; ac yn y cyfamser, cafodd y fraint a'r fantais ddiammheuol o eistedd am rai blynyddoedd dan weinidogaeth Mr. Angell James, pan yr oedd y gŵr mawr hwnw yn anterth ei rym fel pregethwr.

Y mae lle cryf dros gredu fod Mr. Dale wedi dechreu ar ei efrydiau yn Ngholeg Spring Hill gyda'r amcan arbenig o gymmhwyso ei hun ar gyfer y weinidogaeth. Ac yn ddiddadl, yr oedd y cymmhwysderau angenrheidiol ynddo; ac ni bu ei yrfa golegawl ond moddion i'w dadblygu. Barnodd Mr. Angell James fod y gŵr ieuangc yn gyfryw un ag a wnai gynnorthwywr iddo ef yn eglwys Carr's Lane, a rhoddodd alwad iddo. A bu Mr. Dale yn gynnorthwywr i Mr. James am rai misoedd—wedi hyny yn gyd-weinidog; ac yna, ar ol marwolaeth Mr. James, yn weinidog i'r eglwys fawr hyd ei farwolaeth ei hun. Eglwys Carr's Lane, gan hyny, oedd yr unig un y bu efe yn gweinidogaethu iddi; etto, yr oedd ei enw a'i glod, nid yn lleol a dinesig yn unig, ond yn genedlaethol. Nid gormod ydyw dyweyd ei fod yn ŵr byd-enwog. Yn lled fuan ar ol ei alwad i'r weinidogaeth, daeth i'r amlwg mewn nerth a disgleirdeb mawr. Cododd o fewn ychydig fisoedd i gyhoeddusrwydd a dylanwad anghyffredinol—bron yn ogyfuwch a Mr. Angell James ei hun. Ymledodd ei ddylanwad hefyd yn mhell y tu hwnt i derfynau enwad ac eglwys. Ac yn mysg Ymneillduwyr y deyrnas o bob enwad, daeth yn arweinydd yr edrychid i fyny ato gydag ymddiried a pharch. Ystyrid ef yn un o arweinwyr blaenaf yr Ymneillduwyr; ac yr oedd yn deilwng arweinydd iddynt yn mhob ystyr o'r gair.

Efe a ddaeth yn adnabyddus i'r wlad yn mlynyddoedd cyntaf ei yrfa gyhoeddus fel dadleuydd egnïol ar gwestiynau hanner politicaidd—cwestiynau yn dwyn perthynas â moesoldeb cymdeithasol; sef, rhyddid crefyddol, addysg, a phyngciau eraill cyssylltiedig â gwleidyddiaeth yn ei gwahanol agweddau. Teimlai yn ddwfn oddi wrth y rhwymedigaeth a orphwysai arno i wneyd hyny a allai i wellhau sefyllfa fydol, yn gystal a chyflwr ysbrydol, pob dyn, trwy roddi ei gefnogaeth wresocaf i bob cynlluniau oedd yn amcanu at hyny; ac ni phetrusodd gario allan y rhwymedigaeth hon yn ol y goleuni a feddai. Hynododd ei hun trwy ei weithgarwch gyda chwestiynau o'r fath, er nad oedd ymyriad gweinidog yr efengyl â gwleidyddiaeth yn hollol gydnaws â theimlad llawer o wŷr blaenllaw y dyddiau hyny. Er hyny, yr oedd efe yn wleidydd trylwyr; ac ni chymmerodd neb ran fwy blaenllaw nag ef ynglŷn â rhai o brif gwestiynau gwleidyddol a chymdeithasol y dydd. Byddai yn ammhossibl prisio y gwasanaeth gwerthfawr a gyflawnodd efe yn y cyfeiriadau hyn.

Y mae'n sicr fod llawer yn cofio am y ddadl fawr fu ar Addysg Elfenol, pan gyflwynodd Mr. Forster ei fesur gyntaf o flaen y senedd. Yn y ddadl hono, a phob dadl arall yn wir, cyflawnodd Dr. Dale ei waith gyda mwy o bybyrwch, gallu, a chlod iddo ei hun nag odid un gweinidog na llëygwr arall yn y deyrnas. Y pryd hwnw, gwnaeth ei enw yn mron yn air teuluaidd yn mhob llan a chwmwd trwy Gymru a Lloegr. A thrwy y cwbl, ni chafodd neb y sail leiaf i'w gyhuddo o annhegwch fel dadleuydd; o blegid yr oedd ei ddifrifwch a'i ddiffuantrwydd perffaith wrth ddadleu ei egwyddorion yn addefedig gan bawb; a chydnabyddai hyd yn oed ei wrthwynebwyr ei allu naturiol a'i wybodaeth ddofn a thrwyadl ar y cwestiynau y dadleuai yn eu cylch.

Y mae geiriau Dr. Fairbairn ar nodweddion meddwl ac ysbryd Dr. Dale yn werth eu gosod yma:—

'O'r holl ddynion (meddai) y cefais y fraint o'u hadnabod, efe, a'i gymmeryd yn mhob peth, oedd y mwyaf ei fesurau. Yr oeddwn i yn adnabod dynion mwy dysgedig, dynion mwy treiddlym mewn dealltwriaeth athronyddol ac athrawiaethol, dynion mwy cyflym i ddringo i leoedd uchel y byd; ond nid adnabûm un dyn yn meddu naturiaeth mor ëang, ac enaid mor ddyrchafedig.' Nid oedd Dr. Fairbairn, yn ddïau, yn golygu, wrth ddyweyd hyn, nad oedd Dr. Dale yn ŵr o ddysgeidiaeth uchel, o wybodaeth ëang, ac o allu naturiol cryf ac anghyffredin. Profir hyn gan drylwyredd ei waith llenyddol, a'r pregethau duwinyddol ac athronyddol a gyhoeddwyd ganddo.

Cafodd ei ddewis, gyda Dr. Paton, i fod yn ysgrifenwr rheolaidd i'r *Eclectic Review;* ac yn mhen amser, ar farwolaeth y golygydd, gwnaed Dr. Paton yn olygydd iddo, a Dr. Dale yn gynnorthwywr iddo yntau. Dywedir iddo ysgrifenu rhai o'r erthyglau goreu a ymddangosodd yn y cyhoeddiad pwysig a dysgedig hwnw. Ysgrifenodd laweroedd o erthyglau llafurfawr i'r *Sunday Magazine*, a *Good Words*, ac eraill; ac hefyd i gylchgrawn mawr chwarterol yr Annibynwyr—*The British Quarterly.* Cyhoeddodd, hefyd, lawer o gyfrolau, ar amryw o destynau pwysicaf Cristionogaeth; sef, *The Atonement* (y Darlithiau Cynnulleidfaol am y fl. 1875); *The Living Christ and the Four Gospels; The Ten Commandments*; ynghyd â chyfrolau o'i bregethau ar yr Ephesiaid, yr Hebreaid—ac eraill rhy faith i'w henwi. Dengys y gweithiau hyn ei fod yn ŵr o feddwl cryf, a dwfn-dreiddiol,



Digitized by Google

yn dduwinydd iach a gwreiddiol, ac yn athronydd o gyrhaeddiadau diammheuol uchel.

Yr ydym yn cael, hefyd, fod Dr. Fairbairn wedi rhoddi tystiolaeth uchel i fawredd cymmeriad Dr. Dale hefyd; ac y mae hon yn dystiolaeth gŵr a gafodd bob mantais i'w adnabod. 'Yr oedd efe, fel dyn, mor berffaith yn mron ag y gallai dyn fod; ac am ei dduwioldeb nis gall yr ammheuaeth leiaf fod yn meddwl neb.' 'Argyhoeddwyd fi,' ebai un arall a'i hadwaenai yn dda, 'fod *The Living Christ* yn byw ynddo.' Yr oedd yn naturiol, gan hyny, fod ei dduwinyddiaeth, o ran ei hysbryd, yn drwyadl efengylaidd; a dyma un rheswm fod ei weinidogaeth mor hynod dderbyniol gan ei wrandawyr.

Prin y mae yn rhaid dywedyd, hwyrach, mai duwinydd Arminaidd oedd efe, a bod ei wrthwynebiad i Galfiniaeth yn anarferol o gryf, er mai yn y ffydd Galfinaidd y magwyd ef. Calfiniad, o ran ei gredo, oedd ei athraw; sef, Mr. Henry Rogers; ac felly hefyd Mr. John Angell James. Ond ni rwymodd Dr. Dale ei farn wrth yr eiddynt hwy; ond meddyliodd drosto ei hun; ac yn ngonestrwydd ei argyhoeddiad, ymddadblygodd fel yr hysbyswyd uchod.

Fel y gallesid disgwyl gyda gŵr o'r fath gyrhaeddiadau, rhoddodd yr enwad Annibynol yr anrhydedd uchaf a allai arno. Yn 1868, bu yn llanw y swydd anrhydeddus o gadeirydd Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru. Yn 1877, ymwelodd âg Unol Dalaethau yr America, ar wahoddiad gan awdurdodau Coleg Yale; lle y traddododd gyfres o ddarlithiau ar 'Bregethu;' ac ar ei ddychweliad, anrhydeddwyd ef gan y brif athrofa enwog hono â'r teitl o D.D., fel yr oedd Prifysgol Glasgow, ychydig yn flaenorol, wedi gosod arno yr anrhydedd o LL.D. (*Doctor of Laws*). Ond yr oedd efe yn rhy fawr i ymdrafferthu gyda, ac i ymfalchïo yn, y teitlau hyn. Nid arferai hwynt ei hun; ond defnyddiwyd hwy gan eraill pan yn cyfeirio ato. Yr un modd y teimlai tuag at y cyfarchiad 'parchedig' hefyd. Gwgai ei aeliau y foment y gwelai gyfeiriad ato ei hun fel y 'Parchedig Dr. Dale, o Birmingham.' Yn hyn o beth, fel mewn llawer o hynodion eraill, tebygolai yn fawr i'w hen ragflaenor enwog, Mr. John Angell James.

Y mae llaweroedd o ffeithiau yn hanes bywyd llafurus Dr. Dale, ynglŷn âg addysg a gwleidyddiaeth, sydd yn dangos y gwasanaeth mawr a wnaeth i'w gydwladwyr. Ond yn ystod blynyddoedd olaf ei oes brysur, ni chymmerodd ran mor flaenllaw mewn materion cyhoeddus ag ar gyfnod boreuach yn ei yrfa—yn enwedig felly yn ystod helynt mawr y frwydr addysg. Un rheswm dros y neillduedd hwn oedd, fod ei iechyd wedi gwanychu; ond mae'n lled debyg hefyd fod a wnelo y cyffro gwleidyddol a gymmerodd le yn Birmingham ynglŷn â'r cwestiwn o Ymreolaeth i'r Iwerddon, a'r anghydfodau yr arweiniodd hyny iddynt, gryn lawer â'i ymneillduad. Mewn ystyr gwleidyddol, 'Undebwr' oedd efe; hyny yw, nis gallai gyttuno â'r mesur hwnw o Ymreolaeth, o eiddo Mr. Gladstone, a rwygodd y blaid Ryddfrydig. Ar yr un pryd, yr oedd efe yn awyddus iawn i heddychu y Gwyddel; ond ni fynai wneyd hyny ar y llinellau a gynnygid gan Mr. Gladstone. Un o'i brif wrthwynebiadau i'r mesur oedd y cynnygiad i gau allan yr aelodau Gwyddelig o'r senedd ymherodrol. Dyma ei eiriau:—'Yr ydym yn awyddus i gynnorthwyo, ac nid i rwystro y gwaith mawr hwn Yr ydym yn awyddus i Mr. Gladstone goroni yr hyn a wnaeth efe yn y gorphenol gyda mesur a estyn i'r genedl Wyddelig yr hyn sydd gyfiawn iddi, ac a ddug i derfyniad gamgymmeriadau a throseddau y chwe chan mlynedd diweddaf.' Gwelir, gan hyny, fod Dr. Dale, tra yn anghyttuno â rhai o ddarpariaethau mesur Mr. Gladstone, etto yn meddu gweledigaeth glir ar brif agwedd wleidyddol yr achos. Ar ol hyny, ymgiliodd Dr. Dale o'r frwydr, a chyfyngodd ei hun yn fwy at ddyledswyddau crefyddol cylch ei weinidogaeth.

Nis gallwn ymattal rhag cyfeirio at ymweliad y doctor â Dinbych tua phymtheng mlynedd cyn ei farwolaeth. Yr oedd efe y pryd hwnw yn anterth ei ddydd, a'i enw fel pregethwr, ac efengylydd, wedi ymledu i gonglau pellaf y deyrnas. Gan ei fod yn gyfaill ac yn edmygydd calon i Mr. Dale, rhoddodd Mr. Gee wahoddiad iddo ef, a Mrs. Dale, i dreulio Sabbath gydag ef. Prydnawn y Sabbath hwnw, cymmerodd Mr. Gee ef i ddangos iddo brif 'olygfa' tref Gymreig ar ddydd yr Arglwydd; sef, Ysgolion Sabbothol Ymneillduol y dref. Yr ydym yn sôn am y digwyddiad hwn yn benaf, er rhoddi ar gôf a chadw y deyrnged uchel a dalodd efe i'r sefydliad bendigedig hwn. Wedi ymweled â'r holl ysgolion, a thraddodi anerchiad byr yn mhob un o honynt, cyrhaeddwyd o'r diwedd i gapel y Methodistiaid. Ar ol syllu ar y dosbarthiadau i fyny yn yr oriel, ac ar y llawr, a gofyn amryw gwestiynau i Mr. Gee, traddododd anerchiad i aelodau yr ysgol. Wrth gyfeirio at yr hyn a welodd y dydd hwnw, a'r hyn a welai ar y pryd, dywedodd, 'Dyma olygfa gwerth ei gweled. Mi a roddwn bob peth sydd ar fy helw pe gallwn gael sefydliad fel hwn yn Carr's Lane—ei addoldy ei hun yn Birmingham. Ac meddai yn mhellach:—'*You ought to train sufficient missionaries to evangelize the whole world with such a splendid organization as this!*'—'Chwi ddylech allu parotoi digon o genhadon i efengyleiddio yr holl fyd gyda threfniant mor ogoneddus a hwn!' Yr oedd yn amlwg arno ei fod wedi ei lwyr feddiannu gan ysbryd Ysgolion Sabbothol Cymru, a mynych y cyfeiriodd atynt ar ol myned adref.

Yn mis Gorphenaf, 1891, cymmerwyd y gŵr anrhydeddus yn wael; a mawr y pryder a achosodd hyny i'w gyfeillion yn Birmingham; ac, yn wir, i grefyddwyr yn mhob rhan o'r deyrnas. Yr oedd cyngres i gynnrychioli Cynnulleidfaoliaeth yn mhob rhan o'r byd, wedi ei threfnu i gymmeryd lle yn ystod y mis a nodwyd; a chydnabyddwyd gan bawb, yn ddiwahaniaeth, mai Dr. Dale oedd y cymmhwysaf o bawb i fod yn llywydd arni. Pan ddaeth adeg cynnal y gyngres, yr oedd sefyllfa ei iechyd yn mhell o fod yn foddhaol; etto i gyd, yr oedd efe mor awyddus i gyflawni y rhwymedigaeth a osodwyd arno, fel y peryglodd ei fywyd trwy gymmeryd taith i Lundain, a thraddodi yr anerchiad agoriadol. Profodd yr ymdrech hwn yn ormod iddo: diffygiodd ei nerth, a bu raid iddo ddychwelyd o'r brifddinas yn ddi-ymdroi. O hyny allan, ni adferodd ei iechyd ond i raddau bychain; er hyny, yr oedd ei alluoedd meddyliol mor nerthol ag y buont ar unrhyw adeg o'i oes.

Bu farw y gŵr da hwn ar y 13eg o Fawrth, 1895, yn 66ain mlwydd oed, gan adael gweddw, dwy ferch, a mab, a gwlad gyfan, i alaru am dano. Cymmerodd ei gladdedigaeth le y dydd Llun canlynol, yn nghladdfa Key Hill, ger Birmingham.

Digitized by Google

DAVIES, JAMES. Gwel IAGO AB DEWI, cyf. VI., td. 128.

DAVIES, PARCH. JOHN. Pregethwr enwog perthynol i'r Wesleyaid. Mab ydoedd efe i Thomas Davies, o Jamaica, ger Llaneurgain, yn sir Fflint; a ganwyd ef yno Hydref 7fed, 1781. Prin ddigon o fanteision addysg a gafodd efe yn moreu ei oes, hyd yn oed i'w alluogi i ddarllen ac ysgrifenu. Bernir iddo ymuno â'r Wesleyaid tua'r flwyddyn 1800, pan y bu cenhadon y cyfundeb ar daith bregethwrol yn Llaneurgain. Nid oedd efe, y pryd hwn, ond tuag 11eg oed; ond yr oedd ei feddwl ieuangc eisoes wedi derbyn argraphiadau crefyddol. Yn y fl. 1804, derbyniwyd ef yn bregethwr rheolaidd; ac yn mhen dwy flynedd, i'r weinidogaeth; ac yn 1810, derbyniwyd ef yn aelod o'r gynnadledd. Tyfodd gymmaint yn marn ei gyd-weinidogion fel y darfu iddynt, yn mhen tua phum mlynedd ar ol hyn, ei bennodi yn arolygydd cylchdaith; a thrwy uniondeb ei ymarweddiad, daeth yn un o wŷr blaenaf y Wesleyaid yn Nghymru. Yn 1827, dewiswyd ef i gynnrychioli y dalaeth yn y gynnadledd; a dywedir fod ei ddoethineb, mewn amgylchiadau dyrus y byddai y cyfundeb ynddo, wedi myned yn ddiareb yn mysg ei frodyr. Fel pregethwr, yr oedd iddo gymmeriad uchel; ond yn y gynghorfa, yn hytrach nag yn y pulpud, yr oedd cuddiad ei gryfder. Teithiodd lawer ar hyd a lled y Dywysogaeth. Un llyfr o'i waith a gyhoeddwyd, sef y rhan gyntaf o holwyddorion y gynnadledd, dan y teitl *Cydymaith Buddiol, neu Gatecism yr Ysgol Sabbothol.* Bu farw yn dra disymmwth, yn Merthyr Tydfil, Rhagfyr 21ain, 1845, yn 64ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn Mynwent y Crynwyr, yn sir Forganwg.

DAVIES, PARCH. JOHN, o Blaenanerch. Mab oedd efe i Stephen ac Eleanor Davies, o'r Cyttir Mawr, Blaenanerch; ac felly, yr oedd yn frawd i'r Parch. David Davies, Twr-gwyn. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1827; ac yn 1850, pan yn 23ain oed, efe a ddechreuodd bregethu. Ordeiniwyd ef yn Llangeitho, yn Awst, 1859—'Sasiwn y Diwygiad mawr,' fel ei gelwid. Yna aeth i Athrofa y Bala yn 1852; ac wedi iddo orphen ei gwrs colegawl yno, bu yn cadw ysgol yn Mlaenanerch. Yn mhen tua blwyddyn, rhoddodd yr ysgol i fyny; ac ar gais y cyfarfod misol, ymgymmerodd â bugeiliaeth eglwysi Llandyssul a Waunifor. Wedi priodi, symmudodd yno i fyw; ac adnabyddid ef dan yr enw 'John Davies, Woodstock.' Tra y bu yno, ymgymmerodd hefyd â'r fugeiliaeth yn Penffordd a'r Gwastad. Yn mhen amser, daeth yn ol i'w hen ardal enedigol, i gymmeryd gofal eglwysi Aberporth a Blaen-cefn. Yr oedd, beth amser cyn hyn, wedi claddu ei briod; ond yn awr, efe a ymunodd mewn priodas drachefn: y waith hon gyda Miss Hannah Williams, o Glanffurddyn—o'r hon y ganwyd iddo deulu lliosog.

O ran ei gymmeriad, yr oedd yn ddyn o feddwl penderfynol, ac yn un a safai yn ddiysgog dros yr hyn a farnai efe oedd yn deg a chyfiawn. Fel Cristion, yr oedd yn un uwch law ammheuaeth—yn weddïwr mawr, ac yn ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau. Ystyrid ef yn un o bregethwyr goreu y sir, ac yn deilwng i lanw y sallcoedd anrhydeddusaf yn y cyfundeb. Yr oedd ynddo duedd gref hefyd at lenyddiaeth. Ysgrifenodd lawer o erthyglau i'r *Traethodydd*, a chyhoeddiadau eraill. Efe oedd awdwr *Cofiant y Parchedig John Jones, Blaenanerch.* O herwydd ei aml rinweddau fel dyn, fel gweinidog, ac fel Cristion, yr oedd yn fawr ei barch gan bawb o'i gydnabod. Bu farw Ebrill 26ain, 1891, yn 64ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am un mlynedd a deugain. Claddwyd ef yn mynwent capel Blaenanerch.

DAVIES, PARCH. JOHN, o'r Ietwen. Adnabyddwyd y gŵr da hwn yn fynych wrth ei ffugenwau 'Shôn Gymro,' a 'Shôn Llethi.' Mabwysiadodd y diweddaf hwn oddi wrth yr afon Llethi, yn sir Aberteifi, lle y ganwyd ef. Ei rieni oeddynt Dafydd a Mary Davies, Bwlch-yr-helygen, plwyf Llanarth, ger y Ceinewydd; y rhai oeddynt yn aelodau gyda'r Annibynwyr. Symmudasant oddi yno i Castellgeifr. Yr oedd Dafydd Davies, y tad, yn dipyn o ysgolhaig, a llwyddodd i blanu ysbryd dysgeidiaeth yn ei fachgen. Astudiodd yr ieithoedd Groeg, Lladin, a Hebraeg; a gwnaeth gynnydd da ynddynt. Pan yn ieuangc, cafodd ei anfon i Athrofa enwog Neuaddlwyd; yr hon a sefydlwyd yn y flwyddyn 1810. Bu am flynyddoedd o dan addysg y Dr. Phillips—un o athrawon enwocaf Cymru yn y dyddiau hyny. Amlygodd Mr. Davies awydd pregethu pan yn gymmharol ieuangc, er na wyddai ond ychydig o'i gyfeillion mynwesol am hyn, o herwydd ei wyleidddra. Cafodd ei awydd ei sylweddoli; o blegid yn y flwyddyn 1821, yr ydym yn cael iddo ddechreu ar y gwaith cyssegredig. Y flwyddyn nesaf, aeth i Athrofa y Drefnewydd (sydd yn Aberhonddu yn bresennol); ac un o'i gyd-fyfyrwyr yno oedd y Parch. Samuel Roberts, Llanbrynmair. Tra yn yr athrofa hono, gwnaeth gynnydd arbenig mewn ieithoedd, a duwinyddiaeth. Pan yn 23ain oed, ordeiniwyd ef yn weinidog eglwys Glandwr, Penfro. Wedi llafur maith ac egnïol yn y weinidogaeth, bu farw Rhagfyr 10fed, 1884; a chladdwyd ef yn mynwent Capel Moriah, lle yr oedd yn gweinidogaethu yn ei ddyddiau diweddaf. Dywed y Parch. M. D. Jones, o'r Bala, mewn byr-gofiant am dano, iddo fod yn fyfyriwr dygn ar y Lladin, Groeg, a Hebraeg ar hyd ei oes, a'i fod yn hynod gyfarwydd mewn llenyddiaeth Ladinaidd a Groegaidd. Athraw coleg ddylasai fod, ac nid pregethwr. Nid aeth efe trwy ei yrfa yn ddi-brofedigaeth, mwy na llawer o'i frodyr. Cyhuddwyd ef o goleddu syniadau anuniongred am yr athrawiaeth o berson Crist; ac y mae'n sicr i'r erledigaeth a ddioddefodd o herwydd hyn gyfyngu llawer ar gylch ei lafur.

DAVIES, Y CADFRIDOG LEWIS:—trydydd mab John Davies, o'r Creigiau, yn mhlwyf Llanbadarn-fawr, yn Ngheredigion. Ganwyd ef yn 1777. Yn 1791, ymunodd â'r fyddin fel banerwr. Yn mhen pum mlynedd, yr oedd efe gyda Syr Ralph Abercrombie, pan gymmerodd Prydain St. Lucia; ac yno, gwnaed ef yn rhaglaw. Dyrchafwyd ef i fod yn gadben yn 1799; a bu yn gwasanaethu y Duc o Gaerefrog yn Holland. Yn ddilynol, bu yn cyflawni gwasanaeth milwrol yn Ffraingc, ac yn Môr y Canoldir, a Hanover, a Phenrhyn Gobaith Da. Yr oedd hefyd gyda'r Duc o Wellington yn Portugal mewn amryw frwydrau; gyda Syr John Moore yn Yspaen; a chydag Iarll Chatham

Digitized by Google

yn ngwarchanaad Flushing. Pennodwyd ef yn rhag-filwriad ei gattrawd yn 1812; yr hon a arweinid ganddo dan y Duc o Wellington pan gymmerwyd Salamanca. Enwogodd ei hun yn fawr yn y rhyfel hono. Yn 1806, gwnaed ef yn gydymaith o Urdd Filwrol Anrhydeddus y Bath; a chyn hir, dyrchafwyd ef i fod yn faes-lywydd. Wedi dychwelyd adref, treuliodd weddill ei oes yn Nhan-y-bwlch, ger Aberystwyth -lle y bu farw, Mai 10fed, 1828, yn 51ain mlwydd oed. Ei briod oedd Jane, merch Matthew Davies, o Gwmcynfelyn.

DAVIES, MILES. Ganwyd ef yn Nhre'r Abad, yn mhlwyf Rhydwen (Whitford), yn sir Fflint—etifeddiaeth fu yn meddiant ei deulu am oesau lawer. Tybir iddo gael ei eni yn y rhan olaf o'r unfed ganrif ar bymtheg. Barna rhai, ond heb sicrwydd digonol, iddo fod yn glerigwr. Yr oedd yn ysgolhaig gwych, ac yn gyfarwydd â llenyddiaeth Cymru. Teimlai yr adgasedd llwyraf tuag at Babyddiaeth, Ariaeth, a Sosiniaeth. Yr oedd efe yn wresog o blaid brenhiniaeth Sior II., a'r olyniaeth Hanoveraidd. Dygwyd ef i fyny fel cyfreithiwr; a bu yn dilyn ei alwedigaeth fel cynghorydd a dadleuydd yn y brif ddinas. Tra yno, daeth allan fel awdwr, a hyny yn y dull mwyaf gostyngedig; o blegid, yn lle cyflwyno ei lyfrau i sylw y mawrion, efe a'u gwerthai o ddrws i ddrws: a diystyrwyd ef gan rai o herwydd hyny. Ni wyddys am ba hyd y cyflawnodd y gwaith hwn, na pha bryd y bu farw. Y mae Isaac Disraeli — tad Benjamin Disraeli, y gwladweinydd—yn ei waith, *Calamity of Authors*, wedi cymmeryd cryn drafferth i gadw ei enw yn barchus; a dywed fod meddwl Davies, ar yr adeg hon, yn ol pob tebyg, wedi dyrysu, o herwydd tlodi a siomedigaethau. Mae rhan o gân a gyfansoddodd, dan y teitl *Martii Calendæ, Sive Laudes Cambro-Britannicæ*, i'w gweled yn hanes plwyf Whitford, gan Pennant. Mawl i Dewi Sant yw y gân uchod; ond ymddengys mai derbyniad lled oeraidd a gafodd ar ei hymddangosiad; yr hyn a fu yn gryn brofedigaeth iddo. Y pwysicaf a'r cywreiniaf o'i lyfrau yw yr *Athenæ Britannicæ*, 1715; yr hwn sydd yn cynnwys hanesiaeth, a bywgraphyddiaeth, a beirniadaeth. Dywed Baker, yr hynafiaethydd, fod cryn lawer o'i gynnwysiad wedi ei gymmeryd o weithiau awdwyr eraill, ond fod pethau eraill ynddo sydd yn anghyffredin, ac yn anhawdd eu cael. Y mae y gwaith, erbyn hyn, yn hynod o brin; ac ni welodd Baker ond tair cyfrol o hono, y rhai sydd yn nghadw yn awr yn llyfrgell Coleg St. Ioan, Caergrawnt. Y mae, er hyny, saith cyfrol yn yr Amgueddfa Brydeinig.

DAVIES, RANDOLPH, M.A. :—ficer Meifod o 1648 hyd 1695, am yr hwn nad oes ond ychydig yn hysbys, heb law yr hyn a geir yn nghôf-lyfr y plwyf hwnw. Priodwyd ef yn eglwys Meifod, â Jane Williams, yn y fl. 1648; ac o'r cyfryw briodas, cafodd dri ar ddeg o blant, y rhai a fedyddiwyd yn yr un eglwys. Gŵr o dueddiadau erlidgar oedd efe; a byddai ei safle fel parson plwyf yn cael ei ddefnyddio ganddo i arfer ei drahâ yn dra mynych. Yn y flwyddyn 1675, cyhoeddodd lyfr yn dwyn y penawd *Prawf yr Ysbrydion*, &c.—'Traethawd byr ar 1 *Ioan* iv. 1.; yn mha un y dadguddir, yn ngoleuni Gair Duw, esboniedig gan hynafiaeth, fod amrywiol athrawiaethau y Papistiaid, Presbyteriaid, Annibynwyr, a'r Crynwyr yn anghysson â'r Ysgrythyr Lân, ac i'w gofalus ochelyd gan bob dyn sydd yn caru iachawdwriaeth ei enaid.' Yn amser y ficer, yr oedd y Crynwyr yn lliosog yn sir Drefaldwyn; ac yr oedd hyn, a'u cynnydd parhaol, yn poeni ei ysbryd. Claddwyd ef Chwef. 25ain, 1695.

DAVIES, RICHARD, Y CRYNWR. Ganwyd ef yn Nhrallwm, yn Maldwyn, yn 1635. Yr oedd yn fachgen galluog, a gwnaeth ddefnydd priodol o'i fanteision. Daeth dan argyhoeddiad crefyddol yn lled foreu, ac ymunodd â'r Annibynwyr. Mewn canlyniad i ddadl a fu rhyngddo ag un o'r Crynwyr, ymadawodd â'r Annibynwyr, ac ymunodd â hwy, tua'r fl. 1657. O hyny allan, gwnaeth ei oreu i gael gan ei gydwladwyr fabwysiadu eu syniadau; a syrthiodd, yn mhen amser, i brofedigaeth. Cymmerwyd ef, droion, o flaen yr ynadon, i'w holi ynghylch ei ddaliadau; a chafodd hyd yn oed ei fwrw i'r carchar. Er hyny, ni phylwyd ei sêl, ac nid oerodd ei frwdfrydedd; ond yn hytrach, i'r gwrthwyneb. Bu dadl rhyngddo a'r Esgob W. Lloyd; ac er eu bod yn gwahaniaethu yn eu barn, ymddygent yn foneddigaidd tuag at eu gilydd. Pan drodd y rhód ar achos yr esgob, ac iddo gael ei fwrw i garchar, ni bu iddo gyfaill ffyddlonach na Richard Davies. Tra yr oedd ei hen gyfeillion wedi cefnu arno, ymwelwyd âg ef yn fynych yn y Tŵr gan y Crynwr. Bu farw mewn lle o'r enw Cloddiau Cochion, ar Ionawr 22ain, 1708, yn 73ain mlwydd oed. Cyhoeddwyd hanes cyflawn o'i fywyd, yn yr hwn y ceir llawer o oleuni ar sefyllfa grefyddol Cymru yn yr ail ganrif ar bymtheg.

DAVIES, ROBERT. Mab ydoedd efe i Robert Davies, o'r Gwysaney, ger llaw y Wyddgrug, o'i wraig Anne. Ganwyd ef Medi 19eg, 1616; a thrwy ei briodas âg Anne, unig ferch Syr Peter Muton, Marchog, yr hwn, yn ei ddydd, oedd brif farnydd sasiynau Gwynedd, daeth i feddiant o etifeddiaeth y Llanerch, ger Llanelwy, yn Nyffryn Clwyd. Bu yn sirydd swydd Callestr (Fflint) yn 1644, 1645, 1646, a 1660. Pan dorodd y Rhyfel Gartrefol allan, gosododd ei dŷ yn y Gwysaney mewn cyflwr amddiffynol; ond cymmerwyd meddiant o hono er hyny, yn 1645, gan Syr William Brereton. Bu farw yn 1666; a dilynwyd ef yn yr etifeddiaeth gan ei fab, Muton Davies, yr hwn a anwyd Chwefror 19eg, 1634.

DAVIES, ROBERT, ŵyr i'r Robert Davies uchod. Yr oedd Llanerch a Gwysaney yn eiddo iddo; a bu, fel ei daid, yn gwasanaethu fel sirydd sir Fflint yn 1704. Priodwyd ef â Letitia, merch Edward Fychan, neu Vaughan, o'r Trawsgoed, yn Ngheredigion. Yr oedd yn ysgolhaig gwych, yn hynafiaethydd da, ac yn gasglwr diwyd ar hen ysgriflyfrau Cymreig. Bu farw Gorphenaf 11eg, 1710, yn 52ain mlwydd oed.

DAVIES, STEPHEN, o Dyserth. Bardd lled dda oedd efe; ac adnabyddid ef mewn cylchoedd barddonol wrth yr enw 'Stephan.' Ganwyd ef yn Prestatyn, sir Fflint, Tachwedd 8fed, 1790; a symmudodd ei rieni oddi yno i Dyserth pan yr oedd efe yn ieuangc. Dywedir mai un o'r caneuon symlaf a thyneraf sydd yn

Digitized by Google

ein hiaith ydyw galaeth y bardd ar ol ei wraig —Catherine Price, o Foelfre, Abergele, yr hon a fu farw yn y fl. 1835. Ymddangosodd y gân yn y drydedd gyfrol o'r *Gwladgarwr*. Ennillodd yn Eisteddfod Gordofigion Liverpool, yn 1840, am gân ar y testyn 'Hiraeth ar ol Maboliaeth.' Ac efe oedd awdwr yr 'Ymddiddan rhwng y Bardd ac Amser,' a ymddangosodd yn y *Drysorfa* am 1858. Gadawodd amryw o hen ysgrifau gwerthfawr ar ei ol. Bu farw Ebrill 6ed, 1858, yn 67ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Galltmelyd.

DAVIES, Parch. DAVID, Tŵr-gwyn. Mab oedd efe i Stephen ac Eleanor Davies, Cyttir mawr, ger Blaenanerch: a brawd i'r diweddar John Davies, o'r un lle. Hynodid ef o blith ei gyfeillion yn moreu ei oes gan ei duedd anghyffredin i ganu; a dysgodd y gelfyddyd mor dda, pan etto ond ieuangc, fel y cynnorthwyai arweinyddion y gân yn Mlaenanerch i feistroli darnau anhawdd. Pan tuag ugain oed, yr oedd yn arwain y gân mewn cymmanfa blant yn sir Aberteifi—anrhydedd uchel i un mor ieuangc. Yr oedd o ymarweddiad bucheddol, ac yn un a gariodd gryn ddylanwad er daioni ar fechgyn tebyg iddo ef ei hun. Bu yn cadw ysgol yn Mlaenanerch am rai blynyddoedd; ac yn yr amser hwn, trwy ddarllen a myfyrio, chwanegodd lawer at ei brofiad a'i wybodaeth o bethau crefydd. Yn y fl. 1856, dechreuodd bregethu. Yr oedd, erbyn hyn, yn 35ain mlwydd oed. Ordeiniwyd ef yn Llanbedr, yn 1862; ac yn fuan wedi hyn, cafodd alwad i fugeilio eglwys Tŵr-gwyn: a bu ei lafur yn fendithiol. Yn y fl. 1865, bu ar daith trwy Ogledd Cymru gyda'r Parch. John Jones, Ceinewydd; yr hwn a ddywed fel y canlyn am dano:—'Ar y daith hono yn sir Fôn, cefais dair wythnos o gyfeillach ddidor âg ef; a gallaf sicrhau mai myned yn uwch yr oedd efe yn fy meddwl i o hyd—fel dyn ac fel Cristion, o blegid ei ysbryd llednais, diddichell, a chydwybodol, a gwir ddefosiynol. Barnwyf mai un o hynodion ei fywyd ydoedd ffyddlondeb. Yr oedd, hefyd, wedi ei fendithio â synwyr cyffredin cryfach na llawer o wŷr y deg talent.' Bu farw Ionawr 8fed, 1867, yn 46ain mlwydd oed; a dodwyd ei weddillion i orphwys yn mynwent Tŵr-gwyn.

DAVIES, Parch. EBENEZER. Gweinidog yn nghyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd ydoedd y Parch. Ebenezer Davies. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1802; a bu farw yn y flwyddyn 1875. Llanerchymedd oedd man ei enedigaeth, yn gystal a man ei breswylfod trwy ei oes; ac o'r llanerch hon hefyd yr ehedodd ei enaid i 'gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig.' Bu yn llanw lle pwysig fel gweinidog yr efengyl am oes faith; yn enwedig yn Môn ac Arfon. Yr oedd ei dad, y Parch. Griffith Davies—neu, fel y gelwid ef ar lafar gwlad yn Môn, 'Gruffydd Dafydd'—yn bregethwr o yni a defnyddioldeb yn yr un cyfundeb; a chylch ei lafur yn gyffelyb i eiddo ei fab. Dichon fod y ffaith i'r mab gael ei ddewis i'w ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth naw mlynedd o flaen ei dad yn ddangoseg gywirach na dim arall pa beth oedd safle y ddau fel dynion cyhoeddus yn marn a theimlad y cyfarfod misol y perthynent iddo. Nid am nad oedd ynddo gydgyfarfyddiad o gymmhwysderau amlwg, ond o herwydd y syniad cyhoeddus ceidwadol, ac i fesur cyfyng, oedd yn nodweddu gweithrediadau y cyfundeb yn Môn, fel rhanau eraill o Gymru, ar y pryd. Dynion talach o'u hysgwyddau i fyny na'u brodyr, y rhai a dybid eu bod yn golofnau, a chanddynt gymmhwysderau arweinwyr i'r cyfundeb; sef, John Elias, Richard Lloyd, Cadwaladr Williams, a William Roberts, a'u cyffelyb, a ystyrid yn deilwng ar y cyntaf; ond angen yr eglwysi, a chynnydd golygiadau mwy ëangfrydig, a ddygodd oddi amgylch gyfnewidiad graddol, fel y daeth tro Griffith Davies i gael ei ordeinio o'r diwedd.

Yr oedd Ebenezer Davies, yr hwn a dynodd ei gŵys i'r pen er anrhydedd i'w goffadwriaeth, ac anrhydedd i grefydd, yn meddu doniau tra chymmeradwy; a mynegir ei fod yn hynod ar gyfrif ei ddull hyglyw o bregethu, os nad dull yn ymylu ar ufuddhau yn llythyrenol i gyfarwyddyd a roddwyd i Esaiah:—'Llefa â'th gêg, nac arbed; dyrchafa dy lais fel udgorn, a mynega i'm pobl eu camwedd.' Er hyny i gyd, yr oedd yn 'fab tangnefedd' yn ystyr llawnaf yr ymadrodd; ac annogwyd ef gan y cyfarfod misol i symmud ei breswylfod i ardal arall, lle yr oedd eglwys liosog, hynod am ei hymrafaelion; a bu ei drigiais yno yn foddion i adferu heddwch a chydweithrediad. Yr ydym yn gwneyd y sylwadau hyn am fod neillduolion dawn, a nodweddion cymmeriad y tad, i'w gweled yn amlwg yn y mab. Mewn perthynas i'r fam—Catherine Pritchard, yn ol ei henw morwynol—yr oedd hi yn dra chrefyddol, a hynod ar lawer cyfrif; a diammheu iddi hithau osod delw ei chymmeriad yn amlwg ar ei mab.

Yr oedd Llanerchymedd, yn nyddiau bachgendod Ebenezer Davies, yn lle yr oedd ysbrydiaeth fyw, aflonydd, yn llanw awyrgylch feddyliol y preswylwyr; fel yr ennillodd yr enw 'Athen Môn,' ac mewn rhai cylchoedd, 'Athen Cymru.' Ger llaw, mewn lle o'r enw Tyddyn melus, y ganwyd ac y magwyd Lewis Morris, o Fôn, a'i frodyr enwog. A rhyw ddwy filldir i'r gorllewin y mae Nantanog, lle y ganwyd William Williams; yr hwn a fu yn llefarydd Tŷ y Cyffredin. Ger llaw hefyd y preswyliai Huw Huws (*y Bardd Coch*); ac nid rhy bell o gyrhaedd y dylanwad ydoedd Llanfair-mathafarn-eithaf—sef, mangre genedigaeth y prif-fardd Goronwy Owen. Fe welir fod gan Lanerchymedd draddodiadau gwerth eu parchu; ac nid oedd trigolion y pentref yn fyr o wneyd hyny; yr hyn fu yn symbyliad i fywyd cymdeithasol a thueddiadau llenorol a chyhoeddus gwahanol i unlle arall yn yr ynys. Pan ddaeth y cyffro deallol hwn i gyffyrddiad â'r Diwygiad Methodistaidd, dygodd ei ffrwyth naturiol trwy droi meddyliau y bechgyn mwyaf talentog at weinidogaeth yr efengyl. Er fod ambell un yn coleddu yr awen, duwinyddiaeth a gwybodaeth ysgrythyrol oedd yn cael y sylw penaf. Y duwinydd goreu oedd yr uchaf ei barch. A dygodd hyn hefyd ffrwyth amlwg ac addfed yn y blynyddoedd dilynol.

Yr oedd Griffith Davies yn argyhoeddiadol o'r pwys o roddi manteision addysg i'w fab. Yr ysgol gyntaf yr anfonwyd Ebenezer iddi oedd ysgol un Evan Thomas:—gŵr llym, awdurdodol, gofalus am ddysgyblaeth fanwl, ac yn meddu ffydd gref yn effeithiolrwydd 'gwialen i gefn yr ynfyd.' Ar ol hyny, cawn ef yn cael ei symmud i ysgol y Parch. John Richards:—gŵr o dueddfryd llenyddol, ac yn ysgolhaig penigamp. Mŷn rhai mai efe, pan yn



Digitized by Google

gweinyddu yn Llanallgo, a gychwynodd yr Ysgol Sabbothol gyntaf yn Môn. Cafodd y bachgen, Ebenezer, rhwng y ddwy ysgol, fanteision addysg elfenol dda: ac yn arbenig bu y Parch. John Richards yn ddigon craff i weled tueddfryd y bachgen; a gofalodd am ei osod ar ben y ffordd i ddilyn ei efrydiau yn y dyfodol. Nid oedd ei addysg grefyddol, chwaith, mewn un modd yn cael ei hesgeuluso. Heb law addysg yr aelwyd, yr oedd 'seiat blant' yn cael ei chynnal mewn cyssylltiad â'r capel, er dysgu plant yr eglwys mewn gwybodaeth grefyddol, a'u meithrin mewn protiad ysbrydol. Un tro, disgynodd rhyw ddylanwad rhyfedd ar y plant wrth ganu, fel y torodd allan yn orfoledd mawr yn eu mysg; a'r penaf o'r gorfoleddwyr oedd y bachgen bychan, gwyneblwyd, Ebenezer. Tymmor y parotoi—gwanwyn einioes—oedd hwn; a gwelir i ddefnydd da, yn ol y manteision a'r amgylchiadau, gael ei wneyd o hono.

Ar y pryd, nid oedd coleg, na chyffelyb, â'i ddrysau yn agored i un o sefyllfa ac amgylchiadau Ebenezer Davies. Rhaid oedd iddo ef feddwl o ddifrif am ffordd i ennill ei fara beunyddiol. Os oedd yn meddwl am fod yn bregethwr yn yr oedran o un-mlwydd-ar-bymtheg, fel y mae yn ddiammheu ei fod, yr oedd sefyllfa pethau ar y pryd yn galw, gyda llais nad oedd fodd ei gamddeall, am foddion cynnaliaeth. Yr oedd Griffith Davies, a'i fab, wedi deall ac ystyried y llais hwn; a chawn i Ebenezer, ar ei ymadawiad o'r ysgol, yn yr oedran crybwylledig, gael ei rwymo fel egwyddorwas gyda dilledydd y pentref. Mawr oedd siomedigaeth y Parch. John Richards wrth ei weled ef yn troi yn bwythwr. 'Ebenezer! Ebenezer!' meddai wrtho un diwrnod, pan welodd ef yn eistedd ar fwrdd y teiliwr, 'ai dyma yr ydych yn ei wneyd? Yr oeddwn yn disgwyl y buasech yn troi allan yn rhywbeth gwell.' Bu am o ddwy i dair blynedd yn y sefyllfa hon, gan fyned gyda'i feistr o dŷ i dŷ, fel yr oedd gwaith yn galw; o blegid dyma oedd arfer y wlad y pryd hyny. Mewn ysgrif yn dwyn y teitl, 'Y pethau a welais yn nyddiau fy ngwagedd,' cawn ef yn rhoddi disgrifiad ei hunan o'r anfanteision a'r profedigaethau a ddioddefodd yn y tymmor a nodwyd. Dyma fel yr ysgrifenai:—

'Mi a welais y perygl dirfawr sydd i rieni duwiol a chrefyddol, wedi iddynt ddwyn eu plant i fyny yn fanwl-grefyddol, eu gollwng i wasanaethu, neu eu prentisio gyda theuluoedd annuwiol a llygredig. Plant wedi eu dwyn i fyny a'u maethu 'yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd'—'yn egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw,' o leiaf—y pethau cyntaf y maent yn eu cofio ydyw, rhyw ymadroddion am yr Iesu, ac am fod yn dduwiol neu yn annuwiol, ac am y nefoedd ac uffern, gan ddisgrifio trueni ofnadwy y naill, a dedwyddwch annhraethol y llall; a bod yr

'Iachawdwriaeth fel y môr
Yn chwyddo byth i'r lan;'

a'r ymadroddion yma, a'r cyffelyb, yn cael eu grymuso a'u cefnogi gan y ddysgyblaeth fwyaf tyner a manwl, ac yn ngoleuni ymarweddiad pur a sanctaidd o'r raddfa uchaf—a'r cyfan, cofier, yn cael eu gweinyddu a'u toddi i'w gilydd yn ngwres addoliad teuluaidd cysson, hwyr a boreu. O! yr hen ddyledswydd anwyl! nad anghofir byth—y parch calon a ddangosid i'r Beibl—y diolchiadau cynnes—y cyffesiadau edifeiriol—yr eirchion priodol—yr ymbiliau gafaelgar a di-ildio am faddeuant, ac am i'r Arglwydd fywhau ei waith yn ein calonau ac yn ein plith—a'r cwbl yn cael eu cyflwyno i fyny i Dduw yn llaw Cyfryngwr, yr Archoffeiriad Mawr, yr Eiriolwr sydd gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn; a'r gwasanaeth yn cael ei eneinio gan *Amen, Amen*, drylliog ein mam dduwiol, nes y byddai yn fynych yn radd o nefoedd ar y ddaear. Yr oedd magwraeth a dygiad i fyny mewn manteision fel yna yn greddfu yn y meddwl yn foreu iawn ryw syniadau uchel am Dduw, parch calon i'r Beibl, ac i'r Sabbath, ac i dŷ Dduw a'i ordinhadau, ac yn ymffurfio yn radd o dynerwch cydwybod, ac ofn pechu. Ond, O! y gresyni o symmud planhigion tyner o fagwrfa fel yna i ddaear a hinsawdd mor wahanol! Y mae genyf un esampl neillduol o flaen fy llygaid yn cyfatteb braidd yn llythyrenol i'r disgrifiad hwn. Un bachgen oedd gan y teulu yn fyw, ac yr oedd hwnw yn gwybod yr Ysgrythyr Lân er yn ieuangc iawn. Yr oedd syniadau y tad yn glir am ei rwymedigaeth i ddwyn ei fab i fyny i ryw gelfyddyd. Mynych y dywedai, pa amgychiadau bynag oedd o'i flaen, y byddai ei grefft wrth ei gefn yn y diwedd. Ond o herwydd iselder amgylchiadau teuluaidd, a diffyg cyfleusdra gwell, bu raid prentisio y bachgen yn ddilledydd; a hyny gyda dyn hollol ddigrefydd. Yr oedd y gŵr yn grefftwr da, ac o egwyddorion rhyddfrydig, ac yn ddyn o dymmer hynod o garedig; ond yn fwy cellweirus ac annuwiol nag y tybid ei fod. Yma disgynodd iaith a thermau llygredig ar glustiau tyner y bachgen, na chlywsai mo honynt erioed o'r blaen—llwon, rhegfeydd, serthedd, ymadrodd ffol, a choeg ddigrifwch; ie, cyflwynwyd i'w feddwl ieuangc a thyner y drychfeddyliau mwyaf aflan ac anniwair, y rhai ni wyddai ddim am danynt o'r blaen, a hyny yn sŵn canu ysgum salaf barddoniaeth Cymru. A meddyliwch fod y fath bethau mor barod i ymgyfrodeddu â greddfau gwreiddiol natur lygredig pechadur. Llawer gwaith y bu y bachgen ieuangc hwn, pan yn gweithio wrth ganwyll ar hirnos gauaf, pryd yr 'ymgasglai yr eryrod at y gelain,' ac yr ehedai 'adar o'r un lliw i'r un lle,' yn gorfod eistedd am oriau mewn awyr afiachus, heb fod nemawr gwell na mŵg y pydew diwaelod. I orphen y disgrifiad pechadurus ac annuwiol, gwneid sylwadau cableddus ar bregethwyr teithiol y Methodistiaid, nes cyrhaedd man tyneraf teimladau y bachgen diniwed, er gwneyd iddo wylo yn hidl—pryd y byddai y cwmni cellweirus wedi cyrhaedd eu hamcan, ac yn tori allan mewn crechwen. Mewn difrif, meddyliwch am ei sefyllfa. Ond trwy fawr ddaioni yr Arglwydd, a nerth ofn Duw yn ei galon, daeth y dyn ieuangc dan sylw allan o'r ffwrn danllyd hon o'r braidd heb fod nemawr gwaeth, oddi eithr y buasai yn well ganddo na dim pe buasai wedi cael treulio ei oes heb wybod am y cwterydd budron a grybwyllwyd. Pan y daeth ei dymmor i fyny, ymadawodd yn barchus, wedi gadael argraph ar gydwybod ei feistr ei fod yn ofni yr Arglwydd o'i febyd; a llawer gwaith, yn y flwyddyn olaf o'i brentisiaeth, y bu yn cadw y ddyledswydd deuluaidd yn ei glyw yn y ffermdai y byddent yn gweithio ynddynt; ond *narrow escape* oedd er hyny. Y mae genyf, yn sicr, y cydymdeimlad dyfnaf â rhieni tlodion dan anfanteision i brentisio eu plant; ond cynghorwn y cyfryw, ar bob cyfrif, i roddi y llong fechan i orwedd wrthi, gan weddio, a disgwyl am i ragluniaeth ddoeth a thirion y Duw mawr agoryd rhyw ddrws i'w rhoddi yn y sefyllfa fwyaf manteisiol i fyw yn dduwiol. Peth ofnadwy ydyw bod yn achlysur i lygru chwaeth a moesau dynion ieuaingc.'

Nid bychan oedd y cynnorthwy a gafodd Ebenezer Davies oddi wrth yr Ysgol Sabbothol. Yr oedd yn y 'capel mawr' Ysgol Sabbothol lafurus iawn, yn rhifo rhwng 300 a 400. Cyn hir, cafodd ei nodi yn athraw, ac yn egwyddorwr yr ysgol. Byddai yn cael ei anfon, weithiau hefyd, yn gynnorthwywr i'r ysgolion cylchynol. Un tro, yr oedd efe, a chyfaill, wedi cael eu hanfon i ymweled âg ysgol Tŷ newydd. Trefnwyd ganddynt i Ebenezer Davies ddechreu yr ysgol, ac i'w gyfaill holi, a diweddu trwy weddi. Gwnaeth Ebenezer Davies ei ran ei hun yn

Digitized by Google

ffyddlawn; a synwyd yn aruthr at ei danbeidrwydd, a'i ddoniau, a nerth ei lais. Troes y cyfaill yn anhydrin, a gwrthododd yn bendant gyflawni y gwaith oedd yn disgyn iddo, yn ol y dealltwriaeth rhyngddynt. Dyma ddechreuad gweithrediad un o elfenau mwyaf defnyddiol ac amlwg ei gymmeriad trwy ei oes; sef, ei allu a'i barodrwydd i fod yn 'gauwr adwyau.'

Yr oedd yn amlwg, bellach, ei fod yn ymbarotoi i fod yn ymgeisydd am y weinidogaeth; ac yr oedd ei ddoniau, ei wybodaeth, a'i grefyddolder mor amlwg fel yr oedd yn ennill cymmeradwyaeth yr eglwys y perthynai iddi yn rhy gyflym i gael cefnogaeth gan rai o'r swyddogion, a'r gwŷr a ystyrient eu hunain y rhai mwyaf gwybodus a blaenllaw. 'Gwŷr o farn' y gosodent hwy eu hunain allan; ac o herwydd nad oedd eu barn yn ffafriol am y gŵr ieuangc, bychan o gorpholaeth a thanbaid ei ysbryd, cadwasant ei achos rhag i'r eglwys gael cyfleusdra i ddadgan ei barn arno. Ond cododd ymwared o le arall. Daeth adfywiad crefyddol grymus i'r lle; ac yn ngwres yr adfywiad hwn, cafodd yntau gychwyn ar waith mawr ei oes. Yr oedd ganddo y cyfarfod misol i'w wynebu drachefn; a rhaid oedd iddo gael cymmeradwyaeth John Elias, David Elias, William Roberts, a gwŷr eraill o allu a dylanwad mawr, cyn y buasai y ffordd yn glir iddo gael myned rhagddo. Cymmeradwyaeth a charedigrwydd mawr a gafodd efe, pa fodd bynag; a rhoddodd John Elias gynghor iddo, a hwnw yn gynghor yr oedd ei ddawn a'i ddull yn ei orfodi i'w gadw, pe na buasai dim arall yn gwneuthur hyny. 'Peidiwch,' meddai yr areithiwr hyawdl wrtho, 'a bod fel neb, ond chwi eich hun. Pan gyhoeddir Ebenezer Davies mewn rhyw gapel neu gilydd, gofelwch mai Ebenezer Davies fydd yno —fel efe ei hun; ac nid neb arall yn cael ei ddynwared.' Traddododd ei bregeth gyntaf yn Llanerchymedd, Awst 7fed, 1825. Cylch ei lafur am y tri mis cyntaf ydoedd taith Llanerchymedd; a phregethodd i'r un cynnulleidfaoedd bob Sabbath yn olynol am y tri mis hyn, oddi eithr y ddau Sabbath olaf o Hydref; gan yr ystyrid, o bossibl, fod ei brawf yn foddhaol cyn i amser ei brawf ddyfod i ben. Yr oedd yr arafwch a ddangoswyd iddo i gychwyn, a'r gyru gormodol oedd arno ar ol cychwyn, mor afresymol a'u gilydd. Os yr un, yr olaf oedd y mwyaf afresymol; canys pa fodd y gallesid disgwyl i un heb fanteision addysg uwchraddol, ac yn gorfod gweithio er ennill ei fara beunyddiol, i beidio tori i lawr? Ac yn chwanegol at y llafur hwn, cawn iddo bregethu o leiaf ddwy waith mewn ŵylnosau yn Llanerchymedd. Ond dal ei ffordd a wnaeth, ac ennill cryfder; ac yn mis Tachwedd, yn y flwyddyn grybwylledig, ëangwyd ei derfynau; ac erbyn dechreu y fl. 1826, ceir ef yn cael caniatâd ei frodyr i 'bregethu yr efengyl i bob creadur.'

Yn fuan ar ol hyn, cawn ef yn y cymmeriad o bregethwr teithiol. Bu gyda'i dad yn sir Fflint; a chyda gŵr o'r enw Mr. Hugh Owen ar daith yn y Deheudir, pryd y pregethodd yn Nghymdeithasfa Dowlais, gyda nerth ac arddeliad mawr.

Daeth i sylw, ac i lanw cylch o ddefnyddioldeb yn mysg y frawdoliaeth yn nghyfarfod misol Môn gyda chyflymder rhyfeddol, os ystyrir y gwŷr grymus oedd yn aelodau o hono ar y pryd, a'r ysbryd ceidwadol oedd yn elfen amlwg yn eu gweithrediadau. Yn y flwyddyn 1836, cawn ef, ar gynnygiad y Parch. William Roberts, Amlwch, yn cael ei ddewis yn unfrydol yn ysgrifenydd y cyfarfod misol; yr hon swydd a ddaliodd hyd nes y lluddiwyd ef gan angau. Yn y flwyddyn 1841, ordeiniwyd ef yn Nghymdeithasfa y Bala; pryd yr oedd y Parch. Richard Humphreys, Dyffryn, yn rhoddi araeth ar ddyledswydd yr eglwys at ei gweinidogion; a'r Parch. John Jones, o Dal-y-sarn, yn rhoddi y cynghor. Ond nid oedd hyn yn ddim amgen na dangoseg, a phrawf erbyn hyn, o'i ffyddlondeb, ei ddefnyddioldeb, a'i boblogrwydd yn nghylchoedd mwyaf cyhoeddus y weinidogaeth. Daeth yn bregethwr poblogaidd ar unwaith; ac nid poblogrwydd byr-barhaol ydoedd. Priodol ydyw cymmhwyso y disgrifiad a roddir o gicaion Jonah at boblogrwydd ambell un:—'Mewn noswaith y bu, ac mewn noswaith y darfu.' Ond yr oedd ei boblogrwydd ef o nodwedd gwahanol —yn cynnwys elfenau oedd yn sicrhau parhâd. Gellir, yn ddiammheu, ei restru yn mysg pregethwyr mwyaf poblogaidd Cymru; ac o bosibl nad oedd yn llawn mor boblogaidd, os nad yn fwy felly, yn niwedd ei oes nag yn ystod un rhan o honi. Yr oedd yno gyfuniad o ragoriaethau oedd yn ei wneyd yn boblogaidd yn mhob cylch, a chyda phob dosbarth:—yn y tŷ, ar y ffordd, yn y cyfarfod eglwysig, ac yn y cyfarfod misol, yn gystal ag yn y pulpud.

Un o'r troion olaf, os nad yr olaf oll, iddo i fyned oddi cartref yn y cymmeriad o bregethwr teithiol ydoedd trwy ran ddwyreiniol sir Feirionydd. Tynai gynnulleidfaoedd anferth ar ei ol yn mhob cymmydogaeth yr elai. Yr oedd yr efrydwyr oedd yn y Bala fel rhai wedi eu syfrdanu gan ei ddull a'i ddawn; ac nid oedd fodd cael llawer o honynt i dalu sylw i Roeg, na Rhesymeg, nac Uchanianaeth, a'r rhelyw o'r gwersi, tra y bu efe yn y cyffiniau. Nid oedd y prifathraw hybarch, Dr. Edwards, yn grwgnach nac yn dwrdio dim fod y bechgyn yn gwylltio oddi wrth eu gwersi ar ol pregethwr mor hynod. Yn hytrach, dadganai lawenydd fod y gŵr bach o Fôn yn cael y fath ddylanwad arnynt.

Wrth ymholi am y rheswm am ei boblogrwydd, arweinir ni at y dyn, ac at ei ddawn. Yn gyntaf oll, yr oedd yn foneddwr. Nid safle uchel, na gwaed, na chyfoeth y byd, oedd wedi rhoddi iddo yr hawl i'r enw boneddwr; ond yr oedd wedi ei eni yn un o foneddigion natur; ac yr oedd gras Duw yn addurn ac yn goron ar y cyfan, fel yr oedd yn rhaid teimlo, megys yn ngrym greddf, ei fod yn foneddwr Cristionogol. Yr oedd hyn yn peri fod ei ymddygiadau yn brydferth, ac yn weddus at bawb. Buasai yn drais ar ei natur i beidio bod yn barchus o'r uchelradd, ac yn llawn cymmaint o drais ar ei natur i beidio bod 'yn gydostyngedig â'r rhai iselradd.' Hawdd gweled fod hyn, nid yn unig yn ei wneuthur yn gymmeradwy a dymunol mewn cymdeithas, ond hefyd yn chwanegu at effeithiolrwydd ei weinidogaeth yn y pulpud. Dwy elfen amlwg yn ei foneddigeiddrwydd oedd caredigrwydd a lledneisrwydd. Ceir rhai yn garedig mewn ffordd arw, gethin, fel rhai yn disgwyl i'w caredigrwydd archolli teimladau y rhai fydd yn ei dderbyn; ond yr oedd ei garedigrwydd ef yn codi o ddyfnder cydymdeimlad, a thynerwch calon. Bu yn gefn ac yn amddiffyn i lawer gŵr ieuangc ar ei gychwyniad gyda gweinidogaeth yr efengyl, pryd y byddai ambell un yn methu gwrthsefyll y demtasiwn i ddyrnodio a maeddu y gwan pan

Digitized by Google

mewn amgylchiadau anfanteisiol i'w amddiffyn ei hun.

Anhawdd tynu llinell-derfyn rhwng y dyn a'i ddawn. Nid oes ystyr i'r naill, ar wahân i'r llall. Os yn bossibl, ni phetruswn ddweyd fod cyssylltiad nes rhwng Ebenezer Davies a'i ddawn na'r cyffredin. Yr oedd hynodion yn perthyn i'w ymddangosiad personol, i'w gymmeriad fel dyn, ac i'w ddawn fel pregethwr; ac yr oedd llinell o debygolrwydd amlwg iawn yn rhedeg drwy'r cwbl. Yr oedd ysbrydiaeth yn ei lygaid. Nid llygaid llonydd, llywaeth, oedd ganddo ef, megys yn edrych bob amser i wagder. Hawdd deall fod rhywbeth—rhywun—ysbryd byw—yn edrych trwy y ffenestri; a hwnw yn meddwl, yn sylwi, yn yn barnu. Nid oedd un symmudiad yn y gynnulleidfa nad oedd efe yn ei ganfod, ac yn deall ei ystyr. Yr oedd yn graffus iawn i adnabod personau; a gallai gyfarch nifer rhyfeddol o fawr o'i wrandawyr yn Môn, a manau eraill, wrth eu henwau. Ond yr oedd yn graffach fyth i adnabod cymmeriadau. Y craffder hwn oedd un o nodweddion ei weinidogaeth. Nis gellir dyweyd fod ganddo adenydd eryr, i ehedeg yn yr uchelderau; ond yr oedd ganddo lygaid barcut, i ganfod perlau, a phob cyfoeth gwerthfawr; ac yr oedd hyny yn amlwg yn ei ymdriniaeth â phethau newydd a hen yr efengyl. Yr oedd yn gall fel y sarph yn mhob peth, ac yn gyfrwys iawn; ond nid yn gyfrwysddrwg.

Ac ynglŷn â'r craffder hwn yr oedd ynddo lawer iawn o ddeheurwydd a ffraethineb. Y mae deheurwydd a ffraethineb yn berthynasau agos i'w gilydd—yn gefnderoedd, os nad yn frodyr. Y gwahaniaeth mwyaf rhyngddynt yw, fod un yn dyfod i'r golwg yn yr ymddygiad, a'r llall yn yr iaith. Y mae y naill a'r llall mor gyflym ag iyrchod y maes. Os na wnânt eu gwaith yn ei amser, ni wnânt ef byth. Yr oedd Ebenezer Davies yn hynod ar gyfrif ei gyflymder. Gwyddai pa beth i'w wneyd, a pha fodd i wneyd hyny, ar darawiad llygad. Anhawdd dethol esamplau, gan mor liosog ydynt. Gwasanaethed un neu ddwy. Yr oedd unwaith i bregethu yn Mhentraeth, yn yr un cyfarfod a gŵr o enwogrwydd mawr—y Prifathraw David Charles Davies, o Drefecca—ond o Lundain y pryd hwnw; ac aeth yn ymliw, ac mewn rhan yn gilgwthio caredig, rhwng y ddau a'u gilydd am bregethu yn mlaenaf. Ond y gwr bach o Lanerchymedd a gollodd; ond mynodd ei ffordd er hyny. Tra yr oedd y Parch. David Charles Davies mewn meddiant sicr o'i safle, ac yn troi dalenau y llyfr hymnau mewn agwedd dawel un wedi gorchfygu, wele y brawd arall, gyda llais uchel, a chyda thanbeidrwydd ysbryd, yn edrych yn siriol dros ochr y pulpud, ac yn rhoddi allan y pennill,

> 'Mae'r iachawdwriaeth fel y môr
> Yn chwyddo byth i'r lan,' &c.

'Dechreuwn,' meddai; ac yn yr ysbryd a'r dymmer oreu, cyrhaeddodd ei amcan.

Dyddorol iawn oedd ei wrandaw yn galw enwau yr eglwysi yn y cyfarfod misol, er mwyn iddynt dalu eu cyfran at dreuliau cyffredinol y cyfarfod. Gallai roddi ar ddeall, heb arfer geiriau, pwy oedd ar ol. Galwai amryw o enwau yn olynol heb dynu sylw neb; ond dyna ef yn gwneyd osgo un yn clust-ymwrandaw; a hawdd deall fod tro neu ddau ar ol. Galwai enw arall mewn llais uchel—hwnw hefyd yn lle pechadurus; ac enw drachefn mewn llais isel iawn, yn arwyddo sefyllfa ddifrifol. Edrychiad arwyddocaol a ddeuai ynglŷn â'r enw nesaf, o bossibl; ac nid oedd neb heb ddeall ei ystyr. A chyda'r cyfryw ddull, hollol naturiol a phriodol iddo ef, y llwyddai i ddiwygio ei frodyr heb eu digio.

Yr oedd arferiad lled dramgwyddus a pheryglus yn codi unwaith mewn cymmydogaeth yn Môn; a gofynwyd iddo yntau i ddyweyd gair yn ei erbyn—yr hyn a wnaeth yn ei ddull deheuig ei hun, a chyda gwawdiaeth a thynerwch oedd yn cyrhaedd ei amcan yn berffaith. Yr oedd wedi annelu a saethu at y nôd i drwch y blewyn cyn i neb feddwl fod hyny mewn golwg ganddo. Darfu yr arferiad am byth; a hyny mewn canlyniad i'w gyfeiriad ati yn ei bregeth.

Yr oedd yn feistr trwyadl ar yr iaith Gymraeg—nid rhyw fath o Gymraeg, ond Cymraeg mewn gwisg hollol Gymreig. Siaradai gyda chyflymder anhygoel i bawb, ond y rhai fu yn wrandawyr iddo. Yr un pryd, nid oedd ei gyflymder yn milwrio dim yn erbyn effeithiolrwydd ei draddodiad. Nis gellir dyweyd fod ganddo lais o'r fath fwyaf dymunol—tueddol at fod yn grâs, a rhy uchel ydoedd. Hen gyfaill iddo a ysgrifenai fel hyn am dano:—'Difyrwch mawr i mi, pan yn blentyn, fyddai gwrandaw un hen gymmydog doniol, nad oedd yn aelod o'n heglwys, yn ail adrodd areithiau Ebenezer Davies yn y *society* y nos o'r blaen. Ond pa fodd, yr ydych yn gofyn, y daeth efe i wybod am danynt? Wel, yr oedd un o ffenestri y capel yn agored, a phob gair o enau y pregethwr yn diangc allan, ac yn cyrhaedd clustiau y cyfaill yn ei dŷ.' Nid oes neb yn ammheu yr esboniad hwn—neb a'i clywsant. Yr oedd y llais ei hun yn treiddio fel cyllell—ac yn treiddio trwy gnawd ac esgyrn.

Dïau fod ei ddawn rhyfedd, a'i feistrolaeth ar iaith, yn brofedigaeth iddo. Fel esampl, dyma ei ddisgrifiad o Elias y Thesbiad:—

> 'Ystrifflyn, teneu, eiddil, barfog, blewog, â gwregys o groen ynghylch ei lwynau, yn ysleifio myn'd yn ddiarbed, ar draws y mynyddoedd, a thros y cloddiau, heb ofalu am lwybr na ffordd pan ar neges ei Dduw; ac fe allai y byddai ar adegau yn cael ambell *lift* gan angel—ambell *lift* gan angel.'

Anhawdd cyfleu syniad i'r rhai na chlywsant ef am barodrwydd a hynodrwydd ei ddawn. Gellir yn briodol gyffelybu ambell areithiwr i afon lydan, loew, yn treiglo trwy ddyffryn tlws—yn dechreu yn ffrwd fechan, ac yn cynnyddu ac yn dyfnhau wrth fyned yn mlaen; a chyn cyrhaedd y môr, yn myned yn afon fawr fordwyol. Nis gellir meddwl am ddim mwy annhebyg i hyn na dawn Ebenezer Davies. Yr oedd yn hytrach fel y rhaiadr gwyllt:—

> 'Crochwaedd o redlif crychwyn
> Yn synu pensyfrdanu dyn,'

o'r dechreu i'r diwedd. Pan ar daith unwaith yn un o siroedd Cymru, digwyddodd fod ei gyhoeddiad mewn lle yr oedd cyfarfod y Feibl Gymdeithas wedi ei drefnu. Rhoddwyd heibio yr odfa er mwyn y cyfarfod. Yr oedd parson y plwyf yn bresennol, ac yn y gadair; a'r ysgweier wedi anrhydeddu y cyfarfod â chefnogaeth ei bresenoldeb, ac araeth. Yr oedd amryw o'r enwogion lleol hefyd yn traethu eu llen gyda gweddusder teilwng. Digwyddai mai gwŷr y doniau sychion oedd yr oll o'r siaradwyr. Fel mater o foneddigeiddrwydd, ac mewn cydymffurfiad âg egwyddor lydan y gymdeithas y

Digitized by Google

dadleuid drosti, fe ofynwyd i'r gŵr dyeithr i ddyweyd gair. Ac yr oedd hyny yn oddefol o dan yr amgylchiadau, er mai hawdd gweled nad ystyrid y buasai y cyfarfod ar ei golled pe buasai y gŵr dyeithr yn rhywle arall. Onid oedd yr ysgweier yn y cyfarfod? Nid oedd neb yn fwy byw i wir sefyllfa pethau na'r gŵr dyeithr ei hun. Cyfododd ar ei draed fel un yn benderfynol o ddyfod i fyny â'r amgylchiad. Ymdaflodd yn llawn ar ei adnoddau—ei arabedd, ei graffder, a'i ddawn—a chyn pen hanner munyd yr oedd y gynnulleidfa yn ferw gwyllt drwyddi; ac nid oedd neb yn fwy o dan ei ddylanwad na'r cadeirydd a'r ysgweier. '*The rivalry*,' meddai Emerson, '*between the orator and the occasion is inevitable, and the occasion always yields to the eminence of the speaker: for a great man is the greatest of occasions.*'

Rhoddwn un esampl etto. Mewn cyfarfod pregethwyr yn nghymdeithasfa Bangor unwaith, digwyddai fod y drafodaeth yn drymaidd ac yn unrhywiol. Galwyd ar Mr. Davies i siarad—ac ar eiliad yr oedd ar ei draed. Meddai:—

'Anwyl frodyr a chwiorydd (sirioldeb yn y cyfarfod). Ië, ie, rhaid i chwi faddeu i mi. Byddaf yn arfer dyweyd hyn mor fynych yn Llanerchymedd acw. Hym! byddaf. Ond o ran hyny, hwyrach fod yma chwiorydd hefyd (sirioldeb mwy cyffrous). Anwyl frodyr, nid wyf fi ddim yn gwybod pa mor bell y mae y naturiol a'r celfyddydol yn myned gyda phregethu. Mae yn debyg ei fod yn myned yn mhell iawn. Ond y mae rhyw ysbrydiaeth oddi wrth yr Arglwydd yn perthyn i bregethu nas gall y medr celfyddydol uchaf ddim gwneyd hebddo. . . . . Heb hwnw nis gall dysgeidiaeth, na chelfyddyd, na hyawdledd, wneyd dim; ond y mae y naill gyda'r llall yn ardderchog.——Dyna JOHN ELIAS, y dyn Duw hynod hwnw—fe ymroddodd efe ati i astudio y gelfyddyd o araethyddiaeth, a chyrhaeddodd berffeithrwydd mawr ynddi; ac fe'i gwisgwyd hefyd â nerth o'r uchelder yn goron ac yn arddeliad ar y cwbl.——WILLIAM ROBERTS, Amlwch, yr ochr arall—ni thalodd efe nemawr o sylw erioed i reolau araethyddiaeth; ond yr oedd y fath ddifrifwch yn ei ysbryd, ac yr oedd yn byw mor agos at ei Dduw, a'r fath nerth yn ei grebwyll a'i ddarfelydd, fel y byddai yn ffurfio drychfeddyliau na cha'i neb arall mo honynt; ac weithiau, byddai yn eu bwrw allan fel tân o fol llosgfynydd. Ac ar yr adegau hyny, O! y fath oedd effeithiau a nerthoedd y byd a ddaw!——REES goeth, yntau:—pwy a ŵyr faint o sylw a roddodd efe i gelfyddyd pregethu? Hyn a wyddom, ei fod yn arfer y manylwch mwyaf, ac yn ysgrifenu ei frawddegau prydferth bedair a phum gwaith cyn eu llunio i'w lle.—TAL-Y-SARN fawr—yr oedd afonydd o ddwfr bywiol yn tarddu o'i groth ef, fel y dwfr o'r graig wedi i Moses ei tharaw. Yr oedd yntau hefyd yn talu sylw manwl i gelfyddyd pregethu—yn rhoi marc yn mha le i ddechreu gwaeddi.——JONES, Treborth, anwyl, *pleasant*:—edrychwch arno yn ei gadair, ac yn dychymygu ei fod yn nhŷ Tad Iesu Grist. Y mae ei fwrdd ysgrifenu bach wrth ei ochr, a'i Feibl o'i flaen; ac y mae'n cilwenu yn ddedwydd ar y drychfeddyliau prydferth a barddonol sydd yn bwrlymu i'w feddwl cyn eu cyfleu ar y papur. A'r fath eneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw oedd ar ei ysgrifau, a'i bregethau.——Ond! ond! ai apostolion pawb? ai prophwydi pawb? ai gwneuthurwyr gwyrthiau pawb? Na, na: fe fu DANIEL JONES, Llanllechid, yn lluchio ceryg i dalcen y cawr.——Fe fu CADWALADR OWEN yn dandlwm, dandlwm, fel mammaeth:—ac fe fu JOHN WILLIAMS, Llecheiddior, efo'i ôg fawr, ddanneddog, yn llyfnu y tir.——Wel, wel, fy anwyl frodyr, ymroddwn ninnau ati â'n holl egni. *Siarpiwch* eich cynion goreu y galloch, ac edrychwch yn graff a deallus i gyssylltiadau y graig am y lle tebycaf i guro y cŷn i mewn; a gweddïwch am nerth y fraich Hollalluog i'w curo i lawr, a'u cael i'r lan.—Cofiwn rodio mewn cariad at ein gilydd. Amen."

Un rheswm am barhâd ei boblogrwydd, trwy deg a garw, dros ystod oes faith yn y weinidogaeth, oedd ei fod bob amser yn ymroddgar i lafur. Nid gorphwys ar ei ddoniau a wnaeth, er y gallai fforddio gwneyd hyny yn well na llawer. Er yn fynych mewn llesgedd corphorol, ni byddai byth yn ymollwng i ddïogi meddyliol. Ni welwyd ei arfau erioed wedi rhydu; ond byddent bob amser yn loyw mewn gwaith. Hyd yn oed ar wely cystudd, byddai yn parotoi ar gyfer y pulpud. Yr oedd y llafur hwn yn cynnyrchu dyddordeb yn ei feddwl ef ei hun yn materion ei bregethau; a'r canlyniad naturiol oedd, fod rhyw ieuangrwydd rhyfedd yn ei ysbryd, a newydd-deb gwastadol yn ei weinidogaeth. Byddai un o flaenoriaid Môn—un o wŷr grymus yr oes o'r blaen—Mr. Hugh Hughes, Tŷ newydd, Llangristiolus—yn myned ar daith i'r Deheudir fel 'cyfaill' gyda phregethwyr Môn. Bu unwaith, o leiaf, yn 'gyfaill' gyda'r Parch. John Elias. Bu hefyd, ar dro arall, yn 'gyfaill' am rai wythnosau gyda'r Parch. Ebenezer Davies. Ei dystiolaeth, ar ol dychwelyd o'r daith hon oedd, fod gan Mr. Davies destyn a phregeth newydd bob tro. Dengys yr esampl hon beth all meddwl cynnyrchiol ei wneyd trwy lafur; yn enwedig pan yn mrwdaniaeth ysbryd a gwaith y weinidogaeth.

Ei hen gyfaill, y Parch. Dr. Hughes, hefyd, a ysgrifenai am adeg ddiweddarach o'i oes:—

'Treuliai lawer o'i amser yn ei fyfyrgell, a pharotoai nifer mawr o bregethau. Nid oedd neb yn Môn yn fwy canmoladwy nag ef yn hyn. Ei brif esboniad oedd yr eiddo Macknight, yr hwn y cynghorwyd ef i'w brynu gan Mr. Roberts, Amlwch; a'i brif lyfr duwinyddol oedd Dr. Owen ar yr Hebreaid, —hen gopi Christmas Evans; ac argraphiad talfyredig o waith Dr. Williams, o Rotherham. . . Adeg ddisglaeriaf ei grefydd oedd diwedd ei oes; a gwyn ei fyd y dyn y mae ei einioes yn diweddu mor lewyrchus.'

Dïau mai ei grefyddolder dwfn oedd dirgelwch ei gryfder fel gweinidog yr efengyl. O'r crefyddolder hwn y codai y gweddusder, a'r prydferthwch sancteiddrwydd a ddeuai i'r golwg pan y byddai efe yn gweinyddu yr ordinhadau. Er cymmaint o fywiogrwydd naturiol oedd ynddo, hawdd oedd canfod fod hyn wedi cael ei sancteiddio gan Ysbryd y bywyd. Nid tân dyeithr oedd wedi cynneu tanbeidrwydd ysbryd ynddo, ond y 'marworyn wedi ei gymmeryd oddi ar yr allor.'

Byddai ar adegau yn ysgrifenu ei brofiadau crefyddol; a thrwy y cofnodion hyn, agorir y drws i ni i fyned at ei 'ddyn oddi mewn.' Dyma esampl:—

'Fy nymuniad taer a gwresog ydyw y tri pheth hyn:—

1. Cael byw cyhyd ag y byddwyf dan ymgeledd y gwaed a'm cynnaliodd yn fy nghyfyngder:—(1.) I sancteiddio fy nymuniadau. (2.) I farweiddio fy holl lygredigaethau. (3.) I adfywio fy ngrasusau beunydd. (4.) I ail ennyn hyny o ddawn sydd genyf. (5.) I bureiddio fy muchedd a'm gwasanaeth.

2. Cael modd i ddyweyd yn rhagorol am rinwedd y gwaed.

3. Cael marw dan gysgod y gwaed, pa bryd bynag y bydd hyny. Amen byth! Amen o galon!

Dyma fy mhrif ddymuniadau yr awr hon, er mwyn angau y Groes. Ond yr wyf yn ystyried mai goruchwyliaeth yr Ysbryd Glân yn unig a'm ceidw yn y tir hwn i barhau.'

Digitized by Google

Ni chafodd ond ychydig ddyddiau o gystudd. Aeth o ganol ei waith at ei wobr; a'i eiriau diweddaf oeddynt, 'Bod gyda Christ . . llawer iawn gwell ydyw!'

DAVIES, Parch. ROBERT. Ganwyd ef mewn lle o'r enw Ty'n-yr-wrta, yn mhlwyf Cemmaes, yn sir Drefaldwyn, o rïeni tlodion a di-broffes. Bu farw ei dad pan yr oedd efe tua blwydd oed; ac nid ydyw yn ymddangos iddo dderbyn dim manteision addysg oddi wrth ei fam chwaith. Hyny o ysgol a gafodd efe oedd yr hyn a roddwyd iddo gan yr Annibynwyr; ac ymddengys, oddi wrth ei adroddiad ef ei hun ychydig cyn marw, iddo dderbyn lles mawr trwy bregethau gweinidogion yr enwad hwnw. Bu wedi hyny, o herwydd rhyw gyssylltiadau teuluaidd, yn mynychu yr Eglwys Wladol; ond disgrifiai grefydd yr eglwys fel un esmwyth i gig a gwaed; a dywedai fod ei enaid tlawd yn newynu, gan mor oeraidd oedd y weinidogaeth. 'Darllen y llithoedd, a chanu salmau, a bod yn ddigrif a llawen, ac ymddiddan am y byd ar ol y gwasanaeth, oedd yn creu uffern o fewn fy mynwes.' Dyna ei eiriau ef ei hun am y cyfnod hwn yn ei fywyd. Ar ei ymadawiad âg Eglwys Loegr, tueddwyd ei feddwl i ymwasgu at y Methodistiaid Calvinaidd. Torodd ei gyssylltiadau â'i hen gyfoedion, a gwnaeth achos ei enaid yn bwngc ei fywyd. Nid oedd efe etto ond ynghylch pymtheg oed; ond er mor ieuangc, yr oedd y gwirionedd wedi gafael yn gadarn yn ei feddwl. Y mae ei adroddiad ef ei hun am neillduolion y cyfnod hwnw yn ddyddorol iawn:—'O ddeutu yr adeg hon (meddai) y daeth y Wesleyaid i Gymru, pryd y deffrodd y Methodistiaid fel un gŵr i bregethu yn erbyn yr hyn a alwent yn Arminiaeth. Safai y rhai yr oeddwn i mewn cyfleusdra i'w gwrandaw agos yn hollol ar etholedigaeth, a phrynedigaeth neillduol, anallu dyn, a nerthoedd anorchfygol yr efengyl. Yr oeddwn i yn canfod iachawdwriaeth yn cael ei phregethu nad oedd eisieu ei gwell, ond yn unig ei bod yn iachawdwriaeth i'r etholedigion; ac ni feiddiwn i gymmaint a meddwl fy mod i yn un o'r teulu dedwydd hyny. . . Pan y meddyliwn, yn fy nhrueni, am droi fy ngwyneb at angau y groes am fy mywyd, y bregeth gyntaf a glywn a daerai yn fy wyneb nad oedd yno ddim ond i'r etholedigion, dan ryw nodweddiad, megys 'defaid,' 'eiddo,' neu 'gyfeillion,' &c. Ond o drugaredd, a thrugaredd gymmaint ag a dalai fy mywyd hefyd, danfonwyd cenad o ladmerydd—un o'r enw John Roberts, o sir Gaernarfon—yr hwn a bregethodd Grist wedi ei groeshoelio o'r tu allan i'r porth, a'i angau yn fywyd, yn noddfa, ac yn feddyginiaeth i'r annuwiol. Y pryd hwn yr agorwyd drws gobaith i'm henaid tlawd yn Nyffryn Achor,' &c., &c. Yn lled fuan ar ol y bregeth ryfedd hon, a'r effeithiau a'i dilynodd, ymunodd Robert Davies â'r eglwys, a'r Ysgol Sabbothol; a phan tua 24ain oed, dechreuodd bregethu. Cyn hir, cafwyd profion eglur ei fod yn genad gwirioneddol oddi wrth yr Arglwydd. Effeithiodd y treialon yr aeth efe drwyddynt yn amser ei argyhoeddiad, ynghyd â'r goleuni llachar a dywynodd i'w enaid ar ol hyn, yn fawr ar ei weinidogaeth, gan ei gwneuthur yn hynod o fyw a gwirioneddol.

Wedi dechreu pregethu, bu yn preswylio am ychydig mewn lle o'r enw y Graig, yn mhen plwyf Trefeglwys. Oddi yno, efe a symmudodd i'r Brithdir, ger Llanrhaiadr-yn-Mochnant. Un boreu Sabbath, cafodd olwg ryfedd ar y cwmwd hwnw, a theimlodd ei ysbryd yn ymgynnhyrfu o'i fewn. Yn ei feddwl, gwelai yr holl wlad, o Langynog i Groesoswallt, yn gorwedd mewn drygioni—campau llygredig yn eu grym, ac ymladd ceiliogod yn blodeuo i raddau mawr. Yna efe a benderfynodd bregethu yn mhob lle y caffai ddrws agored, i'w gwrthwynebu. Trwy ei ddirfawr lafur, a'i fawr sêl, gwnaeth waith ammhrisiadwy yn y llanerchau hyny; a chyn hir, yr oedd eglwysi wedi eu sefydlu mewn llawer o ardaloedd y wlad hono. Aeth enw Robert Davies, y Brithdir, felly yn air teuluaidd. Wedi llafurio o hono fel hyn am flynyddoedd yn y Brithdir, symmudodd i le a elwid Ty'n-y-fron, yn mhlwyf Llanfair—lle oedd wedi ei esgeuluso yn ddirfawr gan efengylwyr eraill. Yma, pregethai yn ei dŷ ei hun, a thai ei gymmydogion; a bu yn offerynol i sefydlu capel bychan yno. Ei symmudiad nesaf oedd i Lanwyddelan; ac yno, bellach, y llafuriodd efe hyd ddiwedd ei oes. Dydd y farn yn unig a ddengys y gwaith a wnaeth efe yn ei ddydd. Ennill eneidiau oedd ei amcan, pa le bynag y byddai. Yr oedd yn ffyddlawn yn mhob rhan o'r gwaith, ac yn fedrus hefyd yn mhob rhan. Rhagorai yn gymmaint fel trefnwr eglwysig ag fel pregethwr; ac y mae ei goffadwriaeth yn aros yn berarogl byw yn y manau y bu yn gweinidogaethu hyd heddyw. Bu farw Ebrill 21ain, 1851, yn 63ain mlwydd oed; a chladdwyd ei weddillion ger llaw capel Llanwyddelan.

DAVIES, Parch. SAMUEL. Yr oedd yn ail o'r enw a fu yn weinidog gyda'r Wesleyaid yn Nghymru; o blegid hyny, adnabyddid ef am dymmor fel Samuel Davies yr Ail. Ganwyd ef yn Ninbych, Chwefror 18fed, 1818. Yr oedd yn un o amryw blant i David ac Anne Davies. Y mae chwaer iddo yn byw yn Ninbych yn awr—gweddw y diweddar Robert Jones, o Stryt y Capel; a ganwyd iddynt amryw o blant. Hànai ei fam o hen deulu y Chancery, Beaumaris; ac yr oedd ei dad yn disgyn o un o hen deuluoedd Dinbych. Yr oedd ei ddwy nain yn mhlith blaenffrwyth llafur y cenhadon Wesleyaidd: felly, yr oedd efe yn Wesleyad o'r drydedd genhedlaeth—ac yr oedd hyny yn werthfawr yn ei gyfrif. Safai y Parch. Samuel Davies, y Cyntaf yn uchel iawn yn nghyfrif y tad a'r fam; a thueddwyd hwy, gan eu hedmygedd o hono, i alw ein gwrthddrych ar ei enw. Bu hyny yn foddion i beri iddo yntau dalu cryn lawer o sylw i'r hen wron hwnw, fel y dengys y cofiant a ysgrifenodd am dano.

Daeth yn ddeilydd argraphiadau crefyddol yn foreu. Yr oedd awyrgylch yr aelwyd yn fanteisiol i hyny, ynghyd âg ymroddiad ei rïeni i'w arfer gyda mynychu moddion gras. Gyda hyny, nid oedd yn cofio adeg pan nad oedd yr Ysbryd Glân yn ymyryd â'i feddwl, ac yn ei argyhoeddi o bechadurusrwydd ei gyflwr. Er na bu erioed yn ymollwng i bechodau cyhoeddus a gwarthus, etto yr oedd efe yn cael ei argyhoeddi yn fynych o golledigaeth ei gyflwr o blegid ei bechod. Yn y cyfnod boreuol hwn, ymneillduai yn fynych i dywallt ei galon ger bron Duw mewn gweddi, ac i erfyn am iachawdwriaeth. Er fod ei dad a'i fam yn aelodau eglwysig, ac er yr arferent ei gymmeryd i bob moddion o ras cyhoeddus, nid oedd efe wedi ei

Digitized by Google

ddwyn i fyny yn yr eglwys. Yr oedd mympwy a rhagfarn yr eglwys yn y dyddiau hyny yn erbyn magu y plant yn yr eglwys; a diau i hyn fod yn golled annhraethol mewn llawer achos. Yn ol pob golwg i ni, buasai llawer wedi eu diogelu i eglwys Crist pe na buasai am y camgymmeriad hwn.

Ymunodd â'r eglwys yn Gorphenaf, y fl. 1832. Y pryd hwnw, yr oedd y *cholera morbus* yn gwneuthur hafoc ar fywydau yn ein gwlad; a chafodd tref Dinbych ei rhan o'r trychineb. Parodd yr ymweliad hwn ddifrifoldeb mawr yn y dref. Cynnelid cyfarfodydd gweddïo am bump o'r gloch yn y boreu. Yr oedd y tafarndai yn wâg, a'r addoldai yn llawnion. Ymunodd niferoedd â'r eglwysi. Derbyniodd y diweddar Barch. Richard Bonner, yr hwn oedd yn un o weinidogion y gylchdaith ar y pryd, gynnifer ag wyth a deugain yr un noswaith o rai yn dadgan eu dymuniad i 'ffoi rhag y llid a fydd.' Yn eu plith, yr oedd tri o fechgyn ieuaingc:—y diweddar Barch. John Roberts, yr hwn a dreuliodd ddwy flynedd ar bymtheg ar hugain yn y weinidogaeth yn mhlith y Saeson; Thomas Hughes, yr hwn a dreuliodd ei oes yn bregethwr lleol; a gwrthddrych y sylwadau hyn. Ond er i Samuel Davies ymuno â'r eglwys, ni chafodd efe ymwared oddi wrth ei bryder am ei ddiogelwch. Yr oedd clywed eraill yn gallu dadgan yn groyw eu bod yn brofiadol o heddwch tuag at Dduw trwy yr Arglwydd Iesu Grist yn ei ddwyn wyneb yn wyneb â'r ffaith nad oedd yr heddwch ganddo ef. Nid yn fynych y darllenir am neb a fu mewn mwy o wasgfa yn achos ei gyflwr. Ymdrechai lawer gyda Duw am y fraint o gael adnabod ei heddwch. Ond cyn hir, torodd y wawr ar ei feddwl. Daeth yn abl i ddyweyd y gwyddai am y 'pryd a'r man pan y cafodd yr Anwylyd iddo'n rhan.' Daeth ei gyflwr newydd i'r golwg yn dra buan mewn ymroddiad i fod yn ddefnyddiol yn eglwys Iesu Grist. Daeth yn 'awyddus i weithredoedd da.'

Yr Ysgol Sabbothol a ddaeth yn faes cyntaf ei lafur. Bu yn athraw, yn ysgrifenydd, ac yn llywydd ynglŷn â hi. Gwnaed ef yn un o oruchwylwyr yr eglwys; ac os na wnaed ef yn un o'r blaenoriaid, gosodid ef i flaenori y rhestr eglwysig yn fynych.

Un o'r adegau mwyaf dyddorol yn ei hanes ydyw y pryd y teimlai gymmhellion mewnol i bregethu Crist yn Geidwad i bechaduriaid, ac yr attegid hyny gan gymmhellion allanol. Y mae yn ymddangos mai anfynych y gwnaeth neb fwy o ymdrech i ymryddhau oddi wrth yr argyhoeddiad. Ni fynai efe wrandaw ar y llais nes y daeth i gael ei aflonyddu gan y syniad ei fod, wrth wrthod, yn peryglu ei iachawdwriaeth bersonol ei hun. O'r diwedd, ufuddhaodd i'r alwad. Yr oedd, erbyn hyn, wedi symmud i Abergele. Yno y dechreuodd ar waith mawr ei fywyd. Yr oedd hyn ar Mawrth 31ain, 1839, yn nghapel Salem, ger Llanddulas. Aeth yno gyda'r diweddar Owen Owen, Llansantsiôr—pregethwr lleol adnabyddus. Ei destyn oedd *Actau* xvi. 30, 31—dychweliad ceidwad carchar Philippi. Ar ol gorphen, eisteddodd i lawr yn y pulpud; a thra yr oedd Owen Owen yn pregethu ar ei ol, meddyliai mai y pulpud oedd y lle mwyaf ofnadwy y bu ynddo erioed, ac na ryfygai fyned iddo byth mwy. Nid felly y bu. Pregethodd y Sabbath dilynol, Ebrill 7fed, yn y Bettws, oddi ar yr un testyn; a thrachefn yn yr un lle ar yr 21ain, oddi ar *Actau* xx. 21; a'r un bregeth yn Moelfra yr un dydd. Dyma ddechreuad ei yrfa bregethwrol. A pharhaodd gyda'r gwaith tra y parhaodd ei einioes. Heb law yr addysg elfenol a dderbyniodd pan yn fachgen, yr unig ragbarotoad a gafodd ar gyfer y gwaith mawr oedd dosbarth duwinyddol a sefydlwyd gan y Parch. Thomas Aubrey ar gyfer dynion ieuaingc, ar ol ei fynediad i Ddinbych yn Awst, 1837.

Mewn cyfarfod chwarterol a gynnaliwyd yn Nghonwy, Mawrth, 1841, cymmeradwywyd ef yn unfrydol i waith mawr y weinidogaeth; a hyny yn ei absennoldeb, ac yn ddiarwybod iddo hefyd. Yn y Cyfarfod Talaethol a gynnaliwyd yn Nolgellau, Mehefin 22ain a'r 24ain, yn yr un flwyddyn, cafodd gymmeradwyaeth yr un mor unfrydol fel ymgeisydd teilwng. Dywedid am dano gan y Parch. Daniel Evans, ei arolygwr, ei fod yn ŵr ieuangc o feddwl cryf, ac fod ganddo farn aeddfed mewn pethau dwyfol. Derbyniwyd ef gan y gynnadledd. Yn nechreuad 1843 y dechreuodd ar waith rheolaidd y weinidogaeth. Pennodwyd ef i Manchester. Yr oedd iechyd y Parch. David Evans yr Ail wedi ffaelu. Ac efe a aeth yno i lenwi y bwlch. Chwech neu saith mis fu ei arosiad. Bu ei weinidogaeth yn llwyddiannus i lenwi capel Hardman street; ac nid oedd odid Sabbath yn myned heibio heb iddo weled dychweledigion. Rhoddwyd prawf ar ei nerth ar unwaith. Gwnaed cais i fyned â'u capel oddi ar y Cymry. Llwyddodd i attal y cyssegr-ysbeiliad; ac yn y man, gosodwyd y meddiant mewn diogelwch. Yr oedd y diweddar Ddoctor Osborne yn gweinidogaethu yn y dref ar y pryd, a bu yn gymmhorth mawr i Mr. Davies yn yr argyfwng. Ffurfiwyd cyfeillgarwch cyd-rhwng y ddau a barhaodd ar hyd eu hoes. Yn nghynnadledd y flwyddyn hono, pennodwyd ef i lafurio ar gylchdaith Llanfyllin, lle y treuliodd dair blynedd—y ddwy gyntaf gyda'r Parch. M. Thomas, a'r olaf gyda'r Parch. D. Evans y Cyntaf. Aeth rhagddo mewn ffafr gyda Duw a dynion. Yr oedd arddeliad ar ei weinidogaeth. Ennillodd serch y bobl yn gyffredinol.

Ei symmudiad nesaf oedd i Towyn, Meirionydd; yr hon oedd yn rhan o gylchdaith Dolgellau. Cyd-lafuriai â'r Parch. R. Pritchard. Ar derfyn ei flwyddyn gyntaf, derbyniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth. Arholwyd ef, a'r Parchn. W. Davies, a W. Jones, yn gyhoeddus yn y Cyfarfod Talaethol a gynnaliwyd yn Nhreffynnon y flwyddyn hono; a chafodd ei ordeinio yn y gynnadledd a gynnaliwyd yn Liverpool; a'r Parch. W. Atherton yn traddodi y siars yn hen gapel Pitt street. Wedi treulio dwy flynedd arall yn Towyn, aeth i Manchester yn 1849. Pennodwyd ef ar gylchdaith Abermaw yn 1851; Wyddgrug yn 1854; Llanfyllin yn 1856; Bangor yn 1859; Llanrhaiadr yn 1853; Liverpool yn 1866; Caernarfon yn 1869; Caer, cylchdaith Bagillt, yn 1872; a Bangor yn 1875. Yn y lle olaf yr arosodd efe hyd y fl. 1886, pryd yr ymneillduodd i blith yr uwchrifiaid, ac yr ymsefydlodd yn Amlwch. Yno y gorphenodd ei daith, Sabbath Mehefin 7fed, 1891, yn y 74ain flwydd o'i oedran, a'r 48ain o'i weinidogaeth.

Ar ol rhoddi yr amlinelliad uchod o symmudiadau Mr. Davies, yr anhawsder ydyw rhoddi syniad o ëangder, a llwyrder, a llwyddiant y gwaith a gyflawnwyd ganddo. Y mae ei hanes

Digitized by Google

ef yn hanes yr achos Wesleyaidd yn Ngogledd Cymru am o leiaf ddeugain mlynedd; ac nid dibwys oedd ei ddylanwad ar yr achos yn y Deheudir yn y cyfamser. Ganwyd ef yn mhen deugain mlynedd ar ol sefydliad y cenhadon Wesleyaidd yn Nghymru. Ymgymmerodd â gwaith y weinidogaeth yn mhen tair a deugain o flynyddoedd ar ol y dechreuad. Yr oedd yn y gwaith yn yr adeg fwyaf llewyrchus yn ei hanes; ac ni bu gan neb ran helaethach yn nygiad oddi amgylch y llwyddiant nag efe. Meddai gymmhwysderau arbenig ar gyfer y gwahanol gylchoedd hyny a lanwodd efe mor effeithiol.

Yr oedd o feddwl amlochrog iawn. Fe allai mai ei ragoriaeth penaf oedd synwyr cyffredin cryf anarferol. Yr oedd yn fyw i briodoldeb pethau. Yn myd meddylddrychau, canfyddai natur a pherthynas gwahanol wirioneddau â'u gilydd; ac yn myd amgylchiadau, gwelai y moddion mwyaf cyfaddas ac effeithiol i gyfarfod natur yr angen. Gwyddai am y dyn goreu i lanw pob cylch, ac am y moddion goreu i gyrhaedd pob amcan. Deallai y natur ddynol yn dda, a gwyddai pa fodd i'w hennill i gydymdeimlad a chydweithrediad. Gwyddai pa fodd i gael gan bawb weithio. Pan ar gylchdaith, llwyddai i gael pawb i weithio yn y cylchoedd mwyaf llwyddiannus. Pan yn olygydd, efe a lwyddai i gael cyflenwadau oddi wrth rai na lwyddodd neb i dynu dim oddi wrthynt o'i flaen, nac ar ei ol. Yr oedd yn mhob cylch yr un mor lwyddiannus. Pan y cafwyd sicrwydd ei fod yn myned i weinidogaethu i gylchdaith Llanrhaiadr, dywedai yr hen gyfaill ffyddlawn, Thomas Thomas, Llangynog, hyny wrth yr hen flaenor, Mr. Moreton, Castellmoch; ac meddai yntau, yn ei ffordd naturiol ei hun, 'Wel, Thomas, rhaid i ni ei wylio. Mi rydd ei law yn ein llogellau dan wenu yn ein gwyneb.' Ac un felly oedd. Llwyddai i gael odid bob peth a geisiai gan bawb. Dïau mai un cyfrif mawr am hyn ydoedd ei garedigrwydd a'i hygarwch. Ni sangwyd y ddaear gan neb mwy caredig. Gwnai gymmwynasau, ar draul hunan-ymwadiad ac aberth. Nid oedd dim yn ormod iddo. Gyda hyny, yr oedd yn neillduol o hygar. Ennillai serch pawb a ddeuai i gyfathrach âg ef. Prin y gellir meddwl y gallasai neb oedd, yn rhinwedd y swyddau a lanwodd, yn gorfod ymyryd cymmaint âg amgylchiadau personau, teuluoedd, a chylchdeithiau, ac yn gorfod yn fynych fyned yn erbyn ei ddymuniadau i barhau yn eu ffafr a'u cymmeradwyaeth, fel y gwnaeth efe. Ond gyda'i allu neillduol i gael eraill i weithio, yr oedd ei hunan yn weithiwr difefl.

Ni bu neb mwy diwyd, na dyfal-barhaol, na llwyr-ymroddedig. Perthynai iddo wydnwch di-ildio. Yr oedd yn gweithio beunyddiol a byth, yn mhob man, a hyny ar bob adeg. Pan yn cynnal cyfarfodydd pregethu yma a thraw, byddai rhwng yr odfaon yn dwyn yn mlaen ei ohebiaeth fel cadeirydd; a phan yn y gynnadledd fel cadeirydd, yr oedd yn ffyddlawn gyda'i waith fel golygydd. Gyda hyny, yr oedd yn feistr trwyadl ar fanylion. Nid cydnabyddiaeth gyffredinol âg arweddion mwyaf cyhoeddus symmudiadau oedd ganddo; ond gwybodaeth lwyr a manwl am y pethau lleiaf. Gwyddai helynt bob capel, bob eglwys, pob cylchdaith, pob trysorfa, a phob peth arall oedd yn perthyn i'r achos mawr. Yr oeddynt ganddo, nid mewn llyfr, ond yn fyw yn ei feddwl. Bu hyny yn gryn drallod i rai pan yn bradychu anwybodaeth am y pethau hyny y dylasent wybod am danynt.

Y cymmhwysderau hyn, a'u cyffelyb, sydd yn cyfrif am y lle amlwg oedd iddo yn yr enwad. Llanwodd fwy o swyddi, a chyflawnodd fwy o waith, na neb arall a fu mewn undeb â Wesleyaeth Gymreig. Yr oedd o dueddfryd gwylaidd ac enciliedig. O'i ran ei hun, ni buasai yn llanw yr un swydd. Ond yr oedd ei gymmhwysderau yn ei nodi allan ar gyfer swydd, a'i frodyr yn ei wthio iddi. Yn gynnar yn ei fywyd gweinidogaethol, pennodwyd ef yn aelod o Bwyllgor y Llyfrfa; yr hon oedd ar y pryd mewn sefyllfa isel, ac o dan bwysau dyled. Dangosodd y fath fedr i ddeall ac i ddadrys yr amgylchiadau, fel pan ddaeth pethau yn addfed i wneyd cyfnewidiad, efe a ddewiswyd, o'r holl frodyr, yn y De a'r Gogledd i fod yn oruchwylydd. Llanwodd y swydd, o'r flwyddyn 1859 hyd 1863. Ac yn y cyfamser, dygodd bethau i drefn:—symmudodd y ddyled, a gosododd y llyfrfa mewn sefyllfa weithiadwy. Pan aeth yr un adran o'r gwaith i sefyllfa annymunol drachefn, efe a ddewiswyd i'w hadferu yn ol, yn y fl. 1875; ac yno y parhaodd tra y daliodd ei iechyd a'i nerth. Pan yr ymneillduodd, yn y fl. 1886, gadawodd y llyfrfa mewn sefyllfa lwyddiannus a blodeuog.

Yr oedd yr un mor lwyddiannus fel golygydd. Dewiswyd ef yn olygydd y *Winllan* yn y fl. 1851; ac am y tair blynedd y bu yn y swydd, efe a ddyrchafodd ei chymmeriad llenyddol, ac ëangodd ei chylchrediad. Dewiswyd ef yn olygydd yr *Eurgrawn* yn y fl. 1859; a pharhaodd yn y swydd hyd 1866. Etholwyd ef i'r un swydd drachefn yn y fl. 1875, a pharhaodd ynddi hyd 1886. Dyma y cyfnodau mwyaf llewyrchus yn hanes y cyhoeddiad, o'i gychwyniad yn 1809 hyd yr awr hon. Yr oedd ei gynnwysiad yn fwy cyfoethog a chwaethus, a'i gylchrediad yn ëangach, nag un cyfnod yn ei hanes. Y cyfrif mawr am hyn, yn ddiammheu, ydyw yr hyn a grybwyllwyd yn barod; sef, ei allu mawr i sicrhau cynnorthwy a chydweithrediad. Ond yr oedd ganddo allu a chwaeth lenyddol. Mynai Mr. J. Mendus Jones, awdwr y *Grammadeg*, mai efe ydoedd yr ysgrifenydd Cymraeg goreu yn yr enwad. Yr oedd ei allu disgrifiadol yn rhagorol, fel y dengys llawer o'i gynnyrchion. Efe a ysgrifenodd lawer o'r 'Tremau ar sefyllfa yr Achos,' er eu bod yn dwyn enw y Parch. Lot Hughes. Yr oedd ei ddarluniau o bersonau, lleoedd, ac amgylchiadau yn gywir, yn fyw, ac yn darawgar. Prawf o hyny ydyw ei ysgrifau ar David Williams, a Griffith Owen, Llangybi, yn yr *Eurgrawn*. Gwelir yr un gallu yn ei ysgrifau o dan y penawd Colofn yr Iwbili, yn yr un cyhoeddiad. Nid oes gofod i nodi yr holl fywgraphiadau a ysgrifenodd; ond y mae *S. Davies, a'i Amserau;* a'r cofiant yn *Ngweithiau y Parch. T. Aubrey*, yn golofnau annilëol o'r gallu anghyffredin hwnw oedd ganddo i dynu portrëadau. Ychydig o'i gynnyrchion o nodweddion eraill sydd wedi ymddangos trwy y wasg. Ei bregeth ar 'Y Penteulu' (*Gen.* xviii. 19), ydyw y peth mwyaf adnabyddus. Traddodwyd hi yn Nghyfarfod Talaethol Bangor, yn y fl. 1869; a chyhoeddwyd hi ar gais taer y cyfarfod hwnw. Yr oedd ei ofalon a'i lafur mor liosog a phwysig fel na feddai amser i barotoi ar gyfer y wasg.

Digitized by Google

Rhaid symmud i weled ei lafur mewn cylchoedd eraill. Cyfrifir y fl. 1854 yn ddechreuad deffroad ac adnewyddiad Wesleyaeth Gymreig yn Ngogledd Cymru. Yn y gynnadledd a gynnaliwyd yn mis Awst, y flwyddyn hono, yr etholwyd y Parch. T. Aubrey yn gadeirydd y dalaeth. Rhoddodd ei fryd ar lwyddiant yr achos a osodwyd dan ei ofal. Y ddau symmudiad mawr o'i eiddo oedd, chwyddo trysorfa y Genhadaeth Gartrefol, er ei gwneuthur yn fwy o allu i sicrhau gweinidogaeth i gyfarfod âg anghenion yr eglwysi a'r cynnulleidfaoedd; a sefydlu trysorfa y capelau er symmud ymaith hen ddyledion, ac adeiladu capelau newyddion; a chael ymreolaeth gyda'r naill a'r llall. Y pryd hyny, nid oedd cyfraniadau y dalaeth at y Genhadaeth Gartrefol ond 130*p.* yn y flwyddyn, tra yr oeddynt yn 1893 yn 675*p.* Nid oedd gwerth cyfrifedig y meddiannau y pryd hyny ond 58,810*p.*—tra yr oeddynt, yn y fl. 1893, yn 211,166*p.* Y mae y cynnydd mawr hwn yn ffrwyth y cynlluniau a dynwyd allan yn y cyfnod o dan sylw. Ond ysgrifenydd cyntaf y Genhadaeth Gartrefol a Thrysorfa Fenthyciol y Capelau, oedd y Parch. Samuel Davies; ac yr oedd eu llwyddiant yn dibynu i raddau helaeth iawn ar ei ddoethineb, ei fedr, a'i ymroddiad ef. Mr. Aubrey oedd yn tynu allan y brâs-linelliad o'r cynlluniau hyny, ond Mr. Davies oedd yn eu gweithio allan yn eu manylion. Mr. Aubrey oedd yr arwr i fyned trwy y cylchdeithiau i egluro y cynlluniau, ac i osod hawliau yr achos o flaen y swyddogion: ond gan Mr. Davies yr oedd y ddawn i ennill cydymdeimlad, ac i sicrhau cydweithrediad. Gwnaeth y gwaith yn dawel a di-drwst, a gofalai fod ei gylchdeithiau ei hun yn esampl i gylchdeithiau eraill mewn bod yn ffyddlawn i weithio y cynlluniau hyny allan.

Yn y flwyddyn 1858, gwnaed ef yn Ysgrifenydd Cyllidol y Dalaeth; a llanwodd y swydd yn effeithiol a llwyddiannus am saith mlynedd. Yn y fl. 1865, gorfu i Mr. Aubrey ymneillduo o'r swydd o fod yn gadeirydd, ac o waith rheolaidd y weinidogaeth, o blegid nychdod ei iechyd; a Mr. Davies a etholwyd i fyned dan y cyfrifoldeb. Gwnaeth gais am i Mr. Aubrey barhau yn gadeirydd, er ymneillduo o'r gwaith rheolaidd; ond ni fynai y gynnadledd wrandaw—a phennodwyd ef i'r swydd. Bu agos i'r cyfrifoldeb ei lethu. Ymollyngodd ei ysbryd i iselder a digalondid. Pan y ceisiai cyfaill iddo gael allan yr achos o'i ymollyngiad, ei atteb oedd, 'Ar ol i Paul gyfeirio at ei holl dreialon i gyd, y *climax* oedd, 'a'r gofal am yr holl eglwysi.'' Yna deallodd y cyfaill mai cyfrifoldeb y swydd newydd oedd yn gwasgu ar ei feddwl. Ond llanwodd y swydd am un mlynedd ar hugain—cyfnod meithach nag y llanwyd hi gan yr un Cymro—a meithach o lawer na'r cyfartaledd yn yr holl gyfundeb; a llanwodd hi yn effeithiol a llwyddiannus. Rhoddai foddlonrwydd i'w frodyr a gynnrychiolai; o blegid yr oedd ei etholiad ganddynt i'w cynnrychioli yn Mhwyllgor y Sefydliadau yr un peth mewn effaith a'i ethol yn gadeirydd—yr hyn yn ffurfiol a wneir gan y gynnadledd. Rhoddai foddlonrwydd i'r gynnadledd; a phrawf o hyny oedd ei etholiad i'r Cant Cyfreithiol yn y fl. 1875. Ystyrir yr etholiad hwn bob amser yn brawf o barch ac ymddiried y gynnadledd. Llwyddodd yr achos o dan ei arweiniad a'i ofal yn y dalaeth. Rhif yr aelodau pan etholwyd ef i'r swydd yn y fl. 1865 ydoedd 10,329, ynghyd â 710 ar brawf am aelodaeth; ond yn y fl. 1886, pan yr ymneillduodd, yr oedd rhif yr aelodau yn 13,034, yr aelodau yn Rhestrau yr Ieuengctyd yn 1,683, a'r rhai ar brawf yn 1,474—yn gwneyd cyfanrif o 16,191. Gofod a ballai i wneyd cyfeiriadau at ei ymdrechion mwy lleol gyda chodi capelau, symmud dyledion, a'r cyffelyb; ond y mae capelau Llansilin, Wyddgrug, Fflint, Llanberis, ac amryw eraill, yn goffhâd o'i ymdrechion a'i lwyddiant. Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at Mr. Davies ynglŷn â phethau allanol ac amgylchiadol yr achos; ond yr oedd efe yn weinidog da i Iesu Grist yn mhethau mwyaf a phwysicaf y swydd. Yr oedd yn bregethwr hynod o lwyddiannus. Ychydig a fu dros holl ystod eu gweinidogaeth yn fwy llwyddiannus mewn dychweliadau. O ddeutu y fl. 1856, efe a fu yn offeryn i ennill ugeiniau i mewn i eglwys Ebenezer, Caernarfon, tra ar ymweliad â'r lle. Yn y fl. 1859, gwelwyd deg ar hugain yn yr un odfa yn ymofyn am le gyda phobl Dduw yn Nghaergybi, o dan ddylanwad ei weinidogaeth. Nid ydyw hyn ond rhai enghreifftiau o lawer cyffelyb.

Pregethai yn syml, ond yn nerthol. Prin y gwnai gais at newydd-deb mewn esboniadaeth, nac at olrhain pethau mawrion yr efengyl yn eu hagweddau athronyddol; er y gwyddai fwy na llawer am y naill a'r llall. Nid yn fynych y clywid trwst arfau rhesymeg yn ei bregeth, ac nid arferai gyfeirio at ddyfaliadau gwyddoniaeth. Camgymmeriad oedd meddwl na wyddai ddim am danynt; a gorfu i aml un deimlo hyny, er ei brofedigaeth, pan yn cymmhell gornest ag ef yn y cylch cyfeillgar. Ei amcan mawr oedd egluro ffordd Duw yn ei ras tuag at ddyn yn ei holl symledd, a'i chymmhwyso at y gydwybod a'r galon yn ei holl nerth: a llwyddai i wneyd hyny. Er fod mater y bregeth yn ymarferol, a'r cynllun yn un cyffredin, yr oedd ganddo y fath doraeth o adnoddau at ei wasanaeth, a'r oll wedi eu gosod yn raddebol, fel ag yr oedd, wrth fyned yn mlaen, yn myned yn gryfach, gryfach, ac yn wresocach, wresocach. Byddai ei ysbryd ef ei hun mewn llawn gydymdeimlad â'r gwirionedd, ac yn cael ei gyffroi ganddo. Defnyddiai eglurhadaeth i ddangos y gwirionedd yma, a'r gwirionedd arall: tynai ddarlun byw o wahanol olygfeydd ac amgylchiadau: dringai yn uwch, uwch, i fynydd Duw, nes o'r diwedd orchfygu ei wrandawyr: ac nid dyeithr iddo oedd gweled gruddiau gwlybion gan ddagrau, a chlywed sain cân a moliant yma a thraw yn y gynnulleidfa. Cofir am lawer o odfaon bendigedig a gafodd, megys pregeth y 'Bryn bychan' (*Salm* xlii 6); a phregeth y 'Graig uwch' (*Saml* xli. 2). Cafodd adegau llwyddiannus hefyd gyda'r 'Weddi ddyfal,' 'Un Arglwydd ar bawb,' 'Yr Oen yn nghanol yr orseddfaingc,' ac eraill allesid eu henwi. Tybiai rhai nad oedd y traddodiad yn naturiol ac esmwyth. Dyna oedd yr argraph cyntaf wrth ei wrandaw; ond wrth gynnefino, yr oedd y traddodiad a'r bregeth yn cyfatteb i'w gilydd, a phob peth yn ymddangos i fantais.

Cyfyngodd ei hun bron yn llwyr i gylch ei enwad: nid am ei fod yn gul a chyfyng, ond am ei fod yn cael ei orlwytho â gofalon a beichiau ei enwad ei hun, fel nad oedd ganddo amser a chyfleusderau i roddi sylw dyladwy i symmudiadau cyhoeddus a chenedlaethol. Yr oedd yn Gymro aiddgar iawn. Gwnaeth ei oreu yn

Digitized by Google

erbyn pob ymgais i Saesnigeiddio yr achos Wesleyaidd, ac yr oedd yn anwesu pob syniad a theimlad Cymraeg. Yr oedd yn Ymneillduwr selog iawn; a phob amser yn sefyll dros hawliau Ymneillduaeth. Dygai fawr sêl dros gydraddoldeb crefyddol; ac edrychai ar gyssylltiad yr eglwys â'r wladwriaeth fel ieuad anghymmharus. Ni bu efe erioed yn cymmeryd safle gyhoeddus gyda gwleidyddiaeth; ond yr oedd yn rhyddfrydwr goleuedig a chysson.

At y cwbl—ac yn fwy na'r cwbl—yr oedd yn ddyn duwiol iawn. Nid oedd yn credu mewn gwneuthur arddangosiad ar bob achlysur o grefydd; ond ychydig a wyddai am ei ddefosiynau crefyddol. Yr oedd yn weddïwr mawr. Anadlai saeth-weddïau yn fynych ar yr heol, ac yn nghanol cyfeillach. Ni bu neb mwy siriol gyda'i gyfeillion. Difyrai mewn ffraethebion, os nad gwatwareg. Ond ni bu neb mwy syml ei feddwl, a glân ei galon. Yn nghanol yr oll, yr oedd yn byw yn agos at Dduw. Treuliodd y Sabbath olaf yn Mai, 1891, yn Liverpool. Yr wythnos flaenorol, dilynodd holl eisteddiadau y Cyfarfod Talaethol gyda dyddordeb mawr. Arosodd yno i dreulio y Sabbath. Pregethodd yn nghapel Shaw street yn yr hwyr, ar y geiriau 'Ystyr y perffaith, ac edrych ar yr uniawn: canys diwedd y gŵr hwnw fydd tangnefedd;' *Salm* xxvii. 37. Yr oedd y Parch. William Evans (*Mouwyson*) yn cysgu yn yr un ystafell ag ef y noson hono. Plygodd y ddau wrth echwyn eu gwelyau. Cododd Mr. Evans i fyny yn y man; ond ar ei liniau yr oedd Mr. Davies—ac felly y bu am amser. Tystiai Mr. Evans na theimlodd yr un fath yn un man erioed—fod y dwyfol yn deimladwy yn yr ystafell, a rhyw sancteiddrwydd yn nawseiddio y lle. Dychwelodd adref i Amlwch dranoeth, yn nghanol nychdod a llesgedd. Felly y parhaodd efe ar hyd yr wythnos. Pob hamdden a gaffai, gofynai am gael darllen y Beibl, canu emynau, ac offrwm gweddïau. Ac yr oedd yn ddedwydd a gorfoleddus. Tynodd ei anadl olaf, ac aeth ei ysbryd adref i ogoniant yn mhen yr wythnos, bron i'r awr, yr oedd yn pregethu ar y geiriau 'Canys diwedd y gŵr hwnw fydd tangnefedd!' Y mae ei feddrod yn Nghladdfa Glanadda, Bangor. Codwyd colofn ar ei fedd gan ei edmygwyr.

**DAVIES, WILLIAM**: clerigwr Cynwyl, neu Cynwil Elfed, yn sir Gaerfyrddin. Nid ydyw dydd na lle ei enedigaeth yn hysbys. Bu farw mewn oedran mawr, yn y fl. 1821. Yr oedd yn bleidiwr gwresog i'r Diwygiad Methodistaidd, er ei fod yn glerigwr; ac yr oedd ei enw yn adnabyddus trwy Ogledd a Deheudir Cymru. Arferai bregethu a gweinyddu yr ordinhadau yn mysg y Methodistiaid hyd 1811; pryd y caniataodd yr enwad gyntaf i amryw o bregethwyr wneuthur hyny. Ond nis gallai efe gymmeradwyo hyn; ac o hyny allan, cefnodd ar Fethodistiaeth. Yr oedd efe yn bregethwr da, llafurus, a llwyddiannus. Yn ei ddydd ef yr adeiladwyd capel Banc-y-felin, ger Caerfyrddin; yn yr hwn, yn fynych iawn, y gweinyddai efe yr ordinhadau. Ymgynnullai cynnulleidfaoedd mawrion yno i'w wrandaw, ac hefyd i'r lleoedd cylchynol; megys Cwmbach, Meidrim, a Llanddowror. Preswyliai yr adeg hono yn Aberhenllan, o fewn tua dwy filldir i Banc-y-felin. Claddwyd ef yn Llanddowror, yn lled agos i fedd y Parch. Griffith Jones, o'r lle hwnw.

**DEVEREUX, WALTER**, IARLL ESSEX. Ganwyd ef yn sir Gaerfyrddin, yn y fl. 1540, a dilynodd ei daid i'r teitlau o Is-iarll Hentfford, ac Arglwydd Ferrers. Yn 1571, pan y cododd amryw iarllod eraill wrthryfel yn Ngogledd Lloegr i'r amcan o ddïorseddu Elizabeth, ymunodd Walter Devereux â byddin Iarll Lincoln. Yn y brwydrau a ddilynodd, enwogodd ei hun gymmaint fel y gwnaeth y frenhines ef yn Iarll Essex, ac yn farchog o Urdd y Gardas. Efe oedd tad anwyl-ddyn y frenhines. Bu farw yn Dublin, Medi 22ain, 1576; a bernir fod gan ei elyn, Iarll Leicester, law yn ei farwolaeth. Traddododd yr esgob Richard Davies ei bregeth angladdol yn Nghaerfyrddin; yr hon, yn nghyd â chofiant achyddol o hono, a'i feddargraph, a gyhoeddwyd yn Llundain, yn 1577.

**DEWI ARFON.** Ei enw priodol ef ydoedd David Jones. Yr oedd yn fardd rhagorol, ac yn bregethwr adnabyddus gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Mab oedd efe i Hugh ac Ellen Jones, o'r Tŷ du, Llanberis; ac yr oedd David Jones, o'r Garegwen, gŵr adnabyddus iawn yn Arfon, yn daid iddo. Ganwyd ef Gorphenaf 6ed, 1833; a phan yn bur ieuangc, rhoddwyd ef yn ysgol Capel Coch, dan ofal Ellis Thomas; a bu ei gynnydd yn gyflym. Wedi ymadael o'r ysgol, aeth i'r chwarel, yn ol arfer gwŷr ieuaingc yr ardaloedd hyny; a pharhaodd yno am flynyddoedd. Pan tuag ugain mlwydd oed, aeth drachefn i'r ysgol, gyda'r bwriad o gymmhwyso ei hun at fod yn ysgolfeistr, ar annogaeth amryw o'i gyfeillion; y rhai a ofident fod dyn ieuangc mor addawol yn dilyn yr alwedigaeth o chwarelwr. Ar ol hyny, aeth i Lundain, lle yr ennillodd drwydded o'r ail ddosbarth. Yna, bu am bedair blynedd yn llanw y swydd o ysgolfeistr yn Ysgol Frytanaidd Llanrwst. Tua therfyn y tymmor hwn, dechreuodd bregethu; ac yn y fl. 1867, cafodd ei ordeinio. Yn fuan, ymgymmerodd âg arolygiaeth Ysgol Clynnog — sefydliad y bu Eben Fardd yn ei gario yn mlaen am lawer o amser. Daliodd y swydd hon hyd nes y gorfodwyd ef i'w rhoddi i fyny gan afiechyd, ychydig amser cyn ei farwolaeth.

Tra yn Llanrwst, dechreuodd Dewi ddadblygu ei chwaeth at farddoniaeth; a thrwy ddawn naturiol, ac efrydiaeth fanwl ar reolau barddas, ennillodd enw iddo ei hun fel un o feirdd rhagoraf ei wlad. Safai ei awdl yn Eisteddfod Dinbych, yn 1860, ar 'Dywalltiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost' yn uchel yn y gystadleuaeth. Ymddangosodd yn y *Traethodydd* wedi hyny; ac y mae hi yn cynnwys darnau o farddoniaeth aruchel. Yr oedd efe hefyd yn feirniad craff a manwl, ac yn hynod dyner wrth feirdd ieuaingc. Yn ngwyneb ei afiechyd blin, a'i safle fel pregethwr a bardd, penderfynodd nifer o'i gyfeillion a'i edmygwyr wneyd tysteb iddo. Ond cyn iddo ei derbyn, bu farw, boreu ddydd Nadolig, yn y fl. 1869. Claddwyd ei weddillion yn mynwent y Nant uchaf; a defnyddiwyd arian y dysteb i godi maen coffa ar ei feddrod. Adroddir am rai digwyddiadau hynod ynglŷn â'i ymadawiad. Rhwng pump a chwech o'r gloch, galwodd ei chwaer ato, a gofynodd iddi estyn ei awrlais bychan iddo o ystafell arall, yr hon oedd yn cynnwys alarwm. Wedi iddo ei gael, gosododd fŷs yr alarwm i daraw ar naw o'r gloch; ac am naw, i'r funyd, yn sŵn y gnul hono, bu farw!

Digitized by Google

DICKENS, CHARLES. Un o brif nofelwyr ei oes. Ganwyd ef yn Landport, ger llaw Portsmouth, Chwefror 7fed, 1812. Yr oedd ei dad, John Dickens, yn ysgrifenydd yn swyddfa y llynges; yr hon, ar y pryd, oedd yn gyssylltiedig â phorthladd Portsmouth. Symmudwyd ei dad i Lundain yn 1814; ac yn mhen dwy flynedd wedi hyny, anfonwyd ef i Chatham. Y mae y dyddordeb a deimlir ynglŷn â phob peth a ddeil gyssylltiad â'r nofelydd enwog yn gymmaint, fel y dangosir, gyda theimlad o hyfrydwch, yr ystafell yn y porthladd lle y gweithiai ei dad; ac yn yr hon yr ymwelai ei fab yn fynych âg ef. Pan yn fachgen, dangosodd Charles duedd gref at ddarllen; ac hyd yn oed yn nyddiau ei ieuengctid, dywedir iddo ysgrifenu rhai cyfansoddiadau gwreiddiol. Yn 1821, pan yr oedd efe tua naw mlwydd oed, amddifadwyd ei dad o'i swydd yn y Morlys. Yna symmudodd y teulu i Lundain, a chawsant dŷ tlodaidd i fyw ynddo yn Camden Town:—ac aeth pethau o ddrwg i waeth gyda hwynt. Cymmerwyd y tad i'r ddalfa am ddyled, a bu raid i'r bachgen droi allan i geisio ennill ei fywoliaeth. Cymmerwyd ef i mewn i faelfa yn Hungerford Market, pan nad oedd efe etto ond deng mlwydd oed; ac yr oedd yr adeg a basiwyd ganddo yn y lle hwn mor anfoddhaol fel nas gallai oddef i neb gyfeirio at y rhan hon o'i fywyd wedi iddo dyfu i fyny. Pan adferwyd ei ryddid i'w dad, cafodd Charles ei anfon i ysgol breifat yn Hampstead Road—lle y bu am dair neu bedair blynedd. Wedi gadael yr ysgol hon, cafwyd lle iddo mewn swyddfa cyfreithiwr. Yn y cyfamser, pennodwyd ei dad yn ohebydd i'r *Morning Herald;* a chan nad oedd gan Charles fawr o gariad at waith swyddfa cyfreithiwr, penderfynodd yntau hefyd fabwysiadu yr alwedigaeth o newyddiadurwr *(journalist)*. Dysgodd law fér; a mynychai yr Amgueddfa Brydeinig yn ddyddiol, i ddarllen a myfyrio; a phan yn ddwy-ar-bymtheg oed, daeth yn ohebydd newyddiadur yn rhanbarth Doctor's Commons. Yr oedd yn awyddus ar yr adeg hon i fod yn chwareuwr (*actor*); ac nid oedd neb o'i gydnabod yn ammheu na buasai ei lwyddiant yn yr alwedigaeth hono yn fawr. Ond yn ffodus, ymattaliodd; a thrwy hyny, galluogwyd ef i gyflawni y gwaith rhagorol sydd yn awr yn aros yn gofadail i'w enw anfarwol. Pan yn ddwy-ar-hugain oed, cafodd waith sefydlog ar un o newyddiaduron y brif ddinas; ac yn y cymmeriad hwnw, anfonwyd ef i bob rhan o'r deyrnas, o'r bron, i chwilio am adroddiadau ar rai o brif ddigwyddiadau y dydd.

O ddeutu yr adeg hon y dechreuodd efe ar lafur gwirioneddol ei oes. Yn Rhagfyr, 1833, yr ymddangosodd ei gyfansoddiad gwreiddiol cyntaf yn y *Monthly Magazine*, o dan y teitl *A Dinner at Poplar Walk*. Ni chafodd unrhyw dâl am hwn; ond bu yn fantais i gynnyrch ei athrylith ddyfod i sylw y byd. Tra yn parhau fel gohebydd ar y *Morning Chronicle*, gwnaeth gyttundeb â golygydd yr *Evening Chronicle* i ysgrifenu erthyglau (*sketches*) yn rheolaidd i'r newyddiadur hwnw. Ar yr un pryd, cafodd ei gyflog fel gohebydd ei godi o bum gini i saith gini yr wythnos; yr hyn, yn yr adeg hono, a ystyrid yn gyflog haelfrydig iawn. Cafodd y *sketches* hyn eu casglu ynghyd, a'u cyhoeddi yn y flwyddyn 1836 gyda'r teitl o *Sketches and Life and Character, by Boz.* Derbyniodd yr awdwr 150*p*. am yr hawl-ysgrif; ond yn mhen amser ar ol hyn, efe a'i prynodd yn ol am dros bymtheg cant o bunnau. Dyma ddechreuad ei enwogrwydd llenyddol. Yr wythnos ddiweddaf yn Mawrth, yr un flwyddyn, ymddangosodd y rhifyn cyntaf o'i *Pickwick Papers*—llyfr sydd erbyn hyn yn adnabyddus yn mhob gwlad wareiddiedig, o'r bron. Nid oes odid i lyfr yn mysg llenyddiaeth y byd sydd yn fwy poblogaidd, a mwy adnabyddus nag ef. Yn mhen tri diwrnod wedi ymddangosiad y rhifyn cyntaf, priododd Dickens ferch ei gyfaill George Hogarth, golygydd yr *Evening Chronicle;* a bellach, yr oedd ei ymdrechion boreuol ar ben, a'i enwogrwydd llenyddol wedi ei seilio ar sylfaen gadarn. Ysgrifenodd erthyglau, pamphledau, a llyfrau yn ymwneyd âg amrywiaeth mawr o faterion; ond fel nofelwr yr oedd efe yn rhagori. Un o brif neillduolion y ffug-chwedlau hyn o'i eiddo ydyw, eu bod i, raddau pell, yn ymwneyd â chyfnodau neillduol yn ei hanes ei hun. Dylanwadodd digwyddiadau boreu ei oes i'r fath raddau ar ei feddwl a'i ddychymyg, fel y cariasant ddylanwad mawr ar ei yrfa lenyddol. Canlyniad hyn oedd, fod llawer o'r cymmeriadau a geir yn ei nofelau yn portrëadu yn gywir rai neillduolion yn ei gymmeriad ef ei hun; ac y mae y digwyddiadau a'r golygfeydd a ddygir i mewn iddynt, yr un modd, yn ymdebygu yn fawr i'r rhai yr aeth efe ei hun drwyddynt yn moreu ei oes. Er enghraifft—nid ydyw Carchar Marshalsea, a ddisgrifir ganddo mor fyw yn ei nofel *Little Dorrit*, ond portrëad o'r carchar y caethiwyd ei dad ynddo; ac â'r hwn, y pryd hyny, y talai yntau ymweliadau mynych. Nid yw y disgrifiadau a rydd efe o David Copperfield—arwr y nofel o'r un enw—yn y faelfa, heb gyfaill ac heb gâr, yn ddim amgen na phortrëad o hono ef ei hun yn maelfa Hungerford Market. Gellid dyfynu enghreifftiau eraill tebyg, pe yn angenrheidiol, i ddangos fod amgylchiadau ei fywyd ef ei hun yn chwareu rhan bwysig yn ei ffug-chwedlau. A ganlyn sydd restr o brif weithiau Charles Dickens, yn ol y drefn yr ymddangosasant:—*Sketches, by Boz* (1836); *The Posthumous Papers of the Pickwick Club* (1837); *Oliver Twist* (1838); *Nicholas Nickelby* (1839); *The Old Curiosity Shop* (1840—41); *Barnaby Rudge* (1841); *American Notes* (1842); *Martin Chuzzlewit* (1843); *The Christmas Tales*, yn cynnwys *The Christmas Carrol*, *The Chimes*, *The Cricket on the Hearth*, *The Battle of Life*, *The Haunted Man*, a *The Ghost's Bargain*—y rhai a ysgrifenwyd tua Nadolig y blynyddoedd 1843, 1846, a 1848; *Pictures from Italy* (1845); *Dombey and Son* (yn 1846—48); *David Copperfield* (1849—50); *Bleak House* (1852—53); *The Child's History of England* (1854); *Hard Times* (1854); *Little Dorrit* (1855—57); *A Tale of Two Cities* (1859); *The Uncommercial Traveller* (1861); *All the Year Round* (yn 1860—61); *Great Expectations* (1860—61); *Our Mutual Friend* (1864—65); a *The Mystery of Edwin Drood*—yr hwn a adawodd yn anorphenedig. Nid ydyw y rhestr faith hon yn cynnwys yr oll o'i gyfansoddiadau llenyddol; ond ar yr uchod y mae ei enwogrwydd fel awdwr yn gorphwys.

Pan gymmerai hamdden oddi wrth ei lafur llenyddol, nid oedd hyny gydag ef yn golygu segurdod. Teithiodd lawer o'r naill wlad i'r llall, i anerch cyfarfodydd, ac i roddi adroddiadau o'i weithiau, &c. Yr oedd efe bob amser yn brysur; ac fel y dywed un o'i fywgraphwyr,

Digitized by Google

ni wyddai efe beth oedd moment o segurdod, o'r diwrnod y dechreuodd ddysgu llaw fér hyd y dydd y disgynodd o'i gadair, mewn llewyg—o'r hon nid adferodd efe. Prin y gellir nodi un llenor arall a ddeil i'w gymmharu âg ef o ran llafur, ac ymroddiad. Yn y gelfyddyd o ddisgrifio—yr hyn sydd mor anhebgorol i nofelwr—yr oedd efe yn feistr perffaith; ac yn hyn, meddir, yr oedd efe yn rhagori ar bob awdwr arall yn mron. Yr oedd—neu yn fwy priodol, y mae pob un o brif gymmeriadau ei ffugchwedlau yn cynnrychioli ei ddosbarth neillduol ef ei hun. Yn mherson Squeers, er enghraifft, ceir portrëad byw, cywir, a pherffaith o ysgolfeistr, fel yr oedd efe y pryd hwnw—yn anwybodus, creulawn, a haerllug. Ceir cyflawnder o'r enghreifftiau hyn yn ei weithiau; ac yn ddiammheu, ffurfiant un o'r orielau mwyaf dyddorol ac addysgiadol a geir yn holl hanes llenyddiaeth y byd.

Yn 1841, ymwelodd Dickens âg America am y waith gyntaf; ac y mae yr argraphiadau a wnaed ar ei feddwl yno wedi eu corphori yn rhai o'i nofelau; megys *Martin Chuzzlewit*. Yn 1845, aeth ar daith i'r Eidal, gan dreulio peth amser yn Rhufain. Ar ei ddychweliad gartref, yr oedd anturiaeth newydd yn ei ddisgwyl. Ar y 1af o Ionawr, 1846, cychwynwyd y *Daily News*—erbyn hyn un o brif newyddiaduron y deyrnas; a phennodwyd Dickens yn olygydd arolygiadol arno. Er ei fod wedi ei ddwyn i fyny yn newyddiadurwr, nid oedd y swydd hon yn dygymmod yn dda â'i dueddiadau; ac yn mhen ychydig fisoedd, rhoddodd hi i fyny. Yn y rhifyn cyntaf o'r *Daily News* yr ymddangosodd y bennod gyntaf o'i *Pictures from Italy*. Yn 1850, dechreuodd olygu y cylchgrawn wythnosol, *Household Words;* yn yr hwn hefyd yr ymddangosodd amryw ysgrifau gwreiddiol o'i waith. Yn 1867—68, ymwelodd âg America yr ail waith; gyda'r amcan, yn benaf, o ddarllen rhanau o'i brif weithiau. Cafodd dderbyniad brwdfrydig-mor frwdfrydig, yn wir, fel y tueddwyd ef i liniaru gryn lawer ar y feirniadaeth lem a ymddangosodd ar yr Americaniaid yn ei *American Notes for General Circulation;* yr hwn a ysgrifenodd ar derfyniad ei ymweliad cyntaf â'r Gorllewin. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf o waith olaf Dickens, *The Mystery of Edwin Drood*, Ebrill 1af, 1870; ac nid oedd ond tri rhifyn o'r chwedl wedi eu cyhoeddi pan y bu farw, yn annisgwyliadwy, Mehefin 9fed, 1870, yn Gad's Hill Place, ger Rochester.

Yr oedd ei yrfa lenyddol yn un ymdaith fuddugoliaethus, o'i dechreu i'w diwedd. Ni ddiffygiodd ei athrylith mewn nerth, ac ni ddarfyddodd ei boblogrwydd chwaith. Torwyd ef i lawr wedi deunaw mlynedd a deugain o lafur caled; ar derfyn yr hwn yr oedd ei alluoedd meddyliol mor fywiog a nerthol ag y buont erioed. Darllenir ei weithiau gan Saeson, a chenedloedd eraill, trwy yr holl fyd; a bydd ei goffadwriaeth yn wyrddlas am ysbaid maith; ac yn llawer gwell cofadail iddo nag un a godwyd i'w anrhydedd. Cafodd ei weddillion eu claddu yn Mynachlog Westminster, fel llawer o enwogion eraill y deyrnas.

DIER, neu DIHEUFYR; yr hwn, yn Rhamant Gwenfrewi, a elwir DEIFERUS. Sant, yn byw rywbryd yn y chweched ganrif, oedd efe, a mab i Arwystli Gloff. Efe oedd sefydlydd eglwys Bodfari.

DIFFEDELL. Tywysog a bardd oedd efe yn mysg Brythoniaid Deifyr; a mab i Disgyfeddawg. Yr oedd yn byw yn y seithfed ganrif. Cofnodir ef yn y *Trioedd* fel awdwr un o'r 'Tair Fadgyflafan'—am iddo ladd Gwrgi Garwlwyd, yr hwn a ddysgodd fwyta dynion oddi wrth Edelflled—Sais.

DIGAIN GORNEU. Mab i Cystenyn Gorneu oedd efe, a sant yn byw yn y bummed ganrif. Efe a sefydlodd eglwys Llangernyw, yn Erging, ac eglwys arall yn sir Ddinbych.

DINGAD. Un o feibion Brychan, a sant oedd yn byw yn y bummed ganrif. Sefydlodd Llanddingad, yn sir Gaerfyrddin; a Llanddingad, neu Dingatstow, yn sir Fynwy—yn mha le y claddwyd ef.

DINGAD AB NUDD HAEL. Sant oedd efe, yn byw yn y chweched ganrif.

DIRYNIG. Un o feibion Caw oedd efe; a sant a flodeuodd yn y chweched ganrif—yr hwn a laddwyd gan y Saeson.

DOCHDWY. Sant, yn byw yn y chweched ganrif. Aeth gyda Chadfan i Enlli, lle yr urddwyd ef yn esgob; ond ymddengys na chafodd efe esgobaeth barhaol i ofalu am dani; ond iddo, am dymmor, fod yn gweinyddu y swydd yn esgobaeth Llandaf, yn absennoldeb Teilo. Tybir mai efe oedd sefydlydd eglwys Llandough, neu Llandocha, yn sir Forganwg.

DOGED. Efe a sefydlodd eglwys Llanddoged, yn sir Ddinbych. Sant oedd efe, yn byw yn y chwechod ganrif. Yn *Monedd y Saint*, gelwir ef yn 'Doged Frenin.'

DOGFAEL. Yr oedd efe yn fab i Ithel ab Ceredig; a sefydlodd eglwysydd Dogmael, yn Nghemaes; Dogwel, yn Pebidiog; a Mynachlog Ddu, a Melinau—oll yn sir Benfro. Hefyd, Llanddogfael, yr hon a safai gynt yn mhlwyf Llanfechell, yn Môn.

DOGFAN. Blodeuodd yn y bummed ganrif, ac yr oedd efe yn fab i Brychan. Lladdwyd ef mewn lle a elwir Merthyr Dogfan, yn sir Benfro.

DON. Tad Amaethon, Gwydion, Gofanon, Enydd, ac Arianrod. Yn ol y *Brutiau Cymreig*, yr oedd efe yn frenin Llychlyn (Iceland). Efe, yn gyntaf, a anrheithiodd yr Iwerddon; ac ar ol hyny, arweiniodd fyddin o ddeng mil ar hugain o Wyddelod a Llychlyniaid drosodd i Ogledd Cymru yn y fl. 267. Cadwodd y bobl hyn feddiant o'r tir a drawsfeddiannasant nes y darfu i Caswallon Law Hir eu hymlid ymaith. Er fod y *Brutiau* yn rhoddi y manylion hyn am Don a'i deulu, y mae rhai awdurdodau yn tybied nad ydynt ond bodau dychymygol.

DRUDWAS AB TRYFFIN. Rhestrir ef, gyda dau arall, fel 'Tri Marchogion Aur Dafodogion' Llys Arthur. Mewn llythyr o eiddo Robert Vaughan, yr hynafieithydd bydglodus o Hengwrt, ceir traddodiad hynod am ddau aderyn a berthynent i Drudwas, a elwid 'Adar y Llwch Gwyn.' 'Yr adar hyn, meddir, oeddynt ddau griffin, a ddysgasai Drudwas i ymosod ar

Digitized by Google

y dyn cyntaf a ddeuai i facs neillduol, a'i ladd; a digwyddodd iddo nodi y maes hwnw i ymladd gornest â'r brenin Arthur. Arhosodd Drudwas mor hir heb ddyfod i'r maes nes y meddyliodd fod ei wrthwynebydd yn sicr o fod wedi cyrhaedd yno; a syrthio, bellach, o dan ddialedd yr adar ysglyfaethus. Ond siomwyd ef. Efe ei hun oedd y cyntaf yno; a'r adar a ymosodasant arno, ac a'i lladdasant yn gelain. Ond pan welsant mai eu meistr ydoedd, galarasant ar ei ol trwy ysgrechiadau dolefus am hir amser. Er coffadwriaeth o hyn, y mae darn cerddorol i'w chwareu ar y crŵth, yr hwn a welais i yn cael ei chwareu yn fynych, wedi ei gyfansoddi y pryd hwnw, ac a elwir 'Caniad Adar y Llwch Gwyn;' ac y mae englyn Cymraeg ar gael yn gwirio yr hanes hwn.'

DRYCH AIL CIBDDAR. Rhestrir ef, yn nghyd â Coll ab Collfrewi, a Menyw ab Teirgwaedd, i ffurfio 'Tri phrif Lledrithiawg Ynys Prydain.' Yn ol traddodiad, gallai y tri hyn wneyd eu hunain yn anweledig ar yr amser y mynent.

DRYWON AB NUDD. Penaeth un o'r 'tair Gosgordd Addwyn,' y rhai a ymenwogasant o herwydd gwasanaethu o honynt eu gwlad a'u teyrn mewn rhyfel ar eu traul eu hunain. Y ddau eraill oeddynt Belyn a Mynyddog Eiddin.

DU, Dr. JOHN. Gelwir ef gan y Saeson yn John Dee: ond Cymro ydoedd, genedigol o Nant-y-groes, yn Maesyfed. Negroaid oedd ei hynafiaid, a ymsefydlasant, trwy ryw amgylchiad anhysbys, yn Nghymru. Fel hyn y dywed y Dr. Shôn Dafydd Rhys am danynt:—'Yn agos i Nant-y-groes, sir Faesyfed, Cymru, yr oedd gynt deulu Negroaidd enwog yn preswylio —oddi wrth yr hwn yr oedd John Du; *h. y.*, yr enwog John Dee, o Lundain, yn olrhain ei ddisgyniad.' Tad John Du oedd Rowland Dee, masnachydd mewn gwin yn Llundain, ac or-ŵyr Bedo Ddu. Tybir i John gael ei eni o gylch y fl. 1527. Addysgwyd ef yn Nghaergrawnt, lle yr ennillodd wybodaeth ëang mewn amryw ganghenau o ddysg. Wedi aros tua blwyddyn yn Holland, dychwelodd i Gaergrawnt, lle y gwnaed ef yn gymmrodor o Goleg y Drindod. Tra yn y coleg, gwnaeth fawr gynnydd mewn seryddiaeth; ac erbyn hyny, drwg-dybid ef o fod yn ymarfer â'r 'gelfyddyd ddu;' sef, sêr-ddewiniaeth. Nid oes sicrwydd a oedd efe y pryd hwnw wedi dechreu ar ei yrfa sêr-ddewinol; a bernir y gallai y drwg-dybiaeth darddu oddi ar ei ymchwiliadau gwyddonol. Pa fodd bynag, yr oedd y gwrthwynebiad a deimlid gan y bobl at sêr-ddewiniaeth mor gryf fel y bu raid iddo ffoi yn ddiymdroi o Gaergrawnt. Cafodd noddfa yn Mhrifysgol Louvaine, ar y Cyfandir. Tra yno, daeth yn adnabyddus i lawer; a chafodd ei barchu yn fawr ar gyfrif ei alluoedd disglaer, a'i ddysgeidiaeth. Oddi yno aeth i Ffrainge, lle y bu yn traddodi darlithiau ar Elfenau Euclid.

Yn 1551, dychwelodd i Lundain, a chafodd sylw Edward VI.; yr hwn a roddodd iddo ef flwydd-dâl o gan coron. Yn ddilynol, rhoddwyd iddo fywoliaeth Upton ar Hafren. Pan ddaeth Mari Waedlyd i'r orsedd, dechreuodd cymmylau erledigaeth grynhoi uwch ei ben eilwaith. Cyhuddwyd ef o gynllwyn yn erbyn bywyd y frenhines; yr hyn a sylfaenid ar ryw lythyrau a ysgrifenodd at wasanaethyddion y dywysoges Elizabeth—wedi hyny y frenhines Elizabeth. Bu amryw dreialon ar ei achos, a threuliodd beth amser yn ngharchar; ond gan i'r awdurdodau fethu cael dim i'w erbyn, rhyddhawyd ef yn 1555. Yn mhen tair blynedd—yn 1558—esgynodd Elizabeth i'r orsedd, ac ymwelodd Arglwydd Dudley â John Du i ymgynghori ynghylch y diwrnod mwyaf ffodus i'w choroni. Ynglŷn â hyn, cafodd y dewin ei gyflwyno i'w sylw; a chafodd addewidion gwerthfawr ganddi. Yn 1564, ymwelodd drachefn â'r Cyfandir, i'r dyben o gyflwyno i'r Ymherawdwr Maximilian lyfr a ysgrifenodd, dan yr enw *Monas Hieroglyphia*. Yn mhen tua deuddeng mis, daeth yn ol i Loegr. Edrychid arno, erbyn hyn, gan y cyhoedd fel dewin—fel un yn meddu gallu i godi a gostwng cythreuliaid, i swyno, ac i ddarllen tesni, &c.; ac yn y cymmeriad hwn y cyfeirir ato mewn llenyddiaeth hyd heddyw. Pa fodd bynag, dywed y rhai oedd mewn mantais i wybod y gwirionedd mai ffugio y cwbl yr oedd efe—proffesu ymarfer y 'gelfyddyd ddu,' er mwyn twyllo y bobl ynghylch amcanion mawr ei fywyd. Dywed y rhai hyn ei fod yn cael ei gadw fel ysbïwr, neu ddirgel-hysbysydd, gan y frenhines Elizabeth; a'i fod yn derbyn cyflog rheolaidd o'r wladwriaeth. Cyfeirir ato hefyd gan Lilly—sêr-ddewin arall—fel dyn hynod yn mhob ystyr: a chyda'r fath allu ag oedd ganddo, nad oedd yn rhyfedd ei fod yn gallu camarwain y cyhoedd; yn enwedig felly am fod yr oes hono yn un hynod o ofergoelus. Cymmerodd John Du fantais ar yr hygoeledd hwn; a llwyddodd, i raddau pell, i gyrhaedd ei amcanion. Ymledodd ei glod fel sêr-ddewin trwy yr holl wlad. Ymsefydlodd yn Mortlake, yn swydd Surrey; ond tra yno, aeth y syniad am dano fel un oedd yn ymgyfathrachu â chythreuliaid mor gryf fel y cododd y werin i'w erbyn yn 1576. Dinystriwyd ei holl lyfrau, a'i offerynau seryddol; ac o'r braidd y diangodd ef a'i deulu gyda'u bywydau. Yn 1578, cymmerwyd y frenhines yn glaf, ac anfonwyd John Du i'r Cyfandir i ymgynghori, neu dan yr esgus o ymgynghori, â physygwyr ac athronwyr, ac o bossibl â serddewinwyr, ynghylch y moddion goreu i'w hadferu. Y mae lle i feddwl fod i'r ymweliad hwn amcan gwleidyddol pwysig; ond ei fod, fel arfer, yn cael ei guddio. Ar ei ddychweliad, rhoddwyd ef ar unwaith gan ei Mawrhydi i ysgrifenu hanes y gwahanol diriogaethau a berthynent i'w choron; a gorphenodd ei orchwyl mewn amser anghredadwy o fyr. Y mae y rholiau ar ba rai yr ysgrifenodd efe yn nghadw yn yr Amgueddfa Brydeinig. Yn y cyfamser, yr oedd ei glod fel dewiniwr wedi ymledu yn ddirfawr. Yn 1581, cymmerodd i'w wasanaeth gyfferïwr o Worcester, o'r enw Edward Kelly; yr hwn a ddysgodd gelfyddyd ei feistr yn gampus. Ceir hanes hynod am y ddau yn y ffug-chwedl a elwir *Guy Fawkes* ynglŷn â Brâd y Powdwr Gwn. Aeth y ddau, yn 1583, i'r Cyfandir; ac o herwydd rhyw reswm sydd yn anhysbys, ymadawsant â'u gilydd. Dychwelodd John Du i Loegr; ac yn 1595, pennododd y frenhines ef yn warden Coleg Manceinion. Yr oedd efe, erbyn hyn, yn 68ain mlwydd oed. Bu yno am naw mlynedd; ond o herwydd rhyw ddigwyddiad anhysbys, ymadawodd, gan ymneillduo i'w dŷ ei hun yn Mortlake. Bu farw yno mewn tlodi mawr yn 1601, pan tuag

Digitized by Google

81ain mlwydd oed. Gadawodd deulu lliosog, a nifer mawr o ysgrifeniadau, ar ei ol—rhestr o ba rai a geir yn y *Compendious Rehearsal.* Yn mhen tua hanner canrif wedi ei farwolaeth, cyhoeddwyd y *Book of Spirits*—awduriaeth yr hwn a briodolir i Dr. John; ond nid oes seiliau sicr i'r dyb hon. Pe buasai wedi ymroddi i well amcanion na bod yn ysbïwr i weinidogion y llys brenhinol, gallasai fod yn ŵr o enwog-rwydd mawr; o blegid yr oedd ei dalentau naturiol, a'i ddysgeidiaeth dwfn-dreiddiol, yn fawr iawn.

DUMAS, ALEXANDRE. Yr oedd efe yn fab i'r cadfridog Alexandre Davy-Dumas, yr hwn a fu farw pan oedd ei fachgen yn bedair oed. Ymddygodd yr Ymherawdwr Napoleon mor iselwael ag oedd yn bossibl iddo tuag at y weddw, a'i phlant. Yr oedd Dumas, tra yn fachgen, yn ddarllenwr mawr; ond er hyny yn ysgolhaig difraw a dïog. Pan tuag ugain oed, aeth i Paris; a thrwy ddylanwad y cadfridog Toy, cafodd le fel ysgrifenydd yn swyddfa y Duc de Orleans (wedi hyny Louis Philippe). Tra yno, treuliodd rai blynyddoedd i ddarllen, ac i ddysgu ysgrifenu; yna, pan tua saith ar hugain oed, daeth i sylw holl Ffraingc fel awdwr y chwareu-gerdd *Henri Trois et Sa Cour* (1829), yr hon a chwareuwyd yn y Theatre Francais. Dywedir fod ymddangosiad y gerdd hon wedi creu chwyldroad yn y ddamcaniaeth a'r ymarferiad o'r ddrama hanesyddol. Yn 1831, effeithiodd chwareugerdd arall o'i eiddo yn debyg ar alargerddi teuluaidd. Ar ol hyn, ysgrifenodd Dumas lawer o gyfansoddiadau ar gyfer llwyfanau y chwareudai; ac ystyrir ef yn mhlith prif feistriaid y gelfyddyd hono. Hyn-ododd ei hun yn fawr hefyd gyda chyfres o draethodau neu erthyglau a ysgrifenodd, yn rhoddi hanes ei deithiau.

Ond fel awdwr ffug-chwedlau y mae clod Dumas yn fwyaf hysbys; ac ar ei nofelau, yn benaf, y mae ei lwyddiant fel awdwr yn gor-phwys. Nid oedd hafal iddo, meddir, yn y gelfyddyd o adrodd chwedlau. Un o brif amcanion ei fywyd oedd troi hanes Ffraingc i ffurf ffug-chwedl; a chyda'r amcan hwn yn wastadol o flaen llygad ei feddwl, y mae ei chwedlau, gan mwyaf, yn gyflawn o gyfeiriadau a chroniclau hanesyddol. Yr oedd efe yn un o ysgrifenwyr mwyaf cynnyrchiol y byd. Ym-ddangosai chwedl ar ol chwedl, cyfrol ar ol cyfrol, heb ond cyfnod bychan rhyngddynt, a hyny gyda chyssondeb difëth am flynyddoedd lawer. Byddai i restr o deitlau ei holl weithiau lanw tudalen gyfan o'r gwaith hwn, os nad yn wir gryn lawer yn chwaneg.

Ennillodd gyfoeth lawer oddi wrth ei weith-iau llenyddol; ond fel aml i ysgrifenydd enwog o'i flaen, ac ar ei ol, bu farw yn hynod dlawd. Ymadawodd o Paris, meddir, â'i logellau bron yn wâg. Aeth i dŷ ei fab yn Dieppe; ac yno, ar y 5ed o Ragfyr, 1870, bu farw yn 68ain ml. oed. Ennillodd ei fab, Alexandre Dumas, bron gymmaint o glod ag yntau fel llenor.

DUNAWD AB CUNEDDA. Mab Cunedda Wledig, a ddaeth gyda'i dad a'i frodyr o Fanau Gododin i Wynedd tua'r fl. 414. Wedi iddynt anfon y gormeswyr oddi yno, ymsefydlasant yn y wlad, gan osod i lawr sylfaen brenhiniaeth Cymru. I Dunawd, rhoddwyd tiriogaethau ëang yn siroedd Arfon a Meirion.

DURDAN. Sant, a ddaeth gyda Chadfan o Lydaw i Fynachlog Enlli. Y mae Bodurda, neu Bod Durdan—palasdy henafol yn mhlwyf Aberdaron—yn dynodi ei drigfa; a cher llaw iddo, y mae ffynnon hefyd sydd yn dwyn yr un enw.

DWN, LEWIS. Blodeuodd tua diwedd yr unfed ganrif-ar-bymtheg; ac ennillodd glod ac anrhydedd fel achyddwr ac arwydd-fardd o dalentau disglaer. Efe oedd athraw barddonol y Dr. Richard Davies. Yr oedd yn preswylio yn Garth celyn, yn mhlwyf Bettws-yn-Nghed-ywain, yn Maldwyn. Ei dad oedd Rhys ab Owain; ac yr oedd ei fam yn ferch i Rhys Goch Dwn, o'r Gwestyd. Fel hyn y dywed am dano ei hun:—'A minnau, Lewis Dwn, brydydd, wyf un o ddysgyblion Owain Gwynedd; ac a fûm ddysgybl i William Lleyn, ac a gefais gôf o'i lyfrau achau ef. A chyn hyny, mi a fuaswn yn ddysgybl i Hywel ab Syr Matthew; a llawer o'i lyfrau ef a gefais.' Yn y fl. 1585, pennod-wyd ef, o dan sêl a breint-lythyr, yn Arwydd-fardd Dirprwyol Cymru, a'r Cyffiniau. Gwnaeth ymchwiliadau helaeth mewn achyddiaeth; a chyhoeddwyd y cyfryw yn 1846 yn ddwy gyf-rol, o dan olygiaeth Syr Samuel Rush Meyrick. Y mae y gwaith hwn yn olrhain achau prif deuluoedd Cymru; ac y mae yn cael ei ystyried yr awdurdod uchaf ar y mater hwn a gyhoedd-wyd erioed.

DWYFAN. Mewn chwedloniaeth Gymreig, y mae efe a'i wraig, Dwyfach, yn cynnrychioli tad a mam pob dyn byw yn yr ystyr ganlynol. Ebai y *Trioedd*:—'Tair Engir Ddichwain Ynys Prydain; cyntaf Torriad Llyn Llion, a myned bawdd hyd wyned yr holl diroedd, yn y foddes yr holl ddynion—namyn Dwyfan a Dwyfach, a ddiangasant mewn llong foel, ac o honynt hwy ydd adepiliwyd Ynys Prydain.' Ymddengys fod Toriad Llyn Llion yn cyn-nrychioli y diluw; am yr hwn y mae traddod-iad, mewn rhyw ffurf neu gilydd, yn mysg pob cenedl. Bernir mai atynt hwy y cyfeirir mewn Triad arall—'Tri phrif orchestwaith Ynys Prydain—Llong Nefydd Naf Neifion, a ddug ynddi wryw a benyw o bob byw, ban dorres Llyn Llion; ac ychain bannog Hu Gadarn a lusgasant Afanc y Llyn i dir, ac ni thorres y Llyn mwyach.' Oddi wrth hyn, gwelir fod gan y Cymry draddodiad am alaeth fawr y diluw, yn gystal a chenedloedd eraill. Y mae dwy afonig o'r enwau uchod—Dwyfan a Dwyfach—sydd yn rhedeg i lawr oddi wrth Garn Dolben-maen tua'r môr.

DWYNWEN:—oedd un o ferched Brychan Brycheiniog, yr hon a sefydlodd eglwys Llan-ddwynwen, yn Môn. Ystyrid hi gan y beirdd, o herwydd rhyw resymau sydd yn awr yn anhysbys, yn Santes Warcheidiol Cariad. Yr oedd ganddi yn Llanddwynwen ffynnon, a elwir hyd heddyw Ffynnon Fair. Pererindodai lliaws mawr o 'gleifion cariad' at y ffynnon hon—yn-ddi i offrymu arian ar allor Dwynwen, er mwyn iddi eiriol ar eu rhan gyda Mair, a thyneru ca-lonau gwrthddrychau eu serch. Rhagfynegid eu tynged gan bysgodyn oedd yn y ffynnon. Yr oedd y swm a offrymid yn y dull hwn gym-maint fel y daeth yr eglwys yn abad-dŷ; ac yn amser Harri IV., yr oedd hi yn fwy ei chyllid nag un crefydd-dŷ arall yn Ngwynedd.

Digitized by Google

DWYWAN. Mab Hywel ab Emyr Llydaw, a sant a flodeuodd yn y chweched ganrif. Sefydlodd eglwys Llanddwywan, yn Môn.

DYFAN: yr hwn, hefyd, a elwid DOEWAN. Yr oedd efe yn fab i Alwn Aflerw ab Ysbwyth ab Manawyddan ab Llyr. Danfonwyd ef, yn nghyd âg eraill, yn yr ail ganrif, gan Eleutherius, Esgob Rhufain, i geisio troi y Prydeiniaid i'r ffydd Gristionogol. Efe oedd sant gwarcheidiol eglwys Llanrhaiadr-yn-Mochnant. Y mae eglwys yn Morganwg a elwir Merthyr Dyfan; ac oddi wrth hyn, tybir iddo gael ei ferthyru yn y fan hono, ac mai i'w goffadwriaeth ef y codwyd yr eglwys hono.

DYFNAN. Mab i Brychan, yr hwn oedd yn sant a flodeuai yn y bummed ganrif. Efe oedd sefydlydd eglwys Llanddyfnan, yn Môn, yn yr hon y claddwyd ef. Cedwid ei ŵyl-mab-sant ar y 23ain o Ebrill.

DYFNIG. Sant a ddaeth gydag Ust a Chadfan i Brydain yn y chweched ganrif. Rhyngddynt, hwy a sefydlasant eglwys Llanwrin, yn Maldwyn.

DYFNOG. Mab oedd efe i Medrawd ab Cawrdaf ab Caradawg Freichfras. Blodeuodd rywbryd yn ystod y seithfed ganrif. Bernir mai efe oedd sant gwarcheidiol eglwys Defynog, yn sir Drefaldwyn. Ond sefydlydd yr eglwys hono oedd Cynog ab Brychan.

DYFNWALLAWN. Tywysog Dyfed—yr hwn a laddwyd mewn brwydr tua'r flwyddyn 950.

DYFNWALLAWN. Tywysog ar Frythoniaid Ystrad Clwyd, yr hwn a ymneillduodd i Rufain yn y flwyddyn 975, ac a fu farw yr un flwyddyn.

DYFYR WALLT EURAIDD. Rhestrir hi, ynghyd âg Enid, a Thegan Eurfron, fel 'tair Gwenrian Llys Arthur.'

DYGYNELW. Bardd Owen ab Urien, yn y chweched ganrif, yr hwn a elwir yn un o'r 'Tri Gwaywruddion Beirdd Ynys Prydain.' Gelwir ef wrth yr enw hwn am ei fod, yn groes i ddefodau Barddas, yn euog o dywallt gwaed.

DYSGYFEDDAWG. Penaeth yn Deifyr, a flodeuodd yn y chweched ganrif. Meibion iddo oedd Gall, Difedell, a Disgrynin.

---

# E.

EBEN FARDD. Gwel THOMAS, EBENEZER, cyf. IX., td. 660.

ECHEL FORDDWYD TWLL. Un o ryfelwyr enwog Llys Arthur, a thad Gronw.

EDEYRN. Yr oedd efe yn byw yn y bummed ganrif, ac yn aelod o Gôr Cattwg. Barna rhai ei fod yn fab i Gwrtheyrn; yr hwn a elwir yn Faustius gan Nennius. Sefydlodd Edeyrn grefydd-dŷ, i'r hwn y perthynai dri chant o aelodau; ac oddi wrth y crefydd-dŷ hwn y cafodd Llanedeyrn, yn sir Forganwg, ei enw.

EDEYRN AB NUDD AB BELI AB RHUN AB MAELGWYN GWYNEDD—yn ol y *Myvyrian Archæology*, ydoedd yn un o ddewrion farchogion Llys Arthur. Ond y mae yn amlwg fod yma gamgymmeriad dybryd yn rhywle; o blegid blodeuodd Arthur yn y bummed ganrif, a Maelgwyn Gwynedd yn y chweched ganrif. Felly, nis gallai un o ddisgynyddion Maelgwyn fod yn un o ddewrion Llys Arthur. Mewn hanesion eraill, gosodir Edeyrn ab Nudd allan fel bardd; yr hwn, yn niwedd ei oes, a ymroddodd i fywyd crefyddol. Dywedir hefyd mai efe oedd sefydlydd eglwys Bodedeyrn, yn Môn.

EDGEWORTH, ROGER, D.D. Yr oedd efe yn enedigol o Gastell Holt, yn sir Ddinbych. Graddiodd yn Rhydychain yn y fl. 1507; a'r flwyddyn ddilynol, etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg Oriel. Yn amser y frenhines Mari, trodd yn amddiffynydd selog i Babyddiaeth, ac yn elyn mawr i Luther, a'r Diwygiad. Ysgrifenodd amryw lyfrau i amddiffyn ei egwyddorion, ac ar byngciau eraill perthynol i ddiwygiad yr eglwys gan y brenin Harri VIII. Bu farw yn 1560, a chladdwyd ef yn Mynachlog Wells.

EDMUND, ELLIS, a elwir yn *Non's Memorial* yn 'Edmund Ellis, a chrwynwr o Lundain.' Ymddengys ei fod yn weinidog plwyf St. Fagan, Caerdydd, yn flaenorol i gyhoeddiad Deddf yr Unffurfiaeth, Awst 24ain, 1662: ac yr oedd efe yn un o'r ddwy fil a drowyd allan.

EDMUND, EVAN. Gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Cwmifor, yn sir Gaerfyrddin, oedd efe. Ganwyd ef yn Nghlwt y Ddraenan, yn mhlwyf Llandeilo, yn y fl. 1762. Rhyw adeg, tua'r fl. 1795, yr oedd eglwys Llandyfaen wedi ymranu yn ddwy blaid—y Sosiniaid a'r Arminiaid; ond trwy ei bwyll a'i ddoethineb, llwyddodd i gyfuno y pleidiau, a ffurfiwyd eglwys Soar. Yno y dechreuodd bregethu, ac y daeth i enwogrwydd fel Cristion, a gŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau. Bu farw yn y fl. 1824, yn 62ain

Digitized by Google

mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent Cwmifor.

EDNYFED AB MOACEN WLEDIG. Sant oedd efe, a flodeuodd yn y bummed ganrif. Yr oedd Owain, Cystenyn, a Pheblig yn frodyr iddo ef.

EDNYWAIN BENDEW. Penaeth un o'r pymtheg llwyth oedd efe, a mab i Bradwen. Yr oedd yn byw ryw adeg yn ystod y ddeuddegfed ganrif, a phreswyliai yn Llys Bradwen —palas oedd heb fod yn mhell o dref Dolgellau. Hanodd amryw o hen deuluoedd sir Feirionydd o hono.

EDWARD AB RHYS MAELOR. Bardd a flodeuodd tua chanol y bymthegfed ganrif.

EDWARDS, PARCH. DAVID. Ganwyd ef mewn tyddyn a elwir Tŷ'n-y-fedw, yn mhlwyf Llanuwchllyn, ger llaw y Bala, Ebrill 12fed, yn y fl. 1816. Enwau ei rieni ydoedd Dafydd a Mair Edwards; ac yr oedd ei dad yn flaenor ffyddlawn gyda'r Methodistiaid Calvinaidd. Bu ei gyn-deidiau yn dal y tyddyn am rai canoedd o flynyddau. Yr oedd efe yn hanu o ochr ei fam o deulu yr adnabyddus Archddeon Prys. Bu o dan addysg y diweddar Michael Jones, athraw y Coleg Cynnulleidfaol yn y Bala. Daeth llawer yn enwog fu yn derbyn addysg yn ei ysgol ef; yr hon oedd wedi ei gwaddoli gan y diweddar Dr. Williams. Yr oedd gan David Edwards dri o frodyr. Aeth un, John Edwards, i'r America; ac yr oedd yn un o brif feirdd y Gorllewin. Adnabyddid ef wrth y ffugenw Eos Glan Twrch. Aeth Thomas Edwards i Rhymni; a bu yn cadw siop i Gwmni Gwaith Haiarn Rhymni. Pan tua phymtheg oed, fe ymunodd David Edwards â'i frawd yn Rhymni. Ymunodd y brawd hwn â'r Bedyddwyr; ond goddiweddwyd ef gan angau, a chladdwyd ef ar y diwrnod yr oedd y trefniadau wedi eu gwneyd i'w ordeinio. Y brawd arall iddo a arosodd yn y Gogledd; a bu yn trin Ty'n-y-fedw hyd ei farwolaeth; yr hyn a gymmerodd le Medi 15fed, 1894. Wedi marwolaeth ei frawd, symmudodd David Edwards o Rhymni i'r Bryn-mawr, lle y sefydlodd mewn masnach. Dechreuodd bregethu tua 1836; ac o ddeutu yr un amser ymunodd â'r symmudiad dirwestol, a pharhaodd yn ffyddlawn felly hyd ei oes. Tra yn Bryn-mawr y dechreuodd ar y diwygiadau cymdeithasol—pa rai, mewn amser, a'i dygodd ef i amlygrwydd. Bu yn offerynol i sefydlu yr Ysgol Frytanaidd gyntaf yn y lle. Galwodd y pwyllgor cyntaf ynghyd, a bu yn ysgrifenydd iddynt hyd nes i fwrdd ysgol gael ei sefydlu; ac etholwyd ef yn aelod o'r bwrdd yn yr etholiad cyntaf. Cymmerodd ran flaenllaw hefyd i sefydlu bwrdd lleol ac iechydol yno—ac yr oedd mawr angen am dano. Hwn oedd yr ail o dan y ddeddf yn y Deheudir —y nesaf at Merthyr. Dygodd hyn arno ar y pryd anfoddlonrwydd llawer; ond ymroddodd y bwrdd o dan ei arweiniad i'w waith gydag egni. Gwnaed yno waith dwfr, a gwelliantau eraill; yr hyn, yn fuan, a wnaeth y dref yn un ddymunol i fyw ynddi. Yn fuan ar ol hyn, efe a ymgymmerodd â chael claddfa gyhoeddus i'r lle, trwy sefydlu bwrdd claddu; a threfnwyd claddfa eang, yn yr hon y mae amryw filoedd wedi eu claddu. Yr oedd y gwelliantau hyn yn symmudiadau mor groes i syniad y cyffredin ar y pryd fel y dioddefodd lawer o ammharch am dymmor. Gan fod y lle claddu heb fod yn perthyn i gapel nac eglwys, yr oedd y rhagfarn ato yn fawr; ac nid oedd un lle i addoli wedi ei adeiladu ar y fynwent. Yr oedd llawer am i Mr. Edwards gael bod y cyntaf i orwedd ynddo; ond cafodd fyw yn ddigon hir i weled syniadau y bobl wedi cyfnewid yn hollol. Bu hefyd yn offerynol i gael gwaith nwy yno; i'r hwn y bu efe am flynyddau yn gadeirydd y dirprwywyr. Bu yn gofrestrydd priodasau am flynyddoedd hefyd; ac yn llwyddiannus yn ei fasnach—yr hon a roddodd i fyny. Yna symmudodd i Gasnewydd; ac yno dewiswyd ef yn gadeirydd y bwrdd addysg. Yr oedd ei brofiad helaeth ef mewn gweithio allan amryw ddeddfau wedi ei wneyd yn hynod hyddysg ynddynt, ac yn ŵr o gynghor. Rhoddodd i grefydd, ac i'w swydd fel pregethwr, amser a llafur mawr; a chafodd ei ordeinio yn nghymmanfa Awst, 1851, yn Dowlais, a deuddeg arall ar yr un pryd—y rhai oll sydd, bellach, wedi meirw. Yn y fl. 1860, cymmerodd daith i Wlad Canaan; ac wedi dychwelyd, areithiodd lawer ar hanes ei ymweliad, drwy yr hyn y bu yn foddion i ddiddyledu capelau yn y sir hyd y swm o 300*p*. Dechreuodd hyn gyfnod newydd yn ei gwrs cyhoeddus fel pregethwr; ac yr oedd dylanwad y daith hon ar ei weinidogaeth hyd y diwedd. Yr oedd ei bregethau yn dda, ac yn dderbyniol gan yr eglwysi; ac amlwg oedd ei fod am y blynyddau olaf o'i oes yn fwy efengylaidd nag o'r blaen. Bu yn llenwi swyddi uchaf ei enwad—yn llywydd Cymmanfa y De, yn llywydd Cymmanfa Gorphoredig yr holl enwad, yn arholi ymgeiswyr i'w hordeinio, yn traethu ar Natur Eglwys, ac yn rhoddi cynghor yn yr ordeiniad; a llanwodd y sefyllfaoedd anrhydeddus hyn gydag urddas priodol. Er fod Mr. Edwards ar hyd ei oes yn ddiwygiwr, methodd symmud yn mlaen gyda Mr. Gladstone, yn ei gynnyg i roddi ymreolaeth i'r Iwerddon; ac fel hyn y terfynodd ei hanes fel gwladwr. Bu farw yn ddisymmwth yn Penarth, Awst 1af, 1891, gan adael ei briod i alaru ar ei ol, ynghyd â merch i'w frawd o'r America, yr hon oedd wedi bod yn aros gydag ef am dymmor. Pregethodd yn hynod yn Penarth y Sabbath cyn iddo farw. Pregeth ar drothwy tragwyddoldeb ydoedd!

EDWARDS, JOHN, yr hwn a elwid 'JOHN EDWARDS o Ereiniog,' a anwyd tua'r fl. 1755, yn sir Gaernarfon. Pan yr oedd tuag ugain mlwydd oed, derbyniodd argraphiadau dwys dan bregeth gŵr o'r enw Hugh Pierce; yr hyn a fu yn fendith iddo. Nid oedd efe, ar y pryd, yn sicr yn ei feddwl gyda pha enwad yr ymunai; ac er mwyn tori y ddadl, ymgynghorodd â Mr. Hughes, parson Llanfihangel y Pennant; yr hwn, o herwydd maintioli ei gorph, a elwid yn 'Hughes fawr.' Yr oedd Mr. Hughes yn ddyn cydwybodol, ac yn rhagori yn fawr ar ei gyd-glerigwyr mewn llawer o bethau; a phan gyflwynodd John Edwards ei achos i'w sylw, ei attebiad oedd, 'Gwell i ti, Shôn, aros wrth y cwpbwrdd lle yr wyt ti yn cael bwyd.' Gweloddd John briodoldeb y cynghor, ac ymunodd yn ddiymaros â'r Methodistiaid Calvinaidd yn Hendre Hywel, neu Fryn Engan. Tua'r fl. 1787, ceir iddo dderbyn annogaeth i ddechreu pregethu; a bu yn llafurio yn ei ardal enedigol

Digitized by Google

am saith mlynedd. Yr adeg yma, daeth clerigwr erledigaethus ei ysbryd yn oruchwyliwr i'r boneddwr a berchenogai y tyddyn a breswylid gan John Edwards; ac o herwydd ei fod yn 'bregethwr Methodus,' bu raid iddo ymadael yn ddioed. Hysbyswyd gan y goruchwyliwr fod yn rhaid iddo roddi i fyny bregethu—neu fyned o'r tyddyn. Wrth gwrs, gwell o lawer oedd ganddo ymadael o'i dyddyn, er ei fod yn gartref ei hynafiaid, na thori cyssylltiad oedd yn llawer mwy pwysig yn ei olwg. Cafodd fferm arall yn Llanarmon-yn-Iâl, o fewn sir Ddinbych, o'r enw Gelligynan—i'r hon y symmudodd yn 1795. Yr oedd anwybodaeth ac anfoesoldeb yn uchel eu pen yn nghymmydogaeth ei gartref newydd ar y pryd; a throdd hyn yn fantais neillduol iddo arfer ei ddawn fel pregethwr, ac i weithio dros ei Feistr. A bu o wasanaeth ammhrisiadwy i grefydd yn y cylch hwnw. Pregethai yn y manau mwyaf barbaraidd, heb ofni digofaint neb; gan ymddiried yn hollol yn amddiffyniad ei Arglwydd. Efe oedd yr Ymneilldüwr cyntaf erioed fu yn pregethu yn Mryneglwys; a gwnai hyny ar rosydd yr ardal, gan nad oedd yno gapel o unrhyw fath y pryd hyny: ac heb dâl na gwobr o un math, ond y pleser o gael gwasanaethu ei Arglwydd trwy fod yn foddion i achub ei gyd-ddynion. Yr oedd ymddangosiad cenad dros Dduw yn beth newydd hollol i'r bobl, a thyrai cannoedd o honynt i wrandaw arno. Bernir mai efe, hefyd, oedd y cyntaf a bregethodd i'r glöwyr yn Harwood, yn agos i Brymbo. Yr oedd efe, cyn hyny, wedi pregethu yn Nghaergwrle—lle yr oedd dyn mawr, meistrolgar, o'r enw Edward Hopwood, yn ei wrandaw. Mae'n ymddangos i Hopwood deimlo dyddordeb neillduol yn yr hyn a ddywedodd efe am yr efengyl; o blegid wrth fyned adref yn nghwmni yr hen bererin John Ellis, o'r Cymmer, gofynodd iddo:—'A oes dim modd cael y dyn yna i bregethu i bechaduriaid Harwood?' Attebodd John Ellis —'Y mae arnaf ofn na chai ê ddim llonydd genych.' 'Caiff!' meddai Edward Hopwood, gyda llŵ—'mi edrychaf fi am chwareu teg iddo.' Aeth y pregethwr, gan hyny, i Harwood, gan wneyd ei bulpud yn nghysgod perth oedd ar fin y ffordd: ac yr oedd Edward Hopwood yn sefyll wrth ei ymyl, yn amddiffynydd iddo. Wedi gweddïo, a darllen y testyn, wele ddyn meddw, neu un yn ffugio bod felly, yn dyfod yn mlaen, gan ymwthio trwy y gynnulleidfa, a chodi cyffro. Ymaflodd 'Ned' â'i law chwith yn ngwddf y terfysgwr, gan ei wthio yn ŵysg ei gefn allan o'r dorf; ac â'i law ddeheu, tarawodd ef nes yr oedd yn rholio oddi wrtho. Dyna engraifft o'r amgylchiadau o dan ba rai y pregethid yr efengyl yn y dyddiau hyny.

Yn 1811, symmudodd o Gelligynan i'r Plas coch—fferm fawr sydd yn agos i Gellifor, heb fod yn mhell o Ruthyn. Yr oedd yr ardal hon hefyd yn amddifad o gyfleusderau crefyddol. Nid oedd ynddi na chapel, nac Ysgol Sabbothol; ond trwy ei ymdrechion diflino, a chynnorthwy gŵr o'r enw Edward Simon, adeiladwyd capel, a dechreuwyd achos sydd yn flodeuog heddyw, ac wedi myned ar gynnydd parhaus. Yr oedd y capel a sefydlwyd ganddynt yno yn un o'r rhai cyntaf o fewn y rhan yma o'r wlad. Tra yn byw yn Plas coch y darfu iddo, tua 1816, gyhoeddi ei *Feddyginiaeth Anifeiliaid*—llyfr fu o wasanaeth mawr i amaethwyr, ac eraill, oedd yn cadw ceffylau a gwartheg, &c. Yn rhagymadrodd yr awdwr i'r llyfr, dywed:—'Nid blŷs hunanol, nac awydd elw, a wnaeth i mi ymaflyd yn y gwaith; ond ymgais am ei wneuthur yn fuddiol i'r wlad.' Yn 1817, symmudodd i Blas yn Nghaerwys—lle y dangosodd efe yr un awyddfryd i wneuthur daioni, ac i gyhoeddi yr efengyl i'r trigolion. Er fod ei iechyd, erbyn hyn, wedi dirywio yn fawr, etto gwnai ymdrechion egnïol i ymweled â'r lleoedd hyny nad oedd ynddynt achosion sefydlog gan y Methodistiaid, nac un enwad arall; megys Gronant, Mostyn, y Cwm, &c. Teimlai hyfrydwch neillduol mewn arloesi tir newydd, ac mewn ymdrechion i grefyddoli ardaloedd anniwylliedig. Yn ei flynyddoedd olaf, dioddefodd yn ddirfawr oddi wrth ddolur y gareg; a bu farw yn y fl. 1823, yn 68ain mlwydd oed. Yr oedd efe yn un o'r dosbarth mawr o ddynion yn yr hanner cyntaf o'r ganrif hon fu o wasanaeth dirfawr i'w gwlad yn ei hachosion bydol—a chyda hyny i deyrnas y Gwaredwr.

EDWARDS, Parch. LEWIS, D.D., o'r Bala; neu fel yr adnabyddir ef oreu yn Nghymru, Dr. Edwards, y Bala. Ganwyd ef mewn ffermdy o'r enw Pwll-cenawon; yr hwn a saif ar lan yr afon Rheidol, ger Penllwyn—rhwng pedair a phum milldir o dref Aberystwyth. Y mae y rhanbarth hwn o Geredigion yn enwog, nid yn unig, nac yn benaf, o herwydd amrywiaeth a phrydferthwch y golygfeydd a geir yno, er fod y rhai hyny yn swynol dros ben; ond am mai oddi yno yr aeth allan nifer fawr o enwogion a osodasant eu hôl ar Gymru—a hyny er daioni. Gwelodd Dr. Edwards oleuni dydd gyntaf foreu y 27ain o Hydref, 1809. Enwau ei rïeni oeddynt Lewis a Margaret Edwards. Yr oedd y ddau, yn eu dydd, yn hynod am eu duwioldeb. Ymddiriedwyd i'w gofal wyth o blant—pump o fechgyn, a thair o ferched; ac o'r wyth, Lewis oedd yr hynaf. Ymddengys iddo gael ei anfon i'r ysgol pan yn ieuangc iawn; ac fe allai fod yr amgylchiadau i hyny yn fwy manteisiol na'r cyffredin. Er y cedwid yr ysgol mewn bwthyn o'r enw Pwll-clai, etto yn Pwll-cenawon y llettyai yr ysgolfeistr; sef, Edward Jones—neu fel y gelwid ef gan bawb, 'Ewythr Edward.' Mae yn debyg iddo gael yr enw hwn am ei fod yn dal cyssylltiad perthynasol â'r teulu y llettyai gyda hwynt. Nid yw yn ymddangos ei fod yn ysgolhaig anghyffredin; ond yr oedd yn meddu ar un cymmhwysder a ystyrid yn anhebgorol yr adeg hono; sef, ei fod yn gallu siarad ychydig bach o iaith yr estron. Bu yn treulio ychydig o fisoedd yn Lloegr; a daeth yn ei ol 'wedi ei berffeithio,' fel y bernid y pryd hyny, i'r swydd o ysgolfeistr. Gan fod athrofa Pwll-clai bach dros filldir o ffordd o Bwll-cenawon, yr oedd yn dda i Lewis bach wrth law a chefn Edward Jones i fyned i'r ysgol. Haedda yr athrofa hon le anrhydeddus yn mhlith holl athrofeydd Cymru, am mai yno y dysgodd Lewis Edwards y wers gyntaf a gafodd efe mewn ysgol erioed. Dywedir fod ei duedd i fyned yn mlaen, ac i orchfygu anhawsderau, wedi dyfod i'r golwg yn gynnar iawn yn ei hanes. Fel rheol, byddai, yn yr amser gynt, oruchwyliaeth a elwid y 'troi yn ol' yn cael ei gweinyddu yn aml yn yr ysgolion. Nid bob amser am fod yr ysgolor yn methu ei wers; ond fod yr athraw yn brysur gyda rhyw orchwyl arall. Rai prydiau, ar ol iddo fod yn ddiwyd gyda'i wers, cafodd Lewis deimlo chwerwder 'y troi yn ol;' ond nid



Digitized by Google

oedd yn ei hoffi. Bu yn hir yn dyfalu pa fodd i ddyfod drwyddi; ac o'r diwedd, gwawriodd goleuni ar yr achos. Dyfeisiodd gynllun a'i gwnelai yn ammhossibl iddo, beth bynag, gael ei droi yn ol. Ar ol iddo ddysgu un ddalen yn drwyadl, tynai hi i ffwrdd, a thaflai hi i'r tân. Dyfais wreiddiol i fachgen mor ieuangc.

Yr ysgol nesaf yr aeth efe iddi, oedd ysgol Pen-chwarel bach—pa un ai am ei fod wedi dysgu yr oll oedd gan yr hen ewythr yno i'w ddysgu iddo; neu, fe allai am fod Edward Jones wedi rhoddi i fyny y gorchwyl. Nis gellir ond dyfalu gyda golwg ar ansawdd yr addysg a gyfrenid yn ysgol Pen-chwarel; ond y mae hyn yn sicr, oddi ar awdurdod Dr. Edwards ei hun, fod yr ysgolfeistr yn ysmociwr digyffelyb: ac hefyd, mai byr fu arosiad Lewis yn yr ysgol hono. Ar y pryd, ac o hyny hyd yn awr, yr oedd ysgol ragorol yn Penllwyn; ond gan fod yr afon Rheidol rhwng Pwll-cenawon a'r pentref, ac nad oedd un bont dros yr afon, yr oedd efe yn rhy ieuangc i fyned i'r ysgol hono. Yn fuan, fodd bynag, daeth y bachgen yn fedrus i allu croesi yr afon ar goed-fachau (*stilts*), fel y byddid y pryd hwnw yn gyffredin yn croesi; ac yn wir, dyma'r dull y byddai yr holl bobl oedd yn byw yr ochr hono i'r afon yn ei chroesi i fyned i gapel Penllwyn. Ar ol iddo ddyfod yn feistr ar y gorchwyl hwn, cafodd yntau fyned i ysgol y pentref. Cyn hir, daeth yn alluog i gario Thomas, ei frawd bach (sef y diweddar Barch. Thomas Edwards, Penllwyn), ar ei gefn gyda'r coedfachau; ac elent gyda'u gilydd i'r ysgol. Gorchwyl pwysig a difyrus i'r plant oedd croesi yr afon yn y dull hwn—Thomas yn cario'r bwyd a'r llyfrau, a Lewis yn cario Thomas, a'r llwyth. Nid ydyw croesi afon weddol gref fel hyn yn orchwyl hawdd dan unrhyw amgylchiad; ond yr oedd hi yn fwy anhawdd fyth gyda'r fath lwyth. Un tro, yn ddamweiniol, pan ar ganol yr afon, llithrodd traed Lewis; a chyda hyny, i lawr âg ef i'r dwfr. Wrth weled ei frawd yn myned i lawr, gollyngodd Thomas ei afael arno—ac i lawr âg yntau; ond cafodd gerydd llym gan ei frawd am fod mor ffol a dangos cyn lleied o hunan-feddiant:—'A oedd raid i chwi (meddai) fyned i lawr i'r dwfr am i mi fyned i lawr?' Wedi bod yn ysgol Penllwyn am ysbaid, tybid ei fod yn ddigon hen i roddi ychydig gynnorthwy i'w rïeni gartref; ond nid amlygai efe y dyddordeb lleiaf yn y gwartheg, na'r ceffylau. Ei lyfrau oedd ei bob peth ef. Nid oedd dim yn ei foddloni yn fwy na chael gafael ar lyfr newydd; ac ni orphwysai cyn cael llwyr feistrolaeth arno. Gan fod y rhïeni yn gweled hyn, penderfynasant ei anfon i ysgol oedd yn enwog iawn y pryd hwnw; sef, ysgol Llanfihangel Genau'r Glyn. Saif y pentref hwn yn ymyl y ffordd haiarn, rhwng y Borth ac Aberystwyth, tua thair milldir o'r Borth, a phump o'r lle olaf. Gwnaeth y defnydd goreu o'i amser yno; a daeth yn ei flaen yn gyflym iawn. Pan adawodd efe yr ysgol hon, yr oedd wedi meistroli y grammadeg Lladin yn hynod o dda. Gan nad oedd yr ysgolfeistr yn sefyll yn uchel mewn rhifyddiaeth a mesuroniaeth, cafodd Lewis ei symmud unwaith etto—yn awr i Aberystwyth, i ysgol Mr. John Evans; gŵr adnabyddus fel cyfrifydd galluog. Yno y bu am beth amser yn gweithio yn ddiwyd, ac yn llwyddiannus. Am ychydig o amser ar ol gadael ysgol John Evans, bu gan Lewis Edwards ysgol ei hun yn Aberystwyth; ac y mae amryw o hen frodyr yn fyw yn awr fu yn dysgu elfenau morwriaeth yn ei ysgol. Tra yn Aberystwyth y derbyniwyd ef yn aelod eglwysig; sef, yn 'yr Hen Dabernacl.' Daeth mor ymroddgar a difrifol gyda chrefydd ag oedd gyda chasglu gwybodaeth; a chollodd yn fuan bob blâs ar y chwareuon y byddai yn hoff o honynt o'r blaen. Elai hefyd yn fwy-fwy difater am bob peth y byd hwn. Crefydd, a dysg, oedd y cwbl ganddo. Yr oedd ei rïeni yn llawenhau yn fawr wrth weled ei ymroddiad llwyr a hollol i grefydd; etto, nid oeddynt heb deimlo cryn bryder yn nghylch ei fywoliaeth. Er ei fod yn awr mewn oedran pan y mae y mwyafrif o ieuengctyd yn penderfynu ar gwrs bywyd, ac yn ymgymmeryd â rhyw alwedigaeth er eu cynnaliaeth, nid oedd efe wedi yngan gair wrth ei rieni gyda golwg ar ei amcanion, na'i obeithion; ac nid oeddynt hwythau wedi galw ei sylw at hyny. Yr oedd hyn yn ddigon amlwg i'w rïeni; sef, nad oedd wiw iddynt ddisgwyl iddo ddychwelyd i wneyd dim ar y fferm. Yr oedd Thomas yn hollol wahanol. Nid oedd ei well ef am weithio yn yr holl ardal; ac yr oedd yn cynnorthwyo ei rïeni gyda phob peth. Mynych y dywedai ei rïeni am dano, 'Y mae rhyw ddaioni ynot ti, Thomas; ond am dy frawd, Lewis, nis gwyddom pa beth ddaw o hono.' Yr un pryd, cofier ei fod yn hollol ufudd yn mhob peth; etto, gwelent nad oedd y byd hwn ynddo o gwbl, ac nad oedd yr un glem arno wrth geisio gwneyd dim ynglŷn âg ef. Pan ofynid iddo, er esampl, am fyned â'r gwartheg i'r cae, elai yn ddi-ymdroi; ond gofalai fod ganddo lyfr yn ei law. Cerddai ar ol y gwartheg â'i drwyn yn ei lyfr. Yn y man, dechreuai y gwartheg bori, ac aros: ond yn ei flaen yr ai efe, wedi ei lyncu i fyny yn llwyr gan gynnwysiad y llyfr: ac elai heibio iddynt, y naill ar ol y llall, gan eu gadael yn mhell ar ol:—ac yn aml, nid oedd dim yn llwyddo i'w alw at y gwaith oedd ganddo mewn llaw ond taraw yn erbyn llidiart, neu glawdd; ac ambell i dro, byddai mewn sefyllfa annymunol—yn y ffos. Nid oes sicrwydd pa faint o amser y bu yn Aberystwyth. Un diwrnod, dywedodd Mr. Evans wrth ei dad, 'Well i chwi fyn'd â Lewis i ffwrdd bellach. Y mae wedi dysgu yr oll sydd gen i i'w ddysgu iddo.' Cwestiwn pwysig iawn i'w rïeni yn awr oedd, beth oedd i'w wneyd âg ef. Yr oeddynt wedi rhoddi cymmaint o ysgol iddo ag a ganiatäai eu hamgylchiadau iddynt; a llawer mwy nag a allent obeithio ei roddi i'r plant eraill. Tra yn penderfynu yr achos, caniatawyd iddo fyned yr ail waith i ysgol Llanfihangel; yr hon oedd y pryd hwnw dan ofal y Parch. James Meredydd. Erbyn hyn, yr oedd hi yn un o ysgolion ieithyddol goreu Cymru. A'r drefn arferol y pryd hwnw oedd, myned oddi yno i Ystradmeurig, neu i un o'r prifysgolion, er mwyn derbyn urddau Eglwys Lloegr. Cafodd yntau rai cynnygion a chymmhellion cryfion i droi ei gefn ar Ymneillduaeth, a bwrw ei goelbren yn mysg yr Eglwyswyr. Ond ni oddefai ei rïeni hyny; ac ni fynai yntau mewn un modd gymmeryd y cam hwnw.

Cynnygiwyd iddo fyned yn egwyddorwas mewn masnachdy; ond nid oedd gan y bachgen ddim chwaeth at hyny. Erbyn hyn, yr oedd ei feddwl yn dechreu cyffroi, a syniadau newyddion yn terfysgu ei enaid. Yr oedd myned yn bregethwr ar ei galon er's llawer o amser; a

Digitized by Google

dywedodd, bellach, nad oedd dim a gyfarfyddai â'i ddymuniadau ond cael myned yn bregethwr gyda'r Methodistiaid. Ond nis gallai efe feddwl am anturio i'r fath waith heb gymmhwyso ei hun â dysg. Dygodd hyn bryder newydd i'w rïeni. Yr oedd tynerwch eu cydwybodau yn creu ofnau nad oedd yr Arglwydd wedi ei alw i'r weinidogaeth ar y naill law, a'r anhawsder i roddi rhagor o ysgol iddo ar y llaw arall. Dywedai ei dad unwaith wrth un o'r plant, ei fod wedi gallu rhoi heibio gan punt yn fuan ar ol priodi; ac iddo ofni fod yr Arglwydd yn myned i roddi llawer o'r byd hwn iddo, a'i adael heb ddim ond y byd hwn. Y pryd hwnw, gweddiodd am i'r Arglwydd beidio byth a rhoddi llawer o'r byd hwn iddo. Yr oedd yntau, a'i dad, yn mhen llawer o flynyddoedd, yn cydfarnu fod yr Arglwydd wedi gwrandaw ar y weddi hono; o blegid ni bu ganddynt, byth ar ol hyny, ond ychydig yn ngweddill. Cadwyd hwynt heb gyfoeth ar y naill law, na thlodi ar y llaw arall. Ni bu arnynt eisieu dim; ac ni chlywyd am neb o'r teulu wedi ymgyfoethogi, a gadael yr Arglwydd. Ond ar ol gweddïo felly, a chael gwrandawiad, yr oedd yn rhaid, bellach, ymfoddloni i'r drefn, er fod sefyllfa bresennol Lewis yn galw am ryw gymmaint rhagor o arian nag oedd ganddynt mewn llaw. Beth bynag, yn yr hyder y deuai cynnorthwy o rywle, anfonwyd y llangc i'r ysgol i Langeitho, at y Parch. John Jones—yr ysgolhaig a'r duwinydd enwog, a adwaenid am flynyddoedd ar ol hyny fel 'John Jones, Llanbadarn.'

Pan yn ysgol Llangeitho, tua deunaw oed, y dechreuodd bregethu. Nid oedd ei gychwyniad ond lled anobeithiol—yn enwedig pan yr edrychid ar y swm, ac nid ar y sylwedd. Yr oedd wedi etifeddu oddi wrth ei fam rwyddineb ymadrodd; ac yr oedd hyn yn codi o'r ffaith ei fod, fel ei fam, yn siarad yn gyflym. I'r rhai a adwaenent Dr. Edwards ar ol hyn, anhawdd ydyw credu ei fod, ar unrhyw gyfnod yn ei hanes, yn siaradwr cyflym iawn. Etto, rhaid credu mai dyna y ffaith: ac y mae y duedd i siarad yn gyflym yn rhai o'r teulu sydd yn awr yn fyw. Beth bynag am hyny, aeth y siarad cyflym yn brofedigaeth i'r llangc ieuangc; a dioddefodd oddi wrtho am rai blynyddoedd. Ond yn raddol, gorchfygodd ef yn llwyr.

Nis gallai byth ddechreu ar y gwaith o bregethu mewn gwell lle na Llangeitho. Cychwynodd ei yrfa gyhoeddus yn llygad y gwres Methodistaidd; ac arhosodd argraph y tân hwnw arno byth. Ymdrech fawr fu arno yn cychwyn. Yn wir, ceisiodd amryw o'r dynion a barchai efe fwyaf ganddo roddi heibio y bwriad o fod yn bregethwr. Ond gorchfygodd bob anhawsderau; a symmudwyd ofnau hen gymmeriadau duwiol yn ddiweddarach ar ei fywyd. Credai mai mewn attebiad i weddi y gallodd orchfygu yr hyn fuasai yn sicr o fod yn anfantais iddo fel pregethwr. Yn fuan wedi dechreu pregethu, gorfu iddo ymdaraw oreu y gallai ei hun am ffordd i gael addysg. Bu yn cadw ysgol am ysbaid, gan dderbyn addysg ei hun wrth ddysgu eraill, a cheisio 'casglu ceiniog' er mwyn cael manteision gwell. Cyn hir, agorodd Rhagluniaeth ddrws iddo, i fyned i ddysgu plant boneddwr, o'r enw Mr. Lloyd, o Bentowyn, yn agos i Meidrim, yn sir Gaerfyrddin; a daeth efe a'r boneddwr hwnw yn gyfeillion mynwesol. Ar ol cynnilo ychydig o arian, penderfynodd droi ei wyneb i'r brifddinas, i geisio cael derbyniad i Brifysgol Llundain, yr hon oedd newydd gael ei sefydlu—yr *University College*, sydd yn bresennol yn Gower street. Ond cyfarfu y bwriad hwn â gwrthwynebiad mawr oddi wrth rai o weinidogion yr enwad. Yr oedd yn rhaid i'r llangc ofyn caniatâd y Gymdeithasfa Chwarterol i fyned i'r coleg, er na ddisgwyliai gynnorthwy arianol oddi wrth y brodyr; a'i fod yn dibynu am ei gynnaliaeth, a thaliad y draul yno, ar yr ychydig yr oedd efe wedi ei gynnilo pan yn addysgu plant Mr. Lloyd. Anerchodd un o'r prif weinidogion ef yn y gymdeithasfa yn ngeiriau Saul wrth Dafydd; a cheryddodd ef mewn gwawdiaeth am y balchder calon oedd yn ei anfoddloni i orphwys yn dawel gyda'r un graddau o wybodaeth ag oedd yn feddiannol gan ei frodyr. Ond darfu i'r gweinidog hwnw ei hun addysgu ei fab ar gyfer y weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig; a darfu i'w frawd—pregethwr poblogaidd arall—anfon ei fab yntau i Goleg Cynnulleidfaol; o'r hwn le yr aeth yn weinidog i eglwys Gynnulleidfaol yn Lloegr. Nid ydyw yr olygfa a gafwyd yn Nghymdeithasfa Woodstock, yn sir Benfro, yn y fl. 1831, yn dangos llawer o graffder, na rhyddfrydigrwydd, yn y rhai oedd â'r awenau yn eu llaw ar y pryd. Y mae'n debyg mai dyma y cais cyntaf fu dan sylw Cymdeithasfa y Methodistiaid Calvinaidd oddi wrth ŵr ieuangc o bregethwr am ganiatâd i fyned i brifysgol. Yr oedd gallu, penderfyniad, a rhagwelediad y gŵr ieuangc hwn mor eithriadol fel yr oedd arweinwyr y bobl yn edrych arno fel breuddwydiwr. Yr oedd geiriau y cadeirydd, y Parch. Thomas Richards, o Abergwaen, mor finiog fel yr oeddynt yn tori yn ddwfn i'w deimladau; ac nid rhyw lawer mwy tyner oedd y Parch. Ebenezer Richards, o Dregaron. Nid yw yn rhyfedd fod geiriau caledion rhai o'r gweinidogion wedi cyffwrdd â chalon y gŵr ieuangc, nes peri iddo wylo. Ar hyn, dyna un o'r blaenoriaid yn codi ar ei draed, ac yn anturio dyweyd fod y gweinidogion yn siarad yn rhy arw. Ar ei ol, cododd un arall—ac un arall drachefn—nes i'r lliaws godi yn gryf o'i blaid. A'r diwedd fu, iddo gael y caniatâd y gofynai am dano.

Wedi casglu yr ychydig oedd ganddo ynghyd, cychwynodd ar ei daith i Lundain—a thaith i'w chofio ydoedd. Gan mai ar gerbyd yr oedd efe yn myned, ac mai teithiwr y tu allan ydoedd; ac yn mhellach, gan ei bod hi ar y pryd yn oer dros ben, bu agos i'r Cymro ieuangc rewi i farwolaeth, fel yr addefodd efe ei hun. Pan ballodd yr arian, dychwelodd i Gymru, ar ddiwedd un tymmor.

Ar ol dychwelyd i Gymru, ymgymmerodd â gofal bugeiliol eglwys Lacharn, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd hyn yn y fl. 1832. Bu yno am tua deunaw mis; a bu y misoedd hyny yn gyfnod pwysig yn ei hanes, gan iddo yno gael cyfleusdra i bregethu Saesneg. Yn ystod ei arosiad yn Lacharn, mynychai y cyfarfod misol gyda chyssondeb; ond oeraidd hynod yr ymddygid tuag ato gan y blaenoriaid—ac o ran hyny, gan y pregethwyr hefyd. Nid oedd neb yn gofyn cyhoeddiad ganddo am Sabbath; ac wrth gwrs, yr oedd pregethu yn y cyfarfod misol allan o'r cwestiwn. Rhyw dro, mewn cyfarfod misol neillduol, wrth droi adref heb i neb gymmaint a gwneyd sylw o hono, yn ddamweiniol tarawodd wrth yr hen batriarch Dafydd Hughes, o'r Ynys. Deallodd yr hen bregethwr fod gan y gŵr ieuangc galon led drom; felly,

Digitized by Google

cymmhellodd ef i ddadguddio ei deimladau. Yn mhlith pethau eraill, dywedodd L. Edwards, "Rwyf yn gweled nad oes ar Fethodistiaid sir Gaerfyrddin ddim o'm heisieu. Felly, byddaf yn meddwl mai'r peth goreu i mi yw troi fy wyneb i rywle arall.' Gwnaeth yr hen bregethwr ei oreu i esmwythau ei feddwl; ac annogodd ef i ddyfod i'r cyfarfod misol dilynol, yr hwn oedd i'w gynnal yn hen dref Caerfyrddin —lle yr oedd yr achos Methodistaidd ar y pryd yn ei ogoniant. Wrth fyned adref o'r cyfarfod misol, galwodd Mr. Hughes yn nhŷ Mr. Harris, o Heol y Dŵr, Caerfyrddin—prif flaenor y lle. Dywedodd wrtho am yr ymddiddan fu rhyngddo a'r pregethwr ieuangc, Lewis Edwards; ac ebai:—'Yr wyf am i chwi, Mr. Harris, gofio i'w roddi i bregethu yn y cwrdd misol nesaf yn Heol y Dŵr.' Y cyfarfod misol ddaeth. Pan ddarllenwyd trefn y moddion, er syndod i bawb, cyhoeddwyd Lewis Edwards, o Lacharn, yn un i bregethu yn y brif odfa. Cafodd y pregethwr ieuangc 'y gwynt' o'i du. Yr oedd yr odfa yn un i'w chofio; ac yr oedd Hughes a Harris yn mron methu dal o lawenydd. Bellach, nid oedd ganddo brinder o gyhoeddiadau. Mae'n debyg mai dyma y tro cyntaf iddo gael pregethu mewn cyfarfod misol.

Nid hir y bu ei arosiad yn Lacharn. Yr oedd efe wedi cael y fath flâs ar efrydu fel y penderfynodd fyned am dymmor i Brifysgol Edinburgh. Ac yn ffodus, yr oedd ei gyfaill, John Phillips, o Dregaron, wedi hyny o Fangor, sylfaenydd Coleg Normalaidd Bangor, yn cychwyn ar yrfa athrofäol ar yr un adeg. Aeth y ddau gyfaill gyda'u gilydd i Ysgotland. Yn Edinburgh, denodd Lewis Edwards sylw neillduol y Proffeswr Wilson (*Christopher North*), a Dr. Chalmers. Trwy gyflwyniad gwresog y blaenaf o achos Mr. Edwards o flaen awdurdodau y coleg, caniatawyd iddo sefyll ei arholiad am M.A. ar ddiwedd y drydedd flwyddyn, yn lle ar ddiwedd y bedwaredd, yn ol y rheol. Gwnaed y cais hwn ganddo o herwydd diffyg arian. Ond os oedd efe yn ddiffygiol mewn arian, yr oedd ganddo gyflawnder o allu i ddysgu; a meistrolodd mewn tair blynedd yr hyn y mae llawer yn methu ei wneyd mewn pedair a phum mlynedd. Aeth drwy yr arholiad yn llwyddiannus; ac yna, daeth yn ol i Gymru. Y mae'n debyg mai efe oedd yr Ymneilldüwr cyntaf o Gymro i ennill gradd mewn prifysgol. Gwir fod nifer o'r tadau Methodistaidd yn meddu graddau; ond dylid cofio mai fel clerigwyr yn Eglwys Loegr y derbyniasant y graddau hyny. Erbyn hyn, yr oedd yr hinsawdd yn Nghymru wedi newid yn fawr. Pan yn cychwyn i Lundain, gwnaed pob ymdrech i'w rwystro; a phan y daeth oddi yno, nid oedd un blaenor yn awyddus i gael cyhoeddiad ganddo. Ond pan orphenodd ei efrydiaeth yn Edinburgh, derbyniodd lythyr, wedi ei arwyddo gan swyddogion y gwahanol eglwysi yn Liverpool, yn gofyn iddo fyned yno i aros fel gweinidog. Yr un amser, yr oedd ysgogiad mewn amryw fanau yn Nghymru, yn fwyaf neillduol yn sir Aberteifi, am gael athrofa i'r Methodistiaid, a'i gael yntau i ofalu am dani. Y mae pobl sir Aberteifi yn hawlio yr anrhydedd, oddi wrth y ffaith hon, mai yno, mewn cyfarfod misol yn Pen-y-garn, y dechreuodd yr athrofa; a dywedant fod Mr. Richards, o Dregaron, wedi rhoddi y gymmeradwyaeth uchaf yn y cyfarfod hwnw i'r gŵr ieuangc oedd newydd ddychwelyd o Edinburgh, "o blegid iddo ddyfod o'r ffwrn heb fod sawr tân arno.' Beth bynag am hyny, syrthio i'r llawr a wnaeth y bwriad. Amlwg yw nad oedd y cyfundeb etto wedi dyfod yn ddigon addfed i gychwyn athrofa er rhoi addysg i'w bregethwyr. Yna penderfynodd Mr. Edwards gychwyn ysgol ar ei gyfrifoldeb ei hun; a chan ei fod wedi priodi Miss Charles, yn y fl. 1836, ŵyres i Mr. Charles o'r Bala, a chwaer i'r Parch. David Charles, dewisodd y Bala fel y lle mwyaf manteisiol i sefydlu 'ysgol y prophwydi.' Ymunwyd âg ef yn yr anturiaeth gan ei frawd-yn-nghyfraith, Mr. Charles; yr hwn oedd wedi ennill ei radd yn Rhydychain gyda'r bwriad o gymmeryd urddau yn Eglwys Loegr: ond penderfynodd aros gyda'r Methodistiaid. Yr hyn a roddodd fod i'r ysgol hon oedd hoff syniad oedd wedi graddol addfedu yn meddwl Mr. Edwards ei hun, y dylid sicrhau addysg dda i weinidogion ieuaingc cyfundeb y Methodistiaid. Ond gan na fynai y cyfundeb mo'r ysgol, agorwyd hi fel anturiaeth bersonol—yn fwyaf neillduol at wasanaeth pregethwyr, heb adael allan neb arall. Cafodd ychydig fechgyn eu ffordd i'r ysgol; yn mhlith y rhai yr oedd y diweddar Barch. J. Foulkes Jones, Machynlleth, a'r diweddar Brifathraw D. Charles Davies, o Drefecca. Agorwyd hi mewn llofft a ddefnyddid fel ystordy; ac y mae y llofft etto yn cael ei defnyddio felly. O'r diwedd, wrth ganfod dyfal-barhâd a gwroldeb yr athraw ieuangc, llwyddodd amryw o ddynion goreu y cyfundeb—ac yn amlwg yn eu plith yr oedd John Elias—i berswadio eu brodyr yn y Gogledd i fabwysiadu yr ysgol, a'i sefydlu ar sylfaen newydd, fel Coleg Methodistiaid Calvinaidd Gogledd Cymru. Talodd y cyfundeb i'r prif-athraw y cyflog blynyddol o 400*p*. Dyma y coleg y bu Lewis Edwards yn fywyd ac yn ysgogydd iddo am hanner can mlynedd.

Fel yr oedd y coleg yn llwyddo, a syniad y wlad gyda golwg ar addysg i weinidogion yn cael ei oleuo, gwelwyd fod yn rhaid cael adeilad mwy cyfleus na'r ystordy a enwyd i gario y gwaith yn mlaen yn llwyddiannus. Ymaflodd y Parch. Edward Morgan, o'r Dyffryn, yn y gwaith o gasglu arian at adeiladu athrofa newydd, ynghyd â chronfa i dalu y treuliau blynyddol ynglŷn â hi.

Fel y cerddai blynyddoedd yn mlaen, yr oedd dylanwad y coleg yn cynnyddu. Nodwedd hanfodol ei gynllun ef oedd, fod y coleg yn bennodol i fod yn rhywbeth mwy na choleg duwinyddol. Bob amser, daliodd yn ddygn dros bwysigrwydd hyfforddiant llenyddol ëang a chlasurol. Ei argyhoeddiad oedd, y deuai y pregethwyr felly yn gymmhwys i'w haddysgu eu hunain yn ystod y gweddill o'u hoes mewn duwinyddiaeth. Y mae yn ammheus iawn a fuasai efe yn derbyn y trefniant sydd erbyn hyn wedi ei ddwyn oddi amgylch ynglŷn â Choleg y Bala; sef, caniatau i'r pregethwyr ieuaingc fyned i'r Colegau Cenedlaethol am eu haddysg glasurol, gan gyfyngu y Bala yn llwyr a hollol at dduwinyddiaeth. Fel engraifft o ëangder ei syniad a'i deimlad ysgolheigaidd, o'i gyferbynu â thueddfryd gul at hyfforddiant mewn duwinyddiaeth yn unig, gellir nodi ei benderfyniad i anfon ei fab i Rydychain. Y dyddiau hyn, nid oes dim yn rhyfedd mewn ffaith fel hon; o blegid y mae llu o weinidogion y Methodistiaid wedi treulio rhai blynyddoedd

Digitized by Google

yn Rhydychain a Chaergrawnt; ond fe ddylid cofio fod yr amgylchiadau yn wahanol y pryd hwnw. Yn awr, nid ydyw yn un arwydd o wroldeb moesol i bregethwr o Gymru fyned i Rydychain. Ond y ffaith yw, i'r diweddar Dr. Edwards, pan yn coleddu y bwriad o anfon ei fab i Rydychain, ymgynghori â phrif arweinwyr y cyfundeb, yn weinidogion a diaconiaid; ac iddynt, yn ddi-eithriad, ei osod ar ei wyliadwriaeth i beidio a gwneyd dim oedd mor beryglus. Lle annymunol oedd Rhydychain yn eu cyfrif—magwrle Puseyaeth, a Thraethodau, ac Adolygiadau: a pheryglid moesau y dyn ieuangc—heb sôn am anffyddiaeth y lle. Modd bynag, penderfynodd ei anfon. Erbyn hyn, y mae llawer yn myned yno. Hefyd, ysgrifenodd Dr. Edwards erthygl fywiog o blaid Prifysgol i Gymru, a thaflodd ei holl nerth o blaid ei sefydliad.

Yn y fl. 1842, ymadawodd Mr. Charles â'r Bala, i sefydlu athrofa yn Nhrefecca. Yn ddiweddarach, pennodwyd y diweddar Barch. Dr. John Parry gan y cyfundeb fel cynnorthwywr i Dr. Edwards; a llanwodd ei le hyd yr ymylon am flynyddau lawer—hyd oni analluogwyd ef gan afiechyd. Yr oedd Dr. Parry yn athraw hynod o ymdrechgar a llwyddiannus, ac yn un a fawr hoffid gan ei holl ddysgyblion.

Fe allai mai yn y cyssylltiad hwn y dylid crybwyll fod Dr. Edwards wedi cael ei ordeinio yn y fl. 1837, yn Nghymdeithasfa Castellnewydd Emlyn, pan yn 28ain mlwydd oed; sef, y flwyddyn y dechreuodd ar ei waith addysgawl yn y Bala. Anrhydeddwyd ef gan un o brif athrofeydd America â'r radd o ddoethawr mewn duwinyddiaeth (D.D.); ond gwrthododd ei dderbyn. Yn mhen ychydig flynyddoedd ar ol hyny, rhoddwyd yr anrhydedd yma arno gan ei goleg ei hun yn Ysgotland—lle y bu yn derbyn ei addysg, ac yn graddio. Y tro hwn, amlygodd ei barodrwydd i'w dderbyn.

Cyn manylu ar brif nodweddion a neillduolion ei gymmeriad, fe allai mai dymunol fyddai crybwyll tri neu bedwar o bethau sydd yn ymgynnyg i'n meddwl wrth fyned heibio. Yr oedd Dr. Edwards yn un o'r awdwyr Cymreig mwyaf. Cydnabyddir yn gyffredinol fod ei Gymraeg yn rhagorol o ran purdeb, eglurder, symlrwydd, nerth, ac ardderchawgrwydd; a'i fod eisoes wedi cymmeryd ei le fel safon lenyddol Gymreig. Yn y fl. 1845, ymgymmerodd, gyda'r Parch. Roger Edwards, â'r gorchwyl o olygu y chwarterolyn Cymraeg cyntaf; sef, *Y Traethodydd;* a pharhaodd i'w olygu am ddeng mlynedd. Yn ddilynol, casglodd amryw o'i erthyglau ei hun yn ddwy gyfrol, y rhai a gyhoeddwyd dan y teitl canlynol:—*Traethodau Llenyddol a Duwinyddol.* Fe allai mai ei orchestwaith ar faes llenyddiaeth ydyw ei lyfr ar *Athrawiaeth yr Iawn.* Yr oedd syniadau y Parch. Thomas Jones, o Ddinbych, a Dr. Williams, o Rotherham,[a] ac eraill, ar yr Iawn wedi cymmedroli llawer ar syniadau Uchel-Galvinaidd y cyfundeb yn gynnar yn nechreu y ganrif hon; a pharasant gynnhwrf mawr yn sir Fflint, ac mewn siroedd eraill, trwy fod rhai o'r pregethwyr enwocaf, a llawer o bregethwyr ieuaingc wedi eu mabwysiadu. Y mae y syniadau hyn, er's llawer blwyddyn bellach, wedi cael eu cofleidio gan bregethwyr mwyaf goleuedig y cyfundeb, ac wedi dwyn i'w canlyn ysbryd iachach, mwy gwirioneddol a goruchel. Ysgubwyd ymaith yr hen athrawiaeth o Iawn Masnachol; yr hon, mewn effaith, oedd yn distrywio ffydd, ac yn gwneyd sancteiddrwydd yn adeilad yn yr awyr, heb sylfaen. Cafodd y llyfr hwn o eiddo Dr. Edwards ddylanwad cryf hefyd ar ffurf y dduwinyddiaeth a bregethid yn y cyfundeb. Nis gallwn yma roi manylion o'i gynnwysiad i ddangos neillduolrwydd duwinyddiaeth y llyfr. Digon ydyw dywedyd mai y prif syniad ynddo ydyw—Fod cyfiawnder Duw yn hawlio fod ufudd-dod i gael ei wobrwyo, yn gystal a bod pechod i gael ei gospi; a bod Iesu Grist, yn ei fywyd a'i angeu, wedi rhoddi yr ufudd-dod hwnw. A'r casgliad ydyw, fod Crist yn haeddu cadwedigaeth pechaduriaid yn rhinwedd yr un ddeddf anghyfnewidiol o gyfiawnder ag sydd yn hawlio fod pechod i dderbyn y gosp a haeddai.

[a]Ganwyd y ddau yn Nyffryn Clwyd, mewn ffermdai tua chwe milldir oddi wrth eu gilydd; ac yr oeddynt yn gyd-ysgolheigion yn Nghaerwys, ac yn gyfeillgar ar hyd eu hoes. Cariodd golygiadau Mr. Jones ar yr Iawn ddylanwad mawr ar Gymru, a'r eiddo Dr. Williams yr un modd ar Loegr.

Dewiswyd Dr. Edwards ddwywaith yn llywydd y Gymmanfa Gyffredinol:—yn 1866, ac yn 1876. Yn wir, nid oes un swydd o anrhydedd yn perthyn i'r cyfundeb na lanwyd hi gan Dr. Edwards. Yn y gymmanfa, neu y cyfarfod misol, teimlid fod ei bresennoldeb yn chwanegu at werth y cyfarfodydd, pe na byddai iddo yngan gair ynddynt. Etto, y mae amryw o symmudiadau goreu y cyfundeb wedi cael y fantais fawr o'u gwaddoli â dylanwad ei enw ef o'u plaid. Gwelwyd, weithiau, ei ddistawrwydd ef yn ddigon i darfu rhai pethau a ddygid ger bron; ond pan ddeuai peth gwir bwysig i sylw, ceid ei ddylanwad ef bob amser o'i blaid.

Yr oedd ei ymddangosiad corphorol yn gyfryw ag a fuasai yn sicr o dynu sylw dyeithrddyn. Corph tal, lluniaidd, a syth oedd ganddo; talcen uchel, llygaid mawr a threiddgar; ac yr oedd ysgogiadau pob rhan o'r corph yn arafaidd: ond nid arafwch 'gwneyd' afrosgo, ond arafwch fel pe yn codi oddi ar ymwybyddiaeth o nerth. Y mae darlun gwych o hono yn grogedig yn y coleg yn y Bala. Yr arlunydd oedd Mr. Jerry Barrett. Wrth edrych ar y darlun, y mae difrifwch y wynebpryd yn sicr o dynu sylw; ond fel y deuir i edrych arno, y mae yna ryw sirioldeb byw i'w ganfod yn ei lygaid. Yn wir, un felly oedd Dr. Edwards. Nid oedd neb yn fwy hoff o ddigrifwch pur, diniwed, nag efe. Yr oedd yn amlwg, y blynyddoedd diweddaf, fod ei gyfansoddiad yn dadfeilio. Y mae'n wir mai yn araf yr oedd hyny yn cymmeryd lle—etto yn sicr. Yr oedd ei ddull syml o fyw, a'r gofal mawr a gymmerai bob amser o hono ei hun, ac yn enwedig y gofal diderfyn yn mron gyda pha un y gwyliai ei briod drosto, yn myned yn mhell i gadw y tŷ ar ei draed, ac yn ei alluogi i fyned drwy y fath swm o waith ag a fuasai yn ammhossibl i neb mewn amgylchiadau gwahanol, a llai ffafriol, fyned drwyddo. Tua chwe blynedd cyn ei farwolaeth, cafodd ymosodiad cadarn o'r *bronchitis;* yr hwn a adawodd ei ôl arno hyd ddiwedd ei oes. Yn fuan ar ol iddo wellhau yn ddigon da i fyned oddi amgylch, cyfarfu â damwain ar orsaf Corwen, drwy lithro i lawr dros y rhodle ar y llinell. O herwydd hyn, bu yn gorwedd am rai misoedd. Tua thair blynedd cyn ei farwolaeth, aeth i Gymmanfa Gyffredinol Liverpool, yr hon a gynnaliwyd yn nghapel Anfield Road. Gan mai efe oedd cymmedrolwr y flwyddyn hono, yn groes i ddymuniadau ei frodyr a'i gyfeillion, mynodd aros yn y gadair yn ystod yr holl gyfarfodydd.

Digitized by Google

Nid oedd am i neb gael lle i feddwl fod arno eisieu osgoi dim o'r gwaith a syrthiai i'w ran. Yr oedd y dreth hon ar ei nerth yn fwy nag y gallai ei natur ddal; a rhywbryd cyn i'r gymmanfa ddyfod i ben, cafodd ymosodiad ysgafn o'r parlys; yr hyn a barodd i'w gyfeillion a'i berthynasau ofni am dano. Cludwyd ef yn ddi-ymdroi i dŷ ei fab, Dr. James Edwards, yr hwn oedd yn byw ger llaw; ac yno y bu am hir amser, mewn gwaeledd mawr. Beth bynag, yn mhen amser, dechreuodd wella yn raddol; ond ni ddaeth fel yr oedd cyn yr ymosodiad hwn. Er mai ei ddymuniad ef, y pryd hwn, oedd cael ymryddhau yn hollol o'r holl gyfrifoldeb ynglŷn â'r coleg, etto, ar ddymuniad taer y pwyllgor, boddlonodd i aros yn y swydd am dymmor; a threfnodd y pwyllgor i'r Parchn. John Hughes a D. Charles Davies i fyned i'r Bala, yn eu tro, i'w gynnorthwyo, trwy draddodi cyfres o ddarlithiau i'r myfyrwyr. Ond ni welwyd ef mwyach yn y pulpud. Y tro diweddaf y bu yn gyhoeddus oedd bythefnos cyn ei farwolaeth; pan y traddododd anerchiad byr, a llawn o anwyldeb a serch, i'r myfyrwyr, pan yr oeddynt ar ymadael o'r coleg i fwynhau seibiant gwyliau yr haf. Yr oedd yn hawdd i bawb oedd yn bresennol weled fod y duwinydd a'r pregethwr mawr ar ddiosg ei arfau. Yn mhen diwrnod neu ddau—ar ol dydd Gwener, y 15fed—cafodd amryw ymosodiadau o'r parlys. Y Sabbath canlynol, aeth yn anymwybodol; a pharhaodd felly nes yr ymadawodd ei ysbryd yn dawel, tua chwarter awr i dri o'r gloch boreu ddydd Mawrth, Gorphenaf 19eg, 1887, yn 78ain ml. oed. Yr oedd ei feibion oll—Thomas Charles Edwards, Llewelyn Edwards, D. Charles Edwards, a James Edwards—yn bresennol yn yr ystafell pan y cymmerodd yr enaid mawr lam i fyd yr ysbrydoedd.

Yr oedd angladd Dr. Edwards yn un o'r digwyddiadau hyny sydd yn gwneyd disgrifiad yn ammhossibl. Dyna oedd teimlad pob dynion meddylgar oedd yn bresennol yn y Bala y diwrnod hwnw. Y ddwy elfen amlycaf yn yr holl weithrediadau oedd urddas a symlrwydd —y ddwy brif elfen a nodweddent fywyd Dr. Edwards ei hun. Mae'n debyg fod hwn yn un o'r angladdau lliosocaf a welwyd yn Nghymru. Er fod Dr. Edwards wedi bod am yn agos i dair blynedd, megys, allan o'r golwg; etto chwith iawn oedd myned i'r Bala i gladdu ei weddillion. Foreu Gwener, yr 22ain o Orphenaf, arllwysodd y trênau o'r gwahanol gyfeiriadau eu cynnwys yno; ac erbyn i gerbydau y wlad oddi amgylch hefyd gyrhaedd, yr oedd heolydd y dref yn orlawn o bobl; ac y mae yn ammheus a welwyd cynnifer o swyddogion, yn weinidogion a blaenoriaid, wedi ymgasglu ynghyd ar unrhyw achlysur blaenorol. Yr oedd pob masnach yn y dref wedi ei hattal yn llwyr. Yn fuan wedi un-ar-ddeg, yr oedd torf yn dechreu ymgasglu o amgylch y Colegdy; ac erbyn canol dydd, yr oedd y tir ëang sydd o'i flaen yn orlawn o bobl. Yn fuan wedi deuddeg, dygwyd yr arch allan, âg arni yn gerfiedig y geiriau canlynol:—

**Lewis Edwards, d. d.**
*Born*
*October 27th, 1809.*
*Died*
*July 19th, 1887.*

Cyn cychwyn yr elor, rhoddodd y Parch. Robert Roberts, Dolgellau, un o hoff emynau Dr. Edwards allan i ganu, 'Duw ymddangosodd yn y cnawd.' Darllenodd y Parch. Joseph Thomas, Carno, ranau o'r Ysgrythyr; a gweddïodd y Parch. John Hughes, Liverpool. Gwasanaeth i'w gofio byth oedd y gwasanaeth byr hwn. Pan yr oedd yr orymdaith yn cychwyn, rhoddodd y Parch. Griffith Parry yr emyn, 'Cawn esgyn o'r dyrys anialwch,' allan i'w ganu. Yna, ymffurfiwyd yn orymdaith yn y drefn ganlynol:—1. Y meddygon. 2. Gweinidogion. 3. Diaconiaid. 4. Athrawon y coleg, a'r myfyrwyr. 5. Yr elor, yn cael ei chario gan bedwar mab Dr. Edwards. 6. Y Cerbydau. 7. Blaenoriaid eglwys y Bala. 8. Cantorion, ac aelodau eglwys y Bala. 9. Y cyhoedd. Wedi cyrhaedd hen fynwent Llanycil, a gollwng yr arch i'w gorweddle, rhoddodd y Parch. Owen Jones yr emyn 'Byrdd myrdd o ryfeddodau,' &c., allan i'w ganu.

Darllenwyd rhanau o'r Beibl gan y Parch. Owen Thomas; a gweddïodd y Parch. William Williams, o Abertawe. Wedi canu 'O fryniau Caersalem ceir gweled,' &c., cyhoeddwyd y fendith gan y Parch. Hugh Jones. Wedi darfod y gwasanaeth syml, ond dwys ac effeithiol hwn, rhoddwyd nifer fawr o flod-dorchau ar yr arch gan yr ŵyrion, a phasiodd y dorf yn araf heibio i'r bedd. Nos Wener, pregethodd y Parch. Dr. Saunders yn nghapel y Bala, ar *Mat.* xxvi. 26. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parchn. T. J. Wheldon, ac Edward Williams, Cae mawr; a therfynwyd y gwasanaeth gan y Parch. Moses Thomas, Resolven. Y Sabbath canlynol, pregethodd y Parch. O. Thomas yn yr un lle, oddi ar *Luc* xxiv. 26, yn y boreu; ac yn yr hwyr, bregeth angladdol, oddi ar *Luc* xii. 35—37.

Y mae bywyd cyhoeddus Dr. Edwards yn rhanu yn naturiol i dair neu bedair o ganghenau; sef, y Pregethwr, yr Athraw, yr Arweinydd, a'r Awdwr. Fe allai mai y cwestiwn anhawddaf i'w benderfynu yw

Y Pregethwr. Beth yw nodweddion pregethwr mawr? Nis gellir dyfod i'r penderfyniad a oedd Dr. Edwards yn bregethwr mawr, ai nid oedd, nes y penderfynir ar safon mawredd. Os cymmerir ef yn yr ystyr mwyaf poblogaidd, mae'n rhaid cyfaddef nad oedd Dr. Edwards yn bregethwr mawr. Yr oedd pawb yn unfrydunfarn gyda golwg ar natur yr hyn a draddodid ganddo. Cydnabyddid fod pob pregeth o'r bron o'i eiddo yn glamp o aur gwerthfawr; etto, nis gellir dyweyd ei fod yn bregethwr i'r lliaws. Clywyd llawer un ag y tybid eu bod yn ddynion deallus yn dyweyd nad oeddynt hwy yn gweled mawredd o gwbl yn ei bregethau. Nid oedd ganddo lais soniarus, ac nid oedd yn canu dim. Er iddo, yn gynnar ar ei yrfa fel pregethwr, gael ymwared o'r attalfa boenus oedd yn ei flino, etto, wedi'r cwbl, efe a barhaodd i fod yn siaradwr rhy araf a hamddenol i foddloni y miloedd. I'r rhai pwyllus a meddylgar, pa fodd bynag, yr oedd yn Dr. Edwards ragoriaethau uchel, hyd yn oed mewn pethau mor gyffredin a'r rhai yr ydym yn awr yn sôn am danynt. Os nad oedd ei lais yn gyfryw o ran ansawdd ag i beri fod y teimladau yn cael eu goglais, yr oedd yn perthyn iddo hynodrwydd o'r gwerth mwyaf; sef, y dôn o ddefosiwn oedd i'w chlywed bob amser. Ond nid mewn tynerwch, na mwynder llais, yr oedd rhagoriaeth a gogoniant Dr. Edwards. Yr oedd cuddiad ei gryfder ef yn y gallu oedd ynddo i ddwyn o

Digitized by Google

flaen y cynnulleidfaoedd wirioneddau mawrion trefn yr iachawdwriaeth yn eu symledd aruchel, ac i drin gwirioneddau pur, ysbrydol, a dwyfol yn eglur a meistrolgar; ac er hyny, yn wylaidd a pharchedig. O ran ei hansawdd, yr oedd gweinidogaeth Dr. Edwards yn nodedig o efengylaidd. Beth bynag am y bregeth, yr oedd hi bob amser yn llawn o'r efengyl—mor lawn, fel nad oedd ynddi ddim arall o'r bron. Ni welwyd ef erioed yn diraddio y pulpud i un amcan is na'r amcan mawr priodol ei hun. Ni cheid ef byth yn adrodd hanesion difyr yn y pulpud. Yr oedd ganddo gyflawnder o honynt, ond cadwai hwynt i'w hadrodd i'w gyfeillion mewn cyfeillach. Iddo ef, yr oedd y pulpud yn lle ofnadwy o gyssegredig i un gwaith yn unig; sef, pregethu y gair. O ran sylwedd, yr oedd ei weinidogaeth yn drwyadl Gristionogol—yn yr ystyr mai 'Crist' oedd ei phrif destyn gwastadol. 'Yr Arglwydd Iesu' oedd gwrthddrych mawr ei fyfyrdod a'i bregeth am y rhan fwyaf o'i oes. 'Crist,' 'Golud Crist,' 'Anchwiliadwy olud Crist.' Dyna'r graddau ar hyd y rhai yr oedd gwirionedd mawr canolog yr efengyl yn ymagor o flaen meddwl Dr. Edwards.

Dywed y Parch. Dr. Griffith Parry am dano fel y canlyn:—'Yr oedd Dr. Edwards yn engraifft nodedig o'r berthynas fywiol sydd i fod rhwng y bregeth a'r pregethwr. Teimlir, rai gweithiau, wrth wrandaw ar ambell un, fod y bregeth yn llawer mwy, a gwell, na'r pregethwr. Gall achosion gwahanol beri hyny; ond ni theimlid hyn byth gydag ef. Pa mor odidog bynag fyddai y bregeth, ni synem o gwbl ei bod yn dyfod oddi wrtho ef. 'Ffynnon o ddwfr yn tarddu' oedd yno. 'Y dyn da, o drysor da ei galon, oedd yn dwyn allan bethau da.' A siarad yn ddynol, gyda hen derm athronyddol, teimlid fod yna achos i gynnyrchu yr effaith. Ac hyd yn oed pe na buasai dim neillduol iawn yn y bregeth, teimlid fod mawredd y dyn tu cefn iddi—mawredd meddyliol, a mawredd ysbrydol. Cyfranai hyn fawredd a newyddeb i'r bregeth. Attegid y bregeth, a blaenllymid y sylwadau gan ragoroldeb yr hwn a'u traddodai. Dygai Dr. Edwards allan o'i drysor 'bethau newydd a hen;' ond yr oedd ganddo ddawn ryfedd i ardderchogi pethau cyffredin. Ac etto, nid ei lais oedd yn gwneyd hyn, na'i ddawn (yn ystyr cyffredin y gair), na'i ddull o draddodi; ond rhywbeth mwy na'r cwbl—grym ei bersonoliaeth ef ei hunan. Yr oedd Dr. Edwards yn un o'r dynion mwyaf *real* a welwyd. Yr oedd ei fawredd yn wir fawredd, a'i ddysgeidiaeth yn wir ddysgeidiaeth. Casäai â chas cyflawn ffug, a rhodres, ac ymddangosiad. Bod—ac nid ymddangos—oedd y peth mawr yn ei olwg ef, a'r hyn a gymmhellai yn wastad ar ei efrydwyr. Yr oedd y nodwedd hwn o *reality* fel seilwaith o dan ei holl gymmeriad, yn foesol a meddyliol. Ac yr oedd hyn yn rhwym o nodweddu ei bregeth. Ni cheid yn y bregeth ddim un sylw ysgafn, dibwys, llipa. Yr oedd gafael, a sylwedd, a phwysau yn mhob un. Ni cheid ganddo eiriau ystrydebol—gweddillion marwol wedi bod unwaith yn drigleoedd bywyd. Na: teimlid grym a mîn yn y cwbl gan nerth y bywyd a gurai trwy ei ymadroddion. Megys y mae cyfodiad yr haul yn goleuo yr awyrgylch, felly y crëai ei bregeth ef awyrgylch newydd o oleuni gwirionedd. Yr oedd efe mewn modd nodedig o'r gwirionedd, yn ddeiliad ffyddlawn yn nheyrnas gwirionedd, yn wir addolwr yn nheml gwirionedd:—gwirionedd yn ddeallol ac yn foesol, gwirionedd yn yr ystyr o *truth*, ac hefyd yn yr ystyr o *reality*. Nerth ei gariad at wirionedd a barai ei fod mor ochelgar rhag myned i eithafion gyda dim. Dyna a barai ei fod mor deg mewn dadl, ac mor gynnil yn ei ymadroddion. Ni fynai gelu na gwanhau dim oedd i'w ddyweyd o blaid y golygiad gwrthwynebol. Yr oedd ei lygad yn syml. A'r un cariad at wirionedd a barai iddo gashau mor lwyr bob ffug a rhagrith—pob ymgais i ymddangos, heb fod. Teimlid y rhagoriaeth uchaf hwn yn treiddio trwy y bregeth, nes rhoddi iddi allu mawr ar gydwybodau y gwrandawyr. Yr oedd fel blaen-brawf o ddydd y farn.

'Nis gellid gwrandaw Dr. Edwards heb weled fod cydnawsedd nodedig rhwng ei feddwl a gwirioneddau mawr yr efengyl. Yr oedd wedi cyrhaedd 'golud sicrwydd deall' yn ei ddirgelion mwyaf gogoneddus. Ar er hyn, neu yn hytrach am hyn, pwy yn fwy gwylaidd ac addolgar uwch ben y dirgelion? Gwirid ynddo yn hynod eiriau yr apostol:—'I bob golud sicrwydd deall i gydnabyddiaeth dirgelwch Duw, a'r Tad, a Christ.' Yr oedd ei gydnabyddiaeth mewn cyfartaledd i'w adnabyddiaeth. Yr oedd efe yn ddigon mawr i fod yn syml. Ni ddefnyddiai efe eiriau mawr am bethau bychain; ond fel y gwna y Beibl, defnyddiai eiriau bychain am bethau mawr. Yr oedd efe yn un o'r meddylwyr dyfnaf, ac ar yr un pryd yn un o'r rhai mwyaf clir. Ac yr oedd y rhagoriaeth uchel hwn yn ei weinidogaeth yn uno yr eithafion yn mhlith ei wrandawyr i'w edmygu—y rhai deallus, a'r rhai bychain. Buasai dechreuad gweinidogaeth Dr. Edwards yn rhoddi gwedd newydd ar bregethu yn Nghymru pe na buasai am ddim ond y ffaith mai efe a ddygodd ddysgeidiaeth uchel i wasanaethu yr efengyl. Ac fe wnaeth hyny yn yr iawn ffordd. Ni bu pregethu neb erioed yn mhellach o wneyd arddangosiad o ddysg. Ni bu erioed bregethu mwy syml a dirodres. Ffrwyth dysg oedd yn y bregeth—canlyniad o ddiwylliad meddyliol uchel; ac nid y grisiau ar hyd pa rai y cyrhaeddwyd hwynt. Darlun perffaith a welid ynddi—a'r blychau, y lluniau, a'r offerynau o'r golwg:—*results*, ac nid *processes*. Ond pwy all draethu gwerth y driniaeth a gafodd y fath feddwl a'r eiddo ef gan addysg uchel i'w gyfoethogi, ei nerthu, ei loewi, a'i finio, at waith ei oes? Dyrchafodd hyn ei weinidogaeth i lefel uwch na'r eiddo neb, bron, o'i frodyr, pan yr oedd efe yn cychwyn. Cyfuniad nodedig, o ran ei natur a'i raddau, yn Dr. Edwards oedd y ddwy elfen hyn:—y rhesymegol a'r gyfriniol. Nid oedd neb yn adnabod yn well derfynau Rheswm a Ffydd. Ymresymai gyda llymder a manylrwydd di-ail; gan uno treiddgarwch a thegwch—yr hyn y gellid, ac mor bell ag y gellid, ei ymresymu. Ond, pan y byddai y gwirionedd yn pasio allan o afaelion rheswm, ac yn dechreu ymgolli yn nyfnder mawr yr Anfeidrol, plygai gyda gras prydferth ac addolgar. Anfynych y gwelwyd y fath allu ymresymiadol, a'r fath gydnawsedd a'r cyfriniol, wedi cydgyfarfod. Ac yr oedd hon yn dystiolaeth nodedig i gwmpas ac ansawdd y meddwl a allai ragori cymmaint yn y fath eithafion.'

Meddai Dr. Edwards, mewn graddau nodedig, y rhagoriaeth gwerthfawr a phrin hwnw—

Digitized by Google

meddwl o fantoliad da. Yr oedd ynddo gydbwysedd rhagorol. Ni cheid ynddo byth wendid ar un ochr, yn difuddio y nerth ar yr ochr arall. O blegid hyn, yr oedd ei farn yn addfed ac yn gywir—yn un y gellid ymddibynu arni bob amser. Gwnai hyn ef yn arweinydd ammhrisiadwy yn yr athrofa, yn yr eglwys, ac yn y cyfundeb.

Nid oes ond un farn am arddull Dr. Edwards—pa un bynag ai mewn llafar ai mewn ysgrifen. Y mae yn gynllun o berffeithrwydd. Adlewyrchiad ydoedd o ragoriaeth uchel ac amryfal ei feddwl:—corph cyfaddas a gymmhwysodd ei ysbryd iddo ei hun. Y mae yn syml, yn glir, yn nerthol, ac yn ffitio y meddwl a fynegir trwyddo yn berffaith. Y mae—nid fel y gwydr lliwiedig, yn tynu sylw ato ei hunan—ond yn bur fel y gwydr gloew, yn dadguddio yn unig y gwrthddrychau sydd i'w gweled drwyddo. 'Cenad o ladmerydd' oedd Dr. Edwards—'un o fil.' Un mawr mewn oes ydoedd, wedi ei gynnysgaeddu â chymmhwysderau anghyffredin i gyflawni gwaith anghyffredin—i roddi symmudiad mawr yn mlaen i deyrnas Dduw yn y byd.

Er fod pregethau Dr. Edwards yn ddarnau gorphenedig o'r math gwychaf, dywedir gan y rhai a ddylent wybod na byddai yn ysgrifenu dim o honynt. Y mae hyny yn anffawd o'r mwyaf, gan mai gwaith anhawdd fydd casglu ynghyd gyfrol o honynt. Mae'n wir fod nifer dda o honynt ar gael yma a thraw, y rhai a ysgrifenwyd mewn llaw fér gan wahanol bersonau pan yn gwrando y traddodiad o honynt. Mae'n debyg nad oedd cyfansoddi pregethau yn orchwyl anhawdd i Dr. Edwards. Yr oedd drwy ei oes wedi arfer meddwl; ac yr oedd wedi casglu y fath ystorfa o wybodaeth ar bob cwestiwn, bron, fel, pan fyddai arno angen am bregeth ar ryw fater neillduol, nid rhaid oedd iddo dynu oddi ar ei *shelves* rhyw hanner dwsin, neu chwaneg, o lyfrau; ac yna eu darllen yn ddygn, gan gymmeryd nodiadau manwl o honynt; ac ar ol hyny, eistedd i lawr ac ysgrifenu yn helaeth gynnwys yr hyn a ddarllenwyd ganddo. Na: nid felly y gwnai efe. Yr oedd yr holl ddefnyddiau mewn llaw yn ystorfa ei gôf a'i feddwl; fel pan y byddai yn myned i gyfansoddi pregeth, nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ond trefnu y defnyddiau i'w amcan ei hun. Cyfansoddai bregethau yn mhob man:—ar yr heol, yn y tŷ, yn y trên—ïe, yn wir, pa le bynag y cai lonyddwch i feddwl. Fe allai mai dyma y gwir esboniad o'r distawrwydd fyddai yn ei nodweddu mor fynych. Camgymmeriad mawr, pa fodd bynag, fyddai tybied fod pregethau Dr. Edwards yn rhai 'byrfyfyr;' er nad oedd eu 'gwneyd,' yn ystyr cyffredin y gair, yn cymmeryd iddo amser maith. Ei waith gwastadol ef oedd myfyrio; ac nid oedd ei bregethau yn ddim amgen na phigion, neu ddetholion, o'i fyfyrdodau ar yr adeg. Ac am berthynas y testyn, a'r pwngc, â'u gilydd, dywedai efe ei hun mai ar yr olaf y byddai yn gyffredin yn syrthio arno yn gyntaf; ond y byddai y driniaeth bennodol arno, serch hyny, yn cael ei phenderfynu gan gynnwys ac ystyr y testyn dewisedig yn ol llaw. Nid ei gynllun oedd gweithio y meddwl i mewn i'r adnod, ond ei dynu allan o honi; ac ni bu neb a aeth i bulpud erioed yn fwy ffyddlawn i'w destyn, nac yn fwy gofalus i wneyd cyfiawnder âg ef, hyd eithaf ei allu.

Fel y dywedwyd o'r blaen, nid oedd efe yn rhyw hwyliog fel pregethwr; etto, byddai ar adegau yn ofnadwy o nerthol. Nid ä byth yn anghof ambell i odfa a gafwyd gydag ef. Pan ddeuai y cyffröad, nid sŵn rhaiadr ydoedd, na thwrf taran; ond daeargryn. Crynai ef ei hun, crynai y pulpud, crynai y lle, a chrynai y bobl oedd yn ei wrandaw. Byddai y dorf yn cael eu gorchfygu gan ofn a dychryn, ei darostwng gan fraw, neu yn wylo mewn diolchgarwch a llawenydd. Ni bydd i'r genhedlaeth bresennol o Gymry anghofio yr effeithiau a gynnyrchwyd yn Nghymdeithasfa y Deheudir yn Llanelltyd Fawr, pan y pregethai ar y geiriau:—'Yr hwn a ddisgynodd yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd.' Ac yn Llanilar, pan yr oedd y geiriau hyny yn destyn ganddo:—'Ydwyf yr hwn Ydwyf.' Ac yn Mangor, ar y geiriau:—'Ein Tad.' Ac yn hen gapel y Bala, ar nos Sabbath, pan y pregethodd ar 'Efe yw yr Iawn.'

2. Yr Athraw.—Yr oedd Dr. Edwards, yn ei ymddangosiad, yn gyfuniad o urddas a mwyneidd-dra. Yr oedd yn ei ddull allu i ddarostwng ar unwaith, bob amser, bob gwrthwynebrwydd afreolus a hunanoldeb a godai; ac ar yr un pryd, i dynu allan serch a theyrngarwch ei efrydwyr. Teimlai ei ddysgyblion eu bod, braidd heb yn wybod iddynt, pan yn ei wyddfod ef, yn cael eu dyrchafu i dir uwch, yn feddyliol ac yn foesol. Diwrnod pwysig i gyfundeb y Methodistiaid oedd y diwrnod yr agorwyd Athrofa y Bala; o blegid sicr yw nad oes un eglwys o fewn y cyfundeb yn Ngogledd Cymru, naill ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, nad ydynt wedi derbyn lles dirfawr oddi wrth yr athrofa. Yr oedd ysgolheigdod trwyadl, talentau disglaer, nerth cymmeriad moesol, ac ysbrydolrwydd meddwl, yn peri fod Dr. Edwards y dyn i gymmeryd arweiniaeth addysg y cyfundeb y perthynai efe iddo. Yn mhellach, yr oedd yr anhawsderau fyrdd a gyfarfyddwyd ac a orchfygwyd ganddo ef ei hun, yn mlynyddoedd cyntaf ei oes, yn ei wneyd yn gymmhwys i roddi cymmhorth i lu o ddynion ieuaingc mewn cyffelyb anhawsderau. Dywedir mai un o fanteision penaf pob athrofa ydyw i feddyliau ieuaingc ac anaddfed y myfyrwyr gael dyfod i gyffyrddiad â meddyliau galluog ac addfed yr athrawon. Gall pob un, yn ddieithriad, fu am unrhyw dymmor yn Athrofa y Bala ddwyn tystiolaeth i'r fantais fawr o gael dyfod i gyffyrddiad personol â meddwl cawraidd Dr. Edwards. Yr oedd yn ammhossibl i ŵr ieuangc, â'r gradd lleiaf o alluoedd ynddo, fod yn yr athrofa am dair neu bedair blynedd heb deimlo dylanwad dyrchafol meddwl cryf a choeth Dr. Edwards arno. A chan mai dylanwad pur ydoedd, y mae yn aros yn fyw hyd y dydd hwn.

Yr oedd efe yn athraw uwchraddol iawn; a dïau, pe buasai wedi cymmeryd ei berswadio, pan y cafodd gymmhellion taer i fyned drosodd i Eglwys Loegr, y buasai wedi ennill safle uchel fel athraw yn un o ddwy brifysgol y deyrnas; neu ynte, cawsai eistedd mewn cadair esgob. Nid oes un ammheuaeth yn meddyliau neb a'i hadwaenai nad oedd ynddo bob cymmhwysder i lanw y gadair dduwinyddol neu athronyddol bwysicaf yn y deyrnas. Dywed un gŵr parchedig, ar farn yr hwn y gellir rhoddi cryn bwys, ddarfod iddo gael y fraint o fod o dan addysg dynion gwir alluog, ac enwog; ac y mae clod

Digitized by Google

rhai o honynt yn adnabyddus trwy y byd gwareiddiedig; megys, y Proff. Lellar, mewn Lladin; y Proff. Blackie, mewn Groeg; y Proff. Fraser, mewn athroniaeth; a nifer fawr o enwogion eraill:—ond, ei fod yn ddwfn argyhoeddedig fod Dr. Edwards i fyny â, ac yn wir o flaen pob un o honynt mewn gallu a threiddgarwch meddyliol, ac yn enwedig mewn *massive mindedness*. Yr oedd pwysau a chryfder anarferol ei feddwl yn rhwym o gario dylanwad effeithiol ar y meddyliau ieuaingc ymchwilgar oedd yn dyfod i gyffyrddiad âg ef yn yr athrofa. Heb law fod ganddo feddwl galluog a dwfndreiddiol, ynghyd â gwybodaeth fanwl ac ëang, yr oedd yn meddu ar ddull effeithiol iawn i gyfranu addysg i eraill. Ei brif nôd ef, bob amser, oedd —nid cael gan y myfyrwyr i ddysgu rhyw wers neillduol; ond ei amcan penaf oedd creu o'u mewn feddylgarwch. Teimlai yn dra siomedig wrth weled ambell i langc yn gallu llamu dros ddarn go dda o lyfr, gan drysori yn ei gôf yn mron bob gair o hono, etto heb feddwl dim am yr hyn oedd ganddo mewn llaw. O'r tu arall, efe a siriolai drwyddo wrth weled, mewn llangc arall, a dybid gan rai ei fod yn araf, arwyddion fod y meddwl wedi ei ddeffro. Yr oedd ei ofyniadau a'i sylwadau yn y dosbarth mor lawn o feddylgarwch, fel yr oedd braidd yn ammhossibl iddynt beidio cynnyrchu meddylgarwch yn yr efrydwyr oedd yn talu sylw iddynt. Yr oedd cael bod yn nghyfeillach Dr. Edwards, hyd yn oed am hanner awr, yn addysg:—pa faint mwy cael bod am dair blynedd? Y mae llawer o fyfyrwyr Athrofa y Bala wedi ymddadblygu a thyfu yn wŷr grymus, mewn canlyniad i'r deffroad meddyliol a gawsant ynddi.

Ar y pen hwn, dywed y Dr. Griffith Parry—'Taflodd ei enaid mawr i'r amcan hwn—i addysgu dysgawdwyr crefyddol i genedl, ac i sicrhau iddynt yr holl fanteision a allai dysgeidiaeth drwyadl ei roddi tuag at gyflawni eu gweinidogaeth yn fwy effeithiol. Ac yr oedd efe yn athraw mawr. Cyfranai i'r efrydwyr, fel y gwnai Dr. Arnold, a'r athrawon mwyaf, nid yn unig ei ddysgeidiaeth, ond ei ysbryd ei hun hefyd; fel y dywedodd yr Apostol Paul wrth y Thessaloniaid. Cyfranodd iddynt ei enaid ei hun. Dygwyd hwynt, nid yn unig dan ddylanwad ei feddwl ef, ond dan ddylanwad mawredd moesol ac ysbrydol ei gymmeriad. A phwy a all draethu dyfnder ac ëangder y dylanwad a gerddodd o ysgol y prophwydi yn y Bala trwy o saith cant i fil o bregethwyr ar holl siroedd Gogledd Cymru am hanner can mlynedd! Gall llawer o honynt dystio, beth bynag ydynt heddyw, mai bysedd Dr. Edwards oedd yr offerynoliaeth ddynol benaf fu yn eu llunio i'r hyn ydynt; ac o bob dylanwad dynol, mai ei ddylanwad ef, yn feddyliol ac ysbrydol, a wnaeth yr argraph ddyfnaf ar eu cymmeriad, a gwaith eu bywyd. A beth am y dylanwad er daioni y gellir gobeithio i'r efrydwyr hyny ei osod mewn gweithrediad, yn eu tro, ar eraill—a'r rhai hyny ar eraill drachefn? Dïau i Dr. Edwards, fel prifathraw Athrofa y Bala, roddi pŵerau o ddaioni mewn ysgogiad, a fyddant yn treiglo yn mlaen yn y byd hyd ddydd y farn.'

3. Yr Arweinydd.—Nid bob amser y ceir yr arweinydd mawr yn yr un person a'r pregethwr mawr. Bu llawer o bregethwyr galluog yn Nghymru yn mysg pob enwad, nad oeddynt yn amlwg yn unlle, ond yn y pulpud. Yn wir, aeth rhai mor bell a dywedyd mai y pregethwyr mwyaf oedd yr arweinwyr gwaelaf. Nis gellir dyweyd hyny am Dr. Edwards. Gwir ei fod yn bregethwr mawr, ac yn athraw mawr; ond yr oedd hefyd yn arweinydd diogel—ïe, yn llawn ystyr y gair 'arweinydd.'

Mae'n debyg na chafodd neb well mantais i adnabod Dr. Edwards na'r diweddar Dr. John Hughes; a dyma ei farn ef am dano fel arweinydd:—'Nid oedd gan Dr. Edwards lawer o flâs ar gynnadleddau; o blegid hyny, gadawai lywyddiaeth aml achos yn nwylaw ffyddloniaid eraill, gan gywir farnu fod mwy nag un ffordd o fyw bywyd defnyddiol. Nid all fod gwir nerth mewn unrhyw symmudiad, na thebygolrwydd o lwydd iddo, os nad ydyw yn cael ei ysbrydoli gan feddylwyr. Metha ambell i ysgogiad—nid o ddiffyg sêl, ond o ddiffyg barn. Y meddylwyr tawel ydynt yr arweinwyr mwyaf diogel, a'r gweithwyr mwyaf effeithiol. Rhagoriaeth arbenig Dr. Edwards, yn ei berthynas â rhai symmudiadau, oedd ei eglurhâd o egwyddorion. Er engraifft, er ei fod yn un o'r Dadgyssylltwyr mwyaf aiddgar, ni chlywyd ef erioed yn areithio dros Ddadgysylltiad; etto, yr erthygl a ysgrifenodd ar yr Eglwys a'r Wladwriaeth yw y peth goreu yn yr iaith; ac nid oes mewn un iaith ddim rhagorach ar y pwngc. Yr oedd bywyd Dr. Edwards yn wers ar y dull goreu i gyrhaedd dylanwad cyffredinol; sef yw hyny, trwy y neillduol. Trwy fywyd cymmharol neillduedig, darostyngodd feddwl uchaf Cymru dan ei ddylanwad. Yr oedd yn gyfuniad o fawredd meddwl, a rhagoriaeth cymmeriad. Nid oedd yn ŵr o ymryson. Mwy cydunol â'i chwaeth ef ydoedd dodi pwyslais ar y pethau ag y mae gwahaniaeth bychain yn diflanu yn eu hawyrgylch. O blegid hyny, y mae Eglwyswyr, yn gystal ag Ymneillduwyr, Annibynwyr fel Methodistiaid, yn dwfn barchu ei goffadwriaeth. Gŵyr yr Eglwyswyr ei fod yn Ymneillduwr trwyadl; ac felly oddi ar ymlyniad cryf wrth egwyddorion. Ond gwyddant hefyd nad oedd ynddo ronyn o ragfarn at eglwys, nac enwad.'

Yr oedd Dr. Edwards yn amlwg iawn fel arweinydd y cyfundeb Methodistaidd. Cymmerodd ei le yn gynnar iawn yn y cymmeriad o arweinydd,—pan yr oedd cewri, megys Henry Rees; John Jones, Tal-y-sarn; David Jones, Treborth; William Roberts, Amlwch; Richard Humphreys, Dyffryn, ac eraill, ar y maes. Yr oedd yr oll o'r rhai hyn yn hynach nag ef; ond y fath oedd ei bwyll, ei arafwch, ei ragweled-iad, ac addfedrwydd ei farn, fel nas gallasai yr enwogion a nodwyd, pe mynasent, wrthod talu sylw iddo ef, a'i ddwyn i mewn i'w cynghorau. Ac wedi colli y brodyr a nodwyd, edrychid arno ef fel y prif arweinydd yn y Gogledd; a chynnorthwyid ef gan hen ddysgyblion iddo; megys, Owen Thomas, Joseph Thomas, John Hughes, Edward Morgan, a Roger Edwards—gwŷr na bu ar unrhyw adeg yn hanes y cyfundeb eu rhagorach. Yr oedd gan Dr. Edwards allu anghyffredin i weled yn mhell, ac i drefnu yn bersonol ar gyfer y dyfodol. Heb y gallu hwn, nid ydyw arweinydd o fawr o werth. Rhaid i arweinydd, teilwng o'r enw, fod yn feddiannol ar allu i ragweled, doethineb i gynllunio, a nerth penderfyniad i gario allan ei gynlluniau; a hyny yn ngwyneb mil, a mwy, o rwystrau. Yn sicr, yr oedd Dr. Edwards yn meddu ar y cymmhwysderau hyn. Yr oedd ganddo ryw allu anghyffredin i dreiddio yn mlaen i'r dyfodol. Gwelai i ba gyfeiriad yr oedd

Digitized by Google

gogwydd amgylchiadau yn cario y cyfundeb. Bendithiwyd ef â doethineb mawr i ddarparu ar gyfer y dyfodol; ac oni bae am ei ddoethineb a'i ragwelediad ef, sicr yw na buasai cyfundeb y Methodistiaid yn y Gogledd yr hyn ydyw heddyw. Ac nid cychwyn rhyw symmudiad, ac yna gadael iddo i nofio neu foddi, y byddai efe. Na: gwyliai drosto ar bob moment; megys tad yn gofalu am ei hoff blant. Yr oedd wedi gwneyd llwyddiant ysbrydol y cyfundeb yn brif bwngc ei fywyd.

Wele restr o'r symmudiadau y bu efe yn brif ysgogydd iddynt—yn wir, gall yr oll o honynt ddyweyd, 'Dr. Edwards yw ein tad ni oll:'—Yr Athrofa—Y Symmudiad Bugeiliol—Yr Achosion Saesnig—Y Drysorfa Gynnorthwyol—a'r Gymmanfa Gyffredinol. Cafodd yr oll o'r rhai hyn holl allu Dr. Edwards o'u plaid. Yr oedd efe yn wahanol i lawer; ïe, yn wahanol i lawer o bregethwyr, ysywaeth. Ni foddlonai efe ar bleidio y symmudiadau a ystyriai efe o fawr bwys i lwyddiant achos y Gwaredwr yn unig drwy siarad yn hyawdl, ac ysgrifenu yn ddoniol o'u plaid. Na: yr oedd ei aur a'i arian ef yn cael myned yn llawen er eu hyrwyddiant. Ni bu un gweinidog yn mysg y Methodistiaid a gyfranodd yn fwy helaeth at achosion cyfundebol. Hawdd fuasai i Dr. Edwards ddyfod yn berchen ar ychydig filoedd o bunnoedd—i'w gadael ar ei ol i'w weddw, a'i blant; ond, nid felly y bu. Na: gwasgarodd ei dda. Cyfranodd - nid hyd at ei allu, ond yn aml uwch law ei allu; gan ymddiried i'r Duw fu yn gofalu am dano ef pan yr oedd yn gyfyng arno yn ei amgylchiadau lawer gwaith. Crëodd rhai o'r achosion y bu efe yn foddion i'w cychwyn gyfnod newydd yn hanes y cyfundeb. Pa drefn fuasai ar y wlad heddyw oni bae i Ben yr Eglwys osod yn nghalon Dr. Edwards i gychwyn yr Athrofa yn y Bala? Pa le y cawsai yr eglwysi weinidogion cymmhwys i'w gwasanaethu? Drachefn: y mae Pen yr Eglwys wedi bendithio y Symmudiad Bugeiliol mewn modd amlwg iawn. Y mae y symmudiad hwn wedi galluogi lliaws o frodyr i gyssegru eu hunain, a'u holl amser, i waith mawr y weinidogaeth; a brodyr o'r dosbarth yma erbyn hyn, gydag ychydig iawn o eithriadau, yw prif ddynion y cyfundeb drwy y wlad. Symmudiad arall y bu Dr. Edwards yn bryderus yn ei gylch oedd y Drysorfa Gynnorthwyol. Teimlai yn fawr fod nifer liosog o eglwysi bychain mor weiniaid fel nas gallasent fforddio i gael gweinidogaeth Sabbothol gysson, heb sôn am ofal bugeiliol. Hyn a barodd iddo feddwl am ryw gynllun fel ag i'r cryf gynnorthwyo'r gwan. Dyna a roddodd fôd i'r Drysorfa Gynnorthwyol. Cychwynwyd hi yn Nwyrain Meirionydd; lle y gweithiodd yn dda am flynyddoedd. Bob yn ychydig, meddyliwyd am helaethu ei therfynau; ac felly y bu. Ond, nid ydyw wedi ei chario allan yn ol y cynllun a fwriadwyd gan Dr. Edwards; ac nis gellir yn onest ddyweyd ei bod wedi llwyddo i'r graddau y disgwylid iddi wneyd. Bydd y symmudiadau a enwyd yn barod yn gôf-golofnau parhaol i Dr. Edwards fel arweinydd ei gyfundeb.

4. Fel Awdwr.—Trwy ei ysgrifeniadau agorodd Dr. Edwards gyfnod newydd yn llenyddiaeth Cymru. Fel y sylwyd yn barod, efe oedd un o olygwyr cyntaf y *Traethodydd*, yn 1845; ac nid yw yn hawdd dyweyd pa faint yw y dylanwad a gafodd y cyhoeddiad chwarterol hwn ar y dosbarth mwyaf darllengar a meddylgar o'r genedl. Efe oedd enaid y *Traethodydd*, a'i rym, er fod ganddo gynnorthwywyr galluog. Daeth y cyhoeddiad hwn â byd newydd o wirioneddau i olwg darllenwyr ieuaingc Cymru. Nid gormod yw dyweyd fod Dr. Edwards wedi rhoddi ffurf a chyfeiriad newydd i efrydiau duwinyddol yn Nghymru. Crëodd chwyldroad distaw, ond effeithiol, yn benaf trwy ddau waith o'i eiddo:—yr erthyglau godidog ar 'Gyssondeb y Ffydd,' neu 'Wirioneddau Gwrthgyferbyniol;' ac hefyd ei lyfr ar *Athrawiaeth yr Iawn*; yr hwn, o ran gwreiddiolder a nerth, dyfnder ac eglurder, sydd, yn marn llawer, yn sefyll ar ei ben ei hun yn yr iaith Gymraeg. Traethawd ardderchog o'i eiddo ydyw yr un a ysgrifenodd ar *Hanes yr Athrawiaeth*, fel rhagarweiniad i *Gorph Duwinyddiaeth Dr. George Lewis*. Erbyn hyn, y mae y traethawd wedi ei ddwyn allan yn gyfrol ddestlus ar ei phen ei hun.

Dyma brif weithiau Dr. Edwards:—*Athrawiaeth yr Iawn*, *Cyssondeb y Ffydd*, a'i draethawd ar *Hanes yr Athrawiaeth*. Cyfansoddodd amryw erthyglau byrion eraill sydd yn nodweddiadol o hono. Gellir nodi y rhai canlynol fel engreifftiau:—'Yr Eglwys a'r Wladwriaeth,' 'Yr Ewyllys,' 'Kant,' a 'Coleridge.' Gresyn na buasai wedi ysgrifenu chwaneg. Bu llawer o ddisgwyliad am weled esboniad o'i eiddo ar Efengyl Ioan; ond drwy ryw anffawd, siomedig fu y disgwyliad; ac y mae esboniadaeth yn dlotach heddyw o herwydd hyny. Bu yn bwriadu unwaith dyfod â chyfrol allan ar 'Berson Crist;' ond ni chariwyd y bwriad allan. Ond er lleied o'i waith sydd genym, y mae digon i osod cenedl o bobl dan deyrnged iddo tra y parhao y Cymry yn genedl. Gellid yn hawdd ysgrifenu pennod arall ar Dr. Edwards fel bardd. Ond rhaid ymattal, gyda chrybwyll ei fod yn wir fab yr awen, er mai ychydig iawn o ffrwyn a roddodd iddi. Y mae yr ychydig ddarnau sydd ar gael yn berlau o'r fath werthfawrocaf.

**EDWARDS, ROGER, o'r Wyddgrug.** Un o weinidogion mwyaf llafurus a defnyddiol y Methodistiaid Calvinaidd oedd efe; a llenor Cymraeg o feddwl ffrwythlawn, ac arddull clasurol. Ganwyd ef yn y Bala, Ionawr 26ain, 1811:—y flwyddyn yr ordeiniwyd y gweinidogion cyntaf gan Gymdeithasfa y Methodistiaid. Yr oedd efe yn hanu o deulu parchus a chrefyddol. Yr oedd ei daid o du ei dad o waedoliaeth Saesnig; ac yr oedd cryn lawer o lediaeth Saesnig ganddo pan yn siarad Cymraeg. Er mai Eglwyswr ydoedd, meddai deimladau caredig at grefydd, fel y dygir hi yn mlaen gan yr Ymneillduwyr. Yr oedd yn ŵr hynaws yn ei deulu; ac am ei wraig, nain Mr. Edwards, yr oedd hi yn wraig hynod am ei duwioldeb, ac am ei challineb. Yr oedd i'r cwpl hyn dri o feibion, ac amryw ferched; y rhai a ddaethant yn benau teuluoedd parchus. Yr oedd dau o'r tri yn flaenoriaid eglwysig dylanwadol; sef, Mr. Roger Edwards—tad gwrthddrych ein hanes; a Mr. David Edwards—o Ddinbych wedi hyny; ac nid oedd y trydydd o honynt, sef Mr. Charles Edwards, o Fachynlleth, yn ol i'w ddau frawd yn ei fedr a'i sêl gyda'r Ysgol Sabbothol. Dywedir am y tri, eu bod yn deilwng ddysgyblion i Mr. Charles—sylfaenydd enwog yr Ysgol Sabbothol. Pan oedd Mr. David Edwards yn ŵr ieuangc gyda'i rieni yn y Bala, arferai fyned i gyfarfodydd yr ysgolion i'r wlad o amgylch; a

Digitized by Google

phan y byddai y ffordd yn mhell, gofynai weithiau i'w fam a allai gael y ferlen i'w marchogaeth. Ei hatteb hithau fyddai, 'Gofyn i mi yn ngŵydd dy dad.' Pan ddeuai y cyfle priodol, gofynai yntau y ffafr o gael benthyg y ferlen. 'Na chei, na chei,' dywedai ei fam; ond buan y byddai ei dad yn cyfryngu, ac yn dyweyd 'Caiff, caiff. Rhaid i'r bachgen ei chael hi.'

Yn nechreu hâf 1811, symmudodd tad a mam gwrthddrych ein hanes o'r Bala i Ddolgellau i fyw; a daeth y bachgen tri mis oed yn un o blant Dolgellau. Yn y dref hono daeth ei dad, enw yr hwn, fel y dywedwyd eisoes, oedd Roger Edwards, yn ŵr defnyddiol a dylanwadol gyda'r achos crefyddol—yn enwedig gyda'r Ysgol Sabbothol. Dywed Mr. Owen Rees am y tri brawd —'Yr oedd y tri yn athrawon medrus iawn yn yr Ysgol Sabbothol. Yr oeddynt yn alluog iawn fel arolygwyr yn yr ysgol; ac fel blaenoriaid eglwysig, yr oeddynt yn meddu dylanwad anarferol.' Er y dystiolaeth yna y mae peth ammheuaeth a oedd Mr. Charles Edwards yn flaenor yn Machynlleth.

'Cofus iawn genyf,' medd Mr. Owen Rees yn mhellach 'glywed fy nhad yn adrodd aml waith am un digwyddiad nodedig, sydd yn dangos y dylanwad dirfawr a ennillodd Roger Edwards yn ystod ei arosiad yn y dref. Yr oedd efe, un Sabbath hyfryd tesog yn yr hâf, newydd orphen trefnu y dosbarthiadau yn y *gallery;* ac wrth ddyfod i lawr y grisiau, efe a gododd ei olwg, ac wele, yr oedd y Marian yn frith o rodianwyr. Heb ddyweyd gair, tarawodd ei het am ei ben; i lawr âg ef ar frys drwy y Lawnt a Phen-y-bryn Marian, gan sefyll ar ben y gamfa oedd y pryd hwnw gyferbyn a chanol y Marian. Ni ddywedodd air; ond safai fel un âg awdurdod ganddo, gan edrych ar y rhodianwyr. Ond yr oedd presennoldeb Roger Edwards ar y gamfa yn drech na chalon-galedwch y caletaf ar y Marian; a chyn pen ychydig fynudau, nid oedd un rhodianwr yn y golwg. Dywedai un o honynt, wedi hyny, iddo gael ei daraw â'r fath arswyd fel yr ofnai bob cam a gymmerai fod y Marian yn ymagor o dan ei draed i'w lyngcu, a blegid ei rysedd. Dyna y fath ddyn ydoedd Roger Edwards yr hynaf.'

Pa faint bynag o fanteision addysg a gafodd Roger Edwards, gwrthddrych yr erthygl hon, yn mlynyddoedd ei ieuengctid, efe a gafodd un o'r manteision penaf y gall unrhyw fachgen ei chael—tad crefyddol: nid yn unig tad duwiol, ond tad â grym mawr yn ei gymmeriad crefyddol. Ac estynwyd y fraint hon iddo nes yr oedd yn ugain mlwydd oed. Cawn iddo fod am dymmor yn y Bala, yn yr ysgol—yr hen sefydliad enwog a adwaenid ar y pryd wrth yr enw 'Ysgol Tan-y-domen.' Naturiol oedd iddo gael ei anfon i'r ysgol i'r Bala, gan fod cynnifer o'i berthynasau yn byw yno. Yr oedd Mr. Harries, athraw Ysgol Tan-y-domen ar y pryd, yn llenor Cymraeg, a bardd rhagorol; a bu am dymmor yn llywydd Cymdeithas Cymreigyddion y Bala. A dywedir ei fod, fel athraw, yn un o'r rhai goreu er dwyn allan alluoedd ei ddysgyblion. Dichon i'r duedd lenyddol yn y dysgybl o'i eiddo, yr ydym yn awr yn sôn am dano, gael ei deffroi y pryd hwnw. Tybir iddo ddychwelyd i Ddolgellau mewn oedran lled ieuangc.

Yr oedd achos crefydd yn flodeuog yn y dref yn nyddiau ei ieuengctid. Deuai enwogion y cyfundeb yno yn aml i bregethu; ac yr oedd un o weinidogion mwyaf synwyr-gall sir Feirionydd, y Parch. Robert Griffiths, yn preswylio yn y lle. Ac uwch law pob peth, yr oedd yn Nolgellau ar y pryd Ysgol Sabbothol o'r fath fwyaf effeithiol. Yn Ysgol Sabbothol 'yr Hen Gapel Mawr' y dysgodd efe ddarllen y Beibl—yr ysgol yr oedd ei dad yn un o'i phrif golofnau. Cyn hir, daeth yntau yn ysgrifenydd gweithgar a defnyddiol i'r ysgol hon. Y cofnodau a ysgrifenwyd ganddo ef o'r pregethau a wrandawai pan yn ieuangc, ac o'r hyn a wnaed yn seiat y plant, i ba un y bu yn ysgrifenydd, ac o weithrediadau y cyfarfodydd athrawon y bu yn ddiweddarach yn ysgrifenydd iddynt, yw y cymmhorth mwyaf i ni yn awr i weled y wedd dra llewyrchus oedd ar yr Ysgol Sabbothol, ac ar achos y Methodistiaid yn Nolgellau yn ystod yr ugain mlynedd cyntaf o'i fywyd ef. Y pryd hwn, pan oedd efe yn ysgrifenydd yr ysgol, y cyfansoddwyd ac yr argraphwyd *Rheolau Ysgol Sabbothol Methodistiaid Calfinaidd Dolgellau*—un o lyfrau goreu o'r fath a gyhoeddwyd erioed er gwneuthur yr ysgol yn effeithiol. Bu yn ysgrifenydd cyfarfod athrawon a gynnelid yn y dref—llywydd yr hwn oedd y Parch. Robert Griffiths: ac yn mysg ei ysgrifau cafwyd cofnodau hynod o lawn o'r cyfarfodydd athrawon hyn, o fis Tachwedd, 1825, hyd fis Mehefin, 1828—y rhai a ddangosant ansawdd flodeuog yr ysgol oedd yno ar y pryd, a'r dynion rhagorol a weithient gyda'r sefydliad. Yn y cyfarfodydd hyn ymeflid yn egnïol mewn cwestiynau duwinyddol pwysig; a dïau i'w ymroddiad ef gyda'r cyfarfodydd hyn adael dylanwad ar ei holl fywyd.

Pan oedd yn fachgen lled ieuangc, meddyliwyd ei ddwyn i fyny yn fasnachwr. Yr adeg hono, yr oedd dau ŵr ieuangc parchus, a ddaethant ar ol hyny yn dra adnabyddus, yn cychwyn fel masnachwyr yn y dref; sef, y diweddar Mr. Williams, Ivy House, a'r diweddar Mr. D. Davies, Paradise Street, Liverpool. Tybiai y ddau y buasai y bachgen bywiog a heinyf yn gwneuthur masnachwr rhagorol; ond buan y daethant i weled eu bod wedi camgymmeryd. Nid bachgen a anghofiai ei neges yn fynych, am fod ei feddwl yn cael ei lyngcu i fyny mewn llyfrau, ac un a droai gistiau y masnachdy yn bulpud, oedd y cymmhwysaf i'r fath orchwyl. Ni chafwyd bachgen erioed mwy bywiog a pharod i wrandaw yn siriol ar bob gorchymyn; ond ni ellid dibynu arno i edrych ar lwyddiant y fasnach yn benaf peth. Gobaith gwan oedd y gellid gwneyd siopwr o hono. Bu hyn yn achlysur iddo i gael chwaneg o addysg, ac i droi cyfeiriad ei yrfa am y gweddill o'i oes.

Anfonwyd ef i Liverpool at athrawon uwchraddol; a bu marwolaeth anamserol dau o athrawon olynol iddo yn foddion i beri iddo symmud i ysgol y Parch. John Hughes, i Wrecsam; yr hon a wasanaethodd am flynyddoedd lawer yn lle athrofa i wŷr ieuaingc crefyddol y Methodistiaid.

Dychwelodd cyn hir i Ddolgellau; a chychwynodd ysgol ddyddiol yn y festri berthynol i'r capel: ac oddi wrth adgofion a gaed gan Mr. Owen Rees, un o'i ysgolheigion, am y modd yr ymddygai at y plant, gwelir fod ganddo ddawn i ennill eu serch, ac i ennyn eu brwdfrydedd. Yn fuan wedi hyn, dechreuodd ar y gwaith pwysig o bregethu yr efengyl.

Yr oedd yn adnabyddus eisoes fel ysgrifenydd rhwydd; ac fel athraw a holwyddorwr medrus; ac yr oedd gan ei gyfeillion feddwl mawr o hono—a'i dad, yr hwn oedd bellach yn glaf o'r clefyd y bu farw o hono, yn coleddu gobeithion uchel am dano. Ar un o Sabbothau

Digitized by Google

olaf y flwyddyn 1830, yr oedd y Parch. Richard Jones, o'r Wern, yn pregethu yn Dolgellau—yr hwn a wyddai yn dda am y gŵr ieuangc, ac am ei awydd i bregethu. Ar y nos Sadwrn blaenorol annogodd y brodyr i'w roi i bregethu dranoeth—y byddai yn dda ganddo ei wrandaw, er mwyn gallu dyweyd gair o'i du yn y cyfarfod misol. Oddi wrth nodiad mewn cofiyfr o'i eiddo ef ei hun, gwelir mai Rhagfyr 5ed oedd y Sabbath, ac mai ei destyn oedd *Esaiah* xxvi. 4. Cafwyd o'i enau ef ei hun hefyd mai y Parch. Richard Jones, o'r Wern, a Mr. Humphrey Davies, o Corris, a fu dros y cyfarfod misol yn cymmeryd llais yr eglwys yn Nolgellau ar ei achos; ac y mae yn bossibl mai ar nos Sadwrn, Rhagfyr 4ydd, y gwnaethant hyny—ac iddo yntau bregethu nos dranoeth o flaen Mr. Jones. Bu yn cadw ysgol am tua dwy flynedd ar ol dechreu pregethu; etto, elai o amgych i bregethu yn ddi-ball.

Tua diwedd 1832 y rhoddodd i fyny gadw ysgol; ac yn ngwanwyn y flwyddyn 1835, symmudodd i'r Wyddgrug—lle y treuliodd weddill ei oes. Nid oedd ond pedair-ar-hugain oed pan symmudodd yno. Ond yr oedd wedi gweithio llawer cyn hyny, ac wedi dechreu ennill iddo ei hun y nodweddiad o ddyn gweithgar. Yr oedd hefyd wedi ysgrifenu cryn lawer cyn symmud o Ddolgellau; a'i fedr fel ysgrifenydd fu yn achlysur o'i symmudiad i'r Wyddgrug. Yr oedd o'i febyd yn llawn o ryw ysbryd llenyddol. Arferai ysgrifenu i *Oleuad Cymru;* ac ar ol i'r cyhoeddiad hwnw ddechreu dyfod allan yn Ionawr, 1831, dan olygiaeth yr un golygydd fel *Y Drysorfa*, ceir Roger Edwards fel gohebydd mynych; ac y mae amryw ddarnau rhyddieithol a barddonol o'i waith yn y cyfrolau cyntaf. Yn raddol, yr oedd wedi dyfod i'r golwg fel ysgrifenydd ystwyth a choeth.

Yr hwn a'i tynodd i'r Wyddgrug i fyw oedd y diweddar Barch. Owen Jones; yr hwn oedd, fel yntau, wedi ei dynu yno o Fôn, tua dwy flynedd yn gynt, i ymgymmeryd â gwaith llenyddol.

'Aethum i'r Wyddgrug (meddai) rywbryd yn y fl. 1833, i arolygu y wasg ar Esboniad y Parch. James Hughes, Llundain. dan y Mri. J. ac E. Lloyd. Ddechreu y flwyddyn 1834 cychwynais fisolyn chwecheiniog, dan yr enw *Y Cynniweirydd*, dros y gŵyr uchod; yr hwn a ddygwyd yn mlaen hyd Rhagfyr, y flwyddyn hono, pan y penderfynwyd ei droi yn newyddiadur; ac yn mis Ionawr, 1835, daeth y rhifyn cyntaf allan dan yr enw *Newyddiadur Hanesyddol.*

Pan gychwynwyd y newyddiadur hwn, yr oedd Mr. Jones yn gwasanaethu cwmni glofa yn y gymmydogaeth; ac ar farwolaeth arianydd y cwmni, taer ddymunasant arno i ymgymmeryd â'u gwasanaethu hwy yn gyfangwbl; a chydsyniodd y Mri. Lloyd i'w ryddhau, ar yr ammod iddo gael rhywun cymmhwys i ymgymmeryd â'u gwaith hwy.

'Felly,' medd Mr. Jones, 'ysgrifenais at y brawd R. Edwards; ac ar fy nhaer gymmhelliad, efe a ddaeth yno, a newidiodd enw y newyddiadur yn *Cronicl yr Oes*. Yr oedd Mr. Edwards yn Rhyddfrydwr, ac felly yr oeddwn innau; ac ni ammheuaf na bu y *Cronicl* yn effeithiol i feithrin Rhyddfrydiaeth y genedl.'

Yr oedd y symmudiad hwn yn un pwysig iddo ef ei hun; ac nid oedd yn ddibwys chwaith i'r genedl yn gyffredinol. Rhaid oedd iddo ef, fel eraill, edrych am foddion cynnhaliaeth; ac fel hyn yr ymddangosai fod ei Dad Nefol yn myned i roddi iddo, am dymmor, ei 'fara beunyddiol.' Yr oedd ymgymmeryd â golygu newyddiadur, a hwnw yn un Rhyddfrydig, yn orchwyl beiddgar iawn yr adeg hono; ac yr oedd angen gwroldeb, yn gystal a medr llenyddol, i'w gyflawni yn effeithiol. Nid oedd arweinwyr y cyfundeb, y pryd hwnw, yn Rhyddfrydwyr. Yn hytrach, yr oedd eu cydymdeimlad yn fwy â'r Toriaid. Ond newyddiadur hollol ryddfrydig ydoedd *Cronicl yr Oes*. Oddi wrth rai dyfyniadau y llwyddodd y Parch. Griffith Ellis eu cael o hono, i'w rhoddi yn ei ysgrif ragorol yn un o'r cylchgronau, gwelir ei fod mor gryf yn ei Ryddfrydiaeth, ac mor Radicalaidd yn ei syniadau ag unrhyw newyddiadur Cymraeg a gyhoeddir yn awr. Cafwyd ynddo grynodeb o weithrediadau y senedd, gyda newyddion cartrefol a thramor, a phrif erthyglau grymus a miniog ar byngciau y dydd. Hwn ydoedd y newyddiadur politicaidd cyntaf yn Nghymru; ac y mae darllen ei erthyglau arweiniol am y fl. 1836, ar Dŷ yr Arglwyddi, a'r Dreth Eglwys, &c., yn ein dwyn i gynfyd gwleidyddiaeth Gymreig; a cheir fod tôn ac ysbryd yr erthyglau yn agored, a rhyddfrydig, a di-ofn. 'Mr. Edwards,' meddai y diweddar Barch. Owen Jones am dano, 'oedd y Rhyddfrydwr mwyaf di-arswyd yn Nghymru y dyddiau hyny.' Gan mor llym y condemniai drahâ a gorthrwm uchelwyr y wlad, tynodd arno ei hun ŵg enwogion ei enwad. Ystyrid ei fod, wrth amddiffyn Rhyddfrydiaeth, yn cyflawni pechod ysgeler. Aeth y Parch. John Elias mor bell a'i gyhuddo o fod yn *Chartist*, yn ddysgybl i Tom Paine, yn wrthryfelwr, ac yn un oedd yn cablu urddas. Aeth Mr. Edwards i gegin tŷ yn Nghaernarfon â'r meddwl am gael ymddiddan wyneb yn wyneb â'r pregethwr enwog, a dadleu y cwestiwn yn drwyadl; ond rywfodd, ni chafodd yr hyn a ddymunai ar yr adeg hono. Ond ar ol hyny, pan y daeth i'w adnabod yn well, ac i Mr. Elias ddeall pethau yn well hefyd, daeth yn un o'i gyfeillion goreu.

Nid oes ond un farn am ei allu fel golygydd, ac am y gwroldeb meddwl, cyfunedig â mwyneidd-dra doethineb, a boneddigeiddrwydd ysbryd, a'i gwnaeth ef i ddechreu yn wrthddrych gŵg llawer heb law Mr. Elias. Ond gyda golwg ar ddylanwad ac effaith ei addysg wleidyddol ar y farn gyhoeddus yn Nghymru, trwy *Y Cronicl*, y mae yn sicr hefyd y perthyn iddo ef, fel yr eglurwyd uchod, ran fawr o'r anrhydedd o allu symmud meddwl y genedl o dir diffrwyth Toriaeth i dir ffrwythlawn Rhyddfrydiaeth.

Fel hyn yr ysgrifenodd y diweddar Mr. E. G. Salisbury am dano; yr hwn oedd yn ddigon hen i gofio adeg cychwyniad *Y Cronicl;* oddi wrth yr hyn y gwelir ei fod yn priodoli y cyfnewidiad yn marn y genedl, i raddau helaeth, i'r newyddiadur cyntaf oedd dan olygiaeth Mr. Edwards.

'Pan gychwynwyd *Cronicl yr Oes* (meddai), nid oedd yn Ngogledd Cymru y fath beth a barn gyhoeddus ar wleidyddiaeth. Yr oeddym ni, yn sir Fflint, yn tyngu wrth Mostyn a'r Whigiaid, neu ynte wrth Glynne a'r Toriaid. . . Oni welwch gan hyny, y fath orchwyl mawr a gymmerai y gweinidog ieuangc hwn mewn llaw pan y bwriadodd yn y lle cyntaf, greu, ac wedi hyny arwain barn gyhoeddus ar gwestiynau gwleidyddol? Ond a ddarfu iddo lwyddo yn ei amcan? Do, yn sicr; o blegid, ar y cyfan, yr wyf yn casglu nad oes yn y deyrnas bobl yn deall gwleidyddiaeth yn well na'r Cymry.'

Digitized by Google

Rhydd Mr. Salisbury, fel y gwelir, bwys neillduol ar yr hyn a wnaeth Mr. Edwards tuag at ffurfio y farn gyhoeddus; a dylid cofio nad oedd un gymdeithas wleidyddol wedi ei sefydlu y pryd hwnw, nac am lawer o flynyddoedd wedi hyny, yn ein gwlad.

Geilw Mr. Salisbury sylw hefyd at y fantais oedd gan Mr. Edwards i wneyd y gwaith hwn, o herwydd ei fod yn weinidog gyda'r Methodistiaid. Yr oedd y Methodistiaid yn fwy trefnus a chyfiunedig y pryd hwnw nag un enwad arall yn Nghymru; ond yr oedd hyny ar y cyntaf yn anfantais i Ryddfrydiaeth; a Mr. Edwards a drodd yr anfantais hon yn fantais i achos rhyddid gwladol. Geiriau Mr. Salisbury ydynt:—

'Rhaid i chwi yn wastadol gadw mewn côf fod y gwaith a wnaeth yn fwy nodedig am ei fod yn weinidog gyda'r Methodistiaid; canys yr adeg hono yr oedd golygiadau Mr. Elias ar bethau politicaidd yn enhuddo yr enwad i'r hwn y perthynai efe.'

Pwngc mawr y pryd hyny oedd i swyddog eglwysig o fewn y cyfundeb gael rhyddid i fynegu ei farn yn ddi-ofn ar byngciau cyhoeddus; ac araf iawn a fu gwŷr blaenaf y Methodistiaid yn dyfod i'r maes, gyda brodyr o enwadau eraill, i ddadleu dros eu hiawnderau, ac i gymmeryd yr ochr y disgwylid iddynt ei chymmeryd ar byngciau y dydd.

Tra yr oedd Mr. Roger Edwards yn llafurio fel hyn yn egnïol gyda gwleidyddiaeth, yr oedd yn cynnyddu yn gyflym hefyd mewn nerth a dylanwad fel pregethwr. Tystia y rhai sydd yn ddigon hen i gofio, ei fod yn pregethu mor rymus ac effeithiol yn ystod y blynyddoedd cyntaf wedi iddo ddyfod i sir Fflint ag oedd unrhyw adeg ar ei oes. Cyfnod cythryblus yn sir Fflint oedd y cyfnod hwnw. Ammheuid iachusrwydd athrawiaeth amryw o weinidogion ieuaingc y sir; ac yr oedd ei uniongrededd yntau yn cael ei ammheu. Goddefodd wrthwynebiad yn ymylu ar ddirmyg, os nad niwed personol; o blegid ei ddiysgogrwydd yn sefyll dros eglurhâd mwy rhydd ac ëang ar athrawiaeth yr efengyl nag a arferid ei roi gan rai—yn enwedig yn sir Fflint. Dywedir am un gŵr, iddo osod ei hun i'w wylied ar y rhan o dref y Wyddgrug, a elwir Ffordd Ddinbych, gyda'r bwriad o ymosod arno, o herwydd ei weithgarwch gyda phethau gwleidyddol a chrefyddol; ond iddo lwfrhau ar ddynesiad Mr. Edwards ato, fel na wnaeth ddim chwaneg na rhoi enwau drwg arno. Dïau fod a fyno hyny â'r ffaith na ordeiniwyd ef am ddeg neu ddeuddeg mlynedd ar ol iddo ddechreu pregethu. Ond cydnabyddwyd ei deilyngdod mewn amryw ddulliau cyn cael ei ordeinio. Trwy ei ddeheurwydd, a'i ëondra, a'i gymmeriad disglaer, gorchfygodd y rhagfarn oedd unwaith tuag ato mor lwyr nes y rhoddwyd iddo amlygiad eglur o ymddiried ei frodyr trwy ei ddewis yn ysgrifenydd cymdeithasfa y Methodistiaid yn y Gogledd, yn y fl. 1839.

Llanwodd Mr. Edwards y swydd hon gydag effeithiolrwydd mawr am y tymmor maith o 34ain o flynyddoedd; a chan fod cyflawniad dyledswyddau y swydd wedi tynu allan ei amrywiol ddoniau i'r fath raddau, a dwyn i'r golwg ei gymmeriad, a chan i'r gymdeithasfa ymddadblygu llawer yn ei heffeithiolrwydd tra yr oedd yn ysgrifenydd iddi, nid annyddorol fydd cael ychydig o hanes ei fynediad i mewn i'r swydd allan o'i enau ef ei hun.

Mewn erthygl ddyddorol o 'Adgofion a Sylwnodion Cymdeithasfäol' a geir yn y *Drysorfa* am Ionawr, 1876, y mae Mr. Edwards yn rhoddi brâs olwg ar ysgrifenyddiaeth y gymdeithasfa, o farwolaeth Mr. Charles hyd ei bennodiad ef i'r swydd.

'Yr oedd Mr. Charles (meddai) yn ei amser, ac i bob pwrpas, yn llywydd ac yn ysgrifenydd; ac yr oedd ei foneddigeiddrwydd a'i ddoethineb yn gyfryw fel na theimlid yn anfoddlawn i hyny. Wedi marw Mr. Charles, barnwyd yn angenrheidiol pennodi brawd i fod wrth ei swydd yn ysgrifenydd y gymdeithasfa; a phennodwyd y Parch. Cadwaladr Williams iddi. Yn mhen rhai blynyddoedd, dewiswyd y Parch. Humphrey Gwalchmai yn ysgrifenydd cynnorthwyol i Mr. Williams; ac ar ol i Mr. Williams roddi i fyny yr ysgrifenyddiaeth, Mr. Gwalchmai, bellach, oedd yr unig ysgrifenydd. Yn Nghymdeithasfa Llanfair Caereinion, Ebrill 30ain, 1830, derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad oddi wrth Mr. Gwalchmai. Ar ei ol ef, dewiswyd y Parch. John Foulkes—y pryd hwnw o Lanelidan—yn unfrydol; a bu efe yn dilyn y cymdeithasfaoedd yn dra dyfal am tuag wyth mlynedd. Ond yr oedd bellach (medd Mr. Edwards) ofal teulu a galwadau, ar yr hyn yr oedd raid gwrandaw yn y dyddiau hyny, yn ei luddias rhag cyflawni'r swydd fel cynt. Disgwylid y gallasai y Parch. Dr. Charles—y pryd hwnw yn un o athrawon Coleg y Bala—ymgymmeryd â'r ysgrifenyddiaeth; ond ni bu efe yn gweithredu ond mewn dwy gymdeithasfa a gynnelid yn y Bala ei hun. Yn Nghymdeithasfa Llanrwst, yn mis Rhagfyr, 1839, i'r hon y rhoddasid awdurdodiad cymdeithasfa chwarterol, yr oedd y Parch. Joseph Williams, Liverpool, yn ysgrifenydd am y tro; ac yno, ar gynnygiad y Parch. Hugh Hughes, yr amser hwnw o Lanrwst, a chefnogiad y Parch. John Hughes, ar y pryd o Langollen, pennodwyd ysgrifenydd 'Yr Adgofion a'r Sylw-nodion' hyn i fod yn ysgrifenydd y gymdeithasfa yn Ngwynedd. Nid oeddwn erioed wedi meddwl dim am y swydd, ac ni wybûm am y pennodiad hyd nes y derbyniais y llythyr swyddol yn hysbysu'r ffaith. Ond ni thybiais yn weddus i mi anufuddhau i'r fath alwedigaeth oddi wrth y tadau a'r brodyr; ac felly, mi a aethum i'r gymdeithasfa chwarterol gyntaf ar ol hyny, yr hon a gynnaliwyd yn Llanfair Caereinion, Ebrill 27ain, 28ain, a 29ain, 1840.'

Yna hysbysa am y Parch. Robert Davies yn ei alw i'r sêdd fawr i gymmeryd ei le fel ysgrifenydd; ac am hen frawd arall y tybid ei fod yn un o golofnau y gymdeithasfa yn dyweyd:—'Fe allai mai gwell yw i ni fod yn araf wrth benu ysgrifenydd i barhau yn ei swydd. Mae rhyw rai wedi bod yn meddwl mai gwell fyddai i ysgrifenydd pob cyfarfod misol fod yn ysgrifenydd hefyd y gymdeithasfa a gynnelir yn ei sir. 'Dywedais innau (medd Mr. Edwards) nad oeddwn i wedi ymgeisio am y swydd; ond fod llythyr wedi ei anfon ataf o Gymdeithasfa Llanrwst yn hysbysu fy mhennodiad, ac yn erchi i mi ymaflyd yn fy ngwaith yn nghymdeithasfa Ebrill.' Bu darlleniad y llythyr swyddogol, a dadleuaeth y Parch. Abraham Jones dros reoleidd-dra y dewisiad, yn ddigon i'w osod yn sicr yn ei le, er nad oedd rhai o wŷr blaenaf y gymdeithasfa etto wedi cyrhaedd.

Bu y swydd hon yn gyfleusdra i ysbryd gwrol a rhyddfrydig Mr. Edwards, a'i fedr fel ysgrifenydd, ddyfod i ddylanwadu yn ddaionus ar symmudiadau y cyfundeb am dymmor maith. Dechreuodd Mr. Elias glafychu yn fuan ar ol iddo ymaflyd yn ei swydd; a chawn enw Roger Edwards yn olaf o saith o frodyr cyfrifol wrth lythyr o gydymdeimlad y gymdeithasfa â'r pregethwr enwog yn ei waeledd

Digitized by Google

yn mhen blwyddyn wedi ei bennodi i'r swydd o ysgrifenydd. Bu yn cydweithio yn unol a chalonog âg arweinwyr y cyfundeb o hyny allan am dros ddeugain mlynedd. Gwelodd y prif arweiniad yn llithro yn raddol o'r naill weinidog enwog i'r llall; ond yr oedd efe yn parhau i feddu ymddiried ei frodyr yn y gymdeithasfa hyd y diwedd, ac yn eistedd yn dawel ac yn urddasol yn mysg yr arweinwyr hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd yn llywydd y gymdeithasfa y flwyddyn y bu farw; a hono oedd yr ail waith iddo lanw y gadair lywyddol yn y Gogledd. Byddai y cofnodau a geid ganddo o'r ymdriniaeth ar faterion athrawiaethol â rhyw fêr a brasder ynddynt, a'u gwnaent yn hyfryd i'w darllen. Y mae helaethrwydd yr adgofion a gaed ganddo am y ddwy gymdeithasfa gyntaf y bu ynddynt mewn cyssylltiad swyddol yn dangos mor lwyr yr oedd efe yn gallu ymroddi i'r gwaith hwn, ac mor hawdd fuasai iddo roi adroddiad cyffelyb am lawer cymdeithasfa ar ei hol. Yn y gymdeithasfa hon, yn Llanfair Caereinion, cafodd odfa rymus ac effeithiol pan y galwyd arno i bregethu.

Ar yr 28ain o fis Medi, 1841, priodwyd ef yn Nolgellau â Miss Anne Williams, o'r dref hono.

Yr hyn a ymddengys yn rhyfedd i rai yw, ei fod yr adeg hon heb ei ordeinio. Bu yn ysgrifenydd y gymdeithasfa ddwy flynedd lawn cyn ei ordeinio, ac wedi cael y fraint o bregethu mewn llawer cymdeithasfa cyn cael y fraint o weinyddu yr ordinhadau. Yr oedd yr oediad hwn yn beth unol âg arferiad y cyfundeb y pryd hwnw, o fod yn ymarhous yn hyn. Ond yr oedd yr hîr oediad gyda rhai brodyr ieuaingc amlwg yn ei amser ef, ac yn flaenorol i hyny, yn codi yn aml o ragfarn, os nad eiddigedd, yn mynwes rhai at eu talentau, a'r gymmeradwyaeth a dderbynient gan y cynnulleidfaoedd. Dywedir gan rai y buasai oediad pellach yn ei achos ef, oni bae fod brawd arall yn sir Fflint y dymunid ei ordeinio, ond na ellid ordeinio hwnw a gadael Roger Edwards heb ei ordeinio. Ordeniwyd ef yn y Bala, gydag wyth eraill, yn nechreu haf 1842. Yr oedd yn cymmeryd rhan yn ei ordeiniad yr hen frodyr John Jones, o Dremadoc, a Lewis Morris. Traddododd y diweddar John Hughes, ei hen athraw, araeth ar 'Ansawdd Methodistiaeth yn Nghymru ar y pryd.' Darllenwyd rhanau o'r Gair gan y Parch. Henry Rees. Gofynwyd cwestiynau iddo gan y Parchn. Evan Harris, John Hughes, Pontrobert; a thraddodwyd y 'Cynghor' gan y Parch. W. Roberts, Amlwch.

Wedi dyfod fel hyn i restr y gwŷr a ymroddent gyda llawer o lwyrfrydedd i waith y weinidogaeth, ni a gawn fod ysbryd y llenor yn fyw ynddo o hyd. Tua'r adeg hon y casglodd efe y *Salmydd Cymreig*, ar gais Mr. Gee—llyfr hymnau fu mewn arferiad yn y cyfundeb am lawer o flynyddau. Efe, hefyd, a ddechreuodd ddwyn allan *Y Dyddiadur*. Bron na ellir dyweyd mai ei ddrychfeddwl ef oedd ei ddwyn allan. Ond dywed y Parch. Owen Jones, mewn llythyr o'i eiddo ar y mater hwn, tuag adeg marwolaeth Mr. Edwards, iddo ef barotoi *Dyddiadur* dros y Meistri Lloyd am y flwyddyn 1834; ond nid oes tebygolrwydd iddo gael ei ddwyn allan ganddynt am y blynyddoedd dilynol. Yn y fl. 1843 y dechreuwyd ei ddwyn allan yn rheolaidd bob blwyddyn gan Mr. Edwards. Er mai math o anturiaeth bersonol oedd hon, ymddengys ei fod, o'r cychwyn, dan nawdd y gymdeithasfa; o herwydd yn nghofnodau y gymdeithasfa yn y Bala, am Mehefin, 1842, sef y gymdeithasfa yn yr hon yr ordeiniwyd ef, ceir yr hyn a ganlyn:—'Rhoddwyd cymmeradwyaeth ac annogaeth i ysgrifenydd y gymdeithasfa i gyhoeddi Dyddiadur Methodistaidd erbyn y flwyddyn nesaf,' &c.

Yn nechreu 1845, ymgymmerodd Dr. Lewis Edwards ac yntau â golygu *Y Traethodydd*—cyhoeddiad chwarterol; ymddangosiad yr hwn oedd yn un o'r amgylchiadau pwysicaf yn hanes llenyddiaeth Gymreig yn ystod y ganrif hon. Y mae ei nodwedd uchel, o'r dechreu hyd y dydd hwn, wedi sicrhau iddo y safle anrhydeddusaf yn mhlith ein cyfnodolion.

Gwêl y darllenydd, wrth edrych ar y rhestr o'r erthyglau, a'u hawdwyr, a geir yn y gyfrol o'r *Traethodydd* am 1880, y byddai yn ysgrifenu aml i erthygl i'r cyhoeddiad, ac yn gwneyd nodiadau a'r lyfrau, ac ar ansawdd yr amserau, yn dra mynych. Bu ganddo ran yn ngolygiaeth y *Traethodydd* am ugain mlynedd—am y deng mlynedd cyntaf gyda Dr. Lewis Edwards, a'r ail ddeng mlynedd gyda Dr. Owen Thomas.

Rhan bwysig arall o'i lafur llenyddol oedd yr hyn a wnaeth gyda'r *Drysorfa*. Yr oedd yn ohebydd mynych i'r *Drysorfa* pan yn ŵr ieuangc; ond ar farwolaeth y Parch. John Parry, Caer, pennodwyd ef yn olygydd y cyhoeddiad hwn. Dywedir ei fod yn rhyw fath o gynnorthwywr i Mr. Parry, yn ystod ei olygiaeth ef: ond yn fuan ar ol ei farwolaeth, mewn pwyllgor yn Machynlleth, Awst 26ain, 1846, yn yr hwn yr oedd rhai yn cynnrychioli cymdeithasfaoedd y De a'r Gogledd, pennodwyd Mr. Edwards i fod yn gyd-olygydd â Mr. John Roberts, Liverpool. Yn fuan, daeth yr olygiaeth hon yn gwbl i'w law ef; a bu yn olygydd y *Drysorfa* o hyny hyd ei farwolaeth—cyfnod o ddeugain mlynedd. Fel gyda'r *Traethodydd*, ceir aml i ysgrif fuddiol a darllenadwy ganddo ynddi; a byddai ei nodiadau golygyddol bob amser yn ddoeth ac yn chwaethus; ac mewn ambell i nodiad, deuai yr hen ysbryd gwrol, parod i amddiffyn y rhai gorthrymedig, a welid gynt yn *Nghronicl yr Oes*, i'r golwg. Ond coethder a chymmedroldeb urddasol a nodweddai y *Drysorfa* yn ystod y cyfnod maith y bu dan ei olygiaeth. Efe oedd y cyntaf i ddwyn ffug-hanesion o natur grefyddol i'n cyhoeddiadau cyfnodol. Ffrwyth ei ysgrifell ef yw y 'Tri brawd, a'u teuluoedd;' a 'Reuben Gruffydd,' a geir yn y *Drysorfa;* ac yr oedd 'Hywel Tomos, o'r Hafod,' ar ei hanner pan y galwyd arno i orphwys oddi wrth ei lafur. Bu hyn yn achlysur i nofelydd mwy enwog ymddangos ar faes llenyddol ein gwlad; o blegid, ar ei gymmhelliad ef, ac oddi ar weled fod y math yma o lenyddiaeth yn fuddiol, yr ysgrifenodd Mr. Daniel Owen ei ysgrifau ar 'Y Dreflan a'i phobl;' ac y dug allan *Hunan-gofiant Rhys Lewis*—sydd, bellach, mor adnabyddus a chymmeradwy.

Heb law y pethau hyn oll, ymgymmerodd Mr. Edwards â golygu pregethau y Parch. Henry Rees; yr hyn a wnaeth gyda gofal canmoladwy. Yr ydoedd wedi dymuno arno, mewn undeb â Dr. William Rees, i barotoi cofiant i'r enwog Mr. Henry Rees; ond disgynodd hyn i ran Dr. Owen Thomas. Terfynwn ein sylwadau ar ei lafur yn nglŷn â llenyddiaeth Gymreig, trwy adgofio y darllenydd am y gyfrol o'i ganeuon, a gyhoeddodd yn lled foreu ar ei oes; a bod rhai o'r caneuon hyny wedi dyfod yn boblogaidd.

Digitized by Google

Teimlwn y dylem neillduo un adran o'r ysgrif hon i lafur a chymmeriad Mr. Edwards yn sir Fflint, a'r dylanwad mawr a gyrhaeddodd yn nhref y Wyddgrug. Er pob gwrthwynebiad a deimlid yn ei erbyn ef, ac eraill o gyffelyb olygiadau, daeth, cyn hir, ar ol ei ddyfodiad i sir Fflint, yn un o brif golofnau y cyfarfod misol. Yr oedd ei ofal yn fawr am yr achos yn yr holl gylch hwn; a mynych yr anfonid ef i derfynu anghydfyddiaethau, ac i adferu tangnefedd yn eglwysi y sir. Yn yr amser yr oedd y gwrthwynebiad i dalu y Dreth Eglwys yn ei rym mwyaf, yr oedd efe fel tywysog y llu yn nhref y Wyddgrug, yn arwain yn y gwrthdystiad a wnaed yn erbyn anghyfiawnder y dreth; a'r un modd yn ystod yr ymdrech fu yno am gladdfa gyhoeddus. Talodd y dref warogaeth iddo ar ol hyny, trwy ei roddi yn gadeirydd y bwrdd ysgol yno am flynyddoedd lawer.

Bu mewn cyssylltiad â chyfarfod misol sir Fflint am 52ain o flynyddoedd; a chydnabyddid ef er's llawer o flynyddoedd fel esgob y sir. Byddai ganddo bregeth newydd yn mhob cyfarfod misol, wedi ei chyfansoddi yn ofalus; ac arferai ddiweddu prif adranau ei bregeth yn aml â gweddi o fath yr un a ganlyn :—'O! Arglwydd, os wyt am ein ceryddu, a'n curo, na wrthod ni, er mwyn dy enw mawr.' Yn y cyfarfod misol, ac yn eglwys y Wyddgrug, y deuai y ddawn nodedig oedd ganddo i dynu allan brofiad y saint i'r golwg amlycaf. Wrth holi blaenoriaid ar eu derbyniad yn aelodau o'r cyfarfod misol, tynai ambell un o honynt i ddyweyd pethau a barai i'r cyfarfod ymdoddi, weithiau, mewn dagrau—bryd arall, mewn llawenydd hyfryd.

Yr oedd yn ŵr o gynghor i'r rhai fyddent mewn dyryswch, ac yn gynnorthwywr caredig i'r rhai anghenus. Adroddir am dano mewn cyfarfod misol mewn un man, pan y gelwid sylw at hen flaenor oedd yn y lle yn glaf, ac yn dlawd. Cynnygid ei gynnorthwyo o un casgliad gan hwn, ac o gasgliad arall gan y llall; ac yr oedd eraill yn gwrthwynebu. Ond neidiodd Mr. Edwards ar ei draed, a dywedodd, 'Cymmered un o honoch ei het o gwmpas.' Felly y caed cymmhorth buan i'r brawd anghenus.

Nis gellir manylu ar ei gyssylltiad maith â chymdeithasfa y Gogledd, fel ei hysgrifenydd, yn mhellach na dyweyd ei fod wedi cyflawni y swydd gyda medr a deheurwydd neillduol; a bod ei gôf cryf, a'i brofiad maith, yn peri ei fod, yn y rhan olaf o'i dymmor, yn enwedig, yn awdurdod uchel ar bob pwngc o drefn ac o arferiad yn y cyfundeb. Ond galwyd arno o bryd i bryd gan y gymdeithasfa i gyflawni gwaith neillduol; yr hyn oedd yn amlygiad chwanegol o barch ac ymddiried ei frodyr ynddo. Yn y fl. 1848, mewn cymdeithasfa yn Nghaernarfon, cawn ef yn cymmeryd rhan arbenig yn y gwasanaeth ordeinio; sef, yn traddodi araeth ar y Genhadaeth Iuddewig. Rhoddwyd y pwngc hwn iddo i draethu arno am fod y Parch. J. Mills, un o'r wyth a ordeinid, yn llafurio, ar y pryd, fel cenhadwr yn mysg yr Iuddewon yn Llundain. Yn y fl. 1860, ni a'i cawn yn traddodi y 'cynghor' yn ngwasanaeth yr ordeinio yn y gymdeithasfa a gynnaliwyd yn Nolgellau, y dref lle y magwyd ef; ac yr oedd hefyd yn pregethu yn un o'r oedfaon mwyaf cyhoeddus yn y gymdeithasfa hono. Yn mhen naw mlynedd, ceir ef drachefn yn traddodi y 'cynghor' yn yr ordeiniad a gymmerodd le yn Ninbych, yn Mehefin, 1869. Ond hwyrach mai yr amgylchiad mwyaf nodedig a gymmerodd le yn ystod y 34ain mlynedd y bu yn ysgrifenydd y gymdeithasfa, oedd ei ddewisiad i lywyddu am y flwyddyn 1870. Yn ystod y flwyddyn hono, fe weithredodd y diweddar Dr. John Hughes fel ysgrifenydd; a llanwodd y swydd, fel y gallesid disgwyl iddo wneyd, gydag urddas ac effeithiolrwydd. Ac nid blwyddyn ddi-nôd fu blwyddyn ei lywyddiaeth. Cynnaliwyd cymdeithasfa Mehefin y flwyddyn hono yn Nolgellau; a chymdeithasfa i'w chofio ydoedd. Ordeiniwyd ynddi ddau-ar-bymtheg o bregethwyr. Yn y gymdeithasfa hono y penderfynwyd cyfeisteddfod yr athrofa i eistedd o hyny allan yn y Bala, ynglŷn â'r arholiad blynyddol; ac nid ynglŷn â'r gymdeithasfa. Ac yn y gymdeithasfa hono y rhoddodd y diweddar Barch. E. Morgan adroddiad am ansawdd yr achos yn Ngorllewin Meirionydd, yr hon a hir gofir gan y rhai a'i clywsant, ac yn wir, gan y rhai a'i darllenasant—gan ei fod yn un o'r cyfarchiadau mwyaf doniol a gafwyd erioed gan y gŵr enwog hwnw. Ar ddiwedd y flwyddyn hon, ail ddewiswyd Mr. Edwards yn ysgrifenydd.

Yn y flwyddyn 1872, yn mhen un mlynedd a deugain wedi iddo ddechreu pregethu, derbyniodd yr hyn a ystyrir yr anrhydedd uchaf sydd gan gyfundeb y Methodistiaid i'w roddi i'w weinidogion enwog, ac i'w harweinwyr diogel. Yn Aberdar, y flwyddyn hono, etholwyd ef yn llywydd y gymmanfa gyffredinol a gynnelid yno. Yn yr un gymmanfa, yr oedd y diweddar Ddr. Saunders yn cael ei ddewis yn ysgrifenydd. Yr oedd cyn hyn wedi cyflawni y swydd o arholwr duwinyddol yn Athrofa y Bala; ac wedi traddodi yr anerchiad arferol i'r efrydwyr ar y cyfryw achlysur. Crybwyllwyd o'r blaen ei fod wedi ei ethol yr ail waith i lywyddu cymdeithasfa y Gogledd, ac iddo gael ei alw i'r 'gymmanfa fawr,' sydd fry pan ar hanner gweinyddu y swydd. Y mae y ffaith hon yn dangos iddo barhau yn ei ireidd-dra tirf—ac i ryw raddau, barhau yn gryf hyd ddiwedd ei oes. Bu farw yn nghanol ei waith, am bump o'r gloch, Gorphenaf 19eg, 1886, yn 75ain mlwydd oed.

'Bythefnos i neithiwr (meddai brawd yn ei gladdedigaeth) yr oedd Mr. Edwards gyda ni yma yn y seiat; ac yr oedd yn ymddangos i'n golwg ni mor heinyf ag erioed.' Yn ystod y pythefnos yna, yr oedd wedi bod yn Nghaergybi, yn y gymmanfa gyffredinol, ac yn eistedd yno ar bwyllgor y llyfrau. O'r gymmanfa hon y prysurodd adref, i ddiosg ei arfau, ac i wisgo y goron oedd yn nghadw iddo.

Un peth a nodweddai y gŵr da hwn oedd ei yni a'i weithgarwch diflino. Ond mae'n amlwg na buasai unrhyw radd o yni a gweithgarwch, ynddo ei hun, yn ei godi i'r fath sefyllfa, heb fod ynddo nerth o dan y cwbl. Ond yr oedd efe yn un neillduol o weithgar. 'Fel un sydd wedi ei fagu yn y Wyddgrug,' meddai y diweddar Barch. Robert Davies, Amwythig, yn ei angladd,

'Y mae yn chwith iawn genyf feddwl am y lle heb Mr. Roger Edwards. Gallaf ddyweyd am ddau beth sydd wedi aros ar fy meddwl yn nglŷn â'r ystyriaeth am dano. Dyma un peth :—yr argraph a adawodd arnaf mai gweithiwr ydoedd. Yr oedd bob amser yn ei waith. Nid wyf yn gwybod i mi erioed ei weled ar yr heol, ond pan yn myned i'r

Digitized by Google

capel, neu oddi yno, neu i'r *station*, neu i ryw le pennodol felly. Nis gallaf ddychymygu am dano ef yn myned trwy y dref am dro, i edrych drwy y ffenestr yma, a'r ffenestr arall. Y drychfeddwl yna fydd genyf fi am dano bob amser, ei fod yn ei *study*, neu ynglŷn â'i waith fel gweinidog yr efengyl. Dyna beth arall oedd yn dyfod yn gryf iawn i'm meddwl—sancteiddrwydd ei fywyd. Yr oedd ei gymmeriad sanctaidd yn gadael argraph ddofn ar drigolion y dref.'

Y mae y braslun a roddwyd o'i hanes yn dangos tu hwnt i ddadl na bu efe yn segur yn ei oes; ond fod ei weithgarwch yn ddigyffelyb. Llanwodd le mawr yn mhlith y Methodistiaid yn yr hanner canrif llawnaf o symmudiadau pwysig yn eu holl hanes.

Er nad oedd ei ddoniau gweinidogaethol mor ddisglaer a'r rhai enwocaf o'i gydoeswyr, yr oedd, fel y dywedodd un am dano, 'yn gymmaint o *all round man* a'r enwocaf o honynt.' Eisteddai wrth ochr y Parch. Henry Rees yn nghynnadleddau y cyfundeb, ac edrychid arno gan y gwŷr blaenaf fel un o honynt. O ran cyfuniad o graffder golygon, nerth ewyllys, gwroldeb ysbryd, a mwyneidd-dra-doethineb, yr oedd yn gyfartal â'r penaf o'i frodyr. Pan y tynwyd y darlun o brif weinidogion ei enwad, a adnabyddir wrth yr enw 'Cenhadon Hedd,' rhoddwyd iddo le anrhydeddus yn eu plith; a diau fod iddo le cyffelyb yn mhlith y cwmmwl tystion sydd yn awr yn y byd anweledig yn amgylchu y saint sydd ar y ddaear, ac yn edrych arnynt yn rhedeg yr yrfa.

EDWARDS, Parch. GRIFFITH. Gwel Gutyn Padarn, cyf. x.

EDWARDS, Parch. HENRY THOMAS, Deon Bangor. Yr oedd efe yn un o enwogion yr Eglwys Esgobaethol yn Nghymru yn yr hanner olaf o'r ganrif hon. Mab oedd efe i'r diweddar Barch. William Edwards, ficer Llangollen; a ganwyd ef yn Llanymawddach, yn sir Feirionydd, yn Medi, 1837. Derbyniodd ran o'i addysg gan ei dad; ac yna, anfonwyd ef i ysgol Westminster. Etholwyd ef yn ysgolor o Goleg Iesu yn 1857, a dodwyd ef yn yr ail ddosbarth o'r celfyddydau cain. O herwydd sefyllfa anfoddhaol ei iechyd, rhwystrwyd llawer arno gyda'i efrydiau; ac oni bae hyny, diau y buasai yn ennill safle llawer uwch nag y darfu, er ei fod wedi ennill ei raddau yn ganmoladwy. Yn 1862, urddwyd ef yn ddiacon gan Esgob Tŷ Ddewi, ac yn offeiriad gan yr Esgob Short, o Lanelwy. Ar ol hyny, bu yn gwasanaethu fel ciwrad i'w dad yn Llangollen; a'r pryd hwn, cafwyd prawfion amlwg yn ei bregethu ei fod wedi efrydu gydag ymroddiad dduwinyddiaeth yr Almaen. Un o'i hoff bleserau fyddai ymdroi gyda duwinyddiaeth yr Almaen, yn nghymdeithas rhai o brif gewri meddyliol yr oes. Tra yn Llangollen, efe a lafuriodd yn egnïol i wellhau cyflwr ysbrydol y gynnulleidfa; a thrwy ei ymroddiad ef, yn benaf, yr ail adeiladwyd eglwys y lle hwnw. Arosodd yn Llangollen am bedair blynedd; a dyma'r tymmor, meddir, y dechreuodd ei feddwl ymysgwyd i olygiadau Uchel-Eglwysig. Yn 1866, pennodwyd ef i fywoliaeth Aberdar—lle y bu am dair blynedd. Tra yno, ac yn ystod yr amser y bu yn ymgryfhau oddi wrth effeithiau afiechyd blin, traddododd gyfres o bregethau ar 'Fywyd ac Angeu.' Cyhoeddwyd hwy, wedi hyny, dan y teitl *The Victorious Life;* a chafodd y gyfrol dderbyniad ffafriol. Efe a gyhoeddodd amryw bamphledau hefyd; megys *Eglwys y Cymry*, ac *Eangiad gwaith yr Eglwys*. Yn 1869, pennodwyd ef i fywoliaeth Caernarfon; a gafaelodd yn nyledswyddau ei swydd bwysig gydag egni ac ymroddiad. Yn mhen tua blwyddyn ar ol ei sefydliad yno, dechreuwyd cynnhyrfu o blaid addysg fydol yn ol darpariadau y Ddeddf Addysg Newydd. Ymdrechid sefydlu byrddau ysgolion yn mhob ardal; ac nid heb achos. Ymosodid ar y gyfundrefn hono o addysg grefyddol oedd mewn bri yn yr Ysgolion Cenedlaethol. Cymmerodd y Deon, fel yr oedd yn naturiol i ŵr o'i safle wneyd, ran flaenllaw i amddiffyn yr hen gyfundrefn, ac i wrthwynebu y newydd. Daeth i sylw arbenig yn y dadleuon a gymmerent le ynglŷn â hyn; a rhaid cydnabod ei fod yn un o ddadleuwyr goreu yr Eglwys Sefydledig. Ac wrth edrych arno o safle Eglwysyddiaeth, nid oedd hyn yn un dianrhydedd iddo; ond yn hytrach fel arall. Esgynodd i enwogrwydd yn gyflym. O'r flwyddyn 1874 hyd 1876, gwasanaethodd fel cynnrychiolydd y clerigwyr yn y glwysgor—hyd nes y pennodwyd ef yn Ddeon Bangor. Nid oedd efe yn llawn deugain ml. oed ar y pryd; ond profodd ei fod yn un o'r rhai cymmhwysaf iddi o fewn yr holl gylch Eglwysig. Ymroddodd i waith. Sefydlodd gymdeithas i addysgu dynion ieuaingc o allu a thueddiadau duwiolfrydig ar gyfer gweinidogaeth yr eglwys. Casglai tua 700*p.* yn flynyddol at yr amcan hwn. Adferodd ranau o du fewn y brif eglwys, a chododd y *chapter-house*, ar y draul o 11,000*p.* Ond nid fel Eglwyswr yn unig yr ymddisgleiriodd efe. Gweithiodd o blaid dirwest, o blaid addysg, a rhai symmudiadau cenedlaethol, gydag egni ac ymroddiad. Nid bob amser y gallai efe gario yn mlaen ei oruchwyliaethau heb beri tramgwydd i Ymneillduwyr; a bu dadleuon brwd rhyngddo yn y wasg, ac ar y llwyfan, â gweinidogion y gwahanol enwadau, ac â'r Faner, a newyddiaduron eraill. Fel rheol, ei syniadau Uchel-Eglwysig a'i harweiniodd i'r helyntion hyn; ond drwy y cyfan, yr oedd ei wrthwynebwyr penaf, mewn ystyr enwadol a gwleidyddol, yn coleddu y parch dyfnaf i'w onestrwydd a'i amcan. Fel amddiffynydd yr Eglwys y daeth efe i'r amlwg yn benaf; ac ar ei allu a'i fedr yn y cymmeriad hwn y mae ei goffadwriaeth yn debyg o barhau. Yr oedd mewn gelyniaeth barhaol â Chymdeithas Rhyddhâd Crefydd a'i phleidwyr. Nid oedd neb o ddeiliaid yr Eglwys Sefydledig a siaradodd, ac a weithiodd fwy nag ef yn erbyn Dadgyssylltiad. Yr oedd ynddo allu mawr fel llenor hefyd. Efe oedd awdwr y *Babel of Sects*, ac *Esboniad ar Efengyl St. Matthew*. Bu farw Mai, 1884.

EDWARDS, MILES, Trosnant: un o weinidogion enwocaf y Bedyddwyr yn hanner olaf y ganrif ddiweddaf. Mab oedd efe i Thomas Edwards, o Flaenau Gwent; yr hwn hefyd a gyrhaeddodd gryn enwogrwydd yn y Deheu. Bu farw yn 1746, yn 34ain mlwydd oed, gan adael amryw blant ar ei ol. Daeth tri o honynt yn enwog iawn; sef, Morgan Edwards, yr hanesydd; James Edwards, Waterford, yn yr Iwerddon; a Miles Edwards, gwrthddrych yr erthygl hon. Ganwyd ef yn 1743; ac nid oedd efe, gan hyny, ond tair blwydd oed pan gollodd ei dad. Dechreuodd bregethu yn 1766, pan tua 23ain mlwydd oed. Mewn canlyniad i anghyd-

Digitized by Google

fod a gododd yn eglwys Pen-y-garn, ymunodd, gydag amryw eraill, âg eglwys Bethesda, yn Bassaleg. Bu am dymmor yn athrofa yr enwad yn Nhrosnant, a chwblhaodd ei addysg yn Ngholeg Bristol. Wedi ei ordeiniad, bu yn pregethu yn ei dŷ ei hun—y Wern, ger Pont-y-pool; gan fod yn yr ardal hono liaws o Fedyddwyr. Yn 1776, ffurfiwyd eglwys yno, gyda Miles Edwards yn weinidog arni. Parhaodd yr eglwys i ymgynnull yn y Wern hyd 1779; pryd y symmudwyd i adeilad mwy pwrpasol a brynwyd ganddynt yn Nhrosnant. Heb law yr hyn a wnaed ganddo yn Nhrosnant, bu yn offerynol i sefydlu eglwys Saesnig yn Coleford—yr hon a gorphorwyd yn y flwyddyn 1788. Wedi treulio o hono oes lafurus, a ffrwythlawn, bu farw yn 1808, gan adael yn ei ewyllys dŷ annedd, ynghyd â llawer o lyfrau gwerthfawr, yn feddiant i'r eglwys yn Nhrosnant. Claddwyd ef yn mynwent y capel, a dodwyd gwyddfaen ar ei feddrod er coffa am dano. Dywed ei fywgraphwyr fod Cymru mewn mwy o rwymau i Miles Edwards nag a wyddai neb yn eu dyddiau hwy. Tuedd bod yn or-fanwl, ac yn rhy gul, oedd yn ngweinidogaeth y Bedyddwyr pan y dechreuodd Miles Edwards ar ei weinidogaeth. Yr oedd o'r farn ei bod yn eithafol felly. Darllenodd y Beibl yn ofalus, a ffurfiodd farn annibynol—cydnabyddodd Grist yn ben, a neb arall: a mynodd bregethu yr efengyl, nid yn ol y culni arferol, ond yn ei holl ëangder. Baeddwyd llawer arno yn nghynghorau ei enwad, ar y grediniaeth ei fod yn rhy Arminaidd ei gredo. Dygwyd ef ger bron pedwar o gyrddau chwarterol, ac un gymmanfa, gyda'r bwriad o'i attal i bregethu yr efengyl yn y modd y gwnai; ond ofer fu y cyfan. Aeth drwy y prawfiadau yn ogoneddus, torodd drwy y rhagfarnau, a dygodd i bulpudau ei enwad efengyl oedd yn annhraethol ëangach na chanllawiau cyffes Bedyddwyr yr oes hono. Cristion gloyw yn unig a allasai ddyfod mor ddisglaer a Miles Edwards allan o'r tân y bwriwyd ef iddo. Y mae llenyddiaeth Cymru yn hynod brin o'i hanes; ond y mae yr hyn a wnaeth efe erddi yn teilyngu lle anrhydeddus iddo yn rhestr ei henwogion.

EDWARDS, MORGAN, M. A., awdwr y *Materials towards the History of the Baptists in Pennsylvania*, oedd frawd i Miles Edwards, Trosnant; ac felly, yn fab i Thomas Edwards, o Flaenau Gwent. Dechreuodd bregethu tua'r flwyddyn 1738, pan oedd yn 16eg oed; a derbyniwyd ef i Athrofa Trosnant yn 1740. Fel ei frawd, gorphenodd ei gwrs efrydol yn Ngholeg Bristol. Ychydig o'i wasanaeth gafodd ei gydgenedl, gan iddo ymroi o'r dechreu i weinidogaethu yn mysg y Saeson. Bu yn llafurio am tua naw mlynedd yn yr Iwerddon—lle yr ordeiniwyd ef yn 1757. Ymfudodd i Philadelphia, yn y Talaethau Unedig, yn y fl. 1761; a thra yno, gwnaeth enw iddo ei hun, nid yn unig fel pregethwr, ond hefyd fel hanesydd ei enwad. Ysgrifenodd ddeuddeg llyfr ar hanes y Bedyddwyr mewn deuddeg talaeth yn yr America. Gwnaeth y cyntaf o'r rhai hyn ei ymddangosiad yn 1770; ac ystyrir y gwaith drwyddo yn un tra gwerthfawr, ac yn gyfryw ag a deifl oleuni ar lawer cyfnod tywyll yn hanes yr enwad hwnw.

EDWARDS, PARCH. OWEN, B. A., Melbourne. Gweinidog dysgedig oedd efe gyda'r Methodistiaid Calvinaidd. Ganwyd ef yn Llanuwchllyn, Ebrill 26ain, 1846. Cafodd bob manteision addysgawl a chrefyddol pan yn ieuangc; a thyfodd i fyny yn un o ddynion mwyaf addawol yr enwad. Derbyniwyd ef i Athrofa y Bala yn 1863; ac yn yr arholiad yn 1865, safai yn uchaf ar restr yr efrydwyr. Y flwyddyn hono, efe a ennillodd anrhydedd yn arholiad cyntaf y coleg. Yr un modd mewn Lladin yn y fl. 1866; ac yn 1870, cymmerodd y radd o B. A. Bu am dymmor yn athraw yn Ysgol Rammadegol Towyn. Ac aeth ar ol hyny i Brifysgol Heidelberg; lle y bu am ddwy flynedd yn ymberffeithio yn yr Ellmynaeg, ac yn efrydu duwinyddiaeth, athroniaeth foesol, a'r Hebraeg. Ar ei ddychweliad o'r Almaen, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Saesnig Llanelli. Ymsefydlodd yno; ac yn fuan, cydnabyddwyd ef fel un o weinidogion galluocaf a mwyaf dylanwadol y dref. Llafuriodd yno am chwe blynedd gyda llwyddiant mawr. Yn ddilynol, symmudodd i Gaernarfon fel bugail yr eglwys Saesnig. Cyn ei symmudiad o Lanelli, unwyd ef mewn priodas â Miss Jones, Meurig house, Dolgellau. Daeth yn hynod boblogaidd yn Nghaernarfon. Yn anffodus, dechreuodd ei iechyd adfeilio; a thua'r flwyddyn 1883, aeth ar fordaith i Awstralia, gyda'r amcan o geisio adferiad. Pan gyrhaeddodd Melbourne, derbyniodd y newydd adfydus am farwolaeth ei briod. Teimlodd yn fawr dan y brofedigaeth; ond er y cwbl, cafodd ddigon o adgyfnerthiad iechyd i ymgymmeryd â gofal yr eglwys Gymraeg yn Melbourne; ac yno, er ei hiraeth am ei blant, a'i wendid corphorol, y llafuriodd hyd derfyn ei oes. Yn ystod ei weinidogaeth yno, talodd ymweliad â Chymru yn y fl. 1888. Bu farw yn y wlad bell, Mai 23ain, 1893.

EDWARDS, TIMOTHY. Un o fôr-filwyr mwyaf enwog a dewr y llywodraeth Brydeinig. Hanodd o deulu henafol Nanhoron, yn swydd Gaernarfon. Mab oedd i'r Parch. W. Edwards, clerigwr yn Eglwys Loegr. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1731. Daeth i feddiant o etifeddiaeth y teulu ar ol ei ewythr, Richard Edwards. Wedi ymuno o hono â'r llynges, efe a gododd o rîs i rîs yn y gwasanaeth. Fel llywydd, bu yn gadben y rhyfel-longau *Valeur*, *Wager*, a'r *Emerald*. Yn 1778, ymddiriedwyd iddo lywyddiaeth y rhyfel-long *Cornwall*—yn yr hon yr oedd amryw o ynau mawrion. Ffurfiai hi un o'r llynges a anfonwyd i America dan lywyddiaeth yr îs-lyngesydd Byron, gyda'r bwriad o wrthwynebu llynges Ffraingc; ond ni chafodd efe gyfleusdra i ddangos ei ddewrder ar yr achlysur hwn. Ar derfyn yr un flwyddyn, yr oedd efe gyda Byron yn India y Gorllewin; ac yn y frwydr a gymmerodd le Gorphenaf 6ed, 1779, ger llaw Grenada, yn erbyn llynges Ffraingc, ennillodd iddo ei hun enwogrwydd mawr yno yn ganlynol i'r gorchestion a gyflawnodd. Bu agos i'w lestr suddo yn y frwydr. Lladdwyd 16 o'r dwylaw, clwyfwyd 27 eraill, a bu agos iddo yntau gael ei ladd. Rhydd Byron, yn ei hanes ef o'r frwydr, y ganmoliaeth uchaf i'r Cadben Edwards am ei ddewrder dihafal. Yn Ebrill, 1780, cymmerodd ran yn yr ymdrechfa fileinig a fu rhwng Syr George Rodney a'r Count de Guiechen. Yn y frwydr hon, etto, arddangosodd wroldeb anarferol. Niweidiwyd y *Cornwall* yn ddirfawr yn y ddwy ysgarmes hyn; ond wedi ei hadgyweirio, ymladdodd y Cadben



Digitized by Google

Edwards ddwy frwydr boethlyd eraill ynddi. Nid hir y bu hi wedi hyn cyn suddo, tra wrth angor, yn St. Lucia. Yr oedd Edwards wedi ei gadael cyn i'r alaeth gymmeryd lle; ac ar ei ffordd i Loegr, gyda'r bwriad o dderbyn yr anrhydedd oedd yn ei aros. Tra ar y weilgi, modd bynag, bu farw o dwymyn y bustl, Gorphenaf 12fed, 1780, yn 49ain mlwydd oed.

EDWARDS, Parch. THOMAS, Penllwyn. Gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Ngheredigion oedd efe. Ganwyd ef yn Mhwllcenawon, ger Penllwyn, yn y fl. 1813. Dechreuodd bregethu pan tuag ugain mlwydd oed; a bu yn y weinidogaeth ddeugain, namyn dwy, o flynyddoedd. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1844 yn Nghymdeithasfa Llangollen, ac yr oedd yn un o'r efrydwyr cyntaf yn Athrofa y Bala; yr hon, gyda llaw, a agorwyd gan ei frawd, Dr. L. Edwards, a Dr. Charles. Yr oedd Thomas yn ddysgwr cyflym; ond nid i'w gymmharu yn hyn â'i frawd mwy adnabyddus, Lewis. Wedi gorphen yn yr athrofa, ymsefydlodd yn ei ardal enedigol—yn y Glascrug, cartref ei wraig. Cyn hir wedi iddo briodi, symmudasant i'r Trering—fferm lai yn ymyl y Glascrug; ac yn y Trering y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes bregethwrol. Gyda'r eithriad o ychydig o flynyddoedd, yn y Penllwyn y bu efe fyw dros ystod ei oes. Bu farw Medi 18fed, 1871, yn 58ain mlwydd oed.

O ran ei ymddangosiad corphorol, disgrifir ef fel dyn 'tal o gorph, yn sefyll yn union-syth—dyn teneu, main, a gwanaidd: gwallt melyngoch, pen crwn, gwyneb di-flew, llygaid siriol, gwddf hir, ac ysgwyddau culion.' Yr oedd yn ddyn o ymddangosiad tawel a boneddigaidd, ac yn gwisgo bron bob amser yn y ffasiwn. Un o nodweddion amlycaf ei gymmeriad ef oedd gostyngeiddrwydd; ac ni cheid ef un amser yn ymgeisio at wneyd ei hun yn or-amlwg gyda neb, na dim, y deuai efe i gyssylltiad â hwynt. Cyfrifid ef yn bregethwr rhagorol, ac yn un o ddynion blaenaf y sir. Nid rhyw bregethwr sych, dwfn-dreiddiol, oedd efe; ond yn hytrach ymarferol, ac yn ymgeisio at osod cnewyllyn ei destyn yn eglur o flaen ei wrandawyr. Ymresymai ei bwngc allan gydag amcan neillduol, a gwnai ef yn ddealladwy i'r gynnulleidfa; ond ar brydiau, cerid ef ymaith gan ei sêl, fel ag i wneyd ei bregethau yn hwyliog a thanbaid. Yn niwygiad 1859, ystyrid ef bron yn gydradd â'r Parch. David Morgan yn ei ddylanwad ar y wlad; ac yr oedd ei bregethau yn y cyfnod hwn yn effeithiol a grymus. Rhagora amryw o'n gweinidogion, fel lliaws o ddynion eraill, mewn rhai cyfeiriadau neillduol—rhai fel pregethwyr, ac eraill fel gweinidogion; ond gellir ystyried Mr. Edwards yn ŵr o ddefnyddioldeb cyffredinol—yn ddyn i'r holl waith y galwyd ef iddo. Yn mysg pethau eraill, yr oedd yn llenor lled dda. Yn 1862, cychwynwyd yr *Arweinydd*, o dan ei olygiaeth ef, a'r Parch. Griffith Davies, Aberteifi; i'r hwn yr ysgrifenodd amryw erthyglau ar wahanol faterion. Pan fu farw, cafodd gladdedigaeth dywysogaidd; a chan nad oedd claddfa yn perthyn i'r capel ar y pryd, rhoddwyd ei weddillion yn mynwent eglwys Bangor. Y mae er hyny gôf-golofn hardd wedi ei chodi iddo o flaen y capel.

EDWARDS, THOMAS, o'r Rhual, ger y Wyddgrug, yn swydd Callestr. Ychydig sydd o hanes y gŵr enwog hwn ar gôf a chadw: ac i awdwr *Hanes y Bedyddwyr*, gan y Parch. Joshua Thomas, yr ydym yn ddyledus bron am yr ychydig hyny. Yn ol yr hanes a geir yno, boneddwr dysgedig, a Bedyddiwr a Chalvin selog, ydoedd Thomas Edwards—yn byw yn Rhual, ger y Wyddgrug, yn y rhan olaf o'r eilfed ganrif ar bymtheg, a dechreu y ddeunawfed. Ni wyddom ddim am ei achau—pwy oedd ei rïeni, nac am ei ddygiad i fyny chwaith. Yr oll, yn yr ystyr yma, a wyddom am dano yw, ei fod yn ŵr priod, ac yn meddu ar ddwy o ferched—fel yr ymddengys oddi wrth argraph ar gofgolofn farmor yn hen gapel y Bedyddwyr yn Hooknorton, yn swydd Rhydychain.

Ymddengys mai aelod o hen eglwys Gwrecsam oedd efe; ac nad ydoedd yn bregethwr, er ei fod yn awdwr o fri a dylanwad. Yr oedd eglwys Gwrecsam yn y dechreu, ac yn wir am gyfnod lled faith o'i hanes, yn cael ei gwneyd i fyny o Annibynwyr, Bedyddwyr, a Phresbyteriaid. Ond i'r Bedyddwyr y perthynai Thomas Edwards. Arferai dderbyn pregethwyr, a chynnal gwasanaeth crefyddol yn ei balas ei hun, ar hyd y blynyddoedd. Yr oedd ganddo fedyddfa yn ei barc hefyd—yn yr hon y bedyddiwyd nifer mawr o bersonau. Dywedir i weinidog, o'r enw Thomas Loe, o swydd Gaerlleon, fedyddio pedwar-ar-ddeg yno ar un adeg. Deallwn fod yr hen fedyddfa yn aros etto.

Yr oedd Thomas Edwards yn gyfaill gwirioneddol i'r Cymro a'r pregethwr poblogaidd a galluog hwnw, Timothy Thomas, o Pershore, yn swydd Gaerwrangon. Wyr i'r Parch. John Evans, hen weinidog Gwrecsam, oedd Timothy Thomas; ond aeth yn weinidog pan yn ugain oed, i Pershore, lle y daeth yn un o bregethwyr enwocaf y deyrnas. Arferai Thomas Edwards ymohebu yn gysson â Timothy Thomas; a'r enwau a roddènt arnynt eu hunain yn eu llythyrau oeddynt 'Jonathan,' a 'Dafydd.' Yn y dadleuon mawrion, a blinion ddigon, a fu ar lyfrau y Doctoriaid Crisp a Daniel Williams—y Cymro o Wrecsam—cymmerodd Thomas Edwards ran helaeth. Yr oedd efe, fel bron yr oll o Fedyddwyr Gwrecsam, ynghyd â llawer o'r Annibynwyr yno, yn hynod wrthwynebol i athrawiaeth newydd y Dr. Williams. Credai nad ydoedd ei *Gospel Truth Stated* yn *Gospel Truth* o gwbl; ond mai athrawiaeth Baxter, a hono wedi ei hail goginio, ydoedd. Calvin i'r gwraidd oedd efe; ac er mwyn amddiffyn yr hen athrawiaeth Galvinaidd, ysgrifenodd a chyhoeddodd gyfrol bedwar-plyg, o 450 o dudalenau, yn Saesneg. Teitl y gyfrol hon, yn ol *Llyfryddiaeth y Cymry*, oedd fel y canlyn:—'*The Paraselene dismantled of her cloud; or Baxterianism Barfac'd, Drawn from a Liberal Transcript of Mr. Baxter's, and the Judgment of others, In the most radical Doctrines of Faith; compar'd with those of the Orthodox, both Conformist and Nonconformist; and transferr'd over by way of Test, unto the Papist and Quaker, By Thomas Edwards, Esq.—London, Printed and sold by Will. Marshal, at the Bible in Gracechurch-street.* 1699.'

EDWEN. Santes oedd hi o darddiad Sacsonaidd, ond a restrir yn mysg y seintiau Cymreig. Dywedir mai merch, neu ynte nith, ydoedd hi i Edwin, brenin Northumbria; ac iddi gael ei dwyn i fyny yn Llys Cadfan, yn Nghaerseiont. Blodeuodd yn y seithfed ganrif, a hi a sefydlodd eglwys Llanedwen, yn Môn.

Digitized by Google

EDWIN, Arglwydd Tegeingl, o sir Fflint, oedd benaeth un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Mab ydoedd i Goronw ab Hywel Dda, ac yn byw tua chanol y ddegfed ganrif.

EFROG GADARN: a elwir EBRAUCUS gan Sieffre o Fynwy, a chan eraill yn EBRANCUS. Efe a ddilynodd ei dad, Mynyr, i orsedd Prydain, yn y fl. 974 cyn Crist. Ac efe oedd y cyntaf, ar ol Prydain, a ymosododd gyda llynges ar Lydaw. Yno, efe a ddinystriodd y wlad â thân a chleddyf, a losgodd y dinasoedd, a lwyr ddrylliodd y caerau, ac a ddychwelodd gydag anrhaith mawr. Sefydlodd dref Caerefrog; ac yr oedd hyn mor bell yn ol, meddir, a phan deyrnasodd Dafydd frenin yn Israel. Bu gan Efrawg ugain o wragedd, ugain o feibion, a deg-ar-hugain o ferched. Efe oedd tad Brutus Darian Lâs.

EIDAL, neu EIDAF, yn ol y *Brut*, a olynodd ei frawd Fulgen, i orsedd Prydain, yn y bedwaredd ganrif cyn Crist.

EIDIOL, neu EIDOL, yn ol y *Brut*, ydoedd olynydd Arthmael ar orsedd Prydain; yr hyn a ddigwyddodd ddwy ganrif cyn y cyfnod Cristionogol.

EIDDILIG COR: yr hwn hefyd a elwid IDDAWC CORN PRYDAIN, sydd gymmeriad a enwir yn fynych yn y *Trioedd*, fel bradwr a swynwr. Yr oedd ganddo ran, fe dybir, yn y bradwriaeth a arweiniodd i gwymp Arthur.

EIDDYN AB EINGIAN, yn ol y *Trioedd*, a laddodd Aneurin Gwawdrydd, trwy ei daraw â bwyell yn ei ben. Gelwir hyn yn 'Un o dair anfad fwyellawd Ynys Prydain.'

EIGEN, merch Caradawg ab Bran, a phriod Sarllog, Arglwydd Caersarllog; yr hon a elwid wedi hyny OLD SARUM.

EIGYR:—oedd fam Arthur. Dywed y *Brut* ei bod yn ferch i Amlawdd Wledig, ac yn wraig i Gorlais, Iarll Cernyw. Ystyrid hi yn un o ferched harddaf ei hoes.

EINION AB ARTHAL. Efe a olynodd ei frawd, Morgan, fel brenin Prydain, yn y bummed ganrif cyn Crist. Wedi teyrnasu o hono am ysbaid o chwe blynedd, diswyddwyd ef am anghyfiawnder, a chreulondeb.

EINION AB CADWGAN:—tywysog ar ran o Bowys yn y ddeuddegfed ganrif; ac un a ennillodd fawr glod yn ei frwydrau â'r Saeson, yn nheyrnasiad Harri I. Bu farw yn 1121, gan adael ei diroedd yn Meirion a Phowys i'w frawd Meredydd.

EINION AB COLLWYN:—pendefig o Ddyfed, yn yr unfed ganrif-ar-ddeg. Cymmerodd ran flaenllaw mewn brwydrau gwleidyddol yn y Deheudir; a bu yn gyfrwng i drosglwyddo rhanau ffrwythlawn o'r tiriogaethau hyny i feddiant y Normaniaid. Yn y flwyddyn 1088, ymunodd gyda'i neiaint, Llywelyn ac Einion, meibion Cadifor, â Gruffydd ab Meredydd, i ymosod ar Rhys ab Tewdwr Mawr. Ond mewn brwydr a gymmerodd le yn Llandudoch, lladdwyd y neiaint, a Gruffydd; a diangodd Einion at Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg, i geisio ei nawdd; a chan ei fod yntau mewn gelyniaeth at Rhys ab Tewdwr, rhoddodd i Einion bob amddiffyniad a allai. Ymgynghreiriodd y ddau â'u gilydd. Yr oedd Einion i gael Nest, ferch Iestyn, yn wraig, ar yr ammod fod iddo fyned at William II., brenin Lloegr, i ymofyn ei gymmhorth i ddarostwng Rhys. Llwyddodd Einion yn ei neges, a chyflogodd Robert Fitzhamon, a phenaethiaid Normanaidd eraill, i ddyfod i sir Forganwg at y gorchwyl. Ymosodasant ar Rhys ab Tewdwr, a'i fyddin, ar Hirwaen Wrgant, ger llaw Aberdâr; ac o flaen nerth y fath lu, bu raid i Rhys, er ei holl ddewrder, ffoi. Daliasant ef yn Nghwm Rhondda; ac yno fe dorwyd ei ben. Gelwid y fan oddi wrth yr amgylchiad yn *Penrhys*. Yr oedd yr hen wron yn 91ain mlwydd oed pan gyflawnwyd yr anfadwaith ofnadwy hwn. Ar ddiwedd y frwydr, talodd Iestyn i'r Normaniaid mewn aur pur; a gelwir y lle hwnw wrth yr enw y 'Filldir Aur' hyd y dydd heddyw. Pan aeth Einion at Iestyn i ymofyn Nest yn wraig, gwrthodwyd hi iddo; a gwarthruddwyd ef gan Iestyn o herwydd ei anwladgarwch. Ffromodd Einion yn aruthr o blegid hyn, ac aeth ar ol y Normaniaid; a chyn iddynt fyned ymaith yn eu llongau o Aberddawen, dylanwadodd Einion arnynt i ddychwelyd, a'i gynnorthwyo ef i ddïal ar Iestyn am wrthod Nest iddo. Hyny fu:—ac ar y Mynydd bach, ger Caerdydd, hwy a orchfygasant Iestyn, gan gymmeryd oddi arno ei holl feddiannau; ond rhoddasant y tiroedd diffaeth, a'r mynydd-dir, i'r Cymry. Y parthau mynyddig hyn a gafodd Einion yn wobr am ei fradwriaeth. Priododd Nest, a therfynodd ei oes gythryblus mewn dinodedd.

EINION AB GWALCHMAI:—bardd, oedd yn byw yn Nhrefeilyr, Môn, yn y ddeuddegfed ganrif. Tybir ei fod yn fab i'r bardd enwog Gwalchmai ab Meilyr. Ceir engreifftiau o'i waith yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology*, ac yn yr *Iolo MSS.*, a *Chymru Fu*. Gwelir rhamant neu ddammeg hynod am dano dan y teitl 'Damheg Einion ab Gwalchmai â Rhian y Glasgoed.'

EINION AB GWGAN, neu GWGAWN, oedd fardd a flodeuodd yn y drydedd ganrif ar ddeg —rhwng 1200 a 1260. Ei waith ef yw 'Anerch i'r Tywysog Llewelyn ab Iorwerth,' a welir yn y *Myvyrian Archaiology*.

EINION AB GWRON:—un o dri 'anhuol farchogion Llys Arthur;' y rhai a ennillasant eu safle uchel yn y llys brenhinol, nid o blegid eu haniad uchel, ond o herwydd rhagoriaethau eu cymmeriad.

EINION AB MADAWG AB RHAWD:—bardd oedd yn byw rhwng 1230 a 1270. Ei waith ef yw 'Anerch Gruffydd ab Llewelyn,' sydd yn argraphedig yn y *Myv. Archaiology*.

EINION AB OWEN AB HYWEL DDA. Blodeuodd yn y ddegfed ganrif; ac efe oedd arglwydd rhan o sir Frycheiniog. Tua'r fl. 983, anfonwyd ef i Gwent gan ei dad, i geisio darostwng y gwrthryfel a fodolai yn mysg trigolion y rhanbarth hwnw. Ond hwy a ruthrasant arno, ac a'i lladdasant.

Digitized by Google

EINION AB OWEN, Syr:—yr hwn hefyd a elwid Einion Offeiriad. Yr oedd yn fardd o gryn deilyngdod, ac yn ol Rhestr Beirdd Gorsedd Morganwg, bu yn llywydd ar yr orsedd hono yn 1480.

EINION FONEDDIG: — esgob yn Nhŷ Ddewi, yn ol *Brut y Tywysogion*, yr hwn a fu farw o ddeutu y fl. 871. Ei olynydd ydoedd Hubert Sais.

EINION FRENIN. Yr oedd yn byw yn y chweched ganrif, ac yn llywodraethu ar Leyn, yn sir Gaernarfon. Tybir mai efe oedd sefydlydd eglwys Llanengan, yn y rhanbarth hwnw; a choleg Penmon, yn Môn; a mynachdy Ynys Enlli. Gosododd ei nai, Seiriol, yn athraw ar Goleg Penmon; a Chadfan Sant, yn abad cyntaf y mynachdy.

EINION GLYD:—penaeth yn byw yn y ddeuddegfed ganrif. Mab oedd efe i Madawg ab Idnerth. Priododd ferch i Rhys ab Gruffydd. Lladdwyd ef gan y Normaniaid yn y flwyddyn 1177.

EINION MEBYDD:—archddiacon Clynnog Fawr yn Arfon, am yr hwn y dywed Caradog o Lancarfan mai efe oedd y doethaf a'r dysgedicaf yn Ngwynedd. Bu farw yn 1151.

EINION MEIRION:—bardd, oedd yn byw yn y drydedd ganrif ar ddeg.

EINION YRTH, neu URDD:—oedd fab i Cunedda Wledig, tywysog Brythoniaid Ystrad Clwyd. Danfonwyd ef, a'i frodyr, gan eu tad Cunedda i yru y Gwyddelod allan o Ogledd Cymru. Wedi iddynt lwyddo yn hyny, rhanasant y wlad rhyngddynt. Rhan Einion oedd Llanfair Caereinion, a'r cylchoedd, yn sir Drefaldwyn. Dilynodd ei dad i'r orsedd, yn 389; a chadwodd y llywodraeth yn ei feddiant hyd ei farwolaeth, yn 443. Olynwyd yntau gan ei fab enwog, Caswallawn Law Hir.

ELAETH—yr hwn hefyd a elwir Elaeth Frenin—oedd fab Meirig ab Idno, a thywysog ar ryw ran o Ogledd Prydain yn moreu ei oes. Gyrwyd ef oddi yno gan erledigaethau y Saeson, a throdd yntau yn sant, gan gymmeryd ei gartref o hyny allan gyda Seiriol, yn Ngholeg Penmon. Efe oedd sefydlydd eglwys Amlwch. Ceir rhai o'i weithiau barddonol yn y *Myvyrian Archaiology*.

ELEN. Merch Coel Coedhebog, a elwir yn y *Brutiau Cymreig* yn Helen Lwyddawg, neu Lwyddiannus, o herwydd iddi briodi Constantius, a chael yr anrhydedd o fod yn fam i'r enwog Cystenyn Fawr. Nid pawb o'r haneswyr a gred chwedl y *Brutiau;* ac fe wedir haniad Prydeinig Helena gan Gibbon, ac eraill. Tuedda yr hanesydd Eumenius, fodd bynag, i dderbyn dilysrwydd y croniclau Cymreig. Y mae yn debyg fod eglwys Llanelen yn swydd Fynwy, eglwys Ilan yn Morganwg, a Thref Ilan, yn sir Gaerfyrddin, wedi eu cyssegru ar ei henw.

ELEN LUYDDAWG. Merch i Eudaf, tywysog Erging ac Euas, hen ranbarthau yn y Deheudir, yn y bedwaredd ganrif. Priododd Macsen Wledig, brenin Llydaw; ac yn y fl. 383, cynnullwyd ganddi hi a'i brawd, Cynan Meiriadog, lu enfawr i fyned drosodd i'r wlad hono i gynnorthwyo ei gŵr yn erbyn y Rhufeiniaid. Yn ol y *Trioedd*, arosodd y bobl hyn yn Llydaw, lle y cawsant diroedd a chyfoeth gan Macsen. Bu eu trigias hwy yn Llydaw yn achos o brinder rhyfelwyr yn Mhrydain, fel y llwyddodd y Gwyddyl Ffichti, gydag ychydig o drafferth, i ormesu ar y Cymry.

ELFAN:—yr hwn ydyw Elvanus Avallonius (Elfan Afallon) yr hen haneswyr—oedd awdwr llyfr ar ddechreuad yr Eglwys Brydeinig; yr hwn yr ammheua rhai iddo erioed gael ei ysgrifenu. Crybwylla *Llyfr Llandaf* am Elfan a Meudwy, fel y ddau lysgenhadwr a anfonwyd at y pab Eleutherius gan Lles ab Coel, i erfyn am ganiatâd iddo gael ei wneyd yn Gristion. Gwelodd y pab yn dda orchymyn eu bedyddio, ac urddo Elfan yn esgob, a Meudwy yn ddoctor, a'u hanfon yn ol i Gristioneiddio Ynys Prydain. Dywedir i Elfan fod yn ddysgawdwr cynnulleidfa o Gristionogion yn Clas Myrddin; a mŷn rhai o'r mynachod mai efe oedd ail esgob Llundain.

ELFOD, neu Elbodius, a hanai o Caw, oedd esgob cyntaf Caergybi. Yr oedd yn byw yn yr wythfed ganrif. Yn 755, cyssegrwyd ef yn Esgob Bangor Deiniol; neu yn fwy adnabyddus, Bangor Fawr yn Arfon. Efe ydoedd esgob cyntaf y ddinas hono, a chyfeirir ato gan Caradog o Lancarfan fel Archesgob Gwynedd. Y mae cyhuddiad i'w erbyn, ddarfod iddo berswadio trigolion Gwynedd i fabwysiadu y cylch Rhufeinig tuag at olrhain allan y Pasc; ac mai ei amcan drwy hyny ydoedd eu cael i syrthio yn rhwyddach i gymmundeb yr Eglwys Rufeinig. Gwrthododd esgobion y Deheubarth i gydsynio â hyn; a daeth y Saeson, mewn canlyniad, i'w tiriogaethau. Cymmerodd brwydr ffyrnig le rhyngddynt yn Coed-marchan, ger Rhuthyn, ac ennillwyd y fuddugoliaeth gan y Cymry. Mŷn rhai i Elfod farw yn y fl. 809; eraill, mai yn y fl. 811 y digwyddodd hyny.

ELIAS, RHISIART:—telynor gwych, fu fyw yn y rhan gyntaf o'r ail ganrif ar bymtheg. Cyfrifid ef yn delynor blaenaf ei oes, hyd nes y cododd un arall, o'r enw Elis Siôn Siâms. Pan y trechwyd Rhisiart gan Elis, cymmerodd hyny gymmaint at ei galon fel y bu farw yn mlodau ei ddyddiau.

ELIAS, WILLIAM. Treuliodd ef y rhan fwyaf o'i oes yn Mhlas y Glyn, yn Llanfwrog, Môn, er mai yn sir Gaernarfon y ganwyd ef. Yr oedd yn fardd adnabyddus, ac yn gyfaill i Goronwy Owain.

ELIDYR LYDANWYN. Penaeth yn mysg y Brythoniaid Gogleddol yn y bummed ganrif. Mab iddo ef oedd yr enwog Lywarch Hen.

ELIDIR MWYNFAWR. Mab oedd efe i Gwrwst Briodor ab Dyfnwal Hen, brenin Gwent, a phenaeth ar ran o sir Gaerhirfryn (Lancashire) yn y chweched ganrif.

ELIDIR SAIS. Bardd rhagorol, oedd yn blodeuo rhwng 1160 a 1220. Ceir amryw o gyfansoddiadau o'i waith yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology*.

Digitized by Google

ELIDR WAR:—yr hwn hefyd a adnabyddid wrth yr enw ELIDR FAWR. Cafodd ei alw felly am ei dosturi tuag at ei frawd. Ceir hanes am dano yn *Mrut Tysilio*, i'r perwyl a ganlyn:—Dïorseddwyd ei frawd, Arthal, am wall llywodraeth, a chreulondeb; a choronwyd Elidr yn ei le. Yn mhen tua phum mlynedd wedi iddo ddechreu teyrnasu, ac i Arthal, yn y cyfamser, ymgynghreirio i'w erbyn, cyfarfyddodd y ddau yn ddamweiniol mewn coedwig. Dynesodd Elidr at Arthal gan ei gofleidio, a chan faddeu iddo yr holl gamweddau a wnaethai efe i'w erbyn. Trefnodd hefyd ffordd i'w adferu yn ol i'r orsedd. Cymmerodd arno fod yn glaf, a gwahoddai bendefigion y deyrnas ato o un i un, gan eu tynghedu felly i ddewis Arthal yn ei le ef; a phob un na chydsyniai a gollai ei ben. Llwyddodd y ddyfais; ac am ddeng mlynedd bu Arthal yn teyrnasu yn ddoeth ac uniawn. Yna dychwelodd Elidr eilwaith i'r llywodraeth; ond yn mhen tair blynedd, cynnullodd ei ddau frawd eraill, Owain a Pheredur, fyddin gref i'w erbyn; a chan ei orchfygu, cadwasant ef yn garcharor am flynyddau lawer. Pan fuont hwythau feirw, dyrchafwyd ef y drydedd waith i awdurdod; a'r waith hon, teyrnasodd am un mlynedd ar hugain.

ELIFER GOSGORDDFAWR. Mab Arthwys ab Môr ab Morydd, oedd benaeth enwog a flodeuodd yn y bummed ganrif. Brodyr iddo oedd Coel a Phabo. Priododd Eurddyl, chwaer Urien Rheged.

ELIOT, GEORGE:—enw llenyddol ar MARY ANNE EVANS, un o nofelwyr penaf Prydain; yr hon a adnabyddir yn fwyaf cyffredin fel awdwr y ffug-chwedl odidog, *Adam Bede*. Ganwyd hi Tachwedd 22ain, 1819. Ei henw bedydd, fel y nodwyd, oedd Mary Anne Evans; ond fel rheol, llawnodai ef yn Marian Evans. Merch ieuengaf oedd hi o ail wraig Mr. Robert Evans, goruchwyliwr tirol yn swydd Warwick—dyn o gymmeriad neillduol; prif nodweddion yr hwn a drosglwyddwyd yn feistrolgar gan ei ferch alluog i'r nofel a enwyd yn nghymmeriad y gwron, Adam Bede: ac mewn chwedl arall, o'r enw *Middlemarch*, yn mherson Caleb Garth. Bu Mr. Evans farw, modd bynag, rai blynyddoedd cyn ymddangosiad y nofelau uchod; ac yn wir, cyn cyhoeddiad y gyntaf o gyfansoddiadau ei ferch, fel na chafodd efe gyfleusdra i wybod ond ychydig am nerth anghymmharol ei hathrylith. Treuliodd Miss Evans flynyddoedd boreu ei hoes mewn annedd-dŷ o'r enw Griff, ar dir meistr ei thad; ac y mae y cyfnod pwysig hwn ar ei hoes wedi ei bortrëadu yn feistrolgar yn un o'i nofelau mwynaf ei ysbryd—*The Mill on the Floss*. Rhwng yr oedran o bump a naw ml. oed, bu mewn ysgol yn Attleboro. Oddi yno, aeth i ysgol arall yn Nuneaton; ac wedi hyny i ysgol a gedwid gan un o'r enw Miss Franklin, yn Coventry. Collodd ei mam yn y fl. 1836, a'i chwaer y flwyddyn ddilynol; ac o'r amser yna yn mlaen, disgynodd gofal tŷ ei thad ar Miss Evans. Y pryd hwn, deuai athraw o Coventry i ddysgu iddi yr Ellmynaeg a'r Eidalaeg, ac un arall i'w dysgu yn egwyddorion cerddoriaeth. Heb law talu sylw dyladwy i'r canghenau hyn o addysg, yr oedd hi yn un a ddarllenai lawer ar bob math o byngciau—ac nid darllen yn arwynebol, ond darllen yn y fath fodd fel yr oedd y cwbl yn dylanwadu arni, ac yn ddiwylliant i'w meddwl. Yn y cyfnod hwn, hi a deimlodd lawer o bryder ynghylch materion crefyddol:—canlyniad yr hyn fu iddi wrthod rhoddi ei phresennoldeb yn yr eglwys. Yr oedd hi yn hollol gydwybodol yn ei gwrthwynebiad; ond rhag peri blinder a phryder i'w thad, hi a aeth i'r eglwys ar ol hyny, er na ddarfu iddi roddi i fyny y golygiadau a ddylanwodd arni.

Yn nechreu y flwyddyn 1844, hi a ymgymmerodd â chyfieithu *Leben Jesu*, o waith yr awdwr Germanaidd Strauss, yr hwn orchwyl a ddechreuwyd gan foneddiges arall, o'r enw Mrs. Charles Hennell. Llafuriodd Miss Evans yn galed ar y gwaith hwn hyd ei gyhoeddiad yn 1846. Cyflawnodd ei gorchwyl mewn modd ysgolheigaidd; ac anhawdd fuasai gwella y cyfieithiad. Yn ddiweddarach, hi a gyfieithodd *Tractatus Theologico-Politicus*, o waith Spinoza; ac ar ol hyny ei *Ethics*. Ar y dydd olaf yn Mai, 1849, bu ei thad farw; ac yn fuan wedi hyny, aeth hithau, a chydnabod iddi, ar daith i Geneva—lle yr arosodd am rai misoedd. Ar ei dychweliad i Lundain, yn Mawrth, 1850, hi a ddechreuodd ysgrifenu i'r *Westminster Review*; i'r hwn, y flwyddyn ddilynol, y gwnaed hi yn olygydd cynnorthwyol. Llettyai yn y Strand; a daeth yn un o aelodau pwysicaf a mwyaf adnabyddus y cylch hwnw o lenorion, i'r hwn y perthynai Mr. Herbert Spencer, a Mr. G. H. Lewes. Tua'r adeg yma y cyfieithodd *Essence of Christianity*, o waith Feuerbach—yr unig lyfr y gosododd hi ei henw gwirioneddol wrtho.

Yn y cyfamser, cynnyddodd ei chyfathrach â Mr. Lewes; ac yn 1854, hi a ffurfiodd gyssylltiad ag ef, yr hwn a barhaodd hyd ei farwolaeth yn 1878. Ystyrir y cyssylltiad hwn yn brif gamgymmeriad ei bywyd. Yn Tachwedd, 1856, pan yn 37ain mlwydd oed, hi a ddechreuodd ysgrifenu ei nofel gyntaf, *The Sad Fortunes of the Rev. Amos Barton*. Hon oedd y gyntaf o'r gyfres hono o chwedlau a elwid yn *Scenes of Clerical Life*. Ymddangosodd y rhan gyntaf yn *Blackwood's Magazine* am Ionawr, 1857. Parodd ymddangosiad y gwaith hwn i lenorion y deyrnas gydnabod fod llenor o allu anghyffredin wedi codi yn y wlad; ac nid ychydig oedd y dyddordeb a ffynai yn eu mysg am wybod pwy ydoedd. Dilynwyd y chwedl uchod gan ddwy arall—*Mr. Gilfil's Love Story*, a *Janet's Repentance*. Yn 1858, ysgrifenodd *Adam Bede*; yr hon, pan gyhoeddwyd hi, a yrodd lenorion y deyrnas i ddyfalu pwy oedd yr awdwr athrylithgar. Bu llwyddiant anghyffredin ar y ffug-chwedl odidog hon. Er ei gofid, canfyddodd 'George Eliot'—y ffug-enw dan yr hwn y cyhoeddwyd y chwedl—fod gŵr o'r enw Mr. Liggings, a breswyliai yn yr un gymmydogaeth a hi, yn hawlio yr awduriaeth. Bu dadleuon poeth yn ngholofnau y *Times* ar hyn; ac oni bae am ymyriad Mr. Blackwood, sef cyhoeddwr y chwedl, i Mr. Liggins y rhoddasid y clod oedd yn ddyledus i Miss Evans. Ar ol *Adam Bede*, cyhoeddwyd ei chwedlau adnabyddus eraill:—*The Mill on the Floss; Silas Marner; Romola*; a *Felix Holt*:—yr olaf o'r rhai a ymddangosodd yn 1866. Yn mhen dwy flynedd i hyn, ymddangosodd ei darn barddonol cyntaf, *The Spanish Gipsy*; yr hwn a ddilynwyd gan *Agatha*, *The Legend of Jubal*, a'r *Armgart*. Yn 1871, cyhoeddwyd y rhan gyntaf o *Middlemarch*—ei gwaith pwysicaf, yn marn amryw o'r prif feirniaid. Yn 1876, cyhoeddwyd *Daniel Deronda*: ac wedi hyny *Impressions of Theophrastus Such*. Ar ol

Digitized by Google

marwolaeth Mr. Lewes yn 1878, hi a briododd Mr. John Cross yn mis Mai, 1880. Byr, fodd bynag, fu parhâd eu bywyd priodasol; o blegid bu George Eliot farw yn Chelsea, ar Rhagfyr 22ain, yr un flwyddyn.

Y mae cymmeriad George Eliot fel nofelydd yn uchel ac yn adnabyddus yn mhob gwlad; a rhestrir hi yn mysg y goreuon a welodd Prydain erioed. Nid oes dim yn holl lenyddiaeth y ganrif a ragora, meddir, ar ei disgrifiadau, neu y darluniadau a rydd yn ei gweithiau o amaethwyr, a masnachwyr, a'r dosbarthiadau canol yn siroedd canolbarthol Lloegr. Y mae y darluniadau hyn yn gydradd, o ran teilyngdod, â disgrifiad yr enwog Syr Walter Scott o fywyd Ysgotiaid ei oes ef.

ELIS AP ELIS:—bardd, a chlerigwr, a drigianodd yn Llandrillo, rhwng 1580 a 1620. Efe oedd awdwr 'Cywydd i'r Arian,' a gyhoeddwyd yn y *Gwladgarwr;* a cheir chwaneg o'i gyfansoddiadau yn y *Blodeugerdd.*

ELIS, SION SIAMS. Telynor o fri, o Lanfachreth, yn Meirionydd; ac un oedd yn byw yn yr ail ganrif ar bymtheg. Bu i'w glod ef fel telynor fod yn achos o doriad calon i Rhisiart Elis—telynor arall o enwogrwydd mawr. Dywedir fod Elis Siôn Siâms wedi cael ei bennodi yn delynor i'r frenhines Anne.

ELMUR:—bardd, a flodeuodd yn y chweched ganrif, ac a restrir yn y *Trioedd* gydag Afäon ab Taliesin, a Chynfal ab Argad, fel 'tri Tharw Unben Ynys Prydain.'

ELUNED—yr hon, weithiau, a elwid LUNED, oedd foneddiges ieuangc nodedig am ei thlysni; ac yn un a flodeuai yn y chweched ganrif. Ei modrwy oedd un o dri thlws ar ddeg Ynys Prydain. Crybwyllir am dani yn y *Mabinogion* wrth yr enw 'Iarlles y Ffynnon;' a chyfeirid at ei hawddgarwch yn lled fynych gan feirdd y canol-oesoedd. Yn y rhamantau Ffrengig, gelwir hi 'Lunette.'

ELYSTAN GLODRUDD:—mab Cuhelyn ab Iarddur, o'i wraig Rhieingar, merch ac etifeddes Goronw ab Tudur Trefor. Daeth Elystan yn benaeth un o lwythau breiniol Cymru, ac yn dywysog ar y tiriogaethau a elwid Fferlys, rhwng yr Hafren a'r Wy, yn y ddegfed ganrif. Priododd Gwenllian, merch Hywel Dda, o'r hon y ganwyd iddo fab, o'r enw Cadwgan; yr hwn, hefyd, a ddaeth yn dad i lawer o feibion a merched enwog. Rhestrir ef yn y *Trioedd* gyda Morgan, Mwynfawr, a Gwaethfod, i wneyd 'tri Hualogion Teyrnedd;' hyny yw, tywysogion a wisgent gylchau am eu harleisiau, yn lle coronau, yn ol arfer hen frenhinoedd Prydain. Derbyniodd Elystan ei enw oddi wrth Athelstan, brenin Lloegr; yr hwn oedd ei dad bedydd.

ELLDEYRN:—mab i Gwrtheyrn, a sant a flodeuodd yn y bummed ganrif. Efe ydoedd sefydlydd eglwys Llanelldeyrn, neu Lanilltern, yn Morganwg.

ELLIS, JOHN GRIFFITH:—gŵr a argyhoeddwyd dan weinidogaeth yr enwog Howel Harris; ac a ddaeth wedi hyny yn un o bregethwyr enwocaf y Methodistiaid yn sir Gaernarfon. Dywed y Parch. Robert Jones, Rhoslan, am dano, 'na chynnysgaeddwyd neb yn Ngwynedd, yn moreu y diwygiad, â'r fath gyflawnder o ddoniau goleu, iraidd, a gwlithog ag efe. Yr oedd Gogledd a De yn sychedu am ei weinidogaeth.' Sonid am flynyddoedd am bregeth o'i eiddo yn Nghymdeithasfa y Bala, ar y geiriau hyn—'Deffro, gleddyf, yn erbyn fy mugail,' &c. Teimlodd y gynnulleidfa mewn modd arbenig o dan eneiniad y weinidogaeth; ac yr oedd yntau ei hun, gan rym yr ysbrydoliad, wedi llesmeirio. Yn niwedd ei oes ddefnyddiol, torodd cwmwl tywyll dros ei fywyd:—aeth yn ysglyfaeth i'r ddiod feddwol am dymmor. Yn ffodus, modd bynag, ymryddhaodd oddi wrth ei llyffetheiriau gryn amser cyn ei farwolaeth; ac er iddo gael ei adfer i'w le a'i swydd, ni bu y cyffelyb arddeliad arno byth ar ol hyny.

ELLIS, HUW. Brodor oedd efe o Drawsfynydd; ac yn ei amser, yr oedd yn enwog fel cerddor.

ELLIS, HUW:—un arall o frodorion Trawsfynydd, a chwareuydd rhagorol ar y delyn. Claddwyd ef yn mynwent eglwys Towyn, sir Feirionydd.

ELLIS, DAVID, o'r Nanney. Efe a hanodd o deulu y Gwynfryn, yn Eifionydd. Yr oedd yn ddadleuydd yn y gyfraith, ac yn gyfreithiwr cyffredinol ar gylchdaith Gogledd Cymru. Bu farw Mehefin 15fed, 1819, yn 60ain oed.

ELLIS, PARCH. JAMES. Mab oedd efe i Syr Ap Owen, neu Bowen, o'r Pentre Ifan, yn sir Benfro. Bu yn dal prebendiaeth Peterborough, ac yn glerigwr Llanfwrog a Llandwrog. Tybir iddo farw yn 1596.

ELLIS, JOHN, ABERMAW. Genedigol oedd efe o blwyf Ysbytty, yn sir Ddinbych, ond a ddygwyd i fyny yn mhentref Capel Garmon. Yr oedd oferedd a llygredigaethau o bob natur yn uchel iawn eu pen yn y dyddiau hyny; a magwyd yntau yn eu canol. Pan yr oedd tua deuddeg oed, cafodd ychydig o ysgol; ac wedi hyny, dechreuodd ddysgu crefft cylchwr gydag ewythr iddo. Tra yn Llanrwst, yn perffeithio ei hun yn ei alwedigaeth, aeth i wrandaw un Robert Evans yn pregethu; yr hyn a dueddodd ei feddwl ef i wrandaw yr efengyl yn fwy cysson. Symmudodd o Lanrwst i Ffestiniog, i weithio; ac yno bu yn dilyn pob math o arferion drygionus gyda'r anystyriaeth mwyaf. Sobrwyd ef i raddau eilwaith gan bregethiad y Gair. Cawn ef yn nesaf yn gweithio am dymmor gyda chylchwr yn Llanbrynmair; ac yn fuan wedi iddo gyrhaedd yno, ymunodd â'r gymdeithas grefyddol a berthynai i'r Methodistiaid Calvinaidd. Yr oedd cyflwr ei enaid erbyn hyn yn peri gofid a phryder mawr iddo—gwelai ei hun mewn argyfwng tywyll ac anobeithiol iawn; ond dan weinidogaeth y duwiol Richard Tibbot, llewyrchodd pelydrau o oleuni ar ei feddwl:—yr hyn a barodd gysur mawr iddo. Wedi priodi gyda merch ieuangc rinweddol o'r un eglwys ag ef, symmudodd yn ol i Lanrwst, ac oddi yno i Ffestiniog. Tra yno, annogwyd ef i fyned i gadw ysgol râd deithiol, dan ofal y Parch. Thomas Charles, o'r Bala. Trodd allan yn fwy llwyddiannus yn y cymmeriad o athraw nag y disgwyliasid iddo; ac yn y cymmydog-

Digitized by Google

aethau lle y bu yn dysgu, bu ei goffawdwriaeth yn anwyl am flynyddoedd lawer. Ymunodd llawer o fechgyn ieuaingc penrhydd â chrefydd mewn canlyniad i'r argraphiadau a wnaed ar eu meddwl gan John Ellis. Nid yn hir wedi dechreu addysgu y bu efe cyn cael ei annog i gynghori yn gyhoeddus. Yn fuan, rhoddodd yr ysgol i fyny yn llwyr, gan ymroddi i bregethu y Gair gyda ffyddlondeb ac arddeliad mawr. Bu yn pregethu yn ddyfal trwy holl barthau y Deheudir a Gwynedd, hyd adeg ei ymddattodiad. Yr oedd yn ŵr goleu yn yr Ysgrythyrau, cadarn mewn gras, ac yn ŵr ysbrydol o ran ei brofiad a'i ymarweddiad. Bu farw yn Awst, 1810, yn 52ain mlwydd oedd, a chladdwyd ef yn mynwent Llanaber. Gwnaeth waith da mewn cyfwng pan yr oedd crefydd yn hynod o isel yn y wlad.

ELLIS, Parch. JOHN. Mab i Mr. Ellis, o'r Glasfryn, yn sir Feirionydd, oedd: a phrebend Llanfair, ger Harlech. Yr oedd ei fam yn chwaer i'r Esgob Humphrey. Wedi graddio yn D.D. yn Rhydychain, pennodwyd ef, yn Medi, 1710, i fywoliaeth Llandwrog, yn sir Gaernarfon. Yr oedd, hefyd, yn barson Llanbedr Arllechwedd, ac yn archddiacon Meirionydd. Yr oedd iddo enw uchel fel hynafiaethydd; a chynnorthwyodd Brown Wilis yn ei ymchwiliad i hynafiaethau côr eglwys Bangor.

ELLIS, Parch. JOHN, D.D. Ganwyd ef yn Llandecwyn, sir Feirionydd, yn 1599; a daeth yn dduwinydd ac awdwr dysgedig. Ennillodd ei radd o M.A. yn 1625; ac etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg Iesu, Rhydychain. Graddiwyd ef yn D.D. gan Brifysgol St. Andrew, yn Ysgotland, yn 1634; a rhoddwyd yr un gradd iddo gan Brifysgol Rhydychain. Bu yn dal rheithoriaeth Whitfield, ger Rhydychain; o'r hon y symmudwyd ef i fywoliaeth Dolgellau, yr hon a ddaliodd hyd ei farwolaeth, yn 1665. Ysgrifenodd amryw lyfrau galluog yn Lladin, gyda'r teitlau cyfieithiedig canlynol:—*Allwedd y Ffydd, Esboniad ar Brophwydoliaeth Obadiah, Diffyniad i Ffydd yr Eglwys Brydeinig*, a *Hawliau Eglwys Loegr i ymneillduo oddi wrth Eglwys Rhufain*. Tua'r fl. 1665, sefydlodd ysgol rammadegol yn Nolgellau, gan ei gwaddoli â fferm o'r enw Pen-y-bryn, yn mhlwyf Llanaber.

ELLIS, Parch. JOHN, D. D. Ganwyd ef yn Ystumllyn, yn sir Gaernarfon; ac wedi iddo gymmeryd graddau colegawl, a derbyn urddau eglwysig, pennodwyd ef i fywoliaeth Llanddyfnan, yn Môn. Yn 1678, gwnaed ef yn gorydd yn Nhŷ Ddewi, ac yn ganghellydd yn Llanelwy. Bu hefyd yn meddu parsonoliaeth Llanfor, ger y Bala. Bu farw yn y flwyddyn 1693, yn 55ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn eglwys St. Chad, yn yr Amwythig. Ei wraig oedd Catrin Williams, o'r Bodlew, yn Lleyn.

ELLIS, Parch. THOMAS. Ganwyd ef yn Dolbenmaen, yn sir Gaernarfon, yn 1625. Mab ydoedd i Griffith Ellis, o'r lle hwnw; a thyfodd i fyny yn hynafiaethydd, ac ysgolhaig galluog. Graddiodd yn y celfyddydau yn Rhydychain, yn 1644; a thua'r un amser, ymunodd â phlaid y brenin yn y Rhyfel Gartrefol. Trwy ymostwng i'r Werin-lywodraeth ar ol hyn, cadwodd yr urddau a roddasid iddo. Pennodwyd ef yn athraw yn ei goleg, gwnaed ef yn gymmrawd o hono, a rhoddwyd iddo y gradd o feistr yn y celfyddydau. Arosodd yn y coleg hyd 1665; pryd y pennodwyd ef i fywoliaeth Dolgellau, ar farwolaeth ei berthynas, Dr. John Ellis. Yr oedd o syniadau ëang, gyda thuedd arbenig ei feddwl at hanesiaeth Brydeinig, a hynafiaethau Cymreig. Efe, ar gais Robert Vaughan, o'r Hengwrt, a olygodd yr ail argraphiad o waith y Dr. Powell, a elwid *The History of Cambria, now called Wales*. Dechreuwyd argraphu y gwaith yn Rhydychain, yn 1663; ond attaliwyd hyny pan oedd tua 128 o dudalenau wedi eu hargraphu. Y rheswm am hyn ydoedd, cyhoeddiad y *Cambrian Triumphans* gan Percy Euderbie; ond dywedir nad oedd hwn i'w gymmharu mewn un modd â'r gwaith a attaliwyd. Bu Thomas Ellis farw yn Dolbenmaen, yn y fl. 1673.

ELLYW—yr hon hefyd a elwid Elyw—oedd ŵyres, meddir, i Brychan. Blodeuai yn y bummed ganrif. Dywedir mai hi sefydlodd eglwysydd Llanelien a Llanelli, yn Morganwg; ac a roddodd yr enw, hefyd, i Lanelli, yn sir Gaerfyrddin.

EMERCHROD. Gwraig Mabon ab Dewain Hen oedd hi, ac un o dair 'Diweirwraig Ynys Prydain.' Y ddwy eraill oeddynt Arddun ac Esiliau.

EMERSON, RALPH WALDO. Bardd, a thraethodwr enwog, a anwyd yn Boston, Unol Dalaethau yr America, Mai 25ain, 1803. Disgynodd o rïeni parchus a galluog; a chollodd ei dad pan oedd yn chwe blwydd oed. Gwnaeth gymmaint o gynnydd yn yr ysgol fel yr oedd, pan yn ddeng mlwydd oed, yn cyfieithu gwaith Virgil i'r Saesneg. Meistrolodd yr ieithoedd Groeg a Lladin yn drwyadl; ond nis gellir ystyried ei gwrs colegawl yn ddisgleiriach na'r cyffredin o'r gŵyr ieuaingc a gydefrydent âg ef. Rhoddodd arwyddion yn lled gynnar ei fod yn wir fardd. Wedi bod am gryn amser yn cadw ysgol, dechreuodd 'bregethu ar brawf,' tua'r flwyddyn 1826; ac yn Mawrth, 1829, ymsefydlodd fel cyd-weinidog â'r Parch. Henry Ware, bugail yr Ail Eglwys yn Boston. Yn 1832, traddododd bregeth ar 'Swper yr Arglwydd' a ennynodd anghymmeradwyaeth mwyafrif o aelodau yr eglwys o herwydd y syniadau a gynnwysai. Rhoddodd hyn derfyn ar eu cyssylltiadau â'u gilydd, a bu gorfod arno yntau chwilio am faes newydd i lafurio ynddo.

Yn 1833, talodd ei ymweliad cyntaf âg Ewrop; ac y mae hanes y daith hon wedi ei chorphori ganddo yn y gwaith a elwir *English Traits*. Ar ei ddychweliad, pregethodd mewn amryw bulpudau, a dechreuodd draddodi darlithiau, ac ysgrifenu traethodau. Ac er mai ychydig o wybodaeth a feddai am byngciau gwyddonol, ac mai fel bardd ac athronydd y rhagorai efe, etto, yn mysg y materion yr ysgrifenodd ac y darlithiodd arnynt, ceir 'Dwfr,' a 'Pherthynas Dyn â'r Belen Ddaearol.' Ei amcan mawr, y pryd hwnw, oedd casglu arian; a dewisai y cyfryw byngciau yn destynau ei ddarlithiau ag a ennynent chwilfrydedd yn y cyhoedd. Yn ddilynol, cymmerodd destynau oeddynt yn fwy cydnaws â'i chwaeth—Michael Angelo, Milton, Luther, George Fox, Edmund Burke, &c. Traddododd lawer o ddarlithiau

Digitized by Google

yn Boston ar y pyngciau a nodwyd; ac hefyd ar lenyddiaeth Saesnig, athroniaeth hanes, a phyngciau eraill tebyg. Yn ystod ei ymweliad cyntaf âg Ewrop, daeth Emerson i gydnabyddiaeth â Carlyle. Digwyddodd hyny yn 1833; a'r flwyddyn ddilynol, dechreuwyd gohebiaeth rhyngddynt a barhaodd am ysbaid o ddeugain mlynedd. Y mae yr ohebiaeth hon, a olygwyd ac a drefnwyd gan y Proffeswr Norton, yn dwyn i'r amlwg brif neillduolion cymmeriad y ddau athronydd; ac o herwydd hyny, ystyrir hi yn gyfrol wir werthfawr yn mysg y dosbarth hwnw o lenyddiaeth a ddygwyd i fod gan Emerson a Carlyle eu hunain, neu y cyfryw ag y buont hwy yn achlysur o'i hysgrifenu.

Yn 1836, ymddangosodd cyfrol yn dwyn y teitl *Nature;* yr hon, er wedi ei chyhoeddi yn ddi-enw, oedd yn dwyn delw Emerson ar bob tudalen o honi. Ychydig a ddarllenwyd ar y gyfrol hon, ac ychydig oedd y rhai a'i deallai; ond yr oedd hi yn llawn o feddwl, ac yn un a barai fwyniant mawr i edmygwyr yr awdwr. Yna, dilynwyd yr uchod gan ei *The American Scholar*—arawd a draddododd efe o flaen un o gymdeithasau Prifysgol Harvard: ac ychydig o'r arawdiau blynyddol a dynodd fwy o sylw na'r uchod. Dywed Mr. Lowell fod ei thraddodiad yn ddigwyddiad nad oedd hafal iddo yn hanes llenyddiaeth y Talaethau yn flaenorol i hyny. Tracthawd arall a gyhoeddwyd ganddo oedd *Divinity School Address;* cynnwys yr hwn yn gyntaf a draddodwyd ganddo ger bron y dosbarth hynaf yn Ngholeg Duwinyddol Cambridge, yn Ngorphenaf, 1838. Yn hwn, deffiniai ei sefyllfa o fewn, neu ynte oddi allan i'r eglwys y bu gynt yn weinidog ynddi. Achoswyd dadleu mawr gan ymddangosiad y traethawd hwn yn mysg dysgedigion; ond ni chymmerai Emerson ei hun un sylw o'r dadleuon hyny. Y mae ei holl weithiau casgledig yn llenwi un-ar-ddeg o gyfrolau. Dyma eu teitlau:—cyf. 1af, *Nature; Addresses and Lectures;* cyf. 2il a 3ydd, *Essays;* cyf. 4ydd, *Representative Men;* cyf. 5ed, *English Traits;* cyf. 6ed, *The Conduct of Life;* cyf. 7fed, *Society and Solitude;* cyf. 8fed, *Letters and Social Aims;* cyf. 9fed, *Poems;* cyf. 10fed, *Lectures and Biographical Sketches;* a chyf. 11eg, *Miscellanies.* Nid yw y teitlau uchod yn cyfleu ond syniad ammherffaith iawn o gynnwysiad y gwahanol gyfrolau. Dywedir y gellid tynu eu dalenau oddi wrth eu gilydd, eu hysgwyd mewn basged, ac yna eu dodi wrth eu gilydd drachefn ar antur mewn amrywiol ffyrdd; ac y byddai iddynt felly ddarllen yr un mor naturiol, ystwyth, a chysson. Y darn barddonol diweddaf a ysgrifenwyd ganddo ydoedd *Terminus*—math o gân ffarwel i'w fywyd llenyddol. Nid yw ei farddoniaeth yn boblogaidd, ac ni fwriadwyd iddynt fod felly yn ystyr ëang y gair; ond y maent yn gyfryw, o ran cyfoeth drychfeddyliau, fel ag i'w gwneyd yn dra gwerthfawr yn ngolwg yr ychydig. Os darllenir ei ganeuon—*The Problem, Fate*, a *Days*, a'u darllen yn ystyriol, prin y gall y darllenydd eu hanghofio wedi hyny.

Nid oedd efe yn llai enwog fel traethodwr nag fel bardd. Y mae ei draethodau a'i ddarlithiau yn gynnwysfawr o ddoeth ddywediadau, sylwadau craff, a syniadau prydferth a chyfoethog o feddwl. Nodweddir ei holl weithiau âg amcan aruchel; ac nis gallant lai na chario dylanwad mawr er daioni ar y sawl a'u darllenant gydag ystyriaeth ddyladwy.

Ysgrifenwyd llawer am dano yn ystod ei fywyd, ac ar ol ei farw, yn cynnwys ei fywgraphiad; a sylwadau ar ei ysgrifeniadau, a'i athroniaeth, &c.—yn y rhai y gosodir ef allan fel un o ddynion enwocaf ei oes.

Bu farw yn Concord, Massachusetts, Ebrill 27ain, 1882.

EMRYS WLEDIG—yr hwn a elwir AMBROSIUS AURELIUS, AMBROSIUS AURELIANUS, ac AURELIUS AMBROSIUS—oedd un o'r mân frenhinoedd a gyfododd yn Mhrydain wedi ymadawiad y Rhufeiniaid. Dywed Bede am dano, ei fod yn ddyn gwylaidd; 'yr hwn yn unig o'r genedl Rufeinig, drwy ffawd, a orfucheddodd yr ystorm—yn yr hon y ddyfethwyd ei rïeni, y rhai oeddynt o'r llinach frenhinol.' Geilw Nennius ef 'y brenin mawr yn mysg brenhinoedd Prydain;' a chrybwylla am ymrafael fu rhwng Ambrosius a Guitolinus. Y mae yr holl gyfeiriadau uchod at Emrys yn cyttuno mai fel Rhufeinwr yr edrychodd y Prydeiniaid arno. Dywed Whitaker mai hanner Rhufeinwr oedd efe—ei fod yn fab i frenin y Damnonwys, prif ddinas pa rai oedd *Isca Damnoniorum;* yr hon, fel y tybir, yw Exeter bresennol: felly, yr oedd yn naturiol iddo fod yn deyrngarol i'r Rhufeiniaid. Wrth wasanaethu i'w lles yn yr ynys hon, ymrafaeliodd â Gwrtheyrn; yr hwn oedd yn frenin y Dimetwys. Anhawdd ydyw credu yr hyn oll a ddywedir am Emrys gan Sieffre o Fynwy. Dywed efe, mai mab oedd i Cystenyn Fendigaid, a brawd i Uthr Pendragon; ac iddo ef a'i frawd, pan yn eu babandod, gael eu gyru am noddfa i Lydaw, rhag llid Gwrtheyrn; ac iddo gael ei addysg yno yn llys ei ewythr, Aldroen, brenin Llydaw. Yna, fod Aldroen wedi ei anfon drosodd, ar gais y Prydeiniaid, gyda deng mil o wŷr, i'w cynnorthwyo yn erbyn y Saeson a wahoddid gan Gwrtheyrn i Brydain. Dywed Sieffre yn mhellach, ddarfod iddynt, wedi llwyddo yn hyny, orfodi Gwrtheyrn i roddi i Aldroen hanner ei deyrnas; ac yn mhen ryw ysbaid wedi hyny, ar ol i Gwrtheyrn golli ei fywyd yn y fflamau, wrth ymguddio mewn rhyw gastell yn Nghymru, iddynt ei ethol yn frenin cyffredinol ar yr holl ynys—pan y gwisgodd y porphor ymherodrol, yn ol dull ymherawdwyr Rhufain, ac y cyflawnodd orchestion lawer; yn mhlith pa rai y mae adeiladau Cor Gawr (*Stonehenge*), a elwir yn gyffredin 'Gwaith Emrys,' er coffadwriaeth am 'Frâd y Cyllyll Hirion.' Ond llwyddodd Pasgen, un o feibion Gwrtheyrn, i roddi gwenwyn iddo, trwy ryw Eopa (Sais), pan oedd efe yn glaf yn Nghaerwynt (Winchester); ac mai felly y bu farw, ac y cafodd y Saeson feddiant o Ynys Prydain. Dyna'r hanes anhygoel a rydd Sieffre am dano.

EMYR LLYDAW:—tywysog yn Llydaw, oedd yn byw yn y bummed ganrif, âg enw yr hwn y cyfarfyddir yn fynych mewn cyssylltiad âg Achau y Seintiau Cymreig. Dywed rhai o'r haneswyr mai enw swyddol oedd hwn ar benaethiaid Llydaw, fel yr oedd Pharaoh yn enw ar lywodraethwyr yr Aipht. Ymddengys fod yr Emyr hwn yn nai i Garmon Sant; ac i lawer o'i blant ddyfod drosodd i Gymru, gan ymenwogi fel sefydlwyr eglwysydd, a noddwyr i grefydd yn y wlad.

ENID. Merch ydoedd hi i Yniwl Iarll; a rhestrir hi, gyda dwy eraill, fel 'tair gwenrian

Digitized by Google

llys Arthur.' Priododd Geraint ab Erbin; a hi ydyw arwres y fabinogi a geir ar yr enw hwn. Crybwyllir ei henw yn fynych gan feirdd y canol-oesoedd; a theimlai Dafydd ab Gwilym ei fod yn talu teyrnged uchel i'w Forfydd wrth ei galw yn 'ail Enid.'

ERBIN, neu ERBYF, ydoedd fab i Cystenyn Gorneu; tywysog oedd yn byw yn Nyfnaint yn y bummed ganrif. Mab iddo oedd yr enwog Geraint ab Erbyn. Cyfarfyddir â'i enw yn lled fynych yn mhlith y seintiau Cymreig.

ESSYLLT. Merch Cynan Tindaethwy; yr hon a briododd Merfyn Frych, a thrwy hawl yr hon y daeth efe i feddiant o orsedd Gwynedd yn 817. Yn Essyllt, dywedir i frenhiniaeth Prydain, am y drydedd waith, gael ei throsglwyddo i'r gŵr yn rhinwedd y wraig.

ESSYLLT. Dywedir, yn *Mrut Tysilio*, mai merch ydoedd hi i frenin Germania, a ladrataodd Hymyr, pan yn anrheithio y wlad hono. Daeth â hi gydag ef pan yr ymosododd, gyda llu mawr, ar dueddau gogledd-ddwyreiniol Ynys Prydain. Arfogodd Llocrinwys yn ei erbyn, a bu brwydr gelaneddol rhyngddynt; yn yr hon y lladdwyd Hymyr, ac y bwriwyd ei gorph i'r afon—a elwir oddi wrth hyny, Humber. Yna Locrinwys a gymmerth Essyllt yn gariad-wraig, 'a gwynach oedd ei chnawd na'r eira gwynaf, neu alarch, neu asgwrn morfil.' Dirgelodd hi am saith mlynedd; ac yna, rhoddodd ymaith ei briod-wraig, Gwendolen, ac a wnaeth Essyllt yn frenhines yn ei lle. Cynddeiriogodd hyn y frenhines ddiystyredig, a chynnullodd lu mawr i ddial ei cham; y rhai a gyfarfuant lu y brenin mewn brwydr greulawn ar fin afon, a elwid Fyrran, lle y lladdodd Gwendolen Locrinwys trwy ei daraw â saeth yn ei dalcen. Yna, hi a archodd fod Essyllt yn cael ei chymmeryd, a merch iddi o Locrinwys, o'r enw Hafren, a'u bwrw i'r afon, a elwid oddi ar hyny Hafren. Y parthau cyffiniol, hefyd, a elwid Bro Essyllt, Essylltwg, a Syllyr (Siluria).' Dyna fel y mae *Brut Tysilio* yn rhoddi hanes Essyllt.

ESSYLLT FYNGWEN. Merch Culfynawyd Prydain oedd, yn ol un awdurdod; ond merch March ab Meirchion, yn ol awdurdod arall. Rhestrir hi, gyda dwy eraill, fel 'tair anniweirwraig Ynys Prydain.' Yn ei *Mythology of the Druids*, dywed Davies nad yw hi ddim amgen na pherson ffugiol—yr un ag Ysnode, gwraig Syr Tristan, yn yr hen chwedlau Arthuraidd.

EUDAF, neu OCTAVIUS. Yn ol *Brut Tysilio*, efe oedd Iarll Ergyng ac Euas, ac a gymmerodd feddiant o goron Prydain yn absennoldeb Trahaiarn, pan yr oedd efe mewn rhyfelgyrch yn Rhufain. Prin y gellir credu yr hanes a rydd y *Brut* am dano yn ei holl fanylion.

EULAD. Tywysog oedd efe a flodeuai yn y chweched ganrif. Cymmerodd ran yn mrwydr ofnadwy a gwaedlyd Cattraeth.

EUNYDD. Penaeth un o Bymtheg Llwyth Gwynedd; yr hwn oedd yn berchenog ar diriogaeth ëang yn sir Ddinbych. Yr oedd yn fab i Morien ab Morgeneu, o Gwenllian, merch Rhys ab Marchan, ac aeres Dyffryn Clwyd. Blodeuodd rhwng y blynyddoedd 1050 ac 1100.

EURDDYL. Merch ydoedd hi i Cynfarch Hen, a gwraig i Elifer Gosgorddfawr. Ganwyd iddi dri o feibion ar un enedigaeth; yr hyn a elwir yn y *Trioedd* yn 'dair gwyn dorllwyth Ynys Prydain.'

EURONWY. Merch Clydno Eiddyn, yr hon oedd yn enwog am ei thegwch. Yr oedd hi yn byw yn y chweched ganrif.

EVANS, ARISE. Dewin o gryn enwogrwydd oedd efe, a flodeuodd yn amser y frenhines Elizabeth. Bernir yn gyffredin ei fod yn enedigol o sir Faesyfed. Ceir darlun o hono yn yr *Antiquarian Repertory*; ac y mae y darlun hwn yn cyfatteb yn hynod i'r portrëad a roddwyd o'r dewin gan ei ddysgybl, William Lily. Yr oedd yn meddu talcen llydan, ysgwyddau uchel, trwyn ysmwt, gwefiau trymion, golwg guchiog, gwallt du rhawniog, a thraed anffurfiol. Ennillodd lawer o enwogrwydd fel un gwybodus iawn yn nghyfrinion y 'gelfyddyd ddu' o ddewinio.

EVANS, ARTHUR, o Gydweli. Ganwyd ef Ionawr 20fed, 1826, yn y Felin newydd, plwyf Moat, sir Benfro. Yr oedd ei dad, Sem Evans, panwr wrth ei alwedigaeth, yn fab i'r Parch. Arthur Evans, o Gynwil, a'i fam yn frodor o sir Frycheiniog. Ganwyd iddynt dri o blant —Mary, Arthur, a William. Yn y fl. 1828, pan nad oedd Arthur, yr ail blentyn, namyn dwy flwydd a hanner oed, bu farw y tad; ac yn mhen ysbaid o amser, heb fod yn faith iawn, priododd y fam yr ail waith. O herwydd nad oedd y plant yn hoff o'u llysdad, eu modryb, chwaer eu tad, a gymmerodd y ddau hynaf o honynt ati ei hun, i Danallt-y-gôf, ger Cynwil; a gwnaeth rhan mam dda iddynt. Ac yn mhen rhai blynyddoedd yn ddiweddarach, fe ddaeth William hefyd i Danallt-y-gôf, i ganlyn ei frawd a'i chwaer. O dan ofal Mrs. Evans, yr hon oedd yn weddw yr ail waith, ond yn oludog yn y byd, cafodd y plant eu dwyn i fyny yn yr eglwys, yn Nghynwil, a derbyniasant yr addysg fydol oreu a roddid i blant amaethwyr yn y cyfnod hwnw. Am rai blynyddoedd, bu Arthur yn gweithio ar y tyddyn gyda'i fodryb, ac yn gofalu dros y cwbl. Yr oedd yn ŵr ieuangc llednais, o gymmeriad crefyddol pur, yn cael gair da gan bawb, ac yn nodedig am ei ddefnyddioldeb yn yr eglwys a'r Ysgol Sabbothol. Rhagorai fel cerddor, mewn llais a deall; a bu yn flaenor y gân yn y gynnulleidfa, hyd nes yr ymgododd i lanw cylch mwy cyhoeddus, ac y cymmerwyd ei le yn arweinyddiaeth y gân gan ei frawd, William.

Dechreuodd bregethu pan yr oedd o ddeutu tair blwydd-ar-hugain oed. Y mae llythyr ar gael o'i eiddo at ei fodryb, o'r ysgol yn Lacharn, wedi ei ddyddio Mehefin 14eg, 1850. Y mae yn lled sicr ei fod wedi dechreu pregethu y pryd hwnw; ond pa faint cyn hyny, ni wyddom. Pan y cafodd ar ei feddwl i ymgyssegru i weinidogaeth yr efengyl, penderfynodd ei fodryb roddi iddo bob manteision addysg a fernid yn angenrheidiol i'w gymmhwyso i'r gwaith. Bu mewn ysgol rammadegol yn Lacharn, yn Derlwyn (dan ofal Dr. Davies, o Ffrwd-fâl), ac yn Nghaerfyrddin; ac yn ddiweddaf oll, bu am dair neu bedair blynedd yn y Coleg Presbyteraidd yn Nghaerfyrddin. Ond er helaethed y manteision a gafodd, ni ragorodd fel ysgolhaig.

Digitized by Google

Fe allai fod tri pheth yn ddigon i roddi cyfrif am hyny; sef, nad oedd ei alluoedd yn gryfion, na'i ymroddiad yn aiddgar, a'i bod yn tynu at fod yn ddiweddar arno yn dechreu. Nid oedd yn cymmeryd arno ei fod yn ddysgedig, nac yn rhoddi achos i neb a'i gwrandawai yn pregethu, neu a gymdeithasai âg ef yn gyfrinachol, i feddwl felly am dano. Ordeiniwyd ef yn weinidog yn Nghymdeithasfa Castell-newydd Emlyn, yn y flwyddyn 1861. Yn 1865, efe a ymunodd mewn priodas â Margaret Davies, merch Thomas a Margaret Davies, Cil-bridwen, Llanddeusant. Ni bu erioed briodas hapusach; a rhy anhawdd fyddai penderfynu, pe byddai galwad am hyny, pa un o'r ddau fu yn fwyaf ffodus. Ar ol priodi, buont yn byw mewn tŷ yn mhentref Cynwil bedair blynedd-ar-ddeg; sef, o 1865 hyd 1879; yna symmudasant i Parc-y-bocs—tyddyn yn feddiant iddynt hwy eu hunain, yn ymyl tref Cydweli. Ganwyd iddynt un-ar-ddeg o blant—pump o feibion a chwech o ferched—o ba rai y mae saith yn fyw yn awr (1894). Cafodd y pedwar eraill eu claddu o flaen eu tad.

O ran cymmeriad, nid oedd neb o weinidogion y Methodistiaid Calvinaidd yn sir Gaerfyrddin yn sefyll yn uwch nag Arthur Evans yn ngolwg y wlad. Cyfrifid ef gan bawb yn ddyn di-ddichell, di-dwyll, a di-ymhongar. Ni ddywedai ddrwg am ei gymmydog, ac ni feddyliai ddrwg am dano yn ddi-achos. Yr oedd ei natur yn orlawn o serchawgrwydd a charedigrwydd. Bob amser, yr oedd ei ddrws yn agored i'r 'fforddolion' i droi i fewn; ac yr oedd y pethau goreu yn ei dŷ, ac yn ei galon, at ymgeleddu a sirioli ei frodyr. Ar y pen hwn, yr oedd ei briod ac yntau fel pe wedi cael eu gwneyd ar gyfer eu gilydd. Pan yn llettya dan eu cronglwyd, teimlem, gan faint y dyddanwch, fod yr oriau yn ehedeg ymaith fel munydau. Nid oedd ynddo ddim yn nodedig fel pregethwr. Nid oedd efe yn feddyliwr dwfn, nac yn gyfansoddwr celfydd, nac yn ymadroddwr hyawdl a phoblogaidd. Lled anaml y gelwid arno i bregethu mewn cyfarfodydd misol; a phan ei gelwid, nid y lle mwyaf amlwg a roddid iddo. Nid oedd efe, o blegid hyny, yn chwerwi yn ei deimlad, yn eiddigeddu wrth ei frodyr, nac yn digio wrth y blaenoriaid. Ymostyngai i'r farn gyffredin yn eithaf tawel a boddlawn. Yr oedd ei bregethau bob amser yn efengylaidd; ac os oeddynt heb lawer o newydd-deb, yr oeddynt yn llawn o sylwedd. Yn achlysurol, byddai, er yn aflafar ei ddawn, yn cael odfeuon hynod lewyrchus a nerthol. Rhagorai yn fwy fel holwr ysgol nag fel pregethwr. Yn ei gartref ei hun, ac yn yr ardaloedd o amgylch ei gartref, ystyrid ef y blaenaf o bawb fel holwr ysgol. Yr oedd hefyd yn hynod am ei ddawn a'i fedr i gynnal cyfarfodydd eglwysig. Anhawdd oedd cael ei well yn y gyfeillach eglwysig, ac i siarad allan o law mewn cymdeithas neillduol yn y cyfarfod misol. Ychydig iawn o'i frodyr a ragorent arno mewn traethu yn ddifyfyr ar faterion ysbrydol. Ni bu neb yn ffyddlonach i gadw at ei gyhoeddiadau. Ar ol rhoddi ei addewid i le bychan, nid ydoedd yn arferiad ganddo dynu yr addewid hono yn ol, yn ffafr lle fyddai yn fwy. Yn Nghynwil, ac yn Nghydweli, y ddwy eglwys y bu yn cartrefu ynddynt yn ystod ei fywyd, efe a fu yn hynod o wasanaethgar yn mhob cylch. Nid esgeulusodd borthi yr ŵyn, na bugeilio y defaid, er na farnwyd yn werth ei anrhydeddu â'r enw 'bugail,' na thalu iddo gyflog bugail—os yn wir y barnwyd gan neb roddi diolch iddo am ei wasanaeth mawr. Ac yn ystod y blynyddoedd diweddaf y bu efe yn cyfanneddu yn Nghynwil, efe a fu yn hynod o wasanaethgar i'r eglwys yn Llanpumsaint, pan yr oedd hi, gan ymrysonau, wedi ei thaflu i ystâd annyben a thrallodus; ac i'r eglwys yn New Inn, pan yr oedd hithau mewn ystâd o wendid mawr. Nid er mwyn tâl yr oedd efe yn gwneuthur y pethau hyn; o blegid mae yn ammheus iddo dderbyn digon i dalu ei dreuliau—ond er mwyn y bobl druain, ac er mwyn enw yr Arglwydd. Yr oedd yn foddlawn i wneyd unrhyw beth gydag achos crefydd, heb un addewid na gobaith am dâl, os cai efe gymmaint ag un adnod yn ei orchymyn.

Bu yn fethedig am tua chwe mis o amser; ac yn ystod y misoedd diweddaf, yr oedd yn gystuddiol a phoenus iawn. Ei ddolur oedd darfodedigaeth madruddyn y cefn. Ddechreu ei salwch, yr oedd yn hyderus a gobeithiol am adferiad; wedi hyny, daeth yn fwy ammheus am y fath beth; ac yn mhell cyn i'r diwedd ddyfod, yr oedd yn gwbl ymwybodol mai marw oedd i fod. Dioddefodd ei gystudd yn amyneddgar a siriol. Llonai yn fawr weled ei frodyr yn galw i edrych am dano; ac yr oedd gwrandaw arno yn adrodd ei brofiad yn dâl da am bob aberth a wneid er mwyn hyny. Yr oedd yn oleu eglur arno o bob cyfeiriad. Teimlai yn hollol sicr am ei iachawdwriaeth ei hun; ac ni phetrusai ymddiried ei wraig a'i blant i ofal Barnwr y gweddwon a Thad yr amddifaid. 'Gallaf eu mentro iddo yn ddigon tawel,' meddai. 'Gofalodd am danaf fi yn blentyn amddifad, tlawd; ac fe'm cadwodd uwch ben fy nigon bob dydd o'm bywyd. Gwna yn gyffelyb â'm gwraig a'm plant etto, ar ol cymmeryd o hono fi oddi arnynt.' Dydd Llun, Tachwedd 11eg, 1889, efe a fu farw, pan ar fin cyrhaedd ei 64ain mlwydd oed; wedi bod yn pregethu yr efengyl ynghylch ddeugain mlynedd; a'r dydd Sadwrn canlynol, claddwyd ei weddillion, yn nghanol arwyddion o alar dwfn, yn y fynwent wrth gapel Cynwil.

EVANS, PARCH. ARTHUR, o Gynwil:—gŵr oedd yn un o'r colofnau yn mhlith y Methodistiaid Calvinaidd yn sir Gaerfyrddin yn niwedd y ganrif o'r blaen, ac yn nechreu y ganrif bresennol. Yr oedd yn un o'r tri-ar-ddeg a ffurfient y fintai gyntaf o bregethwyr a neillduwyd gan y cyfundeb yn Neheudir Cymru i weinyddu yr ordinhadau o fedydd a Swper yr Arglwydd. Ond er pwysiced gŵr oedd efe yn ei ddydd, ar gyfrif ei dduwioldeb a'i ddefnyddioldeb, nid yw yn hysbys i ni fod dim wedi ei ysgrifenu am dano, ond y crybwylliad a geir yn *Methodistiaeth Cymru*, cyf. ii., td. 465, ac erthygl fer o eiddo y Parch. David Hughes, o Nant-garedig, a ymddangosodd yn y *Drysorfa* am Ionawr, 1839. Ac yr ydym yn ddyledus i ysgrif y gŵr hwnw am rai o'r ffeithiau yn yr erthygl hon. Ganwyd ef Medi 2il, 1755—yr un flwydd ag y ganwyd y Parch. Thomas Charles, o'r Bala—mewn pentref o'r enw Felin-dre, yn mhlwyf Penboyr, yn sir Gaerfyrddin. Thomas Evans oedd enw ei dad, a'i enw yn unig yw yr oll a wyddom am dano; yr ydym yn casglu mai gwehydd ydoedd o ran ei alwedigaeth—eithr casgliad yw hyny. Pan nad oedd Arthur ond plentyn ieuangc, efe a gollodd ei dad a'i fam,

Digitized by Google

ac a wnaed, gan 'Ragluniaeth fawr y nef,' yn blentyn amddifad; ond gofalodd 'Tad yr amddifaid' yn rhyfeddol am dano, a chadwodd ef goruwch bod mewn eisieu, o'i fe byd hyd derfyn ei oes faith. Dysgodd grefft gwehydd gydag ewythr iddo—crefft sydd yn gyffredin iawn yn nghylchoedd Felin-dre hyd heddyw—a bu yn gweithio gyda'r grefft hono am wyth mlynedd. Methasom a chael gwybodaeth yn mha le y trigianai ei ewythr, pa un ai yn mhlwyf Penboyr, ai yn mhlwyf Cynwil Elfed—mae y ddau blwyf yn ffinio ar eu gilydd; ac nid oes genym ddim sicrach i'w roddi am achlysur dyfodiad Arthur Evans i blwyf Cynwil na dyweyd fod yn debygol ddarfod iddo ddyfod yno i ddysgu ei grefft, neu ynte i weithio ynddi ar ol iddo ei dysgu.

Nid oes dim ar gôf a chadw i ddangos trwy ba offerynau na moddion y dychwelwyd Arthur Evans at yr Arglwydd; ond y mae yn ffaith ddarfod iddo ymuno âg eglwys y Methodistiaid Calvinaidd yn Nghynwil pan yn ddeunaw mlwydd oed—yn y flwyddyn 1773. Yr oedd hyn bedair blynedd ar bymtheg cyn adeiladu y capel cyntaf yn mhentref Cynwil, a chyn adeiladu y capel cyntaf perthynol i'r cyfundeb yn y plwyf. Mewn annedd-dŷ o'r enw Waun-yr-hafod, rhyw ddwy filldir yn uwch i fyny na'r pentref, yr arferai yr eglwys ymgynnull y pryd hwnw. Yn mhen ysbaid o amser, heb fod yn faith, ar ol i Arthur Evans wneuthur proffes gyhoeddus o Grist, teimlodd gymmhellion yn ei galon i ymgyssegru i'r gwaith o bregethu Crist. Rhyw dro, pan yn gwrandaw ar bregethwr yn darlunio cyflwr truenus y byd digred, ac yn coffhau y geiriau hyny yn Esaiah :—'Pwy a anfonaf? a phwy a ä trosom ni?' teimlodd o'i fewn rywbeth cryf yn atteb, 'Wele fi, anfon fi.' Dyma oedd dechreu gogwyddiad ei feddwl at bregethu. Ac wedi ystyried yr achos yn dda—o blegid ni byddai efe yn gwneuthur dim yn fyrbwyll—efe a ddaeth i'r penderfyniad i ymgyssegru i wasanaeth yr efengyl; ac a aeth i'r Coleg Presbyteraidd, neu Undodaidd, yn Nghaerfyrddin, gyda'r bwriad o ymgyfaddasu i fod yn glerigwr yn Eglwys Loegr. O ba le y cafodd efe y moddion angenrheidiol i'w alluogi i fyned trwy gwrs o addysg athrofaol, ac yntau heb fod yn amgen na bachgen tlawd o wehydd, nid oes genym hysbysrwydd Llawer a ddichon bachgen tlawd, os bydd yn fachgen o ysbryd cryf a phenderfynol. Nis gallwn lai na theimlo fod rhywbeth lled annaturiol ac anghysson yn ymddangos yn y ffaith ddarfod iddo fyned ar ei union o'r eglwys Fethodistaidd i'r athrofa, i ymbarotoi i fod yn glerigwr yn yr Eglwys Wladol, yn hytrach na bod yn bregethwr yn y corph yr oedd efe eisoes yn aelod o hono. Gwyddom nad oedd y peth hwn a wnaed ganddo ond yr hyn a wnaed gan ugeiniau ar ei ol; ond nid yw fod llawer yn euog o wneyd y peth yn lleihau dim ar yr anghyssondeb sydd ynddo. Gan nad o ba safle bynag yr edrychir ar y fath ymddygiad, ymddengys yn wrthun o annaturiol. Ar yr un pryd, pan ystyriom yr holl amgylchiadau, nid oedd y cyfryw gam a hwn yn y dyddiau gynt o lawer mor wrthun ac annaturiol ag ydyw yn ein dyddiau ni; o herwydd, yn y cychwyn, prin yr edrychid ar Fethodistiaeth yn ddim amgen na changen o'r Eglwys Wladol; a chlerigwyr wedi bod o dan law esgob oedd y gwŷr penaf yn y gangen hono. A dichon nad oedd Arthur Evans yn golygu ei fod ef, wrth symmud tuag at fod yn glerigwr, yn ymadael â'r Methodistiaid. Y mae yn beth eithaf possibl ei fod yn ymestyn at fod yn glerigwr urddedig gyda'r amcan i fod o fwy o wasanaeth i'r Methodistiaid nag y medrai fod heb hyny. Ond tra yn dal fod hyn yn beth possibl, nid ydym yn golygu fod tebygolrwydd cryf mai bod yn fwy gwasanaethgar i'r Methodistiaid ydoedd yr amcan penaf mewn golwg. Llawn mor barod ydym i gydnabod mai gŵyro oddi ar y llinell a ddarfu y gŵr. Ond gan nad beth a allasai fod yn benaf mewn golwg ganddo, a chan nad yn mha fodd yr oedd efe yn medru cyfiawnhau ei hun ar y llwybr a gymmerodd, i'r coleg yr aeth, gyda'r bwriad o fod yn glerigwr; a daeth allan ar ben yr amser cyffredin, wedi gwneuthur defnydd da o'r manteision a gafodd. Yn y flwyddyn 1780, ac efe yn awr yn 25ain mlwydd oed, bu rhyw gymmaint o debygolrwydd y cawsai ei urddo; ond tybiwyd y tro hwnw, medd yr hanes, fod rhyw ddiffyg yn y teitl—fel y siomwyd y gobaith. Y mae yn debyg, hefyd, ddarfod i'r esgob sylwi ar hyn—ei fod yn darllen yn fwy fel Methodist nag fel parson; ac nid oedd y darganfyddiad hwnw yn rhyngu bodd yr esgob yn dda. Dichon i'r arwydd hwnw beri i'r esgob betruso gosod ei law ar ei ben, rhag y byddai iddo, ar ol ei urddo, fyned ar hyd a lled y wlad i bregethu yr efengyl i bechaduriaid mewn lleoedd anghyssegredig, fel yr aeth rhai brodyr urddedig o'i flaen; ac yn anad dim, rhag i'w urddiad droi allan yn fantais i'r blaid a elwid yn Fethodistiaid—y rhai a barent flinder a gofid i'r clerigwyr oedd yn caru byd da, a bywyd esmwyth, ac yn boddloni gadael i'r byd wneyd fel y mynai. Gan nad pwy oedd yr esgob hwnw, yr oedd yn fwy craff na llawer i ddeall beth oedd mewn dyn. Methodist a welai efe amlycaf o ddim yn Arthur Evans; er bod o hono mewn coleg Presbyteraidd am dair neu bedair blynedd, a myned o hono trwy lafur mawr i'w gymmhwyso ei hun i fod yn barson. Yr oedd y Methodist yn fyw ynddo o hyd, ac yn dyfod i'r golwg, yn ol barn yr esgob, yn ei acen a'i oslef yn darllen. Yn iawn y barnodd y prelad am dano; o blegid Methodist oedd Arthur Evans ar ol myned trwy'r coleg, fel cyn hyny, ac at y Methodistiaid y dychwelodd efe yn lled fuan; ac yn mhen dwy flynedd, efe a ddechreuodd bregethu yn eu plith hwynt. 'Bwriadau lawer sydd yn nghalon dyn; ond cynghor yr Arglwydd, hwnw a saif.'

Yn yr un flwyddyn (sef, 1782, neu 1783) ag y dechreuodd efe bregethu gyda'i bobl ei hun, fe ddarfu iddo hefyd ymuno mewn priodas â Margaret Williams, merch David a Susannah Williams, Pen-rhiw-gwiail, plwyf Cynwil; yr hon a fu yn ymgeledd gymmhwys iddo, ac a'i goroesodd o chwe mlynedd. Bu iddynt bedwar o blant, sef un mab a thair merch; a bu tri o'r pedwar farw o flaen eu tad. Yn gymmaint a bod y gydnabyddiaeth am bregethu gyda'r Methodistiaid Calvinaidd yn y dyddiau boreuol hyny yn annigonol i gynnal teulu, ymgymmerodd â chadw ysgol ddyddiol yn mhentref Cynwil, fel cynnorthwy. Ysgol râd oedd yr ysgol, medd yr hanes; ond y mae yn ammheus a oedd yr ysgol lawer rhatach nag oedd y weinidogaeth. Bychan iawn oedd cyflog y naill a'r llall. Gwelir oddi wrth hyn ei fod yn bregethwr ac yn athraw yr un pryd; ac nid oedd yn peidio â bod yn bregethwr yn yr ysgol. Y Beibl, yn y

Digitized by Google

cyfnod hwnw, oedd prif lyfr yr ysgolion dyddiol—yn arbenig yn ysgolion rhâd Madam Bevan. Ac ynglŷn â'r darlleniad o'r Beibl, cymmerai y fantais i roddi cynghorion crefyddol i'r plant. Yr oedd ganddo fwy o ffydd mewn cynghori nag mewn ceryddu: byddai yn cynghori lawer gwaith cyn ceryddu unwaith. Ond y mae yn ymddangos fod ei weddïau yn dylanwadu yn rymusach na'i gynghorion ar wrthddrychau ei ofal. Cyn troi allan yn yr hwyr, yr oedd raid treulio rhyw gymmaint o'r amser i weddïo; ac yr oedd gweddïo yn ysgol Cynwil yn golygu rhywbeth yn amgen na myned trwy ffurf o wasanaeth yn sychlyd ac yn hollol ddideimlad. Weithiau, byddai yr athraw, o dan ddylanwad yr Ysbryd Glân, yn cael nerth i ymdrechu gyda Duw, ac yn gorchfygu ar ei ddeulin ger bron yr orsedd. Ar brydiau eraill, byddai yn fwy egwan a di-afael. Ac yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, os byddai llewyrch ar y gweddïo, elai y plant allan yn weddaidd, yn ddistaw, ac yn sobr eu meddwl; neu ynte, os tywyll a chaled fyddai gyda'r gweddïo, rhuthrai y plant allan yn grechwenus, a chan floeddio yn uchel, '*Good night!*' fel rhai heb fawr o wahaniaeth ganddynt pa un ai *good* ai *bad* fyddai hi. Ond yn mhen ysbaid maith o amser, efe a roddodd heibio gadw ysgol, o herwydd gwanhau o'i iechyd; a chymmerodd dyddyn bychan yn ymyl pentref Cynwil, o'r enw Waun-lwyd, lle y symmudodd i fyw, a lle yr arosodd saith ar hugain o flynyddoedd. Wedi myned o hono yn dyddynwr, yr oedd yn rhyddach i fyned ar hyd a lled y wlad i bregethu na phan oedd yn ysgolfeistr. O ran ei nodweddion personol, yr oedd Arthur Evans yn ŵr tawel, araf, sobr, diysgog, a didrwst. Ni waeddai, ac ni ddyrchafai, ac ni pharai glywed ei lef yn yr heol. Fel tad a phriod, nid oedd neb a ragorai arno mewn cariad, tynerwch, a ffyddlondeb. Llywodraethodd ei dŷ a'i deulu mewn doethineb, ac yn ofn Duw. Cerid ef yn fawr gan ei gymmydogion ar gyfrif ei natur dda, ac amlygrwydd ei ras. Edrychid arno fel y gŵr callaf yn y wlad; a phan deimlai rhywun fod arno angen cynghor mewn amgylchiad dyrys neu drallodus, ato ef yr äi i'w geisio. Fel cyfaill, yr oedd yn un y gellid ymddiried ynddo; ni fradychai neb yn ei absennoldeb! ac ni ddadguddiai efe gyfrinach mewn unrhyw achos. Ond ei neillduolrwydd penaf ef oedd eglurder ei ras. Yr hen bobl sydd yn awr yn fyw, ac yn ei gofio, y peth cyntaf a ddywed pob un o honynt am dano yw, ei fod yn ddyn duwiol iawn. Nid oedd neb a gafodd well manteision i'w adnabod, na neb yn gymmhwysach i ffurfio barn gywir am dano, na'r Parch. David Charles (hynaf), o Gaerfyrddin; yr hwn a ddywedodd wrth ryw frawd am dano: —'Y mae cymmaint o ras yn Arthur ag sydd mewn saith o honom.'

Yn anffodus i goffadwriaeth y dyn rhagorol hwn, darfu i'r weddw, yn y blynyddoedd dilynol i'w farwolaeth, ganiatau gwerthu ymaith lawer o'i lyfrau, heb osod ar neb cymmhwys i fwrw golwg pa rai a ddylid eu cadw; ac yn gymmysgedig â'r llyfrau, aeth yn mron yr oll o'i ysgrifeniadau ar wasgar, na ŵyr neb i ba le. Y mae yn ddiammheu ddarfod iddo ysgrifenu llawer ar wahanol faterion yn ystod blynyddoedd ei fywyd; ac yn ol a ellir farnu, yr oedd ei ysgrifeniadau, ar fwy nag un cyfrif, yn werth eu cadw. Yr oedd y gŵr yn rhyw gymmaint o fardd; ac efe a fyddai, yn awr a phryd arall, yn difyru ei enaid sanctaidd mewn cyfansoddi emynau a chaniadau cyssegredig. Dywedir ei fod wedi gosod ei gredo mewn mesur ac odl. Ond y mae ei ganiadau, fel ei ysgrifeniadau eraill, os nad wedi eu llwyr ddinystrio, yn gorwedd yn guddiedig mewn llwch, fel na ŵyr y neb a garai eu gweled yn mha le y gellir eu cael. Trwy ryw foddion, diogelwyd un emyn o'i eiddo—rhif 1939 yn *Emynau y Cyssegr*—a hon yw yr unig un y gwyddom am dani mewn argraph. Diofalwch, yn fwy nag unrhyw gyfyngder yn amgylchiadau y teulu, fu yn achos i'r ysgrifeniadau gael eu colli.

Nid cymmeriad ysmala oedd Mr. Charles, yn dueddol i ddyweyd pethau eithafol, ond dyn a fyddai yn arfer dyweyd gwirionedd yn syml; a dïau fod yr hyn a ddywedai am amlygrwydd gras gwrthddrych ein sylwadau yn wirionedd sicr, er y gallai fod yn wirionedd wedi ei liwio dipyn yn gryf. Pa fath ydoedd cyn cael gras, nis gwyddom; ond ar ol hyny, daeth i fod yn gymmeriad hynod yn mhlith y saint.

Fel pregethwr, nis gellir cyfrif fod Arthur Evans wedi codi i enwogrwydd. Yr oedd efe yn ŵr galluog o feddwl, a'r meddwl hwnw wedi ei ddiwyllio a'i ddysgyblu yn dda. Ac yr oedd yn ddarllenwr ëang, ac yn fyfyriwr diwyd; etto i gyd, yr oedd annaturioldeb ei ystum yn y pulpud, ynghyd â byrdra ei ddawn llafar, yn rhwystrau ar ei ffordd i fod yn bregethwr poblogaidd. Byrion, fel rheol, oedd ei bregethau; ac felly yr oedd yn gweddu iddynt fod, i atteb i'w ddawn; ond er eu bod yn fyrion a syml, yr oeddynt bob amser yn sylweddol ac yn ysgrythyrol. Yr oedd yn dra gofalus i 'bregethu y Gair.' Nid boddlawn ganddo oedd pregethu rhywbeth, na phregethu pob peth; eithr efe a fynai 'bregethu y Gair.' Ni chymmerai arno wybod dim yn mhlith y bobl, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Ychydig o bregethwyr ei oes oedd mor hyddysg ag ef yn yr ieithoedd gwreiddiol; ond yr oedd yn cadw ei ysgolheigdod mor guddiedig oddi wrth y bobl, fel, os digwyddai iddo yn achlysurol olrhain gwreiddiau rhyw ymadroddion, byddai ei wrandawyr yn codi eu penau, ac yn synu ato. 'Pregethwr y brigau, ac nid pregethwr y gwreiddiau,' y cyfrifid ef gan y bobl; ond ychydig o honynt a allai wahaniaethu rhwng brigyn a gwreiddyn, yn mhellach nag mewn enw yn unig. Teithiodd lai na'r rhan fwyaf o'i gyd-lafurwyr trwy Ogledd Cymru, a thrwy siroedd y Deheudir y tu allan i sir Gaerfyrddin. Pregethwr lled gartrefol ydoedd, yn boddloni troi mewn cylch cymmharol fychan, a llafurio yn ddi-baid yn mhlith y bobl oeddynt yn fwyaf adnabyddus iddo. Nid yw yn ymddangos fod ynddo unrhyw uchelgais am safle yn mysg ei frodyr, nac am enwogrwydd fel pregethwr. Ewyllysgar oedd i lafurio mewn congl anamlwg o'r winllan; ac ymroddai i'r gwaith agosaf ato, heb ofalu dim ei fod yn cael ei weled gan ddynion, ac yn cael ei glodfori am ei waith. Ar rai adegau, er nad oedd ond pregethwr diflas, fel y dywedwyd, byddai, dan effeithiau dylanwadau dwyfol, yn cael ei godi yn mhell uwch law iddo ei hun. Ymddisgleiriai ei wyneb yn y pulpud fel gwyneb angel, a llefarai fel un wedi cael llais a thafod newydd. Ond er nad oedd yn rhagori yn ei ddawn fel pregethwr, yr oedd yn fawr ei ddylanwad, ac yn fawr ei ddefnyddioldeb yn sir Gaerfyrddin, ac yn cael ei garu a'i barchu gan bawb. Bu am lawer o flynyddoedd yn ysgrif-

Digitized by Google

enydd y cyfarfod misol; ac yr oedd yn gymmhwysach i'r swydd na neb arall a ellid ei gael y pryd hwnw. Yr oedd yn ysgolhaig ymarferol, ac yn ysgrifenwr destlus a dihafal. Mr. Evans, Llwynffortun, oedd y pregethwr swynol; Mr. Charles, o Gaerfyrddin, oedd y duwinydd cyrhaeddgar, yn treiddio i mewn i ddyfnion bethau Duw; a Mr. Arthur Evans oedd y trefnydd a'r cyfarwyddwr medrus gyda'r pethau tymmhorol ac ysbrydol. Efe fyddai yn dattod cylymau celyd, yn tawelu ymrysonau, yn cynghori, ac yn cyfarwyddo yn mhob helbul a dyryswch. 'Yn yr holl bethau o'r natur yma,' meddai y Parch. John Evans, Llwynffortun, 'y mae yr efengylaidd Arthur Evans, ysgrifenydd parchus y cyfarfod misol, yn ymylu ar fod yn hollwybodol.' Crybwyllasom yn y dechreu ei fod yn mhlith y rhai cyntaf a ordeiniwyd yn siroedd y Deheubarth; ac y mae y ffaith ei fod ef yn un o'r pedwar cyntaf a ddewiswyd gan gyfarfod misol sir Gaerfyrddin i gael eu hordeinio, yn brawf lled gryf yr edrychid arno yn un o'r colofnau yn y sir y cartrefai ynddi. Y pedwar etholedig am y tro hwnw oeddynt, David Rees, o Lanfynydd; Arthur Evans, o Gynwil; David Charles, Caerfyrddin; a John Evans, Llwynffortun. Yn y *Cyffes Ffydd*, enw John Evans a geir yn mlaenaf yn y rhestr, er mai efe oedd yr ieuangaf o'r pedwar. Yr oedd yn ieuangach na David Rees o wyth mlwydd a deugain. Nid i ddamwain yn unig yr ydym i briodoli rhoddiad y flaenoriaeth i enw John Evans. Yr oedd ar ryw gyfrif yn cael ei olygu gan y frawdoliaeth y penaf o'r pedwar. Nid Arthur Evans oedd y gŵr blaenaf yn ei sir. Yr ydoedd efe yn y dosbarth blaenaf, ac yn sefyll yn rhywle rhwng y blaenaf a'r pedwerydd. Buom yn llafurio i geisio cael allan pa ran a gymmerodd efe yn y ddadl bwysig a phoeth ar gwestiwn y 'neillduad;' ond methasom daro ar ddim yn dangos iddo gymmeryd rhan o gwbl ynddi. Hwyrach na bu dadleu ar y pwngc yn nghyfarfod misol sir Gaerfyrddin, am nad oedd yno neb o ddylanwad nad oedd yn bleidiol i'r 'neillduad.' O'r dechreu hyd yr awr hon, yn marn rhai, Caerfyrddin sydd wedi bod ar y blaen mewn ëangder a rhyddfrydigrwydd o holl siroedd y De. Ond beth bynag a allasai fod syniad personol Arthur Evans ar y 'neillduad' yn gyffredinol, fe ymddengys ei fod yn mhell o feddwl fod ynddo ef gymmhwysderau a deilyngent yr anrhydedd. Nid oedd efe wedi arfer synied am dano ei hun yn amgen nag y dylid synied, eithr synied i sobrwydd. Yn hytrach na thybied ei fod yn rhywbeth, ac yntau ei hun heb fod yn ddim, ei brofedigaeth ef oedd cyfeiliorni yn y gwrthwyneb, trwy dybied nad oedd efe yn ddim, pan y dylai wybod ei fod yn rhywbeth. Wrth edrych yn mlaen at gyfarfod yr ordeinio yn Llandeilo fawr, yr hwn a gymmerodd le yn Awst, 1811, a myfyrio yn ddyfal ar yr achos, gofynai iddo ei hun, 'Beth a geisiant yn dy ddwyn di yno? Nid oes genyt ti ddim dawn.' Yna efe a attebai, gan ddyweyd, 'Fe allai y daw rhywbeth arnat yn Llandeilo ar ddydd yr ordeiniad, fel a ddaeth ar yr apostolion ar ddydd y Pentecost.' Ac wrth fyned adref o'r gymdeithasfa, ac yn teimlo ar y ffordd na ddaeth dim neillduol felly arno yn Llandeilo, er cael o hono ei neillduo i waith y weinidogaeth yn gyflawn, dywedodd, 'Arthur wyt ti etto!' Druan o hono! yr oedd wedi bod yn llafurio yn gysson a chaled yn pregethu yr efengyl am naw mlynedd ar hugain; ac yn awr, pan wedi myned heibio 56ain mlwydd oed, wele efe yn cael ei neillduo i gyflawn waith y weinidogaeth! Beth allasai fod yn fwy anamserol? Neillduwyd ef i waith pan oedd haul ei ddydd gweithio yn prysuro at ei fachludiad! Gallasai ddyweyd am y gymdeithasfa, yn ngeiriau yr Arglwydd Iesu am Mair, gydag ychydig o newidiad ynddynt—'Canys hi yn gosod arnaf yr anrhydedd hwn, a wnaeth hyn i'm claddu i.' Fodd bynag, er ei fod yn ymylu ar ei drigain mlwydd oed pan yn cael ei ordeinio, gwelodd yr Arglwydd yn dda chwanegu iddo chwe blynedd ar hugain i lafurio yn ei eglwys fel gweinidog cyflawn; ac ni lafuriodd gweinidog erioed yn ffyddlonach nag efe yn ol ei alluoedd. Yn ei flynyddoedd olaf, yr oedd ei bregethu yn lled ddifudd mewn lleoedd mawr, o herwydd gwendid a byrder ei lais. Yn y flwyddyn olaf, ychydig a fedrodd efe fyned oddi amgylch; canys yr oedd yn teimlo yn ddirfawr oddi wrth y graianwst—anhwyldeb y dioddefodd efe lawer oddi wrtho.

Mae un peth neillduol yn yr hanes a deilynga cael ei ddwyn i sylw yn y fan yma. Ar hyd ei oes, cymmerodd Arthur Evans ei arwain gan awgrymiadau Rhagluniaeth. Ymroddodd yn ewyllysgar i waith yr Arglwydd, yn ol fel y deallai ei bod yn ddyledswydd arno, er nad oedd y gydnabyddiaeth a dderbyniasai efe am lafur ond bychan, heb ymrwystro mewn un modd gydag amgylchiadau y byd hwn, i gasglu ychydig drysor i'w osod o'r neilldu erbyn yr hwyr, neu amser methiant. Gofalodd efe am ei waith, gan adael rhwng ei Feistr a'r canlyniadau. Ac fel y bu yn foddlawn i'r Arglwydd, yr Arglwydd hefyd a fu yn foddlawn iddo yntau, gan ddarparu yn rhyfeddol ar ei gyfer ef a'i briod yn hwyr eu dydd hir. Fel hyn y bu: —Aeth Mary, merch Arthur Evans, yn wraig i Thomas James, Pant-rhoty, gŵr oedd yn perchenogi llawer o dda y byd hwn, a gŵr oedd yn berchen peth gwell na da y byd, ac a wasanaethodd y swydd o flaenor yn yr eglwys yn Nghynwil am lawer o flynyddau. Ond bu Mr. James farw o flaen ei dad-yn-nghyfraith; ac yn ei ewyllys ddiweddaf, efe a drefnodd fod i'w weddw ofalu am ei thad a'i mam, i'w cadw heb bwyso ar neb cyhyd ag y byddent hwy byw, a'u cadw uwch law pob eisieu. Ni bu hithau yn fyr o wneuthur iddynt yn ol y trefniant; a naturiol ydyw casglu mai hyfrydwch calon iddi oedd gweinyddu i angenrheidiau ei rhïeni yn nyddiau eu henaint. O'r Arglwydd y daeth hyn—er fod dynion yn gwasanaethu fel cyfryngau. 'Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd, ac ymddiried ynddo, ac efe a'i dwg i ben.'

Yn ei gystudd olaf, ychydig a fedrai yr hen bererin gymdeithasu â neb, gan mor fawr oedd ei wendid. Talodd Mr. John James, o Gastellnewydd Emlyn, un ymweliad âg ef, wrth ddychwelyd o gyfarfod misol, pan yr oedd efe yn ngenau glyn cysgod angau: a phan oedd yr ymwelydd yn ysgwyd llaw âg ef cyn ymadael, dywedodd wrtho yn dra effeithiol:—'Hyd oni ymgyfarfyddwn oll yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw, yn ŵr perffaith at fesur oedran cyflawnder Crist.' Pan yn canu yn iach i'w ferch, dywedodd wrthi, 'Bydd ffyddlawn hyd angau, a mi a roddaf i ti goron y bywyd.' Yna daeth y diwedd! Efe a hunodd yn yr Iesu ar yr 20fed o Ebrill, 1837, yn 82ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu yr efengyl yn mhlith y Methodistiaid Calvinaidd am 55ain o flynyddau.

Digitized by Google

Rhoddwyd ei weddillion i orwedd yn y fynwent sydd wrth gapel Cynwil: a chafodd gladdedigaeth teilwng o ŵr Duw. Pregethwyd yn yr angladd gan y Parch. David Hughes, Nantgaredig, oddi ar *Heb.* xi. 13.

EVANS, Parch. BENJAMIN, d.d. Gweinidog adnabyddus a chymmeradwy gyda'r Bedyddwyr yn Nghastellnedd. Ganwyd ef yn Nhrefach, yn sir Aberteifi, Tachwedd 2il, 1816. Dechreuodd ei yrfa gyhoeddus yn Nhredegar; lle y bedyddiwyd ef yn y flwyddyn 1830. Ymunodd â'r eglwys newydd yn Sirhowy; ac oddi yno, yn Ionawr 1840, aeth i Athrofa Pont-y-pool, lle y bu am agos i dair blynedd. Dechreuodd ar ei waith gweinidogaethol yn Hirwain, yn 1842. Yn 1857, symmudodd i Heol-y-felin, Aberdâr; ac yn y flwyddyn 1861, i Gastellnedd, lle y bu yn llafurio, gyda graddau helaeth o lwyddiant, hyd ei farwolaeth—ar Tachwedd 4ydd, 1886. Ystyrid ef yn un o weinidogion galluocaf ei enwad, yn ŵr a feddai ddylanwad mawr mewn cylchoedd crefyddol a chymdeithasol—yn enwedig felly yn Nghymmanfa sir Forganwg, i'r hon y bu yn gwasanaethu y swydd o ysgrifenydd am lawer o flynyddoedd. Cymmaint oedd y gwerth a roddid ar ei waith fel y cyflwynwyd tysteb anrhydeddus iddo yn gydnabyddiaeth o hyny. Yr oedd yn feddyliwr treiddgar, yn ymresymwr cadarn, yn bregethwr adeiladol, ac yn ysgrifenwr adnabyddus i'r wasg Gymreig. Rai blynyddau cyn ei farwolaeth, derbyniodd y radd o d.d. Dywedir iddo fedyddio cynnifer a 1,200 o bersonau yn ystod ei yrfa weinidogaethol maith a llafurus.

EVANS, CALEB, d.d. Mab hynaf y Parch. Hugh Evans, m.a., athraw Coleg y Bedyddwyr yn Mristol, lle y ganwyd ef Tachwedd 12fed, 1737. Yr oedd efe yn or-ŵyr i'r enwog Thomas Evans, o'r Pentref. Derbyniodd ei addysg elfenol o dan arolygiaeth ei dad, a Mr. Foskett. Ar ol hyny, aeth i Athrofa Mile End Road, yn Llundain, lle y cafodd y fantais o dderbyn ei addysg dan y Doctoriaid Walker a Jennings. Yn Mehefin, 1757, galwyd ef i'r weinidogaeth gan eglwys Little Wild Street, Llundain; yna, ar farwolaeth Foskett, y flwyddyn ddilynol, dewiswyd Caleb Evans yn gynnorthwywr i'w dad yn eglwys Broadmead, yn Bristol, ac yn yr athrofa. Yn 1770, cymmerodd y rhan fwyaf blaenllaw yn sefydliad Athrofa y Bedyddwyr yn Stokescroft. Cafodd y radd o d.d. gan Brifysgol Providence, America; ac ar ol hyny gan Brifysgol Aberdeen. Yn 1778, bu dadl newyddiadurol frwd rhyngddo a John Wesley ynghylch y rhyfel Americanaidd. Yn 1781, mewn canlyniad i farwolaeth ei dad, gwnaed ef yn weinidog yr eglwys, ac yn llywydd y coleg. Bu farw Awst, 1791, yn 54ain mlwydd oed. Efe a gyhoeddodd amryw lyfrau:—*Sermons on the Scripture Doctrine of the Son, and the Holy Spirit; A Collection of Hymns; An Address to serious people and Professors of Christianity; Christ Crucified*, &c. Efe hefyd a olygodd waith barddonol Theodosia; sef, Miss Slute, o Brouton, yn swydd Hants. Claddwyd ef yn mynwent yr enwad yn Bristol.

EVANS, DAFYDD, Ffynnon Henry. Ganwyd ef mewn ffermdy o'r enw Nant-y-fen, yn mhlwyf Conwil Elfed, yn sir Gaerfyrddin; a thyfodd i fyny i fod yn un o gymmeriadau mwyaf gwreiddiol ac athrylithgar ei oes. Yr oedd ei rieni—Stephen a Jane Evans—yn bobl barchus, ac o amgylchiadau gweddol gysurus. Collodd Dafydd ei fam pan yr oedd efe yn ieuangc; ond cafodd fam-yn-nghyfraith ragorol yn mherson gwraig weddw, o'r enw Mary Howells—etifeddes Troed-y-rhiw, ger Cwmduad. Profodd ei hun yn wraig dyner a rhinweddol. Cafodd y bachgen bob manteision addysg oedd o fewn cyrhaedd, a daeth yn ysgolhaig da. Pan oedd efe yn ddyn ieuangc nwyfus, o gylch deg ar hugain oed, effeithiwyd yn fawr ar ei feddwl trwy ddarllen *Y Bardd Cwsg;* yr hyn a'i harweiniodd i ymuno âg eglwys y Bedyddwyr yn Ffynnon Henry. Yn lled fuan ar ol hyn, dechreuodd bregethu; a gwnaeth hyny gyda'r fath gymmeradwyaeth nes yr aeth ei enw yn hysbys trwy yr holl ardaloedd. Neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth gan yr eglwys yn y flwyddyn 1811, yr hyn a wnaed ar annogaeth Titus Lewis, awdwr *Hanes Prydain Fawr.* Yn gymmaint a bod tiroedd wedi dyfod i'w feddiant trwy briodas, yr oedd efe mewn sefyllfa i allu gweinidogaethu i'r eglwys yn rhad—yr hyn a wnaeth am gryn amser. Modd bynag, pan yn nghanol ei hawddfyd, efe, a theulu ei lysfam, a aethant i gyfraith am yr etifeddiaeth. Collodd Dafydd Evans y gyfraith; a chymmerwyd ef i garchar Caerfyrddin am wrthod o hono lawnodi ymaith ei hawl o'r berchenogaeth. Ond ni chollodd efe ei boblogrwydd drwy hyn; o blegid ystyriai yr eglwys a'r wlad iddo dderbyn cam difrifol yn yr achos. Nodir ffaith hynod ynglŷn â'i garchariad. Aeth yn union-syth o'r cwrdd gweddi i gell yn Nghaerfyrddin; ac wedi bod yno tua dwy flynedd, efe a esgynodd yn syth o honi i'w bulpud. Dywedir fod y dyddlyfr a gadwyd ganddo tra yn ngharchar yn gyfoethog mewn profiad a ffydd Gristionogol. Wedi adferu iddo ei ryddid, dadblygodd yn bregethwr rhagorol. Llafuriodd yn egnïol yn y weinidogaeth am bymtheng mlynedd a deugain; a phregethodd am rai blynyddau dros ei bedwar ugain mlwydd. Bu farw Mawrth 5ed, 1866, yn 88ain mlwydd oed.

Dywedir ei fod, fel pregethwr, yn perthyn i'r un dosbarth a J. Jones, Llandyssul; Thomas Rhys Davies, Glanwydden; Powel, Caerdydd; Dafydd Roland, o'r Bala; Robert Thomas, Llidiardau, &c.—dosbarth tra gwerthfawr sydd, erbyn hyn, fel y mae yn alarus gorfod addef, wedi darfod yn llwyr o'r wlad. Yr oedd Dafydd Evans yn gymmeriad nodedig hyd yn oed yn mhlith yr hen gawri anwyl hyn—yn wreiddiol dros ben, mewn meddwl a gweithred. Am ei dduwioldeb, nid oedd ammheuaeth; ac er y gallai fod ei ddywediadau a'i weithredoedd ar brydiau yn tueddu at ymddangos yn ysgeifn, yr oedd ei amcan bob amser yn gywir a difrifol. Byddai ei gynnulleidfa yn chwerthin ac yn wylo wrth wrandaw arno. Rhoddwn yma enghraifft neu ddwy o gynnyrch ei athrylith. Wrth ddarlunio yr Iesu yn dattod gweithredoedd y diafol, dywedai:—'Hen glymwr ofnadwy yw y diafol, ond y mae Mab Duw yn ddigon gwell dattodwr nag ef. Yr oedd wedi clymu hen wraig fach er's deunaw mlynedd—wedi ei llyffetheirio i fod yn llwdwn diogel i bori ar ei dir ef. Yr oedd wedi clymu un pen i'r llinyn am ei gwddf, a'r pen arall am ei throed, ac yr oedd wedi bod am ddeunaw mlynedd fel drysien ddeupen; ond daeth Iesu Grist yn mlaen, a thorodd y llinyn, a *springiodd* 'nol fel *spring*

Digitized by Google

*trap*. Ha! ha! ha! Daeth mor union a'r ferch ifangc unionaf yn y capel yma. 'Nawr, yr hen Pharisëad, dere mlaen—rho dy ffon *rule* ar ei chefn hi i gael gwel'd a ydyw hi'n syth.' Dro arall, pan yn darlunio Pharaoh o dan bla y llyfaint; ac wedi gorchymyn i'r bwtler glirio y bwrdd, a gofalu na buasai yr un o'r creaduriaid blinion yno, dywedodd:—'Wedi dod 'mewn â'r bwyd, a chau y drws yn ofalus, eisteddai Pharaoh a Mrs. Pharaoh, a'r teulu brenhinol, o amgylch y bwrdd. Yr oedd yno geiliog twrci braf i ginio, a stymog ffamws ato. Ond pan oedd Pharaoh yn myned i gyfranogi o'r danteithion melus, dacw lyffant mawr yn dringo i'w *blate*, ac yn edrych yn ei wyneb; a gwaeddai y bwtler allan dan regu, 'Meistr, meistr, *sack* y fforc i lygad ê, *sack* y fforc i'w lygad ê.' 'Na na i,' ebe Pharaoh, gan newid ei wedd, a'r fforc yn syrthio o'i law, 'mae Duw Israel yn llygad hwn!' Wele enghraifft arall o'i gymmeriad dïymhongar a gonest ef. Unwaith, pan mewn angladd hen wrandäwr o'r enw Shoni, yr hwn oedd wedi bod yn dymuno ei achub am flynyddoedd, aeth yn mlaen at yr arch, a chan dynu yr amwisg oddi ar y gwyneb gwelw, dywedai, dan wylo, 'Shoni bach! Shoni bach! fe ddywedais i ganwaith wrthot ti mai fel hyn y buase hi: ond yr wyt ti yn difaru yn dost heddyw, Shoni bach!' ac ymaith âg ef, â'r dagrau mawrion yn treiglo dros ei ruddiau. Fel yna, yr oedd efe yn llawn gwreiddiolder — a'i dduwioldeb yn ddiammheuol yn marn pawb a'i hadwaenai.

EVANS, DAFYDD, o'r Dolau, oedd genhadwr cyntaf y Bedyddwyr yn Môn, Arfon, a Meirion. Bu ar y cyntaf yn aelod o eglwys Cilfowyr, yn sir Benfro; a dechreuodd tua'r flwyddyn 1742. Yn 1771, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys y Dolau, yn sir Faesyfed; ac yno y bu yn llafurio hyd derfyn ei oes. Yn y flwyddyn 1776, caniataodd llywodraethwyr trysorfa y Bedyddwyr Neillduol yn Llundain swm pennodol o arian tuag at ddwyn yn mlaen genhadaeth yn Ngogledd Cymru—yn fwyaf arbenig yn y siroedd a nodwyd—lle yr oedd egwyddorion y Bedyddwyr hyd hyny yn gwbl anadnabyddus. Dewiswyd Dafydd Evans fel y person cymmhwysaf i ddechreu ar y gwaith, yr hyn a wnaeth yn ddi-ymdroi. Pregethodd mewn llawer o fanau yn y tair sir. Bu farw yn 1790; ac olynwyd ef yn eglwys y Dolau gan un o'i feibion.

EVANS, CANON DANIEL, D. D. Ganwyd ef yn agos i Cei-newydd, Ceredigion, yn y fl. 1832; ac wedi tyfu i oedran cyfaddas, cychwynwyd ef ar yrfa fachnachol, ar gyfer yr hon yr addysgwyd ef. Perthynai ei rïeni i'r Methodistiaid Calvinaidd; ond mewn blynyddoedd i ddyfod, ymunasant hwy â'r Eglwys Sefydledig. Wedi penderfynu ymgymmeryd â'r weinidogaeth, aeth Daniel i Goleg St. Bees, Cumberland; ac ar gwblhâd ei gwrs efrydol yno, urddwyd ef gan Esgob Llandaf. Y giwradiaeth gyntaf y pennodwyd ef iddi oedd Mynydd-islwyn, yn sir Fynwy. Yn 1858, symmudwyd ef oddi yno i Droed-y-rhiw, ger Merthyr Tydfil. Dr. Campbell, Esgob Bangor wedi hyny, oedd rheithor y plwyf ar y pryd. Yn lled fuan ar ol ei bennodiad i esgobaeth Bangor, yn 1860, cafodd Daniel Evans giwradiaeth Corris, yn Meirion—achos Eglwysig oedd ar y pryd yn ei fabandod. Gweithiodd yn egnïol yno, a chymmerodd drafferth neillduol i wneyd ei bregethau yn gymmeradwy ac yn adeiladol. Yr oedd efe yn gerddor chwaethus; ac i'w ran ef y disgynodd y gwaith o arwain y gân yn yr eglwys. Tra yn Nghorris, teimlai Mr. Evans yn ddwys am nad oedd gan yr Eglwys yn Nghymru un llyfr emynau a thonau; ac er gwneyd y diffyg hwn i fyny, dechreuodd gasglu rhai pwrpasol at wasanaeth yr eglwys. Casglodd dros bum cant o honynt, a chyhoeddwyd hwynt yn gyfrol brydferth. Chwanegodd at y llyfr, yn ddiweddarach, tra yn trigiannu yn Llanwrin, nes gwneyd y gyfrol y fwyaf poblogaidd a feddai yr Eglwyswyr yn Nghymru. Dywedir ei fod yn fyfyriwr diflino ar hanesiaeth eglwysig; ac mai ychydig yn mysg ei gyd-glerigwyr oedd mor gydnabyddus ag ef yn hanes athrawiaeth a threfn yr Eglwys. Yn mysg pethau eraill, sefydlodd ysgol ddyddiol yn y pentref, tuag at adeiladu pa un y casglodd efe amryw gannoedd o bunnau. Fel y Deon Edwards, o Fangor, fe ddaeth Mr. Evans i sylw anghyffredin ynglŷn âg addysg. Daeth allan fel amddiffynwr cryf a gwrol i addysg grefyddol, gan wrthwynebu y gyfundrefn fydol—*secular*, fel y gelwid hi. Gwnaeth ei oreu hefyd i wrthwynebu y sefydliad o fyrddau ysgol yn Nghymru. Rhaid addef fod sefyllfa Mr. Evans yn yr Eglwys Wladol yn ei luddias i allu edrych ar fyrddau ysgol fel y dylasai. Siaradodd Deon Edwards ac yntau lawer ar hyd y wlad yn erbyn yr hyn a alwent hwy yn ymgais i gau y Beibl o'r ysgolion dyddiol. Yn 1872, pennodwyd ef yn ficer Llanwrin; a thra yno, ymgymmerodd â golygu *Amddiffynydd yr Eglwys*, a chyhoeddi ail argraphiad o'i lyfr hymnau a thônau. Ychydig yn flaenorol i hyny, bu dadl frwd rhyngddo a'r Parch. Evan Jones, gweinidog y Methodistiad yn Nghorris (yn awr o Gaernarfon), ar y pwngc o Ddadwaddoliad yr Eglwys Wyddelig. Cyhoeddodd ffrwyth ei ymchwiliadau ar gyfer y ddadl hono yn llyfryn bychan, o dan y teitl *Meddiannau yr Eglwys*. Pan ddyrchafwyd y Parch. Henry T. Edwards i Ddeoniaeth Bangor, pennodwyd Mr. Evans yn olynydd iddo yn ficeriaeth Caernarfon. Gwnaeth lawer dros yr Eglwys yno. Cododd eglwys newydd yn y Waen fawr, a llwyddodd i gael y lle yn blwyf ar ei ben ei hun. Yn 1877, derbyniodd y radd o D.D. Gwnaed ef hefyd yn ganon Eglwys Gadeiriol Bangor. O herwydd sefyllfa anfoddhaol ei iechyd, bu raid iddo roddi ficeriaeth Caernarfon i fyny yn 1844; ac aeth i fyw mewn neillduedd i Hastings—lle y bu farw yn mis Hydref, 1888, yn 51ain mlwydd oed. Yn ei symmudiad, cafodd yr Eglwys golled drom.

EVANS, PARCH. DANIEL, o Woodstock, ydoedd weinidog defnyddiol gyda'r Methodistiaid Calvinaidd yn sir Benfro. Ganwyd ef yn Nhrefdraeth, ynghylch y flwyddyn 1796; ac yno, hefyd, y dechreuodd bregethu. Ar ei briodas, symmudodd o Drefdraeth i Dŷ Ddewi—lle yr arosodd am amryw flynyddoedd, yn dra chymmeradwy gan ei holl gydnabod. Oddi yno, efe a aeth i Woodstock, mewn atteb iad i alwad yr eglwys. Yno y treuliodd efe weddill ei oes, ac y bu yn llafurio am y cyfnod maith o ddeng mlynedd ar hugain. Ychydig o fanteision addysg a dderbyniodd efe yn moreu ei oes; ond trwy efrydiaeth ddyfal, daeth yn hyddysg yn y dduwinyddiaeth buraf. Nis gellir ei restru ef yn mhlith y pregethwyr poblogaidd,

Digitized by Google

yn ol fel y bernir pregethwyr yn fynych gan y gwrandawyr; ond yr oedd ganddo weinidogaeth bur, adeiladol, a chymmeradwy. Ac ar brydiau, byddai yn hynod o nerthol. Yr oedd ei dduwioldeb yn amlwg i bawb, ac yr oedd yn gymmhwys mewn modd arbenig i fod yn arweinydd ysbrydol. Bu farw Ionawr 5ed, 1871, yn 75ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am hanner can mlynedd.

EVANS, Parch. DANIEL, Capel Drindod. Gweinidog gyda'r Methodistiaid Calvinaidd yn Ngheredigion oedd efe. Ganwyd ef yn Nghefnllech-glawdd, ar derfyn y sir hono. Yn gymmaint ag i'w dad farw pan yr oedd yn ieuangc, cymmerwyd y bachgen dan eu nawdd gan deulu palasdy Llys newydd, i ba rai y bu ei dad yn gweithio. Tra y bu yno, fe ddysgodd Saesneg yn ddigon da i allu darllen llyfrau yn yr iaith hono. Dysgodd hefyd yr un grefft a'i dad; sef, crydd. Wedi myned i'r ystad briodasol, aeth i fyw i'r Cwmins, ar dir Pen-beili-mawr; a thra yno, cafodd grefydd, tra yr oedd y diwygiad mawr yn cyffroi y wlad. Ar daer gymmhelliad yr enwog Barch. Ebenezer Morris, yr hwn a'i hystyriai yn Gristion gloyw, dechreuodd bregethu—yr hyn a gymmerodd le yn y fl. 1797, pan yr oedd tua 23ain mlwydd oed. Daeth yn bregethwr grymus, ac yn un yr oedd y wlad yn hoff o wrandaw arno. Ennillodd safle uchel yn nghymdeithasfaoedd a chyfarfodydd misol ei enwad—nid trwy ddylanwadau o'r tu allan iddo ei hun, ond trwy ragoriaethau ei gymmeriad, a'i werth fel pregethwr. Mewn llythyr a ysgrifenwyd ganddo at gyfaill, dywedodd Dr. Owen Thomas, o Liverpool, fod Daniel Evans mor adnabyddus gan drigolion Môn ac Arfon a phe buasai yn byw yn eu plith; a dywedodd yn mhellach, y gosodid ef i bregethu yn mhob cymdeithasfa y digwyddai efe fod yn bresennol ynddi. Yn ol tystiolaeth Dr. Thomas, yr oedd yn meddu Cymraeg rhagorol, ac yn bregethwr dymunol a nerthol iawn. Byddai yn hoff o esbonio: a'i duedd oedd beirniadu wrth fyned at feddwl ei destyn. Yr oedd efe yn ddyn o ddefnyddioldeb cyffredinol. Nid oedd efe yn cyfyngu ei wasanaeth at grefydd; yn hytrach, rhoddai ei ysgwydd dan bob achos da, gan nad beth a fyddai. Er enghraifft, gweithiodd yn rymus yn mhlaid dirwest pan oedd y symmudiad dirwestol megys yn ei fabandod. Er cymmaint ei anfanteision yn moreu ei oes, tyfodd i fyny yn ŵr cadarn yn holl ystyr y gair; a phan y bu farw, cafodd Methodistiaid y Deheudir golled fawr. Ychydig o gystudd a gafodd. Bu farw yn 1845, yn 71ain ml. oed; a chladdwyd ei weddillion yn mynwent eglwys Llangunllo.

EVANS, Parch. DANIEL:—oedd weinidog gyda'r Annibynwyr yn y Mynydd bach, yn sir Forganwg. Ganwyd ef yn ardal Eglwyswrw, yn sir Benfro, yn Ionawr, 1774. Dechreuodd bregethu pan yn ddeunaw oed; ac yn 1796, derbyniodd wahoddiad y Parch. Isaac Price, o Lanwrtyd, i fyned i'w gynnorthwyo yno, ac yn Nhroed-rhiw-dalar, a Merthyr Cynog. Daliodd hi am tua thair blynedd; ac yn ystod ei weinidogaeth yno, priododd weddw arianog—cyfoeth yr hon oedd yn hynod fanteisiol iddo i lafurio yn mhlaid yr achos mawr. Yn 1799, symmudodd i Fangor, yn sir Gaernarfon; ac ymgymmerodd â bugeiliaeth yr eglwys yno am y cyflog blynyddol o ddeg punt! Tra y bu yno, llwyddodd i sefydlu eglwysi yn Llanrwst, Henryd, Trefriw, Borthlwyd, Braich-y-cafn, a Llanfair-fechan; ac yn Mhentraeth, yn Môn. Ar ei sefydliad yn Mangor, nid oedd rhifedi yr eglwys ond 15; ond pan yr ymadawodd oddi yno, yn mhen naw mlynedd, rhifent 70. Dylid cofio fod y cynnydd hwn wedi ei sicrhau pan yr oedd cryn erlid ar broffeswyr crefydd; a phan nad oeddynt, fel eraill, heb ddioddef llawer oddi wrth ormes eu gelynion. Yn y flwyddyn 1808, gwahoddwyd ef gan y Parch. D. Davies, o Abertawe, i fyned yn gyd-weinidog âg ef ar yr eglwysi oedd dan ei ofal. Cydsyniodd yntau; ond yn fuan ar ol ei sefydliad yno, barnwyd mai gwell fyddai rhanu y maes rhwng y ddau weinidog, ac i bob un ofalu am ei bobl neillduol ei hun. Yn ol y trefniant hwn, syrthiodd y Mynydd bach a Threforris i ran Mr. Evans. Yn y lleoedd hyn y llafuriodd efe bellach hyd ddiwedd ei oes—cyfnod o 35ain mlynedd. Bu farw Mawrth 3ydd, 1835. Yn mysg gweithredoedd daionus eraill, efe a lwyddodd i sefydlu eglwys o'r enw Bethel, yn mhlwyf Llansamlet. Tua'r flwyddyn 1829, torodd diwygiad grymus allan yn yr ardaloedd hyny, a derbyniodd Mr. Evans dros chwe chant o aelodau newyddion i'r eglwysi. Yr oedd yn bregethwr poblogaidd a gweithgar, ac yn ysgrifenydd rhwydd a medrus. Efe ydoedd awdwr y llyfrau a ganlyn:—*Llyfr Hymnau, Rhesymau dros Ymneillduaeth, Y Cawg Aur, Traethawd ar Gadwraeth Babanod, Cawell y Bara Croyw,* ynghyd â chofiantau amryw o'i frodyr yn y weinidogaeth.

EVANS, Parch. DAVID, D.D. Ganwyd ef yn Llangyniw, sir Drefaldwyn, yn 1734. Penodwyd ef i ficeriaeth gorawl Llandwyn, ac i bersonoliaeth Llanerfyl yn 1737. O Lanerfyl, aeth i Lanymynech; a rhoddwyd iddo, tua yr un adeg, ganoniaeth Llanelwy. Ystyrid ef yn ysgolhaig ac yn feirniad Cymraeg da; a bu yn gynmhorth i Dr. Burne i ysgrifenu ei *History of Music*, a Mr. Edward Jones gyda'i gasgliad o dônau Cymreig. Bu farw tua'r flwyddyn 1788; a rhoddwyd ei weddillion i orwedd yn eglwys Llanymynech.

EVANS, Parch. DAVID, yr hwn a elwid 'David Evans yr Ail,' oedd weinidog gyda'r Wesleyaid, ac a anwyd yn Aberhosan, Mehefin 2il, 1814. Magwyd ef yn benaf gyda'i daid a'i nain yn Abercegyr; a chyda hwy y daeth efe i gyssylltiad âg enwad y Wesleyaid. Dechreuodd bregethu gyda hwy cyn bod yn 19eg oed; ac yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, cyssylltwyd ef â chylchdaith Aberystwyth fel pregethwr cynnorthwyol. Yn 1836, wedi cael ei ddewis yn ymgeisydd am y weinidogaeth, aeth i Athrofa Hoxton, Llundain, lle y bu yn efrydu gyda diwydrwydd mawr. Ar ei ymadawiad, pennodwyd ef i gylchdaith Aberteifi; a thra yno, yn nghanol llafur diflino fel gweinidog, ysgrifenodd draethawd galluog ar *Dduwdod Priodol ein Harglwydd Iesu Grist;* yr hwn a gyfansoddwyd gyda'r amcan o wrthwynebu heresiau yr Ariaid a'r Sosiniaid. Yn 1838, symmudodd i'r Wyddgrug; yn 1839, i Fanchester; ac oddi yno, yn mhen o ddeutu dwy flynedd, i Aberystwyth, i fyw mewn neillduedd oddi wrth waith y weinidogaeth, Wedi i'w iechyd gryfhau ychydig, ymaflodd yn ei waith drachefn—y pryd hwn yn nghylchdaith Llanidloes.

Digitized by Google

Yn y cyfamser, bu yn gwasanaethu am dymmor fel goruchwyliwr llenyddol y cyfundeb; ac yn y fl. 1845, pennodwyd ef yn olygydd yr *Eurgrawn Wesleyaidd*. Wedi dioddef cystudd trwm a maith, bu farw Medi 12fed, 1847.

EVANS, EDWARD. Duwinydd enwog a anwyd yn Llanrwst, tua'r flwyddyn 1582, oedd efe. Daeth yn bregethwr enwog yn Mhrifysgol Rhydychain, yn yr hon y graddiwyd ef yn M.A.

EVANS, EDWARD *(Iolo Gwyddelwern)*. Yr oedd yn fardd da o ardal Gwyddelwern: a ganwyd ef yno yn 1786. Gadawodd lawer o'i waith mewn llawysgrifen ar ei ol. Bu farw yn Rhuthyn, Mawrth 26ain, 1853; a chladdwyd ef yn mynwent addoldy y Bedyddwyr, yn Llanfwrog.

EVANS, ELLIS. Ganwyd Ellis Evans yn Mhenllyn, yn sir Feirionydd, mewn lle o'r enw Pig-y-swch, Mehefin 22ain, 1786. Enw ei dad oedd Evan Ellis; ac yr oedd ei enw yntau yn llawn yn Ellis Evan Ellis. Modd bynag, yn unol âg arferiad lled gyffredin a ffynai yn y dyddiau hyny, gelwid ef yn 'Ellis Evan;' ac yn nghwrs blynyddoedd, gadawyd i'r cyfenw hwn ddisgyn i ebargofiant. Yr oedd taid Ellis Evans, a nain Robert Ellis (*Cynddelw*), yn frawd ac yn chwaer. Dywed haneswyr y teulu mai dyn 'esgyrniog a chadarn, a lled arw ei foes,' oedd tad Ellis Evans; ond fod 'ei fam yn wraig dyner a hawddgar, ac yn meddu llawer o dueddiadau crefyddol.' Dyddiau maboed eithaf garw a gafodd efe. Bu gorfod arno droi allan i wasanaethu yn foreu ar ei oes; ac er fod ardal Llanuwchllyn yn uwch mewn breintiau crefyddol nag aml i ardal yn Ngogledd y Dywysogaeth ar y pryd, manteision bychain a gafodd E. Evans i'w barotoi ar gyfer ei yrfa ddyfodol. Yr oedd gan yr Annibynwyr eglwys flodeuog yn cyfarfod yn yr 'Hen Gapel,' fel ei gelwid. Ymsefydlodd George Lewis—y Dr. Lewis wedi hyny—yno yn y flwyddyn 1795; ac arferai Ellis Evans fyned i'r capel yn gysson i wrandaw arno. Oddi wrth hyn, gellir casglu mai gyda'r Annibynwyr y bwriadodd Ellis Evans fwrw ei goelbren; a chyda hwy y bu am dymmor wedi iddo ymuno â chrefydd. Ond yn mhen amser ar ol hyn, o herwydd cyfnewidiad a gymmerodd le yn ei olygiadau, efe a ymunodd â'r Bedyddwyr; y rhai a bregethent yn aml yn ardal Llanuwchllyn mewn anhedd-dai, ac hefyd yn nghapel yr Annibynwyr. Yn Medi, 1806, bedyddiwyd ef trwy drochiad mewn lle a elwid Pont-y-llan. Yn mhen tair blynedd wedi hyny, pan yr oedd tua 23ain mlwydd oed, dechreuodd bregethu. Yna, aeth i'r ysgol at Jesse Jones, yn y Ffordd-lâs, Llansantffraid Glan Conwy. Wedi hyny, yn Medi, 1811, efe a symmudodd i Athrofa y Fenni, yn yr hon yr arosodd hyd Ebrill, 1813. Dywed ei fywgraphydd ei fod yn bump ar hugain oed cyn darllen nac ysgrifenu yr iaith Saesnig; yr hyn sydd yn ffaith hynod pan yr ystyrir y safle uchel mewn dysg a gwybodaeth a ennillwyd ganddo ar ol hyny. Priododd Miss Mary Jones, o'r Ffordd-lâs; ac ar yr 2il o Dachwedd, 1815, ordeiniwyd ef yn weinidog eglwysi y Bedyddwyr yn Llannefydd, Llansannan, a Llangernyw, yn sir Ddinbych. Arosodd yn y cymmydogaethau hyn am bedair blynedd. Llafuriodd gydag egni a dyfal-barhâd mawr gyda'i ddyledswyddau gweinidogaethol; a chadwodd ysgol ddyddiol yn Llannefydd ar yr un pryd. Yn 1819, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Cefn mawr, sir Ddinbych; ac wrth yr enw Ellis Evans, Cefn mawr, yr adnabyddid ef bellach drwy y cylchoedd crefyddol. Bu yno am yr ysbaid maith o 45ain mlynedd. Yn y cyfamser, daeth yn ŵr o enwogrwydd mawr. Ymroddodd gyda phenderfyniad di-ildio i wellhau moesau y preswylwyr, i fywiogi ac i buro yr eglwys, ac i wneyd daioni yn mhob cylch, ac mewn pob rhyw fodd. Trwy ei ymdrechion ef y sefydlwyd eglwys lwyddiannus, ac yr adeiladwyd capel yn Mrymbo. Dywedir am Ellis Evans ei fod yn 'bregethwr duwinyddol a dwfn-dreiddgar, yn feddyliwr gwreiddiol, craff, a meistrolaidd. Llwyddodd i ddeall yr iaith Saesnig yn dda; ac yr oedd yn deall Groeg, ac yn gallu deall y Lladin a'r Hebraeg trwy gymmhorth geirlyfrau. Nid oedd Ellis Evans mor enwog fel awdwr ag yr oedd efe fel pregethwr.

Mewn ysgrif ddyddorol o'i eiddo, gwneir y sylw pert a ganlyn gan Cynddelw am wrthddrych yr erthygl hon:—'Gwaith anhawdd yw tynu darlun teg a chywir o Ellis Evans, o herwydd ei ragoriaethau amryddawn a lliosog. Un o werthfawr feibion Seion, a chystal ag aur, ydoedd. Yr oedd fel un o fynyddoedd mawrion Meirionydd, yn ymddangos yn llai o lawer o bell nag wrth sefyll yn ei ymyl. Hollol groes i hyny yw mawredd dynion yn gyffredin. Ymddengys rhai dynion yn fawrion iawn o bell; ond erbyn dynesu atynt, eu mesur, a'u pwyso, bychain ac ysgeifn ryfeddol ydynt hwy. Y mae gwylder a gostyngeiddrwydd dirodres bob amser yn nodweddu gwir fawredd. Yr oedd hyny yn hynodi Ellis Evans. Mae rhai pobl yn ymgodi uwch law eu galw yn *Mr.*, *Dr.*, a'r cyffelyb—canys y mae eu henwau yn ddigon; megys John Calvin, Martin Luther, John Bunyan, John Foster, Robert Hall, Andrew Fuller, John Elias, Christmas Evans, Williams o'r Wern, Charles o'r Bala, Ellis Evans, &c. Pan gyhoeddwyd cofiant Christmas Evans, yr oedd dynion o chwaeth gywir yn beio am ei alw yn 'Mr. Evans,' &c.; gan haeru mai llawer mwy cydweddol a'i barch henadurol fuasai ei alw yn 'Christmas Evans.' Bu llawer Mr. Evans, a llawer Dr. Evans, ond un Christmas Evans—ac un Ellis Evans fu erioed; ac fe allai a fydd byth. Ac oddi ar yr ystyriaethau hyn, yr ydym yn gwneyd ein goreu i fytholi yr hen enw anwyl, 'Ellis Evans.'' Yr oedd yr hyn a ysgrifenodd Ellis Evans o ansawdd uchel. Ni a roddwn yma restr o'r llyfrau a gyhoeddwyd ganddo:—*Llythyr Cymmanfa y Cefn mawr; Undliaeth a Gweledigrwydd yr Eglwys*, 1827; *Pregeth ar Arddangosiad syml o Syniadau gwahaniaethol, neu Egwyddorion priodol Bedyddwyr y Crediniol, oddi ar Actau* xxviii. 22; *Annogaeth i Athrawon ac Athrawesau ein Hysgolion Sabbothol i roddi cwbl ymegniad at y gwaith o ddysgu yr anwybodus yn iachus eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, a'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb, a draddodwyd mewn pregeth oddi ar Preg.* ix. 10.—*at yr hon y chwanegwyd hanes byr o ddechreuad, sefydliad, a gweithrediadau Cymdeithas yr Ysgol Sabbothol*, 1830. *Hanes y Bedyddwyr* oedd ei brif waith llenyddol. Dechreuodd yn gynnar ar ei oes, a bu yn dra diwyd gydag ef hyd y diwedd; a bu farw cyn ei orphen. Y dosbarth cyntaf o'r gwaith yn unig a gyhoeddwyd; ac fel cydnabyddiaeth o'i ragoroldeb, rhoddwyd i'r awdwr trylen y radd o

D. D. gan un o'r Colegau Americanaidd. Bwriadodd Mr. Evans gyhoeddi traethawd ar *Arwyddion yr Amserau, ynghyd â dyledswydd pob gradd i sylwi arnynt, a'u hadnabod*, oddi ar *Mat.* xvi. 3; ond o herwydd diffyg cefnogaeth, ymattaliodd. Yn chwanegol at yr uchod, efe a ysgrifenodd lawer i'r *Greal*, *Y Seren Gomer*, *Y Tyst Apostolaidd*, a'r *Athraw*, a chylchgronau eraill; a chyfansoddodd hymnau rhagorol, yn nghyd â rhai englynion hefyd. Ymneillduodd o'r weinidogaeth yn y fl. 1858; ond parhaodd i bregethu yn fynych hyd y diwedd. Bu farw ar Mawrth 28ain, 1864, yn 78ain mlwydd oed. Bu yn aelod eglwysig am 58ain mlynedd, ac yn bregethwr am 55ain.

**EVANS, ENOCH**, Bala. Yr oedd efe yn ŵyr i'r hybarch John Evans, Bala; ac fel yntau daeth yn bregethwr hynod gyda'r Methodistiaid Calvinaidd. Yr oedd efe yn gymmeriad anghyffredin mewn llawer ystyr. Un neillduolrwydd a berthynai iddo oedd, cadw nifer o adar gwahanol yn ei dŷ; a dywedir yr arferai eistedd mewn unigedd am oriau i wrandaw arnynt yn canu. Byddai hefyd yn arfer ymdroi am amser maith tra ar ei deithiau pregethwrol i wylio symmudiadau ac arferion malwod a phryfaid genwair, &c. Parai y duedd hon i ymdroi nid ychydig o bryder ac anhwylusdod i'w frodyr crefyddol; y rhai, yn fynych, fyddent yn troi y bregeth gyhoeddedig yn gyfarfod gweddi. Gan obeithio y llwyddai i feddyginiaethu Enoch Evans o'r arferiad hynod hwn, rhoddodd cyfaill fenthyg anifail iddo at ei wasanaeth. Digwyddodd fod y ceffyl benthyg yn ebol ieuangc lled anhydrin ei dymmer; a chan nad oedd Enoch Evans cystal marchogwr ag o bregethwr, nid oedd ond anhwylusdod i'w ddisgwyl o'r gyfathrach hon. Un diwrnod, gwylltiodd yr anifail dano, a chychwynodd ymaith ar ffrwst. Collodd yr efengylydd ei het; ac er mwyn cadw ei hun yn y cyfrwy, ymollyngodd ar wddf y march, gan gydio â'i holl egni yn ei fwng. A chredai Enoch, druan! ei bod wedi myned i'r pen arno. Fodd bynag, aeth heibio y capel lle yr oedd efe i bregethu—o flaen yr hwn yr oedd nifer o bobl yn disgwyl am dano. 'Holo!' ebe un o'r dorf, 'I b'le yr ydych yn myned?' 'Gofynwch iddo fo,' oedd yr atteb—ac nis gellid cael ei well. Ni chaed pregeth ganddo y diwrnod hwnw; a dywedir ei bod yn foreu dranoeth pan y cyrhaeddodd adref. Ond er ei holl hynodion, yr oedd llawer o ragoriaethau yn prydferthu ei gymmeriad; a chyfrifid ef yn bregethwr neillduol o dda. Dywedir ei fod yn un o'r darllenwyr goreu; ac y darllenai bennodau o'r Beibl yn rhagorach na neb o'i gyfoedion, o'r bron. Bu yn pregethu gyda'r cyfundeb uchod hyd ei farwolaeth.

**EVANS, PARCH. HUGH, M.A.** Athraw yn Ngholeg y Bedyddwyr yn Mristol oedd efe, a gweinidog eglwys Broadmead, yn y ddinas hono. Yr oedd yn fab i'r Parch. Caleb Evans, gweinidog y Bedyddwyr yn y Pentre newydd, yn sir Faesyfed, lle y ganwyd yntau yn y fl. 1712. Derbyniodd ei addysg elfenol dan Mr. Price, o Lwynllwyd, gweinidog Maes-yr-onen, yr hwn a gadwai ysgol lewyrchus yno y pryd hwnw. Wedi dechreu pregethu, ac ennill cryn enwogrwydd, cafodd alwad gan eglwys Little Wild street, yn Llundain, i fod yn olynydd i'r enwog William Arnold. Derbyniodd alwad hefyd o Exeter; ond yn Mristol y trefnwyd iddo aros. Ar y 7fed o Chwefror, 1740, neillduwyd ef yn weinidog cynnorthwyol i eglwys Broadmead, o dan yr enw 'Henadur Llywodraethol, a Dysgawdwr.' Y pryd hyny, cydweithiai â Mr. Foskett yn nygiad yn mlaen yr athrofa fechan oedd yno—yn yr hon y cyfranwyd addysg i nifer fawr o wŷr ieuaingc oedd yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth. Arferai Hugh Evans roddi ei bresennoldeb yn nghymmanfa ei enwad yn Nghymru bob yn ail flwyddyn; ac yr oedd efe yn un o'i phrif bregethwyr. Ceir y crybwylliad canlynol am dano yn nghroniclau eglwys Broadmead:—'Y mae yr 28ain o Fawrth, 1781, wedi ei wneyd yn fythgofiadwy trwy farwolaeth y gweinidog, Hugh Evans; yr hwn, am hanner can mlynedd, a fu yn aelod o'r eglwys, ac am saith mlynedd a deugain yn ddysgawdwr iddi. Bu farw o adfeilion araf henaint: a gadawodd ar ei ol goffadwriaeth o anfarwol werth.' Mab iddo oedd y Parch. Caleb Evans, D. D.—ei olynydd yn llywyddiaeth yr athrofa.

**EVANS, JAMES.** Hynafiaethydd campus oedd efe, a bardd—ond heb fod yn y rhestr flaenaf. Adnabyddwyd ef hefyd wrth yr enw *Iago Glan Ceri*. Brodor oedd efe o Gapel Gwnda, yn mhlwyf Troed-yr-aur, ger Castellnewydd Emlyn. Dywedir ei fod yn hysbys iawn yn hanes ei wlad.

**EVANS, JOHN**:—gŵr ieuangc o ysbryd anturiaethus, a anwyd yn nghymmydogaeth y Waen fawr, yn sir Gaernarfon. Tua'r fl. 1790, ymfudodd i wlad y Gorllewin, gyda'r amcan teilwng o ymchwilio am yr Indiaid Cymreig, neu hiliogaeth Madog ab Owain, a'i ganlynwyr. Wedi treiddio am bellder hyd ganolbarth y Cyfandir ëang, bu raid iddo ddychwelyd i dref St. Louis, gyda'r afon Mississippi. Cyn gallu gwneyd ail gynnyg gyda'r un amcan, bu farw o dwymyn, yn y fl. 1797. Bernir yn lled gyffredinol yn y dyddiau hyn, nad ydyw y chwedl am fynediad Madog ab Owain i'r Gorllewin ond ffrwyth dychymyg.

**EVANS, JOHN, M.A.** Ganwyd ef yn mhlwyf Llangelynin, yn Meirion. Yr oedd efe yn sêrddewin adnabyddus, ac yn gymmeriad hynod iawn yn ystod teyrnasiad Elizabeth, ac Iago y Cyntaf. Bu yn cadw ysgol, ac yn gwasanaethu fel ciwrad yn Enfield, yn swydd Stafford—swydd a gollodd efe trwy wall ymddygiad. Wedi ymsefydlu yn Llundain, daeth yn adnabyddus fel dewin, a gwneuthurwr almanaciau.

**EVANS, PARCH. JOHN**, Abercanaid. Efe a ddechreuodd ei daith ddaearol y dydd olaf o Hydref, 1806, yn agos i Lanidloes, Trefaldwyn. Nid oes genym hanes fod ei rïeni yn grefyddwyr: ond tebygol eu bod. Yr oedd ei berthynasau agos yn Wesleyaid a Threfnyddion. Pan oedd o gylch deng mlwydd oed, aeth at berthynasau oedd yn byw yn Merthyr Tydfil; a rhoddwyd ef i ddysgu crefft crydd. Dywed David Jones, yn *Hanes y Bedyddwyr*, mai yn Seion, Merthyr, yr ymaelododd John Evans, ac y dechreuodd bregethu; ond dywed fel arall wrth roddi hanes eglwys Llysfaen—a'r olaf sydd gywiraf. Symmudodd J. Evans i Lysfaen, at un Thomas Jones, crydd, yr hwn oedd yn briod â chwaer ei dad; ac yno y bedyddiwyd

Digitized by Google

ef yn y fl. 1823, gan y Parch. James Edmunds, yr hwn oedd yn weinidog yno, ac yn Methesda, Maesaleg, gyda'r poblogaidd John Hier. Dechreuodd J. Evans bregethu yn 1826; ac aeth i Goleg y Fenni o Lysfaen, at yr athraw enwog Micah Thomas, yn 1829. Bu yno dair blynedd (*College Reports*). Rhai o'i gyd-efrydwyr, a'r rhai a ddaethant yn enwog a defnyddiol yn eu dydd, oedd y Parchn. D. Rhys Stephen, Edward Evans, Dowlais; Edward Thomas, Croes-y-parc, brawd y diweddar Barch. Evan Thomas, Cas-newydd; John Williams, Aberduar; David Jones, Tabernacl, Caerdydd; John Jones, Seion, Merthyr; a William Thomas, Blaen-y-waun, yr hwn a fu farw yn Rhydwyn, Môn, yn 1881, yn 73ain mlwydd oed. Eglwys gyntaf J. Evans oedd Llandeilo, sir Gaerfyrddin. Urddwyd ef yn Mai, 1832: pryd y gwasanaethodd y Parchn. D. Bowen, Llanelli; D. Rhys Stephen, David Griffiths, Cwm-ifor; Joshua Watkins, a Gibbon, Caerfyrddin, ac eraill. Ond gan fod yr eglwys yn wan ac yn anghyttunus, efe a ymadawodd. Ei destyn olaf oedd 2 *Cor.* xiii. 11, 'Syniwch yr un peth, byddwch heddychol; a Duw y cariad a'r heddwch a fydd gyda chwi.' Ei eglwys nesaf oedd Treffynnon. Dechreuodd yno yn Medi, 1834. Cafodd gryn helbul ar y cyntaf, am nad oedd yn cael yr undeb a'r cariad yr oedd yn ei ddisgwyl rhwng yr aelodau. Nid oedd ei ddawn yntau yn gydnaws â'r fath bobl; gan hyny, efe a ymadawodd, ac a ymsefydlodd yn Rhuddlan, yn nechreu 1837. Gan ei fod yn pregethu mor noeth ar fedydd, aeth cyffro drwy yr holl wlad; ac yn 1839, bu dadl yn Llanelwy rhyngddo a'r Parch. Thomas Aubrey, pregethwr poblogaidd gyda'r Wesleyaid. Ei symmudiad nesaf oedd i Fangor, yn Mawrth, 1840. Cymmerodd dadl rhyngddo ag Aubrey le drachefn yn Rhuthyn; a chan fod hanes y ddadl mewn argraph, y mae yn werth darlleniad gofalus. Pan yn Mangor, efe a briododd Saesnes, o'r enw Miss Simpson. A oedd efe yn gall yn hyn sydd heb ei benderfynu, gan mai pregethwr i'r Cymry y bu ar hyd ei oes. Call neu beidio, yr oedd hi yn wraig ragorol; a rhaid ei bod yn wraig bwyllog iawn; pe amgen, nis gallai gydfyw âg un mor ddiseremoni: ïe, a'i oroesi hefyd.

Wedi chwe blynedd o lafur caled yn Mangor, efe a symmudodd i'r Bontfaen, Morganwg, yn Ebrill, 1846; ond yr un dyn oedd efe beunydd, ac yr oedd bedydd yn dyfod ar draws braidd pob pregeth. Gofynodd rhyw chwaer iddo, 'A ydych chwi yn meddwl nad aiff neb i'r nefoedd ond y rhai sydd wedi eu bedyddio?' Ei atteb swrth a sydyn oedd, 'O! beth sydd a fyno i â'r nefoedd? Pregethu y gwirionedd fel y mae yn y Testament Newydd yw fy ngwaith i.' Un boreu Llun, yr oedd mewn ystafell yn ei dŷ yn gwella esgidiau ei deulu. Galwodd Mr. Howe, un o'r diaconiaid, a dywedodd wrth Mrs. Evans ei fod am weled y gweinidog. Aeth hi â'r neges iddo; a'r atteb oedd, 'Dywedwch wrth Mr. Howe, nad gweinidog y Bedyddwyr ydyw Mr. Evans heddyw—ond cobler.'

Wedi bod yn barchus yn y Bontfaen am bump a hanner o flynyddau, efe a sefydlodd yn Abercanaid, ger llaw Merthyr Tydfil, yn mis Tachwedd, 1851. Yno y diweddodd ei daith, Tachwedd 21ain, 1872, ar ol rhai wythnosau o gystudd trwm. Gan ei fod wedi byw yn nes i Ferthyr nag i Abercanaid, cynnaliwyd y gwasanaeth angladdol yn nghapel Seion, lle yr arferai efe wrandaw pan yn llangc; ac aeth yr orymdaith fawr i Gefn-coed-y-cymmer, lle y claddwyd ei gorph. Yr oedd un o'i gyd-efrydwyr yn yr angladd; sef, y Parch. E. Evans, Dowlais. Bu merch anwylgu i J. Evans farw o'i flaen; a bu y tro yn ddyrnod angeuol iddo. Y mae chwaer iddi etto yn aros. Bu gweddw J. Evans farw yn Chwefror, 1873, yn 63ain ml. oed; a chladdwyd hi yn ymyl ei gŵr.

O ran ei gorph, yr oedd J. Evans yn y ganolradd. Yr oedd yn gadarn a thrymaidd ei agwedd. Gwelid yn ei wyneb ei fod yn feddylìwr dwfn, ac yr oedd ei dalcen a'i lygaid yn arwyddo mawredd. Nid oedd dim yn eglurach yn ei drem na gwroldeb a phenderfyniad. Nid ofnai neb, ond yr hwn sydd yn byw byth. Nid oedd efe yn or-ofalus am ei drwsiad; a chyda golwg ar gudynau ei ben, caent gymmeryd y ffordd a fynent.

Yr oedd John Evans yn bregethwr llawn o sylwedd. O'r Ysgrythyrau y tynai efe ei holl gyfoeth. Ysgrifenodd un fel hyn am dano, ac y mae yn sicr ei fod yn gywir:—'Yr oedd J. Evans yn pregethu fel un âg awdurdod ganddo—awdurdod yn codi o'r ymwybyddiaeth ei fod yn dyweyd y gwirionedd, ac o gydymdeimlad â'r gwirionedd. Yr oedd difrifoldeb sanctaidd yn ei arddull a'i ymddangosiad, a'i bregethau yn llawn o ymresymiadau. Nid oedd dim o'r digrif a'r ysmala ynddynt, na dawn swynol yn eu traddodiad: ond y rhesymwr cadarn oedd efe. Tri pheth amlwg yn ei gyfansoddiadau oeddynt—haeriad, prawf, a rhybudd. Hysbysai ei osodiad, yna profai ef, a rhybuddiai ei wrandawyr yn ddifrifol. Mewn gair, yr oedd ei argyhoeddiad trylwyr o'r gwirionedd yn ei wneyd yn danllyd drosto; a chyda hyn, yr oedd ei wroldeb annofadwy yn ei alluogi i draethu y gwirionedd yn mhob man yn ddi-ofn' (*Greal* 1894, td, 312). Dyma eiriau un arall ag oedd yn hen gyfarwydd â J. Evans:—'Nid oedd ynddo ddim o'r donioldeb—dim sŵn, na chanu, dim i oglais y bobl: ond yr eglurhâd, i wneyd dynion yn well ac yn ddoethach.'

Y peth nesaf i ddyfod dan sylw fydd ei waith fel llenor. Pan oedd yn y coleg, efe a ysgrifenai i'r misolion; a pharhaodd i wneyd hyny am yn agos i ddeugain mlynedd. Heb law hyn, efe a gyhoeddodd fagad o lyfrau. Yn 1841, cyhoeddodd ei *Athrawiaeth Bedydd.* Yr argraphiad cyntaf sydd o'n blaen. Cynnwysai hwn 2,500 o gopïau. Yr oedd y fath anturiaeth yn bwysig i ddyn cymmharol dlawd, gan fod y llyfr yn 172 o dudalenau. Bu galw yn fuan am ail argraphiad; ac yr oedd hwnw yn 1,500. Dywed yn ei Ragymadrodd fod y dadleu a fu rhyngddo a Mr. Aubrey yn Llanelwy a Rhuthyn yn ddigon hysbys o Gaergybi i Gaerdydd. 'Ni chymmerais ond y rhan amddiffynol yn y dadleuon hyny; efe (Mr. Aubrey) a wnaeth yr ymosodiad: a chaiff y rhai oedd yn absennol gyfleusdra i farnu teilyngdod neu annheilyngdod y gwahanol ddarlithoedd drwy gymmharu fy ngwaith i a'r eiddo yntau. Hyderaf na ddywed yr un beirniad gonest a ddarlleno fy llyfr fy mod wedi rhoddi golwg dwyllodrus ar ei bethau ef, na chwaith ar bethau i frawd, Mr. Pritchard. Y mae fy llyfr yn cynnwys attebiad i ddau lyfryn a gyhoeddwyd yn ddiweddar o blaid taenellu ar fabanod—un gan Mr. R. Pritchard, Abergele; a'r llall gan Mr. Aubrey, Dinbych—y ddau yn weinidogion i'r Wesleyaid.' Parodd y llyfr hwn gyffro mawr. Ysgrifenodd

Digitized by Google

y diweddar Dr. Jones, o Langollen, mai darllen y llyfr hwn a barodd iddo ef adael ei enwad, ac ymuno â'r Bedyddwyr. Gwnaeth llawer yr un fath ag ef.

Yn 1849, efe a ysgrifenodd ac a gyhoeddodd gofiant i'r Parch. John James, Pen-y-bont, yn cynnwys deg o'i bregethau. Y mae yn 84ain o dudalenau. Bu dadl alluog a maith yn *Seren Gomer* a'r *Bedyddiwr* yn y fl. 1852, ar 'Osodiad dwylaw.' Yr oedd cewri ar y maes, a J. Evans yn y ffrynt. Yn y *Bedyddiwr* yr ymddangosodd ef; ac yr oedd yn pleidio y ddefod, am y credai ei bod yn apostolaidd. Yr un flwyddyn, efe a ysgrifenodd lythyr Cymmanfa Morganwg, ar 'Undeb yr Ysbryd;' ac yn 1857, efe a ysgrifenodd ail lythyr at eglwysi Morganwg.

Yn 1861, cynnaliodd hen eglwys Hengoed ei thrydydd iwbili yn goffadwriaeth o sefydliad yr achos yn y capel cyntaf—1710. Pennodwyd J. Evans i roddi anerchiad ar 'Athrawiaeth a gweinidogaeth y Bedyddwyr yn gyffredinol.' Y mae yr anerchiad yn faith a galluog. Y mae i'w gael yn *Hengoediana*, td. 92, &c.

Yn 1862, efe a gyhoeddodd lyfr, yn cynnwys pedair o bregethau, yn llenwi 52 o dudalenau. Y testynau ydyw *Marc* x. 13—16; *Actau* ii. 37—39; *Actau* xix. 1—7; a *Galat.* iv. 21—31. Yn ei lith at y darllenydd, ceir y geiriau hyn: 'Yr wyf yn cyhoeddi y pregethau a ganlyn ar ddymuniad llawer a'u clywsant, ac ar y dybiaeth y gallant fod o fendith i eraill. Yr oeddynt wedi eu hysgrifenu genyf er's llawer o flynyddoedd, ac wedi eu traddodi mewn gwahanol fanau. . . Gwyddoch mai i'r adnodau dan sylw y rheda taenellwyr i lechu, fel pe byddai yr adnodau hyn yn sail i'w defod. . . Yr wyf wedi ymdrechu dangos, nid yn unig pa beth nad ydynt yn gynnwys, eithr pa fath addysg sydd ynddynt i fydd a gweithrediadau y Cristion.'

Yn ol adroddiad cyfaill iddo:—'Yn 1867, ysgrifenodd nifer o lythyrau i'r *Gwyliedydd*, yn rhoddi hanes y dadleuon y bu ynddynt; a cyhoeddwyd hwy mewn llyfr yn 1870. Y mae yn cynnwys 12 llythyr; darlith ar y 'Weithred o fedyddio,' a draddodwyd yn Llanelwy, Medi 17eg, 1839; darlith a draddodwyd yn Llysdy Rhuthyn, Mawrth 17eg, 1840; pregeth ar 'Gommisiwn Crist i'w Apostolion'—yr oll yn llenwi 142 o dudalenau. Yr oedd y dadleuon a fu yn Rhuthyn yn dderbyniol iawn gan ei bleidwyr; ond fel arall i'r wrthblaid. Darfu iddynt godi cryn derfysg pan oedd tro Mr. Evans i siarad; a buont yn anfoneddigaidd iawn. Llwyddodd y Bedyddwyr yn anarferol ar ol y dadleuon yn y Gogledd. Bedyddiwyd 1,162 yn y flwyddyn 1840. Nid oedd rhif y rhai a fedyddiwyd yn 1838 ond 444. Ni ddylai neb ar un cyfrif feio J. Evans am bregethu cymmaint ar fedydd, canys rhaid oedd iddo ef—ni allai beidio. Digwyddodd fod J. Evans a minnau yn aros yn yr un tŷ yn Mhont-y-pool, yn 1851. Yr oedd cwrdd blynyddol yr athrofa yn cael ei gynnal, fel arfer, yn mis Mai. J. Evans oedd i bregethu yn Gymraeg i'r myfyrwyr. Gofynwyd iddo yn ei letty a oedd efe yn bwriadu pregethu bedydd i'r *students*. Dangosodd ei ysgrif, yr hon oedd yn ei law ar y pryd, 'Edrych yma,' ebai efe. Wedi edrych, y gair cyntaf a welais oedd bedydd. Yna, efe a ddywedodd, 'Yr wyf yn sicr fod pregethwyr yr oes apostolaidd yn dwyn bedydd i'w holl bregethau. Mi gymmerwn fy llw ar hyny. Ni allent fynegu holl gynghor Duw heb sôn am fedydd. Rhaid iddynt wneyd; canys yr oedd bedydd yn y commisiwn a roddes eu Hathraw iddynt. Pan oedd yr eunych yn ei gerbyd yn darllen yn Esaiah am yr Oen yn cael ei arwain i'r lladdfa, &c., pregethodd Phylip iddo yr Iesu; ac fe ddaeth â bedydd i mewn. Pe amgen, pa ham y dywedodd yr eunych wrtho, 'Wele ddwfr, beth sydd yn lluddias fy medyddio?''

Ei waith mwyaf, a'r olaf, oedd ei *Esboniad ar yr Hebreaid*, mewn 124 o bregethau, a'r oll yn 544 o dudalenau wythplyg. Yr oedd saith pennod o'r llyfr mewn argraph cyn marwolaeth yr awdwr, a'r gweddill o hono yn barod mewn ysgrifen. Gorphenwyd y gyfrol yn y fl. 1875. Nodweddir y pregethau hyn gan holl ragoriaethau yr awdwr; sef, eglurdeb, nerth, a dyweyd llawer mewn ychydig. Dywedodd cyfaill na welodd ragorach cyfrol. Wrth fyned yn mlaen, saethai i'w feddwl y pethau hyn—'Dyma arlwyaeth i deulu Duw, dyma borfa frâs i ddefaid Crist, dyma ymborth iachus, dyma fanna o'r nef.' Arolygodd y Parch. O. Waldo James y rhan olaf o'r gyfrol, wrth ei bod yn y wasg. Efe hefyd a ysgrifenodd y 'Nodiad Bywgraphyddol' sydd yn y rhagymadrodd, er nad ydyw ei enw wrtho. Yr oedd efe, y pryd hwnw, yn weinidog yn Merthyr.

Yr oedd Mr. Evans yn cael ei hoffi a'i edmygu gan ei bobl yn ei flynyddau olaf yn fwy nag erioed. Dywedodd rhai wrtho ei fod yn gwella fel pregethwr. Ei atteb oedd, 'Nac wyf, yn sicr. Nid wyf yn pregethu yn well; ond chwi sy'n gwrandaw yn well, ac yn dyfod yn gallach.' Bedair blynedd cyn ei farwolaeth, gwnaed tysteb iddo o gan punt. Cyfranodd llawer, heb law pobl Merthyr ac Abercanaid. Cynnaliwyd cyfarfod poblogaidd, ac yr oedd brodyr o bell yno; a chyflwynwyd y rhodd gyda brwdfrydedd a llawenydd calon. 'Y gair olaf a ysgrifenaf yw (medd cyfaill iddo), fy mod yn ei garu yn fawr; ac na fu gair garw rhyngom drwy dymmor maith ein hadnabyddiaeth.'

EVANS, Parch. JOHN HUGH:—yr hwn a adnabyddid yn fwyaf cyffredin wrth ei enw barddonol *Cynfaen*. Ganwyd ef Gorph. 12fed, 1833, mewn bwthyn o'r enw Pen-ucha'r-plwy', Ysceifiog, yn sir Fflint. Ef rïeni oeddynt John Evans (*Ioan Tachwedd*), ac Ellen ei wraig; yr hon oedd ferch hynaf i William a Sarah Jones, Ty'n-y-celyn, Llangynhafal, yn Nyffryn Clwyd. Rhoddasant hwy y fagwraeth oreu a ganiatäai eu hamgylchiadau i'r bachgen. Dysgwyd ef i ddarllen ac i ysgrifenu Cymraeg yn wych; ac yn anad dim, gofalwyd yn eiddigeddus am ei foesau a'i grefydd. Pan oedd tua thair blwydd oed, symmudodd ei rïeni i Bryn-'rhedydd i fyw —tŷ syml a adeiladwyd gan ei dad, tua hanner milldir yn nes i fynydd Helygain na'r hen dŷ; ac yn y tŷ hwn y treuliodd Cynfaen y ddwy flynedd-ar-bymtheg nesaf o'i oes. Yn nechreu Rhagfyr, 1853, ymsefydlodd yn Rhuthyn, fel ysgolfeistr y Tlotty, lle y profodd ei hun yn swyddog ymdrechgar ac egwyddorol, ac yn un a gymmerodd cryn ddyddordeb yn nghyflwr ysbrydol preswylwyr y sefydliad hwnw. Pan yn Rhuthyn, dechreuodd bregethu; ac un o'i bregethau cyntaf oedd yr un a draddododd efe yn Llanelidan, Hydref, 1857. Mewn cyfarfod chwarterol a gynnaliwyd yn Llanfyllin, Ebrill 4ydd, 1860, cafodd ef, a'r Parch. John Evans, Eglwysbach, eu derbyn yn bregethwyr rheol-

Digitized by Google

aidd yn y cyfundeb Wesleyaidd. Yn niwedd mis Awst, 1860, efe a ymadawodd o Ruthyn, ac a ymsefydlodd yn Mangor; i'r hon gylchdaith y pennodwyd ef, gyda'r Parchn. Lewis Jones, a Samuel Davies. Bu ganddo gryn law yno, o dan arolygiad Mr. Davies, ynglyn â Llyfrfa yr enwad Wesleyaidd; yr hon, ychydig yn flaenorol, a symmudwyd i Fangor o Langollen; a bu ei lafur gweinidogaethol a llenyddol yn gyfryw ag a roddodd y boddlonrwydd mwyaf hefyd. Ceir tystiolaeth uchel iddo gan Mr. Davies yn ei gofiant. Yn 1863, symmudwyd Mr. Evans o Fangor i gylchdaith Gymreig Liverpool, a phreswyliodd yn Birkenhead. Yn 1864, urddwyd ef yn Nghynnadledd Bradford, a thraddodwyd y 'siars' iddo gan Dr. Osborn—gŵr enwog yn y cyfundeb. Yn Medi, yr un flwyddyn, priododd Miss Maria Roberts, unig ferch Mr. Issachar Roberts, o'r Wyddgrug; yr hon a fu iddo yn ymgeledd gymmhwys, ac yn gydymaith duwiol a chywir. Tra yn aros yn nghylchdaith Liverpool, efe a orphenodd y gwaith o olygu cyfrol o bregethau y Parch. Samuel Davies, y cyntaf; yr hyn a ddechreuwyd gan weinidog arall perthynol i'r enwad. Y tair blynedd dilynol—o 1886 hyd 1888—a dreuliwyd gan Mr. Evans yn Llundain. Y pryd hwn y daeth efe allan yn gyhoeddus fel bardd, trwy gyfansoddi pryddestgoffa i'r enwog Barch. Thomas Aubrey; yr hon a ennillodd y wobr a gynnygiwyd gan Gymdeithas Dduwinyddol Capel Seion, Liverpool. Cyfansoddodd ddarlith hefyd ar yr un gwrthddrych. Gweithiodd gydag egni mawr tra yn y brif ddinas; a gwnaeth lawer i goethi ac i ddiwyllio ei hun gogyfer â'r gwaith mawr oedd yn ei aros. Am y tair blynedd nesaf—o 1869 hyd 1871—bu yn gofalu am gylchdaith Llanrhaiadr-yn-Mochnant, yn sir Ddinbych—y tro cyntaf iddo fod yn arolygwr cylchdaith. Wedi hyny, symmudwyd ef i Rhyl, lle y bu o 1872 hyd 1874. Dyma, fel y tybiai ei hun, y cyfnod mwyaf defnyddiol o'i oes. Trwy ei ymdrechion ef, yn benaf, yr adeiladwyd Capel Brunswick yno; ac yr oedd ei bregethau a'i ddarlithiau yn cael eu mwynhau a'u gwerthfawrogi yn fawr gan y gynnulleidfa. Yn 1875, pennodwyd ef i gylchdaith Chester Street, Liverpool; yn yr hon yr arosodd dros y tymmor arferol o dair blynedd. Tra y bu yno y casglodd ag y golygodd efe y gyfrol o *Weithiau y Parch. Rowland Hughes*. Ei gylchdaith nesaf oedd Caernarfon, o 1878 hyd 1880. Torodd ei iechyd i lawr tra yno; ac ni lwyr adferwyd ef. Daliodd i weithio er hyny, yn mron mor egnïol ag erioed; ac yn fwy felly, yn wir, nag a ganiatäai ei nerth; ac y mae arogl peraidd ei weinidogaeth yn aros yn Nghaernarfon hyd y dydd hwn. Bu yn gofalu am gylchdaith Dolgellau hefyd am flwyddyn; sef, 1881; ac yna, o 1882 hyd 1884, llafuriodd gydag yni a dyfal-barhâd yn mysg Cymry Manceinion. O dan ei arolygiaeth ef, yn benaf, yr adeiladwyd Capel Gore Street. Yn 1885, aeth i Lanrwst; a dyma ei symmudiad daearol olaf. Dechreuodd ei iechyd adfeilio; ond yr oedd ei weinidogaeth mor iraidd ag y bu erioed. Yn y man, modd bynag, bu raid ymattal. Aeth o ddrwg i waeth; a bu farw Mehefin 24ain, 1886, pan o fewn ychydig i fod yn 53ain mlwydd oed. Bu yn y weinidogaeth am chwech-ar-hugain o flynyddoedd.

Yr oedd Cynfaen, fel pregethwr, fel bardd, ac fel llenor hefyd, yn gymmeriad adnabyddus trwy ran fawr o'r Dywysogaeth. A chadwodd ei le yn anrhydeddus yn y weinidogaeth—nid yn unig fel pregethwr derbyniol, ond fel un o alluoedd meddyliol uwch na'r cyffredin. Nid pregethau bâs, arwynebol, heb ol llafur, oedd ei eiddo ef; ond ffrwyth ymchwiliad dyfal wedi ei gaboli gan ei feddwl nerthol ef ei hun. Yr oeddynt, er hyny, yn ymarferol, ac yn cael eu darparu ganddo i gyfarfod âg anghenion y bobl y llafuriai yn eu mysg. Safai yr un mor uchel hefyd fel darlithydd; ac yr oedd ei ddarlithiau ar 'Dyn o Ddifrif,' 'Uthr Bendragon,' 'Gwareiddiad a Christionogaeth,' a'r 'Mynyddoedd Tanllyd,' &c., yn boblogaidd iawn. Yn ei gymmeriad o lenor, ysgrifenodd erthyglau lawer ar amrywiol destynau i brif gylchgronau Cymru. Y brif wobr farddonol a ennillwyd ganddo oedd Cadair y Gordofigion, yn 1877, gydag awdl ar 'Y Temtiad.'

**EVANS, LEWIS.** Ganwyd ef yn sir Fynwy, yn y rhan gyntaf o'r unfed ganrif ar bymtheg. Wedi derbyn addysg yn Rhydychain, ymsefydlodd yn Llundain, lle y dangosodd fawr sêl dros egwyddorion Pabaidd—yr hyn a ddygodd arno fawr erledigaeth. Yna, ffôdd am ei fywyd i'r Cyfandir; a thra yn Antwerp, cyfieithodd, o'r Lladin i'r Saesneg, lyfr o waith Esgob Rurimund yn erbyn y rhai a farnai efe yn hereticiaid. Ymddengys iddo ar ol hyn ymgymmodi âg Eglwys Loegr; ac iddo, er profi fod ei ragfarn yn ei herbyn wedi darfod, gyhoeddi llyfr o'i phlaid, yr hwn a alwodd efe *The Castle of Christianitie*, &c. Dynoethir Pabyddiaeth yn y gwaith hwn, ac amddiffynir Eglwys Loegr. Yn 1570, cyhoeddodd lyfr arall:—*The hateful hypocrisy and rebellion of Romish Prelates.* Ar ol hyn, bu am amser yn cadw ysgol; a dygodd drwy y wasg argraphiad newydd o waith Withal—*A short Dictionary for Young Beginners.* Nid ydyw yn hysbys pa bryd y bu farw; ond yr oedd yn fyw yn 1573.

**EVANS, LEWIS**, Llanllugan, yn sir Drefaldwyn. Lewis Evans a ystyrir y cyntaf o'r cynghorwyr Methodistaidd yn Ngogledd Cymru. Ganwyd ef, yn ol pob tebyg, yn Nhrefeglwys, ger llaw Llanidloes, yn y flwyddyn 1719. Yr oedd efe, felly, bum mlynedd yn ieuangach na Howel Harris, a chwe blynedd yn ieuangach na Daniel Rowlands. Gwehydd ydoedd wrth ei alwedigaeth; a phan tuag un ar hugain oed, cawn ei fod yn dilyn ei gelfyddyd yn nghartref ei daid a'i nain yn y Crugnant, Llanllugan. Ar ddyfodiad cyntaf Howel Harris i'r Gogledd, yn mis Chwefror, 1740, digwyddodd ei fod yn talu ymweliad â'i rieni yn Nhrefeglwys, pryd y gwrandawodd ar y diwygiwr anfarwol, ac y profodd argyhoeddiadau dwfn. Yn fuan ar ol hyny, daeth yn ol i'r Crugnant; a dechreuodd yn ddiymdroi ar y gwaith o rybuddio ei gymmydogion ynghylch eu hachos tragwyddol. Yn mis Mawrth, 1742—dwy flynedd a mis ar ol ei dröedigaeth—cawn fod Cymdeithasfa Glan-yr afon, sir Gaerfyrddin, yn gosod Lewis Evans, a rhyw Morgan Hughes, i ofalu am yr eglwysi gweiniaid yn Llanfair, Llanllugan, a Llanwyddelen. Yn mis Ionawr, 1744, fe benderfynwyd, mewn cyfarfod misol yn Trefecca, 'fod y brawd Lewis Evans i fyned cyn belled ag y gallai i sir Feirionydd, ac i'r Gogledd, yn gysson â'r alwad a fyddai arno.' Yn y flwyddyn 1745, mewn llythyr at y gymdeithasfa, ysgrifenodd Richard Tibbot, math o esgob ar amryw siroedd, 'fod

Digitized by Google

derbyniad da i Lewis Evan ac Evan Jenkins gyda'r bobl gyffredin; a daw llawer o bobl i'w gwrandaw.' Mewn llythyr arall, dywed yr un gŵr—'Y mae genyf le i gredu fod Duw yn bendithio ac yn llwyddo Lewis Evan, Llanllugan, ac Evan Jenkins, Llanidloes. Arddelir hwynt yn fawr mewn ffordd o dueddu y bobl i agoryd eu drysau i dderbyn yr efengyl, a dyfod i wrandaw y Gair.' Mewn cymdeithasfa a gynnaliwyd yn y Tyddyn, ger Llanidloes, yn 1745, yn mysg y tri-ar-ddeg cynghorwyr oedd yn bresennol, cawn enw Lewis Evan yn ail ar y rhestr. Gwelir oddi wrth y cyfeiriadau uchod ei fod wedi dringo yn uchel mewn amser cymmharol fyr. Ni ddiangodd chwaith heb gyfranogi yn helaethach na llawer o'i frodyr yn erlidiau y cyfnod. Yn fuan iawn wedi iddo ddechreu tori allan i rybuddio ei gymmydogion, cawn fod rhyw ddyhiryn yn ei ardal ei hun wedi ymosod arno, a'i faeddu yn dost. Ei unig atteb, pan yn nghrafangau ei elyn ydoedd:—'Dywed im', fy machgen gwyn i, pa beth a wnaethum yn achos i ti fy maeddu fel hyn.' Rhyw bryd yn ddiweddarach, pan ar un o'i deithiau ymweliadol, yn sir Feirienydd, cawn ei fod yn pregethu un Sabbath yn y Bala, pan yr anfonodd un o ynadon y gymmydogaeth i'w ddal, a'i ddwyn ger ei fron ef; a chymmerodd ymddiddan tra dyddorol le rhyngddynt eu dau yn mharlwr y palasdy. Diwedd yr ymddiddan, modd bynag, ar ol pob ymresymu, fu ei anfon i garchar y sir yn Nolgellau. Bu yno am chwe mis; ond wedi deall fod cyfeillion yn Llundain yn edrych i mewn i'r achos, ac yn cael allan ei fod wedi ei garcharu yn annhêg, talodd yr ynad ymweliad â'r carchar ei hun, a dywedir y bu yr ymddiddan canlynol rhyngddynt:—Yr ynad:—'Wel, Lewis, ai yma yr wyt ti etto?' Lewis Evan:—'Ië, syr: dyma lle yr wyf.' Yr ynad:—'Y mae yn debyg mai yma y byddi di byth?' L. E.:—'Nage, syr. Nid yma y byddwch chwi na minnau byth.' Ynad:—'Pe y rhoddet ti ychydig arian, mi allwn dy gael di yn rhydd.' L. E.:—'Yn wir, syr, chwi ddylech fy nghael i yn rhydd am ddim, gan fod genych law yn fy rhoddi i mewn yma.' Ynad:—'Dywed i mi, a oes llawer o honoch?' L. E.:—'Oes, syr, y mae llawer o honom; ac fe fydd mwy o honom yn mhen ychydig amser.' Ynad:—'Wel, yn nghrôg y byddoch chwi wrth yr un gangen.' L. E.:—'O! syr: fe fyddwch chwi wedi hen bydru cyn hyny.' Ar hyn, gollyngwyd Lewis Evans yn rhydd. Dywedir ddarfod ei gymmhell yn daer i gymmeryd mewn llaw fesurau tuag at gospi yr ynad; ond gommeddodd yn hollol, gan ddilyn esampl ei Feistr:—'Yr hwn...pan ddioddefodd, ni fygythiodd; eithr rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn.' Bu aml gais, hefyd, i fyned â'i fywyd ymaith. Disgwylid ef i bregethu, un tro, ar ben bryn bychan heb fod yn mhell o Gwytherin, yn sir Ddinbych, pryd y gwnaed cais mileinig a allasai derfynu yn angeuol. Rhoddodd rhyw ddyhiryn swm helaeth o bylor (*powder*) o dan y llanerch y disgwylid i'r pregethwr sefyll arno. Rhwng yr ystorfa bylor a gwelltyn cryf a welid gryn bellder draw, yr oedd ffos gul, yn llawn o'r nwydd tanllyd. Cyn dechreu y gwasanaeth, digwyddodd cyfaill i'r frawdoliaeth grefyddol ddyfod i'r lle. Yna, gwelodd welltyn ar ei ben yn y ddaear. Wedi craffu ychydig, gwelai ei fod yn llawn o bylor; ac yn gyssylltiedig hefyd â ffos o bylor oedd yn arwain i gyfeiriad pennodol. Er mwyn sicrhau na chai y ddyfais mo'i hamcan, ac hefyd gyda'r gobaith y gallasai ddyfod i wybod pwy oedd awdwr y ddyfais uffernol, torodd fwlch yn y ffos bylor. Canfu, hefyd, yn y man, ŵr mewn dillad labrwr yn dyfod at y gwelltyn. Wrth gwrs, methodd y ddyfais—a bu bywydau Lewis Evans a'i wrandawyr yn ddiogel.

Cawn ddarfod ymosod arno dro arall yn Nyffryn Clwyd. Tarawyd ef yn ei ben nes yr oedd ei waed yn llifo: a chymmaint oedd ei syfrdandod fel nas gwybu efe fod ei waed yn rhedeg hyd nes y gofynwyd gan rhyw wraig iddo ar y ffordd:—'Yn enw y mawredd,' meddai, 'beth yw y llun hwn sydd arnoch?' Gellid chwanegu amryw ffeithiau cyffelyb: ond rhaid ymattal. Nid yw yr uchod ond rhan fechan o'r gofidiau a'r helbulon a syrthiodd i'w ran yn ystod ei deithiau trwy Dde a Gogledd am 50ain o flynyddoedd. Fel y dywed awdwr *Methodistiaeth Cymru*, gresyn na buasai Lewis Evans wedi ysgrifenu dydd-lyfr, fel y gallesid cael golwg fanwl ar sefyllfa pethau yn ystod y cyfnod boreu hwn ar Fethodistiaeth. Fel holl gymdeithasau a chynghorau Trefaldwyn yn yr ymraniad rhwng Howel Harris a Rowlands, cymmerodd Lewis Evans blaid y cyntaf, ei dad ysbrydol; ac yr oedd yn bresennol yn y gymdeithasfa gyntaf a gynnaliwyd ganddo ef a'i bleidwyr yn St. Nicholas. Pan y penderfynwyd yno i anfon nifer o gynghorwyr i Ogledd Cymru er perswadio y seiadau mai Harris oedd yn gywir, a bod Rowlands a'i ganlynwyr wedi colli eu gafael ar yr Arglwydd, yr oedd Lewis Evans, Llanllugan, yn un o'r rhai a anfonwyd. Prawf hyn ei fod yn ŵr o ymddiried. Cawn ef drachefn mewn cymdeithasfa oedd yn gynnwysedig o bleidwyr Howel Harris yn Dyserth, ar Ionawr 3ydd, 1751; a bu iddo, fel eraill o'r cynghorwyr, ddadgan yn gyhoeddus ei barodrwydd i gyflwyno ei hun, a'r oll oedd ganddo, i'r Arglwydd. Yr oedd, hefyd, yn y gymdeithasfa ddilynol yn Nhrefecca, yn mis Chwefror; ac yn Castell-newydd a Llwynbongam yr haf canlynol. Gwnaeth ddadganiad yn yr olaf y gwasanaethai grefydd dan arweiniad Harris. Cafodd hefyd yr anrhydedd o bregethu ynddi. Yn Nghymdeithasfa Trefecca, Hydref 2il, yr un flwyddyn, cawn ei fod yn dywedyd mai ei brofiad y pryd hwnw ydoedd, ei fod yn teimlo angenrhaid arno ddydd a nos i fyned at yr Iesu croeshoeliedig, ac i weithio drosto. Fel hyn, bu am beth amser yn ddysgybl ffyddlawn i Howel Harris ar ol ei ymadawiad; eithr yn raddol, cefnodd arno, ac ymunodd â'r gymdeithasfa, oedd yn benaf dan arweiniad Daniel Rowlands. Dywed y Parch. John Hughes, yn *Methodistiaeth Cymru*, y gellir edrych ar Lewis Evans, Llanllugan, fel Ysgol Sabbothol symmudol. Dywedir mai dyn bychan o gorph ydoedd, a chwim iawn ei gerddediad. Yr oedd hefyd yn llawn sêl. Prin yr oedd cymmydogaeth yn Ngogledd Cymru nad oedd wedi talu ymweliad â hi lawer gwaith. Yr oedd yn deithiwr digymmar. Nid ymddengys ei fod byth yn digaloni. Meddai ar gyfran helaeth o ddewrder ei dad ysbrydol, Howel Harris. Yr oedd y ddau, fel y ceir am y lefiathan yn Llyfr Job, 'wedi eu gwneuthur heb ofn.' Yn wahanol i'w dad yn y ffydd, meddai hefyd ar lawer o ffraethder; a bu hyny o wasanaeth iddo ef a'r efengyl lawer tro. Gadawodd amryw geraint ar ei ol yn nghymmydogaeth yr Adfa a Llanllugan. Yr oedd iddo nai, o'r enw James

Lewis, yn fardd o gryn fri; a chyfansoddodd farwnad lled alluog ar ei ol. Perthynasau iddo ef hefyd oedd y diweddar John Lewis, a'i chwaer, Mrs. Lloyd, a fu yn ddefnyddiol iawn yn yr ardal am lawer o flynyddoedd. Tua'r flwyddyn 1871, ychydig amser cyn eu hymadawiad, codasant gof-golofn hardd i'w goffadwriaeth yn ffrynt capel yr Adfa, ac yn gerfiedig arni:—'Er côf am Lewis Evans, y Cynghorwr cyntaf mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid yn Ngogledd Cymru. Ganwyd yn y fl. 1719. Bu farw yn 1792.' 'Cafodd brofedigaeth trwy watwar a fflangellu; ïe, trwy rwymau hefyd a charchar;' *Heb.* xi. 36.

EVANS, Parch. LLEWELYN IOAN, D.D. Ganwyd ef yn Nhreuddyn, ger y Wyddgrug, yn swydd Fflint, Mehefin 23ain, 1833. Mab ydoedd efe i'r Parch. Edward Evans; yr hwn, wedi iddo ymfudo o Gymru, a ymsefydlodd yn Newark, yn Ohio, yn Ngogledd yr America. Yr oedd y Parch. Robert Roberts, o Dan-y-clawdd, yn daid iddo, o ochr ei fam; a Mr. Thomas Evans, o Faes-y-coed, yn daid iddo o ochr ei dad. Pan yn bedair-ar-ddeg oed, gosodwyd Llewelyn yn efrydydd yn Athrofa y Bala; yn yr hon y bu o 1846 hyd 1849. Ystyrid ef yn efrydydd rhagorol—llawn o yni a phenderfyniad gyda'i wersi. Gwnaeth gynnydd da yn y gwahanol ganghenau o addysg. Symmudodd yntau i'r Talaethau Unedig gyda'r teulu; ac yn 1854, graddiodd yn B. SC. yn Ngholeg Racine; ac yn mhen tua dwy flynedd, ennillodd y gradd o wyryf yn y celfyddydau (B. A.) yn yr un coleg. Yn 1857, dechreuodd ar gwrs o efrydiaeth dduwinyddol yn Lane Seminary; ac yn fuan, cafodd alwad i fod yn fugail i eglwys y Seminary. O hyny allan, yr oedd esgyniad Mr. Evans yn gyflym a sicr. Yn 1862, pennodwyd ef yn athraw mewn hanesiaeth eglwysig; yn 1867, yn athraw Hebraeg; ac yn y fl. 1875, codwyd ef i gadair Groeg, ac esboniadaeth y Testament Newydd. Yn 1872, anrhydeddwyd ef gan Brifysgol Wabash, Ohio, â'r gradd o Ddoethawr mewn Duwinyddiaeth (D. D.). Cyhoeddwyd cyfieithiad Dr. Evans, yn 1874, o Esboniad Zoekler ar *Lyfr Job;* ac yn 1892, cyhoeddodd bapur dysgedig ar *Biblical Scholarship and Inspiration*, yr hwn a dynodd sylw anghyffredin yn mysg efrydwyr y Beibl. Yn Nhachwedd, 1892, pan yr oedd angen athraw Hebraeg yn Athrofa y Bala, dewiswyd ef gan y Prifathraw Dr. Charles Edwards fel y cymmhwysaf i lanw y gadair; ac yn Nghymdeithasfa Fflint, hysbyswyd yn ffurfiol ei fod wedi derbyn y swydd. Cynnyrchodd y newydd lawenydd nid bychan yn nghylchoedd crefyddol Methodistiaid y Gogledd. Glaniodd yn Liverpool Mai 8fed, 1893. Ymddengys nad oedd ei iechyd yn foddhaol er's peth amser cyn ei ymadawiad o America. Cafodd ymosodiad o'r anwydwst; a dilynwyd hyny gan ymosodiadau eraill; a bu farw Gorphenaf 25ain, 1893. Ar ei ymadawiad o Lane Seminary, dywedodd Dr. Morris am dano, nad adnabu efe erioed ddyn o burach amcanion na Dr. Evans; ei fod yn ysgolhaig o radd uchel; ac nad aeth allan o'r athrofa erioed waith mwy dysgedig na'i eiddo ef ar Lyfr Job.

EVANS, OLIVER:—mab i amaethwr Cymraeg yn Philadelphia, yn Ngogledd America, a gŵr ieuangc hollol hunan-addysgawl. Efe oedd dyfeisydd yr *high pressure steam engine*. Yr oedd yn ei flodau yn nechreu y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

EVANS, Parch. THOMAS: yr hwn a adnabyddid yn lled gyffredin wrth ei enw barddol, *Tomos Glyn Cothi*. Ganwyd ef Mehefin 20fed, 1766, mewn tyddyn bychan ger llaw Brechfa, yn sir Gaerfyrddin. Daeth i feddu cryn ddylanwad yn mysg yr Undodiaid, ac yn ddysgawdwr yn eu plith. Pan yn briod, a chanddo chwech o blant, efe a fu mewn ysgol rammadegol yn Abertawe, ar draul yr Undodiaid. Daeth i sylw fel awdwr yn 1793, pan y cyhoeddodd *Y Drysorfa Gymmysgedig*, yn cynnwys detholion, yn benaf, o waith Dr. Priestley. Yn 1794, neillduwyd ef yn weinidog; ac yn ddilynol, cyhoeddodd ei *Gyffes Ffydd*—gwaith sydd yn hynod o Undodaidd o ran ei natur. Yn y fl. 1797, pan oedd Chwyldröad Ffraingc yn cynnhyrfu gwledydd Ewrop, daeth tro hynod i'w gyfarfod. Aeth i dŷ cymmydog tlawd, lle yr oedd noswaith o yfed mêdd, er budd y teulu. Annogwyd yntau, gan gymmydog twyllodrus, i ganu cerdd a ystyrid yn fradwrus, er cael mantais i achwyn arno. Am hyn, dedfrydwyd ef i ddwy flynedd o garchariad yn Nghaerfyrddin, ac i sefyll yn y rhigod (*pillory*) yn gyhoeddus, er bod yn wrthddrych gwawd y werin. Un fenyw yn unig, meddir, a gafwyd yn ddigon creulawn i daflu cloncwy ato. Tra yn y carchar, cyfansoddodd *Eirlyfr Saesneg a Chymraeg*, yr hwn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1807. Tua'r flwyddyn 1813, efe a symmudodd i Aberdâr; ac yno, fel gweinidog Hen Dŷ Cwrdd Heol-y-felin, y treuliodd efe weddill ei oes. Cyhoeddodd amryw lyfrau er egluro ac amddiffyn egwyddorion y cyfundeb y perthynai iddo. Yr oedd, hefyd, yn fardd da, ac yn deall y mesurau caethion yn rhagorol. Fel bardd, cyfansoddodd lyfr hymnau at wasanaeth ei gyfundeb. O herwydd iddo fod yn preswylio mewn lle o'r enw Pen-pistyll, yn sir Gaerfyrddin, gelwid ef yn 'Twm Pen-pistyll,' ac yn 'Apostol Pen-pistyll.' Bu farw Ionawr 29ain, 1833, yn 68ain mlwydd oed.

EVANS, THOMAS (*Telynog*), oedd fardd ieuangc galluog, a anwyd yn Aberteifi, Medi 8fed, 1840. Saer llongau oedd ei dad; a phan yn un-ar-ddeg oed, dodwyd yntau ar fwrdd un o'r mân longau a fordwyent rhwng Aberteifi a phorthladdoedd eraill Cymru. Cafodd ddigon yn fuan ar fywyd morwr: a phan yn Aberdaugleddyf, diangodd oddi wrth ei long, gan benderfynu tramwy i Aberdâr. Bu raid iddo werthu ei ddillad er mwyn cael ymborth ac arian cludiad. Yna dechreuodd weithio fel glöwr; a chyda'r alwedigaeth hon y glynodd o hyny allan. Daeth i sylw fel bardd yn fuan wedi hyny. Ennillodd ar bryddest, 'Gostyngeiddrwydd,' mewn cyfarfod llenyddol lleol; a dyma ddechreuad ei yrfa fel cystadleuydd barddonol. Ar ol hyn, ennillodd amryw wobrau. Prawf ei ddarnau barddonol ei fod yn wir fardd, ac yn feddiannol ar athrylith uchel. Bu farw Ebrill 29ain, 1865, yn 25ain mlwydd oed. Yn 1866, cyhoeddwyd cyfrol o'i gyfansoddiadau, dan olygiaeth Dafydd Morganwg a Mr. Hywel Williams, Pant-y-gerddinen.

EVANS, Parch. WILLIAM. Gweinidog defnyddiol a llafurus gyda'r Wesleyaid oedd

Digitized by Google

efe. Ganwyd ef yn Mangor, ar Hydref 25ain, 1779. Dygwyd ef i fyny yn 'farfwr,' neu yn eilliedydd. Yn 1802, ymunodd â'r Wesleyaid; ac yn 1805, dechreuodd bregethu gyda hwynt. Wedi ei alw i'r weinidogaeth deithiol, bu am beth amser yn genhadwr yn Nghaerdydd. Yn 1807, symmudodd i Langollen; ac oddi yno, yn mhen dwy flynedd, i Lanrwst. Yn 1814, aeth i Dreffynnon; yn 1816, i Ruthyn; yn 1818, i Lanfyllin; ac i Machynlleth yn 1821. Yno, yr oedd yn gymmydog i'r Parch. John Roberts, o Lanbrynmair; ac argraphodd lyfr er amddiffyn golygiadau y Wesleyaid yn erbyn golygiadau Mr. Roberts, o dan y teitl hwn—*Amddiffyniad y Gwir.* Yn 1824, yr oedd eilwaith ar gylchdaith Llanfyllin, ac yn golygu yr *Eurgrawn;* a dalfodd y swydd am ddwy flynedd. Yn ddilynol, bu am ddwy flynedd yn Nolgellau; o ba le y symmudwyd ef i Gaernarfon yn 1831. Yno, efe a ysgrifenodd *Amddiffyniad i Ddysgyblaeth y Methodistiaid Wesleyaidd,* yr hwn a gyhoeddwyd yn 1850. O Gaernarfon, aeth i gylchdaith Aberteifi; yna i Grughywel; ac yn 1837 i Abertawe—lle y cyhoeddodd lyfryn bychan ar *Barhâd diammodol mewn gras,* mewn attebiad i un arall o waith y Parch. T. Griffiths, o'r Alltwen. Yna, symmudwyd ef i gylchdaith Merthyr yn 1840, lle yr arosodd am dair blynedd. Ar ol hyny, aeth i Machynlleth, am tua blwyddyn. Yn 1844, o herwydd henaint a llesgedd, gwnaed ef yn uwchrif; ond ni bu efe yn segur ar ei ymneillduad o waith ymarferol y weinidogaeth. Tua diwedd 1849, ysgrifenodd *Hanes Bywyd y Parch. E. Jones, Bathafarn.* Yr oedd yn ei fryd hefyd gyhoeddi corph o dduwinyddiaeth ar gyfer yr enwad; ond ni chafodd fyw i weithio ei fwriad allan. Llanwodd y swydd o ysgrifenydd a chofiadur talaethol am ugain mlynedd. Bu farw Gorphenaf 30ain, 1854.

**EVANS, Parch. WILLIAM,** Ton-yr-efail:—un o'r enwau mwyaf hysbys yn hanes Methodistiaeth yn ystod y ganrif ddiweddaf. Ganwyd ef yn Ebrill, 1795, mewn ffermdy bychan a distadl o'r enw Garth-graban fach, yn mhlwyf Llantrisant, yn sir Forganwg. Y mab ieuangaf oedd efe i David ac Elizabeth Evans, o'r un lle. Pan ddechreuodd y Methodistiaid bregethu yn nghwmmwd Ton-yr-efail, tua'r fl. 1770, yr oedd David Evan, y pryd hwnw yn ddyn ieuangc dibrïod, yn mysg y rhai cyntaf fu yn eu gwrandaw; a chan ei fod eisoes yn ŵr o dueddiadau crefyddol, efe a ymwasgodd atynt heb nemawr o bryder. Ymunodd â'r eglwys yn 1773, pan yn 16eg oed. Y digwyddiad pwysig nesaf yn ei hanes ydoedd ei briodas âg Elizabeth Morgan, merch i Richard Morgan, o'r Rhiw; yr hon hefyd oedd yn aelod yn eglwys Ton-yr-efail. Ar ol eu priodas, buont yn byw mewn dau neu dri o leoedd eraill, cyn ymsefydlu yn Garthgraban; ond wedi eu symmudiad yno y ganwyd gwrthddrych yr erthygl hon. Daeth David Evans yn mlaen yn dda yn y byd; a chynnyddodd yn ŵr parchus, a chadarn mewn moesoldeb a chrefydd. Yr oedd ei wraig, Mrs. Evans, hefyd, yn ddynes nodedig—o rinweddau diammheuol—dyner, garedig, a hynaws, ac yn un o ragorolion y ddaear. Yr oedd hi yn aelod o eglwys Ton-yr-efail, pan nad oedd ond wyth o wragedd yn unig yn ei chyfansoddi. Rhoddir tystiolaeth uchel yn *Methodistiaeth Cymru* i Mr. a Mrs. Evans fel deuddyn o gymmeriad uchel; y rhai fu hefyd yn gynnorthwyon mawr i gynnydd crefydd yn y parthau lle y preswylient.

Y mae dydd genedigaeth William Evans yn ansicr. Bernir mai 25ain o Ebrill, 1795, oedd. Tyfodd i fyny yn fachgen nwyfus a bywiog, âg arwyddion fod rhywbeth anghyffredin ynddo. Dysgodd ddarllen yn ieuangc; trysorai lawer o'r Beibl yn ei gof; a dywedir iddo bregethu i'w berthynasau ar fwy nag un achlysur mewn oedran cynnarol. At hyn oll, yr oedd yn gantwr lled fedrus; ac ymarferai lawer yn y gelfyddyd hon pan yn arwain yr ychain o flaen yr aradr. Yn yr oes dywyll hono, arfer y wlad oedd canu caneuon masweddol wrth yru yr ychain; ond nid felly y gwnai efe. Caneuon o nodwedd foesol oedd ei eiddo ef, bob amser. Dysgodd y gelfyddyd o amaethu yn dda; ond yr oedd mor wahanol yn mhob peth i'w frodyr hynach, ac i wŷr ieuaingc eraill y gymmydogaeth, fel y penderfynodd ei dad roddi chwaneg o ysgol iddo. Gwnaed hyn; ond ni chafodd efe addysg athrofaol; onid ê, y tebygolrwydd yw y tyfasai i fyny i fod yn un o brif enwogion ei oes. Bu am gryn dymmor, wedi gadael yr ysgol, yn gweithio ar dyddyn ei dad; ond yn ystod y blynyddoedd hyny, parhaodd i arddangos cryn ddyddordeb mewn pethau crefyddol. Dilynai bregethwyr enwog ar eu teithiau Sabbothol i Bont-y-pridd, Llantrisant, Pontfaen, Pencoed, a lleoedd ereill; ac yr oedd hyn yn cryfhau y duedd oedd ynddo ef ei hun at bregethu.

Yn 1814, pan yr oedd tua 19eg oed, creëwyd teimladau dwysion ynddo dan weinidogaeth y Parch. Evan Jones, Merthyr. Cymmerodd y digwyddiad byth-gofiadwy hwn le yn Llantrisant; ac o'r dydd hwnw allan, yr oedd efe megys 'creadur newydd.' Ar y 9fed o Ebrill, yr un flwyddyn, priododd Margaret Cadwgan, merch i Howel a Margaret Cadwgan, o'r Brynwyth, yn mhlwyf Llandyfodwg; a daeth y ddau gyda'u gilydd yn aelodau o'r un eglwys. Parhaodd y cwlwm priodasol hwn am saith mlynedd a deugain; a bu y ddau yn hapus a llwyddiannus iawn. Ganwyd iddynt wyth o blant; ond bu rhai o honynt feirw yn ieuangc. Bu Mrs. Evans farw ar Hydref 30ain, 1861, yn 63ain mlwydd oed; wedi bod yn wraig dda, rinweddol, a duwiol. Yn ystod eu bywyd priodasol, teimlasant lawer oddi wrth bwys y byd, a'i amgylchiadau chwerwon; ond cawsant nerth yn ngwyneb pob rhaid. Buont yn ffermio gyda dyfalwch mawr dros yr amser maith uchod; a thra yr oedd Mr. Evans ar deithiau pregethwrol, gofelid, i raddau pell, am y tyddyn gan ei briod.

Cymmhellwyd William Evans i ddechreu pregethu gan eglwys Ton-yr-efail mor bell yn ol a'r fl. 1817; a thraddododd yntau ei bregeth gyntaf oddi ar un o risiau isaf y pulpud yn hen gapel y lle hwnw—naill ai yn niwedd y fl. 1817, neu yn nechreu 1818. Yr adeg hon, yr oedd sefyllfa Methodistiaeth yn Morganwg yn dra gwahanol i'r hyn ydyw yn awr; o blegid, pan ddechreuodd Mr. Evans bregethu, nid oedd ond pump o weinidogion ordeiniedig yn y sir. Y rhai hyn oeddynt Howel Howells, Tre-hill; Hopkin Bevan, Richard James, David Williams o Ferthyr, a Richard Thomas, o Lys-y-fronydd. Ar ddiwedd 1893, yr oedd ynddi 131 o weinidogion, a 51 o bregethwyr; a chymmerodd yr holl gynnydd hwn le yn ystod oes weinidogaethol Mr. Evans. Y mae yn y sir yn awr, hefyd, addoldai gwych, costus, a chyfleus, yn

Digitized by Google

perthyn i'r Methodistiaid—adeiladau nad oes eu rhagorach o fewn yr holl wlad Yn 1818, nid oedd ynddi ond tuag 28ain neu 29ain, a'r rhai hyny yn adeiladau bychain ac anghyfleus. A ganlyn sydd restr o honynt, ynghyd â'r blynyddoedd yr adeiladwyd hwynt:— Aberthyn, yn 1749; Llantrisant, yn 1775; Pencoed, 1775; Goppa, yn 1775; Pen-y-bont, 1775; Llansamlet, 1782; Dinas Powys, 1785; Bryn-tirion, 1785; Tre-hill, yn 1785; Pil, 1786; Llanwyno, 1786; Caerphili, 1791; Ton-yr-efail, 1791; Merthyr Tydfil, o 1792 i 1796; Abertawe, 1799; Graig fach, yn Llangynwyd, 1800; Llanfabon, 1800; Creunant, 1800; Treforris, 1802; ac Ystradgynlais, 1804; Caerdydd, 1805; ac Aberdâr, 1806; Cefn-coed-cymer, 1807; Eglwys newydd, 1808; Llangyfelach, 1808; Castellnedd, 1810; Ystradmynach, 1812; a Cadoxton, 1815. Yn yr addoldai hyn, gan hyny, y dechreuodd William Evans ar ei waith. Dywedir am dano, iddo ddyfod yn boblogaidd yn fuan. Gelwid am ei wasanaeth yn barhaus trwy yr holl sir; ac yr oedd yr arddeliad a ddilynai ei weinidogaeth yn brawf amlwg mai yr argraph ar feddyliau ei wrandawyr oedd ei fod yn ddyn duwiol. Cynnaliwyd Cymdeithasfa Caerphili y 25ain, a'r 26ain o Fai; ac yno y derbyniwyd ef yn aelod o'r gymdeithasfa. Y gymdeithasfa, ebai ei fywgraphydd, fu ei athrofa, i raddau pell; o herwydd manteisiodd yn fawr ar bregethau ac anerchiadau y fath gewri ag Ebenezer Morris, y ddau Mr. Richard; Mr. Charles, Caerfyrddin; ac eraill o'r un dosbarth a hwy. Dywedodd y Parch. Edward Mathews yn fynych mewn cymdeithasfaoedd fod gweinidogaeth Mr. Evans wedi bod yn un o'r prif foddion i hyrwyddo llwyddiant y cyfundeb yn ei sir enedigol. Yn y cyfnod yr ydym yn awr yn cyfeirio ato, fe bregethodd Mr. Evans lawer mewn amaethdai anghysbell yma ac acw yn y wlad, lle heddyw y mae pentrefydd, ac hyd yn oed drefydd mawrion a blodeuog. Gwelodd yr achos mawr yn dechreu ac yn cynnyddu yn y lleoedd hyn; ac yntau ei hun yn cael y fraint o agor capelau heirdd a chyfleus ynddynt. Teithiodd William Evans gyda'i lafur gweinidogaethol yn y fl. 1820 gynnifer a 1,829 o filldiroedd, a phregethodd 203 o weithiau; yn 1821, teithiodd 1,956 o filldiroedd, a phregethodd 257 o weithiau; yn 1822, traddododd gynnifer a 336 o bregethau; ac erbyn 1825, yr oedd nifer y pregethau a draddododd yn 401; a phan gyssylltir hyn oll âg anwastadrwydd anhygyrch llawer o'r teithiau Sabbothol, hawdd ydyw amgyffred fod ei lafur yn fawr yn y blynyddau hyny.

Blwyddyn nodedig yn ei hanes ydoedd 1825. Daeth i Ogledd Cymru ar daith; a bu oddi cartref am ddau fis. Dyma'r flwyddyn y neillduwyd ef i waith y weinidogaeth, yn Nghymdeithasfa Aberteifi; ac yn ystod hon, hefyd, yr ymddangosodd gyntaf fel pregethwr cymdeithasfa trwy Ogledd Cymru. Ychydig, os neb, yn wir, sydd yn fyw yn awr sydd yn cofio y daith hynod hon; ond yn nghofiant yr hen bregethwr hybarch, yr hwn a ysgrifenwyd gan ei wyr—y Parch. William Evans, Pembroke Dock, ceir adgofion parchus am dani. Efe oedd yr unig un a neillduwyd y flwyddyn uchod yn y Deheudir. Rhoddwyd y 'siars' iddo gan Mr. Charles, Caerfyrddin; a gweddïodd Mr. Richard Jones, o'r Wern. Tua dechreu y flwyddyn 1829, pennodwyd ef yn ysgrifenydd cynnorthwyol cyfarfod misol Morganwg. Yr oedd efe erbyn hyn wedi codi i reng flaenaf pregethwyr y Deheudir. Nid oedd gyfarfod misol na chymdeithasfa na byddai galwad am ei wasanaeth i bregethu ynddynt. Yn Mehefin y flwyddyn hon, bu ar ei ail daith yn Ngogledd Cymru, a phregethodd yn Nghymdeithasfa y Bala, yr hon a gynnelid Mehefin 17eg a'r 18fed. Gwasanaethid yn y sasiwn hon gan y Parchn. Henry Rees; Richard Davies, o Lansadwrn; John Parry, o Gaer; Richard Lloyd, o Beaumaris; Michael Roberts, Thomas Richard, John Elias, o Fôn; John Jones, Tal-y-sarn; John Hughes, Gwrecsam (Liverpool wedi hyny); a William Evans. Yr ydym yn rhoddi eu henwau yma gan y byddant o ddyddordeb i lawer. Pregethai Mr. Evans am ddau o'r gloch yr ail ddiwrnod; ac ar ei ol gan Mr. Elias. Cyfrifir hon yn un o'r sasiynau goreu a gynnaliwyd ar Green y Bala erioed; ac ynddi hi y cafodd Mr. John Jones, Tal-y-sarn, a Mr. John Hughes, o Wrecsam, eu hordeinio. Cymmerodd Mr. Evans ran gyffelyb yn Nghymdeithasfa ddilynol Aberteifi, a gynnaliwyd yn Awst; a phregethwyd ar ei ol ef gan Mr. Elias drachefn. Temtir ni i roddi yma ddyfyniad o Gofiant William Evans, mewn perthynas i'r gymdeithasfa hon:—

'Hefyd, yr oedd Mr. Evans yn bresennol yn Nghymdeithasfa Aberteifi, y 4ydd a'r 5ed o Awst; a phregethodd yno am bedwar o'r gloch y prydnawn cyntaf, oddi ar *Heb.* x. 23, o flaen Mr. John Elias. Yr oedd Mr. Elias yn pregethu drachefn am ddeg dranoeth, pan y cafodd un o odfeuon hynotaf ei oes. Ceir crybwylliad helaeth am y gymdeithasfa hono, ac yn enwedig am yr odfa ddeg o'r gloch, gan y diweddar Dr. Phillips, o Henffordd, yn y gyfrol o'r *Drysorfa* am 1870. Eithr y prydnawn cyntaf, nid oedd Mr. Elias wedi pregethu gyda'r nerth a'r lewyrch ag oedd yn arferol iddo ef. Y mae yn ymddangos, modd bynag, i Mr. William Evans gael cymmhorth anghyffredin; a'i fod y tro hwnw yn ei hwyliau goreu. Yr oedd mewn trallod meddwl mawr ar y ffordd i'r gymdeithasfa hono, fel, yn wir, y byddai yn gyffredin ar achlysuron o'r fath. Gofynwyd iddo unwaith, gan frawd o weinidog, sef Mr. Ebenezer Jones, Castellnedd, pan ddigwyddasant gwrdd ar brydnawn Sadwrn, tua'r flwyddyn 1867, ar eu ffordd i'w cyhoeddiadau y Sabbath dilynol: —'A gaf fi ofyn i chwi pa fodd yr oeddych pan yn myned i'r cymmanfaoedd mawrion?' 'Bron marw —bron marw,' oedd yr atteb. 'Ië, a oeddych felly mewn difrif?' 'O'wn yn wir—o'wn yn wir. Mi ddywedaf i chwi yn awr. Yr wyf yn cofio myned i gymmanfa yn Aberteifi—yr oeddwn yn llwfr iawn; ac yn y *society*, pan yr oeddynt yn cyhoeddi yr odfeuon, clywais fy mod i bregethu am dri ar y maes gydag Elias. Os oeddwn yn ddrwg o'r blaen, gwaeth wedi hyny; ond yr oedd yn rhaid ymdrechu. Cefais odfa dda; a dyna oedd yn od, welwch chwi—yr oedd y dyrfa, wrth fyned o'r cae, yn dywedyd wrth eu gilydd, a minnau yn y 'crowd' yn eu clywed, 'Yr un bach aeth â'r cwrdd;' ond beth dâl? Yr oedd Elias yn pregethu am ddeg dranoeth, gyda'r fath nerth nes yr oedd llawer yn cwympo mewn llewygfeydd! Yr oedd yr un bach o'r golwg yn awr.'

Yn nechreu y fl. 1831, bu Mr. Evans eilwaith yn Llundain, am ysbaid dau fis:—y tro hwn yn unol â phenderfyniad cyfarfod misol Aberthyn a Phontfaen; ac o dan bregeth o'i eiddo ef yn Jewin, ar yr ymweliad hwn, y dychwelwyd yr hynod Barch. Robert Hughes, o Uwchlaw'r Ffynnon, at grefydd—y pryd hwnw yn ddyn ieuangc. Yn gynnar yn 1833, cychwynodd ar drydedd daith i'r Gogledd, gyda'r Parch. John James, o Ben-y-bont; ac yn nghymdeithasfa'r Gogledd, a gynnaliwyd yn Ninbych, Mawrth

Digitized by Google

14eg a'r 15fed, efe a bregethodd o flaen Mr. Elias unwaith yn rhagor. A ganlyn sydd ddyfyniad o lythyr y Parch. Robert Hughes, o'r Gaerwen, at ei ŵyr ynghylch gweinidogaeth Mr. Evans ar y daith hon:—

'Yr wyf yn cofio eich taid yn myned trwy sir Fôn y tro cyntaf. Yr oedd ei weinidogaeth, y pryd hyny, yn defnynu 'fel gwlaw, fel gwlith-wlaw ar irwellt, ac fel cawodydd ar laswellt.' Ond y tro diweddaf, ond un, y bu efe drosodd, y tynodd efe fwyaf o sylw. Yr oedd efe a'r diweddar Barch. John James gyda'u gilydd. Yr oeddwn i, y pryd hyny, wedi dyfod o Amlwch—fy lle genedigol—i Gaerwen i breswylio. Ac yr oedd y ddau frawd parchus yn pregethu yn y Gaerwen am ddau o'r gloch, ar ddydd Llun. Testyn eich taid oedd *Iago* *v*. 20. Pregeth ryfedd—un o'r pregethau rhyfeddaf a wrandewais i erioed. Diau iddo fod yn foddion i droi lliaws o bechaduriaid o gyfeiliorni eu ffyrdd, ac i'w gwaredu rhag angau. Y disgrifiad a roddes efe o 'angau enaid' oedd yn ofnadwy. Yr oedd yr holl gynnulleidfa, megys eneidiau noethion heb gyrph, yn llefain am eu cadw.'

Yn y fl. 1834, treuliodd Mr. Evans ddau fis arall yn Llundain, i wasanaethu yr eglwysi yno. Bu wedi hyny am tua mis yn Bristol, i amcan cyffelyb. Yn 1835, daeth ar ei bummed taith i'r Gogledd; yr hon a gymmerodd le yn mis Mehefin. Yr oedd yn bresennol yn Nghymdeithasfa y Bala; a phregethodd ynddi o flaen Mr. Ebenezer Richard. Fe gafwyd anerchiad rhagorol ganddo, hefyd, yn ystod y gymdeithasfa hon; ac yr oedd ei sylwadau mor dderbyniol, fel y gwaeddodd un o ben draw y capel, wedi i'r siaradwr eistedd i lawr:—'Ewch yn mlaen, ŵr da. Dywedwch dipyn yn rhagor wrthym.' Ond nid ufuddhaodd efe; yr hyn a barodd i Mr. Elias ddyweyd wrtho ar ddiwedd y cyfarfod:—'Mr. Evans, gan na fynech chwi ddyweyd ond mor ychydig wrthym ni, y mae yn rhaid i chwi ddyweyd gair wrth Dduw drosom ni.' Felly fu; terfynodd yntau y cyfarfod trwy weddi.

Cyfnod tra phwysig yn hanes Mr. Evans, ac yn wir yn hanes Methodistiaeth yn y Deheudir, oedd yr adeg rhwng y blynyddau 1837 ac 1842. Yn y flwyddyn gyntaf y dechreuodd y symmudiad dirwestol yn siroedd y De. Cymmerodd Mr. Evans yr ardystiad, a gwnaeth lawer, trwy air a gweithredoedd, dros ddirwest. Ac mewn gŵyl ddirwestol a gynnaliwyd yn Nhon-yr-efail, Rhagfyr 26ain, 1838, cyflwynwyd tlŵs a chadwen arian iddo gan Ddosbarth Dirwestol Caerdydd, am ei lafur diflino gyda'r achos da. Ychydig oedd y gydnabyddiaeth a dderbyniai gweinidogion y pryd hwnw am eu llafur Sabbothol wrth yr hyn a dderbyniant yn awr; fel y dengys yr enghraifft ganlynol:—Yr oedd W. Evans wedi bod unwaith yn un o leoedd pellaf Morganwg, yn cymmeryd dau ddiwrnod i deithio yno ac yn ol, ac yn pregethu nos Sadwrn, a thair gwaith y Sabbath. Yr oll a dderbyniodd oedd hanner coron. Ar ei ffordd adref, galwodd gyda Mr. Thomas Jenkins, Glynogwr, a dywedodd yr hanes wrtho:—'Mi delais wyth geiniog o dyrpec, a chwe cheiniog am bedoli'r ceffyl; a'r gweddill sydd genyf yw swllt a grôt. Pa un a wnaethum i eu gwerth ai peidio, nid wyf yn gwybod; ond mi wnes fy ngoreu.'

Ni byddai yr erthygl hon yn gyflawn heb fod ynddi gyfeiriad at lafur Mr. Evans ynglŷn âg Athrofa Trefecca. Yr oedd y cwestiwn o roddi addysg i bregethwyr ieuaingc y cyfundeb wedi bod dan sylw y gymdeithasfa yn y Deheudir er's amryw flynyddoedd; a phan benderfynwyd sefydlu athrofa, yr oedd Mr. Evans yn mysg y rhai mwyaf blaenllaw gyda'r gorchwyl pwysig o gasglu at yr amcan. Pennodwyd saith o weinidogion eraill i ymgymmeryd, fel yntau, yn arbenig â hyn—W. Morris, E. Harries, W. Griffiths, D. Howell, J. Walters, R. Lumley, a Thomas Elias. Mewn un flwyddyn, ymwelasant â'r holl eglwysi; a chasglasant, mewn arian ac addewidion, y swm o 7,570*p*. 14*s*. 11*c*.

Ni wnawn, bellach, ond cyfeirio yn fyr iawn at amryw ddigwyddiadau dyddorol a phwysig eraill yn hanes Mr. Evans. Yn Awst, 1846, cawn ef yn traddodi y 'cynghor' ar ordeiniad pregethwyr yn Nghymdeithasfa Llanymddyfri. Yr un flwyddyn, bu ar daith trwy siroedd Penfro ac Aberteifi, ac yn llywyddu yn Nghymdeithasfa Tŷ Ddewi. Yn Awst, 1847, traddododd y 'cynghor' yn Nghymdeithasfa Llangeitho. Yn y fl. 1852, o'r 8fed o Awst, hyd Medi 26ain, bu yn gwasanaethu eglwysi Llundain am y tro olaf. Mawrth 21ain, 1853, mewn cyfarfod cyhoeddus yn Dowlais, anrhegwyd ef etto am ei lafur diflino o blaid dirwest. Yn niwedd 1855, bu ar ei seithfed daith i'r Gogledd; yr hon, fe ymddengys, oedd yn daith hynod ar lawer ystyr. Yn Hydref, 1858, llywyddodd, a phregethodd yn Nghymdeithasfa Hwlffordd; yn pregethu, ac yn rhoi y 'cynghor' yn Nghymdeithasfa Llangors, yn Mehefin, 1859; ac yn pregethu gyda'r Parch. Henry Rees yn Nghymdeithasfa Dinbych yr un flwyddyn. Yn Nghymdeithasfa Caerfyrddin, yn Awst, 1867, dewiswyd ef i fod yn llywydd am y flwyddyn ddyfodol; ac efe oedd y trydydd o lywyddion blynyddol Cymdeithasfa y Deheudir, wedi i'r arfer o ethol llywydd blynyddol ddyfod i arferiad. Ei ragflaenoriaid yn y swydd oedd y Parchn. David Howell, Abertawe, a Dr. Thomas Phillips, o Henffordd. Yr oedd efe, fel y gwelir, yn llenwi swyddau pwysig yn y cyfundeb. Yn y fl. 1868, yr oedd yn hanner cant oed fel pregethwr; ac yn mis Ebrill, y flwyddyn hono, penderfynodd cyfarfod misol Morganwg gyflwyno tysteb iddo. Cymmerodd y dysteb hon y ffurf o ddarlun o hono, o waith arlunydd enwog. Cynnaliwyd cyfarfod i gyflwyno y darlun iddo yn nghapel Ton-yr-efail, Medi 3ydd, 1868; a darllenwyd anerchiad llongyfarchiadol iddo ar yr achlysur. Cymmerwyd rhan yn y cyfarfod hwn gan rai o brif weinidogion yr enwad yn y Deheudir. William Evans oedd y cyntaf oll o weinidogion y Methodistiaid a gafodd fyw i weled iwbili ei ordeiniad; ac fel côf-arwydd o hyn, cyflwynwyd cyfarchiad, a Beibl goreuredig iddo ar ddiwedd y cyfarfod ordeinio yn Nghymdeithasfa Pont-y-pridd, yn Awst, 1875. Ar ol y flwyddyn 1875, dechreuodd William Evans ballu mewn nerth, gan ei fod bellach, dros 80ain mlwydd oed. Daeth yn analluog i gadw amryw o'i gyhoeddiadau Sabbothol, ac i roddi ei bresennoldeb yn y cymdeithasfaoedd. Y tro diweddaf y pregethodd oedd yn Nhon-yr-efail, Mai 29ain, 1887; ac yr oedd yr ysbaid rhwng traddodiad y bregeth hon, a'r gyntaf o'i eiddo, yn 63ain mlynedd. Yn Gorphenaf, 1887, galluogwyd ef i fod yn bresennol mewn cymdeithasfa; a chreodd ei ymddangosiad frwdfrydedd mawr yn y cyfarfod. Yr oedd, yr adeg hon, yn bedair-ar-ddeg a phedwar ugain; a phan gafodd olwg ar y gymdeithasfa, torodd allan i wylo; yn yr hyn yr ymunwyd âg ef yn galonog gan bawb, o'r braidd, oedd yn bresennol. Pan y gwelodd

Digitized by Google

efe Dr. Thomas, llefodd, 'O! Owen anwyl!' Ond nis gallodd ddyweyd chwaneg. Cafwyd gair o'i brofiad wedi hyny; a phasiwyd pleidlais unfrydol o gydymdeimlad âg ef yn ei henaint. Ar ddiwedd y cyfarfod hwn, aeth llawer i ysgwyd llaw âg ef—amryw am y waith gyntaf, a bron yr oll am y tro diweddaf. Bu farw mewn heddwch, Chwefror 4ydd, 1891; ac nid oes ammheuaeth na chafodd efe 'fynediad helaeth i mewn' i'r wynfa dragwyddol.

EVANS, WILLIAM (Trefor). Gŵr a adnabyddid yn dda am o ddeutu trigain mlynedd, rhwng 1798 a 1878, yn amgylchoedd Rhuthyn a Chorwen. Ganwyd ef yn 1798, mewn amaethdy o'r enw Wern—yn agos i Bontuchel, yn sir Ddinbych. Mab ydoedd i Hugh ac Alice Evans, —yr ieuangaf o bedwar o frodyr a thair o chwiorydd. Bu farw ei dad pan oedd tua deuddeg oed; ac yn fuan wedi hyny symmudodd ei fam, a'r teulu, o'r Wern i'r Fachlwyd isaf; ac oddi yno drachefn i'r Foel uchaf, ger Gyffylliog—hen gartref ei fam. Dioddefodd Alice Evans, a'i gŵr, Hugh Evans, lawer camwri o herwydd eu crefydd. Yr oedd, yn moreu ei oes, yn byw gyda'i daid, Hugh Jones, yr hwn ydoedd yn oruchwyliwr i Syr William Bagot. Yr oedd yn ŵr o sefyllfa dda, ac yn meddu ar raddau helaeth o wybodaeth; ond nid oedd yntau yn rhydd oddi wrth ragfarnau cryfion yn erbyn crefyddwyr ei ardal. Efe a fwriadodd unwaith wneuthur ei ŵyr, Hugh Evans, yn etifedd iddo; ond pan ddeallodd ei fod yn gogwyddo at y Methodistiaid, rhoddodd ei ddewis iddo—naill ai peidio byth a myned i Bontuchel, nac un lle arall, i ddilyn 'y penau crynion,' neu ynte, foddloni i roddi i fyny pob gobaith am un ran o'i feddiannau ef. Cafodd atteb ei ŵyr yn y fan—mai y peth pellaf oddi wrth ei feddwl oedd gwadu ei grefydd, ac archolli ei gydwybod, er mwyn elw bydol, pa faint bynag fyddai hyny. Safodd y ddau—y taid, a'r ŵyr—at eu penderfyniad. Collodd Hugh Evans ffafr ei daid; ond cadwodd ei gydwybod heb ei llychwino, a'i Geidwad heb ei wadu; a phrin y mae angen dyweyd na bu arno eisieu dim daioni.

Oddi wrth yr uchod gwelir fod William Evans wedi cael y fendith ammhrisiadwy o gael addysg grefyddol ar yr aelwyd gartref; yr hon a roddodd gyfeiriad i'w fywyd dilynol. Cyfeiriai yn fynych at ofal arbenig ei fam a'i dad, i'w ddysgu i ddarllen y Beibl; a gallai ddarllen yn dda pan yn bedair oed. Ystyrid ef yn ddarllenwr o'r fath oreu. Yr ydym yn cael iddo gael ei osod yn athraw ar y prif ddosbarth yn Ysgol Sabbothol Bontuchel pan nad oedd ond tair-ar-bymtheg oed; ac yr oedd wedi cymmeryd i mewn i'w gôf gynnwys pob llyfr o'r Beibl er yn ieuangc iawn; a gwyddai pa le i gael bron bob adnod y cyfeirid ati.

Yr ysgol ddyddiol gyntaf y bu efe ynddi oedd Ysgol Bontuchel. Oddi yno, efe a aeth i Gyffylliog, at un o'r enw Hugh Davies; yr hwn oedd hefyd yn glochydd yr eglwys. Aeth ar ol hyny i Glocaenog i'r ysgol, at un o'r enw John Price. Gwnaeth ddefnydd da o'r ysgolion hyn; ond yr ysgol y byddai ei hun yn addef iddo gael mwyaf o gynnorthwy ynddi oedd yr hon a gedwid gan y Parch. T. Lloyd, Abergele. Yr oedd hono yn cael ei hystyried o nodwedd uwchraddol yn yr adeg hono; ac yno gwnaeth gynnydd cyflym. Meistrolodd yr iaith Saesneg ynddi; ac yr oedd efe, cyn ymadael, wedi dyfod yn Lladinwr lled wych. Ond o herwydd amgylchiadau teuluaidd, gorfu iddo ymadael yn llawer cynt nag y dymunasai.

Trwy ymroddiad diflino i ddarlen a meddwl, cyrhaeddodd dir nad oedd ond ychydig lëygwyr o'i sefyllfa ef y pryd hyny yn ei feddu. Yr oedd manylrwydd a thrylwyredd ei astudiaeth o ieithyddiaeth yn ei wneyd yn feirniad craff, fel y gelwid ef yn fynych iawn i feirniadu mewn cyfarfodydd cystadleuol a llenyddol.

Yn nhymmor y gauaf cyntaf wedi gadael yr ysgol, dechreuodd gadw dosbarth yn yr wythnos i ddysgu grammadeg Cymraeg, ac i ddarllen y Beibl, yn y Bontuchel, i ieuengctyd yr ardal; yr hyn y parhaodd i'w wneyd bob gauaf, bron, tra y bu yn aros yn yr ardal hono. Ac ar ol symmud i ardal Clawdd-newydd, bu yn cario yn mlaen yr un gwaith am lawer o flynyddoedd. Mae yn ddïau mai fel athraw ar ddosbarth yn yr Ysgol Sabbothol, a'r cyfarfod darllen wythnosol, yr oedd ei brif ragoriaethau yn dyfod i'r golwg. Yma yr oedd cuddiad ei gryfder. Yr oedd cyflawni gwaith y swydd yn lled hawdd a phleserus iddo ei hun. Talai sylw neillduol i ddarlleniad cywir a deallus yr awdwr hefyd; a llwyddai i gael gan ei ddosbarth i ddeall yr hyn a ddarllenid; ac ond cael hyny, teimlai nad oedd yr amser wedi ei dreulio yn ofer. Yr oedd ei fywiogrwydd i ganfod, a'i gyflymder i ffurfio a gofyn cwestiynau priodol, ynghyd â'i allu i dynu ei ddosbarth allan, yn hynod; a gallai ennill a chadw sylw ei ddosbarth hyd yn oed pan y byddai yn rhifo o bymtheg i ugain. Y mae yn sicr ei fod wedi troi allan lawer o athrawon ac athrawesau rhagorol—yn enwedig yn ei ddosbarthiadau wythnosol. Yr oedd wedi cyssegru ei holl alluoedd, megys, ar allor yr Ysgol Sabbothol; a phery ei ddylanwad o fewn ei therfynau, o leiaf, am amser maith. Byddai yn arfer dyweyd ei fod yn credu ei fod wedi cael y fraint o wneyd rhyw ychydig o ddaioni fel athraw yn yr Ysgol Sul; ond yn ammheus a wnaeth efe lawer o ddaioni mewn unrhyw gyfeiriad arall. Daeth ei ddywediad i gôf amryw yn hynod darawiadol ar ddydd yr angladd, yn mynwent Gyffylliog, trwy i ryw frawd yn nghanol y dorf dori allan mewn llais dolefus:—'Wel, wel! dyma yr athraw Ysgol Sul goreu yn yr holl wlad yn cael ei roddi yn ei fedd heddyw!' Bu yn gweithio â'i holl egni gyda hi am o ddeutu tair-blynedd-ar-ddeg-ar-hugain, cyn iddo ei hun ddyfod yn aelod eglwysig; ac un o'r pethau rhyfeddaf yn ei hanes ydyw, ei fod wedi byw, yn mron, hanner ei oes, ac wedi gweithio mor gysson ac aiddgar gyda'r ysgol, gan arwain bywyd diargyhoedd; ac yn ei holl gyssylltiadau yn dangos y parch mwyaf i grefydd, ei gweinidogion, a'i phroffeswyr, a pharodrwydd gwastadol i roddi pob cymmorth i gario yr achos yn mlaen; ond er hyny, yn gallu aros ei hun heb wneyd proffes o'r Gwaredwr. O'r diwedd, torodd yntau drwy y rhwystrau, pa fath bynag oeddynt; a mawr oedd y llawenydd oedd yn eglwys Clawdd-newydd pan y daeth efe yn aelod o honi. Daeth i fyw i'r Sarnau, Clawdd-newydd, o ddeutu 1843. Ymaflodd â'i holl egni, bellach, yn ei ddyledswyddau crefyddol fel un yn penderfynu gwneyd i fyny am yr amser a gollasai, &c.; ac nid hir y bu cyn i'r eglwys ei alw yn swyddog: a pharhaodd i'w gwasanaethu yn ffyddlawn tra y bu yno. Yn mhen amser, symmudodd oddi yno i ardal y Rhiw, lle yr ymroddodd i wneyd ei oreu, fel

Digitized by Google

cynt. Yr oedd ei dduwioldeb mor amlwg a'i ddefnyddioldeb; a chydnabyddid hyny gan bawb a'i hadwaenai.

Yr oedd ei olwg yn pallu yn raddol er's blynyddoedd, a dal i waethygu yr oedd; ac o blegid hyn, yn benaf, tueddwyd ef i symmud drachefn i Ruthyn:—lle y bu farw, ar ol byr gystudd, yn mis Ebrill, 1878. Yr oedd ei olwg wedi pallu yn hollol cyn ei farwolaeth; yr hyn a barodd iddo ofid mawr.

Yr oedd ei gôf yn anhysbydd, o'r bron—yn enwedig i gofio barddoniaeth. Cofiai gywydd, neu bryddest, o gant o linellau o hyd, wrth glywed ei darllen neu ei hadrodd unwaith yn unig. Cofiai bregeth, bron bob gair, os byddai hi at ei chwaeth ef—a difyr ac adeiladol iawn fyddai gwrandaw arno yn adrodd pregethau, awdlau, pryddestau, cywyddau, ac englynion; a byddai ei ddisgrifiad bywiog o weithiau yr awduron a'i bregethwyr hoffaf yn hynod ddymunol. Fel gwladwr, yr oedd yn un o'r dynion mwyaf gwerthfawr a defnyddiol yn yr ardaloedd lle y bu yn byw, ac ystyrid ef yn mhell o flaen ei oes. Yr oedd felly hefyd yn ei wybodaeth gyffredinol o ddeddfau a chyfreithiau y wlad; a byddai yn barod ar bob achlysuron i roddi cyfarwyddiadau i'w gydwladwyr oedd yn llai eu gwybodaeth, mewn amgylchiadau dyrus a phrofedigaethus. Yr oedd yn fedrus a pharod i wneyd ewyllysiau hefyd; a dywedir na bu camddealltwriaeth nac ammheuaeth ynghylch un a wnaeth efe. Gelwid ef hefyd yn fynych i brisio eiddo, ac i wastattau anghydwelediadau rhwng dynion a'u gilydd; a byddai, fel rheol, yn hynod lwyddiannus yn hyn. Yr oedd, mewn gair, yn un o ddynion mwyaf defnyddiol yr ardaloedd lle y preswyliodd; a theimlid colled fawr ar ei ol.

# F.

FAUST, DR. Dewin, neu feistr enwog yn yr hyn a elwir y 'gelfyddyd ddu;' hanes yr hwn sydd wedi cael sylw neillduol yn y byd. Tybir fod llawer o'r hyn a ysgrifenwyd yn ei gylch yn chwedlonawl; ac nad ydynt yn ddim amgen na chynnyrch dychymyg oes y Diwygiad Protestanaidd. Yr oedd y person a ddygai yr enw hwn yn byw yn yr hanner cyntaf o'r unfed ganrif ar bymtheg—rhwng 1507 a 1540. Ganwyd ef yn Würtemberg; neu, yn ol awdurdodau eraill, yn Roda, ger Weimar. Yr oedd ei rïeni yn dlodion; ond trwy gynnorthwy ychydig o gynnysgaeth a adawyd iddo gan ei ewythr, galluogwyd ef i efrydu meddyginiaeth a dewiniaeth yn Cracow. Disgrifir ef fel rhyw grwydryn ymffrostgar, yn hòni ei fod yn deall holl ddirgelion dewiniaeth; ac y gallai efe, pe byddai yn angenrheidiol, adferu gweithiau Aristotle a Plato pe y collid hwynt, ac adgynnyrchu, mor fynych ag y dymunid, wyrthiau Crist. Mewn llythyr a adawyd gan yr abad Trithemius, o Spanheim, ac a ysgrifenwyd ganddo yn Awst, 1507, fe geir ei hanes gyntaf yn Gelnhausen; yna yn Würtzburg, ac ar ol hyny yn Kreuznach. Cyflogwyd ef i gyfranu addysg yn y dref olaf; ond bu raid iddo ddiangc yn fuan o herwydd ei afradlonedd. Yn y fl. 1509, yr oedd un o'r enw Johann Faust yn dilyn ei efrydiau yn Heidelberg, lle yr ennillodd efe y radd o wyryf mewn duwinyddiaeth. Dichon mai hwn oedd y crwydryn y cyfeirid ato gan yr abad. Mewn llythyr dyddiedig yn 1513, cyfeiria Mutianus Rufus mewn modd diystyrllyd at un o'r enw Georgius Faustus, yn Erfurt. Ymddengys y byddai efe yn arfer aros am adegau lled feithion yno. Yn 1516, yr oedd yn byw yn Maulbronn; yn Leipzig, yn 1525; ac yn 1528, fel Dr. George Faust, o Heidelberg, gyrwyd ef ymaith o Ingolstadt. Yn un o'i weithiau, fe grybwyllir gan Philip Begardi am dano fel un oedd yn adnabyddus fel dyhiryn oedd wedi ennill cymmeriad uchel yn mysg y dosbarth ofergoelus. Credent yn ei allu i gymdeithasu âg ysbrydion. Dywed Johann Gast, y duwinydd Protestanaidd, yn un o'i weithiau, ei fod yn swpera gyda Faust yn Basel, a bod ci a cheffyl o natur ellyllaidd yn gweini arno. Dywed hefyd fel y darfu i'r cythraul ei ladd, ac fel y tröai ei gorph marw â'i wyneb i lawr ar yr elor, er iddo gael ei osod bum waith â'i wyneb i fyny. Ceir cyfeiriadau mynych o'r natur uchod ato yn llenyddiaeth Ewrop—yr oll o barai a roddant iddo y cymmeriad a roddir uchod, o fod yn cyfathrachu â'r 'un drwg,' ac yn un y dylai pawb ymgadw rhagddo. Widman a ddywed y byddai Luther yn sôn am Faust yn fynych yn ei bregethau a'i gynghorion, ac yn ei ddefnyddio fel ymgorphoriad o ddrygioni y diafol. Yn hyn, mae'n debyg, y ceir eglurhâd ar yr arlliw crefyddol a ddaeth, mewn blynyddoedd wedi hyny, yn un o brif neillduolion y chwedl ryfedd i'r hon y mae Faust yn wrthddrych. Yn ei *Chronik*, dywed y Count Froben Christoph von Zimmern iddo farw mewn gwestty yn ystod y nos: ac mai llaw y diafol a'i lladdodd, wedi i'w awr ddyfod. Gwneir cyfeiriadau pellach ato gan amryw awdwyr galluog ac adnabyddus; megys, Augustin Lercheimer, o Steinfelden; Martin Delrio, a Philip Camerarius. Yn y modd hwn, daeth y chwedl am Faust i ennill nerth, ac i ddyfod yn un y gwneid defnydd mynych o honi gan ysgrifenwyr mewn cyfnodau diweddarach.

Yr ymgais cyntaf i droi chwedl Faust i amcan

Digitized by Google

lenyddol oedd y *Volksbuch*, yr hon a gyhoeddwyd gan Johann Spies, yn Frankfurt, yn 1587, dan y teitl *Historia von Dr. Johann Fausten, dem Weitbeschreiten Zauberer und Schwartzkünstler*, &c. Nid oes ond tua phump o gopïau ar gael o'r llyfr hwn—un o ba rai sydd yn yr Amgueddfa Brydeinig. Y ffurf a roddwyd ar y chwedl ynddo sydd, bellach, yn debyg o barhau arni. Hysbysa yr awdwr iddo argraphu y llyfr i fod yn rhybudd i Gristionogion yn mhob oes; a hysbysa y modd y cafodd efe y chwedl gan gyfaill iddo yn Spires. Yn y rhagdraith, ceir cynghor pwrpasol ar ganlyniadau alaethus pob cyfathrach â'r diafol. Dosrenir y llyfr i wyth a thrigain o bennodau, ac y maent yn cynnwys hanes cyflawn am yr holl brif ddigwyddiadau yn mywyd Faust, ynghyd â'i gyfathrach â'r diafol. Daeth y gwaith ar unwaith yn boblogaidd—mor boblogaidd, yn wir, fel y galwyd am ail argraphiad yn fuan iawn. Ymddangosodd cyfieithiad Saesneg o hono cyn 1589; ac y mae wedi ei gyfieithu, neu ei gyfansoddi, i bron bob iaith arall yn Ewrop.

Trowyd y chwedl hefyd i ffurf barddonol. Un o'r rhai cyntaf, ac hefyd y mwyaf meistrolgar, yw *Tragical History of the Life and Death of Doctor Faustus*, gan Marlowe. Cyfansoddwyd y chwedl hefyd fel chwareu-gerdd Saesnig gan Mr. W. G. Wills; a chwareuwyd hi yn Llundain, a lleoedd eraill, gan y chwareuwr adnabyddus, Henry Irving. Ond y mwyaf, yn mhob ystyr, o'r darnau barddonol a gyfansoddwyd ar y chwedl ydyw eiddo Goethe. Y mae hwn yn cael ei ystyried yn ben-campwaith yn y ffurf dramäyddol o gyfansoddi, ac yn adnabyddus i lenorion pob gwlad.

FAWCETT, HENRY. Gwleidyddwr enwog oedd efe, a anwyd yn Salisbury, yn y fl. 1833. Cymmerodd ei rïeni ddyddordeb nid bychan mewn gwleidyddiaeth, ac yr oeddynt yn Rhyddfrydwyr cedyrn a selog; ac effeithiodd y dylanwadau y daeth y dyn ieuangc i gyssylltiad â hwynt ar ei feddwl a'i gymmeriad ef. Pan yn fachgen, gwnaeth benderfyniad y byddai iddo fynu eisteddle yn senedd y deyrnas. Yr oedd y penderfyniad hwn yn codi oddi ar ei fawr awydd am allu gwneyd rhywbeth sylweddol tuag at wellhau addysg y bobl, a dwyn diwygiadau hefyd o amgylch yn sefyllfa anfoddhaol y llafurwyr amaethyddol. Rhoddwyd iddo yr addysg oreu yn y gwahanol ysgolion; a chafodd ddiweddu ei gwrs efrydawl yn Mhrifysgol Caergrawnt; lle, yn 1856, y cafwyd ei fod yn *seventh wrangler*, ac yr etholwyd ef yn gymmrawd o Neuadd y Drindod. Yn ddilynol, dechreuodd efrydu y gyfraith; ac yn nerth ei benderfyniad a'i alluoedd disglaer, gwnaeth gynnydd cyflym yn ei efrydiau. Yn Medi, 1858, cymmerodd anffawd le fuasai yn diffodd pob gwreichionen o benderfyniad mewn llawer un. Tra yn saethu petris ger Salisbury, aeth ergyd o ddryll ei dad i'w lygaid, a chollodd y ddau yn y fan! Collodd ei olygon am byth! Ond dywedir iddo, er hyny, yn yr amgylchiad adfydus hwnw, amlygu ei benderfyniad di-ildio na chai yr anffawd ei attal i fod yn seneddwr. Rhoddodd i fyny efrydu y gyfraith; ac yn mis Tachwedd, 1860, daeth allan fel ymgeisydd seneddol dros Southwark. Cyn dydd yr etholiad, ymneillduodd o'r ymdrechfa. Yn Ionawr, 1863, daeth allan eilwaith dros Gaergrawnt; ond gorchfygwyd ef gan yr ymgeisydd Toriaidd. Tua yr adeg hon, efe a gyhoeddodd ei *Manual of Political Economy*—llaw-lyfr sydd yn seiliedig ar y llinellau a osodwyd i lawr gan John Stuart Mill, a Ricardo. Llafuriodd yn galed ar y gwaith hwn, ac ystyrir ef yn gyfansoddiad godidog. Yn ngwanwyn 1863, etholwyd ef i gadair trefnidedd gwleidyddol yn Mhrifysgol Caergrawnt: yr hon swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Ei brif weithiau ydynt *The Economic Position of the British Labourer*, a *Protection and Free Trade*. Yn 1864, ymladdodd frwydr etholiadol dros Brighton; ond gorchfygwyd ef. Yn etholiad cyffredinol y flwyddyn ddilynol, modd bynag, dychwelwyd ef yn anrhydeddus, a chafodd ei uchelgais bachgenaidd ei sylweddoli. Etholwyd ef drachefn dros yr un etholaeth yn etholiad bythgofiadwy 1868. Yn Ebrill, 1867, priododd Miss Millicent, merch Mr. Newson Garrett, o Aldeburgh, yn Suffolk. Ganwyd iddynt un ferch: yr hon sydd, erbyn hyn, wedi hynodi ei hun yn fawr trwy gyrhaedd graddau uwch nag y gwnaeth un ferch arall yn y prifysgolion.

Yr hyn oedd yn peri syndod mawr ar y pryd oedd, fod Mr. Fawcett, er colli ei olwg, mor hoff o bysgota, saethu, ysglerio, marchogaeth, a difyrion eraill tebyg. Ystyrid ef yn feistr yn y gelfyddyd o bysgota; ac yr oedd mor ddiogel ar y cyfrwy, ac mor ddeheuig yn ei gwch ar yr afon, ac ar y llithren (*skate*) ar y rhew, a phe buasai yn gweled. Byddai rhywun yn cymmeryd ei ofal bob amser; ac ar y rhew, gellid gweled ei ferch ac yntau law yn llaw yn llithro yn mlaen yn hoyw a dedwydd.

Pleidiodd Mr. Fawcett fesur Disraeli yn 1867. Yr oedd wedi ymrwymo i wneyd a allai i ëangu yr etholfraint, ac ni fynai wrthod y cyfle hwn i wneyd hyny am fod y mesur yn cael ei gynnyg gan Geidwadwr. Gwnaeth yr oll a allai efe i hyrwyddo pob mesur oedd â'i amcan i lesoli y cyhoedd; yn enwedig felly ynglŷn âg addysg. Rhoddodd ei holl ddylanwad o blaid diddymu prawfion crefyddol y prifysgolion; pleidiodd gadwraeth tir *common*, a lleoedd agored; ac yn neillduol, amlygodd ddyddordeb mawr yn llywodraethiad India, a sefyllfa anfoddhaol brodorion y wlad fawr hono.

Ei amcan mawr ef oedd gwneyd daioni; ac os codai unrhyw anhawsderau ar ei ffordd, gwae y sawl a fyddai yn achos o'r cyfryw rwystrau. Pan ddaeth Mr. Gladstone â Mesur y Brifysgol Wyddelig yn mlaen yn 1873, gwrthwynebodd Mr. Fawcett ef â'i holl egni. Gwrthodwyd ail ddarlleniad y mesur trwy fwyafrif o dair pleidlais; a derbyniodd llywodraeth Mr. Gladstone ergyd, oddi wrth yr hon y teimlodd tra y bu mewn gallu. Ar ol hyn, daeth Mr. Fawcett ei hun â mesur yn mlaen oedd â'i amcan i ddifodi y prawfion crefyddol yn Mhrifysgol Dublin: a phasiwyd ef yn ddeddf. Yn etholiad cyffredinol 1874, collodd Mr. Fawcett ei sedd dros Brighton; ond yr oedd efe, erbyn hyn, wedi sicrhau safle uchel yn Nhŷ y Cyffredin, a mwyafrif yr aelodau yn gofidio o herwydd ei absennoldeb oddi yno. Yn Chwefror, 1874, yn mhen o ddeutu chwech wythnos wedi iddo golli ei sedd yn Brighton, etholwyd ef dros Hackney. Erbyn hyn, yr oedd yr hyn a fu yn rhwystr iddo ymuno â phenaethiaid y blaid Ryddfrydig wedi ei symmud ymaith; ac yn awr, cydweithredodd â hwynt yn y modd mwyaf calonog i wrthwynebu gwladlywiaeth Arglwydd Beaconsfield—gweinyddiaeth yr hwn ydoedd, bellach,

Digitized by Google

mewn awdurdod. Parhaodd i amlygu y dyddordeb mwyaf yn amgylchiadau yr India; a gelwid ef weithiau 'yr aelod dros Hindustan.' Pan ddychwelwyd Mr. Gladstone i awdurdod yn y fl. 1880, cynnygiwyd y swydd o Bostfeistr Cyffredinol i Mr. Fawcett: ond heb sedd yn y weinyddiaeth. A chyn bod o hono bythefnos yn y swydd, penderfynodd ddwyn o amgylch bump o ddiwygiadau mawrion a gwir angenrheidiol yn y llythyrdy; sef, 1af, dwyn trefn y post parseli i fod; 2il, dwyn archebion arianol, a elwir *postal orders*, i arferiad; 3ydd, sefydlu bangciau cynnilo y llythyrdy, i gefnogi yr arferiad dda o gynnilo mân-symiau—trwy fod swyddfeydd y llythyrdy yn mhob man o'r bron yn eu derbyn, ac yn talu llôg arnynt; 4ydd, hyrwyddo cynllun i yswirio bywydau trwy y llythyrdy; 5ed, gostwng pris brys-negesau trwy y pellebyr o swllt i chwe cheiniog. Trwy ddyfal ymroddiad a gweithgarwch, llwyddodd gyda'r pedwar cyntaf; a gwelodd ei drefniant o berthynas iddynt yn gweithio yn llwyddiannus. Edrychai arno ei hun yn hollol fel gwas y cyhoedd wrth weinyddu y swydd aruchel. A chan gadw cyfleusderau a llwyddiant y cyhoedd yn barhaus o flaen ei feddwl, gwrthodai edrych ar y llythyrdy fel peiriant i ennill cyllid i'r deyrnas; ond edrychai arno yn hytrach fel peiriant oedd yn bodoli yn gyfangwbl i fod o wasanaeth i drigolion y wlad. Ennillodd iddo ei hun gymmeriad uchel fel un o'r Post-feistri Cyffredinol goreu a welodd Prydain erioed. Dioddefodd gryn waeledd tua diwedd ei oes; a bu farw Tachwedd 6ed, 1884. Claddwyd ef yn Trumpington, ger Caergrawnt; a chyfodwyd colofn goffa genedlaethol iddo yn Mynachlog Westminster. Ysgrifenwyd ei goliant gan Mr. Leslie Stephen.

**FIELDING HENRY.** Nofelydd Saesneg enwog, a anwyd yn Sharpham Park, Glastonbury, Ebrill 22ain, 1707. Mab oedd efe i'r Cadfridog Edmund Fielding, yr hwn a berthynai i'r gangen ieuangaf o deulu Iarll Dinbych. Pan yn ieuangc, daeth i sylw y cyhoedd fel awdwr chwareu-gerddi. Yn Chwefror, 1728, chwareuwyd ei gomedi *Love in several Masques* yn chwareudy Drury Lane, Llundain. Dwy flynedd wedi hyny, cynnyrchwyd ei *Temple Beau*. Chwareuwyd amryw eraill o'i eiddo. Y goreuon yn eu mysg ydynt *The Author's Farce* (1730); *Tom Thumb* (wedi hyny) *The Tragedy of Tragedies* (1730); *Don Quixote in England* (1734); *The Mock Doctor* (1732); *The Miser* (1733); a'r *Intriguing Chambermaid* (1734). Gwelir, oddi wrth y rhestr uchod, ei fod yn cyfansoddi ei chwareugerddi gyda chyflymder mawr. Rhwng y fl. 1735 a 1736, priododd Miss Charlotte Cradock, merch brydweddol o Salisbury; yr hon oedd prif gymmeriad Sophia Western, arwres *Tom Jones*—ei brif nofel.

Am amryw fisoedd, ymddengys i Fielding dreulio bywyd esmwyth gŵr boneddig yn sir Dorset, lle y treuliodd gryn swm o gynnysgaeth ei wraig. Yn 1736, gyda'r hyn oedd weddill o'r swm, cymmerodd y Little Theatre yn Haymarket, Llundain, ar ardreth; lle y dygwyd allan ganddo ddwy chwareu-gerdd led lwyddiannus; sef, *Pasquin* (1736), a'r *Historical Register* (1737). Parodd y wawdiaeth lem a beiddgar ar y weinyddiaeth a gynnwysid yn y chwareuon hyn i Ddeddf y Trwyddedau, 1737, gael ei ffurfio gyda brys; ac yn ol darpariaethau hono, yr oedd yn angenrheidiol cael cydsyniad yr Arglwydd Ystafellydd cyn y gellid chwareu un ddrama ar y llwyfan gyhoeddus. Mewn canlyniad i'r ddeddf hon, bu raid i Fielding gau ei chwareudy; ac yn Nhachwedd, 1737, aeth i efrydu y gyfraith yn y Middle Temple. Galwyd ef at y *bar*, fel y dywedir, yn 1740: ac ymunodd â'r gylchdaith orllewinol. Ond ni ddarfu iddo, yn y cyfamser, esgeuluso llenyddiaeth. Gyda James Ralph, bu yn golygu y *Champion*—papur tebyg o ran ei natur i *Spectator* y dyddiau hyn. Yn y fl. 1742, modd bynag, y daeth efe yn fwyaf amlwg i sylw y cyhoedd; a bron yn ddiarwybod iddo ei hun, gwelodd ei fod wedi cyrhaedd enwogrwydd ar faes ëang llenyddiaeth.

Yn lled fuan ar ol eu gilydd, ymddangosodd y nofelau canlynol:—*Joseph Andrews*, *Miscellanies*, *The Wedding Day*, *A Journey from this world to the next*, a *History of the life of the late Mr. Jonathan Wild the Great.* Pan wnaeth y llyfrau hyn eu hymddangosiad, yr oedd ei amgylchiadau yn hynod isel. Ychydig o foddion bywoliaeth oedd ganddo—yr oedd ei iechyd yn anfoddhaol, a'i wraig brydferth yn glaf yn barhaus. Pan y bu hi farw, effeithiodd hyny gymmaint arno, fel yr ofnwyd yr ammharai ar ei synwyr. Modd bynag, gwellhaodd y clwyf i raddau, fel y galluogwyd ef eilwaith i ddilyn ei hoff waith o lenydda. Yn 1745, cychwynodd newyddiadur o'r enw *The True Patriot;* yr hwn, yn 1747, a ddilynwyd gan *The Jacobite's Journal.* Yn Nhachwedd, 1747, priododd ferch ieuangc, o'r enw Mary Daniel—gwasanaethyddes ei ddiweddar briod, yr hon a ofalai am ei blant. Yn mhen blwyddyn wedi hyny, gwnaed ef yn ynad heddwch dros Westminster; ac aeth i fyw i dŷ perthynol i'r Duc o Bedford yn Bow street. Yn Chwefror, 1749, cyhoeddodd ei ail nofel—*Tom Jones*—un o'r nofelau mwyaf nodedig a gyhoeddwyd erioed. Yn mhen llai na thair blynedd ar ol hyn, ymddangosodd ei drydedd ffugchwedl, *Amelia.* Erbyn hyn, yr oedd sefyllfa adfeiliedig ei iechyd yn ei luddiais i wneyd ond ychydig yn y ffordd o ysgrifenu. Bu farw yn Lisbon, yn Portugal, Hydref 8fed, 1754, yn 48ain mlwydd oed.

O'i holl weithiau, ei dair nofel, *Joseph*, *Amelia*, a *Tom Jones*, sydd yn parhau i gadw i fyny eu poblogrwydd; a chymmaint oedd ei fedr a'i lwyddiant yn y gangen hon o lenyddiaeth fel y galwai Scott ef 'yn dad y nofelwyr Saesnig.' Y mae ei fywgraphiad wedi ei ysgrifenu gan bedwar o awduron o leiaf. Ymddangosodd y cyntaf yn 1762, a'r olaf yn 1883.

**FOULKES, RICHARD** (SILAS GLAN DYFRDWY). Ganwyd Richard Foulkes yn Llannefydd, yn sir Ddinbych, yn 1784. Daeth i fyw i Ddinbych yn ieuangc, ac ymunodd âg eglwys yr Annibynwyr yn y dref. Annogwyd ef ganddynt i ddechreu pregethu; ond ni allai gydsynio, am ei fod wedi coleddu syniadau y Bedyddwyr ar yr ordinhadau. Ymadawodd â'i hen frodyr mewn tangnefedd; a bedyddiwyd ef gan y Parch. T. Jones, o'r Glyn (wedi hyny o Rydwilym), yn 1804, a dechreuodd bregethu yr un flwyddyn. Yn y fl. 1820, ymsefydlodd fel gweinidog ar eglwysi Cefn-bychan a Phen-y-cae, fel olynydd i Thomas Davies. Yr oedd hyn ar amser terfysglyd yn y wlad, o herwydd y dadleuon oedd rhwng y pleidiau crefyddol ar Galvin-

Digitized by Google

iaeth ac Arminiaeth. Yr oedd golygiadau Andrew Fuller, Dr. Edward Williams, ac eraill, yn dechreu lefeinio meddyliau lliaweroedd; ac yr oedd y rhai a lynent wrth yr hen olygiadau Uchel-Galvinaidd yn anghymmeradwyo y golygiadau newydd yn fawr, ac yn eu gwrthwynebu yn egnïol. Nid dyn oedd Richard Foulkes i edrych yn dawel ar y ffrwd yn myned heibio, heb geisio ei throi i'r cyfeiriad a dybiai efe yn iawn. Cymmerodd ef ei ochr o blaid Calviniaeth gymmedrol, neu y Ffwleriaidd, neu 'y system newydd,' fel y gelwid y gyfundrefn ar y pryd. Agorodd ddadl ar y mater yn *Seren Gomer*, yn 1822; ac ysgrifenodd gyda medr, eglurdeb, a gonestrwydd nodedig. Cynnorthwyid ef yn effeithiol yn mysg y Bedyddwyr gan y meddyliwr annibynol, J. P. Davies, o Dredegar, ac eraill; a chymmerid yr ochr arall gan Dr. John Jenkins, o Hengoed; William Jones, Pwllheli; ac eraill. Bu y ddadl hon yn foddion i ddwyn enw a galluoedd Richard Foulkes i sylw y Dywysogaeth; ond bu yn foddion hefyd i ddwyn llawer o ddyfroedd gofid i'w gwpan. Teflid geiriau adgas ato gan yr ochr wrthwynebol; ymosodid arno fel pe buasai wedi gwadu y ffydd, a chauid drysau pulpudau yn ei erbyn. Nid ydym yn dyweyd nad oedd yntau hefyd, a'i bleidwyr, yn euog o arfer iaith rhy gref a diraddiol. Ond gyda golwg ar ei syniadau, nid oeddynt ond y rhai a goleddir gan gorph ein duwinyddion erbyn hyn gyda golwg ar ddyledswydd pob dyn sydd yn clywed yr efengyl i'w derbyn, a bod darpariaeth anfeidrol ddigon yn yr Iawn ar gyfer 'pwy bynag a gredo.' Cyflawnodd Richard Foulkes waith gweinidogaeth yn y Cefn a Phen-y-cae gydag ymroddiad llwyr. Gweithiodd yn ddi-orphwys—a buan y llosgodd y ganwyll i'r pen. Dyma dystiolaeth un a'i hadwaenai yn dda; sef, gŵr o'r enw Richard Hughes, Pen-y-cae:—

'Bu Mr. Foulkes, yn sicr, yn offeryn da yn llaw Duw, wedi dyfod yma. Efe a lafuriodd fwy na mwy yn yr ysbaid byr y bu yn ein plith. Bu yn foddion i sefydlu cymdeithas neillduol yn ein mysg; yr hon nad oedd wedi bod erioed ar droed o'r blaen. Cafodd lawer o wrthwynebiad i godi y sefydliad hwn: ond ni wnelai efe un cyfrif o'r gwrthwynebiad; canys torodd trwy bob rhwystr er mwyn adeiladu yr eglwys. Yr oedd yn bregethwr rhagorol. Cynnyddodd yr eglwys yn fawr mewn rhifedi, a dealltwriaeth, dan ei ofal gweinidogaethol ef; ïe, bu yn offeryn yn llaw Duw i gael lliaws mawr i ymofyn 'am y rhan dda.' Pregethai dair gwaith yn yr wythnos, a thair gwaith ar y Sabbath. Pregethai yn yr wythnos yn fynych mewn pentrefi a thai cymmydogaethol. Yr oedd efe yn debyg i'w Flaenor mawr, yn hoffi pregethu yr efengyl i'r tlodion, ac ymweled â'r 'rhai ysig eu calon.' Ni welais erioed ddyn mor ddi-dderbyn-wyneb ag ef ar bob achos. Ni chelai y gwaelaf yn yr eglwys un cam oddi ar ei law, ac ni chelai y mawrion eu harbed os byddai cerydd yn deilwng iddynt. Byddai ryw bethau newydd bob amser yn mhob un o'i bregethau. Nis gellir, braidd, ddarlunio y parch oedd yn mynwes yr eglwys tuag ato. Yr oedd megys canwyll ein llygaid gan bob un o honom. Galerir heddyw am dano, wrth gofio ei lafur di-flino, a'i ffyddlondeb anghymmharol.

Darfu i'w lafur mawr, a'i bryder gormodol, effeithio yn niweidiol ar ei gyfansoddiad; a hunodd yn yr Arglwydd Mai 3ydd, 1828, yn 39ain mlwydd oed. Ei eiriau olaf oeddynt wrth ei wraig, 'Jane, Jane, 'Y mae afon â'i ffrydiau a lawenhânt ddinas Duw.' Gwn hyny fy hun yn awr, a diolch yn dragywydd am dani.' Tarewir ni yn gryf wrth ddarllen hanes bywyd Silas, a lliaws eraill o rai y ceir eu henwau yn hysbys yn ein plith, mor ieuaingc y cyflawnasant eu gorchestion, ac mor gynnar y galwyd arnynt i noswylio! Buont fyw lawer mewn ychydig amser; buont fyw yn ddi-ofn, er na buont fyw yn hir. Wyr i Silas Glan Dyfrdwy ydyw Richard Foulkes Griffiths, bargyfreithiwr, Llundain; yr hwn a fu yn ymgeisydd seneddol dros fwrdeisdref Merthyr Tydfil; a gŵr sydd yn cyflawni gwasanaeth gwerthfawr dros Anghydffurfiaeth a Rhyddfrydiaeth.

**FROUDE, JAMES ANTHONY.** Proffeswr hanesiaeth ddiweddar yn Mhrifysgol Rhydychain oedd efe. Ystyrir ef yn hanesydd galluog, ac yn un o lenorion blaenaf y deyrnas. Y mab ieuengaf oedd efe i'r Hybarch Archddiacon Froude, o Totnes; a ganwyd ef Ebrill 23ain, 1818. Addysgwyd ef yn Ysgol Westminster; ac yn Ngholeg Oriel, Rhydychain—lle y graddiodd yn 1840. Yr oedd y symmudiad Tractaraidd ar y pryd yn cyffroi y cylchoedd crefyddol Protestanaidd yn mysg yr Ymneillduwyr, a phob plaid yn yr Eglwys Sefydledig; a daeth Mr. Froude, fel lliaws eraill, i deimlo oddi wrth ei ddylanwad. Dangosodd ei fod yn meddu athrylith gref; ac yn fuan iawn wedi cymmeryd ei raddau, profodd ei hun yn llenor galluog. Yn 1842, ennillodd wobr Canghellydd y Brifysgol am y Traethawd goreu ar *The influence of the science of political ecomony on the moral and social welfare of the nation.* Yn mhen amser ar ol hyn, cymmerodd urddau eglwysig, gan fwrw ei goelbren gyda'r blaid Uchel-Eglwysig; arweinydd yr hon ar y pryd oedd y Parch. J. H. Newman. Y llyfr cyntaf a ysgrifenodd oedd ei *Lives of the English Saints*; a dilynwyd hwn, cyn hir, gan *Shadows of the Clouds*, a'r *Nemesis of Faith.* Tynodd y llyfrau hyn, ac yn enwedig yr olaf, sylw cyffredinol. Beirniadwyd, a chondemniwyd hwy, yn neillduol felly gan y brifysgol, am y credid nad oeddynt yn hollol uniongred ar y pyngciau mawr oedd mewn dadl rhwng Protestaniaid ac Eglwys Rhufain. Dangosent fod cyfnewidiad pwysig wedi cymmeryd lle yn argyhoeddiadau yr awdwr tybiedig (gan nad oedd ei enw yn adnabyddus ar y cyntaf); ac ystyrid y *Nemesis* yn fath o brotest cryf yn erbyn y duedd oedd yn Eglwys Loegr at chwedloniaeth Hebrëig, fel ei gelwid. Gwnaed sefyllfa yr awdwr gan y beirniadaethau llymion a chondemniol a roddwyd i'r llyfrau yn hynod anghysurus. Bu raid iddo roddi i fyny gymmrodoriaeth ei goleg, a gwrthod pennodiad addysgawl a dderbyniodd yn Tasmania. Ar ol cryn bryder, efe a benderfynodd ddilyn gyrfa lenyddol o hyny allan; ac yn y blynyddoedd nesaf, ysgrifenodd erthyglau i'r *Westminster Review*, a *Fraser's Magazine*. Yn ddilynol, daeth i sylw mewn modd arbenig fel hanesydd, trwy gyhoeddiad gwaith llafurfawr a galluog o'i eiddo ar *Hanes Lloegr, o gwymp Wolsey hyd orchfygiad y Spanish Armada.* Ymddangosodd y gwaith rhwng 1854 ac 1870, mewn deuddeg o gyfrolau. Cafodd ei ddefnyddiau o gofnodion cyhoeddus a gwladol, perthynol i'r cyfnod hwnw; ac y mae y gwaith drwyddo yn dangos fod yr awdwr yn llenor o'r radd flaenaf—ac o

Digitized by Google

bossibl yn well llenor nag ydoedd o hanesydd. Dywedir fod ei ddisgrifiad o farwolaeth Mary Stuart, a'r anffodion ofnadwy a ddisgynodd i ran y llynges Yspaenaidd, yn gyfryw nas gellir ei anghofio, unwaith y darllenir ef. Nid oedd un ysgrifenydd, ond Macaulay, i'w gymmharu âg ef, meddir, yn y gallu i wneyd hanes mor ddarllenadwy ac mor ddyddorol a ffug-chwedl, neu chwedloniaeth. Daeth y gwaith i ffafr mwy yn mysg llenorion nag yn mysg haneswyr: yr hyn sydd i'w briodoli, mae'n debyg, i neilltuolrwydd ei dalentau. Dywedir mai un o'r camgymmeriadau mwyaf yn yr hanes ydyw yr amddiffyniad a wnaeth ei awdwr i gymmeriad Harri VIII.

Rhwng 1867 ac 1882, fe gyhoeddwyd gwaith arall iddo, mewn pedair cyfrol:—*Short Studies on Great Subjects.* Traethodau galluog oedd y rhai hyn: amryw o ba rai a gyhoeddwyd mewn rhyw ffurf yn flaenorol. Cafodd ei ethol yn rheithior Prifysgol St. Adnrews yn 1869; a rhoddwyd iddo y radd o LL. D. Yna, am ysbaid blwyddyn, bu yn llanw cadair olygyddol *Fraser's Magazine.* Gwnaeth ei waith hanesyddol nesaf ei ymddangosiad rhwng 1871 ac 1874, *The History of Ireland in the Eighteenth Century*, mewn tair cyfrol. Dangosai y gwaith hwn etto ragoriaethau a diffygion cyffelyb i'r hyn a nodwyd eisoes. Gellir dywedyd yr un peth hefyd am ei *Cæsar: a Sketch*, a gyhoeddwyd yn 1879—pwngc nad oedd ei athrylith yn gymmhwys i ysgrifenu arno. Yn 1872, bu ar daith yn yr Unol Dalaethau, lle y traddododd gyfres o ddarlithiau ar berthynas Lloegr â'r Iwerddon. Arweiniodd rhai o'r cwestiynau a gododd efe i sylw y pryd hwn i ddadl frwd rhyngddo a'r Parch. Thomas Burke—yr areithydd Dominicaidd enwog. Yn 1874, anfonwyd Mr. Froude gan ysgrifenydd y trefedigaethau yn ngweinyddiaeth Arglwydd Beaconsfield i Benrhyn Gobaith Da, i wneuthur ymchwiliad ynghylch gwrthryfel y Kaffiriaid. Yr oedd y cwestiwn ynghylch y priodoldeb o ffurfio cynghrair rhwng trefedigaethau Deheubarth Affrica eisoes wedi ei godi i sylw; ac yr oedd Mr. Froude i gymmeryd i ystyriaeth yr achos hwn hefyd. Cyhoeddodd hanes ei ymweliad mewn dwy ddarlith, *Two Lectures on South Affrica*, yn 1880. Gweithiau eraill o'i eiddo ar achosion trefedigaethol ydynt *Oceana* (1886), yn disgrifio ei daith i New Zealand; a *The English in the West Indies* (1888). Yn ei *The Two Chiefs of Dunboy* (1889), ceir rhamant hanesyddol, yn disgrifio bywyd Gwyddelig tua diwedd y ddeunawfed ganrif. Bu enwogrwydd Mr. Froude yn foddion i'w ddwyn i sylw Mr. Carlyle; a pharhaodd cyfeillgarwch gwresog rhyngddynt hyd farwolaeth Carlyle. Yn 1881, cyhoeddwyd *Reminiscenses* Mr. Carlyle, o dan olygiad Mr. Froude; ac wedi hyny *The Life of Carlyle*, a *Letters and Memorials of Jane Welch Carlyle.*

Yn 1892, pennodwyd ef gan Arglwydd Salisbury—y prifweinidog ar y pryd—yn *Regius Professor of History* yn Mhrifysgol Rhydychain, fel olynydd i'r diweddar Mr. Freeman. Yn y cymmeriad hwn, traddododd gyfres o ddarlithiau ar 'Fywyd a Gweithiau Erasmus;' y rhai, yn ddilynol, a gyhoeddwyd yn gyfrolau. Bu ei bennodiad i'r swydd uchod yn achos o gynnhwrf anarferol mewn cylchoedd addysgawl. Ammheuid doethineb Arglwydd Salisbury yn fawr, am y rheswm fod Mr. Froude yn fwy o lenor nag o hanesydd. Ond er ei holl feiau, yr oedd efe yn un o ddynion galluocaf Prydain yn y bedwaredd ganrif-ar-bymtheg. Bu farw yn Salcombe, yn swydd Dyfnaint, Hydref 20fed, 1894, yn 76ain mlwydd oed.

FYCHAN, DAFYDD. Bardd a chlerigwr yn sir Forganwg, yr hwn oedd yn byw rhwng 1450 a 1490. Cyfieithodd o'r Lladin i'r Gymraeg, ar gais Elis ab Tomas ab Einion, *Daith y Brawd Odrig yn yr India.* Mae'r gwaith hwn ar gael mewn llawysgrifen; ac nid ydyw yn debygol iddo erioed gael ei argraphu.

FYCHAN, EDWARD, LL. D. Brodor oedd efe o Ddeheudir Cymru, ac un a ddaeth yn adnabyddus fel esgob enwog. Yn y flwyddyn 1503, pennodwyd ef yn drysorydd St. Paul, yn Llundain; yn beriglor St. Matthew, yn Friday Street; ac yn ficer Islington. Yn 1509, trwy orchymyn y pab, cyssegrwyd ef yn Esgob Tŷ Ddewi. Dywed Leland am dano, ei fod yn ddyn o ysbryd cyhoeddus, ac iddo adeiladu tŷ da yn agos i Eglwys Gadeiriol St. Paul i fod at wasanaeth ei olynwyr. Efe hefyd a adeiladodd Gapel y Drindod, yn eglwys Tŷ Ddewi: a Chapel Justinian, ychydig bellder o Dŷ Ddewi. Efe hefyd a adeiladodd Gastell Llawhaden, ac a gododd gapel yno. Yn ei ewyllys, dyddiedig Mai 20fed, 1521, trefnodd fod i'w gorph gael ei gladdu o fewn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi: a rhoddodd gymmun-roddion i amryw o briordai yn y gymmydogaeth, ynghyd â deugain swllt i glerigwr am ganu gweddïau am chwe blynedd drosto yn Nghapel y Drindod, yr hwn a godwyd ganddo ef ei hun yn y brif eglwys. Gwnaeth lawer er addurno yr eglwys hon yn ystod tymmor ei esgobaeth. Bu farw Tachwedd, 1572.

FYCHAN, HENRY. Mab oedd efe i John Fychan, o'r Caethle, yn sir Feirionydd. Ganwyd ef tua'r fl. 1616; a derbyniodd ei addysg yn Rhydychain. Ymddengys ei fod ef yn pregethu tra y cadwodd y brenin Siarl I. ei lys yn Rhydychain. Yn 1643, cyflwynwyd ef gan y brifysgol i ficeriaeth Pant-teg, yn sir Fynwy. Bu am ysbaid o amser yn athraw i'r ysgolhaig enwog, Leoline Jenkins. Yn mysg ei amrywiol gyfansoddiadau llenyddol, cyhoeddwyd y rhai a ganlyn:—*Pregeth a draddodwyd o flaen Tŷ y Cyffredin yn Rhydychain; Dadl a fu rhyngddo ef a J. Foulkes, B.D., yn Eglwys St. Mair, yn y Fenni, Medi* 5ed, 1653, *yn mherthynas i Fedydd Babanod.*' Bu farw yn y fl. 1661.

FYCHAN, HENRY. Adnabyddid ef hefyd wrth yr enw Y SILURYN. Ganwyd ef mewn amaethdy o'r enw 'Y Dref-newydd,' yn mhlwyf Llansantffraid, yn swydd Frycheiniog, yn y fl. 1620. Yr oedd efe yn efeill-frawd i Thomas Fychan, neu *Eugenius Philalethes.* Yn y fl. 1638, aeth i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, lle yr arosodd am ddwy flynedd. Ar doriad y Rhyfel Gartrefol allan, ymneillduodd i Gymru—lle y cyrhaeddodd gryn enwogrwydd fel meddyg. Ymddengys ei fod yn teimlo dyddordeb mawr mewn ieithyddiaeth a barddoniaeth; a byddai yn treulio ei amser hamddenol yn efrydu y canghenau hyn. Yn 1650, cyhoeddodd ei waith cyntaf, *Olar Iscanus;* sef, Casgliad o Bryddestau Detholedig. Ar ol hyn, ymddangosodd ei *Silex Scintillanus*, neu 'Y Galon Waedlyd'—pryddestau cyssegredig, a saeth-weddïau. Argraphwyd y gwaith hwn ddwywaith; ac at yr

Digitized by Google

ail argraphiad, chwanegwyd 'Mynydd yr Olewydd,' neu 'Ddefosiynau Neillduol.' Heb law yr uchod, cyfieithodd hefyd amryw o lyfrau da o'r Lladin, ac un, o leiaf, o'r Yspaenaeg. Cyhoeddodd hefyd *Buchedd Paulinus*, Esgob Nola, yr hwn a gymmerwyd o'i ysgrifeniadau ef ei hun, ac awdwyr boreuol. Bu farw yn mis Ebrill, yn y fl. 1695.

FYCHAN, HOWELL. Un o weinidogion cyntaf y Bedyddwyr yn Nghymru oedd efe, er nad ymddengys fod y bobl y pregethai efe iddynt wedi myned trwy unrhyw ffurf o undeb neu gorphoriad, na'i fod yntau, chwaith, wedi ei neillduo yn ffurfiol i'r weinidogaeth. Gallai mai ysbryd erledigaethus yr oes fu yr achos i attal ffurfiad yr undeb hwn; ac y mae yn bossibl nad oedd y duwiolion y pregethai Howell Fychan iddynt ar fryniau Mynwy, Brycheiniog, Henffordd, a Maesyfed, yn barnu fod ei neillduad yntau yn angenrheidiol i'w gymmhwyso i bregethu y Gair. Mewn deiseb a anfonwyd o Gymru i'r senedd yn 1641, dywedir 'fod proffeswyr crefydd yn Nghymru yn brin, ac yn ychydig, ond yn nghonglau dwy neu dair o siroedd;' ac ychydig ammheuaeth a all fod nad gwrandawyr Howell Fychan yn y manau a nodwyd oeddynt. Dyna, meddir, oedd sefyllfa Olchon, lle y sefydlwyd eglwys yn y dyddiau tywyll hyny. Gwnaeth gwrthddrych hyn o erthygl lawer iawn er hyrwyddo yr efengyl, a hyny hefyd yn ngwyneb yr anhawsderau mwyaf y gallesid meddwl am danynt; ac o herwydd hyn, a'r ffaith mai efe oedd un o bregethwyr cyntaf yr Ymneillduwyr yn y Dywysogaeth, y mae ei enw yn deilwng o le anrhydeddus ar gofiyfrau ei wlad. Tybir iddo farw tua dechreu y Rhyfel Gartrefol.

FYCHAN, SYR JOHN. Cyfreithiwr enwog oedd efe—a mab i Edward Fychan, o'r Trawsgoed, yn sir Aberteifi, lle y ganwyd ef yn y fl. 1608. Derbyniodd ei addysg yn Nghaerwrangon a Rhydychain; a bu yn efrydu y gyfraith yn yr Inner Temple—yn enwedig felly y cyfreithiau perthynol i'r bwrdeisdrefi (*municipal laws*). Etholwyd ef i gynnrychiolaeth bwrdeisdref Aberteifi yn y senedd a gyfarfu Tachwedd 3ydd, 1640. Gwnaeth enw uchel iddo ei hun fel siaradwr; ond bu toriad allan y Rhyfel Gartrefol yn rhwystr iddo fyned rhagddo yn y cyfeiriad hwn. Mewn ysgrif a geir am dano yn y fl. 1661, dywedir ei fod yn un a siaradai yn uchel dros benteyrniaeth, yn achlysurol; ond y gofalai rhag gwlychu ei fysedd er ei chefnogi. Enwyd ef yn un o'r dirprwywyr i gymmeryd rhan yn ngwneuthuriad y cyttundeb yn Ynys Wyth: ond gwrthododd weithredu:—a bu yn bersonol yn cynghori Cromwell i osod y goron ar ei ben ei hun. Prynodd Mefenydd—un o faenorau ei ddiweddar fawrhydi yn sir Aberteifi. Cynnorthwyodd yn bersonol i gymmeryd Aberystwyth—yr hon oedd y pryd hyny yn warchodfa. Bu yn dal swyddau dan amryw weinyddiaethau. Yr oedd yn ŵr o ddoniau rhagorol; ond trwy roddi gormod o fri arnynt, tueddai at fod yn drahaus-falch. Dywedir yn mhellach am dano, iddo, trwy fenthyca wyth gant o bunnau i'r Milwriad Phylip Jones, ac eraill, oeddynt mewn ffafr y blynyddoedd diweddar, lwyddo i gael llywyddiaeth y wlad yn yr hon yr oedd yn byw i fod yn nwylaw ei gyfeillion, a'r rhai a ymddibynent arno. Wedi yr Adferiad, etholwyd ef yn farchog dros sir Aberteifi, i'w chynnrychioli yn y senedd; a gwnaeth y brenin sylw o'i deilyngdod uchel, a'i brofiad ëang. Ar y dydd cyntaf o Fai, 1668, tyngwyd ef i mewn yn rhingyll y gyfraith yn y canghell-lys yn Westminster; a thranoeth, tyngwyd ef yn Arglwydd Brif Farnwr Llys y Dadleuon Cyffredin. Bu farw yn y fl. 1674; a chladdwyd ei weddillion yn Eglwys y Deml, Llundain, yn agos i feddrod ei hen gyfaill, John Selden. Cafodd ei ŵyr, sef John Fychan, ei wneuthur yn Is-iarll Lisburne, ac yn Arglwydd Vaughan.

FYCHAN, MARI—yr hon hefyd a adnabyddid wrth yr enw GWERFYL MECHAIN. Yr oedd hi yn ferch i Hywel Fychan, o Gaer Gai, yn Mhowys, ac yn blodeuo yn y rhan olaf o'r bymthegfed ganrif. Yr oedd hi yn farddones o gryn allu; ac yn mysg ei chyfansoddiadau barddonol, ceir 'Cywydd ar ddioddefaint Crist,' a 'Chywydd y March Glâs'—i ba rai y rhydd Guto'r Glyn dystiolaeth uchel yn un o'i ganeuon. Claddwyd hi yn Llanfihangel yn Ngwynfa, yn sir Drefaldwyn.

FYCHAN, MYFANWY:—oedd foneddiges ieuangc nodedig am ei thegwch, a hanodd o dŷ a thylwyth Tudor Trevor. Bu fyw yn Nghastell Dinas Brân, ger Llangollen, yn y rhan olaf o'r bedwaredd ganrif-ar-ddeg. Bernir mai dal y castell hwn yr ydoedd ei thad o dan Iarll Arundel. Syrthiodd y bardd Hywel ab Einion Llygliw mewn cariad â hi; ac yn ngrym ei serch tuag ati, cyfansoddodd awdl o foliant iddi, yr hon a argraphwyd yn y *Myvyrian Archaiology*. 'Myfanwy Fychan' oedd y testyn dewisedig i ganu rhiangerdd arno yn Eisteddfod Llangollen yn 1858.

FYCHAN, RICHARD, D.D. Mab oedd efe i Thomas ab Robert Fychan, o Leyn, yn sir Gaernarfon; yr hwn oedd yn bummed mab i Robert Fychan ab Gruffyth, o Tal-hen-bont, yn mhlwyf Llanystumdwy, yn sir Gaernarfon. Wedi cymmeryd ei raddau yn Nghaergrawnt, rhoddwyd iddo urddau eglwysig; ac ar y 18fed o Dachwedd, 1583, pennodwyd ef i brebendiaeth Holborn, yn Eglwys Gadeiriol St. Paul, Llundain. Yn Hydref, 1588, dyrchafwyd ef i Archddiaconiaeth Middlesex. Cyssegrwyd ef yn Esgob Bangor Ionawr 25ain, 1595; yn Esgob Caerlleon yn 1597; ac yn Esgob Llundain yn 1604. Bu farw Mawrth 30ain, 1607.

FYCHAN, RICHARD, IARLL CARBERY, ARGLWYDD FYCHAN, o Molingar, yn yr Iweddon. Yr oedd efe yn meddu dylanwad mawr yn ystod y rhyfeloedd cartrefol. Dilynodd ei dad, Iarll cyntaf Carbery, yn y teitl a'r etifeddiaeth yn 1621. Gwnaed ef yn un o Farchogion Caerbaddon ar goroniaid Siarl I. Tua'r fl. 1644, gwnaed ef yn gadfridog i siroedd Caerfyrddin, Penfro, a Cheredigion gán y teyrn hwnw; ond er fod ganddo fyddin gref, ffodd o flaen byddin y senedd—yr hon a ddaeth i'w erbyn. Meddyliai rhai mai llwfrdra oedd yr achos o hyn; ond y mae yn debycach fod cyttundeb, neu ddealltwriaeth dirgel yn bodoli rhyngddo ac arweinwyr plaid y senedd; o blegid, pan gollodd y brenin yn y ffrwgwd, efe yn unig o bleidwyr ei fawrhydi, yn y wlad hono, a ddiangodd heb gael ei garcharu. Ar ol hyn hefyd, derbyniodd



Digitized by Google

freintiau neillduol oddi ar law y senedd. Dywedir iddo lwyddo hefyd i ennill ffafr Cromwell mewn modd arbenig; ac i'r Amddiffynwyr, fel cydnabyddiaeth o hyny, anfon bychod danas o'r parciau yn Llundain i'r Gelli Aur—preswylfod yr iarll yn swydd Gaerfyrddin. Gwnaed ef yn Arglwydd-lywydd Cyffin-diroedd Cymru; a chrybwyllir am dano felly gan Robert Vaughan, o Hengwrt, yn ei *British Antiquities Revived.*

FYCHAN, ROWLAND. Gŵr galluog, a hanodd o deulu henafol, oedd yn byw yn Nghaergai, ger y Bala, ydoedd efe. Cafodd ei addysg mewn rhan yn Rhydychain; ond daeth oddi yno i Gymru heb gymmeryd graddau; ac o hyny allan, trodd ei sylw bron yn gyfangwbl at lenyddiaeth Gymreig. Gwnaeth lawer er dwyn moddion diwylliant i gyrhaedd ei gydwladwyr; ac yn enwedig, cyfieithodd lyfrau da i'r Cymry. Yn 1630, cyfieithodd a chyhoeddodd *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, o waith Bailey. Yn 1658, ymddangosodd ei gyfieithiad o *Bregeth yn erbyn Schism*, gan Dr. Jasper Mayne; a chyfieithiad o Holwyddoreg yr Archesgob Usher, a elwid *Prif fannau Crefydd Gristionogol, a llwybraiddfodd byrr o'r athrawiaeth o honi.* Ymgymmerodd â'r gwaith hwn ar gais y Milwriad Salusbury, o Fachymbyd—llywydd gwrolfrydig Castell Caledfryn-yn-Rhos (Dinbych); ar draul yr hwn yr argraphwyd ef, ac y rhanwyd ef rhwng y tlodion. Yr oedd Rowland Fychan yn fardd Cymraeg rhagorol hefyd; ac yn un a feddai gariad mawr at ei wlad, a'i gydgenedl. Dinystriwyd ei balas (Caer-gai) trwy dân, yn 1645, gan alluoedd y Werin-lywodraeth; ac attafaelwyd rhan o'i etifeddiaeth. Ar ol helynt cyfreithiol blin, cafodd feddiant o honi drachefn.

FYCHAN, THOMAS. Athronydd enwog oedd efe, a adnabyddir wrth yr enw mabwysiedig EUGENIUS PHILATHES. Yr oedd yn fab i Thomas Fychan, o Lansantffraid, yn sir Frycheiniog—lle y ganwyd ef yn y fl. 1621. Derbyniodd ei addysg, mewn rhan, gan y Parch. Mathew Herbert; ac aeth ar ol hyny i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, lle y graddiodd yn 1638. Cafodd urddau eglwysig, a pherigloriaeth ei blwyf genedigol:—o'r hyn yr amddifadwyd ef, yn benaf, o herwydd ei deyrngarwch. Parodd y digwyddiad hwn iddo fyned yn ol i Rydychain—lle yr ymroddodd i efrydu fferylliaeth. Fel athronydd, yr oedd efe yn edmygydd mawr o ysgrifeniadau C. Agrippa; i ba rai yr oedd efe, i raddau, yn ddyledus am ei wybodaeth athronyddol. Nid oedd yn cymmeradwyo golygiadau Aristotle, na syniadau Descartes. Ysgrifenodd amryw o lyfrau dysgedig; ond y rhai a ganlyn ydynt y rhai penaf:—'*Anthroposophia Theomagica*, neu draithawd ar natur dŷn, a'i sefyllfa ar ol marw.' Argraphwyd gyda'r uchod yr *Anima Magica abscondita*, neu draethawd ar natur gyffredinol *Blorsur; Magia Adamica*, neu henafiaeth *Magic*, a'i haniad o Adda i waered yn cael ei brofi; *Lumen de Lumine*, neu oleuni gwreichionol newydd, wedi ei ddarganfod a'i hysbysu i'r byd; *Aula Lucis*, neu Dŷ y Goleuni; *Euphrates*, neu draethawd ar Ddyfroedd y Dwyrain, &c. Bu farw yn ddiblant, Chwefror 27ain, 1665, neu 1666.

FYCHAN, THOMAS, o Gastell Bwlch-gwyn, oedd fardd o fri, a flodeuodd yn y rhan olaf o'r unfed ganrif-ar-bymtheg.

FYCHAN, WILLIAM. Yr oedd efe yn fab i Walter Fychan, o'r Gelli Aur, yn sir Gaerfyrddin, a brawd ieuangaf Syr John Fychan, Iarll cyntaf Carbery. Ganwyd ef yn nghartref y teulu, yn y fl. 1577. Pan yn bedair-ar-ddeg oed, derbyniwyd ef i Goleg yr Iesu; ac wedi graddio yno yn y celfyddydau, ymroddodd i efrydu y gyfraith. Yna aeth ar daith i'r Cyfandir, gan gymmeryd ei raddio yn ddoctor yn Vienna. Ar ei ddychweliad yn ol, tua 1605, rhoddwyd gradd gyffelyb iddo gan Brifysgol Rhydychain. Meddai le uchel yn marn ei gydwladwyr fel bardd Lladinaidd a Saesneg rhagorol. Cyfansoddodd amryw weithiau galluog a dysgedig yn y Lladin. Un o ddigwyddiadau pwysicaf ei oes oedd sefydliad trefedigaeth yn rhan ddeheuol Newfoundland; i'r hon y rhoddodd efe yr enw *Cambriol;* a galwyd hi wedi hyny *Britanniola.* Treuliodd ei holl gyfoeth, a threthodd lawer ar ei dalentau, i gario allan yr anturiaeth hon yn llwyddiannus. Yn y fl. 1625, fe argraphwyd yn Llundain ei *Cambriensium Caroleia*—pryddest yn y Lladin, a gyflwynwyd ganddo i'r brenin Siarl y cyntaf. Y gwaith diweddaf a gyfansoddwyd ganddo oedd traethawd, yn dwyn y teitl *The Golden Fleece;* yn yr hwn yr olrheinir, ac y dadlenir cyfciliornadau crefyddol, a drygioni y deyrnas. Ceir ei fod, yn y fl. 1628, yn byw yn Cambriol; sef, y drefedigaeth y sonir am dani uchod. Yr oedd efe, y pryd hwnw, yn un-ar-ddeg a deugain oed. Nid oes hanes pa bryd y bu efe farw, nac yn mha ran o'r drefedigaeth y claddwyd ef.

FYNGLWYD, DAFYDD: yr hwn hefyd a elwid DAFYDD AB SIANCYN FYNGLWYD, oedd fardd, yn byw yn y rhan olaf o'r bymthegfed ganrif. Ceir rhai cyfansoddiadau o'i eiddo mewn llawysgrifen.

FYNGLWYD, IORWERTH. Bardd enwog oedd efe, a dysgybl o orsedd Morganwg, yn y fl. 1460. Perthynai fel bardd i Fynachlog Margam; a dywedir ei fod yn derbyn cyflog rheolaidd am wasanaethu y frawdoliaeth. Y mae amryw o'i ysgrifeniadau ar gael, ond ychydig o honynt a argraphwyd.

FOULKES, ROBERT. Masnachydd parchus yn Ninbych am lawer o flynyddoedd. Yr oedd yn hanu o un o deuluoedd henafol canolbarth Dyffryn Clwyd. Amaethwyr parchus ydoedd ei rïeni. Yr oedd yr ysgolhaig a'r duwinydd enwog, Dr. Williams, o Rotherham, yn ewythr iddo, ac yn frawd i'w fam. Ganwyd Robert Foulkes mewn ffermdy o'r enw Hendre-'r-ŵydd, yn mhlwyf Llangynhafal, ar ochr ddwyreiniol Dyffryn Clwyd, yn y flwyddyn 1798. Cafodd yr addysg foreuol oreu oedd o fewn cyrhaedd rhïeni o'r dosbarth canol yn yr amser hwnw. Gwnaeth yntau y defnydd goreu o'r manteision a gafodd. Daeth yn ysgolhaig gwych—ac yn un o'r rhai goreu yn y cylch neillduol yr oedd yn byw ynddynt. Cychwynodd ei fywyd masnachol yn Rhuthyn, fel egwyddorwas mewn masnachdy brethynau. Wedi treulio rhai blynyddoedd yno, aeth i Llundain, er mwyn gweled chwaneg, ac ymberffeithio yn ei fasnach. Bu yn dwyn masnach o'i eiddo ei hun yn mlaen am beth amser yn y brif ddinas. Yn y flwyddyn 1832, symmudodd o Lundain yn ol i'w fro enedigol, yn Nyffryn Clwyd; a sefydlodd fasnach yn nhref Dinbych, lle y treuliodd y deugain

Digitized by Google

mlynedd olaf o'i oes—yn llenwi cylchoedd o barch, dylanwad, a defnyddioldeb mawr. Bu yn brïod ddwy waith, a chafodd ddwy wraig ragorol; ond treuliodd y pedair blynedd-ar-ddeg olaf o'i oes mewn gweddwdod.

Nid dyn cyffredin, mewn llawer o ystyriaethau, oedd efe. Yr oedd yn feddiannol ar synwyr cyffredin cryf, meddwl bywiog, cyflym, a threiddgar, barn bwyllog ac aeddfed, a boneddigeiddrwydd a moes o radd uchel.

Yn ei fasnach yr oedd yn fanwl, cyfiawn, a gofalus, hyd yn oed yn y pethau lleiaf—pethau a ymddangosent i lawer yn ddibwys; a dysgai bawb oedd yn ei wasanaeth i weithredu yr un modd. Yr oedd fel masnachydd yn unplyg, egwyddorol, a chydwybodol; a thrwy hyn ennillodd safle o ymddiriedaeth yn y dref, a thrwy y wlad oddi amgylch.

Fel dinesydd, perchid ef yn fawr. Nid oedd yn un o'r rhai mwyaf blaenllaw mewn gwleidyddiaeth, leol na chyffredinol; er hyny, nid oedd arno ofn proffesu na gweithredu mewn materion cyhoeddus yn ol ei argyhoeddiadau, ei farn, a'i gydwybod. Yr oedd yn rhyddfrydwr egwyddorol, a gweithredai bob amser yn ol yr hyn y credai ynddo; a chafodd deimlo yn ei fasnach, ar lawer adeg, pan y byddai teimlad gwleidyddol pleidiol yn rhedeg yn gryf ac yn uchel, o herwydd ei ffyddlondeb i'r egwyddorion yn mha rai y credai. Bu yn aelod o gynghor trefol Dinbych Yn ystod y deng mlynedd y bu yn y cynghor, bu yn aelod ffyddlawn a defnyddiol. Perchid ef yn fawr gan ei gyd-aelodau, a gwerthfawrogid ei wasanaeth gan ei gyd-drefwyr. Er hyny, nid yn y pethau hyn yr oedd ei gryfder yn cael ei ddadblygu, na'i ragoriaethau yn ymddisgleirio yn benaf; ond yn hytrach, yn y dyngarol a'r crefyddol. Edrychai y tlodion yr anghenus, y gweddwon, a'r amddifaid, ato fel eu noddwr, eu hamddiffynydd, a'u cyfaill goreu. Gwnaeth gymmwynasau dirif i'r dosbarthiadau hyn. Yr oedd yn hynod o dosturiol a charedig wrth y rhai hyny oedd wedi gweled amgylchiadau ac amseroedd gwell; ond trwy anffodion, wedi colli y safleoedd yr oeddynt unwaith wedi bod yn feddiannol arnynt. Yr oedd ganddo galon i dosturio wrth, a llaw i gynnorthwyo pawb oedd mewn cyfyngder a chaledi.

Yn ei berthynas â chrefydd y gwnaeth y lles mwyaf; ac y disgleiriai nodweddion lliosog ac amrywiol ei gymmeriad yn benaf. Yr oedd yn tarddu o deulu yn perthyn i'r Methodistiaid Calvinaidd; a chyda'r enwad hwnw y cafodd efe ei ddwyn i fyny yn blentyn. Wedi iddo fyned i Ruthyn i ddysgu ei alwedigaeth gyda gŵr o'r enw Edward Edwards, yr hwn oedd yn Fedyddiwr, arferai yntau fyned i gapel y Bedyddwyr yn Llanfwrog; a dechreuodd yn fuan deimlo dyddordeb neillduol yn y canu ac yn yr Ysgol Sabbothol. Ond wedi iddo fyned i Lundain yr ymunodd âg enwad y Bedyddwyr fel aelod; sef, yn y flwyddyn 1818. A bu yn dra defnyddiol yn eglwys Bedyddwyr Cymreig y brif ddinas. Pan y symmudodd oddi yno i Ddinbych, nid oedd eglwys y Bedyddwyr ond gwan a diddylanwad. Er hyny, efe a ymunodd â hi, ac a ymgyssegrodd i'w gwasanaethu mewn llawer dull a modd yn ystod y gweddill o'i oes ddefnyddiol. Cafodd, yn fuan ar ol ei ddyfodiad i Ddinbych, ei ddewis yn un o ddiaconiaid yr eglwys. Bu hefyd yn ddechreuwr canu am dymmor, ac yn drysorydd ffyddlawn a gofalus i'r eglwys am lawer o flynyddoedd. Bu ei lettygarwch, ynghyd â'i haelioni crefyddol personol, yn gynnorthwy mawr i achos Bedyddwyr yr ardaloedd am lawer o amser. Nid yn y pethau hyn yn unig yr ydoedd ei ffyddlondeb a'i nerth yn gynnwysedig; ond yr oedd hefyd yn cymmeryd rhan flaenllaw, a'r dyddordeb mwyaf yn holl gyfarfodydd a symmudiadau yr eglwys. Er fod ganddo fasnach helaeth, a chyfrifoldeb mawr ynglŷn â hi, yn hawlio ei sylw a'i amser, er hyny, yr oedd yn un o'r rhai cyssonaf a ffyddlonaf yn y cyfarfodydd wythnosol; a chymmerai ran flaenllaw ynddynt. Yr oedd yn gyfaill a chefnogydd gwresog i'r Ysgol Sabbothol; a mwynhäai a gwerthfawrogai weinidogaeth y Gair. Nid oedd neb yn gallu mwynhau pregeth dda, â graddau o afael ynddi, yn well nag efe. Llonai ei wynebpryd, a threiglai ei ddagrau yn llif dros ei ruddiau, wrth wrandaw yr efengyl yn cael ei phregethu mewn symlrwydd, a chyda dylanwad. Yr oedd yr hen dônau hefd, a'r hen emynau, yn fynych yn tanio ei enaid, nes mai prin y gwyddai pa bryd i dewi a'u canu.

Nid oedd ei grefydd yn gyfyngedig i gynnulliadau cyhoeddus; ond yr oedd yr un mor grefyddol yn ei deulu. Gofalai am y ddyledswydd deuluaidd; a dygai egwyddorion crefydd i'w fasnach. Yr oedd yn ei wneyd yn bwngc neillduol i argraphu ar feddwl ei egwyddorweision, a'i gynnorthwywyr yn ei fasnach, y pwysigrwydd o weithredu egwyddorion crefydd yn holl gyssylltiadau bywyd—i fod yn eirwir, gonest, uniawn, egwyddorol, a chydwybodol yn eu holl weithrediadau, yn eu perthynas â'r byd, fel yn eu perthynas â chrefydd.

Nid oedd defnyddioldeb, ymdrechion, a chydymdeimlad crefyddol Mr. Robert Foulkes yn gyfyngedig i Ddinbych; ond teimlai ddyddordeb neillduol yn holl sefydliadau yr enwad. Yr oedd yn gyfranwr haelionus tuag at yr athrofeydd, y Cenhadaethau Tramor a Chartrefol, a'r amrywiol achosion teilwng eraill a fyddent yn gofyn am ei sylw a'i gynnorthwy, haelionus a pharod. Ni chyfyngai chwaith ei deimlad da, a'i barodrwydd i estyn cynnorthwy i'w enwad ei hun. Yr oedd yn Fedyddiwr egwyddorol a chydwybodol; er hyny, parchai bawb a ystyriai yn ymestyn i fyw yn grefyddol; ac yr oedd yn ewyllysgar, ac yn awyddus i roddi iddynt bob cynnorthwyon yn ei allu, ac i werthfawrogi pob daioni, rhinwedd, a rhagoriaethau perthynol iddynt. Nid oedd culni na rhagfarn enwadol, na chenedlaethol yn perthyn iddo. Yr oedd yn feddiannol ar galon fawr, a chydymdeimlad ëang; ac ar yr un pryd, argyhoeddiadau dyfnion, a dewrder moesol i'w hamddiffyn, a'u gweithio allan yn holl berthynasau bywyd. Bu farw Mawrth 18fed, 1873, yn 75ain mlwydd oed; ac y mae wedi ei gladdu yn mynwent Eglwys Llangynhafal, heb fod yn mhell o'r lle y ganwyd ef. Bu fyw bywyd defnyddiol iawn; a theimlodd enwad y Bedyddwyr trwy gylchoedd éang golled fawr ar ei ol.

**FFINAN, neu FFINIAN.** Yr oedd efe yn esgob ac yn athronydd enwog, ac yn byw tua chanol y chweched ganrif. Disgynodd o hen deulu Gwyddelig urddasol; a dywedir mai efe a sefydlodd Llanffinian, yn Môn. Dygwyd ef i fyny o dan ofal St. Colman; a dysgodd reolau a chyfrinion y bywyd mynachaidd gyda'r Esgob Nennion yn y Mynachdy Mawr. Yn ddilynol, aeth i Rufain, lle y bu yn dilyn bywyd efrydydd am saith mlynedd, ac yn gwasanaethu

Digitized by Google

swydd offeiriad. Dywedir iddo farw o fewn ei esgobaeth ei hun yn Clonrad, Meath, tua 552.

FFLEWDUR FFLAM, neu FFLEWDUR WLEDIG. Yr oedd efe yn fab i Godo, ac yn un o farchogion Llys Arthur. Sonir am dano yn y *Myvyrian Archaiology*, ac yn Mabinogi Cilhwch ac Olwen.

FFLUR. Merch Mygnach Gorr ydoedd hi; a rhian nodedig, a gipiwyd ymaith gan Mwrchan Leidr, brenin Gascony, gyda'r dyben o'i rhoddi yn anrheg i Iwl Cæsar; yr hwn, ar y pryd, oedd wrth ben y lluoedd Rhufeinaidd yn Gâl. Wedi deall am yr ysbeiliad, casglodd Caswallon ab Beli fyddin o drigain mil o wŷr, er ceisio ei had-ennill. Llwyddodd yn ei anturiaeth, a chafodd feddiant o honi. Dywed y *Trioedd* mai yr ymgyrch hwn o eiddo Caswallon a fu yr achos i Cæsar ymosod ar Ynys Prydain.

---

# G.

GAFRAN AB AEDDAN. Tywysog yn y bummed ganrif oedd efe; yr hwn a elwir yn un o'r 'tri difancoll,' o herwydd iddo ef, a'i wŷr, fyned i'r môr ar ymgyrch ymchwiliadol; ac na chlywyd oddi wrthynt, nac am danynt, byth ar ol hyny.

GAIR AB GEIRION. Arglwydd Geirionydd; at yr hwn y cyfeirir yn y *Trioedd* fel un o'r 'Tri Theulu Teyrnedd,' a garcharwyd gan raith gwlad yn ngharchar Oeth ac Annoeth. Y ddau eraill oeddynt Llyr Llediaith a Mabon.

GAL, GAUL, GALIA; a GALIAID. Yr hen enw a roddwyd gan y Rhufeiniaid i'r wlad sydd yn awr yn ffurfio teyrnasoedd Ffraingc a Belgium oedd GALIA; neu GAUL, fel y gelwid hi yn ddiweddarach. Galwyd y Galiaid gan y Groegwyr yn Galatæ (Galatiaid); a chan y Rhufeiniaid yn Celtæ (Celtiaid).

Y mae hanes boreuol y Galiaid, i raddau pell, yn ddirgelwch. Y cwbl a wyddys i sicrwydd am danynt yw, eu bod wedi cynnyddu gyda'r fath gyflymdra, fel yr aeth eu gwlad yn rhy fechan i'w cynnwys; ac iddynt droi allan yn lluoedd mawrion i wledydd eraill—y rhai a orchfygasant, ac y cartrefasant ynddynt. Digwyddai yn naturiol fod y llwythau, neu y cenhedloedd, oedd yn preswylio yn y gwledydd cymmydogaethol, yn anfoddlawn iddynt ymsefydlu yn eu mysg; a blinent hwy yn fawr, trwy ymosod arnynt, ac anrheithio eu sefydliadau. Yn wyneb hyn, anfonai y Galiaid am gynnorthwy i'w gwlad eu hunain; a chyda'r parodrwydd mwyaf, anfonid niferi lliosog o anturiaethwyr allan o'r hen wlad i'w cynnorthwyo; a gwnaethant hyny yn llwyddiannus. Trwy hyn daeth yr enw Gâliaid yn ddychryn i'r cenedloedd cylchynol.

Yr ymgyrch gyntaf o eiddo y bobl hyn, o ba un y mae genym hanes sicr, oedd eu hymgyrch i'r Eidal, o ddeutu 622 cyn Crist. Eu harweinydd yn yr ymgyrch hwn ydoedd Bellovesus. Croesodd ef, gyda'i fyddin, y Rhone a'r Alpau, a gorchfygodd yr Hetruriaid, gan gymmeryd meddiant o'r rhan hono o'u gwlad a elwid wedi hyny wrth yr enw Lombardy a Piedmont. Yr ail ymgyrch oedd hwnw o eiddo y Cænomani—llwyth o'r Galiaid a breswylient rhwng yr afonydd Seine a'r Loire, ac a adnabyddid wrth yr enw cyffredinol Elitonis. Ymsefydlasant hwy mewn rhanau o'r Eidal. Yn ystod y trydydd ymgyrch, ymsefydlodd dau lwyth neu genedl o honynt ar y naill ochr a'r llall i'r afon Po. Ac mewn pedwerydd ymgyrch, ymsefydlodd y Boii a'r Lingones yn y wlad, rhwng Ravenna a Bologna. Nid ydyw amseroedd y tair ymgyrch hyn yn hysbys.

Yr oedd trydydd ymgyrch y Galiaid yn hynotach nag un o'r rhai blaenorol; a digwyddodd yn mhen tua dau can mlynedd ar ol ymgyrch Bellovesus. Darfu i'r Senoniaid, y rhai oedd yn byw rhwng Paris a Meaux, fyned i'r Eidal, ar wahoddiad un o'r arglwyddi Hetruraidd, a sefydlu yn Umbria. Gwarchauodd eu brenin, Brennus, ar Clusium—dinas oedd y pryd hwnw mewn undeb â Rhufain. Arweiniodd hyn i ryfel rhyngddynt a'r Rhufeiniaid; yn yr hon, ar y cyntaf, y gorchfygwyd y Rhufeiniaid, ac y cymmerwyd eu dinas—yr hon a losgwyd. Ond gorthrechwyd hwynt o'r diwedd gan Camillus; ac ni ddiangodd un person o honynt. Ymgymmerodd y Galiaid âg amryw ymgyrchoedd eraill yn erbyn y Rhufeiniaid; ac er i'r rhan fwyaf o honynt droi allan yn aflwyddiannus o blegid eu diffyg o ddysgyblaeth filwraidd; etto, dangosodd y Galiaid y fath wroldeb a ffyrnigrwydd, fel y daethant yn elynion i'w hofni, ac i'w gwylio. Y foment y deallai y Rhufeiniaid eu bod ar eu hymdaith filwraidd a goresgynawl, gwneid pob parotoadau oedd yn ddichonadwy er eu gwrthsefyll. Gorfodid y brodorion i ymuno â'r fyddin; a diddymid y ddeddf a ryddhäai offeiriaid a henafgwyr rhag yr angenrheidrwydd o gludo arfau, a gwneyd aberthau i'r duwiau.

O ddeutu 391—390 c.c., ennillodd y Galiaid fuddugoliaeth fawr ar y Rhufeiniaid yn Allia. Yn ddilynol i'r frwydr, anrheithiasant ran o'r ddinas; yr hon a gawsant wedi ei gadael gan y Rhufeiniaid. Gwnaeth y Galiaid ymosodiad, yn nesaf, ar y Capitol—teml fawr genedlaethol Rhufain; yr hon a safai ar goppa y *Mons Capi-*

Digitized by Google

*tolinus*—y lleiaf, ond er hyny yr enwocaf, o'r saith bryn, ar ba rai yr adeiladwyd Rhufain. Bu yr ymosodiad ar y Capitol yn aflwyddiannus; ond gwarchauodd y Galiaid arno, ac ymneillduasant ar dderbyniad pridwerth fawr gan y Rhufeiniaid.

O ddeutu 279 o fl. C.C.; sef, y flwyddyn ar ol i Pyrrhus oresgyn yr Eidal, cawn fod y Galiaid wedi troi allan ar eu hymgyrch cyntaf yn erbyn y Groegiaid. Y pryd hwn, yr oedd Gâl yn orlawn o frodorion; a phenderfynwyd anfon tair byddin gref allan o honi i orchfygu gwledydd newyddion. Llywyddwyd un o'r byddinoedd hyn gan Brennus, un arall gan Cerethrius, a'r drydedd gan Belgius. Aeth y gyntaf i Pannonia, neu Hungary; yr ail i Thrace; a gorymdeithiodd y drydedd i Illyricum a Macedonia. Bu llwyddiant anarferol ar arfau Belgius ar y cyntaf; a chyfoethogodd ei hun i'r fath raddau gydag ysbail rhyfel, fel y penderfynodd Brennus fyned i'r un gwledydd ar ei ol, mewn trefn i gyfranogi o'r ysbail. Yn mhen ychydig amser, modd bynag, trodd ffawd yn erbyn Belgius; a gorchfygwyd ef i'r fath raddau fel y bu agos i'w fyddin gael ei llwyr ddinystrio. Brysiodd Brennus yno, wrth glywed am yr anffawd. Ar y cyntaf, cynnwysai ei fyddin 150,000 o wŷr traed, a 15,000 o feirch-filwyr; ond gwrthgiliodd dau o'i brif-swyddogion, gan gymmeryd gyda hwynt 20,000 o wŷr. I wneyd y diffyg hwn i fyny, anfonodd Brennus i Gâl am adgyfnerthion, trwy ba rai y gwnaeth ei fyddin yn 150,000 o wŷr traed, ac yn 60,000 o feirchfilwyr. Gyda'r nerthoedd hyn, efe a ymdeithiodd i Macedonia, gan orchfygu y gelynion, ac anrheithio yr holl wlad. Teithiodd yn nesaf tua Chulfôr Thermopylæ, gyda'r bwriad o oresgyn Groeg; ond attaliwyd ef gan y lluoedd a anfonwyd i attal ei ymdaith trwy y dramwyfa fynyddig hono. Llwyddodd Brennus i groesi y mynyddoedd, er hyny; a bu raid i'r rhai a anfonwyd i wylio y dramwyfa encilio rhag cael eu hamgylchu gan ei wŷr. Yna, Brennus, wedi gorchymyn i Acichorius, y cadfridog agosaf ato mewn awdurdod, ddilyn yn y pellder gyda rhan o'r fyddin, a ymdeithiodd gyda chorph mawr o filwyr i Delphi; gyda'r bwriad o ysbeilio y deml fawr oedd yn y ddinas hono. Trodd yr anturiaeth hon allan yn hynod anffodus. Lladdwyd nifer fawr o'i filwyr gan ystorm gethin o eira, a mellt a tharanau. Dinystriwyd rhan arall o'r fyddin gan ddaeargryn; a thybiodd y gweddill, yn anffodus, fod y gelyn yn ymosod arnynt, fel yr ymladdasant â'u gilydd ar hyd y nos. Erbyn y boreu, nid oedd ond o ddeutu hanner y fyddin ardderchog yn aros yn weddill. Yn gweled eu hanffawd, ymosododd milwyr Groeg arnynt o bob cyfeiriad, fel y bu i laddfa fawr gymmeryd lle. Anafwyd Brennus ei hun yn beryglus; a digalonwyd ef i'r fath raddau gan ei anffodion, fel y galwodd ei benaethiaid ynghyd, ac a'u cynghorodd i ladd yr holl filwyr a archollwyd ac a analluogwyd, ac i wneyd eu goreu i gael y gweddill i le o ddiogelwch, drwy encilio. Wedi rhoddi y cynghor hwn, rhoddodd Brennus derfyn er ei einioes ei hun. Ar yr achlysur hwn, dywedir fod 20,000 o'r bobl anffodus hyny wedi eu lladd gan eu cydwladwyr. Cymmerwyd llywyddiaeth y fyddin bellach gan Acichorius, a throisant eu hwynebau tua Gâl. Modd bynag, yn gymmaint a bod yn rhaid iddynt ymdaith trwy wlad eu gelynion, cyfarfuasant â chymmaint o anffodion, fel na chyrhaeddodd cynnifer ag un o honynt yno. Cyfeiria yr awduron Groegaidd a Rhufeinaidd at hyn; a chyfrifant y cyfan fel barn gyfiawn ar y Galiaid, am eu bwriadau ysbeilgar yn erbyn Delphi.

Yn y cyfwng hwn, penderfynodd y Rhufeiniaid ar wneyd ymdrech i oresgyn Gâl, gyda'r bwriad o attal unrhyw ymgais arall o eiddo y trigolion i'w blino hwy, a chenedloedd eraill deheubarth Ewrop. Rhoddasant y bwriad hwn mewn gweithrediad; a digwyddodd eu hymgais lwyddiannus cyntaf tua 118 mlynedd C.C. Eu cadfridog oedd Quintus Marcius; yr hwn hefyd a enwid yn frenin—*Rex*. Aeth, gyda'i fyddin, ar hyd tramwyfa rhwng mynyddoedd yr Alpau a'r Pyrenees; yr hyn ynddo ei hun oedd yn orchwyl anhawdd iawn, ac yn hynod beryglus. Yr oedd rhai o'r Galiaid, a elwid y Stæni, yn byw mewn rhan o'r wlad wrth odrau yr Alpau; a gwnaethant eu goreu i attal ymdaith eu gelynion. Wrth weled fod y Rhufeiniaid yn drech na hwynt, llosgasant eu tai, a lladdasant eu gwragedd a'u plant; ac yna, bwriasant eu hunain i'r fflamau. Yn ddilynol i hyn, adeiladodd Marcius ddinas Narbonne; yr hon a ddaeth yn brif ddinas y dalaeth. A darfu i'w olynydd, Scaurus, hefyd orchfygu rhai o'r cenhedloedd Galaidd; ac mewn trefn i hyrwyddo y gwaith o anfon milwyr i Gâl o'r Eidal, gwnaeth amryw o ffyrdd rhagorol rhwng y ddwy wlad.

Yn mhen amser, daeth gwell llewyrch ar achos y Galiaid; ac ymddengys iddynt ddyfod ar delerau da gyda'r Rhufeiniaid. O'r diwedd, modd bynag, darfu i'r bobl a elwid yn Helvetiaid achosi rhyfel rhyngddynt a'r Rhufeiniaid; yr hyn a ddygodd y cadfridog enwog Iwl Cæsar dros yr Alpau; a'r hwn a lwyr ddarostyngodd yr holl wlad. Mewn brwydr ofnadwy a fu rhyngddynt, dywedir i gant a deg ar hugain o filoedd o'r Helvetiaid gael eu lladd. Rhoddodd y gweddill eu harfau i lawr; ac erfyniasant am ganiatâd i fyned i ymsefydlu yn mysg y bobl a elwid Edui; o ba rai yr hanasant ar y cyntaf. Caniatäodd Cæsar iddynt eu cais.

Yr oedd gwahanol lwythau y Galiaid mewn anghydfod parhaus â'u gilydd. Cymmerodd Iwl Cæsar fantais lawn ar y cynhenau hyn, trwy amddiffyn y rhai a ormesid, a gwrthwynebu y gormeswyr. Yn y modd yma, daeth yn fath o gylafareddwr awdurdodedig yn eu holl drafodaethau. Yn mysg y rhai a appeliasant ato am gynnorthwy, yr oedd yr Eduiaid: yn erbyn y rhai y darfu i Ariovistus, brenin yr Ellmyniaid, ymuno â'r bobl a elwid Arverni, oedd yn byw ar lanau yr afon Loire. Cymmerodd Ariovistus ran helaeth o wlad y bobl uchod oddi arnynt, a gorfododd hwynt, hefyd, i anfon gwystlon iddo. Ond ymgododd Cæsar yn ei erbyn, gan ei lwyr orchfygu. Diangodd Ariovistus, gydag anhawsder mawr, dros yr afon Rhine; ond cwympodd ei ddwy wraig, a merch, ynghyd â nifer fawr o Ellmyniaid o fri, i ddwylaw y gorchfygwr. Wedi y fuddugoliaeth fawr hon, gorchymynodd Cæsar i'w fyddin wersyllu am y gauaf, tra yr aeth efe ei hun dros fynyddoedd yr Alpau, i wneyd parotoadau ar gyfer ei gâd-ymgyrch nesaf. Yn y cyfamser, dychrynwyd y Galiaid gan fawredd ei lwyddiant, fel y cyttunasant i gyd-ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid fel eu gelyn cyffredin. Anfonwyd rhybudd o hyn yn ddiattreg i Cæsar gan Labienus; yr hwn a adawyd yn Gaul gan Cæsar. Ymadawodd Cæsar o Rufain yn ddioed; ac yn mhen o ddeutu pymtheng niwrnod, yr oedd efe wrth

Digitized by Google

ben ei fyddin, ac yn barod i wrthsefyll pob rhwystrau. Ar ei gyrhaeddiad, darfu i'r bobl a elwid y Rhemi, ymostwng iddo; ond aeth y gweddill, a rifent gant a hanner o filoedd o filwyr, allan i'w erbyn, o dan lywyddiaeth Galba, brenin y Suessoniaid; yr hwn a bennodwyd ganddynt yn gadfridog ar eu holl luoedd. Yr oedd Cæsar eisoes wedi cymmeryd pont Axona, a elwid wedi hyny wrth yr enw Aisne; ac wedi anfon rhan o'i filwyr drosti, i fan manteisiol i ymosod ar y gelyn. Tra yr oeddynt hwy yn y weithred o groesi, rhuthrodd milwyr Cæsar arnynt, gan eu dinystrio mor ofnadwy fel y llanwyd yr afon â'u cyrph :—yn gymmaint felly, meddai yr hanes, fel yr oedd y cyrph yn gwasanaethu fel pont i'r ffoedigion. Bu y frwydr hon yn foddion i ddychrynu y mwyafrif o'r llwythau Galaidd, fel y darfu i'r Suessioniaid, y Bellovaci, yr Ambioniaid, ac eraill, ymostwng iddo. Ond modd bynag, fe safodd y Nervii, yr Atrebates, a'r Veromandui, dros eu rhyddid. Er hyny, gorchfygwyd hwythau o'r diwedd, a syrthiodd y nifer fwyaf o honynt drwy y cleddyf. Ymostyngodd y gweddill, gyda'u gwragedd a'r hynafgwyr; a chaniatawyd iddynt fyw yn eu dinasoedd, fel cynt. Y rhai a orchfygwyd yn nesaf oedd yr Aduatici; a gwerthwyd hanner can mil o honynt hwy fel caethion, am ymddwyn o honynt yn fradwrus tuag at eu gorchfygwyr. Yr ydym yn cael fod Crassus, mab y cadfridog Rhufeinaidd, wedi gorchfygu saith o genhedloedd, neu lwythau, eraill, a chymmeryd meddiant o'u dinasoedd.

Yn y cyfamser, gwnaed parotoadau mawrion ar fôr a thir gan y Venetiaid, neu hen frodorion Vannes yn Llydaw, i ad-ennill eu rhyddid. Yr oedd Cæsar, ar y pryd hwn, yn Illyricum; a gorfodwyd ef i barotoi ei lynges ar yr afon Loire. Wedi rhoddi llywyddiaeth y llynges i Brutus, aeth ei hun yn eu herbyn dros y tir. Ennillodd y ddau fuddugoliaeth; ac wedi rhoi y penaethiaid i'r cleddyf, cafodd y gweddill eu gwerthu fel caethweision. Tua yr un amser, gorchfygwyd yr Unelli, y Lexovii, a'r Aulerci, gan Sabinus, a'r Aquitani, gan Crassus, gyda cholled o ddeng mil ar hugain o wŷr. Yn ganlynol i hyn, o holl dir Gâl, nid oedd ond gwledydd y Moriniaid, a'r Menapiaid i'w goresgyn. Ymdeithiodd Cæsar ei hun i'w herbyn; ond cafodd hwynt wedi ymlochesu mewn caerfeydd mor gedyrn, fel yr ymfoddlonodd ar losgi ac anrheithio eu gwlad. Yna, gwersyllodd ei fyddin dros fisoedd y gauaf; ac aeth Cæsar ei hun eilwaith dros yr Alpau, er cadw gwyliadwriaeth ar rai o'i elynion yn y parthau hyny. Galwyd ef yn ol yn fuan i amddiffyn ei feddiannau yn Gâl, rhag rhai o'r llwythau Ellmynig, gan fod agos i bedwar can mil o honynt â'u bryd ar ymsefydlu yno. Gorchfygwyd hwy yn llwyr ganddo; ac yna, efe a benderfynodd fyned gyda'i fyddin i'r Almaen.

Ar ei ddychweliad i Gâl, cafodd fod y wlad yn dioddef yn enbydus oddi wrth newyn; yr hwn a fu yn foddion i beri i'r bobl godi mewn gwrthryfel. Trwy ei fedr arferol, llwyddodd Cæsar i ddarostwng y cyffroadau hyn; ond collodd gynnifer o'i filwyr fel y bu raid iddo anfon at Pompey am adgyfnerthion; yr hwn a fenthyciodd iddo rai o'i gattrodau ei hun, er ei gynnorthwyo i gadw Gâl yn ei feddiant. Ond nid hir y gallai y Galiaid ddioddef iau orthrymus y tramoriaid. Codasant drachefn mewn gwrthryfel, fel y bu raid i Cæsar ddychwelyd yno. Buan y darfu iddo ddarostwng y Nervii, yr Aduatici, y Menapii, a'r Treviri; ond cafodd fod y teimlad gwrthryfelgar wedi ymledu, bron, i fysg yr holl lwythau Galaidd. Prif gadfridog y gwrthryfelwyr oedd Vercingetorix. Gorfodwyd Cæsar i ymneillduo o Insubria yn nghanol y gauaf, ac i groesi yr Alpau trwy yr eira i dalaeth Narbonne. Yno, efe a gasglodd ynghyd ei fyddin wasgaredig gyda phob brys. Er fod y tywydd yn galed, ac yn anfanteisiol i ryfel, gwarchauodd Cæsar ar ddinas Noviodunum—yn awr Noyons—ac a'i cymmerodd, gan orchfygu Vercingetorix; yr hwn a ddygodd ei fyddin yno, gyda'r amcan o anfon y gelynion ymaith. Y ddinas nesaf a gymmerwyd ganddo oedd Avaricum—a elwir yn awr Bourges; yr hon, y pryd hwnw, oedd yn un o'r dinasoedd cryfaf yn Gâl, a'r hon a feddai warchodlu o ddeugain mil o ddynion. Bu y lladdfa gymmaint fel na ddiangodd o honynt ond wyth gant o wŷr. Tra yr oedd efe, ar ol hyn, yn gwarchau Gergovia, prif ddinas yr Arverni, hysbyswyd ef fod y Nitiobriges, neu'r Agenois, mewn arfau; a bod yr Eduiaid yn anfon deng mil o wŷr i adgyfnerthu Vercingetorix. Wrth glywed y newydd hwn, gorchymynodd Cæsar i Fabius gario yn mlaen y gwarchau, tra y byddai efe yn ymdaith yn erbyn yr Eduiaid. Pan y gwelsant Cæsar yn dynesu, cymmerodd yr Eduiaid arnynt ymostwng iddo, a rhoddodd yntau iddynt faddeuant. Ond yn fuan ar ol hyny, cododd yr holl genedl mewn arfau i'w erbyn, a llofruddiasant yr holl filwyr Italaidd yn eu prif ddinas. Ymdaenodd cwmmwl anobaith, megys, uwch ben achos y Rhufeinwr anturiaethus; ond torodd gwawr eilwaith, a bu raid i Vercingetorix ymostwng iddo. Triniai Cæsar ei holl garcharorion yn greulawn; oddi eithr yr Eduiaid, a'r Arverni, trwy ba rai y gobeithiai efe ennill y cenhedloedd eraill i'w gefnogi. Ni siomwyd ef yn hyn; o herwydd ymostyngasant iddo; a derbyniwyd ef gan yr Eduiaid i'w prif ddinas—lle y treuliodd y gauaf.

Ni ddarfu i lwyddiant Cæsar yn y cadymgyrch a nodwyd wan-galoni y Galiaid. Penderfynasant hwy, yn hytrach, gasglu cymmaint o fyddinoedd ag oedd o dalaethau yn ffurfio eu gwlad, fel y byddai iddynt, drwy hyny, beri chwaneg o flinder i'r Rhufeiniaid. Gorfodwyd Cæsar, a'i gadfridogion Labienus a Fabius, i ryfela â'r rhai hyn, y naill ar ol y llall. Gorchfygasant hwy gyda chryn lwyddiant; a darostyngwyd y llwythau a elwid Bituriges, Carnutes, Rhemi, a Bellovaci—a'u cadfridog Correus, trwy yr hyn y darfu iddo ar unwaith dawelu yr holl dalaethau Belgiaidd a derfynent ar Gâl Geltaidd. Dilynwyd hwythau yn eu hymostyngiad gan y Treviri, yr Eburoniaid, a'r Andes, o dan eu cadfridog Dumnacus. Y lle olaf a ddaliodd allan yn ei erbyn oedd Uxellodunum; yr hwn le a amddiffynwyd gan ddau gadfridog diweddaf y Galiaid; sef, Drapes, y Senoniad; a Luterius, y Cadurcead. Diffyg dwfr, yn benaf, fu yr achos o gwymp y lle hwn. Yma, etto, archodd Cæsar fod llaw ddeheu pob un oedd yn alluog i ddwyn arfau i gael ei thori ymaith.

Dyma y modd y goresgynwyd Gâl, o'r Alpau a'r Pyrenees hyd i'r afon Rhine; ac y gwnaed yr holl wlad yn dalaeth Rufeinig. Dywedir fod Cæsar, yn ystod ei wahanol ymgyrchoedd yn Gâl, wedi cymmeryd wyth gant o ddinasoedd, a gorchfygu tri chant o wahanol lwythau, neu genhedloedd. Dywedir, yn mhellach, iddo orchfygu, trwy ei holl frwydrau, dair miliwn o

Digitized by Google

ddynion; o ba rai y lladdwyd miliwn, ac y cymmerwyd miliwn arall yn garcharorion. Ceir rhagor o hanes y wlad, o amser ei gorchfygiad gan y Rhufeiniaid, yn yr erthygl ar FFRAINGC.

Fel y nodwyd eisoes, rhenid y Galiaid ar y cyntaf i lawer o genedloedd gwahanol; y rhai, yn fynych, fyddent yn ymrafaelio â'u gilydd, yn gystal ag yn cweryla â thrigolion gwledydd eraill. Cyfeiria Cæsar ei hun at y ffaith ddifrifol fod y cwerylon hyn yn mysg y Galiaid eu hunain wedi bod yn gynnorthwy mawr iddo allu eu gorchfygu. Nodweddid hwy gan wroldeb personol, oedd bron y tu hwnt i'r eiddo un genedl arall; ac yr oeddynt hefyd o dymmer hynod ffyrnig a nwydwyllt. Effeithid gymmaint arnynt gan y dymmer hon, ac yn enwedig felly pan y cyfyngid ar eu rhyddid gwladol, fel y byddent yn fynych yn rhoddi terfyn ar eu bywydau, neu yn erfyn am i'w cyfeillion eu lladd, yn hytrach na goddef unrhyw gaethiwed, na gofidiau henaint, na gwaeledd. Pan warchauid arnynt yn eu dinasoedd, a phan ddeallent nad oedd obaith iddynt allu dal allan yn hwy, prin y gwnaent ymdrech i ddyfod i gyttundeb anrhydeddus â'u gelynion. Yn hytrach, rhoddent eu gwragedd a'u plant i farwolaeth; ac yna, lladdent eu gilydd, rhag cael eu dwyn ymaith i gaethiwed. Tystia yr hanesydd Strabo fod eu cariad angerddol at ryddid, a'u difrawder yn wyneb marwolaeth, wedi bod o fantais neillduol i Cæsar i'w gorchfygu.

Un o bleserau hoffaf y Galiaid ydoedd hela. Gorchuddid rhanau ëang o'u gwlad gan goedwigoedd mawrion; yn y rhai y ceid cyflawnder o fwystfilod gwylltion—y rhai yr oedd raid eu dinystrio, rhag gwneuthur o honynt y wlad yn gyfryw nas gellid byw ynddi.

Rhoddwn isod nifer o ffeithiau hanesyddol pwysig eraill yn hanes Gâl, ynghyd â'u dyddiadau, mor gywir ag y mae yn bossibl eu cael yn awr:—

| | C.C. |
|---|---|
| Y Phœniciaid yn sefydlu Massilia (Marseilles) ... ... ... ... | 600 |
| Gorchfygiad y Galiaid gan y Rhufeiniaid yn Sentinum ... ... ... | 295 |
| Y Senoniaid yn gorchfygu y Rhufeiniaid yn Arretium: Dolabella agos yn eu llwyr ddinystrio ... ... ... | 283 |
| Y Galiaid yn goresgyn gogledd Groeg ... | 280 |
| Y Galiaid yn cael eu gorchfygu yn Delphi | 279 |
| Etto, gan Antigonus, brenin Macedon ... | 273 |
| Etto, gyda lladdfa fawr ger Pisa ... | 225 |
| Llwyr orchfygiad yr Insubriaid gan Marcellus, a chwymp eu brenin Viridomarus | 222 |
| Y Galiaid yn cynnorthwyo Hannibal .. | 218 |
| Y Rhufeiniaid yn gorchfygu Galia Cisalpina ... ... ... ... | 220 |
| Etto, yn goresgyn Galia Transalpina gyda gradd o lwyddiant ... ... | 121—58 |
| Y Galiaid yn ymsefydlu yn Aix ... | 123 |
| Etto yn Narbonne ... ... ... | 118 |
| Julius Cæsar yn darostwng y Galiaid mewn amryw gadymgyrchoedd ... | 58—50 |
| Sefydliad Lyons (Lugdunum) ... ... | 41 |
| | **B. A.** |
| Crefydd y Derwyddon yn cael ei chondemnio gan Claudius ... ... | 43 |
| Dyfodiad y Rhufeiniaid, o dan Cæsar, i Brydain y waith gyntaf ... ... | 55 |
| Eu hail ymweliad ... ... ... | 54 |
| Adrian yn ymweled â Gâl, gan gymmeryd plaid y Galiaid ... ... | 120 |
| Dygiad Cristionogaeth i Gâl ... ... | 160 |
| Cristionogion yn cael eu herlid gan eu gelynion ... ... | 177, 202, 257, 286, 288 |
| Y Ffrangcod, ac eraill, yn cael eu gorchfygu gan Aurelian ... ... ... | 241 |
| Etto, gan Probus, yr hwn a'u dysgodd i drin gwinwydd ... ... | 275—280 |
| Maximian yn gorchfygu y Ffrangcod ... | 281 |
| Cystenyn Fawr yn cael ei gyhoeddi yn Ymheradwr Gâl ... ... ... | 306 |
| Julian yn cyrhaedd Gâl, i'w gwaredu, pan yr oedd hi yn cael ei hanrheithio gan farbariaid, &c. ... ... ... | 357 |
| Julian yn cael ei gyhoeddi yn Ymherawdwr Paris ... ... ... | 360 |
| Julian yn marw ... ... ... | 363 |
| Y Galiaid yn cael eu blino gan yr Alemanni ... ... ... | 365—377 |
| Gâl yn cael ei goresgyn gan y Burgundiaid, y Ffrangcod, a'r Visigothiaid, &c., a'u sefydliad hwy ynddi ... | 378—450 |
| Clodion, penaeth y 'Salian Franks,' yn goresgyn Gâl: yn cael ei orchfygu gan Aëtius ... ... ... | 447 |
| Yr Hunsiaid, dan Attila, yn cael eu gorchfygu gan Aëtius, ger Chalons ... | 451 |
| Ægidius, y llywydd Rhufeinaidd, yn cael ei lofruddio... ... ... ... | 464 |
| Childeric yn cymmeryd Paris ... ... | 464 |
| Holl dir Gâl, i'r gorllewin o'r Rhone, yn cael ei drosglwyddo i ddwylaw y Visigothiaid ... ... | 475 |
| Dibeniad ar yr Ymherodraeth Rufeinig yn y Gorllewin, a sefydliad teyrnas y Ffrangcod ... ... ... ... | 476 |

**GALL AB DISGYFEDDAWG.** Yr oedd efe yn dywysog Brythoniaid Deifr a Bryneich, yn ngogledd Prydain, yn y chweched ganrif. Crybwyllir am dano yn y *Trioedd* fel cyflawnydd un o'r 'tair fad-gyflafan,' neu lofruddiaethau canmoladwy; sef, lladd 'dau Ederyn Llychwin Gwendoleu ab Ceidiaw,' y rhai yr oedd iau o aur am danynt, a dwy gelain o'r Cymry a ysynt beunydd ar eu ciniaw, a dwy ar eu cwynos.' Gwel y *Myvyrian Archaiology.*

**GAMBETTA, LEON MICHEL.** Gwleidydd Ffrengig enwog oedd efe. Ganwyd ef Hydref 30ain, 1838. Daeth yn aelod o *far* y cyfreithwyr yn Paris yn 1859. Gwnaeth enw iddo ei hun yn fuan fel un oedd yn coleddu syniadau a golygiadau hynod ryddfrydig; ac yn 1868, daeth i fwy o sylw trwy ei waith yn condemnio mesurau Louis Napoleon. Wedi ei ethol yn seneddwr, protestiodd yn gynnar yn sessiwn 1870 yn erbyn carchariad ei gyfaill Rochefort; ymosododd ar weinyddiaeth Emile Ollivier: a rhag-ddywedodd agoshâd y werin-lywodraeth. Pan roddodd Napoleon III. ei hun i fyny, ar ol brwydr Sedan, cynnygiodd Gambetta eu bod yn gwrthod llywodraeth ymherodrol rhagllaw; ac yr oedd efe yn un o'r rhai a gyhoeddodd y werin-lywodraeth ar Medi 4ydd. Y dydd canlynol, gwnaed ef yn swyddog uchel yn y llywodraeth; ac yn ddioedi, mabwysiadodd fesurau pwysig er gwrthwynebu y Germaniaid, ac amddiffyn Paris. Ond cymmerasant feddiant o'r brif ddinas; a bu raid i Gambetta ddiangc mewn awyren, mewn trefn i ymuno â'i gydweinidogion yn Tours. Tra yno, ac ar ol hyny yn Bordeaux, ymgymmerodd â gweinyddu amgylchiadau cyffredinol ei wlad; ac am o ddeutu pum mis, bu yn ben-rheolwr Ffraingc. Gydag yni, a phenderfyniad oedd yn destyn syndod i'w gyd-weinidogion, galwodd fyddin ar ol byddin i fôd megys, ac anfonodd hwy yn erbyn yr Ellmyniaid; ond ofer fu ei holl waith. Bu rhoddiad 'bradychus' Metz i fyny gan y Macs-

Digitized by Google

lywydd Bazaine yn ddinystr i obeithion Ffraingc am ryddid; ac yr oedd Gambetta yn ystyried y weithred hono yn deyrn-fradwriaeth o'r fath waethaf. Er hyn i gyd, parhaodd i frwydro; ac hyd yn oed pan syrthiodd Paris i ddwylaw y gelynion, mynai ef gael cario yr ymdrech yn mlaen, a bod senedd i gael ei hethol i'r dyben hwnw. Ond methodd a chario ei amcanion allan yn erbyn penderfyniad ei gyd-swyddogion; a'r canlyniad fu, iddo ymddiswyddo, ac ymneillduo am ennyd i Yspaen. Modd bynag, daeth yn fwy poblogaidd nag erioed yn ngolwg y cyhoedd, ac etholwyd ef i'r Gymmanfa Gyffredinol (*National Assembly*) dros ddeg o ranbarthau. Yn Nhachwedd, 1871, cyhoeddodd newyddiadur, dan yr enw *Republique Francaise*, i ddadleu yr egwyddorion a gredai efe.

Dechreuodd yr ail ran o fywyd politicaidd Gambetta ar ol cwymp y Cwmmwd (*Commune*), pan y cydnabyddid ef fel blaenor y Gwerinwyr eithafol. Yn gynnar yn 1872, bu ar daith trwy ddeheubarth Ffraingc, gan ennyn y brwdfrydedd mwyaf yn mysg y boblogaeth trwy ei bresennoldeb a'i areithiau tanllyd. Yn Medi, yr un flwyddyn, tynodd Gambetta allan y rhaglen werinol yn Grenoble. Ymosododd hefyd ar M. Thiers a'r Gymmanfa Gyffredinol; a dadleuodd dros fod eisteddle y llywodraeth yn cael ei symmud o Versailles i Paris. Erbyn hyn, yr oedd wedi ennill sefyllfa uchel yn myd gwleidyddol Ewrop: ac ystyrid ef yr enwocaf o holl arweinwyr y Ffrangcod. Yn Chwefror, 1875, rhoddodd y Gymmanfa Gyffredinol ei phleidlais yn mhlaid gwneyd y wlad yn weriniaeth; a thua dau fis yn ddiweddarach, traddododd Gambetta araeth fythgofiadwy yn Belleville, yn yr hon yr amddiffynodd y Gwerinwyr yn ngwyneb ymosodiadau eu gwrthwynebwyr. Yn Mai, 1877, cododd helynt blin o berthynas i'r cyfansoddiad gwladol, pan y cymmerodd y Duc de Broglie swydd, yn y gobaith o allu adferu y cyfansoddiad brenhinol neu ymherodrol. Bu agos i'r cais hwn arwain i ryfel gartrefol; ond gwarchodwyd rhag y fath alanastra, yn benaf drwy sêl a gweithgarwch Gambetta. Ar ol hyn, gwreiddiodd y ffurf werinaidd o lywodraeth yn ddyfnach yn nheimladau trigolion y wlad; ac felly, cadarnhawyd hi. Pasiwyd cerydd ar y weinyddiaeth gan y ddeddfwrfa, trwy fwyafrif o 363 yn erbyn 158 o bleidleisiau. Yna, bu raid dadgorphori. Gwaeddodd Gambetta:—'Cawsom 363 i'n cario allan, a ni a ddychwelwn gyda 363.' Gwiriwyd ei brophwydoliaeth i'r llythyren; a rhoddwyd terfyn ar y cais i sefydlu brenhiniaeth yno. Ychydig yn ddiweddarach, gwysiwyd Gambetta o flaen y llys gwladol yn Paris, ar y cyhuddiad o ddyweyd rhywbeth na ddylasai am y Maes-lywydd Mc'Mahon, yr hwn oedd yn arlywydd ar y pryd. Dedfrydwyd ef i dri mis o garchariad, ac i dalu swm pennodol fel dirwy. Ni effeithiodd hyn ddim ar ei boblogrwydd; o blegid dau fis yn ddiweddarach, ail etholwyd ef dros Belleville. Daeth y frwydr rhwng y seneddwr a'r arlywydd i derfyniad, trwy i Gambetta ennill buddugoliaeth. Nid aeth Gambetta i garchar chwaith, a bu raid i Mc'Mahon ymddiswyddo. Yna etholwyd M. Grevy yn arlywydd: ond i Gambetta y priodolid y clod o achub y werin-lywodraeth y pryd hwn. Er ei fod ar y pryd y gwleidydd mwyaf dylanwadol yn Ffraingc, ac i raddau pell yn gwneyd a dadwneyd gweinyddiaethau wrth ei ewyllys, efe a wrthododd gymmeryd swydd ei hun. Derbyniodd er hyny y swydd o lywydd y senedd, yr hon a ddaliodd hyd Hydref, 1880. Yn Nhachwedd y flwyddyn hono, ymddiswyddodd llywodraeth M. Ferry, a galwyd ar Gambetta i ffurfio gweinyddiaeth; yn yr hyn, wedi peth anhawsder, y llwyddodd. Gyda gwleidydd mor alluog, ac un yn cario cymmaint o ddylanwad ar gwestiynau gwleidyddol y wlad, nid oedd y weinyddiaeth amgen na gweinyddiaeth un dyn; a bu hyn yn achos i wrthwynebiad gael ei anwesu yn erbyn y prifweinidog newydd. Pan y darfu iddo, yn Ionawr, 1882, ddwyn yn mlaen ei fesur yn mhlaid ad-drefniad y cyfansoddiad, gwrthodwyd ef gan y ddeddfwrfa trwy fwyafrif mawr; ac ymddiswyddodd Gambetta yn uniongyrchol. Ni chymmerodd efe ar ol hyn ond rhan fechan mewn amgylchiadau cyhoeddus.

Ar y 26ain o Dachwedd, fel yr oedd efe yn ymyryd â llawddryll yn ei breswylfod, aeth yr ergyd allan yn ddamweiniol, a threiddiodd y fwled trwy gledr ei law, gan ddyfod allan yn yr arddwrn. Gwellhaodd yr archoll yn ymddangosiadol, a theimlwyd ei fod allan o gyrhaedd perygl. Ond fel arall y bu. Dioddefodd loesion ofnadwy; a bu farw y dydd diweddaf o'r fl. 1882. Bu galar dirfawr ar ei ol trwy holl Ffraingc. A pha ryfedd? O blegid collodd y deyrnas hono un o'i gwladgarwyr penaf, ac un o'i meibion enwocaf.

GARFIELD, JAMES ABRAM. Ugeinfed arlywydd yr Unol Dalaethau oedd efe. Ganwyd ef yn Orange, yn Ohio, Tachwedd 19eg, 1831. Yn lled fuan ar ol hyny, bu ei dad farw, gan adael y weddw i ddwyn i fyny yn ddigymmhorth y pedwar plentyn bychan a adawyd yn amddifaid ganddo. Ymladdodd hi yn ddewrwych yn erbyn tlodi, tra yn byw yn ei chaban unig; ac er dioddef llawer oddi wrth angen, llwyddodd i ddwyn y teulu bach i fyny yn anrhydeddus. Pan yn ddeng mlwydd oed, aeth James allan i weithio ar y ffermydd cyfagos; a throsglwyddai ei ennillion i'w fam, er ei chynnorthwyo hi i gael bwyd a dillad i'r holl deulu. Yn ystod misoedd y gauaf, efe a gymmerai fantais ar ysgol y dosbarth; a thrwy egni a dyfal-barhâd, gwnaeth gynnydd cyflym gyda'i wersi. Bu yn dilyn y cynllun hwn am rai blynyddoedd; sef, gweithio yn yr haf, a dilyn yr ysgolion a'r colegau yn y gauaf. Yn 1856, graddiodd yn Ngholeg Williams, Massachusetts. Yn 1857, pennodwyd ef i fod yn llywydd Coleg Hiram, yn Ohio; ac ar yr un pryd, dechreuodd bregethu, ac efrydu y gyfraith. Etholwyd ef i senedd y dalaeth yn 1859; a phan dorodd y rhyfel allan, derbyniodd lywyddiaeth cattrawd o wirfoddolwyr Ohio. Ennillodd frwydr y Middle Creek ar Ionawr 10fed, 1862; ac o'r dyddiad hwnw, dyrchafwyd ef i fod yn frigadgadfridog. Ond am gyflawni o hono weithred wrolfrydig yn Chickamauga, ar Medi 19eg, 1863, dyrchafwyd ef rîs yn uwch yn y fyddin. Tua yr un adeg, gadawodd y fyddin, er gallu myned yn aelod o'r gyngres. Nid oedd efe etto ond 32ain mlwydd oed; ond cyn bo hir, daeth i gael ei gydnabod yn arweinydd y blaid werinol yn y Tŷ. Yn Ionawr, 1880, etholwyd ef i senedd yr Unol Dalaethau; ac ar y 4ydd o Fawrth, 1881, gosodwyd ef yn nghadair yr arlywydd—y swydd uchaf oll o fewn y Talaethau. Dechreuodd ei yrfa yn y caban coed, yn fachgen tlawd a diamddiffyn, a gorphenodd

Digitized by Google

hi yn breswylydd y Tŷ Gwyn; sef, preswylfod swyddogol arlywyddion y Talaethau. Mae'n sicr y gwnelai efe arlywydd campus; ond ni chafodd efe gyfleusdra i hyny; o blegid ar yr 2il o Orphenaf, yr un flwyddyn, saethwyd ef gan wallgof-ddyn: ac oddi wrth effeithiau yr archoll, bu farw Medi 19eg, 1881.

GARTHWYS HIR. Penaeth oedd yn byw yn y chweched ganrif—ac enw yr hwn a grybwyllir gan Aneurin yn y *Gododin*.

GARWEN. Un o dair cariadwraig Arthur. Y ddwy eraill oeddynt Gwyl ac Indeg. Merch oedd hi i Henyn, tywysog Gŵyr ac Ystrad Towy, yn Neheudir Cymru.

GARWY. Mab Geraint ab Erbyn, oedd yn byw yn y chweched ganrif. Rhestrir ef, gyda dau arall—Gwalchmai ab Gwyar, a Chadair eil Seithin—fel 'tri Marchog Serchogion Llys Arthur.'

GARWYDD, neu GAWRWYD CAINT—oedd benaeth yn byw yn y bummed ganrif, a thad un o dair Gwenhwyfar Arthur. Gwel y *Myvyrian Archaiology*.

GETHIN, ELLEN. Unig ferch boneddwr o'r enw Fychan, o Hergest, neu Herast, yn sir Henffordd, a gwraig i Thomas ab Rosser, o Dretower, or-ŵyr Syr Dafydd Gam. Dywedir iddi ennill y cyfenw Gethin mewn canlyniad i weithred ddialeddol a gyflawnodd hi pan yn eneth ieuangc. Ymddengys fod ei brawd, Dafydd, a hithau, ar ol marwolaeth eu tad, yn byw gyda'u gilydd yn Hergest; tra yr oedd cangen arall o'r teulu yn byw yn Nhalgarth, yn sir Frycheiniog. Yr oedd anghydfod teuluol blin rhwng y ddwy gangen; a'r achos mewn dadl oedd, pa un o'r ddwy gangen oedd yr hynaf, yr anrhydeddusaf, a'r enwocaf—mewn gair, pa un o honynt oedd fwyaf! Penaeth y ddau deulu yr adeg yma oedd dau ddyn ieuangc, o'r enwau Dafydd Fychan o Hergest, a Shôn Hir o Dalgarth. Trwy ddamwain, cyfarfu y ddau ryw ddiwrnod yn y Llinwent, ger Llanbister, yn sir Faesyfed; ac yn naturiol iawn i ddau oedd mewn cymmaint o elyniaeth at eu gilydd, mynasant benderfynu eu cweryl trwy fin y cledd. Wedi ymdrechfa ffyrnig, lladdwyd Dafydd Fychan gan Shôn Hir. Nid oedd ond Ellen yn aros, bellach, i gadw i fyny anrhydedd cangen Talgarth o'r teulu; a phan glywodd hi am y gyflafan, credai ei fod yn ddyledus arni i ddïal gwaed ei brawd. Tyngodd ar hyn, y byddai iddi ei ddïal ar Shôn Hir; ac i'r amcan hwn y cyssegrodd hi y blynyddoedd canlynol. Gosododd ysbïwyr i wylio symmudiadau Shôn; a thrwyddynt hwy, deallodd ei fod un diwrnod yn myned i ymryson saethu targed i Landdewi, yn Maesyfed. Ymwisgodd Ellen mewn diwyg dyn, gyda chleddyf ar ei chlûn, a phluen ar ei phen, yn ol dull yr amseroedd hyny. Pan gyrhaeddodd i faes yr ymdrechfa, yr oedd y saethyddion eisoes wedi ymgasglu yno, a Shôn Hir wedi ei gyhoeddi yn saethwr, ac yn feistr ar bawb arall yn y gelfyddyd hono. Nid cynt y clywodd y fenyw ddialeddol am hyn nag yr heriodd hi y goreu ar y maes. Derbyniwyd yr hèr gan Shôn; a chyda'i feistrolaeth arferol, planodd ei fŵa yn nghanol llygad y tarw (*bull's eye*). 'Dyna!' ebe fe, gan ymffrostio yn ei gamp, 'Cura hona, os gelli!' 'Mi a ymdrechaf wneyd hyny,' oedd yr atteb. Gosododd y saeth ar ganol ei bŵa, annelodd gyda gofal at y nôd; a thra yr oedd pob llygad yn sylldremu ar hwnw, hi a drodd yn annisgwyliadwy, ac â llaw gadarn, hi a ollyngodd y saeth i fynwes lleiddiad ei brawd. Cyn bod neb wedi deall ystyr y weithred, yr oedd Ellen ar gefn ei march yn myned ymaith, ac yn mwynhau ei buddugoliaeth ofnadwy. O hyn allan, adwaenid hi wrth yr enw 'Ellen Gethin.' Prin y rhaid dyweyd na chollfarnwyd y chwaer am y weithred hon.

Yn ddilynol, hi a briododd Thomas ab Rosser, ail fab Syr Rosser neu Roger Fychan, o Dretower, Brycheiniog; a ganwyd iddi dri mab—Watcin, Risiart, ac Ales; ac un ferch, a elwid Rosser.

GLAN PADARN. Bardd ieuangc awenber oedd efe, ac yn byw yn ardal Llanberis, wrth odrau yr Elidir. Fel pawb eraill, o'r bron, o fechgyn yr ardal, chwarelwr oedd efe wrth ei alwedigaeth. Nis gellir, mewn unrhyw fodd, ei ystyried yn fardd mawr; ond yr oedd ei holl ganeuon yn brydferth a dymunol—yn llawn o deimlad, ac yn rhai byw iawn, fel rheol. Pan nad oedd dros bymtheng mlwydd oed, anfonodd ddarnau barddonol o'i waith i'r *Greal*, a'r *Athraw*. Cyfansoddwyd cerddoriaeth ar amryw o'i ganeuon, a chenid hwy gyda hwyl yn ei ardal enedigol. Yr oedd Glan Padarn yn un o'r dynion mwyaf gwylaidd yn y fro; a mawr hoffid ef gan bawb o'i gydnabod. Bu farw yn anterth ei ddydd—yn ŵr llawn deugain mlwydd oed.

GLEWLWYD GAFAELGAR:—un o'r tri gŵr a lwyddasant i ddiangc o Gad Gamlan. Y ddau eraill oeddynt Sandde Bryd Angel, a Morfran ab Tegid.

GLYNN, PARCH. WILLIAM, D.D. Prelad enwog oedd efe, a anwyd yn y Glyn, yn mhlwyf Hen Eglwys, yn sir Fôn—yn yr hwn blwyf yr oedd ei dad yn beriglor. Derbyniodd ei addysg yn Nghaergrawnt, lle y gwnaed ef yn athraw yn Ngholeg y Frenhines. Pennodwyd ef i fywoliaeth St. Martin's-le-Grand, yn 1549, a daliodd hi am dair blynedd. Yn 1554, dilynodd ei dad yn mywoliaeth Hen Eglwys; a'r flwyddyn ganlynol, gwnaed ef yn Esgob Bangor gan y frenhines Mari. Yr oedd efe yn Babydd selog; ac ymddengys iddo amddifadu amryw o glerigwyr ei esgobaeth o'u bywoliaethau oedd yn wrthwynebol i'r grefydd hono. Yr oedd efe yn un o'r esgobion fu yn dadleu â'r Esgob Ridley yn Rhydychain, yn y fl. 1554. Yn ei *Worthies of Wales*, dywed Fuller 'ei fod yn ysgolhaig rhagorol; ac yn yr ymrysonfeydd a gymmerasant le rhwng y Pabyddion a'r Protestaniaid, nid oedd neb yn y blaid flaenaf a arferai resymau cadarnach nag efe. Er ei fod fel hyn yn selog a ffyddlawn i'w ddaliadau Pabaidd, nid oedd efe yn greulawn, yn ol syniadau yr oes hono, at y rhai oedd yn barnu yn wahanol iddo. Un prawf o hyn ydyw, na bu erledigaeth gyhoeddus ar y Protestaniaid yn ei esgobaeth ef, fel y bu mewn esgobaethau eraill. Dywed Syr John Wynn, o Wydr, ei fod yn Hebrëwr galluog, ac yn ddyn da a chrefyddol, yn ol syniadau yr oes hono. Bu farw Mai 21ain, 1558, a chladdwyd ei weddillion yn Eglwys Gadeiriol Bangor.

Digitized by Google

GOGYRFAN GAWR: tad Gwenhwyfar, un o dair gwraig Arthur, oedd yn benaeth ar ran o Bowys yn y chweched ganrif. 'Caer Ogyrfan' ydoedd yr enw a roddwyd gynt ar 'Old Oswestry,' neu hen dref Croesoswallt.

GORDON, CHARLES GEORGE. Milwr Prydeinig enwog oedd efe, a anwyd yn Woolwich, ar Ionawr 28ain, 1833. Pedwerydd mab oedd efe i'r Cadfridog Gordon, o gattrawd y Cyflegrwyr Brenhinol, o'i wraig Elizabeth Enderby. Yn 1847, derbyniwyd ef i'r Athrofa Filwrol yn Woolwich; ac yn 1852, ymunodd â chattrawd y Peiriannwyr Brenhinol. Gyda'r gattrawd hon, cymmerodd ran yn rhyfel y Crimea; ac yr oedd yn bresennol yn yr amgloddfeydd o flaen Sebastopol o Ionawr, 1855, hyd derfyniad y gwarchae fu ar y dref hono. Anafwyd ef unwaith yn ystod y gwarchae hwn. Cymmerodd ran yn ninystr dociau a chaerfa Sebastopol. Ar ol hyn, galwyd am ei wasanaeth i wneuthur yr archwiliadau ar y ffindir newydd rhwng Twrci a Rwssia yn Ewrop ac Asia. Yn 1860, aeth i China, a chafodd ran yn nghymmeriad Pekin, ac yn ninystr y Palas Haf enwog ger llaw y ddinas hono. Yn mhen tair blynedd—sef, yn 1863—pennodwyd ef yn llywydd byddin o Chinëaid; gyda pha rai y bu y flwyddyn hono, a'r un ddilynol, yn ymladd yn mron yn ddi-baid â llwythau gelyniaethus yn nhalaethau Che-Kiang a Chiang-Sû. Bu y gwrhydri a gyflawnodd yn y rhyfelgyrch hwn, a hyny gyda mor ychydig o draul, yn foddion i ennill iddo y cymmeriad o fod yn un o filwyr galluocaf ei oes. Yn 1865, dychwelodd i Loegr; a bu am tua chwe blynedd yn cyflawni ei ddyledswyddau cyffredin fel swyddog milwraidd yn Gravesend. Yn ystod ei oriau hamddenol, ymwelai yn fynych â'r tlodion a'r anghenus, y cleifion a'r adfydus, gan estyn ymwared iddynt yn ol fel y caniatäai ei amgylchiadau ar y pryd. Gwnaeth lawer yn y ffordd o ddilladu, ac addysgu, a gwellhau sefyllfa plant bychain a diamddiffyn y dref; a thrwy hyn, gwnaeth enw iddo ei hun fel dyngarwr, yn gystal ag fel milwr. Yn 1872, aeth oddi yno i Bulgaria, lle yr arosodd am yn agos i ddwy flynedd, fel dirprwywr ar yr afon Danube.

Yn nechreu 1873, derbyniodd bennodiad yn ngwasanaeth Ismail, Khedive yr Aipht; yr hyn a fu yn ddechreuad cyfnod pwysicaf ei fywyd. Yn y Soudan—gwlad ddiffaith ar dueddau yr Aipht—ymgymmerodd â chario yn mlaen y gwaith a ddechreuwyd ddwy flynedd yn flaenorol gan Syr Samuel Baker; sef, agor a dadblygu adnoddau y parthau ëang hyny sydd yn gorwedd ar y Nilus yn nghymmydogaeth y cyhydedd, ynghyd â'r llynau anferthol a ddarganfyddwyd gan archwilwyr blaenorol. Arosodd yn yr ardaloedd poeth ac afiachus hyn am dair blynedd; gan oresgyn bron bob anhawsder a gyfodai i'w gyfarfod. Sefydlwyd nifer o orsafoedd gyda glanau y Nilus: cludwyd agerlongau o'r Aipht yn ddarnau; a chyda y rhai hyn, wedi eu gosod ynghyd, llwyddwyd i fordwyo Llyn Albert Nyanza yn llwyddiannus. Ond tra yn cyflawni y gorchwylion anhygoel hyn i foddlonrwydd ei lywodraeth, yr oedd un amcan mawr arall yn symbylu ei feddwl ef. Gwyddai yn dda fod y gaethfasnach yn blodeuo i raddau anghyffredin yn y Soudan, ac fod y fasnach a wneid mewn dynion wedi ei dwyn i raddau helaeth o bertfeithrwydd yno. Gosododd ei fryd ar ei diddymu; ond gan ei fod yn deall nas gallai lwyddo yn ei amcan os nad estynid terfynau ei awdurdod dros Kordofan a Dar-Für—y rhanbarthau gwastad-lyfn ac ëang a orweddent i'r gorllewin o bant yr afon Nilus—efe a ddychwelodd i'r Aipht, ac yna i Loegr.

Yn Ionawr, 1877, aeth allan drachefn; a phennodwyd ef gan y Khedive yn llywodraethwr ar yr holl Soudan, gydag awdurdod di-derfyn, bron, ar diriogaeth oedd i'w mesur wrth y cannoedd o filoedd o filldiroedd. Ymroddodd yntau i gyflawni ei ddyledswyddau gydag yni a phenderfyniad di-ildio. Teithiodd yma ac acw yn mhob cyfeiriad dros wyneb y diffaeth-dir ofnadwy, a hyny yn benaf gyda'r amcan o settlo cwerylon y llwythau gelyniaethus, neu i ymosod gyda dyrnaid o filwyr ar y giwed hyny a ennillent eu bywoliaeth fall trwy ddwyn personau ymaith yn gaethion. Dywed ei fywgraphwyr y byddai efe fel pe yn byw am fisoedd yn olynol ar gefn ei gamel, ac nas gallai nifer ei elynion, na phoethder annioddefol yr haul, attal dim ar ei yni a'i benderfyniad. Trwy ymdrechion canmoladwy—ymdrechion oedd yn golygu bywyd o hunan-aberthiad—llwyddodd i sicrhau llywodraeth ar y diriogaeth oedd dan ei awdurdod. Llwyddodd i sicrhau hefyd ufudd-dod y gelynion, ac i beri i'r llwythau anwaraidd deimlo oddi wrth effeithiau y cyfuniad hapus oedd yn ffrwyth cyfraith a threfn. Terfynwyd hyn yn 1880. Yna ymddiswyddodd Gordon; o blegid gwelodd nad oedd iddo ran mewn cyssylltiad â chyfundrefn newydd oedd bellach mewn grym yn Cairo—prif ddinas yr Aipht, ac eisteddle y llywodraeth. Ar ol ei ddychweliad o'r Soudan, dechreuodd pethau waethygu, a gwaethygu a ddarfu iddynt nes y daeth sefyllfa pethau yn annioddefol. Yna, talodd y cadfridog dewr ymweliad â'r dwyrain; ac wedi dychwelyd, aeth i'r Iwerddon, lle y gweinyddodd ar y cleifion a'r trallodus yno yn y rhanbarthau a deimlent fwyaf oddi wrth effeithiau y newyn ofnadwy a ffynai y pryd hwnw yn yr ynys. Wedi hyny, bu yn y Mauritius, yn gwasanaethu fel swyddog milwraidd. Oddi yno, aeth i Benrhyn Gobaith Da; a dychwelodd i Loegr yn 1882. Treuliwyd yn mron yr oll o'r flwyddyn ddilynol ganddo yn Ngwlad Canaan, mewn tawelwch a hapusrwydd.

Yn gynnar yn y flwyddyn 1884, derbyniodd alwad oddi wrth lywodraeth Prydain am ei wasanaeth unwaith yn rhagor i fyned i'r Soudan—gan fod amgylchiadau y wlad bellach mewn sefyllfa hynod o anfoddhaol. Yr oedd y Moslemiaid wedi codi yn erbyn llywodraeth yr Aipht, ac wedi gorchfygu ei byddin, a gwanychu ei chaerfeydd, trwy dori y cyssylltiad ag oedd rhyngddynt a'r gweddill. Aeth Gordon allan gyda phob brys; ac yn mhen tua mis wedi iddo gyrhaedd Khartoum, cafodd fod y dref hono wedi ei meddiannu gan Arabiaid hanner gwâr y Mahdi—blaenor y chwyldroad. Daeth yr awdurdodau i sylweddoli fod y perygl mwyaf yn bygwth y cadfridog dewr-galon; a thra yr oedd efe yn y perygl hwn, y mae yn debyg na chafodd un dyn erioed, mewn unrhyw wlad, gymmaint o sylw ag a gafodd efe. Yn y cyfwng difrifol, edrychai holl deyrnasoedd Ewrop, megys, i gyfeiriad Khartoum; ac am wythnosau lawer, disgwyliwyd yn bryderus am bob llinell o newydd a roddai oleuni ar y sefyllfa yr oedd efe ynddi. Yr oedd y dref yn parhau i ddal allan yn benderfynol yn erbyn y

Digitized by Google

gelyn; yr hwn, bellach, oedd wedi ei hamgylchynu ar bob llaw. Wedi i'r gwarchau barhau am o leiaf bum mis, trefnwyd yn Lloegr i anfon milwyr allan i waredu y dref, a'r rhai oedd ynddi. Dechreuasant esgyn y Nilus yn mis Medi; ac erbyn diwedd mis Ionawr, 1885, cyrhaeddodd y flaen-fyddin i gymmydogaeth y dref warchauedig. Ond erbyn hyn, yr oedd hi yn rhy ddiweddar! o blegid cymmerwyd y lle gan lu y Mahdi ddau ddiwrnod cyn iddynt gyrhaedd. Cwympodd Gordon; ond nid oedd dim o bwys a berthynai iddo wedi ei adael, ond yn unig ei ddyddiadur—oddi wrth yr hwn y ceir iddo ymladd yr achos allan hyd y diwedd, gyda phenderfyniad a dewrder nad oes dim mwy anrhydeddus i filwr i'w gael ar ddalenau hanesyddiaeth unrhyw wlad.

GRANT, ULYSSES SIMPSON. Deunawfed Arlywydd Unol Dalaethau America oedd efe. Ganwyd ef yn Point Pleasant, yn sir Clermont, yn Nhalaeth Ohio, ar Ebrill 27ain, 1822. Ysgotiaid oedd ei hynafiaid; ond yr oedd y teulu wedi eu gwneyd yn ddeiliaid o'r Weriniaeth er's amryw genedlaethau. Efe oedd yr hynaf o chwech o blant a feddai Jesse R. Grant a Hannah, ei wraig. Yn yr hâf, arferai gynnorthwyo ei dad gyda gwaith y fferm; ac yn y gauaf, cymmerai fantais ar ysgol y pentref. Wedi ymuno â'r fyddin, cymmerodd ran yn mrwydrau Palo Alto, a Resaca de la Palma; ac yr oedd hefyd yn bresennol pan gymmerwyd Monterey. Cymmerodd Grant ran flaenllaw hefyd yn yr holl frwydrau a ddigwyddasant yn ystod cadymgyrch y Cadfridog Wingfield Scott. Yn 1854, rhoddodd i fyny ei gadbeniaeth yn y fyddin, ac ymsefydlodd ar fferm ger St. Louis, yn Missouri.

Pan dorodd y rhyfel Americanaidd allan, yn Ebrill, 1861, yr oedd Grant yn byw yn Galena, yn Illinois. Cynnygiodd ei wasanaeth i'r llywodraeth; ac yn Mehefin, pennodwyd ef yn filwriad ar gattrawd o wŷr traed, gyda'r hon yr anfonwyd ef i Missouri. Yn Awst, dyrchafwyd ef i fod yn îs-gadfridog ar y gwirfoddolwyr; ac yn Nhachwedd, ymladdodd frwydr Belmont. Yn mis Chwefror, 1862, cymmerwyd Fort Henry ganddo; ac yn fuan ar ol hyny, cwympodd Fort Donelson i'w ddwylaw hefyd, gyda 14,623 o garcharorion. Dyrchafwyd y cadfridog rîs yn uwch drachefn am y buddugoliaethau hyn. Yn Ebrill, ymladdodd frwydr arall yn Shiloh; yr hon a barhaodd am ddau ddiwrnod; ac yn yr hon y lladdwyd y Cadfridog A. S. Johnson. Ar y 30ain o Ebrill, 1863, croesodd Grant yr afon Mississippi. Gorchfygodd ei wrthwynebwyr yn Port Gibson a Champion Hill, gan eu hymlid y tu ol i'w hamddiffynfeydd yn Vicksburg:—yr hwn le a warchauwyd ganddo. Wedi gwrthsefyll aml i ymosodiad penderfynol, rhoddodd y gaerfa ei hun i fyny ar Gorphenaf 4ydd, 1863, gyda 31,600 o garcharorion, a 172 o fagnelau. Drwy hyn, agorwyd y Mississippi, o'i tharddiad hyd y môr. Y lle nesaf yr anfonwyd y Cadfridog Grant iddo oedd Chattanooga, lle y cymmerodd ymladdfa ffyrnig le. Gorchfygwyd y gelynion ganddo yno hefyd, ac ymlidiodd hwy y tu hwnt i Tennessee. Ar ol hyn, dyrchafwyd ef i lywyddiaeth holl fyddin y Talaethau, gyda'i bencadlys ynglŷn âg adran y Potomac o'r fyddin. Gyda'r adran hon, ymdeithiodd yn mlaen yn erbyn tref Richmond. Ar yr ymdaith hon, daeth i wrthdarawiad â byddin y Cadfridog R. E. Lee; ac yno cymmerodd un o'r brwydrau ffyrnicaf y mae hanes am danynt le rhyngddynt. Parhaodd hon am dri diwrnod. Bu brwydro caled ar ol hyn; ac nid heb golli llawer o fywydau y llwyddodd efe i yru y gelynion o fewn amddiffynfeydd Richmond. Wedi eu cael hwy yno unwaith, cadwodd y fath wyliadwriaeth ar y dref fel nas gallai y gelynion wingo. Cynnorthwywyd ef yn hyn gan ei îs-gadfridogion Sherman, Sheridan, a Thomas. Ar y 29ain o Fawrth, 1865, dechreuwyd brwydr a barhaodd am wythnos gyfan, sef brwydr Richmond; ac ar ei diwedd, rhoddodd Lee—cadfridog byddin y Deheu—ei achos i fyny. Bu ei chwymp, ar ol hyn, yn foddion i ddwyn y rhyfel i derfyniad. Yr oedd y rhan a gymmerodd y Cadfridog Grant yn y rhyfelgyrch bythgofiadwy hwn, yn profi y tu hwnt i ammheuaeth ei fod yn un o filwyr dewraf a galluocaf y ganrif. Ac y mae yr un mor amlwg fod y Cadfridog Lee yn un o'r cadfridogion galluocaf hefyd.

Yn mis Tachwedd, 1868, etholwyd ef yn Arlywydd y Talaethau Unedig. Ail etholwyd ef hefyd yn Nhachwedd, 1872; a bu felly yn llanw y swydd oruchel a phwysig hon am ysbaid wyth mlynedd. Yn ystod tymmor ei swyddogaeth, cariwyd amryw o ddiwygiadau pwysig trwy y senedd; ac yn mysg eraill, penderfynwyd yr holl helynt a godwyd ynglŷn â difrod yr *Alabama*. Wedi ymneillduo o'r arlywyddiaeth, treuliodd ddwy flynedd yn teithio mewn gwledydd tramor, gan dderbyn sylw a pharch oddi ar law penau coronog y gwledydd yr ymwelai efe â hwynt. Tra yn byw mewn neillduedd, soddodd y cadfridog ei holl gyfoeth mewn ariandy; a thrwy anonestrwydd rhai o swyddogion y cyfryw, collodd y cwbl a feddai. Yn flaenorol i hyn, yr oedd efe wedi gwrthod pob cynnyg, gan nad pa mor haelfrydig, i ysgrifenu hanes ei yrfa filwraidd; ond yn awr, pan yr oedd tlodi yn ei wynebu ef a'i deulu, dechreuodd ar y gorchwyl. Derbyniodd ei weddw dros bum can mil o ddoleri oddi wrtho. Cyfansoddwyd y gwaith o dan yr anhawsderau mwyaf; gan fod yr awdwr, bron yn ystod yr holl amser a gymmerodd efe gyda'r gorchwyl, yn dioddef oddi wrth afiechyd blin. Bu farw ar Gorphenaf 23ain, 1885, yn mhen pedwar diwrnod ar ol iddo gwbl orphen hanes ei fywyd. Y mae amryw fywgraphiadau wedi eu hysgrifenu o hono.

GRAY, THOMAS:—un o'r rhai enwocaf yn mhlith y beirdd Saesnig; ac un y mae ei gyfansoddiadau yn parhau mewn bri hyd y dydd heddyw. Ganwyd ef yn Cornhill, yn Llundain, Rhagfyr 26ain, 1716. Yr oedd ei dad, Philip Gray, yn meddu ar y fath dymmer afrywiog, fel y bu raid i'w fam ymwahanu oddi wrtho; ac yn benaf, trwy ei hymdrechion hi y cafodd y bardd ei addysg yn Eton a Chaergrawnt. Yn y fl. 1742, ymddengys iddo ddechreu ysgrifenu barddoniaeth; o blegid yn Hydref, y flwyddyn hono, yr ymddangosodd ei Gân ar Goleg Eton (*Ode on Eton College*). Bernir hefyd mai tua'r adeg yma y dechreuodd efe gyfansoddi ei *Elegy*—marwnad alluog ac adnabyddus Yn y gauaf canlynol, aeth yn ol i Goleg Peterhouse; lle y graddiodd yn y gyfraith wladol, ac y gwnaeth ei drigfa am ysbaid. Am y pedair neu y pum mlynedd dilynol, treuliodd lawer o'i amser i efrydu llenyddiaeth Groeg. Yn hâf, 1747, argraphwyd ei gân enwog—*Ode on a Distant Prospect of Eton College*. Yn fuan wedi hyny,

Digitized by Google

gorphenodd ei *Elegy*; yr hon a argraphwyd yn nechreu 1751. Mae'n debyg nad oedd un gerdd Saesnig arall mor adnabyddus a hon; ac fe allai nad oes un o gwbl a ddeil gymmhariaeth â hi o ran perffeithrwydd mydr, ac arucheledd ei syniadau.

Yr oedd Gray yn gyfaill calon i Horace Walpole—mab y prifweinidog enwog o'r un enw. Tystiai efe fod Gray, mewn ystyr barddonol, yn ei ddyddiau goreu rhwng 1750—55; ac mai yn y cyfnod hwn y dechreuodd efe gyfansoddi ei ganeuon mwyaf uchelgeisiol; sef, y Caneuon Pindaraidd (*Pindaric Odes*); *Progress of Poesy; The Bard*, &c. Un o wendidau naturiol y bardd oedd ei ofnau parhaus rhag tân; a than ddylanwad yr ofn yma, gosododd ysgol rawn i grogi wrth ei ffenestr yn Ngholeg Peterhouse. Un noswaith yn Chwefror, 1756, deffrowyd ef gan rybuddion ei gyfeillion; y rhai a roddasant ar ddeall iddo fod tân wedi tori allan yn agos iddo. Disgynodd yntau i lawr yr ysgol heb ymwisgo; a chwympodd i lonaid cawg o ddwfr a osodwyd yn y gwaelod gan y rhai a wnaethant y 'cast' hwn âg ef. Ni theimlodd awdurdodau y coleg yn angenrheidiol cospi y bechgyn am eu direidi; ond am hyn, digiodd Gray gymmaint wrthynt, fel y gwnaeth ei gartref o hyny allan yn Ngholeg Pembroke Hall—lle yr arosodd am y pymtheng mlynedd diweddaf o'i oes. Cydnabyddwyd ef, erbyn hyn, yn un o oreuon, os nad y goreu oll, o'r beirdd Saesnig. Ar farwolaeth Colley Cibber yn 1757, cynnygiwyd iddo yr anrhydedd o gael ei bennodi yn fardd llawryfol; ond gwrthododd yr anrhydedd. Cyhoeddodd ddwy gân eraill—*The Fatal Sisters*, a *Descent of Odin*. Pennodwyd ef i gadair hanesyddiaeth a'r ieithoedd diweddar yn Mhrifysgol Caergrawnt, gyda chyflog o 400*p*. yn y flwyddyn; er nad oedd gorchwylion y swydd hon, y pryd hyny, ond ysgeifn. Bu farw Gorphenaf 30ain, 1771; a chladdwyd ef wrth ochr ei fam, yn nghladdfa Stoke Poges.

GRAY, THOMAS. Brodor o Dreforis, ger Abertawe, oedd efe. Yn moreu ei oes, glöwr oedd, wrth ei alwedigaeth. Yr oedd yn ddyn ieuangc hynod o anystyriol ac annuwiol; ond cymmerodd amgylchiad hynod le, a ddygodd argyhoeddiad iddo. Anfonwyd ef, un diwrnod, i Gastellnedd, ar neges i'w feistr. Tra yr oedd ymaith, cymmerodd damwain ddifrifol le yn y lofa, drwy yr hon y lladdwyd amryw o'i gydweithwyr yn y fan. Wrth ddychwelyd o'i neges, ac heb wybod am yr hyn a ddigwyddodd yn y pwll, gwelodd ddyn meddw yn cysgu ar ochr y ffordd. Wedi ei ddeffro, gwaeddodd y meddwyn, 'Twm Gray! ai tydi sydd yma? Yr oeddwn yn meddwl dy fod yn uffern er wyth o'r gloch y boreu; canys y mae dy gwmpeini wedi myned yno oll er y pryd hyny.' Bu hyn yn achos i beri iddo feddwl yn ddifrifol am ei ddiwedd; ac felly y cafodd efe olwg glir ar y perygl yr oedd ynddo. Ymunodd âg eglwys y Mynydd Bach, ger Abertawe, lle y gwelwyd ei fod yn feddiannol ar gymmhwysderau arbenig i wneuthur pregethwr. Yna, anfonwyd ef i Athrofa y Fenni, i dderbyn ychydig o addysg. Wedi gorphen ei gwrs athrofäol, ymgymmerodd â bugeiliaeth eglwysi Llwyn-y-piod ac Abermeurig—y rhai, yn ddiweddarach, a ddygwyd i gyssylltiad â chyfundeb y Methodistiaid Calvinaidd. Yn ystod ei weinidogaeth yn y lleoedd uchod, sefydlodd Mr. Gray eglwysi yn y Ceinewydd, a Llanarth, Ffos-y-ffin, a Llanddewi Aberarth; i ba rai y parhaodd i weinidogaethu tra fu byw. Yn ystod ei weinidogaeth ef, dylid dyweyd fod yr eglwysi hyn yn cadw at drefn yr Annibynwyr yn ngweinyddiad y cymmun, a dysgyblaeth eglwysig; ond ar ei farwolaeth ef, dilynasant drefniadau y Trefnyddion Calvinaidd. Wedi llafur gweinidogaethol a barhaodd am hanner canrif, bu Mr. Gray farw yn y flwyddyn 1810.

GREGORY, HENRY. Gweinidog duwiol, a gwir ragorol, gyda'r Bedyddwyr yn y Cwm, yn mhlwyf Llanddewi-Ystrodeni, sir Faesyfed, yn amser yr erledigaeth ofnadwy a fu yn ystod teyrnasiad Siarl ac Iago—rhwng 1660 a 1700. Dechreuodd bregethu cyn bod yn llawn ugain oed; a dechreuodd fugeilio y crefyddwyr oedd yn ymgynnull mewn annedd-dai yn y gymmydogaeth yr oedd efe yn byw ynddi. Ymddengys nad arferai efe fyned i'r eglwysi plwyfol, ac nas gellid, gan hyny, ei gyfrif yn mysg y 'ddwy fil' a fwriwyd allan o'r Eglwys. Yr oedd efe, er hyny, yn meddu cyssylltiad agos â'r rhai hyny; a dioddefodd lawer oddi wrth yr anghysuron a ddilynafant. Erlidiwyd ef yn ddiarbed gan giwaid creulawn a osodid ar waith yn erbyn y crefyddwyr yr adeg hono; ond cafodd fyw i weled amryw o'i boenydwyr yn cael eu symmud ymaith; a rhai o honynt, yn ol pob tebyg, dan law farnol Duw. O dan y *Conventicle Act*, a basiwyd yn 1664, yr oedd pob pump a ddelid ynghyd yn addoli Duw yn agored i ddirwy o 5*p*. yr un y waith gyntaf y delid hwy, neu dri mis o garchar; yr ail waith i 10*p*., neu chwe mis o garchar; a'r drydedd waith i 100*p*. yr un, neu saith mlynedd o alltudiaeth! Penderfynid pob achos o'r natur yma bron yn gyfangwbl ar lŵ y cyhuddwr—yr hwn oedd i dderbyn un ran o dair o'r ddirwy yn wobr am ei waith. Dyma'r ddeddf ofnadwy a melldigedig oedd mewn grym yn nyddiau Henry Gregory; oddi tan yr hon y dioddefodd efe. Bu farw yn y fl. 1700, yn 63ain ml. oed, wedi treulio deugain mlynedd yn y weinidogaeth.

GREY, IARLL CHARLES. Gwleidydd enwog oedd efe, a anwyd Mawrth 15fed, 1764. Pan ddaeth i'w oed, etholwyd ef yn aelod seneddol dros Northumberland, fel Rhyddfrydwr cymmedrol; ac yn ddilynol, efe a gafodd arweinyddiaeth plaid y Whigiaid yn y Tŷ. Yr oedd yn ddyn o syniadau ëangfrydig ar brif destynau y dydd. Gwnai ei oreu dros bob diwygiadau y teimlai efe oedd yn wir angenrheidiol; ac yr oedd yn hynod wrthwynebol i'r undeb rhwng Lloegr a'r Iwerddon. Yn ngweinyddiaeth Fox-Grenville, yn y fl. 1806, pennodwyd ef yn brif-arglwydd y morlys; ac ar farwolaeth Mr. Fox, daeth yn ysgrifenydd tramor, ac yn arweinydd Tŷ y Cyffredin. Efe oedd y gwleidydd a lwyddodd i gario trwy'r senedd y mesur a gyflwynwyd gan Wilberforce, yn 1807, yn ffafr diddymiad y gaethfasnach yn Affrica. Yn 1807, dilynodd ei dad fel ail Iarll Grey; ac wedi marwolaeth Perceval, bu yn arweinydd yr wrthblaid am ddeunaw mlynedd. Pan gwympodd gweinyddiaeth Wellington, yn 1830, derbyniodd Grey orchymyn oddi wrth Gwilym IV. i ffurfio gweinyddiaeth. Gwnaeth hyny, gan ymgymmeryd ei hunan â'r brif swydd—gyda'r swydd o brif arglwydd y trysorlys hefyd. Cyhoeddodd o'i sedd yn Nhŷ yr Arglwyddi mai amcan ei weinyddiaeth oedd ceisio parhau heddwch, dwyn o amgylch gynnildeb yn y treuliau gwladol, a

Digitized by Google

gwneyd pob ymdrech dichonadwy i gario allan fesurau diwygiadol er lles y deyrnas yn gyffredinol. Dygwyd y mesur diwygiadol cyntaf yn mlaen yn 1831; ond arweiniodd gwrthodiad y cyfryw i ddadgorphoriad y Tŷ. Yn yr etholiad cyffredinol a ddilynodd, dychwelwyd mwyafrif mawr o aelodau oedd yn ffafriol i gario allan ddiwygiadau oedd yn fwy eithafol na'r uchod. Cafodd ail fesur ei gario yn Nhŷ y Cyffredin; ond taflwyd ef allan gan yr Arglwyddi—yr hyn a arweiniodd i gythrwfl a helynt mawr yn y wlad. Yna, yn gynnar yn 1832, cariwyd trydydd mesur yn Nhŷ y Cyffredin, trwy fwyafrif boddhaol; ac aeth hwn trwy ei ail ddarlleniad yn y Tŷ uchaf. Cyn iddo ddyfod yn ddeddf, modd bynag, ymddiswyddodd y weinyddiaeth. Pan fethodd y Duc o Wellington ffurfio gweinyddiaeth, dychwelodd Grey i swydd, gydag awdurdod y goron i greu digon o arglwyddi i gario y mesur trwy Dŷ yr Arglwyddi. Ac ar y 4ydd o Fehefin, cariwyd y mesur yn fuddugoliaethus drwy y tŷ hwnw. Cafodd Grey ei hun yn benaeth plaid gref yn y senedd ddiwygiadol gyntaf; ond nid oedd efe i fod yn hir yn y safle anrhydeddus hono. Cariodd un ddeddf bwysig arall; sef, Deddf i ddiddymu y Gaethfasnach yn y Trefedigaethau; ond o blegid gwahaniaeth barn yn mysg aelodau y weinyddiaeth, a'r anhawsderau a ffynent o berthynas i'r cwestiwn Gwyddelig, efe a ymddiswyddodd yn Gorph. 1834. Treuliodd weddill ei ddyddiau mewn neillduedd, yn Howick:—lle y bu farw, Gorph. 17eg, 1845.

GREY, SYR GEORGE, Bar. Gwleidyddwr Saesneg galluog oedd efe, a nai i'r Iarll Grey a enwyd uchod. Ganwyd ef yn Gibraltar, Mai 11eg, 1799. Dygwyd ef i fyny i'r gyfraith; ond rhoddodd hi i fyny yn 1829, pan ddilynodd ei dad i'r farwnigaeth, ac etifeddiaethau y teulu. Etholwyd ef i Dŷ y Cyffredin yn 1832, dros Devonport; a bu yn cynnrychioli yr etholaeth hono bymtheng mlynedd. Pennodwyd ef yn is-ysgrifenydd dros y trefedigaethau yn 1834; ac i'r un swydd gan Argl. Melbourne, yn 1835. Yr oedd efe yn hyddysg mewn materion gwleidyddol oedd yn dal cyssylltiad â Chanada; a phan ddygodd Argl. John Russell fesur i mewn i attal, dros amser, y *Lower Canadian Constitution*, amddiffynodd Grey y mesur yn fedrus yn erbyn ymosodiadau Mr. Roebuck; yr hwn a siaradodd yn erbyn y mesur wrth fàr Tŷ y Cyffredin. Yn 1839, pennodwyd ef yn farnwrdadleuydd; ac yn 1841, yn Ganghellydd Duciaeth Lancaster. Pan ddaeth Argl. John Russell i awdurdod fel prifweinidog yn 1846, derbyniodd Grey y swydd bwysig o ysgrifenydd cartrefol; a chan fod cyffroadau y Siartiaid ar y pryd yn cynnhyrfu y wlad, nid oedd gorchwylion y swydd yn hawdd i'w cyflawni. Trefnodd y Siartiaid fod arddangosiad anferthol i gymmeryd lle yn Llundain, yn 1848, yn mhlaid eu hachos; ac y mae yn lled debyg y buasai yr arddangosiad wedi creu cyffro a helynt mawr yn y wlad, oni bae am y mesurau a gymmerodd Grey i attal y cythrwfl. Yr oedd ganddo ar y pryd gant a hanner o filoedd (150,000) o gwnstabliaid arbenig wedi eu tyngu i mewn. Yn Mehefin, 1854, pennodwyd ef yn ysgrifenydd y trefedigaethau; ond ar ffurfiad gweinyddiaeth gyntaf Argl. Palmerston, yn 1855, trosglwyddwyd iddo ei hen swydd yn y swyddfa gartrefol; a gwnaeth waith rhagorol yn ystod ei swyddogaeth. Ar ddychweliad Argl. Palmerston i swydd, yn 1859, ar ol ei orchfygiad y flwyddyn flaenorol ar Fesur y Cydfradwriaeth, pennodwyd Grey yn ganghellydd Duciaeth Lancaster; ond yn 1861, dychwelodd unwaith yn rhagor i'r swyddfa gartrefol. Cariodd amryw fesurau defnyddiol trwy y senedd y pryd hwn. Ar ol marwolaeth Palmerston, parhaodd i ddal swydd dan Iarll Russell. Ar orchfygiad gweinyddiaeth Russell a Gladstone yn 1866, ar y mesur diwygiadol, dygwyd gyrfa swyddol Grey i derfyniad; ond parhaodd i eistedd yn y senedd hyd 1874, pan yr ymneillduodd yn gwbl oddi wrth ddyledswyddau cyhoeddus. Bu farw Medi 9fed, 1882. Nid oedd Grey yn meddu cymmeriad uchel fel areithydd hyawdl, nac fel gwleidydd o'r dosbarth blaenaf; ond yr oedd wedi ennill safle anrhydeddus am ei allu deddfwriaethol, a gweinyddiadol.

GRIFFITH, JOHN OWEN: yr hwn a adnabyddid oreu wrth ei enw barddol, *Ioan Arfon*, oedd fardd rhagorol, eisteddfodwr gwych, a Chymro oedd â'i galon wedi ymlenwi o gariad at ei wlad, ei llenyddiaeth, a'i hamrywiol sefydliadau. Ganwyd ef yn y Fron-llwyd, yn mhlwyf Llanbeblig, yn Arfon; a phan yn ieuangc, daeth i sylw ei gymdeithion fel bardd addawol. Ysbrydolid y ddawn hon ynddo, megys gan gartrefleoedd y dynion mawr a gyfodasant o'r un ardal ag ef; sef, o'r Waen fawr—megys Gutyn Peris, Dafydd Ddu Eryri, Owain Gwyrfai, ac eraill; ac mae'n ddiammheuol i'w awen yntau gael ei chryfhau i raddau mawr iawn trwy ei fynych gymdeithasiad â'r dynion hyn yn eu gweithiau. Yr oedd efe, er hyny, yn fardd wrth natur; fel y prawf y cyfeiriadau prydferth a wneir ganddo yn ei ganeuon at olygfeydd ardderchog bro ei enedigaeth. O ran ymddangosiad corphorol, dyn o daldra cyffredin oedd efe—yn fywiog o gorph a meddwl. Efe oedd yr ieuangaf, ond un, o ddeuddeg o blant. Pan tua deuddeg oed, bu raid iddo fyned gyda'i dad, Owen Griffith, a'i frodyr, i weithio yn chwarel Llanberis; ond nid hir y bu yn y gloddfa heb roddi blaen-brawf o gynnyrch yr awen hono a'i gwnaeth mor anrhydeddus mewn blynyddoedd i ddyfod. Darllenai lawer—yn y chwarel, ac allan o honi—fel y daeth, yn y man, lliaws i ymofyn â hwy eu hunain, ac â'u gilydd, beth fyddai dyfodol y bachgen. Daeth Huw Tegai, Caledfryn, Gwilym Padarn, Owain Gwyrfai, ac eraill, i wybod am dano; a rhoisant iddo bob cefnogaeth i fyned rhagddo yn y llinell y cerddai. Wedi priodi, cymmerodd fferm yn Nant-y-Bettws; ond yn mhen dwy flynedd neu dair, rhoddodd hi a'r chwarel i fyny, ac aeth i'r ysgol am chwe mis. Yn ddilynol, ymsefydlodd fel masnachwr yn Nghaernarfon; ac yn y dref hono y preswyliodd hyd ddiwedd ei oes.

Bu ei ddyrchafiad yn Nghaernarfon yn gyflym. Daeth yn ŵr o ddylanwad ac ymddiried; a phrin y cychwynid unrhyw symmudiad o bwys heb fod gan *Ioan Arfon* law ynddo. Yr oedd yn ddyn o gymmeriad rhagorol, a'r cymmeriad hwnw yn cael ei wneyd i fyny o rinweddau ac elfenau dyn da, a chywir. Ond er cymmaint oedd ei ragoriaethau mewn amryw ystyriaethau, fel bardd y daeth efe yn benaf i sylw. Cyfansoddodd lawer, ac enillodd lawer o wobrwyon. Yn 1865, yr oedd yn gyd-fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth ar y cywydd ar 'Gartref.' Derbyniodd wobr mewn

Digitized by Google

eisteddfod yn Awstralia am bennillion ar 'Fy Ngenedigol Wlad.' Ennillodd hefyd ar awdl gadeiriol ar 'Adda,' ac ar gywyddau ar y 'Nos,' 'Gobaith,' 'Cartref,' a'r 'Bedd,' a llawer o destynau eraill na feddwn y manylion am danynt. Fel beirniad barddonol, ystyriwyd ef bob amser yn un o'r rhai cymmhwysaf. Adnabyddai wir farddoniaeth yn dda; ac yr oedd yn hyddysg yn rheolau barddas; ac uwch law pob peth, yr oedd efe yn gydwybodol yn nghyfawniad y gwaith.

GRIFFITHS, JOHN, Trosnant, Pont-y-pool. Dylai enw John Griffiths, Trosnant, gael ei gadw mewn bythol goffadwriaeth, yn arbenig gan Fedyddwyr Cymru, am y rhan a gymmerodd i sefydlu athrofa i'r enwad pan oedd gwir angen am hyny. Mab oedd efe i'r Parch. Morgan Griffiths, trydydd gweinidog hen eglwys barchus Hengoed. Yr oedd Morgan Griffiths ei hun yn ddyn cymmharol ddysgedig, yn alluog i bregethu yn Saesneg yn gystal ag yn Gymraeg; ac yn cael ei ystyried yn ddyn o ddoniau nodweddol; ac yr oedd ei weinidogaeth yn dderbyniol iawn yn mhob lle. Nid ydym wedi gallu cael allan pa bryd y ganwyd John Griffiths. Tybiwn mai tua 1705, neu fe allai ychydig yn gynnarach. Ymsefydlodd, pan yn lled ieuangc, yn Mhont-y-pool, fel arolygydd ar y gweithiau haiarn a ddygid yn mlaen yno gan Mr. Hanbury. Bu yno yn barchus a defnyddiol iawn am ysbaid maith, nes y cododd rhyw anghydwelediad rhyngddo a rhai boneddigion yn y gymmydogaeth. Ymfudodd i'r America yn Ebrill, 1759. Dywed Josuah Thomas iddo ymsefydlu yn New York, lle y cododd i barch mawr; a chadwodd ei broffes grefyddol yn ddilychwin. Ysgrifenai yn fynych i Gymru, ac yr oedd ei lythyrau yn dangos llawer o serch ac archwaeth grefyddol. Bu farw Mehefin 21ain, 1774; a dywedai papur New York, wrth gofnodi ei farwolaeth, gan ei fod mor ddisglaer yn ei gymmeriad, fod ei farwolaeth yn achos o alar cyffredinol.

Ond i ddychwelyd. Yr hyn sydd yn peri i'w enw fod mor haeddiannol o barch yw iddo, tua'r flwyddyn 1732, agor tŷ yn Nhrosnant, Pont-y-pool, i'r ddau ddyben canlynol; sef, 'pregethu efengyl Crist yn achlysurol, ac addysgu gwŷr ieuaingc a ymroddent i'r weinidogaeth.' Dyma, yn ol pob tebyg, y cais cyntaf at sefydlu athrofa reolaidd i Fedyddwyr Cymru. Ac er nas gellir dyweyd iddi fod yn llwyddiant digymmysg, yr oedd y dyn oedd â llygad yn ei ben i weled angen o'r fath, a dewrder gofynol i osod ei fwriad mewn gweithrediad, fel ag i gyflawni yr angen, yn wron yn ei oes. Yr oedd efe ei hun yn ddyn galluog, yn ysgolhaig da, ac yn dduwinydd goleu; er nad oedd efe yn weinidog, nac yn bregethwr. Parhaodd y sefydliad hwn hyd y fl. 1770, pan y rhoddwyd ef i fyny, o herwydd amryw resymau; megys prinder athrawon cymmhwys, yr anhawsder i'w chynnal, a'r ffaith fod amryw o'r myfyrwyr yn myned oddi yno i'r athrofa yn Bristol, ac yn ymsefydlu fel gweinidogion yn Lloegr. Dywedir i tua deugain o weinidogion dderbyn eu haddysg yn y sefydliad hwn. Yn eu plith, enwir y rhai canlynol gan Joshua Thomas (gwel hefyd *Hanes yr Athrofeydd*, gan Rufus):—Edmund Watkins, Timothy Thomas, o Aberduar; Morgan Edwards, M.A.; Morgan Jones, LL.D.; Thomas Llewelyn, M.A., LL.D. (awdwr y llyfr safonol ar *Hanes y Cyfieithiadau o'r Ysgrythyrau*, &c.); Benjamin Francis, Mills, ac Edwards, &c. Cawn fel hyn fod Bedyddwyr y Dywysogaeth wedi cychwyn athrofa i ddysgu gwŷr ieuaingc â'u bryd ar y weinidogaeth yn foreu; ac yn sicr, teilynga y gŵr a dorodd y garw, a fu yn athraw cyntaf yn y sefydliad, ac yn ddarganfyddwr nifer o wŷr mor deilwng, barch diledryw oddi ar law ei olynwyr.

GRIFFITHS, WALTER. Swyddog morwrol enwog oedd efe, a anwyd yn Nghaerhûn, ar lan yr afon Gonwy, yn sir Gaernarfon. Yn y fl. 1755, dyrchafwyd ef i fod yn îs-gadben yn y fyddin; a bu yn gwasanaethu y swydd ar fwrdd y *Royal George*, baner-long y llyngesydd Anson; yr hwn, ar y pryd, oedd yn llywydd ar lynges y deyrnas yn y Sianel. Yn 1759, pennodwyd ef yn gadben y rhyfel-long *Gibraltar;* ar yr hon y bu am amryw flynyddau. Yn 1761, yn unol â gorchymyn, aeth i'r America, gydag adnoddau rhyfel i'r fyddin. Tra yno, efe a'i hynododd ei hun yn fawr mewn amryw ysgarmesoedd blinion. Bu yn ymladd yn mrwydr Grenada, tra yn gadben ar y llong *Nonsuch*. Pan hwyliodd y llyngesydd Byron i Ewrop, ac y trosglwyddodd lywyddiaeth fôr-filwrfa yr India Orllewinol i ofal yr ôl-lyngesydd Parker, efe a symmudodd ei faner i'r *Princess Royal;* ac a bennododd y Cadben Griffiths yn olynydd iddo ar fwrdd y *Conqueror*. Ni bu yn hir ar fwrdd y llestr hon; o blegid lladdwyd ef yn Portroyal Bay, Rhag. 18eg, 1766, tra yn ymladd yn erbyn y Ffrangcod. Dangosodd wroldeb mawr yn y frwydr hon; a thelir teyrnged uchel iddo yn yr adroddiad swyddol o'r ymdrechfa.

GRUFFYDD HIRAETHOG. Bardd enwog oedd efe, yn byw yn nghanol yr unfed ganrif ar bymtheg—rhwng 1520 a 1550. Ganwyd ef wrth odrau mynydd Hiraethog, yn mhlwyf Llansannan; a derbyniodd ei addysg farddonol wrth draed Tudur Aled—bardd enwog arall o'r un ardal. Bu Gruffydd, yn ei dro, yn athraw i William Cynwal, Simwnt Fychan, Shôn Tudur, a William Lleyn. Bu yn trigo am ysbaid yn Llangollen, lle y bu farw, ac y claddwyd ef. Cyfansoddodd lawer o farddoniaeth, ond ychydig a argraphwyd o'r cyfryw. Dywedir iddo, hefyd, ysgrifenu hanes Prydain, a gwledydd eraill. Ystyrid ef yn fardd rhagorol, ac yn ysgrifenydd rhyddiaethol galluog. Canwyd ei farwnad gan ei hen ddysgybl, William Lleyn.

GRUFFYDD MAELOR: tywysog ar Bowys, a mab i Fadog ab Meredydd. Yr oedd efe yn ddyn hynod am ei ddoethineb, a'i haelfrydedd. Bu farw yn 1190, a chladdwyd ef yn Meifod. Enw ei wraig oedd Angharad, ac yr oedd hi yn ferch i Owain Gwynedd.

GRUFFYDD, THOMAS:—y telynor. Ganwyd ef yn mhlwyf Llangynidr, yn sir Frycheiniog, yn y fl. 1815. Amaethwyr cyfrifol oedd ei deulu; ond bu ei hen daid, gŵr o'r enw Williams, yn beriglor Llangynidr. Pan yn dair blwydd oed, amddifadwyd ef o un llygad, trwy gwympo ar fwyell; a chollodd gryn lawer o nerth y llygad arall trwy ergyd a dderbyniodd tra yn yr ysgol. Ymroddodd, er hyny, â'i holl egni i feistroli y delyn deir-rhes Gymreig; a chyfarwyddwyd ef yn hyn gan Mr. Jones, telynor enwog Mr. Gwynne, o Glanbran, ger Llanymddyfri. Byddai Mr. Gwynne yn cadw

Digitized by Google

nifer fawr o delynau Cymreig yn ei balas, a benthyciai hwynt yn aml i fechgyn tlodion a fyddent yn teimlo awydd am ei dysgu, i'w chwareu. Gyda chefnogaeth y fath foneddwr, ac addysgiaeth telynor mor fedrus a Mr. Jones, gwnaeth Thomas Gruffydd gynnydd mawr yn y gelfyddyd. Cludodd ei delyn lawer gwaith ar ei gefn dros bant a mynydd, i'w chwareu yn nghyfarfodydd bychain Gwent a Morganwg. Yr oedd hyn cyn dyfod o hono yn enwog; ond er hyny, arferai llawer ddyfod ynghyd i wrandaw arno. Yn y man, gwnaed ef yn delynor swyddol i deulu Llanofer; yr hwn bennodiad a ddaliwyd ganddo yn anrhydeddus hyd ddiwedd ei oes.

Daeth yn gyntaf i sylw y teulu brenhinol, pan yr aeth, gyda'i athraw, yn ol gorchymyn i Balas Buckingham, yn 1843. Tra yno, bu yn chwareu hen alawon Cymreig ger bron y teulu brenhinol. Yr oedd yr enwog Carnhuanawc yn bresennol ar yr achlysur; ac yn egluro i'r urddasolion neillduolion y delyn Gymreig. Bu Gruffydd yn chwareu, hefyd, yn mhreswylfod Tywysog Cymru. Aeth ar ymweliad â Llydaw yn 1867, a bu yn aros dros amser gydag un o bendefigion penaf y wlad hono. Ennillodd lawer o wobrwyon; a chydnabyddid mai efe oedd telynor Cymraeg blaenaf ei oes. Efe a fu farw Awst 30ain, 1887, yn 72ain mlwydd oed.

GUTTO'R GLYN. Un o feirdd enwocaf y bymthegfed ganrif, a chymmydog a chydoeswr i Dafydd ab Edmwnt, Gutyn Owain, ac eraill o gyffelyb enwogrwydd. Tybir iddo gael ei alw yn Gutto'r Glyn, am mai efe oedd bardd abatty Glyn Egwestl, ger Llangollen. Yr oedd efe yn byw yn y rhan olaf o'r bymthegfed ganrif—rhwng 1450 a 1480. Bu ymryson rhyngddo a Dafydd ab Edmwnt; ac y mae y cywyddau a gyfansoddwyd ganddynt yn yr helynt hwn yn orlawn o'r geiriau mwyaf difrïol. Dan y teitl o Gywydd Marwnad Gutto'r Glyn, pan ddywedwyd ei fod wedi boddi yn Malltraeth, Môn, canodd Llywelyn ab Gutyn ar yr amgylchiad dychymygol hwnw; ac yn ei attebiad iddo, haerai Gutto mai wedi meddwi yr oedd Llywelyn ar win boneddigion sir Fôn. Gutto oedd bardd teulu Ieuan Fychan ab Ieuan Gethin, o Faeliwrch, yn Llansilin; ac ymddengys ei fod yn hoff o dreulio rhai o'i ŵyliau yno. Tybir mai Siôn ab Risiart, neu 'Siôn Abad,' oedd noddwr Gutto; yr hwn, yn ol Gutyn Owain, oedd arglwydd tair swydd; sef, Iàl, y Waen, a Maelor. Ymddengys fod Gutto yn credu yn ddiysgog yn y Purdan, a thalu dirwy dros bechodau, &c.; o blegid y mae cyfeiriadau at hyny yn ei weithiau. Treuliodd lawer o amser gyda'r Herbertiaid o Gaerdydd, a Rhaglan; a chanodd lawer i foneddigion Gwent a'r Deheubarth. Y mae agos i gant o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llaw-ysgrifau. Mae'n debyg na bu neb o feirdd ei oes mewn mwy o ymrysonau barddonol na Gutto; ond canodd lawer ar destynau oedd heb fod yn dal cyssylltiad â'r cwerylon hyny. Ystyrid ef y goreu, o bawb, am gyfansoddi cywydd mab. Cafodd fyw i fyned i oedran têg; a bu farw yn Mynachlog Glyn Egwestl—lle y claddwyd ef.

GUTYN PADARN. Yr oedd efe yn fardd ac yn llenor adnabyddus; ac yn fab i'r enwog William Edwards (*Gwilym Padarn*), o Lanberis. Ganwyd ef yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; ac er mai prin oedd manteision addysg yn ardal Llanberis, fel pob ardal arall, yn y dyddiau hyny, fe wnaeth Griffith Edwards (o blegid dyna ei enw priodol) y defnydd goreu o honynt. Yr oedd yn fachgen o feddwl cryf a chyflym; ac yn nerth hyn, ynghyd â'i benderfyniad di-ildio, tyfodd i fyny i fod yn gawr yn mysg dynion ieuaingc y fro. Meistrolodd yr iaith Gymraeg yn drwyadl; a gwnaeth gynnydd mawr hefyd yn yr iaith Saesnig. Hunan-addysgydd ydoedd efe, i raddau pell; o blegid ni chafodd ond ychydig o gynnorthwy oddi allan. Yn 1843, ennillodd y gradd o B.A. yn Ngholeg y Drindod, ac M.A. yn 1846. Yn 1843, urddwyd ef yn ddiacon gan Esgob Llanelwy; a thrwyddedwyd ef i giwradiaeth Llangollen, lle y bu am chwe blynedd. Yn 1849, pennodwyd ef i giwradiaeth barhaus Minerva (y Mwnglawdd), ger Gwrecsam. Tra yno, ymroddodd i waith, gan gyflawni ei ddyledswyddau gyda symlrwydd a chydwybodolrwydd. Gŵr di-rodres oedd efe. Yn y fl. 1863, dyrchafwyd ef gan Dr. Short, Esgob Llanelwy, i fywoliaeth Llangadfan—plwyf helaeth yn sir Drefaldwyn. Bu yn llafurio yn y lle hwnw am ddeugain mlynedd. Bywyd meudwyol, megys, a dreuliodd yno. Treuliodd ei amser bron yn gwbl gyda'i ddyledswyddau crefyddol, ac yn nhawelwch ei lyfrgell.

Nid fel clerigwr y gwnaeth Gutyn enw iddo ei hun, ond fel llenor a bardd. Yn mysg y darnau rhagorol a gyfansoddodd o dro i dro, ceir cân ar y testyn, 'Rhyfelgyrch Owain Gwynedd yn erbyn Harri II., yn y fl. 1157, ar ddull *Macaulay's Lays of Ancient Rome.*' Cyfansoddodd bryddest, gan fwriadu ei hanfon i Eisteddfod Rhuddlan, yn 1850; ond ni thybir iddo ei hanfon yno. Ysgrifenodd bryddest ar 'Ddoethineb Duw,' ar gyfer Eisteddfod Porthmadog; yr hon a dderbyniodd ganmoliaeth uchel y beirniaid. Ysgrifenodd lawer yn ystod rhan foreuol ei oes i'r *Gwyliedydd*, y *Gwladgarwr*, yr *Haul*, a'r *Traethodydd*; ac yn ddiweddarach i'r *Geninen.* Ond er mor ragorol oedd ei gynnyrchion Cymreig, dywedir fod ei ysgrifeniadau Saesneg yn rhagorach. Wele rai o honynt:—'Bywyd, a Gweddillion Llenyddol y Parch John Blackwell (*Alun*);' 'Hanes a Henafiaeth plwyf Garthbeibio;' 'Hanes a Henafiaeth plwyf Llanerfyl.' Ymddangosodd yr erthyglau uchod yn yr *Historical and Archæological Collections for Montgomery;* y rhai a elwir yn gyffredin yn *Montgomery Collections.* Fel cydnabyddiaeth o'i lafur hanesyddol a hynafiaethol, gwnaed ef yn Gymmrawd o'r Gymdeithas Hanesiol Freiniol. Yn 1870, cyhoeddodd waith o nodwedd Eglwysig, yn dwyn y teitl, *Church in Wales;* ac yn 1875, *Gwersi Hawdd at Wasanaeth yr Ysgol Sul.* Bu aml waith yn gwasanaethu fel beirniad yn yr eisteddfodau cenedlaethol; ac yr oedd yn hyn o beth yn fanylgraff, ac yn uniawn. Bu farw Ionawr 29ain, 1893.

GWALCHMAI AB MEILYR. Un o brif feirdd y ddeuddegfed ganrif oedd efe; a chyfrifid ef y telynor goreu oedd yn yr oes hono. Barna rhai ei fod yn fab i Meilyr Brydydd, o Drefeilyr, yn Môn; ond dywed eraill nad oedd efe ond dysgybl barddonol i'r bardd hwnw. Bu am ennyd yn fardd teuluaidd i Dafydd ab Owain Gwynedd; a dywedir iddo ddilyn gosgordd y brenin Rhisiart y Cyntaf i Ryfeloedd y Groes. Yr oedd efe yn byw rhwng 1150 a

Digitized by Google

1190. Y mae deuddeg o'i gyfansoddiadau yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology*—pa rai ydynt gynnyrchion y wir awen. Y mae y darnau hyn yn rhagorol; yn enwedig ei Anerchiad i Owain Gwynedd ar frwydr fawr Tal-y-Foel, yn 1150. Cafodd y gân hon ei chyfieithu, a'i chyhoeddi yn Saesneg.

GRIFFITHS, DAVID (CLWYDFARDD). Un o'r gŵyr mwyaf adnabyddus o fewn y Dywysogaeth ar hyd yr hanner can mlynedd diweddaf; a pherchid, a cherid ef hefyd, gan bawb oedd yn ei adnabod. Ganwyd ef yn Heol y Dyffryn, Dinbych, Tachwedd 29ain, 1800. Enw ei dad oedd Richard Griffiths, oriadurwr wrth ei alwedigaeth. Yr oedd efe yn ddyn synwyrol, ac yn cymmeryd dyddordeb mewn llenyddiaeth a barddoniaeth, ac yn gryn gyfaill i Twm o'r Nant. Yr oedd ei wraig o alluoedd uwchraddol, ac yn gymmeriad rhagorol. Cafodd David, ei fab, addysg elfenol weddol dda; ond dim mwy na hyny. Dygwyd ef i fyny yn ngalwedigaeth ei dad; a dangosodd yn lled fuan ei fod yn un o'r personau hyny oedd yn gallu 'gweled anian.' Ennillodd ei lawryf cyntaf fel bardd yn Eisteddfod Dinbych, yn y fl. 1824; a byth ar ol hyny, tyfodd ac ymberffeithiodd fel bardd, llenor, a hynafiaethydd, ac eisteddfodwr, hyd nes y cyrhaeddodd y pinacl uchaf, trwy ei bennodiad yn Archdderwydd Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, trwy gydsyniad cyffredinol beirdd a llenorion, yn y fl. 1876. Nis gallwn yma wneyd yn well na rhoddi corph yr erthygl a ymddangosodd ar ein gwrthddrych yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd*, am Rhagfyr diweddaf (1894).

Dygwyd ef i fyny, medd yr ysgrifenydd, mewn awyrgylch grefyddol o'i febyd. Yr oedd ei dad a'i fam yn mhlith y rhai cyntaf a ymunasant â'r Wesleyaid yn nhref Dinbych; a hyny cyn ymweliad y cenhadon Wesleyaidd â Dyffryn Clwyd, yn Awst, 1800. Daeth ei fam yn wraig o gynghor; ac ymofynid â hi yn herwydd amgylchiadau yr achos yn y cyfnod boreuol hwnw. Bu Owen Davies; John Hughes, Aberhonddu; Jones, Bathafarn; a Mr. Bryan, yn amgylchu ei gryd tra yr oedd efe yn faban. Dygid ef gan ei fam i holl foddion gras yr eglwys er pan yr oedd yn alluog i gerdded. Ond y pryd hyny ni roddid derbyniad i blant yn yr eglwys hyd nes y gwnelent hyny ar eu cyfrifoldeb eu hunain. Yr oedd yn agos i chwech-ar-hugain oed pan y dychwelwyd ef, o dan weinidogaeth y Parch. Hugh Hughes. Y mae yn rhaid fod hyny yn gynnar yn y fl. 1826, gan i Mr. Hughes adael y gylchdaith yn Awst y flwyddyn hono. Yr oedd John Owen, o'r Cyffin, yn aelod ddwy flynedd yn flaenorol; o blegid dychwelwyd ef at grefydd mewn odfa a gynnaliwyd gan Mr. Hughes yn Nghonwy, pan yr oedd ar ei ffordd o Gaernarfon i drigiannu yn Ninbych. Dechreuodd David Griffiths bregethu yn y fl. 1827; a thraddododd ei bregeth gyntaf yn Dyserth, yn sir Fflint. Parhaodd i efengylu hyd o fewn ychydig fisoedd i'w farwolaeth. Pregethodd lawer ar hyd a lled y wlad am yn agos i saith-a-thrigain o flynyddoedd. Yr oedd yr oll yn lafur o gariad—ac heb fawr ddim o gydnabyddiaeth. Byddai yn barod bob amser i lanw ei gylch rheolaidd, ac i lanw bylchau, fel y byddai yr amgylchiadau yn gofyn. Bu yn lled symmudol yn ei fywyd. Aeth o Ddinbych yn lled gynnar, ac ymsefydlodd yn Nghaernarfon. Oddi yno, aeth i drigiannu yn Nghaergybi. Yna dychwelodd yn ol i Gaernarfon. Yn ei ail ymweliad, yr oedd yn arolygu gwaith copr yn Nrws-y-coed. Cyfeiriai gyda diolchgarwch yn fynych iawn at nawdd Rhagluniaeth drosto yn y lle hwn. Un prydnawn Sadwrn, ar ol i'r gweithwyr ymadael, efe a ddisgynodd i'r pwll, er cael engreifftiau o'r gwahanol fŵnau. Ond gyda'i fod wedi cyrhaedd y lan, fe ddisgynodd tynelli o'r ddaear ar y llecyn lle yr oedd efe newydd fod yn sefyll arno. Pe buasai wedi aros yno ond ychydig eiliadau yn hwy, buasai wedi ei gladdu gan y dymchweliad. Cydnabyddai law yr Arglwydd yn y waredigaeth, a diolchai lawer am dani. Teithiodd lawer, nos a dydd, ar draed ac mewn cerbydau, uwch ben y dyfnder mewn llongau, ac ar y tir yn y gerbydres: a bu yr Arglwydd yn nodded iddo bob amser yn mhob man. Ond bu raid iddo yntau dalu gwarogaeth i angeu! Terfynodd ei daith mewn heddwch mawr, ac yn lled rydd oddi wrth ofidiau angeu, am un o'r gloch boreu Mawrth, Hydref 30ain, 1894, yn ymyl bod yn 94ain mlwydd oed. Yn ystod ei ddadfeiliad, yr oedd ei galon yn llawn o ddiolchgarwch. Rhai o'i eiriau olaf oeddynt, 'Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi? Phïol iachawdwriaeth a gymmeraf, ac ar enw yr Arglwydd y galwaf;' *Salm* cxvi. 12, 13. Yr oedd efe ar y pryd megys yn gweled, o dan len, fyd arall, ac yn sibrwd geiriau un yn dechreu cael golwg ar ei hen gydnabod oedd wedi ei ragflaenu yno.

Cafodd gladdedigaeth tywysog a gŵr mawr yn Israel, ddydd Sadwrn, Tachwedd 3ydd. Gwasanaethwyd yn y capel, wrth y tŷ, ac ar lan y bedd, gan y Parchn. R. Williams, F. Jones (M.C.), T. O. Jones, Cadfan, E. Lloyd Jones, Dr. Roberts, Gwalchmai, Pedrog, Glanystwyth, Edward Humphreys, Evan Jones, W. H. Evans, a J. P. Roberts. Darllenwyd 1 *Cor.* xv. yn yr eglwys gan y Parch. Robert Jones, o Fangor; a rhanau eraill y gwasanaeth gan Gwynedd, a gwŷr eglwysig eraill. Siaradodd Mr. John Harrison Jones, o Ddinbych, a Mr. Marchant Williams hefyd eiriau caredig am dano.

Traddodwyd ei bregeth angladdol y nos Sabbath dilynol, yn St. Paul's, Abergele, gan y Parch. Hugh Jones, ar 1 *Thes.* iv. 13—18. Ar ol y bregeth, gwnaeth sylwadau coffhäol am ei hanes a'i gymmeriad. Cymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. Hugh Hughes, Llundain, ei fab-yn-nghyfraith. Traddododd yntau bregeth angladdol yn Salem nos dranoeth, ar ddymuniad cyfeillion y lle. Cafodd ei blant a'i ŵyrion achos i lawenhau yn nghanol eu galar am fod ganddynt dad a thaid oedd yn deilwng o'r fath barch ac edmygedd, ac yn un yr erys ei enw yn berarogl yn mhlith llenorion, gwladgarwyr, a chrefyddwyr Cymru am oesau sydd etto i ddyfod.

*Ei nodweddion.*—Yr oedd efe yn berchenog ar athrylith amlweddog. Os nad ellir darnodi athrylith, y mae yn hawdd ei hadnabod, yn mha le bynag y mae. Yr oedd efe yn llawn o'r peth byw hwnw sydd yn dangos gallu meddwl uwchraddol. Fe allai nad oedd efe yn rhagori mewn un gallu neillduol; ond yr oedd ynddo amrywiol alluoedd oedd yn cyfanu ei nodwedd feddyliol, ac yn ei wneyd yn ddyn llawn a pharod. Yr oedd ganddo synwyr cyffredin 'anghyffredin.' Gall yr ymadrodd ymddangos yn wrthebiad; ond y mae yn gywir er hyny. Peth anghyffredin yw synwyr cyffredin cryf. Ychydig

Digitized by Google

mewn cymmhariaeth, sydd yn ei feddu. Gallu ydyw i adnabod y priodol a'r cymmhwys mewn gwahanol amgylchiadau. Mae rhai yn perchenogi athrylith ddisglaer iawn, ond yn ddiffygiol mewn synwyr cyffredin. Yn fynych hefyd, y rhai sydd yn perchenogi yr athrylith ddisgleiriaf sydd yn fwyaf diffygiol o synwyr cyffredin cryf. Hwynthwy sydd yn cyflawni y gweithredoedd mwyaf ffol. Mae hyn yn ffaith amlwg yn mhlith y beirdd. Gellir rhestru Dafydd ap Gwilym, Goronwy Owen, Dafydd Ionawr, Dewi Wyn, ac eraill, yn mysg prif feibion yr athrylith farddonol Gymreig; ond y mae pawb sydd yn gyfarwydd yn eu hanes yn hysbys eu bod yn dra ddiffygiol mewn synwyr cyffredin, ac iddynt gyflawni rhai o'r pethau mwyaf ffol a gyflawnwyd gan ddynion. Ond am Clwydfardd, er fod ganddo le amlwg yn mhlith y beirdd, yr oedd yn dangos ar bob achlysuron, cyffredin a neillduol, y gwyddai beth oedd briodol a chymmhwys i'r amgylchiadau. Yr oedd yn gallu cyfarfod gofynion yr amgylchiadau y teflid ef iddynt er anrhydedd iddo ei hun, ac er anrhydedd a mantais i wahanol gylchoedd cymdeithas, a hyny heb fradychu annoethineb na gwendid.

Yr oedd ganddo allu cyngreddfol i adnabod Gwirionedd. Fe allai na byddai yn trafferthu i chwilio am y gwirionedd ar hyd llwybrau rhesymeg. Nid oedd efe wedi troi ei feddwl i'r cyfeiriad hwnw; ac nid oes sicrwydd y buasai yn rhagori pe buasai yn gwneuthur yr ymdrech. Gallasai rhai llai galluog ennill y llawryf mewn dadl. Y cyfrwys a'r dichellgar sydd yn ennill y dydd mewn dadl yn gyffredin; ond yr oedd efe yn rhy fawr i hyny. Ond os nad oedd wedi arfer chwilio am y gwirionedd gydag arfau rhesymeg, yr oedd ganddo lygaid i'w ganfod yn ngoleuni cyngreddfiad ei natur. Prin y gellir dyweyd ei fod yn canfod gwirionedd yn ei gyfrinion athronyddol. Nid oedd efe yn ymdrafferthu i ymholi ynghylch y 'pa fodd?' a'r 'pa ham?' Cael gafael ar y gwirionedd oedd ei bwynt mawr ef, gan adael i eraill ymdrafferthu i ddilyn ei berthynasau a'i elfenau cyntefig. Ond yr oedd ganddo lygaid i adnabod y gwirionedd. Adnabyddai ef fel y mae y baban yn adnabod y fron; a sugnai o hono faeth a mwynhâd i'w feddwl. Daeth ei natur feddyliol yn gref trwy ddibynu arno.

Ennillodd safle iddo ei hun fel Ieithydd. Ni bu gan y Gymraeg edmygydd mwy nag ef. Yr oedd efe yn un o ddysgyblion ffyddlawn Dr. W. O. Pughe. Mynai fod i wreiddiau yr iaith eu hystyron cynhenid. Dangosai fedr neillduol mewn olrhain geiriau i'w helfenau cyntefig. Adferai eiriau oedd wedi dirywio i'w hystyron priodol, a chywirai gamgymmeriadau gyda'r defnydd a wneir o honynt. Edmygai berseinedd a phrydferthwch llawer o eiriau sydd wedi myned allan o arferiad, ac ymdrechai eu dwyn i ymarferiad drachefn. Ffurfiodd amryw o eiriau newyddion i gyfarfod gofynion cynnydd y wlad mewn gwybodaeth wyddonol a chelfyddydol. Yr oedd y Gymraeg yn rhan o'i natur. Er ei fod yn edmygwr o sêl ac ymroddiad yr ysgol newydd sydd yn ceisio athronyddu yr iaith yn ol arferion 'llafar gwlad,' yr oedd efe yn credu yn ei galon mai gwell yr hen na'r newydd, ac yn ofni iddynt lurgynio yr hen iaith, a'i gwneyd yn ddi-ystyr.

Yr oedd yn eiddigus dros burdeb a phrioddull yr iaith. Ni fynai ei hanurddo â geiriau estronol—a llawer mwy gwrthwynebus ydoedd i fastardd-eiriau. Rhoddai werth ar Gymraeg Cymreig—ac nid Cymraeg yn dwyn delw yr estroniaith Saesnig. Yr oedd yn hynod gyfarwydd yn nghyfrinion Rheitheg. Deallai yn dda y troell-ymadroddion, y ffugrau, a'r cymmhariaethau sydd yn perthyn i iaith; a gwyddai pa fodd i'w defnyddio, a'u deongli. Dechreuodd gymmeryd dyddordeb yn y Gymraeg yn foreu, a thyfodd y dyddordeb gyda chynnydd blynyddau, nes y daeth yn awdurdod ac yn allu yr ystyriai Cymreigwyr lled dda mai braint oedd cael eistedd wrth ei draed i wrandaw ei eiriau. Bu *Cyfaill yr Ysgolor*, a gyhoeddwyd yn gynnar yn ei oes, yn athraw ac yn gydymaith i lawer yn mhob rhan o'r Dywysogaeth.

Yr oedd ei gydnabyddiaeth â Barddas yn un o'r pethau mwyaf hysbys yn ei hanes. Nid oedd awdurdod uwch yn y gynghanedd. Deallai ei holl ddirgelion. Yr oedd anhebgorion pob cynghaneddion yn bethau cyffredin iddo. Gwyddai am y 'twyll' a'r 'beiau gwaharddedig' sydd yn ei rheolau; ac ymrithient iddo heb yn wybod. Yr oedd yn gartrefol gyda nôd angen y 'pedwar-mesur-ar-hugain,' a chanai arnynt gyda rhwyddineb. Ond gwyddai am fwy na chorph a gwisg barddoniaeth. Yr oedd efe yn cyfathrachu â'i henaid, a'i hysbryd. Adwaenai 'waed yr awen wir.' Prin y gwnaeth efe ymgais at gyfansoddiadau llafurfawr. Nid dyna gyfeiriad ei awen. Dïau y gallasai eistedd i lawr i dynu cynllun ëang, a'i weithio allan yn llwyddiannus. Ond nid oes dim felly yn mysg ei gynnyrchion. Nid ehediadau uchel a phell oedd yn nodweddiadol o'i awen; ond esgyniadau sydyn, prydferth, a tharawgar. Nid y gomed fawreddog oedd efe, yn ymlwybro yn yr ucheldereu, ac yn ymsymmud yn y pellderau anfesurol; ond y seren ddisglaer, yn tywynu yn llachar yn yr asur lâs uwch ben. Cyfansoddodd lawer englyn sydd yn aros ar lafar gwlad, ac a barhânt yn etifeddiaeth genedlaethol. Y mae llawer o'i linellau yn ddiarhebion byw; ac yn adnabyddus mewn cylchoedd ëang. Bu hefyd, am dymmor maith, yn arweinydd llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol; ac yr oedd yn feddianol ar gymmhwysderau neillduol ar gyfer y gorchwyl hwn. Yr oedd ei ymddangosiad yn fawreddog, ei safle fel bardd yn cael ei gydnabod, ei lais yn ddigon cryf i lenwi yr adeilad fwyaf; a chyda hyny, hefyd, yr oedd yn perthyn iddo lawer o ffraethineb a pharodrwydd, fel na byddai y cyfarfodydd un amser o dan ei arweiniad ef yn syrthio yn ddifywyd. Byddai, hefyd, yn gofalu na byddai dim a ddywedai, neu a adroddai, yn isel a di-chwaeth. Gwelsom ambell un, wrth geisio bod yn ffraeth a difyr, yn syrthio yn isel ei sylwadau, a'r argraph a wnelai ar y rhai fyddent yn bresennol yn mhell o fod yn dderbyniol. Ond nid felly yr oedd Clwydfardd. Yr oedd ei chwaeth ef mor bur fel y byddai yr awenau yn ddiogel bob amser pan y byddent yn ei ddwylaw ef.

Mae ei englynion i'r 'Llwynog' a'r 'Rhaiadr' yn nodweddiadol a phrydferth. Cyfansoddodd lawer o emynau a ddylent fod yn ngwasanaeth y cyssegr. Yr oedd y ddawn i gyfieithu barddoniaeth yn berchenogaeth iddo. Ennillodd y llawryf yn foreu, a hyny mewn Eisteddfod Genedlaethol, am ei gyfieithiad o'r *Deserted Village* (Pentref Digyfannedd). Yr oedd y diweddar Mr. Bryan yn fedrus iawn fel cyfieithydd emynau, ond cydnabyddai fod Clwydfardd yn rhagori arno; ac yr oedd iddo ef gydnabod



Digitized by Google

hyny yn brawf sicr o ragoriaeth uchel i'w hen gyfaill hoff.

Yr oedd yn awdurdod uchel ar Hanes a Defion yr Orsedd. Pennodwyd ef yn Archdderwydd yn y fl. 1876, trwy gydsyniad unfrydol beirdd, ofyddion, a derwyddon. Yn y fl. 1890, cafodd yr anrhydedd o urddo Brenhines Roumania; ac yn y fl. 1894, cafodd yr un anrhydedd o urddo Tywysog a Thywysoges Cymru.

Ond nid llenyddiaeth a barddoniaeth Gymreig oedd unig faes dyddordeb a llafur Clwydfardd. Yr oedd yn Ysgrythyrwr mawr. Bu yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn faes ei lafur ar hyd ei oes. Cyn bod sôn am Gyfieithiad Diwygiedig, yr oedd efe yn hen gynnefin gyda chwilio allan wir ystyr Gair Duw yn yr ieithoedd yr ysgrifenwyd ef ynddynt. Byddai ganddo ddarlleniad cywirach o lawer o ranau o hono, ac esboniad newydd yn ngoleuni y darlleniad cywirach hwnw. Mae Cymru ar ei cholled am na buasai llawer o'i esboniadau ar gadw. Teimlai ddyddordeb mawr yn yr Ysgol Sabbothol, a pharhaodd i'w mynychu hyd ei flynyddau olaf.

Gyda hyny, yr oedd efe yn dduwinydd yn ystyr uchaf y gair. Dïau fod duwinyddiaeth gadarnhaol (*positive theology*) wedi cael ei sylw; ac nid oedd efe yn ddyeithr i dduwinyddiaeth amddiffynol (*apologetics*), er na byddai yn rhoi amlygrwydd i hyny yn ei weinidogaeth. Ond yr oedd yn feistr ar dduwinyddiaeth ddeilliadol (*subjective theology*). Yr oedd yn awdurdod uchel ar dduwinyddiaeth yn ei pherthynas âg adferiad dyn, ac â'i dylanwad arno:—a dyma y dduwinyddiaeth uchaf a phwysicaf wedi y cwbl. Yr oedd Clwydfardd yn awdurdod yn hon. Y mae ei bregethau mwyaf adnabyddus yn dangos ei fod wedi efrydu duwinyddiaeth yn yr agwedd yma arni yn llwyr a hollol. Yr oedd cylch ei weinidogaeth yn cymmeryd i mewn holl gwrs weithrediad y bywyd crefyddol, o gychwyniad y daith o'r Aipht hyd ei gorpheniad mewn gwynfyd. Yn ei bregeth ar *Joel* ii. 12—14, 'Dychwelwch ataf fi â'ch holl galon,' &c., eglurai gyflwr dirywiol dyn wrth natur, a'r angenrheidrwydd am edifeirwch—ei natur, ei arwyddion, a'i ffrwyth.' Yn ei bregeth ar 'Phylip a'r eunuch' (*Actau* viii. 26, &c.), eglurai le a gwasanaeth y gwirionedd dwyfol fel moddion, a ffydd fel ammod iachawdwriaeth yr enaid. Yn ei bregeth ar Lydia (*Actau* xvi. 14, 15), eglurai natur a ffrwyth tröedigaeth. Yn ei bregeth ar Weddi yr Arglwydd (*Mat.* vi. 9—15), gosodai ger bron elfenau hanfodol gweddi lwyddiannus, a'r lle hanfodol sydd iddi fel anadl gryfaf y creadur newydd. Yn ei bregeth ar 1 *Cor.* xv. 58, rhoddai amlygrwydd i weithgarwch y bywyd crefyddol, a'i fod yn anhebgor i barhâd a chynnydd y bywyd crefyddol. Yn ei bregeth ar *Salm* i. eglurai nodweddion nacaol a chadarnhaol y cymmeriad da—ei adnoddau, ei dyfiant, a'i brydferthwch. Yn ei bregeth ar *Salm* xxiii. rhoddai amlygrwydd i gyfoeth, diogelwch, a chysuron y bywyd crefyddol ar gyfer amgylchiadau bywyd a marwolaeth. Yn ei bregeth ar *Phil.* i. 23, yr oedd dyhëad y bywyd crefyddol am wynfyd y byd arall, a'i ymgyssegriad yn ngwasanaeth Duw, yn cael ei egluro a'i gymmhwyso. Yn ei bregeth ar *Dat.* xiv. 13, yr oedd natur, elfenau, parhâd, a sicrwydd y gwynfyd dyfodol yn cael amlygrwydd llawn. Pan yn pregethu ar *Mat.* xvi. 18, yr oedd sylfaen yr eglwys, ei natur, a'i diogelwch, yn cael eu trafod yn gywir, manwl, a chyflawn. Yr oedd ganddo bregethau lawer eraill oedd yn ymwneyd â'r bywyd crefyddol yn y gwahanol agweddau sydd yn perthyn iddo; ond y mae y pregethau adnabyddus uchod yn profi yn ddiymwad ei fod wedi efrydu duwinyddiaeth ddeilliadol, a bod ei hegluro a'i chymmhwyso yn hyfrydwch ei fywyd.

Cyn gadael hyn o ran, teg ydyw dyweyd fod graen a gras gwir athrylith yn nodweddu ei holl gynnyrchion. Y mae gallu cyfyngedig, trwy ymroddiad a dyfalwch, yn gallu cynnyrchu llawer—a chynnyrchu llawer o bethau da; ond y mae ôl ymdrech arnynt yn eu hamddifadu o'r naturioldeb a'r caboliad sydd yn perthyn i wir athrylith. Ond am Clwydfardd, yr oedd graen a gras athrylith ar ei bob peth. At ba beth bynag y troai efe ei law—emynu, englynu, beirniadu, areithio, pregethu—yr oedd yr oll yn cael eu nodweddu gan orpheniad a pherffeithrwydd.

Efe a feithrinodd dueddfrydau rhinweddol a phrydferth. Wrth dueddfrydau, deallir tueddiadau neu ogwyddiadau natur. Y mae rhai yn tueddfrydu yn gynhenid a gwreiddiol, tra y mae eraill yn cael eu cynnyrchu trwy feithriniad ac ymarferiad. Y mae yn hen wireb fod arferiad yn dyfod yn ail natur. Gall tueddfrydau naturiol fod yn fanteisiol neu yn anfanteisiol, yn ol eu natur; ond nid ydynt na rhinwedd na bai, am y rhaid i bob un gymmeryd ei dueddfrydau naturiol fel y mae efe yn eu cael. Mae y cyfrifoldeb yn aros yn y meithriniad neu y gwrthweithiad a roddir iddynt. Ond y mae tueddfrydau cynnyrchedig yn foesol ynddynt eu hunain, am mai y dyn ei hun sydd yn rhoddi bodolaeth iddynt. Nodweddid Clwydfardd gan lawer o dueddfrydau dymunol a phrydferth. Pa mor bell yr oeddynt yn wreiddiol, neu gaffaeledig, ni cheisir penderfynu; ond y mae yn sicr ei fod ef wedi meithrin y tueddfrydau dymunol oedd yn ei natur, beth bynag am gynnyrchu rhai eraill.

Yr oedd efe yn llawn o symlrwydd pur. Y mae symlrwydd yn gynnwysedig mewn unplygrwydd amcan, a chyfreithlondeb moddion er mwyn ei gyrhaedd. Saif yn wrthgyferbyniol i ffug, twyll, a brâd. Y mae y syml yn gymmeriad tryloew. Gellir ei ddarllen, a'i ddeall. Un felly oedd Clwydfardd. Yr oedd ei galon yn ei wyneb, a'i feddwl yn ei eiriau. Yr oedd mor dryloew a'r grisial. Nid oedd neb yn ammheu ei gywirdeb. Ennillai ymddiried pawb y deuai efe i gyffyrddiad â hwy. Yr oedd cymmeriad o'r fath yn drysor mewn cymdeithas.

Nodweddid ef gan fawrfrydigrwydd urddasol. Yr oedd efe yn un o foneddigion natur. Yn ei osgedd a'i symmudiadau allanol yr oedd yn dywysogaidd a mawrfrydig; ac nid oedd yr allanol ond dangoseg o'i feddwl a'i galon. Meddyliai y goreu am bawb, hyd nes y gorfodid ef i feddwl fel arall; a meithrinai y teimladau goreu tuag at bawb. Ymddygai yn weddus tuag at y cardotyn, fel y tywysog. Gweithredai yn ddynol yn mhob cylch. Yr oedd felly yn naturiol. Nid oedd yn hòni nac yn ffugio dim nad ydoedd mewn gwirionedd. Yr oedd yn bod yr hyn ydoedd—ac nid yn ymddangos.

Yr oedd Clwydfardd yn serchog ac yn hygar. Carai eraill yn bur a diledrith; ac yr oedd yn cael ei garu gan eraill. Yr oedd digon o serchawgrwydd ynddo i ennill serch. Y mae rhai yn cael eu parchu ar gyfrif eu rhinweddau, ond heb ddigon o serchawgrwydd ynddynt i ennill serch rhai eraill; ond yr oedd Clwydfardd yn ddigon

Digitized by Google

serchog i garu eraill, ac yn ddigon hygar i gael ei garu yn ol.

Yr oedd efe yn sefydlog ac yn ffyddlawn. Yr oedd yr un fath gartref ag oddi cartref; yr un fath yn ddirgel ag yn gyhoedd; yr un fath bob amser, ac o dan bob amgylchiadau. Nid oedd pellder lle, na meithder amser chwaith, yn effeithio arno. Unwaith y ffurfiai gyfeillgarwch, yr oedd yn ffyddlawn ynddo hyd y diwedd. Ni bu gan neb fwy o gyfeillion yn mysg gwreng a boneddig, a holl ddosbarthiadau cymdeithas; ond yr oedd efe yn bur ac yn gyfa i bawb. Yr oedd yn disgwyl ffyddlondeb oddi wrth bawb. Nid oedd dim yn fwy o ddolur iddo na gweled arwyddion oerder a phellder yn ei hen gyfeillion. Yr oedd cyfaill ar ymweliad âg Abergele yn ddiweddar, ac o blegid ymrwymiadau eraill, wedi methu galw i'w weled mor fuan ag y disgwyliai. Bu yn gryn brofedigaeth iddo. Ond y funyd y galwodd, ac yr eglurodd yr amgylchiadau, cliriodd yr awyr, a threuliasant hamdden ddedwydd gyda'u gilydd, yn ol eu hen arfer.

Yr oedd yn ostyngedig ac yn llednais. Er wedi casglu llawer o wybodaeth, a dysgu llawer trwy brofiad, yr oedd efe yn berffaith anhoniadol, ac yn rhoddi y flaenoriaeth i eraill. Gwyddai raddau ei nerth ei hun; ac yr oedd yn ddigon craff a dynol i weled a chydnabod nerth eraill. Yr oedd yn ddidramgwydd a hynaws. Ni fynai ddolurio na rhoddi trallod i neb. Yr oedd yn well ganddo ddioddef profedigaeth na rhoddi profedigaeth i neb arall. Calonogai yr ieuaingc, cyfarwyddai yr anfedrus, a chynnorthwyai y gwan. Bu ei eiriau caredig yn gymmhorth i lawer i ddyfal-barhau yn eu hymdrechion yn llwybrau dysg a gwybodaeth.

Uwch law y cwbl—yr oedd yn meddu ar gymmeriad crefyddol disglaer. Er iddo gael magwraeth grefyddol, bu yn hwy na llawer cyn ymaelodi yn yr eglwys, a gwneyd proffes o grefydd —yr oedd yn agos i chwech-ar-hugain oed. Nid ydym yn hysbys yn hanes ei dröedigaeth. Y mae gan bob dyn dychweledig ei hanes. Nid yw digwyddiadau hanes pob un mor gyffrous a'u gilydd; ond lle bynag y mae gwir dröedigaeth, y mae yno hanes pwysig a dyddorol. Ni chawsom gyfleusdra i ddeall hanes tröedigaeth Clwydfardd; ond yr oedd ganddo ei hanes, o blegid yr oedd efe wedi ei wir droi. Y mae y bywyd a ddilynodd am wyth-a-thrigain o flynyddoedd yn brawf o hyny. Cadwodd gymmeriad glân yn nghanol anfanteision a themtasiynau. Yr oedd ei fywyd symmudol ynglŷn â'i alwedigaeth yn dwyn anfanteision i'w ganlyn. Peth anhawdd ydyw byw yn dduwiol oddi cartref. Y mae yn anfantais i'r ymarferiadau crefyddol sydd yn bwysig i fywyd crefyddol. Yr oedd ei gyfathrach â llenorion a beirdd, yn yr amser gynt, yn ei osod yn nghanol temtasiynau. Y mae perthynas lled agos wedi bod rhwng athrylith ac afradlonedd. Nid oedd beirdd Cymru wedi bod yn rhy lân oddi wrth ymyfed, cyfeddach, a diota. Y mae yn wir fod diwygiad mawr wedi cymmeryd lle yn y blynyddoedd diweddaf; ond cyfeirio yr ydym at yr amser gynt. Y dafarn, yn fynych, oedd y man cyfarfod; ac uwch ben y gwydryn yr arferid cymdeithasu; ond fe gadwodd Clwydfardd ei ddillad yn lân, er yn ymdroi yn mhlith y crochanau. Nid ydym yn gwybod iddo broffesu bod yn llwyr-ymwrthodwr erioed; ond yr oedd yn cadw ei hun o dan reolaeth gysson â'i grefydd yn mhob man—a hyny ar hyd ei oes. Nid yn unig cadwodd ei ddillad yn wŷnion; ond nid oedd 'diffyg olew ar ei ben.' Anrhydeddai ei grefydd yn mhob man. Yr oedd yr hanes a adroddwyd gan Mr. Marchant Williams ar ddydd ei angladd yn darawgar iawn; yr hwn a gafodd gan gyfaill o Lundain oedd yn aros yn yr un gwestty ag ef yn Mhwllheli am amser yr eisteddfod. Yr oedd Clwydfardd yn nghanol ei gydnabyddion, tra nad oedd y gŵr a ddywedai yr hanes ond dyeithr. Pan y daeth yn ddeg o'r gloch y nos, cododd Clwydfardd, a dywedodd ei fod yn arfer cadw dyledswydd gartref, a'i fod am wneyd hyny y noson hono yn ei ystafell wely; a bod i bwy bynag a ddymunai groesaw i fyned gydag ef. Aeth y boneddwr a adroddai yr hanes gydag ef y noson hono—a phob noson wedi hyny tra y buont yn aros yno. Fel hyn yr oedd Clwydfardd yn ffyddlawn i'w grefydd yn nghanol dadwrdd yr eisteddfod. Nid oedd mor drystfawr a llawer gyda'i grefydd; ond yr oedd yn ei byw yn mhob man. Prawf eglur o'i grefyddolder oedd ei nerth mewn gweddi. Yr oedd yn weddïo fel un wedi hen arfer gweddïo. Nid oedd y bregeth bob amser yn newydd; ond yr oedd y weddi yn dwyn nodweddion o newydd-deb yn wastad. Byddai yn siarad â Duw gyda'r gwyleidd-dra a'r gostyngeiddrwydd mwyaf; er hyny, yn siarad fel un yn ei gynnefin. Yr oedd yn byw llawer yn Ngair Duw. Ar un ymweliad âg ef yn ddiweddar, yr oedd yn eistedd wrth y bwrdd â'r Beibl o'i flaen; a dywedai, 'O hwn yr wyf yn sugno fy holl gysuron yn awr. Y mae yn werthfawrocach na'r aur, ac yn felusach na'r diliau mêl.' Ar ymweliad arall âg ef, dywedodd, 'Yr wyf yn llygru i gyd. Y mae fy ngolwg yn llygru, fy nghlyw yn llygru, fy aelodau yn llygru; ond y mae Gair Duw yn aros yn dragywydd.' Ar ymweliad gweinidog y lle âg ef cynnygiai gynnal addoliad gydag ef; ac meddai yntau, 'Ië, os gwelwch yn dda. Y mae Gair Duw a gweddi yn aros yn eu blâs o hyd.' Yr oedd am gael byw yn ei ddyddiau olaf—ond am gael byw i bregethu ei Grist bendigedig. Canmolai mor dda ydoedd wrtho, a'i fod yn werth ei ganmawl, a dyweyd yn dda am dano. Yr oedd fel pe yn aros yn nghwmni ei hen gyfeillion crefyddol tra yn aros yr ochr yma. Siaradai am ei briod, a'i chwaer, ac eraill, fel pe byddai ar y pryd yn eu cymdeithas. Nis gellir esbonio y gyfrinach. Nid oes neb a all ddyweyd pa mor agos i deulu Duw ydyw y byd ysbrydol o dan y fath amgylchiadau. Llithrodd ymaith mewn cwsg esmwyth ac ysgafn. Ni bu farw—eithr huno y mae. O! ddiwedd dedwydd! Cwsg yn dawel, hen gyfaill! Yr oeddit yn fawr gyda dynion ar y ddaear. 'Gwŷr bucheddol' a ddilynasant dy weddillion marwol i dŷ'r bedd. Bu gwreng a boneddig, yr anllythyrenog a'r dysgedig, llen a lleyg, yn amgylchu dy fedd, ac yn ei gyssegru â'u dagrau; ond yn fwy na hyn, yr oeddit, ac yr ydwyt yn fawr yn nghyfrif Duw, a'r nef! Y mae engyl yn eu graddau, a saint coronog yn falch o'th gymdeithas; a bydd y nef yn fwy attynol i lawer am dy fod ti wedi cyrhaedd yno. Fel y dywedai yr hybarch Gwalchmai, yr wyt erbyn hyn yn cael

'Gorsedd y ne', yn lle maen llôg.'

GWALCHMAI, Parch. HUMPHREY. Mab oedd efe i'r Parch. Edward Gwalchmai, o Lanwyddelan, yn sir Drefaldwyn, lle y ganwyd ef yn y fl. 1788. Yr oedd, fel ei dad, yn bregethwr

Digitized by Google

adnabyddus a chymmeradwy gyda'r Methodistiaid Calvinaidd. Bu yn llafurio gyda graddau helaeth o lwyddiant yn Llanidloes am ysbaid o ddeng mlynedd ar hugain. Yn 1842, symmudodd i Groesoswallt. Yr oedd efe ar y pryd yn golygu ac yn cyhoeddi cylchgrawn buddiol o'r enw *Yr Athraw*. Heb law ei fod yn bregethwr da, yr oedd H. Gwalchmai yn ŵr o gymmeriad uchel, hawddgar, llariaidd, a charedig; fel y daeth yn boblogaidd, nid yn unig yn ei enwad ei hun, ond hefyd gyda'r enwadau eraill yn holl ardaloedd Croesoswallt. Llafuriodd yn ddifefl yn ngwinllan ei Arglwydd; ac nid arbedodd ei gorph gwael ei hun, os gallai mewn un modd gario y newyddion da i gyrau pelledig ac anghysbell ei wlad. Bu farw Mawrth 29ain, 1847, yn 59ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn ymyl capel Yr Adfa, yn Llanwyddelan. Yr oedd ammod wedi ei wneyd rhyngddo a'r Parch. Richard Jones o Lanfair, er's blynyddoedd, fod yr hwn a fyddai byw hwyaf i bregethu yn angladd y llall; a chyflawnwyd hi gan Richard Jones.

GWALLAWG AB LLENAWG. Penaeth ar ran o Bowys yn y chweched ganrif oedd efe. Dywedir yn y *Trioedd* ei fod ef, Dunawd Fflur, a Chynfelyn Drwsgl, yn enwog o herwydd eu medrusrwydd i ddosbarthu ac iawn drefnu milwyr i frwydr. Yn hyn, dywedir nad oedd neb yn debyg iddynt; a gelwid hwy am hyny yn 'dri phost câd-ynys Prydain.' Rhestrid ef hefyd gyda Selyf ab Cynan, ac Afaon ab Taliesin, fel 'tri aerfeddawg Ynys Prydain,' am iddynt ddial eu cam o'u beddau. Yr oedd efe hefyd yn un o dri brenin y Gogledd, a ymunasant âg Urien Rheged i wrthwynebu olynwyr Ida. Yn y *Brutiau Cymreig*, dywedir ei fod yn bresennol ar yr achlysur o goroniad Arthur; ac iddo gael ei ladd yn y frwydr ddiweddaf a fu rhwng y penadur hwnw a gwŷr Rhufain. Yn ol *Englynion y Beddau*, claddwyd ef ar lan yr afon Carrog, yn Arfon.

GWAWL:—ferch i Coed Coedhebawg, oedd yn dywysoges, yn byw yn nechreu y bedwaredd ganrif. Hi oedd gwraig Edeyrn ab Padarn Beisrudd, a mam Cunedda Wledig.

GWAWRDDYDD, neu GWENDDYDD, oedd ferch Brychan, gwraig Cadell Deyrnllwng, a mam Cyngen Sant. Claddwyd hi yn Nhywyn Meirionydd.

GWEIRYDD AB OWAIN, oedd bendefig o Forganwg, a laddwyd yn y fl. 873, tra yn ymladd yn mhlaid Rhodri Fawr, yn erbyn y Saeson, yn Môn.

GWENDDOLEN:—yn ol y *Brutiau*, oedd yn ferch i Corineus, a gwraig Locrinius, ail frenin Prydain. Ymadawodd Locrinius â hi, a chymmerodd Essyllt, merch i frenin yr Almaen, yn wraig yn ei lle. Ymneillduodd Gwenddolen i Gernyw, lle y casglodd fyddin, ac yr ymosododd ar lu ei gŵr. Lladdwyd Locrinius, a chymmerodd lywodraethiad y deyrnas i'w llaw ei hun. Parodd foddi Essyllt, a'i merch, yn yr afon Hafren. Wedi teyrnasu am ddeuddeng mlynedd, hi a gyflwynodd yr orsedd i'w mab, Madog.

GWENDDOLEN AB CEIDIO AB GARTHWYS:—oedd benaeth galluog yn Ngogledd Prydain yn y chweched ganrif. Rhestrir ef, gyda Chynfar ac Urien, yn y *Trioedd*, fel 'tri tharw câd Ynys Prydain;' a rhestrir ei deulu, hefyd, gyda'r eiddo Cadwallawn ab Cadfan, a Gafran ab Aeddan, fel 'tri theulu diwair.' Lladdwyd ef yn mrwydr Arderydd yn y fl. 577. Ei eiddo ef oedd y 'ddau aderyn llychwyn' y sonir am danynt yn hanes yr hen Gymry. Efe oedd noddwr Myrddin Fardd; a chafodd ei addysgu yn egwyddorion Cristionogaeth yn Ngh°oleg Illtyd.

GWENFRON:—merch Tudwal Tudclyd; yr hon, gyda Tegwyl a Thegan Eurfron, a restrir fel 'tair diweir-ferch Ynys Prydain.'

GWENHWYFACH. Un o wragedd Arthur; yr hon a roddodd un o'r 'tair engir balfawd,' trwy daro Gwenhwyfar; yr hon a barodd Gad Gamlan. Y ddwy balfawd eraill a roddwyd gan Matholwch a Golyddan.

GWENHWYFAR. Yn ol y *Brutiau*, bu gan Arthur dair gwraig ar yr enw hwn. Y gyntaf oedd ferch i Gwythyr ab Greidiol, o Ogledd Prydain; yr hon a ffoes ymaith gyda Melwas. Yr ail oedd ferch i Cawryd Ceint: a'r drydedd oedd ferch i Gogyrfan Gawr—penaeth o Bowys. Dïorseddwyd y Wenhwyfar hon gan Fedrawd, yn absennoldeb Arthur, ar annogaeth Gwenhwyfach. Dywedir i Gwenhwyfach ddigio wrth Gwenhwyfar ynghylch dwy gneuen, ac iddi roddi 'engir balfawd,' neu fonclust, iddi. Yr helynt dibwys hwn rhwng y ddwy hyn fu yn yr achos o Gad Gamlan. Pan godwyd esgyrn Gwenhwyfar, gyda'r eiddo Arthur, yn Ynys Wydd-ddrain, yn 1175, dywedir fod ei gwallt yn 'brydferth a melynlliw.' Ysgrifenodd rhamantwyr y canol-oesoedd lawer am dani; a chanddynt hwy, gelwid hi wrth wahanol enwau; sef, Guinever, Guenever, Guinevere, Geneura, Genievre, a Genevra.

GWENLLIANT: merch Gruffydd ab Cynan, a gwraig Gruffydd ab Rhys, tywysog y deheubarth yn nechreu y ddeuddegfed ganrif. Tra yr oedd ei phriod yn Ngwynedd, tua'r fl. 1135, arweiniodd Gwenlliant ei byddin allan yn erbyn y Normaniaid. Ond er cymmaint ei gwroldeb, gorchfygwyd hi gan y gelynion, y rhai oedd dan arweiniad Maurice de Londres. Ymladdwyd y frwydr ger llaw Cydweli. Lladdwyd Morgan, un o feibion Gwenlliant; a chymmerwyd Maelgwyn, y mab arall, yn garcharor. Dïenyddiwyd hithau ar orchymyn ei gorthrechwr ystyfnig. Nid hir iawn, modd bynag, y bu y Cymry cyn dïal y cam ofnadwy hwn, trwy wneuthur difrod mawr yn mysg y Normaniaid. Gweler yr hanes yn yr erthyglau ar Owain Gwynedd, Cadwaladr, a phenaethiaid dewrion eraill.

GWENWYNWN AB NAF. Rhestrir ef, gyda Geraint ab Erbin, a March ab Meirchion, yn 'dri llyngesawg Ynys Prydain.'

GWENWYNWN AB OWAIN GYFEILIOG. Yr oedd efe yn olynydd ei dad i dywysogaeth Powys Uchaf yn y fl. 1197; mewn canlyniad i'r hyn y dechreuwyd galw y wlad yn Bowys Gwenwynwyn. O blegid y mân ysgarmesoedd a ffynent ar y pryd rhwng arglwyddi y cyffiniau a'u gelynion, yr oedd gorsedd Gwenwynwyn yn hynod o ansefydlog ac ansicr. Ar

Digitized by Google

brydiau, byddai efe mewn cynghrair â'r Saeson: ar brydiau eraill, cynnorthwyai y tywysogion yn eu hamddiffyniad o'u hiawnderau. Yn y fl. 1203, gorfodwyd ef i ymostwng i Llywelyn ab Iorwerth, Tywysog Cymru; ond ar ei fynediad i'r Amwythig, yn lled fuan ar ol hyny, i ymgynghori âg arglwyddi y cyffiniau, cymmerwyd ef yn garcharor gan y Saeson; a bu raid iddo ddyfod yn gaeth-ddeiliad iddynt hwy. Yn y cyfamser, anrheithiwyd ei wlad, a chymmerwyd ei gestyll gan Llywelyn. Yn 1211, ymunodd â'r brenin Ioan mewn ymgyrch yn erbyn Gwynedd; ond yn y flwyddyn ganlynol, efe a ddaeth i heddwch â Llywelyn. Yn 1215, ymunodd eilwaith â'r brenin; ond anrheithiodd Llywelyn ei diroedd eilwaith, a gorfu iddo ffoi am nodded at Iarll Caerlleon. Yr oedd efe yn un o dywysogion mwyaf ansefydlog ei oes. Rhoddodd ddarn o dir ar lan yr afon Fyrnwy, yn sir Drefaldwyn, yn waddol i fynachod Ystrad Marchell. Yr oedd efe yn fardd lled alluog; a dywedir fod rhai o'i gyfansoddiadau ar gael etto. Ei olynydd ar yr orsedd oedd ei fab, Gruffydd.

GWENWYS O BOWYS. Yr oedd efe yn benaeth ar un o bum costoglwyth Cymru. Y lleill oeddynt— Blaidd Rhudd, Adda Fawr, Heilyn, ac Alo.

GWERFYL. Gwraig i Dafydd Llwyd ab Llywelyn, o Fathafarn, oedd hi:—yr hon, pan welodd ei gŵr yn petruso rhoddi attebiad i Iarll Richmond, pan ymgynghorodd efe âg ef pa un a fuasai efe yn ennill brwydr Bosworth, a roddodd iddo y cyfarwyddyd hwn:—'Beth! tydi yn fardd, ac yn frudiwr, ac yn brophwyd —ac etto yn methu atteb cwestiwn fel hwna! Dywed wrth yr iarll yn bendant y bydd iddo ennill. Ac os mai felly y bydd, daw dy enw yn anrhydeddus; ond os fel arall, ni raid i ti byth ofni y daw efe yn ol yma o ddwylaw Dic Gefngrwm i dy gospi di am fod yn gau brophwyd.' Dyma a roddodd fod i'r ddiareb hon, 'Cynghor gwraig heb ei ofyn.'

GWERFYL. Merch Hywel Fychan oedd hi; a gelwir hi yn gyffredin wrth ei henw, Gwerfyl Mechain. Yr oedd hi yn farddones enwog, ac yn byw rhwng y bl. 1460 a 1490. Y mae peth o'i gwaith ar gael mewn llawysgrifen.

GWERFYL HAEL. Merch Madog o Abertanad, a gwraig i Rhys ab Dafydd ab Hywel. Yr oedd hi yn foneddiges o enwogrwydd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn ei farwnad rhagorol iddi, dywed Lewis Glyn Cothi y dylasai hi gael ei chanoneiddio. Preswyliai yn Mhlas Llan-y-blodwel, yn sir Drefaldwyn; ac yr oedd hi yn fam, o'i gŵr cyntaf, i amryw o blant a ddaethant wedi hyny yn sylfaenwyr rhai o brif deuluoedd y wlad. Yn mysg y rhai hyn, gellir nodi y Salisbriaid, o Rug a Lleweni; Pugh, o Mathafarn; Pryse, o Gogerddan; a'r Wynniaid, o Wynnstay.

GWERNEN. Mab Clydno, a bardd yn ei flodau rhwng 1270 a 1320. Ceir amryw englynion o'i waith yn y *Myvyrian Archaiology.*

GWERYSTAN. Un o feibion Gwaithfoed Fawr, yn y ddegfed ganrif. Derbyniodd ran o Bowys fel treftadaeth.

GWESYN. Crybwyllir am dano yn y *Trioedd* fel defeidydd gorsedd Goronwy ab Ednywain, brenin Tegengl a Rhufoniog. Rhifai y defaid oedd dan ei ofal chwech ugain mil; ac o dano yr oedd tri chant o feibion eillion.

GWGAN AB MORYDD AB LLYWARCH. Tywysog Ceredigion: yr hwn, yn 870, a foddwyd yn afon Llwchwr, yn Ngŵyr, tra yn gyru y Daniaid o'i flaen o'r wlad.

GWGAN BRYDYDD. Bardd oedd yn ei flodau rhwng 1190 a 1240 oedd efe. Y mae englynion a wnaeth i Llywelyn ab Iorwerth yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology.*

GWGAN GLEDDYFRUDD, yw yr hwn a restrir gyda Madawg ab Rhun, a Gwion ab Cyndrwyn, fel 'tri ysgynnydd aerau.'

GWGAWN GWRON. Mab oedd i Peredur ab Elifer Gosgorddfawr—yr hwn, gyda Monawydan ab Llyr, a Llywarch Hen, oedd y 'tri lleddf unben.'

GWGAWN LLAW-GADARN. Yn ol y *Trioedd*, yr oedd efe yn un o wŷr cryfion Ynys Prydain. Y ddau eraill oeddynt Gwrnerth Ergydlym, ac Eidiol Gadarn; a gelwir hwy yn 'dri gyrddion Ynys Prydain. Prif orchest nerth Gwgawn oedd 'treiglo maen maenarch o'r Glyn i ben y mynydd; ac nid oedd dim llai na thrigain ych a'i tynai.'

GWIAWN AB CYNDRWYN:—Tywysog Powys. Efe, gyda dau arall, a gofnodir yn y *Trioedd* fel 'y tri gwyliwr' yn mrwydr Bangor, yn y fl. 607.

GWILYM DDU O ARFON. Bardd lled enwog oedd efe, yn byw rhwng 1280 a 1320. Ceir tri chyfansoddiad o'i waith yn y *Myvyrian Archaiology*—dau o honynt wedi eu hanerch i Syr Gruffydd Llwyd, tra yr oedd y gwron hwnw yn ngharchar.

GWILYM TEW. Yr oedd dau fardd yn dwyn yr enw hwn. Y cyntaf ydoedd Gwilym Tew o Dir Iarll; yr hwn oedd fardd gorsedd Morganwg yn 1460, ac oedd yn bresennol yn Eisteddfod Caerfyrddin yn 1441; yn yr hon y barnwyd ef a Dafydd Nanmor yn oreu eu hawen. Y llall oedd William Moses, o Ferthyr Tydfil, yr hwn a alwai ei hun yn Gwilym Tew, ac a gyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth yn nechreu y ganrif bresennol.

GWINN, ROBERT. Cymro, a addysgwyd yn Rhydychain, oedd efe, ac a raddiodd yno yn 1568. Yn ddilynol, aeth i Goleg Douay, lle y daeth yn enwog fel duwinydd. Ymsefydlodd yn Nghymru fel clerigwr lleygol, lle y dywedir iddo ysgrifenu amryw o lyfrau Cymraeg.

GWLADUS. Merch neu ŵyres i Brychan Brycheiniog oedd hi. Gwraig Gwynlliw Filwr, a mam Cattwg Sant.

GWLADYS. Gwel CLAUDIA.

GWLADUS DDU. Merch hynaf Llywelyn ab Iorwerth, o Dangwystl, oedd hi. Priododd Reginald de Breos, Arglwydd Brycheiniog ac

Digitized by Google

Abergafenni: yr hwn, yn ol Theophilus Jones, a fu farw yn 1128, ac a gladdwyd yn mhriordy eglwys Aberhonddu. Ei hail ŵr oedd Ralph Mortimer, arglwydd Maelienydd, yn sir Faesyfed; ac o'r briodas hono y ganwyd Roger Mortimer, ac y rhedodd y gwaed Cymraeg i wythïenau teulu brenhinol Lloegr.

GWODLOYW, neu GWYDDLON, oedd fab i Glewys Cernyw ab Gwynlliw Filwr, a blodeuodd yn y chweched ganrif. Bernir iddo fod unwaith yn athraw yn Ngholeg Cattwg; ac yna yn Esgob Llandaf. Dywed eraill, fod yr hanes olaf yn ddi-sail, gan fod y gŵr o'r un enw fu yn Esgob Llandaf yn byw gryn amser ar ol ei ddyddiau ef.

GWRGANT AB ITHEL. Tywysog Morganwg, o 994 hyd 1030. Dywed Caradog, o Lancarfan, am dano ei fod yn dywysog doeth a heddychol, ac yn haelfrydig neillduol wrth y tlodion. Canmolir ef yn fawr hefyd o herwydd ei wladlywiaeth.

GWRGANT AB RHYS AB IESTYN. Pendefig yn Neheubarth Cymru oedd efe; ac ystyriwyd ef yn un o feirdd goreu a mwyaf dysgedig ei oes. Yr oedd efe yn byw yn y ddeuddegfed ganrif. Yn 1156, lladdwyd ef gan Ifor ab Meirig, o Senghenydd: ond dïalwyd y weithred gan Morgan ab Owain, trwy iddo ladd Ifor.

GWRGANT FARFDRWCH. Efe ydoedd olynydd ei dad, Beli ab Dyfnwal, ar orsedd Prydain yn y bedwaredd ganrif Cyn Cred. Yn ystod ei deyrnasiad, yr hon a barhaodd am bedair blynedd ar ddeg, bu mewn rhyfel â Norway a Denmarc; ond cariodd y frwydr yn mlaen i derfyniad llwyddiannus. Rhoddodd diroedd yn yr Iwerddon i'r Gwyddelod; y rhai sydd hyd heddyw yn parhau yn meddiant eu hiliogaeth.

GWRGI AB ELIFER. Cofnodir ef yn y *Trioedd* fel un o'r 'tri gwyn dorllwyth,' ac un o'r 'tri anniwair deulu.' Gelwir ef wrth yr enw cyntaf, am iddo ef, a'i frawd Peredur, a'i chwaer Ceindrech, gael eu geni ar yr un pryd. Yr oedd Peredur ac yntau yn aelodau o Goleg Illtyd.

GWRGI GARLWYD. Rhestrir ef, gyda Medrawd ac Aeddan, fel 'tri charnfradwyr Ynys Prydain,' am iddynt fod yn achos o drosglwyddiad y frenhiniaeth i'r Saeson. Rhoddwyd iddo y cymmeriad o fod yn ddyn-fwytäwr ysgeler. Ac i'r dyben o foddhau ei chwaeth bwystfilaidd, lladratäai blant, yn wryw ac yn fenyw, o genedl y Cymry; a lladdai un o honynt bob dydd, a dau ar y Sadwrn. Priododd chwaer i Edelffled, brenin y Saeson. Lladdwyd yntau, o'r diwedd, gan Ddeffidel, neu Diffedell.

GWRHAI. Sant oedd efe, yn byw yn y chweched ganrif; a mab i Caw. Yr oedd yn aelod o Goleg Deiniol, ac yn sefydlydd eglwys Penystrywŵod, yn sir Drefaldwyn.

GWRHIR. Bardd i Teilo Sant, ac aelod o Goleg Cattwg. Yr oedd yn ei flodau yn y chweched ganrif. Enwir ef gyda Thydain, a Menw, fel 'tri phrif ddysgawdwyr.'

GWRHIR GWARTHEGFRAS. Enwir ef yn y *Mabinogion* fel un o'r dewrion yn Llys Arthur.

GWRHIR GWASTAD IEITHOEDD. Un arall o gymmeriadau y *Mabinogion* oedd efe. Gwel y *Myvyrian Archaiology*.

GWRIAD. Bardd Rhodri Mawr oedd efe; a lladdwyd ef, gyda'i frawd, gan y Saeson yn Môn, o gylch y fl. 873.

GWRIAD AB GWRIEN. Yr oedd efe yn byw yn Ngogledd Prydain. Tywysog o darddiad estronol oedd efe. Lladdwyd ef yn mrwydr Cattraeth.

GWRNERTH ERGYDLYM. Un o'r 'tri gyrddion' oedd efe, a 'laddodd yr arth fwyaf a welwyd erioed â saeth wellten.' Y ddau eraill oedd Gwgan Law Gadarn ac Eidiol Law Gadarn.

GWRON AB CYNFARCH. Yr oedd efe yn fardd o fri, yn byw yn y chweched ganrif, ac yn un o dri chyntefigion beirdd Ynys Prydain. Y ddau arall oedd Plenydd ac Alawn. Hwy, meddir, oedd y personau a ddychymygasant y breiniau a'r defodau sydd ar feirdd a barddoniaeth.

GWRTHEFYR. Gelwir ef gan Sieffre, o Fynwy, yn 'Wortiporius.' Yr oedd efe yn ddilynydd i Cynan Wledig ar orsedd Prydain. Llwyddodd i derfynu gwrthryfel y Sacsoniaid. Teyrnasodd bedair blynedd, a dilynwyd ef gan Maelgwyn Gwynedd.

GWRTHMWL WLEDIG:—oedd dywysog y Brytaniaid Gogleddol tua chanol y chweched ganrif. Rhestrir ef, gyda Maelgwyn Gwynedd a Charadog Freichfras, fel 'tri phen hynaif y lleithig llwyth.'

GWRTHWL. Sylfaenydd eglwys Llanwrthwl, yn sir Frycheiniog; a Maes-llanwrthyl, yn Nghaio, yn sir Gaerfyrddin.

GWRWST. Olynydd Rhiwallawn, ei dad, ar orsedd Prydain, Cyn Cred.

GWRWST. Olynydd Clydno ar orsedd Prydain, Cyn Cred. Ei olynydd ef oedd Meiriawn.

GWYAR. Tad Gwalchmai. Penaeth oedd yn byw yn niwedd y bummed ganrif.

GWYDYR. Yr oedd efe yn fab i Cynfelyn; ac yn ol y *Brutiau*, yn olynydd ei dad ar orsedd Prydain. O herwydd iddo wrthod talu teyrnged i Rufain, daeth Claudius Cæsar drosodd i'r ynys hon gyda llu mawr. Brad-lofruddiwyd Gwydyr gan Rufeinwr, o'r enw Hamon.

GWYDDFARCH. Mab i Amalarus, brenin Pwyl, oedd efe. Sefydlodd dair eglwys, a safent gynt yn Meifod, yn sir Drefaldwyn. Dangosir ei wely mewn craig ar un o'r clogwyni cyfagos.

GWYDDON GANHEBON. Yn ol y *Trioedd*, efe a 'wnaeth Gerdd Dafawd gyntaf o'r

Digitized by Google

byd.' Yr oedd yn gerddor gwych, ac yn ŵr o wybodaeth ëang mewn cyfeiriadau eraill.

GEDDES, JENNY. Gwraig gyffredin oedd hi. Daeth ei henw i fod yn boblogaidd ac yn barchus—a phery felly yn hir—o herwydd mai hi a roddodd gychwyniad i'r gwrthdystiad terfysglyd a wnaed yn erbyn y defnyddiad, yn Eglwys Ysgotland, o'r *Llyfr-Gwasanaeth* a barotowyd gan yr Archesgob Laud. Cymmerodd hyn le yn y fl. 1637. Y diwrnod y pennodwyd arno gan yr awdurdodau i ddwyn y llyfr hwn i mewn i'r gwasanaeth oedd Sabbath, y 23ain o Orphenaf; a daeth cynnulliad anferth o bobl yn nghyd i Brif Eglwys St. Giles, yn Edinburgh, ar yr achlysur. Digwyddodd yr amgylchiadau yn debyg i hyn:—Pan ddechreuodd y Deon Hanna ddarllen y Colect am y dydd, cododd Jenny Geddes yn y fan, yr hon a gadwai 'stondin' i werthu ffrwythydd yn High street, a thaflodd ei hystol at ei ben, gan floeddio—'*Deil colic the wame o' thee! Out, thou false thief! Dost thou say mass at my lug?*' Yn Gymraeg y mae yn debyg fel y canlyn:—'Rhoed y diafol golic yn dy berfedd di! Allan â thi, y lleidr twyllodrus! A wyt ti yn adrodd yr offeren yn erbyn fy nghorph i?' Fel y gallesid disgwyl, torodd allan yn gyffro ar unwaith; a bu raid i'r deon, a'r esgob (David Lindsay) ddiangc am eu bywyd rhag cynddaredd y dorf! Bu y cyffrawd uchod yn derfyn i'r ffurf wasanaeth uchod yn Eglwys Ysgotland. Mewn traddodiad, gan mwyaf, y mae hanes gwrhydri Jenny Geddes wedi ei gadw yn fyw hyd yma; ond y mae y traddodiad yn ymddangos yn gywir; ac y mae yn cael ei adrodd gan Sydserf mor foreu a'r fl. 1661—yr hyn nad oedd ond pedair blynedd ar hugain ar ol i'r digwyddiad hynod gymmeryd lle. Crybwylla am dani fel 'yr anfarwol Jenny Geddes, tywysoges anturiaethwyr Trone,' pan y mae efe yn cyfeirio ati fel un a losgodd ei '*leather chair of state*' wrth Goelcerthi yr Adferiad. Ymddengys y chwedl hefyd gyda'r enw, a llawnach o fanylion, yn y *Continuation of Baker's Chronicle*, o waith Phillips, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1660. Gwnaed ymgais i osod y bri a berthyn i Jenny Geddes ynglŷn â'r digwyddiad hwn i un Barbara Hamilton, neu Mein; ond er hyn oll, y mae Geddes yn cadw ei lle yn mysg rhestr gwŷr a gwragedd enwog Ysgotland. Y mae ystôl Jenny Geddes yn cael ei chadw yn Nghreirfa yr Hynafiaethwyr yn Edinburgh; ac y mae yn sicr fod llawer o'r ymwelwyr â'r sefydliad hwnw yn mwynhau yr olwg ar yr ystôl a barodd i weision yr Archesgob Laud ffoi, ac a'i gwnaeth yn ammhossibl i ddwyn y ffurfwasanaeth hwn i Eglwys Ysgotland.

GEE, ROBERT, M.D., Liverpool. Mab oedd efe i'r diweddar Mr. Thomas Gee, a brawd i berchenog presennol y swyddfa. Ganwyd ef yn Ninbych, Ionawr 20fed, 1819; a bu yn ymbarotoi at ei waith fel meddyg yn Llundain, Edinburgh, Paris, a Heidelberg. Ar y cyntaf, ymsefydlodd yn y Wyddgrug; a thra yno, priododd Miss Hayward, o Wrecsam. Yna, symmudodd i Liverpool, yn y fl. 1846. Bu am flynyddoedd yn un o feddygon y Tlotty yn Brownlow Hill; ond rhoddodd ei le yno i fyny, er mwyn cychwyn ar ei gyfrifoldeb ei hun. Ac fel hyn yr ysgrifenodd cyfaill am dano:—

'Buan iawn yr ennillodd ymddiried llawer o deuluoedd parchusaf y dref, a'i hamgylchoedd. Yr oedd ganddo wybodaeth helaeth a manwl, yn neillduol am glefydau heintus; a chydnabyddid ef yn awdurdod gan feddygon y dref yn y gangen bwysig hon. Dichon na ddigwyddodd dim yn ei hanes a'i dygodd i fwy o sylw na'i waith yn y Tlotty, yn 1853, yn ystod yr haint ofnadwy—y *cholera*—a ddinystriodd gynnifer o fywydau yn y flwyddyn hono. Pan lenwid y wardiaid â rhai yn dioddef o dan yr haint, ac y bu raid gwneuthur darpariaeth arbenig ar gyfer y rhai nas gellid eu cymmeryd i mewn, dangosodd yn y sefyllfa bwysig yr oedd efe ynddi wroldeb a medr nad anghofiwyd byth gan y rhai oeddynt dystion o'i waith. Efe oedd y prif symmudydd i sefydlu y *Fever Hospital* yn Netherfield Road; a pharhaodd yn *consulting physician* i'r sefydliad hwnw hyd ddiwedd ei oes. Llanwodd yr un swydd yn y *Consumption Hospital*. Ystyrid ef yn *specialist* gyda golwg ar anhwylderau plant. Bu yn ddarlithydd yn y *Liverpool School of Medicine* am flynyddoedd ar y rhai hyn, yn gystal ag ar byngciau meddygol eraill. Ysgrifenodd rhai papyrau pwysig —*Quinine in Fever, Lancet*, 1853; *A Report on the Epidemic of Cholera in Liverpool, in* 1853; *Report on Continued Fever* (*Liverpool Medical Journal*), &c.: a chydnabyddid ef yn awdurdod ar *Medical Jurisprudence*. Yn ei flynyddoedd olaf, efe a ymneillduodd i fesur helaeth o'i alwedigaeth; ond parhaodd hyd y diwedd i roddi cyfarwyddiadau meddygol rhâd ar ddyddiau neillduol o'r wythnos i dlodion a ddeuent ato. Fel meddyg, yr oedd yn fwy na meddyg—yn gynghorwr, yn gyfaill, ac yn dad i'r rhai fyddent dan ei ofal.

'Yr oedd yn Rhyddfrydwr cadarn; a bu am ddeunaw mlynedd yn gadeirydd i bwyllgor rhyddfrydig Ward Abercromby; ac ar ei ymneillduad o'r swydd, cyflwynwyd i Mrs. Gee ddarlun o hono, wedi ei baentio gan Mr. R. E. Morrison. Bu yn ynad heddwch yn Liverpool am nifer o flynyddoedd, a chyflawnodd ei ddyledswyddau gydag ymroddiad a medr a barai i'w gyd-ynadon edrych arno gydag edmygedd gwirioneddol.

'Ond wedi y cwbl, yn ei gyssylltiadau crefyddol y llanwodd y lle mwyaf. Bu yn aelod o eglwys y Methodistiaid yn Mulberry street o'i ddyfodiad cyntaf i'r dref; ac yn 1863, dewiswyd ef yn flaenor yn yr eglwys—yr hon oedd erbyn hyny wedi symmud i Chatham street. Efe oedd llywydd y cyfarfod misol yn 1884; a bu am wyth mlynedd ar hugain yn un o'i aelodau mwyaf ffyddlawn a gwerthfawr. Bu yn aelod o gyfeisteddfod gweithiol y Genhadaeth Dramor, ac yn gyfarwyddwr meddygol iddi—gan wneuthur pob gwasanaeth yn rhâd, o'r fl. 1848 hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd yn aelod o'r Gynnadledd Genhadol bwysig a gynnaliwyd yn Liverpool yn 1860; a bu yn nodedig o ffyddlawn i waith cenhadol yn y dref. Am flynyddoedd lawer, wedi gorphen y gwasanaeth yn Chatham street, elai i'r Gweithdy (*Workhouse*), i gynnal gwasanaeth crefyddol gyda'r tlodion; ac ar ol ei appwyntiad fel ynad, gwnai yr un peth yn y *Bridewell* yn mysg y troseddwyr. Efe fu y prif offeryn i gychwyn amryw symmudiadau pwysig yn y cyfundeb. Un o'r rhai hyn ydoedd Undeb Canu Cynnulleidfaol Liverpool a'r amgylchoedd; ac efe oedd llywydd yr Undeb o'i gychwyniad. Ac yn nghylchlythyr Cymdeithasfa Croesoswallt, ar Ebrill 1868, pan gychwynwyd Trysorfa y Gweinidogion, ceir y



Digitized by Google

cofnodiad canlynol:—'Pennodwyd Dr. Gee, o Liverpool, cychwynydd yr ysgogiad presennol, yn drysorydd;' a llanwodd y swydd hono hyd derfyn ei oes. Bu farw yn dra disymmwth, yn Llandudno, foreu y dydd cyntaf o Ionawr, 1891, yn 72ain mlwydd oed.

'Dyn o ddiwylliant dwfn ac ëang oedd efe; ac yr oedd yn meddu yn ei gymmeriad gyfuniad prydferth o'r amrywiol rinweddau sydd yn nghrefydd Crist, ac yn byw bob amser mewn tangnefedd heddychol—yn mhell o gyrhaedd ofnau ac ammheuon. Ni bu erioed aelwyd ddedwyddach a phurach na'r eiddo ef, a'i briod hawddgar. Er yn Gymro twym-galon, yr oedd yn adnabyddus ac yn barchus yn ngolwg pob cenedl yn y ddinas; a bydd ei goffadwriaeth yn hir yn fendigedig yn mysg miloedd.'

GEE, THOMAS, o Ddinbych. 'O'r braidd y mae yn angenrheidiol cyssylltu lle â'r enw hwn, am fod y cyssylltiad mor adnabyddus'—meddai y gŵr a ysgrifenodd rhan fawr o'r erthygl hon, oedd yn adnabod y gwrthddrych yn dda, gan ei fod wedi bod am amryw flynyddoedd yn y swyddfa. 'Y mae yr hen dref a'r ardal yn adnabyddus hefyd fel lle genedigol Syr Hugh Myddleton, Caledfryn, Stanley, a llu o enwogion eraill. Ond dealler nad y Mr. Thomas Gee sydd yn fyw yn awr, ond ei dad, yw gwrthddrych y sylwadau hyn; yr hwn y cefais y fraint o'i adnabod, a dal cyssylltiad âg ef, pan yn fachgen ieuangc, hanner can mlynedd yn ol.

'Tueddwyd fi i wneyd y cofnodion hyn yn y dybiaeth y byddant yn ddyddorol, o leiaf i bawb sydd yn ddyledus i'r '*Clwydian Press;*' sef, yr enw wrth ba un yr adnabyddid gwasg gynnyrchiol Dinbych yn y dyddiau gynt—a chan gredu, hefyd, y gallant fod o wasanaeth i ryw haneswyr Cymreig yn y dyfodol.'

Ganwyd y diweddar Mr. Gee yn ninas Caerlleon, yn y flwyddyn 1700, lle yr oedd gan ei dad nifer o dai, &c.; a daeth i Ruthyn yn y flwyddyn 1808, i'r dyben o gymmeryd gofal y swyddfa argraphu yr oedd y Parch. Thomas Jones wedi penderfynu ei sefydlu yno. Yn y flwyddyn ganlynol (1809), symmudodd Mr. T. Jones i Ddinbych i fyw—a dilynwyd ef gan T. Gee, a'r wasg. Yr oedd Mr. Robert Saunderson wedi bod yn gwasanaethu ei amser fel egwyddor-was yn yr un swyddfa yn Nghaer; a Mr. J. Brown, meddiannydd y *North Wales Chronicle* gynt, hefyd; ond yr oedd Mr. Saunderson wedi dyfod i'r Bala tua'r flwyddyn 1803, i gymmeryd gofal swyddfa y Parch. Thomas Charles. Yr oedd Mr. Thomas Jones yn un o weinidogion enwocaf cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd yn ei ddydd, yn ŵr o alluoedd eithriadol, ac yn awdwr amryw lyfrau gwerthfawr. Argraphwyd rhai o honynt yn y Bala. Ond o herwydd anghyfleusderau y llythyrfa, a phethau eraill, yr hyn oedd yn llawer mwy ar ddechreu y ganrif hon nag ydynt yn awr, ac anffyddlondeb un o gyssodwyr y swyddfa hono yn dangos prawfleni un o lyfrau dadleuol Mr. Jones i'w wrthwynebydd cyn i'r llyfr gael ei gyhoeddi, penderfynodd sefydlu argraph-wasg ei hun, fyddai yn fwy cyfleus iddo, ac i ragflaenu anghysuron o'r fath mwy. Yn y swyddfa hon yr argraphwyd y rhan ddiweddaf o *Waith Gurnal*, fel yr adnabyddid ef flynyddoedd yn ol; sef, *Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth*—yr hwn oedd hoff lyfr crefyddwyr yr oes hono. Heb law amryw o lyfrau dadleuol eraill a ysgrifenodd Mr. Jones, yn y swyddfa hon yr argraphwyd *Hanes y Merthyron*—llyfr a wnaeth lawer iawn i egluro egwyddorion y Babaeth, ei harferion, ei hysbryd erledigaethus, a'r duwiolion a ferthyrwyd:—ac hefyd, egwyddorion Protestaniaeth, a'r Diwygwyr a godwyd gan Ragluniaeth yn y blynyddoedd cyffrous hyny. Derbyniodd Cymru lawer o fanteision oddi wrth gynnyrch y wasg hon.

Dyn o daldra ychydig îs na'r cyffredin oedd Mr. Gee. Yr oedd yn feddiannol ar gorph cryf a lluniaidd, llygaid gleision, gwynebpryd goleu a siriol, a thalcen llydan; a'i wallt can wyned a'r eira. Dywedai fod ei wallt wedi gwynu pan nad oedd efe ond tua phump-ar-hugain oed. Dichon mai effaith pryder meddwl oedd hyn i raddau pell, gan ei fod wedi colli ei dad pan nad oedd ond plentyn; a chollodd ei fam drachefn pan nad oedd ond llangc. Yr ydys wedi sôn am Mr. Saunderson, Mr. Brown, a Mr. Gee. Yr oedd y tri-wŷr mor debyg i'w gilydd mewn pryd, gwedd, a thaldra, fel y buasent yn cael eu cymmeryd fel brodyr, er nad oedd un berthynas rhyngddynt a'u gilydd. Parhaodd y teimladau goreu rhyngddynt tra buont byw; o herwydd y ffaith hon, i raddau, mae'n debyg—eu bod wedi treulio blynyddau yn yr un swyddfa, yn gyd-egwyddor-weision yn swyddfa Mr. William Collister Jones, yr hwn oedd argraphydd yr hen *Drysorfa Ysbrydol*—ar yr hon yr oedd Mr. Charles a Mr. Jones yn gydolygwyr arni. Dyddiad rhwymiad Thomas Gee, ac enw ei fam wrthi, oedd Ion. 14eg, 1796—can mlynedd yn ol. Y ffaith eu bod yn swyddfa yr hen *Drysorfa*, ac wedi gweithio arni, mae'n debyg, sydd yn rhoi cyfrif am ddyfodiad y ddau hyn i Gymru. Ychydig o argraphwyr oedd i'w cael y pryd hyny oedd wedi cael ymarferiad mewn swyddfeydd lle yr argrephid llyfrau Cymreig; ac yr oedd yr ychydig oedd wedi cael y fantais hono mewn cyssylltiadau eraill. Gan hyny, anfonodd Mr. Charles at Mr. Collister Jones i ymofyn gŵr i gymmeryd gofal swyddfa iddo ef yn y Bala; ac felly, daeth Mr. Saunderson i lawr yno at y gwaith. Anfonodd Mr. Jones, hefyd, gais cyffelyb i Gaer yn mhen blynyddoedd. Yr oedd Mr. Gee, erbyn hyny, wedi myned i Lundain; ond ar annogaeth ei hen feistr, daeth i gymmeryd gofal swyddfa Mr. Jones. Ar ol hyny, prynodd y ddau y swyddfeydd.

Yn y flwyddyn 1812, dilynodd T. Gee arferion dynion ieuaingc yn gyffredin; a phriododd Mary Foulkes, ail ferch Mr. Robert Foulkes, o'r Llawog; ar ol hyny o'r Hendrerwydd—dwy fferm a orweddant tua chanol Dyffryn Clwyd. Cymmerodd y briodas hon le yn mis Chwefror. Enw morwynig mam Miss Foulkes oedd Anne Williams; ac yr oedd hi yn chwaer i Dr. Edward Williams, o Rotherham; yr hwn oedd, flynyddoedd cyn hyny, yn gydysgolor â Mr. Jones yn Ysgol Rammadegol Caerwys; a pharhasant yn gyfeillion tra y buont byw. Yr oedd Mr. Jones a Mrs. Foulkes yn gyfeillion hefyd; ac yn fwy felly, fe allai, gan ei bod hithau, fel ei brawd Edward, wedi dioddef llawer oblegid iddi ymuno â'r Methodistiaid. O herwydd y cyssylltiadau hyn, byddai Miss Foulkes yn ymweled yn achlysurol â Mr. a Mrs. Jones; a thybir mai fel hyn y daeth hi a T. Gee i gyfarfod eu gilydd. Ganwyd iddynt saith o blant, Robert a William, y rhai a fuont feirw yn eu babandod; a Thomas, Sarah, Robert, Edward, a Mary Anne.

Digitized by Google

Eglwyswr oedd ein gwrthddrych pan ddaeth i Ddinbych, a pharhaodd felly am ugain mlynedd. Er hyny, byddai yn arfer myned, ar ol priodi, gyda'i wraig ar y nosweithiau i'r Capel Mawr, fel y gelwid capel y Methodistiaid; ac yn mhen blynyddoedd ymunodd y ddau â'r eglwys hono. Y cyntaf a ymunodd oedd y mab hynaf; ac yn o fewn mis yr oedd y teulu yno yn gyflawn.

Yr oedd efe wedi meistroli y Gymraeg yn lled dda yn fuan ar ol dyfod i Ddinbych—yn ddigon da i arolygu gwaith y swyddfa. A bu yn athraw yn yr Ysgol Sabbothol am flynyddoedd, er fod yn hawdd gwybod mai 'Sais wedi dysgu Cymraeg' ydoedd.

'Yr oedd efe yn hynod drefnus yn mhob peth a wnelai (meddai ein cyfaill); a fy syniad bachgenaidd i am ei wybodaeth, pan oeddwn yn egwyddor-was gydag ef, oedd, ei bod yn mron yn ddiderfyn; a chredwn y gallai efe wneyd, braidd, bob peth—oddi eithr siarad yn gyhoeddus. Am ei gymmeriad cyffredin ef, a Mrs. Gee, gellir dyweyd eu bod yn grefyddol cyn ymuno â'r eglwys; a'u cydymdeimlad yn gryf â phob symmudiad daionus. Yr oedd ganddynt barch mawr i weinidogion yr efengyl, a'u tŷ yn agored bob amser i'w derbyn—o bob enwad.

Yr oedd efe hefyd yn ffyddlawn bob amser i'w egwyddorion. Wedi iddo gael ei argyhoeddi unwaith ar unrhyw achos, nid oedd modd ei gymmodi â'r hyn a ymddangosai iddo ef yn ddrwg, na'i ddenu chwaith oddi wrth yr hyn a ystyriai oedd yn iawn. Yr oedd hefyd yn hynod gydwybodol gyda'i argraphwasg. Nid argraphai ddim y byddai ei gydwybod yn ei anghymmeradwyo; a theimlai lawenydd yn fynych wrth feddwl fod tuedd ddaionus yn yr holl lyfrau a gyhoeddodd. Yr oedd yn meddu ar deimladau hynod o dyner; ac nid anghofiai garedigrwydd na chymmwynas a dderbyniai. Yr wyf yn cofio, un tro, pan y gwnaed appeliad difrifol at ei deimladau a'i gydwybodolrwydd dan amgylchiadau hynod o anhawdd a dyrus. Yr oedd boneddwr yn preswylio yn y dref oedd yn Babydd—yr hwn oedd wedi dangos caredigrwydd iddo ar brydiau. Daeth ato un diwrnod, a gofynodd iddo argraphu llyfr yn Gymraeg oedd yn cynnwys syniadau Pabyddol. Yr oedd wedi ei gyfieithu yn barod; ac yr oedd ei bris iddo ef i'w gael am ei argraphu, pa faint bynag fyddai hyny. O ran ei deimladau, o herwydd caredigrwydd y boneddwr hwn, ni buasai eisieu gofyn iddo eilwaith; ac wrth ystyried fod ei blant yn ieuaingc, a phob peth, buasai cael argraphu llyfr o'r maintioli hwnw ar y pryd yn hynod fanteisiol iddo. Heb law hyny, gallasai, pe y gwrthodai, ddigio ei noddwr—a dyma oedd yn ei ofidio fwyaf. Yr wyf yn ei gofio, droion, y dyddiau hyny yn cerdded yr ystafell ol a blaen, ac yn adrodd ei deimlad, â'r dagrau yn llenwi ei lygaid. Yr oedd efe wedi penderfynu ar y cyntaf na chaffai ei swyddfa ef, beth bynag fyddai y canlyniadau, byth estyn cymmhorth i'r Babaeth. O hyn nid oedd hyd yn oed eiliw o ammheuaeth yn ei feddwl; ond pa fodd y gallasai wrthod heb ymddangos yn ddiystyr o gymmwynasau y boneddwr oedd yn ei ddyrysu. O'r diwedd, efe a benderfynodd ddilyn y llinell uniawn, a chyflawni ei ddyledswydd, a hysbysu yn eglur i'r boneddwr nas gallai o gydwybod argraphu y llyfr—gan adael y canlyniadau yn nwylaw yr hwn sydd yn goruwch-lywodraethu pob peth. A hyny a wnaeth efe. Cafodd drwy hyn gydwybod dawel: ac ni ddigwyddodd iddo unrhyw ganlyniadau annymunol o'r gwrthodiad. A chredwn fod Rhagluniaeth y Nef wedi rhoi prawfion amlwg iddo o'i chymmeradwyaeth o'i ymddygiad. Yr oedd mor ffyddlawn, hefyd, i'w egwyddorion mewn achosion cyhoeddus. Rhyddfrydwr ydoedd—a chyda'r blaid Ryddfrydig yr oedd efe bob amser i'w gael.

Nis gellid cael cyfaill ffyddlonach; ac yr oedd yn hynod garedig at y tlawd, y gwan, yr hen, yr anffodus, a'r profedigaethus. Yr oedd ei galon a'i law yn agored bob amser i gyfarfod appeliadau y dosbarthiadau hyn. Ond nis gallai oddef y diog a'r afradlawn. Ac er mwyn rhagflaenu hyn yn eu personau hwy, bu raid i'w ddau fab fyned trwy wahanol risiau y swyddfa, fel pob un o'r egwyddor-weision eraill.

Yr oedd efe yn neillduol o hoff o gerddoriaeth; ac ymroddodd, gyda 'Thomas Williams, 'y barfwr,' fel y gelwid ef, ac eraill, am lawer o flynyddoedd i wellhau y canu cynnulleidfaol. Yr oedd yn Ninbych, flynyddoedd lawer cyn iddo ef ymuno â'r Methodistiaid, ŵr oedd yn meddu un o'r lleisiau goreu oedd yn adnabyddus. 'John Roberts, y cantwr mawr,' oedd yr enw yr adnabyddid ef wrtho—nid yn unig yn Ninbych, ond i raddau mwy neu lai trwy Gymru i gyd; gan y byddai efe, y pryd hyny, yn ymweled âg ardaloedd i ddysgu tônau iddynt. Yr oedd y neillduolrwydd hwn yn perthyn iddo—gallai 'gipio' tôn i fyny yn gyflym, er nad oedd efe yn deall cerddoriaeth fel celfyddyd; a gallai ddysgu tônau i eraill hefyd. Ac am ei lais, yr oedd yn fwyn odiaeth. Ond er hyny, gellid ei glywed trwy ddeng mil o bobl mewn cymmanfa, a deall ei eiriau hefyd. Buasai yn iechyd i ysbryd cenedl gyfan ei glywed yn canu, yn enwedig ar ol odfa wlithog. Yr oedd duwioldeb John Roberts yn eglur i bawb; a chydnabyddid hyn yn fynych gan hyd yn oed ddynion mwyaf di-grefydd y dref. Ac am ei ofal am blant yr eglwys a'r gynnulleidfa, ac am yr Ysgol Sabbothol, yr oedd hyny yn ddiarebol. Felly y gellir dywedyd hefyd am lafur a ffyddlondeb Thomas Williams, gyda'r canu. Teimlai ei fod yn gwneyd gwasanaeth i Dduw wrth ofalu am y gangen hon o'r addoliad; a chyssegrodd ei oes i'r gwaith, o wir gariad ato—a hyny heb dderbyn unrhyw dâl arianol, er ei fod mewn amgylchiadau lled gyfyng. Y mae enwau ffyddloniaid fel John Roberts a Thomas Williams yn deilwng o gael eu cadw mewn coffadwriaeth, a'u treiglo i'r oesoedd dyfodol fel esamplau teilwng o gael eu dilyn yn mhob ardal.

Bu gwrthddrych ein herthygl yn ysgrifenydd ac yn gefnogydd cynnes i'r Feibl Gymdeithas; a pharhaodd felly am lawer o flynyddoedd—hyd ei farwolaeth. Yr oedd hefyd yn cymmeryd dyddordeb dwfn yn mhob symmudiadau a dueddent i iesoli a dyrchafu ei gyd-ddynion.

'Mynych y clywais bobl oedd yn ei hadnabod yn dda yn dadgan y meddyliau uchel yr oeddynt yn eu coleddu am Mrs. Gee (meddai ein cyfaill etto). Yr oedd hi yn hynod gyda'i holl ddyledswyddau teuluaidd, yn garedig, yn gymmwynasgar, ac yn fawr ei gofal am y tlawd.

'Y mae y mab hynaf, a adwaenais i, yn ddigon adnabyddus fel na raid i mi ddyweyd gair am dano. Yr ail fab oedd Dr. Robert Gee, o Liverpool gynt.

'Y diweddar Mr. Edward Williams Gee oedd y mab arall. Dygwyd ef i fyny yn argraphydd; ond yn gynnar ar ei oes, gadawodd y gelfyddyd hono, ac ymgymmerodd â'r gorchwyl o ffermio

yr Eglwys Wen, ger llaw Dinbych. Yr oedd efe yn gerddor da; ac yn flaenor gyda'r Methodistiaid yn nghapel y Fron, a bu o wasanaeth gyda yr achos crefyddol. Bu farw Hydref 19eg, 1881, yn 60ain oed.

'Y ferch hynaf ydoedd Sarah—y ddiweddar ddoeth a rhinweddol Mrs. Parry, gweddw yr hynaws a'r galluog Ddr. John Parry, o'r Bala, golygydd yr argraphiad cyntaf o'r gwaith hwn. A'r ail ferch ydyw Mrs. Powell (Mary Anne), gweddw y Parch. Ebenezer Powell, o Holt, ger llaw Gwrecsam—athraw ysgol ragorol, a gweinidog parchus gyda'r Trefnyddion Calfinaidd.'

Parhaodd Mr. Gee i ddilyn ei orchwylion hyd ei afiechyd byr diweddaf; a bu farw yn Liverpool, yn nhŷ ei fab, ar y 13eg o Dachwedd, 1845, yn 66ain mlwydd oed. Dygwyd ei weddillion marwol drosodd i Ddinbych; ac oddi yno rhoddwyd hwynt i orphwys yn mynwent dawel Llangynhafal, yn agos i Ruthyn, gyda gweddillion ei wraig, yr hon a fu farw Hydref 29ain, 1838, yn 56ain oed—a dau blentyn. Yn y fynwent hon, hefyd, y claddwyd eraill o'r teulu.

Rhoddir yma ddau englyn coffadwriaethol o amryw a gyfansoddodd ei gyfeillion Hiraethog ac Eben Fardd iddo:—

Yn ei oes un hynawsach—ni chafwyd,
Na chyfaill cywirach;
Dyn o enaid unionach,
Ni bu erioed dan wybr iach. *Hiraethog.*

Gee,'r hoff ŵr mwyn, argraphwr mawr—oedd ef
Yn ei ddydd, dyn clodfawr:
Er gorphen oes, argrapha 'n awr,
Is beddfaen, wersi buddfawr. *Eben Fardd.*

GLO—FEYDD.—Nid yw yn ymddangos fod glô yn cael ei ddefnyddio gan yr hynafiaid; ac nid ydyw yn hysbys pa bryd y dechreuwyd ei ddefnyddio fel tanwydd. Modd bynag, bernir ei fod yn cael ei ddefnyddio yn B.A. 852 gan yr Anglo-Sacsoniaid. Ac y mae lle i gredu mai yn Mhrydain y dechreuwyd llosgi glô gyntaf yn Ewrop ar raddfa ëang.

Y mae meusydd glô cyfoethog yn Belgium, Ffraingc, Prwssia, Yspaen, Silesia, a Rwssia, yn Ewrop. Ceir glô hefyd yn India, China, Japan, ac yn ngorynys Malay yn Asia, yn Awstralia, Zealand Newydd, ac Affrica. Y mae arwyddion fod glô mewn cyflawnder yn Neheubarth America hefyd; ond o herwydd y fforestydd ëang sydd yno, nid oes fawr o angen i gloddio ato. Bernir fod meusydd glô yr Unol Dalaethau yn gorchuddio arwynebedd mor fawr a 200,000 mill. pet. o dir; ond nid ydynt wedi eu dadblygu i'r un graddau ag yn y wlad hon.

O berthynas i feusydd glô Prydain Fawr, bernid, rai blynyddau yn ol, eu bod yn anhysbyddadwy, ac nad oedd raid i'r wlad bryderu yn eu cylch. Modd bynag, daeth y Proffeswr Hull i'r casgliad, yn 1860, nad oedd ond digon i barhau am fil o flynyddoedd, yn ol y swm a godid o honynt ar y pryd. Ond erbyn hyn, y mae y swm a gloddir wedi chwanegu cymmaint fel nad yw yn debyg y gall y cyflenwad o hono barhau am y tymmor a enwyd gan Mr. Hull. Dywedodd y Proffeswr Jevons, os parhäai yr un cynnydd yn y swm a gloddid, y codid yn mhen can mlynedd 415,000,000 tynell yn y flwyddyn; a barnai efe y byddai y meusydd glô erbyn hyny yn mron wedi eu dyhysbyddu. Yn 1866, pennodwyd Dirprwyaeth Frenhinol i ystyried y cwestiwn; ac yn 1871, daethant i'r casgliad fod digon y lô yn naear y deyrnas hon i barhau am 1,273 mlynedd, yn ol y swm a gloddid ar y pryd. Ond y mae y cynnydd yn parhau i ychwanegu mor gyflym fel nas gellir ymddiried yn nghywirdeb y syniadau uchod.

Dywedir, ar awdurdod y gwyddonwyr, fod glô yn ffurfio 91 y cant o'r mŵnau a godir yn y wlad hon. Bernir nad oedd y swm a godid yn nechreu y ganrif bresennol yn fwy na 10,000,000 o dynelli yn y flwyddyn. Ond yn 1830, codwyd 29,000,000 tynell trwy'r oll o'r Ynysoedd Prydeinig. Erbyn 1860, yr oedd y swm wedi codi i 80,000,000 tynell; erbyn 1875, i 131,867,100 tynell; erbyn 1880, i 146,969,409 tynell; erbyn 1885, i 159,351,418 tynell; erbyn y fl. 1890, i 181,614,288 tynell; erbyn 1891, i 185,479,126 tynell; ac erbyn 1894, i 188,277,525 tynell.

Gwerth yr holl lô a godwyd yn y glofeydd y flwyddyn ddiweddaf ydoedd 62,730,179*p*. wrth enau y pyllau. Yn 1887, gwerth y glô yn y glöfeydd, ar gyfartaledd, oedd 4*s*. 9*c*. y dynell; yn 1888, 5*s*. 6*c*. y dynell; yn 1889, 6*s*. 4¼*c*.; yn 1890, 8*s*. 5½*c*.; yn 1891, 8*s*.; yn 1892, 7*s*. 3*c*.; yn 1893, 6*s*. 9*c*.; ac yn 1894, 6*s*. 7*c*.

Cyfanswm y glô a godwyd yn Lloegr yn unig, yn 1894, oedd 138,327,414 tynell; ac o'r swm hwn, codwyd 23,442,174 tynell yn swydd Gaerefrog; 22,934,221 yn neheubarth sir Durham; 12,596,648 yn neheubarth sir Lancaster; ac 8,275,897 yn neheubarth Stafford.

Yn Nghymru, yn 1894, codwyd swm mor fawr a 28,355,953 tynell; ac o'r swm hwn, codwyd 23,993,594 tynell yn sir Forganwg yn unig. Codwyd 21,481,554 tynell yn Ysgotland. Ond nid oedd y swm a godwyd yn yr Iwerddon ond 112,604 tynell.

Anfonir llawer chwaneg o lô o Brydain Fawr i'r gwledydd tramor nag a anfonir o un wlad arall. A chyfrif y glô a gyflenwir at alwad yr agerlongau, yr oedd y galwad oddi allan am lô, llosg-lô (*coke*), y Deyrnas Gyfunol, yn 42,368,159 tynell yn 1894. Swm y glô a allforiwyd o'r Deyrnas Gyfunol y flwyddyn ddiweddaf oedd 31,756,368 tynell; llosg-lô, 588,266 tynell; tanwydd breintiedig, 729,064 tynell:—yn gwneyd cyfanswm o 33,073,698; yr hyn oedd yn werth 17,371,331*p*. wrth enau y pyllau. Y swm a anfonwyd ymaith at wasanaeth y llongau a gyflogwyd i gario yn mlaen y fasnach dramor ydoedd 9,294,461 tynell. O'r swm o lô a allforiwyd i'r gwledydd tramor, yn annibynol ar yr hyn a anfonwyd i'r agerlongau at eu gwasanaeth hwy, anfonwyd 11,135,331 tynell (neu fwy nag un ran o bedair o'r cyfan) o Gaerdydd; a 4,597,238 o Newcastle; a 2,952,747 o North Shields; 2,588,503 o Gasnewydd; 1,829,189 o Sunderland; 1,011,706 o Hull; a 969,366 o Abertawe. O'r gwledydd i ba rai yr anfonwyd y tanwydd hwn, cymmerwyd 4,951,248 tynell gan Ffraingc; 3,848,030 gan Germany; 4,431,948 gan yr Eidal; 1,905,768 gan Ysweden; 1,818,387 gan Ysbaen ac Ynysoedd y Canaries; 1,666,007 gan Rwssia; 1,637,773 gan yr Aipht; a 1,524,541 gan Denmarc.

Cyfanrif y bobl a gyflogwyd yn ac o gylch mwnfeydd y Deyrnas Gyfunol yn 1894, ydoedd 739,097. Gweithir 3,419 o honynt dan y *Coal Mines Act*, a 740 o dan y *Metalliferous Mines Act*. Gweithiai 705,240 o bersonau yn y glöfeydd; ac yr oedd 569,678 o honynt, neu 80 y cant, yn gweithio dan y ddaear.

GWYDDON GANHEBON. Dywed y Trioedd mai efe 'wnaeth Gerdd Dafawd gyntaf o'r

Digitized by Google

byd;' a *Thriawd* arall a ddywed mai 'llain G. Ganhebon, lle y darllenid arnynt holl gelfyddydau a gwybodau y byd,' oedd un o dri phrif orchestwaith Ynys Prydain. Ymddengys ei fod yn gerddor o radd uchel.

GWYLYGED. Un o'r gwroniaid, oedd efe, a gwympodd yn mrwydr waedlyd Cattraeth.

GWYN. Sant oedd efe, yn y chweched ganrif, a mab i Gynyr Farfdrwch ab Gwron ab Cunedda. Yr oedd yn un o chwech o frodyr—pump o ba rai oedd yn saint—y rhai a anwyd ar un enedigaeth. I'r pump sant hyn y cyflwynwyd eglwys Llanpumsaint, yn sir Gaerfyrddin.

GWYN, NELL. Cymraes o Henffordd oedd hi, a gordderchwraig enwog y brenin Siarl II. Ganwyd hi mewn bwthyn tlawd yn y dref a nodwyd; a dechreuodd ei gyrfa fel morwynig mewn tafarndy. Tra yn gwerthu eurafalau mewn chwareudy, hi a dynodd sylw Lacy, y chwareuwr, a Hart—un o ddynion harddaf, ac un o chwarëyddion goreu ei oes. Dan nawdd y ddau hyn, dechreuodd Nell wneyd ei hymddangosiad ar y llwyfan chwarëyddol—i'r hyn yr oedd ganddi dalent naturiol. Yn 1667, yr oedd hi wedi ei chofrestru gyda chwareuwyr y brenin, y rhai a chwareuent yn Drury Lane. Gwnaeth y fath gynnydd gyda'i galwedigaeth fel y daeth yn hynod boblogaidd. Tynodd sylw Arglwydd Buckhurst; yr hwn a'i cymmerodd oddi ar y llwyfan, ac a ganiataodd iddi 100*p*. yn y flwyddyn. Modd bynag, dychwelodd yn fuan; ac yn 1668, tra yn chwareu mewn drama o waith y bardd Dryden, syrthiodd y brenin mewn cariad â hi, a chymmerodd hi yn ei gerbyd i swper. Yn fuan ar ol hyn, rhoddodd Argl. Buckhurst hi i fyny, a chafodd Iarllaeth Dorset, a blwydd-dâl. O hyny allan, adwaenid hi wrth yr enw 'Madam Ellen;' ac wedi iddi roddi genedigaeth i'w phlentyn cyntaf, James Beauclerk, cymmerodd y brenin hi oddi ar y llwyfan chwarëyddol, ac a'i gwnaeth yn un o foneddigesau ystafell ddirgel y frenhines yn Whitehall. Dywedir iddi gael cryn ddylanwad yn y llys brenhinol; ac mai trwy ei hofferynoliaeth hi y cafodd cynllun Ysbytty Chelsea ei gwblhau. Ganwyd dau fab i'r brenin Siarl o honi—y rhai a alwyd yn Siarl ac yn James Beauclerk. Bu yr olaf farw; ond fe ddaeth y blaenaf yn gyff teulu urddasol yn y deyrnas. Y mae y ffordd a gymmerodd hi i gael gan y brenin arddel un o'i meibion yn arwyddocaol o gymmeriad Nell. Un diwrnod, ar ol i blant y Ducesau Cleveland a Portsmouth dderbyn eu teitlau o law y brenin, digwyddai ei fawrhydi fod yn yr ystafell gyda Nell Gwyn, pan yr oedd ei mab hynaf yn chwareu ar y llawr. Ac ebai hi wrtho, mewn llais sarug, 'Tyred yma, y bastardd bychan!' Wrth glywed y fath enw yn cael ei roddi ar y plentyn, ceryddodd y brenin hi. Attebodd hithau ef, 'Y mae yn wir ddrwg genyf ddyweyd felly; ond nid oes genyf enw gwell i'w roddi arno—druan bach!' Teimlodd y brenin yr ergyd; ac yn mhen ychydig ddyddiau, gwnaed y plentyn yn 'Barwn Heddington, ac yn Iarll Burford;' ac yn 1683, yn 'Dduc St. Albans—yn gofrestrydd y canghell-lys, ac yn uchel-hebogydd Lloegr.' Wyr i Nell Gwyn oedd Arglwydd James Beauclerk; yr hwn a fu farw yn Esgob Henffordd, yn 1782. Bu Nell farw yn 1691; a thraddododd Dr. Tennison, ficer St. Martin—wedi hyny Esgob Caergaint—ei phregeth angladdol.

GWYNDAF, ERYRI. Gw. JONES, RICHARD, yn cyf. v.

GWYNEDD neu GWYNETH, JOHN, oedd awdwr Pabaidd enwog, a brodor o Gymru. Ganwyd ef o rïeni tlodaidd; a chynnaliodd ei hun yn Rhydychain yn hollol trwy ymdrechion personol. O'r diwedd, cafodd noddwr; yr hwn a ddarganfyddodd ei dalentau disglaer, ac a roddodd gymmhorth iddo i ddilyn ei efrydiau. Yn 1531, tra yr oedd efe eisoes yn glerigwr cyffredin, graddiwyd ef yn athraw cerddoriaeth gan y brifysgol, o herwydd ei wybodaeth ëang yn y gelfyddyd hono. Ysgrifenodd amryw o lyfrau dysgedig ar y ddadl rhwng y Pabyddion a'r Diwygwyr Protestanaidd.

GWYNFARDD BRYCHEINIOG. Bardd enwog oedd efe, yn byw rhwng 1160 a 1220. Ceir rhai cyfansoddiadau o'i waith yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology*.

GWYNFARDD DYFED. Bardd oedd yn ei flodau yn yr wythfed ganrif. Efe oedd tad Cuhelyn Fardd; ac y mae amryw o deuluoedd Deheudir Cymru yn olrhain eu hachau o hono.

GWYNHWYFAR. Maer Cernyw a Dyfnaint oedd efe, a gwasanaethodd dan Arthur.

GWYNIONYDD. Ei enw priodol ef oedd Benjamin Williams. Brodor oedd o blwyf Penbryn, Ceredigion. Ganwyd ef Mehefin 24ain, 1821. Disgynodd o un o hen deuluoedd enwog deheuharth y sir y preswyliai ynddi; a gallai olrhain ei achau hyd at Tudwal Gloff—un o dywysogion Cymru. Collodd ei dad, Dafydd Williams, pan tua phedwar-ar-ddeg oed; ond gofalodd ei fam am dano, gyda'r gweddill o'r teulu. Tyfodd Benjamin i fyny i enwogrwydd fel hynafiaethydd, bardd, a phregethwr; er mai hunan-addysgydd oedd efe i raddau pell. Fel hynafiaethydd yr ymddisgleiriodd fwyaf; a thestynau hoff ei fyfyrdodau oedd hen dywysogion, hen feirdd, hen seintiau, hen gestyll, hen adfeilion—mewn gair, pob peth mewn gwirionedd oedd â sawyr hynafiaeth arno. Ysgrifenodd lawer o erthyglau gwerthfawr o'r natur yma i wahanol gylchgronau; a thwy ei lafur ymroddgar, cadwodd yn fyw lawer traddodiad a aethai i ddifancoll oni buasai am dano ef. Ysgrifenodd draethawd manylgraff ar 'Hanes Castellnewydd Emlyn;' ac ymddangosodd amryw o'i gynnyrchion hynafiaethol yn nghylchgrawn y *Cambrian Archæological Society*, ac hefyd yn y *Brython*, yr *Haul*, &c. Yn un o'r eisteddfodau cenedlaethol, ennillodd wobr am ei draethawd ar 'Draddodiadau sir Aberteifi.' Yn y fl. 1869, cyhoeddodd gyfrol dan y teitl *Enwogion Ceredigion*. Cafodd ei duedd at hynafiaethau gryn ddylanwad ar ei ddawn farddonol; o blegid ymhoffai ganu ar destynau henafol o bob math. Anhawdd, gan hyny, yw dadgyssylltu y bardd oddi wrth yr hynafiaethwr. Ennillodd lawer gwobr am farddoni; ond o herwydd diffyg ymddiried yn nghyfiawnder y beirniaid, torodd ei gyssylltiad â'r sefydliad hwnw i raddau pell. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth—*Caniadau gan Gwynionydd*, a *Briallen Glan Ceri*.

Digitized by Google

Yn mlynyddoedd olaf ei fywyd, adnabyddid ef fel clerigwr gweithgar yn Eglwys Loegr. Tra yn dychwelyd ar foreu Sabbath, Tachwedd 29ain, 1891, o eglwys Bettws Ifan, tarawyd ef gan ergyd o'r parlys. Cafwyd ef mewn cyflwr o anymwybyddiaeth ar ochr y ffordd. Ar y 7fed o Ragfyr, bu farw, a chladdwyd ef yn mynwent Bettws Ifan.

GWYTHOG GWYR:—un o ryfelwyr enwog y brenin Arthur—enw yr hwn a grybwyllir yn y Mabinogion.

GWYTHYR AB GREIDIOL. Rhyfelwr enwog o dan y brenin Arthur, a thad un o'i wragedd, a elwid Gwenhwyfar.

GYNYR, o Gaer Gawch. Yr oedd efe yn bendefig ar randir yn sir Benfro, a elwid wedi hyny yn Pebidiog, neu Dewisland. Ei wraig gyntaf oedd Mechell, merch Brychan. Yr ail oedd Anna, merch Gwrthefyr Fendigaid, brenin Prydain. Tua diwedd ei oes, fe ymroddodd Gynyr i fywyd crefyddol. Yr oedd efe yn byw tua'r chweched ganrif.

GYRIOG, GRUFFYDD. Bardd, a flodeuodd rhwng y fl. 1530 a 1570.

---

# H.

HAMILTON, SYR WILLIAM, o Preston:—oedd un o athronwyr dysgedicaf ei oes. Ganwyd ef Mawrth 8fed, 1788, yn Glasgow—lle y bu ei dad, Dr. William Hamilton, a'i daid, Dr. Thomas Hamilton, yn llanw y swydd o athrawon mewn bywydeg a llysieueg. Wedi ennill safle uchel yno fel ysgolhaig, yn enwedig yn y dosbarthiadau athronyddol, aeth, yn 1809, i Goleg Balliol, Rhydychain; a'r flwyddyn ddilynol, graddiodd gydag anrhydedd. Tra yno y gosododd efe i lawr sylfaen y sefyllfa uchel a feddiannodd mewn blynyddoedd dyfodol fel gŵr cyfarwydd â llenyddiaeth yn gyffredinol. Yn 1813, galwyd ef yn fargyfreithiwr; ond ni ddilynodd yr alwedigaeth hono. Yn 1820, pennodwyd ef yn athraw mewn hanesyddiaeth yn Mhrifysgol Edinburgh. Yr oedd efe, erbyn hyn, tua deng mlwydd ar hugain: ac etto, heb roddi i'r byd ffrwyth ei efrydiau athronyddol. Yn 1829, modd bynag, cafwyd blaenffrwyth aeddfed ei feddwl yn y gangen hon, yn ymddangosiad erthygl feirniadol o'i eiddo yn yr *Edinburgh Review* ar *Cours de Philosophie*, o waith Cousin. Yn y gwaith hwn, rhoddodd Cousin ei olygiadau ei hun ar Anfeidroldeb; a thynodd beirniadaeth Syr William Hamilton arno sylw anghyffredin yn y wlad hon, ac mewn gwledydd tramor hefyd. Ar ol hyn, ysgrifenodd yn gysson i'r *Edinburgh Review*, nid yn unig ar destynau athronyddol, ond hefyd ar gwestiynau ynglŷn âg addysg. Talwyd teyrnged uchel i'r erthyglau hyn, trwy fod amryw o honynt wedi cael eu cyfieithu i'r Ellmynaeg, y Ffrangcaeg, a'r Eidalaeg. Yn 1852, ymgymerodd Syr William Hamilton â'u golygu ei hunan, a chyhoeddwyd hwynt o dan y teitl o *Discussions in Philosophy and Literature, Education, and University Reform.* Yn y fl. 1836, dewiswyd ef yn athraw mewn rhesymeg ac uchanianaeth yn Mhrifysgol Edinburgh. Yn ystod tymmor cyntaf ei swyddogaeth, traddododd gyfres o ddarlithiau ar uchanianaeth; a'r tymmor dilynol ar resymeg; a pharhaodd i draddodi ei ddarlithiau yn y dull hwn hyd derfyn ei fywyd.

Cafodd ei bersonoliaeth a'i ddysgeidiaeth ddylanwad mawr ar efrydwyr ieuaingc y brifysgol uchod; ac nid ydyw yn ormod dyweyd fod lliaws o efrydwyr wedi ymuno â Phrifysgol Edinburgh yn unig er mwyn clywed Hamilton, a manteisio ar ei ddarlithiau. Cymmerwyd crynodeb gweddol lawn o'r darlithiau hyn o dro i dro mewn llaw fèr; ac ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd hwynt o dan olygiaeth y Proffeswyr Mansell a Veitch, gyda'r teitl *Sir William Hamilton's Lectures.* Bu ganddo ran yn nygiad allan amryw o lyfrau athronyddol pwysig, heb law y rhai a nodir uchod. Parhaodd i gyflawni ei ddyledswyddau gyda'i ddosbarth yn y brifysgol hyd sessiwn 1855—56. Torodd ei iechyd i lawr y pryd hwnw; a bu farw Mai 6ed, 1856.

HAMILTON, SYR WILLIAM ROWAN:—un o brif wyddonwyr y bedwaredd ganrif-arbymtheg. Ganwyd ef yn Dublin, Awst 3 neu 4, 1805. Dangosodd ei fod yn feddiannol ar dalentau disglaer pan yn fachgen ieuangc; a phan yn 13eg oed, meddai adnabyddiaeth led gyflawn o dair ar ddeg o ieithoedd. Tueddai ei feddwl yn naturiol at fesuroniaeth (*mathematics*); a gwnaeth y fath gynnydd yn ei efrydiaeth o'r pwngc, fel yr oedd wedi llwyr feistroli cwrs arferol y brifysgol yn y gelfyddyd cyn bod yn bymtheg oed. Yna efe a ddechreuodd wneyd ymchwiliadau gwreiddiol yn ei hoff bwngc; a hyny gyda'r fath lwyddiant, fel y cymmerodd Dr. Brinkley, yr hwn oedd yn enwog yn y gelfyddyd hono, ef dan ei ofal arbenig ei hun. Yn mhen amser, cyhoeddodd amryw lyfrau galluog a dysgedig ar ei hoff wyddor; sef, *Theory of Systems of Rays*; *A General Method in Dynamics*; *Theorem in the Separation of Symbols in Finite Differences*; *Fluctuating Functions*; *Examination of Abel's Argument*

Digitized by Google

*concerning the impossibility of solving the General Equation of the Fifth Degree; Algebra as the Science of Pure Time:*—heb law amryw eraill. Yn 1827, pennodwyd ef yn olynydd i Dr. Brinkley fel athraw serydddol yn Mhrifysgol Dublin—swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Yn 1835, gwnaed ef yn farchog. Bu am flynyddoedd lawer yn llywydd yr Athrofa Frenhinol Wyddelig; ac yr oedd yn aelod anrhydeddus o amryw o brif athrofeydd gwyddonol Ewrop. Bu farw Medi 2il, 1865.

HAROLD I:—yr hwn hefyd a gyfenwid HAREFOOT, brenin Lloegr, a'r ieuangaf o feibion Canute, o'i wraig gyntaf, Alfgiva. Ar farwolaeth ei dad, yn 1035, daeth Harold i feddiant o'r holl diriogaethau i'r gogledd o'r afon Tafwys. Rhoddwyd y rhanau deheuol i Emma, ail wraig Canute, ar gyfer ei mab, Hardicanute. Daeth Harold, fodd bynag, i gael ei ystyried yn frenin. Ac oddi eithr am yr helynt a achoswyd trwy ymweliad gelyniaethus Alfred, mab i Ethelred, â'r wlad hon, a'r cythrwfl a godwyd gan y Cymry a'r Ysgotiaid, ychydig o ddim pwysig a ddigwyddodd yn ystod ei deyrnasiad. Bu farw yn Rhydychain, yn Mawrth, 1040.

HAROLD II. Efe oedd y diweddaf oll o'r brenhinoedd Saesnig brodorol. Yr ail ydoedd efe o feibion Iarll Goodwin, o Gytha ei wraig; a ganwyd ef tua'r flwyddyn 1022. Yn y fl. 1051, ystyriwyd ef, fel ei dad, yn herwr; a bu raid iddo ffoi i'r Iwerddon am noddfa rhag ei elynion. Y flwyddyn ddilynol, gyda'i frawd Leofwin, efe a groesodd y Sianel gyda naw o longau; ac wedi gorchfygu gwŷr Gwlad yr Haf a Dyfnaint, ac anrheithio eu gwlad, efe a ymunodd â'i dad yn Portland—yno, i orfoleddu o herwydd llwyddiant eu hachos. Adfeddiannodd Harold ei iarllaeth; a'r flwyddyn ddilynol (1053), daeth i feddiant o iarllaeth ei dad yn mhlith Sacsoniaid y Gorllewin. O hyny allan, efe oedd cynghorwr y brenin Iorwerth; a chyn hir, daeth i lywodraethu holl amgylchiadau y deyrnas—yr hyn a wnaeth gyda phenderfyniad di-ŵyro, yn cael ei dyneru â chryn lawer o fwyneidd-dra. Yn 1007, bu farw Iorwerth, mab Edmund Ironside; yr hwn a ddygwyd yn ol o Hungary fel etifedd y goron. O hyny allan, edrychid ar Harold fel y brenin dyfodol; ac yr oedd yntau yn meddu ar gymmhwysder neillduol i'r safle bwysig ac aruchel hono. Yr oedd efe yn ddyn o dymmer addfwyn, o wroldeb dihafal, ac yn filwr medrus. Yr oedd yn Sais trwyadl o ran ei dueddiadau; yr hyn a'i gwnai yn fwy derbyniol gan y genedl, gan fod y dylanwadau Ffrengig, oddi wrth ba rai y teimlwyd yn ystod rhan o frenhiniaeth Iorwerth, wedi creu oerfelgarwch yn y bobl ato. Aeth Harold ar bererindod i Rufain yn 1058; ac ar ei ddychweliad, gorphenodd ei eglwys yn Waltham: yr hon, yn ddiweddarach, a alwyd yn Waltham Abbey. Blinid ef yn fawr gan ymgyrchoedd y Cymry dan eu brenin Gruffydd; a phenderfynodd roddi terfyn ar eu hymosodiadau. Gorchfygodd hwynt mewn amryw fân frwydrau. Lladdwyd Gruffydd gan ei bobl ei hun, a rhoddodd Harold y llywodraeth i frodyr y teyrn ymadawedig; sef, i Bleddyn a Rhiwallon, y rhai a gymmerasant lŵ o ffyddlondeb i'r brenin Iorwerth, a Harold.

Rywbryd ar ol hyn, talodd Harold ymweliad â llys y Duc William, o Normandy. Am y digwyddiad hwn yr ysgrifenwyd llawer gan awdwyr Normanaidd. Ar yr ymweliad hwn, gwnaeth Harold fath o lŵ i William, yr hwn a gafodd gryn lawer o ddylanwad ar y digwyddiadau gwladol a gymmerasant le ar ol hyny. Bernir mai dan orfodaeth y cymmerodd efe y llŵ hwn, pan y syrthiodd i ddwylaw William, mewn canlyniad i'w longddrylliad ar arfordir Ponthieu, a'i garchariad dilynol. Nid ydyw dyddiad yr ymweliad bythgofiadwy hwn yn wybyddus; ond tybia y Proffeswr Freeman y gallai fod tua'r fl. 1064. Y mae un peth yn sicr, pa fodd bynag, fod Harold wedi cynnorthwyo William yn ei ryfel yn erbyn y Bretoniaid.

Yn nechreu y fl. 1066, bu farw y brenin William; yr hwn, â'i anadl olaf, a ddymunodd ar fod i Harold gael ei ethol yn frenin. Coronwyd ef Ionawr 6ed; a dechreuodd yntau gymmeryd y mesurau angenrheidiol i uno gwahanol ranau ei deyrnas mewn modd fyddai yn debyg o brofi yn fwy diogel iddi. Ennillodd bleidgarwch gwŷr anfoddog Northumbria; a phriododd Ealdgyth, gweddw Gruffydd, mewn trefn i sicrhau cydweithrediad ei brodyr—Morcar ac Edwin. Yn ystod ei deyrnasiad byr o ddeugain wythnos ac un dydd, cadwyd ef yn brysur gyda'r gorchwyl o wylio rhag ymosodiadau dau o'i brif elynion. Dechreuodd y Duc William ddarpar ar gyfer ei ymgyrch milwrol i Loegr; ac ar y llaw arall, gwnaeth ei frawd, Tostig, bob peth a allai efe i'w ddiorseddu, o herwydd fod Harold wedi cymmeryd oddi arno iarllaeth Northumbria, ac wedi ei alltudio. Llwyddodd Tostig i gael gan yr enwog Harold Hardrada, brenin Norway, i'w gefnogi yn ei amcan dianrhydeddus. Yn mis Medi, cyrhaeddodd y gelynion enau yr afon Humber; ac aeth Harold allan i'w cyfarfod—heb orphwys nos na dydd. Daeth y byddinoedd i gyfarfod eu gilydd ger Stamford Bridge; lle, wedi ymladdfa waedlyd, yr ennillodd Harold fuddugoliaeth lwyr ac anrhydeddus; ac yr oedd Tostig a Harold Hardrada yn mysg y lladdedigion. Yn mhen pedwar diwrnod ar ol hyn, glaniodd y Duc William yn Pevensey; ac ar y 14eg o Hydref, 1066, cymmerodd y frwydr le. Ymladdodd y Saeson gyda'r beiddgarwch mwyaf; a buasent wedi ennill buddugoliaeth oni bae fod enciliad ffugiol y Normaniaid wedi eu denu o'r sefyllfa gadarn yr oeddynt yn sefyll arni. Gwnaeth Harold ei hun wrhydri yn yr ymladdfa hon; o blegid lladdodd liaws o'r Normaniaid â'i law ei hun. Cwympodd, pa fodd bynag, yn y frwydr, trwy fod saeth un o'r gelynion wedi myned i'w lygad. Bu farw ei frodyr, Gurth a Leofwin, wrth ei ochr. Ymladdodd ei filwyr yn ddewr iawn; ond cwympwyd nifer fawr o honynt. Claddwyd gweddillion Harold yn yr eglwys a adeiladodd efe ei hun yn Waltham. Ysgrifenwyd ei hanes yn y ffurf o ramant, gan Lytton; a phlethwyd ei wrol-gampau ar ddull drama gan Arglwydd Tennyson.

HAROLD I, yr hwn a gyfenwid HAARFAGER, oedd frenin cyntaf yr oll o Norway. Mab oedd i Halfdan Ddu—yr hwn oedd y mwyaf nerthol o benaethiaid deheu-ddwyrain Norway. Yn ol chwedl boblogaidd a ffynai yn y wlad, ymddengys iddo syrthio mewn cariad â gwyryf o uchel-fonedd, o'r enw Gyda: yr hon a wrthododd fod yn wraig iddo nes y byddai efe yn frenin yr oll o Norway. Gwnaeth yntau lŵ na byddai iddo dori na threfnu ei wallt nes y

Digitized by Google

manfa Cilfowyr, yn 1743, oddi ar *Jeremiah* xvi. 19; ac yn Nghymmanfa Rhydwilym, yn 1754, oddi ar 1 *Cor.* xv. 34; ac yn Nghymmanfa Llandyssul, yn 1756, oddi ar *Dad.* xiv. 5, 6.

Yn 1736, symmudodd Miles Harri i Trosnant, Pont-y-pool. Yr oedd athrofa wedi ei sefydlu yn Nhrosnant er's agos i ddeugain mlynedd cyn hyny; sef, o'r fl. 1732 (?) hyd y fl. 1770. Ei sylfaenydd oedd Mr. John Griffiths, o Ben-y-garn; yr hwn a ardrethodd dŷ i'w chynnal yn Nhrosnant. Achlysur cyfodiad yr athrofa hon oedd 'cynghorion' a gafwyd yn Nghymmanfa Troesgoed (Maes-y-berllan), yn y flwyddyn 1720, 'mewn perthynas i alw gwŷr ieuaingc i waith y weinidogaeth.' Yr amcan oedd 'cael athrofa, nid yn unig i ddysgu yr ieuengctyd i ddarllen ac ysgrifenu, &c., ond i ddysgu ieithoedd, a changhenau eraill o addysg ddefnyddiol i wŷr ieuaingc addawol am y weinidogaeth;' a'r uchelgais oedd gwneyd 'y cynllun mewn modd neillduol yn ddefnyddiol i eglwysi y Bedyddwyr yn mhlith y Cymry.' O'r athrofa hon yr aethai allan yn agos i ddeugain i'r weinidogaeth. Yr athrawon oeddynt:—1. Mr. John Griffiths, o Ben-y-garn; 2. Mr. Thomas Phillips, o Rhydwilym; 3. Mr. John Matthews, o Abertawe; 4. Mr. Rees Evans, o Bontnewydd, Maesyfed; ac yn 5. Mr. Miles Harri, o Ben-y-garn.

Fel hyn y dywed y manwl Joshua Thomas am wrthddrych yr erthygl hon:—Bu Mr. Miles Harri yn ymdrechol iawn, yn sicr, dros achos Iesu Grist. Nid yn unig yr oedd yn mynychu y gymmanfa, ond hefyd, byddai yn talu sylw manwl i sefyllfa pob eglwys, a phob un oedd yn pregethu. Ac ar ol y gymmanfa, byddai yn anfon i Lundain at y rhai oedd gyssylltiedig â'r *fund* yno, hanes manwl o bob eglwys, a phob gweinidog yn yr eglwys, pa un bynag ai bugeiliaid neu gynnorthwywyr fyddent. . . Bu yn cyfryngu rhwng y boneddigion yn Llundain a'r eglwysi yn Nghymru am fwy o amser nag unrhyw berson o'r dechreu. Yr oedd yn ysgrifenydd llythyrau anghyffredin. Llawer iawn o'r rhai hyn oeddynt ar faterion crefyddol a chyfeillgarol. Yr oedd ganddo lawer o ohebwyr yn Nghymru, Lloegr, ac America, &c.—cyfoethogion a thlodion. Yr oedd yn pregethu hyd y diwedd. Pregethodd yn Mhen-y-garn y Sabbath olaf y bu fyw. Claddwyd ef yno ar y Sabbath, yn mhen yr wythnos.' Bu farw yn y fl. 1776, yn 76ain ml. oed; ac wedi bod yn y weinidogaeth am yn agos i 50ain mlynedd.

HARVARD, PRIFYSGOL. Sefydlwyd y brifysgol hon fel coleg yn y flwyddyn 1638; ac y mae hi, bellach, yn un o'r sefydliadau addysgawl hynaf yn yr Unol Dalaethau; ac nid oes un sefydliad arall yn y wlad hono a all gymmharu â hi, o ran ei chyfoeth. Saif yn Cambridge, Massachusetts; ac y mae ei hadeiladau, y rhai a rifant o ddeutu hanner cant, yn ffurfio un o brif neillduolion y dref. Rhoddwyd iddi ei henw presennol o barch i'r Parch. John Harvard; yr hwn, fe dybir, a anwyd yn Southwark, yn 1607; a raddiwyd yn Ngholeg Emmanuel, Caergaint, yn 1635; ac a ymfudodd i Loegr Newydd yn 1637. Bu farw yn 1638; a rhoddodd ei lyfrgell i'r coleg bwriadedig, yn nghyd â'r swm o 779*p*. Un o brif amcanion sefydliad y coleg hwn oedd addysgu bechgyn o Saeson, ac Indiaid, mewn gwybodaeth a chrefydd, er eu cymmhwyso ar gyfer bywyd gweinidogaethol gyda'r Puritaniaid. Cynnaliwyd y sefydliad yr adeg yma drwy roddion gwirfoddol oddi wrth yr eglwysi, a thrwy roddion hefyd gan drefedigaeth Massachusetts. Parhaodd am gryn amser mewn sefyllfa led nychlyd; ond yn ystod y ganrif bresennol, trowyd y sefydliad yn brifysgol. Rhyddhawyd ef oddi wrth lyffetheiriau enwadol, a gwnaed ef yn hollol annibynol ar y wladwriaeth hefyd. Yr oedd, mewn rhan fawr, dan reolaeth y wladwriaeth hyd y fl. 1865; ond trwy ddeddf seneddol, gosodwyd ei reolaeth yn gwbl yn nwylaw bwrdd cynnwysedig o ddeg ar hugain o arolygwyr (*overseers*).

Yn yr adran athrofaol, gofynir cymmhwysderau uchel cyn y derbynir neb i mewn iddo; ac ychydig o efrydwyr, mewn canlyniad, o dan ddeunaw oed, a dderbynir i'r sefydliad. Derbynia yr efrydwyr addysg o'r radd flaenaf yn y clasuron a'r gwyddonau. Gan fod y brifysgol hon yn meddu ar waddoliadau cyfoethog, cynnygir amryw ysgoloriaethau gwerthfawr yn y gwahanol adranau, heb law gwobrwyon o wahanol fathau; y rhai sydd yn gwneyd cyfanswm o tua phum mil a deugain o ddoleri, neu agos i 10,000*p*. o'n harian ni, yn flynyddol. Cynnelir gwasanaeth crefyddol boreuol ynddi gan weinidogion y gwahanol enwadau yn eu tro; a rhaid i'r efrydwyr fod yn bresennol ar y Sabbathau yn yr eglwysydd a nodir gan eu rhïeni.

Y mae y llyfrfa gyffredinol yn cynnwys dros 250,000 o gyfrolau; a cheir 360,000 o gyfrolau yn ei gwahanol lyfrgelloedd eraill. Cyfanrif yr efrydwyr ar gyfartaledd yw 2,079; ond bydd tua 200 o efrydwyr yn chwanegol yn bresennol yn ystod tymmor yr haf. Rhifa yr athrawon 71, yr is-athrawon 21, athrawon eraill 121, heb law 44 o 'broctoriaid,' a swyddogion eraill. Yr oedd trysorfeydd arianol y brifysgol, yn annibynol ar diroedd, adeiladau, llyfrau, a pheirianau, yn agos i saith miliwn o ddoleri yn mis Gorphenaf, 1889 (6,874,046 *dollars*). Derbynir yn flynyddol oddi wrth daliadau yr efrydwyr tua thri chan mil o ddoleri (300,000 *dollars*). Felly, rhwng pob peth, y mae y sefydliad hwn yn derbyn, o bob ffynnonell, dros gan mil o bunnau (100,000*p*.) yn y flwyddyn.

HAWAII, YNYSOEDD HAWAII, neu YNYSOEDD SANDWICH, sydd nifer o ynysoedd bychain sydd yn gorwedd yn Nghefnfor y Gogledd (*North Pacific Ocean*), y rhai a ffurfiant deyrnas Hawaii. Gelwir hwy ar yr enw hwn oddi wrth y brif ynys; ond rhoddwyd yr enw 'Sandwich' iddynt gan y Cadben Cook, am mai Arglwydd Sandwich oedd prif arlywydd y morlys pan y darganfyddwyd hwynt ganddo. Rhifa yr ynysoedd ddeuddeg; a ffurfiant gadwen gyfoethog a phrydferth, yn mesur 7,000 o filldiroedd pet.; yr hyn sydd yn debyg i arwynebedd Cymru. Creigiau anhygyrch ydyw pedair o'r ynysoedd; ac y mae yr wyth eraill yn mesur fel y canlyn:—Hawaii, 4,210 mill. pet.; Maui, 760; Oahu, 600; Kauai, 590; Molokai, 270; Lanai, 150; Kahulaui, 63; a Niihau, 97.

HANESIAETH NATURIOL.—*Cynnyrch*.—Y mae cyflawnder o blanigfeydd sugr a reis yn y wlad; ac y mae yno ddigonedd o'r gwahanol fathau o ffrwythydd a dyfir yn ngwledydd y cyhydedd. Prif ddefnydd ymborth y brodorion yw yr hyn a alwant *poi*—math o does tew wedi ei wneyd o wreiddiau y planhigyn a elwir *taro*, ynghyd â physg ammrwd. Yr anifeiliaid cynnwynol ydynt llygod (mawr a bach), cŵn, moch,

Digitized by Google

a humogiaid; ond y mae eraill wedi eu chwanegu atynt er pan y daeth pobl wynion i breswylio yn yr ynysoedd. Dygwyd gwartheg a defaid, &c., yno gan Vancouver, a morwyr anturiaethus eraill. Ceir yn y gwahanol ynysoedd hefyd nifer dda o geffylau; ac yn y mynyddoedd gŵn gwylltion. Ychydig o nadroedd sydd yno; ac y mae yr adar oedd gynt yn lluoedd dinystriol yn y wlad yn prysur ddarfod. Ychydig o fŵnau sydd yno.

*Masnach, a Chyllid*, &c. Y mae masnach y deyrnas yn cynnyddu yn gyflym. Hyd y fl. 1876, ychydig o longau a alwent yno, amgen na'r llongau a chwilient am fôr-filod yn y moroedd o amgylch. Er hyny, y mae y fasnach mewn sugr wedi ei dadblygu i raddau mawr. Yn y fl. 1887 yn unig, tyfwyd ac allforiwyd dau gan miliwn o bwysi o sugr (200,000,000 pwys). Yn mysg y prif allforion eraill, yr oedd reis, gwlân, triagl, gwêr, &c. Yr oedd gwerth yr holl allforion am y flwyddyn 1887 dros 2,000,000*p.*; ond nid yw y dadforion agos gymmaint. Gwneir naw rhan o ddeg o fasnach y wlad gyda'r Unol Dalaethau. Y mae ffyrdd da wedi eu gwneyd ar y prif ynysoedd; ac yn Hawaii a Maui, mesura y ffyrdd haiarn tua 32ain milldir. Y mae'r pellebyr ar waith yn y ddwy ynys a nodwyd.

*Hanes, Cyfansoddiad*, &c. Dywedir fod yr ynysoedd hyn wedi eu darganfod gan Gaetano, yn 1542; a'u hail-ddarganfod gan y Cadben Cook yn 1778. Tra yn gwneyd archwiliadau ar draethell Hawaii cafodd y morwr anturiaethus hwn ei lofruddio gan un o frodorion yr ynys. Mewn adeg foreuol yn ei hanes, yr oedd gan bob ynys ei brenin; ond yn ddiweddarach, ffurfiwyd hwynt yn un deyrnas dan Kamehameha I. Bu efe farw yn 1819; a dilynwyd ef gan Liholiho: yr hwn, ar ei esgyniad, a fabwysiadodd yr un enw a'i ragflaenydd. Y mae ei deyrnasiad ef wedi bod byth yn enwog, gan fod eilun-addoliaeth wedi ei ddiddymu trwy yr holl ynysoedd ar unwaith. Cyrhaeddodd y cenhadon cyntaf i'r wlad yn 1820; a chawsant y ffaith anghyffredin hon—nad oedd gan y genedl un grefydd! Yr oedd y bobl, o'u gwirfodd, wedi ymwadu â chrefydd eu tadau; ond hyd hyny, heb gymmaint a chlywed am un gyfundrefn arall. Derbyniasant y cenhadon yn groesawgar; ac mewn llai na deugain mlynedd, dysgwyd yr holl genedl i ddarllen ac ysgrifenu, a rhifyddu a gwnïo. Yn flaenorol i'r fl. 1838, yr oedd y llywodraeth yn un hollol unbenaethol; ond darfu i Kamehameha III. ganiatau math o gyfansoddiad gwladol i'r wlad, cynnwysedig o frenin, senedd o bendefigion, a chynghorfa gynnrychioliadol. Yn 1843, sicrhawyd annibyniaeth y deyrnas gan lywodraethau Ffrainge a Lloegr. Ar farwolaeth Kamehameha V., yn 1873, darfyddodd olyniaeth y teulu hwnw; a dewiswyd un o brif benaethiaid y wlad yn frenin. Gwnaed yr un modd ar ei farwolaeth yntau, yn 1874. Ond o herwydd sefyllfa gyllidol anfoddhaol y deyrnas, gwelid fod yn rhaid dwyn o amgylch ddiwygiad o ryw fath yn y cyfansoddiad gwladol; ac felly, yn 1887, galwyd ar y brenin i ddiswyddo ei weinidogion, ac i ganiatau cyfansoddiad newydd i'r deiliaid—yr hyn a wnaed. Cyfyngwyd yn hwn gryn lawer ar awdurdod y goron, ac ëangwyd terfynau llywodraeth gynnrychioliadol. Hyd y flwyddyn 1893, yr oedd y frenhines Liliuokalani mewn meddiant o'r orsedd; ond yn y fl. hon, torodd chwyldroad allan. Dymchwelwyd y llywodraeth, a dïorseddwyd y frenhines: a chafodd arlywydd dros amser, a phwyllgor gweinyddol (*provisional executive*), eu penodi yn eu lle. Yn nechreu y flwyddyn hon (1895), gwnaed ymgais gan y frenhines i ad-ennill ei gorsedd; ond bu yr ymgais yn aflwyddiannus. Dedfrydwyd hi i bum mlynedd o garchar; ac y mae hi yn awr mewn caethiwed.

*Poblogaeth, a sefyllfa y Trigolion.*—Yn 1894, poblogaeth yr holl ynysoedd hyn oedd 89,990. Cyfrifid fod tua 40,000 o'r holl boblogaeth yn frodorion; ac o'r gweddill, fod 17,939 yn Chinëaid a ymfudasant yno, yn benaf i weithio yn y planigfeydd sugr. Yn nesaf mewn nifer atynt hwy yr oedd Portugëaid, Americaniaid, Ellmyniaid, a Saeson. Yn yr amser gynt, yr oedd y brodorion yn llawer lliosocach nag y maent yn awr; a thybir eu bod yn rhifo tua 200,000 pan yr ymwelodd y Cadben Cook â'r ynysoedd, tua'r blynyddoedd 1778—9. Ond y mae y brodorion yn amlwg wedi lleihau o ran rhifedi, a'r tramorwyr wedi cynnyddu yn gyflym. O ran ymddangosiad corphorol, y mae y brodorion yn genedl o bobl heinyf, a nerthol; ac erbyn hyn, ychydig o honynt sydd nas gallant ddarllen ac ysgrifenu yn eu haith eu hunain. Priodolir y lleihâd yn rhifedi y boblogaeth i glefydau a heintiau tramor. Y clefyd mwyaf cyffredin yno yn y blynyddau diweddaf hyn ydyw y gwahanglwyf. O herwydd cynnydd yr haint, cyflwynodd y llywodraeth, yn y fl. 1865, Ynys Molokai i fod yn breswylfa i'r gwahangleifion, gyda'r bwriad o geisio llesteirio peth ar ledaeniad yr afiechyd ofnadwy. Buont yn byw ar yr ynys hono yn nghanol y trueni mwyaf nes yr ymsefydlodd y Tad Damien yn eu mysg. Y mae llywodraeth y wlad yn awr yn talu sylw neillduol i'r haint; ac yn ol deddf a basiwyd yn 1888, rhoddir dirwy drom ar y neb a geir yn euog o geisio celu person fydd yn dioddef oddi wrtho, er attal alltudiaeth y cyfryw i Ynys Molokai. Ar y laf o Ebrill, 1889, yr oedd y gwahangleifion yn Molokai yn rhifo 1,044.

*Cyllid.*—Yn canlyn, ceir y ffigyrau diweddaf sydd yn dangos sefyllfa gyllidol y wlad:—

| | | Doleri. |
|---|---|---|
| Derbyniadau cyhoeddus yn 1893—4 | ... | 2,770,282*d* |
| Treuliau etto etto | .. | 3,669,061*d* |
| Y ddyled wladol, yn Mawrth, 1892 | ... | 3,217,161*d* |
| Cyfanswm gwerth y Dadforion, yn 1892 | | 1,087,758*p* |
| Hefyd, yr Allforion | ,, | 2,807,789*p* |

HAWTHORNE, NATHANIEL. Awdwr Americanaidd enwog oedd efe. Ganwyd ef yn Salem, Massachusetts, Gorphenaf 4ydd, 1804. Disgynodd o William Hathorne, neu Hawthorne—yr hwn a ymfudodd o Loegr i'r America yn 1630. Yr oedd Daniel, taid Nathaniel, yn perthyn i gattrawd Americanaidd, ac yn llywydd ar un o'r cadlongau yn ystod y Chwyldroad yn erbyn Prydain Fawr, rhwng 1776 a 1783. Bu Nathaniel, tad gwrthddrych yr erthygl hon, farw pan nad oedd ei fab ond pedair blwydd oed; ond profodd ei weddw ei hun yn fam ragorol iddo; a chafodd ei mab talentog bob manteision ganddi i ddiwyllio ei chwaeth at ddarllen a myfyrio. Pan yn bedair-ar-ddeg oed, aeth i fyw gyda'i fam i le o'r enw Raymond, yn nhalaeth Maine—lle cymmharol unig. Tra buont yno, efe a ddechreuodd gadw dyddiadur, yn yr hwn y byddai yn croniclo ffrwyth ei sylwadau, &c. Arferiad oedd hwn a lynodd wrtho

Digitized by Google

tra y bu byw. Yn 1825, cymmerodd ei raddau yn Ngholeg Bowdoin; ac yn ystod ei drigias yno y dechreuodd efe ar ei ffug-chwedl gyntaf. Ar ei ddychweliad i Salem, treuliodd ddeuddeng mlynedd mewn tawelwch ac unigrwydd, gan ddefnyddio ei amser hamddenol i ysgrifenu nofelau a barddoniaeth. Yn 1828, cyhoeddodd, yn ddïenw, ei nofel gyntaf—*Fanshawe;* yr hon a drodd allan yn aflwyddiannus. Parhaodd i ysgrifenu i gylchgronau o dan wahanol ffugenwau; ac yn 1836, bu yn golygu cylchgrawn bychan i Mr. S. G. Goodrich, i'r hwn hefyd yr ysgrifenodd *Peter Parley's Universal History*—cyhoeddiad a drodd allan yn hynod lwyddiannus. Gosododd Goodrich ei hun allan fel ei awdwr; ac efe hefyd a dderbyniodd yr elw oddi wrth y gwaith. Ond ni chafodd Hawthorne ond tua chan dolar (25*p.*) am ei lafur.

Yn y cyfamser, ennillodd rhai o'i chwedlau sylw yn Llundain, a derbyniasant gymmeradwyaeth ffafriol gan yr *Athenæum*—un o brif newyddiaduron llenyddol y deyrnas. Yn 1837, cyhoeddwyd nifer o'r chwedlau hyn dan y teitl *Twice-Told Tales*. Canmolwyd hwynt yn fawr gan Longfellow; a barn beirniad ammhleidiol arall oedd, eu bod yn ddechreuad ar gyfnod newydd mewn llenyddiaeth Americanaidd. Y rhai hyn, hefyd, oedd sylfaen enwogrwydd dilynol Hawthorne fel awdwr, er iddo orfod disgwyl yn hir cyn i'r enwogrwydd hwnw ddyfod i'w ran. Nid oedd ei athrylith etto yn cael ei gwerthfawrogi yn y wlad; ac er ei fod yn gweithio yn egnïol a phenderfynol gyda'i ysgrifell, methai ennill digon i fyw drwyddi. Yn 1839, pennodwyd ef yn swyddog yn y tolldy—swydd a ddaliodd hyd y fl. 1841. Yn y cyfamser, ysgrifenodd, a chyhoeddodd, mewn tair rhan, gyfres o ystorïau syml i blant, allan o hanes Lloegr Newydd, dan y teitl *Grandfather's Chair*, *Famous Old People*, a *Liberty Tree*. Yn 1842, priododd ferch ieuangc, o'r enw Sophia Amelia Peabody, o Salem; yr hon briodas a drodd allan yn un o'r rhai mwyaf dedwydd ag oedd yn bossibl. Wedi symmud ei breswylfod i Concord, Massachusetts, efe a gyhoeddodd ei ystorïau bywgraphyddol (*Biographical Stories*) i blant; a dygodd allan o'r wasg hefyd argraphiad helaethach o'i *Twice-Told Tales*. Ysgrifenodd lawer hefyd i'r *Democratic Review;* y rhai, yn 1846, a gyhoeddwyd yn gyfrol, gyda'r teitl *Mosses from an Old Manse*. Ychydig o gydnabyddiaeth a dderbyniai am ei lafur; a phan fu farw y cylchgrawn, ac y cafodd yntau ei hun heb ond ychydig o foddion cynnaliaeth, bu raid iddo eilwaith dderbyn swydd yn y tolldy—y tro hwn fel arolygwr yn ei dref enedigol, Salem. Ond nid oedd y lle hwn yn gydnaws iawn â'i chwaeth; ac am ysbaid pedair blynedd, bu yn ddistaw fel awdwr. Modd bynag, erbyn diwedd tymmor ei swyddogaeth, tua dechreu y fl. 1850, yr oedd wedi ysgrifenu *The Scarlet Letter;* yr hon chwedl a ddaeth yn boblogaidd ar unwaith, ac a ystyrir y fwyaf galluog o'i holl weithiau. Ar ol hyn, ysgrifenodd *The House of the Seven Gables*, *The Wonder Book*, a *The Snow Image*, *The Blithedale Romance*, a *Hanes bywyd y Cadfridog Franklin Pierce*—hen gydefrydydd iddo. Pan ddaeth Pierce i'r arlywyddiaeth, yn Mawrth, 1853, pennodwyd Hawthorne ganddo yn gonswl yn Liverpool:—swydd o elw, ac i'r hon yr oedd ei brofiad blaenorol yn y tolldy yn ei gyfaddasu.

Ar ol hyn, ysgrifenodd *The Marble Faun;* yr hwn a adnabyddir yn well yn Lloegr wrth yr enw *Transformation*, ac a ysgrifenwyd ganddo yn Redcar, yn swydd Gaerefrog. Ar ei ddychweliad i Concord, yn Mehefin, 1860, ysgrifenodd nifer o erthyglau i'r *Atlantic Monthly;* y rhai, yn ddilynol, a gyhoeddwyd gyda'r teitl *Our Old Home*. Bu toriad allan y Rhyfel Cartrefol yn rhwystr iddo allu ysgrifenu ond ychydig ar ol hyny; a phwysodd canlyniadau alaethus y rhyfel yn drwm ar ei feddwl. Bu farw ar Mai 18fed, 1864, yn Plymouth, yn New Hampshire; i'r hwn le yr aeth, gyda'i gyfaill Pierce, mewn ymchwiliad am adgyfnerthiad i'w iechyd. Claddwyd ef yn Concord, mewn llecyn heb fod yn mhell oddi wrth weddillion dau awdwr enwog eraill; sef, Emmerson a Thoreau.

**HAYTI.** Gwel San Domingo.

**HILEY, FRANCIS.** Ganwyd y pregethwr enwog uchod yn y Cwm, Llanwenarth, yn sir Fynwy, yn y fl. 1781. Enwau ei rïeni oeddynt William ac Anne Hiley. Tybir fod ei hynafiaid wedi disgyn o deulu Almaenaidd a sefydlasant yn y wlad. Yr oedd y tad yn dyddynwr cyfrifol, yn byw ar ei dir ei hun. Eglwyswr ydoedd o ran ei olygiadau crefyddol; ond ymddengys nad oedd efe yn gymmunwr, a thystia ei fab nad arddangosodd unrhyw dueddiadau defosiynol yn mlynyddoedd ei ieuengctid. Ond tua diwedd ei oes, ymddangosai yn derbyn budd a bendith drwy y gwasanaeth teuluaidd a gynnelid gan ei blant, a'r gwasanaethyddion o dan ei gronglwyd. Yr oedd ei fam, o'r tu arall, yn grefyddwraig ffyddlawn—yn aelod dichlynaidd o eglwys y Bedyddwyr yn Llanwenarth; a pharhaodd felly hyd ei bedd. Pan yn llangc ieuangc, gosodwyd Francis yn egwyddorwas gydag amaethwr cyfrifol, o'r enw Jonathan Davies, yr hwn oedd yn aelod ac yn ddiacon yn Llanwenarth. Rhyw foreu Sabbath, nad anghofiodd byth, medd efe yn ei hunan-gofiant, aeth i grwydro ar hyd y meusydd yn ei ddillad gwaith, gan benderfynu ymgadw o'r moddion, ac i ymroddi i fwy o annuwioldeb; ond ni fedrai gael llonydd gan ryw deimlad rhyfedd oedd oddi mewn; ac aeth i'r addoldy fel yr oedd, gan fwriadu ymguddio o olwg pawb yn yr oriel. Ond cafwyd hyd iddo gan drugaredd; a bu geiriau y pregethwr difrifol, Morgan Dafydd, yn foddion i yru y saeth i'w gydwybod. Yna ymunodd â phobl yr Arglwydd, a bedyddiwyd ef gan James Lewis, gweinidog Llanwenarth. Dychwelodd adref; ac yn fuan iawn dechreuodd ar y gwaith o bregethu. Yr oedd hyn, ar y cyntaf, yn groes i ddymuniadau ei dad; ond o'r diwedd, llarieiddiodd yn ei wrthwynebiad, ac yn raddol rhoddodd bob cefnogaeth iddo. Yn 1808, aeth i'r Fenni, i'r athrofa a agorwyd yno dan ofal Micah Thomas, i gymmhwyso dynion ieuaingc ar gyfer gwaith y weinidogaeth. Yr oedd efe yn un o'r myfyrwyr cyntaf yno. Bu athrofa yn flaenorol gan y Bedyddwyr yn Trosnant, Pont-y-pool; ond er i hono fyned i lawr, penderfynodd dynion da y gwnaent gais arall. Tua'r fl. 1810, sefydlodd Mr. Hiley yn ei fam eglwys, yn Llanwenarth, fel cydweinidog â'r hybarch James Lewis, gan wrthod galwadau taerion o Ferthyr, Aberteifi, a Chaerlleon-ar-Wysg. Yr oedd yn naturiol iddo ef ddewis myned i'w hen gartref, yn enwedig gan fod yr alwad oddi yno mor wresog ac unfrydol. Ordeiniwyd ef Awst, 1811, pryd y gweinyddai y

Digitized by Google

Mri. Rhys Jones, a Morris Jones, Merthyr; J. Davies, Caerlleon; a D. Richards, Caerphili. Yr oedd y cyfnod hwn yn 'ddydd y pethau bychain' ar Anghydffurfiaeth yn y wlad. Deg oedd rhifedi yr holl eglwysi a feddai y Bedyddwyr yn sir Fynwy ar y pryd; ond fe gafodd, yn ystod hanes ei weinidogaeth yn Llanwenarth, weled gwedd newydd ar bethau, a'r deg eglwys wedi myned yn agos i bedwar ugain. Yr oedd ganddo ef ei hun ran fawr mewn dwyn hyn oddi amgylch, gan ei fod, drwy ei lafur egnïol a gonest, ei bregethau godidog, ei ddawn areithyddol nodedig, a'i fywyd cysson, wedi ennill sylw y wlad. Bedyddiwyd, yn ystod y 22ain mlynedd y bu yn gydweinidog â Mr. Lewis—sef, hyd farwolaeth yr olaf—y nifer o 449 o bersonau; yr hyn oedd dros 20 ar gyfartaledd bob blwyddyn. Bu yn llwyddiannus, yr un modd, hyd ei farwolaeth ei hun; yr hyn a gymmerodd le tua'r fl. 1860.

Yr oedd efe yn ddyn o gynneddfau cryfion. Cyttuna pawb ar a'i clywsant yn pregethu, ei fod yn meddu ar ddawn areithyddol yn mhell tu hwnt i'r cyffredin. 'Clywsom ef yn pregethu lawer gwaith,' medd un ysgrifenydd, 'i filoedd o bobl, nes y byddai y dyrfa oll yn ddrylliau, ac mewn boddfa o ddagrau.'

Darluniai Mr. Bevan ef yn pregethu unwaith yn Nant-y-glô, a dywed:—'Pan ddaeth y cwrdd deg, aethom tua'r capel; ond yr oedd hwnw yn rhy fach o lawer i ddal y gwrandawyr; ac am hyny, safodd Mr. Hiley ar y mur o'i flaen i bregethu i'r dyrfa. Ei bwngc oedd 'Trochiad yr aderyn byw yn ngwaed yr aderyn marw, a'i ollyngiad ymaith wedi hyny.' Yr oedd yr effeithiau yn gymmaint fel yr oedd y gynnulleidfa fawr o'r braidd wedi dyrysu. A dyna fel yr oeddynt yn synu, yn edrych, yn gwrandaw, yn gorfoleddu, yn wylo, ac yn bob peth a all dyn ei wneyd; a hyny dan effaith rhyw ddylanwad oedd fel ager yn troi pob olwyn yn y peiriant dynol. Arian byw y bregeth oedd 'Gollyngiad pechadur yn rhydd trwy waed Crist;' a gallwn gymmeryd fy llŵ na chlywodd dyn erioed ragorach taranau o fiwsig a bloeddiadau nag a glywsom ni y boreu hwnw.'

Yn gyffelyb y tystiolaetha llawer eraill. Soniwyd am dano yn pregethu mewn cymmanfa yn Nhredegar, yn y fl. 1855, pan yn hen ŵr 74ain mlwydd oed. Chwythai ryw ystorm ddychrynllyd dros y cwm ar y pryd, fel y gallesid tybied na allasai neb ennill sylw y dorf ddychrynedig; ond llwyddodd i wneyd hyny yn rhyfedd, nes yr anghofiodd y bobl ystorm yr awyr naturiol gan y nerth anorchfygol a deimlwyd yn cydfyned â'i weinidogaeth ef. O ran athrawiaeth, tueddai Hiley at Galviniaeth Gill a Booth; ond ni chymmerodd lawer o ran yn nadleuon ei oes, gan mai ei hoff waith ef oedd cyhoeddi athrawiaeth rhad ras. Ni chyhoeddodd nemawr ddim o'i waith erioed—yr hyn sydd yn golled: ond gwnaeth ei ran yn dda fel un o'r pregethwyr blaenaf. Nid ydyw adeg ei farwolaeth yn hysbys i ni.

HOLBEIN, HANS (yr ieuangaf)—oedd un o arlunwyr enwocaf y byd. Ganwyd ef yn Augsburg, yn y fl. 1494 neu 1495; a derbyniodd ran o'i addysg yn y gelfyddyd o 'baentio' gan ei dad, Hans Holbein:—yr hwn, hefyd, oedd yn arlunydd o gryn enwogrwydd. Dechreuodd gwrthddrych yr erthygl hon arlunio pan yr oedd yn ieuangc iawn; a chyn ymadael o hono â'i dref enedigol, yr ydym yn cael iddo gynnyrchu darluniau o ansawdd uchel iawn. O ddeutu y fl. 1516, gweithiai yn Basel; ond nid ymddengys iddo sefydlu yno hyd 1820, pan y derbyniodd ryddid y ddinas, ac y daeth i fod yn aelod o frawdoliaeth a elwid *Zum Himmel*. Oddi wrth hyn, ymddengys ei fod eisoes wedi ennill safle anrhydeddus yn ei alwedigaeth; onid ê, nid ydyw yn debygol y rhoddasid iddo anrhydedd y ddinas. Yn y cyfamser, bu yn dilyn ei alwedigaeth yn Zurich a Lucerne; lle y bu yn harddu y tu fewn a thu allan i breswylfod y maer. Tybir hefyd iddo, yn y tymmor hwn, dalu ymweliad byr â Milan; yn yr hon dref y cafodd arluniau prif feistri gogleddbarth yr Eidal ddylanwad mawr arno; effaith yr hyn sydd i'w weled yn yr arluniau a gynnyrchodd yn ddilynol i hyny.

Tua diwedd y fl. 1526, neu ddechreu 1527, talodd Holbein ymweliad â Lloegr; a chyflwynwyd ef gan Erasmus i Syr Thomas More—yr hwn, ar y pryd hwnw, oedd yn uchel yn ffafr Harri VIII. Dyma yr adeg y dechreuodd efe baentio y gyfres hono o ddarluniau rhai o Brydeinwyr enwocaf yr oes; sef, yr Archesgob Warham, Syr Henry Guildford, Nicholas Kratzer, a theulu Syr Thomas More. Tua dechreu 1532, ymwelodd â Llundain yr ail waith; a bu yn brysur ar y dechreu gyda darluniau o fasnachwyr Ellmynig cyfoethog a breswylient yno. Ychydig o weithiau arwyddluniol a gynnyrchwyd ganddo yr adeg yma; ond gellir enwi un o honynt, sef, *The Triumph of Riches and of Poverty;* yr hwn a ystyrir yn ddarlun rhagorol. Yn wir, mae pob peth a wnaed gan Holbein yn aros yn mysg camp-weithiau y byd mewn ystyr gelfyddydol. I'r cyfnod hwn y priodolir hefyd *The Ambassadors;* yn yr hwn y cynnrychiolir, y mae'n debyg, Syr Thomas Wyatt a John Leyland; a darlun o Thomas Cromwell, ynghyd â llawr o ddarluniau eraill sydd yn rhy liosog i'w henwi.

Yn 1540, gwnaeth ddarlun o'r Duc o Norfolk, ewythr y frenhines Catherine Howard; yr hwn sydd yn un o orielau Castell Windsor—eilun o'r hwn sydd yn Nghastell Arundel. Y darlun olaf ar ba un y bu efe yn gweithio oedd darlun o Harri VIII. yn caniatau siarter i Feistriaid Cwmni y Barber-Surgeons. Y mae hwn yn nghadw yn y Guild Hall, Llundain. Gadawwyd ef yn anorphenedig pan y bu efe farw yn Llundain, yn amser y pla, ryw bryd rhwng y 7fed o Hydref a'r 29ain o Dachwedd, 1543.

Yr oedd Holbein, yn ddiddadl, yn un o'r arlunwyr galluocaf a welodd y byd erioed; ac y mae y darluniau a adawodd efe ar ei ol, pan yn newid dwylaw, yn cael eu gwerthu am symiau aruthrol o fawr.

HOLMES, OLIVER WENDELL. Llenor Americanaidd enwog oedd efe. Daeth ei enw yn hysbys trwy yr holl fyd gwareiddiedig fel awdwr y llyfr dyddorol hwnw—*The Autocrat of the Breakfast Table*. Ganwyd ef yn Cambridge, yn Massachusetts, Awst 29ain, 1809—yr un flwyddyn ag y ganwyd Darwin, Gladstone, a Tennyson. Wedi graddio yn mhrifysgol Harward, yn 1829, dechreuodd ei yrfa gyhoeddus trwy efrydu y gyfraith; ond rhoddodd hyn i fyny yn foreu, a throdd ei sylw at feddyginiaeth. Wedi treulio peth amser dan un o feddygon y Talaethau, daeth drosodd i Ewrop am dair blynedd; a threuliodd y rhan fwyaf o'r

Digitized by Google

tymmor hwn yn nghlafdai Paris. Wedi ennill ei raddau, dechreuodd ymarfer y gelfyddyd yn nhref Boston, yn 1836. Yn mhen dwy flynedd pennodwyd ef yn athraw mewn difyniaeth (*anatomy*) yn Ngholeg Dartmouth, yn New Hampshire; ac yn 1847, cafodd swydd gyffelyb yn ysgol feddygol Massachusetts; yr hon a ddaliodd hyd y fl. 1882.

Yr un flwyddyn ag y derbyniodd efe ei radd feddygol, cyhoeddodd ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth; yr hon a gynnwysai y darnau prydferth ac adnabyddus canlynol:—*The Last Leaf*, *My Aunt*, a *The September Gale*. Yn 1840, priododd ferch y barnwr Charles Jackson, o brif lys Massachusetts; o'r hon y ganwyd iddo fab—i'r hwn y rhoddodd efe ei enw ei hun; sef Oliver Wendell. Y mae yntau yn awr yn farnwr prif lys Massachusetts, ac yn un o gyfreithwyr galluocaf America.

Yn ystod misoedd yr haf, arosai Dr. Holmes am rai tymmhorau yn nhref Pittsfield, heb fod yn neppell o Lenox—lle y preswyliai ei gyfaill Hawthorne, y rhamantydd enwog. Parhaodd Holmes i deimlo dyddordeb dwfn mewn achosion meddygol; ac yn ei weithiau llenyddol ceir cyfeiriadau mynych at y cwestiynau mawrion oedd ar y pryd yn dwyn sylw meddygon y wlad. Ceir enghraifft o hyn yn ei ymosodiad ar Phrenyddeg, yn y llyfr a ysgrifenodd gyda'r teitl o *The Professor at the Breakfast Table*. Ysgrifenodd amryw draethodau llafurfawr hefyd ar feddyginiaeth; ac er eu bod yn weithiau o gryn allu, y maent wedi syrthio i'r cysgod yn hollol yn ymyl ei weithiau llenyddol.

Pe yr ymddibynasai yr awdwr ar ei weithiau meddygol am enwogrwydd, y mae'n diammheu na ddaethai ei gymmeriad yn hysbys ond i gylch cymmharol fychan yn Massachusetts, a'r talaethau cylchynol. Modd bynag, fel bardd, fel traethodwr, ac fel nofelydd, daeth ei enw yn adnabyddus yn mha le bynag y mae yr iaith Saesnig yn cael ei siarad.

Cyhoeddodd Dr. Holmes amryw gyfrolau o farddoniaeth; megys, *Urania*, *Astræa*, *Songs in many Keys*, a *The Iron Gate*. Am flynyddoedd lawer, prin yr ystyrid un dathliad cyhoeddus yn Boston, o ba natur bynag y byddai, yn gyflawn heb i Dr. Holmes gyfansoddi cân ar yr achlysur. A phan gymmerai digwyddiadau o bwysigrwydd cenedlaethol le—megys, dathliad Canmlwyddiant y Weriniaeth, yn 1876—byddai efe, gydag ychydig o feirdd enwog eraill, yn cyfansoddi caneuon ar yr achlysur. Ystyrir ei gerdd, *The Chambered Nautilus*, yn un o'r rhai perffeithiaf a gyfansoddwyd erioed. Ond y mae'n debyg mai ei gerdd fwyaf adnabyddus yw yr un a ddwg y penawd *One-hoss Shay*; yr hon sydd o ansawdd ddigrifol, a'r hon sydd yn gyflawn o ddigrifwch ac asbri.

Yn 1857, cychwynwyd yr *Atlantic Monthly* gan Longfellow a Lowell, ac awdwyr enwog eraill o Loegr Newydd; ac i'r hwn y bu Dr. Lowell yn gwasanaethu fel ei olygydd cyntaf. Yn naturiol, sicrhawyd ei wasanaeth ef fel ysgrifenydd iddo; ac er fod prif ysgrifenwyr America yn anfon erthyglau i'r cylchgrawn, bu ganddo ef gymmaint o ran a neb o honynt, os nad mwy, i sicrhau llwyddiant yr anturiaeth. Ysgrifenodd gyfres o erthyglau, neu draethodau ar ffurf ymddiddanion. Teitl y gyfres gyntaf oedd *The Autocrat of the Breakfast Table*; yr ail, *The Professor at the Breakfast Table*; a'r drydedd, yn mhen gryn amser, *The Poet at the Breakfast Table*. Daeth y gyfres gyntaf o'r ysgrifeniadau hyn mor hysbys, a chrëasant y fath gyffro ac edmygedd yn mysg llenorion, a'r cyhoedd darllengar hefyd, fel yr adnabyddid yr awdwr byth er hyny wrth yr enw *The Autocrat*. Ar bwys yr erthyglau hyn, ymledodd ei glod dros gyfandiroedd America ac Ewrop gyda chyflymder mawr. Cymmherir yr erthyglau i'r eiddo Charles Lamb; yr hyn yw y deyrnged uchaf sydd yn bossibl ei roddi iddynt: a daethant yr un mor boblogaidd yn y wlad hon ag yn Lloegr Newydd.

Yr oedd Holmes yn nofelydd medrus, a galluog hefyd. Yn 1861, cyhoeddwyd *Elsie Venner, a Romance of Destiny*—ffug-chwedl sydd yn ymwneyd âg ymdebygoliad dirgel geneth ieuangc i sarph; yr hwn ymdebygoliad a achosid trwy i fam yr enethig gael ei brathu gan y bwystfil ychydig cyn ei geni. Y mae y nofel yn gampwaith o ran celfyddyd, ac yn ddangosiad hefyd o'r dyddordeb dwfn a deimlai yr awdwr mewn cwestiynau meddygol ac anianyddol. Yn 1868, ymddangosodd *The Guardian Angel*. Y mae y chwedl hon, mewn rhan, yn ymdrin â damcaniaethau cyffelyb; ond ysgafnheir y gwaith gan y digwyddiadau mwyaf digrifol a geir mewn chwedlau o gyfansoddiad diweddar. Yn mysg eraill o'i weithiau rhyddieithol, gellir enwi *Soundings from the Atlantic* (1864), *Mechanism in Thought and Morals* (1871), *Memoirs of John Lothrop Motley* (1879), *Memoirs of Ralph Waldo Emerson* (1884), ac *A Mortal Antipathy* (1885).

Yn y fl. 1886, talodd Dr. Holmes ymweliad â Lloegr a Ffraingc, a chynnyrchodd ei bresennoldeb gyffro nid bychan yn mhob cylch o lenyddion yn y ddwy wlad. Dangosai pob dyn o enwogrwydd yn Mhrydain ei awydd i'w groesawu. Derbyniwyd ef â breichiau lawn agored gan Gladstone, Browning, Tennyson, Mathew Arnold, ac eraill. Yn 1887, ymddangosodd ei *Our Hundred Days in Europe*; sef, cronicl dyddorol o'r daith y cyfeirir ati uchod. Un o'r paragraphau mwyaf dyddorol yn yr holl lyfr yw disgrifiad yr awdwr o Mr. Gladstone yn anerch Tŷ y Cyffredin, ar y 7fed o Fehefin, pan yn traddodi ei araeth fythgofiadwy ar y cwestiwn Gwyddelig. Wedi marwolaeth J. Russell Lowell, a Walt Whitman, safai Holmes ar ben uchaf rhestr llenorion America.

Dyn ysgafn o gorph oedd efe, ac o ymddangosiad trwsiadus a boneddigaidd. Ei lygaid disglaer a threiddiol, a'i wenau tawel, oeddynt ei brif attyniadau corphorol.

Yr oedd yn wrandäwr cysson yn hen eglwys Capel y Brenin, yn Boston. Yr oedd yn wladgarwr selog hefyd; ac fel y rhelyw o'i gyfeillion barddonol, yn elyn anghymmodlawn i gaethwasiaeth, er na chymmerodd efe ran flaenllaw a chyhoeddus yn y symmudiadau i ddiddymu y cyfryw, fel y gwnaeth Lowell a Whittier.

Bu farw yn hynod ddisymwth, ar Sabbath, Hydref y 7fed, 1894, yn 86ain mlwydd oed.

HOOD, THOMAS. Bardd, a chellweiriwr (*humourist*) enwog oedd efe; yr hwn a anwyd Mai 23ain, 1799, yn Llundain; lle yr oedd ei dad yn cario masnach yn mlaen fel cyhoeddwr, gyda gŵr arall o'r enw Vernor. Brodor o Ysgotland oedd ei dad, Thomas Hood; ac yr oedd ganddo duedd gref at lenydda. Cyhoeddodd ddwy ffug-chwedl; ac arferai ddweyd oddi wrth hyn 'fod ei fab wedi ei eni âg ingc yn ei

Digitized by Google

waed.' Ail fab i'r cyhoeddwr oedd Thomas, o fysg chwech o blant. Bu y tad farw yn 1811, pan yr oedd Thomas yn ddeuddeng mlwydd oed; a gadawodd y weddw a'r tri phlentyn a adawyd yn fyw mewn amgylchiadau lled gyfyng. Ychydig o addysg a gafodd Hood ar ol cyrhaedd ei bedwaredd flwydd ar ddeg; ac i'w athrylith a'i duedd at ddarllen y mae yn rhaid priodoli y pinacl uchel o enwogrwydd a gyrhaeddodd efe. Bu am dymmor mewn swyddfa masnachydd yn y ddinas; ond o herwydd sefyllfa anfoddhaol ei iechyd, bu raid iddo roddi ei le i fyny. Yna aeth i Dundee, lle yr arosodd o 1815 hyd 1818, gyda rhai o berthynasau ei dad. Yn 1818, dychwelodd i Lundain, gan fyned i swyddfa ewythr; yr hwn oedd yn gerfiedydd. Pan tua 22ain oed, pennodwyd ef yn is-olygydd y *London Magazine;* ac nis gallai dim ddigwydd oedd yn fwy cydnaws â'i chwaeth. Trwy hyn, dygwyd ef i gyffyrddiad â llenorion o safle Allan Cunningham, De Quincey, Proctor, Cary, a Charles Lamb; a throdd y gyfathrach â hwy yn fanteisiol hynod i Hood mewn ystyr lenyddol. Yn mhen tair blynedd ar ol hyn, priododd Hood chwaer i John Hamilton Reynolds; a bu ei gydnabyddiaeth â'r gŵr galluog hwn yn foddion arbenig i dadblygu ei athrylith farddonol. Rhwng 1821 ac 1823, heb law llawer o ysgrifau eraill a ysgrifenodd i'r *London Magazine*, cyfansoddodd rai o'i ddarnau barddonol godidocaf; megys, *Lycus the Centaur*, *Two Peacocks of Bedfont*, *Ode to Autumn*, ac eraill y gellid eu henwi. Yr oedd teilyngdod y cyfansoddiadau hyn yn gyfryw ag a fuasent yn sicrhau safle anrhydeddus iddo yn marn darllenwyr yr oes; ond cafodd ei gymmeriad fel bardd ddioddef i raddau helaeth oddi wrth ei enwogrwydd fel cellweiriwr (*humourist*); ac yr oedd ganddo dalent fel y cyfryw o'r radd flaenaf.

Yn 1825, cyhoeddodd, gyda'i frawd-yn-nghyfraith, Reynolds, gyfrol fechan ddi-enw, yn dwyn y teitl *Odes and Addresses to Great People;* yr hon a fu yn hynod lwyddiannus. Tua'r adeg hon, hefyd, ymddangosodd math o gellweir-gân (*burlesque*) o'i eiddo yn y *London Magazine;* i'r hon y rhoddodd efe y teitl o *Ode to Dr. Kitchener*. Bu llwyddiant hon yn foddion i'w arwain ef i gasglu nifer o gyfansoddiadau tebyg; i'r hwn gasgliad y cyfansoddwyd rhai gan Reynolds. Ond i Hood y perthynai y mwyafrif o'r ysgrifeniadau; ac attynwyd sylw neillduol y cyhoedd atynt gan yr elfen chwareus, gellweirus, oedd yn nodweddu y gwaith. Priodolai Coleridge y llyfr i Charles Lamb, fel yr unig un y gwyddai efe am dano a allasai gynnyrchu y fath gampwaith. Aeth y llyfr trwy dri argraphiad mewn ychydig amser; a bu yn foddion i benderfynu i ba gyfeiriad y rhedai ei dalentau am y gweddill o'i yrfa fel awdwr. Ychydig o elw a ddygwyd iddo gan ei 'farddoniaeth ddifrifol,' fel ei gelwid; ond erbyn hyn, yr oedd yn cael sylw holl lenorion y deyrnas; ac yr oedd ei lwyddiant yntau wedi ei osod ar sylfaen sicr a diogel.

Treuliodd yr ugain mlynedd nesaf ar lenyddiaeth o'r nodwedd hwn; ond er iddo lwyddo y tu hwnt i ddisgwyliad, ymdrech galed fu y gweddill o'i oes, o herwydd afiechyd, ac anghysuron. Yn 1826, ymddangosodd y gyfres gyntaf o *Whims and Oddities;* a'r ail gyfres y flwyddyn ddilynol. Yn lled fuan wedi hyny, cyhoeddwyd ei *National Tales;* ac yn 1829, bu yn golygu *The Gem*, yn yr hwn yr ymddangosodd ei gyfansoddiad barddonol adnabyddus, *Eugene Aram*.

Yn 1829, symmudodd ef a'i wraig o Lundain i Winchmore Hill—ychydig o filldiroedd i'r gogledd o'r brif ddinas, lle y cynlluniodd y cyntaf o'r cylchgronau blynyddol digrifol hyny a gynnyrchwyd ganddo, o 1830 hyd 1839. Yn 1839, ymadawodd oddi yno, ac ymsefydlodd yn Wanstead, yn swydd Essex. Yno yr ysgrifenodd ei nofel *Tylney Hall;* yr hon a gyhoeddwyd yn 1834. Yr oedd y chwedl hon yn gynnyrch gwir athrylith; ond ar y cyfan, methiant fu fel nofel. Ni cheisiodd yntau, wedi hyny, ysgrifenu rhamant mewn rhyddiaeth. Yn 1834, llethwyd Hood am y gweddill o'i oes, trwy fethiant ei gyhoeddwr; yr hyn a'i taflodd ef i sefylifa arianol ddifrifol. Wedi genedigaeth ei ail fab, yn 1835, a gwaeledd mawr Mrs. Hood, aethant i Coblenz, ar yr afon Rhine; lle yr arosasant am ddwy flynedd. Yna, buont am y tair blynedd dilynol yn Ostend. Yn ystod y pum mlynedd a nodwyd, yr oedd Hood yn dioddef oddi wrth afiechyd angeuol; ond gydag egni, a dyfalbarhâd canmoladwy, parhaodd i ddwyn allan, heb dderbyn unrhyw gynnorthwy gan arall, ei *Comic Annuals*, a gweithiau eraill o ansawdd ysgafnach. Dyma'r pryd, hefyd, y tynodd efe allan gynllun ei *Up the Rhine;* yn yr hon gyfrol y ceir hanes digrifol o fywyd teulu Saesneg yn yr Almaen. Pan gyhoeddwyd y gwaith hwn, yn 1839, daeth ar unwaith yn boblogaidd; ond ychydig o elw a dderbyniodd yr awdwr oddi wrtho, er i'r cyhoeddwr ei hun, yn ol pob tebyg, wneyd swm boddhaol oddi wrth yr anturiaeth. Nid oes ammheuaeth na ddioddefodd Hood yn ddirfawr, rhwng ei afiechyd ac amgylchiadau isel, yn ystod y blynyddoedd hyn; a gwneir crybwylliad byr i'r perwyl yn y bywgraphiad a gyhoeddwyd iddo gan ei fab a'i ferch. Yn wir, mewn llythyr a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun at ei wraig, o dŷ cyfaill iddo, yn Ebrill, 1840, dywedodd ei fod mor dlawd fel yr ofnai nad oedd gwaredigaeth iddo ond y tu fewn i furiau carchar Bruges. Yr un flwyddyn, modd bynag, galluogwyd ef i ddychwelyd i Loegr, trwy garedigrwydd ei gyfeillion; y rhai a'i cynnorthwyasant i dalu ei ddyledion. Nid oedd ei farwolaeth yn awr ond cwestiwn o ychydig amser; gan fod cyflwr ei ysgyfaint a'i galon yn prysuro ei gerddediad tua'r bedd—ond parhaodd i ymdrechu am bum mlynedd ar ol hyn. Yn 1841, pennodwyd ef yn olygydd y *New Monthly Magazine*, am gyflog o 300*p.* yn y flwyddyn. Daliodd y swydd am ddwy flynedd, a rhoddodd hi i fyny o herwydd anghydfod fu rhyngddo ef a'r perchenog. Yn mis Ionawr, 1844, cychwynodd gylchgrawn newydd o'i eiddo ei hun—*Hood's Monthly Magazine;* a dyma ei anturiaeth lenyddol ddiweddaf. Yn mhen ychydig fisoedd ar ol ei gychwyniad, angenrhaid fu gosod ynddo rybudd at y darllenwyr, fod iechyd y golygydd yn cyflym ballu. Tua diwedd y flwyddyn, caniatawyd blwydd-dâl i Mrs. Hood o 100*p.* gan Syr Robert Peel, allan o drysorfa y llywodraeth. Bu yr awdwr trylen farw Mai 3ydd, 1845, a chladdwyd ef yn Nghladdfa Kensal Green. Ni bu ei wraig fyw ond deunaw mis ar ei ol.

Yn mysg ei gyfansoddiadau barddonol, y rhai tebycaf o 'fyw' ydynt ei delynegion (*lyrics*)—*Song of the Shirt*, *Bridge of Sighs*, *Eugene Aram*, *Ode to Melancholy*. Y mae ei gyfansoddiadau wedi dioddef o herwydd yr angenrheidrwydd a osodid arno i ysgrifenu yn gyflym er ennill ei fara beunyddiol. Ond y maent yn meddu y fath deilyngdod fel y bydd ei enw yn anfarwol,

Digitized by Google

HUGHES, Y PARCH. JOHN, D.D. Ni raid ofni y tybia neb o wrandawyr Dr. Hughes mai gormodiaith ydyw ei osod yn y rhestr flaenaf o 'gewri y pulpud Cymraeg.' Yr oedd, yn ddïau, yn un o bregethwyr galluocaf a grymusaf ei oes. Dichon nad oes un nôd sicrach ar wir athrylith na'r gallu i wneuthur yn eiddo i'w pherchen yr hyn oll y delo i gyffyrddiad âg ef—i beri iddo yfed pob dylanwad oddi wrth ddynion, derbyn pob ysbrydiaeth fyddo yn cynnhyrfu ac yn cyffroi meddyliau yr oes a'r amser, a gwneyd yn feddiant priodol iddo ei hun gyfoeth meddyliol y canrifoedd; ac ar yr un pryd, cadw ei holl neillduolion ei hun yn ddilwgr. Ac os gwir hyn, pwy a wâd nad oedd Dr. Hughes yn ŵr o athrylith uchelryw? Yfodd i mewn i'w ysbryd ei hun y dylanwadau grymus y tyfodd i fyny yn eu canol yn Llanerchymedd, ac yn Môn. Edmygai yn ddiderfyn, o'i fachgendod, y tywysog-bregethwr o Amlwch, y Parch. W. Roberts, a phregethwyr mawr eraill a wrandewid ganddo yn fwy achlysurol; ac adeiladodd, mewn rhyw ystyr, ei feddwl ei hun allan o honynt hwy. Ac yn yr un cyfnod yr oedd efe yn ddarllenwr nas gellid ei ddiwallu. Blinai yn fuan wrth chwareu; ond ni flinai un amser yn darllen ei hoff lyfrau. Ac wedi dechreu pregethu, parhaodd i yfed pob dylanwad y deuai i'w gyrhaedd gyda mwy-fwy o awch, pa un bynag ai oddi wrth ddynion, ai oddi wrth lyfrau. Ond llwyddodd yn nghanol pob dylanwad oddi allan i gadw yn berffaith ddilwgr ei nodweddion meddyliol ei hun. Ar ryw olwg, nid oedd i'w gael bregethwr llai gwreiddiol, os wrth wreiddioldeb y golygir yn unig nad yw dyn yn ddyledus am yr hyn a gynnyrchir ganddo i neb ond iddo ei hun. Nid oedd yn ei ddydd neb yn esgyn i bulpud â mwy o ôl darllen ar ei bregethau; ond pwy, ar yr un pryd, a ddywed nad oedd ei ddelw ei hun yn argraphedig ar bob brawddeg a leferid ganddo? Mor amlwg oedd y ddelw fel y gallasai darllenydd yn meddu gronyn o graffder llenyddol adnabod ei frawddegau yn mha gyssylltiadau bynag y gosodid hwynt. Gynnifer o ddynion sydd yn treulio eu hoes yn nghanol llyfrau da, ond heb allu i ddwyn i mewn i'w cynnyrchion ddim o'r cyfoeth a gynnwysant! A chynnifer, drachefn, sydd yn analluog i osod y gradd lleiaf o'u delw eu hunain ar yr hyn a fenthycir ganddynt! Ond rhaid i ni adael y sylwadau cyffredinol hyn er adrodd mor gryno ag y gallwn hanes bywyd Dr. Hughes o'i febyd i'w fedd, a cheisio rhoddi rhyw syniad i ddarllenwyr y dyfodol am ei alluoedd, ei gymmeriad, a'i waith.

*Lle ei enedigaeth.*—Ganwyd ef yn nhref Llanerchymedd, yn sir Fôn. Gelwir y dref hono, weithiau, yn 'Athen Môn;' ac mewn rhai cyfnodau yn ei hanes, nid oedd yr enw mewn un modd yn anghyfaddas. Ganwyd ynddi nifer o wŷr athrylithgar; a bu yn preswylio ynddi, o dro, i dro amryw o wŷr o enwogrwydd diammheuol mewn gwahanol gyfeiriadau. O ran dim sydd yn y dref a'i hamgylchoedd i olwg dyeithr-ddyn, nid oes yn Nghymru oll le llai dyddorol, na lle llai tebyg o fod yn fagwrfa i enwogion. Nid oes fynydd, na môr, nac afon, yn werth ei galw yn afon, yn agos iddi. Ychydig a wnaeth natur a chelfyddyd i Lanerchymedd; canys nid oes dim hynod, a dyweyd y lleiaf, yn ei hadeiladau, mwy nag yn ei golygfeydd. Ond o ddyddiau Goronwy Owen hyd yn awr, y mae o honi, ac o'i hamgylchoedd, olyniaeth urddasol o feirdd a phregethwyr wedi cyfodi. O fewn dwy filldir i'r dref, yn mhlwyf Llanfihangel-tre'r-beirdd, y ganwyd Lewys Morys (*Llewelyn Ddu o Fôn*), Mawrth 12fed, 1702:—'Un o'r llenorion, y beirdd, y gwladgarwyr, a'r dysgedigion penaf y cafodd yr hen ynys y fraint o'u magu yn ystod ei hanesyddiaeth.' Dywedir am dano 'y medrai wneuthur telyn, a'i chwareu; gwneuthur llong, a'i hwylio; a gwneuthur cywydd, a'i ganu dan dant.' Yr oedd yn ddi-ddadl yn ŵr o athrylith gref; a chynnorthwyodd Goronwy Owen trwy ei athrylith gryfach i'w anfarwoli yn ei farwnad iddo. Brodyr iddo ef oedd Richard Morys a William Morys; ac yr oeddynt eu dau, bob un yn ei linell ei hun, yn wŷr o allu diammheuol. Ger llaw Llanerchymedd, yn Llwydiarth Esgob, ar ei dreftadaeth ei hun, y preswyliai Huw Huws (*Y Bardd Coch*). Ganwyd ef yn 1693; a bu farw yn 1776. Yr oedd efe yn un o 'Dri Beirdd Môn,' y rhai yr argraphwyd eu gweithiau yn y *Dyddanwch Teuluaidd*. Y ddau eraill oedd Goronwy Owen a Lewys Morys. Ganwyd Einion Môn yn Mhwll-y-gynau, ger Llanerch-y-medd, yn 1788. Dywedir ei fod yn llenor o'i febyd; ond yn Llundain y treuliodd ei oes, ac y daeth i enwogrwydd fel ysgolhaig. Bu farw yn 1838, yn 50ain ml. oed. Ac y mae yr olyniaeth o feirdd wedi ei chadw i fyny hyd heddyw. Gellid enwi Gwalchmai—y patriarch yn mysg y beirdd; a'i frawd, Llanerchydd, yr hwn a fu farw yn 1874; Ieuan Alaw; Tegerin, ac eraill. A bu amryw feirdd yn cartrefu yno am nifer o flynyddoedd. Yno yr urddwyd Caledfryn yn weinidog gyda'r Annibynwyr, yn y fl. 1829; a threuliodd yr arch-dderwydd, Hwfa Môn, dymmor llwyddiannus yno fel gweinidog. Cychwynodd, hefyd, nifer fawr o bregethwyr da eu gyrfa yn yr un dref. Gellid enwi y Parchn. Griffith Davies (1777—1856); Hugh Jones, tad y Parch. Hugh Jones, D.D., o Liverpool (1792—1884); Ebenezer Davies, mab y Parch. Griffith Davies (1804—1875); William Roberts, D.D., o Utica (1809—1887); Richard Roberts, brawd Dr. Roberts (1803—1884); Grey Evans, yr hwn a fu yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Mhennal, Meirionydd (1815—1852), ac amryw eraill sydd etto yn fyw.

Pa fodd i roddi cyfrif am gyfodiad y fath nifer o ddynion enwog mewn lle mor annyddorol? Yn *Nghofiant y Parch. Ebenezer Davies*, y prif reswm a gynnygiir y Parch. William Pritchard, Pentraeth, ydyw bodolaeth ysgol dda yno, yr hon a gedwid gan y Parchedig John Richards. Haedda y gŵr hwn goffhâd parchus. Ar y pryd y gwasanaethai yn y dref, nid oedd Llanerchymedd yn blwyf. *Chapelry* ydoedd yn mhlwyf Llanfaelog; a bychan oedd ei arwynebedd. Ni chynnwysai y cwbl o'r dref. Yr oedd rhanau o honi mewn tri phlwyf; sef, Amlwch, Rhodogeidio, a Choedana. *Perpetual curacy*, gan hyny, oedd Llanerchymedd yn amser Mr. Richards; a dywed Gwalchmai, yn *Enwogion Môn*, ei fod yn gofalu am blwyfi Rhodogeidio a Choedana, yn gystal a Llanerchymedd. Ganwyd ef yn mhlwyf Lledrod, yn sir Aberteifi, rywbryd tua'r fl. 1757; a derbyniodd ei addysg yn ysgol enwog Ystrad Meurig. Dywedir fod ei hathraw a'i gwaddolydd, Mr. Edw. Richards, yn ewythr iddo. Yn gyd-ysgolheigion âg ef yr oedd Dafydd Ionawr a'r Parch. Thomas Jones, Creaton. Dyma yr unig ddau o'i gyd-ysgolheigion y parhaodd Dafydd Ionawr ar hyd ei fywyd i ohebu â hwynt. I Lanallgo y daeth



Digitized by Google

Mr. Richards i wasanaethu gyntaf yn Môn; ac oddi yno, efe a symmudodd i Lanerchymedd. Treuliodd yno y deugain mlynedd olaf o'i oes; ac yno y bu farw, Mawrth 26ain, 1832, yn 75ain mlwydd oed.

Dywedir ei fod yn berthynas i'r brodyr enwog, y Parchedigion Ebenezer Richards, Tregaron, a Thomas Richards, Abergwaen. Yr oedd, yn ddïau, yn 'ŵr da,' yn ëang a rhyddfrydig ei ysbryd, ac yn ddilychwin o ran ei gymmeriad fel Cristion a gweinidog yr efengyl. Arferai fyned yn achlysurol i gapel y Methodistiaid ar un adeg; ond achwynwyd arno wrth yr esgob, a gorchymynwyd iddo ymattal rhag gwneuthur yr un peth drachefn. Ar ol hyny, ymfoddlonai ar wrandaw y tu allan i'r drws; ond parhaodd hyd y diwedd i roddi ei bresennoldeb yn gysson yn y cymmanfaoedd. Yn fuan wedi ymsefydlu yn Llanerchymedd, dechreuodd gadw ysgol; a bu yr ysgol hono yn fath o athrofa yn nghanolbarth yr ynys am dymmor maith. Yr oedd Mr. Richards yn nodedig o fedrus fel athraw; a bu y Parchedigion Hugh Jones, hynaf, ac Ebenezer Davies—y ddau o Lanerchymedd; y Parch. Richard Parry (*Gwalchmai*), a'i frawd, Mr. Thomas Parry (*Llanerchydd*), a llawer eraill, gydag ef yn derbyn eu haddysg. Rhaid ei fod, hefyd, o gryn safle fel llenor a bardd; canys pennodwyd ef yn gyd-feirniad â Dafydd Ddu yn Eisteddfod Caernarfon, yn 1820. Nid yw yn anhawdd credu fod ysgol, gydag athraw o'r fath yma, yn ffynnonell dylanwad cryf a dyrchafol, yn enwedig mewn cyfnod pan nad oedd yn Nghymru nemawr o ysgolion o unrhyw werth. Yn fuan wedi i Mr. Richards ddyfod i Lanerchymedd, daeth brawd iddo yno ar ei ol; a chychwynodd fasnach yn y dref. O'r ddau frawd hyn disgynodd teuluoedd nodedig o barchus.

I'r Ysgol Sabbothol yr olrheiniai y diweddar Barch. John Pritchard, Amlwch, yn *Methodistiaeth Môn*, y dylanwad a dueddodd gynnifer o Fethodistiaid yn y dref i ymaflyd yn y weinidogaeth. Dywed efe, ac eraill, fod yr ysgol yno yn fwy llewyrchus nag yn un man yn Môn am flynyddoedd. A dichon y gellid chwanegu rhesymau eraill; ond y mae'n amlwg fod yn mysg y trigolion, am ryw resymau neu gilydd, lawer o yni meddyliol—fod yno ryw ysbrydiaeth oedd yn tueddu mewn modd arbenig i gyffroi a symbylu meddyliau ieuaingc i lafur mewn gwahanol gyfeiriadau.

*Ei Rieni.*—Enw ei dad, fel yntau, oedd John Hughes. Saer ydoedd wrth ei alwedigaeth; a dywedir nad oedd i'w gael wneuthurwr trol cyffelyb iddo. Cyffredin, y mae'n ddïau, oedd ei amgylchiadau; ond nid dyn cyffredin oedd efe. Bu farw yn 31ain ml. oed; ond buasai am ryw ysbaid cyn ei farwolaeth yn flaenor yn y Capel mawr. Ac y mae y ffaith iddo gael ei ddewis yn flaenor yn ddyn mor ieuangc yn brawf sicr fod ynddo ragoriaethau anghyffredin. Ni ddywedir ei fod yn nodedig am ei ddawn, nac am ei awydd i ymwthio i gyhoeddusrwydd mewn cyssylltiad â gwaith ei swydd; ond yr oedd yn ddyn darllengar, meddylgar, synwyrol, ac yn meddu barn dda—nodweddau oedd yn ei wneyd yn dra gwerthfawr fel gŵr o gynghor. Ac yn ei holl gyflawniadau cyhoeddus, pan yn arwain defosiwn y gynnulleidfa mewn gweddi, neu yn traddodi anerchiadau byrion yn y cyfarfod eglwysig, yr oedd yn hollol weddus a chymmeradwy. Y mae yn amlwg, hefyd, ei fod yn dra chydwybodol gyda magwraeth ei blant. Yr oedd yn ei feddiant lyfr y credai fod gwenwyn ynddo, ac na fynai iddo syrthio i law ei fachgen; felly, rhoddodd gwpl o hoelion drwyddo, fel nas gallai y bachgen, na neb arall, ei ddarllen mwyach. Bu farw, wedi cystudd byr, Ebrill 27ain, 1833, pan nad ydoedd ei fachgen ond pump a hanner blwydd oed. Cafodd gladdedigaeth anrhydeddus.

Gellir gweled, hefyd, oddi wrth ei lyfrgell, mai nid dyn cyffredin oedd. Drud ac anhawdd eu cael oedd llyfrau da y pryd hwnw; ond yr oedd ganddo ef y gweithiau canlynol:—*Geiriadur Ysgrythyrol Charles*—yn bedair cyfrol; *Amseryddiaeth Simon Llwyd*, a'i *Esboniad ar Lyfr y Dadguddiad*; *Pedwar Cyflwr Dyn*, gan T. Boston; a rhyw gymmaint o *Esboniad James Hughes*, ynghyd â nifer o lyfrau eraill.

Eleanor Jones oedd enw morwynol ei wraig; ac yr oedd hi ddeng mlynedd, neu chwaneg, yn hynach na'i phriod. Bu fyw 30ain ml. ar ei ol; felly, arni hi yn benaf y disgynodd y cyfrifoldeb o ddwyn i fyny ei phlant—John, a'i chwaer ieuengach nag ef, Elizabeth. Gwraig dawel, ddwys, yn tueddu at fod yn bruddaidd, oedd hi; ond yn cadw rheolaeth dda yn ei theulu. Gosodai i lawr y ddeddf, ac ni oddefai iddi gael ei throseddu. Yr oedd yn wraig ddarllengar. Darllenai y llyfrau goreu. O'i ymddangosiad cyntaf yn 1845 hyd ddiwedd ei hoes, darllenai y *Traethodydd* yn gysson; ac yr oedd mor gyfarwydd â'r Beibl fel yr edrychid arni yn fath o Fynegair Ysgrythyrol. Y noson ddiweddaf o'i heinioes, dechreuodd ddarllen gydag awch lyfr newydd a roddwyd iddi gan gyfaill; sef, *Perffaith Gyfraith Rhyddid*, gan y Parch. D. Jones, Treborth. Yr oedd hi yn athrawes ragorol, a chanddi bob amser ddosbarth o wragedd mewn oed. Teimlai yn ddwys dan bregethiad y Gair; a byddai yn fynych yn wledd ei chlywed yn adrodd ei phrofiad yn y cyfarfod eglwysig. Ymneillduodd i orphwys un noson, a hono yn noson y cyfarfod eglwysig, ar ol treulio peth amser gyda'r llyfr newydd y cyfeiriwyd ato, yn ei hiechyd arferol; ond cyn pedwar o'r gloch boreu dranoeth, yr oedd ei hysbryd wedi ehedeg ymaith at Dduw. Cafodd hithau gladdedigaeth anrhydeddus iawn. Cynnaliwyd gwasanaeth yn y capel; a gwnaed yno sylwadau ar ei chymmeriad gan y Parch. W. Roberts, Amlwch, yn gystal a chan y gweinidogion oedd yn byw yn Llanerchymedd. Yn mynwent eglwys Ceidio y gorwedd ei gweddillion hi, a'i phriod; a bendigedig yw coffadwriaeth y ddau.

*O'i enedigaeth hyd ei dderbyniad yn gyflawn aelod.*—Ganwyd ef yn nhŷ y capel, lle y preswyliai ei rieni, Medi 27ain, 1827. Cynnelid cymdeithasfa yn Beaumaris ddyddiau Mawrth a Mercher, Hydref 3ydd a'r 4ydd; ac yn hono yr oedd y Parchedig Henry Rees. Ac mewn cyssylltiad â hanes y gymdeithasfa, chwanega Dr. Owen Thomas y nodiad canlynol yn ei Gofiant:—

> 'Aeth Mr. Rees o Beaumaris ar daith led fanwl trwy sir Fôn, gan dynu cynnulleidfaoedd dirfawr ar ei ol yn mhob man, a phregethu braidd bob tro gydag arddeliad mawr. Pan ar y daith hon, ac yn niwedd yr odfa yn Llanerchymedd, fe fedyddiwyd baban ganddo, o ryw bythefnos oed, a adnabyddir yn awr, ac ni a obeithiwn a adnabyddir am flynyddoedd lawer etto, fel y Parch. John Hughes, D.D., Liverpool. [Erbyn hyn, Caernarfon].'

Medrai ddarllen Cymraeg yn ieuangc iawn; a dysgodd allan, yn mlynyddoedd ei febyd, ranau

Digitized by Google

helaeth o'r Beibl. Chwareuwr gwael ydoedd. Yr oedd amryw resymau am hyny. Un oedd dysgyblaeth fanwl ei fam, trwy ba un y cedwid ef rhag chwareu o gwbl, oddi eithr i'r cwmni fod yn un a farnai hi yn berffaith ddiogel iddo; ac un arall ydoedd, gwaeledd ei iechyd yntau. Blinid ef o gychwyniad ei yrfa gan beswch a chaethiwed yn y frest, y rhai a lynasant wrtho ar hyd ei oes. Cerddwr trwm, arafaidd, ydoedd; ac nid oedd fawr obaith iddo ef am goron buddugoliaeth mewn unrhyw redegfa. Ond yn yr Ysgol Sabbothol, ac yn yr ysgol ddyddiol hefyd, yr oedd efe bob amser o'r bron ar y blaen i'w holl gyfoedion.

Ceir rhai crybwyllion dyddorol am ddyddiau ei febyd mewn ysgrif yn *Nhrysorfa y Plant* (Chwefror, 1893):—

'Dechreuodd John hynodi ei hunan yn blentyn yn yr Ysgol Sabbothol, trwy ddysgu ac adrodd pennodau. Sabbath nodedig yn ysgol Llanerchymedd oedd Sabbath ymweliad blynyddol y Parch. John Prytherch. Efe oedd holwr y plant. Yn cyfeirio at ei ymweliad un tro, dywedodd Dr. Hughes, 'Cofus genyf ei fod yn gofyn pa beth ydoedd enwau meibion Saul; ac i minnau atteb, *Jonathan, Aminadab*, a *Malchisua*. Canmolodd fi yn fawr ar g'oedd y gynnulleidfa; a dïau i'r ganmoliaeth chwanegu fy awydd at hanesiaeth y Beibl.''

Ymddengys ei fod yn hoff o chwareu, er nad oedd yn rhagori fel chwareuwr:—

'Un tro, rhwystrodd ei fam ef i fyned i chwareu. Gofynodd iddi, 'Beth a wnaf fi yn y tŷ?' Dywedodd hithau wrtho, 'Darllen dy Feibl.' Dywedodd yntau, 'Yr wyf wedi darllen ei holl hanes.' Ac y mae yn bossibl ei fod yn tybied ar y pryd ei fod yn gwybod y cwbl. Aeth hithau at silff lyfrau, ac estynodd iddo lyfr nad oedd wedi sylwi arno o'r blaen—*Taith y Pererin*. Dechreuodd ei ddarllen y noson hono, ac aeth drosto oll cyn nos dranoeth. Darllenodd ef lawer gwaith wedi hyny; ac effaith y darlleniad boreuol hwn yw, fod yn well ganddo byth ei ddarllen yn Gymraeg nag yn Saesneg.'

Nid oedd yn Llanerchymedd ond un ysgol ddyddiol y gallesid ei anfon iddi, ac ysgol Eglwysig oedd hono—yn cael ei chadw gan ŵr o'r enw Edward Jones; ond yr oedd o dan arolygiaeth fanwl parson y plwyf, y Parch. John Griffith, M.A. Bu y Parch. Hugh Jones, D.D., yn yr un ysgol, ac ar yr un adeg a Dr. Hughes, er ei fod amryw flynyddoedd yn ieuangach. Gŵr dymunol oedd y clerigwr, ac yn barchus gan Ymneillduwyr, yn gystal ag Eglwyswyr. Ond yr oedd dysgu y *Catecism*, a myned i'r eglwys ar y Sabbath, yn faterion o orfodaeth i holl blant yr ysgol. Rhaid oedd myned i'r ysgol yn fuan wedi naw yn y boreu; a rhaid oedd i'r holl blant gerdded yn orymdaith drefnus o'r ysgoldy i'r eglwys i'r gwasanaeth boreuol, yr hwn a ddechreuid am un-ar-ddeg o'r gloch. Adeg ddifrifol fyddai boreu Llun yn fynych; canys gelwid i gyfrif y pryd hwnw y rhai fuasent yn absennol o'r gwasanaeth yn yr eglwys y dydd blaenorol.

Dywedasom mai gŵr da a charedig ydoedd y clerigwr; a gellid chwanegu mai yn ei amser ef y bu cynnulleidfa yr eglwys yn y dref hono yn fwyaf lliosog yn ystod y ganrif. Ond dan ddylanwad y syniad mai cwbl weddus oedd i blant Ymneillduwyr fyned i'r eglwys ar y Sabbath, os dymunai eu rhieni iddynt gael eu haddysgu yn ysgol ddyddiol yr Eglwys, ac mai cwbl anweddus iddynt oedd peidio, ymddygai mewn modd nas gellir, bellach, edrych arno ond fel un creulawn a thrahaus. Rhedai yr ymddiddan yn debyg i hyn:—

'Yn mha le y buoch chwi boreu ddoe?'
'Yn y capel, syr.'
'O! yn y capel, ai ê? Pwy oedd yn pregethu yno ddoe?'
'Owen Roland, syr.'
'O! Owen Roland, ai ê? A aethoch chwi i wrandaw Owen Roland yn lle d'od i'r eglwys?'
'Do, syr.'
'Felly:—i wrandaw Owen Roland! Felly!'

A chwanegid, weithiau, sylwadau dirmygus am y gwŷr di-ddysg a fyddent, ar adegau, yn gwasanaethu yn y capel. Ond y diwedd fyddai i Edward Jones, yr ysgolfeistr, orchymyn i'r troseddwr—'*Hold out your hand;*' ac iddo yntau orfod teimlo pwys y wialen. Dyma un o'r goruchwyliaethau a gynnorthwyodd i wneuthur y Cymry yn 'genedl o Ymneillduwyr.' Symmudodd Mr. Griffith o Lanerchymedd i Lanynys, yn sir Ddinbych; a chlywsom y byddai, cyn diwedd ei oes, yn arfer dywedyd, gyda gradd o ymffrost, mai o dan ei aden ef y derbyniodd dau o bregethwyr goreu y Methodistiaid eu haddysg foreuol.

Yr oedd Dr. Hughes, yn ei fachgendod, yn llawn digrifwch. Os nad oedd yn bencampwr gyda'r chwarëyddiaethau cyffredin, nid oedd bywyd iddo o blegid hyny yn llai dedwydd. Tynai ef, ac ychydig o gyfoedion oedd o dueddiadau cyffelyb iddo, lawer o gysur o gyfarfodydd a gynnelid ganddynt yn ystabl y capel; ac hefyd yn 'nghwrt' y capel. Yn y cyfarfodydd hyn y byddent yn 'arfer eu doniau' i bregethu; a dywedir mai Dr. Hughes fyddai yn gyffredin, os nad yn wir bob amser, yr 'ymadroddwr penaf' ynddynt. Rhoddai ei fam bob rhyddid iddynt i'w cynnal mor aml ag y mynent. Dïau ei bod yr adeg hono yn gobeithio y byddai ei mab ei hun, a'i gyfoedion hefyd, ryw ddydd yn bregethwyr. Y rheswm pa ham y byddai ei mab yn rhagori cymmaint ar y lleill ydoedd, ei fod yn dysgu allan ddarnau o bregethau o'r *Pregethwr*, yr hwn a ddigwyddai fod yn y llyfrgell yn y tŷ, ond na wyddai ei gyfoedion am dano. Ac yr oedd ganddo, hefyd, lawer o'r ddawn ddynwaredol. Y syndod ydyw, iddo fedru ymryddhau mor lwyr oddi wrth ddylanwad yr arferiad o ddynwared wedi iddo fyned yn bregethwr ei hun.

Cymmerai ddyddordeb mawr mewn pregethwyr a phregethu o'i febyd. Magwyd ef yn nhŷ y capel; a'r capel, i fesur helaeth, oedd ei fyd ef. Yr oedd cyfarfod misol a chymmanfa yn uchel-ŵyliau iddo. Fel plant eraill, hoff orchwyl ganddo yntau oedd danfon ceffylau y pregethwyr i'r *Bull's Head*, a'u cyrchu oddi yno. A mawr fyddai yr helynt gydag adeiladu *stage* at y gymmanfa. Byddai cymmanfa yn llyngcu pob peth iddi ei hun am wythnosau cyn ei dyfod; ac hefyd, am wythnosau wedi iddi fyned heibio. Yr oedd cymmanfa yn Llanerchymedd yn 1840—y ddiweddaf yn Môn i'r Parch. John Elias fod ynddi. Ar yr adeg hono, yr oedd Dr. Hughes yn agos i dair blwydd ar ddeg oed. Rhwng y ddwy bregeth, yn y boreu ar y maes, rhoddodd Elias anerchiad, fel yr oedd ei arfer yn wastad yn Nghymmanfaoedd Môn—y tro hwn, yn benaf, ar ddirwest; ac adroddodd mab y tŷ capel yr anerchiad hwn yn fynych ar ol hyny. Yr un modd yr adroddai ranau o bregeth y Parch. John Jones, Runcorn, ar y testyn, 'Ond elw mawr yw duwioldeb gyda boddlon-

Digitized by Google

rwydd.' Peth arall y cymmerai y plant ddyddordeb arbenig ynddo oedd gwaith y Parch. John Prytherch yn cyhoeddi, rhwng y ddwy bregeth yn y prydnawn, yn mha le y byddai y gwahanol bregethwyr dyeithr yn pregethu y dyddiau a'r nosweithiau canlynol. Anhawdd yw peidio teimlo hiraeth am yr hen gymmanfaoedd. Y mae dyfodiad y trên wedi llwyr newid eu cymmeriad.

Ond i ddychwelyd at hanes mebyd Dr. John Hughes. Darllenodd, pan nad ydoedd efe etto ond bachgen ieuangc, yr holl lyfrau Cymraeg a adawsid gan ei dad. Ac at y rhai a enwyd eisoes, gellir chwanegu *Edwards ar y Prynedigaeth.* Dïau fod ei fam yn ei gyfarwyddo ef at y gwaith hwn; ond rhaid fod rhywbeth hynod yn y bachgen ei hun pan y gallai hyd yn oed ddarllen, heb sôn am fwynhau, y fath gynnyrchion a'r rhai hyn. A buasai y ffaith ynddi ei hun yn arwain unrhyw ddyn meddylgar i ddisgwyl am ddyfodol disglaer iddo. Ond yn nghanol y llyfrau cryfion hyn yr oedd y bachgen a'u darllenai mor fachgenaidd a neb o'i gyfoedion. Yr oedd mor nwyfus a neb o honynt; ac nid oedd un amser ball ar ei ddigrifwch. Ond gosodid i lawr, er hyny, yn berffaith ddiogel, yn ystod blynyddoedd mebyd, sylfeini y bywydio ddefnyddioldeb uchel a arweiniwyd ganddo am fwy na phum mlynedd a deugain ar ol hyny.

*O'i dderbyniad yn gyflawn aelod hyd yr adeg y dechreuodd bregethu.*—Nid ydym yn gwbl sicr pa beth oedd ei oedran pan y derbyniwyd ef i gyflawn aelodaeth yn eglwys Dduw. Tybiwn ei fod, o leiaf, yn bymtheng mlwydd oed; ond nid oes genym unrhyw gofnodion wrth law am ei deimladau ar yr adeg. Rhwymwyd ef, pan yn bymtheg oed, yn egwyddorwas gyda Mr. William Aubrey, i ddysgu y gelfyddyd o wneuthur esgidiau. Tair blynedd oedd y tymmor a wasanaethwyd ganddo yn y cymmeriad hwn; a dilynodd yr alwedigaeth nes yr aeth i Athrofa y Bala. Bu cymdeithas ei gydweithwyr yn help i ddadblygiad ei feddwl a'i ddawn. Treulid amser gweithio yn hynod ddifyr; ac ar adegau byddai yr ymddiddanion yn tueddu i ddeffro ysbryd ymchwiliad. Pan yr oedd efe tuag unar-bymtheg oed, dechreuodd ddarllen llyfrau Saesnig. Daeth i'w ddwylaw ranau o weithiau Paley, ac o'r Puritaniaid; a rhoddwyd iddo fenthyg *Macknight ar yr Epistol at yr Hebreaid*, gan y Parch. Ebenezer Davies. Ac wedi cael gafael ar hwnw bu am amser yn synu ei gyfeillion trwy adrodd darnau o hono.

Yn adeg bachgendod Dr. Hughes, yr oedd yn eglwys y Methodistiaid yn Llanerchymedd bedwar o bregethwyr. Yr hynaf o honynt oedd y Parch. Griffith Davies; ond ar gais y cyfarfod misol, symmudodd ef i Nebo i fyw, yn 1837. Yn agosaf ato, o ran oedran, yr oedd y Parch. Hugh Jones; wedi hyny y Parch. Richard Roberts; ac yn ieuangaf y Parch. Ebenezer Davies. Meddai pob un o honynt ei neillduolion; ond fel y dywed Dr. Hughes mewn llythyr tra dyddorol a geir yn Nghofiant y Parch. Ebenezer Davies, Richard Roberts 'oedd arwr y bechgyn mwyaf ymofyngar.'

'Ac yr oedd (medd Dr. Hughes) dau achos o hyny. Yr oedd yn ddibriod, ac fel hwythau yn edrych yn mlaen at beidio bod felly; yr hyn a grëai gydymdeimlad rhyngddynt â'u gilydd. Yr oedd hefyd yn dyfod yn agosach atynt—yn ymwneuthur yn fachgen i'r bechgyn; a dyddorol a buddiol dros ben oedd y cyfarfod duwinyddol a arolygid ganddo. Nid oes heddyw ar y ddaear un duwinydd yn dyfod i fyny â'r syniad oedd gan rai o honom am y brawd caredig hwn, o blegid yr oeddym o'r farn fod holl ddirgelion bodolaeth yn noeth ac yn agored yn ei lygaid ef. Oni fyddai ei eglurhâd mor oleu ar y gwahaniaeth rhwng gorchymyn pendant a gorchymyn moesol? A phwy ond efe fyddai yn sôn am y cyfryw bethau? Yr oeddym yn meddwl fod pob cwestiwn o barth y priodoliaethau—y rhai anghyfranogol a'r rhai cyfranogol—wedi ei benderfynu ganddo, a chanddo ef yn unig. . . . Rhoddes Richard Roberts symbyliad yn ei ddydd i aml feddwl.'

Cafodd Dr. Hughes lawer o fwynhâd wrth adolygu hanes y cyfarfod duwinyddol. Diderfyn, yn wir, fyddai y digrifwch diniwed a geid gydag ef yn wastad pan y gwneid unrhyw gyfeiriad at y cyfarfod, ac at ei athraw. Ond nid oes ammheuaeth na bu ei fynychu yn symbyliad gwerthfawr i'w feddwl ef, a llawer eraill.

Yr oedd y tri phregethwr yn Llanerchymedd mor wahanol i'w gilydd ag y gallai tri o ddynion fod; ond gweithient yn ddedwydd iawn gyda'u gilydd. Ac yr oeddynt yn nodedig o ffyddlawn i achos yr Arglwydd; a dïau y bu i'r tri, yn gystal ag amryw flaenoriaid a gydoesent â hwy, y penaf o ba rai am flynyddoedd fu William Jones, Hafod-y-mŷn, ddylanwad dwfn ar ddadblygiad meddwl a chymmeriad bechgyn meddylgar yr eglwys.

Tipyn o gymmhell a gafodd ei fam ar ei mab i weddïo yn y tŷ y tro cyntaf. Un noson, pan y gwasgai hi arno i wneyd, addawodd y gwnai boreu dranoeth, os rhoddai hi glô ar y drws. 'Y mae hyny yn beth hawdd iawn,' ebe hithau; ond er mor hawdd, hi a esgeulusodd ei wneyd pan ddaeth yr adeg. Cyflawnodd ef ei addewid yn ffyddlawn; ond pan yr oedd ar ganol ei weddi agorodd cyfaill y drws, heb gymmaint a rhoddi cnoc arno, a cherddodd i mewn i'r tŷ. Cododd y gweddïwr oddi ar ei liniau yn y fan; a chan droi at ei fam, gofynodd iddi yn gyffrous, 'Pa ham na fuasech chwi yn cloi y drws?' Caed peth trafferth i'w berswadio i gynnyg eilwaith; ond cyn hir, daeth i weddïo yn gyhoeddus, yn gystal ag yn y teulu. Arferai ef a chydymaith iddo fyned i weddïo bob Sabbath gyda'r hen a'r methiantus; a mawr fwynhëid eu gwasanaeth ganddynt. Ac ar rai adegau ymgasglai y cymmydogion o amgylch drws y tŷ lle y byddent yn gweddïo, er mawr brofedigaeth iddynt hwy. Daeth Dr. Hughes yn un o'r colofnau yn y cyfarfod gweddi a gynnelid am saith o'r gloch bob boreu Sabbath; ac felly y parhaodd nes y dechreuodd bregethu. Yn 1845, pan nad oedd ond deunaw mlwydd oed, cafodd y fraint o gymmeryd rhan yn y cyfarfod gweddi diolchgarwch am y cynhauaf; ac yr oedd ei weddi ar yr amgylchiad yn dwyn gradd o'r nodwedd a hynodai ei weddïau ar hyd ei oes; sef, defnyddiad helaeth a phriodol o ymadroddion ysgrythyrol. Y fath oedd ei ddawn gweddi, tra etto yn ieuangc iawn, fel y teimlid yn gyffredinol fod ynddo gymmhwysderau arbenig i'r weinidogaeth.

Un adeg, ffurfiwyd dosbarth newydd yn yr Ysgol Sabbothol, yn gynnwysedig o ddwsin neu chwaneg o'r darllenwyr goreu; a daeth pedwar o aelodau y dosbarth hwnw yn bregethwyr. Y tro cyntaf i Dr. Hughes siarad yn gyhoeddus oedd yn nghyfarfod blynyddol Urdd y Rechabiaid. Gofynai rhyw gyfaill a wnai efe adrodd yno—cynnelid y cyfarfod yn yr Ysgoldy Cenedlaethol—araeth, os cyfansoddai efe hi iddo. Addawodd y gwnai, a chyflawnodd ei addewid;

Digitized by Google

ond ni chyflawnodd y cyfaill ei ran mor ffyddlawn. Araeth a gymmerodd efe o ryw gylchgrawn oedd yr hon y proffesai fod wedi ei chyfansoddi. Pa fodd bynag, gwnaeth y traddodwr ei ran yn rhagorol. Dirwest oedd testyn yr araeth gyntaf hono.

Ar ddechreu 1846, ni a'i cawn yn ysgrifenydd yr Ysgol Sabbothol, a Mr. David Aubrey yn arolygwr. A blwyddyn lwyddiannus iawn fu tymmor eu swyddogaeth. Cafwyd yr holl ddosbarthiadau i ddarllen yn yr un maes. Yn nechreu 1847, ni a gawn ysgrifenydd y flwyddyn flaenorol yn arolygwr. Y flwyddyn hono, dechreuwyd traddodi anerchiadau yn yr ysgol ar ddirwest, a thestynau eraill.

Dyddorol ydyw gwybod fod Dr. Hughes yn ddosbarthwr y *Traethodydd* ar ei ymddangosiad cyntaf yn 1845, yn llangc dwy-ar-bymtheg oed; ac ni bu neb yn ffyddlonach i'r *Traethodydd* o'r adeg hono hyd ei farwolaeth nag efe. Teimlai yn wastad fod ei ddyled iddo yn fawr. Dechreuodd gyfnod newydd yn ei hanes ef, fel y gwnaeth mewn gwirionedd yn hanes llenyddiaeth Cymru. Yn Mai. 1847, ymddangosodd traethawd byr o'i eiddo yn y *Geiniogwerth*, ar y testyn 'Gogoniant ei ras ef.' Dyma flaenffrwyth ei ysgrifell gynnyrchiol; ac yr oedd ganddo feddwl mawr o hono. Cyn ei anfon ymaith, darllenodd ef i lawer o'i gyfeillion; a mawr oedd ei bryder pa dderbyniad a roddid iddo gan y golygydd. A phan ddaeth *Y Geiniogwerth* am fis Mai i'w law, ac iddo weled fod ei draethawd yn argraphedig ynddi, efe a gyffröwyd; a chyffröwyd cyfran go dda o boblogaeth Llanerchymedd gydag ef.

Blwyddyn fawr yn ei hanes oedd 1847—y flwyddyn yr oedd yn ugain oed. Wele ef yn arolygwr yr ysgol; ac wele flaenffrwyth ei gynnyrchion lliosog yn ymddangos trwy y wasg. Ac y mae chwaneg etto i'w ddyweyd. Gwlyb iawn oedd misoedd Awst a Medi y flwyddyn hono; ac yn y cyfarfod eglwysig un noson, gwneid sylwadau ar yr arwydd hwn o anfoddlonrwydd yr Arglwydd, pryd yr awgrymodd y Parch. Ebenezer Davies eu bod yn dysgu adnodau ar y mater i'w hadrodd yn y cyfarfod eglwysig yr wythnos ddilynol; ac fel hyn y bu:

'Yn y cyfarfod hwnw mae y naill neu y llall o'r gweinidogion yn galw sylw at y mater oedd yn cael ei drafod yn y cyfarfod diweddaf, ac yn annog y cyfeillion i adrodd eu hadnodau arno; a darfu i liaws wneyd hyny. Yn eu plith y mae John Hughes yn codi ar ei draed, ac yn adrodd rhes o adnodau priodol, a chyda hyny yn traethu sylwadau o'i eiddo ei hun ar y mater. A phan y mae yn arwyddo ei fod ar derfynu, y mae y Parch. E. Davies yn dywedyd, 'Na: ewch yn mlaen, John Hughes bach. Yr ydych yn traethu mor ragorol; ac y mae yn dra phriodol i ni fel eglwys roddi ystyriaeth i'ch sylwadau."

Trodd yr anerchiad hwn allan yn un pwysig yn ei hanes. Yn fuan wedi hyn gwahoddodd Mr. Davies ef i'w dŷ. Wedi iddo fyned yno, cymmerwyd ef i'r llofft, a chauwyd drws yr ystafell:—

'Yna traethodd Mr. Davies ei syniadau am dano fel un yr oedd efe yn cael arwyddion ynddo ei fod wedi ei gymmhwyso i fod yn bregethwr; ac erfyniodd arno i draethu ei deimladau wrtho yn y cyssylltiad hwn—yr hyn a wnaeth yn ddigêl. Dywedodd Mr. Davies wrtho y tro hwn, ei fod yn tybied fod y drws yn agored iddo yn awr i ddechreu arfer ei ddoniau yn fwy cyhoeddus, ac y gallai yn fuan ddisgwyl cael ei alw i roddi cyfarchiadau yn y gynulleidfa. Addawodd y byddai iddo yntau gynghori ei gyd-swyddogion i drefnu iddo gael gwneyd hyny mor fuan ag y byddai yn bossibl. Llonodd hyn lawer ar ei deimladau: ac y mae yn dechreu parotoi at y gwaith mawr yr oedd efe mor awyddus iddo.'

Tair blynedd cyn hyn, sef yn Medi, 1844, cerddodd efe, a chyfaill iddo, yr holl ffordd i Fangor, er mwyn cael bod yn bresennol yn y cyfarfod ordeinio yn y gymdeithasfa. Un o'r rhai a ordeiniwyd yn y cyfarfod hwnw oedd Dr. Owen Thomas. Ond er eu bod yno yn brydlawn, ni chaniatawyd iddynt fyned i mewn. Cawsant wledd yn y pregethau; ond siomedigaeth fawr oedd colli y cyfarfod y gosodasent eu bryd ar fod ynddo. Ond wele yn awr arwyddion fod drws y pulpud yn cael ei agoryd iddo. Yn fuan wedi hyn, digwyddodd fod 'Sabbath gwâg' yn Llanerchymedd; a galwyd arno i ddechreu y cyfarfod gweddi nos Sabbath, ac i draddodi anerchiad ar ryw gyfran o'r Ysgrythyrau. Darllenodd y nawfed bennod o Efengyl Ioan, a chymmerodd y 35ain adnod yn destyn ei anerchiad. Dywedir ei fod yn gwbl hunan-feddianol, ac iddo roddi boddlonrwydd mawr i'r gynnulleidfa. Cyn hir, caed cyfleusdra cyffelyb drachefn. Darllenodd y tro hwnw y bennod olaf o Lyfr y Dadguddiad; a sylfaenodd ei anerchiad ar yr 20fed adnod.

Barnwyd, bellach, fod yn bryd rhoddi ei enw o flaen yr eglwys fel ymgeisydd am y weinidogaeth; a chyttunwyd yn gwbl unfrydol yno i anfon ei achos i gyfarfod misol Cemaes; yr hwn a gynnelid Rhagfyr 20fed a'r 21ain. Y cenhadon a anfonwyd o'r cyfarfod misol i ymweled â'r eglwys oedd y Parchedig William Roberts, Amlwch, a Mr. John Owen, Fferam Isaf, blaenor yn Bethlehem, Gareg lefn, a gŵr hynod am ei dduwioldeb. Nid oes wybodaeth pa noson yr ymwelsant â Llanerchymedd; ond daeth yr ymgeisydd ieuangc drwy y prawf a roddwyd arno yn berffaith foddhaol. Ymesgusodai Mr. Roberts rhag gofyn ond ychydig gwestiynau iddo, trwy ddyweyd y gwyddai yn dda am dano, ac nas gallai efe ofyn dim nad allai ei atteb yn rhwydd. Cydsyniwyd yn unfrydol iddo gael ymddangos yn y cyfarfod misol nesaf yn Bethlehem, Ionawr 17eg, 1848. Yn y cyfarfod hwnw rhoddwyd iddo dderbyniad fel blaenor; canys dyna oedd arfer cyfarfod misol Môn ar y pryd gydag ymgeiswyr am y weinidogaeth.

Gwelir fel hyn mai camgymmeriad ydyw tybio iddo gael ei ddewis yn flaenor gan yr eglwys yn Llanerchymedd. Yr hyn a wnaed oedd rhoddi iddo, gan y cyfarfod misol, safle blaenor fel y gris gyntaf i'r weinidogaeth. Ac arferai Dr. Hughes ddywedyd i'r oruchwyliaeth hono derfynu gydag ef. Yn y cyfarfod misol yn yr hwn y derbyniwyd ef yn flaenor, rhoddodd Mr. Roberts, Amlwch, rybudd y byddai iddo, yn y cyfarfod misol dilynol, yn Mrynsiencyn, Chwefror 15fed a'r 16eg, 1848, alw sylw at y dull oedd ganddynt i godi pregethwyr.

Yn y cyfarfod yn Mrynsiencyn, y mae Mr. Roberts, yn ol y rhybudd a roddasid ganddo, yn galw sylw at y mater. Tueddai i wneyd gwawd o'r arferiad oedd ganddynt, ac i'w golygu yn blentynaidd: a chyfeiriodd at y ddau ŵr oedd yn eu plith yn awr yn ymgeiswyr am y weinidogaeth; sef, Daniel Rowlands, Llangefni, a John Hughes, Llanerchymedd. 'Yr ydym ni hyd yma (meddai) yn eu golygu yn flaenoriaid,

Digitized by Google

pan nad yw y bechgyn eu hunain wedi meddwl erioed am fod yn flaenoriaid. Am bregethu y mae y bechgyn.' Yna, annogodd y cyfarfod misol i roddi y rhyddid hwnw iddynt heb oedi yn hwy; a hyny a wnaed yn y cyfarfod hwnw.

Dychwelodd yr ymgeisydd ieuangc adref i Lanerchymedd yn llawen, a phrysurodd i adrodd i'w gyfeillion hanes ei lwyddiant yn y cyfarfod misol. Ei destyn cyntaf, wedi cael ei olygu yn bregethwr, oedd 1 *Pedr* ii. 6; a chafodd ei wrandawyr foddhâd mawr yn ei bregeth. Yn fuan wedi hyny pregethodd ar foreu Sabbath, oddi wrth *Phil.* i. 6; a'r tro hwnw ennillodd oruchafiaeth ar ei gynnulleidfa na chawsai mo honi o'r blaen, er fod ei wasanaeth bob tro yn hollol gymmeradwy. Yn y cyfarfod misol a gynnelid yn Llanfwrog, y laf o Fai, caniatawyd i'r ddau ymgeisydd ieuangc roddi eu cyhoeddiadau mewn unrhyw fan y gofynid iddynt trwy yr holl sir. Ac yn nghyfarfod misol Llanfair P. G., Gorphenaf 24ain, cafodd y ddau ganiatâd i fyned i Athrofa y Bala. Yn y Gymmanfa Sirol yn Llangefni y derbyniwyd ef, ac amryw eraill, yn aelodau o'r cyfarfod misol.

Ymddengys ei fod o'r cychwyn yn bregethwr tra addawol. Adroddai y Parch. Roger Edwards, wrth gynnyg diolchgarwch iddo pan y rhoddai i fyny gadair y Gymmanfa Gyffredinol yn Liverpool, yn 1881, ymddiddan a gawsai yn ei gylch â'r Parch. Ebenezer Davies, pan yr oedd newydd ddechreu pregethu. 'Mae acw fachgen hoffus iawn (meddai Mr. Davies) wedi dechreu pregethu. Y mae yn fab i fam hynod dduwiol; ac y mae yntau wedi dyfod yn fachgen rhyfedd iawn yn y *society*. Fe wnaiff 'nacw ddyn. Y mae ganddo feddwl, ac y mae yn ddywedwr da hefyd.' A theimlai pawb a'i clywent ar ddechreuad ei yrfa mai nid pregethwr cyffredin fyddai y gŵr ieuangc hwnw.

*O'i fynediad i'r Athrofa hyd ei symmudiad i'r Borth.*—Er i'r gŵr ieuangc o Langefni (yn awr y Parch. Daniel Rowlands, M.A., Bangor) gael caniatâd i fyned i'r athrofa yr un adeg, dywed wrthym nad oedd amgylchiadau yn caniatau iddo ef fyned yno am rai misoedd yn chwaneg. Yn y rhestr o'r efrydwyr a dderbyniwyd i'r athrofa yn 1848, a gyhoeddwyd gan y Proffeswr Hugh Williams, M.A. (*Y Goleuad*, Ionawr 10fed, 1889), ceir saith o enwau—John Hughes, Môn; John Hughes, Blaenau Ffestiniog; David Roberts, Llangristiolus; Daniel Rowlands, Llangefni; Owen Owens, Bethel; William Jones, Brynmor, Penmaenmawr; a William Pritchard, Gaerwen, Môn. Dïau nad aeth neb erioed i'r athrofa yn fwy sychedig am wybodaeth na'r pregethwr ieuangc o Lanerchymedd. Cryn orchwyl oedd teithio o Fôn i'r Bala yn 1848. Yr arfer oedd i nifer o wŷr ieuaingc ymuno i gael cerbyd, a cheffyl i'w dynu; ac nis gellid cwblhau y daith mewn un diwrnod. Felly, yn ddïau, yr aeth Dr. Hughes, ryw adeg yn Awst, 1848; ac nid oes llawer o ammheuaeth na chafodd efe a'i gyfeillion lawer o fwynhâd ar y daith. Ond wedi cyrhaedd i'r lle cyssegredig y bu ei enaid yn fynych yn sychedu am gael bod ynddo, ymroddodd o ddifrif i'w efrydiau. Er mor hoff ydoedd o ddigrifwch, ac er mor alluog ydoedd i'w dynu allan o'r gwahanol amgylchiadau y byddai ynddynt, ni adawai i ddim sefyll rhyngddo â'r defnyddiad priodol o'r manteision i ddiwyllio ei feddwl, ac i eangu ei wybodaeth oedd bellach yn ei gyrhaedd. Nid oes genym le i gredu iddo ef ymgydnabyddu, cyn myned i'r athrofa, â nemawr o awdwyr heb law y rhai a grybwyllwyd eisoes. Gellir enwi un arall, y dechreuodd ei efrydu yn un-ar-bymtheg oed, a adawodd argraph ddofn arno dros ei holl fywyd, sef yr Esgob Butler. Yn y Bala y daeth efe am y tro cyntaf i gyffyrddiad â'r beirdd Saesnig Milton a Shakespeare; ac âg ysgrifeniadau Coleridge, De Quincey, a Walter Scott. Wrth ddarllen y rhai hyn cafodd ei hunan mewn byd hollol newydd, ond byd y gwnaeth ei gartref yn gysurus ynddo hyd ei fedd. Ni bu erioed yn hoff o addurno ei bregethau na'i ysgrifeniadau â dyfyniadau o unrhyw awdwyr. Gall y neb a fyno ddyfynu; ond nid pawb sydd yn meddu y gallu i yfed ysbryd awdwr i mewn i'w ysbryd ei hun. Hyn a wnaeth Dr. Hughes; ac nid oedd ond ychydig o'i gydoeswyr a allent ei wneyd yn fwy llwyr ac effeithiol.

Nis gallwn fanylu ar ei efrydiau; ond yr ydym yn gwybod iddo gyrhaedd gradd lled dda o gydnabyddiaeth âg ieithoedd Groeg a Rhufain. A hysbysir ni mai at y cwestiynau mawr mewn athroniaeth a duwinyddiaeth ag y treuliodd ei fywyd i'w hastudio yr oedd gogwydd ei feddwl yn ystod y tair blynedd y bu yn yr athrofa. Efe a edmygai yn ddiderfyn ei athrawon—Dr. Edwards a Dr. Parry; ac aeth ei edmygedd o honynt ar gynnydd parhaus hyd derfyn eu hoes. Ond credwn mai gan Dr. Edwards yr oedd y dylanwad mwyaf ar ei feddwl ef. Yr oedd ei hun yn fwy tebyg iddo nag i Dr. Parry; etto, gellir canfod yn ei ogwyddiadau meddyliol wedi gadael yr athrofa ddylanwad y naill athraw yn gystal a'r llall. I un o duedd swrth, nis gallasai dim fod yn fwy iachusol na chyffyrddiad âg ysbryd bywiog, ac yni diderfyn Dr. Parry.

Rhaid i ni adael ei dymmor yn y Bala gyda'r nodiad byr hwn. Fel dyn mewn gwlad ddyeithr, yn dyfod bob dydd i ganol golygfeydd newyddion, ac yn cael ei lanw yn barhaus gan syndod, edmygedd, a pharch, yn ymylu ar fod yn addoliad, y rhaid i ni edrych arno yn ystod y tymmor hwn. Ond dros ei holl fywyd bu dylanwad y tymmor yn ddwfn ar ei feddwl a'i gymmeriad. Ffurfiodd yn yr athrofa arferion efrydgar; a bu yn efrydydd caled, gonest, a thrwyadl hyd ddiwedd ei daith.

Ychydig o brofiad a gafodd Dr. Hughes fel pregethwr cyn myned i'r Bala. Yr oedd yno yn mhen saith mis o'r adeg y cydnabyddwyd ef fel ymgeisydd am y weinidogaeth. Ond er hyny, yr oedd disgwyliadau uchel, gyda golwg ar ei ddyfodol, wedi eu ffurfio yn meddyliau y cyfeillion yn Môn; ac nid yw yn ormod dyweyd ei fod yntau, i ryw fesur, yn ymwybyddol o'i nerth. O'r cychwyn cyntaf yr oedd ganddo radd helaeth o'r hunan-feddiant a fu yn gymmaint o fantais iddo ar hyd ei fywyd. Nid oedd ei ymddangosiad yn nghychwyniad ei yrfa yn llawer o gymmhorth iddo. Nid oedd yn rhy ofalus am hyn; a chyffredin oedd ei wisg, o ran defnydd a ffurf. Ond y foment yr esgynai i'r pulpud, ac y dechreuai ddarllen, yr oedd ynddo rywbeth yn hoelio clust ei gynnulleidfa yn y fan. Darllenai yn glir, gan osod allan y synwyr wrth ddarllen; ac yr oedd ei weddïau o'r cychwyn yn nodedig am eu hysgrythyroldeb. Ac am ei bregethau, dygent, i ryw fesur y pryd hwnw, y nodweddau a berthynent i'w bregethau yn ddiweddarach. Yr oeddynt yn gyfoethog yn eu mater; a gwisgwyd y meddyliau hefyd mewn iaith ddillyn a chref.

Nid rhyfedd, gan hyny, ydoedd iddo ef, yn

Digitized by Google

fuan, ennill 'gradd dda' fel pregethwr yn mysg ei gyd-efrydwyr. Dibynai am ei gynnaliaeth, i fesur helaeth, os nad yn wir yn gwbl, ar yr hyn a dderbyniai yn 'gydnabyddiaeth' am bregethu. Ac adeg ddifrifol i lawer efrydydd fu ei fisoedd cyntaf yn y Bala. Pennod heb ei hysgrifenu etto—a dichon nad ysgrifenir hi, o ran hyny, byth—yw pennod dioddefiadau efrydwyr Athrofa y Methodistiaid yn y Bala. Cul iawn fu bwrdd llawer un o honynt. Ac yn y fl. 1848, bychan iawn oedd y 'gydnabyddiaeth' Sabbothol. Cerdded i bob man o'r bron y byddai yr efrydwyr y pryd hwnw; ac nid oedd yr hyn a dderbynient yn fynych yn ddigon i dalu am eu cludo, heb sôn am eu cynnal nes y deuai Sabbath drachefn. Ond bu Dr. Hughes lawn mor ffodus a neb o'i gyfoedion. Yr oedd y galwadau am ei wasanaeth ar y Sabbothau yn dra chalonogol iddo; a chyn iddo adael yr athrofa, yr oedd yn cael ei alw ar adegau i wasanaethu mewn cyfarfodydd pregethu. Teimlai yn gynnes hyd y diwedd at amryw leoedd a ddangosasant garedigrwydd arbenig iddo yn y cyfnod hwnw; a hawdd fyddai ganddo fyned iddynt pa bryd bynag y gwahoddid ef. Un o'r cyfryw leoedd ydoedd Bethesda, Blaenau Ffestiniog. Wrth ddychwelyd dros fynydd y Migneint i'r Bala unwaith, daliai y swm a dderbyniasai yno ar ei law. Nid oedd yn fawr iawn; ond yr oedd yn fwy nag a dderbyniodd efe erioed o'r blaen, a rhoddodd ysbryd newydd ynddo gyda'i waith. Teimlodd yn gynnes at Bethesda hyd ei fedd.

Rhydd Mr. Edward Griffith, Dolgellau, ddisgrifiad da o hono yn pregethu Sabbath yn y dref hono yn ngwanwyn 1849:—

'Nid oedd yr olwg arno yn cynnyrchu disgwyliad mawr ynom. Nid oedd ei wisg o'r ffasiwn ddiweddaraf, ac yr oedd hi wedi gweled dyddiau gwell; ac heblaw hyny, yr oedd yntau wedi tyfu i fesur mawr trwy ei ddillad. Erbyn iddo ddyfod at Ivy House (preswylfod Mr. William Williams), yr oedd ei olwg braidd yn syn a gwylaidd; ac er iddo gael pob croesaw, nid oedd dim o'i amgylch yn codi y gobaith lleiaf am Sabbath neillduol dranoeth.

Ond boreu y Sabbath a ddaeth. Yr ydym yn ei gofio yn y pulpud yn edrych oddi amgylch ar y gynnulleidfa gydag edrychiad oedd braidd yn hurt. Ond dechreuodd ddarllen, a chyda hyny yr oedd pob llygad arno yn y fan; yr oedd pob gair yn ei le, ei aceniad, a'r pwysleisiad yn naturiol a phriodol; a phan yn gweddio, yr oedd y gwyleidd-dra dwfn, yr ysbryd llednais, a'r geiriau dewisol, wedi cynnyrchu ymddiried hollol ynddo yn y gynnulleidfa. Ei destyn y boreu hwnw oedd, 'Wedi lladd y gelyniaeth trwyddi hi.' Yr ydym yn cofio yn dda am yr hen frawd Gruffydd Dafydd yn gwrandaw arno—gyda'i ben i fyny; a phan y caffai damaid go felus, äi ei ben i lawr, a deuai yr 'hy' allan dros y capel. Yr oedd hon yn bregeth nodedig o feistrolgar. Ei destyn y nos oedd, "Fel yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd y gallai grynhoi ynghyd yn Nghrist.' Yr ydym yn cofio yn dda ein bod yn cydgerdded i oedfa y nos gyda Dafydd Tomos (*Dewi Wnion*), un o'r dynion rhyfeddaf am ei gynneddfau naturiol a fagodd Dolgellau; a gwnaeth y sylw canlynol wrthym ar y ffordd:—"Ni bydd John Elias byth farw tra bo y gŵr ieuangc yna byw. A welsoch chwi ei lygaid mawrion yn serenu yn eich gwyneb? A welsoch chwi ei fŷs ef allan yn ymresymu y dduwinyddiaeth fwyaf coeth a blasus? Os caiff nerth ac iechyd, ac ychydig bereidd-dra yn ei lais, bydd y gŵr ieuangc yna yn sicr o ysgwyd cynnulleidfaoedd Cymru fel y gwnaeth Elias.' Mor wir y daeth y brophwydoliaeth i ben! Er bod uwch law pedair blynedd a deugain er pan wnaed y sylw, y mae pawb o honom yn dystion o ddylanwad a nerth gweinidogaeth Dr. Hughes ar Gymru am yr amser maith yna. Sicrhaodd iddo ei hun le, a hwnw yn lle anrhydeddus, yn Nolgellau, y Sabbath cyntaf y bu yma gyda ni.'

Am dair blynedd y rhoddwyd iddo ganiatâd i fyned i'r Bala; ac y mae'n debyg iddo adael yr athrofa tua Mehefin, 1851. Ymadawodd, o leiaf, cyn diwedd y flwyddyn hono, a dychwelodd i Lanerchymedd, heb wybod yn iawn pa beth i'w wneyd o hyny allan. Nid oedd braidd bregethwr i'w gael y pryd hwnw yn nghyfundeb y Methodistiaid nad oedd yn sicrhau cynnaliaeth iddo ei hun, a'i deulu, trwy ryw fasnach neu alwedigaeth; ac anghefnogid unrhyw duedd mewn pregethwyr i 'fyw ar y weinidogaeth.' Yr oedd Mr. Rees a Mr. Hughes yn Liverpool, Dr. Owen Thomas yn Llundain, yn derbyn rhyw fath o gynnaliaeth; ond nid ydym yn sicr fod, yr adeg yr ymadawodd Dr. Hughes â'r athrofa, neb arall yn sefyll ar yr un tir yn Ngogledd Cymru oll, oddi gerth yn unig y rhai a lafurient fel cenadon mewn cyssylltiad â'r Genhadaeth Gartrefol. Bu Mr. Morgan yn 'fugail' yn Nolgellau o 1847 hyd 1849; ond yr adeg hono yr oedd yn y Dyffryn, yn dechreu ymladd rhyfeloedd y 'fugeiliaeth.' A chwestiwn pwysig i Dr. Hughes, yn haf neu hydref 1851, oedd pa fodd i sicrhau iddo ei hun gynnaliaeth tra yn cyssegru ei fywyd i weinidogaeth yr efengyl. Yr oedd yn boblogaidd fel pregethwr yn Llanerchymedd. Pregethai, o leiaf, un Sabbath yno bob tro y dychwelai o'r athrofa; a gelwid am ei wasanaeth ar nosweithiau o'r wythnos yn yr amgylchoedd. Ac yr oedd yn wir yn boblogaidd yn yr holl eglwysi yn Môn; ond nid oedd un eglwys a feddyliai am y fath beth a rhoddi galwad iddo i'w gwasanaethu. Felly, dychwelodd adref i Lanerchymedd, a phregethai ar y Sabbothau, ac ar unrhyw adegau eraill y gelwid arno, gan fyned yn mlaen yn ddyfal gyda'i efrydiau. Pennodwyd ef yn fuan i ofalu am y cyfarfod ysgolion yn y dosbarth, a chymmerodd ddyddordeb mawr yn ei waith. Ceid, yn achlysurol, lawer o ddigrifwch gyda'r holwyddori. Tybiwn mai yn y cyssylltiad hwn y dangosodd yn gyhoeddus am y tro cyntaf yr *humour* a fu yn nodwedd mor amlwg ynddo ar hyd ei oes. Ond nid oedd pregethu ar y Sabbothau, a gofalu am y cyfarfod ysgolion, yn dwyn llawer i mewn iddo; nac yn ddigon chwaith, fe allai, i'w gadw rhag ymddangos yn segur-ddyn yn ngolwg rhai o breswylwyr Ynys Môn. Felly dechreuodd 'gadw ysgol.' Nid oes genym le i gasglu fod ynddo lawer o ragoriaeth fel ysgolfeistr. Er yn efrydydd caled ei hun, nid oedd ganddo ddawn arbenig i gynnyrchu mewn eraill gyffelyb frwdfrydedd. Cydymaith i'w ysgolheigion, yn hytrach na meistr ydoedd; a gellir casglu ei fod yn llawnach o ddireidi diniwed na neb o'r gwŷr ieuaingc oedd dan ei addysg. Mae tri o honynt yn awr yn weinidogion yn Môn—y Parchn. John Roberts, Taihen; John Williams, Llangefni; ac Owen Hughes, Caergybi. Bu y diweddar Barch. David Charles, Gwalchmai, gydag ef hefyd am dymmor.

Ar y 5ed o Dachwedd, 1852, cymmerodd gam pwysig mewn bywyd trwy ymuno mewn priodas â Miss Eleanor Dew—merch henaf Mr. William Dew, o Lanerchymedd. Wedi gadael athrofa y Bala, bu yn hynod awyddus am fyned i un o brifysgolion Ysgotland; ond nid oedd y drws rywfodd yn agor iddo yn y cyfeiriad hwnw. O'r diwedd, derbyniodd lythyr yn cynnwys cyn-

Digitized by Google

nygiad haelionus iawn. 'Os dymunwch (meddai ei gyfaill caredig), y mae y ffordd yn agored i chwi i fyned i Brifysgol Edinburgh.' 'Ond,' meddai Dr. Hughes, pan yn adrodd yr hanes, 'fe gyrhaeddodd y llythyr braidd yn ddiweddar. Y diwrnod hwnw yr oeddwn yn priodi.' Da genym gael cyfleusdra yn y lle hwn i ddwyn tystiolaeth i gymmeriad uchel Mrs. Hughes. Gwraig ragorol ydoedd hi yn mhob ystyr. Ceid ynddi gyfuniad prydferth o wahanol nodweddion—synwyr da, barn ddiogel, a chrefyddolder dwfn; y cyfryw nodweddion ag a ennillent iddi wir barch yn meddyliau pawb a'i hadwaenent. Bu iddynt bump o blant—dau fab a thair merch. Y mae un mab a dwy ferch etto yn fyw. Bu farw Mrs. Hughes Mai 3ydd, 1892.

*Ei arosiad yn y Borth.*—Wedi priodi, symmudodd o Lanerchymedd i'r Borth; ac yno y treuliodd y pum mlynedd nesaf o'i oes. A phan gofir mai y blynyddoedd o bump i ddeg-ar-hugain oed oedd y blynyddoedd hyn, nid oes eisieu dyweyd gair chwaneg i ddangos eu pwysigrwydd. Ar wahoddiad dau flaenor—Mr. Richard Davies, yr hwn sydd bellach er's amser yn Arglwydd Raglaw Môn, a'r diweddar Mr. Roger Evans, yr ymsefydlodd efe yn y Borth. Nid ydym yn deall y bu cyssylltiad ffurfiol rhyngddo â'r eglwys yno o gwbl; ond yr oedd yn gwneuthur gwaith 'bugail' ynddi, ac yn derbyn rhyw fath o 'gydnabyddiaeth' am ei wasanaeth. Os ydym yn deall yn iawn, yr oedd hefyd, mewn cyssylltiad â'i frawd-yn-nghyfraith, Mr. John Dew, yn dwyn yn mlaen fasnach yn y lle; yr hon nad ymryddhaodd oddi wrthi yn llwyr nes y symmudodd i Liverpool. Ond nid ydym yn tybio i'r fasnach gael erioed nemawr o'i feddwl, na'i amser. I waith y weinidogaeth y cyssegrodd efe ei hun yn llwyr, er pob anfantais yn yr amgylchiadau.

Hawdd fyddai ymhelaethu ar ei lafur yn y Borth. Heb law rhoddi ei wasanaeth yn y cyfarfod eglwysig yn wythnosol, cychwynodd yno hefyd ddau gyfarfod eraill fu yn foddion i gynnyrchu brwdfrydedd rhyfeddol mewn cyfran helaeth o aelodau yr eglwys a'r gynnulleidfa. Y naill oedd cyfarfod darllen, a'r llall oedd cyfarfod llenyddol. Dangosodd yn y naill a'r llall lawer o ddeheurwydd. Yn ei olwg ef, y cyntaf oedd y mwyaf pwysig; ond yr ail oedd y mwyaf poblogaidd; a chafwyd ynddo lawer iawn o ddifyrwch, yn gystal ag adeiladaeth.

Yn y cyfnod hwn, hefyd, ymroddodd â'i holl egni i'r gwaith o bregethu; a daeth yn adnabyddus trwy Ddê a Gogledd fel un o'r pregethwyr mwyaf galluog a phoblogaidd, dan yr enw 'John Hughes y Borth.' Anfonwyd y Parch. James Donne ac yntau, yn ol arferiad a ffynai y pryd hwnw, i Gymdeithasfa y Dê, a gynnelid yn y Gorwydd, ger llaw Llanwrtyd, Mai 25ain a'r 26ain, 1853. Dyna daith gyntaf y ddau i'r Deheudir. Yr oedd Mr. Donne wedi ei ordeinio ddwy flynedd cyn hyny; ond ni ordeiniwyd ei gyfaill hyd y flwyddyn ganlynol. Teithient mewn cerbyd bychan, yn cael ei dynu gan hen ferlyn y Parch. Daniel Jones. Bu yr hen ferlyn yn y Dê lawer gwaith; ond nid oedd ei hen feistr mewn angen am ei wasanaeth mwyach. Aethant i Feddgelert y noson gyntaf, a llonwyd hwy yn fawr yn y lle hwnw. Yn y Gorwydd, derbyniad oeraidd a gawsant ar y cyntaf; a dadganodd un blaenor dylanwadol yn y cyfarfod a gafwyd i drefnu yr oedfaon ei syndod fod y brodyr yn Môn wedi anfon 'y bechgyn hyn' i'r gymdeithasfa. Ac nid heb rhyw gymmaint o betrusder y rhoddwyd lle iddynt bregethu. Fodd bynag, dilynodd y brodyr yn y Dê y tro hwn hefyd eu harfer gyffredin o roddi lle anrhydeddus i ymwelwyr o'r Gogledd. Pregethodd y gŵr ieuangc o'r Borth ar y maes y dydd cyntaf, o flaen y Parch. John Williams, Llecheiddior; a chafodd oedfa hwylus iawn. Y noson hono yr oedd y ddau ŵr ieuangc yn pregethu mewn capel yn y gymmydogaeth, lle bu y canu yn brofedigaeth lem iddynt. Gorchest fawr a gawsant hwy i beidio tori allan i chwerthin yn aflywodraethus. Ond yr oedd y noson yn un bryderus iawn i Mr. Donne; canys yr oedd i bregethu ar y maes yn yr 'oedfa ddeg' dranoeth, o flaen y Parch. David Howells, Abertawe. Ni chysgodd hunell y nos hono; bu yn gyfyng ar ei ysbryd, a thaer ymbiliodd am wyneb ei Dduw gydag ef yn y lle pwysig yr oedd wedi ei alw iddo. A chlywsom Dr. Hughes yn dyweyd yn fynych mai oedfa fythgofiadwy ydoedd. Ei destyn oedd 1 *Cor.* xi. 26. Cyn dechreu pregethu ar ei ol, rhoddodd Mr. Howells bedair llinell o'r emyn 'O! iachawdwriaeth gadarn,' &c. allan i'w canu; a chanwyd dwy o'r llinellau bymtheng waith drosodd gan y gynnulleidfa gyda hwyl nefolaidd. O'r gymdeithasfa, aethant ar daith trwy ranau o sir Gaerfyrddin, lle y cawsant y derbyniad mwyaf croesawus. Yr oeddynt yn pregethu yn Nghapel y Graig (A.), yn Nghymdeithasfa Machynlleth, Mehefin 9fed, ar eu ffordd adref; ac yn Nolgellau drachefn yr un noson. Nid anghofiodd un o'r ddau bregethwr byth y daith gyntaf hono i'r Deheudir.

Yn Nghymdeithasfa Llanrwst, Mehefin 15fed, 1854, yr ordeiniwyd Dr. Hughes i gyflawn waith y weinidogaeth. Ordeiniwyd dau eraill gydag ef; a'r ddau hefyd o Fôn, sef Thomas Owen, o Langefni, a John Jones, Niwbwrch. Yr oedd Thomas Owen ar y pryd yn 66ain mlwydd oed, ac wedi pregethu am fwy na deugain mlynedd; ac nid oedd John Jones ond dwy flynedd yn ieuangach na Thomas Owen. Buasai y naill a'r llall yn pregethu lawer blwyddyn cyn gèni y gŵr ieuangc a ordeiniwyd gyda hwy. Mae pob un a gymmerai ran yn ngwasanaeth yr ordeiniad y tro hwnw wedi marw. Un peth hynod y cyfarfod oedd mai y Parch. Richard Humphreys a draethai ynddo ar 'Natur eglwys;' ac efe a gyflawnodd yr un gwasanaeth yn ordeiniad y flwyddyn flaenorol yn Nghymdeithasfa Machynlleth. Y Parch. Henry Rees a roddodd y 'cynghor' ar yr achlysur; ond nid ydym yn gweled i'r 'cynghor' hwnw gael ei gyhoeddi. Nid ydym yn credu i neb, o ddechreuad Methodistiaeth hyd yn awr, gyflawni y gwasanaeth hwn gyda'r fath urddas ac effeithiolrwydd ag y cyflawnwyd ef ar amryw achlysuron gan Mr. Rees. Ac y mae yn ammheus genym a draddodwyd erioed 'gynghorion' rhagorach yn mhob ystyr na'r rhai a geir yn y drydedd gyfrol o'i bregethau. Sicr ydyw nad oedd yn y cyfundeb neb a ddewisasai Dr. Hughes i roddi y 'cynghor' ar ei ordeiniad ef o flaen Mr. Rees.

O 1854 i 1857, ennillodd Dr. Hughes safle uchel yn y cyfundeb. Yn Mehefin, 1856, bu mewn dau gyfarfod pregethu yn Nyffryn Ardudwy a Dolgellau gyda'r Parchn. J. Hughes, Liverpool; John Jones, o Dal-y-sarn; ac Owen Thomas, Llundain; a phregethai yn ddynt gyda grym mawr. Nid oedd efe ar y pryd ond 28ain mlwydd oed; ond yr oedd ei bregethau yr adeg hono yn gyfansoddiadau tra gorchestol; ac yr

Digitized by Google

oedd y traddodiad o honynt yn hynod o rymus. Ac yn Nghymdeithasfa Dolgellau, yn Ebrill, 1857, traddodai yr araeth ar 'Natur eglwys' yn ngwasanaeth yr ordeiniad. Nid oedd etto yn ddeng mlwydd-ar-hugain oed; ac yr ydym yn tybio iddo gael ei alw i gyflawni y gwaith hwnw yn ieuangach na neb arall yn hanes y cyfundeb. Yr oedd Dr. Edwards bump neu chwech wythnos yn hynach nag ef pan y traddododd efe ei araeth fythgofiadwy yn y Bala, yn Mehefin, 1839.

Diangenrhaid ydyw chwanegu ei fod, cyn 1857, wedi dyfod i lanw lle mawr yn Nghyfarfod Misol Môn. Golwg urddasol oedd ar y cyfarfod yn y cyfnod hwnw. Y brenin, o farwolaeth Elias yn 1841, oedd Roberts, Amlwch; ac nid oedd o fewn y sir neb yn anfoddlawn i'w deyrnasiad. Llywodraethai mewn cyfiawnder, ac hefyd mewn tangnefedd. Gyda Mr. Roberts yr oedd Cadwaladr Williams, John Prytherch, ac amryw eraill, ynghyd â nifer o weinidogion ieuangach; ac yr oedd yno hefyd dô o flaenoriaid yn wŷr o urddas a dylanwad mawr. Ond yn eu plith, meddai y gweinidog ieuangc o'r Borth safle wir anrhydeddus, a theimlid fod ei ymadawiad yn golled fawr i Fethodistiaeth yn yr ynys.

*Ei Fywyd yn Liverpool* (1857—1889).—Ar wahoddiad dau flaenor y symmudodd Dr. John Hughes o Lanerchymedd i'r Borth; a dywedir mai ar wahoddiad tri o flaenoriaid y symmudodd drachefn o'r Borth i Liverpool, yn Nhachwedd, 1857. Yr oedd y Parchn. Henry Rees a John Hughes (awdwr *Methodistiaeth Cymru*), yn gwasanaethu yr eglwysi yno er's llawer o flynyddoedd—y naill er diwedd 1836, a'r llall er 1839; a deallid fod y gŵr ieuangc o'r Borth yn dyfod i gyssylltiad cyffelyb â'r eglwysi i'r eiddynt hwy. Cymmerwn yma ychydig hamdden i fwrw golwg ar safle Methodistiaeth yn y dref, a'r amgylchoedd, y pryd hwnw, ac ar y cynnydd rhyfeddol a gymmerodd le cyn symmudiad Dr. Hughes i Gaernarfon, yn nechreu 1889. Os tröir i'r *Dyddiadur Methodistaidd* am 1857, ni cheir ynddo sôn am Gyfarfod Misol Liverpool. Yr hyn a geir ydyw 'Henaduriaeth sir Lancaster, sir Gaerlleon, a Goror sir Fflint.' A thueddir ni i ddodi i lawr yma enwau y gweinidogion a'r pregethwyr oedd yn aelodau o'r Henaduriaeth yn 1857:—y blynyddoedd yr ordeiniwyd hwy, ac y buont feirw.

| *Gweinidogion.* | *Ordein.* | *Marw.* |
|---|---|---|
| Henry Rees, Liverpool ... | 1827 ... | 1869 |
| John Jones, Runcorn ... | 1828 ... | 1860 |
| John Hughes, Liverpool ... | 1829 ... | 1860 |
| William Hughes, Gwrecsam ... | 1829 ... | 1865 |
| John Ffoulkes, Liverpool ... | 1838 ... | 1881 |
| John Davies, Runcorn ... ... | ? 1839 | |
| Owen Jones, Manchester ... | 1842 ... | 1889 |
| Owen Howells, Tarvin ... | 1846 ... | 1874 |
| William Evans, Caerlleon ... | 1846 | |
| Richard Brown, Liverpool ... | 1838 ... | 1895 |
| Ebenezer Powell, Holt ... | 1849 ... | 1876 |
| William Smith, Rossett ... | 1853 ... | 1860 |
| William Clarke, Sutton | | |
| *Pregethwyr.* | | |
| John Roberts, Liverpool ... | 1857 ... | 1880 |
| Joseph Williams, Liverpool ... | 1857 ... | 1880 |
| Thos. Chas. Evans, Manchester | 1861 ... | 1869 |
| Lewis Parry, Bethel ... | 1865 ... | 1891 |
| Jonathan Davies, Bowling bank | 1865 ... | 1891 |
| Robert Lewis, Manchester | | |
| John Parry, Liverpool ... | 1858 ... | 1894 |
| Joseph Jones, Gwrecsam ... | 1857 ... | 1890 |

Tybiwn fod pob un o honynt yn awr wedi huno; ac nid oes yn fyw, ar hyn o bryd, ond tri o'r blaenoriaid oedd wedi eu dewis yn eglwysi Liverpool cyn symmudiad Dr. Hughes yno, yn y flwyddyn 1857.

Dodwn i lawr yma restr o'r eglwysi, rhif yr aelodau, a chyfanswm y casgliadau eglwysig a chyhoeddus yn 1857:—

| | *Aelodau.* | *Casgliadau.* | | |
|---|---|---|---|---|
| Pall Mall ... | 328 ... | *P.*437 | 6 | 6 |
| Bedford street ... | 523 ... | 592 | 18 | 6½ |
| Rose Place ... | 440 ... | 550 | 13 | 2 |
| Burlington st. ... | 301 ... | 341 | 8 | 7 |
| Mulberry street... | 372 ... | 684 | 15 | 9 |
| Birkenhead ... | 154 ... | 140 | 1 | 1 |
| Seacombe ... | 55 ... | 85 | 17 | 4 |
| | 2,173 | *P.*2,833 | 0 | 11½ |

Yr oedd eglwysi Saesnig, hefyd, yn Windsor street, Liverpool, ac yn Garston—yn cynnwys rhyngddynt 160 o aelodau. Ac wrth gyfrif eu casgliadau hwy, a'r casgliadau o amryw Ysgolion Sabbothol, dygid cyfanswm y cyfraniadau am 1857 i fyny i 3,217*p.* 8*s.* 6½*c.*

Edrycher ar ystadegau 1888, fel y caffer rhyw syniad am y cynnydd yn ystod y cyfnod y bu Dr. Hughes yn llafurio yn y dref:—

| | *Aelodau.* | *Casgliadau.* | | |
|---|---|---|---|---|
| Crosshall street (yn lle Pall Mall).. ... | 210 ... | *P.*270 | 7 | 9¼ |
| Prince's Road (yn lle Bedford street) ... | 923 ... | 1,979 | 7 | 3 |
| Fitzclarence street (yn lle Rose Place) ... | 522 ... | 674 | 5 | 3 |
| Netherfield road (yn lle Burlington street)... | 432 ... | 564 | 11 | 4 |
| Chatham street (yn lle Mulberry street) ... | 476 ... | 709 | 0 | 8½ |
| Anfield road ... | 583 ... | 785 | 8 | 4 |
| Bootle ... ... | 476 ... | 713 | 6 | 9 |
| Newsham Park ... | 282 ... | 366 | 19 | 9 |
| David street ... | 402 ... | 418 | 18 | 10 |
| Birkenhead... ... | 363 ... | 325 | 11 | 11 |
| Seacombe ... ... | 206 ... | 313 | 10 | 3½ |
| Rock Ferry ... ... | 138 ... | 180 | 14 | 3½ |
| New Brighton ... | 35 ... | 34 | 3 | 11½ |
| Garston ... .. | 137 ... | 701 | 4 | 3 |
| Walton Park ... | 124 ... | 303 | 19 | 6¼ |
| Waterloo ... ... | 147 ... | 214 | 8 | 3¾ |
| Peel road (Bootle) ... | 162 ... | 175 | 3 | 9¼ |
| Holt road ... ... | 158 ... | 197 | 16 | 3½ |
| Webster road ... | 167 ... | 223 | 5 | 1½ |
| | 5,943 | *P.*9,152 | 3 | 8¾ |

Gadewir allan o'r cyfrif uchod amryw eglwysi Cymreig sydd yn amgylchoedd Liverpool; sef, Huyton Quarry, Southport, &c., a'r holl eglwysi Methodistaidd Saesnig yn Liverpool, Birkenhead, a Garston. Ond dengys y ffigyrau fel y maent gynnydd mewn un mlynedd ar ddeg ar hugain sydd heb ei gyffelyb yn hanes y cyfundeb; oddi eithr yn y parthau lle y mae agoriad gweithydd glô wedi peri i drefi mawrion ymddangos mewn byr amser, lle nad oedd gynt ond poblogaeth amaethyddol. Ac os cymmerir golwg ar werth y capelau, ymddengys y cynnydd yn fwy fyth. Nid ydyw gwerth yr eiddo cyfundebol yn Liverpool, a'r amgylchoedd, yn llai na chant a hanner o filoedd o bunnau; ac o'i chymmharu â'r gwerth hwnw, nid ydyw y ddyled sydd yn gorphwys arnynt, ac yn aros heb ei thalu ond dibwys, mewn gwirionedd, wrth ystyried pob peth.

Rhoddwyd i Dr. Hughes dderbyniad cynnes

Digitized by Google

ar ei ddyfodiad i'r dref. Teimlid, o'r cychwyn, ei fod yn mhob ystyr yn deilwng i fod yn gyd-weinidog â'r fath ddynion a Mr. Rees a Mr. Hughes. Pregethai gyda nerth ar y Sabbothau; ac yn y cyfarfodydd eglwysig, cymmerai ei safle yn gwbl ddedwydd a naturiol. Y pryd hwnw, yr oedd y 'seiat fawr' nos Lun yn sefydliad pwysig iawn yn Liverpool. Cyrchai aelodau yr holl eglwysi i'r 'seiat' hon; a mawr ydoedd y mwynhâd a'r adeiladaeth a geid trwy yr ymdriniaeth ynddi â gwahanol faterion Ysgrythyrol a duwinyddol. Meddai 'Mr. Hughes, y Mount,' fel y gelwid ef, allu oedd braidd yn ddigymmhar i siarad yn y cyfarfodydd hyn. Dichon na bu yn y cyfundeb, o'i gychwyniad, weinidog mwy cyflawn ei wybodaeth gyffredinol, na mwy parod i siarad yn ddi-rybudd a diragfyfyr ar unrhyw fater, nag ef. Ac yr oedd ganddo, hefyd, ryw fedr neillduol i 'dynu allan' ei gyd-weinidog, Mr. Rees. Nid oedd efe, o lawer, mor barod a Mr. Hughes; ond yr oedd ganddo, er hyny, nerth i ehedeg yn uwch nag ef, wedi iddo unwaith gymmeryd ei adenydd. Ychydig, bellach, sydd yn eglwysi Liverpool yn cofio yr adeg y cyd-lafuriai Mr. Rees a Mr. Hughes ynddynt; ond ni phetrusa yr ychydig hyny edrych ar yr adeg hono fel 'oes euraidd' Methodistiaeth yn y cylch. Bu Mr. Hughes farw yn mhen tua dwy flynedd a hanner wedi i 'Mr. Hughes, Everton'—canys felly yr adnabyddid Dr. Hughes ar y cyntaf—ddyfod i'r dref. Ond gadawodd y cyfnod byr hwnw argraph annileäadwy arno. Ymroddodd i lafurio ar gyfer y 'seiat fawr,' yn gystal ag ar gyfer y pulpud, â'i holl egni; a chredwn mai trwy y llafur hwnw, a'r ddysgyblaeth y gosododd ei hun dani y blynyddoedd hyny, a'r blynyddoedd dilynol, yr ennillodd efe y medr arbenig oedd ganddo, tu hwnt i braidd neb o'i gyfoedion, i draddodi anerchiadau meistrolgar ar wahanol faterion yn y cymmanfaoedd. Pla y dioddefa ein cymdeithasfaoedd oddi wrtho yn fynych ydyw 'mân siarad;' ond pan yr ymaflai Dr. Hughes mewn unrhyw fater—nid oedd lawer o wahaniaeth pa beth a fyddai—codai efe yr ymdriniaeth yn y fan i dir uchel. Yr oedd ganddo rhyw allu oedd bron yn ddigymmhar i gydio mân gwestiynau ymarferol âg egwyddorion mawrion a chyffredinol. Ac am agor gwirioneddau dyfnion yr efengyl—tynu allan eu cyfoeth, ac eglurhau eu cyssylltiadau, gan olrhain eu hanes, a dangos eu lle yn nadblygiad yr athrawiaeth, mewn modd eglur a dealladwy—nid oedd, yn ddïau, neb o'i frodyr i'w gystadlu âg ef. Ond nid pawb a glywsant ei anerchiadau meistrolgar yn y gymmanfa a'r gymdeithasfa oedd yn gwybod mai trwy lafur caled, a thrwy ddysgyblaeth fanwl am lawer o flynyddoedd, yr ennillodd Dr. Hughes y 'ddawn' werthfawr hon oedd yn eiddo iddo.

Nid ydym yn gwbl sicr dros ba hyd, wedi ei ddyfodiad i'r dref, yr edrychwyd arno yn fath o feddiant cyffredinol i'r holl eglwysi. Ond gallwn dystio, ar awdurdod rhai sydd yn ei gofio yn dda yn y cyfnod hwnw, iddo roddi ei wasanaeth yn hollol rydd a dirwgnach i bwy bynag a ewyllysiai ofyn am dano. Gadawodd ei barodrwydd yn y cyfeiriad hwn yr argraph fwyaf ffafriol ar yr eglwysi yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth yn y dref. Yn mhen amser, yr ydym yn cael y gweinidogion canlynol mewn cyssylltiad âg eglwysi neillduol:—Mr. Rees yn Mulberry street, ac wedi hyny yn Chatham street; Dr. Saunders yn Bedford street, ac wedi hyny yn Prince's road; a Dr. Hughes yn Rose Place, ac wedi hyny yn Fitzclarence street. Ond er y cyssylltiad âg eglwysi neillduol, pregethai yr holl weinidogion ar gylch yn yr holl eglwysi. Credwn nad oes gan y Methodistiaid, na chan neb arall yn wir, drefn fwy rhagorol er sicrhau pregethu effeithiol na'r hon sydd wedi bod mewn grym yn Liverpool er's yn agos i drigain mlynedd.

Hawdd iawn fyddai ysgrifenu yn helaeth ar waith Dr. Hughes yn Liverpool, ac ar y cyfnewidiadau pwysig y bu ganddo ran fawr yn eu dygiad oddi amgylch. Cyd-lafuriodd â Mr. Rees am fwy nag un mlynedd ar ddeg; ac â Dr. Owen Thomas am fwy na thair blynedd ar hugain. A bychan yw dywedyd fod ei gyssylltiad â'i frodyr yn y weinidogaeth bob amser yn hynod ddedwydd. Tynai yr hyfrydwch mwyaf o'u cymdeithas; ac anfynych yr ymddangosai i fwy o fantais nag y gwnai yn ei ymddiddanion â hwy ar faterion cyssylltiedig â hanesiaeth eglwysig, neu hanes yr athrawiaeth. Cawsom, rai troion, y fraint o fod yn bresennol mewn cyfeillach pan yr ymollyngai Dr. Owen Thomas ac yntau i ddwyn allan o'u trysorau 'bethau newydd a hen;' a phan y gorfodid ninnau, y rhai oeddym ieuangach, i wrandaw mewn distawrwydd edmygol, gan sylweddoli yn fwy byw nag y gwnaem hyd yn oed wrth eu clywed yn pregethu, ëangder rhyfeddol eu gwybodaeth.

Arweinir ni gan y crybwyllion uchod i gyfeirio at 'Gyfarfod y Gweinidogion Cymreig' yn Liverpool a'r amgylchoedd, yr hwn y bu Dr. Hughes yn un o'i brif addurniadau o'i gychwyniad hyd yr adeg yr ymadawodd â'r dref. Bu y cyfarfod hwn o werth mawr, yn arbenig i weinidogion ieuaingc y cylch. Cynnelir ef bum waith yn y flwyddyn; ac yn Ionawr nesaf (1896), bydd y canfed o'r gyfres yn cael ei gynnal yn nghapel Prince's road. Ymuna ynddynt weinidogion yr holl enwadau Ymneillduol Cymreig; ond saif y clerigwyr Cymreig ar wahân. Am lawer o flynyddoedd, bu y diweddar Barch. William Roberts, o Great Mersey street, yn ysgrifenydd y cyfarfod; a dilynwyd ef gan y Parch. Owen John Owen, M.A., Rock Ferry, yr hwn sydd yn parhau i lanw y swydd gyda medr a ffyddlondeb. Ymdrinir yn gyffredin â materion yn dal perthynas agos â gwaith gweinidogion yr efengyl; a gellid yn hawdd gasglu ynghyd ddigon o'r 'papurau' a ddarllenwyd i wneuthur cyfrol a fyddai o werth mawr—yn enwedig i weinidogion ieuaingc. Hyd yma, nid oes i'w chael gymmaint ag un gyfrol ar *Pastoral Theology* nad ydyw ei blâs yn gwbl Saesnig. Yn achlysurol, cymmerir i fyny gwestiynau duwinyddol, athronyddol, a beirniadol; a cheir ymdriniaeth arnynt sydd yn dra bendithiol. Wedi dwy awr o gyfarfod, eistedda y gweinidogion ynghyd i fwynhau cwpanaid o dê, yr hwn a ddarperir iddynt gan chwiorydd y capel y cynnelir y cyfarfod ynddo. A byddai presennoldeb Dr. Hughes, Dr. John Thomas, Dr. Owen Thomas, Mr. Roberts, Great Mersey street; Mr. John Hugh Evans, a Mr. Hugh Jones, Birkenhead, y rhai ydynt oll wedi huno, ynghyd âg eraill sydd etto yn fyw, yn gwneyd y cynnulliad yn dra difyrus. Nid yn fynych y cawsom y fraint o wrandaw ar areithiau mwy doniol nag a wneid ar adegau wrth gynnyg ac eilio diolchgarwch.

Digitized by Google

Un tro, yr oedd y cyfarfod yn nghapel Fitzclarence street, a'r chwiorydd wedi darpar yn helaeth iawn ar gyfer anghenion y corph; ac wrth gynnyg diolchgarwch iddynt, gwnaeth gweinidog enwog sydd yn parhau i lanw lle mawr yn y cyfundeb Wesleyaidd, er nad ydyw yn awr yn Liverpool, un o'r areithiau llawnaf o ffraethineb a dawn ag oedd yn bossibl. Yn mysg pethau eraill, dywedai fod 'y ddarpariaeth ar y bwrdd yn hollol Arminaidd yn ei chyflawnder.' Wrth atteb dros y chwiorydd, dywedai Dr. Hughes:—'Yr oedd fy nghyfaill, Mr. Jones, yn sylwi fod y ddarpariaeth ar y bwrdd yn Arminaidd yn ei chyflawnder. Yr oeddwn innau yn gweled fod yma un peth arall oedd yn hollol Arminaidd ynddi; sef, gallu dyn i wneyd cyfiawnder â'r ddarpariaeth.'

Er yn Fethodist o'r Methodistiaid, ni wyddai Dr. Hughes ddim am gulni sectol. Bu ar hyd ei oes ar y telerau mwyaf dedwydd â gweinidogion pob enwad; a mynych y talai ymweliadau cyfeillgar â chynnulleidfaoedd perthynol i enwadau eraill. Ac yr oedd ganddo wir barch i'r ychydig weinidogion yn yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru sydd yn meddu y ddawn i bregethu yr efengyl i'w cyd-genedl gyda grym a dylanwad.

Yn haf 1874, ymwelodd âg Unol Dalaethau yr America. Hwyliodd o Liverpool ddydd Sadwrn, Ebrill 18fed; a dychwelodd adref tua dechreu Awst, wedi mwynhau ei daith yn fawr. A mwynhaodd Cymry y Talaethau ei weinidogaeth yn rhyfeddol. Cryn orchwyl iddo ydoedd dal i fyny o dan y gwres llethol yn Mehefin a Gorphenaf; ond aeth trwy bob llafur yn weddol gysurus, a chafodd ar y daith rai oedfaon bythgofiadwy. Ddwy flynedd yn ddiweddarach—sef, yn haf 1876—derbyniodd o Brif Athrofa Washington a Jefferson y gradd o Ddoctor mewn Duwinyddiaeth; a theimlai pawb fod yr anrhydedd wedi disgyn, ynddo ef, i un oedd yn mhob ystyr yn deilwng o hono.

Nis gellir cymmaint ag enwi yr holl symmudiadau yn Liverpool y bu gan Dr. Hughes ran arbenig ynddynt; ond yr ydym yn rhwym o wneyd cyfeiriad byr at yr awydd oedd ynddo yn wastad i estyn pob cynnorthwy yn ei allu yn arbenig i wŷr ieuaingc darllengar a meddylgar. Yn y cyssylltiad hwn, gellir nodi amryw eraill o weinidogion y Methodistiaid yn Liverpool a wnaethant wasanaeth pwysig, megys y Parchn. Dr. Saunders a J. Ogwen Jones, B.A.; ond at wasanaeth Dr. Hughes y gelwir arnom i gyfeirio yn y lle hwn. Yn Fitzclarence street, cychwynodd, ar un adeg, gyfarfod i ddarllen *Mansel's Metaphysics* gyda nifer o wŷr ieuaingc; ac yn mhen blynyddoedd ar ol hyny, cychwynodd y 'Gymdeithas Athronyddol a Duwinyddol' yn nghapel Crosshall street, yr hon sydd yn parhau etto yn llewyrchus a llwyddiannus. Ei hathraw presennol ydyw y Parch. Wm. Owen Jones, B.A., Chatham street. Yn brin y gellir dyweyd fod Dr. Hughes yn dangos, wrth arwain y cyfarfodydd hyn, mwy nag wrth gadw ysgol yn Llanerchymedd, y rhagoriaeth amlwg oedd ynddo mewn cyfeiriadau eraill. Nid oedd yn ddigon bywiog; ac nid oedd ganddo, chwaith, ddigon o gydymdeimlad â'r gwan. Yr oedd yn ei feddiant bob amser, yn ei watwareg finiog, arf tra pheryglus; ac yn y dosbarthiadau, byddai yn rhy barod i'w ddefnyddio. Gwyddai pawb nad oedd ynddo y dymuniad lleiaf i archolli; ond nid oedd efe bob amser yn gallu sylweddoli mor fawr fyddai dioddefaint ambell ddysgybl dan yr oruchwyliaeth. Pa fodd bynag, gwnaeth wasanaeth gwerthfawr trwy ddwyn ynghyd nifer o ddynion meddylgar o wahanol ranau y dref i gyd-ddarllen y fath lyfrau a *Schwegler's History of Philosophy* a *Martensen's Christian Dogmatics*, a thrwy osod cyfoeth ei wybodaeth athronyddol a duwinyddol ei hun at eu galwad.

Cyn ei symmudiad i Liverpool yn 1857, yr oedd wedi dringo i safle uchel ac anrhydeddus fel pregethwr; ac wedi dyfod i gyd-lafurio â Mr. Rees a Mr. Hughes, parhaodd i ddringo yn uwch uwch, nes cymmeryd ei le yn naturiol yn mysg yr ychydig bregethwyr na cheir neb yn meddwl am gwestiyno eu hawl i'r arweiniad. Ac ennillodd ei safle trwy ddilyn yn ffyddlawn ei syniad ei hun am yr hyn ydyw pregethu grymus, heb wneyd un math o aberth i dduwies poblogrwydd. Ond rhaid i ni adael ein syniadau arno fel pregethwr nes y byddwn wedi gorphen gyda hanes ei fywyd.

*O'i symmudiad i Gaernarfon hyd ei farwolaeth.*—Tybiai llawer, wrth edrych ar safle Dr. Hughes yn Liverpool, ac ar ddedwyddwch dwfn ei gyssylltiadau yn y dref, nad oedd yn debyg y symmudai efe byth oddi yno i ymgymmeryd âg unrhyw ofalaeth eglwysig. Wrth ei glywed, yn fynych, yn dadgan hiraeth am 'y wlad,' nid ystyrid gan rai o'i gyfeillion mewn un modd yn annhebyg y byddai iddo gilio i ryw lanerch dawel yn Môn, i dreulio gweddill ei oes, yn rhydd oddi wrth bob gofalaeth; ond syndod, yn mron i bawb, oedd iddo dderbyn galwad i eglwys Engedi, yn nhref Caernarfon, lle y byddai yn rhwym o fod mor lawn o waith ag y bu yn Liverpool. Felly, pa fodd bynag, y gwnaeth. Er gofid dwfn i holl Fethodistiaid Liverpool, daeth yn hysbys iddynt, tua diwedd y flwyddyn 1888, ei fod wedi penderfynu tori ei gyssylltiad âg eglwys Fitzclarence street, a symmud i Gaernarfon. Gwnaed pob ymdrech ag oedd yn bossibl gan ei gyfeillion anwylaf, a chan y cyfarfod misol, er ei berswadio i aros yn Liverpool; ond yr oedd ei feddwl wedi ei wneyd i fyny ar y mater, ac ymaith y mynodd fyned. Yr oedd sefyllfa iechyd ei ferch hynaf yn peri iddo ddirfawr bryder; a gobeithiai y byddai y symmudiad yn foddion i sicrhau iddi hi estyniad einioes, os nad llwyr adferiad. Ac wedi i'r gobaith hwn gael unwaith le yn ei fynwes, nid oedd yn un man allu digonol i beri iddo roddi heibio ei fwriad. Noson gyntaf y cyfarfod misol, yn Engedi; sef, nos Lun, Ionawr 14eg, 1889, cynnaliwyd cyfarfod i groesawu Dr. Hughes fel gweinidog yr eglwys, dan lywyddiaeth Mr. John Davies (*Gwyneddon*)—un o'r blaenoriaid. Cymmerwyd rhan ynddo gan Dr. Owen Thomas a Dr. Herber Evans, &c. Nos Fawrth, y 18fed o Chwefror, y cynnaliwyd y 'Cyfarfod Ymadawol' yn Fitzclarence street, Liverpool—o dan lywyddiaeth Mr. John Williams, Moss Bank, a chyflwynwyd iddo anerchiad a phwrs o aur, ac i Mrs. Hughes hefyd nifer o lestri arian pur, o wneuthuriad y Meistri Elkington. Nid yn fuan yr anghofir anerchiad hwyliog Dr. Hugh Jones yn y cyfarfod hwnw.

Cryn orchwyl i Dr. Hughes, a'r teulu, wedi'r cwbl, oedd cefnu ar Liverpool. Gwelsant fod gan y dref afael gref ynddynt hwy; a chawsant deimlo fod ganddynt hwythau hefyd afael gref ynddi hithau. Ond er eu dagrau, a thrwy eu dagrau, ymaith yr aethant! Wedi cyrhaedd,

Digitized by Google

pa fodd bynag, i Gaernarfon, hwy a deimlasant ar unwaith yn hynod gysurus. Ymdaflodd Dr. Hughes gyda phob egni i waith yr eglwys; a gwnaeth ei hun yn gartrefol yn Nghyfarfod Misol Arfon—lle y cymmerodd ei satle ar unwaith fel arweinydd. Bychan iawn ydyw dyweyd i'w gyssylltiadau yno fod yn nodedig o ddedwydd hyd ddiwedd ei oes.

Ond ni bu yn hir yn Nghaernarfon cyn cael ei oddiweddyd gan brofedigaethau llymion. Yn Llanerchymedd, ar yr 17eg o Hydref, 1890, bu farw ei ferch hynaf—ei anwyl Eleanor; yr hon oedd iddo bob amser fel canwyll ei lygad. Yr oedd ganddo syniad uchel am ei galluoedd meddyliol, ac yn enwedig am ddiogelwch ei barn gyda golwg ar bersonau a phethau. Ac nid serch tad a barai iddo goleddu y fath syniad am dani. Yr oedd ganddi, yn ddïau, alluoedd naturiol cryfion; ac yr oedd y rhai hyny, trwy addysg dda a dysgyblaeth ofalus, wedi cyrhaedd llawn ddadblygiad. Er ei dirodresrwydd perffaith, nis gallai neb fod yn hir yn ei chymdeithas heb deimlo fod ganddi feddwl clir a threiddgar, wedi ei gyfoethogi a'i ddiwyllio yn dda trwy gydnabyddiaeth helaeth â'r llenyddiaeth oreu; ac yn ddiddadl, yr oedd ei gallu i adnabod dynion, yn gystal ag i fesur a phwyso eu galluoedd, yn rhyfeddol. Ergyd drom i'w briod ac yntau oedd ei cholli.

Ond yn Mai, 1892, 'dychwelodd y cymmylau eilwaith ar ol y gwlaw.' Yn nechreu y mis hwnw, cymmerwyd oddi wrth Dr. Hughes ei anwyl briod; yr hon, fel y sylwyd eisoes, oedd yn mhob ystyr yn un o rai rhagorol y ddaear. Ond er ei brofedigaethau, parhaodd i lafurio yn egnïol hyd derfyn ei oes. Dichon na bu ar unrhyw adeg yn llawnach o frwdfrydedd nag oedd yn ystod ei wythnosau olaf gyda 'Thrydedd Iwbili y Cyfundeb Methodistaidd.' Er nad oedd ei nerth yr hyn a fu mewn blynyddoedd a aethant heibio, yr oedd yn hynod siriol. Yr oedd ei enaid yn llawn o edmygedd o'r tadau; ac nid oedd yn blino ar dramwy o le i le i draethu ar eu nodweddion, eu hysbryd, a'u gwaith. Yn wir, y mae'n syndod y llafur yr aeth efe drwyddo y pymthegnos diweddaf o'i fywyd. Dydd Sadwrn, y 7fed o Hydref, 1893, aeth i fyny i Lundain, i wasanaethu yr achos yn Wilton Square. Llettyai gyda Mr. a Mrs. Lewis H. Roberts, a mwynhaodd ei ymweliad â'r brif ddinas yn fawr. Dydd Iau, y 12fed, aeth i Gaerdydd—lle y llettyai gyda'r Parch. John Morgan Jones, a'i briod. Tybiwn iddo bregethu yno y noson hono, a nos dranoeth yn Mhont-y-pridd. Y Sadwrn, y 14eg, aeth yn mlaen i gyfarfod pregethu Jerusalem, Ton, Ystrad—lle y pregethodd, o hyny hyd nos Lun, bump o weithiau. Yn yr un cyfarfod, pregethai y Parchn. Evan Phillips, Castell-newydd-Emlyn, a Thomas Thomas, o Lanymddyfri. Dydd Mawrth, dychwelodd adref, heb deimlo llawer o flinder, a chanmolai ei deithiau i Lundain a'r Deheudir yn fawr. Nos Fercher, yr oedd yn y cyfarfod eglwysig, mor siriol ag arferol. Gwnai yno sylwadau ar 'Drydedd Iwbili y Cyfundeb,' a dadganai y boddhâd a gawsai wrth ddarllen, unwaith yn chwaneg, *Ddrws y Seiat Brofiad*, gan Williams, Pant-y-celyn. Nos Iau, traddododd anerchiad tra galluog a nodweddiadol i Gymdeithas Lenyddol Engedi, ar 'Rai o Agweddau Duwinyddol yr Oes.' A nos Wener, aeth i gyfarfod yn Mhorthmadog, mewn cyssylltiad â'r 'Drydedd Iwbili,' a thraddododd ynddo anerchiad godidog yn mhob ystyr. Fel hyn y disgrifia y Parch. Thomas Owen yr anerchiad:—

'Yr oedd Dr. Hughes yn ei elfen yma yn nghyfarfod yr Iwbili nos Wener. Cymmerai olwg ar y diwygiad Methodistaidd mewn gwedd eang—y wedd yr oedd mor naturiol iddo ef ei chymmeryd bob amser yn ei ymdriniad â materion—gan eu codi i dir uchel ac ëang. Dangosai fel yr oedd y deffroad crefyddol hwnw wedi cymmeryd lle yr un adeg mewn gwahanol wledydd—yn Nghymru, yn Lloegr, Ysgotland, Germany, ac America; a hyny nid yn gymmaint y naill oddi wrth y llall, ond rhyw ddeffroad yn y gwahanol wledydd yna ar wahân hefyd. Disgrifiai mewn modd bywiog wahanol nodweddion pregethwyr y Diwygiad, megys Harris a Rowlands, Williams, Pant-y-celyn, Dafydd Morris, Robert Roberts, Clynnog, a John Elias. Hawdd oedd gweled—ac heb law gweled, teimlo—bod ei feddwl mewn cydymdeimlad dwfn â hwy wrth iddo sôn am danynt. Ond bychan y meddyliai neb o honom, wrth ei wrandaw, ei fod ef mor agos i ymuno âg ysbrydoedd y cyfiawnion hyny oedd wedi eu perffeithio.'

Dychwelodd adref foreu ddydd Sadwrn; ac yn y prydnawn, aeth ef a'i ail ferch—yr hynaf oedd bellach yn fyw—i sir Fôn. Arosodd Miss Hughes i dreulio y Sabbath yn Llanerchymedd, ac aeth yntau yn mlaen i Amlwch. Llettyai yno gyda Mr. a Mrs. Matthews, Bank; a threuliodd gyda hwy Sabbath nodedig o ddedwydd. Pregethodd yn Amlwch foreu a hwyr, ac yn y Burwen yn y prydnawn. Ei destynau yn Amlwch oeddynt *Ioan* xxi. 17, ac *Ephesiaid* iv. 20—24. Yn y cyfarfod eglwysig ar ol oedfa yr hwyr, yr oedd mor siriol ag y gwelwyd ef un amser. Siaradodd yn fywiog ac yn gryf ar y 'Drydedd Iwbili,' mewn canlyniad i awgrym oddi wrth Mr. Matthews. Ar ol ei anerchiad, gwnaeth Mr. Matthews rai sylwadau. Cyfeiriodd at yr adeg yr eisteddai pan yn fachgen wrth draed Dr. Hughes yn yr Athrofa yn y Bala; ac attebodd yntau, 'Ië, pan oeddym ill dau yn fechgyn, onid e?' A chyfeiriodd Mr. Matthews yn mhellach ato fel un a fyddai yn gysgod i bregethwyr ieuaingc hyd yr adeg y gelwid ef oddi wrth ei waith at ei wobr. Bychan y tybiai neb yn Amlwch y noson hono fod yr alwad i ddyfod ato cyn pen y pedair awr ar hugain!

Yn y tŷ ymgomiai yn ddifyrus am rai oriau cyn myned i orphwys; a gofynai i Mr. Matthews erfyn drosto ef ar Mr. Gee i ddwyn allan argraphiad newydd a rhadlawn o *Ddrws y Seiat Brofiad*, gan addaw ysgrifenu rhagarweiniad i'r gwaith. Dydd Llun, y 23ain, galwodd yn Llanerchymedd, ond teimlodd yn dra llesg. Prysurodd tuag adref; ac aeth ei nai i'w ddanfon ef a'i ferch i Gaernarfon. Cyrhaeddodd adref tua phump o'r gloch. Yn fuan bu raid galw am Dr. Parry—yr hwn a orchymynodd iddo fyned i'w wely. Gofynai iddo ai nid allai fyned i gyfarfodydd gyda'r 'Drydedd Iwbili' i Leyn, y rhai yr addawsai fod ynddynt yr wythnos hono; ac attebai y meddyg, 'Na: rhaid i chwi orphwys yr wythnos hon.' Ychydig funydau wedi saith yr un noson; sef, yn mhen dwy awr, neu lai, wedi iddo gyrhaedd adref, ehedodd ei ysbryd at Dduw!

Y dydd Gwener canlynol, gosodwyd yr hyn oedd farwol o hono i orwedd hyd foreu yr adgyfodiad yn mynwent eglwys Ceidio, ger llaw Llanerchymedd, lle y gorweddai eisoes ei dad a'i fam, ei briod, a dau o'i blant. Fel hyn, cyn

Digitized by Google

ei fod ond newydd gwblhau ei 66ain mlwydd oed, y dygwyd i derfyniad fywyd un o'r pregethwyr galluocaf a mwyaf llafurus yn ei oes. A phan ymdaenodd y newydd am ei farwolaeth, teimlid fod cyfundeb y Methodistiaid wedi cael un o'r colledion trymaf oedd yn bossibl iddo. Wedi colli Dr. Thomas, y Prifathraw D. Charles Davies, a Dr. Saunders, a'r Parch. Edward Matthews, yr oedd Dr. Hughes yn aros, a phob sail i obeithio yr arbedid ef am lawer o flynyddoedd. Ond pan y syrthiodd efe, syrthiodd yr olaf o'r hen arweinwyr; a gwelwyd y disgynai, o hyn allan, yn enwedig yn y Gogledd, yr arweiniad i ddwylaw gwŷr oeddynt gymmharol ammhrofedig. A chyffelyb hefyd oedd y teimlad y tu allan i gylch y cyfundeb Methodistaidd. Fel un o brif arweinwyr meddwl y genedl, ni bu, fe allai, erioed adeg yn hanes Cymru ag yr oedd yn fwy anhawdd ei hebgor na'r adeg y cymmerwyd ef ymaith.

Rhaid i ni bellach geisio rhoddi rhyw syniad am dano fel pregethwr, ac fel arweinydd crefyddol, a bwrw cipdrem frysiog hefyd ar ei lafur llenyddol. Edrychwn arno yn mlaenaf.

*Fel pregethwr.*—Pe na buasai yn bregethwr, nid ydym yn tybio y buasai chwaith yn ddim arall i'w gyfundeb, na'i genedl. Fel pregethwr y cafodd gyfleusderau i ragori mewn cyfeiriadau eraill. Gwelwyd yn Nghymru rai gwŷr wedi ennill 'gradd dda' fel llenorion yn cymmeryd i fyny 'y weinidogaeth' fel y gorchwyl mwyaf cydnaws â'u gogwyddiadau. Mewn cenedl mor fechan, nid oedd lawer o obaith, o leiaf yn y blynyddoedd gynt, i lenor fedru ennill 'tamaid o fara' heb gydio mewn rhywbeth heb law llenyddiaeth; a dichon mai dyma un rheswm pa ham y cyfeiriodd rhai llenorion eu camrau i'r pulpud. Nid ydym yn awgrymu fod hyn yn fath yn y byd o ddianrhydedd arnynt. Dewisasant y ffordd oreu, os nad, yn wir, yr unig ffordd oedd yn agored iddynt i wasanaethu eu cenhedlaeth. Ond am Dr. Hughes, fel am lawer eraill, aeth i'r pulpud yn unig er mwyn pregethu. A pha ragoriaeth bynag arall a ennillodd efe, daeth i afael â'r cwbl wrth ymgyrhaedd at ragori fel pregethwr. Ond yr ydym yn rhy ddiffygiol yn y gallu oedd ynddo ef i raddau mor nodedig—y gallu i ddisgrifio—i fedru tynu darlun o hono. Ein cysur ydyw, nad oes angen am hyny i'r rhai a'i clywsant; ac y gall y rhai na chlywsant ef ei weled yn weddol eglur yn y gyfrol o bregethau ag yr oedd efe ei hun, yn ei fisoedd diweddaf, yn brysur wrth y gorchwyl o'i pharotoi i'r wasg. Syniad gwan am rai o'r hen bregethwyr a geir oddi wrth eu pregethau argraphedig. Nid oes, er enghraifft, yn mhregethau John Elias ddim a fuasai yn arwain neb i dybio ei fod y pregethwr mwyaf yn ei oes; a gellir, i ryw fesur, wneuthur yr un sylw gyda golwg ar bregethau Daniel Rowland, Llangeitho. Ond ni raid i neb a ddarlleno hanner dwsin o bregethau Dr. Hughes ryfeddu o gwbl ei fod yn cael ei ystyried yn un o'r pregethwyr blaenaf yn ei ddydd. Gydag ef, yn ddïau, er fod y traddodiad yn rhagorol, yr oedd y rhagoriaeth mwyaf yn y bregeth. Yn y cyfarfod i'w groesawu, a fu yn Engedi, yn mis Ionawr, 1889, nododd Dr. Owen Thomas y pethau a ystyriai efe yn brif linellau ei gymmeriad fel pregethwr; pan y sylwodd Dr. Hughes, yn ei ddull chwareus ei hun, fod y geiriau hyny yn dyfod i'w feddwl wrth wrandaw arno.—'Am bwy y mae y prophwyd yn dyweyd hyn? Am dano ei hun, ai am rywun arall?'

'Dysgwch,' meddai Dr. Thomas, 'werthfawrogi y rhagoriaethau a berthyn i Dr. Hughes. Nid yn ei lais y mae y rhagoriaeth, ac nid mewn adrodd storeion a chwedlau; ond mewn gosod allan wirioneddau mawr yr efengyl. Gellir nodi rhai o'i ragoriaethau. 1. Eangder ei sylw ar y materion a fyddont dan ymdriniaeth. 2. Tegwch meddyliol hollol yn yr amddiffyniad a wna i'r hyn a olygir ganddo sydd yn wirionedd. 3. Dirnad ddofn o'r gwirionedd, ac ymgydnabyddiaeth helaeth â'i wahanol agweddau. 4. Cyfoeth anhysbydd o wirionedd, a gallu arbenig i roddi ffurf addas arno i'w gyflwyno i'w wrandawyr. 5. Gofal neillduol am roddi i bob gwirionedd ei le priodol, yn ol y lle a roddir iddo yn y Beibl. 6. Ei fod yn agored, yn ei feddwl, a'i galon, i dderbyn argraph oddi wrth yr efengyl.'

Ac mewn cyssylltiad â'r elfen olaf nid annyddorol ydyw chwanegu y cyfeiriad a wnaeth Dr. Thomas at ddau amgylchiad y cofiai am Dr. Hughes pan yn fachgen ieuangc yn cael ei orchfygu yn llwyr dan y weinidogaeth. Un amgylchiad oedd mewn oedfa yn y Gorslwyd; ac amgylchiad arall oedd yn Amlwch, dan bregeth John Jones, o Dal-y-sarn, cyn ei fod lawer uwch law pedair ar ddeg oed.

Teimla pawb a adwaenai Dr. Hughes fod y llinellau uchod yn amlwg ynddo fel pregethwr; ond caniatäer i ni ddwyn i mewn ychydig o fanylion mewn cyfeiriadau eraill. Yr oedd ei ymddangosiad yn y pulpud yn fanteisiol iddo. Nid cywir, yn wir, fyddai dyweyd fod o'i amgylch yr urddas oedd ar ymddangosiad Mr. Roberts, Amlwch; Dr. Edwards, ac eraill y gallesid eu henwi. Ond nid gormod ydyw dyweyd ei fod yntau yn 'edrych yn dda' yn ei bulpud. Parai y caethder yn ei frest fod ei lais yn gryglyd ar adegau yn y dechreu; ac nid oedd ei ymdrech i ryddhau y pibellau lleisiawl bob amser yn fanteisiol i gynnyrchu yn mysg ei wrandawyr y llonyddwch a'r distawrwydd yr oedd efe yn wastad mor awyddus am danynt. Ond wedi iddo unwaith glirio, yr oedd ei lais yn llais rhagorol; a byddai yn ddi-eithriad yn gwbl dan ei reolaeth. Ni chaniataodd Dr. Hughes erioed i'w lais chwareu prangciau gydag ef; ac yr oedd ynddo nodau toddedig a thra effeithiol.

Drachefn, yr oedd ganddo gyflawnder o iaith. Gwyddai werth geiriau da, a chafodd lawer gwrandäwr deallgar syniad newydd o dan ei weinidogaeth am gyfoeth a grym yr hen Gymraeg. A gwefreiddid cynnulleidfa weithiau gan ei frawddegau caboledig. Ni bu erioed bregethwr a fuasai yn edrych gyda mwy o ddirmyg ar bregeth heb fod ynddi ddim ond geiriau a brawddegau. Iddo ef, yr oedd meddyliau yn gwbl anhebgorol; ond ni ddeallodd neb, er hyny, yn well nag ef y fantais sydd i feddyliau coeth mewn iaith dda, ac mewn arddull ddiwylliedig a chref. Ac yr oedd trwstaneiddiwch yn nefnyddiad geiriau, neu ffurfiad brawddegau, yn annioddefol iddo.

Dywedodd rhywun am dano ei fod yn un o'r pregethwyr mwyaf *modern* a feddai Cymru: ac nid oes ammheuaeth nad oedd hyn yn wirionedd am dano. Ond pa ham? Nid am ei fod mewn un modd yn taflu unrhyw ddirmyg ar yr hen, neu yn gwneuthur unrhyw orchest i ddwyn i mewn y newydd. Mewn rhyw ystyr, nid oedd neb ffyddlonach i'r 'hen lwybrau.' Nid edrychai o gwbl yn anffafriol ar 'godi penau,'

Digitized by Google

a dwyn i mewn raniadau. Nid oedd arno ofn i'w wrandawyr ddeall ei fod wedi ymgynghori âg 'Esboniadau;' yn hytrach, gosodai i lawr yn wastad seiliau ei bregethau mewn esboniadaeth oleu a manwl yn ei ragymadrodd. Yn y peth hwn, yr oedd ar ryw olwg yn fwy cymmedrol na Dr. Owen Thomas. Er cymmaint meistr ar esboniadaeth oedd Dr. Thomas, gorfodid ni i deimlo, weithiau, fod esboniadaeth yn ei feistroli yntau. Ymollyngai i esbonio mor helaeth nes niweidio cymmesuredd y bregeth; a mynych y gwnaed y sylw gan wrandawyr meddylgar yn Liverpool y buasent yn ddiolchgar am gael eu gollwng adref o oedfa'r boreu heb ddim ond yr esboniadaeth, a chael dychwelyd yn yr hwyr i wrandaw y bregeth yn unig. Ond gofalai Dr. Hughes bob amser am gymmesuredd. Ni phregethai braidd byth yn faith; ac ni chaniatäai un amser i esboniadaeth redeg ymaith gyda mwy na'i rhan o'r amser. Ar yr un pryd, gosodai i lawr sylfeini y bregeth bob amser mewn eglurhadaeth oleu a theg. Y gwirionedd y credai ei fod yn ei destyn y pregethai arno, ac nid y gwirionedd y gallai ei wthio i mewn i'w ymadroddion. A threfnai y gwirionedd hwnw yn naturiol, fel y byddai ei bregeth bob amser yn hawdd ei chofio—yn arbenig i wrandawyr meddylgar.

Ond pa beth, meddir, oedd yn ei wneyd yn 'bregethwr *modern?*' Yn y pethau uchod, nid oes dim na cheir hwy mewn llawer o bregethwyr eraill, y rhai na feddyliai neb am eu disgrifio felly. Dichon mai yr atteb ydyw—o leiaf, mai un elfen yn yr atteb ydyw—yr arferai edrych ar y gwirionedd fyddai dan sylw yn ei berthynas â meddwl yr oes. Gwyddai yn dda i ba gyfeiriad yr oedd yr oes yn teithio, a pha agwedd ar y gwirionedd oedd yn fwyaf cyfaddas i gyfarfod ei gogwyddiadau. Ac ni ellid ei wrandaw un amser heb deimlo ei fod yn llawn o ysbryd ei oes, er nad oedd neb, ar yr un pryd, yn fwy dibetrus yn ei ymlyniad wrth y gwirioneddau mawr sydd yn ffurfio cnewyllyn a hanfod cenadwri yr efengyl at fyd colledig yn mhob oes. Ei syniad am ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas Dduw, oedd un 'yn dwyn allan o'i drysorau bethau newydd a hen;' a hawdd oedd gweled yn wastad ei fod yn ymdrechu yn onest i gario allan y syniad hwnw yn ei weinidogaeth ei hun.

Un peth a nodweddai bregethau Dr. Hughes bob amser ydoedd, ei fod yn ymwneyd â gwirioneddau arweiniol crefydd. Nid y mân wirioneddau oedd baich ei weinidogaeth. Cartrefai yn hytrach gyda'r gwirioneddau mawr. A gellir dyweyd fod hyn yn un o nodau sicr pregethwr grymus. Nid ein meddwl ydyw fod Dr. Hughes yn esgeuluso pregethu dyledswyddau, neu hyd yn oed yn esgeuluso disgyn at fanylion y dyledswyddau hyny; eithr yn hytrach, ei fod, fel y sylwyd eisoes mewn cyssylltiad arall, yn dwyn pob dyledswydd i berthynas uniongyrchol âg egwyddorion, ac yn gosod yr ymarferol i orphwys yn deg ar athrawiaethau cryfion a chedyrn ein crefydd.

Edrychwyd arno gan lawer fel 'pregethwr dwfn' y cyfundeb Methodistaidd. Ac felly, yn ddïau yr ydoedd, os wrth 'bregethwr dwfn' y deallir un yn wastad yn ymwneyd â 'dyfnion bethau,' un yn pregethu y gwirioneddau mawr. Ond os golygir wrtho un yn pregethu yn aneglur, ni bu erioed gamgymmeriad mwy. Meddyliwr clir, ac ymresymwr goleu, ydoedd Dr. Hughes bob amser; ac ni welodd neb wrth wrandaw arno yr arwydd lleiaf ei fod, unrhyw amser, wedi colli ei ffordd hyd yn oed wrth ymwneyd â'r cwestiynau anhawddaf. Nid oedd ganddo, yn ddïau, y gallu oedd gan Dr. Edwards i drafod gwirioneddau dyfnion mewn iaith syml. Nid ydyw yn debyg y gwnaed erioed am dano ef y sylw y dywedir iddo gael ei wneyd gan un hen chwaer yn Meirion am Dr. Edwards. 'Ni dda gen i ddim pregethwyr mawr, fel ——. Mae'n well gen i bregethwyr bach, fel Mr. Edwards.' Fel 'pregethwr mawr' yn sicr yr edrychai pawb ar Dr. Hughes; ond pregethwr a osodai allan y pethau mawr bob amser yn hollol glir a dealladwy, i unrhyw wrandäwr a ddewisai ddilyn ymresymiad goleu a theg.

Yr oedd yn gwbl gartrefol pan yn pregethu ar y maes ar ddydd y gymmanfa; ac anaml y gwelid ef yn methu ennill meistrolaeth lwyr ar y gynnulleidfa fwyaf cyn diwedd yr oedfa. Os gwelid ychydig aflonyddwch yn ei chyrau yn y dechreu, cyn i'w lais glirio, gwelid yn y man bob clust wedi ei hoelio wrth ei wefusau, ac yntau yn trin y gynnulleidfa yn mron fel y mynai. Cofiwn am dano yn pregethu yn fynych i gynnulleidfaoedd mawrion, ac yn ennill buddugoliaeth lwyr arnynt; ond goddefer i ni grybwyll yn unig ddau amgylchiad yn Nolgellau, yn Mehefin, 1860, a Mehefin, 1870. Clywsom yr arferai ef ei hun edrych ar y gyntaf fel oedfa fwyaf hynod ei oes. Cymdeithasfa ryfedd drwyddi oedd hono. Nid oedd y diwygiad grymus a newidiodd wyneb Cymru yn 1859—60 etto wedi treulio allan ei nerth. Yr oedd llawer o'i wres yn aros, ac ymgasglodd cannoedd o'i blant mwyaf twym i'r gymdeithasfa yn Nolgellau. 'Y nos yn mlaen,' pregethodd ar y maes y Parchn. Joseph Thomas, Carno, a Roger Edwards, Wyddgrug. Dan bregeth Mr. Thomas, aeth y cwbl yn 'ddeillion.' Yr oedd yno le rhyfedd mewn gwirionedd. Yn yr 'oedfa ddeg,' pregethodd y Parchn John Harries Jones a Henry Rees. A mawr oedd y gorfoledd dan y ddwy bregeth. 'Am ddau,' pregethodd y Parchn. Rees Jones, Felin heli, a John Hughes, Everton; ac yn yr hwyr, y Parchn. David Davies, Penmachno, a Henry Rees. Ond yn mysg yr holl oedfaon hynod yn y gymdeithasfa, oedfa Dr. Hughes, yn ddïau, oedd yr hynotaf. Y testyn oedd *Mat.* x. 37, 'Yr hwn sydd yn caru tad, neu fam, yn fwy na myfi,' &c. Yn brin y gwyddem wrth ei wrandaw yn mha le yr oeddym yn sefyll. Gogoniant person a chymmeriad yr Arglwydd Iesu oedd y pwngc; a dangosai y pregethwr fod ei hawl ar gariad dyn yn hawl resymol. Dangosai fod yn cydgyfarfod ynddo holl degwch y ddaear, a holl brydferthwch y nef; holl rinweddau y ddynoliaeth, a holl gyflawnder y Duwdod. 'Y mae,' meddai, 'yn rhagori ar ddeng mil. Deng mil o ba beth? Deng mil o'r peth a fynoch chwi. Deng mil o saint, deng mil o angylion, deng mil o gerubiaid, deng mil o seraphiaid, deng mil o archangylion, os mynwch chwi, pe baent i'w cael. Nid oes dim ond un.' Ac yn y bregeth hono y gwnaeth, am y tro cyntaf, sylwadau a glywsom ganddo ar ol hyny mewn pregeth arall. 'Mi welaf Ioan yn myned at y gorchwyl o'i ddisgrifio. 'A'r gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni; ac ni a welsom ei ogoniant ef; gogoniant megys, *megys*, MEGYS. Ac mi dybygaf weled cymmhariaethau

Digitized by Google

yr Hen Destament yn rhedeg at ei benelin, gan gynnyg eu gwasanaeth iddo; ond nid oes un o honynt a wna y tro. Y mae yn eu troi ymaith bob un; 'gogoniant megys yr Uniganedig oddi wrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd.' Nid ydyw yn debyg i neb ond iddo ei hun.' Gyrwyd y gynnulleidfa gan nerth a phrydferthwch y disgrifiad hwn, yn cael ei draddodi gyda'r fath yni a gwres, yn hollol y tu hwnt iddi ei hun. Boddid llais y pregethwr yn mron gan y bloeddiadau yn mhob cyfeiriad. Yn sicr, ni ddisgynodd erioed i'n rhan ni i weled cynnulleidfa wedi ei chodi i'r fath uchder teimlad dan bregethiad yr efengyl.

Yn 1870, yr oedd sefyllfa crefydd yn y wlad yn dra gwahanol; ond cafwyd yn Nghymdeithasfa Dolgellau, yn Mehefin, y flwyddyn hono, rai oedfaon tra hynod. Dyna yr adeg y pregethodd y Parch. William Williams, Abertawe, y bregeth nodedig a gyhoeddwyd wedi hyny, ar gais y gymdeithasfa, dan y teitl 'Gair at y Prophwydi.' Ac oedfa ryfedd a gafodd Dr. Hughes yn y prydnawn. Ei destyn ef ydoedd, 1 *Ioan* iv. 17. 'Yn hyn y perffeithiwyd ein cariad, fel y caffom hyder ddydd y farn,' &c. Cofiwn byth am ei ddisgrifiad o'r farn. O'i flaen ef, ond y tu ol i'w gynnulleidfa, oddi eithr y rhai a eisteddent ar yr esgynloriau, yr oedd ryw hen dŷ, â'i dô yn mron syrthio i mewn iddo. 'Meddyliwch,' meddai, 'am ystorm yn fil mwy ofnadwy nag un ystorm a welsoch erioed; am gorwyntoedd mil fil mwy arswydus nag un corwynt a fu erioed; am fellt a tharanau yn anarferol fwy dychrynllyd nag a welwyd ac a glywyd erioed; a daeargryn a fuasai yn gwneyd tref Dolgellau cyn pen y pum munyd fel yr hen furddyn acw!' Trodd y gynnulleidfa yn mron fel un gŵr i edrych ar 'yr hen furddyn.' Ac yna, gofynai y pregethwr, 'A phwy a ddichon sefyll y diwrnod hwnw?' Disgrifiai fawrion annuwiol y byd yn methu sefyll, nes yr oedd braw yn llanw eneidiau ei wrandawyr. Yna, yn y diwedd, disgrifiai yr hen Gristion syml a thlawd yn berffaith dawel yn nghanol dychrynfeydd y farn, nes llwyr orchfygu y gynnulleidfa. Ië, meistr y gynnulleidfa mewn gwirionedd oedd Dr. Hughes.

*Fel arweinydd crefyddol.*—Yn gyntaf, rhaid edrych arno fel arweinydd yn ei gyfundeb ei hun, gyda lluniad ei drefniadau, a dygiad yn mlaen ei symmudiadau. Ar ddechreu y ganrif bresennol, arweinydd y cyfundeb, yn arbenig yn y Gogledd, ac i fesur helaeth yn y Dê hefyd, oedd Mr. Charles, o'r Bala. Wedi ei farwolaeth ef yn 1814, disgynodd yr arweiniad yn y Gogledd i law Mr. Elias; ac wedi ei farwolaeth yntau, yn 1841, disgynodd yr awenau yn gwbl naturiol i law Mr. Rees. Ond arweinydd yn mysg arweinwyr oedd pob un o'r gwŷr mawr hyn; ac felly yn arbenig Mr. Rees. Y gŵr a esgynodd i'w gadair ef wedi ei farwolaeth yn 1869, oedd Dr. Owen Thomas. Iddo ef y rhoddid 'yr oedfa ddeg' braidd yn ddi-eithriad. Nid oedd neb a ddeuai un amser i gystadleuaeth âg ef yn y mater hwn, ond Dr. Edwards yn unig. Ond yr oedd o'i amgylch yn wastad nifer o ddynion ag yr oedd eu dylanwad yn fawr yn nygiad yn mlaen waith y cyfundeb. Ond ein hunig gwestiwn yn awr ydyw lle Dr. Hughes yn mysg y gwŷr hyn.

Fel diwygiwr a deddfwr, nid oedd i'w gymmharu â Dr. Edwards a Mr. Morgan; ond at lywio y llong ar ei mordaith, dan amgylchiadau cyffredin, nid oedd braidd neb a feddai ar fwy o ddeheurwydd na Dr. Hughes. Ysgrifenu yr ydym, cofier, am y cyfundeb yn y Gogledd. Nid oedd neb o'r gweinidogion am y pum mlynedd ar hugain diweddaf o'i oes yn fwy gofalus am fod yn y Gymdeithasfa na Dr. Hughes—oddi eithr Dr. Thomas yn unig; ac nid oedd neb a gymmerai ddyddordeb mwy byw yn eu gwaith. A phan y cyfodai amrywiaeth barn ar unrhyw gwestiwn, nid oedd neb a welai yn fwy clir nag efe y ffordd allan o'r dyryswch; ac yr oedd ei arabedd yn help arbenig iddo i osod terfyn dedwydd ar fân ddadleuon. Yn Nghymdeithasfa Corwen, un tro, gwelai un brawd anhawsder yn ymgodi yn y pellder, a barai iddo fethu ymostwng i ryw drefniad a wneid ar y pryd; a chyfododd Dr. Hughes yn llawn nwyf, a dywedodd—'Y gair hwnw sydd yn ymgynnyg i'm meddwl i—

> 'Heb flino ynghylch amseroedd draw,
> Y rhai o bossibl byth ni ddaw.'

Gwenodd pawb, ac yna aed yn mlaen yn gwbl gysurus at y mater nesaf ar y rhaglen.

Clywsom am engraifft ragorol arall o'r un deheurwydd yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnelid yn y Tŵr Gwyn, Bangor, pan y codwyd gwrthwynebiad gan rai dirwestwyr selog i'r defnyddiad o arian y trwyddedau i werthu diodydd meddwol at addysg ganolraddol. Wedi cryn lawer o ddadleu, cyfododd Dr. John Hughes i fyny, a dywedodd:—'Y mae hyn oll yn gwbl Ysgrythyrol;' 'Ti a ddrylliaist ben lefiathan; rhoddaist ef yn fwyd i'r bobl yn yr anialwch.'

Dichon na bu neb yn fwy pryderus am i'r cyfundeb Methodistaidd gyfyngu ei hun i'w waith priodol nag efe; neu yn fwy pryderus am iddo ymdaflu i'r gwaith hwnw â'i holl nerth. Yn y mater hwn yr oedd mewn cydymdeimlad dwfn â Mr. Rees, ac â Dr. Thomas. Credai â'i holl galon mai ar y llinellau yr oedd wedi llwyddo yn yr amser a aeth heibio y gallai obeithio llwyddo rhag llaw. Gwir ei fod yn edmygu ei ystwythder, yn unol â'i egwyddorion sylfaenol, i gyfaddasu ei hun i gyfarfod anghenion yr oes. Credai yn gryf mewn bugeiliaeth eglwysig; ond nid oedd yn credu mewn chwyldröadau. Gwaith gonest, cysson, egnïol, ar yr hen linellau y disgwyliai efe y fendith fwyaf i orphwys arno. A cholled fawr a gafwyd am ei bwyll, a'i arafwch, a'i ddoethineb wrth lyw y cyfundeb mewn adeg ag yr oedd yr hen arweinwyr braidd oll wedi eu symmud ymaith.

Am y rhan a gymmerodd yn arweiniad crefyddol ei gyfundeb a'i genedl mewn ystyr uwch, nid ydym yn teimlo y gallwn ysgrifenu ond ychydig. Gwêl y neb a fyno edrych ar ei ysgrifeniadau mai ei amcan mawr ynddynt oll oedd gwreiddio a seilio ei genhedlaeth yn athrawiaethau mawr Cristionogaeth. Tra yn ofalus am ddefnyddio pob goleuni newydd, glynai yn lew wrth yr hen athrawiaethau. Ac am nifer mawr o'r rhai hyn, ni fynai mewn un modd eu hystyried yn agored i ail ystyriaeth. Cofiwn am dano unwaith yn dyweyd fod mewn crefydd ryw wirioneddau nas gellid cydsynio i'w trin fel cwestiynau agored. 'Chwi a sylwasoch,' meddai, 'yn ddiweddar fod rhyw wleidyddwyr yn cwestiyno rhai o egwyddorion sylfaenol Masnach Rydd. Ond chwi a sylwasoch, hefyd, y modd yr ymddygai Mr. John Bright tuag atynt. Ystyriai ef fod y cwestiynau hyny wedi eu penderfynu am byth; ac nis gallai oddef i

ddadl gyda golwg arnynt gael ei chyfodi gan neb. Felly, hefyd, y mae yn perthyn i'n crefydd ryw gwestiynau sydd i'w hystyried yn gwestiynau wedi eu penderfynu am byth; ac nid oes ddadl mwyach i fod yn eu cylch.'

Ond fel y crybwyllwyd o'r blaen, yr oedd efe yn fyw i symmudiadau meddyliol ei oes; ac nid esgeulusai un amser osod y gwirionedd yn y ffurf fwyaf cyfaddas er ei gymmeradwyo i'r meddyliau diwylliedig. Nid ymollyngai i wawdio damcaniaeth ymddadblygiad, fel y gwna rhai tra difeddwl; ond ymofynai gyda meddwl agored am y gwirionedd a gynnwysa y ddamcaniaeth, gan edrych pa ddylanwad sydd i'r gwirionedd hwnw ar ein golygiadau am athrawiaethau mawrion a sylfaenol ein crefydd. Bwriadai dreulio gauaf 1893—4, pe cawsai fyw, i astudio yr *Uwch-feirniadaeth.* Teimlai fod y gangen hono o ymchwiliad wedi cyrhaedd safle oedd yn ei osod dan angenrhaid i ymgydnabyddu â'i hegwyddorion a'i chasgliadau; a da i Gymru yn y cyfwng presennol fuasai cael ffrwyth ei farn addfed ar ganlyniad ymchwiliadau diweddar i gyfansoddiad llyfrau yr Hen Destament. Ni raid petruso dyweyd i Dr. Hughes ddefnyddio yn gydwybodol ei alluoedd cryfion i gadarnhau ffydd cenedl y Cymry yn ngwirioneddau sylfaenol crefydd Crist, ac i'w harwain i'r tawelwch a gyfyd o argyhoeddiad nad oes gan y gwirioneddau hyn ddim i'w ofni oddi wrth ymchwiliadau athronyddol, gwyddonol, na beirniadol. Ei grêd ddiysgog ef ydoedd, na wna pob goleuni pellach, o ba gyfeiriad bynag y daw, ddim ond dangos mwy-fwy o'u cadernid a'u gogoniant.

Goddefer i ni chwanegu mai arweinydd crefyddol yn unig ydoedd. Ni sychedodd erioed am fod yn arweinydd mewn unrhyw gylch arall. Yr oedd yn Rhyddfrydwr cryf, a chwbl egwyddorol; ac am amryw flynyddoedd, ar ol ei chychwyniad, byddai, fel un o'i golygwyr, yn ysgrifenu rhai o'i phrif erthyglau i FANER AC AMSERAU CYMRU; ac yn achlysurol hefyd hyd ddiwedd ei oes. Ond anhawdd ar unrhyw adeg fyddai ei gael i ymddangos ar y llwyfan wleidyddol; ac fel yr heneiddiai, yr oedd yn myned yn fwy-fwy annhueddol i ymyryd â helyntion gwleidyddol mewn unrhyw gyssylltiad. Nid oedd yn elyn i'r eisteddfod. Beirniadodd hi 'yn lled lym. Ei ddarnodiad o honi oedd, 'Cyfuniad y *minimum* o lenyddiaeth â'r *maximum* o ddigrifwch.' Ond er ei beirniadu, rhoddodd ei ddylanwad o'i phlaid ar rai adegau, ond ni ddaeth byth i fod yn un o'i harweinwyr. Ni bu erioed, ac ni cheisiodd fod, yn arweinydd mewn unrhyw gylch, ond yn unig yn y cylch crefyddol. Cyn terfynu, ni a daflwn gipdrem frysiog ar

*Ei lafur llenyddol.*—Yr oedd Dr. Hughes yn un o ysgrifenwyr mwyaf cynnyrchiol ei oes. Wrth edrych arno, gallesid tybio ei fod yn rhy swrth a di-yni i fyned trwy lawer o waith; ond y gwirionedd ydyw, ei fod yn ddyn hollol ddiddiogi. Efrydydd caled ydoedd. Ni bu yn gysgwr da ar hyd ei oes. Deffröai yn foreu; a darllenai yn galed oriau meithion bob dydd. Ac yr oedd mor hoff o ddarllen fel mai syndod ydyw iddo fedru rhoddi ei lyfrau o'r neilldu i ysgrifenu cymmaint. Dywedodd Dr. Edwards mai y rheswm pa ham na buasai ef wedi ysgrifenu chwaneg oedd, ei fod yn 'rhy hoff o ddarllen.' A hoff iawn o ddarllen oedd Dr. Hughes; ond nid oedd un amser yn ammharod i gymmeryd i fyny ei ysgrifell, ac ysgrifenu erthygl i gylchgrawn neu newyddiadur. Ysgrifenodd lawer o erthyglau galluog hefyd i'r GWYDDONIADUR. Nid ydym yn sicr y gallwn roddi rhestr gyflawn o'i erthyglau i'r cylchgronau: ond dengys y rhestr ganlynol fod ei gynnyrchion yn dra lliosog ac amrywiol:—

*Y Traethodydd:*—1852, Y Pethau Daearol, a'r Pethau Nefol. 1853, William Charles. 1854, Awduriaeth yr Epistol at yr Hebreaid; Y Gweithredoedd er Seiliad y Byd; Yr Epistol at Diognetus. 1855, Eadie ar yr Ephesiaid. 1856, Bengel: ei Fywyd a'i Ysgrifeniadau. 1857, Cymmhwysder yr Ysgrythyrau i gyflawni eu hamcan fel Datguddiad Dwyfol. 1858, Llythyrau Greyson. 1859, Nodweddau y Pedwar Efengylwr. 1860, Y 'Doniau'—Gwyrthiol ac Ysbrydol. 1862, Duw a Natur. 1863, Gwyrthiau Iesu Grist. 1864, Joubert; Llyfrau Moses, a'r gwahanol ymosodiadau arnynt; Llyfr Genesis—ei Werth a'i Bwysigrwydd. 1865, Poland; Ysbrydoliaeth—Pwysigrwydd yr Athrawiaeth; Nodiadau Llenyddol. 1867, Y Cnawdoliad a'r Cwymp. 1868, Etto (ail erthygl). 1872, St. Bernard—ei Lafur a'i Ysgrifeniadau; Bernard ac Abelard. 1875, Pregethau y diweddar Barchedig Edward Morgan. 1877, Rheol Ffydd, a Chynnydd yr Athrawiaeth (dwy erthygl). 1881, Y Ddirnadaeth am Dduw (dwy erthygl). 1886, Yr Un a'r Lliaws. 1888, Y Ddadl ar Darddiad yr Enaid. 1890, Rhai Sylwadau ar Ysbrydoliaeth. 1892, Yr Apostol Paul—ei Brofiad a'i Athrawiaeth.

Gwna yr erthyglau uchod 412 o dudalenau o'r *Traethodydd.*

*Y Drysorfa:*—1857, Yr Eglwys yn Gorph Crist (araeth ar Natur Eglwys yn Nghymdeithasfa Dolgellau, Ebrill, 1857); Amcan Bywyd mewn Golwg (dyfyniad byr). 1860, Elfenau Crefydd dufewnol. 1861, Sylwadau ar Bregethwyr a Phregethau yr oesoedd boreuaf. 1866, Golygiadau Cyfeiliornus ar Lywodraeth Duw yn cael eu cywiro yn y Beibl (dwy erthygl). 1869, Dirgelwch Duwioldeb (dwy erthygl). 1871, Gweinidogaeth Effeithiol (Anerchiad i efrydwyr y Bala). 1875, Nerth y Weinidogaeth (Cynghor ar Ordeiniad—dwy ran). 1877, Swyddogaeth Eglwysig, yn seiliedig ar Naturiaeth. 1880, Luther yn mysg ei Gyfeillion (dwy erthygl). 1882, Y Newydd a'r Hen (Anerchiad wrth roddi i fyny Gadair y Gymmanfa Gyffredinol, yn Liverpool, 1881). 1884, Yr Eneiniad. 1887, Ymgyssegriad i waith y Weinidogaeth (Cynghor ar Ordeiniad yn Aberystwyth); Sylwadau ar Efrydiaeth o Dduwinyddiaeth (dwy erthygl). 1888, Cynghor i Flaenoriaid. 1889, Y Duwiol yn ei Gymmeriad, ac yn ei Ddiwedd (Pregeth Angladdol).

Lleinw yr ysgrifau uchod o ddeutu 108 o dudalenau o'r *Drysorfa.*

*Y Geninen:*—1884, Anselm a Gannilon—Rheswm a Rhesymeg. 1886, Dadblygiad, a'r Ddadl oddi wrth Fwriad. 1888, Y diweddar Barchedig Lewis Edwards, D.D. 1893, Calvin fel Esboniwr.

Ymddengys y bwriadai ysgrifenu ail erthygl ar y testyn olaf. Lleinw yr erthyglau uchod fwy na 18 tudalen o'r *Geninen.*

*Y Lladmerydd:*—1885, Bedyddio dros y Meirw. 1889, Nodweddion yr Hen Fethodistiaid. 1891, Yr Apostolion yn cael eu tywys i'r Gwirionedd.

*Yr Ysgol:*—1881, Anhawsderau Llyfr Job.

*Newyddion Da:*—1885, Natur Llafur Cenhadol.

Oddi wrth y rhestr uchod, gwelir ei fod yn un o'r ysgrifenwyr mwyaf cyfoethog yn Nghymru yn ei oes. Yn wir, y mae yn ammheus genym a ellid enwi yn mysg ei gydoeswyr gymmaint ag un awdwr a ragorai arno mewn ffrwythlonedd. Credwn mai Dr. John Thomas ydoedd y Cymro a ysgrifenodd fwyaf yn ei oes; ond hanesyddol ydoedd ei gynnyrchion ef, gan mwyaf. A saif Dr. Owen Thomas yn uchel yn rhestr awdwyr Cymreig o ran helaethrwydd ei

Digitized by Google

gynnyrchion; a'r un modd Dr. Edwards. Ond pe y cesglid ynghyd ysgrifeniadau Dr. Hughes, gwelid ei fod yn un o'r ysgrifenwyr mwyaf diwyd a diflino a roddwyd erioed i'n cenedl.

Nid ydym, hyd yma, wedi crybwyll ond ei erthyglau yn unig. Cyfieithodd, ar gais Mr. Gee, *Gyfattebiaeth Butler* i'r Gymraeg, gyda Nodiadau; a dygodd allan y llyfrau canlynol:—

1861. *Duwioldeb Boreuol. Cofiant Miss Mary Anne Elias, Tre'r gôf, Cemmaes, Môn.*

1866. *Unoliaeth y Beibl, fel Prawf o'i Darddiad Dwyfol.*

1879. *Y Weinidogaeth.*

1883. *Hanes yr Athrawiaeth Gristionogol.*

Ysgrifenodd ar amryw lyfrau yn *Nhestament yr Ysgol Sabbothol.*

Bwriadai ddwyn allan ddwy neu dair o gyfrolau eraill ar *Hanes yr Athrawiaeth;* ond disgynodd i'w fedd cyn dwyn i ben yr amcan hwnw, yn gystal a rhai amcanion eraill y gosodasai ei fryd arnynt. Ysgrifenodd Ragdraeth ar 'Ddiarhebion amryw Genhedloedd' i lyfr y Parch. T. O. Jones (*Tryfan*), ar *Ddiarhebion y Cymry.* Ac yr oedd ar adeg ei farwolaeth yn olygydd ar argraphiad newydd o *Destament yr Ysgol Sabbothol.* Yr oedd efe wedi gorphen 'Esboniadau ar yr Epistol at y Galatiaid,' ac 'Actau yr Apostolion.' Gorphenir y gyfrol yn awr gan y Parch. Griffith Parry, D.D. Y mae hon i ffurfio y drydedd gyfrol o *Feibl y Teulu.* Perchenogion *Testament yr Ysgol Sabbothol* yn unig a wyddant i sicrwydd pa mor fawr oedd y rhan a berthynai iddo yn yr argraphiad cyntaf o'r gwaith rhagorol hwnw.

Ond wedi diwrnod caled o waith, daeth yr adeg i'r 'gwas da' hwn orphwys oddi wrth ei lafur. A daeth yr adeg'yn gynt o lawer nag y disgwylid. Rhaid i ni yn awr ddwyn ein sylwadau arno i derfyniad. Er i'n herthygl redeg yn faith—yn feithach o lawer nag y bwriadem ar y dechreu—teimlwn ei bod, yn y diwedd, yn dra diffygiol er rhoddi syniad cywir am y safle uchel a lanwyd, a'r gwaith mawr a gyflawnwyd ganddo. Ni a obeithiwn y ceir cofiant teilwng iddo cyn y bydd oes arall o wrandawyr wedi cyfodi yn Nghymru.

Gweddus ydyw i ni gydnabod ein dyled am lawer o ddefnyddiau yr erthygl hon i ysgrifau a ymddangosasant yn y *Faner*, y *Geninen*, a'r *Goleuad*, yn gystal ag i amryw o hen gyfeillion Dr. Hughes a fuont mor garedig ag ysgrifenu neu adrodd i ni eu hadgofion am dano. Yn mysg y rhai hyn yr ydym mewn modd neillduol yn rhwymedig i'r Parchn. Hugh Jones, D.D., Liverpool; Jas. Donne, Llangefni; J. Roberts, Tai hen; a Daniel Rowlands, Bangor; ynghyd â Mr. John Matthews, Amlwch; a Mr. M. J. Parry, Seaforth.

HUGHES, Y PARCH. HUGH, Abergele. Pregethwr parchus iawn gyda'r Methodistiaid Calvinaidd ydoedd efe; ac un a fu yn pregethu yr efengyl am dros hanner can mlynedd. Ganwyd ef yn Llanrwst, o gylch y fl. 1795; ac yn y dref hono y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Mab oedd efe i'r Parch. David Hughes, o Lanrwst. Cafodd addysg elfenol dda; a bu am dymmor yn ysgol ragorol y Parch. Thos. Lloyd, Abergele. Ei fwriad oedd myned oddi yno i un o'r colegau i dderbyn y manteision oedd i'w disgwyl ynddynt; ond o herwydd marwolaeth annisgwyliadwy a disyfyd ei dad, pan nad oedd ond 42ain oed; a chan mai efe oedd yr hynaf o'r plant, a'r unig fab, ymgymmerodd â gofal y fasnach; yr hyn, fel y gallesid disgwyl, oedd yn hynod dderbyniol gan ei fam weddw, ac yn gysur mawr i'w bum chwaer. Dyrysodd hyn ei gynlluniau i raddau pell; ond trwy ymroddiad a llafur caled, cafodd ei gymmhwyso yn fawr ar gyfer y cylch mawr o ddefnyddioldeb oedd yn ei aros yn ei dref enedigol a'r cymmydogaethau, yn nghyfarfod misol y sir y perthynai iddo, ac yn nghylchoedd ëangach y cyfundeb. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig pan yn ieuangc; dewiswyd ef yn flaenor pan nad oedd ond deunaw oed; a dechreuodd bregethu pan tuag ugain oed—yr hyn sydd yn ddangosiad amlwg o'r lle uchel yr oedd efe yn ei feddu yn marn y frawdoliaeth ar adeg mor foreu yn ei oes. Priododd ddwy waith:—y tro cyntaf gyda Miss Gainor Griffiths, merch Mr. Evan Griffiths, o'r Glasfryn, ger Dolgellau. Byddai hi a'i hunig chwaer yn arfer myned i gapel y Methodistiaid yn Llanfachreth. Yr oedd y Glasfryn yn rhan o etifeddiaeth Syr Robert Vaughan o Nanney. Ar ol marwolaeth Mr. Evan Griffiths, anfonodd Syr Robert orchymyn i'w holl denantiaid nad oedd neb o honynt i fyned i'r capel. Gellir casglu oddi wrth hyn fod rhyw ystyriaethau yn ei attal i anfon y fath orchymyn atynt tra y bu Mr. Griffiths fyw—yn cael eu hachosi, mae'n debyg, oddi ar y parch a deimlai tuag ato fel dyn a Christion. Fodd bynag, felly y bu; ond yn hytrach nag ufuddhau i gais mor afresymol ac arglwyddaidd, penderfynodd Mrs. Griffiths, gyda'i dwy ferch, symmud i'w hardal enedigol yn Llanrwst. Yr oeddynt yn byw y pryd hyny yn y Ffynnon newydd.

Tra yn cartrefu yno, yn y flwyddyn 1823, priododd Mr. Hugh Hughes â Miss Griffiths; ac o'r briodas hon y ganwyd Miss Hughes—Mrs. Roberts yn awr, gweddw y diweddar Barch. Robert Roberts, o Ddolgellau. Addawodd y briodas hon fod yn un hynod o ddedwydd; ac yr oedd hi felly tra y parhaodd. Ond daeth angeu heibio yn y flwyddyn 1825, a thorodd y cyssylltiad tua diwedd yr eilfed flwyddyn o'u perthynas â'u gilydd, er galar dirfawr iddo ef, a lluoedd o gyfeillion. Parhaodd Mr. Hughes yn weddw am o ddeutu pum mlynedd; ac yna, ymbriododd eilwaith â Mrs. Gwen Richards, merch Mr. William Davies, o Dan y pendist, Llanrwst, a gweddw Mr. John Richards, cyfreithiwr, yr hwn a fu farw ac a gladdwyd yn y Wyddgrug. Yr oedd efe yn gefnder i'r diweddar Barch. Richard Humphreys, o'r Dyffryn.

Daeth Mr. Hughes yn fuan iawn i boblogrwydd a chymmeradwyaeth. Ac yn raddol, daeth ei enw yn adnabyddus fel pregethwr efengylaidd a nerthol; ac ennillodd safle anrhydeddus yn y cyfundeb. Ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn y fl. 1828. Yr oedd cyfansoddiad ei bregethau yn gwisgo delw yr hen dduwinyddion Puritanaidd; ac anaml, meddir, y clywid neb o'i gyd-weinidogion yn trafod cysgodau a chyffelybiaethau y Beibl yn fwy galluog a dylanwadol nag efe. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llanrwst, lle yr oedd yn barchus iawn gan bawb—gwreng a boneddig; ac wrth yr enw 'Mr. Hugh Hughes, Llanrwst,' yr adnabyddid ef oreu, hyd yn oed am dymmor wedi iddo adael y dref hono. Ychydig a deithiodd, ac anhawdd oedd ei godi oddi cartref; a'r rhai a wyddent fwyaf am dano oedd barotaf i gydymdeimlo âg ef yn hyny. Wedi rhoi i fyny ei fasnach, symmudodd o Lanrwst i Gefn Meiriadog, ger Llanelwy, lle y bu efe yn preswylio am amryw flynyddoedd. Tra yn byw yno, bu farw Mrs. Hughes; yr hon a fu yn

ymgeledd gymmhwys iddo am lawer o flynyddoedd; ac, fel ei wraig gyntaf, yn gymmhorth mawr iddo, i gyflawni ei ddyledswyddau. Yn yn ei gartref newydd, ymroddodd yn gyfangwbl i weinidogaeth yr efengyl. Yn mhen rhai blynyddoedd, symmudodd drachefn i Abergele.

Yr oedd Mr. Hughes yn meddu lle uchel yn marn ei frodyr; yr hyn a brofir gan y ffaith iddo gael ei ddewis yn Llywydd y Gymdeithasfa:—swydd a ddaliodd ac a lanwodd yn anrhydeddus am ddwy flynedd. Yr oedd natur a gras megys wedi cyttuno i addurno Mr. Hughes â chymmhwysderau at waith y weinidogaeth. Meddai ar ddullwedd boneddigaidd, iaith goeth, llais cryf, etto soniarus; a byddai ei bregethau yn fynych dan eneiniad grymus. Bu yn ffyddlawn iawn gyda'r achos yn sir Ddinbych yn ei holl ganghenau; a theimlai ei frodyr bob ymddiried yn ei farn ar gwestiynau dyrus, fel y dywedodd y diweddar Barch. John Foulkes am dano:—'Ar ol colli brodyr da, ffyddlawn, a medrus, yr oedd efe genym ar eu hôl; ac edrychem i fyny ato gyda pharch mawr. Os byddai efe yn y cyfarfodydd misol, teimlem yn debyg i blant yn teimlo fod eu tad yn eu mysg.'

Bu farw yn ei dŷ ei hun, Brynhyfryd, Abergele, Chwefror 1af, 1869, yn 74ain ml. oed. Y cyfarfod misol diweddaf y bu ynddo oedd yn Roe wen, diwedd yr Hydref blaenorol; a phregethodd yn rymus yno y noson olaf. Dydd Gwener, y 5ed o Chwefror, dodwyd ei weddillion yn meddrod y teulu yn nghladdfa Capel Seion, Llanrwst—lle hefyd y claddwyd ei dad. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchn. William Morris, Rhuddlan; Griffith Parry; J. Wynne; J. Foulkes, Rhuthyn; J. Williams, Rhyl; William Roberts, Abergele; a Henry Rees, Liverpool. Yn ei farwolaeth collwyd, yn ddïau, un o enwogion penaf y cyfundeb fu yn llafurio yn sir Ddinbych o fewn y ganrif hon; a mawr fu y galar ar ei ol.

HUGHES, Y Parch. ROBERT, Gaerwen. Dylid gosod y gŵr da hwn yn rhestr flaenaf gweinidogion y Methodistiaid Calvinaidd yn Môn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pan gofier yr enwau sydd ar y rhestr hon—ni raid ond nodi dau, John Elias a William Roberts—hawdd fydd gweled ei safle ef. Yr oedd gormod o aunhebygolrwydd ynddo o ran ei ddull a'i ddawn i'w gyffelybu mewn llawer o bethau i'r gwŷr enwog a nodwyd; ar yr un pryd, yr oedd gormod o debygolrwydd i'w osod ef mewn dosbarth gwahanol. Ganwyd ef yn mlynyddoedd cyntaf y ganrif, a bu fyw hyd fin y chweched flwyddyn i'w diwedd.

Yn Amlwch y ganwyd ef, Hydref y 3ydd, 1804. Enwau ei rïeni oedd Hugh ac Ann Pritchard. Gan ei bod yn arfer gwlad ar y pryd i gadw y cyfenw morwynol ar ol priodi, parhëid i alw ei fam yn Ann Roberts; ac wrth yr enw hwn yr adnabyddid hi hyd ei marwolaeth; yr hyn a gymmerodd le yn y Gaerwen, yn 1859. Yr oedd hi yn chwaer i'r Parch. William Roberts, ac yn meddu llawer o ragoriaethau cymmeriad y gŵr da hwnw. Gan fod Mr. Hughes ei hun, ar gais golygydd un o gylchgronau Cymru, wedi ysgrifenu ychydig o'i hanes boreuol, ni a gymmerwn ein rhyddid i ddyfynu yr hyn a ganlyn o'r ysgrif hono:—

'Bu i'm rhïeni (meddai), naw o blant; ond bu feirw pedwar o honynt yn ieuaingc—bron yn fabanod. Felly, nid oedd ond pump o honom yn aros, a'r rhai hyny yn fechgyn, a minnau yn hynaf o honynt. Cawsom gymmaint o fanteision addysg ag a allasai ein rhïeni ganiatau i ni. Yr oedd hen wraig barchus—Wesleyad o ran ei chrefydd—yn cadw ysgol ddyddiol yn y gymmydogaeth; yr hon a fu o ddirfawr wasanaeth i blant y gymmydogaeth. Cawsom ninnau ganiatâd i fyned i'r ysgol hono am o ddwy i dair blynedd. Ac felly, dysgasom ddarllen Cymraeg a Saesneg yn lled rwydd, cyn bod yn llawn pum mlwydd oed. Yr oedd ein tad a'n mam yn Fethodistiaid Calvinaidd cydwybodol. A gwnaethant eu goreu i sicrhau eu plant yr un modd felly. A dïau na bu eu llafur hwynt yn ofer. Mor ebrwydd ag y daethom i allu cerdded, dygent ni gyda hwynt i bob moddion crefyddol—yn enwedig i'r Ysgol Sabbothol ac i'r cyfarfod eglwysig. Yr wyf yn cofio yn dda i mi gael un rhagorfraint neillduol drwy hyny, pan nad oeddwn ond tair blwydd oed. Un nos Sabbath yr oedd Charles o'r Bala yn pregethu yn nghapel Amlwch. Ac wedi myned o hono i dŷ y capel, fe'm cododdar ei lin, i adrodd y Salm gyntaf iddo. Yr oeddwn, ac yr wyf etto, yn cyfrif hyny i mi yn anrhydedd mawr. Yr oedd y cyfarfodydd eglwysig, y pryd hyny yn Amlwch, yn boblogaidd; canys yr oedd y Parch. William Roberts yn ŵr ieuangc nerthol. Ac wedi dechreu y cyfarfod trwy ddarllen, canu mawl, a gweddïo, byddai yntau yn fynych yn traddodi anerchiad grymus am ddeng munyd ar bwngc o athrawiaeth neu ddysgyblaeth, nes gwefreiddio yr holl gynnulleidfa. Nid oedd berygl yr adeg hono, yn nghapel Amlwch, i neb esgeuluso eu cydgynnulliad eu hunaln. Byddwn i, pan yn dra ieuangc, yn teimlo yn ddwys oddi wrth yr ymddiddan yn y cyfarfod eglwysig. Gallaf nodi un enghraifft neillduol o hyny. Byddai y diweddar Barch. J. Elias yn pregethu yn aml ar y Sabbothau yn Amlwch, ac weithiau yn trefnu i fod yno nos Sadwrn yn cadw cyfarfod eglwysig. Un tro, yn arbenig, yr oedd yn traethu ar y pechod o ragrith gyda chrefydd, ac ar y perygl i broffeswyr crefydd foddloni arno yn lle y gwirionedd. Yr oedd y cyfarfod hwnw yn arswydol i fod ynddo. Yr oedd iasau o ddychryn a braw yn rhedeg trwy fy nghyfansoddiad ar y pryd, er nad oeddwn ond pump neu chwech oed. Pan yn dychwelyd o'r capel yn llaw fy nhad, yr oeddwn yn wylo yn chwerw, gan ofni mai gyda rhagrithwyr y byddai fy nghyfran innau. Gallasem ni ddyweyd, fy mrodyr a minnau, na bu ymdrechion ein rhïeni ar ein rhan yn ofer, er iddynt gyfranogi o un anfantais fawr; sef, colli ein tad pan nad oedd efe ond 38ain oed, a minnau, yr hynaf o honynt heb fod yn llawn naw mlwydd oed. Yr oedd y diweddar Mr. Elias yn pregethu yn angladd ein tad; ac yn y tŷ ar ol pregethu, yr ydym yn cofio yn dda, dywedai ein hanwyl fam dan wylo wrtho, 'O! Mr. Elias anwyl! yr wyf wedi cael colled fawr!' 'Na ddywedwch felly mwyach (meddai yntau): nid yw y Brenin Mawr yn gwneyd colled i neb.' Yr oedd yn lled anhawdd esbonio dywediad Mr. Elias ar y pryd; o blegid dïau i'n hanwyl fam golli un o'r dynion goreu fel gŵr, fel tad, ac fel dyn crefyddol. Ar yr un pryd, gallaf ddywedyd i'r Goruchaf fod yn llon'd ei enwau yn ei berthynas â ni fel teulu. Bu yn 'Dad i'r amddifaid, ac yn Farnwr i'r weddw,' ac ni adawodd fod arnynt eisieu dim daioni.'

Modd bynag, pan ar fin cyrhaedd oedran llangc, bu y gymdeithas yr oedd efe yn troi ynddi, a'r dylanwadau oedd yn dyfod i gyffyrddiad âg ef, yn ormod profedigaeth iddo i allu dal gyda chrefydd. Er na redodd i rysedd annuwioldeb ei gyfoedion, nac i gyflawni dim anghydweddol â buchedd dda, gwrthgiliodd—gan feddwl, y mae yn debyg, fel llawer yn yr oedran hwn, fod mwy o hyfrydwch bywyd i'w gael yn ffyrdd y byd nag yn ffyrdd duwioldeb. Ond, fel Saul o Tarsus o'i flaen, 'cafodd drugaredd;' ac fel hyn y bu:—Yr oedd cyhoeddiad

Digitized by Google

dau ŵr o Leyn trwy Fôn yn gynnar yn y flwyddyn 1822; sef, y Parchn. Michael Roberts, Pwllheli, a Moses Jones, o Ben-cae-newydd. Yr oedd y cyntaf yn bregethwr grymus, yn meddu ar ddoniau poblogaidd iawn, a'i glod trwy yr holl eglwysi; ond nid oedd y llall ond gŵr ieuangc ar y pryd, a chymmharol anadnabyddus. Lluddiwyd Michael Roberts gan afiechyd i fyned trwy un ran o'r daith, os nad yn wir yr oll o honi; a gadawyd y pregethwr ieuangc i fyned ei hunan. Ond ymwelodd Duw â'i bobl trwyddo. Yr oedd 'nerthoedd y byd a ddaw' yn cydweithio â'i weinidogaeth trwy yr holl daith; a chafwyd un o'r diwygiadau mwyaf nerthol a chyffredinol a welwyd erioed yn Môn yn y canlyniad. Mawr fu y sôn am 'ddiwygiad Moses Jones' gan bawb oedd yn ei gofio. Cynnhyrfwyd yr holl wlad; ac nid yn unig llenwid y capelau, i gynnal cyfarfodydd gweddi, a bod 'sain cân a moliant' yn fwy amlwg na dim arall yn mhob cymmydogaeth; ond hefyd, cynnelid cyfarfodydd gweddi yn y meusydd, ac ar hyd ochrau y ffyrdd. Gwyddom am un nodedig iawn a gynnaliwyd yn Lôn y dyffryn, ger llaw y Dyffryn gwyn, lle y trigai y Parch. John Prytherch; ac am un arall a gynnaliwyd yn nyfnder y nos ar Groeslôn y Finger, ger Pen-ucheldref. Ceisia rhai fychanu cyffröadau o'r fath trwy ddyweyd eu bod o fyr barhâd, a bod eu heffeithiau yn cilio yn fuan. Ond ni ellir gwadu, na lleihau pwysigrwydd un peth mewn perthynas iddynt; sef, eu bod yn ddi-eithriad yn dwyn dynion o ddefnyddioldeb diammheuol i wasanaeth crefydd, a thrwy hyny fod eu heffeithiau yn barhaol. Gwyddom am ddau ŵr o dalent amlwg a gafwyd i wasanaeth crefydd trwy 'ddiwygiad Moses Jones.' Un ydoedd y diweddar Barch. Owen Jones, o Landudno. Clywsom ef ei hun yn dyweyd i ysbryd newydd gael ei roddi ynddo trwy y diwygiad hwn. Y llall ydyw y Parch. Robert Hughes, Gaerwen. Dyma'r pryd y dychwelwyd ef o dir y gwrthgiliad, ac y profodd gyfnewidiad mor drwyadl yn ei ysbryd a'i gymmeriad, ag a'i gwnaeth yr hyn oedd hyd ddiwedd ei oes. 'Yn ngwres y diwygiad hwn,' medd y Parch. John Pritchard yn *Methodistiaeth Môn*, 'y daeth ein hanwyl frawd, y Parch. Robert Hughes, Gaerwen, at grefydd. Ac os gwir a glywsom, ar ben Mynydd Parys, wrth ddychwelyd o Lanerchymedd, ar ol bod yn gwrandaw ar Moses Jones, y torodd y wawr arno, ac y torodd yntau allan mewn mawl a diolch.'

Yr oedd y ffordd i'r pulpud yr adeg yr oedd efe yn dechreu pregethu ar hyd llinellau amlwg yr Ysgrythyr:—'Canys y rhai a wasanaethant swydd diaconiaid yn dda, ydynt yn ennill iddynt eu hunain radd dda, a hyfder mawr yn y ffydd sydd yn Nghrist Iesu.' 'Gwasanaethu swydd diacon' oedd y prawf y gosodwyd yntau dano, er rhoddi boddlonrwydd i'r frawdoliaeth yn Amlwch fod ganddo gymmhwysderau i wasanaethu swydd gweinidog. Y mae yn ddiammheu fod rhyw beth yn yr amgylchiadau, ac yn y gymdeithas, yn yr adeg hono yn ffafriol i ddadblygu cymmeriadau cryfion a thalentau disglaer. Wrth i ni geisio rhoddi cyfrif am hyn, arweinir ni yma at gydgyfarfyddiad o wahanol achosion. Yn un peth, yr oeddynt hwy yn nes i oes y cewri na ni; ac felly mewn mwy o fantais i feddu *idea* uwch mewn talent a defnyddioldeb. Yr oedd côf byw gan liaws o'r saint ar y pryd am Harris, Rowlands, Williams, a'u cyffelyb—eu talentau, eu hymroddiad, eu teithiau, a'u gwroldeb dihafal; ac nis gallasai adgofion a draethid, yn ddiammheu gyda sêl ac edmygedd, lai na deffro unrhyw ŵr ieuangc oedd â'i fryd ar y weinidogaeth i'r uchelgais anrhydeddus o ymdebygoli iddynt mewn ymroddiad a llwyddiant. Heb law hyny, yr oedd y saint, y pryd hwnw, yn rhoddi y pwys mwyaf ar fod y sawl fyddent yn llygadu ar y pulpud yn meddu mwy o ddyfnder a phrofiad mewn crefydd bersonol na'r cyffredin o grefyddwyr. Yr oedd yr elfen Buritanaidd mor gref yn yr eglwysi fel nad oedd gobaith i neb, pwy bynag, am gefnogaeth i fyned i'r weinidogaeth, nid yn unig os na byddent 'yn dda eu gair,' ond hefyd eu bod yn 'llawn o'r Ysbryd Glân.' Mae'n amlwg hefyd fod y tadau yn gallu rhoddi cyfeiriad arbenig i dalentau yr eglwysi at waith—gwaith uchaf crefydd—ac nid at ymgystadlu. Nid yn ystafell yr arholiad yr oedd eu prawf hwy; ond yn y cyfarfod gweddi, y cyfarfod eglwysig, a'r Ysgol Sabbothol. Ymddengys i'r gŵr ieuangc, Robert Hughes, oedd newydd ei ddewis yn flaenor yn eglwys Amlwch, fel y cam nesaf i'r pulpud, fyned trwy y prawf llym hwn gyda chymmeradwyaeth y saint; a phe buasai dosbarthiad yn cael ei wneyd ar y pryd, fel y gwneir gan wŷr yr arholiadau, y buasai yn sicr o gael ei osod yn y dosbarth cyntaf; o blegid cawn fod dynion o dduwioldeb diammheuol, a synwyr cryf, ac addfedrwydd barn, yn barod i fod yn bob cefnogaeth i'w ymgeisiaeth.

Ond er pob peth, yr oedd efe yn gorfod teimlo ei hun fod ynddo un diffyg mawr; ac y mae llawer un o'i flaen ac ar ei ol wedi gorfod teimlo yn gyffelyb; sef, nad oedd wedi cael manteision addysg digonol. Yr oedd ei awydd mor gryf i wneyd y diffyg hwn i fyny, fel yr aeth dan addysg y Parch. John Hughes, awdwr *Methodistiaeth Cymru*, yr hwn ar y pryd oedd yn cadw ysgol yn Ngwrecsam. Nid hir y bu efe yn yr ysgol hon cyn i'w athraw ganfod rhagoriaethau ei gymmeriad, a chafodd ganiatâd Cyfarfod Misol Môn i ddechreu pregethu tra yn yr ysgol.

'Yn mhen blynyddoedd wedi hyn (meddai Mr. Hughes, yn yr ysgrif a ddyfynwyd yn barod), daeth cenadwri o ryw le i Gymdeithasfa Llangefni. Cynnwys y genadwri ydoedd, nad oedd o un dyben i ni fel cyfundeb agor lleoedd i bregethu Saesneg: a hyny am nad oedd genym bregethwyr digon galluog i lefaru yn yr iaith hono. Codais innau i fyny, dipyn yn ymffrostgar, mae'n debyg, a dywedais fy mod yn synu at hyny, wedi i wŷr ieuaingc gael ysgolion yn flaenorol, a myned o honynt drachefn i Athrofa y Bala am dair a phedair blynedd, ac er hyny yn analluog i gynghori ychydig ar eu cydbechaduriaid yn yr iaith Saesneg. Yna cododd y Parch. Henry Rees i fyny yn lled chwareus, a gofynodd i mi, 'A fuoch chwi yn pregethu Saesneg?' 'Do (meddwn innau), yn Ngoror Clawdd Offa.' Meddai yntau drachefn, 'Darfu i chwi ddyfetha Saesneg yr anghyffredin.' 'Na—na—naddo (ebe y diweddar Barch. Roger Edwards), yr oedd efe yn gallu siarad yn llawer gwell na'r cynnulleidfaoedd yn y Goror.' 'Da iawn, os felly,' ebe Mr. Rees.

Er na bu efe yn yr ysgol yn Ngwrecsam ond dwy flynedd o gwbl, yr oedd bob Sabbath er's amser yn cyhoeddi efengyl y tangnefedd mewn iaith oedd yn gymmharol ddyeithr iddo cyn cychwyn oddi cartref. Dengys hyn nad dyn cyffredin oedd efe mewn ymroddiad, na gallu; ac y buasai yn rhagori fel dyn dysgedig pe buasai yr amgylchiadau wedi caniatau y manteision iddo. Pan ar ei daith adref o Wrecsam, aeth i lawr oddi ar y cerbyd cyhoeddus yn Mangor,

Digitized by Google

gan benderfynu cerdded oddi yno i Amlwch—pellder o ddeunaw milldir. Ond wedi cerdded rhai milldiroedd, troes i orphwys am ennyd i le cyfagos i Ben-y-garnedd, o'r enw Rhos Owen. Yma yr oedd gŵr hynod, o'r enw Richard Jones, yn preswylio—un o gewri diaconiaeth yr oes hono. Mynai y gŵr hwn iddo aros gydag ef, a phregethu yn Mhen-y-garnedd nos Sabbath. Nid llawer iawn o waith perswadio fu arno yn ddiammheu. Yr oedd pregethu yn mêr ei esgyrn, ac yr oedd cael cyfleusdra i bregethu yn Gymraeg yn ormod o demtasiwn iddo i beidio cydsynio. Ac yma yr arosodd; a phregethodd yn Mhen-y-garnedd y Sabbath hwnw gyda llawer mwy o rwyddineb a blâs nag y pregethai yn y Goror. Dyma ei bregeth gyntaf yn ei sir enedigol. Pregethai gyda nerth a gwres anghyffredin yr adeg hono. Cofféir am bregeth nodedig iawn a draddododd mewn ŵylnos yn nghymmydogaeth ei gartref ar y geiriau, 'Deuwch ataf fi, bawb ar y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch.' Safai ar ystôl dri-throed mewn annedd gyffredin, ac yn nghanol pobl syml; ond yr oedd y goleuni a'r nerth oedd yn cydfyned â'r weinidogaeth yn rhoddi rhyw weddusdra uwchraddol ac urddas dwyfol ar y cwbl.

Rhaid i ni gyfeirio at ddiffyg arall. Nid oedd amgylchiadau yr eglwysi, ac nid oedd y syniad cyhoeddus chwaith, yn gyfryw ag i alluogi neb wrth bregethu yr efengyl i fyw wrth yr efengyl. Yr oedd Mr. William Roberts, Amlwch, er ei athrylith gref, a'i ddrychfeddyliau rhyfedd, yn gorfod ymroddi i fasnach er cynnal ei hun a'i deulu. Ac yr oedd John Elias, yr adeg yr oedd efe yn ysgwyd cynnulleidfaoedd Cymru gyda'i sêl danllyd, a'i ddoniau areithyddol digyffelyb, yn cadw siop yn Llanfechell. Dïau na ddaeth i feddwl y pregethwr ieuangc, Robert Hughes, un syniad gwahanol. Gwelai fod yn rhaid iddo wrth foddion cynnaliaeth ar wahân i'r weinidogaeth; a chawn ef yn y canlyniad yn symmud i'r Gaerwen i gadw ysgol. Ar y cyntaf, llettyai yn Cefn du; ond mewn cyfnod dilynol, daeth ei fam ato, a chydag ef yr arhosodd hi hyd nes y bu hi farw. Nid ydyw yn ymddangos iddo fod yn hir iawn gyda'r gorchwyl o gadw ysgol. Mynegir ei fod yn ddysgyblwr manwl, ac na phetrusai roddi cerydd a chystwyaeth iachus i'r bechgyn direidus a syrthient dan ei ŵg trwy anweddusder ymddygiad, neu dori rheolau ei ysgol. Dyna yr adeg yr ymunodd mewn priodas gyda merch rinweddol a chrefyddol yn y gymmydogaeth, o'r enw Miss Williams, Gaerwen uchaf. Byr iawn fu eu bywyd priodasol. Daeth llaw oer angeu i ysgaru y ddeuddyn cyn iddynt gael amser i sylweddoli ond ychydig o'u gobeithion yn eu sefyllfa newydd. Treuliodd y gweddill o'i oes faith yn weddw. Wedi rhoddi yr ysgol i fyny, ymgymmerodd â masnach, yn benaf mewn ŷd, a daeth llwyddiant cyflym a rhyfeddol i'w ran; ac nid hir iawn wedi hyny y bu heb roddi gofalon masnach i fyny, ac ymgyssegru i wasanaeth crefydd.

Cafodd ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1843. Nid oedd ond dau o fewn holl gylch y Gymdeithasfa yn Ngogledd Cymru yn derbyn yr anrhydedd hwn y flwyddyn hono:—efe, a'r diweddar Barch. Robert Williams, Enlli. Cymmerwyd rhan yn y cyfarfod ordeinio, yr hwn a gynnaliwyd yn y Bala, gan y Parchn. John Evans, Bodedeyrn; Evan Harris, Henry Rees, Thomas Richards, o Abergwaen; John Hughes, Pontrobert; John Parry, Caer, a Daniel Jones, Llanllechid. Y Parch. Henry Rees oedd yn traethu ar 'Natur Eglwys,' a'r Parch. John Parry yn rhoddi y 'Cynghor.' Yr oedd ganddo gymmhwysderau arbenig i weinyddu yr ordinhadau gyda symledd ac urddas gweddus i'w hystyr a'u pwysigrwydd. Gwyddai eglwysi Môn yn dda y fath wres bywyd ysbrydol, a'r fath brydferthwch sancteiddrwydd fyddai yn aml ynglŷn â Swper yr Arglwydd pan y byddai efe yn gweinyddu; ac am hyny gelwid arno yn fynych iawn i gyflawni y gwasanaeth hwn. Yr un modd hefyd gyda bedydd. Wedi iddo, gan lesgedd henaint, roddi pregethu heibio, yr oedd yn fyw yn ei ysbryd i fedyddio yn ei eglwys gartref. Un nos Sabbath, yn 1893, dygwyd plentyn i eglwys Gaerwen i'w fedyddio. Gofynodd yntau i'r gweinidog oedd yno yn pregethu a fuasai efe yn gweinyddu yr ordinhâd o fedydd hefyd. Pwysai hwnw ar Mr. Hughes i wneyd. 'Wel (meddai efe), os gwnaf ran, mi wnaf y cwbl.' Ac felly hefyd y gwnaeth, mewn hamdden, a chyda nerth corph a meddwl cyffelyb i'w ddyddiau goreu. Yr oedd ysbryd yr ordinhâd fel yn ei ddyrchafu uwch law pwysau ei oedran mawr; yr hwn oedd ar y pryd yn naw a phedwar ugain mlwydd!

Fel pregethwr, yr oedd ganddo ddull priodol iddo ei hun. Yr oedd mor wahanol i'w ewythr enwog ag y gallasai neb fod. Yr oedd yn edmygydd mor fawr o hono fel ag i'w gymmeryd yn esampl i'w ddilyn mewn llawer o bethau; ond yr oedd dull y ddau o bregethu mor bell oddi wrth eu gilydd ag yw y dwyrain oddi wrth y gorllewin. Gellir cyffelybu dawn William Roberts i afon fawr, ddofn, dryloeyw, yn rhedeg weithiau trwy wlad gyfoethog, a llawn o bob prydferthion; a phryd arall yn ymdywallt yn rhaiadr ardderchog dros greigiau mawrion, nes

'Synu a phensyfrdanu dyn.'

Yr oedd dawn y nai o nodwedd wahanol. Ar y cyntaf, esboniai neu ymresymai yn dawel mewn iaith ddillyn ac ymadroddion detholedig, a hyny gydag arafwch a phwyll. Credwn nas gallai siarad yn gyflym pe ceisiai. Ond yr oedd ei arafwch yn gynnorthwyol iddo i roddi syniad clir i'w wrandawyr am ei fater. Yna, o bossibl na ddeuai adnod neu ddrychfeddwl i ymaflyd yn ei deimlad, fel ag i'w ddull newid i fath o dônyddiaeth hollol weddus a phrydferth. Nid dim gwneyd oedd y dônyddiaeth; ond natur yn cael ei chyffwrdd, a ffrwd o deimlad yn rhedeg o honi. Ond cyn y diwedd, deuai cyfnewidiad drachefn. Safai megys rhwng Duw a dynion i gynnyg cymmod, ac i rybuddio y rhai a wrthodent o berygl eu sefyllfa. Weithiau, byddai ei appeliadau yn y rhan olaf o'i bregeth yn dra chyffröus, a dyrchafai ei lais fel udgorn. Dyma oedd nodwedd gyffredin ei bregethau. Dïau na byddai yr un fath bob amser. Y mae amrywiaeth yn naturiol i berchen talent. Ond pa faint bynag o wahaniaeth rhwng ei bregethau ar wahanol adegau, ni byddai un bregeth yn amddifad o ddwysder a difrifoldeb. Yr oedd adsain yn ei ddull a'i deimlad o gyfarchiad Paul i Timotheus—'Tydi, gŵr Duw!' Nis gallai lai na bod yn ymwybodol ei fod wedi cael sêl galwad i fod yn was i Grist; ac yr oedd ganddo argyhoeddiad dwfn mai y cymmhwysder mawr i waith y weinidogaeth oedd graddau uchel o sancteiddrwydd a ffydd; a bod perthynas angenrheidiol rhwng crefyddolder ysbryd, a manylder mewn cyflawniad o ddyledswyddau personol

Digitized by Google

a theuluaidd crefydd, â llwyddiant mewn cylchoedd cyhoeddus. Cawn ei olygiadau ef ei hun ar y pwynt hwn mewn cynghor a draddodwyd ganddo ar ordeiniad nifer o weinidogion yn Nghymdeithasfa Caernarfon, 1881. Wedi sylwi ar gymmeriad personol pregethwyr yr efengyl fel un o anhebgorion eu llwyddiant, dywedodd:

Y mae y sylwadau hyn yn ein harwain at elfen arall sydd yn angenrheidiol er ffurfio nerth cymmeriad pregethwyr, ac er hyrwyddo llwyddiant eu hymdrechiadau; sef, duwioldeb diammheuol—diammheuol iddynt hwy eu hunain. Y mae yr awgrymiad hwn, er ei wneyd ar ddydd eich ordeiniad, yn gwbl anamserol. Canys i bwy y perthyn duwioldeb diammheuol yn fwy nag i chwi? Duwioldeb, ac nid dim islaw iddo, a ddylasai roddi yr ysgogiad cyntaf yn eich meddyliau i fod yn bregethwyr; a chael arwyddion boddlonol o dduwioldeb ynoch a ddylasai roddi yr ysgogiad cyntaf yn meddyliau yr eglwysi er eich dwyn chwi i'r sefyllfa bresennol. Nid wyf heb ofni fod yr eglwysi yn ein plith yn gwneyd camgymmeriad, a chamgymmeriad mawr hefyd, trwy chwilio mwy am gymmhwysderau llai, er dwyn gwŷr ieuaingc rhagddynt i waith y weinidogaeth. Pa fodd bynag am hyny, mi a wn y dylent chwilio mwy am y cymmhwysder hanfodol hwn. A chwilio am dano yn ei ffrwythau yw y ffordd ddiogelaf; chwilio am dano yn tori allan yn weithgarwch crefyddol yn mhob man, ac ar bob cyfleusdra. Dywed rhai, mai duwioldeb o radd uchel yw ysbryd y weinidogaeth. Pa fodd bynag am hyny, y mae yn rhoddi nerth mawr yn ysbryd y gweinidog, ac yn nylanwad ei weinidogaeth. Pa ryfedd, gan hyny, fod yr apostolion yn ddynion mor ëofn. A pha ryfedd fod eu gweinidogaeth mor effeithiol?'

Nid rhyfedd, chwaith, fod yr Arglwydd yn bendithio llafur un wedi ei gynnysgaeddu â chymmhwysderau, a'i feddiannu âg ysbryd y weinidogaeth, i'r fath raddau ag yr oedd efe. Gwyddom am enghreifftiau o nerthoedd dwyfol amlwg yn cydweithio â'i weinidogaeth. Mewn cymmanfa yn Neheudir Cymru, unwaith, pregethodd gyda'r fath ddylanwad rhyfedd fel y chwanegwyd tua dau cant at yr eglwysi yn ngwahanol barthau y sir yr oedd hi yn cael ei chynnal, fel canlyniad i'r odfa hono. Pan ymwelodd y geri (*cholera*) â Môn, dychrynwyd yr holl wlad yn ddirfawr, a chymmerodd yntau fantais ar yr achlysur i rybuddio ei gydwladwyr, gyda difrifwch anghyffredin hyd yn oed iddo ef, i ffoi rhag y llid a fydd. Pregethai ddychrynfeydd y farn gydag effeithiolrwydd mawr. Un nos Sabbath, daeth tri-ar-ddeg i ymofyn am le yn nhŷ Dduw, ar ol odfa o'r fath yn Llanerchymedd. Yn Nghaergybi hefyd, daeth pedwar a deugain i'r eglwys o'r newydd, ar ol un o'r odfaon grymus yn yr adeg hono.

Yr oedd ei safle a'i synwyr yn ei gymmhwyso i gymmeryd rhan amlwg yn nghynnadleddau y cyfundeb. Yr oedd yn traddodi araeth ar 'Natur Eglwys' yn Nghymdeithasfa y Wyddgrug, yn 1850; yn gadeirydd y gymdeithasfa am 1861; ac fel y crybwyllwyd, yn traddodi y 'Cynghor' yn 1881. Ond yn Nghyfarfod Misol Môn yr oedd efe yn fwyaf rhydd a theuluaidd. Edrychid i fyny ato, a rhoddid y pwys mwyaf ar ei farn, a'i gynghorion. Yr oedd ganddo ddylanwad mawr yn y cyfarfodydd misol tra y bu yn alluog i'w dilyn; ac yr oedd hwnw yn ddylanwad hollol deg. Nid rhyw lawer a siaradai. Pell oedd o fod yn perthyn i'r dosbarth nad ystyriant ddim yn iawn oni byddant hwy wedi cael cyfle i ddangos eu dawn a'u doethineb er ei benderfynu. Siaradai bob amser yn bwyllog, ac i bwrpas. Nid oedd efe, mwy nag eraill, uwch law camgymmeriad mewn barn ambell dro, er fod y camgymmeriadau hyny o'i eiddo yn anaml ac yn ddibwys; ond ni chafodd neb erioed le i feddwl ei fod yn gŵyro mewn egwyddor, nac yn cilio o lwybr ei ddyledswydd.

Yr oedd ganddo syniadau cryfion a phendant am berthynas llwyddiant yr eglwysi â'u purdeb. Nid oedd yn llym a gorfanwl gyda dysgyblaeth eglwysig. Tueddai, yn hytrach, i wneyd pob peth o weddusder. Ond yr oedd ganddo yr argyhoeddiadau dyfnaf y dylid defnyddio dysgyblaeth i gadw llygredd a llacrwydd mewn buchedd—ac hyd y gellid, achlysuron y cyfryw—allan o'r eglwysi. Hyn a barodd iddo gymmeryd y safle a wnaeth gyda golwg ar 'y seithfed reol' yn Rheolau Dysgyblaethol y Methodistiaid. Dyma y rheol hono:—'Na byddo iddynt briodi un digred, na dilyn arferion anllad llygredig y byd yn eu cyfeillach ac yn eu mynediad i'r ystad briodasol.' Yr oedd graddau o ansicrwydd o'r dechreuad i ba raddau y dylesid rhoddi yr hyn sydd yn y rhan gyntaf o'r rheol mewn gweithrediad:—a ddylid diarddel yn mhob amgylchiad y byddai aelod yn priodi un di-broffes, ai peidio. Yr oedd y mater yn tynu sylw mawr, ac yn destyn ymdriniaeth yn Nghymdeithasfa y Bala, yn y fl. 1794:—

'Yn ol cofnodion y gymdeithasfa hono, ymofynwyd am ystyr briodol y geiriau hyny:—'Na ieuer chwi yn anghymmharus gyda'r rhai digred.' Rhan o'r attebiad i'r ymofyniad hwn ydyw a ganlyn:—'Y mae ystyr y geiriau yn amlwg i'r neb a fyno ddeall, a rhodio yn ei lwybr pur ac anrhydeddus. Gan nad ydyw y geiriau yn nodi allan *un math* o gyd-ieuo yn neillduol mwy nag arall, amlwg yw ei fod yn gwahardd *pob math* o gyd-ieuo gyda'r rhai digred—megys mewn cyfrinach, fel cyfeillion mynwesol, hefyd cyd-driniaeth mewn negeswaith fydol; ond yn enwedig, ac yn fwyaf neillduol, cyd-ieuo mewn priodas, gan mai hyny yw yr ieuo mwyaf agos a all fod rhwng neb a'u gilydd yn ol trefn natur.' Drachefn, gofynwyd—'A oedd hyny yn bechod o'r maintioli ag oedd yn difreintio y person fel aelod eglwysig? Barnwyd ei fod.' Yna, nodir pedwar peth fel seiliau y farn hon. '1af, Os yw cyfeillach neillduol âg annuwiolion yn anghyttûn â chrefydd Crist, pa faint mwy cyd-ieuo mewn priodas â hwy? 2il, Am nad all fod gan y neb a ieua yn anghymmharus gyda'r rhai digred, un bwriad i fyw yn dduwiol i'r Arglwydd. Pe buasent yn y bwriad i hyny, ni roddent hwy eu hunain byth yn y fath amgylchiadau anfanteisiol i hyny. 3ydd, Nis gallant ddangos trwy un weithred o'r eiddynt yn fwy eglur i bawb mai bywyd o annuwioldeb ydyw eu dewisiad na thrwy ddewisiad priod annuwiol i dreulio eu bywyd gydag ef. Y maent, wrth hyny, mewn effaith, nid yn unig yn tystiolaethu eu bwriad i fyw yn annuwiol eu hunain, ond o gadw tŷ annuwiol i Satan, heb Air Duw na gweddi ynddo; ac o feithrin eu plant yn annuwiol, trwy roddi dim ger eu bronau i'w weled ond esamplau o annuwioldeb beunyddiol. 4ydd, Ond heb law y pethau hyn, y mae y cyd-ieuo hwn yn erchyll bechadurus ynddo ei hun, pa beth bynag fyddo y ffrwythau, gan ei fod yn groes i orchymyn pendant yr Arglwydd: a hyny nid trwy demtasiwn ddisymmwth, ond gyda rhagfwriad a dewisiad.'

Yn y blynyddoedd 1870 ac 1871, daeth hyn i sylw drachefn, trwy i Gymdeithasfa y Gogledd gymmeryd y mater i fyny, a'i anfon i Gymmanfa Gyffredinol Aberhonddu, er cael ymdriniaeth arno. Yr oedd hwn, bellach, wedi dyfod yn gwestiwn ymarferol o bwys cyffredinol. Deallid fod rhai eglwysi, nid yn unig yn peidio diarddel am droseddu y rheol, ond hefyd heb

Digitized by Google

wneyd unrhyw sylw o honi. Gohiriwyd y mater o Aberhonddu i Gymmanfa Gyffredinol Liverpool y flwyddyn ganlynol; ac yno, daethpwyd i'r penderfyniad canlynol:—

'Ein bod yn teimlo fod y pwys mwyaf mewn annog ein heglwysi trwy yr holl gyfundeb i ofalu yn arbenig yn ffurfiad eu cyssylltiadau priodasol ar fod crefydd, a'r fantais oreu iddi, yn cael y lle blaenaf ac uchaf yn eu meddyliau; gan gofio yn wastad fod y fath undeb ag un di-grefydd yn sicr o amddifadu y Cristion gwirioneddol a fyddo ynddo o un o gysuron penaf y bywyd priodasol. Etto: nad ydym yn gweled fod ein rheol ar hyn yn galw o angenrheidrwydd, fel y mae yn gyffredin yn cael ei hesbonio, am ddi-aelodaeth y rhai a briodant felly. Ac am hyny, ein bod yn dymuno gadael y cwestiwn ynghylch y modd i ymddwyn tuag at y cyfryw rai i ddoethineb Cristionogol pob eglwys neillduol, gyda golwg ar bob amgylchiad arno ei hun, gan obeithio y cedwir yn uchaf yn ein meddyliau oll y pwys mawr sydd mewn aelodaeth eglwysig, a'r cyssegredigrwydd difrifol ac ofnadwy sydd bob amser yn gyssylltiedig â diarddeliad.'

Yr oedd Mr. Hughes yn anghyttuno â'r penderfyniad hwn yn gyfangwbl, ac yn credu yn gydwybodol ei fod yn agor y drws i'r gelyn ddyfod i mewn fel afon; a chymmerodd ei le, yn naturiol, fel arweinydd y rhai oedd yn cydolygu âg ef. Ennillodd fwyafrif mawr Cyfarfod Misol Môn i'r un farn ag ef; ac nid anhawdd oedd gwneyd hyny, o blegid yr oedd gan lawer deimladau dwys, ac i fesur yn archolledig, yn herwydd penderfyniad Cymmanfa Gyffredinol Liverpool i roddi pob achos at farn yr eglwys y digwyddai y cyfryw; ac nid diarddel yn mhob amgylchiad. Yn Nghyfarfod Misol y Dwyran y daeth y cwestiwn yn ei wedd newydd i sylw. Yr oedd Mr. Hughes yn siarad yn gryf iawn arno; a mynai rhai cyfeillion ddadgan eu cydsyniad a'u cymmeradwyaeth trwy guro traed—peth hollol anghyffredin mewn cyfarfod misol y pryd hwnw. Gwrthwynebodd rhyw frawd yr anweddusder o guro traed. 'Na,' meddai Mr. Hughes, 'rhaid i'r frawdoliaeth gael dangos ei theimlad ar y cwestiwn pwysig hwn!' Yna, aeth yn mlaen i orphen ei araeth gyda mwy o rymusder. Diwedd yr ymdrafodaeth, pa fodd bynag, fu i'r cyfarfod misol benderfynu anfon y genadwri a ganlyn i'r Gymdeithasfa Chwarterol ganlynol:—

'Ein bod yn dymuno yn ostyngedig ddadgan teimlad gofidus y nifer fwyaf o honom o herwydd yr eglurhâd a roddwyd ar y seithfed reol yn y Rheolau Dysgyblaethol yn y Gymmanfa Gyffredinol yn Liverpool; a'n bod yn dymuno ar iddi gael edrych arni fel o'r blaen, a'i chario allan yn yr un dull ag y gwneid gan ein tadau.'

Daeth y genadwri hon i sylw Cymdeithasfa Bangor yn Medi, 1871. Yr oedd Mr. Hughes yno yn ei chefnogi. Cafwyd trafodaeth led frwd yn y wedd ëang yr oedd y genadwri o Fôn yn ei dwyn ger bron; a rhanwyd y gymdeithasfa ar y cwestiwn. Ni ennillodd Mr. Hughes ei bwynt; canys pasiwyd penderfyniad gyda mwyafrif sylweddol, i'r perwyl nad oedd yr hyn a wnaed yn cynnwys un cyfnewidiad yn y rheol, ond yn eglurhâd ar y modd yr oedd hi i gael ei gweinyddu. Nid ein lle ni yma ydyw myned i mewn i'r ddadl mewn un modd, na dadgan barn arni. Digon i'r pwrpas presennol ydyw dangos nad heb lawer o resymau y cymmerodd Mr. Hughes y llwybr hwn; a'i fod, er gyda gofid gwirioneddol, yn gwrthwynebu ei gyfeillion, etto yn gweithredu yn hollol gydwybodol, ac yn ol ei argyhoeddiad; ac y mae yn sicr nad oedd y rhai a farnent yn wahanol iddo ar y cwestiwn yn ammheu dim ynghylch hyny. Yr oedd ganddo ddigon o fawrfrydigrwydd meddwl, er colli yn y bleidlais, i barchu penderfyniad y gymdeithasfa; ac ymroddodd, yn ol ysbryd ac annogaeth y penderfyniadau yn y gymmanfa gyffredinol a'r gymdeithasfa, i athrawiaethu y pwngc gyda mwy o sêl a dyfalwch nag erioed.

Gellir nodi llawer o esamplau eraill i ddangos ei awydd i gadw yr eglwys yn bur, ac i gadw Dydd yr Arglwydd a thŷ yr Arglwydd yn fanwl at eu dybenion eu hunain. Caiff un hanesyn, pa fodd bynag, wasanaethu i'r pwrpas. Ar un adeg, yr oedd ysfa cystadlu wedi meddiannu cyfeillion cerddorol y Gaerwen a'r amgylchoedd. Deuai llu o ieuengctyd at eu gilydd—rhai o dair milldir o ffordd—ar ol y bregeth nos Sabbath i gapel y Gaerwen i ymarfer. Cwynid yn fawr wrth Mr. Hughes o blegid yr anweddeidddra, a cheisid ganddo attal yr arferiad; ac yr oedd yntau ei hun yn teimlo yn ddwys am y peth. Arosodd yn y tŷ capel am tua hanner awr, er rhoddi cyfleusdra i'r côr ddyfod ynghyd, a chael cyfleusdra ei hun, o bossibl, i ddyweyd gair wrthynt; ac yna, cerddodd yn hamddenol i'r capel. Ni ddywedodd efe un gair—dim ond sefyll yn nghanol distawrwydd ger eu bron. Ni allai y cyfeillion ddal yr olwg siomedig a difrifddwys oedd arno; a dechreuasant ymwasgaru. Aethpwyd â'r offeryn cerdd oedd wedi ei ddwyn yno i bwrpas yr ymarferiad ymaith ar unwaith. Bu hyn yn derfyn ar yr arferiad annymunol yr oedd yr ieuengctyd wedi syrthio yn ddi-feddwl iddi; ac ni chafwyd gofid yn yr ardal wedi hyny o herwydd y peth hwn.

Yr oedd efe yn credu yn gryf mewn bugeiliaeth eglwysig. Pan yr oedd y symmudiad yn destyn dadleuon brwd, llawer a athrawiaethodd efe, mewn amser ac allan o amser, mewn cyfarfodydd misol, mewn eglwysi, ac mewn cylchoedd eraill. Ac er mwyn i'w ymddygiad fod yn gysson â'i ddysgeidiaeth, cymmerodd ei alw yn fugail ei hunan ar ddwy eglwys yr oedd er's blynyddoedd yn llafurio ynddynt; sef, eglwysi y Gaerwen a Phensarn. Ni ddisgwyliai neb ef i wneyd mwy nag o'r blaen yn yr eglwysi hyn. Yr oedd yn gwir ofalu am danynt yn mhob ystyr, a'r unig wahaniaeth a barodd ei gyssylltiad newydd oedd y fantais i fod yn esampl i eraill; y rhai, y credai efe, oedd mewn gwir angen am gymmhorth yn y ffordd hon. Rhoddi esampl i eraill oedd ei amcan—a'r unig amcan. Ond nis gallasai eglwysi eraill ddilyn yr esampl yn mhob peth. Gwyddid yn dda y disgwylid i eglwysi, wrth alw brodyr i'w gwasanaethu fel bugeiliaid, roddi rhyw gymmaint o gydnabyddiaeth arianol iddynt am eu llafur; ond gwyddid yn llawn cystal fod hyn yn gwbl allan o'r cwestiwn yn nglŷn âg ef. Ni chymmerodd gydnabyddiaeth erioed gan eglwys y Gaerwen am bregethu yno y Sabbothau, nac am unrhyw wasanaeth arall; a'r un modd gyda golwg ar ei gyssylltiad bugeiliol:—'Bwytâai o'i winwydden ei hun, ac o'i ffigysbren, ac yfai o ddwfr ei ffynnon ei hun.'

Bu y deng mlynedd diweddaf o'i oes yn adeg o seibiant ac o orphwysdra iddo, yn adeg o 'orphwys yn ei ran'—nid annhebyg i bererin Bunyan yn nhir Beulah. Diau i'r gofal a gymmerai am ei iechyd ddwyn iddo, yn gymmysgedig â gwendidau a blinderau hen ddyddiau, lawer iawn o gysuron hydref einioes. Yr oedd y ddysgyblaeth y gosododd ei Dad Nefol ef dani

Digitized by Google

yn nechreu ei oes heb golli ei dylanwad arno yr adeg hon. Ac yr oedd hyny yn hollol gysson â nodwedd gyffredinol ei gymmeriad. Pan gynnyddodd golud y byd iddo, ni effeithiodd hyny arno, fel y mae yn effeithio ar rai. Y mae rhai mor benwan fel y bydd ychydig o gyfnewidiad er gwell yn eu hamgylchiadau yn troi yn eu penau, a pheri iddynt fyned yn ffroen-uchel, ac yn annioddefol o hunanol. Ond cymmerodd efe gwrs o ddarbodaeth a gostyngeiddrwydd gweddus yn nechreu ei oes; a pharhaodd i ddilyn yr un cwrs cyffredinol hyd y diwedd. Buasai mor annaturiol iddo fod yn wahanol ag i'r afon droi yn ei hol. Y fath oedd sefydlogrwydd a chryfder ei gymmeriad fel mai yr un oedd efe, i fesur helaeth, yn ei flwyddyn ddiweddaf a phan yn llangc yn ymrwyfo yn erbyn y llif a'r llanw. Yr oedd profiad boreu oes wedi rhoddi cyfeiriad i gryfder ei gymmeriad fel dyn, fel yr oedd iddo newid rhyw lawer allan o'r cwestiwn.

Ond nid yn nhir neillduaeth yr oedd efe yn gorphwys. Yr oedd holl symmudiadau ei frodyr yn y gymdeithasfa, ac yn enwedig yn nghyfarfod misol ei sir, yn cael eu gwylio yn fanwl ganddo; a theimlai y dyddordeb mwyaf ynddynt. Pan y bydd ambell rai yn myned am seibiant, ânt yn ddigon pell oddi wrth gylch eu dyledswyddau cyffredin fel ag i anghofio y cyfryw, gan fyw mewn cymdeithas newydd, ac megys mewn byd newydd. O fewn terfynau priodol, dïau fod cryn lawer i'w ddyweyd dros hyn. Weithiau hefyd, ceir pobl grefyddol yn nyddiau henaint yn myned i'r un ystâd feddyliol. Wedi iddynt hwy beidio cymmeryd rhan ymarferol yn ngweithrediadau eu brodyr, a symmudiadau y dydd, y maent yn aros fel llongau ar y traeth, â'r llanw wedi eu gadael. Y maent yn fyw yn unig i'r gorphenol; ac nid oes iddynt gyfran yn symmudiadau a helyntion y presennol. Profedigaeth y cyfeillion yma yw gofyn yn wastadol mewn rhyw ffurf neu gilydd yr hen gwestiwn, 'Pa ham y mae y dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn?' Yr ydym yn gwneyd y sylwadau hyn er mwyn rhoddi pwys ar y ffaith fod Mr. Hughes yn hollol wahanol, ac yn perthyn i'r dosbarth—dosbarth gwerthfawr, anrhydeddus, a hyfryd eu cymdeithas—sydd mewn ystyr feddyliol a chrefyddol yn 'dirfion ac ieuaingc yn eu henaint.' Nid oedd dim a'i boddhäai ef yn fwy nag i un o'i frodyr, ar ol dychwelyd o gyfarfod misol fyned ato i adrodd yr hanes. Teimlai y dyddordeb mwyaf yn y cwbl. Yr oedd yn bresennol gyda'i frodyr o ran ei gydymdeimlad a'i ysbryd, er holl anfanteision absennoldeb corphorol a henaint. Ar yr un pryd, dyddordeb edrychydd a deimlai, ac nid dyddordeb ymyrwr. Wedi iddo ef fethu bod yn bresennol gyda'i frodyr, nis gellir cyfeirio at un esampl o ymgais i ddylanwadu yn uniongyrchol ar eu gweithrediadau. Yr oedd yr ymddiried oedd ganddo ef yn noethineb a phwyll y frawdoliaeth yn peri iddo ymattal. O'r ochr arall, nid oedd ei frodyr yn y cyfarfod misol heb deimlo dyddordeb yn ei helynt a'i brofiadau yntau. Nid wedi ei anghofio yr oedd efe ganddynt, fel un allan o olwg. Er mwyn dyfnhau a chadarnhau dyddordeb a chydymdeimlad o bob•tu, cawn i Gyfarfod Misol Môn gyflwyno anerchiad iddo—anerchiad oedd yn ddadganiad teg o'u teimladau.

Os gofynir pa resymau sydd i'w rhoddi am y gymdeithas hon yn yr efengyl dan yr amgylchiadau, gellir cyfeirio at amryw bethau. Nid y lleiaf oedd ei bryder gwastadol ef ynghylch ystad crefydd yn eglwysi y sir, a'i awyddfryd dwfn a diffuant am lwyddiant yr efengyl. Wrth i gyfeillion fyned i ymweled âg ef, a dyfod i gyffyrddiad a chydymdeimlad â'r ysbryd rhagorol oedd ynddo, yr oedd hyny yn ymledaenu 'fel peraroglau gras,' ac yn cynnyrchu ei ryw. Ond rhaid ymofyn etto am ryw achos i'r pryder a'r awyddfryd hwn; ac nid anhawdd, dybygid, yw dyfod o hyd iddo. Nid oedd hyn amgen, mewn gair, na chrefyddolder ei ysbryd yn gweithredu yn gryf mewn cyfeiriad neillduol. Nis gallwn roddi gwell enw ar y cyfeiriad hwn na theimlad ac ysbryd tadol—yr hyn, ni a gredwn, a barodd i'r dysgybl anwyl gyfarch y rhai yr ysgrifenai atynt fel 'plant bychain.'

I'r unrhyw achos, hefyd, y gellir priodoli y llythyrau lliosog a ysgrifenwyd ganddo at gyfeillion a theuluoedd mewn galar ac afiechyd. Nis gellir cyfeirio at nemawr neb ar y blaen arno yn y rhinwedd hwn. Ysgrifenodd nifer anhygoel o lythyrau o'r fath yn ystod ei oes; ac yr oedd ynddo fedrusrwydd i wneyd hyny. Ond nid mater o fedrusrwydd yn unig oedd hyn iddo ef; ond cyfodai yr arferiad—ac ni raid petruso ei galw ynglŷn âg ef wrth yr enw hwn—o ddyfnder ei gydymdeimlad, a thynerwch natur oedd yn peri iddo 'wylo gyda y rhai oedd yn wylo.' Gellir gyda phriodoldeb mawr ei alw yr olaf o'r tadau yn mysg Methodistiaid Môn. Dywedai un oedd yn meddu pob mantais i wybod mai llywodraeth dadol oedd yn Nghyfarfod Misol Môn yn y dyddiau gynt. Rhaid gofyn, erbyn hyn, 'Y tadau, pa le y maent hwy?' Y maent oll wedi myned ymaith, ac arweinwyr—rhai yn meddu ysbryd a chymmhwysderau arweinwyr—wedi cymmeryd eu lle. Dïau i'r nodwedd dadol hon ddyfod i lawr oddi wrth gychwynwyr y cyfundeb. Gallasai llawer y pryd hwnw gyfeirio at y naill neu y llall o'r gwŷr cedyrn hyn, a dyweyd fel y canodd Williams, o Bant-y-celyn, am Howel Harris:—

> 'Tra fo anadl yn fy ffroenau,
> Mi a'i galwaf ef 'Fy nhad.''

Mewn oes oedd yn prysur ymdrawsffurfio i'w chymmeriad presennol yr oedd Mr. Hughes yn cymmeryd ei le, ac yn cael ei le yn gwbl naturiol—nid trwy ymhongarwch, ond megys o weddusder. Bu farw yr 22ain o Ragfyr, 1894; a chafodd gladdedigaeth tywysog.

HUXLEY, THOMAS HENRY, yr hwn a adnabyddid yn fwyaf cyffredin fel y 'Proffeswr Huxley,' a anwyd yn Ealing, Mai 4ydd, 1825. Yr oedd ei dad yn athraw yn ysgol y pentref; yn yr hon y bu efe yn derbyn ei addysg am dymmor o ddwy flynedd a hanner. Yn ddilynol, derbyniodd addysg breifat ar aelwyd ei dad; ac wedi hyny, bu yn efrydu meddyginiaeth dan arolygiaeth ei frawd-yn-nghyfraith. Pan yn ddwy flwydd ar bymtheg, anfonwyd ef i Ysbytty Charing-cross, lle y bu yn efrydydd mewn Anianeg. Wedi cymmeryd o hono ei radd mewn meddyginiaeth, appeliodd am swydd ynglŷn â'r llynges; ac yn 1846 pennodwyd ef yn feddyg yn ysbytty Haslar. Y prif swyddog meddygol yn y lle hwn oedd Syr John Richardson, yr archwilydd enwog yn nhiriogaethau y pegwn; trwy ddylanwad yr hwn y pennodwyd ef, saith mis yn ddiweddarach, yn feddyg cynnorthwyol i'r rhyfel-long *Rattle-snake*. Rhoddwyd gorchymyn i'r llestr hon, dan lywyddiaeth

Digitized by Google

y Cadben Owen Stanley, i archwilio dirgeloedd glanau dwyreiniol Awstralia. Hwyliodd y llestr allan yn y fl. 1846; ac yn y cyfamser yr oedd enw Mr. Huxley wedi dyfod yn adnabyddus i aelodau y cymdeithasau dysgedig yn y wlad hon. Bu y fordaith hon yn fath o arweiniad i mewn i'r hyn y gellir ei ystyried yn waith bywyd Huxley; sef, ei ymdrech i ddaddyrysu ffeithiau hynod bywydeg (*biological problems*), ac i osod ffrwyth ei ymchwiliadau yn eglur o flaen y byd. Aeth Darwin a Hooker trwy brofiad morwrol cyffelyb. Gwasanaethodd Darwin fel naturiaethwr ar fwrdd y *Beagle* pan yr oedd hi ar ei mordaith o gylch y byd yn 1831; ac yr oedd Hooker yn feddyg cynnorthwyol ar fwrdd yr *Erebus*, yr hon oedd ar ei mordaith archwiliadol yn moroedd y pegwn deheuol yn 1839. Anfonodd Huxley i'r Gymdeithas Frenhinol hanes manwl am lawer o filod neu greaduriaid y môr; ac ar ei ddychweliad, etholwyd ef yn gymmrawd o'r gymdeithas—cadair yr hon hefyd a lanwyd ganddo mewn blynyddoedd dilynol. Yr oedd y goleuni a roddodd efe ar ffeithiau gwyddonol ynglŷn â bywydeg y cyfnod hwnw, o bossibl yn llawn cymmaint o werth, os nad yn fwy felly, na dim arall a gafwyd ganddo ar ol hyny.

Er ei fod wedi ei anrhydeddu gan y Gymdeithas Frenhinol, yr oedd efe yn dlawd, o ran ei amgylchiadau; ac etto heb dderbyn swydd ag yr oedd ei alluoedd disglaer yn ei gyfaddasu iddi. Gwnaeth geisiadau mynych i sicrhau swydd athraw yn mhrifysgolion a cholegau y deyrnas—ond yn aflwyddiannus. O'r diwedd, yn 1844, pennodwyd ef i gadair broffeswrol Hanesiaeth Naturiol yn Ysgol Frenhinol Jermyn street, yn Llundain, fel olynydd i Mr. Edward Forbes. Yr oedd efe erbyn hyn ar y ffordd i anrhydedd ac enwogrwydd; a theilyngai hyny, gan ei fod eisoes yn un o anianyddwyr galluocaf y wlad. Cadwodd y cymmeriad hwn i fyny, nid yn unig trwy ei ddarlithiau, ond hefyd yn y gyfres o lyfrau dysgedig a gyhoeddwyd ganddo ar hoff byngciau ei efrydiaeth. Yr oedd efe yn meddu gallu neillduol i ennyn dyddordeb yn meddyliau y lliaws, yn gystal a'r gwyddonwyr, ynglŷn â'r pyngciau yr ymdrinai â hwy, a'r modd y gwnai ffrwyth ei ymchwiliadau yn hysbys. Er enghraifft, bu ei gyfres o ddarlithiau yn ysgol Jermyn street ar 'Le Dyn mewn Natur' yn achos i godi dadl nad ydyw, yn wir, wedi llwyr ddarfod etto. Cymmerwyd y mater i fyny gan y Gymdeithas Frenhinol flwyddyn ar ol blwyddyn; a ffurfiai destyn un o'r llyfrau goreu a ysgrifenwyd ganddo ef. Yr un modd y bu gyda chyfres ddilynol o ddarlithiau a draddododd yn 1862 i gynnulliad o weithwyr ar ein 'Gwybodaeth o Achosion yr Ymddangosiadau sydd mewn Natur Gyfluniol' (*Knowledge of the Causes of the Phenomena of Organic Nature*). Fel rheol, byddai ei ddarlithiau, er yn cael eu traddodi yn fynych i gynnulliadau o weithwyr, yn fath o hèr i'r holl fyd gwyddonol, gan eu bod yn codi cwestiynau dyrus ac anhawdd i'w hegluro i sylw.

Gellir dywedyd fod ei fywyd cyhoeddus yn dechreu gyda'r flwyddyn 1854; ac yr oedd efe, wrth draddodi y darlithiau a nodwyd i'r dosbarth gweithiol, yn cyflawni rhan bwysig o'i ddyledswyddau fel athraw gwyddonol. Yn 1856, aeth efe a Mr. Tyndall—wedi hyny y Proffeswr Tyndall—ar daith ymchwiliadol i fynyddoedd yr Alpau; a'r flwyddyn ddilynol, ymddangosodd ysgrif alluog o'i eiddo yn y *Philosophical Transactions*, ar ffurfiadau ac ymddangosiadau hynod y rhew ar y mynyddoedd hyny. Defnyddiai bob cyfleusdra a gaffai, heb esgeuluso ei ddyledswyddau fel athraw, i wneyd ymchwiliadau i, ac ysgrifenu ar gwestiynau gwyddonol dyrus; megys *On Ceratodus*, *Hyperodapedon*, *Gordoni*, *Hypsilophodon*, *Telerpedon*. Testynau ydyw y rhai hyn nad ydyw yn ngallu neb ond gwyddonwyr galluog a dysgedig i amgyffred pa beth a ddeallir wrthynt. Gwobrwywyd ei ymchwiliadau iddynt â graddau a bathodynau lawer. O'r flwyddyn 1863 hyd 1869, daliodd Mr. Huxley y swydd o Athraw Hunteriaidd (*Hunterian Professor*) yn Ngholeg Brenhinol y Meddygon. Cafodd ei ddewis ddwy waith yn athraw (*Fullerian Professor*), mewn Anianeg yn y Sefydliad Brenhinol (*Royal Institution*); ac yn 1869 ac 1870, yr oedd efe yn llywydd y Gymdeithas Ddaearegol.

Byddai nodi yr holl swyddau a lanwyd gan Mr. Huxley, a'r cymdeithasau yr oedd efe yn aelod o honynt, yn rhestr hirfaith. Digon yw dywedyd yma ei fod yn aelod o fwy na hanner cymdeithasau gwyddonol Ewrop, a'i fod wedi derbyn pob anrhydedd o'r bron y gallai y cymdeithasau hyny eu rhoddi iddo.

Yr oedd Huxley wedi llwyr feistroli y wyddor o filofyddiaeth (*zoology*) yn ei holl fanylion. Boddlona rhai dynion galluog ar ei deall mewn rhan; ond nid oedd efe yn proffesu dim llai na'i fod yn meddu gwybodaeth gyflawn o fywydeg anifeilaidd. Cariai ei ymchwiliadau gwyddonol yn mlaen o'r anifeiliaid isaf hyd y rhai uchaf; ac hyd yn oed at ddyn. Bu y wybodaeth hon yn foddion i ennill iddo safle anrhydeddus yn mysg gwyddonwyr Ewrop; a bu ei allu neillduol i wneyd ffrwyth ei ymchwiliadau yn eglur a dealladwy yn foddion i chwanegu at ei glod.

Rhoddodd cyhoeddiad llyfr adnabyddus Darwin, *The Origin of Species*, gyfleusdra i Huxley ddwyn ei enw i sylw yn fwy nag o'r blaen. Ni ddarfu i Darwin ar unwaith gario allan ei ddamcaniaeth i'w therfyn eithaf. Yr oll a wnaeth efe oedd awgrymu y byddai i'r cyfryw ddamcaniaeth daflu cryn lawer o oleuni ar darddiad dyn, a'i hanes. Cymmerodd Huxley fantais ar yr hyn a ddywedodd Darwin, a thraddododd gyfres o ddarlithiau yn y brif ddinas yn ymwneyd â'r cwestiwn mewn ystyr llawer manylach; a bu y darlithiau hyn yn foddion i alw sylw mewn modd arbenig at y cwestiwn dyddorol a dyrus a godwyd yn gyntaf gan Darwin. Yn y fl. 1863, cyhoeddwyd y darlithiau yn llyfr o dan y teitl, *Evidence as to Man's Place in Nature.*

Yr oedd Huxley yn ddyn gweddol gyflawn ei wybodaeth mewn amryw o ganghenau eraill, heb law y rhai a wnaethpwyd ganddo ef yn faes arbenig ei ymchwiliadau a'i efrydiaeth. Gwyddai lawer am y clasuron, am dduwinyddiaeth, ac am lenyddiaeth yn gyffredinol. Darllenodd lawer; ond myfyriodd fwy; ac yr oedd ganddo allu arbenig hefyd i ddeall y safbwynt oddi ar yr hwn yr edrychai pob awdwr ar yr hyn yr ysgrifenai arno. Ond fel y dywedwyd eisoes, fel gwyddonydd y bydd i'w enw barhau. Yn wir, prin y mae un i'w gymmharu âg ef o ran ëangder a thrylwyredd y gwaith a wnaeth efe ynglŷn â chwestiynau gwyddonol yn y cyffredin o honynt, ac â bywydeg yn neillduol. Gwel BYWYD, cyf. ii., td. 106.

**Bu farw yn Eastbourne, Mehefin 29ain, 1895.**

Digitized by Google

HUGHES, PARCH. JAMES, o Leyn. Mab oedd efe i Hugh a Sarah Jones, ar y pryd yn byw yn Liverpool—lle y ganwyd yntau yn y fl. 1778. Symmudodd y teulu i Leyn pan yr oedd tua dwy flwydd oed; ac nis gallai, ar y pryd, siarad ond Saesneg. Yn lled fuan, cymmerwyd ef gan ewythr iddo, o'r enw William Jones, yr hwn oedd yn ddi-blant, i'w fagu; a dysgodd ef yn yr un grefft ag ef ei hun—crydd. Arosodd gyda'i ewythr nes y priododd; a chafodd ysgol ganddo. Pan tua 23ain oed, dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd; a phan yn 25ain, priododd Miss Mary Thomas, o Enlli—merch i deulu parchus a chyfoethog. Yna aeth i fyw i dyddyn o'r enw Crindir, yn y gymmydogaeth; a bu o gryn wasanaeth i achos crefydd yn ystod ei drigias yno. Bu fyw yn y Crindir hyd farwolaeth ei wraig. Cododd i fyny yn bregethwr cryf; ac yr oedd ei weinidogaeth yn hynod amserol. Dywedai yn hallt yn erbyn pechodau yr oes, ac ymegnïai hefyd at wneuthur trefn gras mor syml a dealladwy ag oedd yn bossibl. Pregethodd lawer trwy Ogledd a Deheudir Cymru; ond cyfyngodd ei lafur yn benaf i Leyn, lle yr oedd yn ddwfn yn serchiadau y bobl. Ordeiniwyd ef yn Nghymdeithasfa y Bala, yn y fl. 1819; ac o hyny hyd ddiwedd y daith, llanwodd gylch pwysig yn ngweinidogaeth y cyfundeb. Yr oedd efe yn weddïwr derbyniol, yn meddu gallu arbenig i gadw cyfarfodydd eglwysig, yn ŵr heddychol a thangnefeddus, yn ddyn o synwyr cryf; ac uwch law y cwbl, yn Gristion cywir. Bu farw Hydref 12fed, 1851, yn 73ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu yr efengyl am ddeng mlynedd a deugain.

HUGHES, JOHN CEIRIOG. Un o brif delynegwyr Cymru oedd efe, os nad y penaf oll, yn y ganrif hon; ac un o feirdd mwyaf adnabyddus ein gwlad. Ganwyd ef yn Mhen-y-bryn, Llanarmon Dyffryn Ceiriog, Medi 25ain, 1832. Mab oedd efe i Richard Hughes, a Phœbe ei wraig—tyddynwyr parchus, rhinweddol, a duwiol. Y mae yn ddiammheuol fod dylanwad yr addysg grefyddol a dderbyniodd ar yr aelwyd wedi cael effaith neillduol ar ei feddwl; a bod golygfeydd, helyntion, traddodiadau, a llafar gwlad ei ardal enedigol wedi dylanwadu ar ei feddwl, ei chwaeth, a'i athrylith. Y mae yn ddiddadl, hefyd, fod hanes ei ardal enedigol yn rhoi cyfrif am y nodwedd arwrol a geir yn ei ysgrifeniadau. Trwy ddiwydrwydd, llwyddodd ei rieni i roddi addysg i John yn ysgol wledig Nant-y-glôg; yr hyn nas gallai llawer o deuluoedd tlodion y wlad wneyd y pryd hwnw. Ond dyna'r holl addysg a gafodd efe; a llwyddodd i'r fath raddau, mewn grammadeg yn enwedig, fel yr oedd yn cael ei ystyried y grammadegydd, a'r ysgolhaig Saesneg goreu yn y fro. Cyn hir, dechreuodd ei ddawn farddonol wneyd ei hun yn deimladwy; a daeth ei wybodaeth yn elfenau y Gymraeg o wasanaeth mawr iddo fel cyfrwng iddo allu rhoi ffurf i'r ddawn hono; fel y daeth yn fuan yn lled fedrus ar y gwaith o gyfansoddi pennillion, a rhigymau barddonol eraill.

Pan yn ddwy-ar-bymtheg oed, gadawodd ei gartref, i fyned i fasnachdy yn nhref Manceinion. Yr oedd ei fam, ar y pryd, yn weddw; ac y mae y gân a gyfansoddodd efe i gofio am yr achlysur hwn—'Mae John yn myn'd i Loegr'—yn arddangosiad o deimladau Mrs. Hughes wrth ymadael ag ef am y tro cyntaf erioed. Nid oedd oriau meithion y masnachdy, a'r dreth a osodai hyny ar ei amser i ddarllen, &c., yn unol iawn â'i chwaeth; a phan gafodd gyfle, cymmerodd le yn *London Road Station*, ynglŷn â'r ffordd haiarn, a'r gamlas a berthynai i'r cwmni. Rhoddodd y symmudiad hwn gyfleusderau mwy iddo i ddiwyllio ei feddwl; a gwnaeth ddefnydd o honynt. Ond yr oedd yn gofalu am gyflawni ei ddyledswyddau tuag at y cwmni gyda ffyddlondeb; a thrwy ymroddiad, dringodd i fyny, fel, yn mhen ychydig o flynyddoedd, y daeth yn benaeth y swyddfa yr oedd efe ynddi.

Dechreuodd Ceiriog ar ei yrfa farddonol mewn dull lled ddistadl. Y mae yn debygol mai yn nghyfarfod cystadleuol capel Cymraeg Grosvenor Square, Manceinion, yr ennillodd efe y wobr gyntaf yn ei fywyd; ond er mor fechan a dibwys ydoedd, mae yn debyg iddi ei symbylu i ddyfal-barhau gyda barddoniaeth a llenyddiaeth ei wlad. Dygodd hyn ef, hefyd, i sylw amryw o Gymry enwog y ddinas hono; yn mysg pa rai y gellir enwi y Parch. Owen Jones (*Meudwy Môn*), Creuddynfab, ac eraill. Cymdeithasodd lawer hefyd â *Mesuronydd* (sef Mr. John Francis), R. J. Derfel, Gwilym Elen, Idris Fychan, a Phedr Mostyn. Yn lled fuan wedi dyfod yn adnabyddus yno fel bardd, aeth Ab Ithel i aros yn Middleton, a daeth y ddau yn gyfeilliou ar unwaith. Yr oedd Ab Ithel yn un o Gymry dysgedicaf ei oes, a mantais fawr i'r bardd ieuangc oedd cael cymdeithasu âg ef: ac y mae yn ddiddadl i hyny gael dylanwad nid bychan arno. Yn raddol, dechreuodd ei glod ymledu y tu hwnt i derfynau tref Manceinion; ac mewn eisteddfod a gynnaliwyd yn Nantglyn, yn y fl. 1853, efe a ennillodd ar englynion coffadwriaethol i Dr. W. O. Pughe. Yn Eisteddfod Merthyr Tydfil, 1856, ennillodd y wobr o 10*p*. am y Fugeilgerdd. Eben Fardd, prif fardd a beirniad Cymru, oedd y beirniad yn y gystadleuaeth hon; ac yr oedd efe o'r farn fod y cyfansoddiad yn llawn deilyngu y wobr. Y flwyddyn flaenorol, anfonodd Ceiriog yr un fugeilgerdd, air am air, i gystadleuaeth leol am wobr o 10*s*.; ond barnai Ioan Emlyn, y beirniad, nad oedd hi, nac un arall a ddaeth i law, yn teilyngu y wobr hono. Y mae rhyw ddirgelwch anesboniadwy ynglŷn â'r dyfarniad uchod o eiddo Ioan Emlyn; o blegid ystyrir y fugeilgerdd hon yn un wir ragorol gan feirdd eraill o safle uchel, heb law Eben Fardd.

Wedi treulio agos i ugain mlynedd yn Manceinion, trôdd ei wyneb tua Chymru; ac yn y fl. 1865, ymsefydlodd fel gorsaf-feistr Cwmni y *Cambrian Railway* yn Llanidloes. Yn 1870, symmudwyd ef i Dowyn, Meirionydd; a'r fl. ddilynol, pennodwyd ef yn arolygwr ar y ffordd haiarn newydd a agorwyd rhwng gorsaf Caersws a gwaith mŵn y Fan, yn mhlwyf Trefeglwys; ac yn y swydd hon y bu efe o hyny hyd ei farwolaeth. Yr oedd efe, er's blynyddoedd bellach, yn hoff gan laweroedd, ac yn cael ei gydnabod gan bawb yn ddiwahaniaeth fel ein prif fardd telynegol. Gwnaeth ei ymddangosiad cyhoeddus olaf yn Neuadd Drefol Holborn, Llundain, ddydd Iau, Tachwedd 11eg, 1886, pan y cymmerodd ran yn y cynnulliad brwdfrydig i ddathlu cyhoeddiad Eisteddfod Caerludd; ac efe, meddir, ydoedd arwr y cyfarfod hwnw. Rhoddwyd iddo groesaw mor gynnes ag oedd yn bossibl; a gosodwyd ef gan y gynnulleidfa hono, heb betrusder, ar flaen y rhestr fel bardd



Digitized by Google

telynegol. Yr oedd yn amlwg y pryd hwnw fod rhyw afiechyd blin wedi gafaelyd yn ei gyfansoddiad; a phan ddychwelodd efe o'r brif ddinas yn ol i'w gartref yn Nghymru, dechreuodd deimlo yn llesg oddi wrth ei effeithiau. Ei afiechyd ar y cyntaf oedd anhwyldeb yr afu; ond ennillodd y fath nerth, fel yr oedd wedi dinystrio seiliau ei gyfansoddiad ef cyn i neb dybied fod perygl. Cafodd gystudd maith a phoenus; ac er pob dyfais o eiddo y meddygon goreu, a gofal tyner ei deulu pruddglwyfus, bu farw mewn tawelwch, Ebrill 23ain, 1887, yn 54ain mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion yn mynwent eglwys Llanwnog, yr hon sydd tua dwy filldir o Gaersws—y dref y preswyliai ynddi. Bu ganddo ef, a'i briod, bump o blant —tri mab, a dwy ferch.

Yr ydym wedi sylwi eisoes ar ymgeisiaeth Ceiriog yn Eisteddfod Merthyr Tydfil, yn 1856. Yn 1859, ni a'i cawn yn fuddugwr hefyd yn Eisteddfod Cymmrodorion Dirwestol Merthyr, ac yn Eisteddfod Llangerniew. Yn Merthyr, rhoddwyd iddo y wobr am ei gân ragorol a phoblogaidd, 'Yr Eneth ddall,' i'r hon y cyfansoddwyd cerddoriaeth gan Dr. Joseph Parry. Ar bryddest 'Jona' yr ennillodd efe yn Llangerniew. Y flwyddyn ganlynol, 1860, y cynnaliwyd Eisteddfod Dinbych; ac er na bu ganddo ran, fel cystadleuydd na swyddog, yn yr ŵyl hon, nid oedd efe mewn un ystyr yn segur; o blegid ceir iddo gyfansoddi llawer o farddoniaeth y flwyddyn hono, a llawer o lythyrau digrifol, duchanol, difyrus, ac addysgiadol mewn ffurf o ohebiaeth rhwng 'Syr Meurig Grynswth, B. B. D. B. Y. P.,' (sef, Ceiriog ei hun) a Bywbothfardd;' yr hwn, fel y dywed y bardd ei hun yn *Oriau'r Hwyr* (y pummed argraphiad), oedd Creuddynfab. Yn y fl. 1861, ennillodd ar duchangerdd, 'Yr Herwheliwr,' yn Eisteddfod Gadeiriol Gwynedd, yr hon a gynnaliwyd yn Nghonwy; a'r un flwyddyn, yn Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr, gyda'i gân 'Alun Mabon. Mewn eisteddfod yn Aberdâr hefyd yr ennillodd efe y brif wobr am y bryddest oreu ar 'Fasnach Rydd.' Ond i droi yn ol am ennyd at y fl. 1860:—yr ydym yn cael fod y bardd, yn y fl. hon, yn anterth prysurdeb ei fywyd llafurus. Tra yn parhau i gyflawni ei ddyledswyddau ar y ffordd haiarn, ymgymmerodd â chasglu a chyhoeddi y gyfres o lythyrau sydd bellach yn hysbys i bob llenor a bardd trwy Gymru benbaladr. Dechreuodd y gyfres gydag *Oriau'r Hwyr;* a dilynwyd ef gan *Oriau'r Boreu*, *Cant o Ganeuon*, *Oriau'r Haf*, *Oriau Eraill*, *Gemau yr Adroddwr*, *Y Bardd a'r Cerddor*, *Cantata Tywysog Cymru*, *Cantata Gwarchae Harlech*, *Anthem Tywysog Cymru*, *Awdl y Môr*, a geiriau Cymraeg i *Songs of Wales* Brinley Richards, &c., &c. Heb law hyn, parhaodd i ohebu yn gysson i'r newyddiaduron a'r cylchgronau, golygu colofn farddonol y FANER, a gwasanaethu fel beirniad mewn amryw o eisteddfodau. Yn y cyfnod hwn, ac yn wir mewn cyfnodau eraill, canodd Ceiriog lawer yn annibynol ar gystadleuaethau; ac y mae y telynegion hyny yn mysg y goreuon o'i gyfansoddiadau. Y maent yn rhy faith i'w henwi yma. Dwywaith y mae yn wybyddus iddo gystadlu am awdl y gadair; ac yn Eisteddfod Caerlleon, yr oedd yn ail i Ap Fychan am ei awdl ar 'Y Môr.' Ond nid mewn cyfansoddi awdlau yr oedd cuddiad ei gryfder ef, er ei fod wedi meistroli y cynghaneddion, a phedwar mesur-ar-hugain cerdd dafawd.

Ond o holl gyfansoddiadau Ceiriog, cydnabyddir yn lled gyffredinol mai 'Myfanwy Fychan' oedd ei brif orchestwaith barddonol. Yn wir, ystyrir hi y rhiangerdd oreu yn yr iaith Gymraeg. Yr oedd yntau yn coleddu hoffder mwy tuag at y gerdd hon nag un o'i gyfansoddiadau eraill, ac eithrio 'Ti wyddost beth ddywed fy nghalon,' a'r 'Fenyw Fach a'r Beibl mawr.' Ac y mae yr elfen sydd yn rhedeg trwy 'Myfanwy,' ac yn ei gwneuthur y fath deleidyn ammheuthyn, yn nodweddu llawer o'i ganeuon eraill. Yr oedd efe, fel y dywedwn, yn meddu gallu dihafal i ddisgrifio teimladau y galon ddynol yn ei holl agweddau, ei hofnau, ei hammheuon, ei disgwyliadau, a'i siomedigaethau, &c. Yr oedd yn fardd serch wrth natur; ac y mae 'serch,' a 'sôn am serch,' yn britho ei gyfansoddiadau. Hyn, o bossibl, ynghyd â'u naturioldeb, a'u prydferthwch perseiniol, sydd wedi gwneyd llawer o honynt mor boblogaidd a bythwyrdd. Os 'Myfanwy' yw y rhiangerdd oreu, dywedir mai un arall o ganeuon Ceiriog, 'Ty wyddost beth ddywed fy nghalon,' yw y foes-gân oreu yn yr iaith. Y mae yr amgylchiadau o dan ba rai y cyfansoddwyd y gân hon, bellach, yn hysbys i lenorion a beirdd y wlad. Bydd i'r caneuon a nodwyd eisoes, ynghyd â llawer eraill a geir yn argraphedig yn ei weithiau cyhoeddedig, fyw cyhyd a'r iaith Gymraeg ei hun.

HUGHES, ROBERT SAMUEL. Un o gerddorion mwyaf adnabyddus Cymru. Ganwyd ef yn Aberystwyth, Gorphenaf 14eg, 1855. O ochr ei fam, hanai y Samueliaid o'r dref hono; ac yr oedd ei fam—Anne Samuel—yn gantores wych. Mr. Benjamin Hughes, gŵr cyfrifol yn y dref, oedd ei dad; a chyrhaeddodd safle anrhydeddus yno. Yr oedd yntau hefyd yn deall cerddoriaeth; ac yr oedd 'R. S.,' fel y gelwid ein gwrthddrych, wedi etifeddu ei chwaeth at gerddoriaeth oddi wrth ei dad a'i fam. Pan yn bedair oed, daeth yn gymmaint meistr ar y *concertina*, fel y gelwid arno i'w chwareu mewn cyngherddau ac eisteddfodau lleol; ac nid hir y bu heb ddyfod yn hyfedr ar y berdoneg. Addysgwyd ef ar yr offeryn poblogaidd hwn gan wraig o'r enw Mrs. Woolet, a Mr. Young, organydd yn y dref. Gwnaeth y fath gynnydd, fel, pan yn saith mlwydd oed, yr ennillodd y wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, yn 1862. Anrhegwyd ef gan bwyllgor yr eisteddfod â chopi o *Alawon Cymreig*, o ddetholiad Pencerdd Gwalia. Wedi ymadawiad Mr. Young o Aberystwyth, gosodwyd ef dan ofal Mr. Inglis Bevan; a than ei addysg ef y bu yn ymarfer â'r berdoneg am amryw o flynyddoedd. Yr oedd ganddo gryn allu i ddeall offerynau cerddorol eraill; ond y berdoneg oedd ei brif offeryn; ac mewn blynyddoedd i ddyfod, nid oedd ei ragorach yn Nghymru fel chwareuydd arni.

Yn yr eisteddfod genedlaethol a gynnaliwyd yn Aberystwyth, yn 1865, ennillodd y wobr yn ddidrafferth. Yn mhen blynyddoedd ar ol hyn, anfonwyd ef i'r Athrofa Frenhinol, i efrydu o dan Mr. Brinley Richards. Pan yn ŵr ieuangc, aeth i Fangor i ymarfer â'r organ dan Dr. Rogers, yr hwn a ddisgwyliai lawer wrtho.

Fel perdonegydd a chyfansoddwr caneuon yr oedd cuddiad ei gryfder; a phrin yr oedd neb yn Nghymru i'w gymmharu âg ef yn y ddwy gangen hyn. Efe ydoedd awdwr 'Y Golomen Wen,' 'Wyt ti'n cofio'r lloer yn codi,'

Digitized by Google

'Bradwriaeth y Dòn,' 'Lle treigla'r Caveri,' ac eraill. Ac oni buasai am ei farwolaeth gynnarol, diammheu y buasai wedi chwanegu at yr uchod nifer fawr o ganeuon poblogaidd eraill. Bu farw Mawrth 5ed, 1893, yn ardal Bethesda, Arfon, lle yr oedd er's peth amser yn dilyn yr alwedigaeth o organydd.

HUGHES, W. E. (Cowlyd). Ganwyd ef yn Nhrefriw, tua diwedd 1816—ardal adnabyddus a rhamantus yn Nyffryn Conwy, a chymmydogaeth a roddodd i Gymru y fath ddynion a William Salisbury, o'r Plas Isaf; Syr John Wynn, o Wydir; Dr. Morgan; Inigo Jones, yr archadeiladydd; Syr Thomas Williams, y llysieuydd a'r meddyg enwog; Ieuan Glan Geirionydd; ac amryw eraill y gellid eu henwi. O un ochr, yr oedd Cowlyd yn hanu o un o hen deuluoedd y plwyf. Yr oedd ei dad yn arolygydd ar un o weithiau mŵn y gymmydogaeth, ac yn fardd o gryn allu. O du ei fam, hanai o hen deulu Coetmor; ac ewythr iddo ar yr ochr hon oedd Ioan ap Gwilym, o Bant-y-llin—cyfieithydd *Gweledigaethau Nef ac Uffern*, o waith Bunyan, i'r Gymraeg. Yr oedd mam y doctor (canys dygwyd Cowlyd i fyny i'r alwedigaeth hono) yn wraig rinweddol a chrefyddol; a bu yn hynod o ofalus ynghylch dygiad ei phlant i fyny. Fel hyn yr ysgrifenai hi at ei mab hynaf i Lundain, lle yr oedd efe yn ymbarotoi at fod yn feddyg:—'Y mae'n dda genyf glywed eich bod yn dyfod yn mlaen; ond, fy machgen anwyl! llawenychwn yn fwy pe y clywn eich bod yn dwyn iau Crist yn eich ieuengctid. Y maent yn dysgu yn dda yn Llundain; ond nid oes neb yn dysgu fel Efe.' Arferai prif bregethwyr y wlad ymweled â chartref ein gwrthddrych tra ar eu teithiau yn yr ardal; megys, Roberts, Dinbych; Morgan, Machynlleth; Jones, Dwygyfylchi; Griffith, Bethel; a Williams, o'r Wern; ac eraill cyffelyb iddynt; ac yr oedd yn naturiol i'r dyn ieuangc dderbyn argraph annileadwy ar ei feddwl trwy gyfeillachu â'r dynion mawr ac ysbrydoledig hyn. Yr oedd wedi darllen llawer, meddir, ar weithiau prif anffyddwyr Ewrop; megys, Spinoza, Hume, ac eraill; ond yr oedd ei ffydd yn ngwirioneddau yr efengyl mor gref fel na lwyddodd un o honynt erioed i siglo ei feddwl, nac i beri iddo ddweyd gair yn ammheus am dani. Dywed cyfaill iddo, nad ymwelodd efe âg ef erioed, na byddai y Beibl, Barnes, neu Clark, ar y bwrdd o'i flaen; ac ychydig, meddir, y tu allan i gylch y weinidogaeth oedd yn deall duwinyddiaeth yn well nag ef.

Wedi myned trwy gwrs o addysg elfenol yn ei bentref genedigol, anfonwyd ef i Ysgol Rammadegol Llanrwst; ac wedi hyny, rhwymwyd ef fel egwyddorwas gyda fferyllydd o'r enw Mr. Thomas, mab Eos Gwynedd. Pan yn ddeunaw, aeth fel efrydydd i ysbytty enwog St. Bartholomeus, yn Llundain; lle y gwnaeth y fath gynnydd yn ei efrydiau, fel yr ennillodd wobrau a gynnygid gan Syr Ashley Cooper, a Dr. Walworth. Yna, wedi cwblhau ei addysg, ymsefydlodd fel meddyg yn Llanrwst; ac yn fuan iawn, trwy nerth ei dalentau, a'i wybodaeth, ennillodd safle anrhydeddus yn y fro. Yn wir, edrychid i fyny ato fel meddyg, nid yn unig gan y werin, ond gan rai o'r un alwedigaeth ag ef ei hun. Syniai Syr Thomas Watson—awdwr *The Practice of Medicine*—am dano ei fod yn rhy alluog i ardal wledig Llanrwst; ac y dylasai efe, yn hytrach, ymfudo i'r brif ddinas. Yr oedd gan Syr William Lawrence, awdwr y darlithoedd ar 'Anianeg, a Hanes Naturiol Dyn,' yr un meddwl am dano.

Treuliodd y gweddill o'i fywyd yn Llanrwst, yn fawr ei barch, ac yn anwyl yn ngolwg ei gydnabod. Bu farw yno Rhagfyr 5ed, 1884, yn 68ain mlwydd oed.

HUMPHREYS, JOHN. Pregethwr adnabyddus perthynol i'r Methodistiaid Calvinaidd oedd efe, a llenor nid anenwog, yn byw yn niwedd y ganrif ddiweddaf, a dechreu hon. Ganwyd ef mewn lle o'r enw Pant-y-ddelw; sef, tyddyn bychan yn nghesel y mynydd yn mhlwyf Bodfari, yn sir Fflint, yn y fl. 1767. Nid yw yn ymddangos fod ei rïeni yn perchen rhyw lawer o bethau y byd hwn; a chan fod ganddynt deulu lliosog, nid llawer o fanteision addysg a gafodd efe pan yn fachgen. Ond gwnaeth i fyny am y diffygion hyn trwy ddiwyllio ei feddwl, a thrwy hunan-addysgiant, wedi iddo dyfu i fyny. Pan oedd y teulu yn ieuaingc, symmudodd ei rïeni i le o'r enw Pen-y-mynydd, yn mhlwyf Tremeirchion—tyddyn heb fod yn mhell o Bant-y-ddelw. Elai John Humphreys, pan yn ieuangc, i wrandaw yr efengyl i hen gapel y Dyffryn, a'r Geinas, ac i gapel Caerwys; a daeth yn aelod eglwysig yn lled gynnar ar ei oes. Ni wyddis pa bryd y dechreuodd efe bregethu; ond gan iddo gael ei ordeinio yn y fl. 1816, sef yn mhen pum mlynedd ar ol yr ordeiniad cyntaf yn y Bala yn 1811, ac nad oedd tadau y cyfundeb yn y dyddiau hyny yn dodi eu dwylaw ar neb yn ebrwydd, gellir casglu iddo ddechreu ar y gwaith cyssegredig rywbryd yn niwedd y ganrif ddiweddaf. Gan fod J. Humphreys yn Gymreigiwr da, ac wedi ystorio ei feddwl â gwybodaeth gyffredinol, cyflogwyd ef, yn y fl. 1798, gan ŵr o'r enw W. C. Jones, argraphydd, Caerlleon, i ddyfod i'w argraphdy ef i'r ddinas hono i ddarllen prawfleni y llyfrau Cymreig a gyhoeddid yn y swyddfa hono. Ymddengys mai Cymro heb fedru yr hen iaith oedd y W. C. Jones hwn. Yr oedd, cyn hyny, yn gyfranog âg un Carnes, argraphydd, yn Nhreffynnon; ond sefydlodd Mr. Jones ar ei gyfrifoldeb ei hun yn y ddinas a nodwyd; a symmudodd J. Humphreys yno, fel y dywedwyd, i adolygu yr adran Gymreig o waith y swyddfa: a bu yno am bedair blynedd—o 1798 hyd 1802. Yn swyddfa W. C. Jones, yn Nghaerlleon, yr argraphwyd y llyfr cyntaf o'r *Drysorfa Ysbrydol*, yn y fl. 1799, o dan olygiaeth y Parchn. T. Charles, o'r Bala; a T. Jones, o Ddinbych; a dïau fod gan John Humphreys ran arbenig yn y gorchwyl o'u dygiad allan. Yn yr un swyddfa, hefyd, yn Nghaerlleon, yr argraphwyd y rhanau cyntaf o *Eiriadur Ysgrythyrol* y Parch. T. Charles; ac y mae enw J. Humphreys i'w weled ynglŷn âg un neu ddau o'r rhanau cyntaf o'r gwaith.

Pan yn Nghaerlleon, dybygid, y cafodd John Humphreys fantais i arfer ei ddoniau i bregethu yr efengyl yn yr iaith Saesnig; canys yr oedd yn gallu pregethu yn yr iaith hono—yr hyn beth oedd yn lled anarferol yn y dyddiau hyny i un a anesid, ac a fu yn byw y rhan gyntaf o'i oes yn Nghymru. Yn mhen amser, symmudodd o Gaerlleon i ffermdy yn mhlwyf Tremeirchion, o'r enw Cil-deugoed; a symmudodd oddi yno, yn mhen rhai blynyddoedd, i amaethdy o'r enw Croes-wïan—lle sydd o fewn tua milldir i Gaerwys.

Digitized by Google

Yn y fl. 1813, cyhoeddodd ei Feibl mawr yn Gymraeg; sef, *Beibl Samuel Clarke:*—llyfr unplyg mawr. Byddai yn cael ei ystyried yn y dyddiau gynt gan deuluoedd yn gynnysgaeth werthfawr. Y mae llythyr John Humphreys at ei gydwladwyr, yr hwn a welir ynglŷn â'r Beibl, wedi cael ei ddyddio 'Caerwys, Mawrth 20fed, 1813. Argraphwyd ef dros y cyfieithydd (sef, Mr. John Humphreys) gan J. Painter, Gwrecsam.'

Ar ol dychwelyd i Gymru, yr oedd John Humphreys yn llafurus iawn gyda phregethu ar hyd a lled yr ardaloedd, mewn manau lled baganllyd; a byddai yn cymmeryd rhan flaenllaw gyda gorchwylion y Methodistiaid yn siroedd Fflint a Dinbych. Yr oedd y ddwy sir y pryd hwnw yn un cyfarfod misol. Fel y dywedwyd, fe ordeiniwyd ef, a dau bregethwr arall, yn y fl. 1816; yr hyn sydd yn arwydd iddo ennill iddo ei hun radd dda yn mysg ei frodyr. Cymmerodd ran arbenig, gyda brodyr eraill, gyda chyfansoddiad *Y Cyffes Ffydd* i'r cyfundeb. Efe, a'r Parch. John Parry, Caerlleon, oedd yn cynnrychioli sir Fflint yn yr amrywiol bwyllgorau a fu ar yr achos hwnw rhwng y bl. 1821 ac 1823, ac yn y cymmanfaoedd y blynyddoedd hyny, nes penderfynu yn derfynol ar holl gynnwys y llyfr. Efe, hefyd, a ysgrifenodd 'Hanes dechreuad a chodiad y Corph'—yr hwn a welir yn nechreu y llyfr.

Dechreuodd ein gwrthddrych gyhoeddi Beibl Teuluaidd arall, yr hwn y dechreuwyd ei argraphu yn y Bala, gan R. Saunderson. Ond fe'i lluddiwyd ef gan farwolaeth i gwblhau y gorchwyl. Yr hysbysiad a ganlyn a ddengys brif linellau y gwaith hwn:—'Y Beibl Teuluaidd; sef, yr Hen Destament a'r Newydd, gydag Adfyfyriadau helaeth ar bob Pennod, gan y Parch. John Brown, o Haddington; a holl Nodau Cyfeiriadol yr un gŵr ar ymyl y ddalen. Hefyd pigion o'r pethau mwyaf nodedig a rhagorol yn Esboniad y Parch. Matthew Henry. Gyda hyny, Nodiadau Achlysurol ar fanau neillduol, allan o waith amryw o'r Awdwyr mwyaf enwog a dysgedig, ynghyd â'r Teithwyr goreu eu gair, yn gystal hen a diweddar.' Bu John Humphreys farw pan yn ysgrifenu y Nodiadau ar *Barnwyr* xiii.

Ymddengys mai yn amaethdy Croes-wïan y treuliodd efe y rhan fwyaf o'i oes; ac ar amryw gyfrifon, rhoddodd enwogrwydd neillduol ar y lle hwnw. Yn mhlith anturiaethau daionus eraill, nid y lleiaf ei ddylanwad yn Groes-wïan oedd y cyfarfod darllen ac egwyddori a gynnaliwyd yn wythnosol yno i holl ieuengctyd addawol yr ardaloedd. Yr oedd Croes-wïan yn tynu ato hufen talent yr holl gymmydogaeth. 'Coleg y darllenwyr a'r duwinyddion' y gelwid y sefydliad. Dywedir fod yr athraw a'r dysgyblion mor lwyr ymroddedig i'w gwaith, fel ar lawer pryd y byddai oriau meithion y nos yn myned heibio heb iddynt feddwl; ac mai yr arwydd cyntaf a geid iddynt ymwahanu oedd gwawr y boreu yn ymwthio i'r ystafell ysgolheigaidd. Cynnyrchodd cyfarfod darllen ac egwyddori Croes-wïan lu mawr o ddarllenwyr medrus, a duwinyddion galluog; y rhai a adnabyddid ar hyd yr ardaloedd am flynyddoedd lawer fel 'dysgyblion John Humphreys.' Dynion oeddynt ag yr oedd yn bleser gwirioneddol cael bod yn eu dosbarthiadau yn gwrando arnynt yn darllen ac yn egluro athrawiaethau yr efengyl. Symmudodd y Parch. J. Humphreys, yn niwedd ei oes, o'r Croes-wïan i dyddyn o'r enw Cil-llwyn, yn mhlwyf Bodfari—lle y bu farw, Ebrill 13eg, 1829. Claddwyd ef yn mynwent Caerwys.

HOWE, ELIAS. Ganwyd ef yn y fl. 1819, a bu farw yn 1867. Ennillodd enwogrwydd fel dyfeisydd y peiriant gwnïo.

HOWE, RICHARD, Iarll. Llyngesydd Prydeinig oedd efe, ac ail fab i'r Is-iarll Howe. Ganwyd ef yn 1725. Ymunodd â'r llynges pan yn bedwar-ar-ddeg oed; a bu yn gwasanaethu dan y llyngesydd Anson yn erbyn yr Yspaeniaid yn y Tawelfôr. Gwnaed ef yn gadben pan oedd yn ugain oed; ac yn uniongyrchol wedi hyny, llwyddodd i ymlid ymaith oddi ar arfordir Ysgotland ddwy long Ffrengig a gludent ddefnyddiau rhyfel i'r *Young Pretender*—Charles Edward Stuart. Cymmerodd ran flaenllaw yn mrwydrau morawl y 'Rhyfel Saith Mlynedd,' fel ei gelwid, gan ennill anrhydedd uchel iddo ei hun mewn amryw o honynt. Yn 1758, cafodd y teitl Gwyddelig o 'is-iarll,' ar farwolaeth ei frawd. Yn 1763, pennodwyd ef yn un o arglwyddi y morlys; ac yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, cafodd ei ddyrchafu i'r swydd bwysig o drysorydd y llynges. Yn 1778, amddiffynodd y glanau Americanaidd yn erbyn llynges gref y llyngesydd D'Estaing; yr hwn a gurodd efe ymaith yn nghyffiniau Ynys Rhode. Gwnaed ef yn is-iarll Prydeinig yn 1782. Yr un flwyddyn, anfonwyd ef allan i gynnorthwyo Caerfa Gibraltar yn erbyn y gelynion; ac wedi glanio milwyr, defnyddiau rhyfel, ac ymborth, efe a wnaeth a allai i geisio dwyn o amgylch frwydr rhyngddo a llynges unedig Ffraingc ac Yspaen: ond gwrthodasant, a chiliasant i gyffiniau Cadiz. Gwnaed Howe yn brif-arglwydd y trysorlys yn 1783; ac yn 1788, derbyniodd iarllaeth Prydeinig. Pan dorodd y rhyfel â Ffraingc allan, yn y fl. 1793, ymddiriedwyd iddo lywyddiaeth Llynges y Sianel; a'r flwyddyn ddilynol, ennillodd oruchafiaeth ar y gelynion ger llaw Ushant. Gelwir y fuddugoliaeth hono yn Saesneg yn '*The Glorious first of June.*' Yr oedd llynges Ffraingc, yn gynnwysedig o 26 o ryfel-longau mawrion, a llynges Brydain o 25. Mewn ychydig iawn o amser, cymmerwyd saith o longau Ffraingc gan y Prydeinwyr; ac analluogwyd deg eraill o honynt. Chwanegodd y fuddugoliaeth hon yn ddirfawr at gymmeriad Howe fel un o brif fôr-lywyddion blaenaf y deyrnas. Bu farw Awst 5ed, 1799.

HOWEL, GRUFFYDD:—o Rushacre, Rhydwilym, yn Llanddewi Felfre. Yr oedd efe yn un o dri chedyrn y Bedyddwyr yn Mhenfro, yn nyddiau erledigaeth, blaenffrwyth dychweledig Bedyddwyr Rhydwilym, a phrif bregethwyr Saesneg y parthau hyny. Ni roddir ei achau; ac ymgolla hyd yn oed dyddiau ei enedigaeth yn niwl yr erledigaeth a'i cylchyna; ond tybir ei fod wedi ei eni tua'r fl. 1649. Ymddengys i drefedigaeth o Flemingiaid, o Flanders, ymsefydlu yn y cylchoedd hyny tua 1105; a dichon fod gwrthddrych ein hysgrif, o ran gwaed, wedi ymgymmysgu â hiliogaeth y rhai hyny, gan y meddai gryn gydymdeimlad â hwy; ac fe ddychwelwyd amryw o dan ei weinidogaeth. Dychwelwyd ef dan bregethau yr anfarwol William Jones; yr hwn a fu gynnifer o weithiau yn ngharcharau Caerfyrddin a Hwlffordd; ac a

Digitized by Google

derfynodd ei yrfa tua 1700. Efe, hefyd, oedd y cyntaf a fedyddiwyd ganddo; yr hyn a gymmerodd le, yn ol un dyddiad, Mehefin 4ydd—yn ol un arall, Awst 4ydd, 1667. Yr oedd y lle y bedyddiwyd ef yn rhan o'i etifeddiaeth. Cred rhai, er nad oes brawf o hyny, fod Howel, a Jones, ei gyd-lafurwr, yn flaenorol yn gwasanaethu y llanau plwyfol dan Ddeddf 1649; ac iddynt, fel llawer eraill, yn 1660 neu 1662, gael eu bwrw allan.

Yr oedd Gruffydd Howel yn foneddwr o ddysg, safle, a dylanwad yn y byd; a chafodd grefydd trwyddo afael gref ar y parthau hyny o'r wlad. Yr oedd ei dŷ fel tŷ Acwila, yn fan cyfarfod yr eglwys yn y wlad hono am lawer o flynyddoedd; ac yn y tŷ hwn y corphorwyd yr eglwys yn 1668. Ni feddai y Bedyddwyr un capel yno hyd 1701; pryd y codwyd capel Rhydwilym, gan J. Evans, Llwyn-dwfr, ar ei draul ei hun. Hyd hyny, ymgynnullai y saint yn nhŷ Howel, a Llwyn-dwfr, Cilcain, Ynysfach, a Chilfowyr. Gwnaed ef yn henuriad, ac yn gyd-henuriad â William Jones, y dydd y bedyddiwyd ef. Gofalai Jones am y rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb pregethwrol, a Mr. Howel am y fugeiliaeth. Ystyrir, hefyd, mai W. Jones fyddai yn bedyddio fynychaf, er na cheir ei enw yn y coflyfr cyn 1688; am, fe ddichon, y cedwid ei enw allan rhag trallod oddi wrth yr ysbïwyr. Yr oedd yr amseroedd yn enbyd; ac yn sicr, costiodd ymlyniad Howel wrth Anghydffurfiaeth yn ddrud iawn iddo. Goddiweddwyd ef â cholledion ac ysbeiliau nad ydynt wedi eu croniclo. Yn ol tystiolaeth ei ferch ei hun, yr oedd yn ngharchar yn 1673—y flwyddyn y bedyddid John Evans, o Lwyn-dwfr, Rhydwilym. Er cymmaint a ddioddefodd Howel yn herwydd crefydd, gadawodd 40*p*. at gynnal crefydd ar ol ei ymadawiad. Derbyniai eglwys Rhydwilym lôg y swm am amser maith ar ol ei farwolaeth; yr hwn a ddefnyddid i gynnal y weinidogaeth. Ond erbyn hyn, y mae y gwaddol wedi colli.

Glaniodd William, Tywysog Orange, yma, yn Mhrydain yn 1688, gan sefydlu, y flwyddyn ddilynol, Ddeddf Rhyddid gwirioneddol. Yn nghysgod hon, cynnaliodd y Bedyddwyr eu cymmanfa yn Medi, 1689, pryd yr oedd chwech o Gymry yn bresennol ynddi:—dau o ba rai oedd William Jones, a Gruffydd Howel. Hunodd y ddau yn oedranus, wedi gyrfa o lafur caled. Bu Gruffydd Howel farw yn y fl. 1707.

Yn y dyddiau terfysglyd hyny, ymosodid yn ffyrnig ar y Bedyddwyr yn nghladdedigaeth eu meirw. Y rhai o honynt a esgymunid o'r llanau plwyfol, a attelid hefyd o orweddfa yn y mynwentydd. Gorfodid hwynt i gladdu eu hanwyliaid yn y gerddi, y meusydd, a manau eraill—a hyny yn y nos! Codwyd corph merch ieuangc o'r bedd, ar orchymyn parson Llanfihangel, yn sir Faesyfed, a chladdwyd ef ar y groesffordd! Arweiniodd y caledi hwn y Bedyddwyr i ddarparu claddfeydd iddynt eu hunain. Yr enwocaf o'r holl rai hyn yw Gardd Gladdu Trefangor, fel ei gelwid, a ddarparwyd gan Gruffydd Howel, o Rushacre, ar ei dir ei hun, yn Llanddewi Felfre, yn sir Benfro. Adeiladodd Howel fur mawr ac uchel o amgylch darn o'i dir ei hun, i fod yn gladdfa cyfeillion crefyddol y gymmydogaeth; a Gruffydd Howel ei hun oedd y cyntaf a gladdwyd ynddi! Nid oes sicrwydd pa bryd y gwnaeth efe hi; ond cafodd gweithred y cyflwyniad ei hamseru yn 1690; yn yr hon y mae y tir yn cael ei gyflwyno 'at wasanaeth Anghydffurfwyr y gymmydogaeth dros byth!'

Tua'r flwyddyn 1862, bu cynghaws cyfreithiol ynghylch y gladdfa hon, rhwng y Bedyddwyr a Mr. J. L. P. Lewis, o Henllan; yr hwn a hawliai y lle, am ei fod yn ei ystyried yn rhan o'i etifeddiaeth. Achlysur y cynghaws oedd hyn:—Bu farw y Parch. D. Griffiths, athraw Coleg Accrington, yr hwn oedd yn enedigol o ardal y Gelli, ac a arferai aros cryn amser yn Arberth, a'i chylchoedd, yn ei flynyddoedd diweddaf—gŵr galluog. Fel brodor o'r gymmydogaeth, yr oedd yn awyddus am gael ei gladdu yn y fynwent hon. Gwrthwynebid hyn gan Mr. Lewis, am na thelid yr ardreth flynyddol. Dygwyd y corph at y fynwent, torwyd y clô, a chladdwyd gweddillion Mr. Griffiths yno. Fel canlyniad, appeliwyd at y gyfraith. Collodd y Bedyddwyr yr achos, am nad allent gael gafael ar y gweithredoedd, yn mha rai y rhoddodd Mr. Gruffydd Howel y tir claddu yn feddiant i'r Bedyddwyr. Ond yn mhen amser, fe gafodd Mr. Lewis ei hun afael ar y gweithredoedd; a bu yn ddigon o foneddwr i hysbysu hyny yn uniongyrchol; a rhoddodd y tir i fyny i Mr. W. Rees, o Hwlffordd—cyfreithiwr y Bedyddwyr yn yr achos. Y mae gŵr o'r fath yn teilyngu parch—a theimlid felly tuag ato. Chwanegodd Mr. Lewis, hefyd, tuag erw o dir er helaethu y fynwent; ac y mae hi yn awr wedi ei hamgylchu â muriau gwynion, ac yn un o'r claddfeydd prydferthaf yn y wlad. Cyhoeddwyd hanes y prawf, &c., mewn llyfryn bychan gan y Parch. Henry Price, gweinidog y Bedyddwyr yn Rhydwilym.

Yn niwedd y fl. 1668, rhifai aelodau eglwys Rushacre 48; yn 1689, yr oeddynt yn rhifo 113—y rhai a ddeuent allan o'r cystudd mawr yn nyddiau Charles II.. Yr oedd pymtheg o'r rhai hyn yn fyw i weled cynhauaf toreithiog, ar ol adfyd caled; y rhai oeddynt bymtheg aelod cyntaf yr eglwys—a'r cyntaf o'r pymtheg hyny oedd Gruffydd Howel. Hunodd yn yr angeu, fel y nodwyd, yn 1707.

HOWELLS, Parch. WILLIAM, Prif athraw Athrofa Trefecca. Tua hanner can mlynedd yn ol, nid oedd gan y Methodistiaid Calvinaidd ond ychydig o achosion Saesnig; a chan fod yr enwad yn un hollol Gymraeg, o ran ei darddiad a'i dyfiant, heb un cyssylltiad rhyngddo ag un enwad Saesneg yn Lloegr, araf iawn y cychwynwyd; ac wedi cychwyn, teimlid anhawsder mawr i gael gweinidogion. Yr oedd yr hen gewri yn ddi-eithriad yn Gymry, ac yn well ganddynt Gymraeg; a threth drom arnynt oedd pregethu yn Saesneg. Teimlent mewn cadwyni; ac wedi cyrhaedd gradd o deimlad, torent y rhai hyny yn chwilfriw mân mewn hyawdledd Cymraeg. Ond tua'r fl. 1845, ymddangosodd pregethwr ieuangc, er wedi ei fagu mewn amaethdy yn y Deheudir, ag yr oedd yn well ganddo Saesneg na Chymraeg; yr hwn oedd, fel yr arferai ddweyd, 'â chalon Cymro, a thafod Sais.' Pan gynnhesai calon hwn wrth bregethu Cymraeg, troai i'r Saesneg; ac yn ei flynyddoedd olaf, ni phregethai yn Gymraeg o gwbl. Cymmerodd ei le ar unwaith fel un o brif bregethwyr yr enwad yn yr iaith Saesnig; a chadwodd ef hyd ei farwolaeth.

Ganwyd William Howells ar y 4ydd o Hydref, 1818, yn Westgate House:—tŷ a safai y tu allan i un o byrth dinas fechan henafol

Digitized by Google

Pontfaen, yn Morganwg: yr hon oedd unwaith yn ddinas gaerog, fel y dengys enw y tŷ. Enw ei dad oedd Dafydd Howells. Yr oedd efe yn frawd i'r enwog Barch. William Howells, Long Acre; yr hwn unwaith a fu yn giwrad i'r diweddar Barch. David Jones, o Langan; ac wedi hyny, am lawer o flynyddoedd, yn un o brif bregethwyr Llundain. Yr oedd Dafydd, yntau, yn ddyn da iawn. Bu yn foddion i godi y capel cyntaf i'r Methodistiaid yn Pont-faen; ac ar ei dir ef yr adeiladwyd y capel. Llwyddodd i gael Rowland Hill, a David Charles, o Gaerfyrddin, i agor y capel, drwy ymweled yn bersonol â'r ddau. Ar un o'r teithiau hyny, cafodd anwyd trwm; a phan yr agorwyd y capel, nid oedd yn alluog i fod yn bresennol. Bu farw Awst, 1825, yn 44ain ml. oed—pan, fel y gwelir, nad oedd gwrthddrych ein hysgrif ond saith mlwydd oed.

Gosodwyd William yn ysgol y pentref—ysgol o gryn enwogrwydd—a elwid yr 'Eagle.' Nis gwyddom ai enw y tŷ, ai arwyddair yr ysgol, oedd yr enw hwn. Pa fodd bynag, dangosodd William feddylgarwch mwy na'r cyffredin pan yn ieuangc. Pan ddeuai y cwestiwn yn y dosbarth heibio iddo, byddai mewn dwfn fyfyrdod yn aml—fel wedi anghofio pob peth; yr hyn a barodd i'w athraw ei alw yn '*Will in the Clouds.*' Ond ennillodd serch yr hen athraw gymmaint fel y darfu iddo ei gymmeryd i'w dŷ, i roddi iddo wersi ar ei ben ei hun.

Gosodwyd ef yn egwyddorwas gyda Mr. Trueman, masnachydd, yn Pen-y-bont. Oddi yno symmudodd i Gaerdydd; ac oddi yno drachefn i Chichester; ac yno y penderfynodd ymgyssegru yn llwyr i waith y weinidogaeth. Dychwelodd adref; ac yn fuan, derbyniwyd ef i Drefecca. Nid ydym wedi cael allan i sicrwydd pa bryd y derbyniwyd ef i'r athrofa, na pha faint yr arosodd yno. Yn nghofnodion pwyllgor a gynnaliwyd yn Nhrefecca, yr 28ain o Ragfyr, 1842—blwyddyn agoriad yr athrofa—cawn ei fod ef a David Hughes wedi eu derbyn fel y ddau efrydydd yr oedd gan sir Fynwy hawl i'w hanfon yno; a bod Edward Matthews, yr hwn oedd wedi ei dderbyn yn flaenorol o sir Forganwg, i gael y lle gwâg a berthynai i sir Fynwy. Nis gallai ei arosiad yn Nhrefecca fod yn hwy na thair blynedd; canys yn Ionawr, 1846, cawn ef wedi ymsefydlu yn weinidog ar yr eglwys Saesnig yn Abertawe; ac yn mhen ychydig fisoedd, priododd Miss Morgan, Glanbrydau, Llangadog, sir Gaerfyrddin. Trwy ei offerynoliaeth ef yr adeiladwyd y capel Saesneg cyntaf yn y dref; ac agorwyd ef yn Mai, 1847. Neillduwyd Mr. Howells i gyflawn waith y weinidogaeth yr un flwyddyn, yn Nghymmanfa Aberteifi. Yn 1850, efe a ymfudodd i America; ond dychwelodd yn fuan iawn: ac yn nechreu 1851, ymgymmerodd â bugeilio eglwys Saesnig Seion, Caerfyrddin. Yn 1857, symmudodd i Liverpool; ac yn 1865, etholwyd ef yn llywydd Athrofa Trefecca; yr hon swydd a lanwodd er boddlonrwydd i bawb am dair-ar-hugain o flynyddoedd—hyd ei farwolaeth, yn 1888.

Bellach, ni a roddwn yma ychydig o'i nodweddion. Yr oedd yn ddyn gonest iawn, fel y gwelir oddi wrth yr enghraifft ganlynol:—Un diwrnod, dywedodd wrth ei feistr nas gallasai aros yn hwy gydag ef. 'Y mae genych nwyddau yma (meddai) y rhai nis goddef fy nghydwybod i mi eu cymmhell ar eich cwsmeriaid. Dyma bethau wedi myned yn hen ac yn sâl, ac y mae o bwys i chwi allu eu gwerthu; ond nis gallaf fi eu gwerthu drosoch. Nis gallaf fi ddyweyd fod pethau yn dda pan yr wyf yn gwybod eu bod yn ddrwg.'

Yr oedd yn ddyn tyner iawn. Nis gwyddom fawr o'i hanes pan yn efrydydd yn Nhrefecca; ond gwyddom ei fod yn barod iawn i gynnorthwyo ei gyd-efrydwyr. Llwyddasom i gael hon o'i enau ef ei hun. Yr oeddym yn sôn am un o'i gyd-efrydwyr, David Price, o Langamarch—'A wyddoch chwi (ebai) yr olwg olaf a gefais i arno? Wel, yr oedd yn bur dlawd, ac yr oeddwn wedi rhoddi fy het iddo; ac un boreu Llun, pan yn dychwelyd o fy nghyhoeddiad, cyfarfuais âg ef ar y ffordd, yn myned o'r athrofa. Wrth ffarwelio âg ef, gadewais ychydig sylltau yn ei law. Ac ar droad y ffordd, edrychais yn ol i gael yr olwg olaf arno; a dyna lle yr oedd, ar ei ddeulin, yn y fan yr ymadawsom.' Parhaodd i wneuthur cymmwynasau di-rif i'r efrydwyr tra y bu yn llywydd ar yr athrofa, a phregethodd lawer yn yr eglwysi bychain cymmydogaethol—heb dderbyn unrhyw gydnabyddiaeth am ei lafur.

Yr oedd o dymmer naturiol wyllt, yr hyn a'i harweiniai weithiau i brofedigaeth; ond nid oedd neb yn fwy parod i gydnabod ei fai, ac i wneyd ymddiheurad.

Ei ragoriaeth fel ysgolhaig, yn ddïau, oedd ei feistrolaeth o'r iaith Saesnig, a'i llenyddiaeth. Chwanegai hyn lawer at dlysni ei bregethau. Geiriau byr, syml, Sacsonaidd, cryfion, a arferai; ac yr oeddynt mor syml nes y byddai hen bobl anllythyrenog yn dyweyd eu bod yn gallu deall Saesneg y prifathraw, tra yn methu deall yr efrydwyr. Er hyny, yr oeddynt mor gryfion nes codi y cynnulleidfaoedd. Trodd lawer o emynau Williams, Pant-y-celyn, ac eraill, i'r Saesneg, a rhai Saesneg i'r Gymraeg hefyd. Yr oedd ar ei ben ei hun fel cyfieithydd emynau; yr hyn a brawf ei fod yn fardd o chwaeth ac athrylith.

Llafuriodd yn galed iawn yn Nhrefecca; ac nid oedd dim llafur yn ormod ganddo ei gymmeryd fel athraw; a chlywsom ei olynydd, y Parch. D. Charles Davies, yn dyweyd ei fod yn synu at y gwaith a gyflawnodd, a'r boen a gymmerodd. Rhoddodd ei swydd i fyny; ond ni fynai y gymdeithasfa dderbyn ei ymddiswyddiad.

Fel pregethwr, nis gallwn wneuthur yn well na dyfynu yr hyn a ganlyn gan Dr. Cynddylan Jones, un o'i hen efrydwyr:—'Cyn pen pum munyd, enfyn argyhoeddiad i feddwl pawb ei fod yn siaradwr di-ail—nid areithiwr, ond siaradwr. Siaradai yn rhydd a rhwydd, yn yr iaith fwyaf coeth a dewisol, gan ochel y geiriau mawrion, hirion, Lladinaidd, sydd yn demtasiwn mor gref i bregethwyr ieuaingc di-brofiad, i ddangos i'r gwrandawyr eu bod yn deall yr iaith Saesnig, gan nad beth am yr efengyl. Daw ei ddychymyg bywiog i mewn, i chwanegu at ddyddordeb y pwngc sydd mewn llaw:—nid dychymyg hedegog, rhamantus, ond o'r natur hyny a adnabyddir gan y Saeson fel *fancy*. . . Tafl allan berl ar ol perl am yn agos i hanner awr; yna gwelir ei deimladau yn dechreu ymddadebru. Edrychwch ar wythïenau y talcen yn chwyddo—gwelwch y wyneb yn cochi—craffwch ar y ddeheulaw i fyny, ac yn disgyn mewn hanner cylch, gyda nerth ofnadwy. Clywch y llais, gwyliwch y brawddegau—dyna i chwi raiadr o hyawdledd. . . Nid oedd y bregeth ond cyfres

Digitized by Google

o'r dolydd harddaf, ac o'r rhaiadrau gwylltaf —dol a rhaiadr bob yn ail; ond fod y dolydd yn myned yn llai, a'r rhaiadrau yn fwy fel y tynai y bregeth tua'r terfyn.'

Gallwn chwanegu i'r efrydwyr ddysgu llawer wrth ei wrandaw yn siarad ac yn pregethu. Mawr oedd eu braint, canys yr ydoedd mewn gwirionedd yn bregethwr Saesneg rhagorol.

# J.

JONES, DAFYDD, Caerdydd. Ganwyd y gŵr da hwn yn y fl. 1808, mewn bwthyn a elwir Pen-rhiw-fach, yn mhlwyf Llanpumsaint, tua chwe milldir o dref Caerfyrddin. Hanodd amryw wŷr enwog o'r plwyf uchod; sef, Thomas Job, y serydd wr; Thomas Jones, o'r Ysgar, yr esboniwr; yr ysgrifenydd ffraethlym *Brutus;* a William Williams, Coventry, yr aelod seneddol hyawdl dros Lambeth—yr hwn a wnaeth iddo ei hun y fath enw mewn llywod-ddysg. Bu William Williams a Dafydd Jones yn yr ysgol gyda'u gilydd; a dyddorol oedd eu cyfarfyddiad yn mhen blynyddoedd yn Nghaerdydd, wedi i'r ddau esgyn i fri ac enwogrwydd yn eu gwahanol gylchoedd. Enwau ei rïeni oedd Benjamin ac Esther Jones. Töwr oedd y tad wrth ei alwedigaeth; a deallai pa fodd i drin tir yn dda. Yr oedd efe yn ŵr diwyd, sobr, a duwiolfrydig, ac yn aelod yn eglwys y Bedyddwyr yn Rhyd-argaeau. Nodweddid y fam gan bwyll, distawrwydd, a glanweithdra. Dafydd oedd yr hynaf o'r tri phlentyn. Bu farw y tad pan oedd ei unig fachgen yn ieuangc; felly, bu raid i Dafydd adael yr ysgol, a myned yn was 'twt' at Mr. John Morgan, Glangwili, amaethydd cyfrifol yn y gymmydogaeth, fel y gallai gynnorthwyo ychydig ar ei fam weddw a'i ddwy chwaer. Cafodd driniaeth arw yn ei le newydd gan 'y gwas penaf'—ei gernodio, a'i droedio yn ddi-drugaredd—yr hyn fu yn achos i beri iddo ymadael o Glangwili, a myned 'bant i'r gweithiau,' fel y dywedai. Penderfynodd fyned at ewythr iddo, brawd i'w dad, oedd yn byw yn Merthyr Tydfil. Rhwygwyd calon y fam yn arw wrth orfod ymadael â'i bachgen, ac yntau mor fychan ac egwan o gorph, ac heb fod uwch law tair-ar-ddeg oed. Er ei bod yn wir dlawd, gosododd swllt yn ei logell, i gychwyn ei daith. Yn mhen peth amser, daeth Dafydd Jones o hyd i borthmon oedd, hefyd, yn myned i Ferthyr; a chafodd ei gwmni weddill y ffordd. Cyn cyfarfod y porthmon, curodd Dafydd wrth ddrws cefn amaethdŷ parchus yr olwg arno, a gofynodd am ychydig fara a chaws. Cafodd ei alw at y bwrdd yn serchog; a rhoddodd y forwyn geiniog-a-dimai yn ei law wrth ymadael. Yn mhen blynyddoedd, pan oedd efe yn anterth ei nerth a'i enwogrwydd yn Nghaerdydd, gwahoddwyd ef i bregethu i ŵyliau blynyddol un o eglwysi y parthau hyny; ac er ei syndod, i'r amaethdŷ uchod yr arweiniwyd ef i lettya. Pan welodd efe wraig y tŷ, adnabyddodd hi ar unwaith. Cofiodd yr amgylchiad gynt, a gorchfygwyd ei deimladau; ond nid oedd arno gywilydd dyweyd yr hanesyn hwn yn fynych ar ol hyny. Pan yn Merthyr, yn ffodus, cyfarfyddodd âg un a fedrai ei gyfeirio yn syth i dŷ ei ewythr. Derbyniwyd ef yn garuaidd ddigon gan y teulu; ond am ryw reswm, ychydig fu ei arosiad yn ninas yr haiarn; o blegid aeth drosodd i'r Fenni, wrtho ei hun, i geisio gwaith. Cyflogwyd ef yn y forthwylfa yno; ac yno yr ymgartrefodd. Nid hir y bu efe ar ol hyn cyn danfon llythyr at y Parch. James, Rhydargaeau, yn holi am ei fam, gan drefnu ei chael hi, ac un chwaer iddo, ato i fyw.

Dygwyd Dafydd Jones o dan ddylanwad yr efengyl yn Ebenezer, Blaenafon. Yn fuan wedi iddo ymaelodi, tynwyd sylw y frawdoliaeth at ei gymmhwysderau i'r weinidogaeth. Meddai lais peraidd, dawn traddodi naturiol, a difrifoldeb a thaerineb neillduol wrth orsedd gras. Cymmhellwyd ef i ddechreu pregethu tua diwedd Medi, neu ddechreu Hydref, 1829. Cafodd y myfyrwyr oedd yn Ngholeg y Fenni, ar y pryd, o dan ddysgeidiaeth y Parch. Micah Thomas, ddeall fod lle i Dafydd Jones gael ei dderbyn i'w plith. Aeth dau o honynt—sef, Dafydd Rhys Stephen, a John Williams (*Ioan ab Ieuan*), Aberduar wedi hyny—ar ffrwst i'w gyrchu. Nid oedd ganddynt ond rhyw bedair milldir; a dychwelasant yn fuan, â'r myfyriwr newydd gyda hwy. Nid oedd un yn yr athrofa wedi cael mor lleied o fanteision boreuol a Dafydd Jones. Ychydig iawn o Saesneg a wyddai efe; a bu lawer gwaith yn brofedigaeth lem iddo orfod gweddïo mewn moddion teuluaidd yn yr iaith hono. Sychedai yn fawr am wybodaeth; ac er mai o forthwylfa yr aeth efe i'r athrofa, gwnaeth y goreu o'i amser. Cydfyfyrwyr âg ef oedd y Parch. John Evans, Abercanaid; John Jones, Seion, Merthyr; Titus Jones, Castellnedd; Edward Evans, Dowlais; a'r rhai a nodwyd eisoes. Wedi treulio tair blynedd yn yr athrofa, dewisodd, o nifer o alwadau, yr hon a gafodd gan ei fam-eglwys yn Ebenezer, Blaenafon. Bu yn gymmharol lwyddiannus yno am ddwy flynedd a hanner, nes y cafodd gymmhelliad taer i fyned yn olynydd i'r enwog Christmas Evans, fel gweinidog yn y Tabernacl, Caerdydd. Yn y cyfamser, yr oedd wedi dyfod yn Sais lled wych, wedi codi disgwyliadau uchel yn yr eglwysi fel pregethwr poblogaidd; ac wedi cael Miss E. Thomas, merch i fasnachwr

Digitized by Google

cyfrifol yn Nghastellnedd, yn wraig. Annymunol oedd sefyllfa pethau yn eglwys Caerdydd y pryd hwnw; ond anturiodd Dafydd Jones i'r adwy; ac ni chafodd efe, na'r eglwys yn y Tabernacl, achos i edifarhau am y tro. Cymmerodd ei symmudiad i Gaerdydd le yn Gorphenaf, 1834, pan nad oedd poblogaeth y dref yn rhifo ond o saith i wyth mil. Bu ei ddyfodiad i Gaerdydd yn adnewyddiad nerth i eglwys y Tabernacl. Casglodd dorf fawr o wrandawyr, a buan y bu raid helaethu y capel. Cynnwysai yr adeilad newydd fil o bobl; ond nid oedd hi yn ddigon o faint. Yn ystod ei weinidogaeth o un-mlynedd-ar-hugain yn y lle, bedyddiodd dros 500 o gredinwyr. Ymdaflodd i fywyd y dref; ac er fod bugeiliaeth eglwys mor fawr yn gofyn llawer o'i feddwl a'i amser, llwyddodd i roddi cryn gefnogaeth i'r cymdeithasau llenyddol ac addysgol oedd yn ei gylch. Daeth, hefyd, yn ffafr-ddyn yr uchel-ŵyliau pregethwrol trwy Gymru. Nid oedd nemawr gymmanfa yn cael ei chynnal heb ei fod ef i'w gael ar ei llwyfan. Gwasanaethodd y swydd o ysgrifenydd Cymmanfa Morganwg am amryw flynyddoedd; er hyny, yr oedd yn un o lenorion mwyaf diwylliedig a diwyd y cyfnod hwnw. Priodol ddigon oedd geiriau Cynddelw am dano, fel

'Cawr y dawn o dre Caerdydd.'

Cyhoeddodd amryw lyfrau a llyfrynau da; yn mhlith y rhai y ceir *Holwyddoreg* cymmharol helaeth, *Cydymaith y Beibl*, *Udgorn yr Iwbili*, a'r *Drych Blynyddol*, yr hwn oedd fath o ddyddiadur enwadol, ac a ymddangosodd o 1849 hyd 1854. Dygodd allan, hefyd, argraphiad newydd o lyfr Enoch Francis, sef, *Gair yn ei bryd;* yr hwn a chwareuodd ei ran yn y ddadl ar Galviniaeth ac Arminiaeth. Rhyngddo ef a'r Parch. W. Jones, o Gaerdydd, dygwyd allan fisolyn gwerthfawr, o dan yr enw *Yr Ystorfa Weinidogaethol*, yn gyntaf; yna, *Ystorfa y Bedyddwyr*. Ymddangosodd o ddechreu 1838 hyd tua chanol 1841. Bu raid i'r ddau olygydd ysgrifenu y rhan fwyaf o hono; ac etto, collasant drwyddo ugeiniau o bunnau. Bu Dafydd Jones yn olygydd *Y Bedyddiwr* hefyd, am tua dwy flynedd; a daliai y swydd hono pan fu farw, yn 1854. Cymmerodd ran flaenllaw yn y gwaith o gefnogi ffurfiad Cymdeithas yr Hen Weinidogion. Rhoddai beunydd bwys ei ddylanwad yn ffafr pob symmudiad lleol a dyrchafol.

Dyn bychan, bywiog, a gweithgar, o feddwl crwn a chydnerth, oedd efe; ond meddai ddylanwad mawr ar bawb o'i gwmpas. Er nad oedd dim yn drahaus ynddo, nis gellid camsynied cryfder ei gymmeriad; yr hwn a darddai oddi ar argyhoeddiadau dyfnion, barn aeddfed, unplygrwydd a gonestrwydd amcan, a chymmeriad diammheuol ddisglaer. Er ei lwyddiant fel llenor, a dinesydd, y pulpud oedd ei briodol le. Yno y gwelid ef yn ei fan goreu. Yr oedd efe yn 'feistr y gynnulleidfa.' Cadwodd ei le am flynyddoedd yn rheng flaenaf pregethwyr y cymmanfaoedd. Nid oedd yn esgyn yn gymmaint i'r uchelion, nac yn suddo chwaith i'r dyfnderau, o'r golwg; eithr fel y Benjaminiaid llaw-chwith hyny gynt, ergydiai at drwch y blewyn. Medrai bob amser ddyfod yn agos at ei wrandawyr, a'u gorfodi i wrandaw drostynt eu hunain. Yn hyn, ynghyd â phereidd-dra ei lais, swyn ei arddull, a'i ddifrifoldeb cysson, yr oedd cuddiad ei gryfder. Profodd, er hyny, ei fod o feddwl cryf, cyhyrog, eglur, a chraff. Fel bugail, dangosai y callder mwyaf wrth ymdrin â phobl, a'r gofal mwyaf am ei braidd. Yr oedd yn anterth ei ddefnyddioldeb a'i boblogrwydd pan yr hunodd yn yr angeu, yn mreichiau ei anwyl briod, a'i fab hynaf, ar yr 8fed o Dachwedd, 1854, yn 46ain ml. oed. Claddwyd ef Tachwedd y 14eg, yn ymyl y Tabernacl, yn yr hwn y bu yn pregethu mor lwyddiannus i'r miloedd. Cafodd gladdedigaeth tywysog; a chodwyd cof-golofn ddestlus ar ei fedd.

JONES, PARCH. DAVID: — Gwel DEWI ARFON.

JONES, PARCH. EDWARD, Aberystwyth. Ganwyd ef Medi 11eg, 1790, yn y Rhiwlas, yn mhlwyf Llanfihangel Genau'r Glyn, ger llaw Aberystwyth. Yr oedd ei rïeni ef, Edward a Mary Jones, yn amaethwyr diwyd yn yr ardal, ac yn bobl barchus a chrefyddol. Pan yn ugain oed, aeth Edward i Lundain; ac arosodd yno tua hanner blwyddyn. Wedi bod yn gwrandaw ar y Parch. John Elias yn pregethu, ac i'w feddwl gael ei ddwyn i sefyllfa derfysglyd yn nghylch ei gyflwr, symmudodd yn y cyfwng hwn i dref Bristol, lle y clywodd yr enwog Evans, New Inn, yn pregethu mewn capel Cymraeg. Effeithiodd ei sylwadau mor ddwys ar ei feddwl fel y penderfynodd fwrw ei goelbren gyda'r cyfeillion crefyddol yn y lle hwnw. Derbyniwyd ef yn aelod yn mis Tachwedd, 1811—pan yn 21ain mlwydd oed. Arosodd yn Bristol ddwy flynedd a hanner wedi hyn. Wedi dychwelyd adref, dewiswyd ef yn flaenor yn eglwys y Borth; ac yn mis Mai, 1818, dechreuodd bregethu ar gais unfrydol yr aelodau. Derbyniwyd ef yn bregethwr y cyfundeb yn Nghymdeithasfa Llangeitho, Awst 19eg, 1818; ac ar y 7fed o'r un mis, yn y fl. 1819, ordeiniwyd ef. Nid dyn cyffredin oedd efe; a hyn, ynghyd â'i ymroddiad gydag achos yr efengyl, a barodd i'r cyfundeb ei neillduo mor fuan. Daeth yn ŵr o ymddiried mawr o fewn cylch ei sir ei hun. Pa beth bynag a gymmerai mewn llaw, mynai ei gario drwodd, os byddai modd. Yr oedd ffyddlondeb yn un o brif neillduolion ei gymmeriad. Pregethai gyda difrifoldeb, a phenderfyniad, a chywirdeb meddwl mawr; a byddai eneiniad yn fynych ar ei bregethau. Rhwng pob peth, yr oedd yn ŵr o ddefnyddioldeb uwch law y cyffredin; a byddai yn cael sylw yn y cymmanfaoedd. Nid yw dydd ei farwolaeth yn hysbys i ni.

JONES, HUGH: yr hwn a adnabyddid wrth yr enw llenorol ERFYL, oedd y mab ieuangaf i Evan ac Elizabeth Jones, Cefn-bachau, plwyf Llanerfyl, yn sir Drefaldwyn—lle y ganwyd ef yn y fl. 1897. Yr oedd efe yn nai i'r diweddar Hugh Jones, o Faes-glasau—awdwr yr emyn adnabyddus 'O! tyn y gorchudd yn y mynydd hyn,' &c. Yr oedd corph Erfyl, o'i enedigaeth, â gwendid yn perthyn iddo; ac er ei alluogi i gadw ysgol, fel y swydd debycaf y gallai ei chyflawni, rhoddwyd iddo addysg dda. Tyfodd i fyny yn llenor campus, ac yn fardd o gryn allu. Yn mlynyddoedd olaf ei oes, bu yn golygu y wasg yn Nghaerlleon i Edward Parry, ac ar ol hyny i John Parry a'i Fab; yn swyddfa pa rai y cyhoeddwyd y *Goleuad*—a'r *Drysorfa* ar ol hyny. O ddechreu 1835 hyd ddiwedd 1840, Hugh Jones oedd golygydd y *Gwladgarwr*. Bu ganddo ran hefyd yn nghyhoeddiad *Y Beibl Darluniadol*, er mai Ieuan Glan Geirionydd

Digitized by Google

oedd y golygydd. Dywedir fod llyfrgell Erfyl yn helaeth, ac yn gyfoethog. Yr oedd efe yn flaenor gyda'r Methodistiaid Calvinaidd am ran fawr o'i oes. Bu farw yn Nghaerlleon, Mai 25ain, 1858, yn 69ain mlwydd oedd: a chladdwyd ef yn mynwent Llanerfyl, mangre ei enedigaeth. Yr oedd wedi arfaethu, meddir, i ysgrifenu bywgraphiad ei ewythr o Faes-glasau; ond o herwydd ei afiechyd diweddaf, methodd a chyflawni ei addewid; ac hyd y gwyddom ni, y mae hanes bywyd Hugh Jones yn aros heb ei ysgrifenu etto.

JONES, PARCH. HUGH, D.D. Mab oedd efe i Hugh a Jane Jones, o Fodedern, Môn—lle y ganwyd ef, Gorphenaf 10fed, 1831. Yr oedd ei hen daid—sef, Edward Jones, Maen-eryr—yn bregethwr adnabyddus gyda'r Methodistiaid Calvinaidd: a'i or-hen daid yn beriglor plwyfydd Llanrhyddlad, Llanfflewyn, a Llanrhwydrus. Derbyniodd y bachgen ei addysg elfenol yn Ysgol Genedlaethol ei bentref genedigol; a phan yn 14eg oed, prentisiwyd ef yn grydd, gyda gŵr o'r enw William Hughes. Yn mhen tair blynedd, symmudodd ei rïeni i fyw ger llaw capel Pen-y-waen, perthynol i'r Methodistiaid, ac yno ymunodd â'r cyfundeb. Yn lled fuan ar ol hyny, gadawodd y Methodistiaid, ac ymunodd â'r Bedyddwyr. Digwyddodd hyn yn 1849. Dechreuodd bregethu pan oedd tuag ugain oed. Traddododd ei bregeth gyntaf yn nhŷ ei nain; sef, Eingion Chwith—yr un tŷ, gyda llaw, ag y pregethodd y Parch. W. Lloyd, o Gaernarfon ynddo gyntaf wedi ei ymadawiad o Eglwys Loegr, a'i ymuniad â'r Methodistiaid Calvinaidd. Ar ol hyn, aeth y pregethwr ieuangc i'r Ysgol Frytanaidd yn Llanrhyddlad, ac arosodd ynddi am bymtheng mis.

Derbyniwyd ef i Athrofa Hwlffordd yn 1853; a bu yno am bedair blynedd. Gwnaeth gynnydd yn ei efrydiau; a dywedir mai efe oedd y myfyriwr cyntaf fu yn yr athrofa hono i ymgymmeryd â dysgu Hebraeg. Ar derfyniad ei dymmor athrofaol, ymsefydlodd yn Llandudno, i fod ar brawf gyda golwg ar y weinidogaeth. Pan y cafodd yr eglwys foddlonrwydd ynddo, rhoddasant alwad iddo; ac mewn cyfarfod a gynnaliwyd Awst 22ain, 1857, cydnabyddwyd ef yn ffurfiol fel gweinidog yr eglwys. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. Ellis Evans, Cefn mawr; J. Pritchard, Llangollen; Hugh Williams, Amlwch; T. R. Davies, Glanwydden; a John Griffiths, Llandudno—gweinidogion mwyaf adnabyddus y Bedyddwyr yn y Gogledd y pryd hwnw. Yn yr ysbaid y bu yn Llandudno, ymunodd mewn glân briodas â Miss Hughes, merch Mr. J. Hughes, o'r Tŵr, Llangollen. Yn Hydref, 1859, tua blwyddyn ar ol ei neillduad, ymadawodd i Langollen i fod yn gyd-weinidog â'r Parch. John Pritchard i eglwys y Bedyddwyr yno. Yn lled fuan ar ol hyn, dewiswyd ef gan Gyfarfod Chwarterol Cymmanfa Dinbych i fod yn olygydd y *Greal*, fel olynydd i Mathetes. Cyfrifoldeb mawr oedd hwn, i ŵr cymmharol ieuangc, fel Hugh Jones, eistedd yn nghadair Mathetes; ond cyflawnodd y dyledswyddau hyd foddlonrwydd yr enwad. Yn y fl. 1862, sefydlwyd athrofa yn Ngogledd Cymru gan y Bedyddwyr; a phenderfynwyd mai Llangollen oedd y lle mwyaf priodol i fod yn gartref iddi. Ystyriaeth gref yn newisiad Llangollen fel man lleoliad yr athrofa oedd fod Dr. Pritchard a Mr. Jones yn preswylio yno; o blegid barnwyd eu bod hwy yn bersonau cymmhwys i fod yn athrawon arni—y cyntaf fel athraw duwinyddol, a Mr. Jones fel athraw clasurol. Yn 1867, ymneillduodd Dr. Pritchard, ac olynwyd ef gan Hugh Jones fel llywydd—yn chwanegol at y swydd a ddaliodd o'r blaen. Bu y ddwy swydd hyn yn gorphwys arno am tua phedair blynedd; ond yn 1871, dewiswyd y Parch. Gethin Davies yn athraw clasurol arni. Bernir y gall fod y gwaith caled a gyflawnodd Hugh Jones yn ystod y blynyddoedd uchod yn achos, i raddau pell, i ddwyn o amgylch yr afiechyd a droes, yn y diwedd, yn angeuol iddo. Cydnabyddir ei fod yn meddu cymmhwysderau arbenig i fod yn athraw coleg. Yr oedd yn ŵr dysgedig, yn feddiannol ar ysbryd addfwyn, ac yn un a ennynai ymddiried yr efrydydd yn y fath fodd, fel mai gwaith cymmharol hawdd oedd ei gael i dderbyn yr addysg a gyfrenid. Bu am rai blynyddoedd yn nechreu ei weinidogaeth heb wneyd enw iddo ei hun fel pregethwr; ond yn mlynyddoedd olaf ei oes, cymmerodd cyfnewidiad anghyffredin le, a daeth i fod yn un o'r pregethwyr mwyaf nerthol. Fel hyn y disgrifir ef gan y Parch. Abel J. Parry, yr hwn a'i hadwaenai yn dda:—'Yn ystod y deg neu y deuddeng mlynedd diweddaf, dadblygodd yn rhyfeddol fel pregethwr. Yn lle bod yn annioddefol o sych ac undonol, efe a ddaeth yn bregethwr nodedig o wlithog ac ireiddiol. Gellir symio nodwedd mwyaf arbenig ei bregethau yn nhymmor cyntaf ei weinidogaeth i eglurder beirniadaeth ac efengyleidd-dra mater; ond chwanegid at y ddau beth hyn, yn mhregethau tymmor diweddarach ei weinidogaeth, ddifrifwch tôn, a nerth appeliadol neillduol.' Dyma fel yr ysgrifenai gweinidog o enwad arall am dano:—'Yr oedd ei bregeth, foreu y gymmanfa, yn y Pavilion, yn gorph o dduwinyddiaeth iach a phur. Nid yn aml y ceir cymmaint o efengyl wedi ei dwyn i gylch mor fach ag a gafwyd yn y bregeth hono.' Ond ni chyfyngodd efe ei lafur yn hollol i'r cylchoedd gweinidogaethol; eithr yr oedd iddo gymmeriad uchel fel awdwr. Ei brif weithiau llenyddol ydynt *Y Beibl, a'i Ddeongliad*, ac hefyd *Y weithred o Fedyddio*. Fel cymmhorth i efrydwyr, y mae y cyntaf yn gaffaeliad gwerthfawr; ac y mae yr olaf yn debyg o barhau yn waith safonol yn mysg y Bedyddwyr ar y cwestiwn yr ymdrinir âg ef. Ysgrifenodd gyfres o erthyglau hefyd i'r *Baptist*—newyddiadur swyddogol yr enwad yn mysg y Saeson, ar y pwngc o fedydd; y rhai, yn ddilynol, a gyhoeddwyd yn gyfrol ddestlus. Dr. Jones, hefyd, ydyw awdwr yr Esboniad ar Lyfr y Pregethwr yn *Meibl y Teulu*, yr hwn a gyhoeddwyd yn y swyddfa hon. Heb law ei enwogrwydd fel pregethwr, fel athraw, ac fel awdwr, yr oedd Dr. Jones hefyd yn ŵr o ddefnyddioldeb mawr yn mhwyllgorau a chynnadleddau ei enwad, ac yr oedd ganddo ddylanwad mawr ynddynt.

Bu farw ar Mai 22ain, 1883, yn nghanol ei ddefnyddioldeb; a pharodd y digwyddiad alaeth calon i gylch ëang o gyfeillion crefyddol trwy yr holl Dywysogaeth.

JONES, HUGH WILLIAM, Caerfyrddin. Ganwyd ef—'seraph tanllyd Myrddin,' ys canai Myfyr Emlyn—mewn ffermdy a elwid y Cwrt, yn agos i Benrhyn-coch, yn sir Aberteifi, Ebrill 8fed, 1802. Ganwyd i'w rïeni, sef John ac Elizabeth Jones, bedwar o feibion, a phedair o

Digitized by Google

ferched. Pan yn ddyn ieuangc, yr oedd Hugh yn hynod wyllt ei dymmer, ac yn llawn direidi; ond dysgai ei wersi yn gyflym yn yr ysgol. Dygwyd ef i fyny yn yr Eglwys Sefydledig; ac ymddengys fod ei dad yn Eglwyswr selog. Bwriadwyd y bachgen i fod yn glerigwr; ond pan yr oedd efe tuag un-ar-bymtheg oed, bu farw ei dad. Hanai ei fam o deulu perthynol i'r Bedyddwyr. Tua'r fl. 1820, dechreuodd y Bedyddwyr bregethu yn yr ardaloedd hyny; a chaffai yr hen bregethwyr teithiol a ddeuent heibio brofi o lettygarwch Mrs. Jones; yr hon, erbyn hyn, oedd wedi symmud gyda'i theulu i amaethdy o'r enw Troed-y-rhiw, Nant-brân, ger Goginan. Daliai H. W. Jones, fel ei dad, fawr sêl dros arferion a defodau Eglwys Lloegr; a dadleuai lawer drostynt. Edrychid ar ychydig Fedyddwyr y cylchoedd yr adeg hono gyda gradd helaeth o ddirmyg. Un tro, daeth pregethwr, o'r enw William Goodman, o dueddau Pwllheli, heibio i Goginan; a thrwy ei offerynoliaeth ef, yn benaf, y dygwyd H. W. Jones i fwrw ei goelbren gyda'r Bedyddwyr. Yn ol ei gofiannnydd a'i gyfaill, y Parch. R. D. Roberts, Llwynhendy, yr oedd efe hefyd yn priodoli gogwyddiad ei feddwl at grefydd, ac at y Bedyddwyr, i ymddygiadau addas, difrifol, a duwiol y gweinidogion a dalent ymweliad â'r lle ar eu teithiau. Bedyddiwyd ef a'i fam, a phedwar eraill, Mawrth 25ain, 1821; pryd y gweinyddwyd gan y Parch. John Davies, Penrhyn-coch, ac y pregethwyd ar fedydd gan y Parch. W. Evans, Aberystwyth. Yr oedd efe wedi cael addysg dda cyn marw ei dad. Nid hir y bu yn aelod crefyddol cyn i'w barabliad hylithr, ei feddwl bywiog, a'i fuchedd addas, ei ddwyn i sylw yr eglwys fel un cymmhwys i bregethu Crist. Dechreuodd ar y gwaith; ac am nad oedd lle iddo yn Athrofa y Fenni, appeliodd, a chafodd dderbyniad i Athrofa Bradford. Bu yno am bedair blynedd, o dan y Doctoriaid Godwin a Steadman; a manteisiodd yn helaeth ar y cyfleusderau a gafodd yno. Daeth yn Sais da, ac yn ysgolhaig gwych. Ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth gan Dr. Steadman, a'r Parch. D. Saunders, o Ferthyr Tydfil, yn Ebrill, 1828, yn Ebenezer, Blaenafon. Bu yn barchus ac yn llwyddiannus yn Ebenezer hyd ei symmudiad yn Awst, 1831, i fod yn fugail ar yr eglwys Saesnig yn Nhredegar. Yno y daeth i gysylltiad â'r Parch. J. P. Davies. Byr iawn fu ei arosiad gyda'r Saeson yn Nhredegar; o blegid yn Ionawr, 1832, cawn ef yn dechreu ei weinidogaeth yn eglwys Gymreig Charles street, Casnewydd-ar-Wysg. Er ei fod yn gryn feistr ar eu hiaith, nid oedd dull y Saeson o addoli yn gydweddol â'i ysbryd tanllyd, brwd, a Chymreig ef. Tra yn Nghasnewydd, cynnyddodd fel pregethwr, ennillodd barch mawr trwy y dref, chwanegodd lawer at nifer y gynnulleidfa, bu yn llwyddiannus iawn yn nhröedigaeth eneidiau at Grist, ac ymglymai yr eglwys yn Charles street fel un galon am dano. Yn mhen tua thair blynedd, cafodd alwad i Dabernacl Caerfyrddin. Gwnaeth yr eglwys a'i gyfeillion yn Nghasnewydd bob ymdrech i'w gadw yno; ond er ei bod yn galed iawn iddo ef ei hun, ac iddynt hwythau, penderfynodd dderbyn yr alwad, a dechreuodd ar ei lafur yno Ionawr 25ain, 1835. Yr oedd, bellach, wedi symmud i faes oedd wedi ei enwogi gan dri o brif gedyrn y pulpud Cymraeg: sef, y Parchn. Titus Lewis, D. D. Evans, a Rees Gibbon—y fflam ddisglaer hono a ddiffoddodd mor fuan. Ennillodd safle, parch, a dylanwad mawr yn y dref yn fuan; ac ymdaflodd yn aiddgar i waith cyhoeddus ei gylch newydd. Pregethai am hir amser bedair gwaith yn yr wythnos i'w bobl ei hun, a llafuriodd yn helaeth i gynnorthwyo eglwysi gweiniaid y gymmydogaeth; sef, Felinwen a Thalog. Rhyddfrydwr cryf a goleuedig ydoedd mewn gwleidyddiaeth, a chyfrifid ef yn gryn allu ar adeg etholiadau sir Gaerfyrddin. Gweithiodd yn lew dros Gymdeithas Genhadol Dramor y Bedyddwyr—i'r hon y bu efe yn oruchwyliwr. Cyflawnodd swydd ysgrifenydd i Gymmanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion dros lawer o flynyddoedd, a hyny yn ddi-dâl. Pan roddodd y swydd hon i fyny, ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, penderfynodd eglwysi y gymmanfa gyflwyno tysteb iddo; ond bu farw cyn dydd Cymmanfa Salem, Meidrim—yn yr hon yr oedd y cyflwyniad i gymmeryd lle. Yn chwanegol at hyn, teimlai gryn ddyddordeb mewn llenyddiaeth. Yn niwedd 1837, prynodd *Y Seren Gomer* iddo ei hun; a pharhaodd i'w chyhoeddi o ddechreu 1838 hyd ddiwedd 1850, pan y daeth yr hawl-ysgrif yn feddiant i wyth-ar-hugain o weinidogion y Bedyddwyr, heb law gwŷr lleyg, gydag awdurdod i chwanegu at eu rhif. Yn ystod y blynyddoedd hyn, gweithredodd y Parch. Samuel Evans, y Cymreigydd enwog, ac awdwr *Y Gomerydd*, fel y prif olygydd; ond ysgrifenodd H. W. Jones gryn lawer iddi—yn neillduol yn y ddadl ar 'Ffwleriaeth a Chalviniaeth.' Arweinydd y Ffwleriaid oedd y Parch. J. P. Davies, Tredegar; a chydolygai a chydymdeimlai H. W. Jones i raddau helaeth â'i hen gyfaill yn y mater hwn. Yr oedd wedi ymgydnabyddu llawer â gweithiau Andrew Fuller, fel y gellid canfod yn eglur ddylanwad y duwinydd hwnw arno. Cyfarfyddai ynddo amryw o anhebgorion y gwir bregethwr mewn cyfuniad hapus. Meddai ar gorph cryf, iachus, a gwyneb crwn, gwridgoch, serchog, prydweddol iawn. Gwisgai yn ddestlus, ac ymddangosai yn foneddigaidd a pharchus bob amser. Meddai lais hyglyw, a nerthol, ac ystorfa helaeth o wybodaeth gyffredinol, yn gystal a gwybodaeth fanwl o'r Beibl. Pregethu yn destynol ac esboniadol y byddai, fel rheol. Pan wedi cynnhesu i bwngc, rhoddai allan ambell i floedd nerthol, a doddai ac a orchfygai bawb ar a'i clywai. Fel John Elias, nid oedd gwastadrwydd yn nodwedd o'i eiddo; ond pan gynnhyrfid ei ysbryd tanllyd, dygai ei gynnulleidfa gydag ef i'r uchelion, weithiau. Etto, yn yr adegau mwyaf cynnhyrfus, meddai ar berffaith lywodraeth arno ei hun. Bu am flynyddoedd meithion yn un o brif bregethwyr poblogaidd ei ddydd. Yr oedd ei bregethau wedi eu meddwl allan; a'r rhai hyny, fel rheol, yn gyfansoddiadau cydnerth a chryfion. Fel y canlyn y dywedodd y doniol Barch. Dafydd Evans, Ffynnon-Henry, am dano, ar ol bod yn gwrandaw arno ef, a W. Thomas, Blaenwaen, a T. Williams, Ebenezer, Caerfyrddin, yn pregethu:—'Tri phregethwr ffamws, tra gwahanol i'w gilydd—*flesh* i gyd yw W. Thomas; *bone* i gyd yw T. Williams; ond *flesh* a *bone* yw Hugh Jones.'

Priododd H. W. Jones yn fuan wedi iddo ymsefydlu yn Nghaerfyrddin, â merch y Parch. Titus Lewis; a thybir fod a fyno ei gyssylltiad â Miss Lewis â'i symmudiad o Gasnewydd. Ganwyd iddynt ddwy ferch, a bachgen; ond bu

Digitized by Google

farw y fam ar enedigaeth y trydydd plentyn. Yn mhen rhai blynyddoedd, priododd eilwaith â Mrs. Watkins, gweddw Dr. Watkins, yr hwn oedd fab i'r diweddar Barch. Joshua Watkins, o Gaerfyrddin; ond bu hithau farw flynyddoedd o flaen Mr. Jones; a chladdwyd hi gyda'i gŵr cyntaf.

O'r diwedd, daeth ei awr yntau. Ar y Sabbath, Mehefin 1af, 1873, yn 71ain mlwydd oed, wedi treulio un mlynedd ar bymtheg-ar-hugain yn weinidog y Tabernacl, galwyd H. W. Jones i noswylio. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono y dydd Iau canlynol, yn mynwent y Tabernacl, gyda'i blant a'i wraig gyntaf, y rhai oeddynt wedi ei flaenu i'r gweryd oer. Daeth tyrfa fawr ynghyd, a theimlid yn gyffredinol fod un o gedyrn Seion wedi syrthio.

JONES, Parch. HUMPHREY. Gelwir ef 'Humphrey Jones y Diwygiwr,' am ddarfod iddo fod yn offeryn i gychwyn diwygiad crefyddol mawr 1858—9 yn Nghymru. Yn ardal Tre'rddol y bu hyn; sef, bro genedigaeth Mr. Jones. Enw ei dad oedd Thomas Jones, Ynys-y-capel—ffermdy yn y gymmydogaeth; yr hwn oedd yn frawd i'r diweddar Barch. Humphrey Jones, gweinidog gyda'r Wesleyaid. Mam ein gwrthddrych oedd un o ferched Mr. Hugh Rowlands, Dol-clettwr. Cafodd ei ddwyn i fyny yn grefyddol; a phan yr oedd efe yn ieuangc, ymfudodd ei rïeni i America. Dygwyd ef i fyny yn bregethwr gyda chyfundeb y Wesleyaid. Rhestrid ef yn mysg y pregethwyr ymarferol. Dywedir y byddai yn fynych yn troi i gapelau unrhyw enwad—os gallai, drwy hyny, fod o unrhyw les. Tra yn America, daeth i deimlo yn ddwys oddi wrth yr adfywiad nerthol a dorodd allan yno; a phan ddychwelodd i Gymru, tua 1858, yr oedd ei ysbryd wedi ei drwytho â gwres y diwygiad. Dechreuodd o ddifrif ar ei waith. Yn gyntaf oll, cynnheswyd ei aelwyd ei hun: yna troes allan i ardaloedd Ystumtuen, Mynydd-bach, Pont-rhyd-y-groes, a lleoedd eraill. Pregethai gyda nerth ac arddeliad mawr, fel y llenwid y capelau. Ymledodd y tân hefyd i ardaloedd eraill.

Yna trodd ei sylw at Aberystwyth. Cychwynwyd cyfarfodydd gweddi yn nghapel Queen Street. Llenwid yr adeilad bob nos, a chafwyd amlygiadau diammheuol fod Duw, trwy ei Ysbryd, yn gweithio yn mysg ei bobl. Taniwyd ysbryd gŵr da arall—y Parch. David Morgan, Ysbytty; yr hwn, hefyd, a weithiai yn egnïol. Chwanegwyd 400 o aelodau eglwysig o fewn Aberystwyth yn unig, a miloedd drwy wahanol ardaloedd eraill y Dywysogaeth. Ond nid oedd y llwyddiant hwn wedi cymmeryd lle yn y dref pan oedd Humphrey Jones yno. O herwydd ei siomiant, ymneillduodd at ei berthynasau yn Nol-clettwr—lle y bu efe am gryn amser mor isel ei ysbryd fel nad ellid ei gael i le o addoliad. Wedi gwellhau ychydig, aeth i'r America yr ail waith i ofalu am eglwys o Gymry yn nghymmydogaeth Oshkosh. Nid oes genym hanes diweddarach am dano.

JONES, Parch. ISAAC, Nantglyn. Pregethwr adnabyddus gyda'r Methodistiaid Calvinaidd oedd efe; ac un oedd yn nodedig, nid fel pregethwr mawr, duwinydd dwfn, nac areithydd hyawdl, ond fel Cristion gloyw, cywir, ffyddlawn a gofalus—ac hefyd, yn meddu neillduolion o'i eiddo ei hun. Ganwyd ef yn Tŷ tan Coed-orros, yn mhlwyf Llansannan, yn sir Ddinbych, yn y fl. 1794; ac yr oedd ei dad—John Jones—hefyd, yn bregethwr gyda'r un cyfundeb. Efe oedd yr ieuangaf o blant John Jones, a chafodd well manteision addysg na'r lleill. Wedi gorphen yn yr ysgol, aeth at ŵr o'r enw Edward Williams, Cilcain, i ddysgu y gelfyddyd o rwymo llyfrau; ac wedi cyrhaedd cryn fedusrwydd yn y gwaith, daeth adref i gynnorthwyo ei dad yn y masnachdy, a gadwai ar y pryd yn Nhan-y-fron.

Teimlodd Isaac yn ddwys dan bregeth neillduol a draddododd John Elias yn Nghymdeithasfa Llanrwst, tua Nadolig y flwyddyn 1812, ar y geiriau 'Da yw i ŵr ddwyn yr iau yn ei ieuengctid.' A dyma'r pryd, meddir, y penderfynodd efe wneyd proffes o'r Gwaredwr. Yn lled fuan ar ol hyny, daeth ardal Tan-y-fron i deimlo yn ddwys dan effeithiau y diwygiad grymus a dorodd allan yn y wlad. Bedyddiwyd yntau yn helaeth âg effeithiau y diwygiad hwnw; a pharhaodd y naws arno dros weddill ei oes. Pan yn bedair-ar-hugain oed, ar annogaeth yr hen flaenor John Thomas, y Felin, aeth i Nantglyn i agor masnachdy ei hun. Yr oedd hyn yn y fl. 1818; a'r flwyddyn ddilynol, priododd Mary, merch hynaf y diweddar Barch. Peter Roberts, o Lansannan; yr hon a fu yn ymgeledd gymmhwys iddo am 54ain mlynedd. Ganwyd iddynt naw o blant; ond bu rhai o honynt farw mewn oedran cymmharol ieuangc.

Yn 1825, dechreuodd Isaac Jones bregethu; ac yr oedd efe y pryd hwnw ynghylch 31ain ml. oed. Daeth yn bregethwr defnyddiol; ond ni chyrhaeddodd safle uchel a phoblogaidd. Bu o wasanaeth mawr i'r achos yn Nantglyn, a dangosodd ffyddlondeb mawr yn yr ardaloedd cylchynol; a phan fu farw, teimlwyd colled fawr ar ei ol.

Yr oedd efe yn ŵr hynod o ran nodweddion ei gymmeriad. Nid oedd efe yn debyg i neb—na neb yn debyg iddo yntau. Gŵr ar ei ben ei hun oedd efe; yn meddu ar lawer o'r elfen ddigrifol, yr hyn a gadwai efe yn gyffredin dan lywodraeth; ond pan fyddai angen am hyny, gallasai arllwys cryn lawer o watwareg finiog ar y neb a haeddai hyny. Meddai farn aeddfed ar bethau y byd, a chrefydd; ac ni phetrusai roddi dadganiad o honi pan fyddai angen. Nid oedd efe yn adnabod rhodres; ond yr oedd yn llawn symledd, gonestrwydd, cywirdeb, a ffyddlondeb; ac uwch law pob peth, yr oedd yn Gristion diammheuol. Daeth yn un o gymmeriadau mwyaf adnabyddus sir Ddinbych. Bu farw Hydref 11eg, 1873. Meibion iddo yw y Parch. Isaac Jones presennol; a Mr. Edward Jones, Pwllheli; yr hwn sydd yn fasnachwr llwyddiannus yn Liverpool.

JONES, Parch. JOHN, o Lanbedr. Gweinidog parchus oedd efe gyda'r Methodistiaid Calvinaidd, yn sir Aberteifi; ac un o ddynion mwyaf adnabyddus y rhan hono o'r wlad. Ganwyd ef yn Blaen-y-plwyf, Llanfihangel Ystrad, yn 1797. Yn lled fuan ar ol hyny, symmudodd ei rïeni i'w fferm eu hunain, Pensheting, yn mhlwyf Silian. Ei dad ef oedd Joseph Jones, unig fab John Thomas, o Blaen-y-plwyf. Yr oedd yn amaethwr cyfrifol, ac yn ddysgybl selog ac ymlyngar i'r enwog Rowlands, o Langeitho. Ei fam oedd Mary Lewes, unig ferch Nicholas Lewes, o Flaen-cerdyn. O'i gartref yn Silian, arferai John fyned i Lanbedr; ac

Digitized by Google

yno derbyniodd argraphiadau dwfn dan weinidogaeth yr hen dadau Methodistaidd. Ar ol ei dderbyn yn aelod, cododd allor yn y teulu, pan nad oedd ond bachgen 16eg oed; a daeth yn lled fuan i holwyddori yn yr Ysgol Sabbothol. Dechreuodd bregethu cyn bod yn ugain oed; ag yn uniongyrchol wedi hyny, aeth i ysgol yr enwog Dr. Phillips, Neuaddlwyd. Pan yn 28ain oed, priododd Miss Jenkins, Priory, Llanbedr; lle y bu fyw am flynyddoedd:—a lle, hefyd, y bu farw, Tachwedd 23ain, 1867, yn 70ain oed. Buwyd yn cynnal yr achos Methodistaidd yn y tŷ uchod am bymtheng mlynedd ar hugain cyn codi y capel; ac yno, hefyd, yr arferai y pregethwyr lettya yn ystod y cyfnod maith hwnw.

Daeth Mr. Jones yn bregethwr poblogaidd ar unwaith. Ordeiniwyd ef yn Aberteifi, yn y fl. 1833. Yn ystod blynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, yr oedd ei lafur yn hynod gymmeradwy; a pharhaodd i bregethu yn rymus, ac yn adeiladol, hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd ei bregethau bob amser yn ysgrythyrol, â'u hamcan yn neillduol i gyrhaedd deall a chalonau y gwrandawyr. Ystyrid ef gan bawb yn ŵr ystyr-bwyll, dirodres, a di-dwyll; a daeth yn fawr ei barch trwy yr holl sir.

JONES, JOHN EMLYN, LL.D. Ganwyd gwrthddrych ein sylwadau yn Nghastellnewydd Emlyn, yn y flwyddyn 1818. Nid oes ardal yn Nghymru brydferthach na'r fro hon. Mae glanau y Teifi, o Landyssul i Gastellnewydd, a'r ffordd oddi yno drachefn hyd at Genarth, yn gartref tlysni a cheinder. Cafodd felly, o'i febyd, ymarfer â phrydferthwch. Pa ryfedd fod ei gyfansoddiadau barddonol yn llawn o'r nodwedd hwn? Pwy allasai ei feio ef pe teimlasai, fel Tom Tulliver, a ddarlunir gan George Elliot yn ei *Mill on the Floss;* yr hwn a dybiai fod pawb dan anfantais fawr os yn trigiannu mewn rhyw barth arall o'r ddaear. 'Nis gallwn (meddai yr un awdwr talentog) garu y ddaear i'r fath raddau, oni buasai dyddiau dedwydd plentyndod, a dreuliwyd yn unig yn mysg ei swynion.' Y mae y rhanbarth a nodwyd o'r Dywysogaeth wedi rhoddi cychwyniad i lu o enwogion pregethwrol a llenyddol—digon i'w wneyd yn dir clasurol yn ngolwg pob Cymro.

Am ddyddiau boreuol Emlyn, dywed Cynddelw:—'Addysgwyd ef yn y gelfyddyd o oriorydd (*watchmaker*); a bu yn dilyn yr alwedigaeth hono am rai blynyddoedd. Treuliodd rai blynyddoedd yn Nghrughywel, ar lan yr Wysg, pan oedd Carnhuanawc yn byw yno, ac yn ficer Cwmdu. Gwelir ei enw mor foreu ag 1838 gyda Chymreigyddion y Fenni, a Chymreigyddion Llangynidr, &c.; a diau i'r cymdeithasau hyny awchlymu llawer ar ei ysbryd a'i chwaeth lenorawl.'

Ymddengys iddo symmud oddi yno i Gaerdydd, i swyddfa y *Principality;* lle y bu yn meddu rhan flaenllaw mewn cyfieithu i'r Gymraeg y gwaith llafurfawr canlynol:—*Esboniad Dr. Gill ar y Testament Newydd.* Nid ydym yn sicr yn mha le y dechreuodd efe bregethu; ond cawn iddo ymsefydlu, yn y fl. 1851, yn eglwys Bedyddwyr Carmel, yn Pont-y-pridd, fel cydweinidog â'r enwog James Richards. Yr oedd Richards yn ŵr o allu anghyffredin fel pregethwr, er yn meddu ar gyfansoddiad gwanaidd. Nid oedd neb a effeithiai yn rymusach ar gynnulleidfa nag efe—yn enwedig ar rai adegau. Cyhoeddwyd cyfrol o'i bregethau rai blynyddau yn ol; yr hon sydd, yn ddiau, yn un o'r cyfrolau goreu yn yr iaith; a sicrhâ i'w hawdwr le sefydlog yn mhlith y dosbarth cyntaf o bregethwyr. Cryn beth i unrhyw frawd ieuangc oedd anturio ar y fath safle, a bod yn gyd-weinidog i gawr pregethwrol felly; ond meddai y safle ei manteision cyferbyniol. Daliodd Emlyn y prawf yn llwyddiannus, a daeth i gryn fri yn yr eglwysi. Yn 1853, symmudodd i Ben-y-cae, Mynwy—yr eglwys hynaf oedd gan yr enwad yn Nglyn Ebwy. Treuliodd naw mlynedd yn y lle hwn yn ddedwydd a llwyddiannus iawn. Perthynai i Gymmanfa Mynwy, yn y cyfnod hwnw, gewri nerthol, o anianawd cyffelyb i'r eiddo ef—athrylith pa rai a wnelai y cylch yn llawn dyddordeb. Ni raid ond crybwyll enwau Nefydd, Cynddelw, Evan Thomas, James Rowe, Evan Jones, ac eraill. Tua 1862, symmudodd oddi yno i Gaerdydd, a bu wedi hyny yn gweinidogaethu yn y Tabernacl, Merthyr, a Llandudno. Ac yn olaf oll, dychwelodd at ei hen eglwys, i Nebo, Pen-y-cae—lle y gorphenodd ei yrfa ddaearol yn y fl. 1873, yn 55ain mlwydd oed.

Cyflawnodd Emlyn gryn lawer o waith llenyddol yn ystod ei yrfa gymmharol fer. Ysgrifenodd lawer i'r newyddiaduron a'r cyhoeddiadau misol; a bu yn golygu *Hanes Prydain Fawr*, gan Titus Lewis; a chwanegodd lawer at braidd bob tu-dalen o hono, heb law ysgrifenu hanes y cyfnod o 1800 hyd 1850 i gyd o'r newydd. Ond ei brif orchwyl llenyddol yw y *Parthsyllydd;* sef, geiriadur daearyddol o'r holl fyd. Yr oedd yn ysgolhaig gwych iawn, er na chafodd efe lawer o fanteision; ond meddai ar hunanymroddiad meddwl gweithgar a phenderfynol. Cafodd ei anrhydeddu â'r gradd o M.A. o un o brif ysgolion America, a'r radd o LL.D. o Brifysgol Glasgow, tuag 1860. Ymdrechodd gryn lawer am gampau eisteddfodol. Ennillodd ddwy gadair; sef, cadair Eisteddfod Genedlaethol Dinbych, yn 1860, am ei awdl ar 'Dywalltiad yr Ysbryd Glân ar Ddydd y Pentecost;' a chadair Eisteddfod Dalaethol Môn, yn 1871, am awdl ar 'Amser.' Cyhoeddwyd, hefyd, ddwy awdl o'i eiddo, na buont yn llwyddiannus i gyrhaedd y wobr; sef, 'Paul,' yr hon a gyfansoddodd gogyfer ag Eisteddfod Aberystwyth; a 'Brwydr Maes Bosworth,' yr hon a barotowyd gogyfer ag Eisteddfod Llangollen. Ennillodd radd dda yn y mesurau caethion; ond er hyny, y mae ei gân fach, syml, fyw, deimladwy, ar 'Fedd y Dyn Tlawd' wedi myned yn llawer mwy poblogaidd nag un o'r awdlau; ac y mae hi yn debyg o fyw yn llawer hwy.

Fel dyn, yr oedd yn garedig, ac yn un o'r rhai mwyaf di-ddichell, a diniwed; a'i ffyddlondeb fel cyfaill yn nodedig. Fel pregethwr, yr oedd yn hynod ar gyfrif ei ddawn toddedig ac effeithiol; yr hyn a'i gwnelai yn un o'r pregethwyr mwyaf defnyddiol a phoblogaidd yn ei ddydd. Byddai ei bregethau, yn gyffredin, yn cynnwys darnau byrion o farddoniaeth, a adroddid mor dyner-ddwys, fel y tueddent i doddi y galon galetaf. Clywsom ef yn pregethu mewn cymmanfa yn Rhyl, yn 1870, o flaen y Parch. Edward Williams, o Aberystwyth. Ei bwngc oedd 'Yr Ymgnawdoliad;' a phregethodd gyda grym a thynerwch mawr. Nid oedd ganddo ddigon o nerth anianyddol i ddal yn faith; ac yr oedd ganddo ddigon o synwyr i derfynu cyn llwyr lesgau ei hun, na blino ei gynnulleidfa. Codai y dorf i dymmer ardderchog, a darfyddai

Digitized by Google

ei bregeth yn nghanol y swyn, nes yr hiraethai ei wrandawyr am gyfle i'w wrandaw drachefn.

JONES, JOHN WILLIAMS. Golygydd galluog y *Drych Americanaidd* oedd efe, am yr ysbaid maith o ddeng mlynedd-ar-hugain. Ganwyd ef mewn ffermdy o'r enw Bryn-bychan, yn mhlwyf Llanaelhaiarn, yn sir Gaernafon, Ionawr 13eg, 1827. O du ei fam, yr oedd yn perthyn i'r enwog Nicander; ac o du ei dad, i Syr Hugh Owen, ac Ioan o Leyn. Cadwodd ei dad ysgol yn Sardis—capel yr Annibynwyr—yn mhlwyf Llangybi; a phan yn ddeg mlwydd oed, ystyrid John y goreu, o ddigon, yn mysg yr ysgolheigion. Pan yn ddeuddeg, anfonwyd ef i wasanaethu gydag amaethwr; a bu yn dilyn yr alwedigaeth hon am amryw flynyddau. Yn y cyfamser, yr oedd ei awydd at ddarllen a myfyrio yn cynnyddu; ac yn ystod ei oriau hamddenol, efrydodd *Anianydd Cristionogol* Dr. Dick, yn gysson—gan ddysgu y Saesneg trwy gyfrwng geiriadur. Daeth hefyd yn enwog yn ei ardal fel rhifyddwr. Yn 1835—pan nad oedd efe etto ond deunaw oed, ymfudodd i America; ac yn ystod y fordaith, gwnaeth gydnabyddiaeth â gŵr ieuangc arall o'r enw William Evans, Tan-y-maes; yr hwn a adwaenwyd ar ol hyny fel William Evans, o Lockport, Illinois. Wedi glanio o honynt yn Racine, Wisconsin, bu y ddau yn gweithio gydag amaethwyr o gylch y dref hyd ddiwedd y flwyddyn; yna aethant i Sag, yn Illinois, i weithio ar y gamlas. Wedi bod yno am dymmor, ymadawsant â'u gilydd. Dychwelodd J. W. Jones i Wisconsin, ac aeth ei gyfaill i ryw gyfeiriad arall. Wedi symmud o'r naill le i'r llall, cawn Mr. Jones, yn 1845, yn Nhalaeth Efrog Newydd; i'r hon y symmudodd, mae'n debyg, gyda'r bwriad o ddychwelyd i Gymru; o blegid yr oedd efe, erbyn hyn, wedi llwyr ddiflasu ar ei bererindodau a'i helbulon yn y Gorllewin. Ond arosodd yno am amser, gan benderfynu gwneyd un ymgais teg arall i lwyddo. Trodd ei law at amryw orchwylion; megys gwneyd priddfeini, a dodrefn, &c., &c. Trwy hyny, efe a lwyddodd i gynnilo ychydig arian; a chyda hwynt aeth i Goleg Chirton, lle y gwnaeth gynnydd rhyfeddol mewn dysg—yn enwedig fel rhifyddwr. O herwydd prinder moddion, bu raid iddo adael y coleg yn lled fuan; ac aeth oddi yno i Utica, lle y sefydlodd ysgol rifyddol.

Prif gyfnodolion Cymreig America, ar y pryd hyny, oeddynt y *Drych*, a'r *Cyfaill;* ac y mae y ddau wedi dal eu tir hyd y dydd hwn. Dechreuodd J. W. Jones ei gyssylltiad â'r ddau trwy ysgrifenu erthyglau achlysurol iddynt; ond yn y fl. 1853, pennodwyd ef yn olygydd y *Drych*, a pharhaodd i wasanaethu ei genedl ynglŷn âg ef hyd ei farwolaeth. Yn ystod ei olygiaeth ef, newidiodd y *Drych* ei berchenogion droion; ond parhaodd J. W. Jones i'w olygu, nes y daeth efe, yn 1858, yn berchenog arno ei hunan. Daliodd i'w berchenogi hyd 1865; pan y gwerthodd ef i Gymro arall, o'r enw Mr. J. Mather Jones. Yn 1864, daeth J. W. Jones drosodd i Gymru, i edrych am ei rïeni a'i gydnabod; ac er croesi o hono y Werydd ddwy-ar-bymtheg o weithiau, ni roddodd i fyny ei ofal golygiadol. Tyfodd y *Drych* dan ei ddwylaw i fod yn allu mawr yn y Talaethau; ac y mae wedi parhau hyd y dydd hwn i fod yn brif newyddiadur y Cymry yn y Gorllewin. Ysgrifenodd Mr. Jones y prif erthyglau iddo am tua 32ain mlynedd: a llafuriodd mewn cyfeiriadau eraill. Casglodd, gyda gŵr arall, *Yr Athrawydd Parod;* ac ysgrifenodd *Hyfforddwr yr Ymfudwr*, a gyhoeddwyd yn y swyddfa hon; heb law erthyglau i'r *Cyfaill* a'r *Traethodydd*. Yr oedd yn eisteddfodwr gwych. Ennillodd wobrau yn Eisteddfod Utica, flynyddau yn ol, ar y prif draethodau—'Dacareg,' a 'Drygioni Caethwasiaeth.' Ei brif waith, fodd bynag, yw *Hanes y Rhyfel mawr yn yr America*.

Bu farw Hydref 8fed, 1884, yn nghanol ei ddefnyddioldeb, a chafodd angladd tywysog.

JONES, MAURICE CHARLES. Hynafiaethwr o gryn enwogrwydd oedd efe; ond un y mae ei enw yn llawer rhy ddyeithr i genedl y Cymry. Ganwyd ef yn y Trallwm, Mai 9fed, 1819, o deulu parchus. Yr oedd ei daid, fel yr ymddengys, yn un o brif sylfaenwyr Annibyniaeth Saesnig yn y dref hono. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Bruce Castle, Tottenham; ac wedi hyny, dygwyd ef i fyny yn gyfreithiwr. Symmudodd o Drallwm i Liverpool; a bu yn ymarfer â'i alwedigaeth yn y ddinas hono am agos i ddeugain mlynedd. Yn y fl. 1880, ymneilldùodd oddi wrth ei alwedigaeth, ac aeth i breswylio yn Grungrog hall, Trallwm. Tra yno, pennodwyd ef yn ynad heddwch, ac enwyd ef, hefyd, yn uchel sirydd; ond o herwydd gwaeledd ei iechyd, esgusodwyd ef rhag cyflawni dyledswyddau y swydd ddiweddaf.

Yr oedd Mr. Jones yn hynafiaethwr o allu mawr. Talodd sylw anghyffredin i faterion hynafol; ac yn enwedig felly i'r rhai a berthynent i sir Drefaldwyn. Ysgrifenodd amryw o draethodau llafurus; megys, *The Abbey of Valle Crucis:—its origin, and foundation Charter* (1866); *The Feudal Barons of Powys* (1868); ynghyd âg amryw erthyglau i'r *Archæologia Cambrensis*. Efe oedd sefydlydd ac ysgrifenydd y *Powys-land Club;* a bu yn olygydd y *Montgomeryshire Collections* am chwarter canrif. Ac ar ei wasanaeth mawr yn y cymmeriadau hyn yn benaf y pery ei goffadwriaeth. Sefydlwyd y *Powys-land Club* i'r amcan o gasglu gweddillion hanesyddol, eglwysig, teuluaidd, disgrifiadol, a llenyddol y sir hono at wasanaeth yr aelodau. Cyhoeddir cyfrol yn flynyddol gan y gymdeithas, o dan yr enw *The Montgomeryshire Collections.* Y mae chwech-ar-hugain o gyfrolau wedi ymddangos eisoes; ac ar ysgwyddau Mr. Jones y disgynodd baich y gwaith o'u parotoi. Fel y gellir disgwyl, y mae y cyfrolau hyn o werth ammhrisiadwy i sir Drefaldwyn. Yn y fl. 1864, etholwyd ef yn F.S.A. Ysgotland; ac yn F.S.A. Llundain, yn 1870.

Yn 1873, bu yn offerynol i sefydlu cywreinfa a llyfrgell yn y Trallwm, o dan yr enw *Powys-land Museum and Library;* yn mha un, erbyn hyn, y mae casgliad helaeth o weddillion hynafiaethol. Yn 1876, cyflwynwyd tysteb iddo am ei wasanaeth, o gynlluniad y diweddar John Evan Thomas. Elydr (*bronze*) oedd ei ddefnydd; ac arddangosai farwolaeth Tewdwr Mawr, a chopi o'r *Milton Shield* sydd yn nghadw yn Nghywreinfa South Kensington. Yn 1887, (blwyddyn yr Iwbili) trosglwyddwyd y gywreinfa a'r llyfrgell i ofal corphoraeth Trallwm; ac y maent yn awr yn agored i bawb. Yn 1891, ymgymmerodd Mr. Jones â chloddio yn mhlith adfeilion Mynachlog Ystrad Marchell—lle y claddwyd Owain Gyfeiliog, ac eraill o hen dywysogion Cymreig. Cyhoeddodd ganlyniadau ei

Digitized by Google

ymchwiliadau yn y *Montgomeryshire Collections*. Gellir enwi llawer eraill o symmudiadau yn mha rai yr oedd efe yn cymmeryd rhan bwysig, a llafurus. Pennodwyd ef gan Iarll Powys yn un o lywodraethwyr Coleg Bangor, Bu farw Ionawr 27ain, 1893, yn 73ain mlwydd oed.

JONES, PARCH. OWEN WYNNE (*Glasynys*). Yr oedd efe yn fardd, a hynafiaethydd, ac yn awdwr Cymraeg o alluoedd disglaer. Ganwyd ef Tachwedd 17eg, 1827, mewn tyddyn bychan o'r enw Brithdir, ar lethr y mynydd yn mhlwyf Rhostryfan, yn sir Gaernarfon. Yn y lle gwledig hwn y treuliodd efe flynyddoedd cyntaf ei oes. Wedi cael ychydig o ysgol, dechreuodd ei yrfa fel chwarelwr yn un o gloddfeydd Dyffryn Nantlle; a bu wrth y gwaith hwnw am bedair blynedd. Ond megys y gwnaeth Dewi Arfon—un arall o feibion glewion Eryri—rhoddodd yntau y chwarel i fyny, ac aeth i Ysgol Clynnog—a gedwid ar y pryd gan yr enwog Eben Fardd. Symmudodd oddi yno i Ysgol neu Goleg Athrawol Caernarfon, gyda'r amcan o'i gyfaddasu ei hun i fod yn ysgolfeistr. Y lle cyntaf y bu efe ynddo yn cadw ysgol oedd Clynnog; lle yr arosodd am rai blynyddoedd. Ac oddi yno yr ysgrifenodd ei lythyrau doniol, dan y penawd hwn—'Golygfa o Ben Moel y Gest, gan Salmon Llwyd.' Dyma'r pryd y daeth efe ac Eben Fardd i gydnabyddiaeth lenorol â'u gilydd: ac mewn ysgrif o'i eiddo yn *Cyff Beuno*, dyry Eben y nodiad canlynol am dano:—'Y Parch. Owen Wynne Jones (*Glasynys*), yn bresennol ciwrad Llangristiolus, yn Môn, sydd ganddo, trwy wahanol gyssylltiadau â Chlynnog Fawr, hawl lled deg i'w restru yn mysg ei beirdd a'i llenorion; o blegid yn nhreigliad cenedlaethau un gangen o epil yr enwog Elis Wynn, o'r Lasynys, o Feirion i Arfon, daeth ei ŵyr, John Owen, i fyw i Leuar Fawr, yn Nghlynog; ac o hono ef yr hanodd y gŵr talentog sydd dan sylw yn y cofnod hwn. Heb law hyny, bu Glasynys am amryw flynyddau yn cadw ysgol yn Nghlynnog Fawr.'

O Glynog, efe a symmudodd i Lanfachraeth, yn Meirion, i fod yn ysgolfeistr drachefn; a thra yno y daeth yn adnabyddus â'r enwog Ab Ithel. Parhaodd y cyfeillgarwch hwn rhwng y ddau nes y terfynwyd ef gan y bedd. Yn unol â'r annogaeth a dderbyniodd gan Ab Ithel yr ymbarotodd at fod yn glerigwr; ac wedi bod o hono mewn coleg yn Birmingham, ordeiniwyd ef yn ddiacon gan Esgob Bangor. Bu yn gwasanaethu fel ciwrad yn Llangristiolus a Llanfaethlu, yn Môn; yn Mhontlottyn, yn sir Fynwy; ac yn Tŷ Ddewi, yn Mhenfro. Yn Hydref, 1869, efe a ddychwelodd adref; ac wedi ychydig ddyddiau o gystudd, bu farw yn Nhowyn, Meirionydd, Ebrill 4ydd, 1870, yn 42ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Llandwrog, yn Arfon.

Ond er mor ieuangc ydoedd, cyrhaeddodd safle uchel fel llenor, ac yn enwedig fel hynafiaethydd. Gwnaeth lawer i boblogeiddio hen Chwedlau Cymreig a Llen Gwerin, trwy eu gosod ger bron mewn arddull hynod o brydferth a swynol. Teimlai bleser mawr yn nhraddodiadau aelwydydd mynyddig Arfon a Meirion; a chasglodd lawer o honynt ynghyd. Y maent yn argraphedig yn y *Brython*, a'r *Cymru Fu*—o ddeutu can tu-dalen yn y cylchgrawn olaf yn unig. Ennillodd ar draethawd yn Eisteddfod Dinbych, ar y testyn 'Diffyniad, nid Heriad' *(Defence, not Defiance)*; ac yn Eisteddfod Aberystwyth am draethawd ar y testyn 'Y Gwir yn erbyn y Byd.' Argraphwyd y cyntaf yn y *Brython*, a'r olaf yn yr *Eisteddfod*. Yn chwanegol at hyn oll, yr oedd Glasynys yn fardd cywrain a galluog; ac y mae llawer o'i gyfansoddiadau yn debyg o barhau yn boblogaidd yn hir. Yr oedd wedi bwriadu cyhoeddi cyfrol o farddoniaeth dan y teitl 'Y Wyddfa;' ond bu farw cyn gallu gwneuthur hyny.

JONES, RICHARD (*Gwyndaf Eryri*). Mab oedd efe i John Jones, a Margaret ei wraig, o Erw Ystyffylau, yn mhlwyf Llanwyndaf, yn sir Gaernarfon. Pan yn ieuangc, gorfodwyd ef i weithio fel y plant eraill ar y fferm, a daeth yn fedrus yn yr alwedigaeth. Esgeuluswyd ei addysg i raddau pell; ond yn nerth ei benderfyniad a'i yni, daeth yn ddarllenwr ac yn ysgrifenydd rhagorol. Fel hyn y dywedai Owen Williams, o'r Waenfawr, am dano:—'Er yn dra ieuangc, ymhoffai ganu chwibanogl *(flute)*; yn yr hon y daeth yn un o'r rhai medrusaf yn ei oes. Hefyd, ymhoffai ganu cerddi a charolau, &c.; fel y daeth yn hyfedr yn yr holl fesurau Cymreig—o'r erddigau dro tant hyd at y dôn fechan. Bu yn brif chwibanoglydd gyda'r milwyr gwirfoddol yno am lawer o flynyddoedd.'

Tua'r fl. 1808, dechreuodd Mr. W. A. Maddocks, o Ddyffryn Clwyd, yr hwn ar y pryd oedd yn aelod seneddol, ar yr anturiaeth bwysig o gau y Traeth Mawr, a sylfaenu Tremadog, &c. Aeth Richard yno, a bu am flynyddau yn un o'r prif weithwyr ar y pontydd a'r tai. Priododd tra yno, a ganwyd iddo ef a'i briod amryw o blant. Symmudodd o Dremadog i'w hen ardal, ac aeth i breswylio yn y Bontnewydd. Hyd yn hyn, nid oedd efe wedi canu ond ychydig ar y mesurau caethion; ond wedi dyfod i ardal ei hen gartref, efe a ymroddodd atynt o ddifrif. Ei brif athraw neu hyfforddwr oedd Dafydd Ddu o Eryri; yr hwn a gadwai ysgol yn Waen fawr. Derbyniodd gynnorthwy hefyd oddi ar law Gutyn Peris; yr hwn, meddir, oedd yn rhagori ar Dafydd Ddu fel hyfforddwr.

Symmudodd Richard Jones o'r Bontnewydd i Gaernarfon; ac yno y bu byw dros weddill ei oes. Daeth yn hyddysg mewn barddoniaeth, ac yn nghyfrinion yr iaith Gymraeg, pan yn gymmharol ieuangc. Ennillodd lawer o wobrwyon am gyfansoddi ymryson-gerddi; a daeth i gael ei ystyried yn mysg prif feirdd Cymru. Wrth ystyried ei amgylchiadau, a'i fod yn dilyn ei alwedigaeth fel saer maen yn gysson a diwyd drwy yr holl amser, y syndod yw ei fod wedi prydyddu cymmaint ag a wnaeth, ac yn enwedig ennill y gadair. Y mae ei holl waith ar gael yn lled gryno; a dywed eu beirniaid 'fod ei garolau plygain yn rhagorol, a synwyrol, ac efengylaidd; a'r awdlau a'r englynion, a'r cywyddau, yn rhagorion ei oes.'

Ennillodd Gwyndaf y gadair yn Eisteddfod Caernarfon yn 1821; ac mewn eisteddfod a gynnaliwyd yn Nyfed, yn 1823, gwobrwywyd ef âg arian-dlws gan Gymdeithas y Gwyneddigion am ei awdl ar 'Les Gwybodaeth.' Gwobrwywyd ef hefyd gan Gymreigyddion y Fenni, yn 1837, am y farwnad oreu ar 'Y Bardd a'r Derwydd, Gwilym Morganwg.' Ymddengys fod helynt blin—debyg i'r helyntion a welid yn fynych yn mysg y beirdd—wedi cymmeryd lle ynghylch ei awdl ar 'Gerddoriaeth;' am yr hon y cafodd ei gadeirio yn Eisteddfod Caernarfon,

Digitized by Google

yn 1821. Yn mysg y rhai yr appeliwyd atynt yn y cyffro hwn, yr oedd Gwallter Mechain – prif feirniad Cymru ar y pryd; a rhoddodd ef dystiolaeth uchel i Gwynfaf fel bardd, ac i'w awdl fel campwaith barddonol. Yn mysg llawer o gyfansoddiadau eraill, efe oedd awdwr *Peroriaeth Awen*. Llyfr oedd hwn yn cynnwys ei farddoniaeth; ac awdlau ar y testynau canlynol:—'Gwledd Belsassar,' 'Drylliad y *Rothsay Castle*,' a 'Marwolaeth y godidog flaenawr milwraidd Syr Thomas Picton.' Bu farw ar Mehefin 21ain, 1848, yn 62ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent Llanbeblig.

JONES, Parch. THOMAS, D.D., Tŷ Ddewi. Ganwyd y gŵr da ac adnabyddus hwn yn Mydroilyn, o fewn plwyf Llanarth, yn sir Aberteifi, naill ai yn mis Rhagfyr, 1802 neu 1803. Pan yn ddyn ieuangc, gweithiai gyda'r ffermwyr yn yr haf, a bugeiliai ddefaid yn y gauaf. 'Yr unig grefft a ddysgais,' meddai efe ei hun, 'oedd gorchwylion a gwaith hwsmon; sef, codi cloddiau, tori mawn, aredig, llyfnu, medi, dyrnu, a chyffelyb bethau. Fe'm dygwyd i fod yn elyn i ddiogi, ac i arfer diwydrwydd cysson.' Fel yna yr ysgrifenai Dr. Jones am dano ei hun pan oedd yn agos i bedwar ugain mlwydd oed.

Mynychai yr Ysgol Sabbothol, a moddion eraill; a thrwy ymroddiad, daeth yn alluog i ddarllen pan yn ieuangc. Derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys tua'r fl. 1819; ac yn mhen tua blwyddyn a hanner dechreuodd bregethu. Fe wnaed ef yn bregethwr cynnorthwyol ar gylchdaith Aberteifi; ac er ei gymmhwyso yn well ar gyfer ei waith, anfonwyd ef i Athrofa Neuaddlwyd. Yn Medi, 1823, aeth i gadw ysgol yn Llanelli; a thra yno, daeth yn gyfeillgar â Thomas Aubrey, a William Powell. Yr oedd y tri yn ddynion ieuaingc heb sôn am danynt y pryd hwnw; ond daethant wedi hyny i feddu safle uchel yn mysg pregethwyr y genedl.

Yn Nghynnadledd 1828, pennodwyd ef i lafurio ar gylchdaith Caerfyrddin, gyda'r Parch. Hugh Hughes (taid y Parch. H. Price Hughes, o Lundain); yr hwn oedd yn un o weinidogion mwyaf llafurus y Wesleyaid yn Nghymru; a daeth effeithiau ei ddylanwad ef, ynghyd â dau eraill o brif weinidogion yr enwad—sef, Robert Humphreys, a Benjamin Williams—i'w gweled yn amlwg ar yrfa lafurus y gweinidog ieuangc. Teithiodd Mr. Jones dair gwaith ar gylchdaith Caerfyrddin a Thŷ Ddewi; a dwy waith yn Nghaerdydd, Aberteifi, Abertawe, a Llandeilo. Bu hefyd yn Llundain, Llanidloes, a Machynlleth. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn ngorllewinbarth Deheudir Cymru; ac yr oedd ei ffyddlondeb i'w waith yn ystod y blynyddoedd hyn yn ddiarhebol. 'Ni thorais ond chwech o fy nghyhoeddiadau tra yn iach (ebai); pump o herwydd llif-ddyfroedd ac eira anorchfygol; ac un trwy esgeulusdra—ac O! mor nerthol y pregethodd fy nghydwybod yn herwydd hyny.' Yn 1866, ymneillduodd i fysg yr 'uwchrif,' ac ymsefydlodd yn Nhŷ Ddewi. Ac yno y preswyliodd bellach hyd ei farwolaeth; yr hyn a gymmerodd le Mehefin 30ain, 1891. Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi.

Pan wedi bod yn y weinidogaeth tuag wyth mlynedd, etholwyd Mr. Jones yn olygydd yr *Eurgrawn*, fel olynydd i'r Parch. Edward Jones, Llantysilio. Yr oedd efe ar y pryd yn llafurio yn nghylchdaith Llanidloes; ond er mor galed oedd y gwaith yno, llwyddodd i'w gyflawni; ac ar yr un pryd, i roddi ysbrydiaeth newydd yn y cyhoeddiad. Cyn iddo ymgymmeryd â'r olygiaeth, yn gystal ag wedi hyny, efe a ysgrifenodd lawer iddo dan wahanol ffugenwau. Yn ystod ei dymmor golygyddol y daeth i gyssylltiad â'r Parch. Samuel Davies—y cyntaf; yr hwn oedd yn oruchwyliwr y llyfrfa yr un flwyddyn. Parhaodd y gyfeillach rhyngddynt hyd farwolaeth Mr. Davies. Cyttunasant i ddwyn allan gorph o dduwinyddiaeth mewn undeb â'u gilydd. Canlyniad y cyd-ymdrech hwn fu ymddangosiad y *Drysorgell Efengylaidd*. Dr. Jones a ysgrifenodd y rhan fwyaf o'r gwaith; o blegid llesteiriwyd Mr. Davies gan gystudd yn y teulu. Bu y *Drysorgell* yn safon-waith yr enwad am flynyddoedd yn Nghymru; a phrin y mae un llyfr arall a gyhoeddwyd o'i flaen, nac ar ei ol, yn yr enwad, yn rhagori arno. Dr. Jones fu y prif offeryn yn nghychwyniad y *Winllan;* ac ysgrifenodd holwyddoreg at wasanaeth yr Ysgolion Sabbothol, a elwid *Elfenau Duwinyddiaeth.* Cyhoeddodd hefyd, mewn llyfryn swllt, *Ganmlwyddiant Wesleyaeth;* sef, crynodeb o hanes dechreuad a chynnydd y cyfundeb. Y cyhoeddiad olaf a ddygwyd allan ganddo oedd *Y Cyfansoddiad Teuluol.*

Fel pregethwr, yr oedd Dr. Jones, yn ddïau, ar ben rhestr gweinidogion ei enwad. Yr oedd yn hyawdl, yn nerthol, ac yn effeithiol. Daeth hefyd i sylw fel darlithydd o gryn enwogrwydd. Darlithiodd lawer ar wahanol destynau; sef, 'Addysg,' 'Derwyddiaeth,' 'Yr Enaid, a'i Gynneddfau,' 'Y Pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân,' 'Twyll Masnach,' 'Caru, a Phriodi,' &c., &c. Bu yn gynnrychiolydd y Gymdeithas Feiblaidd amryw weithiau trwy siroedd Cymru; ac areithiodd lawer hefyd ar y Genhadaeth Dramor. Gwasanaethodd hefyd, fel cadeirydd y dalaeth—swydd anrhydeddus a phwysig yn y cyfundeb Wesleyaidd. Ar ol ei ymneillduad, a'i ymsefydliad yn Nhŷ Ddewi, parhaodd i bregethu yn y gylchdaith hono, ac hefyd i gymmeryd dyddordeb yn symmudiadau cyhoeddus y sir. Etholwyd ef yn aelod ar y bwrdd ysgol, a dewiswyd ef yn is-gadeirydd. Yr oedd, hefyd, yn un o lywodraethwyr Prifysgol Caerdydd o'r dechreu. Mewn gair, yr oedd yn bleidiwr selog i bob symmudiad daionus, ac yn amddiffynwr cryf i Ymneillduaeth.

JONES, Parch. WILLIAM, Canton. Pregethwr adnabyddus gyda'r Methodistiaid Calvinaidd yn y Deheudir oedd efe; yr hwn, pan fu farw, ydoedd y gweinidog hynaf oedd gan yr enwad hwnw yn sir Forganwg. Nid oes ond ychydig o amgylchiadau boreu ei oes yn wybyddus i ni. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1847, a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes ynglŷn â chyfarfod misol sir Forganwg. Bu yn wasanaethgar iawn yno fel ysgrifenydd y cyfarfod misol am flynyddoedd lawer. Teimlai ddyddordeb mawr yn Ngholeg Trefecca; ac yr oedd yn mysg y rhai blaenaf yn ei sefydliad. Yn 1869, yr oedd yn llywydd Cymdeithasfa Llaneurwg. Adnabyddid ef am amser wrth yr enw 'William Jones, Crughywel,' wedi hyny 'William Jones, Cendl;' ond treuliodd flynyddoedd olaf ei oes yn Canton. Meddai alluoedd meddyliol cryfion, a chyfran helaeth o ddawn pregethwrol; ac oni bae iddo dalu cymmaint o sylw i fasnach yn mlynyddoedd cyntaf ei fywyd, diammheu y buasai yn debyg o fod yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y Deheubarth. Yr oedd, er hyny,

Digitized by Google

yn bregethwr gwresog a buddiol. Bu farw ar Ebrill 12fed, 1893, yn 84ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Caerdydd.

JONES, JOHN, Llanedi. Gweinidog perthynol i'r Methodistiaid Calvinaidd oedd efe; yr hwn oedd yn adnabyddus trwy Ddeheu a Gogledd Cymru. Ganwyd ef y 10fed o Fai, 1804, mewn lle o'r enw Ffansi, yn nghymmydogaeth Pont-y-berem, yn sir Gaerfyrddin. Enwau ei rïeni oedd Benjamin a Gwenllian John. Pa ham y darfu iddo, ynghyd â'r lleill o'r plant, fabwysiadu y cyfenw Jones, yn lle John, nis gwyddom; ond felly y gwnaethant. Yr oedd ei dad a'i fam yn aelodau eglwysig gyda'r Methodistiaid Calvinaidd, ac yn hynod am eu duwioldeb. Yn eu tŷ hwy, yn ol yr hanes, y cafodd yr achos Methodistaidd y cartref cyntaf yn ardal Pont-y-berem. Gwehydd oedd Benjamin John, wrth ei alwedigaeth. Gwasanaethodd swydd blaenor yn yr eglwys am lawer o flynyddoedd; a gwasanaethodd y swydd mor dda, fel yr ennillodd iddo ei hun 'radd dda, a hyfder mawr yn y ffydd sydd yn Nghrist Iesu.' Bu farw yn y fl. 1842, yn 71ain mlwydd oed. Yr oedd ei wraig wedi marw lawer o flynyddoedd cyn hyny. Dysgodd y mab grefft ei dad, a pharhaodd i weithio ynddi am amser maith, ar ol ymgymmeryd â'r weinidogaeth; canys yr oedd yn rhaid iddo wrth ei hennillion tuag at gynnaliaeth ei deulu. Nid oes neb wedi medru nodi dechreuad ei fywyd crefyddol. Yn mron na thueddir ni i gredu fod ei enedigaeth naturiol a'i enedigaeth ysbrydol ef yn gydamserol. Y Parch. Thomas Job, mewn pregeth angladdol iddo, a ddywed am ei dröedigaeth fel hyn:— 'Mae yn ymddangos iddo gael ei argyhoeddi trwy weinidogaeth danllyd yr Hybarch David Morris, o'r Hendre.' Nid oes sicrwydd am hyn, gan nad beth am y tebygolrwydd o hono. Yr oedd efe yn ofni Duw o'i febyd, 'ac er yn fachgen yn gwybod yr Ysgrythyr Lân.' Nid oedd neb o'i gydnabod yn ammheu ei fod yn 'Israeliad yn wir;' ac nid oedd efe yn ammheu hyny ei hunan, oddi eithr ar ambell i awr wan yn ei hanes, pan fyddai ddyfnaf yn ngafael y pruddglwyf.

Yn lled gynnar yn ei fywyd, symmudodd ei rïeni o'r Ffansi, yn Mhont-y-berem, i'r Ficerdy, yn Llangyndeyrn—pellder o ryw bedair neu bum milldir. Nid am fod John, y mab, erbyn hyn yn glerigwr, ac wedi llwyddo i gael bywoliaeth plwyf Llangyndeyrn, y bu y symmudiad hwn i fyw i'r Ficerdy; ond o blegid rheswm arall; o herwydd nid oedd y bachgen etto na chlerigwr na phregethwr—nac yn ddim, amgen gwehydd yn gweithio gyda'i dad. I gapel y Methodistiaid, heibio i'r Llan, yr elai y teulu i addoli, er preswylio o honynt yn y Ficerdy. Yn eglwys Llangyndeyrn y dechreuodd John bregethu, yn y fl. 1824, ac efe y pryd hwnw, yn ugain mlwydd oed; ac fel 'John Jones, Llangyndeyrn,' y daeth ei enw ef gyntaf yn adnabyddus yn y wlad. Ni bu tymmor ei brawf yn faith cyn cael o hono ei dderbyn yn aelod o gyfarfod misol yr enwad. Rhoddwyd iddo y derbyniad hwnw yn Myddfai—yr un adeg ag y derbyniwyd y diweddar Barch. William Prytherch; yr hwn, o hyny allan, a fu yn gyfaill mynwesol iddo hyd derfyn ei oes. Ymunodd mewn priodas â Mrs. Sarah Harris, gweddw âg iddi bedwar o blant, oedd yn cadw masnachdy bychan yn Mhontantwn, yn agos i bentref Llangyndeyrn. Bu yn hynod yn ei briodas; canys yr oedd Mrs. Jones, neu 'Sali,' fel y galwai efe hi, yn wraig landeg, synwyrol, a threfnus, wedi cael dygiad i fyny da, ac wedi derbyn yr addysg oreu. Merch i glerigwr oedd hi, ac yn feddiannol ar holl gymmhwysderau gwraig pregethwr. A bu y briodas hon yn un mor ffodus hefyd iddi hithau; o blegid bu efe yn gystal gŵr iddi hi ag y bu hi o wraig iddo ef. Yr oedd yn ei charu yn ei galon, ac yn gofalu am dani fel am ganwyll ei lygad. Bu hefyd yn dad tirion a charedig i'w phlant—er mai llys-dad ydoedd efe. Ni bu ganddo blant ei hun. Ar ol byw am flynyddoedd yn Mhontantwn, daeth yr adeg i symmud i blwyf Llanddarog. Nid oedd hwn yn symmudiad pell; canys y mae plwyfi Llangyndeyrn a Llanddarog yn ffinio ar eu gilydd. Cymmharol fyr a fu tymmor ei arosiad yno. Yr oedd y symmudiad nesaf i Lanedi—plwyf sydd yn ffinio ar sir Forganwg, yn nghymmydogaeth Pontardulais. Yr oedd John Jones yn anterth ei nerth a'i ogoniant pan y symmudodd i fyw i Lanedi; ac yma yr arosodd hyd derfyn tymmor ei ddefnyddioldeb. Oni bae am dano ef, a'r hen ficer Pritchard, ychydig y tu allan i derfynau sir Gaerfyrddin fuasai wedi gwybod fod y fath enw a Llanedi yn rhestr enwau y byd.

Gyda'r adroddiad brâs yna am y prif ddigwyddiadau a'r symmudiadau yn ei fywyd cyffredin, y mae yn gweddu i ni yn awr sôn am dano fel pregethwr; o blegid y pregethwr, a'r pregethwr yn unig, a'i cododd i sylw ac enwogrwydd. Nid oedd John Jones na bardd, na cherddor, nac athronydd, na llenor, na chyfreithiwr, na gwleidyddwr — mewn gair, nid oedd efe yn ddim yn y byd, nac yn yr eglwys, ond pregethwr yn unig. Na chamddealler ni yn y sylwadau hyn. Nid ydym yn dyweyd ei fod yn un na fedrai brydyddu a saernïo pennillion—a chanu hefyd, yn fynych gyda hwyl; ond pregethu oedd ei hyfryd waith. Y mae traddodiad am dano ei fod yn wehydd da; a dichon fod y traddodiad yn wir; ond gŵr diddawn ei wala ydoedd i drefnu ei amgylchiadau tymmhorol. A chyda thrin achosion eglwysig a chyfundebol, gwas un dalent ydoedd; a hono am y rhan fwyaf o'r amser yn cael ei chadw yn segur—fel wedi ei phlygu mewn napcyn. Bu fyw i gyhoeddi 'anchwiliadwy olud Crist.' Ei fwyd a'i ddiod ef oedd myned oddi amgylch i wneyd daioni trwy bregethu; a'r Arglwydd yn unig a ŵyr pa faint o ddaioni a wnaed ganddo yn y ffordd hono. Pregethwr o waith Duw ydoedd—o'r gwraidd i'r brig. Ychydig o law fu gan ddyn; ïe, hyd yn oed ganddo ef ei hun, i'w wneuthur yr hyn ydoedd fel cymmeriad cyhoeddus. Yr oedd yn mron y cwbl ynddo, ac arno ef, yn waith natur a gras.

Crybwyllasom eisoes am ei dderbyniad buan yn aelod o'r cyfarfod misol; a gallwn chwanegu yma fod yr un peth yn wir am ei dderbyniad i'r gymdeithasfa. Canlyniad hyny ydoedd—rhyddid i fyned ar deithiau y tu allan i'r sir. Dechreuodd John Jones deithio yn foreu—nid yn siroedd y Deheudir yn unig, ond yn siroedd y Gogledd hefyd; a pharhaodd i wneyd hyny tra y daliodd nerth a chyfleusdra. Yn y fl. 1839, pan oedd yn 35ain mlwydd oed, ordeiniwyd ef yn weinidog. Dewiswyd William Prytherch ac yntau i'w hordeinio yr un flwyddyn. Ac mewn cyfarfod misol yr oeddynt yn cael ymddiddan â hwynt am eu teimlad yn

Digitized by Google

wyneb y symmudiad hwnw, digwyddodd y Parch. Thomas Richards, Abergwaen, fod yn bresennol, a rhoddwyd iddo ef y gwaith o'u holi. John Jones oedd y cyntaf a holwyd ganddo: ac mewn sylwedd, efe a ddywedodd fod y dewisiad o hono i gael ei neillduo i weinyddu yr ordinhâd yn beth nad oedd efe yn disgwyl am dano. Nid oedd yn gweled ynddo ei hun ddim teilyngdod na chymmhwysder i'r gwaith. O ran ei deimlad, gwell ganddo ef fuasai cael aros fel yr oedd. 'William Prytherch,' ebe Mr. Richards, 'dywedwch chwithau air. A ydych chwi, William, yn teimlo yn debyg i'ch brawd hwn, John Jones?' 'Nac ydwyf, syr,' ebe Mr. Prytherch. 'Y mae yn dda genyf fi am y dewisiad. Y mae yn beth yr oeddwn yn disgwyl am dano er's blynyddoedd; ac yn beth yr wyf wedi rhyfeddu llawer na buasai wedi cael ei wneyd yn gynt. Gan yr ystyrir fi yn meddu digon o gymmhwysder i bregethu yr efengyl, yr wyf yn methu deall pa gymmhwysder chwanegol sydd yn ofynol i fedyddio, a gweinyddu Swper yr Arglwydd?' 'Frodyr,' ebe'r esgob o Benfro, 'mae William Prytherch yn siarad fel dyn yn adnabod ei hunan; ac y mae yn dyweyd cymmaint o wirionedd, ac yn ei ddyweyd yn y fath fodd, fel nad yw yn gadael lle i chwanegu ato, nac i gymmhwyso. Tebygol, pe buasai John Jones wedi edrych yn mhellach i mewn iddo ei hun, y deuai o hyd i deimladau cyffelyb i'r rhai a fynegwyd gan William Prytherch.' Ni ddylid meddwl fod John Jones yn rhagrithio yn yr amgylchiad hwn. Amcanu yr oedd efe i adrodd un ochr yn unig, a hono yr ochr nesaf i'r llwch, gan farnu mai hyny fyddai ddiogelaf iddo ger bron y fath ŵr a Thomas Richards. Ond, druan o hono! Nid oedd hwn y tro cyntaf, na'r tro diweddaf, iddo gael ei ddal mewn rhwyd o'i wëad ef ei hun. Nid oedd John Jones yn dywysog yn un man, ond yn y pulpud.

Yr oedd yn edmygydd mawr o'r Parch. John Evans, o Lwynffortun; ac yr oedd hi yn farn gyffredin am dano ei fod yn ei efelychu ef, er nid i raddau beius. Ceir cyfeiriadau hefyd at hyn yn llythyrau ei gymdeithion i'w fywgraphydd. 'Clywais lawer yn dyweyd,' meddai y Parch. W. Prytherch am dano, 'ei fod yn ymdebygoli yn fawr i Mr. Evans, New Inn, o ran ei gorph a'i bregethau; ac nid wyf yn meddwl i Mr. Evans adael neb ar ei ol mor debyg iddo ei hun a Mr. Jones.'

Yn mhlith prif elfenau ei nerth a'i ddylanwad, gellir enwi y pethau canlynol:—1. Harddwch ei wedd. 'Yr oedd (medd ei fywgraphydd) yn un o'r rhai mwyaf golygus o feibion Cymru. Dyn lluniaidd, llawn, cydnerth, ac yn mesur tua phum troedfedd a deng modfedd o daldra, heb un gwrthuni yn ei berson, o'r copa i'r traed.' Ymwisgai bob amser yn drwsiadus; ac yr oedd ei wedd ger bron ei wrandawyr yn peri iddynt ddisgwyl llawer oddi wrtho; ac er eu bod yn disgwyl felly, yr oeddynt yn cael. 2. Helaethrwydd a hyfrydedd ei ddawn. Yr ydym yn defnyddio y gair 'dawn' yn awr yn yr ystyr a roddir iddo gan y werin. 'Yr oedd wedi ei fendithio â môr o ddawn.' Yr oedd ei lais fel llais udgorn—yn nerthol, treiddgar, a melodaidd. Pan ddyrchafai ei lef, yr oedd ei floedd soniarus yn synu ac yn swyno cynnulleidfa. 3. Brasder ei weinidogaeth. Gŵr nodedig oedd efe am fwrdd brâs. Henaidd oedd ei bregethau o ran cynllun—heb fod dim yn gelfyddydol yn eu cyfansoddiad; ond o ran defnydd, mêr yr efengyl oeddynt. Cynnygiai Grist i bechadur ar gyfer pob angen; a gwnai ei oreu i'w berswadio ei fod yn cynnyg digon iddo. Gwnai ddefnydd helaethach na'r cyffredin o'r Ysgrythyrau; ac yr oedd yn gwbl ddealladwy i'w wrandawyr, yn ei ffordd o'u hegluro a'u cymmhwyso. 4. Brwdaniaeth ei deimlad. Yr oedd yn gymmaint o bregethwr y teimlad yn mhob ystyr a neb a fu erioed. Dichon ei fod yn prisio teimlad yn rhy uchel; ac yn ddarostyngedig, ar brydiau, i aberthu gormod er ei fwyn. Bychan, pa fodd bynag, oedd ei allu ef mewn gwaed oer. Rhaid oedd iddo wrth dân, i godi ager, cyn y gallai roddi dim i gerdded yn hwylus. Pan y byddai y tân yn cynneu, a'r crochan yn berwi, byddai yn cyflawni ei waith â nerth gorchfygol. Cyhoeddai ddiangfa dragwyddol yn Iesu Grist—a tharawai ei droed ar waelod y pulpud, a bloeddiai 'Gogoniant! Gogoniant!' nes y byddai calonau ei wrandawyr yn llymaid ger ei fron. 5. Crefyddolder ei ysbryd. Yr oedd yn 'ŵr Duw' mewn gwirionedd—cwbl gyssegredig i'r gwaith sanctaidd oedd ganddo mewn llaw; a diammheu fod hyn yn llawer o ddirgelwch ei allu gyda dynion, a'r Arglwydd. Yr oedd efe gyda Duw, a Duw gydag yntau; ac o blegid hyny, yr oedd yn myned allan i orchfygu, ac yn gorchfygu.

Fel golygwr a bugail, nid oes ond ychydig i'w ddyweyd am Mr. Jones; er ei fod yn ŵr duwiol iawn, ac yn un a berchid ac a gerid gan yr holl frodyr sanctaidd yn nghylch ei gyfarfod misol, ni bu efe mor ofalus ag y buasai yn ddymunol iddo fod am yr achos crefyddol yn ei sir ei hun; a chymmharol fychan hefyd fu ei wasanaeth i'r eglwysi y bu yn cartrefu ynddynt. Yr oedd yn ormod o deithiwr i fod yn fugail defnyddiol; ac yn ormod o 'ddyn pob man' i fod yn fawr ei ofal am ei gartref. Heb law hyny, yr oedd yn ddyn rhy felancolaidd i fod o nemawr werth fel esgob a bugail. A dyma ni yn awr wedi dyfod at ei brif wendid. Nid gwendid moesol oedd, ond gwendid anianyddol. Rhaid i ni ddyweyd gair am hwn cyn terfynu; canys anghyflawn y bernid erthygl fèr ar John Jones, o Lanedi, heb fod ynddi gyfeiriad lled amlwg at ei brudd-glwyf. Y mae yn sicr fod y diweddar Barch. William Prytherch yn ei adnabod yn well na neb arall o'i holl frodyr, gan fod y ddau yn gyfeillion mynwesol, ac yn gyd-deithwyr cysson am ysbaid pedair ar ddeg a deugain o flynyddoedd. Dywed Mr. Prytherch am dano fel hyn:—'Ysbryd lled wanaidd oedd ynddo, ac yn cael ei flino gan y *nervous complaint*; ac ni byddai yn iach bron un amser, os gofynid iddo—eithr byddai yn hawdd ei wella, ond peidio ei gwyno. Mi a'i gwellhëais ef lawer gwaith drwy beth digrif. Mae llawer o ystorïau wedi eu lledaenu am dano ef a minnau sydd yn anwiredd hollol, a gallwn enwi amryw o honynt.' Ië, fel y dywed Mr. Prytherch, 'y mae llawer o'r ystorïau yn anwiredd hollol,' ac y mae llawer eraill o honynt yn anwiredd mewn rhan; ac y mae y gweddill, fe allai, yn weddol lân oddi wrth anwiredd. Ond gorchwyl anhawdd, erbyn hyn, fyddai eu didol, a'u dosbarthu, a gosod pob ystori yn ei ddosbarth ei hun. Ond y mae un peth a ellir wneyd o honynt—eu claddu yn un crynswth; a dichon mai hyny fyddai y peth goreu, bellach, gan fod y ddau ŵr da yn gorphwys yn nhŷ eu hir gartref. Er fod yr ystorïau yn rhai difyr eu gwala, ni ettyb eu hadrodd



Digitized by Google

un dyben da; oddi eithr y gall adroddiad o honynt fod, yn achlysurol, yn foddion i wrthweithio y pruddglwyf mewn ambell i feddwl cyffelyb i'r eiddo gwrthddrych yr erthygl hon. Ymddengys fod rhyw gymmaint o wendid ysbryd yn perthyn yn wreiddiol i Mr. Jones; ac ni ellir ammheu na ddarfu iddo yntau, oddi ar ryw syniad oedd yn ei feddwl, feithrin a magu y gwendid hwnw nes iddo fyned yn rhy gryf iddo allu cadw llywodraeth arno. Dyn mawr o gorph a meddwl, gyda rhyw gymmaint o'r baban ynddo, oedd efe ar hyd ei oes. Ac fel yr oedd yn heneiddio, yr oedd yn myned yn fwy-fwy pruddglwyfus, nes yr aeth, yn y diwedd, yn flinder iddo ei hun, ac yn ddiddefnydd yn gynt na phryd.

O ddeutu y fl. 1865, symmudodd o Lanedi i Gwmaman—ardal gyfagos; a'i gartref eglwysig oedd yn y Bettws. Nid oedd efe, ar y pryd hwnw, nemawr uwch law trigain mlwydd oed; ac etto, yr oedd ei gyfansoddiad yn dechreu adfeilio, a'i gôf yn dechreu ammharu. Ac yn mhen rhyw gymmaint o amser wedi iddo symmud i Cross Inn, yn Nghwmaman, collodd ei anwyl briod; a chafodd ei marwolaeth effaith mor ddwys arno nes ei wneyd yn llawer mwy anghofus a babanaidd nag ydoedd o'r blaen. Gwelsom ef, rai gweithiau, yn tori i lawr ar ganol pregeth mewn odfa mewn cyfarfod misol. Diangai y cwbl o'r côf yn mhresennoldeb cynnulleidfa; ac yr oedd yntau yn rhy lwfr ei ysbryd i anturio ymladd âg anhawsderau. Ar ol myned o hono at ei gyhoeddiad ar gyfer y Sabbath, peth cyffredin yn ei hanes oedd cael ei drechu gan wangalondid i gynnyg myned trwy y gwaith. Yn mhen amser, peidiodd a myned nemawr oddi cartref i bregethu; ond yr oedd yn parhau i ddilyn y moddion yn y Bettws: ac ar brydiau, byddai yn hwyliog ac yn nefolaidd iawn yn y cyfarfodydd eglwysig. Bu ei frodyr yn y sir yn garedig iawn wrtho yn y cyfwng hwn. Codasant drysorfa fechan ar ei gyfer, a gosodasant ar frodyr addas i ddogni o honi iddo, fel na byddai arno eisieu dim. Tua dwy flynedd cyn ei farwolaeth, efe a symmudodd o Cross Inn i Ferry Side—pentref bychan ar lan y môr, wyth milldir i'r deheu o Gaerfyrddin. Trwy y symmudiad hwn, daeth i drigiannu yn agos i'w chwaer (Mrs. Jones, Tresilwood), ac yn yr un pentref hefyd a'i hen gyfaill anwyl, a'i feddyg penaf, Mr. William Prytherch. Nid ydym yn gwybod ddarfod iddo gynnyg pregethu ar ol myned i'r Ferry; ond elai i'r capel yn achlysurol. A phan y byddai ei feddwl yn glir, cymmerai ran yn ngwaith y cyfarfodydd. Gyrai yn aml am ei gyfaill; a dywedai wrtho bob tro y deuai efe ato, gyda difrifwch, lawer o'r pethau rhyfedd a fyddent yn pwyso ar ei feddwl. Nid oedd Mr. Prytherch un amser yn methu ei feddyginiaethu ef ar yr adeg; ond yr oedd perygl mawr i'r pruddglwyf ddychwelyd yn fuan ar ol i'r meddyg droi ei gefn. Dau ddymuniad mawr oedd ganddo yn ei amser diweddaf; sef, cael sicrwydd y cai ei enaid fod gyda Christ ar ol marw, a chael sicrwydd y rhoddid ei gorph i orphwys yn yr un bedd a Sali, ei wraig, yn mynwent Llanddarog. Dydd Iau, Mawrth 9fed, 1881, y boreu, daeth awr ei ymddattodiad. Gollyngwyd ef mewn tangnefedd; a'i enaid a ddygwyd gan angylion at ei Arglwydd. Y dydd Mawrth canlynol, daeth nifer mawr o wŷr bucheddol ynghyd, y rhai a gymmerasant ei gorph marw i Landdarog; a chladdasant ef, yn ol ei ddymuniad, yn yr un bedd a Mrs. Jones, yn mynwent y Llan. 'Y doethion a ddisgleiriant fel disgleirdeb y ffurfafen, a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder, a fyddant fel y sêr byth yn dragywydd.'

JONES, Parch. JOHN, Rhyl. Gweinidog ymroddgar a da yn nghyfundeb y Methodistiaid Calvinaidd oedd y gŵr hwn. Ganwyd ef yn Rhuddlan, yn 1801. Yr oedd yn berthynas o bell i'r Parch. Thomas Jones, Dinbych; ac yr oedd efe yn ymfalchïo yn hyny. Masnachwr coed oedd ei dad; a chafodd y bachgen well addysg na'r cyffredin o ieuengctyd y dyddiau hyny. Wedi gorphen ei addysg, rhoddwyd ef yn ysgrifenydd yn Swyddfa yr Ewyllysiau yn Llanelwy, o dan Mr. Wyatt. Bu yno am rai blynyddoedd; a dilynai y moddion crefyddol a gynnelid yn y capel yn y ddinas hono. Ond nid llawer o arwyddion duwioldeb oedd arno y pryd hwnw. Ond aeth gyda rhai o'i gymdeithion i Gymdeithasfa y Bala, pryd y gwelodd ac y teimlodd bethau rhyfedd o dan weinidogaeth rhai o dywysogion y dyddiau hyny. Yr oedd yr hyn a elwir yn 'Ddiwygiad Beddgelert' yn goddeithio y wlad y pryd hwnw. Daeth John Jones i gyffyrddiad â'r trydan nefol; a bedyddiwyd ef â'r Ysbryd Glân, ac â thân. Methodd wrthsefyll y dylanwadau dwyfol, a bu raid iddo yntau ymuno yn y mawl, a'r gorfoledd, a'r diolchiadau oedd yn adseinio ar faes y gymdeithasfa, a thrwy yr ardaloedd yn gyffredinol. Daeth adref â'i wedd yn wahanol iawn i'r hyn oedd pan yn myned i'r Bala, gan iddo fod mewn ymdrechfeydd celyd yn rhywle. Mewn amser, symmudodd o Lanelwy i bentref Dyserth, yr hwn sydd o fewn tua phedair milldir i'r ddinas esgobol, i gadw ysgol ddyddiol. Yno y dechreuodd bregethu, tua'r fl. 1827; ac o dan yr enw 'John Jones, Dyserth' yr adnabyddid ef am flynyddoedd. Gŵr lled dàl, corphol, cadarn, ac o esgeiriau cryfion, oedd efe; gwyneb agored a llawn, gwresog a bywiog ei ysbryd; ond er hyny yn addfwyn, ac yn dyner odiaeth. Gan iddo gael ei argyhoeddi mor lym am ei gyflwr ger bron Duw, a chanfod cryn lawer o nodweddion Sinai a'r ddeddf danllyd yn ei droedigaeth, yr oedd yn naturiol disgwyl y byddai ei weinidogaeth yn cyfranogi o'r un elfenau. Defnyddiai gymmhariaethau cartrefol i egluro ei faterion; ond yr oedd ei ddull cynnes, bywiog, teimladwy, a chyfeiriol, yn peri ei fod yn un o'r gweinidogion mwyaf poblogaidd. Deuai lluoedd ar ei ol i wrandaw arno, pan yn symmud i bregethu o'r naill ardal i'r llall; a byddai yn fynych yn cael odfeuon tra chynnhyrfiol; a llawer a ddygwyd i eglwys Dduw trwy ei weinidogaeth.

Yn y dosbarth canol o bregethwyr y cyfrifid ef; a phregethwr, yn benaf, i'r dosbarth canol o wrandawyr oedd efe; sef, y dosbarth mwyaf lliosog o lawer. Er hyny, cyflwynai seigiau cymmeradwy i'r rhai mwyaf cymmhenllyd eu chwaeth. Yr oedd golwg urddasol a boneddigaidd arno yn y pulpud; a phan yn cerdded hyd yr heolydd, byddai raid i ddyeithr-ddyn deimlo nad yn ngwyddfod dyn cyffredin yr oedd pan yn mhresennoldeb Mr. Jones. Cafodd ef, a dau eraill, eu hordeinio yn Nghymdeithasfa Rhuthyn, Ebrill 3ydd, 1851. Traddodwyd, ar y pryd, yr araeth ar 'Natur Eglwys,' gan y Parch. Moses Jones, o sir Gaernarfon; a rhoddwyd y 'Cynghor' gan y Parch. W. Roberts, Amlwch. Gan

Digitized by Google

fod tref Rhyl, yr hon sydd o fewn tair milldir i Dyserth, yn cynnyddu mewn pwysigrwydd y pryd hwnw, symmudodd John Jones i'r dref hono i fyw; a chyn hir dewiswyd ef yn ysgrifenydd trefol. Tra yr oedd yn byw yn Dyserth byddai yn myned weithiau i bregethu i siroedd eraill; ond wedi ymgymmeryd â'r swydd uchod, bu raid iddo fod yn fwy cartrefol. Llanwodd y swydd hon yn ffyddlawn a chymmeradwy am lawer o flynyddoedd; ond gofalodd na byddai i'r cyflawniad o'i ddyledswyddau fel ysgrifenydd y dref beri iddo lacio yn ei sêl a'i weithgarwch gyda chrefydd. Yr oedd yn mhob moddion crefyddol yn y capel bob noson o'r wythnos, yn llywio yr achos; ac yr oedd yn darpar lluniaeth gartref i'r praidd. Yr oedd ei ymweliadau â'r gwrthgiliedig, ac â'r rhai oedd yn esgeuluso yr efengyl, bron yn ddiderfyn. Gwyddai am holl gleifion y dref; a byddai yn galw yn siriol i edrych am danynt, nos a dydd, ac i weddïo gyda hwynt. Cynnaliai ŵylnosau yn nhai y meirw; ac yr oedd yn rhoddi ei wasanaeth gwerthfawr bron yn mhob angladd heb angen cydnabyddiaeth. Yr oedd ei nodweddion fel cymmydog, cyfaill, cymmwynaswr, a gweinidog, yn disgleirio yn eglur yn y dref. Gan ei fod yn meddu cryn lawer o wybodaeth gyfreithiol, ac yn deall rhyw gymmaint am feddyginiaeth, a phethau eraill, a chan fod tref Rhyl, yr adeg hono, yn ei babandod, byddai yn rhoddi pob gallu a medr oedd ganddo i fod yn wasanaethgar i grefydd, ac er mantais i iachawdwriaeth ei gyd-ddynion.

Ond dyddiau y gwas ffyddlawn hwn a nesasant i farw! Cafodd Mr. Jones gystudd maith a phoenus; ond yr oedd ei ffydd yn gafaelu yn hyderus ac yn orfoleddus yn Nuw fel 'nerth ei galon, a'i ran yn dragywydd.' Bu farw Awst y 19eg, 1858, yn 58ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am tua deg-ar-hugain o flynyddoedd. Diwrnod yr angladd, wedi gwasanaeth effeithiol yn nghapel Heol Clwyd, Rhyl, hebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono i fynwent y Cwm, bum milldir o bellder, gan dorf fawr o alarwyr; a rhoddwyd ei weddillion yn y pridd yn nghanol cawodydd o ddagrau.

JONES, Parch. JOHN, o Wrecsam. Gweinidog poblogaidd gyda'r Methodistiaid Calvinaidd oedd y gŵr hwn. Yr oedd efe yn ŵyr i'r hybarch Robert Jones, o Rhos-lan, sir Gaernarfon—un o golofnau cyntaf y Methodistiaid yn Ngwynedd. Yr oedd tad y gweinidog hwn, sef Mr. Daniel Jones, yn pregethu yn achlysurol, er na fynai gael ei gydnabod yn bregethwr rheolaidd. Ganwyd y mab yn Liverpool, yn y fl. 1808; canys yno yr oedd ei rïeni yn byw yn y blynyddoedd hyny, ac yn dwyn yn mlaen fasnach lwyddiannus. Yr oedd ei fam, Mrs. Jane Jones, yn wraig rinweddol, ac yn rhagori ar famau yn gyffredin o ran nerth ei galluoedd naturiol; ac yn neillduol felly o ran addfedrwydd ei chrefydd. Cafodd y bachgen fagwraeth grefyddol fanwl gartref, ac yn eglwys Crist; a chan fod gweinidogion yr efengyl yn arfer llettya gyda'i rïeni pan y deuent i Lynlleifiad, fe'i dygwyd ef i fyny mewn awyrgylch oedd yn fanteisiol iawn i dduwioldeb boreuol. Pan oedd John Jones tua deuddeng mlwydd oed, symmudodd ei rïeni o Liverpool i ffermdy yn agos i Ddinbych, o'r enw Parc-y-twll—hen gartref ei fam. Wedi dyfod i Ddinbych, ac ymaelodi gyda'i rïeni yn nghapel y Methodistiaid yn y dref hon, daeth o dan arolygiaeth y Parch. Moses Parry, a'r blaenoriaid enwog oedd y pryd hwnw yn llywio yr achos mawr. Bu John Jones yr adeg hono, pan nad ydoedd efe etto ond bachgen, o dan argyhoeddiadau dwys. Pan yn yr helynt meddwl yma, daeth y gweinidog hynod hwnw, sef y Parch. John Jones, Treffynnon, i bregethu i Ddinbych, oddi ar *Ioan* i. 13; 'Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gŵr, eithr o Dduw.' Profodd fwy o gyfyngder ar ol yr odfa hono. Llanwyd ei enaid â braw, fel yr oedd yn barod i waeddi 'Pa beth a wnaf i fod yn gadwedig?' Dywedodd ei dywydd wrth ei dad; ac efe oedd y 'cenad o ladmerydd' a arweiniodd y bachgen i ddyfod o hyd i'r noddfa yn Nghrist. Yn fuan ar ol hyn, derbyniwyd ef yn gyflawn aelod. Y pryd hwnw, pan tua deunaw mlwydd oed, gwnaeth gyfammod difrifol â Duw, fel y patriarch Jacob yn Bethel gynt. Yr oedd cyfnewidiad amlwg i'w weled ynddo yn flaenorol i wneuthuriad y cyfammod hwnw; a dïau ei fod yn ffrwyth misoedd o fyfyrdod a difrifwch meddwl. Y mae geiriau y cyfammod yn arddangos fod ei feddwl ieuangc yn gydnabyddus â hanfodion iachawdwriaeth yr enaid, ac yn deall dyledswyddau mawrion crefydd. Cynnwysa y cyfammod hwn dair adran bwysig, ac y mae yn terfynu gyda'r ymadrodd canlynol:—'Y cyfammod difrifol hwn wyf yn ei wneyd ger bron ac yn ngŵydd y Duw Tragwyddol, yr hwn yw chwiliwr y calonau, gan ei arwyddo â fy llaw yn Ninbych, naw o'r gloch yn yr hwyr, ar y seithfed o Dachwedd, un mil wyth gant a chwech ar hugain.—John Jones.'

Ar ol gwneuthur o hono y cyfammod uchod, y cwestiwn a gynnygiai ei hun i'w feddwl oedd, 'Beth a fyni di i mi ei wneuthur?' Yr oedd yn barod i bob gweithred dda. Ymaflodd yn egnïol yn y swydd o athraw yn yr Ysgol Sabbothol; ac yr oedd iachawdwriaeth y dysgyblion ieuaingc oedd ganddo o dan ei ofal yn ddwys ar ei feddwl. Gweddïai fwy na mwy drosto ei hun, ac ar eu rhan hwythau. Gwybu ei gyfeillion crefyddol ei fod yn ymlwybro yn fynych at orsedd gras; a galwyd arno i gymmeryd rhan yn y weddi deuluaidd, ac yn y gweddïau cyhoeddus. Yr oedd, yn awr, yn ŵr ieuangc glandeg, a'r cyfeillion â meddwl uchel am dano—nid yn unig am ei grefydd, ond hefyd am ei dalentau a'i ymroddiad gyda gwaith yr Arglwydd. Yr oedd efe, y pryd hwn, yn cario gohebiaeth grefyddol yn mlaen â'i daid, sef yr hybarch Robert Jones, yr hwn oedd dros 80ain mlwydd oed; a chafodd lawer o gyfarwyddiadau gwerthfawr ganddo. Yr oedd rhai personau y tu allan i gylch y Methodistiaid wedi sylwi ar ei gynnydd a'i ddefnyddioldeb, fel y dangosasant awydd mawr am ei gael atynt. Mewn cyfeiriad at yr amgylchiad, efe a ysgrifena fel hyn:—

'Tua'r amser hwn, cynnygiodd gŵr bonheddig, yr hwn oedd yn gyfaill mawr i fy nhad, fy anfon i'r athrofa ar ei gôst ei hun, os byddai i mi fyned yn offeiriad Eglwys Loegr: a dywedodd hefyd, os derbyniwn y cynnygiad, y gwnai sicrhau bywoliaeth i mi, yr hon yr oedd yn ei dal fel noddwr. Rhoddodd ddeuddeng mis o amser i mi ei ystyried. Wrth weled nad oedd yn Eglwys Loegr ddim dysgyblaeth, ac wedi ymgynghori â fy nghyfeillion ffyddlonaf, a mwyaf goleuedig, penderfynais wrthod y cynnygiad. Ond rhag methu, o herwydd fy mod yn ieuangc a dibrofiad, penderfynais ymgynghori â fy

Digitized by Google

nhaid. Cerddais yr holl ffordd o Ddinbych i sir Gaernarfon, er mwyn cael ei farn ef ar y pwngc. Wedi gosod y mater ger ei fron, dywedodd ei farn arno. Ond cynghorodd fi, cyn penderfynu, i fyned at Mr. Elias, i sir Fôn, i gael ei farn yntau arno. Felly y gwnaethum; ac yr oedd Mr. Elias yr un air a fy nhaid. Cynghorasant fi i lynu wrth y Methodistiaid Calvinaidd, ac i ymddiried yn Rhagluniaeth y nef. Felly gwnaethum. Dychwelais i Ddinbych â fy meddwl wedi ei lawn argyhoeddi mai gyda phobl fy ieuengctid y dylaswn dreulio gweddill fy oes.'

Wedi cyflawni ei dymmor fel egwyddorwas gyda masnachwr parchus, o'r enw Mr. Thomas Evans, yn Ninbych, symmudodd i Gaerlleon at ŵr crefyddol, o'r enw Mr. Walker. Ar ol sefydlu yn ei le newydd, ymwasgodd yn ddioed at y dysgyblion, a derbyniwyd ef yn gynnes i fynwes yr eglwys Gymraeg oedd yn addoli yn y capel yn Common Hall Street. Dywedai y Parch. Robert Williams, o Gaer, am dano y pryd hwnw :—

'Yr oedd ein brawd, ar ei ddyfodiad i Gaer, yn llawn o ysbryd y weinidogaeth: a chan faint ei awydd i wneyd daioni, byddai, heb law llafurio yn y ddinas, yn myned i'r pentrefydd oddi amgylch i ddosbarthu traethodau crefyddol, ac i ddyweyd wrth y trigolion am drefn Duw i gadw pechaduriaid. Yr oedd ei lafur yn hynod gymmeradwy gan yr eglwys Gymraeg a enwyd; a chefnogwyd ef yn egnïol gan yr hen weinidog, y Parch. John Parry, a chan y blaenoriaid yr un modd. Cyn hir, amlygodd i rai cyfeillion ei awydd am fyned i bregethu; a gosodwyd ei achos o flaen yr eglwys, a chafwyd ei bod yn unllais yn penderfynu cyflwyno ei achos i sylw cyfarfod misol sir Fflint. Y Parch. John Jones, o Dreffynnon, a Mr. E. Peters, o Gaergwrle, a anfonwyd i Gaer i gymmeryd llais yr eglwys yn yr achos; a'r canlyniad fu, iddo gael ei alw i'r cyfarfod misol dilynol, yr hwn a gynnaliwyd yn Nghaergwrle. Holwyd ef yn garedig yno, a rhoddwyd caniatâd iddo lafurio yn y manau oddi amgylch Caer.'

Yr oedd y cyfarfod misol hwnw yn cael ei gynnal yn mis Rhagfyr, 1829; ac edrychai Mr. Jones arno, o hyny allan, fel cyfnod hynod yn ei fywyd. Ar ol hyny, ymroddodd i'r gwaith. Yr oedd y weinidogaeth wedi llyngcu ei feddwl, ac wedi trwytho ei ysbryd. Torai drwy bob rhwystrau, a gweithiai yn mlaen er pob anfanteision. Yr oedd ei ymröad gymmaint, fel y byddai weithiau yn gorfod cychwyn o Gaer dri o'r gloch boreu Sabbath i gyhoeddiadau pell, gan bregethu dair gwaith, a theithio gan mwyaf ar ei draed, o ugain i bump ar hugain o filldiroedd cyn gorphwyso. Codai drachefn dri o'r gloch boreu Llun, a cherddai yn ol i Gaer—a byddai gyda'i orchwyl yn brydlawn am wyth o'r gloch. Wrth weled fod ysbryd y weinidogaeth mor gryf ynddo, cynnygiodd ei feistr iddo fyned i Athrofa Cheshunt er ei gymmhwyso i'r maes Saesneg. Ond efe a benderfynodd aros mewn undeb â'r Methodistiaid Calvinaidd. Yr oedd cefnu ar y maes lle yr oedd efe yn benaf yn llafurio ynddo ar y Sabbothau—sef, Goror Clawdd Offa—yn groes iawn i'w deimlad; ac wedi diolch i'w feistr am ei garedigrwydd, hysbysodd hyny iddo. Yr oedd ei weinidogaeth o'r dechreu gyda'r Cymry a'r Saeson yn hynod gymmeradwy. Bu yn offerynol i agor drysau newyddion i'r efengyl; ac y mae yn y pentrefydd lle y bu yn llafurio ei hunan gapeli perthynol i'r enwad wedi eu hadeiladu, ac eglwysi blodeuog wedi eu sefydlu.

Wedi bod yn preswylio yn Nghaerlleon am o ddeutu tair blynedd, er mwyn bod yn fwy cyfleus i wasanaethu yr achos yn y Goror, ac yn mhlith y Cymry, symmudodd i Wrecsam, i wasanaethu yno yn yr un fasnach; ac yn Medi, 1834, agorodd fasnachdy yno ar ei gyfrifoldeb ei hun. Gwenodd Rhagluniaeth y nef arno. Cynnyddodd ei fasnach, a llwyddodd yn yr hyn oll yr ymaflodd ei law ynddo. Yn y fl. 1835, priododd ferch ieuangc ragorol, sef Miss Anne Jones, o'r Ffrith, Treuddyn, ger llaw y Wyddgrug. Yr oedd hi yn nodedig am ei doethineb, a'i challineb, a'i duwioldeb. Ond nid hir y parhaodd y cyssylltiad priodasol hwn. 'Yr haul a fachludodd tra yr oedd hi yn ddydd.' Gwaelodd iechyd Mrs. Jones yn mhen ychydig flynyddoedd, a gwywodd yn gynnar i'r bedd.

Yn y fl. 1838, dewiswyd Mr. Jones yn ysgrifenydd cyfarfod misol sir Fflint—yr hyn oedd brawf eglur o'i ffyddlondeb blaenorol i'r cynnulliadau hyny. Cyflawnodd waith mawr y swydd bwysig hon yn rhâd, a chydag ymroddiad canmoladwy am ddeunaw mlynedd; ac fel arwydd o gymmeradwyaeth unfrydol a chalonog ei holl frodyr drwy y sir, anrhegwyd ef yn nghyfarfod misol Gwrecsam, yn Tachwedd, 1854, â holl waith yr enwog John Calvin: a hysbyswyd ger bron y gynnulleidfa yn y cyfarfod hwnw ei fod wedi cyflawni y swydd yn gyflawn, yn drefnus, ac yn gysson er Mehefin 1838, a hyny er rhwyddineb mawr i'r achos yn y sir, ac er boddhâd i'w frodyr yn gyffredinol.

Yn y fl. 1842, ordeiniwyd ef, gyda thri o bregethwyr eraill perthynol i'r un cyfarfod misol, yn Nghymdeithasfa y Bala. Yn y fl. 1844, aeth Mr. Jones eilwaith i'r ystad briodasol gyda Miss Jones, o Lanfaethlu, Môn: yr hon fu yn ymgeledd gymmhwys iddo, yn mhob ystyr, hyd ddiwedd ei fywyd. Ymryddhaodd oddi wrth fasnach yn y fl. 1850; ac y mae ei ddyddlyfr yn dangos pa mor lafurus y bu efe y flwyddyn hono, a'r blynyddoedd dilynol, yn siroedd Dinbych, Trefaldwyn, a Môn, a rhanau o'r Deheudir. Bu yn gwasanaethu yr achos hefyd am dymmor yn Llundain, Birmingham, Bilston, a'r Amwythig; a threuliodd amryw Sabbothau yn Manchester a Liverpool. Areithiodd hefyd ar ddirwest yn y blynyddau hyny; o blegid yr oedd efe bob amser yn barod i wneuthur yr hyn a allai o blaid pob achos da. Yr oedd y blynyddoedd dilynol, hefyd, hyd y flwyddyn ddiweddaf o'i oes, yn orlawn o'r un llafurus gariad o blaid yr efengyl. Yr oedd ei deimlad at bregethu mor gryf, ac yntau yn cael y fath fwynhâd yn y gwaith, fel nad pethau bychain a'i hattaliai i fyned rhagddo.

Deuwn yn awr at flwyddyn olaf ei oes; sef, 1856. Yr oedd efe wedi arfaethu, ac wedi tori allan iddo ei hun, lawer o waith ar ei chyfer; ond 'nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi.' Yr oedd gwaeledd a nychdod wedi dechreu gormesu arno ychydig yn flaenorol i hyn; a chydag anhawsder mawr yr oedd efe yn gallu cyflawni ei ymrwymiadau. Ond yr oedd rhyw nerth, a hynodrwydd, ac eneiniad anarferol, yn cydfyned â'i weinidogaeth yn misoedd cyntaf y flwyddyn a enwyd. Wedi pregethu y Sabbath olaf yn mis Mawrth, gwaethygodd ei iechyd yn fawr, a chynghorodd y meddyg ef i ymattal oddi wrth bregethu am fis. Ond wedi cael goddefiad y meddyg i ail ddechreu, yr oedd yn amlwg arno nad oedd y diwedd yn mhell. Mewn lle Saesneg yn y Goror, yn agos i Wrecsam, y pregethodd efe y tro diweddaf—y

Digitized by Google

Sabbath olaf yn Ebrill. Ei destyn oedd *Diar.* i. 24—26. Yr oedd ei eiriau yn disgyn fel tân ar y gwrandawyr; ac nid anghofiwyd yr odfa hono ganddynt. Yn ystod yr haf, symmudodd o le i le mewn gobaith am gael adferiad; ond yn ofer. Ac yn Awst, dychwelodd adref i farw. Mynych y dywedodd yn ei gystudd, '*I am a happy man, whether I live or die.*'—'Yr wyf yn ddyn dedwydd, pa un bynag fyddaf ai byw ai marw.' Wedi hir nychdod, a phryder, a disgwyl, o'r diwedd daeth awr ei ymddattodiad. Cododd yr haul iddo ef am y tro olaf. Dywedodd wrth ei briod, ac eraill, oedd yn yr ystafell bruddaidd:—'Yr wyf yn ddedwydd. Mae Iesu Grist yn werthfawr genyf—yn dra gwerthfawr; ac o blegid hyny, yr wyf finnau yn ddedwydd, yn dra dedwydd.' Yna, rhoes ei ben i lawr, a hunodd yn yr angeu, nos Fercher, Medi 3ydd, 1856. Claddwyd ef yn mynwent Rhos Ddu, yr hwn sydd yn fath o faes Macpelah gan Ymneillduwyr tref Gwrecsam, a'r cymmydogaethau. Cymmerwyd rhan yn y gwasanaeth angladdol yn y tŷ, yn y capel, ac wrth y bedd, gan y gweinidogion canlynol, ac eraill:—Parchn. W. Roberts, Amlwch; Dr. L. Edwards, Bala; Roger Edwards, Wyddgrug; W. Pierce, Rhosesmor, &c., a llu mawr o swyddogion a chyfeillion.

Yr oedd Mr. Jones yn ddyn hawddgar iawn; ac, fel y dywedwyd, yn bregethwr poblogaidd. Yr oedd ei ddyn oddi allan—sef ei wynebpryd teg, ei lais toddedig, a'i barabliad swynol—yn fanteisiol iawn i'r efengyl. Gallesid, ar amryw gyfrifon, ei alw yn Ioan Aurenau. Yn yr oll a wnelai, yr oedd yn amlwg i bawb ei fod yn deimladwy o ddylanwad yr efengyl ar ei brofiad ei hun; a'i fod, gyda difrifwch mawr, a theimlad dwys, yn gwasanaethu ei Arglwydd.

JONES, LEWIS. Gweinidog perthynol i'r Bedyddwyr. Ganwyd ef yn Nanternis—pentref bychan ger Ceinewydd, yn sir Aberteifi, yn y fl. 1826. Yr oedd ei rïeni yn aelodau yn eglwys y Bedyddwyr yn Llwyn Dafydd; a'i dad, Thomas Jones, yn ddiacon yn yr eglwys hono. Yno y cafodd Lewis Jones ei addysg grefyddol foreuol. Aeth yn ieuangc i Rymney, yn sir Fynwy; ac yno yr ymunodd âg enwad y Bedyddwyr. Yr oedd ynddo awydd cryf am wybodaeth er yn blentyn. Yna aeth o Rymney i'r Coleg Normalaidd, yn Aberhonddu, yr hwn oedd o dan lywyddiaeth Dr. Evan Davies, er mwyn cymmhwyso ei hun i fod yn ysgolfeistr. Cafodd wahoddiad i fyned yn athraw Ysgol Frytanaidd, yn Llangloffan, yn sir Benfro; a chydsyniodd â'r cais. Bu yno yn barchus a defnyddiol am rai blynyddoedd. Tra yno y dechreuodd bregethu, ac aeth i Athrofa y Bedyddwyr yn Hwlffordd. Wedi treulio yr amser arferol yn yr athrofa, sefydlodd yn weinidog yn Argoed, yn sir Fynwy. Yn mhen amser, symmudodd oddi yno i faes helaethach, yn Glyn-ebwy, yn yr un sir. Oddi yno, symmudodd i Bwllheli, lle y bu yn ddefnyddiol a pharchus am saith mlynedd. Oddi yno symmudodd i gymmeryd gofal eglwys y Bedyddwyr yn Nhreherbert, yn Morganwg —lle y treuliodd y pedair blynedd ar ddeg diweddaf o'i oes yn hynod ddefnyddiol. Bu farw Chwefror 10fed, 1882, yn 56ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent gyhoeddus Treorci, lle y mae côf-golofn hardd wedi ei rhoddi ar ei fedd, yr hon a godwyd trwy danysgrifiadau ei gyfeillion lliosog o barch i'w goffadwriaeth a'i ddefnyddioldeb. Yr oedd yn sefyll yn y rheng flaenaf o bregethwyr ei enwad; ac ystyrid ef yn un o'r bugeiliaid goreu. Cyhoeddodd Lyfr Hymnau a Llyfr Tônau, at wasanaeth Bedyddwyr y Dywysogaeth. Yr oedd iddo ddau frawd yn weinidogion perthynol i'r Bedyddwyr; sef, y diweddar Simon Parry Jones, Cilgeran, yr hwn a fu farw tra nad oedd ond 30ain mlwydd oed; ac Evan Jones, gynt o Ruthyn a Glynceiriog—yn bresennol o Ddinbych.

JONES, PARCH. OWEN, Gelli. Ganwyd ef Chwefror 16eg, yn y flwyddyn 1787. Enw ei dad oedd John Jones—mab hynaf y Crynllwyn, Towyn, Meirionydd. Yr oedd ei fam yn ferch i amaethwr parchus o Aberllefeni, ac yn un o dair neu bedair chwaer a ddaethant yn hynod yn hanes Methodistiaeth y wlad hono. Pan tua saith neu wyth oed, rhoddwyd Owen Jones dan addysg Mr. J. Jones, Pen-y-parc—un o athrawon ysgolion cylchynol Mr. Charles. Ar ol hyny, anfonwyd ef am dymmor i Ysgol Highercal, ger Amwythig. Pan ddaeth yn amser priodol, rhoddwyd ef i ddysgu celfyddyd cyfrwywr yn Aberystwyth. Yn ystod yr adeg y bu yn aros yno, daeth i gymmeryd rhan lled amlwg gyda'r Ysgol Sabbothol. Tra yr oedd y Parch. W. Williams, Cilcwm, clerigwr duwiol yn Eglwys Loegr, ar ymweliad âg Aberystwyth, gwelai lu o blant yn ymdyru mewn cŵr pennodol o'r dref ar y Sabbothau. Teimlodd mor dda fuasai sefydlu Ysgol Sul yn y parth hwnw; a dechreuodd yn ddi-ymdroi ar y gwaith. Cyn ymadael, cafodd afael ar ddau ŵr ieuangc oedd yn foddlawn i gymmeryd gofal yr ysgol. Y ddau hyn oedd Owen Jones, a Robert Davies, ei gefnder—tad y diweddar Barch. D. Charles Davies. Nid oeddynt, ar hyny o bryd, yn aelodau eglwysig; etto, ymaflasant yn y gwaith, a chynnyddodd yr ysgol yn ddirfawr. Cedwid hi ar y Sabbothau, a phob nos o'r wythnos, ond nos Sadwrn. Daethant yn fuan yn aelodau eglwysig. Pan y daeth yn amser i Owen Jones symmud, gydag anhawsder mawr y gollyngent eu gafael o hono. Ymadael, er hyny, fu raid; a disgynodd ei goelbren yn Llanidloes. Yno, etto, ymroddodd i'w hoff waith. Planodd amryw Ysgolion Sabbothol newyddion, a bu yn foddion o adfywiad yn yr hen ysgolion. Symmudodd drachefn yn y fl. 1806, a threuliodd ychydig fisoedd yn Llundain. Ei waith yno oedd cynnorthwyo Dr. W. O. Puw i ddwyn allan argraphiad cyntaf y Feibl Gymdeithas o'r Beibl Cymraeg. Dywedir ddarfod iddo, yn ystod yr ychydig fisoedd y bu yno, fod yn foddion o adfywiad hefyd yn ysgolion Cymreig Deptford a Woolwich.

Yn y fl. 1807, cawn ef yn yr Amwythig, ac yn llettya gyda Mr. Hugh Griffiths—llettywr caredig y Parch. Henry Rees ar ol hyny. Rhoddai Hugh Griffiths bob amser y cymmeriad uchaf i Owen Jones, fel gŵr ieuangc duwiol a gweithgar. Yn yr Amwythig, gwnaeth gais, yn gyntaf oll, at gael Ysgol Sabbothol Gymreig mewn cyssylltiad â'r capel; ond gan fod nifer y Cymry, ar y pryd, yn ychydig, a'i sêl yntau yn angerddol am weled ysgol flodeuog yno, cafodd ganiatâd i droi yr ysgol yn un Saesnig. Yn ystod ei arosiad yn yr Amwythig y ffurfiodd efe gyntaf ei gyssylltiad â Goror sir Drefaldwyn; yr hwn, ar ol hyny, a ddaeth yn faes neillduol ei lafur. Arferai ymweled â ffermdy o'r enw

Digitized by Google

Perthi, ger llaw y fan lle y saif capel presennol y Tabernacl arno. Yr oedd yr amaethwr, John Evans, yn fab i Mr. Evan Evans, gynt o'r Maes mawr, ac wedi hyny o'r Sarnau; ac yr oedd yn meddu cyssylltiad teuluaidd agos â'r diweddar Barch. Evan Griffiths, o Feifod. Mae'n sicr y gwahoddid Mr. Owen Jones gan yr amaethwr i dalu ymweliad â'u hysgol hwy. Yr oedd ganddo, o leiaf, bymtheg neu ddeunaw milldir i'w cerdded ar foreu Sabbath i'r Perthi. Ei waith yno fyddai holwyddori, gwrandaw ar y plant yn adrodd pennodau, a rhoi gwaith iddynt gogyfer â'i ymweliad nesaf. '*The young man from Shrewsbury*' yr arferai trigolion yr ardal ei alw am flynyddoedd ar ol hyn; ac ni chai neb gymmaint gynnulleidfa ag efe tra y bu byw. Yn yr adeg hwn talai ambell ymweliad âg ysgolion eraill sir Drefaldwyn; ac yr oedd adgofion melus am y cyfarfodydd hyn gan amryw o'r ardalwyr hynaf hyd yn ddiweddar iawn. Tua blwyddyn fu ei arosiad yn yr Amwythig; ac yna symmudodd i'r Towyn. Dyma y pryd y dechreuodd bregethu, ac y sefydlodd y cyfarfodydd chwech wythnosol, neu ddau fisol. Yn ngwanwyn 1808, priododd Miss Mary Jones, o'r Gelli, ger Llanfair Caereinion; yn yr hwn le y treuliodd weddill ei oes: ac fel 'Owen Jones, o Lanfair' yr adnabyddir ef tra y pery ei goffadwriaeth.

Bu fyw ugain mlynedd yn y Gelli. Hoff faes ei lafur yn ystod y tymmor hwn oedd Goror sir Drefaldwyn. Bu yn offeryn i blanu amryw eglwysi newyddion yno. Efe, hefyd, oedd un o sylfaenwyr y Genhadaeth Gartrefol berthynol i'r Methodistiaid. Gweithiodd lawer gyda Mr. Charles dros Gymdeithas y Beiblau, a Chymdeithas Genhadol Llundain. Blinid ef yn ystod blynyddoedd olaf ei oes gan fath o wasgfeuon—poeth, ac oer. Nos Wener, Hydref 31ain, 1828, rhoddodd ei hen elyn y fath ergyd iddo fel y methwyd, er pob ymdrech, ei adferu. Bu fyw ychydig dros fis. Dioddefodd gystudd trwm gyda thawelwch, a bu farw mewn tangnefedd, Rhagfyr 3ydd, 1828, yn 41ain mlwydd oed, gan adael gweddw a phump o blant i alaru ar ei ol.

Oddi wrth y drem frysiog uchod, fe welir mai bywyd byr—etto, llawn o waith—oedd bywyd Owen Jones. Dechreuodd ar ei waith yn gynnar—parhaodd yn ffyddlawn hyd y diwedd—a choronwyd ef â llwyddiant mawr. Y mae ei enw wedi bod yn air teuluaidd ar aelwydydd y Methodistiaid, o leiaf, am yn agos i gan mlynedd. Ganwyd ef bron ar yr un adeg a'r Ysgol Sabbothol; ac am y deng mlynedd ar hugain olaf o'i fywyd, fe fu yn un o'i phrif golofnau. Fel holwyddorwr plant yr oedd yn fwyaf adnabyddus. Nid ymddengys iddo ragori ar amryw o'i gydoeswyr fel pregethwr; ond safai ar ei ben ei hun yn hollol o ran ei allu gyda phlant. Holiadau syml fyddent gan mwyaf, yn tueddu yn fwy at ddyfnhau argraphiadau crefyddol nag at gynnyrchu meddylgarwch. Dyry ei fywgraphydd, y Parch. John Hughes, o Bontrobert, esamplau dyddorol o'i ddull yn holi. Cymmerai, weithiau, bennill i holi arno, gan ei droi a'i drosi mewn modd galluog a dyddorol. Gofynai gwestiwn oddi ar bron bob gair ynddo, nes ei wneyd yn fyw yn meddyliau y plant am byth. Byddai yn cael cyfarfodydd holwyddori yn fynych y byddai sôn am danynt mewn cymmydogaethau am flynyddoedd. Byddent yn 'fywyd o feirw' i ysgolion dosbarthiadau cyfan. Cyfeiria y Parch. John Hughes, yn *Hanes Methodistiaeth Cymru*, at gyfarfodydd felly yn Llanuwchllyn a Merthyr Tydfil.

Wrth geisio olrhain ychydig am rai o brif elfenau ei gymmeriad, a'i waith, nid ydym yn cael ei fod yn feddiannol ar alluoedd deallol cryfion. Nid yn hyn yr oedd ei nerth. Ei nodwedd cyntaf ac amlwg oedd yni. Perthynai hyn i'w natur fel dyn. Credwn ei fod yn etifeddol ynddo. Dywedir yr un peth am ei dad. Taflai Mr. Jones ei holl enaid i'w waith. Dywedir y byddai y cadeiriau yr eisteddai arnynt mewn tai annedd ar ol bod yn holi plant yn wlybion gan chwŷs. Nid ymddengys y byddai byth yn blino. Wedi gweithio gyda'i alwedigaeth fel egwyddorwas y dydd yn Aberystwyth, byddai yn cadw ysgol gyda'r plant y nos. Yr oedd y Sabbath iddo ef, rhwng ei deithiau hirion ar draed, a'i lafur gyda'r plant, y diwrnod mwyaf prysur a chaled iddo o'r saith.

Nodwedd arall amlwg iawn ynddo oedd teimlad. Dywed ei fab, sydd etto yn fyw, ac sydd wedi ei ddonio yn llawer helaethach nag efe mewn rhai cyfeiriadau, mai dyma oedd nodwedd fwyaf neillduol ei dad; a phan y dywedwn hyn, ein bod yn dyweyd y cwbl. Beth bynag am hyny, y mae yn amlwg ei fod yn nodwedd lywodraethol yr holl ddyn—yn haul o amgylch yr hwn y cylchdroai ei holl alluoedd eraill. Dyry hyn gyfrif, mewn rhan, am ei ddylanwad ar blant. Teimlai gymmaint gyda hwynt, a throstynt, nes gwneyd ei hun yn bob peth iddynt. Pan yn holi plant, byddai efe a hwythau yn fynych yn wylo yn hidl. Dywedai, 'Fy Iesu anwyl!' neu 'Fy Ngwaredwr anwyl!' gyda'r fath ysbryd toddedig nes gwefreiddio y cannoedd fyddent yn gwrandaw.

Gwelir, hefyd, fod duwiolfrydedd dwfn yn elfen bwysig yn ei lwyddiant. Yr oedd efe yn blentyn diwygiad. Pan ar fin ymadael âg Aberystwyth, trwythwyd ei ysbryd gan un o'r ymweliadau cryfaf a welodd Cymru erioed. Dïau fod ol hyn arno i fesur tra y bu byw. Canlyniad hyn, drachefn, fu ei ymgyssegriad hollol i waith yr Ysgol Sabbothol yn ystod blynyddoedd ei ieuengctid. Cyn bod yn un ar hugain oed, yr oedd wedi treulio rhyw gymmaint o amser yn Llanidloes, Llundain, Amwythig, a'r Towyn; ac yn mhob un o honynt ymddengys ei fod yn taflu ei hun, enaid a chorph, i waith yr Ysgol Sabbothol. Magwyd ynddo, yn ystod y cyfnod hwn, hoffder arbenig at blant. Mae yn ddigon tebyg, hefyd, fod hyn yn perthyn yn wreiddiol i'w natur. Plant oedd ei 'bob peth.' Ni chyfarfyddai â nemawr blentyn ar y ffordd, tra y bu yn y Gelli, na byddai yn gofyn am adnod ganddo. Byddai yn adrodd cofion plant un sir wrth blant sir arall. Cymmhellai blant Liverpool i ddysgu nifer o bennodau ar gais plant sir Drefaldwyn, a phlant sir Drefaldwyn, drachefn, i wneuthur yr un peth ar gais plant Liverpool. Ffurfiai, fel hyn, fath o gyfrwng rhwng plant gwahanol siroedd a'u gilydd. Efe oedd prif arwr y Cymmanfaoedd Plant am rai blynyddoedd. Edrychid am ei ddyfodiad fel am y gwlaw. Dydd y farn ddiweddaf yn unig a ddadguddia ddyfnder yr argraph a wnaed trwy ei waith yn holi ar feddyliau miloedd o blant Cymru. Y mae yn gofus genym glywed Dr. Lewis Edwards, y Bala, a'r Parch. John Owen, Ty'n llwyn, yn cyfeirio gyda blâs at yr argraph a wnaeth efe ar eu meddyliau hwy. Credent hwy na bu ei fath, mewn rhyw gyfeiriadau, fel holwyddorwr plant. Ein llef fyddo

Digitized by Google

ar i Ysbryd yr Arglwydd ddonio llawer o'i gyffelyb etto!

JONES, THOMAS, Abertawe. Un o weinidogion enwocaf yr Annibynwyr Cymreig a Saesnig yn y ganrif hon oedd efe. Adwaenir ef hyd heddyw fel 'Thomas Jones, Treforis,' yn Ngogledd Cymru, mewn adgofion hyfryd am daith bregethu a gymmerodd efe yn nghymdeithas ei gyfaill, y Parch. John Thomas, o'r Bwlch newydd (Dr. Thomas, Liverpool, wedi hyny), drwy ranau o Fôn, Arfon, a Meirion, yn y fl. 1848. Yn Lloegr, cyssylltir ei enw â Llundain, ac âg Abertawe.

Yn nhref farchnad Rhaiadr-gwy, yn Maesyfed, ar y 17eg o Orphenaf, 1819, y ganwyd Thomas Jones. Yr oedd ei hynafiaid yn bobl grefyddol a llwyddiannus yn y byd. Masnachydd a gwneuthurwr brethynau a gwlaneni oedd ei dad. Gwelodd dymmor ffynnadwy ar ei fasnach am ennyd; ond wedi hyny, goddiweddwyd ef gan aflwydd a effeithiodd i fesur helaeth ar ei feddwl, a'i amgylchiadau. Bu farw mam y teulu pan nad oedd Thomas ond pedair oed. Pan yn ddeg, yr oedd efe heb dad, na mam, na chartref. Syrthiodd ei ofal, a'r plant eraill, ar eu taid—yr hwn oedd yn ŵr defosiynol, ac yn ofni Duw. Agorodd Rhagluniaeth y drws, gan ei arwain fel egwyddorwas i Lanwrtyd. Ymgartrefodd yn yr Esgair-foel, gyda gŵr o'r enw Mr. Winston; yr hwn oedd, hefyd, yn wneuthurwr ac yn fasnachydd brethynau a gwlaneni. Sais bychan, pert, oedd efe pan yr aeth i Lanwrtyd; ond gan iddo ddilyn teulu yr Esgair i gapel y Methodistiaid Calvinaidd, daeth yn Gymro llithrig yn fuan. Aeth yn enwog yn mhlith plant y gynnulleidfa fel dysgwr yr *Hyfforddwr*, ac fel adroddwr pennodau o'r Ysgrythyr Lân yn yr Ysgol Sabbothol. Un tro, ennillodd wobr yr ysgol am ddysgu ar dafodleferydd ddwy bennod ar bymtheg o'r Diarhebion. Yr oedd awyr ei gartref newydd yn dra manteisiol i ddadblygiad ei dueddiadau crefyddol; a gwnaeth gynnydd mawr mewn gwybodaeth o ffeithiau y Beibl yr adeg hono: ac o blegid bywiogrwydd ei ddeall, yr oedd ganddo syniadau lled glir hyd yn oed ar athrawiaethau crefydd. Wedi gorphen ei brentisiaeth, dilynodd ei frawd (tad y Parch. J. Morlais Jones) i wlad Mynwy. Y pryd hwnw, yr oedd Siartiaeth yn frigog iawn yn y rhan hono o'r wlad; ac aeth yntau yn union o dan ei ddylanwad. Yr oedd tymmheredd ei ysbryd, ei gariad angerddol at ryddid gwladol a chrefyddol, a'i gasineb at bob ffurf ar orthrwm a chaethiwed, yn ei wneyd yn wrthddrych hawdd i'w ennill drosodd i gofleidio egwyddorion ymarferol y cyfryw symmudiadau. Lluniwyd chwedlau lawer am ei fuchedd a'i gredo tra yn Mynwy. Dïau i'r awelon nerthol ei gludo yn mhell o'r ffordd dda yr arferai efe ei theithio yn Mrycheiniog. Gwybu ynddo ei hun ddarfod i lwydrew marwol ladd blagur tyner ei dduwioldeb: ar yr un pryd, rhaid fod llaweroedd o'r chwedlau yn hollol ddi-sail. Dywedai y Parch. John Thomas, D.D. mai adgofion byw a dolurus am adwyth ysbrydol yr oerfel hwnw a roddodd y fath fin a thân yn ei bregeth anghymmharol ar 'wrthgiliad.'

Gadawodd Fynwy yn 1839, ac ymsefydlodd yn Llanelli. Wedi cael ei blanu mewn daear newydd, a chael cysgod rhag corwyntoedd difäol, ymiachaodd yn union, ac ail ymaflodd mewn crefydd fel dyn o ddifrif. Cynnyddodd ei gasineb at arferion drwg; dechreuodd gymmeryd rhan neillduol yn erbyn y fasnach feddwol; aeth ei enw drwy'r dref a'r cyffiniau fel areithiwr dirwestol hynod o rymus. Cafodd annogaeth i bregethu gan y Methodistiaid, ac ufuddhaodd i'r cymmhellion. Ar y pryd, yr oedd crefyddwyr Llanelli, fel llawer llan arall yn Nghymru yr adeg hono, wedi eu cyffroi a'u rhanu gan ddadleuon duwinyddol. Gwelodd Thomas Jones fod gagendor lydan rhwng ei syniadau athrawiaethol ef ac eiddo blaenoriaid y capel lle yr oedd yn aelod. Yr oedd eu Harfaeth hwy yn rhy gyfyng, a'u Hiawn yn rhy gul ganddo ef. O blegid hyn, gwnaeth ei feddwl i fyny i ymuno â'r Annibynwyr. Ymwelodd â'r Parch. Henry Rees, Capel Als. Traethodd yn ddigêl ei anhawsderau wrtho; a chan fod duwinyddiaeth Mr. Rees gryn lawer yn ëangach nag eiddo y Methodistiaid, cafodd y naill a'r llall foddlonrwydd yn eu gilydd. Gan hyny, derbyniwyd Thomas Jones gyda mesur helaeth o groesaw i Gapel Als. Yr oedd efe erbyn hyn tua dwy-arhugain oed. Aeth am dymmor byr i ysgol yr adnabyddus 'Jones, o Langollen,' yn Rhyd-ybont. Ac ar ol hyny, aeth i ysgol y Parch. T. Roberts, gweinidog yr Annibynwyr Saesnig yn Llanelli. Tra yn derbyn addysg, ordeiniwyd ef, yn y fl. 1844, yn weinidog ar eglwys newydd y Bryn, Llanelli. Bellach, yr oedd ei ddawn, a'i dân, yn tynu sylw i ba le bynag yr elai. Cyn pen deuddeng mis, symmudodd i gymmeryd gofal Tabor a Hermon—dwy eglwys barchus yn ngwlad Myrddin. Arosodd yno chwe blynedd. Blynyddoedd darllen a meddwl oedd y rhai hyny iddo; ac yno y gosodwyd i lawr sylfeini ffydd ei oes. Bellach, yr oedd ar lawn ddihûn. Aeth yn ddysgybl cyfrin i natur, ac yn efrydydd egnïol o'r Beibl. Fel yr oll o dywysogion y cyfnod hwnw, cadwai ferlen, a derbyniai ddeugain punt y flwyddyn am ei lafur fel gweinidog! Y fath hydwythedd bendithlawn oedd yn nghyflogau yr hen amseroedd! Ymestynai yr ychydig dros dir lawer gyda hoenusrwydd gwyrth. Ni safai dim o'u blaenau. Toddodd deugain punt gweinidog Hermon hanner cant o ddyled yr efrydydd mewn pum mlynedd, heb law talu treuliau beunyddiol. Ond nid darllen, a thalu dyledion, oedd unig orchwyl eithriadol y tymmor hwnw. Cafodd gyfleusdra di-ball i bregethu; tyfodd allan o arddull bachgendod, a ffurfiodd arddull newydd grai iddo ei hun. Symmudodd, yn 1851, i Dreforis; ac yno y cyrhaeddodd i anterth ei boblogrwydd Cymreig. Aeth y sôn am dano drwy holl wledydd Cymru; chwennychai y miloedd ei glywed. Ennillodd ar ei daith grybwylledig i'r Gogledd, yn 1848, y teitl o 'Angel yn ehedeg yn nghanol y Nef.' Ond nid arosodd efe yn Nhreforis ond prin saith mlynedd. Daeth ei yrfa fel gweinidog Cymraeg i ben!

Yn 1858, cafodd wahoddiad gwresog a thaer o eglwys Gynnulleidfaol Albany, yn Llundain; a derbyniodd hi. Gwnaeth ei farc yno ar unwaith. Teimlodd y Saeson fod Cymru wedi eu hanrhegu â dawn newydd danlli—llawn o gyfaredd, melusder, goleuni, barddoniaeth, a bywyd. Aeth y capel yn rhy fychan; ac yn hytrach nag ymgymmeryd â'r drafferth ddiflas o adeiladu un newydd, gwrandawodd Mr. Jones ar gymmhellion ei gymmydogion yn eglwys Bedford, Oakley square; a symmudodd yno. Yr oedd efe wedi adeiladu dau gapel newydd eisoes yn Nghymru,

Digitized by Google

ac ni chwennychai lafur felly drachefn. Aeth enw 'Thomas Jones, Bedford Chapel,' i bob man. Atdynai ato ei hun bob gradd a sefyllfa o feddyliau. Yno yr oedd y bardd a'r athronydd, yr ammheuwr a'r credadyn, y newyddiadurwr a'r llenor, yr aelod seneddol a'r marsiandwr, y tlawd a'r goludog, yn cyd-drigo gyda'u gilydd; ac ennillodd ei gapel yr enw nodweddiadol o 'Arch Noah.'

'Erioed,' ebe Christopher Crayon, yn y *Christian World*—'erioed ni welais gynnulleidfa yn edrych mor foddhaol a'r eiddo Mr. Jones. Nid yn unig am nad yw efe yn darllen ei bregethau; nid am ei fod yn siarad â'r gynnulleidfa, ac yn edrych yn wynebau y bobl; eithr nid oes gymmaint ag un gwrandäwr difater yn mhlith y lliaws; nid oes gymmaint ag un llygad crwydredig yn y lle. Fel yr eisteddwn ar lawr y capel, gan edrych i fyny yr orielau, tarawyd fi yn rymus gan yr olygfa hynod:—Y fath benau mawrion, deallgar; a'r fath wynebau craff, wedi eu goleuo yn ddisglaer, oedd yno. Nis gallai un pregethwr ddymuno tystiolaeth fwy na hon i'w ddylanwad a'i nerth. Mewn ychydig iawn o gynnulleidfaoedd, os yn wir mewn cymmaint ag un, y gwelais erioed olygfa gyffelyb i hon. Y mae hi yn dra rhyfeddol!'

Parhaodd Thomas Jones i losgi a goleuo, a goleuo a llosgi, am un mlynedd ar ddeg yn Llundain, nes y darfu i'r tân mewnol ddechreu ysu ei gnawd. Meddyliodd mor ddwys, llafuriodd mor galed, ac ymgyssegrodd mor lwyr i waith y pulpud, fel y bu o dan orfod, yn Hydref y fl. 1869, i ystyried y cwestiwn o 'lacio'r ffrwyn,' a newid cylch ei lafur. Carai ei gynnulleidfa yn fawr, a charai y gynnulleidfa yntau yn angerddol; ond yr oedd natur eisoes wedi dechreu rhybuddio fod perygl i'r fegin losgi allan. Cymmerodd yr awgrym, a throdd ei gefn ar y deml,

'Lle dysgodd llu dewis-goeth,
Lle bu'n pregethu'n goeth.'

Yn y cyfamser, yr oedd eglwys ieuangc, a fagwyd gan Dr. T. Rees, yn Abertawe, wedi bod er's tro yn llafurus gyda'i theml newydd yn Walter Road. Yr oedd traul yr adeilad yn 5,850*p*. Wedi hyny, chwanegwyd at y capel ysgoldy ëang, gwerth yn agos i 1,000*p*. arall. Wedi bod yn agor yr adeilad ganol haf 1869, nid anhawdd oedd ei berswadio i symmud yn ei ol i Gymru, a chymmeryd arolygiaeth yr achos newydd. Chwyddodd y gynnulleidfa i fil o rifedi yn ddioed; ac yr oedd ei chyfraniadau gwirfoddol yn un cant ar ddeg yn y flwyddyn, o'r cychwyn cyntaf.

Blwyddyn ei sefydliad yn Abertawe oedd tymmor ei wasanaeth fel cadeirydd Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru. Testyn ei anerchiad yn Mai, yn Nghapel Finsbury, oedd *The Work of the Christian Preacher*. Yn Abertawe y cynnaliodd yr Undeb ei ŵyl Hydrefol, a thraddododd Mr. Jones anerchiad ar *The Answer of the Church to the Scepticism of the Age*. Yr oedd y ddau anerchiad yn gyfansoddiadau disglaer a grymus iawn; a'r traddodiad, hwyrach, yn fwy meistrolgar na dim a draethwyd o'r gadair hono cyn hyny, nac ar ol hyny. Blynyddoedd llafurus, ond hynod o ddedwydd a llwyddiannus, oedd saith mlynedd ei arosiad yn Abertawe, er gwaethaf anhunedd a graddol ddirywiad ei nerth a'i iechyd.

Synwyd llu mawr o edmygwyr Mr. Jones pan ddeallwyd ei fod wedi derbyn yr alwad o eglwys Gynnulleidfaol Collins' St., Melbourne, Awstralia, yn 1877. Gallasai, pe yn dymuno, ddychwelyd i'r brif ddinas pan y mynai; ond nid symmud yr oedd er mwyn symmud. Y gair addasaf i egluro ei deimladau yn yr olwg ar adael yr eglwys yn Walter Road yw 'rhwygo.' Câs-beth oedd hyny ganddo. Mater o raid a osodwyd arno. Tybid y buasai symmud i hinsawdd sêch y wlad hono yn adferu ei iechyd, ac yn grymuso ei nerth. Ond nid tristwch i gyd a lifodd allan o'r symmudiad. Cyn hyny, bu tafod eiddigus ac ammheugar yn prysur daenu chwedlau ynghylch ei ŵyriad oddi wrth symledd y ffydd. Pan yn canu yn iach iddo ef, a'i deulu, dygwyd y tystiolaethau a ganlyn i iachusrwydd ei ddysgeidiaeth:—

'Tybia rhai pobl fod Mr. Jones yn hereticaidd, i fesur, yn ei athrawiaeth; ond da y gŵyr y rhai sydd wedi arfer cydaddoli âg ef, mai efengyl cariad yw ei efengyl. Cariad yw ei grefydd. Cariad yw y Duw a bregethir ganddo. Hon yw crefydd y Beibl; ie, yr unig grefydd sydd yn cyfarfod âg anghenion ac eisieu enaid dyn yn gyflawn.'

Hyfryd yw darllen y dystiolaeth arall am ddylanwad dyrchafol gweinidogaeth Mr. Jones ar fywyd dinesig:—

'Nid yn unig profodd pregethau Mr. Jones yn neillduol o atdyniadol i dorfeydd o bobl; ond efe a lwyddodd, drwy ei lafur yn y pulpud, i ddyrchafu safon, a rhoddi tôn bereiddiach i foesoldeb y dref. Bu ei ddylanwad ar Anghydffurfiaeth y lle yn dra bendithlawn.'

Yn ei attebiad i eiriau caredig ei gyfeillion ar yr achlysur o'i ymadawiad, cyfeiriodd yntau fel hyn at y cyhuddiad athrodgar—

'Yr wyf wedi byw gyda chwi am y saith mlynedd diweddaf, a phregethais i chwi Grist fel Mab y dyn, yn gystal a Christ fel Mab Duw—Duw wedi ymddangos yn y cnawd—Crist, Brenin dynion—Arglwydd yr enaid—Achubydd pechaduriaid. Dyma y Crist, mi a hyderaf, a'ch ceidw chwi a minnau yn ei fynwes serchog. Os hyn yw heresi, mawr ddymunaswn wybod pa beth ydyw uniongrededaeth! Gwnaethum ymdrech, hefyd, i bregethu moesoldeb uchelryw. Y mae perthynas neillduol o agos rhwng crefydd a moesoldeb felly. Yr un yw eu cyssylltiad ag eiddo y pren a'i ffrwyth. Nid yw crefydd heb foesoldeb yn grefydd o gwbl.'

Rhoddwyd iddo groesaw tywysog ar ei laniad yn Melbourne. Yr oedd y llythyrau a'r pellebrau a ddylifent ato yn tystio fod ysbryd crefyddol yr holl gyfandir yn ei dderbyn gyda llawenydd mawr. Yn ei anerchiad ar yr achlysur hwnw ceir y frawddeg ganlynol:—

'Yr ydwyf yn ddiolchgar o galon i chwi am dderbyn plentyn teimladol (*sensitive*) natur gyda'r fath serch rhyfeddol. A dywedaf wrth fy eglwys yn awr—waeth i mi wneyd hyny yn bresennol na rhyw adeg arall—os y digwydda fy niaconiaid edrych arnaf yn sarug ar foreu Sabbath, ni chânt bregeth dda oddi wrthyf y dydd hwnw. . . Y mae y dyn sydd yn barod i bregethu, os cyferfydd âg ymddygiad cymmylog, angharedig, llacceir llinynau ei galon, ânt yn llipa a llaith, a derfydd am dano. . . . Daethum yma i bregethu efengyl gras Duw. A wnewch chwi sylwi ar y deffiniad Beiblaidd o efengyl—efengyl gras Duw? Nid oedd arnaf eisiau efengyl i ddyweyd wrthyf fy mod yn bechadur. . . . Ond yr oedd arnaf eisieu efengyl i'm hysbysu mai 'Duw, Cariad yw.' Er fod gofal yr holl grëadigaeth ar ei feddwl, etto, mae'n meddwl am danaf fi fel person. . . Nid oedd arnaf angen efengyl i ddyweyd wrthyf

am y Meddyg o'r Nef,, yr hwn a ddichon anadlu egni a bywyd newydd i fy natur gandryll; aduno'r darnau, a'u gwisgo â phur ddelw cariad Duw.'

Bu Mr. Jones yn neillduol iawn o ddyfal yn ei lafur ar gyfer ei gynnulleidfa a'i eglwys yn Melbourne. Ymwelodd â threfedigaethau pell, a phregethodd yn yr holl wlad o amgylch. Am nas gallai efe fyned i bob man, deuai y bobl o New Zealand, Tasmania, New South Wales, a Queensland i wrandaw arno ef. Un Sabbath, ebe boneddwr yn y cyntedd wrth un o'r diaconiaid :—'Yr wyf wedi dyfod 2,000 o filldiroedd i wrandaw ar Mr. Jones. Dylech geisio eisteddle i mi.' Gwasanaethodd ei enwad fel cadeirydd eu Hundeb; traddododd anerchiad ar 'Frwdfrydedd Cristionogol.' Ni phrofodd awyr Awstralia fod meddyginiaeth yn ei esgyll ar gyfer ei nychdod ef. Parhäai ei fron yn friw; mynych y cedwid ef yn garcharor yn ei dŷ ei hun am wythnosau gan anwyd a chaethder blin. Ni bu ei arosiad yn Melbourne ond tair blynedd. Dychwelodd i Gymru yn Mai, 1880; a dyna oedd y penderfyniad cyn gadael Abertawe yn 1877.

'Heneiddio'r wyf—hyn oedd raid.'

Ymwelwyd âg ef, wedi ei ddychweliad i'r wlad hon, gan amryw ddirprwyon oddi wrth wahanol eglwysi, a bu ar fin cydsynio i dderbyn galwad o Rydychain. Yn fuan ar ol hyn, aeth ei hen eglwys yn Abertawe yn wâg, a gwasgwyd arno i gymmeryd ei gofal eilwaith. Ychydig o nerth oedd ganddo i'w dreulio. Am ei fod yn caru pregethu â chariad angerddol, attebodd:—'Mi a bregethaf i chwi tra y cyfrana Duw nerth i mi.' Ond yr oedd cysgodion y cyfnewidiad mawr wedi disgyn ar ei lwybr. Treuliodd yr haf gyda'i gyfeillion yn Llanwrtyd. Trigai ei ysbryd, gan amlaf, yn y blynyddoedd gynt—blynyddoedd bachgendod. Wedi hyny, elai o gymmanfa i gymmanfa, gan ail ymborthi ar wleddoedd bras uchel-ŵyliau teulu Duw. Ebe efe un diwrnod :—'Blynyddoedd olaf einioes dyn ydynt ei rai goreu. Y mae ei gariad at Dduw a dyn yn gryfach. Prifia ei weledigaeth ysbrydol—ä yn eglurach beunydd. Ar ol deugain mlynedd o ddarllen ac astudio'r Testament Newydd, nid wyf ond yn dechreu ei ddeall. Nid oes o'i fath yn yr holl fyd.'

Ond yr oedd terfyn yr einioes ger llaw. Yn ngwanwyn 1882, amlygodd Mr. Jones awydd cryf am gael yr hyn a eilw'r Saeson yn 'Wasanaeth Blodau ar Sul y Blodau;' ac felly y bu. Gwisgwyd yr addoldy â holl brydferthwch a phereidd-dra natur ar ei goreu. Pregethodd yntau ar y geiriau, 'Ystyriwch lili'r maes.' A Sabbath mawr oedd hwnw—yr olaf iddo ef ar y ddaear, ac un o Sabbothau hynotaf ei oes. Un o'r dyddiau dilynol ysgrifenodd y frawddeg ganlynol :—

'There is no time to think:—Eternity is at hand,'

'Nid oes amser i feddwl:—Y mae tragwyddoldeb ger llaw'—a dyma'r geiriau olaf a ysgrifenodd efe ar bapur. Er ei fod mor fyw ag erioed i amgylchiadau bywyd, fel y chwennychai wybod newyddion olaf y newyddiaduron; etto, yr oedd efe yn araf fordwyo ymaith yn nghwch y Brenin, dan ganu

'Yn y dyfroedd mawr a'r tonau
Nid oes neb a ddeil fy mhen.'

'My little rill draws near the sea
Source of my life I come to Thee.'

O ddeutu machlud haul, prydnawn Sadwrn, Mehefin 19eg, 1882, aeth y cwch â'r ymdeithydd dros y gorwel. Glaniodd yr ochr arall i Amser yn brydlawn, er dechreu cadw y Sabbath 'sydd etto yn ol i bobl Dduw.'

Wele ad-grynhöad o ddyddiadau treigl ei ymdaith, fel y ceir hwy yn ngorph y sylwadau blaenorol :—

Ganwyd ef Gorphenaf 17eg, 1819.

| | |
|---|---|
| Bryn, Llanelli ... ... | 1844—1845 |
| Tabor a Hermon ... ... | 1845—1850 |
| Treforis ... .. ... | 1850—1858 |
| Llundain ... ... ... | 1858—1869 |
| Abertawe ... ... ... | 1870—1877 |
| Awstralia ... ... ... | 1877—1880 |
| Abertawe ... ... ... | 1880—1882 |

Bu farw Mehefin 19eg, 1882.

Yr ydym yn dychwelyd, bellach, er ymofyn, Pa fath ŵr ydoedd efe? Pa fath bregethwr a meddyliwr, ac yn mha le yr oedd cuddiad ei fawr gryfder? Saif ar ein deheulaw ychydig wŷr â chanddynt farn deg am dano, seiliedig ar hen adnabyddiaeth. Fel cydymaith blynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, a chyfaill ar hyd dyddiau yr einioes, yr ydym yn galw ar y Parch. Dr. John Thomas :—Pa fath ŵr oedd y Parchedig Thomas Jones, Dr. Thomas? 'Dyn ieuangc main, teneu, gwallt du fel y frân, aeliau tywyllion, llygaid glâs, gwyllt, gwreichionllyd, gwyneb gwelw, llym, ac ysgogiadau hoyw a chwimwth. . . Ni bu dyn erioed âg ynddo fwy o ddawn. Os oedd bai o gwbl yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, gormod o ddawn oedd ganddo. Yr oedd ei barabl yn rhwydd, yn esmwyth, a grisialaidd. Bryd arall, llifai yn afon drystiog, gynnhyrfus. Ar achlysuron, disgynai yn rhaiadr trystfawr a throchionog, nes y clywid ei sŵn o bell. Yr oedd ei feddyliau yn goeth, ei iaith yn loyw, ei aceniad yn swynol, ei lais yn dyner, a'i floedd yn gynnhyrfus. Chwareuai ar holl linynau y galon ddynol; portrëadai bob golygfa yn fyw o flaen y meddwl; yr oedd pob peth yn troi o dan ei law yn farddoniaeth swynol. Cymmerai drafferth i chwilio am y pethau goreu i'w dyweyd, a chymmerai lawn cymmaint o drafferth drachefn i'w dyweyd yn y modd goreu i gario argraph ar gynnulleidfa. Credai yn gryf mewn cynnyrchu effaith uniongyrchol; ac ni theimlai fod y gwaith wedi ei wneyd oni byddai hyny. Er fod natur lonaid ei bregethau, etto, natur ddysgybledig—natur oedd dan reolaeth chwaeth a barn. Yn wir, yr oedd ynddo lawer o *art*, yn gystal a barn; ond fod natur yn cuddio yr *art*, a'r *art* yn gwylio natur, gan ei choethi a'i gloewi, nes bod y bregeth fel drych toddedig.'

'Os gwelwch yn dda, hoffem gael portrëad bŷr o un o'i odfeuon mawr. A ydych chwi yn cofio odfa olaf agoriad Ebenezer, Aberdâr, yn 1853? Os ydych, mynegwch am dano.' 'Pregethodd Thomas Jones yn olaf. Esgynodd i'r pulpud am ddeng mynud i wyth. Yr oedd y gynnulleidfa wedi bod yno er's dwy awr; yr oedd y lle yn annioddefol, o'r bron. Darllenodd ei destyn yn gyflym, ond yn lled ddistaw :—'A gofynwch am yr hen lwybrau.' Siaradai yn fân ac yn fuan, yn hollol ddi-attal, a'r gynnulleidfa yn dal ei hanadl mewn distawrwydd. Cyn pen deng munyd, yr oedd y dorf fawr oll yn ei law. Ni chollodd hi am funyd hyd y diwedd, er iddo barhau am awr ac ugain munyd. Dechreuodd gyda hen bethau mewn natur; daeth heibio i hen bethau celfyddyd; aeth rhagddo at hen bethau mewn crefydd. Yr oedd y bregeth yn

Digitized by Google

edmygedd diderfyn o'r dyddiau o'r blaen; ac erioed ni ddarluniwyd hwynt i well mantais. Gwnaeth bedwar sylw:—1. Daliwch afael ar yr hen wirioneddau. 2. Addolwch yn yr hen ddull. 3. Mwynhewch yr hen brofiadau. 4. Gweddïwch am yr hen ddylanwadau. Rhydd y sylwadau yna agoriad i'r bregeth, er nas gallant gyfleu un syniad am ei nerth a'i dylanwad. Aeth dros restr yr hen wirioneddau a gyfrifid yn uniongred, gan ddangos y dylanwad mawr oedd yn cydfyned â'r pregethiad o honynt yn mhob oes a gwlad. Gŵyro oddi wrth y cyfryw wirioneddau oedd dechreuad dirywiad crefyddol yn mhob cyfnod. Rhoddodd ddarluniad byw, cynnhyrfus, o addoliadau y dyddiau gynt—y pethau a welodd efe â'i lygaid pan yn fachgen. Tynodd bortrëad anghymmharol o'r hen bobl yn cadw cyfeillachau cynnes, nes cilio o'r byd i anghof llwyr gan faint eu mwynhâd. Dangosodd mai Ysbryd Duw oedd yn gwneyd y pethau hyn oll; fod pob peth yn ofer hebddo, a gwasgai y dorf i weddïo am yr hen ddylanwadau.'

Nyni a alwn yn nesaf ar 'W. N.'—y Parch. W. Nicholson—un o'r ysgrifenwyr darluniadol goreu—i adrodd yr hyn a glywodd ac a welodd efe ar foreu Sul y Pasc, yn addoldy Walter Road. Yr oedd Thomas Jones, y pryd hwnw, yn anterth ei rym. Yn awr, Mr. Nicholson:—

'Clywsom ef yn pregethu yn ei addoldy ei hun ar foreu Sul y Pasc, yn Abertawe. Ei destyn oedd, 'Bwytäwn ac yfwn, canys yfory marw yr ydym.' Ymaflodd yn y geiriau yn ddi-ymdroi; llefarodd yn gyflym a phenderfynol, gan grychu croen ystwyth ei wyneb, a nodio ei ben yn ol, fel yr oedd y galw gan fater y bregeth. Yr oedd caboledd a disgleirdeb mawr yn perthyn i'w arddull, er fod yn hawdd gwybod wrth ei glywed yn pregethu yn Saesneg mai Cymro oedd. Fflachiai tân o'i lygaid gleision, gwëai gweill buain ei deimladau nes bron nad oeddym yn eu gweled yn symmudiadau parhaus ei eiliau. Dywedai yr ymadrodd '*certainly not*' gydag ysgydwad pen oedd yn oesol derfynu y cwestiwn hwnw. Yr oedd ei holl symmudiadau yn y pulpud yn gyflym a tharawiadol—yn briodol a meistrolgar i'r pen. Ar brydiau, rhuthrai ei hyawdledd yn gefnllif anwrthwynebol, a theimlem ein hunain yn myned gydag ef fel mewn *yatch* o flaen awel deg. Cyflymai ei ymadroddion nes y clywem ynddynt ryw drybediad rheolaidd, fel sŵn olwynion y gerbydres pan yn hanner ehedeg dros y coed dan y rheiliau fel hyn:—

'It grows in every meadow, it runs in every stream, it heaves in every wave, it shines in every star, it burns in every sun, it arches the mighty firmament—the Potency of nature.'

'Dyna ymadroddion a ddywedodd yn y modd cerbydresol. Meddai adnabyddiaeth berffaith o'r natur ddynol; chwareuai ar ei nwydau nes yr oedd fel offeryn cerdd yn llaw chwareuydd medrus—yn ufudd iddo yn mhob cyffyrddiad. Y funyd hon, y mae pawb yn cael eu symmud i dosturi a gresyndod; gwelid *Oh! pity!* yn symmud ôl a blaen dros eu hwynebau. Yn ymyl hyny, cyffröai ddigter y bobl:—ymddangosai yr olwg fwyaf herfeiddiol a bygythiol arno ef ei hun, a'r rhai a wrandawent arno. Cyn i'r nwyd hono weithio ei hun allan, yr oeddym yn cael ein hunain yn nhynerwch natur yn sychu ein dagrau. Llenwai ei lygaid ef ei hun, a llenwai llygaid pawb eraill. Yr oedd y gynnulleidfa yn debyg i Lyn Siloam yn ei sefyllfa bresennol—daear a cheryg wedi ei lenwi; etto, cyfyd allan o hono *spring* rhyfedd ar adegau nes ei orchuddio oll â dwfr llonydd. Felly y boreu Sabbath hwnw—cododd y dwfr bedair gwaith neu bump, nes lleithio y meini mwyaf stoicaidd oedd o fewn yr adeilad.'

Bellach, yr ydym mewn cyfleusdra cymmharol fanteisiol i ffurfio barn am wraidd ei nerth ef. Fod ganddo athrylith gref a disglaer iawn sydd amlwg. Llwyr gyssegrodd hi at wasanaeth pulpud efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Bu yn efrydydd o'r dosbarth dyfalaf hyd ddiwedd ei oes. Do, bu yn feddyliwr—yn feddyliwr ffrwythlawn, iach, dwfn, mawr. Y pulpud oedd ei wasg ef, a'r Sabbothau ei gyfrolau. Ac fel y sylwai Iolo Goch am rywun:—

'Odid fyth, er daed fai,
Enyd yr ysgrifenai.'

Efrydydd un llyfr—yr Ysgrythyr Lân—a fu efe. Cyssegrodd ei holl alluoedd a'i ymchwiliadau i egluro hwnw, a dwyn ei egwyddorion i adlunio, puro, a thryloewi bywydau dynion. Yn ei alwedigaeth fel pregethwr—pregethwr byw—marsiandwr o bregethwr oedd efe; ïe, archwiliwr a goresgynydd o bregethwr. Gwybu yn fynych am y pereidd-dra y dywedai Cicero am dano:—*Nihil est veritatis luce dulcius*—nid oes dim mor hyfryd a goleuni y gwirionedd. Crwydrai ar antur pell, weithiau; cloddiai yn ddwfn ar antur, y pryd arall; ond bob amser ar yr un neges—hela'r gwir. Gwnelai lwybrau iddo ei hun, a defnyddiai ei feddwl ei hun—ac nid arall.

'Nid meddwl i fod mewn cadwynau oedd yr eiddo ef. Rhaid oedd iddo ddyweyd pob peth oedd ganddo i'w ddyweyd yn ei ffordd a'i eiriau ei hun. Ni bu un dyn erioed y buasai yn anhawddach ei gaethiwo y tu mewn i dermau ystrydebol.'

Am ei fod fel pob gwir efrydydd, yn ddeddf iddo ei hun, ac ar amserau, yn traethu pethau nas gwelodd llygad barcut, mynai yr ofnus ei fod ar ddisberod. Ebe Dr. Thomas:—

'Clywsom ef lawer gwaith yn traethu syniadau a dybiem yn wyllt ac eithafol. Adroddwyd i ni gan eraill bethau gwylltach na dim a wrandawsom ganddo; ond ni bu arnaf erioed lawer o ofn iddo ŵyro yn mhell iawn oddi ar yr hen ffordd dda; o blegid gwyddem mai yr athrawiaeth a ddysgodd efe yn hen gapel Llanwrtyd oedd yr haen isaf yn ei gredo.'

Y mae dwy elfen arall i'w cymmeryd i ystyriaeth. Yr oedd Thomas Jones yn fardd, ac yn *actor*, wrth reddf. A chanfyddiad byw pell awen y gwelai efe wirioneddau; ac â dawn mynegiadol yr *actor* y traethai hwynt. Ni bu yn Nghymru odid un gŵr, os nad oedd John Elias felly, a roddodd gymmaint o fryd ar feistroli y modd i bregethu, yn gystal a pha beth a bregethai. Trwy fod yn ffyddlawn i feithriniad di-ball, a dysgyblaeth drwyadl, o'r oll o hono ei hun, esgynodd orsedd uchaf effeithiolrwydd a dylanwad fel pregethwr. Hyn yw cnewyllyn tystiolaeth y bardd Browning—un o'i wrandäwyr yn Llundain, a'r hwn, wedi hyny, a ysgrifenodd Ragarweiniad i'r gyfrol o bregethau a olygwyd gan ei fab, Mr. D. Brynmor Jones, Q.C., A.S.:—a gyhoeddwyd wedi ei ymadawiad.

LLEN.:—*Cong. Year Book*, 1883; *Dict. of National Biography*, vol. xxx.; *Lyric Thoughts of the late Thomas Jones, with Biographical Sketch, edited by his widow; Hanes yr Eglwysi Annibynol*, cyf. v.

Digitized by Google

JONES, WILLIAM, Cilmaenllwyd. Yr hanes cyntaf a geir am y cymmeriad dyddorol hwn yw yr hyn a ddywed Dr. Walker am dano; sef, ei fod mewn meddiant o fywoliaeth Cilmaenllwyd yn y fl. 1655. Yn hanes y 'ddwy fil,' geilw Dr. Calamy ef yn 'William Jones, Llangellbithen;' a dywedir ei fod wedi cael ei droi allan o'i fywoliaeth, naill ai ar ddyfodiad Siarl II. i'r orsedd yn 1660, neu ar adeg pan wnaed y Ddeddf Unffurfiaeth, yn 1662. Yn ol Joshua Thomas, trigai yn y Castell mawr, yn mhlwyf Llanglydwen, yn sir Gaerfyrddin; a thebygol yw, fod y Saeson wedi cam-ysgrifenu 'Llanglydwen' yn 'Llangellbithen;' o herwydd ni cheir y fath enw a'r olaf yn y sir. Y mae sail i gredu ei fod yn dal bywoliaethau Cilmaenllwyd, Llanglydwen, a Llanfalldeg. Boneddwr addfwyn, gwylaidd, a braidd yn ofnus ei dymmer ydoedd; etto, profodd ei hun, pan ymosodwyd arno, yn ddyn o argyhoeddiadau cryfion, ac o wroldeb diammheuol. Ar ol colli ei fywoliaeth, ymroddodd i efengylu; ac er ei fod yn hynod ofalus yn yr hyn a bregethai, ac hefyd ynghylch y lle a'r awr, nid hir y bu cyn cael ei daflu i garchar yn nghastell Caerfyrddin. Yr oedd Siarl II. wedi penderfynu difodi yr Anghydffurfwyr. Yr oedd y carcharau yn heigio gan grefyddwyr. Taflwyd llawer o Fedyddwyr Caerfyrddin i'r hen gastell; ac yn eu plith Jenkyn Jones, yr hwn a adnabyddid wrth yr enw 'Cadben Jones.' Yr oedd efe yn foneddwr o gyfoeth a dysg, yn weinidog adnabyddus gyda'r Bedyddwyr, ac yn bregethwr hyawdl. Cododd hefyd fintai o filwyr ar ei draul ei hun i ymladd dan faner Cromwell. Y mae yn dra thebygol fod William Jones a Jenkyn Jones yn gyd-garcharorion yn Nghaerfyrddin. Daliadau Presbyteraidd oedd gan William Jones pan yn myned i'r carchar; ond pan ollyngwyd ef yn rhydd, yn mhen tair blynedd, yr oedd wedi newid ei farn am fedydd—yr oedd yn llwyr argyhoeddedig mai trochiad y crediniol oedd yr unig fedydd ysgrythyrol. Yn union ar ol ei ryddhâd, aeth i Olchan, ar ffiniau sir Henffordd, i gael ei fedyddio. Tybir i'r ordinhâd gael ei gweinyddu gan Thomas Watkins, gweinidog eglwys Olchan, neu gan William Pritchard, gweinidog eglwys y Fenni, ar y pryd. Ni feddwn ddyddiad ei fedydd, na'i garchariad. Y peth cyntaf a geir am dano ar ol hyn yw, ei fod yn pregethu, yn bedyddio, ac yn casglu eglwys yn nghylchoedd Cilmaenllwyd, yn nechreu y fl. 1667. Bedyddiodd chwech Mehefin 4ydd, 1667, a phump eraill y 25ain o'r un mis. O'r chwech cyntaf, yr oedd Gruffydd Howel (gwel tudal. 644), dyn dysgedig a chyfoethog, yr hwn a wnaed yn henuriad yr un dydd. Cesglir ei fod yn gwisgo urddau cyn cael ei fedyddio. Trigai mewn tŷ o'r enw Rushacre, neu 'Rhydsiacer;' ac am mai wrth yr enw hwn yr adnabyddid yr eglwys a gesglid gan William Jones am beth amser, naturiol yw casglu mai o dan gronglwyd y boneddwr parchus a dylanwadol, Howel, y cafodd yr eglwys ei chartref cyntaf. Ar y 12fed o Fai, 1668, corphorwyd yr eglwys yn ffurfiol gan y T. Watkins a W. Pritchard a enwyd eisoes; ac ar y diwrnod canlynol, Mai 13eg, etholwyd William Jones a Gruffydd Howel yn gyd-weinidogion. Perthynai i'r hanes hwn ddyddordeb neillduol, am mai yr eglwys hon, a elwir yn awr 'Rhydwilym,' yw yr unig eglwys a gasglwyd ac a gorphorwyd yn Nghymru yn adeg erledigaeth enbydus Siarl II. Hon hefyd ydyw mam-eglwys holl Fedyddwyr siroedd Penfro, Caerfyrddin, a Cheredigion. Yn 1668, adeg ei chorphoriad, rhifai 33; ond yn 1669, rhifai 113. Cynnyddodd i'r graddau hyn er gwaethaf carcharau, dirwyon, a phob gwawd a gwrthwynebiad. Yn y cyfamser, yr oedd eglwys Caerfyrddin wedi diflanu yn llwyr, ac eglwys Llanilltyd-yn-Mrowyr, a'i gweinidog enwog, John Myles, wedi gorfod diangc i'r America, bron i gyd; tra yr oedd cynnulleidfaoedd Vavasor Powel, trwy Ogledd a chanolbarth Cymru, yn cael eu chwalu i'r pedwar gwynt. Yn nghanol y corwynt hwn y casglodd William Jones eglwys Rhydwilym, ac y llwyddodd hithau mor fawr.

Glaniodd William, Tywysog Orange, a Mary, ei briod, yn Mhrydain yn niwedd y fl. 1688. Derbyniasant y goron yn Chwefror, 1689, a phasiwyd Deddf Goddefiad yn fuan ar ol hyny. Cymmerodd y Bedyddwyr fantais ar hyn i alw cymmanfa gyffredinol yn Llundain yn Medi, 1689. Teithiodd William Jones yr holl ffordd o sir Benfro i'r brif ddinas er cynnrychioli ei eglwys. Mabwysiadwyd *Cyffes Ffydd* gan y gymmanfa hono; a cheir *Cyffes Ffydd* yn nechreu hen lyfr eglwys Rhydwilym yn dwyn yr un dyddiad (1689). Gwahaniaethant ychydig, yn gymmaint a bod *Cyffes Ffydd* William Jones yn cynnwys arddodiad dwylaw pan yn derbyn bedyddiedigion yn aelodau eglwysig. Er fod yr arferiad hon wedi peidio yn mhlith Bedyddwyr Cymru er's blynyddau, erys mewn grym yn Rhydwilym hyd y dydd hwn—yn gofeb fyw o syniadau neillduol cychwynwyr yr achos yn y lle. Llwyddodd yr hen bregethwr hefyd i gasglu o'i gwmpas amryw foneddigion talentog a chyfoethog. Yn y fl. 1689, nid oedd gan yr eglwys un addoldy. Torid bara yn Rushacre, yn sir Benfro, a Glandwr, yn sir Aberteifi; tra y trinid pob achosion yn Ysys-fach, yn sir Gaerfyrddin. Cynnwysai yr eglwys, yr adeg hono, un-ar-ddeg o bregethwyr. Nid cynghorwyr achlysurol oedd y rhai hyn oll; ond yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn weinidogion galluog—yn iach mewn athrawiaeth, a theilwng mewn buchedd. Tramwyent yr holl wlad i bregethu; ac ymsefydlodd rhai o honynt, yn gystal ag amryw eraill a godwyd dan ofal William Jones, mewn eglwysi eraill. Ac y mae'n sicr fod dylanwad yr hen wron yn fawr ar y dynion hyn. Dysgyblion iddo oedd Morgan Griffith, gweinidog Hengoed (o 1701 hyd 1738); Samuel John, gweinidog Cilfowyr (1704 hyd 1736); a Richard Williams, gweinidog Maes-y-berllan (1700 hyd 1724). Oddi wrth restr Moses Williams, cesglir mai y gŵr o Gilmaenllwyd a gyfieithodd y ddau lyfr hyny a gyhoeddwyd yn Gymraeg yn 1676: sef, *Gair at Bechaduriaid, a gair at Saint; a Principlau, neu Benau y Grefydd Gristionogol*, &c. Tadoga Calamy, er hyny, y gwaith o gyfieithu i William Jones, o Ddinbych. Ychydig iawn sydd yn wybyddus am ei flynyddoedd olaf; ac nid oes un cofnodiad ar gael am ei farwolaeth, nac am fan ei fedd. Enwid ef gan Dr. Price, tua'r fl. 1690, yn mhlith y gweinidogion anghenus yn Nghymru. Crybwyllir ef hefyd yn Nghofnodion Llundain fel gweinidog Rhydwilym yn 1692. Yr oedd wedi marw cyn 1700 i sicrwydd, bron; a thybir iddo derfynu ei yrfa yn 1698.

Sylwyd eisoes ei fod o duedd addfwyn, ac yn hytrach yn ofnus, cyn ei erledigaeth; ond yn ol yr hanesion, ymddengys fod ei ddewrder a'i

Digitized by Google

wroldeb yn hynod pan yr oedd yn cael ei erlid, a'i garcharu, &c. Yr oedd yn addfwyn, etto yn hŷf fel llew; ac yr oedd ei ymddangosiad yn ennillgar ac yn ddidramgwydd. Perchid ef yn fawr gan foneddwyr y wlad. Chwennychent ei ddarbwyllo i gydymffurfio, gydag addewidion teg o ddyrchafiad; ond gwyddai pa fodd i roddi attebion diolchgar, hynaws, iddynt. Er hyny, penderfynodd oddef caledi a chyfyngderau er mwyn y gwirionedd, a heddwch cydwybod.

Dywedir fod y cyflog a aberthwyd ganddo yn saith ugain punt yn y flwyddyn; yr hyn, gyda rhagolygon teg am ddyrchafiad buan, a llonyddwch, a ffafr, oedd yn llawer i'w roddi i fyny am dlodi mawr, ac erledigaeth chwerw. Nis gellir dyweyd pa sawl gwaith y bu efe yn ngharchar. Y mae'n debyg iddo fod fwy nag unwaith yn ngharchar Caerfyrddin; a chrybwyllir iddo gael ei garcharu yn Henffordd. Gan ei fod yn byw ac yn pregethu hyd derfynau y ddwy sir—sef Caerfyrddin a Phenfro—yr oedd efe mewn peryglon deublyg. Adroddir am dano, pan y dedfrydwyd ef, un tro, i garchar Hwlffordd, tref sirol Penfro, am bregethu Crist, iddo gael cydymdeimlad mawr gan lawer o foneddigion y dref hono; a thaflodd hyn gryn ddiystyrwch ar ei erlynwyr. Yr oedd efe wedi trefnu cyhoeddiad i bregethu allan yn y wlad yn ystod y dyddiau hyny. Yn hytrach na siomi y bobl, erfyniodd ganiatâd i gael myned atynt, ac addawodd ddychwelyd i'r carchar ar ei union. Aeth rhai o wŷr cyfoethog y dref yn gyfrifol drosto i geidwad y carchar; o blegid caniatawyd ei gais, a chychwynodd i'w daith. Cymmerodd un boneddwr ef i'w dŷ, a rhoddodd iddo ei gôb fawr, ei fotasau, ei ysbardynau, a'i geffyl, yn fenthyg dros y daith. Rhyfeddai y bobl oedd wedi ymgasglu ynghyd wrth weled hen bregethwr tlawd a llwm yn y fath ddiwyg. Ond wedi iddo ef esbonio pethau iddynt, llanwyd pawb gan deimladau cymmysglyd o lawenydd a thristwch. Terfynwyd yr odfa, a dychwelodd William Jones yn ddi-ymaros, yn ol ei addewid, i'r carchar yn Hwlffordd. Gresyn na buasai mwy o'i hanes ar gael. Ymddangosodd, fel Elias, neu fel Melchisedec, yn sydyn, ac yn ei anterth: a diflanodd bron fel hwythau—heb adael na thŷ, na thylwyth, na llyfr, na bedd adnabyddus i barhau ei goffadwriaeth! Arferir ei enw, er hyny, gan yr hen eglwys a sefydlwyd ganddo—sef Rhydwilym; o blegid adeiladwyd yr addoldy cyntaf yn 1701, ar lan yr afon, ac yn ymyl y fan lle y dywedir fod William Jones yn arfer bedyddio. Hyn a barodd i'r capel a'r ardal gael eu galw yn Rhydwilym. Y mae yn amlwg ei fod yn un o wir wroniaid y ffydd. Efe a gadwodd ei lamp i losgi trwy gydol yr ystorm erwin a fu yn chwythu ar grefydd yn Nghymru yn ei oes. Pan giliai eraill am eu bywydau, arosai ef yn ddi-ildio gyda'i bobl. Nid oedd na ffafrau, na chreulonderau, yn menu dim arno. Nis gŵyr Cymru yn awr beth yw swm ei dyled i William Jones, o Gilmaenllwyd.

JONES, Parch. WILLIAM, o Ruddlan. Pregethwr adnabyddus a chymmeradwy iawn, perthynol i'r Methodistiaid Calvinaidd yn yr oes o'r blaen, oedd y gweinidog hwn. Ganwyd ef mewn tyddyn o'r enw Pen-yr-allt, yn mhlwyf Llangristiolus, yn sir Fôn, yn y fl. 1783. Pan yn ieuangc, symmudodd i weithio i gymmydogaeth Amlwch; a chan fod rhyw ddireidi diniwed yn perthyn iddo, ac yn llawn o ffraethineb, rhoddai fywyd yn y cylchoedd gwledig yr oedd yn troi ynddynt; ac yr oedd bob amser yn ffafrddyn gan ei gyd-weithwyr. Ar ol tyfu i fyny, gadawodd wlad Môn, a daeth i fyw i gymmydogaeth Trefriw, ger llaw Llanrwst; a diau mai yno yr ymunodd â chrefydd. Wedi bod yno am rai blynyddoedd, ni a'i cawn ef yn mhentref Nantglyn, ger llaw Dinbych, yn cadw ysgol ddyddiol; ac yno y dechreuodd efe bregethu, yn 1810—pan yr oedd siroedd Dinbych a Fflint yn un cyfarfod misol. Fel 'William Jones, o Nantglyn,' yr adnabyddid ef gan ei hen wrandawyr yn y genhedlaeth a aeth heibio. Ond ni bu yno am dymmor maith; o blegid symmudodd yn lled gynnar ar ei oes, fel pregethwr, i Ruddlan i fyw; ac yno y bu yn trigiannu hyd derfyn ei fywyd.

Gŵr o daldra canolig oedd efe, llydan ei ysgwyddau, ac yn tueddu at fod yn 'bwyntus;' a graenus, a glandeg, a siriol ei ymddangosiad. Yr oedd ganddo lais mwynaidd, a dawn fel llif yr afon, pan y byddai yr awel o'i du. Ni byddai byth ball arno am eiriau i osod allan ei feddwl; ac yr oedd ei ddull a'i ystum yn ddymunol a hawddgar. Hynodrwydd ei weinidogaeth yn ei flynyddoedd cyntaf oedd ymosod yn ddiarbed ar lygredigaethau yr oes. Cododd ei fwyell finiog mewn dyrys-goed, a chymmhwysodd hi yn effeithiol at hen foncyffion anfoes oedd wedi dwfn wreiddio yn y tir. Arloesodd cryn lawer ar anialwch moesol ei wlad; ac yr oedd ganddo ddawn naturiol at hyny. Byddai yn myned i gynnulliadau cynnhyrfus, lle y byddai cannoedd o bobl wedi ymgasglu i ddilyn arferion ofer, ac i gydymgais mewn drygioni; megys, gŵylmabsantau, ymladd ceiliogod, a nosweithiau llawen, &c.; ac y mae yn sicr fod ei ymdrechion yn y ffordd yma wedi bod yn angeuol i'r llygredigaethau hyny mewn llawer o ardaloedd. Yr oedd yn pregethu unwaith mewn treflan ar adeg gŵylmabsant, pan yr oedd llangc mwy cellweirus na'r lleill yn aflonyddu ar y gwasanaeth. Dywedai William Jones wrtho:—'Byddai yn well i ti gymmeryd yn araf, fachgen! Hwyrach fod rhyw glonc yn nes atat nag yr wyt ti yn ei feddwl; ond gobeithio nad disgyn i uffern a wnei di.' Pa fodd bynag, torodd y llangc asgwrn ei glun cyn myned adref y noson hono. Yr oedd llymder ei weinidogaeth yn gyfaddas iawn i'r amseroedd hyny; ac yr oedd ei ddewrder, a'i ddull difrifol, ond eithaf naturiol, ac agos at y bobl, yn peri ei fod yn cyrhaedd y nôd oedd ganddo mewn golwg; sef, deffro a diwygio ei gydgenedl. Weithiau, gwenai y gwrandawyr yn foddhaus wrth ei wrandaw; ond y funyd nesaf, byddai eu gweniadau wedi eu cyfuno â sobrwydd dwys. Dywedai rywbryd:—'Ni roddwn i ddim grôt y dwsin am y bobl hyny gyda chrefydd ag y mae yn rhaid cadw y chwip arnynt o hyd, fel y *top*. Egwyddor pïa hi, bobl!' Pan y caffai radd o eneiniad i'w ysbryd ei hun, byddai yn wledd cael gwrandaw arno. Dylifai ei ddawn fel afon ddofn; ac yr oedd hi yn cario pob peth o'i blaen.

Daeth graddau o gyfnewidiad ar nodweddion ei weinidogaeth yntau, fel eraill, fel yr oedd yn tynu at brydnawn-ddydd ei oes. Yr oedd mwy o fater yn ei bregethau, a mwy o drefnusrwydd arnynt; ac ni chollasant ddim mewn effeithiolrwydd a gallu i argyhoeddi gwrandawyr. Gŵr y pulpud oedd efe yn benaf; o blegid nid oedd yn cymmeryd llawer o ddyddordeb yn nhra-

Digitized by Google

fodaethau allanol yr achos crefyddol. Yr oedd yn gymmeradwy iawn gartref, ac oddi cartref. Pregethai mewn cyfarfodydd blynyddol, ac yn y cymdeithasfaoedd; ac yr oedd yn hynod boblogaidd yn y Deheubarth hefyd. Bu yn offerynol yn ei ddydd i droi llawer o'u ffyrdd cyfeiliornus, a'u hwylio tua thir y bywyd; a diau y bydd nifer y rhai a ddychwelwyd at y Gwaredwr trwy ei weinidogaeth yn fwy nag yr oedd efe yn dychymygu eu bod. Ordeiniwyd ef yn Nghymdeithasfa y Bala, yn y fl. 1836; a bu farw yn 1844, yn 61ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am bedair-ar-ddeg-ar-hugain o flynyddoedd. Bu iddo saith o blant—pump o feibion, a dwy ferch; ond cafodd drallodion mawr oddi wrth rai o honynt. Diangodd ei gymmeriad ef, pa fodd bynag, yn ddïanaf a gloyw, er ei holl brofedigaethau; ac y mae ei lwch yn gorphwys mewn gobaith, yn mynwent Rhuddlan, yn agos i'r ddaeargell lle yr erys yr hyn sydd farwol o weddillion ei gyd-weinidog, a'i gymmydog, y Parch. William Morris.

JOWETT, BENJAMIN. Prif athraw Coleg Balliol, Rhydychain, oedd efe; a chyfieithydd gweithiau yr athronydd Groegaidd Plato. Ganwyd ef yn Camberwell, yn y fl. 1817, a derbynioedd ei addysg yn Ysgol St. Paul, Llundain, a Choleg Balliol. Aeth drwy gwrs ei efrydiaeth yn y brifysgol gydag anrhydedd. Ennillodd Ysgoloriaeth Hertford, yn 1837; graddiodd yn y dosbarth blaenaf yn y clasuron, yn 1839; ac yn 1841, ennillodd y wobr am y traethawd Lladin. Gwnaed ef yn gymmrawd o'i goleg yn 1839; ac o 1840 hyd 1870 bu yn athraw ynddo. Pennodwyd ef yn feistr yn 1870. Treuliodd ei holl fywyd, o'r bron, yn y coleg enwog hwnw; a daeth yn un o'r personau mwyaf dylanwadol yn Rhydychain. Yn 1855, cafodd ei bennodi, ar annogaeth Arglwydd Palmerston, yn athraw yr iaith Roeg (*Regius Professor of Greek*) i'r brifysgol; ac yr oedd yn aelod, gydag Arglwydd Macaulay, o'r ddirprwyaeth a fu yn gwneuthur ymchwiliad i'r Gwasanaeth Gwladol yn India. Derbyniodd y radd o Ddoethawr o brifysgolion Leyden yn 1875, Edinburgh yn 1884, a Chaergrawnt yn 1890. O'r fl. 1882 hyd 1886, bu yn gweithredu fel is-ganghellydd y brifysgol. Ysgrifenodd erthygl ar 'Ddeongliad yr Ysgrythyrau' i'r *Essays and Reviews*, yn 1860; ac am y tybiai rhai fod yr erthygl hon yn cynnwys heresiau, cyhuddwyd ef o hyny ger bron Llys yr Is-ganghellydd; ond daeth allan yn fuddugoliaethus. Cyfansoddodd esboniadau ar yr Epistol at y Thessaloniaid, y Galatiaid, ac at y Rhufeiniaid. Y gwaith llenyddol a ddygodd iddo fwyaf o glod oedd ei gyfieithiad o *Dialogues Plato;* yr hwn waith a gyhoeddodd mewn pedair cyfrol, yn 1871. Cyfieithodd, hefyd, waith *Thucydides*, gyda nodiadau, &c., a *Politics Aristotle*, gyda nodiadau cyffelyb. Bu farw Hydref 1af, 1893, yn 76ain mlwydd oed—yn fawr ei barch gan gylch helaeth iawn o gyfeillion ac edmygwyr.

---

# K.

KOSSUTH, M. LOUIS. Gwladgarwr Hungaraidd enwog oedd efe. Ganwyd ef, yn ol fel y tybir, ar Ebrill 27ain, 1802, yn Monock, yn swydd Zemplin, ger llaw dinas Pest. Ond nid oes sicrwydd hollol ynghylch lle na dyddiad ei enedigaeth. Disgynai, ar du ei dad, o un o deuluoedd pendefigaidd Hungary; ond nid oedd ei rïeni mewn amgylchiadau arianol cysurus iawn. Efe a dderbyniodd ei addysg yn Ngholeg Calvinaidd Patak; ac wrth ymadael oddi yno, yn y fl. 1819, ymroddodd i efrydu y gyfraith. Galwyd ef at y bâr yn 1826. Yr oedd efe eisoes wedi dangos fod ganddo syniadau ëang ar faterion gwleidyddol—syniadau ëang iawn, yn wir, mewn gwlad fel Hungary; yr hon oedd yn cael ei gorthrymu i raddau mawr iawn. Bu y syniadau eithafol hyn o'i eiddo yn attalfa ar ffordd ei lwyddiant fel cyfreithiwr. Pa fodd bynag, llwyddodd i gael pennodiad cyfreithiol lled ddibwys yn swydd Zemplin; ac mewn canlyniad i'r rhan a gymmerodd efe yn adeg haint ofnadwy y geri (*cholera*) yn 1831, a'i boblogrwydd fel canlyniad o hyny, pennodwyd ef yn genad, neu yn gynnrychiolydd i'r *Hungarian Diet*—deddfwrfa y wlad; yr hon ar y pryd a eisteddai yn Pressburg. Yr oedd amgylchiadau ei gyflwyniad (*nomination*) yn gyfryw fel na chaniateid iddo bleidleisio, er ei fod yn rhoddi hawl iddo siarad. Gan hyny, nid oedd ei aelodaeth yn y ddeddfwrfa yn gyfryw ag a barai hollol foddlonrwydd iddo. Cyn hir, fodd bynag, daeth y rhan a chwareuai efe yn amgylchiadau y *Diet* yn llawer pwysicach na'r gorchwyl o barotoi a thraddodi areithiau; y rhai, yn fynych iawn, a lwyr ddinystrid gan wasg y deyrnas. Un ddyledswydd arbenig a berthynai iddo oedd cyflenwi y personau hyny a'i hanfonasant i'r tŷ âg adroddiadau achlysurol o weithrediadau y cyfryw dŷ. Cyflawnodd y gorchwyl hwn gyda'r fath ofal a thrylwyredd, gan egluro yr adroddiadau â sylwadau personol o'i eiddo ei hun, fel y daeth ei adroddiadau i dynu sylw anghyffredin. Ennillasant gylchrediad mawr drwy gael eu hestyn o law i law yn mysg y rhai a deimlent ddyddordeb mewn cwestiynau politicaidd. Daeth y galw mor fawr am yr adroddiadau, fel y bu raid darparu llawer o gopïau o honynt; a phan nas gallai efe eu cynnyrchu yn ddigon

Digitized by Google

buan trwy eu had-ysgrifenu, dygodd hwynt allan trwy ddwylaw y *lithographer*. Bu hyn yn foddion uniongyrchol i'w ddwyn i wrth-darawiad—y gwrthdarawiad difrifolaf cyntaf—â llywodraeth Awstria; yr hon a ddeddfodd i'r perwyl fod cyhoeddi adroddiadau seneddol yn drosedd a ystyrid yn gyfystyr â theyrn-fradwriaeth. Ni chymmerodd Kossuth un sylw o'r bygythion hyn; a'r canlyniad fu, iddo ef ei hun, yn 1839, gael ei gymmeryd i'r ddalfa, ac i'r awdurdodau gymmeryd meddiant o'i bapur bychan. Dedfrydwyd ef i ddioddef pedair blynedd o gaethiwed—ac na byddai iddo, yn nghorph yr amser hwnw, gael cymdeithasu âg un enaid byw. Bu y ddedfryd hon yn foddion i danio digofaint y cyhoedd ar unwaith; a darfu i'r *Diet*, yn ngwyneb y digofaint hwn, gyhoeddi fod erlyniad Kossuth yn anghyfreithlawn. Ceisiodd Awstria, am dymmor, wingo yn erbyn y penderfyniad; ac ni fynai ryddhau y carcharor. Ond o herwydd i'r *Diet* wrthod pleidleisio y cyflenwadau arianol gwladol angenrheidiol nes y rhyddheid Kossuth, a charcharorion politicaidd eraill, bu raid i lywodraeth Awstria ildio. Rhyddhawyd ef, wedi bod o hono yn ngharchar ychydig dan ddwy flynedd. Nid aeth y cyfnod hwnw yn hollol ofer; o blegid dywedai Kossuth yn fynych mai dyma y cyfnod yn mha un y dechreuodd efe ei yrfa ddyfodol. Tra y bu yn ngharchar, cynnyddodd ei boblogrwydd o fis i fis; a thrwy gymmhorth Geiriadur Johnson, a chyfrol o waith Shakespeare, efe a lwyddodd ei hun i ennill gwybodaeth weddol gywir o'r iaith Saesnig.

Yn lled fuan wedi ei ryddhâd, llwyddodd i gael caniatâd i sefydlu newyddiadur. Y papur hwnw oedd y *Pesti Hirlap*, neu y *Pest Journal*, yr hwn a gariwyd yn mlaen tra y bu ei sefydlydd byw; ac o ran hyny, y mae yn fyw etto. Daeth y papur hwn yn fuan i gael ei ystyried yn organ swyddol y blaid Ryddfrydig yn Hungary; ac nid hir y bu cyn ennill cylchrediad o 12,000 o gopïau:—yr hyn oedd yn nifer mawr yn y dyddiau hyny. Mewn byr amser ar ol cychwyn y newyddiadur hwn, priododd Kossuth foneddiges ieuangc Hungaraidd, o'r enw Teresa Mesylenyi; o'r hon y ganwyd iddo ddau fab, ac un ferch. Bu ei feibion byw ar ei ol; ond bu farw ei wraig a'i ferch amryw flynyddoedd o'i flaen. Parhaodd Kossuth i arolygu y newyddiadur hyd 1843—pan y darfu iddo, o herwydd rhesymau neillduol a phersonol, dori ei gyssylltiad âg ef. Ceisiodd ganiatâd i sefydlu newyddiadur arall; ond er y gefnogaeth a roddid iddo gan y weinyddiaeth, gwrthodwyd ei gais.

Yna, efe a drodd ei sylw at gwestiynau amaethyddol a threfnidol (*economic*). Gwnaeth ymdrechion egnïol hefyd i ddwyn o amgylch ryddfreiniaid y caethweision (*serfs*). A thrwy ei hyawdledd areithyddol, llwyddodd, i ryw raddau, i ennyn chwilfrydedd yn mysg yr etholwyr o berthynas i foesoldeb gwleidyddol:—cwestiwn oedd yn cael ychydig iawn o ystyriaeth yn y wlad hono yn y dyddiau hyny. Yr oedd ei olygiadau ef ar drefnidedd gwladol yn sylfaenedig ar ddiffyg ymddiriedaeth yn Awstria, ac o gasineb at Rwssia—neu, yr hyn y gellid ei symio i fyny mewn un gair—Diffyndollaeth (*Protection*). Y canlyniad fu, iddo sefydlu cymdeithas o'r enw 'Vedegylet':—aelodau pa un a ymrwyment i beidio defnyddio nwyddau amgen na'r rhai a gynnyrchid yn Hungary. Bu y fath lwyddiant ar ymdrechion y gymdeithas hon fel y bu raid i wneuthurwyr nwyddau yn Awstria drawsblanu eu maelfeydd i Hungary, er gallu o honynt sicrhau werthiant eu nwyddau.

Yn 1845, daeth Kossuth allan eilwaith fel ymgeisydd am sedd yn y *Diet;* ond er ei holl boblogrwydd, gorchfygwyd ef. Modd bynag, ddwy flynedd yn ddiweddarach, etholwyd ef iddi fel aelod dros Pest; ac nid hir y bu cyn dyfod i'r ffrynt, a chymmeryd rhan flaenllaw yn ngweithrediadau y tŷ. Trwy nerth ei areithyddiaeth, a dwysder ei argyhoeddiadau, daeth i gael ei adnabod yn arweinydd y symmudiad mawr a phwysig—y pryd hwnw yn ei fabandod—oedd â'i amcan i sicrhau annibyniaeth Hungary. Daeth effeithiau dysgeidiaeth Kossuth i'r amlwg mewn modd neillduol ar y 18fed o Fawrth, 1848, pan y gwnaed ymgais i roddi i lawr yr arddangosiad cyhoeddus yn Pest—a gododd mewn canlyniad i'r chwyldroad a ddigwyddodd yn Vienna wythnos yn flaenorol i hyny. Galwyd ar y milwyr i danio ar y bobl, ond gwrthodasant; ac o'r diwedd, gorfodwyd llywodraeth Vienna i gydnabod fod ganddynt i ymwneyd, nid â gwerin anfoddog a di-ddiolch, ond â gwerin oedd yn barod, ar darawiad, i godi mewn gwrthryfel. Ychydig yn ddiweddarach, dewiswyd Kossuth yn flaenor y ddirprwyaeth i Vienna, i osod cŵynion yr Hungariaid ger bron yr ymherawdwr. Erbyn hyn, yr oedd y llys ymherodrol mewn pryder dirfawr. Cafodd y ddirprwyaeth hon dderbyniad croesawus a chynnes gan yr Ymherawdwr Frederick I.; ac nid yn unig hyny, ond gwnaeth ei fawrhydi erfyniad taer am i Kossuth arfer ei ddylanwad mawr er adferu heddwch yn Hungary. Dychwelodd Kossuth i Pressburg; ac yn mhen mis, teithiodd yr ymherawdwr i'r ddinas hono i adnewyddu ei lŵ o ffyddlondeb i'r Cyfansoddiad Hungaraidd, ac i roddi ei gydsyniad i amryw o ddeddfau newyddion oedd wedi eu gwneyd gan y *Diet* trwy ymdrechion gweinyddiaeth ryddfrydig y Count Louis Batthyani. Tua yr adeg yma, ymunodd Kossuth â'r weinyddiaeth, fel gweinidog y cyllid. Ond gan nad pa mor awyddus oedd yr ymherawdwr i dawelu ysbryd aflonydd y gwladgarwyr Hungaraidd, trwy ganiatau iddynt y diwygiadau gwladol a geisient, edrychai amryw o brif bendefigion a gwleidyddwyr y llys brenhinol ar bethau mewn goleuni gwahanol, a gwnaent eu goreu i ddyrysu yr hyn a wnaed i barhau yr heddwch. Yr oedd Count Von Jellachich newydd ei bennodi yn llywodraethwr Croatia; ac wedi ymadael am Agram, meddir, gyda chyfarwyddiadau dirgelaidd i ennyn eiddigedd a digofaint yn mysg y Croatiaid, y Serbiaid, a'r Wallachiaid yn erbyn Hungary, Pan y gwelwyd fod agwedd pethau yn fygythiol, fel y canlyniad o elyniaeth Slavs y Deheu, gwnaeth Kossuth ei gais bythgofiadwy am ddau can mil (200,000) o ddynion, a deugain miliwn (40,000,000) o *florins*, i amddiffyn annibyniaeth Hungary; ac addawodd, ar yr un pryd, y gwnai efe ei oreu i geisio dadrys yr anhawsderau trwy foddion heddychlawn. Bu ei ymdrechion, pa fodd bynag, yn aneffeithiol. Wedi cael trafodaeth anfoddhaol gyda'r ymherawdwr yn Schönbrunn, Medi 9fed, dychwelodd ef a'i gydwladwyr i Pressburg, gyda'r penderfyniad di-ildio o gario y rhyfel yn mlaen, beth bynag fyddai y canlyniadau.

Ar y 13eg o Fedi, rhoddwyd gorchymyn gan

Digitized by Google

y *Diet* i greu 'arian papur' (*paper money*) i gyfarfod â'r treuliau; ac etholwyd Kossuth yn llywydd Pwyllgor yr Amddiffynfeydd Cenedlaethol. Yn y cyfamser, yr oedd deugain o Croatiaid dan arweiniad Jellachich, yn teithio i gyfeiriad Pest; ac o herwydd hyn, galwodd Kossuth ar ei gydwladwyr i ymarfogi. Nis gallai y fath fyddin a hon lai na bod yn ammherffaith a dibrofiad ar y goreu; ond er yr anfantais o orfod arwain byddin i'r maes oedd heb ymarfer, ac heb fod dan ddysgyblaeth filwraidd, gorchfygodd y Croatiaid yn gynnar yn mis Hydref, gyda cholledion mawr. Diwrnod neu ddau cyn y frwydr hon y pennodwyd Kossuth gan y *Diet* yn llywodraethwr gwladol a milwrol Hungary, gydag awdurdod i gario y rhyfelawd yn mlaen fel y gwelai efe yn oreu. Bu i'r weithred hon o eiddo y *Diet*, ynghyd â gorchfygiad byddin Jellachich, yn achos i lywodraeth Awstria roddi gorchymyn i'r milwyr oedd yn Vienna i fyned allan yn erbyn yr Hungariaid. Gwrthododd y milwyr hyny ufuddhau i'r gorchymyn; ac fel canlyniad o'r ymdrech a wnaed i'w gorfodi, cymmerodd ymladdfa ofnadwy le yn heolydd Vienna. Tueddai y preswylwyr i bleidio milwyr y gaerfa; sef, y milwyr a wrthodasant ymostwng i'r gorchymyn. Yn yr ymladdfa ofnadwy hon, ennillwyd y fuddugoliaeth gan yr 'anufuddion.' Crogwyd y gweinidog rhyfel gan y bobl; ac ar noswaith y 7fed o Hydref, ymadawodd yr ymherawdwr yn ddirgelaidd o Vienna, y brif ddinas. Cyn bo hir, fodd bynag, cafodd y brif ddinas ei hadgymmeryd. Cafodd yr Hungariaid eu gyru yn ol; a chyrhaeddodd yr Awstriaid gyferbyn a Pest yn nechreu y fl. 1849. Yn y cyfamser, esgynodd yr ymherawdwr presennol, Francis Joseph, i'r orsedd, fel olynydd ei ewythr, yr hwn a roddodd ei hawlfraint ymherodrol i fyny. Yna aeth Kossuth ar ymdaith trwy bob rhan o Hungary, a llwyddodd i drefnu pedair byddin i wrthsefyll ymosodiadau yr Awstriaid. Erbyn mis Mawrth yr un flwyddyn, yr oedd y pedair byddin hyn wedi ennill digon o nerth i ymosod ar eu gwrthwynebwyr. Gwnaeth Kossuth gynnygiad yn ffurfiol fod i'r orsedd gael ei chymmeryd oddi ar deulu Hapsburg. Cymmerodd hyn le yn Debreczin, i'r hon dref y symmudodd y *Diet*. Cariwyd y cynnygiad gan ddwy ystafell y tŷ; a'r pryd hyny, cyhoeddwyd Hungary yn deyrnas annibynol. Am dymmor, bu llwyddiant ar ymdrechion milwraidd yr Hungariaid—gyrwyd yr Awstriaid allan o Pest, a gorfodwyd hwynt i encilio tua'r cyffindiroedd. Ond er yr holl lwyddiant hwn, yr oedd Kossuth yn parhau yn awyddus i roddi terfyn ar y rhyfel; a chyda yr amcan daionus hwn yn ei feddwl, ceisiodd gynnorthwy Lloegr a Ffraingc i sicrhau heddwch. Ond bu yr ymdrechion hyn o'i eiddo yn aflwyddiannus; a thra yn condemnio ymddygiad Awstria, dywedodd Arglwydd Palmerston, fel rheswm dros wrthod, nas gallai llywodraeth Prydain ymyryd mewn helynt o'r fath. Bron yr un adeg ag y cyrhaeddodd y newydd am y gwrthodiad hwn i Hungary, clywodd y gwrthryfelwyr yno fod Rwssia wedi penderfynu cynnorthwyo Awstria i roddi terfyn ar y gwrthryfel. Ac o herwydd anffyddlondeb, difrawder, neu ddiffyg yni Görgey, prif gadfridog yr Hungariaid, ni wnaeth eu byddin ond ymgais eiddil i wrthsefyll y Rwssiaid. Yn lle uno ei fyddin â byddinoedd y cadfridogion Bems a Klapka, fel y ceisiwyd ganddo, ceisiodd wneyd ymosodiad di-amcan ar Komorn. O herwydd y bradwraeth hwn ar ran Görgey, rhoddwyd ergyd angeuol i obeithion cenedlaethol Hungary. Ymunodd byddinoedd Awstria a Rwssia â'u gilydd, adgymmerwyd Buda Mai 4ydd, ac ymneillduodd Kossuth a'r llywodraeth i Szegedin. Yn mis Awst, ymunwyd â hwynt yn Arad gan Görgey a'i fyddin ddi-werth; a dywedir fod Görgey â'i fryd ar aberthu Kossuth i ddwylaw y gelynion. Yr oedd Görgey yn dra awyddus am gael awenau y llywodraeth i'w ddwylaw ei hun; ac er mwyn ceisio sylweddoli y dymuniad hwn, nid oedd yn ormod ganddo gyflawni rhan bradwr. Hysbyswyd Kossuth ganddo fod llywodraeth Rwssia wedi cyttuno i gadw at gyfreithiau 1848, ar yr ammod fod iddo ef, Kossuth, ymneillduo oddi wrth lyw y llywodraeth. Wedi ymgynghori â'i weinidogion, derbyniodd Kossuth y telerau hyn, ac aeth y cyfrifoldeb i ddwylaw Görgey. Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyny, ymryddhaodd Görgey oddi wrth y cyfrifoldeb, a rhoddwyd y cwbl i fyny i ddwylaw y Rwssiaid. Yn y dull bradwrus hwn y rhoddwyd terfyn ar annibyniaeth Hungary!

Croesodd Kossuth, gyda thua phum mil o'i ganlynwyr, ynghyd â'i gadfridogion Bem, Dembinski, a Perezel, y cyfandir i diriogaeth Twrci, ger llaw Orsova, o herwydd ei fod wedi derbyn sicrwydd y caffai efe a'i gymdeithion nodded ac amddiffyniad yno. Ond hawliodd Awstria a Rwssia yn ddioed y dylai yr holl ffoedigion gael eu rhoddi i fyny. Pe y digwyddasai hyny, diammheu y cawsent eu dïenyddio; ond mewn canlyniad i ymyriad Lloegr a Ffraingc, gwrthododd Twrci y cais. Ymddygodd Sultan Twrci —Abdul Medjid—yn hynod ddoeth a dyngarol ar yr achlysur, gan amlygu ei barodrwydd i noddi y ffoedigion anffodus, beth bynag fyddai y canlyniadau. Yn fuan ar ol hyn, symmudwyd hwynt i Kutahia, neu Kiutayeh, yn Asia Leiaf, lle y buont yn fath o garcharorion hyd Awst 21ain, 1851. Caniatawyd iddynt adael Twrci trwy ddylanwad Lloegr. Wrth hysbysu Kossuth ei fod yn ŵr rhydd, cymmerodd Suleiman Bey afael yn llaw yr hen wladgarwr enwog; ac wedi ei chusanu, dywedodd—'Dos! ti a gwrddi â chyfeillion i ba le bynag yr äi di yn awr! Nac anghofia y rhai hyny a fuont yn gyfeillion i ti pan nad oedd genyt ond ychydig!'

Yn ystod cyfnod ei garchariad yn Twrci, dioddefodd gwraig a phlant Kossuth gyfyngder mawr, a llawer o erledigaeth eithafol oddi ar law awdurdodau Awstria. Wedi myned trwy gyfres o anturiaethau cyffrous, llwyddodd Mrs. Kossuth i dwyllo y swyddogion; a diangodd allan o derfynau Hungary; ac felly, ymunodd â'i phriod yn Shumla. Cymmerwyd meddiant o'r plant, er hyny, y rhai a adawyd yn ngofal perthynasau gan awdurdodau Awstria; a bwriasant yr anwyliaid bychain i garchar Pest, lle y caethiwyd hwy am chwe mis. Yna hwy a ganiatasant iddynt fyw o dan arolygiaeth yr awdurdodau gyda pherthynasau yn Pest; ond o herwydd y brwdfrydedd a achosid gan eu hymddangosiad yn yr heolydd, anfonodd yr awdurdodau hwynt at eu rhïeni, y rhai oeddynt, ar y pryd, yn Kutahia. Ar eu hymadawiad o Pest, cymmerodd arddangosiad brwdfrydig le, oedd yn arwyddo teimladau caredig y trigolion.

Ymadawodd Kossuth a'i deulu o Kutahia Medi 1af, 1851, a chyrhaeddasant i Southampton Hydref 28ain, yr un mis, lle y derbyniwyd

Digitized by Google

y gwladgarwr gyda'r parch a'r brwdfrydedd mwyaf. Yn wir, cafodd dderbyniad cyffelyb yn mhob man lle yr elai yn y deyrnas hon. Talodd ymweliad byr â'r Unol Dalaethau; yna dychwelodd i Loegr drachefn, lle, eilwaith, yr estynwyd iddo anrhydedd lawer. Bu yn trigo yma am rai blynyddau, gan dreulio ei amser i ysgrifenu erthyglau i'r newyddiaduron, a thraddodi darlithiau yn erbyn teulu ymherodrol Hapsburg. Un o'r troion olaf i'w enw gael ei ddwyn yn amlwg ger bron y cyhoedd oedd yn 1860, pan y daeth llywodraeth Awstria â chynghaws yn erbyn y Mri. Day a'i Feibion am 'lithographio' amryw filiynau o arian-nodau (*bank-notes*) i'w lledaenu yn Hungary; y rhai oeddynt wedi eu llawnodi gan Kossuth fel llywodraethwr y wlad hono. Yn 1861, rhoddodd annogaeth gref i'r Italiaid ddechreu rhyfel yn erbyn Awstria, gyda'r amcan o alluogi yr Hungariaid i ddadblygu eu nerth yn erbyn y gallu hwnw. Darfu iddo, hefyd, gyhoeddi anerchiad eithafol at yr Hungariaid yn Mehefin, 1866; ac wedi terfynu y rhyfel yn y flwyddyn hono, cynghorodd yr Hungariaid i wrthod y cynnygion a wneid gan yr Ymherawdwr Francis Joseph. Ar y 1af o Awst, 1867, etholwyd ef yn gynnrychiolydd seneddol dros Waizen; ond gwrthododd dderbyn y swydd. Yn y flwyddyn hono, fe estynwyd maddeuant iddo; ond efe a wrthododd ddychwelyd i Hungary. Yn mlynyddoedd olaf ei oes, cymmerodd ei drigfan yn Turin, mewn neillduedd: ond ni chafodd ei anghofio mewn unrhyw fodd. Nid oedd ganddo amgyffred clir iawn yn nyddiau ei henaint am sefyllfa gwahanol bethau yn Hungary, nac am symmudiadau gwleidyddol gwahanol wledydd y Cyfandir. Bu farw yn Turin, Mawrth 20fed, 1894, yn 92ain mlwydd oed; hyny yw, a chymmeryd yn ganiataol fod dyddiad ei enedigaeth yn gywir fel y rhoddwyd ef uchod.

---

# L.

LEWIS, Y PARCH. ENOCH, Abergwaen, sir Benfro. Gweinidog parchus a phoblogaidd yn perthyn i gyfundeb y Trefnyddion Calvinaidd Cymraeg oedd efe. Ganwyd ef, a bu fyw dros ei holl fywyd yn nhref Abergwaen. Enw ei dad oedd Benjamin Lewis; yr hwn, am flynyddoedd, a wasanaethodd y swydd o ddechreuwr canu yn nghapel y Methodistiaid; ac yr oedd ganddo lais rhagorol. Etifeddodd y mab lais ei dad; yr hyn a fu o werth mawr iddo yn ei weinidogaeth. Tueddwyd ef yn foreu i ddechreu pregethu; a thrwy ei briodas gyda Mrs. Morris, gweddw cadben llong, gosodwyd ef mewn amgylchiadau cysurus i allu rhoddi ei amser i wasanaethu yr eglwysi yn ei wlad ei hun, ac i fyned ar deithiau i bregethu yr efengyl mewn siroedd eraill. Ar gyfrif melusder ei ddawn a'i fater, daeth bron ar unwaith yn ffafrddyn y cynnulleidfaoedd; ac efe a barhaodd yn boblogaidd hyd y diwedd.

Neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth, neu fel y mae ei fab, y Parch. W. M. Lewis, yn mynu geirio y neillduad, 'i weinyddu y sacramentau,' yn Nghymdeithasfa Merthyr Tydfil, Awst 4ydd, 1842, pryd y traddodwyd yr araeth ar 'Natur Eglwys' gan y Parch. Daniel Evans, Capel Drindod; ac y rhoddwyd y 'Cynghor' gan y Parch. David Howell, Abertawe. I ddangos y lle uchel a'r parch a ennillodd yn mysg ei frodyr, pennodwyd ef i draethu ar 'Ddysgyblaeth Eglwysig' yn y gwasanaeth ordeinio, mewn cyssylltiad â Chymdeithasfa Pontfaen, Awst 6ed, 1857. Yn fuan ar ol hyn, daeth yn amlwg fod y dyfrglwyf yn ymaflyd ynddo; a'r flwyddyn ganlynol, bu farw o'r clefyd hwnw; a chladdwyd ef yn mynwent Abergwaen. Bu farw Mehefin 27ain, 1858, yn 49ain mlwydd oed.

Ac felly, cafodd ei symmud yn nghanol ei ddyddiau, ac o ganol ei ddefnyddioldeb. Teimlwyd galar mawr ar ei ol, a rhoddwyd mynegiad amlwg a dwys o'r teimlad yn y gymdeithasfa a gynnaliwyd yr Hydref dilynol, yn Hwlffordd. Gŵr addfwyn, hynaws, ydoedd Enoch Lewis, a chanddo air serchog wrth bob un a gyfarfyddai. Er y gallai fod yn finiog ac ymarferol yn ei bregethau, yr oedd ei chwaeth yn benaf at felusion yr efengyl; ac yr oedd ei lais a'i ddawn yn cyfatteb i hyny. Y mae yn ymddangos iddo gael argyhoeddiad llym a thrwyadl. Yr oedd ei grefydd ddiammheuol yn grymuso ei weinidogaeth, ac yn cynnorthwyo i'w gwneuthur yn effeithiol, megys ag yr ydoedd yn felus ac yn gymmeradwy gan yr holl wrandawyr. Yr oedd yn Gristion cywir, profiadol, a diragrith; ac yr oedd ei ysbryd bob amser wedi ei nawseiddio gan bethau yr efengyl.

LEWIS, PARCH. JOHN, Cilgeran, sir Benfro, ydoedd yn hanu o deulu perthynol i sir Aberteifi, ond a symmudasant i Abergwaen, yn sir Benfro. Gwneuthurwr hetiau oedd y tad; ac y mae yn debyg i'r mab ddysgu yr un grefft. Ond yr oedd gwaith uwch yn ei aros, ac amlygodd yn gynnar yn ei fywyd ei fod yn meddu cymmhwysder iddo. Meddai allnoedd naturiol da, a chwaeth at ddarllen, a chafodd addysg fwy na chyffredin. Bu am beth amser yn Athrofa y Bala, a symmudodd oddi yno gyda'r Parch. David Charles i Drefecca, pan yr agorwyd yr athrofa yno yn 1842. Ar ol gorphen ei gwrs athrofaol, dychwelodd i Abergwaen, a

Digitized by Google

phriododd Miss Harries, Plas-y-fron, un o chwiorydd Mr. Hugh Harries, Cefn-y-dref, a Mr. Thomas Harries, Castell Henry. Yn mhen tuag ugain mlynedd, efe a symmudodd i Rymni, i gymmeryd gofal un o eglwysi y Methodistiaid yno; ac yn mhen rhai blynyddoedd, symmudodd drachefn i Gasnewydd-ar-ŵysg, i fod yn weinidog yr eglwys barchus yn hen gapel yr enwog Barch. Morgan Howells. Tra yn y lle olaf, bu farw ei briod, a chollodd fab trwy foddi. Yn 1876, dychwelodd i sir Benfro; ail briododd, ac ymsefydlodd yn Nghilgeran—lle y bu yn ddedwydd a defnyddiol hyd derfyn ei oes; yr hyn a gymmerodd le ar y 4ydd o Orphenaf, 1886, ac yntau yn 73ain ml. oed. Urddwyd ef mewn cymdeithasfa gynnulledig yn Nhŷ Ddewi, Hydref 3ydd, 1849, yr un pryd a'r efengylydd adnabyddus a phoblogaidd, y Parch. John Richards, Llechryd. Yn mhen pymtheng mlynedd ar ol hyny, yn yr un lle, ac yn agos i'r un dydd o'r flwyddyn hefyd, sef, Hydref, 1864, yr oedd yn eistedd yn nghadair y gymdeithasfa. Ac yr oedd cyn hyny wedi traethu ar 'Natur Eglwys' yn y gwasanaeth ordeinio yn Llangeitho, Awst 4ydd, 1859, pan yr oedd Islwyn a Dr. Harries Jones, yn mysg eraill, yn cael eu neillduo. Yr oedd yn bregethwr da a sylweddol—ac ar brydiau, byddai yn nerthol. Yr oedd yn frawd anwyl, yn gyfaill ffyddlawn, ac yn berchen ar gymmeriad crefyddol teilwng o'r efengyl. Bu farw mewn tangnefedd.

LEWIS, Y Parch. STEPHEN HALL, o sir Benfro. Gweinidog oedd efe gyda'r Methodistiaid Calvinaidd. Ganwyd ef mewn ffermdy ar yr ochr ogleddol i'r Fenni Fawr, ac ar y llaw ddeheu i'r ffordd sydd yn arwain o'r Boncath i Fwlch-y-groes, yn nghŵr uchaf sir Benfro. Symmudodd y teulu pan yr oedd efe yn ieuangc i ardal Blaen-y-cefn, yn sir Aberteifi. Cafodd addysg foreuol dda; a danfonwyd ef i orphen ei ysgol i Langeitho, o dan ofal y Parch. John Jones, wedi hyny o Lanbadarn Fawr, yn ymyl Aberystwyth. Un o'i gydysgolheigion yn Llangeitho ydoedd Dr. Lewis Edwards; a ffurfiwyd cyfeillgarwch rhyngddynt a barhaodd dros eu hoes. Ac yn ol yr hanes a dderbyniasom, yn Llangeitho, hefyd, y dechreuodd y ddau bregethu, ac yn yr un odfa. Ac yn gymmaint a bod Stephen Lewis yn naturiol yn fwy hyrwydd ei ddawn, efe a ystyriwyd y pregethwr mwyaf o'r ddau. Ond, yn lle myned rhagddo gyda'i addysg, fel y gwnaeth ei gyfoed a'i gyfaill, cymmerodd Stephen Lewis le yn nheulu parchus Mr. James Harris, Brimaston Hall, sir Benfro, fel athraw i'r plant. Yn mhen rhai blynyddoedd, priododd un o'r merched. Gan ei fod yn pregethu yn y ddwy iaith, yr oedd yr holl sir yn faes iddo. Yr oedd ei weinidogaeth yn cael ei gwerthfawrogi yn fawr gan y Cymry a'r Saeson. A phe buasai wedi glynu wrth y pregethu, ac ymdaflu i waith bugeiliol, buasai wedi diangc rhag profedigaethau llymion. Ar ol gorphen ei dymmor yn Brimaston Hall, efe a aeth i Gastellnewydd Emlyn, i ddysgu yr alwedigaeth o farcer. Oddi yno, dychwelodd i ymsefydlu yn y fasnach hono yn Hwlffordd. Trodd y fasnach allan yn aflwyddiannus, ac arweiniwyd yntau i ddyryswch. Y canlyniad fu iddo lwfrhau; ac ymneillduodd oddi wrth bregethu. Bu am flynyddoedd yn ddistaw. Ond ar gymmhelliad taer ei frodyr, ail ymaflodd yn y gwaith; ac yn Trefin, yn 1857, neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, ac yn gyflawn o egluriadau; ond am nad oedd yn arfer ysgrifenu, yr oedd ei bregethau, i raddau, yn ddi-drefn. Ond yr oedd yn amlwg fod ganddo ryw brif wirionedd; a dangos hwnw yn ei amrywiol weddau fyddai amcan y pregethwr. Cyn ei farwolaeth, bu am dymmor byr yn fugail yr eglwys yn Nhrefin.

Bu farw Chwefror 18fed, 1861. Ei afiechyd oedd cancr yn yr ystumog. Y mae traddodiad prydferth am dano, pan yr hysbyswyd ef gan y meddyg nas gallai fyw yn hwy na thair wythnos, ei fod wedi myned i dŷ cyfaill yn Hwlffordd dan ganu—gan orfoleddu y byddai yn y nefoedd mor fuan.

# LL.

LLENYDDIAETH GYMREIG. Dechreuir gyda hanes ein Newyddiaduron Cymreig.

Cyn dechreu ar yr hanes hwn, diau mai nid annyddorol gan y darllenydd fyddai cael gair ynghylch cychwyniad y gelfyddyd o argraphu yn Nghymru. Rhaid cofio un peth:—yr arferid argraphu llyfrau Cymraeg ugeiniau lawer o flynyddau cyn bod un swyddfa argraphu yn Nghymru. Ceir llyfrau Cymraeg yn dechreu cael eu cyhoeddi mor foreu a'r blynyddoedd 1546—8, &c.; ac argrephid y llyfrau hyn mewn gwahanol swyddfeydd yn Llundain, Rhydychain, Amwythig, a Chaerlleon. I'r Chineaid, yn gyffredin, y priodolir dyfeisiad cyntaf y gelfyddyd hon; a phriodolir ei chychwyniad yn Ewrop i dri neu bedwar o Almaenwyr, o ddeutu y flwyddyn 1423; sef, John Guttenberg, hynaf; John Guttenberg, ieu.; John Ffaust—y tri hyn o Ments; a Peter Schoeffer, o Cerusheim. Yna, ceir hanes y gelfyddyd yn ymledu yn Holland; ac o Holland y daeth William Caxton â'r gelfyddyd gyntaf i Loegr, o ddeutu y flwyddyn 1478. Ganwyd Caxton, yn Fforest, Kent, yn y flwyddyn 1412; a diau y saif ei enw yn wyrdd



Digitized by Google

am genedlaethau i ddyfod, fel yr un a gychwynodd hyn yn ein teyrnas ni; a chedwir yn ofalus enwau Aldus Mauntius, Reynold Wolfe, &c., fel cynnorthwywyr gyda hyn. Lledaenwyd y gelfyddyd yn gyflym yn Lloegr ar ol unwaith ei sefydlu.

Gyda golwg ar gychwyniad y gelfyddyd o argraphu yn Nghymru, ceir hanes dilys fod argraphwasg yn Nhrefaldwyn mor foreu a'r flwyddyn 1648. Ond rhaid cofio mai gwasg arbenig oedd hon, wedi ei gosod yno i amcanion pennodol, am amser pennodol. Un symmudol ydoedd—fel mai prin y gellir yn briodol edrych arni fel argraphwasg Gymreig yn Nghymru. Credai y Parch. William Rowlands (*Gwilym Lleyn*), mai E. Wicksteed, o Wrecsam, oedd yr argraphydd a ymsefydlodd gyntaf yn Nghymru, yn y flwyddyn 1718; ac mai efe a argraphodd y llyfr Cymraeg a elwir *Holl Ddyledswydd Dyn*. Dyma fel y dywed Gwilym Lleyn ar hyn:—'Os yw y mynegiad hwn yn gywir, ac nid oes genyf sail i'w ystyried yn anghywir, hon oedd yr argraphwasg gyntaf yn Nghymru; a hwn oedd y llyfr Cymraeg cyntaf a argraphwyd yn Nghymru.' Ond, bernir gan eraill mai Isaac Carter, o Drefhedyn, ger Castell Newydd Emlyn, oedd y cyntaf i sefydlu argraphwasg Gymreig yn ein gwlad, yn y flwyddyn 1719; ac mai efe a argraphodd y llyfr a elwir *Eglurhaad o Gatechism Byrraf y Gymanfa*, &c.; o ganlyniad mai hwn oedd y llyfr Cymraeg cyntaf a argraphwyd yn Nghymru. Mae'n amlwg fod y flaenoriaeth yn troi rhwng Wicksteed a Carter; a rhaid addef fod rhesymau lled gryfion gan bleidwyr y naill a'r llall, fel mai nid hawdd ydyw penderfynu rhyngddynt. Ceir, fodd bynag, yn fuan ar ol hyny, hanes amryw o Gymry yn argraphu yn Nghymru; sef, Nicholas Thomas, o Gaerfyrddin; J. Ross, etto; Samuel Lewis, etto; Evan Powell, etto; Rhys Thomas, etto; Ioan Daniel, etto; J. Rowlands, Bala; T. Williams, Dolgellau; R. Marsh, Gwrecsam; R. Thomas, Llanymddyfri; E. Carnes, Treffynnon; E. Evans, Aberhonddu; Titus Evans, Machynlleth; J. Salter, Drefnewydd; D. Jones, Trefriw—a meibion iddo yn ddiweddarach, sef John Jones, Llanrwst, a Robert Jones, Bangor; D. Evans, Abertawe; W. Edwards, Croesoswallt; Thomas Roberts, Caernarfon; a Samuel Williams, Aberystwyth; a Samuel Thomas, etto, &c. O ddeutu dechreu y ganrif hon, ceir fod tri o ddynion ieuaingc o Saeson, y rhai oeddynt yn gyd-egwyddorweision *(fellow-apprentices)* yn y gelfyddyd hon yn Nghaerlleon, yn dyfod i Gymru—i wahanol fanau—i gychwyn swyddfeydd argraphu ar eu cyfrifoldeb eu hunain. Ceir fod Robert Saunderson—dyna enw un o honynt—wedi cychwyn gwaith yn y Bala; a chredir iddo wneyd hyny, i ddechreu, ar gais y diweddar Barch. Thomas Charles. Yn fuan wedi hyny, darfu i Thomas Gee (tad y cyhoeddwr presennol) gychwyn swyddfa argraphu yn Ninbych; a darfu iddo wneyd hyny, yn benaf, ar y dechreu, er mwyn bod yn gyfleus i argraphu llyfrau y diweddar Barch. Thomas Jones, o'r dref hon. Ymsefydlodd John Brown hefyd—dyna enw y trydydd—yn Mangor, er mwyn, yn fwyaf arbenig, bod yn gyfleus i argraphu, dros gwmni neillduol, newyddiadur Saesneg a elwid *The North Wales Gazette*. Bu y tri dyn ieuaingc hyn yn hynod lwyddiannus. Ymroddasant yn gwbl i'r fasnach, a daethant yn fuan iawn i gael eu cyfrif yn brif argraphwyr a chyhoeddwyr y Dywysogaeth. Yr ydym yn enwi y tri, ac yn rhoddi pwys arnynt, am y bu eu dyfodiad hwy i Gymru yn ddechreuad cyfnod newydd yn hanes y gelfyddyd o argraphu yn ein gwlad.

Dyna gipdrem byr ar ddechreuad argraphu yn ein plith. Erbyn hyn, gellir cyfrif swyddfeydd argraphu wrth y cannoedd yn Nghymru, a llawer o honynt yn abl i fyned trwy waith mawr; a dïau y gellir dyweyd mai dal i gynnyddu y maent mewn gwelliantau a rhifedi. Ond, yn nghanol yr holl fanteision a chyfleusderau argraphu, nac anghofier talu y warogaeth ddyledus i goffadwriaeth yr hen argraphwyr a'r hen gyhoeddwyr boreuol a enwyd.

Rhaid gwneyd dau sylw, cyn dechreu ar yr hanes:—1af, Fod nifer fawr o newyddiaduron Saesnig yn cael eu cyhoeddi yn Nghymru; a rhoddir colofn neu ddwy yn yr iaith Gymraeg ynddynt. Hefyd, 2il, Fod yr hen Almanaciau Cymreig, yn gystal a'r hen Gyfnodolion Cymreig, i raddau, yn amcanu at gyflawni gwasanaeth newyddiaduron, cyn i lenyddiaeth newyddiadurol, yn ystyr fanwl y gair, ymddangos yn ein gwlad.

*Seren Gomer*, 1814.—Cydnabyddir yn gyffredin mai cychwyniad *Seren Gomer* oedd yr ymgais gwirioneddol cyntaf i gychwyn newyddiadur rheolaidd yn yr iaith Gymraeg. Daeth y rhifyn cyntaf o hono allan Ionawr 1af, 1814; a pharhaodd i ddyfod allan yn wythnosol hyd Awst 9fed, 1815:—yn gwneyd 85 rhifyn. Pris y 66 rhifyn cyntaf oedd chwe cheiniog a dimai y rhifyn; a phris y 19 rhifynau diweddaf oedd wyth geiniog y rhifyn. Eu maintioli ydoedd pedwar tudalen, yn mesur ugain modfedd wrth bymtheg. Cychwynwyd a golygwyd ef gan y Parch. Joseph Harris (*Gomer*) Abertawe, gweinidog enwog a defnyddiol gyda'r Bedyddwyr; ac argraphwyd ef gan D. Jenkins. Gomer oedd y prif anturiaethwr: ond ymunodd amryw eraill gydag ef yn y symmudiad; a drwg genym ddeall iddynt golli cannoedd o bunnau yn yr anturiaeth. Darfu i'r newyddiadur Cymraeg cyntaf hwn, mewn ystyr arianol, droi allan yn fethiant hollol; er, mewn ystyr lenyddol a chymdeithasol, nis gellir mesur y daioni mawr a wnaeth i bobl Cymru. Y prif reswm, yn ddiau, dros yr aflwyddiant arianol oedd, fod y treuliau yn llawer iawn uwch na'r derbyniadau. Er fod ei bris yn uchel, etto, nid oedd hyny ond megys cledr llaw i gyfarfod treuliau newyddiadurol yr amseroedd hyny. Ychydig iawn a dderbynid oddi wrth hysbysiadau; ac nid oedd ei holl gylchrediad yn ei amser goreu yn cyrhaedd dwy fil. Edrychid arno fel newyddiadur cwbl anenwadol — heb broffesu bod yn perthyn i unrhyw blaid—yn wladol na chrefyddol)—ac ysgrifenid iddo gan lawer o oreugwyr Cymru. Ond dylai enw Gomer, fel y gŵr a gychwynodd, ac a lafuriodd yn ddibaid, gyda'r newyddiadur Cymraeg cyntaf hwn, gael ei gadw yn anwyl tra y pery yr iaith Gymraeg.

*Y Newyddiadur Hanesyddol*, 1835:—*Cronicl yr Oes*, 1835.—Cychwynwyd y *Newyddiadur Hanesyddol* yn Ionawr, 1835. Ei gychwynydd a'i olygydd oedd y Parch. Owen Jones (*Meudwy Môn*), Llandudno—y pryd hwnw yn ddyn ieuangc yn y Wyddgrug; ac argrephid ef gan y Meistri John ac Evan Lloyd, Wyddgrug. Ar ol i ddau rifyn ddyfod allan, rhoddodd Mr. Jones yr olygiaeth i fyny; a darfu iddo sicrhau y Parch. Roger Edwards, Wyddgrug (ond o Ddolgellau yr adeg hono) i'w ddilyn yn yr

Digitized by Google

olygiaeth. Dyma yr achlysur a arweiniodd Mr. Edwards i ddyfod i fyw i'r Wyddgrug, lle yr arosodd trwy ei oes hyd ddydd ei farwolaeth. Y peth cyntaf a wnaeth, fel golygydd newydd, oedd newid enw y newyddiadur hwn, a'i alw yn *Cronicl yr Oes;* a than yr enw hwn, bellach, y daeth allan hyd y diwedd. Argrephid ef, fel y sylwyd, gan y Meistri John ac Evan Lloyd, Wyddgrug; ond cawn fod y rhifynau a ddechreuasant ddyfod allan Rhagfyr 15fed, 1838, yn cael eu hargraphu gan y Meistri Lloyd ac Evans, Treffynnon. Deuai allan yn fisol, a hyny er mwyn arbed trethi y llywodraeth. Ei bris, ar y dechreu, ydoedd tair ceiniog; ond ar ei symmudiad i gael ei argraphu yn Nhreffynnon, ymddengys i'r pris godi i bedair ceiniog. Yr oedd *Cronicl yr Oes*, o ran maint, yn debyg i *Seren Gomer*, ond ychydig yn llai. Dyma arwyddair ei wyneb-ddalen:—'Ofnwch Dduw. Anrhydeddwch y brenin. Agor dy enau dros y mud. Na byddo i neb orthrymu na thwyllo ei frawd mewn dim. Oni fedrwch arwyddion yr amserau?' Ond, yn Mehefin, 1837, ac yn mlaen, ceir mai yr arwyddair oedd:—'Dyma y pethau a wnewch chwi:—Dywedwch y gwir bawb wrth ei gymmydog; bernwch farn gwirionedd a thangnefedd yn eich pyrth.' Methwn weled fod un rhifyn o hono wedi dyfod allan ar ol yr un am Ionawr 15fed, 1839; a'r tebygolrwydd cryf yw, mai hwn oedd y diweddaf. Felly parhaodd am bedair blynedd; a sicrheir mai nid diffyg cefnogaeth oedd y rheswm iddo gael ei roddi i fyny, ond prysurdeb y golygydd gyda galwadau eraill. Rhaid i ni, cyn terfynu gyda *Cronicl yr Oes*, sylwi ar un ffaith:—dyma y newyddiadur cyntaf yn yr iaith a roddodd le wleidyddiaeth. Cymmerodd ochr a safle gref mewn Rhyddfrydiaeth, a cheid fod prif erthyglau galluog iawn ynddo ar faterion y dydd; megys ar Gyfansoddiad y Deyrnas, y Ddyled Wladol, Tŷ yr Arglwyddi, y Dreth Eglwys, Syr Robert Peel, Segurleoedd Perigloriaid, &c. Bu y newyddiadur hwn yn doriad tir newydd yn hanes gwleidyddiaeth Cymru. Yn fuan ar ol hyn daeth *Y Brytwn* allan, yn y Bala.

*Y Papur Newydd Cymraeg.*—Cychwynwyd hwn o ddeutu dechreu y flwyddyn 1836; a chyhoeddwyd ef, fel y tybir amlaf, yn swyddfa fechan Mr. H. Hughes, arlunydd, Caernarfon. Yr oedd efe ei hun yn ysgrifenu y rhan fwyaf iddo; a dichon fod Caledfryn yn anfon rhai ysgrifau hefyd. Er mwyn osgoi y dreth newyddiadurol, ni chyhoeddid ef ond unwaith yn y mis; a dywedir mai pymtheg rhifyn a ddaeth allan o hono.

*Y Freinlen Gymroaidd.*—Yn yr un flwyddyn hefyd, cafodd hon ei chyhoeddi yn Aberystwyth.

*Y Gwron Cymreig*, 1838.—Cychwynwyd hwn yn nechreu y flwyddyn 1838, ac argraphwyd ef gan Mr. J. Thomas Jones, Caernarfon. Golygid ef, am ysbaid, gan Mr. W. Ellis Jones *(Cawrdaf)*, Caernarfon. Parhaodd y newyddiadur hwn i ddyfod allan dan yr un enw am o ddeutu dwy flynedd; ond yn nechreu y flwyddyn 1840, newidiwyd ei enw, a galwyd ef *Y Gwron Odyddol.* Gwnaed hyn, yn benaf, er mwyn sicrhau cefnogaeth neillduol yr Odyddion; y rhai oeddynt yn lliosog iawn yn ein gwlad, yn enwedig yn y Deheudir. Dylid dyweyd fod *Y Gwron Cymreig*, mewn rhai blynyddoedd ar ol hyny, wedi ei ail gychwyn, fel newyddiadur wythnosol, gan Mr. J. T. Jones, ei gyhoeddwr blaenorol, ar ol iddo symmud i fyw i Aberdâr; a sicrhawyd gwasanaeth Caledfryn fel golygydd iddo. Trodd yr holl ymdrechion hyn yn fethiant, a rhoddwyd ef i fyny yn fuan.

*Y Protestant*, 1839.—Gan y Meistri Hugh ac Owen Jones, Wyddgrug, y cychwynwyd ac yr argraphwyd y newyddiadur hwn; ac ysgrifenid bron yr oll iddo gan nifer o weinidogion yr Eglwys Sefydledig; sef, y Parch. R. Richards, o Gaerwys, &c. Deuai allan bob pythefnos, a'i bris oedd tair ceiniog. Symmudwyd *Y Protestant*, cyn hir, i gael ei argraphu gan Mr. R. Saunderson, Bala; a chredir mai y Parch. G. Edwards *(Gutyn Padarn)*, rheithor Llangadfan, yn Maldwyn, ydoedd yn ei olygu, yn benaf, yr adeg hono. Bernir iddo gael ei roddi i fyny tua'r fl. 1843. Gellir tybio fod y newyddiadur hwn dan nawdd Eglwysig; ac, yn benaf, yn cael ei gyhoeddi er mwyn deiliaid yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru.

*Cylchgrawn Rhyddid*, 1839.—Cychwynwyd hwn yn y flwyddyn 1839, a golygid ef gan Mr. Walter Griffiths, Bethesda, Arfon; yr hwn, ar un adeg, a ddewiswyd i ddarlithio, ar ran Cynghrair Deddfau yr Yd yn Nghymru. Argrephid ef yn Nghaernarfon. Er y gelwid hwn yn 'gylchgrawn,' fel newyddiadur yr edrychid arno; a deuai allan yn bythefnosol. Amcan mawr ei gychwyniad oedd amddiffyn egwyddorion Masnach Rydd, a dygwyd ef yn mlaen dan nawdd y cynghrair a enwyd. Er yr ystyrid ef yn newyddiadur lled alluog, etto ber iawn fu ei oes.

*Udgorn Cymru*, 1843.—Perthynai y newyddiadur hwn i'r Siartiaid; y rhai oeddynt yn lliosog, yr adeg hono yn Morganwg a Mynwy; ac argrephid ef gan y Meistri David John a Morgan Williams, Merthyr Tydfil. Deuai allan bob mis; etto, newyddiadur y cyfrifid ef. Dadleuai dros yr hyn a elwid yn 'Chwe Pwynt y Siarter (*Chartism*),' a byddai ei dôn yn gynnhyrfus. Ni pharhaodd yn hir; o herwydd ceir fod ei olygydd, yn un o'r rhifynau, yn cwyno, er fod iddo 'gylchrediad gwell nag un cyhoeddiad arall,' etto nad oedd yn cael 'y gefnogaeth a deilyngai.'

*Yr Amserau*, 1843.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r newyddiadur hwn allan Awst 23ain, 1843, dan olygiaeth y Parch. W. Rees (*Hiraethog*), Liverpool, ac argrephid a chyhoeddid ef gan Mr. John Jones, Castle-street, o'r dref hono. Dyma fel y dywed Hiraethog am ei gychwyniad: —'Buom yn cydymgynghori llawer â'n gilydd [sef Mr. John Jones, ac yntau], o dro i dro, a allem anturio gwneyd un cynnyg arall i sefydlu newyddiadur Cymraeg. Cyttunasom, o'r diwedd, i roddi prawf. Yr oedd Mr. Jones i ddwyn y draul o argraphu a chyhoeddi, a gofalu am ddosbarth y newyddiaduron cartrefol, marchnadoedd, gohebiaethau, hysbysiadau, &c.; a minnau i ymgymmeryd â'r olygiaeth, yr erthyglau arweiniol, newyddion tramor, a'r adroddiadau seneddol—ac i wneyd hyny yn ddi-dâl, oddi gerth cael papur i ysgrifenu arno, ac *ink* i ysgrifenu âg ef.' Dygwyd ef allan, ar y cyntaf, yn bythefnosol, a'i bris ydoedd tair ceiniog a dimai. Yn y flwyddyn 1848, ymneillduodd Mr. John Jones o'r fasnach, a phrynwyd ei hawl yn y newyddiadur gan Mr. John Lloyd, argraphydd, Wyddgrug; yr hwn a fu, cyn hyny, yn cyhoeddi *Cronicl yr Oes.* Darfu iddo, unwaith, mewn trefn i geisio osgoi y dreth newyddiadurol drom, symmud *Yr Amserau* i'w argraphu i Ynys Manaw; gan fod rhyddid yno, y pryd

Digitized by Google

hwnw, i gyhoeddi newyddiaduron yn ddi-dreth. Ni bu yno ond ychydig o wythnosau na alwyd sylw canghellydd y trysorlys at y ffaith; a'r canlyniad fu, iddo gael ei orfodi i ddychwelyd i'w hen gartref yn Liverpool. Yn y flwyddyn 1852, dewiswyd y Parch. John Roberts (*Ieuan Gwyllt*), yn îs-olygydd iddo; ac yn fuan iawn, daeth yr holl olygiaeth i'w ddwylaw ef. Modd bynag, ar ol cryn ysbaid, llesghau a wnaeth y newyddiadur hwn. Syrthiodd ei gylchrediad yn lled isel, a gostyngwyd ei bris i geiniog; ond, er pob ymdrech i'w gadw i fyny, gwanychu a darfod yr ydoedd, y naill wythnos ar ol y llall. Y canlyniad oedd, i Mr. John Lloyd, ei gyhoeddwr, yn y fl. 1859, werthu ei hawl ynddo i Mr. Thomas Gee, Dinbych—a dyna ddiwedd ar *Yr Amserau* yn y ffurf oedd arno. Gwnaeth *Yr Amserau* les dirfawr i'r wlad, yn yr ystyr o ddysgu y bobl, a rhoddi cynnorthwyon iddynt i ddeall egwyddorion gwleidyddiaeth. Ac y mae dyweyd mai yn *Yr Amserau* yr ymddangosodd llythyrau ''Rhen Ffarmwr' (*Gwilym Hiraethog*) gyntaf ar unwaith yn rhoddi bri oesol ar yr hen newyddiadur clodwiw; o herwydd bu y llythyrau doniol hyny yn foddion i gyffwrdd calon Cymru, a thrwyddynt rhoddwyd argraph ar feddwl a chymmeriad y genedl nad yw wedi cael ei dileu hyd heddyw. Unwyd *Yr Amserau* â *Baner Cymru* Hydref 5ed, 1859; ac o hyny allan, galwyd *Y Faner* yn *Baner ac Amserau Cymru.*

*Yr Ysbïwr; sef, Adroddwr Newyddion a Rhyfeddodau o bob math*, 1843.—Daeth y rhifyn cyntaf o hono allan o'r wasg Ebrill 27ain, 1843, a'r ail rifyn Mai 23ain, 1843; ac ar ol hyny, yn bythefnosol, sef bob yn ail dydd Mawrth, hyd y diwedd. Cyhoeddid ef ar ffurf llyfryn bychan, er mai newyddiadur ydoedd, yn cynnwys wyth tudalen; a'i bris oedd ceiniog. Cychwynwyd, golygwyd, ac argraphwyd ef gan y Parch. Hugh Jones, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calvinaidd, Llangollen. Fel engraifft i ddangos awydd cryf y cyhoeddwr hwn i gael cywirdeb yn ei newyddiadur, gellir dywedyd mai un ammod, yn mhlith eraill, i ymddangosiad hanesyn ynddo ydoedd hwn:—'Nad oedd un hanes oddi wrth ddyeithriaid i gael ymddangos yn *Yr Ysbïwr* heb i un o'r dosbarthwyr ei arwyddo fel gwirionedd.' Credwn mai 33 o rifynau o hono a ddaeth allan; ac hyd y gellir gwybod, y rhifyn a gyhoeddwyd ddydd Sadwrn, Awst 3ydd, 1844, oedd yr olaf.

*Y Figaro*, 1843; *Yr Anti-Figaro*, 1843.—Argraphwyd *Y Figaro* gan Mr. Robert Jones, argraphydd, Bangor, a golygwyd ef gan y Parch. Isaac Harris, gweinidog gyda'r Annibynwyr—yr hwn oedd yn bugeilio ychydig o'r bobl hyny a ymadawsant oddi wrth gynnulleidfa Dr. Arthur Jones, Bangor. Yr oedd y newyddiadur hwn, mewn maintioli, yn bedwar-plyg; ac un o'i neillduolion ydoedd y ceid darluniau yn mron yn mhob rhifyn o hono, ac ymddiriedid y cerfluniau i Mr. John Roberts, yr hwn ydoedd yn fab i'r hynod Mr. R. Roberts, argraphydd (yr Almanaciwr), Caergybi. Pan yr ymddangosai ynddo ysgrif wawdlyd am rywun, ceid darlun hefyd o'r cyfryw. Ymddengys fod bardd o'r enw Edeyrn ab Nudd yn aros yn Mangor ar y pryd hwnw. Digwyddodd iddo, yn nghyfarfod y Gymdeithas Gymroaidd Ddadleuol, ddyfod i wrthdarawiad â Mr. Isaac Harris, golygydd *Y Figaro;* a'r wythnos ddilynol, ceid darlun gwawdus o'r Edeyrn yn *Y Figaro.* Cyffrodd hyn holl natur Edeyrn ab Nudd; ac mewn dialedd, llwyddodd i gychwyn newyddiadur gwrthwynebol iddo, o'r enw *Yr Anti-Figaro*, a chafodd gan Mr. L. E. Jones, Caernarfon, i'w argraphu, ac efe ei hun yn olygydd iddo. Aeth yn gymmaint o ymgecraeth bersonol rhwng y ddau newyddiadur hyn nes y penderfynodd y gyfraith wladol roddi terfyn ar einioes y ddau ynghyd; a hyny trwy attafaelu eiddo y ddau argraphydd.

*Y Gwladgarwr*, 1846.—Cychwynwyd hwn yn y flwyddyn 1846, gan y Parch. John Jones, Llangollen (Jones, Llangollen). Efe hefyd oedd yn ei olygu, ac yn gyfrifol am dano; ond am ennyd fèr y parhaodd i ddyfod allan.

*Y Cymro*, 1848.—Deuai hwn allan yn wythnosol, a chychwynwyd ef yn y flwyddyn 1848, dan nawdd pwyllgor Eglwysig, yr hwn a arferai gyd-gyfarfod yn Mangor. Edrychid arno, i bob pwrpas, fel dilynydd i'r *Protestant;* yr hwn oedd wedi cael ei roddi i fyny er's ysbaid yn flaenorol—a gwasanaethai yn gwbl yn mhlaid yr Eglwys Sefydledig. Ei olygydd a'i argraphydd, i ddechreu, ydoedd Mr. Hugh Williams (*Cadfan*); a dywedir ei fod, yn ystod y blynyddoedd 1851—3, dan olygiaeth y Parch. R. Harris Jones, ficer Llanidloes, ac hefyd fod y Parch. R. Parry Jones, o'r Gaerwen, Môn, yn ymwneyd llawer âg ef. Bu y newyddiadur hwn yn cael ei argraphu yn Mangor, ac yn Llundain; a bu, am ysbaid, yn cael ei ddwyn allan yn Nhreffynnon, gan Mr. William Morris, argraphydd; ac yna, pan y symmudodd Mr. Morris ei swyddfa i Ddinbych, bu yn cael ei argraphu yma hefyd. Ac ymddengys mai yma hefyd, ar ol oes fèr a hynod symmudol, y rhoddwyd ef i fyny.

*Seren Cymru*, 1851.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn yn Hydref, 1851, dan olygiaeth Mr. Samuel Evans, cyn-olygydd *Seren Gomer;* a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. William Morgan Evans, o Gaerfyrddin. Ei bris ydyw ceiniog. Darfu i Mr. Evans, o herwydd uchder y dreth newyddiadurol, a threuliadau eraill, roddi *Seren Cymru* i fyny o ddeutu Ebrill, 1853; ac ymddengys ei fod, trwy ei gyssylltiad â'r newyddiadur hwn, o'r dechreu hyd hyny, wedi colli llawer o arian. Bu iddo, modd bynag, ail gychwyn *Seren Cymru;* a daeth y rhifyn cyntaf allan ar Rhagfyr 13eg, 1856, gyda Dr. J. Emlyn Jones yn olygydd; a throdd yr anturiaeth hon allan yn llwyddiant. Wedi hyny, bu dan ofal gwahanol olygwyr, o dro i dro, megys Dr. Price, Aberdâr; Dr. Morgan (*Lleurwg*), Llanelli; Parchn. John Jones, Felinfoel; B. Thomas (*Myfyr Emlyn*), Narberth; a'r Parch. W. P. Williams, Glandwr. Pan o dan olygiaeth Mr. Samuel Evans, ar y cyntaf, cymmerai *Seren Cymru* safle annibynol a chenedlaethol, heb broffesu bod yn perthyn i un enwad yn neillduol. Ond yn fuan, ar ol ail gychwyn, daeth i gyssylltiad â'r Bedyddwyr; ac er nad yw yn eiddo gwirioneddol i'r enwad hwnw, fel enwad, etto edrychir arno yn gyffredin fel newyddiadur arbenig at wasanaeth y Bedyddwyr yn Nghymru.

*Yr Herald Cymraeg*, 1854.—Daeth y newyddiadur hwn allan yn y fl. 1854—blwyddyn Rhyfel y Crimea, ac ar adeg dilëad y dreth newyddiadurol. Cychwynwyd ef gan Mr. James Rees, argraphydd, Caernarfon; a golygid ef, yn benaf, gan Mr. James Evans, Caernarfon. Bu wedi hyny, ar wahanol amserau, dan olygiaeth Mr. John James Hughes (*Alfardd*), Thalamus,

Digitized by Google

Llew Llwyfo, a Mr. John Evans-Jones (gynt o Dreffynnon), Caernarfon, &c. Ei bris, o'r dechreu, ydyw ceiniog. Ei faintioli, ar ei gychwyniad, oedd pedair tudalen, wyth colofn, yn cyrhaedd dwy fodfedd ar bymtheg o hyd. Helaethwyd ef amryw weithiau ar ol hyny (yn 1859, 1865, 1878, 1887, 1890); a chyda y rhifyn am Mehefin 7fed, 1892, chwanegwyd wyth colofn ato, ac estynwyd hyd yr holl golofnau; a dyna ei faint presennol. Bu am rai blynyddoedd yn cael ei argraphu gan Mr. James Rees ei hun; yna, gan y Meistri Rees ac Evans; yna, gan Mr. John Evans, Caellenor, ei hun; ac yn awr, ar ran cwmni neillduol, argrephir a chyhoeddir ef gan Mr. Daniel Rees, High street, Caernarfon. Ystyrir *Yr Herald Cymraeg* yn newyddiadur Rhyddfrydig.

*Y Wasg*.—Credir mai yn yr un flwyddyn (1854) y cychwynwyd y newyddiadur hwn, yn Aberystwyth; ond diflanodd yn fuan.

*Y Telegraph*, 1855.—Yn fuan ar ol cychwyniad *Yr Herald Cymraeg*, darfu i Mr. Hugh Humphreys, o Gaernarfon, gychwyn newyddiadur wythnosol ar yr enw hwn; a'i bris oedd ceiniog. Efe ei hunan oedd yn ei olygu, ac yn ei argraphu. Newyddion yn unig a geid ynddo, heb fod un eglurhâd na beirniadaeth arnynt. Ond ni bu yn llewyrchus o'r dechreu; a gwelodd y cyhoeddwr, ar ol ychydig wythnosau o brawf, mai doeth ydoedd ei roddi i fyny.

*Y Sylwedydd*, 1855.—Dyma yr enw a roddwyd gan Mr. Richard Davies, o Gaernarfon, ar newyddiadur ceiniog a gychwynwyd ganddo yn fuan ar ol dilëad y dreth newyddiadurol. Argrephid ef gan Mr. Lewis Jones, argraphydd, Caergybi; ond rhoddwyd ef heibio yn fuan.

Y flwyddyn hon hefyd, ymddangosodd cyhoeddiad a elwid *Gedeon* yn Aberystwyth; ond ebrwydd y darfu.

*Yr Eifion*, 1856.—Daeth y newyddiadur bach hwn allan Ionawr 3ydd, 1856, yn Mhwllheli. Cychwynwyd a golygwyd ef gan y Parch. Hugh Hughes (*Tegai*), ac argraphwyd ef gan y Meistri Hughes a'i Gyf., Heol Penlan, Pwllheli. Ei arwyddair oedd 'Rhyddid.' Deuai allan yn wythnosol, a'i bris ydoedd dimai; a bernir mai hwn ydoedd y newyddiadur dimai cyntaf yn yr iaith. Am ychydig fisoedd y parhaodd i ddyfod allan.

*Yr Arweinydd*, 1856.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn gan y Parch. Hugh Hughes (*Tegai*), Pwllheli, ac efe oedd yn ei olygu. Ac argrephid ef gan y Meistri T. Hughes, a'i Gyf., Pwllheli; ac ar Mehefin 5ed, 1856, y daeth y rhifyn cyntaf o hono allan. Ei arwyddair, yn ol y wyneb-ddalen, ydoedd 'Fy arwyddair fo Rhyddid.' Ei bris ydoedd ceiniog, a deuai allan yn wythnosol. Ychydig gyda blwyddyn y parhaodd.

*Baner Cymru*, 1857; *Baner ac Amserau Cymru*, 1859.—Cychwynwyd *Baner Cymru* yn Mawrth, 1857, gan Mr. Thomas Gee; a golygwyd ef, ar y pryd, gan y Parch. W. Rees, ac eraill. Ei bris oedd dwy geiniog, a deuai allan yn wythnosol bob dydd Mercher. Hydref 5ed, 1859, ar gyfrif rhesymau digonol, unwyd *Yr Amserau* (Liverpool) gyda *Baner Cymru;* ac o hyny hyd yn awr gelwir ef yn *Baner ac Amserau Cymru.* Cyhoeddir ef yn awr gan T. Gee a'i Fab; a golygir ef gan Mr. Thomas Gee. Daw allan bob dydd Mercher, a'i bris ydyw dwy geiniog. Cafodd ei helaethu amryw weithiau. Nid oedd y newyddiadur hwn, ar y dechreu, ond prin hanner ei faintioli presennol, ac felly y parhaodd am o ddeutu tair blynedd. Yn y fl. 1860, chwanegwyd ato yn mron yr hanner. Yn fuan ar ol hyny, chwanegwyd at hyd yr holl golofnau yn mhob tudalen. Gwnaed helaethiad pwysig arall, yn y flwyddyn 1890, trwy roddi colofn chwanegol yn mhob tudalen; fel, erbyn hyn, y ceir un ar bymtheg o dudalenau yn cynnwys pum colofn bob un. Prin y mae angen dyweyd, gan mor hysbys yw y ffaith, fod y newyddiadur hwn, yn ei olygiadau gwleidyddol, yn Rhyddfrydig hollol.

*Y Gwladgarwr*, 1857.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn gan y gwladgar Alaw Goch (tad y Barnwr Gwilym Williams), ac argraphwyd ef gan Mr. Walter Lloyd, cyhoeddwr, Aberdâr. Golygwyd ef, i ddechreu, am dymmor byr, gan Llew Llwyfo; ac yn ddilynol, o dro i dro, bu dan olygiaeth amryw; sef, Ieuan Gwyllt, Dr. David Saunders, Dewi Wyn o Esyllt, J. Davies (Aberaman), Islwyn, Brythonfryn, &c. Parhaodd i fyned yn mlaen yn llewyrchus am flynyddoedd lawer; ond rhoddwyd ef i fyny yn bur fuan ar ol marwolaeth ei berchenog.

*Y Pwnch Cymraeg*, 1858.—Aeth Mr. Lewis Jones (Caernarfon), yr hwn, erbyn hyn, sydd yn Patagonia er's rhai blynyddoedd, a Mr. Evan Jones (y Parch. Evan Jones, Caernarfon, yn bresennol), eu dau ynghyd i Gaergybi, gan agor swyddfa argraphu yno; ac ar Ionawr 1af, 1858, cychwynasant y newyddiadur a elwid *Y Pwnch Cymraeg.* Hwy oedd yn ei olygu, ac yn ei argraphu yn eu swyddfa eu hunain. Ei faintioli oedd wyth tudalen pedwar-plyg, a deuai allan yn bythefnosol; a'i bris ydoedd ceiniog. Ymneillduodd Mr. Evan Jones oddi wrtho yn haf y fl. 1859; ond parhaodd y newyddiadur i redeg am ychydig amser ar ol iddo ef droi ei gefn arno.

*Y Gweithiwr*, 1858.—Newyddiadur wythnosol ceiniog ydoedd hwn, a gychwynwyd gan Mr. Josiah Thomas Jones, Aberdâr; ac efe, hefyd, oedd yn ei olygu, a'i argraphu. Am ychydig iawn y parhaodd.

*Y Brython*, 1858.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn gan Mr. Robert Isaac Jones (*Alltud Eifion*), Tremadog; ac efe oedd yn ei gyhoeddi ac yn ei olygu. Deuai allan yn wythnosol; ei faintioli oedd wyth tudalen, pedwar-plyg; a'i bris oedd dwy geiniog. Daeth y rhifyn cyntaf o hono allan ar Mehefin 25ain, 1858, a daeth allan bymtheg rhifyn ar ffurf newyddiadur. Yna, ar Tachwedd 28ain, 1858, daeth allan fel cyhoeddiad misol.

*Udgorn y Bobl*, 1859.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn yn y flwyddyn 1859, gan Mr. Thomas Gee, ac efe ydoedd yn ei argraphu; a golygid ef gan Llew Llwyfo. Deuai allan yn wythnosol, a'i bris ydoedd ceiniog. Ond, yn nechreu Gorphenaf, 1865, cymmerwyd lle *Udgorn y Bobl* gan argraphiad arall o'r *Faner*, a gelwir hon, ar lafar gwlad, yn *Faner Fach.* Ei phris ydyw ceiniog, a chyhoeddir hi bob dydd Sadwrn.

*Y Fellten*, 1860.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn yn nechreu y flwyddyn 1860, gan Mr. Rees Evans, o Ferthyr Tydfil; ac wedi hyny, cyhoeddwyd ef gan Mr. Rhys Lewis, o'r un lle; yr hwn hefyd, yr adeg hono, yn benaf, fyddai yn ei olygu, gyda chynnorthwy Dewi Wyn o Esyllt. Daeth allan am ysbaid lled hir, ond rhoddwyd ef i fyny er's rhai blynyddoedd bellach.

Digitized by Google

*Cyfaill y Werin*, 1863.—Newyddiadur wythnosol ydoedd hwn, a gychwynwyd ac a olygid gan Mr. Jenkins, fferyllydd, Castell Newydd Emlyn. Ond methiant buan a fu.

*Y Byd Cymreig*, 1863.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn gan y Parch. John Williams, gweinidog yr Annibynwyr yn Castell Newydd Emlyn; ac efe oedd yn ei olygu. Bu Brythonfryn yn ei gynnorthwyo am beth amser. Ond rhoddwyd ef i fyny yn fuan.

*Cronicl Cymru*, 1866.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn gan Mr. J. K. Douglas, Bangor; a daeth y rhifyn cyntaf allan Ionawr 1af, 1866, o dan olygiaeth Mr. John Davies (*Gwyneddon*), Caernarfon. Er y cyhoeddid ef mewn swyddfa yn meddu cyssylltiadau Ceidwadol, etto bwriedid i *Gronicl Cymru* fod yn gwbl rydd oddi wrth bleidiaeth; ac felly y parhaodd am yr ysbaid y bu Gwyneddon yn ei olygu. Ond pan gymmerodd etholiad cyffredinol le, trodd y newyddiadur hwn i ddadleu hawliau y blaid Geidwadol; ac yr oedd hyny, i raddau pell, yn cyfrif am ei gwymp buan ar ol hyny.

*Y Glorian*, 1867.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn, yn benaf, gan Llew Llwyfo, Islwyn, a Glasynys; a hwy oeddynt yn ei olygu, ac yn ysgrifenu y rhan fwyaf iddo. Cyhoeddid ef yn swyddfa y *Star of Gwent*, yn Nghasnewydd-ar-Wysg; ond am enyd fer y parhaodd.

*Y Dydd*, 1868; *Y Tyst Cymreig*, 1869; *Y Tyst a'r Dydd*, 1871.—Cychwynwyd *Y Dydd* yn y flwyddyn 1868, yn benaf gan y Parch. Samuel Roberts (S.R.), Llanbrynmair, ond Conwy ar ol hyny, yn fuan wedi iddo ddychwelyd o'r America. Cyhoeddwyd ac argraphwyd ef gan Mr. W. Hughes, Dolgellau. Wrth sôn am *Y Dydd*, rhaid dyweyd fod *Y Tyst Cymreig* wedi cael ei gychwyn yn y fl. 1869; a daeth y rhifyn cyntaf o hono allan Mehefin 29ain, 1869. Cychwynwyd ef gan gwmni o weinidogion a llëygwyr perthynol i'r Annibynwyr, a'i olygwyr cyntaf oeddynt y Parchn. W. Rees (*Hiraethog*), Noah Stephens, Dr. John Thomas, William Roberts, Liverpool, a H. E. Thomas, Birkenhead (America ar ol hyny). Ond deallwn mai ar Dr. John Thomas y disgynai rhan drymaf y gwaith. Am ychydig amser y parhaodd cyssylltiadau y rhai cyntaf a enwyd âg ef. Yn nechreu 1871, fe unwyd *Y Tyst Cymreig* â'r *Dydd;* a galwyd ef bellach *Y Tyst a'r Dydd;* a chodwyd ei bris i geiniog a dimai, yn lle ceiniog, a pharhawyd i'w argraphu yn Nolgellau; a pharhaodd, tra y bu yno, i ddyfod allan dan yr un olygiaeth. Yn niwedd Mehefin, 1872, symmudwyd *Y Tyst a'r Dydd* i gael ei argraphu i swyddfa Mr. Joseph Williams, o Ferthyr Tydfil, a daeth y rhifyn cyntaf o hono allan yn Merthyr ar Gorphenaf 5ed, 1872; ac yno y parhâ i gael ei argraphu. Bu gofal a golygiaeth y newyddiadur hwn, o'r dechreu hyd adeg ei farwolaeth (yr hyn a gymmerodd le Gorphenaf 14eg, 1892, pan yn 71ain ml. oed) yn llaw y Parch. J. Thomas, Liverpool. A phan symmudwyd ef i'w argraphu yn Merthyr Tydfil, gwnaed trefniadau â'r Parch. D. Jones, o Abertawe, i weithredu fel is-olygydd. Wedi hyny, daeth dan olygiad y Parchn. J. Thomas, Merthyr Tydfil, a Job Miles, o Aberystwyth. Gwelir fod *Y Tyst*—canys dyna ei enw erbyn hyn—ar ddechreu y flwyddyn 1892, yn ymddangos mewn diwyg ychydig yn newydd, ond yn parhau yr un bris. Rhoddwyd *Y Dydd* (yr hwn a barhäai i gael ei gyhoeddi yn swyddfa Mr. W. Hughes, Dolgellau) i fyny yn Medi, 1891; ond ail gychwynwyd ef Chwefror 12fed, 1892; a'i bris presennol yw dimai. Er nad oes unrhyw gyssylltiad swyddogol, fel y cyfryw, rhwng y newyddiaduron hyn a'r Annibynwyr, etto edrychir arnynt fel yn gwasanaethu yr enwad hwnw.

*Y Gwyliwr*, 1869.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r newyddiadur hwn allan yn Ionawr, 1869; ond ni pharhaodd prin i ddiweddu y flwyddyn hono. Cyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. D. Griffiths, Cwmafon; a'i olygwyr oeddynt y Parchn. Benjamin Evans, J. Rowlands, Abel J. Parry, ac H. Cefni Parry. Daeth allan yn bythefnosol, a'i bris ydoedd ceiniog; a chychwynwyd ef, yn benaf, er gwasanaethu enwad y Bedyddwyr.

*Y Goleuad*, 1869.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r newyddiadur hwn allan Tachwedd 4ydd, 1869. Cychwynwyd ef, i ddechreu, gan gwmni o bersonau perthynol i'r Methodistiaid Calvinaidd, a chyhoeddid ac argrephid ef, ar ran y cwmni, ac fel un o'r cyfryw, gan Mr. J. Davies (*Gwyneddon*), Caernarfon. Efe hefyd, y ddwy flynedd gyntaf, oedd yn ei olygu. Wedi iddo ef roddi yr olygiaeth i fyny, ymgymmerwyd â hi gan y Parch. John Roberts (*Ieuan Gwyllt*); yr hwn a wasanaethodd fel golygydd am flwyddyn. Ni pharhaodd *Y Goleuad* i gael ei argraphu yn Nghaernarfon ond am dair blynedd; pryd, yn Hydref, 1872, y cymmerwyd ef i'w argraphu gan Mr. D. H. Jones, Dolgellau. Bu dan olygiaeth y Parch. Evan Jones, Caernarfon (Dyffryn yr adeg hono), am y pedair blynedd dilynol. Ceir, yn haf y flwyddyn 1884, fod cyfnewidiad arall wedi cymmeryd lle, trwy fod Mr. D. H. Jones yn trosglwyddo y swyddfa i Mr. E. W. Evans, cyhoeddwr, Dolgellau; ac efe, bellach, sydd yn argraphu *Y Goleuad*. Bu Mr. W. Williams, arolygwr y swyddfa, yn gweithredu fel golygydd am flynyddoedd. Pris y newyddiadur hwn, o'r cychwyn cyntaf, fyddai dwy geiniog; ond yn nechreu y flwyddyn 1893, gostyngwyd ef i geiniog, a daw allan yn wythnosol ar ddydd Mercher. Er fod *Y Goleuad*, yn benaf, os nad yn gwbl, yn gwasanaethu y Methodistiaid Calvinaidd, nid eiddo y cyfundeb ydyw, ac nid oes unrhyw gyssylltiad swyddogol rhyngddynt.

*Y Tŵr*, 1870.—Daeth allan yn nechreu y fl. 1870, a chychwynwyd ef gan Mr. Josiah Thomas Jones, Aberdâr; yr hwn hefyd oedd yn ei gyhoeddi, ac yn ei argraphu. Yn bythefnosol y deuai y newyddiadur hwn allan; ond prin y parhaodd am ysbaid dwy flynedd.

*Y Dywysogaeth*, 1870; *Y Llan*, 1881; *Y Llan a'r Dywysogaeth*, 1882.—Cychwynwyd *Y Dywysogaeth* yn y flwyddyn 1870, gan gwmni Eglwysig, ac argraphwyd ef, ar y dechreu, gan Mr. William Morris, Dinbych. Yna symmudwyd ef i gael ei argraphu yn swyddfa Mr. W. Morris, Rhyl. Ymddengys ei fod, yn y cyfnod hwn, dan olygiaeth Mr. Hugh Williams (*Cadfan*), Rhyl. Symmudwyd ef drachefn i Gaerdydd, i'w argraphu. Yn nechreu y flwyddyn 1881, cychwynwyd *Y Llan*, o dan olygiaeth y Parch. Ellis Roberts (*Elis Wyn o Wyrfai*), o Langwm, ac argraphwyd ef gan Mr. E. Roe, Gwrecsam. Modd bynag, ar gyfrif rhesymau neillduol, unwyd *Y Llan* â'r *Dywysogaeth;* ac yn y flwyddyn 1882, daeth y rhifyn cyntaf allan dan yr enw newydd, *Y Llan a'r Dywysogaeth*. Argraphwyd ef gan y Meistri Farrant a Frost, cyhoeddwyr, Merthyr Tydfil; ac hyd tua diwedd y flwyddyn 1890, golygid y newyddiadur

Digitized by Google

hwn gynt, yn benaf, gan Elis Wyn o Wyrfai; ond golygir ef, ar hyn o bryd, gan y Parch. Ll. M. Williams, periglor, Dowlais. Ymddengys y cyhoeddir ef dan nawdd pwyllgor Eglwysig (llen a lleyg). Daw allan yn wythnosol, a'i bris ydyw ceiniog.

*Y Gwyliwr*, 1870.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn yn Chwefror, 1870; ac argrephid ef gan Mr. Jenkin Howell, Aberdâr. Ei olygwyr, a'i brif ysgrifenwyr, dros y flwyddyn gyntaf, oeddynt y Parchn. B. Evans, J. Rowlands, H. Cefni Parry, a T. E. James—yr oll yn weinidogion gyda'r Bedyddwyr. Ond yn y flwyddyn ddilynol, bu ychydig gyfnewidiad, trwy i'r ddau ddiweddaf ymneillduo; a chymmerwyd eu lle gan y Parchn. J. Spinther James a H. Gwerfyl James. Am o ddeutu dwy flynedd y parhaodd i ddyfod allan; a chychwynwyd ef, yn benaf, er mwyn gwasanaethu y Bedyddwyr.

*Y Gwyliedydd*, 1870.—Cychwynwyd hwn, yn nechreu y flwyddyn 1870, gan Mr. Lewis Jones, argraphydd, o Lanerchymedd; ac efe, hefyd, oedd yn ei olygu. Lleol oedd ei nodwedd, a'i bris ydoedd dimai. Ni pharhaodd ond am o ddeutu pedwar mis.

*Llais y Wlad*, 1874.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn tua dechreu y flwyddyn 1874, ac ychydig wythnosau yn flaenorol i'r etholiad cyffredinol yn y flwyddyn hono. Argrephid ef gan y Mri. Douglas, argraphwyr, Bangor; a golygid ef, hyd yn agos i ddiwedd y flwyddyn 1880, gan y Parch. Tudno Jones, Llanrwst (Bangor y pryd hwnw). Yn Mawrth, 1881, ymgymmerodd y Parch. Evan Jones, o Langristiolus (Gaerwen gynt), â'r olygiaeth. Er mai i amcanion Ceidwadol y cychwynwyd y newyddiadur, a than nawdd Eglwysig, etto, teg ydyw hysbysu ei fod, yn ystod golygiaeth Mr. Evan Jones, yn cael ei gadw yn newyddiadur annibynol hollol. A bu hyny yn achlysur iddo golli y nawddogaeth Eglwysig—a rhoddwyd ef i fyny yn Awst, 1884. Ei bris dechreuol oedd dimai; ond yn fuan ar ol hyny, helaethwyd ef, a chodwyd ef i geiniog.

*Tarian y Gweithiwr*, 1875.—Daeth y rhifyn cyntaf o hono allan Ionawr 15fed, 1875, a chyhoeddir ac argrephir ef gan y Meistri Mills ac Evans, argraphwyr, Aberdâr. Y mae yr olygiaeth, yn benaf, yn gorphwys ar Mr. J. Mills—un o'r cyhoeddwyr. Bu y Parch. J. Morgan Jones, Caerdydd, yn ysgrifenu y rhan fwyaf o'r erthyglau arweiniol; a Mr. Thomas Williams (*Brynfab*), Pont-y-pridd, yn golygu ei farddoniaeth. Daw allan bob dydd Iau, a'i bris ydyw ceiniog. Ei arwyddair, ar y wyneb-ddalen, ydyw:—'Nid Amddiffyn, ond Tarian. Goreu Tarian, Cyfiawnder.' Dywedir, ond nis gallwn sicrhau gwirionedd y peth, mai hwn ydyw y newyddiadur Cymraeg a gyrhaeddodd y cylchrediad helaethaf erioed yn y Deheudir.

*Y Chwarelwr*, 1876.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn yn y flwyddyn 1876, gan Mr. R. Owen, llyfrwerthydd, Llanberis; ac efe, hefyd, fyddai yn ei olygu, ac yn ei argraphu. Deuai allan yn wythnosol, a'i bris oedd ceiniog. Ond prin ugain rhifyn a ddaeth allan o hono, ac achosodd golled i'w gyhoeddwr.

*Y Genedl Gymreig*, 1877.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn yn ngwanwyn y flwyddyn 1877, gan gwmni Cymraeg perthynol i'r blaid Ryddfrydig, ac i amcanion Rhyddfrydig. Ac ymddengys mai dau o'i brif gychwynwyr oeddynt Mr. Hugh Pugh, o Lysmeirion, Caernarfon, a'r Parch. E. Jones, Caernarfon (yr hwn hefyd a ysgrifenodd ei erthygl arweiniol gyntaf). Argraphwyd ef yn y swyddfa a godwyd gan y cwmni, yr hwn a elwid Cwmni Argraphu Gogledd Cymru. Ysgrifenwyd iddo, ac arolygwyd ef, yn benaf, y pryd hwnw, gan y Meistri J. Davies (*Gwyneddon*), Caernarfon; W. Cadwaladr Davies, Bangor (Llundain ar ol hyny); a'r Parch. Evan Jones. Darfu i'r perchenogion, yn Ebrill 1881, werthu y swyddfa, a'r hawl yn *Y Genedl Gymreig* i Mr. D. W. Davies, llyfrwerthydd, Caernarfon, yr hwn oedd yn un o'r cyfranddalwyr o'r cychwyniad. Yn y flwyddyn 1884, prynwyd y swyddfa a'r newyddiadur drachefn gan gwmni a elwid Cwmni y Wasg Genedlaethol Gymreig (Cyf.); ac arolygid y newyddiadur, o hyny allan, gan Mr. D. Edwards, Caernarfon (Nottingham ar ol hyny); ac wedi hyny gan Mr. J. O. Jones (*Ap Ffarmwr*), Caernarfon. Yn nechreu y flwyddyn 1892, daeth Mr. Beriah Gwynfe Evans, o Gaerdydd, i gymmeryd golygiaeth *Y Genedl Gymreig;* ond yn niwedd y flwyddyn 1894 efe a ymneillduodd o'r swydd, a dilynwyd ef gan Mr. E. Lloyd Williams, o Gaernarfon. Dylid dywedyd fod y newyddiadur hwn, gyda'r gwahanol gyfnewidiadau yn ei berchenogaeth a'i olygiaeth, wedi ei helaethu yn ei faintioli o bryd i bryd. Daw allan bob dydd Mawrth, a'i bris ydyw ceiniog.

*Y Gwyliedydd*, 1877.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r newyddiadur hwn allan Mawrth 2il, 1877. Cychwynwyd ef gan gwmni o weinidogion a lleygwyr Wesleyaidd; ac, yn gyffredin, golygid ef gan y gweinidogion a ddigwyddent fod ar gylchdaith Rhyl—yn yr hon dref yr argrephid ef, dros y cwmni, gan y Meistri Amos Brothers, 12, Heol Sussex. Golygid ei farddoniaeth ar y cychwyn gan Clwydfardd, a gellir enwi y Parch. John Jones (*Vulcan*) fel un o'i brif hyrwyddwyr dechreuol. Ei bris yw ceiniog, a daw allan yn wythnosol ar ddydd Gwener. Er fod y newyddiadur hwn wedi ei gychwyn i wasanaethu y Wesleyaid yn Nghymru, etto nid oes unrhyw gyssylltiad swyddogol rhyngddynt; a cheir, erbyn hyn, fod y cwmni a'i cychwynodd wedi ymneillduo oddi wrtho; a'i fod, yn awr, yn eiddo personol i'w gyhoeddwyr.

*Y Rhedegydd*, 1877.—Cychwynwyd hwn gan Mr. W. Lloyd Roberts, cyhoeddwr, o Blaenau Ffestiniog, yn y flwyddyn 1877; ac efe hefyd sydd yn ei argraphu. Bu Mr. R. O. Hughes (*Elfyn*), Blaenau Ffestiniog, yn ei olygu am rai blynyddoedd. O ddeutu dechreu y flwyddyn 1893, efe a ymneillduodd, a dilynwyd ef gan y Parch. T. P. Edwards (*Caerwyson*), o Dolyddelen. Daw y newyddiadur hwn allan bod dydd Sadwrn. Ei bris ydyw dimai, a lleol ydyw ei nodwedd.

*Y Celt*, 1878.—Yn Mai, 1878, y daeth y newyddiadur wythnosol hwn allan gyntaf, o dan olygiaeth a gofal, yn benaf, y Parch. Samuel Roberts (S.R.), Conwy; ac argraphwyd ef gan Mr. H. Evans, cyhoeddwr, Bala. Symmudwyd ef yn fuan i gael ei argraphu yn Nghaernarfon; a thra yno, rywfodd, aeth o'r golwg am ennyd. Ond yn lled fuan ail ymddangosodd o swyddfa y Meistri Amos Brothers, Rhyl. Golygid ef, yn ystod yr amser hwn, gan Dr. Pan Jones, o Fostyn. O ddeutu blwyddyn a hanner ar ol hyny, symmudwyd ef drachefn i gael ei argraphu, ar ran y cwmni (nifer yn perthyn i'r Annibynwyr) sydd yn ei berchenogi, gan Mr. Samuel Hughes, o York Place,

Digitized by Google

Bangor. Bu am ysbaid, yn y cyfwng hwn, dan olygiaeth y Parch. D. S. Davies, Bangor; ond ar symmudiad Mr. Davies i Gaerfyrddin, ymgymmerodd y Parch. W. Keinion Thomas, o Lanfairfechan, â'r olygiaeth. Ond rhoddodd efe yr olygiaeth i fyny yn niwedd y flwyddyn 1893; ac ar ol hyny, tra y parhaodd y newyddiadur i gael ei argraphu yn Mangor, bu drachefn dan olygiaeth y Parch. D. S. Davies. Modd bynag, yn niwedd Medi, 1894, symmudwyd *Y Celt* i'r Deheudir, i'w argraphu gan y Mri. T. M. Jones a'i Fab, Aberafon, Morganwg. Oddi yno y daeth allan y rhifyn am Hydref 5ed, 1894; ac yno y mae, dan olygiaeth a gofal y Parchn. Daniel Evans, Cwmafon, a'r Parch. D. S. Davies, Caerfyrddin. Ei bris ydyw ceiniog. Yn mhlith yr Annibynwyr, yn benaf, y mae ei gylchrediad.

*Gwalia*, 1881.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn yn nechreu y flwyddyn 1881, gan gwmni perthynol i'r blaid Geidwadol; a golygwyd ac argraphwyd ef, dros y cwmni, gan Mr. Robert Williams, Turf square, Caernarfon. Ar ol ryw ychydig o flynyddoedd, symmudwyd ef i gael ei argraphu yn swyddfa y Meistri Douglas, o Fangor; a pharhawyd i'w gyhoeddi, dros Gwmni (Cyf.) y *North Wales Chronicle*, gan Mr. David Williams, Canton House, Bangor. Ceir fod Llew Llwyfo, ar ol Mr. Robert Williams, wedi bod yn gofalu llawer am dano; ac yn ei ddilyn ef, o dro i dro, bu y Meistri T. Hughes, J. Humphreys, a Robert Hughes, o Fangor, &c. Ceiniog yw ei bris, a daw allan yn wythnosol. Parhâ i fod at wasanaeth yr Eglwys Sefydledig, ac y mae *Gwalia* yn Geidwadol ei egwyddorion.

*Yr Amseroedd*, 1882.—Cychwynwyd hwn gan y Parch. Evan Jones, Caernarfon. Efe oedd yn ei olygu, ac yn ysgrifenu y rhan fwyaf iddo; ac argrephid ef, dros y perchenog, gan Mr. D. W. Davies, Caernarfon. Daeth y rhifyn cyntaf o hono allan Rhagfyr 30ain, 1882. Eiddo personol y Parch. Evan Jones oedd y newyddiadur hwn; ond ar ddiwedd y flwyddyn 1884, trosglwyddwyd ei berchenogaeth i law Mr. D. W. Davies, ei argraphydd; a bu y Parch. R. D. Rowlands (*Anthropos*), Caernarfon, yn olygydd iddo. Ond yn haf y flwyddyn 1885, rhoddwyd ef i fyny. O ddeutu dwy flynedd a hanner a fu oes *Yr Amseroedd*, o'r dechreu. Ceid yn y newyddiadur hwn un ar bymtheg o dudalenau pedwar-plyg: deuai allan yn wythnosol, a'i bris oedd ceiniog.

*Y Gweithiwr Cymreig*, 1885.—Daeth y newyddiadur hwn allan yn nechreu Ionawr, 1885. Cychwynwyd ef gan Mr. Jenkin Howell, cyhoeddwr, Aberdâr: efe hefyd oedd ei berchenog, ac efe oedd yn ei olygu, ac yn ei argraphu; a golygid ei farddoniaeth gan Dafydd Morganwg. Deuai allan yn wythnosol, a'i bris ydoedd ceiniog. Parhaodd i ymddangos hyd ddiwedd mis Medi, 1888, pan y rhoddwyd ef i fyny. Yr oedd y newyddiadur hwn yn rhyddfrydig hollol yn ei egwyddorion gwleidyddol.

*Y Gwladwr Cymreig*, 1885.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn gan Rees a'i Fab, argraphwyr, Ystalyfera; a hwynt-hwy oedd yn ei argraphu. Daeth y rhifyn cyntaf allan Ionawr 22ain, 1885. Golygwyd ef, am y deng wythnos cyntaf, gan y Parch. D. Onllwyn Brace—am y pum wythnos canlynol gan Mr. John Dyfrig Owen—ac am yr amser gweddill gan y Parch. J. T. Morgan (*Thalamus*). Ond oes fer a fu i'r newyddiadur hwn, gan mai y rhifyn am Medi 24ain, 1885, oedd yr olaf a ddaeth allan.

*Y Seren*, 1885.—Newyddiadur lleol ydyw hwn. Cychwynwyd ef yn Ebrill, 1885, gan y Meistri Evans a Davies, cyhoeddwyr, Bala; a hwy sydd yn ei olygu, ac yn ei argraphu. Daw allan yn wythnosol ar ddydd Sadwrn, a'i bris ydyw dimai.

*Y Werin*, 1885.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r newyddiadur hwn allan ar Hydref 17eg, 1885, gan yr un cwmni ag sydd yn cyhoeddi *Y Genedl Gymreig;* ac yr ydym yn deall ei fod wedi myned trwy yr un cyfnewidiadau yn ei berchenogaeth, a'i olygiaeth, a'r newyddiadur hwnw; ac argrephir ef yn yr un swyddfa. Ei bris ydyw dimai, ac y mae yn dyfod allan bob dydd Sadwrn.

*Yr Wythnos*, 1886.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn yn nechreu y flwyddyn 1886, gan Mr. T. Edmunds, argraphydd, Corwen. Bu y Parch. H. C. Williams (*Hywel Cernyw*), Corwen, yn ei olygu, ac yn ysgrifenu y rhan fwyaf iddo am y flwyddyn gyntaf; ond rhoes y cyfan i fyny ar ddechreu yr ail flwyddyn. Lleol yw ei nodwedd; daw allan yn wythnosol, a'i bris ydyw ceiniog.

*Y Gadlef*, 1887.—Ar Ebrill 7fed, 1887, y daeth allan y rhifyn cyntaf o'r newyddiadur hwn. Argrephid ef, tra y parhaodd, ar ran ei berchenogion, gan Mr. Daniel Rees, High street, Caernarfon, a golygid ef gan Mr. Owen Williams, Caernarfon. Cyhoeddiad swyddogol Cymraeg Byddin yr Iachawdwriaeth ydoedd. Deuai allan yn wythnosol, a'i bris oedd ceiniog.

*Udgorn Rhyddid*, 1888.—Mr. Lewis D. Roberts, Pwllheli, sydd yn golygu y newyddiadur hwn; ac argrephir ef gan Mr. Richard Jones, Heol Penllan, Pwllheli. Yn y flwyddyn 1888 y cychwynwyd ef. Daw allan yn wythnosol—lleol ydyw—a'i bris ydyw dimai.

*Y Dinesydd*, 1889.—Daeth y newyddiadur hwn allan yn Medi, 1889, a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. W. W. Lloyd, argraphydd, Liverpool; a golygid ef gan Mr. E. Griffiths, o Liverpool. Hollol leol ydoedd ei nodwedd—ei bris ydoedd dimai; ond ni pharhaodd ond am o ddeutu naw mis.

*Y Cymro*, 1890.—Cychwynwyd y newyddiadur hwn Mai 22ain, 1890, gan Mr. Isaac Foulkes (*Y Llyfrbryf*), Liverpool, yr hwn hefyd sydd yn ei olygu, ac yn ei argraphu. Daw allan yn wythnosol, a'i bris ydyw ceiniog. Ei arwyddair, yr hwn a geir ar y wyneb-ddalen, ydyw:—'Fy Ngwlad, fy Iaith, fy Nghenedl.' Yn ei rag-hysbysiad am dano, dywedodd Mr. Foulkes:—'Bydd gan *Y Cymro* ei ddull ei hun o ddyweyd ei neges, a thraddodi ei genadwri. Cefnoga bob amcan da. Ymddengys yn awr am ei fod yn sylweddoli un o'm hen fwriadau.'

*Seren y De*, 1891.—Yn nechreu y flwyddyn 1891 y daeth y newyddiadur hwn allan, o dan olygiaeth Mr. Llewelyn Williams (Caergrawnt); a chynnorthwyid ef gan Mr. Evan R. Evans, mab Gwilym Gwent. Ei amcan, meddid, oedd rhoddi newyddion llawn i Gymry y Deheudir am symmudiadau y blaid Ryddfrydig.

*Y Chwarelwr*, 1891.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r newyddiadur hwn allan Gorphenaf 18fed, 1891, a chychwynwyd ef gan Mr. Hugh Evans, cyhoeddwr, Blaenau Ffestiniog. Efe hefyd oedd yn ei argraphu. Deuai allan yn wythnosol, a'i bris oedd dimai. Rhoddwyd ef i fyny yn fuan.

*Y Clorianydd*, 1891.—Pris hwn ydyw dimai.

Digitized by Google

Ar Awst 13eg, 1891, yr ymddangosodd y rhifyn cyntaf o hono, a chychwynwyd ef gan Gwmni Undebol a Cheidwadol yn Ynys Môn, ac i hyrwyddo amcanion y cyfryw. Argrephir ef, ar ran y cwmni hwn, gan Mr. John Hughes, Heol-y-Bont, Llangefni. Dygwyd ei rifynau cyntaf allan dan olygiaeth Mr. J. J. Parry; ond wedi hyny bu dan ofal y Mri. John Hughes, Frondeg, Amlwch; a T. Abraham Williams, o Fangor, &c.

*Y Brython Cymreig*, 1892.—Yn Ionawr, 1892, y cychwynwyd y newyddiadur hwn, a'i bris ydyw dimai, gan gwmni o Saeson a Chymry—Ceidwadwyr. Argrephid ef, ar ran ac i amcanion y cwmni, yn Llanbedr, Ceredigion; a golygir ef gan Mr. H. Tobit Evans, o Lanbedr.

*Papur Pawb*, 1893.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r newyddiadur hwn allan Chwefror 4ydd, 1893, a chyhoeddir ac argrephir ef dan yr un olygiaeth, ac yn yr un swyddfa a'r *Herald Cymraeg*. Dywedir mai math o attodlen i'r newyddiadur hwnw ydyw. Daw allan bob dydd Sadwrn, a'i bris ydyw ceiniog.

Os ydym wedi gadael allan o'r rhestr uchod ryw newyddiadur a fu, neu y sydd, gwnaethom hyny yn hollol anfwriadol. A digon possibl, er yr holl lafur a gymmerasom i wneyd ymchwiliad, ein bod heb ddyfod i wybod am ambell un, ac wedi methu yn ein ffeithiau gyda rhai o'r newyddiaduron. Ond yr ydym yn hyderu fod y rhestr mor gywir ag y gellir disgwyl yn rhesymol iddi fod.

HANES CYLCHGRONAU CYMRU.

Rhaid addef etto, yn y cyssylltiad hwn, fod yr hen Almanaciau Cymreig wedi bod o'r gwerth mwyaf cyn adeg y cyfnodolion; a buasai llawer o ffeithiau pwysig a dyddorol wedi colli yn gwbl oni buasai am danynt hwy; a dïau eu bod, yn eu dull eu hunain, wedi arloesi y ffordd i'r cylchgronau. Rhaid cofio, hefyd, fod genym lawer o gylchgronau Saesnig hollol; sydd yn cael eu cyhoeddi yn Nghymru, ac yn dal cyssylltiad agos â symmudiadau Cymreig, ac wedi cyflawni gwasanaeth i Gymru; a rhai cylchgronau ieithyddol (hanner yn Saesneg, a hanner yn Gymraeg), megys *Y Bryd a Sylwydd*, *Yr Ymwelydd Cyfeillgar*, *Cymry Fydd*, a llawer eraill a ellid enwi. Buont oll yn wasanaethgar, i raddau mwy neu lai; ond ni oddef ein gofod i ni roddi hanes yma ond am y cyfnodolion Cymreig yn unig; a bydd i ni sylwi arnynt fel y canlyn o dan wahanol adranau.

I. CYLCHGRONAU CREFYDDOL.

*Trysorfa Ysbrydol*, 1799; a *Trysorfa*, 1809; *Goleuad Gwynedd*, 1818; *Goleuad Cymru*, 1820; *Y Drysorfa*, 1831.—Teimlwn y dylid cyssylltu y pump hyn, gan eu bod wedi eu cychwyn gan bersonau yn perthyn i'r un cyfundeb, ac yn gweithio ar yr un maes, ac i'r un amcanion; ac, yn y diwedd, wedi ymgolli yn yr un cyhoeddiad. Cychwynwyd *Trysorfa Ysbrydol* (Llyfr i.) gan y Parchn. T. Charles, Bala, a T. Jones, Dinbych; a daeth y rhifyn cyntaf o hono allan yn Ebrill, 1799. Ei bris oedd chwe cheiniog. Wele eiriau wyneb-ddalen y rhifyn cyntaf:—'*Trysorfa Ysbrydol*, yn cynnwys Amrywiaeth o bethau at amcan crefyddol, yn athrawiaethol, yn annogaethol, yn hanesiol, &c. Ynghyd âg ychydig Farddoniaeth. Gan T. C. a T. J. Caerlleon: argraphwyd gan W. C. Jones. Pris chwe cheiniog. Ac a fwriedir i'w gyhoeddi bob tri mis rhaglaw.' Bernir mai yn y rhifyn hwn yr ymddangosodd gyntaf erioed yn yr iaith Gymraeg lythyr ar y Genhadaeth Dramor; ac ysgrifenwyd ef gan y Parch. T. Charles. Daeth allan o'r *Drysorfa Ysbrydol* dri rhifyn yn y fl. 1799; sef, yn misoedd Ebrill, Mehefin, a Hydref. Daeth allan ddau rifyn yn y fl. 1800—yn Ionawr a Hydref; a daeth y chweched rhifyn allan yn Rhagfyr, 1801. Dyna yr oll a ddaeth allan dan yr enw *Trysorfa Ysbrydol*. Yn y fl. 1809, daeth allan drachefn dan yr enw *Trysorfa* (gan adael allan y gair *Ysbrydol*); a gelwid hwn yn Llyfr ii., dan olygiad y Parch. T. Charles ei hun. Daeth tri rhifyn o hono allan yn y fl. 1809; sef, yn misoedd Mawrth, Gorphenaf, a Rhagfyr. Daeth dau rifyn allan yn y fl. 1810; sef, yn misoedd Awst a Rhagfyr. Daeth dau allan yn y fl. 1811; sef, yn misoedd Mawrth ac Awst. Daeth tri rhifyn allan yn y fl. 1812; sef, yn misoedd Ionawr, Mehefin, a Medi: a daeth dau rifyn allan yn y fl. 1813; sef, yn Ionawr a Thachwedd: a chyda y rhifyn hwn y terfynodd yr ail gyfrol. Yn 1819, ymddangosodd y cyhoeddiad hwn am y drydedd waith (Llyfr iii.), o dan olygiaeth y Parch. Simon Llwyd, Bala. Yn ystod y blynyddoedd 1819, 1820, 1821, deuai allan yn rheolaidd bob chwarter—yn misoedd Ionawr, Ebrill, Gorphenaf, a Hydref—ac eithrio un tro, sef Gorphenaf, 1820. Daeth allan dri rhifyn yn y fl. 1822—yr olaf yn Gorphenaf; ar ddalen olaf yr hwn y ceir y geiriau—'Diwedd Cyfrol III.' Dechreuwyd y bedwaredd gyfrol (Llyfr iv.) yn Mawrth, 1823; ond ni ddaeth allan o hono chwaneg na deg rhifyn; sef, rhai am Mawrth a Gorphenaf, 1823; Ionawr, Gorphenaf, a Rhagfyr, 1824; Mehefin a Hydref, 1825; Mawrth a Thachwedd, 1826; Awst, 1827. Yna, yn sydyn a di-rybudd, ciliodd o'r golwg am dair blynedd a phum mis. Dylid hysbysu fod gan y *Drysorfa*, yn y blynyddoedd hyny, gyd-ymgeisydd misol diwyd; o blegid ceir, yn Tachwedd, 1818, fod *Goleuad Gwynedd* yn cael ei gychwyn gan y Parch. John Parry, Caerlleon, ac efe oedd yn ei olygu; ac argrephid ef gan Mr. J. Fletcher, o Gaerlleon. Yn y fl. 1820, newidiwyd ei enw o fod yn *Goleuad Gwynedd* yn *Goleuad Cymru*. Parhaodd *Goleuad Cymru* i ddyfod allan hyd Ragfyr, 1830, pryd y prynwyd yr hawl ynddo gan gyfundeb y Methodistiaid Calvinaidd; a chychwynwyd ef o'r newydd o dan yr enw presennol, *Y Drysorfa*. Daeth y rhifyn cyntaf allan yn Ionawr, 1831; a dyma yr adeg, mewn gwirionedd, y cychwynwyd cylchgrawn swyddogol a rheolaidd y cyfundeb —*Y Drysorfa*—yn ei ffurf bresennol. Bu i'r Parch. John Parry, o Gaer, barhau i'w golygu hyd ei farwolaeth:—yr hyn a gymmerodd le Ebrill 28ain, 1846. Yn y Gymdeithasfa a gynaliwyd yn Machynlleth, Awst, 1846, penderfynwyd gostwng pris y *Drysorfa* o chwe cheiniog i bedair ceiniog; ac o ddeutu tair mil a ddisgwylid a fuasai ei chylchrediad ar ol y gostyngiad, ond cododd i bum mil y flwyddyn hono. Ymgymmerwyd â'r olygiaeth (ar ol marwolaeth y Parch. John Parry) gan y Parch. John Roberts, Liverpool; ac yn Ionawr, 1848, ceir fod y Parchn. John Roberts, Liverpool, a Roger Edwards, Wyddgrug, yn gyd-olygwyr; ond yn Ionawr, 1853, ymneillduodd y Parch. John Roberts o'r olygiaeth. O'r pryd hwnw hyd adeg ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le Gorphenaf 19eg, 1886, pan oedd yn 76ain ml. oed, golygid hi yn ddifwlch gan y Parch. Roger Edwards. Darfu i Gymmanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calvinaidd, wedi hyny, ddeisyf ar

Digitized by Google

i'r Parchn. J. M. Jones, Caerdydd; N. Cynhafal Jones, D.D., Rhyl (Llanidloes yr adeg hono), a J. Hughes, D.D., Caernarfon, ei golygu yn y cyfwng nes y pennodid golygydd rheolaidd. Ac ar ol ychydig amser, darfu i'r Gymmanfa Gyffredinol bennodi y Parch. Griffith Parry, D.D., Carno; a pharhaodd yntau i'w golygu o Ionawr, 1887, hyd ddiwedd y fl. 1892. Wedi hyny, pennodwyd y Parch. N. Cynhafal Jones, D.D.; ac yn Ionawr, 1893, dechreuodd ar ei waith. Ceir, yn Ionawr, 1895, fod y *Drysorfa* wedi ei helaethu, trwy fod wyth tudalen wedi cael eu rhoddi ati. Cyhoeddwyd ac argraphwyd hi ar y dechreu, fel y sylwyd eisoes, gan y Parch. J. Parry, Caer. Wedi hyny, argraphwyd hi gan Mr. T. Thomas, o Eastgate Row, Caer. Ond yn y fl. 1852, symmudwyd hi i gael ei hargraphu, dros y cyfundeb, gan Mr. P. M. Evans, cyhoeddwr, Treffynnon; ac yno yr argrephir hi yn gysson o'r pryd hwnw hyd yn bresennol.

*Trysorfa Efengylaidd*, 1806.—Cychwynwyd y cyhoeddiad chwarterol hwn yn y fl. 1806, gan y Parch. Titus Lewis, o Gaerfyrddin; ond ni ddaeth allan o hono ragor na dau rifyn. Ei brif ysgrifenwyr oeddynt y Parchn. T. Lewis, Joseph Harris (*Gomer*), a Dafydd Saunders—y ddau yn weinidogion gyda'r Bedyddwyr.

*Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, 1809.—Daeth y rhifyn cyntaf allan yn Ionawr, 1809; a chychwynwyd y cylchgrawn hwn gan y cyfundeb Wesleyaidd; ac y mae cyssylltiad swyddogol wedi bod rhwng y cyfundeb hwnw ag ef o'r dechreu. Gan y gweinidogion Wesleyaidd Cymreig y mae yr awdurdod i bennodi y golygwyr a'r argraphwyr. Daw allan yn fisol; a'i bris yw chwe cheiniog. Yn y fl. 1860, chwanegwyd wyth tudalen at faintioli yr *Eurgrawn;* a blaenorir pob rhifyn â darlun un o'r prif weinidogion Wesleyaidd Cymreig, neu Saesnig. Wele restr o'r gwahanol olygwyr o'r cychwyniad hyd yn bresennol:—Yn y fl. 1809, golygid yr *Eurgrawn* gan y Parch. John Bryan, Caernarfon, ac eraill; 1810, y Parch. Robert Roberts; 1811, Parch. John Jones (cyntaf); 1812, Parch. Hugh Carter; 1813—6, Parchn. David Rogers, David Jones (cyntaf), a David Jones (ail); 1817—20, Parch. Hugh Hughes (taid y Parch. H. Price Hughes, o Lundain); 1821—3, y Parch. Edward Jones (trydydd); 1824—6, y Parch. William Evans; 1827—30, Parch. John Williams (ail); 1831—8, y Parch. Edward Jones (trydydd); 1839—41, y Parch. Thomas Jones, D.D.; 1842—4, y Parch. Isaac Jenkins; 1845—6, Parch. William Rowlands; 1847—8, Parch. David Evans (ail); 1849—50, y Parch. Henry Wilcox; 1851, y Parch. John Jones; 1852, Mr. John Jones (*Idrisyn*); 1853—8, Parchn. W. Rowlands a Henry Parry; 1859—63, y Parch. Samuel Davies; 1864—75, y Parch. William Davies, D.D.; 1875—85, Parch. Samuel Davies; ac er y fl. 1885 hyd yr adeg yr ydym yn ysgrifenu, y mae o dan olygiaeth y Parch. Robert Jones (B.), Bangor. Diau mai y prif reswm am yr holl gyfnewidiadau uchod oedd cyfleusdra cylchdeithiol y gweinidogion. Wele etto restr o'r rhai a fuont yn argraphu yr *Eurgrawn:*—Yn y blynyddoedd 1809—11, gan Mr. Richard Jones, Dolgellau; 1812, Mr. B. Goakman, Llundain; 1813—16, Mr. Thomas Cordeaux, Llundain; 1817—23, Mr. Richard Jones, Dolgellau; 1824—26, Mr. Robert Jones, Llanfair Caereinion; 1827—35, Mr. John Jones (*Idrisyn*), Llanidloes; 1836—46, gan Mr. John Mendus Jones, Llanidloes; 1847—52, Mr. John Jones, Llanidloes; ac er y fl. 1853 hyd yr adeg yr ydym yn ysgrifenu, argrephir ef yn swyddfa Mr. J. Mendus Jones, Llanidloes a Bangor.

*Greal y Bedyddwyr*, 1817, 1827.—Yn Ionawr, 1817, cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, gan y Parch. Joseph Harris (*Gomer*). Efe oedd yn ei olygu, a bwriedid iddo fod yn gyhoeddiad i'r Bedyddwyr. Ond er ei fod yn cynnwys deuddeg tudalen ar hugain, ni ddaeth allan o hono chwaneg na'r rhifyn cyntaf yn unig. Modd bynag, yn y fl. 1827, cychwynwyd cyhoeddiad arall o'r un enw, gan gwmni lliosog yn perthyn i'r Bedyddwyr, er nad oedd i ddal unrhyw gyssylltiad swyddogol â'r enwad. Ei bris ydoedd chwe cheiniog; ac elai yr elw i gynnorthwyo gweinidogion oedranus. Dywedir ar wynebddalen y gyfrol gyntaf ei bod wedi ei chyhoeddi dan olygiaeth 'John Herring, Aberteifi;' a dywedir ar wyneb-ddalen yr ail gyfrol ei bod wedi ei chyhoeddi o dan olygiaeth 'John Herring, ac eraill;' a chredir mai wrth yr 'eraill' y golygir Mr. Joshua M. Thomas, Aberteifi: a bernir yn gyffredin mai Mr. Thomas, hefyd, oedd yn golygu y pedair cyfrol arall o hono, a gyhoeddwyd yn Aberteifi, er nad oes un enw wrthynt. Argrephid ef gan Mr. Isaac Thomas, Aberteifi. Ond yn Chwefror, 1833, symmudwyd ef i gael ei argraphu i Gaerdydd. Dengys y rhagymadrodd i'r gyfrol am y fl. 1833 fod y cyhoeddiad hwn, erbyn hyny, wedi dyfod i feddiant y Mri. John Jenkins a'i Feibion, Hengoed: a chymmerodd hyn le yn unol â chyttundeb y deuwyd iddo gyda dirprwywyr *Greal y Bedyddwyr* yn y fl. 1827. Ceir, ar ol hyny, fod yr holl ofal i olygu ac i argraphu y cylchgrawn hwn yn disgyn ar deulu Mr. Jenkins:—a pharhaodd felly hyd ddiwedd y flwyddyn 1837, pan y rhoddwyd ef i fyny.

*Seren Gomer*, 1818.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn hwn allan Ionawr 28ain, 1818; a chychwynwyd ef gan y Parch. Joseph Harris (*Gomer*). Deuai allan ar y cyntaf fel cyhoeddiad pythefnosol, a'i bris oedd tair ceiniog; a pharhaodd yn y dull hwn am ddwy flynedd. Ond yn nechreu y fl. 1820, daeth allan yn fisol, a'i bris oedd chwe cheiniog. Parhaodd Gomer i'w olygu a'i gyhoeddi hyd Ebrill, 1825; ac yna trosglwyddwyd ef i'r Parch. D. D. Evans, o Gaerfyrddin, a Mr. John Evans, argraphydd. Yna, am ysbaid, bu o dan olygiaeth y Parch. D. D. Evans a Mr. Samuel Evans (awdwr *Y Gomerydd*); a'r Parch. D. D. Evans a Mr. Wm. Evans yn ei gyhoeddi a'i argraphu. Yr oedd gan y Parch. D. D. Evans ran yn yr olygiaeth a'r argraphwaith; ac yna, argraphwyd y gyfrol am y fl. 1837 gan y Mri. Joshua Wilkins a Samuel Evans. Yn niwedd y fl. 1837, prynwyd *Seren Gomer* gan y Parch. H. W. Jones, Caerfyrddin; ac efe a fu yn ei gyhoeddi o ddechreu y fl. 1838 hyd ddiwedd y fl. 1850. Argraphwyd ef am y blynyddoedd 1842—4 gan Mr. D. Williams, Caerfyrddin, a'r blynyddoedd 1845—56 gan ei weddw, Mrs. Alice Williams. Daeth hawl-ysgrif *Seren Gomer*, yn niwedd y fl. 1850, yn feddiant i 'wyth-ar-hugain o weinidogion y Bedyddwyr, heb law gwŷr lleyg, gydag awdurdod i chwanegu at eu rhif.' Y golygwyr yn y cyfnod hwn oeddynt y rhai canlynol:—Duwinyddiaeth a Chofiantau, Parch. J. Rowe; Hynafiaethau a Chelfyddydau, Parch. W. Roberts; Barddoniaeth, Parchn. E. Jones ac R. Ellis; Hanesion, y Parch. N. Thomas a Mr. W. M.

Digitized by Google

Roberts; Gofyniadau, y Parch. O. Michael. Ac felly y parhaodd yr olygiaeth hyd ddiwedd y fl. 1860, oddi gerth nad oedd neb ond Cynddelw ei hunan yn golygu y Farddoniaeth; y Parch. J. Rowlands, Cwmafon, yn golygu Duwinyddiaeth a Chofiantau; a'r Parch. Benjamin Evans yn gofalu am y Tônau a'r Crybwyllion, &c. Argraphwyd y gyfrol am y fl. 1857 gan Mr. Josiah Thomas Jones, o Aberdâr; a'r cyfrolau am y blynyddoedd 1858—60, gan Mr. Daniel Joshua Davies, o Abertawe. Yn niwedd y fl. 1860, o herwydd anhawsderau neillduol, penderfynwyd dwyn allan y cyhoeddiad hwn yn chwarterol, ac nid yn fisol; a pharhaodd felly am yn agos i bedair blynedd. Daeth deg rhifyn allan yn ystod y blynyddoedd 1861—3, y rhai a argraphwyd gan Mr. W. Morgan Evans, Caerfyrddin. Yn ystod y blynyddoedd hyn, golygid y Rhyddiaeth, &c., gan y Parch. J. Rowe, Risca, ac Evan Thomas, Casnewydd; a'r Farddoniaeth gan y Parch. J. R. Morgan (*Lleurwg*), Llanelli. Cyhoeddwyd ychydig rifynau yn y fl. 1864—y rhai a argraphwyd gan Mr. D. J. Thomas, o Aberdâr. Pris y cylchgrawn o'i gychwyniad hyd ddiwedd y fl. 1859, oedd chwe cheiniog y rhifyn; ond yn nechreu y fl. 1860, gwnaed gostyngiad, a daeth ei bris yn bedair ceiniog. Ceir yn nechreu y fl. 1880 fod cyfres newydd o *Seren Gomer* yn cael ei chychwyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru; ac o'r adeg hono hyd y fl. 1886, bu dan olygiaeth y Parch. Edw. Roberts, D.D., Pont-y-pridd (yr hwn, gyda llaw, a fu farw Mawrth 30ain, 1895, yn 75ain ml. oed). Ac o 1886 hyd o ddeutu diwedd y fl. 1893, golygid ef gan y Parch. H. C. Williams, Corwen; ac ar ol hyny, gan y Parch. Silas Morris, Bangor; ac argrephir ef, ar ran yr Undeb, gan Mr. Jenkin Howell, Aberdâr. Daw allan yn ddau-fisol, a'i bris ydyw chwe cheiniog. Er fod yn ddealledig mai yn gwasanaethu y Bedyddwyr y mae *Seren Gomer* o'r cychwyniad; etto, yn y fl. 1880, pan yn cael ei chyhoeddi yn enw Undeb Bedyddwyr Cymru, y daeth gyntaf i gyssylltiad swyddogol â'r enwad fel y cyfryw; a gellir edrych arni, bellach, fel yn eiddo yr enwad.

*Y Dysgedydd*, 1821; *Yr Annibynwr*, 1856.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r *Dysgedydd* allan yn Ionawr, 1822, er fod math o gynllun (*specimen*) o hono wedi ei gyhoeddi yn Tachwedd, 1821. Ond ni ddaeth yr un rhifyn o hono allan am Ragfyr yn y flwyddyn hono. Cychwynwyd ef gan nifer o bersonau yn perthyn i'r Annibynwyr. Golygid ef o'r cychwyniad hyd ddiwedd y fl. 1852 gan y Parch. Cadwaladr Jones, Dolgellau; ac yn nechreu y fl. 1853, cymmerwyd gofal yr olygiaeth gan y Parchn. W. Rees, D.D., Liverpool; W. Williams (*Caledfryn*); R. Parry (*Gwalchmai*); Hugh Pugh, o Fostyn; Wm. Ambrose (*Emrys*), Porthmadog; a T. Roberts (*Scorpion*), Llanrwst. Dylid hysbysu fod cyhoeddiad arall dan yr enw *Yr Annibynwr* wedi ei gychwyn yn niwedd y fl. 1856, o dan nawdd pwyllgor perthynol i'r Annibynwyr. Daeth allan yn fisol, a'i bris oedd tair ceiniog; ac elai yr elw oddi wrtho i gynnorthwyo gweinidogion oedranus. Gellir enwi y Parch. John Thomas, D.D., Liverpool, fel un o'i brif hyrwyddwyr; a bu yn ei olygu am flynyddoedd. Argraphwyd y deuddeg rhifyn cyntaf gan Mr. Thomas Roberts, Llanfyllin. Yna, cyhoeddwyd ac argraphwyd ef gan Mr. C. R. Jones, o'r un lle. Yn nechreu y fl. 1865, modd bynag, unwyd *Yr Annibynwr* gyda'r *Dysgedydd;* a chwanegwyd at yr olygiaeth y Parchn. J. Thomas, D.D., Liverpool; Josiah Jones, Machynlleth; E. Williams, Dinas; Robert Thomas *(Ap Vychan)*, o Liverpool; D. Rowlands, o Lanbrynmair; a D. M. Davies, Llanfyllin. Gosodwyd yr olygiaeth, yn nechreu y flwyddyn 1873, ar y Parchn. W. Ambrose (*Emrys*), ac R. Thomas (*Ap Vychan*), Bangor. Yn y fl. 1877, chwanegwyd y Parch. E. Herber Evans, D.D., yn gyd-olygydd â'r Parch. R. Thomas; a bu y ddau yn cydlafurio hyd farwolaeth Mr. Thomas—yr hyn a gymmerodd le Ebrill 17eg, 1880. Oddi ar yr adeg hono hyd yr adeg yr ydym yn ysgrifenu, y mae yr olygiaeth yn gwbl yn llaw y Parch. E. Herber Evans, D.D. Daw y *Dysgedydd* allan yn fisol, a'i bris yw pedair ceiniog; ac argrephir ef, ar ran yr ymddiriedolwyr (perthynol i'r Annibynwyr), gan Mr. William Hughes, cyhoeddwr, Dolgellau.

*Y Gwyliedydd*, 1822.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan Medi 1af, 1822. Cyhoeddiad perthynol i'r Eglwys Sefydledig oedd; a golygwyd ef, yn benaf, gan y Parch. Walter Davies (*Gwallter Mechain*), ac argrephid ef gan Mr. R. Saunderson, Bala. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd chwe cheiniog. Tybiwn fod y rhifyn olaf o hono wedi dyfod allan yn Rhagfyr, 1837: os felly, yn agos i bymtheng mlynedd y parhaodd. Ceir fod y Parchn. R. Richards, Caerwys; J. Roberts, Tremeirchion; J. Jenkins (*Ifor Ceri*); Ieuan Glan Geirionydd; ac Ioan Tegid, &c., yn mysg ei ysgrifenwyr.

*Cyfaill y Cymro*, 1822.—Daeth y rhifyn cyntaf allan yn Medi, 1822; a chychwynwyd ef o dan olygiaeth gweinidogion yr Eglwys Sefydledig, ac argraphwyd ef gan Mr. R. Saunderson, Bala. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd tair ceiniog. Edrychid arno fel math o fyr grynhöad o'r *Gwyliedydd;* a dïau ei fod o dan yr un olygiaeth, ac yn gweithio i'r un amcanion: ond rhoddwyd ef i fyny yn fuan.

*Cyfrinach y Bedyddwyr*, 1827.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn gan nifer o'r Bedyddwyr yn Mynwy a Morganwg, a daeth y rhifyn cyntaf allan yn Ionawr, 1827. Ei bris oedd chwe cheiniog; ac elai yr elw tuag at gynnorthwyo gweinidogion methedig. Golygid y cyhoeddiad hwn gan y Parch. J. Jenkins, Hengoed; a dywed yn ei anerchiad cychwynol fod y cyhoeddiad yn cael ei sefydlu mewn canlyniad i gyttundeb a wnaed mewn Cwrdd Chwarter, Chwefror 4ydd, 1824. Ond rhoddwyd ef i fyny ddiwedd y flwyddyn hono, yn ffafr *Greal y Bedyddwyr.*

*Yr Efengylydd*, 1831.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y fl. 1831, gan nifer o'r Annibynwyr; a golygwyd ef gan Mr. David Owen (*Brutus*), a chyhoeddwyd ac argraphwyd ef gan Mr. William Rees, Llanymddyfri. Parhaodd i ddyfod allan am bum mlynedd; a rhoddwyd ef i fyny gan yr hyrwyddwyr, gan yr ystyrient nad oedd yn eu gwir gynnrychioli.

*Y Cynniweirydd*, 1834.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1834, dan ofal a golygiad y Parch. Owen Jones (*Meudwy Môn*), Llandudno; ac argrephid ef gan y Mri. Lloyd, Wyddgrug. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd chwe cheiniog; ond rhoddwyd ef i fyny ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

*Yr Haul*, 1835.—Daeth y cyhoeddiad hwn allan yn y fl. 1835: a chychwynwyd ef o dan olygiad Mr. D. Owen (*Brutus*), ac argraphwyd ef gan y Mri. D. R. a W. Rees, Llanymddyfri. Ymneillduodd y Meistri Rees oddi wrth y

Digitized by Google

fasnach argraphu, a gwerthwyd yr hawl i Brutus; a darfu iddo yntau, o ddeutu ugain mlynedd ar ol hyny, wneuthur trefniadau gyda Mr. W. Spurrell, y cyhoeddwr, o Gaerfyrddin, i'w argraphu; a chan y Mri. Spurrell a'i Fab, Caerfyrddin, yr argrephir ef yn bresennol. Parhaodd Brutus i'w olygu o'r cychwyniad hyd ddechreu y fl. 1866. Afiechyd, yr hwn a ddiweddodd yn angeuol, a ddarfu ei luddias rhag parhau yn hwy. Ar ol marwolaeth Brutus, golygwyd ef am ysbaid gan Mr. W. Spurrell ei hun; ac yna, gan y Parch. John Davies (*Hywel*), ficer Llanhywel, sir Benfro, a Mr. John Rowlands (*Giraldus*), ysgolfeistr, Caerfyrddin. Ac o Ionawr, 1885, hyd Ebrill, 1895 (pan y bu y golygydd farw), golygid ef gan y Parch. Ellis Roberts (*Elis Wyn o Wyrfai*), Llangwm. Ceir er hyny fod y Parch. R. Williams, Dolyddelen, wedi ymuno yn yr olygiaeth yn y fl. 1894. Daw allan yn fisol; a'i bris yw tair ceiniog. Ystyrir yr *Haul*, erbyn hyn, fel y cylchgrawn hynaf a berthyn i'r Eglwys Sefydledig yn Nghymru. Ond anturiaeth bersonol hollol ydoedd ar ei gychwyniad; ac felly y parhaodd hyd Ionawr, 1885, pan y prynwyd yr hawl ynddo gan bwyllgor perthynol i'r Eglwys Sefydledig.

*Y Diwygiwr*, 1835.—Dechreuodd i ddyfod allan yn y fl. 1835; a chychwynwyd ef gan bwyllgor perthynol i'r Annibynwyr yn y Deheudir (yn mhlith pa rai yr oedd y Parchn. David Rees, Llanelli; Dr. Davies, Llanelli; a T. Davies, Llandeilo, &c., yn dra blaenllaw); a golygid ef, i raddau mwy neu lai, gan y tri a nodwyd; a hwy fu yn ei olygu o'r pryd hwnw hyd y fl. 1873. Ac yna, o'r fl. 1873 hyd y fl. 1880, golygwyd ef gan y Parch. T. Davies, D.D., Llanelli, ei hunan. O'r fl. 1880 hyd y fl. 1889, gan y Parchn. E. A. Jones, Manordeilo, a D. A. Griffiths, Troedrhiwdalar; ac o'r fl. 1889 hyd yn bresennol, gan y Parchn. R. Thomas, Liverpool (Glandwr gynt), a H. Williams (*Watcyn Wyn*), Ammanford. Argraphwyd ef, ar ei gychwyniad, gan y Parch. D. Rees a Mr. J. Thomas, Llanelli; ac yna, gan y Mri. Rees a Williams, Llanelli. Er y fl. 1860 hyd yn bresennol, argrephir ef gan Mr. B. R. Rees, Llanelli. Daw allan yn fisol; a'i bris ydoedd chwe cheiniog. Ond o ddeutu y fl. 1853, gostyngwyd y pris i bedair ceiniog; ac felly y parhaodd hyd y fl. 1890, pryd y gostyngwyd ef drachefn i dair ceiniog—ac felly y parhâ. Cyhoeddir ef o 'dan nawdd gweinidogion yr Annibynwyr.' Er nad oes unrhyw gyssylltiad swyddogol rhyngddo a'r Annibynwyr, etto ei amcan, yn benaf, ydyw eu gwasanaethu hwy.

*Y Pregethwr*, 1835, ac 1890.—Cychwynwyd cyhoeddiad dan yr enw hwn, i ddechreu, yn y fl. 1835, gan Mr. John Jones, cyhoeddwr, Liverpool; a chyhoeddid ynddo, o fis i fis, wahanol bregethau gan wahanol weinidogion perthynol i'r Methodistiaid Calvinaidd. Parhaodd i ddyfod allan am rai blynyddoedd. Hefyd, flynyddoedd ar ol hyn, bu gan y Parch. Roger Edwards, Wyddgrug, gyhoeddiad o'r enw hwn, yn cael ei argraphu gan y Mri. Hugh ac Owen Jones, Wyddgrug; ond am ychydig y parhaodd i gael ei gyhoeddi. Yn Ionawr, 1890, cychwynwyd cyhoeddiad etto o'r un enw gan Mr. H. Evans, Bala, ac efe hefyd oedd yn ei argraphu; a golygid ef, ar y dechreu, gan y Parchn. D. Roberts (M.C.), Rhiw, Blaenau Ffestiniog; Abel J. Parry (B.), Cefn Mawr; Hugh Hughes (W.), Birkenhead; a D. Evans (A.), Heol Awst, o Gaerfyrddin. Cyhoeddiad anenwadol ydoedd, a cheid pregeth ynddo bob mis gan weinidogion y gwahanol enwadau. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd ceiniog; ond rhoddwyd ef i fyny yn mhen o ddeutu pedair blynedd.

*Y Seren Ogleddol*, 1835.—Daeth y cylchgrawn hwn allan yn nechreu y fl. 1835. Cychwynwyd ef o dan olygiad a nawdd dirprwywyr y 'Gymdeithas er taenu Gwybodaeth Eglwysig.' Cyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. Josiah Thomas Jones, o Gaernarfon. Misol ydoedd, a'i bris yn chwe cheiniog; ond prin y parhaodd am ddwy flynedd.

*Yr Ystorfa Weinidogaethol*, 1838; *Ystorfa y Bedyddwyr*, 1838.—Daeth y rhifyn cyntaf allan o'r *Ystorfa Weinidogaethol* yn Mawrth, 1838—yn cael ei gyhoeddi a'i olygu gan y Parchn. W. a D. Jones, Caerdydd. Argrephid ef gan Mr. Ll. Jenkins, Caerdydd; ond pedwar rhifyn o hono yn unig a ddaeth allan. Trwy benderfyniadau gwahanol gyfarfodydd chwarterol a berthynent i'r Bedyddwyr, ail gychwynwyd ef yn Gorphenaf, 1838, o dan enw newydd; sef, *Ystorfa y Bedyddwyr*, a daeth yn eiddo i'r enwad; ond rhoddwyd ef i fyny yn Mehefin, 1841.

*Y Cenhadydd Cymreig*, 1840; *Y Cenhadydd*, 1841.—Cychwynwyd y *Cenhadydd Cymreig* yn Chwefror, 1840, gan y Parchn. W. R. a T. Davies, Merthyr; ac argrephid ef, i ddechreu, gan Mr. T. Price, Heol fawr, Merthyr Tydfil. Ar ol y flwyddyn gyntaf, argraphwyd ef gan Mr. Ll. Jenkins, Caerdydd. Rhoddodd y Parch. Thomas Davies yr olygiaeth i fyny ddiwedd y flwyddyn gyntaf; ac felly, disgynodd yr olygiaeth ar y Parch. W. R. Davies ei hunan. Newidiwyd enw y cyhoeddiad hwn o ddeutu canol y fl. 1841, i fod yn *Y Cenhadydd;* ond rhoddwyd ef i fyny yn mhen o ddeutu tair blynedd ar ol hyny.

*Y Bedyddiwr*, 1841; *Y Gwir Fedyddiwr*, 1842; *Y Bedyddiwr*, 1844.—Cychwynwyd y *Bedyddiwr* cyntaf yn y fl. 1841, gan y Parch. John Jones ('Jones, Llangollen'), gweinidog gyda'r Annibynwyr, Llangollen. Bu ef mewn dadleuon ffyrnig gyda'r Bedyddwyr; a diau iddo gychwyn hwn er mwyn cael cyfleusderau i amddiffyn taenelliad a bedydd babanod; ond prin y parhaodd y cylchgrawn i ddyfod allan ddwy flynedd. Bu i'r cylchgrawn hwn, oedd i amddiffyn taenelliad, fod yn achlysur i Mr. Ll. Jenkins, Caerdydd, gychwyn cyhoeddiad o'r enw *Y Gwir Fedyddiwr*, er mwyn gwrthweithio dylanwad cylchgrawn y Parch. John Jones. Cyhoeddid a golygid *Y Gwir Fedyddiwr* gan Mr. Ll. Jenkins ei hun, a daeth y rhifyn cyntaf allan yn Ionawr, 1842. Wedi i gyhoeddiad Mr. Jones, Llangollen, gilio oddi ar y maes, barnwyd mai mwy priodol a fuasai newid enw y *Gwir Fedyddiwr* yn *Y Bedyddiwr;* a daeth allan dan yr enw newydd hwn ar ddechreu y fl. 1844. Rhoddodd Mr. Jenkins yr olygiaeth a'r argraphu i fyny yn niwedd Mehefin, 1844; pryd y cymmerwyd yr olygiaeth gan y Parch. W. Owen, Caerdydd; yr hwn, hefyd, gyda Mr. R. Roberts, oedd yn ei gyhoeddi ac yn ei argraphu. Yna, bu amryw, o dro i dro, yn ei olygu, sef y Parch. D. Jones, Caerdydd; Mr. Samuel Evans (hen olygydd *Seren Gomer*); a'r Parch. N. Thomas, Caerdydd; yr hwn a fu yn ei olygu o'r fl. 1855 hyd ddiwedd 1859, pryd y terfynodd y gyfres gyntaf. Cychwynodd y gyfres newydd yn Ionawr, 1861, â'i thestynau o dan ofal y personau a

Digitized by Google

ganlyn:—Duwinyddol a Gwladgarol, Parch. N. Thomas, Caerdydd; Cofiannol a Hynafiaethol, Parch. J. Emlyn Jones; Celfyddydol a Barddonol, Mr. Aneurin Jones; Hanesion Cyfarfodydd a Digwyddiadau, y Parch. J. G. Phillips, Llantrisant; a Holiadau, Attebion, &c., Parch. C. Griffiths, Merthyr. Yr argraphydd am y fl. 1861 oedd Mr. H. Evans, o Gasnewydd; ond daeth ar ol hyny o swyddfa Mr. Aneurin Jones, Gelligroes, hyd Ebrill, 1864. Argraphwyd y rhifynau am Mai a Mehefin, 1864, gan Mr. D. J. Thomas, Aberdâr; ac oddi ar Gorphenaf, 1864, hyd derfyniad y Cylchgrawn yn Medi, 1868, cyhoeddid ac argrephid ef gan y Parch. W. Roberts, Blaenau:—a dyna y rhifyn olaf o hono a ddaeth allan.

*Blaguryn y Diwygiad*, 1842; *Gedeon*, 1855.—Cychwynwyd *Blaguryn y Diwygiad* yn y fl. 1842; a chyhoeddid a golygid ef gan y Parch. W. Jones, gweinidog yr Eglwys Rydd Unedig, o Aberystwyth; ond prin y parhaodd i ddyfod allan am flwyddyn. Cychwynwyd, gan yr un hyrwyddwyr, ac i'r un amcanion, gyhoeddiad misol arall, dan yr enw *Gedeon;* a gellir edrych arno fel ail gychwyniad i *Blaguryn y Diwygiad* —ond oes fer a gafodd hwn hefyd.

*Y Drysorfa Gynnulleidfaol*, 1843.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn dan olygiad y Parch. William Jones, ac argraphwyd ef gan Mr. Evan Griffiths, Abertawe. Symmudwyd ef, yn y fl. 1847, i gael ei argraphu gan Mr. Josiah Thomas Jones, Caerfyrddin; a thra yno, golygid ef gan y Parch. Hugh Jones, ac ysgrifenid llawer iddo gan Caledfryn. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd tair ceiniog; ond ni pharhaodd i ddyfod allan yn hir.

*Y Beirniadur Cymreig*, 1845.—Daeth allan y rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn hwn yn Ionawr, 1845; a chychwynwyd ef gan y Parch. John Mills, Llundain—yr hwn, ar y pryd, oedd yn byw yn Rhuthyn. Efe oedd yn ei olygu hefyd. Argrephid ef gan Mr. Ishmael Jones, Llanelwy. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd pedair ceiniog a dimai. Maintioli y cylchgrawn hwn yn y fl. 1845 ydoedd deuddeg-plyg. Ond yn y fl. 1846, newidiwyd ef i wyth-plyg o faintioli mwy, a chymmerwyd yr olygiaeth gan y Parch. David Hughes, Tredegar (Bangor y pryd hwnw, ac awdwr *Geiriadur Ysgrythyrol a Duwinyddol*); ond chwe rhifyn o hono yn unig a ddaeth allan y flwyddyn hono, a rhoddwyd ef i fyny.

*Y Tyst Apostolaidd*, 1846.—Yn Ebrill, 1846, y daeth y cyhoeddiad hwn allan, dan olygiad y Parch. R. Ellis (*Cynddelw*); yr hwn, ar y pryd, oedd yn gweinidogaethu yn Nglynceiriog; ac argrephid ef gan Mr. W. Williams, Llangollen; Ei bris ydoedd tair ceiniog. Daeth allan hyd ddiwedd y fl. 1850, pryd, ar ddechreu y fl. 1851, yr unwyd ef â'r *Athraw i Blentyn*, a galwyd ef am y mis Ionawr hwnw *Yr Athraw.* Ond o hyny hyd ddiwedd y flwyddyn, pan roddwyd ef i fyny, galwyd ef ar yr hen enw.

*Yr Eglwysydd*, 1847; *Y Cenhadwr Eglwysig*, 1853; *Yr Eglwysydd a'r Cenhadydd Eglwysig*, 1855.—Cychwynwyd *Yr Eglwysydd* ddechreu y fl. 1847, o dan nawdd clerigwyr esgobaethau Bangor a Llanelwy; ac argrephid ef, i ddechreu, gan Mr. William Morris, cyhoeddwr, Treffynnon. Symmudwyd ef drachefn i'w argraphu yn Rhyl; ond colled arianol fu o'i gychwyniad. Yn nechreu y fl. 1853, ceir fod cylchgrawn o'r enw *Y Cenhadwr Eglwysig* wedi ei gychwyn, o dan olygiaeth y Parch. Edward Jones, o Lanfair Caereinion. Yr oedd y cylchgrawn hwn, fel y llall, yn dal cyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig; ond argraphwyd ef yn Llundain. Yn y fl. 1855, unwyd y cyhoeddiadau hyn, a daethant allan o dan yr enw *Yr Eglwysydd a'r Cenhadydd Eglwysig.* Ei bris yn awr oedd dwy geiniog; a pharhaodd i ddyfod allan yn y ffurf hwn hyd ddiwedd y flwyddyn 1864, pryd y rhoddwyd ef fyny.

*Yr Ymofynydd*, 1847.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y fl. 1847, gan y Parch. John Jones, o Ben-y-bont; yr hwn a fu yn ei olygu gyntaf. Ar ei ol ef, ymgymmerwyd â'r olygiaeth gan y Parch. J. Jones, Aberdâr, ac argraphwyd ef gan Mr. J. Howell, Aberdâr. Ar ol rhai blynyddoedd, llesghaodd y cyhoeddiad hwn. Pa fodd bynag, yn Ionawr, 1888, daeth allan gyfres newydd o'r *Ymofynydd;* a golygir ef gan y Parch. J. Hathren Davies, o'r Cefn, Merthyr Tydfil, ac argrephir ef gan Mr. Jenkin Howell, Aberdâr. Ei bris yw tair ceiniog, a daw allan yn fisol. Ei amcan ydyw hyrwyddo Undodiaeth yn Nghymru.

*Y Geiniogwerth*, 1847; *Y Methodist*, 1851.—Cychwynwyd *Y Geiniogwerth* yn y fl. 1847 gan Mr. T. Gee, Dinbych—yr hwn, hefyd, oedd yn ei argraphu—dan olygiad y Parch. Lewis Jones, o'r Bala. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog. Yn y fl. 1851, gwnaed cyfnewidiad ynglŷn âg ef. Rhoddwyd ef i fyny yn y ffurf oedd arno, a chychwynwyd ef dan enw newydd, sef *Y Methodist*, gan yr un cyhoeddwr; ac argrephid ef yn yr un swyddfa ag o'r blaen. Ei bris, ar ol y cyfnewidiad, oedd ceiniog a dimai; ond ychydig y parhaodd ar ol y cyfnewidiad. Fodd bynag, yn Ngorphenaf, 1854, ail gychwynwyd cylchgrawn o'r enw *Y Methodist*, dan olygiaeth y Parch. Edward Morgan, Dyffryn; ac argraphwyd ef gan Mr. Owen Mills, Llanidloes. Daeth allan yn fisol, a'i bris oedd dwy geiniog; ond lled fyr fu ei barhâd yntau.

*Udgorn Seion*, 1849.—Yn Ionawr, 1849, y daeth y rhifyn cyntaf allan. Argraphwyd ef gyntaf gan Mr. J. Davies, cyhoeddwr, Merthyr Tydfil. Cylchgrawn oedd hwn yn perthyn i'r Mormoniaid; neu, fel y gelwir hwy weithiau, 'Seintiau y Dyddiau diweddaf;' a hwy oedd yn ei gario yn mlaen, a'i dderbyn. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd dwy geiniog—er y ceir fod gostyngiad yn ei bris i geiniog a dimai wedi cymmeryd lle yn ystod y fl. 1861. Bu yn cael ei argraphu mewn gwahanol swyddfeydd; sef, yn eiddo y Meistri D. Jones, 14, Heol y castell, Merthyr; D. Jones, Abertawe; G. Cannon, Islington, Liverpool; Daniel Daniels, Abertawe; a Benjamin Evans, Abertawe. Cynnwysai unar-bymtheg o dudalenau, a daeth allan am flynyddoedd.

*Y Wawrddydd*, 1850.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y fl. 1850; a golygid ac argrephid ef gan Mr. Josiah Thomas Jones, Caerfyrddin. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd dimai; ond ber iawn fu ei oes.

*Y Cylchgrawn*, 1851.—Daeth y rhifyn cyntaf allan yn Ebrill, 1851. Golygwyd ef, ar ei gychwyniad, gan y Parch. W. Williams, Penclawdd (Abertawe yn awr), a Mr. John Howell (*Bardd Coch*), o Bencoed; ac argraphwyd ef gan Mr. J. Rosser, Heol Heathfield, Abertawe. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd pedair ceiniog. Cyhoeddid ef dan nawdd Trefnyddion Calvinaidd y Deheudir. Daeth rhifyn olaf y gyfres hon allan yn Mawrth, 1855. Yn Ionawr, 1862,

Digitized by Google

ail gychwynwyd ef; ac ymddengys, yn y cyfnod hwn, fod y gohebiaethau i'w hanfon i un neu arall o'r rhai canlynol:—Parchn. E. Mathews, Eweni; W. Thomas (*Islwyn*); T. James, M.A., Llanelli; Mr. J. Rosser, Abertawe; ac yn nechreu y fl. 1864, chwanegwyd Mr. W. Davies (*Teilo*): a dengys hyn oll fod yr olygiaeth, i raddau, dan ofal amryw, ond yn benaf yn llaw Mr. Mathews. Argraphwyd y gyfres hon etto, hyd ddiwedd y fl. 1863, yn swyddfa Mr. J. Rosser, Abertawe; pryd, yn Ionawr, 1864, y symmudwyd ef i'w argraphu gan Mr. D. Williams, Llanelli. Daeth, mewn amser, gyfnewidiad arall drosto; a bu y *Cylchgrawn* yn cael ei ddwyn allan o dan nawdd pwyllgor o wahanol Gyfarfodydd Misol y Deheudir; a phennodwyd y Parch. W. Williams, Abertawe, yn olygydd etto. Ar ol hyny, ar wahanol adegau, bu dan olygiaeth y Parchn. J. Cynddylan Jones, D.D., o Gaerdydd; John M. Jenkins, o Lanfair-muallt; a J. Morgan Jones, Caerdydd; ac yn ddiweddaf oll, dan olygiaeth Mr. D. Richards (*Calvin*), Llanelli, ynghyd â'i berchenog. Bu am flynyddoedd, fel hyn, yn codi ac yn machludo bob yn ail, nes y diflanodd o'r diwedd. Modd bynag, yn Ionawr, 1891, cychwynwyd ef drachefn, dan olygiaeth y Parch. John Owen, Burry Port; a golygid ei farddoniaeth gan y Parch. L. Rhystyd Lewis, Amman view: ac argraphwyd ef hyd y flwyddyn ddiweddaf (1894) gan y Meistri D. Williams a'i Fab, Llanelli. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd dwy geiniog.

*Yr Hyfforddwr*, 1852; *Yr Hyfforddiadur*, 1855.—Perthynai *Yr Hyfforddwr* i'r adran hono o'r Bedyddwyr a elwir yn 'Ddysgyblion,' neu y rhan fynychaf yn 'Campbelliaid.' Daeth allan yn Ionawr, 1852, dan olygiad Mr. J. Edwards (*Meiriadog*), Llanfair; ac argrephid ef gan Mr. George Bayley, Heol Estyn, Gwrecsam. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd ceiniog. Ceir, yn Ionawr, 1854, fod y cylchgrawn hwn wedi ei helaethu yn llawer mwy, a chodwyd ei bris i ddwy geiniog. Yn Ionawr, 1855, modd bynag, ceir ei fod yn cael newid ei enw i *Yr Hyfforddiadur*. Ond parhaodd i gael ei olygu gan Meiriadog fel o'r blaen, a'i gyhoeddi am yr un bris ag oedd cynt; ac argrephid ef gan Mr. James Lindap, yn Heol yr eglwys, Gwrecsam. Ond rhoddwyd ef i fyny yn fuan.

*Y Greal*, 1852.—Cychwynwyd y cyhoeddiad misol hwn yn Ionawr, 1852, gan Mr. W. Williams, Llangollen; ac efe hefyd oedd yn ei argraphu. Golygid yr oll o'r ddwy gyfrol gyntaf (oddi eithr yr Hanesion) gan y Parch. R. Ellis (*Cynddelw*), a golygid yr Hanesion am y blynyddoedd hyny gan y Parch. E. Roberts, D.D., Pont-y-pridd. Arolygid y cyhoeddiad hwn am y fl. 1854 gan y Parch. John Pritchard, D.D., Llangollen; a golygwyd ef am y blynyddoedd 1857—58 gan y Parch. J. Jones (*Mathetes*). Nid oedd iddo un golygydd pennodol am y fl. 1859. Golygid ef yn ystod blynyddoedd 1860—1, a rhan o'r flwyddyn ddilynol, gan y Parch. H. Jones, D.D., Llangollen. Ar glawr y rhifyn am Ebrill, 1862, ceir fod yr olygiaeth wedi ei rhanu fel y canlyn:—Duwinyddiaeth, Traethodau, a Marwgoffa, Parch. A. J. Parry, Cefn mawr: y Detholion ac Eglurhadaeth Ysgrythyrol, Parch. H. Jones, D.D., Llangollen; Hanesion Gwladol a Chenhadol, Parch. W. Roberts, Rhos; Hanesion Cyfarfodydd, a Bedyddiadau, Mr. W. Williams, Llangollen. Ceir yn Awst, 1871, fod y Parch. A. J. Parry yn ymddiswyddo, a chymmerwyd ei le yn Hydref yr un flwyddyn gan y Parch. Owen Davies, Caernarfon (o Langollen gynt). Golygwyd Barddoniaeth y *Greal* gan Cynddelw, o'r dechreu hyd Medi, 1875 (sef hyd adeg ei farwolaeth); a chymmerwyd ei le fel golygydd y Farddoniaeth gan y Parch. H. Cernyw Williams, Corwen. Golygir y *Greal* ar hyn o bryd gan y Parchn. O. Davies, Caernarfon; H. Cernyw Williams, Corwen; a J. A. Morris, Aberystwyth.

*Yr Annibynwr*, 1856.—Yn Mai, 1856, y daeth y rhifyn cyntaf allan, dan olygiaeth y Parch. E. Williams, Dinas Mawddwy. Argrephid ef gan Mr. R. Jones, Bethesda. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd tair ceiniog. Gwasanaethu yr Annibynwyr yr oedd, ac elai yr elw oddi wrtho tuag at gynnal hen bregethwyr. Ond gyrfa fer a gafodd.

*Y Llusern*, 1858.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan yn Ionawr, 1858. Cychwynwyd ef gan nifer o'r Bedyddwyr Campbellaidd; ac i'w gwasanaethu hwy, yn benaf, y daeth allan. Golygid ef gan Mr. J. Edwards (*Meiriadog*), Llanfair; ac argrephid ef, dros ei hyrwyddwyr, gan Mr. George Bayley, Gwrecsam. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd ceiniog; a pharhaodd i ddyfod allan am rai blynyddoedd.

*Y Gwyliedydd*, 1860.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Mawrth, 1860. Golygid ef gan y Parchn. Benjamin Evans, Castellnedd, a J. Rowlands, Llanelli; ac argrephid ef, ar ei gychwyniad, gan Mr. D. J. Davies, Abertawe; wedi hyny, gan Mr. D. J. Thomas, Aberdâr; ac yn ddiweddaf gan Mr. W. M. Evans, Caerfyrddin. Ei bris oedd ceiniog, a deuai allan yn fisol; a pharhaodd i ymddangos hyd ddiwedd y flwyddyn 1868.

*Yr Ardd*, 1863.—Awst 15fed, 1863, y daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad misol hwn allan, o dan olygiaeth y Parch. D. Roberts, D.D., Gwrecsam. Argrephid ef o'r cychwyn gan Mr. William Jones (*Gwilym Ogwen*), Bethesda; a phan y symmudodd ei breswylfod i Dolgellau, parhaodd i'w argraphu yno hefyd. Ei bris oedd ceiniog, a pharhaodd i ddyfod allan am o ddeutu dwy flynedd.

*Yr Arweinydd*, 1869.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn hwn allan yn Awst, 1869, o dan olygiaeth y Parchn. J. Jones (*Mathetes*), W. Harris, Heol-y-felin, a J. Jones, Abercwmboy. Gwelid, erbyn yr ail rifyn a ddaeth allan (yr un am Medi), fod Mr. J. Edwards (*Meiriadog*) wedi ei chwanegu atynt. Argrephid ef gan Mr. Jenkin Howell, Aberdâr; a deuai allan yn fisol, a'i bris oedd tair ceiniog. Ymddengys mai y deuddegfed rhifyn (yr un am Gorphenaf, 1870) oedd yr olaf a gyhoeddwyd o hono.

*Y Pulpud*, 1872.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1872, dan olygiaeth y Parch. Evan Roberts, Dolgellau; ac argrephid ef gan Mr. Owen Rees, cyhoeddwr, Dolgellau. Deuai allan yn fisol, a cheid pregeth yn mhob rhifyn gan un o weinidogion y Methodistiaid Calvinaidd. Ei bris oedd ceiniog; ond hyd ddiwedd y fl. 1873 y cyhoeddwyd ef.

*Amddiffynydd yr Eglwys*, 1873.—Yn Mehefin, 1873, y daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan—o dan olygiad, i ddechreu, y Parch. H. T. Edwards, Deon Bangor; ac argraphwyd ef gan Mr. John Morris, cyhoeddwr, Bangor. Bu am ysbaid o dan olygiad Canon D. Walter Thomas, Bethesda, hefyd; ac wedi hyny, bu o dan ofal Canon Daniel Evans, ficer Caernarfon. Deuai

Digitized by Google

allan yn fisol, a'i bris oedd dwy geiniog. Am o ddeutu chwe blynedd y parhaodd i ymddangos.

*Yr Ymwelydd*, 1877.—Cyhoeddiad misol yw hwn, a gychwynwyd yn y fl. 1877, perthynol i'r Bedyddwyr Albanaidd Cymreig, dan olygiaeth y Parchn. Samuel Pearce, Penrhyndeudraeth; W. Humphreys, o Tan-y-grisiau; a Morris Rowland, Harlech; ac argrephir ef gan Mr. D. Lloyd, Porthmadog. Ei bris yw ceiniog.

*Yr Ymwelydd Misol*, 1877.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y fl. 1877; a chyhoeddid ef gan gyfarfod misol perthynol i Fedyddwyr Ystrad-y-Fodwg; ac argrephid ef gan Mr. D. Lloyd, Treorci. Lleol ydoedd ei nodwedd, a rhoddwyd ef i fyny yn fuan.

*Yr Arweinydd Annibynol*, 1878.—Cychwynwyd hwn yn y fl. 1878; a chyhoeddid ef er budd eglwysi yr Annibynwyr yn Nyffryn Rhondda. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd ceiniog. Lleol oedd ei nodwedd, a gorphenodd ei yrfa yn y fl. 1881.

*Llusern y Llan*, 1880.—Yn Ionawr, 1880, y daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan, o dan olygiaeth y Parch. W. Cynog Davies, Aberteifi; W. Howell (*Hywel Idloes*), Capel Isaf; W. Glanffrwd Thomas, Llanelwy, ac Ap Gruffydd. Argrephid ef gan y Mri. Farrant a Frost, Merthyr Tydfil. Cyhoeddiad yn gwasanaethu yr Eglwys Sefydledig ydoedd. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd chwe cheiniog; a pharhaodd i ddyfod allan am o ddeutu tair blynedd.

*Y Bugeilydd*, 1881.—Yn y fl. 1881 y daeth hwn allan gyntaf. Golygwyd ef gan y Parch. D. Edwards, Rhyl; ac argraphwyd ef gan Mr. W. Morris, Rhyl. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd tair ceiniog. Dan nawdd deiliaid yr Eglwys Sefydledig yr oedd; ond rhoddwyd ef i fyny yn Mai, 1882.

*Cenad Hedd*, 1881.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn nechreu y fl. 1881, gan y Parch. W. Nicholson, Liverpool; ac efe hefyd oedd yn ei olygu; ac argrephir ef gan Mr. Jos. Williams, cyhoeddwr, Merthyr Tydfil. Daw allan yn fisol, a'i bris ydyw dwy geiniog. Parhaodd y Parch. William Nicholson i'w olygu hyd nes y goddiweddwyd ef gan angeu; ac ar ei farwolaeth ef, bu yr olygiaeth yn llaw y Parch. Thomas Nicholson, o Southampton (o Ddinbych gynt). Wedi marwolaeth ei gychwynydd, trefnwyd iddo ddyfod yn eiddo i'r cyhoeddwr; a daeth i gael ei olygu gan y Parch. J. B. Jones, o Aberhonddu. Yn mhlith yr Annibynwyr y mae ei gylchrediad fwyaf.

*Cenhadydd Cwmtawe*, 1881.—Yn y fl. 1881 y cychwynwyd y cyhoeddiad misol hwn, er budd eglwysi y Bedyddwyr yn Cwmtawe; a golygid ef gan y Parch. A. J. Parry, Abertawe. Lleol ydoedd ei nodwedd; ac ni pharhaodd i ddyfod allan ond am o ddeutu chwe mis.

*Y Bedyddiwr Bach*, 1882.—Cychwynwyd hwn gan Mr. Ap Lewis, o Lundain, yn y fl. 1882; a'i amcan oedd gwasanaethu adran o'r Bedyddwyr Cymreig. Ei bris oedd ceiniog, a daeth allan yn fisol; ond ychydig o rifynau a gyhoeddwyd o hono.

*Yr Ymddiddanydd*, 1885.—Ar Hydref 15fed, 1885, y daeth y rhifyn cyntaf allan o'r cyhoeddiad misol hwn, o dan olygiaeth y Parch. Hugh Davies (*Pencerdd Maelor*), Prestatyn; a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. D. Jones, argraphydd, Rhosymedre. Ei bris oedd dimai; ond diflanodd yn fuan.

*Yr Oes Newydd*, 1886.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1886, dan olygiaeth, yn benaf, Mr. John Harris, Alltwen, Pontardawe; ac argraphwyd ef gan Mr. E. Rees, y cyhoeddwr, o Ystalyfera. Ei bris ydoedd dwy geiniog. Daeth allan yn fisol; ond am ychydig y parhaodd.

*Pulpud Cymru*, 1887.—Yn Ionawr, 1887, y daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan. Cychwynwyd ef gan y Mri. Davies ac Evans, cyhoeddwyr, Bala; a hwy hefyd sydd yn parhau i'w olygu a'i argraphu. Daw allan yn fisol, a'i bris ydyw ceiniog. Cyhoeddir yn mhob rhifyn o hono bregeth gan weinidogion y gwahanol enwadau crefyddol.

*Cylchgrawn Chwarterol*, 1888.—Daeth y rhifyn cyntaf allan dan yr enw hwn yn Ebrill, 1888, dan olygiaeth y Parch. Owen Hughes, Widnes (Wyddgrug yr adeg hono): ac argraphwyd ef gan Mr. W. N. Bellamy, Heol fawr, Wyddgrug. Ei bris ydoedd dwy geiniog. Deuai allan bob tri mis; a'i amcan oedd gwasanaethu yr achos Wesleyaidd yn nghylchdaith y Wyddgrug.

Yn Nhachwedd yr un flwyddyn (1888), daeth allan gyhoeddiad arall dan yr un enw, dan olygiaeth y Parch. R. Lloyd Jones, Coedpoeth (yr adeg hono), ac argrephid ef gan y Mri. Woodall, Minshull, a Thomas, cyhoeddwyr, Gwrecsam. Cychwynwyd hwn etto er gwasanaethu y Wesleyaid yn nghylchdaith Coedpoeth; a bu, ar ol ymadawiad Mr. Jones o'r gylchdaith, dan olygiaeth y Parch. T. J. Humphreys, Coedpoeth. Deuai allan yn chwarterol, a'i bris ydoedd dwy geiniog.

*Yr Adfywiadur*, 1889.—Cychwynwyd hwn yn Ionawr, 1889, dan olygiaeth y Parch. Evan Davies, Conwy (yr adeg hono); a bu y Parch. Evan Jones, Conwy, ar ol hyny yn ei olygu; ac argrephid ef gan y Mri. Jones a'i Frodyr, Conwy. Deuai allan yn chwarterol, a'i bris oedd dwy geiniog. Ei amcan ydoedd gwasanaethu y Wesleyaid yn nghylchdaith Conwy.

*Y Wyntyll*, 1890.—Yn Ionawr, 1890, y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn gan y Meistri F. Rees Jones, 23, Beaconsfield street, Liverpool, ac Elwy D. Symond, 50, Jermyn street, Liverpool; a hwynt-hwy hefyd oeddynt yn ei olygu. Argraphwyd ef gan y Mri. Ffoulkes ac Evans, o 29, Dale street, Liverpool. Deuai allan yn ddau-fisol, a'i bris oedd dwy geiniog. Amcan ei gychwyniad, yn benaf, ydoedd gwasanaethu eglwys a chynnulleidfa y Methodistiaid Calvinaidd yn Prince's road, Liverpool; ond prin y parhaodd i ddyfod allan am flwyddyn.

*Yr Hysbysydd*, 1891.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Medi, 1891, o dan olygiaeth y Parch. Edward Humphreys, Croesoswallt (y pryd hwnw), ac argrephid ef gan y Mri. Woodall, Minshull, a Thomas, o Wrecsam. Deuai allan yn chwarterol, a'i bris oedd dwy geiniog. Ei amcan oedd gwasanaethu eglwysi ac Ysgolion Sabbothol y Wesleyaid yn nghylchdaith Llanrhaiadr-yn-Mochnant.

*Yr Arweinydd*, 1892.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn hwn allan yn Mawrth, 1892. Cafodd ei gyhoeddi a'i olygu gan y Parch. P. J. Roberts, o Benmachno (yr adeg hono); ac argrephid ef gan Mr. D. Jones, Rhosymedre. Deuai allan yn chwarterol, a'i bris oedd dwy geiniog. Bwriedid ef i wasanaethu yr achos Wesleyaidd yn nghylchdaith Llanrwst; ond aeth i lawr yn fuan.

*Y Fwyell*, 1894.—Yn mis Mawrth, 1894, y

Digitized by Google

cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, gan y Parch. John Evans (Eglwysbach); ac efe hefyd sydd yn ei olygu. Argrephir ef yn swyddfa y *Glamorgan Free Press*, Pont-y-pridd. Helaethwyd y cylchgrawn hwn i rai tudalenau chwanegol yn Mawrth, 1895. Daw allan yn fisol; a'i bris yw dwy geiniog. Ei brif amcan ydyw gwasanaethu Cenhadaeth Wesleyaidd y Deheudir.

*Y Pelydryn*, 1895.—Cychwynid y cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1895, dan olygiaeth y Parch. W. Griffiths, Pont-y-pridd; ac argrephir ef yn swyddfa y *Free Press*, Heol Tâf, yn Mhont-y-pridd. Daw allan yn fisol, a'i bris ydyw ceiniog. Dywedir ar ei wyneb-ddalen mai 'at wasanaeth crefydd Ryddfrydig' y bwriadwyd iddo gael ei gyhoeddi.

II. Cylchgronau Llenyddol.

*Y Greal, neu yr Eurgrawn, sef Trysorfa Gwybodaeth*, 1800.—Yn Ionawr, 1800, daeth cyhoeddiad o'r enw hwn allan. Cychwynwyd ef gan Ieuan ap Risiart, Bryncroes, Lleyn; ond un rhifyn yn unig a ddaeth allan. Argraphwyd hwnw yn Nghaernarfon. Gwnaed ymgais arall drachefn, yn 1805, i gychwyn cyhoeddiad o'r un enw; a daeth y rhifyn cyntaf o hono allan yn Mehefin, 1805. Cychwynwyd hwn yn benaf gan Mr. Owen Jones (*Owain Myfyr*), dan nawdd Cymdeithas Gwyneddigion a Chymreigyddion Llundain. Argraphwyd ef yn Llundain, a golygwyd ef gan Dr. W. O. Pughe. Naw rhifyn a gyhoeddwyd; a daeth yr olaf allan yn Alban Hefin, 1807.

*Yr Eurgrawn Cymraeg*, neu *Trysorfa Gwybodaeth*, 1807.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ebrill, 1807, gan Mr. David Thomas (*Dafydd Ddu Eryri*), o'r Waen-fawr, ac argrephid ef yn Nghaernarfon; ond ni ddaeth yr ail rifyn allan hyd Mawrth, 1808; a bernir mai dyna yr olaf a gyhoeddwyd o hono.

*Yr Oes*, 1825; a *Lleuad yr Oes*, 1827.—Cychwynwyd *Yr Oes* yn y fl. 1825, gan Mr. J. A. Williams, Aberystwyth; yr hwn, hefyd, oedd yn ei gyhoeddi, ac yn ei olygu. Cyhoeddiad misol ydoedd ar y dechreu, a'i bris yn ddwy geiniog. Yn niwedd yr ail flwyddyn, cafodd ei helaethu, a chodwyd ei bris i fod yn chwe cheiniog; a gelwid ef o hyny allan yn *Lleuad yr Oes*. Prynwyd ef, yn ystod y flwyddyn ganlynol (1828), gan Mr. S. Thomas, Aberystwyth, a darfu iddo sicrhau gwasanaeth Mr. D. Owen (*Brutus*) yn olygydd. A dyna yr adeg pan yr aeth Brutus i fyw i Aberystwyth. Pa fodd bynag, yn y fl. 1829, prynwyd *Lleuad yr Oes* gan Mr. Jeffrey Jones, o Lanymddyfri; a symmudwyd y cyhoeddiad yno i'w argraphu, ac aeth Brutus yno gydag ef. Gwnaed ymdrechion nodedig i gadw y cylchgrawn yn fyw; ond er y cwbl, diffodd yn llwyr a wnaeth y *Lleuad* hon; yr hyn a gymmerodd le yn fuan ar ol marwolaeth Mr. Jeffrey Jones, yn 1830. Yna darfu i bwyllgor perthynol i weinidogion yr Annibynwyr brynu yr hawl yn y cylchgrawn; a chychwynasant ef dan enw arall.

*Y Drysorfa Henafiaethol*, 1839.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y flwyddyn 1839, gan Mr. Owen Williams (*Owain Gwyrfai*), o'r Waen-fawr; ac argraphwyd y rhifynau cyntaf o hono gan Mr. J. Jones, argraphydd, Llanrwst, a'r gweddill gan Mr. Potter, argraphydd, Caernarfon. Deuai allan yn chwarterol, a'i bris ydoedd swllt; ond ychydig o rifynau o hono a gyhoeddwyd.

*Y Traethodydd*, 1845.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1845—trwy gynnyg a wnaeth Mr. Thomas Gee i Dr. Lewis Edwards, Bala, a'r Parch. Roger Edwards; sef, os ymgymmerent hwy â golygiaeth cyhoeddiad chwarterol y safai efe unrhyw golled fyddai ynglŷn âg ef; ac os byddai elw oddi wrtho, y caent hwy ef i'w ranu rhyngddynt hwy ac ysgrifenwyr y gwahanol erthyglau. Derbyniasant y cynnyg; a daeth allan yn chwarterol, a'i bris yn swllt a chwe cheiniog. Parhaodd i gael ei argraphu, o'r dechreu hyd y flwyddyn 1854, gan Mr. T. Gee, pryd y symmudwyd ef i gael ei argraphu gan Mr. P. M. Evans, o Dreffynnon. O ddeutu yr un adeg, darfu i Dr. Edwards, Bala, ymneillduo o'r olygiaeth; a chymmerwyd ei le gan y Parch Owen Thomas, D.D., Liverpool. Ceir, yn y flwyddyn 1862, fod y Parchn. Roger Edwards, ac Owen Thomas wedi ymneillduo o'r olygiaeth; a chymmerwyd eu lle gan y Parch. Daniel Rowlands, o Fangor, yr hwn a fu yn ei feddiannu am rai blynyddoedd ar ol hyny; ac y mae yn parhau i'w olygu o'r pryd hwnw hyd yr adeg yr ydym yn ysgrifenu. Yn Ionawr, 1887, dechreuodd ddyfod allan yn ddau-fisol, a gostyngwyd ei bris i swllt. Ddechreu y flwyddyn 1887, symmudwyd ef o Dreffynnon i gael ei argraphu; a daeth y rhifyn am Mawrth, 1887, allan o swyddfa Cwmni y Wasg Genedlaethol Gymreig (cyf.), Caernarfon. Ond yn Ionawr, 1895, ceir ei fod wedi myned eilwaith i'w hen gartref yn Nhreffynnon, i swyddfa Mr. P. M. Evans; ac yno y parheir i'w argraphu. Fe allai y dylid hysbysu mai Mr. David Edwards, Nottingham (Caernarfon gynt), ydyw ei berchenog er's rhai blynyddoedd bellach.

*Yr Adolygydd*, 1850.—Yn Mehefin, 1850, y daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan. Cychwynwyd ef gan bwyllgor o amryw lenorion yn y Deheudir; a darfu i'r pwyllgor hwnw ddewis y Parch. Evan Jones (*Ieuan Gwynedd*), yn olygydd. Argrephid ef, ar y cychwyniad, gan Mr. William Owen, Heol Duc, Caerdydd; ond yn niwedd y flwyddyn 1851, symmudwyd ef i gael ei argraphu gan y Meistri Rees a Williams, Llanelli. Yr ysgrif olaf ynddo gan y golygydd talentog oedd yr un ar 'Athrylith Dafydd Ionawr,' yn rhifyn Mawrth, 1852; a bu farw yn fuan ar ol hyny. Wedi marwolaeth Ieuan Gwynedd, ymgymmerwyd â'r olygiaeth gan Caledfryn; ond rhoddwyd *Yr Adolygydd* i fyny ar ddiwedd y flwyddyn ddilynol. Deuai allan yn chwarterol, a'i bris ydoedd swllt a chwe cheiniog. Yr oedd ei gylchrediad, yn benaf, yn mhlith yr Annibynwyr.

*Y Wawr*, 1850.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y flwyddyn 1850, dan olygiaeth Mr. Robert Parry (*Robyn Ddu Eryri*); a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. David Edwards (*Ap Tudur*), o Gaerdydd. Ei bris oedd pedair ceiniog, a deuai allan yn fisol; ond ymddengys na chyhoeddwyd ragor nag o ddeutu pymtheg rhifyn o hono.

*Y Brython*, 1858.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn gan Mr. R. Isaac Jones (*Alltud Eifion*), Tremadoc; a daeth allan am ychydig amser, ar y cyntaf, fel newyddiadur wythnosol. Ond yn Nhachwedd, 1858, ceir ei fod yn cychwyn gyrfa fel cyhoeddiad misol, a'i bris ydoedd tair ceiniog. Byddai y Parch. D. Silvan Evans yn gweithredu fel cyd-olygydd â'r cyhoeddwr. Yn Ionawr, 1860, codwyd ei bris i chwe cheiniog; ac yn ystod y flwyddyn hon, gorfu i Mr. Evans

Digitized by Google

ymneillduo o'r olygiaeth, ar gyfrif amryw alwadau ereill. Yn y flwyddyn 1862, dechreuwyd ei gyhoeddi yn chwarterol, a chodwyd ei bris i swllt a chwe cheiniog; a cheir fod o ddeutu pedwar rhifyn o hono wedi dyfod allan ar ol hyn—pryd y rhoddwyd ef i fyny.

*Y Taliesin*, 1859.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan yn Ebrill, 1859, dan olygiaeth, y Parch. John Williams (*Ap Ithel*), yn benaf; ac argrephid ef gan Mr. Isaac Clarke, cyhoeddwr, Rhuthyn. Yn chwarterol y deuai allan; a'i bris ydoedd swllt. Cychwynwyd ef er bod at wasanaeth y Cymdeithasau Llenyddol, yr Eisteddfod, a'r Orsedd. Ond am o ddeutu dwy flynedd y parhaodd i ddyfod allan.

*Y Beirniad*, 1859.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y flwyddyn 1859, dan olygiaeth y Parchn. John Davies, a William Roberts; ac argrephid ef gan y Mri. Rees a Williams, Llanelli. Ar ol hyny, ymgymmerwyd â'r olygiaeth gan y Parch. J. B. Jones, B.A., Merthyr Tydfil; a symmudwyd y cylchgrawn i gael ei argraphu i Merthyr. Deuai allan yn chwarterol, a swllt ydoedd ei bris. Yn mhlith yr Annibynwyr y derbynid ef fwyaf; ond rhoddwyd ef i fyny yn y flwyddyn 1879.

*Y Llenor*, 1860, 1895.—Daeth cyhoeddiad o dan yr enw hwn allan yn Ionawr, 1860; a chychwynwyd ef gan y Parchn. G. Parry, D.D., Carno; Hugh Jones, D.D., Liverpool, a Josiah Thomas, M.A., etto: a hwynt-hwy oeddynt yn ei olygu. Argraphwyd y cyhoeddiad gan Mri. Parry a Hughes, Heol y Bont, Caernarfon. Ei bris oedd dwy geiniog, a deuai allan yn fisol; ond rhoddwyd ef i fyny yn Rhagfyr, 1861. Yn Ionawr, 1895, ymddangosodd cyhoeddiad arall o dan yr un enw, ond yn cael ei gychwyn gan Mr. O. M. Edwards, M.A., Rhydychain; ac efe, hefyd, sydd yn ei olygu; ac argrephir ef yn swyddfa y Meistri Hughes, a'i Fab, Gwrecsam. Cylchgrawn chwarterol ydyw, a'i bris yn swllt.

*Y Cymmrodor*, 1862.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y flwyddyn 1862, dan nawdd Cymdeithas y Cymmrodorion, a than olygiaeth, i ddechreu, y Parch. Robert Jones, Rotherhithe, Llundain; ac wedi hyny, ar wahanol adegau, bu dan olygiaeth Mr. Thomas Powell, M.A., Llundain: Dr. Isambard Owen, etto; a Mr. Egerton Phillimore, etto. Argrephir ef, ar ran y gymdeithas, gan y Mri. Gilbert a Rivington, St. John's house, Clerkenwell, Llundain. Ei bris yw hanner coron. Prin y gellir ei alw yn gylchgrawn misol na chwarterol, gan y bydd misoedd lawer, weithiau, rhwng ei wahanol rifynau.

*Yr Eisteddfod*, 1864.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn dan nawdd Cynghor yr Eisteddfod, yr hwn a ddewiswyd yn Eisteddfod Genedlaethol Llangollen, 1858; a daeth y rhifyn cyntaf allan yn Ebrill, 1864. Cychwynwyd ef yn benaf, os nad yn gwbl, er mwyn gwasanaethu y sefydliad cenedlaethol. Golygid ef gan ysgrifenydd y Cynghor dywededig, sef Mr. W. Williams (*Creuddynfab*), o Landudno; a bernir fod dau neu dri rhifyn o hono wedi dyfod allan dan olygiaeth Rhydderch o Fôn. Argrephid ef gan y Meistri Hughes a'i Fab, Gwrecsam. Ei bris oedd swllt; ond ni pharhaodd i ddyfod allan yn hwy nag o ddeutu dwy flynedd.

*Y Meddwl*, 1879.—Cychwynwyd y cylchgrawn misol hwn, yn y flwyddyn 1879, gan Gwmni Cambrian, Liverpool; ond ni ddaeth allan o hono chwaneg nag o ddeutu pum rhifyn.

*Y Llenor Cymreig*, 1882.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, yn y flwyddyn 1882, dan olygiaeth y Parch. J. G. Matthias, o Corwen; ac argraphwyd ef gan Mr. T. Edmunds, o Gorwen. Deuai allan yn chwarterol; a'i bris ydoedd tair ceiniog. Ni chyhoeddwyd o hono ond wyth rhifyn.

*Y Geninen*, 1883.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan yn Ionawr, 1893, a chychwynwyd ef gan Mr. John Thomas (*Eifionydd*), Caernarfon. Ac efe, hefyd, sydd yn ei feddiannu ac yn ei olygu o'r dechreu hyd yr adeg yr ydym yn ysgrifenu. Argrephid ef, ar y cychwyn, gan Mr. D. W. Davies, Caernarfon; ond, wedi hyny, yn Ionawr, 1890, symmudwyd ef i gael ei argraphu i swyddfa Mr. W. Gwenlyn Evans, cyhoeddwr, Caernarfon; ac yn Ionawr, 1895, daeth i gael ei argraphu yn swyddfa Cwmni y Wasg Genedlaethol Gymreig (cyf.). Yn Ionawr, 1892, helaethwyd ef mewn maintioli; a daw allan yn chwarterol, a'i bris ydyw swllt. Daw allan hefyd, bob dydd cyntaf o Fawrth, argraphiad neillduol, yr hwn a elwir *Ceninen Gŵyl Dewi;* a rhoddir yr holl le yn yr argraphiad hwn i ysgrifau ar Gymry enwog ymadawedig.

*Trysorfa yr Adroddwr*, 1888.—Daeth y cylchgrawn hwn allan yn Ionawr, 1888, gan Mr. D. L. Jones (*Cynalaw*), Briton Ferry. Efe, hefyd, sydd yn ei olygu, ac yn ei argraphu. Cyhoeddir ef dan nawdd prif lenorion, beirdd, a cherddorion y genedl. Daw allan yn chwarterol, a'i bris ydyw tair ceiniog.

III.—Cylchgronau i'r Chwiorydd.

*Y Gymraes*, 1850.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1850, o dan nawdd Gwenynen Gwent, gan y Parch. Evan Jones (*Ieuan Gwynedd*), ac efe, hefyd, oedd yn ei olygu. Ac argraphwyd ef gan y Meistri Rees a Williams, Llanelli. Cylchgrawn misol ydoedd, at wasanaeth merched Cymru; a'i bris oedd dwy geiniog. Modd bynag, yn Ionawr, 1852, o herwydd rhesymau neillduol, unwyd *Y Gymraes* gyda'r *Tywysydd* yn Llanelli, a daethant allan yn un misolyn, pris ceiniog, o dan yr enw newydd *Y Tywysydd a'r Gymraes*, dan olygiaeth Ieuan Gwynedd a'r Parch. D. Rees, Llanelli.

*Y Frythones*, 1879.—Yn Ionawr, 1879, y daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan, dan olygiaeth Miss Rees (*Cranogwen*), Llangranog; ac argrephid ef gan y Mri. D. Williams a'i Fab, Llanelli. Deuai allan yn fisol; a'i bris ydoedd dwy geiniog. Modd bynag, ar ddiwedd y flwyddyn 1891 rhoddodd y *Frythones* ei bywyd sengl i fyny, ac unwyd hi â *Chyfaill yr Aelwyd* yn Ionawr, 1892; ond am ychydig y parhaodd i ddyfod allan ar ol hyny.

IV.—Cylchgronau Cerddorol.

*Y Blodau Cerdd*, 1852.—Cychwynwyd hwn yn Gorphenaf, 1852, gan y Parch. John Roberts (*Ieuan Gwyllt*); ac efe hefyd oedd yn ei olygu. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog a dimai. Ni chyhoeddwyd o hono ond saith rhifyn. Argraphwyd y pedwar cyntaf gan Mr. David Jenkins, Heol Fawr, Aberystwyth; a'r gweddill gan Mr. J. Mendus Jones, o Lanidloes. Diweddodd gyda'r rhifyn a ddaeth allan Ionawr 8fed, 1853.

*Yr Athraw Cerddorol*, 1854.—Yn y flwyddyn 1854 y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, gan y Parch. John Mills, Llanidloes; ac efe, hefyd, oedd yn ei gyhoeddi a'i olygu. Ychydig o rifynau yn unig a gyhoeddwyd. Deuai allan yn fisol; a'i bris ydoedd tair ceiniog.



Digitized by Google

*Y Cerddor Cymreig*, 1861.—Cychwynwyd y cylchgrawn hwn yn Mawrth, 1861, dan olygiaeth y Parch. John Roberts (*Ieuan Gwyllt*), ac argrephid ef, o'r cychwyniad hyd Rhagfyr, 1864, gan Mr. I. Clarke, Rhuthyn; ac yna, yn Ionawr, 1865, symmudwyd ef i gael ei argraphu yn swyddfa y Mri. Hughes a'i Fab, Gwrecsam; ac yno y parhaodd i gael ei argraphu, o dan yr un olygiaeth, hyd y flwyddyn 1873, pryd y rhoddwyd ef i fyny. Ei bris ydoedd dwy geiniog, a deuai allan yn fisol; ac yn yr Hen Nodiant y cyhoeddid ef.

*Greal y Corau*, 1861.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y flwyddyn 1861, o dan olygiaeth y Parch. E. Stephen (*Tan-y-marian*), Ab Alaw, Llew Llwyfo, ac eraill; ac argraphwyd ef gan Mr. T. Gee, Dinbych. Yn yr Hen Nodiant y cyhoeddid ef. Dwy geiniog ydoedd ei bris, a deuai allan yn fisol. Ni pharhaodd ond am ychydig dros ddwy flynedd.

*Cerddor y Solffa*, 1869, 1881.—Yn y flwyddyn 1869, y daeth y cylchgrawn hwn allan gyntaf, o dan olygiaeth y Parch. John Roberts (*Ieuan Gwyllt*); ac argrephid ef gan y Meistri Hughes a'i Fab, Gwrecsam. Yn y Tonic Solffa, fel y dynoda ei enw y cyhoeddid ef. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog a dimai; ond rhoddwyd ef i fyny yn y flwyddyn 1874. Cychwynwyd cylchgrawn cyffelyb, ar yr un enw, yn yr un nodiant, am yr un pris, ac i'r un amcanion, yn y flwyddyn 1881, o dan olygiaeth Mr. Hugh Davies (*Pencerdd Maelor*), o Brestatyn; ac argrephid ef yn yr un swyddfa ag yn flaenorol; ond rhoddwyd ef i fyny drachefn yn y fl. 1886.

*Y Gerddorfa*, 1872.—Medi 1af, 1872, y daeth y rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn hwn allan, dan olygiaeth Mr. D. Davies (*Dewi Alaw*), Pont-y-pridd; yr hwn hefyd ydoedd yn ei argraphu. Ar ol hyny, am ychydig amser, bu dan olygiaeth Mr. D. Emlyn Evans, o Hereford. Deuai allan yn y ddau nodiant. Cyhoeddiad misol ydoedd, a'i bris yn ddwy geiniog; ond ber fu ei oes.

*Yr Ysgol Gerddorol*, 1878.—Cychwynwyd y cylchgrawn hwn yn y flwyddyn 1878, dan olygiaeth Mr. W. T. Rees (*Alaw Ddu*), Llanelli, a'r Parch. J. O. Davies, Bournemouth; ac argrephid ef gan Mr. James Davies, Llanelli. Ei bris ydoedd ceiniog, a deuai allan yn fisol, a chyhoeddid ef yn y ddau nodiant; ond am o ddeutu dwy flynedd y parhaodd.

*Cronicl y Cerddor*, 1880. Daeth y cyhoeddiad hwn allan Gorphenaf 1af, 1880, dan olygiaeth y Meistri D. Emlyn Evans ac M. O. Jones, Treherbert; ac argraphwyd ef gan Mr. Isaac Jones, Treherbert. Cyhoeddwyd ef yn y ddau nodiant. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd dwy geiniog; ond ni pharhaodd yn hwy nag o ddeutu tair blynedd.

*Y Perl Cerddorol*, 1880.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y fl. 1880, dan olygiaeth Mr. R. A. Williams, Cefn-coed-y-cymmer; ac argrephid ef gan Mr. Southey, cyhoeddwr, Merthyr Tydfil. Ceiniog ydoedd ei bris, a deuai allan yn fisol; ond rhoddwyd ef i fyny ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf.

*Cerddor y Cymry*, 1883; *Cyfaill yr Aelwyd*, 1880.—Yn Mai, 1883, y cychwynwyd *Cerddor y Cymry*, gan Mr W. T. Rees (*Alaw Ddu*), ac efe hefyd oedd yn ei olygu. Argraphwyd ef gan y Mri. D. Williams a'i Fab, Llanelli. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd tair ceiniog; a chyhoeddwyd ef yn y ddau nodiant. Yn y fl. 1880 y cychwynwyd *Cyfaill yr Aelwyd*, gan Mr. Beriah Gwynfe Evans, Llanelli, ac efe hefyd oedd yn ei olygu. Argrephid ef gan y Mri. D. Williams a'i Fab, Llanelli. Deuai allan, ar y cyntaf, yn wythnosol, ac yna yn fisol, a'i bris cychwynol oedd tair ceiniog. O ddeutu dechreu y fl. 1886, unwyd *Cerddor y Cymry* â *Chyfaill yr Aelwyd*; a daethant allan fel un cyhoeddiad am ychydig dros ddwy flynedd, pryd y gwahanwyd hwy drachefn, fel o'r blaen. Ar ol hyny, modd bynag, dan yr un olygiaeth ag o'r blaen, ac yn yr un swyddfa, daeth *Cyfaill yr Aelwyd* allan yn fisol, a'i bris ydoedd tair ceiniog; ond yn nechreu y fl. 1892, unwyd ef etto â'r *Frythones*. Hefyd, daliodd *Cerddor y Cymry* i ddyfod allan fel yn flaenorol, yn yr un swyddfa, a than yr un olygiaeth. Helaethwyd ef yn nechreu y fl. 1891 i un-ar-bymtheg o dudalenau, yn lle wyth, a chodwyd dimai ar ei bris, fel mai ceiniog a dimai ydoedd ei bris mwyach; a chynnwysai gerddoriaeth yn y ddau nodiant. Ond rhoddwyd ef i fyny gyda rhifyn Rhagfyr, 1894.

*Y Cerddor*, 1889.—Cychwynwyd y cylchgrawn hwn yn y fl. 1889, dan olygiaeth y Mri. D. Jenkins, Aberystwyth, a D. Emlyn Evans, Hereford; ac argrephir ef gan y Mri. Hughes a'i Fab, Gwrecsam. Cyhoeddir ef yn y ddau nodiant. Daw allan yn fisol, a'i bris ydyw dwy geiniog.

*Y Solffaydd*, 1891.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan Ionawr 15fed; 1891; a chyhoeddir ac argrephir ef gan Mr. Daniel Owen, Pontardulais. Cyhoeddiad misol at wasanaeth Solffawyr Cymru ydyw, a'i bris ydyw ceiniog.

V. Cylchgronau Cenhadol.

*Y Cronicl Cenhadol*, 1817.—Yn y fl. 1817 y daeth hwn allan, o dan olygiaeth y Parch. D. Davies, Pant teg; a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. John Evans, Caerfyrddin. Cyhoeddiad bychan oedd. Deuai allan yn fisol, a pharhaodd am rai blynyddoedd.

*Yr Hanesydd Cenhadol*, 1830.—Cyhoeddiad misol ydoedd hwn, a chyhoeddid ac argrephid ef yn Llundain, o dan nawdd Cymdeithas Genhadol Llundain. Parhaodd am o ddeutu tair blynedd.

*Y Brud Cenhadol*, 1836.—Daeth y cyhoeddiad misol hwn allan yn y fl. 1836, a chyhoeddid ef o dan nawdd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr. Argrephid ef gan Mr. Isaac Thomas, Aberteifi; ond rhoddwyd ef i fyny yn fuan.

*Y Cenhadydd*, 1878.—Yn y fl. 1878 y daeth y cylchgrawn hwn allan, a chychwynwyd ac arolygwyd ef gan Mr. Llewelyn Jenkins, Caerdydd. Yn chwarterol y deuai allan, a bwriedid iddo fod at wasanaeth y Genhadaeth yn mhlith y Bedyddwyr; ond ychydig rifynau o hono a gyhoeddwyd.

*Yr Herald Cenhadol*, 1881.—Cychwynwyd hwn yn y fl. 1881, gan Mr. D. Davies, Treorci; a chyhoeddid ef, yn neillduol, at wasanaeth y Bedyddwyr yn Nyffryn Rhondda. Daw cyhoeddiad o'r enw hwn allan yn awr, hefyd, yn mhlith y Bedyddwyr, dan olygiaeth y Parchn. G. Ll. Evans, Barry Dock; W. Morris, Treorci; a B. Evans, Gadlys, Aberdâr; ac argrephir ef gan Mr. B. Davies, Pont-y-pridd. Ei bris ydyw ceiniog.

*Newyddion Da*, 1881, 1892.—Yn Hydref y fl. 1881, y daeth y rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn hwn allan. Ystyrid ef fel cylchgrawn cenhadol y Methodistiaid Calvinaidd; a chyhoeddwyd

Digitized by Google

ef trwy annogaeth y Gymmanfa Gyffredinol. Golygwyd ef, ar ran Pwyllgor y Genhadaeth, gan y Parch. Josiah Thomas, Liverpool; ac argraphwyd ef gan y Mri. P. M. Evans a'i Fab, Treffynnon. Deuai allan yn chwarterol, a'i bris ydoedd ceiniog; ond rhoddwyd ef i fyny yn y fl. 1885. Ceir yn Ionawr, 1892, fod y cylchgrawn hwn wedi ail ymddangos dan yr un enw, ac i'r un amcanion. Golygid ef y waith hon gan y Parch. Griffith Ellis, Bootle, ac argrephid ef gan Mr. Wm. Jones, cyhoeddwr, Newport. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog; ond ni pharhaodd i ymddangos yn hwy na Hydref, 1893.

VI. Cylchgronau i'r Ysgol Sabbothol.

*Yr Athraw*, 1829.—Yn y fl. 1829 y cychwynwyd y cylchgrawn hwn gan y Parch. W. Rowlands, Utica, America (gynt o Bont-y-pool, yn Neheudir Cymru), ac efe ei hun oedd yn ei gyhoeddi ac yn ei olygu. Misol ydoedd, a pharhaodd am o ddeutu tair blynedd.

*Yr Esboniwr*, 1844.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad misol hwn allan yn Ionawr, 1844, o dan olygiaeth y Parch. Lewis Edwards, o'r Bala; ac argrephid ef gan Mr. Thomas Thomas, Caerlleon. Ei bris oedd ceiniog a dimai; ond rhoddwyd ef i fyny yn lled fuan.

*Cydymaith yr Ysgol Sabbothol*, 1852.—Cychwynwyd hwn yn y fl. 1852, gan Mr. R. O. Rees, Dolgellau; ac efe, hefyd, oedd yn ei arolygu, ac yn ei argraphu. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog; ond oes fer iawn a gafodd.

*Cylchgrawn yr Ysgol Sabbothol*, 1854.—Yn Ionawr, 1854, y daeth y rhifyn cyntaf allan o'r cyhoeddiad hwn, o dan olygiaeth Mr. W. V. Williams, Caernarfon. Argrephid ef gan Mr. Thomas Jones-Evans, cyhoeddwr, Caernarfon. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog; ac er y cychwynwyd ef, mewn rhan, o dan nawdd Ysgolion Sabbothol Dosbarth Caernarfon, etto byr fu ei barhâd.

*Yr Esboniwr, neu Gylchgrawn yr Ysgol Sabbothol*, 1854.—Cychwynwyd hwn yn Ionawr, 1854, o dan olygiaeth y Parch. John Hughes, Caernarfon (Porthaethwy y pryd hwnw); ac argrephid ef gan Mr. Thomas Evans-Jones, Caernarfon. Ei bris ydoedd ceiniog, a deuai allan yn fisol. Buasid yn tybied, oddi wrth ei gyfarchiad agoriadol, mai at wasanaeth Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid Calvinaidd yn Môn, yn benaf, y cychwynwyd ef; ond ber fu ei oes.

*Charles o'r Bala; Yr Aelwyd*, 1859.—Yn nechreu y fl. 1859 y cychwynwyd y cyhoeddiad a elwid *Charles o'r Bala*, dan olygiaeth y Parch. N. Cynhafal Jones, yn awr o Rhyl, hyd Mehefin, 1859; ac yna, Mr. J. Davies (*Gwyneddon*), Caernarfon, oedd yn ei olygu tra y parhaodd i ddyfod allan. Eiddo y Meistri James Evans, Caernarfon, a J. Davies (*Gwyneddon*) ydoedd y cyhoeddiad hwn; ac argrephid ef yn swyddfa Mr. James Rees, Caernarfon. Deuai allan yn bythefnosol, a'i bris oedd ceiniog. Newidiwyd ei enw o ddeutu diwedd y flwyddyn gyntaf, a galwyd ef ar yr enw *Yr Aelwyd;* ond prin y parhaodd i ddyfod allan am flwyddyn ar ol hyn. Deuai allan yn fisol dan ei enw newydd, a cheiniog ydoedd ei bris.

*Y Bugail, neu Gylchgrawn Gwybodaeth Ysgrythyrol, a Chydymaith yr Ysgolion Sabbothol*, 1859.—Yn Hydref, 1859, y daeth y rhan gyntaf o hono allan, o dan olygiaeth y Parch. Owen Jones (*Meudwy Môn*), Llandudno; ac argrephid ef gan Mr. R. Jones, Bethesda, Arfon. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog; a ber fu ei oes.

*Yr Ymwelydd*, 1859.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan yn Mai, 1859, a chychwynwyd ef mewn cyssylltiad â Chyfarfod Ysgolion y Methodistiaid Calfinaidd yn Penllyn (Meirionydd) ac Edeyrnion. Golygid ef gan y Parch. T. C. Edwards, o'r Bala, a'r Parch. John Williams, Llandrillo; ac argrephid ef gan Mr. R. Saunderson, Bala. Deuai allan yn ddaufisol, a'i bris ydoedd ceiniog. Yn Tachwedd, 1861, y daeth y rhifyn olaf o hono allan.

*Y Cyfaill Eglwysig*, 1862.—Mewn cyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig y daeth allan y cyhoeddiad hwn, yn gynnar yn y flwyddyn 1862; a daw allan yn fisol, a'i bris yw ceiniog. Cyhoeddir ac argrephir ef gan y Meistri Spurrell a'i Fab, Caertyrddin. Ei olygydd ydyw y Canon W. Evans, Rhymni; ac er mai at wasanaeth arbenig yr Ysgol Sabbothol y cyhoeddir ef, rhoddir un rhan o hono i wasanaethu dirwest; a golygydd y rhan hono ydyw y Parch. J. P. Lewis, o Gresford, ger Gwrecsam.

*Yr Arweinydd*, 1862, 1876.—Cychwynwyd y cyhoeddiad misol hwn—y gyfres gyntaf—yn nechreu y flwyddyn 1862, o dan olygiaeth y Parchn. Griffith Davies, Aberteifi, a Thomas Edwards, Penllwyn. Cyhoeddwyd ac argraphwyd ef gan Mr. Phylip Williams, Aberystwyth. Ceiniog a dimai ydoedd ei bris ar y cyntaf; ond ar addewid y cyfarfod misol i dalu am gyhoeddiad y cofnodion, gostyngwyd ef i geiniog; ond rhoddwyd ef i fyny ar ddiwedd ei drydedd flwyddyn. Yn Ionawr, 1876, cychwynwyd yr ail gyfres o hono, dan olygiaeth y Parch. Llewelyn Edwards, Aberystwyth. Amcenid iddo fod at wasanaeth eglwysi ac Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid Calvinaidd yn Ngogledd a Deheu Ceredigion. Cyhoeddid ac argrephid ef, dros y ddau gyfarfod misol (Gogledd a Deheu Aberteifi), gan Mrs. Emma C. Williams, Great Darkgate street, Aberystwyth. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog; ond i lawr yr aeth, fel pob peth.

*Yr Athraw a'r Ymwelydd*, 1864.—Yn Ebrill, 1864, y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn; a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. John D. Jones a'i Gwmni, Bangor. Deuai allan yn fisol, a chynnwysai pob rhifyn ddeuddeg-ar-hugain o dudalenau; ond ni ddaeth mwy na phedwar rhifyn o hono allan.

*Cylchgrawn yr Ysgol Sabbothol*, 1875.—Daeth y rhifyn cyntaf allan yn Mawrth; a chychwynwyd ef gan y Parch. J. R. Hughes, Brynteg, Môn; ac efe oedd yn ei olygu; ac argrephid ef gan Mr. Lewis Jones, Llanerchymedd. Deuai allan yn wythnosol, a'i bris ydoedd dimai; ond oes fer a gafodd.

*Cronicl yr Ysgol Sabbothol*, 1878.—Yn Ionawr, 1878, y cychwynwyd hwn gan y Parchn. John Evans, Garston, a John Jones, 469, West Derby road, Liverpool (Runcorn gynt), a hwy oeddynt yn ei olygu; ac argrephid ef gan Mr. D. H. Jones, Dolgellau. Ymneillduodd y ddau olygydd cyn diwedd dwy flynedd; a threfnwyd fod i'r Parch. D. C. Edwards, Merthyr Tydfil (o'r Bala gynt), ymgymmeryd â'r olygiaeth. Ar ol ei olygu am ysbaid, rhoddodd yntau yr olygiaeth i fyny, a bu y cyhoeddiad am ychydig amser heb un golygydd neillduol i ofalu am dano; a chredwn mai y rhifyn am Chwefror, 1884, oedd

Digitized by Google

yr olaf a ddaeth allan. Cyhoeddid ef yn fisol, a dwy geiniog oedd ei bris.

*Yr Ysgol*, 1880.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1880, gan y Parchedigion John Evans, Garston, a John Jones, Liverpool (Runcorn gynt), a hwy oeddynt yn ei olygu; ac argraphwyd ef gan Mri. P. M. Evans a'i Fab, Treffynnon. Deuai allai yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog; ond ymddengys mai y rhifyn am Mawrth, 1881, oedd yr olaf o hono a gyhoeddwyd.

*Y Llusern*, 1883.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn (yn benaf, dan nawdd cyfarfod misol Môn), yn Tachwedd, 1883, o dan olygiaeth y Parchn. D. Charles Evans, Porthaethwy (yr adeg hono), a W. Pritchard, Pentraeth; ac argrephid ef gan Mr. D. W. Davies, Caernarfon; ond daeth i gael ei argraphu gan Gwmni y Wasg Genedlaethol Gymreig (cyf.), yn Caernarfon. Daeth allan yn 1889, yn fisol; a'i bris yw ceiniog. Yn nechreu ymgymmerwyd â'r olygiaeth gan y Parchn. R. Humphreys, Bontnewydd, a John Williams, Liverpool (Brynsiencyn gynt).

*Y Lladmerydd*, 1885.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1885, o dan olygiaeth y Parchn. J. Morgan Jones, Caerdydd, ac Evan Davies, Trefriw; a gofelir am ychydig gerddoriaeth a roddir ar ddiwedd pob rhifyn gan Mr. D. Jenkins, Aberystwyth; ac argrephir ef, o'r dechreu, gan Mr. E. W. Evans, Dolgellau. Ei bris ydyw ceiniog, a daw allan yn fisol.

*Yr Addysgydd*, 1891.—Daeth allan y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad misol hwn yn Rhagfyr, 1891, dan olygiaeth y Parch. T. Manuel, Corris, ac argrephir ef gan Mr. D. Davies-Williams, cyhoeddwr, Machynlleth. Cychwynwyd ef, yn benaf, ar gyfer meusydd llafur Ysgolion Sabbothol y Wesleyaid yn Nhalaeth Deheudir Cymru. Ei bris ydoedd ceiniog.

*Y Cydymaith*, 1894.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ebrill, 1894, dan olygiaeth y Parchn. David Roberts, Rhiw, ac R. J. Williams, Blaenau Ffestiniog; ac argrephid ef gan Mr. W. Lloyd Roberts, Blaenau Ffestiniog. Daeth allan er gwasanaethu Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid Calvinaidd yn nosbarth Ffestiniog. Daw allan yn fisol, a'i bris ydyw ceiniog. Hefyd, y mae *Seren yr Ysgol Sul*—cyhoeddiad yn mhlith y Bedyddwyr, dan olygiaeth y Parch. B. Humphreys, Felinfoel, yn gweithio at wasanaeth yr Ysgol Sabbothol.

### VII. Cylchgronau Dirwestol.

*Y Cymmedrolydd*, 1836.—Cychwynwyd hwn yn gynnar yn y flwyddyn 1836, dan olygiaeth y Parch. Owen Jones (*Meudwy Môn*), Llandudno; a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. T. Gee, Dinbych. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd ceiniog; ond o ddeutu wyth rhifyn yn unig o hono a ddaeth allan.

*Y Dirwestydd*, 1836.—Cychwynwyd hwn yn y flwyddyn 1836, gan Mr. John Jones, Liverpool, ac efe oedd yn ei gyhoeddi hefyd. Ei bris ydoedd ceiniog, a deuai allan yn fisol; ond am o ddeutu tair blynedd y daeth allan.

*Y Cerbyd Dirwestol*, 1887.—Yn nechreu y flwyddyn 1837 y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn gan y Parch. Owen Jones (*Meudwy Môn*), ac efe hefyd oedd yn ei olygu; ac argrephid ef gan y Mri. H. ac O. Jones, Wyddgrug. Misol ydoedd, a'i bris yn geiniog; ond ni pharhaodd yn hwy na diwedd y flwyddyn gyntaf.

*Yr Adolygydd*, 1839.—Cychwynwyd y cylchgrawn hwn yn y flwyddyn 1839, gan y Parch. W. Williams (*Caledfryn*), Caernarfon, ac efe hefyd oedd yn ei olygu; ond am ennyd fer y parhaodd.

*Y Dirwestwr*, neu *Yr Hanesydd Rechabaidd*, 1840.—Yn Awst, 1840, y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, o dan nawdd ac awdurdod Cymmanfa Ddirwestol Gwynedd; a byddai yn cael ei olygu a'i argraphu gan Mr. Richard Jones, Dolgellau. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd tair ceiniog; ond rhoddwyd ef i fyny o ddeutu dwy flynedd ar ol ei gychwyniad.

*Y Dirwestydd Deheuol*, 1840.—Cychwynwyd hwn yn y flwyddyn 1840, gan Mr. B. R. Rees, Llanelli; ac efe, hefyd, fyddai yn ei ddwyn allan. Deuai allan yn fisol, ond am ychydig y parhaodd.

*Y Canor Dirwestol*, 1844.—Yn y flwyddyn 1844 y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, gan y Parch. D. T. Williams (*Tydfilyn*), o Ferthyr Tydfil; ac efe oedd yn ei olygu, ac yn gyfrifol am dano; ond ychydig rifynau yn unig a ddaeth allan o hono.

*Udgorn Dirwest*, 1850.—Daeth y cyhoeddiad hwn allan yn y flwyddyn 1850, a chyhoeddid ef gan Mr. Robert Jones, argraphydd, Bethesda: Deuai allan yn fisol, ond ni chyhoeddwyd mwy nag o ddeutu wyth rhifyn o hono. Ail gychwynwyd ef gan Mr. Owen Jones, Caernarfon, dan yr enw newydd *Yr Athraw*, a'i bris ydoedd dwy geiniog; ond buan y ciliodd.

*Y Temlydd Cymreig*, 1873.—Cychwynwyd hwn yn Mawrth, 1873, gan Mr. John Davies (*Gwyneddon*), Caernarfon; ac efe ydoedd yn ei gyhoeddi ac yn ei olygu. Trosglwyddwyd ef, ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, yn eiddo i'r Uwch Deml Gymreig; a bellach, dan nawdd y Deml y cyhoeddid ef, ac argrephid ef gan Mr. D. W. Davies, Caernarfon. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd ceiniog; ond ni pharhaodd i ddyfod allan yn y ffurf oedd arno yn hwy nag o ddeutu diwedd y flwyddyn 1878. Yna, ar ddechreu y flwyddyn 1879, dygwyd ef allan mewn ffurf arall, o dan yr enw *Y Dyngarwr*.

*Y Dyngarwr*, 1879.—Yn Ionawr, 1879, y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, dan nawdd ac awdurdod Uwch Deml Gymreig Cymru; a golygwyd ef gan y Parch. W. Gwyddno Roberts, Llanystumdwy. Argrephid ef gan Mr. D. W. Davies, Caernarfon. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog. Bu o dan yr un olygiaeth hyd Ebrill, 1880, pryd y bu Mr. Roberts farw yn lled sydyn: a gyda'r rhifyn am Mehefin, 1880, ceir fod y Parch. W. Jones, Fourcrosses, yn dechreu ei olygu; a pharhaodd yn olygydd hyd Ebrill, 1887; ac yna, dilynwyd ef gan y Parch. J. Evans-Owen, Llanberis. Ond prin ddwy flynedd yn hwy y daliodd *Y Dyngarwr* i ddyfod allan.

*Cronicl Dirwestol Cymru*, 1891.—Daeth allan y cynllun-rifyn o'r cyhoeddiad hwn yn Medi, 1890; ond yn Mehefin, 1891, y dechreuodd ddyfod allan yn rheolaidd. Ar y cyntaf, byddai yn ddwy-ieithog—hanner-yn-hanner—a gelwid ef ar yr enw *The Cambrian Temperance Chronicle*, yn o gystal a'r enw *Cronicl Dirwestol Cymru*; ond yn Tachwedd, 1892, daeth yn gwbl Gymraeg. Deuai allan yn fisol, a'i bris yn geiniog. Cyhoeddid ef dan nawdd Cymmanfa Ddirwestol y Deheudir, a Rechabiaid Gwent a Morganwg. Golygwyd ef gan Mr. Daniel Thomas, Church villa, Rhymni; ac argrephid ef ar y dechreu gan Mr. Edwin Poole, Aberhonddu; ond ar ol hyny, gan Mr. Joseph Williams, o Ferthyr Tydfil.

Digitized by Google

VIII. Cylchgronau i'r Plant.

*Yr Addysgydd*, 1823.—Daeth y cyhoeddiad hwn allan yn Ionawr, 1823; a bernir yn lled gyffredinol, erbyn hyn, er nad enwir ef ar y wyneb-ddalen, mai y Parchedig David Charles, ieu., Caerfyrddin, ydoedd y golygydd; ac argraphwyd ef gan Mr. John Evans, Caerfyrddin. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog; a cheid darlun bychan yn mhob rhifyn. Mesuriad ei arwyneb oedd pedair modfedd a hanner wrth dair, a chynnwysai ddeuddeg tudalen. Rhoddwyd ef i fyny ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

*Y Drysorfa Fach*, 1826.—Daeth y cylchgrawn hwn allan yn y fl. 1826. Cychwynwyd ef gan y Parch. Richard Newell, Plas bach, Meifod, a Mr. Morris Davies, Bangor. Byddai Mr. Davies yn ei olygu, a Mr. Newell yn gofalu am ei gyssylltiadau arianol. Cyhoeddid ef yn fisol, a'i bris ydoedd ceiniog; a pharhaodd i ddyfod allan am bedair blynedd. Barna rhai mai hwn ydoedd y cyhoeddiad lleiaf mewn maintioli a gyhoeddwyd erioed yn Gymraeg, gan nad oedd ei fesuriad ond pedair modfedd wrth ddwy a hanner; a digon tebyg, wrth gymmeryd pob peth i'r cyfrif, mai hwn ydoedd y cyhoeddiad misol hollol uniongyrchol cyntaf erioed i blant Cymru.

*Trysor i Blentyn*, 1826.—Yn y flwyddyn 1826, o dan nawdd y cyfundeb Wesleyaidd, y daeth y cyhoeddiad hwn allan, a pharhaodd i ymddangos hyd y fl. 1842. Golygwyd ac argrephid ef gan yr un personau ag oedd yn golygu ac yn argraphu *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* am y blynyddoedd hyny; y rhai a enwyd yn barod yn ein cyfeiriad at y cylchgrawn hwnw. Daeth allan yn fisol, a'i bris oedd ceiniog.

*Yr Athraw*, 1827.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan yn Ionawr, 1827, o dan olygiad y Parchn. J. Edwards, Glynceiriog; R. Williams, Rhuthyn; J. Pritchard, D.D., Llangollen; ac Ellis Evans, Cefn Mawr. Ond ar ol hyny, chwanegwyd y Parchn. E. Roberts, D.D., Pont-y-pridd, a J. R. Williams, Ystrad Rhondda, at yr olygiaeth. Yn Ionawr, 1875, darfu i'r Parch. J. Pritchard, D.D., drosglwyddo ei ofal, yn dair rhan, i'r Parchn. E. Roberts, J. Rufus Williams, ac Owen Davies, Caernarfon. Ar ol o ddeutu dwy flynedd, ymneillduodd yr olaf a enwyd; a throsglwyddwyd ei ran ef i ofal y Parch. Charles Davies, Caerdydd. Ar farwolaeth y Parch. J. Rufus Williams, cymmerwyd ei le gan y Parch. Hugh Williams, Nant-y-glô; ac yn awr, efe yn unig sydd yn parhau i'w olygu. Argrephid ef, am y pedair blynedd ar bymtheg cyntaf, gan Mr. John Jones, Llanrwst; ac yn Ebrill, 1846, symmudwyd ef i ddwylaw Mr. W. Williams, Llangollen; ac o'r pryd hwnw hyd yn awr, daw allan o'r un swyddfa: a dylid hysbysu mai Mr. Williams, ei gyhoeddwr, yw ei unig berchenog er y fl. 1875.

*Y Tywysydd*, 1836; *Y Tywysydd a'r Gymraes*, 1852.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn 1836, o dan olygiaeth y Parch. D. Davies, Pant teg; ac argraphwyd ef gan Mr. B. R. Rees, Llanelli. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd ceiniog. Yr oedd ei gylchrediad, yn benaf, yn mhlith plant teuluoedd yr Annibynwyr yn y Deheudir. Bu, ar wahanol adegau, o dan olygiaeth y Parchn. David Rees, Llanelli; T. Davies, Llandeilo; a T. Davies, Llanelli. Yn y fl. 1872, ymgymmerwyd â'r olygiaeth gan y Parch. T. Johns, Llanelli; ac yn ei ofal ef y mae pan yr ydym yn ysgrifenu. Yn Ionawr, 1852, unwyd *Y Gymraes* â'r *Tywysydd*; a daeth y ddau allan fel un cyhoeddiad, o dan yr enw newydd *Y Tywysydd a'r Gymraes*, o dan olygiaeth, ar y pryd, y Parchn. Evan Jones (*Ieuan Gwynedd*), a D. Rees, Llanelli.

*Y Winllan*, 1848, 1865.—Daeth y cyhoeddiad hwn allan, dan nawdd ac awdurdod y cyfundeb Wesleyaidd, yn y fl. 1848; a chychwynwyd ef er bod o wasanaeth i blant y cyfundeb hwnw. Argrephid ef, o'r dechreu hyd Hydref, 1875, gan Mr. J. Mendus Jones, Bangor; ac o hyny hyd yn bresennol, gan Mr. Sam. Hughes, York Place, Bangor. Bydd ei olygwyr yn newid tua bob dwy neu dair blynedd, a bu ei olygwyr yn lliosog; yn mysg pa rai yr oedd y Parchn. Thomas Jones, D.D., Richard Pritchard, W. Davies, D.D., Samuel Davies, Henry Parry, &c., &c. Daw allan yn fisol, a'i bris ydyw ceiniog.

Yn Ionawr, 1865, cychwynwyd cyhoeddiad arall dan yr enw *Y Winllan*, yn dal cyssylltiad, yn benaf, â phlant ac ieuengctyd y Bedyddwyr yn y Deheudir. Daeth allan o dan olygiaeth y Parchn. Edward Evans, Dowlais, a J. Emlyn Jones; ac argrephid ef gan Mr. D. J. Thomas, Aberdâr. Ei bris oedd ceiniog, a deuai allan yn fisol; ond o ddeutu blwyddyn y parhaodd.

*Baner y Groes*, 1854.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1854, dan nawdd yr Eglwys Sefydledig, dan olygiaeth y Parch. John Williams (*Ab Ithel*); ac argraphwyd ef, am y flwyddyn gyntaf, gan Mr. W. Morris, Treffynnon. Ond yn Ionawr, 1855, symmudwyd ef i gael ei gyhoeddi a'i argraphu gan Mr. R. I. Jones (*Alltud Eifion*), Tremadog; ond yn parhau o dan olygiaeth Ab Ithel. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd ceiniog; a pharhaodd i gael ei gyhoeddi hyd ddiwedd y fl. 1856—pan y rhoddwyd ef i fyny. Darfu i Alltud Eifion, modd bynag, ei ail gychwyn drachefn, yn y fl. 1870, ar ei gyfrifoldeb ei hun, a gweithredai fel cyhoeddydd a golygydd iddo. Parhaodd i ddyfod allan y tro hwn hyd ddiwedd y fl. 1875, pan y rhoddwyd ef i fyny.

*Yr Oenig*, 1854.—Yn Ionawr, 1854, y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, dan olygiaeth y Parchn. D. Phillips, Abertawe, a Thomas Levi, Ystradgynlais (Aberystwyth yn awr). Argraphwyd ef gan Mri. Rosser a Williams, Heol Fawr, Abertawe. Daeth allan yn fisol, a'i bris oedd dwy geiniog. Parhawyd i'w gyhoeddi hyd ddiwedd y fl. 1856.

*Telyn y Plant*, 1859.—Daeth y cyhoeddiad hwn allan yn Mai, 1859, at wasanaeth y Gobeithluoedd, o dan olygiaeth y Parchn. T. Levi, Aberystwyth, a John Roberts (*Ieuan Gwyllt*), Fron, ger Caernarfon. Argrephid ef gan Mr. Rees Lewis, Merthyr Tydfil. Ei bris ydoedd ceiniog, a daeth allan yn fisol; ond rhoddwyd ef i fyny yn Rhagfyr, 1861, yn ffafr cychwyniad *Trysorfa y Plant*.

*Baner y Plant*, 1861; *Baner y Teulu*, 1862; *Baner y Plant*, 1889.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn gyntaf yn y fl. 1861, gan y Parch. T. Davies, Dolgellau; ac argrephid ef gan Mr. E. Williams, Aberystwyth. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd ceiniog. Newidiwyd ei enw ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf, a galwyd ef yn *Baner y Teulu*; ond ni chyhoeddwyd o hono ond ychydig rifynau. Cafodd cyhoeddiad arall, o'r enw *Baner y Plant*, ei gychwyn yn Medi, 1889, gan y Parch. Z. Mather, Abermaw, o dan

Digitized by Google

ei olygiaeth ef; ac argrephir ef gan y Meistri Edmunds a Matthias, Corwen. Ei bris ydyw ceiniog, a daw allan yn fisol.

*Trysorfa y Plant*, 1862.—Yn Ionawr, 1862, dan nawdd ac awdurdod y Methodistiaid Calvinaidd, y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, o dan olygiaeth y Parch. T. Levi, Aberystwyth; ac argrephir ef gan y Mri. P. M. Evans a'i Fab, Treffynnon. Daw allan yn fisol, a'i bris ydyw ceiniog. O'r cychwyniad hyd yn bresennol, parhâ o dan ofal yr un golygydd; ac y mae yn cael ei argraphu yn yr un swyddfa.

*Llyfr y Plant*, 1862.—Daeth y rhifyn cyntaf allan yn Mawrth, 1862, dan olygiaeth y Parchn. J. Jones, Blaenllechau (yr hwn a barhaodd hyd Ionawr, 1863), ac A. J. Parry, Cefn mawr. Yn Ebrill, 1863, ymgymmerodd y Parch. Evan Jones, Llanfair-caereinion, â'r olygiaeth, yn lle Mr. Jones; a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. Wm. Williams, o Langollen. Cyhoeddiad chwarterol oedd, a'i bris yn ddimai; ac amcenid ef, yn benaf, i blant teuluoedd y Bedyddwyr; ond ni pharhaodd yn hwy nag Ebrill, 1864.

*Dysgedydd y Plant*, 1871.—Cychwynwyd ef yn Ionawr, 1871, dan olygiaeth y Parch. David Griffith, Dolgellau; ac argraphwyd ef gan Mr. W. Hughes, Dolgellau. Ceiniog ydyw ei bris, a daw allan yn fisol. Parhaodd y Parch. David Griffith i'w olygu hyd ddiwedd y fl. 1878; ac yna, bu am dymmor heb neb, yn arbenig, yn ei olygu. Yn Ionawr, 1889, unwyd *Cydymaith yr Ysgol Sul* âg ef, ac ymgymmerwyd â'r olygiaeth gan y Parchn. D. Silyn Evans, Aberdâr, ac Owen Jones, Mountain Ash; ond darfu i Mr. Jones ymneillduo o'r olygiaeth yn y fl. 1890.

*Y Ffenestr*, 1873.—Yn Ionawr, 1873, y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, o dan olygiaeth y Parchn. Wm. Morris, Treorci, ac O. Waldo James, Aberafon. Argrephid ef, ar y dechreu, gan Mr. D. Griffiths, Cwmafon; ac wedi hyny, gan Mr. D. Davies, Treorci. Ceiniog oedd ei bris, a deuai allan yn fisol; a pharhaodd am o ddeutu dwy flynedd.

*Cydymaith y Plentyn*, 1876.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan yn Ionawr, 1876, a chychwynwyd ac argrephid ef gan Mr. T. Davies, Pont-y-pridd. Efe oedd yn ei olygu hefyd hyd Mai, 1877, pan yr ymgymmerwyd â'r olygiaeth hyd Mehefin, 1879, gan y Parch. B. Davies, Pont-y-pridd; ac oddi ar hyny yn mlaen, gan y Meistri Thomas a Hugh Davies, Pont-y-pridd. Misol oedd, a'i bris yn geiniog; ond am ychydig y parhaodd.

*Cyfaill y Plant*, 1879, ac 1890.—Cychwynwyd hwn yn y fl. 1879, gan y Mri. Pearson, o Liverpool; ond ni ddaeth mwy nag o ddeutu dau rifyn o hono allan. Yn Ionawr, 1890, cafodd cyhoeddiad arall dan yr un enw ei gynnyg, dan olygiaeth Mr. R. O. Hughes (*Elfyn*), o Blaenau Ffestiniog; ac argrephid ef gan Mr. W. Lloyd Roberts, Blaenau Ffestiniog. Ei bris ydoedd ceiniog, a deuai allan yn fisol; ond rhoddwyd ef i fyny ar ol i ychydig rifynau ymddangos.

*Athrofa y Plant*, 1881.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y fl. 1881, o dan olygiaeth y Parch. Evan Roberts, o Ddolgellau (Caernarfon gynt); a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. John Evans, Caernarfon. Ei bris oedd ceiniog. Deuai allan yn fisol, ond ni pharhaodd yn hwy nag o ddeutu canol y fl. 1883.

*Yr Hauwr*, 1890.—Yn y flwyddyn 1890 y daeth hwn allan. Cychwynwyd ef gan nifer o frodyr perthynol i enwad y Bedyddwyr; a golygir ef gan y Parch. W. Edwards, o Bont-y-pool. Argrephir ef gan Mr. Jenkin Howell, Aberdâr. Misol ydyw, a'i bris yn geiniog.

*Cymru'r Plant*, 1892.—Yn Ionawr, 1892, y daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan. Cychwynwyd ef gan Mr. Owen M. Edwards, Rhydychain; a Mr. Edwards, hefyd, sydd yn ei olygu. Argrephid ef, ar y cychwyn, gan Gwmni y Wasg Genedlaethol Gymreig, Caernarfon; ond yn Gorphenaf, 1894, cafodd ei symmud i swyddfa y Meistri Hughes a'i Fab, Gwrecsam. Daw allan yn fisol, a'i bris ydyw ceiniog.

IX. Cylchgronau Cyffredinol.

*Trysorfa Gwybodaeth* neu *Eurgrawn Cymraeg*, 1770.—Gan fyned heibio i'r mân lyfrau boreuol a gyhoeddwyd, o dro i dro, nad ellir yn briodol eu galw yn gyfnodolion, gellir dywedyd mai gyda chychwyniad *Yr Eurgrawn Cymraeg*, yn y flwyddyn 1770, y bernir yn gyffredin fod cyfnod cysson a rheolaidd ein cylchgronau Cymreig yn dechreu. Daeth y rhifyn cyntaf o hono allan ar ddydd Sadwrn, Mawrth 3ydd, 1770; a'r prif olygydd ydoedd y Parch. Peter Williams (yr Esboniwr), o Gaerfyrddin, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. Josiah Rees, o Gelli Onen, gyda Mr. Evan Thomas, argraphydd, o Gaerfyrddin. Cyhoeddwyd ac argraphwyd ef gan Mr. Ioan Ross, o Gaerfyrddin. Deuai allan bob pythefnos, a'i bris ydoedd tair ceiniog. Cynnwysai pob rhan ddeuddeg-ar-hugain o dudalenau wythplyg bychain; ond ni ddaeth allan o hono fwy na phymtheg rhifyn; sef, o'r un am Mawrth 3ydd, 1770, hyd yr un am Medi 15fed, 1770.

*Y Cylchgrawn Cymraeg*, 1793.—Yn Chwefror, 1793, y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, dan olygiaeth, yn benaf, y Parch. Morgan John Rhys, neu fel y gelwid ef gan lawer *Morgan ab Ioan Rhys*. Pum rhifyn a ddaeth allan o hono. Argraphwyd y pedwar rhifyn cyntaf yn Nhrefecca; ac argraphwyd y rhifyn olaf gan y Mri. Ross a Daniel, o Gaerfyrddin. Ei bris oedd chwe cheiniog.

*Y Geirgrawn, neu Drysorfa Gwybodaeth*, 1796.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Chwefror, 1796, dan olygiaeth y Parch. David Davies, Treffynnon (gynt o'r Fenni); ac argraphwyd ef gan Mr. W. Minshull, Caerlleon. Cynnwysai pob rhifyn o ddeutu deuddeg ar hugain o dudalenau; a'i bris oedd pedair ceiniog. Deuai allan yn fisol; ond ni chyhoeddwyd mwy na naw rhifyn o hono; a'r rhifyn am Hydref, 1796, oedd yr olaf a ymddangosodd.

*Eurgrawn Môn, neu Drysorfa Hanesyddawl*, 1825.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan Ionawr 31ain, 1825. Cychwynwyd ef gan Mr. Robert Roberts, Caergybi; ac efe, hefyd, ydoedd yn ei olygu, ac yn ei argraphu. Byddai o ddeutu pedair ar hugain o dudalenau yn mhob rhifyn; a'i bris ydoedd pedair-ceiniog a-dimai. Ond yn Ionawr, 1826, gostyngwyd ef i dair ceiniog; ac ni ddaeth chwaneg nag un ar hugain o rifynau allan o hono.

*Yr Odydd Cymreig*, 1831.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y flwyddyn 1831, gan Mr. John Davies (*Brychan*), Merthyr Tydfil; ac efe oedd yn ei gyhoeddi ac yn ei olygu hefyd; ond rhoddwyd ef i fyny yn fuan.

*Y Sylwedydd*, 1831.—Daeth hwn allan yn y flwyddyn 1831, dan olygiaeth y Parch. W. Williams (*Caledfryn*); ac efe, yn benaf, a ddarfu ei gychwyn. Argraphwyd ef, i ddechreu, yn Llanerchymedd; ac yna, symmudwyd ef i Gaer-

Digitized by Google

fyrddin; ond rhoddwyd ef i fyny o ddeutu dwy flynedd ar ol ei gychwyniad.

*Tywysog Cymru*, 1832.—Daeth allan y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn yn Mai, 1832, dan olygiaeth Mr. John W. Thomas (*Arfonwyson*), Bangor; ac argrephid ef gan y Mri. W. Potter a'i Gyf., o Gaernarfon. Ei bris ydoedd pedair ceiniog; a deuai allan yn fisol. Parhaodd i ddyfod allan am ychydig dros ddwy flynedd.

*Y Gwladgarwr*, 1833, 1843.—Yn Ionawr, 1833, cychwynwyd y cyhoeddiad hwn dan olygiaeth y Parch. Evan Evans (*Ieuan Glan Geirionydd*). Argraphwyd ef gan Mr. John Seacome, Caerlleon; a hwy eu dau oeddynt dan y cyfrifoldeb arianol ynglŷn âg ef. Deuai allan yn fisol; a'i bris oedd chwe cheiniog. Parhaodd cyssylltiad Ieuan Glan Geirionydd âg ef am dair blynedd. Prynwyd yr hawl-ysgrif, yn y flwyddyn 1836, gan Mr. Edward Parry, argraphydd, Caerlleon; a golygid ef gan Mr. Hugh Jones (*Erfyl*). Yn y flwyddyn 1841, dechreuodd y cylchgrawn wanhau; a gwerthwyd ef drachefn i Mr. R. Lloyd Morris, cyhoeddwr, Tithebarn Street, Liverpool; ond bu raid ei roddi i fyny yn gwbl, a hyny yn fuan. Cychwynwyd, yn y fl. 1843, gyhoeddiad arall dan yr un enw, gan Mr. J. Mendus Jones, Llanidloes; yr hwn, hefyd, oedd yn ei olygu, ac yn ei argraphu. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd dwy geiniog; ond am prin flwyddyn y parhaodd.

*Trysorfa Rhyfeddodau*, 1833.—Daeth allan y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1833; a chychwynwyd ef gan Mr. Richard Jones, Dolgellau; ac efe hefyd, yn benaf, oedd yn ei olygu, ac yn ei argraphu. Misol ydoedd, a'i bris yn chwe cheiniog; ond buan y rhoddwyd ef i fyny.

*Cylchgrawn y Gymdeithas er taenu Gwybodaeth Fuddiol*, 1834. — Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1834, dan olygiaeth y Parch. John Blackwell (*Alun*); a chyhoeddwyd ef gan y Meistri D. R. a W. Rees, Llanymddyfri. Ei bris ydoedd chwe cheiniog. Deuai allan o'r wasg, ar y dechreu, ar y pymthegfed dydd o'r mis; ond, ar ol y flwyddyn gyntaf, cyhoeddid ef ar y dydd cyntaf o bob mis. Ni chyhoeddwyd o hono ond deunaw rhifyn.

*Y Wenynen*, 1835.—Daeth y cyhoeddiad hwn allan yn Hydref, 1835. Cychwynwyd ef gan y Parch. T. Jones (*Glan Alun*), Wyddgrug, ac efe hefyd oedd yn ei olygu; ac argraphwyd ef gan Mr. R. Hughes, Heol yr eglwys, Gwrecsam. Deuai allan yn fisol, a'i bris ydoedd tair ceiniog. Prin y parhaodd i ddyfod allan am flwyddyn; a thebyg iddo derfynu gyda y rhifyn am Medi, 1836.

*Yr Athraw*, 1836.—Yn Ionawr, 1836, y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, gan y Parch. Humphrey Gwalchmai, Croesoswallt; yr hwn, hefyd, oedd yn ei olygu. Argraphwyd ef gan Mr. John Jones, Albion-wasg, Llanidloes. Deuai allan yn fisol; a'i bris ydoedd chwe cheiniog. Ceir, yn nechreu y flwyddyn 1844, fod y Parch. Humphrey Gwalchmai wedi trosglwyddo yr olygiaeth i'r Parch. John Foulkes, o Abergele (Rhuthyn wedi hyny); ond ymddengys na pharhaodd i ddyfod allan yn hwy na hâf y flwyddyn 1844.

*Tarian Rhyddid, a Dymchwelydd Gormes*, 1839.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan ar Ionawr 1af, 1839, dan olygiaeth y Parchn. W. Rees (*Hiraethog*); Hugh Pugh, Mostyn; a D. Price, Dinbych; ac argrephid ef gan Mr. J. Jones, Llanrwst. Ei bris oedd dwy geiniog, a deuai allan yn fisol; ac ymddengys mai y rhifyn am Awst, 1839, oedd yr olaf o hono a ddaeth allan.

*Y Cronicl*, 1843.—Cychwynwyd hwn yn Mai, 1843, gan y Parch. Samuel Roberts, Llanbrynmair (Conwy ar ol hyny), yr hwn a adnabyddid amlaf fel 'S.R.' Efe, hefyd, oedd yn ei olygu o'r cychwyn hyd ei fynediad i'r America, yn y flwyddyn 1857, pan yr ymgymmerwyd â'r olygiaeth gan ei frawd, sef y Parch. John Roberts 'J.R.', Conwy, yr hwn a barhaodd i'w olygu hyd Awst, 1884—pan y bu farw. Yna, ar ol dychwelyd adref, darfu i S. R. ail gymmeryd yr olygiaeth; a pharhaodd yntau i'w olygu hyd ei farwolaeth, yn Medi, 1885. Ymgymmerwyd â'r olygiaeth, ar ol hyny, gan y Parchn. M. D. Jones, o'r Bala, a W. Keinion Thomas, Llanfairfechan. Argraphwyd ef, oddi ar ei gychwyniad hyd y flwyddyn 1864, gan Mr. Evan Jones, Dolgellau; ac yna, o'r flwyddyn 1864 hyd y flwyddyn 1872, argraphwyd ef gan Mr. W. Hughes, Dolgellau. Wedi hyny bu yn cael ei argraphu gan y Meistri Jones ac Evans, Blaenau Ffestiniog. Bu Mr. H. Evans, Bala, ar ol hyny, yn ei argraphu; ac yn nechreu y flwyddyn 1890, daeth i gael ei argraphu gan Mr. Samuel Hughes, cyhoeddwr, o Fangor. Daeth allan yn fisol, a'i bris ar ei gychwyniad oedd ceiniog; ond yn y flwyddyn 1874, helaethwyd ef, a newidiwyd ei ddiwyg yn hollol; a chyda dechreuad y gyfres newydd hon, codwyd ei bris i ddwy geiniog.

*Y Cwmwl*, 1843.—Yn y flwyddyn 1843 y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, gan gwmni neillduol yn Aberystwyth, gyda'r Meistri Joseph Roberts, dilledydd, Aberystwyth, a John Jones (*Ivon*), o'r un lle, fel ysgrifenyddion i'r symmudiad. Golygid ef gan Mr. Robert Jones (*Adda Fras*); ac argraphwyd ef gan Mr. E. Williams, o Aberystwyth. Deuai allan yn fisol; a'i bris oedd tair ceiniog; ond am ychydig o amser y parhaodd.

*Yr Oes*, 1843.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y flwyddyn 1843, a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. D. Jenkins, Aberystwyth. Deuai allan yn fisol; a'i bris ydoedd ceiniog; ond am o ddeutu chwe mis y parhaodd.

*Tŵr Gwalia*, 1843.—Daeth allan y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1843; a chychwynwyd ef gan y Meistri Isaac Harding Harris, a Walter W. Jones, o Fangor. Hwy oedd yn ei olygu; ac argraphwyd ef gan Mr. Robert Jones, cyhoeddwr, Bangor. Yn y rhifyn a ddaeth allan am Mawrth, 1843, ceir mai Mr. I. H. Harris, Bangor, ei hunan oedd yn ei olygu. Deuai allan yn fisol; a'i bris ydoedd tair ceiniog; ond ychydig o rifynau a ddaeth allan o hono.

*Yr Amaethydd*, 1845.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y flwyddyn 1845, dan olygiaeth y Parch. W. Williams (*Caledfryn*); a chyhoeddwyd ac argraphwyd ef gan Mr. James Rees, Caernarfon; ond dros ychydig amser y parhaodd i ymddangos.

*Y Golygydd*, neu *Ysgubell Cymru*, 1846.—Daeth y cyhoeddiad hwn allan yn Ionawr, 1846. Cychwynwyd ef gan y Parch. John Jones, o Ryd-y-bont; ac efe oedd yn ei olygu hefyd, ac yn ei argraphu. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd dwy geiniog; ond bu raid ei roddi i fyny o ddeutu diwedd ei flwyddyn gyntaf. Ymdrechwyd ei ail gychwyn yn y flwyddyn 1850 gan yr un person—ond yn ofer.

Digitized by Google

*Yr Amaethwr*, 1851.—Cychwynwyd y cylchgrawn hwn yn y flwyddyn 1851, gan Mr. William Owen, Caerdydd; ac efe, hefyd, oedd yn ei olygu, ac yn ei gyhoeddi. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd dwy geiniog; ond rhoddwyd ef i fyny cyn hir.

*Y Gwerinwr*, 1855.—Yn Ebrill, 1855, y daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan; a golygid ef gan y Parch. John Thomas, D.D., Liverpool; ac argrephid ef gan Mr. J. Lloyd, cyhoeddwr, Liverpool. Misol ydoedd, a'i bris yn dair ceiniog; ond ni pharhaodd i ddyfod allan yn hwy na thua blwyddyn-a-hanner.

*Y Nofelydd, a Chydymaith y Bobl*, 1861.—Daeth y cyhoeddiad hwn allan yn Ionawr, 1861; a chychwynwyd ef gan Mr. W. Aubrey, Llanerchymedd; ac efe, hefyd, oedd yn ei olygu, ac yn ei argraphu. Yn fisol y cyhoeddid ef, a'i bris yn geiniog; ond rhoddwyd ef i fyny cyn hir.

*Golud yr Oes*, 1862.—Yn Medi, 1862, y daeth hwn allan; a chychwynwyd ef gan Mr. Hugh Humphreys, o Gaernarfon; ac efe, hefyd, gan mwyaf, oedd yn ei olygu, ac yn ei argraphu. Ei bris oedd chwe cheiniog, a deuai allan yn fisol; ond y rhifyn am Rhagfyr, 1864, oedd yr olaf a ddaeth allan o hono.

*Y Symbylydd*, 1864.—Daeth allan y cyhoeddiad misol hwn yn Medi, 1864. Cychwynwyd ef gan y Parch. John Ogwen Jones, Rhyl; yr hwn, hefyd, ydoedd yn ei olygu; ac argrephid ef gan Mr. Clement Evans, 40, Mill street, Liverpool. Ei bris ydoedd ceiniog; ond terfynwyd ef gyda'r rhifyn am Mehefin, 1865.

*Aelwyd y Cymro*, 1865.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn hwn allan yn Ionawr, 1865; a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. Lewis Jones, argraphydd, Llanerchymedd. Ei bris ydoedd ceiniog, a deuai allan yn fisol; ond am dymhor byr y parhaodd.

*Y Medelwr Ieuanc*, 1871.—Yn Ionawr, 1871, daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan; a chychwynwyd ef gan gwmni perthynol i'r Bedyddwyr; ac argraphwyd ef gan Mr. Jenkin Howell, o Aberdâr. Cyhoeddwyd ef o dan olygiaeth bwrdd y cyfarwyddwyr, cynnwysedig o'r personau canlynol:—Parchn. Dr. Price, J. R. Morgan (*Lleurwg*), Thomas John, David Davies (*Dewi Dyfan*), J. Rufus Williams, a'r Meistri J. Ceiriog Hughes, ac E. G. Price, &c. Cyhoeddid ef yn fisol; ei bris oedd ceiniog; a pharhaodd i gael ei ddwyn allan am rai blynyddoedd.

*Gronicl Canol y Mis*, 1871.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, yn y flwyddyn 1871, gan y Parch. S. Roberts (*S.R.*), Conwy; ac argrephid ef gan Mr. R. E. Jones, cyhoeddwr, o Gonwy. Deuai allan ar ganol pob mis; ond am ychydig y parhaodd.

*Y Darlunydd*, 1876.—Daeth y cyhoeddiad misol hwn allan yn Ebrill, 1876, dan olygiaeth Mr. John Evans Jones, Caernarfon; ac argrephid ef gan Mr. John Evans, cyhoeddwr, Caernarfon. Ceid llawer o ddarluniau ynddo; a'i bris oedd ceiniog; ond ni pharhaodd i ddyfod allan yn hwy na diwedd y flwyddyn 1879.

*Y Ddraig Goch*, 1877.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn y flwyddyn 1877, yn benaf, gan y Parch. R. Mawddwy Jones, Dolwyddelen (o America yn awr). Efe oedd yn ei olygu hefyd; ac argrephid ef gan Mr. H. Evans, cyhoeddwr, Bala. Deuai allan yn fisol; a'i bris ydoedd ceiniog; ac am o ddeutu dwy flynedd y daeth allan.

*John Jones*, 1878.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn, o dan olygiaeth y Parch. E. Gurnos Jones, Porthcawl (o Dal-y-sarn gynt), yn y flwyddyn 1878; ac argrephid ef gan Mr. Peter M. Evans, Tal-y-sarn. Yn fisol y deuai allan; ac ychydig o rifynau o hono a gyhoeddwyd.

*Y Berllan Gymreig*, 1879.—Daeth allan y cylchgrawn misol hwn yn y flwyddyn 1879; a chychwynwyd ef gan y Parch. Richard Morgan, Aberdâr; ac efe ydoedd yn ei olygu ac yn ei gyhoeddi. Ychydig o hono a ddaeth allan.

*Y Ceidwadwr*, 1882.—Yn Mehefin, 1882, y cychwynwyd y cyhoeddiad hwn; a chyhoeddid ac argrephid ef gan Mr. J. Morris, Rhyl. Misol ydoedd, a'i bris yn geiniog. Ber fu ei oes.

*Briwsion i Bawb*, 1885.—Math o gylchgrawn wythnosol ydoedd hwn. Daeth ei rifyn cyntaf allan Rhagfyr 12fed, 1885; a chychwynwyd ef gan Mr. W. H. Jones, Turf square, Caernarfon; ac efe oedd yn ei olygu, ac yn ei argraphu hefyd. Ei bris oedd ceiniog; ond rhoddwyd ef i fyny tua dechreu y flwyddyn 1886.

*Efrydydd Phonographia*, neu *Gylchgrawn Llaw Fèr*, 1890.—Yn Ionawr, 1890, y cychwynwyd hwn, gan Mr. David W. Evans, Llanfyllin; ac efe, hefyd, sydd yn ei gyhoeddi ac yn ei olygu. Ymddengys mai pedair ceiniog y chwarter ydyw y tanysgrifiad tuag at ei gael yn wastad; a rhydd wybodaeth am wahanol fanylion cangen y Llaw Fèr.

*Yr Athronydd Cymreig*, 1890.—Yn Mawrth, 1890, y cychwynwyd hwn, gan y Parch. W. Evans (*Monwyson*), Wyddgrug, ar y pryd; ac efe, hefyd, oedd yn ei olygu. Argraphwyd ef gan Mr. Samuel Hughes, York place, Bangor. Deuai allan yn ddau-fisol; a'i bris oedd tair ceiniog. Yna symmudwyd ef, yn Ionawr, 1891, i'w argraphu i swyddfa Mr. W. Lloyd Roberts, Blaenau Ffestiniog.

*Y Cymreigydd*, 1890.—Daeth allan y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn Mai 30ain, 1890. Cychwynid ef gan Mr. W. J. Parry, Bethesda. Efe, yn benaf, oedd yn ei olygu. Argraphwyd ef gan Mr. J. F. Williams, Bethesda. Ond ni ddaeth allan o hono fwy na dau rifyn—y naill yn Mai, a'r llall yn Mehefin, 1890 Pris y rhifyn cyntaf oedd tair ceiniog, a phris yr ail oedd dwy geiniog.

*Cwrs y byd*, 1891.—Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn Ionawr, 1891, o dan olygiaeth y Parch. E. Pan Jones, Mostyn; ac argrephir ef gan y Meistri E. Rees a'i Feibion, Ystalyfera. Daw allan yn fisol; a'i bris yw dwy geiniog.

*Cymru*, 1891.—Daeth allan y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn Awst 15fed, 1891. Cychwynwyd ef gan Mr. O. M. Edwards, Rhydychain; ac efe, hefyd, sydd yn ei olygu. Argrephir ef, dros y golygydd, gan Gwmni y Wasg Genedlaethol Gymreig (cyf.), Caernarfon. Daw allan yn fisol, a'i bris ydyw chwe cheiniog.

*Cyfaill yr Aelwyd, a'r Frythones*, 1892.—Yn Ionawr, 1892, y daeth y cylchgrawn hwn allan yn ei ffurf diweddaraf, dan olygiaeth y Parch. H. Elved Lewis, o Lanelli, a Mr. T. C. Evans (*Cadrawd*), o Langynwyd; ac argrephid ef gan y Meistri D. Williams a'i Fab, Llanelli. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd tair ceiniog; ond rhoddwyd ef i fyny wedi i'r rhifyn am Rhagfyr, 1894 ymddangos.

*Y Mis*, 1892.—Daeth y rhifyn cyntaf o'r cyhoeddiad hwn allan ar Tachwedd 1af, 1892. Cychwynwyd ef gan y Parch. John Hughes, o Liverpool; ac efe, hefyd, oedd yn ei olygu; ac

Digitized by Google

argrephid ef gan Mr. W. W. Lloyd, 65, Low hill, Liverpool. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd dwy geiniog; ond y rhifyn am Chwefror, 1895, oedd yr olaf a ddaeth allan o hono.

Bellach, yr ydym yn terfynu; ac nid oes genym ond dadgan ein gofid os ydym wedi gadael rhai o'r cofnodolion heb sylwi arnynt. Ond cymmerwyd trafferth neillduol i gael y rhestr hon, fel y mae, mor gywir a chyflawn ag oedd yn bossibl.

LLOYD, MORGAN, Q. C. Bargyfreithiwr adnabyddus, ac aelod seneddol dros sir Fôn, o'r flwyddyn 1874 hyd 1885. Mab oedd efe i Mr. Morris Lloyd, o Cefn-gell-gwni, sir Feirionydd; a ganwyd ef rhyw bryd yn ystod y flwyddyn 1822. Derbyniodd ei addysg yn Athrofa y Bala, a Phrifysgol Edinburgh; ac wedi gorphen ei gwrs athrofaol, aeth i efrydu y gyfraith yn y Middle Temple. Galwyd ef at y *bar* yn 1847; gwnaed ef yn gynghorydd y frenhines (Q.C.) yn Chwefror 1873, ac etholwyd ef yn Feingciwr o'i Reithglas yn 1875. Dyrchafwyd ef i'r faingc ynadol dros ei sir enedigol. Cyrhaeddodd safle anrhydeddus fel bargyfreithiwr, a chymmerai ran yn fynych mewn rhai o brif gynghawsion Cymreig y brawdlysoedd, ac hefyd yn yr uchel lysoedd yn Llundain. O blegid ei wybodaeth o'r iaith Gymraeg, a'i hyddysgrwydd yn nheithi meddyliol cenedl y Cymry, yr oedd ganddo ef fedr neillduol i ddylanwadu ar farn rheithwyr; y rhai, yn fynych, a wneid i fyny o amaethwyr, a thrigolion gwledig Cymru. Ennillodd aml achos a ystyrid bron yn anobeithiol mewn canlyniad i'w fedr yn y cyfeiriad hwn. Ysgrifenodd amryw draethodau cyfreithiol galluog a dysgedig; ac yn eu mysg, y llyfr adnabyddus hwnw yn mysg cyfreithwyr, *Digest of the Law of Practice*. Nid esgeulusodd efe lenyddiaeth ei wlad enedigol chwaith; ac yr oedd iddo le uchel fel llenor Cymreig o allu. Ymddangosodd amryw erthyglau dysgedig o'i eiddo yn y *Traethodydd* a'r *Geninen*—yn neillduol felly ar byngciau addysgawl a chymdeithasol. Bu yn briod ddwywaith—y tro cyntaf â Miss Mary Keith, merch i'r Llyngesydd C. Elphinstone Fleeming; yr hon a fu farw yn y fl. 1859. Yn 1879, priododd eilwaith â Priscilla, unig ferch Mr. James Lewis, Cwmbyar, yn sir Aberteifi.

Yn 1868, blwyddyn bythgofiadwy yn hanes gwleidyddol Cymru, daeth Mr. Lloyd allan fel ymgeisydd Rhyddfrydig am fwrdeisdrefi Môn; ond bu ei ymdrech yn aflwyddiannus. Daeth i'r maes drachefn yn etholiad 1874; a'r pryd hwnw, etholwyd ef. Ail etholwyd ef yn ddiwrthwynebiad yn 1880. Mewn canlyniad i Fesur Ad-drefniad yr Eisteddleoedd, peidiodd y bwrdeisdrefi uchod â meddu cynnrychiolaeth seneddol ar wahân i weddill y sir. Daeth Mr. Lloyd, gan hyny, yn 1885, yn ymgeisydd am sir Feirionydd, yn erbyn Mr. Henry Robertson, yr ymgeisydd swyddogol Rhyddfrydig, a Mr. W. R. M. Wynne, o Beniarth, yr ymgeisydd Torïaidd. Ond ar waelod y pôl y safai Mr. Lloyd yn yr etholiad hwn. Yn etholiad 1892, daeth allan drachefn—y waith hon fel Undebwr—yn erbyn Mr. Thomas Palestina Lewis; ond derbyniodd yr olaf fwyafrif anrhydeddus. Yr oedd Mr. Lloyd wedi colli llawer o'i boblogrwydd erbyn hyn, mewn canlyniad i'w ymuniad â phlaid boliticaidd yr Undebwyr—y rhai, o herwydd eu gwrthwynebiad i Fesur Ymreolaeth Mr. Gladstone, a wrthwynebent bron bob peth arall a ddygid yn mlaen gan y llywodraeth neu y blaid Ryddfrydig. Ymgollodd Mr. Lloyd yn raddol o feddwl y cyhoedd; ac erbyn i'r diwedd ddyfod, nid oedd ond ychydig o sôn am dano ynglŷn â symmudiadau cyhoeddus yr Hen Wlad. Bu farw yn ei breswylfod, The Grange, Brook Green, Llundain, Medi 5ed, 1893, yn 71ain mlwydd oed.

LLOYD, Parch. WILLIAM, o Gaernarfon. Mab oedd efe i Mr. Robert Lloyd, o Ben-y-maes, Nefyn—yr hwn oedd yn brif swyddog yn y dollfa (*customs*) yn Mhorthdinlleyn; ac Elinor, ei wraig. Ganwyd ef yn y fl. 1771. Addysgwyd ef yn Ysgol Rammadegol Bottwnog; ac y mae yn debyg iddo fyned i Goleg yr Iesu, Rhydychain, tua'r fl. 1797. Gwnaeth gynnydd mawr mewn gwybodaeth; a daeth yn ysgolhaig galluog yn y gwahanol ieithoedd, ac yn enwedig felly yn y Lladin.

Yn fuan wedi iddo ddychwelyd o'r athrofa, urddwyd ef gan Esgob Cleaver, o Fangor, Medi 20fed, 1801; ac yn fuan pennodwyd ef i blwyfi Rhoscolyn, Llanfair-yn-neubwll, a Llanfihangel, yn sir Fôn. Am bedair blynedd y bu efe mewn cyssylltiad âg Eglwys Loegr; a thros y cyfnod hwnw, ymddengys iddo barhau, yn ol ei addefiad ei hun, yn hollol anystyriol o bethau ysbrydol. Pan gafodd olwg ar ei gyflwr, ni bu yn hir heb ymuno â'r Trefnyddion Calvinaidd. Un o ffeithiau hynotaf bywyd Mr. Lloyd hyd yn hyn ydyw, ddarfod iddo barhau mor hir mewn anystyriaeth o bwysigrwydd pethau ysbrydol; ac yntau, yn ystod y blynyddoedd diweddaf, yn ymwneyd mor uniongyrchol â hwy. Heb law hyny, yr oedd goleuni y diwygiad yn awr yn Nghymru eisoes wedi tori allan, ac wedi cyrhaedd sir Gaernarfon. Bu, er hyny, am gryn amser heb deimlo dim oddi wrth ei effeithiau; ond pan gafodd, bu y digwyddiad yn achos o syndod anghyffredin i'w gydnabod. Argyhoeddwyd ef mewn dull tra hynod; a mynych yr adroddai efe yr hanes gyda hyfrydwch—ond yn rhyfeddu, ar yr un pryd, at ffyrdd anolrheinadwy a grasol Ysbryd Duw.

Ymddengys iddo gael benthyg ceffyl gan Mr. John Williams, o Ledwigan, yn Môn, i fyned i fedydd, lle yr oedd lliaws o foneddigion a gwŷr urddasol yn ymgyfarfod i wledda ar y dydd Sabbath. Gwahoddid Mr. Lloyd yn lled gyffredin i'r gwleddoedd hyn; y rhai, fel rheol, a gerid yn mlaen mewn dull llygredig. Cyrhaeddodd adref yn hwyr y noswaith hono; a gorchymynodd i'r gwas roddi llyffethair ar yr anifail, rhag ofn ei fod yn un barus. Tra yr oedd y gwas yn gwneuthur hyny, dïangodd yr anifail o'i afael; rhedodd yn orwyllt yma a thraw, fel y torwyd amryw friwiau dyfnion yn ei gnawd gan gadwen y llyffethair. Pan y gwelodd Mr. Lloyd yr anifail, druan, yn dioddef oddi wrth ei archollion gwaedlyd, trallodwyd ei feddwl yn fawr; ac yn neillduol felly am mai ceffyl benthyg ydoedd. Yn ei brofedigaeth, dechreuodd feddwl beth allai fod yn galw am y fath anffawd boenus; ac wrth ymholi âg ef ei hun fel hyn, daeth i gredu mai rhywbeth a wnaeth efe ei hun—ac nid yr anifail—a fu yn achos o'r cwbl. A dyma y ffordd y daeth efe i feddwl gyntaf erioed am bwysigrwydd y ddyledswydd o gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath, a phechadurusrwydd y gwmnïaeth lygredig y bu efe ynddi y dydd hwnw. Dyma ddechreuad ei ymdeimlad o bwysfawredd pethau crefyddol, ac o gyflwr

Digitized by Google

truenus ei enaid ei hun; a dyma yr hyn a arweiniodd i'w dröedigaeth.

Bellach, yr oedd efe yn ddyn newydd hollol. Gweithredai Ysbryd yr Arglwydd mor nerthol yn ei enaid fel y teimlai ei wrandawyr ryw nerth ac awdurdod gyda phob gair, yn mron, a ddeuai dros ei wefusau. Am ychydig ar ol hyn y parhaodd efe yn aelod ac yn weinidog o'r Eglwys Wladol; ond er byred yr amser, ymddengys iddo roddi bywyd newydd yn y *Llyfr Gweddi Cyffredin*, ac yn nefodau y Sefydliad.

Wedi gadael yr Eglwys Sefydledig, ymunodd â'r Trefnyddion Calvinaidd yn Nghaergeiliog a Rhos-colyn, yn sir Fôn. Derbyniwyd ef yn aelod o'r cyfarfod misol; ac am dymmor, bu yn pregethu mewn tai, ac yn nghapelydd y wlad. 'Yr wyf yn credu (meddai, pan yn ymuno â'r Methodistiaid) eich bod yn galw ar enw yr Arglwydd o galon bur; ac yr wyf yn bwriadu treulio fy oes yn eich plith.' Gwnaed ymdrech i'w gael yn ol i'r Eglwys Wladol gan bersonau dylanwadol—ond gwrthododd yn benderfynol.

Ymddengys fod rhyw bethau yn ffurf-wasanaeth yr Eglwys nas gallai ei gydwybod oddef iddo eu harfer. Anghymmeradwyai rai ymadroddion yn ffurf gweinyddiad bedydd; methai a chanfod un sail ysgrythyrol i arwydd y groes; ac ystyriai bennodiad tadau a mamau bedydd (personau sydd yn fynych o gymmeriadau llygredig) yn groes i egwyddorion ac ysbryd Cristionogaeth. Nis gallai ddygymmod â'r orfodaeth o gyhoeddi yn nghlyw cynnulleidfa mewn angladd fod y trangcedig, pa mor annuwiol bynag y bu efe byw, ac y bu farw, wedi ei gymmeryd at Dduw i ogoniant; a methai esbonio pa ham y gommeddai yr un awdurdod iddo ddarllen unrhyw wasanaeth ar gladdedigaeth baban diniwed wedi marw heb ei fedyddio, er na chyflawnodd efe un pechod erioed. Gwrthryfelai ei ysbryd, hefyd, yn erbyn y syniad o weinyddu Swper yr Arglwydd i bob math ar ddynion a ewyllysient ei dderbyn—y rhai yr oedd yn eglur eu bod yn mysg yr annuwiolaf a'r mwyaf llygredig yn yr holl wlad. Yr ystyriaethau hyn, a'u cyffelyb, a'i gwnaeth yn ammhossibl iddo barhau yn hwy yn weinidog yn Eglwys Loegr.

Symmudodd Mr. Lloyd o Fôn i Gaernarfon, gan ymuno â'i frawd, yr hwn oedd yn farcer. O Gaernarfon aeth i Nefyn; lle y bu efe am rai blynyddoedd gyda'i fam a'i chwaer, yn edrych ar ol ychydig o dir oedd ganddynt. Y symmudiad nesaf a wnaeth efe oedd i Brynaera, ger Clynnog. Tra y bu yno, cadwai ysgol, gyda chryn lawer o lwyddiant. Yn 1817, daeth i gartrefu i Gaernarfon drachefn; lle bu yn cadw ysgol am flynyddoedd lawer. Yn 1826, ymunodd mewn priodas â Miss Jane Roberts; yr hon a fu yn ymgeledd gymmhwys iddo yn mhob ystyr. Yn mhen hanner blwyddyn ar ol priodi, rhoddodd i fyny gadw ysgol, ac ymroddodd yn llwyrach i wasanaethu teyrnas y Cyfryngwr.

Fel pregethwr, yr oedd yn amlwg yn ymdeimlo, i raddau pell, â phwysigrwydd y gwaith. Darllenai a myfyriai lawer yn epistolau Paul, ac yn enwedig yr Epistol at yr Ephesiaid. Ei ddewisol byngciau i draethu arnynt mewn cymdeithasau neillduol, ac mewn pregethau hefyd, oedd, graslonrwydd trefn yr iachawdwriaeth; y prynedigaeth yn Iesu Grist; a chyfiawnhâd trwy ffydd. Dywed y rhai oeddynt yn gydnabyddus âg ef nad ei bregethau oedd ei brif ragoriaeth; ond sancteiddrwydd ei ymarweddiad, tynerwch ei gydwybod, gyda'i ymdrech gwastadol mewn gweddïau. Dyma linynau tyneraf ei gymmeriad. Mewn duwioldeb, yr oedd yn hynod yn mysg y saint. Bu farw Ebrill 16eg, 1841; a chladdwyd ef yn mynwent Llanbeblig. Yr un noswaith, traddodwyd ei bregeth angladdol gan yr anfarwol John Jones, o Dal-y-sarn.

**LLWYD, JOHN**, Tanyrhiwiau, Llansannan. Pregethwr, nid anenwog, gyda'r Methodistiaid Calvinaidd ydoedd y gwrthddrych hwn; a gŵr ffraeth, parod ei attebion, ac yn llawn o arabedd doeth. Ganwyd ef yn y plwyf uchod yn y flwyddyn 1752—sef, yn mhen ychydig flynyddoedd wedi i'r Methodistiaid ddechreu pregethu yn y plwyf—mewn amaethdy o'r enw Bryn Bugad; a lle a elwir ar ol hyny yn Tan-y-fron. Dechreuwyd pregethu yma yn y fl. 1745; o blegid yr oedd yma 'eglwys liosog pan dorodd yr ymraniad rhwng Harris a Rowlands allan, yn y flwyddyn 1751.' Ymddengys i John Llwyd gael mwy o fanteision crefyddol na llawer o'i gyfoedion, gan fod ei fam a thri o'i frodyr yn aelodau eisoes gyda'r Methodistiaid yn Mryn Bugad. Ond gwyllt a direidus ydoedd Siôn—a nodedig am ryw arferion dichellgar. Ond fe arafwyd ei gamrau peryglus yn gynnar ar ei oes, sef yn y flwyddyn 1765, pan yr oedd rhwng 13eg a 14eg mlwydd oed. Rhyw brydnawn teg yn yr haf y flwyddyn hono, yr oedd odfa wedi ei chyhoeddi i fod ar fin y ffordd, yn agos i'r Dafarn newydd, ar y ffordd o Lansannan i Nantglyn, a phenderfynodd Siôn Llwyd, ac eraill o'i gyfoedion, fyned i'r odfa, heb un dyben gwell ganddynt yn yr addoliad na chael difyrwch iddynt eu hunain trwy aflonyddu ar eraill. Eithr Duw a feddyliodd yn amgen. A phan y daeth y bachgen o fewn cyrhaedd, clybu y pregethwr yn darllen ei destyn, a darfu am ei ddigrifwch mewn munyd awr. Glynodd saeth argyhoeddiad yn ei galon, a llewyrchodd gradd o oleuni i'w feddwl fel ag i beri iddo ymroddi i wrandaw o ddifrif. Effeithiodd hyn, ynghyd â'r pethau a glybu ar ol hyn, arno nes ei ysgar, a thros byth, â'i hen gyfeillion; a pheri iddo o'i fodd ymadael â'i hen arferion. Yn fuan ar ol hyn, dechreuodd ymwasgu at y crefyddwyr. Trodd ei wyneb gyntaf at gymdeithas y bobl ieuaingc, neu *society* y plant; a chan ei fod ef ychydig yn hynach na'r plant eraill, ac er yn fwy bywiog, etto yn fwy difrifol, na'r ieuengctyd eraill yn gyffredin, darfu i Edward Parry, tad yr achos crefyddol yn Bryn Bugad, roddi ychydig o flaenoriaeth iddo ar y plant eraill. Yn mhen amser, fe ymunodd John Llwyd âg adran hynaf yr eglwys, yn yr hon yr oedd amryw o grefyddwyr rhagorol; sef, Edward Parry, o'r Bryn; Robert Roberts, o Grugor isaf; John Ffoulkes, o'r Nant; Thomas Hughes, o Lanfair; a John Jones, o Lansannan, ac eraill—'gwŷr a ddodasant eu gyddfau i lawr' dros achos yr Arglwydd. Daeth y personau hyn, ac eraill o aelodau eglwys Bryn Bugad, i fod yn llefarwyr effeithiol; ac yn eu mysg yr oedd John Llwyd, yr hwn a ddechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1773:—tua'r amser yr adeiladwyd capel cyntaf Tan-y-fron, yr hwn sydd o fewn ergyd careg i Bryn Bugad. Gan i Edward Parry farw yn y flwyddyn 1704, bu John Llwyd yn gynnorthwy i E. Parry gyda phregethu, a phethau eraill, am un mlynedd ar ddeg.

Bu John Llwyd yn llafurus iawn gyda sefydlu

Digitized by Google

yr Ysgol Sabbothol yn Nhan-y-fron, yr hon oedd yn un o'r rhai a sefydlwyd gyntaf yn yr holl wlad. Cyfarfu cefnogwyr yr ysgol â chryn lawer o wrthwynebiad gan y crefyddwyr yn y dechreu; ond wrth weled y llwyddiant rhyfedd a ddilynodd, ac fel y bu yn foddion i wareiddio llawer ar yr ardal, ac yn enwedig gan i ddiwygiad grymus dori allan yn y lle tua'r flwyddyn 1793, diflanodd yr holl wrthwynebiad fel caenen o rew o flaen tanbeidrwydd yr haul. Yr oedd goruchwyliaeth erlid a baeddu y pregethwyr heb ddarfod yn amser John Llwyd; a chafodd brofi unwaith fod amcan gan y gwrthwynebwyr yn ei erbyn yntau, ac amcan a ddygasid i weithrediad oni buasai iddo fod yn rhyw ystryw-gall i'w elynion. Codwyd gwarantau gan glerigwr i'w ddal ef, a phregethwr arall, ac i'w hanfon i garchar Rhuthyn. Ymddengys fod John Llwyd wedi cael rhyw amnaid fod y fath ddyfais ar droed, ac y gallai yntau gael ei ddal unrhyw bryd y clywid ei fod yn pregethu. Yr oedd ef, a'i gyfaill, yn cael eu disgwyl i Henllan i bregethu ar ryw amser pennodol; ac ar eu ffordd i'r lle, pwy welent yn eu cyfarfod, ac yn cyfeirio eu camrau tuag atynt, ond y swyddog a'i blaid, gan yr hwn yr oedd gwŷs i'w ddal. Gan i John Llwyd ddeall ei neges mewn pryd, efe a achubodd y blaen arno, gan ddyweyd :—'Ho! hwn a hwn, tyred yn nes! Yr oeddwn yn disgwyl dy gyfarfod er's meityn. Y mae genyf warant yn fy mhoced i dy ddal di, yn enw Brenin y Nefoedd! Cymmer di ofal na ddywedych air o dy ben.' Yr oedd y fath gyfarchiad hyf yn cyfarfod â'r truan mor ddisymmwth, fel mai ffoi a wnaeth efe, a'i gwmni; a chafodd y ddau bregethwr rwyddineb i fyned, ac i ddychwelyd.

Yr oedd John Llwyd, Tan-y-rhiwiau, yn tynu at brydnawn ei ddydd pan nad oedd ond boreuddydd ar y Reesiaid, yn yr un plwyf—Llansannan—sef y Parchn. Henry Rees a Dr. William Rees. Diau iddynt gael llawer o fwynhâd wrth wrandaw ar yr hen bregethwr yn traethu am Moses wrth y berth, ac am Manoah ei wraig, a Naomi a Ruth, a Mair a Martha. Fel y dywedasom, yr oedd John Llwyd yn hynod ar gyfrif ei arabedd a'i ffraeth-eiriau; ond yr oedd y doniau prinion hyn oedd ganddo yn cael eu ffrwyno gan ddoethineb a gras.

Perthyn iddo ef y mae y dywediadau gwreiddiol a ganlyn, a llawer eraill:—Pan yr oedd rhyw bechadur yn ymofyn lle eilwaith yn yr eglwys, gan nad oedd yn ymddangos yn ddigon edifeiriol am ei bechod, ac yn ddigon ymostyngar, dywedai John Llwyd wrtho yn gyhoeddus ac yn gyrhaeddgar—'Yn îs i lawr y mae y glicied, Ned.' Pregethwr ieuangc unwaith a ofynai gynghor ganddo, a dywedai John Llwyd wrtho, 'Gofala fod dy gareg hogi genyt bob amser, o blegid ni wnei di ddim o honi heb fin.' Wrth un arall a gŵynai fod traul dillad pregethwr yn lled fawr, gan gŵyno fod ei bâr botasau ef wedi costio dwy bunt iddo, dywedai John Llwyd wrtho, 'Wel, diolch lawer, fy machgen i, nad wyt ti ddim yn neidr gan-troed, onid ê buasai potasau dwy bunt y pâr iddynt oll yn dy yru i'r *jail*.' Cwynid mewn cyfarfod, unwaith, fod y pregethau yn myned yn hirion iawn. 'Wel, pa ryfedd?' meddai John Llwyd. 'Onid oes ynddynt gymmaint o benau—a thafod yn mhob pen? Ac erbyn i bob tafod ddyweyd ei stori, 'does ryfedd yn y byd fod y pregethau yn myned yn hirion. Ond y penau yw y pethau rhataf yn y farchnad, o blegid nid oes fawr o gig-fwyd arnynt.' Adroddir am Anne, ei wraig—er mai hen wreigan dduwiol oedd hi, hefyd—i'w thymmer ddigwydd cyffroi tipyn ryw foreu, ac iddi alw John yn 'hen Gadi gwirion.' Nid ynganodd efe air ar y pryd; ond pan y daeth amser y ddyledswydd deuluaidd, efe a ddarllenodd y drydedd bennod o 1 *Pedr*. Pan y daeth at y 6ed adnod, fe amcanodd sèn am y difenwad. Meddai, 'Megys yr ufuddhaodd Sarah i Abraham, gan ei alw—yn 'hen Gadi gwirion.' Ah! nagê, 'gan ei alw ef yn arglwydd.' Yr oedd hyny yn ddigon, heb eisieu byth air am hyny mwy. Bu yn pregethu am 53ain o flynyddoedd. Yn Ninbych y pregethodd ddiweddaf, y Sabbath cyntaf o Ragfyr, 1825; a bu farw yn nechreu y flwyddyn 1826.

LLWYD, ROBERT, o Blas Ashpool, Dyffryn Clwyd. Gellir dyweyd am y gŵr hwn mai un o sêr boreuaf y Methodistiaid Calvinaidd yn sir Fflint, ydoedd. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1715; ac felly, nid oedd ond blwyddyn ieuangach na Howel Harris o Drefecca; a dwy flynedd ieuangach na'r Parch. Daniel Rowlands, o Langeitho. Ychydig a wyddis o'i hanes yn y rhan gyntaf o'i oes; ond cawn ei fod yn trigiannu rhwng y blynyddoedd 1740 a 1750 mewn ffermdŷ o'r enw Tarth-y-dŵr, yn mhlwyf Cilcain, ar derfynau plwyfi Nannerch ac Ysgeifiog, rhwng Dinbych a'r Wyddgrug. Ond pa fodd y daeth efe i gyssylltiad â chrefydd, ac yn arbenig pa fodd y daeth efe i gyssylltiad a chrefydd yn mysg yr Anghydffurfwyr, nis gwyddis. Os oedd yn arfer myned i'r gwasanaeth i'r llan, mae yn annhebyg iddo gael ei ddeffro o'i gwsg ysbrydol yno; canys yr oeddynt yno, 'bobl ac offeiriad, yn cysgu, ac yn caru hepian.' Tywyllwch, ac ofergoeledd, ac anfoesoldeb, oedd yn teyrnasu yn y parthau hyny o sir Fflint; fel yn siroedd eraill Cymru. Y mae'n wir fod y wawr, y pryd hwnw, yn dechreu tori mewn rhai cyfeiriadau; ond yr oedd tywyllwch y gellid ei deimlo, yn gordoi sir Callestr! Gall y darllenydd gael syniad am yr ysbryd chwerw, ac am y drwg-deimlad oedd yn meddiannu y rhai oeddynt yn meddu ychydig o dda y byd hwn, a'r rhai oedd mewn sefleoedd o awdurdod, tuag at Ymneillduwyr, oddi wrth y cyfieithiad canlynol o feddargraph sydd i'w weled yn awr yn mynwent Ysgeifiog. Hon oedd y gymmydogaeth lle y preswyliai Robert Llwyd pan yn ieuangc.

'Yma y gorwedd gweddillion
HUGH HUGHES, Ysw., Coed y Brain;
Mewn gobaith o adgyfodiad gwynfydedig.
Cafodd yr anrhydedd o wasanaethu ei wlad yn
y swydd o Sirydd dros y sir hon.
Fel dyn—
Ei arfer ydoedd bod yn ddyfal yn addoliad
yr Eglwys Sefydledig;
Ardystiai o galon yn erbyn sect newydd y
Methodistiaid penchwiban, y rhai a fynent
dynu oddi wrthi;
Ac mewn pryd wastatau ymrafaelion rhwng
cymmydogion cyn iddynt ffyrnigo at eu
gilydd.
Trwy ei ymddygiadau hyn, fe'i perchid yn
ei fywyd, a galerid am ei golli.
Bu farw.
Gorphenaf 7fed, 1752, yn 44ain mlwydd oed,
gan adael unig ferch a gweddw ar ei ol.'

Y mae yn amlwg, oddi wrth y ffaith hon, nad oedd ond erlid a thoster i'w ddisgwyl oddi wrth

Digitized by Google

wreng a boneddig i'r rhai a geisient, y pryd hwnw, efengyleiddio ein gwlad. Dïau i Robert Llwyd gael ei enill oddi wrth drahâ yr oes trwy fyned i wrandaw ar y gweinidogion hyny a ddeuent yn achlysurol trwy y wlad i gyhoeddi yr efengyl. Er i'r pregethwyr hyny gael eu baeddu yn dost mewn llawer lle, etto yr oedd effeithiau rhyfedd yn dilyn eu cenadwri. Gan fod R. Llwyd yn meiddio ceisio ymgeledd i'w enaid newynog trwy foddion nad oedd yn ei gael yn yr eglwys, sef trwy wrandaw ar y cenhadon hedd a dalent ymweliadau â'r ardaloedd, darfu iddo, fel llawer eraill, dynu arno ei hunan, ac ar ei deulu, ŵg ei feistr tir. Cafodd rybudd i ymadael o Tarth-y-dŵr:—ac ymadael fu raid.

Gan fod y fath ysbryd erledigaethus yn y wlad, a'r mawrion a'r clerigwyr mewn cynghrair â'u gilydd i lethu y diwygiad crefyddol oedd yn ymledu yn y tir; yr oedd yn annhebygol y cawsai R. Llwyd ffermdy arall iddo ef a'i deulu i fyw ynddo. Ond nid meddyliau gelynion crefydd ydynt feddyliau yr Arglwydd; ac megys y gwelwyd lawer gwaith mai 'eithaf dyn ydyw cyfleusdra Duw;' felly y bu yn y cyfwng pwysig yr oedd R. Llwyd ynddo. Yr oedd un ffermdy mawr yn Nyffryn Clwyd yn wâg er's amser; sef, Plas Ashpool. Ni chymmerai neb y lle, o blegid fod rhywbeth a alwent yn 'ysbryd' yn aflonyddu ddydd a nos ynddo. Yr oedd 'ysbryd Plas Ashpool' yn acen yn yr ardaloedd, ac yn creu dychryn ar y neb oedd ganddynt achos yn y cyffiniau. Yr oedd Plas Ashpool i'w gael i R. Llwyd, os dewisai; a dïau fod erlidwyr crefydd yn ystyried fod y plâs a'r ysbrydion maleisus yn ddi-fai cymdeithion i'r Anghydffurfiwr penboeth. Ond nid oedd ofergoelion, na'r gwrachïaidd chwedlau ynghylch ysbryd Plas Ashpool, yn ddigon i darfu ysbryd y Methodist hwn. Os oedd efe yn ddigon gwrol i ddal y prawf o golli ei fferm o blegid ei grefydd, yr oedd yn ddigon gwrol i herfeiddio ellyllon dychymygol y Plâs hefyd. Cymmerodd y fferm helaeth hon tua'r flwyddyn 1750; a bu yn byw mewn llonyddwch yno 42ain o flynyddau. Yn mhen rhyw gymmaint o amser ar ol symmud i Blas Ashpool, dechreuodd Robert Llwyd bregethu; a sefydlodd achos crefyddol yn y gymmydogaeth—yn 'Nhŷ Modlen' (*Magdalen*), rhwng Llandyrnog a Llangwyfan—tua milldir o Blas Ashpool. Bu rhai o sylfaenwyr y Methodistiaid Calvinaidd yn pregethu yn yr annedd yma; sef, y Parchn. D. Rowlands, W. Williams, Davies, Castell-nedd; Llwyd, o Gaio; Dafydd Morris, ac eraill. Cynnaliwyd llawer cyfarfod crefyddol yn Nhŷ Modlen; ac yma y buwyd yn addoli nes adeiladu Capel y Dyffryn, yn 1776; yr hwn a godwyd, gan mwyaf, gan Robert Llwyd. Byddai R. Llwyd yn myned oddi amgylch i bregethu, a byddai arddeliad yn fynych gyda'i weinidogaeth, fel y tystiai y Parch. T. Jones, Dinbych. Y llafurwyr ag oedd yn cydlafurio âg ef, oeddynt John Owen, Berthen; Dafydd Jones, Adwy'r Clawdd; Edward Parry, Bryn Bugad, ac eraill. Yr oedd efe ac E. Parry yn gymdeithion mawr, ac yn cydgynllunio i ddwyn y gwaith yn mlaen. Bu Robert Llwyd farw yn Tachwedd, 1792, yn 77ain mlwydd oed. Ei eiriau olaf oeddynt:—'Mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear,' &c. Claddwyd ef yn mynwent Llandyrnog.

**LLWYD, WILLIAM,** o Gaio. Mab oedd efe i Dafydd Llwyd, o Flaen-y-clawdd, yn mhlwyf Caio, neu Cayo, yn swydd Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1741. Ychydig sydd yn hysbys am ddyddiau ei ieuengctid; ond ymddengys, yn ol ei dystiolaeth ei hun, ei fod dan argyhoeddiadau am ei drueni fel pechadur er pan oedd yn saith mlwydd oed. Pan yn ddeunaw, teimlodd argraphiadau dyfnach dan weinidogaeth y Parch. Peter Williams; a'r flwyddyn ddilynol, dan effeithiau pregeth Mr. Evan Jones, o Ledrod, sir Aberteifi, cafodd olwg glir a digwmmwl ar ogoniant y drefn. O hyny allan, yr oedd yn ddyn newydd hollol.

O ddeutu y flwyddyn 1760, ffurfiwyd cymdeithas neillduol gan y Methodistiaid Calvinaidd yn y plwyf. Yr oedd yn gynnwysedig, ar y cyntaf, o ddeutu dwsin o bobl ieuaingc, a chwech o hen bobl; ac yr oedd William Llwyd yn un o honynt. Dyma ddechreu yr eglwys, a ddaeth, mewn amser ar ol hyn, yn allu mawr yn y parthau hyny; yr hon a gynnyddodd gymmaint mewn rhif fel y bu raid adeiladu capel helaeth yn agos i bentref Cayo. Teimlodd Mr. Llwyd lawer o dan weinidogaeth yr anfarwol Rowlands, o Langeitho. Cerddai unwaith yn y mis yno; a gwnaeth hyn dros ei holl fywyd, oddi eithr pan yr attelid ef gan afiechyd, neu ryw amgylchiadau anorfod eraill. Cynnyddodd yn fawr yn y ffydd dan ei weinidogaeth ef; a phan yn 22ain oed, teimlid fod ynddo y cymmhwysderau angenrheidiol i'r weinidogaeth. Ymddengys iddo gychwyn ar y gwaith gyda sêl a bywiogrwydd anarferol. Daeth yn offeryn neillduol yn llaw yr Arglwydd i hyrwyddo ei waith; a pha le bynag yr elai efe, ymgynnullai tyrfaoedd lliosog i wrandaw arno. Daeth yn fuan yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn Nghymru yn y dyddiau hyny. Yr oedd ei weinidogaeth yn danllyd, yn argyhoeddiadol, ac yn finiog; ac yn amlwg dan arddeliad y Nefoedd. Pyngciau mawr ei weinidogaeth oedd Crist—yr iachawdwriaeth—a golud gras, &c.; a byddai ei bregethau yn fynych dan arddeliad.

Disgrifir ef fel gŵr o 'berson hardd, ei ystumiau yn addas, ei lais yn beraidd, a'i areithyddiaeth yn barod, yn fywiog, yn hysain, ac yn weddus.' Teithiodd lawer trwy Ogledd a Deheudir Cymru i draethu ei genadwri werthfawr; a llafurio fel pregethwr, gyda sêl ac ymroddiad mawr am dros ddeugain mlynedd. Yn ystod tymmor ei weinidogaeth, gwelodd, a phrofodd bump o ddiwygiadau neillduol a hynod; a chafodd llawer eu galw trwy ei ymdrechion ef, yn ei ardal ei hun, ac mewn ardaloedd eraill, yn yr amseroedd hyfryd hyny. Torodd y diwygiad cyntaf allan yn 1773; yr ail ynghylch 1780; y trydydd tua 1789; y pedwerydd yn 1790; a'r olaf yn y fl. 1805. Cymmerodd Mr. Llwyd lawn fantais ar yr amlygiadau hyn o ddylanwad yr Ysbryd Glân. Gweithiodd yn ddiflin i gadw yn fyw y teimlad yn y wlad; a bendithiwyd ei lafur i ddychwelyd llawer o gyfeiliorni eu ffyrdd at yr Arglwydd. Parhaodd ei boblogrwydd yn y weinidogaeth hyd y diwedd; ac yn mlynyddoedd olaf ei fywyd cyhoeddus, ystyrid ef fel un o dadau ffyddlonaf a mwyaf duwiol yr eglwys. Y Sabbath y tarawyd ef â'r clefyd fu yn angeu iddo, yr oedd yn pregethu yn Llanddeusant a Llansadwrn. Cyrhaeddodd adref. Bu yn gorwedd bum niwrnod, a gorphenodd ei yrfa Ebrill 17eg, 1808, yn 67ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Cayo, lle y mae argraph teilwng i'w goffadwriaeth yn gerfiedig ar y beddfaen.

Digitized by Google

# M.



MABINOGION, Y. Yn mhob oes, yn mhob gwlad, yn mhob cyfnod ar fywyd a gwareiddiad dyn, nid yw dyddordeb dynion yn eu cyd-ddynion wedi pallu. Chwanegwyd tiriogaeth at diriogaeth o wybodaeth at deyrnas y deall dynol; ond at ddynion a'u helyntion y rhed ymddiddan cyffredin dyn yn mhob man. Cymmer y dysgedig a'r annysgedig, yr hen a'r ieuangc, a'r canol oed, bleser yn hanes helyntion eu cyd-ddynion; a thueddid dyn yn mhob cyfnod ar ei hanes i ddëongli hyd yn oed gyfnewidiadau a bywyd natur ei hunan yn ngoleuni profiad dyn. Ië, os na cheir o fewn cyrhaedd sylfaen mewn ffeithiau i ffurfio hanes, tuedd y meddwl dynol, wrth natur. ydyw ceisio llenwi y diffyg oddi wrth ei ddyfaliadau, ei brofiad, a'i ddychymygion ei hun. Felly y mae chwedloniaeth pob gwlad wedi tyfu, ac felly y mae chwedloniaeth ein gwlad ni ein hunain. I ddyn mewn ystâd anwaraidd, neu hanner gwaraidd, mae pob gwrthddrych dyeithr, pob peth sydd yn tynu ei sylw yn fwy na'i gilydd, yn sicr o symbylu ei feddwl i ffurfio chwedl am dano; ac, wrth gwrs, esbonir hanes gwrthddrychau di-fywyd, llysieuol neu anifeilaidd, drwy elfenau ei brofiad ef ei hun. Nid yn unig y mae yn eu personoli, ond mae y profiad a briodola iddynt yn brofiad tebyg i'w brofiad ei hun; ond ei fod yn credu y gallant hwy fyned drwy rai cyfnewidiadau, a chyflawni rhai pethau nas gall efe ond eu dychymygu a'u dymuno. Y mae gwrthddrychau ei chwedloniaeth, a'i grefydd hefyd, yn gosod allan, yn yr hanes a briodolir iddynt, ar y naill law brofiad, ac ar y llaw arall ddyhëadau y sawl fu yn myfyrio arnynt. Cyfeiliornad ydyw meddwl mai y gwrthddrychau allanol, megys yr haul, y lloer, y sêr, y byd llysieuol, y byd anifeilaidd, a'r cyffelyb, sydd wedi creu hyd yn oed grefydd y pagan—ac o ganlyniad, ei chwedloniaeth. Nid ydyw y gwrthddrychau ond cynnifer o bethau sydd megys yn symbylu ei feddwl rhyfedd ef i'w dëongli yn ngoleuni ei brofiad a'i awyddfryd ef ei hun. Yma, hefyd, y mae yn rhaid cael y mewnol mewn dyn i gydweithio gyda'r allanol, ac i'w esbonio. O ganlyniad, wrth astudio hen chwedlau dynion, ac yn eu plith chwedlau ein cenedl ein hunain—y Mabinogion, er engraifft—y mae'n rhaid cadw y ddwy ochr i'r ymchwiliad mewn golwg. Ar y naill law, rhaid chwilio pa wrthddrychau mewn natur oedd yn symbylu tuedd grefyddol a chwedlonol ein hynafiaid oesoedd yn ol; ac ar y llaw arall, drwy ba fath brofiad a dyhëad o'u heiddo yr oeddynt yn ceisio taflu goleuni ar y gwrthddrychau hyny. Teimlwn mai un o ddiffygion mawr y *Solar Myth theory* a'r *Animistic theory* hefyd, ydyw hyn:—nad ydynt yn rhoddi digon o le i'r ochr fewnol a meddyliol yn nhyfiant crefyddau y byd. Fodd bynag, y mae tueddiadau yr *Animistic theory*, os iawn ddëonglir hwy, yn gwneuthur hyn yn hollol angenrheidiol. Os personolir gwrthddrychau natur, y mae yn rhaid eu hesbonio yn ngoleuni profiad personol; ac y mae cynnydd a dyfnhâd profiad personol dyn yn rhwym o gael eu dylanwad ar ystâd ei feddwl yn ngwyneb gwrthddrychau natur. Pan y mae cylch ei brofiad a'i wybodaeth yn cynnyddu, y mae gwrthddrychau oedd gynt yn effeithio ar ei feddwl yn colli eu grym; ac y mae ei natur chwedlonol yn gofyn yn barhaus am symbyliadau uwch, nes o'r diwedd y mae y meini a'r llysiau, y coed a'r anifeiliaid, yr haul, y lloer, a'r sêr, yn gorfod rhoddi lle i ddynion—a'r rhai hyny yn ddynion anghyffredin—cyn y teimla y dyn fod ganddo ef wrthddrychau digon mawr iddo allu cael rhyw argoel o'r hyn sydd wir fawr a theilwng o addoliad drwyddynt.

Amcan astudiaeth gymmharol a gwyddonol o grefyddau y byd ydyw, ceisio dangos pa mor bell yr aeth gwahanol genhedloedd yn y cyfeiriadau hyn; pa adranau o'r grëadigaeth ddarfu symbylu eu teimladau crefyddol fwyaf; ac yn ynglŷn â hyny, eu tueddiadau at chwedloniaeth—o blegid y mae chwedloniaeth ynglŷn â phob gau-grefydd. Yr un pryd, ceisir olrhain hanes y crefyddau hyn—pa fodd, ac i ba raddau y tyfasant o raddfa i raddfa, neu y disgynasant o'r hyn oeddynt gynt, nes bod yr hyn ydynt heddyw. Ar brydiau, fe geir gweddillion y gwahanol raddfeydd hyn megys wedi ymgorphori yn chwedloniaeth cenhedloedd; a chredir fod hyn yn wir am chwedloniaeth cenedl y Cymry—ac yn arbenig am y Mabinogion. Yn aml, parheir i adrodd hen chwedlau pan y bydd eu hystyr cyntefig wedi myned i ebargofiant; ond i'r craff a'r cyfarwydd, y mae llawer o'r hen ystyr yn effaith amlwg yn ngoleuni chwedleuon cyffelyb. Er fod y Mabinogion wedi eu hysgrifenu ganrifoedd ar ol i'r efengyl dywynu ar ein cenedl, etto, y mae amryw bethau ynddynt sydd yn dadguddio y ffaith fod eu gwreiddiau yn mhell yn ol yn mhaganiaeth ein hynafiaid. Prin, fel y gwyddys, y mae holl lefain ofergoeledd wedi diflanu o'n gwlad etto.

Hyd yn oed pan y peidiodd dyn a chredu yn yr hen chwedloniaeth a gredid ganddo gynt, y mae wedi defnyddio ei gweddillion i'w ddifyru ei hun a'i blant; neu ynte yn gyfryngau addysg ddammegol neu farddonol. Rhoddwyd llawer dammeg a moes-wers yn ngenau anifail. Wrth ystyried rhyfeddodau natur, a helyntion dyn, yn enwedig pan nad oedd ar y pryd na gwyddoniaeth na hanesyddiaeth yn bod, y mae yn ddigon hawdd deall pa fodd y tyfai chwedloniaeth. Chwedloniaeth oedd athroniaeth a hanesydd-

Digitized by Google

iaeth dyn mewn ystâd o anwybodaeth. Yn lle seryddiaeth, ceid chwedlau am y sêr; yn lle llysieuaeth, ceid chwedlau am y coed a'r ŷd; yn lle bywydeg, ceid chwedlau am yr anifeiliaid; ac yn lle hanesiaeth, ceid chwedlau am ddynion, arferion, a lleoedd; ac yn lle duwinyddiaeth, ceid chwedlau am y duwiau, yn ngoleuni profiad dyn, a'r gwrthddrychau a bersonolid ganddo.

Yr oedd tuedd neillduol y pryd hyny, fel ag y sydd etto, i gyssylltu pob chwedl a attebai y dyben âg enw rhyw ddyn mawr, neu wrthddrych adnabyddus. Cyssylltid enwau gwroniaid, megys Arthur, â hen chwedlau am rywun neu ryw rai o hen arwyr neu dduwiau ein cenedl—feallai, am fod rhyw debygolrwydd yn yr enw, yn y cymmeriad, neu yn yr hanes. Nid oes eisieu blynyddoedd lawer i chwedloniaeth dyfu, pryd na bydd modd cywiro yr hyn a ddywedir yn ngoleuni ffeithiau. Erys swm mawr o chwedloniaeth yr un o oes i oes; ac y mae yn glynu, yn mhob cyfnod, yn y cymmeriadau hyny y gall hi fachu rwyddaf ynddynt. Y mae hi fel gwellt yn nofio ar hyd afon amser —yn barhaus yn cyfarfod â rhyw wrthddrych; ond wedi hyny yn ymryddhau, ac yn myned at un arall, ac felly yn dragywydd.

Nid yn anfynych y mae chwedlau wedi codi, neu wedi cael cyssylltiadau newyddion, oddi wrth enwau personau, neu ardaloedd. Ceisir rhoddi esboniad ar y rhai hyn. Weithiau, fe wneir hyny trwy ddyfeisio chwedl newydd; bryd arall, drwy ddefnyddio hen chwedl at y pwrpas. Fel y ceir gweled etto, y mae cryn lawer o hyn yn y Mabinogion. Nid oes un ardal, yn mron, nad oes gan y trigolion ryw esboniad cywir, neu anghywir, i'w gynnyg ar ei henw. Y mae llawer iawn o'r hyn a gyfrifid yn hanesiaeth gynt wedi cyfodi yn y dull yma. Ar brydiau, hefyd—megys yn Mabinogi Pwyll —y mae rhyw hen arferiad yn destyn chwedl o'r fath; er enghraifft, rhoddir yno esboniad ar ddechreuad y chwareu a elwid 'broch ygkot' (sef, 'broch' neu 'ffwlbart' mewn côd).

Yn mhob gwlad y mae tuedd i'r gofyn am unrhyw nwydd allu creu cyflenwad gwirioneddol neu ffugiol o hono. Felly gyda chwedloniaeth ein cenedl ninnau. Un o hoff ddifyrion y Cymry gynt, yn ol y Mabinogion, oedd 'ymddiddan, a chyfeddach.' Elai y beirdd a'r clerwyr oddi amgylch; ac yr oedd yn rhan o'u gorchwyl ac o'u celfyddyd i adrodd 'cyfarwyddyd' (neu chwedl), fel y gwna Gwydion yn Mabinogi Math ab Mathonwy, pan yn myned i lys Pryderi. Credir mai math o gynllun oedd Pedair Caingc y Mabinogi, ar y cychwyn, i'r bardd ieuangc (y Mabinog) weithio ei chwedlau yn ei ol, neu ymhelaethu arno. Y mae yn llenyddiaeth y Gwyddelod, hefyd, lawer cyfres o hanesion; a diammheu fod swm eu chwedloniaeth anysgrifenedig hwy gynt, fel chwedloniaeth y Cymry, yn gyfangorph helaeth iawn.

Y mae rhai chwedlau bron yn gyffredinol yn mysg cenhedloedd y byd. Ceir hwy yn chwedloniaeth Groeg a Rhufain, yn chwedloniaeth yr India, yn chwedloniaeth y Teutoniaid, a'r Celtiaid, ac eraill. Chwedlau ydyw y rhai hyn, yn gyffredin, a gyfodasant oddi ar ryw ffeithiau cyffredinol yn mhrofiad dyn fel dyn; neu, fel esboniadau ar anhawsderau pob cenedl fel eu gilydd—er enghraifft, ar adnewyddiad gwedd y ddaear yn y gwanwyn, a'i gwywdra yn yr hydref. Mae lle i gredu fod yr anhawsder yma wedi blino llawer ar ein hynafiaid ninnau, a bod chwedlau o'r natur yma wedi llenwi cryn le yn eu meddyliau; yr hyn y gallwn yn hawdd ei ddychymygu wrth gofio mai un o brif wrthddrychau addoliad y Celtiaid oedd y dderwen.

Casgliad o chwedlau yw y Mabinogion Cymreig; y rhai a fuont yn ddifyrwch i'n hynafiaid, ac a drosglwyddwyd ganddynt i ninnau—yn benaf mewn dwy hen law-ysgrif; sef, 'Llyfr Gwyn Rhydderch,' yr hwn sydd yn llyfrgell Peniarth; a'r 'Llyfr Coch o Hergest,' sydd yn llyfrgell Coleg yr Iesu, yn Rhydychain. Y testyn hynaf o'r Mabinogion yw 'Llyfr Gwyn Rhydderch;' ond y mwyaf adnabyddus yw y 'Llyfr Coch o Hergest.' Ysgrifenwyd hwn, fel y credir, yn hanner olaf y bedwaredd ganrif ar ddeg; ond y mae darnau o Peredur ar gael oedd yn perthyn i tua 1300, ac o Geraint i 1275. Credir, er hyny, fod defnyddiau Pedair Caingc y Mabinogi, yn enwedig, yn llawer iawn hynach na hyn. Ar y cyntaf, prin y gellir dyweyd fod y Mabinogion yn cyfarfod â chwaeth un o ddarllenwyr difrifol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y mae cymmaint o'r digwyddiadau mor wahanol i'r hyn a allasai gymmeryd lle; ac er eu bod, o'u cymmharu â llenyddiaeth llawer gwlad arall, yn hynod o chwaethus; etto, ambell waith, fe geir ymadroddion y buasid yn eu newid yn ein dyddiau ni. Y mae chwaeth yr oes hon yn ein gosod yn naturiol yn erbyn hanesion swyngyfareddol, a'r cyffelyb. Fodd bynag, y mae yn y Mabinogion ryw dlysni iaith ac ymadrodd sydd yn codi oddi ar eu symlrwydd naturiol. Wedi eu hastudio yn ddyfnach, yr ydym yn cael nad ydyw yr holl swyngyfaredd ond rhywbeth megys yn nofio ar y wyneb. Y mae darluniad y cymmeriadau yn cyffwrdd â thannau dyfnion yn y galon ddynol; a dyna, yn ddiau, yr achos mawr o boblogrwydd y Mabinogion gynt. Yn ngoleuni cyfundrefnau crefyddol gwledydd eraill, deuwn yn raddol i weled eu gwerth gwyddonol; ac yr ydym yn gallu taraw ar aml wythïen werthfawr ynddynt, fel y gwna y Proffeswr Rhys yn ei *Celtic Heathendom*, a'i *Arthurian Legend*.

Er mwyn i'r darllenydd, i'r hwn y mae y Mabinogion yn gymmharol ddyeithr, allu deall, i raddau, yr hyn sydd genym dan sylw yn yr ysgrif hon, bwriadwn roddi crynodeb o honynt. Ond er fod yr holl chwedleuon gyda'u gilydd yn awr yn cael eu galw yn gyffredin 'Y Mabinogion,' etto, ni pherthyn yr enw yma yn briodol ond i Bedair Caingc y Mabinogion; sef, 'PWYLL PENDEFIG DYFED,' 'BRANWEN FERCH LLYR,' 'MANAWYDDAN FAB LLYR,' a 'MATH FAB MATHONWY.' Nid oes yn y rhai hyn gyfeiriad at Arthur o gwbl. Heb law y rhai hyn, ceir pedair o chwedlau, a thair o ramantau. Y chwedlau ydynt, 'BREUDDWYD MAXEN WLEDIG,' 'HANES LLUDD A LLEWELYS,' 'BREUDDWYD RHONABWY,' a 'HANES KULHWCH AC OLWEN.' Yn y ddwy olaf, ceir sôn am Arthur; ond nid yn null y rhamantau Ffrengig, a'r cyffelyb. Enwau y rhamantau ydynt:—'OWEIN A LUNED,' 'PEREDUR,' a 'GERAINT,' ac 'ENID.' Nid oes nemawr le i ammheu, os oes o gwbl, bellach, mai hen ramantau Ffrengig mewn rhyddiaeth, wedi eu cyfaddasu i'r iaith Gymraeg, yw y tair rhamant olaf hyn. Cynnwysant, er hyny, ddefnyddiau Celtaidd; ond y mae cryn ddadleu pa un ai defnyddiau Cymreig, ynte Llydewig, sydd ynddynt. Cawn ymdrin â'r pwngc hwn yn llawnach etto, pan y byddwn wedi rhoddi

Digitized by Google

crynodeb o honynt, ac hefyd yn yr ysgrif ar y 'BRUTIAU:'—lle yr ymdrinir yn lled helaeth â'r cwestiwn 'Arthuraidd.' Prif amddiffynydd tarddiad Cymreig y chwedlau hyn yw M. Gaston Paris—un o'r awdurdodau uchaf ar hanes llenyddiaeth Ffraingc. O'r tu arall, y mae Zimmer, un o ysgolheigion Celtaidd yr Almaen, yn credu yn gryf mai oddi wrth ein cefndryd yn Llydaw yr aeth y chwedlau Celtaidd am Arthur i lenyddiaeth Ffraingc; a thrwy ei llenyddiaeth hi i lenyddiaeth Ewrop. Ond, fel y dywedodd M. Gaston Paris, nid ydys, etto, ond wedi dechreu chwilio i mewn i'r pwngc dyrys hwn. Dyma ei eiriau:—'Yr wyf wedi ymgymmeryd, er's peth amser, âg ymchwiliad trefnus i'r casgliad helaeth o farddoniaeth a elwir 'Cyfres y Ford Gron,' 'Cyfres Arthur,' neu y 'Gyfres Frytanaidd.' Yr wyf yn myned yn mlaen dan ymbalfalu; ac yn aml iawn, gan ddychwelyd yn ôl fy nhraed ugain o weithiau, yr wyf yn gweled fy mod wedi colli fy ffordd mewn dyryswch di-derfyn.' Barn M. Gaston Paris yn fyr ydyw, fod cryn nifer o Gymry wedi myned, fel beirdd a cherddorion, i'r llysoedd Normanaidd yn Ffraingc ac yn Lloegr, ac wedi canu am helyntion Arthur a'i wŷr mewn caneuon, y rhai a elwir y '*lais Bretons*.' Ceir llawer o gerddi am Arthur yn codi yn Lloegr tua chanol y ddeuddegfed ganrif. Un o'r prif gerddorion Cymreig oedd y '*famosus ille Blédericus*,' y soniwyd cymmaint, o dro i dro, am dano. Yn ol M. Gaston Paris, mae y cerddi Anglo-Normanaidd hyn, yn mron i gyd, wedi eu colli; ac, yn ol ei syniad ef, efelychiadau o honynt yw y rhamantau Cymreig, ochr yn ochr âg efelychiadau Saesnig a Ffrengig. Y mae efe o'r farn, hefyd, fod y cerddi hyn wedi myned drosodd yn lled foreu i Ffraingc, naill ai mewn adysgrifeniadau, neu ynte ar dafod-leferydd; ac yn aml wedi colli eu ffurf farddonol. Yr oedd, yn llysoedd y brenhinoedd a'r tywysogion, chwedleuwyr, y rhai na ysgrifenent eu chwedlau. Dywed fod cyssylltiad Lloegr â Ffraingc y pryd hyny yn agos neillduol; mewn rhan o achos meddiannau Harri II. ar y Cyfandir—ac mewn rhan o herwydd cyssylltiadau agos y teuluoedd tywysogaidd yn y ddwy wlad. Trowyd y chwedlau hyn i farddoniaeth Ffrengig yn benaf gan Chrétien de Troies. Yr un chwedl yw 'Erec' ganddo ef a chwedl 'Geraint ac Enid' genym ni. Cyfansoddodd ef 'Erec' tua'r fl. 1160. Yr un chwedl, hefyd, yw chwedl 'Owain a Luned' a'i 'Ivain,' neu ei '*Chevalier au lion*' ef, yr hon a gyfansoddwyd ganddo ychydig yn ddiweddarach na 1170. Yr un chwedl, hefyd, yw 'Peredur' a 'Perceval,' neu'r 'Conte du Graal' ganddo ef. Y mae Chrétien yn cydnabod mai mewn efelychiad o ryw lyfr (fel y barna M. Gaston Paris—hen gân Anglo-Normanaidd) y cyfansoddodd Chrétien y rhamant hon. Llyfr oedd hwn a roddwyd yn fenthyg i Chrétien gan Philippe d'Alsace, Iarll Flanders; yr hwn, yn 1172, a dreuliodd rai misoedd yn Lloegr, lle y rhyfelodd yn erbyn Harri II. Y mae M. Paris o'r farn mai ffynnonell holl ramantau Chrétien oedd chwedlau Anglo-Normanaidd, ar dafodleferydd, neu mewn ysgrifen, mewn rhyddiaeth, neu mewn barddoniaeth. Yr oedd yn y chwedlau a ddefnyddiai gryn lawer o anhawsderau ac o ddiffygion, ac anghywirdeb yn yr enwau; ac fe ymddengys fod Chrétien yn aml wedi cael mwynhâd mewn chwanegu aneglurder atynt. Cyfrifid ef gan ei oes ei hun, a'r oes a'i dilynodd, fel y bardd Ffrengig goreu. Chrétien fu yn foddion, yn benaf, i gario yn mlaen gyfnewidiad yr hen arwyr Celtaidd i lun a chymmeriad Marchogion y Canol-oesoedd.

Cynnwysai y chwedlau Anglo-Normanaidd hyn, fel y sylwa M. Paris, yn gyffredin hanes un o arwyr y 'Ford Gron.' Y mae llangc ieuangc anadnabyddus yn dyfod i lys Arthur, ac yno yn ymgymmeryd â gwrhydri a gyfrifid gan bawb yn ammhossibl. Y mae hwn yn llwyddo yn ei ymgais; ac ar ol hyny, mewn llawer ymgais arall; ac o'r diwedd y mae yn priodi merch ieuangc a gyfarfyddodd ar ei deithiau; yr hon sydd yn dyfod âg etifeddiaeth neu deyrnas iddo. Cymmerer, er enghraifft, ystori 'Owain a Luned,' yr hon ydyw '*Chevalier au lion*' Chrétien. Cyfieithwyd y chwedl hon i'r Ellmynaeg gan Hartmann d'Aue, i iaith Norway, ac hefyd i'r Saesneg. Y mae rhamant Geraint, hefyd, yn perthyn i'r un dosbarth; a chyfieithwyd hithau i'r Ellmynaeg gan Hartmann, ac, hefyd, i iaith Norway. Ac y mae Rhamant Peredur wedi ei chyssylltu, o'r tu arall, â rhamant y Seint Graal.

Yr ydym yn rhoddi darnodiad fel hyn o'r rhamantau Arthuraidd olaf a enwyd er mwyn i'r darllenydd allu gweled mor wahanol ydynt i'r traddodiadau Cymreig pur; y rhai a gynnwysir yn benaf yn Mhedair Caingc y Mabinogi, ac yn Kulhwch ac Olwen. Nid yw yn ryfedd fod Zimmer, wrth sylwi ar y gwahaniaeth sydd rhwng y Mabinogion Cymreig pur a'r rhamantau Arthuraidd, wedi ammheu cyssylltiad uniongyrchol y rhai olaf hyn â Chymru. A ganlyn yw ei feirniadaeth ar ddamcaniaeth M. Gaston Paris. Nid yw Zimmer yn credu mai o Gymru yr aeth y chwedlau Arthuraidd i lenyddiaeth Ffraingc; ond yn hytrach o Lydaw, lle y siaredid y ddwy iaith; tra y daeth dylanwad Sieffre o Fynwy yn fawr iawn ar feirdd Normandy. Creda Zimmer fod yn Llydaw gryn swm o chwedloniaeth; ac mai oddi yno, yn gystal ag oddi wrth yr hanesion Cymreig, ac oddi wrth Gildas a Nennius, y cafodd Sieffre ddefnyddiau ei 'Hanes Brenhinoedd y Brytaniaid.' Llydaw, hefyd, yn ol Zimmer, a feddylir gan Sieffre, pa bryd bynag y defnyddia yr enw 'Britannia;' ac y mae yn credu ei fod yn gweled yn amlwg y gwahaniaeth rhwng y chwedlau Cymreig a'r chwedlau Llydewig.

Pa beth bynag fydd terfyn yr ymchwiliadau hyn, y mae yn hollol sicr mai nid o'r Cyfandir y cafwyd Pedair Caingc y Mabinogi; ac, ar ryw olwg, fel y gall y darllenydd weled drosto ei hun, y mae llawn cymmaint, os nad mwy, o allu ac o nerth llenyddol ynddynt hwy nag sydd yn y rhamantau Arthuraidd hyny sydd genym ni; ac y mae yn amlwg fod y goleuni a daflant ar hen chwedloniaeth ein hynafiaid, a'u hen grefydd hefyd, yn llawer iawn eglurach na goleuni rhamantau sydd wedi cymmylu y traddodiadau Celtaidd â syniadau llysoedd y Cyfandir. Er cymmaint ydyw yr ymgais clodwiw a wnaed gan y Proffeswr Rhys yn ei *Arthurian Legend* i ddarganfod yr hen draddodiadau Cymreig yn y rhamantau Arthuraidd diweddar, etto, teimlwn nad ydyw efe wedi gallu gweled ond prin yr ymylon.

Rhoddwn, i ddechreu, grynodeb o Bedair Caingc y Mabinogi yn eu trefn; sef, 'PWYLL,' 'BRANWEN FERCH LLYR,' 'MANAWYDDAN FAB LLYR,' a 'MATH FAB MATHONWY.'

I. PWYLL PENDEFIG DYFED.

Dyma'r gyntaf o Bedair Caingc y Mabinogi;

Digitized by Google

ac y mae hi yn ffurfio math o ragarweiniad i'r lleill. Gellir edrych ar hanes Pryderi, mab Pwyll, arwr Dyfed, fel cnewyllyn y pedair caingc. Y prif ffeithiau yn ei hanes yw ei enedigaeth—ei golli, ei ddarganfod—ei ddwyn i fyny gan Teyrnon Twrf Fliant—ei enwi yn Pryderi gan ei fam Rhiannon, o achos y pryder a gafodd—ei waith yn cludo pen Bendigeitwran—ei gyssylltiad â Manawyddan fab Llyr—ei garchariad gyda'i fam Rhiannon, pan osodwyd yr hud ar Ddyfed—ei dwyllo o rai o'i foch gan Gwydion fab Don, arwr Gogledd Cymru—ei ladd drwy ddewiniaeth dan law Gwydion—a'i gladdu yn Maentwrog, lle y dangosid ei fedd. Y mae hanes Pwyll, ei dad, yn fath o ragarweiniad, felly, i'w hanes ef. Cawn yn y rhan gyntaf o'r Fabinogi hon hanes tyfiant cyfeillgarwch Pwyll âg Arawn, brenin Annwn. Yr achos pa ham y dygir yr hanes yma i mewn ydyw, er mwyn esbonio pa fodd y derbyniodd Pryderi y moch a ladratawyd oddi arno yn ddiweddarach gan Gwydion, ac a fu yn achos o'i farwolaeth. Ymddengys fod y Celtiaid yn bur hoff o ddyfod â moch i'w hanesion; ac yn enwedig i gyssylltiad agos â'u prif arwyr. Pâr hyn i ni ammheu fod yr un peth yn wir am arwyr gwahanol lwythau y Celtiaid ag a ddywedir gan Mr. Frazer, awdwr y llyfr enwog hwnw, '*The Golden Bough*;' sef, yr addolid yr arwr ei hunan gynt yn ffurf yr anifail hwnw a gyssylltid â'i enw yn ddiweddarach; ond cawn sôn am hyn etto.

Yn yr ail ran o'r Fabinogi hon, cawn hanes cyfarfyddiad Pwyll a Rhiannon, ei wraig ef, a mam Pryderi wedi hyny.

RHAN I.

Y mae Pwyll, Pendefig Dyfed, yn myned, un diwrnod, i hela, mewn rhan o'i diriogaeth, a elwid Glynn Cuch. Wrth hela carw, y mae cŵn Pwyll yn digwydd dyfod i gyffyrddiad â chŵn heliwr arall; ac o'r diwedd, y mae y ddau heliwr eu hunain yn cyfarfod hefyd. Wedi peth ymddiddan, y mae Pwyll yn cael ar ddeall mai Arawn, brenin Annwn, ydyw yr heliwr arall. Dywed Arawn wrth Pwyll fod yn ei allu i wneyd cymmwynas âg ef. Y mae yn rhyfela â Hafgan brenin yn Annwn; ac y mae yn awyddus i Pwyll orchfygu Hafgan iddo, drwy gymmeryd ei le a'i lun yn Annwn, a chyfarfod â Hafgan, a rhoddi iddo un ddyrnod—a dim yn chwaneg. Fe fyddai'r ergyd hon yn ergyd farwol. O'r tu arall, cymmerai Arawn le Pwyll yn Nyfed. Yr oedd Pwyll i aros yn Annwn am flwyddyn, ac i orchfygu Hafgan ar ei diroedd. Gwneir hyn gan Pwyll; ac yn mhen y flwyddyn, y mae yn dychwelyd, ac yn derbyn ei frenhiniaeth yn ol. O hyn y tarddodd cyfeillgarwch Arawn a Phwyll.

RHAN II.

Un diwrnod, y mae Pwyll, Tywysog Dyfed, yn myned i orsedd Arberth. Un o 'gynneddfau' neu rinweddau yr 'orsedd' (sef 'uchelfa') Arberth ydyw, y bydd i ŵr boneddig, os eistedd arni, naill ai gael ei glwyfo yn drwm, neu ynte weled rhyfeddod. Cyn bo hir, wedi i Pwyll eistedd, y mae boneddiges yn ymddangos, yn eistedd ar farch, 'can welw mawr aruchel, a gwisc eureit lathreit ymdanei.' Yr oedd y march yn ymddangos fel pe yn cerdded yn ddigon araf. Mae rhai o weision Pwyll, yn ol ei orchymyn, yn ceisio goddiweddyd y farchoges; ond methiant hollol oedd hyny arnynt. Cymmer hyn le hefyd dranoeth, a threnydd, ac hyd yn oed y pedwerydd dydd. Y dydd olaf, fodd bynag, ceisia Pwyll ei goddiweddyd ei hunan; ac, yn enw'r gŵr a gâr fwyaf, y mae yn crefu arni ei aros. Mae hithau, ar hyny, yn foddlawn i wneyd hyn; a rhydd ar ddeall iddo mai ei henw yw Rhiannon, ferch Eweyd Hen, ac mai ei hamcan oedd ei weled ef. Ennynodd ei serch hi at Pwyll er's tro; ond ceisiai ei rhieni gael ganddi briodi un arall yn erbyn ei hewyllys. Yna, y mae Pwyll yn addaw ei chyfarfod yn mhen blwyddyn i hyny, yn llys Eveyd Hen, ei thad. Ar ol gwledd yn y llys, yn yr hon y mae Pwyll a Rhiannon yn bresennol, y mae llangc yn dyfod i mewn i ofyn ffafr. Addawa Pwyll roddi iddo unrhyw ffafr a ofyna; ond, erbyn deall, neges y llangc ydyw ceisio Rhiannon. Mae'n amlwg, bellach, mai Gwawl, fab Clut, ydyw; yr hwn a ffieiddiai Rhiannon. Rhydd Rhiannon orchymyn i Pwyll roddi y ddeiseb; ond y mae yn addaw, cyn y diwedd, dwyllo Gwawl. Derbynia Pwyll yn awr gôd ganddi; ac y mae'n esbonio beth a ddigwyddai. Bwriadai Gwawl ofyn, yn mhen blwyddyn i hyny, am y wledd; ac yr oedd Rhiannon yn foddlawn ei chynnyg i'r llu oedd gydag ef. Y mae, felly, yn gwneuthur cyttundeb i gyfarfod Gwawl yn mhen y flwyddyn. Yn mhen y flwyddyn, y mae Pwyll yn cymmeryd y gôd, ynghyd â chant o wŷr, i berllan gyfagos i'r llys. Ar ganol y wledd, mae Pwyll i ddyfod i mewn, a hyny mewn dillad carpiog, gyda r gôd, i ofyn am ei llonaid o fwyd, a dim yn rhagor. Bwriad Rhiannon ydyw ei gwneyd yn ammhossibl i lenwi'r gôd. Fe ofynai Gwawl, ai nad oedd y gôd yn llawn bellach; ac yr oedd Pwyll i atteb, nas gellid ei llenwi hyd nes yr elai pendefig i mewn, a sathru y bwyd i lawr. Gorchymynai Rhiannon ar hyny i Wawl ei hun fyned i mewn. Yna, yr oedd Pwyll i gau ar Gwawl yn y gôd, i chwythu ei gorn, ac i gynnull ei wŷr ynghyd. Dyna a wneir; ac y mae'r ddyfais yn llwyddo. Rhoddir yr hanes yma yn y Fabinogi hon fel esboniad ar ddechreuad chwareu '*broch ygkot*.' Mae Gwawl yn rhoddi gwystlon na bydd iddo ddial y cam yma, na blino Rhiannon mwyach. Yn awr, priodir Pwyll a Rhiannon, a gadawant lys Eveyd. Am beth amser, y mae Arglwydd Dyfed yn ofni y byddant yn ddi-etifedd; ond, yn mhen ysbaid, genir mab iddynt yn Arberth. Yn y nos, y mae chwech o wragedd yn gwylied Rhiannon; ond un noswaith, maent yn syrthio i drwmgwsg cyn hanner nos; ac yn y boreu, darganfyddant fod y plentyn wedi ei golli. Er mwyn cuddio eu hesgeulusdra, penderfynant ladd cenawon newydd-eni, ac iro Rhiannon â'r gwaed. Yn y boreu, taera y gwragedd wrth Rhiannon mai hi, yn ei gwallgofrwydd, laddodd ei phlentyn. Nis gellir rhwystro y sôn fod y plentyn wedi colli; ac y mae y peth yn dyfod i sylw pendefigion Dyfed. Ceisiant hwythau gael gan Pwyll ysgaru Rhiannon, a chymmeryd gwraig arall; ond, ni fŷn efe mo hyny. Maent hwythau, o ganlyniad, am ei gorfodi i oddef penyd. Rhag ymdaeru yn hwy â'r gwragedd, y mae hithau yn penderfynu ei oddef. Dyma oedd ei phenyd—derbyn dyrnod gan bawb a elai heibio; a chludo, os gadawent iddi, i'r tŷ bawb o'r dyeithriaid a ddeuent yno.

Digwyddai y pryd hyny, fod Teyrnon Twrf Fliant yn arglwydd ar Went-îs-Coed. Rhoddai ei gaseg enedigaeth i ebol bob blwyddyn; ond yn union wedi geni'r ebol fe'i lladratëid. Un noson, y mae Teyrnon yn gwylied y gaseg, ac y

Digitized by Google

mae yn gweled crafangc fawr wedi ei hestyn i afael yn yr ebol. A'i gleddyf y mae Teyrnon yn tori'r grafangc; ac, wrth glywed sŵn taran, y mae yn myned allan: ond dychwela yn union, wrth gofio fod y drws wedi ei adael yn agored. Oddi mewn, mae yn cael hyd i blentyn. Wedi myned âg ef adref, mae ef a'i wraig yn penderfynu ei fagu fel eu plentyn eu hunain; a rhoddant arno yr enw 'Gwri Gwallt Euryn.' O'r dechreu cyntaf, y mae'r plentyn yn gryf anarferol; ac fe'i cedwir nes dyfod yn flwydd oed. Derbynia hefyd yn anrheg yr ebol a aned yr un pryd ag y darganfyddwyd ef. Yn awr, mae gofid Rhiannon yn dyfod i glustiau Teyrnon; ac, wrth weled tebygolrwydd Gwri i Pwyll, mae'n penderfynu adferu y plentyn i'w rieni. Hyn a wneir; ac oddi wrth gyfeiriad Rhiannon at ei phryder, mae'r plentyn yn cael yr enw Pryderi. Rhoddir y plentyn i Pendaran Dyfed i'w fagu; ac, ar ol marwolaeth Pwyll, y mae Pryderi yn priodi Kicua, ferch Gwynn Gohoyw, fab Gloyw Gwallt Lydan, fab Casnar Wledig.

BRANWEN FERCH LLYR.

Ymddengys, oddi wrth y cyfeiriadau lleol sydd yn y Fabinogi hon, fod ei defnyddiau wedi eu casglu gan mwyaf yn Ngogledd Cymru, ac yn enwedig yn Ynys Môn, lle y dangosid bedd Branwen yn Nglan Alaw. Yn ngoleuni yr hyn a gymmerodd le yn mysg cenhedloedd eraill, y mae yn hawdd genym gredu mai un o hen dduwiesau Ynys Môn oedd Branwen, a'i bod hi yn cael ei haddoli yn y ffurf o aderyn. Y mae yn eithaf sier fod ei thad, Llyr (Lir y Gwyddelod), yn un o hen arwyr neu dduwiau y Celtiaid. Yn mhlith y Celtiaid, mae bron yn ammhossibl tynu llinell derfynol rhwng arwyr a duwiau. Pa aderyn a gyssylltid â Branwen y mae yn anhawdd dyweyd, os nad y wylan. Fe sylwa'r efrydydd, wrth ddarllen y Mabinogion, y lle pwysig a roddir i adar yngl ŷn âg arwyr ac arwresau Gogledd Cymru, fel y cyssylltir rhai anifeiliaid neillduol âg arwyr y De. Y tebyg yw, fod gan bob llwyth ei anifail cyssegredig ei hun, fel y *totems* sydd mor gyffredin yn mhlith y cenhedloedd anwaraidd; ac yr edrychid ar y duwiau gynt fel yn ymddangos yn ffurf yr anifeiliaid hyn. Deuai'r anifail yma yn fath o gyfrwng undeb i aelodau y llwyth, ac yn foddion i wahaniaethu rhwng aelodau llwyth a llwyth. Yn ddiweddarach, fe ddaethpwyd i anghofio'r hen gyfundrefn, ac nid arosodd dim adgof o'r cyssylltiad anifeilaidd, ond mewn chwedloniaeth. Tueddwn i gredu mai *totem* oedd Bran ar y cychwyn. Yr ydym yn cael un o lwythau y Galiaid, sef yr Aulerci Brannovices, yn ymgyfenwi eu hunain yn 'wŷr y frân;' ac y mae yn eithaf tebyg mai felly y gwnelai rhai o lwythau y Cymry gynt. Awgrymir peth cyffelyb gan y ffaith fod Llew (neu Lleu) Llaw-gyffes, wedi ei ladd, yn ehedeg yn rhith eryr; fod tri mab Gilvaethwy yn myned dan yr enwau Bleiddwn, Hyddwn, a Hychtwn; fod Blodeuwedd yn cael ei chyssylltu â'r Ddallhuan, a'r cyffelyb. Fe gofir hefyd gyssylltiad Teyrnon a Rhiannon â meirch, gwraig Llwyd ab Cil Coed â'r llygoden, Gwri gwallt euryn â'r ebol, Pryderi â'r moch, yn chwedloniaeth y Deheudir. Nid ydym yn hyn am sierhau dim yn derfynol; ond am awgrymu i'r darllenydd faes o ymchwiliad mewn enwau lleoedd a'r cyffelyb, sydd wedi rhoddi cynhauaf hynod doreithiog ynglŷn â chwedloniaeth a chrefydd rhai cenhedloedd eraill. Mae lle i gredu, hefyd, mai drwy'r anifeiliaid y mae cyssylltu ffurf olaf yr hen grefydd Geltaidd â'r ffurf oedd arni pan yr addolai ein hynafiaid y dderwen. Fe fydd genym chwaneg i'w ddywedyd ar hyn cyn y diwedd.

Yn y Fabinogi hon, deuwn i gyssylltiad, am y waith gyntaf, â'r gyfres hono o chwedlau sydd yn gyssylltiedig âg enw Llyr (enw yr hwn yn y Wyddelaeg yw Lir, ac yn Saesneg Lear). Casglwyd cryn lawer o chwedloniaeth am dano gan Sieffre o Fynwy (gwêl BRUTIAU). Gellir casglu mai un o dduwiau y môr, yn benaf, oedd efe yn mhlith yr hen Geltiaid, er nad oeddynt hwy yn cadw yn fanwl iawn at ddosraniad llafur yn mhlith eu duwiau. Mae Manannan mac Lir (Manawyddan fab Llyr) yn gymmeriad hynod bwysig yn chwedloniaeth yr Iwerddon, er fod ei ysbryd yn bur wahanol i eiddo yr arwr Cymraeg. Dichell a direidi ydyw prif nodweddau cymmeriad yr arwr Gwyddelig. Mae cyssylltiad Llyr â'r môr yn ein galluogi i ddeall, pa fodd y cyssylltid chwedlau am ei deulu gymmaint âg Ynys Manaw, Môn, yr Iwerddon, Harlech, a Dyfed. Mae'n ddiammheu y telid cryn barch iddo gan drigolion arfordir gorllewinol Cymru, ac arfordir dwyreiniol yr Iwerddon.

Rhoddwn yn awr grynodeb o Fabinogi Branwen :—Un diwrnod, eisteddai Bendigeitvran a Manawyddan, meibion Llyr, ynghyd â'u dau hanner brawd, Nissyen (fe allai y Gwyddelig Noisiu), ac Efnissyen, ar 'gareg Harlech, uwch y weilgi.' Tra yn eistedd yno, gwelent dair llong ar ddeg yn dyfod o ddeheu yr Iwerddon. Y mae un o'r rhai hyn, sef llong Matholwch, brenin yr Iwerddon, yn rhagflaenu y lleill. Cyn bo hir, deuir i wybod mai dyfod y mae Matholwch i geisio Branwen, ferch Llyr, yn wraig iddo. Caniateir ei ddymuniad, a threfnir i'r briodas gymmeryd lle yn Aberffraw. Gwneir y wledd briodasol mewn pebyll, gan nad yw Brân erioed wedi bod mewn tŷ. Ryw ddiwrnod, mae Efnissyen (gŵr ieuangc llawn o ddireidi maleisddrwg), gan ei fod yn cyfrif priodas ei chwaer heb ei genad ef yn sarhâd arno, yn tori gweflau a chlustiau meirch Matholwch. Yna, y mae Matholwch yn gadael y llys mewn digllonedd. Ar hyny, mae Bendigeitvran yn anfon cenhadon i gyflymliw âg ef; ond gwrthod gwrandaw y mae Matholwch. Yna, anfonir Manawyddan, fab Llyr, Eveyd Hir, ac Unig Glew Ysgwyd, i gynnyg iddo ail farch am bob un a ddyfethwyd ynghyd â chwaneg o iawn. Barna Matholwch mai gwell ydyw iddo dderbyn y telerau hyn. Ond, gan fod Bendigeitvran yn tybied nad ydyw Matholwch wedi ei foddloni etto, mae'n cynnyg yn anrheg iddo bair neu grochan, yr hwn a adferai yn ol i fywyd, ond yn fud, unrhyw gorph marw a deflid iddo. Ar hyn, mae Matholwch yn gofyn hanes y pair; ac, yn ol ei gais, mae Bendigeitvran yn ei adrodd. Yr oedd Bendigeitvran wedi derbyn y pair yn anrheg gan Llassar Llaesgyfnewid a Chymideu Cymeinvoll ei wraig; y rhai a ddaethant âg ef gyda hwy o'r Iwerddon, pan ddiangasant oddi yno 'pan wnaed y tŷ haiarn yn wynias am eu pen.' Yna, fe geir hanes am y modd y diangasant o'r Iwerddon. Ar eu dyfodiad fe fu i'r cawr a'r gawres, yn ol Brân, wladychu yn ei diriogaeth, a llwyddo yno. Tueddwn i gredu fod genym draddodiad yma, yn esbonio pa fodd y priodolid cyssylltiad ac achau Gwyddelig i rai teuluoedd yn Ynys Môn. Fe allai fod rhai teuluoedd yn cael eu galw 'Y Gwyddyl,' fel y gelwid teulu



Digitized by Google

neu deulnoedd yn ardal Llanwenog, yn sir Aberteifi.

Yn awr, mae Matholwch a Branwen yn ymadael i'r Iwerddon; ac yno fe enir mab iddynt, yr hwn a elwir Gwern. Cyn bo hir, y mae terfysg yn codi yn yr Iwerddon o achos y cam a gawsai Matholwch yn Mhrydain. O achos hyn, fe orfodir Matholwch i roddi Branwen heibio am ysbaid: ac fel penyd, gorfodir hi i bobi yn y llys, tra yr oedd y cigydd i roddi bonclust iddi bob dydd. Mae Matholwch hefyd yn ceisio rhwystro pob cyssylltiad rhwng yr Iwerddon a'r ynys hon. Am dair blynedd, maent yn llwyddo i gadw'r gyfrinach; ond ryw ddiwrnod y mae 'aderyn drytwenn' yn disgyn ar ymyl y llestr yn yr hwn y pobai Branwen, ac mae hithau yn dysgu iaith iddo, ac yn hysbysu yr aderyn pa fath ddyn oedd ei brawd. Rhwymir yn awr lythyr ganddi dan aden yr aderyn, ac anfonir ef i Gymru. Mae yn dyfod o hyd i Fendigeitvran yn Nghaerynarfon. Y mae yntau yn penderfynu ar unwaith fyned i'r Iwerddon, gan adael saith marchog i ofalu am y ddinas. Y pryd hyny, yn ol yr hanes, gwahenid yr Iwerddon oddi wrth y wlad hon gan ddwy afon yn unig; sef, Llian ac Archan. Mae Brân yn croesi y rhai hyn ar draed. Wrth ei weled yn dyfod, nis gall ceidwaid moch yr Iwerddon ddychymygu pa beth ydyw efe, na'i longau, nes i Branwen roddi eglurhâd iddynt. Ar hyn, mae Matholwch yn penderfynu croesi afon Llinon yn Iwerddon, a thori y bont oedd drosti. Ond dan yr afon hon yr oedd maen, a dynai ato ei hun bob llong a nofiai uwch ei ben. (Mae genym yma, hwyrach, hen draddodiad am berygl Pwll-Ceris wedi ei drosglwyddo at afon Llinon.) Wedi cyrhaedd at yr afon, y mae Bendigeitvran, yn ei benbleth, yn niffyg pont, yn myned yn bont ei hunan i'w filwyr; ac o hyny, medd y Fabinogi, y dechreuodd y ddihareb, '*Bit penn bit pont.*' Wrth weled hyn, mae Matholwch yn ymostwng, ond ni dderbynia Brân ei gynnygion. Yna, y mae Branwen yn awgrymu mai gwell fyddai i Matholwch wneyd tŷ i Frân. Gwnai hyn, fe dybiai, ei foddloni. Adeiledir y tŷ; ond y mae y Gwyddelod yn gosod gwŷr arfog mewn sachau, ac yn eu crogi ar golofnau y tŷ. Ar hyn, mae Efnissyen yn dyfod i mewn; ac, wrth weled y gwŷr yn y sachau, y mae'n gwasgu pen pob un. Yna, mae gwŷr 'Ynys y Kedyrn' (sef y wlad hon), a gwŷr yr Iwerddon, yn dyfod i gyttundeb â'u gilydd; a rhoddir y deyrnas i Gwern. Wedi hyn, mae Efnissyen yn gwahodd y plentyn ato ei hun. Gan afael yn ei draed, mae'n ei fwrw i'r tân. Yna, mae pob peth mewn terfysg; a phrin y gall Bendigeitvran attal Branwen rhag neidio i'r tân ar ol ei mab. Parotoir y pair dadeni, a theflir y celaneddau i mewn. Bwrir Efnissyen hefyd iddo, ac y mae'n tori y pair, a'i galon ei hun yr un pryd. Brathir Bendigeitvran hefyd yn ei droed â gwaewffon wenwynig. Yna efe a rydd orchymyn ar i'w ben gael ei dori ymaith, a'i gladdu yn y Gwynfryn yn Llundain. Dyna a wneir, a chludir y pen oddi yno gan saith o wŷr, ac yn eu plith Pryderi a Manawyddan fab Llyr. Yr oedd wedi prophwydo iddynt y byddent yn Harlech am saith mlynedd yn gwrandaw ar adar Rhiannon; ac yn Ngwales (sef Ynys Gresholm) yn Mhenfro am bedwar ugain mlynedd. Yr ydym yn ammheu yn gryf fod genym yma weddillion hen draddodiad, yn esbonio pa ham y gelwid Penfro yn '*Pen* fro.' Yn Ngwales, gallent aros cyhyd ag y mynent, os nad agorent y drws tuag Aberhenfelen, yn nghyfeiriad Cernyw. Yr ydym yma yn cael adlais hen ofergoeledd ynghylch pwysigrwydd y pen; yr hyn sydd wedi peri, yn mhlith yr anwariaid yn lled gyffredin, ei bod yn bechod o'r mwyaf i neb gyffwrdd â phen y brenin, o blegid i'r anwariad yno y mae canolbwynt bendithion y grëadigaeth.

Y mae Branwen, hithau, yn myned gyda'r teithwyr, ond y mae yn marw o doriad calon yn Glan Alaw, yn Môn; a chleddir hi yno, medd yr hanes, 'mewn bedd pedryfal.' Daw newydd, ar hyny, fod Caswallawn fab Beli wedi gwneuthur ei hunan yn frenin yn Llundain.

Y mae cludwyr y pen yn ymddwyn yn hollol fel y prophwydodd ac y gorchymynodd Brân iddynt, a chleddir yr 'Uthr Ben' ganddynt yn y Gwynfryn, yn Llundain. Diwedd y Fabinogi yw hanes rhaniad yr Iwerddon yn bum talaeth.

MANAWYDDAN FAB LLYR.

Dyma drydedd caingc y Fabinogi, yn yr hon y dygir ni yn ol at hanes Pryderi a Rhiannon a Dyfed. Nid oedd i Pryderi a Manawyddan ond cyssylltiad pur anuniongyrchol â'r Fabinogi ddiweddaf, sef fel dau o gludwyr pen Bendigeitvran. Gorphwysa y Fabinogi hon, i raddau helaeth, ar rai o'r Trioedd, yn enwedig ar hanes y Tri Eurgrydd. Ar yr un pryd, y mae lle i gredu fod y Trioedd eu hunain [gwel TRIOEDD] yn fath o grynodeb o hen chwedlau. Un rheswm, hwyrach, pa ham y cyssylltid Manawyddan â gwneyd esgidiau oedd, am fod hyny yn rhan o wareiddiad dyn. O'r tu arall, mae lle i ammheu mai tebygolrwydd yr enw i 'mynawyd' oedd un achos pwysig hefyd:—achos sydd yn gysson iawn â thuedd y Mabinogion i greu hanesion oddi wrth enwau.

Mae Manawyddan, un o'r seithwyr a enwyd yn yr hanes o'r blaen, yn gweled pen brân wedi ei gladdu; ac wrth weled dinas Llundain o dan lywodraeth Caswallawn fab Beli, yn lle ei frawd ei hun, y mae efe yn tristau yn ddirfawr. Ceisia Pryderi ei gysuro ef drwy addaw iddo saith cantref Dyfed, ynghyd â'i fam ei hunan, Rhiannon, yn wraig. Ar wledd yn Arberth y mae Manawyddan yn cyfarfod Rhiannon; ac yn fuan y maent yn dyfod i hoffi eu gilydd; a phriodir hwy yn ddioed. Awgryma Pryderi y byddai yn well iddo ef fyned i swydd Caergaint i wneyd gwarogaeth i Gaswallawn; ond perswadir ef, y tro hwnw, i beidio. Yna, gorphenir y wledd; a dechreua y pedwar hela. Yn ddiweddarach, y mae Pryderi yn myned i wneyd gwarogaeth i Gaswallawn yn Rhydychain. Ar ol darfod hyn, y mae'r pedwar yn myned gyd â'u gilydd i Orsedd Arberth. Tra y maent yno, clywir sŵn taranau, a daw niwl tew dros yr holl fro; ac yn mhen ychydig, y mae yn diflanu. Wrth edrych o'u cwmpas, wedi i'r niwl glirio, maent yn gweled yr holl wlad yn ddiffaethwch hollol:—Y tai a'r llys yn adfeilion. Er chwilio am weision y llys, nid ydynt i'w gweled yn unman. Cyn bo hir, y mae y bwyd oedd ganddynt yn darfod; ac y maent yn gorfod byw ar yr hyn a gaent drwy hela a physgota, ac ar fêl gwyllt; ac fe bery hyn am ddwy flynedd. Pan welodd Manawyddan nas gellid gwneyd hyn yn hwy, y mae yn awgrymu mai gwell fyddai iddynt ddysgu rhyw grefft, a myned i Loegr, am fod yno well gobaith am fywoliaeth. Yna, y maent yn penderfynu myned i Henffordd; ac, wedi myned yno, y maent yn dechreu gwneyd

cyfrwyau. Ennyna eu gallu a'u llwyddiant eiddigedd y cyfrwywyr eraill; ac y maent hwythau yn barnu, o'r diwedd, mai gwell fyddai iddynt ddiangc. Eu hymgais nesaf ydyw gwneyd tarianau. Yma, hefyd, y maent yn cyfarfod â'r un gwrthwynebiad: a throant etto i dref arall. Eu crefft nesaf yw gwneyd esgidiau. Cael eu herlid y maent gyda'r gwaith yma hefyd, nes o'r diwedd y maent yn penderfynu dychwelyd i Ddyfed. Ar ol cyrhaedd yno, y maent yn myned i Arberth, ac yn byw oreu y gallant am flwyddyn. Wrth hela, un diwrnod, y mae eu cŵn yn dyfod ar draws baedd gwyllt mewn perth ger y llys. O gam i gam, dilynant y baedd nes cyrhaedd amddiffynfa uchel mewn lle a fuasai gynt yn anghyfannedd. Y mae y cŵn a'r baedd yn myned i'r llys; ac y mae Pryderi hefyd yn awyddus i fyned i mewn, ond attelir ef gan Manawyddan. Pa fodd bynag, myned i mewn a wna; ond y mae yn cael fod y llys oddi fewn yn anghyfannedd; ond yn nghanol y llawr y mae ffynnon, â gwaith marmor o'i chylch, a chadwyni diderfyn yn cyrhaedd oddi wrthi i'r awyr; ac ar y llech farmor sydd wrth y ffynnon y mae cawg. Tra yn sefyll ar yr ymyl marmor, ac yn gafael yn y cawg, y mae traed Pryderi yn glynu wrth y marmor, a'i ddwylaw wrth y cawg. Wrth weled Pryderi yn ymdroi yn y llys, y mae Manawyddan yn dechreu anesmwytho. Y mae yn aros hyd y nos; ond etto, nid oes gair o sôn am Bryderi. Yna, y mae efe yn dychwelyd at Rhiannon; ac y mae hithau, ar hyny, yn myned i'r llys. Y mae yr un peth yn digwydd iddi hithau ag i Pryderi; ond at y nos y mae taranau a niwl yn cyfodi, a'r castell yn diflanu, a Phryderi a Rhiannon gydag ef. Heb ymdroi yn hwy, y mae Manawyddan, ynghyd â Kicua, gwraig Pryderi, yn myned i Loegr; ac yno y mae efe yn dechreu eilwaith ar y gwaith o wneuthur esgidiau. Hyn a wna am flwyddyn; ond o'r diwedd, y mae y cryddion eraill, o eiddigedd, yn bygwth ei ladd. Yna, y mae Manawyddan yn dychwelyd eilwaith i Ddyfed, ac yn cymmeryd gydag ef sachaid o wenith. I ddechreu, y mae yn byw drwy hela; ond o'r diwedd, y mae yn hau tri llain o dir. Wedi aros hyd y cynhauaf, pan y mae ar fedi yr ŷd, y mae wedi diflanu yn llwyr o'r dywysen o'r llain gyntaf; yna, o'r ail. Wedi gwylio y ddau lain cyntaf yn ofer, y mae yn penderfynu gwylio yr olaf yn fwy gofalus. Wrth wylio y llain, y mae yn gweled mai llygod sydd wedi gwneyd y drwg. Yr oedd un o honynt yn fwy afrosgo na'r lleill; ac y mae Manawyddan yn llwyddo i'w dal, ac yn ei rhoddi yn ei faneg, gan fwriadu, wedi dychwelyd adref, ei chrogi. Y mae Kicua yn ceisio ei berswadio i beidio; ond yn hollol ofer. Mynu dechreu ar y weithred o'i chrogi y mae Manawyddan; ac nis gall yr ysgolhaig na'r offeiriad, y rhai a ddigwyddant ei weled yn parotoi at y gwaith, mo'i rwystro, er cynnyg iddo wahanol symiau o arian dros beidio. O'r diwedd, y mae esgob yn myned heibio; a thrwy hir grefu y mae hwnw yn llwyddo; ond ar yr ammod y byddai iddo ryddhau Rhiannon a Phryderi. Enw'r esgob oedd Llwyd fab Cil Coed; â'i wraig ef, erbyn deall, oedd y llygoden. Yr oedd Llwyd wedi dodi yr 'hud' ar Ddyfed, er mwyn dial y sarhâd ar Wawl fab Clut. Esboniad yw yr hanes yma, felly, ar y ffaith fod tir Dyfed yn cael ei alw yn 'dir yr Hud.' Y mae Manawyddan yn llwyddo hefyd i gael gan Llwyd addaw na roddid byth mwyach hud ar Ddyfed. Hyd nes y gwelai Pryderi a Rhiannon yn rhyddion ger ei fron, yn eu ffurf eu hunain, nid oedd efe yn foddlawn i ryddhau gwraig yr esgob. Terfyna y gaingc hon o'r Fabinogi gyd âg esboniad pa ham y gelwid hi yn Fabinogi 'Mynnordd a Mynnweir.'

Gallwn, yma, alw sylw y darllenydd at y duedd sydd yn mhob hen chwedloniaeth i roddi hanes trawsnewidiad ffurf. Rhyw fath o adlewyrchiad ydyw y duedd yma o'r cyfnod, pan y dychymygai dyn y gellid, drwy swyngyfaredd, neu dan amgylchiadau neillduol, droi dyn yn anifail, ac anifail yn ddyn. Mae y syniad o sefydlogrwydd gwahanol ranau natur yn syniad dyeithr i'r meddwl di-ddysgyblaeth. Y rhwyddineb yma, â'r hwn y gall yr anwariad gredu mewn trawsffurfiad, sydd yn peri fod mor hawdd ganddo gredu mewn duwiau anifeilaidd, neu lysieuol; neu hyd yn oed mewn duwiau difywyd hollol. Y mae y dylanwad a gânt ar ei deimladau ef, yn benaf am eu bod yn wrthddrychau sydd yn tynu ei sylw, ac yn ei symbylu i feddwl, yn cael ei briodoli yn naturiol ganddo i ryw allu personol, fel ei eiddo ei hun, sydd ynddynt hwythau. Daw yr anwariad, felly, i edrych ar bob peth fel yn meddu ar ysbryd fel ei ysbryd ei hunan. Mae'n credu fod ei ysbryd ei hun yn gallu cymmeryd ei hynt oddi wrth ei gorph mewn breuddwydion; a phriodola yr un gallu i ysbrydion y coed, yr ŷd, yr anifeiliaid, a'r cyffelyb. Gallai ysbryd y pren, neu'r ŷd, gymmeryd rhith anifail neu aderyn, neu ysbryd dyn yr un modd; fel yr ehedodd ysbryd Llew Llawgyffes ymaith ar ei farwolaeth yn ffurf eryr. I ddeall unrhyw hen chwedloniaeth yn iawn, a chwedloniaeth ein cenedl ein hunain o ganlyniad, rhaid dal y ffaith hon bob amser yn amlwg ger bron y meddwl. Hon, hefyd, sydd wrth wraidd y grediniaeth ryfedd hono a geir yn yr India, a manau eraill, y bydd ysbryd dyn, ar ol marw, yn myned drwy wahanol ffurfiau anifeilaidd a dynol.

Rhoddwn yn awr grynodeb o Fabinogi Math, fab Mathonwy.

MATH, FAB MATHONWY.

Hon ydyw y gaingc olaf o'r Mabinogi. Yr ydys yn cofio fod y gyntaf, sef Pwyll, yn fath o ragarweiniad i hanes Pryderi — cnewyllyn y Mabinogion. Cynnwysai yr ail hanes Branwen a Bendigeitvran—traddodiadau Ynys Môn, yn benaf. Yn y drydedd gaingc, cawn hanes caethiwed Pryderi; ac yn y Fabinogi olaf hon, yr ydym yn cael hanes ei farwolaeth, dan law Gwydion, arwr Gogledd Cymru, ynghyd â hanes Gwydion ei hun, a'i deulu. Cymmerwyd defnyddiau y Fabinogi olaf hon bron yn hollol o Arfon ac Ardudwy. Yn ol pob tebyg, fe gasglwyd y traddodiadau hyn gan gyfansoddwr neu gyfansoddwyr y Mabinogion, pan ar eu teithiau drwy Ogledd Cymru, neu o enau brodorion o'r ardaloedd hyny. Yn y gaingc olaf hefyd, yr ydym yn cael y traddodiadau hyny yn Ngogledd Cymru sydd yn cyfatteb megys i'r traddodiadau am Riannon yn y Deheudir. Traddodiadau ydynt am deulu Don, duwies sydd, yn ol Proffeswr Rhys, yr un a Danu, neu Donu'r Gwyddelod, er yr addefwn ein bod yn teimlo peth ammheuaeth gyda golwg ar hyn. Y mae teulu Don, yn y traddodiadau Cymreig, mewn cyssylltiad pur agos â theulu Beli, fab Mynogan ('Belinus filius Minocanni' Nennius).

Digitized by Google

Ar y tu arall, cyssylltir teulu Rhiannon yn agosach â theulu Llyr. Y mae yn deilwng o sylw mai mewn gwedd hynod dywyll y gosodir aelodau teulu Don gan awdwr Math, fab Mathonwy, a hyny o bossibl oddi ar ei ragfarn fel Deheuwr.

Pan oedd Math, fab Mathonwy, yn arglwydd yn Ngwynedd, yr oedd Pryderi, fab Pwyll, yn arglwydd ar un cantref ar hugain yn y Deheudir. Y pryd yma, nis gallai Math fyw os na byddai morwyn (fel 'troediog' yr hen lysoedd Cymreig) yn dal ei draed ar ei gliniau. Yr ydym yn cael adlais yma o'r hen draddodiadau ac ofergoelion ynghylch y gofal mawr a ddangosid am fywyd y brenin, gan fod llwyddiant y llwyth, ac yn wir y greadigaeth, fel y credid, yn dibynu ar ei fywyd a'i iechyd ef. Ceir llawer o enghreifftiau o ofergoelion cyffelyb yn y '*Golden Bough*,' o waith Mr. T. G. Frazer. Y forwyn, yr hon a ddaliai draed Math y pryd yma oedd Goewin, ferch Pebin, o Ddol Pebin, yn Arfon. Gan fod Math yn cael ei rwystro felly i fyned ei hunan drwy ei arglwyddiaeth (byddai y brenin yn arfer myned ar gylch trwy ei deyrnas), fe wneid hyn drosto gan Gilvaethwy ac Eveyd, meibion Don, ei chwaer. Syrthiodd Gilvaethwy mewn cariad dwfn â Goewin, fel Adoniah âg Abisag; ond nis gallodd hyn ddiangc rhag sylw Gwydion graff ei frawd. Yr oedd Math fab Mathonwy hefyd yn neillduol o gyflym ei glyw. Os byddai y gwynt i'w gyfeiriad ef, gallai glywed y sisial isaf. Wedi deall fod Gilvaethwy yn caru Goewin, y mae Gwydion yn addaw ei gymmhorth iddo i'w chael. Hefyd, y mae'n cael cenad gan Math i fyned gyda Gilvaethwy i gyrchu moch oddi wrth Pryderi, fab Pwyll; yr hon a'u derbyniasai yn anrheg oddi wrth Arawn, frenin Annwn, yn herwydd y gymdeithas a wnaethai Pwyll âg ef yn gorchfygu Hafgan.

Y mae y ddau frawd yn myned i lys Pryderi yn rhith beirdd; ac yn null beirdd, y maent yn adrodd 'cyfarwyddyd,' neu chwedl. Diammheu mai hanesion a adroddid fel hyn oedd y Mabinogion eu hunain ar y cychwyn. Gwydion oedd y galluocaf o bawb ar y gwaith hwnw yn y dyddiau hyny. Wedi i'r gwŷr gyrhaedd llys Pryderi, y mae Pryderi yn gwneyd esgus dros beidio rhoddi y moch; ond y mae Gwydion yn benderfynol o'u cael. Drwy ei ddewiniaeth, y mae'n creu o fwyd llyffant ddeuddeg ystalwyn aur, deuddeg o filgwn bronwynion, ynghyd â deuddeg torch a deuddeg cynllyfan iddynt, ac y mae'n cynnyg y rhai hyn yn dâl am y moch. Fodd bynag, gan mai anifeiliaid a grëwyd drwy swyngyfaredd ydynt, ni pharhânt ond rhwng deubryd. Wedi hyn, y mae y Fabinogi yn sôn am y manau lle yr arhosodd Gwydion ar ei ffordd adref. Teifl yr hanes yma oleuni eglur iawn ar y modd y ffurfid rhai o'r traddodiadau Cymreig. Y mae yr hanes yn gynnwysedig o enwau'r manau hyny (megys Mochnant, Mochdre, a'r cyffelyb) lle y ceir y gair 'moch.' O'r diwedd, y mae y brodyr yn gallu cyrhaedd Caerdathyl, yn Arfon, gan adael y moch yn Creuŵyrion. Ar hyn, y mae Gwydion yn dyfod i ddeall fod Pryderi, a gwŷr y De, yn ei ymlid am y twyll a wnaeth. Yn y cyfamser, cyn i'r ddwy fyddin gyfarfod, mae Gilvaethwy yn gallu cael Goewyn trwy drais. Cyn bo hir, y mae gwŷr y De a gwŷr y Gogledd yn cyfarfod i ryfel rhwng Maenawr Pennard a Maenawr Coed Alun. Fe ymladdwyd brwydr, a gorfu i wŷr y De, fel y dywedir yn y Mabinogi, ffoi hyd i Nant Call. Yn bur synwyrol, y mae gwŷr y Gogledd a gwŷr y De yn penderfynu gadael i Pryderi a Gwydion ymladd y frwydr nesaf eu hunain. Dyna a wneir; ond drwy ddewiniaeth Gwydion, lleddir Pryderi, ac fe'i cleddir yn Maentwrog—lle, wedi hyny, y dangosid ei fedd. Dywed *Llyfr Du Caerfyrddin*, yn 'Englynion y Beddau,' fod bedd Pryderi yn 'Abergwenoli.' Wedi hyny, y mae gwŷr y De yn derbyn eu gwystl yn ol, ac yn dychwelyd mewn tristwch i'w gwlad eu hunain. Nid yw Goewin yn awr yn gymmhwys i wasanaethu Math fel o'r blaen; ac y mae yn rhoi ar ddeall i Math fod ar Gwydion a Gilvaethwy ofn dyfod i'w wyddfod. Fodd bynag, maent yn anturio gwneyd hyny, ar ol bod yn rhoddi tro drwy diriogaeth Math.

Erbyn hyn, y mae Math yn parotoi i gospi Gwydion a Gilvaethwy. Fe allai fod y Fabinogi, yn y fan yma, yn ceisio esbonio'r ffaith fod rhai o arwyr Gogledd Cymru yn cael eu gosod allan ar brydiau yn y ffurf anifeilaidd. I ddechreu, tröir Gilvaethwy yn ewig, a Gwydion yn garw. Ar ddiwedd y flwyddyn, maent i ddychwelyd, â'u llwdn gyda hwy. Y mae eu trawsgyfnewidiad nesaf fel y canlyn. Trowyd ewig y flwyddyn flaenorol yn faedd coed, tra y trowyd carw y flwyddyn o'r blaen yn hwch. Y flwyddyn nesaf maent yn ymddangos etto, â phorchell gyda hwy. Trowyd y porchell ieuangc yn awr yn fachgen hardd, â gwallt gwineu: ac y mae'n derbyn yr enw Hychtwn—tra mai enw y plentyn o'r blaen oedd Hyddwn. Yn awr, y mae yr un oedd yn faedd coed o'r blaen i ddyfod yn flaidd, a'r hwch yn fleiddast. Y maent hwy hefyd i ymddangos yn mhen y flwyddyn gyda'u heppil. Bedyddiwyd hwn etto dan yr enw Bleiddwn. Ar hyn, fe drowyd Gwydion a Gilvaethwy yn ol i'w ffurf cyntefig. Yn awr, y mae Math yn chwilio am forwyn arall i ddal ei draed. At hyn, y mae Gwydion yn cymmeradwyo ei chwaer ei hun, Arianrhod, ferch Don, a Beli Mawr. Genir plentyn i Goewin, yr hwn a elwir yn Dylan Eilton, o herwydd ei hoffder at y dwfr; a genir plentyn, hefyd, i Arianrhod. Y mae Gwydion yn cymmeryd y plentyn hwn; yn ei gadw am bedair blynedd; ac yna, yn ei gymmeryd i lys Arianrhod, ei fam. Nid ydyw hi, dan yr amgylchiadau, yn mwynhau gweled ei mab ei hun; ac y mae yn tynghedu na chaiff efe un enw ond yr un a rydd hi ei hun arno:—ystyr yr hyn yw ei bod am iddo fod yn ddi-enw. Yn awr, y mae Gwydion yn dychwelyd i Gaer Dathyl. Yna, y mae yn rhoddi tro gyda'r bachgen ar hyd glan y môr, rhwng yno ac Abermenai. O'r hesg a'r gwymon y mae yn gwneyd lledr rhagorol, a hwyl hefyd, i'w long. Yn awr, y mae efe a'r bachgen yn hwylio gyda'u gilydd i Gaer Arianrhod. Wedi cyrhaedd yno, y mae Gwydion yn dechreu gwneyd esgidiau. Ar hyn, y mae Arianrhod yn dechreu sylwi arno ef a'r bachgen; ond newidia Gwydion ei lun ef, ac yntau. Yna, y mae Arianrhod yn anfon archeb am esgidiau. Gwneir y rhai hyn gan Gwydion yn rhy fawr; ac y mae hithau yn anfon archeb etto, pan y gwneir yr esgidiau yn rhy fychain iddi. Wedi hyn, rhaid i Gwydion gael gweled ei throed.

Wedi dyfod at y llong, y mae Arianrhod yn gweled y dynion yn gweithio. Y mae y bachgen, wrth annelu, yn gallu llwyddo i daro dryw rhwng gewyn y goes a'r asgwrn; ac mewn

canlyniad, y mae hithau yn rhoi arno yr enw *Lleu Llaw-gyffes*. Felly, y mae Arianrhod, heb yn wybod iddi, wedi rhoddi enw i'w bachgen ei hun. Ei hadduned nesaf ydyw, na chaiff y bachgen arfau; ond y mae Gwydion yn benderfynol o gael rhai iddo. Y mae y ddau yn myned gyda'u gilydd o Ddinas Dinlle (*h.y.*, Din Lleu; canys Lleu, ac nid Llew, yw ei enw mewn gwirionedd) hyd i Fryn Arien a Chefn Clydno. Y maent yn cyrhaedd Caer Arianrhod, ac yn newid eu hunain i ffurf dau langc; a Gwydion y difrifolaf o'r ddau. Yna, rhoddant orchymyn i borthor Arianrhod ddweyd mai beirdd o Forganwg ydynt. Yn y boreu, y mae Gwydion, yn ol arfer y beirdd, yn adrodd chwedlau wrth Arianrhod; ond drwy ei ddewiniaeth, y mae wedi codi llu o wŷr arfog o amgylch y castell. Dychryna hyn Arianrhod; ac y mae, yn ei harswyd, yn myned i ystafell Gwydion. Ar hyn, daw hi ei hun âg arfau, ac y mae yn eu gwisgo am Llew Llaw-gyffes, tra y gwisga ei morwynion am Gwydion. Wedi cael yr arfau, y mae Gwydion yn peri iddi eu dattod etto, gan fod y lluoedd arfog wedi diflanu. Yna, y mae Arianrhod yn addunedu na chaiff Llew wraig o blith dynion byw; ond y mae Gwydion etto yn drech na hi. Y mae yn cael gan Fath, mab Mathonwy, greu gwraig iddo o'r blodau. Cymmerir blodau y deri, blodau y banadyl, a blodau yr erwein; a chrëir o honynt y forwyn brydferthaf a fu erioed—a gelwir hi Blodeuwedd. Yna, y mae Math yn anrhegu Llew â chantref Dunodig; sef, Eifionydd—ac hefyd Ardudwy.

Yn fuan wedi hyn, y mae Llew yn myned i Gaer Dathyl, gan adael ei wraig gartref yn ei lys. Un diwrnod, y mae heliwr, wrth ymlid ar ol carw, yn myned heibio. Ei enw ydyw Gronw Pebyr, arglwydd Penllyn. Wrth weled eu gilydd, y mae serch Gronw yn ennyn yn Mlodeuwedd, a'i serch hithau ynddo yntau. Y mae Blodeuwedd yn myned mor bell a gofyn i Gronw pa fodd y gellid rhoi terfyn ar fywyd ei gŵr. Y mae yntau yn ei chynghori i ofyn i'w gŵr pa fodd y gellid gwneyd hyn. Y noson hono, y mae ei gŵr yn dychwelyd, ond nid yw hi yn atteb ei ofynion. Y mae yntau yn rhyfeddu beth ddigwyddodd, tra y mae hithau yn atteb mai ceisio ystyried yr oedd beth a wnai hi pe byddai efe farw o'i blaen. Yna, y mae Llew yn ceisio ei chysuro trwy ddyweyd nad gwaith mor hawdd fyddai ei roddi ef i farwolaeth. Ni ellid ei ladd ond drwy ei drywanu â gwaewffon, yr hon a gymmerai flwyddyn i'w gwneyd; ac nas gellid gwneyd dim o honi ond ar adeg yr aberth ddydd Sul. Nis gellid, chwaith, ei ladd mewn tŷ, nac o'r tu allan i dŷ: ac ni ellid ei ladd ar draed, nac ar farch. Wedi hyny, y mae efe yn egluro pa fodd y gellid ei ladd.

Yn gyntaf, byddai yn angenrheidiol gwneyd enaint iddo ar lan afon mewn llestr, â thô uwch ei ben. Yna, rhaid oedd gosod bwch i sefyll wrth ochr y llestr, tra y rhoddai Llew un troed ar gefn y bwch, a'r llall ar ymyl y llestr. Gallai y sawl a'i trywanai, pan yn sefyll felly, roddi terfyn ar ei fywyd. Yna, y mae Blodeuwedd yn anfon y newydd hwn i Gronw Pebyr. Wedi hyny, y mae yn gofyn i'w gŵr ddangos iddi pa fodd y buasai yn sefyll pe buasai y tro a enwyd yn digwydd. Yn ei ddiniweidrwydd, y mae Llew yn sefyll fel y gofynai ei wraig iddo, tra y mae hithau wedi gwahodd Gronw Pebyr i lechu am dano. Tra y saif felly, y mae Gronw Pebyr yn annelu ato, ac yn ei drywanu yn ei ystlys. Wedi cael ei drywanu, y mae Llew yn ehedeg ymaith yn rhith eryr. Yna, y mae Gronw a Blodeuwedd yn byw gyda'u gilydd, ac y mae Gronw yn gorchfygu Ardudwy, fel y mae efe yn dyfod yn Arglwydd Ardudwy a Phenllyn.

Y mae y newydd am farwolaeth Llew yn dyfod at Fath, fab Mathonwy. Tristeir ef yn fawr; ond y mae Gwydion yn fwy trist fyth. O'r diwedd, y mae efe yn penderfynu myned i dŷ un o'i ddeiliaid yn Maenawr Pennard. Yr olaf i ddyfod i'r tŷ y noson hono oedd ceidwad y moch. Y mae hwnw yn hysbysu Gwydion fod un o'r hychod wedi diflanu, na wyddai neb i ba le. 'Rhoddir caniatâd i Gwydion fyned i chwilio am dani, ac y mae yntau yn ei dilyn nes iddi gyrhaedd Nant y llew (Nant *lleu* ddylasai fod; sef, Nantlle. Yno y mae yr hwch yn aros ac yn pori. Wedi iddo fyned dan y dderwen lle y porai, mae Gwydion yn gweled ei bod yn bwyta cnawd pydredig, a chynron. Y mae yn codi ei olwg tua'r cangau; ac wrth edrych, y mae yn gweled eryr. Y cnawd pydredig yma oedd wedi atdynu yr hwch; ac y mae Gwydion yn dyfalu mai Llew ydoedd yr eryr. Yna, y mae yn canu tri englyn, a barnu oddi wrth rai o'r ffurfiau a'r mesur, oeddynt yn bur hynafol. Y mae Gwydion yn awr yn daddrithio Llew i'w ffurf briodol ei hun; ond y mae mor deneu ag y mae modd. Wedi ei adferu, y mae Llew yn myned yn ol i Ardudwy. Pan glywodd Blodeuwedd am ei ddyfodiad, y mae yn ffoi gyda'i morwynion; ond oddi ar ofn, y mae y morwynion yn edrych o'u hol; ac y mae pawb o honynt, ond Blodeuwedd, yn syrthio i'r llyn a elwid, wedi hyny, yn 'Llyn y Morwynion.' Diammheu mai enw y llyn sydd yma, hefyd, wedi rhoddi bod i'r chwedl hon, ac y mae yn enghraifft dda o'r modd y ffurfiwyd rhai o hen chwedlau ein cenedl. Mae Gwydion yn awr yn dal Blodeuwedd; ond dywed wrthi nad yw yn bwriadu ei lladd, ond yn unig ei throi i ffurf aderyn. Yna, y mae yn ei throi yn ddallhuan; yr hon, o gywilydd, medd yr hanes, nas gall ddangos ei gwyneb i'r haul. Y mae'n amlwg fod genym yma, wedi ei nyddu i'r hanes, hen chwedl ynghylch y ddallhuan yn esbonio pa ham yr erys yn guddiedig yn y dydd. Fe allai, hefyd, fod y ddallhuan yn ffurf ar un o hen dduwiesau Ardudwy. Fe gofir yn y cysylltiad hwn yr hyn a ddywedwyd yn flaenorol am y *totem system*.

Nid yw Llew yn foddlawn ar ddim amgen na bod i Gronw fyned i'r fan lle safai ef ei hun, a gadael iddo yntau saethu ato. Gofyna Gronw ai ni wna un o'i wŷr sefyll yn ei le, ond gwrthod y maent oll. O'r diwedd, y mae Gronw yn gofyn cenad i amddiffyn ei hun â'r llech oedd i'w gweled, wedi hyny, yn afon Cynfael (Cynwal ddylasai fod). Ofer, er hyny, ydyw ei ymgais, canys y mae'r waewffon yn myned drwyddi, ac yn ei ladd. Yr oedd y llech, meddai yr ysgrifenydd, i'w gweled hyd ei ddyddiau ef. Diammheu mai ynghylch y llech hon y tyfodd y chwedl hon. Wedi hyn, y mae Llew Llaw-gyffes yn llywodraethu ar Wynedd.

Dyna yn fyr gynnwys pedair caingc y Mabinogi. Fe sylwir eu bod wedi eu gosod wrth eu gilydd yn bur gelfyddydol, o wahanol chwedlau wedi eu casglu o amryw ardaloedd. Y ffaith yma, sef eu bod yn perthyn i wahanol ranau o Gymru, sydd, ar ryw olwg, yn rhoddi gwerth arnynt.

Fel y maent yn y gwreiddiol, y mae ynddynt

Digitized by Google

gryn lawer o dlysni ymadrodd, yn dangos ei hun yn benaf mewn symlrwydd, gallu disgrifiadol, a thynerwch. Y mae yr awdwr neu yr awduron wedi bod yn hynod hapus wrth ddarlunio cymmeriadau benywaidd, megys Rhiannon a Branwen. Y mae, hefyd, yn hapus wrth ddisgrifio cymmeriadau hoffgar Manawyddan a Phwyll.

Yr hyn sydd yn nodweddiadol iawn o'r chwedlau Cymreig hyn yw, y lle a roddant i ddioddefaint a marwolaeth yn hanes y prif arwyr. Y mae yr arwyr îs-raddol yn cael mwynhau cryn fesur o lwyddiant, os nad o ddedwyddwch; ond y mae y prif arwyr, bron yn wastad, yn gorfod dioddef—ïe, yn dioddef marwolaeth, a hono yn aml yn farwolaeth drwy frâd. Y mae gobaith iddynt, fodd bynag, fel yn hanes Llew Llaw-gyffes i gael rhyw fath o adgyfodiad. Nodedig iawn, hefyd, ydyw y modd y mae rhai o'r cymmeriadau harddaf yn y Mabinogion, megys Rhiannon a Branwen, yn gorfod dioddef —ond ar gam. Yma, y mae y Mabinogion yn dangos rhyw adlais gwan, hwyrach, o'r anhawsderau hyny fuont yn blino awdwr Llyfr Job, a llawer un arall. Dengys yr ymdeimlad yma o ddioddefaint dyn, i raddau, pa fodd y gwnaeth Cristionogaeth argraph mor ddofn ar feddwl y Celt, am fod ei feddwl yn rhedeg, i ryw fesur, yn barod i gyfeiriad yr anhawsderau hyny y teifl Cristionogaeth oleuni arnynt. Pa un ai brwydr dragywyddol goleuni a thywyllwch, ynte yr haf a'r gauaf, a symbylodd ei feddwl am y pethau hyn, nis gwyddom; ond teimlwn yn bur sicr na chawsai y pethau hyn ond ychydig o argraph ar ei feddwl, oni bae fod ei brofiad ynghylch ei fywyd ei hunan, a bywyd ei genedl, yn tueddu i'r un cyfeiriad. Credwn fod dioddefaint ac aflwyddiant prif arwyr y Mabinogion, megys Bran, Pryderi, a Llew, ynghyd â Rhiannon a Branwen, yn fath o grynodeb o brofiad y genedl ynglŷn â'i phrif arwyr. Yr hyn ddigwyddodd i Arthur, i Llewelyn, i Owain Glyndwr, ac eraill, yn ddi-ddadl, fu tynged llawer arwr di-enw. Anghofiwyd hanes unigol llawer un o honynt, ond arosodd yr argraph yn annilëadwy ar feddwl y genedl; ac y mae yr adlewyrchiad i'w weled yn amlwg iawn yn Mabinogion ein gwlad. Y mae *tragedy* bywyd wedi gafael yn ddwfn iawn yn ysbryd y Celt. Byddai yn werth i'r efrydydd sylwi ar y dull syml, ond byw, yn yr hwn yr amlinellir gwahanol gymmeriadau y Mabinogion hyn. Mae'r cymmeriadau yn sefyll ger ein bron, yn eu rhagoriaethau a'u ffaeleddau, bron mor fyw a chymmeriadau Homer ei hun, er nad oes cymmaint o amrywiaeth o honynt, na'r un *scope* chwaith yn y gwaith drwyddo. Disgrifir cymmeriad Gronw, er enghraifft, yn fyw neillduol yn ei ammharodrwydd i gyfarfod ei angeu ei hun, a'i lwfrdra ar yr amgylchiad hwnw.

Fe welir, drwy hyn, er fod cynnifer o ddigwyddiadau annaturiol, i'n golwg ni, yn y Mabinogion, fod y rhai hyn yn fwy ar y wyneb nag yn y gwraidd. Gogoniant penaf y Mabinogion, fel llenyddiaeth, yw y ffaith eu bod yn gallu rhoddi lle i amlochredd bywyd—yr ochr dywyll yn gystal a'r ochr oleu; ac y maent yn gwneyd hyn, nid drwy foes-wersi, ond drwy osod y cymmeriadau a'r digwyddiadau eu hunain yn fyw ger ein bron.

Yn y pethau hyn, fel y ceir sylwi yn helaethach etto, y mae y traddodiadau Arthuraidd, yn eu gwedd symlaf, yn dangos ysbryd hollol Geltaidd. Y mae Arthur yn gorchfygu, yn wir, am ysbaid, fel y mae Llew yn llwyddo, drwy gymmhorth Gwydion, mewn amryw o'i ymgeisiau; etto, y mae Arthur, fel Llew, yn marw trwy frâd; a disgwylid adgyfodiad i Arthur, fel y cafodd Llew ei adferu yn ol i fywyd. Nid oes angen am i ni dybied mai dau enw gwahanol ar yr un duw oedd Llew ac Arthur. Yn hytrach, dau wrthddrych ydynt sydd yn ganol-bwyntiau i'r un chwedl gyffredinol, yr hon a ymddangosai mor naturiol i brofiad trist y genedl; ac nid yn unig i brofiad y Celtiaid, ond i brofiad dyn. Y mae Arthur yn methu, ond y mae ei weision yn aml yn llwyddo; ac felly y mae rhai o'r cymmeriadau îs-raddol yn y Mabinogion. Yma, yr ydym yn cael arddangosiad o ffaith sydd yn gyffredinol yn hanes dyn, fod gwaith mwyaf y dynion mwyaf yn cael ei wneyd, nid yn ystod eu bywyd, ond ar ol eu marwolaeth.

Pan y mae dyn yn mhell o flaen ei oes, rhaid i'r byd gynnyddu llawer cyn y daw yn alluog i fanteisio ar ei ddrychfeddyliau. Y mae dynion eraill sydd â drychfeddyliau nes at ystâd meddwl eu hoes yn llwyddo ac yn derbyn 'eu gwynfyd yn eu bywyd.'

Er fod cryn lawer o'r cywair lleddf yn y Mabinogion, etto, y mae ynddynt gryn fesur o'r cywair llon. Yn hanes darganfyddiad Pryderi, er enghraifft, cawn gyfnewidiad o'r hyn oedd yn achos o dristwch i'r hyn oedd yn achos o lawenydd. Yr un modd, hefyd, yr ydym yn cael achos i ofidio ac i lawenhau bob yn ail yn hanes Branwen, er mai yn y cywair lleddf y diwedda ei hanes hi. Yn Mabinogi Manawyddan, fab Llyr, o'r tu arall, cawn hanes digwyddiad anffodus; ond y mae y Fabinogi yn diweddu yn y cywair llon. Yn Math ab Mathonwy etto, fel yn Branwen, ni gawn olwg ar rai o agweddion gwaethaf y natur ddynol—anlladrwydd, twyll, ac anffyddlondeb, fel y gwelwyd hanes malais Efnissyen yn Mabinogi Branwen. Yn hanes Manawyddan, fel yn *Robinson Crusœ*, yr ydym yn cael hanes y person unigol yn adlewyrchu yn ei hanes y troion yr aeth y ddynoliaeth drwyddynt ar ei ffordd tua gwareiddiad—brwydr ewyllys dyn yn erbyn anhawsderau natur. Y mae Manawyddan yn arddangos gwroldeb dyn drwy ymostwng i'w dynged, pan nas gall newid y cyflwr y mae ynddo mewn rhai cyfeiriadau, a phenderfynu gwneyd y goreu o'r gwaethaf yn y cyfeiriadau eraill y gall obeithio eu newid. Cawn yr un hanes, ond mewn gwedd braidd yn wahanol, yn Kilhwch ac Olwen, o ddyn yn gorchfygu rhwystrau a ymddangosent yn anorchfygol. Gwelir, hefyd, ryw gymmaint o hyn yn hanes Gwydion yn llwyddo, er gwaethaf Arianrhod, i gael enw, ac arfau, a gwraig i'w mab, Llew Llaw-gyffes.

Y mae y Mabinogion, felly, yn cyffwrdd â gyrfa dyn fel un a orchfyga, ac a orchfygir; a dyna fel y maent, er mor syml, etto yn dangos ysbryd mor agos at ffeithiau.

Llawer sydd wedi ei ddyfalu, o bryd i bryd, ynghylch tarddiad yr hanesion hyn. Ceisir esbonio y cymmeriadau sydd ynddynt gan rai trwy gyfrwng chwedlau ynghylch yr haul, tymmhorau y flwyddyn, a'r cyffelyb; ond rhaid myned yn ddyfnach, fel y crybwyllwyd, na hyn yna. Y mae'n rhaid cymmeryd i ystyriaeth y profiad cyffredinol hwnw o fywyd sydd yn galluogi dyn i afael yn ngwahanol agweddau natur, a'u moldio at ei amcan. Heb y profiad cyffredinol yma, ni buasai sylwadaeth ar na lloer na sêr, na thyfiant llysiau, na bywyd anifeilaidd, na

Digitized by Google

dynion, na dim sydd yn gyffelyb, yn cynnyrchu chwedloniaeth; ond unwaith y ceir y tueddiadau cyffredinol hyn yn y meddwl, y mae dyn yn gweled arwyddion o fywyd, a phrofiad cyffelyb i'w fywyd a'i brofiad ef ei hun, yn mhob man. Gwêl debygolrwydd yn mywyd Anian o'i ddeutu i'w fywyd ei hunan. Priodola i'r coed, y blodau, y llysiau, yr ŷd, y ddaear, y flwyddyn, a'r haul a'r lloer eu hunain hefyd, fywyd fel ei fywyd ef.

Y mae ymchwiliadau Mr. T. G. Frazer, Mr. Tylor, ac eraill, yn ei gwneuthur yn bur sicr fod y rhan fwyaf o drigolion Ewrop wedi bod, un adeg, yn arfer talu parch neillduol i rai prenau. Y mae un ffaith yn hollol sicr am grefydd y Celtiaid gynt; sef, eu bod yn addoli y dderwen. Parhaodd hyd yn oed y Galatiaid i wneyd hyny yn Asia Leiaf. Enw prif ganolbwynt eu crefydd oedd *Drunemeton*, neu 'Lwyn y Dderwen.' Yr hen grefydd yma, yn ol pob tebyg, sydd wedi gadael ei hôl yn yr arferion a geir yn mhob gwlad ynglŷn â dechreu Mai. Yr oedd yn naturiol iawn i gymmaint o barch gael ei dalu i'r dderwen, am mai oddi wrthi hi y derbyniai dyn ei ymborth, i fesur helaeth, ar y dechreu. Y mae olion rhai o hen drigfanau y llynoedd yn ngogledd yr Eidal wedi gosod hyn y tu hwnt i ammheuaeth. Pan edrychid, hefyd, ar ysbryd y dderwen, fel rhywbeth a allai gymmeryd ffurf wahanol iddi, credwn mai y ffurfiau a briodolid iddo oedd, naill ai ffurfiau adar, neu ynte ffurf yr anifail a ymborthai yn benaf ar y pren. Yr anifail hwnw oedd y mochyn, yr hwn oedd mor barchus yn mhlith y Celtiaid. Wedi i ddyn ddyfod i ymborthi ar ŷd, deuai ysbryd yr ŷd i ffurfio rhan flaenllaw iawn yn ei grefydd; a diammheu, fel y dengys Mr. Frazer, y priodolid i'r ysbryd yma, hefyd, lawer ffurf anifeiliaidd. Credir fod olion hen grefydd yr ŷd yn aros etto yn arferion y cynhauaf mewn rhai gwledydd; ac am wybodaeth bellach, gallwn gyfeirio yr efrydydd at lyfr Mr. Frazer—*The Golden Bough*. Unwaith y dechreuid personoli y gwrthddrychau hyn, y peth hawddaf erioed wedi hyny fyddai llunio chwedlau am danynt—eu genedigaeth, eu priodas, eu diflaniad o dan y ddaear, eu carchariad, eu marwolaeth, eu hadgyfodiad, a'u trawsffurfiad, a'r cyffelyb.

Os bydd llwythau cenedl wedi myned drwy brofiad cyffelyb (a phrofiad felly yn gyffredin sydd wedi moldio cenedl), y maent yn bur sicr o ffurfio syniadau cyffelyb am wrthddrychau naturiol a goruwchnaturiol. Mae eu harwyr a'u duwiau yn gyffelyb, er eu bod yn myned o dan wahanol enwau. Y peth pwysicaf wrth astudio crefyddau yn gymmhariaethol ydyw darganfod, nid cyfattebiaeth enwau, ond cyfattebiaeth, ac hefyd amrywiaeth, syniadau. Y mae profiad cenedl yn cael ei gorphori yn ei sefydliadau; ac o ganlyniad, yn ei gwleidyddiaeth, yn ei llenyddiaeth, ac yn ei chelfyddyd. Mae yr un peth yn wir, hefyd, am grefydd a chwedloniaeth cenedl. Nis gellir, os ydym am astudio yn drwyadl, ysgar crefydd cenedl oddi wrth hanes ei meddwl a'i phrofiad. I'r amcan hwn, byddai yn fuddiol iawn pe y gellid dangos, nid yn unig pa fodd y mae enw fel Manannan mac Lir y Gwyddelod yn cyfatteb i Manawyddan, fab Llyr, y Cymry; neu Nuada Argétlam i Lludd Llaw Ereint; ond yn mha bethau y gwahaniaetha chwedloniaeth y Cymry oddi wrth chwedloniaeth y Gwyddelod, a pha oleuni a deifl hyn ar nodweddion gwahaniaethol cymmeriad a phrofiad y ddwy genedl. Hoffem i'r efrydydd gadw hyn yn amlwg ger bron ei feddwl wrth astudio'r Mabinogion; ac yn wir, yr oll o lenyddiaeth y genedl. Ni all gwrthddrychau natur esbonio chwedloniaeth unrhyw genedl, ar wahân i'w phrofiad cenedlaethol hi ei hun. Tueddwn i gredu fod enwau yr arwyr, neu y duwiau, yn wahanol yn ddigon aml yn y llwythau Celtaidd, ond fod eu syniadau am danynt yn lled debyg. Dichon fod y *totem system* ei hun, os bu hi yn bodoli yn Nghymru, fel y tybiwn iddi fod, wedi bod, i raddau helaeth, yn foddion i gynnyrchu yr amrywiaeth hwn mewn enwau. Y mae lle i ammheu mai nid arddangosiadau mawrion natur, megys yr haul, y lloer, y sêr, a'r mellt a'r taranau, a roddasant fôd i'r rhan fwyaf o chwedloniaeth y Celtiaid; neu, o leiaf, chwedloniaeth llwythau tlodion y Cymry. Yn hytrach, ar yr anifeiliaid a helient neu a fagent, ar y tir yr oeddynt yn ei drin, yr ŷd a dyfai yn y maes, a'r dderwen a roddai ymborth i un o'u prif anifeiliaid dôf, ac, yn ddiammheu, ar adeg newyn iddynt hwythau, y byddent yn myfyrio; a'r pethau hyn, yn ol pob tebyg, fuont yn symbylu eu meddyliau i ystyried, yn eu dull hwy, uwch ben rhyfeddodau natur. Credwn fod y ddaear, yn enwedig, wedi cael argraph ddofn iawn ar eu meddwl. Hi, yn ol pob tebyg, oedd eu 'mam,' *Matrona* (Modron); eu 'brenhines,' *Rigantona* (Rhiannon); 'yr un hir-hoedlog,' *Sirona;* 'yr un ddwyfol,' *Divona*. A'i phlant hi, yn y pen draw, yn ddiammheuol, oedd y duwiau, a meibion dynion hefyd.

O blant dwyfol y ddaear, nid oedd yr un yn bwysicach na'r arwr hwnw, yr hwn, dan wahanol enwau, oedd wedi dyfod âg elfenau gwareiddiad i ddyn. Naturiol iawn oedd cyssylltu hwn â phrif blentyn llysieuol y ddaear, sef y dderwen oesol—rhoddydd ymborth i ddyn ac anifail; hefyd, â'r adar a nythent yn ei changau, ac â'r anifail a ymborthai arni. Yr un modd, wedi hyny, gyda'r ŷd. Pan ddaethpwyd i edrych ar yr 'arwr' hwn yn y ffurf dynol yn benaf, efe oedd wedi dysgu dyn i aredig, i hau, a phob crefft arall; a thrwyddo ef y daeth dyn i feddiant o'r anifeiliaid dôf. Efe, hefyd, fel Heracles y Groegiaid, fyddai wedi gorchfygu yr hen anifeiliaid a ofnid gynt; a hwythau eu hunain, fe allai, fel crocodiliaid yr Aipht, wedi bod yn fodau cyssegredig rywbryd. Efe, hefyd, fyddai wedi dysgu dyn i 'rodio llwybrau y moroedd.' Y mae yn ammheus iawn genym a oedd gan y Cymry lawer o'r arwyr hyn yn mhob llwyth.

Ar brydiau, fe anghofid cyssylltiad gwreiddiol y duw yn ei ffurf anifeilaidd a'i ffurf dynol. Y canlyniad ydoedd, fod llawer o chwedlau yn codi i esbonio pa ham y cyssylltid enw y duw â'r anifail neillduol hwnw. Weithiau, hwyrach y ceid chwedl am yr anifail hwnw yn lladd y duw hwnw; bryd arall, y duw yn lladd yr anifail. Codai yr anhawsderau hyn oll, yn naturiol, o'r ffaith y byddid yn aberthu anifeiliaid neillduol i dduwiau neillduol, ac yn peidio âg aberthu eraill. Argraphai y ffaith hon, am y cyssylltiad rhwng y duwiau ac anifeiliaid neillduol, yn ddwfn iawn ar feddyliau y gwahanol lwythau. Dywedid, er enghraifft, ei bod yn bechod aberthu march i ryw dduw neillduol; yn mhen amser, byddai chwedl yn sicr o gael ei ffurfio i esbonio pa ham. Hwyrach y dywedid fod y cyfryw anifail yn hoff anifail y duw, neu'r cyffelyb. Felly, o bossibl, y mae esbonio y cyssylltiad rhyfedd sydd rhwng Teyrnon a Gwri,

a'r meirch, yn Pwyll, Pendefig Dyfed. Pan y byddai anifail yn un a hoffai unrhyw dduw yn wreiddiol, fe allai y meddylid mai yn ffurf yr anifail hwnw y byddai y duw yn amlygu ei hun i ddynion. Nid oes genym ond dyfalu am lawer o'r pethau hyn; ond y mae yn naturiol i ni gredu mai yr hyn a fu yn mysg cenhedloedd eraill, a fu hefyd yn ein cenedl ninnau, yn yr un cyflwr o wareiddiad, a than gyffelyb brofiad. Un peth sydd hollol sicr, nas gall y pagan ddirnad am dduw hollol anweledig—yr hwn nad yw yn rhoddi amlygiad o hono ei hun mewn rhyw ffurf weledig. Y mae yn foddlawn, hwyrach, ar y dechreu, ar amlygiad o'i dduw yn y ffurf o faen; ond cyn bo hir, y mae yn teimlo y daw y duw yn fwy i'r amlwg drwy y maen, os rhoddir iddo ffurf debycach i lun dyn, neu ryw wrthddrych â bywyd ynddo. Y mae yn foddlawn, wedi hyny, fe allai, am ysbaid ar amlygiadau o'i dduw mewn ffurf llysieuol, neu ffurf anifeiliaidd; ond fel y mae ei brofiad yn cynnyddu, y mae yn rhwym o beidio ymfoddloni ar ddim llai na dyn, beth bynag. Prin y gellir dyweyd fod chwedloniaeth, yn ngwir ystyr y gair, yn dechreu nes y bydd yr amlygiadau o'r dwyfol yn gallu cymmeryd ffurf dynol; ac felly, yn meddu ar ddyddordeb i ddynion. Os yw dyn yn teimlo fod y dwyfol yn aml yn mhell oddi wrth, a thu hwnt i'w amgyffrediad, etto y mae am deimlo ei agosrwydd ato ar lawer adeg. Tuedda rhai cenhedloedd i osod pwys neillduol ar yr agwedd oruwchnaturiol i'r dwyfol: tuedda eraill i osod llawn cymmaint o bwys ar yr ochr naturiol a gweledig; a thueddwn i feddwl mai braidd i'r ochr olaf y tuedda ein hynafiaid, er fod eraill o honynt, yn ddiammheu, yn selog dros yr ochr arall hefyd. Heb ryw ymdrech rhwng gwahanol farnau, y mae yn bur sicr na buasai crefydd ein hynafiaid wedi dadblygu dim.

Wrth astudio olion crefydd ein hynafiaid, fel y gwnaeth y Proffeswr Rhys yn ei *Celtic Heathendom*, dylid cofio fod enwau y duwiau sydd ar y cerf-ysgrifau yn y wlad hon, ac ar y Cyfandir yn gyffredin, yn dduwiau y cyfoethogion; ac nid yw duwiau y cyfoethogion byth yn hollol, o ran y syniad a ffurfir am danynt, yr un a duwiau y tlodion. Ceir enwau y duwiau Celtaidd hyny yn gyssylltiedig yn gyffredin âg enwau duwiau Rhufeinig; a diammheu fod y rhai a'u haddolent wedi ffurfio syniad mor debyg am danynt ag y gellid i'r syniad oedd ganddynt am y duwiau Rhufeinig; ond y mae'n ammheus iawn pa mor debyg oedd y duwiau hyn yn wreiddiol. Y mae yn eithaf hysbys fod y Rhufeiniaid eu hunain wedi newid eu syniadau gryn lawer am y duwiau pan ddaethant i adnabyddiaeth o chwedloniaeth Groeg. Mae y ffaith, hefyd, fod cynnifer o'r duwiau Celtaidd yn cael cyssylltu eu henwau â'r duwiau Rhufeinig yn peri i ni fod yn wyliadwrus cyn ffurfio casgliadau rhy frysiog am eu cyfattebiaeth. Credwn, fel y dywedwyd eisoes, fod yr un duwiau, neu dduwiau tebyg, yn cael eu haddoli dan wahanol enwau mewn gwahanol lwythau a gwahanol ardaloedd; a chredwn, hefyd, y priodolid cryn amrywiaeth gwaith i'r un duw Celtaidd. Ceir ar y cerf-ysgrifau y duwiau canlynol yn gyfystyr â'r duw Apollo, a hyny o fewn cylch cymmharol fychan:—Maponos (Mabon), Grannos, Mogounos a Toutiorix, Virotus a Borvo. Y duwiesau a gyssylltir âg ef yw Bormana, Sirona neu Dirona, Epona, Matrona, a Divona. Y mae Matrona, fel y dywedwyd eisoes, yr un a Modron, mam Mabon; ac ymddengys yr edrychid ar Grannos fel mab i Sirona.

Y mae yr un peth yn wir etto am y duw Mars (Mawrth). Ceir ef yn y byd Celtaidd o dan yr enw Caturix (Cadri), Segomo, Bolvinnos, Vintios, Cocidius, Cocosus, Belatucadrus, a Camulos. Cyfrifwn mai damwain, bron, fyddai i un o'r enwau hyn ymddangos yn chwedloniaeth ein cenedl ni a'r Gwyddelod; a theimlwn mai pur aflwyddiannus, ar y cyfan, fu ymdrechion clodwiw y Proffeswr Rhys i geisio eu holrhain yno. Er enghraifft, er mor debyg ydyw yr enw Camulos i Cumall, credwn yr addefai y proffeswr galluog, erbyn hyn, fod y gyfattebiaeth yma yn bur ammheus, a dyweyd y lleiaf. Y mae y duw hwn, sef Mawrth, yn myned, hefyd, dan yr enw Albio-rix, *h.y.*, Elfydd-ri (brenin y greadigaeth). Ceir ef, hefyd, o dan yr enw Rigisamo, *h.y.*, 'y mwyaf brenhinol.' Cyssylltir ef â'r dduwies Nemetona. Barnwn fod y Proffeswr Rhys yn myned yn rhy bell wrth dybied mai yr un yw ei henw hi a'r dduwies Wyddelig Nemón. Ammheuwn yn fawr, hefyd, a ennillir rhywbeth wrth edrych ar y dduwies hon fel yn gyfystyr â'r 'Mor rigu' Wyddelig, heb ein bod yn gwybod dim mwy am hanes y naill a'r llall. Am gyfattebiaeth cymmhares arall Mawrth, sef [C]athubodva a Bodb Catha y Gwyddelod, ni a deimlwn braidd ar dir cadarnach, am y gall fod y *totem system* yn taflu goleuni ar yr enwau hyn a'u cyfattebiaeth. Y mae gan Fawrth enwau eraill, hefyd; sef, Bodugnatus, Toutates, Hesus, ac hwyrach Taranis.

Y mae Iau, hefyd, prif dduw y Rhufeiniaid, yn myned dan yr enwau canlynol; ond y mae y ffaith fod ganddo gynnifer o wahanol enwau yn dangos fod y syniad a ffurfiwyd am dano gan y Celtiaid, a chan y Rhufeiniaid, yn bur wahanol. Ei enwau ydynt:—Baginates, Sucelo (*Dative*), Sucaelo, Taranucnus, Esunertus, Esugenus, ac Esugenonertus. Ceir y dduwies Minerva, hefyd, dan yr enwau canlynol:—Belisama a Brigindo. Y mae i Dis, duw Annwn, yr enwau canlynol:—Cernunnos, Tarvos Trigaranus, ac Urogenonertus; ac y mae yr holl enwau hyn, fel y gellir tybied, yn ei gyssylltu âg anifeiliaid. Yn mhlith duwiau îs-raddol, fe roddid lle blaenllaw iawn i'r 'Matres' (y mamau), yr hwn sydd yn cyfatteb, ar y cyfan, i dduwiau di-enw y tylwyth teg.

Y mae astudiaeth gymmharol o grefyddau y byd yn dangos yn eithaf amlwg na cheir dosraniad manwl o lafur yn mhlith y duwiau, ond pan y bydd y genedl y perthynent iddi wedi cyrhaedd i ystâd ddigon uchel o wareiddiad i roddi lle i'r egwyddor hon yn ei bywyd hi ei hun. Yn Gâl, yr oedd hyn wedi ei gyrhaedd i raddau helaeth, a cheid offeiriadaeth sefydlog a allai athronyddu mewn hamdden ar y pethau hyn. Ond nid oes yr un hynafiaethydd a dybia am foment fod Cymru, yn enwedig yn ei rhanau mynyddig, wedi cyrhaedd i ystad mor waraidd a Gâl yn y cyfnod cyn dyfodiad Cristionogaeth i'r wlad. Y mae yn sicr mai ar ei goreu y bu Cymru erioed yn cynnal ei thrigolion; a diammheu fod yr un gŵr yn gorfod cyflawni llawer gorchwyl, a'r un modd ei dduwiau a'i dduwiesau hefyd. Diammheu, er enghraifft, fod Nodens (ar y gerf-ysgrif yn Lydney), a Nuada y Gwyddelod, a Nudd y Cymry yr un person; ond er y cyssylltid Nodens âg Iau ar y gerf-ysgrif hono, etto teimlwn yn sicr y gorfu i Nudd y Cymry gyflawni llawer gorchwyl na buasai Jupiter

Digitized by Google

Vergil yn meddwl am dani. Y mae holl chwedloniaeth y Cymry a'r Gwyddelod yn dangos mai yn myd y moch, y meirch, yr eidionau, y defaid, yr adar, a'r prenau yr oedd eu meddyliau hwy yn troi.

Mercurius, yn ol Cæsar, oedd prif dduw y Celtiaid; ac y mae ein holl ymchwiliadau yn tueddu i gadarnhau ein crêd yn nilysrwydd tystiolaeth y gŵr enwog hwnw. Mercurius oedd yn cyfatteb oreu i 'arwyr gwareiddiad' y gwahanol lwythau; ac yr ydym eisoes wedi ceisio dangos ei gyssylltiad ef â phren cyssegredig ein cenedl. Nid oeddynt yn ddall, fe allai, i ddwyfoldeb y duw a daranai yn y nen, neu a dywynai yn yr haul; ond bron na ellir dyweyd mai duwiau achlysurol oedd y rhai hyn, o'u cymmharu â duw neu dduwies safonol y llwythau. At y rhai olaf hyn y byddid yn troi yn naturiol ar adeg o angen, fel at y fam neu arweinydd y llwyth. Tuedd crefydd llwyth yw rhoddi enw ar y duw arweiniol yn unig, a gadael y lleill yn ddi-enw. Gwelir hyn yn amlwg iawn yn y crefyddau Semitaidd: a thaflant hwy lawn cymmaint o oleuni, ar ryw olwg, ar grefydd ein hynafiaid ag a deifl y crefyddau Aryaidd. Y mae hyn yn neillduol o wir ynglŷn â'r *totem system*, a'r cyffelyb.

Yn mhlith y ffurfiau o dan ba rai yr edrychir ar ysbryd yr ŷd mewn gwahanol wledydd, yn ol Mr. Frazer, y mae y rhai canlynol:—Ceiliogwydd, gafr, ysgyfarnog, cath, llwynog, blaidd, ci, ceiliog, gŵydd, mochyn, march, asyn, llygoden, ciconia, dafad, ewig, barcud, ac alarch.

Rhoddwn yn awr grynodeb, a rhyw faint o eglurhâd, o'r 'Mabinogion' eraill. Deuwn yn gyntaf at chwedl ar ffurf breuddwyd: sef, Breuddwyd Maxen Wledig. Chwedl ydyw hon sydd yn dwyn cyssylltiad agos âg Arfon; ac yn perthyn, mewn rhan, i'r cylch hwnw o ddefnyddiau a alwai yr ysgrifenwyr Ffrengig yn '*matière de Rome*.' Nid oes i'r chwedl hon unrhyw gyssylltiad â Phedair Cainge y Mabinogi; ond y mae y Proffeswr Rhys o'r farn mai hen chwedl Gymreig hollol ydyw, wedi ei thrawsffurfio, a bod Maxen yn cymmeryd lle rhyw gymmeriad Cymraeg; ac hefyd, mai hen dduwies Gymreig oedd yr Elen sydd yn y Fabinogi, heb fod iddi gyssylltiad o gwbl â Rhufain. Dyma grynodeb o'r Fabinogi hon.

BREUDDWYD MAXEN WLEDIG.

Un diwrnod, y mae Maxen, ymherawdwr Rhufain, yn myned i hela. Wrth orphwys yn nghanol gwres a lludded y dydd, y mae yn syrthio i gysgu, ac yn ei gwsg y mae yn cael breuddwyd. Yn ei freuddwyd, mae yn dyfod at aber afon, yn ymyl yr hon y mae 'caer.' Y mae yn myned i mewn i'r gaer; ac mewn ystafell ysblenydd yn y gaer, y mae yn gweled llangciau yn chwareu 'gwyddbwyll.' Y mae, hefyd, yn gweled morwyn, o'r hon y rhoddir disgrifiad godidog iawn yn yr ysgrif. Yn gynt nag y dymunasai, y mae yn deffro, a llenwir ef â hiraeth am y forwyn a welodd drwy ei hûn. Nis gall dim llai ei foddloni na bod cenhadon yn myned i'w cheisio. Rhaid i bob peth arall gilio i'r cysgod o achos yr un awyddfryd hwn. Yna, dygir ato 'ddoethion Rhufain,' i geisio deongli ystyr ei freuddwyd. Maent hwy yn ei gynghori i anfon cenhadon am dair blynedd i chwilio am y forwyn a welodd yn ei freuddwyd. Anfonir, gan hyny, dri gŵr ar ddeg fel cenhadon. Y canlyniad yw fod y rhai hyn, drwy hir chwilio, a dilyn disgrifiad yr ymherawdwr, yn cyrhaedd dinas Caerynarfon; *h.y.*, Caer-saint (Seiont=Segontium) yn Arfon. Yno, y maent yn canfod y llangciau a'r forwyn, fel y gwelsai yr ymherawdwr hwy yn ei freuddwyd. Er mawr syndod y foneddiges, y maent yn ei gwahodd i fyned gyda hwy i fod yn Ymherodres Rhufain. Y mae hithau, yn ddigon synwyrol, yn dywedyd y byddai yn well i'r ymherawdwr ddyfod yno ei hun i chwilio am dani, os oedd o ddifrif. Yna, y mae Maxen yn croesi i Brydain, ac yn ennill yr ynys oddi ar Beli, fab Mynogan, a'i feibion. Y llangciau a wêl yn chwareu gwyddbwyll yno yw Kynan ac Adeon, meibion Eudaf. Y mae y foneddiges a welodd yn Nghaerynarfon yn ei dderbyn; ac y mae Maxen yn adeiladu iddi ddwy ddinas newydd, sef Caerllion (*h.y.*, Caerlleon-ar-Wysg) a Chaerfyrddin. Y mae yr awdwr yma yn cymmeryd y cyfle i esbonio pa fodd y ceid y fath le a 'chadair Faxen' yn mhen y Freti fawr. Esbonir yr enw Caerfyrddin, hefyd, fel 'Caer a wnaed gan fyrdd o wŷr.' Cawn yma, hefyd, esboniad ar y ffyrdd a unent y tair caer. Gelwid y rhai hyn yn ffyrdd 'Elen Lüyddawg.'

Ar hyn, y mae Maxen yn gadael Prydain, er mwyn gallu myned i Rufain i gadw ei hawl i'w feddiannau yno. Mae yn gorchfygu Ffrainge a Burgundy; ac am saith mlynedd, yn gwarchau ar Rufain, ond yn ofer. Yna mae dau frawd Elen Lüyddawg yn dyfod o'r wlad hon; a thrwyddynt hwy, y mae Rhufain, yr hon nas gellid ei gorchfygu hyd yn hyn, yn cael ei gorchfygu yn hawdd drwy eu gwaith yn dringo iddi gydag ysgolion. Y mae Kynan ac Adeon yn awr yn gorchfygu yn mhob cyfeiriad, gan ladd y gwŷr, a chadw y gwragedd yn fyw. Rhoddir, yn niwedd y Fabinogi, esboniad ar yr enw Llydaw, drwy ddyweyd fod tafodau y gwragedd wedi cael eu tori yno rhag iddynt lygru iaith eu plant.

Nid oes dim yn neillduol i alw sylw ato yn y Fabinogi hon, heb law y pethau canlynol:—Y mae nodweddion y canol-oesoedd i'w gweled yn amlwg iawn yma yn ysblander y gwisgoedd, a gwychder yr adeiladau. Rhoddir lle mawr iawn, hefyd, i aur a meini gwerthfawr, yn enwedig yn y disgrifiad a roddir o'r neuadd. Y mae y llangciau, neu'r 'mackwyeit,' wedi eu gwisgo mewn 'pali purdu.' Ceir yn y Fabinogi hon, hefyd, y gair 'palffrei'—gair cyffredin iawn yn iaith y canol-oesoedd. Ond, fel y sylwyd, y mae y Fabinogi hon wedi ei chreu yn benaf gan yr awydd i roddi bri ar ddinas Caerynarfon, ac i esbonio ffyrdd Elen Lüyddawg, Cadair Faxen, a'r enw 'Llydaw.'

Y nesaf o'r Mabinogion o'r hon y rhoddwn grynodeb yw Lludd a Llevelys.

LLUDD A LLEVELYS.

Ychydig iawn a wyddis am ddechreuad y Fabinogi hon. Sonir mewn hen ddernyn sydd ar enw Taliesin am 'Ymarwar Lludd Bychan,' ac yn y Fabinogi ei hunan am 'Gyfranc Lludd a Llevelys.' Ond nid 'cyfranc,' *h.y.*, 'gornest,' sydd yma o gwbl:—yn hollol i'r gwrthwyneb. Fe allai mai rhyw hen ddefnyddiau sydd yma wedi eu troi yn chwedl newydd. Rhoddwn yn awr yn fyr grynodeb o honi.

Yr oedd gan Beli Mawr, fab Mynogan, dri mab—Lludd, Caswallawn, a Nynnyaw. Yn ol yr *Historia*, yr oedd ganddo bedwerydd mab; sef, Llevelys. Lludd oedd yr hwn a adeiladodd ac a brydferthodd Lundain; ac ar ei ol ef, meddai y chwedl, y gelwid y ddinas yn Gaerludd. Dymuniad Llevelys yw priodi etifeddes brenin Ffrainge; a gyda chymmhorth Lludd, ei

Digitized by Google

frawd, y mae yn myned i'r wlad hono, ac yn derbyn y forwyn, a choron y deyrnas gyda hi. Yn mhen ychydig, y mae tri phlâ yn codi yn Ynys Prydain:—1. Y Coraniaid; rhag y rhai nis gellid cadw un gyfrinach. 2. Diaspad, neu ysgrech fawr a elai dros bob tŷ ar bob Calanmai, ac a godai arswyd ar bawb. 3. Bwyteid mewn un noson yr holl fwyd oedd yn neuaddau y brenin, pa mor hir bynag yr oedd wedi ei gadw yno.

Yn ei benbleth, y mae Lludd yn myned at Llevelys, i ofyn ei gynghor ar y materion hyn. Wrth iddynt ymgynghori, rhag ofn y byddai i'r gwynt gludo eu geiriau at y Coraniaid, y mae Llevelys yn cymmeryd corn prês i drosglwyddo eu geiriau drwyddo. Digwyddodd, fodd bynag, fod 'cythraul yn y corn,' yn trawsnewid yn gwbl ystyr geiriau y naill a'r llall. Wrth weled hyn, y mae Llevelys yn rhoddi gwin yn y corn, ac yn ei olchi, gyda'r canlyniadau goreu. Er mwyn cael ymwared o'r Coraniaid, y mae Llevelys yn rhoddi i'w frawd rhyw bryfaid; y rhai yr oedd i'w gadael yn fyw i eppilio, rhag ofn y codai amgylchiad cyffelyb etto, tra yr oedd i friwio eraill o honynt mewn dwfr. Wedi dychwelyd, yr oedd Lludd i alw yr holl bobl ynghyd, a'r Coraniaid yn eu mysg, i gynnadledd, i geisio dyfeisio rhyw foddion heddwch. Yna, yr oedd i daenellu pawb â'r dwfr. Buasai y dwfr hwn yn gwenwyno y Coraniaid — ond neb arall. Achosid yr ail blâ gan ddraig o un natur yn ymladd gyda draig o natur arall, a'r waedd oedd llais draig gwlad Lludd ei hunan pan yn cael ei gorchfygu. Y mae yn debygol mai yr un chwedl sydd genym yma a chwedl Nennius am y pryfaid. Ar ei ddychweliad, yr oedd Lludd i chwilio am 'bwynt perfedd;' *h.y.*, 'canolbwynt' yr ynys; ac i gladdu yno ystenaid o'r mêdd goreu, ynghyd â 'llen o bali' ar yr ystên, tra yr oedd yntau ei hunan i ymguddio i'w gwylied. Byddai i'r dreigiau, o'r diwedd, ymladd yn yr awyr, a syrthio yn rhith dau borchell ar y llen, a'i chludo gyda hwy i waelod y cawg; ac ar ol yfed y mêdd, byddai iddynt syrthio i gysgu. Yr oedd Lludd i rwymo y llen am danynt, a'u claddu mewn cistfaen yn y man cadarnaf o'i diriogaeth. Os gwnelai hyn, ni ddeuai un plâ ar Ynys Prydain o un man arall. Achosid y trydydd plâ gan ryw ddewin nerthol. Yr oedd Lludd i wylied am dano yntau, ac i gymmeryd padellaid o ddwfr yn ei ymyl, fel y gallai fyned iddo os ar unrhyw adeg y teimlai yn gysglyd.

Y mae Lludd, ar ol y cynghorion hyn, yn dychwelyd, ac yn rhoi terfyn ar y Coraniaid. Yna, y mae yn mesur yr ynys, ac yn cael mai yn Rhydychain yr oedd y 'pwynt perfedd.' Cleddir y dreigiau ganddo yn Eryri, yn Ninas Emreis (sef, Emrys), yr hon a elwid gynt yn ddinas Ffaraon Dandde. Ar ol ymdrech galed, y mae Lludd yn llwyddo, hefyd, i waredu ei wlad oddi wrth y trydydd plâ; a gwneir y cawr gorchfygedig yn was boddlawn iddo.

Y mae yn eithaf amlwg i'r sawl a'i darlleno mai helaethiad ydyw y chwedl hon o ddau neu dri o'r Trioedd. Ceir, i ddechreu, gyfeiriad at dri mab Beli, er fod pedwerydd, sef Llevelys, yn cael ei chwanegu at ddybenion y chwedl. Sylwer, hefyd, fod Llundain yn cael ei galw yma, nid yn unig yn 'Gaerludd,' ond 'Londrys'—ar yr enw Ffrengig, ac nid ar yr enw Saesneg. Diammheu fod awdwr y chwedl hon yn bur gyfarwydd â'r Ffrangcaeg—os nad yn wir o'r iaith hono y cyfaddaswyd hi i'r iaith Gymraeg. Y mae'r hanes am y tair gormes, hefyd, yn amlwg yn gorwedd ar sylfaen y Trioedd. Diammheu, hefyd, fod rhyw draddodiadau o Arfon yn cael eu corphori yn yr hanes am ddinas Emrys. Sylwer, hefyd, ar y lle blaenllaw a roddir i swyngyfaredd yma, pan y sonir am olchi y corn â gwin, er mwyn gyru yr ysbryd drwg allan o hono.

### Kilhwch ac Olwen.

Yma, yr ydym yn dyfod at chwedl lle y ceir hanes am Arthur; ond hanes gwahanol iawn i hwnw geir yn y chwedlau Arthuraidd Ffrengig, a'r efelychiadau o honynt.

Yma, fe ellir dyweyd fod Arthur yn gymmeriad hollol Frytanaidd—os nad oes iddo, hefyd, gyssylltiadau Gwyddelig. Y mae y Fabinogi hon hefyd, yn hyn, yn debyg i Bedair Cainge y Mabinogi; sef, fod iddi gyfeiriadau at enwau ardaloedd yn Nghymru, ynghyd âg esboniad arnynt. Etto, y mae ynddi gyfeiriad at un chwedl sydd yn amlwg yn chwedl hen iawn; sef, Hanes hela'r Twrch Trwyth. Y mae cyfeiriad ati yn y gwaith a briodolir i Nennius.

Dyma'r darn yn Lladin yn y rhan o'r *Historia Britonum*, a elwir *De Mirabilibus Britanniæ:—Est aliud mirabile in regione qui dicitur Buelt. Est ibi cumulus lapidum, et unus lapis superpositus super congestum cum vestigio canis in eo. Quando venatus est porcum Troynt (al. Troit) impressit Cabal, qui erat canis Arthuri militis vestigium in lapide et Arthur postea congregavit congestum lapidum sub lapide in quó erat vestigium canis sui et vocatur Carn Cabal. Et veniunt homines et tollunt lapidem in manibus suis per spacium diei et noctis et in crastino die invenitur super congestum suum.* Ystyr hyn sydd fel y canlyn:—'Y mae rhyfeddod arall yn yr ardal a elwir Buallt. Yno, y mae tocyn o geryg, ac un gareg wedi ei gosod ar y garnedd gydag ôl troed ci arni. Pan yr heliodd y Twrch Trwyd, darfu i Cabal (Cafall), ci Arthur filwr, osod ôl ei droed ar y gareg; ac wedi hyny, fe gasglodd Arthur garnedd o geryg dan y gareg, ar yr hon yr oedd ôl troed y ci, ac fe'i gelwir Carn Cabal. Ac y mae dynion yn dyfod ac yn cludo y gareg yn eu dwylaw am ddiwrnod a noswaith; a thranoeth yr ydys yn ei chael ar ei charnedd ei hun.'

Ceir cyfeiriadau, hefyd, yn *Cormac's Glossary*—hen eir-lyfr Gwyddelig—at yr Orc Tréith neu Triath; ac y mae hyn wedi peri i'r Proffeswr Rhys ddyfalu mai dylanwad yr enw olaf sydd yn peri ein bod yn cael y ffurf 'Trwyth' yn y Mabinogion, yn lle 'Trwyd.' Yn 'Ngorchan Cynvelyn,' yn *Llyfr Aneurin*, fe geir cyfeiriad at 'dorch trychdrwyt,' sef y 'Twrch Trwyd;' ac hefyd, yn 'Ngorchan Maelderw,' fe geir cyfeiriad at 'gefn Cafall.' Diammheu fod y chwedlau ynglŷn â'r Twrch Trwyth yn llawer iawn amlach a helaethach unwaith nag ydynt yn y Mabinogion. Nid oedd, ond odid, un lle, os byddai unrhyw esgus dros hyny, na chyssylltid ei enw â'r anifail rhyfedd hwn, fel y gwneir ynglŷn â chynnifer o fanau yn y Fabinogi hon. Y mae Arthur, yma, yn debycach i'r Arthur hwnw y ceir cyfeiriadau aneglur ato yn y Trioedd (gwel Trioedd), yn *Llyfr Taliesin*, ac yn *Llyfr Du Caerfyrddin*, nag i Arthur y Rhamantau. Ar yr un pryd, tueddwn i gredu fod dylanwad y rhamantau i'w weled ar ffurf bresennol y Fabinogi hon yn yr ymgais i osod allan y brenin Arthur mewn dull mor ymherodrol ag

Digitized by Google

y mae modd. Ceir, hefyd, un neu ddau o enwau Normanaidd, megys Gilbert; a'r enw ar waewffon Arthur, sef 'rongomyant,' sydd yn awgrymu y dylanwad yma. Y mae llai o ôl celfyddyd ar y Fabinogi hon nag ar un o'r lleill; ac y mae hi yn ymddangos yn fwy fel casgliad o ddefnyddiau na dim arall. Yn mhlith y cyfeiriadau at filwyr Arthur, y mae awgrym am lawer hen chwedl sydd wedi llwyr golli. Yr ydym yn teimlo, fel y byddwn yn darllen darnau chwedlonol *Llyfr Du Caerfyrddin*, *Llyfr Taliesin*, a *Llyfr Aneurin*, fod genym weddillion chwedloniaeth fu yn doreithiog iawn unwaith, ond y mae yr enwau sydd yn dilyn eu gilydd mor ddidrefn, a'r farddoniaeth mor ddigyssylltiad, nes y mae'r goleuni egwan a dybiem oedd genym yn diflanu bron yn y fan. Ceir yn mhlith milwyr Arthur, Wyddelod mor enwog a Conchobar mac Nessa, o dan yr enw Knychwr, fab Nes. Y mae yr enwau Gwyddelig hyn, megys y mae y cyfeiriad at Corroi a Chocholyn yn *Llyfr Taliesin*, yn mhlith y pethau mwyaf anhawdd eu deall yn llenyddiaeth Cymru. Ai hen draddodiadau Cymreig sydd genym o'r pryd y bu y Gwyddelod yn trigo yn Nghymru cyn croesi i'r Iwerddon? Ai, o'r tu arall, traddodiadau hollol Wyddelig wedi eu benthyca ydynt, neu draddodiadau Gwyddelod a oresgynasant ranau o Gymru? Prin y gellir dywedyd fod y gair olaf wedi ei ddyweyd ar y cwestiwn hwn etto. Y mae yr *Ogam Inscriptions*, yn wir, yn brofion dïymwad, bellach, fod Gwyddelod wedi bod yn trigo mewn rhanau o Gymru am rai canrifoedd ar ol geni Crist; ac erys yr enwau lle ceir y gair Gwyddel heb eu hesbonio etto, gydag unrhyw debygolrwydd, ond yn ngwyneb y ffaith hon. Y mae'n eithaf sicr, hefyd, fod genym yn yr iaith Gymraeg rai geiriau Gwyddelig wedi eu benthyca; megys, 'ymryson,' '-ith' yn y gair 'gwenith,' 'cerbyd,' &c. Hefyd, y mae y Proffeswr Rhys wedi galw sylw at rai enwau o ffurf Wyddelig yn *Llyfr Llandaff*; a rhwng y cwbl, y mae cryn lawer i'w ddyweyd dros y ddamcaniaeth mai gweddillion 'Goideliaid' yr ynys hon a osodasant i fyny yr *Ogam Inscriptions*. Etto, teimlwn nad yw y cwestiwn yma wedi ei benderfynu yn derfynol hyd nes y gwneir ymchwiliad manylach i gyssylltiadau gwirioneddol yr iaith Gymraeg â'r iaith Wyddelig—a'r gwahaniaeth, yn enwedig, yn y dull y maent wedi dadblygu eu cystrawen.

Rhoddwn yn awr grynodeb o Fabinogi Kilhwch ac Olwen.

KILHWCH AC OLWEN.

Hanes Kilhwch, fab Kilydd, fab Kelyddon Wledig, ydyw y Fabinogi hon, yn gorchfygu y rhwystrau oedd ar ei ffordd i gael Olwen, ferch Yspyddaden Penkawr, yn wraig iddo; a hyny, i raddau, gyda chymmhorth Arthur a'i filwyr. Yr oedd ar Kilydd (tad Kilhwch), fab Celyddon Wledig, eisieu gwraig. Y wraig a ddewisai, ac a gafodd, oedd Goleuddydd, ferch Anlawd Wledig. Y mae hon yn myned yn wallgof; ond ar enedigaeth ei phlentyn, mae ei synwyrau yn dychwelyd. Darganfyddir y plentyn newyddeni gan geidwaid moch y brenin 'yn retkyrr hwch;' a dyna pa fodd y cafodd Kilhwch ei enw. Yr oedd y plentyn yn gefnder i Arthur. Ar ei gwely angeu, mae mam Kilhwch yn galw ei gŵr ati, ac yn deisyfu arno beidio ail briodi, hyd nes y gwelai ddraenen â dau flodeuyn arni ar ei bedd; tra y mae hithau yn gofyn i'w 'hathraw,' neu ei chyffeswr, na bo dim yn tyfu arno. Ar ddiwedd saith mlynedd, y mae y gŵr hwn yn esgeuluso ei ddyledswydd; ac un diwrnod, wrth ddychwelyd oddi wrth hela, y mae y brenin yn gweled y ddraenen wen â dau flodeuyn arni, ac yn ceisio gwraig. Y mae un o'i gynghorwyr yn ei gynghori i ladd Doged Frenin, a phriodi ei wraig ef; a dyna y mae yntau yn ei wneyd. Un diwrnod, y mae y frenhines yn cyfarfod hen wraig o'r dref, yr hon sydd yn ei hysbysu fod gan y brenin fab, sef Kilhwch. Yna, y mae y frenhines yn dyweyd y buasai ei merch hi yn gwneyd gwraig ragorol iddo; ond y mae yntau yn atteb ei fod yn rhy ieuangc etto i briodi. Yna, y mae y frenhines yn ymdynghedu na chaiff efe yr un wraig nes y gall gael Olwen, ferch Yspyddaden Penkawr. Y mae yntau, er heb adnabod Olwen, yn dyfod yn y fan yn llawn o gariad ati. Gweddill y Fabinogi hon yw hanes Kilhwch yn gorchfygu y rhwystrau oedd ar ei ffordd i'w chael.

Y mae Kilhwch yn awr yn dechreu o ddifrif ar y gwaith o geisio Olwen; ac yna, rhoddir disgrifiad blodeuog iawn o hono yn ei arfau a'i degwch yn cychwyn allan. Yn gyntaf, y mae yn cyrchu llys Arthur. Wedi cyrhaedd i'r llys, y mae yn gofyn a oes porthor yno? Dywedir wrtho fod. Er gwaethaf bygythiad Kilhwch y bydd iddo 'ddodi tair diaspad,' ni ollynga y porthor, sef Glewlwyd Gafaelfawr, mo hono i mewn, nes y bydd wedi hysbysu i Arthur. Ar hyny, y mae Glewlwyd, yn bur ddigyssylltiad, yn adrodd yn mha sawl ymgyrch o eiddo Arthur y bu efe ei hunan yn bresennol. Yn ei holl deithiau, nid oedd efe wedi gweled yr un gŵr cyn hardded a Kilhwch, yr hwn a safai wrth y porth.

Pan ollyngir Kilhwch i'r llys, y mae yn dyfod i mewn, o'r diwedd, ar gefn ei farch. Gofyna Arthur iddo beth oedd ei neges; ac y mae yntau yn ei hadrodd. Ei neges gyntaf, fodd bynag, oedd cael tori ei wallt. Yna, y mae yn dyweyd pwy ydyw. Wedi hyn, yr ydym yn cael cyfres hir o enwau milwyr a marchogion Arthur, a disgrifiadau o neillduolion rhai o honynt.

Nid oedd Arthur ei hun wedi clywed dim am y forwyn a geisiai Kilhwch, ond fe anfonai genhadon i'w cheisio. Ar ddiwedd y flwyddyn, y mae y cenhadon yn dychwelyd—ond heb ddim newyddion. Y mae Cei, er hyny, yn benderfynol o'i chyrchu. Cawn yn awr ddisgrifiad chwedlonol o Cei, yr hwn ddisgrifiad a wna iddo edrych yn debyg iawn i hen dduw yr haul. Gelwir, hefyd, ar Bedwyr, a Chynddelic Cyfarwydd, a Gwrhyr Gwalltawt ieithoedd, Menw ab Teirgwaedd, a Gwalchmai, fab Gwyar, i uno yn yr ymgyrch. Y mae y fintai hon yn teithio nes cyrhaedd 'Caer' fawr. Wrth y gaer, y maent yn gweled praidd diderfyn o ddefaid. Ar ol cael ymddiddan gyda'r bugail rhyfedd sydd ar y praidd, y maent yn cael hysbysrwydd mai castell Yspyddaden Penkawr yw y castell hwn. Enw y bugail yw Custennin, brawd Yspyddaden. Y mae Kilhwch yn rhoddi modrwy i'r bugail, ond y mae hi yn rhy fechan i'w fŷs; o ganlyniad, y mae yn ei rhoddi yn ei faneg i'w chadw. Ar ol clywed am ddyfodiad Kilhwch, y mae gwraig y bugail yn ceisio ei gofleidio; ac y mae, drwy hyny, bron a'i wasgu i farwolaeth: a buasai wedi gwneyd hyny, oni bae i Cei ei achub drwy wthio darn o bren rhwng ei breichiau. Gwasgwyd hwn ganddi yn ysgyrion. Erbyn deall, y mae Yspyddaden Penkawr wedi lladd yn barod dri-ar-hugain o ymgeiswyr am

Digitized by Google

law ei ferch, ac y mae gwraig Yspyddaden wedi gallu cuddio un arall yn ymyl y tân. Byddai Olwen yn myned i dŷ y bugail i olchi ei phen, ac yn gadael ei modrwyau ar ei hol. Yna, ceir disgrifiad gwych iawn o Olwen. Nis gallai hi addaw priodi Kilhwch, gan na pharhäai bywyd ei thad ond cyhyd ag y byddai hi yn ddi-briod. Beth bynag, y mae yn cymmeradwyo i Kilhwch ofyn i'w thad am dani. Y mae y gwŷr yn ei dilyn i'r castell, ac yn lladd y naw porthor, a'r naw ci oedd yn ei wylied 'heb wichaw yr un.' Wedi dyfod i wyddfod Yspyddaden, y maent yn hybysu eu neges iddo. Y mae yntau yn gorchymyn i'w weision godi ei ddwy ael gyda ffyrch, fel y gallai weled 'defnydd' ei fab-yn-nghyfraith. Yna, y mae Yspyddaden yn ceisio lladd Kilhwch â gwaewffon wenwynig; ond y mae Cei yn achub y blaen arno, ac yn ei drywanu ef ei hunan yn ei glun. Dranoeth, y maent yn gofyn, fel o'r blaen, am Olwen. Yna, y mae Yspyddaden yn ceisio unwaith etto ladd Kilhwch; ond y tro yma, y mae y llangc yn trywanu Yspyddaden yn ei ddwyfron. Dranoeth, hefyd, cymmer yr un peth le; ond y pryd yma, y mae Kilhwch yn trywanu Yspyddaden drwy ganwyll ei lygad, nes y mae y waewffon yn myned drwy ei wegil allan. Er hyny, nid yw Yspyddaden yn cael ei ladd; ond y mae yn cwyno y bydd iddo ddioddef peth loes yn y dyfodol yn y rhanau hyny o hono a drywanwyd. Y mae Yspyddaden, erbyn hyn, yn dyfod yn beth boddlonach i wrandaw ar neges Kilhwch; ac y mae yn adrodd iddo gyfres hir o bethau y byddai raid iddo eu cyflawni cyn gallu ennill ei ferch. Dyma yr anhawsderau yr oedd raid eu gorchfygu:—Aredig, hau, a medi cnwd o wenith oddi ar un llain o dir mewn un diwrnod. Yr oedd y llain yn gyfryw nas gallai neb ei drin ond Amaethon, fab Don; ac yr oedd yn rhaid cael Gofannon, fab Don, i barotoi yr heiyrn angenrheidiol. Rhaid, hefyd, oedd cael dau ych, sef Nynnyaw a Pheibyaw, 'y rhai a rithiwys Duw yn ychain am eu pechod,' i'w aredig. Hefyd, yr oedd yn rhaid i Yspyddaden gael cnwd o lîn oddi ar lain o dir, yr hwn a hauasai efe ei hun pan briododd ei wraig, a gwneyd y llin yn benwisg i'w ferch ar ei phriodas. Rhaid oedd iddo hefyd gael mêl naw gwaith melusach na mêl yr haid gyntaf a elai allan o'r cwch. Mynai, hefyd, gael llestr Llwyr, fab Llwyrion; a chyda hyny, mynai gael 'mwys Gwyddno Garanhir,' a chorn Gwlgawt Gogodin. Nid oedd yn foddlawn ar y pethau hyn; ond yr oedd yn rhaid iddo gael telyn Teirtu, a phair Diwrnach Wyddel. Hefyd, yr oedd yn rhaid iddo gael 'Yskithyr' (hyny yw, *tusk*) 'Yskithrwyn penn beidd (rhif lliosog 'baedd') i'w eillio. Yr unig un allai gael hwn iddo oedd Odgar, fab Aedd, brenin yr Iwerddon; a'r unig un allai gadw yr 'ysgythr' oedd Cado, o Brydain. Cyn y gellid gostwng ei flew wrth eillio, yr oedd yn rhaid cael gwaed y 'widdon orddu,' merch y 'widdon orwen,' o 'Bennant gofid,' ar gyffiniau uffern. Ac ni thalai y gwaed hwn ond yn gynnes. At gadw y gwaed, yr oedd yn rhaid wrth 'fotheu Gwidolwyn gorr.' Yr oedd eisieu llaeth newydd, hefyd; ac i'w gadw rhag suro, rhaid oedd cael 'Botheu Rinnon rin barnawt.' Nis gellid trin ei wallt, chwaith, heb gael y crib a'r gwellaiff oedd rhwng deuglust Twrch Trwyth, fab Tared Wledig. Dyma'r orchest fawr. Nis gellid hela Twrch Trwyth nes dyfod o hyd i Greit, fab Eri. Ni ddaliai yr un gynllyfan hwnw ond cynllyfan 'Cwrs Cant ewin.' Ni ddaliai yr un fodrwy, chwaith, y gynllyfan ond modrwy Canhastyr Canllaw. I ddal y fodrwy, ynghyd â'r gynllyfan, yr oedd raid iddynt hwy, hefyd, wrth gadwen Kilydd Canhastyr. Nid oedd un heliwr, chwaith, a allai ddal y ci heb law Mabon, fab Modron; ac nis gwyddai neb yn mha le yr oedd hwnw. Yna, rhoddir cyfres o anhawsderau eraill oedd ar ffordd hela y Twrch Trwyth.

Y mae y gwŷr yn awr yn dechreu o ddifrif ar eu gwaith. Y maent yn cyrhaedd castell, ac y mae cawr du anferth yn dyfod allan. Efe yw Wrnach Gawr. Ni ollyngir Cei i mewn, ond yn rhinwedd y grefft a broffesa; sef, gloewi cleddyfau. Wedi dyfod i mewn, y mae yn ymgymmeryd â gloewi cleddyf Gwrnach. Y mae Cei yn llwyddo i gael y wain a'r cyllell-brenau, ac â'r cleddyf y mae yn tori pen Wrnach Gawr, ac yn anrheithio ei gastell. Ar ddiwedd y flwyddyn, y mae y gwŷr yn dychwelyd i lys Arthur, ac yn dyweyd y newyddion wrtho.

Y gorchwyl nesaf yw chwilio am Fabon, fab Modron. Y mae Arthur, hefyd, yn cynnorthwyo yn y gwaith hwn. Gofynant am dano, i ddechreu, i Eidoel; yna, i fwyalch Kilgwri; ac ar ol hyny, i Garw Rhedynfre, Dallhuan Cwm Cawlwyt, Eryr Gwernabwy, ac Eog Llyn Lliw. O'r diwedd, y maent yn darganfod Mabon yn Nghaerloyw, yn ngharchar. Efe, ynghyd â Lludd llaw eraint, a Greit, fab Eri, oedd un o dri phrif garcharorion Ynys Prydain. Rhyddheir Mabon gan Cei a Bedwyr. Erbyn hyn, eir i geisio rhai o'r gwrthddrychau eraill; ac fe'u ceir hwythau. Yr ymgyrch olaf o unrhyw bwys yw hela Twrch Trwyth. Yn ol y chwedl, helir Twrch Trwyth o'r Iwerddon i Gymru, ac i lawer o wahanol fanau yno. Y mae yn glanio yn mhorth Cleis, yn Nyfed; yna, yn myned i Aberdeugleddyf, Presselen, Nywer, Cwm Cerwyn, Pelumyawc, Aber Tywi, Glynn Ystu, Dyffryn Llychwr, Mynydd Amanw ('lle y llas banw o'i foch ef'), Dyffryn Amanw, Llwch Ewin, Lloch Tawy; tra y mae ei berchyll, Grugyn a Llwytawc, yn myned y naill i Dintywi, Ceredigyawn, Garth Grugyn; tra y mae Llwytawc yn myned i Ystrat Yw. Helir y Twrch Trwyth yna rhwng Tawy ac Euyas, i'r Hafren. Wedi hyny, efe a aeth i Gernyw; ac o'r diwedd, fe'i helir i'r môr. Yna, fe geisir y gweddill o'r gofynion.

Wedi i'r holl ammodau hyn gael eu cyflawni, y mae Kilhwch yn cael priodi Olwen, ferch Yspyddaden ben Cawr; ac y mae Arthur yn myned i 'fwrw ei ludded hyt yng Nghelliwig yng Nghernyw.'

---

Dylid sylwi yn fanwl wrth efrydu y Fabinogi hon ar y defnydd mawr a wneir mewn Mabinogi Gymreig, hyd yn oed pan yn Fabinogi Arthuraidd, o draddodiadau lleol, ac o enwau arwyr Cymreig. Y duedd, fel y gwelir yma, ydyw dwyn i fewn gynnifer ag a ellir o honynt. Y mae'r rhamantau Arthuraidd, megys 'Owain a Luned,' 'Peredur,' 'Geraint,' ac 'Enid,' yn hyn o beth yn hollol wahanol. Os yr un, hefyd, yw Yspyddaden ben Cawr ac Espinogre y Ffrangcod, fe welir fel y mae yr enw yn y Fabinogi Gymreig mewn ffurf Gymreig ddealladwy, tra y mae y ffurf Ysbidinongyl yn Mheredur; sef, Espinogre, mewn rhyw fath o ffurf Gymreig. Sylwer, hefyd, nad ydym yn cael, o gwbl, yn y Mabinogion y chwedlau hyny am enedigaeth

Arthur, a'i hanes diweddarach sydd i'w gael yn y *Brutiau*. Gwneir yr holl orchestion, yn mron, gan filwyr a dilynwyr Arthur. Am chwaneg ar Arthur, a lle y Fabinogi hon yn y chwedloniaeth am dano, gweler y BRUTIAU, a'r TRIOEDD.

Deuwn yn awr at Fabinogi Arthuraidd, ond etto yn dwyn nodweddion Cymreig; ac yn hyn, yn cyttuno â Mabinogi Cilhwch ac Olwen. Y mae y rhan fwyaf o gyssylltiadau y Fabinogi hon â Phowys; a thrwy y ffaith yma, y mae hithau, hefyd, yn ein hadgofio o'r gwahaniaeth mawr sydd rhyngddi a'r tair rhamant olaf yn y Mabinogion. Cyfrifid y Fabinogi hon gynt yn un ammhossibl i'w chofio o blegid amrywiaeth y lliwiau oedd ar y dillad yn y disgrifiadau a geir ynddi. Nid oes yn y Fabinogi hon nemawr ddim sydd o werth llenyddol.

BREUDDWYD RHONABWY.

Yr oedd unwaith ddau frawd—un o honynt o'r enw Madawg ab Maredudd, yr hwn oedd yn arglwydd ar Powys; y llall o'r enw Iorwoerth, yr hwn a genfigenai wrth sefyllfa uwch ei frawd. Wrth weled hyn, y mae Madawg yn cynnyg ei wneyd ef yn ben ar ei dŷ, a rhoddi iddo feddiant o'i feirch, ei arfau, a'i anrhydedd. Nid ydyw Iorwerth yn foddlawn ar y rhai hyn; ac y mae yn myned i gyfeiriad Lloegr, gan losgi ac anrheithio y wlad oddi amgylch. Ar hyn, casglwyd mintai ynghyd i fyned i chwilio am Iorwerth; ac yn ben arni, fe osodwyd Rhonabwy. Aeth Rhonabwy a Chynnwric Coch, ynghyd â Chadwgan Fras i dŷ Heilyn Goch ab Cadogan ab Idon. Yna, yr ydym yn cael disgrifiad byw iawn o anghysur y tŷ truenus yr aethant iddo. Y mae hen wraig yn y tŷ, ac y mae y teithwyr yn gofyn iddi pa le y mae gwŷr y tŷ. Ni rydd hi, fodd bynag, unrhyw atteb. Cyn bo hir, y mae gŵr a gwraig yn gwneyd eu hymddangosiad. Er gwaethaf yr anghysur, y mae dau gydymaith Rhonabwy yn syrthio i gysgu; ac o'r diwedd, yntau hefyd. Yna, fe adroddir y breuddwyd a gafodd. Y mae yn breuddwydio ei fod ef a'i gymdeithion yn croesi gwastadedd Argyngroeg, yn sir Drefaldwyn, ac yn myned i gyfeiriad Rhyd-y-groes a'r Hafren. Ar ei ffordd, y mae yn clywed taranau; ac yna, y mae yn gweled llangc ieuangc, wedi ei wisgo yn wych nodedig, yn marchogaeth. Wrth weled y marchog, y mae Rhonabwy a'i gyfaill yn diangc. O'r diwedd, goddiweddir hwy, a gofynant am nawdd. Y mae yn ymddangos mai enw y llangc oedd Iddawc, fab Mynyo, yr hwn a adnabyddid, hefyd, o dan yr enw Iddawc Cordd Prydain. Yr oedd efe yn genad yn nghâd Camlan rhwng Arthur a Medrawd; ac efe a achosodd y camddealltwriaeth rhyngddynt. Fe ddarfu iddo eu gadael dair noson cyn câd Camlan, a myned at y Llech lâs yn Mhrydain 'y penytyaw.' Ar hyn, y mae y gwŷr yn clywed taranau trymach nag erioed, ac y maent yn canfod llangc ieuangc di-farf. Y mae hwn hefyd wedi ei wisgo yn hardd, ac y mae yn goddiweddyd y cwmni blaenorol. Yna, y mae y marchogion yn gofyn am ran o warogaeth Rhonabwy a'i gyfeillion, ac y maent yn cael hyn. Wrth holi, y mae Rhonabwy yn cael allan mai hwn ydyw Rhuawn Bybyr, fab Deorthach Wledig. Yna, y maent yn symmud i gyfeiriad Rhyd-y-groes a'r Hafren. Am filldir o bob tu y ffordd, y maent yn gweled pebyll. Ar ol cyrhaedd y rhyd, y maent yn gweled Arthur yn eistedd mewn ynys wastad îs-law y rhyd; ac ar y naill law iddo, y mae Bedwini esgob; ac o'r tu arall, y mae Gwarthegyt, fab Caw. Gwelir yn eu hymyl, hefyd, llangc ieuangc, tal, â gwallt gwineu.

Ar hyn, fe gymmerir y cyfeillion ger bron Arthur. Y mae yr ymherawdwr yn gwenu, ac yn rhoddi rheswm dros hyny. Y rheswm yw, fod dynion mor seilion yn geidwaid ar yr ynys hon, o'u cymmharu â'r rhai oedd ynddi gynt. Yna, y mae byddin yn dyfod at y rhyd. Y mae y fyddin yn gynnwysedig o wŷr Rhuawn Bybyr, ac y mae ganddynt ryddid i dramwy yr ynys. Y mae eu meirch can goched a gwaed. Os ymwahanai un o'r marchogion oddi wrth ei gydfarchogion, ymddangosai fel colofn o dân yn dyrchafu i'r awyr. Yna, y mae Marchog yn myned i'r rhyd; ac wrth fyned, y mae efe yn gwlychu Arthur a Bedwini.

Ar ol peth ymliw rhwng y llangc a'r marchog am y sarhâd yma, mae Rhonabwy yn gofyn i Iddawc pwy oedd y marchog hwnw. Mae yntau'n atteb mai y llangc ieuangc hyawdlaf a dysgedicaf yn Mhrydain oedd, sef Adaon, fab Taliesin; a'r gŵr a darawodd y march oedd Elphin, fab Gwyddno. Yna, y mae rhywun hyfach na'u gilydd yn anerch Arthur, gan ddyweyd ei fod yn gwastraffu amser trwy ymdroi wrth fyned i frwydr Caer Badon. Ar hyny, y mae Arthur yn ymgynghori, ac yn parotoi i fyned. Yna, y mae Rhonabwy yn gofyn i Iddawc pwy oedd y gŵr a siaradai mor hyf âg Arthur. Attebir mai Karadawc Freichfras, fab Llyr Marini, oedd efe. Wedi iddynt gyrhaedd y Rhyd a'r Hafren, y mae Iddawc yn troi pen ei farch, ac y mae Rhonabwy yn edrych ar ddyffryn yr Hafren. Gwelir llawer byddin ar y gwastadedd; ac y mae Rhonabwy yn gofyn iddo am eu henwau. Yn nghanol un llu, fe welir marchog yn marchogaeth. Y mae Rhonabwy yn gofyn pwy ydyw, ac y mae Iddawc yn egluro mai Cei ydyw. Dangosir arwr arall, enw yr hwn ydyw Cadwr, Iarll Cernyw.

Yn awr, y mae Owain ac Arthur yn dechreu chwareu gwyddbwyll (chwareu tebyg i *chess*). Yna, daw yn mlaen was ieuangc wedi ei wisgo mewn dillad amryliw. Y mae hwn yn moesymgrymu i Owain, ond nid i Arthur. Esbonia Arthur ei hun pa ham y mae hyn; a'r rheswm ydyw, ei fod newydd ei gyfarch ef. Neges y llangc yw, gofyn i Arthur rwystro yr aflonyddwyr ar ei frain ef. Yn mlaen, fodd bynag, yr â Arthur â'i chwareu. Yna, y mae llangc arall yn dyfod gyda'r un cais. Mae Arthur ac Owain yn awr yn gorphen eu chwareu; ac yna, fe welir pabell arall, a llangc arall wedi ei wisgo mewn dillad gwychion. Y mae y llangc yn hysbysu fod y brain goreu eisoes wedi eu lladd, tra mae y lleill wedi eu clwyfo yn drwm. Yna, rhoddir disgrifiad o ryfel y brain; ac y mae marchog arall yn dyfod i'r golwg. Disgrifir gwisg y marchog hwn, hefyd, mewn lliwiau gwychion iawn. Y mae y marchog hwn yn rhoddi hysbysrwydd i Arthur fod y cigfrain yn lladd ei îs-weision a'i langciau. Yna, y mae Arthur yn peri i Owain rwystro ei frain. Fodd bynag, y mae Owain yn peri i'w arglwydd fyned yn mlaen gyda'i chwareu. Yna, maent yn gweled marchog arall yn cyfeirio tuag atynt. Y mae'n dyweyd wrth Arthur fod ei holl weision wedi eu lladd. Y mae Arthur unwaith etto yn erfyn ar Owain rwystro y brain; ond gwrthod y mae Owain. Ar ol hyny, y mae marchog arall yn dyfod yno gyda'r un deisyfiad; ac, o'r diwedd, y mae Arthur yn gwasgu y darnau, â pha rai

Digitized by Google

y chwareuai, yn llwch; ac y mae Gwers, fab Rheged, yn erchi i Owain ostwng ei faner. 'Ac yna y gostygwyt ac y tagnouedwyt pob peth.' Wedi i Rhonabwy wybod enwau yr holl wŷr a ddaethant at Arthur, y mae y brenin yn parotoi i ymgynghori; a rhoddir enwau ei gynghorwyr. Arwyr cyffredin y chwedlau Arthuraidd yw y rhai hyn. Ar ol y breuddwyd rhyfedd yma, y mae Rhonabwy yn deffro, ar ol cysgu dri diwrnod a thair nos.

Pa beth bynag am amseriad 'Breuddwyd Rhonabwy,' a 'Kilhwch ac Olwen,' gellir casglu fod y naill a'r llall, yn eu ffurf bresennol, beth bynag, gryn lawer yn ddiweddarach o ran eu ffurfiad na Phedair Caingc y Mabinogi. Etto, maent yn awgrymu fod y chwedlau Arthuraidd yn ffasiynol yn eu hamser hwy; ac felly, er eu bod yn chwedlau Cymreig, yr ydym yn ammheu yn gryf eu bod wedi eu cyfansoddi, i raddau, fel pe i gystadlu â rhamantau Arthuraidd y Cyfandir. Y mae yn anhawdd genym gredu, pe buasai lle blaenllaw iawn i Arthur mewn chwedloniaeth Gymreig pan y cyfansoddwyd Pedair Caingc y Mabinogi, y buasai ei enw a'i farchogion allan, yn enwedig gan fod y Pedair Caingc yn cynnwys chwedloniaeth De a Gogledd Cymru, gyda chyfeiriadau at deuluoedd Llyr a Beli. Y mae yn rhyfedd iawn, os oedd llawer o leoedd y pryd hyny yn Nghymru yn cael eu galw ar enw Arthur, na buasai rhyw chwedl yn ei gylch wedi ei dal megys yn rhwydwaith Pedair Caingc y Mabinogi. Credwn, o'r tu arall, mai wedi i Arthur ddyfod yn wrthddrych ffasiynol y chwedlau yr enwyd y rhan fwyaf o'r lleoedd sydd yn awr yn dwyn ei enw yn Nghymru. Diammheu, er hyny, os oedd yn un o hen arwyr y genedl, pa mor ddi-nôd bynag oedd i ddechreu, fod rhai o'r lleoedd sydd ar ei enw felly er's amser maith. Gall, hefyd, fod llawer lle oedd ar enw Arth, neu rywun cyffelyb, wedi eu cyssylltu âg enw Arthur. Gallwn, o'r tu arall, ddeall yn hawdd fod y chwedlau am Arthur wedi eu cadw yn mysg y Llydawiaid, am mai eu harwr arbenig hwy oedd Arthur pan aethant drosodd, fel yr oedd Pryderi yn arwr Dyfed, neu Gwydion yn arwr Gwynedd. Nid yn Nyfed y ceid y chwedlau am Gwydion; ac fe allai yn hawdd fod na cheid nemawr o ddim chwedlau am Arthur y tu allan i gylch y llwythau hyny a aethant i Lydaw. Fel y dangoswyd eisoes, y mae cynllun cyffredinol ei hanes yn cyfatteb yn naturiol iawn i hanes yr arwyr Cymreig eraill; ac y mae anffyddlondeb gwraig Arthur i Melwas a Medrawt yn ddigon tebyg i anffyddlondeb Blodeuwedd i Llew. Nid ydym yn gweled nemawr o ennill mewn ceisio darganfod enwau arwyr Dyfed yn mhlith marchogion Arthur, mwy na phe buasem yn chwilio am rai o deulu Dôn yn chwedlau y Deheudir. Yn wir, y mae yr holl leoedd hyny sydd ynglŷn â'r Mabinogion Arthuraidd, megys Caerlleon ar Wysg, Caerloyw, Gelliwig yn Nghernyw, yn cadarnhau y dybiaeth mai yn mhlith trigolion y rhanau hyny, a'r rhai a aethant oddi yno i Lydaw, y tyfodd y chwedlau hyn, mewn adgof, gan mwyaf, ac iddynt gael eu cymmysgu â ffeithiau hanesyddol; ac, fe allai, â phersonau hanesyddol ynglŷn â chongcwest yr ynys gan y Saeson. Diammheu fod enw Arthur yn cael ei gofio, nid yn unig gan y rhai a ymadawsant â'u gwlad, ond, hefyd, a arosasant; ac yma yr ydym yn cael gwreiddyn deublyg y chwedlau. Gweler SIEFFRE O FYNWY, a'r TRIOEDD.

Symmudwn yn mlaen yn awr at y tair rhamant a enwyd ar y dechreu; sef, 'Owain a Luned,' 'Peredur a Geraint,' ac 'Enid.' Y mae y Proffeswr Rhys o'r farn mai efelychiadau yw y rhai hyn o ramantau rhyddieithol Ffrengig; ac y mae pob peth yn peri i ni gredu nad chwedlau uniongyrchol Gymreig ydynt. Yma, y mae Arthur yn ymherawdwr. Diammheu mai yn Ffraingc, ac o dan ddylanwad y chwedlau am Siarlymaen, a'i lys, y rhoddwyd ffurf ymherodrol i'r chwedlau hyn. Fe ddichon, hefyd, fod hanes Alexander Fawr, yr hwn oedd yn bur boblogaidd yn Ffraingc, wedi tueddu i'r un cyfeiriad. Mae chwedloniaeth pob gwlad yn dwyn delw ei gwleidyddiaeth, i ryw raddau; a gellir adnabod tarddiad chwedl, neu, o leiaf, ei chyssylltiadau, yn llawn cystal yn aml oddi wrth y ddelw wleidyddol a chymdeithasol sydd arni ag oddi wrthi hi ei hunan. Felly gyda'r chwedlau am Arthur. Nid yw Arthur yn cael ei enwi yn *Gildas* o gwbl. Y mae yn cael ei enwi yn hanes bywyd Gildas (ni wyddis enw yr awdwr), fel y tybir; ond fe'i beirniadir yno yn ddigon gwyneb-agored. Yn y *Brutiau*, y mae wedi dyfod dan ddylanwad gwleidyddiaeth Ffraingc ac Ewrop; ac y mae yn orchfygwr heb ei ail. Yn y rhamantau Arthuraidd Ffrengig, y mae efe yn gweithredu fel un o frenhinoedd Ffraingc; ac yn y rhamantau yn eu diwyg Cymreig, y mae yn gweithredu fel un o frenhinoedd rhadlawn yr hen Gymry. Yn Kilhwch ac Olwen, ceisir cyfuno y ddwy agwedd ar ei gymmeriad—yr agwedd Gymreig, a'r agwedd dramor. Lle ceid cyflwr uchel o wareiddiad, deuai y chwedlau i adlewyrchu y gwareiddiad hwnw: lle ceid cyflwr canolig, fe adlewyrchid hwnw: a lle y ceid cyflwr isel, deuai hwnw, hefyd, i'r amlwg. Daethpwyd â chymmeriadau perthynol i bob cylch o gymdeithas i'r rhamantau—rhai o honynt yn adlewyrchu syniad yr eglwys am burdeb: eraill yn adlewyrchu syniad y llysoedd am gariad. O'r diwedd, daeth y rhamantau yn fwy o alegorïau na dim arall; a darfyddasant yn ngwatwareg Cervantes. Yr oedd ynddynt, ar y cychwyn, ddigon o amrywiaeth i gyffwrdd â llawer cylch ar fywyd; ac yn eu prif arweddion, yr oeddynt yn ddigon ffyddlawn i ffeithiau hanes dyn iddynt afael yn nychymyg yr oll o Ewrop, a gwreiddio yn ddwfn yno. Yr oedd ynddynt allu neillduol i ddwyn cymmeriadau benywaidd yn fyw ger bron y meddwl, ac i'w delweddu, nes hoffi y naill a chashau y lleill. Yn y cyfeiriad yma, nid ydyw yr argraph a wnaethant, a'r cyflwr o feddwl a adlewyrchasant, wedi diflanu o feddwl Ewrop heddyw. Gall pob dyn sylwgar weled eu hôl ar arferion cymdeithasol yn mhob cyfeiriad. Y mae rhan helaeth o'r hyn a elwir yn foneddigeiddrwydd tuag at y rhyw deg yn ffrwyth ysbryd Cristionogaeth, wedi ei liwio â syniadau rhamantus y canoloesoedd. Mae llawer o bethau yn y rhamantau sydd, i ni, yn dangos graddau mawr o ffolineb a barbareiddwch; ond barbareiddiwch plant neu las-langciau ydynt. Mae yno gyfuniad, hefyd, o dynerwch, pwyll, a gwastadrwydd gŵr. Mae'r rhamantau yn eu ffurfiau Cymreig, ond odid, yn dangos llawn cymmaint, os nad mwy o'r tueddiadau olaf, na llenyddiaeth gyfattebol unrhyw ran o Ewrop, hyd y gwyddom. Yr oedd yn rhaid, o angenrheidrwydd, cael hanes ymladdau ynddynt; ond rhoir llawn mwy o barch i un fel Gwalchmei, fab Gwyar, yr hwn a lwyddai â'i eiriau teg i wneyd yr hyn na allai neb trwy drais

Wrth astudio y rhamantau yn eu ffurf Gymreig, dylid cael allan pa fodd y trawsffurfiwyd hwynt gan syniadau cymdeithasol a moesol ein cenedl, a pha oleuni a daflant, o ganlyniad, ar ein hanes. Y mae mwy i'w gael ynddynt nag awgrymiadau ar grefydd yr hen Gymry, er mor werthfawr yw y rhai hyn. Gwan fydd y goleuni a daflant ar y goreu ar grefydd ein tadau, gan eu bod wedi eu trawsffurfio gymmaint dan ddylanwadau y canol-oesoedd. Y mae olion syniadau y canol-oesoedd i'w gweled hyd yn oed ar Bedair Caingc y Mabinogi. Ceir yn Pwyll, er enghraifft, sôn am farchogion, ieirll, brenhinoedd, a brenhinesau. Y mae yn y llysoedd 'fackwyeit,' 'niuer,' a 'theulu.' Ceir hefyd ganddynt 'neuaddau,' 'hundyeu,' ac 'addurn teckaf o adeiladau.' Mae'r frenhines yn gwisgo 'enrwisc o bali' (*satin*); ac mewn man arall, 'eurwisc o bali llathreit.' Maent yn gofalu ymolchi cyn cyrchu i'r byrddau; ac ar y byrddau eu hunain, mae ganddynt 'eurlestri a theyrndlysseu.' Ochr yn ochr â hyn, fodd bynag, y mae cryn symlrwydd iaith a meddwl. Y mae ganddynt, hefyd, syniad am ddifyrwch boneddigaidd, megys 'cerddeu a charueiddrwydd, ymddiddan a chymdeithas, digrifwch a llawenydd.' Eu syniad am yr hyn oedd ddeniadol mewn gwraig oedd yr hyn a ddywedir am Riannon—'disemylaf gwreic a bonhedigeidaf y hannwyt (tymmher) oedd.' Mewn gŵr, o'r tu arall, nid oedd dim yn ei gymmeriad yn fwy parchus na'i fod yn 'kadw kywirdeb, ac yn kadarnhau kedymdeithas.' Pan y cyflwynir anrhegion, ni roddir dim llai na 'meirch, milgwn, hebogau, a phob cyfryw dlws.' Ceir, hefyd, hyd yn oed yn Mabinogi Pwyll, un neu ddau o ymadroddion sydd o darddiad a phriodddull tramor. Defnyddir, er enghraifft, y gair 'parabyl' (Ll. *parabola*; Ff. *parole*). Sonir, hefyd, am gymmeryd gwrogaeth ('gwrogaeth'=Ff. *homage*). Nid ydyw 'gŵr mwyn,' chwaith, ond '*gentil homme*' mewn ffurf Cymraeg.

Y maent yn parotoi, hyd yn oed yn Mhedair Caingc y Mabinogi, 'wleddoedd darparedig,' ac yn gwneyd hyny 'yn drefnus.' Mae ganddynt y bwyta cyntaf, a'r ail. Gallant, hefyd, 'dreulaw y wled drwy gerdeu a chyvedach' a 'diuyrru'r dydd' yn yr un modd. Y mae ganddynt eu gweision i weini arnynt, ac y mae y rhai hyn yn aml wedi eu gwisgo yn hardd.

Gwelir yr un peth etto yn Mabinogi Branwen, ferch Llyr. Mae Bendigeitvran yn 'ardderchawc o goron lundain,' ac yn 'frenin coronawc.' Y mae llongau Matholwch âg 'arwyddon teg gwedus o bali arnadunt;' tra, yn ddiweddarach yn y Fabinogi, fe ddywedir fod y Gwyddelod, cyn i Branwen eu goleuo, yn methu adnabod llongau gwŷr Ynys y Cedyrn. Ceir sôn am osod 'swch y daryan y fyny fel arwydd tagneued.' Yn Manawyddan, fab Llyr, etto, ceir sôn am gastell wedi ei swyno—yn debyg fel y ceir yn y rhamantau. Daw, hefyd, rai o gymmeriadau nodweddiadol y canol-oesoedd i mewn i'r Mabinogion hyn. Er enghraifft, yn 'Manawyddan,' ceir yr 'yscolheic yn dyuot o loygyr o ganu,' ac yn cynnyg punt a dderbyniasai wrth gardota i Manawyddan am beidio crogi y llygoden.

Rhoddid, y pryd hyny, i fyfyrwyr Prifysgolion Rhydychain a Chaergrawnt drwyddodau i gardota ar y ffordd i'r brifysgol o'u cartrefi, ac yn ol. Ceir, hefyd, yn y Fabinogi hon, ddarlun byw iawn o offeiriaid y canol-oesoedd; ac yn ddiweddarach, o'r esgob gyda'i osgordd. Gosodir yr esgob allan yma, o'r tu arall (yn debyg iawn i *druad* y Gwyddelod), fel dewin; yr hwn, sef Llwyd ab Cil Coed wrth ei enw, oedd wedi dodi'r 'hud ar saith cantref Dyfed.' Heb law y cyfeiriad at 'yr aberth dduwsul,' nid oes nemawr un cyfeiriad at arferion neillduol y canol-oesoedd yn Mabinogi Math, fab Mathonwy; o bossibl, am nad oedd dylanwad y Normaniaid gymmaint yn y Gogledd.

Un o'r tueddiadau cryfaf a nodweddai feddwl y canol-oesoedd oedd Dewiniaeth. Ac yma, yr ydym yn cael gwythïen sydd yn gyffredin i'r holl Fabinogion. Os ydyw y darllenydd yn dymuno gwybod am dywyllwch y meddwl ofergoelus, a'r syniadau cyfeiliornus y mae dyn yn myned iddynt wrth beidio dilyn ei reswm a'i brofiad, darllened y *Dictionnaire des Sciences Occultes*, a gyhoeddwyd gan Migne, cyhoeddwr y *Patrologia*. Mae dewiniaeth a swyn-gyfaredd yn wastad wedi rhoi lle mawr i drawsffurfiad. Yr ydym yn cael llawer iawn o hyn yn yr holl Fabinogion. Er enghraifft, mae Pwyll yn cymmeryd ffurf Arawn, ac Arawn yn cymmeryd ei ffurf yntau. Yn Mabinogi Manawyddan, ceir sôn am wraig yr esgob yn y ffurf o lygoden. Yn Math, fab Mathonwy, ceir hanes am Gwydion yn creu anifeiliaid o'r 'madalch' (bwyd llyffant), a lledr allan o hesg a gwymon. Y mae Math ab Mathonwy hefyd yn troi Gwydion a Giluaethwy yn anifeiliaid; a thröir eu heppil o dan eu gwahanol ffurfiau, fel yr ydys yn cofio yn dri llangc, yn ol yr englyn:—

'Tri meib Giluaethwy ennwir
Tri chenryssedat Kywir
Bleidwn, Hydwn, Hychtwn hir.'

Ceir, hefyd, syniadau rhyfedd am allu gwahanol wrthddrychau difywyd, megys meini, peiriau, modrwyau, a'r cyffelyb. Fe gofir y cyfeiriadau at 'gynneddf Gorsedd Arberth'—un o weddillion y grediniaeth hono, yn ddiammheu, pan y meddyliai dyn fod rhyw fath o fywyd hyd yn oed yn y meini eu hunain. Mae byd swyn-gyfaredd, hefyd, yn ddibris iawn o ddeddfau amser a lle. Er enghraifft, mae Rhiannon, er ei bod yn ymddangos fel pe yn myned yn araf, yn myned mor gyflym fel nas gallai neb ei dal.

Fe gofir, hefyd, am y gôd, yr hon nas gellid ei llenwi, faint bynag o fwyd ddodid ynddi; ac hefyd, am 'gynneddf' y pair dadeni yn Mabinogi Branwen, ferch Llyr: ac nid yw y syniad o 'gynneddfau,' megys yn y *Seint Greal*, yn ddyeithr i'r rhamantau, chwaith. Y mae sôn am bair rhyfedd, hefyd, yn *Llyfr Taliessin*, yr hwn ni ferwai fwyd i ddynion llwfr. Gwelir syniadau y cyfnod yn yr hanes am Franwen yn dysgu iaith i'r 'aderyn drutwen;' a cheir hwy, hefyd, yn hanes y 'llen hut,' yr hon a wisgai Caswallawn, fab Beli, gan ei wneuthur yn anweledig. Hefyd, pan y sonir am ddiflaniad llys Dyfed yn y gawod niwl; ac hefyd, pan yr adroddir hanes y ffynnon lle y glynai traed Pryderi a Rhiannon, fe geir yr un syniadau. Talai yr hen Geltiaid, fel pob cenedl gyntefig, barch neillduol i ffynnonau. Cyssylltid hwynt yn wreiddiol â rhyw bren dwyfol; wedi hyny, â duw y pren; ac yn adeg Pabyddiaeth, âg un o'r seintiau. Syniad pwysig iawn yn y Mabinogion, fel yn mhob hanes am ddewiniaeth, oedd y syniad o 'gynneddf' mewn person, yn gystal ag mewn peth di-fywyd. Edrychid ar rai personau gynt, ac edrychir arnynt gan yr ofergoelus etto, fel yn

Digitized by Google

meddu gallu ynddynt eu hunain i ddylanwadu ar y tywydd, yr haul, afiechydon, a'r cyffelyb. Weithiau, fe gyssylltid y rhinweddau hyn â'r brenhinoedd; bryd arall, â'r urdd gyssegredig—yr offeiriaid. Ar brydiau, priodolid rhinweddau neillduol i ryw ran o'r person, yn arbenig y pen; ac o ganlyniad, yr oedd yn angenrheidiol bod yn wyliadwrus iawn o fywyd ac iechyd y person cyssegredig.

Byddai rhai yn arfer meddwl fod perygl i'r grëadigaeth wywo ac edwino, fel y byddai y person cyssegredig yn heneiddio; ac o ganlyniad, ceisient drosglwyddo ei rinweddau i eraill, tra yr oedd yn ei lawn yni. Fe wneid hyn yn wreiddiol drwy ladd y person cyssegredig, a cheisio cael gan ei ysbryd fyned i'w olynydd. Rhydd Mr. Frazer, yn y *Golden Bough*, lawer o enghreifftiau o hyn. Sonir am gynneddfau personau yn y Mabinogion, fel pan y sonir yn 'Lludd a Llevelys' am y Coraniaid; y rhai a glywent y gyfrinach a ddywedid ddistawaf, neu gynneddf Math, fab Mathonwy; yr hwn, hefyd, a glywai bob peth os byddai y gwynt i'w gyfeiriad ef. Syniad cyffredin arall mewn swyn-gyfaredd yw, fod gan eiriau llafaredig neu ysgrifenedig allu i ddwyn oddi amgylch ryw gyfnewidiad yn y byd gweledig.

I'r syniad yma y perthyn yr hyn a wna Arianrhod; sef, 'tyngu tynged' na chaffai ei mab, Llew Llaw-gyffes, nac enw, arfau, na gwraig. Siaredid am allu'r dewin fel pe bae yn gadfridog ar gynnifer o filwyr anweledig; er enghraifft, fe ddywedir am Gwydion, pan yn creu Blodeuwedd, yn galw ei 'hud a'i allu ato.' Etto, dylid cofio yr hyn a ddywedwyd ar y dechreu, nad ydyw y pethau hyn yn y Mabinogion, wedi'r cyfan, ond megys ar y wyneb. Eu prif ogoniant hwy ydyw y modd y portrëadir y cymmeriadau.

Rhoddwn yn awr grynodeb o'r tair rhamant 'Owain a Luned,' 'Peredur a Geraint,' ac 'Enid.'

OWAIN A LUNED.

Lleolir dechreuad y rhamant hon yn Nghaerlleon ar Wysg, yn llys Arthur.

Un diwrnod, yr oedd Arthur yn eistedd yn ei lys; a chydag ef yr oedd Owain fab Uryen, a Chynon fab Clydno, a Chei fab Cyner, a Gwenhwyfar gwraig Arthur. Yr oedd Glewlwyt Gafaelfawr hefyd yn y llys yn rhith porthor, i groesawu gwesteion a dyeithriaid. Y mae Kei yn dyfod âg ymborth i'r llys, yn ol addewid Arthur; tra y mae Owain, ar gais Cynon, yn parotoi i ddweyd chwedl wrth Cei. Pa fodd bynag, y mae Owain yn deisyf ar Cynon i ddyweyd ei hanes ef yn gyntaf; ac y mae Cynon o'r diwedd yn gwneyd hyny.

Ar ol treulio ieuengctid lled ystormus, yr oedd Cynon wedi penderfynu rhoddi tro mewn gwledydd tramor. Ar ei deithiau, y mae yn cael ei hun yn y dyffryn harddaf yn y byd. Trwy y dyffryn y mae afon yn rhedeg, a ffordd ar hyd glan yr afon. O'r diwedd, trwy ddilyn y ffordd, y mae yn dyfod i faes mawr; ac yn mhen y maes y mae yn gweled castell, a'r môr yn ei ymyl. Yn y castell gwelai ddau langc, o'r rhai y rhoir y disgrifiad:—Yr oedd y ddau langc yn chwareu yr hyn a elwid yn 'saethu cyllyll.' Yn mhen rhywfaint o ffordd oddi yno, yr oedd hen ŵr â gwallt crych; ond, er ei fod yn hen, ymddangosai yn bur hoyw. Y mae Cynon yn myned at yr hen ŵr, ac y mae yn cael gwahoddiad i fyned gydag ef i'r castell. Yn y castell nid oedd ond un neuadd; ac yn y neuadd hono yr oedd pedair morwyn ar hugain yn gwnïo 'pali' wrth ffenestr.

Ceisia y rhai hyn wneyd Cynon mor gysurus ag y gallant. Wedi darfod â'r bwyd, y mae perchenog y castell yn gofyn iddo pwy ydyw, a pha beth oedd ei neges. Y mae yntau yn rhoddi ar ddeall mai chwilio yr ydoedd am ryw anturiaeth. Mae yr hen ŵr, ar hyny, yn gofyn iddo aros yno dros nos, ac yn ei gyfarwyddo dranoeth i fan lle yr oedd dwy ffordd yn cyfarfod. Yr oedd i ddal ar y dde:—os gwnai hyny, fe gyfarfyddai â dyn du; yr hwn oedd yn gwylio y coedwigoedd yn y gwastadedd. Y mae Cynon yn myned fel y cyfeiriwyd ef, ac yn gweled y dyn gyda deadell fawr o wartheg, ac o anifeiliaid o bob rhywogaeth. Ar ol peth siarad, y mae y gŵr du yn ei gyfarwyddo i fan lle tyfai pren; a than y pren yr oedd ffynnon. Yr oedd i'r ffynnon allu neillduol i ddylanwadu ar y tywydd; ac yr oedd Cynon i roddi y gallu hwnw mewn gweithrediad trwy dywallt dwfr ar y llech farmor oedd wrth y ffynnon. Ar ol gweled y rhyfeddodau hyn, ac eraill, fe welai farchog yn dyfod ato, wedi ei wisgo mewn dillad o 'bali du,' a baner o lian gwyn am ei waewffon. Os na ddisgynai Cynon oddi ar ei farch i aros y marchog, fe'i gorfodid i wneyd hyny.

Y mae Cynon yn dilyn cyfarwyddyd y gŵr, ac y mae yn gweled y ffynnon, a'r rhyfeddodau ynglŷn â hi. Yna, y mae y marchog du yn ei gyfarfod ef, ac yn ei orfodi i ddisgyn oddi ar ei farch. Nid ydyw y marchog du, er hyny, yn ei ysbeilio; ond yn unig yn cymmeryd ei farch oddi arno. Wrth ddychwelyd i'r fan lle yr oedd y gŵr du a welsai o'r blaen, y mae bron a thoddi gan gywilydd dan wawdiaeth hwnw.

Ar hyn y mae yn dychwelyd i'r castell, lle y bu y noson flaenorol; ac y mae yn cael gwell croesaw hyd yn oed nag o'r blaen. Er hyny, ni ddywedir, ac ni ofynir un gair am ei daith i'r ffynnon. Wrth godi boreu dranoeth, y mae yn cael march rhagorol wedi ei barotoi iddo.

Dyna hanes Cynon. Yn fuan wedi hyn, y mae Arthur yn deffro, ac yn myned at ei fwyd. Wedi swper, y mae Owain yn diflanu, ac yn parotoi ei farch a'i arfau i chwilio am y ffynnon y soniasai Cynon am dani.

YR AIL RAN:—HELYNTION OWAIN.

Dranoeth, gyda'r wawr, y mae yn cychwyn, ac yn cyrhaedd y dyffryn a ddangosodd Cynon iddo. Y mae yn dilyn yr afon, ac yn cyrhaedd yr un man a Chynon. Wedi cyrhaedd y castell, y mae yn myned iddo. Y mae yn cyfarfod yr un bobl hefyd ag a gyfarfyddasai Cynon o'i flaen. Croesawir Owain yn union yr un modd hefyd a Chynon. Gofynodd y gŵr pengrych beth oedd amcan ei ddyfodiad; ac y mae yntau yn eglurhau mai ei amcan oedd chwilio am y marchog oedd yn cadw y ffynnon. Mae y gŵr yn awr yn cyfarwyddo Owain, fel y cyfarwyddodd ei gyfaill; ac y mae Owain, fel yntau, yn cyrhaedd o'r diwedd hyd at y gŵr du. O'r diwedd, y mae yn cyrhaedd y ffynnon, y pren gwyrdd, a'r rhyfeddodau eraill. O'r diwedd, hefyd, y mae y marchog du yn ymddangos: ac y mae Owain yn rhoddi dyrnod angeuol iddo. Y mae y marchog yn gallu ymlwybro oddi yno er hyny, ac nid ydyw Owain yn gallu ei oddiweddyd. Yna, y mae Owain yn gweled caer odidog, i'r hon yr ä efe i mewn. Fodd bynag, gollyngir 'dôr dyrchauat' (*port cullis*) i lawr, yn y cyfryw fodd nes tori march Owain yn ei hanner, ac hyd yn oed olwynion ei ysbardunau.

Digitized by Google

Er hyny, gall Owain, er wedi ei garcharu, weled, drwy gyssylltiadau y drws, ffordd gyferbyn ag ef, a rhes o dai o bob tu i'r ffordd. Yn mhen amser, y mae boneddiges yn dyfod at y drws, ac yn gofyn ar iddo gael ei agor; ond y mae Owain yn dyweyd nas gellid ei agor. Yna, y mae yn canmawl y foneddiges, ac y mae hithau yn addaw gwneyd yr hyn a allai i'w waredu. I'r amcan yma y mae yn estyn modrwy iddo, yr hon, trwy droi y gareg at y llaw, a wnelai y sawl a'i gwisgai yn anweledig. Dywedodd y foneddiges yn mhellach wrtho, y deuai gwŷr i'w geisio, er mwyn dïal angeu y marchog; ond wedi iddynt fethu a'i gael, yr aent ymaith yn ddigllawn. Wedi hyny, yr oedd Owain i fyned at y forwyn, yr hon a safai ger esgynfaen, ac yr oedd i osod ei law ar ei hysgwydd.

Y mae Owain yn awr yn gweithredu yn ol cyfarwyddyd y foneddiges. Y mae'n myned ar ol hyny i oruwchystafell hardd. Gwna prydferthwch yr ystafell argraph neillduol arno; ac y mae y foneddiges yn dyfod â dwfr a llian iddo i ymolchi. Y mae, hefyd, yn derbyn pryd o fwyd rhagorol. Yna clywir swn yn y gaer, a deallir eu bod yn enneinio, cyn ei farwolaeth, y gŵr oedd bïau y gaer. Yn y nos, fe ddaw y newydd fod perchenog y castell wedi marw. Y diwrnod nesaf, y mae Owain yn gweled rhes hir o alarwyr yn angladd y gŵr. Yn yr angladd, y mae boneddiges yn dilyn yr elor mewn galar dwfn; ac y mae Owain, yn y fan, yn syrthio mewn cariad â hi. Wrth ymholi, y mae yn cael allan mai hi ydyw Iarlles y Ffynnon, ac mai ei gŵr hi a laddasai ef ei hunan y dydd o'r blaen. Y mae Owain yn ymdacluso etto, ac yn cymmeryd ciniaw. Yna, y mae Luned (o blegid dyna enw y foneddiges fu yn gweini ar Owain) yn ymweled â'r iarlles yn ei gofid; ond i ddechreu, ni chai hi un atteb i'w gofynion. Wrth ymddiddan â hi, y mae Luned yn ei hannog yn daer i chwilio am ryw un arall, yn lle ei gŵr, i wylio y ffynnon. Wedi peth gwrthwynebiad, y mae yr iarlles o'r diwedd yn derbyn cynghor Luned. Nis gellid cadw y ffynnon heb gael un o deulu Arthur. Y mae Luned yn ymgymmeryd â myned ei hunan i lys Arthur i chwilio am farchog; ond, yn lle myned yno, y mae yn myned at Owain, ac yn treulio gydag ef yr amser a gymmerasai iddi fyned i lys Arthur. Yn nherfyn yr amser, y mae yn hysbysu yr iarlles ei bod wedi dyfod â marchog iddi; a thranoeth y mae Owain yn ymweled â'r llys. Yna, ar ol iddi weled Owain, y mae yr iarlles yn cael caniatâd gan ei phobl i'w briodi. Priodir hwy; ac am dair blynedd y mae Owain yn aros yn y llys. Un diwrnod, pan yr oedd Gwalchmai yn teithio gydag Arthur, y mae yn sylwi fod Arthur yn drist. Mae yn gofyn pa ham? ac eglura Arthur mai o achos hir absennoldeb Owain y mae efe felly. Yna, mae Arthur yn penderfynu myned, gyda thair mil o wŷr, a Chynon fab Clydno, i edrych am Owain. Deuant o hyd i'r castell fel o'r blaen. Cyrhaeddant hefyd y gŵr du, a'r ffynnon. Y mae marchog yn awr yn ymosod arnynt hwythau, fel yr ymosodasai marchog ar Cynon ac Owain. Wedi i'r lleill o deulu Arthur oll gael eu gorchfygu gan y marchog, y mae Gwalchmai yn myned ato; ond wedi hir ymladd, ni chafodd y naill na'r llall fuddugoliaeth.

O'r diwedd, y mae Owain yn codi gwynebllen Gwalchmai; ac y mae yn ei adnabod. Y mae Gwalchmai yna yn dyfod i adnabod Owain. Cânt yn awr orphwys a gwledda, ac y mae'r ddau yn treulio tri mis ar wledd a gymmerodd dair blynedd i'w pharotoi. Yna, gadewir i Owain fyned ymaith am dri mis i Ynys Prydain; ond yn lle aros yno am dri mis, y mae yn aros yno am dair blynedd.

Un diwrnod, pan oedd Owain yn bwyta yn Nghaerlleon-ar-Wysg, y mae boneddiges yn dyfod i mewn ar farch, ac yn cipio y fodrwy oddi ar ei fŷs, ac yn ei felldithio fel bradwr drygionus. Yna, y mae Owain yn gadael y llys, i fyned i eithafoedd y byd; ac yn ei grwydriadau, y mae'n myned oddi amgylch yn hagr, ac yn aflêr ei wedd. O'r mynydd y mae yn myned i'r dyffryn, ac o'r dyffryn y mae yn cyrhaedd y parc harddaf yn y byd. Perthynai y parc i wraig weddw. Un diwrnod, y mae y foneddiges hon a'i morwynion yn rhoi tro gydag ochr y llyn—tua hanner ei hyd. Yna, y maent yn gweled un ar ffurf dyn. Yr oedd ei wythïenau yn llawnion, ond yr oedd ei gorph yn gwywo yn yr haul. Y mae y foneddiges, ar hyny, yn dychwelyd i'r castell ac yn cymmeryd blychaid o enaint gwerthfawr, ac yn ei osod yn llaw un o'r llaw-forwynion. Dywedir wrth y forwyn am iddi eneinio y dyn â'i llaw. Y mae hithau yn gwneyd hyny, ac y mae yn cuddio ei hun i weled beth fydd y canlyniad. Wrth holi pwy oedd perchenog y parc, y mae yn cael allan mai y foneddiges weddw. Yn flaenorol i hyny, yr oedd yn perthyn iddi ddwy iarllaeth: ond yn awr, nid oedd dim o'r holl feddiannau yn aros, ond yr un tŷ hwnw; ac yn mhellach, yr oedd iarll cyfagos yn daer am iddi ei briodi ef. Gofelir am Owain yn y castell am dri mis, nes y mae yn dyfod yn harddach ei wedd nag erioed o'r blaen. Wrth glywed sŵn gwŷr, ryw ddiwrnod, yn y castell, y mae Owain yn gofyn i'r foneddiges am farch ac arfau, fel y gallai fyned i edrych pa beth oedd yn achosi y twrf. Y mae Owain, hefyd, yn dymuno cael gwybod pa un oedd byddin yr iarll; ac fe'i dangosir iddo. Y mae yn awr yn ymladd â'r iarll, yn ei orchfygu, ac yn ei roddi yn anrheg i'r iarlles. Er mwyn cael ei fywyd, y mae yr iarll yn adferu i'r iarlles ei dwy iarllaeth. Gofynir i Owain aros yno yn hwy; ond y mae yn mynu myned yn mlaen ar ei deithiau i eithafoedd y byd.

Wrth deithio yn mlaen y mae yn clywed ddwywaith mewn coedwig ddiaspad fawr. Clyw hi, hefyd, y drydedd waith; ac wrth agoshau at y sŵn, y mae yn gweled craig fawr yn nghanol y coed, a maen llwyd wrth ochr y graig. Yr oedd hollt yn y graig, a sarph yn yr hollt, a llew hollol ddu ger y maen. Pa bryd bynag y ceisia y llew adael y fan, neidia y sarph ato. Y mae Owain yna yn tynu ei gleddyf, ac yn neshau at y maen; tŷr y sarph yn ei hanner, ac â yn mlaen fel cynt. Y mae y llew yn ei ddilyn fel milgi, ac yn dwyn cynnud ac ymborth iddo y nos. Yna, y mae Owain yn clywed griddfan; ac erbyn edrych, pwy oedd yno yn griddfan, ond Luned! Esbonia hi pa ham y carcherid hi; sef, am amddiffyn enw da Owain yn ei absennoldeb. Ar hyny, y mae Owain yn gofyn iddi lle y gallai gael lletty ac ymborth am y noson; a chyfeiria hithau ef i gastell ar ei gyfer. Y mae Owain yn myned yno, ac yn cael croesaw rhagorol; tra y gofalai y llew yn ddyfal iawn am dano. Er hyny, y mae iarll y llys yn drist. Erbyn deall, yr achos ydyw, fod ei feibion yn cael eu blino gan ryw anifail dyeithr ac anferth, sydd eisieu y forwyn. Y mae Owain yn cyfarfod â'r anghen-



Digitized by Google

fil, ac y maent yn ymladd, a'r llew yn cynnorthwyo Owain. Ar hyn y mae y bwystfil yn erbyn i Owain gael cymmhorth y llew, ac y mae Owain yn ei gloi yn y gaer. Ond, wrth ei gweled hi yn galed ar Owain, y mae y llew yn llwyddo i ddiangc, ac yn rhwygo yr anifail o'i ysgwydd i waered. Yna, y mae Owain yn ymadael o'r llys, ac yn myned at Luned. Pan gyrhaedda efe yno, y mae yn gweled dau langc ar ei bwrw hi i'r tân. Wedi brwydr galed, gyda chymmhorth y llew, y mae Owain yn llwyddo i ladd gormeswyr Luned. O'r diwedd, cymmer Owain Luned i diriogaeth Iarlles y Ffynnon, ac oddi yno i lys Arthur; a hi a fu yn wraig iddo tra y bu byw.

Ar ol myned i'r llys, y mae Owain yn dychwelyd y ffordd y daeth; ac yn gweled y Du Traws, a'r pedair morwyn ar hugain. Rhydd y rhai hyn y rheswm iddo am eu tristwch. Yna, y mae yn cymmeryd y Du Traws yn was i Arthur; ac hefyd y pedair morwyn ar hugain i lys Arthur; ac y mae efe yn aros ei hun yn ben ar deulu Arthur.

Yn y Rhamant hon, fe welir mai canolbwynt y chwedl ar y cychwyn oedd y ffynnon. Yn ol y disgrifiad a rydd Giraldus Cambrensis yn ei *Topographia Hibernica* o ffynnon nodedig yn Llydaw, y mae hon yn cyfatteb iddi yn hollol. Diammheu mai ffynnon Baranton, yn nghoedwig Brecilien, a feddylir. Y mae M. Edouard Schuré, yn ei lyfr, *Les Grandes legendes de France*, yn rhoddi hanes ei ymweliad â'r fan. 'Ac o'm blaen,' meddai, 'yr oedd y ffynnon hon, yn agos i'r hon y gwelir dwy gareg fwsoglyd, a hen groes uwch eu pen, wedi eu bwyta gan bryfaid. Dyna ffynnon Baranton a bedd Myrddin.' Yno, yn ol y traddodiad Llydewig, y gwnaeth Viviane, un o'r tylwyth têg, i'r bardd-ddewin gysgu, ac y cauodd yr hwn a gododd hi drwy hud lygaid y swynwr mawr byth. Gymmaint o bererinion a ddaethant yma, wedi eu hud-dynu gan ddirgelwch anesmwythol y chwedl, a chan y person anamgyffredadwy ac annealladwy hwn! Ond nid ydyw na murmur gwatwarus y ffynnon, nac ysgydwad y banadl mewn blodau, na ffurf ddyeithrol y ceryg geirwon, wedi dysgu dim iddynt am yr Orpheus Celtaidd. Y mae prophwyd Brocéliande wedi aros yn *Sphinx* y beirdd, ac y mae coedwig Brocéliande wedi cadw ei gyfrinach. Dywedodd Robert Wace, yr hynaf o'r *trouvères* gyda gwên drist, *Fol y allai, fol m'en revins* ('yn wallgof yr aethum yno, yn wallgof y daethum oddi yno').

Diammheu, mor bell ag y mae chwedloniaeth yn myned, mai duwies y ffynnon, a duw y pren a dyfai ger llaw, sydd wedi eu troi yn iarlles ac yn farchog; ond pa mor bell y gallwn esbonio y digwyddiadau eraill yn ngoleuni chwedloniaeth, mae'n anhawdd iawn sicrhau. Rhaid cofio yn wastad mai chwedlau perthynol i'r canol-oesoedd ydynt; ac nid chwedlau o adeg Derwyddiaeth; a bod dychymyg dyn yn gallu creu digwyddiadau a chymmeriadau. Teimlwn mai ofer ceisio olrhain pob digwyddiad neu bob cymmeriad yn y rhamantau at gymmeriadau perthynol i hen grefydd a chwedloniaeth ein cenedl. Fel y mae M. Gaston Paris yn awgrymu, nid ydyw yr adran yma o wybodaeth yn ddigon addfed etto i ni allu olrhain pob arwedd arni yn ol at hen chwedloniaeth gydag unrhyw sicrwydd.

Mwy buddiol, ar ryw olwg, ydyw galw sylw yr efrydydd at y pwysigrwydd o efrydu y rhamantau hyn yn eu gwedd athronyddol a chymdeithasol.

Gwelir fel y mae chwedloniaeth yn tyfu, megys, gyda thyfiad cymdeithas. Mae'r cnewyllyn yn myned yn mhell yn ol i gyfnod pan yr oedd bywyd dyn a chymdeithas yn syml ddigon—pan oedd cymmeriadau dynion yn dangos llai o amrywiaeth, am fod llai o gyfleusderau i ddadblygu amrywiaeth yn y dull o feddwl—i gyfnod pan yr oedd anghenion mwyaf naturiol bywyd dyn yn cymmeryd lle pwysig yn ei feddwl—pan na cheid fawr o hamdden i feddwl am ddim, bron, heb law yr hyn a berthynai i'w fara beunyddiol. Ond etto, y pryd hyny, tra yn gwneyd ei waith yn y byd, tra yn gwylio ei breiddiau, neu yn trin y tir, deuai llawer meddwl drosto, pa beth oedd hyn, a beth oedd y llall, i'r pethau a welai o'i amgylch. Yn enwedig pan ddeuai y nos â'i chysgodion dros y ddaear, a'r lloer a'r sêr i dywynu; teimlai dyn fod mesur helaeth o'r proffiad a ennillasai y dydd yn ei adael y pryd hyny, ac y gallasai llawer o ba bethau ddigwydd yn y tywyllwch tu hwnt i gylch ei wybodaeth ef. Llawer a chwedleuwyd y pryd hyny yn ddiammheu am y gwrthddrychau dyeithr a welodd hwn, ac a welodd y llall, yn oriau yr hwyr; a pha fwyaf fyddai lle y chwedlau yn y meddwl, mwyaf y dychymygai dyn ei weled rhag llaw. Ond, fel y mae dyn yn cael ei godi uwch law angen, y mae ei chwedloniaeth yn dyfod i droi mewn cylch tebycach i'w gylch ef ei hunan. Felly gyda'r chwedlau hyn—Owain a Luned, er enghraifft. Y mae y chwedl, beth bynag oedd ar y dechreu, wedi dyfod i droi yn myd y mawrion a'r marchogion. Fel yr oedd dull y canoloesoedd o feddwl yn diflanu, y mae y cymmeriadau yn dyfod yn fwy awyrol yn barhaus; ac nid ydynt mwyach ond enwau, megys, ar rinweddau a ffaeleddau. Nid yw cymmeriadau y Rhamantau Cymreig wedi cyrhaedd yn agos i'r ystâd hono. Er eu bod hwy yn troi mewn byd pendefigaidd, etto, y mae boneddigrwydd yn ei symlrwydd yn eu nodweddu gan mwyaf. Y maent yn sefyll megys yn y canol rhwng rhamantau Chrétien a garwder llawer o'r hyn a geir yn Mhedair Caingc y Mabinogi. Eu symlrwydd a'u naturioldeb yw eu prif swyn.

Symmudwn yn awr at Fabinogi 'Peredur.'

### PEREDUR.

Rhamant ydyw hon hefyd, sydd, fel y crybwyllwyd o'r blaen, yn nifer y rhai Arthuraidd. Enw Peredur yn y Rhamantau Ffrengig ydyw 'Perceval;' ac nid yw yn eglur iawn pa fodd y mae yr enwau yn gwahaniaethu yn y ddwy gyfres. Fe allai mai yr achos ydyw, fod yr enw wedi ei gam-gopïo yn y copïau hyny fuont yn sylfaen i'r rhamantau Ffrengig. Y mae bron, os nad yn hollol ammhossibl olrhain hanes y camgymmeriad. Yn llawysgrifau y canol-oesoedd y mae dyryswch mawr ynglŷn âg enwau dyeithr i'r hwn fyddo yn copïo. Er engraifft, y mae yr enwau clasurol yn *Dares Phrygius* yn cymmeryd y ffurfiau rhyfeddaf yn y cyfieithiad Cymraeg. Fe welir, hefyd, yr un peth yn y darnau Lladin a geir yn *Llyfr Taliesin*. Credwn fod yr un peth yn wir am lawer darn Cymraeg oedd yn annealladwy i'r sawl a'u copïent. Mae cryn lawer o ddiofalwch gyda sillebiaeth i'w weled hyd yn oed yn *Llyfr Du Caerfyrddin*. Gadewir llythyrenau allan mewn llawer gair. Gellir deall yn hawdd, y codai anhawsderau

Digitized by Google

mawr i ddyeithriaid gydag enwau Cymreig neu Lydewig, yn enwedig os dysgid hwynt, nid oddi wrth ysgrifen, ond ar dafod-leferydd. Y mae enw Peredur i'w gael yn Sieffre o Fynwy [gwel SIEFFRE], yn y Trioedd [gw. TRIOEDD], ac yn y Gododin. Y mae lle i gredu felly ei fod yn gymmeriad Brythonaidd, os nad yn gymmeriad Cymraeg. Ni buasem yn hoffi mentro dyweyd ei fod yr un ag unrhyw gymmeriad yn Mhedair Caingc y Mabinogi; gan y credwn, os oedd yn gymmeriad Brythonaidd, ei fod ynglŷn â rhyw ardal na cheir mo'i chwedloniaeth yn y Pedair Caingc—yr un modd a chyda hanes Arthur. Chwedloniaeth Gwynedd, Môn, Dyfed, ac Ardudwy, ynghyd â chyfeiriad at chwedloniaeth Gwent, sydd genym ni yn Mhedair Caingc y Mabinogi; ac yr ydym yn mron a meddwl ar adegau, mai chwedloniaeth Goideliaid y rhanau hyny, wedi ei throi i'r Gymraeg, a'i chadw yno, sydd genym yn y darnau hyn:—tra yr oedd chwedloniaeth y Brythoniaid, i fesur, yn wahanol; ac mai i chwedloniaeth y Brythoniaid y perthynai Arthur, Peredur, Owain, Gwalchmai, a'r cyffelyb. Pan y cofir mai chwedloniaeth leol berthynol i'r gwahanol lwythau ydoedd chwedloniaeth y Cymry, fel chwedloniaeth yr Iwerddon, fe ddaw y ffaith hon yn ddigon dealladwy; ac ni byddwn mewn cymmaint o berygl na chymmaint o demtasiwn chwaith i gymmysgu chwedloniaeth gwahanol ardaloedd â'u gilydd. Gallwn felly, edrych mwy ar wahanol neillduolion cyffredinol y chwedlau, a blino ein hunain lai ynghylch cyfattebiaeth enwau. Y mae y Fabinogi hon fel y canlyn:—

'Efrawg Iarll oedd bïau iarllaeth y Gogledd. Yr oedd ganddo saith mab, a'i brif bleser ef ei hun oedd mewn 'twrneimeint' ac ymladdau. Drwy ymganlyn â'r rhai hyn y cyfarfyddodd efe â'i angeu, a'i chwe mab hefyd. Enw y seithfed mab oedd Peredur.'

Yr oedd ei fam wedi penderfynu na chawsai ddilyn llwybrau ei dad; ac er mwyn ei gadw ef rhagddynt, hi a'i cymmerodd i eithafoedd y ddaear, i'w gadw yno oreu y gallai rhag dyfod i gyffyrddiad âg arfau. Fodd bynag, yr oedd ei reddf yn rhy gref; a byddai y llangc yn myned bob dydd i daflu darnau o bren a gwiail yn rhith gwaewffyn. Un diwrnod, y mae efe yn gweled tri marchog yn dyfod gydag ystlys y goedwig. Enwau y tri marchog hyn oedd Gwalchmai fab Gwyar, Geneir Gwystyl, ac Owain fab Uryen. Wrth ofyn i'w fam beth oeddynt, y mae hithau yn atteb iddo, mai 'egylion' (angylion) oeddynt. Y mae yntau yn dadgan ei ddymuniad o gael myned yn 'egyl' gyda hwynt. Esbonir holl offer marchogaeth iddo gan Owain.

Wedi i Peredur ddeall mai marchogion, ac nid angylion oedd y gwŷr, y mae yn hysbysu hyny i'w fam; ac y mae hithau, wrth weled mai ofer oedd ei holl drafferth, yn syrthio yn 'farw lewyg.' Y mae yntau yn cael iddo ei hunan hen geffyl digon di-olwg, ac yn gwisgo ei hun mor debyg i farchog ag y gallai. Mae ei fam yn rhoddi caniatâd iddo fyned, ac yn ei gyfarwyddo pa fodd i weithredu. Am ddeuddydd a dwy noson, y mae yn teithio trwy y goedwig, nes o'r diwedd y mae yn cyrhaedd i lanerch o dir, lle yr oedd pabell. Yna, y mae yn gweled morwyn, ac yn dilyn cyfarwyddiadau ei fam tuag ati. Wedi i Peredur ymadael, y mae y gŵr oedd bïau y llanerch, yn ei ddrwg-dybiaeth a'i ddigofaint, yn bygwth dïal ar Peredur.

O'r diwedd, cyrhaedda lys Arthur. Yn y llys y mae marchog yn sarhau Gwenhwyfar, ac yn galw ar unrhyw un a wnai i ddïal ei cham. Y mae gwŷr y llys yn ammharod i wneyd hyn; ac ar hyn fe ddaw Peredur i mewn yn ei drwsiad rhyfedd. Yn nghanol y llys y mae Cei yn sefyll; a gofyna Peredur iddo yn mha le yr oedd Arthur. Yna, daeth 'cór' a 'chóres' i mewn. Wrth weled Peredur, y mae y cór yn ei gyfarch ef, fel 'arbennic milwyr a bloden marchogyon.' Mae hyn yn digio Cei; a rhydd fonclust i'r cór. Yna y mae y gores, hithau, yn cyfarch Peredur mewn geiriau tebyg, ac y mae Cei yn rhoddi 'gwth troed' iddi hithau. Wrth i Peredur ofyn etto am Arthur, fe awgrymir y byddai yn well iddo fyned ar ol y marchog a gymmerasai gwpan Gwenhwyfar. Y mae anaddfedrwydd Peredur fel marchog yn cael ei osod allan yma yn ei eiriau ei hun, pan y trinir ef yn lled arw gan y marchog, 'mai nid felly y chwareuai gweision ei fam âg ef.' Yna, y mae Peredur yn trywanu y marchog yn ei lygad, nes cwympo o hono yn farw. Ar hyn fe ä Owain i chwilio am Peredur. Y mae yn ei gael, ac yn ei arwain yn ol i lys Arthur. Dadgana Peredur ei foddlonrwydd i fod yn ŵr i Arthur; ond nas gall ddychwelyd yno nes dïal y sarhâd ar y 'cór a'r góres.' Cyn bo hir, y mae yn cyfarfod â marchog, yr hwn a orchfygir ganddo, gan dderbyn gorchymyn i fyned i lys Arthur; a thystiolaethu mai felly fu, a dyweyd hefyd na byddai iddo ef (Peredur) ddychwelyd nes dïal o hono sarhâd y cór a'r góres. O fewn yr un wythnos, y mae un marchog ar bymtheg yn ei gyfarfod:—a gorchfygir y rhai hyn oll ganddo.

Yn awr, y mae Peredur yn dyfod at ryw lyn. Ar y lan gyferbyn âg ef, yr oedd castell hardd. Gwelodd ar lan y llyn hwn hen ŵr penllwyd yn eistedd ar glustog o 'bali,' mewn gwisg felfed. Yr oedd gweision i'r gŵr yn pysgota ger y llyn. Pan welodd yr hen ŵr Peredur, cyfododd ac aeth tua'r castell. Y mae Peredur hefyd yn myned i mewn i'r llys, ac yn cael croesaw mawr yno. Yno mae yn cael addysg mewn trin arfau rhyfel; ac o'r diwedd mae yr hen ŵr yn rhoddi ar ddeall iddo mai efe ydyw ei ewythr, frawd ei fam. Foreu dranoeth, gyda chenad ei ewythr, cychwynodd Peredur ymaith. Ar lanerch gwastad, y mae efe yn gweled castell, â'r porth yn agored. Y mae yn myned i mewn iddo, ac yn gweled amryw langciau o'i gylch. Yno, hefyd, croesawir ef yn galonog; a chafodd gyfle yma, hefyd, i ddangos ei wrhydri. Etto, hefyd, fe ddaw i ddeall fod y gŵr oedd bïau y gaer yn ewythr iddo. Ar hyn, y mae'n gweled golygfa erchyll:—Dygir gwaewffon waedlyd i mewn, ac hefyd ddysgl â phen gŵr arni. Dranoeth, yn foreu, cychwyna eilwaith i'w daith, a gwel wraig hardd neillduol yn ceisio codi celain gŵr ar gefn march. Y mae hon yn beio Peredur yn drwm am ladd ei fam, drwy ei gadael. Cór a chóres ei dad a'i fam oedd y rhai a welodd efe yn llys Arthur, a chwaer-faeth Peredur oedd y foneddiges ei hunan. Y mae Peredur yn awr yn claddu y corph i'r foneddiges, ac yn myned i chwilio am y marchog oedd wedi lladd ei gŵr. Gorchfygodd y marchog hwn; a gorfododd ef i briodi y foneddiges, a myned i lys Arthur a dyweyd mai Peredur a'i gorchfygodd.

Yn mhen ysbaid, y mae Arthur yn penderfynu myned i geisio Peredur. Erbyn hyn, yr oedd Peredur wedi myned i goed anial; ac yn mhen

Digitized by Google

draw y coed gwelodd gastell mawr â llawer o dyrau cryfion arno. Ar ol myned iddo y mae yn gweled deunaw o langciau, oll o'r un wedd a'r un wisg; ac y mae, fel arfer, yn cael croesaw calon. Gwelodd yma, hefyd, bump o forwynion yn dyfod o'r ystafell i'r neuadd. Un o'r morwynion hyn oedd yr harddaf a welodd Peredur erioed. Yn awr, y mae dwy fynaches yn dyfod â bwyd iddo, ac y mae yntau yn ddiolchgar am dano.

Yn y nos, y mae y forwyn a dynodd sylw Peredur yn dyfod i'w ystafell mewn gofid dwys, ac yn adrodd pa ham. Nid ydyw yn foddlawn i briodi y gŵr a ddewisodd ei thad iddi. Hi oedd unig blentyn ei thad; ac ar ol ei farw ef, fe ddaeth ei eiddo i'w dwylaw hi. Yr oedd yr iarll a'i ceisiai wedi cymmeryd ei meddiannau oddi arni, heb'law yr un tŷ hwnw. Tra parhäai'r bwyd a'r ddiod yno, nid oedd berygl i'r tŷ hwnw gael ei gymmeryd; ond erbyn hyn, yr oedd yr holl luniaeth wedi darfod. Y mae y forwyn yn erfyn am gymmhorth Peredur; ac y mae yntau yn ei gollwng ymaith gan addaw ystyried ei hachos. Yn y boreu, daeth y forwyn â'r newydd fod yr iarll wedi cyrhaedd. Yna, y mae ymladdfa yn cymmeryd lle rhwng Peredur a'r marchog, ac iddo ef y try y fuddugoliaeth, a gorfodir i'r marchog a'i ddistain wneyd iawn i'r foneddiges.

O fewn y dydd hwnw, y mae Peredur yn rhoddi enghreifftiau pellach o'i wrhydri, a pharhâ i wneuthur hyny am dair wythnos. Ar derfyn yr amser hwn, cychwyna oddi yno; ac yn fuan, y mae boneddiges ar farch yn ei gyfarfod. Hon, fel yr ymddengys, ydyw gwraig 'syberw,' neu yswain y llanerch. Cyn hir, cyfarfu Peredur â marchog arall, yr hwn oedd yn ei geisio ef ei hun. Y maent yn ymladd gyda'u gilydd, a Pheredur sydd yn fuddugol y tro hwn etto. Ychydig yn mhellach yn mlaen, gwelodd gastell ar fynydd. Oddi fewn, canfu foneddiges, hen yr olwg arni, yn eistedd ar gadair, gyda'i llaw-forwynion o'i hamgylch.

Cymmhellir Peredur yn awr i fyned i rywle arall i gysgu, gan fod 'naw Gwiddon Caerloyw' yno, a'u tad a'u mam gyda hwy. Prin y gallai neb ddiangc oddi wrthynt, â'i fywyd, cyn y boreu. Gyda'r wawr, mae Peredur yn clywed ysgrech; ac yna, y mae'n myned allan i edrych. Erbyn deall, gwiddon sydd yno yn ymladd â gwyliwr. Gan y rhai hyn yr oedd Peredur i ddysgu rheolau marchogaeth; ac i'r amcan yma, y mae efe yn cychwyn, wrth genad y foneddiges, gyda'r gwiddonod i'r llys. Ac yno y mae efe yn aros am dair wythnos.

Ar ol hyny, y mae yn dyfod i ddyffryn; yn mhen draw yr hwn y mae cell meudwy. Foreu dranoeth, y mae efe yn gweled hwyaden wyllt ar yr eira wedi ei lladd gan walch, a chigfran yn yfed y gwaed. Wrth syllu arnynt, cymmhara Peredur wallt y ferch a garai i'r frân, ei gruddiau i'r gwaed, a gwynder ei chnawd i'r eira. Tra y bu efe yn sefyll yno mewn synfyfyrdod, daeth Arthur a'i filwyr yno i'w geisio. Yna, y mae llangc yn myned at Peredur, ac yn gofyn pwy ydyw; ond y mae Peredur yn rhy synfyfyrllyd i'w atteb. Yna, y mae y llangc yn ymosod ar Peredur, ond gorchfygir ef. Wedi hyny, y mae pedwar marchog ar hugain yn ymosod arno, y naill ar ol y llall; a'r un yw tynged pawb o'r rhai hyn, hefyd. Yr un ddamwain sydd yn digwydd, hefyd, i Cei, ond ei bod yn waeth arno ef na'r lleill. Yna, ä Gwalchmai i geisio Peredur. Gallodd ef, gyda'i eiriau teg, wneyd yr hyn nas gallodd neb o'r lleill. Wedi i Peredur gael ei gyflwyno i Arthur, y mae y frenhines, a'i llaw-forwynion, yn dyfod; ac y maent oll yn myned i Gaerlleon-ar-Wysg.

Fel y mae Peredur, ar ol bwyd, yn cerdded yn y llys, y mae Ygharat (Angharad) Law Eurawc yn ei gyfarfod; ac y mae Peredur yn cynnyg ei charu—ond ni fŷn hi mo hono. Ar hyny, y mae efe yn addunedu na bydd iddo siarad gair byth wrth Gristion hyd nes y sieryd hi wrtho ef. Dranoeth, y mae Peredur yn myned ymaith, a dilyna y ffordd fawr gyda chrib mynydd; ac yn mhen draw y mynydd, daw at ddyffryn crwn. Yr oedd ochrau y dyffryn yn goediog, ac yn garegog, tra yr oedd ei wastadedd yn weirgloddiau. Yn mynwes y coed gwelodd dai duon, anferth, o wneuthuriad garw; ac elai ei ffordd ef gydag ochr craig serth. Wrth ochr y graig, gorweddai llew wedi ei rwymo wrth gadwen. Is law y llew yr oedd pydew anferth, yn llawn o esgyrn dynion ac anifeiliaid. A dwy ddyrnod â'i gleddyf, torodd Peredur y gadwen, gan ollwng y llew i'r pydew; ac ar hyny, y mae efe yn gallu arwain ei farch i'r dyffryn. Yn nghanol y dyffryn, y mae yn gweled castell hardd; ac yn y weirglodd, ger y castell, ymddengys gŵr penllwyd mawr, a dau langc yn chwareu yn ei ymyl. Ar hyn, y mae Peredur yn myned at y gŵr penllwyd; a hysbysa hwnw iddo mai ei borthor ef oedd y llew. Rhoddir croesaw i Peredur yn y castell; a thra y mae efe yno, y mae gwraig enfawr a morwyn yn dyfod i mewn. Rhoddir Peredur i eistedd yn ymyl y forwyn. Gan y forwyn y mae Peredur yn cael ar ddeall y bwriedir ei ladd ef dranoeth. Gwŷr ei thad hi oedd yr holl dai duon welodd efe; a thranoeth, fe godai yr holl rai hyny, gan ei roddi i farwolaeth. Dranoeth, y mae Peredur yn ymladd gyda'i lettywr; a chyn nos, y mae wedi ei orchfygu ef, a thraian o'r llu, cyn i neb allu cael y goreu arno. Yna, cyfarfu Peredur y llangc penfelyn a welodd yn chwareu, a lladdodd ef. Wedi hyny, y mae yn lladd y llangc gwallt gwineu; ond rhoddodd nawdd i'r tad a'r fam, eithr yn unig ar yr ammod y byddai iddynt fyned i lys Arthur i dalu gwarogaeth iddo. Y maent hwythau, ar hyny, yn myned i lys Arthur, ac yn derbyn 'cret a bedydd.'

Ar ol peth amser, y mae Peredur yn cyrhaedd i annedd dlodaidd neillduol. Yno, y mae yn gweled sarph yn gorwedd ar gadwen aur, yr hon sydd yn creu galanasdra am saith milldir o'i chylch. O'r diwedd, y mae Peredur yn gorchfygu y sarph, ac yn cymmeryd y fodrwy oedd yno iddo ei hunan. Ar ol hyn, cyfarfydda â theulu Arthur; ac mewn ymladdfa â Chei, fe'i trywanir ef ei hunan yn ei forddwyd gyda gwaewffon. Am hyn, y mae Gwalchmai yn ei geryddu; ond yn rhoddi gorchymyn, er hyny, ar iddo gael ei iachau erbyn y deuai efe yno nesaf. Ar hyn, y mae marchog yn dyfod i geisio gŵr i ymladd âg ef. Gorchfyga Peredur ef; ac am wythnos gyfan, y mae efe yn gorchfygu rhywun bob dydd. Wedi hyny, y mae yn gorchfygu marchog arall yn y weirglodd, ond heb yngan gair; ac o hyny allan, fe'i gelwir ef 'y marchog mud.'

Y mae efe yn awr yn cyfarfod Ygharat Law Eurawc, yr hon, heb wybod pwy ydyw, sydd yn dyweyd wrtho ei bod hi yn ei garu ef yn benaf gŵr; ac yna, y mae adduned Peredur wedi ei

Digitized by Google

chwblhau, ac y mae efe yn siarad wrthi, ac yn dadguddio ei hun.

YR AIL RAN.

Yr oedd Arthur yn digwydd bod yn ei lys yn Nghaerlleon-ar-Wysg; ac un diwrnod, y mae efe yn penderfynu myned i hela, ac y mae Peredur yn myned gydag ef. Gollynga Peredur ei gi ar garw; ac y mae y ci yn lladd y carw yn y goedwig. Yn mhen peth ffordd oddi yno, efe a welodd arwyddion cyfannedd. Yn y gyfannedd, y mae neuadd; ac yn nrws y neuadd, y mae tri o langciau moel, a garw yr olwg arnynt, yn chwareu gwyddbwyll. Pan aeth i mewn, gwelodd dair morwyn yn eistedd ar leithig isel, wedi eu gwisgo mewn dillad pendefigaidd. Y mae un o'r morwynion yn wylo; ac erbyn deall pa ham, y rheswm ydyw fod Peredur i gael ei roddi i farwolaeth. Ar hyn, fe glywir taranau; ac ar ol y taranau, fe ddaw gŵr anferth unllygeidiog i mewn. Wedi i'r gŵr unllygeidiog feddwi, gofyna Peredur iddo pa fodd y collodd ei lygad. Gallai y cwestiwn hwn yn unig fod yn angeu i unrhyw un, ond y mae y gŵr du yn foddlawn i arbed bywyd Peredur am y noson hono. Dranoeth, ymladdodd Peredur â'r gŵr du, a Pheredur a orchfygodd. Yna, y mae Peredur etto yn gofyn iddo ef pa fodd y collodd ei lygad; ac atteba yntau mai wrth ymladd â'r anifail du o'r garnedd.

Yr oedd crug yn bod a elwid 'y crug galarus;' yn y crug yma yr oedd carnedd; ac oddi fewn i'r garnedd yr oedd rhyw fwystfil; ac yn nghynffon y bwystfil yr oedd maen. Os gallai neb gael y maen hwn mewn un llaw iddo, gallai gael yr holl aur a ddewisai yn y llall. Enw y marchog a ddywedai hyn oedd y Du Trahawg. Yn awr, y mae Peredur yn gofyn pellder y garnedd. Byddai iddo, ar y diwrnod cyntaf, gyrhaedd 'llys meibion brenin y dioddefaint.' Y rheswm pa ham y gelwid hwy felly oedd, fod corach o'r llyn yn lladd un o honynt bob dydd. Yna, fe elai oddi yno i lys 'Iarlles y Campau.' Yn ei llys hi yr oedd tri chant o farchogion; ac fe adroddid wrth bob dyeithr-ddyn hanes anturiaethau y tri chan marchog. Y diwrnod nesaf i hwnw cyrhaeddai 'y crug galarus.' O gylch hwn yr oedd tri chant o farchogion yn gwylied y bwystfil. Wedi clywed hyn, y mae Peredur yn lladd y marchog du.

Yn llys meibion brenin y dioddefaint, nid yw Peredur yn gweled neb ond gwragedd, ac un gelain yn dyfod i mewn. Enneinir y corph marw, ac fe'i dygir yn fyw drachefn; a gwneir yn gyffelyb â dau eraill, ac y mae y marchogion adfywiedig hyn yn croesawu Peredur.

Ar ei ffordd yno, gwelodd Peredur wraig hardd iawn yn eistedd ar bentwr o geryg. Y mae hon yn ei hysbysu ef o'r perygl yr oedd ynddo, a dull y bwystfil o ladd y sawl a aent heibio. Os rhoddai Peredur ei air y byddai iddo ei charu hi yn fwy nag un wraig arall, fe roddai hi faen iddo, fel y gallai ef weled yr afangc, a myned i mewn ato, a hyny yn anweledig. Os byddai arno eisieu y foneddiges drachefn, gallai fyned i'w cheisio 'parth a'r India.'

Wedi hyn, cyrhaedda i ddyffryn, ac afon yn rhedeg drwyddo. Y mae defaid duon ar un ochr i'r afon, a defaid gwynion yr ochr arall. Os nofiai dafad o un ochr drosodd i'r ochr arall, fe ä'i o'r un lliw a'r sawl yr ä'i atynt. Ar lan yr afon, hefyd, y mae yn gweled pren uchel. Llosgai y naill hanner o hono o'r gwraidd i'r canghenau, tra yr oedd y dail yn wyrddion ar yr hanner arall. Gwelodd, hefyd, langc ieuangc yn eistedd ar ben crug, a dau filgi bychan bron-wynion yn chwareu o'i amgylch. Y mae Peredur yn gweled, hefyd, ŵr yn hela; ond er cael ei wahodd i'r hela, y mae efe yn gwrthod y gwahoddiad. Wedi dyfod at fan lle y mae tair ffordd yn cyfarfod, y mae efe yn dilyn y feraf o honynt, yr hon sydd yn arwain at 'ogof y bwystfil.' Y mae efe yn cyrhaedd yno, ac yn ei ladd.

Rhydd Peredur y pen i'r tri llangc a welodd, y rhai a gynnygiant iddo eu chwaer yn wraig. Ond atteb Peredur iddynt yw, nad i briodi y daeth efe yno. Ar ol myned oddi yno, y mae yn gweled gŵr ar farch coch, wedi ei wisgo mewn arfogaeth o liw coch. Daeth y gŵr yno i ofyn ffafr gan Peredur. Ei enw oedd 'Etlym Gleddyf Goch.' Yna, y mae y ddau yn myned gyda'u gilydd i lys yr iarlles. Y mae hon yn mynegi i Peredur mai Etlym Gleddyf Goch yw y gŵr a gâr hi fwyaf; ac y mae Peredur, yn bur foesgar, yn cyflwyno Etlym i'r foneddiges. Priodir Etlym â'r iarlles yn ddiymdroi; a thranoeth, aeth Peredur i gyfeiriad y Crug Galarus. Mewn un dydd y mae efe yn goresgyn perchenogion can pabell, ac yn dal i ymladd felly am dri diwrnod. Lleddir y bwystfil yn y crug gan Peredur. Rhoddir y maen i Etlym.

Ar hyn y mae yn cyfarfod âg ef ŵr tal, o wallt gwineu, a golwg saer arno. Hysbysir Peredur gan hwn mai efe yw y prif felinydd sydd yn gofalu am yr holl felinau gwynt a wêl yn y dyffryn. Gofyna Peredur iddo am letty; ac y mae yn cael hyny. Gofynodd Peredur hefyd; am arian gan y melinydd, i'w gynnal ef a'i lu; ac y mae yn holi am yr achos o'r holl gythrwfl yno. Y mae y melinydd yn atteb, naill ai fod Peredur wedi dyfod yno o bell ffordd, neu ynte ei fod o'i synwyrau. Ymherodres Gristionogol fawr oedd yno; ac ni fynai hi ond y gwŷr goreu. Yna aeth Peredur allan, a gwelodd babell, a morwyn yn estyn ei phen o ffenestr y babell. Gwnaeth hon argraph ddofn ar Peredur; ac y mae yn aros dan syllu arni o foreu hyd ganol dydd, ac o ganol dydd hyd ddechreunos. Yna, y mae ef yn gadael ei letty, ac yn gofyn am fenthyg chwaneg o arian; ond gwrthod a wna gwraig y melinydd. Drenydd, fel y mae yn yr un agwedd yn edrych ar y forwyn, tarewir ef yn sydyn â dyrnod rhwng ei ysgwydd a'i wddf â choes bwyell. Pwy sydd yno, ond y melinydd. Bygythir Peredur y byddai raid iddo, un ai golli ei ben, neu fyned i'r twrneimant. Y mae yntau yn myned, ac yn anfon cynnifer o wŷr ag a orchfygodd yn anrhegion i'r ymherodres, â'u meirch, a'u harfau i wraig y melinydd. Tair gwaith yr anfonodd yr ymherodres wŷr i wysio Peredur i'w phresennoldeb. Y waith olaf anfonodd gan' marchog ato; ond gresynodd Peredur bob un o'r rhai hyn. O'r diwedd y mae hi yn deisyf arno, yn enw y ferch a garai, i ddyfod i'w gweled. Y tro cyntaf yr aeth Peredur i'r babell, cafodd ymddiddan byr â'r ymherodres. Yr ail dro, rhoddwyd ef i eistedd wrth ei hochr. Tra yr oeddynt yn eistedd felly, gwelsant ŵr du yn dyfod i mewn, â chwpan ddu yn ei law, yn llawn o win. Syrthia hwn ar ei liniau o flaen yr ymherodres, gan ddeisyf arni beidio ei rhoddi i neb, ond i'r sawl a ymladdai âg ef am dano. Mae hithau yn edrych ar Peredur. Yna, y mae Peredur yn cymmeryd y cwpan, ac yn yfed yr hyn sydd ynddi, gan ei rhoddi yn anrheg i wraig y meliyndd. Pan

Digitized by Google

oeddynt felly, daw gŵr du i mewn—mwy na'r llall. Y mae ganddo yntau yn ei law grafangc anifail, wedi ei wneyd yr un ffurf a chwpan. Yna, y mae gŵr pengrych gwallt coch yn dyfod i mewn, â chwpan grisial yn ei law, yn llawn o wîn. Rhydd yr ymherodres y gwpan i Peredur; ac y mae yntau yn ei hanfon i wraig y melinydd. Y noson hono, aeth Peredur i'w letty; a thranoeth, gwisgodd am dano ef, a'i farch, ac aeth i'r weirglodd, a lladdodd y tri gŵr. Arosodd Peredur gyda'r ymherodres am bedair blynedd ar ddeg, 'fel y dywed yr ystorya.'

Y Drydedd Ran.

Yr oedd Arthur yn ei brif lys yn Nghaerlleon-ar-Wysg. Yn nghanol yr ystafell yr oedd pedwar o wŷr yn eistedd ar len o 'bali,' sef, Owain fab Uryen, Gwalchmai fab Gwyan, Howel fab Emyr Llydaw, a Pheredur Baladr hir. Y maent yn awr yn gweled morwyn yn dyfod i mewn, â gwallt crych du ganddi, ar gefn mul melyn. Yr oedd hi yn gyru y mul â ffrewyll o gareiau geirwon; ac nid oedd hi ei hun yn un o'r rhai tecaf. Yr oedd yn hyll yn mhob rhan o honi. Yr oedd yn ddigllawn wrth Peredur am nad oedd efe wedi gofyn ystyr yr hyn a welsai yn 'Nghastell yr Enrhyfeddodau.' Pe buasai efe wedi gofyn, buasai pob peth yn iawn gyda'r brenin; ond bellach, nid oedd dim yn ei aros ond dinystr. Yn ei llys hi yr oedd 566 o farchogion urddol, ynghyd â'r wraig a garai pob un o honynt fwyaf. Y mae hi yn hysbysu Peredur lle y gall gael gwaith, os mŷn, a chlod gyda hyny hefyd. Ar ben mynydd amlwg, yr oedd castell, ar yr hwn yr oedd gwarchae. Gallai waredu hwnw.

Y mae marchogion llys Arthur yn ffurfio syniadau gwahanol am yr anturiaeth fyddai oreu, iddynt. Dywed Gwalchmai na bydd iddo ef gysgu nes gweled pa un a all ef waredu y forwyn ai peidio. Dywed Peredur, o'r tu arall, na chwsg ef nes gwybod ystyr y waewffon, am yr hon y llefarodd y forwyn ddu. Tra y maent yn parotoi, y mae marchog yn dyfod at y porth yn meddu ar olwg ac ysbryd milwr, wedi ei wisgo mewn arfau. Daeth hwn yn mlaen, a chyfarchodd Arthur, a'i holl dylwyth, heb law Gwalchmai. Y mae yn dyweyd wrth Gwalchmai ei fod wedi lladd ei arglwydd drwy dwyll a brâd. Wrth hyn, y mae Gwalchmai yn ddigllawn; a pharotoant i ymladd. Ar hyn, y mae Peredur a Gwalchmai yn teithio nes cyrhaedd dyffryn; ac yn y dyffryn gwelant gastell, a llys yn y castell. Ar eu ffordd, cyfarfyddant berchenog y castell. Y mae hwnw yn gofyn o ba le y daethant; a'u hatteb hwythau ydyw mai o lys Arthur. Y mae yn rhoddi iddynt fodrwy, i fyned at borthor y castell, fel arwydd; ac yn dywedyd wrthynt fod ganddo chwaer yno. Oddi fewn, y mae Gwalchmai yn gweled tân, a morwyn; ac y mae yn derbyn pob croesaw yno.

Ar hyn; daw hen ŵr hardd, penllwyd, i mewn, gan sarhau y forwyn. Y mae Gwalchmai yn myned at y drws, i edrych pa beth y gall ef ei wneyd; ac y mae yn dyfod o hyd i'r dyn, a thrigain o filwyr dan eu llawn arfau, yn ceisio dringo y tŵr. Gyda chlawr gwyddbwyll y mae Gwalchmai yn gallu eu rhwystro rhag dringo; nes y deuai y perchenog yn ol o bell. Yna, dywedodd y gŵr penllwyd ei fod yn warthus o beth i'r greadures hono gyd-fwyta â'r gŵr oedd wedi lladd ei thad. Rhoddodd yr iarll groesaw i Gwalchmai; ond dywedodd ef ei fod yn gwneuthur ar gam wrth fyned i'r llys tra yn gwybod mai efe a laddodd eu tad. Y mae Gwalchmai yn dyweyd nad ydyw ef wedi dyfod i gyfaddef, nac i wadu iddo ladd ei thad. Yna, ymddiriedwyd gorchwyl iddo gan Arthur. Yn mhen blwyddyn, fe ddychwelai, a gwneyd y naill beth, neu y llall. Dranoeth, y mae yn cychwyn ymaith; ac yma y derfydd yr hanes am Gwalchmai.

Y mae Peredur, o'r tu arall, yn myned dros yr ynys, gan geisio gwybodaeth am y forwyn ddu; ond ni chafodd ddim. Yna y mae ef yn dyfod i wlad ddyeithr yn nyffryn afon. Cyferfydd gŵr âg ef, yr hwn a ymddengys yn ŵr mewn urddau; ac y mae Peredur yn gofyn am ei fendith. Atteb yr offeiriad yw, nad ydyw yn teilyngu bendith am ddwyn arfau ar y dydd hwnw; sef, dydd Gwener y Grogl ith. Y mae Peredur yn atteb mai yn ei anwybodaeth y gwnaeth ef hyny; ond wedi gwybod, y mae yn disgyn, ac yn tywys ei farch yn ei law. Am ysbaid, efe a gerddodd ar hyd y ffordd fawr, nes y daeth at ffordd lai. Yr oedd hon yn myned trwy goedwig: tra, o'r tu arall, fe welodd gastell adfeiliedig, ac o gyfeiriad y castell efe a welai olion cyfannedd. Y mae yntau yn myned i'r castell, ac yn cyfarfod yr offeiriad a welsai o'r blaen; ac y mae Peredur yn gofyn etto am ei fendith. Yna, ar ei gais, y mae yn aros gydag ef am dri diwrnod; ac ar y pedwerydd dydd, y mae yn gofyn i'r offeiriad am ryw wybodaeth ynghylch 'Caer yr Enrhyfeddodau.' Y mae ei gyfarwyddiadau fel y canlyn. Yr oedd ef i groesi y mynydd; ac o'r tu arall i'r mynydd yr oedd afon. Yn nyffryn yr afon fe welai lys brenhinol; ac yno y buasai y brenin ar y Pasc. Dyna y lle tebycaf iddo gael gwybodaeth am 'Gaer yr Enrhyfeddodau.' Yna y mae Peredur yn myned yn mlaen, ac yn cyrhaedd dyffryn yr afon; ac yn cyfarfod, cyn bo hir, nifer o wŷr yn myned i hela. Yn y fintai, fe welai uchelwr. Rhoddodd hwnw ei ddewis i Peredur, pa un a elai i'r llys, ynte i hela; neu gallai anfon un o'r teulu gydag ef i alw am ei ferch, yr hon oedd ganddo yno; ac i gymmeryd bwyd a diod nes y deuai ef o hela. Y mae y brenin yn awr yn anfon iddo langc ieuangc byr, o wallt goleu. Pan ddaethant i'r llys, yr oedd yr ymherodres wedi cyfodi; ac yr oedd hi ar fyned i ymolchi. Cyfarchodd hi Peredur, a gosododd ef i eistedd wrth ei hochr. Yna, cymmerasant eu ciniaw; ac am ben pob dim a ddywedai Peredur, fe chwarddai yr ymherodres. Y mae y llangc, o'r diwedd, yn myned at y brenin, ac yn dywedyd ei fod yn meddwl ei fod yn dra thebyg fod y gŵr ieuangc (Peredur) yn ŵr i'w ferch; neu, os nad oedd, y byddai yn fuan. Y mae y brenin yn gofyn cynghor i'r llangc; ac y mae yntau yn ei roddi fel y canlyn:—Mai gwell fyddai anfon milwyr i ymosod ar Peredur, a'i ddal. Yna fe'i gosodid mewn carchar. Beth bynag, fe gaffai Peredur yr holl ddifyrwch a allai y llys ei roddi iddo. Am un noson fe fu yn ngharchar. Dranoeth, clywodd Peredur dwrf yn y ddinas. Erbyn holi, cafodd mai llu y brenin oedd yn dyfod i'r ddinas ar y diwrnod hwnw. Y rheswm pa ham y deuent oedd, fod iarll yn ymyl, â dwy iarllaeth ganddo, a'i fod mor nerthol a brenin; ac y byddai ymladdfa rhyngddynt ar y diwrnod hwnw. Y mae Peredur ar hyn yn gofyn benthyg march ac arfau i fyned i edrych ar yr ymladdfa, gan roddi ei air y byddai iddo ddychwelyd i'r castell drachefn. Holl wŷr yr iarll a gyfarfyddodd y diwrnod hwnw a orchfygwyd gan-

Digitized by Google

ddo. Ar ei ddychweliad, y mae Peredur yn myned yn ol i'r carchar eilwaith.

Y mae y forwyn, yn awr, yn gofyn i'w thad am wybodaeth ynghylch y marchog olaf, sef Peredur. Y mae ei thad yn rhoddi disgrifiad o hono; ac ar hyn, y mae y forwyn yn gwenu. Ar y pedwerydd dydd, fe laddodd Peredur yr iarll ei hunan. Wedi deall pwy ydyw, y mae tad y forwyn yn diolch iddo am ei wasanaeth; ac yn cynnyg ei ferch iddo yn wraig, a hanner ei deyrnas, ynghyd â'r ddwy iarllaeth. Y mae Peredur, fodd bynag, yn dyweyd mai nid er gwreica yr aeth efe yno; ond i geisio gwybodaeth ynghylch 'Caer yr Enrhyfeddodau.' Yna, y mae y forwyn yn cyfaddef ei chariad at Peredur, ac yn ei gyfeirio i fyned dros y mynydd hyd nes y gwelai lyn, a chastell yn y llyn. Hwnw oedd 'Castell yr Enrhyfeddodau.' Am y rhyfeddodau eu hunain ni wyddent hwy ddim yn mhellach.

Y mae Peredur yn nesau at y castell, ac y mae y porth yn agored. Ar hyny, y mae yn myned at y neuadd. Wrth fod y drws yn agored, y mae efe yn gweled clawr gwyddbwyll; ac un rhês o ddarnau yn chwareu o honynt eu hunain yn erbyn rhês arall. Collai y rhai a gynnorthwyai ef, tra y gwaeddai y lleill fel pe baent ddynion. Yna y mae Peredur yn diglloni; ac yn cymmeryd y gwŷr gwyddbwyll yn ei arffedog, ac yn eu bwrw i'r llyn.

Ar hyn, y mae y forwyn ddu yn dyfod i mewn, ac yn melldithio Peredur; ac yn ei geryddu am ladrata clawr gwyddbwyll yr ymherodres. Gallai gael y clawr yn ol, os elai i lys Ysbidinongyl, ac ymladd â'r gŵr du oedd yno. Y mae yntau yn gwneyd hyny, ac yn ei orchfygu. Dywedir hefyd wrtho, yn mhellach, am ei ladd. Y mae yntau yn gwneyd hyny. Pan yr ä efe i mewn i'r llys, y mae y forwyn ddu oddi mewn. Am yr ymherodres ddu, fodd bynag, nis gallai ei gweled hi, os na laddai yr anifail dinystriol oedd yn y goedwig gyfarwyneb âg ef. Yr oedd yno garw can' gyflymed ag unrhyw aderyn, âg un corn ganddo yn ei dalcen. Nid yn unig lladdai holl fwystfilod y goedwig; ond deuai hefyd, bob nos, ac fe yfai y pysgodlyn. Fe wnai ci y foneddiges godi'r carw. Lladdodd Peredur y carw; ac fel y mae yn edrych ar ben y carw, y mae boneddiges ar farch yn dyfod ato, ac yn cymmeryd y pen yn llawes ei mantell, ac yn ei osod o flaen y cyfrwy. Yn awr, cyfeirir Peredur at goedwig, yn yr hon y mae llech. Yno y mae efe i ofyn am ŵr i ymladd deirgwaith. Mae yntau yn gwneyd hyny, ac y mae gŵr du yn codi oddi tan y llech. O'r diwedd, wedi llawer o frwydro yn ofer, y mae y gŵr du yn diflanu gyda'i farch ei hun a march Peredur. Y tu draw i'r mynydd, y mae efe yn gweled castell mewn dyffryn, drwy yr hwn y mae afon yn rhedeg. Fel yr ä efe i'r castell, y mae yn gweled neuadd, a drws y neuadd yn agored. Mae yn myned i mewn, ac yn gweled gŵr penllwyd cloff yn eistedd yn un pen i'r neuadd, a Gwalchmai yn eistedd ar y naill ochr iddo; a'r march a gymmerodd y gŵr du yn yr un ystabl a march Gwalchmai. Croesawir Peredur gan y rhai hyn; ac y mae llangc pen-felyn yn syrthio ar ei liniau o'i flaen, ac yn gofyn am ei gyfeillgarwch. Yr oedd y llangc hwn wedi dyfod mewn gwahanol ddiwyg at Peredur, yn y gwahanol adegau ar ei hanes. Gwiddonod Caerloew, hefyd, oedd wedi lladd y pen a ddygesid i'r llys. Erbyn deall, cefnder Peredur yw y llangc pen-felyn. Yna y mae Arthur yn dyfod â'i holl deulu i ymladd yn erbyn y Gwiddonod. O'r diwedd, y mae Peredur yn llwyddo i'w lladd oll. Ac felly y terfyna hanes Peredur.

Llawer o ddyfalu sydd wedi bod o ba le y casglwyd yr holl chwedlau a gynnwysir yn y rhamant hon, a pha beth yw eu hystyr. Y mae y Proffeswr Rhys yn hynod gywrain, wedi cymmharu anturiaethau Heracles a Chuchulamin âg eiddo Peredur. Er mai prin y credir fod unrhyw gyssylltiad uniongyrchol rhwng chwedl Peredur a chwedlau Heracles a Chuchulamin; etto y maent yn gosod allan, bob un yn ei ffordd ei hun, allu y gwron i orchfygu, a'i benderfyniad di-ildio yn ei waith. Dywedasom eisoes fod y Mabinogion, a'r rhamantau, yn rhanu yn naturiol yn ddau ddosbarth; sef, hanes gorchfygiad rhwystrau a ymddangosent yn anorchfygol; a hanes aflwyddiant rhai o'r prif gymmeriadau Celtaidd yn ystod eu bywyd; ond yn eu marwolaeth, megys y mae pen Bendigeitwran, yn dwyn bendithion i'w dilynwyr. Y maent, mewn gwirionedd, yn gosod allan ddwy agwedd ar hanes dyn, ac ar hanes pob bywyd. Mae rhai yn gwneuthur eu gwaith yn ystod eu hoes; eraill yn gwneuthur eu prif waith wedi eu marwolaeth.

Yn y Rhamantau Arthuraidd, fel y sylwyd eisoes, gwŷr Arthur, yn gyffredin, sydd yn gorchfygu yr anhawsderau; ond gweision i Arthur ydynt wedi y cyfan. Ei ysbryd ef sydd ynddynt, ac efe sydd drwyddynt, megys, yn gorchfygu yr holl bethau sydd ar eu ffordd. Efe ydyw y person sydd yn cyssylltu ei filwyr gyda eu gilydd yn un cyfangorph yn erbyn nerthoedd y tywyllwch yn y byd.

Fel hyn, y mae moesddysg ddyfnach nag a allesid meddwl ar yr olwg gyntaf o dan y Mabinogion hyn. Maent yn dangos nerth yr ewyllys a phenderfyniad; ond y maent yn dangos hefyd, fawredd personoliaeth dyn yn y gallu a fedd efe i greu ysbryd newydd mewn cymdeithas; ac i weithio er daioni yn y byd. Fe allai mai rhai o hen dduwiau y tô hyn o ddynion fu yn byw yn y wlad hon oedd y bwystfilod, a'u cyffelyb, a orchfygai yma ar y cychwyn. Prin y gallwn ddisgwyl dim goleuni sicr ar hyn. Beth bynag am hyny, nerthoedd gwrthgymdeithasol a gwrthddynol oeddynt; ac felly, y mae eu gorchfygiad gan un o gymdeithas Arthur yn arddangos gallu cynnyddol dyn fel bôd cymdeithasol yn y byd. Rhaid myned yn ddyfnach na'r enwau, ac yn ddyfnach na'r ffurf, i weled pa beth ydyw ysbryd y Mabinogion hyn.

Po fwyaf a astudir ar grefyddau y byd, egluraf oll y deuwn i weled fod amryw o honynt yn cyfatteb yn eu syniadau yn yr un safle o wareiddiad—nid am eu bod wedi benthyca gan eu gilydd, na chwaith am eu bod wedi tarddu o'r un gwreiddyn; ond am fod rhyw gylch neillduol o syniadau yn berffaith naturiol mewn cylch neillduol o wareiddiad. Tueddir ni i gredu mai yr achos pa ham y mae Peredur, Chuchulamin, a Heracles, yn cyfatteb mewn rhai pethau i'w gilydd ydyw, eu bod yn greadigaethau naturiol y gwahanol wledydd y perthynent iddynt, yn esbonio pa fodd y gwaredwyd y byd o'r hen anghenfilod fu yn blino dynion gynt; ac fe allai nad oedd yr hen anghenfilod hyn ond duwiau y cenedloedd hyny eu hunain pan mewn cyflwr îs o wareiddiad. Chwedl gyffelyb, yn ddiammheu, oedd chwedl hela y 'twrch trwyth' gan Arthur. Yr hyn y gellid yn naturiol ei ddisgwyl

Digitized by Google

ydyw chwedloniaeth yn rhoddi hanes gorchestion rhai o wroniaid y genedl; neu yn hytrach, hanes gwroniaid y llwythau.

Yr hyn y dylid sylwi arno yn arbenig wrth ddarllen y rhamantau hyn ydyw, mai nid Arthur ei hunan, ond ei farchogion, neu ei weision, sydd yn cyflawni gweithredoedd fel yr eiddo Peredur. Y mae Arthur, fel gorchfygwr y byd, wedi ei godi uwch law gorchestion o'r fath; ac nid ydyw y gorchestion hyn ond rhyw bethau i roddi prawf ar farchogion ieuaingc, ac i ddadblygu eu cymmeriad:—yr hyn a wnant dan symbyliad ysbryd Arthur.

Sylwer yn y Fabinogi hon hefyd, am y cyfeiriad at 'Widdonod Caerloyw.' Y mae pob enw lleol yn y Mabinogion yn awgrym i ni o'r ardaloedd â pha rai y cyssylltid y chwedlau a'r traddodiadau.

Yn y Trioedd, y mae Peredur yn un o'r gwŷr a ffurfiant 'ail marchlwyth Ynys Prydain,' yr hwn a ddygodd 'Coruann, merch meibion Eliffer Gosgorddfawr.' Hefyd, fe ddywedir fod teulu Peredur a Gwrgi yn ffurfio un o 'anniwair deuluoedd' yr ynys hon'; y rhai a adawsant eu harglwydd yn Nghaer Greu a Chynoeth. Ac ymladd udunt dranoeth.' Er hyny, nid oes un cyssylltiad, mor bell ag y gellir gweled, rhwng y Trioedd hyn a'r Fabinogi hon.

GERAINT AC ENID.

Dyma yr olaf o'r rhamantau; ac y mae crynodeb o honi fel y canlyn:—Y mae Arthur yn cynnal ei lys yn Nghaerlleon-ar-Wysg, am mai dyna y lle mwyaf cyfleus yn ei holl diriogaeth—oddi ar fôr ac oddi ar dir. I'w lys y mae efe yn gwahodd naw brenin coronog, ac ieirll, a barwniaid; heb law hyny, y rhai a wahoddid i bob gŵyl arbenig, 'oni bae fod rhyw fawr anghenion yn eu lluddias.' Glewlwyt Gafaelfawr oedd porthor Arthur; ond ni byddai efe ei hun yn gwasanaethu ond ar y tair gŵyl arbenig. Bob amser arall, byddai ei saith gwas yn gwasanaethu yn ei le. Ar ddydd Mawrth y Sulgwyn y mae llangc yn dyfod i mewn, wedi ei wisgo yn drwsiadus. Erbyn deall, fforestwr i'r brenin ydyw, yn 'Fforest y Dena,' a'i enw ydyw Madog fab Tŵr Gadarn.

Neges y llangc ydyw gofyn cynghor Arthur ynghylch carw purwyn a welsai yn y fforest, yr hwn, o falchder, nid ä'i yn agos i'r ceirw eraill. Y mae Arthur, ar hyn, yn penderfynu myned i hela y carw hwn yn 'ieuengctid y dydd' dranoeth. Yna, y mae Gwenhwyfar yn gofyn i Arthur a gawsai hi fyned i weled hela y carw; ac y mae Arthur yn rhoddi caniatâd iddi yn llawen. Ar hyny, awgryma Gwalchmai i'r brenin mai gwell fyddai iddo roddi caniatâd i'r neb a ddaliai y carw i dori y pen, a'i roddi yn anrheg i'r sawl a ddewisai—un ai i'w gariad-ferch ei hun, neu i gariad-ferch ei gydymaith. Dranoeth, y mae Arthur yn deffro yn fuan, a'i 'fackwyeit' yn ei wisgo. Fodd bynag, nid yw Gwenhwyfar yn deffro; ac ni fŷn Arthur ei deffroi. Wedi i Arthur fyned i'r hela, y mae Gwenhwyfar yn deffro, ac yn galw ar ei morwynion, ac yn gwisgo am dani. Erbyn cael dau farch o'r ystabl, yr unig ddau a adawyd, y mae Gwenhwyfar, ac un o'i morwynion, yn myned i edrych ar yr hela. Wrth iddynt gerdded, y maent yn gweled llangc ieuangc, hardd ei wisg, ar farch bywiog iawn. Y mae Gwenhwyfar yn adnabod y llangc—mai Geraint ydyw. Erbyn deall, ni wyddai am yr hela; ac yr oedd efe wedi cysgu yn rhy hir i glywed Arthur yn cychwyn. Y maent, yn awr, yn myned gyda'u gilydd i ystlys y fforest; a phan yno, gwelant 'gòr' (sef corach) yn marchogaeth march 'uchel-dedd ffroenuoll maswlhyw kadarndrut.' Yn agos i'r 'còr' yr oedd gwraig, hefyd, yn marchogaeth; ac yn ei hymyl, farchog ar farch rhyfel mawr tomlyd. Y mae Gwenhwyfar yn gofyn i'r forwyn fyned a gofyn i'r corach pwy ydyw y marchog dyeithr. Ni ddywedai y còr wrthi; ac ni adawai, chwaith, iddi ofyn i'r marchog. Wrth iddi droi at y marchog i ofyn, y mae y corach yn ei tharaw â'r ffrewyll oedd yn ei law, a hyny nes peri i'r gwaed ffrydio o'i gwyneb. Wedi i'r forwyn ddychwelyd at Gwenhwyfar, penderfyna Geraint fyned ei hun i holi pwy yw y marchog. Y mae y còr yn gwneuthur yr un modd âg yntau ag y gwnaeth â'r forwyn. Bu agos i Geraint daraw y còr â'r cleddyf, ond cofiodd ei fod heb [illegible]rfogaeth i amddiffyn ei hun yn erbyn y ma[illegible]chog dyeithr. Yn awr, y mae Geraint yn dyweyd wrth Gwenhwyfar y mŷn efe fyned i ymbrawf â'r marchog dyeithr, ac y mae yn dilyn ffordd îs law Caerlleon-ar-Wysg. Yn mhen ysbaid, y mae yn dyfod at ddinas-dref; ac yn mhen y dref, y mae 'caer a chastell.' Ni welai Geraint neb yno a allasai roddi benthyg arfau iddo. Yr oedd y gaer yn llawn parotöadau at drin arfau. Yn y gaer, gwelodd hen lys adfeiliedig, a neuadd drydoll ynddo. Wedi myned i mewn, gwelai lofft, a phont o farmor yn dyfod o'r llofft; ac ar y bont, gwelai hen ŵr penllwyd yn eistedd, a hen ddillad gwael am dano. Mae'n cael gwahoddiad i'r neuadd, ac yn myned tua'r llofft, lle yr oedd yr hen ŵr. Yn y llofft, y mae yn gweled gwraig ganol oed yn eistedd ar obenydd, â hen ddillad 'pali' carpiog am dani. Yr oedd ger ei llaw forwyn yn eistedd a'i dillad hithau yn ddigon gwaelion, ond yn hardd nodedig. Y mae y forwyn yn gweini ar Geraint; ac ar gais yr hen ŵr, yn ceisio lluniaeth iddynt o'r dref. Wrth y bwyd, eisteddai Geraint rhwng yr hen ŵr penllwyd a'i wraig, a'r forwyn yn gwasanaethu arnynt. Y mae Geraint yn cael hanes yr hen ŵr, ac y mae yn holi yn mhellach pwy oedd y marchoga'r corach a ddaethant i'r gaer. Erbyn deall, yr oedd chwareu neillduol i fod dranoeth, i geisio ennill 'llamhystaen' (*sparrow-hawk*) i'r gŵr a ymladdai oreu. Yr oedd y marchog a welsai wedi cael y 'llamhystaen' ddwy flynedd; ac os llwyddai y drydedd flwyddyn, fe'i caffai bob blwyddyn ar ol hyny. Yr oedd raid i bob marchog fyned i'r ymladd yn enw rhyw gariadferch iddo. Gan nad oedd gan Geraint neb, y mae yn cymmeryd y forwyn yn gariad-ferch iddo, er mwyn rhoddi hawl iddo i ymladd â'r marchog. Wedi iddynt dori llawer tô o waewffyn, heb i'r naill na'r llall gael y fuddugoliaeth, y mae Geraint, o'r diwedd, yn bwrw y marchog oddi ar ei farch; ond nid yw y frwydr wedi darfod etto. Y mae y ddau, ar eu traed, yn ymladd â'r cleddyfau, a'r gŵr 'gwynllwyd' yn peri i Geraint gofio y sarhâd a gawsai Gwenhwyfar. O'r diwedd, y mae Geraint yn llwyddo i orchfygu y marchog; ac y mae y marchog yn derbyn ei fywyd ar yr ammod y byddai iddo fyned i lys Arthur at Gwenhwyfar i wneyd iawn iddi am y sarhâd a gawsai. Erbyn deall, enw y marchog oedd Edeyrn, fab Nudd. Y mae yr iarll yn awr yn gwahodd Geraint i lettya ato ef; ond ni fŷn efe fyned ond i'r fan lle y bu y noson gynt. Gan na fŷn efe fyned i lys yr iarll, y mae yr iarll yn rhoddi crocsaw iddo yn y lletty lle y bu. Dranoeth,

Digitized by Google

penderfyna Geraint fyned gyda'r forwyn i lys Arthur; a'i brif amcan, medd efe, oedd ceisio cael modd i wellhau safle Ynywl Iarll, gyda'r hwn y bu yn llettya. Y mae yr iarll, hefyd, yn addaw gwneyd i Ynywl yr hyn a all. Ar ol hyn, cychwynodd Geraint, fel y penderfynasai, gyda'r forwyn i lys Arthur.

Yn awr, y mae yr hanes yn myned yn ol at Arthur a'r helfa. Delir y carw; ond y mae cryn ymryson pwy gawsai y pen. Cynghor Gwenhwyfar, o'r diwedd, yw, mai gwell fyddai ei gadw hyd nes y deuai Geraint yn ol:—a dyna a wneir. Dranoeth, fe welir y marchog, a'r wraig, a'r còr yn dyfod yno i wneyd iawn am sarhâd Gwenhwyfar. Wedi cyrhaedd, y maent yn adrodd eu neges. Cymmer Arthur a Gwenhwyfar drugaredd arno; ac y mae 'Morgan tut' (y pen meddyg) yn cael y gwaith o wella ei friwiau.

Y mae yr hanes yn myned yn awr yn ol at Geraint ac Enid. Yn fuan wedi hyny, daw Geraint ac Enid i lys Arthur. Y mae Arthur, a phawb o honynt, yn hoffi Enid; ac fe'i priodir â Geraint. Rhoddir iddi hi, hefyd, ben y carw a ddaliwyd gan Arthur. Am dair blynedd ar ol hyny, bu Geraint yn ennill clod iddo ef mewn twrneimant dros wyneb Ynys Prydain.

Yn awr, y mae cenhadon yn dyfod at Arthur o Gernyw, oddi wrth Erbin, fab Custennin, ei ewythr. Eu neges yw cael gan Arthur ollwng Geraint i'w gartref i gymmeryd meddiannau ei dad, yr hwn oedd yn llesghau. Y trydydd dydd wedi i'r cenhadon gael eu gollwng ymaith, y mae Geraint yn cychwyn gyda chenad Arthur; ac yna, fe enwir y rhai a aethant gydag ef.

Wedi cyrhaedd llys ei dad, derbyniodd Geraint groesaw rhagorol. Yno, y mae Geraint yn derbyn gwarogaeth gwŷr ei dad. Wedi hyn, aeth Geraint drwy ei feddiannau; ac ar ei ffordd, dilynai ei hoff waith yn llys Arthur; sef, cyrchu twrneimant. Am ysbaid, y mae yn hynod o lwyddiannus; ond, o'r diwedd, y mae efe yn dechreu caru esmwythyd; a thrwy hyny, yn colli parch ei wŷr. Daw hyn i glustiau Erbin, ac fe'i mynega i Enid. Y mae hithau, o'r herwydd, yn poenydio yn fawr, ac y mae hi mewn penbleth pa beth i'w wneyd. Un boreu, yn ei hystafell, y mae Enid, wrth edrych ar freichiau a dwyfron Geraint, yn tristau am ei chyfrif hi yn achos fod y gewynau nerthol hyny yn ddiwaith. Yna, y mae hi yn wylo, ac y mae ei dagrau yn syrthio ar gnawd Geraint. Y mae yntau yn deffro, ac yn meddwl mai cariad Enid at arall oedd yn achosi ei dagrau—am nas gallai gael y sawl a garai. Dranoeth, cychwyna Geraint ymaith ar farch; ac yn sarug, pâr i Enid fyned gydag ef, gan eistedd hithau ar farch. Nid ar hyd y ffordd rwyddaf yr ä efe, ond ar hyd y ffordd lle y mae mwyaf o berygl oddi wrth ladron a bwystfilod.

Wedi dyfod at goedwig, gwelant bedwar marchog arfog yn dyfod o'r coed. Y mae Enid, yr hon oedd gryn ffordd yn y blaen, yn clywed ymddiddan y marchogion, y rhai sydd yn bwriadu ymosod arni hi a Geraint. Ond nid ydyw hi yn meiddio, yn ol gorchymyn Geraint, i droi yn ol ato. Erys yn awr am Geraint; ond erbyn cyrhaedd ati, nid yw ef yn gwneuthur dim ond edrych arni yn llidiog. Pan ymosododd y marchog ar Geraint, disgynodd Geraint arno, a bwriodd ef dros bedrain ei farch i'r llawr. Gwneir yr un peth gyda'r lleill hefyd, nes y mae y pedwar yn feirw. Ar hyny, y mae Geraint yn gorchymyn i Enid gymmeryd gofal y pedwar march, a gyru yn ei blaen, a pheidio dyweyd gair wrtho ef, os na siaradai efe yn gyntaf wrthi hi.

Yn awr, y maent yn myned trwy goed a gwastattir; ac yn nghanol y gwastattir, yr oedd 'byrgoed pendew dyrys.' Yna, gwelant dri marchog yn dyfod atynt. Wrth glywed bwriad y marchogion, y mae Enid etto yn aros Geraint; a thŷr ei orchymyn y tro hwn etto. Y mae yntau yn ddigllawn am na bae hi yn tewi wrtho. Ar ol hyn, y mae y marchogion yn ymosod ar Geraint. Y mae yntau yn eu gorchfygu hwythau, ac yn cymmeryd eu meirch, ac yn eu rhoddi i Enid i'w gwylied. Rhydd Geraint orchymyn iddi etto i dewi; ac y mae hithau yn addaw gwneyd hyny.

Wedi hyn, y maent yn cyfarfod pump o farchogion yn ymyl coedwig fawr. Unwaith etto, yn ei hofn am ei bywyd, y mae Enid yn tori gorchymyn Geraint. Y mae yntau etto yn diglloni wrthi am dori ei orchymyn. Yna, y mae Geraint yn gorchfygu y marchogion hyn etto, ac yn rhoddi y pum march dan ofal Enid.

Yn awr, medd y chwedl, dylasai calon Geraint ddechreu tirioni wrth Enid, a bod yn dost ganddo edrych ar ei thrafferth gyda'r holl feirch hyny; ond ni adawai ei lid iddo drugarhau wrthi. Wedi dyfod i goed mawr anial, y mae Geraint yn penderfynu disgyn, a gorphwys. Dywed wrth Enid am wylio y meirch tra y bydd efe, o achos ei ludded, yn cysgu. Dyna a wna; a'r boreu dranoeth, y mae efe yn peri iddi fyned yn mlaen gyda'r meirch, fel cynt.

Wedi myned gryn ffordd, y maent yn cyfarfod llangc ieuangc, â thywel, a phiser, a phìol ganddo. Cludo boreufwyd o fara a chig, a gwin, yr oedd hwn i'r pladurwyr a welsai Geraint yn lladd gwair yn y gweirgloddiau a basiodd; ond y mae efe yn cynnyg y bwyd i Geraint, os mynai efe ei dderbyn. Yn awr, cafodd Geraint gan y gwas fyned i'r dref, a cheisio lletty iddo ef a'r meirch; a chynnygia y march a ddewisai yn anrheg iddo. Y mae y llangc yn gwneuthur yn ol cais Geraint, ac yn myned i lys yn y dref; sef, i lys yr iarll. Yna, y mae efe yn dychwelyd, ac yn adrodd i Geraint wahoddiad yr iarll. Er fod yr iarll yn gwahodd Geraint i'w lys ei hun, etto ni fŷn efe fyned ond i'w letty ei hun.

Wedi cyrhaedd i'r lletty, y mae Geraint yn cael bwyd, ac yn cysgu; ac y mae y llangc yn myned i hysbysu ei ddyfodiad i'r iarll. Rhoddir gwahoddiad gan Geraint i ŵr y tŷ, lle y llettyai, roddi ymborth i'r neb a fynai ar ei gôst ef—a dyna a wna. Ar hyn, y mae yr iarll yn dyfod yno i ymweled â Geraint, ac y mae Geraint yn codi ac yn ei groesawu.

Nis gall yr iarll lai na sylwi ar Enid; ac y mae yn dyweyd wrthi mai blin, yn ddiammheu, oedd iddi orfod rhodio ei hunan gyda gŵr fel Geraint; ac mai gwell fyddai iddi gael gweision a morwynion i wasanaethu arni. Y mae hithau yn dyweyd mai gwell oedd ganddi hi ddilyn y gŵr hwnw, hyd yn oed na phe byddai ganddi weision a morwynion. Ceisia yntau gael ganddi aros gydag ef; ond ni fŷn hi mo hyny—ond aros yn ffyddlawn i Geraint.

Ar hyn, y mae yr iarll yn daerach arni; ac y mae hithau yn penderfynu mai gwell fydd cymmeryd arni ei bod yn foddlawn iddo, ac yn gwneyd oed âg ef. Nid yw hi yn dyweyd gair am hyn wrth Geraint. Y mae efe yn myned i gysgu am ychydig; ac wedi hyny, ar ol parotoi

arfau ei gŵr, y mae hi yn myned ato mewn ofn a chryndod, ac yn ei ddeffro. Y mae yntau, yn llidiog wrthi, yn cymmeryd rhybudd, ac yn gwisgo am dano. Yna, y mae efe yn peri iddi alw gŵr y tŷ ato; ac y mae hwnw yn dyfod. Y mae Geraint yn gofyn iddo pa faint ydoedd ei ddyled? I dalu ei ddyled y mae efe yn rhoddi yr un march ar ddeg, a'r un arfau ar ddeg; ac y mae y llettywr yn dyweyd nad oedd ar Geraint iddo, mewn gwirionedd, werth un o'r arfau.

Beth bynag, y maent yn cael gan ŵr y tŷ eu harwain o'r dref; ac yna, gorchymyna Geraint i Enid fyned yn mlaen dalm o ffordd oddi wrtho. Erbyn i'r llettywr ddyfod i'r tŷ, y mae efe yn gweled pedwar ugain o farchogion ynghylch y tŷ, yn llawn arfau—a'r iarll gyda hwy.

Wedi gweled nad ydyw Geraint yno, y mae yr iarll a'i wŷr yn erlid ar ei ol. Y mae Enid yn eu gweled yn dyfod, ac y mae hi etto yn penderfynu rhybuddio Geraint. Ymosodir ar Geraint gan y pedwar marchog ar hugain, ac y mae efe yn eu bwrw hwynt oll; ac o'r diwedd, yn bwrw yr iarll. Wedi peth teithio, y maent yn gweled 'castell-dref deccaf ar a welsai neb erioed.' Ger y dref, fe wêl Geraint farchog yn dyfod o'r dyffryn ger llaw. Erbyn deall, 'Gwiffert petit,' yn ol y Ffrangcod, a 'brenin bychan' yn ol y Cymry, ydoedd ei phïau. Rhybuddir Geraint i beidio myned i dir y gŵr hwn, ar ei berygl. Er hyny, mynu myned y mae efe. Tra yr oedd Geraint yn cerdded felly, y mae yn gweled marchog o'i ôl ar ryfel-farch nerthol; ond ni welsai neb erioed llai na'r gŵr oedd ar y march. Yna, y mae y marchog yn ceisio gorfodi Geraint i fyned i'w lys, i wneyd iawn iddo am droseddu ei hawliau. Wedi hyn, y maent yn ymladd—a Geraint yn bwrw y llall i'r llawr. Yn awr, y maent yn ymladd ar draed. O'r diwedd, wedi ymladd caled o bob tu, y mae Geraint, yn ei lidiawgrwydd, 'yn galw ei nerthoedd ato,' ac yn gorfodi y marchog i ofyn ei nawdd a'i drugaredd.

Y mae Gwiffert yn gwahodd Geraint i'r llys; ond y mae yn gwrthod. Yna, y mae y brenin yn tosturio wrth Enid. Beth bynag, cerdded yn ei flaen a fŷn Geraint, ac Enid dalm o ffordd oddi wrtho. Wedi cyrhaedd i goedwig, y mae Geraint yn myned dan un o'r coed i ymochel rhag y gwres; a blina y dolur a gawsai wrth ymladd ef yn fwy yn awr nag a wnaethai pan gawsai ef. Mae Enid yn sefyll dan bren arall. Erbyn hyn, fe glywir sŵn udgyrn—a phwy oedd yno ond Arthur, a'i wŷr.

Y mae distain y llys yn myned yn awr at Geraint, ac yn gofyn pa beth a wna efe yno. Yna, medd Cei wrtho, fod yn rhaid iddo ddyfod gydag ef at Arthur. Adnabyddodd Geraint Cei; ond nid adnabyddodd Cei Geraint. Wedi ymladd etto, y mae Geraint yn gallu bwrw Cei, ac y mae yr olaf yn cael caniatâd i ddychwelyd i'w letty.

Yn awr, y mae Gwalchmai yn myned at Geraint. Mae efe yn adnabod Gwalchmai; ond nid yw Gwalchmai yn ei adnabod ef. O'r diwedd, y mae Gwalchmai yn ei adnabod. Er hyny, gwrthod myned i ymweled âg Arthur a wna Geraint; ond y mae Gwalchmai yn anfon at Arthur i'w hysbysu fod Geraint yno. Beth bynag, llwyddodd Gwalchmai i gael Geraint i wyddfod Arthur; ac y mae Arthur yn holi beth oedd ystyr y daith yr oedd efe arni. Y mae efe yn gofyn yr un peth i Enid hefyd; ac y mae hithau yn atteb na ŵyr hi ddim.

Yna, fe geisir gwellhau Geraint, er ei fod yn daer am gael ei ollwng yn rhydd; ac y mae Enid yn derbyn croesaw neillduol. Wedi iddo wella, y mae yn cael myned ymaith, ac yn dilyn yr un dull o deithio a chynt. Fel y maent yn rhodio, y maent yn clywed 'dïespad grochaf o'r byd yn eu hymyl;' ac y mae Geraint yn myned i edrych beth sydd yn ei hachosi.

Erbyn deall, marchoges ieuangc sydd yn diaspedain, a'i gŵr yn gelain yn ei arfau. Tri chawr oedd wedi lladd y gŵr. Aeth Geraint ar ol y cewri; ac o'r diwedd, wedi ymladdfa dost, gan fod pob un o honynt gymmaint a thri gŵr, y mae efe yn eu lladd, ac yn dychwelyd at Enid. Ond y mae Geraint ei hun wedi ei glwyfo mor dost nes y mae yn syrthio megys marw ar y llawr wrth weled Enid. Yn awr, y mae Iarll Leniwris yn dyfod yno, ac yn gofyn i Enid pa beth a fu. Y mae hithau yn adrodd yr helynt. Cleddir celain y marchog; ond y mae yr iarll yn tybied fod 'peth o'r eneit y mywn Gereint ettwa;' ac y mae yn ei gymmeryd i'r llys. Y mae, hefyd, yn ceisio cysuro Enid trwy ddyweyd, beth bynag a ddigwyddai na chawsai hi ddim dioddef. Gan na fŷn Enid wrandaw ar yr iarll pan yn siarad yn deg, y mae efe yn rhoddi bonclust iddi. Y mae hithau, ar hyn, yn wylo yn uchel, ac yn meddwl pe bae Geraint yn fyw na chawsai hi ddioddef hyny. Y mae sŵn Enid yn peri i Geraint ddadlewygu; ac y mae efe yn gallu cymmeryd ei gleddyf, ac ymlid ar ol yr iarll, ac yn hollti ei ben. Yna, y mae pawb yn diangc am eu heinioes wrth weled y gŵr a dybiasent oedd yn farw am eu lladd.

Ar hyn, y mae Geraint yn edrych ar Enid, ac y mae dau ofid yn dyfod iddo:—un o weled Enid wedi colli ei lliw, a'r llall o weled ei bod hi ar yr iawn. Yn awr, cychwyna Geraint ymaith etto, ac y mae efe yn cludo Enid ar ei farch ei hun. Etto, hefyd, y mae marchog yn eu goddiweddyd; a phwy ydyw, ond y brenin bychan, yr hwn a ddywed ei fod wedi dyfod yn borth i Geraint; a phe buasai Geraint wedi gwrandaw arno ef, y buasai wedi arbed llawer o ofid. Atteb Geraint ydyw—'Ny ellir dim wrth a fynno Duw.'

Yn awr, y mae y brenin bychan yn gwahodd Geraint i ddyfod i lys cyfagos, i gymmeryd ei feddyginiaethu. Y maent yn myned i lys y barwn; a thranoeth, yn y boreu, y maent yn myned i geisio meddygon. Wedi bod yno am ysbaid yn gwella, y mae Geraint yn mynu cerdded am ddiwrnod etto, 'a hyfrytach a llawenach y kerddawd enit y gyt ac ðy y dyd hònnð noc eryoet.' Erbyn dilyn un o'r ffyrdd y daethant iddynt, y mae yn gweled gŵr traed yn dyfod atynt. Cyfarwyddir Geraint i osgoi y 'cae niwl,' o'r hwn ni ddeuai neb yn ol yn fyw; ac yno yr oedd llys Owain Iarll. Yna, y mae Geraint yn dilyn y ffordd isod. Y mae llangc yn cyfarfod â hwynt yn y dref y deuant iddi, ac yn eu gwahodd i lys y gŵr oedd yn berchen arni. Y mae Geraint yn peidio bwyta, ac y mae yr iarll yn tristau o achos hyn; gan feddwl mai eisieu peidio myned i'r twrneimant yr oedd Geraint, tra mai yn hollol i'r gwrthwyneb yr oedd ei feddwl ef.

Dranoeth, y maent yn myned i 'gae'r chwareu;' ac yn y cae yr oedd polion, a'phen dyn ar bob pawl. Y mae Geraint yn myned drwy y niwl at babell o 'bali pengoch.' Erbyn myned i'r babell, nid oedd neb yno ond morwyn yn eistedd mewn cadair euraidd; a chadair arall

Digitized by Google

gyferbyn â hi yn wâg. Eisteddodd Geraint yn y gadair wâg; ond cynghorodd y forwyn ef i beidio, gan ddyweyd na oddefodd y gŵr oedd bïau y gadair hono i neb erioed eistedd ynddi. Ar hyn, y mae y marchog yn dyfod yno, ac yn gofyn i Geraint pa hawl oedd ganddo i eistedd yn ei gadair. Yna, y maent yn myned i ymladd. O'r diwedd, y mae Geraint yn gorchfygu yno hefyd; ac nid ydyw yn gollwng y marchog yn rhydd nes addaw o hono gymmeryd ymaith y cae niwl a'r hud oddi ar y fan. Y mae Geraint, yn awr, yn canu y corn a welsai ger y babell, ac y mae y niwl yn diflanu. Wedi darfod y pethau hyn, y mae Geraint yn dychwelyd i'w arglwyddiaeth ei hun, ac yn llwyddo yno, ac Enid gydag ef.

Y mae yn ddiammheu y teimlir fod hanes gorchfygu y marchogion yn barhaus yn gwneyd yr hanes hwn, o'r braidd, yn undonog, fel yr oedd llawer o hanes Peredur. Ond prif ddyddordeb yr hanes yma ydyw, cymmeriad Enid. Ei hamynedd tawel hi dan ei chàm, a'r darluniad byw a geir o honi, ydyw yr unig bethau o un dyddordeb cyffredinol sydd yn y rhamant. Fe gofir, wrth ddarllen hanes Enid, fod rhai o'r Mabinogion eraill wedi bod yn hynod lwyddiannus yn disgrifio merched yn dioddef. Er enghraifft, dyna hanes Rhiannon, Branwen, a Luned; ac yn awr, Enid. Y cymmeriadau hyn, ar ryw olwg, sydd wedi anfarwoli y Mabinogion. Nid llawer a ddywedir am danynt; ond rhoddir ambell awgrym sydd yn dangos fod yr ysgrifenydd wedi bod yn sylwedydd pur graff yn ei ddydd; a bron na chredwn yn rhwydd ei fod wedi talu mwy o sylw i'r agweddion hyn ar fywyd nag i fyd y marchogion.

Wrth derfynu, teimlwn fod genym fel cenedl hawl i fod yn falch, wrth gymmharu amrywiaeth a chelfyddyd Pedair Caingc y Mabinogi gyda'r chwedlau a'r rhamantau eraill. A Phedair Caingc y Mabinogi ydyw y rhanau mwyaf Cymreig o'r Mabinogion oll.

Wedi y cyfan, nis gall unrhyw grynodeb o'r Mabinogion gymmeryd eu lle hwy eu hunain; a gallwn anturio hysbysu y darllenydd nad ydyw anhawsderau eu hiaith yn agos mor fawr ag y gallesid tybio ar yr olwg gyntaf.

Hyderir y bydd y sylwadau hyn yn foddion i symbylu dyddordeb y darllenydd, nid yn llenyddiaeth Cymru yn unig, ond yn llenyddiaeth Ewrop hefyd; yr hon sydd yn y rhamantau hyn, ac yn y traddodiadau hyn hefyd, wedi dyfod i gyssylltiad mor agos â'n llenyddiaeth ni ein hunain.

**MORRIS, Y PARCH. THOMAS.** Ganwyd ef yn Aberffraw, Môn, yn y fl. 1813. Ymddengys iddo gael manteision gwell na'r cyffredin, er na wyddis gan bwy, nac yn mha le; o blegid un o'r pethau cyntaf yn ei hanes ydyw, ei fod yn ysgrifenydd yn swyddfa Mr. Trewick, masnachydd ŷd yn Nghaernarfon. Yno y dychwelwyd ef at grefydd cyn bod yn 20ain ml. oed, o dan weinidogaeth y Parch. David Jones, a adnabyddid yn gyffredin fel 'Dafydd Jones y bobol;' a hyny ar gyfrif ei boblogrwydd fel pregethwr. Y Sabbath y dychwelwyd ef, bu gyda rhai o'i gyfeillion ieuaingc yn mwynhau eu hunain mewn cerbyd yn y wlad. Ond wrth eistedd o dan y weinidogaeth yn yr hwyr, argyhoeddwyd ef o'i bechadurusrwydd, a rhoddodd ei hun i'r Arglwydd ac i'w bobl, yn ol ewyllys Duw. Yr oedd ganddo chwaeth a thalent gerddorol, ac ymunodd â chôr Ebenezer, gan wasanaethu trwy chwareu y *bass viol;* yr hyn oedd yn arferiad yno yn y dyddiau hyny. Gadawodd Caernarfon i ddychwelyd i'w dref enedigol; ac yno y dechreuodd bregethu, tua'r fl. 1833. Traddododd ei bregeth gyntaf yn y gymdeithas eglwysig; ac yna mewn amaethdy yn y gymmydogaeth. Rhoddwyd ef ar blan y gylchdaith, a daeth i lanw cylch rheolaidd pregethwr lleol. Yr oedd sir Fôn yn un gylchdaith ar y pryd, yn cael gofalu am dani gan dri o weinidogion. Yn nghyfarfod chwarterol mis Mawrth, yn y fl. 1837, cymmeradwywyd y pregethwr ieuangc fel ymgeisydd am waith y weinidogaeth; ac yn nghyfarfod talaethol Mai, y flwyddyn hono, a gynnaliwyd yn Abermaw, yr oedd efe yn un o bedwar a dderbyniodd gymmeradwyaeth, allan o bump. Derbyniwyd ef gan y gynnadledd fel ymgeisydd teilwng.

Gan fod y rhengau yn llawnion, ac heb alwad am chwanegiad yn rhif y gweinidogion yn y cyfnod hwn, yr oedd yn rhaid aros wrth amgylchiadau. Yn gynnar yn y fl. 1838, aeth Mr. Morris yn bregethwr cyflogedig ar gylchdaith Llangollen. Bu hwn yn faes ei lafur am dair blynedd a hanner. Yr oedd yn cyd-lafurio â'r Parchn. Humphrey Jones (2), Henry Wilcox, a William Owen. Dilynwyd ei weinidogaeth yn y cyfnod hwn âg arddeliad mawr. Bu yn offeryn yn llaw yr Arglwydd i ddychwelyd eneidiau lawer. Cyrchai tyrfaoedd mawrion i'w wrandaw, gan ei ddilyn o le i le.

Yn nghynnadledd y fl. 1841, galwyd ef allan i waith rheolaidd y weinidogaeth, a phennodwyd ef ar gylchdaith Dolgellau a'r Abermaw. Yn mhen dwy flynedd, pennodwyd ef ar gylchdaith Bangor. Ar derfyn dwy flynedd o lafur yn y gylchdaith hon, derbyniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn y gynnadledd a gynnaliwyd yn Leeds, pan yr oedd y Parch. Jacob Stanley yn llywydd, a'r Parch. Robert Newton yn ysgrifenydd.

Ar ol hyn, pennodwyd ef i lafurio ar y cylchdeithiau canlynol:—Wyddgrug, 1845; Corwen, 1847; Treffynnon, 1849; Llanrwst, 1851; Llanasa, 1854; Abergele, 1857; Llanfaircaereinion, 1860; Dinbych, 1863; Manceinion, 1866; Conwy, 1869; Wyddgrug, 1871; Liverpool (Shaw street), 1874; Bangor, 1877; a Dinbych, 1880. Yn y fl. 1881, o herwydd gwendid a nychdod, rhoddwyd ef ar restr yr uwchrifiaid. Ond parhaodd i lafurio yn ol ei allu trwy bregethu yn y gylchdaith, ac allan o honi, hyd fisoedd cyntaf y fl. 1888. Pregethodd am y tro olaf yn nghapel Pen-dref, Dinbych, bum wythnos cyn ei farwolaeth, ar y geiriau, 'Nid oes ond megys cam rhyngom fi ac angeu.' Ni chyfyngwyd ef i'w wely ond am o ddeutu tair wythnos. Nodweddid yr holl dymmor gan dawelwch a siriolddeb crefyddol. Yr oedd ei ffydd yn gadarn yn y Gwaredwr, a'i feddwl yn sefydlog ar bethau byd ysbrydol. Os nad yn arddangos llawenydd a gorfoledd, yr oedd yn gallu dyweyd, 'Yr awr hon y gollyngi dy was mewn tangnefedd.' Ar ymweliad brawd yn y weinidogaeth, dywedai, 'Yma yr ydwyf, yn disgwyl am yr alwad. Nis gallaf wasanaethu fy Ngwaredwr yr ochr yma bellach; ac nid oes genyf ond disgwyl am drwydded i'r ochr arall.' Dywedai yn fynych,

'Am fyn'd adref, &c.,
Mae fy enaid nos a dydd.'

Ei hoff emyn yn ei ddyddiau olaf ydoedd eiddo Dafydd Ddu Eryri, ar y 'Nefol fro.' Sibrydai

Digitized by Google

ef o hyd, yn enwedig y llinell—'Digonedd, heb ddigoni byth.' Pan y gofynodd ei briod iddo a oedd ganddo rywbeth neillduol i'w ddyweyd wrthi, ei atteb oedd, 'Dim ond i chwi barhau i fyw i Iesu Grist.' Y Sabbath olaf y bu fyw, disgwyliai yn bryderus am yr alwad, a dywedai wrth ei ferch ei fod yn clywed sŵn y cerbyd yn dyfod. Daeth o'r diwedd, a chafodd ollyngdod tangnefeddus am saith o'r gloch y boreu, Ebrill 30ain, 1888, yn 75ain ml. oed, ac yn y 47ain ml. o'i weinidogaeth.

Yr oedd yn ddyn â chryn lawer o wahanfodaeth yn perthyn iddo. Yr oedd efe felly yn ei berson. Tynai sylw ar yr heol. Meddai ymddangosiad ac osgedd urddasol. Byddai bob amser yn drwsiadus a glanwedd. Meddai feddwl clir a chryf. Yr oedd yn ddarllenwr cysson a rheolaidd. Cyfyngodd ei hun bron yn llwyr at dduwinyddiaeth. Pregethu oedd gorchwyl mawr ei fywyd; ac ymfoddlonodd ar gylch o efrydiaeth oedd yn ei wasanaethu yn uniongyrchol fel pregethwr. Yr oedd yn hynod o ymroddedig i ddarparu ar gyfer y pulpud. Nid oedd yn foddlawn i dderbyn ymweliadau ar y Sadwrn, gan mor awyddus ydoedd i barotoi ei hun ar gyfer ei waith dranoeth.

Yr oedd yn allu mawr yn y pulpud. Yma yr oedd ei orsedd. Meddai ffordd lwyddiannus i dynu sylw at fater y bregeth, ac i gyfleu y mater mewn ffordd ddyddorol i bawb. Dilynai yr arddull ymddiddanol. Gofynai gwestiynau, ac attebai hwy, nes llwyddo i ddwyn gwirioneddau mawr crefydd i gyrhaedd amgyffrediad yr eiddilaf o'i wrandawyr. Ar ol yr egluro a'r sefydlu, gwasgai y gwirioneddau adref at y gydwybod a'r galon gyda nerth mawr. Cyfodai y llifddôr, a gollyngai allan y fath lifeiriant o hyawdledd nes cludo ei gynnulleidfa i'w ganlyn. Byddai ganddo flodeuyn a pherlyn wedi ei gymmeryd oddi wrth yr awdwr yma, a'r pregethwr arall, i brydferthu yr olygfa; adroddai hanesyn cyffrous yn cyfleu rhyw addysg bwysig, nes symmud y gynnulleidfa i deimladau angerddol. Yr oedd ei lais yn soniarus ac ystwyth, ac o dan lywodraeth lwyr. Byddai ei ysbryd ef ei hun wedi ei wresogi a'i danio gan ei fater. Dygai bob peth i wasanaethu er cyrhaedd un amcan mawr; sef, gogoneddu Duw yn iachawdwriaeth dynion. Y diwedd fyddai dwyn eneidiau i lefain am drugaredd, ac i ffoi at y Gwaredwr am ddiogelwch. Peth cyffredin iawn yn y cyfeillachau crefyddol, ar hyd a lled y wlad, ydoedd clywed un ac arall yn cydnabod mai gweinidogaeth Mr. Morris fu yn foddion eu dychweliad.

Ond gyda bod yn bregethwr nerthol a llwyddiannus, yr oedd yn weinidog da i Iesu Grist mewn cyfeiriadau eraill. Gofalai am i bob peth gael ei wneyd yn 'weddaidd, ac mewn trefn.' Deallai y natur ddynol yn dda, a gwyddai pa fodd i'w harwain a'i rheoleiddio. Yr oedd efe yn gyfrwys fel y sarph, ac yn ddiniwed fel y golomen. Rhoddai gysgod i'r anllythyrenog, y gwan, a'r diniwed; ond yr oedd yn wrol fel llew yn erbyn pechod a llygredigaeth. Gochelodd lawer o flinderau, a thawelodd lawer ystorm gyda'r dull medrus oedd ganddo i drin y natur ddynol. Dygai fawr sêl dros ffurflywodraeth eglwysig ei enwad, a byddai yn ffyddlawn i'w gweithio allan. Pan yn teithio ar gylchdaith Treffynnon, o'r fl. 1849 i'r fl. 1851, cafodd ei brofi hyd yr eithaf. Y pryd hyny, yr oedd cyffro mawr Everett, Dunn, a Griffiths yn ysgwyd ac yn rhwygo y cyfundeb. Yr oedd rhai o arweinwyr yr achos yn y gylchdaith wedi eu hud-ddenu gan yr aflonyddwyr hyny, ac yn gwasgar dylanwad niweidiol ar yr eglwysi. Y Parch. William Owen oedd arolygwr y gylchdaith, ac o dan y cyfrifoldeb mwyaf. Ni bu dyn glanach ei galon, na phurach ei amcanion. Ond yr oedd ei iechyd yn nychlyd, a'i deimladau mor dyner, fel nad allai ymgynnal o dan y cyffro, heb ymollwng. Daeth y baich i orphwys bron yn llwyr ar Mr. Morris. Dangosodd ddyspwylledd a gwroldeb canmoladwy. Achubodd y gylchdaith rhag cael ei harwain i ddinystr. Ni chollwyd neb ond y rhai yr ydoedd yn drugaredd i'r achos gael ymwared oddi wrthynt; a diogelwyd y rhai syml a diniwed oedd mewn perygl o gael eu hud-ddenu gan gam-ddarluniadau a brâd. Rhoddwyd prawf ar ei nerth ar achlysuron eraill gydag achosion personol a lleol; ond helynt y *Reformer* yn nghylchdaith Treffynnon oedd ystorm fawr ei fywyd. Daliodd ei afael yn y llyw er gwaethaf y ddrychin, a dygodd y llong yn ddiogel i'r hafan er yr holl donau a'r sugndraethau.

Ni bu chwaith yn ddi-ymdrech gyda phethau allanol yr achos. Efe a fu y prif symmudydd gyda chodi Capel Salem, Dinbych; a llwyddodd i gael capeli newyddion yn Nghoedllai a Threuddyn, yn nghylchdaith Wyddgrug. Yn ei amser ef yr adeiladwyd Capel Bootle, ger Liverpool; a Hirael, yn Bangor, hefyd.

Ychydig a fu ei gynnyrchion trwy y wasg. Tra yn ddyn ieuangc, ar gylchdaith Llangollen, cymmhellwyd ef i draddodi pregeth ar ammodolrwydd parhâd y saint; ac ar ol ei thraddodi, i'w chyhoeddi trwy y wasg. Cydsyniodd â'r cais; ond bu yn achlysur brwydr boeth a pharhaol. Ni bu hyny yn foddhaol ganddo. Er yn dwyn mawr sêl dros athrawiaethau ei enwad, ac yn barod i'w hamddiffyn mewn ffordd anrhydeddus, etto yr oedd yn wrthwynebol hollol i ymgecraeth annoeth ac ofer. Gall fod a fynai hyn gryn lawer â'i gadw rhag ymddangos trwy y wasg ar ol hyny. Yr unig gynnyrch arall a ymddangosodd, hyd y gwyddys, oedd pregeth o'i eiddo yn *Mhregethau yr Uwchrifiaid*, a gyhoeddwyd gan Mr. Adam Evans, Machynlleth.

MIALL, EDWARD. Apostol mawr Cydraddoldeb Crefyddol oedd efe; ac un o gefnogwyr cyntaf a phenaf y symmudiad o blaid Dadsefydliad yr Eglwys Sefydledig. Ganwyd ef yn Portsmouth, Mai 8fed, 1809. Yr oedd ei dad, Moses Miall, yn cario masnach yn mlaen yn y dref. Tra yr oedd Edward etto yn fachgen, symmudodd ei rieni i Lundain, gan ymsefydlu gyntaf yn Hammersmith; ac wedi hyny mewn rhan mwy gogleddol o'r ddinas. Rhoddwyd addysg dda i Edward; a bu am amser yn dilyn galwedigaeth ysgolfeistr. Yn 1828, derbyniwyd ef i mewn i Goleg Duwinyddol Wymondley—coleg a sefydlwyd i'r amcan o ddwyn dynion ieuaingc i fyny i'r weinidogaeth yn nghyfundeb yr Annibynwyr. Cyn iddo orphen y cwrs athrofäol arferol o bum mlynedd, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Ware, yn sir Hertford. Cymmerodd hyn le yn Chwefror, 1831, pan yr oedd efe yn 22ain oed. Derbyniodd yr alwad; ac yn uniongyrchol wedi ei sefydliad yno, priododd Miss Louisa Holmes, merch hynaf Mr. Edward Holmes, o Clay Hill, ger Llundain. Yn 1834, symmudodd i Leicester, fel gweinidog Capel Bond street. Tra yno y dechreuodd efe arddangos ei bleidgarwch i'r symmudiad mawr

Digitized by Google

a phwysig yn mhlaid Cydraddoldeb Crefyddol. Yr oedd efe, erbyn hyn, wedi ennill lle uchel yn mysg gweinidogion ei enwad. Fel pregethwr, yr oedd ganddo ddylanwad mawr ar ei wrandawyr. Trwy ei resymeg gref ac eglur, appeliai mewn modd neillduol at y deall, tra yr effeithiai ei ddifrifwch ar eu calonau. Ac er nad oedd efe etto ond ieuangc, fel gweinidog, ni phetrusodd gymmeryd mantais ar ei sefyllfa i ddangos yr anghyfiawnder o gyssylltu Eglwys Crist â'r wladwriaeth, ac i ddangos hefyd fod y cyssylltiad hwn yn groes i ysbryd Cristionogaeth, fel yr ymddengys yn y Testament Newydd.

Yn 1839, traddodwyd un John Thorogood i garchar Chelmsford, am wrthod talu y Dreth Eglwys—lle y cadwyd ef am ddwy flynedd. Yn 1840, bwriwyd William Baines, o Leicester—aelod o gynnulleidfa Mr. Miall—i garchar Leicester am drosedd cyffelyb. Parodd hyn gyffro byw trwy dref Leicester. Galwyd cyfarfod cyhoeddus ynghyd i'r amcan o wrthdystio yn erbyn yr ormes hon, a achosid gan berthynas yr Eglwys â'r wladwriaeth. Yr oedd Mr. Miall yn mysg y siaradwyr pennodedig; ac yr oedd ei anerchiad ar yr achlysur hwnw megys càdfloedd i Ymneillduwyr Prydain i wregysu eu lwynau ar gyfer y frwydr fawr yn erbyn Eglwys Wladwriaethol. Erbyn hyn, yr oedd efe wedi dyfod i'r casgliad anorfod mai y gwaith mawr i ba un y galwyd ef ydoedd, pregethu efengyl Cydraddoldeb Crefyddol, ac nid cyfyngu ei dalent yn unig i'r fugeiliaeth eglwysig. Dyma un o benderfyniadau pwysicaf ei fywyd; ac nid ammhriodol fyddai i ni roddi ei reswm yma, yn ei eiriau ei hun, dros roddi y fugeiliaeth yn Leicester i fyny:—

'Other claims have pressed, and with no little force, upon my conscience, and my heart. The degraded position of the Church of Christ in these realms has, for some years past, been to me a matter of anxious concern. Her forced union with the powers of this world defaces her beauty, cripples her energy, misrepresents her character, and does dishonour unto her Lord. Christianity —God's best and noblest gift to men—is converted into a mere political engine. . . . I believe that, in the eye of Christ, this connexion between the Church and the State is adulterous, and most offensive— . . . and a tremendous obstacle to the progress of divine truth.'

Wedi sylwi yn helaethach ar y drygioni hwn o gyssylltu yr Eglwys â'r wladwriaeth, a'r angenrheidrwydd am i rywun ddyfod i'r maes gyda'r amcan neillduol o dori y cyssylltiad, y mae efe yn myned yn mlaen i ddyweyd:—

'To bring about a change of view and feeling in reference to this subject, the periodical press appears, in the first instance, to be the most likely instrument. . . . . . Honestly and earnestly wielded, I believe its influence would prove most salutary and extensive. It would, I trust, open the way to more direct, and serious, and combined effort for the accomplishment of the Church's liberation. An opportunity seems unexpectedly to present itself to me of employing to this end, and through this medium, whatever talent I possess. Gladly would I see the post occupied by one better qualified than myself to ensure success. But I feel deeply impressed with the conviction, that in all solemnity, and in a spirit of devout dependence upon God, *some-one* ought to enter upon this work; and although to do so efficiently, renders it necessary for me to quit the pastoral office, I feel *that* to be no degradation whilst I am to serve the universal church. In the absence, therefore, at the present moment, of one in all respects qualified, and at the same time willing to devote himself to this object, I am ready to offer myself—and have been induced to say to our Lord in reference to this errand 'Here am I; send me!'

Dyna reswm Mr. Miall dros roddi i fyny gwaith uniongyrchol y fugeiliaeth. Torodd ei gyssylltiad âg Eglwys Leicester yn mhen y flwyddyn; ac yna symmudodd i Lundain i ymbarotoi ar gyfer y gorchwyl mawr y penderfynodd ymgymmeryd âg ef.

Y cam cyntaf a gymmerodd efe yn y frwydr oedd sefydlu, gyda boneddigion eraill, y *Nonconformist*—newyddiadur wythnosol cyhoeddedig yn Llundain i bleidio achos, ac i gefnogi egwyddorion Cydraddoldeb Crefyddol. Teithiodd lawer i'r amcan o gael gan bersonau cyfrifol ymuno â'r anturiaeth, a chyfranu yr arian angenrheidiol i gychwyn y newyddiadur. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf ar Ebrill 14eg, 1841; ac yn hwnw rhoddwyd lle amlwg i achos William Baines, yr hwn oedd ar y pryd yn parhau yn garcharor yn Leicester, am wrthod talu y dreth uchod. Golygid y newyddiadur gan Mr. Miall ei hun; ac yn ei erthygl arweiniol gyntaf, gosododd i lawr y llinellau ar ba rai y cerid ef yn mlaen, gan annog yr Ymneillduwyr trwy'r deyrnas i ymrestru dan y faner, a gweithio yn egnïol a phenderfynol i sicrhau y fendith fawr yr oeddynt yn ymawyddu am dani; sef, dadsefydliad Eglwys Loegr oddi wrth y wladwriaeth. Parhaodd Mr. Miall yn olygydd cyfrifol y newyddiadur a enwyd am agos i ddeugain mlynedd; a chadwodd i fyny ei safon uchel fel prif organ yr Ymneillduwyr y tu hwnt i Glawdd Offa. Cyhoeddwyd llawer o'r erthyglau a ysgrifenwyd iddo gan Mr. Miall ar faterion eglwysig mewn llyfr, dan y teitl *The Nonconformist Sketch-Book*. Yn chwanegol at hyn oll, byddai yn pregethu yn fynych ar y Sabbothau.

Yn y blynyddoedd 1841—42, cymmerodd ran flaenllaw yn nghyffro y Siartiaid; a phan yr oedd y wlad yn ymddangos ar fin chwyldroad, daeth allan mewn modd neillduol fel pleidiwr rhyddid gwladol, yn gystal a rhyddid crefyddol. Ei ymgais penaf oedd dwyn y dosbarthiadau canol a'r dosbarthiadau isaf, i gymmod â'u gilydd ar y prif bwynt yn Mreintlen y Bobl; sef, estyniad yr etholfraint i lawer mwy o ddeiliaid y deyrnas. Efe a ysgrifenodd lawer o erthyglau i'r *Nonconformist* er dwyn hyn o amgylch; y rhai a ad-argraphwyd ac a ledaenwyd trwy bob rhan o'r deyrnas. Daeth y *Nonconformist* allan yn nerthol iawn hefyd yn mhlaid y symmudiad er diddymu Treth yr Yd; ac mewn cynnadledd bwysig a gynnaliwyd yn Birmingham, yn Ebrill, 1842, yn mha un yr oedd prif arweinwyr y Siartiaid yn bresennol, cyttunwyd ar bleidlais unfrydol o ddiolchgarwch i Mr. Miall am yr hyn a wnaeth yn mhlaid hyrwyddiant eu hegwyddorion; ac yn enwedig felly, dros ëangiad yr etholfraint.

Yn ystod y flwyddyn 1843, cafwyd arwyddion digamsyniol fod deffroad gwleidyddol yn cymmeryd lle yn mysg Ymneillduwyr y deyrnas; yr hyn a ddygwyd o amgylch, i raddau pell, gan ei ysgrifeniadau ef. Cymmerodd dau ddigwyddiad pwysig le i ddwysbau yr ymddeffroad hwn; sef, ymadawiad o fwy na phum cant o weinidogion â'r Eglwys Sefydledig yn Ysgotland; ac hefyd, y ffurfiad o Eglwys Rydd Ysgotland.

Yr oedd Mr. Miall, ac amryw eraill o brif Ymneillduwyr y deyrnas, yn teimlo, erbyn hyn, fod angen am ryw gymdeithas effeithiol i gadw

Digitized by Google

yn fyw y teimlad hwn o elyniaeth i'r egwyddor a'r ffaith o Eglwys Sefydledig yn y deyrnas hon. Ar y 30ain o Ebrill, 1844, ymgyfarfu saith gant o genhadon mewn cynnadledd yn Llundain i ystyried y cwestiwn, ac i ffurfio eu hunain yn gymdeithas, amcan yr hon fyddai rhyddhau crefydd yn y Deyrnas Gyfunol oddi wrth bob ymyriad gwladol a deddfwriaethol. Cyttunodd y gynnadledd y dylid ffurfio y gymdeithas; a galwyd hi, ar y cyntaf, *The British Anti-State-Church Association* (y Gymdeithas Frytanaidd wrthwynebol i Eglwys Sefydledig). Yn mhen blynyddoedd, cyttunwyd ar enw byrach; a daeth i gael ei hadnabod wrth yr enw *The Liberation Society* (Cymdeithas Rhyddhâd Crefydd); ac felly y gelwir hi yn awr.

A ganlyn sydd grynhöad o gyfansoddiad y gymdeithas, fel y penderfynwyd arno yn y gynnadledd a enwyd uchod:—

I. Bod cymdeithas yn awr yn cael ei ffurfio o dan yr enw—'*The British Anti-State Church Association.*'

II. Bod y gymdeithas hon yn cael ei sylfaenu ar yr egwyddorion canlynol:—Mewn mater o grefydd, mai i Dduw yn unig y mae dyn yn gyfrifol: fod deddfwriaeth o bob math ar ran llywodraethau bydol mewn achosion o grefydd yn drais ar hawliau dyn, ac yn ddifriad ar briodoliaethau Duw; a bod cymmhwyso adnoddau y wladwriaeth trwy ddeddf tuag at gynnaliad unrhyw ffurf neu ffurfiau o addoliad, ac addysg grefyddol, yn groes i reswm, yn elyniaethus i ryddid, ac yn hollol wrthwynebol i natur Cristionogaeth.

III. Mai amcan y gymdeithas fydd rhyddhau crefydd oddi wrth unrhyw ymyriad deddfwriaethol neu lywodraethol.

IV. Bod yr amcan hwn i'w geisio trwy foddion cyfreithlawn, heddychol, a Christionogol; a thrwy y cyfryw foddion yn unig.

V. Bod pob person a gydsynia â'r egwyddor ar yr hon y mae y gymdeithas hon yn seiliedig, ac a gyfrana swm heb fod yn llai na swllt yn y flwyddyn at ei thrysorfa gyffredinol, yn agored i gael ei dderbyn fel aelod.

VI. Bod swyddogion y gymdeithas yn gynnwysedig o drysorydd a thri ysgrifenydd, tri archwiliwr, cynghor o bum cant, a phwyllgor gweithiol yn rhifo hanner cant o aelodau.

VII. Bod i'r oll o'r swyddogion, am y tro cyntaf, gael eu hethol gan y gynnadledd bresennol.

Yr oedd Mr. Miall yn un o'r tri ysgrifenydd; a dechreuodd y gymdeithas ar ei gwaith yn ddioed. Un o'r pethau cyntaf a wrthwynebodd hi oedd ymgais y llywodraeth i chwanegu gwaddol Coleg Pabaidd Maynooth, yn yr Iwerddon. Bu yr helynt hwn dan sylw y wlad am gryn amser yn ystod y fl. 1845; a gwnaeth y gymdeithas, a Mr. Miall yn enwedig, ran fawr er gorchfygu bwriadau y llywodraeth.

Yn ystod haf y fl. 1845, penderfynodd pwyllgor y gymdeithas wneuthur a allent i gael hanner dwsin, o leiaf, o aelodau i Dŷ y Cyffredin, i gynnrychioli yr egwyddorion y brwydrai hi drostynt. Yn ol y penderfyniad hwn, daeth Mr. Miall allan fel ymgeisydd Radicalaidd dros Southwark, yn erbyn Syr Wm. Molesworth, yr ymgeisydd Rhyddfrydig; ond gorchfygwyd ef. Yn 1847, gwahoddwyd ef i ymgeisio am gynnrychiolaeth Halifax. Gorchfygwyd ef drachefn —a hyny yn benaf o herwydd rhwyg yn y blaid. Pa fodd bynag, llwyddodd yr Anghydffurfwyr mewn etholaethau eraill i ddychwelyd amryw aelodau; ac yn y senedd newydd, yr oedd ganddynt dros 60ain o aelodau:—a'r oll o honynt yn benderfynol o wrthwynebu pob ymgais a wneid i ëangu dylanwad crefydd sefydledig yn y wlad. Yn y cyfamser, yr oedd Mr. Miall yn brysur gyda'r gwaith o bregethu efengyl Cydraddoldeb Crefyddol yn Lloegr, Cymru, ac Ysgotland. Hyd ei etholiad i'r senedd, yn 1852, dros Rochdale, parhaodd i gario ei ddyledswyddau golygyddol yn mlaen, ac i anerch preswylwyr y wlad ar y pwngc mawr oedd mor agos at ei galon. Yn y blynyddoedd 1849, 1850, ac 1851, nid aeth un mis heibio na byddai efe ar daith yn rhywle yn anerch cyfarfodydd cyhoeddus; ac er mai gyda gwaith yr *Anti-State Church Association* yr ymdrechai efe fwyaf, gwnai lawer i hyrwyddo pob symmudiad cyhoeddus arall a farnai efe oedd er daioni. Er enghraifft, yr oedd efe yn un o'r rhai fu yn siarad yn Paris yn 1849, ac yn Frankfort yn 1850, o blaid heddwch rhwng y gwledydd a'u gilydd. Yr oedd efe yn coleddu atgasedd at ryfel lawn mor gryf ag y teimlai John Bright ei hun.

Dechreuodd Mr. Miall ar ei yrfa seneddol yn 1852, fel aelod Rhyddfrydig dros Rochdale. Yr oedd yn wybyddus y pryd hwnw fod dadgyssylltiad yr Eglwys, a chymmhwysiad ei heiddo at amcanion cenedlaethol, yn brif erthygl yn ei gredo. Ond er mor eithafol oedd efe, cafodd fwyafrif o 154, allan o 904 o bleidleisiau. Tua diwedd y flwyddyn hono, cyhoeddodd ei *Bases of Belief*—cyfrol a ysgrifenwyd ganddo i wrthweithio dylanwad cyfrolau eraill oedd yn dwyn y teitl *Phases of Faith*, a *Nemesis of Faith*. Un o'r dadleuon seneddol y cymmerodd efe ran ynddi gyntaf oedd, y ddadl ar Fesur Prifysgol Rhydychain, yr hwn a ddygwyd ger bron gan Arglwydd John Russell. Nid oedd yn y mesur un ddarpariaeth ar gyfer addysg Anghydffurfwyr yn y brifysgol; a galwodd Mr. Miall sylw mewn modd neillduol at y diffyg hwn. Pan yr oedd y mesur mewn pwyllgor, cynnygiodd Mr. Heywood adran yn ffafr diddymu y llwon, &c. Cariwyd y cynnygiad yn erbyn y llywodraeth trwy fwyafrif o 91; a chwanegwyd yr adran at y mesur, a chariwyd ef felly trwy Dŷ yr Arglwyddi.

Dyma fel y sicrhäwyd rhyddid i Anghydffurfwyr i dderbyn eu haddysg yn Rhydychain. Cafwyd prawf, yn fuan wedi hyn, fod Anghydffurfiaeth yn ennill nerth yn Nhŷ y Cyffredin. Daeth Syr William Clay â'i fesur yn mlaen yn ffafr diddymiad y Dreth Eglwys. Pasiwyd ail ddarlleniad y mesur trwy fwyafrif o 28, mewn Tŷ a rifai 400 o aelodau.

Yn senedd-dymmhorau 1853, 1854, ac 1855, cymmerodd Mr. Miall ran flaenllaw yn nadleuon y Tŷ ar gwestiynau Eglwysig; a darfu i'w bresennoldeb yn y senedd, ei lafur gyda Chymdeithas Rhyddhâd Crefydd, a'i ddyledswyddau golygyddol, effeithio yn niweidiol ar sefyllfa ei iechyd. Aeth i Switzerland am ychydig wythnosau, a chafodd adgyfnerthiad.

Ar y 27ain o Fai, 1856, cynnygiodd Mr. Miall benderfyniad yn Nhŷ y Cyffredin o blaid Dadsefydlu yr Eglwys Wyddelig. Yr unig achlysur ar ba un y gwnaed cynnygiad cyffelyb yn flaenorol oedd yn y fl. 1845, pan y cynnygiodd Mr. Sharman Crawford welliant ar Ddeddf Gwaddol Coleg Maynooth. Siaradodd Mr. Miall am ddwy awr ar y pwngc; a chymmerodd ymdrafodaeth fywiog le ar y penderfyniad. Yn yr ymraniad, collwyd ef trwy fwyafrif o 163 yn erbyn 93. Creodd y ddadl hon gryn ddyddordeb yn y wlad o berthynas i Ddadgyssylltiad. Er ei fod wedi ei orchfygu yn Nhŷ y Cyffredin,

Digitized by Google

gwnaeth Mr. Miall wasanaeth ammhrisiadwy i achos Rhyddid Crefyddol trwy y cynnygiad uchod a gyflwynwyd i sylw y Tŷ.

Yn 1857, gorchfygwyd llywodraeth Arglwydd Palmerston; a dadgorphorwyd y senedd. Yn yr etholiad cyffredinol a ddilynodd, collodd Mr. Miall ei sedd dros Rochdale. Disgynodd tynged gyffelyb i ran y Meistri Cobden, a Bright, a Milner Gibson, a Rhyddfrydwyr tanbaid eraill—yn benaf o herwydd eu gwrthwynebiad i Ryfel y Crimea; ond gwelir, erbyn hyn, yn eglur mai hwy oedd ar yr iawn. Modd bynag, yr oedd canlyniadau cyffredinol yr etholiad yn gyfryw fel y chwanegwyd 36 at nifer plaid Cydraddoldeb Crefyddol yn y senedd. Llwyddodd y Mri. Cobden a Bright i ad-ennill seddau yn y Tŷ; ond er iddo ef ddyfod allan dros Tavistock a Banbury, aflwyddiannus fu ymdrech Mr. Miall. O'r fl. 1858 hyd 1861—cyfnod o dair blynedd—gwasanaethai Mr. Miall fel aelod o'r Ddirprwyaeth Frenhinol ar Addysg. Yn 1862, cyflwynwyd y swm o 5,000*p.* iddo yn y Freemasons' Hall, yn Llundain, fel cydnabyddiaeth o'i lafur gydag achos Rhyddhâd Crefydd; ond yn fwyaf neillduol, fel cydnabyddiaeth o'i ymdrechion gyda'r gymdeithas. Siaradwyd yn uchel am gymmeriad a llafur Mr. Miall ar yr achlysur hwnw gan Mr. John Bright.

Gyda golwg ar y cyfnewidiadau oedd yn debyg o gymmeryd lle yn y cynnrychiolaethau seneddol, fel canlyniad y Mesur Diwygiadol, yr hwn gwestiwn oedd o flaen y senedd yn 1866, penderfynodd Cymdeithas Rhyddhâd Crefydd i gynnal cyfres o gynnadleddau yn Ngogledd a Deheudir Cymru, gyda'r bwriad o sicrhau cynnrychiolaeth briodol yn y senedd i lais mwyafrif mawr y genedl Gymreig ar y cwestiwn o Gydraddoldeb Crefyddol, a materion pwysig eraill. Ar y pryd, nid oedd cymmaint ag un Anghydffurfiwr yn cynnrychioli etholaeth Gymreig; tra yr oedd tua hanner yr aelodau seneddol yn Doriaid rhongc. Ymwelodd Mr. Miall, yn cael ei ddilyn gan Mr. Henry Richard a Mr. J. Carvell Williams, â Chymru yn nechreu y flwyddyn 1866; ac ni chollodd Mr. Miall y cyfle i annog ein cydwladwyr i anfon Mr. H. Richard i'r senedd. Yn ystod yr ymweliad hwn, llwyddodd Mr. Miall i argyhoeddi trigolion yr hen wlad mai arnynt hwy eu hunain yr oedd y bai fod eu cynnrychiolaeth yn meddiant ysweiniaid Saesnig, &c.; a chafodd ei areithiau effaith neillduol er peri i'r genedl ymddeffro i'w chyfrifoldeb. Ni ddylid priodoli yr effaith hwn ond mewn rhan i ymweliad y boneddigion uchod â'r Hen Wlad, gan fod amryw o'r Cymry wedi bod yn dadleu yr egwyddorion hyn er's blynyddoedd trwy y wasg ac ar y llwyfan; ac wedi llwyddo i oleuo meddyliau y trigolion ar y cwestiwn. Rhwng y cwbl, fodd bynag, addfedwyd teimlad y wlad erbyn yr etholiad dilynol.

Yn Mawrth, 1869, etholwyd ef yn aelod seneddol dros Bradford; a chyflwynwyd iddo werth 600*p.* o lyfrau gan ferched y gynnrychiolaeth, fel arwydd o'u parch tuag ato, a'u hedmygedd o hono. Cafodd groesaw cynnes ar ei ail ymddangosiad yn y Tŷ fel aelod:—yn fwy arbenig felly, o bossibl, am fod Mr. Gladstone, ar y pryd, yn cario ei fesur er dadgyssylltu yr Eglwys Wyddelig yn llwyddiannus trwy y senedd. Tua diwedd senedd-dymmor 1870, rhoddodd Mr. Miall rybudd o'i fwriad i geisio troi y Tŷ yn bwyllgor, fel ag i osod ger ei fron benderfyniadau yn mhlaid Dadgyssylltiad yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr; ac yn ngwanwyn 1871, cynnaliwyd cyfarfodydd yn Bradford, Manchester, Leicester, Llundain, a lleoedd eraill, i gefnogi y penderfyniad bwriadedig, ac i gyffroi y wlad i'w hymdeimlad o bwysigrwydd y gwaith oedd mewn golwg. Agorwyd y ddadl hon am bump o'r gloch nos Fawrth, Mai 9fed; ac mewn araeth lawn o resymeg, a llawn o dân, gosododd Mr. Miall ei resymau dros ddadgyssylltu yr Eglwys yn Lloegr ger bron y Tŷ. Cefnogwyd ef gan Mr. Henry Richard, a Mr. Leatham, ac amryw o Radicaliaid eraill. Gwrthwynebwyd y cynnygiad gan Mr. Gladstone, Syr Roundell Palmer (Arglwydd Selborne ar ol hyny), Mr. Disraeli, a Mr. Bruce (Arglwydd Aberdâr ar ol hyny). Cymmerodd yr ymraniad le am un o'r gloch yn y boreu, gyda'r canlyniad hwn:—Pleidleisiodd 89 dros y cynnygiad; a 374 yn ei erbyn. Dygodd Mr. Gladstone a Mr. Disraeli y dystiolaeth uchaf i araeth Mr. Miall ar yr achlysur hwn; a thalwyd gwarogaeth gyffelyb iddo, hefyd, gan wasg y deyrnas yn gyffredinol. Gwnaed ymdrech tebyg i sicrhau ymdrafodaeth ar y cwestiwn yn 1872 ac 1873. Y ffigyrau yn y tymmhorau hyny oeddynt fel y canlyn:—yn 1872—dros, 96; yn erbyn, 295. Yn 1873, nid oedd ond 61ain o blaid y cynnygiad. Y rheswm am y lleihâd hwn yn nifer ei gefnogwyr oedd i'r ymraniad gymmeryd lle yn annisgwyliadwy, pan yr oedd llawer o'r rhai a fwriadent ei gefnogi yn absennol o'r Tŷ. Mr. Miall oedd y prif symmudydd yn nhrafodaethau y tri sessiwn a enwyd; ac efe, yn mhob achos, a gynnygiodd y penderfyniadau.

Tua diwedd sessiwn 1873, mewn canlyniad i sefyllfa anfoddhaol ei iechyd, efe a wnaeth ei fwriad yn hysbys i ymddiswyddo o gynnrychiolaeth Bradford. Gwnaeth amlygiad o hyn yn mhen ychydig fisoedd wedi iddo dderbyn y swm o ddeng mil o bunnau (10,000*p.*), a gyflwynwyd iddo gan nifer o'i gyfeillion, fel cydnabyddiaeth o'i lafur fel golygydd y *Nonconformist*, ac o'i ymdrechion seneddol o blaid yr egwyddor fawr o Gydraddoldeb Crefyddol. Yr oedd yr ysbryd yn barod i chwaneg o waith, ond y cnawd yn wan; a phan gymmerodd yr etholiad cyffredinol le, nid oedd efe mwyach ar y maes fel ymgeisydd.

Y dadganiad gwleidyddol olaf a gyhoeddodd Mr. Miall oedd y papur galluog a ddarllenwyd ganddo ger bron cynnadledd yn Manchester, yn mis Tachwedd, 1874, ar 'Agweddau Cenedlaethol Dadsefydliad a Dadwaddoliad.' Yr oedd sefyllfa ei iechyd, erbyn hyn, yn peri pryder mawr iddo, ac i'w berthynasau a'i gyfeillion; a bu i farwolaeth Mrs. Miall, yn Ionawr, 1876, ei wanychu yn fwy fyth. Ar yr 8fed o Fai, 1879—dathliad dydd gŵyl ei enedigaeth—ymwelodd nifer o'i gyfeillion âg ef, i'w anrhegu âg anerchiad llongyfarchiadol. Yn mysg y cyfeillion hyn, gellir enwi Mr. John Bright, A.S.; Mr. Henry Richard, A.S.; Mr. J. Carvell Williams; Mr. H. R. Ellington, a Mr. Robert Kell:—yr oll yn weithwyr difefl dros yr achos mawr a wnaeth Mr. Miall yn brif amcan ei fywyd.

Bu y gŵr anrhydeddus hwn farw Ebrill 28ain, 1881, yn 72ain mlwydd oed; a chladdwyd ei weddillion yn mynwent Honor Oak. Traddodwyd anerchiad campus ar yr achlysur gan Mr. Henry Richard, A.S.

## MULLER, GEORGE — A'I GARTREFI.

Gŵr yw efe sydd wedi cyrhaedd enwogrwydd

Digitized by Google

mawr ac adnabyddus trwy holl Ewrop, ac mewn rhanau eraill o'r byd, fel sefydlydd Cartrefi yr Amddifaid, yn Ashleydown, Bryste. Ganwyd ef ger llaw Halherstadt, yn Prwssia, Medi 27ain, 1805. Tra yr oedd yn myfyrio ar gyfer y weinidogaeth, dechreuodd fyw bywyd afradlawn; a phan yn un-ar-bymtheg oed, anfonwyd ef i garchar am dwyllo gwesttywr. Wedi ei ryddhâd, aeth i Halle, i efrydu duwinyddiaeth; a thra yno, cafodd dröedigaeth mewn cyfarfod gweddi. Daeth drosodd i Lundain yn y fl. 1829; a bu yn efrydu gwahanol ieithoedd, gyda'r bwriad o fyned allan fel cenhadwr at yr Iuddewon. Ond ymsefydlodd yn Teignmouth fel gweinidog i Gapel Ebenezer. Tra yno, diddymodd y casgliadau rheolaidd a wneid, gan ddibynu ar roddion gwirfoddol yn unig.

Yr hyn sydd fwyaf dyddorol a gwir ryfedd ynglŷn â hanes Mr. Müller yw y gwaith mawr a gyflawnwyd, ac a gyflawnir yn awr ganddo, ynglŷn â'r Cartrefi a nodwyd uchod, a sefydlwyd ganddo ar gyfer plant amddifaid; a'r moddion rhyfedd y dibyna efe arnynt am eu cynnaliaeth. Dechreuodd sefydlu y Cartrefi hyn mor bell yn ol a'r fl. 1836, yn Ashleydown, yn agos i dref Bryste, neu Bristol. O fewn terfynau bychain y dechreuodd efe; ond y mae y Cartrefi erbyn hyn yn cynnwys pump o adeiladau mawr, ëang, a chyfleus:—traul adeiladu a dodrefnu pa rai a gyrhaeddodd y swm o 115,000*p.* Y maent yn ddigon ëang i gartrefu 2,050 o blant ar yr un adeg; ac y mae ganddo 112 ynddynt sydd yn ei gynnorthwyo gyda'r gwaith.

Yn ei adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd yn 1894, dywed Mr. Müller fod y swm o 1,341,826*p.* wedi eu derbyn at gynnaliaeth y Cartrefi er eu sefydliad cyntaf. Dysgwyd cynnifer a thros chwech ugain mil (120,438) o blant i fyny yn ysgolion y sefydliad.

Cafodd y nifer a ganlyn o lyfrau eu gwasgaru hefyd ganddo:—Beiblau, 268,110; Testamentau, 1,409,842; Llyfr y Salmau, 21,092; a 217,599 o ranau eraill yr Ysgrythyrau, mewn llawer o ieithoedd. Cyhoeddwyd o lyfrau eraill hefyd, a phamphledau, y nifer anferth o 103,335,248. Heb law hyny, neillduir rhyw gymmaint yn flynyddol o drysorfa y sefydliad at gynnaliaeth cenhadon. Gwariwyd ar yr amcan hwn, a thuag at gynnal yr Ysgol Genhadol a berthyna i'r sefydliad, 3,355*p.* y flwyddyn ddiweddaf yn unig; a chymmaint a 245,109*p.* er sefydliad cyntaf y Cartrefi. Y mae 9,076 o blant amddifaid wedi derbyn cartref yn y sefydliad er ei gychwyniad. Y flwyddyn ddiweddaf, cymmerwyd 349 i mewn o newydd; ac yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf, cymmerwyd 639 i mewn.

Y mae Mr. Müller yn eithriad i bawb, yn mron, y clywsom ei hanes gyda golwg ar gynnaliaeth ei sefydliad mawr. Yr egwyddor fawr ar yr hon y dygir y gwaith yn mlaen ganddo ydyw hon:—mai wrth Dduw, ac wrtho ef yn unig, y disgwylia am yr arian fydd yn angenrheidiol, a phob bendithion tymmhorol eraill fydd yn ofynol yn y sefydliad, yn gystal a bendithion ysbrydol. Nid oes neb yn casglu un amser, nac mewn un modd, at draul y sefydliadau hyn - nac yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol. Mewn geiriau eraill, ni wneir cais at neb dynol am gymmhorth arianol tuag at eu cynnal. Wrth Dduw—ac wrtho ef yn unig—y dywed efe pa beth sydd arno eu heisieu—ac y mae yn eu cael yn rhyfedd! Y mae arian, bwydydd, a gwisgoedd yn dylifo yno o bob rhan o'r byd, ac oddi wrth bersonau hefyd na chlywodd efe erioed eu henwau. Rhoddir yma hanes derbyniadau am ychydig ddyddiau yn Rhagfyr, 1893, er dangos pa mor amrywiol yw yr hyn a dderbyniodd:—

'Rhag. 16eg—Oddi wrth wneuthurwr nwyddau o Gaerodor, 25*p.* Oddi wrth amryw gyfranwyr o Penarth, 6*p.* 19*s.* 4*c.* Rhagfyr 18fed—oddi wrth dad, mam, a merch, 18*p.* 15*s.* 0*c.* Rhagfyr 20fed—oddi wrth fasnachdy yn Caerodor, 16eg o hanner-flychau o *raisins* Valencia, 3 blwch o *currants*, ac 16eg o sacheidiau o flawd. O Fishponds, 10*p.*, gyda 10*p.* i Mrs. Muller a fy hun. O Barc Tyndall, oddi wrth blentyn amddifad a fu yn y sefydliad, 5*p.* Derbyniwyd 2*p.* oddi wrth Amddifad, gyda'r llythyr canlynol:—'Anwyl Syr,—A fyddwch mor garedig a derbyn y rhodd fechan amgauedig—punt oddi wrth fy anwyl briod tuag at y treuliau cyffredinol, a phunt oddi wrthyf finnau, i'r amddifaid anwyl, fel rhodd Nadolig fechan, gan fy mod yn gwybod fel y maent hwy yn mwynhau y pethau da chwanegol a ddarperir ar eu cyfer yn y tymmor hwn. Y mae yn awr saith mlynedd ar hugain er pan y gadewais i eich Cartref anwyl—lle y derbyniais gymmaint o garedigrwydd anwylaidd, a hyfforddiant da, gyda'r fath ddysgeidiaeth i'm harwain yn y ffordd gywir nas gallaf byth eu hanghofio. Yr wyf yn caru y Cartref gymmaint ag erioed, er nad oes ynddo yn awr ond ychydig o bersonau a allent fy nghofio i. Y mae yn llawenydd mawr i mi gael deall eich bod mewn iechyd mor dda, ac wedi cael y pleser o'ch clywed yn pregethu yn ddiweddar yn Nghapel yr Undeb. Gan obeithio y bydd i'r Arglwydd eich bendithio yn helaeth yn y tymmor hwn, yr arosaf, Anwyl syr, yr eiddoch yn barchus, ——.' Heddyw, derbyniwyd pedwar o fechgyn bychain, yr ieuangaf o honynt yn faban—dim ond deng mis oed.'

Derbynia bob rhôdd wirfoddol gyda diolchgarwch; ac ystyrir y cyfryw rôdd fel attebiad uniongyrchol i weddi. Dwywaith yn unig, yn nghwrs cyfnod maith o agos i drigain mlynedd, y cafwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyllidol fod y treuliau yn fwy na'r derbyniadau. Gan eithrio y ddwy flynedd hyn, y mae y derbyniadau wedi bod bob amser yn fwy na'r treuliadau; ac y mae hyn, yn marn Mr. Müller ei hun, yn profi fod Duw yn gofalu am danynt mewn modd arbenig.

Y mae y gymdeithas a elwir yn *China Inland Mission* yn gweithio ar egwyddorion cyffelyb.

Yr oedd dan ofal Mr. Müller, a'i gynnorthwywyr, y flwyddyn ddiweddaf yn unig, gynnifer a 1,950 o blant amddifaid; ac y mae y gôst flynyddol o'u cadw tua 36,000*p.* Heb law dilladu a darparu ymborth i'r plant hyn, gwneir ymdrech neillduol i'w dysgu yn egwyddorion crefydd, ac i ddwyn goleuni yr efengyl i ddylanwadu ar eu meddyliau. Dysgir galwedigaethau buddiol iddynt hefyd; fel y maent yn cael eu cymmhwyso yn naturiol, yn gystal ag yn ysbrydol, ar gyfer gyrfa eu bywyd. Nid oes neb a all fynegu gwerth sefydliad mor fendigedig a hwn; ac y mae pob dydd o oes Mr. Müller yn brawf sicr fod Duw yn wrandäwr gweddi. Os oes neb yn ammheu hyn, darllened hanes y dyn rhyfedd hwn, a'i sefydliadau, am y deugain mlynedd diweddaf.

Y mae Mr. Müller wedi cyhoeddi llyfr, yn dwyn y teitl—*A Narrative of some of the Lord's Dealings with George Müller*, yn yr hwn y ceir llawer o hanes bywyd yr awdwr, a'i Gartrefi.

Digitized by Google

MATTHEWS, Y PARCH. EDWARD, o Eweni. Un o bregethwyr mwyaf adnabyddus ac athrylithgar y pulpud Methodistaidd yn Nghymru oedd efe, a anwyd yn y ganrif hon. Ganwyd ef yn mhentref Sant Athan, ar lan Sianel Bristol. Mab oedd i ŵr o'r enw Thomas Alexander Matthews, ac Anne ei wraig; ac efe oedd yr ieuangaf o chwech o blant. Yr oedd ei dad yn hanu o un o deuluoedd mwyaf parchus a chyfoethog y fro; a bu ei hynafiaid yn berchenogion ar lawer o diroedd yn y Deheu. Un o achau ei deulu ef oedd Syr David Matthew, banerwr Iorwerth IV. Un arall ydoedd William Matthew, o'r Radyr; yr hwn a wnaed yn farchog ar faes Bosworth gan Iarll Richmond, yn y fl. 1485. Ac un o'r un cyff, hefyd, ydoedd yr enwog '*Father* Matthew'—apostol mawr dirwest yn yr Iwerddon.

Bu Mrs. Matthews farw pan nad oedd Edward namyn tair blwydd oed; ond yr oedd ganddo adgof dda am dani er hyny. Yn 1821, gwerthodd ei dad ei holl feddiannau, ac ymfudodd i'r America; a chymmerodd dri o'r plant gydag ef. Arosodd y tri eraill yn yr Hen Wlad; ac yr oedd Edward yn un o honynt. Efe a gymmerodd ei gartref gyda modryb iddo yn Penmarc—lle o ddeutu dwy filldir o St. Athan; a bu hi iddo megys mam cyhyd ag yr arosodd o dan ei chronglwyd. Yn y cyfnod hwn ar ei yrfa yr oedd efe yn nodedig o sylwgar a chraff gyda phob peth. Nid oedd dim yn diangc ei sylw; a mynai wybod y 'pa ham, a'r pa fodd,' a'r amcan, hefyd, oedd i bob peth. Tra yr oedd gyda'i fodryb, elai i ysgol y pentref yn gysson, ac i'r moddion crefyddol ar y Sabbath yn hen gapel Aberthawen. Yno, meddir, y derbyniwyd ef, a'i frawd, Thomas, i'r eglwys; a'r gweinidog a gafodd y fraint hono oedd yr hen William Thomas, wedi hyny o Gaerdydd—gŵr call, hyf, a phenderfynol.

Pan yn bymtheng mlwydd oed, ymadawodd Edward â'i fodryb yn Mhenmarc; ac aeth at Thomas, ei frawd, i Hirwaen—lle yr oedd efe wedi ymsefydlu er's peth amser. Bu am dymmor byr yn gyru ceffylau ei frawd, y rhai a ddefnyddid i gludo mŵn a glô. Yn ol tystiolaeth ei frawd, nid oedd Edward yn 'gwneyd gwerth ei halen' gyda'r gorchwyl hwn.

Pan yr oedd yn 17eg oed, dygwyd ei achos o flaen yr eglwys; ac wedi hyny ger bron y cyfarfod misol, fel ymgeisydd am y weinidogaeth. Yn mysg y rhai a anfonid gan y cyfarfod misol i ymddiddan âg ef, yr oedd yr hybarch William Evans, o Don-yr-Efail. Holodd Mr. Evans ef yn galed; ac yr oedd yn amlwg oddi wrth dôn ei lais, a'i wynebpryd, ei fod yn siomedig yn yr ymgeisydd ieuangc. Bu yn ddigon gwrol i ddyweyd yn y cyfarfod misol nad oedd efe yn gweled dim neillduol yn y 'bachgen Edward Matthews, o Hirwaen; ond teg ydyw hysbysu (meddai) fod gan y dynion goreu a challaf yn y lle feddwl mawr o hono.' 'Oes,' ebai Mr. William Bevan, un o flaenoriaid Hirwaen, 'y mae genym feddwl mawr o hono; ac y mae can sicred o ddyfod yn bregethwr mawr a bod Tabor yn y mynyddoedd, a Charmel yn y môr.' Cafodd y brophwydoliaeth hon ei gwirio i'r llythyren; ac nid hir y bu efe cyn argyhoeddi y Parch. W. Evans, a holl Gymru, ei fod yn meddu ar athrylith wirioneddol uchel a chref. Llawer gwaith wedi hyny y darfu i Mr. Matthews adgofio Mr. Evans, yn ei ddull chwareus ei hun, am ei gamsyniad ar y noson hono ynglŷn â'r 'dyn ieuangc o Hirwaen;' a mynych y crefodd yntau am ei faddeuant flynyddoedd ar ol hyny, pan yr oedd ei dalentau a'i ddefnyddioldeb mawr wedi dyfod yn eglur i bawb.

Yn 1833, symmudodd Mr. Matthews o Hirwaen i Benllin; a gwnaeth ei gartref gyda gwraig o'r enw Mrs. Truman, cyfnither ei dad; a thua diwedd 1843, priodwyd hwy â'u gilydd. Yn 1841, ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn Nghymmanfa Llangeitho; ac yn Ionawr, 1843, aeth i Athrofa Trefecca i fwynhau ei manteision. Ond nid arosodd efe yno ond tua chwe mis; yna, dychwelodd i Benllin. Yn y lle bychan a di-nôd hwn y dringodd y bachgen o Hirwaen i fod yn bregethwr y cyfarfodydd misol, y cymmanfaoedd, ac uchel-ŵyliau y cyfundeb: ac nid oedd neb yn sir Forganwg, nac yn wir yn Neheudir Cymru, oddi gerth Mr. Evans, Ton-yr-Efail, yn fwy poblogaidd gan y cynnulleidfaoedd na 'Matthews, Penllin.'

Tra yr oedd efe yno, hefyd, y gwnaeth iddo ei hun enw fel awdwr; o blegid dyna'r lle y cyfansoddodd y llyfr poblogaidd a difyrus hwnw—*Bywyd Siencyn Penhydd.* Nid gormod ydyw dyweyd nad oes un llyfr arall mwy disgrifiadol a difyr na'r llyfr hwnw yn yr iaith Gymraeg. Ysgrifenodd lawer, y blynyddoedd hyny, hefyd i'r *Gwron*—newyddiadur a gyhoeddwyd yn Mhontfaen gan y diweddar Barch. Josiah Thomas Jones.

Yn 1849, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Penuel, Pont-y-pridd; yr hon a dderbyniodd—a bu yno am ysbaid tair blynedd. Yna, symmudodd i Eweni—lle bychan o ddeutu dwy filldir o Ben-y-bont-ar-Ogwy—lle y bu fyw am tua deng mlynedd. Yn yr Eweni y cyhoeddodd bregethau y Parch. Morgan Howell, o Dredegar, a bywgraphiad y Parch. Thomas Richards, o Abergwaun. O Eweni, efe a symmudodd i Canton, Caerdydd; a threuliodd yno dair blynedd ar ddeg hynod ddedwydd. Dyma y cyfnod dedwyddaf, o bossibl, o'i holl oes. Bu wedi hyny am dymmor yn Bonvilstone, yr hwn a saif hanner y ffordd rhwng Caerdydd â Phontfaen. Ac oddi yno, efe a symmudodd i Ben-y-bont; lle y bu ei wraig gyntaf farw—yr hyn a fu yn brofedigaeth chwerw iddo. Yn mhen o ddeutu blwyddyn wedi hyny, efe a briododd Mrs. Williams, Tŷ Maen, Pîl; a symmudodd yno ati i fyw. Ei symmudiad nesaf, a'r olaf, ydoedd i'w dŷ newydd ei hun—Bryneglwys; ac oddi yno, esgynodd ei enaid mawr pur i ogoniant, foreu Sadwrn, Tachwedd 26ain, 1892. Claddwyd ef yn mynwent eglwys newydd Pen-y-bont—yr hon sydd ar gyfer ei dŷ—y dydd Mercher canlynol. Claddwyd ef, yn ol ei ddymuniad olaf, yn hollol breifat.

Ni a roddwn yma ddisgrifiad o Mr. Matthews o ran ei ymddangosiad corphorol, ei ddull o siarad, a'i ystum yn y pulpud, &c., wedi ei ysgrifenu gan y diweddar Barch. J. Wyndham Lewis, o Gaerfyrddin; ac yna o'i 'Nodweddion Meddyliol,' o anerchiad a draddodwyd gan y Parch. Dr. Cynddylan Jones, Caerdydd:—

O ran taldra, yr oedd o ddeutu pum troedfedd a naw modfedd—yn tueddu at fod yn gorphol—ac o wneuthuriad cryf a chadarn. Yr oedd ei ben yn un o'r rhai mwyaf a welsom, ac o'r un ffurf a phen yr athrylithgar John Foster. Tyfai ei wallt—gwallt llwyd-oleu—yn hytrach yn isel, fel nad oedd ond hanner ei dalcen yn y golwg. Aeliau ysgeifn; llygaid gleision, tawel,



Digitized by Google

a myfyrgar oedd ganddo; ond anaml y byddai yn eu hagor yn llawn. Yr oedd raid i'w enaid gael ei gynnhyrfu gan ryw ddrychfeddwl mawr a gogoneddus cyn y gwnai efe hyny. Gwyneb llydan, llyfn, heb gymmaint a blewyn arno, oddi eithr ychydig yn lled uchel ar y cernau. Dyna oedd yr arferiad pan y dechreuodd efe eillio, a glynodd wrth y ffasiwn hon hyd ddydd ei farwolaeth.

Genau cymmedrol oedd ganddo, o ran lled—o ddeutu hanner lled genau Dr. Owen Thomas, er esampl. Genau bloeddiwr, yn hytrach na siaradwr llithrig a hyawdl, oedd ei enau. Pan wenai, gwelid ei fod wedi ei fendithio â rhes o ddannedd bychain glân, o'r un maintioli; ac yr oeddynt mor wŷnion a'r ifori. Clywsom ef ei hun lawer gwaith yn dyweyd mai gan y Parch. Thomas Richards, o Abergwaun, y gwelodd y dannedd glanaf. Gan na welsom Mr. Richards, nis gallwn ddyweyd dim am ei ddannedd, na dim arall; ond yr ydym yn meddwl na welsom ni erioed ddannedd a genau prydferthach, os mor brydferth, ag oedd gan Mr. Matthews. Cerddai yn drwm ac yn araf, â'i ben yn hytrach yn ymestyn yn mlaen, gan syllu ar bob gwrthddrych, a phob golygfa, ar y dde ac ar yr aswy. Ar ol blino ar wrthddrychau a golygfeydd y ddaear, edrychai i fyny i'r nefoedd gwmpasog a gogoneddus uwch ben. Safai yn syth yn y pulpud pan yn darllen yr emyn a'r bennod, a thra yn gweddïo, ac ar hyd y bregeth. Ymaflai, naill ai yn un o gloriau y llyfr hymnau a'r Beibl, gan eu hongian; neu tröai y cloriau yn eu gwrthol. Hyn oedd y rheswm fod llawer yn gosod Beibl a llyfr hymnau mwy cyffredin ar y pulpud ar y Sabbath pan y byddai Mr. Matthews yn digwydd pregethu yn y lle. Darllenai y bennod yn araf iawn—ond yn ryfeddol o naturiol a dyddorol. Yr oedd y bennod a'r emynau yn myned yn fyw dan ei ddwylaw; ac yr oedd llygaid pawb oedd yn bresennol yn craffu arno.

Yr ydym yn cofio yn dda, y Sabbath cyntaf y gwelsom ni ef yn cerdded i'r capel, ac yn sefyll yn y pulpud. Yr ydym yn cofio hefyd ddau o'r emynau a roddodd efe allan yn odfa y boreu. Yr oeddym wedi clywed cymmaint o sôn am 'Matthews, Penllin,' fel yr oedd ein hawydd am ei weled, a'i wrandaw yn pregethu, yn angerddol. Nid ydym yn meddwl fod awydd Luther am weled dinas Rhufain, a'r Vatican, yn gryfach na'n hawydd ni am weled y Parch. Edward Matthews. Yr wythnos gyntaf yn mis Gorphenaf, 1853, clywsom ei fod i bregethu y Sabbath canlynol yn nghapel y Gopa, yn Pontardulais—lle o ddeutu pedair milldir o'n cartref—Casllychwr. Penderfynasom ni, a llangc arall o'r un oed, a llawn mor awyddus i'w wrandaw, i fyned yno y Sabbath hwnw. Cyrhaeddasom y Gopa o ddeutu naw o'r gloch; a chan fod yn y capel gyfarfod gweddi, ni a aethom i mewn rhag blaen. Yr oedd yn gweddïo, pan aethom i fewn, un a fuasai yn gweithio ychydig cyn hyny dan ein tad; ac efe oedd yr unig un a adwaenem yn y lle. Pan orphenwyd y cyfarfod gweddi, aethom ni a'n cyfaill, a'r brawd fu yn gweddïo, allan i wylio y pregethwr enwog yn dyfod i'r capel. Am ddeng munyd i ddeg, wele 'ŵr Duw' yn dyfod i'r golwg o gyfeiriad Dantwyn. Aeth i mewn am funyd neu ddau i'r tŷ capel: yna, daeth allan, gan gyfeirio ei gamrau tua'r brif fynedfa, lle y safem ni a'n cyfeillion. Aeth heibio, a dilynasom ninnau yn ol ei draed hyd ddrws y capel. Yna trodd efe ar y dde i'r pulpud, a ninnau ar y chwith i'r oriel; ac eisteddasom yn nghôr y cantorion, ar ei gyfer. Pan darawodd yr awrlais ddeg, efe a gododd yn hamddenol, gan ymaflyd yn y llyfr hymnau yn y modd a ddisgrifiwyd eisoes genym, a darllenodd emyn nad oeddym ni wedi ei glywed erioed o'r blaen. Wele yr emyn :—

'O flaen y drugareddfa fawr,
Yn trengu wrth dy draed i lawr,
Gwel y pechadur duaf gaed
Yn brefu am rinweddau 'th waed.'

Y geiriau a bwysleisiai oeddynt, 'drugareddfa fawr,' 'trengu,' 'pechadur duaf,' a 'brefu am rinweddau'th waed.' Yr oedd y rhan fwyaf o'r gynnulleidfa yn gyfarwydd yn y bennod a ddarllenodd; sef, pennod yr adgyfodiad. Ond y mae yn rhaid i ni ddyweyd na chlywsom neb yn ei darllen yr un fath. Y mae yr acen (acen Morganwg), y pwyslais, a'r oslef, mor *fresh* ar ein clustiau a phe buasai y digwyddiad wedi cymmeryd lle y flwyddyn ddiweddaf. Ond fel y gwêl y darllenydd, y mae er hyny ddeugain mlynedd! Ar ol darllen y bennod, gweddïodd yn dawel ac yn ymddiddanol. Tarawyd ni yn fawr gan symledd y weddi, a chan rai ymadroddion na chlywsom neb, o hyny hyd heddyw, yn defnyddio eu bath. Yr oedd y weddi, fel y gweddïwr, yn un hynod. A ganlyn ydynt rai o'r ymadroddion a'n tarawodd :—'Wele ni yn ceisio dyfod atat—y Duw mawr! Nis gallwn fyw hebot, ac nis gallwn mwyach fyw heb weddïo. Ni a geisiasom wneyd hyny; ond yr ydym wedi methu. Os ydym yn gwneyd yn rhy hyf arnat, arnat ti y mae y bai; o blegid fuasem ni byth yn meddwl troi ein gwynebau atat oni bae dy fod ti wedi ein cymmhell, a gosod yn ein henaid syched am danat. Y mae ein hysbryd yn dyheu am Dduw—am y Duw byw. Amlyga dy hun y boreu hwn. Os gwnei di hyny, bydd raid i ni fyn'd o'r golwg; ac yr ydym yn meddwl ein bod yn foddlawn myn'd o'r golwg, ond i ti dd'od i'r golwg. Dadguddia y byd mawr tragwyddol, a'i sylweddau gogoneddus, i'r bobl sydd yn dy ŵydd; a dwg ni oll i ymddiried yn dawel dan gysgod dy adenydd mawrion llydain.'

Un pennill yn unig a roddodd efe allan i'w ganu cyn y bregeth; ac yr oedd hwnw, drachefn, yn un nad oeddym ni wedi digwydd ei glywed o'r blaen. Y pennill hwnw oedd :—

'Fe gân 'tifeddion gras
Yn beraidd maes o law,
Wrth weled boddi 'r Aipht,
A hwythau 'r ochr draw:
Fy enaid, hêd i ben y bryn,
I wel'd y gongcwest ryfedd hyn.'

Ei destyn y boreu oedd :—'Os yn y byd yma yn unig y gobeithiwn yn Nghrist, truanaf o'r holl ddynion ydym ni.' Ac yn yr hwyr :—'Canys yr ymadrodd am y groes i'r rhai colledig, ynfydrwydd yw; eithr i ni, y rhai cadwedig, nerth Duw ydyw.' Cawsom ein boddhau yn ddirfawr y boreu a'r hwyr. Sabbath nad ä byth yn anghof ydoedd. Ond yr ydym wedi synu llawer ar ol hyny na chawsem un neu ddwy o'i floeddiadau mawr, oedd yn cario y cwbl o'u blaen. Ond ni chawsom gymmaint ag un! Byddai yn pregethu yn fynych heb floeddio dim. Ffrwyth teimlad angerddol oedd y floedd bob amser.

Casäai Mr. Matthews bob ffug, a phob ymgais at ymddangos; a dirmygai o waelod ei galon y

Digitized by Google

pregethwyr hyny sydd yn pregethu, &c., yn beiriannol *(mechanical)*; neu, a defnyddio ei air neillduol ef ei hun yn y cyssylltiad hwn, y rhai sydd yn 'pregethu fel *machines*.' Rhoddai bwys neillduol, hefyd, ar fod pob peth yn cael ei wneyd gan bregethwr yn answyddogol. Un o'r pethau mwyaf anhawdd, fe allai i bregethwr, ydyw ymddiosg o'i ddillad, ac ymryddhau oddi wrth y teimlad swyddogol, a chyflawni ei ddyledswyddau fel dynion cyffredin eraill. Y rhai sydd lawnaf o'r teimlad hwn, y teimlad swyddogol ac offeiriadol *(priestly)*, ydyw y pellaf, o angenrheidrwydd, oddi wrth y werinbobl, a'r mwyaf amddifaid o galon i gydymdeimlo â hwynt yn mhrofedigaethau bywyd.

Er fod bywyd Mr. Matthews wedi bod yn llawn o waith a gorchestion, fe allai mai un o'i brif orchestion oedd casglu Cronfa Coleg Trefecca, a'r miloedd a gasglodd wedi hyny at y Capel Coffadwriaethol:—Capel Howel Harris. Derbyniodd lawn cymmaint o addewidion ag a gafodd y Parch. Edward Morgan at Goleg y Bala; ond rhagorai Mr. Morgan arno fel trefnydd. Fe allai, hefyd, i'r brodyr yn y weinidogaeth fod yn ffyddlonach i Mr. Morgan, ac yn fwy parod i'w gynnorthwyo, nag a fu brodyr y De i gynnorthwyo Mr. Matthews. Ond er yr holl wrthwynebiad a gafodd, casglodd gronfa fawr at y coleg; ac y mae wedi gosod y cyfundeb o dan ddyled drom o ddiolchgarwch iddo cyhyd ag y bydd y Methodistiaid mewn bod. Cyhyd ag y byddo genym goleg, a chronfa, a chyfarfod misol, a chymmanfa, gwneir coffa parchus a chynnes am y gŵr enwog ac athrylithgar—y Parchedig Edward Matthews o'r Eweni, 'arch-gasglwr' y De.

*Ei Nodweddion Meddyliol.* — 'Moses oedd ddysgedig yn holl ddysgeidiaeth yr Aipht:'—dysgeidiaeth ëangach a godidocach nag ydym ni yn fynych yn barod i dybied. Ac am Mr. Matthews, gellir dywedyd ei fod yn ddysgedig yn holl ddysgeidiaeth Cymru yn ei oes a'i genhedlaeth. Gwir na bu efe ond chwe mis yn yr athrofa; ond yr oedd yn ddyn o wybodaeth ëang pan aeth yno, a'i glod yn yr holl eglwysi, ac yn cael ei gyhoeddi i bregethu am ddeg o'r gloch y boreu yn nghyfarfod misol Aberhonddu yn mhen mis wedi ei fynediad i'r coleg: ac y mae ei bregeth ar 'Waed y Cyfammod' yn mhlith adgofion gloewaf y rhai a gawsant y fraint o'i glywed y tro hwnw. Pob peth a fedrai hunan-wrtaith ei wneuthur mewn 30ain mlynedd—ei oedran pan yn myned i Drefecca —yr oedd wedi ei gyflawni. Cyfarwydd oedd â phob llenyddiaeth Gymreig. Saesneg oedd gynnefin iddo, o herwydd hi oedd, ac a barhaodd i raddau mawr trwy gydol ei oes, yn iaith ei aelwyd. A chyrhaeddodd feistrolaeth ddigonol ar y Groeg i fedru defnyddio i fantais esboniadau beirniadol ei ddydd. Hanesyddiaeth a llenyddiaeth gyffredinol a feddent atdyniad cryf iddo—yn enwedig barddoniaeth. Ar un ochr i'w gymmeriad, *utilitarian* eithafol ydoedd—byth a hefyd yn gofyn, 'I ba les?' 'I ba ddyben?' Ac etto, atdynid ef yn anwrthwynebol at y beirdd. Megys y tafola yr eryr yn rasusol ar ei adenydd i fyny fry yn y ffurfafen, gan gael gorphwysdra ar yr awyr deneu lem, felly derbyniai yntau adfywiad o'r beirdd Saesnig, a deilliai i'w natur adgyfnerthiad oddi wrth ehediadau y dychymyg.

'Un elfen gref yn ei gyfansoddiad, yn hydreiddio y cyfan oll, oedd *humour*—natur dda, rhadlawn, yn gyflym i weled y digrifol yn mhob peth. Natur dda—nid *jokes*; y rhai a gashäai â châs perffaith. *Jokes* a ddiraddiant y pulpud a'r pregethwr; ond y mae natur dda, yn llawn digrifwch, yn arbrawf, medd y philosophyddion, o fawredd. Dywedir fod pob dyn mawr yn ddigrifol; ac un darnodiad o *humour* yw, 'gormodedd o allu.' Os gwir hyn yna, mor fawr, mor gryf, y rhaid fod Mr. Matthews! Un adolygydd a ysgrifena, y rhaid ei fod yn efrydydd dwfn o'r natur ddynol. Camgymmeriad etto. Adnabyddai hi heb ei hefrydu. Nid wyf yn coelio iddo dreulio pum eiliad i astudio y natur ddynol—iddo erioed synio am y fath beth. Dychymyger am Shakespeare yn astudio y natur ddynol! Ha! gwyddai hi yn drwyadl heb ei hastudio. Cynghorir gweinidogion ieuaingc yn aml, mi wn, i efrydu y natur ddynol. Ond meiddiaf ddyweyd yn ddifloesgni am y gŵr a saif mewn angen am y cynghor, na ffyna efe yn ei efrydiaeth byth. Deallai Mr. Matthews y ddynoliaeth; ac nis gallai neb ddyfalu pa fodd, ac nis gallai roddi eglurhâd ei hunan. 'Nid oedd raid iddo dystiolaethu o neb iddo am ddyn, o herwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn.' Cymmerer, er enghraifft, 'Dafydd William Dafydd,' o'r *Cylchgrawn*—llwyr ymgorphoriad o'r Cristion gwladaidd Cymreig. Yn Nghymdeithasfa Pontgareg, cofiwyf i hen ŵr ddyfod at Mr. Matthews, a'i gyfarch, gan ddywedyd, 'Wel, Mr. Matthews—pa bryd y gwelsoch fy mrawd i ddiweddaf?' 'Eich brawd, am dyn—pwy yw e'?' gan edrych arno â'i lygaid main treiddgar. 'O! yr y'ch yn ei 'nabod yn burion; y mae yn byw yn Mro Morganwg—yr y'ch yn ei gwrdd yn aml yno.' 'Wel, wel, p'le y mae e'n byw, hawyr bach?' 'Yn Nhresimwn. Dafydd William Dafydd, fy mrawd—a y'ch chwi ddim yn ei 'nabod e'?' Am unwaith taflwyd Mr. Matthews yn llwyr oddi ar ei echel. Yr oedd yr hen ŵr yn hollol iawn. Ei frawd oedd Dafydd William Dafydd, a brawd i bron bob hen ddiacon yn y Deheudir ar y pryd—adwaenai ef pawb, a phawb a'i hadwaenent ef. Personoliad oedd o Gristionogaeth di-ddysg a di-goeth yr amser; ond galluog a difrifol odiaeth serch hyny. Yna, cymmerer ei fywgraphiadau o 'Siencyn Penhydd,' 'George Heycock,' ac o 'Watson'—yr hen Ysgotyn a drodd yn bregethwr Cymraeg. Ei ddisgrifiadau o'r rhai hyn ni ellir eu hystyried yn hollol hanesyddol, a siarad yn fanwl; ond cymmerodd efe hwynt, ac a'u barddonodd, gan eu gwisgo â *humour* ei grebwyll ei hun, nes fod y cymmeriadau a dŷr yr hen wŷr hyn ar ei dudalenau ef yn fwy gwirioneddol a sylweddol na'r cymmeriadau a dorent wrth droedio y ddaear galed o ddeutu Aberafon a Phen-y-bont. Mae mwy o wir yn y ffug nag yn y ffaith. Wrth ddarllen y llyfrau uchod, nid ydym yn sefyll bob amser ar waelod o wirionedd. Y dychymyg chwareus hwn a sancteiddiwyd yn ei weinidogaeth i hoelio meddwl y rhai difraw ac anystyriol, ac i gyfeirio eu traed i ffyrdd sancteiddrwydd.

'Eithr pa mor fawr a llwyddiannus bynag fel awdwr, etto fel pregethwr yr adnabyddid ef oreu yn mysg ei gyd-genedl. Ei fod yn ysgolhaig nid ydwyf yn maentumio. Nid oedd efe, na'i gyfoeswyr, yn ysgolheigion mawr. Ond gofaled y bobl ieuaingc rhag camgymmeryd ysgolheigdod am ddysgeidiaeth! Shakespeare oedd amddifad o ysgolheigdod; ond pwy faidd haeru ei fod yn ddiffygiol mewn dysgeidiaeth?

Digitized by Google

Meddylwyr mawr a fedrant ddysgeidiaeth, a hwythau heb ddysgu. Yr oedd Mr. Matthews yn ddyn dysgedig—o wybodaeth ëang, eithr yn fwy dwfn nac ehelaeth. Darllenai ddigon i fod bob amser yn meddwl:—pedwar ugain mlynedd o feddwl! Nid rhyfedd, gan hyny, ei fod mor abl i gyfranu ag i dderbyn addysg. Pa fodd y cyfansoddai ei bregethau rhyfeddol? Tarewid ef gan adnod—bron bob amser gan adnod fawr, yn llawn mêr a brasder. Saethai i mewn, a maes, o'i feddwl am ddyddiau. Yna, â chyllell lem dau finiog, trywanai hi hyd y cymmalau a'r mêr: olrheiniai y prif eiriau drwy eu holl gyssylltiadau yn yr Ysgrythyr: yna äi allan i rodianna, â'i ddwylaw ar ei gefn, gan godi ei lygaid bob yn ail funyd o'r ddaear i'r nefoedd—o blegid meddai gydymdeimlad dwfn â'r ysbrydol a'r anfeidrol. Dynion fel efe oedd y prophwydi a welent weledigaethau. Yna dychwelai, ysgrifenai; ac aml y parhäai dylifiad ei feddyliau am oriau—dylifiad grisialaidd o 'afon bur o ddwfr y bywyd.' Gwreiddiolder a befrai bron yn mhob drychfeddwl o'i eiddo. Am wreiddiolder, safai efe a'r Prifathraw David Charles Davies ar eu penau eu hunain. Y Prifathraw Davies a ddywedai wrthyf unwaith, yn fuan ar ol ymddangosiad ei lyfryn bychan ar *Ysbrydoliaeth*, fod un o'r adolygwyr yn ysgrifenu ei fod yn eglur mai meddyliwr oedd efe, ac nid darllenwr, gan nad oedd olion darllen ar ei draethawd. Y prifathraw a fwynhäai y feirniadaeth yn fawr; canys ei lygaid a belydrent fel sêr pan y sicrhäai i mi ei fod wedi darllen bron bob llyfr a allai ar yr athrawiaeth. Ond yn lle dinystrio ei wreiddiolder, fel y gwnai gyda y mwyafrif o blant dynion, yr oedd ei ddarllen ef yn ei gynnyddu. Darllenai Mr. Matthews; ac etto, nid canfyddadwy olion meddwl neb yn ei lyfrau a'i bregethau, ond yr eiddo ei hun. Enghraifft fyw ydoedd efe o'i gynghor ei hun i bregethwyr ieuaingc unwaith:—'Peidiwch gwastraffu eich amser yn y pulpud i ddangos eich dysg; o leiaf, peidiwch gwastraffu amser eich gwrandawyr. Nid wyf yn dyweyd dim yn erbyn i chwi wastraffu eich amser eich hunain i'w ddangos; ond yr hyn yr wyf fi yn ei ddywedyd ydyw, Peidiwch gwastraffu amser pobl eraill. Yna, o bossibl, ni wnewch ei ddangos o gwbl. Peidiwch, yn y pulpud, gyfeirio yn aml at yr ieithoedd gwreiddiol, ac olrhain geiriau i'w gwreiddiau. Nid *gwreiddiau* sydd ar y bobl eisieu, ond *ffrwythau*. Rhoddwch chwithau iddynt—nid gwreiddiau, ond ffrwythau.' Ac efe a fu byw ei gynghor. Cloddiasai yntau i lawr i'r gwreiddiau; er hyny, nid y gwreiddiau a ddangosai, ond y ffrwythau—y grawnsypiau melus llawn; a hen saint Morganwg a lyfent eu gwefusau, gan dystiolaethu mai gwin da y Ganaan Nefol ydoedd.

'Rhyfedd mor eglur y gwnai efe wirioneddau y Beibl i'r werin-bobl. Sŷn fel y dygai yr athrawiaethau mwyaf dyrchafedig i lawr i ddirnadaeth cyfangorph y gynnulleidfa—heb ddarostwng ei hun, na'r gwrandawyr, na'r gwirioneddau. Gallwn roddi i chwi ddegau o enghreifftiau; ond gwasanaethed un ar yr achysur hwn allan o gyfrol ar y *Pulpud Cymreig*, a gyhoeddais ychydig flynyddau yn ol. Y testyn yw, 'Gwelais yr annuwiol yn gadarn, ac yn frigog fel y lawryf gwyrdd. Er hyny, efe a aeth ymaith, ac wele, nid oedd mwy o hono; a mi a'i ceisiais, ac nid oedd i'w gael.' 'Pren llawryf hardd a dyfai ar y cyntedd agored yn y cae o flaen palasdy y boneddwr oedd hwn, wedi ymganghenu yn rhyfeddol, a'i ddail yn fytholwyrdd, nes gorfodi edmygedd pob teithiwr a elai heibio ar y ffordd fawr. Eithr, yn ddisymmwth, efe a grinodd, ac a wywodd, ac a ddadwreiddiwyd; ei le yn y pridd a lanwyd i fyny, a orchuddiwyd â'r dywarchen lâs, fel nad oes yno ond glaswellt, lle yr oedd o'r blaen goeden frigog ganghenog. Dyn o blwyf cyfagos a basiai rhyw ddiwrnod, ac a sylwai—ni allai lai na sylwi—fod ryw wahaniaeth anghyffredin yn yr *evergreens* yn ffrynt y palas; ond ni allai yn ei fyw ddyfalu beth oedd yr achos. Erys, a sylla, a chwilia. 'O! yn wir, 'rwy'n gwel'd,' meddai; 'y lawryf, y lawryf hardd, sydd wedi ei difianu. Pa beth a ddaeth o'r goeden—yr harddaf o honynt i gyd? Mi a âf, ac a'i *ceisiaf*. Yma: ïe, fan hyn y safai, 'rwy'n teimlo yn sicr: ond hawyr! nid oes yma arwydd fod pren wedi tyfu erioed—dim daear goch yn un man, dim ond glaswellt. 'Mi a'i ceisiais, ac nid oedd i'w gael.' Yr hyn oedd ddoe mor anrhydeddus—heddyw heb hanesyddiaeth. Felly y difiana yr annuwiol. 'Efe a aeth ymaith—ac wele, nid oedd mwy o hono.' Ond *sposwch* ein bod yn rhoddi tro arall am dano—y dyn oedd y dydd o'r blaen yn llanw lle mor amlwg mewn cymdeithas. Y lleoedd mwyaf tebyg i'w gael ynddynt yw y lleoedd yr arferai fynychu myned iddynt. Gadewch i ni fyned i'w gartref, i ddechreu? Na, na: nid yw i'w gael yno. Nid oedd i'w gael yn ei gartref byth. Lleoedd eraill a feddent at-dyniad cryfach iddo bob amser—na, nid yw i'w gael yn ei gartref. 'Mi a'i ceisiais yno, ac nid oedd i'w gael.' Beth am y *White Lion?* Arferai dreulio llawer o amser yn y *White Lion*. A fuoch chwi yno?' Do: mi a edrychais i bob ystafell, 'ond nid oedd mwy o hono.' 'O! yn awr, 'rwy'n cofio—yr oedd yn *hunt* fawr ddoe—yr holl sir yn cwrdd, ac arferai ef fod yn awdurdod uchel iawn ar bob mater o'r fath yna: yn sicr, yr oedd yn yr *hunt*?' 'Na: edrychais am dano, ond nis gwelais ef; ïe, 'mi a'i ceisiais, ac nid oedd i'w gael.' Pe bae ef ar lethr y mynydd, buaswn yn sicr o glywed ei gorn ef yn uwch a chliriach na'r cyrn i gyd.' Wel, wel, pa le y mae? Beth pe y rhoddem dro i chwilio am dano tua godreu y Mynyddoedd Tywyll; pwy a ŵyr na cheir ef yno yn rhywle? Hei-ho! A welsoch chwi ddyn o'n hardal ni y ffordd hyn ar daith, faesdygwydd—yr oedd yn ddyn mawr yn ein gwlad ni?' Cythraul a enfyn yr atteb yn ol mewn llais croch—'Do: fe basiodd heibio y ffordd hon, pwy wythnos. Gwelais ef yn croesi gwlad y machlud haul, ac yn ymgolli mewn cwmmwl tew a chaddug tywyll! Ar ol hyny, ni welais ef mwy!' 'Efe a aeth ymaith, ac wele, nid oedd mwy o hono; a mi a'i ceisiais, ac nid oedd i'w gael!' Hyn yna oll, yn cael ei gynnorthwyo gan bob ysgogiad, ac edrychiad, a goslef, o eiddo y pregethwr, a grëai yn y gwrandawyr y dyddordeb dyfnaf—ïe, unent oll yn yr helfa ar ol yr annuwiol: a phan ddaeth cruglais y diafol â'r newydd prudd am ei ddifianiad hwnt i wlad y machlud haul, codai ochenaid ddofn boenus o ddyfnder pob mynwes!

Gwrandawn gydag edmygedd a budd ar lawer o'r pregethwyr a fuont feirw yn ddiweddar; ond rywfodd, teimlwn bob amser nad elent y tu hwnt i'm cyrhaedd. Eu pregethau oeddynt ardderchog—mor gymmesur eu gwneuthuriad, mor orphenedig yn holl fanylion cyfansoddiad,

Digitized by Google

ac etto—maddeuwch y gwagedd—teimlwn pe y darllenaswn yr un llyfrau y darganfyddaswn yr un gwirioneddau. Ond gyda Mr. Matthews, teimlwn yn hollol i'r gwrthwyneb—gwyddwn nas gallaswn byth ddyweyd ei bethau ef: canys nid dosbarthwr mân nwyddau pobl eraill oedd efe, ond crëawdwr—gwneuthurwr ei stoc ei hun. Perthynai ryw elfen gyfriniol, annarluniadwy, i'w weinidogaeth, a'ch gorfodai i deimlo eich bod yn mhresennoldeb crebwyll creadigol o'r fath fwyaf grymus, ac na buasai unrhyw swm o fyfyrdod a darllen yn eich galluogi i wneyd yr hyn a gyflawnai efe. O'r tarawiad allan cyntaf yn y bregeth, yr oedd y meddyliau yn wreiddiol a newydd, ac etto naturiol a chartrefol. Fel y rhwyfai yn mlaen, afon ei feddyliau a ymledai ac a ymddyfnhäai, nes o'r diwedd y gwelid nad oedd iddi lanau—ei bod wedi ymagor yn fôr. Hyn yna, i mi, oedd un o gyfrinion ei gryfder —ymëangiad graddol, ond anwrthwynebol, ei bwngc, i'r Anfeidrol. Deffröai ynof bob amser yr ymwybodolrwydd o'r Anfeidrol—teimlem ein hunain yn llithro draw, draw, gyda chyflymder byth-gynnyddol, tua'r Annherfynol a'r Tragwyddol. Ni ddeffröai neb ynof fi, fel efe, y teimlad o'r Mawr, a'r Diderfyn. O'r dechreu, gwelwn bersonoliaeth, arbenigrwydd, gwreiddiolder; ond am hanner awr, neu ragor, gallaswn fesur y pellder a deithiem. Eithr yn ddisymmwth, dyna gyffröad; a gwelem y Tragwyddol, heb ffiniau na gororau iddo yn bod!—cipdrem ogoneddus a barai i ni syrthio i berlewyg lesmeiriol. Yn mhen ychydig funydau, dyna y llen etto yn cael ei symmud, ac unwaith etto gwelem Dragwyddoldeb! a'n gwynebau a lewyrchent gan adlewyrchiad ei wynder glân a'i ysblander cain. Pa fodd y symmudai y gorchudd mor chimmwth a di-rybudd, nis gallwn ddirnad. Ni allai efe ddywedyd ei hunan. O'r braidd y gwyddai ei fod yn ei wneyd o gwbl. 'Ni wyddai Moses i groen ei wyneb ef ddisgleirio.'

'Nid llawer, yn fynych, a fedrem ei ddwyn ymaith; ond dygem ymaith yr ôl, yr argraph, yr ysbrydoliaeth—ac yr oedd hyny yn rhyfeddol. Gofynais i ddyn unwaith, ar ol iddo ei wrandaw mewn cymdeithasfa—'Pa fodd y pregethodd Mr. Matthews?' 'Pregethu! gwell nag erioed—rhyfeddol!' 'Pa beth a ddywedodd?' 'Pa beth a ddywedodd!—y pethau rhyfeddaf a glywsoch erioed.' 'Wel, rhoddwch glywed beth a ddywedodd.' 'A ddywedodd! —y pethau rhyfeddaf a glywsoch erioed! Gwyn fyd na buasech yno i glywed. Rhyfedd iawn!' Cyffelyb, yn gyffredin, oedd y sylwadau ar ol ei wrandaw. Yr oedd yr argraph yn ddwfn, annilëadwy; ond pa fodd y cynnyrchwyd ef, gormod camp i neb esbonio. Ac nid rhyfedd. Yr oedd pob ffiniau wedi eu dileu, pob terfynau wedi eu symmud, pob muriau wedi eu bwrw i lawr, a phob greddf yn ein natur wedi ei deffro, yn estyn allan, ac yn ymbalfalu am yr Anfeidrol! Llawenydd a dychryn a ymgofleidient. Ni welais neb erioed yn wylo yn unig dan ei weinidogaeth—ond wylo a chwerthin yr un pryd. Gwênau a dagrau yn cyd-baentio enfys trugaredd ar gant y nefoedd—heulwen a gwlaw yn tynu bŵa y cyfammod ar y cwmmwl du. Y pregethau gofir hawddaf, nid ydynt bob amser y rhagoraf. Yr ydych yn myned i weled arddangosiad o dân gwyllt (*fireworks*). Ond pa ham? Ni dderbyniwch ddim, ac ni ddygwch ddim yn ol. Gwir:—dim ond yr argraph, ac i chwi yr argraph sydd bob peth. Yr ydych yn gweled gweledigaethau, ac yn canfod golygfeydd o brydferthwch na ddilëir yr argraphiadau byth oddi ar dafleni y côf; ac y mae un golwg teg ar y prydferth yn werthfawrusach i chwi na miloedd o aceri o dir. Rhoddodd gweinidogaeth Mr. Matthews i bobl y Deheudir weledigaethau o'r hardd, yr arddunol, a'r anweledig, nad anghofiant hwynt yn dragywydd! 'Y gwŷr ieuaingc a welent weledigaethau, a'r henafgwyr a freuddwydient freuddwydion.' Megys Moses, efe a 'ymwrolodd fel un yn gweled yr Anweledig!' a chawsai gan y bobl i ddyfal edrych tra y symmudai efe y llen;—ac yn y fan, 'hwy a welent y tir pell, a'r Brenin yn ei degwch!' O herwydd pa ham, y mae cynnhwrf yn y gwersyll, a gorfoledd mawr yn llanw y lle. Gofynwch iddynt beth a welsant —ond nid attebant i chwi air. Yr oll a fedrant wneyd yw, edrych yn wyllt, a gwaeddi 'Anhraethadwy!'

'Oddi wrth bob pwngc, gweithiai ei ffordd yn gryf at yr Hwnt, y Dwyfol, y Tragwyddol! Mewn cymdeithasfa, dalm o amser yn ol, gofynais i flaenor parchus yn ein cyfundeb—'Pwy a glywsoch yn pregethu heno?' Yntau a attebodd. 'Wel, a gawsoch chwi gyfarfod da?' 'Do: pregethodd hwn a hwn bregeth nodedig—medrus iawn a galluog; ond buasai yn dda genyf pe heb ei chlywed.' 'Pa ham?' 'Gwnaeth i mi feddwl yn îs am y Ceidwad ar y diwedd nag ar y dechreu. Mor wahanol i bregeth Mr. Matthews ar yr un pwngc!'—a'i lygaid a ddechreuasant ymloewi. 'O! gadewch i ni glywed,' ebe fi, canys gwelwn fod ei enaid wedi ei glwyfo gan y bregeth a wrandawsai; a gwyddwn hefyd fod yn mhregeth Mr. Matthews falm meddyginiaethol iddo:—'Adroddwch pa beth a ddywedodd Mr. Matthews am y dyn Crist Iesu.' 'O! nis gallwn adrodd. Ond yr wyf yn cofio y funyd yma ei fod yn portrëadu Iesu Grist fel dyn, am yn agos i awr; ac yr oedd y Ceidwad yn pritio fwy-fwy dan ei ddwylaw bob munyd. O'r diwedd, dechreuodd godi i fyny, fyny, fyny —yn uwch na dyn: ac yno yr oedd Mr. Matthews yn ymdrechu ei gadw i lawr i lefel y ddynoliaeth—yn ei wasgu i lawr. Ond i fyny y saethodd!—a Mr. Matthews yn edrych yn hanner gwallgof ar ei ol, nes iddo doddi rywsut i'r Duwdod! Rhyfeddol iawn!' 'Wel, os oedd Mr. Matthews yn ei wasgu i lawr, pwy oedd yn ei godi i fyny!' 'Wel, ïe, dyna'r pwngc! Beth wn i? Yr oedd yn codi ei hun i fyny, rywsut —ac aeth yn ddwyfol o flaen ein llygaid! Rhyfedd! Fy Arglwydd a'm Duw!' Gwyddwn fod y diacon duwiol yn awr wedi ei iachau; ac ni ddilynais y pwngc yn mhellach. I'r un cyfeiriad dwyfol yr oedd dylifiad meddyliau Mr. Matthews yn wastadol; o herwydd pa ham, yr oedd ei ddylanwad mor iachusol ag ydoedd o anorchfygol. Yn mhob pregeth, hwyliai ni allan o'r hafan—yn mhell, bell, oddi wrth y traethau—a gadawai ni i nofio ar ganol cyfanfor yr Anfeidrol!

'Nodwedd arall yn ei weinidogaeth oedd, ei fod yn trafod yr athrawiaethau hanfodol—nid yn eu hagweddau cyfnewidiol, ond mewn ffordd oedd o ddyddordeb parhaol. Cyfundrefnau a ddeuant, ac a ânt—y mae iddynt eu diwrnod, a darfyddant fel dilledyn. Ond gwirionedd a saif byth! Triniai Mr. Matthews wirioneddau —ac nid cyfundrefnau. Hyn a gyfrifa am ei newydd-deb diddiwedd. Pregethwyr eraill,

Digitized by Google

ieuangach nag efe, a dyfent yn henaidd. Yn 78ain mlwydd oed, parhäai efe mor wyrddlas a phan yn 40ain mlwydd. Yn myd duwinyddiaeth, fel yn myd masnach ac athroniaeth, ffyna yr hyn a elwir yn dònau meddwl. Anwybyddus i mi fod un pregethwr Cymraeg erioed wedi creu tôn; ond gwn fod llawer wedi eu creu ganddi. Deg ar hugain, a phymtheg ar hugain o flynyddoedd yn ol, un o'r tònau hyn a dorai dros Brydain Fawr - tòn Dylanwad Moesol yr Efengyl (*The Moral Theory of the Gospel*). Nid pregethwyr Cymreig—hyd yn oed yr enwocaf o honynt—oedd yn greawdwyr y dòn hon; eithr ei chrëadigaethau hi oeddynt. Y creawdwyr oeddynt Erskine o Linlathen, Maurice, Robertson, a Bushnell. Ein pregethwyr ieuaingc galluog y pryd hwnw a ddyrchafwyd ar ei chrib, a hwy a swynent y cynnulleidfaoedd â newydddeb a gwyrddlesni ei meddyliau. Yn raddol, ymostyngodd y dòn; ac erbyn heddyw, y mae hi wedi treulio ei nerth. Gyda threiad y dòn, trodd y newydd-deb yn wywder. Pregethwyr ag oeddynt yn wyrddlas ddeg ar hugain o flynyddoedd yn ol a heneiddiasant, o ran eu syniadau, cyn gorphen eu gweinidogaeth. Eithr, yn ffodus, y mae i ni ddosbarth arall o bregethwyr:—nid pregethwyr y dòn, ond pregethwyr y môr; y rhai a arosasant fyth yn newydd, ac o ganlyniad, yn boblogaidd. Heno, ni chaf enwi ond tri—Dr. Lewis Edwards, o'r Bala; y Prifathraw David Charles Davies, o Drefecca; ac Edward Matthews. Parhaodd y rhai hyn yn gynnyrchiol a ffrwythlawn hyd eu noswyl; o herwydd pa ham, ni syrthiodd eu poblogrwydd ymaith. Ni phregethent y dòn, eithr hwy a bregethent y môr. Fel y gwrandawn ar David Charles Davies, dymunwn fod yn fedrus (*clever*); fel y gwrandawn ar Dr. Lewis Edwards, ewyllysiwn fod yn dda; fel y gwrandawn ar Edward Matthews, boddlonwn i'r hyn y rhagluniaethai Duw i mi fod, fel clai yn llaw y crochenydd. Caiff pregethwyr y dòn eu diwrnod—yn gyffredin, diwrnod bŷr:—a'r ffurfiau yn mha rai y dangosant hwy y gwirionedd, 'fel dilledyn a heneiddiant: ac megys gwisg y plygir hwynt, a hwy a newidir.' Ond pregethwyr y môr sydd fawr—nid i un genhedlaeth, ond hyd y drydedd a'r bedwaredd! Y bregeth olaf a bregethodd Mr. Matthews yn Nhreforris a fernid gan y doethion gyda'r oreu a draddododd erioed. Ar ben Nebo, ychydig cyn dattod ei ddaearol dŷ, pan ar derfyn ei 80ain mlwydd oed, 'ni thywyllasai ei lygad, ac ni chiliasai ei ireidd-dra ef.' Byth yn ffrwythlawn—byth yn newydd! Pob parch i bregethwyr y dòn: dïau y gwasanaethant eu cenhedlaeth yn ol ewyllys Duw. Ond angen mawr Cymru yw, nid pregethwyr y dòn, ond pregethwyr y môr—dynion na heneiddia eu meddyliau; y rhai a wasanaethant, nid un, ond llawer cenhedlaeth. Ddynion ieuaingc Cymru! suddwch yn ddyfnach na'r dòn—a dynion a gyfodant i'ch galw yn wynfydedig!

'Bwriadaswn lefaru ar ochr foesol ei gymmeriad, ond amser a waharddd. Y gwirionedd sydd etto yn fyw, er fod y pregethwr wedi marw. 'A Moses, gwas yr Arglwydd, a fu farw yno, yn nhir Moab, yn ol gair yr Arglwydd.' Esbonwyr Iuddewig a hoffant aros yn gariadus uwch ben yr adnod hon. 'Yn ol gair yr Arglwydd' a feddwl, meddant hwy, yn llythyrenol —'Ar enau yr Arglwydd.' Hyny ydyw, yr Arglwydd a ddisgynodd i ben Pisgah i gyfarfod ei was oedranus, Moses, ac yno a'i cusanodd; a Moses a fu farw o 'dan gusan yr Arglwydd!' Cyffelyb oedd marw Mr. Matthews:—tawel, megys dan gusan ei Nefol Dad! Bu farw yn deg, distaw, di-dwrw, gan ddyweyd:—'Yr wyf yn gwel'd—yr wyf yn gwel'd!' Ganwaith y dywedodd, '*Y'ch chi'n gwel'd?*' O'r diwedd, dywedodd, '*Yr wyf fi'n gwel'd!*' Yr Almaenwr enwog, yn ei funydau olaf, a waeddodd, 'Goleu! goleu! mwy o oleu!'—ond ei ystafell a äi yn dywyllach, dywyllach! Y Cymro enwog, yn ei funydau olaf, a ddywedai—''Rwy'n gwel'd! 'Rwy'n gwel'd!'—a'i ystafell a äi yn oleuach, oleuach.' ''Rwy'n gwel'd! 'Rwy'n gwel'd!' Beth a welodd? Ni allwn ond dychymygu. Fel Moses, fe allai iddo weled y tir pell yn awr wedi dyfod yn agos, a'r Brenin yn ei degwch! 'Ac efe a gladdwyd mewn glŷn yn nhir Moab; ac nid edwyn neb ei fedd ef hyd y dydd hwn.'

MATTHEWS, JOHN, Aberystwyth. Ganwyd ef yn Mhen-y-bont, Wyddgrug, yn mis Mai, 1808; ac yr oedd efe yn hanu o deulu parchus a boneddigaidd. Enw ei daid oedd Edward Matthews, o'r un dref. Yr oedd efe yn ŵr o gryn ddylanwad a chymmeriad crefyddol yno; o blegid (ac y mae'n werth cofnodi y ffaith), y mae ar gael heddyw ohebiaeth a fu rhyngddo a rhai o gymdeithion yr Arglwyddes Huntingdon, yn Nhrefecca. Y mae ei feddrod i'w weled yn mynwent y Wyddgrug. Yr oedd efe o'r un enw a'i dad; yr hwn, hefyd, oedd yn enedigol o Ben-y-bont. Yr oedd efe yn flaenor cyfrifol yn sir Fflint. Tir-fesurydd ydoedd, o ran ei alwedigaeth; ac ymddengys fod gan Arglwydd Mostyn lawer o ymddiried ynddo, gan iddo ei gymmhell i ymgymmeryd âg arolygiaeth ei etifeddiaeth; ond gwrthododd Mr. Matthews hyny. Yna, symmudodd i sir Drefaldwyn, i'r Clydfanau—amaethdy sydd yn ymyl Llanidloes —a hyny pan yr oedd ei fab yn ieuangc. Yn y gymmydogaeth hon daeth y teulu i gyfeillach agos â theulu y diweddar Mr. Hugh Jones, tad-yn-nghyfraith y diweddar Dr. David Charles, Trefecca, a thad-yn-nghyfraith hefyd yr henadur adnabyddus o Fanceinion—Mr. J. F. Roberts. Daliodd Mr. Matthews hynaf ei swydd fel blaenor yn sir Drefaldwyn; ac hefyd, wedi iddo symmud drachefn i fyw i Aberystwyth; a chyflawnodd waith ei swydd yn y dref hono gyda ffyddlondeb canmoladwy. Nid oedd ganddo ddawn siarad i raddau uchel; ond yr oedd ganddo, fel ei fab, yr hyn oedd yn llawer gwell; sef, cymmeriad gloew. Gosodwyd yr argraph yn ddwfn ar feddwl pawb a'i hadwaenai ei fod yn Gristion yn wir; a chydnabyddid ef yno fel boneddwr Cristionogol. Pan yn cynghori yn y cyfarfodydd eglwysig, byddai yr hyn a lefarai bob amser yn sylweddol ac yn synwyrlawn. Yr oedd yn ŵr cyfrifol yn mhlith ei gyd-ddinasyddion; a bu yn ddirprwywr y llywodraeth o dan y *Tithe Commutation Act*.

Pan yn llangc, yn y Wyddgrug, cafodd Mr. Matthews, gwrthddrych y sylwadau hyn, gryn lawer o fanteision addysg uwchraddol. Anfonwyd ef i'r ysgol; a bu yno yn dysgu yr ieithoedd Lladin a Groeg. Yr adeg hon, daeth i gyfeillach agos â dau fardd Cymreig clodwiw; sef, Glan Alun, ac Alun. Yr oedd y cyntaf yn hoff gydymaith boreu ei oes, fel y gwelir yn *Adgofion Mebyd Glan Alun*. Yr oedd yr olaf a enwyd y pryd hwnw yn gweithio wrth ei grefft fel crydd. Arferai y llangc Matthews droi i mewn at Alun i'r gweithdy, a'r bardd a ddysgai

oddi wrth yr ysgolor ieuangc y gwersi a gawsai yn yr ysgol yn ystod y dydd; ac yn ad-daliad am y gwersi, gwnai'r bardd-grydd yswigod i godi ceryg i'w ddysgawdwr plentynaidd. Derbyniodd ei addysg yn ddilynol yn Nghaer; a bu hefyd yn Ngwrecsam, yn ysgol y Parch. John Hughes—wedi hyny o Liverpool.

Wedi symmud o'r teulu i Aberystwyth i fyw, gosodwyd John Matthews yn egwyddor-was gyda Mr. Robert Davies, yr hwn ydoedd prif fasnachwr y dref; tad y diweddar Barch. David Charles Davies, a Mr. R. J. Davies, Cwrt Mawr. Yn y blynyddoedd hyny, ac i lawr hyd ein hamser ni, tŷ enwog iawn oedd tŷ Mr. Robert Davies. Yno, fel y mae'n hysbys, y ffurfiwyd *Cyffes Ffydd* y Methodistiaid yn 1823, a thŷ Mr. Davies oedd prif gyrchfan a lletty pregethwyr y cyfundeb pan ar eu teithiau o'r Dê i'r Gogledd, neu o'r Gogledd i'r Dêheu. Pan yn egwyddorwas yn y cartref crefyddol hwn, daeth John Matthews i gyssylltiad â llawer o enwogion y Methodistiaid Calfinaidd; a bu hyn yn foddion i ddylanwadu llawer ar ei gymmeriad, ac yn fantais annhraethadwy iddo yn ei yrfa ddyfodol. Wedi cwblhau amser ei wasanaeth gyda Mr. Davies, aeth i Lundain; ac yn mhen tymmor, dychwelodd yn ol i ymsefydlu yn Aberystwyth. Trigiannai yn yr Heol Fawr—prif heol y dref. Masnachai fel llieinydd (*draper*); a bu Mr. Henry Richard yno yn egwyddor-was rywbryd tua'r blynyddoedd 1830—32. Yn y cyfnod hwn y dechreuodd Mr. Richard ar ei yrfa gyhoeddus gyntaf; ac y mae'n teilyngu coffâd mai yn traddodi anerchiad grymus ar y Genhadaeth Dramor ar nos Sabbath yn un o'r cyfarfodydd cenhadol misol a gedwir hyd heddyw yn nghapel y Tabernacl yn Aberystwyth y bu hyn. Dyma oedd ymddangosiad cyntaf y gwron enwog fel areithiwr.

Yn y fl. 1837, priododd Mr. Matthews â Miss Anne Griffith, o Langefni, yn sir Fôn; yr hon oedd wedi ymsefydlu gyda'i brawd, Mr. Griffith William Griffith, fferyllydd, yn Aberystwyth. Yr oedd Dr. Lewis Edwards, Richard Lumley, John Phillips, ar ol hyny o Fangor—a thipyn yn ddiweddarach John Jenkins, wedi hyny o Gaer—yn mhlith ei gyfeillion yn moreu ei yrfa.

Yr oedd Mr. Matthews o ymddangosiad hardd; ac yr oedd yn meddu corph lluniaidd, cymmesurol; a thynai sylw yn mhlith mil mewn unrhyw gyfarfod. Yr oedd o daldra dipyn yn fwy na'r cyffredin; ac yn niwedd ei fywyd yr oedd ei wallt a'i farf yn wŷn ganaid —yn rhoi golwg urddasol ac anrhydeddus arno.

Yr oedd yn foreu wedi ymgyssegru i fod yn wasanaethgar mewn byd ac eglwys. Ymdeimlai yn ddwfn ei bod yn ddyledswydd arno, mewn modd arbenig, i geisio gwellhau yr oes yr oedd yn byw ynddi, yn grefyddol ac yn wladol, a'i dyrchafu yn feddyliol ac yn foesol. Yr oedd y manteision a gafodd pan yn ieuangc, trwy ei addysg, a'i gymdeithas â rhai o wŷr blaenaf y genedl, yn ei gymmhwyso i fod o wasanaeth mawr yn mha gylch bynag y cawsai ei hun ynddo. Fel ei dad o'i flaen, nis gellir dyweyd am dano fod ganddo ddawn llithrig a hyawdl fel areithiwr; ond am wneyd adroddiad o unrhyw achos, a'i gyfleu yn llawn ac yn eglur ger bron cynnulleidfa, yr oedd efe yn ddigymmhar, yn mron. Yr oedd ganddo allu arbenig mewn cyfarfodydd plant. Bob boreu Sabbath, ar ol yr odfa naw o'r gloch yn nghapel y Tabernacl, arferid cynnal cyfarfodydd plant o dan yr oriel, gyferbyn a'r pulpud. Llafuriodd Mr. Matthews am flynyddoedd meithion yn y cyfarfodydd hyn; ac y mae gan rai o'r dysgyblion y pryd hyny, y rhai sydd erbyn hyn yn hen mewn dyddiau, adgofion byw o ddawn ennillgar ac adeiladol yr athraw. Bu amryw o gyfeillion yn ei gynnorthwyo; ond efe oedd prif ysgogydd a phrif ddysgawdwr y cyfarfodydd. Ond maes mawr ei ddylanwad a'i ymroddiad, yn ddilys ddigon, oedd Ysgolion Sabbothol y Tabernacl, a'r canghenau. Efe oedd arolygwr yr Ysgol Sul yn y Tabernacl pan fu farw Mr. Robert Davies; ac yn wir, rhyw ychydig cyn hyny—wedi i Mr. Davies gael ei analluogi i gyflawni y gwaith oedd ynglŷn a'r swydd. Meddai Mr. Matthews yni a sel, a phob cymmhwysder gyda'r gwaith; ac ymdaflai iddo gyda blâs a brwdfrydedd mawr. Bu yr Ysgol Sabbothol yn llwyddiannus iawn o dan ei arolygiaeth, a dangosodd graffder neillduol wrth ddwyn yn mlaen symmudiadau y sefydliad pwysig hwn. Yn ystod ei arolygiaeth, ysgrifenodd hanes gwaith a llafur yr ysgol yn y Tabernacl i Ddirprwywyr y Llywodraeth oedd ar y pryd yn edrych i mewn i ansawdd addysg yn y Dywysogaeth, ac y mae yr adroddiad i'w weled yn y Llyfr Glâs [*Reports of the Commissioners of Inquiry into the State of Education in Wales*—cyhoeddedig yn Llundain, 1847].

Tua'r fl. 1843, etholwyd Mr. Matthews yn flaenor yn y Tabernacl—yr un adeg a'r diweddar Mr. Griffith Thomas. Yr oedd yn flaenorol i hyn wedi gwneyd pob peth perthynol i'r swydd —gyda'r cyhoeddiadau, a threfnu teithiau pregethwyr, yr hyn oedd yn orchwyl pwysig iawn yn ein gwlad y dyddiau hyny; a chyflawnodd waith blaenor yn rhagorol mewn llawer cyfeiriad arall—ac yn neillduol yn y cyfarfodydd misol. Byddai bob amser yn barod; a meddai ar y ddawn werthfawr hono o siarad pan y byddai angen, a siarad hefyd ar y cwestiwn fyddai ger bron. Efe oedd cyhoeddwr y Tabernacl, a chyhoeddwr heb ei ail ydoedd. Yr oedd dewisiad unrhyw berson i'r swydd o flaenor yn y capel hwn yn yr adeg hono yn addefiad o ragoriaethau mewn llawer ystyr; o herwydd yr oedd gwir gewri yno yn y dyddiau hyny: a gallwn ddyweyd am Mr. Matthews ei fod ef i fyny, ysgwydd wrth ysgwydd, â'r uchaf o honynt; yr hyn sydd lawn cymmaint o ganmoliaeth ag a ellir roddi yn mron i unrhyw ddyn. Ennillodd iddo ei hun safle anrhydeddus hefyd fel blaenor yn y cymmanfaoedd, ac ystyrid ef yn allu ac yn ddylanwad ynddynt. Yr oedd yn ddirwestwr o'i febyd; ac ar ei fynediad allan fel gŵr cyhoeddus, yr oedd yn ëofn ac yn aiddgar dros yr egwyddor; a gwnaeth hyny a allai o blaid llwyddiant y gymdeithas. Hyd yn oed mor foreu ag 1833, pan ffurfiwyd Cymdeithas Gymmedroldeb yn Aberystwyth, daeth Mr. Matthews allan yn selog ac yn bleidgar i'w hamddiffyn. Ac wedi hyny, hefyd, pan y sefydlwyd y Gymdeithas Ddirwestol. Astudiodd lawer ar lenyddiaeth a duwinyddiaeth. Darllenodd lawer ar weithiau prif glasuron y dyddiau hyny. Yr oedd Butler, Paley, Foster, a Williams, yn mysg ei hoff awduron. Gyda chyfeillion eraill, sefydlodd gymdeithas lenyddol, a chyfarfodydd darllen, yn y Tabernacl; a bu yn gefnogol iawn iddynt. Daeth yn arweinydd yn y dref yn gynnar yn ei fywyd mewn pob peth cyssylltiedig âg achosion gwleidyddol Rhyddfrydig. Yr oedd yn 'Rhyddfrydwr hyd y carn,' fel y dywedir. Brwydrodd yn ëofn yn

Digitized by Google

erbyn y Dreth Eglwys. Efe, yn neillduol, oedd blaenor y gâd yn ei herbyn yn y cymmydogaethau. Yr oedd ei egwyddorion yn glir a diammwys ar bwngc Cydraddoldeb Crefyddol; ac yr oedd o ganlyniad yn bleidiwr cryf a selog ar ochr Cymdeithas y Dadgyssylltiad:—yr hyn a ddygodd ŵg llawer arno. Yr oedd yn drefwr a dinesydd dylanwadol a chyfrifol. Dewiswyd ef yn aelod o'r cynghor trefol. Bu yn aelod am flynyddoedd lawer; ac aeth trwy yr holl risiau, nes y dewiswyd ef yn faer y dref yn 1869. Ail ddewiswyd ef y flwyddyn ganlynol; ac yr oedd yn ei swydd pan y bu farw—yn 1870. Dywedai un cyfreithiwr craffus o'r dref fod Mr. Matthews yn mhlith y maerod goreu a welodd efe—os nad y goreu oll. Gweinyddodd y swydd gyda'r urddas a'r deheurwydd oedd yn deilwng o honi. Dangosodd fedrusrwydd mawr gydag etholiadau y bwrdeisdrefi, a'r sir—o'r adeg yr etholwyd Mr. Pryse, o Gogerddan, i lawr hyd ddyddiau Mr. Evan Matthew Richards. Bu yn flaenllaw mewn sefydlu yr Ysgol Frytanaidd yn y dref; a chynnorthwyodd Mr. Hugh Owen i sefydlu Ysgol y Mud a'r Byddar yn Aberystwyth—yr hon a symmudwyd wedi hyny i Abertawe. Bu yn cydweithio hefyd gydag ef, a Dr. Nicholas; ac wedi hyny Dr. Charles, ac eraill, i sefydlu Coleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth. Yr oedd yn flaenllaw hefyd yn amser Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth yn 1865. Bu yn arweinydd yn un o'r eisteddiadau; a chlywsom Caledfryn yn tystio mai efe oedd yr arweinydd goreu a welodd efe mewn eisteddfod erioed.

Tarawyd ef yn annisgwyliadwy gan y parlys, o dan amgylchiadau hynod ryfedd, yn mis Gorphenaf, 1870. Yr oedd ar ddiwedd odfa, nos Sabbath, yn cyhoeddi claddedigaeth hen gyfaill anwyl, yr hwn a fuasai farw yn dra disyfyd, i gymmeryd lle yr wythnos ganlynol; a phan yr oedd efe yn adrodd y geiriau hyny, '*Sudden death, sudden glory!*' daeth yr alwad ato yntau! Ac yn mhen ychydig ddyddiau, fe ehedodd ei enaid i'r gogoniant, lle yr oedd ei gyfaill wedi myned yr wythnos o'r blaen. Cafodd gladdedigaeth tywysogaidd. Gorwedda ei weddillion marwol yn mynwent Eglwys Sant Mihangel—a bydded heddwch i'w lwch!

**MAGNA CHARTA.** Enw ydyw ar y Siarter neu'r Freinlen Fawr a roddwyd gan y Brenin Ioan i'r barwniaid, yn 1215; yr hon, er y pryd hwnw, a ystyrir fel sail Cyfansoddiad Prydain Fawr. Arweiniodd trawsder ac ysbryd gormesol y brenin y barwniaid, y rhai ar y pryd a elwid yn 'brif denantiaid y Goron,' i gymmeryd arfau, gyda'r amcan o gael rhyddhâd oddi wrth yr ormes y dioddefent oddi wrthi mewn amryw ffyrdd. Wedi ymgodi fel hyn mewn math o wrthryfel yn erbyn y brenin, hawlient fod deddfau a chyfreithiau Iorwerth y Cyffeswr, a Harri y Cyntaf, yn cael eu hadnewyddu—deddfau ag oedd yn cyfuno gwriogaeth Normanaidd (*Norman Feudalism*) â sefydliadau Sacsoniaid a Danaidd. I'r amcan o geisio dyfod i ddealltwriaeth ar hyn, cynnaliwyd cynnadledd mewn lle o'r enw Runnymede, ar lanau y Tafwys, ger Egham. Ar un tu i'r afon gwersyllai y brenin, a'i luoedd; ac ar yr ochr arall, yr oedd y barwniaid, a'u canlynwyr. Parhaodd yr ymdrafodaeth rhwng y pleidiau am amryw ddyddiau; ac yna, ar y 15fed o Fehefin 1215, llawnododd y brenin Ioan y Siarter, a seliodd hi. Dygodd hyn i'r barwniaid yr holl ryddid a geisient; a byth er hyny, ystyrir fod llawnodiad y brenin o'r freinlen hon yn un o'r digwyddiadau pwysicaf yn holl hanes Prydain.

Y mae y freinlen yn gosod allan iawnderau a rhwymedigaethau y perchenogion gwriogaethol (*feudal proprietors*), ac yn eu hamddiffyn fel nas gallai y teyrn wneyd camddefnydd o'i awdurdod brenhinol. Symmudwyd ymaith, drwy y freinlen hon, lawer o anghyfiawnderau oedd y pryd hyny yn gyssylltiedig â'r daliadau tirol gwriogaethol. Gwnaed darpariaethau manwl yn mherthynas i amgylchiadau aerod, ac iawnderau eu gweddwon. Nid oedd y dreth, neu y ddirwy, a delid gan denant i'w arglwydd yn lle gwasanaeth personol, yr hon a hawlid weithiau gan y Goron, i gael ei hawlio mwy, ond trwy orchymyn cynghor cyffredin y deyrnas:—oddi eithr ar dri amgylchiad neillduol; sef, carchariad y brenin, yr achlysur o wneuthuriad ei fab hynaf yn farchog, a phriodas ei ferch hynaf. Cyhoeddwyd nad oedd rhyddid dinas Llundain, a threfi eraill, bwrdeisdrefi, a phorthladdoedd, i gael eu treisio mewn unrhyw fodd; a chaniateid rhyddid i farsiandwyr tramor farchnata yn y deyrnas hon. Nid oedd cyfiawnder mwy i gael ei brynu na'i werthu, ei attal, na'i oedi. Trefnid, hefyd, nad oedd Llys y Cwynion Cyffredin i ddilyn y brenin ar ei bererindodau trwy y wlad; ond fod y llys i fod yn wastadol yn Westminster. Pennodwyd brawdlysoedd i gael eu cynnal yn ngwahanol siroedd y wlad, a gwnaed darpariadau i wneuthur y mân lysoedd yn llawer mwy effeithiol nag oeddynt o'r blaen. At hyn oll, yr oedd Bywyd, Rhyddid, ac Eiddo i gael eu hamddiffyn rhag gormes, difrod, ac ysbail arglwyddi. Nid oedd neb i golli y pethau hyn ond trwy fod deddfau y wlad yn penderfynu hyny. Nid oedd neb i gael ei gondemnio ar sail chwedleuon, nac ammheuaeth; ond yn unig ar dystiolaeth brofedig tystion. Darperid fod i'r dirwyon fod yn gymmesur â phwysigrwydd troseddau; ac nid oedd hyd yn oed y gwesyn distadlaf ar y tir i golli arfau angenrheidiol ei fywoliaeth. Gwnaed darpariadau hefyd ar gyfer annibyniaeth yr Eglwys, ynghyd â llawer o bethau eraill oedd yn sicrhau rhyddid i drigolion y wlad, ac yn eu hamddiffyn rhag gormes yn ei wahanol agweddau.

Dyna yw prif ddarpariadau y Freinlen bwysig hon; ac fe welir ei bod yn gosod deddfau y wlad yn hollol annibynol ar ewyllys a syniadau pob brenin. Yr un adeg ag y caniatawyd y Freinlen hon, caniatawyd Siarter arall, i ddiddymu, i ryw raddau, yr ormes a ddioddefid dan Ddeddf y Fforestydd. Mynai y barwniaid i Ioan, yn mysg pethau eraill, roddi Llundain i fyny iddynt hwy, a rhoddi cadwraeth Tŵr y ddinas yn ngofal yr archesgob hyd y 15fed o Awst dilynol, neu ynte hyd nes y rhoddid darpariadau y Freinlen Fawr mewn grym. Dewiswyd, hefyd, bump ar hugain o farwniaid, ac awdurdodwyd hwynt i godi mewn gwrthryfel yn erbyn y brenin os byddai iddo dori ammodau y Freinlen Fawr. Er mwyn gwneyd yr ammodau hyn yn hysbys i drigolion y wlad, fe anfonwyd copi o'r Siarter i bob brif eglwys, gyda gorchymyn ar fod iddi gael ei darllen ddwywaith yn mhob blwyddyn. Dywedir mai y copi sydd yn awr yn nghadw yn Eglwys Gadeiriol Lincoln ydyw y perffeithiaf a'r cyflawnaf sydd ar gael o'r Freinlen hon—sydd yn dra phwysig i holl deiliaid y deyrnas fel 'Ysgrif eu Hawliau!'

Digitized by Google

MANUEL, DAFYDD. Prydydd oedd efe, a drigiannai yn y Byrdir—bwthyn a saif yn mhlwyf Trefeglwys, yn sir Drefaldwyn. Nid oes sicrwydd hollol pa bryd y ganwyd ef; ond gan iddo farw yn mis Mai, 1726, a'i fod, yn ol hanes, yn 101 oed pan gymmerodd y digwyddiad hwnw le, bernir iddo gael ei eni tua'r flwyddyn 1624—5; neu tua therfyn teyrnasiad y brenin Iago I. Bu fyw dan wyth o frenhinoedd a brenhinesau :—Iago I., Siarl I., Siarl II., Iago I., William a Mary, Anne, a Sior I.; a thrwy yr oll o'r werin-lywodraeth dan Cromwell. Ymddengys iddo ysgrifenu llawer o farddoniaeth; ac yr oedd peth o hono o gryn deilyngdod. Dywedid ei fod ef, a thri o feirdd, eraill—Wmffra Owen, Siôn Prydderch, a Siôn Pritchard—yn cyfarfod mewn 'eisteddfod' yn Machynlleth tua'r fl. 1701, ac iddi fyned yn ymryson prydyddu rhyngddynt ar y testyn o 'Ofyn cyweirgorn i gyweirio telyn dros William Dafydd, o roddiad John ap Hugh.' Fel hyn yr ymfflamychodd Dafydd Manuel :—

'Gên gam fant hen-gam fontin-gaeth—dorchog,
Da i erchi cerddoriaeth;
Yn cnoi cyrn o egni caeth,
Goegffrwyth ewinen gegffraeth.'

Ymddengys y ceir rhai o'i garolau, ynghyd â chyfansoddiadau eraill, yn Nghasgliad Ffowc Owen (Rhydychain, 1686); yr hwn waith a ail argraphwyd yn yr Amwythig, gan Thomas Jones, yn 1696; ac a argraphwyd y drydedd waith yn yr un lle gan Siôn Rhydderch, yn 1729. Ceir hefyd gerdd o'i waith yn dwyn y penawd hwn, 'Bustl y Cybyddion,' yn y *Blodeugerdd*. Y mae rhai eraill o'i gyfansoddiadau barddonol ar gael yn yr *History of Powys Fadog*, gan y Chevalier Lloyd.

Ganwyd i Dafydd a'i wraig dri o blant—dwy ferch, a mab. Nid oedd 'Deio,' y mab, yn cael ei ystyried mor gall a'r cyffredin. Ond yr oedd y ddwy ferch yn gallu barddoni yn rhagorol. Gallai 'Malen,' yn chwanegol at ei gallu fel barddones, ganu yn gampus gyda'r delyn; a daeth yn enwog yn ei bro am ei harabedd. Yn Nghasgliad Bardd Alaw, ceir un dôn ar ei henw; sef, 'Hoffedd merch Dafydd Manuel.'

Yr oedd rhywbeth yn hynod yn nhylwyth yr hen Fanuel; ac yr ydym yn dyfynu yr hyn a ganlyn am danynt o erthygl a ymddangosodd yn y *Geninen* o waith Mr. R. Williams, Celynog, Drefnewydd :—

'O'r Manueliaid i gyd, plant Thomas a Mary Manuel oedd y rhai mwyaf hynod eu hathrylith—yn enwedig fel ieithyddwyr. Yr oedd gan Thomas, yr hynaf, gydnabyddiaeth eang â'r Gymraeg, y Saesneg, y Lladin, a'r Groeg. Tra y llafuriai trwy'r dydd mewn swyddfa cyfreithiwr fel ysgrifenydd, treuliai lawer o oriau y nos i ddarllen ac ysgrifenu. Ac yn y flwyddyn olaf o'i oes, cyfansoddodd yn y dull yma draethawd ar 'Gymru fel y mae, &c.,' o dan yr enw 'Efrydydd;' ac anfonodd ef i ryw eisteddfod, lle yr ennillodd y wobr. Bu farw yn ieuangc o'r darfodedigaeth, yn 1851. Yr oedd William, ei frawd, yn fachgen mwy hynod fyth. Yr oedd y plentyn, pan nad oedd ond pedair blwydd oed, yn gallu darllen Cymraeg, Saesneg, Hebraeg, Groeg, a Lladin; a chlywsom ef ein hunain y pryd hwnw yn darllen yn hwylus, â'r llyfr yr ochr chwith i fyny, gyda'r un rhwyddineb ag y darllenai pobl eraill yn y dull arferol. Daeth y Parch. Thomas Price (*Carnhuanawc*) i gydnabyddiaeth âg ef yn Eisteddfod Caerdydd, o ddeutu y flwyddyn 1834; ac wedi hyny ymwelai yn aml â bwthyn ei fam, yr hon oedd wedi symmud i sir Drefaldwyn. Yr oedd hi yn byw y pryd hyny yn Llanofer; a bu, wedi hyny, yn byw yn Nghrughywel. Trwy garedigrwydd yr Henadur William Thompson, cafodd William Manuel, pan yn wyth oed, fynediad i mewn i ysgol Christ's Hospital, yn Llundain, lle y cynyddodd yn ryfeddol mewn dysg. Ond bu farw o'r darfodedigaeth yn ddeuddeg oed. Addawai Edward, y bachgen ieuangaf, bethau mwy anghyffredin fyth. Synid pawb gan ei alluoedd anarferol. Gallai ddarllen Saesneg, Cymraeg, Lladin, Groeg, a Hebraeg, pan nad oedd ond pedair blwydd oed. Oni bae fod genym dystiolaeth Carnhuanawc ei hun am y ffeithiau uchod, prin y gallem eu credu. Ond bu Edward hefyd farw o'r darfodedigaeth cyn cyrhaedd pump oed. Yr oedd eu mam yn wraig o alluoedd uwch law y cyffredin. Merch i amaethwr oedd hi; ac yr oedd wedi dysgu Saesneg yn dda. Wrth sylwi ar syched angerddol ei phlant am wybodaeth, ymroddodd i ddysgu ieithoedd eraill; ac heb ddim, neu ail i ddim, cymmhorth gan neb, hi a ddysgodd ei hun i ddarllen a chyfieithu Lladin a Groeg, er mwyn eu cynnorthwyo hwy. Anfynych y ceir cynnifer o esamplau mewn un tylwyth o'r fath athrylith anghyffredinol yn ymwthio i'r golwg trwy bob rhwystrau ac anfanteision—a'r rhai hyn o blith tylwyth yr hen Ddafydd Manuel, o'r Byrdir.'

MILIONOS, NEU 'BACTERIA.' Dyma y ffurf isaf sydd wedi ei gael allan ar fywyd cyfluniol. Gellid defnyddio y gair hwn am unrhyw gorph byw sydd o faintioli mor fychan fel nas gellir ei weled ond trwy fwyadur (*microscope*); ac y mae yn rhaid wrth fwyadur cryf iawn cyn y gellir eu gweled a'u hadnabod. Er enghraifft, y mae rhai dosbarthiadau o honynt mor hynod fychain fel y mae yn ofynol cael mwyadur fydd yn meddu gallu i ganfod wyth gant (800) o weithiau yn fwy na'r llygad naturiol. Ac y mae rhai o honynt mor eithafol o fychain fel y mae yn ofynol cael mwyadur ddwy fil o weithiau (2,000) yn gryfach na'r llygad naturiol cyn y gellir eu canfod.

I'r meddyg ymarferol, a'r gwyddonydd, y mae bodolaeth, hanes, a gweithrediadau y mân greaduriaid hyn o fwyaf o ddyddordeb, gan eu bod yn arddangos yr achosion o wahanol fathau o afiechyd; o blegid ceir fod y mân ermigau hyn o rywogaethau neillduol a gwahanol, ac i'w cael mewn gwahanol fathau o afiechydon. Er enghraifft, y mae y llyferthwst (*typhoid fever*), anhwyldeb y gwddf (*diphtheria*), y geri (*cholera*), amryw fath o gasgliadau a doluriau, tân iddwf, hadlifiad, ennyniad yr ysgyfaint, gên-glô, plorynwst (*tuberculosis*), ac amrywiol afiechydon eraill, yn meddu milionos sydd yn neillduol iddynt eu hunain, ac sydd i'w canfod bob amser pan y gwneir ymchwiliad heintofyddol (*pathological*) i'r clefydau hyny.

Fel y dywedwyd uchod, oddi ar safbwynt gwyddonol o edrych ar bethau y mae y milionos hyn yn dyfod i feddu dyddordeb mawr—yn arbenig fel y maent yn dangos achosion gwahanol glefydau; gan eu bod, drwy hyny, yn arddangos i'r meddygon ffordd resymol i farnu pa driniaethau sydd yn fwyaf priodol o dan yr amgylchiadau, trwy gael allan pa fodd y gellir dinystrio y milionos neillduol a berthynant i'r afiechyd y bydd y claf yn dioddef oddi wrtho.



Digitized by Google

Ni ddylid cymmeryd yn ganiataol, pa fodd bynag, fod pob mathau o'r *bacteria* i'w cael mewn cyssylltiad â chlefydau yn unig. Nid felly y mae, gan nad ydyw y mwyafrif mawr o honynt yn ymddangos mewn unrhyw berthynas â chlefydau. Y mae ganddynt eu hamrywiol swyddogaethau yn nhrefnidedd natur; ac, o bossibl, na ddeuant byth i gyssylltiad â chorph byw anifail. Gall *bacteria* fodoli, ac y maent yn bodoli, yn y corph byw, ac yn byw ar ei garthion; ac etto, heb wneuthur unrhyw niwed. Am y rhai sydd yn ymledaenu yn y bywynion (*tissues*), ac yn arwain i wahanol fathau pennodol o afiechyd, megys ennyniad a chlefydau, gelwir hwynt gan y meddygon o dan yr enw *pathogenic*, yr hwn sydd yn cynnwys yr un peth. Ond y mae y rhai sydd yn byw yn unig ar ysgarthion y corph yn cael eu galw yn *non-pathogenic*, neu *aprophytic*, am eu bod hwy yn byw ar sylweddau pydredig anifeilaidd, neu lysieuol.

Fel rheol gyffredin, ni bydd i'r *bacteria* gynnyrchu clefyd, ond yn unig pan y byddant wedi treiddio i fân-wëoedd (*fibres*) y corph byw; ond nid mewn canlyniad i'w presennoldeb y maent yn cynnyrchu yr effeithiau, ond trwy y sylweddau niweidiol a daflant allan; neu, mewn geiriau eraill, eu carthion. Ac y mae yr effeithiau yn amrywio yn ol rhywogaeth y *bacteria*, a natur yr hyn a gynnyrchant.

Er dwyn y cyrph hyn i eglurdeb, y mae yn angenrheidiol defnyddio amryw o sylweddau fferyllol; ac y mae'n rhaid hefyd eu lliwio gyd âg amryw liwiau fferyllol. Ac ynglŷn â'r rhan fwyaf o glefydau y mae moddion neillduol yn cael eu defnyddio i gael allan y *bacillus* sydd yn perthyn yn neillduol i bob un. Ond y mae egluro yr amrywiol ffyrdd a ddefnyddir i gael hyd i'r amrywiaethau gwahanol hyn o *bacteria* y tu allan i amcan yr erthygl hon.

Y mae telerau neillduol yn angenrheidiol i'r milionos hyn dyfu a lliosogi. Y mae yn ofynol iddynt gael presennoldeb mater cyfluniol (*organic matter*). Y maent yn gwahaniaethu oddi wrth y rhan fwyaf o lysiau, yn gymmaint a'u bod yn analluog, o herwydd y diffyg o'r hyn a elwir *chlorophyll*, neu fater o liw gwyrdd, i ryddhau eu hylif (*carbon*) o sur carbonig pur; ac am hyny, y maent yn ei dderbyn o gyfansoddion (*compounds*) uwch. Y mae y *bacteria* yn tyfu oreu mewn cyfrwng o adweithiad alcalaidd, neu ammherthynasol, o leiaf. Yn yr ystyr hwn, y maent yn wahanol i'r ffyngoedd neu fedyrch (*fungi*) a dyfant yn rymus yn mhresennoldeb elfenau surion. Y mae tymmheredd yn meddu cryn ddylanwad ar y rhan fwyaf o'r *bacteria*. Tŷf a lliosoga llawer o honynt oreu yn nhymmheredd y gwaed; ac y mae rhai o honynt na ddangosant arwyddion o fywyd ond yn unig yn y tymmheredd hwnw; ond y mae y rhan fwyaf o honynt yn tyfu ac yn lliosogi yn rhwydd yn nhymmheredd cyffredin yr awyr.

Fel rheol gyffredin, pan gyrhaeddo y tymmheredd i'r pwynt rhewi, y mae eu lliosogiad yn darfod; ond ni leddir hwynt hyd yn oed gan raddau eithafol o oerfel. Y mae y ffaith hon yn egluro paham nad ydyw clefydau heintus yn ymledu mor gyflym ar dywydd oer ag ar dywydd poeth. Ond y mae bywiogrwydd y *bacteria* yn agored i gael ei ddwyn allan drachefn ar ddychweliad hîn gynnes.

Y mae dwfr yn angenrheidiol i dyfiant a lliosogiad y milionos hyn. Y mae y cellau cyffredin yn marw pan y byddant wedi sychu; ond y mae yr imprithiau (*spores*) yn parhau â bywyd ynddynt; a gellir cadw rhai o honynt am flynyddoedd mewn cyflwr sych.

Y mae ufelai (*oxygen*), neu yr awyr cyffredin, yn angenrheidiol i dyfiant llawer o'r *bacteria;* eithr i rai o honynt, y mae bod heb awyr yn gyflwr angenrheidiol i'w tyfiant.

Y mae sylweddau neillduol yn llesteirio neu yn dinystrio pob math o honynt. Er enghraifft, y mae sur carbolic (*carbolic acid*) yn dinystrio tyfiant rhai mathau o honynt. Y mae hwn yn dyfod dan y penawd—SYLWEDDAU DIHEINTIOL.

Yn eu tyfiant, y mae y milionos, neu *bacteria*, y rhan amlaf, yn dryllio cyfansoddau cyfluniol (*organic compounds*), ac yn adeiladu rhai eraill. Yn y gweithrediadau hyn, y maent yn fynych yn dëol egwyddorion fferyllol o natur fwy neu lai cymmhlethedig. Y mae yn cael ei adnabod yn awr fod dadgyfansoddiad mater cyfluniol, ac ymweithiadau, yn ganlyniad gweithrediadau y *bacteria;* ac addefir fod pob mathau o honynt, pan o dan ammodau cyffelyb, yn cynnyrchu yr un canlyniadau fferyllol. Y mae rhai o'r cynnyrchion, neu *alkaloids*, fel y gelwir hwy, a ddëolir yn y modd hwn, yn cael eu galw yn *ptomaines*.

Y mae milionos yn bresennol bron yn mhob man mewn natur; ond y maent yn hynod liosog lle y bydd dwfr a mater cyfluniol yn llygru. Y maent yn bresennol mewn dwfr—a chynnwysa hyd yn oed y dwfr puraf liosawgrwydd mawr o honynt. Y maent yn bodoli, hefyd, yn yr awyr, ac yn y corph dynol.

*Magwraeth.*—Y mae y chwanegiadau mwyaf at ein gwybodaeth am y *bacteria* wedi eu dwyn oddi amgylch drwy fagwraeth neu amaethiad celfyddydol o honynt. Gan ddilyn esampl Roch, y mae y *bacteria* yn awr yn cael eu magu, nid yn unig mewn hylifau neu wlybyroedd, ond hefyd ar ddefnyddiau celyd, lle y gellir eu cadw yn llawer mwy diogel rhag cael eu llygru, ac y gellir eu gweled yn eu tyfiant a'u cynnydd yn llawer gwell. Y maent yn cael eu hamaethu ar wyneb sylweddau maethiannol—y penaf o ba rai ydyw pytatw, a sudd neu nôdd cigoedd. Gellir gwneyd yr hylifau y megir hwynt ynddynt yn galed trwy chwanegu ceulednur (*gelatine*) at yr hylif. Yn y modd hwn, gellir gweled yn fanwl natur ac arferion milionos mewn cyflwr pur, yn eu neillduolion ffurfegol (*morphological*), anianyddol, a fferyllol. Trwy eu tyfiant mewn gwahanol gyfryngau, gellir deall effeithiau eu hymweithiad (*fermentation*), a'u cynnyrchion. Hon, ar yr adeg bresennol, ydyw un o'r canghenau pwysicaf a mwyaf gobeithiol o ymchwiliad ynglŷn â'r *bacteria.* Yn y modd hwn, pan y bydd mân-ermigau, neu filionos, yn bresennol mewn hylif, neu yn y bywynion yn nghorph dyn, mewn cyflwr pur, nid ydyw eu hamaethiad, fel rheol, yn anhawdd. A bydd eu hymddangosiad fel creaduriaid neillduol, eu hamlinelliad, a'u nodweddion yn gyffredinol, yn fater hawdd i'w ddeall.

*Perthynas Milionos â'r Corph Byw.*—Gellir yn awr ei derbyn fel ffaith sefydledig fod y bywynion a'r hylifau iachus yn y corph dynol yn rhydd oddi wrth filionos. Ond y mae eu harwynebau, oddi fewn ac oddi allan, yn heigio o honynt yn barhaus yn y ffurfiau mwyaf amrywiol. Y mae yn ddiammheu fod nifer mawr o honynt o natur ddiniwed; a gall llawer o honynt ymgymmysgu â'r gwaed, ac âg arwynebau

Digitized by Google

llysnafeddog (*mucous surfaces*) y croen; er hyny, heb ddwyn canlyniadau annymunol.

Y mae bywiogrwydd y milionyn, yn ei berthynas â dechreu a chynnydd afiechyd, mewn unrhyw achos neillduol, yn dibynu

1. O berthynas i'r sylwedd gwenwynig sydd ynglŷn âg ef. Y mae bywioldeb ei gyfansoddiad, ei radd o ddadblygiad, natur y defnydd maethol neu y sylwedd ar yr hwn y tyfodd, swm y ddogn, a phresennoldeb ymweithiadau anghyfluniol, neu sylweddau eraill yn y gwenwyn, a genhedlir yn gyffredin gan dyfiant y milionyn, y rhai sydd yn lleihau bywioldeb y bywynion yn lleol, neu yn y corph yn gyffredinol, i ba rai y bydd y gwenwyn yn myned i mewn.

2. Dibyna cynnydd y milionyn, hefyd, ar sefyllfa y person—hyny yw, ar ei allu cynhenid, neu ar y gallu a gyrhaeddodd, i'w wrthsefyll, ar weithrediadau iachus amrywiol hylifau y corph, ac ar yr absennoldeb o unrhyw waethygiad lleol yn y cyfansoddiad, a all fod yn fath o nyth, yn yr hwn y gall dadblygiad y milionyn gymmeryd lle yn y corph.

Tybiwn fod y ffeithiau rhyfedd a phwysig a nodwyd yn ddigon i'n darllenwyr yn gyffredinol, gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth am ffurfiad y milionos a'r *bacteria*, yr ammodau dan ba rai y maent yn lliosogi, a'r niweidiau a wneir ganddynt; ac hefyd, eu bod yn fynych yn bresennol yn ngwahanol ranau y corph, heb wneuthur unrhyw niwed o gwbl. Dangosir hefyd ynddi y pwysigrwydd o wneyd pob peth a ellir i gadw y cyfansoddiad, mewn cyflwr iachus a chryf, fel y moddion mwyaf effeithiol i'r person allu gwrthsefyll eu dylanwad niweidiol.

---

# O.

**OWEN, JOHN** (*Owain Alaw*). Cerddor Cymreig galluog ac adnabyddus oedd efe, ac un o Gymry mwyaf ffyddlawn a dihoced ei oes. Ganwyd ef yn Heol Crane, yn Nghaerlleon Gawr, Tachwedd 14eg, 1821. Brodorion o Lanfachraeth, yn Meirion, oedd ei dad a'i fam; ond symmudasant i Gaerlleon cyn geni eu mab John. Prentisiwyd ef gyda'r Mri. Powell ac Edwards, cyllellwyr, yn y ddinas hono; ac yn ystod blynyddoedd olaf ei arosiad gyda hwy, dywedir ei fod wedi ennill y fath wybodaeth mewn cerddoriaeth fel y cyfranai addysg gerddorol i eraill. Yn y fl. 1842, priododd â boneddiges o'r un ddinas; ac yn mhen tua dwy flynedd ar ol hyny, rhoddodd i fyny ei fasnach, er ei alluogi i gyflwyno ei holl amser at gerddoriaeth. Ei athraw cerddorol cyntaf, y mae yn debyg, oedd Mr. Edward Peters (o gwmni y Meistri Peters a Hughes); a thua yr adeg hon ar ei yrfa, pennodwyd ef yn organydd i gapel yr Arglwyddes Huntington, ac yn arweinydd i'r *Octagon Orchestral Society*. Pennodwyd ef ar ol hyn, hefyd, yn organydd i eglwys St. Paul (Broughton); yna, i eglwys St. Bridget; ac ar ol hyny, i St. Mair. A bu yn gwasanaethu yn yr eglwys hon am flynyddoedd lawer. Yna, trosglwyddodd ei wasanaeth fel organydd, arweinydd, ac ysgrifenydd i'r eglwys Gymreig. Gwasanaethodd hi yn rhad, a chyda ffyddlondeb mawr.

Daeth Owain Alaw—o blegid dyna'r enw wrth ba un yr adnabyddid ef amlaf—yn un o'r cerddorion mwyaf adnabyddus yn Nghymru. Ennillodd nid ychydig o glod fel dadganydd; a gelwid yn fynych am ei wasanaeth mewn cyngherddau yn ngwahanol drefydd ac ardaloedd y wlad. Yr oedd efe, hefyd, yn chwareuydd medrus ar y berdoneg a'r organ; ac y mae yn ddïau i'w brofiad yn y gangen hon fod o gymmhorth mawr iddo yn ei lafur fel cyfansoddwr, ac fel casglydd a threfnydd alawon Cymreig. Cyrhaeddodd safle anrhydeddus hefyd fel cyfarwyddwr ac fel arweinydd cerddorol yn y prif eisteddfodau. Llafuriodd yn ddyfal am ysbaid maith fel athraw; a bu yn foddion i gychwyn lliaws o Gymry adnabyddus ar eu gyrfa lwyddiannus yn y byd cerddorol. Gelwid yn fynych am ei wasanaeth fel beirniad hefyd; ac er nas gellid mewn un modd ei ystyried yn mysg y prif feirniaid, etto cyflawnai ei ran yn onest a chydwybodol; a byddai ei feirniadaethau bob amser yn ennill ymddiried y sawl fyddent yn gorfod plygu danynt. Bu yn beirniadu llawer mewn rhai o'r eisteddfodau; a chadwodd ei gymmeriad fel y cyfryw yn ddilychwin hyd y diwedd.

Ond pa ganmoliaeth bynag y gellir ei roddi iddo yn y cymmeriadau uchod, fel cyfansoddwr, ac fel casglydd alawon Cymreig, yr ennillodd efe fwyaf o glod; ac ar ei gyfansoddiadau, a'i gasgliadau y pery y clod hwnw.

Tybir i Mr. Owen ddechreu cyfansoddi yn gynnar ar ei fywyd; ac mai bod yn enwog fel cyfansoddwr oedd prif uchelgais ei fywyd. Barna rhai, modd bynag, ei fod wedi ennill peth enwogrwydd fel dadganydd, ac offerynwr, cyn troi ei feddwl at gyfansoddi. Mae yn ddigon tebyg iddo ennill gwobrau mewn mân eisteddfodau lawer tro, cyn i'w enw ddyfod yn hysbys fel cyfansoddwr. Ond yn 1851 y daeth efe i sylw neillduol, trwy gipio y wobr yn Eisteddfod Rhuddlan am yr anthem oreu. Dr. Wesley oedd y beirniad yn yr ŵyl hono. Dyna'r pryd y rhoddwyd i'r cerddor ieuangc yr enw 'Owain Alaw.' Ond yn Eisteddfod fawr Llangollen, yr hon a gynnaliwyd yn ddiweddarach, y cafodd

Digitized by Google

efe ei urddo fel bardd a phencerdd. Enw yr anthem hon ydyw 'Cân Deborah a Barac.' Yn Eisteddfod Madog, yr hon a gynnaliwyd yr un flwyddyn ag Eisteddfod Rhuddlan, barnwyd ef yn gyd-fuddugol â'r enwog J. Ambrose Lloyd ar y gerddoriaeth oreu i 'Weddi Habacuc.' Y beirniaid ar yr achlysur hwnw oeddynt Dr. Wesley, y Parch. John Mills (*Glan Alarch*), a'r Parch. J. D. Edwards. Ymddengys, oddi wrth sylwadau o eiddo Ieuan Gwyllt yn y *Cerddor Cymreig* (rhif 1) fod y ddau Gymro yn barnu mai Mr. Lloyd oedd y goreu, ac mai efe a ddylasai gael y wobr; tra y barnai Dr. Wesley mai Owain Alaw oedd y buddugol. Wrth gwrs, Mr. Lloyd a'i cawsai, oni bae fod yn well ganddo i'r wobr gael ei rhanu rhyngddo ag Owain Alaw; ac felly y bu. Bu Mr. Owen yn fuddugol yn Llundain, yn 1855, ar 'Cân Mair;' a'r flwyddyn ddilynol, ennillodd, yn Eisteddfod Cymmrodorion Dirwestol Merthyr Tydfil, ar 'Y Ddaeargryn.' Cafodd 20*p.* hefyd am anthem ar y testyn 'Och! Annuwiol,' a gyfansoddwyd ganddo ar gyfer cystadleuaeth Cymmanfa Ddirwestol Morganwg; ac yn 1859, ennillodd y wobr yn Llanrwst gyda'r anthem adnabyddus 'Arnat ti y llefais.' Ei anthemau cyhoeddedig eraill ydynt, 'Traetha fy nghalon;' 'Pa'm bydd-wn brudd;' 'Anthem Manchester;' 'Pa fodd y glanhâ;' 'Yna y dywedir;' 'Gwyn ei fyd a ystyria wrth y tlawd;' 'Myfi a ddywedais;' a 'Dinas gadarn sydd i ni.' Yn y *Ceinion*, hefyd, y mae 'Carol Nadolig' o'i waith ar eiriau gan Talhaiarn; ac yn *Nghronicl y Cerddor*, argraphwyd dwy o'i anthemau diweddaf, 'Gwir yw'r gair,' a 'Chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd.' Cyhoeddodd, hefyd, anthem arall, o'r enw 'Ymddyrcha Dduw,' priodol i'w chanu ar ddydd y Pasc, &c. Yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, yn 1862, derbyniodd y wobr am y gantawd oreu ar 'Dywysog Cymru;' y geiriau gan Ceiriog. Ysgrifenodd ei gantawd arall, 'Gŵyl Gwalia,' gogyfer âg Eisteddfod Caerlleon, yn 1866:— yn mha un y perfformiwyd hi. Efe oedd awdwr 'Y Ffrwd hefyd:'—canig sydd erbyn hyn yn ddigon adnabyddus.

Nis gallwn roddi rhestr gyflawn o'i holl weithiau; o blegid y maent yn lliosog ac yn amrywiol iawn—yn ganeuon, deuawdau, ac emyndônau, &c.

Yn 1860, daeth y rhifyn cyntaf allan o'r wasg o'i gasgliad o Hen Alawon Cymreig, ynghyd â darnau eraill gwreiddiol. Galwodd y casgliad hwn yn *Gems of Welsh Melody*:—un o'r gweithiau cerddorol mwyaf adnabyddus yn ein mysg. Nid oes odid i aelwyd hebddo, os oes duedd yn un o'r teulu at gerddoriaeth. Ystyrir y gwaith yn un cenedlaethol. Cyhoeddodd, hefyd, gasgliad o *Dônau yr Ysgol Sabbothol*, mewn dwy ran; yn cynnwys côr-ganau, emyn-dônau, a thônau i blant. Daeth allan yn ddiweddarach ei *Welsh Harp*:—casgliad bychan o rai o'r hen alawon, gyda geiriau Cymraeg a Saesneg; a'i *Geinion o Alawon Saesnig* (*Gems of English Airs*). Yn chwanegol at y casgliadau hyn hefyd, trefnodd lawer o hen anthemau J. Ellis, J. Williams, ac eraill; ynghyd âg amryw o rai Saesnig i'r *Gyfres Gerddorol*. Gwelir amryw gynghaneddion o'i eiddo hefyd yn *Geirionydd*:—casgliad o weithiau y diweddar Ieuan Glan Geirionydd.

Mewn erthygl afaelgar o'i eiddo, dywed Mr. D. Emlyn Evans, 'ei bod yn ofynol cymmeryd i ystyriaeth sefyllfa cerddoriaeth yn Nghymru ddeugain mlynedd yn ol cyn y gellir ffurfio barn am safle Owain Alaw fel cyfansoddwr cerddorol.' Dywed yn mhellach, fod y genedl wedi dirywio cymmaint fel nad oedd ei sefyllfa gerddorol, erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, a dechreu yr un bresennol, ond galarus o isel a di-chwaeth. Torodd peth gwawr arni pan ddaeth y Millsiaid o Lanidloes i'r maes; ond yn ol Mr. Emlyn Evans, y ddau a wnaeth fwyaf yn y cyfnod tywyll hwn i godi cerddoriaeth o'r cyflwr isel yr oedd ynddo, oeddynt Mr. John Ambrose Lloyd a Mr. J. Owen—gwrthddrych yr erthygl hon. Trwy eu cynnyrchion coethedig a phoblogaidd, hwy a lwyddasant i ddylanwadu ar chwaeth a gwybodaeth gerddorol eu cydgenedl i raddau neillduol iawn. Dyma eiriau Mr. Evans ar y mater hwn:—

'Cychwynasant (gan gyfeirio at Mr. Lloyd a Mr. Owen), yn wir, gyfnod arall, a phwysicach un o lawer, nag a wnaeth John, Richard, a James Mills, rai blynyddoedd yn flaenorol; ac y mae y gwahaniaeth rhwng cyfansoddiadau cyd-fuddugol Madog yn 1851, a dyweder 'Duw sydd Noddfa' Richard Mills, yn llawer mwy nag ydyw rhwng yr olaf a darnau trwsgl a dilûn Dafydd Siencyn Morgan, a'i gyfoedion, yn y *Seren*, &c. . . Effeithiasant hefyd—a pharhânt i effeithio—yn ddaionus ar gerddoriaeth ein gwlad i raddau helaethach nag unrhyw ddau gyfansoddwr ag sydd wedi eu cymmeryd oddi wrthym, o leiaf.'

Dyma fel y dywed cerddor galluog a chraff arall; sef, Mr. John Henry Roberts (*Pencerdd Gwynedd*), am neillduolion Owain Alaw fel cyfansoddwr:—Arbenigrwydd mawr ei gyfansoddiadau, yn ddi-cithriad (meddai), oedd naturioldeb a symlrwydd. . . Ni cheir ynddynt un arwydd o ymegnïad a rhodres gyda defnyddio moddion neillduol er cynnyrchu effaith; ond yn hytrach, symlrwydd—yr arbenigrwydd ag oedd gynhenid ynddo ef ei hun, yn wythïen fwyaf trwchus a redai trwy ei gyfansoddiadau.'

Yr oedd cyfansoddiadau Mr. Owen yn nodedig am eu dillynder, eu cymmesuredd, a'u cyfunedd; ac nis gellir mewn unrhyw fodd eu hystyried yn glytwaith di-ysbryd ac anorphenol. Nodweddir hwy gan gyflawnder o felodedd, yn gymmhlethedig âg eglurder a symledd. Yn ei anthemau, y mae'n debyg, y rhagorai fwyaf: —a pha ardal yn Nghymru sydd heb glywed ei cherddorion yn ymhyfrydu yn seiniau melusber 'Pa fodd y glanhâ,' 'Gweddi Habacuc,' ac eraill o'i anthemau. Tuedda Mr. Emlyn Evans i osod ei anthem ar 'Y Ddaeargryn' yn mysg y goreuon o'i weithiau; ac ystyria hi y cyfansoddiad 'mwyaf dwfn ac arddunol a ddaeth o law yr awdwr.' Ystyriai Mr. Owen ei hun mai prif waith ei oes oedd ei *oratorio*—'Jeremiah;' yr hon, yn ddïau, sydd yn chwanegiad gwerthfawr at gronfa fechan y genedl Gymreig o weithiau cerddorol uwchraddol. Y mae llawer o ganu wedi bod, ac yn bod, ar gydganau yr *oratorio* hon, megys 'Dychwel Israel;' 'O! Arglwydd, cyfod;' 'Onid oes balm yn Gilead?' 'Y Cynhauaf a aeth heibio;' 'A chariad tragywyddol,' &c. —y rhai oll ydynt ddarnau hyfryd a theilwng o'r awdwr. Ac ystyrir y 'Ffrwd' gan rai fel un o'r canigau goreu a feddwn.

Oddi wrth y rhestr uchod, fe welir fod Mr. Owen yn gyfansoddwr cynnyrchiol iawn; ond nid ydym wedi enwi hanner ei gyfansoddiadau. Trwyddynt, a thrwy ei ymdrech egnïol a diflino ar hyd ystod ei oes, gwnaeth odid gymmaint a neb o'i gydoeswyr i ddyrchafu cerddoriaeth

Digitized by Google

Gymreig i safle y gallai gymmharu yn ffafriol â cherddoriaeth gwledydd eraill sy'n debyg iddi. Llafuriodd yn ddiflino i gyrhaedd yr amcan hwn; a bu llwyddiant nid bychan ar y llafur hwnw. Bydd ei enw yn un a berchir gan bawb fydd yn teimlo ddyddoreb yn ngherddoriaeth genedlaethol Cymru.

Cymmerodd ei farwolaeth le ar y 29ain o Ionawr, 1883, pan oedd yn 62 ml. oed.

OWEN, DANIEL. Prin y gellid cael gwell tystiolaeth i'r berthynas agos sydd rhwng llenyddiaeth Cymru a gwerin y wlad na'r ffaith hon—mai dilledydd a theiliwr o'r Wyddgrug oedd un o brif nofelwyr Cymru. Nid yn fynych y ceir y beirniaid mor unfryd yn eu gwarogaeth i athrylith unrhyw ysgrifenydd Cymreig ag y maent wedi bod yn eu barn am Daniel Owen. Ar yr un pryd, ni ddylid anghofio galluoedd mawr Gwilym Hiraethog yn *Aelwyd F'Ewythr Robert*, a 'Llythyrau yr Hen Ffarmwr,' &c., yn gystal a'r amrywiaeth galluoedd yr oedd efe yn feddiannol arnynt. Ac yr oedd y Parch. Edward Matthews, Penllin, hefyd, yn meddu y ddawn hon i raddau anghyffredin. Ond pan ysgrifenir hanes y bedwaredd ganrif ar bymtheg, diau nas gellir anghofio Daniel Owen. Yn ei farwolaeth gymmharol gynnar, collodd Cymru un o'r rhai mwyaf medrus a chywrain o'r llenorion a feddai am ddarlunio bywyd ac arferion gwerin ei wlad. Er nad oedd cylch ei wybodaeth yn ëang, na'i ddiwylliant yn uchel, o'i gymmharu â llu o'i gyfoedion yn Nghymru, etto gellir yn hyderus gymmhwyso ato eiriau Goronwy Owain am ei noddwr, Lewis Morus o Fôn:—

> 'Tra bo gwiwdeb ar iaith a gwaed y Brython,
> Ef a gaiff hoewaf wiw goffeion.'

Ganwyd ef yn y Wyddgrug, ar Hydref 20fed, 1836; ac yn y dref hono y treuliodd ei oes. Un o blant llafur oedd efe. Pan nad ydoedd ond baban, collodd ei dad trwy ddamwain mewn glôfa. Yr oedd ei fam yn 'wraig rinweddol' yn wir; a mwy nag unwaith yn ystod ei fywyd, talodd Daniel Owen deyrnged uchel i'w rhagoriaethau. Iddi hi yr oedd yn ddyledus, nid yn unig am ei addysg a'i hyfforddiant crefyddol, ond hefyd am yr hyn a'i symbylodd i ddiwyllio ac amaethu ei feddwl. Barn llawer yw, mai y cymmeriad mwyaf byw yn holl ysgrifeniadau Daniel Owen ydyw mam 'Rhys Lewis;' ac nis gall neb sydd yn deall iaith y galon fethu adnabod yn 'Mari Lewis' fam yr awdwr ei hunan. Ymddengys ei fod, er yn foreu, yn awyddus am fod yn bregethwr; a dïau fod *Hunangofiant Rhys Lewis* yn hyn, drachefn, yn taflu llawer o oleuni ar hanes a phrofiad ei awdwr. Yr oedd ynddo, fel yn mhob Cymro llengar o'r bron, awch am farddoni; a chan belled ag y gwyddis, fel bardd, ar dudalenau y *Traethodydd*, y cyfarchodd y cyhoedd gyntaf.

Wedi dechreu pregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, cawn ef yn efrydydd yn y Bala yn y flwyddyn 1865. Yn ystod y tair blynedd y bu efe yn y coleg, ni ddarfu iddo ei hynodi ei hun mewn un modd—nac fel pregethwr, nac fel llenor; ond fe dystia ei gyfoedion i'w ddoniau chwedleuol yn eu cylchoedd cymdeithasol. Bu raid iddo adael y Bala o herwydd afiechyd cyn gorphen y bedair blynedd, yn ol yr arfer; ac yn fuan iawn ar ol hyny, trechwyd ef gymmaint gan ei nychdod fel y bu raid iddo roddi ei bregethu i fyny. Bu yn ddioddefydd am hir amser mewn gwendid mawr. Ac yn wir, o hyn hyd ddiwedd ei oes, nid oedd ei gyfansoddiad ond eiddil, a'i iechyd fyth yn ansicr. Yn gymmharol ddiweddar yn ei hanes y dechreuodd cyfnod ei boblogrwydd fel llenor. Ymddengys mai i'r Parch. Roger Edwards y perthyna y clod o 'ddarganfod' Daniel Owen fel nofelydd. Ac nid ydyw 'darganfod,' hwyrach, yn ormod gair i'w ddefnyddio am berthynas golygydd y *Drysorfa* âg awdwr *Rhys Lewis*. Er nad oedd Daniel Owen yn amddifad o uchelgais yn y cyfeiriad y llwyddodd, o'r diwedd, i ennill enwogrwydd ynddo, nid yn hawdd y ceid ef i ysgrifenu dim gyda'r bwriad o'i gyhoeddi.

Yn y flwyddyn 1879 yr ymddangosodd ei lyfr cyntaf—yn dwyn yr enw *Offrymau Neillduaeth, neu Gymmeriadau Beiblaidd a Methodistaidd*:—cynnyrch ei ysgrifbin, fel y dywed efe ei hunan, 'yn ystod afiechyd a hir nychdod.' Ond yr adeg y daeth gyntaf i sylw cylch ëang o ddarllenwyr oedd yn y flwyddyn ddilynol, pan y cyhoeddwyd 'Y Dreflan:—Ei Phobl a'i Phethau' yn bennodau misol, yn y *Drysorfa*. Yn y gyfres o ddarluniau byw a geir yn y gwaith hwn y mae Daniel Owen yn aml ar ei oreu. Prin y cyhoeddodd ddim ar ol hyny y deil ei le yn well fel *type*, fel y darlun terfynol, o gymmeriad adnabyddus yn y cylch Ymneillduol yn mhob pentref yn Nghymru na 'John Aelod Jones.' Etto, ychydig o ddarllenwyr 'Y Dreflan,' mewn cymmhariaeth, oeddynt wedi eu hargyhoeddi o'i fedr a'i welediad eithriadol fel nofelydd. *Rhys Lewis* ydoedd y gwaith a'i dyrchafodd i'r bri a'r sefyllfa uchel sydd iddo fel chwedleuwr Cymru. Ymddangosodd yr 'Hunangofiant' fel 'Y Dreflan,' yn rhanau yn y *Drysorfa*; ac yr oedd disgwyliad darllenwyr y cylchgrawn hwnw am y pennodau yn eu tro yn adlewyrchiad, ar radd fechan, o chwilfrydedd y cyhoedd Saesnig yn ystod ymddangosiad y *Pickwick Papers*. Ac yr oedd llawer o bethau yn hanes cyfansoddiad *Rhys Lewis* yn debyg i hanes tytiant y drych-feddyliau digrifol am helyntion Mr. Pickwick yn meddwl Charles Dickens. Gellid tybied nad oedd gan Daniel Owen, mwy na Dickens, pan yn dechreu hanes ei arwr, unrhyw syniad clir i ba gyfeiriad yr elai. Ymddangosai yr awdwr fel yn ysgrifenu ar ei gyfer—heb ofalu nemawr am na threfn na chynllun.

Ni saif *Rhys Lewis*, mwy na'r *Pickwick Papers*, yn ngwyneb beirniadaeth y rhai sydd yn barnu nofel fel cyfanwaith, yn hytrach nag fel cyfres o ddarluniau neu o ddigwyddiadau anghyssylltiol. Nid ydyw y cudd-amcan (*plot*) ond egwan, ac nid ydyw cydbwysedd a chymmesuredd y gwahanol ranau o'r llyfr yr hyn a ddisgwyliwn, ac a gawn, yn nghynnyrchion y prif chwedleuwyr Saesnig. Ond nid fel crefftwr llenyddol, yn gweithio allan gynlluniau cywrain yn ei nofelau, y dylid barnu Daniel Owen. Ni ddeil gymmhariaeth am foment â meistriaid y gelfyddyd o chwedleua—y rhai sydd yn ymdrechu am ffurf, am fesur, am drefn, a chywreinrwydd cynllun, yn gystal ag am ddarlunio cymmeriadau. Ond fel un sydd yn meddu gwelediad treiddgar, dychymyg bywiog, cydymdeimlad ëang, ac arabedd di-ball, saif Daniel Owen yn uchel iawn yn mysg llenorion unrhyw wlad. Y mae y nodweddion hyn yr un mor amlwg yn ei ddau waith arall; sef, *Enoc Huws*, a *Gwen Tomos*. Y mae y ddwy nofel hyn yn rhagori ar *Rhys Lewis* fel cyfanweithiau;



Digitized by Google

ac ystyria llawer mai *Gwen Tomos*, o holl gynnyrchion yr awdwr, ydyw yr ystori oreu a ysgrifenodd efe. Ond megys y cyssylltir enw *Pickwick* o flaen pob un arall âg enw Dickens, felly, hefyd, â *Rhys Lewis* y mae enw Daniel Owen wedi ymbriodi yn meddyliau darllenwyr Cymreig. Rhys a Mari Lewis, Bob, ac Abel Huws, Seth, Tomos a Barbara Bartley, a'r anfarwol Wil Bryan—dyma'r cymmeriadau sydd wedi ennill y lle dyfnaf yn serchiadau edmygwyr Daniel Owen. Nid ydym heb gofio fod llawer o swyn yn *Enoc Huws*—a bod Enoc ei hunan, Capten Trefor, a'i ferch Susi, Mr. Denman, Eos Prydain, Sem Llwyd, ac eraill, yn fyw o flaen ein meddwl. Nis gallwn chwaith fod heb adgofion difyr am *Gwen Tomos*—am yr ymladd ceiliogod, ac am 'Robert Wyn yn shafio;' a theddir ni i gredu na chynnyrchodd athrylith Daniel Owen ddim mwy prydferth na chymmeriadau y ddwy ferch hawddgar sydd yn addurno y nofel hono. Etto, *Rhys Lewis* yw ei gampwaith; ac nid ydyw llawer o'r cymmeriadau, a llawer o'r golygfeydd a gawn yn y ddwy ystori arall, ond 'ail-argraphiadau' o bethau a gawn yn yr *Hunangofiant*. 'Os oes rhyw rinwedd yn y llyfr,' medd yr awdwr yn ei gyfarchiad i'r darllenydd yn nechreu *Rhys Lewis*, Cymreigrwydd ei gymmeriadau ydyw hwnw.' Yn hyn y saif y llyfr ar ei ben ei hun. Ni ddarluniwyd bywyd gwerin Cymru, yn enwedig bywyd crefyddol y Cymro gwledig, gan neb fel y mae Daniel Owen wedi ei ddarlunio. Ac yn wir, nid oes yn llenyddiaeth unrhyw genedl ddim mwy teimladwy, mwy serch-gynnhyrfiol, na'r darlun o ofal Mari Lewis am ei mab, a hanes marwolaethau Bob a Seth.

Carem ymhelaethu llawer ar nodweddion eraill yn y llyfr hynod hwn, yn enwedig ar y mân gymmeriadau sydd wedi eu portrëadu mewn llinellau bron mor eglur a'r prif wrthddrychau; ond rhaid ymattal. Dïau fod pob Cymro llengar yn eu hadnabod cystal a ninnau.

*Rhys Lewis* yw cynnyrch goreu llenyddiaeth chwedleuol Cymru yn nghyfnod olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg; ac y mae ei le yn ddiogel yn mhlith clasuron yr iaith Gymraeg. Nid yw arddull yr awdwr, hwyrach, yn goeth; ac nid ydyw pob disgrifiadau a geir ynddo yn tueddu i adael argraph ffafriol i grefydd ar feddwl y darllenydd. Nis gellir gosod dim a ysgrifenodd Daniel Owen, chwaith, a'i farnu o safbwynt ffurf ac arddull yn unig, ochr yn ochr â'r *Bardd Cwsg*, neu rai o odlau ein prif feirdd. Nid ar gyfrif coethder ei iaith, na'i fedr mewn ysgrifenu yr hyn a eilw Morus Kyffin yn 'Gymraeg cynhwynol,' y mae Daniel Owen yn haeddu ei le yn rhengoedd blaenaf llenorion ei wlad. Y natur ddynol, ac nid cyfrinion iaith a phriodddull, oedd maes ei astudiaeth ef. Etto, ysgrifenodd yn hynod naturiol a dirodres; a gall pawb—y diwylliedig a'r anwybodus—ei ddarllen gyda phleser a rhwyddineb. Ni cheir yn ei weithiau ef ddim o'r iaith chwyddedig a choegfarddonol sydd yn llwytho ac yn lladd ffugchwedlau llawer awdwr uchelgeisiol y dyddiau hyn. Er yr holl boblogrwydd a ennillodd, treuliodd Daniel Owen y blynyddoedd diweddaf o'i oes fel dilledydd yn ei fasnachdy yn y Wyddgrug. Tra y mae nofelwyr Saesnig yn hel eu miloedd trwy boblogrwydd cyffelyb, y mae cylch darllenwyr Cymru yn rhy fychan i wneyd awdwr yn gyfoethog. Nid ydyw llenyddiaeth Gymreig, hwyrach, ar ei cholled o herwydd hyny, o blegid nid elw a dŷn allan yr awen. Bu farw Daniel Owen yn ei gartref, Hydref 22ain, 1895, yn 59ain mlwydd oed.

**OWENS, JOHN**, Berthen Gron, yn sir Fflint. Un o flaen-gloddwyr byddin y Methodistiaid Calfinaidd yn y sir uchod oedd y gŵr hwn. Mab oedd efe i un o'r enw Owen Thomas, yr hwn, ynghyd â'i briod, a ddaethant, yn y fl. 1725, o Leyn, yn sir Gaernarfon, i fyw i amaethdy o'r enw Mwrcwd, yn Ysgeifiog. Yn mhen tua dwy flynedd ar ol eu symmudiad i sir Fflint—sef, yn y fl. 1727—y ganwyd eu mab, John Owen. Cyfrifid y mab yn llangc dichlynaidd, a medrus gydag amrywiol bethau. Yr oedd yn brydydd nid anenwog, ac yn gallu cyfansoddi *interliwdiau*, ac yn medru eu chwareu yn ddylanwadol hefyd. Ond er ei fod yn mlynyddau ei ieuengctid yn cyd-redeg yn ormodol gyda rhysedd yr oes, etto dywedir ei fod yn teimlo yn anesmwyth yn ei gydwybod; yr hyn a fu yn foddion i arafu ychydig ar ei wylltineb. Cafodd ei droi o gyfeiliorni ei ffordd trwy wrandaw ar y Parch. Daniel Rowlands, o Langeitho, pan ar un o'i deithiau, tua'r fl. 1751. Yr oedd yn pregethu mewn tŷ annedd â thô gwellt, ger llaw pentref Llandyrnog, yn Nyffryn Clwyd, o'r enw Tŷ Modlen. Fel hyn y dywedir am ei dröedigaeth:—Tua'r flwyddyn a enwyd (1751), aeth i ŵylmabsant Llangwyfan—sef, y plwyf agosaf i Landyrnog; ac wrth fyned yno, yr oedd yn ei fryd gael cyfle i ymddiddan â merch ieuangc o'r enw Mary Edwards, merch y gŵr oedd yn byw yn Mhlas Llangwyfan; yr hon, hefyd, a briododd efe yn fuan ar ol hyny. Yr oedd Mr. D. Rowlands, Llangeitho, i'w ddisgwyl, yn y cyfamser, i bregethu yn Nhŷ Modlen; ac yr oedd y ferch ieuangc eisoes wedi myned i'r bregeth. I'r bregeth, gan hyny, yr aeth yntau ar ei hol; ac o dan y bregeth hono y tywynodd goleuni argyhoeddiad gyntaf ar ei feddwl. Yr oedd Mary Edwards wedi dyfod i 'wybodaeth y gwirionedd' cyn hyn; ac weithian, wele y ddau yn arddel y Gwaredwr, ac yn rhodio yn ei orchymynion. Ar ol eu priodi, aethant i fyw i dyddyn o'r enw Berthen Gron, yn mhlwyf Ysgeifiog. Yn fuan wedi hyny, ymofynasant am gael pregethu i'r Berthen. Ar y pryd, nid oedd un eglwys gan y Methodistiaid yn sir Fflint, nac un pregethwr chwaith. Ond trwy ymroddiad John Owens a'i briod, sefydlwyd achos crefyddol yn y lle; a galwyd llawer i fod yn saint. Yn eu mysg yr oedd Humphrey, brawd John Owens, a'i ddwy chwaer; y rhai a fuont yn ffyddlawn a defnyddiol drwy eu hoes.

Nid hir wedi hyny y bu John Owens heb ddechreu pregethu. Dechreuodd, meddir, yn mhen tua thair blynedd ar ol priodi, sef tua'r fl. 1755–6; a bu yn llafurio felly tuag ugain mlynedd cyn agoriad Capel y Berthen, a chyn ei farwolaeth ei hun. Yn y blynyddoedd cyntaf hyn, yr oedd yr arddeliad a roddid ar y weinidogaeth ar y naill law, a'r elyniaeth a ddangosid yn ei herbyn ar y llaw arall, yn cyfatteb i'w gilydd. Fel yr oedd nifer y crefyddwyr yn lliosogi, a'r achos yn ymëangu i'r ardaloedd cymmydogaethol, yr oedd y gwrthwynebiad yn ymgadarnhau; ac ni chafodd John Owens, a'i deulu, ddim diangc heb eu herlid. Yr oedd gan y ddau frawd waith plwm—yn werth, ar y pryd, meddant, tua thair mil o bunnau. Ar eu gwaith yn troi at y crefyddwyr—ïe, ac yn flaenoriaid ar y sect newydd—cynnhyrfodd perch-

Digitized by Google

enog y tir, ynghyd â'i oruchwyliwr, yn dost yn eu herbyn; a phenderfynasant naill ai llethu eu crefydd, neu eu hysbeilio o'u meddiannau. Anfonwyd am y ddau frawd i gyfarfod perchenog y tir a'r goruchwyliwr yn ngwestty y White Horse yn Nhreffynnon, lle yr oedd llawer o wŷr mawr eraill wedi dyfod ynghyd ar yr achlysur o redeg ceffylau. Dygwyd y ddau frawd ger bron; ac wedi blino yn eu gwawdio, rhoddwyd iddynt eu dewis, pa un a wnaent, ai gadael eu crefydd ai colli eu gwaith—ac y rhoddid iddynt amser i ystyried. I hyn yr attebodd John Owens yn bwyllog, etto yn gadarn, nad oedd eisieu amser i ystyried y peth. Os ymadael oedd raid âg un o'r ddau, mai y gwaith plwm, er cystal ydoedd, fyddai hwnw; ac felly y bu. Collodd eraill eu gwaith yn yr amser profedig hwnw, heb law John ac Humphrey Owens; ac yn eu mysg yr oedd William Llwyd—yr hwn a symmudodd i Liverpool, ac a fu yn offeryn, gydag eraill, i gychwyn achos y Methodistiaid Calfinaidd yn y dref hono.

Yn fuan wedi i J. Owens ddechreu pregethu, un o'r moddion a ddefnyddiwyd gan ei gydblwyfolion i'w flino a'i ddyrysu oedd ei osod yn warden yr eglwys. Penderfynodd yntau, gan iddo gael ei dreisio i gymmeryd y swydd, y gwasanaethai efe hi yn ffyddlawn. Felly, un o'r pethau cyntaf a wnaeth oedd gosod rhaid ar y clerigwr i ddyfod at y gwasanaeth foreu Sabbath mewn pryd. Arferai y gŵr parchedig fyned i hela ar foreuau Sabbath yn aml, a mynych y byddai ar ol ei amser yn dychwelyd! Yr oedd wedi hanner dydd arno yn dychwelyd un tro, pan yr oedd John Owens yn mysg y bobl oedd yn disgwyl am dano i gyflawni ei waith; ond gan fod y boreu wedi myned heibio, ni oddefai iddo ddarllen y boreuol wasanaeth, ond rhwymodd ef i ddyfod mewn pryd i'r gwasanaeth prydnawnol—ac felly i barhau. A rhag ei ofn, bu raid iddo fod yn fwy gofalus.

Yr oedd John Owens yn un o'r sêr disglaer, yn nechreuad Methodistiaeth yn siroedd Fflint a Dinbych, a droisant lawer i gyfiawnder. Efe fu yr offeryn i ddychwelyd Ann Parry, Brynmulan, yn agos i dref Dinbych; yr hon a fu yn ddefnyddiol iawn gyda chrefydd yn yr ardaloedd hyny am flynyddoedd lawer. Byddai yn myned i Langeitho i ymofyn pregethwyr, ac yr oedd ei thŷ yn agored i groesawu gweision Crist. Yr oedd y wraig hynod hon yn enwog am ei chrefydd a'i gweithgarwch. Adroddir y ffaith ryfedd hon gan wŷr geirwir am dani—yn y fl. 1830, sef yn mhen 43ain o flynyddoedd ar ol ei chladdu, agorwyd ei bedd i ddodi gweddillion ei mab, James Parry, yno. Oddi ar ryw chwilfrydedd, yn tarddu oddi ar ei henwogrwydd fel Cristion, symmudodd torwr y beddau, ac eraill, y cauad oddi ar ei harch—pan y gwelsant, er eu syndod, nad oedd y corph wedi llygru, na'r llysiau oedd yn yr arch wedi gwywo! A phan agorwyd y bedd yr ail dro, yn y fl. 1836, daeth amryw o hen bobl oedd yn cofio Ann Parry yn dda i weled ei gweddillion; ac er eu syndod hwythau, yr oedd y corph yn aros yn ddi-lwgr drachefn! Ymddangosodd hanes helaeth am hyn yn y *Drysorfa* am Awst, 1836, wedi ei arwyddo gan dri o wŷr cyfrifol o'r ardal. Hwyrach fod cyfrif naturiol i'w roddi am hyn; ond ni chafwyd hyny i foddlonrwydd pawb hyd y dydd hwn.

Bu John Owens yn offeryn i achub llawer o rai enwog, heb law Ann Parry; a dioddefodd ei ran o erlidiau y cyfnod erledigaethus hwnw. Ond er pob rhagfarn a gwrthwynebiad, yr oedd gair yr Arglwydd yn cael ei fawrygu yn gyffredinol; ac yn neillduol yn y Berthen Gron. Aeth yr adeilad y pregethid ynddi yn fuan yn rhy gyfyng, a gwelwyd fod capel yn angenrheidiol. Ymosododd John Owens, a'i frawd, Humphrey Owens, ar y gwaith. Cafwyd tir dan brydles gan foneddiges o'r enw Miss Lloyd, yr hon oedd perchenog tyddyn y Berthen. Dechreuwyd adeiladu yn y fl. 1775; a gorphenwyd ef y flwyddyn ganlynol. Disgynodd y draul, dybygid, yn gwbl ar John Owens ei hun—oddi eithr yr ychydig gynnorthwy a gafodd mewn cludo y defnyddiau ato. Pan oedd yr addoldy yn mron wedi ei orphen, aeth John Owens i Langeitho, prif gartrefle Methodistiaeth yn y cyfnod hwn, i ymofyn am Rowlands, apostol Cymru, i'w agor; a chafodd ei addewid. Ond wrth ddychwelyd, cymmerwyd John Owens yn glaf; a methodd ddyfod yn nes adref na Llangurig, sef pum milldir tu draw i Lanidloes, cyn marw. Dywedai wrth y saer oedd yn gweithio ar y capel cyn iddo gychwyn i Langeitho:—'Nid wyf yn disgwyl dychwelyd yn fy ol yn fyw; ond gweithia di dy oreu i gael y capel yn barod, gan y daw Mr. Rowlands, mi hyderaf, yma i'w agor.' Dygwyd ei gorph i'w gladdu i fynwent Ysceifiog—ei blwyf ei hun. Dangoswyd gan y dyrfa a ddaeth ynghyd i'w gladdu, fod iddo barch mawr yn ei gartref, er mor erledigaethus oedd y tymmor; o blegid dywedir fod yr orymdaith yn cyrhaedd o'r Berthen i Ysgeifiog—milldir a hanner o ffordd; a bod yr afell wedi tori gan bwysau y prês a dderbyniwyd gan y gynnulleidfa ar yr achlysur.

Rhaid edrych ar John Owens, Berthen gron, a Robert Llwyd, Plas Ashpool, fel tadau cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yn sir Fflint, er fod yr olaf ddeng mlynedd yn hynach na'r cyntaf; a bu ar y maes yn llafurio am un-ar-bymtheg o flynyddoedd ar ei ol.

Bu John Owens farw yn y fl. 1776; a Robert Llwyd yn y fl. 1792.

OWEN, ROBERT, PARCH., Rhyl, 'APOSTOL Y PLANT.' Nid oedd raid i neb o gyd-oeswyr y gŵr hwn ofyn, gweinidog i ba enwad ydoedd efe? canys yr oedd sêl y Methodistiaid Calfinaidd yn eu nodweddion mwyaf adnabyddus i'w gweled yn amlwg arno. Ganwyd ef yn y Pennant, yn Eifionydd, yn sir Gaernarfon; a dyggwyd ef i fyny i fod yn wehydd. Yn gynnar ar ei oes, symmudodd i fyw i Dremadog; ac ar ol hyny i leoedd eraill; ac yna i Nefyn a Rhostryfan, ac yn ddiweddaf oll i Rhyl. Dechreuodd bregethu tua'r fl. 1819; ac ordeiniwyd ef, gydag eraill, yn y Bala, yn y fl. 1832. Daeth yn bregethwr poblogaidd bron yn nechreu ei dymmor. Yr oedd ei ddwysder a'i ddifrifwch, a materion ei weinidogaeth, ynghyd â'i lais treiddgar, a'i floeddiadau cynnhyrfus, yn dylanwadu yn fawr ar y tyrfaoedd a ddeuent i wrandaw arno. Cyfansoddodd ei bregethau yn yr arddull Buritanaidd—yn llawn o fêr duwinyddiaeth; ac yn y traddodiad o honynt annelai at y gydwybod ar lawer amgylchiad gyda nerth mawr. Y mae yn gofus genym ei glywed yn pregethu o flaen yr Hybarch John Elias, ac eraill. Yr oedd ei dymmerau, weithiau, bron a'i orchfygu yn yr areithle; ac yr oedd yn ddyn serchog a chymdeithasgar yn mhob cylch. Yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, yr oedd

Digitized by Google

yn ddefnyddiol iawn gyda'r Ysgolion Sabbothol, ac yn y cyfarfodydd ysgolion; a daeth yn fuan i adnabod ei ddawn fel holwr cyhoeddus yr ysgolion, ac yn arbenig fel holiedydd y plant. Cynnaliodd gannoedd o Gymmanfaoedd Plant ar hyd a lled Cymru; a hynod ddedwydd yr ymddangosai pan y byddai o bump i wyth cant o blant o'i flaen ar waelod capel mawr, a'r dyrfa mewn oed yn yr oriel; neu, wedi gwersyllu yn y maes agored, a channoedd o wrandawyr yn ffurfio math o furiau bywiol o'u cwmpas. Yr oedd y Parch. R. Owen yn meddu swyn a medr neillduol i gadw niferoedd mawr o blant o wahanol dymmherau yn astud a bywiog am amser maith, a byddai yn cael eu sylw at y materion y byddai yn holi arnynt. Felly daeth i gael ei alw a'i adnabod fel 'Apostol y Plant.'

Hanesion y Beibl oedd materion ei arholiadau yn mron:—Hanes Joseph, Moses, Dafydd, Daniel, ac yn enwedig hanes Iesu Grist; ac O! mor dyner ac effeithiol y cyfeiriai at ddioddefiadau y Gwaredwr yn Ngardd Gethsemane, ei brawf o flaen Pilat, ei groeshoeliad, ei farwolaeth, a'i ddodiad yn y bedd, &c. Gofynai, un tro, i gynnulleidfa o blant mewn capel mawr:—'A fu Iesu Grist farw, mhlant i?' 'Do!' llefai y plant yn fywiog. 'A fu yr hwn a gyfododd merch Jairus i fywyd eilwaith farw ei hunan?' 'Do!' meddai y plant âg uchel lef. 'A fu yr hwn a ddaeth â Lazarus o'r bedd farw?' 'Do!' meddai y rhai bach gyda mwy o frwdfrydedd. 'A gladdwyd ef, 'mhlant anwyl i?' 'Do!' 'A gauwyd y bedd arno?' 'Do!' 'A gafodd y bedd ei selio?' 'Do!' 'Wel, wel!' meddai yr holwr; ac ar hyn, wele ddistawrwydd am ennyd, ac yntau yn ymddangos fel pe byddai mewn dyryswch. Yn mhen ychydig eiliadau, dywedodd mewn llais toddedig a chwynfanus:—'Wel, mhlant bach anwyl! gan fod Iesu Grist wedi marw, a chael ei gladdu, y mae hi yn edrych yn dywyll iawn ar achos pechaduriaid; ac ni waeth i ni i gyd fyn'd adref.' Ac ar hyn ymaflodd yn ei gôb uchaf a'i het, gan gychwyn yn bruddglwyfus allan o'r pulpud i lawr y grisiau. Ond ar hyn, wele geneth fach yn llefain â llais gwanaidd:—'Y mae wedi codi o'r bedd, syr! 'Yr Arglwydd a gyfododd yn wir, ac a ymddangosodd i Simon.'' Ar hyn, wele gynnhwrf gorfoleddus trwy yr addoldŷ; a dacw y gweinidog yn troi yn ol tua'r areithle dan lefain diolchiadau, a bloeddio 'Gogoniant!' Ail ymaflodd yn ei orchwyl, a chafodd efe, a'r plant, a'r gynnulleidfa fawr hwyl nodedig o hyny hyd ddiwedd y gymmanfa.

Cofus genym hefyd am Gymmanfa Plant, nodedig o effeithiol, a gynnaliwyd yn Nghastell Rhuddlan—lle na chlywyd erioed y fath bethau ag y glywyd y dwthwn hwnw. Ymgyrchoedd gwaedlyd a welwyd yn y fan hono, ac wylofain a griddfanau a glybuwyd rhwng y muriau hyny oesoedd yn ol; ond cydsain heddwch a gorfoledd oedd i'w glywed pan yr oedd 'Apostol y Plant' yn myned drwy ei wersi crefyddol gyda'r cannoedd plant ac ieuengctyd oedd yn britho yr hen amddiffynfa.

Bu farw y gwas ffyddlawn hwn, Rhagfyr 16eg, 1883, yn 87ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn nghladdfa gyhoeddus Rhyl. Cyfodwyd côf-golofn o farmor ar ei feddrod gan ei liaws edmygwyr ar hyd y gwledydd.

PATAGONIA. Y rhan fwyaf deheuol o Ddeheubarth America, yn mesur tua 1,000 mill. o hyd wrth 480 mill. o led, gydag arwynebedd o 322,550 mill. pet. Yr oedd poblogaeth y wlad yn 1891 yn 20,000. Fel y gweddill o'r Cyfandir, rhenir Patagonia gan fynyddoedd yr Andes i ddwy diriogaeth tra anghyfartal o ran maint; ac er y fl. 1881, y mae yr holl dir i'r dwyrain o'r mynyddoedd hyn yn cael eu cydnabod fel rhan o'r Weriniaeth Arianin; tra y perthyna y tir i'r gorllewin o'r mynyddoedd hyn i Chili.

Y mae Patagonia Orllewinol, neu Patagonia-Chili, yn mesur 63,000 mill. pet., ac yn hynod o fynyddig. Y crib uchaf ynddo yw mynydd San Valentin, 12,697 tr. uwch law y môr.

Y mae Patagonia Ddwyreiniol yn gynnwysedig o wastadeddau uchel, yn cael eu gwahanu gan ddyffrynoedd a nentydd. Y prif afonydd ydynt y Rio Negro, Chubut, Deseado, Chico, Santa Crux, a'r Gallegos:—pa rai sy'n tarddu o'r Andes. Megir deadelloedd lliosog yno.

Gan gynnwys Tierra Del Fuego, bernir fod poblogaeth Patagonia Orllewinol tua 4,000; y rhai a wneir i fyny o wahanol lwythau, neu fân genedloedd.

CHUBUT, neu CHUPAT. Trefedigaeth ydyw hon yn Mhatagonia. Cymmer ei henw oddi wrth yr afon sydd yn rhedeg drwyddi. Trefedigaeth Gymreig ydyw Chubut; ac y mae hi hyd yn awr wedi parhau yn hollol Gymreig, o ran iaith ac arferion yr ymsefydlwyr. Cyrhaeddodd yr ymsefydlwyr cyntaf yno Gorph. 28ain, 1865; ac yr oeddynt yn 151 mewn nifer. Dilynwyd hwynt gan fintei oedd eraill; ac erbyn hyn, mae'r drefedigaeth mewn sefyllfa weddol lewyrchus. Prif gychwynydd y symmudiad i gael Gwladfa Gymreig yn Neheubarth America oedd y Parch. Michael D. Jones, prifathraw Coleg Annibynol y Bala. Yr amcan mewn golwg oedd gael trefedigaeth er coleddu a meithrin yr iaith Gymraeg, a sefydliadau Cymreig. Bu Mr. T. D. Love Jones-Parry, o Fadryn, a Mr. Lewis Jones, argraphydd, yn edrych ansawdd y wlad, a'i chymmhwysderau i ymsefydlwyr; a chan fod eu hadroddiad yn ffafriol, gweithiwyd y cynllun allan.

Ni ddigwyddodd pob peth mor gysurus ag y gallesid disgwyl. Yr oedd anfanteision mawrion i'w gorchfygu; ac yn 1867, rhoddwyd y drefedigaeth i fyny. Modd bynag, dychwelwyd yno; ac erbyn 1883, yr oedd y boblogaeth wedi cynnyddu i 1,286. Prif dref y drefedigaeth yw Trerawson, neu Rawsonville; yr hon a saif tua 5 mill. o'r môr; ac a elwir ar enw Dr. Rawson—gwleidydd Argentaidd. Y mae darn o dir wedi ei dynu allan i wneyd ffordd haiarn i New Bay, pellder o tua 40 milldir.

Pan yn ysgrifenu (Ionawr, 1896) yr erthygl hon, cyrhaeddodd i'r wlad hon hanes cyffrous o'r Wladfa, i'r perwyl fod y Cymry yn ymarfogi er amddiffyn eu hunain, a'u heiddo, rhag yr Indiaid. Dyma gynnwys y paragraph a gyhoeddwyd yn y newyddiaduron:—

'Rhoddir arbenigrwydd yn un o'r prif newyddiaduron Cymreig i lythyr a dderbyniwyd, meddir, o'r Wladfa Gymreig yn Nyffryn y Gamwy, Patagonia, yn Neheubarth America; yn yr hwn le, meddir, yr oedd yr Indiaid yn ymgodi mewn gwrthryfel, a'r Cymry yn ymarfogi mewn hunan-amddiffyniad. Dywedir fod Trelew, o'r hwn le yr anfonwyd y llythyr, yn ferw gwyllt gan faint y cyffro. Nid yw y Cymry wedi eu harfogi yn ddigonol. Penboethni ydyw gwreiddyn y cwbl.'

Hyderwn y bydd y newyddion nesaf yn foddhaol.

Gymreig o'r sefyllfa isel yr oedd hi ynddi; ac fel y cyfryw, y mae ei goffadwriaeth yn haeddu ei barchu yn mysg Cymry goleuedig y dyddiau hyn—a'r dyddiau a ddaw hefyd.

Bu farw Ionawr 29ain, 1883, yn 62ain mlwydd oed.

**OWENS, JOHN**, sylfaenydd *Owens' College*, Manchester. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1790. Brodor o Dreffynnon, yn sir Fflint, oedd Owen Owens, ei dad; ond symmudodd i Fanchester pan yn ieuangc. Priododd Gymraes, o'r enw Sarah Humphreys; a thua dwy flynedd yn ddiweddarach, ganwyd John Owens, gwrthddrych yr erthygl hon. Wedi bywyd o gynnildeb a diwydrwydd, cafodd Owen Owen ei hun mewn sefyllfa i gychwyn masnach ar ei gyfrifoldeb ei hun; ac ymddengys iddo fod yn hynod lwyddiannus yn ei anturiaethau. Rhoddwyd i John Owen ysgol dda; ac yn ystod ei fywyd colegawl, daeth i gyfathrach â gŵr ieuangc arall, o'r enw George Faulkner; a pharhaodd cyfeillgarwch rhyngddynt hyd ddiwedd ei oes.

Ychydig o hanes Mr. Owens sydd ar gael; ac oni bae am ei gymmwynasgarwch dihafal, mae yn lled debyg na buasai sôn am ei enw yn un man, amgen nag yn y cylch masnachol yr oedd efe yn troi ynddo. Ymddengys mai gŵr ieuangc gwylaidd oedd efe—yn ddarllenwr mawr, yn ŵr tawedog, ac yn tueddu ar brydiau i fod yn anfoddog. Nid oedd yn ddyn o ysbryd cymdeithasol; ac ychydig o gyfathrach agos fu rhyngddo a neb, heb law Mr. Faulkner. Nid oes sicrwydd pa bryd y gadawodd efe yr ysgol; na pha bryd yr ymunodd â masnach ei dad; ond bernir i hyny gymmeryd lle rhwng 1813 ac 1819. Erbyn 1815, yr oedd masnach Mr. Owen Owens wedi ymledu cymmaint fel y bu raid iddo agor masnachdai enfawr yn Llundain, ac mewn amryw o drefydd eraill; ac hyd yn oed yn Philadelphia, yn Unol Dalaethau yr America.

Yn 1834, cawn fod Mr. John Owens wedi ymuno â chwmni Samuel a George Faulkner. Gwehyddion cotwm oeddynt hwy; a safai eu melin yn Heol Elizabeth. Yn 1831, safodd gweithwyr y felin allan; a daethant allan fel un gŵr am ragor o gyflog; a bu ymrafael blin iawn rhwng y pleidiau. Yn ystod yr anghydfod, torodd tân allan mewn rhan o'r felin; a gwnaeth ddifrod ofnadwy. Cyfrifid fod y golled dros chwech ugain mil o bunnau (120,000*p*). Yn union ar ol hyn, ymneillduodd Mr. Owens o gwmni Meistri Faulkner. Dyna bron yr oll sydd yn hysbys am ddigwyddiadau ei fywyd masnachol. O ran ei ddaliadau gwleidyddol, Radical trwyadl oedd efe.

Ond nid fel masnachwr, nac fel gwleidydd, ond fel cyfaill a chefnogydd selog i addysg y mae enw a choffadwriaeth Mr. Owen yn parhau yn wyrddlas—ac fe bery felly. Teimlai ddyddordeb mawr yn nghyffro addysgawl yr oes; ond coleddai gasineb cyflawn at holl brawfion (*tests*) y prifysgolion; a phan yr aeth efe o gylch y gwaith anrhydeddus a bendithfawr o sefydlu un o athrofeydd goreu y deyrnas, nid ydyw yn rhyfedd iddo gau allan bob prawfion o'r fath. Dyma eiriad ei ewyllys ar hyn:—

'Ni bydd hawl gan neb un pwy bynag i ofyn i'r myfyrwyr, y proffeswyr, yr athrawon, na neb arall fydd yn gyssylltiedig â'r sefydliad hwn, i wneyd un math o ddadganiad ynghylch ei ddaliadau crefyddol. Ni bydd hawl gan neb, chwaith, i ymostwng i fyned dan unrhyw brawf (*test*). Hefyd, y mae pob math o addysg grefyddol a duwinyddol i'w cau allan dros byth, os bydd tuedd ynddi i dramgwyddo cydwybod unrhyw fyfyriwr, neu ei berthynasau, neu ei warcheidwaid, neu ei gyfeillion, neu pwy bynag fydd yn gofalu am y cyfryw fyfyriwr.'

Dyna'r egwyddor ryddfrydig y bwriadai Mr. Owens i'r athrofa uchod gael ei sylfaenu arni. Gadawodd y swm anferth o gan mil o bunnau (100,000*p*.) at yr amcan. Adeiladwyd y coleg yn Oxford Road, Manchester; a galwyd ef yn 'Owens' College,' er côf am y gwaddolwr. Ac yn awr, y mae yn cael ei restru yn mysg sefydliadau addysgawl goreu y deyrnas. Ei ystafelloedd fferyllol, meddygol, ac anianyddol, yw yr harddaf a'r mwyaf cyfleus o fewn yr holl deyrnas. Yr oedd Mr. Owens, ar hyd ei fywyd, yn teimlo y dyddordeb dyfnaf yn y cyffrawd addysgawl—yn neillduol mewn addysg uwchraddol; ac ar derfyn ei oes, fel y gwelir, coronodd ei holl weithrediadau trwy sefydlu coleg, yr hwn sydd yn hollol rydd oddi wrth bob prawfion a seremonïau crefyddol.

Bu John Owens farw Gorphenaf 29ain, 1846; ac y mae ei enw yn barchus yn mysg trigolion ei dref enedigol; a'i goffadwriaeth yn anwyl gan garedigion addysg yr holl fyd.

# P.

**PARRI, JOHN**, Llanelian. Ganwyd y cymmeriad hynod hwn mewn fferm o'r enw y Wern, ger Llanelian, Mehefin 29ain, 1770. Ychydig o'i hanes sydd ar gael; ond y mae yr hyn sydd yn wybyddus yn dangos ei fod yn ŵr yn meddu hynodrwydd neillduol. Cafodd addysg weddol dda pan yn ieuangc; ac y mae dylanwad coethder ei addysg i'w ganfod yn amlwg yn ei gyfansoddiadau. Pan tuag wyth-ar-hugain oed, priododd ferch ieuangc rinweddol, o'r enw Elsbeth Huws, Fferm-nant, Llanelian; a ganwyd iddynt chwech o blant. Yr oeddynt ar yr adeg yma yn byw yn Llanelian, yn cadw gwestty, ac hefyd yn amaethu darn o dir a berthynai iddo.

Digitized by Google

nillodd John Parri le aurhydeddus yn serch a theimlad ei ardal, a daeth yn un o'i dynion blaenaf. Bu farw Mehefin 25ain, 1820, yn 50ain mlwydd oed, yn fawr ei barch, ac yn uchel ei glod.

Prif neillduolion cymmeriad John Parri oedd ei bertrwydd, ei symledd, a'i naturioldeb. Adroddir chwedlau doniol am dano, a chedwir llawer o honynt yn fyw ar lafar yr ardalwyr hyd heddyw. Ni a ddyfynwn ychydig o honynt yma, a gasglodd Gwynn ap Iwan, i ddangos y neillduolion hyn yn nghymmeriad ein gwrthddrych. Un tro, yr oedd efe yn dyfod ar hyd y ffordd sydd yn arwain o'r Hen Golwyn i gyfeiriad Llanelian. Ar ochr y ffordd hon, y mae amryw gaeau a elwir wrth yr enw 'Caeau Melin Pentre;' ac yn ngwaelod y caeau hyn, yn yr hen amser, yr oedd nifer o dai a elwid 'Melin Pentre.' Pan ger llaw y caeau hyn, daeth gŵr dyeithr i'w gyfarfod; a gofynodd iddo—'I b'le y mae'r ffordd yma'n myn'd, os gwelwch yn dda?' 'Dydi hi'n myn'd i le'n y byd am wn i. Yma 'rydw i'n i chofio hi erioed,' attebai John Parri. Ebai y gŵr dyeithr eilwaith—'Wel, b'le'r awn i ynte pe tawn i'n myn'd i ganlyn y gwrychoedd yma?' 'O!' meddai John Parri, 'i Felin Pentre, ar y tân,' gan gyfeirio, y mae yn debyg, at arfer preswylwyr y tai o ladrata gwrychoedd at gynneu tân.

Yr oedd John Parri yn barod gyda'i awen. Dywedir fod Twm o'r Nant yn Llanelian unwaith, yn gwneuthur rhywbeth gyda cheryg beddau; ac ebai efe, wrth weled John Parri yn pasio:—

> 'Mae ein mynwent mewn manau—yn llwybr
> troed,
> Lle bu 'r trwyn a'r genau;
> Sathru 'r beilchion, brychion brau,
> Wna byw-ddyn, yn y beddau.'

Heb foment o betrusder, dyna'r hen Barri yn clecian ei awen yntau, fel hyn:—

> 'Ti sathrwr, baeddwr beddau,—hyd esgyrn
> O! dôd ysgafn gamrau;
> A chofia ddyn, briddyn brau,
> Y dwthwn sethrir dithau.'

Prif gyfansoddiad barddonol y bardd ydyw ei 'Fyfyrdod mewn Mynwent.' Cynnwysa y gân dros bedwar cant o linellau, wedi eu canu ar 'fesur a elwir 'Diniweidrwydd.'' Dywed un sydd yn alluog i farnu fod y gân hon yn un wir ragorol, a bod llenyddiaeth Gymreig ar ei hennill gyda hi.

PARRY, Parch. ROBERT (*Robyn Ddu Eryri*). Un o'r cymmeriadau mwyaf adnabyddus o fewn y Dywysogaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd efe. Ganed ef yn nhref Caernarfon, Chwefror 7fed, 1804. Cafodd ei brentisio yn grydd pan yn ddeuddeg oed; ac yn ol ei osodiad ef ei hun, yn yr oedran bachgenaidd yma y cyfansoddodd efe ei bennillion gorchestol ar y testyn 'Gorphenwyd'—llinellau a barhânt mewn bri tra y pery yr iaith. Anfonwyd hwy ganddo i eisteddfod, gyda'r ffugenw 'Robyn Ddu.' Ar annogaeth y beirniad, chwanegodd ato y gair 'Eryri;' ac wrth yr enw 'Robyn Ddu Eryri' yr adnabyddid ef bellach, yn mhell ac agos. Ni wnaeth efe gymmaint o gynnydd yn nghyfrinion yr alwedigaeth o wneyd esgidiau ag a wnaeth yn nghyfrinion barddas; ac fel yma y siaradodd ei hun ar y pwngc:—'O blegid myfyrio ar bethau eraill, a rhigymu, ni ddysgais i wneyd cymmaint ag un esgid yn iawn; ac am wneuthur dwy yn gymmheiriaid, gallaf sicrhau na fûm erioed yn euog o'r fath gampwri, er dysgu pethau eraill yn rhwydd.' Hawdd ddigon i'r neb a'i hadwaenai goelio y dywediad yma o'i eiddo. Yr oedd efe, er yn foreu, yn hynod o ansefydlog ei feddwl; ac yn hoff o gwmni, o ddadleu, a phrydyddu. Y pethau hyn, ac nid ei grefft, oedd yn myned â'i fryd. Dywedir mai ei hoff bleser oedd cyrchu i'r capeli, yn agos ac yn mhell; a'i fod yn adroddwr pregethau nas gellid cael ei well—nac yn aml ei gystal.

Ymranai bywyd Robyn i dri chyfnod. Yn y cyfnod cyntaf, ymroddodd i ymbleseru fel bardd crwydrol, a chydymaith dyddan. Yn yr ail gyfnod, daeth i sylw ei gydwladwyr fel darlithydd, areithydd, a phregethwr. Y trydydd cyfnod a dreuliwyd ganddo mewn henaint a phenwyni, bron wedi ei lwyr anghofio gan ei genedl; er nad yn hollol felly, chwaith. Ni a roddwn yr ychydig sylwadau canlynol am dano yn y cyfnodau hyn.

Pan yr oedd Robyn Ddu yn anterth y cyfnod cyntaf, yr oedd cyflwr cymdeithas yn Nghymru yn wahanol iawn i'r hyn ydyw yn awr. Yr oedd manteision addysg yn brinach nag ydynt ar yr adeg bresennol, ac ychydig iawn o byngciau cyhoeddus oedd yn tynu sylw. Rhoddid lle uchel, hyd yn oed y pryd hwnw, i farddoniaeth a chrefydd:—yn wir, rhoddid yn mron lawn gymmaint o fri ar farddoniaeth ag a wneid ar grefydd; a thueddai y Piwritaniaid crefyddol i edrych ar y beirdd gyda llygaid eiddigus. Ac nid heb achos y teimlent felly, chwaith; o blegid yr oedd y beirdd, ac yn enwedig y 'beirdd clêr,' fel eu gelwid, yn fodau hynod bwysig mewn cylchoedd cymdeithasol. Teithiai rhai o'r beirdd hyn amgylch ogylch y wlad; cyfarfyddent eu cyfeillion a'u hedmygwyr mewn tafarndai; a mawr fyddai yr hwyl a'r adloniant a barent i'r ymgynnullwyr. Ystyrid, y pryd hwnw, fod bardd a thelynor yn anhebgorion i fywyd cymdeithasol yn y Dywysogaeth. Nid oedd neb yn Nghymru yn fwy medrus i loni ac i ddifyru y dosbarth yma na Robyn Ddu; ond yn raddol, cafodd y dull crwydrol hwn o fyw effaith ddrwg ar ei feddwl; a chyn hir, ennillodd y ddiod feddwol ddylanwad arno. Yr oedd yn mryd rhai o gyfeillion ac edmygwyr y bardd athrylithgar ei anfon i gael chwaneg o addysg, fel ag i'w gymmhwyso ar gyfer cylch uchel yn ngwasanaeth ei wlad; ond o herwydd ei arferion, ni chariwyd y bwriad allan. Nid oedd efe wedi dysgu crefft, ac nid oedd ganddo ddim gwell i'w wneuthur â'i athrylith ddisglaer na theithio o'r naill fan i'r llall, i 'glera' yn y dull a nodwyd. Arosai am fisoedd mewn tafarndai yn Nghaerlleon, Llundain, Liverpool, Manceinion, Caerdydd, a threfydd eraill. 'Yr oedd,' meddai un o'i gyfeillion agosaf, 'fel y delyn, ar y pryd, wedi myned yn gydymaith anhebgor i'r pot a'r bibell.'

Mawr hoffid Robyn gan bawb. Yr oedd yn hollol onest, diniwed, a di-ddichell. Gwyddai pawb ei fod yn berchen ar athrylith ddisglaer; ac fel y cyfryw, cydymdeimlid âg ef, a chynnorthwyid ef yn helaeth gan ei gyfeillion. Diammheu iddo ddioddef llawer oddi ar law ei elynion; a pharddduwyd mwy arno yn aml nag a ddylesid. Er hyny, afradlawn oedd efe yn y cyfnod cyntaf hwn ar ei fywyd. Modd bynag, daeth cyfnewidiad cyn bo hir.

Yn y flwyddyn 1837, torodd diwygiad dir-

Digitized by Google

westol nodedig allan yn Nghymru; a dygwyd Robyn Ddu Eryri i deimlo oddi wrth ei ddylanwad. Cymmerodd yr ardystiad, a dechreuodd ar gyfnod newydd o fyw. Bu gan Dr. Arthur Jones, o Fangor, ran lled flaenllaw yn yr ymdrech i newid cyfeiriad y ffordd yr oedd Robyn yn tramwy ar hyd-ddi. Yr oedd Dr. Jones yn un o'r dynion glanaf ei gymmeriad. Ond yr oedd yn un o'r dynion hyny a deimlai ddyddordeb anarferol mewn un wedi ei ddarostwng gan bechod, ac yn un a wnai yr hyn a allai i'w godi i fyny. Edmygai dalent Robyn; cydymdeimlai âg ef yn ei rysedd; a gwnaeth lawer i gael ganddo adael ei ffordd. Ymddengys fod gan Dr. Jones ddwy ffordd i gofnodi enwau dirwestwyr:—ar lyfr, ac ar lech. Ni ddodid enw neb ar y llyfr, os na byddai wedi cadw yr ardystiad am fis. Ar y llech, gan hyny, y dodwyd enw Robyn ar y cyntaf; fel y gellid, trwy hyny, symmud yr enw ymaith pe digwyddai iddo dori yr ymrwymiad. Rhoddodd Dr. Jones iddo ysgol i ofalu am dani; sef, cangen o ysgol waddoledig Dr. Daniel Williams. Ymunodd â'r Annibynwyr; daeth yn fawr ei sêl gyda dirwest; ac yn mhen ychydig amser, dechreuodd bregethu. Ymddengys y cymmerai efe ei ryddid i bregethu yn ol fel y byddai galwad, yn mhulpudau capeli Arfon, a siroedd eraill yn y Gogledd. Bu hyn yn achos o gryn helynt yn mysg yr Annibynwyr. Daeth yr enwog Caledfryn allan fel arweinydd yn erbyn y blaid ddirwestol yn yr eglwysi; a gwnai hyny, nid am ei fod yn wrthwynebol i ddirwest, ond am fod tuedd ormodol mewn llawer i roddi mwy o arbenigrwydd ar ddirwest nag ar yr efengyl. Gwrthdystiai yn erbyn benthyca pulpudau i Robyn Ddu, i bregethu, nac i areithio ynddynt; a daeth y cwestiwn yn fater o drafodaeth ac ymgynghoriad yn nghynnadleddau yr enwad. Daeth y newyddiaduron a'r cylchgronau i fod yn orlawn o 'Robyn Ddu, a'i helynt.' Dadleuid fod Dr. Arthur Jones yn gweithredu yn groes i egwyddorion a threfn eglwysig yr Annibynwyr yn ei ymwneyd â Robyn, ac yn y gefnogaeth a roddai efe iddo. Ystyrient hefyd fod y dull o'i 'wneyd yn bregethwr' yn afreolaidd; a hyn fu achos penaf yr helynt. Modd bynag, pregethodd Robyn Ddu gryn lawer yn y wlad; a gwelsom hysbysiad yn rhywle iddo gael ei ddewis yn weinidog ar fwy nag un eglwys yn y Deheudir. Er hyny, ni pharhaodd efe yn weinidog am hir amser yn un man. Tua'r adeg hon, aeth ar daith ddirwestol trwy Gymru; ac yn mhob man lle yr elai, rhoddid iddo dderbyniad croesawgar. Weithiau, siaradai mewn capeli; brydiau eraill, ar yr heolydd. Byddai disgwyliad mawr am ei ddyfodiad; a chaffai gynnulleidfaoedd lliosog i wrandaw arno yn mha le bynag yr ymddangosai. Yr oedd efe, erbyn hyn, yn un o'r cymmeriadau mwyaf adnabyddus, os nad y mwyaf oll, o fewn y Dywysogaeth. Bu yn darlithio, yn pregethu, neu ynte yn areithio ar ddirwest, bron yn mhob plwyf trwy Gymru. Talodd ymweliadau hefyd â rhanau o Loegr ac Ysgotland; ac yn 1842, aeth drosodd i America. Tua 1843, dychwelodd i Lundain; ac yn union wedi hyn, syrthiodd yn ol i'w hen arferion drygionus. Bu ei gwymp oddi wrth y ffydd ddirwestol yn loes fawr i'w gefnogwyr, a'r rhai a lynasant wrtho pan yr oedd eraill yn ymosod arno.

Ymddengys i Robyn, o ddeutu yr adeg yma, ymuno â Saint y Dyddiau diweddaf; a bu mewn amryw leoedd yn pregethu fel un o honynt. Gwnaeth ei ymddangosiad yn y cymmeriad newydd hwn yn ninas Bangor—o fewn pellder bychan i'r man y codwyd ef yn bregethwr ynddo. Clywodd Dr. Arthur Jones—yr hwn a barhäai yn un o'i gyfeillion penaf a chynnhesaf—am ei ymweliad â'r dref yn y cymmeriad newydd o 'Sant;' a galwodd ef ato i gael ymddiddan âg ef. Yn ol yr hanes, digwyddiad tra chyffrous a difrifol yn mywyd Robyn oedd yr ymddiddan hwn fu rhyngddo a'r Dr. Addefodd wrth ei gymmwynaswr mai angen a wnaeth iddo ymuno â'r Seintiau; a rhoddodd ar ddeall y byddai iddo dori ei gyfathrach â hwynt pe cai rhywbeth yn y ffordd o fywoliaeth. Yr oedd Dr. Jones, ar y pryd, wedi ei awdurdodi gan gwmni o gyhoeddwyr yn Llundain i gyfieithu *Fleetwood's Life of Christ* i'r Gymraeg. Ar ddau ammod—sef, fod iddo lwyr-ymwrthod â'r diodydd meddwol, a dyfod yn Gristion uniongred—amlygodd y Dr. ei barodrwydd i ymddiried y gorchwyl hwn i Robyn. Hyny a wnaed; a gwaith Robyn ydyw y rhan fwyaf o gyfieithiad swyddogol ac awdurdodedig y llyfr a enwyd.

Yn 1850, pennodwyd ef yn olygydd *Y Wawr*—cyhoeddiad newydd a ddygid allan gan Mr. David Evans, Caerdydd; ac am dymmor, bu ei ymarweddiad yn weddol ddifrycheulyd. Yr oedd y cylchgrawn hwn o chwaeth uchel, ac yn cynnwys erthyglau dysgedig ar wahanol ganghenau o addysg. Ond yn mhen deunaw mis, bu farw o ddiffyg cefnogaeth briodol. Yn mhen rhai blynyddoedd ar ol hyn, daeth Robyn ar ei hynt i'w dref enedigol. Cymmhellwyd ef gan Mr. Hugh Humphreys, cyhoeddwr, i ysgrifenu hanes ei fywyd, a'i anturiaethau, ynghyd â chasglu ei gyfansoddiadau barddonol. Cydsyniodd yntau; a bu wrth y gwaith am fisoedd; ac y mae yn y gwaith hwn gronicl lled gyflawn a dyddorol o'i amgylchiadau. Cymmerodd hyn le tua'r fl. 1857. Heb law a nodwyd, cyfieithodd amryw ranau o *Esboniad Birkitt ar y Testament Newydd;* ac ysgrifenodd lawer i *Seren Gomer*, *Y Dwygiwr*, a'r *Gwyliedydd*. Dywed rhai fod seiliau dros gredu ddarfod iddo hefyd ysgrifenu llawer o farddoniaeth gogyfer âg eisteddfodau, ac i fân gyfarfodydd cystadleuol. Ymfoddlonai ef ar yr elw, tra y derbyniai eraill yr anrhydedd.

Mewn erthygl alluog a ysgrifenwyd ganddo, dywed Meiriadog fel hyn am Robyn:—

'Un o dymmheredd naturiol radlawn, tawel, a serchog, a hawdd ei foddio oedd efe; ond pan y cythruddid ef, ymwgai a rhuai fel gwrdd-darw Basan; a gwae i'w gythruddwr os byddai yn sefyll o flaen ei gyrn y munydau cynnhyrfus hyny. Yr oedd ei hylithrwydd yn ddiarhebol—yn amrywio yn ol natur ei faterion, o dyrfiad y daran hyd lyfnder yr awel ac eglurder y dydd; a'i feddylddrychau yn chwalu bob ffordd, fel gogriad wynwyn Twm Siôn Cati gynt, i lawr y llechwedd. Ni byddai un amser yn gwarthruddo neb o syniadau gwahanol iddo ef ei hun; ond parchai bawb, heb roddi nac anair na thramgwydd i neb. Ei brif ymgais, wedi iddo droi yn ddirwestwr, oedd denu y meddwyn i fod yn sobr, gan ddangos ei hun fel un o fendithion sobrwydd.

Fel darlithydd, rhestrid ef gan lawer yn y dosbarth blaenaf; ac yn yr ail ddosbarth, fel bardd. Ond y darnodiad goreu o hono, fe allai, ydyw, mai yn y blaenaf y safai fel bardd; ac yn yr olaf, fel darlithydd—yr hyn a gydnabyddai yntau hefyd. Yr oedd yn rhy siaradus i fod yn ddarlithydd penigamp y prif ddosbarth; ond nid oedd felly fel bardd. Yn y blynyddoedd, o 1830 hyd 1832, Robyn

Digitized by Google

Ddu Eryri oedd brenin cyhoeddus beirdd Cymru oll. Nid oedd na thref, na phentref, na chwm, na chwmmwd, nac un eisteddfod a gymmerai le na byddai efe yn ysgubo bron yr oll o'r gwobrwyon.'

Yn mlynyddoedd olaf ei fywyd, gwasgwyd y bardd i amgylchiadau cyfyng. O herwydd ei adfyd a'i angenoctyd, gwnaed ymdrech gan ei gyfeillion i gasglu iddo ychydig arian. Cafwyd, ar ddau achlysur, rodd o 100*p*. bob un oddi wrth y Goron. Bu Arglwydd Aberdâr, Ardalydd Bute, ac eraill, yn hynod garedig wrtho, hefyd, yn ei adfyd. Cafodd gystudd maith; a dioddefodd yn aruthr oddi wrth effeithiau y cryd-cymmalau.

Bu farw yn Ludlow, yn swydd Henffordd, Tachwedd 4ydd, 1892, yn 88ain ml. oed, gan adael gweddw a dau o blant ar ei ol. Cafodd ei gladdu yn barchus, ar draul Ardalydd Bute.

**PHRENYDDEG.** Meddyleg, gwyddor y meddwl, athroniaeth feddyliol—y wyddor sydd yn ymdrin âg ermigau sylweddol yr ymenydd, neu y berthynas y tybir ei bod rhwng cynneddfau y meddwl ac ermigau neillduol yr ymenydd. Ni a roddwn yma eglurhâd ar y wyddor yn ol syniadau yr awduron goreu sydd yn adnabyddus.

Y mae y wyddor hon yn un bwysig, dyddorol, ac addysgiadol; ac yn teilyngu yr ystyriaeth ddyfalaf. Y gair a ddefnyddir yn Saesneg yw *Phrenology*—gair cyfansoddedig o ddau wreiddair Groeg—*phrên* a *logos*. Gwnaethpwyd aml gais i Gymreigio y gair hwn; ond nifer o eiriau anystwyth a gaed; sef, penofyddiaeth, menofyddiaeth, meddyleg, meddwlyddiaeth, ymenyddeg, penddysg, ymenyddiaeth, &c. Nid ydyw un o'r geiriau hyn, fodd bynag, yn cyfatteb mewn ystyr i'r gair gwreiddiol, nac yn cyfleu syniad cywir o'r gyfundrefn hon. Y mae Phrenyddeg yn ymdrin â'r meddwl, yr ymenydd, a'r pen-glog—nid yn unig yn wahanfodol, neu bob yn un, ond hefyd yn gryno yn eu cyssylltiad a'u perthynas â'u gilydd. Traetha ar y pethau hyn ar wahân oddi wrth, yn gystal ag mewn undeb â'u gilydd, ac â phob cangen arall o'r gyfundrefn ddynol. Gan na wyddom am air Cymraeg sydd yn atteb y pwrpas yn llawn, mabwysiadwyd y gair uchod fel yr un mwyaf priodol, yn ol ein syniad ni.

Y mae Phrenyddeg, wrth gwrs, mor hen a dynoliaeth ei hun; ond nid ydyw y darganfyddiad o'i gwaith a'i hamlygiadau, a'i gwerth a'i llesoldeb fel gwyddor, ond cymmharol ddiweddar. Fel pob darganfyddiad gwerthfawr arall, bu raid i Phrenyddeg, ar y cyntaf, o herwydd newydd-deb ei haddysg, a hynodrwydd ei honiadau, wrth eu cyferbynu â hen ddaliadau sefydledig, gyfarfod â'r gwrthwynebiadau a'r ymosodiadau cryfaf; ond y mae y cynnydd rhyfeddol y mae hi wedi ei wneyd yn ddiweddar yn marn dynion dysgedig yn myned yn mhell i brofi cywirdeb ei haddysg. Yr oedd cylchrediad y gwaed trwy y rhedwelïau a'r gwythïenau yn myned yn mlaen er's miloedd o oesoedd cyn darganfyddiad y ffaith gan Harvey yn yr eilfed ganrif ar bymtheg; ac yr oedd dysgyrchiant (*gravitation*) yn bod er ysbaid annirnadwy cyn i Syr Isaac Newton, ddeng mlynedd wedi hyny, ddarganfod y ddeddf sydd yn ei llywodraethu. Nid oes fawr o amser, chwaith, wedi myned heibio er pan gafwyd allan nerth, gwerth, a defnyddioldeb ager a nwy. Ond erbyn hyn, addefir gwerth y darganfyddiadau hyn, a chydnabyddir cywirdeb cyffredinol hòniadau eu darganfyddwyr.

Ein hamcan yn yr erthygl hon fydd ceisio eglurhau gwirionedd, a chwilio i rai o'r ffeithiau a'r honiadau cyssylltiedig â hanes darganfyddiad, dilysrwydd, a defnyddioldeb Phrenyddeg, ynghyd â'i swyddogaeth a'i safle bresennol yn y byd gwyddonol. 'Trwy y wyddor hon,' meddai Chambers, 'yr olrheiniwyd cynneddfau y meddwl am y tro cyntaf i'w ffurfiau elfenol;' a sylwodd Dr. Chalmers fod Phrenyddeg wedi chwanegu maes newydd a thoreithiog at diriogaeth ëang y synwyrau a'r deall dynol.

*Ei Darganfyddiad.*—I Dr. Gall, physygwr o Vienna, y mae y byd yn ddyledus am ddarganfyddiad Phrenyddeg, a'i sefydliad fel cyfundrefn o athroniaeth feddyliol. Ganwyd ef yn Tiefenbrünn, yn Suabia, ar y 9fed o Fawrth, 1757; a bu farw yn Paris, Awst 12fed, 1828.

Pan yn ieuangc, yr oedd Gall yn hynod yn mhlith ei berthynasau a'i gyfeillion o herwydd ei efrydiaeth diwyd, a'i ddyfalwch, a'i arferion ymchwilgar a darllengar. Un diwrnod, tarawyd ef gan y ffaith fod ei frodyr a'i chwiorydd, a'i gyfoedion a'i gymdeithion efrydol, yn wahanol i'w gilydd yn eu tueddiadau, eu harferion, a'u chwaeth; a bod pob un o honynt yn cael ei nodweddu gan ryw dalent a thueddfryd neillduol. Yr efrydwyr yr oedd Gall bob amser, pan yn yr ysgol neu yn y coleg, yn ei chael hi galetaf ac anhawddaf i gystadlu â hwy oedd y rhai galluocaf i gofio-pethau. Gallai efe yn hawdd ragori arnynt mewn pethau eraill; ond yr oeddynt hwy bob amser yn rhagori arno ef yn eu gallu i gofio ac adrodd; ac felly, derbynient yr anrhydeddau hyny y tybiai efe a ddylasent syrthio i'w ddwylaw ef. Sylwodd Gall yn neillduol ar bob un oedd yn dalentog yn y cyfeiriad hwn; a chanfyddodd eu bod oll yn meddu llygaid llawnion, yn debyg fel eu gilydd, yn bànog allan ac yn gogwydd fwy neu lai oddi wrth y trwyn. Wedi myned i'r brifysgol, cyfeiriodd ei sylw at efrydwyr y 'llygaid bànol;' yr hyn a'i cadarnhaodd ef yn y dybiaeth eu bod oll yn rhagori mewn gallu i gofio darnau o farddoniaeth a rhyddiaeth; ac i roddi adroddiadau cywir o'r cyfryw, er nad oeddynt hwy, fel rheol, yn nodedig o herwydd eu galluoedd cyffredinol. Byddai yr *ox-eyed students*, fel y gelwid hwynt, yn sicr o fyned ymaith yn fuddugoliaethus pa bryd bynag y byddai dysgu ieithoedd yn wersi. Nis gallai Gall gredu o gwbl mai damweiniau yn unig oedd y ddau amgylchiad hyn; ac o hyny allan, haerai yn gadarn fod yr efrydwyr 'llygadog' yn sefyll mewn perthynas bwysig ac agos i'w gilydd. Wedi llawer o feddwl a myfyrio, tybiodd, os oedd talent i gofio geiriau ac i adrodd cyfansoddiadau yn cael ei hamlygu gan ryw arwodiad allanol, fod yr un peth yn perthyn i'r holl alluoedd meddyliol eraill. Wedi hyny, efe a benderfynodd gymmeryd pob person a hynodid â rhyw dalent neu ddawn neillduol yn wrthddrych yr astudiaeth a'r archwiliad manylaf. Yn raddol, fel hyn, daeth i gredu ei fod wedi darganfod nodweddion allanol oedd, y tu hwnt i ammheuaeth, yn arwyddo tueddiadau at gerddoriaeth, arluniaeth, neu y celfau gallofyddol. Tua'r amser hwn, hefyd, sylwodd na byddai rhyw ŵr ieuangc o gydymaith iddo, pan yn crwydro gydag ef trwy y coedwigoedd, byth yn colli ei ffordd—yr hyn y byddai efe ei hunan yn ei wneuthur yn bur fynych. Yr oedd gan y gŵr

Digitized by Google

ieuangc hwn ddau gnwc hynod ar ei dalcen, braidd yn union uwch ben bôn y trwyn, tra nad oedd ar dalcen Gall ei hun ddim o'r fath. Ac wrth ystyried y pwngc yn mhellach, a chymmharu y dyn hwn â dynion eraill yn meddu ar nodweddau cyffelyb, daeth i'r penderfyniad fod y personau hyn, yn reddfol a naturiol, yn cofio eu ffyrdd i unrhyw leoedd y buont ynddynt o'r blaen, ac yn gallu trysori yn eu cof wybodaeth leol a ffeithiau daearyddol heb ond ychydig o lafur na thrafferth. Mewn amser, daeth yn gydnadnabyddus â nifer o wŷr enwog oedd yn nodedig am benderfynolrwydd a chadernid cymmeriad; a chanfu fod rhyw ranau neillduol o benglog pob un o honynt â'r hynodion hyn, yn cael eu harddangos yn amlwg ynddynt. Awgrymodd hyn iddo y priodoldeb o chwilio yn y pen am arwyddion o dueddiadau offerynol, a theimladau a thueddiadau moesol. Ni thybiodd am foment, pan yn gwneyd yr archwiliadau hyn, fod a wnelai neillduolion eu penglogau â'r talentau gwahanol a ddangosent. Yr oedd efe, o'r dechreu, yn olrhain pob dylanwad, yn mha gyfeiriad bynag y byddai yn tueddu, i'r ymenydd, fel sedd a ffynnonell gweithrediadau y meddwl.

Ar ol hyn, rhoddodd Gall bob tyb ac opiniwn blaenorol i fyny yn llwyr, mewn trefn i gyssegru ei hun yn gyfangwbl i fyfyrio ar Natur, ac i sylwi ar ei gweithrediadau ynglŷn â chynnydd a dadblygiad y meddwl. Un o'i gyfeillion penaf ydoedd gŵr o'r enw Dr. Nord—physygwr o allu ac enwogrwydd mewn gwallgofdy yn Vienna. Cymmerai hwn Gall yn fynych gydag ef i blith y gwallgofiaid oedd dan ei ofal: ac fel hyn y cafodd y phrenyddwr ieuangc bob mantais i sylwi ar ddadblygiad y cyflwr ammhwyllog, ac i chwilio i'w natur yn ei amrywiol agweddau. Byddai yn arfer ymweled â charcharau, colegau, llysoedd barn, a lleoedd cyffelyb; a pha le bynag y clywai am ddyn talentog, neu am unrhyw berson diffygiol mewn rhyw gyfeiriad meddyliol a deallol, gwnai bob ymdrech i gael cyfleusdra i archwilio ei ben. Pa bryd bynag y clywai Gall am farwolaeth unrhyw berson y byddai yn flaenorol wedi talu sylw neillduol i arwynebedd ei benglog, os byddai ganddo obaith i lwyddo, ceisiai ganiatâd i archwilio ei ymenydd, trwy symmud ymaith y greuan, neu yr asgwrn sydd yn gorchuddio ac yn diogelu yr ymenydd. Fel hyn, cafodd Gall allan yr hyn a dderbynir heddyw fel ffaith gyffredinol; sef, fod yr ymenydd, tra yn amgauedig yn y bilen allanol (*dura mater*), yn cyfatteb yn fanwl i ymddangosiad allanol y penglog pan mewn bywyd.

Yn y modd hwn, a bron gyda diwydrwydd annirnadwy, daeth Gall i gredu fod doniau a galluoedd neillduol yn cael eu harddangos yn nghyfluniadau hynod y pen.

Credir, yn gyffredin, gan lawer o'i wrthwynebwyr fod Gall, yn gyntaf, wedi difynu a manwl chwilio yr ymenydd, a chymmeryd arno ei fod, drwy hyny, wedi darganfod cyfryngau neillduol y gwahanol alluoedd meddyliol. Haerir gan eraill, drachefn, ei fod wedi tynu allan ddarlun amlinellol o'r penglog, ei ddadansoddi a'i ranu yn ddosbarthiadau; a thrachefn, ei adranu i amrywiol ddosranau; ac yna, priodoli cynneddf i bob dosran, yn ol ei fympwy ei hun. Ond prin y mae angen dyweyd nad ydyw hyn yn gywir; ac mai fel yr eglurwyd yn barod yr arweiniwyd ef i ffurfio ei gyfundrefn:


Traddododd Dr. Gall ei ddarlithiau cyntaf ar Phrenyddeg yn Vienna, yn 1796. Yn 1800, dechreuodd Dr. J. G. Spurzheim efrydu Phrenyddeg, o dan gyfarwyddyd Gall; ac yn yr un flwyddyn, cynnorthwyodd ef yn ei waith yn lledaenu gwybodaeth am ei gyfundrefn ar y Cyfandir. Ganwyd Spurzheim yn Longwich, ger Tréves, ar y Moselle, Rhagfyr 31ain, 1776. Wedi blynyddoedd o lafur gyda'r gyfundrefn hon, efe a chwanegodd lawer o ddarganfyddiadau gwerthfawr at yr eiddo Gall yn nifyniaeth ac anianddysg yr ymenydd; a gwnaeth lawer tuag at sylfaenu a pherffeithio yr hyn sydd, erbyn heddyw, yn cael ei hystyried yn gyfundrefn ardderchog o athroniaeth feddyliol. Bu Spurzheim farw yn Boston, yn America, Tachwedd 10fed, 1832.

*Egwyddorion Cyffredinol.*—Barn rhai gwyddonwyr ydyw, mai yr ymenydd ydyw y meddwl, neu fod y meddwl yn rhyw fath o darddiad o'r, â'i hanfod yn yr ymenydd. Ond nid dyma y mae Phrenyddeg yn ei ddysgu. Hòni y mae y wyddor hon mai yr organ neu yr ermig yn yr ymenydd yw y cyfrwng neu yr offeryn materol drwy yr hwn y mae y meddwl yn gweithredu. Dywed Baen fel hyn:—'Y mae yr un sylwedd, gyda dau gydrif neu ddwy gymdeithas o gynneddfau—dwy ochr, sef corphorol a meddyliol—yn ymddangos yn atteb i holl ofynion yr achos.' Yr hyn, wrth gwrs, sydd i'w gasglu oddi wrth y sylw uchod ydyw, fod y meddwl yn fath o sylwedd; ac fel y cyfryw, ei fod yn farwol, ac yn agored i lygredigaeth. Ond y gwrthwyneb hollol yw athrawiaeth Phrenyddeg. Drachefn, haerai Huxley nad ydyw sylwedd ac ysbryd yn ddim ond arwyddion neu gysgodau; y rhai a gynnrychiolant y galluoedd y tybir eu bod naill ai yn cynnhyrfu neu yn cynnal y meddyliau—neu yr hyn a feddylir. Nid oedd Huxley, gan hyny, yn gwahaniaethu rhwng sylwedd ac ysbryd; ond ceisiai ddysgu, gan fod y naill a'r llall yn deilliaw o'r un ffynnonell, eu bod, o ganlyniad, yr un—nad oes, mewn gwirionedd, wahaniaeth yn bodoli rhyngddynt. Y mae Spencer, Tindall, Voght, Cabinas, a Farrier, hefyd, oll yn cyttuno yn eu golygiadau materol; y rhai sydd yn groes i athrawiaethau Phrenyddeg. Dylai y darllenydd efrydol gofio yn neillduol nad yr ymenydd ydyw y meddwl; nad yw yr ymenydd ond cyfrwng y meddwl—yr offeryn drwy yr hwn y mae y meddwl yn gweithredu ac yn mynegu ei hunan; a bod yr ymenydd mor wahanol i'r meddwl ag ydyw y cerddor i'r offeryn y chwareua arno. Nid y tafod ydyw y blâs; nid y clustiau yw y clyw; ac nid y llygaid yw y golwg; etto, nis gellir archwaethu heb dafod, clywed heb glustiau, na gweled heb lygaid. Felly, hefyd, y mae'n rhaid i'r meddwl wrth foddion sylweddol i amlygu ei hunan drwyddo; a'r moddion hyny yw yr ymenydd. Dyma ydyw athrawiaeth Phrenyddeg.

Y mae digonedd o brawfion ar gael nad un ermig ydyw yr ymenydd; ond nifer o ermigau wedi eu cymmhlethu a'u cyd-nyddu i'w gilydd, a'u gosod mor agos wrth, ac mor ddibynol y naill ar y llall, fel y maent yn ymddangos fel un. Mae pob un o'r ermigau hyn yn eisteddle rhyw gynneddf neillduol o'r meddwl; ac megys y mae y meddwl yn ei gyfanrwydd yn gweithredu trwy yr holl ymenydd, felly hefyd y mae pob un o gynneddfau y meddwl yn mynegu ei hun trwy gyfrwng rhyw ddosran neillduol o'r ymenydd. Y mae Alawen yn amlygu ei hun

Digitized by Google


trwy un ran, Amser trwy un arall, a Gobaith trwy un arall, &c., &c.




DAR. A.

Amlinelliad o'r penglog, yr hwn sydd yn arddangos y gwahanol barthau o hono. O A B i A C ceir y rhai a berthynant i'r deall. O A D i A E ceir y rhan foesol. O A E i A G y mae rhan y teimladau cymdeithasol. Y mae y llinell F H yn gwahanu y cynneddfau moesol oddi wrth y rhai isaf; sef, y cynneddfau anifeilaidd. Ceir sylwadau helaethach ar, ynghyd â darluniau o'r ymenydd, dan yr erthygl 'DYN,' cyf. iv., td. 100, &c.

Fel gwyddor feddyliol, y mae Phrenyddeg yn gorphwys ar y seiliau canlynol:—1af, Yr ymenydd ydyw ermig y meddwl, neu gyfrwng materol meddyliad a theimlad. 2il, Mae'r meddwl yn gynnwysedig o lawer o gynneddfau neu alluoedd annibynol, a phob un o'r cyfryw yn meddu dosbarth o swyddau neillduol a phriodol. 3ydd, Cynnwysa yr ymenydd gynnifer o ddosranau, y rhai a elwir yn 'ermigau,' ag sydd o alluoedd yn y meddwl. 4ydd, Y mae y cynneddfau yn wreiddiol yn meddu gwahanol raddau o nerth a gallu mewn gwahanol bersonau; ac hefyd, yn yr un personau. 5ed, Os bydd pethau eraill yn




DAR. I.

ENWAU Y CYNNEDDFAU PHRENYDDOL.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Gwahanfodedd ... | Individuality. |
| 2. | Ffurf ... ... | Form. |
| 3. | Maintioledd ... | Size. |
| 4. | Pwysedd ... | Weight. |
| 5. | Lliwiant ... ... | Colouring. |
| 6. | Trefn ... ... | Order. |
| 7. | Cyfrifedd.. ... | Calculation. |
| 8. | Lleolaeth.. ... | Locality. |
| 9. | Digwyddiadaeth ... | Eventuality. |
| 10. | Amser ... ... | Time. |
| 11. | Alawen ... ... | Tune. |
| 12. | Iaith ... ... | Language. |
| 13. | Bywydolder ... | Vitativeness. |
| 14. | Maethlonedd ... | Alimentiveness. |
| 15. | Dinystredd ... | Destructiveness. |
| 16. | Ymladdgarwch ... | Combativeness. |
| 17. | Caffaeledd ... | Acquisitiveness. |
| 18. | Cêleddwch ... | Secretiveness. |
| 19. | Gocheledd ... | Cautiousness. |
| 20. | Cymmeradwyedd... | Approbativeness. |
| 21. | Hunan-frïedd ... | Self-esteem. |
| 22. | Dïysgogedd ... | Firmness. |
| 23. | Cydwybodolrwydd.. | Conscientiou ess. |
| 24. | Gobaith ... ... | Hope. |
| 25. | Ysbrydoledd ... | Spirituality. |
| 26. | Parchedigedd ... | Veneration. |
| 27. | Caredigrwydd ... | Benevolence. |
| 28. | Saernïedd ... | Constructiveness. |
| 29. | Delfrydedd ... | Ideality. |
| 30. | Ardduniant ... | Sublimity. |
| 31. | Efelychedd ... | Imitation. |
| 32. | Llonder ... ... | Mirthfulness. |
| 33. | Achosiaeth ... | Causality. |
| 34. | Cymmhariaeth ... | Comparison. |
| 35. | Treiddgarwch ... | Human Nature. Penetrativeness. |
| 36. | Boddusrwydd ... | Agreeableness. |
| 37. | Serchlonedd ... | Amativeness. |
| 38. | Hilgarwch ... | Philoprogenitiveness. |
| 39. | Cydweddogaeth ... | Conjugality. |
| 40. | Cyfeillgarwch ... | Friendship. |
| 41. | Cyfanneddwch ... | Inhabitiveness. |
| 42. | Sefydlogrwydd ... | Concentrativeness. Continuity. |

Digitized by Google


gyfartal, y mae maintioli yr ymenydd, a'i ermigau, yn fesur o'u gallu a'u swyddau. 6ed, Nid yw y galluoedd meddyliol yn ymddadblygu yn gyfartal gyda'u gilydd; ond yn dilyn eu gilydd. 7fed, Y mae athrylith, fel rheol, yn hannerog a thueddol; ac felly, gall dyn fod yn athrylithgar a thalentog mewn rhyw un cyfeiriad neillduol. 8fed, Y mae gwallgofrwydd yn gyffredin yn rhanol. 9fed, Pan glwyfir rhyw adran arbenig o'r ymenydd, ni effeithir ond ar rai o'r cynneddfau. 10fed, Yn nghwrs ei dadblygiad, y mae yr ymenydd yn myned trwy nifer o gyfnewidiadau cyfluniol; a phob cyfnewidiad yn atteb i gyflwr parhaol yr ermig mewn gwahanol fathau o anifeiliaid îs-raddol.

Rhenir yr ymenydd yn ddwy ran; sef, y *cerebrum* (yr ymenydd mawr), neu y rhan uchaf o'r ymenydd; a'r *cerebellum* (yr ymenydd bychan), neu y gorymenydd. Rhenir y *cerebrum* yn ddau hanner-gylch, y naill a'r llall yn gynnwysedig o'r un nifer o ermigau. Fel hyn y gwelir fod yr ymenydd yn organ ddwbl, ar yr un egwyddor ag y dyblir peiriannau y golwg, y clyw, &c. Gall un hanner-gylch gael ei friwio a'i niweidio; ond bydd y meddwl yn meddu cyfrwng i fyned rhagddo gyda'i waith, er hyny.

Y mae Phrenyddeg yn dysgu mai yr ymenydd sydd yn cyflunio ac yn ffurfio y penglog; ac er fod y penglog yn ddigon caled a chadarn o dan bob amgylchiad cyffredin i amddiffyn a diogelu y blaenaf rhag niwed, etto y mae yn gorfod ymledu a ffurfio ei hun yn gysson yn ol fel y bydd yr offeryn eiddil sydd oddi dano yn ymddadblygu, ac yn ol fel y bydd rhai o gynneddfau y meddwl yn cryfhau, ac eraill yn gwanychu. Dywedasom uchod fod maintioli yr ermigau yn dynodi eu nerth; ond nis gellir deongli y mynegiad hwn fel ag i olygu fod pob dyn sydd yn meddu pen mawr yn ddyn galluog a godidog ei feddwl. Y mae ambell ddyn yn meddu pen anarferol o fawr heb fod yn meddu unrhyw dalent na dawn neillduol; tra y mae dyn arall, gyda phen cymmharol fychan, fe allai, yn fardd enwog, yn areithiwr galluog, yn bregethwr grymus, yn arlunydd medrus, neu yn fasnachwr llwyddiannus. Y mae athrylith yn dibynu ar ansawdd a phwysedd yr ymenydd, yn llawn cymmaint ag ar ei faintioli; o blegid nid ydyw ymenydd mawr bob amser o'r ansawdd goreu. Un peth arall ag sydd yn rhoddi cyfrif am yr anghyssondeb ymddangosiadol uchod ydyw y ffaith mai un o wirioneddau mwyaf gwerthfawr a phwysig Phrenyddeg yw, ei bod yn dysgu fod yn ddichonadwy cynnyddu a chryfhau unrhyw gynneddf yn y meddwl, ac adeiladu a chadarnhau ei swyddogaeth, trwy ymarferiad a diwylliant. Trwy ymarferiad y mae y plentyn bach yn dysgu cerdded; a thrwy ymarferiad y mae y dyn yn dyfod yn fardd, yn arlunydd, yn bregethwr, yn ysgrifenwr, neu yn fasnachwr. Gall dyn—a chaniatau, wrth gwrs, ei fod yn meddu ar y cynneddfau yn eu cyflwr cynhenid—berffeithio ei hun trwy ymarferiad mewn unrhyw gelf neu wyddor. Y mae maintioli, mewn ystyr phrenyddol, yn arwyddo nerth yn unig mewn cyssylltiad â chydbwysedd, ansawdd, a bywiogrwydd cyfattebol yr ymenydd. O ganlyniad, gall dyn feddu pen mawr, ond yn meddu deall-twriaeth eiddil; neu, ar y llaw arall, gall dyn feddu pen bychan, ond yn meddu amlygiad o allu meddyliol neu gelfyddydol cawraidd mewn rhyw gyfeiriadau arbenig.

Er nad ydyw Phrenyddeg yn hòni dim y tu hwnt i eglurhau swyddau yr ymenydd fel yr amlygir hwynt trwy gyffröadau meddyliol, etto y mae y Phrenyddwr medrus bob amser, wrth ddarlunio cymmeriad, yn cymmeryd i ystyriaeth ansawdd a bywiogrwydd organaidd y person, ei ardymmherau *(temperaments)* bywydol, ysgogol, a meddyliol; ac hefyd, cyflwr cyffredin ei iechyd yn ei berthynas â'r ymenydd ac amlygiadau meddyliol. Cynnwysa hyn y galluoedd anadliadol, cylchredol, a threuliadol, ynghyd â chyfundrefn y gewynau. Nis gall Phrenyddwr byth fesur galluoedd meddyliol dyn yn deg a chywir heb gymmeryd yr holl bethau hyn i gyfrif; ac mewn trefn i wneyd hyny yn effeithiol, y mae yn ofynol iddo, nid yn unig ystyried pob un ar ei ben ei hun, ond hefyd y naill mewn undeb â'r llall, a'r cwbl mewn cyfuniad.

Y dosbarthiad naturiol cyntaf a wneir ar y meddwl ydyw i DDEALLTWRIAETH a THEIMLADAU. Y cyntaf a gynnyrcha feddwl, rheswm, amgyffred, treiddgarwch, gwybodaeth, sylw, côf, cynllun, arabedd, barddoniaeth, cerddoriaeth, ac araethyddiaeth, &c.—y rhai a gyflëir yn y talcen a'i amgylchedd. Gan ddosbarth y teimladau y cynnyrchir cyffro, egni, chwant, uchelgais, balchder, ewyllys, cydymdeimlad, cariad, cyfeillgarwch, ofn, pwyll, parch, caredigrwydd, cyfiawnder, gobaith, ffydd, crebwyll, &c.—y rhai a gyflëir oll yn mharth y coryn, y gwegil, a gwaelod yr ymenydd, fel yr ymddengys gwahanol ffurfiau y pen yn y darlun canlynol:—




DAR. II.

1. Deallol. 2. Moesol. 3. Cymdeithasol. 4. Hunanol.


Adrenir DEALLTWRIAETH i bedwar dosbarth, fel y canlyn:—1af, *Cynneddfau Amgyffredol a Sylweddol;* sef Gwahanfodedd, Ffurf, Maintioledd, Pwysedd, Lliwiant, Trefn, Cyfrifedd, a Lleolaeth. 2il, *Cynneddfau Llenyddol a Choethusol;* sef, Digwyddiadaeth, Amser, Alawen, ac Iaith. 3ydd, *Cynneddfau Rhesymegol ac Adfyfyriol;* sef, Achosiaeth a Chymmhariaeth. 4ydd, *Greddfol ac Ymwybodol;* sef, Treiddgarwch, Llonder, Sefydlogrwydd, a Boddusrwydd.

Adrenir y TEIMLADAU i bum dosbarth:—1af, *Y Syniadau Hunan-berffeithiol a Gofeddyliol,* o Saernïedd, Delfrydedd, Arddunïant, ac Efelychedd. 2il, *Y Syniadau Moesol a Chrefyddol;* sef, Cydwybodolrwydd, Gobaith, Ysbrydoledd, Parchedigedd, a Charedigrwydd. 3ydd, *Y Syniadau Hunanol;* sef, Gocheledd, Cymmeradwyedd, a Hunan-fri̇edd. 4ydd, *Y Tueddiadau Hunangar;* sef, Bywydolder, Maethlonedd, Dinystredd, Cuffaeledd, a Chêleddwch. 5ed, *Y Tueddiadau Cymdeithasol a Theuluaidd;* sef, Serchlonedd, Hilgarwch, Cydweddogaeth, Cyfeillgarwch, a Chyfanneddwch.

Un o fanteision penaf Phrenyddeg, er

Digitized by Google

hau dyn, ydyw y goleuni y mae y wyddor yn ei daflu ar gyfansoddiad naturiol y meddwl. Bu athronwyr a duwinyddion crâff, am oesoedd




DAR. III.

1.—ALEXANDER VI., yn arddangos deall a gallu moesol tra diffygiol; ond y tueddiadau, yn enwedig Serchlonedd, yn fawr. 2. ZENO, y Stoic, yn dangos cynneddfau cymdeithasol bychain; ymenydd ymresymol a moesol mawr. 3. OBERLIN, ymenydd moesol aruchel. 4. PHILIP II., o'r Yspaen:—deall a syniadau moesol yn is-wasanaethgar i Hunan-fríedd a Diysgogedd, &c., gan arwain i falchder, rhyfyg, a gormes.

lawer, yn anghyttuno ac yn ymresymu yn benboeth ynghylch rhifedi a swyddau y cynneddfau dynol; a thra yr oedd y naill a'r llall yn derbyn ei ymwybyddiaeth o hono ei hun fel safon natur, ac yn ei wneyd ei hun yn sail i bob ymresymiad, a'r unig foddion o astudiaeth, yr oedd eu dadleuon yn sicr o barhau yn frwd a diddiwedd. Ond y mae organau yr ymenydd yn weledig ac yn deimladwy; a gellir ffurfio amcangyfrif o'u maintioli, graddau eu bywiogrwydd, a phrofi eu hansawdd; ac y mae amgylchiadau meddyliol, deallol, a theimladol y cynneddfau a gynnrychiolir ganddynt i'w canfod mewn nifer diderfyn o enghreifftiau. Haerir, hefyd, yn fynych, nad ydyw dyn yn awr yn feddiannol ar y cyfryw ansoddau ag y doniwyd ef â hwynt yn ei grëadigaeth. Ond nid ydyw y ffaith fod y Creawdwr wedi cynnysgaeddu dyn â'r moddion neu yr organau yn agored i un math o ammheuaeth; ac os gallwn ddarganfod eu swyddau a'u buddioldeb, a gwahaniaethu rhwng y pethau hyn a'r camddefnydd a wneir o honynt, byddwn yn sicr o gyrhaedd syniadau goleuach ar yr hyn a osododd ac a sefydlodd Duw; ac am yr ammodau ar ba rai y mae cyfrifoldeb dyn yn gorwedd. Os tynir y casgliadau hyn yn gywir, bydd eu hawdurdod yn anwrthwynebadwy—yn ddim llai na thystiolaeth crëadigaeth ei hun.

DOSBENIAD Y CYNNEDDFAU.

Ceisiwn yn awr symmud rhagom i ddeffinio yn fyr swyddau y cynneddfau phrenyddol, gan roddi disgrifiad o'u hermigau, fel yr eglurir hwynt gan y phrenyddwyr enwocaf, ac esbonwyr galluocaf athroniaeth y meddwl. Cymmerwn hwynt yn eu trefn rifyddol fel y dangosir hwynt yn y darlun cyntaf:—

1. GWAHANFODEDD.—Cynnyrcha y gynneddf hon syniad o hanfodaeth; a galluoga ddyn yn reddfol i adnabod gwrthddrychau a phersonau yn eu gwahanfodolrwydd, ac i wahaniaethu ac i arnodi y naill oddi wrth y llall. Y mae rhai yn gweled pethau bob amser mewn cyfuniad; ac nis gallant byth adnabod personau unigol mewn cynnulleidfa. Methant a gwahanfodi y tai yn yr heol, a'r coed yn y goedwig. Y mae y cyfryw yn ddiffygiol mewn Gwahanfodedd. Saif yr ermig yn nghanol parth isaf y talcen, rhwng aeliau y llygaid, y tu ol i fôn y trwyn. Rhydd allu i sylwi, i chwilio, a chanfod gwrthddrychau unigol natur a dychymmyg, ynghyd â'u hanfodau gwahanol, a'u buddioldeb. Arweinia, pan yn ormodol, i gywreinder a chwilfrydedd eithafol; ac i'r gwrthwyneb pan yn ddiffygiol. Yr oedd yr organ hon yn fawr yn Sheridan a Syr Walter Scott. Ceir hi yn llawn yn y Cymry a'r Ffrangcod; ond yn llai yn y Saeson, ac yn llai drachefn yn yr Ysgotiaid.

2. FFURF.—Hon ydyw y gynneddf sydd yn ein galluogi i sylwi ar agweddau a chyfluniau, i adgofio gwynebau a darluniau, ac i ganfod tebygolrwydd cydffurf mewn gwrthddrychau ac ymadroddion, &c. Gwyddom yn gyffredin fod gwahaniaeth rhwng cylch ag ysgwâr; ond pe cymmharem y wybodaeth hon o ffurfiad pethau âg eiddo yr arlunydd cyfarwydd neu y mesuregydd medrus, gwelem ar unwaith mor ammherffaith ydyw, a chymmaint y mae hi yn sefyll mewn angen am ddiwylliant. Prin y gall meddwl cyffredin ganfod na deall y prydferthwch sydd mewn ffurf. Y mae personau yn gwahaniaethu yn ddirfawr yn y cyfeiriad hwn. Gall ambell un, ar ol gweled gwrthddrych neu ddarlun ond unwaith, roddi braslun cywir o hono ar lech neu bapur, mewn ychydig o funydau; tra nas gall arall ei gopïo yn gywir, hyd yn oed pe y parhäai i geisio gwneyd hyny am fisoedd. Gyda'r gynneddf hon wedi ei diwyllio, gall un ganfod prydferthwch annhraethol yn, a chael mwynhâd angerddol trwy sylwi ar ffurfiad holl wrthddrychau natur; megys, llysiau, blodau, dail, coed, anifeiliaid, ac adar, ac ymlusgiaid, a'u cofio a'u hadnabod yn ddi-drafferth. Dylasem fod wedi sylwi yn barod fod i bob cynneddf ei chôf ei hunan, yn ol ei maintioli a'i bywiogrwydd; neu mewn geiriau eraill, fod pob cynneddf yn cynnrychioli dosran neillduol o'r COF; ac yn gysson fel y bydd y cynneddfau wedi eu diwyllio, a'u horganau wedi dadblygu, y mae un yn cofio yn dda mewn cyfeiriad neillduol. Pan na bydd y gynneddf sydd yn awr dan sylw wedi ei diwyllio yn ddigonol, analluogir y person i gofio pethau o herwydd eu ffurf; ac y mae i bob gwrthddrych ei ffurf. Y mae y gallu hwn yn anhebgorol angenrheidiol i wneyd ysgrifenwyr, darllenwyr, a darlunwyr cywir. Yn gyfunol â Chaffaeledd mawr, cynnyrcha awydd i gasglu darluniau ac argraphiadau o bob math. Saif îslaw Gwahanfodedd, yn ongl pwll y llygad. Dynodir ei maintioli gan y lled fydd rhwng y ddau lygad; ac yn gyffredin, pan y bydd yn fawr, rhydd lydander allanol hynod yn môn y trwyn. Edrycher ar ddarlun Siôr III., yr hwn oedd yn hynod am adgofio wynebau. Ymddengys fod y Chinëaid yn ei meddu yn ei llawnder; yr Italiaid yn helaeth; y Saeson yn llai; a'r Cymry, y Gwyddelod, a'r Ysgotiaid yn nesaf, a braidd yn gyfartal.

3. MAINTIOLEDD.—Swydd y gynneddf hon ydyw cymmeryd sylw o, a barnu mesur, pellder, a gofod, a maint, a thrwch cywir gwrthddrychau neu bethau pan yn mhell oddi wrthynt; a chanfod cymmhwysder a chyfaddasrwydd pethau. Nid ydyw y golwg a'r teimlad yn ddigon ynddynt eu hunain i amgyffred syniadau, megys maintioli, fel ansoddau corphorol gwrthddrychau

Digitized by Google

allanol; y rhai y mae yn ammhossibl eu cymmysgu â drychfeddyliau o gyfluniad neu ffurf. Y mae y ddau ddosbarth hyn o ddirnadaeth yn hollol wahanol i'w gilydd; a gall dyn fod yn berffaith yn un, tra yn hollol ddiffygiol yn y llall. Yn y celfau o ddarlunio, arliwio, cerflunio, ceryg-naddu, adeiladu, a phlanio, y mae Maintioledd yn llywyddu dros gyfartaledd a chyflinelliad. Pan yn fawr, rhydd allu parod i fesur â'r llygad heb gymmhorth offerynau; ond pan yn ddiffygiol, anfynych y bernir maint unrhyw beth gydag un gradd o gywirdeb. Saif yr ermig yn ongl fewnol yr ael uwch ben Ffurf, ac o bob tu i Wahanfodedd. Anhawdd, fodd bynag, ydyw arnodi yr ermig hon, o herwydd ei bychander, ac hefyd o herwydd y rhwystr a geir yn ngheubwll y talcen.

4. PWYSEDD.—Hon yw y gynneddf nesaf yn y dosbarth sylwadol ac amgyffredol. Hon sydd yn cymmhwyso dyn at ddeddfau dysgyrchiad ac ysgogiad, fel ag i'w alluogi i farnu pwys, gwrthsafiad, a chryfder defnyddiau o bob math—i fantoli ei hun wrth farchogaeth a cherdded, a chyfeirio ysgogiadau cyfundrefn y gewynau. Ceir hi yn fawr mewn personau sydd yn hoff o rodio ar ochrau culion ac uchel-fanau, a dringo i frigau coed a chreigiau. Cofus genym, ar un tro, weled dau fachgen yn ceisio marchogaeth olwynig (*bicycle*) am y tro cyntaf. Dysgodd y naill mewn hanner awr; ond rhoddodd y llall y gwaith i fyny mewn anobaith, ar ol llafurio yn galed am hir amser. Yr oedd Pwysedd yn llai yn hwn nag yn y llall. Ceir Pwysedd yn fawr, fel rheol, mewn chwarelwyr a morwyr; yn enwedig felly mewn hen rai, yn ddiammheu, o blegid ddarfod i'r naill ei diwyllio trwy sefyll i fyny ar leoedd uchel, a'r llall trwy ddringo i ben yr hwylbrenau. Y mae diffyg yn niwylliant Pwysedd yn cynnyrchu môr-glwyf (*sea-sickness*), a theimladau annymunol cyffelyb pan y ceisir sefyll i fyny ar glogwyn craig, a lleoedd serth o'r fath. Dywedir ei bod yn nodedig o fawr yn Syr Isaac Newton, Brunell, Leslie, Jardine, a Stephenson; ac y mae i'w gweled yn helaeth yn mhenau yr enwog Blondyn, ac Ella Ziwela, a Zæo. Yn y darlun isod o Syr John Herschel, y seryddwr byd-enwog, y mae yr ermig hon i'w chanfod yn anarferol o fawr.



DAR. IV.

Gwelir hefyd yn y darlun fod y talcen yn ymdaflu allan, ac yn bânu dros y llygaid a bôn y trwyn; yr hyn sydd yn golygu ei fod wedi ei ddonio â mesur helaeth anarferol o'r holl gynneddfau sylwadol ac amgyffredol. Saif ermig Pwysedd yn nesaf at Feintioledd yn nghrimell yr aeliau.

5. LLIWIANT.—Y mae hapusrwydd dyn yn dibynu, i raddau pell, ar ddadblygiad a bywiogrwydd y cynneddfau meddyliol; ac y mae rhan helaeth o fwynhâd bywyd yn y byd hwn yn dibynu yn neillduol ar ddiwylliant ac ar ddysgyblaeth Lliwiant, fel un o gynneddfau y dosbarth sylwadol. Fel yr arwydda yr enw, swyddogaeth y gynneddf hon ydyw llywodraethu ein gwybodaeth, ein hamgyffred, a'n côf o liwiau, ein galluogi i'w cymmharu â'u gilydd, a'u trefnu; ac i adnabod gwrthddrychau wrth eu lliwiau. Trwy weithrediad y gynneddf hon y swynir ni gan brydferthwch yr ardd flodau, ac y galluogir ni i ymhyfrydu mewn golygfeydd arbeiol, &c. Y mae rhai pobl yn hoff o amrywiaeth lliwiau, tra heb ronyn o chwaeth i allu trefnu yn weddus yn eu gwisgoedd, eu dodrefn, nac yn yr ardd. Edrycher ar y lodes langar, gyda holl liwiau yr enfys yn ei phenwisg; ond wedi eu dodi yno yn blith-drafflith, heb feddwl am geisio efelychu eu trefniad naturiol yn yr enfys. Y mae ansawdd y gynneddf hon yn bwysicach i'w ystyried na'i maintioli. Pan yn fawr, y mae Lliwiant yn gogwyddo y person i deimlo dyddordeb mewn paentio, a phob math o bethau lliwiedig. Saif ar gròm yr ael, yn nesaf at Bwysedd; a phan yn orfawr, bydd yr ael yn bwäu yn anghyffredin, nes peri hynodrwydd yn ymddangosiad y person.

6. TREFN.—Dyma y gynneddf sydd yn cynnyrchu cariad at drefnusrwydd, cyfundrefn, a dillynder, ac awydd at, a gallu i, gyfaddasu moddion at ddybenion, i dori gwaith allan, a'i gyflawni yn rheolaidd, ac wrth gynllun neillduol. Pan yn fawr, bydd y person yn ofalus am gael pob peth yn ei le, a'i le i bob peth. Os yn ormodol, tuedda at hen langcyddiaeth a hen ferchetiaeth, ynghyd â gorfanylrwydd anesmwyth a ffwdanllyd. Ond ar y llaw arall, os yn ddiffygiol, arweinia i ddifaterwch, annhaclusrwydd, ac annhrefnusrwydd. Gyda Chydwybodolrwydd bychan, bydd Trefn diffygiol yn arwain i ammhrydlondeb ac i esgeulusdod o gyflawni addewidion. Gellir cymmhwyso Trefn at nifer o alluoedd eraill; megys Ffurf, Meintioledd, Pwysedd, Lliwiant, Geiriau, a Thônau, &c. Er fod y gynneddf hon yn rhoddi cyfundrefn a chynllun, ac yn cynnyrchu ardrefniant corphorol, rhaid peidio cymmysgu yr ardrefniant hwn â dosbarthiad a chyfraniad athronyddol, yn ol casgliad rhesymeg. Dibyna hyn yn hollol ar alluoedd adfyfyriol y meddwl. Saif Trefn rhwng ermigau Lliwiant a Chyfrifedd, ar ongl allanol crwm yr ael. Y mae yn fawr yn y Cymry.


7. CYFRIFEDD.—Y mae y gynneddf hon yn cofleidio pob peth a berthyn i rif, undeb, a lliosawgrwydd. Ei gwaith penaf yw rhifo, a chyfrifon yn gyffredinol; ac iddi yn arbenig y perthyna rhifyddeg ac alsoddeg, a dirprwyniaeth. Y mae y plant yn fynych yn arddangos dadblygiad mawr o'r gynneddf hon yn eu rhagoriaeth mewn rhifyddiaeth; tra y maent yn mhell ar ol, neu hyd yn oed yn ddiffygiol, yn mhob cyfeiriad arall yn mron. Yr oedd George Combe, yr athronydd a'r phrenyddwr enwog, yn hynod o herwydd ei anfedrusrwydd mewn rhifyddeg. Yn wir, dywedir ei fod yn hollol ddiallu i gyfrif. Pan yn fawr, rhydd Cyfrifedd gyflymder gyda ffigyrau yn feddyliol, ac ar olwg; a gallu rhwydd i'w berchenog i gyfrif gwerth, swm, ac ansawdd pethau yn ei feddwl. Ei safle yw y tu allan i Drefn, yn nherfyn eithaf yr ael.

8. LLEOLAETH. — Saif Lleolaeth uwch ben ermig Meintioledd, rhwng Pwysedd ac Achosiaeth; a chyrhaedda hyd ganolbwynt y talcen. Anaml yr ymyra â cheubwll y talcen (*frontal*

Digitized by Google

*sinus*); felly, mae mwy o sicrwydd o honi nag o Feintioledd a Phwysedd. Ei swydd ydyw cofio lleoedd, gwybod y ffordd mewn manau dyeithr, a chynnyrchu awydd i deithio, a gweled golygfeydd newyddion, a'u cofio a'u disgrifio yn gywir. Y gynneddf hon a wna deithiwr a daearyddwr; ac y mae hefyd yn anhebgorol i'r seryddwr, y mesuregydd, a'r arlunydd arbeiol. Y mae hi yn fawr mewn llawer o'r anifeiliaid is-raddol. Y mae y golomen a'r ci yn ddiarebol hynod o herwydd eu gallu greddfol i gofio eu ffordd; a dychwela hebog yr Iwerddon i'w fan enedigol o bellder o filoedd o filldiroedd. Gwelir hi yn fawr mewn penddelwau (*busts*) a darluniau o Columbus, Cook, a Park; ac hefyd yn Kepler, Galileo, Newton, a Syr Walter Scott.

9. DIGWYDDIADAETH.—Y mae ermig y gynneddf hon i'w chael yn nghanol y talcen, uwch ben Gwahanfodedd, ac islaw Cymmhariaeth; a gellir ei gweled yn hawdd, yn enwedig mewn plant; yn y rhai y mae hi yn gyffredin yn gymmharol fwy nag ydyw mewn pobl wedi tyfu i



DAR V.—Bychan. Mawr.

fyny. Y mae hon yn un o gynneddfau pwysicaf yr holl gyfundrefn ddynol; yn gymmaint ag y gellir ei gwneuthur yn ystordŷ o ffeithiau cyssylltiedig â digwyddiadau hanesyddol, lleol, personol, gorphenol, a phresennol. Rhydd y gallu i gofio digwyddiadau ac ymddangosiadau; a phàr ddyddordeb arbenig mewn storïau, chwedlau, a byr-hanesion. Fel y cyfyngir Gwahanfodedd i bethau neu wrthddrychau, fe gyfyngir Digwyddiadaeth i'r ysgogiadau, yr ansoddau, a'r hyn a gynnyrchir ganddynt. Mae Dr. Spurzheim yn sylwi ei bod yn rhoddi dymuniad cryf at gasglu gwybodaeth ymarferol; ac felly, ei bod yn anhebgorol i'r golygydd, yr ysgrifenydd, yr hanesydd, a'r athraw. Hon, mewn gair, ydyw gallu masnachol (*business faculty*) y meddwl. Cynnyrcha, yn ol ei maintioli a'i bywiogrwydd, awyddfryd i ganfod yr hyn sydd yn myned yn mlaen yn y byd, ynghyd â gallu i gofio pob manylion cyssylltiedig âg unrhyw ddigwyddiad o bwys neu hynodrwydd. Eglurir ei natur hanfodol hi oreu gan fodd annherfynol y rhan ymadrodd a elwir *berf;* o blegid sylwa ar bob peth sydd yn digwydd. Yn wir, mewn rhyw ystyr, gellir ei hystyried hi fel yn llywyddu dros nifer o gynneddfau y meddwl dynol. Ceisia wybodaeth o swyddau y cynneddfau gwreiddiol a chyntefig; ac adolyga eu gwaith yn ofalus, gan gynnhyrfu eu bywiogrwydd, a'u cymmhell i weithgarwch. Y mae diwylliant digonol y gynneddf hon yn golygu côf cyffredinol. Nid ydyw hyn o angenrheidrwydd yn anghysson â'r hyn a ddywedasom o dan Ffurf; sef, fod pob cynneddf yn meddu ei chôf priodol ei hun. Y mae y naill gôf yn cynnorthwyo y llall; a'r cwbl yn ymdoddi i'w gilydd yn y fath fodd nes cynnyrchu un COF cyffredinol. Gan hyny, y mae dadblygiad priodol Digwyddiadaeth yn golygu hefyd fywiogrwydd a gweithgarwch yn y cynneddfau sylwadol, perffeithiol, coethusol, a llenyddol. Y mae prif gôf y cerddor mewn cyssylltiad â thônyddiaeth a chynghanedd; eiddo y cyfrifydd â symiau a ffigyrau; ac eiddo y bardd â'r prydferth a'r drychfeddyliol, ac felly yn y blaen. Bydded i'r darllenydd meddylgar ystyried y mynegiant hwn yn ddwys, a'i ddadansoddi yn fanwl, a bydd yn sicr o gydnabod y gwirionedd sydd yn gynnwysedig ynddo pan ddaw i ganfod y cyssondeb a'r cyfattebiaeth sydd yn bodoli rhwng ffurfiau neillduol penau personau a'u galluoedd i gofio mewn cyfeiriadau arbenig. Nid ydyw y maes hwn o efrydiaeth yn gyfyngedig i phrenyddwyr neu efrydwyr athroniaeth feddyliol; ond y mae yn agored i bob person a ddymuna chwilio i mewn iddo yn unig trwy sylwi; o blegid yr ydym oll yn meddu rhyw gôf neillduol, sydd yn fywiog mewn rhyw un neu ddau o gyfeiriadau.

10. AMSER.—Y mae rhaniad amser, a'r ymsyniad o barhâd ac olyniad, yn nodweddiadol o'r meddwl dynol. Ni ellir cymmysgu swyddogaeth y gynneddf hon âg eiddo Cyfrifedd a Threfn fel galluoedd gwahanol o'r meddwl; ond gellir ei gyfuno â'r ddau allu hyn—naill ai ar wahân, neu mewn undeb â'u gilydd. 'Y mae ddoe, heddyw, ac yfory, a threnydd, meddai Spurzheim, 'yn cyfansoddi parhâd ac olyniad, yn hollol annibynol ar bob ystyriaeth o rifedi dyddiau.' Y mae fod amser a gofod yn hanfodol gyssylltiedig i'w weled oddi wrth y dull y mae bysedd yr oriawr yn dynodi amser, fel yr ymdeithiant trwy ofod. Dynodir gofod rhwng boreubryd a chiniaw trwy chwant bwyd; a'r gofod hwn a elwir amser. Y gynneddf dan sylw yw ein hymwybyddiaeth o werth amser a pharhâd; a'n gallu i gofio amgylchiadau a digwyddiadau annibynol, heb fod un cyssylltiad dolenog rhyngddynt, heb law y berthynas y safant ynddi mewn amseryddiaeth. Pan y bydd y gynneddf hon wedi ei diwyllio, bydd y person, megys yn reddfol, yn gwerthfawrogi ac yn iawn ddefnyddio amser—bydd yn brydlawn, ac yn gallu cadw yr amser i'r dim mewn cerddoriaeth a chanu, mewn cerdded, dawnsio, a thabyrddu. Ar y llaw arall, pan y bydd hon yn ddiffygiol, nodweddir y dyn âg analluogrwydd cyffredin i gofio amser, ac i sylweddoli gwerth a dosbarthiad amser; ac ammhrydlondeb, ac ymddiriedaeth gormodol yn yr awrlais, neu yn yr oriawr. Y mae y gallu hwn, gan hyny, yn anhebgorol i'r cerddor, y bardd, a'r hanesydd. Saif rhwng Lleoliaeth ac Alawen, islaw Llonder, ac uwch ben Trefn. Gellir gweled yr ermig hon yn nodedig mewn darlun o John Elias, o Fôn, yr hwn, meddir, oedd yn hynod o ran ei fanylrwydd mewn amser. Dywedir y byddai yn wastad yn ei gyhoeddiadau—i'r munyd!

11. ALAWEN, NEU GERDDORIAETH.—Y mae yr ermig hon yn meddu yr un berthynas â'r glust ag y mae Lliwiant â'r llygad. Gall y glust ddirnad seiniau; a chyffröir y dyn gan yr elfenau hyny i foddhâd, neu y gwrthwyneb, i'r graddau y bydd y diweddaf yn hyfryd neu yn anhyfryd. Ond nis gall y llygad gofio lliwiau, felly nis gall y glust adgofio alawon neu dônau; ac nid ydyw chwaith yn eu beirniadu yn eu perthynas â'u gilydd, fel y maent yn gysseiniol neu yn anghywair. Gall seiniau, fodd bynag, fel lliwiau, fod yn hyfrydol ar wahân, ond yn annymunol mewn cyfunedd. Gwaith Alawen ydyw rhoddi gallu i ddirnad cynghanedd a pheroriaeth: i lefaru, i ddarllen, ac i ganu yn gywir a rheolaidd; ac i ymsynied am bwyslais

Digitized by Google

cynghaniad, ac accen. Nid ydyw mawredd y gynneddf hon, bob amser, nac o angenrheidrwydd, yn cynnyrchu cerddorion na chantorion; o blegid y mae hyny yn dibynu ar fywiogrwydd a dadblygiad cyfattebol nifer o gynneddfau eraill; ond nis gellir gwneyd chwareuydd cywir ar unrhyw offeryn cerdd, na chaniedydd teilwng o'r enw, heb gymmhorth uniongyrchol Alawen. Saif uwch ben ongl allanol ael y llygad, yn ogyfuwch â chanol-bwynt y talcen, rhwng ermigau Amser a Saernïedd. Mae i'w chanfod yn eglur yn yr eos, y llinos, y fronfraith, ac adar mwyn-leisiol eraill; a phe y cymmherid penau y bôd, y frân, a'r eryr, âg eiddo y tylwyth ymbyngciol, ceid gweled ar unwaith eu gwahaniaeth yn ngoror Alawen. Y mae amlygiad allanol yr ermig yn amrywio yn ol ffurf yr ymdorchiadau (*convolutions*) ymenyddol, o ba rai y cyfansoddir hi; ac hefyd mewn cyfattebiad i ddadblygiad yr ermigau cymmydogaethol.

12. Iaith.—Ermig y gynneddf ieithyddol oedd y gyntaf a dynodd sylw Dr. Gall. Y mae y gynneddf hon yn casglu gwybodaeth o arwyddion celfydd, ac yn eu trefnu a'u dosbarthu yn ol deddfau naturiol, yn yr un dull ag y gwna Lliwiant ac Alawen gyda lliwiau a thônau. Rhydd allu i gofio geiriau a brawddegau; i ddadgan meddyliau, teimladau, a chyffroadau; i ddysgu ieithoedd, ac i adgofio ac ail adrodd darnau o araethyddiaeth, rhyddiaeth, a barddoniaeth; ac i siarad yn frysiog a ffraeth, er nad o angenrheidrwydd yn gywir. Pan yn ormodol, gwna ei pherchenog yn amleiriog, yn drystiog, ac yn wâg-siaradus. Y mae ambell un, er wedi derbyn yr addysg oreu a allasai prifysgol ei chyfranu iddo, nas gall gael geiriau priodol i fynegu ei feddwl ynddynt pan yn ceisio gwneyd ychydig o sylwadau yn gyhoeddus, neu ddadgan pleidlais o ddiolchgarwch; tra y gwna arall, na bu erioed mewn ysgol, wneyd araeth fyrfyfyr hyawdl a chryno, a hyny yn naturiol a didrafferth. Saif ermig Iaith yn mharth ôl ac isaf adran flaen (*anterior lobe*) yr ymenydd, a gorwedda ar draws blât argylchog y golwg, gan daflu y llygad allan, ac i lawr yn erbyn yr amrant isaf, yn ol graddau ei dadblygiad.

13. Bywydolder.—Y gynneddf hon sydd yn donio dyn ac anifail â chariad at fywyd. Cenhedla ofn diddymiad, a mwynhâd ei hanfod. Nid ydyw pob person yn meddu yr un gradd o gariad at, ac ymlyniad wrth ei fywyd naturiol; ac y mae rhai mor ddifater ynghylch byw fel y rhoddant i fyny yn hollol bob gobaith am adferiad pan y goddiweddir hwynt gan ryw glefyd neu afiechyd. Blinant, yn naturiol, ar fywyd; ac yn fynych, rhoddant i fyny bob gobaith am gael byth dawelwch meddwl yn y byd a'r bywyd hwn. Ymdaflant, megys, i freichiau angeu; yr hyn a ystyriant fel y moddion mwyaf effeithiol i'w gollwng yn rhydd o 'garchar bywyd,' a'u dwyn ar unwaith i orphwysfa a dedwyddwch diderfyn. Y mae eraill yn meddu cariad angerddol at fywyd; a glynant wrtho yn gadarn a dïysgog, pa mor druenus bynag y byddant. Mynant fyw er gwaethaf gofid ac annedwyddwch; ac y mae hyd yn oed y meddwl am wynebu 'brenin braw' yn peri arswyd a dychryn ofnadwy iddynt. Bywydolder bychan sydd gan y rhai cyntaf a enwyd; tra y mae y lleill yn ei feddu yn helaeth. Saif ermig y gynneddf hon îs law Ymladdgarwch, ac yn agos i fadruddyn y gwegil. Vimont oedd y cyntaf i nodi yr arwyddion allanol o honi. Sylwodd ar nifer o wningod; cymmharodd hwynt â'u gilydd; a chanfyddodd fod pob un o honynt yn arbenig yn cilio yn ofnus ac arswydus oddi wrth bob peth ag oedd yn ymddangos fel yn tueddu i niweidio neu beryglu eu bywyd. Yr oedd y wningen hon yn meddu pen tebyg yn ei ffurf i'r eiddo y llcill, gydag un eithriad—yr oedd yn lletach y tu ol i'r clustiau. Arweiniodd hyn Vimont i sylwi yn mhellach, ac yn fwy manwl, ar anifeiliaid eraill, a chreaduriaid rhesymol; yr hyn a'i cadarnhaodd yn ei ddamcaniaeth fod maintioli yn y rhan hwn o'r pen yn dynodi cariad at fywyd. Erbyn heddyw, y mae miloedd o sylwadau pellach ar amlygiadau allanol y gynneddf wedi ei sicrhau tu hwnt i ammheuaeth—wedi ei sefydlu yn ffaith wyddonol. Pan y bydd Bywydolder yn goruwchreoli, bydd ofn marw mor gryf ac eithafol nes peri dychryn parhaus, a hyny yn annibynol hollol ar bob ystyriaethau o unrhyw ganlyniadau. Ymladda y cyfryw un hyd y munyd diweddaf yn erbyn angeu; ac ni rydd efe i fyny ymdrechu tra y bydd un wreichionen o fywyd yn aros. Cara fywyd, ac ymlŷn yn ddi-ildio wrtho, er ei fwyn ei hun. Dylid gwneyd pob ymgais i ddiwyllio Bywydolder pan y bydd yn ddiffygiol; onid ê, gall siomedigaeth neu ryw ofid anarferol arwain i ganlyniadau difrifol. Rhodder pris uchel ar fywyd—prif a chyssegredicaf deddf natur; ac arferer pob moddion cyfreithlawn i fwynhau bywyd yn ei agweddau meddyliol, moesol, a naturiol.

14. Maethlonedd.—Camgymmeriad mawr ydyw y dyb mai o'r organau treuliadol y mae chwant neu awydd ymborth yn codi; o blegid y mae y cyfryw yn deilliaw yn uniongyrchol o'r ymenydd, er y gall cyflwr y corph gynnhyrfu yr adranau hyny o'r ymenydd o ba un y mae yr awydd hwn yn tarddu. Y mae eisteddle y gynneddf hon yn nghanol llabed yr ymenydd, o'r tu blaen i gyfran uchaf y glust. Ei swydd naturiol ydyw cyfarwyddo i ddewis ymborth a dïod briodol, ac i fwyta ac yfed yn brydlawn a chymmedrol. Y mae ei gorfawredd yn arwain i lythineb a meddwdod. Gyda'r cyfryw, bwyta ac yfed fydd prif amcanion bywyd:—'Bwytäwn ac yfwn, a byddwn lawen, o blegid yfory marw fyddwn,' fydd eu harwyddair. Y mae yr ermig, pan yn fechan, yn peri difaterwch gyda golwg ar fwyd a dïod.

15. Dinystredd.—Y mae Phrenyddeg yn ystyried Dinystredd, neu y tueddfryd i ladd a dinystrio, yn un o elfenau cyfansoddol y meddwl dynol. Dengys sylwadaeth yn ddiammheu fod y duedd i ddinystrio yn nodweddu rhai adar ac anifeiliaid; a bod yr un ansawdd yn bodoli, i raddau helaeth, a mwy neu lai bywiog, mewn mathau neillduol; ac hefyd, mewn gwahanfodau o'r un rywogaeth. Rhaid cyfaddef fod dyn wedi ei gynnysgaeddu yn helaeth â thueddfryd i ddinystrio; o blegid lleddir ganddo ef bron bob math o greaduriaid, nid yn unig i ddiwallu ei anghenion ymborthus, ond hefyd i gyflawni ei eisieu mewn llawer o wahanol ffyrdd, tra y mae rhywogaethau ysglyfaethus eraill yn cyfyngu eu lladdiadau i'w hanghenion eu hunain am fwyd yn unig. Ond y mae dyn wedi ei ddonio â rheswm, deall, a thueddfryd moesol ac ymresymol, fel ag i gyfarwyddo ac i iawn-lywodraethu ei awyddfryd pan yn lladd a dinystrio. Pan y mae Dinystredd yn ei chyflwr priodol, yn îs-wasanaethu y gallu ymresymiadol, ac mewn perffaith ufudd-dod i'r syniadau moesol, yna

Digitized by Google

tuedda at welliant, lleshâd, a hapusrwydd y dyn; ac y mae yn anhawdd gweled pa fodd y gallai efe wneyd hebddi. Ond pan y bydd hi yn rhy gref, cynnyrcha ganlyniadau annymunol:—a bydd y person o ysbryd blin, croes, a chwerw, yn greulawn a dïalgar, ac fel yn ymbleseru mewn poeni a niweidio creaduriaid byw. Fel




DAR. VI.

gelyn, bydd yn angerddol yn ei lidiawgrwydd, ac yn anghymmodlawn i'r eithaf; ond pan yn ddiffygiol, y gwrthgyferbyniol, wrth gwrs, fydd y canlyniad. Y mae mesur helaeth o Ddinystredd, ond hollol dan ddysgyblaeth y meddwl, yn anhebgorol angenrheidiol i lwyddo gydag amcanion bywyd. Hon ydyw y gynneddf sydd yn rhoddi yr hyn a elwir yn 'ysbrydiaeth' mewn dynion; y rhai fyddant, o bossibl, yn ddiffygiol mewn pob peth arall. Yr oedd Martin Luther a Spurgeon yn meddu Dinystredd yn helaeth; a diammheu fod eu llwyddiant a'u dylanwad dirfawr, ar y bobl i'w holrhain i'r gallu hwn, yr hyn oedd yn rhoddi nerth a grymusder i gyfarwyddiadau y cynneddfau uchaf. Cyflëir hi uwch ben ac o gylch rhanau uchaf y clustiau, a rhydd led ar draws y pen, o frig y naill glust at eiddo y llall.

16. YMLADDGARWCH.—Fel y mae yr enw yn arwyddo, swydd cynhenid Ymladdgarwch, fel cynneddf phrenyddol, ydyw rhoddi gallu i ymladd yn erbyn peryglon, ac i amddiffyn ein hunain yn ngwyneb ymosodiadau niweidiol. Cynnyrcha wrolder a phenderfyniad; a phan yn eithafol fawr, tuedda i gweryla, i ymryson, a bygwth; ac hyd yn oed i ymosod yn ymladdgar ar greaduriaid eraill, a hyny yn ddiangenrhaid. Saif yn mharth ol yr ymenydd, o'r tu ol, ac mewn llinell â'r rhanau uchaf o'r clustiau, ychydig uwch, ac yn cyssylltu yr ermig o Fywydolder. 'Pa fodd bynag,' medd Dr. Gall, 'y bydd penau dynion rhyfelgar a gwrol yn gwahaniaethu mewn pethau eraill, ymddengys eu bod oll yn gyffelyb yn hyn.' Yr oedd yr ermig hon yn llawn yn mhenau Bruce, Wallace, Wurmsey, Wellington, a Buonaparte.

17. CAFFAELEDD.—Cyflëir yr ermig hon yn adran uchaf yr arlais, is law ongl leiaf a blaenaf asgwrn y siol. Ymddengys ei defnydd cynhenid a'i swydd gyfreithlawn yn oreu pan yn gweithredu mewn undeb â'r tueddiadau moesol. Cynnyrcha chwaeth at gasglu arian, trysorau, anifeiliaid, a thiroedd, a phob math o wrthddrychau gwerthfawr; a hyny yn unig er mwyn eu meddiannu, heb benderfynu o gwbl yr amcanion fydd mewn golwg, na'r modd y deuir yn feddiannol arnynt. Yn ei sefyllfa naturiol, y mae hi yn tueddu i gynnilo, ac i ymbarotoi mewn pryd ar gyfer caledi. Mae cyflwr annaturiol ac eithafol y gynneddf hon, pa un bynag fydd, ai yn ddiffygiol neu ynte yn ormodol, yn sicr o ddwyn oddi amgylch ganlyniadau difrifol. Arweinia, ar un llaw, i wastraff, tlodi, eisieu, newyn, a llawer o flinderau a gofidiau eraill. Ar y llaw arall, arweinia i gybydd-dod, anghyfiawnder, ac anonestrwydd; ac hefyd, i'r sefyllfa fwyaf gormesol a melldigedig y gall dyn gwympo iddi. 'Cynneddf cybydd-dod' oedd yr enw cyntaf a roddid arni; ond ei chamddefnydd a'i chyflwr annaturiol yn unig sydd yn arwain i gybydd-dod—ar yr un egwyddor ag y mae ei diffyg yn cynnyrchu gwastraff ac afradlonedd. Y mae hi, fel rheol, yn helaeth yn y Cymry; yr hyn sydd yn ein gwneyd ni, fel cenedl, yn gynnil, ac fe allai, i raddau, yn grintachlyd.


18. CELEDDWCH.—Swydd yr ermig hon ydyw cynnyrchu tueddfryd i gadw ac i ddirgelu y teimladau a'r bwriadau amrywiol fydd yn codi yn y meddwl, hyd nes y byddant wedi eu pwyso yn nghlorianau y deall, a'u profi yn llys y gydwybod. Hi a ddyry bwyll a challineb i'r cymmeriad, trwy gyfyngu y cynneddfau o fewn terfynau eu swyddau priodol, a'u diogelu rhag myned yn ysglyfaeth i orfanylder a chwilfrydedd pobl eraill. 'Gŵr pwyllog a gela wybodaeth,' ond 'y ffol a dywallt ei holl feddwl.' Saif yr ermig yn nghanol gororau ystlysol y pen, uwch law Dinystredd, rhwng Caffaeledd a Gocheledd. Pan yn ormodol, ac heb fod o dan



DAR. VII.—Mawr. Bychan.

gyfarwyddyd y teimlad o gydwybodolrwydd a chyfiawnder, arweinia i gyfrwysder, dichell, a rhagrith, twyll, a chelwydd. Y mae y diffyg o honi yn rhoddi rhyddfrydedd ffol, ac anallu i guddio meddyliau a chadw cyfrinion. Ceir hi yn helaeth yn mhenau nifer o anifeiliaid; a thrwy ei dylanwad, y mae y cadnaw yn hynod am ei gyfrwysder a'i ddeheurwydd i ymguddio; y ci i ddirgelu yr asgwrn nas gall ei gnoi; a'r dyn dichellgar i gelu ei fwriadau, neu i broffesu opiniynau croes i'r rhai y bydd efe mewn gwirionedd yn eu coleddu.

19. GOCHELEDD.—Y mae y gynneddf hon mor sicr ac awdurdodedig ag eiddo unrhyw un yn y gyfres. Ei gwaith ydyw cymmhell dyn ac anifail i fod yn ochelgar, rhag ymruthro yn fyrbwyll yn ngwyneb peryglon—i 'edrych cyn neidio;' ac i betruso ac ystyried y canlyniadau a all ddilyn cyn gweithredu. 'Y call a genfydd y drwg, ac a ymgûdd: ond ffyliaid a ânt rhagddynt, ac a gospir.' Saif yr ermig yn asgwrn y greuan, ychydig is ac o ddeutu Cymmeradwyedd, uwch ben Celeddwch. Dibyna ei hamlyg-



DAR. VIII.—Mawr. Bychan.

iadau allanol ar fywiogrwydd cynneddfau eraill, megys pan y bydd Hunan-frïedd yn ansawdd arweiniol yn y cymmeriad, gochelir yn arbenig bob peth a ymddengys fel yn gogwyddo at effeithio yn niweidiol ar y person ei hun. Os Caffaeledd fydd fywiocaf, yna cyfeirir Gocheledd tuag at sicrwydd a diogelwch y meddiau-

Digitized by Google

nau. Os Hilgarwch fydd y gynneddf fwyaf nodedig, prif wrthddrychau Gochelgarwch fydd y plant, eu cysur, a'u diogelwch. Yn y rhyw fenywaidd, fel rheol, y mae y gynneddf hon gryfaf; yr hyn sydd yn cyfrif am y gofal pryderus a pharhaus a amlygir gan y mwyafrif o honynt am eu plant. Mewn cyssylltiad â'r syniadau moesol a chrefyddol, ymddengys mewn gofal dwys i gadw y cymmeriad rhag niwed, a'i gadw hyd y gellir yn dda a rhinweddol. Mewn undeb â'r deall, a'r gallu ymresymiadol, bydd gochelgarwch yn amlwg gyda golwg ar gredinïaeth a daliadau crefyddol. Pan yn orfawr, cynnyrcha ofn, ammheuaeth, a phetrusder eithafol; a thuedda at ryw fath o anobaith a di-benderfynolrwydd, nes y mae hi yn fynych yn anfantais ddirfawr, gan ei bod yn gommedd ymgymmeriad âg anturiaethau a allasent ddibenu yn llwyddiannus. Yn y cyfeiriad gwrthgyferbyniol, y mae ei diffyg yn aml yn dwyn personau i ddyryswch a magl. Y mae hi yn fawr yn yr Ysgotiaid, y Saeson, a'r Ellmyn; yn llai yn y Cymry a'r Ffrangcod; ac yn llai drachefn yn y Gwyddelod.

20. Cymmeradwyedd.—Y mae hon yn elfen bwysig, er da neu ddrwg, yn nghymmeriad dyn. Hon ydyw y gynneddf sydd yn ein hysbrydoli â'r dymuniad o gael ein hedmygu, ein canmawl, a'n cymmeradwyo gan eraill. Wedi ei llawn ddiwyllio, ac o dan gyfarwyddyd a dylanwad y galluoedd moesol, y mae y teimlad hwn yn dra defnyddiol, ac yn arwain i fanteision aneirif; am ei fod yn symbyliad i uchelfrydedd rhinweddol, er rhagori mewn moesgarwch ac enw da; a pharch ac ufudd-dod i uchafiaid, a boddhâd cyffredinol. Pan mewn cyflwr o fywiogrwydd gormodol, neu yn ansawdd lywodraethol yn y cymmeriad, y mae hi, yn ddïau, yn un o'r cymmhelliadau mwyaf grymus i wneyd daioni, neu ynte ddrygioni. Cynnhyrfir dynion yn mhob oes gan uchelgais llym am enwogrwydd, neu awyddfryd dyheus am glod ac anrhydedd, i'r anturiaethau mwyaf clodwiw a lleshäol, yn gystal ag i'r gweithredoedd atgasaf a mwyaf gwrthun. Y mae y cwrs a gymmerir gan Cymmeradwyedd yn ei gweithrediad, fel y tueddiadau eraill, yn cael ei gyfeirio gan ddylanwad gogwyddol galluoedd mwyaf bywiog y meddwl. Pâr i rai pobl siarad yn barhaus am danynt eu hunain, gan sôn am eu medrusrwydd, eu gorchestion, a'u helbulon, i ddadgan eu profiadau, a dadleu eu tuedd i adrodd eu holl hanes; at yr hyn yn fynych y chwanegant nifer o bethau disail, yn unig er cael eraill i synu atynt, ac i'w canmawl. Y mae rhai yn tyngu ac yn rhegi, ac yn cyflawni pob math o ddrygau, er tynu sylw y byd. Y mae yn bossibl fod eraill, drachefn, yn myned i addoldai gyda'r un amcan. Pan yn ymddadblygu i'r graddau eithafol hyn, y mae Cymmeradwyedd yn trawsfeddiannu lle rhyw un neu chwaneg o'r galluoedd eraill. Ond pan y mae yn wan, y mae y teimlad yn wahanol; a'r person yn oer a difater ynghylch yr hyn a feddylir am dano gan eraill. Yn ffurfiad y cymmeriad y mae y naill eithaf-bwynt mor niweidiol a'r llall. Y mae ei safle rhwng Gocheledd a Hunanfrïedd, yn mharth ol uchaf ac ochrol y pen.

21. Hunanfriedd.—Amcan y gynneddf hon ydyw dysgu dyn i iawn-brisio ei bersonoliaeth ei hun, ar wahân oddi wrth ac yn annibynol ar bawb, a phob peth arall. Y mae yn ysbrydoli y person âg edmygedd, cariad, a pharch tuag ato ei hun, ac yn peri i'r meddwl ymddiried yn llwyr yn ei ddoniau a'i alluoedd; a phan yn gweithredu yn gydraddol a chyfunol â'r teimladau moesol, a'r greddfau uchaf, rhydd gadernid urddasol a gradd o ardderchawgrwydd i'r



Dar. ix.
Mawr. Diffygiol.

cymmeriad. Anfynych y ceir Hunanfrïedd wedi ei diwyllio a'i dysgyblu yn gydbwys â'r cynneddfau eraill. Y mae hi naill ai yn ormodol neu yn ddiffygiol. Ar un llaw, arweinia i falchder, hunanoldeb, a rhyfyg; neu ynte i hunanesgeulusdod a gwaseidd-dra. Haera rhai fod y teimlad hwn yn cael ei ffurfio, yn ol fel y bydd yr amgylchiadau yn unig; ond y mae Phrenyddeg yn profi y gwrthwyneb. Cyfarfyddir yn aml â dynion di-ddysg, di-ddawn, ac anfedrus, sydd heb feddu un hawl i edmygedd a pharch anarferol oddi wrth eraill, yn meddwl yn uchel am danynt eu hunain a'u galluoedd, ac yn ystyried eraill yn mhell is-law iddynt, er eu bod yn llawer mwy galluog na hwynt. O'r tu arall, y mae dynion gwir deilwng o barch, yn alluog, ac yn athrylithgar, yn edrych i lawr arnynt eu hunain, ac yn isel-brisio eu talentau. Trwy ddylanwad gormodol o Hunanfrïedd y mae pobl ammhwyllog yn fynych yn credu eu bod yn frenhinoedd, yn dywysogion, yn feirdd, neu yn bregethwyr mawr.

Lle yr ermig hon ydyw coryn y pen, fel y gwelir yn *dar.* ix. Y mae hi yn reddfol yn y march, y paen, a'r twrci. Ceir fod yr ermig yn gyffredin yn fawr yn y Cymry; ac oni bae ei bod yn gweithredu yn benaf mewn undeb â'r cynneddfau moesol a chrefyddol, buasai yn sicr o wneyd llawer chwaneg o'n cydgenedl yn wrthddrychau gwawd a dirmyg.

22. Diysgogedd.—Y mae y geiriau dïysgogedd, cadernid, a phenderfyniad yn cyfleu gwell syniad am y teimlad hwn nag un deffiniad y gallwn ni ei roddi. Nid ydyw Dïysgogedd,



Dar. x.—Diysgogedd mawr.

mewn gwirionedd, ond yr enw a rydd Phrenyddwyr ar y gallu rhyfedd hwnw yn ein natur sydd yn dal yn benderfynol ac yn ansigledig wrth ein syniadau neu ein penderfyniadau. A pha bryd bynag y clywir dyn yn dadgan ei feddwl a'i fwriad yn ddibetrus, gyda'r berfau


'gwnaf,' 'âf,' neu 'deuaf,' dyna amlygiad o fywiogrwydd hanfodol Dïysgogedd. Golyga hyn fod Dïysgogedd yn rhoddi ewyllys gref, a gallu i wneyd y meddwl i fyny, a phenderfynu amcanion yn rhwydd a dibetrus, ac i sefydlu y cyfryw yn gadarn a digyfnewid. Pan y bydd yn ormodol, cyndynrwydd fydd yr effaith; a'i diffyg ydyw anwadalwch. Yn mha gyfeiriad bynag y gogwydda hi, y mae ei dylanwad ar y cymmeriad o'r natur pwysicaf; o blegid cryfheir neu gwanheir, bywioceir neu marweiddir pob cynneddf arall o'r galluoedd meddyliol, moesol, ac anifeilaidd, yn gyfattebol i gryfder a bywiogrwydd, neu wendid a marweidd-dra y teimlad hwn. Saif yn nghanol parth ol ac uchaf y coryn. Yr oedd hi yn fawr yn Luther, Knox, John Elias, a Spurgeon; ac hefyd, yn Buonaparte, Wellington, Washington, a Jackson.

23. CYDWYBODOLEDD.—Teimlad o gyfrifoldeb a dyledswydd ydyw ei heffaith, ac awydd naturiol i ymddwyn yn gyfiawn, yn deg, a gonest, mewn masnach ac mewn gwasanaeth; a syniad o rwymedigaeth a ffyddlondeb i gyttundebau, addewidion, a gwirionedd. Ceisia gyfiawnder, a dymuna weithredu yn gyfiawn; ond nid ydyw yn penderfynu pa beth sydd yn gyfiawn neu yn anghyfiawn. Y mae hyn yn dibynu ar gyssylltiad y gynneddf â'r galluoedd deallol a rhesymegol. Amlyga ei hun yn fwy arbenig mewn cyssylltiad â chrefydd a moesoldeb; ac y mae yn elfen gref yn yr ymarweddiad, yn gymmaint a'i bod yn un o'r cynneddfau dynol sydd yn profi bodolaeth ac yn dadguddio priodoleddau y Goruchaf, ac yn galluogi dyn yn reddfol i wahaniaethu rhwng drwg a da, 'gan ei ddwyn, er ei annuwioldeb a'i ammheuaeth, i deimlo ei fod yn greadur cyfrifol. Er, o bossibl, fod Cydwybodoledd yn un o'r cynneddfau ardderchocaf a mwyaf pwysig mewn dyn, y mae gormodedd o honi, yn gystal a'i diffyg, yn rhwystr ar ffordd ei hapusrwydd. Y mae yn well gan ambell un, er mwyn cydwybod dawel, fyw mewn eisieu a thlodi am flynyddoedd na chyflawni rhyw weithred ddistadl y tybir ei bod yn gamwri; tra yr anturia arall, o blegid diffyg Cydwybodoledd, i ladrata neu dwyllo, a gwneyd ei hun yn agored i flynyddoedd o garchar. Sylwa un Phrenyddwr enwog mai prif rwystrau y gynneddf hon i ymddadblygu yn iachusol, ac i gyflawni ei swydd yn naturiol, ydyw addewidion o wobr neu fygythiad o gosp, yn ol y syniadau a goleddir gan ei meddiannydd gyda golwg ar uniondeb neu gamwri gweithredoedd ynddynt eu hunain; yr hyn sydd bob amser yn cymmhell dynion, yn annibynol ar y gydwybod, ac yn fynych yn groes i'w harchiad, i weithredu yn unig er mwyn ennill y wobr, neu ochelyd y gosp. Y mae hyn yn llygru y gydwybod, ac yn diffodd yr ymsyniad o gyfiawnder. 'Holl ffyrdd dyn ydynt lân yn ei olwg ei hun: ond yr Arglwydd a bwysa yr ysbrydion'—sef, y cymmhelliadau i'r cyfryw weithredoedd. Nid oedd Gall yn sicr ynghylch ermig ymenyddol y gynneddf hon; ond y mae Spurzheim wedi ei sefydlu yn ddiammheuol o'r tu blaen i Gymmeradwyedd, ac o bob tu i Ddinystredd.

24. GOBAITH.—Y mae gobaith yn hanfodol i fywyd; a phan y diffoddir canwyll gobaith mewn dyn, y mae bywyd wedi darfod am dano; neu ar y goreu, prin y mae yn werth ei fyw. 'Gobaith a oeder a wanhâ y galon.' Y mae enw y gynneddf hon yn eglurhad digonol o'i gweithrediad. Dysg ni i edrych ar yr ochr ddisgleiriaf i bethau, ac i ymddiried yn y dyfodol; ac er gwaethaf gorthrymderau a gofidiau, i beidio digaloni. Rhydd allu i anturio pethau mawrion, ac i ddyfal-barhau gyda'r cyfryw, gan ddisgwyl llwyddiant fel y canlyniad. Mewn cyssylltiad â'r cynneddfau moesol eraill, rhydd ymsyniad am anfarwoldeb, ffydd mewn addewidion dynion, a hyder ynddynt. Saif o flaen Cydwybodoledd, ac o ddeutu Parchedigedd. Pan yn orfawr, tuedda i anturiaethau anghymmedrol a rhag-ddisgwyliadau afresymol, i redeg ar antur, i adeiladu 'cestyll yn yr awyr,' ac i wneuthur addewidion ehud a di-sail, neu i ofergoeledd a gwâg ymddiriedaeth. Y mae ei ddiffyg yn arwain i ddigalondid ac anobaith, ac yn fynych i wallgofrwydd a hunan-ddinystr.

25. YSBRYDOLEDD.—Y mae yr ermig hon yn tueddu dyn i edmygu yr ardderchog a'r cyfriniol, ac i synu at y rhyfedd, y rhamantus, a'r newydd. Rhydd hoffder at ddrychfeddyliau mawrion ac aruchel, a chrediniaeth yn y goruwchnaturiol. Yn y gynneddf hon y gwreiddir syniadau am Dduw a chrefydd ddadguddiedig; a thrwy ei dylanwad yn arbenig y cynnhyrfir dyn, i raddau mwy neu lai, yn ol ei maint a'i bywiogrwydd, ar ryw brydiau neu gilydd o'i oes, i feddwl yn gryfach am yr hyn sydd yn ysbrydol, na phe buasai hebddi—neu pe byddai yr ermig yn wan, neu yn fychan ynddo. Pan y mae'r ermig hon yn anghymmedrol o fawr, ac yn gweithredu yn annibynol ar reswm, tuedda i fawrhau a gorliwio y disgrifiad o bob peth a welir ac a glywir, i goelio chwedlau am ysbrydion a bodau ffugiol, i ymddiried mewn breuddwydion a gweledigaethau dychymygol. 'Y mae y gŵr hwn yn gweled gweledigaethau!' meddai Gall, pan gyfarfu efe Iarll Grey y tro cyntaf. Y mae diffyg yn yr ermig hon yn lled ffafriol i anghrediniaeth a materoliaeth; ac y mae yn fynych mor eithafol fel y mae yn amddifadu bywyd o'i swynion mwyaf deniadol. Cyflëir yr ermig rhwng Efelychedd ac Arddunïant. Yr oedd hi yn fawr yn Swedenbourg, Johnson, a Wesley.

26. PARCHEDIGEDD.—Hon, meddai Dr. Gall, ydyw y gynneddf grefyddol; o blegid drwyddi hi, yn neillduol; y cymmhellir dyn i garu, i barchu, ac hyd yn oed i addoli yr hyn sydd fawreddus a da. Gall fod yn tueddu at bob math o bersonau a gwrthddrychau; ond nid ydyw yn penderfynu pa beth sydd i'w addoli, na'r dull o wneyd hyny. Dibyna hyn ar wybodaeth ac addysg. Yr oedd yr hynafiaid yn addoli llawer o wahanol wrthddrychau yn ol eu gwybodaeth a'u goleuni; ond trwy y Dadguddiad Dwyfol, ac fel y cynnyddodd crefydd a gwareiddiad, ac yr ymddadblygodd cynneddfau dyn trwy iddo ymarfer â meddwl, ymresymu,




DAR. XI.—Diffygiol. Bychan.

a myfyrio, daeth i addoli yr un Duw. Effaith Parchedigedd yw hoffder at hen greiriau ac adfeilion, a gwrthddrychau cyffelyb. Os bydd yr ermig yn rhy fawr, bydd y person yn wylaidd ac yn ofnus; a phan yn gweithredu mewn undeb

Digitized by Google

â, ac o dan ddylanwad pethau crefyddol, cynnyrcha yn fynych sêl eithafol, ac eilun-addoliaeth mewn personau heb fod y Dadguddiad Dwyfol ganddynt. Gall dynion, er hyny, feddu Parchedigedd mawr heb fod yn enwog mewn crefydd; ond y pryd hyny, ceir fod rhai o'r syniadau moesol eraill, megys Gobaith, neu Ysbrydoledd, yn ddiffygiol. Yr oedd Voltaire yn meddu Parchedigedd enfawr. Gwnaeth y dyn hwn bob peth a allai i ddifrïo Cristionogaeth; etto, y mae yn ammhossibl peidio teimlo dylanwad ei barch gostyngedig ef i'w uwchafiaid, &c. Effaith Parchedigedd gorfawr ydyw cryf ymlyniad wrth hen draddodiadau a defodau, a gwrthwynebiad cyndyn i wellianntau a phethau newyddion.

27. Caredigrwydd.—Y mae lle i gredu y cydnabyddid blaenbarth coryn y pen fel sêdd y teimlad o Garedigrwydd cyn amser Dr. Gall; o blegid byddai yr hynafiaid, wrth wneyd delwau o'u duwiau, yn eu gwneyd â thalcenau llydain ac uchel, fel ag i arwyddo eu bod yn meddu dealltwriaeth godidog ac awdurdodol, yn unol â Charedigrwydd cryf. Sonia Shakespeare hefyd, yn rhywle, am '*foreheads villainous, low.*' Er hyny, Gall oedd y cyntaf i astudio y pwngc yn athronyddol; ac i arddangos, ar safon wyddonol, fod Caredigrwydd yn ddibynol ar ryw ermig arbenig yn yr ymenydd. Ei swydd naturiol ydyw cymmhell i dosturi a chydymdeimlad ymarferol. Cynnyrcha ddymuniad am



Dar. xii.—Diffygiol. Mawr.

hapusrwydd i eraill, a thuedd i ymddwyn atynt yn addfwyn a charedig. Amrywia y teimlad hwn yn fawr mewn pobl a phlant. Gellir gweled effaith ei fywiogrwydd, neu ei gyflwr marwaidd, mewn plant bychain pan yn chwareu â'u gilydd. Rhydd y naill ei holl deganau i eraill, tra y mŷn y llall bob tegan iddo ei hun. Prin y gall Caredigrwydd gyrhaedd gradd o ormodedd. A dyweyd y gwaethaf ar hyn, gall arwain i hunan-ymwadiad a hunan-aberth, i wneyd gormod a rhoi yn wastraffus i eraill. Ar y llaw arall, fodd bynag, y mae ei ddiffyg mor gyffredin nes y teimlir ei effeithiau i'r byw yn mhob oes. Mewn darlun o Seneca, gwelir fod ei dalcen yn llawer uwch nag eiddo Nero; ac y mae penglogau y Caribiaid, fel rheol, yn wastatach yn y parth hwn na phenglogau yr Hindŵaid.

28. Saerniedd.—Mewn dyddordeb mewn cyfluniaeth, adeiladwaith, celfyddyd, a phob math o law-grefftau y gwelir effaith y gynneddf hon. Er nad ydyw o angenrheidrwydd yn cynnyrchu medrusrwydd parod a deheuig gyda'r celfyddydau uchod—yr hyn, wrth gwrs, sydd yn dibynu ar ddysg, ac ar ddadblygiad amryw o'r cynneddfau eraill; etto, y mae yn tueddu y meddwl atynt, yn peri hyfrydwch ynddynt, ac awydd i'w dysgu. Y mae dyn ac anifail wedi eu cynnysgaeddu â mesurau helaeth o'r gallu Saernïol. Trwyddo y cloddia yr anifail ei dŷ yn y ddaear, ac yr adeilada yr aderyn ei nyth ar y gangen; trwyddo y mae dyn, er yr oesoedd boreuaf, wedi cynnyrchu pob math o adeiladau a thrigfanau—o fwthyn llwm y tlawd i balas gwych y brenin. Pleser penaf y dyn gyda Saernïedd mawr fydd ymarfer ei allu cyfluniol ac adeiladyddol. Cyflëir y gynneddf o flaen Caffaeledd, ac uwch ben Alawen; ond amrywia ei hymddangosiad allanol yn ol dadblygiad yr ermigau amgylchol, ac yn ol maint y gorymenydd, a hyd asgwrn y foch.

29. Delfrydedd.—Hon, yn fyr, ydyw y gynneddf awenyddol. Y mae hi yn dyrchafu y tueddiadau, y syniadau, a'r galluoedd eraill—yn eu puro, ac yn eu perffeithio. Cynnyrcha hoffder at gerddoriaeth, barddoniaeth, a llenyddiaeth. Rhydd wresawgrwydd a pharodrwydd i'r meddwl, nerth barddonol a chyflymder i'r dychymmyg, a gwisga yr ymadrodd mewn iaith goeth ac arddull boneddigaidd. Rhydd ymsyniad o'r dillyn, y prydferth, a'r perffaith, a chwaeth at y prydyddol a'r swynol. Pan yn orfawr, amlygir tuedd i esgeuluso pethau cyffredin bywyd, ac awyddfryd gwibiog, a chrwydro yn y dychymygol a'r drychfeddyliol. Y diffyg o honi a arwain i anfoesgarwch ymarweddiad a gerwinder arddull, mewn iaith ac ysgrif. Saif yr ermig hon uwch ben yr arleisiau, rhwng Ardduniant a Llonder.

30. Ardduniant.—Cynnyrcha hon ymwybyddiaeth o'r goruchel, y dirfawr, y diddiwedd, yr anfeidrol, y mawreddog, y gwyllt, a'r ofnadwy, &c., ac awydd i fyfyrio ar yr ardderchog a'r galluog mewn natur a pheirianwaith. Rhydd fwynhâd wrth sylwi ar fynyddoedd, creigiau, moroedd, llynoedd, afonydd, gwlaw, mellt, a tharanau, a phob peth arall y gellir ei ddisgrifio fel y goruchel. Y mae rhai dynion yn gallu mwynhau yr hyn sydd dlws a phrydferth; ond nis gallant hyd yn oed daflu eu golwg ar arucheledd Natur heb deimlo rhyw fath o ofn neu anesmwythder mewnol. Am eraill, nid ydynt byth yn foddlawn gyda'r meusydd a'r dyffrynoedd. Rhaid iddynt gael dringo y mynyddoedd a'r creigiau, a myfyrio ar yr hyn sydd yn wyllt a goruchel! Gwel *Salm* xciii. 1. 3, 4.

31. Efelychedd.—Y mae yn hawdd canfod gwerth a chyfaddasrwydd y gynneddf hon; o blegid heb allu i efelychu, neu i gopïo, buasai raid i ni bob amser fod yn ddigon amyneddgar i ddyfeisio cynlluniau ein hunain, yn lle dilyn esamplau eraill, a chydymffurfio âg arferion blaenorol. Y cynneddfau cyntaf sydd yn cael eu rhoddi ar waith yn y plentyn yw y dosbarth sylwadol; ac yna, Efelychedd. Wedi iddo sylwi ar ryw ddywediad neu weithred lawer gwaith, y mae yn ceisio dyweyd neu wneyd yr un fath:—ceisia efelychu. Y mae hyn wedi arwain athronwyr yn fynych i ddadleu yn gyfeiliornus, mai trwy efelychu yn unig y casglir gwybodaeth. O blegid lle y bydd Efelychedd mawr, nis gall rhai byth gynllunio eu hunain; ond rhaid iddynt gael dilyn arddull rhywun arall mewn siarad, ysgrifenu, canu, a phob peth. Byddant yn hynod felly, os bydd eu Ffurf yn fawr, a'u Saernïedd yn ddiffygiol. Y mae yr ermig yn gorwedd o bob tu i Garedigrwydd.

32. Llonder.—'Calon lawen a wna les fel meddyginiaeth: ond meddwl trwm a sych yr esgyrn.' Y mae yn ffaith hynod, yn awr fel yn nyddiau Solomon, fod rhai pobl yn fwy parod nag eraill i weled yr ochr ddigrifol o bethau yn gyntaf. Y mae y rhai hyn, yn naturiol, yn llawen ac yn arabaidd; a chymmhellir hwy bob

Digitized by Google

amser gan eu tueddladau meddyliol i chwilio am a chanfod yn ebrwydd yr ysmala, y siriol, a'r ffôl. Gellir penderfynu fod y cyfryw wedi eu donio, i fesur helaeth, â Llonder. Fel y mae Delfrydedd yn dyrchafu holl swyddau y meddwl i'r aruchel a'r drychfeddyliol, felly hefyd y mae Llonder yn eu gogwyddo at lawenydd, difyrwch, a digrifwch. Y mae yn rhyfedd fod ambell ddyn fydd yn meddu yr ermig hon yn gref yn gallu difyru eraill, tra yn analluog i fod yn ddifyr ei hun. Aeth un o'r cyfryw at feddyg enwog, a chwynodd ei fod yn dioddef oddi wrth iselder ysbryd. Annogwyd ef gan y meddyg i fyned i ryw chwareudy neillduol, lle yr oedd gŵr oedd yn gallu taflu y bobl oedd yn ei wrandaw i bangfeydd o chwerthin bob nos. 'Myfi ydyw y gŵr hwnw,' meddai y claf. Gweithreda Llonder mewn undeb â'r teimladau, yn gystal a'r galluoedd meddyliol a deallol. Os, pan yn fawr, y cymmhwysir hi, mewn cyssylltiad â'r galluoedd uchaf, at syniadau a drychfeddyliau pwysig, adnabyddir hi yn y wedd o arabedd. Ond os yn gyfyngedig at bethau mwy cyffredin, yna amlygir ei swydd trwy ddigrifwch. Yn ei chyfuniad â Saernïedd a Ffurf bywiog, cynnyrcha ddigrifluniau a gwawdiadebau, yn ol dull Hogarth a Callot. Os heb ei chyfarwyddo gan Garedigrwydd, arweinia i gellwair a 'chwareu triciau.' Y mae ei dylanwad i'w deimlo yn ngweithiau Voltaire, Rabelais, Sterne, Prior, Boileau, Swift, ac eraill. Saif yn nghonglau y talcen, y tu ol i Achosiaeth, ac o flaen Arddunaint.

33. Achosiaeth.—Y mae Gwahanfodedd yn ein hyddysgu ni â gwrthddrychau, Digwyddiadaeth â digwyddiadau; ac y mae Cymmhariaeth yn nodi allan unrhywdeb, cyffelybiaeth, cyferbyniad, neu wahaniaeth. Ond Achosiaeth a rydd y syniad o gyssylltiad a pherthynas, megys rhwng achos ac effaith. Dŵg ni, yn naturiol, i'r penderfyniad fod i bob effaith ei achos; ac felly, trwy olrhain gam yn ol cam, deuwn i afael â'r hyn a olygir fel yr achos cyntaf mewn mater, neu, yn ol y dadblygwyr (*evolutionists*), fel y gell (*cell*) neu y ffurf cyntaf o fywyd (*protoplasm*) —y sylfaen cyntaf o fywyd llysieuol ac anifeiliaidd. Er mai oddi yma y mae y dadblygwyr yn golygu eu bod wedi cael gafael ar gychwyniad bywyd, fel y dywedwyd, nid ydynt ddim nes i ddeall pa beth ydyw, neu beth sydd yn cyfansoddi bywyd, na'r achos o hono chwaith. Trwy natur ei hun y mae yn ammhossibl, 'wrth chwilio, cael gafael ar Dduw.' Y mae athroniaeth mor analluog i ddeall y pethau uchod yn y gell, neu'r elfenau sydd yn ei chyfansoddi, ag ydyw yn yr ŵy, y fesen, yr aderyn, neu yr anifail. O'r Dadguddiad Dwyfol yn unig y mae y ffaith o fod Duw yn bod wedi dyfod gyntaf i feddwl dyn. Wedi ei gael, y mae Dadguddiad a natur yn cyd-dystiolaethu am ryfeddodau anfeidrol ei hanfod. Rhydd Achosiaeth wreiddiolder ac ëangder i'r meddwl, gallu i ymresymu ac amgyffred egwyddorion, awydd i fyned at wraidd pethau, ac i wybod y rheswm 'pa ham.' Yn unol â Gwahanfodedd, Digwyddiadaeth, a Chymmhariaeth bywiog, cynnyrcha ysbryd gwir athronyddol ac ymresymgar. Y mae Achosiaeth i'r deall yr un peth a Chydwybodolrwydd i'r teimladau—y naill yn hanfodol i reswm, y llall i foesoldeb. Ceir ambell un yn hoff o geisio eglurhau ac esbonio pob peth, gan dynu casgliadau oddi wrth ffeithiau unigol, a threiddio i ddyfnderoedd y tywyllwch, ac ymresymu yn ddamcaniaethol ar byngciau sydd yn anchwiliadwy i ddyn yn y bywyd hwn; megys hanfod, natur, ac amcan pethau, natur Duw, a'r enaid. Saif yr ermig yn nesaf at Gymmhariaeth; a phan yn llawn, rhydd led ar draws y rhan hwnw o'r talcen. Yr oedd hi yn fawr yn Bacon, Kant, Locke, Voltaire, a Dr. Thomas Browne.

34. Cymmhariaeth. — 'Cyfattebiaeth,' dywedai Syr G. Mackenzie, 'ydyw yr enw mwyaf priodol i'r gynneddf hon;' ac yn wir, dyma yr enw cyntaf a roddwyd arni gan y Dr. Gall ei hun. Ond y mae gwahanol farnau ar hyn; ac y mae y Phrenyddwyr goreu yn unfrydol gyda golwg ar Gymmhariaeth, mai hwn ydyw yr enw goreu arni. 'Cymmhariaeth' (*comparison*) yw y darganfyddiad o gyffelybrwydd cyffredin sydd rhwng dau wrthddrych, neu ddwy weithred. 'Cyfattebiaeth' (*anology*) yw y darganfyddiad o gyffelybrwydd, nid rhwng gwrthddrychau neu weithredoedd eu hunain, ond rhwng rhyw amgylchiadau neillduol cyssylltiedig â hwy, neu effeithiau arbenig a gynnyrchir ganddynt. Fe allai mai anhawdd fydd rhoddi deffiniad cywir ac eglur o swydd Cymmhariaeth; o blegid priodolir y gallu i gymmharu eu syniadau priodol i bob un o'r cynneddfau meddyliol. Y mae Alawen, er enghraifft, yn cymmharu seiniau; Lliwiant yn cymmharu lliwiau; a Ffurf, ddulliau gwahanol, &c. Ond y mae y gallu hwn yn cymmharu swyddi yr holl gynneddfau gwreiddiol eraill, ac yn nodi allan debygolrwydd, cyffelybiaeth, neu wahaniaeth. Ei natur hanfodol yw cymmharu. 'Cymmer hanfod a sefyllfa bresennol pethau fel safle i gychwyn (meddai un ysgrifenydd galluog); ac ymresyma oddi wrth osodiadau ysgrifenedig neu ddealledig; ac olrheinia effeithiau oddi wrth achosion adnabyddus.' Nid cynneddf gymmysgedig ydyw, fel y tybia rhai; ond y mae hi yn hanfodol, ac y mae iddi waith neillduol i'w gyflawni; etto, gweithreda fynychaf mewn cyfuniad. Gall Cymmhariaeth, os yn ormodol, dueddu person i fod yn rhy feirniadol, ac yn chwannog i ganfod beiau. Pan yn ddiffygiol, bydd analluogrwydd i gymmhwyso gwybodaeth ynddo. Saif yr ermig yn nghanol adran uchaf y talcen.

35. Treiddgarwch.—Rhydd allu greddfol i dreiddio i gymmeriadau ac amcanion dynion, i'w hadnabod, ac i wybod pa fodd i'w trin. Y mae Treiddgarwch, yn gyntaf, yn galluogi dyn, yn ol mesur y gallu y bydd efe wedi ei ddonio âg ef, yn naturiol, i'w adnabod ei hun; ac yna, i adnabod dynoliaeth. Prin y gellir tybied am ddim sydd yn fwy teilwng o efrydiaeth na meddyleg—sef, y meddwl dynol yn ei amrywiol agweddau, pan yr ystyrir gymmaint sydd yn dibynu ar ein gwybodaeth yn y cyfeiriad hwn. Gan nad mor dŷn y bydd tannau y delyn, neu pa mor dlws yn ei ffurf allanol, heb wybodaeth o'r nodiant a medrusrwydd i chwareu, ni bydd y canlyniadau ond sŵn drwg ac anghydsain. Rhaid meddu rhyw gymmaint o adnabyddiaeth o'r natur ddynol cyn y deuir i wybod yn mhwy i ymddiried, a phwy i'w hosgoi. 'Megys dyfroedd dyfnion yw pwyll yn nghalon dyn: etto y gŵr call a'u tŷn allan.' Gormodedd y gynneddf hon a rydd awydd eithafol i chwilio i gymmhellion a bwriadau dynion; a bradychir ei ddiffyg mewn anallu i wneyd hyny. Saif rhwng Cymmhariaeth a Charedigrwydd.

36. Boddusrwydd.—Cyflëir ermig y gynneddf hon o bob tu i Dreiddgarwch; ac o flaen Caredigrwydd ac Efelychedd. Y mae hi yn gynneddf

Digitized by Google

nodweddiadol: ac fe eglurir ei gwaith gan ei henw. Tuedda i fod yn hoenus, yn dirion, a dymunol; ac i ennill cariad ac ewyllys da eraill. 'Atteb arafaidd a ddettry lid; ond gair garw a gyffry ddigofaint.'

37. SERCHLONEDD.—Saif ermig Serchlonedd




DAR. XIII.
Y pab Alexander VI.—Serchlonedd mawr.

yn y gorymenydd; ac yn ol ei maint a'i bywiogrwydd, hi a rydd ymddangosiad llawn a llydan i'r gwddf. Ei swydd naturiol yw creu cariad a pharch y naill ryw tuag at y llall. Pâr ymlyniad wrth y rhyw gyferbyniol; a rhydd yn y naill deimlad o ddyddordeb yn hapusrwydd y llall. Gall ei gormodedd, heb ansoddau moesol ac arweiniol yn y cymmeriad, arwain i eithafion nwydol, i drythyllwch, &c.

38. CYDWEDDOGAETH.—Dygwyd yr ermig hon i sylw phrenyddwyr yn gyntaf gan Dr. Vimont; yr hwn, ar ol sylw craff ac ymchwiliad dwfn, a ddaeth i'r penderfyniad fod Cydweddogaeth yn gynneddf wreiddiol. Saif yn ngwaelod rhan ol y pen, yn nesaf uwch law Serchlonedd, o dan Cyfeillgarwch, ac o ddeutu Hîlgaredd. Rhydd dueddfryd i ymbriodi, cyfaddasrwydd naturiol i'r sefyllfa briodasol, ac i fyw mewn undeb cysson â'r cymmhar mewn serch ac ymddiried. Yn ol mesur yr ermig hon y mwynheir neu y casheir y cyflwr priodasol:—'Rhag godineb, bydded i bob gŵr ei wraig ei hun, a bydded i bob gwraig ei gŵr ei hun;' 1 *Cor.* vii. 2.

39. HILGARWCH.—Saif ermig Hîlgarwch yn y gorymenydd, yn nesaf at Serchlonedd, ac yn union uwch ben madruddyn y gwegil; a gellir mesur maintioli y gynneddf yn ol y lled o'r glust i asgwrn uchaf y gwegil. Mae yr ermig hon yn



DAR. XIV.
Mawr. Diffygiol.

dangos gradd cariad rhïeni at eu plant—cariad at eu hiliogaeth, a gofal pleserus am danynt; awydd i feddu teulu; hoffder at blant, a phob math o wrthddrychau ieuaingc a thyner, maldodiaid (*pets*), ac anifeiliaid. Nid yw yn bodoli o gwbl mewn rhai creaduriaid; megys dychfilod, ymlusgiaid, a physgod. Y rhai hyn a adawant eu hŵyau i ddamwain, neu i ddylanwad rhyw ddirprwy allanol. Gyda rhai rhywogaethau, y benywod yn unig sydd yn gofalu am yr ieuaingc, ac yn casglu lluniaeth iddynt. Gydag eraill, amlyga y ddau ryw ddyddordeb cyfartal yn eu rhai bach. Ond fel rheol, y mae y duedd yn llawer cryfach yn y rhyw fenywaidd, y rhai y mae gofal yr ieuaingc yn dibynu fwyaf arnynt. Gall yr ermig, pan yn rhy gref, beri pryder poenus a pharhaus am y plant; ond pan yn ddiffygiol, bydd plant yn hytrach yn faich, ac ni feddylir ond ychydig yn eu cylch.

40. CYFEILLGARWCH.—Cynnyrcha hon dueddfryd o ymlyniad wrth bersonau. Yn y personau sydd yn ei meddu yn gref a bywiog, i raddau cymmedrol rhydd gymmhelliad grymus i ymlynu wrth y gwrthddrych y byddant wedi gosod eu serch arno, ynglŷn â gallu cyfattebol i dderbyn yn ol ac i fwynhau yr un teimlad tuag atynt eu hunain mewn eraill. Y mae hi yn ffaith adnabyddus fod y teimlad o gyfeillgarwch yn rhywbeth sydd yn sefyll yn gwbl ar wahân oddi wrth serch neu gariad, yn eu hystyr cyffredin. Mewn un man, cynghorodd Crist ei ddysgyblion i 'garu eu gelynion,' neu i ymarfer caredigrwydd; o blegid gall dyn fod yn garedig hyd yn oed wrth ei elynion gwaethaf. Mewn lle arall, ceir ef yn eu gorchymyn i garu eu gilydd; ac yma, yr oeddynt i roddi ar waith eu Cyfeillgarwch a'u gallu cymdeithasol. Gellir priodoli rhyw fath o gariad i bob un o'r teimladau; er enghraifft, mewn Serchlonedd, cariad y rhywiau at eu gilydd; Hîlgarwch, y cariad rhïeniol; Cyfanneddwch, y cariad at gartref a gwlad, &c. Ond y cariad arbenig a hônir gan Phrenyddeg a gynnyrchir gan Gyfeillgarwch ydyw cariad cymdeithasol; ac y mae ffrwyth ystyriaeth dwfn a dyfal gwyddonwyr galluog yn profi yn annadleuadwy fod y teimlad hwn yn hanu o gynneddf wreiddiol; ac mai nid cynnyrch cyfuniad o gynneddfau eraill ydyw. Saif yr ermig o bob tu i Gyfanneddwch; ac yn unol â'i faintioli yr amlygir y gallu i gymdeithasu, i ennill ymddiriedaeth, i wneyd cyfeillion, ac i fwynhau cymdeithas a chyfeillgarwch. Diffyg yn y teimlad hwn sydd yn tueddu rhai i fyw yn unig, &c. Y mae Cyfeillgarwch yn gryfach fel rheol yn y rhyw fenywaidd.


41. CYFANNEDDWCH.—Cariad at gartref, a gwlad, ac at le genedigol ydyw hwn; awydd i ymgartrefu, i gael cartref priod, ac i drigiannu mewn un man. Cyflëir yr ermig uwch law Hîlgarwch, wrth ben uchaf asgwrn y gwegil. I'r dyn a fedd Gyfanneddwch mawr, bydd ei wlad enedigol, am fod ei gartref ynddi, yr un anwylaf, brydferthaf, a mwyaf ardderchog yn ei olwg dan y nef. Dedwyddu ei gartref fydd prif amcan ei fywyd; ac ni bydd dim yn ormod ganddo ei aberthu er mwyn ei gartref. Cynnyrcha y diffyg o Gyfanneddwch awydd i grwydro oddi cartref; neu, bydd y cyfryw bersonau yn ddibris o'u cartref. Fel hyn yr ysgrifenodd un am y teulu hwn:—

'Pe buasai ein gwladwriaethwyr ond yn gwybod am ddylanwad nerthol y gynneddf hon, er gwneuthur dynion yn wladgarwyr a dinasyddion da, y mae yn ddiammheu y buasent yn annog ac yn cynnorthwyo y bobl i'w diwyllio hi, gan ei wneyd yn fater o angenrheidrwydd fod gan bawb gartref—nid gwestty neu *lodging*, nid îs-ddaliad (neu ddaliad o dan ddaliwr arall, yr hyn sydd mor gyffredin yn y trefydd

Digitized by Google

mawr), ond fod i bawb gartref iddo ei hun—cartref am oes, i'r plant yn gystal ag i'r rhieni. A dylai fod gan bob dyn rydd-feddiant hollol ar gyfer cenedlaethau dianedig, naill ai yn y ffurf o dai neu diroedd y tu hwnt i bob hawl o arwerthiant, arwystl, neu gyfnewidiaeth o unrhyw fath. Yna, byddai i'r dyn wybod a theimlo fod pob awr o lafur, pob mymryn o welliant, a phob ceiniog a waria ar ei gartref, yn sicr o fyned yn uniongyrchol er ei fudd a'i fantais ei hun; ac er lles ei blant ar ei ol. Dyger hyn oddi amgylch; ac yna, ni byddai angen am hurweision milwrol i ymladd dros eu gwlad am gyflog, o blegid buasai o dan ddylanwad y gynneddf hon yn amlygu y fath wroldeb brwdfrydig fel ag i rwystro unrhyw nifer o ymosodwyr ar, neu ymruthrwyr i'w gwlad. Byddai y fath genedl yn anorchfygadwy, a'r fath wlad yn gadarn ac anoresgynol. Lle bynag y bydd nifer mawr o drigolion gwlad heb dŷ, na chartref, neu ddarn o dir y gallant ei alw yn eiddo eu hunain, nid oes ganddynt chwaith un annogaeth i fod yn ddinasyddion a gwladgarwyr da. Y mae rhyfel neu heddwch, buddugoliaeth neu orchfygiad, yn faterion cymmhariaethol ddibwys yn ngolwg y cyfryw rai; ac o ganlyniad, y maent yn hollol ddiofal yn eu cylch.'

Gwelir sefyllfa yr ermig uchod yn y darlun canlynol:—



DAR. XV.—Cyfanneddwch mawr.

42. Sefydlogrwydd.—Ei effaith naturiol ydyw tueddfryd o sefydlogrwydd, cydolrwydd, a dyfal-barhâd; ac yn ol maint, bywiogrwydd, ac ansawdd yr ermyg, y bydd y tueddfryd hwn yn gryf, neu yn eiddil. Galluoga ni i osod a sefydlu y meddylfryd yn gadarn ar yr amcan dymunol fydd mewn golwg, neu y gwrthddrych y ceisir ymgyrhaedd ato ar y pryd. Tra y mae Diysgogedd yn ymlynu wrth beth ar ol ei gael, y mae Sefydlogrwydd yn rhoddi cymmhwysder amyneddgar a pharhâol i'w geisio. Rhydd allu i gydgasglu ac i sefydlu yr holl alluoedd, ac i blygu, crynhoi, a chyfeirio y meddwl i ba gyfeiriad bynag y dymunir iddo fyned. Saif uwch ben Cyfanneddwch. Pan yn ddiffygiol, bydd y meddwl yn rhanedig ac yn ansefydlog; a chymmer ei sylw i fyny gan amryw o bethau ar unwaith. Pan yn eithafol, o fawr gall dueddu i sefydlu y meddwl yn ormodol ar ryw amcan neu wrthddrych distadl ac annheilwng, er anfantais a rhwystr i amcanion uwch a mwy buddiol. Y mae'r gynneddf hon, yn ddïau, yn un o'r rhai mwyaf defnyddiol yn y gyfres; o blegid y mae llwyddiant dyn mewn bywyd yn dibynu, i raddau pell, ar y gallu a fedd efe i sefydlu ei feddwl ar amcanion neillduol, a dyfal-barhau gyda'u ceisio, nes eu cyrhaedd.

Cydbwysedd a Chyfuniad y Cynneddfau.

Nid ydyw yr oll o'r cynneddfau hyn yn gydradd mewn urddas a phwysigrwydd, nac yn ogofuwch mewn gallu. Y mae rhai o honynt yn briodol i ddyn, ac eraill yn gyffredin i'r dyn a'r anifaill. Er nad ydynt yn gyfartal mewn ansawdd naturiol, etto y mae'n bossibl iddynt gyrhaedd cyflwr o gydbwysedd, a gweithredu mewn undeb perffaith â'u gilydd. Y mae Phrenyddeg yn dysgu fod y natur ddynol yn gyfansoddedig o dair elfen hanfodol, a bod dyn yn cael ei lywodraethu gan dri gallu:—y moesol, y meddyliol, a'r anifeilaidd. Fel yr awgrymwyd yn barod, anfynych y ceir fod y cynneddfau yn gweithredu yn unigol, ac yn annibynol ar eu gilydd; ond y rheol yw, eu bod yn gweithredu mewn undeb â'u gilydd yn y fath fodd fel y mae y naill yn cynnorthwyo neu yn agweddu grym y llall. Ceir fod y cynneddfau sydd yn cyfansoddi y gallu meddyliol yn fynych yn gweithredu mewn undeb â'u gilydd, ond yn annibynol ar y dosbarthau moesol ac anifeilaidd, neu y rhai moesol yn annibynol ar y cynneddfau anifeilaidd a'r rhai meddyliol, &c. Ond y mae perffeithrwydd a phuredd y cymmeriad yn dibynu ar undeb a chydgordiad y tri dosbarth hyn; o blegid gall un dosbarth oruwchreoli y llall mewn modd anfoddhaol.

Y mae hyn yn dadblygu athroniaeth wirioneddol Phrenyddeg, ac yn esbonio yr achos o'r amrywiaeth diderfyn o gymmeriadau sydd yn mysg dynion. Yn wir, y mae dylanwad cyfuniadau amrywiol y cynneddfau ar y cymmeriad yn ffurfio un o nodweddau pwysicaf y gyfundrefn phrenyddol. Ni wneir yma ond crybwyll yn unig y pethau sydd yn fwyaf angenrheidiol i'w cofio.

Y mae pob un o'r cynneddfau yn allu hanfodol annibynol. Y mae dosbarth neillduol o'r cynneddfau yn ffurfio y deall, a dosbarth arall y teimladau; ac y mae y deall a'r teimlad yn ddau allu hollol wahanol. 'Camsyniad dybryd (meddai Combe) ydyw y dybiaeth gyffredin fod teimladau y meddwl yn cael eu trosglwyddo iddo trwy gyfrwng y deall; ac, yn neillduol, os na bydd gwrthddrychau moethus yn cyrhaedd y llygaid, ac yn treiddio y clustiau, fod purdeb perffaith o angenrheidrwydd yn teyrnasu o fewn yr enaid. Mae egwyddor yr ymresymiad hwn yn gyfeiliornus, ac yn niweidiol i gymdeithas. Ceir fod i'r teimladau fodolaeth a gweithgarwch gwahanol oddi wrth, ac annibynol ar y deall; ond maent yn argymmhell y deall yn mlaen er cyrhaedd eu boddhâd eu hunain; a gall y deall fod felly yn gaeth neu yn arweinydd i'r teimladau, yn ol fel y bydd ei oleuni neu ei dywyllwch gyda golwg ar eu cyfansoddiad a'u hamcan, a'r anian-ddeddfau i ba rai y maent yn ddarostyngedig. Cydnabyddir rhesymoldeb yr athrawiaeth hon, a dysgir hi yn drwyadl gan yr athronwyr mwyaf galluog; ac mae Phrenyddeg yn ei sefydlu ar safonau gwyddonol cedyrn ac eglur.'—(*Constitution of Man*:—argr. 1836.)

Y mae y gallu moesol yn ei hanfodiaeth cynhenid yn rhagori ar y meddyliol a'r anifeilaidd mewn gradd o uchafiaeth a chyfaddasder arweiniol yn nghyfansoddiad dyn. Y nesaf ydyw y meddyliol—ac yna yr anifeilaidd. Golyga hyn, felly, fod y moesol, yn ol trefn natur, i ffurfio yr ansawdd llywodraethol yn y cymmeriad—y meddyliol i fod yn ddarostyngedig i'r moesol—a'r anifeilaidd i'r meddyliol. Ond mewn canlyniad i anufudd-dod i gynghorion rhybuddiol y gydwybod, a llwyr ddarostyngiad i'r tueddiadau hunanol, a'r nwydau cnawdol, trawsgyweirir y drefn hon yn fynych, nes dwyn oddi amgylch ganlyniadau ofnadwy. Y mae cydgordiad heddychol rhwng y galluoedd llywodraethol yn cynnyrchu cydgordiad bywyd a chyssondeb ymarweddiad; ond pan y bydd yr

anifeilaidd yn goruwch-reoli ar y moesol a'r deallol, yna ceir mwy o'r daearol na'r dwyfol—mwy o'r cnawdol na'r ysbrydol—mwy o'r anifeilaidd na'r dynol.



DAR. XVI.—**Hagarty (y llofrudd). Ymenydd moesol isel iawn.**




DAR. XVII.—**Melancthon, diwygiwr, a chydymaith Luther. Ymenydd moesol hynod uchel.**

Gwel y darllenydd mewn amrantiad fod gwahaniaeth annhraethadwy rhwng ffurfiad pen Hagarty, y llofrudd, ag eiddo Melancthon, yr athronydd, y duwinydd, a'r diwygiwr Protestanaidd. Yn y naill ddarlun gwelir fod yr holl alluoedd wedi eu crynhoi i'r coryn, fel ag i osod *hunan* ar yr orsedd, a phob galluoedd eraill megys i ymostwng yn llwyr iddo, a gwneyd ei foddhâd yn wrthddrych pob gweithred, ac yn brif amcan ei fywyd. Y mae y darlun arall yn arddangos pen dyn hynod o anghyffredin, gydag ymenydd o'r ansawdd puraf, a'r cynneddfau wedi eu diwyllio i gyflwr o gydbwysedd hollol gysson â gosodiad a deddf natur. Llywodraethir yr holl ddyn gan yr elfenau moesol a chrefyddol; a golyga y talcen aruchel yna y deall mwyaf godidog a galluog, y canfyddiad mwyaf craff, y meddwl mwyaf dwfndreiddiol, ynghyd â charedigrwydd cryf, a phob moesgarwch a boneddigeiddrwydd hefyd. Yn wir, yr oedd Melancthon yn un o'r cymmeriadau puraf, prydferthaf, ac ardderchocaf sydd i'w weled ar ddalenau hanesyddiaeth.

Yn awr, bydded i'r darllenydd gymmharu pen Melancthon âg eiddo y pab Alexander VI. (gwêl *darlun* XIII.); ac astudied gymmeriad y person hwnw, gan ei gyferbynu âg eiddo y Diwygiwr. Yr oedd ymarweddiad Alexander VI. yn atteb yn gysson i ansawdd ei ymenydd, a ffurf ei ben. Dywed Spurzheim fod y fath ansawdd ymenyddol yn ffiaidd yn ngolwg y phrenyddwr. Gwelir fod y tueddiadau anifeilaidd yn cynnwys y rhan fwyaf o lawer o'r pen. Mesured o'r glust i'r gwegil, a chymmhared y canlyniad ar y rhan gyfattebol yn mhen Melancthon. Mae y rhan isaf wedi ymddadblygu i eithafion; y cynneddfau sylwadol yn llawn; ond y mae y coryn yn isel ac yn wastad anarferol, fel y mae y syniadau o garedigrwydd, parchedigaeth, a chydwybodolrwydd, yn mron yn hollol absennol. Y mae y fath un yn anghyfaddas i unrhyw swydd aruchel; canys nid ydyw cylch ei weithgarwch yn estyn y tu hwnt i foddhâd y chwantau cnawdol a'r nwydau anifeilaidd.

DIWEDDGLO.

Nis gallwn derfynu heb grybwyll gair gyda golwg ar rai gwrthwynebiadau a gyfodir yn fynych yn erbyn athrawiaethau Phrenyddeg. Gwrthwynebwyd hi unwaith yn bendant gan y byd crefyddol, ar y dybiaeth ei bod yn anfoesol yn ei thueddiad; ond erbyn hyn cydnabyddir yn gyffredin fod y cyhuddiad hwn yn ddi-sail. Yna haerid ei bod yn arwain i sylweddoliaeth (*materialism*) a thyngedfeniaeth:—i'r cyntaf, meddent hwy, am ei bod yn gwneyd y meddwl mor ddibynol ar sylwedd fel nas gellir gwahaniaethu rhyngddynt. Y mae pob cyfundrefn o athroniaeth feddyliol yn gwneyd y meddwl yn ddibynol ar yr ymenydd fel cyfrwng o'i amlygiad; ond a ydyw yn briodol haeru fod hyn, o angenrheidrwydd, yn arwain i sylweddoliaeth? Nid ydyw y ffaith fod Phrenyddeg yn dosranu y meddwl yn gynneddfau, gyda seddau priodol yn yr ymenydd, ac yn dibynu ar gïau neillduol fel cyfryngau, yn arwain mewn un modd i sylweddoliaeth, mwy nag yw gwneyd y meddwl yn ei gyfanrwydd yn ddibynol ar yr ymenydd yn ei gyfanrwydd. Haerir mor bell i'r ansylweddol nes dyweyd nad ydyw y meddwl yn *ddim;* tra y dadleua y Phrenyddwyr dros y syniad gwrthwynebol. Nis gellir, yn sicr, ei weled, ei deimlo, na'i bwyso; etto, y mae yn amlwg ei fod yn bod, ac yn ymddadblygu mewn bywiogrwydd a nerth, ac yn cynnyddu mewn dylanwad a chyfrifoldeb. Yr ydym, yn ddïau, wedi dyweyd digon yn nghwrs yr ysgrif hon i brofi nad ydyw Phrenyddeg yn anfoesol, nac yn faterol, yn ei thueddiadau.



DAR. XVIII.

Graddau o Ddealltwriaeth a Chyfrifoldeb.

Fe ddichon fod i'r haeriad arall, sef ei bod yn arwain i dynghedfeniaeth, well sylfaen iddo; ond y mae hyn drachefn yn rheswm cryf dros ei hastudio a'i phrofi. Haerir gan ei gwrthwynebwyr fod Phrenyddeg yn diddymu cyfrifoldeb dyn; ond y mae y cyfryw yn amlygu eu hanwybodaeth llwyr o'r hyn y ceisiant ei wrthod a'i ddymchwelyd; o blegid nid yw yr ermigau,

Digitized by Google

ond cyfryngau drwy ba rai y mae yr enaid yn gweithredu. Os byddant yn fawr, maent yn dangos gallu cryf y person i weithredu mewn cyfeiriadau neillduol; ond os bydd yr ermigau yn fychain, bydd y gallu hwnw yn wan. Mae y cyfeiriadau y bydd gwahanol alluoedd dyn yn dibynu ar sefyllfa ei galon. Er esampl, pe y golygid fod yr ermig Ymladdgar yn gref, byddai tuedd ei pherchenog, wrth gwrs, i ymladd. Tra y byddai ei galon yn ddrwg, yn y cyfeiriad hwnw y rhedai ei deimlad. Ond os, o'r tu arall, y byddai ei galon yn sanctaidd a da; gwrthddrychau ei gasineb fyddai drygioni; a gellid ymddiried yr ymdrechai gyda phenderfyniad o blaid yr hyn sydd 'sanctaidd, cyfiawn, a da.'

Wrth ddiweddu, dywedwn hyn:—Os ydyw Phrenyddeg yn wir, nid yw ei hefrydiaeth yn debyg o arwain neb oddi wrth ei Hawdwr, ac Awdwr pob gwirionedd arall; ond cynnorthwya ef i gymmharu y naill wirionedd â'r llall, yn arbenig y rhai sydd yn dwyn perthynas â natur a chyfrifoldeb dyn. Y mae ei hefrydiaeth yn golygu hunan-ddiwylliant, hunan-welliant, a hunan-adnabyddiaeth; o blegid nis gall dyn ei hefrydu yn drwyadl heb gymmhwyso ei gwirioneddau yn bersonol ato ei hun, ac at ei gymmeriad—yn gystal a thuag at eraill.

PIERCE, EVAN. Meddyg enwog a breswyliai yn Ninbych oedd efe, ac un o'r dynion mwyaf adnabyddus fel meddyg yn Ngogledd Cymru yn ei ddydd.

Ganwyd ef yn Mhlas Meifod, Henllan, yn agos i Ddinbych, ar ddydd Gŵyl Dewi, yn y fl. 1808. Amaethwyr cyfrifol, o'r enwau Thomas a Mary Pierce, oedd ei dad a'i fam; a rhoddasant i'w mab yr addysg oreu oedd yn ddichonadwy iddynt. Ar ol bod am rai blynyddoedd yn Ysgol Rammadegol Dinbych, rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda'r Doctoriaid Yorke Jones a Lodge, o'r dref hon. Ar ol gorphen ei amser gyda hwy, astudiodd yn mhrif athrofeydd Edinburgh, Llundain, a Pharis. Yn mhob un o honynt, ennillodd amryw o wobrau; ac aeth drwy ei arholiadau am raddau yn fuddugoliaethus ac yn anrhydeddus. Yr oedd yn hollol ymroddedig i'r alwedigaeth feddygol, ac yn barod i aberthu unrhyw beth—ïe, hyd yn oed bywyd ei hun—er ei mwyn. Prawf amlwg o hyn oedd ei waith yn myned, cyn llwyr orphen ei yrfa yn Edinburgh, i weini ar y cleifion oedd yn dioddef o dan yr haint dychrynllyd hwn—y geri marwol (*Asiatic cholera*)—yn Portobello a Musselburgh. Gwnaeth hyn pan yr oedd holl feddygon rheolaidd y lleoedd hyny wedi diangc am eu bywydau. Gweithiodd yn ddifefl nos a dydd nes i'r plâ ddarfod; ac wedi hyny, daeth adref, yn llesg ei ysbryd, ac yn welw ei wedd, i geisio ychydig o orphwysdra iddo ei hun. Ond, ysywaeth, yr oedd y plâ wedi cyrhaedd Dinbych o'i flaen; sef, yr ymweliad bythgofiadwy hwnw yn y flwyddyn 1832. Cyn iddo gyrhaedd y dref, yr oedd llawer wedi eu cludo i fynwent yr Eglwys-wen; ac yr oedd pawb dan deyrnasiad dychryn. Ond ymdaflodd Dr. Pierce ar y gwaith, a bu yn foddion diammheuol i achub bywydau llawer o'i gyd-drefwyr ar y pryd. Am y rhan fwyaf o'r gwasanaeth ammhrisiadwy hwn ni chafodd, ac ni ddisgwyliodd dâl; ond yn mhen amryw flynyddoedd ar ol hyny, anrhegwyd ef â darlun ysblenydd o hono ei hun, fel arwydd o ddiolchgarwch y dref iddo, a'u hedmygedd o hono.

Yn y fl. 1833, ymsefydlodd fel meddyg yn Ninbych; ac yn fuan llwyddodd yn fawr. Y fath oedd ei benderfyniad, ei wroldeb, a'i allu, fel na safai rhwystrau cyffredin o'i flaen. Yn fuan, sefydlodd glafdy ar ei draul ei hun, lle y derbynid cleifion tlodion yn ddi-dâl; yr hwn a gostiodd iddo mewn ychydig flynyddau amryw gannoedd o bunnau. Yr oedd efe yn foneddwr hynod o garedig. Ceid ef yn barod bob amser i gyfranu at achosion cyhoeddus, ac at ddiddyledu capelau gwahanol enwadau y dref, a'r wlad oddi amgylch. Yr oedd yr Ysgol Sabbothol hefyd mewn ffafr yn ei olwg. Hwyrach mai yma y dylem hysbysu mai Wesleyad, o ddygiad i fyny ac egwyddor, oedd y Doctor, a'i fod er's rhai blynyddau yn aelod ffyddlawn o'r cyfundeb; ond yr oedd yn ëang ei ysbryd a chyffredinol ei gymmwynasau—ac yn neillduol felly i'r enwad y perthynai iddo.

Un o'r swyddau pwysicaf y dewiswyd ef iddynt oedd trengholydd dros ran orllewinol sir Ddinbych. Allan o amryw ymgeiswyr, dewiswyd ef i'r swydd hon yn y fl. 1848; a llanwodd hi yn anrhydeddus. Etholwyd ef hefyd, yn y fl. 1851, yn swyddog meddygol dros Undeb Rhuthyn. Ar enedigaeth y Tywysog Arthur, yn awr y Duc o Connaught, dymunai ei fam iddo gael mammaeth o Gymru; a rhoddwyd ar Dr. Pierce i ymofyn am yr un gymmhwysaf i'r swydd. Wedi cryn chwilio, argymmhellodd yntau un Mrs. Jones, o Lanfair-talhaiarn—gwraig ieuangc iach brydweddol; a rhoddodd Mrs. Jones foddlonrwydd mawr i'r teulu brenhinol. Darparwyd o hyny allan ar ei chyfer, trwy bwrcasu bwthyn tlws iddi yn Mhensarn, Abergele, lle y preswyliodd am flynyddoedd; a bu farw yn 1888.

Yr oedd yn aelod o'r cynghor trefol er's dros ddeugain mlynedd. Yn 1866, anrhydeddwyd ef â'r safle uchaf oedd gan ei gyd-drefwyr iddo, trwy ei ddewis yn faer; ac ail etholwyd ef am bum mlynedd yn olynol; ac fel maer, ymddygodd yn uniawn, cydwybodol, ac urddasol. Anrhegodd Dr. Pierce y dref hon â dau bistyll, a chloc i'r farchnadfa, ynghyd âg amryw roddion gwerthfawr eraill. Bu yn ddiflino yn ei ymdrechion i hyrwyddo ffyniant y dref, a chadw i fyny ei hurddas. Trwy ei offerynoliaeth ef y cafodd Dinbych yr anrhydedd o ymddangos fel prif dref Cymru ar y Cwpan Cenedlaethol a roddwyd, yn ystod ei faeroliaeth ef, i frenin a brenhines Belgium. Ar ei ymddiswyddiad fel maer, cododd ei edmygwyr golofn o anrhydedd iddo; ac ar y 23ain o Dachwedd, 1876, dadorchuddiwyd y golofn—yr hon yn awr a saif gyferbyn â'i dŷ yn Vale street; yr hon a gostiodd swm mawr. Rhoddodd y Doctor y tir ar ba un y saif yn rhodd bythol i'r cyhoedd; ac y mae y lle yn awr yn un o brif addurniadau y dref. Yn y fl. 1881, anrhegwyd ef gan ei gyfeillion â darlun llawn faint o hono ei hun, gan Mr. Mercier, pa un a roddwyd, ac sydd i'w weled yn awr, yn ystafell cynghor y fwrdeisdref. Yn 1889, cyflwynwyd anerchiad ysblenydd iddo, ar derfyn hanner canrif o'i wasanaeth fel meddyg i Gymdeithas yr Odyddion. Yr oedd yn ei breswylfod hefyd lawer o anerchiadau ac anrhegion oddi wrth bersonau a dderbyniasant wellhâd o dan ei driniaeth.

Tua deng mlynedd yn ol, bu y Doctor yn wael ei iechyd, ac ofnai llawer fod tymmor ei ddefnyddioldeb ar ben; ond er llawenydd i laweroedd, adferwyd ef i'w gynnefin iechyd; ac fel

Digitized by Google

teyrnged o ddiolchgarwch am hyny, cododd balasdy hardd a chyfleus ar draul o tua 1,000*p.*, yr hwn a gyflwynodd dros byth yn feddiant i'r cyfundeb Wesleyaidd, fel trigfa i'w gweinidog yn Ninbych. Saif y tŷ hwn ar lanerch hynod o ddymunol, ger llaw yr orsaf; a diwallai angen a deimlid yn ddwys er's hir amser; ac nid yw yn ormod dyweyd fod gan weinidog Wesleyaid Dinbych annedd mor hardd ag sydd gan unrhyw weinidog yn Nghymru. Y mae hefyd, er y fl. 1891, adeilad wych arall yn sefyll wrth ochr y tŷ Wesleyaidd, yr hon sydd yn brawf pellach o law hael y Dr. Pierce; sef, Neuadd Gyhoeddus ëang a chyfleus. Costiodd hon iddo 2,000*p.*; yr hon a gododd er côf am ei fam; a rhoddwyd hi ganddo i gynghor y dref i fod at wasanaeth trigolion Dinbych, a'r cylchoedd, am byth.

Y mae yn debyg mai un o gymmwynasau olaf (os nad y ddiweddaf oll), o eiddo yr hybarch Ddoctor, oedd rhoddi yn rhwydd, ac yn gymmhwys fel un yn teimlo yn falch o'r cyfleusdra, ddarn o dir o'r tu ol i gapel y Methodistiaid yn Stryt Henllan, i adeiladu ystafell at wasanaeth y capel. Yn nghanol ei lesgedd y gwnaeth efe hyn; ac aeth adref cyn i ddiolchgarwch ffurfiol gael ei gyflwyno iddo am ei garedigrwydd.

Yn y flwyddyn 1887, synwyd llawer o gyfeillion Dr. Pierce, pa rai oedd wedi tybied mai 'hen langc egwyddorol' ydoedd, gan yr hysbysiad o'i briodas gyda Miss Alathea E. Brandon, merch y diweddar Mr. Thomas Brandon, Brondesbury Park, Llundain. Ond dangosodd y digwyddiad hwn etto fod y Doctor wedi ymddwyn gyda'i graffder arferol; o herwydd y mae Mrs. Pierce wedi bod, yn mhob ystyr o'r gair, yn ymgeledd gymmhwys iddo yn ei hen ddyddiau.

Fel y gellid yn naturiol ddisgwyl oddi wrth ddyn o alluoedd a dewrder Dr. Pierce, cyfarfu â llawer o ddamweiniau; ond cafodd ddiangc o'r cwbl yn ddïanaf. Dygwyd un cerbyd neillduol iddo adref mewn trol lawer gwaith; a lladdwyd tri cheffyl dano. Ar un o'i deithiau, pan yn nghanol y wlad, cyfarfu ddyn gwallgof; a phan oeddynt o fewn llathen i'w gilydd, taniodd y lloerig ergyd o lawddryll arno. Rhuthrodd yntau ar ei ymosodydd; ac wedi ymdrech galed, llwyddodd i'w ddïarfogi. Hyd yn oed yn ystod etholiad cyffredinol 1892, pan yr oedd efe yn myned ar hyd un o heolydd y dref, maluriwyd ei gerbyd wrth ddyfod i wrthdarawiad â cherbyd arall. Niweidiwyd y gyriedydd yn lled dost, ond efe a ddiangodd yn iach.

Yr oedd yn Gymro gwladgarol—yn caru ei wlad, ei iaith, a'i genedl; a bu yn lloches ac yn gymmhorth i liaws o feirdd ein gwlad.

Fel yr awgrymwyd, Wesleyad selog ydoedd; ond nid oedd ei garedigrwydd yn cael ei gyfyngu i un enwad mwy na'i gilydd. Ni throdd yn ol oddi wrth ei ddrws unrhyw un a fyddai yn casglu at achos teilwng. Er ei fod mewn oedran teg, y mae y bwlch sydd wedi cael ei wneyd trwy ei farwolaeth yn un a deimla llawer.

Bu farw Mawrth 15fed, 1895, yn yr oedran o 87ain mlynedd.

**POWELL, RHISIART.** Ysgolfeistr yn nghwmmwd gwledig Ysbytty Ifan oedd efe; ac un a ddaeth i sylw fel bardd trwy ennill y tlws arian yn Eisteddfod y Bala yn y fl. 1793. Ychydig o grybwylliadau a geir am dano mewn llenyddiaeth Gymreig; ond yn ei adolygiad ar weithiau Dafydd Ddu Eryri, dywed Caledfryn ei 'fod yn un o feirdd goreu Gwynedd tua therfyn y ganrif o'r blaen.' Dyma bron yr unig gyfeiriad a wneir ato. Hysbysir gan rai a'i hadwaenai mai brodor o Lwyngwril, yn Meirion, oedd efe; ond fod ei fam yn enedigol o blwyf Ysbytty. Wedi marw ei gŵr, dychwelodd hi o Feirion i Ysbytty, gyda Rhisiart—ei hunig blentyn. Gan nad beth am hyn, y mae Gwilym Lleyn, yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, yn hysbysu mai brodor o Lanegryn oedd efe, ac nid o Lwyngwril. Yn ol pob tebyg, gosodiad Gwilym ydyw y cywiraf; o blegid cadarnheir hyn mewn rhifyn o'r *Cylchgrawn Cymraeg* am y flwyddyn 1793. Y mae ganddo, yn hwnw, awdl ar y testyn, 'Da yw'r Maen gyda'r Efengyl;' ac o dani, ceir ei enw fel hyn, 'Rhysiart ap Hywel o Lanegryn yn Meirion, yn awr athraw ysgol yn Ysbytty Ifan, a'i cânt.'

Yr oedd, yn ddïau, yn ŵr o feddwl cryf, a choethedig. Fel ysgolfeistr, gwnaeth enw iddo ei hun, yn mhell ac yn agos, fel y cyrchai plant amaethwyr o'r holl gwmpasoedd i ymofyn addysg dano. Daeth yr ysgol i gael ei hystyried yn fath o sefydliad uwchraddol, o'i chymmharu âg ysgolion cymmoedd gwledig eraill Cymru. Ymddengys mai dyn difrifol a thawedog oedd Rhisiart Powell; ac yn un a gydymdeimlai yn fawr â sefyllfa dlodaidd ei gymmydogion yn ardal Ysbytty. Fel yr hysbyswyd eisoes, ennillodd y bardd wobr yn Eisteddfod y Bala. Testyn yr awdl oedd 'Y Tymmhorau;' a chanodd iddynt yn rhagorol. Nid ydyw wedi cymmeryd golwg ëang ar ei destyn. Yn hytrach, disgrifia y tymmhorau fel y deuent yn eu tro ar ymweliad â bröydd mynyddig Tir Abad a Thre' Brys. Y mae yr awdl drwyddi yn un nerthol, mewn meddwl a dillynder y farddoniaeth, ac yn un a deilynga fwy o sylw nag y mae hi etto wedi ei gael. Nid oedd efe ond dyn cymmharol ieuangc pan gipiodd efe y gamp yn yr eisteddfod uchod; yr hon, gyda llaw, oedd y chweched yn nghyfres Eisteddfodau Gwyneddigion Llundain. Bu mawr lawenydd yn yr Ysbytty am ddyfod o'r arian-dlws yno. Cafodd yr awdl ei hargraphu dair gwaith, o leiaf. Cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf gan y Gwyneddigion. Ymddangosodd wedi hyny yn *Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, am 1814; ac yna yn *Y Brython* am 1863.

Bu Rhisiart Powell farw yn ddyn lled ieuangc, ac o dan amgylchiadau alaethus. Cofnodwyd yn yr *Annual Register* am 1795, ei fod, ar y 10fed o Hydref, yn dychwelyd o Ffestiniog, lle bu ar fusnes, i'w gartref yn Ysbytty. Cafwyd ei gorph, boreu dranoeth, mewn llecyn oedd gryn bellder o'r ffordd. Tybir iddo grwydro i'r llecyn hwnw trwy golli ei lwybr; ac iddo yn ei benbleth, orwedd i lawr er disgwyl toriad gwawr. Yn y cofnodiad hwn o'i farwolaeth dywedir, yn mhellach, ei fod yn un o'r dynion mwyaf athrylithgar a gynnyrchodd Cymru y ganrif hono. Ond nid oedd y diweddar Cynddelw yn cydolygu mewn un modd â chronicl yr *Annual Register*. Dywedodd efe fod rhyw ddyryswch meddwl wedi gorddiwes y bardd cyn diwedd ei oes; ac mai crwydro ar hyd y mynyddoedd, a hyny mewn ystâd o orphwylledd, yr oedd efe pan y collodd ei fywyd. Canwyd cywyddau marwnadol iddo gan Twm Pedrog, a Robert ap Gwilym Ddu.

**PRICE, BENJAMIN** (*Cymro Bach*). Ganwyd Benjamin Price, un o'r trefniedyddion goreu

Digitized by Google

a gynnyrchodd y Bedyddwyr yn ystod y ganrif, yn nghymmydogaeth y Gofoelon, yn mhlwyf Llanwenarth, yn sir Fynwy, yn 1792. Mab oedd efe i'r Parch. Joseph Price, gweinidog y Bedwyr yn Mlaenau Gwent, a Hannah, ei wraig. Yr oedd y ddau yn nodedig am eu ffyddlondeb yn hanes crefydd. Ond er hanu o rieni duwiol neillduol, argoelai Benjamin, yn nyddiau bachgendod, ei fod ar fyned ar gyfeiliorn. Blaenorai yn y campau, a'r chwarëyddiaethau, a rhyfyg, ac mewn annuwioldeb o bob math. Byddai yn aml dan ddysgyblaeth lem ei dad. Ond ymddengys na thyciai y ddysgyblaeth nemawr neu ddim yn ei ddiwygiad. O dan bob cerydd a fflangell, dioddefai y cwbl yn anhyblyg, ac heb gymmaint a wylo deigryn, na llefain gair. Yr oedd ei ysbryd mor ddewr yn y cyfeiriad hwn fel, un boreu Sabbath, wedi curfa dost, y gorweddai ar ei gefn yn methu symmud. Pan ddychwelodd ei dad o'r bregeth, efe a alwai arno i ddyfod yno i orphen ei ladd. Tuag adeg y dymmestl hon, symmudodd y teulu i Blaenafon; a rhoddwyd Benjamin, fel lliaws eraill, yn nghrombil y ddaear i ennill ei fara, gan feddwl y buasai hyny yn ei ddiwygio. Yn lle hyny, cymmerodd fantais ar ei gylch newydd i ymhyfhau mewn drygioni yn fwy nag o'r blaen. Pa fodd bynag, cyfododd awydd arno i ddyfod i Horeb i wrandaw yr efengyl. Ac ar brydnawn dydd Sabbath, pan yr oedd y Parch. F. Hiley, yno yn pregethu oddi ar y geiriau, 'Canys Crist, pan oeddym ni etto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol,' tarawyd ei feddwl âg argraph ddofn—yr hyn a lynodd wrtho. Ymdrechodd yn galed i ymlid ymaith yr argyhoeddiad hwn; ond dyfnhau a wnaeth, nes ei orchfygu yn llwyr. Yn y cyfwng, penderfynodd roddi ei hun i Grist, gan ymuno â'r eglwys. Yr oedd ei dröedigaeth yn ddifrifol iddo, a'i edifeirwch yn ddwys; ac ymwasgodd â'r dysgyblion. Boddlonwyd yr eglwys yn ei gyffes ef; a bedyddiwyd ef gan y Parch. J. Lewis, Llanwenarth, yn y fl. 1817, pan yr oedd o ddeutu 25ain ml. oed. O hyny allan, ceir ei enw, a'i hanes, yn berarogl trwy y Dywysogaeth. Yn fuan wedi ymuno â'r eglwys, gwelodd y frawdoliaeth werth y doniau oedd ynddo; yn awr wedi eu troi i gyfeiriad priodol, a chymmhellwyd ef i bregethu. Ei destyn cyntaf oedd 'Adda, pa le yr wyt ti?' Gweithiodd ei ffordd i Athrofa y Fenni, lle yr addysgwyd ef dan ofal yr enwog Micah Thomas. Wedi gorphen yno, cafodd alwad i eglwys y Drefnewydd, yn sir Drefaldwyn, lle yr ordeiniwyd ef trwy arddodiad dwylaw amryw frodyr—yr hyn oedd mewn bri mawr y dyddiau hyny. Yr oedd i fod yn gydweinidog â'r Parch J. Jones; a chydlafuriodd âg ef yn yr anwyldeb mwyaf am dair blynedd, hyd farwolaeth Mr. Jones ei hun; a pharhaodd i lafurio yno yn llwyddiannus a phoblogaidd yn gydweinidog â'r Parch. George Thomas (athraw uchelddysgawl Coleg Pontypool), am o ddeutu ugain mlynedd; trwy ba rai yr enillwyd cannoedd o eneidiau at Dduw. Yr oedd yn dechreu yn Drefnewydd yn 1828; a bu yn Aberhonddu ac yn Dudley o 1842 i 1844. Yna rhoddodd i fyny ofal gweinidogaethol, gan ymgymmeryd â swydd y gwnaeth efe lawer mwy o ddaioni drwyddi nag y gallasai ei wneuthur o fewn cylch cyfyngedig un eglwys, neu ychydig o eglwysi.

*Goruchwyliwr cyntaf Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yn Nghymru.*—Yn adroddiad Cenhadaeth y Bedyddwyr am y fl. 1844, y mae y geiriau hyn:—'Y mae amryw o'n brodyr yn Nghymru yn ein hannog i neillduo rhywun adnabyddus yn y Dywysogaeth i drefnu teithiau y cenhadon drwy yr eglwysi, i ohebu â gweinidogion y gwahanol siroedd, ac hefyd i ymweled â chynnifer o eglwysi ag a allo yn ystod blwyddyn. Y mae y brawd B. Price wedi cydsynio â'n cais yn hyn,' &c. Yn yr un anerchiad, dywedir hefyd:—'Bydd i Mr. Price barotoi Mynegiad Cymraeg, ynghyd â chyfrifon y cyfraniadau a'r casgliadau, &c.' Yr oedd hyn wedi ei arwyddo gan W. B. Gurney, trysorydd; a J. Argus, ysgrifenydd. Yr oedd Mr. Price ar y pryd yn weinidog yn Aberhonddu. Gosododd y nôd o'i flaen, fod mil o bunnau yn cael eu casglu yn y flwyddyn o Gymru. Yn ei adroddiad am 1846, dywed:—'Yr oeddym yn mhell yn ol am y fil y flwyddyn gyntaf o fy ngoruchwyliaeth. Yr ail flwyddyn, daeth yn agos iddo. A'r drydedd (sef 1846), daeth yn 1,245*p*. 7*s*. 9*c*.' Yn Awst, 1849, ymddangosodd ysgrif yn y *Dysgedydd* oedd heb wneyd un sylw ar Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr, a phob rhinwedd a berthynai iddi. Taniodd hyn ysbryd y Cymro Bach, ac ysgrifenodd yntau lythyr at 'Bawb.' Y mae colofn ynddo yn llawn o dystiolaeth Dr. Chalmers am genhadaeth y Bedyddwyr; a cholofn wâg y *Dysgedydd* yn gyfochrog â hi; a'r gair 'dim' mewn prif lythyrenau yn hono—yn finiog dros ben. Heb law hyn, chwanegodd restr o wyth o genadaethau cyfundebau eraill ag yr oedd yr ysgrifenydd arall wedi gweled yn dda eu claddu er dyrchafiad ei eilun ei hun.

Parhâ Bedyddwyr Cymru i estyn cymmhorth i'w Cenhadaeth Dramor ynglŷn âg eiddo Lloegr, o ddyddiau Benjamin Price hyd yr awr hon.

*Cychwynydd Cymdeithas yr Hen Weinidogion.*—Dyma un o'r sefydliadau mwyaf buddiol ac anrhydeddus a fedd y Bedyddwyr; o herwydd y diogelir drwyddi weision y gwirionedd rhag tlodi ac angen mewn hen ddyddiau. Ysgrifenodd lawer dros ddwyn cymdeithas fel hon o amgylch, er nad oedd arno ef eisieu dimai o gymmhorth ei hun; yr hyn a roddai fwy o fri ar ei ymdrechion ef. Esgorodd ei ysgrif ar y testyn oedd yn hynod o nodweddiadol o'i deimlad ef,—'Pa beth a ddaw o'r hen bregethwyr?' a dygodd ef i sylw yr holl gymmanfaoedd. Ymddangosodd y llythyr, ynghyd âg amlinelliad o gymdeithas fwriadedig, yn Awst, 1848; ac ar y 15fed o Dachwedd dilynol, cynnaliwyd cynnadledd o weinidogion y Bedyddwyr yn Merthyr Tydfil, pryd y sefydlwyd y gymdeithas, ac y cyttunwyd ar ei rheolau. Yr oedd llawer o enwogion yr enwad yn bresennol. Cyhoeddwyd ei ddarlun er budd y gymdeithas, a dyma fel y canodd Cynddelw ar yr achlysur:—

'Eiddo ni yw'r hoew-ddyn iach—i weini
O enaid dirwgnach;
Haedd a llawn eiddo lloniach,
Cymru fyth yw'r CYMRO BACH.'

*Ei weithiau awdurol.*—Dywed Mr. S. Evans, golygydd y *Bedyddiwr*, yn ei ragymadrodd i'w weithiau llenyddol:—'Un o ddinasyddion y byd oedd y Cymro Bach, ac nid ysgrifenodd ddim erioed heb amcanu llesoli y byd; ond ei gydwladwyr Cymreig oedd gwrthddrychau penaf ei sylw bob amser. Gwnaeth ymdrechion mawrion i ddifodi yr ofergoelion, y gau-dybiau, a'r cam-arferion a ffynent yn eu plith.' Cyfeiria, hefyd, at ei gyfres o 'ddarlithiau i'r bobl weith-

Digitized by Google

gar,' ynghyd â 'chân a gyfansoddodd yn mynwent Bunhill Fields, uwch ben llwch enwogion byd'—un o'r cyfansoddiadau mwyaf cynhyrfus a theimladol a ymddangosodd erioed. Ysgrifena Ieuan Gwynedd ar ei *Ardeb Llenorol*, gan ei ddisgrifio 'yn un o foneddigion natur, yn bregethwr defnyddiol, ac yn un o hen ohebwyr *Seren Gomer*—yn un o hen ohebwyr dyddiau Harris;' ac wedi enwi lliaws o'r rhai hyny, megys Iwan, Iago Trichrug, Idrison, Dafydd Saunders, Carnhuanawc, &c., hysbysa eu bod 'oll wedi ymddiosg o wisgoedd marwoldeb; ond fod y Cymro Bach, Caledfryn, Tegid, a Brutus yn aros hyd yr awr hon—ond eu bod wedi myned yn hen.'

Rhoddwn yma restr o'i brif weithiau awdurol:—*Rhyfeddodau y Flwyddyn* 1999; *Sefyllfa y Byd; Tri Thraethawd i Dadau a Mamau, a Phlant; Cân y Negro Bach; Hanes y dyn yn y Lleuad*—ysgrif o ddigrif-gellwair ar Brutus, a'i 'gythrwfl anferth,' &c.; *Prawf Brutus a P. A. Môn; Cân Dduwiol Alarus; Diniweidrwydd*—traethawd; *Naw Llythyr ar Hanes Cwmgwenen; Cân y Fam wrth fagu ei Mab; Bywgraphiad y Parch. John Jones*—gweinidog y Bedyddwyr yn y Drefnewydd; *Y Gwrthryfel yn Ffraingc*; yr *Anerchiad at y Bedyddwyr yn Nghymru*; ac amryw eraill ar destynau gwahanol oeddynt yn hynod ddyddorol ar y pryd.

Nid ydyw hyn oll ond cipolwg ar faes llafur mawr un o'r dynion goreu a fagodd Cymru. Bu farw ar y 25ain o Fehefin, 1854, yn 62ain ml. oed, yn nhŷ y Parch. Thomas Jenkins, gweinidog y Bedyddwyr Cymreig yn Nghaerodor. Trefnodd ei gladdedigaeth fel ag y trefnodd ei fywyd. Dygwyd y corph o Gaerodor i Gasnewydd mewn agerlong; ac oddi yno i'r Fenni gyda'r ffordd haiarn. Yn y Fenni, dodwyd ef mewn elor feirch, a ffurfiwyd gorymdaith i'w hebrwng i Lanwenarth; ac yn nghladdle Bedyddwyr Llanwenarth y claddwyd ef, yn yr un bedd a'i dad a'i fam.

PRICE, JOHN, Maes-y-gelli, Nantmêl [1656—1673]. Gweinidog eglwys y Bedyddwyr, o'r Dolau, yn sir Faesyfed, oedd efe—un o arwyr Ymneillduaeth yn Nghymru cyn y Chwyldroad. Yr oedd yn Anghydffurfiwr hyd yn oed yn ei fedd. I weled safle ein gwrthddrych, mae'n rhaid olrhain ychydig gyssylltiadau yr eglwys a wasanaethodd efe. Ffurfiwyd yr eglwys hon drwy offerynoliaeth Hugh Evans, yn 1646, ar yr egwyddor gaeth-gymmunol; er y byddai Vavasor Powell hefyd yn arfer ymweled â hi. Hugh Evans oedd ei gweinidog cyntaf; yr hwn y gwerthwyd ei holl eiddo, oddi eithr un fuwch a adawyd er lluniaeth i'r plant. Ar y cyntaf, ymgynnullai y frawdoliaeth yn yr awyr agored, ac yn y coed, ac mewn unrhyw lochesau, rhag erledigaethau enbyd Siarl II. Wedi hyny, ymgyfarfuent yn y Cwm, yn mhlwyf Llanddewi, yn sir Faesyfed; drachefn, yn y Pentref, yn sir Frycheiniog; ac wedi hyny yn y Garth, yn sir Drefaldwyn. Dyma yr amgylchiadau o dan ba rai y dechreuodd ein gwrthddrych bregethu. Ordeiniwyd Mr. John Price yn gynnorthwywr i un arall, o'r enw Mr. Gregory. Pa bryd y dechreuodd efe bregethu sydd yn anhysbys, heb law mai yn niwedd gweinidogaeth Mr. Evans—tua 1656. Yr oedd Mr. Price yn ddyn deallus, o amgylchiadau fforddiol yn y byd, ac o gryn ddylanwad yn yr ardal y trigai ynddi. Cyfarfyddai yn ei berson gyfoeth, deall, a duwioldeb. Yr oedd yn Nghymru dylwyth enwog o'r enw hwn y dyddiau hyny, ac ychydig cyn hyny. Yr oedd gŵr enw o'r Christopher Price, meddyg cyfoethog, a phregethwr, a noddwr ei frodyr yn nyddiau erledigaeth, yn llawnodi Cyffes y Bedyddwyr yn Nghymmanfa Llundain yn 1689. Yr oedd efe ar y pryd yn weinidog i eglwys Abergafenni. Dechreuodd bregethu yn 1649; a bu farw yn 1697. Yn *Hanes y Bedyddwyr*, gan y Parch. Joshua Thomas, argraphiad Pont-y-pridd, td. 212, ceir y sylw canlynol:—

'Yr oedd y Prysiaid o Lanfoist (yn Llanfoist, yn agos i'r Fenni y bu Dr. Price farw) yn ddynion o enwogrwydd a safle uchel yn sir Fynwy. Yn 1607, yr oedd William Price, Llanfoist, yn uchel sirydd; yn 1644, Thomas Price, Llanfoist; yn 1690, Charles Price, Llanfoist; ac yn 1715, Christopher Price, Llanfoist—nid y Christopher Price y cyfeiriwyd ato yn flaenorol. Eirbais y teulu oeddynt rai 'Ynyr Gwent.' Yr oedd hefyd un Charles Price, Llanfoist, yn uchel sirydd yn 1771. Ymddengys mai efe oedd yr olaf yn y llinell wrywaidd. Y mae plwyf Llanfoist yn nesaf i blwyf y Fenni.—G.L.H.'

Yr oedd y Thomas Price crybwylledig, fe ddichon, yn rhyw berthynas i Thomas Price, gweinidog Olchon yn 1704 a 1705. O'r Prysiaid hyn, yn ddiau, y rhai oeddynt lewion yn enwad y Bedyddwyr, o Fynwy hyd Faesyfed, yr hanodd ein gwrthddrych, John Price.

Tra yr oedd Hugh Evans yn gweinidogaethu yn Nolau, cafodd gryn wrthwynebiad oddi ar law y Crynwyr—yn enwedig gan wŷr o'r enw John Moon, John Davies, Alexander Parker, &c. Cyhoeddodd John Moon lyfr yn erbyn y Bedyddwyr, yn yr hwn yr enwa ac y cerydda Mr. H. Evans; ac yn un o'i bapurau, geilw ef 'Hugh Evans, un o'r offeiriaid deillion yn sir Faesyfed, Cymru.' Enllibid Mr. Evans hyd yn oed wedi ei farwolaeth; ac yr oedd yn meddiant y Parch. Joshua Thomas, pan yn ysgrifenu ei *Hanes*, &c., draethawd argraphedig, yn 1658, o amddiffyniad i Mr. Evans, yn ysgrifenedig gan Mri. John Price a William Bound. Fel hyn y rhydd Mr. Thomas grynodeb o'r traethawd:—'Rhydd y ddau hyn i'r trangcedig gymmeriad rhagorol am ei athrawiaeth, sêl, llafur, buchedd, a defnyddioldeb.' Dywed y cyntaf am dano, wedi nodi ei lafur yn yr efengyl:—'Er hyny, y mae y dyn celwyddog hwn, John Moon, o'r wyneb i ddywedyd mai offeiriad dall yn Nghymru oedd efe (Mr. H. Evans). Rhydd yr enw hwn o herwydd i'r Prwyaduron (*Commissioners*) yn y dyddiau hyny ei awdurdodi i bregethu ar amserau yn y lleoedd cyhoeddus a elwir eglwysi plwyfol.' Yn ol Dr. Walker [*Sufferings of the Clergy, par.* I., td. 158), derbyniodd Mr. Evans arian am bregethu yn yr eglwysydd oedd ar y pryd yn siroedd Maesyfed a Brycheiniog; a bu farw yn y fl. 1656.

Hysbysa Mr. Thomas fod Mr. John Price yn berson o gyfrif, a theulu o bwys, ac o alluoedd naturiol, nid distadl; a bod cyssylltiad agos rhyngddo ef a'r gweinidog yn y ddadl gyda'r Crynwyr. Anfonai yr olaf ofyniadau ysgrifenedig at H. Evans a John Price. Y mae y gofyniadau a'r attebion yn argraphedig yn y darn traethawd uchod, ac wedi eu llawnodi gan y ddau:—H. E. a J. P.

Y mae cyfeiriad attebiad y Crynwyr atynt eu dau, yn yr hwn yr enwir ac yr ymosodir ar H. Evans yn gyntaf. Yna, chwanegant:—'dy frawd a'th gydymaith, John Price.' Dywedir yn y traethawd fod un papur oddi wrth y Crynwyr, mewn attebiad i'r Mri. H. Evans a John Price, wedi cael ei gywiro (*rectified*) yn y mis

Digitized by Google

cyntaf, 1656. Argraphodd John Moon lyfr a elwir *Y Gwir Oleuni a wnaeth i'r Tywyllwch ymddangos*. Yn ei ddechreu, ymosodir ar H. Evans: ymosodir, yn td. 4, ar J. Price: ymosoda, yn td. 7, ar Rees Davies: ymosodir, yn td. 8, ar John Prosser: ac ymosodir, yn td. 9, ar Evan Oliver; ac ymosodir ar Vavasor Powell gyda hwy. Ymddengys eu bod oll yn Fedyddwyr. Yn nechreu llyfr John Moon, enwir hwy oll yn 'Ddysgawdwyr Bedyddiol' (td. 13 o'r darn traethawd). Ni chynnwysa y rhan a ysgrifenodd Mr. Price o'r llyfr a argraphwyd 1658, ond 23 tudalen wythplyg. Y mae y ddau dudalen cyntaf yn eisieu yn y darn sydd mewn llaw; ond y mae y gweddill ynddo: ac amddiffyniad ydyw iddo ei hun ac i'r gweinidog, yr hwn, yn awr, oedd wedi marw, ac nas gallai atteb drosto ei hun. Penawd cyfredol y llyfr yw.—'Yr haul yn fwy ei lewyrch na'r lleuad;' gan gyfeirio, y mae'n debyg, at enw Mr. J. Moon.

Tybir fod Mr. John Price yn arfer cynghori yn achlysurol. Yr oedd efe yn ddyn o ysbryd a dylanwad yn nhrallodion y dyddiau hyny, a'r blynyddoedd dilynol. Bu farw yn y fl. 1673, a chladdwyd ef yn mynwent eglwys Nantmêl. Gan iddo, yn ei fywyd, ddwyn tystiolaeth yn erbyn defodau ac arferion ofergoelus ei oes, ymddengys yn benderfynol i'w gwrthwynebu ar ol ei farwolaeth.' Arfera Eglwys Loegr gladdu eu holl feirw â'u penau i'r gorllewin, a'u traed i'r dwyrain. Gorchymynodd yntau iddo gael ei gladdu â'i ben tua'r dwyrain, a'i draed tua'r gorllewin; a rhoddodd orchymyn fod i'r gareg ar ei fedd gael ei rhoddi felly hefyd.

Aeth Mr. Josuah Thomas i weled y gareg yn 1774. Fel hyn y disgrifiai efe hi:—'Careg bur ddiaddurn oedd, yn ol ei gyfarwyddyd ef (J.P.). Yr oedd caen (*plate*) prês wedi ei sicrhau ar ei chanol, gyda'r llinellau pen-enwol (*acrostic*) canlynol yn gerfiedig arno:—

'I t is no wonder that the righteous die
O ut of this sea and waves of misery;
H ere lies the body of a goodly man,
N ow dead, yet lives, and shall rise again.

P eace, joy, and rest, and true felicity;
R ejoice shall he to all eternity.
I n staying here, I can but still lament
'C ause of his absence, tho' he be content.
E ternal joy shall he for ever have
H is quintessence shall rise from the grave.'

Chwanegwyd at yr *acrostic* y llinell olaf er mwyn cwblhau y meddwl. Trwy ddylanwad amser—rhew, neu ryw ymosodiad—yr oedd ar y pryd hollt yn y gareg ar draws ei chanol, îslaw y caen. Y mae ceryg beddau perthynol i deulu o foneddigion o'r enw Price yn bur agos at y gareg hon. Gan hyny, tybir ei fod ef yn gangen o'r teulu hwnw. Pe buasai ef yn hanu o deulu cyffredin, nid yw yn debyg y buasai careg yn cael ei dodi ar ei fedd yr amser hwnw; a phe y gosodasid un gan ei gyfeillion, o'r braidd y buasai ei elynion yn goddef i'r gofadail aros mewn lle mor gyssegredig a mynwent eglwys, ac ar y fath berson, yn yr amser hwnw o lid, dallbleidiaeth, ac erlidigaeth.

PRITCHARD, Y Parch. RICHARD. Yr oedd efe yn hynaf o naw o blant i John a Jane Pritchard. Ganwyd ef yn Mangor, Mawrth 31ain, 1811. Derbyniodd ei addysg mewn ysgolion preifat. Yr oedd amryw o honynt yn Mangor y dyddiau hyny; a danfonwyd ef iddynt am o ddeutu saith mlynedd. Dychwelwyd ef at grefydd pan yn ddeuddeg oed, nos Sabbath y Pasc, yn Mangor. Yr oedd efe, er yn blentyn, yn ddeiliad o argraphiadau crefyddol, ac yn dilyn plant o'r un tueddfryd i gynnal math o gyfeillachau crefyddol. Bu yn gweddio lawer gwaith am i Dduw ei waredu oddi wrth bechod, a'i ganlyniadau; ond ar y Pasc yn y fl. 1823, yr hyn a ddigwyddai fod yn ddyddgylch ei enedigaeth, yr ymunodd âg eglwys Iesu Grist gyda'r Wesleyaid. Mr. Preece, o Gaernarfon, oedd y pregethwr—dyn amlwg iawn yn Arfon ar y pryd. Ei destyn oedd, 'Sancteiddrwydd a weddai i'th dŷ, O Arglwydd! byth;' *Salm* xciii. 5. Ni chollodd byth yr argyhoeddiad fod Duw yn Dduw iddo ef, er iddo wybod llawer, er ei alar, am anffyddlondeb o'i du ef. Yr oedd ei fywyd ar ei hyd yn dystiolaeth i gywirdeb ei ddychweliad. Ei brofedigaeth bellach oedd y gwawd a wneid o hono am ei fod yn Wesleyad. Nid oedd yr achos Wesleyaidd ar y pryd ond ieuangc ac egwan. Ychydig o ddychweledigion o blith rhai mewn oed oedd yn gwneyd i fyny yr eglwys; ac heb fod ynddi na phlant na phobl ieuaingc. Yr oedd tynfa y bobl ieuaingc i addoldy y Methodistiaid. Ond gwnaeth ei feddwl i fyny y glynai gyda'r bobl yn mhlith pa rai y profodd iachawdwriaeth i'w enaid, er pob gwawd ac erlid. Tua'r adeg yma yr oedd y Parch. W. Rowlands—sef, *Gwilym Lleyn* ar ol hyny—wedi symmud o Leyn i Tŷ coch, ger Bangor. Sefydlodd ddosbarth darllen i fechgyn ieuaingc yn Bangor; ac yr oedd R. Pritchard yn aelod ynddo. Tynodd sylw yr athraw. Yn yr adeg yma y dechreuwyd achos gan y Wesleyaid yn Aber; a bu Mr. Pritchard yn myned yno am tua blwyddyn a hanner i gynnal Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddïau, a moddion eraill o ras. Bu hyn yn gyfleusdra i'w dynu allan, ac yn rhagbarotoad ar gyfer gwaith mawr ei fywyd.

Traddododd ei bregeth gyntaf gyda Mr. W. Rowlands yn nghapel bach Ty'n-y-clawdd, Tregarth, Tach. 25ain, 1827, ar y geiriau, 'Ac i ti er yn fachgen wybod yr Ysgrythyr lân,' &c.; 1 *Tim*. iii. 15; a rhoddodd brawf fod ganddo ddawn ar gyfer y gwaith. Aeth trwy yr arholiadau arferol; ac ar ol y prawf angenrheidiol, derbyniwyd ef i ddosbarth y pregethwyr lleol. O Tachwedd, 1827, hyd Hydref, 1829, yr oedd yn pregethu yn ddi-baid yn Sabbothol ac yn wythnosol; yn ei gylchdaith ei hun, ac mewn cylchdeithiau eraill. Yr oedd y sôn am dano yn myned ar hyd a lled y wlad; a gwasanaethai mewn cyfarfodydd pregethu yn Môn, Arfon, Dinbych; a Fflint.

Yn Hydref, 1829, gwahoddwyd ef i wasanaethu fel cenhadwr cartrefol ar gylchdaith Aberystwyth a Machynlleth, gan y Parch. John Davies. Pan ar y maes hwn y cynnygiwyd ef allan i waith rheolaidd y weinidogaeth mewn cyfarfod chwarterol a gynnaliwyd yn Mhenegoes, Mawrth 31ain, 1830. Aeth o dan arholiad pellach yn y cyfarfod talaethol a gynnaliwyd yn Nghaerfyrddin, Gorphenaf 2il, 1830, gyda'r brodyr Rowland Hughes a Methuselah Thomas. Yr arholwr oedd Dr. Adam Clarke, yr hwn oedd yno fel cynnrychiolydd y gynnadledd. Bu ar y maes hwn mewn llafur a lludded am yn agos i ddwy flynedd. Yn Hydref, 1831, aeth i lanw yr un cylch yn Llandysul, hyd Awst, 1832, pryd y pennodwyd ef gan y gynnadledd i'r gwaith rheolaidd ar gylchdaith Caerdydd i

Digitized by Google

gydlafurio â'r Parchn. David Williams a Robert Jones, Llanarmon-yn-Iâl. Yn mis Awst 1834, pennodwyd ef gan y gynnadledd i lafurio ar gylchdaith Dolgellau, gyda'r Parch. Evan Hughes. Ar derfyn ei dymmor yn y lle hwn ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn y gynnadledd a gynnaliwyd yn Birmingham, yn 1836, pryd yr oedd Dr. Bunting yn llywydd, a Dr. Newton yn ysgrifenydd.

Yr appwyntiad cyntaf ar ol ei ordeiniad oedd cylchdaith Caernarfon, gyda'r Parch. Edward Anwyl. Pryderai cryn lawer ynghylch myned i lafurio mor fuan i'w hen ardal enedigol; ond cafodd dderbyniad siriol gan ei hen gydnabod, ac arddelwyd ei weinidogaeth. Tra yn y cylch hwn, llwyddodd i ennill yn ol i gyssylltad â'r cyfundeb yr eglwys yn Tregarth, yr hon oedd wedi encilio yn adeg cyffro y 'Wesla bach'. Yma hefyd yr ymunodd mewn priodas â Miss Richards, o'r Bont Newydd, ger Meifod. Profodd yr undeb yn un llwyddiannus a dedwydd. Achlysurodd hyn iddo newid ei gylchdaith yn mhen blwyddyn; ac yn Awst, 1837, aeth i Abergele, oedd yn rhan o gylchdaith Llanrwst. Treuliodd yno dair blynedd ddedwydd gyda'i hen arolygwr, y Parch. Evan Hughes.

Yn Awst, 1840, aeth i Llanfair-caereinion. Dyma ei appwyntiad cyntaf yn arolygwr cylchdaith. Gwelodd yno lwyddiant mawr yn rhif yr aelodau, ac mewn adeiladu capelau, yn gystal ag mewn cyfeiriadau eraill. Ar ol hyn, ni pheidiodd â bod yn arolygwr tra y parhaodd yn y weinidogaeth reolaidd. Y symmudiadau nesaf oedd Wyddgrug yn 1843, Dolgellau yn 1845, Llanfyllin yn 1848, Beaumaris yn 1851, Liverpool yn 1852, Rhuthyn yn 1855, Wyddgrug yn 1858, Coedpoeth yn 1861, Liverpool yn 1863, Caernarfon yn 1866, Rhyl yn 1869, Conwy yn 1872; ac yna dychwelodd i Rhyl, i orphwys fel uwchfrif. Parhaodd i lafurio yn ol fel y caniatäai iechyd a nerth yn y blynyddoedd cyntaf, mewn pregethu ar y Sabbothau, cynnal cyfarfodydd, ac yn mhob dull arall. O'r diwedd, cyfyngwyd ef i'w dŷ, ac yna i'w ystafell wely. Ymadawodd â'r fuchedd hon Mai 12fed, 1882, a rhoddwyd ei weddillion marwol yn nghladdfa Rhyl y dydd Mawrth canlynol. Yr oedd efe yn y ddeuddegfed flwydd a thrigain o'i oedran —wedi bod yn arddel Crist am drigain mlynedd namyn un, yn pregethu yr efengyl am bymtheng mlynedd a deugain, ac yn y weinidogaeth deithiol am hanner cant o flynyddoedd.

Bydd yn dda gan yr oes a ddêl gael darlun o'i ddyn oddi allan â phwyntil y Parch. John Evans, Eglwysbach :—'Yn Abergele y clywais ef gyntaf, i fedru cofio dim am dano, o ddeutu y fl. 1859. Daeth i mewn i'r capel yn y boreu tra yr oedd cadeirydd presennol y dalaeth (y Parch. Samuel Davies) yn pregethu, ac eisteddodd ar un o feingciau y llawr; ac nid anghofiaf byth ei ymddangosiad. Yr oedd efe, y pryd hyny, yn tynu at ei hanner cant oed, yn nghyflawnder ei nerth. Dichon ei fod o ddeutu pum troedfedd a saith modfedd o daldra, o wneuthuriad cymmesur, cadarn, a golygus. Cnwd o wallt du yn gorchuddio pen uchel, yn tueddu at fod yn gul. . . Llygaid duon treiddiol oedd ganddo—yn arwyddo y craffder, y callineb, a'r difrifwch oedd mor nodweddiadol o'u perchenog. Yr oedd golwg barchus arno, a'i holl ysgogiadau yn araf ac urddasol.' Fel ei gorph, felly hefyd ei feddwl—un o'i nodweddion amlycaf oedd cymmesuredd. Nid oedd un gallu yn llawer amlycach na galluoedd eraill. Meddyliai yn glir, ac yn gywir. Deallai ei feddwl ei hun, a llwyddai i wneyd i eraill ei ddeall. Yr oedd ganddo farn addfed iawn; ac anfynych y byddai yn newid ei farn. Nid oedd mewn brys yn ei symmudiadau corphorol. Ffafrwyd ef â chôf cryfach na'r cyffredin. Gallai gadw ac adgynnyrchu. Dyma sydd yn cyfrif am ei fod yn cael ei restru gan ei gydnabod yn mhlith yr hynafiaethwyr a'r haneswyr. Hyn hefyd a barai ei fod yn cael ei ofyn mor fynych i ysgrifenu bywgraphiadau am rai ymadawedig. Gwnaeth fwy o waith yn y ffordd hono nag odid i neb. Meddai amgyffrediad cryf. Medrai osod defnyddiau wrth eu gilydd i ffurfio un cyfanwaith. Gallai ddwyn asgwrn at ei asgwrn, eu gosod yn eu soced eu hunain, eu gwisgo â gïau ac â chroen, a ffurfio corph cyfan o honynt. Ond yr oedd yn rhaid iddo gael y defnyddiau. Ni ragorai mewn crebwyll. Y wenynen ydoedd, ac nid y pryf copyn.'

Bu yn lled gynnyrchiol fel awdwr. Heb law yr erthyglau a ymddangosodd yn yr *Eurgrawn*, yn cynnwys cofiantau, pregethau, hanes yr achos mewn gwahanol gymmydogaethau, a'r cyffelyb, cyhoeddwyd a ganlyn o gynnyrchion ei ysgrifell :—Yn 1835, *Pregeth ar Etholedigaeth*. Yn 1837, *Traethawd ar Ddirwest*. Yn 1839, '*Diffyniad Bedydd Babanod*:'—dygwyd allan ail argraphiad o hono wedi ei helaethu yn 1861. Yn 1841—2, *Pwngc Ysgol ar Fedydd*: —dygwyd allan dri argraphiad. Yn 1857, *Yr Holwyddorydd Dwwinyddol*:—dygwyd allan bedwar argraphiad o hono, ac argraphiad Saesneg yn 1875, wedi ei gyfieithu gan y Parch. J. H. Morgan; ac y mae wedi ei bennodi yn *Text Book* Ysgolion Sabbothol y cyfundeb gan y gynnadledd. Yn 1863, cyhoeddodd gyfrol ar *Barhâd y Saint*, gyda rhagymadrodd gan y Parch. W. Powell. Yn 1866, *Holwyddorydd ar Hanesiaeth y Beibl*;' gydag ail argraphiad yn 1878.

Bu yn olygydd y *Winllan* am dair blynedd, ac ni bu y cyhoeddiad hwnw yn fwy darllenadwy mewn unrhyw gyfnod yn ei hanes. Yr oedd mewn cyd-ddeall, ar un adeg, â'r Parch. William Rowlands (*Gwilym Lleyn*) i gasglu defnyddiau er dwyn allan hanes Wesleyaeth yn Nghymru. Er iddo ddechreu ar y gwaith, yr oedd yn ormod gorchwyl iddo, yn chwanegol at y gofalon eraill oedd yn pwyso arno. Mae ei holl gynnyrchion yn sylweddol a da.

Yr oedd iddo safle barchus fel pregethwr. Trafferthai i barotoi ar gyfer y pulpud. Coleddai syniadau rhy uchel am bwysigrwydd y weinidogaeth i wynebu ar ei gynnulleidfaoedd gyda phregethau ammrwd ac anorphenol. Yr oedd yn gyfarwydd iawn yn ngweithiau yr hen Buritaniaid, a'r awduron Wesleyaidd. Gyda bod yn gyfoethog mewn *Positive Theology*, yr oedd wedi lloffa o gynnyrchion pawb bob perl a blodeuyn y deuai o hyd iddynt; ac yr oedd yn gallu diogelu yr oll yn ei gôf, a gallai eu hadalw at ei wasanaeth pan yr ewyllysiai. Rhagorai fel hanesydd; ac yr oedd pob digwyddiad neillduol mewn hanesiaeth gyffredinol, ac yn arbenig mewn hanesiaeth eglwysig, yn cael eu trethu ganddo at waith y pulpud. Meddai doraeth o wirioneddau, diarhebion, a ffraethëiriau i brydferthu ei syniadau. Trefnai ei bregethau mewn ffordd oedd yn 'dyweyd' ar y cynnulleidfaoedd. Gyda hyny, yr oedd y traddodiad yn effeithiol. Cynnysgaeddwyd ef â

Digitized by Google

ighapel y Methodistiaid Calvinaidd yn y pentref gyda chyssondeb—yr hyn ni byddai yn arferol i'i wneyd o'r blaen. Dechreuodd lafurio gyda llwydrwydd mewn gwahanol gylchoedd gwybodaeth, ac yn arbenig am wybodaeth Ysgrythyrol a duwinyddol—yn benaf, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, fel y byddai yn alluog i ddadleu â phobl grefyddol ar byngciau y ffydd. Oes nodedig oedd yr oes hono am ei dadleuon ar byngciau athrawiaethol; ac y mae'n ymddangos fod gwrthddrych ein sylwadau wedi cyfranogi o'r ysbryd hwn, yn ymhyfrydu mewn dadleu, ac yn hoff o gymmeryd yr ochr wrthwynebol. Os â Chalvin y deuai efe i gyffyrddiad, dadleuai dros Arminiaeth; ond os Armin a ddigwyddai fod yn ymresymu âg ef, elai yn fwy o Galvin na Chalviniaid penaf yr ardal. Ond er ei fod fel hyn wedi dyfod yn rhyw gymmaint o deiliwr, ac yn ddadleuwr o nôd yn ei gyfrif ei hun, nid oedd etto yn grefyddwr, nac yn meddwl fawr am ei gyflwr ysbrydol chwaith. Er fod ei ddeall wedi ei oleuo i ryw raddau, a'i fuchedd allanol wedi ei gwellhau, yr oedd ei galon heb ei chyffwrdd. Ar yr un pryd, yr oedd rhyw seiliau i obeithio nad oedd ei dröedigaeth yn mhell. Rhyfedd y ffordd a gymmer Ysbryd Duw mewn rhai enghreifftiau i ddwyn ei waith i ben! Yn fachgen tua dwy-ar-bymtheg oed, aeth William Prytherch, wedi ymwisgo mewn dillad newydd, i ffair Caio, yr hon a gynnelid yn mis Awst, â chanddo hanner coron yn ei logell tuag at wneyd diwrnod difyr o honi; a rhyw amser yn mhrydnawn y dydd, ar ol bod gyda chwmni llawen yn yfed yn dda, daeth i wybod ei fod wedi meddwi. Pan ddeallodd ei sefyllfa, enciliodd oddi wrth ei gymdeithion, ac aeth i amaethdŷ yn y gymmydogaeth, lle yr arosodd am ddwy neu dair awr. Mor fuan ag y daeth ato ei hun cododd i fyned tuag adref, a chyrhaeddodd ei drigfa yn ddiogel cyn ei bod yn dywyll. Wedi cael y tŷ, y mae yn debygol na bu efe amser maith cyn myned i'w wely; ond ryw fodd yr oedd cysgu yn beth nad allasai wneyd y noson hono. Deuai ei bechodau i'w gôf yn finteioedd, a pharent iddo fraw a dychryn! Heb law hyny, deuai llawer o adnodau y Beibl i'w gôf yr un pryd, yn llewyrch y rhai y gwelai ei hun yn dra phechadurus! Yr oedd goleuni y pen yn awr yn dechreu pelydru i'r galon; ac yntau, mewn canlyniad, er ei fawr syndod a'i ofid, yn dechreu canfod y fath fryntni ac aflendid oedd yno! Aeth mor gyfyng arno cyn toriad gwawr y boreu dranoeth, fel y teimlodd ei hun dan orfod i ymostwng, a phlygu glîn ger bron Duw am y waith gyntaf yn ei hanes, i lefain am drugaredd. Pa fodd y bu hi arno y waith gyntaf hon, nid oes genym dystiolaeth bendant; ond yr ydym yn casglu iddo gael rhyw arwydd fod yr Arglwydd yn ei dderbyn. Dichon i'r gwynt cryf, nerthol, ostegu yn mhen oriau, i'r mellt fflachio, ac i sŵn brawychus y taranau ddistewi. Ond pa fodd bynag y bu gyda golwg ar hyny, parhau yn arw, yn wyllt, ac yn gynddeiriog a wnaeth y môr yn ei fynwes ef am dymmor maith! Nid oedd esmwythder na seibiant iddo i'w gael mewn un man!

Ynghylch y pryd hwn yr oedd Sarah Prytherch wedi ardrethu Melin Dolau Cothi (Melin Pumsant), gyda'r amcan o gael cartref iddi hi a'i mab, i fyw ynghyd; ond yn gymmaint ag na fynai Mrs. Johnes ei gollwng o'i gwasanaeth ar yr adeg, bu raid i William gymmeryd gofal y felin arno ei hun, heb fod ganddo ond morwyn i gadw ei dŷ. Yn y felin yr oedd efe yn trigo pan yr ymunodd â phobl yr Arglwydd. Cyfarfod eglwysig dydd gwaith oedd yr un cyntaf iddo wneuthur ei ymddangosiad ynddo—yn cael ei gynnal ar ol oedfa yn yr hon y pregethai y Parch. Watcyn Edward, Defynog, o sir Frycheiniog. Bu y gŵr duwiol hwnw yn dirion iawn wrth y llangc a ymddangosai yn ymofynydd pryderus am iachawdwriaeth. Annogodd ef i gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist, ac i ymroddi i fyw bywyd duwiol. Y boreu Sabbath cyntaf ar ol cael o hono ei dderbyn yn aelod cyflawn, ymgymmerodd o hono ei hun â dechreu cynnal addoliad teuluaidd. Nid oedd neb yn bresennol ond y forwyn ac yntau. Nid addoliad sych fu hwnw; o blegid tra yr oedd efe yn gweddïo, yr oedd y nefoedd yn gwlawio bendithion ar y ddau a gyd-addolent; ac o brin y gallwyd ymattal rhag tori allan i folianna. Dros amser byr y gallodd y forwyn gadw y gyfrinach iddi ei hun. Y cyfleusdra cyntaf a ddaeth ar ei llaw, aeth at Rachel o'r Ynysau—amaethwraig dduwiol oedd yn byw yn agos—a gwnaeth yn hysbys iddi fod William (ei meistr) wedi codi allor i Dduw yn y tŷ, a'i fod wedi dechreu galw ar enw yr Arglwydd. Llawenychodd y wraig yn ei chalon pan glywodd y newydd, a tharawodd i'w meddwl fod rhywbeth mwy na chyffredin i'w ddisgwyl oddi wrth William o'r Felin. Nos Sabbath pen yr wythnos, yr oedd cyfarfod gweddi yn cael ei gynnal yn yr Ynysau, a Rachel, y wraig, yn llywodraethu. Ar ol i'r brawd a ddechreuodd y cyfarfod godi oddi ar ei liniau, wele y wraig yn troi at y bachgen a safai ger llaw iddi, ac yn erchi iddo, gan ddywedyd, 'William Prytherch, rhowch bennill allan i ganu, ac ewch i weddi.' Dichon na ddaeth yr alwad yn gwbl annisgwyliadwy; ond y mae yn sicr iddi ddyfod gyda chymmaint o nerth fel nad oedd modd ei gwrthsefyll. Aeth William ar ei liniau, a cheisiodd weddïo goreu y medrai o dan y fath amgylchiadau; ond lled galed a thywyll oedd hi arno yn y rhan gyntaf; ond daliodd ati heb dori i lawr, a daeth ychydig yn fwy rhwydd a chlir arno cyn terfynu.

Yn mhen ychydig flynyddoedd ar ol iddo wneuthur proffes o Grist, teimlodd gymmhelliad cryf yn ei feddwl i fod yn bregethwr; a gwnaeth ei deimlad yn hysbys i rai o'r brodyr perthynol i Gaio. Rhoddwyd ei achos ger bron yr eglwys y waith gyntaf mewn cyfarfod y digwyddodd y Parch. Ebenezer Morris, Twr Gwyn, sir Aberteifi, fod yn bresennol ynddo. Ar ol gwrandaw ar y gŵr ieuangc yn adrodd ei deimlad, ac yn dyweyd fod arno awydd am gael caniatâd i gynghori ei gyd-ieuengctyd, a gwrandaw hefyd ar rai o'r brodyr yn dadgan eu syniadau, dywedodd y gŵr mawr wrth y frawdoliaeth fod y mater yn un tra phwysig, a'i fod yn fater oedd yn perthyn iddynt hwy fel eglwys i'w benderfynu. Ymddengys mai lled hwyrfrydig oedd yr eglwys yn Nghaio i symmud yn mlaen yn mhellach yn yr achos; ac fe ddywedir mai un rheswm am hyny oedd, fod yr hwn a ystyrid y pen blaenor yno ar y pryd yn anfoddlawn o herwydd rhyw resymau neu gilydd. O dipyn i beth aeth yr achos i'r cyfarfod misol; a phennodwyd yno y Parch. David Charles, Caerfyrddin, i fyned i Gaio i brofi y gŵr ieuangc, ac i wrandaw llais yr eglwys gyda golwg arno. Yn ffodus i'r ymgeisydd, yr oedd Mr. Charles yn teimlo yn ffafriol iddo, oddi ar yr adnabyddiaeth

Digitized by Google

llais clochaidd a phêrseiniol, a gwyddai pa fodd i wneyd defnydd o hono. Yr oedd y traddodiad dipyn yn araf; a hwnw yn cael ei fylchu gan besychiadau lled fynych, yn enwedig yn ei flynyddoedd olaf; ond yr oedd yn gallu cynnal i fyny y dyddordeb o'r dechreu i'r diwedd. Yn mlynyddoedd ei nerth, yr oedd yn allu mawr yn y pulpud; ac hyd y diwedd, yr oedd yn cael rhai oedfaon anarferol o nerthol.

Meddai ar ragoriaethau lawer fel gweinidog. Deallai y natur ddynol yn dda, a gwyddai pa fodd i wneyd y defnydd goreu o honi. Medrai wneuthur defnydd o'r 'plant od' sydd gan yr Arglwydd yn ei eglwys—plant, bid siwr, ond eu bod yn rhai anhawdd gwneyd defnydd da o honynt. Yr oedd yn drefnus a rheolaidd yn ei holl symmudiadau. Gofalai am bob peth yn ei adeg, ac am wneyd pob peth goreu y gellid o dan yr amgylchiadau. Gofalai am y pethau tymmhorol, a'r pethau ysbrydol. Pan yr aeth i Lanfair-caereinion yn y fl. 1840, llwyddodd i adeiladu pump o gapelau, ac i'w gosod mewn amgylchiadau didrallod. Ar ei fynediad i Liverpool, yn 1852, yr oedd capel Birkenhead a chapel Benn's Garden, Liverpool, dan feichiau o ddyled oedd yn nychu yr achos. Llwyddodd i osod y naill a'r llall mewn sefyllfa weithiadwy, a pharotodd y ffordd i symmud yr holl ddyled yn y man. Nid yw y rhai hyn ond enghreifftiau o lawer o ymdrechion llwyddiannus eraill o'i eiddo. Heblaw gofalu am amgylchiadau tymmhorol yr achos, yr oedd yn fyw iawn i'w bethau ysbrydol. Yr oedd mewn cydymdeimlad pur âg amcan mawr yr efengyl; sef, gogoneddu Duw yn iachawdwriaeth dynion. Rhoddai bwys mawr ar dröedigaeth yr enaid. Ofnai i ddynion dyfu i fyny yn yr eglwys heb fyned trwy gyfnewidiad cyflwr. Yr oedd yr un mor eiddigus dros i rai oedd wedi eu gwir ddychwelyd i fyned rhagddynt at berffeithrwydd. Gwyliai yn ofalus rhag bod neb yn tynu yn ol i golledigaeth yr enaid. Gwelai arwyddion dirywiad yn ei raddegau cyntaf, a rhybuddiai rhagddynt. Pan y byddai angen, gweinyddai ddysgyblaeth gyda chydwybodolrwydd diŵyro. Mwy na'r Meistr mawr, ni fynai dori y gorsen ysig, na diffodd y llin yn mygu; ond ni fynai chwaith i gymmeriad yr eglwys gael ei anurddo gan lygredigaeth ei haelodau.

Yr oedd yn llwyr-ymwrthodwr selog a chywir. Ymunodd â'r Gymdeithas Lwyr-ymattaliol ar ei sefydliad; a bu yn gwasanaethu yn rhai o ŵyliau cyntaf y gymdeithas yn Liverpool. Parhaodd ar hyd gweddill ei oes i fod yn ffyddlawn i'r achos yn mhob man, ar bob adeg, ac o dan bob amgylchiadau. Ar yr aelwyd gartref, arferai ddysgu y plant i ymgymmeryd â'r ardystiad dirwestol yn unfrydol, pan wedi cyrhaedd oedran cyfrifoldeb. Yn ei ymweliadau â thai y cyfeillion, arferai ei holl ddylanwad i gael penau teuluoedd a'u plant i fod yn llwyr-ymwrthodwyr, ac i ymgymmeryd â'r ardystiad. Dygai y mater i sylw cyfarfodydd blaenoriaid a chwarterol y cylchdeithiau; ac nid anfynych yr argymmhellai efe yr achos yn y cyfarfodydd talaethol. Bu yn ffyddlawn i gyfarfodydd dirwestol lleol, ac i'r gŵyliau blynyddol, ar hyd ei oes. Pan nad oedd yr achos yn barchus a blodeuog yr oedd efe yn glynu wrtho, ac yn ei arddel yn ddi-fwlch. Yn ei gystudd methodd taerineb meddygon a'i gael i yfed dim o'r diodydd. Pan y gwesgid arno i gymmeryd dyferyn bychan i esmwythau ei ddioddefiadau, ei atteb oedd, 'Nid oedd dyferyn bach o'r diodydd meddwol yn bod.' Parhaodd yn ffyddlawn hyd y diwedd. Mae yr adgofion am ei sêl a'i ffyddlondeb gyda'r achos hwn wedi cynnyrchu ei effeithiau ar y frawdoliaeth y perthynai iddi. Erbyn hyn, y mae gweinidogion Wesleyaidd Cymru, bron yn ddi-eithriad, yn ddirwestwyr aiddgar a ffyddlawn.

PRYTHERCH, WILLIAM, o sir Gaerfyrddin. Gweinidog perthynol i'r Methodistiaid Calvinaidd, a gŵr a fu am ysbaid o drigain mlynedd yn un o'r pregethwyr mwyaf adnabyddus a derbyniol yn Ne a Gogledd Cymru; ac yn nhrefi Lloegr, lle y mae cynnulleidfaoedd Cymreig. Daeth i'r maes pan yr oedd trefn gyntefig y pregethu teithiol yn ei bri yn y cyfundeb. Nid trefn ansefydlog y weinidogaeth Sabbothol a feddyliwn; ond y drefn o fyned oddi cartref ar deithiau hirion, a phregethu am wythnosau ddwy neu dair gwaith bob dydd—Sul, gŵyl, a gwaith; a bu yn hynod lwyddiannus yn ei ymweliad â gwahanol siroedd y wlad.

Ganwyd ef yn mhlwyf Caio, neu Cynwil Caio, ar Ebrill 25ain, 1804, mewn lle o'r enw Ty'n-yr-heol. Enw ei dad oedd Thomas William Prytherch, dilledydd wrth ei alwedigaeth, a brodor o'r plwyf a enwyd. Enw morwynol ei fam oedd Sarah Jones—merch i William Jones, tyddynwr, a goruchwyliwr gwaith plwm, yn mhlwyf Llanfair-clydogau. Yn ei morwyndod, bu Sarah yn gwasanaethu am bedair blynedd fel cogyddes yn nheulu Mr. John Johnes, o Dolau Cothi; ac oddi yno y prïodwyd hi â Thomas William Prytherch. Yn y flwyddyn 1893 yr aethant i fyw ynghyd yn Ty'n-yr-heol; a'r flwyddyn ganlynol, ganwyd iddynt fachgen, a galwyd ei enw William. Yn amgylchiadau cyfyng y tymp, arfaethodd y meddyg gymmeryd ymaith fywyd y plentyn i achub bywyd y fam; ond yr oedd Duw wedi arfaethu cadw bywyd y ddau—a'i arfaeth ef a safodd. Pan nad oedd y bachgen ond tua deuddeg mis oed, bu farw y tad o'r darfodedigaeth, yn 41 ml. oed. Dywedir ei fod yn ddyn galluog o feddwl, a moesol o fuchedd—er na wnaeth efe broffes o grefydd hyd onid oedd ar fin marw. Nid oedd y fam chwaith yn wraig grefyddol cyn bod o honi tua 60ain ml. oed, nac 'yn medru llythyren ar lyfr,' hyd nes y dysgwyd hi i ddarllen gan ei mab, ar ol tyfu o hono i'w lawn faintioli. Pan welodd Mr. Johnes fod Sarah Prytherch yn weddw, efe a'i perswadiodd hi i roddi y plentyn allan i'w fagu, a dychwelyd i'w hen wasanaeth yn mhalas y Dolau:—a hyny a wnaed ganddi. Rhoddwyd William i'w faethu yn nheulu cefnder iddo—Evan Jones, Pistyll-gwyn-bach, amaethwr; a dywedir ei fod yn ofalus iawn am dano, ac yn dyner tuag ato. Cafodd y manteision addysg goreu oedd yn gyrhaeddadwy yn y gymmydogaeth; ac yn chwanegol at hyny, rhoddwyd ef am dymmor mewn ysgol yn nhref Caerfyrddin. Ond mor bell ag y gellir casglu oddi wrth yr hanes yn y cofiant, ni chafodd efe lawer o hyfforddiadau crefyddol tra y bu yn Pistyll-gwyn-bach.

Pan oedd wedi cyrhaedd ei bedair-blwydd-ar-ddeg oed, prentisiwyd ef yn ddilledydd gyda hen weithiwr i'w dad oedd yn byw yn mhentref Caio, o'r enw Daniel Rees; yr hwn oedd yn ddyn crefyddol, ac yn ofni Duw yn fwy na llawer. Wedi cael ei ddwyn dan ei ddylanwad ef, elai i foddion gras ac i'r Ysgol Sabbothol yn

Digitized by Google

nghapel y Methodistiaid Calvinaidd yn y pentref gyda chyssondeb—yr hyn ni byddai yn arferol o'i wneyd o'r blaen. Dechreuodd lafurio gyda diwydrwydd mewn gwahanol gylchoedd gwybodaeth, ac yn arbenig am wybodaeth Ysgrythyrol a duwinyddol—yn benaf, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, fel y byddai yn alluog i ddadleu â phobl grefyddol ar byngciau y ffydd. Oes nodedig oedd yr oes hono am ei dadleuon ar byngciau athrawiaethol; ac y mae'n ymddangos fod gwrthddrych ein sylwadau wedi cyfranogi o'r ysbryd hwn, yn ymhyfrydu mewn dadleu, ac yn hoff o gymmeryd yr ochr wrthwynebol. Os â Chalvin y deuai efe i gyffyrddiad, dadleuai dros Arminiaeth; ond os Armin a ddigwyddai fod yn ymresymu âg ef, elai yn fwy o Galvin na Chalviniaid penaf yr ardal. Ond er ei fod fel hyn wedi dyfod yn rhyw gymmaint o deiliwr, ac yn ddadleuwr o nôd yn ei gyfrif ei hun, nid oedd etto yn grefyddwr, nac yn meddwl fawr am ei gyflwr ysbrydol chwaith. Er fod ei ddeall wedi ei oleuo i ryw raddau, a'i fuchedd allanol wedi ei gwellhau, yr oedd ei galon heb ei chyffwrdd. Ar yr un pryd, yr oedd rhyw seiliau i obeithio nad oedd ei dröedigaeth yn mhell. Rhyfedd y ffordd a gymmer Ysbryd Duw mewn rhai enghreifftiau i ddwyn ei waith i ben! Yn fachgen tua dwy-ar-bymtheg oed, aeth William Prytherch, wedi ymwisgo mewn dillad newydd, i ffair Caio, yr hon a gynnelid yn mis Awst, â chanddo hanner coron yn ei logell tuag at wneyd diwrnod difyr o honi; a rhyw amser yn mhrydnawn y dydd, ar ol bod gyda chwmni llawen yn yfed yn dda, daeth i wybod ei fod wedi meddwi. Pan ddeallodd ei sefyllfa, enciliodd oddi wrth ei gymdeithion, ac aeth i amaethdŷ yn y gymmydogaeth, lle yr arosodd am ddwy neu dair awr. Mor fuan ag y daeth ato ei hun cododd i fyned tuag adref, a chyrhaeddodd ei drigfa yn ddiogel cyn ei bod yn dywyll. Wedi cael y tŷ, y mae yn debygol na bu efe amser maith cyn myned i'w wely; ond ryw fodd yr oedd cysgu yn beth nad allasai wneyd y noson hono. Deuai ei bechodau i'w gôf yn finteioedd, a pharent iddo fraw a dychryn! Heb law hyny, deuai llawer o adnodau y Beibl i'w gôf yr un pryd, yn llewyrch y rhai y gwelai ei hun yn dra phechadurus! Yr oedd goleuni y pen yn awr yn dechreu pelydru i'r galon; ac yntau, mewn canlyniad, er ei fawr syndod a'i ofid, yn dechreu canfod y fath fryntni ac aflendid oedd yno! Aeth mor gyfyng arno cyn toriad gwawr y boreu dranoeth, fel y teimlodd ei hun dan orfod i ymostwng, a phlygu glîn ger bron Duw am y waith gyntaf yn ei hanes, i lefain am drugaredd. Pa fodd y bu hi arno y waith gyntaf hon, nid oes genym dystiolaeth bendant; ond yr ydym yn casglu iddo gael rhyw arwydd fod yr Arglwydd yn ei dderbyn. Dichon i'r gwynt cryf, nerthol, ostegu yn mhen oriau, i'r mellt fflachio, ac i sŵn brawychus y taranau ddistewi. Ond pa fodd bynag y bu gyda golwg ar hyny, parhau yn arw, yn wyllt, ac yn gynddeiriog a wnaeth y môr yn ei fynwes ef am dymmor maith! Nid oedd esmwythder na seibiant iddo i'w gael mewn un man!

Ynghylch y pryd hwn yr oedd Sarah Prytherch wedi ardrethu Melin Dolau Cothi (Melin Pumsant), gyda'r amcan o gael cartref iddi hi a'i mab, i fyw ynghyd; ond yn gymmaint ag na fynai Mrs. Johnes ei gollwng o'i gwasanaeth ar yr adeg, bu raid i William gymmeryd gofal y felin arno ei hun, heb fod ganddo ond morwyn i gadw ei dŷ. Yn y felin yr oedd efe yn trigo pan yr ymunodd â phobl yr Arglwydd. Cyfarfod eglwysig dydd gwaith oedd yr un cyntaf iddo wneuthur ei ymddangosiad ynddo—yn cael ei gynnal ar ol oedfa yn yr hon y pregethai y Parch. Watcyn Edward, Defynog, o sir Frycheiniog. Bu y gŵr duwiol hwnw yn dirion iawn wrth y llangc a ymddangosai yn ymofynydd pryderus am iachawdwriaeth. Annogodd ef i gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist, ac i ymroddi i fyw bywyd duwiol. Y boreu Sabbath cyntaf ar ol cael o hono ei dderbyn yn aelod cyflawn, ymgymmerodd o hono ei hun â dechreu cynnal addoliad teuluaidd. Nid oedd neb yn bresennol ond y forwyn ac yntau. Nid addoliad sych fu hwnw; o blegid tra yr oedd efe yn gweddïo, yr oedd y nefoedd yn gwlawio bendithion ar y ddau a gyd-addolent; ac o brin y gallwyd ymattal rhag tori allan i foliannu. Dros amser byr y gallodd y forwyn gadw y gyfrinach iddi ei hun. Y cyfleusdra cyntaf a ddaeth ar ei llaw, aeth at Rachel o'r Ynysau—amaethwraig dduwiol oedd yn byw yn agos—a gwnaeth yn hysbys iddi fod William (ei meistr) wedi codi allor i Dduw yn y tŷ, a'i fod wedi dechreu galw ar enw yr Arglwydd. Llawenychodd y wraig yn ei chalon pan glywodd y newydd, a tharawodd i'w meddwl fod rhywbeth mwy na chyffredin i'w ddisgwyl oddi wrth William o'r Felin. Nos Sabbath pen yr wythnos, yr oedd cyfarfod gweddi yn cael ei gynnal yn yr Ynysau, a Rachel, y wraig, yn llywodraethu. Ar ol i'r brawd a ddechreuodd y cyfarfod godi oddi ar ei liniau, wele y wraig yn troi at y bachgen a safai ger llaw iddi, ac yn erchi iddo, gan ddywedyd, 'William Prytherch, rhowch bennill allan i ganu, ac ewch i weddi.' Dichon na ddaeth yr alwad yn gwbl annisgwyliadwy; ond y mae yn sicr iddi ddyfod gyda chymmaint o nerth fel nad oedd modd ei gwrthsefyll. Aeth William ar ei liniau, a cheisiodd weddïo goreu y medrai o dan y fath amgylchiadau; ond lled galed a thywyll oedd hi arno yn y rhan gyntaf; ond daliodd ati heb dori i lawr, a daeth ychydig yn fwy rhwydd a chlir arno cyn terfynu.

Yn mhen ychydig flynyddoedd ar ol iddo wneuthur proffes o Grist, teimlodd gymmhelliad cryf yn ei feddwl i fod yn bregethwr; a gwnaeth ei deimlad yn hysbys i rai o'r brodyr perthynol i Gaio. Rhoddwyd ei achos ger bron yr eglwys y waith gyntaf mewn cyfarfod y digwyddodd y Parch. Ebenezer Morris, Twr Gwyn, sir Aberteifi, fod yn bresennol ynddo. Ar ol gwrandaw ar y gŵr ieuangc yn adrodd ei deimlad, ac yn dyweyd fod arno awydd am gael caniatâd i gynghori ei gyd-ieuengctyd, a gwrandaw hefyd ar rai o'r brodyr yn dadgan eu syniadau, dywedodd y gŵr mawr wrth y frawdoliaeth fod y mater yn un tra phwysig, a'i fod yn fater oedd yn perthyn iddynt hwy fel eglwys i'w benderfynu. Ymddengys mai lled hwyrfrydig oedd yr eglwys yn Nghaio i symmud yn mlaen yn mhellach yn yr achos; ac fe ddywedir mai un rheswm am hyny oedd, fod yr hwn a ystyrid y pen blaenor yno ar y pryd yn anfoddlawn o herwydd rhyw resymau neu gilydd. O dipyn i beth aeth yr achos i'r cyfarfod misol; a phennodwyd yno y Parch. David Charles, Caerfyrddin, i fyned i Gaio i brofi y gŵr ieuangc, ac i wrandaw llais yr eglwys gyda golwg arno. Yn ffodus i'r ymgeisydd, yr oedd Mr. Charles yn teimlo yn ffafriol iddo, oddi ar yr adnabyddiaeth

Digitized by Google

a gawsai o hono pan yr oedd yn yr ysgol yn Nghaerfyrddin. Byr fu yr holi gan Mr. Charles, ac ysgafn fu y prawf; a chyn terfynu y cyfarfod derbyniodd William Prytherch ganiatâd i ddechreu pregethu. Ac yn mhellach, cafodd yn yr wythnosau a'r misoedd canlynol ddigonedd o ddrysau yn agored yn rhoddi cyfleusderau iddo i arfer ei ddawn. Daeth yn bregethwr poblogaidd yn fuan; ac o herwydd hyny, ynghyd â dylanwad Mr. Charles o'i blaid, derbyniwyd ef yn aelod o'r cyfarfod misol yn mhen tri mis, ac yn aelod o'r gymdeithasfa cyn pen dwy flynedd. Enwir y fl. 1825 fel yr un y cychwynodd efe ei yrfa gyhoeddus ynddi.

Wedi cael ei draed yn rhydd, cael derbyniad fel pregethwr, a chael ei dderbyn yn aelod o'r gymdeithasfa, daeth i deimlo, heb fod yn hir, fod Deheudir Cymru yn gylch rhy gyfyng iddo allu ymgadw yn ddedwydd o fewn ei derfynau. Ffurfiodd gydnabyddiaeth a chyfeillgarwch â John Jones, Llangyndeyrn; yr hwn, wedi hyny, a ddaeth yn fwy adnabyddus dan yr enw John Jones, Llanedi; a daeth i feddyliau y ddau i wneuthur cais am ganiatâd i fyned ar daith i'r Gogledd. Trefnwyd y cynllun ganddynt; ac heb lawer o drafferth, cawsant ganiatâd y cyfarfod misol i gychwyn oddi cartref mewn amser a'u galluogodd hwynt i fod yn bresennol yn Nghymmanfa y Bala. Yr oedd y fraint o fod yn bresennol yn y gymmanfa hono yn un o'r pethau mwyaf a allasai gwŷr ieuaingc o'u bath hwy feddwl am dano y pryd hwnw. Cyrhaeddasant i'r Bala yn amserol, a chawsant eu hunain yn bresennol yn nghyfarfod neillduol y sassiwn. A mawr fel yr oeddynt yn mwynhau eu rhagorfraint! Ar ddiwedd y cyfarfod wele y llywydd, y Parch. John Jones, Tremadog, yn sefyll i fyny i gyhoeddi yr oedfa ar y Green:—'I ddechreu y cyfarfod trwy ddarllen a gweddïo, Evan Rees, Llanrhystyd, sir Aberteifi; i bregethu, William Prytherch, sir Gaerfyrddin, a Michael Roberts, o Bwllheli.' A chyn gorphen, cyhoeddodd enw John Jones, o sir Gaerfyrddin, i bregethu yn yr un lle nos dranoeth. Yn brin y medrasant ddal heb lewygu. Yn yr oedfa, ar ol i Evan Rees orphen gyda'r rhanau arweiniol, wele Michael Roberts yn rhuthro yn mlaen i safle y pregethwr, gan wthio y gŵr ieuangc o sir Gaerfyrddin o'r neilldu, ac yn rhoddi pennill allan i'w ganu. Ar hyn daeth Elias o Fôn yn mlaen, a gofynodd i Michael Roberts encilio, a rhoi y flaenoriaeth i'r bachgen o Gaio. Ar ol i'r bachgen ddarllen ei destyn, a dechreu siarad oddi wrtho, teimlodd ei bod yn cymmylu arno, a bod ei hyder ynddo ei hun yn ymollwng; ond pan sylwodd ar agwedd siriol y gŵr mawr o Fôn yn ei wrandaw, teimlodd ei hun yn cael ei draed dano, gwresogodd ei ysbryd; a chyn ei fod wedi dyfod i'r diwedd, yr oedd yno lawer o'r gwrandawyr yn wylo, a rhai wedi tori allan i orfoleddu. Bu hefyd yn llawn mor lewyrchus gyda John Jones nos dranoeth. Yr wythnos ganlynol, yr oedd Cymmanfa sir Fôn i gael ei chynnal yn Llangefni; a chan fod brodyr o Fôn yn bresennol yn y Bala, a chael o honynt gymmaint o foddlonrwydd yn y gwŷr ieuaingc o'r Deheudir, mynasant gael addewid ganddynt i fod yn bresennol yn Llangefni; a threfnasant iddynt oedfaon mewn gwahanol leoedd ar y daith. Cymmylog ei gwala y bu hi arnynt yn yr oedfaon ar hyd y ffordd; canys yr oedd yr Arglwydd, o'i drugaredd yn attal oddi wrthynt, rhag iddynt anghofio yn ngwyneb eu llwyddiant fod eu digonedd hwynt o Dduw. John Jones a gafodd y cynnyg cyntaf arni yn Llangefni, am chwech o'r gloch y boreu ar y maes, dydd mawr yr ŵyl; ac yr oedd yn pregethu yn rhagorol. Oedfa y prydnawn a ddaeth i ran William Prytherch; ond er ei bod yr adeg drymaf o'r dydd, chwythodd yr awel o'r deheu fel na bu hi yn Gilboa arno. Dyma y waith gyntaf i William Prytherch a'i gydymaith ymweled â Gogledd Cymru; ond nid y waith ddiweddaf o lawer. Ar hyd ei oes, yr oedd yn talu ymweliadau aml â rhyw ranau o Wynedd, yn nghwmni Mr. J. Jones, neu ynte yn nghwmni rhyw frawd arall; a pharhaodd hyd y diwedd i allu tynu cynnulleidfaoedd mawrion ynghyd i'w wrandaw.

Yn saith-ar-hugain mlwydd oed unwyd ef mewn priodas â Miss Joyce Evans, merch Mr. Thos. Evans, Penarth, ger Pumsaint, amaethwr cyfrifol, yn berchen llawer o dda y byd hwn; ac yn 1831, dechreuasant eu byd, wedi cael eu rhoddi i fyny yn gefnog, mewn tyddyn cyfagos a elwid y Bwllfa. Wedi bod yno am ddwy flynedd symmudasant i dyddyn arall, yn mhlwyf Cil-y-cwm, o'r enw Llwyn-Owen, lle y trigasant am bedair-blynedd-ar-ddeg. Ac yn lled fuan ar ol symmud o Mr. Prytherch i'r tyddyn hwn, ordeiniwyd ef yn weinidog; sef, yn y fl. 1834. Yr oedd y symmudiad nesaf i Pant-y-fen, yn mhlwyf Llanegwad, lle yr arosodd efe am dair blynedd; a'r symmudiad canlynol i Pen-rhiwfelin, yn yr un ardal, ond yn mhlwyf Llanfynydd, lle yr arosodd am dair blynedd arall. Y mae y ddau le olaf hyn a enwyd yn lled agos i fod yn nghanol sir Gaerfyrddin. Yr oedd ei symmudiad nesaf i'r Bettws, yn Nghwmamman, lle y claddodd ei anwyl wraig yn mhen ychydig gyda blwyddyn wedi myned yno, ar ol bod yn briod â hi am dair-ar-hugain o flynyddoedd. Bu iddynt bump o blant; sef, Mary, Ebenezer, Thomas, Sarah, a William Ebenezer. Yr olaf yw yr unig un sydd yn fyw yn awr, sef y Parch. W. E. Prytherch, o Abertawe. Oddi wrth y symmudiadau hyn, naturiol yw casglu nad oedd Mr. Prytherch mewn sefyllfa rhy dda o ran ei amgylchiadau tymmhorol. O dan y dwfr y bu trwy y blynyddoedd, er ei ddiwydrwydd ar y tyddynod, a maint ei lafur gyda phregethu yr efengyl—yn brin iawn, os nid yn rhy brin, yr oedd yn gallu cael deupen y llinyn i gwrdd. Cyfarfyddodd hefyd â phrofedigaethau chwerw yn marwolaeth ei blant yn mlodau eu dyddiau, ac yn marwolaeth priod ei fynwes. Ond yn nghanol ei holl drafferthion a'i flinderau, nid ymollyngodd yn ei ysbryd, ac ni laesodd yn ei lafur; ond parhaodd mewn ffyddlondeb yn gwasanaethu eglwysi a chyfarfod misol ei sir ei hun, ac yn teithio trwy siroedd eraill Deheudir a Gogledd Cymru, gan bregethu yr efengyl ynddynt.

Ar ol bod am saith mlynedd mewn ystâd o weddwdod, yn 1861 priododd eilwaith â Mrs. Jones, yr hon oedd ganddi chwech o blant, ac yn byw mewn tyddyn rhagorol yn Nyffryn Tywy, ger Nantgaredig, o'r enw Llandeilo-yr-ynys. Canlyniad y briodas hon oedd iddo ef fyned ati hi i fyw. Yr oedd yr ail wraig tuag ugain mlwydd yn ieuengach nag ef. Ganwyd iddynt ddau o feibion—Henry Owen a Samuel Elcana—y rhai ydynt yn awr yn fyw. Y mae yr ieuangaf o'r ddau, S. E. Prytherch, yn bregethwr gyda'r Methodistiaid Calvinaidd, ac yn bwriadu ymsefydlu yn Llundain cyn diwedd y flwyddyn hon (1895) i fugeilio yr eglwys

Digitized by Google

Gymreig yn Stepney. Yr ydym o'r farn na bu tymmor yn hanes Mr. Prytherch y bu efe yn fwy cysurus ei amgylchiadau ac yn ddedwyddach ei feddwl na'r ysbaid dwy flynedd ar bymtheg y bu yn preswylio yn Llandeilo-yr-ynys. Gŵyl Mihangel, y fl. 1878, rhoddodd i fyny amaethu; a symmudodd i fyw i Ferry Side—lle, yn mhen ychydig flynyddoedd, y gwelodd gladdu ei ail wraig.

O ran corpholaeth, yr oedd William Prytherch yn bum troedfedd a naw modfedd, a'i led a'i drwch yn gyfattebol i hyny. Cerddai yn heinyf a thywysogaidd. Pan godai oddi ar ei gadair, ac y safai efe ger bron cynnulleidfa, nis gallai neb lai na disgwyl rhywbeth anghyffredin oddi wrtho.

Yr oedd yn ddyn call, llawn o synwyr cyffredin, ac o natur dda, wrth ei fodd yn wastad, a'r nwydau a'r teimladau oll yn llwyr dan lywodraeth ei farn. Y mae y chwedlau a adroddir am dano ar hyd y wlad yn lliosog iawn; ac er fod y rhan fwyaf o honynt yn seiliedig ar ryw gymmaint o wirionedd, ychydig o honynt sydd yn llythyrenol gywir, ac yn rhydd oddi wrth duedd i gamarwain. Perthynai i'r dosbarth caredicaf o ddynion; ac yr oedd yn ddiarhebol am ei ofal i beidio drygu cymmeriad ac enw da ei frodyr, a'i gymmydogion. Yr oedd o anianawd hoenus, dyddan, ac yn ddiarhebwr di-ail; ond yn dra phell o fod yn gellweirus ac yn ysgafn, ac yn ofalus rhag dyweyd dim i borthi crechwen ynfydion. Ni welwyd ef erioed wedi ei orchfygu gan deimlad o unrhyw natur. Yn nghanol tristwch, neu orfoledd, neu gyffro berwedig, byddai efe yn berffaith hunan-feddiannol, ac yn debyg o draethu rhyw air a attebai ddyben yn yr amgylchiadau. Gŵr lled annibynol ydoedd, a chanddo ei farn ei hun ar bob peth, a llawer o ymddiried yn ei farn. Nid oedd yn orawyddus am fynu cael eraill i'w ffordd ei hun. Iddo ef, nid oedd plaid, na defod, nac arferiad yn ddim yn y byd. Ffurfiai farn bersonol ar bob mater, a gweithredai yn ol y farn hono. Fel gwleidyddwr, nid oedd na Rhyddfrydwr na Thori; canys yr oedd weithiau yn cefnogi y naill blaid, ac weithiau hefyd yn cefnogi y blaid arall. Bu yn dderbyniwr y Faner o'i chychwyniad. Y peth nesaf i ddim a ddarllenai o unrhyw newyddiadur arall; ond nid oedd yr hyn a ddarllenai o ddim pwys yn ei olwg os byddai yn y gwrthwyneb i'r Faner.

Yr oedd yn bregethwr buddiol a da; ac o'r dechreu i'r diwedd, yn sefyll yn y dosbarth mwyaf cymmeradwy a phoblogaidd. Nid oedd yn debyg i neb, ond iddo ei hun. Nid oedd efe yn ddarllenwr mawr; o'r hyn lleiaf, nid oedd yn darllen llawer o lyfrau. Yr oedd yn ddarllenwr cysson o'r Beibl, ac yn dra chyfarwydd yn Llyfr Duw. Ond yn hytrach nag ymofyn â'r beirniaid am ystyr adnodau, gwnai efe i'r adnodau esbonio eu gilydd. Ymddangosai yn deall yr efengyl cystal a llawer o'r pregethwyr, ac yn deall y ddynoliaeth yn well na llawer. Ni byddai, hyd a wyddom, yn cyfarfod âg anhawsder i ddeall unrhyw bwngc; nac yn peri anhawsder i neb i'w ddeall yntau, o herwydd ei fod yn traethu yn ddwfn ac yn dywyll. Ymgadwai yn agos at ei destyn, ac yn agos at ei wrandawyr. Nid oedd un amser yn rhagymadroddi yn faith, nac yn dyweyd dim dros ben ar y gwahanol faterion yn ei bregeth. Codai ei fŵa yn ebrwydd, a gollyngai y saeth oddi arno; a pheth anghyffredin fyddai iddo fethu y nôd.



Nid oedd cyfansoddiad ei bregethau yn gelfydd, na'i benau bob amser yn rhydd o fod yn bwyta eu gilydd. Nid yn yr esgyrn yr oedd y gwerth gydag ef; ond yn y cnawd a geid ganddo ar yr esgyrn. Clywsom lawer yn meddu ar lais pereiddiach, a mwy cwmpasog. Nid oedd efe na bloeddiwr, na chanwr chwaith. Nid ar oslef ei lais i ogleisio teimladau yr oedd yn dibynu, ond ar deleidrwydd ymadrodd a geir-bwysiad. Yr oedd yn grefftwr ar wneuthur hoelion, ac yn gampwr mewn medr i'w pwyo i dref. Yn gyffelyb i'w Arglwydd, gwnelai ddefnydd helaeth o bethau bychain, a phethau cyffredin bywyd beunyddiol, i egluro gwirioneddau ysbrydol. Yr oedd ganddo ddawn i droi pob peth natur yn ddammeg.

Nid ydym heb sail i feddwl fod cuddiad ei gryfder yn ei naturioldeb. O holl feibion natur, ni bu un yn ffyddlonach iddi na W. Prytherch. Ymddangosai mor naturiol yn pregethu ag y mae y baban yn sugno y fron, neu y pysgodyn yn nofio yn yr afon. Yn rhinwedd ei naturioldeb yr oedd efe yn gallu cadw ei newydd-deb. Y farn gyffredin yw, nad oedd nifer ei bregethau lawn mor liosog a nifer blynyddau ei oes; eithr nid bob amser y mae y farn gyffredin yn hollol gywir. Un peth sydd sicr—yr oedd amryw o honynt yn oedranus, gan iddo fod mor gall a chadw rhai o'i bregethau cyntaf yn ei gôf hyd y diwedd, a'u cadw yn loew mewn gwaith. Wedi darllen ei destyn i ganlyn brawd doniol—hen destyn fynychaf—gwnai ryw sylw ffraeth, naturiol, i ennill clustiau ei wrandawyr, ac i'w hoelio wrth ei wefus cyhyd ag y byddai efe yn pregethu hen bregeth ag y byddai pump o bob deg o'i wrandawyr wedi ei gwrandaw chwaneg na hanner dwsin o weithiau yn flaenorol. Ni byddai yn llai newydd er ei hoedran, nac yn llai grymus o herwydd cynnefindra â hi. Y gwir yw, yr oedd rhyw newydd-deb diddarfod yn ei bregethau, a'i bregethu; ac nis gwyddom am ddim ynddo a ddichon gyfrif am hyny, ond ei naturioldeb. Nid oes blino yn bod ar natur. Daw y gwanwyn yn ei dro bob blwyddyn, ond nid heb ei newydd-deb. Cyfyd yr un haul arnom bob dydd, etto nid ydym yn blino edrych arno; canys y mae mor newydd i ni bob tro y daw i'r golwg a phe na buasem wedi ei weled erioed o'r blaen. Yn gyffelyb yr oedd William Prytherch hefyd. Po fwyaf a wrandawem arno, mwyaf oll y byddem yn ei hoffi. Nid oedd laru i fod ar ei bethau; canys yr oedd ei naturioldeb yn cadw ei bethau mwyaf oedranus heb heneiddio.

Yn y gwahanol eglwysi y bu yn cartrefu ynddynt, cafwyd ef yn ffyddlawn a gwasanaethgar yn y cyfarfodydd wythnosol, er nad oedd yn fugail dan gyflog yn un o honynt. Yr oedd yn enwog am ei allu i adnabod dynion, ei dalent i drin pob math o gymmeriadau, a'i ddylanwad i dawelu pob anesmwythder. Medrai fod yn llym wrth geryddu, heb fod yn drwstan. Darllenasom rai pethau am dano yn ei gofiant ynglŷn â gweinyddiad dysgyblaeth nad allwn feddwl eu bod yn gwbl gywir. Nid gŵr i ymfoddloni ar *sham* cerydd oedd efe am bechodau cyhoeddus. Carai fod yn dyner wrth y pechadur; ond nid ar draul gwneyd cam âg enw yr Arglwydd. Bu, hefyd, yn ffyddlawn i'r cyfarfod misol, ac yn wasanaethgar i eglwysi y sir yn gyffredinol. Yr oedd llawer o'i frodyr yn fwy o siaradwyr nag ef yn y cyfarfodydd hyny, ac yn teimlo mwy o ddyddordeb nag ef mewn

Digitized by Google

traitodaeth ar fan amgylchiadau; ond pan godai i ddywedyd rhywbeth ar bwngc a fyddai wedi achosi dadl, ond odid nad efe fyddai y siaradwr olaf arno. Anfynych y teimlai neb awydd i siarad ar ei ol. Efe a elwid, bron bob amser, i roddi gair o gynghor i flaenoriaid ac i bregethwyr ieuaingc ar eu derbyniad yn aelodau o'r cyfarfod misol; a byddai yn gwneuthur hyny mewn dull mor naturiol a chartrefol a phe yn cynghori ei blant ar yr aelwyd, neu ei weision ar y tyddyn. Gŵr rhyddfrydig iawn ei ysbryd oedd efe. Ni fynai er dim gadw yn fanwl at lythyren unrhyw reol ddynol, er mwyn y rheol ei hun, ar draul aberthu rheswm dynol, a gwneuthur cam â'r neb y ceisid cymmhwyso y rheol at ei achos. Ei ryddfrydigrwydd ef, mewn rhan fawr, sydd yn cyfrif am ryddfrydigrwydd neillduol cyfarfod misol sir Gaerfyrddin.

Am ddeng mlynedd y bu efe byw yn Ferry Side; ac yr oedd wedi llesghau yn fawr yn y tair olaf o honynt, er nad oedd yn teimlo dim afiechyd. Daliodd i fyned o amgylch i bregethu hyd o fewn ychydig fisoedd i'w farwolaeth; ac ar ol iddo fethu pregethu ei hun, galluogid ef i fyned allan i'r capel i wrandaw ei frodyr —yr hyn oedd yn dda gan ei enaid. Mor fuan ag y cyfyngwyd ef yn hollol i'w dŷ, dywedodd mai marw oedd i fod nesaf. Nid oedd yn brysio, nac yn ofni dim. Bu farw fel y bu fyw—mewn tangnefedd heddychol. Aeth i'w orphwysfa yr 20fed o Dachwedd, 1888, pan oedd yn cerdded ar ei bummed flwydd a phedwar ugain. Yr oedd eglwysi y sir yn casglu tuag at wneuthur tysteb iddo ar y pryd; ond aeth efe at ei wobr cyn bod y casgliad wedi ei lwyr orphen. Yn 1894, cyhoeddwyd cofiant rhagorol iddo gan ei fab, y Parch. S. E. Prytherch, wedi ei ysgrifenu gan y Parch. T. E. Edwards, Cwmafon.

PHILLIPS, Parch. REES, Llanymddyfri. Efe oedd yr hynaf o dri o frodyr fu yn gweinidogaethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Y ddau eraill oeddynt y diweddar Dr. Phillips, o Henffordd, goruchwyliwr enwog y Feibl Gymdeithas; a'r diweddar Barch. Jonah Phillips, Llanymddyfri. Ganwyd ef yn y fl. 1797; a bu farw Awst 22ain, 1854, yn 57ain mlwydd oed. Yr oedd eu tad, Thomas Phillips—saer maen wrth ei alwedigaeth—yn hen pan y daeth at grefydd; a dywedwyd gan un o hen breswylwyr y dref ei fod dros 80ain oed pan y dysgodd ddarllen. Hwyrach mai ar adeg yr un diwygiad —tua'r flwyddyn 1819—y dychwelwyd y tad, a'i dri mab.

Yr oedd R. Phillips wedi priodi cyn dechreu pregethu. Claddodd ei briod yn fuan. Ychydig oedd y manteision addysg a gafodd yn moreu ei oes. Prentisiwyd y tri brawd:—un (Dr. Phillips) i'r grefft o wneyd hetiau. Yr oedd Llanymddyfri yn enwog am wneuthurwyr hetiau y pryd hyny. Y ddau eraill a brentisiwyd i fod yn gryddion. Trwy hunan-ddiwylliant, cyrhaeddodd Rees Phillips lawer o wybodaeth; ac ystyrid ef yn dduwinydd enwog. Fel ei frawd o Henffordd, er cael ei godi o ran amgylchiadau, yr oedd yn foneddwr trwyadl. Yr oedd, hefyd, yn feddiannol ar ddynoliaeth brydferth. Yr oedd yn ddyn y gellid ymddiried ynddo. Bu yn ysgrifenydd i'r cyfarfod misol. Yr oedd yn un o'r rhai cyntaf a ardystiodd i fod yn llwyrymwrthodwr yn y cyfundeb.

Er nad oedd yn bregethwr mor felus a'i frawd Jonah, nac yn feddiannol ar ddoniau areithyddol Dr. Phillips, yr oedd ei ddylanwad personol yn Llanymddyfri yn fawr iawn. Claddwyd ef o flaen capel y Methodistiaid (yr unig fedd yno); a rhoddwyd coflech fawr ar fur y capel i gadw ei enw mewn coffadwriaeth.

Bu farw yn annisgwyliadwy. Tarawyd ef yn glaf mewn cyfarfod misol oddi cartref. Ond er mor annisgwyliadwy y daeth angeu, bu farw yn orfoleddus. A dywedai gŵr y tŷ mai yr anrhydedd fwyaf oedd yn bossibl iddo ei chael oedd i Rees Phillips farw dan ei gronglwyd.

PRIFYSGOL CYMRU. Ar ddechreu y ganrif hon, yr oedd Cymru mor amddifad o fanteision addysg ag odid un o wledydd Cred; ac yn awr, ar ddiwedd y ganrif, ni fedd un wlad arall gyfundrefn mor berffaith ag sydd ganddi hi er dwyn addysg i gyrhaedd ei phobl. Ceir ysgol elfenol yn mhob pentref a llanerch; amryw ysgolion canolraddol yn mhob sir; a thri choleg cenedlaethol, gyda phrifysgol i reoleiddio eu gwaith, a graddio eu myfyrwyr. Mae'r ffordd wedi ei phalmantu yn ddifwlch, o ddosbarth isaf yr ysgol elfenol hyd radd uchaf y brifysgol; a darperir llawer o ysgoloriaethau yn ngwahanol orsafoedd y ffordd i gynnorthwyo y myfyriwr tlawd yn ei flaen.

Y mae Cymru i ddiolch am yr holl bethau hyn i un sefydliad ammhrisiadwy oedd ganddi ar ddechreu y ganrif; sef, yr Ysgol Sabbothol. Os nad oedd ganddi ond ychydig athrawon ac athrofeydd, yr oedd ei phobl yn 'rhoi eu goleu gwan i'w gilydd' yn yr Ysgolion Sabbothol; a daethant, drwy hyny, yn genedl o ddarllenwyr, ac yn efrydwyr duwinyddiaeth. Hyn, yn ddiau, a ddygodd arnynt y syched am addysg fanylach, a diwylliant ëangach—syched sydd wedi nodweddu y genedl yn ystod y ganrif, ac wedi dwyn ffrwyth mor doreithiog.

Gwnaeth yr enwadau crefyddol lawer yn mhlaid addysg drwy sefydlu athrofeydd—yn benaf er addysgu eu pregethwyr a'u gweinidogion. Yr oedd Athrofa Caerfyrddin wedi ei sefydlu gan yr Annibynwyr mor gynnar a 1743. Agorodd y Bedyddwyr Athrofa y Fenni yn 1807: a symmudwyd hi i Bont-y-pŵl yn 1836. Agorwyd Coleg Dewi Sant yn Llanbedr gan yr Eglwys Sefydledig yn 1827; a Choleg y Bala gan y Methodistiaid Calfinaidd yn y fl. 1836. Gwnaeth y colegau hyn waith gwerthfawr dros addysg y wlad yn eu cylchoedd cyfyngedig eu hunain; ond teimlai rhai o arweinwyr y genedl fod arni angen dwfn am foddion addysg uwchraddol mwy anenwadol ac ëang, a phrifysgol megys ag a geid yn ngwledydd eraill y deyrnas. Cefnogwyd hyn yn aiddgar gan Dr. L. Edwards, Prifathraw Coleg y Bala, yn ei ysgrifau yn y *Traethodydd* am 1849, 1850, ac 1852; ac hefyd gan Mr. B. T. Williams, A.S., yn ei draethawd a gyhoeddwyd yn 1853. Ond y gŵr a wnaeth fwyaf, trwy ymdrech hir a diflino, er dwyn y cyfryw sefydliadau i fod oedd Mr. (wedi hyny Syr) Hugh Owen. Ganddo ef y cymmerwyd y cam cyntaf yn y cyfeiriad hwn, pan gyflwynodd i gyfarfod a gynnaliwyd yn nhŷ Mr. Thomas Charles, yn Llundain, yn Ebrill, 1854, gynnygiad i sefydlu yn Nghymru un, neu chwaneg, o Golegau y Frenhines—cyffelyb i'r rhai a sefydlasid ychydig yn gynt yn yr Iwerddon. Yr oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn y Parch. Henry Rees, y Parch. Richard Humphreys (Dyffryn), Dr. David Charles, Dr. Lewis Edwards, Parch. Samuel Roberts (Llanbrynmair), Mr. Richard

Digitized by Google

Davies (Treborth), a Mr. E. J. Salisbury—ar ol hyny, yr aelod seneddol dros Gaerlleon. Crocsawyd y cynnygiad; a rhoddwyd ar Mr. Hugh Owen, Mr. Salisbury, a Mr. (yn awr Syr) G. Osborne Morgan i wneuthur yr hyn a allent er cyrhaedd yr amcan. Cyfarfu y tri yn fynych, a pharotoisant gyfansoddiad i'r colegau cynnygiedig. Disgwylient y gellid cael arian at y pwrpas oddi wrth roddion y senedd at y gwaddoliadau oedd eisoes yn bodoli, ac oddi wrth roddion gwirfoddol. Ond nid oedd hwnw yn amser cyfleus i ofyn am roddion gan y senedd; ac yr oedd mwy o frys ar y pryd am gael coleg hyfforddiadol er addysgu ysgolfeistriaid. A thrwy ymdrechion y Parch. J. Phillips, yn benaf, fe agorwyd Coleg Normalaidd Bangor yn 1862. Yn fuan wedi hyny, ysgrifenodd Dr. Thomas Nicholas gyfres o erthyglau cryfion i'r *Cambrian Daily Leader* ar angen addysg uwchraddol i Gymru; ac arweiniodd hyn Mr. Hugh Owen i ofyn iddo barotoi papur ar y pwngc ar gyfer un o gyfarfodydd Eisteddfod Abertawe, yn 1863. Cydsyniodd Dr. Nicholas; a chyfarfu Mr. Hugh Owen ac yntau yno; a chafodd Mr. Owen ganddo ddyfod i Lundain yn Hydref y flwyddyn hono—lle y daeth âg ef i gydnabyddiaeth â Mr. Osborne Morgan a Mr. Morgan Lloyd. Cynnaliwyd cyfarfodydd yn y Freemasons' Tavern, yn Llundain, ar y 1af a'r 9fed o Ragfyr; ac ynddynt penderfynwyd gweithredu ar unwaith. Addawodd Mr. William Williams, yr A.S. dros Lambeth, cadeirydd y cyfarfod cyntaf, 1,000*p.* at yr amcan; a phennodwyd Dr. Nicholas yn ysgrifenydd; Mr. Hugh Owen a Mr. Osborne Morgan yn ysgrifenyddion anrhydeddus; a Mr. Morgan Lloyd yn is-drysorydd. Ymddiswyddodd Dr. Nicholas yn 1867; a chymmerodd Dr. David Charles yr ysgrifenyddiaeth, a daliodd ei swydd hyd 1871. Gweithiodd y gwŷr hyn yn galed a chalonog; a chasglwyd ganddynt, rhwng Rhagfyr, 1863, a Hydref, 1872, pan agorwyd Coleg Aberystwyth, y swm o 12,034*p.* 11*s.* 3*c.* Yr oedd yr adeilad hardd yr erys y coleg hwn byth ynddo wedi ei brynu yn 1867 am 10,000*p.* Dewiswyd Mr. Thomas Charles Edwards, M.A., yn brifathraw, a phennodwyd dau o athrawon eraill; a chyda'r tri athraw hyn yr agorwyd y coleg ar y 9fed o Ragfyr, 1872. Am rai blynyddoedd, ni welid nemawr o arwyddion llwyddiant ar y coleg. Derbyniwyd 63 o efrydwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf; ac er i'r nifer chwyddo ychydig ar ol hyny, disgynodd i 53 cyn 1880. Ond pan gofir fod amryw o'r gwŷr sydd heddyw yn arwain y genedl yn efrydwyr yn y coleg yn y blynyddoedd hyny, fe welir fod addysg, fel crefydd a llenyddiaeth, yn un o'r pethau nas gellir eu barnu wrth rif a mesur.

Yn y fl. 1880, pennododd y llywodraeth ddirprwyaeth i chwilio i gyflwr addysg ganolraddol ac uwchraddol yn Nghymru. Y dirprwywyr oedd Arglwydd Aberdâr, Is-iarll Emlyn, Parch. H. G. Robinson, Mr. Henry Richard, A.S., y Proffeswr John Rhys, a Mr. Lewis Morris; a diau mai y tyst pwysicaf a ddaeth ger eu bron oedd Mr. Hugh Owen. Ei dystiolaeth ef yn adroddiad y ddirprwyaeth ydyw ein hawdurdod am y rhan fwyaf o'r hanes uchod ynghylch sefydliad Coleg Aberystwyth; a chyfeiriwn y darllenydd i'r adroddiad am fanylion pellach. Wedi dyfynu felly o adroddiad Mr. Owen am yr hyn a ddigwyddasai gynt, nid annyddorol a fyddai i ni yn awr grybwyll un neu ddau o'r awgrymiadau gyda golwg ar yr adeg oedd i ddyfod. Fe ddylid, ebai ef, sefydlu coleg arall, cyffelyb i Goleg Aberystwyth, yn sir Forganwg, a'i waddoli â 4,000*p.* yn y flwyddyn gan y llywodraeth. Ond ni ddylid codi un yn y Gogledd, gan y buasai yn cloffi Coleg Aberystwyth. Annogai i sefydlu bwrdd o arholwyr, i'w pennodi gan y Goron; ac i fod yn brifysgol dan yr enw 'Prifysgol Tywysog Cymru.' Ni ddylai y brifysgol fod mewn cyssylltiad âg unrhyw goleg neillduol; ond dylai arholi a graddio pawb yn ddiwahaniaeth, fel Prifysgol Llundain; oddi gerth, fe allai, y dylid cyfyngu yr ymgeiswyr i rai fyddent wedi eu haddysgu am ryw gyfnod yn Nghymru. Wedi ystyried yr awgrymiadau hyn, cymmeradwywyd hwynt, gydag un gwahaniaeth pwysig, gan y dirprwywyr. Annogasant i sefydlu coleg uwchraddol yn sir Forganwg; a chyda golwg ar brifysgol, eu cymmhelliad oedd, cymmeryd ymaith y gallu oedd gan Goleg Llanbedr, erbyn hyn, i gyflwyno y graddau o B.D. a B.A., a rhoddi y gallu i'r brifysgol i arholi a rhoddi graddau, eithr nid i neb ond rhai wedi efrydu yn un o'r tri choleg (Aberystwyth, Coleg y De, a Choleg Llanbedr) am dair blynedd. Y mae'r gwahaniaeth egwyddor rhwng yr awgrym hwn ac awgrym Mr. Hugh Owen yn un pwysig iawn; ac ni a ddychwelwn ato wrth ymdrin â sefydliad y brifysgol. Cyhoeddwyd adroddiad y ddirprwyaeth yn 1881; ac wedi hyny, cynnygiodd y llywodraeth waddoli dau goleg uwchraddol—un yn y De, a'r llall yn y Gogledd.

Dechreuwyd symmud yn uniongyrchol yn y De i gyfarfod â chynnygiad y llywodraeth; a bu cystadleuaeth frwd rhwng trefi Caerdydd ac Abertawe yn mha un o honynt y sefydlid y coleg. Cyflwynwyd y pwngc i dri chylafareddwr; sef, Arglwydd Carlingford, Arglwydd Bramwell, a Mr. Mundella; a phenderfynasant o blaid Caerdydd. Pennodwyd Mr. J. Viriamu Jones, M.A., yn brifathraw; ac agorwyd y coleg yn y fl. 1883. Yn gynnar yn y flwyddyn hono, dechreuwyd symmud yn y Gogledd. Ymgeisid am y coleg gan dair-ar-ddeg o drefi; ond penderfynwyd o blaid Bangor gan y tri chylafareddwr a enwyd uchod. Yn mis Mai, 1884, pennodwyd Mr. H. R. Reichel, M.A., yn brifathraw; ac agorwyd y coleg yn yr Hydref dilynol. Corphorwyd y ddau goleg hyn drwy Siarter Frenhinol; a rhoddwyd gwaddoliadau o 4,000*p.* yn y flwyddyn iddynt gan y llywodraeth. Bwriedid iddynt, ar y cyntaf, fod yr unig ddau goleg cenedlaethol o dan nawdd y llywodraeth; ond wedi hir ymgyndynu, rhoddwyd siarter a gwaddol i Goleg Aberystwyth yn y flwyddyn 1889.

Y mae cyfansoddiad pob un o'r tri choleg hyn o dan ei siarter bron yn hollol yr un fath a'u gilydd. Perthyna iddo dri chorph; sef, llys y llywodraethwyr, cynghor, a senedd. Cyfansoddir llys y llywodraethwyr o bersonau a danysgrifiant swm pennodol at gynnal y coleg, ac o gynnrychiolwyr cyrph cyhoeddus; megys cynghorau sirol, cadeiryddion byrddau ysgol, ysgolfeistriaid elfenol, a llywodraethwyr prifysgolion eraill. Corph lliosog ydyw llys y llywodraethwyr; a'i waith ydyw ymdrin â phyngciau cyffredinol mewn perthynas i'r coleg, a phob mater arall nad ymddiriedir yn arbenig gan y siarter i'r cynghor a'r senedd. Cynnwysa y cynghor o ddeg ar hugain i bump a deugain o aelodau—y rhan fwyaf o honynt wedi eu hethol gan lys y llywodraethwyr; ac un wedi ei enwi gan y senedd, a'r lleill gan seneddau

Digitized by Google

colegau eraill. Gwaith y cynghor ydyw trefnu holl faterion arianol a chyffredinol y coleg, penderfynu pa byngciau a ddysgir, rheoleiddio llyfrgelloedd ac adeiladau y coleg, a phennodi prifathraw, athrawon cadeiriog, athrawon cynnorthwyol, a holl wasanaethwyr y coleg. Cynnwysa y senedd athrawon cadeiriog y coleg; a'u gwaith hwy ydyw pennodi oriau y dosbarthiadau, a threfnu y pyngciau, dyfarnu ysgoloriaethau, rheoleiddio yr addysg, a chadw dysgyblaeth. Y mae yn mhob coleg o ugain i ddeg ar hugain, neu ragor, o athrawon, a diammheu y chwanegir llawer atynt etto, o dro i dro. Fe dderbynir dynion a merched iddynt, a rhoddir addysg gan bob coleg yn y pyngciau athrofaol cyffredin; sef, Groeg, Lladin, Saesneg, Cymraeg, Almaenaeg, Ffrangcaeg, athroniaeth, rhif a mesur, fferylliaeth, anianeg, bywydeg, llysieueg, a daeareg. Y mae i bob coleg ochr normalaidd, neu hyfforddiadol; yn cynnwys dynion a merched ieuaingc o dan hyfforddiant, i fyned yn ysgolfeistri elfenol. Heb law hyn, y mae yn ngholegau Bangor ac Aberystwyth ochr amaethyddol, er rhoddi addysg yn y gwyddonau hyny sydd yn dwyn cyssylltiad uniongyrchol âg amaethyddiaeth. Ac yn Ngholeg Caerdydd, y mae ochr beirianyddol, ac ochr fwnyddol, ac ysgol feddygol. Am fanylion pellach, gweler Galender pob coleg.

Hyd yn ddiweddar, anfonai y colegau cenedlaethol eu myfyrwyr i Brifysgol Llundain i'w arholi a'u graddio; a bron nad ellid dyweyd mai eu prif waith oedd darparu ar gyfer arholiadau Llundain. Ond yr oedd y teimlad yn cryfhau yn y wlad, y dylid sefydlu Prifysgol Gymreig, yn ol annogaeth Dirprwyaeth Addysg 1880. Nid ydym yn tybied fod caredigion addysg yn dymuno cael graddau fydd yn hawddach eu cyrhaedd, ac felly mwy di-werth, i'r Cymry. Ond fe deimlid yn gryf y gallesid yn hawdd drefnu cyrsiau o addysg llawn mor uchel a gwerthfawr a'r eiddo Llundain, fyddent yn fwy cydnaws âg athrylith y Cymro, ac yn well diwylliant iddo ef. Teimlid, hefyd, yr angenrheidrwydd, at amcanion goreu addysg, o ddwyn yr addysgu a'r arholi i gyssylltiad agosach â'u gilydd.

Y cam cyntaf a arweiniodd i sefydliad Prifysgol Cymru oedd penderfyniad a gynnygiwyd gan y Proffeswr Ellis Edwards, Coleg y Bala, ac a eiliwyd gan Esgob Llanelwy, yn Llys Llywodraethwyr Coleg y Gogledd, ar y 1af o Ebrill, 1891—fod y llys yn pennodi pwyllgor i ystyried y moddion i gael Prifysgol i Gymru; ac i drafod yr achos, os gellid, gyda phwyllgorau cyffelyb, wedi eu pennodi gan golegau Aberystwyth a Chaerdydd, a chan gyd-bwyllgorau addysg Gogledd a Deheudir Cymru. Pasiwyd y penderfyniad, a dewiswyd y pwyllgor. Derbyniwyd y gwahoddiad, hefyd, gan y colegau eraill, a'r cyd-bwyllgorau; ac etholodd Coleg Aberystwyth 13, Coleg Caerdydd 13, a'r cydbwyllgorau addysg 22, o gynnrychiolwyr i gyfarfod pwyllgor Bangor. Cyfarfyddodd y pwyllgorau hyn yn gynnadledd yn yr Amwythig yn Nhachwedd, 1891; a phennodasant bwyllgor, yn cynnrychioli y tri choleg a'r cyd-bwyllgorau, i dynu allan siarter i'r Brifysgol. Yn y cyfamser, yr oedd Dr. Isambard Owen wedi darparu cynllun o siarter, ac wedi ei ddosbarthu yn mysg yr aelodau; a chymmerwyd hwnw yn sail i'r ymdrafodaeth. Wedi llawer o ddadleu, fe gyttunodd y pwyllgor ar ffurf o siarter; a chyflwynwyd ef i'r gynnadledd gyffredinol, a phasiwyd ef ganddi ar y 6ed o Ionawr, 1893. Deisebwyd y senedd gan y tri choleg o blaid rhoddi y siarter mewn grym, a bu yn gorwedd ar y bwrdd yn nau dŷ'r senedd am yr amser gofynol. Pasiwyd penderfyniad o wrthwynebiad iddo yn Nhŷ yr Arglwyddi; ond ni wnaed sylw o'r gwrthwynebiad. Pasiodd y llywodraeth y siarter fel yr oedd, a chymmeradwywyd ef gan y frenhines ar y 30ain o Dachwedd, 1893.

Awdurdodau y Brifysgol, o dan y siarter, ydyw yr Ymwelydd (sef y Teyrn), y Canghellor, yr is-Ganghellor, Llys y Brifysgol, a Chymdeithas y Graddolion. Y Canghellwr ydyw prif swyddog y Brifysgol, ac efe ydyw cadeirydd y llys. Yr is-Ganghellor yw cadeirydd y senedd. Y mae i Lys y Brifysgol gant o aelodau, heb law y Canghellor, wedi eu dewis fel y canlyn:—13 gan y Goron, 26 gan Gynghorau Sirol Cymru, 36 gan awdurdodau tri choleg y Brifysgol (sef 4 gan Lys y Llywodraethwyr, 4 gan y Cynghor, a 4 gan senedd pob coleg), 13 gan Gymdeithas y Graddolion, 3 gan brifathrawon ysgolion canolraddol Cymru, 3 gan brifathrawon ysgolion elfenol Cymru, a 6 gan y Bwrdd Canolog er rheoleiddio yr ysgolion canolraddol. Y Llys ydyw prif gorph llywodraethol y Brifysgol. Galluogir ef i roddi y graddau cyffredin mewn llên, gwyddoniaeth, cyfraith, a cherddoriaeth, i'r neb fydd wedi bod am yr amser pennodedig, a dilyn cwrs pennodedig o addysg yn un o'r tri choleg, ac wedi pasio yr arholiadau gofynol. Y Llys sydd hefyd i bennodi yr arholwyr allanol yn yr arholiadau hyn. I'r Llys y perthyn rheoleiddo holl eiddo y Brifysgol; oddi gerth eiddo Cymdeithas y Graddolion. Cyfansoddir Senedd y Brifysgol o athrawon y colegau yn y pyngciau a nodir drwy ystadud; oddi gerth athrawon cynnorthwyol. Y senedd yw corph athrofaol y Brifysgol; ac iddi hi y perthyn darparu, i'w cyflwyno i'r Llys, ystadudau, a rheolau er penderfynu ammodau cyffredinol efrydiaeth, ac arholiadau. Ni all y Llys ddeddfu ar y materion hyn (oddigerth mewn perthynas i dduwinyddiaeth) ond ar gymmeradwyaeth y senedd. Cyfansoddir Cymdeithas y Graddolion o bawb fydd wedi graddio yn y brifysgol, ynghyd âg athrawon y colegau, a hen fyfyrwyr fydd wedi graddio mewn prifysgolion eraill.

Y mae gan y gymdeithas hon hawl i ddal a rheoleiddio ei heiddo ei hun; a'i phrif waith fydd hyrwyddo ymchwiliadau gwreiddiol mewn llenyddiaeth a gwybodaeth, a gwelliantau yn y celfyddydau. Un o amcanion penaf ei sefydlu oedd meithrin brawdgarwch yn mhlith efrydwyr fydd wedi gadael y colegau, a pharhau eu cyssylltiad â'r Brifysgol, a chadw eu dyddordeb ynddi.

Yn mysg y rhai a lafuriodd i lunio y siarter y mae enwau Dr. Isambard Owen a Mr. Cadwaladr Davies yn teilyngu sylw arbenig. Gellir sylwi yma mai Arglwydd Aberdâr a bennodwyd yn Ganghellor cyntaf y brifysgol; ac wedi ei farwolaeth ef, etholwyd Tywysog Cymru ar yr 2il o Orphenaf, 1895. Prif athrawon y colegau fydd, bob un yn ei dro, yn llanw y swydd o is-Ganghellor.

Y mae y ffeithiau uchod yn cynnwys prif nodweddion cyfansoddiad y Brifysgol. Bu peth anghydwelediad, a chryn ddadleu, ynghylch rhai pyngciau o egwyddor ar yr adeg pan yr oedd y siarter yn cael ei lunio. Yr oedd rhai

Digitized by Google

yn cefnogi gwneuthur Coleg Llanbedr yn un o golegau cyfranog y brifysgol, yn chwanegol at y tri choleg cenedlaethol; ac o herwydd fod y gynnadledd wedi gwrthod y cais hwn y gwrthwynebwyd y siarter yn Nhŷ yr Arglwyddi. Y rhesymau yn erbyn ei dderbyn oedd :—Yn 1af, mai coleg un eglwys ydyw—heb fod gan gynnrychiolwyr y genedl na rhan na chyfran yn ei lywodraethiad. Yn 2il, ei fod yn gofyn i'w athrawon gydsynio âg athrawiaethau crefyddol neillduol; a thrwy hyny yn dewis, nid y dynion goreu, ond y rhai goreu o'r daliadau hyny. Y mae 'shibbolethau' crefyddol wedi bod yn rhy hir yn glotl'rwym ar addysg y genedl; ac wedi i brawfion crefyddol gael eu symmud ymaith, trychineb fuasai i'r Brifysgol Gymreig eu cydnabod mewn cyssylltiad â'i phroffeswyr.

Ofnid, hefyd, y buasai cryn anhawsder mewn trefnu ar gyfer graddau mewn duwinyddiaeth. Ond, cafwyd cynllun a foddhaodd bob plaid, trwy dderbyn pyngciau yn dal cyssylltiad â duwinyddiaeth i blith y pyngciau ar gyfer y gradd o B.A.; a pheidio rhoi y graddau duwinyddol ond i rai fydd wedi graddio yn gyntaf mewn cangen arall.

Rhaid i ni grybwyll etto un pwngc y dadleuid yn ei gylch—pwngc o egwyddor sylfaenol sydd yn gorwedd o dan yr holl gynllun; sef, cyssylltiad y Brifysgol â'r Colegau. Dadleuai rhai dros wneyd y Brifysgol yn fwrdd etholiadol yn unig, yn ol awgrym Syr Hugh Owen ger bron Dirprwyaeth 1880; a bod ei harholiadau a'i graddau yn cael eu taflu yn agored i bob ymgeisydd, pa un bynag ai mewn coleg, ynte ar hyd llethrau y mynyddoedd, y bu efe yn parotoi ar eu cyfer. Ond ystyriai mwyafrif y gynnadledd mai nid bwrdd arholiadol oedd angen Cymru. Cafwyd profion yn Mhrifysgol Llundain o ddiffygion bwrdd felly; ac un o amcanion y Brifysgol Gymreig oedd cynnysgaeddu Cymru â rhywbeth cyflawnach, a gwell. Y mae y teimlad yn cynnyddu mai prawfion ammherffaith, ar y goreu, yw arholiadau; a bod eisoes ormod o le iddynt yn ein cyfundrefnau addysg. Y mae iawn hyfforddiant meddyliol yn rhan bwysicach o wir addysg nag ydyw hyd yn oed casglu gwybodaeth; a dylai prifysgol, yn anad dim, sicrhau i'r genedl yr hyfforddiant hwn. Heb law hyn, nid oes braidd un o gyn-fyfyrwyr yr hen brifysgolion na chydnebydd fod ei gyfeillach â'i gyd-ysgolheigion yn y colegau, y cyfnewid syniadau, yr ymryson rhwng meddwl a meddwl, wedi gwneyd mwy i ennyn meddylgarwch ynddo, ac ëangu ei amgyffredion, nag hyd yn oed y darlithio a'r hyfforddi. Yn sicr, amcan y gwladgarwr ddylai fod, nid estyn gradd i'r neb a gyrhaeddo rhyw gymmaint o wybodaeth ar ochr mynydd; ond dwyn y myfyriwr ymaith o ochr y mynydd, i gyrhaedd dylanwadau a'i gwna yn ddyn mwy gwerthfawr i'w wlad a'i genedl. Ond ni chadwodd llunwyr y siarter yn ofergoelus at reol haiarnaidd yn hyn chwaith. Rhoddwyd gallu i'r Llys ddarparu darlithiau a dosbarthiadau yn y wlad, y tu allan i'r colegau, ac i ryddhau yr efrydwyr ynddynt o gyfran o'r tymmor y gofynir iddynt ei dreulio mewn coleg.

Y mae yn angenrheidiol egluro ychydig ar yr addysg a'r arholiadau. Pennodir arholwyr allanol i gynnal Arholiad Arweiniol *(Matriculation Examination)*; a rhaid i'r ymgeiswyr basio mewn pump o byngciau fydd wedi eu dewis, gyda chyfyngiadau, o blith y rhai a ganlyn (y mae tri cyntaf yn orfodol):—Saesneg, Lladin, Rhif a Mesur; Cymraeg, Groeg, Almaenaeg, Ffrangcaeg, fferylliaeth, llysieuaeth, ac anianeg. Os dengys ymgeisydd deilyngdod mewn tri neu bedwar o'r pyngciau hyn, gall basio yn y gweddill mewn arholiad dilynol. Disgwylir, pan y bydd yr ysgolion canolraddol mewn llawn waith, y bydd pob efrydydd wedi pasio yr arholiad arweiniol cyn dyfod i'r coleg. Ar ol pasio yr arholiad hwn, rhaid i'r ymgeisydd am radd ddilyn cyfres o ddosbarthiadau yn un o'r colegau am dair blynedd. Nis gellir hyd yma (Awst, 1895) ddyweyd llawer am yr ammodau y rhoddir y graddau arnynt, gan fod y gwaith o'u trefnu yn mhell o fod wedi ei gwblhau. Ond gellir dywedyd mai yr amcan a geidw y senedd mewn golwg wrth eu penderfynu fydd rhoddi pob rhyddid rhesymol i'r efrydydd i ddilyn cwrs cydnaws â'i dueddfryd a'i alluoedd ei hun. Am y gradd o B.A., heb anrhydedd, bwriedir darparu tri chwrs blynyddol o efrydiaeth yn mhob pwngc; sef, un ar gyfer pob blwyddyn; a gall yr efrydydd, gyda chyfyngiadau neillduol, ddewis naw o honynt. Rhoddir y gradd iddo pan y bydd wedi dilyn y rhai hyny, a phasio yr arholiadau arnynt. Gyda golwg ar gynlluniau efrydiaeth, rhoddir gallu gan y siarter i bob coleg i ddarparu y rhai hyn ar gyfer ei efrydwyr ei hun; ac i'w cyflwyno i'r senedd am ei chymmeradwyaeth. Trwy hyny, caiff pob athraw hefyd ryddid, o fewn terfynau rhesymol, i ddilyn ei gyfeiriad ei hun. Ar gyfer pob arholwr allanol a bennodir gan y Llys, ac i gydweithredu âg ef, rhydd y siarter hawl i bob coleg i bennodi arholwr mewnol, i arholi efrydwyr y coleg hwnw. Y mae yn ddiammheu mai'r athraw ei hun fydd yr arholwr mewnol, fel rheol; ac felly, dygir yr arholiad i gyssylltiad uniongyrchol â'r cwrs o efrydiaeth. O'r ochr arall, gofelir gan yr arholwr allanol fod y safon yn ddigon uchel, a'i bod yn gyfartal yn y tri choleg. Yn wir, lle y mae rhyddid i'r athraw gyfranu ei addysg oreu yn ei ddull goreu, ein cred ni yw y bydd y duedd i godi y safon, ac nid i'w gostwng.

Y mae y cynllun hwn, drwyddo, yn ddeniadol fel mabinogi. Po mwyaf yr ymgydnabyddir âg ef, tecaf yr ymddengys. Diau mai da i addysg yw ei rhyddhau o'i llyffetheiriau; ac nis gellir lai na chredu fod llwyddiant mawr i ddilyn Prifysgol Cymru, a'i bod hefyd i ennill enwogrwydd yn mysg prifysgolion y byd.

PRYDDERCH, JOHN. Am resymau digonol, edrychid ar y gŵr hwn gan ei gydoeswyr fel cynnrychiolydd un o hen deuluoedd mwyaf hynafol Ynys Môn. Y mae ei achau o du ei dad a'i fam, y rhai sydd ar gael ac yn nghadw gan ei olafiaid, yn rhai tra dyddorol; ac yn ei gyssylltu o ddolen i ddolen â Chollwyn ap Tango ar un ochr, ac âg Owain Gwynedd ar y llall. Yn gymmaint ag y cedwid rhestrau o fath y rhai hyn yn yr hen oesoedd gyda gofal neillduol gan y Cymry, derbynir eu tystiolaeth yn lled gyffredinol gan hynafiaethwyr—o leiaf hyd ychydig yn mhellach yn mlaen na diwedd teyrnasiad y Tuduriaid yn Mhrydain. Ac y mae yn meddiant y teulu weithredoedd cyfreithiol a memrynau sydd yn rhoddi y cyfrif helaethaf a mwyaf diammheuol am eu cyndadau yn ystod y canrifoedd dilynol. Ynglŷn â hyn, dylid crybwyll ddarfod i Mr. E. A. Ebblewhite, F.S.A., o Goleg yr Herodron, yn Llundain, ar ol llafur mawr ac ymchwiliad

Digitized by Google

manwl, lwyddo, yn 1893, i olrhain disgyniad ein gwrthddrych i wreiddyn lled annisgwyliadwy. Dywed y gŵr hwn yn bendant—a chyfrifir ef yn un o'r rhai mwyaf cyfarwydd a gochelgar yn y gangen hon o ddysg—ei fod, trwy ei hen nain, yr hon a briododd â John Prydderch, o Geryg Gwyddel, yn ddisgynydd union-lin o'r penadur clodfawr, a bydenwog, Charlemagne. Tad y John Prydderch hwn ydoedd George Prydderch, o Blas Tregaian, yr hwn a briododd aeres Ceryg Gwyddel yn amser Siarl yr Ail; ac ŵyr iddo, a mab i John Prydderch o Ledwigan—yr hwn a foddwyd wrth groesi y Fenai yn 1785—oedd William Prydderch; sef, tad y John Prydderch y mae a fyno yr ysgrif hon âg ef. Enw morwynol ei fam oedd Elizabeth Edwards. Merch oedd i Robert Edwards, o Fodwina, yn Ngwalchmai. Ganwyd ef yn Tŷ Calch-neu, i roddi i'r lle ei enw mwy cyntefig, Tir Llwynog—preswylfod etifeddol ei dad yn mhlwyf Llangristiolus, Môn—ar y 5ed o Ragfyr, 1774.

Nid llawer o fanteision addysg o un math a ffynent yn y parthau hyn yn y ganrif ddiweddaf; ond cafodd John Prydderch ddigon o ysgol i'w wneyd yn rhifyddwr da, yn ysgrifenydd destlus, ac yn ddarllenwr rhwydd; a digon i roddi iddo feistrolaeth gymmedrol ar yr iaith Saesnig. A ddangosodd efe unrhyw ragoriaeth ar ei gydysgolheigion yn y cyfeiriadau hyn nid ydym yn gwybod; ond y mae aml draddodiad yn yr ardal hyd heddyw am ei orchestion fel chwareuwr yn y cyfnod hwnw. O'r braidd y gellir credu pob peth a ddywedir am ei gampau wrth 'ymryson râs,' wrth neidio y 'naid wib' a'r 'naid stont,' a throedio y bêl, &c.

Ar ol gorphen ei ysgol, treuliodd flynyddoedd ei faboed gyda'i rïeni, gartref; ac yn y cyfnod hwn etto, enwogodd ei hun trwy yr holl gwmmwd gyda'r aradr (nid oedd cŵys neb yn union-ach); a chyda'r bladur (y mae lle i ofni ddarfod i amryw anhwyluso eu hasenau wrth geisio ei ganlyn yn y gwair); ac uwchlaw y cwbl, ar gefn ei farch. Yn yr hen amser, yr oedd priodasau yn achlysuron cyhoeddus. 'Priodasau gwa'dd' oedd yr enw a roddid arnynt; a mawr oedd y rhialtwch ynglŷn â hwy. Ar ol y gwasanaeth yn eglwys y plwyf, cymmerai ymdrechfa le. Yn nghartref y briodasferch, byddai 'teisen briodas' wedi ei darparu; a gwobr oedd hi i bwy bynag a gyrhaeddai y tŷ gyntaf o'r eglwys. Ar draed y rhedid yr yrfa yn fwyaf cyffredin. Ond nid yn anaml, yn enwedig gyda theuluoedd lled gefnog, rhedfa feirch fyddai hono. Yr oedd pawb at ei ryddid i ddewis y llwybr a fynai, pa un bynag ai ar hyd y prif-ffyrdd, ynte ar draws y meusydd a'r cloddiau. Yn yr ymdrechfeydd hyn, yr oedd Prydderch yn bencampwr. Clywsom iddo gael ei orchfygu unwaith ar draed; ond ar geffyl, nid erioed. Gwelodd reswm ar ol hyn dros adael llawer, a thros wneyd ei oreu yn erbyn rhai o'r cyfryw arferion; ond am ei hoffder at farch da, ac at farchogaeth, glynodd hwnw wrtho hyd ddiwedd ei ddyddiau.

Yr oedd ei berthynas â'i fam yn ystod y blynyddoedd hyn, ac hyd ei marwolaeth, yn 1793, yn neillduol o dyner o'r ddwy ochr. Yr oedd yn wirioneddol hoff o'i dad hefyd, a'i dad o hono yntau; ond trwy anrhydeddu eu gilydd—nid trwy ymserchiad agored yn eu gilydd—y caffai hyny fynegiant. Y mae'n debyg mai am mai efe oedd ei fab hynaf, a'i etifedd, y galwai ei dad ef bob amser yn 'chwi,' a 'John Prydderch,' pryd mai 'ti,' a'r enw bedydd yn unig, a ddefnyddiai wrth ymddiddan â'i blant eraill. Yr oedd un arferiad brydferth iawn yn mysg rhai o deuluoedd Ynys Môn yn y ganrif ddiweddaf (ac mae'n debyg cyn hyny) sydd, erbyn hyn, yn anffodus, wedi ei cholli o'r wlad. Pan y cyfarfyddai bachgen ei dad gyntaf yn y boreu, pa un ai yn y tŷ, neu ar y ffordd, neu yn y maes, byddai yn ymostwng ar ei lîn o'i flaen, ac yn ei gyfarch, gan ofyn 'Eich bendith, fy nhad!' ac yntau a roddai ei ddeheulaw ar ei ben, gan ddyweyd 'Duw a'th fendithio, fy machgen!' Ni ollyngodd Prydderch y seremoni hon heibio tra y bu ei dad ac yntau yn cydfyw.

Hyd yma, yr oedd efe, fel ei dad a'i fam, yn aelod aiddgar o Eglwys Loegr. Heb law mai ynddi hi y dygwyd ef i fyny, yr oedd tri pheth neillduol yn rhwymau tynion arno wrth eglwys y plwyf yn ei flynyddoedd boreuaf. Yn un peth, yr oedd y clerigwr, John Griffith, yr hwn oedd yn enedigol o Gaerhun, ger Conwy, yn frawd i'w nain o Ledwigan, ac yn un o'r ymddiriedolwyr appwyntiedig yn ngweithred priodas ei dad; drwy yr hon y sicrheid iddo ef, fel ei gyntaf-anedig, ran o'i etifeddiaeth dirol. Hefyd, cynnelid chwarëyddiaethau yn gysson y tu allan i furiau yr eglwys yn ganlynol i'r gwasanaeth, pryd yr ymgyfarfyddai prif wroniaid y plwyf i ddal i fyny ei anrhydedd yn erbyn pawb, pwy bynag—yn gyffredin gyda'r bêl, ac weithiau (mae'n ymddangos) gyda'r dwrn hefyd. Ond clywsom na ddarfu i Prydderch erioed ymuno mewn ysgarmesau o fath y rhai olaf. Yr oedd yn rhy lawn o natur dda, ac yn ormod o foneddwr i hyny. Yn mhellach, yr oedd canu mewn cryn fri yn yr eglwys hon ar y pryd; ac o ganu, yr oedd efe yn dra hoff trwy ei oes. Yr oedd ganddo lais rhagorol; a chan fod ei dad yn chwareuwr medrus ar y delyn, ac yn arfer derbyn a thalu ymweliadau mynych â thri neu bedwar o'i gymmydogion—yn enwedig â Mr. Morris, o Bradwys, a Mr. Evans, o'r Henblas—y rhai a gadwent ac a ddefnyddient offerynau cerdd yn eu tai, cafodd ei chwaeth naturiol at gerddoriaeth feithriniad lled dda; a phennodwyd ef, er yn bur ieuangc, yn arweinydd y rhan hon o wasanaeth y llan.

Pa ryw fath o 'ras rhag-barotoawl' a roddwyd iddo, trwy yr hwn y clauarwyd ei serch i raddau at yr Eglwys Wladol, ac y cynneuwyd ei ddyddordeb mewn Ymneillduaeth, ni wyddom i sicrwydd. Nid yw yn annhebygol mai y man gwan y cydiodd y clefyd newydd ynddo gyntaf ydoedd y reddf farddonol a cherddorol â'r hon yr oedd ei natur wedi ei chyfoethogi.

Yr oedd y diwygiad Methodistaidd wedi cychwyn yn Môn rhyw ddeng mlynedd ar hugain cyn ei enedigaeth ef; ac erbyn hyny, yr oedd wedi ennill teyrngarwch nid ychydig o drigolion rhai cymmydogaethau yn yr ynys. Yn ei blwyf ef ei hun (Llangristiolus), yr oedd 'Robat y Cylchwr,' ac eraill, wedi yfed yn helaeth o ysbryd y cyffröad yn foreu, ac wedi llwyddo ddeng mlynedd cyn i anadl einioes gael ei rhoi yn ei ffroenau ef, i adeiladu lle iddynt eu hunain i addoli. Ac er nas gallasai yr adeilad a godasant hwy ymffrostio mewn na gwychder na drudfawredd—gwellt oedd ei dô, a brwyn wedi eu lledaenu ar bridd a gyfansoddent ei lawr—etto gallasai hawlio yr anrhydedd o fod y capel cyntaf perthynol i'r cyfundeb Methodistaidd, a sylfaenwyd yn ynys Môn, o fod yn lle cyssegredig iawn yn ngolwg bagad o wir saint; ac

Digitized by Google

o fod, er ei waeledd, nid yn rhy wael gan 'yr Hwn fu 'heb le i roddi ei ben i lawr' i dalu ymweliadau mynych â'i bobl o'i fewn! Yn y plwyfydd cylchynol hefyd—yn Nhrefdraeth a Niwbwrch yn enwedigol—yr oedd y tân efengylaidd wedi ennyn yn nghalonau amryw o'r etholedigion yn y blynyddoedd hyn. Ac nid oes dim sicrach na'i fod yn mhob man yr elai, yn fflamio allan mewn cân a moliant gwefreiddiol, ac mewn emynau ac anerchiadau a appelient, nid yn unig at gydwybodau dynion, ond hefyd at gynneddfau llai ysbrydol eu natur—eu dychymyg, eu deall, a'u tueddfryd, &c. Wedi clywed gan hwn ac arall, oedd naill ai mewn cydymdeimlad â'r adfywiad, neu o leiaf heb eu dallu yn hollol gan ragfarn a gelyniaeth yn ei erbyn, am y canu cynhyrfiol, a'r hymnau athrylithlawn, a'r hyawdledd ysbrydoledig oedd yn nodweddu cyrddau y crefyddwyr newydd, meddiannwyd y llangc ieuangc—natur yr hwn oedd yn dra byw i ddylanwadau o'r natur hyn—gan demtasiwn, rywbryd, i fyned ac edrych 'a oedd y pethau hyn felly.' Mae'n debyg mai yn ddirgelaidd yr aeth efe o gwmpas y gwaith. Yr oedd ei ddygiad i fyny Eglwysig, ei ffyddlondeb adnabyddus gyda gwasanaeth y llan, ei ofal rhag tramgwyddo ei dad (yr hwn a goleddai ar y pryd deimladau hollol wrthwynebus i'r hyn a ymddangosai iddo yn sism beryglus), a'i bryder naturiol i amddiffyn ei urddas ei hun, ac i osgoi edliwion, gwawd, a chwerthin ei berthynasau a'i gyfeillion, yn anhawsderau nas gallai efe lai na theimlo oddi wrth eu nerth. O'r ochr arall, nid nwyd egwan ydyw cywreinrwydd. A chan ei bod yn gyfyng arno o'r ddeutu, daeth i'w feddwl, fel y daeth i feddwl Nicodemus, ac eraill o'i flaen, i chwilio am ymwared 'liw nos.' Y mae lle i gredu ddarfod iddo greu cyfleusdra iddo ei hun un noswaith, trwy fyned, nid i gapel Pencarog, oedd heb fod yn neppell o'i gartref, ond ar draws Morfa Malltraeth a Thywyn Niwbwrch i 'dŷ cwrdd' mewn man neillduedig oedd encyd o ffordd oddi yno. Pa wledd o natur gerddorol a meddyliol a arlwywyd iddo yno, nis gwyddom; ond da y gŵyr pawb sydd yn gyfarwydd â'i hanes mewn amser diweddarach nad oedd lle yn y byd mwy anwyl a chyssegredig ganddo ar ol hyny na 'Niwbwrch dlawd,' chwedl yntau. Ac er mai dysgybl cuddiedig a fu am ysbaid lled faith wedi yr ymweliad hwn â'r pererinion tu hwnt i'r gors, ni fu byth ar ol hyny fel o'r blaen. 'Yr hen bethau a aethant heibio; wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd.' Yn lle yr ymarfer corphorol, yn yr hwn yr ymlafuriai cyn hyny, ymddiddanion gyda Tomos William, Pencarog, a Hugh Simon, Llyswen, ac eraill o gyffelyb dduwiolfrydedd, oeddynt ammheuthyn y gŵr ieuangc o hyny allan. Am dymmor, chwaneg o ddifrifwch yn unig a welai ei dad yn ei ymddygiadau a'i agweddion. Nid oedd ganddo lettyb o gwbl am wir sefyllfa pethau. Ond nid felly ei fam, a'i chwiorydd. Deallasant hwy yr arwyddion yn lled fuan; ond yn eu calon y cadwasant eu meddyliau. Cyn hir, addfedodd y tynerwch hwn yn gydymdeimlad bywiog a chryf ar ran rhai o honynt; ac yn eu cyfrinach gyda pha gysur dyddan a sanctaidd y sibrydent y naill wrth y llall, 'Dy bobl di yw ein pobl ninnau, a'th Dduw di yw ein Duw ninnau!'

Yr oedd preswylfod Tomos William, â'r hwn y talai Prydderch ieuangc ymweliadau mor fynych ag y caniatäai amgylchiadau, yn digwydd bod o fewn ergyd careg i'r capel, am yr hwn y soniwyd eisoes. Ond yr oedd yr hen ŵr hwn, er wrth ei fodd yn ymddiddan am bethau crefydd gyda'r bachgen, etto yn meddu digon o anrhydedd a chwrteisrwydd i ochel defnyddio unrhyw ddylanwad uniongyrchol tuag at ei ddenu i le y gwyddai yn dda oedd yn ddolur llygad i'w dad, a'i brif gyfeillion. Ar yr un pryd, hwyrach mai prin y golygai mai ei le ef oedd gosod rhwystrau ar ei ffordd i fwynhau rhagorfreintiau Seion, os hyny a fynai. Yn yr amgylchiadau, dïau mai pwngc dyrys mewn moeseg i'r ddau oedd penderfynu pwysigrwydd cymmhariaethol gofynion y pummed gorchymyn a gorchymynion o fath y rhai hyny:—'Cymmhellwch hwynt i ddyfod i mewn,' 'Deuwch allan o'u canol hwynt, ac ymddidolwch, medd yr Arglwydd.' Y diwedd fu, fodd bynag, i'r fantol droi ar ochr y 'gadael tad a mam, a brodyr a chwiorydd, er mwyn teyrnas Dduw;' ac un noswaith, o dan fantell Tomos William (yn llythyrenol felly, dywedir), dros orddrws y capel yr aethpwyd. Gorchudd aneffeithiol, er hyny, fu y fantell; o blegid, yn un peth, yr oedd y gelyn yn berchen llygad barcut a thafod gwiber; a digwyddodd beth arall—torodd gwawr y Pentecost yn y capel! 'Yn ddisymmwth daeth sŵn o'r nef, megys gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eistedd, ac ymddangosodd iddynt dafodau gwahanedig megys o dân, ac efe a eisteddodd ar bob un o honynt'—ac ar y brawd ieuangc o ben draw y plwyf yn anad neb! A thra yr oedd y gelyn ddyn yn hysian ei gyhuddiad gwenwynig yn nghlust y tad, yn Tŷ Calch, yr oedd y mab ar uchaf ei lais yn cyhoeddi ei euogrwydd i bell ac i agos yn mharciau siriolwych yr Henblas, ac ar bongciau moelion y Gromlech, a Llyswen. Yr oedd y moliannu a ddechreuodd o dan y tô gwellt, ac ar y llawr brwyn, wedi troi yn 'ganu uwch am Galfari' ar y ffordd adref. Trafferth afreidiol hollol a gymmerodd yr achwynwr arno ei hun; canys nid oedd raid i'r hwn yr achwynai wrtho ond sefyll o flaen ei dŷ mewn trefn i gael sicrach tystiolaeth. Yr oedd ochrau Edern a Berw yn diaspedain â mawl, a holl goedwigoedd y bröydd yn curo dwylaw!

Rhoddodd y dadguddiad yma friw creulawn i deimladau y penteulu. Y gwir yw, fe ddigiodd yn aruthr, a chollodd ei hunanfeddiant yn llwyr! Nid cynt y cyrhaeddodd ei fachgen—byw ei lygad, hyd yma—y buarth na chyfarfyddodd ei dad ef gyda gwynebpryd o'r hwn yr oedd pob dafn o waed wedi cilio, a thymmer mor afiywodraethus fel nad allai barablu braidd air. A'r modd a gymmerodd i arllwys ei deimladau gwylltion a digofus oedd, trwy wlawio ffonnodiau dirif ar bob rhan o gorph lluddedig mab ei galon. Dioddefwyd y driniaeth sarhaus hon yn yr ysbryd mwyaf amyneddgar a gostyngedig gan y llangc ieuangc. Ond pan, ar ol gorphen y curo, y trodd ei dad ei gefn arno, gan ddyweyd mai ar ei berygl y tywyllai ddrws y tŷ y noson hono, ymollyngodd ei natur yn ddirfawr—ac wylodd yn hidl! Cododd yr ymofyniad yn ei feddwl toc, i ba le yr elai o dan yr amgylchiadau? Yr oedd tŷ ei dad yn waharddedig iddo, a llawer o wawd ac ychydig o groesaw a allai ddisgwyl pe yr anturiai at ddrysau y rhai a wnelent i fyny, hyd yn hyn, gylch ei gymdeithas gyffredin. Yn ddolurus ei gorph, ac yn gythryblus ei feddwl, llusgodd ei

hun, o'r diwedd, fodd bynag, hyd at fwthyn distadl yr hen Gristion gloew Hugh Simon; a than ei gronglwyd ef yr ymgeleddwyd ei friwiau corphorol, a chymmhwyswyd at ei feddwl ddogn o 'falm Gilead,' â rhinweddau yr hwn yr oedd gŵr y tŷ yn hynod gyfarwydd. Ar ol llettya yno dros nos, dychwelodd yn y boreu i gyfrychu o dan ammodau llai cynnhyrfus â'i dad. Gyda phob gostyngeiddrwydd, erfyniodd ei faddeuant am achosi poen a siomedigaeth iddo; ond amlygodd, ar yr un pryd, ei fod wedi gwneyd ei feddwl i fyny, unwaith am byth, i fwrw ei goelbren gyda'r rhai 'a erlidid o achos cyfiawnder,' deued a ddelo! Defnyddiodd ei dad, o'i ochr yntau, bob dadl a gynnygiai ei hun i'w feddwl, i geisio ei ddarbwyllo; a phan ddeallodd mai yn ofer ac am ddim y treuliai ei nerth hwn, penderfynodd ddychwelyd at foddion tebyg i'r hyn a ddewisodd y nos o'r blaen; a rhoddodd ar ddeall iddo, yn gyntaf, mai canlyniad ei waith yn troi yn gapelwr a fyddai llwyr ddifuddiad o'i etifeddiaeth; ac, yn ail, mai cyflog sicr pob 'gorfoleddu' o'i eiddo fyddai cystwyaeth ddiarbed, a chartref cauad. Safodd un o honynt at ei benderfyniad yn ddiysgog hyd ddiweddiad oes o ddeng mlynedd a phedwar ugain; a safodd y llall at ei benderfyniad yntau am ysbaid rhai blynyddoedd—ond nid, yn ffodus, hyd ddiwedd ei ddyddiau. Derbyniodd y cyntaf ei gyflog o 'ddeugain gwïalennod, ond un'—nid bumwaith, ond yn fwy tebyg bum pumwaith; ac, 'mewn gwendid, mewn ammharch, mewn anghenion, mewn erlidiau, mewn cyfyngderau' parhaodd 'yn foddlawn er mwyn Crist.' Ni rwgnachodd dan un o'r triniaethau. Cafodd ei wala o gynnwys yr addewid gyfaddas ac anhysbyddadwy, 'Digon i ti fy ngras i.' Yn mhen ennyd, gormod o orchest fu ymattal oddi wrth 'orfoleddu' i ddwy o'i chwiorydd. Ond pan yr aeth y tad i barotoi cospedigaeth gyffelyb iddynt hwy ar eu dychweliad i'r tŷ, ymddengys ddarfod i'w brawd—cyhyrau yr hwn oeddynt fel pres o gadarn, ac fel helyg o hydwyth—ymaflyd, gyda thynerwch merch, ond gafael cawr, am dano, gan ei godi, er mai nid pluen o ddyn ydoedd, a'i osod i eistedd ar ddodrefnyn ger llaw, gan ei alw ato ei hun â'r cyfarchiad hanner parchus a hanner ymliwiol:—'Fy nhad bach!' Clywsom ddywedyd i'r wers ddistaw hon fod yn ddigon effeithiol, nid yn unig i achub ei chwiorydd rhag cam a chywilydd, ond i roi terfyn bythol ar oruchwyliaeth y wialen yn ei chyssylltiad âg ef ei hun. Mor anwrthwynebol ydyw breinianaeth *(chivalry)!* Ond serch i gyfnewidiad yn y cyfeiriad hwn gymmeryd lle, nid oedd digter y tad wedi ei ddyhuddo etto. Pan yr argyhoeddwyd ef tu hwnt i obaith fod ei fab hynaf yn benderfynol o ymlynu wrth y bobl nad oeddynt yn ei gyfrif ef yn well na phenboethiaid ac ynfydion (ac hyd y dydd heddyw nid oes neb mor esgymmun yn Ynys Môn a'r sawl a ystyrir yn fyr o bwyll a synwyr cyffredin, pa ddoniau eraill bynag y byddo yn berchen arnynt), cymmerodd fesurau i gario allan ei fygythiad i'w ddi-etifeddu. Gwerthodd amryw o fân leoedd oedd yn eiddo iddo, yn Arfon, ac yn ei wlad ei hun. Dichon, er hyny, fod a fyno lliosogiad cyflym ei deulu â'r weithred hon. Yr oedd dwyn i fyny gynnifer o feibion a merched ag a fu ganddo ef, tra ar yr un pryd gadw iddo ei hun y moethau â'r rhai yr oedd efe wedi ymgynnefino, yn ammhossibl, fe allai, heb gymmeryd rhyw lwybr o'r fath. Ond ei arfer ef, am ysbaid o leiaf, oedd rhoddi y bai wrth ddrws ei gyntaf-anedig. Trodd ei ymgais i werthu y prif dyddynod a berthynai iddo yn aflwyddiannus. Erbyn edrych, yr oedd gweithred ei briodas yn rhwystr anorfod i hyn; ac er ei siomedigaeth, dros amser, gwelodd na oddefai cyfraith y wlad iddo gospi ei fab i'r eithafion yr oedd efe wedi bwriadu. Ond tra y tybiai yn wahanol, a serch gwybod fod cyfreithiwr wedi ei osod ar waith i'w golledu o'i enedigaeth-fraint, os oedd modd, cadwodd y llange ieuangc yn ffyddlawn at ei benderfyniad i 'ddewis adfyd gyda phobl Dduw o flaen mwyniant pechod dros amser.'

Y mae yn amlwg nas gallasai anghydfod fel hyn rhwng y deuddyn lai na dwyn anghysur mawr i blith y teulu yn ei gyfanswm. I'r fam, yn enwedig, parodd ddirfawr bryder a thristwch. Yn ffodus, yr oedd hi yn wraig a feddai fesur da o ddoethineb, yn gystal ag o dynerwch. Yr oedd hi yn mhell o gydolygu â'i phriod yn nghylch ysgelerder ymddygiadau eu mab, ac o gymmeradwyo y dull a gymmerodd efe i weinyddu cerydd arno, ac i geisio ei ddychwelyd i'r hen lwybrau. Etto, bu yn ofalus rhag gwneyd dim i 'yru y drwg yn waeth.' Er fod ei chalon yn gwaedu dros ei bachgen tirion ar y nosweithiau mynych pan na feiddiai ddyfod yn nes i'r tŷ na'r ysgubor am ymborth i dori ei newyn, a gobenydd i orphwys ei ben; etto, nid anghofiodd fod iddi ei dyledswydd tuag at ei phriod hefyd; yr hwn, pa mor bell bynag y cyfeiliornai, oedd gŵr y tŷ wedi'r cwbl. Nid elai ei hun ar yr adegau hyn i gysuro ei 'gwesyn truan;' ond gofalai am anfon un o'i chwiorydd, i adael lluniaeth iddo mewn man y gallai efe ei gael ar ei ddychweliad o'r gwmnïaeth waharddedig. Ni synem chwaith nad oedd rhywun arall yn cau ei lygaid yn fwriadol ar y tipyn afreoleidd-dra hwn.

Ond er fod Prydderch, fel y dywedasom, yn mynychu cyfarfodydd y capel erbyn hyn, parhaodd am dymmor, fel llawer eraill yn yr amseroedd hyny, i ymweled âg eglwys y plwyf ar y Sabbothau, fel o'r blaen. Yn niniweidrwydd ei galon ef, ac o bossibl yn ngoleuni ei reswm hefyd, ni welai unrhyw anghyssondeb mewn coleddu teimladau cynnes at y ddau le. Tybiwn ei glywed yn ymresymu:—'Os rhoddir pob croesaw yn y llan i fynychwyr y tafarnau, a'r gŵylmabsantau, a'r ymrysonfeydd, pan yr elont i'r gwasanaeth a'r cymmun sanctaidd, wrth reswm, nid llai (a disgwyl yn gymmedrol) fydd y sirioldeb a ddangosir at un fel myfi, sydd heb fod yn euog o ddim ond defnyddio pob cyfle possibl i ddarllen y Beibl, i weddïo ar Dduw, ac i gymdeithasu a chyd-addoli âg ychydig o wŷr a gwragedd syml, y gŵyr pawb nad oes neb yn yr holl ardaloedd sydd yn fwy difrycheulyd eu hymarweddiad, yn fwy duwiolfrydig eu hagweddion, ac mor lawn o sêl dros wir grefydd.' Ond os dyma ei ddisgwyliadau, buan y siomwyd hwynt. O groesaw a sirioldeb, ni chafodd efe rith. O wawd a gŵg, ac o ddirmyg ac erledigaeth, cafodd ei wala. Etto, o'r braidd y gellir dyweyd ddarfod iddo dramgwyddo wrth yr Eglwys Esgobawl, fel sefydliad crefyddol, erioed. Dymunai yn dda iddi, fel y cyfryw, drwy ei oes. Ar yr un pryd, serch ymryson yn hir yn erbyn ymddygiadau dall ac andwyol ei hawdurdodau, a goddef yn amyneddgar holl ymosodiadau annheilwng ei phleidwyr, teimlai ei hun, o ychydig i ychydig, yn ymbellhau o'i

Digitized by Google

chymmundeb, ac mewn encil gorfodol yn nghyfeiriad Ymneilldnaeth trwyadl. I rai fel efe, oedd yn dwyn nodau anghamsyniol o fod wedi eu 'dwysbigo yn eu calonau,' ni chaniateid hyd yn oed oddefiad oer o fewn i'r Eglwys Wladol. Yr oedd ei gwrthodiad o honynt yn bendant, ac weithiau yn fileinig. Ond o du yr Ymneillduwyr, dirgymmhellid arnynt groesaw calon, gydymdeimlad llawn, rhyddid crefyddol ëang, a chymdeithas gydnaws a llawn o fywyd ysbrydol.

Ond er y cilgwthiad oedd yn un man, a'r atdyniad oedd yn y fan arall, yn bwyllog y croesodd efe o'r naill wersyll i'r llall Ni chymmerodd y cam terfynol o ymuno â'r *society* hyd y flwyddyn 1798; sef, pan oedd yn 24ain mlwydd oed. Y mae yn debyg fod a fyno marwolaeth ei fam, bum mlynedd cyn hyn—amgylchiad a'i pruddhaodd yn ddirfawr—â'r oediad maith hwn hefyd. Nid gŵr oedd efe i lidiogi dolur neb—llawer llai eiddo ei dad trallodedig. I'r gwrthwyneb, efe a fu yn ddyfalach nag erioed yn y blynyddoedd hyn i ddangos parch ac anwyldeb neillduol tuag ato, ac i'w wasanaethu gyda ffyddlondeb dwbl. Ac ni bu ei ymddygiad ystyriol a mabaidd heb fesur o effeithiolrwydd. Lliniarodd teimladau tramgwyddedig ei dad tuag ato cryn lawer, er iddynt ail ennyn pan y daeth yr awr i ddarfod gwingo yn erbyn y symbylau. Wedi dyfod hono, yr oedd parhau i gydfyw â'u gilydd yn anymarferol; ac ymneillduodd yr ieuangaf, gyda chydsyniad, os nad fe allai ar gais yr uchafwr, i fferm gyfagos, o'r enw Felin Bach—preswylfod dros dymmor ei geraint o Gaerhun. Achosodd yr ymwahaniad hwn chwyldröad mawr yn nheimladau y tad. Dychwelasant i'w hen sianelion, ac ymarllwysasant yn adnewyddol mewn serchawgrwydd difesur ar ben 'John Prydderch;' yr hwn, mwyach, a fwynhaodd ei edmygedd a'i ymddiried llwyraf hyd ddydd ei farwolaeth, yn 1836.

Nid oes ammheuaeth na bu adennilliad y berthynas ddedwydd a ffynai rhwng ei dad ac yntau flynyddoedd yn ol, yn foddion i roddi iddo ail flâs ar fywyd. Gallai, o hyny allan, gyfrif ar gefnogaeth a chyfarwyddyd ei dad mewn unrhyw anturiaeth fydol y dewisai efe ymgymmeryd â hi; ac hefyd, ar ei oddefgarwch, os nad ei ymfoddlonrwydd, yn y cwrs o ddefnyddioldeb crefyddol ar yr hwn yr oedd ei fryd yn rhedeg fwy-fwy. Nid rhyfedd, yn yr amgylchiadau hyn, pan yr oedd ei gyfrifoldeb personol yn trymhau o un tu, a'i ryddid i ddewis ei ffordd ei hun yn cael ei ganiatau iddo yn hollol o'r tu arall, i'w feddwl droi i gyfeiriad y try meddwl aml i langc pedair-ar-hugain oed iddo, weithiau. Rhyw chwe milldir i'r dwyrain o'r Felin Bach, rhwng deu-fryn prydferth, a cher llaw nant mor swynol fel mai ei henw yw 'Ceint,' trigai, y pryd hwnw, yn ei chartref clyd, ferch ieuangc hawddgar, oedd (os credwn dystiolaeth cynnwysiad hen ysgrifgist, i'r hon yr ymddiriedid llawer o bethau fu yn hynod gyfrinachol rywbryd) can deced ei phryd a Rahel, y fugeiles yn Haran, a chan wyleiddied ei hysbryd a'i hystum a'r Fair fu byw ar bwys yr Olewydd. Pan syrthiodd ei lygad ar y weledigaeth hon, aeth ei galon tuag ati ar unwaith; a chyda hi yr arosodd byth. Enw y ferch dirion hon oedd Elizabeth Rowland; ond yn yr ysgrifau y cyfeiriasom atynt, galwyd hi yn 'Elizabeth Prydderch' ddegau o weithiau cyn i ddefod gwlad roddi iddi y cyfenw hwnw. Merch ydoedd i ŵr o'r enw John Rowland, o'r Dyffryn isaf—ac ar ol hyny, o'r Tŷ fry. Gŵr hynod adnabyddus yn Môn yn y ganrif ddiweddaf ydoedd efe ar gyfrif ei anturiaethau amaethyddol a masnachol. O'r Bontfaen, ger Aberffraw, yr hanodd ei mam; a chlywsom gan un a wyddai yn dda am dani mai 'hen foneddiges gan mlynedd o flaen ei hoes' ydoedd. Un rheswm am hyn, mae'n debyg, oedd y ffaith ei bod ar delerau pur gyfeillgar â theulu Bodelwyddan; a thrwy hyny, wedi mwynhau cyfleusderau i weled cryn lawer o'r byd y tu allan i'r Ynys Dywell. Cafodd ei merch ddygiad i fyny da; ac yr oedd mor abl i ysgrifenu llythyrau dillyn ag yw merched yr oes bresennol gyda'u manteision addysgawl rhagorach. A mwy na hyn, deffröwyd hi, trwy ryw foddion, i feddwl gyda difrifwch am bethau y byd a ddaw; ac yr oedd crefyddolrwydd ei hysbryd, wrth reswm, yn un, os nad y prif, swyn a feddai yn ngolwg ei gŵr dyweddïol.

Cymmerodd eu priodas le yr 22ain o Fehefin, 1802, a sefydlasant yn y Dyffryn Gwyn—fferm o gryn faintioli ar etifeddiaeth Bodelwyddan—oedd yn cyd-derfynu â rhai o'r ffermydd a ddaliai ei thad o dan yr un meistr tir. Gan fod y naill a'r llall yn gwbl ymroddedig i'w gilydd, ac yn cyttuno yn hollol gyda golwg ar yr egwyddorion oedd i lywodraethu eu tŷ a'u holl fuchedd, ni phetrusasant fyned yn mlaen yn ddi-ymdroi i osod i lawr, ac i weithio allan, drefniadau teuluaidd na bu raid cyfnewid nemawr arnynt tra y buont yn cyfanneddu yn y Dyffryn Gwyn. Sylfaen ac allwedd yr holl oruwch-adeiladaeth oedd crefydd. I'w hegwyddorion a'i hawliau hi yr amcenid gwneuthur pob trefniant yn ddarostyngedig. Ymdrechid defnyddio y moddion goreu i ddwyn i mewn i'r holl dŷ, ac i gadw a meithrin yn ei holl gylchoedd, ei hysbryd tangnefeddus a bendithlawn. Yn chwanegol at ymarferiadau personol a dirgel, ni chaniateid i ddim, bydded a fyddo, symmud y ddyledswydd deuluaidd o'i lle. Cafodd hono, yr ydym yn credu, ei chadw yn ddi-fwlch ar aelwyd y Dyffryn Gwyn, o'r fl. 1802 hyd y dydd y cauwyd ei ddrws yn 1864. 'Rhaid i ni beidio esgeuluso y ddyledswydd, Shôn Gruffydd bach,' ebai gŵr y tŷ wrth ei brif was y boreu cyntaf ar ol i angeu ei ysbeilio, yn y fl. 1818, o'i briod hoff. Pan y byddai efe gartref—ac heb eithrio y boreuau Llun a ddilynent ei Sabbothau llafurfawr—byddai yn gadael ystafell y teulu, ac yn myned i 'gegin fawr' y gwasanaethyddion yn brydlawn bob boreu am chwech o'r gloch, gan gymmeryd ei le wrth ben y bwrdd, ar yr hwn y byddai y prif was, wrth ei swydd, wedi dodi 'y Beibl mawr;' ac wrth yr hwn, yn misoedd y gauaf, y byddai *lamp* wedi ei thrwsio yn ofalus gan yr un dwylaw. Darllenai y meistr yr Ysgrythyrau o'u cŵr yn gyffredin, gan ddechreu yn Genesis, a diweddu yn y Datguddiad. Yr ydym yn cofio ei glywed unwaith yn darllen pennod gyfan o enwau yn yr Hen Destament; a thrwy aros yn ystyriol, pan y deuai yma ac acw at enw rhyw hen batriarch lled adnabyddus, a phwysleisio hwnw, a'i adrodd drosodd a throsodd, gyda mwy a mwy o anwyldeb, cadwodd ni oll yn hollol ddiddig ac effro; a chafodd y fath flâs ei hun ar y bennod fel yr oedd dagrau gloewon yn syrthio ar y llyfr sanctaidd wrth iddo ei diweddu. Arferai ef a'i weision weddïo ar gylch. Weithiau, cydganent emyn. Weithiau, cedwid 'dyledswydd' ar hanner dydd, yn gystal a'r boreu a'r hwyr.

Digitized by Google

Bob amser ar foreu Sabbath, safai pawb ar eu traed cyn darlleniad y Gair, a chyd-adroddent y pedwerydd gorchymyn. Yr oedd urddas, ac yn fynych eneiniad neillduol, ar y ddyledswydd deuluaidd drwy y blynyddoedd yn y Dyffryn Gwyn.

Tuag at gyrhaedd yr un amcan, yr oedd yn ddealledig, nid yn unig fod caniatâd, ond y disgwylid i'r cyttywyr o bob gradd, a hefyd i'r dyeithr-ddyn a ddigwyddai fod o fewn y pyrth, fyned i'r capel pa bryd bynag, a pha mor aml bynag y cynnelid unrhyw fath o foddion ynddo. Cwttogid oriau llafur y gwasanaethyddion, a chynllunid holl waith y dydd fel ag i wneuthur hyn yn bossibl. Yr oedd y ddeddf deuluaidd hon mewn grym, bydded y tywydd y peth a fyddo, a'r prysurdeb a'r golled arianol yr un modd. Yr oedd yr hin yn hynod o anfanteisiol un tymmor haf i gasglu a diddosi ffrwyth y meusydd—bu yr ŷd am wythnosau ar ol ei fedi heb ei gynhauafu. Ond ar ol hir wlaw, daeth dydd o hin dda o'r diwedd; ac yn union ar ol y boreu-bryd, wele o ddeutu dwsin o wŷr cyflog at y seldremau mewn llawn calon. Ar ganiad y pryd-gorn, ar hanner dydd, dacw hwynt yn prysuro i lawr y bongc wrth sodlau y prif was, ac i'r tŷ ac at y bwrdd ciniaw â hwy, fel bytheuaid. Ond pan oedd y diolch ar gael ei gyflwyno gan yr hen ddyrnwr duwiol, Shon Owen, o'r Ffrydiau, daeth y meistr i mewn. 'Wel, langciau bach (dywedai) y mae hwn a hwn (gan enwi rhyw bregethwr digon di-nôd o'r Deheudir) i bregethu yn y Talwrn am ddau o'r gloch; ewch i ymolchi, a deuwch i gyd efo'ch gilydd i'r odfa. Os mŷn yr Arglwydd tirion, ni gawn dywydd braf etto i drin yr ŷd.' Ac i'r capel, yr hwn oedd o ddeutu dwy filldir o bellder, yr aethant, bob un; a hyny heb aberthu un geiniog o'u cyflogau, ac er nad oedd unrhyw argoelion fod y tywydd yn debyg o barhau yn ffafriol!

Ac nid defodau crefydd yn unig a berchid yn y teulu hwn; eithr yr un ffunud ei gofynion ymarferol. Hawdd y caffai unrhyw dyddynwr mewn adeg o wasgfa fenthyg llaw, neu anifail, neu offeryn gan ŵr y Dyffryn—a hyny yn aml heb ofyn am y gymmwynas. Yr oedd y pwrs yn wacach o gryn dipyn bob tro y gwneid casgliad at unrhyw achos da yn y capel; ac nid oedd fesur ar y parotoadau cyn, a'r lluniaeth pan, y deuai y cyfarfod misol, &c., i'r ardal. Ymholid yn fanwl yn mha le y byddai gwŷr dyeithr yn pregethu rhyw ddeuddydd neu dri cyn i'w cyhoeddiad yn y Talwrn ddyfod oddi amgylch, er mwyn anfon negesydd i gyrchu yr îs-wisg oedd y rhai oedd yn galw am y twb a'r nodwydd. Telid ymweliadau mynych â chleifion y gymmydogaeth hefyd. Gweinyddid pob ymgeledd a chysur i'r rhai helbulus eu byd. Nid yn unig safai sachaid o flawd, a chist o ŷd, y tu ol i ddrws y cefn yn wastad, o'r rhai y cyflenwid cŵd pob cardotyn a ddelai heibio; ond gofelid, hefyd, am eraill a ddioddefent eisieu, heb fod ganddynt wyneb i 'hel eu tamaid.' Po amlaf y lloffwyr yn y meusydd yn adeg y cynhauaf, mwyaf oll fyddai sirioldeb eu perchenog. Ni lusgid y gribin dros wyneb y caeau ond yn dra ysgafn; nac o gwbl pan fyddai tlodi yn eithriadol o fawr yn y cymmydogaethau; ac â'i law ei hun arferai y meistr estyn o'r ysgub a'r ystwc yr hyn fyddai yn angenrheidiol tuag at orphen beichiau y lloffwyr na oddefai llesgedd iddynt eu cwblhau eu hunain. Yr oedd eu prydau iddynt oll yn y tŷ ar ddyddiau y lloffa mor reolaidd ag oeddynt i'r gweithwyr oedd dan gyflog. Yr oedd noson o gwsg, mewn gwely parotoedig, a deubryd o fwyd, yn sicr i bob crwydryn a ddeuai i'r Dyffryn liw nos i ymofyn am letty. Os nos Sadwrn fyddai, cyssylltid dau ammod difrifol gyda'r ffafrau hyn; ac yr oedd y rhai hyny yn rhwymau hyd yn oed ar y minteioedd o Wyddelod a gyrchent yno, gyda chyssondeb y gogau a'r gwennoliaid, o flwyddyn i flwyddyn; sef, fod yn rhaid aros yno i fwrw y Sabbath, a myned i'r odfeuon gyda'r llangciau foreu a hwyr. Yn ofer y dadleuai y Gwyddel mai Pabydd oedd efe, ac mai nid y Gymraeg oedd ei dafodiaith. I'r capel yr oedd raid myned, os mynai efe ymborth a lletty o dan y gronglwyd hono ar nos Sadwrn.

Y mae yn hawdd gweled bellach mai nid i ymgyfoethogi yr oedd Prydderch yn byw. Ar yr un pryd, yr oedd yn mhell o fod yn esgeulus o'i amgylchiadau bydol. Er na chamarferai y byd, arferai ef gyda phob dyfalwch a chydwybod. Nid rhinweddau esgeulusedig ganddo ef oedd cynnildeb rhesymol, a'r rhagddarbodaeth sydd yn berffaith gysson â chyflawnder o wir ffydd. Amaethai ei dir yn ofalus. Yr oedd yr arolygiaeth ar yr anifeiliaid yn fanwl. Yr oedd y gorchymyn sydd yn gwahardd cau safn yr ych sydd yn dyrnu yn gyssegredig yn ei olwg. Elai i'r ffeiriau a'r marchnadoedd yn rheolaidd. Treuliai beth amser i gydymgynghori â'i ferch a'i brif was ynghylch gwaith y dydd bob nos a boreu pan fyddai gartref. Cyn myned oddi cartref, gadawai gyfarwyddiadau gyda golwg ar yr holl orchwylion oedd i gael eu cyflawni yn ei absennoldeb; ac ar ol dychwelyd, disgwyliai am adroddiad o'r cwbl a gymmerasai le. Yr oedd ei gynllun ef wrth ddechreu byw wedi ei drefnu yn y fath fodd fel ag i ganiatau iddo bob mantais i gyssegru llawer o'i amser i achos crefydd yn mhob ffurf. Gyda'r nôd hwn o'i flaen, cymmerai boen neillduol wrth gyflogi ei weision. Yr oedd raid iddo gael ei foddloni, nid yn unig mewn perthynas i'w gweithgarwch a'u medrusrwydd, ond hefyd o barth i'w gonestrwydd a'u crefydd—ac yn enwedig yn achos y rhai a osodai yn y swyddau mwyaf cyfrifol. Bu yn hynod ffodus yn ei ddewisiad cyntaf o was goruchwyliol. Arosodd y gŵr hwn—Shôn Gruffydd, fel ei gelwid—yn ei wasanaeth am lawn 33ain o flynyddau, gan deilyngu hefyd a mwynhau ymddiriedaeth lwyraf ei gyflogwr bob amser. Yn yr un modd gwasanaethwyd ef yn ddyfal ac yn ffyddlawn gan eraill y gellid eu henwi; ac yn enwedig gan yr hen ddyrnwr syml a gweddigar, Shôn Owen, o'r Ffrydiau. Ond yn fwy o lawer nag hyd yn oed i'r rhai hyn, a'u cyffelyb, i'w briod, ac, ar ol ei marwolaeth hi, i'w ferch hynaf, y mae y clod yn ddyledus am alluogi y penteulu i roddi rhan mor fawr o'i amser a'i feddwl i weini i achos crefydd yn ei genhedlaeth.

Cyn symmud i fwrw golwg ar ei nodweddion fel gŵr cyhoeddus, teilwng yw coffa yn mhellach am rai o'r prif ddigwyddiadau eraill a'i cyfarfuasant yn nghylchoedd mwyaf cyfrinachol ei fywyd. Trodd ei briodas allan yn un hynod ddedwydd. Yr oedd hoffder y gŵr a'r wraig o'u gilydd, eu gofal am eu gilydd, a'u dyddordeb yn helyntion eu gilydd, yn fawr a pharhaol. Ac am eu bod yn synied yr un peth, ac, uwch law y cwbl, yn ymhyfrydu yn ngwasanaeth yr un Meistr, yr oedd eu cysur, tra y buont yn cyd-fyw, fel yr afon. A mynych yr hysbyswyd

Digitized by Google

ni gan un na pheidiodd a hiraethu ar ei hol trwy ystod deng mlynedd a thrigain, a rhagor, am hyfwynder ei mam, ynghyd âg am ei synwyr da a'i hysbryd duwiolfrydig. Ni chafodd fyw i wylied ymddadblygiad y ddwy eneth a roddwyd iddi ond dros flynyddoedd byr eu plentyndod; ac o'r braidd y cafodd hi hyny. Ond hi a lwyddodd, cyn eu gadael, i osod y fath argraph ddaionus ar eu meddyliau ieuengaidd na bu oes faith yn abl i'w dreulio, heb sôn am ei ddileu.

Ganwyd yr hynaf o'r plant—Elizabeth - ar y 10fed o Orphenaf, 1803; a'r ieuengaf—Emma—ar y 27ain o Dachwedd, 1806. Yn 1818, daeth clefyd y *typhus* i'r Tŷ Fry—preswylfod brawd Mrs. Prydderch. Clafychodd y teulu oll, a bu amryw o'i aelodau feirw o'r dwymyn ffyrnig. Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol iddi ddychwelyd oddi yno—canys bu yn ddi-orphwys yn ei gweiniadau ar y dioddefwyr—cymmerwyd hithau yn glaf; ac yn bur ddisymwth, ar y 1af o Chwefror, bu farw—a hi etto heb fod yn llawn deugain oed. Daeth y dydd blin hwn—y duaf o ddyddiau ei oes—ar warthaf preswylydd Dyffryn Gwyn mor annisgwyliadwy ag y daeth ei gyffelyb i ran y prophwyd a symmudwyd gynt o ganol dydd digwmwl Carmel i ganol nos ystormus ac unig Horeb. Ond megys y daeth gair yr Arglwydd at y naill, y daeth hefyd at y llall, mewn 'llef ddistaw fain.' Ac os bu raid goblygu y pen yn y fantell, o dan deimladau cymmysgedig o brudd-der ac ymostyngiad, ni adawyd y galon heb adgyflenwad o ddefnyddiau sêl fwy grymus nag erioed dros achos Duw, a hyder mawr arno.

Fel y gellid disgwyl, cafodd helaethrwydd o gydymdeimlad pur o bob man. Yn mysg llawer eraill, ymwelodd y Parch. John Elias âg ef droion, i geisio ei gysuro; ac hefyd, yn mhen rhyw ddeutis neu dri, i roddi iddo air gwerthfawr a brawdol o gynghor. Ymddengys fod Elias, ar ol bwrw golwg ar amgylchiadau ei gyfaill—ei oedran iraidd, ei berson harddwych, ei ymarweddion dengar, ei anianiaeth fywiog, a'i sefyllfa fydol gysurus—wedi ofni y gallai fod mewn perygl i ymddwyn heb y pwyll a'r arafwch oedd yn weddus, ac yn enwedig mewn gweinidog perthynol i gyfundeb manwl y Trefnyddion Calfinaidd, yn y mater o ymbarotoi ar gyfer, a ffurfio, cyssylltiadau teuluaidd newyddion. Braidd nad oedd y gŵr enwog, ar y pryd, yn cydolygu âg un o'r apostolion am hyn o beth. Pa fodd bynag, cymmhellodd ef yn daer i adael i, o leiaf flwyddyn, fyned heibio cyn ail ymarwisgo â chadwynau priodas. Gyda phob addfwynder, goddefodd yntau air y cynghor; ac addawodd ufudd-dod iddo, gan chwanegu mai ei fwriad oedd aros yn 'ŵr un wraig' byth. Pan, yn mhen o ddeutu chwe blynedd, yr adgoffawyd y cynghor hwn iddo ar achlysur priodas Elias â *Lady* Bulkeley, ar ol gweddwdod o ychydig fisoedd, clywsom na chaniataodd i un gair edliwgar a gwatwarus syrthio dros ei wefusau, er i wên ysgafn grychu rhyw gymmaint arnynt er ei waethaf. Cawn yma gipolwg ar guddiad ei gryfder, ac achos y cariad a'r parch a deimlid tuag ato gan bawb a'i hadwaenent. Ymgadwai rhag pob rhith o enllib ac absen, fel rhag tân.

Er nad oedd ei ferch hynaf yn llawn pymtheg oed pan fu ei mam farw, rhoddodd ei thad ofal y tŷ, a llawer rhagor, ar ei hysgwyddau ieuaingc yn hyderus. Yr oedd ar y pryd ar gychwyn o dŷ ei nain (gyda'r hon y treuliodd y rhan fwyaf o'i dyddiau boreuaf) yn nghwmni ei chyfeilles, Jane Lloyd, Beaumaris, i'r ysgol yn yr Amwythig; ond heb betrusder, ac yn gwbl ddirwgnach, aberthodd yr ysgol, a llawer mwyniant arall yr edrychai yn mlaen yn naturiol tuag ato, ac ymdaflodd yn gyfangwbl i'r gwaith o ofalu am ei thad, a'i achosion oll. Hyn a wnaeth gyda mwy-fwy o gydwybodolrwydd a chymmeradwyaeth o'r adeg hon hyd y dydd, yn 1864, y rhoddes angeu derfyn ar gyfrifoldeb a hapusrwydd ei bywyd. Ceisiwyd ei denu o'i chartref aml waith; a bu agos i un ymgeisiaeth, os nad ydym yn methu, droi allan yn llwyddiannus. Buasai hyny wedi digwydd, ysgatfydd, oni bae i'w thad, yn ddamweiniol, ni gredwn, wrth 'gadw dyledswydd' un boreu, ddarllen gair o Ysgrythyr, a'i ail adrodd ar weddi. Parodd y gair hwnw iddi feddwl mai gwell fuasai ganddo iddi aros gydag ef—ac felly y bu. Yn 'Miss Prydderch' y dewisodd hi barhau am ei hoes. Boneddiges dawel, synwyrol, hyfforddus, a llawn o weithredoedd da, ac o ffydd, ydoedd Miss Prydderch. Yr oedd y ddwy yn ymroddedig tu hwnt i fesur i'w tad, tra yr oedd yntau yn llawn mor wirion (os cawn lithro i dafodiaith yr ynys) am danynt hwythau—ac am ddigon o reswm; canys yr oeddynt hwy yn eithriadol o hygar. Eler i ardal y Talwrn heddyw, ar ol cymmaint o amser, a gwrandawer ar ystraeon ei haelwydydd; a chlywir, ond odid, yn mwthynod y tlodion, ac annedd-dai rhai gwell eu byd, fod 'angyles dirion' wedi gwneyd ei chartref dros lawer o ddyddiau yn nghwr y fro hono ennyd yn ol. Yn yr un modd yr oedd ei chwaer yn oludog o'r un rhinweddau—o'r rhan fwyaf a phwysicaf o honynt, o leiaf; ac o'r cyfan yn wir, oddigerth, ar ryw olwg, y tawelfrydedd urddasol oedd yn perthyn yn neillduol iddi hi. O'r tu arall, yr oedd ei chwaer yn rhagori, nid yn unig arni hi, ond yn ein barn ni, ar y mwyafrif o'i rhyw, mewn llawer o gymmhwysderau naturiol ac ennilledig. Bu natur yn hynod law-agored yn ei chyfraniad o'i doniau i hon. Clywsom, a hawdd yw genym gredu y dystiolaeth, ei bod, yn nhymmor ei hieuengctid, yn dra glandeg ei phryd, ac mor siriol a hudolus ei hysbryd, a'i ffyrdd, fel ag i ennill sylw a hoffder pawb o'i chwmpas. Cynysgaeddwyd hi hefyd â chynneddfau meddyliol cryfion; y rhai a gawsant feithriniad ganddi hyd at eithafion y manteision (rhy brinion) a ddaethant i'w rhan. Yr oedd hi yn hynod sylwgar, ac nid yn llai cofus. Ni welai, ni chlywai, ac ni ddarllenai ddim na roddai i'w gadw mewn côf na ollyngai un peth o'i afael. Daeth felly yn foreu yn hyddysg iawn mewn pob math o hanes. Mae'n ammheus genym a welwyd neb mwy cyfarwydd na hi â hanes pobl a helyntion Ynys Môn drwy y canrifoedd. Aeth casgliad ammhrisiadwy o draddodiadau y wlad ar goll pan yr hunodd hi, yn 1892; ac felly, hefyd, o'i llenyddiaeth lafaredig a gwerinol. Yr oedd y cyfryw bethau ar flaen ei bysedd—at ei galwad pan fynai—yn enwedig, fel yn y cyn-amseroedd, y rhai a dreiglasant i lawr yr oesoedd mewn cynghaneddion a rhigymau. Yr oedd ei sylwadau ymddiddanol ar bob rhyw fath o faterion yn wastad yn frith o gyffelybiaethau wedi eu benthyca o'r gwreiddiau hyn, yn gystal ag o'r rhai a gynnyrchai ei dychymyg awchlym hi ei hun. Yr oedd ei chyfeillach, pa un bynag ai wyneb yn wyneb, ai trwy gyfrwng y llythyrfa,

Digitized by Google

yn swynol dros ben. Gyda'r athrylith brin hono na pherthyn i neb ond i'r rhai y rhydd y seraph y marworyn i gyffwrdd â'u genau, gallai hi wisgo pob testyn—hyd yn oed y testynau mwyaf cyffredin—â dyddordeb a hudoliaeth mawr. Etto, er disgleiried y talentau amrywiol a feddai, nid hwy, ar gyfrif yn y byd, oedd yn cyfansoddi ei choron. Yr oedd hono wedi ei gwneuthur o ddefnyddiau llawer gwell. Rhinweddau—nid talentau—a osodasant arni hi anrhydedd neillduol. Gras a'i dilladodd yn ngwisgoedd ei gogoniant. Ei chalon hael a serchog, ei hysbryd addfwyn a siriol, ei hystyriaeth ddyfal o hawliau y tlawd a'r adfydus, ei ffyddlondeb i achos Crist yn mhob cylch, ei sanctaidd ymarweddiad a'i duwioldeb o'i mebyd—yr ansoddau hyn, a'u cyffelyb, a'i dyrchafasant i barch cyffredinol, ac a roddasant iddi le mor ddwfn yn serchiadau pawb a'i hadwaenai.

Y mae yn amlwg, gan hyny, fod elfenau cartref dedwydd iawn yn hanfodi yn y Dyffryn Gwyn tra bu y tad a'r ddwy ferch hyn yn cydfyw ar ei aelwyd. Yr oedd yno amrywiaeth hapus o ddoniau—ond un ysbryd. A chan ymddedwyddu yn eu gilydd, a gweini eu goreu ar eu gilydd yn eu materion bydol a chrefyddol, y treuliasant yr un mlynedd ar hugain a ddilynasant farwolaeth y fam, yn 1818. Yn 1839, llwyddodd un o feibion glewion Plas Gronwy i gael gan y ferch ieuangaf i fwrw ei choelbren gydag ef; ac fel Mrs. Williams, Plas Gronwy—ac ar ol hyny, Graianfryn; ac yn ddiweddaf oll, Tŷ Calch—yr adnabyddwyd hi mwyach; ac heb betrusder, meiddiwn ddywedyd fod ei choffadwriaeth yn fendigedig yn yr holl leoedd y trefnodd Rhagluniaeth iddi wersyllu.

Ni chymmerodd unrhyw gyfnewidiad teuluaidd nodedig le yn y Dyffryn ar ol hyn—gyda'r eithriad o'i oresgyniad cyfnodol gan fintai o wyrion direidus—hyd y fl. 1849; pan, ar farwolaeth ei phriod, y diweddar Barch. W. Williams, Llundain, y gwahoddwyd chwaer y perchenog i ymgartrefu yno. Gwraig oedd hi a berchid yn nghylchoedd crefyddol y brifddinas am o ddeutu deugain mlynedd. Hi a aeth i fyny, i ddechreu, ar waith ei brawd, Samuel Prydderch (am dŷ yr hwn y gofalai yn flaenorol) yn cael ei alw gyda'r llynges i'r rhyfeloedd Ffrengig—yn y rhai yr ennillodd efe iddo ei hun radd uchel fel swyddog, ac yn y rhai hefyd yr archollwyd ef yn dóst. Ei gŵr cyntaf oedd un Thomas Jones, o dueddau'r Wyddgrug; yr hwn oedd yn cario masnach lwyddiannus yn mlaen yn Llundain, ac yn flaenor cyfrifol yn yr eglwys Fethodistaidd yn Wilderness Row, ac wedi hyny yn Jewin Crescent. Trwy ryw anffawd, fe gollodd y gŵr hwn ei holl feddiannau ychydig cyn ei farwolaeth; ond trwy ymdrechion di-ildio ei weddw—ymdrechion a ymestynasant dros lawer blwyddyn galed—cyfarfuwyd â hawliau ei holl ofynwyr hyd y ffyrling eithaf. Trwy yr ymddygiad anrhydeddus hwn, yn gystal ag o blegid ei boneddigeiddrwydd greddfol, a'i theyrngarwch cyfangwbl i 'Frenin Seion' (yr enw a ddefnyddiai yn wastad am y Bôd Anfeidrol), daeth yn wrthddrych y teimlai goreuon ei chydwladwyr ei bod yn fraint iddynt gael bod ar delerau cyfeillgar â hi. Yr oedd James Hughes, Griffith Davies, Henry Richard, David Thomas, Owen Thomas, Hugh Owen, Abel Simner, Mrs. Turnbull, &c., &c., yn gyfeillion calon iddi, ac yn ymwelwyr mynych â thŷ ei gŵr a hithau. Estynodd gymmhorth neillduol i'r Parch. James Hughes mewn llawer ffordd, ac yn enwedig trwy roddi iddo fenthyg y rhan fwyaf o weithiau y duwinyddion a ddyfynir ganddo yn ei esboniad gwerthfawr ar yr Ysgrythyrau—cyhoeddiad sydd wedi bod o gymmaint gwasanaeth i'r genedl Gymreig ag odid unrhyw lyfr a gyhoeddwyd er ei budd erioed. Ar ei dychweliad i sir Fôn, ymroddodd yn hollol i waith crefydd. Mewn gweddi yn ei hystafell, ac mewn ymweliadau defosiynol â'i chymmydogion, y treuliodd holl weddill ei dyddiau; ac nis gallwn ddwyn i'n côf olygfa brydferthach na'r un a welsom aml waith yn ein blynyddoedd boreuol—yr hynafgwr, ei brawd, a hithau, yn cychwyn o'r tŷ gyda'r elfenau cyssegredig yn y fasged, ac yn ymlwybro yn arafaidd gyda'u gilydd i fyny ac i lawr y gelltydd i weinyddu y Sacrament Bendigedig i'r cleifion a'r methiantus y gwyddai hi am eu dymuniad i gael cyfranogi o'r Swper sanctaidd.

Ni a adawn, yn y fan hon, ein hamlinelliad o fywyd preifat gwrthddrych ein hysgrif, er mwyn bwrw golwg ar ddetholion o ddigwyddiadau ei fuchedd gyhoeddus. Gan fod amryw o'r rhai hyn eisoes yn ysgrifenedig, er eu bod ar wasgar yn nghroniclau cyhoeddedig ei oes, afreidiol, ni gredwn, fydd eu holrhain gyda rhyw lawer o fanylrwydd yma.

Nid cynt yr ymsefydlodd yn y Dyffryn Gwyn, yn 1802, nag yr ymdaflodd, gyda mawr sêl, i wasanaethu ei Feistr mewn cylchoedd ëangach na chylchoedd ei deulu ei hun. Yr oedd y diwygiad efengylaidd wedi casglu nerth mawr yn Nghymru a Lloegr erbyn dechreu y ganrif bresennol, ac eisoes wedi cychwyn rhai, ac ymymbarotoi ar gyfer cynllunio llawer eraill, o'r peirianaethau crefyddol a dyngarol enfawr yn mha rai y corphorwyd ei ysbryd, a'r rhai a fyddant byth yn ymffrost ac yn goron iddo. Adennyniad cryf o grefydd ysbrydol ydoedd; ac esgorodd hwnw, maes o law, ar symmudiadau ymarferol a ddadblygasant Gristionogaeth i fesur pell tu hwnt i ddim arall a wnaeth hyny er's rhai oesoedd. Ei hiliogaeth ef, yn ddiau, ydyw y Cymdeithasau Cenhadol a Beiblaidd, a ffrwyth ei lwynau ef ydyw yr Ysgolion Sabbothol, yr Ysgolion Elfenol Dyddiol, a Dirwest, &c. I'r achosion hyn, rhoddodd Prydderch ei galon a'i gefnogaeth frwdfrydig yn ddiwarafun. Gwnaeth hyn, mewn rhan, am eu bod yn cymmeradwyo eu hunain i'w gydwybod; ac mewn rhan, am fod y dynion goreu y gwyddai efe am danynt wrth eu cefn:—ac yr oedd ei allu i dreiddio i adnabyddiaeth o ddynion yn fwy, fe allai, na'i flâs ar chwilio allan y dirgelion oll a berthynent i'w meddylddrychau. Cyssylltodd ei hun â gwaith yr Ysgolion Sabbothol, fel esampl, nid yn unig am ei fod wrth fodd ei galon, ond hefyd, ac yn enwedig, am ddarfod i Mr. Charles, pan yn talu ymweliad âg ef a'i briod yn fuan ar ol eu priodas, roddi siars arno i ddodi ei ysgwydd oddi tano, a'i hyrwyddo—nid yn unig yn ei ardal ei hun, ond trwy holl gyrau y wlad yr oedd efe yn byw ynddi.

Mewn cyfres o nodion a ddaeth i'n llaw trwy garedigrwydd y Parch. W. Pritchard, Pentraeth, efe a ddywed fel y canlyn:—

'Y gwaith mawr cyntaf yr ymgymmerodd âg ef oedd sefydlu Ysgolion Sabbothol trwy holl Ynys Môn. Nid oedd efe yn malio dim oll am resymau y brodyr diniwed, ond duwiol iawn, yr oedd ammheuon ynghylch cydweddiad y gwaith a wneid yn yr Ysgol Sabbothol â chyssegredigrwydd y Sabbath

Digitized by Google

yn curo eu gwan gydwybod hwy. Myned yn ei flaen y byddai gydag yni a sirioldeb, tra y byddent hwy yn ceisio penderfynu eu cwestiynau. Nid oedd o nemawr bwys ganddo yn mha le i gychwyn Ysgol Sabbothol. Os y capel fyddai y mwyaf cyfleus, yn y capel y caffai fod. Bryd arall, eglwys y plwyf oedd y lle mwyaf manteisiol yn ei olwg; ac eglwys y plwyf, gan hyny, a fynai gael, trwy ffordd na allasai neb ond efe ei defnyddio er cyrhaedd ei amcan. Sefydlwyd amryw ysgolion trwy ei offerynoliaeth ef yn yr eglwysydd plwyfol. Byddai rhagfarn a dallineb yn peri fod yr ysgolion hyny yn cael eu hymlid o'r llanau yn fynych; ac ni raid dyweyd i'r eglwys golli cyfleusderau ardderchog drwy hyny. Ysgubor, neu dŷ annedd, fyddai y mwyaf cyfleus mewn manau eraill; a sefydlwyd amryw o'r ysgolion mewn lleoedd o'r fath. Mewn un lle y gwyddom am dano, cychwynwyd Ysgol Sabbothol ar ganol croesffordd y pentref. Ar ochr ffridd ddiffrwyth, o'r enw Bryn Chwil, y sefydlwyd Ysgol Sabbothol y Talwrn; ac elai Mr. Prydderch yno mor fynych ag y gallai; ac yno, yn yr awyr agored, 'yn ngwyneb haul, llygad goleuni,' y cafodd ei chynnal hyd nes yr addfedodd pethau iddi gael ei symmud i le mwy cydweddol â'i hurddas a'i gwaith. Mr. Prydderch, yn ddiammheu, ydyw tad yr Ysgol Sabbothol yn Môn.'

Ac, fel yr awgrymir yn nghyfrol werthfawr y Parch. David Evans—*The Sunday Schools of Wales*—nid llai llafurus fu efe gyda dyfrhau, nag a fu gyda phlanu, y gongl hon o winllan ei Arglwydd. Ar ol llwyddo yn ei ymdrechion i liosogi nifer yr Ysgolion Sabbothol, ac i amlhau pleidwyr y sefydliad daionus, arddangosodd yr un sêl yn y gwaith o ddwyn oddi amgylch gynnydd parhaus yn ei effeithioldeb. Gwelodd yn fuan mai un llwybr drwy yr hwn y gallai estyn cynnorthwy uniongyrchol tuag at ennill y nôd hwn oedd trwy ddefnyddio cyfleusderau mynych i holwyddori yr ysgolheigion—ac yn enwedig y plant. Gwnelai hyn, nid yn unig ar ei ymweliadau â'r gwahanol ysgolion, ac yn y cyfarfodydd ysgol (y rhai a ddilynodd ac a arolygodd yn nwyreinbarth yr ynys dros lawer o flynyddoedd) ond hefyd ynglŷn â'r odfeuon a gedwid, fel rheol, i bregethu ynddynt. Yr oedd yn ddealledig, pan yr addawai Sabbath i unrhyw le, y byddai rhan, ac weithiau yr oll, o'r gwasanaeth hwyrol i'w dreulio mewn holi yr ysgol a'r gynnulleidfa; a mawr fyddai y disgwyliad a'r parotoad ar gyfer hyn. Ac nid o du y rhai a arholid yn unig y byddai y parotöad:—y mae y papurau a adawodd yr arholwr ar ei ol yn tystiolaethu y byddai yntau hefyd yn ymbarotoi at y gwaith hwn gyda dyfalwch mawr—nid â dim llai, fe allai, nag ar gyfer y gwaith o bregethu y Gair. Yr oedd ei dalent i holwyddori mor hynod ddisglaer, fel mai nid bob amser y diangai rhai o'i ddoniau eraill heb raddau o gymmyliad, hyd yn oed yn ngolwg ambell un a ystyriai ei hunan yn berchen cryn graffder. Bid a fyddo, rhoddwyd y ddawn hon iddo yn helaeth; a mawr fu y fendith a dderbyniodd llawer drwyddi. Gwasanaethed un neu ddwy o dystiolaethau i ddangos hyn. Mewn cymdeithasfa a gynnaliwyd yn Machynlleth, yn y fl. 1869, dywedai y diweddar Dr. Hughes, o Gaernarfon—a dygodd dystiolaeth gyffelyb mewn ysgrifen ac ymddiddan ar lawer o achlysuron eraill:—

'Yr hen Brydderch o Fôn oedd y dyn mwyaf ar y ddaear oll yn fy marn i pan yn blentyn; ac yn fy nheimlad i y funyd hon, yr oedd ar lawer cyfrif yn ddigyffelyb. Taerai fy mam mai Elias ydoedd y mwyaf; ond yr oeddwn yn methu ei chredu, ar ol weled Prydderch yn llamu fel ewig, ac yn fyw fel y fflam dân, a'r plant yn llawn bywyd o'i gwmpas. Pe cawsai plant Llanerchymedd a Môn eu galw i roddi barn, drwy bleidlais ddirgel, pwy ydoedd y pregethwr goreu, Mr. Prydderch, yn ddiau, a fuasai yn uchaf ar y *poll*. I Mr. Prydderch y rhoddaswn i fy mhleidlais, pa un bynag ai dirgel ai cyhoedd. Nid oedd neb, yn fy ngolwg i, yn holl Gymru i'w gystadlu âg ef. Pe y chwiliai pob un yma pwy a roddodd y cynnhyrfiad deallol cyntaf iddo, dywedai un mai Dr. Owen, ac eraill mai Bunyan. Ond os deffrowyd fy meddwl i, gan yr 'hen Brydderch' y gwnaed hyny. Disgwylid ef i holi plant rhyw brydnawn Sabbath; a rhoddodd rybudd yr holai efe ni yn hanes Saul. A dyna lle y bûm yn darllen ac yn chwilio hwnw. A phan ddaeth yr adeg, dacw Prydderch yn dyfod i'n canol, yn fywyd i gyd. Cafodd attebion pur rwydd i'w gwestiynau cyntaf gan bawb. Ond pan y gofynodd 'Pwy oedd meibion Saul?' myfi yn unig a fedrai atteb, mai Jonathan, Isboseth, a Malci-sua oeddynt. Ac er fy mod wedi anghofio llawer o attebion mwy pwysig, yr ydwyf yn cofio enwau plant Saul etto. Y canlyniad fu i mi fyned yn mlaen i ddarllen holl hanesiaeth yr Hen Destament. Felly, pan oeddwn yn wyth neu naw oed, rhoes yr hen gateceisiwr ddeffröad i fy meddwl. Bendith fawr oedd codi dynion fel Mr. Prydderch; ac wrth astudio pa beth sydd genym i'w wneyd gyda'r Ysgol Sabbothol, gofynwn i Dduw dywallt doniau fel ei eiddo ef etto.'

Fel y crybwyllir mewn ysgrif goffadwriaethol a ymddangosodd yn y *Drysorfa* am Fai, 1864, o waith 'E. W.'—un o'i gymmydogion mwyaf sylwgar a galluog—byddai holl blant yr ardaloedd yn heidio i'r addoliad pan ddeallent mai efe a ddisgwylid i'w arwain, a'i fod i gael ei dreulio, mewn rhan, o leiaf, mewn arholiad arnynt hwy. 'A dyna lle y byddai yntau, â'i law ar goryn un, a'i drem yn myw llygad y llall, a'r fath hwyl yn cyfodi nes gwefreiddio, nid yn unig yr egwyddoriaid, ond pawb oll.' Dydd i'w gofio yn nosbarth y Dwyrain oedd y dydd, o ddeutu diwedd ei oes, pan y cyflwynwyd tysteb iddo gan yr Ysgolion Sabbothol, fel arwydd o'u parch tuag ato, a'u gwerthfawrogiad o'i wasanaeth. Cyfrolau yn cynnwys *Esboniad Matthew Henry*, mewn rhwymiadau hardd a drudfawr, a gyfansoddent yr anrheg hon. Y mae y llyfrau ger ein bron yn awr, ac yn werthfawr iawn yn ein golwg; nid yn unig ar gyfrif eu cynnwys a'u deilliad, ond hefyd ar gyfrif y darlun, o ryfedd gelfyddyd, sydd ar y wyneb-ddalen—darlun o'r hybarch holwyddorwr yn yr act o holi plant yn hen gapel Beaumaris. [Paentiwyd ei ddarlun ddwy waith—y tro cyntaf pan oedd tua 50ain oed, a'r ail waith gan Room, ar gais cyhoeddwyr yr *Evangelical Magazine*, yn Llundain, yn 1830, modd y gellid rhoddi cerfiad, o waith Cochran, o'r darlun ar raglen y cyhoeddiad hwnw am Fedi y flwyddyn hono. Cyfritir y darlun hwn yn un rhagorol. O'r braidd y gellid dywedyd hyny am y darlun a wnaed o hono pan tua 85ain oed, ar gyfer y ddalen o ddarluniau a ledaenwyd wrth yr enw *Cenhadon Hedd*, ac a gopïwyd ynglŷn âg erthygl gan Mr. R. Rowlands, Porthmadog, mewn rhifyn diweddar o'r *Llenor*. Yn y nodion a grybwyllwyd yn barod, cyfeiria Mr. Pritchard at y serchawgrwydd a ddangosai at blant, o bob gradd a sefyllfa, ar bob rhyw fath o achlysur, fel hyn:—

'Da y gŵyr oes gyfan fod ganddo duedd a gallu i fod yn boblogaidd a gwir ddefnyddiol gyda'r plant. Braidd nad oedd plant yr ynys yn ei hawlio fel eu heiddo arbenig hwy; a gofalai yntau am ddysgu moesau, yn gystal a moesoldeb, iddynt, ac ymddygiadau anrhydeddus, yn gystal a gwybodaeth

Digitized by Google

ysgrythyrol; a chymmysgai y cyfan â gwersi mwyaf pwysig crefydd ysbrydol. Rhaid fyddai iddo yn fynych gael holi y plant wrth ddechreu odfa ar nos Sabbath. Byddai yn myned i'w canol; a byddent ar y telerau goreu gyda'u gilydd mewn munyd. Hyd yn oed wedi i'w glyw drymhau, yr oedd yn ei elfen gyda'r plant. Yr oedd yn llawn nwyfiant pur aruchel bywyd crefydd wrth holi; ac fel y byddai yntau yn dyweyd, yr oedd 'rhyw arian byw yn y plant wrth atteb.' Ar y ffordd, neu yn rhywle, byddai wrth ei fodd yn cyfarfod â phlant, a'r plant wrth eu bodd yn ei gyfarfod yntau. Dyma esampl! Yr oedd efe, a'r Parch. David Elias, unwaith, yn cerdded yn araf oddi wrth gapel Pentraeth tua phreswylfod yr olaf, pryd yr oedd dau fachgen tua saith mlwydd oed, yn rhedeg eu goreu i'w cyfarfod, wrth ddychwelyd o'r ysgol ddyddiol. Pan oeddynt yn ymyl y ddau ŵr da, croesodd Mr. Prydderch eu llwybr gyda'i ffon. 'Hai! blant, arhoswch!' meddai; 'a fedrwch chwi neidio?' 'Dipyn,' meddai y bechgyn, yn lled synedig. 'Mae eisieu i chwi neidio dros y ffon yna,' gan ei dal cyn uched a phenau y ddau grwt. 'Fedrwch chwi, 'rwan, Mr. Elias?' meddai, gan droi at ei gyfaill. 'Plant da, ai plant drwg, ydy'r ddau?' 'Plant go dda,' ebe Mr. Elias. 'Wel, rhaid rhoi 'r ffon yn is felly,' ebai yntau, gan wneyd hyny. 'A fydd y ddau yn dyfod i'r Ysgol Sul?' 'O! byddant,' meddai yntau. 'Y ffon yn is etto.' 'Plant y seiat ydy'r ddau?' 'Ië.' 'Da iawn—y ffon yn is etto,' meddai drachefn. 'Wel, 'rŵan, fy mhlant bach i, neidiwch.' Ond yr oedd y ddau fachgen wedi gwladeiddio, ac yn gwrthod cynnyg y gamp. 'Wel,' meddai Mr. Prydderch, 'mi wnaf fargen efo chwi. Os dysgwch ddwy adnod newydd bob un, a myned at Mr. Elias boreu yfory i'w dyweyd, mi adawaf i chwi fyn'd heb neidio o gwbl.' Tarawyd y fargen gyda phob difrifwch ar ran y ddau fachgen; a buont cystal a'u gair. Onid bargen deg gyda gŵr Duw ydoedd? Boreu dranoeth, aethant at y Parch. David Elias gyda'u gilydd i ddyweyd eu hadnodau, er boddhâd a difyrwch i'r gŵr da hwnw. Yr oedd deheurwydd o'r fath yn amlwg yn ei ffordd o holi, ac yn un o elfenau ei boblogrwydd yn y gwaith. Cadwai ei urddas, ac nid oedd neb yn ei ofni chwaith.'

Mae'n ymddangos mai ei genhadaeth ynglŷn â'r Ysgolion Sabbothol fu yr esgynfaen oddi ar yr hwn y dringodd, yn ddigwmpas iawn, i gyhoedddusrwydd y pulpud. Yr oedd rhai o'r hen frodyr wedi canfod cymmhwysderau pregethwrol ynddo er's tro; ac wedi ei annog droion, er yn aflwyddiannus, i ëangu cylch ei ddefnyddioldeb. Ond un boreu Sabbath, yn 1805, ar ol iddo gwblhau, mewn dull effro ac effeithiol, ei dasg fel ymwelydd âg Ysgol Pant-y-coli —achos a gynnrychiolir yn bresennol gan y Gareglefn—fe ofynwyd iddo drachefn i beidio gollwng y bobl heb bregethu ychydig iddynt. 'O'r goreu,' ebai yntau; ac heb chwaneg o betrusder, dechreuodd ar orchwyl y bu yn ei gyflawni yn gysson ar ol hyny am 60ain mlynedd. Dywed traddodiad ddarfod i'w ddeheurwydd naturiol weini cymmwynas werthfawr iddo y boreu Sabbath hwn. Arweiniodd ef, heb rhyw lawer o niwed, allan o dywyllwch fel y fagddu. Erbyn dau o'r gloch, aeth i le arall; ac ar gais y brodyr, anturiodd ar air y cynghor drachefn; ond wele y caddug yn ei ysgilio, fel o'r blaen. Buasai hyn yn ddigon i ddigaloni dynion cyffredin; ond yr oedd efe yn rhy ddewr-galon; ac heb law hyny, yr oedd ei brofiad wedi ei ddysgu aml waith, mai cam byr yn fynych iawn sydd o 'fethu i fedru.' Erbyn yr hwyr, aeth ar yr un neges i Bethlehem. Yma, hefyd, gofynwyd iddo bregethu, a chydsyniodd yntau gyda'r un parodrwydd ag o'r blaen. Ond yn lle niwl a thywyllwch, daeth yr awel i chwythu i'w hwyliau, a'r haul i dywynu yn glir ar ei lwybr. Yn Llanrhyddlad, cafodd odfa lewyrchus nodedig. 'Hollti y llew' oedd ei waith yn y boreu a'r prydnawn. Erbyn yr hwyr, 'wele haid o wenyn a mêl yn yr ysgerbwd.' Hon oedd ei bregeth gyntaf. O hyn allan, gyda chroesaw a chymmeradwyaeth awdurdodau y cyfundeb, cyflawnodd waith efengylydd yn rheolaidd; ac o 1821, yn mlaen, cyflawnodd holl swyddau gweinidog ordeiniedig.

Yr oedd yn perthyn iddo nid ychydig o gymmhwysderau pregethwr o radd dda, er nad, fe allai, os mesurir hwynt yn ol y cnawd, o'r radd uchaf. Cyrchai y torfeydd i'w wrandaw gydag awyddfryd, nid o herwydd dim neillduol mewn ffordd o athrylith, neu dalent, neu ddysg, neu goethder, nac o herwydd unrhyw rymusder seiliedig ar ddoniau o fath y rhai hyn; ond am ei fod mor ddidwyll, a siriol, ac ennillgar, ac mor egnïol, a brwdfrydig, a gwresog. Meddylia rhai yn yr oes hon mai ychydig oedd y llafur a werid gan hen bregethwyr Cymru ar gyfer gwaith y pulpud; ac yr ymfoddlonent, am nad oeddynt yn arfer gweini yn wastad i'r un cynnulleidfaoedd, ar nifer bychan iawn o bregethau. Camgymmeriad dybryd yw hyn—gyda golwg ar laweroedd o honynt, beth bynag. Byddent, mae'n wir, yn traddodi yr un genadwri drosodd a throsodd mewn gwahanol gymmydogaethau; ond byddai ffurf a chynnwys hono yn myned o dan gyfnewidiadau dadblygiadol beunydd. Byddai galwadau mynych hefyd am eu gwasanaeth yn yr un lleoedd. Pregethent yn aml bedair gwaith ar y Sabbathau, ac nid yn anfynych mewn capeli a thai annedd ar ddyddiau a nosweithiau yr wythnos. A phan elent ar deithiau trwy y gwledydd, am wythnosau a misoedd yn olynol, ni byddai eu meddyliau heb fod ar lawn waith, fel, erbyn cyrhaedd yn ol, dichon y byddai y talentau prinion gyda'r rhai y cychwynasant, nid yn unig wedi casglu disgleirdeb eu hunain, ond wedi dyblu yn eu swm hefyd. Hyd nes y cawsom gyfleusdra i archwilio ei dreill-gistiau, ni thybiasom fod Prydderch wedi bod agos mor ddiwyd i gyfansoddi pregethau ag y gwelwn yn awr iddo fod. Y llwybr a ddefnyddiai i ymbarotoi, fel rheol, oedd darllen yn ofalus y pennodau o gwmpas y testyn, gan drysori yn ei gôf gafaelgar lawer o'r adnodau ynddynt. Yna, elai i'w feusydd i gymmeryd cipdrem yn yr awyr agored ar frâs linellau y mater, ac i ofyn am oleuni y Nefoedd arno. Yn ei weddïau yr oedd cuddiad ei gryfder. Yr oedd ei ddull yn nesau at Dduw, ac yn cyfarch gorsedd gras, yn rhagorol o brydferth, a gweddaidd, a theimladwy, bob amser. Dychwelai yn y man o'r meusydd, i drwytho ei feddwl yn esboniadau Henry, Scott, Peter Williams, a'r cyfryw; yn nghyd âg yn ngweithiau Cymreigiedig amryw o'r Puritaniaid. Ac yn ddiweddaf oll, cymmerai ddalen o bapur, ac ysgrifenai yn ofalus benau y bregeth, gan eu hysgaru, yn gyffredin, nid â nodiadau o'i gyfansoddiad ei hun, ond â swp mawr o gyfeiriadau Ysgrythyrol, wedi eu cael, naill ai o'i gôf ei hunan, neu ynte o Fynegair Cruden—o'r hwn y gwnelai ddefnydd mawr. Ar ol iddo unwaith ddeall fod geiriau Duw tu cefn i unrhyw athrawiaeth, byddai mor hyf i'w thraethu allan wed'yn a'r dadleuydd mewn llys barn, pan y bydd ei ddadl yn seiliedig ar osodiadau pendant deddflyfrau y deyrnas. Dewisai eiriau lled ddyeithrol yn destynau weithiau.

Digitized by Google

Yr oedd yn pregethu mewn capel cyfagos ar foreu Sabbath, yn hwyr yr hwn y bu ei wraig farw. Y Sabbath canlynol, yr oedd yn pregethu yn y Talwrn; a'r testyn a ddewisodd oedd hwn—'Felly y lleferais wrth y bobl y boreu, a bu farw fy ngwraig yn yr hwyr;' *Ezec.* xxiv. 18. Dywedai y diweddar Dr. Hughes wrthym na phregethodd erioed yn well nag ar un o'r troion olaf y cafodd efe ei wrandaw—pan oedd, wrth reswm, mewn oedran mawr—pryd y cymmerodd yn destyn y geiriau yn 1 *Cron.* iv. 22; 'A Jocim, a dynion Chozeba, a Joas, a Saraph, y rhai oedd yn arglwyddiaethu ar Moab, a Jasubilehem Ac y mae y pethau hyn yn hen.' Yr oedd gwaelod da i'w holl bregethau; ac yn yr oruwch-adeiladaeth, ceffid aml i brawf nad gŵr anghelfydd oedd y saer. Traddodai ei genadwri gyda llawer o fywiogrwydd, a rhwyddineb, a gwres. Yr oedd ganddo lais peraidd a soniarus, a phresennoldeb hardd ac urddasol. Weithiau (yn ddiarwybod iddo ei hun, tybygai Dr. Hughes), esgynai ar esgyll bardd, neu seraph, i lefelau uchel; er mai rhy brin y gellir, ar unrhyw olwg, ei restru gydag eryrod cryfaf y cyfnod anghymmharol hwnw yn hanes pulpud Cymru. Etto, nid oes ammheuaeth na byddai yn pregethu ar adegau gydag eneiniad mawr. Dywedwyd wrthym gan y diweddar Barch. Roger Edwards, o'r Wyddgrug, mai unwaith yn unig, yn ol pob hanes, y torodd Mr. Rees allan (y diweddar Barch. Henry Rees) i orfoleddu yn gyhoeddus; ac mai wrth wrandaw ar Prydderch y gwnaeth efe hyny. Yr oedd yn pregethu bryd arall yn Ngheryg-y-Druidion—yn un o'r cyfarfodydd a gynnelid yn gysson yn y lle hwnw, o dan ei arolygiaeth ef i fesur mawr yn union ar ol sasiynau y Bala:—a phwy a ddigwyddodd fyned heibio ar ei daith o Lundain i'r Iwerddon ond y gwladweinydd a'r areithiwr enwog, Daniel O'Connell; yr hwn, am ryw reswm, a safodd am ennyd byr i wrandaw, ac wrth gilio ymaith a oglybuwyd yn gwneyd y sylw, '*I cannot understand a word he says, but the preacher has the bearing of a born orator.*' Am ei le a'i hawliau yn mysg ei frodyr, dywed Mr. Pritchard fel hyn:—

'Dylid barnu y Parch. John Prydderch yn wahanol i odid neb arall yn ei oes. Fel nad ydyw yn briodol edrych ar ddoniau Cadwaladr Williams yn ol mesur hyawdledd John Elias, neu athrylith fyw wreichionog William Roberts, felly ni ellir edrych ar John Prydderch yn ol mesur y naill na'r llall o'r gwŷr cedyrn hyn oedd ar y maes ar yr un pryd ag ef—yn gydweithwyr ac yn gyfeillion iddo. Yr oedd pob un yn fawr, ond yn fawr yn ei gyfeiriad ei hun. 'I bob un y rhoed gras yn ol mesur dawn Iesu Grist.' Y 'gras' a roddwyd i Mr. Prydderch oedd yni byw i waith crefydd. Gras i sefyll yn bwyllog, ac edrych yn ol a blaen, a symmud yn araf ac yn sicr, oedd gan Cadwaladr Williams, oedd yn yr un eglwys ag ef; ond gras i fyned rhagddo mewn tymmer siriol, a diystyrwch o attalfeydd ac anhawsderau, oedd ganddo ef. Arwyddair priodol i un fuasai 'Yn eich amynedd meddiennwch eich eneidiau;' ond arwyddair priodol y llall, 'Awn, a meddiannwn y wlad.' [Ar ol treulio llawer o amser mewn un gymdeithasfa i ystyried a dadleu pa enw i'w roddi ar gyhoeddiad bychan, ceiniog ei bris, y penderfynwyd ei ddwyn allan, gofynwyd iddo ef a oedd rhyw deitl wedi ymgynnyg i'w feddwl i'w ddodi ar y misolyn,—'Nac oes,' attebai yntau; 'os na chyttunwch chwi, er mwyn i ni allu symmud yn mlaen, i'w alw yn *Geiniogwerth*: ac felly y bu.] *Man of action* oedd Mr. Prydderch yn mhob ystyr; ac yr oedd ynddo bob cymmhwysderau i fod yn ddyn llwyddiannus. Yr oedd o deulu parchus yn y wlad; yn ddyn cadarn, golygus, hardd yr olwg arno; yn gymdeithasgar, ac yn meddu graddau uchel o *humour;* yn cael ei lywodraethu gan synwyr cyffredin cryf, a barn dda; yn argyhoeddi pawb ar unwaith fod ganddo amcan cywir ac anrhydeddus, a chalon lawn o wres a daioni:—a'r cyfan ynglŷn â mesur helaeth iawn o ddeheurwydd (*tact*). Wedi iddo gael troedigaeth, ymdaflodd enaid a chorph i wasanaath crefydd; a mawr a phwysig fu ei wasanaeth i achos crefydd, yn enwedig yn y rhan gyntaf o'i fywyd, pan yr oedd yr amgylchiadau yn fanteisiol i'w dalentau gael eu dwyn i lawn waith.'

Fel eraill yn yr un cyfnod, teithiodd Prydderch lawer i bregethu y Gair. Dengys cofnodion sydd yn ein meddiant, nid yn unig arosiadau am ddeutis, a chwaneg, yn Llundain (dros auaf 1843, a gwanwyn 1850), Liverpool, Manchester, a Bristol, ond teithiau mynych drwy Ogledd a Deheudir Cymru. Cymmerodd un o honynt, ni welwn, agos i bedwar mis i'w chwblhau; ac ar ei diwedd—dyddorus, ac fe allai addysgiadol, ydyw adrodd—yr oedd llogell y pregethwr yn ysgafnach o bwysau o bum punt na phan gychwynodd ar yr hynt. Ar ol bwrw golwg gyda'i ferch a'i brif was, fel arfer, dros gyfrifon y fferm o'r amser yr aeth oddi cartref, rhoddes ganmoliaeth deilwng iddynt am eu gofal a'u diwydrwydd; a chyda boddhâd siriol, cyffesodd mai nid rhyw lawer a dalodd yntau am y fraint o gael cyhwfanu baner yr efengyl sanctaidd trwy y siroedd am fisoedd bwy-gilydd. Cafodd gynnorthwy naturiaeth a gras i edrych ar aur ac arian, nid fel gwerth ynddynt eu hunain, ond fel cyfryngau hwylus i gyfranu a derbyn daioni trwy eu defnyddiad. Yr oedd, ni gyfaddefwn, ei amgylchiadau bydol cysurus yn gynnorthwy iddo i 'ymddwyn yn anrhydeddus' mewn cyssylltiad â'r gwahanol gasgliadau a osodid ger bron y cynnulleidfaoedd. Ond ni ddywedai efe 'air ar y casgliad' yn unlle heb fwrw rhyw 'ffyrling' ei hun i'r drysorfa—ac âg anrhegion bychain i hwn, a hon, a wnelent gymmwynasau bychain iddo yn y gwesttai, a'r cyffelyb leoedd. Ond ymddygai fel boneddwr ar bob achlysuron o'r fath—yn fwy o lawer am mai 'Rhydderch Hael' oedd efe wrth naturiaeth. Fe ddichon fod a fyno y ddeupeth hyn, hefyd, ynghyd â rhesymau eraill, â'r ffaith y byddai efe yma ac acw, yn mhell ac yn agos, beunydd a byth, yn cynnrychioli ei frodyr mewn achosion a ddygent rhyw berthynas â hwy. Unwaith, gofynwyd iddo eu cynnrychioli, yn nghwmni ei gyfaill hoff, y Parch. Richard Lloyd, o Beaumaris, o flaen y brenin. Aeth y ddau i'r Plas Newydd ar yr 8fed o Awst, 1821, i longyfarch Sior IV., yr hwn oedd ar y pryd ar ymweliad â'r Ardalydd, ar ran y cyfarfod misol. Cafodd y ddau lawer o ddifyrwch gyda'u gilydd, ni glywsom, wrth barotoi y dyn oddi allan ar gyfer y gwarogaethu hwn. Dywedodd Mr. Lloyd wrth y plant ar ol hyny fod eu tad mor llon, a naturiol, a hyfoesgar, fel, wrth iddynt ymadael, y bu i'r brenin, yn groes i reolau y llys, ysgwyd llaw yn galonog. Aeth y si ar led yn y wlad ddarfod iddo ymofyn am Mr. Elias; ond gwadu hyny y byddai Mr. Lloyd, er na ddywedodd ei gyfaill 'do' na 'naddo.' Dilynodd gyfarfodydd misol ei sir gyda ffyddlondeb di-fwlch, ac elai i sasiynau y Bala, a holl gymdeithasfaoedd y Gogledd bron; ac yn fynych yn yr un modd i gynnadleddau cyffelyb yn y Deheubarth. Rhoddai bris mawr ar gymdeithas y saint; a byddai wrth ei fodd yn gwrandaw ar ei frodyr o bob gradd;

Digitized by Google

ac yn enwedig, wrth reswm, ar y pigion o honynt. Clywsom y diweddar Barch. Dr. Owen Thomas yn cyfeirio, droion lawer, at y boen a gymmerai efe, ar ol i'w glyw drymhau, i iawn ddeall yr hyn fyddai ar droed yn eisteddiadau y cymmanfaoedd, a'r hyn a ddywedid ar eu llwyfanau. Safai wrth ochr y llefarwr; ac os, serch clustfeinio, na lwyddai i'w glywed, mynai fwynhâd, a mesur o amgyffrediad, trwy graffu arno â'i lygaid. Mewn cymdeithasfa unwaith, (felly y dywedir) braidd na welwyd arwyddion o balldod hyd yn oed ar ei astudrwydd yntau. Pregethai rhyw ŵr yn bur ddiarddeliad, a chyd â llawer gormod meithder. Ond tawodd rywbryd. Yna, symmudodd y Parch. John Jones, Talsarn, yn arafaidd ac urddasol, tua'r areithfa; ac wedi cyrhaedd yno, wele yr ymruad mawreddog â'r hwn yr arferai 'yr hen lew' gyweirio peirianuau ei hanfod, yn tori ar y distawrwydd disgwyliadol, a hyny gyda'r fath addewid fel nad allai Prydderch attal ei 'Amen, Amen,' am y munyd angenrheidiol i'r pregethwr allu cyhoeddi mai ei destyn oedd, 'Fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd.' 'Pa ham, Mr. Prydderch,' gofynai rhywun iddo unwaith, 'yr ydych yn dilyn y cyfarfod misol mor gysson, ac yn aros ynddynt oll cyhyd, a chwithau yn anabl i glywed nemawr air o'r ymdrafodaeth o'i ddechreu i'w ddiwedd?' 'O! (attebai yntau) yr wyf yn derbyn golud o dâl. Y mae bod yn mysg y brodyr fel rhagfwynhâd o'r nefoedd ei hunan i mi.' Rhydd dadguddiad fel hwn eglurhâd digonol, pe na byddai arall, ar ei brydlondeb yn yr holl gyrddau, a'i barodrwydd i ofalu am unrhyw drefniant tebyg o hyrwyddo eu hamcanion; er y byddai rhai o honynt, fe allai, yn ddirmygus o ddistadl yn ngolwg ambell i frawd a dybiai ei fod ef yn 'rhywun.'

Nid ydyw y rhinwedd o ffyddlondeb (y gras mwyaf mewn addewid) yn gyfyngedig mewn un modd i'r saint hyny na wyddant braidd ddim am yr analluogiad a gynnyrchir gan 'fynych wendid.' Gall yr ysbryd fod yn barod, serch i'r cnawd fod yn wan. Ar yr un pryd, gall iechyd da, ar ryw olygon, fod yn fantais i'w ddadblygiad mewn rhai cyfeiriadau, fel y mae, yn ddiau, i'w arddangosiad ger bron y byd sydd heb allu i dreiddio hyd at wreiddyn y mater. Cafodd Prydderch gorph cadarn gan natur; ac o'r rhoddiad daionus hwnw ni bu yn ddibris. Perthynai ef i'r ychydig hyny ag y mae ymarfer corphorol yn fuddiol, a duwioldeb yn elw hefyd. Nid o fwriad, yn gymmaint ag o anian a thueddiad, y defnyddiodd efe y moddion cymmhwysaf ar hyd ei oes i gadw ei waed yn llawn o fywyd iach a hoew. Elai yn gynnar i orphwys—cyfodai yn foreu—tywalltai y dwfr oer ar ei berson o'i goryn i'w sawdl ar ganiad y ceiliog bob dydd; ymfoddlonai ar fwrdd wedi ei hulio â bwydydd a diodydd pur a syml y wlad—gwnelai waith y dydd yn ei ddydd—treuliai oriau yn feunyddiol yn yr awyr agored—darostyngai yn ddi-ymaros bob gogwydd at segurdod dioglyd—cerddai ar hyd y meusydd a'r ffyrdd ar bob rhyw hin—ac yn olaf, ac, o'i ran ef, yn benaf peth, elai ar gefn ei geffyl fel at feddyginiaethydd pob pla ar gorph a meddwl.

Y mae rhai o'r ystraeon am ei orchestion fel marchogwr ar lafar y gwledydd hyd heddyw. O'i febyd, a thrwy gydol ei oes, yr oedd ei wybodaeth am, a'i fedrusrwydd gyda, a'i hoffder o'r anifail gwasanaethgar hwn yn fawr iawn. Yr oedd ei farch ac yntau yn deall eu gilydd yn drwyadl; ac nid oedd ball ar wasanaeth a ffyddlondeb y naill i'r llall. Yr oedd y naill yn deall beth allasai, a beth nad allasai y llall ei gyflawni; a chydrhyngddynt, ymdarawent yn burion mewn amgylchiadau cynnefin ac anghynnefin. Nid oedd rhywogaeth a phorthiad ei geffylau gwedd heb fod o bwys ganddo; ond y ceffylau cyfrwy oedd ei ffafriaid. O'r rhai hyn, cadwai ddau bob amser—un gyda digon o asgwrn a mettel at ei wasanaeth ei hun; ac un mor brydferth a mwynaidd ag oedd bossibl at wasanaeth ei ferch. Mawr fyddai y parotoi ar 'y merlyn'—canys dyna'r enw a roddai ar ei farch talgryfaf—ar gyfer unrhyw siwrne, pa un bynag ai i eithafion y Deheudir, ai yn unig i gapel y Talwrn. Yr oedd raid i bob blewyn fod yn ei le, ac i heiyrn y ffrwyn a'r gwrthaflau fod can ddisgleiried a'r arian. Yn y cyssylltiadau hyn yn unig yr oedd yn bossibl casglu nad oedd hyd yn oed yntau yn gwbl rydd oddi wrth rhyw eiliw o rodres diniwed. Ni ofalai fawr beth a feddyliai neb o hono ef; ond peth arall oedd barn hyddysgiaid, ac eraill, am ei geffyl. Os cyfaddefai Mr. Roberts, Cefn-du, neu Syr Richard Bulkeley, neu eu cyffelyb, weithiau, fod yr anifail a farchogai yn rhagori ar yr eiddynt hwy, adroddai yr hanes gyda blâs wrth ei ferch mor gynted ag y cyrhaeddai adref; ac un o'r îs-brofiadau mwyaf hyfryd a adroddai wrthi, gyda gwyneb siriol, ar ei ddychweliad o'r Bala, o dro i dro, oedd, 'Yr oedd Benjamin yn dyweyd, fy ngeneth i, mai fy ngheffyl i oedd y ceffyl goreu yn y sasiwn.' Yn ei ddull o farchogaeth, yr oedd yn drosedd-wr mawr, ac amlwg, ar arferion Methodistaidd ei ddydd. Gofalai ei frodyr am farchogaeth yn araf a phwyllog. Yr oedd symmud yn gyflymach nag ar oduth yn anweddeidd-dra na fynent hwy, wŷr da, er dim, fod yn euog o hono. Ond er cyttuno â'u golygiadau, a phlygu iddynt mewn pethau eraill, rhy anhawdd fu ei Fethodisteiddio ef yn y cyfeiriad yma; a pheth arall, yr oedd anhawsdra yn cyfodi o du ei farch ysbrydol a phorthiannus. Heb enwi y troseddwr, galwyd sylw mewn cymdeithasfa unwaith at afreoleidd-dra ar ran rhyw swyddog yn cyrchu i'r lle ar farch carlamog, ac ar draws rhai o'r caeau a'r gwrychoedd. 'Mewn difrif, Mr. Prydderch,' gofynai un o'i gyfeillion mwyaf cu iddo wedi hyny—y Parch. Cadwaladr Williams—'pa ham y bu i chwi yru mor chwyrn heibio drws y capel, o flaen llygaid y brodyr, wrth ddychwelyd, a hwythau newydd alw sylw at anweddusrwydd peth felly?' 'Wel,' attebai yntau, 'mae'n debyg mai meddwl yr oedd y merlyn mai gwell a fyddai bod uwch ben ei geirch yn Dyffryn Gwyn nag wrth ben ei draed yn sir Fflint.' Un o adgofion mwyaf hyfryd blynyddoedd ein mebyd ydyw myned yn mhell i'w gyfarfod aml waith pan ddisgwyliem ef ar ymweliad â'n cartref. O hir bell adnabyddai ni. 'Hylo, Billa bach! ai tydi sydd yna?' dywedai, gan dywys ei farch at ochr y clawdd—'neidia i fy ysgîl i, y mawrddrwg. Sut y mae dy fam, a phawb acw?' A chyda hyny, wele ni yn saethu yn mlaen fel gwenol y gwehydd. Toc, cyrhaeddem Allt y Fach, oddi ar ben yr hon y dechreuai y ffordd at ein cartref gwmpasu a gogamu cryn lawer, tra yr elai llwybr troed dros y meusydd a'r camfeydd yno yn syth. Yn union, clywem y gorchymyn, 'Dal dy afael, Billa!' a thros y clawdd a'r cloddiau â ni fel

Digitized by Google

helgwn—dros rai o honynt heb eu cyffwrdd, a thros eraill âg un naid i'w pen, ac âg un arall dros y ffos hwnt. Yr oedd ganddo ef feddwl uchel o synwyr ac adnoddau eraill ceffyl—ambell i geffyl, yn enwedig. Yr oedd yn sylwedydd astudgar ar neillduolion ei holl gludwyr. Bu ganddo un, o leiaf, a ystyriai yn berchenog cystal rheswm a gofal greddfol am ei ddiogelwch a'i les ei hunan a neb pwy bynag—heb law fod ei nerth a'i wynt yn anhysbyddadwy. Aeth â hwn ddwy waith i waelodion y Deheubarth—y tro cyntaf yn ebol lled ieuangc, a'r ail dro yn mhen rhyw bump neu chwe blynedd wedi hyny. Gwelodd yn fuan ar yr ail daith fod y ceffyl yn cofio y ffyrdd a'r trofëydd oll yn well nag yr oedd efe yn eu cofio ei hunan. Methai a dychymygu paham y dangosai wrthwynebiad pendant i fyned heibio un drofa. O'r diwedd, rhoddodd y ffrwyn ar ei war, i edrych pa beth a wnelai. Ar hyny, aeth y ceffyl ar ei union ychydig o latheni i fyny cul-ffordd, ar y llaw chwith, hyd nes y daeth at ffynnon, o'r hon (cofiodd ei farchogwr wedi hyny) yr oedd wedi yfed pan yr oedd yn y lle hwnw o'r blaen; ac yna, trodd yn ol, ac aeth ar hyd y brif ffordd yn galonog. Y noson hono, cododd ystorm enbyd. Erbyn y boreu, yr oedd yr afon yr oedd yn rhaid iddo ei chroesi, i fyned i'r capel lle yr oedd ei gyhoeddiad dranoeth, wedi gorlifo ei cheulanau, a'r holl ddyffryn dan ddwfr mawr. Pan ddywedodd y llettywr wrtho nad oedd modd myned drosodd o herwydd nerth y llifddwfr, a rhuthriadau y gwynt, dywedodd yntau fod ganddo 'bysgodyn o geffyl.' Yna gofynodd am raff gref; ac wedi ei chael, rhwymodd hi yn gywrain am y ceffyl (dyfais wedi ei phigo i fyny, mae'n debyg, yn morfeydd Malltraeth), a dododd y cyfrwy a'r marchogod, &c., ar ei ben ei hun; ac ar gefn y ceffyl âg ef, er gwaethaf y llettywr—yn llaw yr hwn y rhoddodd ben y rhaff, gan ei gyfarwyddo pa fodd i weithredu pan y cyrhaeddai efe a'i farch rym y dŵr. Bu mewn perygl mawr y tro hwn; ond llai peth o lawer ganddo oedd ei wynebu na meddwl am dori ei gyhoeddiad. Yr oedd y llawenydd yn fawr o ddeutu yr afon pan enillwyd y làn, a'r diolch yn gynnes wrth ddechreu yr odfa ddeg o'r gloch. Clywsom lygad-dyst yn Llech-cefnfawrwydd yn adrodd iddo ei weled, bryd arall, yn croesi yr iseldir o dan y fro hono ar foreu Sabbath, pan nad oedd ffordd, nac hyd yn oed glawdd, i'w weled yn unman. Yr oedd yr holl wlad wedi ei gorchuddio gan droedfeddi lawer o eira. Ond o'r Dyffryn i Garmel yr aeth efe a'i geffyl mor unioned ag ergyd o wn; ac 'ar eu llwybr yn rhywle,' dywedodd ein hysbysydd, 'goddiweddwyd hwynt gan fintai grwydredig o gŵn hela, ac â hwy wrth eu sodlau y dringasant, ac y cyrhaeddasant ben y bryn lle y safwn ni ein dau yn awr.'

Ar ol cael addewid ganddo i dd'od i Ddinbych i bregethu, ryw Sabbath, gofynai llangc ieuangc, sydd erbyn hyn yn henafgwr tirf, a mawr ei barch, 'Sut y deuwch chwi yma, Mr. Prydderch?' 'Ond ar gefn y merlyn, machgen anwyl i,' dywedodd yntau yn siriol. Am ryw reswm neu gilydd, lluddiwyd ef i gychwyn i'r cyhoeddiad hwn ddydd Sadwrn, fel yr oedd wedi pwrpasu; ond, serch hyny, y mae'n ymddangos mai efe ydoedd y cyntaf i groesi trothwy y Capel Mawr y boreu Sabbath hwnw, wedi'r cwbl. Teithiodd yr holl ffordd o Fôn yno yn oriau plygeiniol y Sabbath; a phregethodd deirgwaith mor hwylus a phe buasai wedi treulio y noswaith flaenorol ar y pluf. Yr oedd y llwybrau a'r ffyrdd, o'r naill gapel i'r llall, mewn llawer lle y caffai ei hun, yn arswydol eu cyflwr yn fynych, a'r llidiardau a'u gwarchauent yn dreth ar amynedd ac yn brawf ar fedrusrwydd pob rhyw deithiwr a geisiai eu hagor, a'u cau, heb ddisgyn oddi ar gefn ei farch—ac er disgyn, o ran hyny. Llwybr felly oedd yr un unionaf o Landdona i Ben-y-garnedd yn nyddiau Prydderch—ac etto, am ddim a wyddom ni. 'Ond nid oedd efe (ebai ein gohebydd) gyda'i farch cyflymdroed a nwyfus, yn gofalu nemawr am y pyrth a'r llidiardau; canys, pan ddeuai atynt, dywedai wrth y march ''Rŵan was,' a throsodd âg ef, fel pe buasai efe 'y milgi cryf yn ei feingefn,' am yr hwn y sonia Solomon. Ond o'i holl gampau marchogaethol, hwyrach mai y galetaf a'r fwyaf rhamantus oedd un a gyflawnodd pan oedd yn rhywle o gwmpas 80ain oed. Pregethai yn y prydnawn yn Lleyn, ac yn yr hwyr mewn ŵylnos i gares iddo yn Mhentre Eirianell, ger Llys Dulas, yn ngogledd Môn! Yr ydym yn cofio y rhagdrefnu mawr oedd yn y Dyffryn Gwyn ar gyfer yr orchest hon. Nid ydym yn sicr pa un ai pedwar, ai chwech, o geffylau a ddefnyddiwyd i'w gario o bwynt i bwynt—un yma, ac un acw, o Leyn i Ddulas. Ond pa fodd bynag, trwy ysgubo oddi ar gefn un ar gefn y llall, a'u carlamu oll hyd eithaf nerth eu carnau, cyrhaeddodd Bentre Eirianell ar yr awr bennodedig; a phregethodd yn yr ŵylnos yn ol ei addewid.

Ni chanfuwyd unrhyw argoelion amlwg o balldod yn ei nerth a'i hoewder hyd wanwyn 1863. Y pryd hwnw, bu yn cwyno am rai dyddiau; a chymmerodd ei berswadio i ymattal rhag myned i gyfarfod misol Mawrth. Anfonodd y frawdoliaeth lythyr tra charedig o gydymdeimlad ato o'r cyfarfod hwnw, yn yr hwn y dywedent, yn mysg pethau eraill, 'Y mae yn ammhossibl i chwi wybod y chwithdod a deimlem am eich cymdeithas a'ch cymmhorth yn y gwaith, fel *yr hynaf, a'r anwylaf, a'r ffyddlonaf o honom oll.*' Ymadnewyddodd lawer yn fuan ar ol hyn; ac ail ymaflodd yn ei ddyledswyddau bydol a chrefyddol, fel o'r blaen. Yr oedd ganddo ebol nwyfus ar y pryd; yr hwn yr oedd arno eisieu ei dori i mewn, a chyflogodd *jockey* i wneyd hyny. Ond ar ol i hwn ei dywys am ddeuddydd, dywedodd wrtho, 'Fe wna y tro yn burion rŵan, 'ngwas i. Gallaf fi wneyd y cwbl sydd yn eisieu etto i ddwyn y llangc ato ei hun;' ac nid ychydig o drafferth a gafodd ei ferch i'w attal rhag cario ei fwriad allan. Aeth i'w gyhoeddiadau fel arfer dros y gweddill o'r flwyddyn hon, a gwelwn oddi wrth gofnodiad yn y *Drysorfa* ddarfod iddo bregethu yn y cyfarfod misol a gynnaliwyd yn Methel, yn Ionawr, 1864. Erbyn y mis nesaf, yr oedd ar wely ei gystudd olaf! Galwodd llawer o'i gyfeillion, fel y gellid disgwyl, i ymofyn am dano; ac yn eu mysg genhadon dros y cyfarfod misol nid rhyw lawer o oriau cyn ei ymadawiad 'i'r bywyd.' Wrth adrodd hanes eu hymweliad ar ol hyny dywedent:—

'Cawsom ef yn hyderus iawn. Yr oedd yn ei amynedd yn meddiannu ei enaid. Yr oedd yn arddangos gobaith diogel a sicr, fel llong wrth ei hangor. Coffaodd y geiriau, 'Pan elych trwy y dyfroedd, mi a fyddaf gyda thi, a thrwy yr afonydd, fel na lifant drosot,' gan chwanegu, 'Nid afon mo hon—ffrwd fechan ydyw. Ond,



Digitized by Google

pa un bynag, mae'r Gwr yn llon'd ei addewid. Y mae Efe yma.' Ar ol diolch i ni am ddyfod i ymweled âg ef, ac i'r cyfarfod misol am ein hanfon, dywedodd, 'Yr ydwyf yn disgwyl y cerbyd er's dyddiau; yr oeddwn yn ei glywed yn dyfod gyda chyflymdra rhyfeddol, ddoe. Y mae'r olwynion fel pe baent wedi arafu ychydig heddyw. Nid ydynt wedi aros, er hyny; ond doed o càn arafed ag y delo, fe fydd yma yn union bellach; a chyn gynted ag y bydd o yma, mi neidiaf finnau i mewn iddo fo—ac i'r bywyd â mi rhag blaen!' Wedi bod yn ddiwyd i 'wneuthur ei alwedigaeth' yn sicr, felly yn helaeth y trefnwyd iddo 'fynediad i mewn i dragwyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist!'

Bu farw ar nos Sabbath, Chwefror 28ain, 1864, yn y ddegfed flwyddyn a phedwar ugain o'i oed. Ar y dydd Gwener canlynol, hebryngwyd ei gorph gan dyrfa liosog i le beddrod ei dadau yn mynwent Llangristiolus.

PORTUGAL.—Brenin presennol y wlad yw Dom Carlos, a anwyd Medi 28ain, 1863; ac a esgynodd i'r orsedd Hydref 19eg, 1889. Yn ol y mesuriadau diweddaf, mesura y wlad 34,606 mill. pet., â phoblogaeth yn 1881 o 4,306,554, yn annibynol ar ei threfedigaethau. Bernir fod poblogaeth yr holl deyrnas, erbyn hyn, yn rhifo 5,082,257. Y mae'r Azores a Madeira yn ffurfio rhan o'r deyrnas. Mesurant hwy 1,237 mill. pet., â phoblogaeth o 401,624. Perthyna iddi 36 o agerlongau, a 433 o longau hwyliau, i gario y fasnach yn mlaen. Mesurai ei ffyrdd haiarn 1,420 mill. yn 1892; ac y mae yno 8,079 milldir o wifrau y pellebyr. Am amryw flynyddau, y mae ei derbyniadau cyffredinol wedi bod yn llai na'r treuliau gwladol; ac y mae hyn wedi chwanegu yn ddirfâwr at swm y ddyled wladol—yr hon sydd yn awr yn 31*p.* ar gyfer pob un o'r boblogaeth. Yn mis Ionawr, 1892, hysbysodd y brenin ei benderfyniad i drosglwyddo yn ol i'r drysorfa y bummed ran o'r hyn a dderbyniai o gyllid y wlad at y Llys Brenhinol. Yn 1892, rhifai y fyddin 40,000 o ddynion mewn adeg o heddwch; ond gellid galw allan mewn amser o ryfel 125,057 o ddynion, a 264 o fagnelau. Gwneir y llynges i fyny o 39ain o agerlongau, 16 o longau hwyliau, yn nghyd â 4,124 o fôr-filwyr.

| | |
|---|---|
| Swm y cyllid yn 1894—95 | .. *P.*10,557,465 |
| Swm y treuliau yn 1894—95 ... | 10,516,436 |
| Y ddyled wladol (y sefydlog) yn 1893 ... ... ... | 148,490,103 |
| Y ddyled sydd yn nofio—hyny yw, heb ei sefydlu, 1894 ... ... | 5,669,900 |
| Dadforion yn 1893 ... ... | 8,854,480 |
| Allforion yn 1893 ... ... | 6,508,494 |

Y brif dref yw Lisbon, gyda phoblogaeth, yn 1878, o 253,469.

PARAQUAY.—Un o'r talaethau sydd yn codi fwyaf i sylw o holl dalaethau Deheudir America. Mesura 145,400 mill. pet. Y mae hi tuag un ran o bump yn fwy na'r Deyrnas Gyfunol. Nid yw y môr yn taraw arni o gwbl; ond amgylchir hi bron gan yr afonydd Parana a Paraquay. Cyfrifir y boblogaeth tua 481,000. Y mae hi yn awr yn meddu llywodraeth sefydlog. Mae ei dyfodol yn addawol; a bernir fod ei hinsawdd yn hynod addas i Ewropiaid fyw ynddo. Magu anifeiliaid yw prif waith y trigolion, ac y mae yno borfeydd rhagorol at hyn. Allforir llawer o sugr, eur-afalau, crwyn, tybaco, a choed.

Y mae y fyddin, yr hon a rifai 60,000 yn ystod rhyfel 1865—72, wedi ei gostwng i 500 yn awr. Gwneir ei 'llynges' i fyny o dair o agerlongau, a hwyliant ar yr afonydd.

Arlywydd presennol y wlad ydyw Senor Egusguiza; yr hwn a etholwyd Tach. 25ain, 1894. Y brif dref ydyw Asuncion—poblogaeth yr hon oedd 35,000 yn 1895.

| | | |
|---|---|---|
| Cyllid yn 1894 ... ... | 5,575,899 | dolar |
| Treuliau yn 1894 ... ... | 5,507,930 | ,, |
| Dadforion yn 1892 ... ... | 438,023 | ,, |
| Allforion yn 1892 ... ... | 309,890 | ,, |

Digitized by Google

# R.



ROBERTS, Y PARCH. JOHN (J.R.), Conwy. Ail fab oedd efe i'r Parch. John Roberts, gweinidog yr Annibynwyr yn Llanbrynmair. Preswyliai ar y pryd yn nhŷ'r capel. Yno y ganwyd John (yn yr un ystafell, fe ddichon, a'r Dr. Abraham Rees), ar y 5ed o Dachwedd, 1804. Addysgwyd ef, fel yr oll o blant Anghydffurfwyr Llanbrynmair, yn ysgol yr Hen Gapel, ar yr hon yr oedd ei dad yn athraw.

*Yn Amaethwr.*—Wedi symmud y teulu i'r Ddiosg, amaethdŷ ger llaw, efe oedd yr amaethwr, nes y tyfodd Richard, ei frawd, i gymmeryd y gofal. Yr oedd efe yn ddyn cydnerth, diwyd, cynnil, fel amaethwr. Cymmerai ddyddordeb neillduol yn yr alwedigaeth; ond yn hollol annisgwyliadwy i bawb, daeth arno chwant pregethu. Erbyn hyn yr oedd wedi gadael ei 25ain ml. oed. Yr oedd cyffro dadleuon duwinyddol y cyfnod hwnw yn eu grym ar y pryd; ac yr oedd Llanbrynmair yn ganolfan, canys yr oedd ei dad yn un o'r prif ddadleuwyr. Etifeddodd y bachgen chwaeth ei dad at dduwinyddiaeth. Am ei fod yn ddarllengar ac yn ddadleugar o reddf, aeth ysbryd pregethu yn drech ynddo nag ysbryd amaethu. Y mae'n wir ei bod yn ddiweddar i lafurio am addysg glasurol yn yr oedran hwnw; etto, anfonwyd ef i'r athrofa yn y Drefnewydd. Y Parch. E. Davies a Mr. Samuel Bowen (Macclesfield wedi hyny)—Calviniaid cryfion—oedd yr athrawon. Wedi aros yno dair blynedd, derbyniodd alwad o'r Hen Gapel, i ddilyn ei dad; yr hwn a fu farw ychydig fisoedd cyn hyny. Yr oedd yr esgobaeth yn cynnwys naw o addoldai, heb law ysgol ddyddiol.

*Yn Weinidog.*—Blwyddyn i'r mis, neillduwyd ef i'r weinidogaeth yn nghanol arwyddion o serch ac ewyllys da deunaw o'i frodyr yn yr efengyl. Aethant i Lanbrynmair, rhai ar draed, ereill ar feirch, o eithaf Môn a gwlad Myrddin, Brycheiniog ac Arfon, Aberteifi a Fflint, a'r Amwythig a Meirion, heb wahoddiad na thâl. Rhaid nad oedd haul yr ebyrth breision ar allorau brawdgarwch wedi dechreu ymwyro tua'r gorwel y pryd hwnw. Bellach, wele y ffermwr yn weinidog ac athraw yn yr ardal ei magwyd. Ymroddodd yntau i'w ddyledswyddau newyddion gyda'r dyfalwch oedd yn gynnyrch ei natur. Bu cydgord hyfryd rhyngddo a'i frawd am dair blynedd ar ddeg—blynyddoedd seiliad eu poblogrwydd a'u dylanwad. Adnabyddid hwy gan bell ac agos y pryd hwnw fel 'Llangciau Llanbrynmair.' Dadblygodd ei ddoniau fel ymddrylliad llyn, neu fel ymwthiad haul drwy gwmmwl. Aeth yn llenor ac yn bregethwr poblogaidd ar unwaith. Llifai ei ysgrifeniadau oddi wrtho fel aber o geudod ffynnon. Sylwai y darllengar fod ei arddull yn fywiocach, a'i liwiau yn gryfach na'r cyffredin o ysgrifenwyr yr amseroedd hyny. A'r un dystiolaeth oedd i'w bregethau. Yr oeddynt yn newydd, am eu bod yn Feiblaidd, yn hytrach na duwinyddol. Yr oedd crefyddwyr Cymru wedi hir ymlaru ar ymrysonau yn nghylch geiriau, a dadleuon anorphen. Sychasai eu henaid gan dân a gwres blynyddoedd o ymladdfeydd rhwng Calviniaeth ac Arminiaeth. Fel y dyhëa gwas am gysgod, felly y blysient hwythau am dro ar fyd. Rhoddodd y 'brodyr o Lanbrynmair' ddefnyddiau newyddion i bobl yr oes hono i feddwl ac i siarad yn eu cylch. Efengyl braw ac arswyd—golygfeydd Dante a'r Bardd Cwsg—iaith a chymmhariaethau Hebreig wedi eu rhwygo o'u cyssylltiadau, a syniadau traws am gymmeriad ac amcanion Duw y Cariad fu yn cyflawni 'y gwaith' yr edrychid am dano yn y pulpudau a'r cymmanfaoedd am dymmor hir. Yr oedd mesur o wreiddiolder ac annibyniaeth meddwl ac ysbryd yn Mr. Roberts, ac aeth yn boblogaidd ar linellau newyddion. Gwnaeth ffeithiau hanes, dammegion, a chymmhariaethau y ddau Destament yn bethau cwbl newydd i'w gydwladwyr. 'Beiblaidd' yw yr ansoddair addas i ddynodi ei bregethau; purasid hwy oddi wrth ddefnyddiau duwinyddol a fuasai mewn arferiad a bri gan y tadau. Yr oedd ei ddull o lefaru brawddegau byrion, cynaniad hysain, pertrwydd, gydag oslef gwledig, yn hytrach na sŵn a sain arferol enwad a phulpud, yn elfenau yn y poblogrwydd. Aeth yn ŵr y gymmanfa ar fyr dro. Yn 1843, sefydlodd ei frawd, Samuel, *Y Cronicl*—misolyn bychan; a gwelodd Mr. Roberts gyda threiddgarwch masnachydd ei werth masnachol ac eglwysig. Heb fod yn olygydd iddo, ymroddodd gyda dyfalwch mam i'w borthi â'i ysgrifell. Ar y 6ed o Fehefin, priododd âg Anne, merch y Parch. Thomas Jones, Llansantsiôr; a ganwyd iddynt ddau o blant. Yn groes i arfer gwlad, cynnaliodd gyfarfod crefyddol o sirioldeb mawr nos ei briodas, pryd y gwasanaethodd gwahoddedigion y briodas—nid amgen Mr. Williams, o'r Wern, Hiraethog, Mr. Pugh o Fostyn, a Mr. Hughes o Dreffynnon.

*Ar Bererindod.*—Yn 1848, aeth i Ruthyn; ac oddi yno i'r brifddinas yn 1857. Ymwthiai ei neillduolion personol a'i syniadau gwrth-Gynnulleidfaol i'r amlwg ar amryw achlysuron. Ni fynai 'gyfarfod sefydlu.' Y flwyddyn ganlynol, daeth y cyfarfod pregethu heibio; a rhoddodd rhyw rai yr enw 'cyfarfod sefydlu' arno. Ond ymwrthodai efe â'r syniad; ac ni bu yno adrodd na gofyn cyffes, arddodi dwylaw, gofyn cydsyniad, na chodi llaw. Casâai ei natur egwyddor y 'coel;' yr oedd talu am bob peth cyn neu wrth ei gael yn ddarn o foesoldeb; am hyny, ni allai gydymddwyn â dyledion addoldai. Dadleuai



Digitized by Google

yn wastad yn y cyfarfodydd eglwysig nad oedd bendith a llwyddiant, gwaith a defnyddioldeb, yn ddichonadwy i unrhyw eglwys tra y byddai yn gorwedd yn dawel dan ddyled, gan draethu mewn effaith, 'Taled y dyfodol ddyled y gorphenol; ond rhoddwch i mi lonyddwch.' Yr ysbryd hwn a barodd iddo ef ymsymmud yn chwyrn yn y ddau le, hyd oni chafwyd ymwared â'r ychydig ddyledion oedd arnynt. Yn y fl. 1860, symmudodd etto, ac aeth i Gonwy. Bellach, yr oedd efe yn tynu at y trigain oed. Gwelodd fod yr amgylchiadau yn ffafriol i godi tŷ ëang iddo ei hun ar forfa y dref, ac wele ail 'Bryn Mair'—ail gartref y teulu. Cychwynwyd, rywbryd cyn hyny, fudiad yn Nghymru a elwid 'Mudiad y Tystebau.' Ei gyfeillion yma a thraw, wrth weled gweinidogion eraill yn cael tysteb unwaith ac eilwaith, a chwennychasant ei anrhydeddu yntau drwy yr un cyfrwng; ond ni fynai efe dderbyn tysteb iddo ei hun drwy ffordd uniongyrchol felly. Rhyfelai annibyniaeth ei natur yn erbyn gosod ei hun dan deyrnged a dyled i neb pwy bynag. Digwyddodd ar y pryd ei fod ar ddwyn allan lyfr bychan, teitl yr hwn yw *Yr Ysgrifbin, a'r Dadleuon.* Gwelai gyfleusdra rhagorol i gael gwerthiant helaeth i hwnw. Am hyny, annogodd ei gyfeillion, yn hytrach na chyfranu arian at dysteb, i ymgymeryd â'r gwaith o ledaenu, gwerthu, a thalu am y llyfr hwnw. Gwnaed felly, a chafodd yr awdwr dâl helaeth am ei waith. Syrthiodd ysbryd tystebu eu hathraw a'u harweinydd eilwaith ar ddarllenwyr *Y Cronicl.* Y waith hono, yr oedd efe yn codi capel ac ysgoldy newydd yn Nghonwy; ond yn hytrach na derbyn tysteb bersonol, cafodd ganddynt gyfranu rhai cannoedd o bunnau at yr adeilad, yr hwn a elwid ar y pryd yn 'Gapel y Dysteb.' Yn hyn oll, porthai edmygedd ei edmygwyr; cafodd yr anrhydedd o fod yn gyfrwng i dalu dyled ei addoldŷ; a chadwodd i fyny annibyniaeth ei deimlad, a'r gwrthweddiad a'i harweiniai i fod yn wahanol i'r rhelyw o'i frodyr yn y weinidogaeth. Yn y blynyddoedd 1868 ac 1872, dychwelodd ei ddau frawd o America; a chan fod J. R. ei hunan, gwnaethant eu cartref eilwaith gyda'u gilydd yn Mryn Mair, Conwy. I dri wŷr oedd mor serchog ac ymlyngar wrth eu gilydd, hawdd ydyw sylweddoli fod yr ail gartrefu, wedi hir flynyddoedd o ysgariad, yn dra hyfryd a melus i'w teimlad. Ar yr un pryd, rhaid cydnabod fod blynyddoedd terfyn oes yn dra gwahanol i hanner canrif cyntaf eu bywyd cyhoeddus. Hyfryd yw deall eu bod oll yn heddychlawn a dedwydd iawn ar eu haelwyd, pan yr oedd cysgodau yr hwyr yn ymgrynhoi, os oedd yn gymmharol ddrychinog a brochus o'r tu allan. Ar ol cystudd byr, ar y 7fed o Fedi, 1884, bu farw J. R., yn fab pedwar ugain, namyn un.

Ni a ddychwelwn yn y fan hon i gymmeryd brâs olwg arno, yn ei gymmeriad fel llenor, pregethwr, a dadleuwr.

*Ei Ysgrifeniadau.*—1. Fel y sylwasom eisoes, yr oedd Mr. Roberts yn ysgrifenydd toreithiog. Yr oedd y ddawn ynddo i fesur eithriadol. Gallai ysgrifenu pob peth heb drafferth. Ni wyddai efe ddim am y boen o gyfan-gyssylltu pethau. Rhedai y bregeth, y pennill, y ddadl, y traethawd, a'r llythyr, oddi wrth ei ysgrifell gyda hoewder gwennol. Ni alwai ddim yn ol i'w drwsio; am hyny, ni bu ei lafur erioed yn faich, na blinder. Yn hyn, yr oedd S. R. ac yntau yn dra gwahanol. Rhaid oedd i'r blaenaf wneyd ail a thrydydd cynnyg yn fynych er cael cymmalau ei frawddegau yn ystwyth, a'r gynghanedd yn beraidd. Dechreuodd J. R. gyhoeddi llyfrau yn foreu yn ei fywyd cyhoeddus; ac wele restr o honynt. Dichon nad ydyw yn gyflawn, na'r dyddiadau yn hollol gywir; ond hon yw y gywiraf allem ei llunio:—*Holwyddoregau yr Ysgol Sul* (1829); *Traethodau, Pregethau, ac Ymddiddanion* (1854); *Yr Ysgrifbin, a'r Dadleuon* (dwy gyfres); *Yr Ymholydd Duwinyddol*; *Hanesion y Beibl; Y Coel; Y Gyfrol Olaf* (1876); *Y Cronic* (1857—1884), 27ain cyfrol; a *Pulpud Conwy* (1888)—cyfrol o bregethau a gyhoeddwyd wedi ei farwolaeth. Fe gyttunir fod ei nerth penaf yn ei ysgrifell. Bu, ac y mae etto, lawer o ddarllen ar ei bregethau. Nid i'r athrawiaethau a ddysgai efe y mae hyny i'w briodoli, hwyrach, yn gymmaint ag i'r eglurder, y symledd, y naturioldeb, a'r gyfaredd sydd yn ei arddull. Gwnaeth fwy o blaid y ffurf Arminaidd ar athrawiaethau crefydd na neb yn mysg ei genedl. Yr oedd ei allu i grynhoi a symleiddio pethau yn dra eithriadol. 2. Bardd oedd efe—nid athronydd. Ar yr un pryd, bardd heb rith o sêl dros gelfyddyd barddoniaeth. Yn ei ryddiaeth y mae ei farddoniaeth oreu. Ychydig a ganodd efe ar fesur cerdd. Efe bïau y penillion melus ar 'Y ddwy Lusern.' Ond i ni, y darn dwys-dyner ar yr 'Hen ŵr a'r Byd yn ffarwelio' yw y farddoniaeth fireiniaf a naturiolaf a ganodd efe. Yr oedd erbyn hyn dros 70ain oed, a theimlai yntau ei fod yn graddol gilio fel cysgod. Ceir y darn yn llawn mewn rhyddiaeth a mesur yn ei gyfrol olaf. Ni wyddom ai efelychiad, ai ynte a yw y syniad yn wreiddiol iddo ef. Beth bynag, y mae tinc ei ddawn yn y syniadau, ac yn eu gweithiad allan.

3. Bu Mr. Roberts yn llwyddiannus iawn fel golygydd. Peth newydd y pryd hwnw yn Nghymru oedd cyhoeddiad yn talu ei ffordd—llawer llai dwyn elw i'w berchenog. Gwnaeth efe i'r *Cronicl* dalu. Dywedir, ar awdurdod dda, iddo dderbyn trigain punt yn flynyddol oddi wrtho am dymmor hir. Misolyn ceiniog a dimai oedd efe: wedi hyny, dwy geiniog. Nid darluniau heirdd, na chwedlau hudolus i blant, a'i gwnaeth yn boblogaidd. Yr oedd yn gyhoeddiad uwchraddol a sylweddol o'i gychwyniad. Aeth yn fwy duwinyddol wedi i S. R. ei roddi i fyny. Etto, yr oedd iddo ddarllenwyr lawer; ac fel rheol, dygai y corph mawr o honynt i goleddu ei syniadau. Mewn gair, yr oedd ynddo y gallu cuddiedig i wneyd ei ddarllenwyr yn ddysgyblion. Ond odid na addefir fod ynddo bregethau o bereidd-dra mawr, y rhai a ddarllenid gydag awch a mwynhâd; dadleuon Beiblaidd difyr a naturiol, fel y daeth yn anhebgorol i gyfarfodydd plant; trosweliad hynod o feistrolgar, clir, cryno, o brif fudiadau gwladol a chrefyddol yr amseroedd; a thu ol i'r cyfan, yr oedd neillduolrwydd a'i gosodai ar ei ben ei hun. Ond heb law hyny, yr oedd ysbryd y cyhoeddiad yn ddwys ac angerddol. Ei gyswyn-eiriau oeddynt 'Rhyddid a Chydraddoldeb, Gwladol ac Eglwysig.' Er ei fod yn enwadol i'r carn, darllenid ef yn rheolaidd gan lawer o Fethodistiaid, ac enwadau eraill, o dueddiadau Arminaidd a Radicalaidd. Deallodd ei berchenog ddirgelwch golygiaeth lwyddiannus y tu hwnt i neb o'i gyfoedion yn yr alwedigaeth. Nid personoliaeth oruchel, dïenw, draw yn y pellder, yn cyhoeddi dedfryd, mo hono ef: eithr gŵr cydstâd â'i ohebwyr. Cyssylltai ei

Digitized by Google

enw â phob peth a wnelai; trwsiai yn ofalus yr hyn a anfonid iddo gan lafurwr bol clawdd; ïe, ail ysgrifenai yr oll o feddyliau ei gynnorthwywyr carbwl, ar amserau. Ac os tybiai y byddai gair o ganmoliaeth i fachgen neu henafgwr, bardd neu bregethwr cynnorthwyol, yn fuddiol, rhoddai ef yn ddiwarafun. Elai yn nes at ei ddarllenwyr nag odid i ysgrifenydd y darllenasom ei gynnyrchion erioed. Pe yn Sais, ac yn ysgrifenu yn Llundain i'r Prydeinwyr, odid nad ennillasai efe ddylanwad ëang iawn yn mhlith darllenwyr crefyddol.

5. *Y Pregethwr, a'i Bregethau.*—Gwelsom i Mr. Roberts gychwyn ei yrfa fel dyn cyhoeddus yn dra phoblogaidd; eithr ni lwyddodd efe i gadw meddiant parhaol o'r poblogrwydd hwnw. Wrth reswm, nid ydyw mewn un modd yn beth eithriadol ac anghyffredin i bregethwyr cymmanfaoedd a'r cyfarfodydd blynyddol golli y ddawn i weini i chwaeth y cyhoedd. Achlysurir hyny, fe allai, gan ddirywiad yn y llais a'r gelfyddyd o siarad, neu ynte ddirywiad yn y defnydd a bregethir—ac weithiau yn y naill a'r llall. Bryd arall, collir ef am mai damweiniol oedd ar y cyntaf, wedi ei achlysuro gan rhyw ddawn boblogaidd arall o eiddo y dyn. Tybiwn mai yr olaf ydyw yr eglurhâd tebycaf a chywiraf yn ei hanes yntau. Awgrymwyd rhesymau eraill. Hwyrach ddarfod iddo ef ei hun dybied ar amserau (canys yr oedd ammheuaeth yn fyw a grymus ynddo) nad ynddo ef ei hun y nythai yr achosion. Ymddengys i ni fod y rheswm yn gorwedd yn y ddwy ffaith a ganlyn:—1af, Fel ysgrifenydd byw, croew, y daeth efe i sylw gyntaf; a pharhaodd i brifio am flynyddoedd yn y ddawn hono. Disgynai disglaerdeb tanbeidiach ei frawd hynaf yn naturiol arno; a chyda'r pertrwydd hwnw a roddodd neillduolrwydd ar ei ddawn gyhoeddus, aeth yn eilun gan y lliaws. 2il, Dywedir iddo newid ei ddull; ac yn lle chwanegu at, tynodd hyny oddi wrth y swŷn a'r effeithiau a chwennychir gan liaws y bobl. Tybir fod chwaeth y cyhoedd fel chwaeth y cogydd Ffrengig—yn orlednais, os heb flâs neillduol—cynnyrch celfyddyd y cogydd; nis gwaeth mo'r llawer pa mor sylweddol ac amrywiol fyddo y defnydd a arlwyir. Y gwir ydyw, ni bu efe erioed yn feistr ar reitheg. Er iddo gael odfeuon grymus, gwlithog, â naws y nef arnynt, ddegau o weithiau, ni bu un amser yn 'feistr y gynnulleidfa.' Ond gan nad beth am hyny, efe a barhaodd yn bregethwr gwir gymmeradwy hyd y diwedd. Ar yr un pryd, cyttunir iddo esgyn yn llawer uwch fel ysgrifenydd pregethau, nag fel traddodwr. Yma yr oedd ei gryfder penaf. Yn eu llewyrch hwy y ceir yr olwg gywiraf ar y dyn. Estyna tarth o'i ddadleuon; magant niwl sydd yn dilyn gwres. A yr awdwr yn fwy, ac yn llai, yn ol fel y bydd barn a rhagfarn ei ddarllenwyr; eithr am ei bregethau, y mae eu hawyr yn glir fel nosweithiau sychion haf —yr holl fryniau a'r mynyddoedd, y moroedd a'r ynysoedd pell, wedi dyfod i'r ymyl.

Pregethau natur ydynt — nid cynnyrchion dysg a chelfyddyd. Ni phroffesai 'suddo' i'r testyn; etto, nid elai oddi wrtho. Troai yr oll yn ddolydd a bryniau bychain o wersi. Nis gall y darllenydd golli golwg ar y pregethwr a'i neges am funyd awr. Byth ni themtir y diocaf o feddwl i ofyn, 'Pa le y mae efe rŵan?' Y mae eu swyn yn eu pertrwydd, eu symledd, eu tryloewder, eu harluniaeth uchel. Bywiogrwydd symmudiadau y peth byw sydd ynddynt, a phereidd-dra ei acenion. Gwelir cysgod y cyfryw yn eu teitlau, megys, 'Y ddau Os,' 'Y tri Cynhauaf,' 'Y tri Gauaf,' 'Y pedwar Gwely,' 'Y Bywyd yn cyhuddo'r Broffes,' 'Cymdeithas Yswirio,' 'Bangc y Nef,' 'Gweinidogaeth yr Haul,' 'Y Greadigaeth yn dysgu Dyn,' 'Y pedair Ochenaid,' 'Pregeth angladd y Flwyddyn,' 'Y tri Ffarwel,' 'Yr Arlun a'r Sylwedd,' 'Marw yn gryf,' 'Y Pryf,' 'Y tair rhyfeddod,' 'Gwisgoedd y Nef,' 'Yr hen Bulpud,' 'Y ddau Ddyn,' 'Y pedwar Rhaid,' 'Y Galon yn taraw,' 'Dyweyd Amen,' 'Adsain llais olaf y Gwaredwr,' &c., &c.

6. Er dangos ei ddull o drafod ei faterion, dyfynwn esampl neu ddwy.:—

DYWEYD AMEN:—*Salm* cvi. 48.

'I. *Hanes Amen.*—1. Arwydd o gydsyniad cynnes 2. Adnabyddus o dan y ddwy oruchwyliaeth. 3. Adnabyddus i'n tadau. 4. Gŵr mawr yn y nef. 5. Yr oes hon wedi colli yr Amen. II. *Pa fodd y collwyd ef?*—1. Yn raddol. 2. Ymlidiwyd ef gan rith-ddysgeidiaeth a rhith-boneddigeiddrwydd. 3. Cefnodd o herwydd difaterwch am dano. 4. Gyrodd rhith Amenau y gwir Amenau ymaith. III. *Y Golled o'i golli.* — Collir pethau eraill gydag ef. 2. Colled i'r weinidogaeth a'r gwrandawyr. 3. Colli Amen yn attalfa ar un o brif foddion achub eneidiau. 4. Colli Amen yn effeithio er attal gogoniant Duw. IV. *Annogaethau i'w geisio a chyfarwyddiadau pa fodd i'w gael yn ol.*—1. Mae yn hawdd ei gael. 2. Rhaid i'r holl bobl ei geisio. 3. Os gwrthyd y teimlad, gwaedded dyledswydd 'Amen.' 4. Wrth wneyd dyledswydd y dychwel hyfrydwch a theimlad, 5. Delio â'r nef yn fanteisiol i'w gael yn ol.'

YR OS:—*Luc* xxiii. 39.

'I. *Yr Os yn ei le, a'r Os o'i le.*—Gair bychan pwysig iawn yw 'os.' Y mae ei adael o ambell fan yn rhyfyg, a'i roddi mewn man arall yn gabledd. . . . . Pan ddywedwn, 'Os gwir gair dyn,' y mae yn ei le; ond pan y dywedir, 'Os gwir gair Duw,' nid yw yn ei le. Pan y dywedwn, 'Os gall dyn,' y mae yr os yn ei le . . . . Dywedodd Pharaoh, 'Erlidiaf, goddiweddaf; a rhanaf yr ysbail.' Dylasai chwanegu, 'Os gallaf.' Ond pan y dywedir, 'Os gall Duw,' y mae o'i le. . . . . Pan y dywedwn am bethau y byd yma, 'Os mŷn Duw,' y mae y gair bach yn ei le; ond pan y dywedwn, 'Os mŷn Duw,' am iachawdwriaeth enaid, nid yw y gair yn ei le . . . . Pan y dywedwn, 'Os byddaf byw yfory,' y mae y gair yn ei le; ond pe y dywedem, 'Os byddaf byw yn yr adgyfodiad,' byddai y gair o'i le. . . . . Ni chablem pe y dywedem, 'Os na thry y lleuad yn waed heno—os na thry yr haul yn dywyllwch bore fory—os na syrth y sêr—os na hollta y creigiau—os na ferwa y môr, ac os na lysg y ddaear' . . . . Ond pe y dywedem, 'Os derfydd amser,' byddai y gair o'i le. Gwnai un 'os' yma y Beibl y llyfr gwaethaf a ysgrifenwyd erioed. Gellir dywedyd, 'Os gwna dyn ei ddyledswydd;' ond pe dywedem, 'Os gwobrwya Duw yr ufudd,' byddai y gair o'i le . . . . Yr un peth fyddai gan Dduw oddef i'w greadur ddymchwelyd ei orsedd, a dwyn ei goron, ag a fyddai ganddo roddi 'os' rhwng credu a bod yn gadwedig. II. Mai yr 'os' a andwyodd weddi y lleidr.—(1.) Ei addefiad yn dda. (2.) Galwai ar wrandäwr gweddi. (3.) Yr oedd yr adeg yn dda. (4.) Nid oedd ei gais yn afresymol. (5.) Nid oedd yn amddifad o deimlad. (6.) Mewn gwawd y dywedai yr 'os.' III. Ein manteision ni i gael crefydd heb 'os' ynddi, rhagor y lleidr.'

Y PRYF:—*Esaiah* lxvi. 24.

'I. Pa fodd y mae ei fagu? II. Beth yw ei natur? III. Na bydd marw mewn byd arall.'

Digitized by Google

CYNGHORION I WEINIDOG IEUANGC.

'A'm llygaid arnat y'th gynghoraf;' *Salm* xxxi. 8.

(1.) Ceisiwch fyw yn barchus. (2.) Byddwch yn fwy awyddus am lyfrgell dda na llyfrgell fawr. (3.) Peidiwch tybied fod yr hen dduwinyddion yn anffaeledig. (4.) Darllenwch natur. (5.) Gadewch i'r Beibl fod yn ben. (6.) Peidiwch pregethu yn hir. (7.) Peidiwch pregethu yn 'ddwfn;' hyny yw, tywyll. (8.) Newidiwch bulpudau â'ch brodyr ambell waith. (9.) Ceisiwch ddeall pob dadleuon—duwinyddol, eglwysig, a gwladol. (10). Na honwch awdurdod yn yr eglwys. (11.) Na wnewch gyfeiriadau personol yn y pulpud. (12.) Os cyll yr eglwys ei serch atoch, neu chwi ati hi, ymadewch. (13.) Sefwch o flaen eich pregethau i weled eich hun. (14.) Ceisiwch fyned i'r pulpud â chydwybod dawel. (15.) Edrychwch ar daledigaeth y gobrwy.

7. Dyna gyffes Mr. Roberts yn gydwëedig â'r cynghor. Ond cyn gadael yr adran hon, fe haedda ei ragymadrodd byr a synwyr-gall i'w gyfrol le yn y fan hon :—

Anwyl gyfeillion,—Y mae gan J. R. bentyrau o bregethau gwreiddiol, na chyhoeddwyd erioed yr un o honynt. Gwell ganddo wneyd pigion ei hunan nag ymddiried i gyfaill, brawd, na phlentyn. Y mae ynddynt linellau i'w gadael allan, a rhai i'w chwanegu, ac ambell air i'w newid. Y mae yn anhawdd ganddo feddwl nad yw y cyfeillion penaf a mwyaf talentog a chraff yn gwneyd peth cam wrth wneyd pigion o weithiau y meirw. Cyhoeddir rhai pethau y credwn na buasai yr awdwyr eu hunain byth yn gwneyd; a byddai yn bossibl rhoddi eu henwau wrth syniadau y darfu iddynt newid eu barn am danynt. Ysgrifenodd J. R. ambell linell yn ei ieuenctid, ac yn ei oes, na ddymunai i neb roddi ei enw ef wrthynt heddyw; ac am hyny, y mae yn dewis gwneyd y pigion ei hunain, a'u galw *Y Gyfrol Olaf.*

*Y Dyn, a'r Dadleuwr.*—Er ei fod yn ddyn neillduol o unplyg, a di-dro, methai llawer ei adnabod, am na chymmerasant hwy hamdden pwyllog at hyny o orchwyl. Nis gall awenydd lai na chanu. Rhaid i athronydd gymmeryd ei weledigaethau wedi eu lliwio i fesur â'r goleuni oedd ynddo ef yn flaenorol. Angenrhaid ambell lygad ydyw gweled carnedd pa le bynag y bo. Ni wel arall beth felly yn unman, ac nid edwyn linell wastad pe y digwyddai efe daraw arni. Nid o ddewisiad y mae ambell ddyn yn llonydd, a'r llall yn fywiog—yn foddlawn yn mhob sefyllfa, a'r llall fel llyn tro—yn gartrefol a graenus yn yr encil di-sôn-am-dano, a'r llall yn ysu am fod yn mhob cymmanfa a chynnadledd, a'i gampau bychain yn yr holl newyddiaduron—y rhai Saesnig yn arbenig. Esgyna y fflam a'r mŵg i'r awyr, am nas gallant beidio. Chwery y môr o lan i draethell, ac o draethell i lan :—dyna y ddeddf. Gwnaeth Mr. Roberts ei hun yn gâs gan lawer :—nid o fodd, eithr o raid. Ar un olwg, yr oedd yn ŵr ymyrgar, ac ar brydiau yn hoenus o ddadleugar. Dechreuodd ddadleu yn 1838, gyda'i gefnder, y Parch. R. Williams, o Liverpool. Ysgrifenai Mr. Williams nifer o ysgrifau i'r *Drysorfa* ar yr 'Iawn,' a 'Phechod Adda,' ar ffurf ymddiddan rhwng 'Pregethwr a Gwrandawr.' Rhoddwyd tôn neillduol o uchel-Galvinaidd iddynt. Yn rhai o honynt, cyfeiriwyd at ddaliadau awdwr y *Llyfr Glâs* mewn iaith anfwyn; a bu hyny yn achlysur i Mr. Roberts amddiffyn y 'System Newydd.' Cangen o'r un boncyff hefyd oedd yr ornest ddoniol a fu rhyngddo ef a'r Parch. Robt. Thomas (*Ap Vychan*), ar 'Etholedigaeth.' Araf a thrwm ei symmudiadau, fel y *Spanish Armada,* oedd Mr. Thomas; tra yr oedd Mr. Roberts, fel cwch byw y *torpedo,* yn chwareu adnodau blaenllym i ystlysau ei ddamcaniaeth. Bu, ar ol hyny, aml i dro yn gwneyd rhuthrgyrchoedd ar y Calviniaid, a Chalviniaeth. Awgrymid nad oedd efe yn deall y gyfundrefn. Nid ydym yn meddwl iddo astudio Calvin's *Institutes of the Christian Religion.* O ran hyny, dywedodd ei hun iddo gael digon ar yr athrawiaeth tra yn ceisio ei dirnad drwy ysgrifeniadau Jonathan Edwards. O radd i radd, aeth yn gashäwr cyfundrefnau duwinyddol, a chredoau ffurfiol. Gyrodd 'niwl, a thywyllwch, a dyfnder,' y cyfundrefnwyr ef yn ol at yr Efengylau a'r Epistolau. Yr oedd ei dduwinyddiaeth ef yn gorwedd ar wyneb yr Ysgrythyrau.

9. Ceir mesur annymunol, weithiau, o ôl nwydau a theimladau personol yn ei ysgrifeniadau eglwysig. Nid ydym yn ammheu nad oedd yr amcan yn cyfreithloni dadl yr *Annibynwr;* canys tro anfasnachol oedd cuddio cyfrifon arianol y misolyn hwnw; a symmudai sail pob rhyw ammheuon pe y gwnai ymddiriedolwyr cyhoeddiadau enwadol gyhoeddi adroddiad blynyddol o'u sefyllfa arianol. Ond yr oedd y brwdaniaeth a ddygai efe i ddadleuon yn ennyn gwŷr pwyllog i ymholi weithiau, 'A oedd efe yn ddyn doeth?' Nid oes ddadl na bu, ac nad oes etto, duedd mewn rhai gwŷr da a pharchus i gadw awenau pob awdurdod a rheolaeth allanol mewn cyfundebau yn yr enwad Annibynol am dymmor rhy hir; a thrwy hyny, ddiystyru y ffaith mai gwerinol ydyw, a bod iechyd yr enwad, a'i gysur, yn dibynu ar newid rheolaidd a lledaeniad swydd, ac awdurdod. Ond nis gallai nemawr o dda ddeilliaw o wasanaeth arolygydd hunan-appwyntiedig 'annibyniaeth yr eglwysi.' Ar y sail fod rhywrai beunydd mewn cynnadleddau ac undebau yn ymyryd â'r hyn na ddylasent—nad oedd mesur o gydweithrediad a threfn yn ddim amgen na Phresbyteriaeth —aeth efe ei hun, a gyrodd lu o'r eglwysi, mae lle i ofni, i gyflwr pell o neillduad gwrth-Gynnulleidfaol. Yr oedd efe yn Gristion rhy angerddol i beidio deisyf 'undeb serch' rhwng yr eglwysi; ond ei gynghor beunydd fyddai ar i 'bob eglwys weithio gartref,' ac anfon eu cynnorthwyon yn uniongyrch a digyfrwng i'r hon fyddai mewn angen. A fu ei wasanaeth i'r eglwysi fel 'gwyliedydd eu rhyddid' yr hyn a honir gan ei edmygwyr? Ceir hyd i genhadaeth ei oes ef yn y gwaith godidog a wnaeth efe trwy ei bregethau peraidd ac efengylaidd. Cynnorthwyodd gymmaint a neb arall, hwyrach, i symleiddio arddull pulpud Cymru; a thrwy hyny ei wneyd yn fwy o nerth a goleuni nag o'r blaen. Y mae yn ddiammheu iddo adael ei enwad a'i genedl yn well mewn llawer ystyr nag y cafodd efe hwynt.

ROBERTS, RICHARD (*Gruffydd Rhisiart*). Efe ydoedd yr ieuangaf o feibion y Parch. John Roberts, Llanbrynmair. Ganwyd ef yn y Ddiosg, yn y plwyf hwnw, ar y 5ed o Dachwedd, 1810. Llëygwr oedd efe—amaethwr diwyd, a thra deallus. Yr oedd o gynneddfau naturiol cryfion, yn neillduol o graff, arabus fel Gwyddel, duchanol (*satirical*) fel Twm o'r Nant, etto yn oludog o garedigrwydd, a natur beraidd a siriol. Cyfranogodd o naws awen, a gallai ysgrifenu rhyddiaeth wych. Yr oedd efe o duedd chwareus, hyd yn oed yn ei hen ddyddiau. Hoffai y gwaith o annos hen ac ieuangc. Nis gallai wrthsefyll y demtasiwn o wasgu a thynu ei law

Digitized by Google

dros ben y balch a'r hunanol. Yr oedd ynddo ddawn cynhenid cryf at allofyddiaeth. Aeth y sôn am ei fedrusrwydd cywrain gyda pheiriannau ac offer gwaith ar led i bob man. Pe buasai wedi cael addysg dda, ac yni i fyned i chwilio am lwyddiant bydol, nid oes dau feddwl na ddringasai efe i enwogrwydd. Cododd weithdy iddo ei hun; ac enillodd 'siop Gruffydd' glod ac edmygedd pob ymwelydd.

Tra yn Llanbrynmair, Tennessee, a Chonwy, efe oedd yr hwsmon a'r pentrulliad; ac annichon fuasai cael ei well. Heb law fod ganddo lygaid i adnabod rhinweddau gweryd, neillduolion da corniog, a phob rhyw greaduriaid gwâr, yr oedd synwyr a dawn gwledig y marchnatäwr wedi ymddadblygu yn helaeth ynddo. Fferm 'da pluog' yn unig oedd ganddo yn Nghonwy; ond yr oedd ganddo fyddin liosog a dysgybledig o honynt. Adwaenai hwynt oll wrth eu henwau, ac adwaenent hwythau sŵn ei draed a sain ei lais yntau. Siaradai â hwynt beunydd yn helaeth, megys pe byddai y cwbl yn deall cyfrinion barddas. Ar ei air, hwy a elent ac a ddychwelent yn drefnus i'r dwfr ar awr bennodol. Ymserchai ynddynt, fel pe baent yn blant iddo. A doniol iawn fyddai yr olwg arno yn myned i Gonwy gyda basgedaid o ŵyau glân ar ei fraich. Ond odid nad ei serch cynhenid at bob hen profedig, ei ammheuaeth naturiol o bob newydd a dyeithr, a'i gâs at bob cuddiedig a ffugiol, a barai iddo eu cymmeryd yn ysgafn, os nad yn erwin, weithiau.

Medrai ysgrifenu yn ddawnus a chyrhaeddgar dros ben. Yn 1848, gwelwn ef yn olrhain 'Mawr Ddrygau Addysg.' Yn ei ffug-chwedl, 'Jeffre Jarman, y Meddwyn Diwygiedig,' y mae ei ddoniau disgrifiadol a chwareus ar eu llawn hyd. Y neillduolion hyny a'i cadwodd rhag ennill y gamp yn Eisteddfod Aberdâr. Yr un pryd, cydnabu Eben Fardd fod 'nodau athrylith gref, a thalent awdurol' ar y cyfansoddiad. Cyfansoddodd amryw o bryddestau—rhai buddugol, a chaneuon, a phennillion. Bu 'Cân y Glep' yn boblogaidd iawn yn Maldwyn unwaith:—

'Mewn ambell bentref bach,
Mae nifer mawr o wrach
Ar ddrwg o hyd;
Mae 'n syn gwel'd merched glân
Yn rhês o ddeutu'r tân,
Yn llunio chwedlau mân,
Yn glep i gyd.'

At yr amryfal fân orchwylion a gyflawnai yn Nghonwy, aeth bob yn dipyn i bregethu. Ni hônai ddim yn y pulpud, ac ni cheisiodd newid ei iaith. Wedi traethu yn ddyfal am ennyd nes ei anghofio ei hun, safai ar darawiad, a dywedai, 'Diaist i! faint ydi hi o'r gloch.' Hoffai egluro ac esbonio; traethai bethau newydd grai yn fynych; ac yr oedd ei holl sylwadau yn synwyrgall a doeth. Mawr hoffid ei symledd gwledig, ei frâth a'i duchan, ei ddigrifwch a'i ddifrifwch, gan y cynnulleidfaoedd. Dysgai yr ymarferol yn wastad. Yr oedd yn hoff o Ganeuon Sankey, fel ei frodyr; ac ail wisgodd ef a hwythau dwysged o honynt mewn Cymraeg—y rhai a gyhoeddwyd yn y swyddfa hon.

Bu farw Gorph. 25ain, 1883, yn 73ain ml. oed.

ROBERTS, Y Parch. ROBERT, Dolgellau. Ganwyd ef yn y fl. 1818, mewn amaethdy o'r enw Tyddyn isaf, yn mhlwyf Llanrhaiadr, yn agos i Ddinbych. Collodd ei fam pan nad oedd ond pedair oed; a bu ef, a'i frawd John, ar ol hyny dan ofal modryb iddynt, chwaer eu tad. Gwraig weddw oedd hi, o'r enw Margaret Titley; yr hon, fel y dywedai, a fu yn hynod o ofalus am danynt. Byddai ganddo barch i'w choffadwriaeth. Nid yw yn hysbys ei fod wedi cael dim manteision addysg cyn iddo fyned i Athrofa y Bala, oddi eithr yr hyn a gafodd yn yr ysgol yn Llanrhaiadr. Bu am beth amser, fel llawer eraill, yn fyfyriwr yn yr athrofa. Barna un ei fod yno cyn myned o Dr. Charles i Drefecca, yn 1842. Felly, yr oedd Mr. Roberts o ddeutu 24ain oed pan yr aeth i'r athrofa.

Yn eglwys Prion y dechreuodd efe, a'i frawd, bregethu. Ar ol ymadael o'r athrofa, bu am beth amser yn cadw ysgol yn Rhyl; ac oddi yno y cafodd alwad i Seion, Llanrwst, i fod yn weinidog, yn 1856:—lle y bu yn llafurio gyda llwyddiant mawr am chwe blynedd. Symmudodd i fyw i Gonwy ar derfyn ei arosiad yn Llanrwst. Y pryd hwn yr unwyd ef mewn glân briodas â Miss Hughes, merch y Parch. John Hughes, Brynhyfryd, Abergele (Llanrwst gynt). Ac yn Abergele y bu yn preswylio hyd 1875; pan y derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Dolgellau. Wedi llafurio yno yn gysson a llwyddiannus am bedair blynedd ar ddeg, gorphenodd ei yrfa mewn llawenydd Medi 23ain, 1889, yn 71ain mlwydd oed.

Wedi rhoddi y crynodeb byr hwn o brif gyfnodau ei fywyd, yr hyn sydd yn aros yw rhoi i'r darllenydd olwg weddol gywir ar natur ei lafur fel gŵr cyhoeddus; a chyda pha lwyddiant y coronwyd ei ymdrechion.

Nid ydyw yn newydd i neb a adwaenai Mr. Roberts fod ei lafur agos yn gwbl o fewn cylch ei enwad ei hun. Gyda golwg ar ei ddoniau pregethwrol a'i wybodaeth dduwinyddol yr oedd ogyhyd ei esgeiriau bob amser. Cyflwynai ger bron ei wrandawyr mewn modd effeithiol wirioneddau hanfodol yr efengyl er cyrhaedd sylw y lleiaf ei ddeall. Cuddiad ei gryfder fel gweinidog cymmhwys y Testament Newydd oedd yr argyhoeddiad dwfn a feddiannai ei holl natur o bwysigrwydd y genadwri a ymddiriedwyd iddo. Nid ydym yn cofio am neb o'i gyfoedion a barhaodd yn hwy i bregethu yn *searching* nag efe. Ni phetrusai un amser i lefaru am gyfrifoldeb dyn i Dduw—y farn—drwg pechod—y gwahaniaeth hanfodol rhwng drwg a da—Duw yn galw dyn i gyfrif—a Duw cyfiawn yn cospi pechod. Ac yna, gyda rhyw eneiniad neillduol, dygai raslonrwydd yr efengyl i'r golwg mewn cyfres o ymadroddion ysgrythyrol, fel y byddent yn toddi calonau y gwrandawyr. A pha faint bynag oedd y llewyrch a'r grym a berthynai i'w bregethiad ar hyd ystod ei weinidogaeth, yr oedd ei gymmeriad a'i fuchedd, fel sant, yn fwy na dim a lefarodd erioed. Ysgrifenodd un am dano, nad oedd yn ofni i ieuengctyd Cymru ŵyro at ammheuaeth tra y cyfodai Duw ddynion mor lednais a phur a Mr. Roberts.

Y gwasanaeth cyntaf a phwysicaf, ni gredwn, a wnaeth efe i'r cyfundeb y perthynai iddo, oedd, bod yn dyst ffyddlawn a doeth dros fugeiliaeth eglwysig dros dymmor hir, trwy ddal i fyny mewn esampl 'mai felly yr ordeiniodd yr Arglwydd fod i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl.' Yr oedd hyn yn gamp yn sir Ddinbych, fel yn yr oll o siroedd Cymru am flynyddau maith. Cafodd ei gyfrif gan lawer yn segur a diog, am na chymmerasai afael mewn rhyw orchwyl bydol, fel yr oedd yr

Digitized by Google

oll o'r pregethwyr o'r bron, y cyfnod hwnw, yn gwneuthur. Yr oedd yn dal yn dyst ffyddlawn pan nad oedd cymmaint ag un eglwys, am ddau dymmor hir o'i oes, yn galw am ei wasanaeth, a hyny hefyd heb ddim surni yn magu yn ei ysbryd, yn orchwyl nas gallasai neb ond dyn Duw ei gyflawni. Erbyn hyn y mae gwedd newydd ar yr achos hwn yn nghyfarfodydd misol y cyfundeb a nodwyd.

Wedi i Mr. Rees, yn yr Amwythig yn gyntaf, ac wedi hyny yn Liverpool, gyda'i gyfaill Mr. John Hughes, fraenaru y tir gyda golwg ar safle y weinidogaeth yn mhlith y Methodistiaid; ac i Mr. Robert Davies, Llanwyddelen, yn Maldwyn; a Mr. Edward Morgan ragori ar y tri eraill yn y cyfeiriad hwn yn Meirionydd, yr oedd yma un gwaith pwysig ag oedd etto heb ei gyflawni yn nghylch y ddwy gymdeithasfa. Yr oedd hyn yn canlyn yn naturiol i ddygiad i fod y fath fywyd i'r cyfundeb ag a ddaeth drwy eu llafur hwy, a llu o gydweithwyr egnïol, dros yr oll o Ogledd Cymru, gyda chyfodiad yr Ysgol Sabbothol, a phlaniad eglwysi newyddion; fel yr oedd amryw bethau ag yr oedd eisieu gofalu am danynt, a'u gosod mewn trefn; y rhai nid oeddynt yn bod, na'u hangen, yn y blynyddau a aethent heibio. Tuag 1848 y dechreuwyd cadw cyfrifon eglwysig gyda graddau mwy o fanylwch. Yr oedd pob cyfarfod misol yn byw cyn hyny, fel yn nyddiau y Barnwyr, yn ol fel y gwelai pob un yn dda yn ei olwg ei hun.

Un o anghenion y cyfundeb, bum mlynedd ar hugain yn ol, oedd rhywun a ddygai oddi amgylch gyfrif gweddol gywir o'r swyddogion, yr aelodau, a'r gwrandawyr a berthynent i'r cyfundeb, ynghyd â'r addoldai a'r meddiannau oedd yn eiddo iddo. Nid oes neb sydd wedi dilyn hanes cymmanfaoedd y deng mlynedd ar hugain diweddaf nad ydyw yn gwybod mai i Mr. Roberts y mae'n rhaid priodoli dechreuad y gwaith da hwn, a'i gyffelyb, yn mysg y Methodistiaid. Wrth gyflawni hyn o orchwyl, yr oedd rhai o'r bobl mwyaf beirniadol yn barod i ddyweyd fod ar Mr. Roberts awydd am ein huno a'n claddu yn mysg Henaduriaethwyr yr Alban. Nid ydym yn gwybod fod dim wedi bod yn achlysur i dybiaeth o'r fath, ond fod Mr. Roberts wedi mynychu cymmanfaoedd yr Eglwys Rydd, yn ogystal ag eiddo eu brodyr eraill; a llawenychai wrth weled eu trefn, a mynegu, pan y deuai adref, hyny a welodd yn Ysgotland. Hyn, ynghyd â'i wasanaeth maith a ffyddlawn yn yr efengyl, a barodd iddo gael ei alw i swyddau uchaf y cyfundeb. Ac er dangos y lle pwysig a roddid i Mr. Roberts, etholwyd ef, ar farwolaeth Mr. Morgan, yn ysgrifenydd Pwyllgor Athrofa y Bala. Ymgymmerai yntau ar unwaith â chyhoeddi adroddiad mor gyflawn ag oedd yn bossibl o gasgliad yr athrofa; yr hwn a wnaethpwyd gan Mr. Edward Morgan yn ngwyneb gwendid a llesgedd digyffelyb; ac oni bae am annibendod anesgusodol y casgliadau mewn llawer o eglwysi ar hyd a lled Gogledd Cymru buasai Mr. Morgan wedi ei gyhoeddi ei hun. Cyflawnodd Mr. Roberts y diffyg hwn yn ffyddlawn; a bu yn y swydd am dymmor maith. Bu yn llafurio gyda'r fugeiliaeth am amser, heb fod iddo ond ychydig yn ei gynnorthwyo.

Er nad oedd dim neillduol i'w gofnodi am dano tra y bu yn Llanrwst, yno yr oedd efe yn anterth ei rym fel pregethwr. Ar ei sefydliad yn Nolgellau, digwyddodd i'r achos crefyddol yn Salem fod mewn bwlch oedd yn gofyn mesur helaeth o ddoethineb yn ei swyddogion. Dangosodd Mr. Roberts, gyda chynnorthwy y blaenoriaid yno, ei fedr a'i wroldeb i ddwyn y llestr i hafan ddymunol. Y cwestiwn dan sylw oedd, pa fodd y dylesid symmud yn mlaen gyda golwg ar helaethiad terfynau yr achos yn y dref. A gwnaed hyn yn hynod ddi-ddolur i bawb. Ar ddyfodiad Mr. Roberts, nid oedd gan y Methodistiaid ond un eglwys yno. Yn awr, y mae yno dair; a lle cenhadol wedi ei sefydlu yn mhen uchaf y dref, wedi ei ddodrefnu yn briodol, a'i gyflwyno yn rhodd gan un o flaenoriaid Salem; ac er sefydliad yr eglwys Saesnig, yr oedd rhif aelodau y Methodistiaid wedi dyblu yn ystod ei drigias ef yn eu plith. Ac er fod ganddo le i ymffrostio o herwydd y llwyddiant hwn, nid ymfalchïodd ei galon.

Wrth derfynu hyn o sylwadau ar ei lafur gweinidogaethol, nis gallwn beidio crybwyll ei fod, yn ystod ei holl yrfa, yn gallu mwynhau gweinidogaeth ei frodyr, yn hen ac yn ieuaingc. Nid llawer o ddefnydd a wnaeth efe o'i ysgrifell un amser; ond ysgrifenodd erthyglau nid ychydig i'r *Goleuad*, a hyny yn benaf ar achosion a godent i sylw o fewn cylch y cyfundeb y perthynai iddo. Bu ar amryw achlysuron yn cymmeryd rhan flaenllaw mewn materion gwladwriaethol a chymdeithasol. Yr oedd yn Rhyddfrydwr aiddgar, ac yn bleidiwr selog i'r aelod presennol dros y sir pan ar ei ddyfodiad allan gyntaf fel ymgeisydd. Yr oedd yn teimlo i'r byw o herwydd y deddfau anghyfiawn oedd ar ddeddf-lyfrau y deyrnas, a'r trahâ tuag at werin Ymneillduol y wlad; ac ni phetrusai eu dynoethi yn y modd mwyaf dïarbed. Yr unig lyfr a gyhoeddodd ydoedd ar ei hoff bwngc; sef, trefn eglwysig, yn dwyn yr enw *Elfenau Methodistiaeth;* yn yr hwn y mae yn egluro ac yn cymmharu y cyfundrefnau eglwysig, ond yn benaf y Gynnulleidfaol a'r Henaduriaethol; a thrwy hyny, yr oedd yn cyrhaedd at drefn eglwysig pob enwad Cristionogol rhydd ar hyd a lled y byd. Fel y mae yn hysbys, bu dadl frwd ar y testyn hwn tua hanner can mlynedd yn ol, rhwng y diweddar Dr. L. Edwards o'r Bala, a'r Parch. S. Roberts, o Lanbrynmair, ar yr achlysur o gyhoeddiad araeth y blaenaf yn Nghymdeithasfa y Bala ar *Natur a Threfn Eglwysig.* Ar ol i'r ddau ŵr galluog a enwyd roddi eu harfau o'r neilldu, fe gymmerwyd y ddadl hon i fyny wedi hyny gan y Parch. John Mills, o Lundain, a'r Parch. Thomas Roberts (*Ysgorpion*), Llanrwst. Y mae genym gôf da i ni weled peth o wreichion y goelcerth hono yn ein mebyd, a mawr oedd yr asbri am ei darllen.

Yr oedd pryder Mr. Roberts i fod yn deg a diduedd wedi peri iddo ddarllen yn helaeth ar ei gyfer, fel y gwelir yn nghorph y llyfr. Ac y mae yn ddïau yn llyfr i ymgynghori âg ef ar drefn eglwysig pob enwad; ond nid yw mewn un lle yn gosod yr arbenigrwydd ar y golygiad a gymmeradwyid ganddo ef ei hun; er ei bod yn wybyddus mai y drefn henaduriaethol y dadleuai efe yn gadarn drosti bob amser. Megys ag y mae, gallwn ddywedyd yn ddibetrus fod y llyfr o werth mawr, ac wedi ei ysgrifenu mewn ysbryd rhagorol. A pheth nad yw mewn un modd yn annhebygol y dyddiau hyn yw, y gall trefn eglwysig ddyfod etto yn bwngc y dydd yn Nghymru, wrth i ni gofio pa beth sydd yn myned yn mlaen yn y senedd ynglŷn âg achos yr Eglwys Sefydledig.

Digitized by Google

ROBERTS, DAVID, Liverpool ac Abergele. Ganwyd Mr. Roberts yn Llanrwst, Mawrth 9fed, 1806; a bu farw yn Nhan-yr-Allt, Abergele, Hydref 3ydd, 1886, pan yn agos i saith mis uwch law 80ain mlwydd oed. Fel blaenor yn mysg y Methodistiaid Calfinaidd, nid oedd yn ormod dyweyd na chyrhaeddodd neb safle uwch, o ddechreuad y cyfundeb hyd yr awr hon. Ymddengys nad oedd ei rïeni yn proffesu crefydd gyda'r Methodistiaid; ond yr oedd ganddo ewythr, gŵr ieuangc o frawd i'w fam, oedd yn aelod gyda hwynt. Cymmerodd hwnw ef, pan nad oedd efe etto ond saith neu wyth mlwydd oed, i fath o gyfarfod plant, ar wedd *society*, a gedwid y pryd hwnw yn Llanrwst. Yr ewythr oedd un o'r rhai a ofalent am y cyfarfod. Gadawodd y cyfarfod hwnw argraph dda arno. Yn 1819, pan oedd yn 13eg oed, cyrhaeddodd y diwygiad a elwid 'Diwygiad Beddgelert' i Dolyddelen. Yr oedd ar y pryd fab i'r hen bregethwr hybarch John Williams yn aros yn Llanrwst; a pherswadiodd hwnw ei gyfaill ieuangc, David Roberts, i fyned am Sabbath gydag ef i Dolyddelen, i 'weled y diwygiad.' Ni welsai, ac ni chlywsai erioed y fath bethau ag a welodd ac a glywodd yn Nolyddelen y Sabbath hwnw. Yr oedd yno deimladau hynod, a llawer yn tori allan i orfoleddu. Penderfynodd y diwrnod hwnw mai crefydd fyddai y peth blaenaf ganddo o hyny allan byth; ac wedi dychwelyd i Lanrwst, ymunodd â'r eglwys heb oedi. Bwriedid, ar un adeg, iddo fod yn gyfreithiwr; ac ymddengys iddo dreulio rhyw gymmaint o amser yn swyddfa cyfreithiwr yn Mhwllheli. Ond yn 1822, pan yn 16eg oed, aeth i Liverpool, i fod yn egwyddor-was gyda masnachwyr coed; ac yn ebrwydd ar ol gwasanaethu ei dymmor gyda hwy, cychwynodd fasnach ei hun, a bu yn hynod lwyddiannus. Daeth yn fuan yn un o'r masnachwyr parchusaf yn y dref; a pharhaodd i lanw lle mawr yn y byd masnachol mewn gwahanol gyssylltiadau hyd ddiwedd ei oes. Ac yn gymmharol gynnar yn ei oes, daeth yn dywysog mewn cyfoeth a dylanwad—nid yn unig yn mysg y Cymry, ond hefyd, yn ngolwg cenhedloedd eraill.

Ond yn ei gyssylltiadau crefyddol, yn ddïau, y gwnaeth iddo ei hun yr enw a gofir hwyaf. Bydd iddo byth le mawr a phwysig yn hanes Methodistiaeth Liverpool. Gweithiodd, yn ddïau, yn galed am lawer o flynyddoedd gyda'i fasnach; ond ni chaniataodd iddi un amser sefyll ar ei ffordd i gyflawni gwaith crefydd. 'Gwresog yn yr ysbryd, yn gwasanaethu yr Arglwydd,' fu ar hyd ei oes—yn gystal a diwyd yn ei fasnach. Bu ôl ei gychwyniad yn ngwres diwygiad grymus 1819 arno hyd ddiwedd ei yrfa. Bu goslef y diwygiad yn ei lais nes y disgynodd i'r bedd. I 'hen gapel Bedford' y cymmerodd ei 'bapur aelodaeth' yn 1822; a bu mewn cyssylltiad â'r eglwys hono tra y parhaodd i ymgynnull yn yr hen gapel; ac wedi hyny yn nghapel Prince's Road hyd derfyn ei oes. Ychydig oedd yr aelodau yn 'Bedford' yn 1822, a chyffredin iawn oedd amgylchiadau yn mron bawb o honynt. Ar y pryd, ieuangc oedd yr eglwys. Arferai Mr. Roberts ddyweyd ei fod 'ef a'r hen gapel tua'r un oed.' Dau flaenor oedd ynddi; sef, Mr. Richard Roberts a Mr. Joseph Jones—y rhai a ddewisasid yn 1815. Mab i'r cyntaf oedd y Parchedig John Roberts, yn ddiweddaf o Edinburgh; a merch iddo a ddaeth yn wraig i Mr. David Roberts. Meibion i'r diweddaf oedd y diweddar Barchedig Joseph Jones, y Borth, a'r diweddar Mr. John Jones, Thackeray street; yr hwn a fu yntau yn flaenor galluog a ffyddlawn yn yr un eglwys o 1843 hyd ei farwolaeth, yn 1881. Am ei fod yn ysgolhaig da, ac yn ysgrifenwr parod, daeth Mr. Roberts yn fuan yn gynnorthwywr i'r blaenoriaid; a bu o'r cychwyn, nid yn ymosodwr ar y blaenoriaid, ond yn amddiffynwr teyrngar a deheuig iddynt. Yn y fl. 1827, dewiswyd tri o flaenoriaid eraill; sef, y Meistri William Jones, *machine;* William Hughes ('y Goes Bren'); a John Roberts, yr hwn a ddechreuodd bregethu yn 1830. Yn y fl. 1836, dewiswyd pedwar o flaenoriaid, ac yn eu mysg Mr. David Roberts a Mr. William Jones, Berry street; ond o herwydd anfoddlonrwydd i un brawd a ddewisasid, ni chadarnhawyd y dewisiad o un o honynt. Cydsyniodd Mr. Roberts gyda pharodrwydd, a Mr. Jones yr un modd, i barhau yn aelodau cyffredin o'r eglwys, er eu bod hwy a'r brodyr eraill wedi myned i'r cyfarfod eglwysig yn Pall Mall, gyda'r bwriad o gael eu derbyn fel blaenoriaid. Dewiswyd Mr. Roberts eilwaith yn y fl. 1838, a Mr. Jones yn 1839.

Yn 1832, ymbriododd Mr. Roberts â Jane, merch Mr. Richard Roberts. Tua 1855, neu fe allai yn gynt, daeth i gyssylltiad â'r eglwys Fethodistaidd yn Abergele. Prynodd Dan-yr-Allt, ac adeiladodd dŷ yno; a daeth y lle hwnw yn ail gartref iddo am weddill ei oes. Ond er ei fod yn flaenor yn eglwys Abergele, ni ddaeth byth i gymmeryd y dyddordeb yn nghyfarfod misol sir Ddinbych a gymmerai yn nghyfarfod misol Liverpool. Ymhyfrydai yn llwyddiant y cyfundeb yn mhob man; ond am ei lwyddiant yn Liverpool yn arbenig y gofalai ac y llafuriai gyda'r dyfalwch mwyaf hyd derfyn ei ddydd; ac ammhossibl ydyw dyweyd pa mor ddyledus ydyw y cyfundeb yn y ddinas hono, a'i hamgylchoedd, i'w synwyr, ei graffder, ei yni, a'i sêl ef. Yr oedd iddo ran bwysig yn symmudiad y Parch. Henry Rees yno o'r Amwythig, yn 1836; a bu, mewn undeb â'r gŵr mawr hwnw, a brodyr eraill, am oes faith, yn gofalu am yr achos yn ei holl gyssylltiadau, ac yn ei lywio yn y modd mwyaf doeth ac effeithiol. Nid oedd efe yn siaradwr mawr; ond ar adegau, er ei 'attal dywedyd,' siaradai gyda hyawdledd pur. Gwnaeth yn ei oes rai anerchiadau nad anghofir byth, megys ei anerchiad yn y cyfarfod yn 'hen gapel Bedford' i gasglu addewidion at adeiladu capel Prince's Road; a'i anerchiad wrth osod 'careg goffadwriaethol' y capel hwnw. Ac yr oedd yn meddu dawn arbenig i 'gadw seiat.' I'r hen urdd o flaenoriaid y perthynai; a gwasanaethodd yn ffyddlawn swydd blaenor yn ei holl agweddau.

Yr oedd yn edmygydd mawr o'r tadau. Ni flinai, yn mlynyddoedd olaf ei fywyd, yn siarad am yr hen bregethwyr Thomas Edward a Thomas Hughes, y rhai a lafurient yn y dref pan ddaeth efe yno yn fachgen o Lanrwst: ac o John Elias, a William Roberts, o Amlwch, yr oedd ei edmygedd yn ddi-derfyn. A gellid chwanegu eraill at y rhestr, a dywedyd yr un peth am danynt hwythau. Dygai fawr sêl dros Gymmanfa y Sulgwyn, a bu yn bresennol ynddi yn ddi-fwlch am 64ain mlynedd.

Ar ryw gyfrif, gellir edrych ar gapeli Prince's Road ac Abergele yn gof-golofnau i'w yni, ei graffder, ei sêl, a'i haelioni. Capel Prince's Road ydyw y lle o addoliad harddaf, hyd heddyw, yn



Digitized by Google

ninas Liverpool. Nid oedd y draul i'w adeiladu, os ydym wedi derbyn hysbysrwydd cywir, yn llai na *chwe mil ar hugain o bunnau.* Cyfranodd Mr. Roberts ei hun, ar y cychwyn, *fil o bunnau* at y draul, a'i fab, Mr. John Roberts, *bum cant o bunnau;* a chyfranasant ill dau yr un symiau eilwaith, yn 1873, tuag at ddileu y ddyled. Yr oedd y brodyr, yn 1865, yn bell o fod yn unol i wynebu ar draul mor fawr i adeiladu capel mor drwyadl wahanol o ran ei arddull i'r hyn oedd arferol hyd y pryd hwnw yn y cyfundeb; a bu galwad am holl fedr a doethineb Mr. Roberts ar ei eithaf i ddwyn yr eglwys a'r gynnulleidfa yn heddychol a llwyddiannus drwy y cyfwng pwysig hwnw. Yr oedd gydag ef, yn ddïau, lawer o wŷr galluog a phrofiadol eraill; ac yn eu mysg y Parch. David Saunders, yr hwn oedd ar y pryd yn weinidog yr eglwys: ond cydsyniai pawb o honynt i adael yr arweiniad, mewn modd arbenig, yn ei law ef. Yn ymyl y gwaith yn Prince's Road, bychan, yn ddïau, oedd codi capel Abergele; ond gorchwyl mawr oedd hwnw hefyd, mewn tref fechan; a gorchwyl mwy, drachefn, oedd talu am dano. Ond yr oedd, trwy ei haelioni ef, yn arbenig, yn mron wedi ei gwblhau cyn iddo ef gael ei gymmeryd i'r orphwysfa.

Yr oedd Mr. Roberts, ynghyd â'i frawd-yn-nghyfraith, y diweddar Barch. John Roberts, yn mysg y rhai mwyaf selog gyda chychwyniad y Genhadaeth Dramor yn 1840, pan yr oedd llawer o arweinwyr y cyfundeb yn betrusgar a digalon. Bu yn un o'i hymddiriedolwyr, yn aelod o'i chyfeisteddfod gweithiol, a thrysorydd Cyllid Cenadon Methedig, eu gweddwon a'u hamddifaid, hyd ei farwolaeth. A chafodd y fraint o oroesi y rhai oll a gyd-lafurient âg ef yn ei chychwyniad. Bu yn bleidiwr gwresog a haelionus i Athrofa y Bala o'i hagoriad, yn y fl. 1837; ac am flynyddoedd yn rhoddi ynddi ysgoloriaeth flynyddol o ugain punt; yr hon a fu yn gymmhorth gwerthfawr i lawer efrydydd tlawd mewn adeg bwysig yn ei fywyd. A bu yn gefnogydd twymn i'r Genhadaeth Gartrefol, Trysorfa y Gweinidogion, yr achosion Saesnig (er na bu erioed neb ffyddlonach i'r Gymraeg), a'r Gronfa Gynnorthwyol; mewn gair, i holl achosion cyffredinol ei gyfundeb. Ac i Gymdeithas y Beiblau, nid oedd un pleidiwr mwy gwresog. Bu am lawer iawn o flynyddoedd yn llywydd y gangen Gymreig yn Liverpool, a'r amgylchoedd; ac yn dwyn mawr sêl dros ei chyfarfodydd blynyddol, yn y rhai y byddai bob amser yn bresennol. Rhoddodd ei gefnogaeth galonog i'r Coleg Normalaidd yn Mangor; a bu yn drysorydd y coleg hyd ddiwedd ei oes. A gwnaeth lawer o wasanaeth i achos addysg yn y Dywysogaeth mewn cydweithrediad â Syr Hugh Owen, y Parch. John Phillips, ac eraill. Yn nechreu ei oes yr oedd, fel llawer o Fethodistiaid y cyfnod, yn gogwyddo at Geidwadaeth mewn gwleidyddiaeth; ond daeth yn raddol yn Rhyddfrydwr cryf a goleuedig, a symmudodd yn mlaen gyda'i oes gyda holl hoenusrwydd ieuengctid hyd y diwedd. Bu yn ynad heddwch, hefyd, am flynyddoedd yn sir Ddinbych.

Ond nid yn y cyhoedd y gwnai ei holl waith. Ymwelai lawer â thlodion, a chyfranai lawer iddynt mewn modd distaw a dirodres. Teimlai barch diffuant i goffadwriaeth ei dad-yn-nghyfraith; a'i dystiolaeth am dano ydoedd, 'na wnaeth neb yn ei oes gymmaint ag ef i godi crefydd yn mysg y Methodistiaid yn y pen deheuol i'r dref.' Ar y Sabbothau, ni chymmerai Richard Roberts yn brin hamdden i fwyta; byddai yn ymweled yn ddi-baid. A gwnaeth Mr. David Roberts lawer o'r un gwaith. Nid ystyriai unrhyw wasanaeth crefyddol yn rhy isel i'w gyflawni ganddo; ond yn hytrach, gwelai urddas y deyrnas yn ei phethau lleiaf.

Ar y dydd y cyflawnodd bedwar ugain mlynedd, cyflwynwyd iddo anerchiad gan liaws o'i gyfeillion, yn ddadganiad o'u parch i'w gymmeriad a'u gwerthfawrogiad o'i wasanaeth. Ysgrifenydd y symmudiad hwnw oedd Mr. Thomas Lewis, y cyn-aelod seneddol dros sir Fôn, a'r trysorydd oedd Mr. Robert Rowland, o Benmorfa. Y Sabbath diweddaf y bu Mr. Roberts yn y capel, oedd y Sabbath olaf yn Awst, 1886; ac ar y Sabbath, Hydref 3ydd, bu farw, mewn tangnefedd heddychol. Claddwyd ef y dydd Gwener canlynol, yn mynwent St. James, Liverpool; yr hon a saif ar y llanerch lle cyfarfyddai yr ychydig Fethodistiaid cyntaf yn y dref i addoli. Cynnaliwyd gwasanaeth yn nghapel Abergele ddydd Iau; a bernir fod 1,500 o bobl yn bresennol yn yr orymdaith a hebryngai y corph tua gorsaf y ffordd haiarn. Ddydd Gwener, cynnaliwyd gwasanaeth yn nghapel Prince's Road, o dan lywyddiaeth y Parchedig Owen Thomas, D. D., yr hwn hefyd a draddododd anerchiad wrth y bedd. Anfynych y gwelwyd yn Liverpool gladdedigaeth mor liosog a pharchus. Erys ei enw yn anwyl gan genhedlaeth lawer o Fethodistiaid yn Liverpool; ac edrychir arno yn wir gan bob Cymro fel un o'r rhai a weithiodd galetaf yn mhob cylch er dyrchafiad ei genedl a'i wlad.

Bu farw ei briod Ionawr 17eg, 1864, a bu farw un mab iddo o'i flaen. Gadawodd ar ei ol un mab, Mr. John Roberts, yr aelod seneddol dros fwrdeisdrefi sir Fflint; a dwy ferch, a llu mawr o ŵyrion:—un o ba rai, Mr. J. Herbert Roberts, sydd yn cynnrychioli yn y senedd ranbarth gorllewinol sir Ddinbych.

ROBERTS, Y Parch. GRIFFITH, o Garneddi. Mab hynaf ydoedd efe i Edward a Margaret Griffith, Braich, Cwmystradllyn, sir Gaernarfon. Ganwyd ef Ebrill 15fed, 1844. Dewiswyd ef yn flaenor yn nghapel y Methodistiaid yn Nghwmystradllyn, pan nad oedd ond deunaw ml. oed. Aeth i Ysgol Rammadegol Clynnog yn mhen o ddeutu dwy flynedd. Yn 1870, aeth i Athrofa y Bala—lle y dewiswyd ef yn is-athraw am y tymmor diweddaf. Yn Ionawr, 1874, aeth i Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth, lle yr ennillodd gyfarwys (*exhibition*); a thrachefn, yn y Mehefin canlynol, y wobr am resymeg. Sefydlwyd ef yn fugail ar eglwys Elim, yn sir Fôn, ar y 10fed o Orphenaf, 1874. Ar y 9fed o Ragfyr, yr un flwyddyn, priododd Miss Margaret J. Parry, unig ferch Mr. Robert Parry, o Greenheys, Manchester. Ordeiniwyd ef yn weinidog yn Nghymdeithasfa y Bala, ar Mehefin 17eg, 1875. Symmudodd i gymmeryd gofal eglwys y Carneddi, yn Bethesda, yn sir Gaernarfon, yn Mawrth, 1876. Ac o ddeutu 1880, cymmerodd hefyd ofal eglwys Brynteg. Bu farw yn y Fron, Carneddi, ar Ionawr 13eg, 1896, ychydig wedi un o'r gloch yn y boreu; a chladdwyd ef ar y 15fed, yn mynwent Glanogwen, yn nghanol arwyddion o alar mawr.

Wedi ei eni yn fab i amaethwr parchus, a'i ddwyn i fyny yn un o gymmoedd mwyaf mynyddig Arfon fynyddig, yr oedd Mr. Roberts

Digitized by Google

yn dwyn llawer iawn o ddelw ei darddiad a'i ddygiad i fyny; a pharhaodd felly drwy ei oes. Meddai gorph cadarn, nerthol, pryd du, tywyll, llais dwfn, cryf, a chlywadwy; llygaid llawn o astudrwydd a thynerwch, a safiad a cherddediad hardd a boneddigaidd. Hoffai natur; ac edmygai ei iaith, ei wlad, ei genedl, a'i grefydd.

Yr oedd ei ymroddiad yn fawr. Bu am ddeng mlynedd yn yr ysgol yn cymmhwyso ei hun at alwedigaeth fawr ei fywyd; sef, gwaith y weinidogaeth. Ac wedi iddo adael yr ysgol, daliodd ati i lafurio. Rhoddid tân oer yn ei lyfrgell bob nos. Cyfodai yntau o chwech i saith; ac wedi cynneu y tân, ei orchwyl cyntaf gwastadol drwy y flwyddyn, ac o flwyddyn bwy gilydd, fyddai darllen pennod yn ei Destament Groeg. Astudiai yn y boreu; yn y prydnawn byddai allan yn ymweled; ac yn yr hwyr byddai ganddo gyfarfodydd braidd bob nos—naill ai yn yr eglwysi y perthynai iddynt, neu mewn lleoedd eraill. Fel pregethwr, yr oedd wedi ennill y safle fwyaf anrhydeddus, nid yn unig o fewn cylch ei gyfarfod misol ei hun, ond gelwid am ei wasanaeth ar hyd a lled Cymru. Yr oedd ei bregethau yn llawn o fêr a brasder yr efengyl, yn cael eu traddodi gyda grym a gwres; ac yr oedd pawb yn deall fod holl nerth corph, a meddwl, a chalon, a chymmeriad y pregethwr yn ei weinidogaeth. Bydd y golled ar ei ol, yn enwedig fel pregethwr, ar amryw ystyriaethau, i bob golwg yn anadferadwy.

Gweinidog yr efengyl oedd Mr. Roberts—ac fel gweinidog yr edrychid arno. Ond llanwai bob cylch arall cystal ag unrhyw ddyn. Fel gwleidyddwr, nid oedd neb mwy rhydd, deallus, a chymmedrol. Fel ardalwr, cymmerai y dyddordeb mwyaf yn holl symmudiadau ei ardal. Fel dirwestwr, yr oedd yn bur a didramgwydd. Mewn pwyllgor, nid oedd neb a fedrai lanw ei le yn well; a phan y byddai eisieu rhoi penderfyniadau pwyllgorau mewn gweithrediad, nid oedd neb mwy cymmhwys nag efe i wneuthur hyny.

Noswyliodd yn rhy gynnar yn ein golwg ni. Bu farw o rwystr yn yr ymysgaroedd. Cafodd gladdedigaeth tywysog. Yr oedd capel mawr y Carneddi yn orlawn; a phan ddaeth yr arch oedd yn cynnwys gweddillion y gweinidog anwyl i mewn, i'w osod yn y lle y byddai efe ei hun yn arfer sefyll ynddo mor fynych pan yn fyw, nes y byddai y gwasanaeth drosodd, aeth yn waeddi cyffredinol drwy y lle!

ROBERTS, JOHN, Liverpool ac Abergele. Mab ydoedd efe i Mr. a Mrs. David Roberts, Liverpool ac Abergele. Ganwyd ef Gorphenaf 14eg, 1835; a bu farw Chwefror 24ain, 1894—rai misoedd cyn cyrhaedd 59ain mlwydd oed. Derbyniodd ei addysg, i ddechreu, yn y *Liverpool Institute*, ac wedi hyny mewn sefydliad yn Brighton. Yr oedd er yn fachgen yn llawn bywiogrwydd. Nid anhawdd oedd gweled, os estynid ei einioes, y gwnai efe ei ôl ar y byd. Dechreuodd ysgrifenu yn Brighton i'r *Brighton School Journal;* a dangosodd y fath allu fel ysgrifenydd fel y codwyd ef am dymmor i'r gadair olygyddol, er nad oedd ar y pryd ond 17eg mlwydd oed. Wedi dychwelyd adref o'r ysgol, aeth i swyddfa ei dad; a phrofodd ar unwaith, gyda gorchwylion y fasnach, ei fod yn meddu ar nodweddion tra anghyffredin; a gwnaed ef, cyn ei fod yn 21ain mlwydd oed, yn gyd-gyfranog â'i dad ynddi. Meddai, er nad oedd ond bychan o gorpholaeth, ddigon o yni i hanner dwsin o ddynion; ac yr oedd y gwaith yr äi drwyddo gyda rhwyddineb yn mron yn anhygoel hyd yn oed yn ngolwg dynion deheuig a phrofiadol. Yr oedd ynddo ysbryd hynod o anturiaethus. Nid oedd ei dad yn amddifad o'r ysbryd hwnw; fel y dangosai lawer gwaith yn nygiad yn mlaen ei fasnach. Ond yr oedd yn llawer helaethach yn y mab; ac o dan ei ddylanwad ef, helaethwyd y fasnach yn fuan mewn gwahanol gyfeiriadau. Cyn hir, nid oedd y fasnach goed ond rhan fechan o'r fasnach helaeth a ddygid yn mlaen gan y Meistri David Roberts a'i Fab. Prynasant lawer o dir; a bydd eu henwau mewn parchus goffadwriaeth yn y cyssylltiad hwn tra y teimler dyddordeb yn hanes dinas Liverpool. Yn y pen deheuol i'r dref, prynasant gan Arglwydd Sefton ddarn mawr o dir, a adwaenid wrth yr enw *Parliament Fields;* ac mewn cyd-ddealltwriaeth â'r pendefig hwnw, cyttunasant nad oedd un dafarn i gael ei gosod i fyny ar y tir. A dilynwyd eu hesampl gan ychydig o dirfeddiannwyr eraill. Erbyn hyn, y mae yno ugeiniau o heolydd cyfain, yn cynnwys yn mhell uwch law deng mil o dai, gydag o 50,000 i 60,000 o drigolion, heb gymmaint ag un dafarn ar y tir i fod yn fagl iddynt! Ac y mae y bendithion sydd wedi deilliaw oddi wrth y ddarpariaeth ddoeth yma yn aneirif. Wele, yn nghanol dinas sydd yn nodedig am ei thlodi a'i thrueni, ugeiniau o heolydd lle nad oes i'w gael ail i ddim tlodi; a chyfrifir fod yr ennill yn nhreth y tlodion yn unig, trwy y gwaharddiad, o ugain i ddeng mil ar hugain o bunnau yn y flwyddyn! A mynych y cyfeiriwyd mewn blynyddoedd diweddar at hanes y llanerchau hyn fel rhagarwydd o'r hyn y gellid gobeithio ei sicrhau trwy waharddiad cyffredinol o'r un natur. Ac nid rhaid chwanegu fod y gwaharddiad yn yr amgylchiad hwn wedi talu lawn cystal i'r tirfeddiannwyr eu hunain ag i neb arall.

Yn y fl. 1861, ymbriododd Mr. Roberts â Katherine Tudor, merch ieuengaf y Parchedig John Hughes, awdwr *Methodistiaeth Cymru* &c. Yn 1868, daeth i sylw cyhoeddus trwy araeth a draddodwyd ganddo mewn cyfarfod gwleidyddol yn yr *Amphitheatre*, yn Liverpool, dan lywyddiaeth y cynghorwr William Williams, yr hwn a anerchid gan Mr. John Bright; ac a rwyddhaodd y ffordd i'r buddugoliaethau gogoneddus yn Nghymru yn etholiad cyffredinol y flwyddyn hono. Yr oedd Mr. Roberts yn un o sylfaenwyr y 'Gymdeithas Ddiwylliadol Gymreig;' ac yn y cyfarfod crybwylledig, gwelwyd ar unwaith fod ynddo ddefnydd aelod seneddol rhagorol. Bu ei enw yn cael ei grybwyll mewn cyssylltiad â bwrdeisdrefi Arfon; ond ymneillduodd yn ffafr Mr. Jones-Parry. Ond ar farwolaeth Mr. Ellis Eyton, yr aelod dros fwrdeisdrefi Fflint, yn 1878, daeth allan fel ymgeisydd am y sedd. Ei wrthwynebydd Ceidwadol ydoedd Mr. P. P. Pennant. Dydd Gwener, Gorphenaf y 5ed, oedd dydd yr etholiad; ac etholwyd ef trwy fwyafrif o 125. Yn 1880, yr oedd ganddo eilwaith yr un gwrthwynebydd, ac etholwyd ef y tro hwnw trwy fwyafrif o 571. Yn 1885, daeth yr un ymgeiswyr i'r maes y drydedd waith, ac etholwyd Mr. Roberts trwy fwyafrif o 122. Yn 1886, gwrthwynebwyd Mr. Roberts gan Syr H. M. Jackson; ond etholwyd ef am y bedwaredd waith trwy

Digitized by Google

fwyafrif o 424. Erbyn 1892, yr oedd ei iechyd wedi llesghau mor fawr fel na ddaeth allan mwyach yn ymgeisydd. Cymmerwyd ei le gan Ar aelod presennol, Mr. J. Herbert Lewis; yr hwn a etholwyd yn haf 1892; a thrachefn yn y fl. 1895.

Nid yw yn angenrheidiol manylu ar ei lafur fel seneddwr, ac nis gallwn namyn cyfeirio yn brin at ei waith fel aelod o Fwrdd Ysgol Liverpool, ac at y cyflawniad o'i ddyledswyddau fel ynad heddwch yn Liverpool a sir Ddinbych. A rhy faith fyddai hyd yn oed rhestr o'r cynnadleddau a'r cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion pwysig y cymmerodd ran ynddynt cyn ac wedi ei etholiad fel aelod seneddol. Yr hyn a geidw ei enw yn air teuluaidd yn Nghymru am oesoedd ydyw Deddf Cau y Tafarnau ar Ddydd yr Arglwydd (1881). Dygodd y mesur i mewn y tro cyntaf yn 1880; a llwyddodd y tymmor hwnw i'w gael trwy yr ail ddarlleniad. Yn 1881, er gwaethaf pob ystryw o eiddo ei wrthwynebwyr, llwyddwyd i osod y mesur yn mysg deddfau y wlad. Cymmerwyd ei ofal yn Nhŷ yr Arglwyddi gan y diweddar Arglwydd Aberdâr. Ond o herwydd anffawd yn ngeiriad y mesur, ni ddaeth y ddeddf i rym hyd y flwyddyn ganlynol (1882). Yn 1883, yn adeg y Gymmanfa Gyffredinol yn Abertawe, mewn cyfarfod mawr yn yr Albert Hall, dan lywyddiaeth y Parchedig Thomas Levi, llywydd y gymmanfa, cyflwynwyd i Mr. Roberts, yn ol penderfyniad y gymmanfa flaenorol, anerchiad yn dadgan ei gwerthfawrogiad o'i wasanaeth. Ac yn yr un cyfarfod, cyflwynwyd iddo anerchiad ar ran tref Abertawe, gan Dr. Morgan. Cofir i ddirprwyaeth gael ei nodi wedi hyny i edrych i mewn i effeithiau y ddeddf; a gobeithid y byddai i adroddiad y ddirprwyaeth gynghori ei galw yn ol. Ond trodd yr ymchwiliad allan yn siomedigaeth chwerw i wrthwynebwyr y ddeddf. Nid yw y ddeddf etto mor berffaith ag y byddai yn ddymunol; ond y mae, er ei hammherffeithrwydd, wedi gwneuthur daioni annhraethadwy yn y Dywysogaeth. Ac heb law y daioni a wnaeth cau y tafarnau ar y Sabbath, yn y ddeddf hon y cydnabyddwyd hawl Cymru, am y tro cyntaf, i ddeddfwriaeth ar wahân oddi wrth Loegr. Ar ol hyny, cafwyd Deddf Addysg Ganolradd i Gymru, a dygodd y llywodraeth Ryddfrydig y flwyddyn ddiweddaf (1895) i mewn i'r senedd, Fesur i Ddadsefydlu a Dadwaddoli yr Eglwys yn Nghymru. Ond nac anghofier mai trwy Ddeddf Cau y Tafarnau, yr hon a sicrhawyd yn mlaenaf trwy ymdrechion Mr. John Roberts, yr agorwyd y drws i bob deddfwriaeth arall i Gymru ar wahân.

Fel ei dad, yr oedd Mr. John Roberts hefyd yn flaenor gyda'r Methodistiaid. Dewiswyd ef yn flaenor yn eglwys Prince's Road, a chydag ef ddau eraill; sef, Mr. John Williams, Moss Bank—yr hwn, ar hyn o bryd (1896), ydyw swyddog hynaf yr eglwys—a Mr. John Lewis, Eithinog, Colwyn Bay. Cyflawnodd cyn hyny lawer o wasanaeth i'r eglwys fel un o'i hysgrifenyddion, a bu yn dra defnyddiol hefyd gyda'r Ysgol Sabbothol. Ychydig a wyddai y rhai a'i hadwaenent yn unig yn ei flynyddoedd olaf, pan oedd ei ddyledswyddau seneddol yn pwyso mor drwm arno, a'i iechyd yntau wedi llesghau, am y brwdfrydedd a ddangosai yn mlynyddoedd ei nerth gyda gorchwylion eglwysig. Cydlafuriodd yn egnïol â'i hybarch dad, ac â brodyr eraill, gydag adeiladaeth capel Prince's Road, a'r un modd gydag adeiladaeth capel Abergele; a bydd capel Saesneg Pensarn yn gof-golofn arosol o'i haelioni. Bu yn flaenor yn eglwys Abergele hyd ddiwedd ei oes. Bu yn drysorydd Cronfa yr Achosion Saesnig o'r cychwyn hyd ei farwolaeth. A bu yn wir yn gefnogydd i holl achosion cyffredinol y cyfundeb, yn gystal ag yn weithiwr egnïol a chyfranwr haelionus at bob achos cyhoeddus a dueddai at lesoli a dyrchafu ei genedl. Bu farw Mrs. Roberts Medi 13eg, 1880, yn 43ain mlwydd oed; gan adael ar ei hol ddeg o blant—saith o feibion, a thair o ferched, y rhai ydynt oll etto yn fyw. Adeiladodd Mr. Roberts balas hardd ger llaw palas ei dad, a galwodd ef Bryngwenallt. Yn gymmharol ddiweddar, efe a wnaeth chwanegiadau mawrion ato; ac y mae bellach yn un o'r palasdai gwychaf yn Ngogledd Cymru. Bu Mr. Roberts farw yn y West Dingle, Liverpool, Chwefror 24ain, 1894; a chladdwyd ef ddydd Mercher, Chwefror 28ain, yn meddrod y teulu, ger llaw capel Abergele, yn nghanol arwyddion o alar a pharch cenedl gyfan. Ei fab hynaf ydyw Mr. John Herbert Roberts, yr hwn yw yr aelod presennol dros Orllewinbarth sir Ddinbych.

ROBERTS, RICHARD, Manchester. Peiriant-wneuthurwr enwog ydoedd efe; a mab i grydd tlawd o Geryg Hwfa, yn mhlwyf Llanymynech, yn sir Drefaldwyn—lle y ganwyd ef yn y fl. 1789. Gan yr arferai ei dad weithio i grydd arall yn Nghroesoswallt, gelwid ar y bachgen yn fynych i gario esgidiau ol a blaen i ac o'r dref hono. Pan ar y teithiau hyn, dywedir y byddai efe yn arfer gwneyd lluniau a thri-onglau yn llwch y ffordd, ac yn nhywod yr afon; ond ni feddyliodd neb fod dim yn y pethau hyny amgen na math o ddifyrwch i'r bachgen ei hun. Ond un tro, daeth boneddwr o Fanchester i dŷ gwraig yn yr ardal; i'r hon, yn flaenorol, yr oedd Richard Roberts wedi cyflwyno troell nyddu fechan, ond hynod gelfydd, o'i wneuthuriad ei hun. Wedi deall pwy oedd ei gwneuthurwr, a gwybod ei fod wedi gwneyd pethau tra chelfydd eraill, cymmerodd y boneddwr ef gydag ef i Loegr—i'r amcan o feithrin ei chwaeth beiriannyddol. Yr oedd yn y gweithiau mwnawl o ddeutu cartref Roberts amryw beiriannau o ddyfais y Mri. Boulton a Watts; ac y mae yn dra thebyg ddarfod i'r bachgen, wrth edrych ar y rhai hyn yn gweithio, fyfyrio arnynt, ac i hyny ddeffro ei gywreinrwydd. Pan yr oedd efe yn lled ieuangc, cyflogwyd ef yn ngweithiau haiarn Barrowdale, ger Bilston. Ei orchwyl yno oedd gwneuthur patrymau; ac yr oedd efe yn hynod fedrus yn hyny. Cafodd lawer o brofiad yno, ac hefyd yn ngweithfeydd haiarn Horsley; lle y bu yn gweithio ar ol hyny. Symmudodd drachefn i Liverpool, lle y cafodd waith fel gwneuthurwr dodrefn. Tua'r fl. 1814, cymmerwyd ef i mewn i weithiau peiriannol enwog y Mri. Maudsley, yn Llundain, lle y cafodd bob mantais i astudio peiriannau, ac i ddadblygu ei allu a'i fedr ei hun gyda'r cyfryw. Dyma'r ysgol lle y derbyniodd y gŵr ieuangc y cyfarwyddiadau cyntaf, megys, yn yr alwedigaeth beiriannyddol; a chyda'r Mri. Maudsley, hefyd, yr addysgwyd Whitworth, Nasmyth, Lewis, a Muir—dynion a ddaethant wedi hyny i gael eu hystyried yn mysg prif beirianwyr eu hoes.

Nid arosodd Richard Roberts yn hir yn

Digitized by Google

Llundain; ond efe a symmudodd i Fanchester ar adeg pan yr oedd y maes i beiriannydd o dueddfryd dyfeisgar yn gyfoethog o gyfleusderau i roddi ei athrylith mewn llawn waith; ac yno yr enwogodd ei hun. Ar gais dirprwywyr y dref, dyfeisiodd Nwy-Fesurydd oedd yn gweithio trwy ddwfr *(Wet Gas-metre)*, yr hwn oedd beiriant tra chywrain, ac un a dynodd gryn sylw yn mysg peiriannwyr y ddinas. O ddeutu yr adeg yma y dyfeisiodd efe y *Slide Lathe* hefyd. Peiriant i 'durnio' oedd hwn, ac i roddi ffurf ar fetteloedd fel y mae 'turn' gyffredin yn ei rhoddi ar goed. Yr oedd y gyntaf a wnaeth Richard Roberts o honynt ar lawn waith yn ngweithfa y Mri. Beyer a Peacock, yn Gorton, yn y flwyddyn 1883—os nad yn ddiweddarach. Daeth y ddyfais hon yn werthfawr iawn mewn gweithfeydd peiriannol. Efe, hefyd, oedd y cyntaf i ddyfeisio peiriant i lyfnhau haiarn; yr hwn sydd etto yn nghadw yn Amgueddfa y Breintlenau yn South Kensington. Dilynwyd y dyfeisiau hyn yn fuan gan eraill oedd yn dangos ei alluoedd rhyfedd; sef, y *Slotting Machine* a'r *Pentagraph Drilling Machine;* a gellir ystyried y rhai hyn, ynghyd â'i wелliantau yn y Llithr-dröell Hunan-weithiol *(Slide-Lathe)*, yn mhlith y cynnorthwyon pwysicaf a ddyfeisiwyd etto i ddadblygu a pherffeithio y gelfyddyd o wneyd peiriannau.

Cyn hir, dygodd ei dalentau ef i gyssylltiad â gŵr o'r enw Mr. Thomas Sharp. Yr oedd y boneddwr hwn wedi prynu breintlen (*patent*) peiriant i wneyd Rhwyllau Gwehydd; a chan nad oedd y peiriant yn rhoddi boddlonrwydd, galwodd Mr. Sharp ar Mr. Roberts i'w gynnorthwyo i'w berffeithio. Dywedodd y Cymro nas gallai berffeithio y peiriant; ond y gallai ddyfeisio un arall gwell nag ef i wneuthur y cyffelyb waith; a bu cystal a'i air. Arweiniodd hyn i bartneriaeth rhyngddynt, a sefydlasant y gwaith mawr a elwir 'Atlas,' yn Manchester; yr hwn oedd ar y pryd yn un o brif weithfeydd peiriannyddol y deyrnas. Daeth yn ddiweddarach i gyssylltiad â chwmni masnachol mawr Meistri Roberts, Fothergill, a Dobinson. Yn 1823, dyfeisiodd lawer o welliantau mewn agerbeiriannau, megys y *Regulating Valve*, &c. Efe a gynlluniodd yr ager-beiriant cyntaf a wnaed yn Manchester; a dywedir fod ager-beiriannau symmudol y dyddiau hyn yn cael eu hadeiladu ar yr un amlinellau ag a osododd Mr. Roberts i lawr flynyddoedd yn ol. Yn y fl. 1825, parodd y streic a ffynai yn mysg llaw-nyddwyr Staleybridge iddo ddyfeisio mân beiriannau cywrain a defnyddiol i weithio edafedd; sef, y Ful-dröell Hunan-weithiol (*Self-acting Mule*), yr hon y gallai plentyn ofalu am dani, a chynnyrchu edafedd gwastattach a meinach gyda hi nag y gallai hen ŵr â'r dröell law. Ystyrir hwn yn un o'i brif ddyfeisiau, os nad y benaf oll. Yr oedd y gwaith hwn mor anhawdd i'w gyflawni â'r llaw fel yr oedd yn rhaid dechreu yn ieuangc cyn y gellid ei gyflawni i foddlonrwydd; ac ychydig mewn cymmhariaeth a lwyddodd i'w feistroli. Gwnaeth pob peiriannydd gwerth sôn am dano o fewn Manchester, a lleoedd eraill, ymdrech i wneyd peiriant pwrpasol i'r gwaith. Ond wedi i bob un arall lwyr fethu, cyttunodd nifer o berchenogion melinau i fyned gyda'u gilydd at Mr. Roberts i ofyn iddo ef gymmeryd y peth mewn llaw. Gwnaethant hyny, a dywedasant wrtho y gallai efe ei wneyd, os gosodai efe ei feddwl arno—ac nad oedd neb arall ond efe a allai. Yr atteb a gawsant oedd nad allai efe ymgymmeryd âg ef. Ond yn mhen wythnos neu ddwy, medd ein hanesydd, fe ysgrifenodd y Cymro atynt, a dywedodd y gwnai efe yr ymdrech; ac efe a orchymynodd iddynt osod y *Crompton Hand Mule*—y peiriant oedd ar y pryd mewn arferiad—i fyny o fewn terfynau ei ffactri ef, fel y gallai ymgydnabyddu â'i symmudiadau, a cheisio gwneyd un ar yr egwyddor hunan-weithiol. Yn mhen tair wythnos-arddeg, yr oedd efe wedi cynnyrchu y *Self-acting Mule;* ac erbyn 1834, yr oedd dros 60 o felinau gyda ;thrigain mil o 'wennoliaid,' fel y gelwir hwynt, yn gweithio gyda'r peiriant hwn.

Heb law y dyfeisiau uchod, gwnaeth wellиantau pwysig mewn awrleisiau, amseriaduron, peiriannau gweu o bob math, angorau llongau, a pheiriannau tori papur, &c. Mewn gair, nid oedd ond ychydig fathau o beiriannau yn bod y pryd hwnw nad oedd efe wedi dwyn allan welliantau pwysig a gwerthfawr ynddynt.

Derbyniodd Richard Roberts wahoddiad oddi wrth yr ymherawdwr Nicholas o Rwssia i gymmeryd ei drigias yn St. Petersburgh; ond efe a wrthododd. Yn ystod y rhyfel Americanaidd, dyfeisiodd ysgriw ddwbl i'r llong *Flora*, gyda'r hwn y galluogid y llestr i droi yn y dwfr mewn cylch mor fychan a'i hyd ei hun.

Ymddengys fod y sôn am ei allu rhyfeddol fel dyfeisydd peiriannau wedi cyrhaedd hyd yn oed i Ffraingc a Rwssia; o blegid cafodd wahoddiadau taer o'r gwledydd hyny i ymsefydlu ynddynt; ond gwrthododd. Yn ystod ei amser hamddenol, efe a ad-drefnodd weithfa beiriannol fawr y Mri. Koechlen, yn Mulhouse, yn Alsace. Tua'r pryd hwn, dyfeisiodd welliantau mewn tŵr-awrleisiau, a gwehyddion sidan, &c. Yn 1847, ar gais gwneuthurwr chwibol fawr pont Conwy, efe a ddyfeisiodd, yn fyrfyfyr o'r bron, y peiriant hunan-weithiol i dori tyllau trwy blatiau heiyrn, o bob math a maintioli, ac i roddi bolltau ynddynt; yr hwn a adwaenir wrth yr enw 'Jacquard;' a chyda hwn y tyllwyd, &c., llafnau Pont Menai hefyd. Gyda'r un peiriant y tyllwyd chwibolau trosglwyddfa y Boyne; Pont Victoria, dros y St. Lawrence, yn Montreal; a phont fawr Jumna, ar ffordd haiarn yr India Ddwyreiniol. Yn y fl. 1852, gwnaeth ei ddyfeisiau yn hysbys i wellhau peiriannau agerlongau; ac y mae y gwelliantau hyny yn cael eu harfer yn bresennol mewn amryw wledydd. Yn 1855, cafodd yr anrhydedd o osod y dyfeisiau hyn ger bron yr Ymherawdwr Napoleon; a dywedir fod yr ymherawdwr yn meddu ymddiried mawr yn ei allu dyfeisiol.

Prawf y ffeithiau uchod fod Richard Roberts yn feddiannol ar athrylith ryfeddol, a'i fod yn un o'r dyfeiswyr galluocaf yn y deyrnas. Dywed Syr William H. Bailey, Manchester, un o brif beiriannwyr Lloegr yn y dyddiau hyn, a'r hwn sydd wedi bod â llaw ynddo yn hyrwyddiant dyfeisiadau Richard Roberts, na bydd hanes y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyflawn os na bydd arbenigrwydd mawr yn cael ei roddi ynddi i alluoedd eithriadol Richard Roberts, a'i ddyfeisiau amrywiol a chelfydd. Gall y genedl Gymreig ymffrostio yn y ffaith fod gŵr o sefyllfa uchel a barn aeddfed Syr William H. Bailey yn ei osod yn ddibetrus yn y safle anrhydeddus o fod yn brif ddyfeisydd peirianyddol y ganrif; ac addefir nad oes neb yn meddu mwy o awdurdod dros ddyweyd hyn nag efe. Dywedodd Syr William, hefyd, fod

Digitized by Google

dyfeisiadau Richard Roberts, o ran eu cywreinrwydd, eu defnyddioldeb, a'u llwyddiant, yn rhagori ar hyd yn oed ddyfeisiau y fath beirianwyr a Nasmyth a Stephenson. Ac y mae sefyllfa y deyrnas drwyddi, a holl ardaloedd y melinau cotwm yn neillduol, yn ddyledus am eu llwyddiant i alluoedd y Cymro hwn o Lanymynech i raddau mwy nag y gall neb ei ddychymygu.

Ymneillduodd Richard Roberts o'i fasnach yn 1852; ond rhoddai gynghorion ar faterion peiriannol pan y gelwid arno i wneuthur hyny. Er y cwbl—ac er iddo fod yn foddion i ddwyn cyfoeth annhraethol i eraill—ychydig a gadwodd iddo ei hun. O blegid hyn, cyttunodd prif beiriannwyr Manchester, ac yn eu mysg y Mri. R. Peacock, C. Boyer, a John Bailey, â'u gilydd yn yr ysbryd rhyddfrydig sydd yn hynodi trigolion y dref hono, i roddi i Mr. Roberts y swm o 1,000*p*. yn y flwyddyn tra y byddai byw, os byddai iddo dderbyn y cynnyg. Ond bu farw cyn bod arno ei eisieu, ar yr 11eg o Fawrth, 1864, yn 75ain mlwydd oed.

ROBERTS, WILLIAM, Llanrwst. Yr oedd efe yn weinidog llafurus a chymmeradwy yn nghyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd. Mab hynaf William a Margaret Roberts, o'r Fedw Arian oedd efe—amaethdy tua milldir o'r Bala, yn Meirionydd. Ganwyd ef mewn tŷ bychan yn Llanycil; ac yn fuan ar ol hyny, symmudodd ei rïeni i Bryngoleu, yn ardal Tal-y-bont, Waen y Bala. Pan yr oedd William tua chwech oed, symmudodd y teulu i'r Fedw Arian; ac y mae rhai o honynt yn aros yno hyd heddyw. Y mae dau amaethdy o'r un enw yn ymyl eu gilydd yn y gymmydogaeth; ac ymddengys mai nid yn yr un Fedw Arian y dygwyd William Roberts i fyny ynddo a'r hwn yr oedd un o hen bregethwyr cyntaf y cyfundeb—sef, William Evans—yn byw ynddo. Yr oedd ei fam, Margaret Roberts, yn wraig ddistaw a phwyllog, ac yn aelod eglwysig yn Nhal-y-bont; ond nid oedd ei dad ond gwrandäwr yn unig. Cafodd ef, a'r plant eraill, fagwraeth grefyddol; a dangosodd William yn foreu arwyddion ei fod 'yn ofni Duw, ac am rodio yn ei ffyrdd ef.' Ni chafodd fawr o fanteision addysg yn ei febyd—dim ond ysgol gyffredin, nes yr oedd yn agos i ddeuddeg oed; a'r pryd hwnw cymmerwyd ef i weithio ar y tir. Gweithiodd gyda ei dad ar y tyddyn am ddeng mlynedd, cyn dechreu pregethu; ac yr oedd yn anhawdd gollwng gafael o hono o'r cylch hwnw pan y daeth galwad am hyny. Yn y fl. 1868, aeth i'r Ysgol Frytanaidd yn y Bala, gyda'r bwriad o ddarparu ar gyfer pregethu. Ni bu cyfeillion Tal-y-bont yn ol o'i gymmhell i hyny; ac yn fuan ar ol dechreu, aeth i Holt, i barotoi ei hun at yr arholiad am fynediad i Athrofa y Bala. Pasiodd yn llwyddiannus i fyned iddi yn haf y fl. 1869; ac arosodd yno lawn bedair blynedd. Bu wedi hyny am flwyddyn yn Ngholeg y Brifysgol yn Aberystwyth. Yr oedd y pryd hwn yn ŵr ieuangc llyfndew, nerthol, ac iachus; ond cyn gorphen ei gwrs athrofäol, cafodd glefyd trwm, a adawodd ei ol arno mewn gwendid am weddill ei oes. Gwnaeth efrydydd rhagorol yn y Bala ac Aberystwyth; ac yn ol y manteision a gafodd, ennillodd safle anrhydeddus mewn dysgeidiaeth. Cyn diwedd y fl. 1874, cafodd alwad i eglwys Granville Street, Birmingham; a'r flwyddyn ddilynol, efe a briododd Miss Sarah Eleanor, merch i Mr. John Hughes, cyllidydd, Aberystwyth; yr hon a brofodd yn ymgeledd gymmhwys iddo hyd o fewn tair blynedd i'w farwolaeth--pryd y cymmerwyd hi ymaith, i raddau yn annisgwyliadwy. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1876, a llafuriodd yn Birmingham gydag ymroddiad a llwyddiant, nes y cafodd alwad i Lanrwst yn y fl. 1880—lle yr arhosodd am y gweddill o'i oes. Ennillodd le mawr yn syniad a theimlad y brodyr yno, a safle o barch a dylanwad yn nghyfarfod misol Dyffryn Conwy. Hynodid ef am ei sobrwydd, a'i addfedrwydd barn, ar bob achos; ac ni byddai efe byth yn myned i eithafion gyda dim. Er ei fod yn ŵr o dymmer ac ysbryd tangnefeddus, etto, ni byddai byth yn prynu heddwch trwy werthu unrhyw egwyddor.

Fel pregethwr a bugail, yr oedd iddo ragoriaethau arbenig. Gwir ofalai am yr achos yn ei holl ranau; ac yr oedd ganddo gymmhwysder i gydweithio âg eraill. Yr oedd yn mhob peth yn ddidramgwydd i'w frodyr. Nid oedd yn meddu dawn i dynu y lliaws ar ei ol wrth bregethu; ond yr oedd ei weinidogaeth yn gafael yn ystyriaethau a chydwybodau ei wrandawyr. Yr oedd ei holl bregethau yn cynnwys mêr a brasder yr efengyl. Cyfunai ynddynt yr athrawiaethol a'r ymarferol, fel yr oeddynt bob amser yn tueddu i adeiladu yn fuddiol. Yr oedd yn anhawdd cael gweinidogaeth â mwy o duedd ynddi i osod cryfder yn eneidiau ei wrandawyr na'i weinidogaeth ef.

Yr oedd hefyd yn ŵr o ymddiried yn yr holl gyfundeb. Yn y fl. 1886, meddyliodd y cyfundeb am anfon brawd ar ymweliad â'r eglwysi bychain yn Mhatagonia; ac o herwydd ei bwyll a'i farn, tybiwyd mai efe oedd y gŵr cymmhwys i fyned. A chan dybied y gallai mordaith yno, ac arosiad am rai misoedd mewn lle felly, fod yn adferiad iechyd iddo, fe aeth. Yr oedd ei adroddiad am yr achos yno, a'i ragolygon, yn dangos synwyr cryf, a chraffder barn; ac mewn canlyniad i hyny, anfonwyd y Parch. Robert Jones, o Dreuddyn, yn sir Fflint, yn genhadwr yno. Bu am ychydig ar y Cyfandir, cyn belled a Rhufain, a lleoedd eraill, yn y fl. 1894; ond ni chafodd nemawr o wellhâd. Yr oedd yn y blynyddoedd diweddaf yn gweithio mewn llesgedd mawr; ond llanwodd ei gylchoedd, gartref ac oddi cartref, yn hynod ddi-fwlch hyd o fewn ychydig wythnosau i'w farwolaeth:—yr hyn a gymmerodd le ar Ionawr 14eg, 1896, pan oedd yn 50ain mlwydd oed. Yr oedd ganddo chwaeth lenyddol gref; yr hyn a welir yn amlwg yn yr erthyglau a ysgrifenodd i'r *Drysorfa* a'r *Traethodydd.*

ROBINS, BENJAMIN. Gŵr cyfarwydd mewn rhif a mesur ydoedd efe; a thad y gelfyddyd filwrol o ymdrin â magnelau. Ganwyd ef yn Bath, o deulu tlawd o Grynwyr. Wedi iddo dderbyn addysg, a dechreu deall egwyddorion rhif a mesur, ymroddodd i feistroli y gangen hon o wybodaeth gydag yni anghyffredinol. Yna, symmudodd i Lundain, a chyhoeddodd rhai llyfrau a ennillodd iddo gymmeradwyaeth uchel. Yna, dechreuodd dalu sylw i'r pwngc dyrus o effaith yr awyr ar fwledi, &c., a saethid allan o ynau a magnelau. Trodd ei sylw, hefyd, at y gelfyddyd o godi caerfeydd (*fortifications*). Ac efe oedd y gŵr a ddyfeisiodd y peiriant a elwir *The Ballastic Pendulum.* Bu farw Gorphenaf 29ain, 1751.

Digitized by Google

a drws agored, elai yno i bregethu yr efengyl. Bu yn neillduol o hynaws a thirion ei ofal am eglwysi yn eu blagur, ac am eraill nad oeddynt ffynadwy. Tra gyda'r gwaith o efengylu, cyn, ac wedi gadael yr athrofa, dioddefodd fesur helaeth o'i erlid gan weision hûr a boddlonwyr clerigwyr. Er ei ddiogelwch personol rhag y gwrthwynebwyr hanner-barbaraidd hyn, aeth at ynad o glerigwr i ymofyn trwydded i bregethu. Nid oedd y gŵr hwnw erioed wedi bod yn llunio trwydded felly; ac nis gwyddai amcan byd pa fodd i ddechreu. Cynnygiodd Mr. Roberts ei gynnorthwy, a derbyniwyd ei wasanaeth gyda diolch—a chiniaw blasus, maethlawn. Rhag y dichon i ryw ynad brith ei addysg, rywdro yn y blynyddoedd dyfodol, gael ei ddal yn rhwyd yr anwybod gan gais o'r un natur a hwn, rhoddwn y cyflun canlynol o'r drwydded yma:—

TRWYDDED PREGETHU.'

'I, George Arthur Evors, one of Her Majesty's Justices of the Peace, in and for the county of Montgomery, do hereby certify that Samuel Roberts did this day appear before me, and did make, and take, and subscribe the several oaths and declarations specified in an Act made in the fifty second year of the reign of the King George the Third, entitled, 'An act to repeal certain Acts, and amend other Acts, relating to Religious Worship, and Assemblies, and persons Teaching or Preaching therein.'

'Given under my hand, March 7th, 1825.

GEORGE ARTHUR EVORS.

Ni pharhaodd yr undeb gweinidogaethol cyweithas rhyngddo a'i dad ond saith mlynedd. Bu farw y Parch. John Roberts ar yr 20fed o Orphenaf, 1834. Dwys ac angerddol fu hiraeth Samuel am ei dad: gosododd ei ddelw arno am dymmor hir. Aml i waith y cyffesodd efe ei ofid am na buasai wedi yfed yn llawer helaethach o'i ysbryd. Pe buasai wedi gweithredu felly, ni chyfarfyddasai â chynnifer o fân flinderau ar ei yrfa. Anfynych y gwelwyd hawddgarach boneddwr na hen weinidog Llanbrynmair. Yr oedd ei ddoethineb a'i fwyneidd-dra yn wrthddrychau edmygedd agos a phell. Er yn hanu o gyff gwerin, etto ni bu praffach na phurach boneddwr yn mhendefigaeth Prydain. Ni chaed iâs chwerwder, na gwawr difrïaeth, un amser yn ei ysgrifeniadau ef. Ond rhy brin y gallesid adnabod 'Llangciau Llanbrynmair' bob amser fel meibion y gŵr rhagorol hwnw. Wedi marwolaeth yr hen weinidog, anfonodd yr eglwys yn yr Hen Gapel alwad i John, (J.R.) yr hwn oedd ar y pryd yn efrydydd yn y coleg, i gydweinidogaethu â Samuel:—a chydsyniodd yntau.

1. *Amlder ei rym.*—Wedi cael adgyfanu cadwen y weinidogaeth, aeth S. R. rhagddo, gan osod i lawr sylfeini y dylanwad hwnw a wnaeth iddo enw led-led Cymru, a'i gororau. Aeth yn y man yn un o brif ddinaswyr ei genedl. Ni raid chwilio llawer er cael allan y rheswm. Yn 1830, cyhoeddodd gyfrol fechan o farddoniaeth, a elwid *Y Caniadau Byrion.* Ysbryd rhydd oedd ei ysbryd, a chanu rhydd oedd ei ganu. Ol bysedd symledd oedd ar bob cân. Trochwyd yr oll yn ysbryd a nwyd crefydd Iesu Grist, a thosturi dwys at y caeth, yr amddifad, a'r fenyw mewn cadwen. Anadlodd y canu hwnw anadl newydd i ffroenau Cymru. Cyn pen ychydig, adnabu cannoedd, os nad miloedd, 'Hiraeth Cymro am y wlad,' 'Cwynion Yamba, y Gaethes Ddu,' 'Y Teulu Dedwydd,' 'Y Lili Wywedig,' 'Y Cristion yn Marw,' a'r 'Ddau Blentyn Amddifad.' Nis gellid attal canu mor lednais, byw, a thyner—canu oedd yn amlygiad o'r fath helaethrwydd o dirionwch; lai na deffroi yr unrhyw deimladau mewn eraill. Os nad ydym yn camgymmeryd, rywbryd yr adeg hono y dechreuwyd cyssylltu yr ansoddair 'addfwyn' âg enw S. R. Yn y fl. 1832, anfonodd draethawd llafurfawr i Eisteddfod Beaumaris ar 'Amaethyddiaeth.' Aeth y beirniaid i ber-lewygon wrth ei ddarllen; a chynghorasant ei gyhoeddi allan o law, o herwydd ei '*very good merits, as being perhaps the most beautiful composition in any language.*' Ond nid yn ei brydferthwch yr oedd ei werth i gyd. Yr oedd i fyny âg addysgiaeth wyddonol yr amseroedd. Er hyny, attaliwyd y wobr; a rhoddwyd hi i Mr. Aneurin Owen, am ysgrif salw ei defnydd, a diaddurn ei gwedd. Yr esboniad ar y weithred yw, fod y dyddiau hyny yn rhemp am eu hafluniaidd anghyfiawnderau. Yr oedd yr eisteddfod yn nwylaw, ac o dan nawdd uchelwyr a chlerigwyr. Wrth reswm, yr olaf a arferai ennill y prif wobrwyon. Pan ddechreuodd gweinidogion a lleygwyr Anghydffurfiol ymgystadlu, gyda llygaid eiddigus yr edrychid arnynt; a phan yn gallu, ni phetrusai beirniaid Eglwysig ag attal yr anrhydedd o ennill oddi wrth eu caseion. Bu y tro hwnw yn Beaumaris yn foddion i dori cyfaredd y cystadlu oedd yn Mr. Roberts; ac ni bu a fyno â'r sefydliad ond unwaith byth wedi hyny. O hyny allan, cyssegrodd ei ysgrifell i wasanaeth llywod-ddysg, a diwygiadau cymdeithasol.

2. Yr hyn fu Howell Harris a Daniel Rowlands, Walter Caradoc a Griffith Jones, Llanddowror, i grefydd a moesau Cymru, dyna oedd Mr. Samuel Roberts i anghenion cymdeithasol Cymru. Ganwyd ef yn ddiwygiwr. Yr oedd y tân ynddo; gwelai bob peth cam ac anghyfiawn; ac ni phetrusai, megys Luther, eu condemnio gyda holl nerth yr iaith. Yn wir, agorodd lygaid torfeydd i weled anghenion newyddion na chlybuwyd am danynt yn y wlad erioed o'r blaen. Rhyddhaodd dafodau, a dysgodd hwy i seinio clod rhyddid; llymhaodd hwynt, hefyd, i warthruddo trais. Am y waith gyntaf erioed yn Mhrydain, dechreuodd ddadleu am lythyr-doll geiniog dros dir a môr; a dechreuodd mor bell yn ol a'r fl. 1827.

Nid Syr Rowland Hill oedd bïau y drychfeddwl o radloni trafnidiaeth y llythyrfa! Yn y fl. 1837 y cafodd Syr Rowland Hill afael yn y dychymyg. Ond yr oedd awgrymiad S. R. yn gynt, ac yn ymestyn i'r dyfodol, fel na chaed hyd heddyw namyn rhan y tir o hono. Ni bu gan Ddeddf Diwygiad 1832 gefnogydd aiddgarach. Ysgrifenodd yn odidog yn ffafr diddymu y Dreth Eglwys, a'r Degwm; Deddf y Prawflŵon Crefyddol; a Chylafareddiad yn lle Rhyfel. Am nad oedd gan Gymru neb a wnaeth gymmaint dros egwyddorion Cymdeithas Heddwch, efe oedd y gŵr a ddewiswyd i fyned i Gynnadledd Heddwch Frankfort, yn 1850.

3. Ond nid gyda diwygiadau cyffredinol a phell y treuliodd efe ei nerth yn unig. Am y waith gyntaf, cafodd Maldwyn a Chymru ynddo ef gynnrychiolydd a dadleuwr amryddawn a galluog. Er nad oeddynt y pryd hwnw, mwy nag y maent etto o ran hyny, ond dosbarth ofnus a dioddefgar—heb ynddynt ysbryd i hòni na hawlio dim drostynt eu hunain; ac er fod hyfder llewaidd eu cymmwynasydd yn eu braw-

Digitized by Google

ychu yn fynych; etto, magwyd ynddynt edmygedd diderfyn o'r dyn, a'i waith. Mewn trefn i gario allan ei waith fel athraw a diwygiwr cymdeithasol, dechreuodd, yn 1843, gyhoeddi *Y Cronicl*—rhagredegydd y cylchgronau rhad. Cyhoeddiad cenedlaethol ydoedd; a darllenid ef gan bawb. Yn ei ddalenau ef, a'r *Shrewsbury Chronicle*, dechreuodd Mr. Roberts ddadleu am brif-ffyrdd newyddion; am ffyrdd haiarn at wasanaeth canolbarth Cymru; am ddilëad y *turnpike-gate system;* am bontydd dros afonydd; am gyfnewidiad yn y cyttundebau tirol; am brydlesoedd ar delerau rhesymol; am sychu tiroedd, a phlanu coed; am y gwastraff o fwrw gwrtaith y dinasoedd i eigion moroedd, yn hytrach na chludo y cyfryw i wrteithio y tiroedd. Dylai ei *Diosg Farm*, a'i *Ffarmwr Careful Cilhaul uchaf*, fod yn glasuron amaethyddiaeth Cymru.

Wedi sylweddoli yn drwyadl anghyfiawnder y trefniant a gyfyngai yr etholfraint at wasanaeth yr ychydig, 'rhwng difrif a chwareu' ysgrifenodd fath o ddeiseb, neu lythyr, at Argl. John Russell—y prif weinidog ar y pryd—yn erfyn am bleidlais. Nid oes yn y Gymraeg, nac un iaith arall, ond odid, gyfansoddiad llawnach o watwareg, arabedd, a duchan ar y testyn. Dyfynwn baragraph yma ac acw, fel y gwelir y modd y plethodd efe ddefnyddiau ei ddadl :—

*Pleadings for a Vote, in a Humble Memorial to Lord John Russell.*

My Lord,—I am a *man;* not, it is true, a very *big* man; but am of a respectable size—rather bigger than the Prime Minister. I am also a man subject of her Majesty's queendom, and have lived in this far-famed country of ours for half a century; and have always been *loyal*, strictly loyal, zealously loyal, consistently and conscientiously loyal—but *never had a vote;* and I now thus most respectfully write to beg you to get and *give me a vote.*

I have tried hard, in every conceivable way, for fully fifty years to gain a vote, but have never succeeded. I learnt to read, and write, and cipher, and throw quoits and play bats, and hunt squirrels, and most other school games, when quite a boy—but *never had a vote.* I learnt numeration and multiplication, and pounds-shillings-and-pence tables, and advoirdupois weight and troy weight, and long measure and land measure, and measures of capacity and solidity, and the divisions of times and circles —but *never had a vote.* I went through double rule of three, and barter, and partnership, and vulgar fractions and polite fractions, and involution and evolution, and cube root and duodecimals, and all the rules of mental arithmetic—but *never had a vote.* Nay, more, I went repeatedly over the Asses' Bridge without once stumbling; and could *once* understand the solution of *Quadratic Equations*—but *never had a vote.* . . .

I never *stole* anything, excepting a penny bun once from an old woman who brought a basketful of such things for sale on a holiday to the very door of my father's chapel. I was then three years and three weeks old. My father preached me a long plain sermon on the occasion from the eighth commandment, and made me take the bun back to the old woman, and ask her pardon; and kept me in the prison of his study-cell for six hours, and gave me a slight taste of the virtues of the birch twigs . . . at the close of the term of my imprisonment, and he finished that service by a short prayer as beautifully appropriate and affecting as any prayer ever *penned* by an archbishop. . . . I never stole anything since; and yet, *I have never had a vote.*

I whistled after the plough on the mountain side, and after the sheep on the mountain top, for months and for years—but *never had a vote.*

I entered college to study for the ministry (but took the *left* side of the establishment line), and climbed '*Gradus ad Parnassum*,' and read several of the Greek and Latin Classics, and some French in the bargain; and studied many of the Fathers of History . . but *never had a vote.* I could write Latin sermons as correctly as any rural dean, and passed the 'little go' and the 'great go,' and took the oaths of allegiance and supremacy before a kind-hearted old *clerical* magistrate, who had never seen those oaths before that occasion—but I *never had a vote.* . . . .

Some twenty years ago, when you were in your best reform mood, I lustily shouted with my neighbours, 'Hurrah, hurrah, for Lord John Russell!' though I feared at the time that you were moved to pique against rival statesmen as much as by patriotism. You would be surprised, my lord, to see how lofty a position we country bumpkins occasionally take, in order to watch the cunning chess-moves of princes and statesmen on their high-wide game-board; and while we are perched up high above your heads, in a clear sky, we are keen enough to detect the base, boyish, pettish pique that often provoke conflicting state-parties to strive for good or for evil, just as their personal or party whims may happen to incline them when they hunt after crown favour, or democratic favour, as may best suit their purpose. But I have long made it a rule to 'hurrah' every *good* measure, without scrutinizing the motives of its promoters: and yet, I have *never had a vote.* O! that I had a vote. Pray, give me a vote! A vote! . . . .

I once more most humbly entreat your lordship *to get me a vote* during next session of Parliament; and I pledge myself most solemnly to serve you for it, in either of the ways I have just suggested.

I am, my Lord, your humble servant
(Who will ever pray, when you *give me a vote*),
Sam y Deg Capel.

Gallai fod yn nodedig o chwareus, dillyn, a phrydferth ei osgo pan yn trin ymadroddion nwyfus; etto, ar amserau, tryfrithid hwy gyda phigau dûr. Dyna duedd y rhan olaf o'r *pleadings* uchod.

4. Ni bu neb o'r un amgylchiadau a Mr. Roberts yn fwy o gefn i wan—pob gwan—gwerin gwlad, ac achosion crefydd. Tra yn Llanbrynmair, i bob amcan ymarferol, efe oedd nawddsant y gweriniaid drwy y sir. Mynych wasgwyd ef i weithredu rhan twrnai a meddyg, tad a brawd, ysgolfeistr a gweinidog, dyddanydd ac amddiffynydd. Heb eiriach dim, er mwyn cydwybod, cydsyniai yntau. Cafodd ei enwad ynddo gasglwr campus bob amser; a'r cynnadleddau a'r cymmanfaoedd gyfarwyddwr hylaw a medrus.

Nid oedd yn siroedd y Gogledd na'r De y fath saer cywrain ar benderfyniadau a deisebau: am hyny, wrtho ef y disgwylid yn mhob man, ac ar bob rhyw achlysuron. O radd i radd, ar dir hollol gyfreithlawn, aeth yn fath o reidrwydd —pe byddai y fath beth a 'rheidrwydd' yn bod hefyd, ynglŷn âg enwad a phlaid, eglwys ac aelwyd. Ond odid nad y teimlad cyffredin hwnw a'i harweiniodd ef i gymmeryd rhan yn y ddadl ar 'Natur Eglwys' gyda'r Parch. Lewis Edwards (Dr. Edwards wedi hyny), o'r Bala. O'r braidd yr oedd angen ei argymmhell yn gryf, canys yr oedd ei natur yn wastadol yn ei hatiaeth pan yn cydymdrechu â chyfeillion, neu yn gwrthymdrechu â gwrthwynebwyr. Diau iddo fyned i'r ornest yn ysgafn-galon; megys ag y gwna y Celt yn mhob amserau. Yr oedd yn naturiol i'r ddadl hon dynu sylw mawr, a chreu dyddordeb dwys trwy Gymru. Onid oedd

Digitized by Google

meistriaid y ddau enwad cryfaf, a chewri llenyddiaeth y wlad, ar y maes? Dygwyd y ddadl yn mlaen gydag urddas mawr, a rhyw fath o ochelgarwch annymunol. Cyhoeddodd *Y Dysgedydd* y ddwy ochr. Gommeddodd *Y Drysorfa* gyhoeddi namyn un ochr. Wedi cyttuno i ddeffinio Henaduriaeth mewn lliaws o eglwysi wedi ymgorpholi mewn cyfundeb â'u gilydd, ac yn cael eu llywodraethu gan gymdeithasfaoedd,' aed yn mlaen i ddadleu yn y drefn a ganlyn. Ni a roddwn osodiadau Dr. Edwards yn gyntaf, ac attebion S. R. gyferbyn â hwynt. Dodwn y penranau moelion yn unig yma yn ngeiriau y ddau ŵr galluog eu hunain; a gwnawn hyny er trosglwyddo esgyrn y ddadl hon i'r oes hon, ac i'r cenhedloedd a ddeuant ar ol:—

1. Henaduriaeth ydyw trefn eglwysi Ysgotland, yr un sefydledig a'r *succession*, y Wesleyaid, a'r rhan fwyaf o eglwysi Protestanaidd y Cyfandir.

1. Gwir: a dyna drefn Eglwys Loegr, y Babaidd, y Fahometanaidd, a'r cynnulleidfaoedd Paganaidd; ond fod gwahaniaeth mawr rhwng nodwedd, trefn, a therfynau llywodraeth y cymdeithasfaoedd hyn. Bydd y naill eisieu llywodraethu dros gredo, dysgyblaeth, a'r eiddo; tra y boddlona y llall ar lywodraethu yr eiddo yn unig. Nid yw y cymdeithasfaoedd hyn yn cyttuno mewn dim, ond i gymmeryd yr awdurdod i gyd o ddwylaw y bobl.

2. Nad oes nerth gan eglwysi Annibynol i wrthsefyll llygredigaeth yr oes, ac i ledaenu teyrnas y Messïah.

2. Y mae yn amlwg i bob hanesydd fod eglwysi Cynnulleidfaol yn mhob oes wedi gwneyd mwy i oleuo y byd, ac i wrthsefyll llygredigaeth, na'r eglwysi oedd yn cael eu llywodraethu gan gynnadleddau o weinidogion, blaenoriaid, archddiaconiaid, cardinaliaid, seneddwyr, uchelwyr, a chyfrin-gynghorwyr.

3. Bod y drefn Henadurol yn hwylusach i attal ymrafaelion ac ymraniadau eglwysig.

3. Y cyfundeb perffeithiaf ei ufudd-dod i Gymdeithasfa ydyw y Pabyddion; yr amser perffeithiaf ar eu hymostyngiad oedd yr adeg dywyllaf ar hanes y byd. Ceisiwyd, er dyddiau Cystenyn, sefydlu Cymdeithasfa i attal ymraniadau; ond i ddim pwrpas. Y prawf diweddaf o'r methiant i attal ymraniadau ydoedd gwaith y Methodistiaid eu hunain yn gadael yr Eglwys Esgobawl.

4. Nad all eglwysi heb fod o dan lywodraeth un Gymdeithasfa ddal cymmundeb â'u gilydd.

4. Gall eglwysi gymdeithasu â'u gilydd dan lywodraeth cariad, lawer yn well na than lywodraeth undeb cyfraith.

5. Nad oes gan eglwysi a gweinidogion Cynnulleidfaol amddiffyniad rhag gormes ac anghyfiawnder, tra y mae y Gymdeithasfa yn gefn i'r Methodistiaid.

5. Gwnaeth Cymdeithasfaoedd ddengwaith mwy o gam â gweinidogion nag a wnaeth eglwysi unigol: a chafodd eglwysi fwy o gam ganddynt nag a allasent gael oddi ar law gweinidogion unigol. Cymdeithasfaoedd drodd allan y Ddwy Fil, ac a wnaethant gam âg Erskine, Whitfield, Wesley, Rowlands, Jones o Langan, a Charles o'r Bala.

6. Nas gall eglwysi Annibynol ymuno i ddwyn yn mlaen amcanion crefyddol heb ymwrthod â'u hegwyddorion am drefn eglwys.

6. Camgymmeriad:—Gall eglwysi Annibynol gynnorthwyo eglwysi eraill, a chymdeithasau dyngarol a chrefyddol, heb osod eu hunain o dan reolaeth cyfarwyddwyr y cymdeithasau hyny. Gallant gefnogi addysg, rhyddid, a rhinwedd, heb ofyn cenad na chyfarwyddyd oddi wrth neb.

7. Nad oes gan y drefn Annibynol gymmhwysder i adgyweirio eglwysi dirywiedig.

7. Gall y naill eglwys adgyweirio y llall drwy esamplau a chyfarwyddiadau tyner cariad. . . . Ac os metha triniaeth tynerwch, prin y bydd gobaith i gyfreithiau a *bulls* cymdeithasfa lwyddo.

8. Nad yw y drefn Annibynol yn fanteisiol i gynnydd gwybodaeth, gan fod y bobl yn gorfod yfed o hyd o'r un ffynnon sefydlog.

8. Camgymmeriad:—Y mae eglwysi Annibynol at eu rhyddid i alw y neb a fynont i'w gwasanaethu. Y mae llawer o'r eglwysi Annibynol yn bleidiol i weinidogaeth deithiol, ac eglwysi Henadurol yn bleidiol i weinidogaeth sefydlog.

9. Bod Annibynwyr yn siarad yn erbyn Cynnulleidfaoliaeth, ac yn gweithredu yn groes i'r egwyddorion hyny; eu bod yn ffurfio Undebau, cyhoeddi credöau, dewis cylafareddwyr i benderfynu dadleuon, ac yn ymneillduo oddi wrth neu yn diarddel eglwysi.

9. Nid ydyw undebau Annibynwyr ond undebau cariad a charedigrwydd. Cyhoeddwn ein credo o dro i dro er attal camliwiad, fel y gwna Mr. E.: ond y mae gan bob eglwys hawl i wella neu i newid ei chredo pan y myno, heb ofyn cenad na chefnogaeth llys na Henadurfa . . . Ni faidd y Methodistiaid newid *un* pwngc yn eu credo dan berygl colli yr eiddo; ond y maent wedi eu *discussio* lawer gwaith er 1826, ac wedi newid rhai pwyntiau mewn ymarferiad:—'*That no alteration in the Confession of Faith, or the Tenets or Doctrines to be taught and maintained by the said Connexion shall be at any time allowed or even discussed.*'

10. Bod hanes y gynnadledd yn Jerusalem yn achos eglwys Antioch yn dangos eu bod yn gweithredu yn ol y drefn Henadurol.

10. Nis gallai y gynnadledd hono fod yn Henaduriaeth reolaidd, gan ei bod yn cael ei gwneyd i fyny o'r 'holl eglwysi'—nid o gynnrychiolwyr. Yr oedd y brodyr, yr henuriaid, a'r apostolion, yn uno yn yr attebiad.

Digitized by Google

11. Yr oedd gwaith Paul a Barnabas, Titus a Marc, 'yn ordeinio henuriaid yn mhob eglwys' yn dangos nad eglwysi Annibynol oeddynt.

11. Nid oes awgrym fod yr eglwysi lle y bu y trefnu a'r ordeinio wedi cyttuno i weithredu mewn undeb, a thrin eu hamgylchiadau drwy gynnrychiolwyr. Y drefn derfynol ydyw, 'Os pecha dy frawd i'th erbyn, dos, ac argyhoedda ef rhyngot ti ac ef ei hun.'

12. Gall y Methodistiaid ddadleu pyngciau eu cyffes lle y mynant, ond yn y Gymdeithasfa; a newid eu golygiadau, os yn dewis.

12. Dylai pobl gael canlyn y goleuni heb golli eu capeli; fod cydwybod o blaid hyny, ond fod *deed* y Methodistiaid yn erbyn. Y mae Esgobaethwyr a Phabyddion yr un ochr a'r *deed*. Cymmeradwyir i dori *deeds* Pabyddion, Iuddewon, Esgobaethwyr, a Sosiniaid; ond y mae *deed* Calvin i aros byth. Dylai cynnulleidfa o Babyddion fod at eu rhyddid i droi yn Brotestaniaid, a chynnulleidfa o Wesleyaid i droi yn Galviniaid, heb golli eu capel.

13. Bod y capeli, yn ol y drefn Annibynol, yn eiddo y gweinidogion; nas gall yr eglwysi na'r ymddiriedolwyr eu troi ymaith, pa beth bynag a bregethont, a pha mor wael bynag.

13. Dywedai Mr. E. fod y gweinidog Annibynol yn agored i fyned o dan draed yr eglwys. Yn awr, dywed fod yr eglwys mewn perygl i fyned dan draed y gweinidog. Y mae yn amlwg fod Mr. E. yn ei erbyn ei hun.

14. Bod yn rhesymol i'r bobl a adeiladodd y capeli eu caethrwymo wrth *Gyffes Ffydd* dros yr holl genedlaethau; ac mai *smuggling* a *pious fraud* fyddai ymddwyn yn wahanol.

14. Y mae yr Eglwys Babaidd yr un peth, ond wedi colli llawer iawn o'i heiddo. Pe byddai i Eglwys Esgobawl droi allan y rhai sydd yn dal gwahanol farnau yn ei chyfundeb, collai lawer iawn o feddiannau. Pe tröai y Calviniaid allan bawb o'u plith sydd yn gwahaniaethu oddi wrth Gyffes y *Deed*, byddai ymraniadau di-ddiwedd yn eu plith. Pe buasai y *Deed* wedi ei gwneyd yn 1801, buasai yn dra Ffwleraidd. . . . . Pe wedi ei gwneuthur 25ain mlynedd yn gynt, buasai yn rhaid i'r enwad bregethu iawn cyffredinol, neu golli eu heiddo. . . Digon tebyg y newidia *Cyffes Ffydd* y Corph gryn lawer etto yn y 60ain mlynedd nesaf, ond erys Cyffes y *Deed;* a dyna lle y bydd y naill yn cael difyrwch wrth weled y llall yn neidio drosti.

Gwnaeth y ddadl les yn yr ystyr o glirio yr awyr, a deffinio termau; a dygodd fanteision a diffygion Henaduriaeth ac Annibyniaeth ger bron miloedd na roddasant ystyriaeth erioed i'r pwngc cyn hyny.

II. *Yn yr Anialwch.*—1. Y mae yn hawdd rhagweled nad allai S. R. lai na bod yn wrthddrych atgas ac ammhoblogaidd gan ddosbarth neillduol o'i gydwladwyr. Hau hadau diwygiad oedd y gwaith a ymddiriedwyd iddo gan Ragluniaeth: ni fynai yr amaethwyr symmud llaw na throed i ddïal eu cam. Ysbryd ymfudiaeth oedd yr unig arwydd o fywyd ynddynt. Ond i ba le yr ânt, a phwy fydd yn arweinydd iddynt? Nid Mr. Roberts oedd y dyn i fod yn arweinydd. Er cymmaint a wyddai, nid oedd ynddo na medr na dawn i drin y byd—llawer llai i adnabod ei ddichellion ef, a'i blant. Er hyny, yn 1855, ymledodd y newydd trwy Gymru fod S. R., o bawb, am ymfudo i'r America. Pa ham hyny, tybed? Caiff ef ei hun egluro'r pa ham:—

'Yr oedd bron bob tyddyn oedd o fewn cylch fy ngweinidogaeth yn perthyn i un o'r teuluoedd mwyaf ei ddylanwad yn Nghymru. Yr oedd goruchwyliwr y rhan hono o'r wlad yn ŵr traws, uchel Eglwysig, yn ymhyfrydu mewn sarhau a llethu Ymneillduwyr. . . Dioddefais ei gam-ymddygiadau yn amyneddgar am yn agos i ugain mlynedd. Yr oeddwn drwy yr holl amser wedi bod yn ffyddlawn i feddiannau y *landlord*, ac wedi dangos pob awydd am wella yr etifeddiaeth. . . Mae'n wir i mi, yn y diwedd, achwyn ar orthrwm y goruchwyliwr. Ond aeth llaw y gorthrymwr yn drymach; canys cefnogwyd ef gan awdurdodau uwch—wrth benelin y rhai, yn barhaus, yr oedd y 'penboethion offeiriadol,' yn eu cymmhell i ymddwyn at rai Ymneillduwyr cydwybodol yn hollol annheilwng o'u safle urddasol; a chan fy mod yn teimlo fod dylanwad amryfal y teulu mawr hwnw yn rhedeg yn fy erbyn yn mhob cyfeiriad, bob amser, penderfynais ymgilio o'r maes.'

Ai iâs o deimlad fel yr eiddo Elias pan ar ffô a'i meddiannodd? Pa beth bynag am hyny, daliwyd ef, a'i frawd Richard, gan gyffrawd yr ymfudo. Cynted a bod y syniad ar y droell, aeth i Lanbrynmair ddau ŵr o'r America—un o'r enw William Bebb, cyfreithiwr, a chefnder i'r brodyr o'r Ddiosg; ac E. B. Jones, peiriannydd a mesurydd tir wrth ei alwedigaeth. Digwyddai hwnw, hefyd, fod yn 'hen gyfaill y teulu.' Ai damwain, ynte cynllwyn, a ddygodd y bleiddiaid a'r ŵyn at eu gilydd? Beth bynag, gyda'u gilydd y maent! Pwy a allasai fod yn fwy cymmhwys i gyfarwyddo ymfudwyr gwledig a diniwed i America na dau foneddwr oedd yn gynnefin â'r Talaethau, yn adnabod y bobl, yn deall natur tir, ac yn hysbys o gyflwr marchnadoedd y cyfryw? Wrth reswm, pwy a faidd ddychymygu am funyd nad ellid ymddiried yn eu hanrhydedd? Onid 'perthynas' agos, a 'chyfaill' serchog, ydynt hwy? Erbyn deall y cyfan, gallasai y ddau foneddwr werthu gwala y bobl o 'dir dan gamp' yn Tennessee Ddwyreiniol, a hyny am bris isel: ac yn mhellach, fel prawf o'u hewyllys da a didwyll, nid oedd arnynt eisieu dim elw iddynt eu hunain ar y gwerthiant! Yn unig yr oedd angen am arian ar berchenogion y tir—angen di-ymaros; ac os oedd prynu i fod, rhaid oedd prynu a thalu am dano ar fyrder. Prynwyd y tir, arwyddwyd y cyttundeb, a llawnododd y tystion eu henwau wrtho ar y laf o Ragfyr, 1855, yn ninasoedd Llundain a Brussels. Fel dyn dihoced, talodd Mr. Roberts yr arian yn mhen deufis, yn ol y telerau. A rhag bod yn rhy hyf ar garedigrwydd 'yr Americaniaid tirion,' cyttunodd yr ymfudwyr glân eu calonau i anrhegu eu cymmwynaswyr damweiniol â dau cant o bunnau at eu treuliau. Yn anffodus, yr oedd y ddau Gymro hyn wedi gorphen eu prentisiaeth mewn

cnafeidd-dra, ac wedi dysgu dan gamp. Goruchwylwyr tirol (*land-sharks*) y Meistri Cock a Saxton oeddynt. Heb law dau gant yr ymfudwyr twylledig, ennillodd y ddau ddeg punt y cant ar arian pryniad.

2. Yr oedd Maldwyn yn fyw o'r ysbryd ymfudol er's tro; ac elai y bobl i'r Talaethau yn dorfeydd o bob cŵr o'r wlad. Aeth Llanbrynmair yn gymmharol wâg. Anfonid arian oddi yno beunydd gan yr hen ymsefydlwyr er dwyn treuliau eu perthynasau anghenus. Dywedai Mr. Roberts yn *Y Cronicl* am Gorph. 1852, ei fod wedi derbyn pedwar ugain punt oddi wrth lafurwyr ieuaingc i bwrpas felly y boreu yr oedd yn ysgrifenu ei erthygl ar 'Ffeithiau Ymfudiaeth.' Cychwynodd mintai S. R. am yr America Mehefin 3ydd, 1856; ac ymsefydlasant yn eu cartref newydd yn Awst. Ymdaenodd prudd-der dros lawer bron pan ddeallwyd fod y fath ddiwygiwr ac athraw ar gefnu ar Gymru. Edrychai y bobl yn sỳn ar eu gilydd, â siomiant ar eu gruddiau. Canodd rhywun—

'Llanbrynmair a Samuel Roberts,
Sydd yn nghlustiau Cymru'n un;
Tybiai 'n anghyfiawnder ysgar
Enwau oeddynt mor gyttûn;
Tra 'n mwynhau ei lwydd, ni thybiai
Y galwesid hi drachefn,
Byth i edrych drwy ei dagrau
Arno arni 'n troi ei gefn!'

Un arall a ddywedai—

'Mae llawer o'm lliosog blant yn anwyl iawn i mi,
Ond nid oes un o honynt oll a garaf fel tydi;
Ond O! ni wyddwn i mor fawr oedd serch y fynwes hon
Tuag atat ti, fy anwyl fab, nes daeth yr adeg hon!'

Dywedai Caledfryn fel hyn—

'O ganol serch ugeiniau—o ganol
Mawr gŵynion a dagrau,
A'n o bell—â gwynebau
Praidd Iôn i'w gweled yn pruddhau.

Bwlch o'i ol, ond balch o hyn—nid yw neb
Adawa 'n hir wed'yn;
Am Brynmair, sai'r wlad yn syn,
Yn ei galar dan golyn.'

Ymwthiai serch y cyhoedd i'r amlwg mewn anrhegion a thystebau. Cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus hynod o boblog yn y Drefnewydd, i ganu yn iach, ac i gyflwyno y dysteb. Cymmerwyd y gadair gan glerigwr y plwyf. Nid oes a fynom âg olrhain helyntion y twyll gyda'r tir, a'r blinfyd a gaed yn Tennessee. Prin y gellir dywedyd i ffurfafen ei yrfa fod yn ddisglaer, a chlir o gymmylau, ar ol hyny. Cyn bo hir, dechreuodd tafod gogan ar ei gwaith. Pa beth a barodd i amddiffynydd y caethion fyned i dalaeth gaeth i drigo? Parodd y pellder ffordd rhyngddo a'i gyd-genedl yn y Talaethau i gyfaredd ei ddylanwad ballu. Wedi hyny, daeth y Rhyfel Cartrefol. Gorfoledd y newyddiadurwyr Cymreig, a rhai goruchwylwyr yn y wlad hono, oedd methiant y wladychfa a sefydlwyd ganddo; ac am nas mynai efe lusgo y twyllwyr i lys barn, awgrymwyd nad oedd efe ei hun yn gwbl lân. Erbyn hyn, eglur ydyw fod ei arian wedi eu treulio ymaith, ac yntau yn dechreu sylweddoli fod gorseddfa barn yn yr America yn dra simsan, a di-ymddiried.

3. Anffawd boenus, fe ddichon, y dylid edrych arno yn ffrwyth byrbwylldra, oedd ei ymgipris ar bwngc 'Achosion y Rhyfel.' Diau mai amser i dewi oedd y cyfnod hwnw. Disgynai ysbryd rhyfel ar y wlad; a'r cledd oedd unig offeryn rhyddid y caeth adnabyddus i'r bobl ar y pryd. Nid oedd tymmer Cymry y Gogledd yn goddef iddynt ymbwyllo er ceisio dirnad rhesymau Mr. Roberts yn erbyn y rhyfel. Aelod o gymdeithas heddwch ydoedd efe. Prin y cydnabyddai un amser fod unrhyw amgylchiad, gan nad pa mor dreisiol y gallasai fod, yn cyfreithloni dadweinio y cledd. Addfwynder oedd ei arf ef at adgyweirio pob anghydfod. Am hyny, yn hytrach nag argyhoeddi, creu dig a wnai ei gŵynion a'i resymau. O'r fan hon y tarddodd yr ammheuon cyflym eu hedyn a ymwibiasant dros dir a môr ynghylch ei gefnogaeth i'r gaethfasnach. Yr oedd yn eglur, er's tro, fod ôl a blâs ei siomedigaethau wedi andwyo llarieidd-dra ei dymmer. Aeth ei ysgrifell yn llymach, ac yn chwerwach. Dichon fod yn hawdd ei feio, a dannod iddo ei amryfusedd; ond os bu efe erioed o ddifrif gyda rhywbeth, yr oedd felly yn ei gasineb at ryfel, a'r gaethfasnach. Ac etto, wele ei gydgenedl ar y ffordd i gredu y gallasai efe, o bawb, gael y fath gwymp, mewn barn a theimlad, fel ag i fyned yn gefnogydd cofn i'r gaethwasiaeth. Os collodd efe ei fantoliad yn yr amgylchiad hwnw, pan feddylir am naturiaeth ei dymmherau, y mae yn hawdd cyfrif am hyny. Dichon mai yn nghân Ceiriog, 'Y Ddau Sam,' y cafodd Mr. Roberts y colynau a barodd iddo y blinder mwyaf drwy y blynyddoedd hyny; ac fe allai yn ystod ei fywyd.

Gwnaed cais at y bardd i dynu allan y chwerwyn hwnw o'i lyfr; ond gwrthododd.

Y CAIS.

Anwyl Syr,—Ysgrifenais yn garedig i ofyn i chwi wneyd rhyw ymddiheurawd i alw yn ol yr enllibau yn eich hen gân enwog ar 'Y Ddau Sam,' ond nid attebasoch fy llythyr. Gwnaethum yr un cais atoch ddwy flynedd yn ol, pan welais chwi yn *station* Llanidloes; ond ni chydsyniasoch, er teced fy nghais. Yr wyf, fel cymmydog a chydwladwr, yn rhoddi i chwi etto un cynnyg i wneyd yr hyn sydd deg â'ch hen gyfaill, S. R.; ac os na wnewch yn ddioed, bydd raid i mi appelio at lys cyfraith.

Yr eiddoch, &c.,

Chwefror 21ain, 1870. SAMUEL ROBERTS.

YR ATTEB.

Rev. S. R., Dear Sir,—The second edition of *Cant o Ganeuon* will soon be out; and that is the proper place and proper time to deal with the matter you refer to. You know that little folk, especially ourselves, can ape Dr. Temple in some things. I have finished my fifth little book this very day, and the copy is sent to Wrexham. It is called *Oriau'r Haf*, and contains about 4,000 lines. The publishers were pressing me for the MSS.—hence the reason I did not manage to reply to your first letter more promptly.

If you refer your complaint to Cæsar—wel, at Cæsar y cewch fyned. I am quite prepared to meet at Philippi, if invited. But as our animosities have been purely political, and confined to the last days of the exploded slaveocracy, and never for a moment personal, no doubt we shall be able to wash this bit of linen at home.

Believe me, dear S. R., to be truly your's—and you shall not be disappointed in next edition. J. C. HUGHES.

Digitized by Google

Estynwyd i Mr. Roberts groesaw mawr—mawr iawn; yr oedd yr amgylchiad yn dipyn o *event;* cymmerodd y ffurf o dysteb genedlaethol. Yn ystod blynyddoedd ei ymdaith yn y Talaethau, ymestynodd ac ymledodd awyrgylch gymdeithasol Cymru. Aeth y nenfwd yn uwch i fyny, a'r awyr gryn lawer yn deneuach. Adnabyddid yntau yn llawer gwell, a'i amcanion hefyd, na phan yn myned allan. Dyfnhaodd y teimlad fod llafur blynyddau goreu ei oes heb eu cydnabod yn deilwng; ac yr oedd arweinwyr y bobl yn aeddfed i'r gwaith—ond cael cyfleusdra. Bu hyrwyddwyr y symmudiad yn ffodus. Adnabyddasant yr amser i geulo ewyllys da y cyhoedd. Anrhydeddodd Cymru ei hun drwy ei anrhydeddu ef â thri-chant-ar-ddeg o bunnau (1,300p.), wedi eu cyfranu gan o ddeutu pedair-mil-ar-ddeg a hanner o'i gydgenedl, o bob gradd a phlaid. O'r tu arall, anrhydeddodd yntau ei hun yn fwy o lawer drwy eu defnyddio i dalu yn ol gyfran o'r benthycion Americanaidd. Ac od oes cyfran o'r benthycion etto yn aros, dyledswydd y rhai sydd, ar hyn o bryd, yn mwynhau ffrwyth yr antur a'r cam a ddioddefwyd yn mlynyddoedd y rhyfel, ydyw gofalu na bo gan neb o hil y rhai a roddasant echwyn achos i ddwrdio na thalwyd mo hono yn ol. Rhydd y modd y defnyddiodd Mr. Roberts arian ei dysteb oleuni clir ar ei ewyllys ef ar y mater hwnw. Ar yr achlysur siriol y traethir am dano, cyfranodd Mynyddog gân nodweddiadol o'i ddawn. Ynddi, ceir yr ochr arall i'r ddalen—dalen 'Y Ddau Sam:'—

'Mae'n dda genym weled dy wyneb di, Sam,
Ar ol cael dychwelyd i ardal dy fam;
Mae teimlad hen Gymru yn wresog, yn hael,
Wrth roddi 'r anrhydedd i'r sawl ddylai 'i gael.
Mae teimlad fy ngwlad wrth groesawu ei dyn
Mewn cannoedd o fronau yn dangos ei hun.

Bu llu o elynion, yn fach ac yn fawr,
Yn ceisio darostwng dy goryn i lawr;
Ond arwr tangnefedd a rhyddid sy' o hyd
Fel Saul, o'i ysgwyddau yn uwch na nhw i gyd;
Waeth d'wedyd mai'r lleuad oedd graddell mamgu,
Na d'weyd fod S. R. am gaethiwo 'r dyn du.'

15. Wedi ei gael yn ol, yr ymofyniad nesaf oedd, Pa beth oedd i'w wneyd o hono? Y mae llaweroedd o'r digwyddiadau y bu yn dadleu drostynt wedi eu cael. Ac nid yw efe yn rhy hen, er ieuanged ei ysbryd, i gymmeryd eglwys fel gweinidog; etto, ammod mawr ei berygl yw bod heb ddim i'w wneuthur. Aeth *Y Cronicl* i law ei frawd, J. R., yr hwn a fu yn dra llwyddiannus wrth ei amaethu; a phrin, hwyrach, ei fod yn aeddfed i droi y meddiant yn ol. Nid oedd yr enwad Annibynol yn Nghymru chwaith yr hyn ydoedd gynt, pan y chwareuai S. R. ran gŵr ei ddeheulaw ef. Yr oedd gan Ddê a Gogledd erbyn hyn wŷr yn feistriaid ar y gelfyddyd o dynu allan benderfyniadau a llunio deisebau; ac nid oedd yn brin chwaith o foneddigion yn fyw o dra-serch am fod yn arweinwyr iddo. Anghofid ar y pryd nad oedd lle i ragor o'r fath wŷr yn yr enwad. Ac etto, yr oedd ynddo lu am ei wneyd yntau yn ben. A feddyliodd efe ei hun fod yn ddichonadwy iddo esgyn i gadeiriau yr arlywyddion yn y weriniaeth Annibynol, nid ydym yn hòni gwybod. Uchelgais, os nad eiddigedd eraill, fu ei brif brofedigaethau ef wedi ei ddychweliad. Trefnwyd i gyhoeddi *Y Dydd* yn 1869, a neillduwyd yntau i'r olygiaeth. Yn mhen rhai blynyddoedd ar ol hyny, tra yr oedd efe ar ymweliad masnachol â'r Talaethau, unwyd *Y Dydd* â'r *Tyst*, ac aeth yr olygiaeth i ddwylaw eraill. Ar y pryd, yr oedd yr enwad mewn amseroedd blinion. Gwnaed Mr. Roberts yn olygydd *Y Celt* yn 1878; ac er fod yn eglur ddigon nad oedd efe yn ei elfen gyda thrybeedod Coleg y Bala, dywed ei fywgraphydd mai efe oedd yr arweinydd yn yr ymrafael cethin hwnw. Ond a thybied felly, nid oedd efe namyn arweinydd mewn enw; boneddwr arall biau y clod neu yr anghlod cyssylltiedig â hwnw. Bu egni mawr y cyffro yn drech nag ef. Ymollyngodd yntau i gymmeryd ei arwain a'i gyfarwyddo. Baich ei gŵyn ef, fel y gwelwyd eisoes, ynglyn â Rhyfel yr America, oedd diffyg defnyddio addfwynder i adgyweirio. Byddai yn gyfreithlawn achwyn yn gyffelyb gyda golwg ar Helyntion y Cyfansoddïadau; ac yn sicr, rhaid cydnabod fod Mr. Roberts wedi anghofio, i fesur helaeth, arfer y rhinwedd peraidd a bregethai efe. Hwyrach na sylweddolodd efe un amser yr urddas a'r grym sydd yn gorwedd mewn hunan-feddiant tawel. Rywsut, nis gallai efe oddef cyfarthiad ci bach gohebydd mewn newyddiadur heb ruthro arno; ac er na wnai yn fynych ond chwareu o'i amgylch, etto y mae yn sicr nad oedd drwy hyny yn teimlo ei fod yn treulio ei waddol ar oferedd drwy weithredu yn y modd y gwnelai efe. 'Gwrthwynebwch ddiafol,' ebe Spurgeon, 'ac efe a ffŷ oddi wrthych. Gwrthwynebwch ddiacon, ac efe a ruthra arnoch.' Dyma un o wendidau amlwg Mr. Roberts; ac, wrth fwrw golwg diduedd dros ei ysgrifeniadau, fe welir fod y gwendid am yr hwn yr ydym yn sôn, yn prifio ynddo i'r graddau yr oedd ei nerth yn pallu, a'i boenydwyr yn amlhau. Ar yr un pryd, ofer fyddai meddwl am gelu y ffaith fod ychydig o lëygwyr a gweinidogion yn yr enwad wedi defnyddio y wasg i'w ddylorni, a'i gyhuddo ar antur, am yr hyn nad oedd seiliau iddynt. Dichon fod yn naturiol i'r gwrthwynebiadau cysson, pendant, a arferai ef a J. R.—yn neillduol yr olaf—eu gwneyd yn erbyn pob math o drefn—peirianwaith gynnulleidfaol y tu allan i'r eglwysi, a hyny drwy eu cydweithrediad rhydd-ewyllysgar—fod yn achlysuron i rai dynion da ammheu didwylledd eu hamcan. Ymddengys fod rhywbeth tebyg i genfigen masnachol yn ymwthio i'r golwg yn y mymryn ymryson gydag Emrys. Cododd hwnw o sylwadau yr olaf ar chwaeth a chelfyddyd y *Ddwy Fil Hymnau.* Wedi cael yr holl faes i'r gyfrol hono am flynyddoedd meithion, yr ydym yn ofni nad oes yn yr ohebiaeth y cyfeiriasom ati sail dros gredu eu bod yn eangfrydig a pharod i gilio o'r neilldu er gwneuthur lle i'w gwell.

Ond gan nad beth am hyn oll, ei ddyddiau ef a nesasant i farw. Ar y 24ain o Fedi, 1885, wedi byr gystudd, efe a hunodd yn yr angeu; ac efe yn fab 86ain mlwydd. Uniawn y dywedodd Coleridge—'Na fernwch un dyn wrth ei lyfrau;' neu fel y sylwodd y Barnwr Charles: 'Confound no man with the characters of the persons he creates.' Doeth hefyd fyddai credu fod dynion cyhoeddus, a meistriaid yr ysgrifell, fel rheol, yn llawn rhagorach gwŷr na defnydd ac ysbryd eu cynnyrchion llenyddol. Yr oedd Mr. Samuel Roberts yn un o'r cyfryw. Yn ei fywyd cartrefol, yr oedd yn dra chyfoethog o dynerwch, addfwynder, a thiriondeb. Llifai y cyfryw neillduolion allan yn fynych iawn yn ei

Digitized by Google

bregethau. Ni bu un amser yn 'fawr' mewn dim; ond bu yn effeithiol hyd wênau a dagrau yn y pulpud a'r wasg.

Cafodd foreuddydd clir, tra heulog. Tywynodd ei haul yn danbaid am hanner cyntaf ei oes; ond dechreuodd ymŵyro tua'r gorwel y dydd anffodus y syrthiodd efe i'r amryfusedd o sefydlu gwladfa yn Tennessee. Cymmerodd hir brydnawn i fachlud. Ni phallodd y cymmylau a britho ei awyr. Prydnawn cymmharol dymmhestlog a gafodd efe. Pe wedi ei alw i wlad y cyfiawnion, yn hytrach nag i'r Talaethau, buasai ei goffadwriaeth yn ddisgleiriach. Derbyniodd ddoniau goludog fel ysgrifenwr. Yr oedd ei arddull yn nodedig o ddisgrifiadol, clir, a gewynog; ac ar amserau yn llosgi ac yn ysu hyd yr esgyrn. Fel y bu gan Loegr ei barwniaid, a Chymru ei thywysogion—y rhai na fu yn euog o ymdreulio er llwyr feistroli y gelfyddyd nefol o fod yn dangnefeddus yn eu plith eu hunain; yn hytrach, yn ol mesur eu dawn, llwyddasant i godi awelon blinion a thonau anwar yn mywyd cymdeithasol Cymru. Dioddefodd y genedl drwy hyny fesur blin o helbulon. Iawn y canodd Dafydd Jones, Tre-borth—

'Ymawydd am y mwyaf—dŷn i lawr,
Dyna loes i'r eithaf;
Da yw i ni, medd Duw Naf,
Ymryson am yr isaf.'

Ond cyffelyb a fu bywyd eglwysig Cymru i'w bywyd gwladol. Bu gan y Weriniaeth Gynnulleidfaol ei barwniaid a'i thywysogion hefyd —yr oll yn wŷr grymus, glewaidd—ac yn eu ffordd, ac yn ol mesur eu goleuni am natur rhinwedd, yn wŷr da. Ond ar gyfrif mân wahaniaethau cymmharol ddibwys mewn duwinyddiaeth ac eglwyseg a ymbellhasant ac a feithrinasant ysbryd ammheus ac eiddigus yn eu mynwesau tuag at eu gilydd. Ni phallodd iddynt, chwaith, ddysgyblion—cryfach, fe ddichon, yn eu hedmygedd o'u hathrawon nag yn eu chwant am wybod a gweled y gwirionedd i gyd yn ei gyflwr morwynol. Meddai y Meistri S. a J. Roberts yr anrhydedd o fod, a siarad yn ffugrol, naill ai yn 'farwniaid,' neu yn 'dywysogion.' Ceisiwyd eu perswadio nad yn ofer y tynasant gleddyf yn Rhyfel Gartrefol yr Annibynwyr. Yn ffodus, neu fel arall, y mae y math hwnw, a'r genhedlaeth hono, o'r cedyrn Annibynol wedi eu casglu at eu tadau bron yn llwyr. Ond pan y bydd pob rhyw adgof ac edmygedd o Mr. Samuel Roberts fel pregethwr ac arweinydd eglwysig wedi hir drengu, ni phallir iddo, fel diwygiwr cymdeithasol dewr a thra galluog, enw a choffadwriaeth beraidd yn nhraddodiadau a hanes Cymru. Yn benaf, trwy ddiwydrwydd serchog y Parch. Keinion Thomas, cyfodwyd cofgolofn deilwng ar ei fedd yn mynwent Conwy. Ymddengys i ni fod un weithred dda yn aros dyfodiad rhywun heibio er ei chyflawni. Ceir ysgrifeniadau dillynaf y Tri Brawd mewn diwyg a chyflwr garw a bratiog. Allan o'r pentwr, gallesid dethol defnyddiau cyfrol neu ddwy yn llawn haeddu ymgeledd ofalus, a gwisg unffurf anrhydeddus. Nid parch i'w coffadwriaeth yn unig sydd yn galw am hyn; eithr haedda ffrwyth addfetaf ein hysgrifenwyr goreu gael eu cadw mewn defnyddiau hardd o hir barhâd, am eu bod yn gyfrau fyw o'n llenyddiaeth genedlaethol.

Awd.—*Y Cronicl*, 1843—1884; *Gweithiau Sam. Roberts*, 1856; *Pregethau a Darlithiau*, gan Samuel Roberts, Utica, 1865; *Hunan-gofiant S. R.*, 1875; *Hanes yr Eglwysi Annibynol*, gan Rees a Thomas, cyf. i., 1871; *History of Llanbrynmair*, gan Richard Williams, 1889; *Cofiant y Tri Brawd*, gan E. P. Jones, PH.D., 1892; *Montgomeryshire Worthies*, gan R. Williams, F.R.H.S. 1894.

REES, WILLIAM (*Gwilym Hiraethog*). Brodor o Lansannan oedd efe—un o blwyfi amaethyddol ac encil sir Ddinbych. 'Anhawdd (ebe y ddiareb), dwyn dyn oddi ar ei dylwyth.' Yn y mân gofion dilynol, a gasglwyd oddi ar wefusau hanes a thraddodiad, fe allai y gwel rhywun gadarnhâd pellach o gywirdeb yr athrawiaeth.

I. *Llwydiaid y Chwibren.*—1. Rywbryd, tua diwedd y canol-oesoedd, trigai yn yr Henllys, Llanfairtalhaiarn, ŵr glew, a goludog o dir a rhinwedd, o'r enw Hedd Molwynog. Heb law byw ar ei dir a'i fwyd ei hun, cyflawnai Hedd y swydd o oruchwyliwr tir i Dafydd ab Owain Gwynedd. Dywedir fod ganddo dri mab cyfreithlawn; ac y disgynodd arglwyddiaeth Nant Aled, a'r cyffiniau, drwy ewyllys i'r ieuangaf. Aeth yntau, yn ol arfer gwlad, i breswylio ar ei gynnysgaeth. Ffynodd ei dda, lliosogodd ei deulu, prifiodd ei ddylanwad—ac aeth yn ŵr glew yn ei wlad. Am lawer oes faith, nid oedd yn y sir gangen amlach ei brigau, a lliosocach ei ffrwyth, na'r eiddo ef. Trigodd boncyffion y teulu am ganrifoedd yn Nant y Rhiwiau, ac yn Chwibren isaf. Nid oedd y Llwydiaid na gwell na gwaeth na'r gweddill o breswylwyr nentydd Gwynedd yn ystod tymmor y goresgyniad Normanaidd, ac amseroedd yr ymgais i wneyd Saeson o'r Cymry. Gerwinder a thrais oeddynt neillduolion ysbryd y cyfnod hwnw. Ceir darluniau lliwgar a chywir o fuchedd y bobl yn *History of the Gwydyr Family*, a chroniclau cyffelyb. Er esampl, gŵr o rempau câs annifyr oedd Bleddyn—y pummed disgynydd o Hedd Molwynog. Dywedir iddo gymmeryd yn ei ben i annos ei denantiaid allan o'u tai, ac o'u ffermydd, i'r mynydd-dir gwyllt, am ryw drosedd neu gilydd. Ond a oedd ganddo achos digon da i gyfreithloni y weithred greulawn, nid ydym yn gwybod. Beth bynag, dengys y digwyddiad hwn nad peth newydd a diweddar, nodweddiadol o dir-arglwyddi yr Iwerddon, yn unig ydyw bwrw allan o'u cartrefi ddeiliadon ffermydd a thyddynod.

2. Yn ffodus, cofnodir am wrhydri gŵr arall o'r un gwehelyth—gwrhydri a fantellodd allan o gôf a golwg, ac a wnaeth iawn helaeth yn marn llaweroedd am anfadwaith Bleddyn. Enw y dewr oedd Meurig Llwyd. Gŵr tra annibynol ei ysbryd oedd efe, a chashäwr anrheithwyr Cymru. Byth er dyddiau y Normaniaid, a Robert o Rhuddlan, nid oedd ball ar drais a rhaib swyddogion y Saeson. Gwir fod Dinbych yn gartref barn a chyfraith y goresgynwyr er's oesoedd lawer; eithr o herwydd rhesymau neillduol, coeliai y Cymry nad oedd iddynt hwy gyfiawnder yn llys yr estron. Rywbryd, aeth haid o swyddogion Saesnig i arosod rhyw ddeddf a rheol a ystyrid yn ormesol. Ennynwyd llid Meurig yn fflam; ac efe a'i wŷr a ruthrasant arnynt, gan eu difa trwy gleddyf a chrogbren mewn byr amser. Wedi hyny, daeth ofn amserol ar Meurig; ac efe yn gwybod am ddinas noddfa lleiddiaid dynion yn Halston, yn yr Amwythig, efe a ffodd yno. Ei ddewrder oedd ei gynnysgaeth; a chyn bo hir, aeth ei fri

Digitized by Google

ar led. Y drwydded hono a agorodd ddrysau yr uchelwyr o'i flaen, ac a ennynodd edmygedd serch y ddau ryw tuag ato. Priododd Agnes, aeres Llwyn-y-maen; ac o ffrwyth y briodas hono y tarddodd hynafiaid Edward Llwyd—awdwr yr *Archæologia Britannica.* Yr oedd Cymru a Lloegr ar y pryd yn ferw gan gyffroadau Rhyfeloedd y Groes. Aeth Meurig, yn nghwmni Iarll Ardunel, ac Arglwydd Croesoswallt, i Balestina. Frederic o'r Almaen, a Philip o Ffraingc, a Rhisiart o Loegr, oedd y tri cadlywydd. Ymosodasant ar dref Acre—allwedd teyrnas Syria. Yn anffodus, nid oedd llwydd ar eu hymgais; a gwaeth na'r cyfan, syrthiodd lluman yr adran Ellmynig i ddwylaw y gelyn. Wrth weled hyny, gwelwodd wynebau y penaethiaid, a chredasant fod ffawd yn eu herbyn. Cynted ag y canfu Meurig yr hyn a ddigwyddodd, ac efe yn deall ystyr y trychineb, rhuthrodd, gan ddringo y mur fel gwiwer, a chipiodd y lluman o law y gelyn gan ei dychwelyd. Mawr iawn fu y syndod a'r gorfoledd a achlysurwyd gan ei gampwaith. Mynodd Frederic, yr ymherawdwr, ei wisgo â phais arfau o'r math gorwychaf am y weithred ddewr.

3. Yn mhen llawer oes wedi campau Meurig Llwyd, cawn ŵr arall o deulu y Chwibren yn dilyn camrau ei hynafiaid. Enw y gwladwr hwn oedd Rhys ab Ifan ab Llewelyn Chwith. Ni pheidiasai yr ormes Saesnig etto. Rhedai clwyfau y Cymry ddydd a nos. Aeth bywyd yn faich iddynt. Er yn uchelwr tirog, o herwydd ei fod yn Gymro, nid oedd i Rhys, mwy nag arall, gyfiawnder gwladol. Nid ydym ni yn ngafael y manylion; ond ymddengys iddo fyned i gyfreithio. Yn ol ei dyb ef, a'i gydwladwyr, derbyniodd gam dybryd oddi ar law y barnwr Saesneg. Y gŵr hwnw ydoedd Syr Rhisiart Pemberton, neu 'yr Ynad Coch,' fel y gelwid ef gan y bobl. Eithr nid gŵr a gymmerai gam heb geisio ei unioni yn fuan oedd Rhys. Am hyny, wedi methu gyda'r ynad, aeth rhagddo hyd Faesyfed, i geisio cyfryngdod y Duc o York. Pa fodd bynag, dychwelodd yn llwyr argyhoeddedig nad oedd iachawdwriaeth i neb rhyw Gymro mewn Sais. Erbyn hyn, yr oedd ei lid fel pair trochwyn. Penderfynodd syrthio yn ol ar arfer gwlad, a chymmeryd y gyfraith yn ei law ei hun. Wedi iddo egluro manylion ei gam i'w gefnder, Dafydd ab Siencyn, o Nant Conwy, aeth y ddau ddyn gyd â'u gweision tua Dinbych ar ddydd y frawdlys. Pan welodd Rhys ei gyfleusdra, rhuthrodd ar y barnwr, a lladdodd ef yn gelain ar ei sedd. Cafodd fyned allan o'r llys, ac o'r dref, heb i neb osod dwylaw arno. Credai y Cymry, gan nad beth am farn eraill, na wnaed dim ond cyfiawnder noeth drwy y weithred erchyll hono. Dywed *Scorpion* fod etto ar gael gywydd moliant i'r ddeuddyn am eu gorchest wladgarol—gwaith un o feirdd bro yr Aled. Er hacred y weithred, fel nas gellid ei hamddiffyn am eiliad o dan amgylchiadau gwahanol; etto, rhaid cydnabod nad oedd hi yn ddim amgen na ffrwyth naturiol yr hâd a fwriasid er's oesoedd gan Norman a Sais i ddaear gymdeithasol Cymru. Fe wasanaetha y sylwadau blaenorol er dwyn i'r golwg rai o neillduolion cyff y Llwydiaid.

4. Yn nhreigl amser, o herwydd achosion na raid eu hela allan, difäwyd etifeddiaeth ëang y Chwibren. Pan ymbriododd Miss Gwen Lloyd â Mr. Henry Rhys, neu Rees—y cyllidydd o Llandeilo Fawr—rywbryd yn y rhan olaf o'r ganrif o'r blaen, nid oedd yn aros o honi mwyach ond y Chwibreni saf, Rhydloew, a bagad o dai, ac ychydig o dir yn mhentref Llansannan. Bu iddynt bedwar o blant. Dafydd, yr ieuangaf o honynt, oedd tad y Parch. William Rees. Dygwyd i'r teulu, yn mherson Henry Rees, y taid, ysbryd a nwyd tra gwahanol. Efe a ddygodd grefydd yn ei ffurf a'i phrudd-der Puritanaidd. Gwŷr uchelfrydig, anhyblyg, annibynol, ysgafn-galon, a bydol oedd y Llwydiaid. Yn mherson Dafydd Rees, ceir golwg ar ddynoliaeth yn ei neillduolion gwrthgyferbyniol. Yr oedd ei natur ef yn llawn prudd-der, wedi ei dwyseiddio gan lwrfdra poenus. Carai yr encilion. Mudai ei feddwl a'i ysbryd tra chrefyddol i fröydd pell myfyrdod a distawrwydd. Teimlai ac edrychai, ar amserau, fel dyn ar dori ei galon. Byddai ei acenion yn hir, a'r seiniau yn drist, fel telyn y gauaf. Cafodd Calviniaeth dir brâs, dwfn, a thra ffrwythlawn yn ei natur. Ac yn ddiddadl, ni bu gan Fethodistiaeth yn Llansannan ŵr o'i gynneddfau a'i ffydd yn yr oes hono, gan nad beth a fu yno wedi hyny. Yn ystof ac anwe naturiaeth gwrthddrych y sylwadau hyn, i bawb a'i hadwaenent ef yn dda, gorchwyl lled rwydd fuasai dodi bŷs ar neillduolion tra amlwg a dderbyniasai efe fel oynnysgaeth oddi wrth y Llwydiaid a'r Rhysiaid.

II. *Yr Amaethwr gwledig.*—5. Dyddiad genedigaeth William Rees ydyw yr 8fed o Dachwedd, 1802. Yr oedd gan ei rïeni bedwar mab, ac un ferch. Henry oedd yr hynaf—gŵr a ddaeth wedi hyny yn adnabyddus drwy holl gyrion Cymru fel 'y Parchedig Henry Rees.' Ail fab oedd William. Oes y gweithio â'r dwylaw yn egnïol i blant amaethwyr Cymru oedd yr oes hono. Tybid fod ysgola yn anghyfaddasu bechgyn i lafurio ac amaethu. Yr athrawiaeth hon a lywodraethai feddwl penteulu y Chwibren, fel pob man arall. Er hyny, anfonwyd William am ychydig fisoedd yn y gauaf i ysgol lwyd yn y fro; a chafodd yn y ffordd hono gyfle i ddysgu darllen Saesneg, ysgrifenu, a rhifo. Ystyrid ei fod ar ben ei ddigon. Yn mlynyddoedd ei blentyndod ef yr anafwyd ei wyneb gan y frech wen; a'r afiechyd hwnw a ddygodd ei lygad oddi arno. Adroddir amryw chwedlau am dano ef, a'i frawd, yn y blynyddoedd tirf hyny, sydd fel yn taflu eu cysgod o'u blaen. Dywedir fod y ddau yn arfer edrych yn sŷn a distaw. Yr olwg ddyeithr hono a barodd i ryw gardotferch haeru eu bod yn 'wirion.' Ond dan y gorchudd hwnw yr oedd calon lân, a thra serchog. Fe wasanaetha yr hanesyn am berthynas y plant â'r wasanaethferch i ddangos hyny. Treuliodd hi flynyddoedd yn ngwasanaeth teulu y Chwibren. Dysgodd y bechgyn ymserchu ynddi megys pe buasai hi yn un o'r teulu. Yn nghwrs amser, daeth awydd ymadael ar yr eneth. Nid oedd na dymuniad, na dagrau y plant, na chynnydd yn y gyflog, yn tycio er cael ganddi aros. Hyny a fu. Ar ddydd pentymmor y mae Henry a William, eu chwaer, a'r ddau frawd ieuangaf, yn myned i ddanfon y forwyn hyd borth y cae pellaf. Bu yno odfa wlithog iawn. Mawr oedd yr hiraeth, ac aml y dagrau wrth feddwl na cheid mwyach ei gwasanaeth a'i chwmni. Tra yn dychwelyd adref wrthynt eu hunain, gan ymddiddan yn drallodus iawn am yr hyn a ddigwyddasai, awgrymodd un o'r ddau frawd y buddioldeb o

Digitized by Google

gynnal cyfarfod gweddi mewn cŵr dirgel o'r maes, er ceisio gan y Nefoedd arwain meddwl y forwyn i gyflawni rhyw ddrwg digon mawr yn ngolwg ei meistres newydd fel na fynai ei chadw; ac ar yr un pryd, drwg digon diniwed yn ngolwg eu mam fel y gallai hi groesawu yr eneth yn ei hol.

6. Deffrowyd tueddfryd William at ddarllen yn gynnar. Yr oedd ei dad yn ddarllenwr dyfal hefyd. Casglodd dwysged dda o lyfrau buddiol at eu gilydd, megys *Geiriadur Charles*, *Amseryddiaeth Ysgrythyrol Simon Llwyd*, *Y Merthyrdraeth*, *Daearyddiaeth Robert Roberts*, *Taith y Pererin*, *Barddoniaeth Pant-y-celyn*, a'u cyffelyb. A ffaith arwyddocäol ydyw darfod i lyfrau Robert Roberts wneyd cryn 'seryddwr' o William. Rywbryd yn y blynyddoedd hyny, daeth i sylweddoli, gan nad pa mor bell o'r byd oedd Llansannan, fod iddi hithau hanes ac enwogrwydd o'r eiddi ei hun. Yn Tai'n-y-foel y trigai bardd graddedig yn Eisteddfod Caerwys yn nyddiau El'sbeth Frenhines. Yr oedd William Berchinshaw yn uchelwr o nôd. O'r bron gyferbyn, yr ar ochr arall i'r nant, ceir Garthgeri—hen gartref Tudur Aled. Gŵr o gyffelyb gynneddfau oedd Gruffydd Hiraethog, a dysgybl i Tudur—brodor o'r un plwyf. Felly hefyd Siôn Tudur—bardd arall nad oedd ei well drwy Wynedd am saernïo cywydd. Ae yn ben ar yr oll, onid ger llaw yr oedd Cae du, cartref William Salsbri—cyfieithydd cyntaf y Testament Newydd? Nis gallasai ysbryd ffeithiau fel hyn lai na nawsio i mewn i natur llange darllengar a bywiog ei grebwyll fel efe. Ond hyd yma, prophwydi a chroniclwyr hanes crefydd yr Hebreaid ac Actau Crist a'i apostolion oedd yn ei synu a'i swyno yn benaf o ddim oll. Ar yr un pryd, ar ysbeidiau gŵyl, a hirnos, y gallasai efe fwynhau y pethau hyn. Gŵr mynydd a maes oedd efe. Cyflawni rhan y llafurwr a'r clodddiwr, yr aradrwr a'r hauwr, y medelwr a'r dyrnwr oedd ei waith. Ond ei swydd gyntaf a phenaf, hwyrach, fu bugeilio. Mynych ddringai lechweddau mynydd Hiraethog a'r Foel Bengam. Yn wir, hwynthwy oeddynt ei feddygon:—

'Pan y byddai blinder llwythog,
 Neu ryw nychdod dan y fron,
Awel iachus hen Hiraethog
 A adferai iechyd llon;
Llawer hafddydd ar dy fryniau
 Dreuliais yn dy gwmni gynt,
Lle ni safai ein gofidiau
 Mwy na'r ûs o flaen y gwynt.'

Efe a luniodd ddrych swynhudol o fywyd y dyddiau hafaidd hyny yn ei gân, 'Adgofion Mebyd ac Ieuengetid;' ac ni a anturiwn roddi y dyfyniadau hyn o honi:—

'Awn i rodio hyfryd fryniau
 Hen gynnefin praidd fy nhad,
Lle bu *Tango*, 'r ci, a minnau,
 'R ddau ddedwyddaf yn y wlad:
Mi ni wyddwn, mwy na *Thango*,
 Am ofidiau bywyd gau,
Oni bae 'r ddafad ungorn hono,
 Buasem berffaith ddedwydd ddau.'

Onid oes arogl hyfryd bywyd yr amaethydd a'r bugail ieuangc ar yr adgofion hyn?

'Y mae crybwyll *Tango*'n peri
 I mi gofio llawer ci
Enwog arall allwn enwi
 Yn eu hoes adwaenwn i:
*Cwrt* y Wern, a *Mot* yr Acrau,
 *Bute*—hynafgi Siôn y gô';
*Hedger* fawr y Priddbwll, yntau
 Heliwr cadarn ydoedd o.

*Keeper*, Chwibren isaf hefyd,
 Ci cyfrwys-ddrwg, mawr ei ddawn;
Dygodd hwnw yn ei fywyd
 Gig a bara, lawer iawn:
Hefyd, *Toss*, cydymaith *Tango*,
 Ein defeidgi ffyddlawn ni—
Credu 'r wyf na bu yn rhodio
 Daear ddiniweitiach ci.'



7. Bob yn dipyn, fe gafodd William, yn hen langc cadarngryf a garw y Gilfach Lwyd, gyfaill newydd, ynghyd âg athraw. Ei enw oedd Robert ap Dafydd. Yr oedd Robert yn brydydd, ac yn aelod o Gymdeithas Gymreigyddol Dinbych. Er syndod i'r llange, mynai ei gymmydog brydydd wneyd bardd o hono; ac i ddyfalwch y gŵr hwnw y perthyn yr anrhydedd o ddeffroi ei awen. Graddol fu ei dŵf am ennyd dda. Ond wedi cael blâs ar wneuthur pennill ac englyn prifiai y duedd, ac elai yntau bob hwyrnos i geisio barn a chynghor yr athraw. Yn 1826, cynnaliwyd eisteddfod yn Aberhonddu. Yn mysg amryfal destynau, yr oedd gwobr wech am ganu 'Cywydd Buddugoliaeth Trafalgar, a Marwolaeth y Penllywydd Nelson.' Ar daer gymmhellion yr athraw, gollyngodd William ei gywydd cyntaf oddi ar fŵa ei awen, yr hwn a ddisgynodd ar fwrdd beirniaid y gystadleuaeth. Ar ddydd yr ŵyl, cyhoeddwyd mai y cywydd a arwyddasid â'r ffugenw 'Hiraethog' oedd y goreu. Eithr nid oedd efe yno. Ond yn dra ffodus, digwyddodd mai cymmydog iddo—Dr. William Owen Pughe—oedd un o'r beirniaid. Yr oedd cymmydog arall, Bardd Nantglyn, yn yr eisteddfod; eithr nid oedd yr un o honynt yn adnabod nac yn gwybod dim oll am 'William Rees, Llansannan.' Ar ddychweliad y Dr., dymunwyd ar y llange i fyned i Dan-y-gyrt— tua phedair milldir o ffordd—i dderbyn y wobr. Er gwaethaf llawer o wylder poenus, efe a aeth. Y prydnawn hwnw y gwelodd efe ei feirniad, ac y cafodd y cyfle i ymgyfarchwel â Bardd Nantglyn, y tro cyntaf. Nid oes a ammheua bellach nad ellir bardd o hono. Cafodd wobr eisteddfod a ffugenw yr un dydd. Nid ydym yn gwybod am ddim a rydd gip ar naws ysbryd ac ystâd meddwl yr amaethydd gwledig yn well na'r syniadau a geir yn y cywydd buddugol. Awen ac ysbryd y Llwydiaid beiddgar sydd yn y gerdd orchest. Nid oes dim o naws y Rhysiaid yn agos ati.

Yr oedd Hiraethog, y pryd hwnw, yn wladgarwr cryf, ac yn rhyfelwr aiddgar. Darllenodd am erchylldërau y Chwyldröad yn Ffraingc; ac yr oedd yn ei natur ddigon o gâs at Napoleon i foddloni unrhyw Brydeiniwr. Buasem yn caru rhoddi dyfyniadau o'r anerchiad a rydd yn ngenau Nelson 'wrth ei wŷr, i'w nerthu i waith;' ond nis goddef ein terfynau. Heb law hyny, nid adolygu ei weithiau ydyw ein hamcan.

8. Yn fuan wedi yr ymgyfarchwel â Robert Dafis, dygodd yr hynafgwr hwnw ei lyfr *Diliau Barddas* drwy y wasg. Ei orchwyl wedi hyny oedd myned â'r gyfrol i bawb roddodd ei enw am dani. Adwaenai Bardd Nantglyn holl feirdd Cymru, tra nad oedd gan Hiraethog adnabyddiaeth o neb o honynt, oddi eithr Caledfryn. Dadleuai yr hen fardd fod hyny yn golled anfesurol; am hyny, efe a drefnodd i

Digitized by Google

gymmeryd y llangc gwyl o'r Cae du gydag ef drwy ranau o Ddinbych, Callestr, ac Arfon. Yn ystod y clera hwnw, cyflwynwyd Hiraethog i Angharad Llwyd, y Dryw, Gutyn Peris, Gwilym Callestr, Tomos Gwynedd, a llawer eraill o deulu'r awen. Yr oedd William yn ŵr diniwed iawn ar y pryd. Ni thybiodd, chwaith, fod yr hen gymmydog yn ei arwain ar hyd ceulan diphwys y beirdd, a thros bont yr asynod. Ond er perygled y daith, ac er amledd y temtasiynau, dychwelodd yn ddigwymp a dïanaf. Am ei fod yn Buritan cryf o naturiaeth, nid oedd ei berygl ef yn nghyfeiriad yr oferddyn. Bu y daith yn fwy o ennill na cholled iddo. Yr oedd bro yr Aled mor neillduedig a phell oddi wrth brif-ffyrdd bywyd cymdeithasol fel y daeth i deimlo ddarfod i Robert Datis ei gymmeryd megys hyd orddrws y byd. Agorwyd ei glustiau, ac ëangwyd ei olygon. Ond prif ddeisyfiad ei galon oedd cael gweled a chlywed y Parch. William Williams, o'r Wern.

III. *Yr 'Uchel-bethau,' a'u gwaith.*—9. Yn mhen ychydig fisoedd wedi dychwelyd o'r daith farddol, clybu fod Cymmanfa Flynyddol yr Annibynwyr i gael ei chynnal yn Ninbych. Yr oedd hono i fod o ddeutu canol Medi, 1827. O dro i dro, efe a glywodd yn ei wlad, ac yn mhlith ei bobl ei hun, am ddoniau mawrion, disglaer, Mr. Williams o'r Wern. Ennynwyd ynddo awydd angerddol am ei weled, a chael ei wrandaw. Wedi ymholi, cafodd ar ddeall fod tebygolrwydd y byddai efe yn y gymmanfa hon. Nid gwahoddedigion oedd gweinidogion cymmanfaoedd y dyddiau hyny. Dyna'r pa ham yr ydym yn defnyddio y gair 'tebygolrwydd.' Dydd olaf yr ŵyl oedd prif ddydd y pregethu. Cododd yn blygeiniol y dydd hwnw er cyflawni ei orchwylion, ac ymaith âg ef yno ar ei draed. Yr oedd yr hin yn deg, a'r ffordd yn faith; er hyny yr oedd yno yn dra phrydlawn. I weled a chlywed un yn benaf yr aethai efe yno. Dyfalai a oedd modd ei adnabod allan o'r tri a bregethent yn odfa y boreu, heb ymholi â'r rhai a'i hadwaenent. Penderfynodd nad ymofynai âg un gŵr. Yr oedd y tri yn ddyeithriaid iddo. Ai Williams oedd y cyntaf? Ai ynte yr ail, sydd ar fin terfynu? Caiff un o'i fywgraphwyr adrodd yr hanes:—

'Ar hyn, y mae y trydydd yn codi, ac yn rhoddi allan i'w ganu—

> 'O estyn etto i barhau
> Dy drugareddau tirion;
> Ni a'th adwaenom di, a'th ddawn,
> I'r rhai sydd uniawn galon.'

Teimlwyd ar unwaith fod rhyw ddylanwadau dyeithr wedi cymmeryd meddiant trwyadl o'r lle. Cliriodd yr awyr drwyddi. Dadebrodd ysbryd y gynnulleidfa. Ei golwg oedd debyg i gregyn y traeth ar ddynesiad y llanw. Darllenodd ei destyn yn hyglyw:—'Chwi a fwriadasoch ddrwg i'm herbyn; ond Duw a'i bwriadodd i ddaioni, i ddwyn i ben, fel y gwelir heddyw, i gadw yn fyw bobl lawer.' Cyn pen ychydig funydau, yr oedd effeithiau llef ddistaw fain yn rhyddhau y mynyddoedd heb yn wybod iddynt, a sŵn yr awel yn chwareu yn mrig y morwydd i'w glywed oddi draw. Dyferai y myrr ar hesbenau y clô, fel y teimlodd Hiraethog, i bob sicrwydd deall, fod 'y Seraph o'r Wern' yn sefyll o'i flaen, ac nad oedd arno angen am un dystiolaeth yn amgen oddi wrth neb. Llyngcwyd ei feddwl gymmaint gan ardderchawgrwydd doniau goludog Mr. Williams, fel nad esgeulusai un cyfleusdra er myned i wrandaw arno. Clybu ar ddamwain ei fod yn pregethu yn Ninbych yn fuan ar ol hyny; ac aeth ar ei draed o Lansannan i'r odfa. Yn wir, y fath oedd y gyfaredd a'i meddiannasai fel yr aeth ddeunaw milldir ar ei draed, yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, er cael yr hyfrydwch di-ddarfod o'i glywed.'

10. Hyd yma nid oedd Mr. Williams yn hysbys fod ganddo y fath edmygydd eithriadol yn ei ddilyn. Nid oedd William Rees, o'r tu arall, yn hysbys o'r ffaith mai Mr. Williams ac yntau oedd i fod ar fyr dro yn 'Dafydd a Jonathan' cenedl y Cymry. Ar yr adeg hono, yr oedd y byd crefyddol Cymraeg i fesur yn gyffrous. Yr oedd ysbryd rhyddid yn yr awyr. Disgynasai i galon ac ar wefus rhai o gedyrn y pulpud Annibynol a Methodistaidd. Nis gallasai Mr. Rees lai na rhoddi iddo gartref a chroesaw. Eithr nid yr ysbryd hwnw yn unig oedd yn y wlad a'r eglwysi. Aeth llawer o arweinwyr a phobl y Methodistiaid yn uchel-Galvinaidd; ac nid oedd ond ychydig o hydwythedd yn eu hysbryd, nac yn eu hegwyddorion. Cerid dysgyblaeth eglwysig allan i eithafion gormodol yn fynych. Yr oedd yr achos Methodistaidd yn Llansannan yn meddu ar wŷr o farn ac anianawd felly. Ar un amgylchiad, ceryddasant ŵr o'r enw Joseph Davies am deithio o Gerygy-druidion ar y Sabbath i Lansannan o herwydd afiechyd difrifol ei wraig, er ei fod wedi methu cyrhaedd nos Sadwrn. Parodd hyny i amryw gyfeillion ymddidol oddi wrth y Methodistaid. Yn y cyfamser, aethant at y Parch. D. Roberts, gweinidog y Cynnulleidfaolwyr yn Ninbych. Wedi iddo yntau gael ei foddloni, drwy ymchwiliadau pwyllog, fod eu cymmeriadau yn ddichlynaidd, ac mai pwngc o farn a barasai iddynt ymddëol oddi wrth eu gilydd, efe a'u corpholodd yn eglwys Gynnulleidfaol. Cymmerodd hyny le yn mis Tachwedd, 1827. Yn mhlith enwau eraill a gofnodwyd yn llyfr yr eglwys yn Ionawr, 1828, ceir enw 'William Rees.'

Erbyn hyn, nis gall dau feddwl fod ynghylch afresymoldeb y fath ymddygiad. Tybiai arweinwyr eglwys y Methodistiaid, yn ddiau, eu bod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw; ac felly yr oeddynt, er nad yn ol eu dull hwy o feddwl. Yr ymddygiadau hyn y cyfeiriwyd atynt fu â llaw uniongyrchol a gweledig yn symmudiad Mr. Rees oddi wrth y Trefnyddion Calvinaidd at yr Annibynwyr Calvinaidd. Ar yr un pryd, nis gallwn lai na chredu hefyd fod a fyno yr atdyniad a'r dylanwad cyfrin hwnw a feddai Mr. Williams o'r Wern arno â'i waith yn gadael enwad ei dadau. Dichon nad oedd efe yn ymwybodol o weithrediadau deniadol y cyfryw ar ei feddwl. Ar yr un pryd, nid ydym yn petruso priodoli i'r nerth hwnw gyfran arbenig yn y symmudiad.

IV. *Y Prophwyd, a'r Gweinidog.*—11. 'Yr hyn yr wyf yn ei wneuthur yr awr hon nis gwyddoch chwi, eithr chwi a gewch wybod ar ol hyn.' Ar brydiau, y mae gyrfa achos ac effaith yn gyfrin ac anhawdd eu dilyn. Bryd arall, dilynant eu gilydd mor eglur a gweithrediadau peiriant. A oedd yn rhaid, wrth groesi y mynydd y boreu Sabbath hwnw, a'r dysgyblu a'i dilynodd, er gwneyd prophwyd a gweinidog i Gymru o William Rees? Ymarhous a chyndyn iawn oedd efe pan y clybu lais yn ei wahodd i bregethu. Onid oedd er's rhai blynyddau bellach o dan bwys y byd, a gofynion ei deulu yn lliosogi beunydd? Er hyny, gwaith cyntaf y ddeadell fechan Annibynol fu

gwneyd pregethwr o hono. Onid oedd ysbryd pregethu yn llosgi yn ei esgyrn er yn hogyn? Ac onid oedd Henry, ei frawd, er's hir amser bellach yn tynu cynnulleidfaoedd ar ei ol? Nid oedd raid iddo yntau, megys eraill, i dreulio blynyddoedd o brentisiaeth gyda'r gorchwyl. Cynted ag y cafodd efe bulpud i sefyll ynddo, ac ymwybyddiaeth sicr yn ei feddwl ei fod wedi ei alw, ymaflodd yn ei waith fel cawr. Aeth y sôn am dano yn ddiymaros drwy holl eglwysi yr Annibynwyr. Gelwid ef yn 'William Rees, Llansannan, brawd Henry Rees, pregethwr y Methodistiaid.' Nid oedd dim yn ddeniadol o amgylch ei berson ar y pryd. Yr oedd efe yn dàl, teneu, a thra esgyrniog. Hagrasai y frech wen ei wyneb yn ddirfawr. Tlawd, a thra gwledig, oedd ei wisg. Crybwyllir am dystiolaeth un Owen Llwyd, o Ddolyddelen, yn ei gylch y pryd hwnw. Pregethai yn Nolyddelen ar foreu Llun gwlawog, wrth ddychwelyd o Ffestiniog. Un o wŷr craff y gynnulleidfa oedd Owen Llwyd. Yr oedd cymmydog, o'r enw Robart Dafydd, wedi sylwi fod Llwyd ar ei draed, ac wedi ei lyngcu gan y pregethwr. Ar y ffordd adref, gofynai Rhobart Dafydd, 'Sut yr oeddech chwi yn hoffi y pregethwr heddyw!' 'Wel, mi ddeudaf i ti beth. Dyna y dyn hagraf a welais i erioed yn esgyn i bulpud, a'r tlysaf a welais i yn disgyn o hono.' Buan iawn y cododd ei athrylith ef i lwyfan y gymmanfa. Bu yn odiaeth o ddiwyd yn gwasanaethu yr holl eglwysi yn siroedd Dinbych a Fflint. Anturiodd yr eglwys fechan yn Mostyn anfon iddo alwad, gyda'r swm o saith swllt yn yr wythnos o gyflog! Aeth yn galed arno. Pa beth oedd i'w wneyd? Yr oedd pump o honynt—gwraig, tri o blant, ac yntau; ac un-geiniog-ar-bymtheg a thair ffyrling at eu cadw â bwyd a dillad! Ofnai bechu trwy wrthod—ac ofnai ryfygu trwy fyned. Nid oedd ymwared yn dyfod o unman. O'r diwedd, clybu rhyw hen wraig yn y gyfeillach yn adrodd yr adnod, 'Treigla dy faich ar yr Arglwydd, ac ymddiried ynddo.' Cydiodd yn yr ymadrodd; coeliodd yn y fan mai cenadwri ato ef oedd ynddi—a thranoeth, ysgrifenodd at y diaconiaid i Fostyn ei fod yn derbyn eu gwahoddiad, ac y deuai atynt i aros yn Mehefin. Nid cynt nag yr aeth i Fostyn, nad oedd galwad arall yn ei gyrhaedd o Heol Greenland, Liverpool, gyda chyflogyn o bum swllt ar hugain yn yr wythnos. Eithr ni fynai efe fyned y pryd hwnw i Liverpool. Wedi ymdaflu ar arffed Rhagluniaeth, penderfynodd roddi prawf teg arni. Ar y 19eg a'r 20fed o Ebrill, 1832, urddwyd ef drwy arddodiad dwylaw. Cymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Meistri Breese, Liverpool; Saunders, Bwcle; Harris, Wyddgrug; Williams o'r Wern; Roberts, Dinbych; Jones, Rhiwabon; Ellis, Llangwm; a 'Mr. Henry Rees, Trefnewydd, a brawd i'r gweinidog ieuangc,' ebe cronielydd yr hanes. Pregethai yr olaf ar ddyledswydd y gweinidog, oddi ar *Ioan* xix. 34, 35. Dymunasai Mr. Rees ar i Williams o'r Wern dynu yn ei gôt ef, os gwelai ei fod yn myned yn faith. Gresyn na buasai lluniedydd yn yr odfa i gymmeryd darlun o'r olygfa. Safai William ar risiau y pulpud, gan hanner wynebu ei frawd, tra yr oedd efe yn traddodi y siars. Odfa nad anghofiwyd gan genhedlaeth y rhai a'i gwrandawsant oedd hono. Nyddai llinynau gwyneb Hiraethog yn ddibaid, gan dystio fod cyffro mawr oddi mewn. Yr oedd nerth a difrifwch Henry yn angerddol! Rywbryd, aeth i sôn yn y llais llarieiddiaf am yr hen gartref. 'Cofia Dduw dy dad, fy mrawd! Cofia yr hen aelwyd, a'r gweddïau ysbrydoledig a offrymwyd yno drosot ti a minnau! Boed eu coffa i ti yn fendigedig byth, fy mrawd.' Aeth y cyfarchiad, o herwydd ei ddwysder, yn drech na theimlad William; ac efe a osododd ei ben ar ganllaw y grisiau, gan wylo yn hir. Hawdd credu dywediad y gŵr o'r Wern, 'Ni chymmeraswn y byd a thynu yn ei gôt ef.'

12. Gwnaeth Hiraethog waith mawr arno ei hun, ac ar yr achos yn Mostyn. Cynnyddodd yr eglwys, ail adeiladwyd yr addoldy; ac nid oedd dedwyddach gweinidog o fewn y wlad. Llanwai ei holl swyddau hyd yr ymylon. Ond yr amser i ymadael a ddaeth. Yn haf, 1836, aeth i gyfarfod pregethu yn Pwllheli. Yn yr odfa hwyrol, daeth y Parch. Michael Roberts, Pwllheli, i mewn i'r capel yn frysiog. Yr oedd ar y pryd yn dioddef yn erwin oddi wrth ei anhwyldeb adnabyddus. Aeth yn syth tua'r pulpud, ac yr oedd llygaid pawb arno. Pan yr oedd Mr. Rees yn dyfod i lawr o'r pulpud, cyfarchodd Mr. Roberts ef mewn tôn awdurdodol. 'Yr wyt ti i fyn'd i Ddinbych. Y mae Mr. Roberts, gweinidog Lôn Swan, wedi marw, fel y gwyddost ti; ac fe gais y bobl genyt ti fyn'd yno. Ac y mae Michael, yr Archangel, yn dyweyd wrthyt ti am fyn'd yno!' Ac ymaith â Michael Roberts ar ffrwst. Yn mhen rhai wythnosau, yr alwad o Ddinbych a ddaeth, er nad oedd neb y pryd hwnw yn Ninbych wedi bod yn sôn nac yn meddwl am y peth. Tua yr un adeg, daeth cais hefyd o'r Wern a Rhosllanerchrugog—maes gweinidogaeth ei gyfaill, Williams, yr hwn a symmudasai i Liverpool. Dywed Mr. Rees fod penderfynu rhyngddynt wedi bod yn faich trwm arno; a bod archiad pendant 'Michael, yr Archangel,' wedi bod yn dra chynnorthwyol i benderfynu o du Dinbych. Saith mlynedd o lawnder fu ei hanes yn Ninbych. Ni bu gŵr ëangach na dyfalach ei lafur yn y wlad. Pregethai mewn cyfarfodydd a chymmanfaoedd yn ddibaid. Ysgrifenai lyfrau, a chystadleuai mewn eisteddfodau. Ar y Sabbath cyntaf o Fai, 1843, symmudodd i gymmeryd gofal y Tabernacl yn Great Crosshall street, Liverpool. Yn 1853, rhoddodd ofal yr achos i fyny, gan fwriadu ar y pryd ddychwelyd i Gymru; ond clybu eglwys Salem am ei ymddiswyddiad, ac anfonasant alwad daer iddo yn y fan. Yr oedd yr achos yno wedi edwino llawer; ond bu mynediad Mr. Rees i'r lle yn adnewyddiad uniongyrchol iddo. A bu yn gweinidogaethu i'r eglwys hono am dair blynedd ar hugain. Symmudodd yr eglwys, yn y fl. 1867, i addoldy gorwych Grove street. Ni symmudodd efe mwyach, hyd ei enciliad o'r weinidogaeth. Yn 1876, wedi ei ymddiswyddiad, aeth i drigo at ei ferch i Gaerlleon; ac yno y bu hyd ei farwolaeth. Ni pheidiodd â phregethu i'r holl eglwysi a geisient ei wasanaeth tra yn nhir ei neillduaeth. O ran nerth a gwydneiddiwch ei gyfansoddiad, gallasai fyw flynyddoedd; eithr ei droed a barai iddo loesion lawer; ac o dan effeithiau y rhai hyny, graddol nychodd, ac efe a fu farw! Ar y 3ydd o Dachwedd, 1883, dygwyd ei lwch i gladdfa Smithdown Road, Liverpool.

13. Byddai yn orchwyl hawdd ysgrifenu llawer am dano fel pregethwr. Er hyny, yr oedd ynddo gynnifer o neillduolion eithriadol,

Digitized by Google

mewn llais, acen, goslef, ysgydwad pen a bŷs, fflachiadau tanbaid yr un llygad, grymusder ei grebwyll, dwysder angerddol ei ddifrifwch, a chyfoeth didrai o ìr-naws uchelradd; ac yn ben ar y cyfan, ei gynneddfau portrëadol anghymmharol—fel nas gellir byth obeithio trosglwyddo syniad cyfan-grwn am dano i'r hwn nas gwelodd ef yn y pulpud, ac yn y pulpud â'i hŵyliau yn llawn o awelon nef. Meddai ar gôf o'r fath gryfaf. Nid oedd yn yr holl Ysgrythyrau na ffaith na hanesyn heb fod at ei law. Gwyddai am y llu aneirif o bersonau, fychain a mawrion, sydd ynddo; ac adroddai eu camp, a'u rhemp. Yr oedd yn bregethwr o'r difyraf; ac etto yn odiaeth o urddasol, a thrwyadl yn ei ymdriniaeth â'i faterion. Meddai ar helaethrwydd o hanesion ac eglurynau i oleuo ei bwngc; ond nid elai, odid byth, allan o'r Beibl i'w ceisio. Synai pawb at yr amldra o adnodau newydd a dyeithr a ddefnyddiai efe. Ond coron y cyfan oedd ei allu di-eilfydd i bortrëadu a darlunio digwyddiadau a phersonau. Nid adrodd yr hyn a fu, draw yn yr amseroedd pell, y byddai; eithr eu hadgynnyrchu yn ffeithiau symmudol, cyflawn o bob manylion, ger bron llygaid y gwrandawyr. Pregethai yn faith; er hyny, byr fyddai ei odfaon. Yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth, a thrwy gydol blynyddoedd ei nerth, difrifwch ac angerddolrwydd oedd prif neillduolion ei holl bregethu. Y pryd hwnw, yr oedd efe yn llawn hyd yr ymylon o ysbryd ac iaith y prophwydi Hebrëig, trem gymmylog a dwys y Puritan, ffydd Calvin, ac yni y Celt. Megys holl bregethwyr mawr Cymru, yr oedd ei bregethau yn llawnach o *realism* y prophwyd nag o newyddion da yr efengylydd. Yn ystod chwarter olaf ei oes, newidiodd ei arddull. Mynodd ei natur arabus, hwyliog, a'i awen fywiog a chwareus, ymwthio i'r pulpud. Arswyd, ofn, ac wylofain, a theimlad o ymwared oedd effeithiau penaf ei bregethu ar y gwrandawyr gynt; eithr wedi hyny, efe a chwareuai wrth ei bleser ar bob tant yn eu natur. Llenwid eu genau â chwerthin, a'u tafod â chanu, mor fynych ag y lleithid eu gruddiau â dagrau. Fel pregethwr, yr oedd hanner ei egnïon yn annhrosglwyddadwy ar bapur.

14. Hyd ei fynediad i Liverpool, cyfyngasai Mr. Rees ei alluoedd yn benaf at wasanaeth y pulpud. Tra yno, drwy ëangu maes ei lafur, gwelodd y gallasai gyflawni gwaith prophwyd i'r bobl. Gwyddai, a gwelai fod y Cymry mewn caethiwed dwysach nag eiddo Israel yn Mabilon. Gwelai nad oeddynt yn ddim amgen na chydgasgliad o wŷr a gwragedd; ac ewyllysiai wneyd cenedl fyw gydsymmudol o honynt. I'r pwrpas hwnw, penderfynodd fyned ar draws ysbryd Ceidwadol yr amserau; a throdd allan yn ddarlithiwr ac yn newyddiadurwr. Yn mis Awst, y fl. 1843, ymgymmerodd â golygiaeth yr *Amserau*. Yr oedd tywyllwch gwleidyddol Cymru yn fawr. Planhigyn egwan iawn oedd Rhyddfrydiaeth yn y tir. Ceidwadwyr oedd corph y bobl. Arosai dylanwad hen berthynas a chyfathrach serchog rhwng yr Eglwys Wladol ac enwad y Methodistiaid Calvinaidd. Nid oedd Mr. Rees yn credu mewn undeb eglwys â gwladwriaeth; ac o holl feibion Cymru, nid oedd un o honynt yn fwy o ddiwygiwr gwladol. Yr oedd y cyfnod yn llwythog o elfenau cyffrous. Griddfanai gwledydd Ewrop dan eu beichiau; dylifai gwladgarwyr Rwssia, yr Eidal, Awstria, a gwledydd eraill, i Brydain am noddfa. Nid oedd gan Massini a Garibaldi, gwroniaid mawr yr Eidal, a Kossuth yr Hungariad, edmygydd gwresocach. Ond yr oedd gan Brydain ei beichiau ei hun. Dymunai yntau, drwy gyfrwng yr *Amserau*, a *Baner Cymru* ar ol hyny, a'i ddarlithiau, agor llygaid y bobl i'w gweled, a'u dysgu am y moddion i'w symmud ymaith. Yr oedd efe yn un o olygwyr y FANER am amryw o'i blynyddoedd cyntaf; ac yn ohebydd mynych hyd ddiwedd ei oes. Ond cyn y gallasai gynnorthwyo Cymru yn y cyfeiriad uchod, angenrhaid ydoedd creu chwaeth a chydwybod wleidyddol yn y bobl. 'Llythyrau yr Hen Ffarmwr,' i fesur pell, fu y cyfrwng a wnaeth hyny. Dyrchafu y werin drwy eu haddysgu oedd amcan ei ddarlithiau ar 'Williams, Pant-y-celyn, a'i Farddoniaeth,' 'Ymchwiliadau dyn i weithredoedd Duw,' 'Luther a'r Diwygiad Protestanaidd,' 'Daeareg,' 'Y Pryf yn dysgu dyn,' a 'Chwyldröadau Ewrop.' Y mae i'r *Amserau* ran a lle anrhydeddus fel un o athrawon llwyddianus y Cymry tra yn eu babandod gwleidyddol a dinesig. Ni ddylai Cymru anghofio fod i olygydd yr *Amserau* gydweithwyr glew ac ymroddedig i'r un amcanion yn y Parchn. S.R., Dr. Lewis Edwards, Roger Edwards, Mr. Eleazar Roberts, Ieuan Gwynedd, ac eraill; ond yn amrywiaeth ei wasanaeth, yr oedd Hiraethog yn dalach na'r oll. Yr oedd ei lafur yn enfawr. Defnyddiai y pulpud i un amcan mawr:—goresgyn teyrnas yr Anghrist, a'i hanrheithio, ac adeiladu teyrnas yr Arglwydd Iesu. Ar yr un pryd, er holl ryddfrydedd ei ysbryd, ac ëangder ei syniadau, gwarchodai urddas y pulpud gydag ofn sanctaidd, rhag i ddim ond crefydd yn ei hagwedd ysbrydol sangu ei gynteddau. Cafodd yr anrhydedd o fod yn un o'r *political Dissenters* cyntaf, ac yn athraw i'r 'gydwybod Anghydffurfiol;' etto, ni fynai er dim ddwyn gwaith y llwyfan a'r newyddiadur i'r pulpud. Ar yr un pryd, ni chyfododd yn mysg y Cymry yn y ganrif hon brophwyd eofnach. Er ei holl wylder cynhenid, yn ei gymmeriad cyhoeddus fe feiddiai sefyll yn dalgryf ger bron llywiawdwyr a thywysogion y tir, er dadleu cam y gorthrymedig, a chondemnio rhyfyg y treisgar.

V. *Y Bardd yn ei Awen.*—15. Eisoes gwelsom iddo ennill y wobr am gywydd—cyntafanedig ei awen—yn Eisteddfod Aberhonddu, yn 1826. Wedi bwrw ei brentisiaeth farddol gyda'i gymmydog, Robert ab Dafydd, derbyniodd gyfarwyddiadau pellach gan Caledfryn, yr hwn a breswyliai yn Ninbych. Nis gwyddai efe ar y pryd fod ei awen yn dechreu blaguro yn oes aur y mesurau caeth. Dyfal addysgwyd ef yn yr athrawiaeth chud, nad ellid bardd o hono' heb gystwyo ei awen i ehedeg yn rhwymau pedwar-ar-hugain o gadwyni. Distaw wrthdystiai ei natur yn erbyn y gelfyddyd; etto, gan nad oedd un llwybr arall i deml yr awen Gymreig, aeth rhagddo. Er iddo ganu a chystadlu ar ol Eisteddfod Aberhonddu, ni wnaeth efe ddim neillduol iawn hyd Eisteddfod Madog, yn 1851. Gan mai 'Heddwch' ydoedd testyn awdl y gadair, tueddwyd ef yn gryf iawn i ganu arno. Nid oedd efe heb deimlo peth cywilydd, erbyn hyn, o herwydd ysbryd rhyfelgar cywydd 'Brwydr Trafalgar.' Chwennychai wneyd iawn i ysbryd heddwch ac egwyddorion tangnefedd; am hyny, nid oedd iddo lonyddwch. Canodd —ac ennillodd. Ac o'i holl ganu caeth, dichon mai ei offrwm cyflwyn i Heddwch, am y cam a wnaeth efe â hi yn mlynyddoedd ei anwybod-

Digitized by Google

aeth, ydyw y brydferthaf. Tra yn saernio ei gân faith ar 'Job,' torodd ei natur allan mewn gwrthryfel yn erbyn y mesurau caeth. Edrydd ef ei hun y modd y bu yn y paragraph canlynol:

'Safodd yr 'Awdl ar Job' am lawer o flynyddoedd heb symmud cam yn mlaen; ac i sefyll byth y gadawsid hi, y mae yn bur debyg, ond fel y'm symbylid yn barhaus i'w chwblhau gan fy nghydlafurwr, a'm cyfaill hoff, a'r bardd rhagorol, y Parch. Thomas Pierce, o'r dref hon [Dinbych]. Wedi cyfansoddi uwch law mil o linellau arni yn y mesurau caeth, o'r naill bryd i'r llall, fel y celwn hwyl a hamdden yn hirnos amryw auafau, teimlwn ei bod yn myned yn rhy bell i adael iddi sefyll yn anorphenol; ond wrth edrych o'm blaen, a gweled y tir maith oedd genyf i'w deithio cyn y gallaswn ei pherffeithio, yn ol y cynllun y dygasid hi yn mlaen hyd hyny, hollol ddigalonais allu byth gyrhaeddyd i ben yr yrfa, a rhodio yn hualau y mesurau caethion, gan nad allaswn hebgor ond ambell seibiant yn awr a phryd arall at y gorchwyl. Teimlaswn awydd lawer gwaith at gyfansoddi ar y mydr anghyfawdl (*blank verse*); ond erioed ni wnaethwn ddim hyd yn hyn. Fodd bynag, ar ganol y ganiad hon, penderfynais wneyd y prawf arno, gan benderfynu hefyd, os nad allaswn wneyd dim o honi yn y ffordd hon, a myned yn rhwyddach yn mlaen ar hyd-ddi nag y gallwn yn ffordd gyfyng y gynghanedd gaeth, i wneyd aberth llosg o'r holl gyfansoddiad, fel na buasai i'r olwg arno, fel twr wedi ei hanner adeiladu, fy mlino ond hyny. Wedi unwaith gychwyn o ddifrif, daethum i hoffi y mydr yn fwy-fwy. Yr oedd fy nghyfaill, Mr. Pierce, yn anfoddlawn iawn i'r peth ar y cyntaf; ond ymgymmododd âg ef, i raddau, o dipyn i beth. Fe allai y senir fi yn ddigofus gan rai beirdd a beirniaid Cymreig am y penrhyddid hwn: a throseddu o honof fel hyn yn erbyn bonedd a deddfau awen Cymru, drwy arwain yr estron Saesneg i gymdeithas teulu diledryw Dafydd ab Edmwnd. Odid yr ystyrir fi fel rhyw ail Wrtheyrn, yn ymgyfathrachu â Hengist, ac yn ei arwain i blith tywysogion y gynghanedd. . . . Bid a fo, rhaid i mi addef fy mod wedi syrthio mewn cariad â'r Rhonwen hon—y gerdd ddi-awdl.'

Ac yn y modd hwnw y cwblhawyd y bryddestawdl ar 'Job.'

16. Cyn i'w feirniaid fesur hyd a lled Hiraethog fel bardd priodol, gweddus cymmeryd i ystyriaeth mai efrydydd un Llyfr oedd efe, i fesur pell. Yr oedd ei holl natur wedi ei thrwyadl nawsio gan ysbryd a meddwl yr Ysgrythyrau. Bu ei gymdeithas mor gysson a maith fel yr aeth llafarwedd y Beibl yn arddull ei ysgrifeniadau yntau. Ac heb law hyny, yr oedd yn esampl gampus o'r genhedlaeth olaf o Buritaniaid Cymru. Wrth natur, gŵr gwlad ac encil oedd efe; a pharhaodd felly ar hyd ei oes. Gosododd amgylchoedd gwlad a chrefydd Llansannan argraph annileadwy ar ei feddwl. Ni chafodd ei naturiaeth gynhenid—y naturiaeth fywiog, chwareus, feiddgar, a welir yn ei gynnyrchion o lenyddiaeth ysgafn—ffrwyn ei awen i'w llaw. Pe wedi cael addysg uchelradd, a mantais y diwylliant sydd yn tarddu o weled a theithio gwledydd y byd, a'r hamdden sydd yn dilyn cyfoeth, ond odid fawr na buasai cynnyrchion ei awen yn dra gwahanol i'r peth ydynt. Gwelsom nad o duedd a serch y canodd yn y mesurau caeth. Yn ol ei gyffes ef ei hun, hualau annifyr a fuont iddo ar y goreu. Ac etto, y mae ei rodiad yn awdl 'Heddwch' yn ysgafndroed ac urddasol.

17. Ond gadawer i ni edrych arno yn cerdded yn y mesurau rhyddion. Yr oedd ei serch at Mr. Williams, o'r Wern, yn angerddol, a'i hiraeth am dano yn dra dwys a dwfn. Buasai yn dda genym roddi dyfyniadau helaeth o'r Farwnad ragorol hon er dangos ei awen yn ei galarwisg; ond rhaid ymattal. Ni a roddwn, er hyny, ddau ddyfyniad o honi—y cyntaf yn dangos pa fath un oedd y seraph o'r Wern yn y pulpud:—

'Pan agorodd ei alluoedd
  Ac y lledodd hwyliau 'i ddawn?'

Edrydd yr awen fel hyn:—

'O! 'r fath olwg fyddai arno,
  Pan uwch ben y dyrfa fawr—
Delw 'i enaid yn disgleirio,
  Yn ei wedd, ac ar ei wawr;
Myrdd o glustiau wedi 'u hoelio
  Wrth ei enau 'n ddigon tŷn,
A phob llygad syllai arno,
  Pawb yn ddistaw ac yn syn.

Yntau 'n tywallt allan ffrydiau
  O'r hyawdledd pura 'i flâs,
Agor ger eu bron wythienau
  Hen drysorau dwyfol ras;
Arg'oeddiadau 'r nef yn cerdded,
  Cydwybodau deimlent loes—
Ni chai 'r euog un ymwared
  Nes y deuai at y groes.
. . . .

Byddai 'r galon ddynol, hithau,
  Megys telyn yn ei law;
Chwareu 'i tysedd ar ei thannau
  Wnai, a'i holrhain drwyddi draw;
Fel y gwlith disgynai 'i eiriau—
  Mor effeithiol oedd ei ddawn,
Nes bai 'r dyrfa 'n gwlawio dagrau
  Dan ei weinidogaeth lawn.'

Ceir cyffyrddiadau tyner iawn yn y darlun o'r breuddwyd am Williams. Wedi hir chwilio am dano yn mhob man, a methu ei gael, nid oedd dim ond myned i'r gwely gyda phigyn hiraeth dan y fron. Cyn bo hir, daeth cwsg â breuddwyd yn mlaen; ac yn fuan—

'Gwelwn Williams draw yn dyfod
  Tuag ataf yn ei flaen—
. . . .
Gwenai ef, a gwenwn innau,
  At ein gilydd wrth neshau;
Estynwn i, estynai yntau
  Ddwylaw i ymgofleidio 'n dau;
Pan yn agor fy ngwefusau
  I'w gyfarch ef â llawen floedd,
Cwsg ddattodai 'n rhydd ei g'lymau,
  Och! y siom!—can's breuddwyd oedd!'

18. Yr *Emmanuel* yw prif waith Hiraethog. Tra yr oedd efe yn byw yn Liverpool, daeth arno ysbryd llunio cân crefydd. Ymddengys mai cân Milton—'Colli ac Adennill Paradwys'—a fagodd ynddo y duedd hono. Galwodd hi yn 'Emmanuel: neu, Ganolbwngc Gweithredoedd a Llywodraeth Duw.' Gwelir fod y testyn y mawredicaf y gallesid canu arno. Daeth ei hun i ammheu ai doeth y gwnaeth efe yn 'ymaflyd yn mhrydnawn fy einioes ar dasg na buasai pymtheg neu ugain o flynyddoedd goreu oes dyn o'r galluoedd uchaf, a'r rhai hyny i gael eu cyssegru yn llwyr a hollol ganddo at y gwaith, yn ormod o amser i'w chyflawni yn ddeheuig. Ni chefais i gymmaint ag un dydd cyfan gyda'r gorchwyl hwn na byddai rhyw alwedigaeth yn fy nhynu ato.' Wedi blynyddoedd o lafur, cyhoeddwyd y gwaith mewn dwy gyfrol brydferth gan Mr. Gee, yn cynnwys 759 o dudalenau. Yn y cyfansoddiad hwnw y ceir y tywysenau brasaf a dyfodd yn ei faes. Nid yw y gân yn gyfartal drwyddi. Angenrhaid ydoedd seilio y cyfansoddiad ar y Datguddiad dwyfol. Ac i

Digitized by Google

bawb a wyddai am barch anfesurol y bardd, hyd yn oed i lythyren yr Ysgrythyr Lân, eglur yw nas gallasai efe ganiatau iddo ei hun yr annibyniaeth hwnw gyda'r defnyddiau sydd yn hanfodol i'r awen, os bydd yn awyddus am wisgo ei gwaith â gradd helaeth o groywder a newydd-deb. Yn ei awdlau ar 'Heddwch,' a 'Job,' daw amryw faterion sydd yn *Emmanuel* dan sylw. Un o brif gymmeriadau y brydddest-awdl a'r arwrgerdd yw Satan. Meddai y cymmeriad beiddgar hwnw swyn difesur i'r bardd. Dychwelai ato drachefn a thrachefn, yn mhob ffurf o gyfansoddiad. Naturiol, gan hyny, oedd i'r croywder ddifianu. Achwynir fod celfyddyd Hiraethog yn dra syml, a phrin o ddyfais. Diau pe buasai wedi canu ar nifer liosocach o fesurau celfydd, yr ymddangosasai ei awen i amgenach mantais. Ond gallesid dwyn cŵyn cyffelyb yn erbyn Homer. Rhaid aros cryn lawer yn nghymdeithas awen y prif-fardd hwnw cyn y daw ei ragoriaethau i'r golwg. Y mae ei iaith yn syml, ei gymmhariaethau yn dra naturiol, a'i gynllun mor esmwyth fel nad yw y meddwl yn cael ei synu nes peri iddo sefyll gan ddim oll. Gorfu i ambell deithiwr esgyn y Wyddfa hanner dwsin o weithiau cyn gweled esgyniad a machludiad yr haul yn ei ogoniant anghymmharol. Ni ddaw nerth a phrydferthwch gorchestion penaf awen o drwsiad arbenig i'r golwg, chwaith, heb ddringo ei llechweddau hithau drachefn a thrachefn. Nôd barddoniaeth uchelryw ydyw dyrchafu, coethi, a boddhau y darllenydd trwy gyfrwng drychfeddyliau glân a grymus. Daw yr *Emmanuel* i fyny â holl neillduolion yr awen Buritanaidd yn ei hamcanion aruchelaf. Yn ei 'Efrydiau yn Emmanuel,' a ysgrifenwyd gan y Parch. D. Adams (*Hawen*), dywedir:—

'Yr oedd Milton yn ysgolhaig clasurol, a'r llenor mwyaf diwylliedig yn Mhrydain yn ystod ei oes; ac yr oedd ysbryd llenyddiaeth glasurol a phrydferthwch *severe*, a choeth ei ffurf, wedi dyfod yn rhan o hono. Gwyddai ef, ys dywed Matthew Arnold, y goreu oedd wedi cael ei feddwl a'i ysgrifenu gan brif feddylwyr y byd. Yn hyn, nis gellir cymmharu Hiraethog âg ef, o angenrheidrwydd. Ond yn nerth ei argyhoeddiadau; yn ei gariad dwfn at ryddid gwladol a chrefyddol; yn ei atgasrwydd chwerw o ormes a thrais mewn gwlad neu eglwys; a'i gydymdeimlad â phersonau a chenhedloedd gorthrymedig, ac yn nghrefyddolder ei ysbryd, teilynga Hiraethog gael ei gymmharu âg awdwr *Coll Gwynfa*. Mewn arabedd a *humour* chwareus, mewn prudd-dynerwch (*pathos*), yn ei syniad am urddas Person Iesu o Nazareth, pwysigrwydd yr Ymgnawdoliad yn llywodraeth foesol Duw, a dylanwad Angeu y Groes ar fodau moesol creadigaeth Duw, y mae Hiraethog yn annhraethol ragori ar Milton.'—*Transactions of the Liverpool Welsh National Society* (*td.* 108).

19. Wrth grynhoi i fyny ei ymchwiliadau i deithi yr arwrgerdd, yn ei draethawd godidog ar 'Farddoniaeth Arwrol' yn y *Beirniad*, cyf. xv. a xvi., ysgrifenodd y diweddar Ioan Pedr fel y canlyn:—

'Wrth derfynu, dymunem, yn y modd cywiraf, alw sylw yn adnewyddol at yr arwrgerdd hon. Y mae yn llawn o bob rhagoriaethau perthynol i'r cyfryw gyfansoddiad. Wrth gwrs, nid oes neb yn ei bwyll a dybia ein bod yn dal nad oes ynddi unrhyw fai na diffyg. Fel holl waith dyn, ac fel prif arwrgerddi y byd, mae hi yn llawn o arwyddion dyndod ffaeledig. Ond yr hyn a hònwn yw, ei bod yn gydgyfarfyddiad ardderchog o holl gynneddfau barddoniaeth aruchel. Cawn ynddi y mawreddog a'r llednais, y difrifol a'r chwareus, y tawel a'r cynhyrfus, y cyfarwydd a'r dyeithr, y prydferth a'r ofnadwy. Nid ydym i ofyn mewn barddoniaeth am lawer o wybodaeth wyddorol; ond y mae rhai beirniaid yn dal fod addysg foesol, fel amcan y cyfan, i fod fel edef aur drwy yr holl gyfansoddiad. Ceir hyny, hefyd, yma, ac o'r radd uchaf; ie, y mae y wybodaeth wyddorol a ennilla y darllenydd wrth efrydu y gân yn werth ei chofio; a gall greu mewn ieuengctyd chwaeth a thuedd at y cyfryw efrydiau. Y mae y gwaith hwn yn eithaf llafur oes gyffredin.'

20. Os mai Robert ab Dafydd, yr amaethwr o'r Gilfach Lwyd, fu athraw barddonol Hiraethog yn y mesurau caeth, tueddir ni i gredu mai y Parch. William Williams, Pant-y-celyn, fu ei athraw mewn emynyddiaeth. Yr oedd yn y Chwibren amryw o lyfrau y Peraidd Ganiedydd; a phan yn fachgen, darllenai yr 'Aleliwia,' 'Golwg ar Deyrnas Crist,' a 'Theomemphus,' gyda pheraidd hyfrydwch. O'r gymdeithas foreu hono â Phant-y-celyn y tyfodd ei edmygedd o fardd y Diwygiad Methodistaidd. Daeth wedi hyny i ddarlithio arno, ac i ysgrifenu yn helaeth am dano ef, a'i farddoniaeth. Genir pob bardd ar arffed barddoniaeth rydd. Nid oedd Hiraethog yn eithriad i'r rheol hon. Canu rhydd oedd ei ganu cyntaf yntau; a chan fod mesur helaethach o natur ynddo nag yn y rhan amlaf o feibion awen, bardd natur oedd efe o'r dechreuad; ac er pob gwrteithiad a chaboliad, bardd natur a fu efe ar hyd ei oes. Naturiol iawn oedd i'w serch angerddol at bob ffurf ar ryddid, a'i gâs at bob gwedd ar gaethiwed, ei arwain i ymhyfrydu yn symledd celfyddyd a rhyddid melus yr emyn. Nid ydym yn gwybod pa bryd y dechreuodd efe gyfansoddi emynau. Cyfansoddodd ei alar-gân ar ol ei gyfaill hoff, Mr. William Williams, o'r Wern, yn fuan wedi marwolaeth y gŵr enwog hwnw, yn y flwyddyn 1840; ac ar fesur pennill y mae hono ar ei hyd. Ceir hefyd nifer o bennillion campus yn ei 'Job.' Yn ei *Weithiau Barddonol* efe a ddododd fagad lliosog o'i bennillion goreu yn adran y caneuon; eithr ymddengys i ni mai yn amryfus y gwnaed hyny. Dylasid eu dodi yn adran yr emynau. Tueddir ni i gredu fod Hiraethog, ar y cyfan, wedi esgyn tiriogaeth uwch fel emynydd nag odid mewn unrhyw gangen arall o farddoniaeth. Nid yw yn ail i Bant-y-celyn yn nheithi emyn canadwy. Yn nerth crebwyll, dwysder teimlad, a chyfanrwydd celfyddyd, rhagora arno yn fynych iawn. Pan yn parotoi *Aberth Moliant*, arweiniwyd ef i gyfansoddi nifer mawr o emynau newyddion, y rhai a welir yn y gwaith hwnw. Ceir llu o'i bennillion erbyn hyn yn ngwasanaeth addoliadau cyhoeddus cenedl y Cymry dros wyneb y ddaear; ac y mae amryw wedi eu trosi i'r iaith Saesnig, ac yn cael eu defnyddio at unrhyw bwrpas gan y genedl hono. Yn ei *Gathlau Henaint*, ceir darnau tra difyrus. Pe wedi annog ei awen i oresgyn a thrigo yn maes *Caneuon*, dengys ei 'Ymgom gyda'i Draed,' a 'Chyfarchiad i Wennol gyntaf y Tymmor,' y gallasai efe fod yn un o'r cedyrn cyntaf yn y math hwnw o farddoniaeth.

VI.—*Ei Lafur Llenyddol*.—21. Gorfu ar Mr. Rees gydio yn ei ysgrifell yn fuan wedi ei neillduad i'r weinidogaeth. *Y Cyfarwyddwr* oedd ei lyfryn cyntaf:—Catecism ar brif athrawiaethau y grefydd Gristionogol. Aeth drwy amryw argraphiadau; a phery i wasanaethu ieuengctyd, ac eraill o aelodau yr Ysgol Sul, hyd heddyw. Tra yn Ninbych, cyfieithodd *Y Gonglfaen*, gan Jacob Abbott. Wedi hyn, cydiodd mewn llafur llawer mwy gorchestol—nid

Digitized by Google

amgen *Traethawd ar Grefydd Naturiol a Dadguddiedig*. Cyhoeddwyd y gwaith gan Mr. Gee, yn gyfrol o 408 o dudalenau. Cafodd dderbyniad ëang a di-ymaros; canys ni ysgrifenasid cyn hyny yn ein hiaith ddim ar y testyn hwn. Wedi marw y Parch. William Williams, o'r Wern, wrtho ef y disgwylid; ac efe, fel y gwelsom, a ganodd ei *Alargan*, ac a ysgrifenodd ei *Gofiant*. Wedi ei symmudiad i Liverpool, cynhyrfwyd ei deimladau yn ddirfawr gan chwildröadau gwledydd Ewrop yn 1848. Gan y credai yr athrawiaeth nad ydyw hanes namyn dehonglydd bŷs Duw yn ngyrfa breniniaethau dynion, cydiodd yn y gorchwyl o ysgrifenu cyfrol Saesnig helaeth yn dwyn y teitl *Providence and Prophecy*. Yr ydym yn barod wedi crybwyll am ei lafur egnïol gyda'r *Amserau*. Y cam llenyddol nesaf a gymmerodd efe oedd ysgrifenu *Aelwyd F'Ewyrth Robert;* neu hanes 'Caban F'Ewythr Tomos'—dwy ffug-chwedl wedi eu cyd-wau â'u gilydd. Dilynwyd y chwedlau gan *Weithiau Barddonol Hiraethog;* sef, casgliad o'i holl ganu ef, a chyhoeddwyd y gyfrol mewn dull tra deniadol gan Mr. Gee. O'r diwedd, y mae prif adeiladwaith ei athrylith yn cael ei chodi a'i chyhoeddi o dan y teitl *Emmanuel*. Ychydig o ddynion cyhoeddus a fu, nac y sy, mor agored â Hiraethog i ddylanwad mudiadau mawrion cyhoeddus. Megys y gwelir effeithiau ystorm a gymmerodd le yn mhell ar ganol y cefnfor ar donau glenydd ardaloedd agos, felly hefyd y byddai pob rhyw gyffro mawr mewn byd ac eglwys, pell o ran amser neu le, yn dylanwadu, gan greu tònau yn ei feddwl yntau. Yn y fl. 1862, cynnaliodd Anghydffurfwyr y wlad hon ŵyl goffa am wronwaith y ddwy fil o weinidogion a giliasant, o herwydd cydwybod, o Eglwys Loegr yn 1662. Bu raid iddo yntau gael canu eu clod mewn Chwareugân (*Drama*), helaeth, a dyddorol iawn, o dan y teitl *Y Dydd Hwnw*. Yn 1872, casglodd ei brif erthyglau a gyhoeddasid o bryd-bwygilydd i'r cylchgronau, a chyhoeddodd grynodeb o honynt o dan y penawd *Rhydd-weithiau Hiraethog*. Mae hon yn gyfrol drwchus a gwerthfawr.

Tueddir ni i feddwl mai yn ffurf erthyglau i'r *Dysgedydd* y dechreuodd efe ei *Esboniad ar yr Hebreaid*. Cynnyrchion eraill ei efrydiau yn yr Ysgrythyrau fu troi y Salmau ar fesur cerdd. Cyhoeddwyd y llafur hwnw o dan yr enw *Tŵr Dafydd*. Dywed ef ei hun yn ei ragymadrodd i *Tŵr Dafydd*, mai tra gyda'r gorchwyl o ddarparu *Aberth Moliant* yr ennynwyd tuedd ynddo i droi Salmau Dafydd ar gân. Gwir ddarfod iddo ddechreu ymrwbio, chwedl yntau, yn marddoniaeth 'Peraidd Ganiedydd Israel' flynyddoedd lawer cyn hyny, ac anturio dysgu y Gymraeg i brif-fardd Israel, fel y gallai ganu ei salmau yn iaith Cymru; eithr y pryd hwnw yr anturiodd efe feddwl am droi yr oll o'r Salmau, a chwanegu nodiadau eglurhaol ar odre'r dail, a gwneyd llyfr o honynt. Gwedi llafur mawr, yn nghanol llesgedd iechyd, cwblhawyd y gyfrol; a chyhoeddwyd hi yn 1875, bleser yn nghymdeithas eu gilydd yn nghorph gan Mr. Gee. Hawdd canfod ddarfod iddo gael cryn drafferth i blygu a throsi rhai o'r Salmau i fesurau cerdd; eithr y mae corph y gwaith yn nodedig o luniaidd a meistrolgar. Gwasgara oleuni hyfryd ar aml i gyfran o'r casgliad godidog hwnw o farddoniaeth Hebreig. Fel cyfrol o ddefosiwn, nid ydym yn gwybod am ei ragorach yn ein hiaith. Llyfr arall o'r un natur yw *Moses a'r Prophwydi*. Heb law y rhan a gymmerodd yn ngolygiaeth y *Tyst*, ysgrifenodd *Gofiant*, a golygodd *Weithiau Emrys*. Efe, hefyd, a olygodd farddoniaeth *Aberth Moliant*. Cyfansoddodd lawer iawn o emynau ar gyfer y gyfrol wych hono. Fel goleu-fynag i Mr. Gladstone ar gyflwr crefyddol yr Eglwys Sefydledig, ysgrifenodd gyfres alluog o lythyrau ar *The Church of England in Wales: Letters addressed to the Right Hon. W. E. Gladstone*. Cyfres arall o natur ac amcan gwahanol oedd *Hanes Bywyd Hen Deiliwr*. Ac ysgrifau odiaeth o ddifyrus, ffraeth, a chwareus ydynt. Eu hamcan ydyw darlunio bywyd gwledig Cymru mewn bro amaethyddol, megys ardal Llansannan, ar ddechreu a chanol y ganrif bresennol. Cyhoeddwyd y gwaith hwn drachefn a thrachefn. Pa beth nad allasai efe ei gynnyrchu mewn llenyddiaeth ddisgrifiadol a chwedlonol pe buasai wedi llwyr gyssegru ei ddawn amryfal at y fath orchwyl? Gwedi i flinder dyddiau henaint ei ddal, er lladd ei ludded, ac mewn trefn i foddhau dymuniadau ei gyfeillion, efe a gasglodd amryw o'i bregethau, a chyhoeddodd hwy dan yr enw *Koheleth*. 'Am y rhan fwyaf o'r pethau a gyhoeddaswn o'r blaen (ebe fe), er boddlonrwydd fy ewyllys fy hun, yn benaf, y bu hyny; ond daeth y *Koheleth* hwn allan, fel y llô aur a wnaeth Aaron, ar gais eraill. Ond hyderaf ei fod, er ei holl ddiffygion, yn amgenach *article* na'r llô hwnw.'

22. Am nad ydyw ei *Gofiant* gan y Parchn. Thomas Roberts a David Roberts yn cynnwys crybwyllion ond am gyfran fechan o'i ysgrifeniadau; ac o herwydd na cheir rhestr o'r oll o honynt, hyd yn oed yn *Hanes Llenyddiaeth Gymreig* Mr. Charles Ashton, ni a ewyllysiem yma wneyd lloffyn cryno o'r cwbl oll. Ar yr un pryd, ni fynwn hòni ei fod yn berffaith; ond y mae mor gyflawn ag y gallwn ar hyn o bryd ei wneyd:—

'1. Y Cyfarwyddwr—1838. 2. Y Gonglfaen (cyf.), 1839. 3. Crefydd Naturiol a Dadguddiedig (420)—1841. 4. Yr Amserau (Gol.), 10 cyfrol, 1843. 5. Dwy Bregeth—1844. 6. *Providence and Prophecy*—1851. 7. Aelwyd F'Ewythr Robert—1853. 8. Gweithiau Barddonol Hiraethog (320 td.)—1855. 9. Emmanuel (2 gyfrol), 304 a 500 td.—1861 ac 1867. 10. Y Dydd Hwnw—1862. 11. Esboniad ar yr Hebreaid. 12. Rhydd-weithiau Llenyddol (576 td.)—1872. 13. Tŵr Dafydd—1875. 14. Cathlau Henaint—1877. 15. Aberth Moliant (Gol.), 481 td. —1867. 16. *Church of England in Wales: Letters, &c.* 17. Llythyrau 'Rhen Ffarmwr (300 td.). Helyntion a Bywyd Hen Deiliwr, 1877. 18. Koheleth (476 td.)—1881. 19. Moses a'r Prophwydi—1885.

Gwelir fod cynnyrchion ei feddwl yn amrywiol a lliosog. Bywyd cyhoeddus llafurfawr a phrysur a fu ei eiddo ef ar ei hyd. Yr oedd yn llawer gormod felly; ac nis gallai gael yr hamdden angenrheidiol i gynllunio ac adeiladu yn gryno a gorphenol. Teimlai ef ei hun yn fawr oddi wrth y peth; ac etto, nis gallai reoli ei amgylchiadau yn amgen. 'Da pe cawsai yr awdwr ychydig mwy o hamdden i'w hadolygu [yr awdl ar 'Heddwch'] cyn ei hanfon i'r gystadleuaeth,' ebe beirniaid Eisteddfod Madog. 'Ychydig iawn, yn wir, o hamdden at hyny a allasai gael,' yw ei attebiad yntau. 'Yr oedd yn anorphenedig foreu y dydd olaf i'w dodi yn y llythyrdy i'w chludo i law ysgrifenydd yr eisteddfod. Yr oedd ganddo, tra yn ei chyfan-

Digitized by Google

ysgafnach—rhywbeth fel 'Aelwyd F'Ewythr Robert,' neu'r 'Hen Deiliwr.' Gallet ysgrifenu faint ar a fynit o bethau felly, a chael tâl gweddol am dy lafur yn dy hen ddyddiau; ond ti a wyddost na ddaw y gwaith hwn â cheiniog byth i ti.'

'Diolch i chwi, Mrs. Profedigaeth,' meddwn. 'Y mae gwir yn yr hyn a ddywedwch, fe ddichon; y mae'r geiniog yn bur dda yn ei lle, ac y mae mor gyfreithlawn i mi wneyd ceiniog o'm llafur ag ydyw i rywun arall, ac mor rhaid i mi wrth y geiniog a rhyw ddyn arall; ond y mae rhywbeth mwy na'r geiniog ynglyn â'r mater hwn.' Ymrwymais ar funyd ddifrifol yr ymroddwn i'r gorchwyl yr wyf arno yn awr; ac ni allaf gilio. Rhaid glynu wrtho, beth bynag fydd y canlyniad.'

VII. *Y Dyn, a'i Gyfeillion.*—24. Fel yr oedd Mr. Rees o gymeddfau cryfion, felly hefyd yr oedd o deimladau a nwydau cryfion. Yr oedd ei serch yn ddwfn a thra gafaelgar, a'i gâs yn ddir a graenus. Yr oedd yn ail i Jonathan mewn tynerwch ac ymlyniad. Carai ei blant a'i gyfeillion yn ddwys ac yn angerddol iawn. Gwelir hyny yn dra eglur yn ei hiraeth dwys am Dafydd, ei fab athrylithgar; ac Angharad, ei eneth weddeiddlwys. Yr un modd, gofidiai a hiraethai yn ddirfawr am ei gyfeillion mynwesol o'r Wern, a Rhuthyn. Daeth aml i dro ar ol hyny, pan y caed cyfleusdra i sylwi ar fywiogrwydd a dwysder ei serchiadau. Gwelsom ei fod o ysbryd uchel rhyfelgar yn nyddiau ei ieuengctid; eithr fel yr elai rhagddo mewn dyddiau, tyfai ei ledneisrwydd i'r fath raddau fel yr oedd pob rhyw drybestod eglwysig, neu gyffro enwadol, yn dân ar ei gnawd. Yn wir, nis gallai hyd yn oed gyd-ddwyn âg ychydig o feirniadaeth newyddiadurol, boneddigaidd ei hiaith, os yn condemnio ymddygiad cyfaill. Daw yr un dyhead dwfn, cryf, dwys-dyner am dawelwch a thangnefedd enwadol ac eglwysig i'r golwg yn y gyfres ragorol o lythyrau a ysgrifenodd i'r *Tyst*, 'At yr Heddychol Ffyddloniaid yn yr Enwad Annibynol.' Blinder ysbryd a chywilydd wyneb o'r dwysaf iddo fu 'Helynt Athrofa y Bala.' Parai pob rhyw anghydfod boen iddo; a chan ei fod o deimladau mor fyw, nid mewn llywio llong mewn tymmhestl yr oedd ei nerth. Os yn dawedog ac ynddo ei hun pan heb gwmni cydnaws, nid oedd anniddigrwydd ynddo. Ni bu un gŵr a garai ac a fwynhâai gymdeithas ei frodyr a'i gyfeillion yn fwy nag efe. Ymddiattodai ei natur, chwedl yr hybarch Ishmael Jones, yn awyr ysgafn, gynnes, gwŷr o gyffelyb ysbryd. Ni bu ei ffyddlonach i wir gyfeillion, na pharotach ei gymmwynas a'i ebyrth ar alloran cyfeillgarwch a chrefydd. Anferth fu ei lafur. Am lawer iawn o flynyddoedd, teithiai yn ddibaid i bregethu neu i ddarlithio drwy holl gyrion Cymru. Ar ei ddychweliad adref, cyssegrai bob munydyn i ysgrifenu a darpar ar gyfer gwaith. Tybiai yr ariangar a'r anwybodus ei fod yn 'gwneyd arian fel llif yr afon,' ac yn gybydd, wrth gwrs:—dau gyfeiliornad o'r gwrthunaf. Er cymmaint a ysgrifenwyd ganddo, y mae yn eithaf tebyg na chyrhaeddodd cyfanswm yr elw oddi wrth yr oll swm o dri thigiwr dair gwaith drosodd. Wedi ei ddyddiau ef y daeth yr eglwysi Annibynol Cymreig yn dra awyddus am wneuthur cyflogyn pur weddol i'w gweinidogion. Neillduolrwydd arall yn ei gymmeriad tyner oedd symledd a diniweidrwydd mawr. Os gallai gashau yn hir yr hyn a ystyriai yn gam, ac yn sarhâd bwriadol a chaidd mewn dyn, nis gallai ymladd a chwareu rhan y gormeswr.

25. Ni bu Mr. Rees un amser yn enwog am feddylgarwch a threfnusrwydd personol. Nid oedd ganddo ddim dawn at ddyledswyddau bychain o'r fath. Eithr ni adawyd ef yn ddiymgeledd yn y cyfeiriad hwnw. Yn mherson Mrs. Rees, gwnaeth Rhagluniaeth iawn am bob peth y syrthiodd natur yn fyr ynddo ef. Caiff un o'i gyfeillion goreu egluro:—

'Gwyr pawb a ŵyr ddim am Hiraethog pa mor ddarostyngedig oedd i'r diofalwch hwnw sydd mor fynych yn dilyn dynion o feddyliau mawr. Buom yn dychymygu pa lun a fuasai arno, o ran taclusrwydd gwisg, pe wedi taraw ar wraig o'r un duedd ar y pen hwn ag ef ei hun. Odid na buasai ganddo ffunen, yr hon fu yn wen mewn rhyw oes, am ei wddf; coler lipa, un aden yn rhydd, ac yn troi yn atlêr dros ei gadach. Ei wallt a'i gôb yn ddyeithriaid i oruchwyliaeth y brws. Yn lle hyny, yr oedd pob peth o ddeutu yn dwt . . a'r cyfan yn gosod gweddeidd-dra arno. Pan yn myned ar daith, yr oedd ei wlawlen yn ymyl ei law, ei ddrychau, ei ellyn, ei goleri, a'i gadachau yn daclus yn ei ysgrepan, heb gymmaint a phin ar ol. Cychwyn i'w daith y mae: edrychwch arno wedi dychwelyd. Y mae het rhywun arall am ei ben; gwlawlen yn ei law na ŵyr neb o ba le y daeth, nac i bwy y perthyn. Wrth gychwyn, yr oedd ganddo hanner dwsin o gadachau—a thri wedi dyfod yn ol. Gwddf-dorch newydd gwerth pum swllt wrth fyn'd—un wedi gweled blynyddoedd o wasanaeth yn dyfod adref. Weithiau, byddai yr ysgrepan a'i holl gelfi yn myned ei hun tuag Euston, heb docyn i hysbysu neb i ba le yr â, nac o ba le y daeth. 'Beth yw yr het sydd am eich pen?' ebe Mrs. R., wrth ei wel'd yn dyfod i'r tŷ. 'Wel, beth sydd yn darfod iddi?' 'Wel, nid hona oedd genych yn myn'd. Pa le yr oeddych neithiwr?' 'Yn y fan a'r fan.' 'Rhaid i chwi ysgrifenu yno yfory nesaf i holi am dani. Nid yw yr het yna yn *fit* i chwi fyned allan o'r tŷ. Yn mha le yr ydych wedi gadael eich coleri. Yr oedd hanner dwsin yn eich *bag* yn myn'd?' 'Hanner dwsin?' 'Oedd yn siwr.' 'Wel, wn i ddim yn mha le y maent, os nad yn rhai o logellau fy nghôt.' 'Nac ydynt ddim yno; buom yn eu chwilio.' 'Wel, wn i ddim pa le y maent. Dyna y cwbl sy' gen i. Nid wyf yn gwybod i mi golli yr un.'—*Cofiant*, td. 71.

Ond er y nodau digrif hyn i gyd, nid oedd mor amddifad o ysbryd trefn a gweddeidd-dra mewn pethau eglwysig ag y gallesid tybio. Yn wir, achwynwyd ei fod yn gryn dipyn o ddysgyblwr ar wŷr anhydrin ac anhywaith mewn eglwys a chyfarfod chwarterol. Pan yn pregethu yn Nghymmanfa Caernarfon ar 'Na dderbyniwch ef i dŷ, ac na ddywedwch Duw yn rhwydd, wrtho,' credodd rhai ei fod yn Geidwadwr cryf, ac yn orthrymwr rhyddid personol. Y syniad dwfn oedd ynddo am urddas, trefn, gwastadrwydd mewn ffydd a buchedd, a'i ddyhead gwastadol am heddwch a thangnefedd, oedd wrth wraidd y bregeth hono. Ymddengys fod syniad wedi bod am ennyd fer yn yr enwad y perthynai efe iddo, y dylasai bywyd cymdeithasol eglwys neu gyfundeb fod yn cyfranogi o holl neillduolion aflonydd bywyd gwladwriaethol. Y mae y drychfeddwl hwnw yn cynnwys pleidiau, dadleuon anorphen, brwydrau diwygiadol, cynllwynion â'u bryd ar oruchafiaeth ac awenau awdurdod. Wrth reswm, nis gallasai gŵr o'i dymmheredd a'i ffydd ef lai nag attal ei fendith oddi wrth y cyfryw a goleddent opiniynau gwŷrdraws felly. Ar yr un pryd, gwyddai pawb na bu erioed aelod mwy teyrngarol i'w enwad; nad oedd yn perthyn iddo un gŵr parotach i feithrin blagur rhyddid o bob natur. Yr hyn a ddygai nodau dirgel ac eglur penrhyddid a ennynai gyffro yn ei natur.

Digitized by Google

27. Buasai yn anmhossibl i ŵr o athrylith mor amrywiol ei thalentau lai na bod yn ffefryn enwad a chenedl. Cymmerwyd mantais, dro ar ol tro, i ddangos fel y gwerthfawrogid ei lafur. Yn Mehefin, 1866, anfonwyd iddo yr urdd-deitl o D.D. ac S.T.D., gan ddwy o athrofeydd yr America. Athrofa Marietta oedd un o honynt. Cryn ymdrech a gafodd ei gyfeillion i gael ganddo foddloni i wisgo y ddwy lythyren. Yr oedd tlysau o'r fath yn bethau cymmharol anghyffredin y pryd hwnw.

Yn 1862, anrhegwyd ef â thysteb genedlaethol o saith gant o bunnau (700*p.*). Ymunodd blaenoriaid yr eglwysi Cynnulleidfaol yn Ngogledd Cymru i'w anrhegu â'i ddarlun yn 1877. Tynodd yr arlunydd dri. Cyflwynwyd un i Athrofa Aberhonddu; yr ail i Goleg Prifysgol Aberystwyth; a'r trydydd iddo ef ei hun. Ar achlysur y cyflwyniad yn Methesda, dywedai Tan-y-marian:—

'Pa lun rydd well darluniad—o actau
Y Doctor yn wastad?
Dyna lun dania y wlad—
Yn siwr, mae bron a siarad.'

Ar achlysur ffurfiad Undeb Cynnulleidfaol Cymru yn 1872, efe a etholwyd gyntaf i'r gadair. Dywedir mai gweithred felly yw yr anrhydedd penaf a ddichon yr enwad Annibynol ei ddodi ar yr hwn a fawrhëir gan ei frodyr. Yn 1876, wedi ei ymneillduad o'r weinidogaeth yn Grove street, gwahoddwyd ef i gyfranogi o giniaw cyhoeddus yn Ngwestty yr Adelphi. Y Saeson oedd wrth wraidd y mudiad hwnw. Cyflwynwyd iddo anerchiad harddwych, wedi ei arwyddo gan holl weinidogion Anghydffurfiol y ddinas. Yn naturiol ddigon, yn 1883, daeth i feddwl Cymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion i gyflwyno iddo ei bathodyn cyntaf fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth arbenig i lenyddiaeth Gymreig. Arfaethwyd cyflwyno yr anrheg yn ffurfiol yn nghyfarfod blynyddol y gymdeithas yn Llundain; eithr efe a gymmerwyd ymaith yn Nhachwedd, cyn i ddydd gŵyl y gymdeithas ddyfod oddi amgylch. Darparodd Mr. Rees anerchiad helaeth ar gyfer yr achlysur hwnw. Edrydd hanes ei yrfa lenyddol, a'r ebyrth a wnaed gyda'r *Amserau* wrth osod i lawr seiliau newyddiaduraeth Gymreig.

'Nid oeddwn wedi derbyn ceiniog erioed am fy llafur ynglŷn â'r *Amserau* (meddai), nac yn disgwyl ceiniog byth. Ond os na ddaeth tâl i'r llogell, daeth tâl da i'r fynwes y diwrnod hwnw—tâl oedd yn werthfawrocach yn ngolwg yr hwn a'i derbyniai na phe rhoddasid iddo fil o bunnoedd ar ei law—bendith cenedl o bobl ar ddarfod am danynt.'—*Y Cymmrodor*, cyf. vii., td. 8.

Cyfeirio y mae yn y paragraph at ymdrech genedlaethol yr Hungariaid yn 1848 i ennill eu rhyddid gwladol oddi tan iau gormes Awstria. Ond mynodd Rwssia ail godi yr ormes a fwriwyd gan y gwladgarwyr i'r llawr. Cymmerodd golygydd yr *Amserau* achos yr Hungariaid yn bwngc ei brif erthyglau am fisoedd; a chrëodd deimlad angerddol yn Nghymru o blaid y gorthrymedigion. Gorfu ar Kossuth, blaenor y gwrthryfel, ac amryw o'i gyfeillion, gilio i Brydain am noddfa. Gwnaeth rhai o honynt eu cartref yn Liverpool dros dymmor eu ffoedigaeth. Eu noddwr penaf fu y Barnwr Johnes. Ffurfiasant ddirprwyaeth yn eu plith eu hunain i ymweled â'r boneddwr hwnw er diolch iddo.

'Yn ei attebiad i'r ddirprwyaeth, dywedodd Mr. Johnes mai i newyddiadur Cymraeg a elwid yr *Amserau*, yr hwn a gyhoeddid yn Liverpool, yr oeddynt i ddiolch yn benaf, ac nid iddo ef; mai darllen yr erthyglau yn y papur hwnw a dynasai ei sylw a'i gydymdeimlad ef â'r achos; a bod cenedl y Cymry yn gyffredinol o'r un deimlad ag ef ei hun, hyd y gallai efe ddeall, yn yr achos.'

Cyfarfu Mr. Rees â Mr. Johnes yn fuan ar ol hyny, a chafodd yr hanes o'i enau ef ei hun. Wedi deall am wasanaeth yr *Amserau*, tranoeth galwodd yr un boneddigion yn swyddfa y papur i gydnabod y cyhoeddwr; ac wedi hyny ymwelsant â'r golygydd yn ei dŷ ardrethol ei hun. Ysgrifenydd cyfrinachol Kossuth oedd y genau cyhoeddus dros ei frodyr. Tra yn diolch am a wnaethai y golygydd, dywedai, 'y byddai enwau Johnes a'r *Amserau* yn anwyl ganddynt hwy tra y byddent byw.' Dyna'r tâl, yr hwn y dywedai Mr. Rees a'i boddlonai yn fwy na phe derbyniasai fil o bunnau am ei lafur.

28. Ymddengys nad yw y rhan a gymmerodd efe fel beirniad mewn eisteddfodau yn brin o oleuni sydd yn adlewyrchu yn hyfryd ar gymmeriad y dyn. Fel rheol, swydd eithaf anghysurus i ymwneyd â hi yw swydd beirniad. Heb law fod rhai beirdd yn mhob oes yn ddiarhebol am eu syniadau uchelryw am danynt eu hunain. Os siomir disgwyliadau beichiog cystadleuwyr o anianawd felly, y mae grwgnach yn naturiol iddynt. Ar brydiau, dadleuant ar gyhoedd, gyda hyfdra mawr, am yr hyn a alwant yn anghyfiawnder a cham. Gwir na bu llawer bardd heb le i gwyno, o blegid anallu, os nad twyll bwriadol ei feirniaid. Gan nad beth a dybir am barodrwydd ymgeiswyr i ammheu didwylledd eu brodyr, priodol ydyw cydnabod mai ysbryd cul a thraws y beirniaid a dynodd oddi ar ei gorsedd wen yr alwedigaeth o feirniadu, ac a'i cadwodd yn y llaid am flynyddau meithion. Er i Hiraethog wasanaethu swydd beirniad mewn llawer o eisteddfodau, y mae hi yn ffaith arwyddocaol na bu efe un amser yn wrthddrych grwgnach na thuchan. Rhaid fod yn mhlith y beirdd syniadau uchel am ei fedr yn y gelfyddyd, a hyder disigl yn ei onestrwydd diffuant yn nghyflawniad ei waith; onidê ni ddiangasai efe yn groeniach, mwy nag eraill. Ac uniawn oedd y farn a goleddwyd am dano; canys ni bu natur anrhydeddusach nag eiddo Mr. Rees. Yr oedd gweithredu cyfiawnder yn mhob lle a swydd yn dra phwysig yn ei olwg. Nid oedd llacrwydd moesol byth yn andwyo ei ddefnyddioldeb. Ynddo, cyfarfyddai neillduolion y tywysog, a'r prophwyd. Dygai yn ei gorpholaeth lathraidd a theg y cyfryw arwyddion. Pan y gwŷnodd natur ei wallt fel y gwlân, ac y gadawodd yntau yr ellyn a'r siswrn heibio, trawsnewidiwyd ei olygwedd yn hollol.

Sylwai y Parch. John Thomas na bu iddo ef un amser wrandaw ar bregethwr mor hyf a beiddgar ag efe yn mlynyddau ei nerth mawr. Yr oedd ei onestrwydd yn llym-dost i'r eithaf. Byddai natur dynion celyd yn gwegian o dan ei ddyrnodiau, a'u cydwybod yn cael eu goddiweddyd gan arswyd pan yn sefyll ger bron ei holiadau. Cyflawnai aruthr-waith ar gynnulleidfaoedd. Eithr amser a aeddfedodd ac a bereiddiodd ei ysbryd:—llarieiddiodd ei iaith, a melusodd a goleuodd ei holl gyflawniadau. Aeth fel dulsimer a thelyn. Gwedi ei ymddeoliad o'r weinidogaeth yn Liverpool, cyflawnai ran efengylydd i bob enwad a bro yn Nghymru. Nid oedd ynddo radd o gulni. Ar yr un pryd, tybiwn nad oedd ganddo allu i wneyd nemawr o gyfeillion newydd, wedi colli ei rai cyntaf.

Digitized by Google

Gwenai yn siriol, a siaradai yn hamddenol a rhydd â phawb. Nid oedd yn ei natur allu nac ewyllys i ail boblogi y byd hwnw â newydd-ddyfodiaid. Cydnabyddir hyn, os nad ydym yn camgymmeryd, yn ei gân hiraeth ar ol y Parch. Hugh Pugh, o Fostyn.

'Oes,' ebe y bardd:—

'Oes, oes y mae
Rhyw liaws o gadeiriau gwâg yn awr
Ar lawr ystafell ddistaw 'r fynwes hon—
Cadeiriau hen gyfeillion, nad oes neb
I'w cael a all eu llenwi; erbyn hyn
Y mae dy gadair dithau yma'n wâg—
Y gadair hono wnaethost ti dy hun,
I ti dy hun; ac nid eisteddodd neb
Ond ti dy hunan ynddi hi erioed.
Nid eistedd neb byth ynddi chwaith ar d'ol!'

Yr oedd yn un o feistriaid penaf y gelfyddyd o amlygu ei feddwl mewn rhyddiaeth a fagodd Cymru yn y ganrif hon; etto, ymddengys yr ystyriai ei awen yn foneddiges uwch ei bonedd, ac am hyny yn addasach i'w hanfon i adrodd ei deimlad cyfoethog wrth y byw, ar achlysur ymadawiad y personau detholedig hyny a dderbyniasid, o bryd i bryd, i ymgartrefu yn 'ystafell ddistaw y fynwes hon.'

Wrth fwrw golwg dros ei yrfa, ei waith, ei ganu, ei ebyrth er mwyn ei genedl a'i wlad, ei gathlau dwys er côf am y rhai a'i rhagflaenasant, arweinir ni i'r casgliad, gan nad pa mor amrywiol a goludog oedd cynneddfau meddyliol y Parchedig Dr. William Rees, yr ydym heb betrusder yn tystio fod serch a gras ei galon fawr yn fwy amrywiol ei chynnyrch, a gogoneddocach ei ffrwythau.

REES, Y PARCH. JOHN, Llundain. Ganwyd ef yn mhlwyf St. Pedr, Caerfyrddin, Ebrill 20fed, 1770.

Rhwymwyd ef i ddysgu crefft crydd yn Bristol. Ar ol hyny, aeth i Lundain, lle y dychwelwyd ef, ac y dechreuodd bregethu. Yna, dychwelodd i Bristol, lle yr arosodd am o bedair i bum mlynedd, gan barhau i bregethu mewn amryw leoedd o amgylch.

Yn 1796, aeth i fyw i Gaerfyrddin, ei dref enedigol—lle y dechreuodd gadw masnachdy. Tra yno, ymunodd â'r Methodistiaid Calvinaidd Cymreig, gan ba rai y derbyniwyd ef fel pregethwr. Byddai yn ddyfal gyda'i alwedigaeth trwy yr wythnos; a nos Sadwrn, byddai yn lladrata oriau oddi wrth gwsg i '*scratsio* i lawr ei bregethau,' fel y dywedai. O herwydd gwaeledd Mrs. Rees, symmudodd i ardal a saif rhwng Llacharn a Dinbych-y-pysgod. Yno yr oedd y maes ëang, amddifad o'r efengyl, iddo lafurio ynddo; yr hyn a wnaeth gyda dyfalwch mawr. Nid oedd y bobl yn deall ond ychydig o Gymraeg; ond nid oedd hyn yn rhwystr iddo ef. Pregethai yn fynych hefyd i'r Cymry yn siroedd Caerfyrddin a Phenfro. Yn 1807, bu farw ei wraig; ac yn lled fuan wedi hyn, symmudodd ef a'i deulu i Bristol—yn yr hon ddinas y parhaodd i deithio a phregethu, fel o'r blaen. Yn 1808, bu yn gweinidogaethu yn mysg y Cymry yn Wilderness Row, Llundain; a dyma ei ymweliad cyntaf â'r brif ddinas fel gweinidog. Yn 1810, ymsefydlodd yn Nghasnewydd-ar-Wysg, lle y bu ei weinidogaeth, yn Gymraeg a Saesneg, yn hynod gymmeradwy. Yr oedd efe yn un o'r tri-ar-ddeg a neillduwyd i weinyddu yr ordinhadau yn y Deheu yn 1811. Yn 1814, aeth Mr. Rees i weinidogaethu yn gyfan-gwbl i fysg y Saeson.' Derbyniodd alwad oddi wrth gynnulleidfa y Tabernacl, yn Radborough, yn sir Gaerloyw. Bendithiwyd ei weinidogaeth i raddau helaeth yno. Elai oddi yno ar ymweliadau blynyddol â Llundain; a'r pryd hwnw, nid oedd nemawr bregethwr mwy poblogaidd nag ef yn y brif ddinas. Byddai capeli mwyaf yr Ymneillduwyr—sef, y Tabernacl, Tottenham Court, Savoy, Spafields, a Seion—wedi eu llwyr lenwi yn mhell cyn dechreu yr odfaon pan y byddai efe i bregethu ynddynt. Wedi bod yn Radborough am naw mlynedd, cafodd alwad, yn 1823, oddi wrth eglwys Capel Heol y Goron, Soho, Llundain. Derbyniodd hi, a choronwyd ei lafur yno â llwyddiant tra helaeth.

Bu farw Ionawr 6ed, 1833, yn 63ain mlwydd oed, wedi dioddef o hono yn ddirfawr oddi wrth nychdod corphorol. Bu galar mawr ar ei ol yn yr eglwysi y bu yn eu gwasanaethu.

RICHARD, HENRY. Dyma un o'r dynion goreu, anwylaf, a mwyaf adnabyddus a fagodd Cymru erioed; ac un o'r rhai a wnaeth fwyaf erddi, yn wladol, cymdeithasol, a chrefyddol. Ganwyd ef yn y fl. 1812, yn mhentref distadl Tregaron, yn Ngheredigion. Hanodd o gyff Methodistaidd nad oes ei enwocach i'w gael trwy Gymru oll. Yr oedd efe yn fab i'r pregethwr enwog Ebenezer Richard. O du ei fam, yr oedd yn ŵyr i Dafydd Morris; ac yr oedd Ebenezer Morris, un arall o dywysogion crefyddol Cymru, yn ewythr iddo. Cymmerodd ei dad, Ebenezer Richard, ran nid bychan yn y digwyddiadau a fu yn achos i wneyd enwad y Methodistiaid yn allu mor fawr yn nhrefydd y Dywysogaeth; a dywedir mai efe, a'r Parch. Thomas Charles, a fuont y prif offerynau i fritho gwyneb Deheudir a Gogledd Cymru âg Ysgolion Sabbothol. Nid yw yn rhyfedd, gan hyny, pan gofir y fath aelwyd y magwyd Henry Richard arni, ei fod, yn y blynyddoedd canlynol, wedi ymddisgleirio i'r fath raddau ag y gwnaeth yn nghylchoedd cymdeithasol a chrefyddol ei wlad, ac yn senedd y deyrnas. Duwioldeb a defnyddioldeb oeddynt y pegynau ar ba rai y gosodwyd olwynion ei yrfa i droi arnynt yn moreu ei oes; ac y mae yn destyn o lawenydd dirfawr heddyw na lwyddodd y byd i'w daflu oddi arnynt. Duwioldeb personol, a defnyddioldeb cyffredinol i'w wlad a'i oes, yn amlwg oeddynt neillduolion penaf ei fywyd.

Ychydig sydd yn wybyddus am hanes blynyddoedd ei faboed, amgen na'r ffaith iddo dderbyn ei addysg ar y cyntaf yn Ysgol Rammadegol Llangeitho. Yna, rhwymwyd ef yn egwyddorwas fel dilledydd, gyda Mr. Matthews, masnachwr parchus ac adnabyddus yn Aberystwyth. Cyn bod yn ugain oed, dechreuodd bregethu, a derbyniwyd ef yn aelod o gyfarfod misol sir Aberteifi. Tua'r fl. 1830—pan tua deunaw oed, a phan yr oedd ei enaid wedi ymlenwi gan awydd i bregethu yr efengyl i'w gyddynion, aeth i Lundain, gyda'r bwriad, yn benaf, o gael chwaneg o addysg. Nid oedd gan y Methodistiaid athrofa y pryd hwnw; a chymmerodd yntau fantais ar y cyfleusdra a osodwyd yn ei ffordd i ymuno â'r Annibynwyr, ac i fyned i mewn i'w coleg yn Hanbury. Bu yno am tua phum mlynedd o dan addysg Dr. Halley, Dr. Henderson, a'r Proffeswr Henry Rogers. Yn 1835, pan yn 25ain oed, ymgymmerodd â bugeiliaeth capel Marlborough, Old Kent road; a hwn

Digitized by Google

fu unig faes ei ofal gweinidogaethol. Yr oedd efe yn bregethwr nerthol a hyawdl; a meddai feddwl cryf, ac annibynol. Yr oedd yr achos yno yn hynod o isel pan gymmerodd efe ei ofal; ond daeth gwedd newydd ar bethau, a chynnyddodd y gynnulleidfa yn fuan.

Yn ystod y blynyddoedd y bu yn llafurio fel gweinidog—o 1835 hyd 1848—torodd 'Terfysgoedd Rebecca' allan yn Nghymru. Digwyddodd hyn tua'r fl. 1843; a chan fod gelynion yn priodoli i'r 'terfysgwyr' amcanion nad oeddynt mewn gwirionedd yn eu coleddu, daeth Mr. Richard allan yn amddiffynwr i'w gydgenedl, gan eu cynnorthwyo i daflu pob cyhuddiadau disail a wneid yn eu herbyn yn ol, ac i liniaru gryn lawer ar y cospedigaethau a gyhoeddwyd ar y troseddwyr am y rhan a gymmerasant yn y cyffrawd.

Cymmerodd Mr. Richard ddyddordeb mawr yn ystod tymmor ei weinidogaeth yn y cwestiwn o addysg cyffredinol. Yn y fl. 1844, talodd ymweliad â Chymru yn y cymmeriad o ddirprwy oddi wrth yr Undeb Cynnulleidfaol. Bu ganddo ran flaenllaw yn sefydliad Ysgol Normalaidd Aberhonddu—yr hon a fwriadwyd yn arbenig i barotoi athrawon. Yn y fl. 1847, cynnorthwyodd Mr. Edward Miall a Mr. Samuel Morley i sefydlu Cymdeithas Addysg Wirfoddol; ac fel ysgrifenydd mygedol y gymdeithas hon, bu ganddo ran, nid bychan, yn y gwrthsafiad a wnaed yn erbyn cynlluniau addysgawl y llywodraeth er cyfranu symiau mawrion o bwrs y wlad gyda'r amcan o sefydlu ysgolion i'r Eglwys yn Nghymru—amcan penaf pa rai oedd addysgu y plant yn Nghatecism yr Eglwys Esgobawl, yn hytrach na chyfranu iddynt addysg fydol. Gweithiodd Mr. Richard yn anrhydeddus yn y cadymgyrch penderfynol a gychwynwyd yn erbyn y camddefnydd hwn o gyllid y trysorlys. Dyna, yn fyr, y ddau brif symmudiad y bu ganddo ef fwyaf i'w wneyd â hwy yn ystod cyfnod ei weinidogaeth.

Yn 1848, pennodwyd ef i'r swydd bwysig a chyfrifol o ysgrifenydd Cymdeithas Heddwch. Yr oedd y dyledswyddau y gelwid arno i'w cyflawni ynglŷn â'r swydd hon yn gyfryw fel y bu raid iddo ymneillduo o'r weinidogaeth. Amcan penaf sefydliad y gymdeithas hon oedd gwrthwynebu, hyd y gellid, arferiad ddrwg Prydain, a theyrnasoedd eraill, o benderfynu anghydfodau gwladol trwy rym arfau rhyfel; gan argymmhell fod i'r cyfryw gael eu penderfynu yn hytrach trwy gylafareddiad. Dechreuodd ar ei ddyledswyddau mewn cyfnod pan yr oedd cyffroadau difrifol yn bodoli yn Ewrop ac America; a daeth ei sefyllfa yntau, mewn canlyniad, yn un o gyfrifoldeb mawr. Cyhoeddwyd rhyfel rhwng Awstria a'r Eidal, a rhwng yr Almaen a Denmarc. Cymmerai brwydrau gwaedlyd a dinystriol le, hefyd, rhwng yr Unol Dalaethau a Mexico; a theyrnasai dychryn yn Ffraingc, mewn canlyniad i'r helyntion a ffynent rhwng y bobl a'u llywodraethwyr. Yn yr adeg gynnhyrfus hon y galwyd Mr. Richard at lyw y Gymdeithas Heddwch; a chyflawnodd yntau ei ran yn ardderchog, nid yn unig yn yr adeg yma, ond hefyd dros y gweddill o'i oes; o blegid parhaodd i gyflawni dyledswyddau pwysig y swydd hon hyd o fewn ychydig i'w farwolaeth. Adnabyddid ef fel 'Apostol Heddwch;' ac fel un o'r dynion a wnaeth fwyaf o neb i roddi terfyn ar ryfeloedd. Yn mysg gorchestion eraill a gyflawnwyd ganddo fel ysgrifenydd y gymdeithas hon, ni a nodwn y rhai canlynol:—Cydweithredodd âg Elihu Burritt, Joseph Sturge, ac eraill, i alw ynghyd y Gyngres Heddwch Rhyngwladwriaethol a gynnaliwyd yn ninas Brussels, Medi 20ain, 1848. Attegodd gynnygiad Richard Cobden yn mhlaid Cylafareddiad Rhyngwladwriaethol yn senedd Prydain, ar Mehefin 14eg, 1849. Trefnodd, a siaradodd yn Nghynnadleddau Heddwch Paris yn 1849 ac 1856:—yn Frankfort yn 1850:—a Manchester yn 1853. Mynych yr ymwelai, hefyd, â'r Cyfandir i hyrwyddo amcanion y gymdeithas. Mewn gair, ymegnïodd yn barhaus, er gwaethaf llawer o rwystrau, i attal rhyfel, ac i ddangos y dymunoldeb o benderfynu pob cwerylon gwladol trwy foddion heddychol cylafareddiad. Byddai cyfeirio at yr holl wasanaeth ammhrisiadwy a wnaeth Mr. Richard i heddwch fel ysgrifenydd y gymdeithas hon, yn gofyn llawer mwy o le nag a ganiatâ ein gofod.

Ond yn ystod yr holl gyffroadau, a'i brysurdeb yntau, nid anghofiodd Mr. Richard barhau yn ffyddlawn i wlad ei enedigaeth. Yr oedd gwasanaethu Cymru ar ei galon bob amser, pa le bynag y byddai. Profwyd hyny mewn modd neillduol tua'r flwyddyn 1847. Y pryd hwnw, cyhoeddodd y llywodraeth y *Llyfr Glas* mwyaf anfad ei gamddarluniadau am Gymru, a'i phobl, a ymddangosodd erioed. Adroddiad Dirprwywyr y llywodraeth ar sefyllfa Addysg yn y Dywysogaeth oedd hwn; a Mr. Lingen, un o'r dirprwywyr, a wnaed yn gyfrifol am y celwyddau a gynnwysai. Yr oedd y darlun a dynwyd o honi gan y dirprwywyr yn gyfryw fel yr oedd hyd yn oed y newyddiaduron Rhyddfrydig yn Lloegr—am eu bod, yn eu hanwybodaeth dygn, yn credu yr adroddiad—yn tystio yn ddigel fod 'Cymru yn prysur suddo i ystâd o ddygn anwedddeidd-dra.' Cyffröwyd eiddigedd gwladgarol Mr. Richard i'w ddyfnderoedd gan y camddarluniadau gwarthus a wnaed; ac nid ymattaliodd yntau. Cymmerodd ei gleddyf yn ei law, a gwisgodd am dano ei arfogaeth, a daeth allan fel cawr yn erbyn y Philistiaid Saesnig dienwaededig. Bu am ddwy awr a hanner yn darlithio ar y pwngc yn un o neuaddau cyhoeddus Llundain; ac argraphwyd a lledaenwyd yr araeth fawr hono wrth y miloedd wedi hyny. Gwnaeth ei ran yn odidog yn y cyfwng hwn; ac amddiffynodd y wlad yn llwyddiannus.

Ond, fe allai mai y gwasanaeth penaf o'r natur hwn a gyflawnwyd gan Mr. Richard oedd y gyfres o lythyrau a ysgrifenodd efe ar sefyllfa boliticaidd a chymdeithasol Cymru i'r *Morning Post*, yn 1866—a ail gyhoeddwyd yn mhen deunaw mlynedd ar ol hyny. Yn mysg y rhai y bu ei ysgrifau meistrolgar yn foddion i agor eu llygaid, a'u dwyn i synio yn briodol am yr Hen Wlad, gallwn enwi Mr. Gladstone. Cydnabyddodd efe yn gyhoeddus ei fod, cyn eu darllen, yn llawn o'r rhagfarnau cyffredin yn erbyn Cymru; ond i'r ffeithiau a gyhoeddodd Mr. H. Richard newid ei feddwl yn hollol. Ystyrir yr ysgrifau hyn fel gorchestwaith ei oes.

Yn 1868, mewn attebiad i gais taer lliaws mawr o'i gydgenedl, cydsyniodd Mr. Richard i sefyll fel ymgeisydd seneddol dros Ferthyr Tydfil. Yn ganlynol i helaethiad yr etholfraint, meddai y fwrdeisdref hawl i ethol dau aelod; a daeth tri ymgeisydd i'r maes; sef, Mr. Henry Richard, Mr. Henry Bruce (wedi hyny Arglwydd Aberdâr), a Mr. Fothergill. Gwelwyd ar unwaith fod dychweliad Mr. Richard yn sicr; a

Digitized by Google

chafodd fwyafrif o 6,000 o bleidleisiau ar Mr. Bruce—yr hwn, hefyd, oedd yn Rhyddfrydwr. Bellach, yr oedd gan Anghydffurfiaeth Cymru gynnrychiolydd ac amddiffynydd galluog a ffyddlawn yn y Tŷ; ac ni bu efe yn brin mewn dynoethi culni Eglwyswyr a gormes tirfeddiannwyr y Dywysogaeth. Gwnaeth argraph ddofn ar Dŷ y Cyffredin trwy ei hyawdledd a'i ddifrifwch. Efe a draddododd ei araeth gyntaf yno Mawrth 22ain, 1869, yn y ddadl ohiriedig ar ail ddarlleniad mesur Mr. Gladstone i Ddadsefydlu yr Eglwys yn yr Iwerddon. Ac ar y 6ed o Orphenaf, yn ystod yr un senedd-dymmor, cynnygiodd Mr. Richard benderfyniad i'r perwyl a ganlyn:—

'Fod ymddygiad tirfeddiannwyr neillduol yn Nghymru tuag at eu tenantiaid, mewn canlyniad i'w hymarferiad rhydd o'r etholfraint mewn etholiadau, yn marn y Tŷ hwn yn ormesol ac anghyfansoddiadol, ac yn drais ar yr iawnderau a estynwyd i bobl y wlad hon gan y senedd.'

Y mae yn gofus i lawer sydd yn awr yn fyw yn Nghymru am ymddygiadau creulawn ac anghyfiawn y tirfeddiannwyr Toriaidd at eu tenantiaid o herwydd eu gwaith yn pleidleisio i Ryddfrydwyr yn etholiad bythgofiadwy 1868. Yr ymddygiad trahaus hwn a barodd i Mr. H. Richard ddyfod â'r cynnygiad uchod yn mlaen. Ar derfyn y ddadl a gymmerodd le arno, appeliodd Mr. Bruce, ar ran y llywodraeth, am i Mr. Richard foddloni ar y cyhoeddusrwydd a roddodd efe i'r mater trwy y cynnygiad, a'i araeth odidog arno, a pheidio pwyso am gael ymraniad arno. Cydsyniodd Mr. Richard, er hyny gwnaeth ei araeth a'r penderfyniad argraph ar y Tŷ.

Yn senedd-dymmor 1870, arddangosodd ddyddordeb anarferol yn y Ddeddf Addysg Elfenol —mesur a gyflwynwyd i'r senedd, ar ran y llywodraeth, gan Mr. Foster yr 17eg o Chwefror. Darparai y ddeddf hon ar gyfer gwell addysg i'r bobl trwy offerynoliaeth yr Ysgolion Gwirfoddol oedd mewn bod eisoes, a thrwy y sefydliad o Ysgolion y Byrddau. Tra yr oedd y mesur pwysig hwn o flaen pwyllgor y tŷ, cynnygiodd Mr. H. Richard benderfyniad i'r perwyl a ganlyn:—

'Na ddylai rhoddion (*grants*) tuag at ysgolion enwadol gael eu cynnyddu; ac mewn unrhyw gyfundrefn o addysg elfenol, y dylai presennoldeb y plant fod yn oifodol yn mhob man; ac y dylai addysg grefyddol gael ei gweinyddu trwy ymdrechion gwirfoddol, ac nid ar draul y cyllid cyhoeddus.'

Yr oedd efe yn wrthwynebol i gynllun y llywodraeth, am ei fod yn amcanu gwneuthur addysg y bobl yn enwadol, ac am osod y draul o hyny ar ysgwyddau y trethdalwyr.

Yn 1871, dygwyd Mesur Claddu ger bron y Tŷ gan Mr. Osborne Morgan. Amcan y mesur hwn oedd agor y mynwentydd plwyfol i Ymneillduwyr, fel y gallent gael gwasanaeth eu gweinidogion eu hunain mewn claddedigaethau. Rhoddodd Mr. Richard gefnogaeth gysson i'r mesur ar bob achlysur y bu ger bron y Tŷ. Cefnogodd y cynnygiad i gyfreithloni priodas â chwaer gwraig drangcedig; hefyd, benderfyniad Mr. Osborne Morgan yn condemnio penodiad Mr. Homersham Cox yn farnwr y Cwrt Bach yn Nghanolbarth Cymru, o herwydd ei analluu i siarad a deall Cymraeg; Mesur Addysg i Ysgotland; Mesur Rheoleiddiad y Mwnfeydd; ac amryw o fesurau pwysig eraill.

Ar eu dychweliad o wledydd Ewrop, yn y fl. 1873—lle y bu yn hyrwyddo amcanion y Gymdeithas Heddwch—rhoddwyd iddo dderbyniad tywysogaidd gan nifer o'i gyfeillion. Cymmerodd y cyfarfod croesawu le yn Llundain, o dan lywyddiaeth Syr John Puleston, A.S. Yn ystod y gweithrediadau, cyflwynwyd iddo gan Mr. Stephen Evans, ar ran y genedl Gymreig, anerchiad llongyfarchiadol, ac o ddiolchgarwch am ei lafur o blaid Heddwch.

Dychwelwyd Mr. Richard dros Ferthyr i senedd newydd 1874 gyda mwyafrif sylweddol. Yn y senedd hon, ar y 10fed o Fehefin, dygodd fesur i mewn oedd â'i amcan i ddiwygio Deddf Addysg Elfenol Mr. Foster—yn fwyaf neillduol o berthynas i'r pwngc o addysg grefyddol yn yr ysgolion. Yn yr ymraniad, gwrthodwyd ef trwy fwyafrif o 373, yn erbyn 128.

Wrth fyned heibio, gweddus ydyw hysbysu ddarfod i Mr. Richard, yn Medi, 1874, fyned ar daith i Geneva, i ddwy gyngres bwysig oedd i ymdrin â'r cwestiwn o Gyfreithiau Rhyngwladwriaethol. Yn 1875, cyflwynodd Mr. G. Osborne Morgan ei Fesur Claddu etto i'r Tŷ. a chefnogwyd ef gan Mr. Richard. Gwrthodwyd ei basio y waith hon etto. Yn Mai, 1877, etholwyd Mr. Richard i'r swydd bwysig ac anrhydeddus o gadeirydd Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru, fel olynydd i Dr. Aveling. Pwngc ei anerchiad o'r gadair oedd, 'Perthynas Galluoedd Gwladol ac Ysbrydol yn ngwahanol wledydd Ewrop.' Cymmerodd ragolwg yn yr anerchiad hwn ar sefyllfa eglwysig yr holl Gyfandir, gan ymwneyd mewn modd neillduol â pherthynasau yr Eglwys â'r gwladwriaethau yn Ffraingc, yr Almaen, yr Eidal, Awstria, Belgium, a Switzerland. Etholwyd ef i'r gadair ar achlysur arall; yr hyn sydd brawf iddo roddi pob boddlonrwydd yn ystod tymmor cyntaf ei swyddogaeth.

Cymmerodd ran fywiog, hefyd, yn nadleuon Tŷ y Cyffredin yn 1878—79, ar y Cwestiwn Dwyreiniol, ac ar y rhyfeloedd yn Affghanistan a Zululand. Condemniodd, yn y modd mwyaf diarbed, y duedd filwrol a nodweddai yr oes; ac ymosododd yn llym ar y llywodraeth am wario cymmaint o arian y wlad i gyfnerthu y fyddin a'r llynges, ac i gario yn mlaen y cwerylon dianghenrhaid hyny.

Yn senedd-dymmor 1880, cynnygiwyd ail ddarlleniad mesur Mr. John Roberts—yr aelod dros fwrdeisdrefi sir Fflint—yn ffafr Cau y Tafarnau ar y Sabbath yn Nghymru. Eiliwyd y cynnygiad gan Mr. Richard mewn araeth gref a hyawdl; a chan na wrthwynebwyd y mesur gan y llywodraeth, darllenwyd ef yr ail waith; ac yn ddilynol, pasiwyd ef yn ddeddf.

Helynt seneddol arall y bu ganddo ran ynddo oedd gweinyddiad y llw i Mr. Bradlaugh. Bu dadleuon brwd, a golygfeydd ystormus, yn y Tŷ ynghylch y priodoldeb o dderbyn Bradlaugh i mewn fel aelod. Er nas gallai efe oddef am foment syniadau Mr. Bradlaugh ar y Bod o Dduw, a chwestiynau cyffelyb, etto efe ydoedd genau Anghydffurfwyr y Tŷ ar y mater; a chan fod diddymiad y llw yn achos Mr. Bradlaugh yn ymddangos iddo yn gam pwysig yn nghyfeiriad rhyddid gwladol, rhoes ei gefnogaeth yn galonog i benderfyniad Mr. Gladstone; yr hwn benderfyniad, yn y diwedd, a agorodd ddrysau senedd y deyrnas i Mr. Bradlaugh. Yn y tymmor hwn, cafodd Mesur y Claddedigaethau ei basio trwy bwyllgor; ac yn lled fuan wedi hyny, cafodd Mr. Richard y boddhâd o'i weled yn cael ei osod ar ddeddflyfrau y deyrnas.

Digitized by Google

Ymwelodd, fel un o aelodau y Ddirprwyaeth yr oedd Arglwydd Aberdâr yn gadeirydd arni, â gwahanol ranau Cymru i wneyd ymchwiliad i sefyllfa addysg yn y wlad. Aelodau eraill y Ddirprwyaeth oedd yr Is-iarll Emlyn, y Proffeswr Rhys, a Mr. Lewis Morris.

Ar derfyn yr eisteddiad hwn, yn 1883, ymwelodd Mr. Richard â'r Eidal; a chymmerwyd mantais ar ei arosiad yno gan Gyfrinfeydd y Maswniaid trwy yr holl wlad i'w anrhegu âg anerchiad, yn dadgan cymmeradwyaeth o'i ymdrechion diflino yn mhlaid heddwch. Ac ar ei ddychweliad i Loegr, ymwelodd â'i etholwyr, yn ol ei arfer.

Ar yr 8fed o Fawrth, 1886, dygwyd y cwestiwn o Ddadgyssylltiad yr Eglwys yn Nghymru ger bron y senedd gan Mr. L. Ll. Dillwyn. Cynnygiodd Mr. Dillwyn benderfyniad ar yr achos; ac eiliwyd ef mewn araeth alluog gan Mr. H. Richard. Baich mawr ei araeth oedd dangos nad oedd Eglwys Loegr yn Nghymru, ac na bu hi erioed, yn wir Eglwys y genedl Gymreig. Yn y cyssylltiad hwn, o bossibl, y dylid cyfeirio at y gwasanaeth gwerthfawr a roddodd Mr. H. Richard i achos Cydraddoldeb Crefyddol fel aelod o bwyllgor gweithiol Cymdeithas Rhyddhâd Crefydd. Pleidiwr mwy galluog ac aiddgar i ddadsefydliad, ni bu gan y gymdeithas hono erioed. Ond bu raid iddo fyned adref i dderbyn ei wobr cyn gweled dadsefydliad a dadwaddoliad yn weithredol wedi cymmeryd lle. Gwyddom yn dda na roddasai dim amgen na diddymiad rhyfel fwy o lawenydd i'w galon na gweled barn Ymneillduwyr a Rhyddfrydwyr Cymru wedi ei chario allan i fuddugoliaeth lwyr.

Yn Mai, 1885, ymneillduodd ein cydwladwr o'r swydd o ysgrifenydd y Gymdeithas Heddwch, wedi bod ynddi am yr ysbaid maith o 37ain mlynedd. Talwyd gwarogaeth uchel i'w allu, ei ffyddlondeb, a'i yni yn mhlaid heddwch gan bwyllgor gweithiol y gymdeithas. Gwnaed yr un peth, hefyd, gan y chwaer gymdeithas yn Ffraingc.

Yr araeth fawr ddiweddaf a draddodwyd ganddo yn y senedd oedd ar y 19eg o Fawrth, 1886; ac er ei fod yn bresennol yn y Tŷ yn eisteddiadau tymmhorau 1887 ac 1888, ac er yn parhau i deimlo y dyddordeb mwyaf mewn cwestiynau cyhoeddus, gorfodid ef, o herwydd gwanychiad ei nerth, i ymattal rhag siarad yn gyhoeddus arnynt. Erbyn diwedd tymmor 1888—y flwyddyn olaf y bu fyw—dioddefai yn fawr oddi wrth anhwyldeb neu glefyd y galon. Cymmerwyd ef gan Mrs. Richard ar ymweliad â'i hen gyfaill, Mr. Richard Davies, Treborth—y cyn-aelod seneddol dros sir Fôn; ac yno y bu farw Awst 20fed, 1888, yn 74ain mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion y dydd Gwener canlynol, yn Nghladdfa Abney Park, Llundain, yn nghanol arddangosiadau cyffredinol o alar a pharch.

Cyfeiriwyd mewn modd neillduol at ei farwolaeth gan Mr. Gladstone yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynnaliwyd yn Ngwrecsam yn mhen ychydig amser ar ol hyny; a thalodd iddo deyrnged uchel fel un o'r dynion cywiraf, ac un o'r Cristionogion disgleiriaf a adnabyddodd efe erioed.

ROBERTS, Parch. R. D., o Lwynhendy:—gweinidog adnabyddus ac enwog gyda'r Bedyddwyr, ac un a deithiodd lawer yn y De a'r Gogledd. Ganwyd ef yn Foel-garn, Llanberis, yn sir Gaernarfon, Tach. 20fed, 1820; a thyfodd i fyny yn nghanol arddunedd golygfeydd rhamantus yr Eryri; ac y mae yn dra thebygol eu bod, i raddau pell, wedi dylanwadu ar ei dueddiadau meddyliol trwy holl flynyddoedd ei fywyd. Yr oedd ei dad yn dyddynwr bychan, ac ar y blaen yn un o'r chwarelau; ac fel y mwyafrif o fechgyn yr ardal, anfonwyd yntau i'r chwarel. O herwydd hyn, ychydig o fanteision addysg fydol a gafodd efe yn nhymmor ieuengctid; ond yr oedd ei fanteision crefyddol yn lliosog; ac y mae yn ymddangos iddo yntau wneyd defnydd priodol o honynt. Ymddengys y byddai rhai o brif bregethwyr yr enwad yn arfer ymweled âg ardal Dinorwig; ac yn eu mysg Christmas Evans, Thomas Evans, Llanfachraeth; Dr. Morgan, Caergybi; Simon James, &c., &c. Gweinidogaeth nerthol Thomas Evans a barodd i Roberts ieuangc ymuno â'r gymdeithas eglwysig yn Sardis, pan nad oedd ond deuddeg oed. Pan yn ei fedyddio, yn mhen amser ar ol hyn, dywedodd Thomas Evans ar gyhoedd, fod rhywbeth yn y bachgen a barai iddo ef feddwl y byddai yn bregethwr. Ac felly y bu.

Trwy ddarllen y Beibl, ac efrydu llyfrau da, daeth yn lled gydnabyddus â golygiadau duwinyddol yr oes. Yr unig sefydliad athrofaol yn Nghymru a berthynai i'r Bedyddwyr ar y pryd oedd Athrofa Pont-y-pool—ac fe wnaeth Mr. Roberts gais am fynediad i mewn iddi. Ond cafodd ei gais ei wrthod, fel ceisiadau llawer eraill o'r Gogledd—mae'n debyg, am nas gallai eglwysi gwan y Gogledd gystadlu âg eglwysi y De yn eu casgliadau at gynnal yr athrofa. Penderfynodd yntau nad oedd dim i'w wneyd ond ymegnïo heb fyned i'r athrofa; ac agorodd drws y weinidogaeth iddo. Bu am dymmor yn llafurio yn Lloegr; ond aeth yn ol i Lanberis, ac ordeiniwyd ef yn weinidog ar Sardis, ei fam-eglwys. Nid oedd efe y pryd hwnw ond 24ain mlwydd oed.

O Sardis, symmudodd i Bontllyfni, a Llanaelhaiarn, yn yr un sir; oddi yno, drachefn, aeth i Lanfachraeth, yn Môn. Cymmerodd y symmudiad olaf hwn le yn y fl. 1848; ac am ysbaid o wyth mlynedd, bu yn llafurio yn ddiwyd yno, ac yn pregethu gyda dylanwad mawr. Tra yno, daeth yn adnabyddus fel pregethwr nerthol a phoblogaidd. Tua'r fl. 1856, talodd ymweliad â'r Deheudir; ac mewn canlyniad, derbyniodd alwad oddi wrth dair o eglwysi o ddeutu yr un adeg. Wedi llawer o betrusder, derbyniodd eiddo eglwys y Tabernacl, Merthyr. Arosodd yno am wyth mlynedd, a bu ei weinidogaeth yn hynod lwyddiannus. Yn 1863, cafodd alwad o Soar, Llwynhendy, a derbyniodd hi; ac yno y treuliodd weddill ei fywyd. Tra yno, daeth yn enwog trwy Gymru fel pregethwr grymus a phoblogaidd; a daeth yr enw 'Roberts, Llwynhendy,' yn adnabyddus trwy holl gyrau y Dywysogaeth. Bu yr undeb rhyngddo âg eglwys Soar yn hynod o lwyddiannus a thangnefeddus. Ymneillduodd o'r weinidogaeth yn y fl. 1887, mewn canlyniad i afiechyd; a gadawodd gapel a gynnwysai fil o eisteddleoedd. Yr oedd yr eglwys yn un o'r rhai lliosocaf yn y Deheu; a chynnyddodd o 109 i 650 mewn rhifedi. Ar ei ymddiswyddiad, anrhegodd yr eglwys ef â'i ddarlun, gydag anerchiad a chadair, fel arwydd o'u parch tuag ato, a'u hedmygedd o hono. Bu farw Mai 15fed, 1883, yn 79ain mlwydd oed; a chladdwyd ei weddillion yn mynwent Soar.

Digitized by Google

Fel dyn, yr oedd Mr. Roberts yn nodedig yn mysg ei frodyr am ei hynawsedd, ei lariedddra, a'i foneddigeiddrwydd. Nodweddid ef fel gweinidog gan fawr ofal am ei braidd, a chan ffyddlondeb a doethineb; a chadwodd ei gymmeriad fel gweinidog yn ddilychwin a dilwgr am chwarter canrif.

Ond gan nad beth oedd rhagoriaethau ei gymmeriad fel dyn, ac fel gweinidog, fel pregethwr hyawdl, nerthol, a dylanwadol, y daeth ei enw mor hysbys. Meddai ar ddawn ymadrodd nodedig. Siaradai gyda'r rhwyddineb mwyaf—yr oedd ei lais hefyd yn soniarus, yn ystwyth, a pheraidd. Yn chwanegol at hyn, yr oedd yn meddu ar ddeall cryf, dychymyg bywiog, barn aeddfed, chwaeth gywir, a gwybodaeth Ysgrythyrol ëang; a chyda hyn yr oedd yn dduwinydd rhagorol hefyd. Rhwng pob peth, daeth i gael ei gydnabod yn un o bregethwyr mwyaf grymus enwad y Bedyddwyr yn Nghymru.

ROBERTS, RICHARD (*Bardd Treflys*). Ganwyd ef yn Ngarth Morthin, plwyf Treflys, yn y fl. 1818. Enwau ei rieni oedd Thomas a Mary Roberts—aelodau dichlynaidd gyda'r Trefnyddion Calvinaidd. Pan yr oedd efe yn bur ieuangc, symmudodd i'r Tŷ Mawr, o fewn yr un plwyf, at ewythr iddo, yr hwn a'i mabwysiadodd; a daeth cyn bo hir yn ddeiliad. Wedi tyfu i fyny, daeth yn ŵr hynod mewn amryw ystyron.

Yr oedd yn feddiannol ar feddwl cryf; ac nid hir y bu cyn rhoddi argraph ar yr ardal mai nid un o gyffrediniaid y fro oedd efe. Adnabyddid ef trwy y wlad fel bardd lled wych. Nis gellir ei restru yn mhlith y prif-feirdd; ni ennillodd lawer o wobrau yn yr eisteddfodau cenedlaethol; ond yr oedd yr awen, er hyny, yn gref ynddo. Cyfansoddodd lawer darn godidog o farddoniaeth yn ei ddydd, y rhai sydd yn lled debyg o fyw am amser maith i ddyfod. Un cyfansoddiad neillduol o'i eiddo ydyw 'Cân y Palm Oil,' yr hon a achlysurwyd trwy fod llong llwythog o'r olew wedi myned yn ddrylliau ar Sarn Badrig, Ionawr 14eg, 1849. Yn mysg eraill o gyfansoddiadau barddonol Richard Roberts, gellir enwi 'Y Teithiwr ar y Mynydd,' 'Prophwydoliaeth am aelodau Cymdeithas Cefn-y-Meusydd,' a 'Phengryniaid Eifionydd.'

Heb law ei ddawn farddonol, yr oedd Richard Roberts hefyd yn llenor da, ac yn Gristion gloyw. Bu farw Mehefin 19eg, 1876, yn 58ain mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Treflys.

ROWLAND, PARCH. THOMAS, periglor Rhuddlan, ac awdwr y *Grammadeg Cymraeg* sydd ar ei enw. Ystyrir y gwaith hwn yn mysg goreuon ein grammadegau. Ganwyd ef yn Llanfor, ger y Bala, yn y fl. 1824. Ni chafodd fanteision addysg foreuol uwch law y cyffredin o'i gyfoedion; ond erbyn y flwyddyn 1854, daeth i fod yn glerigwr yn yr Eglwys Sefydledig.

Wedi bod yn gwasanaethu fel curad yn Llansantffraid Glyn Dyfrdwy, a Llanrwst, pennodwyd ef gan yr Esgob Short, yn 1856, i reithoriaeth Pennant Melangell. Synwyd llawer fod yr Esgob Short wedi rhoddi iddo ddyrchafiad mor fuan ar ei yrfa weinidogaethol. Ychydig o glod y gellir ei roddi i'r esgob hwn fel noddwr bywoliaethau eglwysig. Mewn erthygl dda, a ysgrifenwyd gan y diweddar Glanffrwd, ceir fod Dr. Short yn dra hoff o osod Saeson yn glerigwyr mewn plwyfydd Cymreig hollol, am ei fod yn awyddu yn fawr i ddwyn o amgylch ddydd trangc yr iaith Gymraeg. Dyma un rheswm, medd Glanffrwd, pa ham y cadwodd efe yr anfarwol Ieuan Glan Geirionydd o fywoliaethau braisg yr Eglwys yn Nghymru. Modd bynag, anghofiodd ei elyniaeth yn achos Rowland, a rhoddodd ef mewn bywoliaeth ddymunol yn mhen dwy flynedd wedi ei ordeiniad. Yr oedd Rowland, yn y fl. 1853, wedi cyhoeddi ei rammadeg; ac y mae'n debyg fod a fyno hyn gryn lawer â'r pennodiad. Dyma fel y dywed Glanffrwd: — 'Cafodd *Grammadeg Rowland* fwy o effaith ar Short nag a gafodd holl farddoniaeth ac ysgrifeniadau gwerthfawr Glan Geirionydd. Pell ydym o feio yr esgob am ddyrchafu ychydig ar Mr. Rowland; ond nis gellir ei ganmawl am anghofio rhagoriaethau Glan Geirionydd.'

Dyn bychan, eiddil, a llwyd, o gorph, oedd Rowland; a phrin y tybiasai neb, wrth edrych arno, ei fod yn feddiannol ar feddwl mor rymus, ac athrylith mor ddisglaer. Yn 1857, dygodd allan ail argraphiad o'i *Rammadeg*, a thrydydd argraphiad yn 1865. Heb law y *Grammadeg*, cyhoeddodd, yn 1870, *Exercises, Welsh and English, adapted to Rowland's Grammar;* ac ysgrifenwyd Agoriad i'r gwaith hwn gan Sais; sef, Mr. William Farren, o Lundain. Ymddengys fod rhai dynion enwog yn Lloegr a'r Cyfandir yn ymohebu â Mr. Rowland; ac yn eu mysg, gellir enwi M. de Gael, o Paris, a Syr Erasmus Williams; y rhai, lawer gwaith, a anfonasant wahoddiad taer iddo i ymweled â hwy. Gwrthododd y ceisiadau hyn, am ei fod yn wrthwynebol i fyned oddi cartref. Bu unwaith ar daith yn Llydaw, gyda'r neges arbenig o gasglu gwybodaeth yn mherthynas i'w *Rammadeg*.

Bu am tua deng mlynedd yn dal swydd dan Fwrdd yr *Ordnance Survey*—i'r hon y pennodwyd ef, yn benaf, fel y gallai gywiro enwau lleoedd yn Nghymru ar eu mapiau.

Wedi dal bywoliaeth Pennant Melangell am amryw flynyddoedd, pennodwyd ef i ficeriaeth Rhuddlan. Yr oedd hyn yn gryn ddyrchafiad iddo; ond nid yn agos yr hyn a haeddai, ac a deilyngai. Pennodwyd llawer o glerigwyr llai galluog nag efe i swyddi braisg canoniaid ac archddiaconiaid; ond bu raid iddo ef foddloni ar farw yn barson'plwyf. Pan yr oedd ei iechyd yn diffygio, a'i nerth yn pallu, gwelodd ei blwyfolion nas gallai efe gyflawni ei ddyledswyddau plwyfol; ac anfonasant gais at y Dirprwywyr Eglwysig am gynnorthwy iddo. Ond gwrthodasant hyd yn oed dalu cyflog curad er ei gynnorthwyo, na chaniatau ceiniog at gynnal un yn y lle! O herwydd hyn, parhaodd i wanychu dan bwys ei lafur. Aeth yn waelach waelach hyd yr 17eg o Ebrill, 1884—pan y tynodd ei gŵys i'r pen. Bu farw yn heddychlawn, ac mewn tangnefedd, a chladdwyd ef yn mynwent Rhuddlan.

ROBERTS, JOHN, Llangwm. Gweinidog enwog perthynol i'r Methodistiaid Calvinaidd oedd y gŵr hwn. Mab oedd i Robert Thomas a Catherine Jones, o'r Ffrith, Bala-deulyn, yn mhlwyf Llanllyfni, yn sir Gaernarfon. Ganwyd ef yn y fl. 1753. John oedd yr hynaf o driar-ddeg o blant; ac yr oedd efe yn frawd i'r

Digitized by Google

seraph-bregethwr, Robert Roberts, o Glynnog; ac yn naw mlynedd hynach nag ef. Yr oedd eu tad, Robert Thomas, yn wrthwynebol iawn i grefydd yn y rhan gyntaf o'i oes; ond cafodd ei argyhoeddi yn ddwys o dan weinidogaeth un o'r hen bregethwyr cyntaf fyddai yn teithio y wlad i gyhoeddi gair y cymmod; ac yn mhen amser, efe a ymunodd â'r ychydig grefyddwyr oedd wedi ymffurfio yn eglwys mewn lle o'r enw Buarthe; a dechreuodd ymosod ar y gwaith angenrheidiol o ddysgu ei blant i ddarllen. Cadwai fath o ysgol gyda hwy ar y Sabbothau, ac ar nosweithiau yr wythnos hefyd. Y mae Cymru yn ddyledus hyd heddyw iddo am y llafur hwn, gan y bu yn foddion i wneyd ei ran i barotoi y ddau frawd, John Roberts a Robert Roberts, i weinidogaeth yr efengyl:—gwŷr a wnaethant wasanaeth mawr i gyfundeb y Methodistiaid, ac i'w cenedl. Y mae llawer o ddisgynyddion R. Thomas a Catherine Jones yn weinidogion o radd uchel gyda chrefydd.

Ymunodd John Roberts â'r eglwys fechan yn y Buarthe pan yn ddwy-ar-bymtheg oed. Dechreuodd bregethu tua'r fl. 1779, pan tua chwech ar hugain oed; a bu yn y weinidogaeth am 55ain o flynyddoedd. Wedi bod yn cadw ysgol ddyddiol mewn rhai manau yn ei sir enedigol, symmudodd John Roberts yn lled gynnar ar ei fywyd gweinidogaethol o sir Gaernarfon i Langwm—yr hwn le sydd yn perthyn i gyfarfod misol sir Feirionydd. Yr oedd efe yn un o'r naw pregethwr a ddewiswyd i'w hordeinio yn y neillduad cyntaf fu gan y Methodistiaid Calvinaidd yn y fl. 1811; yr hyn a gymmerodd le yn Nghymdeithasfa y Bala. Yr oedd Mr. Charles ac yntau yn perthyn i'r un cyfarfod misol, ac yn gyfeillion mawr.

Bu John Roberts yn offeryn i sefydlu achosion crefyddol mewn llawer ardal. Teithiodd ar hyd a lled y Gogledd a'r De i bregethu; a byddai yn wastad yn pregethu yn y prif gymmanfaoedd yn y ddwy dalaeth, ac yn cymmeryd rhan gyhoeddus yn ordeiniad brodyr eraill. Ystyrid ef yn dduwinydd da; ac yr oedd wedi darllen llawer ar weithiau y Puritaniaid. Bu ganddo ran yn ffurfiad *Cyffes Ffydd* y cyfundeb; ac yr oedd yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf a gynnaliwyd yn mherthynas iddo, cynnwysedig o gynnrychiolwyr y De a'r Gogledd (gweinidogion), yn Aberystwyth yn y fl. 1822. Bu yn offeryn hefyd i ddwyn yn mlaen Weithred Gyfansoddiadol y cyfundeb, yr hon a gwblhawyd yn y fl. 1826. Mab i John Roberts, Llangwm, oedd y Parch. Michael Roberts, Pwllheli; trwy weinidogaeth dreiddgar ac effeithiol yr hwn, yn y cynnulliadau mwyaf lliosog, y dylanwadwyd yn fawr ar y wlad.

Ar ol blynyddoedd meithion o lafur dïorphwys a diflino yn 'ngwinllan ei Arglwydd,' bu y gwas ffyddlawn hwn farw Tachwedd 3ydd, 1834, yn 82ain mlwydd oed. Pan ofynodd ei fab, Michael Roberts, iddo, ychydig cyn iddo farw, pa fodd yr oedd y frwydr yn troi yn ei ymdrech olaf âg angeu? efe a attebodd. 'Mae'r frwydr wedi ei hennill er's llawer dydd ar Galfaria!' Tachwedd 5ed, yn yr addoldŷ ger llaw ffermdŷ Cefnamnau, Llangwm, pregethwyd ar yr achlysur gan ei hen gyfaill, y Parch. John Davies, Nantglyn, oddi ar 2 *Tim.* iv. 6, 7, 8. A thranoeth, yn yr un addoldŷ, pregethodd y Parchn. Thomas Ellis, oddi ar *Heb.* xiii., a John Davies oddi ar 1 *Cor.* xv. 58. Claddwyd ei weddillion yn mynwent eglwys Llangwm, a dilynwyd ei lwch o'r tŷ i'r gladdfa gan gynnulleidfa fawr.

ROBERTS, PETER, Llansannan. Gweinidog defnyddiol a chymmeradwy gyda'r Trefnyddion Calvinaidd oedd efe. Ganwyd ef yn y fl. 1771, mewn ffermdŷ yn mhlwyf Llansannan, o'r enw Bryn-anllech. Efe oedd unig blentyn ei rïeni, John ac Anne Roberts. Dechreuodd bregethu yn y fl. 1794. Yr oedd ei rïeni yn grefyddol, ac yn aelodau ffyddlawn yn hen eglwys Tan-y-fron; yr hwn gapel a adeiladwyd yn y fl. 1772. Hwn oedd un o'r capeli cyntaf yn sir Ddinbych. Dysgasant eu mab i ddarllen Cymraeg gartref; ac wedi hyny anfonasant ef i ysgol waddoledig, yr hon a gedwid y pryd hwnw yn Llanfair-talhaiarn, tua phedair milldir o Lansannan. Cafodd felly fwy o fanteision addysg yn ei ieuengctid na llawer o hen bregethwyr y cyfundeb, er nad oedd efe na'i rïeni yn tybied ar y pryd y buasai yn ddefnyddiol iddo i ddybenion uwch na thrin y byd. Ymunodd â'r eglwys yn Nhan-y-fron cyn bod yn ugain oed; a da iawn oedd gan bawb weled y gŵr ieuangc dichlynaidd yn ymrestru gyda phobl yr Arglwydd. Sefydlwyd Ysgol Sabbothol yn y capel yn y fl. 1790: a bu Peter Roberts yn egnïol gyda hi. Yn fuan ar ol hyny, ymwelodd yr Arglwydd â'i bobl yno â diwygiad crefyddol nerthol; ac fe brofodd P. Roberts yn helaeth o'r dylanwadau dwyfol. Bedyddiwyd ef â'r Ysbryd Glân; a thrwy hyny fe'i parotowyd ef at y gwaith cyssegredig oedd yn ei aros; sef, cyhoeddi trefn y cymmod i bechaduriaid. Ar ol amlygu ei deimlad i henuriaid yr eglwys, llawenychasant yn fawr; a chynghorwyd ef i fyned i bregethu gyda John Davies, Nantglyn—yr hwn oedd yn byw yn yr un dosbarth o'r wlad ag efe, a'r hwn oedd wedi dechreu pregethu yn y fl. 1786. Cydsyniodd yntau âg annogaeth y brodyr; ac yn y modd yma y cychwynodd ei yrfa fel pregethwr. Priododd yn y fl. 1797, a bu fyw am beth amser yn nhref Dinbych; ond dychwelodd yn lled fuan i'w bentref genedigol; ac yn Llansannan y preswyliodd hyd derfyn ei ddyddiau.

Gan fod mwy na dwy filldir o'r Llan i gapel Tan-y-fron, a'r pentref yn lled ddigrefydd, penderfynodd Peter Roberts agor ei dŷ i gynnal moddion crefyddol; ac yn raddol, fe sefydlwyd Ysgol Sabbothol yno, a chafwyd pregethu cysson hefyd. Yn mhen ennyd, cafwyd lle helaethach a mwy cyfleus na'r tŷ annedd, yn yr hwn y cafwyd pregethu rheolaidd, ac y sefydlwyd eglwys. Yr oedd ei dŷ yn gartref i'r achos: ac yr oedd efe yn fawr ei ofal am dano yn ei holl ranau—nid yn unig yn ei gartref, ond hefyd yn y cyfarfod misol, a thrwy y wlad.

Yr oedd Peter Roberts ychydig is-law y taldra cyffredin; ond yr oedd yn ŵr golygus, ac yn fywiog yn ei symmudiadau. Yr oedd wedi darllen llawer ar weithiau goreu y Puritaniaid. O ran ei nodwedd fel pregethwr, dywedodd y Parch. Henry Rees am dano, yr hwn oedd yn perthyn i'r un eglwys ag ef y rhan gyntaf o'i oes:—'Er nad oedd Peter Roberts yn hynod am ddyfnder nac ëangder meddwl, etto teimlai ddyddordeb yn ei bwngc, ac efe a'i triniai yn bert ac yn eglur.' Cafodd ei ordeinio gydag un brawd arall o sir Feirionydd yn nhrydydd neillduad y cyfundeb, yn y Bala, yn y fl. 1815—blwyddyn brwydr Waterloo; pan y gweddiai John Jones, Treffynnon, mor hynod yn y gymdeithasfa ar ran milwyr Prydain ag oeddynt y

Digitized by Google

pryd hwnw ar faes yr ymladdfa! Er fod y tadau mor hynod gyfyng gyda chwestiwn yr ordeinio, gan fod Peter Roberts yn bregethwr cymmeradwy, ac heb fod ond tri o bregethwyr ordeiniedig yn siroedd Dinbych a Fflint, cymmhellwyd hwynt i'w neillduo ef yn mron yn gynnarach na thymmor y prawf arferol. Bu yn pregethu yn nghymdeithasfaoedd y Bala, Caernarfon, Pwllheli, ac eraill; ac ni raid dyweyd ei fod yn ŵr dylanwadol yn ei gyfarfod misol. Anfonid ef yn fynych i gynnadleddau pwysig perthynol i'r cyfundeb; ac yr oedd efe yn un o'r tri oedd yn cynnrychioli y sir ar bwyllgor ffurfiad y *Cyffes Ffydd*, yn mlynyddoedd 1821 ac 1822, &c. Bu ganddo deulu lled liosog. Mab iddo ef oedd y bardd enwog, Iorwerth Glan Aled. Yr oedd pedair o'i ferched yn briod â phedwar o weinidogion y Methodistiaid; a'r llall yn briod â blaenor adnabyddus. Lled gartrefol oedd efe yn mlynyddoedd diweddaf ei oes, gan nad oedd ei iechyd yn gryf.

Bu farw Ebrill 23ain, 1829, yn 58ain oed; a chladdwyd ef yn mynwent Llansannan.

REES, THOMAS, D.D., o Abertawe. Brodor o gymmydogaeth Capel Isaac, yn Neheudir Cymru, oedd y diweddar Dr. Rees, Abertawe. Ganwyd ef y 13eg o Ragfyr, 1815, mewn tŷ bychan dïaddurn, a chyffredin yr olwg arno, o'r enw Pen-pont-bren, yn mhlwyf Llanfynydd, a bron ar derfyn plwyf Llandilo Fawr, yn sir Gaerfyrddin. Safai y bwthyn bychan hwn o fewn rhyw ddeg llath ar hugain i fin afonig fechan, a elwid yn y fan hono 'yr Hewl;' ond y mae y tŷ wedi llwyr ddiflanu er's blynyddoedd bellach; ac nid oes nemawr, os dim, yn aros i ddynodi mangre genedigaeth y gŵr a ddringodd i'r fath amlygrwydd ac enwogrwydd yn mysg ei genedl. Enw ei dad oedd Thomas Rees, ac ar enw y tad y galwyd yntau. Enw ei fam oedd Hannah, yr hon oedd yn ferch i Dafydd a Mari William; y rhai a breswylient mewn lle o'r enw Bancyfer, yn mhlwyf Llangathan. Pobl o blwyf Myddfai yn wreiddiol oedd teulu tad ein gwron; ac ymddengys fod yn perthyn i rai o honynt lawer mwy o hynodion a neillduolion na'r cyffredin o'u cydoeswyr yn yr ardal hono. O ochr ei fam, drachefn, yr oedd Dr. Rees yn hanu o hen deulu y bu cyssylltiadau agos a phwysig rhwng amryw o honynt â'r achos crefyddol yn mhlith Ymneillduwyr Capel Isaac, flynyddoedd lawer cyn ei eni ef. Yr ydys yn gallu olrhain y teulu yn ol hyd Harri William, yn mhlwyf Llanfynydd, yr hwn oedd yn aelod o'r eglwys yn Nghapel Isaac mor foreu, os nad yn foreuach, na'r fl. 1689; ac o'r teulu hwn y cyfododd amryw fu yn addurn i bulpudau ein gwlad, heb law yr hwn y mae a fynom ni âg ef yn awr. O'r llinach hon y cododd y Parchn. D. Jones, Gwynfe; Dafydd Thomas, Penmain; J. Stephens, o'r Brychgoed; D. Stephens, Glantaf; a Noah Stephens, Liverpool, &c. Gwelir, gan hyny, fod Dr. Rees yn perthyn i deulu nid anenwog; ac er mai mewn amgylchiadau eithaf isel a chyffredin y cafodd efe ei hun ynddynt gyntaf, nis gallasai lai na manteisio ar y neillduolion a'r rhagoriaethau a berthynent i'w hynafiaid.

Gyda'i fam, ar aelwyd ei daid a'i nain yn Bancyfer, y magwyd ac y dygwyd ef i fyny. Nid oedd dim yn hynod ac anghyffredin yn ei fam. Gŵr tawel, diniwed, esmwyth, a charedig oedd ei daid—Dafydd William. Meistrolodd y gelfyddyd o wneyd esgidiau ar ol priodi, er mai mewn gwneyd llestri gwellt y rhagorai, ac yr ymhyfrydai; a thrwy ei fod yn ddyn mor onest, tawel, a charuaidd, caniateid cryn ryddid iddo gan amaethwyr y gymmydogaeth i fyned i'r meusydd a'r perthi i gasglu defnyddiau at y cyfryw. Yr oedd Mari William—nain y Dr.—yn wraig o alluoedd cryfach na'r cyffredin o'i rhyw yn yr ardal; ac y mae yn hawdd genym gredu mai ganddi hi y bu mwyaf i'w wneyd er tynu allan, a chyfeirio, a dadblygu ei alluoedd meddyliol a moesol yn nyddiau ei febyd. Arminaidd ei chredo ydoedd hi, ac â'r bobl a goleddent syniadau Arminaidd am wirioneddau yr efengyl yr ymwasgai; ond nid ydym yn deall iddi lwyddo, os gwnaeth yr ymgais, i wneyd yr ŵyr yn Armin. Llwyddodd i'w gael yn alluog i ddarllen yn gynnarach na phlant yn gyffredin; a dywedir ei fod yn dra chyfarwydd yn hanes prif gymmeriadau yr Hen Destament cyn ei fod yn saith mlwydd oed. Ei nain, yn ddïau, a'i dysgodd, a bachgen ei nain oedd; a thueddir ni i dybio y gallasai ei ddygiad i fyny ar aelwyd ac yn nghymdeithas ei daid a'i nain yn benaf, gyfrif mewn rhan am ei fod yn ymddangos, er yn blentyn, gymmaint yn hynach nag oedd mewn gwirionedd. Yr oedd ynddo rywbeth, pan yn blentyn, a'i gwahaniaethai oddi wrth blant yn gyffredin. Ymddengys mai yn arafaidd, trymaidd, ac afrosgo y symmudai pan yn fachgenyn; ac arweiniwyd rhai o'i gymmydogion i dybied nad oedd yn gwbl mor fyw ac effro a'r cyffredin o'i gyfoedion; ond mynai eraill a'i hadwaenent yn well ei fod yn mhell ar y blaen i'w gyfoedion mewn llawer o bethau. Yr oedd ganddo allu rhyfedd a nodedig, er yn blentyn, i fyned i mewn i serch a theimladau da pobl. Trwy nad oedd amgylchiadau ei fam a'r teulu ond isel, byddai raid iddo fyned allan i weithio yma a thraw yn mysg yr amaethwyr, ac elai yntau gyda'i fam yn achlysurol; ac os ceid fod ar y bwrdd rywbeth gwell na'u gilydd, byddai efe yn bur sicr o gyfran. Pan yn galw gyda'i fam mewn ffermdy ar un adeg, gofynai gwraig y tŷ yn garedig—'Hannah, a gymmer y bachgen bach doc o fara a chaws?' 'Na, diolch i ch'i: 'does eisieu dim arno,' meddai hithau. 'Mam (ebai yntau yn y fan), gadewch i wraig y tŷ wneyd fel y mŷn hi.' Prin y mae angen dyfalu pa beth a wnaeth y wraig garedig, wedi iddi glywed yr hyn oedd ganddo ef i'w ddyweyd.

Nid oedd dim yn arwynebedd a golygfeydd yr ardal y magwyd ef ynddi i dynu sylw ac i ddeffro brwdfrydedd ei thrigolion. 'Bu natur yn gynnil o'i rhoddion yn nghymmydogaeth Capel Isaac,' ebe un a fagwyd ynddi, ac mewn disgrifiad a roddai o honi flynyddoedd yn ol; 'ac y mae celfyddyd, hyd yn hyn, fel yn dramgwyddedig wrth natur, ac yn eistedd yn segur. Pan yn galw sylw at yr ardal, nid oes ynddi ysbrydoliaeth i'r arlunydd, na swyn i'r bardd. Nid oes yno ddyffrynoedd prydferth i'w harolygu, na chopäau clogwynog i'w goresgyn, na mynyddoedd i'w dringo. Y mae yno fynyddoedd, ond nid mynyddoedd mawreddog; y mae yno gaeau ŷd, ond nid oes yno wlad dda odiaeth; y mae yno gorneint bychain, ond nid oes yno raiadrau hydrwyllt.'

Nid oedd cyfleusderau addysgol a chymdeithasol y gymmydogaeth yn nyddiau mebyd y Dr. ond ychydig ac ammherffaith iawn; a phrin yr oedd y rhai a'i magent yntau mewn amgylchiadau i allu manteisio ar yr ychydig oedd yn eu



Digitized by Google

cyrhaedd. Fel yr awgrymwyd yn barod, dysgodd ddarllen Cymraeg yn gynt na'r cyffredin o blant, ac adroddai bennodau allan o'r Beibl gyda llawer o fedr a dylanwad pan yn ieuangc iawn. Yn gweled ei hoffder o lyfrau, a'i ogwydd at addysg, cynnygiodd Mr. Thomas Davies, Crossnant, dalu am chwarter o ysgol iddo; yr hyn, hefyd, a wnaeth yn garedig—ond dyna yr oll a gafodd mewn ffordd o ysgol ddyddiol! Ceir hanesyn dyddorol ac arwyddocaol ynglŷn â'i fynediad i'r ysgol y waith gyntaf. Aeth â'i *spelling-book* gydag ef; a phan y galwyd ef yn mlaen, yn ol arfer a dull y dyddiau hyny, i adrodd ei wers, cymmerodd yr athraw y llyfr o'i law, ac agorodd ef ar y wers gyntaf, gan geisio ganddo ei hadrodd. 'Yr wy' i wedi dechreu dysgu nes yn ol na hyna, syr,' ebai y dysgybl newydd.' 'B'le gallaset ti fyn'd nes yn ol na'r wers gynta'?' gofynai yr athraw yn sarug. 'Fan hyn, syr,' attebai yntau, gan droi i'r wyneb-ddalen, a chan adrodd y geiriau yn rhigl '*Spelling-book for Teaching the Rudiments of the English Language, by Charles Vyse.*' Dyna ddigon i ddangos fod yr efrydydd ieuangc yn golygu bwyta y llyfr o glawr i glawr; yr hyn, yn ddïau, a wnaeth âg ugeiniau, os nad cannoedd o lyfrau ar ol hyn. Yn niffyg moddion a chyfleusderau i ddilyn yn mlaen â'i ysgol yn mhellach nag y cynnorthwywyd ef gan y cymmydog caredig y cyfeiriwyd ato, bu mynychu gweithdŷ Morgan Morgan, y crydd, yn llawer tuag at ei dynu allan, ac awchlymu ei alluoedd a'i ddoniau. Fel llawer eraill yn yr un ardal ag ef—ac yn wir, fel llaweroedd mewn cymmydogaethau cyffelyb yn y dyddiau hyny—yr oedd tŷ y crydd, gweithdy y saer, efail y gôf, a'r felin, yn fanau y cyrchid yn aml iddynt, i siarad ac ymholi ar wahanol faterion. Dichon nad oedd pob peth a ddywedid ynddynt bob amser yn bob peth fuasai yn ddymunol; ond yn niffyg cyfleusderau a manteision addysgol y cyfnod, cynnorthwyasant i ddeffro a gloewi meddyliau aml un a gododd i enwogrwydd a bri yn mysg ein cenedl. Gan fod Morgan Morgan, y crydd, yn briod â chwaer i nain Thomas Rees, byddai raid iddo alw yno yn aml ar ryw neges neu gilydd; ac ni byddai angen cymmhell arno i fyned yno. Yr oedd Morgan Morgan yn cadw nifer o weithwyr; a cheid yn eu mysg yn gyffredin ryw un oedd wedi gweled mwy o'r wlad na'r cyffredin, ac yn gallu dyweyd mwy am dani. Yr oedd *Seren Gomer*, hefyd, yn dyfod i'w weithdy; ac ymddengys y gosodid y bachgen o Bancyfer i'w darllen hi, a phethau eraill, er lles a dyddordeb iddo ei hun, yn gystal a'r rhai a wrandawent arno. Cywirid ei ddarlleniad yn aml gan Morgan Morgan, yr hwn oedd yn ddyn mwy deallus nag odid un yn yr ardal. Ychydig, yn ddïau, a feddyliodd y gŵr da ei fod, wrth ymaflyd yn llaw y bachgenyn hwn, yn cynnorthwyo un a ddeuai yn gymmaint o allu a dylanwad yn mywyd ei wlad a'i genedl. Ac ychydig a feddylir gan bobl yn aml etto eu bod yn gwneuthur cymmaint ag a wnant mewn cyssyllfiadau cyffelyb.

Ond er mor brin ac ammherffaith oedd manteision addysgol a diwylliadol cymmydogaeth Capel Isaac ar y pryd, yr oedd yr efengyl yn cael ei phregethu, ac wedi bod yn cael ei phregethu yno am rai degau o flynyddoedd cyn hyn gyda nerth ac arddeliad; ac yr oedd yno achos Ymneillduol ac eglwys Annibynol wedi bod yn gwasgar goleuni, gwres, ac iechyd ysbrydol am dymmor hir cyn ei eni ef. Lled isel a dilewyrch oedd yr achos crefyddol yn y gymmydogaeth pan yr oedd efe yn blentyn; ond pan dyfodd i fyny yn fachgenyn o ddeutu deuddeng mlwydd oed, daeth tòn gref o ddiwygiad crefyddol dros yr ardal; ac yr oedd efe yn mysg y rhai cyntaf a gariwyd i mewn gyda hi i'r eglwys. Wedi gwrandaw pregeth effeithiol ar yr ymadrodd, 'Dos di, a'th holl dŷ, i'r arch,' gan Mr. Jones, Pantarfon, ar nos Wener, y 18fed o Gorphenaf, 1828, dychwelwyd ef, yn un o ddeg-ar-hugain, yn awyddus am gael eu hunain yn ddiogel yn yr arch. Derbyniwyd ef, cyn hir, er nad mor ddïymdroi a rhai, yn aelod cyflawn o'r eglwys. Dichon yr oedwyd ychydig ynglŷn âg ef ar gyfrif ei ieuengrwydd. Adeg hyfryd a bendigedig ynglŷn â'r gwaith crefyddol yn nghymmydogaeth Capel Isaac oedd y dyddiau hyny. Cyn y diwygiad hwnw, nid oedd nifer aelodau yr eglwys yn y lle ond o ddeutu trigain; ond yn mhen naw mis wedi i'r diwygiad dori allan, yr oeddynt yn rhifo dros dri chant. Plentyn y diwygiad oedd Dr. Rees; a bu ei ddelw arno ar hyd ei oes. Yn mhen tua dwy flynedd ar ol y diwygiad, ac yn gynnyrch iddo, fel y mae yn amlwg i ni, codwyd amryw i bregethu gan yr eglwys; ond nid oedd Thomas Rees yn un o honynt, er ei fod yn llawn mor awyddus, os nad mor gymmhwys ag un o honynt at y fath orchwyl. Yr oedd eisoes, ac mewn gwahanol gyfeiriadau, wedi profi yn eglur fod ynddo gryn lawer mwy na'r cyffredin o ryw allu. Cyfansoddodd amryw o fân ddarnau yn nhymmor ei fachgendod ar ffurf barddoniaeth—er nad oedd ynddynt rhyw lawer o farddoniaeth. Yr oedd yn fwy o rigymwr nag o fardd, mewn gwirionedd. Er enghraifft, yr oedd yn cynnorthwyo ychydig i gywain gwair ar adeg cynhauaf, gyda Mr. Davies, Crossnant, a gosodwyd ef i arwain y gaseg; ond trwy ryw esgeulusdra neu anfedrusrwydd o'i eiddo, rhedodd y gaseg, a dymchwelwyd y càr llusg yn y bwlch; ac fel hyn yr ymesgusodai yn wyneb yr anffawd:—

'Mi godais heddyw'n foreu,
A mhlaned i oedd dôst,
Y gaseg goch a redodd,
A'r càr aeth am y pôst.'

Diangodd yn weddol ddigerydd yn nghysgod y llinellau yma ar y pryd. Nid ydym yn tybied fod yr awen at farddoni yn gref ynddo; ond pe gwrteithiasai hi, y mae'n debyg y gwnai efe farwnadwr rhagorol. Yr oedd yn emynwr gwych iawn, ac fe gyfansoddodd amryw emynau yn ei oes sydd yn bur sicr o fyw:—y rhai a gyhoeddwyd yn *Emynau y Cyssegr*, a gyhoeddwyd yn y swyddfa hon.

Ond i ddychwelyd at ei godiad i bregethu:—lled araf a hwyrfrydig y buwyd yn agor drws y pulpud iddo. Er y teimlid ac y cydnabyddid ei fod yn meddu ar alluoedd a doniau a'i hynodent yn mysg ei gydnabod a'i gyfoedion, ac er nas gallesid dwyn unrhyw gŵyn yn erbyn ei gymmeriad moesol, a'i ffyddlondeb gyda chrefydd, yr oedd amryw bethau, fel yr ymddengys, yn peri fod yr hen frodyr yn Nghapel Isaac yn hwyrfrydig. Yn un peth, yr oedd yn ieuangc mewn dyddiau i feddwl ei ddodi i ddechreu pregethu, er ei fod yn ymddangos yn llawer hynach nag oedd. Peth arall: yr oedd llawer o honynt wedi myned i feddwl nad oedd ynddo hoffder at waith—yn wir, ei fod yn ddïog. Y mae yn rhaid addef nad oedd ganddo rhyw lawer o flâs at orchwylion cyffredin bywyd. Fel

Digitized by Google

y sylwyd genym yn barod, ar aelwyd ei daid a'i nain y magwyd ef; ac y mae yn eithaf possibl iddo gael ar y mwyaf o foethau ganddynt. Dilyn ei daid, a'i helpu ef mewn gwneyd llestri gwellt; a throi allan yn y cynhauaf, ac ar adegau eraill o brysurdeb, i gynnorthwyo amaethwyr y byddai efe. Dïau y buasai yn well ar ei les ef ei hun, a buasai yn sefyll llawer yn uwch yn marn y gymmydogaeth, pe buasai wedi cael ei rwymo a'i gadw yn fwy cysson gyda rhyw orchwyl neillduol. Yr oedd, er hyny, yn gymmeriad a fawr hoffid gan bawb; ac yr oedd ei ddiniweidrwydd hollol, a'r mesur o ryw wreiddioldeb dyddan a berthynai iddo, yn ei wneyd yn gyfryw nas gallasai fod gan neb unrhyw ddrwg ewyllys ato. Meddai ar allu nodedig i dynu pobl ato, ac i ganiatau iddo gael yr hyn a ddymunai ganddynt. Yr oedd yn ddwfn hefyd yn nheimladau caredig pobl ieuaingc yr eglwys; ond yr oedd rhai o'r hen bobl yn teimlo yn bur gryf yn erbyn ei godi i bregethu; ac nid oedd gweinidog yr eglwys, ar y pryd, nemawr yn fwy ffafriol iddo. Pan yr amlygodd iddo unwaith ei awydd i bregethu, yr attebiad a gafodd oedd—'Wel, gweyd y mae nhŵ dy fod di yn ddïog—na weithi di ddim.' 'Gwnawn, syr (ebai yntau), ond i mi gael gwaith sy'n y nharo i.' Ië, ond iddo gael y gwaith oedd yn ei daraw; a phwy weithiodd erioed gydag unrhyw egni a llewyrch os na byddai y gwaith yn ei daraw? Pregethu oedd yn esgyrn y llangc, a phregethu a fynai er pob gwrthwynebiad. Yr oedd hi ynddo; a chyn hir iawn wedi hyny, fe ganiatawyd iddo—rhwng bodd ac anfodd—gael dangos beth a allai wneyd yn y cyfeiriad hwn. Ar nos Wener, Mawrth 2il, 1832, y traddododd ei bregeth gyntaf; a hyny yn nhŷ un o'r enw Thomas Dyer. Nid oedd ond dwy-ar-bymtheg oed pan y dechreuodd ar 'y gwaith oedd yn ei daraw.' Testyn ei bregeth gyntaf oedd yr adnod fawr a chyfoethog hono—'Canys felly y carodd Duw y byd,' &c.; a dywedir mai o weithiau Azariah Shadrach, yn benaf, os nad yn gyfangwbl, y cafodd efe ei bregeth gyntaf. Chwareu teg iddo:—beth a allasai un o'i oedran, ei fanteision, a'i brofiad, wneyd yn well na syrthio yn ol ar y fath gynnorthwy ar ddechreuad ei yrfa bregethwrol? Os nad oedd yn ymdeimlo ei fod yn meddu gallu ei hun i wneyd a chynnyrchu yr hyn fuasai yn ddymunol ganddo ei draddodi i'w gyd-ddynion, dangosodd yn eglur, a hyny wrth gychwyn, ei fod yn meddu llygad i weled, a chalon i deimlo, yr hyn oedd yn werth ei gyhoeddi. Ond tra yr ystyriwn ei bod yn eithaf esgusodol i ddyn ieuangc yn ei ymgeisiadau cyntaf at bregethu i fenthyca defnyddiau oddi wrth eraill at ei waith, goreu po cyntaf iddo ddyfod i ddysgu cerdded ei hun. Trodd yr ymgais cyntaf at bregethu—yn nhŷ T. Dyer y noson hono—allan yn dra boddhaol; ac o hyny allan, cydnabyddwyd ef yn bregethwr rheolaidd, a chaniatawyd iddo ryddid i bregethu pa le bynag y gelwid am ei wasanaeth. Yr oedd rhai o'i gymdeithion a gyfodwyd i bregethu ychydig yn flaenorol iddo yn yr un eglwys, mewn ffordd ac amgylchiadau i allu myned i'r ysgol yn Rhyd-y-bont er cymmhwyso eu hunain at y gwaith yr oeddynt wedi ymaflyd ynddo; ond nid oedd efe, na'i deulu, yn amgylchiadau i allu fforddio hyny. Os oedd efe am ddyfod yn mlaen, a rhagori yn y gwaith, yr oedd yn rhaid iddo wneyd y goreu o hono ei hun, a'r ychydig fanteision oedd yn ei gyrhaedd. Nis gwyddom am neb a ddringodd mor uchel, ac a gychwynodd mor isel, ag efe; ac y mae meddwl am ei lwyddiant, yn ngwyneb y fath anfanteision, wedi ein llwyr argyhoeddi ein bod yn gosod gormod o bwys yn aml ar amgylchiadau, a rhy fychan ar y dyn.

Ymdaflodd ein gwron ar unwaith ac o ddifrif i'r gwaith o bregethu. Elai o gwmpas yn mysg ei adnabyddiaeth, a phregethai yn mhob man y ceisid ganddo; ac ni phetrusai gymmhell ei wasanaeth gyda hyny. Gwnaeth ychydig o deithiau pregethwrol byrion yn nghymdeithas brodyr oedd yn hynach ac yn fwy adnabyddus nag ef; ac yn mhen ychydig gyda blwyddyn, gwnaeth appêl at gyfarfod chwarterol ei sir am ganiatâd i fyned ar daith ei hun, ac wrtho ei hun, i Forganwg. Caniatawyd iddo gael myned; a thrwy ymarfer â phregethu yma a thraw, a chymdeithasu â phregethwyr oedd yn hynach ac yn fwy goleuedig a phrofiadol nag ef ei hun, yr oedd y pregethwr yn cynnyddu yn gyflym ac yn amlwg ynddo yntau. Hon oedd yr ysgol a gafodd efe er cymmhwyso ychydig arno ei hun i'w gylch dyfodol; ac yn sicr, ni wnaeth neb well defnydd o un ysgol nag a wnaeth efe o'r ysgol deithiol a phregethwrol hon. Un o ganlyniadau ei ymdaith cyntaf i Forganwg fu ei arwain i'r penderfyniad o symmud yno i fyw. Yr oedd iddo berthynas yn byw yn Aberdâr, o'r enw Rees Price, yr hwn a gadwai nifer o ddynion i weithio dano; a chynnygiodd waith iddo yntau, os deuai yno i aros. Felly y bu. Gadawodd yr hen aelwyd y magwyd ef arni, a'r hen gymmydogaeth y dygwyd ef i fyny ynddi, yn gynnar yn y fl. 1835, pan nad oedd ond prin ugain oed fel dyn, ac o ddeutu tair blwydd oed fel pregethwr. Wedi symmud i Aberdâr, ymaelododd yn Ebenezer. Gweithiai ar y *patches*, a llettyai ar y Llwydcoed. Nid oedd y gwaith dyddiol y gelwid arno i'w gyflawni yn un o'r gorchwylion mwyaf hyfryd i'w fath ef, oedd wedi cael ei fagu yn nghanol gwlad dawel, ac heb ei dori i mewn i waith caled, fel llawer. Ond dilynodd efe yn mlaen âg ef nes iddo gael ei ddal gan dwymyn boeth. Bu mor glaf o'r dwymyn hono fel yr ofnwyd am dano; ond o drugaredd yr Arglwydd, fe'i harbedwyd. Wedi gwella, ni ddychwelodd i weithio ar y *patches* drachefn; ond ymgymmerodd â chadw tipyn o ysgol mewn tŷ annedd ar y Llwydcoed. Yn y cyfamser, pregethai yn gysson ar y Sabbothau, os nad yn amlach; ac yr oedd ei glod fel pregethwr wedi dechreu ymdaenu yn mysg yr eglwysi. Ymddengys fod mwy nag un eglwys ar y pryd â'i llygad arno fel un a wnaethai weinidog iddynt; ond i ran yr eglwys fechan yn nghymmydogaeth Craig-y-fargod y disgynodd yr anrhydedd o'i alw gyntaf, a'i ordeinio i waith y weinidogaeth. Tra yn aros yn Aberdâr, nid oedd un man y gelwid am ei wasanaeth yn amlach na chan y frawdoliaeth fechan hono. Llwyddasant, i ddechreu, i'w berswadio i adael y Llwydcoed, ac i ddyfod yno i gadw ysgol. Gwnaeth y symmudiad hwn yn Mai, 1836; a chyn hir iawn wedi ei fynediad yno, rhoddasant iddo alwad i fod yn weinidog ar yr eglwys yn y lle. Nid oedd nifer y rhai a wnaent i fyny yr eglwys yn Nghraig-y-fargod ar y pryd, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, ond deuddeg; a'r hyn a addawent at ei gynnaliaeth, ac fel tâl am ei lafur, oedd deg swllt y mis! Yr oedd eisieu ffydd gref o bob tu i feddwl am symmud yn mlaen dan y fath amgylchiadau; ac fe allai y

Digitized by Google

meddyliasid gan ryw rai mai doethach a dïogelach i'r naill ochr a'r llall fuasai aros, ac ymbwyllo, cyn gwneuthur y fath symmudiad; ond profodd y dyfodol yn bur eglur fod yr eglwys fach hono ac yntau yn cael eu harwain gan Ben Mawr yr eglwys. Neillduwyd ef yn gyhoeddus i waith y weinidogaeth yn y lle ar y 14eg a'r 15fed o Fedi, 1836. Daeth nifer liosog o weinidogion blaenaf yr enwad yn y cwmpasoedd hyny i'r cyfarfodydd; y rhai hefyd a arwyddasant ei dyst-ysgrif cyn ymadael. Dyn ieuangc, ychydig gydag un-ar-hugain oed, oedd efe pan ordeiniwyd ef yn Nghraig-y-fargod; ac am o ddeutu dwy flynedd wedi ei ordeinio, cadwodd yn mlaen gyda gwaith yr ysgol; yr hon, gyda phethau eraill, a'i galluogai i gynnal ei hun yn weddol gysurus. Gyda'r ychydig gynnorthwy arianol a ddygai gwaith yr ysgol iddo, y mae'n amlwg iddi fod yn llawer o help iddo yn ei ymdrech i ymgydnabyddu â'r iaith Saesnig, &c.; ond ni oddefodd efe i waith yr ysgol gyfyngu nemawr, os dim, ar waith y pulpud. Pregethu oedd ei brif a'i hoff waith yr adeg hon; a gwnai hyny, nid yn unig ar y Sabbothau, ond yn aml nosweithiau yr wythnos. Dywedir nad oedd yn nghylchoedd Craig-y-fargod odid dŷ na bu efe ynddo yn pregethu ar ryw achlysur neu gilydd. Gwasanaethai yn fynych hefyd mewn eglwysi ac i gynnulleidfaoedd y tu allan i'w gylch; ac yr oedd efe yn tyfu yn gyflym mewn poblogrwydd a pharch yn mhlith ei frodyr yn y weinidogaeth, yn gystal ag yn nheimlad yr eglwysi; ac y mae yn ammheus a fu gweinidog ieuangc erioed yn fwy ffodus nag ef yn iachusrwydd dylanwad y gweinidogion a lafurient yn y cylchoedd o'i gwmpas. Disgynodd ei linynau yn yr ystyr hwn mewn lleoedd hyfryd; ac yr oedd cael cyd-lafurio â'r fath wŷr rhagorol a Rowlands, Pont-y-pool; Jones (*Cromwello Went*), Tredegar; Hughes, Dowlais, Harries, Mynydd Islwyn; Hughes, o'r Groeswen; Jones, Pen-y-bont; Griffiths, Llanharan; Stephens, Nant-y-glô; Jones, Bethesda, Merthyr; Jenkins, Salem; ac Evans, y Cymmer, yn rhwym o fod yn ysbrydiaeth i waith a daioni mewn dyn ieuangc âg ynddo fesur o ogwydd at hyny.

Yn mhen o ddeutu dwy flynedd ar ol ei ordeinio, ymunodd mewn priodas â Jane, merch i Thomas ac Anne Williams, o'r Llan, fel yr adnabyddid hwynt; a chan y Parch. H. Jones yn Saron, Tredegar, y priodwyd hwy. Cwestiwn a ofynid yn bryderus gan rai pan welsant eu bod wedi priodi, yn mha le, a pha fodd, yr oedd gweinidog ieuangc Craig-y-fargod yn myned i gadw gwraig? Yr oedd yn anhawdd i bobl a wyddent yr amgylchiadau ymattal rhag holi. Yn ffodus, yr oedd gan dad y wraig ieuangc ddau dŷ yn Mhont-aber-bargod; ac fe roddodd un o honynt i'r pâr ieuangc at fyw ynddo, a'r llall at iddynt agor masnach ynddo. Ychydig o gymhwysderau oedd yn y naill na'r llall o honynt at y fath orchwyl a hyny. Yr oeddynt yn llawer rhy ddiniwed i gyfarfod â thwyll a chyfrwysdra y byd o'u cwmpas; ac o blegid y fantais annhêg a chreulawn a gymmerid ar eu natur dda, a'u caredigrwydd, methiant y trodd eu hymgais fasnachol allan. Parodd hyny i'n gwrthddrych bryder mawr, a cholled drom; a buasai y fath anffawd a'i cyfarfyddodd ef yn y cyssylltiadau hyn wedi ysigo ac andwyo ysbryd a defnyddioldeb llawer un am weddill ei oes. Ond nerthwyd ef yn rhyfedd yn eu gwyneb; ac er iddo ddioddef llawer yn ei deimlad a'i amgylchiadau o'r herwydd, gofalodd na chafodd neb arall fod yn golledwyr yn y diwedd.

O ddeutu pedair blynedd y bu ei arosiad yn Nghraig-y-fargod; a phan gofier nad oedd y gymmydogaeth ond teneu ei phoblogaeth, a bod yno hen achos, a hwnw, yn gryf, gan y Bedyddwyr, y mae y ffaith fod yr eglwys nad oedd yn rhifo mwy na deuddeg pan yr aeth efe yno, yn rhifo deg-ar-hugain yn mhen pedair blynedd wedi hyny, yn dangos yn eglur ei fod wedi gwneyd gwaith rhagorol yn y lle; ac fe ddaeth y lle bychan a dinôd hwnw, ynglŷn â'i enw a'i hanes, i gryn sylw a bri yn mysg miloedd Israel ein gwlad. Yn haf 1840, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Ebenezer, Aberdâr—yr hon y bu yn aelod o honi, ac yn bregethwr mewn cyssylltiad â hi, pan ddaeth drosodd i Forganwg ar y cyntaf. Wedi ei ymsefydliad yn Ebenezer, efe a barhaodd i ofalu am Graig-y-fargod, trwy fyned yno unwaith yn y mis, hyd ddechreu y fl. 1841, pryd y cyfyngodd ei amser a'i lafur yn llwyr i'w faes newydd. Ymdaflodd ar unwaith ac yn galonog i'w waith yn y lle; ac yn hapus iddo ef ei hun, yn gystal ag i bobl ei ofal, yr oedd hi yn adeg o ddeffröad crefyddol mewn llaweroedd o'r eglwysi. Ychydig yn flaenorol i hyn, yr oedd gwaith y Parch. Charles Finney, o'r America, ar *Adfywiad Crefyddol*, wedi cael ei gyfieithu i'r Gymraeg, a'r darlleniad o hono wedi deffro a chodi llawer o ddynion goreu ein gwlad i fwy o ymdrech gyda gwaith crefydd. Yn mysg eraill, yr oedd gweinidog newydd Ebenezer, Aberdâr, a phobl ei ofal, yn cyfranogi yn helaeth o ddylanwadau daionus y deffröad. Ennill a diogelu eneidiau anfarwol i'r Gwaredwr oedd wedi myned â holl fryd ein gwrthddrych yr adeg hono; ac yr oedd yn codi mewn nerth, a gloewder, a dylanwad, fel pregethwr gyda chyflymder mawr. Byr fu ei arosiad yn Aberdâr; ond gwnaeth waith rhagorol yno. Dyblwyd yr eglwys yn rhif ei haelodau mewn o ddeutu deunaw mis o amser. Derbyniodd alwad o Siloah, Llanelli; a dechreuodd ar ei weinidogaeth yno ar y 15fed o Fawrth, 1842. Eglwys ieuangc oedd hon—cangen o Gapel Als; ac yn y symmudiad hwn o eiddo ein gwrthddrych, yr oedd efe yn dyfod yn gymmydog agos, ac i lafurio yn yr un dref âg un o'r gweinidogion mwyaf byw, ymroddgar, deheuig, a disglaer a feddai yr enwad Cynnulleidfaol o fewn Deheudir Cymru ar y pryd; sef, y Parch. David Rees. Bu y gŵr rhagorol hwn yn dra charedig i'n gwrthddrych yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu; a thybiwn ei fod yn un o'r rhai cyntaf i weled ac i werthfawrogi yr adnoddau naturiol a orweddent dan erwindeb a thlodi ymddangosiadol y pregethwr ieuangc o Gapel Isaac. Ymdoddodd y ddau Rees—Rees Capel Als, a Rees, Siloah, Llanelli—yn rhyfedd i'w gilydd; a chydweithiasant yn hyfryd, er eu bod yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth eu gilydd mewn llawer o bethau. Dyn byr o gorpholaeth, crwn, cryno, cydnerth, a chwimmwth ei symmudiadau, gyda thymmer danllyd, oedd Rees, Capel Als; ond gŵr cryn lawer yn dalach, a theneuach o gorph, esgyrniog, afrosgo yn hytrach, gyda thymmer dawel ac ysbryd goddefgar, oedd Rees, Siloah. Nis gallwn lai na meddwl fod y gwahaniaeth rhyngddynt, yn gystal a'u tebygolrwydd, yn gymmhorth i'w cylymu wrth eu gilydd; ac yn ddïau yr oedd y naill yn cael yn y llall yr hyn oedd yn eisieu arno. Mantais ddirfawr i'n gwrthddrych yn

Digitized by Google

y cyfnod hwn o'i fywyd fu dyfod i gyssylltiad mor agos ac o dan ddylanwad dyn mor ragorol a Rees, Capel Als. Yn ei gyssylltiad âg ef, a thrwy sefydlu yn Llanelli, cafodd ei ogwyddiadau a'i allu llenyddol gyfle i ymddadblygu, a dyfod i'r golwg. Yma yr oedd y *Diwygiwr* yn cael ei gyhoeddi, dan olygiaeth y Parch. D. Rees; ac ni bu yr hen olygydd effro a phrysur yn hir cyn gosod gweinidog newydd Siloa yn nhresi y wasg. Yr oedd efe eisoes, a phan yn gweinidogaethu yn Aberdâr, wedi profi fod ynddo allu yn y cyfeiriad hwn; ac ni bu ei gymmydog yn Llanelli yn ol o ddeall hyny, a'i dynu allan. Nid oedd heb fod mewn angen am rywrai i'w ddeffro, a'i symbylu i waith yn achlysurol; ac yn Mr. Rees y cafodd efe un o'i symbylwyr mwyaf effeithiol.

Yn fuan wedi symmud i Lanelli, daeth i'w feddwl, a gosododd ei fryd ar y gwaith o gyfieithu *Esboniad Barnes ar y Testament Newydd*. Yr oedd yr esboniad hwnw yn gwbl newydd, ac yn dra phoblogaidd ar y pryd; a thybid y buasai ei ddodi mewn diwyg Gymreig yn cymmeryd yn dda, ac yn atteb pwrpas rhagorol yn mysg ein cenedl. Ond pwy oedd ein gwrthddrych—yr hwn ni chafodd ond chwarter o ysgol ddyddiol erioed—i feddwl ymgymmeryd â chyfieithu y fath waith? Ymosododd arno, fodd bynag, o ddifrif; a mabwysiadodd arferiad dda yr esboniwr ei hun trwy godi yn foreu at y gorchwyl. Parhaodd i wneyd hyn am fisoedd lawer; a dechreuodd y gwaith ddyfod allan, a chanmolid y cyfieithiad a'r ymgymmeriad yn fawr. Ond ni throdd yr anturiaeth allan mor lwyddiannus ag y buasai yn ddymunol. Parodd arafwch y gwaith yn dyfod allan i rai derbynwyr ddiflasu yn aros wrtho, a rhoddasant ef i fyny wedi dechreu ei dderbyn; ac esgeulusai eraill dalu am a gawsant, fel mai sefyll ddarfu y gwaith y dechreuwyd ei gyhoeddi yn Llanelli am dymmor. Ond yn mhen amser, prynodd Mr. Gee ei hawl ynddo, ar yr ammod ei fod yn parhau i'w gyfieithu; yr hyn hefyd a wnaeth gan mwyaf, fel y dygwyd y gwaith allan yn gyflawn mewn amser. Yn sicr, nid ymgymmeriad bychan a dibwys o'i eiddo oedd hwn; ac y mae yn syndod meddwl pa fodd y llwyddodd i gael amser ac yni at orchwyl mor fawr, tra yr oedd ganddo i ofalu am ei waith gweinidogaethol gartref, a phregethu yn fynych oddi cartref gyda hyny. Tymmor o lafur caled yn ei hanes fu tymmor ei arosiad yn Llanelli; a mantais fawr iddo, yn y cyfnod hwn ar ei oes, fu dyfod i gyssylltiad mor agos â'r gwŷr effro, galluog, a disglaer oedd yn weinidogion yn sir Gaerfyrddin yn y blynyddoedd hyny.

Wedi llafurio yn egnïol gyda llawer o lwyddiant yn Llanelli, a'r wlad o amgylch, am o ddeutu saith mlynedd, derbyniodd wahoddiad oddi wrth eglwys Carmel, Cendl, i ddyfod yno yn weinidog. Er ei fod yn eithaf hapus yn Siloah, a gafael yr eglwys hono yn dŷn ynddo; ac er ei fod yn gymmeradwy iawn gan bawb, ac yn gallu cydweithio yn ddedwydd gyda Mr. Rees, Capel Als, a'r ddau yn gyfeillion mynwesol, y mae yn bossibl y teimlai nad oedd ei safle ond ail raddol yno hefyd. Rees, Capel Als, oedd y brenin yn Llanelli; ac ofer fuasai i neb gynnyg am ei orsedd. Ac yn sicr, buasai ein gwron yn un o'r rhai diweddaf i ddychymygu am i bethau fod yn amgen tra fuasai Mr. Rees byw. Ond gan ei fod yntau, erbyn hyn, wedi dyfod i ymdeimlo â'i nerth, nis gallasai lai na chymmeryd mantais ar yr amgylchiadau fuasent yn debyg o'i arwain yntau i'r orsedd. Wrth ddyweyd hyn, nid ydym yn meddwl awgrymu ei fod yn ddyn oedd yn chwennych y blaen mewn un modd; ond yr oedd ynddo hefyd yr hyn a'i gwnelai yn anhawdd ei osod yn unman ond ar y blaen. Yn ei ffordd ddiniwed a charedig, yr oedd wedi ei wneyd i deyrnasu; ac nis gwyddom am neb y goddefid iddo gymmeryd y blaen yn mhob peth mor esmwyth a dirwgnach. Dichon iddo weled a theimlo y cawsai fwy o le, a'r lle yn fwy iddo ei hun, yn Cendl nag yn Llanelli. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yno yn Mehefin, 1849; a chyda dechreuad ei weinidogaeth yn y lle, torodd y geri marwol allan yn y cylchoedd hyny, gan wneyd difrod arswydus. Llanwyd y wlad âg ofnadwyaeth, ac yr oedd y bobl yn ffoi wrth y cannoedd i'r capeli. Chwyddodd rhif yr eglwys yn Ngharmel yn fawr mewn canlyniad i'r cyffröad hwnw; ac er i amryw droi yn ol wedi i'r cyffro fyned heibio, glynodd y mwyafrif yn ffyddlawn. Manteisiodd yntau yn fawr ar yr amgylchiadau hyn; ac yr oedd yn parhau i ymgodi mewn nerth a phoblogrwydd fel pregethwr. Daeth yn fuan, wedi ei ymsefydliad yn Nghendl, i gael ei adnabod a'i gydnabod yn un o'r pregethwyr cryfaf a mwyaf dylanwadol yn ei enwad; ac ymddengys mai yn y cyfnod hwn o'i fywyd y dringodd i uchder ei nerth a'i boblogrwydd fel pregethwr. Daeth ei enw yn adnabyddus i'r holl eglwysi trwy Ogledd a Deheudir Cymru; ac nid oedd neb y gelwid am ei wasanaeth yn amlach i gyfarfodydd a chymmanfaoedd ei enwad nag efe.

Ond er mai y pulpud oedd yn cael mwyaf o'i sylw, a'r goreu o'i ymdrechion, yn ystod y blynyddoedd y bu yn Nghendl, gwnaeth waith mawr ac arosol mewn cyfeiriadau eraill—a'r oll i wasanaethu crefydd. Ddechreu 1850, cychwynwyd yr *Adolygydd*—cyhoeddiad chwarterol, dan olygiaeth y Parch. Evan Jones (*Ieuan Gwynedd*); ac yr oedd efe yn un o'r ychydig y bu ganddynt y llaw flaenaf yn ei gychwyniad; a cheir ynddo nifer o erthyglau ar 'Yr Emynau Cymreig,' y rhai a ysgrifenwyd ganddo. Efe, hefyd, oedd un o'r rhai cyntaf i ymdeimlo â'r angen am gychwyn achosion Saesnig ynglŷn â'r enwad yn Neheudir Cymru; ac er i ychydig eraill ymuno yn galonog âg ef yn y gwaith, efe a wnaeth fwyaf i ddwyn y symmudiad hwnw oddi amgylch, a'i gario yn mlaen ar ol ei gychwyn. Daeth yn fuan i gydnabyddiaeth âg amryw foneddigion o Saeson yn Lloegr oedd yn meddu gallu ac ewyllys i gynnorthwyo yn yr achos; a llwyddodd hefyd i ennill serch ac ymddiriedaeth y cyfryw, fel nas gommeddent ef o ddim o'r braidd a geisiai ganddynt. Gwnaeth fwy na neb yn ei oes i dynu sylw y Saeson at Annibyniaeth Cymreig; ac yn wir, at Ymneillduaeth Cymreig; ac efe oedd y Cymro cyntaf o Gymru a wahoddwyd i gymmeryd rhan trwy ddarllen papur ar esgynlawr Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru. Gwnaeth hyn yn ngŵyl Hydrefol yr undeb hwnw, a gynnelid yn Halifax, yn 1858; a gwnaeth ei ran mor effeithiol y waith hono fel yr edmygid ac y perchid ef yn fawr yn mysg y Saeson. Yn ystod ei weinidogaeth yn Cendl hefyd, y bu wrthi yn ddiwyd yn casglu defnyddiau at wneyd a chyhoeddi ei lyfr sydd yn cael ei adnabod mor gyffredin wrth yr enw *History of Protestant Nonconformity in Wales*. Hwn, o bossibl, ydyw prif

Digitized by Google

waith llenyddol ei oes; ac y mae yn syndod fod dyn yn ei amgylchiadau a than ei anfanteision ef wedi gallu dwyn allan y fath waith, a hyny mewn iaith oedd yn estronol iddo.

Yn ystod ei arosiad yn Cendl, llafuriodd yn galed, ac yn nodedig o lwyddiannus, am o ddeutu tair blynedd-ar-ddeg; ac ni bu yr achos crefyddol yn mysg Annibynwyr y gymmydogaeth hono erioed mor lewyrchus a phoblogaidd ag yn y cyfnod hwn. Er fod ganddo i fyned o gartref yn aml, ac i roddi llawer o'i amser a'i nerth at waith a symmudiadau crefyddol y tu allan i'w gylch gweinidogaethol, efe a lwyddodd yn rhyfedd i gasglu a chadw eglwys a chynnulleidfa gref yn Carmel ar hyd y blynyddoedd hyny; a phrin y mae angen mynegu ei fod yn eithriadol o boblogaidd, cymmeradwy, a pharchus yn ei gylch. Ond yn 1862 daeth yn eglur fod gan Ragluniaeth y Nef waith mawr yn ei aros etto mewn cylch ëangach a phwysicach. Derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Ebenezer, Abertawe; ac ar y dydd olaf o Ebrill, y flwyddyn hono, efe a ymadawodd â Chendl. Gwnaeth y symmudiad hwn yn nghanol ei ddyddiau, ac yn anterth ei boblogrwydd; ac ni bu efe, ac eraill, yn hir cyn gweled a chael profion eglur fod y symmudiad yn un o'r symmudiadau mwyaf dedwydd a bendithiol a wnaeth yn ei oes. Yr oedd y cylch yn ei daraw ef, ac yntau yn taraw y cylch. Er fod yn Ebenezer eglwys gref pan yr aeth efe yno, cynnyddodd awer; a chynnyddodd gymmaint fel y daeth galwad am helaethu y capel yn fuan. Bron ar ei fynediad i Abertawe, hefyd, yr anrhydeddwyd ef gan Brifysgol Marietta, Ohio, America, â'r gradd o D.D.; a theimlai y rhai a'i hadwaenent ef oreu ei fod yn teilyngu yr anrhydedd yn fwy na llawer. Ymroddodd ar unwaith ac yn egnïol i'r gwaith oedd yn ei gylch newydd. Wedi helaethu Ebenezer, a gosod pethau mewn trefn yno, gwelodd yn fuan fod yn y dref gynnyddol a phwysig hono wir angen am wneuthur mwy nag oedd wedi ei wneyd hyd hyny er darparu ar gyfer y Saeson. Cymmerodd yr achos i fyny o ddifrif; ac yr oedd efe, ac un arall o aelodau Ebenezer, wedi cymmeryd darn o dir yn Walter's Road, fel y gallesid codi capel i'r Saeson arno; ac i aros am y capel, anturiodd i gychwyn yr achos yn y *Music Hall*. Pregethodd ei hun iddynt y prydnawn a'r hwyr y Sabbath cyntaf, a sicrhaodd iddynt wasanaeth gweinidogion enwog ac adnabyddus o Loegr a Chymru yn ol llaw. Erys y capel hardd a godwyd i'r achos hwn yn gofadail o ymdrechion diflino a hunan-aberthol Dr. Rees yn y dref hono. Gofod a balla i ni fynegu am lawer o ymdrechion cyffelyb o'i eiddo yn yr un cyfeiriad, a'r cymmhorth a fu i eglwysi oedd eisoes wedi cael eu sefydlu. Y mae'n ammhossibl olrhain ei hanes, ei lafur, a'i ddylanwad yn Abertawe, a'r cylch, heb deimlo ei fod wedi gwneyd mwy na neb yn ei oes i godi Ymneillduaeth a chrefydd yn y cylch poblog a chynnyddol hwnw. Ni bu yno yn hir cyn ennill iddo ei hun safle na feddyliai neb a'i hadwaenai yn y cylch hwnw am ymgystadlu âg ef am dani; ac yn mhell cyn diwedd ei oes, nid oedd neb yr ymgynghorid âg ef mor aml, a chan gynnifer o wŷr blaenaf y dref, ynglŷn â symmudiadau crefyddol, cymdeithasol, a gwleidyddol. Yn fuan wedi ei ddyfodiad i Abertawe yr ymgymmerodd efe, gyda'i gyfaill mynwesol a'i gydlafurwr gweithgar, y Parch. John Thomas, D.D., o Liverpool, âg ysgrifenu *Hanes Annibyniaeth yn Nghymru*. Dygwyd y gwaith hwn allan yn rhanau, swllt yr un; y rhai, wedi eu rhwymo, a wnant bedair o gyfrolau lled drwchus. Nid ydym yn ammheu nad ar Dr. Thomas y disgynodd pen trymaf yr ymgymmeriad hwn; ond nid ychydig ac ysgafn oedd y rhan ddisgynodd ar Dr. Rees o'r gwaith. Yn chwanegol at y gwaith yma, yr oedd efe wrthi hi yn parotoi *Y Beibl Teuluaidd*, yr hwn a gyhoeddwyd gan y Mri. Virtue, a'i Gyf; ac y mae y nodiadau a geir yn y gwaith hwnw yn dangos medr, gofal, ac ysbryd rhagorol y Dr. yn ei ymdriniaeth â Gair Duw. Yn ei ddydd-lyfr am 1870, ceir y nodiad a ganlyn:—'Mawrth 19eg, Sadwrn. Heno y dechreuais ysgrifenu y *Beibl Teuluaidd*. Dyro gyfarwyddyd, O Arglwydd! i iawn egluro dy Air.' Ac yn ei ddydd-lyfr am 1876, ceir a ganlyn:—'Chwefror 21ain. Heddyw, am 20 munyd wedi dau y prydnawn, y gorphenais ysgrifenu y sylwadau ar y Beibl. Diolch i'r Arglwydd am ei gymmhorth!' Wrth ystyried y galw mynych fyddai arno yn y blynyddoedd hyn, i gyfarfodydd, agoriad capeli, urddiadau, angladdau, &c., heb law ei ofalon gweinidogaethol gartref, y mae yn syn meddwl pa fodd yr oedd efe yn cael amser o gwbl at orchwylion llenyddol. Mae'n rhaid i ni gredu mai y dyn sydd ganddo lawer yn disgwyl, ac yn tynu oddi wrtho, wedi y cwbl, yw y dyn y mae ganddo fwyaf i'w roddi.

Gyda chwblhâd y gweithiau llenyddol y cyfeiriwyd atynt ar y 26ain o Ebrill, 1876, cychwynodd ef a'i gyfaill, Dr. Thomas, ar fwrdd y *Wyoming* ar daith i America—taith ddyddorol, a nodedig yn eu hanes: ond dechreu mis Gorphenaf, a phan y pregethai yn Vanwert, y mae y newydd galarus ac annisgwyliadwy yn ei gyrhaedd ar aden y fellten, fod ei briod wedi marw gartref, yn Abertawe. Dyrysodd hyn ei holl gynlluniau am weddill y daith, a throdd ei wyneb tuag adref yn ddïymdroi. Teimlodd yn ddwys oddi wrth yr ergyd hon; a chyn hir, cafodd un arall trwy golli Ebenezer, ei fab hynaf, yr hwn a fu farw yn California. Gwelsom ef yn fuan ar ol yr amgylchiadau adfydus a thorcalonus hyn, ac yr oedd yr olwg arno yn dangos yn amlwg ei fod wedi cyfarfod âg ystormydd. Ond yr oedd yn amlwg, hefyd, eu bod wedi ei wasgu yn nes at yr Arglwydd, a'i addfedu yn fwy nag erioed at ei hoff waith o bregethu yr efengyl—yr hyn, hefyd, a wnaeth gyda nerth, hwylusdod, a melusder mawr, gartref ac oddi cartref, hyd fis Ebrill, 1885.

Traddododd ei bregeth olaf yn angladd ei hen gyfaill, y Parch. S. Evans, o Hebron, sir Benfro, oddi ar y geiriau:—'Ond yr ydym yn hyf, ac yn gweled yn dda yn hytrach fod oddi cartref o'r corph, a chartrefu gyda'r Arglwydd.' Ychydig a feddyliai efe, a'r rhai a'i gwrandawent y diwrnod hwnw, y byddai yntau wedi gadael y corph, a myned i gartrefu gyda'r Arglwydd cyn pen ychydig o ddyddiau ar ol hyny. Bu farw, wedi cystudd byr, ond trwm, o ennyniad yr ysgyfaint, ar y 29ain o'r mis y cyfeiriwyd ato, yn ddeg-a-thrigain mlwydd oed. Yr oedd y disgwyliad yn fawr am gael ei weled a'i glywed yn traddodi ei anerchiad o gadair Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru yn Llundain, yn mhen o ddeutu pythefnos ar ol hyn; o blegid efe oedd cadeirydd yr Undeb hwnw am y flwyddyn hono; ac yr oedd yr anerchiad wedi ei barotoi ganddo. Yr oedd yn siomedigaeth

Digitized by Google

chwerw i lawer. Cymmerodd ei angladd le yn mynwent brydferth y Sketty; ac yr oedd yn un o'r angladdau lliosocaf a pharchusaf a welwyd yn yr ardaloedd erioed. Cododd yr holl dref a'r cylch poblog o gwmpas tref Abertawe, ynghyd â'r lliaws a ddaethant o bell, allan i dalu gwarogaeth i enw a choffadwriaeth y gŵr anwyl hwn i Dduw.

Pe buasai gofod yn caniatau, gallesid yn hawdd helaethu ar yr hyn a ysgrifenwyd. Fe welir yn amlwg yn ngoleuni yr amlinelliad hwn nad dyn cyffredin, mewn un modd, oedd y diweddar Dr. Rees, o Abertawe. Ni ellir meddwl am iselder a dinodedd ei gychwyniad yn ardal Capel Isaac, yr anfanteision y bu ganddo i ddringo yn eu gwyneb, a'r safle anrhydeddus a gyrhaeddodd cyn diwedd ei oes heb deimlo ei fod yn ddyn anghyffredin o gryf. O ran ei ymddangosiad allanol, nid oedd yn un o'r dynion glanaf ei bryd, mwyaf lluniaidd ei gorph, a hoewaf ei symmudiadau. Ond yr oedd yn fawr, yn gadarn, ac yn urddasol iawn yr olwg arno. Yn yr ystyr hwn, safai i fesur helaeth ar ei ben ei hun yn mysg y lliaws; a phan welid ef unwaith, cofid ef yn dda ar ol hyny. Dygai ei ddyn oddi mewn lawer o ddelw ei ddyn oddi allan; a cheid yn ei natur a'i ysbryd gyfuniad nodedig o'r mawr a'r syml, yr uchel a'r agos at bawb, y cryf a'r tyner. Safai yn ddibetrus a diysgog wrth a thros egwyddorion Ymneillduaeth a chrefydd, a medrai ddyweyd pethau cryfion, pan y gelwid am hyny; ond yr oedd yn perthyn iddo y fath radd o hynawsedd, tynerwch, a goddefgarwch, a'i gwnelai yn un o'r dynion hawddaf ei garu a'i anwylo y deuais i gyffyrddiad âg ef erioed. Yr oedd ynddo lawer o'r plentyn, heb fod dim o'r plentynaidd o'i gwmpas; ac er ei fod yn un o'r rhai cryfaf i dynu ato ei hun, a sicraf o gael y flaenoriaeth braidd yn mhob peth ar eraill, yr oedd yn un o'r parotaf i ranu âg eraill o'r hyn a roddid ato, ac i wneyd cymmwynas. Nid adwaenom neb y deuai cynnifer ar ei ofyn am gynghor a chynnorthwy, na neb oedd yn ddiogelach ei gynghor mewn llawer cyssylltiad, ac mor ewyllysgar i roddi ag efe.

Gwnaeth fwy, fe allai, na neb arall dros yr enwad y perthynai iddo er ei godi i sylw, cydymdeimlad, a pharch eraill; ac am flynyddoedd cyn ei farwolaeth, yr oedd wedi dyfod yn fath o ddolen gydiol rhwng yr Annibynwyr Cymreig a Saesnig. Ni bu yr enwad yn ol chwaith o osod arno yntau bob anrhydedd a feddai. Pan sefydlwyd Undeb yr Annibynwyr Cymreig, efe oedd un o'r ddau gyntaf i gael eu gwahodd i draddodi yr hyn a elwir yn 'Bregethau yr Undeb.' Ac efe oedd cadeirydd etholedig yr ail gylchwyl flynyddol, er iddo fethu gwneyd y gwaith y flwyddyn hono o blegid afiechyd; ond gwnaeth ef y flwyddyn ddilynol yn Nhreffynnon. Fel yr awgrymwyd yn barod, bu yn cymmeryd rhan yn nghyfarfodydd Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru fwy nag unwaith; ac efe oedd y cadeirydd dewisedig am y flwyddyn y bu farw, a'r Cymro cyntaf o Gymru i gael yr anrhydedd hono. Ond er yn Annibynwr selog, ac er mai yn mysg yr Annibynwyr y llafuriodd ar hyd ei oes, yr oedd yn nodedig o rydd oddi wrth ragfarn a chulni enwadol; ac nid oedd neb a lawenychai yn fwy nag efe yn ngwyneb llwyddiant yr enwadau efengylaidd. Yr oedd yn Ymneillduwr egwyddorol ac angerddol; ac ni wnaeth neb fwy nag ef, nac ond ychydig gymaint ag efe, dros Ymneillduaeth yn Nghymru. Erys y gyfrol drwchus a ysgrifenwyd ganddo ar y testyn hwn yn gofadail o'i allu, ei ymröad, ei fedr, a'i degwch, fel hanesydd. Yn y gwaith hwn, ac mewn gweithiau llai adnabyddus yn yr un cyfeiriad, gosododd ei genedl, o bob enwad, dan ddyled drom iddo; ond er ei fod yn elyn anghymmodlawn i grefydd 'sefydledig,' ac yn ddadleuydd brwd dros gydraddoldeb crefyddol, yr oedd yn gyfaill calon i grefydd ei hun yn yr Eglwys Sefydledig, ac yn edmygwr mawr o'r gwŷr rhagoraf a berthynent i'r eglwys hono. Yr oedd y Cristion yn fwy ac yn gryfach ynddo na'r Ymneillduwr a'r Annibynwr. Pwy all ddywedyd faint ei wasanaeth hefyd i'w genedl yn y llafur mawr a gymmerodd efe i gyfieithu *Barnes ar y Testament Newydd*, a'i Nodiadau yn y *Beibl Teuluaidd?* Fel esboniwr, meddyliwn y rhaid cydnabod ei fod yn dra gofalus a chywir—yn nodedig o ffyddlawn i'r gwirionedd yn ei gyfanrwydd. Ac yn ei esboniadaeth ar ei destynau, a'r eglurhâd a roddai ar gyssylltiadau ei destynau wrth bregethu, y ceid y goreu a'r mwyaf newydd yn ei bregethau. Ni byddai ei bregethau, fel y cyfryw, yn dwyn ôl llafur ac ymdrech neillduol yn eu saernïaeth a'u cyfansoddiad. Yr oeddynt yn mhell o fod yn gaboledig a gorphenedig; er hyny, yr oeddynt mor lawn o efengyl, ac ysbryd yr efengyl—mor syml a chlir mewn syniadaeth ac iaith—ac yn cael eu traddodi gyda'r fath nerth a chynnhesrwydd, fel y byddai cynnulleidfaoedd yn cael gwledd o'u gwrando. Yr oedd y 'pregethwr' yn Dr. Rees i ni yn llawer mwy na'i bregethau; ac onid y pregethwr ei hun yw yr elfen bwysicaf mewn pregethu? Fel pregethwr, tybiwn mai mewn cyfuniad o amryw bethau yr oedd ei nerth—ei amgyffrediad o'r gwirionedd, ei gydymdeimlad â'r gwirionedd, ei fedr i iawn gyfranu y gwirionedd, a'i egluro trwy gynnorthwy ambell i hanesyn na feiddid ammheu ei gywirdeb, a'i lais mawr, tyner, a dolefus. Anhawdd yw ei ddisgrifio, ond fe'i cofir yn dda gan y rhai a'i clywsant; ac nis gallant lai na theimlo yn alarus wrth feddwl na chânt glywed ei lais ef mwy. 'Pa fodd y cwympodd y cedyrn?' Yr oedd yr esboniwr, yr hanesydd, a'r pregethwr, yn cydgyfarfod yn nodedig o amlwg yn Dr. Rees—y tri hyn, a'r mwyaf o honynt oedd y pregethwr. Ond yr oedd yr esboniwr gofalus, yr hanesydd ffyddlawn, a'r pregethwr cryf, ynddo ef yn codi o fawredd a rhagoroldeb ei ddynoliaeth gref, ddofn, a llydan, a hono wedi ei thrwytho âg ysbryd yr efengyl.

Y mae yn ammheus genym a oes neb y bu ganddynt rywbeth i'w wneyd âg ef nad ydynt yn teimlo mai 'dyn Duw' ydoedd efe—wedi ei godi, ei ddonio, a'i ddanfon gan Dduw at waith ei oes; ac nis gwyddom am neb y gellid cymmhwyso y geiriau a ddywedwyd am Mordecai gynt yn well nag ato ef:—'Canys Mordecai, yr Iuddew, oedd yn nesaf i'r brenin Ahasferus, ac yn fawr gan yr Iuddewon, ac yn gymmeradwy yn mysg lliaws ei frodyr; yn ceisio daioni i'w bobl, ac yn dywedyd am heddwch i'w holl hiliogaeth.' Felly y gellir ddyweyd am Dr. Rees yn ei berthynas ef â'r genedl Gymreig, mewn llawer o amgylchiadau, i fesur helaeth. Yr oedd efe yn fawr ac yn barchus gan ei genedl, yn gymmeradwy yn mysg lliaws ei frodyr, yn ceisio daioni i'w bobl, ac yn dywedyd am heddwch i'w holl hiliogaeth.

Digitized by Google

# S.



SALTSBURG, ADAM DE. Un o'r rhai cyntaf o'r teulu a ddaeth i gyssylltiad agos ac i fod yn weddol enwog yn Nghymru. Bu am dymmor yn gadben gwarchodlu Dinbych dan Harri'r II. Mae rhai awdurdodau yn ammheu fod llinach y Salusburiaid o Leweni yn hanu o Adam de Saltzburg; a seiliant hyn ar y ffaith fod y tywysog Dafydd ap Gruffydd yn cwyno yn ei 'Greefes' fod Reginald Grey o Ruthyn yn tori i lawr y coed ar ei etifeddiaeth—Leweni, yn Nyffryn Clwyd. Mynant hwy na allai yr etifeddiaeth hon fod yn perthyn i Dafydd os oedd y Salusburiaid eisoes wedi sefydlu yno. Yr atteb a roddir i hyn yw, nad oedd y tywysog Dafydd yn meddu hawl bellach i'r etifeddiaeth na'r awdurdod a feddai fel Arglwydd Maenor Dinbych, a Phrif-fforestydd Coedydd Lleweni. Nid oedd dim oll yn hawl Dafydd, meddir, sydd yn anghysson, neu yn milwrio yn erbyn y ffaith fod y Salusburiaid eisoes wedi ymsefydlu yn Lleweni. Yr hyn a nodir uchod yw hyny a wyddis am Adam de Saltzburgh.

SALUSBURIAID, O LEWENI. Cyfeiria hwn at deulu enwog a ymsefydlodd yn y wlad hon wedi y Gorchfygiad (*Conquest*). Hanodd y teulu o farchog Almaenaidd a ddaeth drosodd i Brydain gyda Gwilym y Gorchfygwr; yr hwn a olrheiniai ei ddisgyniad yn ol i'r ymherawdwr Charlemagne. Cymmerodd ei enw oddi wrth Saltzburg—tref ei enedigaeth. Galwyd ef ar y cyntaf yn De Saltzburg, neu Saltzbury; ac ar ol hyny, Saesnigwyd ef yn Salusbury. Daeth y teulu yn enwog mewn cyssylltiad â hanes Cymru; ac yn enwedig felly â hanes milwrol tref a chastell Dinbych. Ceir hanes manwl am y teulu yn *Ancient and Modern Denbigh*, yr hwn a gyhoeddwyd yn swyddfa hon.

Fel llawer o'r teuluoedd Normanaidd a ymsefydlasant yn Mhrydain, daeth y Salusburiaid i gyfathrach agos â'r genedl Gymreig trwy briodasau. Dysgasant yr iaith, a mabwysiadwyd arferion y Cymry ganddynt. O Leweni ymwasgarasant dros sir Ddinbych oll; ac yr oeddynt yn dal amryw o'r prif balasau yn y gwahanol ardaloedd; sef, Bachymbyd, Bachegraig, Rhug (Corwen), Llewesog, Maes cadarn, Bryn barcut, Dolbeledr, Plas isa, a Henblas (Llanrwst), &c. Daeth y palasau hyn, a'r tiroedd cyssylltiedig â hwy i'w meddiant trwy briodas â merched yr hen ysweiniaid Cymreig. Darfu i'r Salusburiaid o Leweni, fel llawer eraill o'r teuluoedd urddasol Cymreig, ymuno â Syr Rhys ap Thomas, a chymmerwyd arfau i fyny yn mhlaid Iarll Richmond—wedi hyny Harri VII.

SALUSBURY, SYR THOMAS: un arall o'r un teulu oedd efe. Dienyddiwyd ef am y rhan a gymmerodd efe yn yr hyn a elwir y *Babbington Plot*. Mab oedd efe i John Salusbury; a'i fam oedd yr enwog Catrin o Berain. Dienyddiwyd ef yn 1586, bedair blynedd ar bymtheg wedi i William Salusbury gyfieithu y Testament Newydd i'r iaith Gymraeg. Bernir mai Pabydd oedd Syr Thomas o grefydd; a seilir y dyb ar y ffaith iddo ymuno yn y cynllwyn i frad-lofruddio y frenhines Elizabeth, ac i osod Mari, Brenhines yr Ysgotiaid, ar orsedd Lloegr. Nid ydyw yr awdurdodau yn cyttuno ynghylch yr achos iddo gymmeryd rhan yn y cynllwyn uchod. Barna rhai mai o herwydd i ddau o'i berthynasau gael eu dienyddio am gymmeryd plaid trigolion bro Caledfryn yn erbyn gormes Iarll Leicester y gwnaeth efe hyny; ond eraill a dybiant nas gall hyn fod. Am hir amser wedi ei ddienyddiad, bu ei ddarlun yn nghadw yn hen balas Lleweni.

SALUSBURY, WILLIAM, Y MILWRIAD, o RUG. Ac eithrio William Salusbury, cyfieithydd y Testament Newydd i'r Gymraeg, dyma yr enwocaf o deulu y Salusburiaid. Gelwid ef yn *Salsbri'r Hosanau Gleision*. Efe a ddaliodd Gastell Dinbych dros y brenin am ddwy flynedd yn erbyn holl ymdrech plaid y senedd i'w gymmeryd oddi arno. Pan dorodd y Rhyfel Gartrefol allan yn Lloegr, ac yr ymranodd y bobl yn ddwy blaid—y naill yn ymlynu wrth achos y Brenin Siarl y Cyntaf, a'r llall wrth achos y senedd, bu cyffrawd nid bychan yn holl ranau y deyrnas tra y parhaodd y cweryl ofnadwy hwnw. Fe ddarfu i'r bendefigaeth gan mwyaf barhau yn ffyddlawn i'w penadur; a darfu i'r rhanau mwyaf teyrngarol o'r deyrnas ei gynorthwyo i gario y rhyfelawd yn mlaen trwy gyfranu yn wirfoddol at y treuliau. Yn mysg eraill, bwriodd sir Ddinbych ei choelbren gydag achos y brenin.

Torodd y Chwyldroad allan yn 1642; a'r pryd hwnw, yr oedd Castell Dinbych yn meddiant y Goron. Ychydig sylw a dalwyd i'r Castell er dyddiau y frenhines Elizabeth, ffafr-ddyn yr hon—Iarll Leicester—a adferodd yr adeilad o'r sefyllfa adfeiliedig y syrthiasai iddo. Pa fodd bynag, yn ngwanwyn 1643, pan yr oedd lluoedd y senedd yn ymdaith trwy forfeydd Gogledd Cymru, argyhoeddwyd y brenin o'r pwysigrwydd oedd iddo allu ennill Castell Dinbych; yr hwn, o herwydd ei safle ganolog, a'r llecyn manteisiol y codwyd ef arno, fyddai o fantais fawr fel caerfa; ac os gallai ei sicrhau y gallai droi y fantol o'i blaid ef—yn Nghymru, o leiaf. Nid oedd gan y brenin ei hun adnoddau digonol wrth ei alwad i gymmeryd meddiant o'r castell hwn; ac o herwydd hyny, gorchymynodd i

Digitized by Google

William Salusbury, o Rug a Bachymbyd, i'w wneyd yn warchodfa ac yn amddiffynfa. Fel hyn y pennodwyd William Salusbury yn llywodraethwr y castell. Yn ddiymdroi, dechreuodd ar y gorchwyl o'i adgyfnerthu. Yn fuan iawn, dechreuodd y deiliaid hyny a benderfynasant ymlynu wrth achos y brenin, ffoi i Ddinbych am nodded o flaen rhuthriadau byddin y senedd; gan osod eu hunain, a llawer o'u meddiannau, dan amddiffyniad y gwrol Salusbury. Yr oedd efe, erbyn hyn, wedi casglu llawer o wirfoddolwyr i ymladd o dan ei faner. Yn y cyfamser, yr oedd Syr Thomas Myddleton, gyda byddin y senedd, yn prysur gyfyngu ar ryddid y breninolwyr ar forfeydd Cymru; a phan y gorchfygwyd byddin y brenin ganddo yn Holt Bridge, ar y 9fed o Dachwedd, 1643, daeth llu mawr o ddilynwyr Siarl—yn mysg pa rai yr oedd ysweiniaid, a chlerigwyr, a'u teuluoedd—i ymofyn amddiffyniad o fewn muriau Castell Dinbych. Yr oedd byddin y senedd yn parhau i ennill tir yn Lloegr; ac achos y brenin yn myned yn fwy anobeithiol yn barhaus. Gan hyny, ymgasglodd miloedd o ffoaduriaid, gyda'u plant, a'u trysorau bydol, i Ddinbych, lle y derbyniwyd hwy gyda pharodrwydd gan 'Salsbri'r Hosanau Gleision'—fel y gelwid ef.

Yn mhen ychydig o ddyddiau wedi brwydr Holt Bridge, cyrhaeddodd byddin y senedd i gymmydogaeth Dinbych. Yn uniongyrchol, anfonodd Syr Thomas Myddleton lythyr at William Salusbury, yn galw arno i roddi y Castell i fyny. Yn ei atteb, dyddiedig Tachwedd 15fed, 1643, gwrthododd Salusbury gydsynio â'r cais; a rhoddodd ar ddeall iddo ei fod yn benderfynol o ymladd yn wrol, os byddai raid, i gadw meddiant o'r amddiffynfa. O herwydd safle fanteisiol y Castell, nis gallai milwyr y senedd ei gymmeryd trwy drais; a phenderfynasant, mewn canlyniad, warchae arno, i attal pob cyssylltiad rhwng ei amddiffynwyr a'r wlad oddi allan, er eu gorfodi i'w roddi i fyny yn wirfoddol. Gwersyllodd Myddleton a'i filwyr mewn rhan yn y dref, ac mewn rhan ar lawr y dyffryn, ger llaw yr Eglwys Wen. Erbyn hyn, yr oedd y Cadfridog Mytton wedi ei bennodi yn llywydd ar fyddin y senedd, fel olynydd i Syr Thomas Myddleton; ac anfonodd yntau lythyrau at Salusbury i ofyn iddo roddi arfau i lawr, a throsglwyddo y Castell drosodd i'w feddiant ef. Ond gwrthododd, fel y gwnaeth i Myddleton o'i flaen. Yn y cyfamser, dioddefodd y gwarchauedigion yn aruthrol oddi wrth afiechydon ac angenoctid. Ac o'r diwedd, ar y 14eg o Fedi, 1646, fe dderbyniodd y Milwriad Salusbury orchymyn oddi wrth y brenin i roddi y Castell i fyny; a gwnaeth hyny ar y 26ain o Hydref. Gorymdeithiodd y gwarchodlu allan gyda llumanau chwyfiedig, fel pe buasent yn orchfygwyr: a chadwodd yr Hosanau Gleision ei anrhydedd fel llywodraethwr y Castell.

Wedi iddo ei roddi i fyny i ddwylaw y gelyn, dywedir iddo ymneillduo i fferm o'i eiddo, a elwid Bottegyr, yn mhlwyf Llanfihangel-glyn-myfyr. Ymddengys iddo dreulio gweddill ei ddyddiau yn y neillduedd hwn; ac mewn tlodi cymmhariaethol hefyd, gan ei fod wedi gwario ei eiddo ar achos y brenin. Nid oedd gan Siarl fodd i'w ad-dalu am ei fawr wasanaeth iddo: ond nid anghofiodd ef hyd yn oed yn ei gyni mwyaf; o blegid ychydig cyn ei ddïenyddiad, anrhegodd y brenin ef â chap sidan, a wisgid yn barhaus ganddo ef ei hun. Dywedir fod y cap hwn yn aros yn meddiant Arglwydd Bagot—un o ddisgynyddion y Milwriad Salusbury.

**SALUSBURY, Syr JOHN,** yr hwn hefyd a elwid Syr Shôn y Bodiau. Yr oedd efe yn aelod enwog arall o'r teulu hwn; ac y mae ei enw yn anwahanol gyssylltiedig â thref Dinbych. Nid oes sicrwydd hollol ynghylch adeg ei enedigaeth; ond y mae cofnodiad ar gael iddo farw yn y fl. 1578. Ymddengys iddo ddyfod i feddiant o etifeddiaeth Lleweni ar ol dïenyddiad ei frawd, Syr Thomas Salusbury, yr hon sydd yn gorwedd ar waelod Dyffryn Clwyd, o dan dref Dinbych. Y mae traddodiad i'r perwyl a ganlyn yn cael ei gyssylltu âg enw Syr John. Yn yr amser hwnw, yr oedd bwystfil peryglus yn cartrefu yn nghilfachau y graig fawr y mae Castell Caledfryn (Dinbych) yn gorwedd arni. Gelwid y bwystfil hwn wrth yr enw *Bigh* neu *Bych;* a barna rhai mai oddi wrth y Bych hwn y cafodd hen dref Caledfryn-yn-Rhos ei henw presennol 'Dinbych.' O herwydd fod y bwystfil yn peri y fath flinder a dychryn i drigolion yr ardal, penderfynodd Syr John Salusbury, yr hwn oedd yn ŵr o nerth mawr, yr ymdrechai roddi terfyn ar alanasdra y Bych; a llwyddodd yn ei amcan. Daliodd, a lladdodd y bwystfil. Tra yr oedd y frwydr yn myned rhagddi, dywedir fod yma gyffro mawr; ond yn mhen amser, gwelwyd Syr John, a gofynwyd iddo, pa beth oedd y canlyniad. 'Dim Bych!' meddir, oedd yr attebiad. A dyma, medd traddodiad, a roes fod i enw presennol y dref—Dimbych, neu Dinbych. Ond olrheinir yr enw i wreiddiau eraill. [Gwel tudal 828.] Pa un bynag, dyma un traddodiad; ac y mae'n wastad yn gyssylltiedig âg enw Syr John Salusbury. Y mae cerfluniau o hono ef a'i briod i'w gweled yn awr yn yr hen Eglwys Wen, ac o'r bwystfil yn gorwedd wrth ei draed. Heblaw ei gynnysgaeddu â nerth mawr, rhoddodd natur iddo ddwy fawd ar bob llaw, a dwy hefyd ar bob troed. Dyma'r rheswm pa ham y gelwid ef yn 'Shôn y Bodiau.'

Adroddir pethau hynod eraill am yr hyn a wnaeth Syr John o dro i dro trwy ei gryfder diarhebol, yn mysg pa rai y mae yr hyn a ganlyn. Dywedir iddo, âg un ergyd â'i ddwrn noeth, ladd 'llewes wen' yn Nhŵr Llundain; ac mai dyma a fu'r achos dros alw ei etifeddiaeth yn 'Lleweni.' Nid yw hyn etto ond traddodiad; a bernir mai o'r gair 'llwyni' y daeth yr enw, am fod gwaelod Dyffryn Clwyd y pryd hyny yn orchuddiedig gan lwyni trwchus.

**SANDWICH, YNYSOEDD.** Gwel yr erthygl ar Hawaii.

**SIROEDD CYMRU.** Yn yr erthygl hon, ymdrechwn nodi, mor gywir a byr ag y gallwn, y prif ffeithiau am holl siroedd ein gwlad, gan gynnwys y manylion diweddaraf am eu poblogaeth, eu mesuriadau, &c., &c. Ni a'u cymmerwn yn ol llythyrenau y wyddor:—

Aberteifi.

Gwlad arforawl yn Neheubarth Cymru, yw y sir hon—yn cael ei therfynu ar y gogledd gan Forgainge Aberdyfi a sir Feirionydd; ar y gogledd ddwyrain gan sir Drefaldwyn; ar y dwyrain gan gŵr gogledd-orllewinol sir Faesyfed, a rhanau gogleddol sir Frycheiniog; ar y deheu gan sir Gaerfyrddin; ar y de-orllewin gan sir Benfro; ar y gorllewin, a'r gogledd-orllewin yn

Digitized by Google

ei holl hyd, gan Fachwy Ceredigion. Mesura ei llinell arforawl o ddeutu wyth milldir a deugain o hyd, a mesura tua deuddeng milldir ar hugain yn ei man lletaf. Ei maintioli ydyw 595,285 o erwau, gyda phoblogaeth, yn ol cyfrifiad 1891, o 86,383—yr hyn oedd yn lleihâd o 8,754 er cyfrifiad 1881.

Er mai wrth yr enw 'sir Aberteifi' y gelwir hi fynychaf yn y dyddiau hyn, y mae iddi enw arall hefyd. Cafodd yr enw hwn oddi wrth Ceredig, yr hwn oedd fab i Cunedda Wledig—pendefig o ogledd Prydain; a ennillodd enwogrwydd trwy ei ymdrechion gorchestol a llwyddiannus i yru y traws-feddiannwyr Gwyddelig o Gymru tua chanol y bummed ganrif. Derbyniodd yn wobr am ei wrhydri randir yn y Deheubarth a elwid y Tyno Coch, neu y Dyffryn Coch; yr hwn a alwodd efe 'Ceredigion;' sef, Gwlad Ceredig.

Y mae cadwen o fryniau yn rhedeg drwy ei chanol o'r deheu-orllewin i'r gogledd-ddwyrain, rhwng y traeth a'r afon Teifi. Ar y terfyn rhwng Aberteifi a Threfaldwyn, ymgyfyd Plinlimmon i'r uchder o 2,469 troedfedd uwch law y môr. Prif afonydd y sir ydynt y Teifi, yr Aeron, y Glaerwen, yr Ystwyth, a'r Rheidiol; a cheir ynddi amryw o fân lynau prydferth a deniadol. Y penaf o'r rhai hyn yw Llyn Teifi, ffynnonell yr afon Teifi, yr hwn sydd tua milltir a hanner o gylchfesur. Dywedir fod y ddwy gors fwyaf yn Neheudir Cymru yn y sir hon; sef, 'Y Gors Goch, a'r Deifi,' yr hon a gyrhaedda o Dregaron i Ystrad Fflur; a'r 'Gors Fochno,' yr hon a orwedd yn mhen deheuol y sir, yn agos i enau yr afon Dyfi. Dywedir fod llanerch eang o dir da odiaeth, a elwid 'Cantre'r Gwaelod,' yn gorwedd lle y mae y rhan ogleddol o Fachwy Ceredigion yn bresennol; yr hwn a gafodd ei orlifo gan y môr tua diwedd y chweched ganrif. Cyfeirir yn fynych at 'Orlifiad Cantre'r Gwaelod' mewn croniclau hanesyddol Cymreig.

Y mae y sir yn gyfoethog mewn adnoddau mwnawl; sef, llech-feini, arian, plwm, copr, a *zinc*, &c., ac mewn oesoedd a aethant heibio, gwerthid ei mwngloddiau yn ddidrafferth, ac er elw mawr. Y mae hanes y mwngloddiau hyn yn ffurfio rhan bwysig a dyddorol yn hanes y wlad. Ei phrif law-weithfeydd ydynt, hosanau breision, a 'gwlanen cartref,' fel y gelwir ef. Bu gwlân Aberteifi mewn bri am amser maith, o herwydd ei gymmhwysder i wneyd brethyn llawban (*felt cloth*). Gwlad amaethyddol yn benaf ydyw; a chyfrifir fod tua 62 y cant o'i holl arwynebedd dan driniaeth. Megir llawer o anifeiliaid yn y sir hefyd. Y mae hi yn gyfoethog o weddillion hynafiaethol—y penaf o ba rai yw hen fynachlog enwog Ystrad Fflur. Yn 1843—44, bu terfysgoedd blinion yn y sir mewn canlyniad i Helyntoedd Rebecca. [Gwêl cyf. ix.]

Y brif dref yw Aberteifi; yr hon a gymmer yr enw oddi wrth yr afon Teifi, ar lan yr hon yr adeiladwyd hi. Y trefydd eraill o bwys ydynt, Aberystwyth, Llanbedr, Adpar, Aberaeron, a Thregaron. Flynyddoedd yn ol, yr oedd y sir yn meddu hawl i anfon dau aelod i'r senedd:—un dros y sir, ac un dros y bwrdeisdrefi. Yn awr, modd bynag, gan y sir yn unig y mae yr hawl. Yr aelod seneddol diweddar oedd Mr. W. Bowen-Rowlands un o ddadleuwyr y frenhines, yr hwn sydd yn Rhyddfrydwr selog a gweithgar. Ond gan ei fod wedi ymddiswyddo, etholwyd Mr. Vaughan Davies yn yr etholiad cyffredinol diweddaf (1895).

Pan ddaeth Deddf y Llywodraeth Leol i rym, yn 1888, cafodd y sir hawl i ethol wyth a deugain o aelodau ar y Cynghor Sirol, ac unar-bymtheg o henaduriaid, y rhai oedd i'w dewis gan y Cynghor ei hun. Mewn sir mor hynod o Gymreig ag Aberteifi, yr oedd yn naturiol i'r trigolion arddangos y dyddordeb mwyaf yn etholiad y cynghor, ac felly y bu, Etholwyd Mr. Peter Jones, cyn-faer Aberystwyth yn gadeirydd cyntaf y Cynghor, a Mr. Levi James, cyn-faer Aberteifi, yr ail flwyddyn.

BRYCHEINIOG.

Un o siroedd y Deheu ydyw; a derfynir ar y gogledd gan Aberteifi a Chaerfyrddin; ar y de gan Forganwg, a pharthau gorllewinol Mynwy; ac ar y dwyrain gan siroedd Mynwy a Henffordd. Mesura yn ei man hwyaf tua 39 milldir, ac amrywia ei lled o 11½ milldir i 30 milldir, a chynnwysa tua 458,652 o erwau. Ei phoblogaeth yn 1891 oedd 52,872—yr hyn sydd yn lleihâd o 1,268 er cyfrifiad 1881. Galwyd hi Brycheiniog oddi wrth un o'i thywysogion annibynol cyntaf—Brychan; yr hwn y cyfeirir ato yn fynych yn yr hanesion Cymreig, o herwydd nifer, dysgeidiaeth, a duwioldeb ei blant. [Gw. BRYCHAN BRYCHEINIOG, cyf. ii.]

Y mae Brycheiniog yn un o siroedd mwyaf mynyddig y Deheubarth; ond y mae ynddi lawer o ddyffrynoedd ffrwythlawn. Ei phrif gadwen o fynyddau yw y Mynyddau Duon, y rhai a ymestynant trwy ran helaeth o'r sir. Y cribau uchaf yn yr holl gadwen, a'r bànau uchaf yn y Deheudir, yw dau fynydd cyfagos, o fewn tua phum milldir i dref Aberhonddu, sydd yn codi eu penau i uchder o 2,910 troedfedd uwch law wyneb y môr. Dyma 'Fànau Brycheiniog,' y rhai hefyd sydd yn adnabyddus i'r Cymry wrth yr enw 'Cadair Arthur.' Y prif lyn yn y fro, a'r mwyaf yn y Deheudir, yw Llyn Safaddau, yr hwn sydd ychydig o filldiroedd i'r dwyrain o dref Aberhonddu. Mesura tua thair milldir o hyd, ac un o led. Ei phrif afonydd ydynt yr Wy, yr Wysg, yr Irfon, y Daf, y Nedd, a'r Tawy; a hyrwyddir trafnidiaeth y sir yn fawr gan ei chamlesydd. Cyssylltir hi â Sianel Bristol gan un o'r camlesydd hyn. Dibyna cyfran helaeth o'i thrigolion ar amaethyddiaeth. Cangen o ddiwydrwydd ydyw hon sydd yn ddiffygiol yn mharthau uchaf y wlad; ond trwy ymdrechion cymdeithas amaethyddol y sir, y mae gwedd well ar amaethyddiaeth yno yn y blynyddoedd hyn. Nid oes un sir yn y Dywysogaeth yn cynnwys cymmaint o amrywiaeth yn natur ei phridd a Brycheiniog. Ychydig yw ei chynnyrch mwnawl. Ceir haiarn tua'i therfyn deheuol, a glô a chalch yn y rhanau deheuol a gorllewinol. Y mae yndi amryw faelfeydd at drin gwlân, a gwneyd hosanau, &c.; a dibyna cryn nifer o'i phreswylwyr ar y gweithiau haiarn sydd o'i mewn.

Prif drefydd y sir ydynt Aberhonddu (y brif dref), Llanfairmuallt, Crughywel, Llanelli, a'r Gelli. Flynyddoedd yn ol, yr oedd y bwrdeisdrefi yn meddu hawl i anfon cynnrychiolydd i'r senedd; ond ni pharhawyd yr hawl dan Fesur Ad-drefniad yr Eisteddleoedd, pan na chaniatawyd cynnrychiolydd i fwrdeisdrefi neu sir yn meddu llai na 15,000 o drigolion. O dan y ddeddf hon collodd 80 o fwrdeisdrefi yr hawl yn Lloegr a Chymru; 2 yn Ysgotland, a 22 yn yr Iwerddon.

Digitized by Google

Cynnrychiolid y sir hyd yr etholiad diweddaf (1895), gan Mr. Wm. Fuller Maitland; yr hwn sydd yn Rhyddfrydwr. Yn awr, cynnrychiolir hi gan Mr. Charles Morley, yr hwn hefyd sydd yn Rhyddfrydwr. Cyfansoddir y Cynghor Sirol gan 45 o gynghorwyr etholedig, a 15 o henaduriaid. Cadeirydd y Cynghor cyntaf oedd Mr. C. Evan Thomas, o Gastellnedd, yr hwn hefyd fu am dymmor yn aelod seneddol.

CAERFYRDDIN.

Sir arforawl ydyw hon sydd yn gorwedd yn Neheudir Cymru. Terfynir hi ar y gorllewin gan Benfro, ar y gogledd gan Aberteifi, ar y dwyrain gan Frycheiniog, ar y de-ddwyrain gan Forganwg, ac ar y ddeheu gan afon Bury, a bau Caerfyrddin. Mesura 45½ milldir o hyd, wrth 26 o led; a chynnwysa tua 478,717 o erwau. Nid yw tarddiad yr enw 'Caerfyrddin' yn gwbl sicr. Dywedir am dref Caerfyrddin, mai y dyb fwyaf cyffredin ydyw, iddi gael yr enw oddi wrth Myrddin Emrys (*Merlin Ambrosius*)—doethawr Cymreig a flagurodd tua chanol y bummed ganrif. Dywed eraill mai 'Caer,' 'môr,' neu 'mûr, a 'din;' sef, tref neu ddinas, ydyw yr ystyr. Eraill a farnant mai 'Caerfyrdd-ddyn;' sef, tref yn cynnwys myrdd o drigolion, a olygir. Yr un rhesymau a roddir dros alw y sir ar yr enw hwn. Rhifai ei phoblogaeth yn 1891, 118,624; yr hyn a ddengys gynnydd o 7,369 er 1881.

Y mae arwynebedd y sir agos i gyd yn fryniog, er nad yn fynyddig. Y crib uchaf ynddi yw y Fân, neu 'Bàn sir Gaer,' fel ei gelwir; yr hwn sydd yn 2,596 troedfedd uwch law y môr. Y mae mwnyddiaeth y sir yn werthfawr—yn enwedig felly ei glô, a'i haiarn. Ceir yno beth copr, plwm, llech-feini, a chyflawnder o galch. Y mae rhai cloddfeydd marmor yn nghymmydogaeth Llangyndeyrn, ac mewn manau eraill. Cerir masnach helaeth yn mlaen mewn lledr, a brethynau cartref a wneir yn melinau y sir. Cyfrifir fod ychydig dros saith rhan o ddeg (70.8 y cant) o'r tir dan driniaeth.

Y mae yn y sir hon lawer o weddillion hynafiaethol—yr hynotaf o'r rhai hyn, y mae'n debyg, ydyw y Cylch Derwyddol, o feini sythion, tuag ugain llath o draws-fesur, sydd yn mhlwyf Llan-y-boidy. Gelwir ef yn gyffredin 'Buarth Arthur; ac weithiau, 'Meini Gwyr.' Y mae y mynediad iddo trwy lwybr, o feini cyffelyb. Yn amser y Diwygiad, yr oedd yn Nhŷ-gwyn ar-daf Abad-dy tra enwog; ac yn Nghaerfyrddin, Briordy Mynachod Awstinaidd.

Yn y sir hon y dechreuodd helynt mawr gorymdeithiau nosawl 'Rebecca;' pa rai hefyd a ymledasant i siroedd Aberteifi, Penfro, a Morganwg.

Y mae y sir hon yn enwog hefyd am amryw o enwogion Cymru; sef, y Ficer Pritchard, o Lanymddyfri; Gruffydd Jones, o Landdowror; Williams, o Bant-y-celyn, ac eraill; am ba rai y mae erthyglau dan eu gwahanol enwau.

Prif afon y sir ydyw y Tywi, yr hon sydd yn 65 mill. o hyd, a phum rhan o chwech o honi yn rhedeg drwy y sir. Rhed yr afon mewn rhan trwy ddyffryn enwog y Tywi; yr hwn sydd yn ddeng milldir ar hugain o hyd, a dwy filldir, ar gyfartaledd o led. Ei phrif drefydd ydynt Caerfyrddin, Llanelli, Llandeilo Fawr, Llanymddyfri, a Chastell-newydd-yn-Emlyn.

Y mae y sir hon yn meddu hawl i anfon dau aelod i'r senedd; a chynnrychiolir y bwrdeisdrefi gan un aelod arall. Yr aelodau diweddar oeddynt fel y canlyn:—Dros y sir, Mri. Abel Thomas, a J. Lloyd Morgan; a thros y bwrdeisdrefi, Mr. E. Rowland Jones—pob un yn Rhyddfrydwr. Syr John Jones-Jenkins yw cynnrychiolydd y bwrdeisdrefi yn awr, fel Undebwr; ond y mae y ddau eraill yn parhau. Cyfansoddir y Cynghor Sirol o 49 o gynghorwyr, a 16 o henaduriaid. Etholwyd Mr. W. O. Brigstoke, Boncath, yn gadeirydd cyntaf y cynghor. Cynnelir cyfarfodydd y cynghor yn nhrefi Caerfyrddin, Llanelli, a Llandeilo yn eu tro.

CAERYNARFON.

Sir arforawl ydyw hon hefyd, yn gorwedd yn Ngogledd Cymru. Terfynir hi ar y dwyrain gan Ddinbych; ar y deheu gan y rhan fwyaf gogledd-orllewinol o sir Feirionydd, a'r rhan hwnw o Leinfor Sant Siôr, a elwir Machwy Ceredigion (*Cardigan Bay*); ar y gorllewin, gan y rhan hwnw o Leinfor Sant Siôr a gynnwysir yn yr ongl a ffurfir gan Benrhyn Lleyn, a glan deheuol Môn, a elwir yn gyffredin Machwy Caernarfon (*Carnarvon Bay*); ar y gogledd-orllewin, gan Gulfor y Fenai, yr hon a'i hysgara oddi wrth sir Fôn; ac ar y gogledd gan For y Werydd. Mesura tua 34 milldir, wrth 23 milldir o led, a chynnwysa tua 322,135 o erwau. Ei phoblogaeth yn 1891 oedd 125,585—cynnydd o 1,785 er cyfrifiad 1881. Cafodd y sir ei henw oddi wrth hen dalaeth Arfon, yn yr hon y cynnwysir hi oll; a'r hon a alwyd felly ar gyfrif ei sefyllfa ar gyfer Môn. Pen tref y sir a alwyd yn Caer-yn-arfon, am ei bod gynt yn orsaf gaerog y Rhufeiniaid. Cymmhwyswyd yr enw Caer-yn-arfon at y sir, pan y darostyngwyd Cymru gan Iorwerth y Cyntaf. Yn Nghastell Caernarfon y ganwyd y tywysog; yr hwn a ddaeth wedi hyny i orsedd Prydain dan y teitl o Iorwerth yr Ail. Yn ddilynol i hyn, caniataodd Iorwerth y Cyntaf freinlen gorphoraethol i'r dref.

Y mae sir Gaernarfon yn un o'r rhai mwyaf bryniog a mynyddig yn Nghymru; a chyfyd o honi rai o bigau uchaf yr Eryri. Ynddi hi y mae y Wyddfa, yr hon sydd yn 3,571 troedfedd o uchder. Dyma y pigyn uchaf yn Nghymru a Lloegr. Ei phrif fynyddoedd eraill ydynt Carnedd Llewelyn, yr hwn sydd yn 3,482 troedfedd uwch law y môr; Carnedd Dafydd, 3,430 troedfedd; a'r Eifl, ac amryw eraill. Galwyd y mynyddoedd uchel hyn gan ein henafiaid yn 'Greigiau yr Eryri;' ond barna rhai mai 'Creigiau yr Eiry' oedd yr enw ar y cyntaf, am y byddai eu cribau yn orchuddiedig âg eira am ran fawr o'r flwyddyn. Barna eraill mai 'Creigiau yr Eryrod' y gelwid hwynt, o herwydd fod eryrod gynt yn cartrefu ynddynt.

Y mae yn y sir o ddeutu hanner cant o lynoedd—amryw o ba rai sydd yn nodedig am odidawgrwydd y golygfeydd a'u hamgylchynant. Y prif lynau yw Llynau Llanberis (dau), Llyn Cawellyn, Llyn Ogwen, Llyn Idwal, a Llyniau Nantlle. Ceir ceunentydd rhamantus hefyd ar yr afonydd a redant o rai o honynt. Rhuthra yr afonydd yn ffrochwyllt dros y creigiau i'r dyfnder islaw. Ymwelir â'r ceunentydd hyn gan lawer o ddyeithriaid yn ystod misoedd yr haf. Nid yw yr afonydd ond bychain. Y prif rai ydynt y Gonwy, y Seiont, y Wyrfai, a'r Ogwen. Cynnyrchion mwnawl y sir ydynt efydd, plwm, copr, llechi, ceryg calch, ceryg palmantu, a cheryg adeiladu. Y mae llawer o chwarelau yn y sir hon; a dywedir mai chwarelau llechi y Penrhyn a Dinorwig ydyw y rhai

Digitized by Google

mwyaf yn y byd. Y mae o ddwy i dair mil o bersonau yn gweithio yn mhob un o'r ddwy. Prif drefydd y sir ydynt Caernarfon, Bangor, Conwy, Pwllheli, Criccieth, Nefyn, a Llandudno —yr oll o ba rai, gyda'r eithriad o'r olaf, sydd yn fwrdeisdrefi, ac yn meddu hawl i anfon cynnrychiolydd i'r senedd. Y mae amryw drefydd eraill wedi dyfod i gryn sylw yn ddiweddar; sef, Porthmadog, Tremadog, Bethesda, Bettws-y-coed, Beddgelert, a Llanberis.

Cynnrychiolwyd y sir yn y senedd ddiweddaf gan Mr. John Bryn Roberts, a Mr. W. Rathbone; a'r bwrdeisdrefi gan Mr. D. Lloyd-George —oll yn Rhyddfrydwyr. Ymneillduodd Mr. Rathbone yn etholiad cyffredinol 1895, a dewiswyd Mr. William Jones, yr hwn sydd yn frodor o Langefni, ond yn awr o Rydychain, yn ei le, ac yn Rhyddfrydwr. Cyfansoddir y Cynghor Sirol o 47 o gynghorwyr etholedig, a 17 o henaduriaid. Cadeirydd cyntaf y cynghor oedd Mr. David Pierce Williams, o Lanberis.

DINBYCH.

Sir arforawl ydyw hon hefyd, yn gorwedd yn Ngogledd Cymru. Terfynir hi ar y gogledd gan Fflint, y Sianel Wyddelig, a chyfran o Gaernarfon; ar y deheu gan Drefaldwyn, a Meirionydd; ar y de-ddwyrain gan sir Amwythig; y dwyrain gan gyfran o Fflint; ac ar y gogledd-ddwyrain gan Gaerlleon. Mesura y sir 41 mill. o hyd, a 17 mill. o led ar gyfartaledd; a chynnwysa tua 386,416 o erwau. Yr oedd ei phobl yn 1891 yn 116,698—cynnydd o 3,716 er 1881.

Y mae gwahaniaeth barn wedi bod yn mysg hynafiaethwyr am ystyr yr enw 'Dinbych.' Cyttunir, ar bob llaw, fod 'den,' neu 'din,' yn gyfystyr â'r geiriau Saesonaidd 'don,' neu 'dun;' sef, 'caer' neu 'uchelfa.' Ynghylch y sill olaf o'r gair 'bych' y mae y prif anhawsder. Yn ol traddodiad, yr oedd anghenfil a elwid 'bych' yn cartrefu yn nghymmydogaeth castell y dref; ac, meddir, yn goffadwriaeth am waith Siôn y Bodiau [gwel SALISBURY, Syr JOHN, td. 825], yn ei ladd y galwyd y dref yn Dinbych, neu 'Dim Bych.' Ynglŷn â'r traddodiad hwn, dywedir mai Dinbach y gelwid y dref cyn hyny; ond iddo gael ei newid i 'Dimbych' yn gôf am y digwyddiad uchod. Mŷn geir-darddwyr eraill nad o hyny y tarddodd enw y dref. Barn Mr. Aneurin Owen, mab y diweddar Ddoctor Owen Pughe, oedd mai 'din' a 'bych' neu 'pych' ydyw y gwreiddiau; a bod 'pych' yn golygu uchelfa. Mŷn eraill, drachefn, fod y gair 'bych' gynt yn golygu prydferth. Eraill a fynant nad yw 'bych' ond rhif liosog am 'bwch'—'castell y ceirw.' Gwelir, gan hyny, nad oes sicrwydd ynghylch yr enw. Y dref a roddodd yr enw hwn i'r sir. Gelwid y dref gynt hefyd yn Caledfryn-yn-Rhos.

Y mae arwyneb y sir yn hynod o anwastad; ac o ran ei ffurf, y mae yn hynod o ddi-drefn. Amrywia ei harwyneb a'i golygfeydd yn fawr. Ceir ynddi lawer o fryniau uchel-gribog, a dyffrynoedd ffrwythlawn. Y mynydd uchaf ydyw Cadair Bronwen—2,563 troedfedd o uchder; a'r dyffryn ëangaf a ffrwythlonaf ydyw Dyffryn Clwyd; ac y mae Dyffryn Llangollen yn enwog am ei olygfeydd rhamantus. Y prif afonydd yn y sir ydynt y Conwy, y Ddyfrdwy, yr Elwy, a'r Clwyd.

Bu amser pan yr oedd cynnyrchion mŵnawl y sir yn amrywiol ac yn bwysig—yn gynnwysedig, gan mwyaf, o haiarn, glò, mŵn plwm, llechau, calchfaen, meini melinau, a cheryg nâdd rhagorol; ond nid yw y gweithydd hyn yn awr mor fywiog ag y buont gynt. Y mae rhan ddwyreiniol y sir, o ddeutu Gwrecsam, Rhiwabon, Rhosllanerchrugog, &c., yn dibynu, yn benaf, ar y gweithydd glò; ond y mae y rhan orllewinol yn ymddibynu ar amaethyddiaeth. Y mae o ddeutu dwy ran o dair o arwynebedd y sir dan driniaeth. Megir llawer o anifeiliaid ynddi; a gwerthir llawer o ŷd ac ymenyn o honi, ac ychydig o gaws—llawer llai nag a fu. Ei phrif drefi ydynt Dinbych, Rhuthyn, Gwrecsam, Holt, Llangollen, Llanrwst, Abergele, a Rhiwabon. Rhenir y sir yn ddau ddosbarth seneddol. Yr aelodau diweddaf dros y rhanbarth ddwyreiniol oedd Syr G. Osborne Morgan, Q.C.; a thros y rhanbarth orllewinol, Mr. Herbert Roberts; a hwy sydd wedi eu hail ddewis yn 1895. Cynnrychiolid y bwrdeisdrefi gan yr Anrhydeddus George T. Kenyon; ond ymddiswyddodd. Eu cynnrychiolydd presennol ydyw Mr. Tudor Howel, mab yr Archddiacon Howel. Cyfansoddir y Cyngbor Sirol gan 48 o gynghorwyr, a 16 o henaduriaid. Cadeirydd cyntaf y cynghor oedd Mr. Thomas Gee, yr hwn a ddaliodd y swydd am y pedair blynedd cyntaf; ond wedi hyny, a ymddiswyddodd.

FFLINT.

Sir arforawl arall ydyw hon, yn gorwedd yn Ngogledd Cymru. Y mae y cyfan-gorph o honi yn cael ei therfynu ar y deheu, y de-orllewin, a'r gorllewin gan sir Ddinbych; y gogledd, gan y Sianel Wyddelig; y gogledd-ddwyrain, gan fôr-gilfach yr afon Ddyfrdwy; ac ar yr ochr ddwyreiniol, y mae sir Gaerlleon. Y mae un rhan o'r sir, sef Cantref Maelor, yn gorwedd ar wahân oddi wrth y gweddill o honi, tua saith milldir oddi wrthi yn y man agosaf. Mesura prif ran y sir tua 26 mill. o hyd wrth 10 neu 12 o led; a Chantref Maelor 9 wrth 5. Cynnwysa 73,380 o erwau. Rhifai ei phoblogaeth yn 1891, 42,565—lleihâd o 3,209 er 1881. Gelwir hi, weithiau, wrth yr enw 'Swydd Callestr;' ac y mae yn debyg iddi gael yr enw hwn oddi wrth dref Fflint, yr hon y tybia rhai a dderbyniodd yr enw oddi wrth wneuthurfa gwydr callestraidd oedd yn y fan lle y saif y dref arno; neu ynte, oddi wrth graig yn cynnwys y defnydd hwnw mewn cyflawnder sydd yn y gymmydogaeth. Y mae eraill yn barnu i'r sir a'r dref gymmeryd eu henwau ar ol y castell; sef, y 'Castell ger y Lli'—'*Castellum super Fluentum.*'

Y mae arwyneb y sir yn amrywio yn fawr iawn, er nad ydyw yn meddu ar y gwylltineb rhamantus sydd yn nodweddu rhai o siroedd eraill y Gogledd. Y mae rhai o'i bryniau yn meddu llethrau serth; ond yn gyffredin, maent yn disgyn yn araf i ddyffrynoedd ffrwythlawn, a ddyfrhëir gan amryw ffrydiau. Y mae yr arfordir yn isel a thywodlyd; ond ar lanau y Ddyfrdwy, y mae tiroedd da, a gynnyrchant ŷd a phorfa. Ceir porfeydd da, hefyd, mewn rhanau bryniog o'r sir. Mae y parth gogledd-orllewinol yn wastadedd ëang, manteisiol at gynnyrchion amaethyddol. Ar yr ochr ddwyreiniol i Ddyffryn Clwyd, y mae rhês o fynyddoedd uchel yn ymgodi; ac y mae rhai o honynt, sef Moel Fammau, Moel Arthur, a Moel Enlli yn weledig o bellder mawr.

Y mae cynnyrchion mŵnawl y wlad yn amrywiol a gwerthfawr, yn gynnwysedig o wahanol fetteloedd; ond glò a phlwm ydynt yn benaf, a meini priodol at adeiladu.

Digitized by Google

Bu adeg pan yr oedd y sir hon yn cynnyrchu mwy o blwm na holl siroedd eraill Cymru yn nghyd; ac y mae llawer o hono yn cael ei godi yno etto—ac arwyddion rhagorol am y dyfodol. Ei phrif weithydd cynnyrchiol yn awr ydynt gweithfeydd Helygain, yn agos i Dreffynnon; yr Hendre, ac ardaloedd Rhosesmor a Rhyd-y-mŵn, yn agos i'r Wyddgrug. Y mae hen waith y Dalar Goch, ger Dyserth, wedi bod yn enwog am ei oludoedd o blwm a *zinc;* ond nid yw yn cael ei weithio yn awr. Y mae yn y sir, hefyd, amryw o weithiau glô. Y mae creigiau calch yn rhedeg trwy ran fawr o'r sir. Prif afonydd y sir ydynt y Ddyfrdwy, y Glwyd, a'r Alun. Y mae y sir yn gyfoethog o olion hynafiaethol; ac yn eu mysg, weddillion hen gestyll enwog yn Nghaergwrle, Dyserth, Ewloe, Fflint, Pen-ar-lâg, a Rhuddlan; a rhan o Fangor-îs-y-coed, yn nghantref Maelor, yn yr hon y mae rhan o'r fynachlog hynaf ac ëangaf ag oedd yn Mhrydain gynt [gw. BANGOR, Cyf. i.].

Un o'r gwrthddrychau hynotaf o fewn y sir ydyw Ffynnon Gwenffrewi; mewn cyssylltiad â'r hon y mae llawer o chwedlau a dychymygion ofergoelus yn bod hyd y dydd hwn. Ymwelir â hi yn flynyddol gan nifer fawr o ddyeithriaid —Pabyddion, yn benaf:—amryw o ba rai sydd yn derbyn lleshâd trwy ymdrochi yn ei dyfroedd oerion. O blegid hyny, priodolir iddi allu gwyrthiol gan y Pabyddion—y rhai sydd yn gwneyd y goreu a allant o honi, yn ol eu harfer. Y prif drefydd ydynt (Fflint), Wyddgrug (yn yr hon y cynnelir y llysoedd), Llanelwy (dinas esgobol), Treffynnon, a Phen-ar-lâg. Cyfansoddir bwrdeisdrefi Fflint gan y trefi canlynol; sef, Fflint, Caergwrle, Caerwys, Treffynnon, Wyddgrug, Overton, Rhuddlan, a Llanelwy; ac anfonir aelod drostynt i'r senedd. Eu cynnrychiolydd diweddar a phresennol ydyw Mr. J. Herbert Lewis; a Mr. Samuel Smith sydd yn cynnrychioli y sir etto. Y mae y ddau aelod yn Rhyddfrydwyr. Gwneir y Cynghor Sirol i fyny o 42 o gynghorwr etholedig, a 14 o henaduriaid. Dewiswyd Mr. J. Herbert Lewis yn gadeirydd cyntaf y cynghor; ond ymddiswyddodd o herwydd ei etholiad yn aelod seneddol.

MAESYFED.

Sir ydyw hon sydd yn gorwedd yn Neheudir Cymru, ac yn cael ei therfynu ar y gogledd gan Drefaldwyn, ar y gorllewin gan Aberteifi, ar y de-orllewin a'r deheu gan sir Frycheiniog, ar y dwyrain gan Henffordd, ac ar y gogledd-ddwyrain gan sir yr Amwythig. Mesura 36 milldir o hyd wrth 30 o led, a chynnwysa o ddeutu 238,715 o erwau. Hi yw y sir deneuaf ei phoblogaeth yn Nghymru; ac y mae y boblogaeth yma hefyd yn lleihau. Rhifent yn 1891 17,119, ar gyfer 18,523 yn 1881. Hon ydyw y sir fwyaf Saesnig yn y Dywysogaeth hefyd—a hwnw fel rheol, yn gymmysglyd a gwael. Pan ystyrir safle y sir ar y Goror, nis gellir synu llawer fod y bobl wedi colli iaith eu tadau. 'Y mae yn rhyfedd (ebai un) eu bod wedi peidio a bod yn Gymry cyn gallu bod yn Saeson.'

Bryniog ac anwastad ydyw holl arwyneb Maesyfed; a chyfyd y mynyddoedd mewn rhai lleoedd i uchder mawr. Y mae copa Coedwig Maesyfed yn 2,163 uwch law arwyneb y môr. Ceir ynddi amryw lynoedd; y penaf o ba rai ydyw Llyn Gwyn, Llyn Llanilin, a Llyn Bychlyn. Yr oedd y sir yn enwog gynt am ei choedwigoedd mawrion—y rhai ydynt, erbyn hyn, gydag ychydig eithriadau, wedi diflanu. Teneu a thlawd yw y rhan fwyaf o'r tiroedd; ac nid oes ond o ddeutu hanner ei harwyneb dan driniaeth. Magu anifeiliaid ydyw y prif gangen o ddiwydrwydd; a phrin y mae'r llawweithfeydd yn werth eu henwi. Prif afonydd y sir ydynt yr Wy, Teme, Elain, Ithon, Edwy, Bachwy, Arw, Marteg, a'r Clywedog. Y mae y sir yn nodedig am ei dyfroedd mŵnawl. O fewn ei therfynau hi y mae Llandrindod—dyfroedd yr hon sydd yn enwog am ei rinweddau meddygol; a phriodolir rhinwedd cyffelyb i ffynnonau Llandega, Pen-y-bont, Llanano, Llanbadarn Fynydd, a Llan-y-byster.

Ei chynnrychiolydd yn y senedd ddiweddaf oedd Mr. Frank Edwards, yr hwn sydd yn Rhyddfrydwr aiddgar a selog; ond yn awr, Mr. W. P. Milbank ydyw ei chynnrychiolydd. Gwneir y Cynghor Sirol i fyny o 24 o gynghorwyr etholedig, ac wyth o henaduriaid. Y cadeirydd cyntaf oedd Argl. Ormathwaite.

MEIRIONYDD.

Sir arfordirol yw hon, yn gorwedd yn Ngogledd Cymru. Y mae hi yn ffinio ar y gogledd-orllewin ar Gaernarfon, ar y gogledd ar Gaernarfon a Dinbych, ar y gogledd-ddwyrain ar sir Ddinbych, ar y de-ddwyrain ar Drefaldwyn; ar y deheu ar Aberteifi; ac ar y gorllewin, ar Forgainge Aberteifi, neu Gulfor yr Iwerddon. Ei hyd mwyaf yw 45 mill., a'i lled yn 30 mill.; a chynnwysa tua 525,802 o erwau. Mesura ei thraethell tua 38 milldir, a golchir hi gan Forgainge Aberteifi. Rhifai y boblogaeth yn 1891, 64,726, ar gyfer 68,237 yn 1881. Derbynia y sir ei henw oddi wrth y cantref a elwid 'Meirion,' yr hwn a gyssylltwyd â hi pan drefnwyd ei therfynau presennol yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed; a'r cantref a roddodd enw i hen dalaeth Meirionydd. Derbyniodd y cantref ei enw, am mai efe ydoedd cynnysgaeth Meirion, ŵyr Cunedda Wledig. Meirionydd ydyw yr unig swydd yn Ngwynedd a gadwodd ei henw cyntefig.

Nid oes odid i sir yn y deyrnas yn fwy anwastad ei harwyneb na Meirionydd. Mae hi o'r naill ben i'r llall wedi ei britho gan fynyddoedd cribog, a chreigiau uchelfrig. A'i chymmeryd drwyddi, diau mai hi ydyw y sir fwyaf mynyddig yn Nghymru. Er hyny, nid ydyw copa un o'i mynyddoedd uchaf mor uchel a'r Eryri yn Arfon. Uchder ei phrif fynyddoedd ydyw:—Aran Mawddwy, 2,970 tr.; Cadair Idris, 2,914 tr.; Aran Benllyn, 2,902 tr.; y Cnicht, 2,372 tr.; Maelwyn 2,566 tr.; Aran y Gesail, 2,224 tr.; a Chadair Berwyn, 2,563 tr. Y mae yn ngheseiliau y mynyddoedd hyn amryw afonydd, llynau, a dyffrynoedd. Prif afon y sir ydyw y Ddyfrdwy; yr hon sydd yn codi ychydig uwch law Llanuwchllyn, rhyngddi a Dolgellau, ac a lifa trwy Lyn Tegid, gan ymddolenu ar hyd dyffryn brâs Edeyrnion, heibio i Gorwen, a thrwy ddyffryn Llangollen, trwy Holt a Chaerlleon, ar ei ffordd i'r môr. Afonydd enwog eraill ydynt y Ddyfi, y Mawddach, yr Wnion, y Glyn, y Gynfal, y Ddwyryd, a'r Glaslyn, &c. Bychain o faintioli yw y llynau, gyda'r eithriad o Lyn Tegid (neu Lyn y Bala), —yr hwn ydyw y llyn naturiol mwyaf sydd yn Nghymru. Y llynau eraill ydynt fel y canlyn:—Arenig, Conglog, Cregynau, Creini, Cwm Mynach, y Llyn Du, Elidyr, Ceirw, Hoewal, Mwyngil, Mynyllod, Tegwyn, ac amryw eraill llai. Yn gymmaint a bod y sir mor fynyddig, nis gellir disgwyl amgen nag amrywiaeth yn

Digitized by Google

ansawdd y tir. Y mae y dyffrynoedd, ac ardaloedd clyd a chysgodol glanau y môr, yn cynnwys meusydd ffrwythlawn; ond diffrwyth ac anniwylliedig ydyw y rhanau eraill o'r sir. Megir llawer o ddefaid ar lethrau y mynyddoedd; a chodir ceirch a phytatw rhagorol yno, a haidd mewn rhai o'r ardaloedd. Ond yn ei chynnyrch mwnawl y mae prif olud y sir. Cloddir aur yn nghymmydogaeth Dolgellau, a cheir cyflawnder o lechi toi rhagorol yn Ffestiniog, a Chorris; a gweithir rhai gweithiau calch mewn rhanau o'r sir. Y prif drefi ydynt Bala, Dolgellau, Abermaw, Corwen, Ffestiniog, Harlech, a Thowyn; ac y mae y rhai sydd ar lanau y môr yn cynnyddu yn gyflym, a llawer o ddyeithriaid yn ymweled â hwynt yn yr haf.

Un aelod a enfyn y sir i senedd y deyrnas. Ei chynnrychiolydd yn awr ydyw Mr. T. E. Ellis —prif 'chwip' y llywodraeth flaenorol. Gwneir ei Chynghor Sirol i fyny o 33 o gynghorwyr etholedig, a 15 o henaduriaid. Cadeirydd cyntaf y cynghor oedd Dr. Edward Jones, Dolgellau.

MÔN.

Ynys yn Ngogledd Cymru ydyw hon, sydd yn amgylchynedig gan For yr Iwerddon, a Morgainge neu Afon Menai—yr hon sydd yn ei gwahanu oddi wrth sir Gaernarfon, a'r gweddill o siroedd Cymru. Hyd eithaf yr ynys hon ydyw 21 mill., a'i lled eithaf ydyw 19 mill.; a chynnwysa tua 120,199 o erwau. Mesura ei llinell arforawl tua 80ain milldir. Rhifai ei phoblogaeth yn 1891, 34,219, ar gyfer 35,122 yn 1881. Ac eithrio Maesyfed, hi ydyw y deneuaf ei phoblogaeth o holl siroedd Cymru.

Trwy ddarpariaethau 'Ystatud Rhuddlan,' a wnaed yn ddeddf gan y gorchfygwr Iorwerth I., y ffurfiwyd yr ynys yn swydd neu sir, yn ol y trefniant Saesneg. Yn flaenorol i hyny, yr oedd yr ynys yn ffurfio arglwyddiaeth, neu dalaeth arbenig yn nheyrnas Gwynedd, ac yn yr hen diriogaeth Ordofigaidd. Galwyd hi wrth wahanol enwau; sef, yr 'Ynys Dywell,' oddi wrth y coedwigoedd a'i llanwai gynt:—yn 'Ynys y Cedyrn,' o herwydd ei hynodrwydd fel magwrfa arwyr a chawri, a phrif drigle y Derwyddon. Ond yr enw cyntaf, yr hwn sydd wedi bod mewn arferiad cyffredin yn mhlith y trigolion, er o leiaf fil o flynyddau, yw 'Ynys Fôn,' neu 'Ynys Môn.' Yn ei *Mona Antiqua*, dadleua Rowlands, yr hanesydd a'r ysgolhaig enwog, mai yr ynys hon a alwodd y Rhufeiniaid yn *Ultima Thule*; yr hyn, medd efe, sydd gyfystyr â'r enw 'Y Fôn Dywell.' Gwawdiwyd y dyb hon gan lawer; ond cadarnheir y dyb, yn marn rhai, gan y ffaith fod y cofnodwyr Rhufeinaidd yn galw rhywle yn Mhrydain yn *Ultima Thule*, cyn iddynt erioed dreiddio yn mhellach na Môn. Y mae un peth yn sicr; sef, fod y Brytaniaid wedi galw yr ynys yn 'Fôn Wlad,' i arwyddo pwynt pellaf eu tiriogaeth. Y Rhufeiniaid hefyd a osodasant ffurf Ladinaidd ar enw cyssefin yr ynys, ac a'i galwasant hi *Mona*. Adwaenir yr ynys hefyd, er cyn cred a chôf, wrth yr enw 'Môn, Mam Cymru;' a bernir mai yr achos o'i galw fel hyn oedd ffrwythlondeb hynod yr ynys, ragor parthau eraill o'r Dywysogaeth. Priodolir yr enw i achos arall hefyd; sef, i'r ffaith mai Môn oedd prif drigle y Derwyddon — cartref dysgeidiaeth, moesoldeb, a deddfwriaeth Brydeinig am ganrifoedd cyn y goresgyniad Rhufeinaidd.

Y mae daear Môn, ar y cyfan, er fod ynddi beth tir cleilyd, a chorsydd mawr, yn hynod ffrwythlawn. Barn yr amaethwyr mwyaf profiadol ydyw, fod y tir yn fwy ffafriol i fagwraeth a meithriniad anifeiliaid, nag un rhan arall, yn mron, o Gymru. Tyfir ynddi gnydau godidog o geirch, ac ychydig o haidd; ond prin y gwelir maes o wenith o'i mewn. Tyfir llawer o bytatw ynddi hefyd. Gwlad led wastad yw Môn; heb fod un mynydd o bwys ynddi, ac heb ond ychydig o goedwigoedd. Er hyny, y mae hi yn gyfoethog mewn mŵnau. Dywedir fod ynddi lawer o greigiau calch ac o fynor. Buwyd yn codi glô hefyd hyd yn ddiweddar yn Nghors Ddeugae a Morfa Malltraeth. Ond 'Pres-fŵnau Parys fynydd,' ys dywed y bardd, a ffurfient gyfangorph cyfoeth mwnawl penaf yr ynys yn gynnar yn y ganrif hon. Dyma, meddir, oedd y corph mwyaf o gopr pur a ddarganfyddwyd yn Mhrydain. Flynyddoedd yn ol, gweithiai rhai cannoedd o fwnwyr yno; ond ychydig sydd yn awr.

Prif drefydd y sir ydynt Beaumaris (y brif dref), Amlwch, Caergybi, Llangefni, a Llanerchymedd. Hyd y fl. 1885, yr oedd gan y pedair flaenaf, y rhai a ffurfient fwrdeisdrefi Môn, hawl i anfon cynnrychiolydd i'r senedd; ond er y pryd hwnw, cynnrychiolir yr holl sir gan un aelod. Mr. T. Palestina Lewis, Rhyddfrydwr, oedd yr aelod diweddar; ond ymddiswyddodd yn yr etholiad diweddaf o herwydd afiechyd, a dewiswyd Mr. Ellis Jones-Griffiths i lenwi ei le. Gwneir y Cynghor Sirol i fyny o 33 o gynghorwyr etholedig, a 14 o henaduriaid. Cadeirydd cyntaf y cynghor oedd Mr. Hugh Thomas, Beaumaris; y presennol, Mr. Samuel Hughes, Bodednyfed.

MORGANWG.

Sir yn Neheudir Cymru yw Morganwg; a hi yw y fwyaf deheuol o'n siroedd. Terfynir hi ar y deheu a'r de-orllewin, gan Gulfor Bristol; ar y gorllewin gan yr afon Llychwr, yr hon sydd yn ei gwahanu oddi wrth sir Forganwg; ar y gogledd gan siroedd Caerfyrddin a Brycheiniog; ar y dwyrain gan afon Rhymni, yr hon sydd yn ei gwahanu oddi wrth Fynwy. Ei mesur yn ei llinell hwyaf o orllewin i ddwyrain, ydyw 42 mill.; a 27 mill. o led yn y man hwyaf. Cynnwysa 576,308 o erwau. Yr oedd ei phoblogaeth yn 1891 yn 693,072, ar gyfer 518,383 yn 1881. Y mae rhifedi ei thrigolion bum waith gymmaint a sir Gaernarfon; yr hon, o ran poblogaeth, yw yr agosaf ati o holl siroedd Cymru. Y mae'r cynnydd anarferol hwn yn y boblogaeth i'w briodoli i'r dadblygiad fu ar ei mwngloddiau, a'i llaw-weithfeydd.

Yr oedd y diriogaeth sydd yn awr yn ffurfio sir Forganwg, gynt, yn ffurfio rhan bwysig o'r dalaeth a elwid ar y cyntaf 'Gwent;' ac wedi hyny 'Essyllwg.' Golygir fod arwyddocâd y ddau enw, Gwent ac Essyllwg, agos yn gyfystyr, ac yn arwyddo goror brydferth a dymunol. Yr oedd y ddau enw mewn arferiad yn amser y goresgyniad gan y Rhufeiniaid. Dilynwyd Arthur yn mreniniaeth Essyllwg, neu Gwent, gan ei fab Morgan. Cynnaliai ef ei lys ar y cyntaf yn Nghaerlleon, yn sir Fynwy; ond er mwyn ymddiogelu rhag y Saeson, symmudodd Morgan safle ei lywodraeth yn fwy i'r gorllewin, gan breswylio, weithiau yn Nghaerdydd, ac weithiau yn Margam, yn sir Forganwg. O blegid hyn, gelwid parthau gorllewinol yr hen Essyllwg yn 'Morganwg.' 'Gwlad Morgan,' neu 'Gwlad Forgan,' y gelwid hi gyntaf oll; a newidiwyd yr enw yn fuan i'w ffurf bresennol—

Digitized by Google

'Morganwg.' Dylid hysbysu, fodd bynag, fod rhai yn tybio mai 'Môr Gant' yw y gwreiddiol, o herwydd fod y môr yn cylchynu cymmaint o honi.

O ran ei harwynebedd, y mae ynddi lawer o fryniau a dyffrynoedd, oddi gerth yn nghyffiniau Caerdydd—lle y ceir gwastadedd ffrwythlawn, ac o ëangder mawr. Y mae y rhanau gogleddol yn cynnwys mynyddoedd a bryniau diffrwyth. Yr uchaf o'r cribau hyn yw mynydd Llangeinwyr, yr hwn sydd yn 1,859 troedfedd uwch law y môr. Y mae adnoddau mŵnawl y sir hon o'r bron yn ddihysbydd; a cheir ynddi y meusydd glô cyfoethocaf o fewn yr holl deyrnas. Ceir yno hefyd blwm, haiarn, ceryg calch, tywod-faen gwyn, marmor, a challestr. Yn Merthyr Tydfil a Dowlais y mae gweithfeydd haiarn ëang, a ffwrneisiau i doddi mŵn. Yn Abertawe, Castellnedd, ac Aberafon, ceir gweithiau toddi copr; a thoddir alcan a phlwm ar raddfa ëang yn y sir hefyd. Y mae gweithfeydd a thrafnidiaeth y sir, fel y gellid disgwyl, yn ëang, o blegid y mŵnau a godir o honi; ac anfonir hwy i wledydd tramor o borthladdoedd Caerdydd, Barry, Abertawe, ac eraill.

Y mae y rhan ddeheuol o'r sir yn cynnwys dyffrynoedd ffrwythlawn. Y mae hinsawdd Dyffryn Morganwg—'Gardd Cymru,' a phenrhyn Gŵyr—yn hynod dyner ac iachusol. Prif afonydd y sir ydynt y Taf, Tawe, Nedd, Llychwyr, a'r Rhymni—yr oll yn ymarllwys i gulfor Bristol. Prif dref y sir yw Caerdydd—poblogaeth yr hon yn 1891 oedd yn 128,915. Yn 1881, nid oedd ei phreswylwyr yn rhifo ond 82,761. Yno y mae Coleg Prifysgol y Deheudir.

Cynnrychiolir y sir yn y senedd (1895), gan yr aelodau canlynol; sef, Mri. Wm. Abraham (Rhondda); David Randell (Gŵyr); W. H. Quin (A. J. Williams gynt) (Deheu); S. T. Evans (Canolbarth), ac Alfred Thomas (Dwyreinbarth). Cynnrychiolir bwrdeisdrefi Abertawe gan Syr J. T. D. Llewelyn (Mr. R. D. Burnie gynt); dosbarth Caerdydd gan Mr. J. M. Maclean (Syr E. J. Reed gynt); a bwrdeisdrefi Merthyr gan y Mri. D. A. Thomas a W. Pritchard-Morgan. Cyfansoddir y Cynghor Sirol, o 65 o gynghorwyr etholedig a 22 o henaduriaid.

### MYNWY.

Yn mysg siroedd Lloegr y rhestrid y sir hon gan y Saeson hyd yn ddiweddar. Camsyniad oedd hyn. Y mae yn cael ei chyfrif yn awr yn un o siroedd Cymru. Terfynir hi ar y gogleddorllewin gan sir Frycheiniog; ar y gogledd a'r gogledd-ddwyrain gan Henffordd; ar y dwyrain gan Gaerloyw; ar y deheu, gan enau yr Hafren, a chulfor Caerloyw; ac ar y gorllewin gan Forganwg. Mesura 32 mill. yn ei hyd mwyaf, a 28 milldir yn ei lled eithaf; a chynnwysa tua 394,424 o erwau. Y mae ei harwynebedd yn lled fryniog ar y cyfan, ac amryw o'i mynyddoedd o fil i ddwy fil o droedfeddi o uchder. Ei phoblogaeth, yn 1891, oedd 275,242, ar gyfer 234,304 yn 1881. Prif afonydd y sir ydynt yr Wy, y Fynwy, y Rhymni, y Drothy, yr Wysg, a'r Ebbw. Y mae prif olud y sir hon yn ei mŵngloddiau; a chodir ynddi gyflawnder o lô, mŵn plwm, haiarn, a chalchfaen. Saif y prif weithydd yn Mhont-y-pool, Abersychan, Pentwyn, Blaenafon, Nant-y-glô, a Chendl, a Thredegar. Rhwng y mŵngloddiau, y camlesydd, a'r ffyrdd haiarn, y mae arwynebedd y sir wedi myned dan gyfnewidiadau dirfawr yn ystod y blynyddoedd diweddaf. Mynwy yw prif dref y sir. Y trefydd eraill o bwys ydynt Casnewydd-ar-Wysg, Bryn-y-byga, Abergafenni, Caerwent, Pont-y-pool, Tredegar, a Chaerlleon-ar-Wysg.

Yn y dyddiau gynt, yr oedd y sir hon yn ffurfio rhan o wlad y Siluriaid; a bu, hefyd, yn perthyn i Dywysogaeth y Deheubarth—Morganwg a Gwent. Yn amser Harri VIII., penderfynwyd nad oedd Cymru i gynnwys ond y deuddeg sir; a gwahanwyd Mynwy oddi wrth y Dywysogaeth, gan ei gwneyd yn sir Saesnig. Er hyny, sir hollol Gymreig yr ystyrid hi hyd amser Siarl II. Fel prawf o'i bod i gael ei hystyried yn sir Gymreig—ac felly, fod Cymru gynnwys ynddi dair sir ar ddeg—nis gallwn wneyd yn well na rhoi y rhesymau a roddodd Mr. Asquith dros hyn yn y ddadl a gymmerodd le yn y senedd ar Ddadsefydliad a Dadwaddoliad yr Eglwys yn Nghymru, nos Fawrth, Mai 14eg, 1895. Dywedodd 'fod sir Fynwy, er yr amseroedd boreuaf, yn rhan o Gymru mewn ystyr eglwysig a gwladol. Cyssylltwyd yr hen Eglwys Gymreig â'r Eglwys Saesnig, a darostyngwyd hi i awdurdod yr eglwys hono, ac fe'i dygwyd y tu mewn i gylch awdurdod a braint Archesgobaeth Caergaint. Yr oedd sir Fynwy yn rhan a gymmerwyd oddi ar Gymru. Ond a gadael yr agwedd eglwysig i'r achos y naill du, yr oedd Mynwy, at bob amcanion a pherwylion gwladol, hyd nes y gwnaed Rhaith neu Ystatut Harri yr Wythfed, yn rhan o'r Gororau ar derfynau y wlad—rhyw fath o dir oedd mewn dadl rhwng Lloegr a Chymru; a chan y Rhaith neu y ddeddf uchod y gwnaed hi yn sir ar wahân. Ond ni chredai efe, fod sir Fynwy wedi ei gwneyd yn sir Saesnig, trwy effaith cyfreithiol y ddeddf hono. O leiaf, edrychid ar Fynwy fel rhan o Gymru mor ddiweddar ag amser y frenhines Elizabeth. Os trinid y cwestiwn fel mater o hanes, fe geid hefyd fod swm mawr o awdurdod a thraddodiad yn dangos fod sir Fynwy yn rhan o Dywysogaeth Cymru; ac yr ymwneid â hi fel un o siroedd Cymru. Wrth ddyfod i lawr i'r dyddiau presennol, ceid fod Mynwy, o ran cenedligrwydd, hanes, ac iaith, ac hefyd o ran y ddeddfwriaeth seneddol ddiweddar, yn hollol ar yr un tir a'r gweddill o siroedd Cymru. Yr oedd y weinyddiaeth ddiweddar [Argl. Salisbury] wedi cydnabod fod Mynwy yn rhan o Gymru trwy basio Deddf Addysg Ganolraddol, yr hon sydd yn cynnwys Mynwy o fewn cylch ei gweithrediadau. A phan ofynid am farn pobl sir Fynwy ei hun o berthynas i'r Eglwys Sefydledig, nid oedd un sir a ddadganodd ei barn mor glir a phendant a sir Fynwy o blaid Dadsefydliad a Dadwaddoliad yr Eglwys. Y prawf mawr a chlir o deimladau y sir ar y cwestiwn oedd ei chynnrychiolaeth yn y senedd; ac yr oedd efe yn ei dderbyn fel dadganiad awdurdodol o farn y sir ar yr achos. Felly, daeth y weinyddiaeth bresennol [Argl. Rosebery] i'r penderfyniad (meddai) y dylid cynnwys sir Fynwy yn y mesur presennol.'

Yn ol hyn, y mae prawfion boddhaol i'w cael yn mhenderfyniad y ddwy weinyddiaeth—y Doriaidd dan Arglwydd Salisbury, a'r Ryddfrydig dan Arglwydd Rosebery — fod Cymru yn meddu hawl wirioneddol i restru Mynwy yn mysg ei siroedd. O hyn allan, y mae'n rhaid cyfrif siroedd Cymru yn dair-ar-ddeg!

Cymmer tref Mynwy ei henw oddi wrth ei safle ar enau yr afon Mynwy. Gelwid hi gynt yn Abermynwy, Trefynwy, a Mongwy. Oddi

Digitized by Google

wrth y dref, gan hyny, y cymmer y sir ei henw. Dychwelir tri o aelodau i'r senedd dros y sir, ac un dros fwrdeisdrefi Mynwy, Casnewydd, a Bryn-y-byga. Ei haelodau seneddol gynt oedd Mr. T. P. Price, yr Anrh. F. C. Morgan, a Mr. C. M. Warmington dros y sir; a Mr. A. Spicer dros y bwrdeisdrefi. Yr aelodau presennol (1895) ydynt Mr. R. Mackenna, a'r Anrh. F. C. Morgan. Ymddiswyddodd Mr. Warmington ar ol i Derby wrthod Syr William Harcourt; a dewiswyd ef yn ei le. Mr. Spicer sydd yn parhau i gynnrychioli y bwrdeisdrefi. Gwneir y Cynghor Sirol i fyny o 48 o gynghorwyr etholedig, a 16 o henaduriaid.

TREFALDWYN.

Sir ydyw yn gorwedd yn Ngogledd Cymru, a ffinir ar y de-ddwyrain, y dwyrain, a'r gogledd-ddwyrain gan sir Amwythig, a rhan anghyssylltiol o sir Ddinbych; ar y gogledd-orllewin a'r gorllewin, gan Meirionydd; y de-orllewin, gan Aberteifi; ac ar y deheu, gan Faesyfed. Mesura 40 mill. o hyd, wrth 35 o led; a chynnwysa 589,846 o erwau. Ei phoblogaeth yn y fl. 1891 oedd 67,297, ar gyfer 76,197 yn 1881. Cyfrifir fod un ran o dair o honi yn borfa parhaus; a bod 58,000 o erwau dan driniaeth. Mae yr ochr ddwyreiniol o honi, yn benaf, yn gynnwysedig o ddyffrynoedd cyfoethog, bryniau hyfryd, ac iseldiroedd iachus a chynnes; ond yn y parthau eraill, y mae hi, gan mwyaf, yn fynyddig, corsiog, a gwyllt. Ynddi y mae Mynydd Plimlumon, a'r Berwyn, Bryniau y Breiddyn, a thrumiau uchel eraill. Yr uchaf ynddi ydyw Plimlumon, yr hwn sydd yn 2,469 tr. uwch law y môr. Y mae llinell o afonydd ynddi sydd yn rhedeg o ogledd i ddwyrain, ac yn gwahanu iseldir y Dyfi oddi wrth iseldir yr Hafren a'r Wy; ac yn gwahanu, hefyd, tuag un ran o bump o'r sir, ar y gorllewin, oddi wrth y gweddill ar y deheu. Y prif afonydd ydynt yr Hafren, y Dyfi, y Fyrnwy, Clywedog, Taranon, Rhiw, Banw, Einion, Brogau, Cain, a'r Tanat. Y mae yr ardaloedd lle y mae amryw o'r afonydd hyn yn rhedeg drwyddynt yn enwog am eu golygfeydd, eu dyfroedd, a'r pysgod sydd ynddynt. Ceir yn y sir, hefyd, amryw o fân lynau; sef, y Bugeilyn, Glaslyn, Llangwyddior, Llyn Hir, a Llyn-yr-Afangc. Ychydig o fŵnau sydd ynddi. Gwneir gwlaneni a brethynau Cymreig yno ar raddfa ëang—yn y Drefnewydd, yn benaf.

Cymmer yr enw 'Trefaldwyn' oddi wrth un Baldwyn, yr hwn a dalodd warogaeth i'r gorchfygwyr am y rhan yma o Gymru, gan addaw ei ddiogelu trwy nerth arfau. Wedi cwblhau ei amcan mewn rhan, adeiladodd amddiffynfa yn sefyll ar y llanerch lle y mae Trefaldwyn arni yn awr. Galwyd y dref gan y Cymry yn 'Tref-Baldwyn;' yr hwn a lithrodd i'w enw presennol. Y mae yr enw Saesneg *Montgomery* yn deilliaw oddi wrth Roger de Montgomery; yr hwn a gafodd drwydded gan y Gorchfygwr i ddarostwng y Cymry ar yr ochr orllewinol i'r Hafren. Llwyddodd i gymmeryd castell a thref Trefaldwyn; a galwodd hwynt ar ei enw ei hun.

Pen tref y sir ydyw Trefaldwyn, gyda'r hon y mae Llanfyllin, Llanidloes, Trallwm, Machynlleth, a'r Drefnewydd wedi eu huno i ffurfio bwrdeisdrefi Maldwyn; y rhai a feddant hawl i anfon aelod i'r senedd. Eu cynnrychiolydd presennol (1895) yw Mr. Pryce-Jones—mab Syr P. Pryce-Jones, yr aelod diweddar. Cynnrychiolir y sir, fel o'r blaen, gan Mr. A. C. Humphreys-Owen. Gwneir y Cynghor Sirol i fyny o 42 o gynghorwyr etholedig, a 14 o henaduriaid. Cadeirydd cyntaf y cynghor ydoedd Mr. A. C. Humphreys-Owen.

PENFRO.

Sir yn gorwedd yn Neheubarth Cymru. Ei henw gwreiddiol oedd *Penbroog*—o *pen*, y rhan neu y cŵr pellaf; *bro*—rhandir, gwlad; *og* neu *wg*—geiryn terfynol yn arwyddocau mewn hen enwau Cymreig gwlad drigiannol; megys, Brycheini*og*, Rhyfoni*og*, Essyll*wg*, Morgan*wg*, &c. Yn yr *Annales Cambriæ*, gelwir y sir yn Pembroc a Pembroch-ia; yr hwn, fel yr enw Saesneg presennol, nid ydyw amgen na llygriad o'r hen enw Cymraeg. Er mwyn perseinedd, dybygid, yr arferwyd y ffurf llyfnach—Penfro.

Terfynir y sir ar y deheu-orllewin a'r gogledd-orllewin gan y môr. Ar ei thueddau gogleddol, terfynir hi gan yr afon Teifi, yr hon sydd yn ei rhanu oddi wrth Geredigion; ar yr ochr ddwyreiniol, gwahenir hi oddi wrth Gaerfyrddin, mewn rhan, gan yr afonydd Cych, y Tâf, a'r Cleddau; ac mewn rhan gan ucheldir mynyddig sydd yn gorwedd rhwng tardd-leoedd y Cych a'r Tâf. Hon yw y sir fwyaf gorllewinol yn y Dywysogaeth. Mesura tua 30 mill. wrth 25; a chynnwysa 357,118 o erwau. Ei phoblogaeth yn y fl. 1891 oedd 82,003, ar gyfer 83,679 yn y fl. 1881.

Y mae Penfro, mewn modd arbenig, yn sir amaethyddol; o blegid y mae tair rhan o bedair o'r tir yn dir âr. Er hyny, ceir ynddi ucheldir—ac hyd yn oed fynyddoedd. Nid oes ynddi wastat-tiroedd neu ddyffrynoedd llydain, nac afonydd mawr chwaith. Nid ydyw y mynyddoedd yn uchel. Yr uchaf yw Pen Preselu; yr hwn sydd yn 1,754 tr. uwch law y môr. Ceir creigiau uchel yn agos i Trefgarn, ac ambell i fynydd yn nghymmydogaeth Tŷ Ddewi a Phencaer. Y prif afonydd ydynt y Teifi, yr hon a wahana y sir oddi wrth Geredigion, a'r afonydd Cleddau—dwy sydd yn myned dan yr un enw. Un o'r porthladdoedd naturiol mwyaf ëang a chyfleus yn yr holl fyd ydyw Hafan Aberdaugleddyf, yn y sir hon; lle nad yw y llanw na'r trai yn anhwyluso dim ar ei gyfleusderau mordwyol. Y mae cymmydogaeth Aberdaugleddyf, mewn canlyniad, wedi bod bob amser yn ganolbwynt masnach, a bywyd, a dylanwad y sir. Mewn ystyr daearegol, y mae mwy o debygolrwydd rhwng siroedd Penfro a Môn nag sydd rhwng unrhyw ddwy sir arall yn Nghymru. Y mŵnau a gloddir ynddi ydynt glô, llechfaen, plwm, a haiarn. Yn Nhŷ Ddewi, un o drefydd y sir, y mae yr eglwys gadeiriol; a dyma eisteddle Esgob Tŷ Ddewi.

Y mae tua hanner y sir, os nad chwaneg, yn cael ei phoblogi gan drigolion cymmysg; y rhai sydd yn siarad Saesneg mewn dull nodweddiadol iddynt eu hunain. Tua 1107, ymsefydlodd trefedigaeth o Ffiemingiaid yn nghymmydogaeth Dinbych-y-pysgod; ac i'r Ffiemingiaid hyn, y rhai a fabwysiadasant yr iaith Saesnig, y priodolir tarddiad rhan fawr o'r boblogaeth. Dyma yr achos penaf, fe allai, fod yr iaith Saesnig mor flodeuog yno yn y dyddiau hyn. Prif drefydd y sir ydynt Penfro, Aberdaugleddyf, Dinbych-y-pysgod, Abergwaun, a Threfdraeth, Narberth, a Hwlffordd. Dychwelir un aelod i'r senedd gan y sir, ac un hefyd gan y bwrdeisdrefi. Yr aelodau presennol (1895) ydynt Mr. W. R. M. Davies dros y sir; a Mr. J. M. Laurie

Digitized by Google

(Mr. C. F. Egerton-Allen gynt) dros y bwrdeisdrefi. Gwneir y Cynghor Sirol i fyny o 48 o gynghorwyr etholedig, a 16 o henaduriaid.

**SAUNDERS, DAVID**, D.D., Abertawe, ydoedd weinidog enwog yn nghyfundeb y Trefnyddion Calvinaidd, ac a lanwodd le neillduol yn mhulpud Cymru yn y trydydd chwarter o'r bedwaredd ganrif-ar-bymtheg. Pan yr oedd yr areithfan gyssegredig Gymreig yn ei man uchaf, a'r dyddiau, ar lawer cyfrif, yn rhan o oes y cewri pregethwrol, safai gwrthddrych yr ysgrif hon yn y rhengc flaenaf o honynt; a pherthynai i'w weinidogaeth rai nodweddau a'i gosododd allan ar ei ben ei hun yn eu plith hwynt oll. Mewn oes gymmharol fêr, gwnaeth ei ôl ar feddwl Cymru, a gosododd ei ddelw mewn modd arbenig ar bregethu y Methodistiaid Calvinaidd Cymreig.

Er iddo farw yn gymmharol ddiweddar, llefërir eisoes am le ei enedigaeth gyda graddau o ammwysedd. Awgryma rhai mai yn Llanbedr-pont-Stephan, yn Aberteifi, y ganwyd ef: eraill a ddywedant mai yn Nhreforris, yn Morganwg. Bu ei rieni yn byw yn nyddiau ei faboed yn mhob un o'r lleoedd hyn; yr hyn a roes rhyw gymmaint o sail i dybied mai yn un, neu arall, o'r lleoedd hyn y ganwyd ef. Mor brin yw y byd o wroniaid, ac mor ddibris o honynt, yn fynych, pan y gwnant eu hymddangosiad, fel y mŷn saith dinas ymgystadlu am fod yn lle genedigaeth Homer; ond mewn un o honynt yn unig y ganwyd y prif-fardd—a hwnw nid y man enwocaf. Felly, bu raid ysbeilio y dinasoedd eraill o'r enwogrwydd rhadlawn o fod yn fangre ei enedigaeth. Felly am wrthddrych yr ysgrif hon:—nid yn Llanbedr, nac yn Nhreforris, y ganwyd ef; ond yn Nghastellnewydd-yn-Emlyn, yn sir Aberteifi, ar yr 20fed o Fai, 1831. Ac er gwneyd y sicr yn sicrach, manylir trwy ddyweyd fod y fan y ganed ef mewn rhan o'r dref a elwir Trefrhedyn, ar ochr sir Aberteifi i'r afon Teifi; a bod y tŷ yn aros hyd yr awr hon. Hanai teulu ei dad, fel y tybir, o deulnoedd a drigent i lawr tua rhai o benrhynau sir Benfro—yn nghymmydogaeth Hwlffordd; ac awgryma yr ar-enw 'Saunders' nad oedd yn tarddu o bob tu o deuluoedd Cymreig ei ardal enedigol. Yr oedd ei fam yn hanu, fodd bynag, o'r parth Cymraeg hwnw lle yr asia y tair sir—Penfro, Caerfyrddin, ac Aberteifi—yn eu gilydd. Efe oedd uniganedig y briodas. Dyn o ymddangosiad urddasol, cerddediad hoywedd, yn dalach, a mwy, na'r cyffredin o ddynion, yn meddu ar natur fawr, garedig, a mesur mawr o graffder naturiol a moesol, oedd ei dad. Yr oedd ei fam yn wraig yn ystyr oreu y gair—o synwyr cyffredin cryf, a barn dda odiaeth; ac yn goron ar y cwbl, meddai grefydd ddiammheuol. Mewn gair, yr oedd ei dad a'i fam yn bobl wir grefyddol. Etifeddodd yntau lawer o deithi meddyliol ei riaint, a chafodd gysgod adderchog i dyfu i fyny dan aden eu crefydd hwy. Cynnysgaeddwyd ef â thoraeth o fawrfrydigrwydd, urddas, a haelioni calon ei dad; a barn ddiŵyro, tueddfryd crefyddol, a defosiwn gwylaidd ei fam. Gwyn fyd y cwpl a fendithiwyd â'r fath blentyn; a syrthiodd ei linyn yntau mewn man hyfryd, pan drefnodd Rhagluniaeth iddo i fod yn etifedd i'r fath rieni. Er ei fod yn perthyn i ddosbarth canol cymdeithas, ac yn dilyn galwedigaeth er mwyn bywoliaeth; amlwg ydyw fod ei dad wedi cael gafael ar addysg uwch na chyffredin bobl ei ddydd, ac yn feddiannol ar wrteithiad meddwl eangach na nemawr o'i radd. Yr oedd ganddo lais soniarus dros ben, ac ystôr dda o hono, a chariad arbenig at gerddoriaeth. Yn hyn, dilynwyd ef gan ei fab. Un o'i hoff bleserau yntau, o'i febyd hyd ei fedd, oedd efrydu ac ymarfer â cherddoriaeth.

Yn mhen tua phum mlynedd ar ol eu dyfodiad i Lanbedr, a phan yr ydoedd eu bachgen, Dafydd, tua saith mlwydd oed, symmudodd ei rieni i Dreforris, ger llaw Abertawe. Hwn, gan hyny, ydyw y lle y treuliodd efe ddyddiau ei febyd ynddo. Wrth gwrs, fel pob plentyn ymchwilgar, yr oedd wedi dechreu dysgu cyn gadael Llanbedr; a hysbysir ni fod ei hen athraw, yn yr Ysgol Sabbothol yno, yn fyw hyd yn ddiweddar, os nad yn fyw etto, ac yn ei chyfrif yn un o orchestion ei oes ei fod wedi cael bod yn offeryn i gychwyn un a ddaeth wedi hyny mor enwog. Wedi symmudiad ei rieni i Dreforris, cafodd llawer gwell cyfleusderau i gynnyddu, a mwy o fanteision i dynu un o'i fath ef allan mewn pob gwybodaeth fydol a chrefyddol. Lle gweithfäol ydyw Treforris; ac y mae Abertawe, a'i sefydliadau addysgol, ger llaw. Ac eithrio un neu ddau o ysbeidiau byrion, mewn lleoedd o'r fath y treuliodd Dr. Saunders ei holl oes—yn nghanol sŵn arfau a gwaith, a chynnulliad tyrfaoedd o ddynion. Meddai syched anniwall am wybodaeth, a dechreuodd yn foreu dynu dwfr o ffynnonau dysgeidiaeth. Cafodd, i ddechreu, ysgol elfenol oreu y lle; a dechreuai fanteisio ar ol hyny ar sefydliadau Abertawe, mewn ysgolion dyddiol a nosawl. Yr oedd yn ei feddwl gyfuniad tra hynod. Anfynych y cyfarfyddir â chwaeth naturiol gref at rifyddiaeth yn ei changhenau uchaf, a gwyddoniaeth, a cherddoriaeth, &c., a'r cyfan wedi ei briodi âg ardymmheredd mor farddonol a'r eiddo ef. Yr oedd ganddo, ar hyd ei oes, lygaid craff i ganfod y tlws mewn lliwiau, a'r cain mewn ffurfiau; a threiddgarwch i ddeall deddfau mesuroniaeth a rhesymeg, a'r canghenau cydnaws â hyny, a ystyriai efe fel ei gryfder penaf.

Nid esgeulusai chwaith, hyd yn oed pan yn fachgen, amaethu ei galon. Fel y gallesid disgwyl, y canu oedd y rhan o waith y cyssegr a'i dygodd gyntaf i gyffyrddiad agos â gwasanaeth yr Arglwydd. Bu ei dad yn arweinydd y gân am flynyddoedd lawer yn nghapel Philadelphia, yn Treforris; a chymmerai yntau ran neillduol gyda'r canu yno. Deffrowyd ei feddwl yn Nhreforris, yn fwy nag yn Llanbedr, gan hen athraw iddo yn yr Ysgol Sabbothol—un o'r enw 'Dafydd Jones, y siop'—tad-yn-nghyfraith y pregethwr enwog Thomas Jones, o Dreforris—ac o Lundain a Melbourne wedi hyny. Efe oedd y gŵr a gafodd y fraint o gyffwrdd â'i feddwl, a gwylio ei ddeffroad, yn yr Ysgol Sabbothol yno. Y fath sefydliad bendigedig yw yr Ysgol Sul! Mae hi wedi bod yn gwylio cryd meddyliau mwyaf Cymru. Rhaid oedd meddwl bellach am alwedigaeth iddo. Ceisiwyd gwneyd siopwr o hono—ond ni thyciodd. Symmudwyd ef i weithio dodrefn, a golygid y gellid gwneyd crefftwr o hono; ac ymffrostiai ei hun y gallesid gwneyd 'saer dodrefn' da o hono. Ond yr oedd y 'peth dwyfol hwnw' sydd, fel y dywed Shakespeare, yn rhaglunio amcanion dynion, er iddynt hwy, ac eraill fe allai, frasnaddu pethau yn wahanol, yn llunio iddo yntau i fod yn bregethwr yr efengyl. Yn ei achos ef,



Digitized by Google

gwnaed siopwr canolig, a chrefftwr possibl, yn bregethwr o ddoniau digyffelyb. Yr oedd ei eneiniad i'r gwaith yn dyfod yn fwy fwy i'r golwg; ac y mae yr arweiniad, ac agoriad y ffordd iddo i'r weinidogaeth yn dilyn. Efe sydd wedi gosod ei fŷs drymaf, o bawb, ar y llecyn gwan hwnw yn Nghristionogaeth yr Eglwys Sefydledig, o osod rhai yn ngwaith y weinidogaeth heb wir anfoniad; ac efe, o bawb, fuasai y diweddaf i ymgymmeryd â'r gwaith goruchel hwn heb ymdeimlad dwfn o anfoniad dwyfol.

Bellach, yr ydym yn prysuro at gyfnod ei addysg, a'i barotöad i'r weinidogaeth. Yr oedd pob peth natur, Rhagluniaeth, a gras fel wedi ei dori allan at fod yn bregethwr yr efengyl. Nid hir y bu rhai o'i gwmpas hefyd, chwareu teg iddynt, heb weled hyny. Cymmerai ran gyhoeddus eisoes mewn cyfarfodydd ynglŷn â'r Ysgol Sabbothol; a gwelid fod ganddo barabl rhwydd a meddwl cynnyrchiol. Braint, hefyd, oedd gan yr hen ddodrefnydd, John James, yr hwn y rhwymasid ef gydag ef, ei ryddhau cyn ei amser o'i brentisiaeth, 'heb na gwerth na gobrwy,' er mwyn iddo gael dechreu pregethu, a pharotoi at hyny. Ar yr un adeg ag ef, ac yn yr un eglwys ag ef, cychwynai bachgen ieuangc arall i bregethu, o'r enw David Gray—gŵr ieuangc o amgylchiadau isel, eithr o grefyddoldeb amlwg, a chymmeriad disglaer. Nid teg eu cymmharu â'u gilydd, o blegid yr oedd un i gael amser, ac i dyfu, a dyfod yn bren mawr; tra yr oedd y llall yn un o'r 'aeddfed ffrwyth cyntaf,' ac i gael ei symmud yn fuan o'r ddaear i'r nefoedd. Felly, cyn pen nemawr o fisoedd ar ol ei fynediad i'r athrofa, gorfu i David Gray ddychwelyd adref, i farw. Glynai enaid y ddau fachgen y naill wrth y llall, fel yr eiddo Dafydd a Jonathan; a soniai yr un a adawyd ar hyd ei oes, gyda thôn hiraethlawn, am ei gyfaill ieuangc addawol, a ddiangasai o'i flaen i wynfyd.

Yr wythnos gyntaf yn mis Awst, y fl. 1851, aeth David Saunders i fewn i Athrofa Trefecca fel pregethwr ieuangc. Arolygid y sefydliad y pryd hwnw gan y diweddar Barch. D. Charles, D.D. Y fath ydoedd ei aeddfedrwydd, a'i allu naturiol, mewn rhai canghenau neillduol, fel yr oedd yn fforddio iddo roddi llawer o'i amser at ganghenau eraill, ac hyd yn oed at ddarlleniad ëang ar byngciau o'r tu allan i gylch efrydiau neillduol y coleg. Yma y dechreuodd efe agor ei lygaid ar fyd mawr athroniaeth ddeallol a moesol, ac y dygwyd ei feddwl i gyffyrddiad gyntaf â duwinyddion y Cyfandir, trwy *Clark's Theological Library*. Ychydig o'i gydefrydwyr sydd yn awr yn fyw; ond addefant yn rhwydd y rhodiai efe fel cawr yn eu plith, ac iddo esgyn yn fuan i flaen ei ddosbarth; a thra y bu yno, y cadwai ei safle yn ddidrafferth. Gallasai, yn ddiau, pe y cyfyngasai ei hunan at efrydiau neillduol yr athrofa, gynnyddu mwy ynddynt. Bu hyn yn nodwedd berthynol iddo ar hyd ei fywyd—ëangder dirfawr maes ei astudiaeth yn tolli ar efrydiaeth arbenig rhai rhanau o hono. Ond ni chyfarfyddasom ni âg odid neb a gariai goflaid mor fawr o wybodaeth, a hyny mor gryno a di-goll. Gwyddai rywbeth am braidd bob peth; ac yn ddibetrus, gallwn ddyweyd y gwyddai bob peth am rai pethau. Gosodai i lawr y pryd hwnw sail i'r gwrteithiad ëang hwnw oedd yn ei nodweddu ar hyd ei oes. Yr oedd yn ddyn gwir ddiwylliedig; a gallasai yn hawdd, pe y mynasai, ennill gwobrau y *specialist*, a chymmeryd ei radd yn anrhydeddus mewn rhyw gwr o faes helaeth gwybodaeth. Ond yr oedd Rhagluniaeth ddifeth yn ei arwain yn hyn oll, ac yn ei gyfaddasu yn ddistaw i lanw y lle oedd iddo yn arweiniad meddwl Cymru. Yr oedd argyfwng ar ddyfod ar ein gwlad, ac yn arbenig ar gyfundeb y Methodistiaid Calvinaidd, ag y byddai eisieu dyn o'r ëangder a'r cydbwysedd meddwl a feddai efe.

Ar ol arhosiad o tua dwy flynedd yn Nhrefecca, daeth cais ato, drwy law ei gyfaill, Dr. Harries Jones, oddi wrth ychydig o Gymry a weithient ger llaw i dref Glasgow, yn yr Alban, yn gofyn iddo ddyfod atynt i bregethu iddynt; ac yn dal o'i flaen y fantais a gaffai efe o fwynhau manteision y brifathrofa yno ar yr un pryd. Daeth llythyr cryf hefyd oddi wrth y fintai fechan hon o weithwyr; a chyflwynwyd eu cais a'u llythyr i Gymdeithasfa y Deheubarth, ymgynnulledig yn y Gorwydd, Mai, 1853. Diau fod swyn neillduol yn y cais hwn iddo ef; ac nid oedd y ffaith ei fod yn dyfod oddi wrth fagad o'i gydwladwyr a weithient mewn gwlad estronol, y rhai nas gallent roddi nemawr o gydnabyddiaeth iddo, yn tynu dim oddi wrth y swyn hwnw. Ond rhaid oedd gweithredu yn rheolaidd; a thrwy y gymdeithasfa, rhaid oedd cael caniatâd Cyfarfod Misol Morganwg i'w ryddhau cyn gorphen ei dymmor athrofaol yn Nhrefecca. Hyn a ganiatawyd, fel y dengys penderfyniad y gymdeithasfa; ac i ddangos nodwedd eithriadol yr amgylchiadau, a'i deilyngdod yntau, gellir dweyd iddo gael ei wahodd i bregethu yn y gymdeithasfa hono yn y Gorwydd. Mewn amaethdy o'r enw Glandulas y pregethodd efe, a hyny fel cydymaith i'r Parch. C. Bowen, Penclawdd. Dyma hanes ei bregethu cyntaf mewn cymmanfa; un a ddaeth wedi hyny yn addurn anhebgor Cymdeithasfaoedd y Methodistiaid Calvinaidd, trwy Dde a Gogledd Cymru am flynyddoedd lawer.

Bu yn Mhrifysgol Glasgow am o ddeutu blwyddyn, a phregethai ar y Sabbothau i'r Cymry, yn Airdrie; ac ar ben y flwyddyn, dychwelodd tuag adref, gan lwyr fwriadu myned yn ol drachefn. Y pryd hyn, ymwelwyd âg ef gan dwymyn beryglus; a bu yn dioddef oddi wrth wendid mawr mewn canlyniad. Bu am ysbaid heb fod yn alluog i unrhyw galedwaith meddyliol. Torodd hyn yn hollol, fel yr ymddengys, ar gwrs ei addysg, ac ar ei fwriadau; ond tebyg fod y cyfan er daioni. Pa feddyg a ddywedodd fod aeth o dwymyn i'r corph weithiau, fel ffagl o dân drwy ffynel y tŷ?—y gallai y tŷ fod yn well wedi hyny, os paid y trawstiau a chymmeryd tân. Ai tybed nad ydyw yr hyn sydd wir am gorph yr un mor wir am ysbryd. I un mor deimladol ag y gwyddem fod Dr. Saunders, nis gallwn ddirnad pa feddyliau a'i meddiannodd yn y cyfwng hwn. Ysgrifenu erthygl ar hawliau Cristionogaeth, a bendith Ysbryd Duw ar gawod drom o afiechyd tua'r un adeg, a wnaeth Dr. Chalmers yn bregethwr mwyaf Ysgotland yn ei ddydd. Y mae y Cymro ieuangc o Dreforris, ar ol gwellhâd graddol o'r dwymyn a'r gwendid, yn ymroddi i weinidogaeth y Gair.

Bellach, yr ydym wedi cyrhaedd boreuddydd ei weinidogaeth. Pan y traddodai Henry W. Beecher ei ddarlithiau ar bregethu i efrydwyr Coleg Yale, yn America, gofynwyd iddo, ar ddiwedd un o honynt, gan un o'r efrydwyr, 'A fuasai efe yn eu cynghori i ymsefydlu, ar ei

ddyfodiad o'r athrofa, mewn tref, ynte myned allan i rywle tua'r gorllewin? 'Ewch i'r gorllewin pell ar bob cyfrif,' oedd yr atteb parod. Yn y penrhyn hwnw o dir a elwir Bröwyr, yn Morganwg, yr ymsefydlodd gwrthddrych ein hysgrif ar ei ddyfodiad allan o'r brif-athrofa. Eglwys Penclawdd, yn y rhanbarth hwnw, oedd ei 'orllewin pell' ef; ac anhawdd, dybygid, fuasai cael lle mwy cyfaddas i un o'i fath ef ar hyn o bryd. Lle unig a neillduedig, a phobl o'r dosbarth amaethyddol araf, gyda chymmysgedd o ychydig o weithwyr, ac heb gael eu cyfrif gyda'r cenhedloedd amgylchynol, oedd y trigolion. Lle campus iddo i dyfu—ond nid i aros. Yma yr ymgyfathrachodd, drwy fynu cyfleusdra i wrandaw ar rai o brif weinidogion y cyfundeb y perthynai iddo. Hyd yn hyn, nid oedd efe wedi cael cyfle i wrandaw ar amryw o honynt. Ennynai yr oll o'r pethau hyn y brwdaniaeth am bregethu oedd eisoes yn cynneu yn ei fynwes. Un o'i hoff bregethwyr y pryd hyn oedd y Parch. Richard Lumley; ac oni bae ein bod yn gwybod ei fod wedi ei ddyrchafu yn ddirfawr uwch law y demtasiwn o geisio dynwared neb, buasem yn cael ein tueddu i ddyweyd fod peth tebygolrwydd ynddynt i'w gilydd. Yr oedd yr urddasolrwydd naturiol hwnw oedd yn nhraddodiad Lumley, a'r ëofndra clir, ditloesgni, hwnw a nodweddai ei bregethu, wedi taraw y pregethwr ieuangc yn fawr. Pregethai yn Gymraeg ac yn Saesneg yn Penclawdd; a bu hyn, ynghyd âg ardymmheredd grefyddol a charedigrwydd dïarhebol y brodorion, yn fanteisiol iawn iddo—y cyntaf fel parotöad ar gyfer lleoedd eraill, a'r diweddaf fel cynnorthwy iddo i ymgartrefu yr ysbaid byr y bu efe yn y lle. Rhyw ddwy flynedd yr arosodd efe yn yr ardal hon; er hyny, dechreuodd profiadau mawrion bywyd ymdori arno yn ebrwydd. Yma y dechreuodd efe ar ei yrfa fel bugail, ac y dechreuodd gael ei law i fewn i'r gwaith goruchel o goledd praidd yr Arglwydd. Dyma hefyd adeg boreuddydd ei fywyd priodasol; canys pan yn aros yn y lle hwn yr ymbriododd â Miss Howell, merch yr hybarch flaenor John Howell, o Bencoed. Ni bu dedwyddach undeb erioed, na chymmhwysach ymgeledd i weinidog yr efengyl ar y ddaear. 'Efe a wnaeth y naill ar gyfer y llall, fel na chaffai dyn ddim ar ei ol ef.' Y mae hi, ar ol bod yn gymmhorth llawn, ac yn gydymaith bywyd iddo, wedi ei gadael yn unig, ond nid yn ddigysur; canys wrth edrych yn ol ar ddeunaw mlynedd-ar-hugain o fywyd priodasol, gall ymgysuro wrth feddwl ddarfod iddi gael nerth ysbryd a chorph i weini i un o'r ysbrydoedd hawddgaraf fu erioed yn trigo mewn tŷ o glai; ac wrth edrych yn mlaen, gall gymmeryd cysur wrth feddwl cael cyfarfod ei phriod mewn sefyllfa lle y bydd yr *ideals* uchel a gydgoleddent ar y ddaear wedi eu llawn sylweddoli. Eiddunwn iddi hi, a'i hunig fab, y Parch. J. M. Saunders, M.A., Penarth, lawer o flynyddoedd i gynnal i fyny yn gyssegredig goffadwriaeth un o anwyliaid y genedl.

Ei symmudiad nesaf oedd i Aberdâr; a dyma le a chyfnod ei gyfodiad i sylw fel pregethwr o nerth neillduol. Yno y trigodd am tua phum mlynedd—blynyddoedd gwyryfdod disglaer ei weinidogaeth. Yn mis Chwefror, 1857, y symmudodd yno. Pentref gwledig ar lethrau un o fryniau Morganwg, wedi cynnyddu mewn ychydig o flynyddoedd i fod yn dref boblogaidd, ydyw Aberdâr—a thref weithfäol ydyw hefyd. Felly, gwneir ei phoblogaeth i fyny, gan mwyaf, o weithwyr deallus, ynghyd âg ychydig nifer sydd wedi llwyddo, drwy fasnach ffyniannus, i ddringo i sefyllfaoedd cysurus. Eglwys ieuangc Bethania yn y dref hono roes alwad iddo, pryd nad ydoedd hi namyn rhyw dair blwydd oed; a'i diaconiaid oll yn ieuaingc, a'r gŵr ieuangc a ddewisasant etto heb gael ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth. Eithr am y pum mlynedd y bu yn Aberdâr, dangosodd eglwys Bethania ei chraffder yn y dewisiad; a llawn gyfiawnhawyd hi yn ei gwaith yn dewis gŵr mor ieuangc. Yr oedd yn llawn o frwdfrydedd a gwaith. Y flwyddyn gyntaf o'i arosiad yno, cyfarfu â dau amgylchiad pwysig; sef, ei ordeiniad i fod yn weinidog cyflawn yn Nghymdeithasfa Pontfaen y flwyddyn hono; a hefyd, hon oedd y flwyddyn y cloddiwyd y bedd cyntaf yn hanes ei deulu. Ac i un llai teimladol na Dr. Saunders, buasai amgylchiadau o'r fath yn sicr o adael eu hargraph yn ddwfn ar ei ysbryd. Claddodd ei fachgen cyntaf-anedig yn mynwent eglwys plwyf Aberdâr; ac yn yr un dref, ond nid yr un gladdfa, y mae gorphwysfan gladdu yr oll o'i deulu sydd wedi dilyn o hyny hyd yn awr; ac yno y gorphwys yntau yn ei argel wely, lle yr hebryngwyd ef gyda dagrau gan filoedd Cymru ar ddiwrnod ei arwyl.

Y mae y rhai a fedd y fantais oreu i wybod yn ein sicrhau mai hwn oedd un o'i gyfnodau mwyaf llewyrchus mewn amrywiol gyfeiriadau—heb eithrio ei bregethu. Bu ei ddyfodiad i Aberdâr yn ddechreuad cyfnod newydd i Fethodistiaeth yn y dref. Hyd hyny, nid oedd gan y cyfundeb unrhyw un i'w gynnrychioli ar lwyfanau cyhoeddus y dref—neb i roddi cynghor a chyfarwyddyd i ddynion ieuaingc meddylgar; na neb i gymmeryd plaid, ac i arwain gweithwyr deallus y boblogaeth yn eu hymdriniaeth â chwestiynau y dydd. Llanwodd efe yn fedrus yr holl fylchau hyn. Yr oedd yn llefarwr cyhoeddus heb ei ail. Yr oedd ei feddwl mor barod a chynnyrchiol, a'i barabl mor hylithr, a meddai graffder barn a gallu diguro i arwain mewn cwestiynau dyrus, nes ei wneyd yn *fodel* o ddyn cyhoeddus. Ymgymmerodd am beth amser â golygiaeth newyddiadur—*Y Gwladgarwr*, gan ysgrifenu y rhan fwyaf o'i brif erthyglau ei hun. Ond yn y pulpud, ac yn y dosbarthiadau Beiblaidd, y deuai ei brif ragoriaeth i'r golwg. Meddai ddawn arbenig i dynu meddyliau allan. Ychydig o gyfrwysdra cadnöaidd oedd ynddo; ond yr oedd ganddo synwyr cryf, a chraffder eryraidd, i ganfod i mewn i feddwl, ac i dynu allan yr hyn a geid ynddo. Yr oedd ynddo y dylanwad hwnw fedrai attynu cylch o feddyliau cydnaws ato ei hun; ac yn y cwmni hwnw byddai wrth ei fodd. Ffurfiwyd cylch felly yn Aberdâr—dynion i gyd o chwaeth uchelryw, a chyrhaeddiadau gwell na'r cyffredin; a'u hoff waith ydoedd minio meddyliau eu gilydd. Gellid coffa Mr. W. Morgan (y bardd), y Parch. John Roberts (*Ieuan Gwyllt*), yr hwn a ddaeth yn olygydd *Y Gwladgarwr* ar ol Dr. Saunders, ac amryw eraill. Dynion oedd y rhai hyn a flaenorent mewn amryw ganghenau, ac oeddynt barod bob amser i offrwm y cwbl ar drostan y groes. Darfu i bresennoldeb mintai o'r fath ddynion gyfodi Aberdâr i fod yn faethle i ddiwylliant uchel; a chyfrifid hi yn blaenori mewn symmudiadau da yn mysg holl drefi y Deheubarth.

Digitized by Google

Am bregethu Dr. Saunders, dywed ei fywgraphwyr mai dyma y cyfnod mwyaf euraidd a disglaer yn ei holl yrfa. Traddodai, hefyd, gyda mwy o angerddoldeb nag y gwnelai wedi hyny. Fel hyn y dywed ei *Gofiant* ar y mater hwn :—

'Yn mhen blwyddyn neu ddwy ar ol ei ddyfodiad i Aberdâr, cyrhaeddodd boblogrwydd mawr fel pregethwr, a gelwid am dano i bregethu yn lleoedd amlaf y bobloedd. Yr oedd rhyw ireidd-dra, a thynerwch, a gwres angerddol yn ei ysbryd, oedd yn gyru ei bregethau adref i galonau ei wrandawyr. Llawer gwaith y gwelsom ef wrth weddio ar y dechreu yn methu myned rhagddo gan deimlad: methai ddyweyd yr un gair am amryw eiliadau gan wylo; ac ar ol ail gynnyg, methai drachefn a thrachefn; ac yr oeddym yn gallu barnu yn bur agos wrth y weddi pa fath bregeth fyddai yn canlyn. Nid oedd yn darparu yn fanwl iawn ar gyfer y Sabbath y byddai gartref, nac yn ysgrifenu ond rhyw ddau neu dri tudalen o bapur o faintioli cyffredin. Ond codai y prif wirionedd yn glir iawn i'w feddwl. Hyn ydoedd ei hynodrwydd:—gafaelai yn y gwirionedd a ddysgid yn yr adnod, neu y *paragraph*, gyda meistrolaeth na welsom ei chyffelyb; ac wrth wneuthur hyn, taflai oleuni ar hanner pennod, weithiau, a delai yr holl fanylion is-wasanaethgar i'r gwirionedd hwnw i'r amlwg yn eu perthynas âg ef. Ei hoff ymadrodd yr adeg hon ydoedd—'Dyma wirionedd *mawr* yr adnod ;' a chyda'r gair, deuai ei benelin i lawr ar y Beibl gydag awdurdod, a'i ddwrn yn gauad ar y pryd. Clywsom am edmygydd iddo yn codi yn ei eistedd yn ei gwsg yn y gwely, yn taraw ei fraich yn yr un modd gyda nerth, er anghysur difrifol i'r rhai fyddai yn cydgysgu âg ef. Nis gall neb a'i clywodd, yn mlynyddoedd ei weinidogaeth yn Aberdâr, anghofio y neillduolrwydd hwn ; ac yr oedd hwyl y bregeth mewn cyfartaledd i'r yni gyda pha un y disgynai cefn ei fraich ar y Llyfr, neu yr ystyllen oedd yn ei ddal.

Gan nad oedd yn rhwym i'r bregeth ysgrifenedig, a'r fath ddawn ymadroddi parod, rhwydd, a chyfoethog ganddo, yr oedd yn gallu ymollwng i'r môr gyda'i bwngc; a llawer gwaith y gwelsom ef yn marchog y tonau gyda mawredd a phrydferthwch. Pan y byddai wedi ymgolli yn ei bregeth, a chydymdeimlad byw rhyngddo a'i wrandawyr, yr oedd yn wir hyawdl. Clywsom ef yn adrodd yr hyn a ddywedodd y diweddar Dr. Parry, o'r Bala, wrtho y tro cyntaf y clywodd ef erioed :—yr oedd hyn yn yr adeg hon o'i fywyd. Aeth ato yn addfwyn a charedig ar ol yr odfa, a dywedodd wrtho ei fod yn ei ystyried y pregethwr mwyaf hyawdl a glywodd nemawr erioed; a dadganai ei obaith na fyddai dyweyd hyny yn ei yru yn falch. Yna aeth yn mlaen i egluro beth ydoedd yn ei feddwl wrth hyawdledd (*eloquence*). Dywedai fod Dr. Edwards yn bregethwr heb ei fath braidd yn ei ffordd, ond nid yn hyawdl; a Dr. Thomas yn nerthol ac areithyddol dros ben, ond nid yn hyawdl ; a bod Henry Rees, er ei fod yn ei ystyried yn dywysog y pulpud Cymraeg, yn rhy glymedig wrth y bregeth ysgrifenedig i'w alw yn bregethwr hyawdl:—fod y pregethwr mewn rhyw sefyllfa *abandoned* mewn gwir hyawdledd, yn ymdaflu gyda rhyddid bendigedig i'w bwngc nes ei fod wedi ymgolli ynddo, a hyny heb gael ei amddifadu, i'r graddau lleiaf, o hunan-feddiant o ran gallu i'w egluro, iaith, llais, a thraddodiad. Yr oedd efe i fyny â'r disgrifiad hwn. Dywedai cerddor am dano, ar ol ei wrandaw ar y maes yn un o'i hwyliau goreu, fod nodau ei lais yn berffaith gerddorol, heb wall na diffyg pan yr oedd yn bloeddio uchaf, ac o dan y cynnhyrfiad mwyaf; ac yr oedd mater y bregeth, a'r dull o'i osod allan, y fath nad oedd yn hawdd eu gwella. Cyrhaeddodd hyn mewn rhan, ac ar rai adegau, yn ystod ei arosiad yn Aberdâr ; ond fel y cawn sylwi etto, yr ydym yn barnu iddo ymberffeithio yn fwy wedi iddo symmud oddi yno i Liverpool. Cafodd rai o'r odfaon goreu a gafodd yn ei fywyd yn y cyfnod hwn. Bu arddeliad rhyfedd ar ei weinidogaeth yn Nghymdeithasfa Abergwaen, yn 1859, ac yn Nghastellnewydd-yn-Emlyn, yn 1861, pryd y gwnaed y gynnulleidfa yn nghapel yr Annibynwyr yn foddfa o ddagrau. Ar nos Sabbath gartref, weithiau, yr oedd yn anorchfygol, a'i appeliadau at hen wrandawyr efengyl yn anarferol o ddylanwadol. Daeth llawer i'r eglwys fel ffrwyth 'pregeth y rhaff,' a'i *swing* yn myned yn llai bob tro, a'r *tide* yn treio, ac yn gadael y llong ar ol. I bechadur, y cyfle cyntaf oedd y goreu, a bu y bregeth dan fendith i beri i amryw yn ei gynnulleidfa gartref ddal gafael arno.'

Ond daeth yn rhy amlwg i gael llonydd yn Aberdâr. Mynai eglwysi y Methodistiaid yn Liverpool ei gael yno, i'w gwasanaethu hwynt. Yr oedd efe, erbyn hyn, wedi bod yn y dref hono yn pregethu amryw weithiau, a bryd yr eglwysi yno wedi rhedeg arno yn anarferol. Felly, yn niwedd Chwefror, 1862, symmudodd i Liverpool i fyw. Y chwe blynedd y bu yn y dref hono, yn ddïau, ydoedd anterth ei nerth a'i ddefnyddioldeb. Cyfarfyddai Liverpool â'i angen ; sef, digon o symbyliad i'w dynu allan. Dibynai, i raddau mwy neu lai, ar hyd ei oes, ar nerth cymmhellion allanol i'w roddi ar ei eithaf. Yno yr oedd pregethwyr goreu y cyfundeb :—Henry Rees, John Hughes, Dr. John Hughes ; a daeth Dr. O. Thomas a John Ogwen Jones yno cyn iddo ef ymadael. Yno, yr oedd cynnulleidfaoedd mawr, a lliaws o bobl ieuaingc o bob man o Gymru, yn barod i dderbyn arweinydd pan yr ymddangosai ; ac ni buont yn ddiffygiol o adnabod ei lais wedi iddo wneyd ei ymddangosiad. Ymberffeithiodd yntau gryn lawer, yn ol y rhai a feddent bob mantais i wybod, yn ei bregethu: heb golli mewn gwres, gwellhaodd mewn arddull. Yn yr ysbaid hwn, cymmerodd cyfnewidiadau mawrion le yn nghyssylltiad y gweinidogion a'r eglwysi yn y dref; ac hefyd, mewn ëangu terfynau yr achos yn mhob cyfeiriad. Yn y cyfnod hwn yr adeiladwyd capeli Chatham street, a Fitzclarence street ; ac un o'r pethau diweddaf a wnaeth Dr. Saunders cyn gadael y dref ydoedd agor capel Prince's road, yr hwn oedd i olynu yr hen Bedford street—y capel yr oedd perthynas neillduol i fod rhyngddo ef ag ef.

Nis gallwn wneyd yn well yma na dyfynu o lythyr a ddarllenwyd ar ddydd ei angladd oddi wrth ei gyfaill a'i gyd-weinidog, Dr. Hughes, Caernarfon, yn cyfeirio yn arbenig at yr adeg hon :—

'Gwnaeth argraph arnaf yn fuan ei fod yn ddyn o feddwl cryf a threiddgar dros ben ; yr oedd ynddo hoffder at gwestiynau anhawdd mewn athroniaeth a duwinyddiaeth, a chymmhwysder arbenig i'w deall a'u hegluro. Ni ddaethum i gyffyrddiad â neb yn fy nydd oedd yn fwy felly. Ac ni raid dyweyd pa mor hylithr a swynol oedd ei ymadrodd. Safai ar ei ben ei hun yn mhlith ei frodyr yn y peth hwn. Ni fu neb erioed yn mhulpudau Cymru yn llefaru yn fwy naturiol, ac yn fwy hyfryd ; a'r hyn a wnai y naturioldeb hwn yn fwy clodfawr oedd, ei fod mewn undeb â difrifwch, ac â dwysder, mewn meddwl a theimlad. Yr wyf wedi gallu galw i gôf amryw o'i bregethau—a'r rhai hyny mewn capeli bychain—pan oedd rhyw ddylanwad nefol, hyfryd—y math goreu ac uchaf o ddylanwad—yn cyd-fyned â'u traddodiad; pan oedd meddyliau y gwrandawyr ar unwaith yn cael eu hëangu, eu dyrchafu, a'u puro. Yr oedd yr Arglwydd Dduw, yn ddïau, wedi rhoddi i David Saunders dafod y dysgedig, i fedru llefaru gair mewn pryd wrth y diffygiol ; a pha ddawn ragorach a ellir ei rhoddi i ddyn? Bydd ei goffadwriaeth yn fendigedig yn Nghymru am ddyddiau lawer ; ac y mae yn sicr yr

Digitized by Google

ystyrir ef yn mysg prif bregethwyr y ganrif. Ond yr oedd yn berchen ar beth uwch nag athrylith nac ymadrodd—yr oedd yn ŵr o ysbryd uniawn: meddai yn naturiol ar galon eang, ac yr oedd dwyfol ras wedi gwneuthur y galon eang hono yn galon bur. Dwfn iawn oedd ei gariad at yr Arglwydd Iesu, a mawr oedd ei edmygedd o'i gymmeriad. Yr oedd yn addoli yr Iesu, ac yn gweddio llawer arno; ac oddi ar ei brofiad personol, yn rhoddi y lle mwyaf iddo yn ei weinidogaeth. Nid oes neb sydd yn fyw —ac yr wyf yn tybied nad oedd neb o'r rhai sydd yn huno—wedi traethu yn twy rhagorol ar hynawsedd, gostyngeiddrwydd, a hunan-ymwadiad yr Iesu, nac mewn gwell ysbryd nag efe; a hawdd ydoedd gweled fod y gwrandawyr yn *caru* ac yn *credu* pan y byddai Dr. Saunders yn pregethu. Byth er pan y clywais am ei farwolaeth, yr wyf mewn myfyr dwys, ac yn rhoddi ffrwyn i'm meddwl i redeg yn ol at ddigwyddiadau y blynyddoedd y byddai ein hen gyfaill cu a minnau mewn cyfarfyddiad mynych â'n gilydd—un ai yn cydefrydu rhyw lyfrau neillduol mewn athroniaeth, neu yn cydweithio ar negeseuau dros y cyfarfod misol, neu yn cydbregethu mewn cyfarfodydd yn siroedd Fflint a Dinbych. Y mae pum mlynedd ar hugain, neu fwy, bellach, er hyny; ond y mae yr adgofion yn fyw ac yn hyfryd-bruddaidd. Y mae arnaf hiraeth gwirioneddol a dwys am dano. Nis gallaf lai na cholli dagrau am na châf weled ei wyneb mwy. Yr oedd yn 'ŵr mawr yn Israel,' ac yn 'ŵr anwyl' hefyd; yr hyn nis gellir ei ddyweyd am bob 'gŵr mawr'—yn anwyl gan ddynion, am ei fod yn anwyl gan Dduw!

Tra yn dwys alaru am y golled am y fath ŵr, yr ydym, hefyd, dan ddyled i ogoneddu Duw am ei godi, am ei ddal cyhyd fel seren yn ei ddeheulaw, ac am fendithio ei weinidogaeth i'r fath raddau i'w gyd-genedl.

Dylem, hefyd, annog ein gilydd, yn ngwyneb y colledion diweddar a gawsom fel cyfundeb, a'r golled olaf yn llawn cymmaint ag un o'i blaen, i attolygu ar Arglwydd y cynhauaf i anfon gweithwyr i'w gynhauaf. Nis gallasai neb llai na Phen yr Eglwys wneuthur pregethwr mor gyflawn a phrydferth ag oedd Dr. Saunders.'

Er cael golwg arno o gyfeiriad arall, heb law o'r pulpud, hyfryd genym allu dyfynu disgrifiad un o'i hen efrydwyr o hono gyda hwynt yn y dosbarth llenyddol. [Gwel *Cofiant*, td. lxv.]

'Yn y dosbarth—sef. cyfarfod llenyddol y gwŷr ieuaingc—y barnem ni ei fod yn ei ogoniant. Gofalai efe fod y cyfarfodydd yn cael eu dechreu a'u diweddu trwy weddi. Nodweddid ei gyssylltiad â ni gan ryw ddylanwad anweledig, distaw, treiddgar, arosol, nas gellir ei ddisgrifio. Yr oedd efe, ar y pryd, yn ieuengaidd iawn ei ysbryd, a ninnau yn y cyfnod pwysig hwnw ar fywyd pan y ffurfir y cymmeriad; yr oedd y cydgyfarfyddiad felly yn hynod o hapus, ac yn fanteisiol iawn i ni. Deuai, fel rheol, o ddeugain i drigain ynghyd i'r cyfarfodydd; ond ar rai prydiau, byddai y nifer yn llawer mwy. Byddai amrywiaeth mawr ynglŷn â hwynt. Weithiau, darllenai un o'r aelodau draethawd ar ryw fater, neu rhoddid anerchiad; yna ceid sylwadau gan yr aelodau. Nid oedd neb yn teimlo unrhyw anhawsder oddi wrth bresennoldeb yr athraw. Yna, cloai yntau y drafodaeth. Bryd arall, ceid dadl ar bwngc buddiol, un bob ochr yn agor; yna, cymmerid y ddadl i fyny gan eraill, a therfynid etto trwy iddo ef symio i fyny. Yr oedd y symio i fyny yn mhlith y pethau goreu a glywsom erioed. Wele rai o'r materion:—'Rhagluniaeth.' 'A ydyw dyn yn fod crefyddol?' 'A oes cydwybod?' 'Prydferthwch—pa un ai yn meddwl yr edrychydd, ai yn y gwrthddrych, y mae?' Dadl fawr y gymdeithas oedd dadl yr organ—yr oedd hyn ychydig amser cyn y symmudiad o Bedford street i Prince's road. Parhaodd y ddadl am bump neu chwech wythnos; a chafwyd y mwyafrif yn erbyn dwyn yr organ i mewn i'r capeli; ond ni chafwyd barn y llywydd. Gwyddai efe pa bryd i dewi. Hynod fel y mae pethau wedi newid. Erbyn hyn—sef Ionawr, 1894—y mae organ a gostia lawn 1,400*p*. yn ei lle yn ein haddoldy, yn Prince's road; a'r rhai hyny sydd yn fyw o hen aelodau y gymdeithas lenyddol, oeddynt y pryd hyny yn gwrthwynebu yr organ, erbyn heddyw yn gweithio yn egniol o'i phlaid. Yr oedd ei bresennoldeb ef yn sicrhau y teimladau goreu tuag at ein gilydd, ac yn ein gosod ar ein gwyliadwriaeth rhag defnyddio ymadroddion fuasai yn clwyfo teimladau neb. Mewn rhai dadleuon, byddai cryn frwdfrydedd yn cael ei ddangos; ac oni bae am ei brennoldeb, buasai pethau yn cael eu cario i eithafion.'

Nis gall neb ddirnad y dylanwad a gafodd yn ffurfiad cymmeriadau y dynion ieuaingc hyn: a throisant, bron yn ddi-eithriad, yn ddynion da a thra defnyddiol. Lleinw rhai o honynt bulpudau eu henwad gydag urddas; ac y mae eraill ar y meusydd cenhadol; a lliaws mawr wedi ennill iddynt eu hunain radd dda fel diaconiaid gweithgar yn y cyfundeb.

O herwydd afiechyd ei deulu yn benaf, symmudodd o Liverpool, ar ol chwe blynedd o drigias ynddi. Yn ystod yr amser y bu yno, bu sibrwd amryw weithiau am symmudiad; unwaith i gymmeryd arolygiaeth y coleg yn Nhrefecca, ac unwaith i Fanceinion; a phan ar fin symmud, danfonwyd galwad daer iddo o eglwys liosog Moriah, Caernarfon. Ond wrth gymmeryd pob peth i ystyriaeth, dewisodd fyned i wasanaethu eglwys henaduriaethol Abercarn; ac yno y bu o'r fl. 1868 hyd y fl. 1873. Yr oedd eglwys mor eithriadol ei hamgylchiadau, a'r lle tawel hwnw, yn gyfnewidiad hollol iddo; eithr yno, fel yn mhob man arall, gwnaeth le cynnes iddo ei hun yn mynwes yr ardal; a chynnyddodd yr eglwys a'r gynnulleidfa yn ystod ei holl arosiad yn y lle. Adeiladwyd yr eglwys ar draul Arglwydd ac Arglwyddes Llanofer; ac yn ystod arosiad Dr. Saunders yno yn weinidog, sicrhawyd y lle, drwy weithred gyfreithiol, yn feddiant i gyfundeb y Methodistiaid Calvinaidd, ac i gael ei adnabod mwyach dan yr enw 'Eglwys Henaduriaethol Gymreig Arglwydd Llanofer yn Abercarn.'

Yma y dechreuodd profedigaethau mawrion bywyd, megys cymmylau tewion, trwchus, ymgasglu i lenwi ei ffurfafen. Daethant o hyd iddo yn y lle neillduedig hwn! Dechreu y fl. 1871, pan ar neges gyda gwaith ei Arglwydd, cyfarfu â damwain ofidus, trwy dori ei goes, yn nhref Hwlffordd, ar ei ffordd i Gyfarfod Misol Abergwaen. Cadwodd hyn ef heb allu cynnyg pregethu hyd y Pasc dilynol. Yn Abercarn, hefyd, yn Awst, 1873, bu farw Mary, ei ferch hynaf; ac mewn rhyw ystyr, ei hoff blentyn, a dymuniad ei lygaid. Yr oedd hi, mewn llawer o bethau, yn ddarlun byw o'i thad; ac, er yn blentyn, yn meddu cyrhaeddiadau llawer uwch na phlant yn gyffredin. Nid oedd hi namyn pymtheng mlwydd oed; ond bu fyw yn hir mewn oes fer, a chanddi syniadau llawer addfetach am Grist a'r nefoedd, &c., na llawer un wedi cael oes faith. Yr oedd y cydymdeimlad â'r ysbrydol a nodweddai ei thad yn gryf iawn ynddi hithau; ac fel y gallesid yn naturiol ei ddisgwyl, yr oedd llinynau tynaf ei natur yntau wedi eu cylymu am dani hi. Nid oes yn yr iaith Gymraeg, os nad yw 'Marwnad Gomer ar ol ei Fab, Ieuan Ddu,' ddim sydd yn fwy arteithiol-doddedig na'r llythyr a ysgrifenodd Dr. Saunders at gyfaill iddo, pan oedd ei ferch ar ei gwely marw [gwel *Cofiant*, &c., td. 78]. Hawdd

Digitized by Google

yw canfod fod holl ffynnonau dyfnder mawr ei natur wedi eu rhwygo. Nid oedd yn bossibl i un gyda'i natur fawr doreithiog ef ddyfod allan o amgylchiadau fel hyn heb deimlo yn ddwys; ac hefyd, heb gael ei gymmhwyso drwyddynt i weini cysuron chwanegol i saint y nefoedd, pan y syrthient mewn amryw brofedigaethau. Cafodd weinidogaeth fwy ysbrydol o hyny allan; a nawseiddiwyd ei feddyliau gan weledigaethau nefol a dorent ar ei ysbryd drwy yr agenau a wnelai angeu fel hyn yn y llen deneu a gyfryngai rhyngddo a'r byd ysbrydol. Yr ydym yn gweled y deuai 'y pethau sydd dragwyddol,' y rhai oedd erioed wedi bod yn lledrithion pell yn croesi terfyngylch ei feddwl, ac yn rhoddi y fath swyn i'w weinidogaeth, bellach yn sylweddau byw iddo. Medodd ei gynnulleidfaoedd yn helaeth y 'sypiau mawrion addfed' a ddaethant fel ffrwyth y profedigaethau mawrion hyn a gafodd efe.

Ar ol marw ei anwyl ferch, tueddwyd ef i symmud o Abercarn i Abertawe. Yr oedd swyn arbenig yn y lle hwn iddo ef fel hen gymmydogaeth ei faboed, a'r lle yr oedd nifer go dda o hen gydnabod ei ieuengctid heb ddiange i gyd i'r byd ysbrydol o'i flaen. Yma, gan hyny, y treuliodd ei brydnawnddydd, a'i hwyrddydd. Cafodd barhâd o brofedigaethau bywyd etto yn y lle hwn; o blegid, yn 1882, bu farw ei ferch, Catherine; a'r flwyddyn ganlynol, bu farw ei blentyn ieuangaf, David Howell. Curai y tònau mawrion hyn, y naill ar ol y llall, ar ei lestr; eithr cynnaliwyd ef i fyny rhag cael ei lyngcu gan ormod tristwch. Ni bu dim tebyg i flino nac ymollwng ynddo yn ei ysbryd. Gallwn dybied iddo, gyda'r amcan, fe allai, o gadw ei hun rhag gormod prudd-der, ymdaflu â'i holl egni i symmudiadau mawrion oedd yn dechreu ysgogi o'i gwmpas. Felly, cymmerodd i fyny o ddifrif achos Addysg Uwchraddol, y Colegau Cenedlaethol, a'r symmudiad am addysg uwch i weinidogion ei gyfundeb ei hun. Ni wnaeth hyn yn awr am nad oedd yn cydymdeimlo â'r pethau hyn bob amser, ac nid am fod arno eisieu unrhyw swyddau cyhoeddus. Pell iawn oddi wrth hyny ydoedd; ond ymddengys i ni mai y mîn hwnw a ddyry profedigaethau bywyd ar ysbryd mawrfrydig oedd y prif achos o hono.

Yn ngwanwyn y fl. 1883, aeth ef, a'i briod, a'i fab, am daith o ymweliad â Chymry yr America; ac o'r holl bregethwyr a aethant oddi yma yno, ni fwynhawyd cymdeithas, ac ni werthfawrogwyd gweinidogaeth neb yn fwy na'r eiddo ef. Cychwynodd Ebrill 28ain; a glaniodd yn Liverpool, wedi dyfod yn ol, ar foreu ddydd Mercher, Hydref 10fed, wedi teithio rhwng 8,000 a 9,000 o filldiroedd, ac wedi pregethu mewn saith o gymmanfaoedd, a llawer o gyfarfodydd dosbarth—yr oll gyda'u gilydd o ddeutu cant a hanner o weithiau. Yn fuan ar ol ei ddychweliad, anrhydeddwyd ef â'r teitl o D.D. gan Athrofa Beloit, yn Wisconsin. Cyn hyny, cawsai bob anrhydedd a charedigrwydd a allasai Cymry y Talaethau osod arno; a chafodd dderbyniad tywysogaidd ar ei ddychweliad gan Gymry Abertawe.

Cafodd nifer o flynyddoedd o iechyd gweddol ar ol ei ddyfodiad o'r America; a llanwodd hwy â gweithgarwch tawel a hamddenol. Ond yr oedd yr hwyr wedi dyfod; a gwyddai yntau hyny. Gan fod ganddo wybodaeth mor drwyadl fanwl am y corph dynol, ac am natur gwahanol anhwylderau, nid oedd modd celu oddi wrtho y ffaith fod afiechyd angeuol wedi ymaflyd yn ei gyfansoddiad; ac nad oedd ei fuddugoliaeth arno yntau ond mater o amser yn unig. Ysgrifenodd at gyfeillion, flynyddoedd cyn ei ddiwedd, i ddyweyd yn bwyllog fod y diwedd, weithian, yn y golwg! Ei brif afiechyd oedd anhwylder yr arenau (*kidneys*), gyda chyfuniad o bethau eraill. Glynodd yn ffyddlawn wrth y gwaith o bregethu hyd y Sabbath cyntaf yn Ebrill, 1892. Cafodd y misoedd diweddaf y bu fyw yn hynod rydd oddi wrth ddolur, gan fwynhau pob gofal y gallasai perthynasau anwyl, a chylch ëang o gyfeillion, a medr meddygol goreu y deyrnas, ei fforddio iddo. Ond er pob ymdrech, ehedodd ymaith yn ddistaw—megys yn ei gwsg. Rhyw hanner cysgu yr ydoedd am rai dyddiau cyn y diwedd; ac etto, yn hollol ymwybodol o bob peth. Mor bell ag y gallasai pawb ddeall, symmudwyd ef ymaith megys pe heb brofi marwolaeth. Y mae ei brofiad yn agos i'r diwedd yn dra newydd a dyeithr, ac yn werth ei groniclo i oesoedd i ddyfod. Fel y canlyn y ceir ef yn y *Cofiant*, td. 129, &c. :—

'Ni soniai am farw, ac nid oedd yn meddwl nemawr am dano. Syn-syllai yn barhaus i dragwyddoldeb—yno yr oedd yn byw; ond dibwys ganddo oedd y cyfnewidiadau oedd rhyngddo a'r byd hwnw. Un nos Sabbath, yn Aberdâr, pan yr oedd nifer o frodyr a chwiorydd wedi ymgynnull i'r tŷ i gydaddoli âg ef, cododd gŵr y llen, a chawsom gipdrem ar ei brofiad crefyddol. 'Diolch yn fawr i chwi am ddyfod,' meddai; 'ond ni ddaethoch â dim newydd i mi—nid ydych wedi gwneyd dim yma heno nag ydwyf wedi gwneyd ganwaith fy hun, ac yn parhau i'w wneyd yn gysson. Y mae yn dda genyf eich hysbysu nad wyf yn byw yn dlawd. Nid wyf mewn un modd dan draed ammheuon ac ofnau: yr wyf yn byw mewn awyr glir, ddigymmylau hollol, uwch law iddynt oll, ac yn cymmeryd yn ganiataol mai i'r nefoedd yr ydwyf yn myned, a gobeithio nad wyf yn camsynied. Yr wyf yn rhyw hanner cysgu mewn diofalwch perffaith. Bûm am wythnosau yn methu cysgu, o ran fy nghorph; ond yn awr, yr ydwyf yn medru cysgu yn rhagorol: cysgu gormod, o bossibl—cysgu o ran fy nghorph, a chysgu hefyd o ran fy meddwl, heb ofalu am ddim. Yr ydwyf wedi bod yn pryderu dipyn, ac yn meddwl llawer am dragwyddoldeb, ac am lawer gwedd bossibl ar dragwyddoldeb. Nid wyf heb dybied y possiblrwydd i ni fyned trwy gyfnewidiadau lawer yn y byd hwnw—cyfnewidiadau ddichon fod yn gymmaint a marw—nid yn hollol yr un fath, o bossibl; ond etto yn gymmaint *cyfnewidiad* a marw—marw unwaith, dwy waith, tair gwaith, a phedair gwaith; ac o bossibl, ganwaith! Y mae tragwyddoldeb yn faith iawn! Dichon y bydd llawer ffurf ar fodolaeth yn y byd hwnw, gan y byddwn ynddo yn ddi-ddiwedd; ond yr wyf, bellach, wedi gallu ymgymmodi â thragwyddoldeb ar ei hyd, ac â phob ffurf ddichonadwy arno, yn Iesu Grist. Yr wyf yn meddwl ei mentro hi yn *right* dawel, heb ofni dim: gobeithio nad wyf yn twyllo fy hun.' Nid ydym yn gallu ysgrifenu ond y geiriau. Yr oedd rhywbeth yn y llefariad o honynt nas gallwn ei anghofio byth.'

Fel y disgwylid, cafodd gladdedigaeth 'tywysog a gŵr mawr yn Israel.' Dilynid ei elor i gladdfa gyhoeddus Aberdâr gan filoedd Cymru. Yr oedd ei haul-fachlud yn llawn o urddas mawrwych, a'i derfyngylch yn llawn o gymmylau goreuredig yn osgorddion gŵr Duw i'w argel wely. Rhoddasid ei gorph i orwedd, y nos cyn ei angladd, yn ei hen gapel—Bethania, Aberdâr; a thranoeth, pasiodd rhai miloedd heibio, i gael yr olwg ddiweddaf ar y gist gyssegredig, lle y gorweddai yr hyn oedd ddaearol o un oedd mor anwyl ganddynt oll. Heddyw,

Digitized by Google

yn fud; eithr fel y dywedai un am dano, yn gryfach ei ddylanwad nag y bu erioed. Yn argraphedig ar ei arch yr oedd y geiriau canlynol: —*David Saunders. Ganwyd Mai 20fed*, 1831; *Bu farw Hydref* 19*eg*, 1892.

Y mae ein hysgrif eisoes wedi rhedeg yn faith: ond nid teg fyddai rhoddi i fyny heb gynnyg rhoddi delweddiad byr o hono fel dyn a phregethwr; er fod hyny, i raddau, wedi ei gyffwrdd genym yn barod. Teg i ni gydnabod ein rhwymedigaeth am lawer o'r ffeithiau blaenorol i'w *Gofiant*, gan y Parchn. William James, Aberdâr, a J. M. Jones, Caerdydd; ac i ysgrifau a ymddangosasant arno yn y *Geninen*—un yn Mawrth, 1893, gan ei hen ddysgybl, y Parch. J. Wyndham Lewis, Caerfyrddin (yntau, bellach, yn ei fedd!); a'r llall yn Hydref, yr un flwyddyn, gan ei edmygydd, y Parch. G. Ellis, M.A., Bootle. Fe allai, hefyd, y gwêl y darllenydd craffus debygolrwydd rhwng rhai o'r sylwadau sydd yn yr ysgrif hon i rai pethau a ysgrifenwyd am dano mewn erthygl a ymddangosodd yn y *Geninen* am fis Ionawr, 1893. Ein hunig esgusawd ydyw, mai yr un ydyw awdwr yr erthygl hono ag ysgrifenydd y llinellau hyn.

Fel dyn y mae yn tynu ein sylw gyntaf. Gorweddai y dyn, yn ei hanes ef, dan y pregethwr. Y mae ystyr ddofn i'r gair a ddywedodd un o'i gofiantwyr am dano; sef, ei 'fod y pregethwr mwyaf dynol a welodd Cymru erioed.' Ceir hyn yn wir am ei bregethu ef, o herwydd fod dynoliaeth fawr gyflawn o'r tu ol i'r pregethu. Gellir dyweyd, weithiau, am ambell un, ei fod yn ddyn, ond heb nemawr o'r pregethwr ynddo; ac am un arall, fod y pregethwr ynddo, ond heb y dyn; ac am un arall, gellir dyweyd, ysywaeth, na bydd ynddo na'r dyn na'r pregethwr. Ond yr oedd y naill a'r llall wedi cydgyfarfod yn Dr. Saunders, a hyny mewn cymmhesuredd mawr, ac i raddau anghyffredin. Meddai ëofndra di-droi-yn-ol, ac anrhydedd heb un cyffyrddiad o ddim iselwael. Yr oedd ganddo syniad uchel am foneddigeiddrwydd; ac yn ol hwnw, gellid gweled mai nid y boneddigion a alwai cymdeithas felly oedd yr eiddo ef. Y pendefigion a edmygai efe oeddynt o gréadigaeth foreuach, ac o waedoliaeth uwch, na'r rhai hyny a wneir gan emau, a gwisgoedd, a theitlau daearol. Llawer gwaith y tröai o'r neilldu yn hamddenol ar ganol ei fater i roddi darnodiad o ŵr boneddig. Dyma ddrychfeddwl llywodraethol un o'i bregethau goreu, 'Duw yn gwneyd pechadur yn ŵr boneddig wrth ei achub.' Cyfeirio yr ydym at y bregeth gyntaf a geir yn mysg ei bregethau argraphedig; sef, hono ar 'Gyfodi y tlawd o'r llwch.' Cyfyd y disgrifiad a ddyry yno o'r gwir foneddwr o ddyfnder ei enaid ei hun; ac wrth ddarnodi elfenau boneddigeiddrwydd, yn ddiarwybod rhydd ddisgrifiad o hono ei hun. Byddwn yn gorfod tosturio, weithiau, wrth ddynoliaeth salw y pregethwr; tra, ar yr un pryd, yn edmygu doniau ei weinidogaeth; ond haeddai y naill a'r llall ynddo ef bob edmygedd. Mor bell oddi wrth bob peth isel-wael oedd! Yr oedd mawrfrydigrwydd yn beth mor naturiol iddo. Adlewyrchai hyd yn oed ei gamgymmeriadau anrhydedd arno; a dangosai ei dramgwyddiadau ei fod bob amser yn berffaith ddihoced. Yr oedd ganddo gorph lluniaidd a chymmesur, a'i holl ysgogiadau yn naturiol ac yn urddasol; ac er heb fod o faintioli mwy na'r cyffredin, meddai bresennoldeb a sicrhäai sylw yn mhob cynnulliad. Safodd am oes gyfan yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd ei genedl, heb i hyny lygru dim arno yn adneddau uchaf ei gymmeriad. Nid oes dim yn mallu yn gynt na phoblogrwydd; ac onid helltir ef yn aml â halen, aiff, cyn pen ychydig flynyddau, na bydd dda i ddim 'ond i'w fwrw allan, a'i fathru gan ddynion.' Ië, fe'i methrir gan y dynion hyny fu yn ei hanner addoli unwaith. Ond am dano ef, ni chafodd ei ben-feddwi gan ddyrchafiadau, na'i suro gan siomedigaethau. Daliodd i fyned yn fwy poblogaidd hyd y diwedd; a'r poblogrwydd hwnw i fod yn fwy persawrus o flwyddyn i flwyddyn. Cafodd fwynhau pob anrhydedd a allai ei gyfundeb a'i genedl ei osod arno; a gwisgodd y cwbl yn berffaith ddi-ymhongar. Edmygid ef hyd at gyffiniau addoliad gan nifer fawr o weinidogion ieuangach nag ef; ac ni roddes neb gynllun gwell o'u blaen o foneddigeiddrwydd, lledneisrwydd, ac anrhydedd—a'r llinellau hyn yn ei gymmeriad wedi eu nawseiddio gan wroldeb, didwylledd, a gonestrwydd. Pwy a glywodd am dano ef erioed yn mòni yn blentynaidd mewn cymmanfa o herwydd safle; neu yn pruddhau awyrgylch y cwrdd mawr o herwydd diffyg yn y trefniadau?' Eithr na thybied neb wrth hyn mai cymmeriad llac a meddal oedd mewn un modd. Na: er fod ffynnon o dynerwch yn ei natur, byddai hono, ar brydiau, yn ymferwi yn llifeiriant o eiddigedd sanctaidd, nes ysgubo bob peth o'i blaen. Ffieiddiai bob peth fyddai yn ymylu ar dwyll a hoced. Dywedid fod masnachwr yn Brighton, yn fuan ar ol marw Frederic W. Robertson, wedi derbyn y fath ddylanwad oddi wrth y pregethwr hynod hwnw, fel, pan y temtid ef i wneyd rhywbeth annheilwng—rhai o driciau isel masnach—yr elai yn ebrwydd i ystafell fechan y tu ol i'w siop, lle y crogai ar y pared ddarlun o'r pregethwr; ac wedi edrych ar ei wyneb yn y darlun, deuai yn ol wedi ei ysbrydoli i orchfygu y demtasiwn. 'Wedi gweled ei wyneb ef, syr (ebai), teimlwn nas gallwn ei wneuthur—ei fod yn gwbl ammhossibl i mi.' Y mae yr adgof am wynebpryd Dr. Saunders, a'r tremiad arbenig hwnw oedd mor nodweddiadol o hono, wedi rhoddi i'r rhai a'i hadwaenent oreu ystyr newydd i anrhydedd, a pheri fod yn anhawddach iddynt, o herwydd eu hadnabyddiaeth o hono, gyflawni dim a fyddai yn isel-wael.

Arweinia hyn ni i wneuthur cyfeiriad byr at rai o'i brif deithi ef fel pregethwr. Gwnaethom ychydig nodiadau ar ei ddynoliaeth yn gyntaf, o blegid ein bod yn credu fod rhai o nodweddion ei bregethu yn codi o'r ffaith fod Ysbryd Duw wedi cymmeryd gafael yn y fath ddynoliaeth a'r eiddo ef, ac wedi ei dodrefnu a'i pharotoi at y gwaith. Heb neillduad a danfoniad yr Ysbryd Glân, ni buasai yn bregethwr o gwbl; ac heb i'r Ysbryd ymaflyd yn y fath ddynoliaeth, ni buasai efe y fath bregethwr. O'r holl wynebau i'r anifeiliaid byw y sonir am danynt yn ymyl yr orsedd, yn Llyfr y Datguddiad, ac a gymmhwysir weithiau at genhadon yr efengyl, 'y wyneb fel dyn' oedd yr eiddo ef. Y mae gwroldeb 'y llew,' amynedd yr 'ych,' a dyhead 'yr eryr,' yn cael eu cymmeryd i fewn i wasanaeth yr orsedd; ond y mae adeg yn hanes gwlad pan y mae eisieu wyneb fel dyn i ymddangos yn ei phulpudau. Yr oedd oes yr ychain—cofia da am 'hen ychain' Cymru!—ar ddarfod pan y ganwyd Dr. Saunders. Nid oedd eisieu llewod

Digitized by Google

mwyach i wynebu erledigaethau, ac yr oedd yr ehedeg fel eryrod yn diflanu; ond yr oedd eisieu 'y dyn' i aros, ac i roddi ei ddelw ar bregethu Cymru. Yr oedd eisieu pregethwr a fedrai bregethu dyndod yr Arglwydd Iesu, heb gymmylu ei Dduwdod—a fedrai ddadlenu o flaen pechaduriaid drefn yr efengyl fel yr oedd hi yn atteb yn llawn anghenion dyfnaf y ddynoliaeth, ac a fedrai gyflwyno yr efengyl yn ei gwedd *ethical*, yn ogystal ag yn ei ffurf byngciol, o flaen dynion. Tebyg na lwyddodd neb i wneyd hyny yn ein gwlad yn debyg i wrthddrych yr ysgrif hon. Dechreuai gyda dyn—dyn, fel yr oedd wedi dyfod o dan law ei Grëawdwr, ac fel yr oedd wedi ei ddinystrio trwy bechod; yna, dangosai fel yr oedd yr iachawdwriaeth yn cyfatteb i'w holl anghenion, yn ei achub heb dreisio ei ewyllys na llwgr-wobrwyo ei gydwybod, ac yn ei ddyrchafu yn mhob modd wrth ei waredu. A'r waredigaeth benaf, yn ei fryd ef, ydoedd ei waredu oddi wrth 'hunan.' Yn ngweinidogaeth Dr. Saunders, 'hunan oedd pechod y pechodau.' Gwaredu dyn oddi wrth ei hunan, a hyny drwy rym hunan-aberth y groes, oedd ei waredu oddi wrth uffern. Felly, 'gwaredu y saint rhag uffern, a phechod drwg ei ryw,' yn llinell yr emynydd—yr un peth oeddynt, mewn gwirionedd, yn ol y ddysgeidiaeth hon. Nefoedd y credadyn, gan hyny, fyddai ei ddwyn dan ddylanwad hunan-ymwadiad yr Iesu, a'i wasanaethu byth o gariad ato. Yr oedd nefoedd ac uffern mewn egwyddorion gan Dr. Saunders bob amser. Egwyddorion mawrion yn rhedeg eu cwrs yn mlaen o'r sefyllfa hon i'r un ddyfodol oedd deddwyddwch y naill, a thrueni y llall. Yn nghanol ffrwd o hyawdledd ysgubol, disgrifiai y sefyllfaoedd hyn gyda manylwch angerddol Dante, a chymmesuredd mawreddog Milton. Gwnelai i'w wrandawyr deimlo iâs o arswyd—nid rhag ofn 'y tân anniffoddadwy' yn gymmaint, ond rhag ofn cael eu taflu i'r gongl hono lle yr oedd holl ysgarthion aflan a hunanoldeb echrys llywodraeth foesol Duw wedi eu casglu at eu gilydd, ac i deimlo hiraeth, nid yn gymmaint am fyned i mewn trwy y 'pyrth perl,' a thrigo yn 'yr heolydd aur,' eithr am gael cyd-drigo, dan ddylanwad yr un Ysbryd, gyda phob creadur glân a phur a feddai y Goruchaf, a hyny yn y man yr oedd hufen ei lywodraeth, a goreuon ei greaduriaid, wedi eu casglu ynghyd. Bu ei weinidogaeth yn wrthglawdd amserol, yn ddïau, rhag i wrandawyr Cymru, megys rhai Lloegr, fyned i ymgywreinio gyda'r pwngc o dragwyddol gospedigaeth, gan mai nid 'parhâd,' yn ol ei ddysgeidiaeth ef, ydoedd peth mawr cosp, eithr ei 'hansawdd.'

Ar yr un pryd, yr oedd efe yn bregethwr Beiblaidd iawn. Credai yn ysbrydoliaeth y Beibl; a phregethai ef yn bur ac agored fel y deuai ger ei fron; ac nid yn ol hualau unrhyw gyfundrefn. Yn hytrach na cheisio dwyn adnodau y Beibl i gydgordio â rhyw gyfundrefn byngciol o wirioneddau, mynai efe eu gwireddu yn ol yr adsain a gaffent yn ei gydwybod a'i natur foesol ei hun. Ar ol ei wrandaw yn pregethu, ni byddai byth eisieu gofyn pa beth oedd amcan y bregeth. Byddis, weithiau, yn teimlo fod y pregethwr fel gŵr mewn awyren—yn ngolwg y bobl, y mae'n wir; ond wedi i'r weledigaeth fyned heibio, teimla y gwrandawyr awydd gofyn—'Wel, beth a geisiai efe genym?' Nid oedd efe yn credu llawer mewn cyfundrefnau pyngciol. Clywsom ef yn dyweyd am i ni gofio cadw cymmalau ein *systems* duwinyddol yn weddol o lac, gan y dichon y byddai eisieu eu newid yn fynych. Yn hyn, y mae i'w bregethu le arbenig yn nadblygiad meddwl Cymru. Efe oedd un o'r rhai blaenaf yn y Deheubarth i ymddattod oddi wrth hen ffurfiau ystrydebol o feddwl a phregethu; ac efe hefyd oedd un o'r rhai hyny a orphenodd ryddhau Cymru oddi wrth lyffetheiriau hen gyfundrefnau cyfyng. A rhaid cael dynion o ddoniau gweinidogaethol arbenig i allu gwneuthur hyn. Gwnaeth dylif doniau gweinidogaethol y Parch. John Jones, Tal-y-sarn, fwy tuag at ëangu syniadau a dattod rhwymau pulpud Cymru na holl resymeg y dadleuon duwinyddol gyda'u gilydd. Cyn hyny, ni cheid pregethu ar ambell i adnod heb ei brasnaddu a'i gwyrdroi i atteb i ryw gyfundrefn athrawiaethol gyfyng a fabwysiadwyd gan y rhai a osodent eu hunain allan fel ceidwaid y ffydd. Ond, o drugaredd, fe gyfododd Ysbryd Duw dô o ddynion yn Nghymru a feddent y gwroldeb o bregethu ar bob adnod yn ei chysylltiad, gan ymdrechu esbonio y geiriau, a gadael i'r gwirioneddau lefaru drostynt eu hunain. Beth pe buasai llifeiriant yr Uchel-feirniadaeth wedi dyfod ar ein gwarthaf heb y parotöad a wnaeth y tô hwn o bregethwyr yn ein gwlad? Yn awr, ni a hyderwn fod meddwl Cymru wedi ei gyfaddasu, trwy bregethau ysgrythyrol y rhai sydd newydd eu symmud o'n plith, fel y gall gadw pob daioni sydd mewn Uchel-feirniadaeth, a hyny heb gael ei benfeddwi gan y pethau ammheus sydd yn perthyn iddo.

Yr oedd Dr. Saunders yn bregethwr urddasol iawn hefyd. Wrth gymmeryd i ystyriaeth ei ymddangosiad yn yr areithfan, gosgedd ei gorph, symmudiadau ei feddwl, angerddolrwydd ei ysbryd, a'r cyfan gyda'u gilydd, nid oes genym air gwell i ddynodi y peth y cyfeiriwn ato na'r uchod. Yr oedd rhyw urddasolrwydd rhyfedd yn ei weinidogaeth. Teimlwn fwy o chwithdod ar ei ol yn y peth hwn nag odid un o'r pethau eraill; canys nid ydym yn gweled ei fod wedi gadael neb cyffelyb ar ei ol yn y peth hwn. Yn hyn, ymdebygai yn fawr i rai o'r hen dadau. Yr oeddynt hwythau yn ymsymmud yn urddasol. Nid corph o faintioli anferth a wna hyn; nid parabliad araf a goslef drom; ac nid llais cryf. Gall yr oll o'r pethau hyn fod heb wreichionen o'r urddas y cyfeiriwn ato. Dywedid am un o'r hen bregethwyr mai ei allu mawr ef oedd 'medr i ardderchogi pethau plaen yr efengyl.' Dyna y dynesiad goreu i'r peth annisgrifiadwy hwn. Nid llais yn unig mo hono; nid symmudiadau corphorol gweddaidd; ac nid areithyddiaeth; ond yr holl bethau hyn, a mwy. Rhyw fath o hunan-lywodraeth mawreddog, a chyffyrddiadau ysbrydol â meddyliau ei wrandawyr, ydyw, nes y rhoddant yr orsedd iddo o'u bodd. A welsoch chwi faes cymmanfa â gwynebau y dorf wedi eu gwisgo â gwen foddhaus pan yr ennillai efe, a hyny heb ei geisio, y feistrolaeth hon arnynt? Cyffyrddai â phethau cyffredin nes eu myned yn ardderchog yn y fan. Nid anghofiwn byth y dylanwad gafodd un gair mewn llinell o emyn arnom wedi iddo ef ei gyffwrdd fel hyn. Y pennill a roddasid allan yn nechreu yr odfa gan y brawd a bregethai o'i flaen oedd. Yna, cyfododd yntau ar ei ol; ac yn un o symmudiadau mawreddog y bregeth, daeth ar draws un o'i hoff byngciau; sef, fel y mae yr efengyl yn gwella dyn wrth ei achub—

Digitized by Google

yn ei wella yn ei deimladau a'i serchiadau. Yna, dyfynodd ddernyn o un o bennillion Ann Griffiths:—

> 'Nis dichon byd â'i holl deganau
> Foddloni fy serchiadau 'nawr,
> A ennillwyd, a ëangwyd,
> Yn nydd nerth fy Arglwydd mawr.'

Fel rhiniwr medrus, rhoddes y fath bwyslais ar y gair 'ennill, ac 'ëangu,' gan chwareu yn fawreddus arno; ac yna, esgynodd un o'r pinaclau uchaf mewn areithyddiaeth Gymreig a glywsom o'r braidd erioed.

Addefwn yn rhwydd fod ei areithyddiaeth yn elfen amlwg yn yr urddas hwn a nodweddai ei weinidogaeth. Yr oedd ganddo safiad areithyddol; ond nid dim yn hòniadol. A pha beth bynag a feddai mewn llais, parabl, a gosgedd, rhoddai bob peth yn ddiwarafun, ac mewn math o hunan-anghôf bendigedig yn ngwasanaeth yr efengyl. Dyfynasom eisoes sylwadau Dr. John Parry, Bala, am dano fel pregethwr hyawdl, ac mai mewn cyfuniad o hunan-lywodraeth a hunan-anghof yr oedd dirgelwch pob gwir hyawdledd. Yr oedd yn areithydd di-ail. Nid oes eisieu profi hyny i'r rhai a'i clywsant; ond nid oes modd ei brofi i'r rhai na'i clywsant. Dywedir am hyawdledd Dr. Chalmers, ei fod fel llanw y môr, yn dyfod i mewn gyda rhuthr anorchfygol, gan lanw pob agen a chilfach, fel nad oedd dim i'w wneyd ond cymmeryd eich boddi gan y gefnllif. Y mae math arall o hyawdledd, llawn mor anwrthwynebol; eithr yn dawel, fel y wawr yn cyfodi ar y mynyddoedd. Cyfyd yr haul gyda gwên, a chymmer feddiant o gopiau y mynyddoedd, o un i un; yna, graddol ennilla y pantiau, nes, o'r diwedd, y bydd goleuni hyfryd wedi boddi pob man. Ond y mae y ddau foddi yn dra gwahanol:—un gan y môr, a'r llall gan y wawr—un drwy fŷnu, a'r llall drwy ennill—un gyda rhuthr, a'r llall gyda gwên. Nid oes eisieu dyweyd wrth y cyfarwydd mai y math diweddaf hwn oedd hyawdledd Dr. Saunders. Ac yn goron ar y cwbl, yr oedd ei areithyddiaeth yn berffaith waith natur. Nid astudiodd efe erioed reolau celfyddydol. Ynddo ef, cafodd yr areithydd ei eni, ac nid ei wneyd. Meddai yntau, fel pob areithydd gwir fawr, ei ruthriadau; eithr ymdoniadau hyfryd goleuni oeddynt, ac nid rhuthrgyrchoedd tryst-fawr cefnllif. Dyma y pryd y dywedai y pethau gwynias hyny oedd yn ffurfio math o esgynebau bendigedig a bythgofiadwy. Ergyd ddiweddaf y darlun fyddent yn gyffredin; ac yn llaw arlunydd llai medrus, gallasent ddyfetha y darlun; ond gyda'i fedr a'i chwaeth ef, hwnw fyddai y cyffyrddiad gorphenol. Clywsom ef yn dyweyd mai 'y diafol oedd un o'r *intellects* cryfaf yn llywodraeth Duw,' nes peri i ni deimlo am dro rhyw iâs o edmygedd o'r diafol ei hun. Troai, ar adegau fel hyn, megys ar ei gynnulleidfa ei hun, gyda dywediad hanner-beiddgar fel y dilynol:—'Gellwch fod yn sicr mai nid yn mhlith haid o bechaduriaid anwar, dianrhydeddus, a di-lywodraeth, y mae Duw yn myned i dreulio ei dragwyddoldeb; ond yn mhlith pendefigion—er iddo orfod eu codi o'r llwch, a'u dyrchafu o'r domen.'

Fel pregethwr y saif Dr. Saunders am byth yn meddwl Cymru. Ni fynai efe fod yn ddim arall. Hyn oedd ei fwyd a'i ddiod. Yr oedd ei deyrngarwch i'r pulpud yn ddiderfyn. Yn mhlith pregethwyr, yr oedd efe fel tywysog yn mhlith llu. Megys ag y galwyd Spencer yn fardd i feirdd, felly gellir ei alw yntau yn bregethwr i bregethwyr. Yr oedd ei weinidogaeth bob amser yn ysbrydoliaeth. Gwnelai ei destynau yn fythgofiadwy i chwi; ond dygai chwi i'w caru, ac i fyfyrio arnynt ar ol hyny. Nid adwaenem bregethwr mor orphenedig yn bregethwr mor awgrymiadol ag efe. Y mae adnod o destyn dan ddwylaw ambell i bregethwr fel mwnglawdd:—dim ond rhyw gyfran o'r fettel werthfawr ynddi, ac yntau, y pregethwr, wedi cymmeryd hawl arni; felly, nid oes neb arall i weithio yno mwy. Ond y mae adnod dan law un arall fel ffynnon fawr yn byrlymu allan ei gofer peraidd, ac yn agored i bawb. Y mae y dosbarth cyntaf yn dangos gallu dyhysbyddol y pregethwr; tra y dengys y llall mor ddihysbydd yw cynnwys y testyn. Perthynai gwrthddrych ein hysgrif i'r dosbarth diweddaf. Ymagorai golygfeydd ëang ar bob llaw i chwi wrth ei weled ef yn rhodio mor rwysgfawr ar hyd meusydd gwirionedd. Y drychfeddwl goreu a ellid gael am ei syniad dyrchafedig ef am bregethu sydd mewn 'Cynghor' a draddododd efe yn Nghymmanfa Aberystwyth, Awst, 1880. Cyhoeddwyd amlinelliad o'r Cynghor yn y *Geninen*, Hydref, 1893, td. 220, yr hwn sydd fel y canlyn:—

I. Myfyriwch Lawer ar y Beibl.

1. Trysorwch lawer o hono yn eich côf, a bydded eich cynnefindra âg ef mor helaeth fel y byddo holl fyfyrdodau eich calon yn cael eu hawgrymu a'u llunio gan ffurf ei ymadroddion.
2. Myfyriwch y Beibl mewn trefn, gan grynhoi eich holl alluoedd ynghyd i astudio rhanau neillduol o hono.
3. Sylwch yn fanwl ar raddol ddadblygiad trefn yr iachawdwriaeth, yn y dadguddiad o honi yn yr Ysgrythyrau.
4. Ar ol yr efrydiau blaenorol, myfyriwch y Beibl fel ag i dynu allan o hono, yn uniongyrchol i chwi eich hunain, ddefnyddiau cyfundrefn dduwinyddol.
5. Myfyriwch y Beibl yn ddigonol i allu canfod lle priodol pob gwirionedd a ffaith, ac i deimlo y pwysigrwydd cymmhariaethol a berthyn iddynt.

II. Astudiwch Ddynion. Bydd hyn yn fanteisiol i chwi:—

1. Byddwch yn alluog i ganfod drosoch eich hunain gyfaddasder rhyfedd yr efengyl ar gyfer holl anghenion y ddynoliaeth.
2. Byddwch yn alluog i gymmhwyso gwirioneddau y Beibl at anghenion a chyflyrau amrywiol eich gwrandawyr.
3. Bydd yn eangu eich cydymdeimlad â dynion; o blegid nid yw yn bossibl adnabod dynion yn briodol heb sylweddoli ynom ein hunain, i ryw raddau, holl agweddion eu natur.
4. Gesyd hyn newydd-deb di-ddarfod yn eich gweinidogaeth.
5. Tuedda gweinidogaeth o fath hon i adael argraph ddofn ar feddyliau y gwrandawyr o ddwyfoldeb yr efengyl.

III. Ymdrechwch i Ddeall ac i Feddu y Dull Goreu o Bregethu yr Efengyl i Ddynion.

1. Mynwch wybod y gwahaniaeth rhwng adrodd traethawd a phregethu.
2. Astudiwch reolau amrywiol rheitheg.
3. Myfyriwch bregethau a phregethu y pregethwyr goreu.
4. Astudiwch bregethu fel ag i fedru amrywio yn eich dull, yn ol y testyn a'r amcan.
5. Meistrolwch yr iaith a arferir genych yn eich gweinidogaeth, fel ag i sicrhau ei holl adnoddau at eich gwasanaeth.
6. Ymdrechwch i ddysgyblu ac ystwytho eich

Digitized by Google

llais, fel ag i'w ddwyn yn gwbl dan reolaeth eich teimlad.

7. Byddwch yn naturiol, syml, a gweddaidd yn eich holl ystumiau corphorol.

8. Gochelwch bob math o ffug.

(1) Na fydded genych ymgais at ffug-hy-awdledd.

(2) Gochelwch ffug-fawredd.

(3) Gochelwch ffug-deimlad.

9. Bydded genych amcan ymarferol pwysig i bob pregeth.

10. Yn benaf dim, byddwch yn ddifrifol.

Ychydig, mewn cymmhariaeth i'w allu a'i fedr, a wnaeth efe fel awdwr. Bu yn golygu newyddiadur yn nghyfnod boreu ei weinidogaeth, ac ysgrifenodd lawer iddo; ond nid yw y math hwnw ond fel ysgrifenu ar dywod traeth trai. Daw y llanw dranoeth, ac fe ylch ymaith y cwbl i ebargofiant. Cyfansoddodd, hefyd, *Esboniad Cymraeg ar yr Epistol at y Rhufeiniaid*, a ymddangosodd yn *Nhestament yr Ysgol Sabbothol*. Un o'i hoff efrydiau oedd 'Hanes yr Eglwys' a 'Hanes yr Athrawiaeth;' ac un o'r pyngciau y talodd efe sylw neillduol iddo ar hyd ei oes oedd y cyferbyniad sydd rhwng Pabyddiaeth a Phrotestaniaeth. Meddai fedr arbenig i gasglu ynghyd ffeithiau hanesiaeth, a thynu yn ddifeth egwyddorion mawrion oddi wrthynt. Ysgrifenodd bamphled grymus yn dwyn y teitl *Pabyddiaeth dan Orchudd yn yr Eglwys Sefydledig*, fel math o *brotest* o ymyl tragwyddoldeb yn erbyn y Defodaeth, fel mae yn cael ei hachlesu yn yr Eglwys y dyddiau hyn. Y mae hwn, mewn gwirionedd, y dynoethiad mwyaf clir, a gonest, a galluog, a wnaed erioed yn yr iaith Gymraeg ar dueddiadau Pabyddol y Sefydliad a gamenwir yn Brotestanaidd! Cafodd ei gyhoeddi gan Mr. Gee. Da genym ddeall ei fod wedi gwasgar wrth y miloedd. Dylai pob tŷ yn Nghymru feddu copi o hono. Y mae yn ymresymiad hanesyddol sydd yn dangos, nid yn unig fod ei awdwr yn hanesydd manwl, ac yn ysgrifenydd meistrolgar, ond hefyd yn weledydd craff, i weled gogwyddiadau peryglus ein hoes. Po hwyaf yr ydym yn byw, cywiraf yn y byd y gwelwn fod ei ddyfaliadau yn troi allan yn wirionedd. Fel y dywedodd y Carthageniaid, ar ol colli eu cadlywydd, Hannibal, fod yn chwith iddynt am dano yn nydd y frwydr, felly gallwn ninnau ddyweyd, pan y daw y frwydr fawr i'w hymladd rhwng Pabyddiaeth a Phrotestaniaeth, bydd yn chwith i ninnau fod Dr. Saunders yn ei fedd!

SENEDD Y DEYRNAS GYFUNOL. Gan fod erthygl faith wedi ymddangos dan y penawd uchod yn cyf. IX., td. 269, nid oes angenrheidrwydd i ni yma ond nodi ychydig o gyfnewidiadau sydd wedi cymmeryd lle er hyny yn nghymmhwysderau yr etholwyr, yn rhif yr aelodau, ac yn y pleidiau drwy yr etholiad diweddaf. Gyda hyny, ni a roddwn ychydig o'r prif ddeddfau a wnaed, a ffeithiau o bwysigrwydd a gymmerasant le. Yn gyntaf oll, ni a roddwn y daflen ganlynol, sydd yn dangos

PRIF SWYDDOGION Y DEYRNAS YN Y GANRIF HON,

*o'r flwyddyn 1801 hyd 1895.*

| Dyddiad. | Prifweinidogion. | Parhád BL. | Parhád D. | Canghellydd. | Trysorlys. | Ysgrif. Cartrefol. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mawr. 17, 1801 | Henry Addington | 3 | 59 | Arglwyddi Eldon | H. Addington | Portland, Pelham, C. Yorke |
| Mai 15, 1804 | William Pitt | 1 | 272 | Eldon | William Pitt | Hawkesbury |
| Chwef. 11, 1806 | Argl. Grenville | 1 | 48 | Erskine | Argl. Henry Petty | Spencer |
| Mawr. 31, 1807 | Duc o Portland | 2 | 216 | Eldon | Spencer Perceval | Hawkesbury |
| Rhag. 2, 1809 | Spencer Perceval | 2 | 190 | Eldon | Spencer Perceval | R. Ryder |
| Mehe. 9. 1812 | Iarll Liverpool | 14 | 319 | Eldon | N. Vansittart<br>F. J. Robinson | Sidmouth<br>Robert Peel |
| Ebrill 24, 1827 | George Canning | 0 | 134 | Lyndhurst | George Canning | Sturges Bourne<br>Lansdowne |
| Medi 5, 1827 | Is-iarll Goderich | 0 | 142 | Lyndhurst | J. C. Herries | Lansdowne |
| Ionawr 25, 1828 | Duc o Wellington. | 2 | 301 | Lyndhurst | Henry Goulburn | Syr Robert Peel |
| Tach. 22, 1830 | Iarll Grey | 3 | 238 | Brougham | Althorp | Melbourne |
| Gorph. 18, 1834 | Is-iarll Melbourne | 0 | 161 | Brougham | Althorp | Duncannon |
| Rhag. 26, 1834 | Syr Robert Peel | 0 | 113 | Lyndhurst | Syr Robert Peel | H. Goulburn |
| Ebrill 18, 1835 | Is-iarll Melbourne | 6 | 141 | In Comm.<br>Cottenham | T. Spring Rice<br>F. T. Baring | Argl. John Russell<br>Normanby |
| Medi 6, 1841 | Syr Robert Peel | 4 | 303 | Lyndhurst | Henry Goulburn | Syr James Graham |
| Gorph. 6, 1846 | Argl. John Russell | 5 | 236 | Cottenham<br>Truro | Syr Charles Wood | Syr George Grey |
| Chwef. 27, 1852 | Iarll Derby | 0 | 305 | St. Leonards | Benjamin Disraeli | S. H. Walpole |
| Rhag. 28, 1852 | Iarll Aberdeen | 2 | 44 | Cranworth | W. E. Gladstone | Palmerston |
| Chwef. 10, 1855 | Argl. Palmerston | 3 | 15 | Cranworth | W. E. Gladstone<br>Syr G. C. Lewis | Syr George Grey |
| Chwef. 25, 1858 | Iarll Derby | 1 | 113 | Chelmsford | Benjamin Disraeli | S. H. Walpole<br>T. H. S. Estcourt |
| Mehe. 18, 1859 | Argl. Palmerston | 6 | 141 | Campbell<br>Westbury | W. E. Gladstone | Syr G. C. Lewis<br>Syr George Grey |
| Tach. 6, 1865 | Iarll Russell | 0 | 242 | Cranworth | W. E. Gladstone | Syr George Grey |
| Gorph. 6, 1866 | Iarll Derby | 1 | 236 | Chelmsford | Benjamin Disraeli | S. H. Walpole<br>Gathorne Hardy |
| Chwef. 27, 1868 | Benjamin Disraeli | 0 | 286 | Cairns | George Ward Hunt | Gathorne Hardy |
| Rhag. 9, 1868 | W. E. Gladstone | 5 | 74 | Hatherley<br>Selborne | Robert Lowe<br>W. E. Gladstone | Henry A. Bruce<br>Robert Lowe |
| Chwef. 21, 1874 | Benjam. Disraeli<br>Iarll Beaconsfield | 6 | 67 | Cairns | Syr S. Northcote | R. A. Cross |
| Ebrill 28, 1880 | W. E. Gladstone | 5 | 57 | Selborne | W. E. Gladstone<br>H. C. E. Childers | Syr Wm. Harcourt |
| Mehe. 24, 1885 | Ardal. Salisbury | 0 | 227 | Halsbury | Syr M. E. Hicks-Beach | Syr R. A. Cross |
| Chwef. 6, 1886 | W. E. Gladstone | 0 | 178 | Herschell | Syr William Harcourt | H. C. E. Childers |
| Awst 3, 1886 | Ardal. Salisbury | 6 | 15 | Halsbury | Argl. R. Churchill<br>George J. Goschen | Henry Matthews |
| Awst 18, 1892 | W. E. Gladstone | 1 | 193 | Herschell | Syr William Harcourt | Herbert H. Asquith |
| Mawr. 3, 1894 | Argl. Rosebery | 1 | 111 | Herschell | Syr William Harcourt | Herbert H. Asquith |
| Mehe. 25, 1895 | Ardal. Salisbury | ynddi | | Halsbury | Syr M. E. Hicks-Beach | Syr Mat. W. Ridley |

Digitized by Google

Yn y tudalen diweddaf, ceir y manylion am holl prif swyddogion pob gweinyddiaeth a fu yn y deyrnas hon o fewn y ganrif hyd yn awr, gan ddechreu yn 1801. Ceir yno y dyddiau pan y cymmerodd pob prif weinidog y swydd, a'r tymmor y bu pob gweinyddiaeth mewn swydd, ynghyd âg enwau y prif weinidogion, canghellwyr y trysorlys, a'r ysgrifenyddion cartrefol.

Yn canlyn y mae nifer o'r ffeithiau hynod a gymmerasant le yn eu cyssylltiad â senedd Prydain, a llawer o'r deddfau pwysicaf a wnaed yn gyfreithiau o fewn y saith can mlynedd diweddaf; a'r dyddiau, a'r misoedd, a'r blynyddoedd y cymmerasant le arnynt.

Ni a ddechreuwn trwy ddangos amryw o'r cyfnewidiadau sydd wedi eu dwyn i mewn i'n deddfau yn eu perthynas â'r senedd.

Y mae deddf 1885 wedi rhoddi pleidlais i bob dyn sydd yn dymuno cael bod yn feddiannol ar bleidlais, yn mron. Yn y fl. 1894, yr oedd nifer yr etholwyr oedd ar y rhestrau (*registers*), yn Lloegr yn 4,619,669; yn Nghymru, 275,443; yn Ysgotland, 625,628; yn yr Iwerddon, 737,951. Y mae hyn yn gwneyd cyfanrif o 6,258,691; yr hyn sydd ar gyfartaledd yn 9,190 o etholwyr ar gyfer pob aelod.

Y mae Tŷ y Cyffredin presennol yn cynnwys 670 o aelodau—461 dros Loegr; 34 dros Gymru (y tair sir ar ddeg); 72 dros Ysgotland; a 103 dros yr Iwerddon. Y llefarydd diweddaf oedd yr Anrh. Arthur Wellesley Peel, yr A.S. dros Warwick a Leamington. Ond y mae efe yn awr wedi ei ddyrchafu i Dŷ yr Arglwyddi, gyda'r teitl o Arglwydd Peel. Y llefarydd a ddewiswyd yn y senedd-dymmor diweddaf, i lenwi ei le, yw Mr. William Court Gully, yr aelod dros Carlyle. Cyflog blynyddol y llefarydd ydyw 5,000*p.*

Yn y senedd ddiweddaf yr oedd 267 o Ryddfrydwyr (yn cynnwys 4 yn cynnrychioli Llafur); Toriaid, 267; Cenedlaethwyr Gwyddelig (sef, gwrth-Barnelliaid, 72; Parnelliaid, 9), 81; ac Undebwyr Rhyddfrydig, 50. Ond diddymwyd y senedd Gorph. 8fed, a gorphenwyd yr etholiad cyffredinol ar yr 8fed o Awst; ac fel hyn y saif y pleidiau ar ddiwedd yr etholiadau:—

Yn Lloegr y mae y rhifedi yn awr fel hyn: —Toriaid, 296; Undebwyr Rhyddfrydig, 53; Rhyddfrydwyr, 115; Cenedlaethwyr Gwyddelig, 1. Y cyfan yn 465. Gellir rhanu y cwbl i ddwy blaid fel y canlyn:—Toriaid, 349; a Rhyddfrydwyr, 116.

Yn Nghymru: — Toriaid, 8; Undebwyr Rhyddfrydig, 1; Rhyddfrydwyr, 25. Y cyfan yn 34; ac yn gwneyd 9 o Doriaid, a 25 o Ryddfrydwyr.

Yn Ysgotland:—Toriaid, 20; Undebwyr Rhyddfrydig, 13; Rhyddfrydwyr, 39:—oll yn gwneyd 72; sef, 33 o Doriaid, a 39 o Ryddfrydwyr.

Yn yr Iwerddon:—Toriaid, 17; Undebwyr Rhyddfrydig, 4; Rhyddfrydwr o blaid Ymreolaeth, 1; Cenedlaetholwyr, 69; Parnelliaid, 12. Y cyfan yn 103:—yn gwneyd 21 o Doriaid a 82 o Ryddfrydwyr o blaid Ymreolaeth.

Trwy yr holl deyrnas y mae y cyfrifon fel y canlyn:—Toriaid, 340; Undebwyr Rhyddfrydig, 71; Rhyddfrydwyr, 177; Cenedlaetholwyr Gwyddelig, 70; Parnelliaid, 12. Y cyfanrif yn 670; ac yn gwneyd 411 o Doriaid, a 259 o Ryddfrydwyr. Yn ol hyn yr oedd y mwyafrif Toriaidd yn 152.

Galwad cyntaf y Barwniaid trwy wŷs a anfonwyd at Esgob Salisbury, gan y brenin Ioan ... ... ... ... ... ... 1205
Cynnulliad, yr hwn a alwyd y 'Senedd wallgof,'... ... ... Mehefin 11eg, 1258
Simon de Montford, iarll Leicester, yn gwysio senedd, yn cynnwys marchogion (*knights*) y siroedd ... ... ... ... 1264
Cynnulliad cyntaf y Cyffredinwyr fel cynnrychiolaeth sefydlog... ... Ion. 20fed, 1265
Y senedd reolaidd gyntaf (yn ol amryw o haneswyr) 22 Iorwerth I. ... ... ... 1294
Y Cyffrediniaid yn ethol eu llefarydd cyntaf —Peter De la Mare ... ... ... ... 1377
Yr aelodau yn gorfod trigiannu yn y lleoedd a gynnrychiolid ganddynt ... ... ... 1413
Rhydd-ddalwyr yn meddu dwy bunt yn y flwyddyn yn unig i ethol marchogion ... 1430
Siarl I. yn dadgorphori y senedd, yr hon fu heb gyfarfod am un-mlynedd-ar-ddeg ... 1629
Y Senedd Hir (yr hon a roddodd bleidlais yn dadgan fod Tŷ yr Arglwyddi yn sefydliad di-werth) yn cyfarfod ... Tach. 3ydd, 1640
Yr esgobion yn cael eu hattal i bleidleisio ar faterion tymmhorol neu fydol ... ... 1640
Tŷ yr Arglwyddi yn cael ei ddiddymu Chwefror 6ed, 1649
Cromwell yn ddiseremoni yn diddymu y Senedd Hir ... ... ... Ebrill 20fed, 1653
Pabyddion yn cael eu cau allan o'r senedd ... 1678
Gwneyd Deddf y Seneddau Tair-blwyddol ... 1694
Senedd cyntaf Prydain Fawr yn cyfarfod, Hyd. 23ain, 1707
Gorchymyn fod aelodau Tŷ y Cyffredin a dderbyniant swydd o elw i gael eu hail ethol . 1707
Dirymu Deddf y Seneddau Tair-blwyddol, a gwneyd Deddf y Seneddau Saith-mlwyddol, ... ... ... ... ... Mai 7fed, 1716
Senedd yr Iwerddon yn cael ei diddymu ... 1800
Cyfarfyddiad senedd gyntaf Prydain Fawr a'r Iwerddon ... ... ... Chwef. 2il, 1801
Gwahardd clerigwyr i fod yn aelodau seneddol ... ... ... ... ... ... 1801
Dychweliad Mr. O'Connell dros swydd Clare, yn yr Iwerddon—y Pabydd cyntaf a etholwyd er y Chwyldroad ... Gorph. 5ed, 1828
Y Duc o Norfolk yn cymmeryd ei sedd yn Nhŷ yr Arglwyddi—y pendefig Pabaidd cyntaf ... ... ... ... Ebrill 28ain, 1829
Y Senedd Ddiwygiedig (*Reform Parliament*), yn cyfarfod ... ... ... Awst 7fed, 1832
Joseph Pease, y Crynwr cyntaf, yn cael cymmeryd ei sedd fel aelod seneddol, ar ei ddadganiad ... ... Chwef. 15fed, 1833
Dau dy y senedd yn cael eu dinystrio trwy dân ... ... ... ... Hyd. 16eg, 1834
Tai presennol y senedd yn cael eu dechreu ... 1840
Aelodau dau dŷ y senedd yn rhoi i fyny y fraint oedd ganddynt i anfon llythyrau yn ddi-dâl drwy y llythyrdy ... Ion. 10fed, 1840
Derbyn Barwn Rothschild—yr Iuddew cyntaf —i'r Tŷ... ... ... ...Gorph. 26ain, 1858
Y Mesur Diwygiadol newydd yn derbyn cymmeradwyaeth y Frenhines Awst 15fed, 1867
Yr hawl i bleidleisio trwy ddirprwy (*proxy*), yn Nhŷ yr Arglwyddi, yn cael ei ddiddymu, trwy reol sefydlog y tŷ ... Mawrth 31ain, 1868
Deddfau Diwygiadol Ysgotland a'r Iwerddon, a Deddf y Terfynau Seneddol yn cael eu cymmeradwyo... ... ... Gorph. 13eg, 1868
Deddf yr Etholiadau Seneddol, Gorph. 31ain, 1868
Deddf y Tugel (*Ballot*), ... Gorph. 18fed, 1872
Y cynnygiad yn ffafr seneddau Pum-mlwyddol yn cael ei wrthod ... ...Chwef. 24ain, 1880
Mr. Charles Bradlaugh, yr aelod seneddol dros Northampton (anffyddiwr), yn gwrthod cymmeryd y llw; a'r Tŷ yn gwrthod iddo gael gwneuthur dadganiad (*affirmation*) yn ei le. Ar ol hyny, ei gynnygiad i gymmeryd y llw yn cael ei wrthod, Mai 21ain, 1880

Digitized by Google

Deddf Cau y Tafarnau ar y Sabbath yn Nghymru ... ... ... ... ... 1881
Mr. Gladstone yn cynnyg rheolau newyddion dadleuaeth seneddol, yn cynnwys y Cloadur (gallu i derfynu dadleuon) ...Chw. 13 1882
Mabwysiadu y Cloadur, ...Tach. 10, 11, 1882
Ffrwydrad *deinameit* yn Nhŷ y Cyffredin; ond trwy wroldeb heddgeidwad o'r enw Cole yn cipio y sypyn oedd yn mygu, a'i daflu allan, achubwyd y Tŷ ... Ion. 24ain, 1885
Dadgorphoriad y senedd, Tachwedd 18fed, 1885
Mr. Bradlaugh yn cymmeryd y llw, ac ymyriad aelodau yn cael ei attal gan y Llefarydd ... ... Ion. 13eg, 1886
Mr. Gladstone yn cyflwyno ei fesur 'i wneyd darpariaeth ar gyfer llywodraethiad gwell yr Iwerddon yn y dyfodol;' sef, Ymreolaeth. Y Tŷ yn orlawn—rhai aelodau wedi cymmeryd eu seddau mor gynnar a chwech o'r gloch y boreu ... ... Ebrill 8fed, 1886
Deddf Ysgolion Canolraddol Cymru, Awst 12, 1889
Gwrthod cynnygiad Mr. Fenwick yn mhlaid talu i aelodau Tŷ y Cyffredin, Maw. 25ain, 1892
Y Llefarydd, trwy gyfarwyddyd y Tŷ, yn ceryddu Mr. James F. Buckley, Mr. J. W. Maclure, A.S., Mr. W. B. Hawkins, a Mr. J. Conacher—cyfarwyddwyr llinell y *Cambrian*—am ddiystyru rhagorfraint y Tŷ, trwy ddiswyddo Mr. John Hood, gorsaffeistr, am iddo roddi tystiolaeth i'r pwyllgor ar oriau llafur gweision y ffordd haiarn, Ebrill 7fed, 1892
Dadgorphori y senedd, Mehefin 28ain, ... 1892
Y senedd newydd yn cyfarfod... Awst 4ydd, 1892
Deddf y Cynghorau Plwyfol... Mawrth 5ed, 1894
Dadgorphoriad y senedd... Gorphenaf 8fed, 1895
Y senedd newydd yn cyfarfod... Awst 12fed, 1895

NIFER SENEDDAU YN MHOB TEYRNASIAD.

Iorwerth I., 8 o seneddau. Iorwerth II., 15. Iorwerth III., 37. Rhisiart II., 26. Harri IV., 10. Harri V., 11. Harri VI., 22. Iorwerth IV., 5. Rhisiart III., 1. Harri VII., 8. Harri VIII., 10. Iorwerth VI., 2. Mari, 5. Elizabeth, 10. Iago I., 4. a Siarl I., 4. *Y Senedd Hir, yn parhau o Dachwedd 3ydd*, 1640, *hyd Ebrill 20fed*, 1653. Y Wladwriaeth (*The Commonwealth*), 5. Siarl II., 1. Y Senedd Flwydd-daliadol, 2. Iago II., 1. Cynnadledd, 1. Gwilym III., 4. Anne, 6. Siôr I., 2. Siôr II., 5. Siôr III., 12, Siôr IV., 3. Gwilym IV., 3. Victoria, 15—hyd Medi, 1895.

SENEDD YR IWERDDON. Dywedir iddi ddechreu mewn cynnadleddau o ymsefydlwyr Saesnig ar Fryn Tara yn 1173. Gwysiwyd marchogion y siroedd i gyfarfod yn 1295. Cyfarfu y senedd Wyddelig am y tro diweddaf ar yr 2il o Awst, 1800. Yr achos o hyn oedd, fod y mesur o blaid yr Undeb rhyngddi a Phrydain wedi ei basio.

SENEDD YSGOTLAND. Cynnwysai hon farwniaid, esgobion, a mynachod, neu abadau, ac yn achlysurol fwrdeisiaid. Cynnaliwyd cynghor mawr cenedlaethol yn Scone gan John Balliol, y 9fed o Chwefror, 1292; a chan Robert Bruce, yn Cambuskenneth yn 1326. Ni chafodd Tŷ y Cyffredin erioed ei ffurfio yn Ysgotland. Darfu i senedd Ysgotland gymmeradwyo Deddf yr Undeb ar yr 16eg o Ionawr, 1707, a chyfarfu am y tro diweddaf ar Ebrill 22ain, yn yr un flwyddyn.

SIMNER, ABEL, Llundain. Gŵr adnabyddus i Gymry Dyffryn Clwyd, a Llundain, oedd efe—mab i William ac Elizabeth Simner, o Ddinbych. Ganwyd ef ar Ionawr 2il, 1814. Efe oedd y nawfed, o ddeuddeg o blant. Symudodd i Lundain yn y flwyddyn 1831, pan yn 17eg mlwydd oed. Bu yn preswylio yn y brif ddinas dros drigain mlynedd; ac yn ystod y tymmor maith hwn, gwnaeth ei enw yn hysbys yno yn mhlith pob dosbarth o'i gyd-genedl. Methodist oedd efe. Prin y digwyddai un cyfarfod crefyddol neu ddyngarol o bwys na byddai efe yn bresennol ynddo; yn enwedig y rhai a berthynent i'w gyfundeb ef. A bu ei fawr sêl dros bob symmudiad Cymraeg daionus o fantais fawr i lwyddiant y cyfryw. Un o'r pethau y teimlai efe ddyddordeb neillduol ynddo, oedd cael bod o ryw gymmaint o gynnorthwy i ddynion ieuaingc ar ddechreu eu gyrfa yn mhrif ddinas y byd. Gellir dyweyd am dano iddo, yn hyn o beth, fod yn foddion i roddi symbyliad a chychwyniad i lawer Cymro ieuangc i ddringo i safleoedd o ymddiried ac anrhydedd.

Yr oedd yn perthyn, o du ei fam, i'r enwog Twm o'r Nant; a theimlai beth dyddordeb yn ei berthynas â'r hen fardd adnabyddus. Y mae beddfaen Thomas Edwards yn ymyl beddfaen tad a mam Mr. Simner; ac un o'r pethau olaf a wnaeth efe oedd adgyweirio y ddau feddfaen, a gadael ar ei ol swm o arian at eu cadw yn drefnus yn y dyfodol.

Brawd i Mr. Abel Simner oedd y cyntaf a fedyddiwyd yn nghapel y Methodistiaid yn Ninbych. Gweinyddwyd y seremoni gan y Parch. Thomas Jones; a'r hyn sydd yn hynod ynglŷn â'r ffaith ydyw, nad oedd pregethwyr y cyfundeb, oedd heb fod o'r blaen yn glerigwyr yn y sefydliad, yn arfer gweinyddu yr ordinhadau [Gwel JONES, y Parch. THOMAS].

Derbyniodd ei addysg mewn rhan yn Ysgol Rammadegol y dref hon. Egwyddorwyd ef yn yr alwedigaeth o ysgrifenydd yn swyddfa Mr. Samuel Edwardes; yr hwn oedd gyfreithiwr cyfrifol ac adnabyddus yn y dref a'r ardaloedd. Yn 1831, gan fod tymmor ei ymrwymiad ar ben, aeth i Lundain. Yr un flwyddyn, agorwyd swyddfa dan Ddeddf Newydd y Tlodion —adran o'r Gwasanaeth Gwladol a elwir yn awr yn Fwrdd y Llywodraeth Leol. Gan mai Cymro, Syr George Cornwall Lewis, oedd cadeirydd y ddirprwyaeth, ceisiodd amryw Gymry ieuaingc swydd dan y Bwrdd; ac yn mhlith y rhai fuont yn llwyddiannus, yr oedd Mr. Hugh Owen (ac wedi hyny, Syr Hugh Owen) a Mr. Simner. Daliodd y swydd hon am bymthengmlynedd-ar-hugain; a phan ymddiswyddodd, yn 1871, rhoddwyd iddo flwydd-dâl. Llanwodd Mr. Hugh Owen y swyddau uchaf a mwyaf pwysig yn yr adran hon; a gweithiodd Mr. Simner ei ffordd yn mlaen. A ffaith deilwng o sylw ydyw, fod meibion Syr Hugh Owen a Mr. Simner wedi dilyn eu tadau yn eu gwahanol swyddau dan y bwrdd.

Ar ei sefydliad yn y brif ddinas, ymunodd Mr. Simner â'r eglwys yn Jewin Crescent; a gafaelodd o ddifrif yn ngwaith yr eglwys, ac yn neillduol felly yn yr Ysgol Sabbothol.

Yn 1836, pan yn 22ain mlwydd oed, priododd â Miss Anne Lewis, merch i Mr. Benjamin Lewis, un o flaenoriaid yr eglwys; yr hwn oedd yn frodor o Gastellnewydd-yn-Emlyn; a bu hi iddo yn wraig ragorol. Ar eu priodas, aethant i fyw i dŷ'r capel, sef 12 Jewin Crescent; a thra yno, llettyasant weinidogion y cyfundeb am amryw flynyddoedd. Yn Morton Road, Canonbury, y treuliodd Mr. Simner y rhan ddiweddaf o'i oes, ac yno y bu efe a'i briod farw. Ond i ddychwelyd i Jewin Crescent. Yr arfer

Digitized by Google

y pryd hwnw oedd i rai o brif weinidogion y cyfundeb fyned i Lundain am fis, dau, neu dri, i wasanaethu yr eglwysi yno; a thrwy y drefn hon, daeth Mr. Simner i gydnabyddiaeth â llawer o honynt. Hoff waith ganddo fyddai adrodd hanes y cedyrn hyn—y Parchn. John Elias; Ebenezer Richards; David Davies, o Gaio; John Jones, Tal-y-sarn; David Jones, Treborth; Cadwaladr Owen, a llawer eraill.

Yn y flwyddyn 1837, cychwynwyd y symmudiad dirwestol yn Jewin Crescent; ac yr oedd Mr. Simner yn un o'r rhai cyntaf i gymmeryd yr ardystiad. Parhaodd yn ddirwestwr pybyr dros weddill ei oes; a llafuriodd gydag egni mawr i sicrhau llwyddiant yr achos da hwn yn mysg ei genedl ei hun, ac hefyd yn mysg y Saeson. Yr oedd, hefyd, yn elyn anghymmodlawn i'r arferiad o ysmygu. Yr oedd yn bresennol yn yr ŵyl fawr ddirwestol a gynnaliwyd yn Nghastell Dinbych, yn 1851, pan yr anerchwyd y dorf gan y Parch. Henry Rees. Yr oedd yn un o sylfaenwyr y Cynghrair Cenedlaethol Dirwestol, ac Undeb Blodau yr Oes (*Band of Hope Union*). Yr oedd efe hefyd yn un o sylfaenwyr y *Temperance Permanent Building Society*, yn 1854. O herwydd anghyfleusderau a threfniadau teuluaidd, a gradd o anghydfod oedd ar y pryd yn eglwys Jewin Crescent, llaciodd cyssylltiad Mr. Hugh Owen a Mr. Simner â'r eglwys, ac ymunasant â'r Annibynwyr Saesnig. Ond er hyny, yr oeddynt yn ymddwyn ac yn gweithredu fel aelodau yn eu hen gyfundeb; ac yr oedd pawb o'u hen gyfeillion yn foddlawn i hyny, ac yn falch iawn o'u gweled bob amser. Daeth Mr. Simner yn ddiweddarach yn ol i'w hen gynnefin, a gweithiodd yn egnïol o blaid llwyddiant yr achos.

Bu Mr. Simner o gryn wasanaeth i sicrhau amryw ddeddfau oedd yn fanteisiol i'r Ymneillduwyr, ac i Sefydliadau Elusenol, trwy ba rai y galluogwyd eglwysi ac enwadau, i gael gweithredoedd i gapeli yr oeddynt wedi colli gafael gyfreithiol arnynt, naill ai trwy ddiofalwch, neu trwy ddiffyg adnabyddiaeth o'r deddfau oedd yn bodoli, neu trwy ddiffygion oedd yn y deddfau eu hunain i gyfarfod â'u hamgylchiadau.

Y mae unffurfiaeth gweithredoedd y gwahanol Gyfundebau Crefyddol yn cael ei sicrhau drwy rai o'r deddfau uchod; ac y mae y *Model Deed* a dynwyd allan ganddo, neu trwy ei offerynoliaeth ef, wedi ei mabwysiadu gan yr holl enwadau yn mron.

Y ffordd a ddefnyddiodd efe i gyrhaedd rhai o'r amcanion uchod, oedd myned yn uniongyrchol ei hun at yr Arglwydd Ganghellydd oedd mewn swydd ar y pryd, gan osod yr achosion o'i flaen. Trwy amlygu y ffeithiau iddo, sicrhaodd ei gynnorthwy a'i gefnogaeth, a chariwyd y mesurau trwy y ddau dŷ; ac y maent er's blynyddoedd wedi eu profi yn werthfawr iawn.

Derbyniodd ddiolch y cymdeithasfaoedd am y gwasanaeth a wnaeth efe, a chyflwynwyd tysteb iddo gan Ddc a Gogledd. Llafuriodd cryn lawer hefyd yn mhlaid Addysg Elfenol; cynnorthwyodd yn sefydliad Coleg Normalaidd Bangor; ac yr oedd efe yn un o lywodraethwyr Prifysgol Aberystwyth. Gadawodd 50*p.* yn ei ewyllys at dalu dyled Capel y Methodistiaid yn y dref hon, a 50*p.* at Ysbytty y Cleifion.

Y mae y deddfau y bu efe yn gymmhorth i'w cael fel y canlyn:—

24 Vict., pen 9—y dydd y daeth yn ddeddf. Mai 17eg, 1861. 25 Vict., pen. 17—Mai 16eg, 1862. 26 a 27 Vict., pen. 106—Gorph. 28ain, 1863. 27 Vict., pen. 13—Mai 13eg, 1864. 29 a 30 Vict., pen 57—Mai 30eg, 1866. 31 a 32 Vict., Gorph. 13eg, 1868. 35 a 36 Vict.,—Mehefin 27ain, 1872. A 36 a 37 Vict., pen. 50—Gorph. 21ain 1873.

Bu farw Awst 12fed, 1893, a chladdwyd ef yn Nghladdfa Abney Park.

**SPURGEON, CHARLES HADDON.** Un o bregethwyr blaenaf a gweinidog mwyaf, adnabyddus a phoblogaidd ei oes, yn mysg yr Ymneillduwyr. Efe, yn ddiau, heb os nac oni bae, oedd y gallu cryfaf yn y pulpud yn Mhrydain, os nad yn y byd, yn ystod chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ganwyd ef Mehefin, 19eg, 1834, mewn lle o'r enw Kelvedon, yn sir Essex; lle yr oedd ei dad, y Parch. John Spurgeon, yn gwasanaethu cynnulleidfa fechan o Annibynwyr ar y Sabbothau, ac yn cynnal ei hun trwy weithio â'i ddwylaw, fel unrhyw lëygwr arall, yn ystod yr wythnos. Bu ei daid, y Parch. James Spurgeon, am ysbaid trigain mlynedd, yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Stambourne, o fewn yr un sir. Yn nghanol y dylanwadau teuluaidd a chrefyddol hyn y ganwyd ac y meithrinwyd gwrthddrych hynod yr erthygl hon.

Llenyddiaeth boreu ei oes, yn benaf, oeddynt *Drych y Merthyron*, o waith Fox, a *Thaith y Pererin* Bunyan. Cafodd y llyfrau rhagorol hyn ddylanwad neillduol ar ei feddwl; ac hyd yn oed yn yr adeg foreuol hon o'i oes, dywedir y byddai yn fynych yn gweinyddu ceryddon llymdost ar broffeswyr crefyddol di-yni a diwaith, a hyny yn aml yn ngeiriau cryfion yr Hen Destament, nes y byddai aml un o honynt yn cywilyddio yn ei bresennoldeb. Hawdd fyddai profi gwirionedd y ddiareb adnabyddus 'mai y plentyn yw tad y dyn' yn hanes Mr. Spurgeon ei hun. Tyfodd i fyny yn un o brif bregethwyr ei oes; ac nid yw hyny yn beth i synu ato, o blegid pregethu y byddai yn nyddiau ei blentyndod. Byddai yn fynych yn casglu nifer o'i gyfoedion o'i amgylch; yna, esgynai i ben careg, neu rywbeth arall a wasanaethai fel 'pulpud;' ac o'r lle hwnw, traddodai iddynt bregethau—rhai o honynt o'i waith ei hun; eraill wedi eu cofio ganddo—gan efelychu yn ddiniwed lais ac ystumiau y pregethwyr yn mron i berffeithrwydd.

Yn Colchester y cafodd ei ysgol gyntaf; a thra yno, dysgodd ychydig o Ladin, llai o Roeg, a mymryn o Ffrangaeg. Pan yn bymtheg oed, aeth i Newmarket, i fod yn îs-athraw yno. Trwy ei ymroddiad i wneyd defnydd priodol o'r ychydig lyfrau oedd o fewn ei gyrhaedd, llwyddodd i gyfoethogi ei feddwl â llawer o wybodaeth a fu yn fuddiol iddo tra y bu byw. Arferai ddyweyd ei fod, y pryd hwnw, wedi ei ddal gan gryn fesur o amheuaeth am wirioneddau sylfaenol y grefydd Gristionogol. Arweiniwyd ef i'r tir hwn trwy ddarllen llyfrau neillduol ar 'Athroniaeth Feddylddrychol' (*Idealistic Philosophy*). Buasai yn ddyddorol gwybod pa fodd yr ymryddhaodd o'r hualau hyn; ond ni thybiodd yn ddoeth ei hysbysu. Ar yr un pryd, teg yw dyweyd ei fod yn arfer cydnabod ei fod yn ddyledus am ei ddychweliad at symledd yr efengyl, ac i feddiant o grefydd bersonol, i bregeth a draddodwyd yn ei glyw gan ryw bregethwr perthynol i'r Methodistiaid

Digitized by Google

Cyntefig (*Primitive Methodists*). Gallai y pregethwr hwn ddyweyd am Mr. Spurgeon, fel yr arferai Dr. Owen Thomas ddyweyd am y diweddar Barch. Joseph Thomas, mai 'efe oedd y pysgodyn mwyaf a ddaliwyd ganddo erioed.' Tra yn Newmarket, treuliodd Mr. Spurgeon ei amser hamddenol, yn benaf, yn cyflawni ei ddyledswyddau crefyddol, gan draddodi anerchiadau yn neuadd capel yr Annibynwyr.

Pan yn un-ar-bymtheg oed, ymunodd gyda'r Bedyddwyr, gan yr anghymmeradwyai fedydd babanod; a chafodd ei fedyddio yn gyhoeddus trwy drochiad. Tua'r pryd hwn, ysgrifenodd ei fam ato i ddyweyd ei bod wedi gweddio llawer drosto o bryd i bryd; ond na weddïodd hi erioed am iddo droi yn Fedyddiwr. Yr oedd ei atteb i lythyr ei fam yn dra nodweddiadol o'r hyn a ddaeth ar ol hyny mor amlwg ynddo. Dywedodd wrthi am beidio cwyno; canys yr oedd hi wedi cael bendith na ofynodd hi ddim am dani. Y pryd hwn, hefyd, dechreuodd ar ei waith fel awdwr, trwy gyhoeddi y traethawd hwn—'Yr Anghrist, a'i Heppil; neu, Pabyddiaeth wedi ei Dynoethi' *(The Anti-Christ, and her Brood; or Popery Unmasked).*

Yn y fl. 1850, symmudodd i Gaergrawnt, i wasanaethu mewn ysgol; ac er ei fod mor ieuangc, cafodd ei dderbyn yn aelod o Gymdeithas y Pregethwyr Lleygol, yr hon oedd wedi ei sefydlu mewn cyssylltiad â chynnulleidfa y bu yr anfarwol Robert Hall yn weinidog arni. Traddododd ei bregeth gyntaf mewn tŷ annedd yn mhentref Faversham; ac yn mron ar unwaith, daeth mor gymmeradwy fel pregethwr fel yr oedd galwadau parhaus am ei wasanaeth. Dilynai ei orchwylion yn yr ysgol ddyddiol, a phregethai y nos; ond gan nad oedd wedi ei ordeinio, ni dderbyniai ddim yn y ffordd o gydnabyddiaeth arianol am ei wasanaeth. Wedi iddo barhau yn y llafur hwn am tua blwyddyn neu ddwy, fe argyhoeddwyd ei dad mai pregethwr, a dim arall, oedd efe i fod. Mewn canlyniad, gwnaed trefniadau i'w anfon i'r coleg, i'w gymmhwyso i waith mawr y weinidogaeth; ac yr oedd ei dad yn barod i wneuthur unrhyw aberth er ei alluogi i gael myned trwy gwrs athrofäol rheolaidd. Ond ni chafodd efe ei ddymuniad. Pan nad oedd Spurgeon ieuangc yn llawn deunaw mlwydd oed, derbyniodd alwad i fyned yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr yn Waterbeach. Derbyniodd hi, a dyblwyd rhif y gynnulleidfa yn fuan iawn. Nid hir y bu yno cyn derbyn o hono alwad daer oddi wrth eglwys y Bedyddwyr yn New Park street, Llundain. Derbyniodd hi; a dechreuodd ar ei lafur gweinidogaethol yno yn Ionawr, 1854. Er fod yr eglwys hono yn cael ei rhestru yn mysg eglwysi Ymneillduol enwocaf y brifddinas, nid oedd ei sefyllfa yn flodeuog iawn ar y pryd; ond yn fuan ar ol ei ymsefydliad ef yno, dechreuodd gwedd pethau newid er gwell. Cyn diwedd y flwyddyn, yr oedd y capel wedi myned yn rhy fychan; a phenderfynwyd ei helaethu. Chwanegodd hyn at boblogrwydd y gweinidog, fel y daeth ei enw yn hysbys trwy holl gylchoedd crefyddol y brifddinas. Tra y bu y capel yn llaw yr adeiladwyr, pregethai Mr. Spurgeon yn Neuadd enwog Exeter; yr hon a orlenwid bob Sabbath gan dyrfaoedd gorawyddus am ei glywed. Erbyn diwedd Mehefin, yr oedd yr hen gapel wedi ei ail agor; ond y ffaith gyntaf a ddaeth yn amlwg ynglŷn âg ef oedd, ei fod etto yn rhy fychan. Yr oedd hyn oll yn amlwg i'w briodoli i boblogrwydd Mr. Spurgeon fel pregethwr.

Yn 1856, penderfynwyd cael capel newydd; a thra y bu hwn yn cael ei wneyd, aed i addoli yn y Neuadd Gerddorol yn Ngerddi Brenhinol Surrey. Un Sabbath—y 19eg o Hydref—pan oedd y lle yn orlawn o wrandawyr (bernir fod yno 7,000 o bersonau), gwaeddodd rhywun fod y lle ar dân; ac yn y cyffro ofnadwy a ddilynodd, lladdwyd naw o bersonau, ac anafwyd deg-ar-hugain eraill. Yn mysg ei wrandawyr mynych, tra yn y neuadd hon, ceid gweled Argl. John Russell a'i briod, Arglwydd Campbell, Ardalydd Westminster, Syr James Graham, y Barwn Bramwell, Dr. Livingstone, ac enwogion eraill. O'r diwedd, gorphenwyd yr addoldy newydd; a chafodd Mr. Spurgeon bregethu yn nghapel mawr 'Y Tabernacl;' yr hwn a ddaeth mor hysbys drwy y wlad wedi hyny. Costiodd yr addoldy ëang hwn 31,000*p.*; a chynnwysa eisteddleoedd i 6,000 o bobl. Ar ddiwrnod neillduol yn ystod Gwrthryfel yr India, bu Mr. Spurgeon yn pregethu yn y Palas Grisial i gynnulleidfa anferth oedd yn rhifo 24,000!

Tra yn y Tabernacl, fe ymledodd ei enwogrwydd trwy wledydd Ewrop ac America; ac ymgasglai dyeithriaid yno o bob gwlad, i'w glywed. Yn y fl. 1868, pennodwyd ei frawd, y Parch. James Spurgeon, yn weinidog cynnorthwyol iddo. Yn yr un flwyddyn, cyflwynodd eglwysi Bedyddwyr Prydain dysteb iddo o 1,200*p.*; a gwnaed y swm yn 1,765*p.* wedi hyny. Yn 1879, talwyd teyrnged fwy sylweddol fyth i'w ddirfawr boblogrwydd, er dathlu terfyn y bummed flwydd ar hugain o'i lafur gweinidogaethol. Yr oedd y swm a gyflwynwyd iddo ar yr achlysur hwn yn 6,238*p.* Drachefn, ar y 19eg o Fehefin, 1884, pan yr oedd efe yn cyrhaedd ei hanner can mlwydd oed, cyflwynwyd anrheg 'pen blwydd' iddo—rhwng 4,000*p.* a 5,000*p.* Rhoddodd yntau yr oll o'r arian hyn at amcanion daionus. Yn y cyfarfodydd a gynnaliwyd i ddathlu yr iwbili hwn, cafwyd tystiolaethau diammwys o'r parch a'r edmygedd a goleddid tuag ato, nid yn unig yn mysg ei gynnulleidfa ei hun, ond hefyd trwy yr holl fyd. Arglwydd Shaftesbury, y dyngarwr enwog, oedd yn llywyddu yn nghyfarfod y cyflwyniad; ac yn mysg y siaradwyr yr oedd y Canon Wilberforce, un o'r Eglwyswyr duwiolaf ac enwocaf yn ei ddydd. Cynnrychiolid Bedyddwyr Prydain yn y cyfarfod gan Dr. Todd; y Wesleyaid, gan Syr William McArthur; a'r Annibynwyr, gan Dr. Parker, a'r Parch. Newman Hall.

Ensyniai rhai o elynion crefydd fod Mr. Spurgeon wedi 'gwneyd poced dda' oddi wrth y tystebau cyhoeddus a gyflwynwyd iddo; ond y gwir yw, rhoddodd bob ceiniog o honynt at amcanion elusenol a chrefyddol oedd yn dwyn cyssylltiad âg eglwys y Tabernacl. Dywedodd un o'r diaconiaid yn gyhoeddus mai yr eglwys, mewn gwirionedd—ac nid Mr. Spurgeon yn bersonol—oedd wedi elwa ar y tystebau. Fel prawf pellach o anianawd ddi-ariangar y gweinidog enwog hwn, dywedodd y diacon y cyfeirir ato mai y trefniant gwreiddiol am gyflog iddo oedd, iddo gael yr holl arian a dderbynid oddi wrth yr eisteddleoedd. Y pryd hwnw, ymddangosai hwn yn gynllun o'r fath fwyaf ansicr i ddyn ymddibynu arno am ei fywoliaeth; canys nid oedd ond ychydig wedi ei dderbyn o'r ffynonell hono er's blynyddoedd. Er hyny, fe anturiodd Mr. Spurgeon dderbyn y trefniant.

Digitized by Google

Fel canlyniad, pan ddechreuodd 'rhenti y seti' ddyfod i mewn, perthynai yr holl arian iddo ef, yn ol y cyttundeb. 'A gadwodd efe yr arian?' gofynai y diacon yn y cyfarfod yr ydym wedi cyfeirio ato. 'Naddo! y peth cyntaf a wnaeth efe ar ben y chwarter oedd dyweyd—'Bellach, ni fynwn ni ddim chwaneg o gasgliadau at y pethau amgylchiadol. Talaf am y goleuo a'r glanhau fy hun.' Ac o'r pryd hwnw hyd yn awr, y mae efe wedi gwneyd hyny.' 'Heb law hyny,' meddai; 'y mae Mr. Spurgeon wedi talu pum mil o bunnau at drysorfa adeiladu y Tabernacl.' Y mae yn amlwg oddi wrth hyn nad oedd ariangarwch i'w restru yn mysg ffaeleddau y gweinidyg ffyddlawn hwn.

Yn nechreu y fl. 1855, dechreuwyd cyhoeddi pregethau Mr. Spurgeon yn rhifynau wythnosol; a pharhawyd i wneuthur hyny hyd ei farwolaeth. Cafodd y pregethau hyn eu cyfieithu, a'u cyhoeddi yn mhob iaith o'r bron yn Ewrop; ac nid oes ammheuaeth na chawsant eu hail bregethu drosodd a throsodd drachefn gan weinidogion yn ngwahanol wledydd y byd.

Tua diwedd ei oes, cododd gradd o anghydwelediad rhyngddo âg Undeb y Bedyddwyr; a thorodd ei gyssylltiad âg ef. Bu hyn yn achos o gyffro mawr yn nghylchoedd crefyddol y deyrnas. Meiddiodd Mr. Spurgeon ddyweyd fod yr Undeb yn rhoddi lloches i weinidogion oedd yn gwyrdroi yr Ysgrythyrau, ac yn gwadu egwyddorion sylfaenol crefydd Crist. Yr oedd cyhuddiad o'r natur hwn, yn cael ei wneuthur gan weinidog mwyaf poblogaidd yr enwad, yn rhwym o achosi cyffro mawr; a bu yr helynt yn destyn ymdrafodaethau meithion yn nghyfarfodydd y Bedyddwyr, ac yn ngholofnau y newyddiaduron. Hwyrach na bu Mr. Spurgeon yn ddoeth yn mhob gair a lefarodd ac a ysgrifenodd o berthynas i'r achos hwn; ond teimlai y wlad y parch dyfnaf iddo, am ei amddiffyniad cryf i wirioneddau yr efengyl yn ei symledd. Ei fod yn berffaith onest yn yr hyn a wnaeth, sydd uwch law ammheuaeth. Ei gydwybodolrwydd i'r gwirionedd, a'i eiddigedd dros yr 'athrawiaeth iachus,' a'i harweiniodd i wneyd y cyhuddiad, ac i ymwahanu oddi wrth yr Undeb y bu efe yn aelod mor anrhydeddus o hono.

Yn lled fuan ar ol hyn, cymmerodd digwyddiad le a'i dygodd mewn modd arbenig i sylw y Cymry, a phleidwyr Cydraddoldeb Crefyddol. Yn y rhan foreuol o'i yrfa, yr oedd efe yn wrthwynebol i'r Eglwys Sefydledig; ac fel Protestant a Phuritan o argyhoeddiadau dwfn, mynych y cymmerai gyfleusdra wrth bregethu i gondemnio ei Defodaeth, a'i harferion ofergoelus ac eilunaddolgar. Ond yn ei flynyddoedd diweddaf, aeth ei feddwl dan gyfnewidiad oedd yn hollol anesboniadwy i'r byd. Torodd ei gyssylltiad â Chymdeithas Rhyddhâd Crefydd, a gwrthododd ganiatau benthyg y Tabernacl i gynnal cyfarfodydd blynyddol y gymdeithas, i ddadleu o blaid Dadsefydliad a Dadwaddoliad, er ei fod wedi gwneyd hyny am flynyddoedd. Y mae'n wir nad oedd efe yn llai o Brotestant; ond o herwydd rhyw resymau, ni cheid ganddo gymmeryd rhan gyhoeddus ar lwyfan Dadsefydliad. Cafodd ei ymddygiad sylw mawr yn mysg caredigion Cydraddoldeb Crefyddol ar y pryd; ond ni bu yn foddion i leihau dim o'u hymddiried ynddo, a'u parch iddo.

Heb law ei lafur gweinidogaethol, nid oes un pregethwr yn awr yn fyw a gyhoeddodd gynnifer o lyfrau, pregethau, a phamphledau ag a wnaeth efe; nac un chwaith y bu darlleniad mwy cyffredinol ar ei waith. Ei gôf-golofnau amlwg ac arosol fydd—ei Dabernacl—yr eglwys o bum mil a hanner o aelodau y gweinyddai iddi — ei gynnulleidfa anferth — ei athrofa i ddarparu dynion ieuaingc i'r weinidogaeth—ei nawdd-dŷ i amddifaid—ei drefniant i ddwyn llyfrau yn rhad at wasanaeth gweinidogion yr efengyl—ei bregethau wythnosol, ei gylchgrawn, *The Sword and Trowel*, *The Treasury of David*, a *John Ploughman's Talk*, a llaweroedd o gynnyrchion llenyddol eraill. Trwy sefydliadau, a'i weithiau rhagorol a lliosog, bydd yn ddiammheuol 'wedi marw yn llefaru etto' am flynyddoedd lawer.

Byddai yn hawdd llanw colofnau âg adgofion a mân hanesion am y gŵr mawr hwn, a cholofnau drachefn o'i ffraeth ddywediadau. Wele un, yr hwn a ddyfynir o erthygl a ymddangosodd ar ei farwolaeth yn y *Faner*, ac a ysgrifenwyd gan un oedd yn llygad-dyst o'r olygfa:—'Digwyddodd yr amgylchiad yr ydys yn sôn am dano o leiaf ddeng mlynedd ar hugain yn ol. Dychymyged y darllenydd ei fod ar foreu Sabbath hyfryd a thawel yn yr hâf, mewn capel gweddol ei faint, wrth droed y Wyddfa fawr. Yn y pulpud, ac eisoes yn darllen y bennod yn nechreu y gwasanaeth, y mae y mwynbêr, a'r diweddar Barch. William Herbert, o Dan-y-maes. Tra yr oedd hyn yn symmud yn mlaen, wele ŵr dyeithr yn dyfod at ddrws agored yr addoldy—un o'r lliaws dyeithriaid sydd yn arfer mynychu y dreflan ramantus hon yn ystod misoedd yr haf. Gellid tybio arno ei fod o wyth i ddeg ar hugain ml. oed. Am dano yr oedd gwisg o'r fath fwyaf anghlerigol y gellid ei gweled. I bawb yn y gynnulleidfa, ond un—un o'r blaenoriaid—gŵr dyeithr hollol oedd efe. Adwaenodd hwn ef yn y fan, modd bynag. Aeth at y ddrws, ac arweiniodd ef i'r sedd fawr. gan ei osod i eistedd ar gadair yno. Gorphenodd y pregethwr ddarllen y bennod, ac aeth i weddi. Nis gwyddai amcan daear pwy oedd y gŵr dyeithr yn y 'siwt oleu' oedd • dan y pulpud.

Modd bynag, tra y gweddïai efe, gofynodd y blaenor i'r gŵr dyeithr a wnai efe bregethu—canys adwaenodd ef yn y fan fel 'Spurgeon'—y pregethwr ieuangc, llawn hyawdledd, oedd eisoes wedi cymmeryd Llundain *by storm*, ac wedi dyfod i lawr i Gymru am ei ŵyliau, ac yn treulio y Sabbath hwnw yn Meddgelert. Wedi gofyn hyn iddo, '*With pleasure*,' oedd yr atteb parod. Wedi cael yr addewid hon, a thra yr oedd y gynnulleidfa yn canu, cyn i'r pregethwr gymmeryd ei destyn, aeth yr un blaenor i fyny at Mr. Herbert, gan ddymuno arno bregethu yn fyr, am fod Mr. Spurgeon i bregethu ar ei ol. 'Yn fyr, a melus'—ac yn fwy melus hyd yn oed nag arfer—y pregethodd y gweinidog efengylaidd o Dan-y-maes. Cyn pen chwarter awr, yr oedd wedi terfynu; ond nid cyn tynu dagrau o ddegau o lygaid yn y gynnulleidfa—dagrau na bu llygaid craff Mr. Spurgeon yn fyr o'u canfod, a chyfeirio atynt yn ei bregeth yntau. Yna, wele y gŵr ieuangc, du ei wallt fel y frân, a dau lygad dan aeliau llawn mor dduon yn pelydru o'i ben, ac yn y wisg anghlerigaidd, yn esgyn yr areithfa. Yn destyn, darllenodd *Ioan* xv. 9—'Fel y carodd y Tad fi, felly y cerais innau chwithau; arhoswch yn fy nghariad i.' Am ysbaid awr, bu yn bwrw allan gyda

Digitized by Google

hyawdledd llifeiriol sylwadau agos ac efengylaidd, nes gwefreiddio cynnulleidfa o Gymry, er nad oedd yn eu mysg un o bob deg yn gallu ei ddeall. Er hyny, yr oedd yn amlwg iddynt fod ysbryd y gŵr ieuangc yn ei waith. A phan y gwnaed yn hysbys iddynt pwy oedd efe, nid oedd yno neb yn barod i synu at fawredd ei boblogrwydd yn y brif ddinas. Yntau ei hun a addefodd iddo gael 'oedfa hapus iawn,' a diolchodd yn wresog am y cyfleusdra a roddwyd iddo.

Yn ystod blynyddoedd diweddaf ei oes, blinid ef yn fawr gan y gymmalwst a'r cryd-cymmalau—yr hyn a effeithiodd yn fawr ar nerth ei gyfansoddiad. Bu amryw weithiau yn neheubarth Ffraingc yn ceisio adferiad iechyd; ond er i'r ymweliadau hyn larieiddio yr ymosodiadau, ni chafodd adferiad llwyr; a bu farw yn Mentone, Ionawr 31ain, 1892, yn 58ain ml. oed.

Heb law ei bregethau wythnosol, a'i gylchgrawn misol *The Sword and Trowel*, cyhoeddodd dros gant o gyfrolau. Pregethai bob amser oddi wrth ychydig nodiadau byrion a ysgrifenwyd ganddo ar ddalen fechan o bapur. Cymmerid ei bregethau i lawr gan ysgrifenydd llaw fer, a chyhoeddid hwynt wedi hyny, yn rhanau wythnosol, a chyfrolau. Yr oedd cyfartaledd cylchrediad wythnosol y pregethau hyn yn 30,000. Pan fu farw, yr oedd 2,241 o bregethau gwahanol, a 37ain o gyfrolau, wedi eu cyhoeddi; ac yr oedd digon o ddefnyddiau wedi eu gadael ganddo drachefn i barhau am ddeuddeng mlynedd yn rhagor. Cafodd y byd crefyddol fanteision lawer trwy lafur y gŵr duwiol ac enwog hwn; ac fe bery ei ddylanwad, ni gredwn, ac a obeithiwn hefyd, ar y byd am genedlaethau lawer.

STEPHEN, Parch. EDWARD, Tan-y-marian. Nid oes sicrwydd am ddydd ei enedigaeth; ond cafodd ei fedyddio yn eglwys St. Michael, yn Ffestiniog, Rhagfyr 15fed, 1822; ac felly, y mae yn debyg iddo gael ei eni rywbryd yn mis Tachwedd. Megys y mwyafrif o ddynion cyhoeddus Cymru—yn bregethwyr, llenorion, beirdd, a cherddorion—nid oedd ei rïeni ef ond pobl mewn amgylchiadau cyffredin. Yr oeddynt yn byw ar adeg ei enedigaeth mewn lle a elwid Rhyd-y-sarn, yn mhen uchaf dyffryn rhamantus Maentwrog. Oddi yno symmudasant i Benmount—lle ar fryn, fel yr awgryma yr enw, uwch law yr un dyffryn, ac yn agosach i bentref Ffestiniog na'u cartref blaenorol. Ymddengys mai gyriedydd cerbydau oedd y tad; a dywedir ei fod yn ganwr da gyda'r tannau; ac yr oedd y fam, hithau, yn feddiannol ar lais swynbêr.

Prin, yn ddïau, ydoedd manteision addysg ar yr adeg hono yn Maentwrog, a Ffestiniog, fel mewn ardaloedd eraill trwy y wlad; ond deallwn i'n gwrthddrych fod am rai blynyddoedd yn Ysgol Genedlaethol Pen-'rallt-goch, yn agos i Ffestiniog. Er hyny, ni allasai yr addysg a dderbyniodd fod yn helaeth iawn ar y goreu; o herwydd rhwymwyd ef, pan yn bur ieuangc, gyda'i frawd William i fod yn teiliwr, yn Nhyn-y-maes, Ffestiniog—galwedigaeth wrth yr hon y glynodd nes iddo benderfynu dilyn galwedigaeth uwch.

Yn ystod ei blentyndod, elai gyda'i fam i addoldŷ y Methodistiaid Calvinaidd, lle yr oedd hi yn aelod; ond nid â'r enwad hwnw yr ymunodd efe ar ol hyny—ond â'r Annibynwyr. Nid oes angenrheidrwydd i ni geisio olrhain yr hyn a achosodd iddo ddyfod i'r penderfyniad hwn. O bossibl, fod y ffaith fod ei frawd eisoes yn aelod gyda'r enwad hwn wedi effeithio arno i raddau mwy neu lai. Pa bryd y derbyniwyd ef yn aelod, nis gwyddis; ond y mae yn eglur iddo ymaelodi yn foreu, gan y cawn ei fod wedi dechreu pregethu pan nad oedd ond ychydig dros ddeunaw oed. Nis gellir nodi yn bendant chwaith yr adeg yr aeth efe i'r athrofa yn y Bala—ac yntau, bellach, wedi penderfynu ymgyflwyno i weinidogaeth yr efengyl, fel ei alwedigaeth benaf yn y dyfodol. Ond ceir y nodiad 'Edward Jones, *student*, Bala, April 19th, 1845,' ar gôf-lyfr, yn ei lawysgrif ei hun; a dwg y drwydded gafodd i bregethu y dyddiad Mawrth 14eg, 1846. Pan aeth yno, yr enw a wisgai, fel y gwelir, oedd Edward Jones; ond o herwydd fod un arall o'r enw hwn yn y coleg, chwanegodd y rhwng-enw Stephen—enw morwynol ei fam. Rywbryd ar ol hyny, ymwrthododd â'r cyfenw rhy gyffredin 'Jones;' ac o hyny allan, y ffurf a ddefnyddiai oedd yn syml, 'Edward Stephen.'

Urddwyd ef yn weinidog yn Horeb, Dwygyfylchi, yn y flwyddyn 1847, lle yr arhosodd am naw mlynedd; ac fel 'Stephen(s), Dwygyfylchi' yr adnabyddid ef yn gyffredin trwy y wlad. Oddi yno symmudai i gymmeryd gofal Bethlehem a Charmel—lle y dechreuodd ar ei weinidogaeth Rhagfyr, 1856. Tua'r adeg hon priododd, ac aeth i fyw i Dan-y-marian, ger Bangor—llanerch tra hyfryd, yn edrych dros y Fenai tua Môn. Yno treuliodd yn agos i hanner ei oes—y ganwyd ei bedwar plentyn, ac y collodd un o honynt yn ieuangc. Yno y bu yntau farw, Mai 10fed, 1885, yn dair a thrigain mlwydd oed. Dodwyd ef i orphwys yn mynwent Bethlehem y dydd Gwener canlynol—Mai 15fed, 1885. Yn fuan ar ol ei farw, cyhoeddwyd *Cofiant* o hono, ar gais yr eglwysi yn Methlehem a Charmel, yn cynnwys ysgrifau gan amryw awduron, ynghyd â nifer o'i gynnyrchion llenyddol, barddonol, a cherddorol ei hun, o dan olygiaeth un o'i gyfeillion hynaf a ffyddlonaf, Mr. W. J. Parry, o Coetmor hall, Bethesda. Gan yr un eglwysi ffyddlawn, a nifer o'i edmygwyr, codwyd côf-golofn hardd ar ei fedd, fel arwydd o'u parch tuag ato, a'u hanwyldeb o hono.

O ran ei berson, ysgrifena Dr. Herber Evans am dano fel y canlyn yn y *Cofiant*:—'Yr oedd yn ddyn hardd, cryf, pan welsom ef gyntaf—ei frest lydan yn cynnwys digon o ëangder i edyn bardd a cherddor chwareu o'i fewn.' Am yr argraph bersonol a gynnyrchai, Dr. J. Thomas a ddywed:—'Nid oedd, hwyrach, mwy na llawer eraill, yn gadael yr argraph oreu ar yr olwg gyntaf; ond y rhai a'i hadwaenai oreu a'i gwerthfawrogai fwyaf.' Rhaid i ni ddywedyd mai ein profiad cyntaf ni o hono, a ninnau ar y pryd ond ieuaingc, ac yntau y 'dyn mawr o Dan-y-marian,' oedd, ei fod yn ŵr caredig, ond yn hollol ddidderbyn-wyneb; cyfeillgar, ond gonest; ac ni chaed achos i ffurfio barn wahanol ar ol cydnabyddiaeth led faith o hono.

Nid yn fynych y cyfarfyddid â chynnifer o ddoniau yn cyd-gyfarfod yn yr un dyn. Yr oedd yn adnabyddus trwy Gymru, a pha le bynag y trigai Cymry, fel pregethwr, darlithydd, llenor, bardd, datganydd, arweinydd, beirniad, a chyfansoddwr cerddorol; er, yn

Digitized by Google

naturiol, na ragorai efe i'r un a'r cyffelyb fesur yn mhob un o'r amrywiol ddoniau hyn. Ymddengys iddo ddangos tuedd at bregethu yn ieuangc; ac ni ddarfu i'r duedd hono ei adael gyda'i ieuengctid, fel y digwydd nid yn anfynych. Yn hytrach, casglodd nerth. Dysgodd ei grefft ddilledyddol, a glynodd wrthi am rai blynyddau: ond dau beth neillduol a ddenent ei fryd; sef, pregethu, a chanu; a bu ei hoffder tuag at yr olaf, ynghyd â'i ysbryd chwareus a chalon, ysgafn—ysbryd a gamddeallid, fe allai, gan lawer o bobl—yn graig-rwystr ar ei ffordd ynglŷn â dilyn y flaenaf, am beth amser o leiaf, os nad am flynyddoedd ar ol iddo ymgyflwyno yn llwyr i'r weinidogaeth. Un o'i gydfyfyrwyr yn y Bala, y Parch. E. Aeron Jones, a ysgrifena fel hyn:—'Bu ei gampau digrifol, a'i olwg *gomic*, yn dramgwydd i lawer symlyn o sant, ac yn achlysur i ambell un i'w gyhuddo o ysgafnder, os nad o annuwioldeb. Ond gwyddai y rhai a'i hadwaenent oreu ei fod yn ofni Duw, ac yn parchu dyn.' Ysgrifenydd arall a ddywed ei fod, ar ddechreu ei weinidogaeth, 'mor fywiog ac mor ddigrif, fel yr oedd rhai gweinidogion yn tueddu i gredu fod yr eglwys yn Horeb wedi gwneyd camgymmeriad yn ei dewisiad o hono: . . . ac yr oedd rhai hen bobl lonydd (er yn dduwiol, fe allai), a berthynent i enwadau eraill yn y gymmydogaeth, yn tueddu i ammheu ei ras.' Yr oedd ei symmudiadau sydyn, o agwedd ddifrifol i un o ddigrifwch ac ysgafnder ymddangosiadol, ac i'r gwrthwyneb, yn beth annealladwy a chythryblus i lawer. Tra yr oedd ei unplygrwydd, ei annibyniaeth meddwl, ac weithiau ei ddull agored, os nad dibris, o siarad, a'i arddull *brusque*, yn graig-rwystr i eraill; ac yn rhoddi, yn ngeiriau Dr. John Thomas etto—'gyfle i rywun cyfrwys-ddrwg i'w feio.' Ebai ei hun wrth Hugh Williams, teiliwr, a chyfaill anwyl ganddo:—'Mae'r bobl yn dweyd 'mod i yn falch, Hugh. Mi wyddost, Hugh, ein bod ni, y teilwriaid yma, yn cerdded dipyn yn *larch;* ond fydda'i ddim yn gwybod fy mod i.' Eraill ni allent amgyffred y possibilrwydd i ddyn ag oedd mor hoff o ganu a chwiban fod hefyd yn weinidog teilwng i'r efengyl. 'Tipyn o ganwr' oedd dedfryd un o'i gydweinidogion am dano, flynyddau maith ar ol iddo gael ei gydnabod fel un o weinidogion mwyaf blaenllaw ei enwad. Dyma farn Dr. Herber Evans am dano fel pregethwr:—'Yr ydym yn credu fod Mr. Stephen yn meddu yr hen ddawn Gymreig i bregethu mor gyflawn a neb yn ei ddydd. Clywsom ef, lawer tro, yn pregethu yn ogoneddus, nes yr oedd y cynnulleidfaoedd mewn rhyw lesmair hyfryd wrth ei wrandaw yn agor allan olud anchwiliadwy yr efengyl. Yr oedd yn ddyn gwir hyawdl.' Ac fe allai nas gellir rhoi gwell disgrifiad o hono na'r un a ganlyn, mewn ysgrif anorphenedig a gaed yn mysg papurau y diweddar Barch. W. Nicholson:—'Llawenhëaist fy nghalon â'th osgo pan yn cerdded, a thaflaist drydan trwy'm corph a'm henaid gyda'th gân, a'th bregeth. Y mae hyd yn oed dy ddiofalwch chwareus i mi yn swynol a chyssegredig; ac yn lleoedd anial dy athrylith, yr oedd blodau persawrus yn tyfu. Yr wyf yn wylo wrth gofio dy chwerthin, ac yn galaru wrth gofio dy gân.' 'Tarawodd fi ar unwaith ei fod yn meddu ar ddawn y weinidogaeth—yr hen ddawn Gymreig,' ebai Dr. John Thomas. 'Yr oedd urddas yn ei safiad, llithrigrwydd yn ei barabl, cyfoethogrwydd yn ei ymadrodd, nerth yn ei frawddegau, a chryfder a phereiddiwch dihafal yn ei lais, yr hwn yr adeg hono (1854) oedd yn y fan goreu arno. . . . Nid oedd, hwyrach, wedi darllen yn ddigon helaeth a manwl ar gwestiynau duwinyddol ac athronyddol i allu ymdrin â'r efengyl yn feirniadol a chyfundrefnol: . . . ond mewn traethiad llawn a chlir o wirioneddau yr efengyl, mewn dull swynol a phoblogaidd, ychydig o bregethwyr mwy medrus a gododd yn ein gwlad.' Dyma yr hyn a ddywed Mr. Stephen ei hun yn ei 'Anerchiad,' pan yn ymgymmeryd â phrif olygiaeth *Greal y Corau:*—'Y mae y weinidogaeth yn anwyl a gwerthfawr iawn yn fy ngolwg, ac y mae bron fy holl amser yn cael ei gyssegru iddi. . . . . Ac os bydd raid, caiff y 'canu fyned i'r ceunant' cyn y caiff y pregethu ei esgeuluso.' Am farn yr eglwysi a fuont o dan ei ofal, nid oes angen am well tystiolaeth na'r ffaith iddo dreulio ei oes weinidogaethol mewn dau gylch—naw mlynedd yn Nwygyfylchi, a naw mlynedd ar hugain yn Methlehem, Carmel. Ffaith yw hon a sieryd drosti ei hun; o herwydd nid dyn gwan a diallu a fedr dreulio dros chwarter canrif i weinidogaethu yn yr un man, ac i gadw i fyny ei gymmeriad a'i ddylanwad hefyd hyd y diwedd.

Gellir nodi yma i Mr. Stephen dalu ymweliad â'r America yn haf 1873—lle yr arosodd hyd Ionawr, 1874: a phryd y cafodd ei dderbyn gyda llawer o groesaw a brwdfrydedd gan ei gydgenedl yn y wlad hono.

Fel llenor, dengys ei ysgrifau yn y *Dysgedydd*, y *Cronicl*, a chylchgronau eraill—o ba rai y mae amryw wedi eu hail gyhoeddi yn y *Cofiant*—ei fod yn meddu y gallu i osod allan ei feddyliau mewn dull eglur a tharawiadol, ac mewn Cymraeg cryf a bachog; tra y mae rhai o'i ddarnau barddonol—megys 'Adlais yr Hen Amser gynt,' 'Peidiwch gofyn i mi ganu,' 'Hen Gadair Freichiau fy Mam,' ac eraill—a welir hefyd yn y *Cofiant*—yn fyw iawn o deimlad a naturioldeb. Hwfa Môn a ddywed fod 'Y Ceunant Cyssegredig' yn ei osod 'yn gyfiawn yn mysg prif feirdd ei oes; a phe buasai yr ysbryd cystadleuol ynddo, fel mewn rhai, buasai wedi ennill llawer cadair genedlaethol yn ystod ei oes.'

Ond pa mor uchel bynag y safai yn y cyfeiriadau a grybwyllwyd, a pha mor fawr bynag y teimlai efe ei hun bwysigrwydd ei swydd fel gweinidog, y mae yr arch-benderfynwr, Amser, nid yn unig yn 'dduw caredig,' ond yn dduw cyfiawn hefyd; ac hyd yn oed i'n golygon agos ni yn awr, saif Tan-y-marian allan fel un uwch na'r cyffredin o'i gyfoedion—nid yn rhinwedd ei dalent fel llenor, na bardd, na chwaith fel pregethwr; ond fel 'cerddor,' ac yn benaf fel 'cyfansoddwr cerddoriaeth;' er y meddai, fel y crybwyllwyd eisoes, dalentau disglaer mewn cyfeiriadau eraill.

Yr oedd yn feddiannol ar lais cyfoethog cyn i'r llais hwnw waethygu, a chrygu; fel y canai ef ei hun:—

> 'Buom innau 'n gallu canu,
> Ac mi ganwn—Cymru ŵyr.'

Llais cyfoethog drwy natur oedd ganddo, feddyliwn; o blegid ni chafodd fanteision addysg yn hyn mwy nag mewn cyssylltiadau cerddorol eraill; ac nid oedd y cyfryw addysg ond peth prin iawn yn Nghymru, yn ei oes foreuol ef. Dywed Llew Llwyfo (yn y *Cofiant*), fod llais Tan-y-marian, pan yr oedd efe o wyth ar hugain



Digitized by Google

i ddeugain mlwydd oed, y llais mwyaf gwrol, hysain, dynol, a pherffaith (yn naturiol felly), a glywodd efe erioed; ac ni byddai efe yn blino ar wrandaw arno yn canu 'Carlo,' y 'Wialen Fedw,' a'r 'Hen Gadair Freichiau ardderchog' —cadair y fam hono a garai ef mor fawr, fel yr oedd yn amlwg. Wrth nodi hyn, y mae yn angenrhaid i ni gofio yr amgylchiadau, a'r adeg —Cymro hunan-addysgedig hanner canrif yn ol, oedd efe, yn dyddori torfeydd o gydwladwyr nad oeddynt yn gwybod nemawr, os dim, ac yn malio llai, am gelfyddyd; a'r unig agoriad sicr i galonau pa rai oedd digon o deimlad a 'thân.' Yr oedd ei natur gynnes a brwdfrydig yntau yn fwy na pharod i atteb pob gofynion o'r fath ar ei alluoedd, a hyny ar draul ei lais a'i iechyd: ac yr oedd angerddoldeb teimlad a thymmheredd Tan-y-marian, yn ddiau, yn ei arwain yn fynych i eithafion oedd yn niweidiol iddo ef yn bersonol, ac i dyfiant iachusol y genedl mewn diwylliant cerddorol. Y mae y gwir gelfyddwr bob amser yn hunan-feddiannol, ac yn ymgadw y tu fewn i'r ffin sydd yn gwahanu yr hyn sydd yn orphenedig a chelfydd oddi wrth yr eithafol a'r gormodol.

Yn ei ddydd, ac ar yr adeg pan yr oedd darlithiau yn boblogaidd, drachefn, fe allai na bu neb yn fwy cymmeradwy fel darlithydd na Mr. Stephen, na neb yn fwy sicr o lanw yr adeilad pan fyddai wedi ei gyhoeddi i ddarlithio. Tyrid i'w wrandaw o bell ac agos; a bu, trwy ei ddarlithiau, yn foddion i gynnorthwyo aml i achos gwan, ac i symmud ymaith lawer dyled drom a bwysai ar addoldai.

Fel arweinydd cymmanfaoedd canu, meddai lawer o'r cymmhwysderau angenrheidiol—ymddangosiad urddasol, gwynebpryd mynegiadol, ysbryd effro, a thymmheredd nwyfus: ac hyd yn oed yn ei flynyddoedd olaf, medrai daraw ambell i dongc â'i lais, a wefreiddiai y cantorion a'r gynnulleidfa drwyddi. I'r mwyafrif o bobl ei enwad hefyd, yr oedd cyfaredd yn ei enw—cariai 'Tan-y-marian' ddylanwad arbenig ynddo ef ei hun; a byddai cydymdeimlad fwy neu lai llwyr rhyngddo a'r rhai a arweiniai, yn gyntaf peth—yr hyn oll oedd o gryn bwys. Er hyny, nis gellir ei ystyried ef fel patrwm o arweinydd—fel *model*, i'w efelychu. Nid ydym yn meddwl ei fod am ei osod ei hun felly; o herwydd cydnabyddai mai dilyn ei deimlad a wnelai; ac os ceid 'hwyl go dda,' y byddai yn rhaid i'r cantorion ei ddilyn yntau oreu y gallent. Yr oedd hyny o'r goreu, yn gymmhariaethol, yn y canwr unigol; ond pan yn arwain torf o gantorion, y mae'n rhaid i bawb—yr arweinydd yn gystal a'r côr—wrth reolau sicr a dealledig; *h.y.*, arweinydd cyffredin, sydd yn credu yn ysgogiadau eglur a sefydlog ei law. Ond wed'yn, nid Stephen fuasai hwnw! Mewn erthygl ar 'Ganu Cynnulleidfaol' yn *Ngreal y Corau*, ysgrifenai ef fel hyn:—'Y mae gormod o fanylrwydd o'r hanner ynghylch amser y dôn, a pha faint ddylid aros ar y gwahanol nodau, nes yw nerth a dylanwad y geiriau yn colli, ac yni a hoenusrwydd y beroriaeth yn diflanu. . . . Siarad a phwysleisio y geiriau yn dda ac effeithiol oedd y prif beth mewn golwg gan yr hen bobl yn y canu, a gadael i'r amser a'r nodau ymdaraw fel y gallent; ac yn hyn yr oeddynt yn tra rhagori ar y dull presennol o ganu.' Ac yna, rhydd esamplau o wahanol bennillion ar y dôn 'Clod,' a'r modd y dylid pwysleisio, yn ol ei farn ef, drwy newid hyd y nodau. Ond nid yw yn dangos pa fodd y gellid cael cynnulleidfa i gydganu yn y cyfryw ddull; ac yma canfyddir un o'i wendidau—teimlad yr *enthusiast* yn anwybyddu yr hyn sydd yn ymarferol.

Yr ydys wedi arfer cyplysu Ieuan Gwyllt a Than-y-marian â'u gilydd—nid am fod unrhyw debygolrwydd neillduol rhyngddynt, ond am eu bod yn cyd-oesi. Ganwyd hwynt yn yr un flwyddyn; ac yr oeddynt yn llanw cylchoedd pur gyffelyb. Ac wrth sylwi ar y ddau, gallwn, o bossibl, gyfleu barn eglurach am wrthddrych arbenig y testyn trwy gymmhariaeth. Cododd y ddau o'r bobl; yr oeddynt i raddau pell yn hunan-addysgol; yr oedd y naill fel y llall yn uchel yn mysg eu henwad fel gweinidogion, yn gasglwyr llyfrau tônau, yn olygwyr cylchgronau cerddorol, yn ddarlithwyr ar gerddoriaeth, yn arweinwyr cymmanfaoedd canu, yn feirniaid, ac yn gyfansoddwyr. Er hyny, yr oeddynt yn dra annhebyg i'w gilydd yn eu cyflawniad o'r oll. A dyfynu o ysgrif yn y *Cerddor*—'efrydydd diwyd, a beirniadydd manwl,' oedd y naill; a bardd 'y gân, yn byw yn myd darfelydd a chrebwyll,' oedd y llall. Canfyddir y gwahaniaeth hwn yn eglur yn eu beirniadaethau ar gyfansoddiadau cystadleuol—a'r rhai ydynt yn ffurfio rhan nid dibwys o'n llenyddiaeth gerddorol, ac yn meddu dyddordeb annibynol a pharhaol ynddynt eu hunain. Ychydig a ymdriniai Tan-y-marian â manylion elfenol. Nid mewn manylu yr oedd cuddiad ei gryfder ef; ond yr oedd ganddo lygad cyflym i weled pwyntiau cyfansoddiad—pa un ai gwan neu gryf oeddynt, a'r gallu i'w nodi allan mewn dull ag oedd yn ffraethbert ac yn argyhoeddiadol ar yr un pryd. A'r un fath ynglŷn â chystadleuon corawl, &c. Os cyfeiriai o gwbl at bethau elfenol, nid arosai gyda hwynt; ond cydiai afael yn yr hyn a ystyriai efe oedd prif nodwedd—meddwl neu amcan—y cyfansoddiad oedd o dan gystadleuaeth; ac wrth hyny yr hoeliai ei brif sylwadau. Gellir dyweyd cryn lawer dros, ac yn erbyn, y cyfryw ddull o feirniadu; a'r prif berygl yw i'r un prif bwynt hwnw gael gormod o sylw, a phwyntiau ac ystyriaethau eraill sydd yn fwy neu lai pwysig gael eu hesgeuluso. Bid a fyno am hyny, cadwodd ef, fel Ieuan Gwyllt, ei le fel un o'r prif feirniaid trwy y blynyddoedd; ac fel dau feirniad Cymraeg, o leiaf, nid yw yn debyg y bydd i ni ragori arnynt yn y dyfodol.

Yr ydym bellach yn dyfod at Mr. Stephen yn ei gymmeriad galluocaf, i'n tyb ni; sef, fel cyfansoddwr. Ac yma safai, a saif yn awr, ar ei ben ei hun i raddau pell yn mysg ein cerddorion. Fe allai nad oes dim hynotach ac amlycach yn hanes ad-ddeffröad y genedl Gymreig na'r brâs-gamiadau y mae hi wedi eu gwneyd ynglŷn â cherddoriaeth yn ystod y deugain mlynedd diweddaf. Gweithiodd John Williams, Dolgellau; John Ellis, Llanrwst; Dafydd Siencyn Morgan, Llechryd; ac eraill, eu goreu yn ol y goleuni oedd ganddynt, ddiwedd y ganrif flaenorol, a dechreu yr un bresennol; ond gwan iawn oedd y goleu ar y goreu; ac 'ymbalfalu yn y gwyll a wnai y gweithwyr.' Gyda'r Millsiaid o Lanidloes, daeth gwawr well; yr hon a esgorodd ar dô o gerddorion na welodd Cymru mo'i hafal hyd hyny; sef, yr un a gynnwysai Ambrose Lloyd, Owain Alaw, Ieuan Gwyllt, a Than-y-marian; ac ond cymmharu cynnyrchion y rhai olaf âg eiddo hanner cyntaf y ganrif, fe ganfyddir mor fawr yw y gwahaniaeth. Ond

Digitized by Google

hyd yn oed yn mysg y pedwarawd olaf a nodwyd—at y rhai y gellid chwanegu cerddorion galluog eraill—megys Alawydd, Cyndeyrn, J. D. Jones, a William Owen, o Borthmadog—perthynai a pherthyna i Mr. Stephen yr arbenigrwydd o fod y cyntaf yn mysg cerddorion Cymreig i feddwl, neu o leiaf i ymgymmeryd âg ysgrifenu gwaith cerddorol o ffurf yr *oratorio*—y ffurf uchaf sydd yn hanfodi. Yr oedd amcanu at y fath beth yn rhagdybio cryn lawer o eofndra, os nad o herfeiddiwch, mewn Cymro ieuangc ddeugain mlynedd, neu ragor, yn ol; yr hwn oedd yn mron a bod yn unieithog; heb gael gwers gerddorol allan o Gymru erioed, hyd ag y gwyddom ni, na nemawr, os dim, yn Nghymru chwaith; a'r hwn nas gallasai fod wedi derbyn ond ychydig gynnorthwy oddi wrth rammadegau cerddorol. Tebyg i'r cyfansoddwr ieuangc freuddwydio am hyn yn hir; ond fe ddaeth y breuddwyd i ben, a dug y llawysgrif o 'Ystorm Tiberias'—yr hon yn awr sydd yn llyfrgell y brifysgol yn Mangor—y dyddiadau a ganlyn:—'Ionawr 28ain, 1851, (dechreuwyd); Mai 28ain, 1852 (gorphenwyd).' Cyhoeddwyd y gwaith yn rhanau yn 1855; a bu am flynyddau meithion yr unig draethgân Gymreig a feddem. Yr oedd yr awdwr wedi dechreu parotoi tuag at gael argraphiad newydd a diwygiedig o honi; ond dygwyd ef ymaith oddi wrth ei orchwylion daearol, a chwblhawyd y gwaith, a golygwyd y gyfrol newydd trwy y wasg yn 1877, gan y diweddar Barch. J. H. Johnes, a Mr. Emlyn Evans. Perfformiwyd yr *oratorio* yn ei diwyg newydd, wedi ei hysgorio i gerddorfa gyflawn, gan yr olaf, yn Eisteddfod Dalaethol Ffestiniog, yn haf 1891. Gellir chwanegu yma fod un o'r cydganau 'Dyna'r gwyntoedd yn ymosod,' wedi cael ei dadganu fel testyn cystadleuaeth, gyda cherddorfaeth gyflawn, yn Eisteddfod Genedlaethol Pont-y-pridd, yn 1893, pan dynodd sylw Syr A. C. Mackenzie, prifathraw yr Academi Frenhinol yn Llundain, ac un o'r beirniaid; oddi wrth yr hwn y derbyniodd ganmoliaeth eithriadol uchel. Tueddwyd rhai i ammheu dilysrwydd y cyfansoddiad fel gwaith gwirioneddol Tan-y-marian ei hun; ac fe allai fod rhyw esgus dros y cyfryw ensyniad, pan yr ystyrir yr amgylchiadau, a'r gallu a'r athrylith a arddangosir ynddo. Ond y mae hyd yn oed ei *wallau* yn profi i'r gwrthwyneb. Nid yw yn un athrod ar goffadwriaeth yr awdwr i ni ddweyd nad oedd yn fanwl gywir yn aml gyda'i gynghaneddion. Os byddai rhwystrau celfyddydol ar ffordd y meddylddrych y dymunai efe ei weithio allan, 'Ymaith, ddeddfau dynol!' oedd ei arwyddair. Yr oedd gorphenolder a chywirdeb yn gynnwynol yn Ambrose Lloyd, er esampl. Ammhosibl, ni dybiwn, fuasai gwneyd awdwr yr 'Ystorm' y naill na'r llall yn fanwl, heb ei ddodi mewn llyffetheiriau a ddileent ei brif arbenigrwydd. Gorwedda prif ragoriaethau y draethgan yn ei chydganau; a hwy, yn sicr, sydd wedi ei chadw yn fyw yn ystod y deugain mlynedd sydd wedi myned heibio er pan y cyhoeddwyd hi—ac a estyn ei bywyd etto am flwyddi lawer, os nad ydym yn camsynied. Lled debyg mai Handel oedd y patrwm mawr oedd yn llygad ei feddwl pan yn ei chyfansoddi, er nad oes yma nemawr sydd yn ein hadgoffa o brif feistr yr *oratorio*, yn enwedig yn ei chydganau mwyaf effeithiol, ar y rhai y mae yn ysgrifenedig mewn llythyrenau breision—'Dyma Stephen!' Pa un ai 'Y peth sy'n ddamwain ddall i ni,' gyda'i symmudiadau gwrthgyferbyniol—yr 'Ho! ho!' ddramayddol, er yn hytrach arwynebol—'A'r lleill yn cyd-chwedleua' ddarluniadol—mireindra cychwynol a dyeithrwch diweddebol 'Clywch y chwiban yn y corwynt!'—arddunedd y gydgân ddyblyg 'Dyna'r gwyntoedd yn ymosod,' at yr hon y cyfeiriwyd eisoes—tynerwch teimlad yr hen goral Gymreig, 'O Arglwydd! gwrandaw,' a'r gydgân gyplysedig â hi, &c., hyd at nerth mawreddus 'Ardderchawgrwydd pob gogoniant'—a'r 'Amen' sydd yn diweddu y gwaith. Rhaid i ni gyfaddef ein syndod, bob tro y dychwelwn at yr *Ystorm*, fod gwaith o'r fath allu wedi cael ei gynnyrchu o dan yr amgylchiadau; ac er mai dyma'r unig brif waith a adawodd yr awdwr, erys yn golofn barhaol i'r 'Cymry a Fydd' o'r hyn a gynnyrchwyd pan nad oedd gwawr y pethau gwell etto wedi tori ar ein gwlad.

Fel y crybwyllwyd eisoes, dyma'r unig waith mawr a roddodd Mr. Stephen i ni; er hyny, cyfoethogodd ein cerddoriaeth â nifer o ddarnau—cydganau, anthemau, &c.—y rhai oll sydd yn fwy neu lai teilwng, ac i'w gweled, naill ai ar wahân—megys y '*Requiem* i'r Parch. J. Jones, Tal-y-sarn,' neu ynte yn y *Cerddor Cymreig*, *Greal y Corau*, *Cronicl y Cerddor*, *Y Cerddor*, *Y Cofiant*, &c.

Yn y flwyddyn 1859, cyhoeddwyd *Cerddor y Cyssegr*—casgliad o dônau ac emynau; y rhan fwyaf o hono o dan ei olygiaeth ef: ond ni bu y gwaith hwn yn llwyddiannus iawn. Yn 1868, dygwyd allan y *Llyfr Tônau ac Emynau* ganddo ef a'r diweddar J. D. Jones—casgliad a gafodd dderbyniad helaeth, ac a fu o wasanaeth mawr i'r enwad Annibynol. Yn 1879, cyhoeddodd ef ei hun—ar ol marwolaeth ei gyd-olygydd blaenorol—*Attodiad i'r Llyfr Tonau ac Emynau*. Cafodd hwn hefyd dderbyniad pur gyffredinol; er hyny, ac er fod un o leiaf o'i dônau, sef 'Tan-y-marian,' wedi gwneyd iddi ei hun le arosol—nid yn nghyfeiriad y dôn gynnulleidfaol, yn ol pob tebyg, ac nid mewn parotoi casgliadau o'r cyfryw, y gorweddai ei brif allu, a'i dalent neillduol. O hyn yr oedd efe ei hun yn ddigon ymwybodol. Petrusodd lawer cyn iddo benderfynu ymwneyd dim â *Cherddor y Cyssegr*. Ni chynnwysai y casgliad hwnw gynnifer ag un dôn ganddo ef ei hun; ac ni cheir ond dwy yn y *Llyfr Tônau ac Emynau*, a chwech yn yr *Attodiad*. Ac yn y rhaglith i *Gerddor y Cyssegr*, cyfeiria at yr ymsyniad oedd yn ei feddwl o'i 'anallu i gyfansoddi yr hyn a elwir yn dônau cyssegredig,' a'i fod yn 'llwyr argyhoeddedig mai un o'r pethau anhawddaf ydyw; ac y gofynir gallu, medrusrwydd, ac athrylith neillduol i gyfansoddi tôn deilwng o'r cyssegr, tôn a gofir wedi i'n casgliadau gael eu hanghofio . . . . canys nid oes ond y cyfryw yn unig yn deilwng o'r cyssegr, ac o'r Duw sydd yn trigo mewn moliant.' Pa un a fedrodd efe, mwy na chasglwyr eraill, gadw i fyny â'r *ideal* uchel yna, sydd yn fater ammheus; ond y mae yr oll o'i dônau ef ei hun, o leiaf, yn arddangos chwaeth dda, ac awydd i gynnyrchu yr hyn a weddai i fawl y cyssegr. Ond, ag ail adrodd yr hyn a ddywedwyd mewn ffurf arall eisoes, nid yn y dosbarth hwn o gyfansoddiadau yr oedd ei wir allu yn gorwedd. Yr oedd Edward Stephen, yn ddiau, yn ŵr o athrylith naturiol uchel, ac yn meddu ar awen gref a gwreiddiol; ond yr oedd yn ofynol iddo gael digon o le i arddangos ei hun—digon o ganfas i'w bictiwr. Nid yr ysgolor

Digitized by Google

cerddorol gorphenedig oedd efe; ond un yr oedd yn rhaid iddo er dyweyd ei neges yn ei ffordd ei hun, i ddefnyddio ei liwiau yn ei ffordd ei hun. Hyn a wnaeth yn yr *Ystorm;* ac er, o bossibl, nas gall y gwaith hwnw ddal beirniadaeth fanwl yr ysgolion bob amser; gesyd yr awdwr mewn lle anrhydeddus yn mysg cerddorion penaf ei wlad.

SOSIALAETH: neu CYMMRODOLAETH —yr hwn ydyw y gair Cymraeg cymmhwysaf. Tra y mae Unbenaeth fel ffurflywodraeth yn blaen-gochi a marw, y mae Cymmrodolaeth yn neillduol o fyw, ac yn pritio mewn iechyd a chorpholaeth yn feunyddiol. Gyda phriodoldeb yr edrychir ar y gyfundrefn fel un y mae iddi 'ddyfodol.' Yn ol anian a thuedd, y mae dyn yn fod cymdeithasol. Dysgwyd ef gan brofiad fod ei fywyd a'i feddiannau yn ddiogelach pan y bydd efe yn gymmrodor, na phan y bydd efe yn Ismaelydd, neu yn fynach anghymmydogol. Yn wir, o'r angenrheidrwydd am amddiffyniad i fywyd a meddiannau y tarddodd cymdeithas wladol. Yn ei gymmeriad cymdeithasol, nis gall dyn fyned rhagddo yn syth a di-rwystr. Wrth ddadblygu, rhaid iddo newid ac amrywio yn ei farn a'i weithredoedd. Nis gall dyn iach fyw o hyd mewn un ansawdd o feddwl. Rhydd ei natur lam o efrydiau deallol i deimladau addolgar a defosiynol; ac oddi yno, eilwaith, i ganol gweithredoedd cymdeithasol. Ar ei dŵf y mae dyn etto; a dyna fydd ei hanes am oesau fyrdd i ddyfod. Am hyny, y mae holl actau ei feddwl ef ar eu tŵf. Anaddfed ydyw ei holl weithredoedd. Plentyn cyfreithlawn natur, gan hyny, ydyw yr ysbryd sydd yn methu boddloni ei hun ar bethau fel y maent. Am nad oes un ffurf ar gymdeithas yn berffaith, blinir arni, a chondemnir hi, a deisyfir ei gwell. Y mae llawer ffurf ar gymdeithas wladol—o Unbenaeth i lawr at Gydfeddiannaeth. Y mae i'r oll eu rhagoriaethau a'u diffygion. Ystâd meddwl ac ysbryd y deiliaid sydd yn gwneyd y naill neu y llall yn oddefol a phossibl. Yn awr, o'r cyflwr anaddfed hwn ar gymdeithas yn ei ffurfiau llywodraethol y tardd y maeth ar yr hwn y prifia Cymmrodolaeth. Yn ei ffurfiau diweddaraf, y mae yr athrawiaeth yn rhwydwaith dyrus; ac am ei bod, i fesur, yn estronol i iaith a meddwl Cymru, nid gorchwyl hawdd fydd egluro cynnydd a dadblygiad y ddysgeidiaeth. Wrth fyned rhagom, byddwn dan orfod defnyddio geiriau a thermau sydd yn gymmharol ddyeithr. Rhag na bydd y darllenydd yn cael ei ddal gan betrusder ynghylch y meddwl a gyssylltir â hwy, gwell i ni, cyn myned yn mhellach, egluro rhai o honynt drwy gyfieithiad:—Unigolaeth—*Individualism;* Cymdeithasol—*Social;* Gwladoldeb —*Social State;* Cymmrodolaeth — *Socialism;* Cymmrodolwr—*Socialist;* Cymdeithasoli—*Socialize;* Cymdeithaseg —*Sociology;* Cydfeddiannaeth—*Communism;* Cydwladwriaeth—*Federal Community;* Cymdeithas Wladol—*Civil Community.*

I. Cymmrodolaeth—Pa beth ydyw?

1. Y mae gan holl ddëonglwyr Cymmrodolaeth eu darnodiadau; ac er eu bod yn amrywio llawer, etto, drwy eu cymmharu a'u dal wyneb-yn-wyneb, llwyddir i gael dirnadaeth synwyrlawn am yr hyn a olygir wrth y gyfundrefn. Yn ei ystyr gwyddonol a diweddar, nid ydyw y gair Cymmrodolaeth (*Socialism*) ond ieuangc etto—prin yn drigain oed. Ni chyttunir pwy a'i dyfeisiodd. Dywed rhai, mai Robert Owen, o'r Drefnewydd, a'i ysgol. Rhydd eraill yr anrhydedd i un o ddau Ffrangcwr—Pierre Leroux, awdwr y gyfundrefn gymdeithasol a adwaenir wrth yr enw 'Dyndodyddiaeth'—neu M. Reybaud. O ddechreu y ganrif hyd y Chwyldröad yn 1848, yr oedd Ffraingc yn frwd-wely i gynlluniau aneirif o ffurflywodraethau newyddion. 'Megys bwyd y barcud,' ebe De Tocqueville, 'byddai *crop* i'w gael bob boreu o'r newydd—cynnyrch tŵf y noson flaenorol.' Yn Awst, y fl. 1836, dechreuodd M. Reybaud ar gyfres o erthyglau yn y *Revue des Deux Mondes* ar 'Gymmrodolwyr Diweddar;' a defnyddiodd y gair *Socialisme* (Cymmrodolaeth) fel term cyffredinol i ddisgrifio y cynlluniau hyn; a daeth y term i arferiad yn ddioed. Nid annaturiol yw tybied i'r gair groesi drosodd i Brydain, a chael achles a chartref gan Owen, a'i ddilynwyr. Gadawer i ni weled pa beth a olygir wrth y term hwn yn Ffraingc. Yn *Ngeiriadur* Littrè, ceir y darnodiad canlynol o hono:—'Cyfundrefn, yr hon o ystyried diwygiadau gwleidyddol fel pethau îs-raddol, a gynnygia ddiwygiad cymdeithasol.' Cyttunir fod deffiniad Littrè yn gloff a gwallus; canys trwy gyfryngau gwleidyddol y cais Cymmrodolwyr blaenllaw drawsffurfio cymdeithas. Fel rheol, y mae arweinwyr Cymmrodolaeth yn mhob gwlad yn mhellach o dan ddylanwad 'yr ofergoel gwleidyddol mawr,' a defnyddio brathair Herbert Spencer, nag odid yr un dosbarth arall o ddiwygwyr. Yn y ddadl gyda Mr. C. Bradlaugh ar 'A wna Cymmrodolaeth wellhau amgylchiadau y bobl?' deffinia Mr. Hyndman y gair 'yn ymgais i ddwyn oddi amgylch gyfundrefn o gydweithrediad yn yr ymdrech i fyw, yn lle y gyfundrefn Anarcaidd.' Ond y mae deffiniad Mr. Bradlaugh yn llawnach, ac yn tra ragori ar ei wrth-ymgeisydd. 'Y mae Cymmrodolaeth (meddai Mr. Bradlaugh), yn gwadu hawl y person unigol i feddiant o eiddo; ond dadleua yn dŷn mai cymdeithas gyfundrefnol, megys y wladwriaeth, a ddylai feddiannu pob golud, rheoli pob llafur, a gorfodi y lledaeniad cyfartal o bob cynnyrch.' Ond er mor ragorol ydyw hwn, nid yw yn wir ond mewn rhan.

Anhawdd fuasai ffurfio deffiniad cywirach o Gymmrodolaeth y *Social Democratic Federation;* ond y mae ffurfiau eraill yn bod. Gwrthwynebodd M. Leroux y gyfundrefn, am 'mai cyfundrefn boliticaidd ydyw, yr hon a abertha y person unigol i gymdeithas.' Nid yw deffiniad yr athraw Flint yn gwahaniaethu nemawr oddi wrth Leroux:—'Wrth Gymmrodolaeth (meddai), yr wyf yn deall unrhyw gyfundrefn gymdeithasol sydd yn aberthu hawliau cyfreithlawn personau unigol i ewyllys neu i feddiannau y bobl yn gyffredinol.' 'Unrhyw gyfundrefn (ebe John Stuart Mill) sydd yn gofyn i bersonau unigol roddi i fyny eu meddiant o'r tir, ac offerynau cynnyrch, er eu cyflwyno yn feddiant i gymdeithasau gwladol, neu i'r llywodraeth, Cymmrodolaeth yw hono.' Addefodd Mill, ar ol llunio ei ddeffiniad, er rhagored yw, nad ydyw yn ymestyn dros yr holl dir.

2. Un o'r darnodiadau mwyaf llwyddiannus er rhyddhau y gair oddi wrth gyssylltiadau diraddiol ydyw yr eiddo Dr. Westcott. Yn ei gyfrol ar *The Incarnation and Common Life,* ceir y sylw canlynol:—

'Trwy gyssylltu Cymmrodolaeth â chynlluniau eithafol a chwyldröadol, syrthiodd i anghlod nid bychan. Ar yr un pryd, dylid hawlio y gair i wasanaeth anrhydeddusach. O angenrheidrwydd, nid

Digitized by Google

oes a fyno y gyfundrefn âg unrhyw ffurf o drais, attafaeliad, hunangarwch, nac ad-drefniad cyllidol. Ar wahân i'r cysylltiadau hyn, bydd i mi ei ddefnyddio fel damcaniaeth o fywyd, ac nid fel damcaniaeth o deulüeg. Yma, y mae Cymmrodolaeth yn wrthgyferbyniol i Unigolaeth; ac o'u cyferbynu felly y ceir gwir olwg ar y blaenaf. Cyfettyb Cymmrodolaeth ac Unigolaeth i olygiadau gwrthgyferbyniol dynolryw. Edrych Unigolaeth ar ddynolryw yn cael eu gwneyd i fyny o dermigau di-gysylltiad, yn rhyfela yn erbyn eu gilydd. Edrych Cymmrodolaeth ar ddynolryw fel corphoraeth unol fyw, wedi ei ffurfio drwy gyfuniad aelodau cyfroddol a chyd-ddibynol y naill ar y llall. Y mae yn canlyn, gan hyny, fod Cymmrodolaeth yn gwahaniaethu oddi wrth Unigolaeth o ran trefn ac amcan. Trefn Cymmrodolaeth ydyw cydweithrediad. Trefn Unigolaeth yw cyd-ymgais. Y mae Cymmrodolaeth yn edrych ar ddyn fel yn gweithio i un amcan cyffredin; y mae y llall yn edrych ar ddyn fel yn gweithio yn erbyn dyn, er mwyn elw personol. Amcan Cymmrodolaeth yw gosod gwasanaeth o dan goron cyflawniad. Amcan Unigolaeth ydyw cyrhaedd rhyw fantais i'r dyn unigol; megys, clod, golud, neu safle gymdeithasol. Dyhëa Cymmrodolaeth am y gorphoraeth hono o fywyd a ddwg i afael pawb y dadblygiad cyflawnaf o'u galluoedd. Uchelgais flaenaf Unigolaeth yw boddloni anghenion pob un ar ei ben ei hun, yn y gobaith y gwna hyny ddiogelu llwyddiant perffaith yn y pen draw.'

Prin y ceid llawer o efrydwyr yr athrawiaeth i gyttuno â deffiniad yr Esgob Westcott. Portrëad o gymdeithas yn ei gwisg wen, yn cael ei rheoli gan galon lân, sydd ganddo ef; ond nid ydyw Cymmrodolaeth ymarferol y dyddiau presennol â'i nôd ar ddaioni uchaf yr oll, a phob un yn ei berthynas â'r oll. Yn hytrach, ei hamcan hi yw ceisio daioni cyfartal pawb, er i ddaioni eithriadol, ac uwch, rhywrai gael ei aberthu ar y ffordd wrth gyfeirio at yr amcan hwnw.

Yn narnodiad Janet, ceir arwedd arall ar yr athrawiaeth:—'Cymmrodolaeth (meddai) ydyw pob athrawiaeth sydd yn dysgu fod y wladwriaeth i gywiro anghyfartaledd y golud a fodola yn mysg dynion, ac adsefydlu yr unrhyw trwy gyfraith, trwy gymmeryd oddi ar y rhai sydd yn meddu ar lawer er ei roddi i'r rhai sydd yn meddu ond ychydig; a hyny mewn dull parhaol—nid mewn achosion eithriadol o newyn, neu ddigwyddiadau blinion eraill' [*Les Origines du Socialisme Contemporain*, td. 67]. Ni chaed etto ddeffiniad hollol gywir o'r athrawiaeth, ac nid ydyw yn debyg y llwyddir i saernïo un, am fod Cymmrodolaeth, o angenrheidrwydd, yn ben-agored. Tuedd a mudiad ydyw nas gellir penderfynu yn mha le y terfyna.

II. Hanes Cymmrodolaeth.

1. Y mae ysbryd y gyfundrefn yn hen. Ymleda ei gwraidd hi yn ol i'r amseroedd boreuaf. Ac wrth olrhain ei gyrfa i amseroedd pell yn hanes gwahanol genhedloedd, gwelir fod Cymmrodolaeth a Chydfeddiannaeth yn ymdoddi i'w gilydd. Dengys Mr. Seebohm yn ei *Tribal System in Wales*, fod Cydfeddiannaeth a Chyddenantiaeth yn neillduolrwydd perthynol i gyfundrefn y llwythau yn mhlith y Celtiaid yn Nghymru a'r Iwerddon. Ceir yr egwyddor, a'r arfer o honi, yn y *village community* Saesneg. Ceir blagur yr egwyddor yn asio bywyd y cymdeithasau pentrefol yn India er's oesoedd anneirif; ac fel y dengys Maine, yn ei *Early History of Institutions*, ac yn ei *Village Communities in the East and West*. Dyna ystâd pethau etto dros ranau helaeth o'r ddaear. Yn Ngroeg a Rhufain, nid oedd y person unigol yn ddim—aberthid ef ar allor gwladwriaeth. Etto, nid Cymmrodolwyr mo honynt. I raib anniwall y gallu politicaidd yr aberthid y person unigol. Ni ddylid byth anghofio y ffaith arwyddocaol mai y cwestiwn cymdeithasol oedd wrth wraidd edwiniad a chwymp gweriniaeth Groeg ac ymherodraeth Rhufain. Yr ysbryd eiddigeddus, a'r llygad chwennychgar, a gynneuodd dân y rhyfeloedd cartrefol rhwng y werin a'r uchelwyr, gan ddwyn i ben ddau chwyldröad echrydus yn y weriniaeth. Cododd yr un ysbryd ymherodraeth ar lan y Tiber, a phorthodd fyrdd o'r werin â brasder y tir ar draul diwydrwydd, yn y gobaith y ceid iechyd i'r clwyf byw; ac am ysbaid, llwyddodd yr anturiaeth. Ond y diwedd fu, er eu holl athrylith a'u doethineb fydol, methwyd cyfartalu eiddo a golud y ddwy genedl; a bu y ddau allu enwocaf a welodd y byd farw yn yr ymdrech.

2. Y mae crefyddau y byd wedi bod yn ddyfal borthi yr un egwyddor. Chwe chanrif cyn y cyfnod Cristionogol, fe ddechreuodd Phileas bregethu ac ymarfer, yn Chalcedon, ryw fath o Gymmrodolaeth. Crefydd oedd sylfaen bywyd cymdeithasol Groeg. Nid oedd a fyno y cyfryw âg achub eneidiau dynion, ond â gwellhau eu hamgylchiadau tymmhorol; ac er cyrhaedd yr amcan hwnw, rhaid oedd i bob dyn gyflawni ei ran, neu ynte golli ei freintiau teuluaidd a gwladol. Yn holl ddinasoedd y wlad, yr oedd adeilad o'r enw Prytaneum; hyny ydyw, Neuadd yr Ynad. Cyssegrid aelwydydd y neuaddau hyny i'r dduwies Hestia. Yn nhyb M. de Coulanges, ffurfiai yr aelwydydd hyny undeb agosach rhwng y bobl na chwlwm gwaed. Yn ei *Structure of the Greek Tribal System*, dengys Mr. H. E. Seebohm fod yr unrhyw sylfaen yn galw am gyfartaliad meddiannau tirol—âr, a phorfa—am fod anghenion addolgar y bobl yn galw am hyny.

Wrth droi ein llygaid i Asia, yr un egwyddor a geir yno. Dysgai Buddha fath o Gymmrodolaeth i'w ddilynwyr. Gwaltysid bywyd yr Esseniaid ar lanau yr Iorddonen yn mhell cyn dyddiau Ioan Fedyddiwr gan yr un ysbryd. Yn moreuddydd gyrfa yr Eglwys Gristionogol yn Jerusalem, pan y gwerthai y dychweledigion brwdfrydig eu meddiannau a'u da, gan ddwyn eu gwerth at draed yr apostolion, fel nad oedd eisieu ar neb, tybiodd aml un fod yn y weithred hono esampl gymmeradwyol o Gydfeddianaeth fel y ffurf odidocaf ar fywyd. Pa fodd bynag, y mae byrder parhâd y ffurf yn awgrymu mai angenrhaid lleol dros amser yn unig ydoedd y cyfryw. Trwy ei helusenau aneirif, ei mynachaeth, ac yn arbenig trwy agor ei drws ac ymffurfio yn noddfa i bob gorthrymedig, bu yr Eglwys Gristionogol yn athrawes ffyddlawn a llwyddiannus i ysbryd Cymmrodolaeth. Daw yr unrhyw flagur i'r amlwg yn nghyffro y Diwygiad Protestanaidd, pan yr ymffurfiodd yr Ail-fedyddwyr eu hunain yn Münster yn gorphoraeth gydfeddiannol.

Yn y ganrif ddiweddaf, a'r un bresennol, ymledodd yr ysbryd hwn yn mysg crefyddwyr brwdfrydig America. Aeth y Crynwyr o Loegr i'r Talaethau yn 1774, mewn trefn i weithio allan eu hegwyddorion ar linellau Cymmrodolaeth. Yn y fl. 1875, yr oedd ganddynt 49,335 o aceri o dir yn Nhalaethau Efrog Newydd a Lloegr Newydd; a phreswyliai rhai miloedd ar y ffermydd a'r tyddynod. Dilynwyd eu hesampl gan gymdeithasau eraill, gyda mesur mwy neu

Digitized by Google

lai o lwyddiant. Nid oes a fynom ni â'u harferion ac â'u syniadau crefyddol. Digon ydyw dyweyd eu bod yn gredinwyr ymarferol mewn Sosialaeth.

3. Mewn amserau diweddar, dechreuodd Cymmrodolaeth fydol ar gyfnod newydd. Gwasgarodd y Chwyldröad Ffrengig yr hadau drwy Ewrop. I Sant Simon a Fourier y perthyna yr anrhydedd o fod yn sylfaenwyr y gyfundrefn yn ei ffurf bresennol. Er i'r blaenaf farw yn 1825, a'r olaf yn 1837, etto ni phallodd i'w dysgeidiaeth ddysgyblion brwdfrydig. Credasant nad oedd iachawdwriaeth i'r bobl gyffredin ond trwy ad-drefnu cymdeithas ar egwyddorion newydd. Ennillodd Proudhon a Louis Blanc fyrdd o'r Ffrangcod i'r un ffydd. Etto, y mae yn deilwng o sylw, nad oes dim llwyddiant wedi bod yn Ffrainge ar Sosialaeth Dirol, a'r cri yn erbyn cyfalaf. Ceir yr achos o hyny yn amledd tir-berchenogion y wlad.

O Ffrainge, aeth yr athrawiaeth allan, gan oresgyn yr Almaen a'r Eidal. Trödd ffoedigion gorthrymedig Ewrop weriniaeth Switzerland yn frwd-wely i'r ffydd. Croesodd y moroedd, gan gymmeryd Prydain ar ei gyrfa, i America; fel, erbyn heddyw, prin y ceir un wlad wâr a byw yn Nghrêd nad ydyw corph ei gwerin yn Gymmrodolwyr. Yr oedd yn naturiol i'r gyfundrefn ymddadblygu, a gwisgo ffurfiau mwy neu lai gerwin, yn ol mesur y gwrthwynebiadau oedd ar ei ffordd.

Yn Rwssia, adwaenir rhyw fath o Gymmrodolaeth wrth yr enwau Nihiliaeth ac Anarcaeth. Gair yw 'Nihiliaeth' (Ll. *nihilum*—diddymedd) am ysgol o athroniaeth sydd yn ymwrthod â phob ffurf ar ddadguddiad goruwch-naturiol. Yn 1872, dan arweiniad Lychareff, dechreuasant dynu sylw y byd drwy eu hysgrifeniadau. Hwyrach mai yr ymadroddwr penaf yn eu plith oedd Bakunin. Dysgai ef, mewn ymadroddion tanllyd, werin Rwssia, a gwledydd Ewrop, i wneyd byr waith ar bob ffurf o lywodraeth, yn wladol a chrefyddol; a dwyn y byd unwaith etto i ystâd o dryblith anelwig, er cael sylfeini i godi adeiladaeth gymdeithasol newydd—yr hon fyddai yn gartref i ryddid perffaith. Ymroddodd llywodraeth Rwssia i erlid pawb o'r ffydd newydd allan o'i therfynau, a damsangu y mudiad i'r llwch. Erbyn heddyw, y mae y Czar yn benadur ar filiwn o garcharorion; ac ni byddem neppell o'n lle wrth gyfrif fod dwy ran o dair o'r cyfryw yn Nihiliaid selog. Yn wir, y fath yw nerth eu ffydd yn uniondeb eu daliadau fel nad oes brinder merthyron ewyllysgar yn eu mysg. Yr un pryd, ni raid wrth bwyll a chraffder arbenig er gweled nad oes a fyno yr athrawiaeth hon ddim oll â Chymmrodolaeth iach a chymmedrol. Ysbryd gwenwynig—ffrwyth caethiwed, trais, creulondeb, a gorthrymderoesol—yw Nihilaeth; ac Unbenaeth Rwssia a'i cenhedlodd.

4. Gwnaeth Cymmrodolaeth fwy o gynnydd yn yr Almaen nag mewn un arall o deyrnasoedd Ewrop. Bu cyffröadau gwleidyddol y fl. 1848 o gynnorthwy nid bychan, gan beri i'r hadau egino a thyfu. Llafuriodd Engels a Marx, yn 1847, i lunio plaid wleidyddol newydd o fewn y wlad; neu yn hytrach, plaid gymdeithasol werinol—gwaith yr hon oedd defnyddio arfau gwleidyddiaeth, ac ymladd â gwleidyddwyr am eu hawlfreintiau cymdeithasol. O'r fl. 1860 hyd 1865, ymgymmerodd Lassalle âg arwain byddinoedd Cymmrodolaeth yn yr ymgyrch cethin fu rhwng cyfalaf a llafur; a mawr fu y llwyddiant. Y mae'r blaid ar y ffordd i lwyddiant mwy—i fod yn allu goruchaf yn y wladwriaeth. Ni faidd na phenadur, nac unrhyw allu arall, ddiystyru plaid sydd â'i nerth yn un o bob wyth yn etholaethau y deyrnas; a diange yn groen-iach. Dyma y safle anrhydeddus y mae y Cymmrodolwyr ynddi y dydd heddyw. Os gofynir pa fodd y bu hyn, y mae yr attebiad wrth law. Yr arweinwyr bïau y clod. Saif Lassalle, Winkelblech, Schäffle, Robertus, a Marx, ac eraill, yn mysg meddylwyr blaenaf y genedl Ellmynaidd. Buont yn dra llwyddiannus i wneyd eu hysgrifeniadau yn attyniadol, a'u cyfundrefn yn adeiladwaith wyddonol, gref, brydferth, fanwl, a phendant. O'r tu arall, y mae gwerinwyr yr Almaen, fel rheol, yn wŷr o synwyr cryf a darlleniad ëang. Dysgyblwyd hwy gan amryw nerthoedd. Gwyddant werth ymarferol ufudd-dod i'w hathrawon. Pan yn gwynebu gelyn cyffredin, cyd-symmudant yn gorph cyfan. Yr hyn a'u gwnaeth yn enwog ar faes y gyflafan yn erbyn Ffrainge, yn y rhyfel, chwarter canrif yn ol, sydd etto yn nerth wrth raid iddynt yn eu hymdrech yn erbyn byddinoedd gwydnach, sydd yn fwy anhawdd eu trechu o fewn eu gwlad eu hunain.

5. Nid yw Cymmrodolaeth Brydeinig namyn pymtheg oed. Gwir fod Robert Owen wedi cyhoeddi ei *New View of Society* draw yn 1813. Cafodd gyfleusdra yn Lanark, yn Ysgotland; ac wedi hyny, yn yr America, i weithio allan ei 'iachawdwriaeth gymdeithasol' i ymarferiad; etto, tra niwlog oedd ei syniadau, a thiriodd anffyddiaeth y diwygiwr dan wraidd yr anturiaeth, fel y syrthiodd yn bentwr o adfeilion. Am y llwyddiant byr, ond helaeth, a ddilynodd y sefydliad a godwyd ganddo yn Ysgotland, tueddir ni i goelio ei fod i'w briodoli yn fwy i ysbryd crefyddol a diariangar ei bartneriaid nag i'w gynllun neillduol ef. O argyhoeddiad, cyttunasant i wrthod derbyn namyn pum punt y cant o elw ar eu cyfalaf; a throsglwyddid y gweddill i gronfa arbenig, er budd y gweithwyr a'u teuluoedd. Ni wreiddiodd Cymmrodolaeth Robert Owen yn y tir; a phrin y gellir etto ddyweyd fod y gyfundrefn wedi llwyddo, ar raddfa ëang, i gasglu corph iddi ei hun. Yn y brifddinas y mae ei nerth penaf. Yn yr etholiad cyffredinol sydd newydd derfynu, methodd y Cymmrodolwyr Saesnig ennill cymmaint ag un etholiad, er ceisio o honynt yn ddyfal mewn o ddeutu dwsin o wahanol fanau. Ychydig, mewn cymmhariaeth, ydyw nerth y symmudiad yn Ysgotland; ac y mae yn gymmharol ddyeithr yn yr Iwerddon, a Chymru. Ar yr un pryd, tymmor gwreiddio ac egino yw hwn. Y mae yr athrawiaeth yn ennill dysgyblion, er nad mor gyflym ag ar Gyfandir Ewrop. Y mae amledd breintiau ein gwlad, a'i rhyddid gwladol a chrefyddol, yn foddion i arafu twf egwyddorion Cymmrodolaeth. Mae llenyddiaeth y symmudiad yn gymmharol helaeth. Yn mysg eraill o'u cylchgronau, gellir nodi *The Commonweal*, *The Christian Socialist*, *Freedom*, *Justice*, *The Socialist*, *The National Reformer*, *The Clarion*, *Brotherhood*, *The Labour Leader*, *The Workman's Times*, *Land and Labour*, *The Positivist Review*, a *The Social Outlook*; ac, fe allai, ddau neu dri eraill. Yn mysg yr arweinwyr Saesnig, y rhai mwyaf adnabyddus ydynt John Burns, A.S., Miss Helen Taylor, Bax, Mrs. Besant, Bernard Shaw, Sydney Olivier, Keir

Digitized by Google

Hardie, Mrs. a Dr. Aveling, Hyndman, Parch. Stewart Headlam, Sidney Webb, Hubert Bland, a Graham Wallas. Anfynych y ceir Cymmrodolaeth yn Mhrydain ar wahân i ffurfiau eraill o feddwl. Fel rheol, yn mysg y gweithwyr Saesnig, y mae mewn undeb agos â Lleygddysg (*Secularism*). Ar raddfa lai, ceir Cymmrodolaeth mewn undeb â Dyngarwch ac â Christionogaeth. Etto, yn ngweryd Llafur y mae nerth penaf y symmudiad. Yn yr Almaen, gwnaeth Cymmrodolaeth egwyddorion Radicaliaeth yn eiddo iddi ei hun, er niwed anrheithiol i'r blaenaf; ac ymddengys fod yn mryd yr arweinwyr i ddilyn yr un cwrs yn Mrydain. Proffesant fod Rhyddfrydiaeth, ac hyd yn oed Radicaliaeth, yn fwy gelynol i'w hamcan, ac yn gyndynach rhwystrau ar eu ffordd nag yw Toriaeth. Cafodd Rhyddfrydiaeth eisoes golledion a chlwyfau gan Gymmrodolaeth; a dichon fod ychwaneg yn ei haros. Ond hawdd yw cyfrif am hyny; canys y mae greddfau yr olaf mewn llawer dwysach cydymdeimlad â chyfundrefn o Wladwriaeth Deuluaidd nag â chyfundrefn fel Radicaliaeth, sydd yn achles i ddadblygiad pob ffurf ar Unigolaeth.

Gyda golwg ar gynnydd yr athrawiaeth yn y wlad hon, ymddengys i ni fod hyny yn dibynu, i fesur pell, ar y modd y defnyddia cyfoethogion eu golud. Mae yma helaethrwydd o angen a thlodi eisoes. O'r tu arall, os ymrydd y goludogion i fyw yn wastraffus, gan dreulio eu heiddo arnynt eu hunain, a llygru eraill; ac yn ben ar y cyfan, os llwydda anffyddiaeth i ymwthio o dan wraidd hyder y dosbarth gweithiol yn y Duw byw, ceidwad barn a chyfiawnder, yn o gystal a thrugaredd—yna, nis gall dim attal ymledaeniad Cymmrodolaeth. A dilynir y gyfundrefn gan Anarcaeth—yr hwn yw ffrwyth ofnadwy y meddwl di-obaith.

III. Sylfeini Cymmrodolaeth.

1. Y mae yn briodol gofyn a oes gan Gymmrodolaeth sylfeini llydain a theg i godi ei hadeilad cymdeithasol arnynt. Nid yw hender y ffurf sydd ar y bywyd gwladol yn Ewrop yn rheswm digonol, ynddo ei hun, dros ei barhâd. Gwyddom am ei werth; ac y mae yn eithaf possibl fod ei well. Yn awr, y mae gan Gymmrodolaeth dair sylfaen; sef, yr un Ddamcanol, yr un Hanesiol, a'r un Ymarferol.

Am y gyntaf, gwneir hi i fyny o bedair gosodiad yn ymwneyd â'r pwngc o *Werth*, *Cyfalaf*, *Deddf Cyflogau*, ac *Eithafnodau*. Nyni a gymmerwn yr Athraw Gonner, o Goleg Prifysgol Liverpool, yn arweinydd ar yr adran hon.

Gellir cyfleu dysgeidiaeth Cymmrodolaeth ar athrawiaeth 'Gwerth' i'r gosodiad a ganlyn:—'Tarddle gwreiddiol gwerth marchnadol ydyw llafur; am hyny, y mae nwyddau yn newid, neu, o leiaf, dylent newid, yn ol gwerth y llafur a dreuliwyd arnynt wrth eu gwneyd.'

O berthynas i Gyfalaf, a'r elw oddi wrtho, y mae cnewyllyn dysgeidiaeth Cymmrodolaeth fel hyn:—'Nid yw Cyfalaf yn cynnrychioli dim ond y llafur a dreuliwyd wrth ei gynnyrchu; ac am hyny, os talwyd am y llafur hwnw drwy gynnyrchu y cyfalaf a ddefnyddiwyd, gwnaed yr un modd trwy ei ail gynnyrchu. Gan hyny, y mae llôg yn beth diangenrhaid.'

Yn y gosodiad a ganlyn, ceir yr athrawiaeth am Ddeddf Cyflogau Llafur:—'O dan ddeddfau cydymgais mewn diwydwaith, yn ngyrfa diwydwaith, derbynia llafur bob amser, os nad gyfran lai hollol o'r elw, etto yn wirioneddol, y gyfran leiaf o gyfanswm cynnyrch y gymdeithas.'

Yn ol dysgeidiaeth Cymmrodolwyr, y mae tarddell pob argyfwng Cyfalaf a Llafur yn y berthynas annaturiol sydd rhwng llafur ei hun a gwerth marchnadol cynnyrchion llafur. Y mae ergyd eu dadl yn y gosodiad a ganlyn:—'O herwydd yr ysgariad sydd rhwng llafur a gwerth, a dadberchenogiad dilynol y rhai sydd yn meddu ar ac yn ymegnïo i lafur oddi wrth eu cyfiawn ran o'r budd, dygir oddi amgylch argyfwng trafnidol trwy gyfrwng gor-gynnyrchiad, a lleihâd yn yr alwad.'

Nid yw yr uchod ond esamplau o osodiadau dysgawdwyr meddylgar Cymmrodolaeth; ac o herwydd y ffurf wyddonol sydd arnynt, twyllasant lawer. Ar yr un pryd, i bawb sydd wedi talu sylw helaeth i drafnidiaeth wladol, ac yn gyfarwydd â rhesymeg, gwaith eithaf rhwydd fyddai eu dattod, a dangos pob un o honynt yn wallus yn ei osodiad, neu ynte yn y casgliad a dynir oddi wrth y gosodiad. Ar yr un pryd, y mae yn y gosodiadau lawer o wirioneddau pwysig ac awgrymiadol.

2. Gyda golwg ar yr ymgais a wneir i ddwyn ysgwydd lydan Hanes o dan yr athrawiaeth, er na bu y llwyddiant yn fawr, etto, addefir fod y dull (*method*) a ddefnyddir i gloddio allan a phrofi y defnyddiau yn un a gymmeradwya ei hun i farn haneswyr gwyddonol. Dechreuir gyda'r gosodiad, nad cynnyrch gwneuthuriad, ond mai tŵf naturiol ydyw cymdeithas. Ar yr yrfa ddadblygiadol, aeth cymdeithas eisoes drwy ddwy ffurf neillduol ar fywyd. Y teulu oedd y cyntaf—y gyfundrefn batriarchaidd. Dyma sylfaen isaf bywyd pob cenedl a gwlad. Wrth reswm, nid yw y gyfundrefn yn unffurf mewn manylion; etto, mae ynddi bethau oedd yn gyffredin yn mhob cenedl. Ond aeth y gyfundrefn heibio. Dechreuodd ymddattod yn y canol-oesoedd, er pob ymgais i'w dal â rhwymau o ddyfais cywrain; a chafodd Unigoliaeth, bob yn dipyn, y llaw uchaf. Dygodd y gyfundrefn hono gyfnewidiadau mawrion i Ewrop, a gosododd cymdeithas i orphwys ar gydymgeisiaeth. Ond y mae tuedd mewn cydymgeisiaeth at orfaeliaeth. Nid oedd gŵyriad felly yn yr amlwg ar y cyntaf. Tybiwyd fod chwareu teg i bawb yn bossibl o dan y gyfundrefn. Mewn amseroedd diweddar y mae dosraniad llafur a chymmhwysiad peirianwaith at lafur, wedi dadblygu Unigolaeth i bwynt nas gall neb ond y cryf ddymuno ei barhâd. Aeth masnach i afael ac o dan reolaeth Cwmnïau, Cynghorau, Undebau, ac Ymddiriedolwyr (*Companies*, *Syndicates*, *Unions*, *and Trusts*). Nid oes gan y gwan ond cyfle gwael am fywoliaeth. Nerthoedd yw y rhai hyn a grëwyd gan Unigolaeth; a thynged y gyfundrefn fydd syrthio yn aberth iddynt. A defnyddio iaith ffugrol, wele y peiriannau a gloddiodd allan bossibilrwydd—ie, angenrhaid cyfnod newydd—sef, Cyfnod Cymmrodolaeth. Gwelir mai adfyd y gwan a alwodd am y ffurf gymdeithasol newydd—gorfaeliaeth yr ychydig; a thybir fod iachawdwriaeth y lliaws mewn gorfaeliaeth wladol. Gwelodd rhai corphoraethau dinesig fod mantais ac elw mewn gorfaeliaeth; ac ymgymmerasant eu hunain â dyledswyddau sydd mewn cylchoedd eraill yn cael eu cyflawni gan egnïon preifat. Dadleua Cymmrodolwyr nad ydyw engreifftiau felly namyn esamplau o gyfundrefn gyffredinol sydd yn prysur wneyd ei hun yn angenrhaid pob gwlad wareiddiedig.

Digitized by Google

3. Yr ydym yn symmud yn awr at y sylfaen ymarferol. Yn naturiol, gelwir ein sylw, yn mlaenaf oll, at wastraff cydymgeisiaeth. Amlhëir cyfryngau cynnyrch ar raddfa anferth, a hyny er niwed a dinystr bywoliaeth. Er enghraifft, agorir dwy neu dair o ffyrdd haiarn mewn gwlad, nad oes ganddi fasnach ddigonol ond ar gyfer un. Agorir maelfeydd cydymgeisiol mewn dinasoedd ar raddfa mor helaeth fel nad yw darlun Dewi Wyn o gyflwr adfydus y llafurwr yn rhanu 'angen un rhwng y naw' yn anghyfaddas o'i gymmhwyso at lawer maelerwr. Gwesgir miloedd o'r ddau ryw gan rym cydymgais fel myrdd o drueiniaid, i'w cael yn ninasoedd mawr pob gwlad ar fin newyn a noethni gwastadol. Gwir fod dyfeisiau a gwelliantau yn prysuro ymadawiad yr hen, a dyfodiad y newydd, ar sail cynnildeb mewn amser ac arian; ond mŷn Cymmrodolwyr na byddai traul cynnyrch o dan Gymmrodolaeth i'w chymmharu â'r un bresennol—tra ar yr un pryd y gallai dyfais a gwyddor fyned rhagddynt ar eu gyrfa o ddefnyddioldeb megys cynt. Gwir fod Unigolaeth mewn llawer o amgylchiadau yn gweithredu yn llesol a chynnil. Dodir achwyniadau eraill wrth ddrws cydymgeisiaeth, megys dirywiad, prinder gwaith, lleihâd yn y cyflogau—tra na chymmerodd lleihâd cyferbyniol le yn yr elw ar y cyfalaf. Ond ymddengys nas gellir gosod y cŵynion hyn ar dir diammheuol.

IV. Cymmrodolaeth, Moesoldeb, a Chrefydd.

1. Y mae Cymmrodolaeth yn athrawiaeth a dderbynir gan y Cristion a'r di-ffydd. Gwna y bydolydd (*secularist*) grefydd o'r gyfundrefn; a chymmer ei reoli, i fesur, gan ei dysgeidiaeth. Nid yw yr Agnoiydd (*Agnostic*, o *agnoia*—anwybodaeth) yn mhell o weithredu yr un modd. Wele eiriau Karl Pearson, yr hwn sydd yn awdurdod ar y gyfundrefn:—

'Y mae damcaniaeth Cymmrodolaeth diweddar o foesoldeb yn seiliedig ar ymdriniaeth agnoiyddol o'r goruwch-synwyrol. Pan yn barnu ymddygiad, nid oes gan ddyn ond y byd hwn yn unig i feddwl am dano. Y mae i wneyd hwn mor lawn a siriol ag y dichon efe. Dylai ddwyn i'r gwasanaeth ei holl wybodaeth o'r presennol, a'i brofiad o'r gorphenol; a chyflawni y cyfan yn wyddonol a chydwybodol. Nid rhag ofn uffern, nac mewn gobaith am y nef, ac nid o gariad at dduw-ddyn arteithiol; ond yn unig er mwyn y gymdeithas o'r hon yr wyf fi yn aelod, llesiant yr hon sydd yn llesiant i minnau—er mwyn fy nghyd-ddynion, yr wyf yn gweithredu yn foesol; hyny yw, yn gyfeillgar. . . . Cyfyd Cymmrodolaeth o'r gydnabyddiaeth mai hapusrwydd yn y byd hwn ydyw unig amcan dynolryw, a bod gyrfa dadblygiad ac ymryson rhwng dosran a dosran wedi cynnyrchu greddf gymdeithasol gref mewn dynolryw, fel yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol y mae unig bleser y person unigol yn gorwedd yn nghyfeiriad hylwybro ffyniant y gymdeithas o'r hon y mae efe yn aelod. Daw cymdeithas gorphoredig—sef y Wladwriaeth—yn ganolbwynt ffydd y Cymmrodolydd. Fel hyn, gwladlywiaeth y Cymmrodolydd ydyw ei foesoldeb; ac yn ystyr hen y gair, ei foesoldeb ymresymegol yw ei grefydd. Yr hunaniaeth yma a esyd Gymmrodolaeth ar dir gwahanol i fudiadau politicaidd a chymdeithasol eraill y dydd.'—*The Ethic of Free Thought*, td. 318—9.

Dyna yr ochr fydol i'r athrawiaeth hon, yn ei noethni a'i gwendid. Nid oes a fyno moesoldeb â'r person unigol ond i'r graddau y dylanwada hyny ar ddedwyddwch cymdeithas. Mewn gair, gwedir gwerth rhinwedd personol. Megys, yn Ngroeg, yr aberthid y person unigol ar allor y wladwriaeth, yn rhinweddol gwna Cymmrodolaeth y di-ffydd yr un peth. Ond yn ffodus, y mae yr athrawiaeth hon yn aml-ochrog. Y mae nerth penaf y gyfundrefn yn gorwedd yn y pwys a rydd hi ar yr egwyddor o frawdoliaeth dynolryw. Cydnebydd hyn yn mhob ffurf a berthyn iddi. Nid yw byth yn blino pregethu fod dynion yn frodyr; ac am hyny, o dan y rhwymau mwyaf cyssegredig i weithredu yn ysbryd brawdgarwch. Ei châs-bethau ydynt y cam a wneir â'r gwan, ac â'r tlawd; a phroffesa yr atgasrwydd dwysaf at ysbryd rhyfel. Naturiol ydyw tybied nas gall hi ddygymmod â'r athrawiaeth o hawl ddwyfol yr ychydig, gan nad pwy a fyddont. Y mae yn caru gwaith, ac yn sylweddoli ei werth. Nis gall cymdeithas ymroddi yn rhy egnïol i larieiddio cyflwr ac angenion y di-ymgeledd a'r tlawd. Nid gorchwyl gorfodol nac elusengarol ydyw hyn; ond braint a dyledswydd sydd i gael eu dwyn oddi amgylch gan gydweithrediad brawdol y lliaws. Yn ffyddlawn i'r broffes, nid oes un symmudiad diweddar wedi gwneyd cymmaint tuag at feithrin teimladau da a chyweithas rhwng gweithwyr gwahanol wledydd. Argyhoeddodd lu aneirif o honynt fod i'r oll fuddiannau sydd yn gyffredin i bawb, ac nad oes modd eu cael ond trwy gydweithrediad cariadus. Y mae gweledigaeth felly yn oludog o oleuni melus. Ni ddichon ond y da goreu ddeilliaw o efengyl cariad dyn at ddyn—cariad at ddyn am ei fod yn ddyn, ar wahân i bob rhyw ystyriaeth arall. Y mae gwlad, cenedl, a chrefyddgarwch yn neillduolion prydferth, a haeddiannol iawn o edmygedd yn mhawb; er hyny, llinellau culion ydynt ar y goreu. Y mae caru dyn, am ei fod yn ddyn, a brawd, yn tra rhagori. Dyma yw pinacl uchelaf, prydferthaf, Cymmrodolaeth. Wrth edrych arno yn awyr glir, falmaidd, dyngarwch, heb gymmaint a mŵg simdde hunangarwr yn y golwg yn un man, i lygru y fro, a thynu oddi wrth urddas y gogoniant, y mae yn annichonadwy ymattal:—rhaid croesawu yr ymholiad, Ai yn mynwes fechan dyn ei hun y mae tarddle y weithred o garu dyn am ei fod yn ddyn, ac yn frawd, gan nad pa liw fyddo ar ei groen, gŵyrni yn ei ddeall, a hacrwch aflendid ar ei fuchedd?

2. Ond, fel rheol, y mae encyd o ffordd rhwng ffydd dynion a'u hymarweddiad. Nid ydyw y Cymmrodolwyr yn eithriadau i'r rheol hon. Dengys Guyot, yn ei *La Tyrannie Socialiste*, drwy ffeithiau aml a phoenus, nad ydyw y Cymmrodolwyr yn amddifaid o'r ysbryd dïeflig hwnw sydd yn gwneyd dynion yn orthrymwyr celyd a chreulawn o'u cyd-ddynion. Er hyrwyddo amcanion eu plaid, syrthiasant, megys eraill, i'r amryfusedd o erlid a lladd y rhai na fynent gydymffurfio â'u hathrawiaeth. Ac nis gall fod yn amgen. Y mae y dramwyfa sydd rhyngddynt a ffynnonell dragwyddol pob rhinwedd a goleuni wedi ei chau i fyny â thoraeth o dywyllwch a hunanoldeb. Ni ddichon un gŵr gyflawni yn gysson, ac o fodd, ran y dyngarwr anhunangar a hunan-aberthol tra y bydd ei holl natur yn glwyfus gan dueddiadau anianol a hunan-ddinystriol.

Nid ydym yn myned i feirniadu y Cymmrodolwyr; ond y mae yn sicr ddarfod iddynt ddechreu adeiladu cyn cyfrif y draul. Ni bydd eu cyflawniadau ond ammherffaith ac arwynebol ar y goreu heb sylfaen ddiogel i'w gwaith; a chyn y byddant yn gyfaddas i'w gyflawni, rhaid iddynt hwy eu hunain fyned trwy gwrs o adne-

Digitized by Google

wyddiad nad oes gan iaith derm rhagorach er rhoddi mynegiad iddo na 'chreu o'r newydd.' Gan hyny, y mae yn weddus gofyn, A ydyw yr athrawiaeth yn seiliedig ar egwyddorion tragwyddol uniondeb a chyfiawnder? Drychfeddwl godidog ydyw creu cymdeithas o newydd; ond rhaid gwneyd hyny o dir iawnder, onid ê nid ä y gwaith i ben, a goresgynir yr ychydig a gyflawnir gan ddirywiad buan. Y mae yn naturiol, hwyrach, i sylfaenwyr y gyfundrefn fod i fesur yn aneglur yn eu dysgeidiaeth. Angenrheidiol a dymunol hefyd i lwyddiant parhaol fuasai cael deffiniad hollol glir o'r egwyddor fawr a gyflëir yn y term hwn, 'cyfiawnder.' Pa beth sydd yn gyfiawn? Gŵyr pawb mai hwn ydyw y colyn ar yr hwn y mae pob peth yn troi. Ergyd eu haddysg yw fod, nid yn unig cymdeithas, o'r sail i fyny i'r pinacl, yn dyfiant gŵyrdraws; ond y mae hyd yn oed syniadau moesol Cristionogion yn bentwr o gyfeiliornadau. Y peth a elwir yn 'eiddo lladrad' gan y dyn cyffredin a elwir yn 'eiddo cyfiawn' gan y Cymmrodolydd; ac i'r gwrthwyneb, yr hyn a eilw y Cymmrodolydd yn 'eiddo cyfiawn,' a elwir gan y dyn cyffredin yn 'eiddo lladrad.' Ac heb law hyny, nid oes ymwared. 'Gall y wladwriaeth (ebe Mr. Gronlund), wneyd unrhyw beth a fyno â'r peth a elwir yn 'hawliau dynion,' os barna hi fod hyny yn angenrheidiol: . . ac nid ydyw hyd yn oed llafur yn rhoddi i ddynion y teitl lleiaf i gynnyrch eu llaw a'u hymenydd.' Y mae gan y Cristion ei faen prawf—ei ddeddf foesol i appelio ati, ac i ddal ei weithredoedd o'i blaen; ond fel y gwelsom, unig faen prawf Cymmrodolaeth fydol yw buddioldeb neu gyfaddasder gweithred. Yn y pen draw, arweinia yr athrawiaeth hon, nid at oroesiad y cymmhwysaf, nac adferiad hawliau, eithr at adferiad gorthrech i orsedd awdurdod. Dyledswydd weddus iawn ac amserol ydyw dysgu eu 'hawliau' i ddynion—eu rhan gyfreithlawn o olud eu treftadaeth; ond y mae hi yr un mor briodol a gweddus ddysgu eu 'dyledswyddau' iddynt hefyd. Llwyddodd Mazzini, yn ei lyfr 'Ar Ddyledswyddau Dyn,' i olrhain gwendid a dadgorphoriad y weriniaeth y gwnaeth efe gymmaint erddi i foesoldeb gwan ac unochrog lledaenwyr penrydd a chwildröadol y cyfnod. Onid yw yr un achosion yn cynnyrchu yr un effeithiau? Y ddysgeidiaeth yr arswydai Joseph Mazzini rhagddi fel un chwyldröadol ac anfoesol yw yr un sydd wedi derbyn bendith Karl Marx—un o benaethiaid y gyfundrefn yn yr Almaen.

3. Nid oes angen gofyn, A oes perthynas rhwng Cymmrodolaeth a chrefydd Crist?

'Y mae teyrnas Dduw ar y ddaear (ebai Tolstoi), yn gynnwysedig yn hyn—fod i bawb dynion fyw yn heddychlawn â'u gilydd. Syniad felly oedd gan y prophwydi Hebrëig am wladwriaeth Duw. Cyhoeddodd yr Iesu deyrnas Dduw ar y ddaear gyda phump o orchymynion heddwch.'

'Ië: teyrnasiad cyfiawnder yw teyrnas Dduw (ebe Matthew Arnold)—cyflawniad ewyllys Duw gan ddynion.'

Ac, ebe Tholuck—'Gwladwriaeth gymdeithasol ydyw teyrnas Dduw—egwyddor bywyd yr hon a reolir gan ewyllys Duw personol.' Gwel rhai meddylwyr clir hunaniaeth perffaith rhwng Crefydd a Chymmrodolaeth. Dadleuant nad yw Cymmrodolaeth, yn ei ffurf oreu, ond Crefydd ar ei goreu. Cristionogaeth Newydd y galwai Sant Simon ei athrawiaeth gymmrodyddol. Ymresymai Cabet, Fourier, Leroux, a Considèrant, nad yw yn ddichonadwy i gymdeithas gael ei hadnewyddu gan wyddor, a'i hail ffurfio drwy oleuni rheswm. Y mae nerth y bywyd a gynnyrchir gan ffydd a chrefydd yn hanfodol i'r gwaith hwnw. Yr oedd ad-drefnu cymdeithas yn amcan i holl egnïon athroniaeth grefyddol Comte.

Yn Lloegr, y mae Mr. Bax yn un o brophwydi y ddysgeidiaeth hon. Dywed 'fod y gyfundrefn yn dwyn crefydd yn ol o'r nefoedd i'r ddaear. Edrycha draw, tu hwnt i'r presennol, nid i fyd arall, ond i fyd cymdeithasol uwch yn y byd hwn. Yn y gobaith a'r ymdrech am y bywyd cymdeithasol uwch, byth-ymledol, bythddwysäol, pen draw yr hwn sydd yn cynnwys possibilrwydd tu hwnt i derfynau meddwl i ddychymygu, nac iaith i ddisgrifio—yno y daw y Cymmrodolydd o hyd i'w grefydd.'

Dadleuai Maurice, Kingsley, ac eraill, na all Crefydd a Chymmrodolaeth fod yr un peth; er hyny, eu bod mewn trwyadl gydgordiad, ac yn fath o attodiad y naill i'r llall. Galwai y clerigwyr hyny eu hunain yn Gymmrodolwyr Cristionogol. Y mae rhai siaradwyr brwdfrydig ar lwyfanau crefyddol a phulpudau wedi galw yr Arglwydd Iesu Grist yn Sosialydd, a'r Bregeth ar y Mynydd yn Siarter y byd newydd sydd yn graddol dyfu allan o lwch a malurion yr hen. Pa fodd bynag, y mae gan eglwys Crist fesur helaeth o waith i'w gyflawni etto er unioni gŵyriadau deall corph mawr Cymmrodolwyr ar yr hyn ydyw moesoldeb a Christionogaeth. Yn dra anffodus, y mae bywyd llac, ymlyniad wrth ffurfiau nas gall fod pwysigrwydd ysbrydol yn perthyn iddynt, a bydolrwydd ysbryd, wedi dwyn oddi amgylch agendor llydan rhwng lluoedd o Gymmrodolwyr a phroffeswyr crefydd. Camddarllenasant Gristionogaeth yn llewyrch bywyd gŵyrgam y rhai a honent fod yn 'llythyrau Crist;' ac aeth y naill a'r llall yn gâsbethau yn eu golwg. Y mae adferiad y byd i ffydd yn yr Iesu, ac ymgais at fyw ei ddysgeidiaeth, yn dibynu ar adferiad Cristionogaeth fel gallu yn mywyd Cristionogion. Aeth tyrfaoedd o'r Cymmrodolwyr i diriogaeth lom y di-Dduw. Sychedant am dano, ond methant ei adnabod wrth edrych allan am dano yn ei eglwys. Ar y daith hono, collasant eu ffydd. Ar yr un pryd, er holl ŵyriadau ffydd a diffygion ymarweddiad proffeswyr crefydd Crist, a phroffeswyr Sosialaeth, y mae y naill a'r llall yn dynesu at eu gilydd.

SYLWEDDAU DIHEINTIOL. Sylweddau fferyllaidd ydynt, gan mwyaf; pa rai sydd yn dinystrio dylanwad heintiol rhai clefydau, neu yn peri ei fod yn ddieffaith. Y mae sylweddau eraill sydd yn dyfetha aroglau annymunol; ond ni ddylid eu camgymmeryd am yr uchod, gan nad ydynt yn symmud y peryglon sydd oddi wrth glefydau.

Rhoddwn yma y prif sylweddau diheintiol—1. Gwres, yn sych neu yn llaith, yw y mwyaf effeithiol sydd yn adnabyddus. 2. Sûr carbolig (*carbolic acid*)—un ran wedi ei gymmysgu âg ugain rhan o ddwfr. 3. *Sulphur Dioxide*. 4. *Chlorine*. 5. *Permanganate of Potassium*. 6. Sûrau mŵnawl (*mineral acids*). 7. *Nitrous acid*. 8. *Chlorinated Lime*. 9. Calch poeth. 10. *Chloride of Mercury*. 11. Rhai halenau mŵnawl. 12. *Ozone*. 13. Golosg (*charcoal*).

Digitized by Google

# T.



THOMAS, BENJAMIN (*Myfyr Emlyn*) o Arberth. Ganwyd ef yn Hydref, 1836, mewn ffermdy bychan, o'r enw Ty'n-rhos, yn nghysgod bryniau y Preseli, yn mhlwyf Eglwys Wen, yn Nyffryn Nefern, sir Benfro, o fewn ychydig latheni i fan genedigol yr enwog Barch. Caleb Morris, o Fetter Lane, Llundain. Enw ei dad oedd David—a'i fam, Elizabeth Jones. Wrth yr enw Dafydd Domos yr adwaenid ei dad, yr hwn oedd yn ddiacon yn eglwys Bethabara. Yn ei dŷ y cychwynwyd yr Ysgol Sabbothol mewn cyssylltiad â Bethabara; a chyfeirir at eu ffyddlondeb yn *Hanes y Bedyddwyr*, gan y Parch. Joshua Thomas. I'w weddïau, ac i'w egnïon ef, ynghyd âg, wrth gwrs, arddeliad yr Ysbryd, y priodolir y diwygiad mawr a fu yn Bethabara, yn y fl. 1859; pryd y bedyddiwyd 37 o ddychweledigion—pedwar o ba rai, ar ol hyny, a ymgymmerasant â gweinidogaeth yr efengyl; sef, y Parchn. D. Jones, Llandeilo; S. Thomas, Pant-y-celyn; y diweddar Barchn. D. Morris, Pont Henry; a D. James, Tabor, Dyfed. Yr oedd gwrthddrych ein hysgrif yn un o wyth o blant, a'r seithfed o honynt. Yr oedd yn eithriadol hoff, pan yn blentyn, o ddysgu rhanau o'r Salmau, a'r prophwydi; yr hyn, fe ddichon, a gyfrifa am ei hoffder o ddewis ei destynau o'r maes hwn. Cafodd ei addysg elfenol mewn ysgol a gynnelid gan y Parch. Simon Evans, Hebron, yn Mhen-y-groes, yn mhlwyf Eglwys Wen; ac wedi i'w rieni symmud i Bant-y-garn, ger Eglwyswrw, cafodd ychydig o addysg gan yr ysgolfeistri a ddeuent yr adeg hono heibio, yn ol yr arferiad. Yr oedd yn hynod ddireidus yn ystod ei arosiad yn Eglwyswrw, ac yn arweinydd llu o fechgyn cyffelyb iddo ei hun yn y gymmydogaeth. Pan tua 15eg oed, aeth ymaith tua'r gweithfeydd, ac arweiniwyd ef gan Ragluniaeth at weinidogaeth y Parch. James Lowe, Risca; a chan y gŵr enwog hwnw y bedyddiwyd ef yn Siloh, Tredegar, Awst, 1852. Yn ddisymwth, ymadawodd, ac aeth tua chartref, a dechreuodd bregethu mewn ffermdy o'r enw Glyn-maen. Wedi hyny, aeth i Ysgol Rammadegol Abergwaun, i ymbarotoi ar gyfer yr athrofa. Aeth i athrofa Hwlffordd tua 1855. Wedi treulio tair blynedd yno, aeth i Bristol, lle y bu yn efrydu nes y cafodd alwad i fugeilio eglwys Castellnewydd-yn-Emlyn. Ymsefydlodd yno yn y fl. 1860—lle y llafuriodd am dair blynedd-ar-ddeg. Oddi yno, symmudodd, yn 1872, i gymmeryd gofal eglwys Saesnig Penarth. Oddi yno, hefyd, yn 1875, symmudodd i gymmeryd gofal eglwys Arberth—lle y gwasanaethodd am ddeunaw mlynedd.

Yn 1886, pennodwyd ef yn olygydd *Seren Cymru*, ac yn olynydd i'r enwog Barch. John Jones, Felinfoel. O dan ei olygiaeth, helaethwyd y *Seren*, a chwanegwyd at ei defnyddioldeb. Yn yr un flwyddyn (1886—7), ysgrifenai frasluniau o bregethau ar ranau o efengyl Ioan i'r *Pulpit Commentary* (Saesneg. Fel cofiannwr, yr oedd yn y radd flaenaf. Ysgrifenodd gofiant i'r Parch. Timothy Thomas, Castellnewydd-yn-Emlyn, yr hwn gofiant oedd fuddugol yn Eisteddfod y Graig, 1875. Dygodd allan hefyd gofiant y Parch. Owen Griffiths, Blaenconin, yn 1889; ond ei gofiant i Dafydd Evans, Ffynnon Henry, ydyw y pwysicaf. Y mae yn ammheus gan rai a gynnyrchodd athrylith Gymraeg erioed y fath wrthddrych i'w goffa, a'r fath ddarfelydd at y gwaith.

Yr oedd hefyd yn fardd godidog. Ysgrifenodd lawer o bryddestau cofiannol; ac yr oedd fel pe yn fwy cydnaws â'i natur i alaru ar ol hen gyfaill nag i ganu ar ryw destyn arall yn y cywair llon. Ennillodd wobr o 15eg gini yn Eisteddfod Rhuthyn, am Bryddest ar ol y diweddar Barch. Samuel Griffiths, o Hebron. Ysgrifenodd, hefyd, linellau coffadwriaethol am y Parch. Caleb Morris, Llundain. Hefyd, llinellau barddonol ar '*Spring*,' '*The Tay Bridge Disaster*,' 'Gwladgarwch,' 'Cenfigen,' 'Y D. D.,' 'B. Jones,' Castellnewydd-yn-Emlyn, 'Hughes, Maesteg,' &c., ynghyd âg amryw weithiau barddonol wylofus eraill ar ol ei wraig gyntaf.

Traddododd ddarlithiau hefyd ar y testynau canlynol:—'Dafydd Evans,' 'Adgofion am Enwogion y pulpud Cymraeg;' 'Joseph Harris' (*Gomer*); 'I America, ac yn ol;' Caleb Morris;' 'Yr awr Farddol,' &c. Hefyd, ysgrifenodd lythyr Cymmanfa sir Benfro ar 'Oddefgarwch Cristionogol;' papur ar 'Fedyddwyr Aberteifi a'r cylch,' yn nghyfarfod Undeb Bedyddwyr Cymru, yn Aberteifi. Ysgrifenodd lawer i'r wasg Saesnig ar wahanol faterion.

Arweiniodd lawer o eisteddfodau. Yr oedd ei ffaethineb yn cadw y gwyddfodolion mewn ysbryd siriol yn barhaus. Mynodd eisteddfod yn Arberth yn 1878, a thrwyddi cliriwyd 400*p*. at drysorfa y capel newydd. Gosodwyd ei sylfaen yn 1889; ac y mae yn gôf-golofn ardderchog o'i weithgarwch. Ynddo, y tu cefn i'r areithfa, y mae Cofeb o farmor gwyn am dano; a chasglodd yr eglwys dros 60*p*. at gael colofn ar ei fedd.

Ymbriododd â Miss Margaret George, merch Mr. George, Bailey Farm, Castell-newydd-yn-Emlyn. Bu iddynt bump o blant—un o ba rai sydd feddyg o safle yn Hirwaen, ac un arall yn fferyllydd, yn Pau, Ffraingc. Bu farw Mrs. Thomas yn y fl. 1879. Ymbriododd drachefn â Mrs. Lewis, gweddw y diweddar Mr. David Lewis (*Cynfaen*), Caerfyrddin.

Cymmerodd Mr. Thomas ran flaenllaw yn 'Mater y Colegau' a gynnhyrfodd Fedyddwyr

Digitized by Google

Cymru o 1887—1892. Credai yn ddiysgog fod un coleg yn ddigon i Fedyddwyr Cymru; ac y dylid ei gael mewn man canolog, o dan arweiniad rhai o oreugwyr yr enwad. Gwelai fod Addysg Uwchraddol y genedl yn hawlio i'r enwad symmud yn mlaen.

O gydgyfarfyddiad anhwylderau, bu farw Tachwedd 20fed, 1893, yn 57ain mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Bethabara, yn mysg arwyddion amlwg o alar ar ei ol; ac ni bu y fath angladd a hwnw yn Arberth.

THOMAS, JOHN, D.D.:—yr hwn, drwy ei athrylith gref, a'i ymroddiad diflino, a gyrhaeddodd enwogrwydd mawr fel duwinydd, pregethwr, gweinidog, darlithydd, ac fel llenor. Ganwyd ef yn Nghaergybi, Chwefror 3ydd, 1821. Yr oedd ei rïeni yn aelodau gyda'r Trefnyddion Calvinaidd; ac fel Zacharias ac Elizabeth gynt, 'yr oeddynt ill dau yn gyfiawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd.' Yr oedd ei dad o deulu cyfrifol, yn frodor o Landdeiniolen, sir Gaernarfon, ac yn naddwr ceryg wrth ei alwedigaeth. Yr oedd ei fam hefyd o deulu da; ac yn hynod ar gyfrif grym ei ddeall a chrefyddolder ei hysbryd. Bu iddynt wyth o blant, o ba rai y daeth pedwar: sef, Owen, John, William, a Josiah, yn adnabyddus iawn trwy Gymru oll, ac yn mhellach hefyd. Ond i'r ddau flaenaf, fel y mae yn hysbys ddigon, y perthynai 'rhagoriaeth braint, a rhagoriaeth cryfder.' Yr oedd yn fater o ymffrost gan wrthddrych y sylw presennol, iddo gael ei gyflwyno gan ei rïeni mewn bedydd i'r Arglwydd pan yn faban 'trwy ddwylaw y pregethwr mwyaf hyawdl a gyfododd erioed o'u cenedl—yr anfarwol John Elias.' Pan yr oedd efe tua chwe blwydd oed, symmudodd ei rïeni, gyda'r eiddynt, o Gaergybi i Fangor. Yn fuan ar ol hyn, dewiswyd ei dad i fod yn flaenor yn eglwys y Tabernacl. Mawr berchid ef ar gyfrif ei dalentau a'i dduwioldeb; ond byr fu ei dymmor; canys yn mhen tua phedair blynedd wedi ei ymsefydliad yn Mangor, bu farw, ar ol ychydig o ddyddiau o gystudd; sef, ar y 7fed o Orphenaf, 1831, yn 46ain ml. oed. I'r weddw, gyda'i theulu lliosog, dyrnod drom a thrist oedd hon; ond bu yr Arglwydd yn dda wrthynt, gan atteb gweddïau y tad, a bendithio ei dŷ ef, megys y bendithiwyd tŷ Obededom gynt—o herwydd ei ofal am arch Duw.

Ni buasem yn gwybod nemawr am helyntion boreu oes Dr. John Thomas, oni bae iddo ef ei hun, pan yn ymyl bod yn drigain mlwydd oed, ar gais nifer o'i gyfeillion yn Liverpool, barotoi papur i'w ddarllen yn y Tabernacl, ar noswaith pen ei flwydd; sef, nos Iau, Chwefror 3ydd, 1881. Ymddangosodd y papur hwnw wedi hyny yn y *Dysgedydd*, dan y penawd, 'Adolygu Trigain Mlynedd:—o'r hwn y gwneir y dyfyniadau a ganlyn:—

'Magwyd fi (meddai) ar aelwyd grefyddol; ac i'r addysgiadau a dderbyniais yno, ac yn Ysgol Sabbothol a *societies* y Methodistiaid, gyda'r rhai yr oedd fy rhieni yn aelodau, byddaf byth yn ddyledus. Dysgais *Yr Hyfforddwr*, a rhai llyfrau cyfain o'r Ysgrythyrau, heb law cannoedd o bennodau a Salmau gwasgaredig, cyn fy mod yn ddeuddeg oed; a dyna sydd wedi bod i mi yn ystorfa gyfoethocaf fy ngweinidogaeth dros fy holl fywyd.'

Ar ol crybwyll fod ei linynau wedi disgyn mewn lleoedd hyfryd yn nyddiau ei febyd, ac iddo, yn ystod y pymtheng mlynedd cyntaf o'i oes, gael mwynhâd o glywed rhai o brif enwogion y gwahanol enwadau, mynega gyda mawr foddhâd am y lliaws enwogion yn mhlith y Methodistiaid y bu efe yn y cyfamser yn gwrandaw arnynt.

'Gwrandewais lawer (eb efe) ar John Elias, John Jones, Tal-y-sarn, a'i frawd, David Jones; Henry Rees, John Hughes, William Morris, Cilgeran; Ebenezer Richard, a'i frawd Thomas Richard; John Evans, Llwynffortun; Morgan Howell, ac eraill o'r un tô, sydd wedi eu casglu at eu tadau cyn côf gan y genhedlaeth bresennol.'

Ac yna ä rhagddo i fynegu pa fodd y bu iddo droi at yr Annibynwyr. Da genym iddo wneyd hyn; o blegid tybia llawer iddo newid ei enwad yn ganlynol i newidiad barn gyda golwg ar ffurflywodraeth eglwysig y ddau enwad. Er enghraifft, yn y coffhâd a geir am dano yn y *Congregational Year Book* am 1893, dywedir:—'Dangosodd yn foreu y gallai feddwl a gweithredu drosto ei hun. Hanner can mlynedd yn ol, cynnhyrfid Cymru yn ddwfn gan ddadleuon ynghylch cwestiynau duwinyddol. I fachgen deallus fel John Thomas, nis gallai y dadleuon hyny lai na bod yn ddyddorol. A'r canlyniad uniongyrchol o hyn oedd, ei arwain i benderfynu newid ei enwad.' Ond yn y papur dan sylw, priodola efe ei dröedigaeth yn hytrach i'r caredigrwydd a'r mwyneidd-dra helaethach a ddangosid tuag ato gan weinidogion yr Annibynwyr, yn ei ymdrechion cyntaf gyda'r achos dirwestol. 'Ymddangosent (meddai), yn fwy rhydd a chyfeillgar na'r pregethwyr oeddwn wedi arfer weled.' Crybwylla yn neillduol enw yr Hybarch Arthur Jones, o Fangor, yr hwn oedd yn 'hynod gefnogol i fechgyn ieuainge:'—

'Cymmerai un neu ddau o honom (meddai), gydag ef i gynnal cyfarfodydd dirwestol mewn lleoedd bychain o amgylch Bangor; ac wrth fyned a dychwelyd, siaradai yn hollol gyfeillgar â ni. Ac er na ofynodd erioed i mi adael yr enwad gyda'r hwn y'm magwyd, etto, yr oedd ei ddull caredig a chyfeillgar yn fy nesu yn fawr ato.'

Ond yn y frawddeg sydd yn canlyn, y mae yn ddïau y deuwn o hyd i'r gwreiddiol achos o'r symmudiad:—

'Yr oedd ysbryd pregethu ynof yn gryf er yn blentyn, wedi ei gau o fewn fy esgyrn; ac ni allwn ymattal, er na fynegaswn hyny erioed i neb; ac yr oedd yn eglwys y Methodistiaid yn Mangor rai hen frodyr trahaus a thaiogaidd, y rhai yr oedd sarhau bechgyn ieuaingc yn foddhâd i'w heneidiau, yn enwedig os gwelent fod tipyn o duedd ymwthio ynddynt—oddi wrth yr hyn, yn ddïau, nid oeddwn yn rhydd. Yr oedd hefyd gyfaill i mi, ond hynach o oedran na myfi—y Parch. David Roberts, yn awr o Wrecsam—wedi ymuno â'r Annibynwyr o'm blaen i, ac wedi dechreu pregethu. Cyd-ddylanwadodd yr holl bethau hyn ar fy meddwl; ac heb ddyweyd gair wrth neb, ymunais â'r eglwys Annibynol yn Mangor dan ofal y Dr. Arthur Jones, pan yn ddwy-ar-bymtheg oed; ond derbyniwyd fi gyda chynnhesrwydd a sirioldeb mawr; a pharhaodd y cam a gymmerais mor annisgwyliadwy i bawb syndod, a siarad cyffredinol yn mysg fy hen gyfeillion.'

Ac yna, y mae yn digwydd eiriau a ddangosant mai nid am ei fod yn hoffi athrawiaeth a threfn eglwysig yr enwad Annibynol gymmaint yn well y bu iddo droi:—

'Nid oedd genyf y pryd hwnw (meddai) ond syniadau ammherffaith iawn am yr hyn a wahaniaethai y ddau enwad. Ond gwnaethum fy nghartref yn happus ar unwaith gyda fy nghyfeillion

Digitized by Google

newyddion; ac nid wyf hyd y dydd hwn wedi edifarhau am y cam a gymmerais, er fod yn aros yn fy nghalon barch dwfn i'r enwad gyda'r hwn y'm dygwyd i fyny, am yr addysg dda a gefais dan ei nawdd.'

Yn mhen o gylch tri mis wedi hyn, cymmhellodd Dr. Arthur Jones ef i ddechreu pregethu. Yr oedd ei frawd enwog, Owen Thomas, wedi dechreu pregethu gyda'r Methodistiaid rhyw bedair blynedd cyn hyn; sef, yn y fl. 1834, ac efe yn ddwy-ar-hugain oed. Ond nid oedd John ond dwy-ar-bymtheg pan yn dechreu ar orchwyl mawr ei fywyd, yn 1838; yr hyn ar unwaith a ddengys fod cryn wahaniaeth rhyngddynt o ran oedran a phrofiad. Nid yn Mangor, ond mewn tŷ bychan a saif ar fin y ffordd ger llaw Pont Menai, o'r enw Henglawdd, y traddododd efe ei bregeth gyntaf.

'Bychan a distadl (medd efe) oedd yr Henglawdd; a llawer a ddirmygwyd arno. Ond y mae y bwthyn bychan llwyd, â'i lawr llaith, yn gyssegredig yn fy nheimlad. Fy nhestyn cyntaf oedd *Salm* xciii. 1; 'Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; efe a wisgodd ardderchawgrwydd; gwisgodd yr Arglwydd nerth, ac ymwregysodd; y byd hefyd a sicrhawyd, fel na syflo.' Dechreuais, fel y gwelwch, gyda phethau rhy fawr, a rhy uchel i mi; ond fel dynion ieuaingc yn gyffredin, tybiwn fy hun y pryd hwnw yn gymmhwys i setlo y pyngciau mwyaf; y rhai y teimlwn yn awr dipyn yn wylaidd i gyffwrdd â hwy. Cefnogid fi i fyned yn mlaen; a chefais feirniadaeth y Doctor arnaf—a thrwyddedodd fi yn bregethwr.'

Yn niwedd haf 1839, dygwyd ef i sylw y frawdoliaeth Annibynol yn swydd Gaernarfon, mewn cynnadledd o weinidogion a ddaethant ynghyd i gyfarfod pregethu a gynnaliwyd yn Llanberis. Llettyai yno yn yr un tŷ a'r Parch. Robert Ellis, Rhoslan; yr hwn a'i hannogai i gymmeryd taith bregethwrol drwy Leyn ac Eifionydd, ac i ymsefydlu fel athraw ysgol dros y gauaf dyfodol yn ardal Tabor—yr hon, y pryd hwnw, oedd o fewn cylch gweinidogaeth Mr. Ellis:—ac felly y bu. Ymddengys iddo dreulio yn yr ardal ddywededig dymmor dedwydd iawn. Yn y capel y cedwid yr ysgol; ac yr oedd hwnw, fel pob capel, yn dra anghyfleus at y fath orchwyl. Arferid ffafrio y rhai blaenaf o'r plant drwy gael myned at y bwrdd yn y sêdd fawr i ysgrifenu; ond rhaid fyddai i'r rhan fwyaf o honynt wneyd byrddau o feingciau yr eisteddleoedd, â'u penliniau ar y llawr, gan nad pa mor oer a llaith y digwyddai i hwnw fod. Fel rheol, ni feddylid am gadw yr ysgolion ond dros tymmor y gauaf yn unig, gan y byddai angen gwasanaeth y plant mwyaf ynglŷn âg amaethiad y tiroedd pan ddelai y gwanwyn; ac ni feddylid fod yn werth cadw yr ysgolion yn mlaen er mwyn y rhai ieuangaf yn unig. Ystyriai ein gwrthddrych iddo dderbyn llawer o les, yn gystal a mwynhâd, yn ystod ei arosiad byr yn Eifionydd; yr hwn ranbarth o'r wlad a ffurfiai fath o wely brwd i athrylith farddonol ar y pryd; canys dyma y cyfnod yn mha un yr oedd Dewi Wyn, Robert ap Gwilym Ddu, Siôn Wyn o Eifion, Eben Fardd, ac eraill, yn eu bri mwyaf, ac yn dylanwadu yn fawr er dyfnhau ac ëangu y syniad am werth addysg yn mhlith y bobl.

Y lle nesaf y deuwn o hyd i Mr. Thomas yw yn Marton, yn sir Amwythig, lle yr oedd ysgol ac athraw o fri, er parotoi gwŷr ieuaingc at waith y weinidogaeth. Wedi bod yma am gryn dymmor yn yfed o ffynnonau dysg, ac yn mwynhau cymdeithas ddyrchafol myfyrwyr a fuont yn enwog ar ol hyny yn y weinidogaeth, megys Ieuan Gwynedd; Samuel Jones, Maentwrog; ac Edward Roberts, Cwmafon, &c., tueddid ef i symmud i Athrofa Ffrwd-y-fâl, lle y mwynhaodd efe gyfleusderau rhagorach, o bossibl, i ymenwogi fel pregethwr. Fodd bynag, yma yr oedd efe yn fyfyriwr ymroddgar pan y derbyniodd alwad o'r Bwlch-newydd—lle dymunol, heb fod yn mhell o dref Caerfyrddin. Ordeiniwyd ef yno ar y 15fed o Fehefin, 1842, cyn ei fod yn llawn un-ar-hugain oed. Treuliodd yma naw mlynedd yn hynod ddedwydd ar y cyfan. Yn wir, arferai edrych yn ol at y rhai hyny gyda boddhâd, gan eu hystyried yn mhlith blynyddoedd hapusaf ei fywyd. Yma y cafodd efe wraig, a chartref cysurus iddo ei hun; ac yma hefyd y bu i'w ddoniau pregethwrol ymddadblygu fel ag i dynu sylw Cymru oll. Mynych iawn, tra yn gweinidogaethu yn y Bwlch-newydd, y deuai efe i gyfarfyddiad â gweinidogion o enwogrwydd mawr o ran cymmeriad, doniau, ac ymroddiad trwyadl i'w gwaith; megys Rees, o Lanelli; Evans, o Gapel Seion; Williams, o Landeilo; Jones, o Bentre-tŷ-gwyn; Lewis, o Henllan, ac eraill; y rhai y bu ei ymwneyd â hwy o les annhraethol iddo. At y rhai hyn, dylid chwanegu enw 'y bardd-bregethwr' enwog Thomas Jones, o Hermon y pryd hwnw; ond wedi hyny o Dreforris, Llundain, Melbourne, ac Abertawe; yn nghwmni yr hwn, yn haf y flwyddyn 1848, y bu efe ar daith am fis yn y gogledd, gan dynu sylw, a pheri cyffro anghyffredin pa le bynag y deuent. 'Yr oedd genyf fi (ebe Dr. Thomas), neges i weled fy mam; a daeth yntau gyda mi, i weled y wlad.' Yn ystod tymmor ei weinidogaeth yn y Bwlch-newydd, adnewyddwyd y capel, helaethwyd yr ysgoldŷ er cynnal ynddo Ysgol Frytanaidd; a bu adnewyddiad hynod ar sêl a gweithgarwch athrawon a deiliaid yr Ysgol Sabbothol; ac yn 1849, torodd diwygiad crefyddol grymus allan, pan y daeth ugeiniau o'r newydd i ymrestru yn myddin y Gwaredwr.

Yn fuan wedi hyn, sef yn Chwefror, 1850, efe a symmudodd i Glyn Nedd—lle yr arosodd i weinidogaethu am bedair blynedd. Yr oedd yma gapel hardd, wedi costio 1,000*p.*; cynnulleidfa lawn a gweithgar, a mynwent helaeth, a gweithfeydd prysur, a golygfeydd o nodwedd mor ramantus a pharadwysaidd ag y gellir eu gweled yn un man. Yn 1852, cymmerodd Mr. Thomas ail daith trwy y Gogledd, yn nghwmni yr un cyfaill doniol—sef, Mr. Thomas Jones—i bregethu a chasglu at ddi-ddyledu Colegdŷ Aberhonddu, yn yr hyn y buont lwyddiannus iawn. Safai yn uchel erbyn hyn yn y rhes flaenaf o bregethwyr Cymru; fel mai peth cwbl naturiol oedd, fod llawer o eglwysi cryfion yma a thraw yn awyddus am ei gael i'w 'bugeilio yn yr Arglwydd.' Gan fod eglwys y Tabernacl yn Liverpool yn teimlo felly, ac mewn angen gweinidog o enwogrwydd, derbyniodd oddi yno alwad unfrydol, rywbryd tua diwedd 1853; yr hon alwad a attebodd yn gadarnhaol—yn un peth, am fod masnach wedi syrthio i ystâd hynod o ddirywiedig yn Glyn Nedd; ond yn benaf, am fod drws ëangach o ddefnyddioldeb yn ymagor yno o'i flaen. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yn y Tabernacl y Sul cyntaf yn Mawrth, 1854. Er nad ydoedd ond 33ain oed, yr oedd wedi cael deuddeng mlynedd o brofiad, ac wedi ennill iddo ei hun radd dda, fel yr

Digitized by Google

awgrymwyd eisoes, yn mhlith y rhai mwyaf hyawdl o bregethwyr y cyfnod. Deuai yno yn ddyn cyflawn—cyflawn o nerth corphorol, ac o yni meddyliol; a chyflawn hefyd o bob cymmhwysder at gyflawni ei waith fel cenad dros Grist yn y ddinas fawr hono. Nid oedd heb deimlo gradd o arswyd a phryder, yn ddiau. Gwyddai y byddai raid iddo ef ddal i'w gymmharu yn fynych â'i ragflaenoriaid enwog yn y Tabernacl. 'Beth a wnai y dyn a ddeuai ar ol y brenin?' Ond wele yma un cymmharol ieuangc yn dyfod ar ol rhai a ystyrid yn frenhinoedd yn mysg meddylwyr; nid amgen John Breese, Williams o'r Wern, a'r athrylithfawr William Rees (*Gwilym Hiraethog*); yr hwn, er's amser bellach, a symmudodd i gymmeryd gofal yr eglwys yn Salem, Brownlow Hill. Ond teimlai ei fod yno yn ol ewyllys Pen yr eglwys. Ei galon oedd yn ddisigl yn ymddiried yn Nuw. Yr oedd efe yn benderfynol, trwy ddwyfol ras, i wneyd y goreu o'r sefyllfa. Gan y mynai unioni ffordd yr Arglwydd, nid oedd am adael i'r glaswellt dyfu dan ei draed. Yr oedd ei gapel yn hardd, ëang, a chyfleus oddi mewn—er nad yn rhyw addurnol iawn oddi allan. Er nad oedd y gynnulleidfa, o herwydd marwolaethau a symmudiadau, gymmaint ag y bu, yr oedd hi etto yn fawr, a'r eglwys yn rhifo tua 230 o aelodau. Hyd yn hyn, yr oedd rhai cannoedd o ddyled yn aros ar y capel; ond gyda yr ysbrydiaeth newydd a ddaeth yno gydag ef, deffrodd y gynnulleidfa at y gwaith, fel y toddodd ymaith yn ebrwydd—fel y tawdd cŵyr o flaen y tân. Yr oedd gan y bobl, fel y gweinidog, galon i weithio; ac yr oedd llaw yr Arglwydd yn amlwg gyda hwynt. Yn 1859, wele adfywiad grymus yn tori allan unwaith yn rhagor yn eu plith, fel yn mhlith eglwysi Cymreig eraill y dref; a chyn diwedd y flwyddyn ddilynol, ceid fod eglwys y Tabernacl yn rhifo uwch law 400 o aelodau. Gallesid tybio ei fod yn anarferol o ddedwydd y pryd hwn, gan fod yr achos goreu yn ffynu mor ardderchog, a'i briod ac yntau mewn iechyd da, a'u plant yn bedwar o nifer, yn tyfu fel planhigion olewydd o amgylch eu bord.

O ddeutu y flwyddyn 1862, ceid Dr. Thomas yn brysur iawn ar waith ynglŷn â'r mudiad Dau-can-mlwyddol; sef, er anrhydeddu coffadwriaeth y Ddwy Fil Anghydffurfwyr a fwriwyd allan o'r Eglwys Sefydledig gan Ddeddf Unffurfiaeth y fl. 1662. Canlyniad y mudiad hwn fu adeiladu y colegdŷ mawr coffadwriaethol yn Aberhonddu—tuag at yr hwn y llwyddodd efe, a'r Parch. John Davies, Caerdydd, i gasglu tair mil o bunnau. Cyn bod yr amcan hwn wedi ei lwyr gyrhaedd, sef yn y fl. 1865, cymmerodd daith frysiog i America, ar gais nifer o eglwysi a gweinidogion, i'r dyben o'u cynnrychioli yn y gynnadledd fawr genedlaethol oedd i gael ei chynnal yn Boston yn mis Mehefin, er gwneyd yn hysbys i'r byd beth oedd barn Cynnulleidfaolwyr America ynghylch prif byngciau yr 'athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb.' Teithiodd yn nghwmni Mr. C. R. Jones, o Lanfyllin, a'r 'Gohebydd'—o wir beraidd goffadwriaeth! Yr oedd yn bresennol yn y gynnadledd hono 500 o weinidogion a chenhadon, yn cynnrychioli mwy na 3,000 o eglwysi Cynnulleidfaol gwasgaredig drwy y cyfandir mawr—o lanau y Werydd hyd lanau y Môr Tawelog. Rhoddodd y gynnadledd y derbyniad mwyaf croesawus i Dr. Thomas, a'i gyfeillion; a bu galwad arno i draddodi anerchiad yno yn enw Cymru; yr hyn a wnaeth mewn dull tra effeithiol. Yn ystod un o'r dyddiau hyny, aeth yr holl gynghor i waered i weled y *Plymouth Rock*, a'r fynwent yn yr hon y claddesid gweddillion y fintai gyntaf o'r Pererin-dadau; ac yno, wedi i un o'r gweinidogion gymmeryd ei safle ar gareg fedd un o'r tadau, efe a ddarllenodd, yn nghanol distawrwydd dwfn, y dadganiad pwysig y cyttunwyd arno y dydd blaenorol; ac yna, wedi darllen yr erthyglau, diosgodd pob un ei ben, a chyd-ddyrchafasant eu dwylaw tua'r nefoedd, gan ddadgan eu bod, trwy dreigliad yr oesoedd, wedi glynu yn ddiysgog wrth y ffydd a roddid unwaith i'r saint. 'Yr oedd yr holl olygfa (meddai Dr. Thomas) yn un nad anghofiaf tra y byddaf byw.' Gan nad oedd amgylchiadau yn caniatau iddo aros yn hir yn America y tro hwn, nis gallodd ymweled âg ond ychydig o'r sefydliadau Cymreig. Eithr yn mhob man lle y bu, cafodd gynnulleidfaoedd mawrion i'w wrandaw, a hwyl hyfryd i draddodi iddynt air y bywyd.

Ar ei ddychweliad o America, yr oedd gwaith mawr mewn gwirionedd yn ei aros; sef, hwylio at godi y Tabernacl newydd, yr hwn a welir ar safle ddyrchafedig yn nghwr uchaf Netherfield Road, gan ffurfio un o'r addurniadau penaf sydd yn y cwr hwnw o'r ddinas. Yr oedd hwnw i fod lawer yn amgenach na'r hen, ac i gostio 6,500*p.* Ofnodd llawer ei fod ef, a'i bobl, yn rhyfygu; ond nid ymddengys eu bod hwy eu hunain yn petruso dim. Erbyn dydd yr ŵyl agoriadol, sef yn niwedd Ionawr, 1868, gwelid eu bod, trwy gydweithrediad hapus, wedi cyflawni gorchestion yn y ffordd o gasglu, a barai syndod i'r holl dref.

Yr oedd ganddo waith mawr arall hefyd ar ei law tua'r pryd hwn; sef, parotoi at ddwyn allan, mewn cyssylltiad â'i hoffusaf gyfaill, Dr. Thomas Rees, o Abertawe, *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*. Yr oedd yr hysbysiadau cyntaf ynghylch y gwaith hwn allan er y flwyddyn 1864; ond bu raid disgwyl a theithio llawer, ac ysgrifenu myrdd o lythyrau, cyn llwyddo i gasglu digon o ddefnyddiau at gychwyn yr 'Hanes'—yr hwn yr oedd iddo gylch mor ëang. Pa fodd bynag, yn nechreu 1870, wele y rhan gyntaf o hono allan o'r wasg; ac erbyn dechreu Medi, 1875, yr oedd y bedwaredd gyfrol wedi ei chyhoeddi.

Yn ngwanwyn 1876, cymmerodd Dr. Thomas, yn nghwmni Dr. Rees, Abertawe, ail daith i America, gyda'r bwriad o ymweled, os gellid, â'r oll o'r sefydliadau Cymreig, gan bregethu yn mhob man, ac hefyd ddwyn i sylw *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*. Y noswaith cyn hwylio, cynnaliwyd gwasanaeth dyddorol yn y Tabernacl, pan y pregethodd Dr. Rees ar 'Ymadawiad y gogoniant,' ac y gweddiodd Dr. Owen Thomas gydag eneiniad ac effaith anghyffredin. Llawer gwaith, meddir, y cyfeiriodd Dr. Rees ati yn ystod y fordaith, gan ddyweyd, 'Foddwn i ddim ar ol y weddi hono.' Glaniasant yn ddiogel. Rhoddwyd i'r ddau dderbyniad tywysogaidd yn New York, fel yn mhob lle arall y buont ynddo. Anghofid ffiniau enwadaeth yn llwyr yn eu presennoldeb. Pregethent yn fynych yn nghapeli y Methodistiaid; ac wrth gyfleusdra, yn eu cyfarfodydd a'u cymdeithasfaoedd hefyd. Yn aml, hwy a bregethent ynghyd—weithiau hefyd ar wahân. Aethant gyda'u gilydd i weled y Niagara, a

Digitized by Google

chroesasant y Mississippi ynghyd. Yn ngorsaf Long Creek, hwy a ymwahanasant—Dr. Thomas i groesi y Mynyddoedd Creigiog am San Francisco, a Dr. Rees i ymweled â lleoedd a ystyrid yn bwysig yn nhalaethau Illinois ac Ohio. Bwriadent gyfarfod drachefn cyn hir yn Cincinnati, a myned am bum wythnos arall o daith, yn benaf trwy Pennsylvania. Ond dyryswyd y cynllun hwn mewn modd hynod; o blegid ar ddiwedd odfa hapus yn Vanwert, Ohio, estynwyd *telegram* i Dr. Rees i'w hysbysu am farwolaeth annisgwyliadwy ei briod yn Abertawe; yr hyn a barodd iddo, heb oedi moment, brysuro yn ol i Gymru, gan adael i'w hoff gyfaill fyned rhagddo wrtho ei hun i orphen y daith. Dylid crybwyll mai dyma y pryd y bu i wrthddrych y sylw presennol gael ei anrhydeddu gan y brif athrofa yn Middlesburg, Vermont, â'r teitl o Ddoctor mewn Duwinyddiaeth.

O adeg gorpheniad y daith Americanaidd hon yn 1876, hyd ei farwolaeth yn 1892, yr oedd Dr. John Thomas, yn ddiddadl, yn un o'r dynion prysuraf o fewn y Deyrnas Gyfunol. Teithiai, pregethai, ac ysgrifenai yn ddiddiwedd. Yr oedd mawredd ei lafur yn ymylu ar y gwyrthiol. Amcanai wasanaethu pawb, hyd y gallai, trwy Gymru a Lloegr hefyd. Yn nghanol yr holl brysurdeb hwn gyda phethau cyhoeddus, mynai amser i dalu y sylw manylaf i holl amgylchiadau yr achos crefyddol gartref. Fel 'ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas Dduw,' yr oedd yn hynod fedrus i ddwyn pobl ei ofal i fod yn gyd-gyfranog o'i ysbryd ardderchog ef ei hun. Nid oedd lonyddwch na gorphwysdra iddynt o'r naill ochr mwy na'r llall, hyd nes cael eu Tabernacl ëang a godidog yn rhydd o ddyled—yn dŷ i Dduw mewn gwirionedd. Drachefn, fel y darllenwn yn y bummed gyfrol o *Hanes yr Eglwysi Annibynol*, aeth yr eglwys, yn y fl. 1885, i draul fawr i adnewyddu y capel drwyddo, a chael ystafelloedd cyfleus ynglŷn âg ef, a rhoddi *organ* gref, gwerth 750*p*,. ynddo. Tua yr un adeg, penderfynwyd cael ysgoldŷ yn Anfield Road—pellder o ryw filldir o'r Tabernacl, gyda thŷ cyfleus yn perthyn iddo; a thir ddigon at godi capel arno, os gwelid rywbryd y byddai hyny yn angenrheidiol. Aeth yr holl draul gyda'r capel, fyr ysgoldŷ, a'r tir yn 3,000*p*. Talwyd swm lled dda o'r ddyled ar y pryd; ond yn 1887, gwnaed ymdrech adnewyddol, fel ag i dalu 1,400*p*. o'r ddyled:—yr hon, o hyny allan, a doddai ymaith yn raddol heb angen ymdrechion arbenig. Cliriodd yr eglwys dan ei ofal o gylch 9,000*p*. o ddyledion o gwbl; ac o'r swm yma, caed, trwy ei law ef ei hun, oddi wrth gyfeillion goludog yma a thraw, gyda'r hyn a roddid ganddo ef a'i deulu, y swm hardd o 1,900*p*. Ar un adeg, blinid yr achos Annibynol yn Birkenhead gan ddyled o 1,500*p*.—yr hon a gliriwyd ymaith yn llwyr, a hyny yn benaf trwy ei annogaethau a'i ymdrechion hunan-ymwadol ef.

Yr oedd Dr. Thomas yn un a anrhydeddwyd yn fawr mewn gwahanol ffyrdd yn ystod ei fywyd. Yn y flwyddyn 1878, dewiswyd ef yn gadeirydd yr Undeb Cynnulleidfaol Cymraeg; ac yr oedd ei anerchiad o'r gadair yn Llandilo, ar 'Dduwinyddiaeth yr Enwad,' yn rymus odiaeth. Tua'r diwedd, yr oedd yr effeithiau yn drydanol. Naw mlynedd yn ddiweddarach, sef yn 1885, galwyd ef yn annisgwyliadwy i lenwi cadair 'Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru,' yn lle ei gyfaill Dr. Rees, Abertawe, yr hwn a gwympodd yn annisgwyliadwy trwy law angau pan yr oedd cyfarfodydd cyntaf yr Undeb am y flwyddyn hono ar fin dechreu. Parodd y medr gyda'r hwn y cyflawnodd efe y gwaith a ddisgwylid oddi wrtho gan ei frodyr Saesnig, yn gyntaf yn y *City Temple*, Llundain, ac wedi hyny yn nghyfarfodydd hydrefol yr undeb yn Hanley--syndod a boddhad mawr a chyffredinol yn mysg Annibynwyr y deyrnas, a'r byd.

Cyflwynwyd iddo, hefyd, anrhegion o aur ac arian lawer iawn. Yn y flwyddyn 1866, derbyniodd gan ei gyfeillion rodd o gan gini, ac oriawr aur. Ac yn 1879, ar derfyniad chwarter canrif o weinidogaeth yn Liverpool, cafodd dysteb a gyrhaeddodd yn mron 700*p*.; ac yn Mai, 1892, ar adeg iwbili ei weinidogaeth, cyflwynwyd iddo dysteb a ystyrid yn Genedlaethol, a gyrhaeddodd Fil o Bunnau, a throsodd. Erbyn hyn, yr oedd ei dymmor gweithio ar fin terfynu. Ar y noswaith pan yr oedd y dysteb hon, ynghyd â'r ddau *illuminated address*—y naill oddi wrth gynnulleidfa y Tabernacl, a'r llall oddi wrth y gwahanol enwadau Cymreig—i gael eu cyflwyno iddo, yr oedd mor wanaidd o ran ei iechyd fel nas gallodd aros yn y cyfarfod ond dros amser byr yn unig. Ychydig cyn diwedd y flwyddyn flaenorol, canfyddid fod ei nerth yn cilio yn gyflym. Yn Nghaergybi, ei dref enedigol, y pregethodd am y tro olaf yn Nghymru, oddi ar y geiriau, 'Oddi cartref o'r corph, a chartrefu gyda'r Arglwydd.' A thestyn ei bregeth am y tro olaf yn ei bulpud ei hun yn Liverpool, nos Sabbath, Ionawr 9fed, oedd, 'Oni throi di a'n bywhau ni, fel y llawenycho dy bobl ynot ti.' Y dydd Sadwrn canlynol, pan yn ysgrifenu ei lythyr wythnosol i'r *Tyst*, torodd i lawr yn hollol; fel nad oedd braidd obaith am ei adferiad mwyach at wasanaeth cyhoeddus. Wedi gŵyl ei iwbili, er mwyn newidiad awyr, aeth i Southport am ychydig amser; ac oddi yno i ardal Colwyn, lle y cymmerodd ystafelloedd cysurus mewn palasdy bychan, o'r enw Uwch-y-don. Oddi yno, ar y 14eg o Orphenaf, 1892, yn 72ain ml. oed, yr ehedodd ei ysbryd mawr, pur, a goleuedig at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef, i fod byth yn iach a dedwydd, yn mhell uwch law holl donau terfysglyd y bywyd hwn. Cafodd angladd tywysogaidd yn ystod yr wythnos ddilynol; a lle bedd yn agos i eiddo ei frawd athrylithfawr, y Dr. Owen Thomas, yn Nghladdfa ëang Anfield Park. Traddodwyd ei bregeth angladdol yn y Tabernacl, noswaith ei gladdedigaeth, i gynnulleidfa orlawn, gan Dr. E. Herber Evans; a'r nos Sabbath canlynol, pregethid yn yr un lle i gynnulleidfa liosog a galarus gan Dr. O. Evans, o Lundain.

Er mor ammherffaith yw yr hanes a roddir uchod am Dr. John Thomas, gwasanaetha i ddangos ei fod yn un o'r dynion hynotaf a gododd yn Nghymru mewn oesau diweddar. Yr oedd wedi ei gynnysgaeddu gan awdwr bodolaeth â chorph cadarn, lluniaidd, a theg yr olwg arno, ac â'r fath gynneddfau deallol a moesol ag a dueddent, dan arweiniad dwyfol râs, i'w wneyd yn wrthddrych sylw ac edmygedd cyffredinol. Ceid ynddo grynhöad llawnach o ragoriaethau, a llai o ammherffeithiau, nag a welir mewn llawer o'n dynion cyhoeddus. Nid oedd efe heb ei ddiffygion, mwy nag eraill; ond cuddid hwynt o'r golwg yn lled lwyr gan fawredd ei ddaioni. Yn naturiol, y

Digitized by Google

mae'n wir ei fod o dymmer frysiog, a phoethlyd, braidd, fel yr oedd mewn perygl, yn wyneb unrhyw arddangosiad hynod o ddylni, neu fryntwch, neu anghyssondeb, i arfer geiriau chwerwon; ond yr oedd ei synwyr, ei ddoethineb, a'i ochelgarwch y fath fel mai anfynych iawn y rhoddai wir achos tramgwydd i neb, trwy sylwadau byrbwyll, neu orfrysiog. Yn mhell cyn diwedd ei oes, yr oedd ei dymmer wedi ei melysu i'r fath raddau fel yr ystyrid ef yn mhlith ei frodyr mor lariaidd ac mor hynaws a neb o'r goreuon o honynt. Am neillduolion ei gymmeriad fel dyn athrylithgar, fel Cristion, fel pregethwr a gweinidog, fel llenor, ac areithiwr ar byngciau cyhoeddus, fel diwygiwr cymdeithasol, fel dyngarwr, fel mab, fel tad a phen teulu, fel cyfaill a chymmydog, nis gellir dyweyd ond ychydig mewn cymmhariaeth i'r hyn a wyddis am dano. Coron ei holl ragoriaethau oedd ei dduwiolfrydedd. Rhoddodd brawf yn foreu ei fod wedi ei eni o Dduw; a pha gynnulleidfa fu erioed yn gwrandaw arno yn pregethu heb deimlo ei fod, megys Ioan, yn 'ŵr wedi ei anfon oddi wrth Dduw' i wneyd gwaith mawr ynglŷn â theyrnas nefoedd. Yr oedd ei nodwedd pur a dilychwin yn adlewyrchu anrhydedd arno fel gweinidog yr efengyl, ac yn fater o ymffrost boddhaus i'r enwad y perthynai iddo. Yr oedd cymmaint o'r nefoedd yn disgleirio yn ei holl ymwneyd â dynion, a chymmaint o ysbryd Crist yn dyfod i'r amlwg yn ei holl gyflawniadau crefyddol ac eglwysig, fel nad ydyw yn ormod dyweyd ei fod o hyd yn byw yn agos iawn i'r ddinas sanctaidd, ac i 'gyssegr preswylfeydd y Goruchaf.'

Ei fod yn caru achos y Gwaredwr, a hyny yn fawr, a ymddengys mor eglur a goleuni y dydd. Yr oedd ei holl fywyd wedi ei gyssegru i'r amcan goruchel hwn. Ewyllysiai ledaenu gwirionedd efengyl Crist i'r graddau helaethaf ag oedd yn ddichonadwy. Yr oedd yn gefnogydd aiddgar i'r Cymdeithasau Beiblaidd a Chenhadol, a pharod iawn fyddai i wneyd aberth o gysuron teuluaidd, ac i oddef anghyfleusderau personol lawer, gan deithio yn mhell, ac i bob math o leoedd, er mwyn gwasanaethu achosion teilwng, ac ëangu cylch ei ddefnyddioldeb ei hun. Ar achlysuron o'r fath, nid oedd neb drwy y byd yn barotach i gydweithredu â'i frodyr nag efe—a hyny yn y ffordd a'r amser a ddewisid ganddynt. Yr oedd ei ymlyniad wrth bob egwyddor neu symmudiad a dueddai er lles dynolryw yn rhyfeddol. Ymunodd â'r achos dirwestol yn Mangor, pan yn bedair-arddeg oed, a hyny yn y cyfarfod cyntaf o'r fath a gynnaliwyd yn y ddinas hono, os nad yn Nghymru i gyd; a chadwodd at yr ardystiad a wnaeth y pryd hwnw yn ffyddlawn, hyd oni 'ostyngwyd ei nerth ar y ffordd, ac y byrhawyd ei ddyddiau.' A phwy o fewn y Dywysogaeth oll a gyflawnodd amgenach gwasanaeth gyda'r achos da hwn nag efe? Yr oedd ei benderfynolrwydd i achlesu a phleidio yr hyn oedd dda a buddiol i ddynion, mor ddïanwadal a'r ddeddf a wna i'r afonydd lifo tua'r môr.

Moddylier etto am y gwasanaeth cyhoeddus a gyflawnodd fel llenor, a darlithydd ac areithiwr ar faterion gwleidyddol, ac amrywiol byngciau y dydd, drwy yr hyn y daw ei ddiwydrwydd, ei wladgarwch, a'i haelfrydigrwydd i'r golwg yn eglur iawn. Beth bynag yr ymaflai ei law ynddo, efe a'i gwnai â'i holl egni. Fel dyn o athrylith, elai drwy ei waith, gan nad o ba natur fyddai, gyda rhwyddineb synfawr. Dïau fod ysgrifenu a chyfansoddi darlithoedd, ac areithiau mawrion, yn waith mor rwydd iddo, yn mron, ag anadlu. Dechreuodd ymenwogi fel llenor yn union gyda ei fod wedi ymsefydlu yn y weinidogaeth. Efe a ysgrifenodd lawer iawn y pryd hwnw i'r *Diwygiwr*, ac wedi hyny yn ddiweddarach i'r *Adolygydd*, a'r *Beirniad*. Yn 1855, cychwynodd gyhoeddiad a adwaenid wrth yr enw *Gwerinwr*. O'r flwyddyn 1857 hyd y fl. 1861, bu yn golygu yr *Annibynwr*. O'r flwyddyn 1867 hyd ddiwedd ei oes, bu yn dal cyssylltiad â'r *Tyst*, fel ei brif olygydd. Ei lithiau ef ar bersonau, lleoedd, a digwyddiadau, o dan y penawd, 'Ymylon y Ffordd,' a roddai i'r newyddiadur wythnosol hwnw ei hynodrwydd mwyaf, drwy y blynyddau. Aml iawn oedd y traethodau godidog a barotowyd ganddo i'r *Dysgedydd* hefyd, o bryd i bryd; ac ni cheid o fewn y cyhoeddiad clodwiw hwnw, ddim a ystyrid yn fwy darllenadwy. Cyhoeddodd, hefyd, ddwy gyfrol drwchus o'i bregethau, i'r rhai y bu lledaeniad anghyffredin o helaeth. Mae yr un peth etto i'w ddyweyd am y cofiantau a ysgrifenwyd ganddo; sef, eiddo 'Y Tri Brawd,' Davies, Caerdydd, a Dr. Rees, o Abertawe. Maent oll yn dwyn ôl llafur dirfawr, ac yn hynod ddarllenadwy. Gwerthfawr hefyd, ynglŷn âg achos sobrwydd, yw y gyfrol ddestlus a ddygodd efe allan ar hanes y symmudiad dirwestol yn Nghymru, o'i gychwyniad hyd yn lled ddiweddar. Ond gorchest fawr lenyddol ei oes, yn ddïau, oedd cyfansoddi, mewn cyssylltiad â Dr. Rees, o Abertawe, *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*—yn bedair cyfrol. Ac ar ol i'w gydweithiwr enwog fyned i 'ffordd yr holl ddaear,' ymgymmerodd â dwyn allan bummed cyfrol o'r *Hanes*, yn cynnwys 536 o dudalenau, a'r oll o ddefnyddiau wedi eu dwyn ynghyd a'u trefnu ganddo ef ei hun.

Adwaenid ei glod fel darlithydd hefyd trwy Gymru oll. Yn mhlith ei destynau, gellir enwi 'Dyrchafiad y Gweithwyr,' 'Dydd St. Bartholomeus,' 'Richard Cobden,' 'Cymru a'i Diwygiadau,' 'Ein senedd a'n Seneddwyr,' 'Dadsefydliad a Dadwaddoliad,' &c., &c. Mynych y gelwid arno i draddodi un o honynt; yr hyn a wnelai yn ewyllysgar, ar y ddealltwriaeth fod corph yr elw i fyned at ryw achos cyhoeddus yn y lle y darlithid ynddo. Teithiodd, siaradodd, ac ysgrifenodd lawer iawn, er dwyn i sylw a chefnogi achos Cydraddoldeb Crefyddol. Yn amser etholiadau, byddai deisyfiadau taer, a disgwyliad pryderus am ei wasanaeth.

Fel dyn y llwyfan, mewn cyfarfodydd politicaidd, nid oedd ail iddo o fewn y Dywysogaeth. Byddai ei weled yn codi ar ei draed o flaen torf enfawr, a'i glywed gyda llais clir, clochaidd, yn dywedyd, 'Mr. Cadeirydd,' yn werth cerdded o bell, a thrwy dywydd garw, i'w fwynhau. Yn 1880, dywedai iddo fod mewn 73ain o gyfarfodydd etholiadol mewn pump o wahanol siroedd, ac iddo areithio yn mhob un o honynt, a chael y boddhâd o wybod ar ol hyny nad ofer fu y llafur mewn un o'r amgylchiadau. Addawai wneyd yn gyffelyb wedi hyny, pan ddeuai yr adeg, os caniateid iddo iechyd a nerth. Rhaid ei fod yn caru ei genedl a'i wlad yn fawr cyn y buasai yn addaw felly, gan nad oedd yn disgwyl, nac yn cael ond ychydig gydnabyddiaeth am ei wasanaeth.

Am gymmeriad Dr. Thomas fel pregethwr, ni raid chwanegu nemawr at yr hyn a fynegwyd

Digitized by Google

am dano yn barod. Onid oedd ei glod trwy yr holl eglwysi? Oni chlybuwyd ei leferydd fel cenad hedd yn mhob dinas, a thref, ac yn mhob pentref a chwm, trwy Gymru oll? Anhawdd fuasai enwi ardal anghysbell yn un man nas breintiwyd hi rywbryd â chyfleusdra i'w glywed ef yn cyhoeddi gair y bywyd. O foreu oes ei weinidogaeth, yn mron, arferai bregethu tua 250 o weithiau ar gyfartaledd bob blwyddyn. Yr oedd nifer y pregethau a draddododd mewn cylchwyliau, ac ar achlysuron neillduol, yn lliosog iawn. Bu yn pregethu, meddir, mewn cynnifer a 120 o gymmanfaoedd blynyddol; ac mewn ambell un o honynt, ddwy waith neu dair; ac fel rheol, i filoedd o wrandawyr yn yr awyr agored. Yr oedd holl elfenau pregethwr poblogaidd wedi cydgyfarfod ynddo mewn cymmesuredd hyfryd. Yr oedd yn feistr hollol yn mhob cynllun, trefn, neu arddull o bregethu y gellid meddwl am danynt. Yr oedd ei ddynsawd mor hardd, ei wynebpryd mor ddynodiadol o ddeallgarwch a hynawsedd, ei olygon mor dreiddgraff, ei lais mor glir, ei barabliad mor ystwyth, a'i bwyll, a'i arafwch, a'i hunanfeddiant wrth ragymadroddi, yn sicrhau iddo wrandawiad astud, gan nad beth fyddai maint y gynnulleidfa. Gofalai bob amser am athrawiaeth iachus—'yr hon ni ellid beio arni.' Ac o ran purdeb iaith, cyfanrwydd cyfansoddiad, a difrifwch wrth appelio at gydwybodau dynion, ni cheid ond ychydig a ddeuent i fyny âg ef. Mantais nodedig iddo oedd fod ei farn mor glir, ei ddychymyg mor ffrwythlawn, ei gof mor nerthol, a'i gydnabyddiaeth â'r oraclau dwyfol mor helaeth a manwl. Yr oedd fel pe yn cofio pob ymadrodd hynod, a phob adnod bwrpasol i'w fater, o ddechreu Genesis hyd ddiwedd y Datguddiad; a dygai hwynt i mewn i addurno a chyfoethogi ei bregethau, nes ymddangos o honynt fel 'afalau aur mewn gwaith arian cerfiedig.' Naturiol iddo ef oedd bod yn hyawdl. Ond wedi y twymnai gyda'i fater, tywalltai y fath ffrydlif o hyawdledd yn fynych fel ag i ddeffro ystyriaethau ei wrandawyr yn drwyadl. Er nad oedd ei floedd mor esmwyth, naturiol a chwmpasol ag eiddo Rees, o Lanelli, nac mor drydanol gynnhyrfus ag eiddo Dr. William Rees yn ei ddyddiau goreu, nac mor bêrseiniol ag eiddo y diweddar Stephen o Dan-y-marian; er hyny, yr oedd yn dra effeithiol—yn enwedig pan fyddai ei wrandawyr wedi esgyn yn naturiol gydag ef, a'u codi hyd at bwynt uchaf disgwyliad a boddhâd ysbrydol. Yr oedd ei ddifrifwch a'i angerddoldeb yn gyfryw ag a dueddent i ystwytho yr ysbrydoedd mwyaf cyndyn, a'u caethiwo i ufudd-dod Crist. Gan nad pwy fyddai yn ddiofal, yr oedd efe yn bryderus iawn ynghylch effaith ymarferol ei bregethau. Amcanai at fwy nag ennyn fflam o deimlad am y tro. Ei awyddfryd mawr oedd effeithio cyfnewidiad parhaol yn nghyflyrau pobl. Cadwai olwg glir yn feunyddiol ar wir amcan pregethu; sef, gogoneddu Duw, dyrchafu Crist, perffeithio y saint, ac annog yr annychweledig i 'ffoi rhag y llid a fydd.'

Fel gweinidog, yr oedd efe yn wir ofalus am 'borthi praidd Duw, gan fwrw golwg arnynt; nid trwy gymmhell, eithr yn ewyllysgar; nid er mwyn budr-elw, eithr o barodrwydd meddwl.' Yr oedd rhagoriaethau personol ei gymmeriad yn dylanwadu yn ddirfawr er effeithioliad ei waith ynglŷn â bugeilio eglwys Dduw. Yr oedd ei gydymdeimlad â'r trallodedig, ei ymweliadau doeth â'r rhai a gystuddid, ei ddylanwad cryf ac iachusol yn mhlith yr ieuengctyd a'r plant, ei gynghorion hynaws a thyner i deuluoedd, a'i rybuddion difrifol i rai a fyddent mewn perygl oddi wrth demtasiynau neillduol, yn adnabyddus i bawb. Rhyddfrydigrwydd ei ysbryd, a'i haelioni cysson a pharhaus er cynnorthwyo yr anghenus, a chefnogi pob achosion teilwng, a dueddent yn amlwg at sicrhau heddwch, llwyddiant, a chadernid yr eglwysi a'r cynnulleidfaoedd fyddent dan ei ofal. Gweithiodd yn ddyfal tuag at sirioli meddyliau dychweledigion yr Arglwydd, eu hadeiladu ar eu sancteiddiaf ffydd, a'u dwyn i fod yn rhagorol mewn gwybodaeth ac ufudddod cyffredinol. Wrth erchwyn gwely y claf, ar ddydd yr angladd, ac yn ngweinyddiad yr ordinhadau, cyflawnai ddyledswyddau ei swydd gyda doethineb a medr nodedig; a mynych y byddai ei weddïau ar achlysuron felly, yn gystal ag wrth ddechreu oedfaon cyhoeddus, yn cael eu hoffrymu gyda'r fath ddwysder, a thynerwch, ac eneiniad hyfryd, fel nad allai y rhai a'u clywent gyda theimladau addas byth eu hanghofio.

Ac onid oedd ei bryder am achos Duw yn gyffredinol, a'i eiddigedd dros athrawiaeth bur, a phregethiad diwyrni a theilwng o air Duw yn holl bulpudau y wlad, yn gosod nôd o arbenigrwydd arno fel 'gweinidog da i Iesu Grist.' Yn ei enwad ei hun, ymarweddai fel pe buasai gofal yr holl eglwysi, i gryn fesur, yn gorphwys arno. Hawdd oedd gweled fod eu llwyddiant yn agos iawn at ei galon. Yr oedd ganddo y parch mwyaf diffuant i ddynion teilwng yn mhob man. Mawr, yn sicr, oedd ei gydymdeimlad â brodyr yn y weinidogaeth, yn wyneb cystudd a henaint, neu anffodion annisgwyliadwy mewn bywyd. Bu yn offeryn i gychwyn amryw dystebau i rai felly, ac i roddi cynnorthwy effeithiol i lawer yn rhagor yn ystod yr hanner can mlynedd y bu yn y weinidogaeth. Cynnorthwyodd lawer hefyd ar weinidogion a lafurient mewn cylchoedd di-nôd, hyd oni chodai iddynt ymwared o le arall. Fel y diweddar Barch. W. Ambrose, o Borthmadog, yr oedd ganddo wir ofal calon am achosion gweiniaid yn mhob cwr o'r wlad. Yr oedd yn gwbl barod, yn ol cyfleusdra, i'w gwasanaethu mewn cylchwyliau blynyddol, neu gyfarfodydd pregethu; ac ni chlywid ef byth yn sôn am fychander y gydnabyddiaeth a roddid iddo mewn unrhyw fan.

Wrth reswm, teimlai agosrwydd mawr at Fethodistiaid Cymru. Yr un pryd, dymunai heddwch yr enwadau efengylaidd oll, ynghyd â ffyniant ar eu holl ymdrechion tuag at wella y byd. Yr oedd ganddo air da i'w ddyweyd hyd yn oed am y Pabyddion, druain! Yr oedd anrhydeddu Crist a'i groes yn peri iddo lawenydd, gan nad beth fyddai yn cymmhell rhai i wneyd felly. 'Gwell genyf,' medd efe yn un o'i bregethau argraphedig, 'fod yr offeiriad Pabaidd yn myned at y Wyddeles dlawd sydd yn marw yn y garet afiach, ac yn dal llun y groes o'i blaen, ac yn dyweyd enw Iesu yn ei chlust, na bod y druanes yn cael ei gadael i farw heb i neb ddyweyd gair wrthi am Waredwr. Beth wn i na all sibrydiad enw Iesu gan offeiriad Pabaidd yn nghlust y Wyddeles dlawd, pan y mae hi yn myned i lawr i'r afon, roddi iddi ryw lewyrch ar ogoniant Gwaredwr, nes gwasgar peth o'r niwl oddi ar y glŷn, a'i chadw byth—'etto, felly, megys trwy dân!'"

Digitized by Google

Yr oedd efe yn meddu ar y cariad sydd 'yn gobeithio pob dim,' ac mor ëang a'r fendith apostolaidd—'Gras fyddo gyda phawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb. Amen.'

Ac oni hynodid Dr. John Thomas yn fawr gan ei sêl a'i aiddgarwch dros burdeb yr athrawiaeth—dros 'ffurf yr ymadroddion iachus'—dros 'y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu'—a thros lefaru gair Duw 'mewn gwirionedd;' sef, fel y dylai gael ei lefaru—a thros gadw o'r pulpud 'ynfyd ac annysgedig gwestiynau;' y rhai nid ydynt dda i ddim, ond i fagu ymrysonau, a dadymchwelyd y gwrandawyr?' Ni feddai y genedl wyliedydd ffyddlonach nag ef. Yr oedd yn bregethwr i'r amserau, ac yn ddyn y ganrif mewn gwirionedd. Fel Jeremiah, yr oedd efe wedi ei roddi 'yn dŵr ac yn gadernid' yn mysg y bobl, 'i wybod ac i brofi eu ffordd hwy.' Gwyliai symmudiadau y gelyn ar bob llaw. Gofidiai yn fawr o blegid yr 'athrawiaethau amryw a dyeithr' a gyhoeddid o bulpudau, a thrwy y wasg Saesnig; a gofidiai etto yn fwy am ei fod yn cael lle i gredu fod cryn ysfa yn meddyliau rhai yn Nghymru am ymdebygu iddynt. Aml oedd y rhybuddion a roddodd efe mewn pregethau, anerchiadau, ac ysgrifau, rhag y drygau a'u bygythient. Daw angerddoldeb ei deimladau yn erbyn gŵyrdroi hanesion, ac athrawiaethau y Beibl, o'u hystyr naturiol ac amlwg, yn eglur iawn yn y bregeth ragorol ar yr 'Us a'r gwenith,' yr hon a draddodwyd ganddo gyntaf yn ystod un o gyfarfodydd yr Undeb Cynnulleidfaol Cymraeg. 'Gwell genyf,' eb efe, 'gymmeryd mynegiadau y Beibl yn syml fel y maent, na myned i ddamcanu am y sarph yn Eden—am asen Balaam—yr haul yn aros yn Gibeon—am demtiad Crist gan ddiafol—a llawer o gwestiynau cyffelyb yr ymrwystrir ynddynt. Nis gwn yn mha le yr ydym i sefyll os dechreuwn gilio oddi wrth fynegiadau syml y gwirionedd.' Pan yn sôn yn y bregeth hon am y 'syniadau croes i ddadganiadau pendant y Beibl,' a gyhoeddir o lawer areithfa yn y dyddiau hyn, ennynai ei soriant megys ffwrn. 'Mỳn rhai (meddai) dynu yr elfen ddirprwyol allan o farwolaeth Crist. Mỳn eraill nad ydyw ail enedigaeth yn ddim ond dadblygiad o rywbeth sydd yn y dyn yn wreiddiol. Ceir trydydd dosbarth a ysbeiliant weddi o bob gallu gyda Duw, er addef y gall hi fod yn ymarferiad iachusol i ni. Eraill a hònant nad ydyw yr Ysgrythyr Lân yn ysbrydoledig, ond yn unig mewn rhan. Gwedir athrawiaeth tragwyddol gosp yr annuwiol gan eraill; a rhai a ânt mor bell ag i hòni y bydd i eneidiau yr annuwiolion hyn oll gael eu llwyr ddifodi!' Rhestrir y rhai hyn oll gan Dr. John Thomas, fel y mae yn weddus, yn mysg y 'breuddwydwyr' a gondemnir yn Llyfr y Prophwyd Jeremiah. 'I ddal i fyny syniadau fel yna (medd efe) rhaid taflu adnodau egluraf y Beibl dros y bwrdd, a gosod ein rheswm a'n teimladau ar y faingc i farnu y gweddill.' Yn ymyl hyn chwanega—'Dyma yr hyfdra a'r beiddgarwch mwyaf digywilydd. Dylai yr arweinwyr crefyddol hyn droi y Beibl oddi ar estyll eu pulpudau, a bod yn ddigon gonest i ddweyd fel y gau-athrawon hyny, 'Breuddwydiais! Breuddwydiais!' Cyn diweddu, efe a ddywed, 'Mae perygl i ni, fel pregethwyr, ac i chwithau fel gwrandawyr, golli blâs ar wirioneddau achubol y Beibl; ac ni allaf feddwl am gyflwr is ar wlad na bod ei phregethwyr a'i gwrandawyr wedi colli blâs ar hen wirioneddau yr efengyl. Cadwed Duw ein gwlad ni rhag myned i'r agwedd yna! Pulpud wedi myned i goginio ymborth at archwaeth lygredig y bobl ydyw y farn drymaf a all ddisgyn byth ar wlad! Unwaith yr elo felly, gellir ysgrifenu 'Ichabod!' arno—'Y gogoniant a ymadawodd!'"



Ond dyma efe wedi ein gadael, 'a'i le nid edwyn ddim o hono ef mwy.' Yn ei farwolaeth, canfyddem gwymp un o gedrwydd cadarnaf mynydd Duw. Gyda sydynrwydd mawr y bu i hyn gymmeryd lle; ac iddo ef, onid oedd hyny yn drugaredd? Yn ei gystudd olaf, ni ddywedodd nemawr ynghylch ei brofiad—heb law ei fod yn foddlawn i ewyllys yr Arglwydd, ac yn teimlo yn gwbl ddiogel yn ei law ef. Ac onid oedd hyn yn ddigon? Priodol ydyw dyweyd am dano, fel y dywedwyd am yr enwog John Angell James, o Birmingham—'Ni cheisiem unrhyw dystiolaeth ganddo ef oddi ar wely angau o berthynas i'w obaith. Gwyddem fod hwnw mor ddiysgog a'r graig, mor ddisglaer a'r haul, ac mor sicr ag addewid y digelwyddog Dduw. Nid ydym yn gofalu am wybod pa fodd y bu efe farw; canys gwyddom mor dda pa fodd y bu fyw—ac y mae hyny yn annhraethol fwy pwysig.'

Caniatäed Duw, o'i ras, fod i'r esampl ddisglaer o rinwedd, a daioni, a defnyddioldeb, a roddwyd ganddo i'r byd, gael ei efelychu yn helaeth a manwl gan weinidogion a phobl; a phared i'r hâd gwerthfawr a hauwyd ganddo yn Mhrydain, ac ar gyfandir mawr America, ddyfod i'r amlwg oll, gan ffrwytho yn hardd, dan wlith a chawodau, a haul-dywyniad y nefoedd.

**THOMAS, Parch. JOSEPH**, Carno, yn sir Drefaldwyn. Ganwyd y pregethwr poblogaidd hwn Medi 17eg, 1814, yn Nhollborth Llangynog—plwyf a phentref bychan yn rhanbarth uchaf cantref Llanfyllin, yn sir Drefaldwyn. Mewn amgylchiadau cyffredin yr oedd ei rïeni. Chwarelwr, o'r enw Edward Thomas, o Ddyffryn Nantlle, sir Gaernarfon, oedd ei dad; yr hwn, yn ddyn lled ieuangc, a symmudodd i ddilyn ei alwedigaeth i Langynog. Yn mhen amser ar ol dyfod yno, priododd Mary, merch John ac Alice Morris, Pen-y-geulan. Bu iddynt wyth o blant—pump o feibion, a thair o ferched; a Joseph oedd yr ieuangaf, ond un, o'r plant. Yn fuan ar ol geni Joseph, y mae y teulu yn symmud i dŷ bychan, o'r enw Hen-ysgol, yn ymyl y chwarel lle yr oedd y tad yn gweithio. Cyn hir ar ol hyny, symmudodd Edward Thomas ei deulu i dŷ o'i eiddo ei hun, a adeiladodd efe ar dir Iarll Powys—heb un sicrwydd am dano, ond ewyllys da y boneddwr hwnw mewn gair yn unig. Cafodd y teulu ddal meddiant o'r tŷ tra y bu y tad a'r fam byw; ond ar farwolaeth yr olaf o honynt hwy, meddiannwyd ef gan berchenog y tir, heb gydnabod unrhyw hawl gan y teulu ynddo.

Ymddengys fod Edward Morris yn ŵr darbodus a gofalus am ei deulu; o herwydd mewn adeg o brinder gwaith, pryd nad oedd fawr o galon yn mherchenogion yr hen chwarel, na pherchenogion y gwaith plwm, i yru eu gweithfeydd yn mlaen, prydlesodd Chwarel y Gribin; a bu yn ei gweithio ar ei gyfrifoldeb ei hun am flynyddoedd, gan gadw dau neu dri o weithwyr. Fel yr oedd y bachgyn yn tyfu i fyny, cymmerid

Digitized by Google

hwy, o un i un, at eu tad i'r chwarel; ac yno y bu Joseph yn gweithio am ddeuddeng mlynedd cyn dechreu pregethu. Nid oedd tad Joseph Thomas yn proffesu crefydd, er ei fod yn ŵr o fuchedd ddichlynaidd. Gwrandäwr yn unig ydoedd pan y bu farw; ond yr oedd ei fam yn grefydd-wraig, a chafodd y plant bob mantais oddi wrthi mewn cynghor ac esampl. Etto, ni ddygwyd y plant i fyny yn yr eglwys; ond byddent yn gysson yn y capel yn mhob moddion cyhoeddus ar y Sabbath a dyddiau yr wythnos; a dywedid na bu Joseph erioed heb deimlo y dyddordeb mwyaf yn y capel, a phob peth perthynol i'r achos. Yr oedd ei fam yn wraig feddylgar a synwyrol, a meddai graffder i adnabod personau ac amgylchiadau; ac etifeddodd Joseph rai o'r rhagoriaethau hyn oedd mor amlwg ynddi.

Yn nyddiau mebyd Joseph Thomas, yr oedd ieuengctyd Llangynog yn ymroddi yn llwyr i ddigrifwch ac oferedd; ac i raddau rhy bell, dilynodd yntau y lliaws i wneuthur drwg. Ond er yn blentyn, yr oedd ganddo lawer o hunan-barch; a chadwyd ef rhag cyflawni pechodau gwarthus. Yr oedd hefyd yn ymbleseru llawer mewn pysgota, hela, a saethu; ac yn ymroddi yn llwyr i'r peth a fyddai gydag ef. Yr oedd yn boblogaidd yn mysg ei gyfoedion, a byddai yn barddoni cryn lawer er eu difyrwch. Barnai am dano ei hun, pe buasai yn canlyn yn mlaen, y buasai yn gwneyd cystal bardd, a rhywbeth arall. Y rheswm am iddo roddi i fyny brydyddu oedd, mai rhai lled ddigymmeriad oedd hyny o feirdd y gwyddai efe am danynt ar y pryd. Er fod ganddo ef fel hyn, pan yn dilyn oferedd, gryn ofal am ei gymmeriad, etto yr oedd yn myned i dafarnau, ac yn arfer yfed; ac yn wir, wedi cymmeryd cyfeiriad a fuasai yn rhoddi hanes tra gwahanol i'w fywyd i'r hyn ydoedd, oni buasai i'r Arglwydd, yn ei ras, ragflaenu ei aflwydd.

Ychydig o fanteision addysg a gafodd efe pan yn blentyn; ond gwnaeth y defnydd goreu o hyny oedd yn ei gyrhaedd. Bu am amser mewn ysgol gyda Mary Richards, hen ferch ag oedd wedi cael dygiad da i fyny, a gadwai ysgol yn y gymmydogaeth. Wedi hyny, fe ddaeth Richard Vaughan, o Aberangell, yn mhlwyf Mallwyd, i gadw ysgol i Langynog. Yr oedd efe yn ysgolhaig gwych, a'r ysgol a gadwai yn hollol rydd, gan fod yr ysgolfeistr yn cael ei dalu o rodd elusenol Madam Bevan. Dysgodd yma ysgrifenu a darllen Saesneg yn lled dda, a deall yr iaith i ryw fesur. Yr oedd yn hoff o'r Ysgol Sabbothol er yn blentyn—yn un o'r rhai goreu ynddi am ddysgu yr *Hyfforddwr*, a'i adrodd yn gyhoeddus; ac yn ddiarebol am ei gydnabyddiaeth â chynnwys y Beibl. Byddai ysgol Llangynog yr adeg yma yn myned drosodd i Hirnant, ac ysgol Hirnant yn dyfod i Langynog, bob yn ail, i adrodd pennodau o'r *Hyfforddwr*, a chael eu holi arni ar nos Sabbath; ac nid oedd neb yn manteisio mwy ar hyn na Joseph Thomas. Yn y wedd yma, dysgodd yr oll o'r *Hyfforddwr* yn drwyadl; ac yr oedd yn hyddysg yn ei gwestiynau hyd ddiwedd ei oes.

Yn mis Tachwedd, yn y fl. 1836, sefydlwyd Cymdeithas Ddirwestol yn Llangynog; ac yn gynnar yn y fl. 1837, ymunodd Joseph Thomas â'r gymdeithas hono; a gellir ei gyfrif yn un o waredigion y Diwygiad Dirwestol yn Nghymru. Pan yn ei annog i ymuno â dirwest, dywedai, 'Os af fi yn ddirwestwr, dirwestwr a fyddaf fi am fy oes;' ac felly y bu. Yr oedd llawer iawn o lwyddiant ar ddirwest yn y cwmpasoedd, a'r galwad am areithwyr mor fawr, fel yr aeth llawer o wŷr ieuaingc Llangynog i'r ardaloedd cylchynol i areithio ar ddirwest; ac yn y dull hwn y dygwyd Joseph Thomas gyntaf i sylw, ac yr amlygwyd i'r wlad ei gymmhwysder i lanw cylchoedd cyhoeddus. Efe a ennillodd boblogrwydd mawr fel areithiwr ar ddirwest; a byddai galwad mawr am dano i gyfarfodydd cyhoeddus yn yr ardaloedd cylchynol. Yr oedd un peth yn ei flino yn fawr yn nghanol ei boblogrwydd fel areithiwr, a hyny oedd y cwestiwn, A oedd yn addas iddo ef fyned hyd y wlad i areithio ar ddirwest, ac yntau heb fod yn aelod eglwysig? Nid hir y blinwyd ef gan hyn, gan iddo gyflwyno ei hun i'r eglwys yn mhen ychydig gyda dwy flynedd ar ol myned yn ddirwestwr.

Rywbryd, yn nechreu y fl. 1839, yr oedd y diweddar Dr. Owen Thomas, Liverpool, yr hwn, y pryd hwnw, oedd yn efrydydd yn y Bala, ac a adnabyddid fel 'Owen Thomas, Bangor'—yn pregethu yn Llangynog y Sabbath. Cafodd odfeuon llewyrchus y boreu a'r hwyr oddi ar yr un testyn: 'Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl? Os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ol ef; ond os Baal, ewch ar ei ol yntau. A'r bobl nid attebasant iddo air;' 1 *Bren.* xviii. 21. Yn yr odfeuon hyny y difrifolwyd meddwl Joseph Thomas am ei fater mawr tragwyddol. Bu cyfnewidiad amlwg ynddo o'r pryd hwnw allan; ond bu am beth amser yn petruso, ac yn bwrw y draul, cyn ymuno âg eglwys Dduw. Ymunodd gyntaf â'r eglwys yn Mhen-y-bont-fawr, eglwys yr Annibynwyr, yn unig am y rheswm fod y Parch. David Price, y gweinidog, ac yntau, ar delerau tra chyfeillgar; a'i fod yn teimlo fod yn haws ar y pryd ymuno âg eglwysi yr Annibynwyr nag eiddo y Methodistiaid. Ond yn mhen yr wythnos dychwelodd, ac ymunodd â'r Methodistiaid. Wedi ymuno â'r eglwys, teimlai yn gryfach i fyned hyd y wlad i areithio; ac o hyny allan, elai yn fwy rhwydd. Galwyd am dano hefyd i gyfarfodydd ysgolion, i siarad ar faterion perthynol i'r Ysgol Sabbothol; ac ennillodd boblogrwydd mawr yn y cylch hwn, fel mewn cylchoedd eraill. Yr oedd arno gryn awydd dechreu pregethu yr adeg yma; ond nid oedd neb yn ei gymmhell i hyny, ac nid oedd yntau yn hoffi ymwthio i'r gwaith.

Dydd Nadolig, yn y fl. 1840, cynnelid gŵyl ddirwestol yn Llwyneinion, capel bychan sydd o fewn tair milldir i'r Bala. Yr oedd Joseph Thomas yn areithio yno; a phwy oedd yn gwrandaw arno ond Dr. Edwards, y Bala. Cafodd y gŵr dysgedig hwnw y fath foddlonrwydd ynddo fel y cymmhellodd ef yn daer i ddyfod i'r Bala, a dechreu pregethu. Yn mis Mawrth, 1841, yr aeth efe gyntaf i'r athrofa; a bu yno am ryw dymmor a hanner cyn dechreu pregethu. Yn niwedd y flwyddyn hono, ysgrifenodd Dr. Edwards lythyr yn ei gylch i Gyfarfod Misol sir Drefaldwyn, gan ei gymmeradwyo fel un cymmhwys i ddechreu pregethu. Anfonwyd y Parch. John Hughes, Pontrobert, i ymddiddan âg ef, ac i'w holi; a chafodd y patriarch hwnw y fath foddlonrwydd ynddo fel yr annogodd ef i ddechreu pregethu y Sabbath dilynol—Sabbath olaf y fl. 1841—yn Llangynog. Rhoddodd John Hughes y fath gymmeradwyaeth iddo yn y cyfarfod misol fel yr oedd Joseph

Digitized by Google

Thomas yn myned i'r Bala ddechreu y fl. 1842, yn bregethwr rheolaidd. Ennillodd gryn boblogrwydd fel pregethwr tra y bu yn yr athrofa, er nad arosodd yno ond hyd fis Hydref, 1843.

Y pryd hwnw yr oedd pwyllgor y Genhadaeth Gartrefol mewn angen am genhadwr i ofalu am yr achos yn Bilston a Birmingham; a chyn diwedd y fl. 1843, yr oedd efe wedi ymsefydlu yn y lle. Yr oedd i ofalu am yr achos yn y ddau le fel eu gilydd, ac i bregethu ynddynt bob yn ail Sabbath ar hyd y flwyddyn. Nid oedd pethau yn rhyw gysurus iawn yn y lleoedd hyn, pan yr aeth efe yno; ond bu ei ddyfodiad yn foddion i ostegu teimladau cythryblus, ac i adferu heddwch a thangnefedd yn mhlith yr aelodau. Pan yr oedd efe yno, yn y fl. 1845, y derbyniwyd ef yn aelod o'r gymdeithasfa fel pregethwr. Ac yn fuan ar ol ei dderbyn felly, aeth ar daith i bregethu i Leyn ac Eifionydd; ac wrth flino yn traethu cyfansoddiadau llafurfawr dair gwaith yn y dydd, cynnygiodd mewn rhai capeli bychain ddywedyd yr hyn oedd ganddo mewn dull mwy rhydd ac esmwyth iddo ei hun; ac felly y gwybu fod y dull ymddiddanol o draddodi ei bregethau yn well iddo ef nag un dull arall. O hyny allan, daeth yn un o'r pregethwyr mwyaf naturiol, dyddorol, a swynol, a feddem fel cenedl.

Wedi llafurio yn egniol a llwyddiannus yn Birmingham a Bilston am yn agos i dair blynedd, symmudodd, yn niwedd 1846, i ofalu am un-ar-ddeg o eglwysi yn nosbarth Llanfyllin. Yr oedd i bregethu yn un o'r lleoedd bron bob nos o'r wythnos, ac i gadw cyfarfod eglwysig ar ol y bregeth. Yr oedd i bregethu bob Sabbath hefyd yn un o deithiau Sabbothol y cylch oedd dan ei ofal; sef, yn Llanfyllin, Llanrhaiadr-yn-mochnant, a Llangynog, ac un o'r teithiau cyssylltiedig. Bu yn hynod o gymmeradwy a llwyddiannus yn y cylch hwn tra yr arosodd ynddo; ac yr oedd ei weinidogaeth yn cario dylanwad tu allan i derfynau ei enwad ei hun, ac yn graddol droi wyneb y wlad at y Methodistiaid. Daeth llawer o esgeuluswyr moddion gras i wrandaw yr efengyl. Ymunodd rhai o honynt â'r eglwysi, a chartrefodd eraill yn y cynnulleidfaoedd.

Yn nechreu 1848, ymadawodd Mr. Joseph Thomas o ddosbarth Llanfyllin, gan iddo, ar y 4ydd o Chwefror y flwyddyn hono, briodi Margaret, unig ferch y blaenor parchus a ffyddlawn, Mr. Edward Owen, Pen-y-bont, Carno; ac yn y lle hwnw yr ymsefydlodd ac yr arosodd am weddill ei oes. Wedi dyfod i Garno, ymroddodd yn mhob modd i godi yr achos yn y lle, ac i fod yn wasanaethgar gyda holl ranau y gwaith. Yn agos i'r amser hwnw yr oedd Mr. Edward Owen yn rhoi adroddiad am yr achos i awdwr *Methodistiaeth Cymru;* ac yn ol hwnw yr oedd nifer yr aelodau eglwysig ar y pryd yn Ngharno yn 80. Ar yr adeg y bu Mr. Thomas farw yr oedd eu nifer yn 164; ac felly, gwelir eu bod, yn ystod ei arosiad ef yno, wedi mwy na dyblu eu rhif. Pan y cofir fod poblogaeth Carno, fel yr ardaloedd amaethyddol yn gyffredin, yn lleihau, gwelir fod hwn yn gynnydd mawr. Yr haf cyntaf ar ol iddo ddyfod i Garno, ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth. Cymmerodd hyny le mewn cymmanfa neillduol a gynnaliwyd yn Machynlleth, Gorphenaf 19—21ain. Yr oedd Cymdeithasfa Chwarterol y Gogledd wedi ei chynnal yn y Bala y mis Mehefin cyn hyny.

Yn y cyfnod hwn yr oedd Mr. Thomas mewn galwad mawr i fyned i'r ardaloedd cylchynol i bregethu ar nosweithiau yr wythnos, i gynnal cyfarfodydd eglwysig, ac areithio ar ddirwest. Mae ei ddyddiaduron yn dangos ei fod yn llawn gwaith, a hwnw mor amrywiol fel yr oedd yn gofyn cryn lawer o amser i barotoi ar ei gyfer. Yr oedd teithio mewn bri mawr yr adeg hon; a chyn hir ar ol ei ordeinio, bu yntau ar deithiau lled feithion yn sir Feirionydd, a sir Ddinbych, ac hefyd yn y Deheudir. Ac o'r flwyddyn 1850 hyd ddiwedd ei oes, yr oedd yn cael ei alw yn mhell ac yn agos i gyfarfodydd pregethu; ac nid oedd neb yn fwy derbyniol nag efe gan y cynnulleidfaoedd yn gyffredinol. Yn nechreu y fl. 1850 y bu gyntaf yn Liverpool; a gadawodd argraph hynod o ffafriol ar y cynnulleidfaoedd yno; fel y ceir ef yn myned yno am Sabbothau gyda chyssondeb, ynghyd â chael ei alw yn fynych i bregethu i'r gymmanfa a gynnelid yno bob Sulgwyn. Er ei fod yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd ac adnabyddus yn Nghymru, ac yn cael ei alw i gyfarfodydd pregethu i bob rhan o'r wlad, bu yn lled hir cyn cael unrhyw le yn y gymdeithasfa. Ond cafodd le lled amlwg yn y gymdeithasfa gyntaf y bu yn pregethu ynddi yn y Gogledd. Yn Nghymdeithasfa Pwllheli, ceir ei fod yn pregethu dair gwaith y dydd olaf, Medi 10fed, 1858—am ddeg yn y boreu yn Mhen-lan, capel yr Annibynwyr; am ddau yn nghapel y Bedyddwyr; a'r hwyr yn Mhen-mount. Gadawodd argraph hynod o ffafriol ar y wlad yn y gymdeithasfa hon. Sonid am dano fel un oedd â rhyw neillduolrwydd yn perthyn iddo. Cawn ei fod yn pregethu etto yn Nghymdeithasfa Caergybi, Mawrth 16eg, 1859.

Yn y fl. 1860, fe drefnwyd iddo draethu ar Natur eglwys, ynglŷn â'r ordeinio yn Nghymdeithasfa y Gogledd, yr hon a gynnelid yn Nolgellau Mehefin 13eg a'r 14eg; a gwnaeth hyny yn effeithiol hefyd. Pregethodd ar y maes yn odfa yr hwyr yr un diwrnod, a chafodd odfa hynod lewyrchus.

Teimlodd Mr. Thomas bethau grymus iawn ei hun yn Niwygiad 1859 ac 1860; ac yr oedd rhyw arddeliad neillduol ar ei weinidogaeth y pryd hwnw. Yr oedd oddi cartref yn barhaus —yn cadw odfeuon, ac yn cynnal cyfarfodydd pregethu. Dychwelwyd llawer trwy ei weinidogaeth yn y blynyddoedd hyny; a chafodd y dychweledigion un cynghorwr synwyrol a ffyddlawn ynddo ef.

Bu yn meddwl unwaith am droi allan fel darlithydd; a bu yn darlithio ryw ddwsin neu chwaneg o weithiau ar 'Ddoethineb a Rhyfeddodau Duw mewn Natur.' Costiodd casglu defnyddiau y ddarlith hon lawer o lafur iddo mewn darllen a meddwl; ond llafur oedd a dalodd yn rhagorol iddo, gan y byddai ar adegau, hyd ddiwedd ei oes, yn gallu defnyddio gwahanol ranau o honi i ddybenion da yn ei bregethau. Wedi ei thraddodi mewn un lle, a'r cadeirydd yn dywedyd ambell air digrif i atteb arabedd y darlithydd, dywedodd na thraddodai efe ddarlith byth ond hyny. Pan ofynwyd iddo ei reswm dywedodd, 'Yr wyf wedi gweled fod yn ammhossibl cyfuno y darlithydd poblogaidd a'r pregethwr difrifol yn yr un dyn.'

Bu yn gofalu am gyfarfod ysgolion dosbarth Llanidloes am ddeugain mlynedd, ac yn dilyn y cyfarfodydd yn gysson fel holwr cyhoeddus. Ei ragflaenor yn y cyssylltiad hwn oedd y Parch. David Williams, o Lanidloes—gŵr o ddoniau

Digitized by Google

disglaer, ac yn cael ei ystyried yn holwr rhagorol. Cyfansoddodd gyfres o gwestiynau ar brif byngciau crefydd yr adeg yma; ac y mae yn eglur mai ei amcan mawr oedd gwreiddio a seilio deiliaid yr Ysgol Sabbothol mewn golygiadau cywir ar bethau hanfodol crefydd. Byddai ganddo, braidd bob amser, ddau neu dri o gwestiynau, a byddai yn gofyn nifer o gwestiynau llai fel i arwain atynt; ac wedi cael yr atteb priodol i'r prif gwestiwn, holai amryw gwestiynau fel casgliadau naturiol oddi wrtho, a thrwy hyny gwnai ryw olygiad arbenig yn eglur i'r gynnulleidfa. Wedi profiad o ddeugain mlynedd, ei farn ef ydoedd mai yr *Hyfforddwr* oedd y llyfr goreu mewn bod i ddysgu pobl yn egwyddorion crefydd. Ei ragoriaeth arbenig fel holwr oedd gallu myned yn agos at y rhai y byddai yn eu holi, a'u tynu i atteb yn rhydd a di-ofn. Byddai ei gyfarchiadau i'r cynnrychiolwyr yn y cyfarfodydd hyn o duedd galonogol; a byddai ganddynt ystôr o sylwadau gwerthfawr a phwrpasol i'w hadrodd o'r cyfarfod ysgol ar ol myned adref.

Yn nghyfarfod misol ei sir, yr oedd yn frenin yn ngwir ystyr y gair; ond ei fod yn frenin caredig iawn. Er fod cymmaint o alw arno i fyned oddi cartref, byddai yn trefnu yn rhyfedd fel ag i allu bod yn bresennol yn nghyfarfodydd misol pen uchaf sir Drefaldwyn gyda chyssondeb mawr. Gwir ofalai am yr achos yn y cylch; ac yr oedd yn dra hyddysg yn hanes crefydd yn y sir. Cariai ei ysbryd heddychol a thangnefeddus ddylanwad ar yr holl gyfarfod; a byddai ei gasineb at ymgecraeth a chyndyn ddadleu yn lladd y duedd hono mewn eraill. Ni ddywedai ddim a barai friw ac archoll i neb. Nid oedd yn chwennych y blaen mewn un cylch; ond byddai yn ei gael, am ei fod yn ei deilyngu. Gofalai am roddi ei le i bawb; ac felly yr oedd pawb yn foddlawn iddo yntau gael ei le. Yn y gymdeithasfa, yr oedd yn cilio rhag cymmeryd ei le fel un o arweinwyr y cyfundeb. Anfynych y siaradai yn y cynnadleddau; ond pan y gwnai, gwrandewid ar yr hyn a ddywedai fel lleferydd doethineb ar y mater dan sylw.

Yr oedd yn ddiarebol am ei bwyll a'i ddoethineb yn mhob dim. Nid oedd un llinell yn ei gymmeriad yn amlycach na chymmedroledd. Byddai yn cadw oddi wrth yr eithafol gyda phob peth. Yr oedd yn naturiol gysson a gwastad yn ei holl ffyrdd; ac ni byddai ei dymmer yn cynnhyrfu i'r fath raddau ag i fod yn brofedigaeth iddo. Byddai yn sefyll yn ddiysgog dros wirionedd bob amser; ond ni byddai un math o gasineb na chroesder ynddo pan yn amddiffyn yr hyn fyddai yn iawn. Byddai yn arfer a dweyd fod llawer o bobl yn camgymmeryd natur ddrwg a chwerwedd ysbryd am sêl grefyddol dros wirionedd. Yr oedd un brawd yn canmawl wrtho hen frawd o flaenor oedd yn ddysgyblwr mawr; ond nid oedd efe yn barod i'w gymmeradwyo am ei waith yn dysgyblu. 'Y mae David Humphreys,' ebe y cyfaill, 'yn cael ei ysu gan sêl y tŷ i daflu arian y newidwyr allan o'r deml.' 'Ydyw; y mae efe felly,' ebe Mr. Thomas, 'ond ni welsoch chwi erioed y drafferth fyddwn ni yn gael i'w rwystro i daflu llestri y deml allan i'w canlyn. Rhaid cadw y rhai hyny yn bur loewon, neu fe'u teflir allan gan yr hen frawd.'

Yr oedd o dymmer siriol, ac yn llawn o arabedd. Yr oedd y ddawn hon ynddo yn wreiddiol. Nid masnachu mewn dywediadau o'r fath y byddai, ond eu cloddio allan o'i fwnglawdd ei hun. Byddai ambell un yn arfer ei ddawn gydag ef yn y dull hwn; ond byddai yn debyg o orfod talu treth drom am ei ryfyg. Yr oedd ei arabedd o'r fath uchaf a mwyaf gwerthfawr; ac nid yn fynych y gwelwyd pregethwr yn gallu ei ddefnyddio i raddau mor helaeth, ac i gystal pwrpas yn y pulpud. Yr oedd ei natur dda, a'r arabedd a feddai, yn ei alluogi i wneuthur gwaith yn aml trwy un frawddeg, nas gellid ei wneyd mor effeithiol trwy awr o ymresymu. Yn chwanegol at hyny, yr oedd yn un o'r dynion mwyaf craff a welwyd erioed. Darllenai ddynion fel y darllenai lyfrau; a gwelai i mewn i gymmeriad ar unwaith. Medrai nodi allan neillduolion cymmeriad mewn gair neu frawddeg, gyda'r fath gywirdeb, ac mewn dull mor ddigrifol, fel nas gellid anghofio y disgrifiad, na'i gofio heb wên a mwynhâd. Yr oedd beirniadu dynion yn y wedd yma yn ail natur iddo, a byddai yn ymhyfrydu yn y gwaith. Ni ddiangai neb rhag ei sylw a'i feirniadaeth; ond nid oedd byth falais na drwg-deimlad yn ei sylwadau ar bersonau.

Fel pregethwr, yr oedd iddo y lle dyfnaf yn serchiadau ei wrandawyr. Sychedai y cynnulleidfaoedd am ei weinidogaeth; ac addefir nad oedd cenadwri neb yn fwy bendithiol i'r wlad na'r eiddo ef. Yr oedd pob dosbarth o wrandawyr yn ei wrandaw yn ewyllysgar, ac yn derbyn lles drwyddo. Yr oedd yn 'bregethwr y bobl' yn ngwir ystyr y gair. Yr oedd y dosbarth mwyaf cyffredin, a'r dosbarth mwyaf deallus, yn ymuno yn eu cymmeradwyaeth iddo, a'u hedmygedd o hono. Nid mor hawdd, fe allai, ydyw nodi allan elfenau ei boblogrwydd, a rhoddi cyfrif boddhaol am y swyn a'r dylanwad a feddai ar y lliaws. Nid un peth arbenig oedd yn rhoi cyfrif am hyn, ond rhyw gyfuniad o ragoriaethau oedd yn ei wneyd yn bregethwr mor swynol a defnyddiol. Yn gyntaf, rhaid nodi y gwreiddioldeb diammheuol oedd ynddo fel pregethwr. Yr oedd efe yn wreiddiol yn ei ddull o feddwl, yn ei ddull o eirio, ac yn ei ddull o lefaru. Yr oedd yn darllen llawer, ac yn gwneyd defnydd o'r hyn a ddarllenai: ond darllen i gryfhau ei feddwl y byddai efe; ac nid i arbed y llafur o feddwl a myfyrio ei hun. Yr oedd ganddo allu i gofio yr hyn a ddarllenai; a pha faint bynag a fanteisiai ar hyny, cynnyrch tyfadwy ei feddwl ef ei hun oedd ei bregethau. Yr oedd neillduolion personol, a neillduolion ei gymmeriad, yn dyfod i'r golwg yn yr oll a wnai. Yr oedd yn hollol ar ei ben ei hun—heb fod yn debyg i neb; ac yr oedd yn cadw y neillduolrwydd heb wneyd ei hun yn hynod, ac yn eithriad yn mhlith dynion eraill. Yr oedd ei nodweddion gwahaniaethol mor amlwg, ac o'r fath werth, fel yr oedd hyn yn elfen yn ei boblogrwydd.

Yn ail, Yr oedd yn berffaith naturiol yn yr oll a wnelai; ac yr oedd y naturioldeb hwn yn codi o'r elfenau goreu mewn dyn—difrifwch, a chywirdeb. Y mae pob rhodres a ffuantrwydd, a phob ymgais annhêg at effaith, yn codi o ddiffyg difrifwch yn y pregethwr. Yr oedd Mr. Thomas wedi darostwng pob nwyd a dawn a feddai i ufudd-dod Crist, fel yr oedd yn gallu ymdaflu yn rhydd yn nghyflawnder y ddynoliaeth ardderchog a feddai i waith y weinidogaeth. Y naturioldeb hwn oedd yn ei sicrhau, fel na welid mo hono yn gwneyd ymgais methiantus yn y pulpud, nac yn un man arall.

Digitized by Google

Yn drydydd, Crybwyllwyd o'r blaen am ei arabedd; ond rhaid cyfrif hyn yn un elfen yn ei boblogrwydd. Gwelai y digrifol yn mhob peth, ac yr oedd ganddo allu anghyffredin i'w fwynhau; a byddai, trwy ryw air hapus rhwng cromfachau, neu ryw gildröad oddi wrth fater y bregeth, yn gallu ei ddangos i'r gynnulleidfa heb y gradd lleiaf o ddiffyg chwaeth, nac ymgais at yru y bobl i ysgafnder. Buasai yn annaturiol iddo beidio a bod yn arabus; ac nis gallasai edrych yn sych syrllyd heb fod yn ffugiol, a pheryglu ei ddefnyddioldeb. Yr oedd ei ddifrifwch ef yn sicrhau na arferai byth mo'i ddawn i fod o un anfantais i amcan y bregeth. Defnyddiai ei arabedd bob amser i nawseiddio, tymmheru, a sirioli y bobl, er mantais i 'eiriau gwirionedd a sobrwydd' gael argraph ddwysach ar eu teimlad a'u côf. Byddai yn fynych ryw hylif byw yn chwareu trwy ei sylwadau, gan oglais meddwl a theimlad ei wrandawyr, i'w cadw mewn tymmer foddhaus, ac ar delerau mor dda â'r pregethwr fel y gwrandawent arno yn ewyllysgar, heb flinder na grwgnach, am agos ddwy awr o amser. I ddull ymddiddanol o bregethu, y mae arabedd yn hanfodol i effeithiolrwydd; ac y mae yn creu nawseidddra a bywyd yn nheimladau y cynnulleidfaoedd, sydd yn rhoddi mantais i'r llefarwr arnynt. Meddai Joseph Thomas gyflawnder o hono; a gwyddai pa fodd i'w ddefnyddio yn y pulpud i'r fantais oreu.

Yn bedwerydd, Yr oedd ei ddull o osod ei feddwl allan trwy gymmhariaethau, yn elfen amlwg yn mhoblogrwydd a dylanwad ei weinidogaeth. Yr oedd yn graffus i weled cyfaddasrwydd ffeithiau mewn natur a hanesiaeth i osod allan wirioneddau crefydd. Trwy gymmhariaethau ac eglurebau, dygai y gwirionedd a ddysgai i gyffyrddiad bywiol â meddyliau ei wrandawyr, gan eu galluogi i'w sylweddoli a'i deimlo i raddau helaeth. Byddai yn gosod y gwirionedd a ddysgai mewn brawddeg fer gynnwysfawr, a hono mor lawn o synwyr, ac wedi ei geirio mor hapus, fel y byddai pawb yn sicr o'i chofio. Yna, byddai ganddo gymmhariaeth, neu hanesyn, fel eglureb i osod allan yr hyn a ddywedasid o'r blaen, ac i'w gymmhwyso yn effeithiol at ystyriaeth a theimlad ei wrandawyr. Ei lyfr mawr ef oedd y Beibl. Yr oedd ymadroddion yr Ysgrythyr yn cael eu cydwau â'i eiriau ei hun mewn modd hapus yn ei frawddegau; ac yr oedd ei gymmhariaethau a'i eglurebau yn cael eu dwyn o'r un ffynnonell ddihysbydd. Nid oedd un rhan o'r Beibl yn ddyeithr iddo; a gallai droi, a thrafod, a chymmhwyso ei hanesynau fel y mynai, er dwyn y bobl i ddeall a theimlo y gwirionedd. Yn hyn yr oedd efe ar ei ben ei hun yn mhlith ei frodyr; ac nid yn fuan y daw neb i ddwyn ei goron oddi arno. Ysgrifenydd ydoedd 'wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd, ac yn dwyn allan o'i drysorau bethau newydd a hen;' a'i drysordŷ anchwiliadwy ef oedd Gair Duw.

Yn bummed, Heb law hyny, yr oedd holl rediad ei bregethau yn gwbl ymarferol. Os byddai yn trin athrawiaethau crefydd, gwnai hyny i amcan ymarferol; a byddai pob cymmhariaeth eglurhaol yn gwasanaethu yn gymmhwysiad hefyd. Daliai yn gryf mai lle i ddysgu gwirioneddau crefydd yn eu hagweddau ymarferol oedd y pulpud, a gweithiai ei gredo allan yn ei ddull o bregethu. Rhoddai arbenigrwydd ar y gwirioneddau hyny oedd â thuedd ynddynt i achub y gwrandawyr, a'u codi i fod yn wneuthurwyr y Gair. Pan yn rhybuddio, ni byddai yn hyf a llym, ond yn lleddnais ac yn dyner; ac ystyriai bob amser addfwynder a thynerwch yr arfogaeth fwyaf effeithiol i orchfygu a darostwng yr ysbryd cildynus.

Yn chweched, Yr oedd ei deimlad a'i ysbryd yn hynod o efengylaidd. Gallai nad oedd yn meddu yr angerddoldeb a'r nwyd danllyd sydd yn angenrheidiol i wneyd areithydd o'r radd flaenaf; ond yr oedd ganddo gyflawnder o gynnhesrwydd a nawseidd-dra toddedig yn dylifo allan yn ei ymadroddion, i'w glywed yn nhôn ei lais, ac i'w weled yn ngwedd ei wynebpryd. Nis gallai y rhai a'i clywodd anghofio y modd y disgrifiai raslonrwydd a daioni Duw yn nhrefn yr efengyl; a byddai ei holl ysbryd yn gydnaws â'r hyn a ddywedai. Byddai meddwl am dosturi Duw yn toddi ei galon ef ei hun; fel y byddai yntau, with sôn am hyny, yn llwyddo gydag eraill. Gwelwyd cynnulleidfa yn foddfa o ddagrau lawer gwaith dan ei weinidogaeth. Nid nerth oedd yn nodweddu ei weinidogaeth ef; ond rhyw effeithiolrwydd tawel a ddynodir gan y gair 'gwlithog.' Yr oedd efe yn breggethwr gwlithog mewn gwirionedd. Nid y corwynt yn dryllio y creigiau—nid y tân yn dychrynu, ac yn cyffroi—oedd ei weinidogaeth ef; ond llef ddistaw fain, a Duw yn fynych iawn yn hono.

Yn seithfed, Yr oedd ei ymddangosiad personol yn y pulpud yn dra manteisiol iddo i gael dylanwad ar y bobl. Cynnysgaeddwyd ef â chorph oedd, o ran ei ffurf a'i faintioli, yn tynu sylw. Yr oedd yn dâl, yn drwchus, ac yn gymmhesur; ac addurnid ei ymddangosiad gan hunan-feddiant, urddas, ac addfwynder, fel y tueddid y dorf i wrandaw arno o hono ei hun, ac i edrych arno gyda pharch a phleser. Er's blynyddoedd lawer yr oedd ei wallt yn hollol wyn, a'i wyneb llyfn a llawn yn bob mantais i arddangos ansoddau ei gymmeriad. Arddangosid yn ei lygaid y synwyr a'r craffder mwyaf; ond yr oedd amddifadrwydd o falais a dichell yn peri fod callineb y sarph yn cael ei wisgo yn brydferth â diniweidrwydd y golomen. Nid oedd ynddo ddim, mewn gwedd nac ystum, i greu rhagfarn mewn cynnulleidfa yn ei erbyn, ond yn hytrach bob peth i ennill ei ffafr. Nid oedd ei lais yn soniarus, na'i beiriannau llafar yn hynod o ystwyth. Nis gallai seinio y llythyren *r* yn gywir. Byddai yn ei gwneyd mewn rhai geiriau yn debyg i'r llythyren *dd*, er nad yn hollol felly. Ond cymmaint oedd y swyn a berthynai iddo fel yr oedd y diffyg hwn yn cael ei hoffi gan lawer. Dan ryw fath o ddallineb edmygol, ystyriai rhai fod yr hynodrwydd hwn yn elfen yn ei boblogrwydd.

Bu yn pregethu am saith mlynedd a deugain: ac yn ystod y cyfnod maith hwn, ni fylchwyd fawr ar ei ddefnyddioldeb cyhoeddus gan afiechyd, nac un amgylchiad arall. Yr oedd ei iechyd yn doredig i raddau y pedair blynedd olaf o'i oes; ond daliodd i bregethu bron yn gysson hyd o fewn tri mis i'w farwolaeth; yr hyn a gymmerodd le Ionawr 14eg, 1889, yn 74ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent plwyf Carno, y 18fed o'r un mis. Bu farw yn gyflawn o barch, wedi gwasanaethu ei genhedlaeth yn ffyddlawn trwy ewyllys Duw; ac y mae ei goffadwriaeth yn gynnysgaeth fendigedig i'w unig fab, a'i gydnabod, ar ei ol. Cafodd bob anrhydedd a allasai y cyfundeb ei roddi iddo.

Digitized by Google

Bu yn traethu ar 'Natur Eglwys' yn y cyfarfod ordeinio yn 1860; yn traddodi y cynghor ar yr achlysur hwn ddwywaith—yn 1872 ac yn 1888; yn llywydd Cymdeithasfa y Gogledd yn 1868; yn cynnrychioli y cyfundeb yn yr Undeb Cynnulleidfaol yn 1877; yn llywydd y Gymmanfa Gyffredinol yn 1878; ac yn arholwr cymdeithasfaol am y blynyddoedd 1877, 1878, a 1879.

THOMAS, Y PARCH. OWEN, D.D. Ganwyd ef ar y 12fed o Ragfyr, 1812, yn Nghaergybi. Efe oedd cyntafanedig ei rieni; a chafodd ei fedyddio gan y diweddar Barch. Richard Lloyd, o Beaumaris. Owen Thomas oedd enw ei dad. Naddwr ceryg oedd efe wrth ei alwedigaeth, a brodor o Landdeiniolen, yn sir Gaernarfon. Yr oedd yn un o saith neu wyth o frodyr; a bu yr oll o honynt, yn mron, yn grefyddwyr enwog ac adnabyddus, ac yn swyddogion eglwysig defnyddiol. Adnabyddid ei dad fel dyn tyner a charedig, fel gŵr o wybodaeth a barn, ac o dduwioldeb diammheuol. Am ei fam, yr oedd hi yn wraig hynod o brydweddol a doeth, ac yn feddiannol ar dalentau a chrefydd tu hwnt i'r cyffredin. Dygwyd hi i fyny ar aelwyd oedd yn feithriniad rhagorol i fywyd crefyddol, yn gystal ag yn ddadblygiad ac yn ddiwylliad i'r galluoedd naturiol cryfion â pha rai y nodweddid ei phlant. Gellid disgwyl cryn lawer oddi wrth blant oedd yn meddu tad a mam o'r fath gymmeriad a'r rhai hyn; ac y mae pawb sydd yn gydnabyddus â hanes ein gwrthddrych, a'i frodyr, sef, y Parchn. John Thomas, D.D., Josiah Thomas, M.A., ynghyd â'r diweddar Mr. William Thomas, o Lynlleifiad, yn deall yn dda na chafodd y wlad ei siomi.

Yn y fl. 1827, symmudodd y teulu i Fangor, a dewiswyd y tad yn flaenor yn eglwys y Tabernacl. Disgwylid gwasanaeth mawr oddi wrtho; ond bu farw wedi cystudd byr, Gorph. 7fed 1831, yn 46ain mlwydd oed. Wedi dyfod i Fangor, dechreuodd gwrthddrych ein hysgrif dynu sylw fel dyn ieuangc galluog a chrefyddol. Cymmerai ran flaenllaw a phwysig gyda'r Ysgol Sabbothol, y cyfarfodydd ysgolion, Cymdeithasau Cymmedrolddeb a Dirwest, a Chymdeithas y Beiblau. Yr oedd yn gwneyd pob peth—ond pregethu. Wrth ganfod ei dalentau, ei ddoniau, a'i grefyddolder, cymmhellwyd ef i ddechreu ar y gwaith hwnw hefyd—â'r hyn y cydsyniodd yn rhwydd. Pregethodd ei bregeth gyntaf yn Mangor, yn nechreu y fl. 1834, ar y geiriau, 'Am hyny, byddwch chwithau barod,' &c. Derbyniwyd ef yn aelod o Gyfarfod Misol Arfon, yn Nghapel y Graig, yn Mehefin yr un flwyddyn. Yr oedd y Parch. John Elias yn bresennol yn y cyfarfod hwnw, ac efe oedd yn ymddiddan â'r pregethwyr ieuaingc oedd yn cael eu derbyn. Gofynodd i Owen Thomas, 'Beth ydyw eich barn chwi am y *Cyffes Ffydd?*' Yr atteb oedd, 'Fel pe buaswn wedi ei wneyd fy hunan, syr.' Y Sabbath cyntaf wedi ei dderbyn yn aelod o'r cyfarfod misol, yr oedd i bregethu yn Mangor; a chan fod capel y Methodistiaid ar lawr y pryd hwnw, pregethodd yn y boreu yn nghapel yr Annibynwyr, ac yn yr hwyr yn yr awyr agored. Dywedir iddo bregethu allan yn ystod yr haf hwnw tuag wyth o weithiau yn yr un lle. Oddi wrth hyn, fe welir ei fod wedi cael ei ddarparu yn rhagorol ar gychwyniad ei yrfa weinidogaethol ar gyfer y cylch pwysig yr oedd efe i droi ynddo ar hyd ei oes.

Pan ddechreuodd bregethu, aeth ei enw yn adnabyddus trwy y wlad bron ar unwaith. Yn y fl. 1835, aeth ar daith trwy siroedd Dinbych a Fflint; ac ar y daith hono, tua'r Nadolig, yn un o gapelydd sir Ddinbych, y cafodd, yn ol ei dystiolaeth ei hun, un o'r bendithion mwyaf a gafodd erioed fel pregethwr; sef, teimlo am y tro cyntaf hunan-feddiant llawn, fel y gallai ymddiddan â'r gwrandawyr, yn gyflym neu yn araf, yn uchel neu yn isel, fel yr ewyllysiai—yr hyn a fu yn nodweddiadol o'i bregethu hyd y diwedd.

Yr oedd y Gymdeithas Ddirwestol, erbyn hyn, wedi ei chychwyn; a chan fod Mr. Thomas yn bleidiwr selog iddi, yr oedd galw mawr am ei wasanaeth fel areithiwr. Yn Nghymmanfa Ddirwestol y Gogledd a gynnaliwyd yn Nghaernarfon yn y fl. 1837, lle yr oedd yn bresennol y Parchn. John Elias, Christmas Evans, a Williams o'r Wern, pennodwyd O. Thomas i fyned ar daith ddirwestol dros y gymmanfa i'r Deheudir. Yr oedd brawd arall, o'r enw y Parch. R. P. Griffiths, Llanberis, gydag ef. Dechreuasant yn Nhrawsfynydd, aethant trwy Dolgellau, Llanbrynmair, a Llanidloes i lawr i Fynwy; ac yn mlaen trwy Forganwg i Benfro; ac yn ol trwy Aberteifi, gan orphen y daith yn mhen tua deng wythnos yn Meirionydd eilwaith. Yn ystod y daith hon, pregethodd am y waith gyntaf yn Nghymdeithasfa y Deheudir, yn Hwlffordd, ar y 24ain a'r 25ain o Hydref. Ei destyn oedd, 'Wele Oen Duw,' &c.; a dywedir fod rhyw arddeliad neillduol ar y gwirionedd fel y traddodid ef ganddo. Yn 1838, aeth i Gymmanfa Aberteifi, i chwilio am bregethwyr i ddyfod i Gymmanfa Bangor, yn Medi, yr un flwyddyn, a chymmerodd daith fer trwy Aberteifi a Phenfro. O dan ei weinidogaeth ef, tua yr adeg yma, pan yn pregethu yn Llangynog, y cafodd y diweddar Barch. Joseph Thomas, o Carno, ei ddwyn at grefydd.

Yn y fl. 1838, aeth i Goleg y Bala; a saif ei enw yn mhlith y deuddeg efrydwyr a aethant i mewn yn yr ail flwyddyn ar ol agoriad y coleg. Yr oedd y coleg y pryd hwnw dan ofal y Parch. Lewis Edwards, a'r Parch. David Charles. Yma yr oedd Mr. Parry (Dr. Parry, yr athraw wedi hyny) yn cydlettya âg ef. Yr oeddynt yn gyfeillion mawr, a pharhasant felly hyd y diwedd. 'Haiarn a hoga haiarn, felly gŵr wyneb ei gyfaill.' Yr oedd y ddau, trwy rydd ymddiddan a dadleu ar byngciau dyfnion a dyrus, yn hogi meddyliau eu gilydd, ac yn foddion i gynnyrchu meddylgarwch yn y rhai ag oedd yn cael y fraint o wrandaw arnynt. Clywsom y diweddar brifathraw, y Parch. David Charles Davies, Trefecca, yn dyweyd ei fod yn priodoli ei gychwyniad fel meddyliwr i'r cynnhyrfiad a gafodd pan yn fachgen wrth wrandaw ar y ddau efrydydd galluog a enwyd yn dadleu. Arosasant yn y Bala hyd y fl. 1841, pryd yr aethant i fyny i Brifysgol Edinburgh. Arosodd gwrthddrych ein hysgrif yno hyd 1844; ond gan nas gallai aros yn hwy, bu gorfod iddo ymadael heb gymmeryd gradd. Ond er hyny, derbyniodd les dirfawr yn mhrif ddinas y Gogledd; a gadawodd rhai o'r athrawon, yn enwedig Dr. Chalmers, argraph annilëadwy ar ei feddwl; ac agorwyd ei lygaid ar athroniaeth hefyd gan y dysgawdwr byd enwog, Syr William Hamilton.

Ar ol gadael Edinburgh, ymsefydlodd fel gweinidog eglwys Pen-mount, Pwllheli. Preg-

Digitized by Google

ethai yno un Sabbath o bob mis, a phob nos Iau. Yr oedd yn boblogaidd iawn ar yr adeg yma, a'i weinidogaeth yn eglur dan fendith y Nefoedd i gyrhaedd ei hamcanion mawrion ar eneidiau dynion. Yn 1846, symmudodd i'r Drefnewydd, i bregethu Saesneg dri Sabbath o'r mis, ac un Sabbath yn y capel Cymraeg. Bu ei weinidogaeth yn llwyddiannus iawn yno hefyd, ac yn y cylchoedd cymmydogaethol. Ond nid arosodd yn hir yno; o blegid cawn ef yn derbyn galwad i fod yn weinidog eglwys barchus Jewin Crescent, Llundain, yn 1851; ac fel 'Owen Thomas, Llundain' yr adnabyddid ef bellach trwy y wlad. Bu ei fynediad yno o fantais ammhrisiadwy i'r holl eglwysi; ac y mae rhai o ddynion goreu yr eglwysi hyny heddyw yn ystyried mai braint fwyaf eu hoes oedd cael mwynhau ei weinidogaeth alluog, effeithiol, a chyfeiriadol, yn ystod y cyfnod hwnw. Yr oedd wedi dyfod yn bregethwr Saesneg da cyn myned i Lundain, trwy yr ymarferiad a gafodd yn y Drefnewydd; a phregethai yn fynych yn Saesneg yn y brifddinas. Bu aml waith yn llenwi pulpud Regent Square, lle yr oedd Dr. Hamilton yn gweinidogaethu; a hyny gyda chymmeradwyaeth mawr.

Yn y fl. 1860, ymbriododd âg Ellen, merch ieuengaf y diweddaf Barch. William Roberts, o Amlwch; a bu iddynt bump o blant—dau fab a thair merch. Y mae yr holl blant yn fyw, oddi eithr un mab. Nid arosodd yn Llundain wedi iddo briodi; o blegid cawn ef, yn 1865, yn symmud i Lynlleifiad, i gymmeryd gofal eglwys Netherfield Road. Bu tymmor ei anwyl briod yn llai yn Llynlleifiad nag yn Llundain; canys ymadawodd â'r fuchedd hon, Mawrth 24ain, 1867, er dirfawr ofid i'w phriod, ei theulu, a chylch ëang o gyfeillion. Torodd ei gyssylltiad â Netherfield Road yn 1871; ac ymsefydlodd fel gweinidog eglwys Prince's Road—cyssylltiad a barhaodd hyd ddiwedd ei oes. Yn yr addoldy hwn y traddododd ei bregeth ddiweddaf, Chwefror 22ain, 1891, ar y testyn—'Ni fernais i mi wybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio; 1 *Cor.* ii. 2. Yr oedd y testyn hwn yn nodweddiadol iawn o'i holl weinidogaeth.

Wedi hyn, gwanychodd yn raddol hyd ddydd ei farwolaeth; sef y Sabbath, Awst 2il. Yr oedd yn hynod dawel ac ymostyngol trwy ei holl waeledd, er ei fod hyd y diwedd bron yn gafael yn dŷn mewn bywyd, er mwyn cael 'gwasanaethu Duw yn efengyl ei Fab.' Aeth i lawr i'r glŷn gyda thawelwch a hunan-feddiant mawr; ac am hanner awr wedi tri y Sabbath a nodwyd, ehedodd ei ysbryd addfwyn a phur i ddechreu ar Sabbath na bydd diwedd arno byth. Dydd Gwener, Awst y 7fed, ydoedd diwrnod ei gladdedigaeth; ac ymgasglodd miloedd o'i gyfeillion a'i edmygwyr o wahanol ranau y wlad i hebrwng ei weddillion marwol i gladdfa Anfield, Llynlleifiad. Yr oedd y gwasanaeth yn Prince's Road, ac wrth y bedd, yn hynod effeithiol. Diwrnod a hir gofir gan y dyrfa fawr oedd yn bresennol oedd diwrnod claddu Dr. Thomas.

Pe na buasem yn gwybod dim am dano ond yr hyn oedd i'w weled a'i deimlo ddiwrnod ei gladdedigaeth, gallesid gyda phriodoldeb ofyn cwestiwn y brenin Dafydd, 'Oni wyddoch chwi i dywysog ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel?' Abner ydoedd y gŵr mawr y cyfeiriai Dafydd ato; ac yn sicr, nid ydyw pob mawredd yn unrhyw fawredd. Yr oedd Abner yn fawr fel rhyfelwr, ac fel tywysog yn llys y brenin; ond nid mawredd felly ydoedd mawredd gwrthddrych ein sylwadau ni. Mawredd tangnefeddwr oedd ei fawredd ef; ac nid mawredd rhyfelwr. Nid mawredd tywysog yn llys y brenin ydoedd; ond mawredd tywysog o bregethwr yn cyhoeddi 'y newyddion da o lawenydd mawr' i'w gydwladwyr. Dyma fawredd moesol. Yr oedd hwn yn gyfryw fawredd o ran ei natur fel ag i wneyd ei berchenog yn fawr ac yn anwyl yn ngolwg y nefoedd. Y mae natur y mawredd hwn yn sicrhau parhâd tragwyddol iddo. Dywedai Mr. Spurgeon, yn ystod ei waeledd diweddaf, '*Perhaps my time is up, and that my Heavenly Father wants me for higher service.*' Felly y bu gyda'r gŵr enwog a lefarodd y geiriau; ac felly y bu gyda ein hybarch frawd Dr. Thomas. Yr oedd ei amser i fyny, ac yr oedd ar ei Dad nefol ei eisieu at wasanaeth uwch. Ië: ac at wasanaeth uwch y mae efe wedi myned. Y mae ei wasanaeth yn awr ar raddfa ëangach, a than amgylchiadau mwy cysurus; ac y mae mwy o fawredd yn perthyn iddo yn awr nag erioed. Y mae efe heddyw 'yn frenin ac yn offeiriad i Dduw ei Dad ef.' Yr oedd efe yn fawr gymmhariaethol pan yma yn ein plith ni; hyny yw, yr oedd yn llawer mwy na lliaws ei frodyr yn y weinidogaeth. Yr oedd o'i ysgwyddau i fyny yn uwch na'r mwyafrif o honynt.

Dangosodd Dr. Thomas yn moreuddydd ei fywyd arwyddion mawredd dyfodol. Dywedai ei fam yr adwaenai holl lythyrenau y wyddor pan yn flwydd a saith mis oed, ac y gallai ddarllen Saesneg a Chymraeg yn dda pan rhwng tair a phedair oed. Cyn hir, daeth yn ysgrifenwr mawr. Pan rhwng saith ac wyth oed, ysgrifenai benau pob pregeth a wrandawai; a chadwodd yr arferiad hwn i fyny am lawer o flynyddoedd, nes y daeth yn feddiannol ar gyfrolau o bregethau, y rhai sydd ar gael hyd y dydd hwn. Cynghorwn bobl ieuaingc ein cynnulleidfaoedd i'w efelychu yn hyn. Y mae yn arferiad rhagorol, a gall roddi cyfeiriad i feddwl yr ieuangc am ei oes. Dywedir am yr enwog Matthew Henry, yr hwn a fu yn weinidog defnyddiol yn ninas henafol Caerlleon, a'r hwn a ysgrifenodd un o'r esboniadau mwyaf ymarferol a defosiynol yn yr iaith Saesnig, ei fod wedi cychwyn yn y cyfeiriad a gymmerodd trwy ysgrifenu sylwadau eglurhaol ei dad, Philip Henry, ar y ddyledswydd deuluaidd. 'Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy â hi.'

Yr oedd Owen Thomas yn enwog am ei 'gôf' yn foreu iawn ar ei oes. Yr oedd yn hynod pan yn blentyn ieuangc iawn am ddysgu penodau o'r Beibl, a'u hadrodd yn yr Ysgol Sabbothol, ac ar ddechreu odfaon cyhoeddus o flaen pregethwyr. Adroddodd, felly, yr oll o'r Testament Newydd, ac wyth o lyfrau yr Hen Destament; yn cynnwys Job, y Salmau, Daniel, ac eraill o'r prophwydi. Dysgodd Epistol Iago yn gywir, bob gair, tra yr oedd yn gwarchod y tŷ un noswaith, tra yr oedd ei rieni yn y capel. Dywed yn ei Ragymadrodd i *Gofiant Henry Rees*, fod ganddo, hyd yn ddiweddar, yr ymddiried llwyraf yn ei gôf.

Nid cofio y Beibl yn unig yr oedd efe yn yr adeg hon. Yr oedd yn ei deimlo hefyd, ac yn ei fyw. Yr oedd ei deimladau crefyddol yn dyner a bywiog pan yn blentyn ieuangc iawn; ac

Digitized by Google

ymddengys fod ysbryd yr Arglwydd wedi dysgu graddau helaeth o hunan-adnabyddiaeth iddo yn yr oedran tyner hwn. Un diwrnod, cymmerwyd ef yn wael; ac mor wael nes dychrynu ei fam a'r cymmydogion. Prysurwyd i'w anfon i'w wely; ond yr oedd raid iddo gael myned ar ei liniau cyn myned i'r gwely. Yn mhen ychydig, aeth ar ei liniau drachefn. 'Yr wyt wedi dyweyd dy bader unwaith,' meddai un o'r teulu wrtho. 'Gadewch i hyny fod (meddai yntau)—yr wyf yn ddigon o bechadur i'w ddyweyd ddeng waith.'

Wedi dyweyd yr ychydig ffeithiau hyn am blentyn mor ieuangc, ymddengys ei fod, yn moreuddydd ei fywyd, yn dangos arwyddion amlwg o fawredd dyfodol. Naturiol, gan hyny, oedd i lawer ofyn y cwestiwn—'Beth fydd y bachgenyn hwn?' Yn awr, wedi iddo dreulio ei oes allan, yr ydym yn gweled beth a ddaeth o hono—pa gyfeiriad a gymmerodd efe—beth oedd natur ac ansawdd ei fawredd; a bod yr holl arwyddion boreuol wedi eu sylweddoli yn llawn.

Y mae llawer o amrywiaeth barn mewn cymdeithas am yr hyn sydd yn cyfansoddi mawredd; ac y mae yr amrywiaeth hwn yn ymddibynu, i raddau helaeth, ar fesur gwareiddiad, dadblygiad, a diwylliad cymdeithas. Syniad cymdeithas hanner anwaraidd am fawredd yw nerth a dewrder anianyddol. Dyma syniad llwythau anwaraidd y gwledydd paganaidd. Y mae amser wedi bod yn hanes ein cenedl, y bygylwr (*bully*) oedd dyn mawr llawer cymmydogaeth. Syniad isel iawn am fawredd ydyw hwn. Ond fel y mae cymdeithas yn ymddyrchafu mewn gwareiddiad a dadblygiad, ac yn dyfod yn fwy darostyngedig i ddeddfau gwladwriaethol, y dyn cyfoethog ydyw dyn mawr llawer o bobl. Ond fel y mae cymdeithas yn parhau i gynnyddu a dadblygu, y mae hi yn canfod fod rhywbeth yn bod sydd yn gryfach na gewynau, a gwell na chyfoeth; sef, deall a gwybodaeth. Nid ydyw bod yn gyfoethog, a bod yn amddifad o ddeall a gwybodaeth i wneyd y defnydd goreu o hono, ond bod yn feddiannol ar arf, ond heb y gallu i'w ddefnyddio. Pan y mae cymdeithas yn dechreu rhoddi mwy o bwys ar y meddyliwr a'r dysgawdwr nag ar y bygylwr, yr ymdrechwr, a'r gŵr sydd yn meddu llawer o gyfoeth, mor bell ag y mae y bywyd hwn yn myned, y mae hi yn symmud yn mlaen yn yr iawn gyfeiriad.

Pa beth ydyw syniad cymdeithas am yr hyn sydd yn cyfansoddi mawredd? Onid cyfuniad o bob ffurf ar allu—gallu corph, gallu cyfoeth, a gallu gwybodaeth, a deall? Meddu y pethau hyn, neu feddu llywodraeth arnynt, sydd yn cyfansoddi mawredd cymdeithasol yn ein dyddiau ni. Ac os ydym ni yn meddwl llai o allu gewynol na'r hen dadau, yr ydym yn gwneyd i fyny am hyny i raddau mawr trwy feddwl mwy o allu cyfoeth, a gallu deall a gwybodaeth.

Daeth ein gwrthddrych yn allu mewn cymdeithas, ac i feddu dylanwad arni; ond nid trwy ymroddi i sicrhau iddo ei hun ffurfiau diflanedig mawredd daearol. Wrth feddwl am natur ei fawredd ef, y mae y geiriau a lefarodd Crist wrth ei ddysgyblion pan oeddynt yn ymryson, 'Pa un o honynt a dybygid ei fod yn fwyaf' yn rhedeg i'n meddwl. Wedi cyfeirio at draarglwyddiaeth a thra-awdurdod gwŷr mawr y cenhedloedd, dywed wrth ei ddysgyblion, 'Eithr nid felly y bydd yn eich plith chwi; ond pwy bynag a ewyllysia fod yn fawr yn eich plith, bydded weinidog i chwi; a phwy bynag o honoch a fyno fod yn benaf, bydded was i bawb; canys ni ddaeth Mab y dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer.' Dysgeidiaeth y geiriau hyn ydyw, mai gwasanaeth sydd yn gwneuthur un yn fawr yn nheyrnas nefoedd; a dyma fel yr aeth Dr. Thomas 'yn dywysog ac yn ŵr mawr yn Israel'—trwy wasanaeth ymroddedig gyda'r deyrnas sydd yn y byd, er nad ydyw o'r byd. Dywed un, nad ydyw gwir fawredd yn gynnwysedig mewn dim sydd yn taraw y llygaid neu y dychymyg fel peth mawr; ond yn hytrach yn yr hyn y mae eisieu rhyw synwyr newydd ac ysbrydol mewn trefn i'w ganfod a'i werthfawrogi. Yn allanol, y mae'n gynnwysedig mewn gwasanaeth—gwasanaeth i Dduw, i ddynion, ac i'r gwirionedd. Yn fewnol, y mae yn gynnwysedig mewn cariad sydd yn cymmhell gwasanaeth; a'r hwn sydd yn cael ei ddal i fyny gan ffydd—y gallu ysbrydol yn yr enaid i ba un y mae y byd anweledig yn wirionedd cysson a difrifol. Mawredd gwasanaeth oedd mawredd Dr. Thomas; ac yr oedd y gwasanaeth hwnw yn cael ei gymmhell gan gariad at Grist, ac at eneidiau dynion. Hwn, yn ddïau, ydyw y gwir fawredd. Y mae un o brif ysgrifenwyr yr oes yma wedi sylwi fod tri nodwedd neillduol yn perthyn i wir fawredd. Yn gyntaf, y mae yn fawredd y dyn ei hun; ac nid mawredd dim sydd o'i amgylch. Yn ail, y mae yn fawredd ag sydd mewn cydgordiad perffaith â holl ddeddfau ei fodolaeth. Yn drydydd, y mae yn fawredd sydd yn dwyn dyn i gyfranogi o'r elfen uchaf a mwyaf hanfodol yn nghymmeriad moesol Duw ei hun.

Yr oedd mawredd Dr. Thomas yn gyfryw, o ran ei natur a'i ansawdd, fel ag i ddwyn y nodweddion neillduol hyn. Mawredd y dyn ei hun oedd ei fawredd ef. Y mae rhai yn fawr o blegid eu cyssylltiadau a'u hamgylchiadau; ond nid ydyw eu mawredd hwy yn deilwng o'r enw. I fod yn wir fawr, y mae'n rhaid i ddyn fod yn fawr, yn annibynol ar ei gyssylltiadau. Y mae'n rhaid iddo fod yn fawr yn nghanolbwynt ei bersonoliaeth, a hanfod ei fodolaeth—yn yr hyn sydd yn cyfansoddi yr hyn a elwir yn 'myfi.' Mae'n rhaid iddo feddu llwyr feistrolaeth arno ei hun, ac ar wahanol alluoedd a theimladau ei natur; a'u dwyn i gyd yn gaeth i wasanaeth Crist. Y mae hwn yn fawredd nad all amser ei heneiddio, na marwolaeth na'r bedd ein hamddifadu o hono. Mawredd o'r natur yma oedd mawredd ein hanwyl frawd ymadawedig.

Yr oedd ei fawredd ef mewn cydgordiad perffaith â deddf ei fodolaeth, fel creadur ymddibynol ar Dduw. Nid oes un dyn, nac yn wir un creadur arall, yn ddigon pwysig i fod yn ganolbwynt iddo ei hun. Y mae bywyd dyn, pan wedi ei drefnu yn briodol, yn troi o ddeutu 'yr Annherfynol Ddwyfol Fod,' i'r hwn y mae yn ddyledus am ei fywyd ac am barhâd ei fodolaeth. Perygl dyn ydyw anghofio mai creadur gwanaidd a dibynol ydyw; a'i fod, yn unol â chyfansoddiad ei natur a'i fywyd, wedi ei fwriadu i ddyfod o hyd i'w ragoriaethau penaf mewn gwasanaeth. Pan yn anghofio hyn, yr ydym yn anghofio deddf ein bodolaeth, ac ammodau ein mawredd. Nis gall dyn fod yn fawr ond pan yn cyrhaedd amcan ei fodolaeth; ac nid ydyw efe yn cyrhaedd yr amcan hwnw ond

Digitized by Google

pan y mae yn gwasanaethu Duw. Gwasanaeth, gan hyny, ydyw y ffurf uchaf ar y mawredd sydd yn gyrhaeddadwy i ddyn. Dyma y mawredd a gyrhaeddodd Dr. Thomas; sef, mawredd gwasanaeth yn nheyrnas Crist.

Y trydydd nodwedd sydd yn perthyn i wir fawredd ydyw, ei fod yn dwyn ei berchenog i gyfranogi o'r elfen uchaf a mwyaf hanfodol yn nghymmeriad Duw. Beth ydyw Duw? Nid gallu yn unig, nac yn benaf. Y mae yn hollalluog—ond nid hollalluawgrwydd ydyw. Nid gwybodaeth yn unig, nac yn benaf, ydyw. Y mae yn hollwybodol—ond nid hollwybodaeth ydyw. Beth, ynte, ydyw Duw? 'Duw, cariad yw.' Ni buasai hollalluawgrwydd a hollwybodaeth byth yn creu; ac yn sicr, ni buasent yn cadw. Cariad a grëodd, a chariad sydd yn cadw. Y cariad a grëodd y rhai na syrthiasant, ddaeth i geisio ac i gadw y rhai a syrthiasant. Y cariad gymmhellodd y Tad i ddanfon y Mab i'r byd, ac a gymmhellodd y Mab i ddyfod i'r byd, oedd hefyd yn cymmhell Dr. Thomas i ymroddi i wasanaeth y Mab yn ei deyrnas. Mesur mawredd dyn ydyw mesur ei gyfranogiad o gariad Duw—yr hwn ydyw gogoniant uchaf y Duwdod. Nis gall neb oedd yn adnabod Dr. Thomas ond dwyn tystiolaeth fod ei gyfranogiad ef o'r cariad hwn yn helaeth. Dyma oedd wrth wraidd ei wasanaeth ffyddlawn a'i ddefnyddioldeb ëang. Yr oedd ei fawredd yn wir fawredd; ac am hyny, mae mewn meddiant o hono mewn byd arall; ac yr ydym ninnau yn parhau i deimlo ei ddylanwad yn y byd hwn.

Yr oedd mawredd Dr. Thomas yn gwisgo gwedd driphlyg; sef, fel un o arweinyddion y cyfundeb y perthynai iddo—fel awdwr, ac esboniwr—ac fel pregethwr.

*Dr. Thomas fel Arweinydd.*—Daeth yn gymmharol ieuangc i lanw lle pwysig yn ein cyfundeb, fel un o'i arweinwyr. Cymmerodd ei le fel cyd-arweinydd â Henry Rees, a Dr. Edwards, ac eraill; ac wedi i'r gweinidogion enwog a defnyddiol hyn syrthio i'r bedd, edrychid arno ef fel y gŵr mwyaf blaenllaw yn y cyfundeb. Yr oedd ei graffder, ei dynerwch, ei wybodaeth, ei ddoethineb, ei brofiad, ac ysbrydolrwydd ei feddwl, yn ei wneyd yn ŵr o gynghor, ac yn arweinydd diogel. Teimlai y dyddordeb dyfnaf yn holl symmudiadau y cyfundeb. Yr oedd wedi gwneyd yr achosion cyfundebol yn achosion iddo ei hun; a dangosai ffyddlondeb di-ball tuag atynt. Pwy bynag fyddai yn absennol ddiwrnod y gymdeithasfa a'r gymmanfa, gwelid Dr. Thomas yn ei le—yn gwrandaw yr oll a ddywedid, yn gwylio pob symmudiad, ac yn cyfarwyddo yn mhob achos o iawnder. Y mae yn debyg na chymmerodd neb ran mwy blaenllaw nag ef yn ystod y deng mlynedd ar hugain diweddaf yn nygiad yn mlaen waith y cynnadleddau yn Nghymdeithasfa y Gogledd, a'r Gymmanfa Gyffredinol. Yr oedd yn rhagorol am yru gwaith yn ei flaen mewn cyfarfodydd o'r fath. Yr oedd yn fywiog a pharod, yn meddu gwybodaeth drylwyr o gyfansoddiad a rheolau y cyfundeb, ac yn meddu ar graffder i ganfod y peth goreu i'w wneyd yn gysson â'r rheolau hyny. Bu ei arweiniad, lawer gwaith, yn foddion i gadw y cerbyd rhag myned dros y dibyn. Yr oedd yn un gwych am dynu allan benderfyniadau. Pe y cymmerai rhywun y drafferth o ddarllen cofnodau cymdeithasfaoedd y Gogledd am y deng mlynedd ar hugain diweddaf, y mae yn debyg y deuai o hyd i fwy o benderfyniadau wedi eu tynu allan a'u cynnyg gan Dr. Thomas na neb arall—ac yn enwedig mewn achosion pwysig ac anhawdd.

Nid ydym yn gwybod ddarfod iddo erioed ddyfeisio un cynllun newydd o bwys i hyrwyddo yn mlaen waith y cyfundeb; ond yr oedd yn hynod barod i dderbyn a chefnogi cynlluniau ei frodyr, wedi iddo gael ei argyhoeddi o'u daioni a'u cymmhwysder i gyrhaedd yr amcan mewn golwg; a byddai sicrhau ei gefnogaeth ef i unrhyw gynllun yn fwy na hanner y frwydr i'w gario trwodd yn llwyddiannus.

Mewn erthygl arno yn y *Geninen*, am ddydd Gŵyl Dewi, 1895, dywed yr awdwr:—

'Nid oes angen ei gymmharu â neb o'i frodyr blaenllaw oedd yn cydweithio âg ef; ond y mae yn eglur fod ei le fel arweinydd yn rhywle rhwng Henry Rees a Dr. Edwards. Nid oedd mor ochelgar, ac arafaidd, a hwyrfrydig i symmud a Mr. Rees; ac nid oedd yn ofnus ac yn betrusgar gyda symmudiadau newyddion; ac ni bu y cyfundeb gydag unrhyw waith neu amcan yn gorfod aros wrtho ef heb gymmeryd cam yn mlaen fel y byddid weithiau gyda Mr. Rees, ac eraill. Byddai ef yn un o'r rhai mwyaf parod a blaenllaw i hyrwyddo pob mesur y byddai tuedd ynddo i wneyd lles; ac ni byddai un anhawsder i'w gael ef, os byddai y mesur o ryw werth, i weled fod daioni yn debyg o ddyfod o hono.

O'r ochr arall, nid oedd yn ddiwygiwr, fel Dr. Edwards. Ni ddychymygodd unrhyw beth newydd er llwyddiant y cyfundeb, ac er chwanegu ei nerth a'i ddylanwad. Y mae y bennod o hanes ymdrech Dr. Edwards i godi y cyfundeb i roddi addysg briodol i'w weinidogion heb ei hysgrifenu etto; a phwy ond efe a ddeffrodd yr eglwysi i'r pwysigrwydd o alw dynion i'w gwasanaethu yn yr Arglwydd; ac efe hefyd oedd prif gychwynydd y Drysorfa Gynnorthwyol, i sicrhau moddion cynnaliaeth iddynt, ar ol eu galw. Diau mai y nesaf at Dr. Edwards o holl weinidogion y cyfundeb fel diwygiwr oedd Mr. Morgan, y Dyffryn. Prin yr oedd Dr. Thomas yn arweinydd y cyfundeb yn yr un ystyr a'r ddau a enwyd, gan na ellir cyfeirio at un sefydliad na symmudiad wedi ei gychwyn ganddo Gallai ei fod yn fwy cymmeradwy yn ei genhedlaeth, a'i oes, o herwydd hyny. Rhaid i bob diwygiwr sefyll i fyny dros fesurau ammhoblogaidd, a gweithio ei ffordd gyda'i amcan, yn erbyn rhagfarn a mympwyon llawer iawn o bobl. Ac y mae hyny yn rhwym o wneyd un yn wrthddrych erledigaeth; a phriodolir iddo lawer o au-amcanion. Ni bu Dr. Thomas yn wrthddrych erledigaeth yn yr ystyr yma, ac ni phriodolwyd llawer o amcanion gau iddo. Ond erlidiwyd Dr. Edwards a Mr. Morgan yn dost lawer gwaith; a dywedwyd am danynt, pan ddadleuent dros haelioni, eu bod yn gwneyd hyny oddi ar ariangarwch. Ond gwyddom yn dda nad oedd y drwg o ariangarwch yn cyffwrdd yr un o'r ddau; a gallent ddyweyd ynglŷn â'u gwaith, fel y dywedodd y prophwyd, 'Gwae fi, fy mam, ymddwyn o honot fi yn ŵr ymryson, ac yn ŵr cynnen i'r holl ddaear! Ni logais, ac ni logwyd i mi; etto, pawb o honynt sydd yn fy melldithio i.' Ni bu Dr. Thomas yn ŵr ymryson, nac yn ŵr cynnen i'r holl ddaear fel diwygiwr; ac ni chafodd ei felldithio yn y wedd yma; etto, gwnaeth wasanaeth mawr i'r rhai oedd yn diwygio trwy sefyll yn blaid iddynt; a thrwy ei ysbryd hynaws a charedig gwnaeth ei ran i leihau y rhagfarn yn eu herbyn hwynt yn y wlad.'

Bu Dr. Thomas yn cydweithio o leiaf â dwy oes o arweinwyr; ac yr oedd yn cymmeryd ei le mor naturiol gyda'r naill a'r llall. Tra yn dwyn mawr sêl dros draddodiadau y tadau, ac yn coledd y parch dyfnaf iddynt—yr oedd yn cydymdeimlo yn y

Digitized by Google

modd mwyaf byw â gwaith yr oes ar yr adeg bresennol. Ni bu ei barch yntau erioed yn fwy, na'r cariad ato erioed yn gryfach nag yn bresennol; a chafodd y fraint fawr o farw cyn blino ar y byd, a chyn i'r byd flino arno yntau. Cafodd bob anrhydedd allasai y cyfundeb roddi iddo. Bu ddwy waith yn llywydd blynyddol ar Gymdeithasfa y Gogledd, a dwy waith yn llywydd y Gymmanfa Gyffredinol—anrhydedd na ddaeth i ran neb arall ond Dr. Edwards, y Bala.'

*Dr. Thomas fel Awdwr.*—Yr oedd Dr. Thomas yn ysgolhaig gwych, yn athronydd dwfn, yn dduwinydd galluog, ac yn ŵr o ddiwylliad ëang ac uchel; ac nid aeth i'w fedd heb adael ar ei ol gyfansoddiadau sydd yn mawr gyfoethogi llenyddiaeth Gymreig. Y mae yn rhaid ei fod wedi dechreu ysgrifenu pan yn ŵr ieuangc; o blegid cawn ddwy erthygl o'i eiddo ar 'Dduwinyddiaeth Rhydychain,' yn y gyfrol gyntaf o'r *Traethodydd* (1845). Ymddangosodd yr erthygl gyntaf yn y rhifyn am Ebrill, a'r ail yn y rhifyn am Hydref. Y mae y ddwy yn dangos gallu mawr, darlleniad ëang, meistrolaeth lwyr ar y testyn, ac eiddigedd sanctaidd dros burdeb a symledd yr efengyl. Nid ydym yn sicr a ydyw teitl yr erthyglau hyn yn rhoi syniad priodol i ddarllenwyr yr oes hon at ba beth y maent yn cyfeirio. Hwyrach fod 'Puseyaeth' yn fwy dealladwy i ni yn y dyddiau hyn. Galwyd hi felly oddi wrth Dr. Pusey, proffeswr Hebraeg yn Rhydychain. Daeth ei enw yn adnabyddus trwy y wlad ynglŷn â'r *Traethodau i'r Amserau* (*Tracts for the Times*)—trwy gyfrwng pa rai y lledaenwyd ar y dechreu egwyddorion 'Duwinyddiaeth Rhydychain.' Nid Pusey 'sylfaenodd y blaid newydd hon; ond Newman.' Ac erbyn hyn, y mae hi yn blaid gref yn Eglwys Loegr, ac yn cael ei hadnabod dan yr enwau Uchel-Eglwyswyr, neu Ddefodwyr. Cynghorem bobl ieuaingc feddylgar yr oes hon i ddarllen yr erthyglau hyn mewn trefn i ymgydnabyddu â hanes dechreuol y Defodwyr, ac i ddeall y cyfeiliornadau dybryd ar ba rai y mae eu dysgeidiaeth yn sylfaenedig. Cawn erthyglau eraill wedi eu hysgrifenu ganddo i'r *Traethodydd* ar y testynau hyn:—'Anffyddiaeth Germany,' 'Duwinyddiaeth Llanbedr,' 'Yr Olyniaeth Apostolaidd,' 'William Gurnal,' 'Perthynas Pabyddiaeth a Phaganiaeth,' &c. Y mae yr erthyglau hyn yn dwyn yr un nodweddion a'r erthyglau ar 'Dduwinyddiaeth Rhydychain.' Bu yn gydolygydd â'r diweddar Barch. Roger Edwards ar y *Traethodydd* am o ddeutu deng mlynedd. Dywedir fod ei 'Nodiadau Llenyddol;' sef ei adolygiad ar lyfrau, yn ystod y blynyddoedd hyn, y peth goreu o'r natur a gyhoeddid yn y cyfnodolion. Yn chwanegol at ei erthyglau yn y *Traethodydd*, efe oedd awdwr rhai o'r erthyglau pwysicaf yn y gwaith hwn.

Ond er mor ragorol a lliosog ydyw ei erthyglau yn y *Traethodydd* a'r *Gwyddoniadur*, a chylchgronau ereill, fel esboniwr a chofiantwr y bydd ei enw yn cael ei drosglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall.

'Yr oedd Dr. Thomas yn hynod gydnabyddus mewn beirniadaeth a deongliadaeth Ysgrythyrol, ac wedi astudio pob math o lenyddiaeth sydd mewn rhyw fodd yn taflu goleuni ar Air Duw, ac yn meddu gwybodaeth mor fanwl a chywir o'r testyn gwreiddiol, ac wedi ei ddonio yn naturiol â'r cymmhwysderau arbenig i fod yn esboniwr. Y mae ei ragarweiniad i'r Epistol at yr Hebreaid yn un o'r pethau goreu o'r fath a ysgrifenwyd erioed. Ac yn ei waith ar y llythyr, dengys gydnabyddiaeth o'r fath fanylaf â phrif esbonwyr y byd, yn hen a diweddar; ac ymdrinir â'r gwahanol olygiadau ar y rhanau anhawddaf o hono mewn modd goleu, a chydag ysbryd annibynol. Y mae yn gweled bob anhawsder; ac nid oes ynddo y duedd leiaf i'w osgoi, ac i ymhelaethu ar y lleoedd hawddaf i'w deall. Ond y mae efe am i'r darllenydd deimlo yr anhawsder fel y cam cyntaf i ddyfod i ddirnad ystyr geiriau Duw. Y mae yn talu pob dyledus barch i olygiadau esbonwyr eraill ar bob rhan o'r epistol; ond dengys yn mhob man ei fod ef yn gwbl annibynol arnynt. Gwahaniaetha oddi wrth y rhai penaf o honynt pan y mae ei farn a'i gydwybod ei hun yn ei arwain i hyny; ac y mae y rhesymau a rydd dros ei olygiadau yn cario y darllenydd gydag ef, y rhan fynychaf; ac mewn llawer man ceir ei fod yn ymdreiddio yn ddyfnach i ystyr meddwl y geiriau dwyfol na hwynt oll.

I bawb sydd am ddeall yr Epistol at yr Hebreaid, y mae nodiadau Dr. Owen Thomas yn anhebgorol angenrheidiol.'

Dyma sylwadau ysgrifenydd galluog yn y *Goleuad* ar *Esboniad Dr. Thomas ar yr Epistol at yr Hebreaid*. Dyma yr esboniad helaethaf ar yr epistol yn Gymraeg; ac o'i faint a'i bris, nid ydym yn gwybod fod gan y Saeson un yn rhagori arno. Y mae hufen beirniadaeth oreu y cyfandir, a'r deyrnas hon, wedi ei grynhoi ynddo i ychydig iawn o le. Gellid dyweyd yr un peth am ei sylwadau ar yr Epistolau at y Galatiaid, yr Ephesiaid, y Philippiaid, a'r Colossiaid. Y mae yr esboniadau hyn yn weithiau clasurol; ac y mae yn anhawdd cael eu rhagorach mewn unrhyw iaith. Camgymmeriad mawr Dr. Thomas oedd, na buasai, er's blynyddoedd, wedi meddwl ysgrifenu esboniad llawn ar yr oll o'r Testament Newydd; yn lle ymostwng i wneyd y gwaith îs-raddol o gyfieithu sylwadau Dr. Kitto; yr hwn nad oeddynt o lawer cystal ag y gallasai ef eu gwneyd.

Yr oedd Dr. Thomas nid yn unig yn esboniwr galluog, ond yn gofiantwr enwog. Y mae yn debyg nad ysgrifenwyd dim sydd yn fwy poblogaidd na *Chofiant y Parch. John Jones*, a *Chofiant y Parch. Henry Rees*. Y mae y cyntaf o deilyngdod llenyddol uchel, ac y mae yr ail yn hynod ddarllenadwy.

'Yr oedd Dr. Thomas yn gallu adrodd hanes yr helyntion mwyaf cyffredin mor syml a di-ymgais nes eu gwneuthur yn hollol ddyddorol. Yr oedd ei wybodaeth fanwl o holl hanes y cyfundeb yn peri fod y cofiantau o werth mawr yn eu cyssylltiad â hanes crefydd yn Nghymru, heb law fel cofiantau o'r gwŷr enwog yr ysgrifenai am danynt. Y mae ei wybodaeth ëang a manwl, a'i gydwybodolrwydd a'i ofal am gywirdeb yn yr oll a adroddai, yn chwanegu llawer at werth y gwaith. Wrth ysgrifenu hanes y dadleuon duwinyddol yn Nghymru yn *Nghofiant John Jones*, gwnaeth yr hyn nad allasai neb arall ei wneyd mor effeithiol; a bydd haneswyr y dyfodol yn ei fendithio am y drafferth a gymmerodd. Heb law hyny, y mae ei sylwadau ar hen bregethwyr Cymru y peth goreu sydd genym yn y cyfeiriad yma. Yn y sylwadau helaeth a wna Dr. Thomas arnynt, yn eu gwahanol nodweddion a'u rhagoriaethau, bydd plant ein plant yn gallu ffurfio dirnadaeth led glir am danynt. Y mae ei gofiantau, hefyd, yn dangos ysbryd ëang a charedig. Pan y mae yn beirniadu, y mae yn gwneyd hyny yn hollol deg a di-dramgwydd. Prif nodwedd Dr. Thomas fel cofiantydd ydyw llwyrder a thegwch. Y mae am adrodd pob peth yn llawn, ac am wneuthur perffaith degwch a chyfiawnder â phawb ac â phob peth. Os oes rhywbeth i'w gondemnio ynddo fel cofiantydd ac ysgrifenydd, aml-eiriaeth ydyw hyny. Yr oedd ynddo y fath ofal am fod yn eglur, a'r fath bryder am i'r darllenydd ddeall ei feddwl yn hollol yn yr un goleuni ag ef ei hun, fel y lliosogai adranau

Digitized by Google

eglurhaol mewn llawer o'i frawddegau, y rhai, os na sylwid yn fanwl iawn ar yr attalnodau, a dywyllent y meddwl, yn lle ei egluro. Yr oedd hyn braidd yn feius yn ei arddull wrth siarad, yn gystal ag wrth ysgrifenu. Byddai materion ei bregethau yn tueddu at fod yn faith; ac felly, yn anhawdd i'w cofio. Buasai geiriad byr pennodol a digwmpas o faterion ei bregethau yn eu gwneyd, o herwydd yr unoliaeth oedd ynddynt, y rhai hawddaf i'w cofio mewn bod; pryd y mae lle i ofni eu bod fel arall, gan ei ddull maith o eirio ei faterion. Nid oedd efe fel llawer eraill gyda'u diffygion, yn canmawl hyn ynddo ei hun, ond yn ei gondemnio. Yr oedd ganddo gyflawnder o eiriau at ei alwad, a'r rhai hyny yn ddetholedig a chymmeradwy; ac i orofal am eglurdeb y priodolwn aml-eiriaeth ei arddull, yn fwy na dim arall.

Diau yr ystyrir *Cofiant John Jones* yn rhagori ar *Cofiant Henry Rees* fel gwaith llenyddol; ond y mae cynnwys *Cofiant Rees*, fel y ceir ynddo hanes y cyfundeb, a hanes y cymmanfaoedd am gyfnod mor faith, a chymmaint o grybwyllion am bethau a phersonau o ddyddordeb, yn ei wneyd yn drysor o'r gwerth mwyaf.'

*Dr. Thomas fel Pregethwr.*—Fel pregethwr, yn ddiau, yr oedd ei ragoriaeth penaf. Yr oedd, fel yr Apostol Paul, wedi ei neillduo i'r gwaith hwn o groth ei fam. Dangosai y dyddordeb dyfnaf mewn pregethu a phregethwyr o'i febyd; ac uchelgais mawr ei fywyd oedd bod yn bregethwr ei hun. Pe y gofynid, Pa nerthoedd fu yn dylanwadu arno yn ei febyd, a blynyddoedd ei ieuengctid, yn ffurfiad ei gymmeriad fel crefyddwr a phregethwr? hwyrach na byddem yn mhell o'n lle pe y dywedem—dylanwad ei fam, dylanwad John Elias, a dylanwad Dr. Edwards, o'r Bala, a Dr. Chalmers. Bu ei dad farw, fel y cyfeiriwyd eisoes, pan yr oedd efe yn ieuangc; ond yr oedd ei fam yn aros. Ymddengys ei bod hi yn wraig bwyllog, synwyrlawn, dalentog, a chrefyddol iawn; ac yr oedd ganddi y dylanwad mwyaf ar ei phlant—ac ar Owen yn enwedig. Nid oedd y dylanwad hwn wedi ei golli arno hyd yn oed yn y dyddiau diweddaf. Dywedir, yn gyffredin, fod gan y dynion sydd yn gwneyd eu nôd ar y byd famau rhinweddol a rhagorol. Fodd bynag, felly y bu yn yr amgylchiad hwn. Sylw bythgofiadwy ydoedd yr eiddo Napoleon pan y dywedodd 'mai angen mawr Ffraingc oedd mamau.' Gallwn ninnau ddyweyd mai angen mawr Cymru a Lloegr ydyw mamau. Y mae gan y fam, a'r famnaeth, fwy i'w wneuthur yn ffurfiad cymmeriad y plentyn nag un gallu arall sydd yn dyfod i gyffyrddiad â'i feddwl—ond gallu yr Ysbryd Glân yn unig. Bu gwrthddrych ein hysgrif yn ffodus iawn yn ei fam; ac yr oedd hi yn sicr yn un o'r prif dylanwadau yn ffurfiad ei gymmeriad, ac yn y cyfeiriad a roddodd i'w fywyd.

Y gallu mawr nesaf a ddaeth i ddylanwadu arno oedd John Elias. Yr oedd y gŵr enwog hwn yn anterth ei nerth pan yr oedd O. Thomas yn fachgen ieuangc yn Nghaergybi; a byddai yn dyfod yno i bregethu unwaith bob mis. Yr oedd edmygedd y bachgen o'r pregethwr enwog, tanllyd, a phoblogaidd hwn bron yn ddiderfyn; a phrofodd yn eglur, mewn blynyddoedd ar ol hyny, ei fod wedi yfed yn helaeth o'i ysbryd. Clywsom rai cymmhwys i farnu yn dyweyd fod O. Thomas yn ymdebygu i raddau, ar adegau, i John Elias. Wedi iddo ddechreu ar ei yrfa athrofäol, daeth o dan addysg Dr. Edwards, o'r Bala; ac wedi gadael y Bala, daeth i gyffyrddiad â Dr. Chalmers yn Edinburgh. Un o brif fanteision athrofa ydyw i'r myfyrwyr ddyfod i gyffyrddiad â meddyliau galluog a dyrchafedig yr athrawon. 'Haiarn a hoga haiarn; felly gŵr wyneb ei gyfaill.' 'Haiarn a hoga haiarn,' felly athraw feddwl ei ddysgybl. Derbyniodd Owen Thomas ryw symbyliad newydd yn nghymdeithas ei feddwl ef â meddyliau y gwŷr galluog ac enwog hyn; a pharhaodd eu dylanwad arno tra bu byw. Un prawf o hyny oedd ei gyfeiriadau mynych atynt yn ei bregethau a'i anerchiadau. Wedi i'r nerthoedd hyn fod yn gweithredu ar feddwl oedd yn meddu ar y fath adnoddau a'n gwrthddrych, a'r cyfan yn cael eu hattegu gan 'nerthoedd y Tragwyddol Ysbryd,' nid rhyfedd iddo ddadblygu yn gymmeriad mor brydferth, yn bregethwr mor boblogaidd, ac yn weinidog mor enwog.

Pe gofynid yn mhellach, Beth oedd dirgelwch ei lwyddiant? hwyrach y gellid olrhain hyn i ddau brif beth, fel y sylwa y diweddar Dr. J. Hughes yn ei bregeth goffadwriaethol iddo:—Yn gyntaf, ei ymgyssegriad hollol i waith gweinidogaeth yr efengyl; ac hefyd, y drychfeddwl uchel oedd ganddo am natur ac ansawdd gwaith y weinidogaeth.

*Ei ymgyssegriad i waith y Weinidogaeth.*—Y mae yn debyg na welodd Cymru yn y genhedlaeth hon neb mwy ymroddedig i waith y weinidogaeth na Dr. Thomas. Dilynwn ef o Bwllheli i'r Drefnewydd—oddi yno i Lundain—ac oddi yno, drachefn, i Liverpool; a chawn mai pregethu oedd pleser mawr ei fywyd yn mhob un o'r lleoedd hyn. Pan ddechreuodd efe bregethu, yr oedd sefyllfa pethau yn bur wahanol yn nghyfundeb y Methodistiaid Calviniadd i'r hyn ag ydyw yn awr. Y mae bob sir o'r braidd yn Nghymru, yn ein dyddiau ni, yn gallu rhifo ei gweinidogion sefydlog wrth y degau; ond nid ydym yn meddwl fod un o'r cyfryw yn yr adeg hono. Yr oedd yr holl weinidogion â galwedigaeth fydol ganddynt; ond yr oedd efe mor gyssegredig i'w waith, fel nad aeth i ymdrafferthu gyda negeseuau y bywyd hwn. Yr oedd ei holl feddwl ef ar waith y weinidogaeth; ac yr oedd yn gwbl argyhoeddedig fod y gwaith yn haeddu ei holl amser, ac yn galw am holl ymadferthoedd ei feddwl. Ac felly, ymdaflodd i'w waith, gan adael y canlyniadau i Dduw; ac nid oes genym unrhyw le i gredu ei fod wedi cael achos i edifarhau.

Yr oedd Dr. Thomas yn credu mewn pregethu fel moddion i ddychwelyd dynion o bob pellder at Dduw. Y mae olynwyr Newman a Pusey yn credu mewn Defodaeth fel moddion i wneyd gwaith mawr ar eneidiau dynion; ac mewn canlyniad, y maent yn ymroddi i Ddefodaeth. Y mae eu pregethau hwy yn fynych yn cael eu gwasgu i le bychan iawn. Gellid tybio, mewn ambell i wasanaeth crefyddol mewn rhai o addoldai y deyrnas hon, mai canu ydyw y moddion a ordeiniwyd i wneyd y gwaith mwyaf. Yn sicr, y mae canu yn rhan bwysig o wasanaeth y cyssegr; a phrin yr ydym yn credu yr edrychir arno yn ddigon pwysig gan lawer o Ymneillduwyr Cymru. Ond gweinidogaeth y Gair ydyw y moddion ordeiniedig gan Dduw i ddychwelyd y byd ato ei hun; ac yr oedd Dr. Thomas yn credu hyny â'i holl galon, ac yn argyhoeddi ei wrandawyr ei fod yn credu hyn trwy ddal iachawdwriaeth yr enaid o'u blaen yn mhob pregeth a draddodai. Yr oedd yn gwbl gyssegredig amcan goruchel hwn.

*Drychfeddwl Dr. Thomas am natur ac ansawdd gwaith y Weinidogaeth.*—Yn y bregeth

goffadwriaethol y cyfeiriasom ati, dywed ei hawdwr galluog fod Dr. Thomas

'Wedi cael y drychfeddwl trwy ddyfal astudiaeth o Epistolau Paul, a thrwy wrandaw ar bregethwyr goreu dyddiau ei ieuengctid. Y mae amryw eiriau yn yr epistolau yn dangos beth oedd syniad yr apostol am bregethiad y Gair:—'Eglurhau y gair trwy bregethu:'—'mynegu i chwi dystiolaeth Duw:'—'ni fernais i mi wybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio.' Ac yn enwedig y geiriau yn yr Epistol at y Colossiaid:—'Yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu, gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn yn mhob doethineb; fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu.' Dyna y testyn, a'r testyn oll:—Person y Duw-ddyn. Nid traethu yn fanwl yr athrawiaeth yn ei gylch; ond cyflwyno y Person ei hun ger bron—peri i'r gwrandawyr deimlo fod a wnelont â pherson, yn hytrach nag â phyngciau. Dichon y gallai rhywun ofyn—'Onid yw y pregethiad a gyfyngir y modd yna i un person, fel ei fater, yn rhwym o fyned yn henaidd ac yn annyddorol.' Nac ydyw. Buasai Paul yn ymwrthod â'r dybiaeth gyda dirmyg. Y mae yn y testyn rhyw gyfoeth dihysbydd—

'Rhy fyr fydd tragwyddoldeb llawn
I ddyweyd yn iawn am dano.'

'Yn yr hwn y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig.' Ond pa fodd y mae Crist i gael ei bregethu? 'Gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn, yn mhob doethineb:'—rhybuddio er edifeirwch; dysgu er cynnydd ffydd: rhybuddio er unioni yr ymarweddiad; dysgu er goleuo y meddwl: a rhybuddio a dysgu 'pob dyn,' ac nid dosbarth o ddynion. Ac uchel nôd y weinidogaeth ydyw cyflwyno pob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu. Nid coethi a moesoli ychydig ar bechaduriaid, ond eu cyflwyno yn ddifai ger bron Duw. Dyna ddrychfeddwl Paul am bregethu; a dyna ddrychfeddwl Dr. Thomas, hefyd; ac yn uchder a chywirdeb ei syniad yr oedd yn esampl i'r pregethwyr sydd yn aros ar y maes.'

Gan fod ei ddrychfeddwl mor ddyrchafedig am ei waith, ac yntau mor ymroddedig iddo, y canlyniad oedd, ei fod yn rhagori. Yr oedd cyfuniad o ragoriaethau ynddo. Yr oedd yn rhagori yn ei allu i gyfansoddi pregethau; ac hefyd, yn ei allu i'w traethu. Clywsom bregethau penigamp ganddo o ran cynllun a chyfansoddiad. Yr oedd y darn cyntaf yn eglurhadaeth Ysgrythyrol rhagorol. Y fath drafferth y byddai efe yn ei gymmeryd i egluro perthynas ei destyn â'r cyd-destynau. Gwelid fod yn y pregethwr holl deithi hanfodol gwir esboniwr. Yr oedd yr adran yma o'r bregeth yn flasusfwyd o'r fath oreu i'r dosbarth mwyaf coeth a diwylliedig yn ein cynnulleidfaoedd. Wedi dangos pa beth oedd ystyr adnod y testyn yn ei pherthynas â'r cyd-destynau, gwasgai ei holl gynnwys i un gosodiad; a hwn a gymmerai fel gwirionedd mawr y bregeth: a'i amcan, bellach, fyddai gyru y gwirionedd hwn gyda'i holl rym i gydwybodau a chalonau y gwrandawyr. Mor deg a naturiol y byddai yn codi ei benau oddi wrth yr adnod, a'r fath unoliaeth fyddai yn nodweddu y cyfan!

Yr oedd yn rhagori, hefyd, yn ei allu i draddodi ei bregethau. Dywedodd y diweddar Barch. Henry Rees mewn ymddiddan, ar ol rhyw gymdeithasfa:—'Yr oedd Owen Thomas yn ennill sylw yr holl dorf; ac un rhagorol yw *am siarad allan—speaking out.* A dyna, onid ê, ydyw ystyr y gair *eloquence*:—nid murmur a mwmlian, ond siarad allan.' Yr oedd ganddo allu naturiol mawr i draddodi yn nerthol a hyfryd; a chymmerodd drafferth fawr i'w ddiwyllio a'i ddadblygu. Yr oedd wedi meistroli areithyddiaeth fel celfyddyd, ac wedi cymmhwyso ei hegwyddorion at wasanaeth y pulpud fel yr oedd yn cael ei ystyried yn un o areithwyr goreu pulpud Cymru. Yn chwanegol at hyn oll, yr oedd yn cyfranogi yn helaeth o ysbryd y weinidogaeth; yr hyn oedd yn mawr addurno ei alluoedd a'i dalentau naturiol, ac yn grymuso ei weinidogaeth. Yr oedd nerth ei gariad at Grist, ac at eneidiau dynion, yn peri fod ei weinidogaeth 'yn nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr.' Yr oedd yn un o'r pregethwyr rhagoraf a mwyaf llwyddiannus; a diammheu ddarfod i Ben yr eglwys ei ddefnyddio fel offeryn yn ei law i achub cannoedd o eneidiau i fywyd tragywyddol.

Cyn rhoddi yr ysgrifell o'n llaw, yr ydym dan demtasiwn i chwanegu disgrifiadau gwahanol frodyr o Dr. Thomas fel pregethwr ar wahanol achlysuron. Yr ydym yn credu y rhydd y disgrifiadau gystal syniad i genedlaethau dyfodol a dim y gellir el ddyweyd am dano. Y mae y disgrifiad canlynol wedi ei ysgrifenu gan y Parch. Thomas Levi, wedi bod yn gwrandaw arno yn mis Ebrill, 1853. [Gwel *Traethodydd*, 1853, td. 385.]

'Dyma ddyn ieuangc, canolig o faint, yn codi i fyny, ac yn rhoddi pennill allan—yn uchel, araf, a llusgedig. Y mae y 'ddau lygad' sydd yn nghanol y gwyneb llawn, crwn, goleu, ardderchog acw, yn dynodi craffder, synwyr, a nerth teimlad. Yr oedd ei iaith yn dda, ei bwyslais yn dariawiadol, a'i holl ysgogiadau yn naturiol—yn llawn bywiogrwydd ac eglurhâd. Cawsom ddeall, maes o law, ei fod yn dduwinydd da, yn ymresymwr cadarn, yn Gristion teimladwy, ac yn draddodwr medrus. Yr oedd a fynai â'r dyn oddi mewn. Siaradai ac ymgynghorai â rheswm a chydwybod y gwrandawyr oll. Yr oedd deng

'Mil o glustiau wedi eu hoelio wrth ei air yn
ddigon byw;
A phob llygaid syllai arno—pawb yn ddistaw ac
yn syw.'

Dygai y deall yn gaeth â'i resymau; ac yna, yr oedd y galon yn ei law. Os cyffelybir ef i afon—yr afon yn ymdywallt dros y clogwyni serth, ac yn disgyn gyda ffyrnigrwydd dros erwindeb y graig ddanneddog, oedd. Estynai ei fraich allan; rhuthrai ei waed i gochi ei wyneb; gwreichionai ei lygaid gan sêl a theimlad; dyrchafai ei lais fel udgorn ofnadwy, nes y tybiwn fod yr awyrgylch uwch ein penau yn llawn o elfenau ystorm, a'i bod hi ar ddisgyn arnom:—

'Ië, 'nawr 'roedd wedi ymwisgo â chymmylau
Sinai draw,
Mellt yn saethu, t'ranau 'n rhuo, nes y crynai 'r
dorf mewn braw.'

Gorphwysai foment yn fud, a'i fraich ar ei hyd yn estynedig. Yr oedd ei ddistawrwydd yn fwy ofnadwy na dim. Buasai yn well genym i'r mellt a'r taranau ddyfod yn mlaen yn ddi-dòr, na'n cadw i ddisgwyl pan y gwelem fod rhagor i ddyfod. Torai ar y distawrwydd fel craciad disymmwth y daran, gyda bonllef uwch nag o'r blaen. Gloewai y deigryn ei lygaid, a gyrai y ddau air cyd-deimladol—'Bobl anwyl!' i agor y pyrth o flaen y gwirionedd, y rhai a wnaent i ddagrau dasgu allan o filoedd o lygaid, a gwlychu y gruddiau gwelw, dychrynedig, oedd o'i flaen. Yr oedd yno ruddfanau ac ocheneidiau trwmlwythog. Yn wir, yr oeddym bron a gwaeddi allan, neu lewygu. Ac oni buasai i'r pregethwr newid ei gwrs yn fuan, credwn y buasai yn un floedd wylofus dros y cae. Ond wele! newidiodd ei dôn, chwalwyd y cymmylau duon, a chwythwyd yr ystorm ymaith gan 'awel o Galfaria fryn;' a disgynodd pelydr hyfryd yr haul arnom, gorfoleddai y galon, llonai y wyneb, prysurai y dagrau wrth fesur mawr, a thorai bloedd gorfoledd allan ger llaw yr esgynlawr o ryw

Digitized by Google

galon oedd yn rhy lawn i ddal. Teimlem fod y genadwri gyda dylanwad dwyfol—teimlem ein holl enaid yn ildio i drefn gras. Mor chwith oedd genym fod y Duw mawr wedi dyfod mor bell i'r dyben o'n hargyhoeddi, a ninnau wedi bod mor hwyrfrydig i dderbyn 'y dystiolaeth yr hon a dystiolaethodd efe am ei Fab.' A phenderfynodd ein calon y foment hono ger bron yr Arglwydd, 'Os wyf etto heb gredu, mi gredaf yn awr. Arglwydd, cymmhorth fi!'

Y mae y disgrifiad tarawiadol uchod o eiddo Mr. Levi yn siarad drosto ei hun, ac yn gosod allan mewn dull pendant y fath bregethwr oedd gwrthddrych ein hysgrif. Yr oedd yr adeg yma yn bregethwr o hynodrwydd anghyffredin, er mai dyn ieuangc o ddeutu deugain oed oedd efe; ac nid ydoedd yn ugain mlwydd oed o bregethwr.

Y mae y darluniad canlynol wedi ei ysgrifenu gan y Parch. John Morgan Jones, Caerdydd, am odfa a gafodd Dr. Thomas yn Sassiwn Llangeithio, yn y fl. 1859:—

'Cynnelid odfa olaf Sassiwn Llangeitho (1859) yn y capel; ac er fod y rhan fwyaf o'r dyeithriaid wedi ymadael, cafodd yr addoldy ei orlenwi yn mhell cyn amser dechreu. Yr oedd o ddwy fil i ddwy fil a hanner o bobl wedi ymwthio i mewn y noson hono. Pregethid yn mlaenaf gan y Parch. Evan Harris, Merthyr:—y tro olaf i mi weled yr hen bererin. Er mor ffraeth a tharawiadol oedd ei ergydion, methodd ddeffro y dyrfa drwyddi y noson hono. Ar ei ol, cododd y Parch. Owen Thomas; a chymmerodd yn destyn y geiriau hyny yn *Heb.* ix. 14:—'Pa faint mwy y bydd i waed Crist,' &c. Yr oedd rhyw ddifrifwch annaearol yn ei wedd pan yn codi; a darllenodd ei destyn mewn goslef mor effeithiol nes hoelio y gynnulleidfa wrth ei wefusau y frawddeg gyntaf. Dechreuodd yn bur athronyddol gan olrhain y gydwybod yn ei gwahanol weddau! Darluniai hi fel ysgrifenydd yn cofnodi gweithredoedd, ac fel swyddog yn gwobrwyo neu yn cospi y dyn am ei weithredoedd ar ol eu cyflawni. Ond er fod yr ymdriniaeth yn bur arddansoddol, ac yn cario y rhan fwyaf i diriogaeth na wyddent fawr am dani, etto i gyd yr oedd tryloewder y sylwadau, goslef difrif-ddwys y pregethwr, ynghyd â'r cymmhariaethau cyfarwydd a tharawiadol a ddefnyddid ganddo, yn peri ei fod yn ddealladwy i'r holl dorf. Yn y man, ymwasga yn nes at y bobl; a chyda hyny, dyna ei holl natur yn cyffroi. Daw y geiriau o'i enau yn gyflym ac yn boethion, fel pelenau wedi bod mewn ffwrnais; a dyna dân y pregethwr yn ymaflyd yn y gwrandawyr. Cyffelybai y gydwybod yn cofnodi i ddyn yn ysgrifenu â *patent ink*. Pe byddai rhywun yn edrych dros ysgwydd hwnw, gallai dybio nad ydyw yn ysgrifenu dim; o blegid ymddengys y ddalen o'i flaen yn wen: ond wrth ddal y papur o flaen y tân, daw y brawddegau, y geiriau, a'r llythyrenau oll i'r golwg: ie, hyd yn oed y *dot* bach uwch ben yr '*i*.' Yr un fath—peth hollol anweledig yw ysgrifen cydwybod i lawer ar y ddaear; ond yn y trueni, yn ngoleu tân uffern, bydd y cyfan a ysgrifenwyd ganddi yn ddarllenadwy i bawb o honynt. Erbyn hyn, nid oes un enaid o fewn yr addoldy nad ydyw wedi ei sobri:—ond parhau i lifo y mae y llanw. Ymddengys y pregethwr fel Boanerges, neu ynte fel Moses yn disgyn oddi ar ben Mynydd Sinai, wedi bod yn derbyn y gyfraith o law Duw, ac yn ysgwyd i fysg y dyrfa y mellt oedd wedi llechu yn mhlygion ei fantell. Eistedda cwmmwl digofaint ar ei ael, a dyrchafa ei lais fel udgorn yr archangel. Gydag areithyddiaeth berffaith, darluniai ddyn wedi colli ei synwyrau mewn gwallgofdy yn America. Byddai y gwallgofddyn yn dynwared dyn yn annelu â dryll, ac yn tynu y *trigger;* yna, gwaeddai '*Fire! Fire! He is dead! He is dead!*' Dywedai y ceidwad mai mab oedd i Dr. Rush, Philadelphia—ei fod wedi lladd ei wrthwynebydd wrth ymladd gornest; a dyna ei waith er pan ddaeth i'r gwallgofdy, ail fyw y gyflafan a gyflawnwyd ganddo. Gwelodd y bobl y cymmhwysiad bron cyn i'r pregethwr ei ddyweyd—mai gwallgofdy ydyw uffern, ac mai gwaith y gwallgofiaid yw byw yr hen bechodau ysgeler a gyflawnwyd ganddynt ar y ddaear; a llenwid eu meddwl â braw gan y syniad ofnadwy. Erbyn hyn, yr oedd y dylanwad bron yn ormod i'r pregethwr ei hun ymgynnal dano. Pe buasai dyn cyffredin dano, aethai yn sypyn marw dan y pwysau; ond daliodd ef, a throdd y cyffro yn wynt dan ei adenydd i esgyn yn uwch i'r uchelion, fry. Yn awr, dyna fo yn cydio yn y Beibl oddi ar y pulpud, yn ei godi rhwng ei freichiau, gan ysgwyd o'r naill ochr i'r llall fel dyn wedi dyrysu; a gwaeddai y geiriau a roddir yn yr Ysgrythyr, yn ngenau cregadur wedi ei golli—'Pa fodd y casëais i addysg? Pa fodd? *Pa fodd?* PA FODD?' Ar unwaith, dyna gymmaint o'r gynnulleidfa ag oedd yn eistedd o'n blaen ar eu traed fel gallt o goed, gan edrych fel ar fin gwallgofrwydd. Dyrchafa un och ddofn, dorfcalonus i fyny o fynwesau dwy fil ar unwaith, nes peri i mi deimlo fy ngwaed yn aros yn fy ngwythïenau, a'm gwallt yn sefyll fel cwils ar fy mhen. Wrth godi fy ngolwg, gwelwn greaduriaid celyd, a ddaliasai holl nerthoedd y Diwygiad, â'u gwynebau yn wynion fel calch, a'u gliniau yn curo ynghyd fel yr oedd Belsassar. Yr oedd y merched gwammal a welswn yn cellwair amser y bregeth gyntaf, erbyn hyn, wedi troi eu ffedogau am eu penau fel rhai heb wybod pa beth i wneyd; a thorent allan i wylo yn uchel. Ni fum mewn lle mor ofnadwy erioed!

Bûm mewn ystafelloedd dynion yn marw, ac yn cyfranogi o'r difrifwch sydd yn ffynu yno. Bûm yn yr *hall* yn gwrandaw prawf creadur tlawd yn cael ei dreio am ei fywyd—yn gweled rhwydwaith y tystiolaethau yn cau am dano, yn gwrandaw sewrs y barnwr i'r rheithwyr, ac yn disgwyl mewn distawrwydd brawychus am y *verdict*. Ond erioed ni theimlais y fath ddifrifwch brawychus a hwn. Braidd na chredwn fod y llawr wedi cael ei godi oddi ar y pydew diwaelod, ac mai dolef creadur colledig yn ymgodi o'r dyfnder obry oedd y floedd, 'Pa fodd y caseais i addysg?' ac mai gruddfanau y cwmni truenus o'i gwmpas oedd ocheneidiau y dorf. Ond y mae y pregethwr yn parhau. 'Pa fodd y dirmygodd fy nghalon gerydd? Pa fodd? *Pa fodd?* PA FODD? Pa fodd na wrandawswn ar lais fy athrawon? *Pa fodd?* PA FODD? PA FODD?' Yn sicr, nis gall cnawd ddal peth fel hyn fawr yn hwy. Ond yn sydyn saif y llefarwr. Yna, dyna wedd ei wyneb yn newid—y cwmwl du yn clirio oddi ar ei ael—a'r llygaid fuasai yn melltenu mor ofnadwy yn tyneru i'r mwyneidd-dra tynera' erioed:—ac mewn bloedd gynnhyrfus, etto orlawn o felusder gobaith, gofyna, 'A oes rhywbeth fedr buro y gydwybod?' Distawa yr ocheneidiau am ciliad—dalia y gynnulleidfa ei hanadl i ddisgwyl am yr atebiad, fel pe byddai anobaith wedi rhoddi y ffordd i bryder—a theyrnasa distawrwydd dwfn fel y bedd! A dyma yr atebiad yn dyfod fel sŵn olwynion cerbyd trugaredd. 'Bendigedig fyddo Duw—oes y mae! Y GWAED!' Dyna rhyw ddyn o ganol y llawr yn rhywle yn rhoddi bloedd felusach na'r diliau mêl: 'O! diolch! Cipiodd y dorf y floedd i fyny, ac aeth yn un fanllef fawr o 'Haleliwia, a diolch' trwy y capel. O'r anwyl! dyna ymwared. Yr oedd fel pe byddai y cymmylau duon gwgus fuasai yn gorchuddio'r ffurfafen yn cael eu hysgubo i ffwrdd o'r nefoedd lâs, serchog, dryloew, oedd y tu hwnt yn cael ei dadguddio, neu ynte fel dyfodiad bywydfâd o nifer o forwyr llong-ddrylliedig, wedi bod am oriau lawer ar wyneb y cefnfor, ac heb ddim ond darn astell rhyngddynt a boddi. Bid sicr, oferedd oedd meddwl am bregethu yn hwy; ond yr wyf yn tybio i'r pregethwr geisio gorphen y cyfarfod trwy weddi; o blegid gwelwyd ef yn cau ei lygaid, ac yn dyrchafu ei wyneb tua'r nef—eithr ni chlywyd sill o'r weddi hono gan neb ond Gwrandawr Gweddi ei hun:—ac yn yr addoldy y buwyd am oriau.'

Y mae y darluniad uchod yn gyffrous i'r eithaf—ond yn hollol gywir. Ceir ynddo syniad

Digitized by Google

mor ofnadwy o nerthol y byddai y weinidogaeth o enau Dr. O. Thomas ar rai adegau. Y mae Llangeitho yn enwog am bregethau nerthol. Y mae pregethau nerthol Rowlands wedi anfarwoli y lle; ond y mae yn ammheus a gafodd y gŵr enwog hwnw odfa fwy nerthol na'r un a ddisgrifiwyd uchod.

Rhoddwn un darluniad yn rhagor mewn odfa yn y Pafiliwn, Caernarfon, yn Sassiwn 1884:—

'Yr ydym yn cofio y boreu hafaidd, tesog, y torfeydd yn dylifo i'r Pafiliwn, a gweinidog parchus o'r Deheudir yn pregethu yn anwyl ar y pwysigrwydd o 'gynghori ein gilydd bob dydd tra y gelwir hi Heddyw.' Yr oedd ei eiriau yn disgyn fel cawodydd ar laswellt. Yr oedd y gynnulleidfa fawr wedi ei hireiddio o dan wlith y bregeth. Yn y man, y mae efe yn cilio o'r ffordd; a dyna yr hybarch Ddr. Thomas yn cymmeryd ei le.

'Dyna'r pennill wedi ei ganu,
Dyna'r testyn i ni'n awr,
Disgwyl mae y dorf awyddus
Fel y gwyliwr am y wawr.'

A thorf ardderchog ydoedd! Trown i'r cyfeiriad y mynom, dyna a welir—torf o wynebau astud, disgwylgar, yn craffu ar un o feistriaid y gynnulleidfa. Yr oedd awelon diwygiad mewn parthau o'r wlad ar y pryd; a hawdd oedd canfod ei bod yn chwythu yn ysgafn yn odfa y boreu hwn. Yr oedd yn eglur er's meityn y byddai yr odfa yn un hapus a dedwydd; ond teimlwyd cyn hir fod yno rywbeth mwy, dyfnach, a rhyfeddach na chydymdeimlad dymunol cydrhwng y pregethwr a'r gynnulleidfa.

'Dan urddas, a Duw 'n arddel—tystiai
Ar y testyn uchel;
Llefarai a'r fintai fel
Yn hongian wrth fin angel.'

Yr oedd 'nerthoedd y byd a ddaw' yn cerdded drwy y lle; a dynion cryfion, celyd, yn ceisio celu y dagrau oedd yn ffrydio o'u llygaid. 'Yr oeddwn i (ebai un gŵr) yn eistedd yn nghwr eithaf y Pafiliwn, ar ffrynt y galari. Aethum yno yn fwy o gywreinrwydd na dim arall. Yr oeddwn yn awyddus i wybod a ellid clywed yn eglur o'r fath bellder. Ni chefais fy siomi. Yr oedd geiriau Dr. Thomas yn disgyn fel alarwm ar fy nghlyw. Wrth syllu draw i ganol y dorf ar y llawr, gwelwn arwyddion o deimlad dwys, a llawer un yn plygu ei ben mewn distawrwydd; ond yn sydyn, dyna rywbeth yn symmud dros y dorf fel gwynt cryf dros faes o ŷd, a chlywn sŵn dyeithrol yn ymledu trwy yr adeilad. A chyn pen ychydig, yr oedd hen eiriau cyssegredig y diwygiadau gynt wedi adgyfodi, ac yn cynniwair trwy y lle: megys, 'Bendigedig!' 'Gogoniant i'w enw!' Diolch am Waredwr,' &c. Distawodd y pregethwr, ac nid wyf yn cofio chwaneg—heb law i mi gael fy hunan yn y man yn nghanol mintai o frodyr a chwiorydd yn canu â'u holl egni—

'Pen Calfaria,
Nac aed hwnw byth o'm côf.'

Ac yn nghanol yr amlygiadau ardderchog hyn o deimlad y terfynodd un o'r odfaon hynotaf.'

Yn awr, dyna ni wedi rhoddi darluniad o'r pregethwr ardderchog hwn ar dri amgylchiad neillduol—yn 1853, 1859, ac 1884; a gall y cenedlaethau dyfodol gael rhyw ddrychfeddwl am dano oddi wrth y darluniadau hyn. Gwelwn nad oedd odfaon grymus ei fywyd yn gyfyngedig i un cyfnod o'i oes. Dyn ieuangc, ychydig dros ddeugain oed, oedd efe pan ysgrifenodd Mr. Levi ei ddarluniad o hono. Dyn canol oed, yn tynu yn mlaen at yr hanner cant, oedd pan ysgrifenodd Mr. Jones ei ddarluniad o hono yn Llangeitho? Ond erbyn Sassiwn Caernarfon, 1884, yr oedd yn hen ŵr dros ddeg a thrigain oed. Bu amddiffyn Duw yn amlwg drosto ef a'i weinidogaeth—o'i ymddangosiad cyntaf yn Mangor hyd y dydd y syrthiodd i'w fedd yn Liverpool; ac mae'n debyg nad oes un o bregethwyr Cymru yn yr oes hon y bendithiwyd ei weinidogaeth yn fwy i gyrhaedd ei hamcanion mawrion ar eneidiau dynion. Ond erbyn heddyw, y mae y Pen Mawr wedi ei gymmeryd ato ei hun, ac y mae ei le yn wâg yn ein plith! A gawn ni etto lawer o bregethwyr tebyg i Dr. Thomas? Y mae dyfodol y pulpud Cymraeg yn deilwng o sylw holl eglwysi ein gwlad!

TAENELLIAD. Nid ydyw yr ysgrif hon yn ymdriu â deiliaid, gweinyddwyr, effaith, neu effeithiau hònedig, nac Olyniaeth Apostolaidd yn ei berthynas â'r Bedydd Cristionogol. Ac ni fwriedir ymdrin chwaith â dim o'r hyn a welir yn y gyfrol gyntaf dan y gair 'BEDYDD.'

Ysgrifenwyd yr erthygl hono gan ddau ŵr a ystyrid yn mhlith y galluocaf a feddai y ddwy ochr: a chydnabyddwyd gan y ddwyblaid fod tegwch wedi ei wneuthur ynddi â'u golygiadau neillduol. Yn td. 473 yn y gyfrol hon, ceir erthygl arall, dan y gair 'BEDYDDWYR;' ac mewn nodiad ar waelod y ddalen, cyfeirir at yr erthygl hon. Yr oedd awdwr yr erthygl hono wedi ymdrin yn mhellach â golygiadau y Bedyddwyr nag a wnaeth awdwr yr erthygl gyntaf. Tybiwyd gan hyny y gallai fod rhywbeth yn mhellach i'w ddywedyd erbyn hyn o blaid gweinyddiad yr ordinhâd trwy 'daenelliad.' A dyna y rheswm paham yr ymddengys yr erthygl hon. Dywed ei hawdwr mai—

TAENELLU A THYWALLT yw iaith yr Ysgrythyrau am bob peth a berthyn i Fedydd. Dyfynir yma ddau ymadrodd a gynnrychiolant yr holl Ysgrythyr Lân ar y pen hwn:—

*Ezeciel* xxxvi. 25.—'Ac a daenellaf arnoch ddwfr glân fel y byddoch lân: oddi wrth eich holl frynti, ac oddi wrth eich holl eilunod, y glanhâf chwi.'

Dyna'r cysgod:—A dyma'r diwedd:—

*Heb.* xii. 24.—'Ac at Iesu, Cyfryngwr y Testament Newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel.'

Glanhâd cysgodol, defodol, sydd yn y naill, a chyfiawnhâd pechadur trwy waed Crist sydd yn y llall. Bedydd dwfr ydyw un, a bedydd 'gwaed Iesu Grist' yw y llall; a *thaenelliad* yw dull cymmhwysiad y naill a'r llall. Am y cyntaf, y glanhâd seremonïol ydyw y bedydd: nid y taenelliad, ond y glanhâd—nid y dull, ond yr effaith. Aflan oeddynt—yn awr, glân ydynt. Y mae yn rhydd iddynt bellach nesau at 'gyssegr Duw,' a chyfranogi yn ei wasanaeth. Ac o angenrheidrwydd cyfattebiaeth pethau, pery dwfr y taenelliad yn arwydd-lun perffaith tra pery ffydd Cristionogion yn 'ngwaed y taenelliad.' Rhaid dinystrio y gyfattebiaeth hon cyn y ceir lled troed o le i 'drochiad' yn nheml Duw.

Am y gair *taenellu*. Cyfansawdd ydyw, fel y gair *ysgrifell*, a mintai o rai cyffelyb iddo. Ysgrif-*ell* ydyw y peth â'r hwn yr ysgrifenir; a thaen-*ell* ydyw y peth â'r hwn y taenir. Taen-*ell* yr offeiriaid oedd 'tusw o isop.' Mewn rhai amgylchiadau, nodir 'cedr,' 'ysgarlad,' ac 'isop.' Mewn eraill, 'bŷs' yr offeiriad. Y tusw isop oedd y brif daenell. At hyny y cyfeirir yn *Salm* li. 7—'Glanhâ fi âg isop, a mi a lanheir.' Ond fe ddichon fod yr isop yn sefyll am y cedr a'r ys-

Y Talfyriadau sydd i'w cael yn yr erthygl hon ydynt fel y canlyn:—C.C., Cyfieithiad Cymraeg, 1567. C.A., Cyfieithiad Awdurdodedig Saesneg, 1611. C.D., Cyfieithiad Diwygiedig Saesneg, 1881.

Digitized by Google

garlad yn amlach nag yr ymddengys yn y geiriau hyny. Mewn hen gerfluniau yn eglwysdai Groeg a Rhufain, math o gragen ydyw taenell Ioan Fedyddiwr. Mewn hen gerfluniau eraill, gwelir phïolau a phiserau. Yn y Roeg baganaidd, yr enw ar daenell ydyw *perirrhantêrion* (περιῤῥαντηρίον); ac yn y Lladin, *aspergillum*—offeryn i *daenellu*; yn enwedig, math o ysgubellan i daenellu dwfr ar aberthau, (*'an utensil for besprinkling, especially a kind of whisk for sprinkling water at sacrifaces.'—Liddell and Scott's Greek-English Lexicon.* Mae *taenell* y Gymraeg yn fyrach, a thlysach, a llawn mor gynnwysfawr.

Nid oes le i 'drochiad' yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd mewn cyssylltiad â phuredigaeth ddefodol, ond yn îs-wasanaethol i 'daenelliad,' fel y gwelir yn y dyfyniadau canlynol:—

*Lef.* iv. 6.—'A throched yr offeiriad ei fŷs yn y gwaed, a thaenelled o'r gwaed ger bron yr Arglwydd seithwaith, o flaen gwahanlen y cyssegr.'

*Lef.* ix. 9.—'A meibion Aaron a ddygasant y gwaed ato: ac efe a wlychodd ei fŷs yn y gwaed, ac a'i gosododd ar gyrn yr allor.'

*Lef.* xiv. 51.—'A chymmered ['i lanhau y tŷ'] y coed cedr, a'r isop, a'r ysgarlad, a'r aderyn byw, a throched hwynt yn ngwaed yr aderyn a laddwyd, ac yn y dwfr rhedegog, a thaenelled ar y tŷ seithwaith.'

*Num.* xix. 16—19.—'Pob un hefyd a gyffyrddo, ar wyneb y maes, âg un wedi ei ladd â chleddyf, neu âg un marw, neu âg asgwrn dyn, neu â bedd, a fydd aflan saith niwrnod........A chymmered isop, a golched un dihalogedig ef mewn dwfr, a thaenelled ar y babell, ac ar yr holl lestri, ac ar yr holl ddynion oedd yno, ac ar yr hwn a gyffyrddodd âg asgwrn, neu un wedi ei ladd, neu un wedi marw, neu fedd: a thaenelled y glân ar yr aflan, y trydydd dydd, a'r seithfed dydd.'

A chymmeryd yn ganiatäol, ar hyn o bryd, fod y 'gwlychu yn,' a'r 'trochi yn,' a'r 'golchi mewn,' yn gyfystyr â '*bapto eis*' y Deg a Thrigain, nis gallant brofi mwy na hyn:—mai y swydd uchaf a rodded i drochiad, yn nhrefn y prynedigaeth, ydyw *parotöad i daenelliad.* Trwy daenelliad y glanhëid y rhai a halogwyd; ac yr oedd y glanhâd hwnw yn rhoddi i'r hwn a lanhâwyd hawl i gyfranogi yn ngwasanaeth y cyssegr. Y glanhâd hwnw yw bedydd dwfr y Beibl. A pha fodd bynag y darllenir yr adnodau uchod, ni ellir byth ddyrchafu trochiad i swydd uwch na gwlychu y daenell tuag at fedyddio:—trochi y daenell, nid trochi y bobl. Nid bedyddio y daenell, ond ei gwlychu. Nid trochi y bobl, ond eu bedyddio—trwy DAENELLIAD.

'Ond a ydyw y glanhâd hwn, trwy daenelliad, yn cael ei gydnabod yn Fedydd yn iaith y Testament Newydd?' Hyny, yn gywir, yw ei enw am, o'r lleiaf, ddau canrif cyn Crist. *Baptidzo* yw y gair a arferid am dano yn Ngroeg y Deg a Thrigain, a Josephus, a'r Testament Newydd. Dylai hyn roddi terfyn ar y ddadl.

Y DEG A THRIGAIN.—*Sirach* xxxi. 30.

Βαπτιζόμενος ἀπὸ νεκροῦ καὶ πάλιν ἀπτόμενος αὐτοῦ, τί ὠφέλησεν τῷ λουτρῷ αὐτοῦ;

*Ecclesiasticus* xxxiv. 25.

'Y neb a *lanhäer* (baptidzo) oddi wrth y marw, ac a halogo ei hun drachefn, pa les iddo fydd ei olchiad?'—*loutron*—o *louo*, golchi.

Yma, arferir y ddau air, y *bedyddio* (*baptidzo*) a'r *golchi* (*louo*) fel pe byddent yn gyfystyr. Ac felly hefyd, yr arferir hwynt yn hanes glanhâd Naaman y Syriad.

2 *Bren.* v. 10. (*Louo*, a *katharidzo*).—'Ac Eliseus a anfonodd ato ef genad, gan ddywedyd, Dos, golcha saith waith yn yr Iorddonen; a'th gnawd a ddychwel i ti, a thithau a *lanhëir*' (katharidzo).

*Ioan* ix. 7.—'Ac a irodd y clai ar lygaid y dall, ac a ddywedodd, Dos, golcha yn llyn Siloam.'

Tebyga y ddau orchymyn yn hyn:—Ni nodir *pa beth sydd i gael ei olchi.* 'Dos, golcha—yn llyn Siloam.' A oedd angen dywedyd *pa beth* oedd i'w olchi, a'r Iesu newydd iro y clai ar ei lygaid? Nid oedd berygl iddo gamddeall, er dalled oedd. Ystyr y gorchymyn iddo, a chanddo, ac ynddo ef, oedd, 'Dos, *golcha dy lygaid* yn llyn Siloam, a'th lygaid a agorir.' Felly am Naaman:—'Y man' gwahanglwyfus oedd yn ei flino: ni allai feddwl am ddim ond y llecyn neu yr ysmotyn hwnw. A disgwyliai i'r prophwyd ddyfod allan, a sefyll, a galw ar enw yr Arglwydd ei Dduw, a 'gosod ei law *ar y fan.*' Yn lle hyny, dyma'r gorchymyn a gafodd efe gan *was* y prophwyd, 'Dos, *golcha* saith waith yn yr Iorddonen.' A oedd angen dyweyd wrtho *pa beth* i'w olchi? Nis gallai feddwl am ddim arall ond 'y man' gwahanglwyfus. A phan glywodd y geiriau 'a'th gnawd a ddychwel i ti,' nis gallai feddwl am un ran o'i gorph ond '*y man*' gwahanglwyfus. Yr oedd pob rhan arall allan o'i feddwl. A phan orchfygwyd ei falchder, ac yr ymostyngodd efe i ddefnyddio dwfr yr Iorddonen, rhagor Abana a Pharpar, ni allai efe feddwl am ddim ond golchi 'y man' gwahanglwyfus. Hyd yma, y mae hanes y Dall yn cydredeg â hanes Naaman. Ond yn iaith deddf puredigaeth y lleferir wrth Naaman; o blegid yr oedd ei wahanglwyf wedi ei wneuthur yn *aflan.* Nid oedd y *Dall* yn aflan; ac ni ddywedir un o eiriau deddf puredigaeth wrtho ef: ond wrth Naaman, *louo* (*golchi*) a 'saith waith;' a *katharidzo (glanhau).* Yr oedd y gŵr dall, o'r tu arall, yn ddefodol lân. Oni bae hyny, ni chawsent gyfle i'w 'fwrw allan o'r synagog.'

2 *Bren.* v. 14 (*Baptidzo*, a *katharidzo*).—'Ac efe a aeth i waered, ac a *fedyddiodd* saith waith yn yr Iorddonen, yn ol gair gŵr Duw: a'i gnawd a ddychwelodd fel cnawd dyn bach, ac efe a *lanhâwyd.*'

*Ioan* ix. 7 (*Nidzo*—golchi; a *blepo*—gweled).—'Am hyny efe a aeth ymaith ac a *olchodd*, ac a ddaeth *yn gweled.*'

Ni ddywedir pa beth a *olchwyd* gan y Dall, na pha beth a *fedyddiwyd* gan Naaman. Mae'r ddau hanes yn yr un ffurfiau grammadegol:

Am Naaman:—lou*sai*, golcha; ebapti*sato*, bedyddiodd.

Ac am y Dall:—nip*sai*, golcha; enip*sato*, golchodd.

lou*sai* ebapti*sato*
nip*sai* enip*sato*

Nid oedd angen dyweyd *pa beth* a olchwyd gan y Dall:—ni feddyliai am ddim ond cael *agoryd ei lygaid.* Nac am Naaman, *pa beth* a fedyddiodd yntau:—nid oedd efe yn meddwl am ddim ond 'iachau' y 'man' gwahanglwyfus. Wel, pa ham y gelwir golchiad Naaman yn *fedyddiodd* (ebaptisato), a golchiad y Dall yn ddim ond *golchodd* (enipsato)? Am yr un rheswm ag y dywedir 'saith waith' wrth Naaman—i arwyddo mai dan ddeddf puredigaeth yr oedd y gorchymyn iddo ef. Ac efe a *fedyddiodd* saith waith...*ac efe a lanhawyd.*' Ni chrybwyllir gair o hyn wrth, nac am y Dall; o herwydd nid o dan ddeddf puredigaeth yr 'agorwyd ei lygaid ef.'

Digitized by Google

Pe buasai Naaman yn trochi ei holl gorph i olchi 'y man' gwahanglwyfus, buasai yn gwneyd mwy nag oedd yn eisieu arno, a mwy nag a orchymynwyd iddo. Nid oes neb a freuddwydiai fod y Dall yn trochi ei holl gorph i olchi y clai oddi ar ei lygaid; ond codi dwfr â'i law, a golchi ei lygaid. A'r un peth a orchymynwyd i Naaman. Oni ddywedir mai 'yn yr Iorddonen' y *bedyddiai* Naaman? Gwir iawn. A dywedir hefyd mai 'yn llyn Siloam' y *golchodd* y Dall ei lygaid. A phan safai y naill a'r llall ar ymyl y dwfr (C. D., *on the brink of the waters; Josuah* iii.), yr oedd un '*yn yr Iorddonen*,' a'r llall '*yn llyn Siloam*.'

Dylem chwanegu yma ein bod wedi canlyn *grammadegiad* y Cyfieithiad Saesneg Diwygiedig [1881] yn y cyfieithiadau uchod. Ni roddant *wash thyself* (ymolchi) yn y naill hanes na'r llall. Dywedant 'dipped *himself*' unwaith; ond mewn llythyren italaidd y mae'r *himself*, i arwyddo nad ydyw yn y gwreiddiol. Felly, y mae'r golchiad 'saith waith,' nid yn iachau 'y man' gwahanglwyfus yn unig, ond yn *glanhau yn seremoniol* ei berson. Ac am hyny y gelwir y tro hwnw yn fedydd—nid ei fod yn trochi ei hun, ond ei fod *yn cael ei lanhau* yn ol deddf puredigaeth.

JOSEPHUS—ar *Num.* xix.

—Τοὺς οὖν ἀπὸ νεκροῦ μεμιασμένους, τῆς τέφρας ὀλίγον εἰς πηγὴν ἐνιέντες καὶ ὕσσωπον, βαπτίσαντές τε καὶ τῆς τέφρας ταύτης εἰς πηγὴν ἔρραινον τρίτῃ καὶ ἑβδόμῃ τῶν ἡμερῶν.

*Hynafiaethau yr Iuddewon*, iv. 6.

'Y rhai, gan hyny, a halogwyd wrth gorph marw, gan ddodi mewn dwfr ffynnon ychydig o'r lludw, ac isop, a hefyd gan *fedyddio* (baptidzo) â'r lludw hwnw mewn dwfr ffynnon taenellant ar y trydydd ac ar y seithfed dydd.'—Gwel *Llawlyfr Bedydd*, td. 229—232.

Y TESTAMENT NEWYDD.

*oa n*iii. 25 (*Katharismos*—puredigaeth); 'Bu ymofyn gan hyny rhwng dysgyblion Ioan âg Iuddew, ynghylch puredigaeth (C.D.).

Y mae ἐκ τῶν μαθητῶν Ἰωάννου (C.D., *on the part of John's disciples*), yn dangos mai hwy a ddechreuodd y ddadl. Yr achlysur oedd hyn:—yr oedd yr Iesu a'i ddysgyblion, ac Ioan a'i ddysgyblion wedi cydgyfarfod yn Ainon. Yr oedd Crist yn bedyddio yn Ainon, ac Ioan yn bedyddio yno; 'ac yr oedd *Ioan hefyd* yn bedyddio yn Ainon.' Ond mynegir nad oeddynt hwy ar ffordd eu gilydd—'canys dyfroedd lawer oedd yno.' Gan hyny, nid oedd raid iddynt fod yn ymyl eu gilydd. Ond ymddengys eu bod yn ngolwg eu gilydd, a bod llwyddiant Crist wedi cyffroi eiddigedd yn nysgyblion Ioan: —'A hwy a ddaethant at Ioan, ac a ddywedasant wrtho, Rabbi, yr hwn oedd gyda thi y tu hwnt i'r Iorddonen, am yr hwn y tystiolaethaist ti, wele, y mae hwnw yn bedyddio, a phawb yn dyfod ato ef'—(neu yn *myned* ato ef). Ac ymddengys mai un o'r rhai hyny oedd yr Iuddew hwn; a dysgyblion Ioan yn dadleu dros fedydd eu hathraw hwy, ac yn cymmeryd y pwngc at Ioan i'w benderfynu. Ac attebiad y dyn mawr hwnw iddynt ydoedd—'Rhaid ydyw iddo ef gynnyddu, ac i minnau leihau.' Heb ymhelaethu:—ni ellir darllen yr hanes hwn heb orfod credu fod y bobl yn galw bedydd yn *buredigaeth* (katharismos) ac yn galw puredigaeth yn *fedydd* (baptismos).

'AMRYW FEDYDDIADAU.'

*Heb.* ix. 9, 10 (*Diaphorois baptismois*); 'Y rhai ni allent, o ran cydwybod, berffeithio yr addolydd, yn unig â bwydydd, a diodydd, ac *amryw fedyddiadau* (C. C., amryw *olchiadau; O. D.*, divers *washings;* C. Luther, *mancherlei Taufen* —amryw fathau o fedydd), defodau cnawdol, gosodedig hyd amser diwygiad.'

Yn yr adnodau nesaf, noda rai o'r 'bedyddiadau; sef, 'bedyddio 'y rhai a halogwyd' (*adn.* 13); bedyddio 'y llyfr a'r bobl oll' (*adn.* 19); bedyddio 'y tabernacl hefyd, a holl lestri y gwasanaeth' (*adn.* 21)—oll trwy DAENELLIAD. A'r elfenau gweledig oeddynt, 'gwaed,' 'a lludw anner,' 'a dwfr.'

Yr un iaith sydd hefyd gan y Tadau Cristionogol yn y canrifoedd ar ol yr oes apostolaidd. Nis gallent yn amgen. Gwyddent mai trwy daenelliad y cyflawnid holl wasanaeth glanhâd, pureiddiad, neu sancteiddiad y Beibl; a gwelent mai y rheswm dros hyny ydoedd, mai 'portrëadau' oeddynt.

*Heb.* ix. 23.—'Rhaid oedd gan hyny i *bortrëadau* [C.A., *patterns*: C.D., *copies*], y pethau sydd yn y nefoedd gael eu puro â'r pethau hyn.'

Cysgodau oeddynt oll o 'waed y taenelliad'—'taenelliad gwaed Iesu Grist.' A 'bedydd' y maent hwy yn galw y 'Glanhâ fi âg isop, a mi a lanhëir' (*Salm* li. 7); ond mai 'taenella fi âg isop' a ddywedant bob tro wrth ddyfynu yr adnod. Ac felly y mae yn y Deg a Thrigain—ῥαντιεῖς με ὑσσώπῳ. A 'bedydd' y galwent hwy y geiriau —'A mi a daenellaf arnoch ddwfr glân, fel y byddoch lân;' *Ezec.* xxxvi. 25. A bedydd y galwent hwy bob taenelliad a thywalltiad trwy yr holl Ysgrythyrau.

BREINLEN YR ORUCHWYLIAETH NEWYDD.

*Mat.* xxviii. 19.—'Ewch, a gwnewch ddysgyblion o'r holl genhedloedd *gan eu bedyddio*,' &c. (C.D.)

Yn y gorchymyn hwn ni wnaeth Pen yr Eglwys un cyfnewidiad yn *null* gweinyddiad bedydd. Deallid ef yn yr ystyr arferedig. Addefir hyn gan Mr. Ingham:—'Gwelir nad ydyw yr elfen [dwfr] yn cael ei fynegu yn y gair *bedyddio*. Nid ydym yn dal fod myned i waered i mewn i'r dwfr yn y gair *bedyddio*.' 'Nid oedd angen am fwy o fanylder i'r rhai oedd yn gyfarwydd â bedydd Ioan yn yr Iorddonen, a lleoedd eraill.'—*Handbook of Baptism* (1865), td. 26.

Ond yr oedd yr Iuddewon yn deall ystyr *baptidzo* yn hir cyn dechreuad gweinidogaeth Ioan. Pa fodd y dysgwyd hwy? Yr oeddynt yn deall y byddai i'r Crist fedyddio; ond methent ddeall pa ham yr oedd Ioan yn bedyddio. Pan anfonodd yr Iuddewon o Jerusalem offeiriaid a Lefiaid i ofyn iddo, 'Pwy wyt ti?' amlygid y petrusder hwn:—

*Ioan* i. 24, 25.—'A'r rhai a anfonasid oedd o'r Phariseaid. A hwy a ofynasant iddo, ac a ddywedasant wrtho, Paham gan hyny yr wyt ti yn bedyddio, onid ydwyt ti na'r Crist, nac Elias, na'r prophwyd?'

Y mae yn amlwg fod y Phariseaid, a'r holl Iuddewon, yn hen gyfarwydd â *baptidzo*. A phob tro y clywent y gair, ni feddylient am ddim ond y 'glanhâd' arferol dan ddeddf puredigaeth; yr hyn ydoedd yn ddi-eithriad trwy daenelliad. Nis gallent ofyn iddo, Paham, gan hyny, yr wyt ti yn *trochi?* o blegid ni welsent ac ni chlywsent am offeiriad yn trochi neb erioed. 'A thaenelled y glân ar yr aflan' (*Num.* xix. 19) oedd eu deddf dragwyddol. Ac nid awgrymodd ein Gwaredwr un gradd o gyfnewidiad yn *null* ei weinyddiad. Gan hyny, y mae *baptidzo*

y Freinlen Gristionogol yn aros fel yr ydoedd er's canrifoedd yn nhafodiaeth yr Iuddewon. Pe amgen, cawsid dadl chwerw a maith yn erbyn newidiad y *dull*. Dygwyd yr 'holl genhedloedd' i mewn i'r freinlen, a gadawyd yr enwaediad allan o honi. Ac ar hyny bu dadleu brwd, ynfyd, a chreulawn am hir amser. A rhyfedd mor hir y bu yr eglwys yn Judea cyn deall y cyfnewidiad. I ran Paul y disgynodd y gwaith o egluro y cyfnewidiad hwn, a'i weithio allan. Yna ymsefydlodd Cristionogaeth i ddau enwad—'apostoliaeth yr enwaediad' i Pedr, ac 'apostoliaeth y dïenwaediad' i Paul; *Gal.* ii. 7, 8.

BAPTIDZO AR Y PENTECOST.

*Act.* ii. 38.—'A Phedr a ddywedodd wrthynt, Edifarhewch, a *bedyddier* pob un o honoch yn enw Iesu Grist.'

Y mae Pedr, yn mhregeth fawr y Pentecost, yn gadael *baptidzo* fel yr arferai fod yn meddyliau yr Iuddewon. Cymmerai yn ganiataol eu bod oll yn deall y gair, er eu bod yn dyrfa mor amrywiol; canys 'yr oedd yn trigo yn Jerusalem wŷr bucheddol o bob cenedl dan y nef:—Parthiaid a Mediaid, ac Elamitiaid, a thrigolion Mesopotamia, a Judea, a Chappadocia, Pontus, ac Asia, Phrygia a Phamphylia, yr Aipht, a pharthau Libya, ger llaw Cyrene, a dyeithriaid o Rufeinwyr, Iuddewon, a Phroselytiaid, Cretiaid, ac Arabiaid.' Yr oedd y dyrfa ryfedd hon yn deall bedydd yn llawn cystal a'r apostolion eu hunain. Ac ni chlywsant air o sôn am gyfnewidiad yn *null* ei weinyddiad. Pe y clywsent hwy, fe glywsai y byd.

Y casgliad anocheladwy yw, mai dull bedydd Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, yw *Taenelliad;* ac mai y gair am fedyddio trwy daenelliad yn Ngroeg yr Iuddewon yw *baptidzo.*

DADL YR ARDDODIAID.

Yn erbyn *taenelliad,* dadleuir fod yn hanes gweinyddiad bedydd yn y Testament Newydd, eiriau yn profi *trochiad;* a seilir y ddadl ar *en, eis, apo, ek*—yr adroddiaid arferedig i fynegu *myned at,* a *dyfod oddi wrth,* rywbeth, neu le; a dadleuir mai eu hystyr yw myned *i mewn i,* a dyfod *allan o.* Yn lle 'bedyddio [*en*] â dwfr,' mynent ddarllen 'bedyddio *mewn* dwfr,' fel pe profai hyny mai trwy drochiad y bedyddid.

Am yr arddodiad *en:*—y gair bach unsill hwn yw yr amlaf ei ystyron yn yr holl Ysgrythyrau; ac mewn cannoedd o leoedd y mae'r Trochwyr eu hunain, fel y Taenellwyr, yn gorfod darllen *â*, neu *gyda*, am dano fel y canlyn:—

*Lef.* xiv. 52.—'A glanhäed y tŷ [*en*] â gwaed yr aderyn, ac [*en*] â'r dwfr rhedegog, ac [*en*] â'r aderyn byw, ac [*en*] â'r coed cedr, ac [*en*] â'r isop, ac [*en*] â'r ysgarlad.'

Nid oes neb a ddarllenai yma *yn*, na *mewn*, yn lle yr *â*.

1 *Cor.* iv. 21.—'Beth a fynwch chwi? ai dyfod o honof atoch [*en*] *â* gwialen?'

Pa olwg fuasai ar Paul yn myned atynt *mewn* gwialen!

1 *Cor.* v. 8.—'Am hyny cadwn ŵyl, nid [*en*] â hen lefain, nac [*en*] â lefain malais a drygioni; ond [*en*] â bara croyw purdeb a gwirionedd.'

2 *Cor.* xiii. 12.—'Anerchwch eich gilydd [*en*] *â* chusan sanctaidd.'

Y mae pawb yn gorfod darllen yr *en* yn gyfryngol (*instrumental*) yn y fath ymadroddion: ac y maent yn lliosocach o lawer nag *en* leol.

Cyfrifasom 2,775 *en* yn y Testament Newydd yn unig. Yn y Cyfieithiad Cymraeg, cawsom *en* lleol (pa le) *yn* 789 o weithiau; *mewn* (pa le) 260; am *en* cyfryngol, *yn* (pa fodd, pa bryd), 925; *mewn* (pa fodd), 280; ac heb eu cyfieithu, 95. Dyna 2,115. Gedy hyn 660 i'r geiriau eraill a roddir am *en: a* (rhanymadrodd), 12; *â* (modd), 90; *gyda*, 14; *ynghyd â*, 2; *am*, 6; *ar*, 116; *ar hyd*, 3; *at*, 8; *tuag at*, 4; *dan*, 3; *erbyn*, 2; *er mwyn*, 2; *fel*, 10; *gan*, 15; *ger*, 1; *i*, 36; *o*, 9; *o fewn*, 5; *o flaen*, 1; *o blegid*, 6; *o herwydd*, 1; *pan*, 10; *tra*, 9; *trwy*, 151; *uwch law*, 1; *wrth*, 22; *ynghylch*, 2; *yn gymmaint*, 1; *yn mhlith*, 89; *yn mysg*, 27; *yn ol*, 1. Dyna'r modd y cyfieithir y gair hwn, *en*, yn y Testament Newydd Cymraeg.

Nis gallai ein cyfieithwyr roddi dim ond 'bedyddio â dwfr' yn yr wyth crybwylliad am fedydd Ioan—pump o *baptidzo en hudati; Mat.* iii. 11; *Marc* i. 8; *Ioan* i. 26, 31, 33. A thri o *baptidzo hudati* (heb yr *en*): *Luc* iii. 16; *Act.* i. 5, a xi. 16. Cyfryngol (pa fodd) yw yr *en* yn mhob un o honynt. Ceir hefyd bump *en* lleol (pa le) yn yr hanes: *Mat.* iii. 6; 'yn yr Iorddonen;' *Marc* i. 4; 'yn y diffaethwch;' *Marc* i. 5; 'yn afon yr Iorddonen;' *Ioan* i. 8; 'yn Bethabara;' *Ioan* iii. 23; 'yn Ainon.' Dyna'r *lleoedd* y bedyddiai Ioan ynddynt. Yn yr Iorddonen y bu y cwbl – ond Ainon; ac nis gŵyr neb pa le y mae hwnw. Cyfeiria y Bedyddwyr yn aml a di-baid at y lleoedd hyn i brofi mai 'trochiad' ydoedd bedydd Ioan. Sonir am yr Iorddonen yn aml yn y Beibl, a rhoddant eglurhâd cyflawn ar yr enwau uchod.

*Josuah* iii. 8.—'Am hyny gorchymyn di i'r offeiriaid sydd yn dwyn arch y cyfammod, gan ddywedyd, Pan ddeloch hyd gwr dyfroedd yr Iorddonen [C.D., *to the brink of the waters of Jordan*], sefwch [*en*] *yn* yr Iorddonen.'

*Adn.* 13.—'A phan orphwyso gwadnau traed yr offeiriaid sydd yn dwyn arch cyfammod ARGLWYDD IOR yr holl fyd [*en*] *yn* nyfroedd yr Iorddonen, yna dyfroedd yr Iorddonen a dorir ymaith.'

*Adn.* 15.—'A phan ddaeth y rhai oedd yn dwyn yr arch hyd yr Iorddonen, a gwlychu o draed yr offeiriaid oedd yn dwyn yr arch, yn nghŵr y dyfroedd [C.D., *in the brink of the water*], a'r Iorddonen a lanwai [C.D., *for Jordan overfloweth*], dros ei glanau oll, holl ddyddiau y cynhauaf.'

1. Yn ol *adn.* 8, pan ddaethant 'hyd gŵr dyfroedd yr Iorddonen'—*to the brink of the waters*—yr oeddynt yn sefyll [*en*] '*yn* yr Iorddonen.'

2. Yn ol *adn.* 13, yr oeddynt [*en*] '*yn* yr Iorddonen' pan orphwysai dim ond 'gwadnau eu traed' yn ei dyfroedd.

3. Yn ol *adn.* 15, yr oeddynt '*yn* yr Iorddonen' cyn cyrhaedd ei glanau; o blegid 'yn nghŵr y dyfroedd'—*in the brink of the water* a lifasai 'dros ei glanau oll' y gwlychodd yr offeiriaid wadnau eu traed. Nis gallwn wybod pa mor agos, na pha mor bell, yr oeddynt oddi wrth lan yr afon. Ond yr oeddynt '*yn* yr Iorddonen' pan gyraheddasant ymyl [*brink*] y dwfr; ac '*yn* nyfroedd yr Iorddonen' pan wlychwyd 'gwadnau eu traed'—encyd cyn cyrhaedd glan yr afon. A phe buasai yr hanes yn eu gosod 'y tu mewn i'r glanau,' y mae gwlychu 'gwadnau eu traed' yn sicrwydd mai ar ymylon eithaf y dwfr y safent oll.

MYNEDIWAERED I—*tua*.

Am yr arddodiad *eis* (*i, at, tua, tuag at, hyd, hyd at,* &c.) Yn hanes gweinyddiad bedydd



Digitized by Google

yn y Testament Newydd, nid oes un awgrym, yn ol iaith yr Ysgrythyr, fyned o neb *i mewn i* ddwfr, i fedyddio; na chymmaint a 'gwlychu gwadnau eu traed' wrth fedyddio; nac un awgrym ddyfod o neb *allan o* ddwfr ar ol bedyddio.

Yr unig ymadrodd a hònir ei fod yn mynegu mynediad *i mewn i* ddwfr i fedyddio, yw *katabaino eis to hudôr* (καταβαίνω εἰς τὸ ὕδωρ) am Phylip a'r eunuch yn

*Act.* viii. 38.—'Ac efe a orchymynodd sefyll o'r cerbyd; a hwy a aethant i waered ill dau i'r dwfr.'

Ystyr hyn yw, disgynasant ill dau [o'r cerbyd] ac [aethant] *at* y dwfr. Dyna'r cwbl sydd yma, yn ol yr un ffurf o eiriau ag sydd mewn lleoedd eraill. Yr oedd cyfieithwyr Saesneg B.A. 1611 yn lled ddiofal, wedi rhoddi *into* am yr *eis;* ac yr oedd ceidwadaeth y cyfieithwyr yn 1881 yn peri iddynt adael iddo aros. Ond gwyddent nad yw *into* yn profi mai trochiad oedd y weithred arall a fynegir ar ei phen ei hun. 'Ac (*kai*) efe a'i bedyddiodd ef.' Gallem ninnau fod yr un mor ddiofal; o blegid nid yw *myned i mewn* i'r dwfr yn rhan na chyfran o'r bedydd a weinyddid ar ol hyny; os amgen, yr oedd yr eunuch yn gweinyddu y rhan hono arno ei hun. Addefir hyn gan y prif awduron sydd yn bleidiol i drochiad—mai yr hyn a wnaed gan Phylip oedd y bedydd. Pe y gadewid y frawddeg ar hyn, byddai *dull* y bedyddiad hwnw yn pwyso yn hollol ar yr arferiad o'r gair *baptidzo* yn yr Ysgrythyr; a gwelsom ei fod yn berffaith ddealledig i'r Iuddewon yn hir cyn bod sôn am fedydd Ioan, na'r bedydd Cristionogol; a gwelwn mai bedyddiadau (*baptismoi*) y gelwid y taenelliadau o waed, lludw anner, a dwfr, yn *Heb.* ix.

Er hyny, y mae yn werth i ni wybod a ydyw y geiriau *katabaino eis* yn mynegu fyned rhywun *i mewn i* ddwfr, neu rywbeth arall. Nid yw y blaenddawd *kata*, i-waered, yn perthyn i'r pethau a nodir ar ol *eis;* ond yn hytrach, i'r lle *o'r* hwn y symmudent; ac y mae *eis* yn dangos *i* ba gyfeiriad yr elent. Cawn hanes cerbyd arall, a symmudiadau cyffelyb i'r eiddo Phylip a'r eunuch yn—

*Barnwyr* iv. 15. 17, 18 (*katabaino eis*—fel yn *Actau* viii. 38): 'A Sisera a *ddisgynodd* oddi ar ei gerbyd, ac a ffôdd ar ei draed . . . [*eis* C.D., *to*] *i* babell Jael.'

*Adn.* 18; 'A Jael a aeth allan i gyfarfod â Sisera; ac a ddywedodd wrtho, Tro i mewn, fy arglwydd, tro i mewn ataf fi; nac ofna. Yna efe a drodd ati i'r babell, a hi a'i gorchuddiodd ef â gwrthban.'

Yn awr y mae yn *myned-i-mewn* i'r babell [C.D., *and he turned in*]; gan hyny, ffoi ar ei draed *tua* phabell Jael a wnaeth ar ol 'disgyn (*katabaino*) oddi ar ei gerbyd;' a 'throi *i mewn* i'r babell' y mae yn awr ar ol i Jael ei dwyllo. Darllener hanes Phylip a'r eunuch yr un modd. Hwy a ddisgynasant ill dau oddi ar y cerbyd, ac a aethant *at* y dwfr.'

*Barn.* vii. 4 (*kataphero eis*—Codex Alexandrinus); 'Etto y mae gormod o bobl. *Dwg* hwynt *i waered* [eis] *at* y dyfroedd, a mi a'u profaf hwynt i ti yno.' [C.A., C.D., *unto*].

Nid aeth neb o honynt i mewn *i'r* dwfr—dim ond yn ddigon agos i ymgrymu ar eu gliniau i yfed.

*Barn.* xv. 11 (*katabaino eis*—fel yn *Act.* viii. 38); 'Yna tair mil o wŷr Judah a *aethantiwaered* [eis] *at* hollt craig Etam [C.D. 'Then three thousand men of Judah *went down to* the cleft of the rock of Etam'].

*Trumalia* (llygad nodwydd: C.C. *coppa*) yw y gair gan y Deg a Thrigain. Yr oedd yno ddigon o le i Samson lechu ynddo; ond yr oedd yn annichonadwy i'r 'tair mil o wŷr Judah' fyned *i mewn i'r* twll hwnw.

*Ruth* iii. 6 (*katabaino eis*—fel yn *Act.* viii. 38); 'A hi a *aethiwaered* [eis] *i'r* llawr dyrnu' [C.A., C.D., and she *went down unto* (*hyd at*) the threshing-floor].

Os yw *katabaino eis*, yn hanes Phylip a'r eunuch, yn brawf *pendant* eu bod wedi *myned-i-mewn* i'r dwfr, y mae yn brawf yr un mor *bendant* fyned Ruth *i mewn i'r* llawr dyrnu, er caleted ydoedd! Anwiredd *pendant* fyddai hyny.

1 *Bren.* ii. 8 (*katabaino eis*, fel yn *Act.* viii. 38); 'Ond efe [Simei, mab Gerah] a *ddaethiwaered* [eis] *i'r* Iorddonen i gyfarfod â mi.'

*Luc* viii. 23 (*katabaino eis*, fel yn *Act.* viii. 38): 'A chawod o wynt a *ddisgynodd* [eis] *ar* y llyn' [C.D., *came down on* the lake].

Ni allai *un eis*, ar ol berf symmudiad (*verb of motion*), draethu *i-mewn* i beth, na lle. Wel, pa fodd y gellid mynegu y ffaith hono, ynte?

Mynediwaered i mewn i.

*Barn.* vii. 9 (*katabaino en*—nid fel *Act.* viii. 38); 'Cyfod, dosiwaered [en] *i mewn i'r* gwersyll' [C.D., *Arise, get* thee *down into* the camp].

*Barn.* vii. 10 (*katabaino eis*—fel yn *Act.* viii. 38); 'Ac od wyt ti yn ofni mynediwaered, *dos-iwaered hyd at* y gwersyll, ti, a Phurah, dy langc' [C.D., get thee down *to* the camp].

*Adn.* 11 (*katabaino en*—gwahanol i *Act.* viii. 38): 'A chei glywed beth a ddywedant, fel yr ymnertho wedi hyny dy ddwylaw, ac yr *elychiwaered i-mewn i'r* gwersyll' [C.D., to *go down into* the camp].

Etto (*katabaino eis* [Codex A.], fel yn *Act.* viii. 38); 'Yna, efe a *aethiwaered*, a Phurah, ei langc, *hyd* gŵr eithaf yr arfogion oedd yn y gwersyll' [C.D., Then *went* he *down unto* the outermost part of the armed men].

Dyna eglurhâd perffaith ar un o ddulliau y Beibl i wahaniaethu rhwng myned *at*, neu *tua*, a myned *i mewn i* beth, neu le.

*Ioan* v. 4 (*katabaino en—nid* fel *Act.* viii. 38); 'Ac angel oedd ar amserau yn *mynediwaered imewn i'r* llyn, ac yn cynnhyrfu y dwfr [C.A., *went down into* the pool].' Y mae y C.D. wedi gadael hon allan fel adnod ddi-awdurdod; ond y mae yr *iaith* yn gywir—am hyny y dyfynwyd hi.

Mor brydferth y mae y Cyfieithiad Saesneg Diwygiedig, yn hanes Gedeon, yn gwahaniaethu rhwng *katabaino eis* a *katabaino en!* '*Go* thou *down to* the camp' am y cyntaf. '*Get* thee *down into* the camp' am yr ail. Dyna gyfieithiad naturiol, synwyrol, tlws, a pherffaith. Y mae yn resyn na wnaethant yr un modd yn *Act.* viii. 38! Yn lle hyny, rhoddant ystyr *katabaino en, to go down into*, pan y dylasent roddi i ni ystyr *katabaino eis, to go down to*, neu *unto*. A'r nef yn unig a ŵyr pa faint o ddrwg a wnaethant drwy hyn i achos y Gwaredwr.

Gwyddom fod i'r Cyfieithiad Diwygiedig ei '*Old Testament Party*' a'i '*New Testament Party;*' ond dylasai mintai y Testament Newydd gyfieithu yn gysson â'i ffordd ei hun mewn lleoedd eraill, fel y rhai canlynol:—

*Luc* xviii. 14 (*katabaino eis*—fel *Act.* viii. 38); '*Aeth* hwn *i waered* [eis] *tua'i* dŷ wedi ei gyfiawnhau yn fwy na'r llall' [C.A., C.D., *to* his house].

*Ioan* ii. 12 (*katabaino eis*—fel yn *Act.* viii. 38); 'Wedi hyn, efe a *aethiwaered* [eis] tua Chapernaum [C.A., C.D., *to* Capernaum].

Digitized by Google

'Yr hwn a *ddaethai* yn gyntaf [eis] AT y bedd [C.A., C.D., *to*].

*Ioan* xxi. 3 (*embaino eis. En—eis*, ni welir gyda bedydd); 'A hwy a aethant allan [i bysgota], ac AETHANTIMEWN [eis] i'r llong yn y man.' [C.C., *a ddringasant i long*; C.A., C.D,, *entered into*].

*Marc* xv. 16 (εσώ—εσω̃. Estron arall i hanes bedydd); 'A'r milwyr a'i dygasant ef [*eso*] IFEWN y llys a elwir Praetorium' C.A., *into*; C.D., *within*].

*Luc* xviii. 25 (*eiserchomai dia*, ac *eiserchomai eis*); 'Canys haws yw i gamel *fynedimewn* [dia] trwy grai nodwydd [C.D., *to enter in through*] nag i oludog FYNEDIMEWN [eis] i deyrnas Dduw.'

*Luc* xii. 5 (*emballo eis. En—eis*—ffurf dyeithr i hanes bedydd); 'Ofnwch yr hwn, wedi y darffo iddo ladd, sydd âg awdurdod ganddo i FWRWIMEWN [eis] i uffern; ie, meddaf i chwi, Hwnw a ofnwch' [C.C., i fwrw *i* uffern; C.A., C.D., to *cast into* hell].

Dyna'r SAFON. Onid yw ein cyfieithwyr Cymreig a Saesnig wedi cyfieithu symmudiadau cyffrous y dysgyblion ar foreu y trydydd dydd (*Ioan* xxi. 1—8) yn naturiol, synwyrol, a hollol ddiammwys? Ni ellir codi dadl ar eu hadroddiad. Y maent yn rhoddi AT bob tro am *un eis*, ac I MEWN bob tro am *eis* o flaen y ferf; ac I MEWN I bob tro am y *ddau eis*. Pa ham na buasent yn cyfieithu yr un modd yn mhob man arall? PA HAM? Ni chlywn ddim ond sŵn y 'gareg atteb' yn ein gwatwar. Ai am fod y Roeg yn brin o ffurfiau gwahaniaethol? Mae yr ychydig engreifftiau uchod yn ddigon i roddi taw bythol ar y fath ensyniad. Gan hyny, teg ydyw i ni symio nad ydyw yr Ysgrythyr, mewn unrhyw le, yn mynegu fyned neb *i mewn* i ddwfr i fedyddio.

TAFLEN *yn dangos mai yn yr* eis *sydd o flaen y mae yr* i-mewn; *a bod hwnw yn aros yn y ferf pan na byddo* eis *yn ei dilyn.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ago | arwain, tywys | Eis ago | arwainimewn |
| Ago eis | arwain tua | Eis ago eis | arwainimewn i |
| Baino | myned, cerdded | Eis baino | mynedimewn |
| Baino eis | myned i [tua] | Eis baino eis | mynedimewn i |
| Ballo | bwrw, taflu | Eis ballo | bwrwimewn |
| Ballo eis | bwrw i [tua] | Eis ballo eis | bwrwimewn i |
| Blepo | edrych | Eis blepo | edrychimewn |
| Blepo eis | edrych i [ar] | Eis blepo eis | edrychimewn i |
| Déchomai | derbyn | Eis déchomai | derbynimewn |
| Déchomai eis | derbyn i | Eis déchomai eis | derbynimewn i |
| Eggidzo | agosáu, nesáu | Eis eggidzo | nesáauimewn |
| Eggidzo eis | agosáu at | Eis eggidzo eis | nesáuimewn |
| Eimi | myned, presennoli | Eis eimi | mynedimewn |
| Eimi eis | myned tua | Eis eimi eis | mynedimewn i |
| Elauno | gyru | Eis elanuo | gyruimewn |
| Elauno eis | gyru tua | Eis elauno eis | gyruimewn i |
| Erpo | ymlusgo [*creep*] | Eis erpo | ymlusgoimewn |
| Erpo eis | ymlusgo i, at | Eis erpo eis | ymlusgoimewn i |
| Erúo | tynu, cipio | Eis cruo | tynuimewn |
| Erúo eis | tynu at [tua] | Eis erúo eis | tynuimewn i |
| Erchomai | myned, symmud | Eis érchomai | mynedimewn |
| Erchomai eis | myned tua | Eis érchomai eis | mynedimewn i |
| Hfêmi | gollwng, dodi | Eis ièmi | dodimewn |
| Hfèmi eis | gollwng i [at] | Eis ièmi eis | gollwngimewn i |
| Hormáo | brysio | Eis ormáo | brysioimewn |
| Hormáo eis | brysio i [tua] | Eis ormáo eis | brysioimewn i |
| Kaléo | galw | Eis kaléo | galwimewn |
| Kaléo eis | galw i [at] | Eis kaléo eis | galwimewn i |
| Paio | taro, tori | Eis paio | taroimewn |
| Paio eis | taro ar | Eis paio eis | taroimewn i |
| Pedáo | rhedeg, troedio | Eis pedáo | rhedegimewn |
| Pedáo eis | rhedeg i, tua | Eis pedáo eis | rhedegimewn i |
| Pempo | anfon | Eis pempo | anfonimewn |
| Pempo eis | anfon i, at, tua | Eis pempo eis | anfonimewn i |
| Pétomai | hedeg, hedfan | Eis pétomai | hedegimewn |
| Pétomai eis | hedeg at, tua | Eis pétomai eis | hedegimewn i |
| Pléo | hwylio, morio | Eis pléo | hwylioimewn |
| Pléo eis | hwylio at, tua | Eis pléo eis | hwylioimewn i |
| Pnéo | chwyth | Eis pnéo | chwythuimewn |
| Pnéo eis | chwythu tua, at | Eis pnéo eis | chwythuimewn i |
| Poréuo | myned, ymdaith | Eis poréuo | mynedimewn |
| Poreuo eis | teithio i, tua | Eis poréuo eis | mynedimewn i |
| Ptuo | poeri | Eis ptúo | poeriimewn |
| Ptuo eis | poeri at, tua | Eis ptûo eis | poeriimewn i |
| Rhéo | llifo | Eis réo | llifoimewn |
| Rhéo eis | llifo i, tua, ar | Eis réo eis | llifoimewn i |
| Teléo | talu, gorphen | Eis teléo | taluimewn |
| Teléo eis | talu i | Eis teléo eis | taluimewn i |
| Trécho | rhuthro | Eis trecho | rhuthroimewn |
| Trécho eis | rhuthro i, at | Eis trecho eis | rhuthroimewn i |
| Phéro | dwyn | Eis phéro | dwynimewn |
| Phéro eis | dwyn i, at, tua | Eis phréo eis | dwynimewn i |
| Phéugo | ffoi | Eis phéugo | ffoiimewn |
| Phéugo eis | ffoi i, tua | Eis phéugo eis | ffoiimewn i |

Dyna ddeddf y Roeg i fynegu myned *at*, neu *tua*, neu *hyd at*, yn y golofn gyntaf:—ac yn yr ail golofn, i fynegu mynediad *i mewn* i beth, neu le. Yr un ystyr fyddai i *en—eis*. Doder *ek* (*eks* o flaen llafariaid) yn lle pob *eis*, a cheir y mynediad *o* ac *allan o* beth, neu le.

UN *Eis* DAN DDEDDF DYSGYRCHIAD.

Y mae un dosbarth cyfan yn rhydd oddi wrth yr arddodiaid dwbl; sef, y berfau a ddibynant ar ddeddf dysgyrchiad (*the law of gravitation*) i orphen eu gwaith. Cyfyngir y dosbarth hwn, hyd y cofir, i bedair berf:—*Rhipto* (chwyrndaflu); *pipto* (syrthio); *ballo* (bwrw); a *chéo* (tywallt). Dichon fod eraill, a'r na chanfyddwyd. Un *eis* sydd gyda'r rhai hyn, oni bydd amgylchiadau arbenig yn galw am ddau arddodiad.

Digitized by Google

*Exod.* i. 22 (*Rhipto eis*—dan ddeddf dysgyrchiad); 'Pob mab a'r a enir, *tefluch* ef i'r afon.'

2 *Bren.* vi. 5 (*Pipto eis*—a dysgyrchiad yn *soddi*); 'Ei fwyell ef a *syrthiodd* i'r dwfr.'

*Mat.* xvii. 15: 'Canys y mae yn *syrthio* i'r tân yn fynych, ac i'r dwfr yn fynych.'

*Ioan* xiii. 5 (*Ballo eis*—a dysgyrchiad yn helpu); 'Wedi hyny efe a *dywalltodd* ddwfr i'r cawg.'

*Num.* v. 17 (*Emballo eis. En eis*—dysgyrchiad yn methu); 'A chymmered yr offeiriad ddwfr sanctaidd mewn llestr pridd, a chymmered o'r llwch fyddo ar lawr y tabernacl, a *bwriedimewn* [eis] i'r dwfr' [C.C., *rhodded yn*; C.A., C.D., *put it into* the water].

Yr oedd y 'llwch' yn rhy ysgafn i'w ymddiried i ddeddf dysgyrchiad. Yr oedd 'llwch' y llô aur yn drymach (*Deut.* ix. 21) a *rhipto eis* sydd yno.

*Dat.* xvi. 3 (*Cheo eis*—a dysgyrchiad yn ddigonol); 'A'r ail angel a *dywalltodd* ei phïol i'r môr' [C.C., *ar* y môr; C.A., *upon* the sea: C.D., *into* the sea].

Y mae *ar* ac *upon* yn llythyrenol gywir, ac y mae y C.D. yn sylweddol gywir â'i *into* the sea;' o blegid yr un peth yw *i* (neu *ar*), ac *i mewn* i, ac *upon* ac *into*, dan ddeddf dysgyrchiad. Ond i un *eis* ddodi peth trwm *ar* y dwfr, fe ofala deddf dysgyrchiad am ei *soddi i'r gwaelod.* Y mae y dosbarth hwn yn dal ei ffordd ei hun yn gysson trwy y Deg a Thrigain, a'r Testament Newydd. Nid oes dim yn y rhai hyn i flafrio trochiad; o blegid nid trwy *daflu* pobl i'r dwfr, na'u *bwrw*, na'u gollwng i *syrthio*, na'u *tywallt* i'r dwfr, y gweinyddir bedydd trochiad. Ar ol y bedydd taflu, a bwrw, a syrthio, a thywallt, ni ddaw dim i fyny drachefn ond trwy wyrth. Rhoddir llawer o enghreifftiau o'r dosbarth hwn yn *Llawlyfr Bedydd* y cyfeiriwyd ato eisoes—td. 97—102.

AM DDYFOD ALLAN O'R DWFR.

I lefaru *allan o* beth, neu le, arferir *ek*—*ek*, neu *ekso*. Un *ek* sydd yn y ddau le y taerir mai *allan o* yw ei ystyr pendant. Yn *Marc* i. 10 ac *Actau* viii. 39, *dyfod i fyny* oddi wrth y dwfr yw y gwir ddarlleniad am *anabaino ek*. Gwelwn mai gair tra amrywiol ei ystyr yw *ek*:—

*Mat.* xii. 33; 'Canys y pren a adwaenir [ek] *wrth* ei ffrwyth.'

*Mat.* xx. 2; 'Ac wedi cyttuno â'r gweithwyr [ek] *er* ceiniog y dydd.'

*Mat.* xxv. 33; 'Ac a esyd y defaid [ek] *ar* ei ddeheulaw, ond y geifr [ek] *ar* yr aswy.'

*Mat.* xxvii. 7; 'Hwy a brynasant [ek] *â* hwynt faes y crochenydd.'

*Marc* xv. 46: 'Ac a'i dododd mewn bedd a naddasid [ek] *o'r* graig.' (*Yn* y graig yr oedd y bedd etto).

*Marc* xvi. 3; 'Pwy a dreigla i ni y maen [ek] *oddi wrth* ddrws y bedd?' (*allan o* ddrws y bedd?).

*Luc* xxii. 3; 'Iscariot, yr hwn oedd [ek] *o* rifedi y deuddeg.' (*Yn*, ac nid *allan* o'r rhifedi).

*Luc* xxiii. 7; 'A phan wybu ei fod ef [ek] *o* lywodraeth Herod.' (*Yn*, nid *allan*).

*Ioan* vi. 11; 'Felly hefyd [ek] o'r pysgod.' (Nid bwyta *allan* o'r pysgod).

*Ioan* viii. 23; 'Chwychwi sydd [ek] o'r byd hwn; minnau nid wyf [ek] o'r byd hwn.' (Darllener *allan o* am *ek*, a byddai y dysgyblion mewn ystâd uwch na'u Hathraw).

*Ioan* x. 16; 'A defaid eraill sydd genyf, y rhai nid ynt [ek] o'r gorlan hon.' (Yr oeddynt *allan o* honi, ond nid *o—yn* y gorlan).

*Ioan* xii. 32; 'Os dyrchefir fi [ek] *oddi ar* y ddaear.' (Dyna y croeshoeliad. Nid *allan* o'r ddaear.' Yr adgyfodiad fyddai hyny).

*Ioan* xiii. 4; 'Efe a gyfododd [ek] *oddi wrth* y swper' [C.C., *oddi ar*; C.A., C.D., *from*].

*Ioan* xix. 23; 'Wedi ei gwau [ek] *o'r* cwr uchaf trwyddi oll.' Yn ddi-wniad o un pen i'r llall. Nid *allan o* un pen i'r llall).

*Ioan.* xx. 1; 'Ac a welodd y maen wedi ei dynu ymaith [ek] *oddi wrth* y bedd (C.C. *oddi ar*; C. A., C.D., *from* the tomb. Nid *allan* o'r bedd).

*Act.* xii. 7; 'Ai gadwynief a syrthiasant [ek] *oddi wrth* ei ddwylaw.'

*Mat.* xxviii. 8; 'Hwy a aethant ymaith ar frys [apo] *oddi wrth* y bedd.' [C.A., C.D., *from*].

Dyna ddigon i ddangos mor debyg i'w gilydd yw *ek* ac *apo*. Mae *apo* yn fwy pennodol i fynegu *dechreu* y symmudiad. Ond y mae *ek*, unig, yn ëangach; a mynega *o ba gyfeiriad* y deuir. Dywed *eis*, unig, *i ba gyfeiriad* yr ëir; ac yn aml pennoda ddiwedd y daith fel *pros*. Nid yw *apo*, unig, nac *ek*, unig (ar ol symmudiad) byth yn mynegu mwy nag *oddi wrth*, ac *oddi ar*. *Apo* sydd yn *Mat.* iii. 16; *ek* unig, sydd yn *Mark* i. 10, ac yn *Act.* viii. 39. A'r *un peth* a fynegir yn y tri lle—dyfod i fyny *oddi wrth* y dwfr. Un *eis* yn eu cymmeryd *at* y dwfr. (*Act.* viii. 38), ac un *ek* yn eu dychwelyd *oddi wrth* y dwfr (*Act.* viii. 39). Addefai y diweddar Barch. Hugh Jones, D.D., Llangollen, mai yr un yw ystyr *anabaino apo* ac *anabaino ek* [*Y Weithred o Fedyddio*, td. 144—5, 1882]. Gwir.

A chan fod y Trochwyr penaf, ar bob tu i'r Werydd, wedi cydsynio â'r Taenellwyr, o'r diwedd, mai 'aethifyny *oddi wrth*' y dwfr, yw ystyr *anabaino apo* yn *Mat.* iii. 16 ar ol bedyddiad Crist, y mae yn canlyn, mai yr un peth yw *anabaino ek* am *yr un* weithred yn gywir yn *Marc* i. 10, ac yna, o angenrheidrwydd, am Phylip a'r eunuch, yn *Act.* viii. 39, —'A phan ddaethantifyny [ek] *oddi wrth* y dwfr,' &c.

Wel, pa fodd y gellid llefaru yn ddiammheuol yn y Roeg *ddyfodifynyallan* o'r dwfr? Yn union fel y gwneir gydag *ek*—*ek*, neu *ekso*:—

*Josuah* iv. 10.—'A'r offeiriaid, y rhai oedd yn dwyn yr arch a safasant yn yr Iorddonen nes gorphen pob peth.'

*adn.* 15, 16 (*Ek baino* ek—nid fel *Act.* viii. 39).—'A'r ARGLWYDD a lefarodd wrth Josuah, gan ddywedyd, 'Gorchymyn i'r offeiriaid sydd yn dwyn arch y dystiolaeth DDYFODIFYNYALLAN [ek] o'r Iorddonen.'

*adn.* 17 (EK*baino* ek. Dau *ek*. Un *ek* sydd yn *Act.* viii. 39).—'Am hyny Josuah a orchymynodd ...DEUWCHIFYNYALLAN [ek] o'r Iorddonen' [C.A., C.D., come-ye-up-out of Jordan].

*adn.* 18 (Ek*baino* ek. Dau *ek*. Un sydd yn *Act.* viii. 39).—'Ac wedi i'r offeiriaid oedd yn dwyn arch cyfammod yr ARGLWYDD *ddyfodifynyallan* [ek] o'r Iorddonen, a sengi o wadnau traed yr offeiriaid ar y sychdir, yna dyfroedd yr Iorddonen a ddychwelasant i'w lle'...

Dyna'r genedl etholedig wedi glanio yr ochr draw, ar dir Canaan. Ar lan yr afon y maent. Yn awr, dyma *anabaino ek* yn dyfod i'r golwg.

*Adn.* 19 (*Anabaino* ek—fel *Marc* i. 10; *Act.* viii. 39).—'A'r bobl a ddaethant i fyny [ek] *oddiwrth* yr Iorddonen, y degfed dydd o'r mis cyntaf, ac a wersyllasant yn Gilgal, yn eithaf tu dwyrain Jericho.' (Dyna'u gorymdaith gyntaf ar Dir yr Addewid—o lan yr afon i Gilgal).

Digitized by Google

newid sefyllfa, cyflwr, neu ystad, unrhyw beth, y mae yn alluog i fedyddio y peth neu y person hwnw. [Deffiniad Dr. Dale, America, ar *Classic Baptism*]. Gan hyny, y mae *soddi*, a *boddi*, a *meddwi*, a *dinystrio*, yn fedydd cyffredin gan y Groegiaid. Ac yr oedd gofid, unigedd, newyn, a syched, a byd da; cenfigen, unigedd, ac arswyd; trethi, a gormes; a dyled, siomedigaeth, ac amddifadrwydd, a braw sydyn; gelyniaeth, a bradwriaeth; a phob peth annymunol arall, yn 'bedyddio' yn ol iaith y Groegiaid paganaidd. Ni ŵyr yr Ysgrythyrau Sanctaidd ddim am y fath fedydd dinystriol. Nid *bedydd* y galwant hwy y *soddi*, na'r *boddi*, na'r *meddwi*, na'r *dinystrio* sydd ar bersonau a phethau yn *medydd* y Groegiaid. Y mae yr Arglwydd Iesu yn galw ei groeshoeliad yn fedydd; ond nid oes un engraifft gyffelyb i'w gweled yn mysg y Groegiaid clasurol. Iaith y DEG A THRIGAIN (LXX.) yw ffynnonell iaith y Testament Newydd. Y mae pob gair Groeg a arferent hwy am bethau crefyddol yn cael ei ddyrchafu i swydd uwch; ac am hyny, i ystyr cyfyngach nag yr arferid y geiriau hyny gan y Groegiaid eu hunain. Yn yr ystyron hyny, yr oeddynt yn eiriau hollol estronol i'r Groegiaid. Glanhâd seremonïol yw *baptidzo* y Beibl; ac nid yw y Roeg baganaidd yn ein cynnorthwyo i'w ddeall. Tybiodd y Corinthiaid y gallent gymmeryd *deipnon* (Swper yr Arglwydd) yn bryd trwm o fwyd, yn ol ystyr y gair *deipnon* gan y Groegiaid. Gwir fod bwyta ac yfed yn Swper (*deipnon*) yr Arglwydd; ond nid pryd o fwyd a feddylir wrtho. Y mae *deipnon* y Groegiaid yn hollol gamarweiniol gyda golwg ar swm y bwyta a'r yfed yn y *deipnon* Cristionogol. Y mae'n rhaid i ni felly, hefyd, gymmeryd ein harwain gan y Beibl ei hun am *ddull* yr ordinhâd arall. Dichon y bydd hyn yn ddigon o eglurhâd ar y cwestiwn.

THOMAS JOHN, Y PARCH., Cilgeran. Gŵr hynod yn ei bob peth, a phregethwr a dynodd sylw mawr yn Nghymru yn ei flynyddoedd diweddaf, oedd Mr. Thomas John. Cyrhaeddodd bwynt uchaf ei ddylanwad yn adeg yr adfywiad crefyddol a ddechreuodd yn y fl. 1859; a thorwyd ef i lawr yn ddyn cymmharol ieuangc, gyda bod gwres yr adfywiad hwnw wedi oeri. Mab oedd efe i Lewis a Hannah John; a ganwyd ef yn Nghilgeran, Medi 29ain, 1816. Yn yr hen amser, bu Cilgeran yn dref marchnad o gryn enwogrwydd; ond erbyn hyn, y mae pob olion o'i mawredd a'i hurddas wedi diflanu—oddi gerth adfeilion yr hen gastell sydd yn aros ynddi. O ran maintioli a gwedd, nid ydyw y dref yn awr yn ddim amgen na phentref cyffredin. Saif yn nghanol gwlad brydferth, ar lan yr afon Teifi—dwy filldir yn uwch i fyny na thref Aberteifi, ar ochr sir Benfro i'r afon. Er pan roddwyd i fyny weithio y chwareli ar lanau y Teifi, y mae amgylchiadau y lle wedi myned yn isel eu gwala, a'r trigolion yn byw yn benaf ar bysgota.

Yr oedd rhyw neillduolrwydd yn Thomas John er yn blentyn. Dangosai duedd i fod ar ei ben ei hun, a chyda'i bethau ei hun, yn hytrach nag ymuno â'r plant yn eu chwareuon difyr. Prin oedd yr addysg a dderbyniodd cyn dechreu gweithio. Chwarelwr oedd ei dad wrth ei alwedigaeth; ac fe ddichon ei fod, fel y rhan fwyaf o wŷr y dref, yn bysgotwr hefyd. Ymgymmerodd y bachgen â'r un alwedigaeth a'i dad, a gweithiai gydag ef yn y chwarel; ond treuliai ei oriau hamddenol i ddybenion gwell. Ennillodd gymmaint o ymddiried ei feistr, fel y cafodd ddyrchafiad oddi ar ei law i fod yn un o'r arolygwyr yn y gwaith. Engraifft ydoedd hon yn profi gwirionedd y ddiareb Ysgrythyrol am ddoethineb:—'Dyrchafa di hi, a hithau a'th ddyrchafa di: hi a'th ddwg di i anrhydedd os cofleidi hi.'

Yr oedd ei dad yn aelod eglwysig gyda'r Methodistiaid Calvinaidd, a'i fam yn aelod gyda'r Bedyddwyr. Mab ei fam, yn benaf, oedd y bachgen; ond ei dad a ddilynid ganddo i'r moddion crefyddol. Ond pan yr oedd tua deunaw mlwydd oed, ac heb fod yn proffesu crefydd, cafodd ei dad, ac ewythr iddo, brawd ei dad, ryw dramgwydd yn y capel; ac enciliasant i'r Eglwys Sefydledig. Amgylchiad blin ac anffodus i'r bachgen ydoedd hwn; ond aeth yntau gyda hwynt. Ond i'w deimladau ef, lle tlawd oedd yno—heb gyfarfod gweddi, na chyfeillach eglwysig, nac Ysgol Sabbothol, fel ag a gawsai efe yn flaenorol yn y capel. Ar ol ymboeni yno am tua blwyddyn, rhag marw o hono o newyn, efe a benderfynodd ddychwelyd at y Methodistiaid; a phan ddaeth, rhoddwyd iddo groesaw serchog. Yn 21ain ml. oed, efe a ymunodd â'r eglwys. Yn gymmaint a'i fod yn ddichlynaidd ei ymarweddiad o'i febyd, y mae yn anhawdd gwybod pa bryd y dechreuodd ei argyhoeddiad; ond y farn gyffredin yw, ddarfod i Ysbryd Duw ddechreu ymwneyd âg ef yn foreu; a phan y gofynodd efe am le yn nhŷ yr Arglwydd, nid oedd neb yn ammheu nad oedd yn ymofynydd pryderus am iachawdwriaeth. O'r dydd hwn allan, profodd ei hun yn filwr da i Iesu Grist; a pharhaodd felly hefyd hyd y dydd y dïosgodd ei arfau.

Areithio dirwest fu yn rhagarweiniad i'w bregethu. Yr oedd efe yn un o'r dirwestwyr mwyaf selog a chydwybodol. Y tro cyntaf yr ymddangosodd i areithio, aeth yn dywyll arno, a thorodd i lawr ar yr hanner. Ond caniatawyd iddo ail gynnyg ar yr un testyn; a'r ail dro, efe a brofodd ei hun yn feistr y gynnulleidfa. Fel yr oedd yn dyfod allan i gymmeryd rhan gyhoeddus yn y cyfarfodydd gweddi, y cyfarfodydd eglwysig, a'r cyfarfodydd dirwestol, barnodd y rhai mwyaf craffus yn yr eglwys eu bod yn canfod ynddo ddefnyddiau pregethwr; ac ar annogaeth ei frodyr, efe a ddechreuodd bregethu yn y fl. 1839. Ond ynglŷn â phregethu, 'Thomas John' oedd efe yn y dechreu, fel yn y diwedd. Pregethai fel efe ei hun; yr hyn sydd yn golygu, pregethu fel na phregethodd neb arall fu o'i flaen. Er mai ar gymmhelliad y brodyr yr ymgymmerodd efe â phregethu, ni bu yn faith cyn gwybod nad oedd pawb yn gefnogol iddo. Daeth gwrthwynebiadau o gyfeiriadau nad oeddid yn disgwyl. Deallodd nad oedd dechreu pregethu ond dechreu gofidiau iddo ef. Yr oedd mawrion y cyfarfod misol yn ei erbyn. 'Mae cilddannedd gan Mr. Richard (meddai efe wrth gyfaill iddo). Yr wyf wedi bod o danynt.' Ond os oedd yr arglwyddi yn erbyn, yr oedd y bobl o'i blaid; a'r bobl fu drechaf. Mynasant ei gael trwy y porth cyfyng, yn bregethwr rheolaidd. Ar ol hyn, aeth i'r ysgol i Aberteifi, lle yr arhosodd cyhyd ag y parhaodd moddion cynnaliaeth; ond pan ddarfu yr adnoddau, bu raid darfod â'r ysgol. Adroddodd ei gŵyn wrth Mrs. Davies, Garnachen wen; a chymmerodd hithau drugaredd arno, a chynnaliodd ef am dair blynedd yn ysgol Mr. John

Digitized by Google

Edmunds, yn Nhrefin. Yr oedd efe, erbyn hyn, yn rhyw gymmaint o ysgolhaig; ond nid oedd yn llawn cymmaint ysgolhaig ag y mynasai efe ei hun fod.

Ar adeg ei dderbyniad yn aelod o'r cyfarfod misol, gofynodd y Parch. Thomas Richards, Abergwaen, iddo—'Beth yw eich enw chwi?' 'Thomas John,' oedd yr atteb. 'O!' ebe yr hen esgob cyrhaedd-bell ei weledigaeth—'dyn garw, beiddgar; i fyny i'r nefoedd, ac i lawr i'r dyfnder. Gofelwch nad ewch yn rhy bell i ddyfod yn ol!' Yn Hydref, 1846, derbyniwyd ef yn aelod o'r gymdeithasfa yn Nhyddewi. Yn mhen tair blynedd ar ol hyny—sef, yn y fl. 1849—ac efe, bellach, yn dair-ar-ddeg-ar-hugain oed, fe lwyddodd rhyw gyfeillion i'w berswadio i fyned i'r athrofa. Camgymmeriad mawr oedd hyny; canys heb law ei fod ar y pryd uwch law oed myned i goleg, nis gallai hyfforddiant a dysgyblaeth coleg wneuthur dim â'i fath ef, ond ei anafu. Rhaid oedd i Thomas John fod yr hyn y gwnaed ef gan natur, neu ynte beidio a bod yn ddim. Lle anghydnaws iawn â'i ysbryd ef oedd Trefecca; a chas-beth ei enaid oedd astudio *Euclid*. Heb fod yn hir, ymadawodd o Drefecca yn ddiarwybod i'r awdurdodau; ond gofalodd am ymadael yn onest, er ymadael yn ddirgel. Ni chymmerodd ddim gydag ef o'r lle, ond yr hyn a ddygwyd gydag ef iddo. Am ei drosedd hwn, bu llawer o ddiangellu arno; a mynai rhai roddi attalfa arno i bregethu rhag llaw. Eithr maddeuwyd iddo yn lled fuan; canys yn nechreu y fl. 1856, dewiswyd ef yn un o ddau gan gyfarfod misol sir Benfro i'w neillduo i gyflawn waith y weinidogaeth. Yr oedd cymdeithasfa yr ordeinio y flwyddyn hono yn cael ei chynnal yn Aberteifi, yn agos i Gilgeran; a theimlid dyddordeb nid bychan gan bobl y cylchoedd yn ordeiniad Thomas John. Yr oedd ei attebion i'r gofyniadau arferol ar yr achlysur yn gwbl nodweddiadol o hono ei hun, ac yn rhai nad anghofiwyd hwynt yn fuan. Pan ofynwyd iddo 'Beth yw eich barn am yr adgyfodiad?' yr atteb oedd—'Y mae fy rheswm yn dyweyd na chyfyd neb byth; ond y mae Gair fy Nuw yn dweyd y bydd adgyfodiad cyffredinol. 'Caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef; a hwy a ddeuant allan: y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd; ond y rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn.' Ac yr wyf fi yn credu ei Air ef.' Pan ddaeth y gofyniad am eu bwriad hwy gyda golwg ar lynu wrth y corph hyd ato ef, ei attebiad ydoedd—'Dy bobl di fydd fy mhobl i, a'th Dduw di fydd fy Nuw innau.' Cymmaint ydoedd y boddlonrwydd a gafodd y gynnulleidfa yn yr attebiad olaf hwn fel y methwyd ymattal rhag rhoddi cymmeradwyaeth uchel iddo. Chwe blynedd y bu efe byw ar ol hyn; ac yn ystod y chwe blynedd hyny, bu yn offeryn yn llaw yr Arglwydd i ddychwelyd llawer o bechaduriaid, ac i aflonyddu ar lawer o rai oedd yn esmwyth arnynt yn Seion.

Dywedasom fod Thomas John yn ŵr hynod yn ei bob peth; ond nid yw yr hyn a ddywedwyd am ei neillduolion ond y nesaf peth i ddim. Yr oedd llawer o hynodrwydd yn ngolygiad ei ddyn oddi allan, fel y prawf y ffaith ei fod yn cyffroi sylw y neb a'i gwelai, pa un bynag ai ar y ffordd wrth fyned heibio, ai yn y pulpud yn sefyll ger bron cynnulleidfa. Un tro, ac efe yn teithio ar gefn 'Bob,' ei ferlyn, daeth gwas gŵr boneddig yn ei erbyn ar geffyl lled ysbrydol. Gyda eu bod hwy yn nghyfer eu gilydd, ymuniawnodd y pregethwr o'i blŷg, ac estynodd ei ben allan o'i ddillad, nes y neidiodd ceffyl yr hwn a elai heibio o'r neilldu. 'Y dyn!' (ebe y gwas wrtho yn gyffrous), y mae yr olwg sydd arnoch yn ddigon i hala ofn ar y cythraul.' 'Gyda'ch cenad, ŵr hyf!' (ebe yntau mewn attebiad), tarfu y cythraul yw fy ngwaith i; ac i'r amcan hwnw yr wyf wedi cychwyn oddi cartref y waith hon.' Y mae ei fywgraphydd yn disgrifio ei ymddangosiad personol fel y canlyn:—'Yr oedd yn ddyn tàl, teneu—yn dalach ac yn deneuach na'r cyffredin; ei wyneb yn fychan, a'r frech wen wedi gwneyd ei hargraphiadau yn ddwfn arno; ei dalcen yn isel, ei lygaid yn fychain, ac yn llechu yn ddwfn yn ei ben. Nid oedd yn ddyn trwm o gorph; ond byddai yn cerdded yn drwm, yn gwneyd camrau hirion, ac yn taraw ei draed yn drwm ar y llawr. Yr oedd ei wedd yn salw, a'i edrychiad yn bruddaidd. Nid oedd dim anffurfiol yn ei gorph, na dim diffygiol yn ei gyfansoddiad: ond yr oedd yr olwg allanol arno yn peri i lawer ryfeddu 'mor lygredig oedd ei wedd yn anad neb.'' Yr oedd efe yn ymwybodol o hylldra a salwch ei wedd—yn cyfeirio at hyny yn fynych yn y cyhoedd, ac yn medru ei gymmhwyso i wahanol ddybenion. Yn adeg y diwygiad y cyfeiriasom ato, darfu i flaenor yn sir Aberteifi ei arwain, yn ddiarwybod iddo ei hun, ar ryw nos Sadwrn, i gyfarfod o'r gymdeithas diweirdeb; lle y dysgid meibion a merched ieuaingc am y peryglon oedd yn yr arferiad o gyfeillachu yn oriau dyfnion y nos. Wedi deall natur y cyfarfod, nid yn rhyw ddedwydd iawn y teimlai y pregethwr ei hun ynddo; ac yr oedd yn gyndyn i ddyweyd gair. Wedi bod hir gynghori; a llawer o gymmhell arno yntau i gymmeryd rhan, efe a gododd, megys o'i anfodd, ac a ddywedodd wrth yr ieuengctyd oedd yn bresennol, 'Yr ydych, fy nghyfeillion ieuaingc, wedi cael llawer o gynghorion da, ac nid wyf yn gweled fod anhawsder yn eich ffordd chwi i weithredu yn eu hol; canys yr ydych yn feibion a merched mor olygus fel y gellwch fforddio myned i olwg eich gilydd liw dydd. Ond pe digwyddai i hen greadur creithiog, salw, fel Thomas John, Cilgeran, gael ar ei feddwl i ymofyn merch i fod yn wraig iddo, rhaid fyddai iddo fyned ar hyd nos, yn y tywyll, rhag i'w hacrwch ei dychrynu, a pheri iddi ffoi ymaith oddi wrtho.' Ar hyn, efe a eisteddodd i lawr; ac nid oedd dim pellach a allesid wneyd ond diweddu y cyfarfod. Nid oedd, chwaith, yn llai hynod yn ei ffordd nag oedd yn ei olwg. Nid oedd yn ceisio efelychu neb, ond Iesu Grist; ac yn ol ei farn a'i ddull ei hun y gwnai efe hyny. Cywir y dywedodd Mr. Thomas Richards am dano:—'Dyn garw, beiddgar; i fyny i'r nefoedd, ac i lawr i'r dyfnder.' Bod yn arw oedd yn fwyaf naturiol iddo; a lle y credai fod angen llymder, efe a fedrai fod yn arw iawn. Ond yr oedd yn dyner rhyfeddol wrth y gwan, a'i dosturi yn colli dros y llestr at y truenus. Yn ei gryfder, efe a ài trwy y tân a'r dwfr; ac yn ei wendid, efe a ffoai rhag ofn ei gysgod. Isel a phruddglwyfus oedd efe fynychaf—yn creu bwganod â'i ddychymyg, ac yn byw dan ddylanwad eu hofn. Barnai ei hun ei fod yn ngafael y darfodedigaeth; a pharai hyny hwyrfrydigrwydd ynddo i anturio gyda phethau newydd. Adroddwn un hanesyn i egluro hyn:—Un tro, aeth at feddyg enwog yn Nghaerdydd, i'r amcan o gael barn hwnw am

Digitized by Google

hyd yr amser oedd yn bossibl iddo ef fyw yn mhellach. Adnabu y meddyg yn lled fuan fod cymmeriad hynod ger ei fron, a gwrthodai yn benderfynol ddadgan barn ar y pwngc y gofynid ganddo wneyd. 'A dybiwch chwi, syr,' gofynai y pregethwr, 'y gallaf fi, yn ol cwrs naturiol pethau, fyw am ddeng mlynedd yn mhellach?' 'Paham (ebe y meddyg) y mae gŵr o'ch bath chwi yn ymofyn i'r cyfryw fater?' 'Am y rheswm hwn,' meddai yr ymofynwr, 'fod cyhoeddwr yn Ninbych—Mr. Thomas Gee—wedi dechreu dwyn allan lyfr mawr a gwerthfawr, dan yr enw 'GWYDDONIADUR CYMREIG,' yr hwn a gymmer amryw flynyddoedd i'w orphen; ac y mae arnaf fi chwant derbyn y llyfr, pe y gwyddwn fod possibilrwydd i mi fyw am ddeng mlynedd: neu ynte, os nad oes tebygolrwydd y gallaf fyw cyhyd a hyny, prin yr wyf yn ei ystyried yn werth i mi ddechreu derbyn y GWYDDONIADUR.' Nid oedd Thomas John yn ddarllenwr mawr; ond yr oedd yn ddarllenwr er hyny, ac yn darllen pob llyfr yr ymgymmerai âg ef i bwrpas. Câs-beth ganddo oedd ysgrifenu. Nid oedd efe yn gosod nemawr ddim i'w gadw, ond yn ei gôf. Ar ei gefn yn y gwely yr oedd efe yn astudio mwyaf, yn dethol ei hanesynau, ac yn trefnu ei ddrychfeddyliau. Eithr rhaid i ni ymattal yn y cyfeiriad hwn, gyda dywedyd ei fod y dyn duwiolaf a adnabuom erioed. Cawsom lawer o'i gymdeithas yn ei flynyddoedd diweddaf, a llawer cyfleusdra i weled yr hyn oedd ynddo; a'n barn ddibetrus am dano yw, fod ei hynodrwydd penaf ef yn mawredd ei dduwioldeb.

Cyn terfynu yr erthygl, rhaid i ni gael manylu ychydig ar osodiad arall a wnaethom yn y dechreu; sef, fod Thomas John yn bregethwr a dynodd sylw mawr yn Nghymru yn ei flynyddoedd diweddaf: ond ni chafodd agos cymmaint o sylw ag yr oedd yn ei deilyngu, gan fyd nac eglwys, ar gyfrif ei neillduolrwydd fel gweinidog da i Iesu Grist, ac fel pregethwr. Yr oedd ei enaid yn ysu gan awydd i achub pechaduriaid, a chan awydd cael gan broffeswyr crefydd fyw yn addas i'r efengyl. Eithr yn y pump neu'r chwe blynedd diweddaf o'i oes, ac yn y pedair blynedd diweddaf yn arbenig—sef, yn amser y diwygiad a adnabyddir wrth yr enw Diwygiad Mr. David Morgan, o Ysbytty—efe oedd y gŵr mawr yr oedd y tyrfaoedd yn cyrchu i'w wrandaw, a'r pregethwr rhyfedd y byddai llawer o sôn am dano ar yr aelwydydd. Yn ei *Gofiant*, ceir amryw frodyr o Dde a Gogledd, a rhai o Lundain a Liverpool, yn crybwyll pethau nodedig am dano ar wahanol achlysuron; ond y nesaf peth i ddim a sonir ganddynt am dano yn flaenorol i'r flwyddyn 1859; yr hon oedd y flwyddyn y dechreuodd yr adfywiad. O'r flwyddyn hono yn mlaen—ac o 1860 yn benaf—y mae hanes ei wrhydri. Naturiol, gan hyny, y cyfyd yr ymofyniad, Pa fodd y mae cyfrif am ddarfod i ddyn a fu am gynnifer o flynyddoedd yn gymmharol ddisylw godi megys yn ddisymmwth, ac ar unwaith, i gymmaint o sylw a dylanwad, fel nad oedd o'r braidd neb arall yn y cyfundeb, nac yn y wlad, yn gyfartal iddo? Y mae y gofyniad yn un rhy anhawdd i roddi atteb boddhaol iddo mewn ychydig o eiriau. Yr un oedd Thomas John yn ei flynyddoedd diweddaf a'r blynyddoedd blaenorol i hyny—yr un fel Cristion, yr un fel gweddïwr, a'r un fel pregethwr. Cydnabyddwn ei fod yn cynnyddu beunydd mewn gras; ond yr oedd y cynnydd hwnw yn un graddol o'r dechreuad. Nid oedd efe yn fugail cyflogedig yn eglwys Cilgeran; ond ni fu bugail erioed yn gofalu yn fwy cydwybodol am ei eglwys, nag y gofalai Thomas John am yr eglwys y cartrefai ynddi. Pregethai i'r gynnulleidfa mor aml ag y rhoddid iddo gyfleusdra; ac nid ymattalai rhag traethu iddynt 'holl gynghor Duw.' Cyhoeddai Grist yn Waredwr digonol i'r penaf o bechaduriaid, a tharanai yn arswydus yn erbyn pechod yn mhob ffurf arno. Yr oedd annuwioldeb a llygredigaethau y dref yn poeni ei enaid, ac yr oedd yn ei weddïau a'i bregethau yn peri deall hyny. Nos a dydd, ni pheidiai â chynghori a rhybuddio. Dyddanai y rhai gwan eu meddwl, cysurai y rhai galarus, ceryddai y troseddwyr, ac ymdrechai ei oreu i gadw dysgyblaeth eglwysig ar ei thraed. Ond er hyn i gyd, ychydig o sylw a delid iddo gan bobl Cilgerran; ac nid oedd arwyddion fod ei ddylanwad ond bychan yn y lle. Cydnabyddai pawb ei fod yn ddyn duwiol, ac yn ddyn duwiolach na'r cyffredin; ond am y golygent ei fod yn ddyn *odd*, ac yn bregethwr eithafol. Ni thybient fod yn rheidiol iddynt weithredu yn gydunol â'i gyfarwyddiadau. Achwyn arno y byddai pobl yr eglwys, ei fod yn rhy hallt yn ei weinidogaeth, ac yn rhy fanwl a llym gyda gweinyddiad dysgyblaeth. Credwn na fedrai aelodau yr eglwys yn Nghilgeran oddef i ddyeithriaid redeg arno; ond hwy a fedrent redeg arno eu hunain. Yn y sir, hefyd, cwynid yn erbyn gerwindeb a halltrwydd ei weinidogaeth—nid gan bawb, ond gan lawer. Yr oedd yn annioddefol i swyddogion Phariseaidd, ac i grefyddwyr bydol a llygredig. Yr oedd ganddo ei gyfeillion a'i gefnogwyr, er hyny, yn mysg y gwŷr blaen; ond yn ei erbyn y ceid mwyafrif y penaethiaid. Teimlai rhai o bobl y byd fod rhyw neillduolrwydd arbenig yn ei weddïau, ac yn ei bregethau; ac amlygent eu syndod yn achlysurol na byddai y blaenoriaid yn gwneyd mwy o sylw o hono, ac yn rhoddi lle mwy amlwg iddo yn y cyfarfodydd misol. Ammharod fyddai y blaenoriaid, pa fodd bynag, i gydnabod dim neillduolrwydd yn Thomas John—heb law neillduolrwydd ei olwg, ei ffordd, a'i erwindeb. Ac i wneyd tegwch â'r mater mewn llaw, mae yn ofynol dyweyd yn y fan yma nad oedd pob peth yn y gŵr mawr o Gilgeran yn bethau y gellid eu cymmeradwyo. Dyn oedd Thomas John—dyn duwiol iawn, mae'n wir—ond dyn er hyny. Yr oedd ynddo rai diffygion, a'r rhai hyny mor amlwg a'i ragoriaethau.

Y peth penaf i gyfrif am ddylanwad mawr Thomas John yn ei flynyddoedd diweddaf, yn fwy na'r hyn ydoedd y blynyddoedd cyn hyny, ydyw y cyfnewidiad mawr a gymmerodd le yn nheimlad crefyddol y wlad yr adeg hono. Tra yr oedd yr eglwys mewn cyflwr gwrthgiliedig o ran ei hysbryd, yn oer a chaled ei theimlad, yn anchwannog i ddim ond i gysgu a hepian; a thra yr oedd y byd wedi ymgaledu mewn annghrediniaeth ac anystyriaeth, yr oedd cymmeriad o sancteiddrwydd ac ysbrydolrwydd gwrthddrych ein hysgrif yn un nas gallesid ei werthfawrogi; a gweinidogaeth lem, onest, y fath ag oedd ei weinidogaeth ef, yn un nas gallesid ei derbyn; canys yr oedd yn llosgi fel halen ar gig noeth. Eithr yn y flwyddyn 1859, daeth ymweliad oddi wrth yr Arglwydd. Tywalltodd ei Ysbryd mewn modd rhyfedd ar ei eglwys; a thrwy ei ddylanwadau nerthol, tymmerwyd ysbrydoedd y bobl i wrandaw a gwerthfawrogi gwirioneddau yr efengyl. Canlyniad hyn, yn

Digitized by Google

benaf, oedd dyrchafiad Thomas John. Mor fuan ag y daeth y bobl i gydymdeimlo âg ef, hwy a ddaethant i'w werthfawrogi a'i barchu, ac i roddi eu hunain yn agored iddo ddylanwadu arnynt. Nid ynddo ef, yn gymmaint ag ynddynt hwy, yr oedd y cyfnewidiad.

Nid oedd neb yn barotach i groesawu yr adfywiad, na'r gŵr yr ydym yn ysgrifenu yn ei gylch. Gweddïodd lawer ar hyd y blynyddoedd am gael y fath beth; a phan y daeth, ymdaflodd i'w hyrwyddo â'i holl enaid. Bu yr effeithiau yn rymus iawn yn Nghilgeran; ac ymorfoleddai yntau yn y pethau mawrion oedd wedi cael eu gwneyd trwy y diwygiad yn ei gartref ef:—yr eglwys wedi cael ei deffroi o'i chwsg—y meddwon wedi cael eu sobri—y cablwyr wedi eu dwyn i weddïo—a '*band* y cythraul,' oedd yn arfer chwareu ar hyd yr heol, wedi ei ddistewi. Teimlai fod adeg y cyffröad yn adeg cynhauaf, ac yn amser na ddylai neb gysgu ynddo. Elai o fan o fan i'r cyfarfodydd wythnosol yn nghylchoedd ei gartref; ac i bob lle yr elai, yr oedd y tân ysbrydol gydag ef, a gosodid y cyfan yn goelcerth.

Yn y Gogledd yr enwogodd efe ei hun gyntaf mewn cymmanfa, sef yn Nghymmanfa Caernarfon, yn y fl. 1860. Ar ol hyny, edrychid arno fel tywysog y pregethwyr, gartref ac oddi cartref. Dydd y farn yn unig a ddengys faint y daioni a wnaeth yn mhedair blynedd olaf ei oes, heb sôn am yr holl flynyddoedd blaenorol, mewn dychwelyd pechaduriaid at yr Arglwydd.

Ond daeth y diwedd yn lled ddisymwth. Yn yr wythnos gyntaf yn mis Tachwedd, cymmerwyd ef yn glaf mewn twymyn; ac yn mhen rhai ddyddiau, fe ddeallwyd fod perygl am ei fywyd. Parodd y newydd am hyny dristwch mawr yn y dref, a'r ardaloedd. Ofnid, os oedd yr Arglwydd yn myned i gymmeryd ymaith y cyfiawn hwnw mor gynnar yn ei ddydd, ei fod yn rhywbeth o flaen drygfyd. Trymhau yr oedd y clefyd o ddydd i ddydd, a'r cyfansoddiad eiddil yn ymollwng dano; ond yr oedd y meddwl yn gadarn, a'i afael yn addewid Duw. 'Amcan mawr fy mywyd (meddai), oedd casglu digon o nerth i farw yn gryf; ac yr wyf yn teimlo yn awr fod yr amcan hwnw wedi ei gyrhaedd yn gyflawn.' Pan yr oedd ei gyfaill, y Parch. Abel Thomas, ar ymweliad âg ef, ac efe y pryd hwnw yn gystuddiol iawn, dywedodd wrtho am dano ei hun fel y canlyn:—'Mae'n dda genyf allu dyweyd fod tangnefedd rhyngof a'r nefoedd. Yr wyf wedi gweled cymmaint o ogoniant yn nhrefn gras fel nad yw yn bossibl colli pechadur mor fawr a Thomas John. Yr wyf wedi cael golwg ryfedd ar gyfammod y prynedigaeth—fel cylch mawr, cyfan—cylch y Duwdod, a hwnw wedi ei gadarnhau â gwaed. Ac y mae llwon Duw yn tanbeidio o'i fewn—fel perlau yn ei addurno, yn ei ddangos yn annhraethol werthfawr a gogoneddus! Pechadur a'r llwon yn yr un cylch! Nid yw yn bossibl colli neb o'r rhwym hwn! Y mae yn rhaid cadw ynglŷn â threfn yr efengyl! Nid oedd marw y groes i fod heb ffrwyth iddo! O! dyma le i gadw! Y mae gobaith am gadw *hwn!*' gan olygu ei hunan. Bu farw ar y 27ain o Dachwedd, 1862, yn 46ain mlwydd oed. Cafodd gladdedigaeth tywysog, yr hwn oedd yn difrifol o alarus; a gorwedda ei weddillion yn mynwent y llan. Ysgrifenwyd *Cofiant* byr iddo, yn cynnwys pump o'i bregethau, gan y Parch. B. D. Thomas, Woodstock.

Y TRIOEDD. Y mae dechreuad hanes y Trioedd yn aros mewn caddug dudew; ac hyd yn hyn, ychydig iawn sydd wedi ei wneuthur i daflu goleuni arnynt. Yn yr erthygl hon, ni wneir ond rhoddi braslun o'u prif nodweddion, gan adael i'r darllenydd ymchwilgar droi atynt yn y *Myvyrian Archaiology*, a manau eraill lle y ceir rhai o honynt, ac ymgydnabyddu â hwynt nes y daw, ond odid, oleuni pellach arnynt. Fel y ceir gweled, cynnwysa rhai o honynt foeswersi buddiol mewn ffurf hynod o darawiadol.

Pa beth fu yn foddion i symbylu y Cymry i ddosbarthu eu gwybodaeth hanesyddol, eu chwedloniaeth, eu moesddysg, eu rheolau barddonol, &c., yn 'Drioedd,' sydd yn fater anhawdd iawn ei benderfynu. Tuedda rhai i gredu fod y duedd hon wedi dechreu yn bur foreu yn mhlith y Galiaid; ac y mae gan y Proffeswr Rhys, yn ei *Celtic Heathendom*, awgrymiad i'r perwyl yna. Cyfrifai yr hen Geltiaid yr amser wrth y nosweithiau, o barch i dduw y byd tanddaearol, medd Cæsar. Cynnwysai yr 'wythnos' naw noson gynt; ac fe allai fod yr wythnos ei hun yn cael ei rhanu yn dri amser—a'r rhif 'tri' yn rhif cyssegredig. Y mae yn hysbys fod gan y Galiaid dduw o'r enw Tarvos Trigaranos, neu y 'Tarw â'r tri gwddf;' ond hwyrach na theifl hyn, wedi y cyfan, nemawr o oleuni ar yr anhawsder. Myn eraill mai athrawiaeth y Drindod a roddodd symbyliad i'r ffurf yna ar lenyddiaeth yn mhlith y Cymry, a bod rhyw sancteiddrwydd neillduol yn perthyn gynt i'r rhif hwn. Dyna ydyw barn yr ysgolhaig Ellmynaidd Windisch, yn ei ysgrif ar lenyddiaeth Geltaidd yn Ersch & Grüber's *Allgemeine Encyclopädie*. Rhoddai y Gwyddelod Cristionogol, medd efe, bwys neillduol ar athrawiaeth y Drindod. Ceir ychydig o Drioedd yn y Wyddelaeg yn *Llyfr Leinster*.

Y mae Cyfreithiau Hywel Dda yn rhagdybied bodolaeth Trioedd y pryd hyny; ond y Trioedd hynaf sydd genym ar gael mewn llawysgrif yw 'Trioedd y Meirch,' yn *Llyfr Du Caerfyrddin*. Ceir y rhai hyn mewn ffurf ddiweddarach yn niwedd 'Trioedd Ynys Prydain' yn y *Myvyrian Archaiology*.

Gynt, telid cryn lawer o barch i 'Drioedd Ynys Prydain' fel defnyddiau hanesyddol gan ysgrifenwyr fel Carnhuanawc, yn ei *Hanes Cymru*. Beirniadwyd hwynt yn llym fel defnyddiau hanesyddol gan y diweddar Mr. T. Stephens, awdwr *The Literature of the Kymry;* a'r un oedd barn Gweirydd ap Rhys yn eu cylch. Gellir dyweyd yn ddibetrus nas gellir eu defnyddio at amcanion hanesyddol heb ymchwiliad manwl iddynt, na chwaith yn uniongyrchol at hyny. Yn wir, chwedlonol ydyw ansawdd y rhan fwyaf o honynt; ac y mae eraill, er yn enwi personau diammheuol hanesyddol, etto yn dweyd rhy ychydig yn eu cylch i gyfansoddi hanes. Diammheu fod chwaneg o'r Trioedd na 'Thrioedd y Meirch' yn bodoli pan ysgrifenwyd *Llyfr Du Caerfyrddin;* ond nid oes ymchwiliad digon manwl wedi ei wneyd etto i sicrhau oedran yr hen lawysgrif, o'r hon y disgynodd y llawysgrifau a argraphwyd yn y *Myvyrian Archaiology*.

Ceir 'Trioedd Ynys Prydain' yn y *Myvyrian Archaiology* mewn tair ffurf. Y ffurf hynaf yw yr hon a gymmerwyd o *Lyfr Coch Hergest*. Y ffurf nesaf yw yr hon a geir arnynt yn llyfr Mr. Vaughan, o Hengwrt. Mae y ffurf hon arnynt yn amlwg yn ddiweddarach na hono a geir yn

Digitized by Google

y *Llyfr Coch;* ond etto, gan fod llawysgrifau diweddarach, weithiau, yn sylfaenedig ar hen lawysgrifau, gall ymchwiliad manylach ddangos fod i'r llawysgrif hon elfenau o werth na cheir mo honynt yn y *Llyfr Coch*. Y mae y drydedd ffurf yn amlwg yn sylfaenedig ar ffurf gyffelyb i'r hon a geir yn yr Hengwrt MSS.

Y mae lle i gredu fod rhai o'r Trioedd hyn yn grynhoadau byrion o hen chwedlau, neu o hen hanesion, y rhai oeddynt i'w cael mewn gwahanol ardaloedd yn Nghymru. Defnyddiwyd rhai o'r Trioedd yn ddefnydd chwedlau eilwaith; fel y cawn weled yn hanes y Tri Eurgrydd. O'r tu arall, mae amryw o'r enwau ynddynt yn ddiammheuol hanesyddol. Ceir ynddynt rai elfenau yn eu cyssylltu â'r gyfres hanesyddol o weithiau Brytanaidd; megys, Gildas, Nennius, yr Annales Cambriæ, a barddoniaeth 'Aneurin,' 'Llywarch Hen,' a 'Thaliesin.' O'r tu arall, y mae gan rai o honynt berthynas â chwedloniaeth y *Mabinogion*, yn arbenig â 'Phedair Cainge y Mabinogi.'

Yn eu ffurf bresennol, y mae 'Trioedd Ynys Prydain' yn yr holl lawysgrifau yn fath o gyfuniad o 'Drioedd gwirioneddol Ynys Prydain,' a 'Thrioedd Arthur, a'i wŷr,' ynghyd âg ychydig o Drioedd unigol, nad oes iddynt gyssylltiad amlwg iawn â'r gweddill.

Y mae y Trioedd yn eu ffurf hynaf yn y *Llyfr Coch* yn llai o rifedi nag y maent yn Llyfr Hengwrt; ac nid ydynt wedi eu dosbarthu mor fanwl o dan wahanol adranau. Y mae iddynt hefyd ragarweiniad ysgrythyrol—ac nid daearyddol—fel sydd yn y Vaughan MSS.; a rhagarweiniad hefyd ynghylch 'pan aeth llu i Lychlyn,' nad oes iddo unrhyw gyssylltiad â'r Trioedd eu hunain. O'r tu arall, mae'r Trioedd yn yr Hengwrt MSS. yn amlwg wedi eu dosbarthu yn drefnus; a cheisir gwneyd iddynt gyfatteb mor agos ag sydd yn bossibl i'w henw—'Trioedd Ynys Prydain.' Yn gyntaf, ceir 'rhanau yr ynys,' 'ei phrif rag-ynysoedd,' 'ei phrif afonydd,' a'i 'phrif borthfeydd;' ac wedi hyny, dair 'archesgobaeth yr ynys.' Y mae y Trioedd nesaf yn rhai sydd yn dwyn perthynas â llywodraethiad yr ynys. Ar ol hyny, daw 'Trioedd y Beirdd;' ac y mae lle cryf i gasglu mai bardd a drefnodd y Trioedd hyn yn eu ffurf bresennol. Yna, ceir Trioedd y 'Tri Chynweissiad,' a'r 'Tri Llynghessog.' Yn nesaf at y rhai hyn, ceir Trioedd yn ymdrin yn benaf â rhyfelwyr Ynys Prydain; ac yn nesaf atynt hwy, un o'r Trioedd sydd yn ddiammheu yn bur henafol, ac yn cynnwys peth o chwedloniaeth hynaf y genedl; sef, 'Trioedd y Tri Gwrddfeichiad.'

Dilynir y rhai hyn etto gan y 'Trioedd Hud a Lledrith;' o bossibl, am fod Pryderi yn ymddangos yn y rhai hyn, yn gystal ag yn y rhai diweddaf a enwyd. Daw y Trioedd nesaf etto yn ddestlus yn ol eu gwahanol faterion; ond ceir yn y gyfres hon o'r Trioedd gyfeiriadau at y 'Tri sanctaidd Linus,' 'y Tri gwestai gwynfydedig,' a'r 'Tri chorph a wnaeth Duw er Teilaw,' na cheir mo honynt yn y *Llyfr Coch o Hergest*.

Nid ydyw yn angenrheidiol enwi y Trioedd sydd yn canlyn; ond gall y darllenydd eu hedrych drosto ei hun. Sylwer, fodd bynag, fod 'Trioedd Arthur, a'i wŷr' yn cymmeryd rhan lled helaeth o hyn i'r diwedd. Y mae gan rai o'r Trioedd gyssylltiad mwy arbenig â rhai rhanau o'r ynys na'u gilydd. Er engraifft, ceir cyfeiriad at 'Dri Unben Deifr a Bryneich.' Y mae dau o honynt yn cyfeirio yn arbenig at Loegr: sef, 'Tri pheth a orchfygodd Loegyr,' a 'Thri ereill o bleit Loegyr.' Cyfeiria dau eraill o'r Trioedd yn neillduol at ardal Powys; sef, 'Tri Budr Hafren,' a 'Teir Neges a gaffad o Bowys.' Cyfeiria dau eraill yn neillduol at ranau o Wynedd; sef, 'Tri Phorthor gweith perllan Fangor,' a 'Teir Prif Ormes Môn.' O bossibl, fod y gwahanol Drioedd hyn wedi eu chwanegu at y casgliadau, fel y ceid hwynt yn yr ardaloedd hyny. Nid oes nemawr ddim i'w ddyweyd am 'Drioedd Arthur, a'i Wŷr,' ond ei bod yn ddigon amlwg mai cymmharol ddiweddar ydynt; sef, pan oedd y chwedlau Arthuraidd yn eu ffurf Ffrengig wedi dyfod yn hysbys yn Nghymru. Ammheuwn, fodd bynag, fod rhai o'r Trioedd sydd yn enwi Arthur gryn lawer yn hynach nag eraill; er engraifft, 'Trioedd y Tri goruchel Garcharawr.'

Gyda golwg ar 'Drioedd y Meirch,' a 'Thrioedd yr Ychain,' y mae'n anhawdd iawn rhoi barn bendant pa un a oes iddynt sylfaen hanesyddol, ai peidio. Y mae yn demtasiwn gref i gredu fod yma ddefnyddiau chwedlonol; ond y mae y tywyllwch yn rhy fawr i ni allu dyfalu fod iddynt unrhyw gyssylltiad â hen grefydd ein cenedl yn y ffurf o eilun-addoliaeth, neu'r cyffelyb. Y mae llawer o ddarnau o chwedloniaeth yn troi o gylch y march; ac aberthwyd meirch gynt i dduw y moroedd. Yn wir, un o'r pyngciau mwyaf dyddorol ynglŷn â hen grefydd ein tadau, pe gellid ei benderfynu, fyddai gwybod pa anifeiliaid a aberthid ganddynt.

Wrth gymmharu y ddau gasgliad hyn o 'Drioedd Ynys Prydain' â'u gilydd, yr ydym yn cael eu bod yn gwahaniaethu yn aml yn y drefn y gosodir yr enwau. Weithiau, y mae yr enwau eu hunain hefyd yn gwahaniaethu; ac ar brydiau, y mae chwanegiadau bychain at y Trioedd wedi eu gwneyd gan ysgrifenydd yr Hengwrt MSS., neu rywun o'i flaen. Y mae amryw o'r Trioedd sydd yn Llyfr Hengwrt na cheir mo honynt yn y *Llyfr Coch*. Heb gymmeryd i ystyriaeth 'Drioedd Arthur, a'i Wŷr,' a'r rhagymadrodd daearyddol, ni cheir y rhai canlynol:—'Tri lleithig llwyth Ynys Prydain,' 'Tri tharw câd Ynys Prydain,' 'Tri gwrdd faglawg Ynys Prydain,' 'Triwyr Hud a Lledrith,' 'Tri Lledrithiawg Ynys Prydain,' 'Tri gwŷr a wnaethant fad gyflafan,' 'Tri chyfor a ddaeth o'r ynys hon, &c.,' 'Tair gormes &c.,' 'Tri sanctaidd Linus,' 'Tri gwestai gwynfydedig,' 'Tri chorph a wnaeth Duw er Teilaw,' 'Tri chudd Ynys Prydain,' 'Tair ofer gâd Ynys Prydain,' 'Tri anfad balfawt,' 'Tri gwyn dorllwyth,' 'Tri serchawg Ynys Prydain,' 'Tair diweirferch Ynys Prydain,' 'Tair anniweirwraig Ynys Prydain,' 'Tair gwenrian Ynys Prydain,' 'Tair gloyw riain Ynys Prydain,' 'Tri chyndyniawc Ynys Prydain,' a 'Thri phrif fardd Ynys Prydain.'

Y mae llawer o'r enwau yn y Trioedd hyn na cheir cyfeiriad atynt ond unwaith; tra y cyfeirir at eraill amryw weithiau. O bossibl, y teifl hyn radd o oleuni ar eu ffurfiad. Credwn, i ddechreu, fod Trioedd wedi eu ffurfio ynghylch rhai o'r cymmeriadau mwyaf adnabyddus mewn chwedloniaeth a hanesiaeth; megys Uryen, Owein ei fab, Maelgwn Gwynedd, Beli a'i deulu, Drystan fab Tallwch, ac Essyllt. Gall hefyd fod Trioedd yn bur foreu am Garadawg Freichfras, Gwrthmwl Wledig, Rhydderch Hael ap Tutwal Tutclut, Rhun fab Maelgwyn,

Digitized by Google

Rhufawn Befr fab Deorarth Wledig, Peredur mab Elifer, Cadwallawn fab Cadfan, March fab Meirchiawn, Morfran eil Tegid, Coll mab Collfrewi, Gwydion fab Don, Menw mab Teirgwaed, Bran fab Llyr, a Brychan Brycheiniog.

Ar y cyntaf, y mae yn sȳn mor lleied o le a roddir i'r cymmeriadau chwedlonol a geir mor amlwg yn 'Mhedair Caingc y Mabinogi.' Credwn, fodd bynag, mai yr achos yw, fod teimlad cyffredinol yn mysg y Cymry mai cymmeriadau y tu allan i gylch hanesiaeth oedd y rhai hyny; ac y mae lle cryf i gredu am rai o honynt, megys Manawyddan fab Llyr ('Manannan mac Lir') eu bod yn dwyn cyssylltiad agosach â'r Gwyddelod nag â hynafiaid cenedl y Cymry. Y mae yn eithaf sicr erbyn hyn mai cymmeriadau ac enwau hanesyddol, er mai ychydig o'u hanes a gawn, sydd genym yma yn y Trioedd Cymreig. Ammheuwn yn gryf mai yr hyn fu yn achos i helaethiad y Trioedd oedd yr ymgais i gael lle ynddynt, fel gwŷr o wrhydri, i hynafiaid hen deuluoedd brenhinol Cymreig. Dyna, ni gredwn, sydd yn cyfrif pa ham y ceir cynnifer o enwau hollol anadnabyddus o gyfeiriadau eraill ynddynt.

Erbyn chwilio, y mae yn syndod, er nad yn syndod chwaith, fod cynnifer o enwau o darddiad Lladin ar ein hynafiaid. Yn y Trioedd hyn, cymmerwn yr enw Arthur ei hun. Barna Zimmer mai enw o'r ffurf cyssefin 'Artorius' ydyw. Dyna etto 'Ywain.' Nid oes nemawr o le i ammheu, bellach, nad y Lladin 'Eugenius' oedd efe. Yr un modd etto am Urien, enw yr hon a geir yn yr *Annales Cambriæ* yn y ffurf 'Urbgen' (yn ol pob tebyg, 'Urbigena') ydoedd. Etto, hefyd, 'Romanus' ydyw tarddiad 'Rhufawn;' yr hwn, fe allai, a roddodd ei enw i ardal Rhufoniog (*Romaniacus ager*). Y Lladin 'Donatus,' etto, ydyw tarddiad 'Dunawt.' Credir mai 'Eleutherius' yw Elidr; ac awgryma Zimmer mai 'Peritorius' oedd Peredur. Cawn, hefyd, Maxen, yr hwn yw 'Maximus;' Geraint, sef 'Gerontius;' March, sef 'Marcus;' a Meirchiawn, sef 'Marcianus,' ei dad. Bernir mai y Lladin 'Caius' ydyw Cai; ac mai 'Pascentius' ydyw Pasgen. Y mae un enw Normanaidd, sef Gilbert, yn mhlith y Trioedd; ac yn rhyfedd iawn, ceir y person Llydewig hanesyddol 'Alan Fergant' yn y ffurf o 'Alan Fyrgen' wedi ei drosglwyddo o frwydr Hastings i gâd Camlan.

Enw Lladin hefyd, sef 'Paternus,' yw Padarn; yr hwn a roddodd ei enw i Lanbadarn. Rhufeinig, wrth gwrs, yw enw Cystenyn, sef 'Constantine;' ac hefyd Fflur, sef 'Flora.' Ammheuwn braidd, hefyd, mai 'Indica' yw Indeg: ac hefyd, mai 'Anianus' yw Einion; fel y mae Meirion yn 'Marianus,' yr hwn a roddodd ei enw i Feirionydd. 'Patrocbus,' yn ddi-ddadl, oedd enw gwreiddiol Padrogl, paladr Ddellt.

Ymddengys enwau eraill, yn ol pob tebyg, yn enwau Gwyddelig. Ond anhawdd iawn yw penderfynu hyn i sicrwydd. Gwyddis mai yr un yw Nudd a 'Nuada' y Gwyddelod; yn tarddu yn wreiddiol o'r enw Nodens, yr hwn oedd yn un o hen dduwiau y Celtiaid. Cymmeriad Gwyddelig hefyd oedd Manawyddan, fab Llyr ('Manannan mac Lir,' y Gwyddelod). Ammheuwn, hefyd, mai Gwyddelig ydyw enw Eiddilig; ac hefyd, enw Gafran, fab Aeddan. Yr un modd hefyd Brychan, ac Afallach, Rore ferch Usber, a Doler mab Murchath.

Y mae hanesiaeth foreuol Cymru wedi derbyn y blynyddoedd diweddaf hyn gryn symbyliad oddi wrth ymchwiliadau manylach i chwedloniaeth y genedl; ac yn neillduol i hanes llwythau yr hen Gymry. Gwnaed gwaith rhagorol iawn ynglyn â chwedloniaeth gan y Proffeswr Rhys, ac eraill; ac y mae y Proffeswr Zimmer, o Göttingen, trwy weithiau o'i eiddo ef, megys *Nennius Vindicatus*, wedi taflu llawer o oleuni ar ein hawdurdodau boreuol dros hanesiaeth y Cymry yn y canrifoedd tywyll, rhwng ymadawiad y Rhufeiniaid ac ysgrifeniad Brut y Tywysogion.

Hefyd, yn nghorph y flwyddyn hon (1895), y mae Mr. Seebohm, un o Ddirprwywyr y Tir yn Nghymru, wedi cyhoeddi ei ymchwiliadau i gyfansoddiad y llwythau Cymreig yn ngoleuni llyfrau—megys, *The Record of Carnarvon*, *Trioedd y Gyfraith*, a *Cyfreithiau Howel Dda*—ar rai o neillduolion presennol tir-ddaliadaeth yn Nghymru. Mae felly gan Drioedd Ynys Prydain, ac yn wir gan holl hanes Cymru, ddyddordeb newydd yn ngoleuni y wybodaeth newydd hon. Credir mai sylfaen llywodraeth y Cymry oedd y llwyth; a hwnw yn gyfansoddedig o ddeiliaid rhyddion o waed Cymraeg pur dan arglwyddi y llwythau. Ac yn ddarostyngedig i'r llwythau Cymraeg, yr oedd y 'taeogiaid' yn eu 'taeog-drefi,' a'r 'meibion eillion,' ynghyd â'r estroniaid; y rhai oedd yn perthyn, nid i genedl y Cymry, ond i'r cenhedloedd a orchfygwyd gan y Cymry pan wladychasant yn y wlad.

Bernir fod Gwynedd a Dyfed, ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid, dan awdurdod Gwyddelod. Y mae lle i gredu fod rhai Gwyddelod, fel y dengys Zimmer yn ei *Nennius Vindicatus*, wedi gwladychu yn Nyfed tua'r un pryd ag y gwladychodd y Gaeliaid yn Ucheldiroedd yr Alban. Ond barnai y Proffeswr Rhys fod Gwyddelod yn aros yn Nyfed, a Gŵyr, cyn dyfodiad y rhai hyny; hyny ydyw, gweddillion y Gwyddelod a wladychasant yn y wlad hon gyntaf oll o'r Celtiaid, ac a yrwyd i ranau mwyaf gorllewinol yr ynys. Bernir fod y Cymry, y rhai oedd wedi mabwysiadu llawer o eiriau, ac enwau ac arferion Rhufeinig, wedi dyfod i Gymru yn eu gwahanol lwythau, a gorchfygu Gwynedd dan Cunedda, a'i feibion. Credir, hefyd, fod Brytaniaid o'r parthau cyfagos wedi gwladychu yn Mhowys. Gorchfygwyd Gwyddelod Dyfed gan Maelgwn Gwynedd, fel y dangosir gan Zimmer yn ei *Nennius Vindicatus*. Y mae'r *Ogam-inscriptions* sydd i'w cael yn benaf yn Nyfed yn brawf digonol ynddynt eu hunain o wladychiad Gwyddelod dros gryn amser yn y parthau hyny; ac y mae amryw eiriau benthyg o'r Wyddelaeg yn yr iaith Gymraeg hyd heddyw.

Y mae'r ffaith hon—sef, mai dyfodiaid o Ystrad Clud (Strathclyde) a Cumberland ydyw y Cymry presennol—yn esbonio yn lled foddhaol paham y defnyddir arnynt yr enw 'Cymry'—na cheir mo hono ar hen lwythau y genedl yn adeg y Rhufeiniaid. Barnwn mai enw gwneuthur ydyw; sef, 'Combroges' (y Cyd-fröwyr), yr hwn a ffurfiwyd yn adeg Goresgyniad Cymru. Teimlai y prif deuluoedd hefyd, yn ddiammheu, fel gorchfygwyr, yn falch o'u hachau; ac y mae'n bur debygol, gan eu bod yn gyfarwydd â gwareiddiad Rhufeinig, iddynt eu cadw yn bur ofalus; ac fe allai, ar yr un pryd, amryw draddodiadau am rai o'r prif enwau. Y mae'n eithaf gwir y gallai chwedloniaeth yn fuan iawn ymgasglu o gylch rhai o'r gwŷr pwysicaf; ond credir, er hyny, fod i'r traddodiadau gnewyllod hanesyddol. Fel y tyfai yr awydd am lenydd-

Digitized by Google

iaeth, ond odid dan symbyliad y Gwyddelod, gan fod y Gwyddelod, y pryd hwn, wedi cadw cryn lawer o wybodaeth a llenyddiaeth Ewrop, daethpwyd i gorphori y traddodiadau yn y ffurf o Drioedd:—ychydig, yn ddiammheu, ar y cyntaf, ond yn chwanegu fel yr efelychai y naill deulu y llall.

Gyda'r traddodiadau a'r Trioedd, fe dyfodd barddoniaeth hefyd:—barddoniaeth arwrol, yn disgrifio rhai o'r prif ddigwyddiadau yn hanes y teulu; megys y *Gododin* sydd ar enw Aneurin, a gwahanol ganiadau Llywarch Hen. Barnwn mai arwrol, crefyddol, a hynafiaethol, yn fwyaf, oedd tueddiadau llenyddol y rhanau mwyaf Cymreig o'r wlad; tra, o'r tu arall, y tyfodd y chwedloniaeth a'r farddoniaeth sydd ar enw Taliesin yn ardaloedd y wlad lle y ceid cryn gymmysgedd o waed Gwyddelig dan symbyliad chwedloniaeth yr Iwerddon. Mae yn deilwng o sylw mai i'r ardaloedd hyny yn gyfangwbl y perthyn chwedlau 'Pedair Cainge y Mabinogi.'

Er fod y prif deuluoedd yn Gristionogol, etto mae'n sicr yr arosodd ofergoeledd yn lled hir yn y 'taeog-drefi,' yn enwedig. Dyna ydyw sylfaen llawer o ofergoeliaeth y wlad hyd heddyw; ac elai llawer o hono yn mhell yn ol at adeg 'Cyfnod y Meini,' a'r llwythau cyn-Geltaidd. Tuedd y llwythau Aryaidd oedd bod yn gymmharol ddibris o addoliad nerthoedd lleiaf natur, a'u hamgylchiadau; megys y coed, y ffynnonau, yr afonydd, y creigiau, a'r anifeiliaid: a thalu parch yn eu haddoliad cyhoeddus i'r nerthoedd mwyaf; megys yr haul, yr awyr, y lloer, y môr, &c., a'r duwiau a'r duwiesau yn y rhai y personolid hwy. Ond o'r tu arall, yn eu haddoliad neillduol—yr hyn, yn wir, oedd eu gwir grefydd—talent y parch a'r addoliad dyfnaf i dduwiau y teulu; megys Lares a Penates y Rhufeiniaid, a duwiau eu tadau ymadawedig. Bu yr Aryaid yn grwydriaid; a dysgasant gludo eu crefydd, y fath ag ydoedd, gyda hwy; ac y mae yr un ysbryd yn aros etto yn y fynwes aristocrataidd yn Ewrop. Ffurf, yn fwy na dim arall, oedd addoliad cyhoeddus yr Aryaid; ond yr oedd eu crefydd deuluaidd yn rhan hanfodol o'u meddwl. Nid rhywbeth dros amser oedd bywyd y teulu, ond rhywbeth parhaol. Ceisient gadw y tân heb ei ddiffodd ar yr aelwyd o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae lle i gasglu fod y Celtiaid Aryaidd, neu o leiaf eu prif deuluoedd, yn ofalus iawn gyda hyn hefyd; a diammheu mai un o'u prif ddiffygion hwy, fel un o brif ddiffygion ffurf-lywodraeth y Rhufeiniaid, ar y dechreu yn enwedig, oedd, fod y teulu yn bob peth, a'r unigolyn yn myned i'r cysgod. Dengys Syr Henry Maine, yn ei *Ancient Law*, fel y graddol laciwyd rhwymau llywodraeth y tad (neu'r *patria potestas*) yn hanes yr ymherodraeth Rufeinig.

Dyma, gan hyny, yn ol pob tebyg, yr ysbryd a achosai i genedl y Cymry gadw ei hachau mor fanwl; a diammheu mai o achau y prif deuluoedd y cymmerwyd enwau amryw o gymmeriadau y Trioedd hyn.

Symmudwn yn awr yn mlaen at rai o'r Trioedd eraill. Cymmerwn, yn gyntaf, 'Drioedd Catwg Ddoeth.' Trioedd cymmharol ddiweddar yw y rhai hyn; ond gall fod iddynt, o leiaf ar lafar gwlad, gnewyllyn pur foreu. Cynnwysant lawer o foes-wersi, ac o gynghorion buddiol. Ac y maent wedi eu gosod at eu gilydd mewn arddull hynod ddestlus. Mae'n hollol sicr fod y rhai hynaf o honynt wedi dechreu yn adeg Pabyddiaeth; megys hwn—'Tri meddyg enaid; ympryd, gweddi, a chardawd.' Ceir yma, hefyd, 'Drioedd y wraig dda;' ac y maent hwythau hefyd wedi eu hysgrifenu mewn ysbryd pur debyg i'r rhai blaenorol. Yn y Trioedd, rhif 176—sef, 'Trioedd eraill Catwg,'—y mae ôl yr un ysbryd, a'r un ansawdd meddwl a'r rhai blaenorol; a rhoddir lle blaenllaw iawn i'r syniad am fonedd. Rhif 177: dyma Drioedd eraill o gyffelyb nodwedd. Yn rhif 178, ceir cyfeiriad pur chwerw at fynachaeth; megys, 'Tri pheth sy'n arwain y byd ar ddidro; addewidion arglwyddi, gwisgoedd myneich, a syberwyd merch. Cynnwysa Trioedd, rhif 179, amryw foes-wersi ynghylch gwragedd, teuluoedd, addysg, doethineb, a'r cyffelyb.

Gellir dyweyd yr un peth am y Trioedd sydd yn gosod allan y pethau a weddant fod ar ddyn, a doethineb, 'O lyvyr Edward Lewys, Ysw., o Ben Llin, yn Morganwg;' ac hefyd am y Trioedd 'O lyvyr ab Iago Dewi.' Gall ymchwiliad manwl iddynt daflu llawer o oleuni ar ystâd cymdeithas yn Nghymru ar y pryd yr ysgrifenwyd hwy. Teflir hefyd beth goleuni ar gyfundrefn addysg y Cymry gynt, gan 'Drioedd Twm Robert,' yn 'Nhrioedd y Beirdd, o lyvyr y Plas Gwyn, yr hwn ydoedd adysgrifiad o lyvyr Rhobert Vychan, o Hengwrt, gan Evan Evans.' Y mae yn lled debyg i gryn ddefnydd gael ei wneyd o'r Trioedd er cyfranu addysg mewn ffordd glir a chryno i blant y pendefigion. Fel y gwelir yn y 'Trioedd eraill o gorph yr un grammadeg,' fe geisiwyd cyfranu addysg rammadegol a barddonol yn y ffurf o Drioedd. Nid oes dim yn neillduol yn galw am sylw ar hyn o bryd yn 'Nhrioedd Taliesin,' fel eu gelwir, na chwaith yn yr adysgrifiad arall o 'Drioedd Moes, o lyvyr a elwir y *Casgliad Didrefn*, eiddo Iarll Macclesfield.' Mae yn yr hen lawysgrif hon etto 'Drioedd Beirdd;' ac ar ol y 'Naw Helwriaeth,' deuwn at 'Drioedd Beirdd Ynys Prydain, a gasglwyd o amryveilion hen lyfrau ysgrifen gan Iolo Morganwg, B.B.D., yn y fl. 1796.'

Tebyg iawn yw y 'Trioedd Doethineb,' y rhai a geir yn nesaf i'r rhai a enwyd yn flaenorol. Lled gyffelyb hefyd ydyw 'Trioedd Llelo Lawdrwm o'r Coetty;' ond eu bod, ar y cyfan, yn llai dillyn eu hiaith, ac yn llai chwaethus. Ceir cyfeiriad hynod o darawiadol, ond chwerw ynddynt at Babyddiaeth; sef, 'Tri pheth ni waeth pa leiaf y clywer o honynt—Cân hwch ar wynt, cnec hen wrach, a phregeth brawd llwyd.' I weled ansawdd wleidyddol meddwl yr awdwr, cymmerwn y geiriau canlynol—'Tri pheth nid oes ar y byd fawr o'u heisieu—Cŵn cynddeiriogion, brenhinoedd, ac offeiriaid.'

Ceir yma, hefyd, 'Drioedd y Gwragedd,' a 'Thrioedd y Gwragedd priod;' ond nid oes dim yn neillduol i alw sylw ato ynddynt. Yr un modd hefyd am 'Drioedd y Cybydd:'—a disgynir yn neillduol o drwm yma ar y gŵr darbodus hwnw. Mae yr un llymder i'w weled yn 'Nhrioedd mab y Crinwas,' ac yn 'Nhrioedd y Meddwyn.'

Dengys 'Trioedd y Cymro,' y rhai a ddeuant nesaf, gryn lawer o hunan-barch. Priodolir hwynt i 'Hopgin Twm Philip, o'r Gelli Vid.' Yn 'Nhrioedd y Sais,' nid oes dim yn rhy galed i'w ddyweyd am y genedl agosaf atom. Gellir barnu pa fath ysbryd sydd ynddynt oddi wrth yr engraifft a ganlyn:—'Tri anhebgor Uffern—Rhingyll, brawd llwyd, a Sais.'

Digitized by Google

Dywedir i Hopgin Twm Philip eu canu yn ngŵyliau y Sulgwyn, 1572. Ymddengys fod cyfansoddi Trioedd, tua'r pryd hwn, yn cael ei gyfrif yn fath o gamp tebyg i gyfansoddi englynion. [Gwel 'Rhagymadrodd i Drioedd Gwilym Hir Saer Hopgin ab Thomas ab Philip].

Nid oes dim yn neillduol i alw sylw ato yn y 'Trioedd o Lyvyr Siôn Philip, o Dreôs; na chwaith yn 'Nhrioedd y Doethion' o'r un llyfr. Yr un modd hefyd am 'Drioedd y Brodyr,' a'r Trioedd eraill etto a'u dilynant.

Y mae 'Trioedd y Pedair Cenedl yn ddyddorol i'r hanesydd; sef, y Cymry, y Saeson, y Ffrangcod, a'r Gwyddelod, y rhai a briodolir i'r Arglwydd William Herbert, Iarll Rhaglan.' Cymmerwyd y rhai hyn allan o 'Lyvyr Thomas ab Ivan o Dre Bryn;' a cheir hefyd yn eu dilyn 'Drioedd y Gwragedd,' o Lyvyr Siôn Philip o Dreôs.

Dengys y 'Trioedd nesaf; sef, 'Trioedd addwynder,' y parch mawr a delid gan ein cenedl i ymwelwyr a gwahoddedigion, megys hwn:—'Tair defod gyntaf lle delo gwesteion—dŵr i olchi traed; cyvarch groesaw gan bendodiaid y teulu, a chadair ger aelwyd.'

Ni a ddeuwn yn awr at rai o'r Trioedd pwysicaf a gwerthfawrocaf sydd genym:—'Trioedd Dyfnwal Moelmud,' a'r 'Trioedd Cyfraith.' Wrth gwrs, nid gwaith Dyfnwal Moelmud yw y Trioedd sydd ar yr enw; ond fel yr awgryma y Proffeswr Rhys, cynnwysant rhai elfenau hynach, o bossibl, hyd yn oed na Chyfreithiau Hywel Dda. Gellir dyweyd yr un peth am y 'Trioedd Gwladoldeb a Chydwladoldeb.' Y maent yn fath o agoriad i'r 'Trioedd Cyfraith' yn gyffredinol. Yr ydys wedi awgrymu eisoes y syniadau oedd wrth wraidd cyfreithiau yr hen Gymry; sef, y syniad o burdeb y llwythau Cymreig, o'u cymmharu â'r cyn-genhedloedd a orchfygwyd ganddynt. Y mae cryn lawer o ysbryd balchder teuluaidd a phendefigaidd yn nodweddu y cyfreithiau hyn, er nad ydynt yn ol o roddi parch i dalentau disglaer. Ni allwn ni yma geisio gwneyd cyfiawnder â'r Trioedd gwerthfawr yma; ac ni wnawn ond annog y darllenydd i'w darllen yn ofalus iddo ei hun yn y *Myvyrian Archaiology*, yn ngoleuni ymchwiliadau fel yr eiddo Mr. Seebohm i gyfundrefn llwythau yr hen Gymry. Dengys ef fod cyfundrefn y Cymry yn ddyddorol, pe yn unig ar y tir mai yn mhlith y Cymry y parhaodd y 'llwyth' fel 'elfen wleidyddol' hwyaf o unrhyw wlad yn Ewrop.

Gwelir peth o ysbryd cyfraith yr Hen Gymry yn y dyfyniad hwn:—'Tri thlws gwladoldeb; Ysgolaig dysgedig, fferyllt celfydd, ac ynad cyfiawn. Sylwer ar hwn etto:—'Tri thlws cenedl:—llyvyr, telyn, a chleddyf; ac nis dygir yn nghafael gan ddedfryd llys a chyfraith.' Etto, hefyd:—'Tri dyn breiniawl ni bydd noeth arf yn eu herbyn:—bardd, pen cenedl, a chenad gorwlad.' Teilwng hefyd o sylw manwl yr hanesydd a'r hynafiaethydd ydyw y Trioedd ar y Gorseddau. Yn un o'r Trioedd, fe ddywedir 'Diareb yw:—'Rhydd i Gymro pob gwlad yn Nghymru.' Byddai yn werth hefyd astudio yn drwyadl y 'Trioedd Taeogaeth.' Sylwer ar y dyfyniad hwn:—'Tri mab rhydd o gaeth y sydd:—nid amgen, bardd, fferyllt, a gŵr llen.' Hefyd, 'Tri pheth ni ddylir eu dwyn i wlad estron heb genad gwlad ac arglwydd:—aur, llyfrau, a gwenith.' Yn mhellach, 'Tri pheth nis dyly mab aillt eu gwerthu heb genad ei arglwydd priodawr, rhag y prynai efe hwynt ganddo:—gwenith, mêl, a meirch; a lle nas pryno ei arglwydd hwynt, rhydd iddo eu gwerthu lle y myno, cyd nas gwerth i wlad estron.'

Dyddorol iawn, hefyd, ydyw y disgrifiad a geir o swyddau y gwahanol lysoedd cyfreithiol yn Ngwynedd, Powys, a Deheubarth.

Yn olaf oll yn y *Myvyrian Archaiology*, ceir ffurf arall ar 'Drioedd Ynys Prydain,' a gymmerwyd allan o lyfr ysgrifenedig y diweddar barchedig Mr. Richards, o Lanegwad, yn Ystrad Tywi, a fu yn menthyg gyda'r Parchedig Mr. T. Walters, o Landocha yn Morganwg, genyf fi—IOLO MORGANWG.'

Ymddengys y ffurf yma ar 'Drioedd Ynys Prydain,' gryn lawer yn ddiweddarach na'r ffurfiau o'r blaen.

CHWANEGIAD.

Dywed Stephens fod y Trioedd sydd genym ar gael yn perthyn i'r 12fed, y 13eg, y 14eg, a'r 15fed ganrif. Ymddengys felly fod y gwaith yma o gyfansoddi Trioedd wedi bod yn bur hoff gan y Cymry yn y canol-oesoedd. Nid oes dim o'r Trioedd hyn ar gael, na 'Thrioedd y Meirch,' yn *Llyfr Du Caerfyrddin;* yr hwn a ysgrifenwyd yn niwedd y ddeuddegfed ganrif. Ar yr un pryd, gan fod barddoniaeth Llywarch Hen, yn enwedig, a'r hen linellau perthynol i'r nawfed ganrif sydd ar gael yn y *Juvencus Codex* yn Nghaergrawnt, yn y ffurf o dribanau, lled awgrymir i ni fod yr hoffder hwn at y rhif 'tri' yn Nghymru yn bur hen. Dengys Stephens, oddi wrth ddyfyniad o englyn gan Cynddelw Brydydd Mawr, yn cyfeirio at y 'Tri Diweir Deulu;' sef, teuluoedd Bran Fendigaid, Cunedda Wledig, a Brychan Brycheiniog—fod rhai o'r Trioedd Hanesyddol 'yn myned yn ol i'r ddeuddegfed ganrif.' Tueddai Mr. Stephens, ar y cyntaf, i edrych yn bur ffafriol ar y Trioedd fel defnyddiau hanesyddol; ond mewn llythyr yn yr attodiad i'w *Literature of the Kymry*, y mae yn rhoddi ei farn am danynt fel y canlyn:—'Nid yw yr arfer o drefnu ffeithiau yn 'drioedd' yn gyfyngedig i'r Cymry. Ceir amryw Drioedd yn yr Hen Destament (gwêl 2 *Sam.* xxiii. 8—23, a 1 *Cron.* xi. 10—35); ac un neu ddau yn Tacitus. Ffynai yr arfer yma, y mae yn debygol, yn mhlith y Derwyddon; ond nid oes genym un o'r Trioedd Hanesyddol sydd yn perthyn i adeg mor foreu. Nis gellir penderfynu dyddiad un o'r Trioedd oddi wrth ei gynnwys hanesyddol. Nid yw *Daeareg* Murchison cyn hyned a'r creigiau Siluriaidd. Y mae ychydig o Drioedd cyfreithiol ar gael yn nghopiau hynaf 'Deddfau Hywel;' ond ni ddaeth yr arferiad o drefnu pyngciau yn gyfraith bob yn dri yn arferiad llenyddol pendant am amryw ganrifoedd yn ddiweddarach; ac nid ydym yn cael cyrph cyfain o ddeddfau wedi eu trefnu fel hyn hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, a'r rhai dilynol. Y mae yn sicr na chyfansoddwyd y deddfau a elwir yn 'Ddeddfau Dyfnwal Moelmud' yn gynnarach na'r unfed ganrif ar bymtheg. Felly, yr ydym yn cael ychydig o'r 'Trioedd Hanesyddol' yn marddoniaeth y ddeuddegfed, y drydedd-ar-ddeg, a'r bedwaredd-ganrif-ar-ddeg; ond nis gellir gosod un *casgliad* o honynt sydd yn adnabyddus i ni yn hynach na'r dyddiad diweddaf; hyny yw, ac eithrio casgliad byr fel 'Trioedd y Meirch' sydd yn y *Llyfr Du*.

Y mae ar gael genym dri o gasgliadau:—

1af, Y gyfres gyntaf a hynaf yw y *Llyfr Coch*

Digitized by Google

o *Hergest;* yr hwn sydd yn awr yn Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain. Y person olaf a enwyd yn y gyfres hon yw Owain Gwynedd; yr hwn a fu farw yn 1169. Rhaid felly fod y casgliad yn ddiweddarach na'r dyddiad hwnw. Yn td. 516 o'r *Llyfr Coch*, y mae cronicl, yr hwn a ddygir yn mlaen hyd y flwyddyn 1318. Felly ni allasai y llawysgrif fod wedi ei hysgrifenu cyn y dyddiad hwnw. Y dyddiad diweddaf yn y llyfr yw 1454. Dechreua y Trioedd yn td. 588, a chyrhaeddant hyd td. 600. Felly, nis gallent hawlio dyddiad hynach na chanol y bedwaredd-ganrif-ar-ddeg.

2il, Yr ail gyfres, o ran oedran, ond y gyntaf fel y trefnwyd hi yn y *Myryrian Archaiology*, a gyfeirir at 'Ystoria y Greal; sef, Rhamant y Saint Greal.' Cyfieithwyd hon i'r iaith Gymraeg yn adeg Harri VI.—rhwng 1422 a 1471; felly, nis gall y gyfres hon fod yn hynach na'r bymthegfed ganrif.

3ydd, Cyfeiria y drydedd gyfres hefyd at y 'Greal;' ac y mae yn yr unfed ganrif-ar-bymtheg. Cyhoeddir hi yn y *Myryrian Archaiology* o gopi a wnaed yn y fl. 1601. Y gyfres hon sydd yn cyfeirio at y 'Maen Ketti,' neu 'Faen Arthur.' Gwnaed y copi hwn o *Lyfr Ieuan Brechfa;* yr hwn, fel y tybir, a fu farw ynghylch B.A. 1500; ac o lawysgrif arall, a elwir yn ammhriodol yn 'Llyfr Caradog o Langanfan,' yr hon, a barnu oddi wrth yr orgraph, oedd yn ddiweddarach fyth. Felly, rhaid priodoli y gyfres, hon naill ai i'r bymthegfed ganrif, neu i ddechreu yr unfed-ar-bymtheg.

Galluoga y ffeithiau hyn ein darllenwyr i ffurfio eu barn eu hunain ynghylch hynafiaeth y 'Trioedd Hanesyddol.'

Dylid cofio, ar yr un pryd, nad ydyw hyn yn cyffwrdd â hynafiaeth llawer o arferion, a chwedlau, a ffeithiau, sydd yn gorphoredig yn 'y Trioedd.' Ar y pen hwn nid oes genym dystiolaethau sicr.

**TENNYSON, ALFRED**; neu ARGLWYDD TENNYSON, fel yr adnabyddid ef y rhan olaf o'i oes, oedd un o feirdd Saesnig goreu y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg. Am dymmor maith, adnabyddid ef fel y Bardd Llawryfol (*Poet Laureate*). Ganwyd ef ar Awst 6ed, 1809, yn Somersby—pentref bychan yn nghanolbarth sir Lincoln; rheithoriaeth yr hwn le a ddelid gan dad y bardd—Dr. George Clayton Tennyson. Yr oedd ei fam, Elizabeth Fytche, hefyd, yn hanu o un o deuluoedd yr un sir. Yr oedd Dr. Tennyson yn ddyn dysgedig mewn celf, cerdd, a llên, ac yn ŵr yn meddu ar alluoedd naturiol gloewach na'r cyffredin o glerig yr eglwys yn y dyddiau hyny. Ganwyd iddo saith o feibion; y trydydd o ba rai oedd Alfred. Tyfodd ei ddau frawd hynaf—Frederick a Charles—i fyny yn feirdd gwych. Yr oedd Alfred a Charles yn hynod gydnaws o ran eu tueddiadau naturiol, ac o ran eu chwaeth; a threuliodd y ddau fwy o amser yn nghwmni eu gilydd nag a wnaethant yn nghymdeithas craill o'u brodyr. Dechreuasant gyfansoddi barddoniaeth pan yn ieuaingc iawn. Yn 1826, tra nad oedd Alfred ond tua 17eg ml. oed, ymddangosodd llyfr bychan yn dwyn y teitl *Poems by two Brothers;* a gyfansoddwyd gan y ddau mewn cydweithrediad â'u gilydd. Er fod yn y llyfr hwn arwyddion o anaeddfedrusrwydd; etto i gyd, dangosai yn eglur fod y ddau frawd ieuangc yn feirdd with natur. Cyn bod yn bedair-ar-ddeg oed, yr oedd Alfred eisoes wedi cyfansoddi dernyn hirfaith o farddoniaeth. Darllenwyd y gwaith hwn gan ei dad, a dywedodd, '*If that boy dies, one of our greatest poets will have gone.*' Cafodd y bachgen fyw hyd aeddfedrwydd oedran, a chyflawnwyd prophwydoliaeth y tad i'r llythyren. Dadblygodd ei alluoedd, a daeth yn brif fardd ei wlad, a'i oes.

Wedi derbyn o honynt eu haddysg elfenol a chanolraddol yn ysgolion y sir, anfonwyd y ddau i Goleg y Drindod, Caergrawnt—lle yr oedd Frederick Tennyson yn dilyn ei efrydiau. Tra y bu yno, ymddadblygodd athrylith Alfred Tennyson yn gyflym. Ychydig yn flaenorol i hyn, yr oedd wedi ysgrifenu *The Lover's Tale;* ond ni chyhoeddwyd y chwedl hyd 1879. Yn 1829, ennillodd wobr y brifysgol am ei gân—*Timbuctoo.* Ar ymddangosiad y gerdd hon, ysgrifenodd Arthur Hallam y geiriau hyn:—'*I consider Tennyson as promising fair to be the greatest poet of our generation—perhaps of our century.*' Mewn canlyniad i farwolaeth ei dad, yn 1831, ymadawodd Tennyson o Gaergrawnt; ac yn Hydref yr un flwyddyn, ymwelodd â'r Pyrenees; yr hon daith a groniclir ganddo yn un o'i ganeuon prydferthaf—*All along the Valley.* Yn y cyfamser, cyhoeddwyd ei gyfrol gyntaf (1830)—*Poems, chiefly Lyrical.* Tynodd y gyfrol hon gryn sylw yn mysg beirdd a llenorion. Condemnid y gwaith gan rai; ond canmolid ef yn fawr gan eraill—y dynged sydd bob amser yn cyfarfod dynion o wir athrylith. Yn 1842, ymddangosodd amryw eraill o'i ganeuon telynegol (*lyrics*), gyda pha rai y cyhoeddwyd y goreuon o'i weithiau blaenorol. Sicrhaodd hyn iddo enwogrwydd; ac yn 1845, cawn Wordsworth yn ysgrifenu fel y canlyn am dano:—'*He is decidedly the first of our living poets; and I hope will live to give the world still better things.*'

Yn y fl. 1847, ymddangosodd *The Princess*—math o chwareugerdd wedi ei chyfansoddi yn y mesur rhydd, ac iddi amcan moesol uchel. Yn 1850, cafodd ei bennodi gan y weinyddiaeth yn Fardd Llawryfol, fel olynydd i Wordsworth—yr anrhydedd uchaf y gellir ei osod ar unrhyw fardd yn y deyrnas hon. Y mae y fl. 1850 yn enwog yn ei hanes hefyd, am mai ynddi hi y cyhoeddwyd un o'i gerddi goreu, a mwyaf adnabyddus—*In Memoriam;* yr hon sydd yn llawn o'r syniadau mwyaf aruchel, y teimladau mwyaf dwfndreiddiol, a'r myfyrdodau mwyaf syml a phrydferth.

Y digwyddiad pwysicaf nesaf yn ei hanes oedd ei briodas âg Emily Sellwood, yn eglwys Shiplake, yn sir Rhydychain, ar y 13eg o Fehefin, 1850. Ymsefydlasant yn Twickenham. Yn y fl. 1851, cymmerasant daith i Florence, yn yr Eidal, gan ddychwelyd yn ol trwy ddinas enwog Milan. Yn 1852, ganwyd iddynt eu cyntafanedig—Hallam. Cyn diwedd yr un flwyddyn cyfansoddodd y bardd ei farwnad aruchel i Wellington. Blinodd yn fuan ar sŵn a dwndwr Twickenham, a mynodd symmud oddi yno i gymmydogaeth wledig dawel Farringford, ger Freshwater. Yno, yn 1854, ganwyd iddo fab arall—Lionel. Preswyliodd yno yn ddifwlch hyd 1870. Yn y cyfamser, adeiladodd dŷ hardd ger Haslemere, a galwodd ef Aldworth; a bellach hyd derfyn ei oes, arosai weithiau yn Farringford, a phryd arall yn Aldworth. Yr oedd efe erbyn hyn wedi cyrhaedd y pinacl uchaf o enwogrwydd mewn ystyr farddonol. Edrychai yr holl fyd llenyddol arno â llygaid eiddigus;

Digitized by Google

a darllenid bob peth a ysgrifenai gydag awch gan ddynion o chwaeth yn mhob gwlad lle y deallid yr iaith Saesneg.

Yr oedd ei gyfansoddiadau oll, o'r bron, yn cyfranogi o natur barddoniaeth delynegol, wedi eu canu ar amrywiaeth o destynau. Dyma rai o honynt, a'r blynyddoedd yn mha rai y cyhoeddwyd hwynt;—*Tears, Idle Tears* (1847) *The May Queen*, a *Locksley Hall* (1850); *Maud* (1855); *Idylls of the King* (1858); *Enoch Arden* (1864); *The Holy Grail* (1869); *The Window, or Songs of the Wren* (1870); *Gareth and Lynette* (1872); *Queen Mary* (1875); *Harold* (1877); *The Cup* (1881); *The Promise of May* (1882); *The Cup, and the Falcon* (1884); *Becket* a *Tiresas* (1885); *Locksley Hall; Sixty Years after* (1886); *Jubilee Ode* (1887); *Demeter* (1889).

Yn yr *Idylls of the King*, y mae y bardd yn ymwneyd â'r Chwedl Arthuraidd; a mỳn rhai ysgrifenwyr o fri mai hwn ydyw ei waith godidocaf. Ffynai y tywyllwch mwyaf ynghylch tarddiad a dadblygiad hynod y Chwedl Arthuraidd. Cymmerodd Tennyson fantais lawn ar y cyflawnder o ddefnyddiau oedd ynglŷn â hi i blethu ynghyd, yn rhwymau yr awen, gân sydd yn odidog yn mhob ystyr; ac y mae efe ynddi yn portrëadu y brenin fel yr ymddangosai i'r hanesydd Cymraeg.

Yn 1884, dyrchafwyd Tennyson i'r bendefigaeth gyda'r teitl o Arglwydd Tennyson. Anrhydedd arall a osodwyd arno oedd hwn, yn unig er ceisio arddangos y parch a'r edmygedd a deimlai y deyrnas ato, fel gŵr o athrylith, a phlerchen y wir awen. Bu farw yn Aldworth, Hydref 6ed, 1892; a chladdwyd ei weddillion yn Mynachlog Westminster—yr hyn a ystyrir yr anrhydedd uchaf y gall y deyrnas ei roddi i goffadwriaeth enwogion y deyrnas.

Gofynir y cwestiwn yn fynych, pa beth fydd cymmeriad Tennyson, fel bardd, pan elo canrif neu ddwy heibio? A ddeil ei farddoniaeth mor werthfawr, ac mor boblogaidd ag eiddo y pum bardd llawryfol enwog a'i rhagflaenodd; sef, Scott, Byron, Keats, Shelley, a Wordsworth? Ychydig sydd yn anturio atteb y cwestiwn; ond y farn gyffredin am ei farddoniaeth yw, fod 'bywyd' ynddi, ac na ddioddefa oddi wrth dreigliad amser yn nghorph y canrifoedd nesaf.

TIROEDD Y DEYRNAS GYFUNOL. Yn y nawfed gyfrol, td. 556, ceir erthygl ymarferol ar driniogaeth tir. Yn yr erthygl hon, sylwir ar y tiroedd yn eu gwedd gyffredinol a chyfreithiol.

Wrth ymgymmeryd â'r gorchwyl hwn, teimlwn ein bod yn ymosod ar destyn mawr a hynod ddyrus. Mewn trefn i wneyd rhyw gymmaint o gyfiawnder âg ef, y mae yn rhaid chwilio i hanes y tiroedd am amryw ganrifoedd, ac i'r deddfau a berthynant iddynt, ynghyd âg arferion y rhai sydd wedi bod yn eu meddu, a chwestiynau eraill na raid eu henwi yma. Y mae'r testyn drwyddo yn un hynod o fawr a chymmhlethedig; ac y mae o hyny yn fwy anhawdd i ymdrin âg ef gyda gradd o foddlonrwydd o fewn cylch y nifer o dudalenau y gellir eu caniatau iddo yn y gwaith hwn. Ni a ymdrechwn er hyny i grynhoi cymmaint o wybodaeth yn mherthynas i diroedd y wlad ag a gynnorthwya y darllenydd i ffurfio syniadau cywir am ein tiroedd yn eu gwedd bresennol; ac a ddechreuwn ar ein gorchwyl trwy geisio atteb y cwestiwn canlynol:—

PWY YDYW GWIR BERCHENOGION TIROEDD Y DEYRNAS?

Yn ol yr awdurdodau, ymddengys mai etifeddiaeth deiliaid y deyrnas, ac nid etifeddiaeth y tirfeddianwyr, a siarad yn fanwl, yw daear y deyrnas:—Lloegr, Cymru, Ysgotland, a'r Iwerddon, fel eu gilydd. Etifeddiaeth y trigolion yn gyffredinol ydyw daear pob rhan. Nid ydyw deddfau y deyrnas yn caniatau fod unrhyw berson neu bersonau yn meddu perchenogaeth gyflawn ac annibynol o'r tir; ond mai eiddo sefydlog y bobl ydyw, ac nas gellir ei drosglwyddo felly i arall. Y mae y meddiant hollol o dir gan bersonau unigol yn rhywbeth nad ydyw deddfau Prydain yn ei gydnabod.

Nid ydyw y tirfeddiannwyr, gan hyny, yn 'meddiannu,' yn ngwir ystyr y gair, ddim o'r tiroedd sydd eisoes yn eu dwylaw. Gelwir hwynt yn 'dirfeddiannwyr,' mae'n wir. Y gair Saesneg a arferir ydyw *freeholders*—'rhydd-ddeiliaid,' neu 'rhydd-ddalwyr.' Y mae y geiriau hyn yn gosod allan eu perthynas â'r tiroedd yn gywirach na'r gair 'tirfeddiannwyr,' yn gymmaint ag mai 'ei ddal yn rhydd' y maent ar ammodau adnabyddus o dan y goron, fel y mae hi yn cynnrychioli deiliaid y deyrnas. Dywed rhai mai ei feddiannu fel 'gwŷr rhyddion' a olygir wrth y gair. Pa un bynag sydd gywir, nis gall y goron, na'r deiliaid, ei drosglwyddo 'allan ac allan,' fel y dywedir, ar unrhyw ammodau i neb personau. Daear deiliaid pob oes gyda'u gilydd ydyw mewn gwirionedd; ac nis gall un oes gyffwrdd â hawliau yr oesoedd dilynol.

Gall y mynegiadau uchod ymddangos yn ddyeithr i lawer; ond er profi eu cywirdeb, ni a roddwn yma syniadau yr awdurdodau uchaf yn y deyrnas am dano, a'r seiliau sydd genym dros ddyweyd mai eiddo deiliaid pob oes yw tiroedd y deyrnas—a bod gan bob un o'r cyfryw hawl i gael byw arno. Os felly, y mae yn canlyn ei bod yn ddyledswydd arnom i geisio gwellhau y deddfau sydd yn dwyn perthynas â pherchenogaeth, gwerthiant, a throsglwyddiad y tir, fel y gellir sicrhau y manteision goreu a mwyaf parhaol i'r nifer liosocaf o'r deiliaid. Trinwyd tiroedd y deyrnas gan y senedd drwy yr holl ganrifoedd yn mron yn hollol gyda golwg ar fanteision y tirfeddiannwyr — heb ystyried hawliau y bobl fel y dylid; ac y mae'n bryd cyfnewid llawer o'r deddfau, bellach, gan olygu yn benaf hawliau cyffredinol deiliaid y deyrnas i'r holl diroedd—a hyny heb wneuthur anghyfiawnder â'r rhai sydd yn eu meddiannu yn awr. Ond pa beth a ddywed yr awdurdodau goreu yn mherthynas iddynt?

Gwerslyfr holl efrydwyr y gyfraith yn y wlad hon, yw *Esboniad Mr. Joshua Williams, ar Ddeddfau Eiddo Gwirioneddol neu Dirol* (*Williams' Real Property*). Yn y llyfr galluog hwn, dywed yr awdwr mai 'y peth cyntaf y dylai yr efrydydd yn y gyfraith ei wneyd yw, cael ymwared o'r drychfeddwl am berchenogaeth gyflawn ac annibynol o diroedd y wlad. Nid oes sail i'r fath syniad (meddai) yn holl gylch deddfau y deyrnas. Yn ol y gyfraith, nid oes un dyn yn meddu perchenogaeth gyflawn ac annibynol o diroedd. Nis gall efe ond yn unig eu dal dan ammodau.'

Dywed Mr. Froude, hefyd, yr hwn oedd yn Geidwadwr cryf mewn gwladlywiaeth gyffredin, fel hyn yn nechreu ei *Hanes Lloegr*:—'Ni bu tir erioed yn eiddo personol, yn yr ystyr per-

Digitized by Google

onol hwnw y byddwn ni yn siarad am ryw beth fel yr eiddom ein hunain.'

Fel hyn y dywed Mr. Goodeve, yn ei *Modern Law of Real Property*:—'Wrth wraidd deddfau tirol Lloegr, y mae y syniad am denantiaeth yn gorwedd; hyny ydyw, mai egwyddor ein deddfau ni yw, nas gall deiliad fod yn berchenog hollol ac annibynol o unrhyw dir; ond yn 'denant' neu yn ddaliedydd o hono am 'ystâd;' hyny yw, ei fod yn meddu hawl i'w fwynhau am ysbaid o amser sydd yn anmhennodol neu yn ansicr am ei barhâd, ond nad ydyw i fod yn ddiorphen. . . Ystyrir fod pob tiroedd ar y dechreu wedi bod yn gorwedd yn y Goron, a'u bod wedi eu caniatau gan y Goron i'r deiliaid, drwy yr hyn a adnabyddir fel *infeudation*.' Hyny yw, yr oedd y tir yn cael ei ganiatau a'i ddal ar yr ammod fod cydnabyddiaeth neu wasanaeth yn rhwymedig arnynt i'w harglwydd.

Rhoddodd Mr. Gladstone ei syniadau yntau ar hyn yn y geiriau canlynol:—'Mae'n rhaid i bob eiddo tirol gael ei ddal yn ddarostyngedig i hawl y wladwriaeth iddo—pa un bynag a fydd hyny wedi cael ei hysbysu, ai ni bydd. Y mae y tir yn eiddo i'r wladwriaeth; a gall yr hawliad hwn o'r eiddo gael ei roddi mewn gweithrediad mewn unrhyw le, ac i unrhyw raddau. Y mae cyfiawnder, a manteision y cyhoedd, yn gofyn ar fod ad-daliad teg yn cael ei roddi, os cymmerir y tir oddi wrthynt. Ond bydd yr ad-daliad hwn yn cael ei roddi—nid fel pris y fargen a wneir â'r wladwriaeth, fel y gallo y tir gael ei adfeddiannu ganddi; ond fel boddlonrwydd am yr hawliad a wneir arno—yr hwn nis gellir ei wrthwynebu.'

Wedi rhoi y sylwadau uchod ar sefyllfa gyfreithiol tiroedd y deyrnas yn awr, a pherthynas y tirfeddiannwyr â hwynt, y mae yn angenrheidiol i ni, er gallu rhoddi eu hanes gyda gradd o gyssondeb, eu holrhain yn mhell yn ol i'r canrifoedd o'r blaen. Ni a ymdriniwn â hwy yn y drefn ganlynol :—

I. Dechreuwn gyda threfniadau ac arferion tirol y Cymry, gan mai dyma yr hawliau cyntaf a feddwn.

II. Trefniadau yr Anglo-Sacsoniaid gyda'r tiroedd am y canrifoedd y buont hwythau yn llywodraethu Prydain.

III. Yr ammodau a osododd Gwilym y Concwerwr i lawr yn mherthynas iddynt; y rhai sydd yn parhau, gydag ychydig o eithriadau, hyd yn awr.

2. Tiroedd y Goron, a'r Mynachlogydd.
3. Maenorydd y deyrnas.
4. Deddf y Mab hynaf.

IV. Yr ammodau tirol yn cael eu newid? Paham, a pha fodd y newidiwyd hwynt?

2. Treth y Tir.

V. Y deddfau a'r cynlluniau a ddefnyddiwyd, ac a ddefnyddir etto, i gadw y Tiroedd yn meddiant teuluoedd.

1. Rhwymiadau Tiroedd (*Land Settlements*).
2. Rhwymiadau Teuluaidd (*Family Settlements*).

VI. Effeithiau niweidiol y cyfryw ar amgylchiadau y deiliaid.

1. Y Tiroedd wedi eu casglu i ychydig ddwylaw yn holl ranau y deyrnas:—Lloegr a Chymru, Ysgotland, a'r Iwerddon.
2. Y Tiroedd Cyffredin wedi cael eu rhoddi i'r tirfeddiannwyr, a'r bobl wedi eu gadael yn mron heb ddim o honynt.
3. Y Tirfeddiannwyr yn gwrthod gwerthu Tir i adeiladu Tai arno y bobl yn cael eu gwasgu felly i adeiladu tai ar brydlesi—a'r tirfeddiannwyr yn diange heb dalu y trethi.
4. Tai yn cael eu hadeiladu ar brydlesi.
5. Llawer o diroedd heb eu trin o gwbl; ac yn cael eu defnyddio i fagu helwriaeth.
6. Sefyllfa amaethyddiaeth ar y Cyfandir yn condemnio trefniadau y deyrnas hon.
7. Poblogaeth y rhanau amaethyddol o'r deyrnas yn prysur leihau.
8. Y Teyrnolion (*Royalties*)—ar y glô, haiarn, plwm, alcan, a chopr.
9. Helwriaeth, a'r Bobl.

VII. Tirfeddiannaeth ar ffordd gwelliantau cyhoeddus.

VIII. Y Feddyginiaeth. Amryw gynnygion o Welliantau.

1. Y dylai y llywodraeth gyfranu at leihau anghysuron y tlodion; a'r awdurdodau lleol i adeiladu tai i weithwyr.
2. Y dylai y llywodraeth gefnogi ymfudiaeth.
3. Y dylid sefydlu trefn o flwydd-daliadau i bawb wedi iddynt gyrhaedd oedran neillduol.
4. Y dylid rhoddi awdurdod i warcheidwaid i gyfranu yn helaethach at gynnaliaeth y tlodion.
5. Mai yr hyn sydd eisieu ydyw chwanegu at nifer perchenogion y tir, trwy ddiddymu y deddfau sydd yn rhwymo tiroedd.
6. Fod eisieu ffordd ratach i drosglwyddo tiroedd, o'r gwerthwr i'r prynwr.
7. Y dylid cael deddf i alluogi personau sydd wedi adeiladu tai ar brydlesi, i orfodi y tirfeddianwyr i werthu y tiroedd iddynt am brisiau rhesymol.
8. Fod i'r tirfeddiannwyr gael eu gadael fel yn awr; ond fod treth newydd o 4s. yn y bunt—fwy, neu lai—yn cael ei gosod arnynt ac nid ar y tenantiaid.

IX. Cynnygiad arall am welliant.

1. Y tiroedd na chynnygir cyfiwrdd â hwynt.
2. Y tiroedd y dylai y deyrnas eu meddiannu: Y tiroedd amaethyddol, a'r Teyrnolion ynddynt —y Maenorydd, a'r Teyrnolion ynddynt hwythau—yr Afonydd a'r Llynau—a'r Tiroedd Prydlesol sydd dan dai.

X. Attebion i Gwestiynau.

XI. Eglurhâd ymarferol ar y Cynllun.

XII. Rhwystrau y Senedd.

## I. Tiroedd y Cymry.

Yr ydym yn gallu ffurfio syniadau lled gywir am sefyllfa ein tiroedd oddi wrth y ffeithiau a wnaed yn hysbys yn y ddwy gyfrol alluog a ganlyn:—*The Ancient Laws of Wales; by the late Herbert Lewis, B.A., of the Middle Temple, and edited by J. E. Lloyd, M.A., University College of Wales, Aberystwyth. Tribal System of Wales; by Frederick Seebohm, LL.D., F.R.A.*

Bydd yn dderbyniol gan lawer, yn ddiau, gael eglurhâd ar ammodau ac arferion yr hen Gymry gyda'r tir—fel meddiant, ac hefyd am eu dull yn ei drin. Yr ydym yn ddyledus i'r Proffeswr J. E. Lloyd, o Goleg Bangor, am y manylion canlynol.

Gellir rhanu y tir-ddalwyr oedd yn Nghymru yn y canol-oesoedd, meddai, i ddau ddosbarth; sef, y llwythau rhyddion, pur eu haniad; a'r 'taeogau' dibynol, yr 'ailltiaid,' neu y gweision



Digitized by Google

coeth. Gwneid y dosbarth blaenaf i fyny o'r rhai a lywodraethent, ac a ymladdent; tra yr oedd y dosbarth olaf, yn ddiammheuol, yn cynnrychioli, i fesur helaeth, y rhan orchfygedig o'r genedl—y rhai a gafwyd gan y Brythoniaid buddugoliaethus yn dal meddiant o'r tir. Y mae sefyllfa neu gyflwr gwasaidd y 'taeog,' neu yr 'aillt,' yn cael ei arddangos gan laweroedd o ddarpariaethau yn yr hen ddeddfau Cymreig. Nis gallai un dyn o'r dosbarth hwn, heb dderbyn caniatâd ei arglwydd, ddwyn i fyny ei fab i fod yn fardd, yn glerigwr, neu yr hyn a fernid yn llawn mor bwysig, yn ôf haiarn. Ni allasai gadw ci fyddai yn fwy o werth na grôt, nac un aderyn fyddai yn fwy o werth na giâr; a thrwy hyn, gwaherddid ef i hela a heboga. Nis gallai werthu ei ystalwyn, ei fêl, na'i foch, heb roddi i'w arglwydd gyfleusdra i'w gwrthod. Ond ni ddylid tybied fod ei gyflwr yn gyfystyr â chyflwr caethwas, nac hyd yn oed mor gaeth a chyflwr y caeth-ddeiliad Saesneg cyffredin yn y dyddiau hyny. Yr oedd i bob 'aillt' ei dŷ ei hun, adeiladau ar ei fferm, ei wartheg, dodrefn ei dŷ, ac eiddo arall. Oddi eithr yn achos un dosbarth bychan, at yr hwn y ceir cyfeirio etto, nid oedd yr 'ailltiaid,' mewn ymddangosiad, yn gwneuthur unrhyw wasanaeth teuluaidd i'w harglwyddi; ond cyfrifid hwynt fel Cymry, ac fel perchenogion eu tir. Yr oedd dau ddosbarth o'r 'ailltiaid;' sef, y rhai oedd yn ddibynol ar 'breyr' neu dirfeddiannwr rhydd; a'r rhai oedd yn ddibynol ar y brenin, neu benaeth y rhanbarth. Ychydig a wyddom ni am 'ailltiaid' y 'breyr;' oddi eithr yr ystyrid eu sefyllfa is-law sefyllfa 'ailltiaid' y brenin. Ymddengys eu bod yn byw mewn treflanau ar dir y 'breyr'—i'r hwn y perthynent. Yr oedd 'ailltiaid' y brenin yn cael eu casglu ynghyd mewn trefi, neu dreflanau, gyda'u gilydd; ac yr oedd llawer o'r taeog-drefi hyn yn dal eu tir ar yr ammod fod iddynt, ar dymmorau pennodol o'r flwyddyn, gyflwyno i'r brenin roddion mewn ymborth tuag at gynnaliaeth y llys brenhinol; a chyflawni ychydig o fân swyddi gyda hyny. Pa fodd bynag, yr oedd 'ailltiaid' y faerdref—hyny yw, y dreflan fyddai yn gyssylltiedig â'r preswylfod brenhinol yn y rhanbarth—megys caeth-ddeiliaid maenoriaeth Saesnig, yn talu am y tir a drinent trwy weithio ar fferm eu harglwydd. Yr oeddynt i aredig, i hau, llyfnu, ac i fedi y byrdd-dir, neu ran o'r ystâd frenhinol; i ddyrnu yr ŷd, a'i sychu ar gyfer ei grasu; tori y gwair, a gweini ar anifeiliaid y brenin. Ond gorfodid 'ailltiaid' eraill y brenin, nas gofynid iddynt gyflawni y gorchwylion hyn, i wneyd i fyny am hyny trwy ddarparu lletty rhâd a rhydd i'r gwahanol gwmnïau o wasanaethyddion y brenin, fyddent yn talu ymweliadau cyfnodawl â hwynt yn achlysurol, pan na byddai y llys yn ei lawn waith.

Yr oedd ammodau deiliadaeth tir rhydd, yn naturiol, yn llawer ysgafnach. Yr oedd y gwŷr rhyddion hefyd wedi eu cyssylltu yn drefi; ond y mae pob sail dros dybio nad oedd y trefi hyn yn glystwr o gartrefi amgylchynedig gan dir âr, fel trefi yr ailltiaid; ond yn rhaniadau o'r wlad, dros ba rai yr oedd y cartrefi rhyddion wedi eu gwasgaru ar led—yn debyg fel y mae tref ddegwm ddiweddar, yn cynnwys hanner dwsin o ffermdai, yn beth gwahanol i dref. Talai pob tref yn flynyddol ei chydnabyddiaeth i'r brenin mewn ymborth tuag at gynnal ei balas; yr hon a gyfnewidiwyd yn nghwrs amser i daliad sefydlog o 1*p*. Byddai gwŷr y llwythau hefyd yn rhoddi iddo wasanaeth milwrol; a thalent iddo (fel y gwnai yr ailltiaid hefyd) symiau fyddent yn ddyledus pan y trosglwyddid iddynt feddiant o'r tir ar ol eu hynafiaid, ac ar briodasau eu merched.

Yn mherthynas i sicrwydd am ddeiliadaeth y tir—yr oedd y tenantiaid rhyddion a chaeth wedi eu sefydlu arno; ac yr oedd y tir wedi ei sicrhau iddynt hwythau drwy y ffaith mai tir etifeddol ydoedd; yr hwn nas gellid ei werthu ganddynt hwy, na'u huchafiaid, os byddai hyny yn anfantais i'w hetifeddion. Yr oedd gwahaniaeth yn bodoli rhwng y modd yr etifeddid tir rhydd a thir taeog; ac yr oedd cryn lawer o ddyddordeb yn y naill gorph o reolau, fel y llall. Nid oedd un o'r hen ddulliau Saesnig yn bodoli ynglŷn â'r naill, na'r llall. Nid oedd y tir yn treiglo i'r mab hynaf, nac i'r ieuangaf, na chwaith yn cael ei ranu yn gyfartal rhwng yr oll o'r meibion. Yn y daeogdref, yr oedd gan bawb yn y dref, fyddai yn 14eg oed, hawl gyfartal yn y tir; a phan y byddai perchenog farw, byddai ei dir yn disgyn i'r eiddo cyffredin; a rhenid ef yn gyfartal rhwng holl aelodau y dref. Yn y dref rydd, ar y llaw arall, telid sylw gofalus i waedoliaeth. Ar farwolaeth yr olaf o deulu o frodyr, rhenid yr holl diroedd a ddelid gan ei daid yn gyfartal rhwng disgynyddion y cyfryw daid; hyny yw, rhwng ei blant, eu cefndryd, a'u cyfyrdryd.

Wrth gwrs, buasai cario allan y rhaniadau a'r dosraniadau hyn mewn ymarferiad yn ammhossibl pe buasai hen dyddyn Cymraeg fel un o dyddynod y dyddiau hyn; sef, yn gynnwysedig o ddarn o dir wedi ei dori i fyny yn gaeau, a'r rhai hyny wedi eu hamgau gan wrychoedd neu furiau, gyda ffermdŷ yn y canol. Fel mater o ffaith, eithriad oedd, ac nid y rheol, fod tir wedi ei gau allan yn y dull hwn yn Nghymru gynt; ac felly hefyd, yr oedd deiliadaeth barhaol gan yr un person ar yr un darn o dir. Y peth agosaf i hawl gyflawn perchenog y dyddiau hyn ar ei dir oedd yr hawl berchenogol a feddai deiliad dros ei dyddyn, neu ei gartref. Hwn oedd y darn o dir ar yr hwn y safai yr amaethdŷ, y buarth, y beudai, y corlanau, y cwt mochyn, yr ysgubor, a'r gadlas. O dan ddeddfau Gogledd Cymru, caniateid pedair erw o dir i'r amcan hwn. Yr oedd yn cael ei ddarparu yn arbenig, nad oedd i neb, mewn taeog-dref, i symmud o'i dyddyn yn y rhaniad cyffredinol, os gellid fodd yn y byd arbed hyny; ac yn y rhaniad a wneid ar dir rhydd, er fod yno raniad o dyddynod, yr oedd pob un, fel rheol, yn dal gafael yn y tyddyn a ddelid ganddo cyn hyny dan ei dad—a deuai yn berchenog cyfreithlawn o'r hyn oedd yn ymarferol yn eiddo iddo o'r blaen. Yn mysg y tenantiaid rhyddion a chaeth, disgynai tyddyn y tad bob amser i'r mab ieuangaf; yr hwn oedd hefyd, os yn rhydd, i gael (yn y Deheubarth, o leiaf), crochan y teulu, y fwyell gynnyd, a'r cwlltwr—â pha rai yr oedd efe i gychwyn ar ei yrfa mewn bywyd. Yr oedd yn ddyledswydd arno i gadw i fyny draddodiadau y teulu; ac mewn amseroedd paganaidd, dichon ei fod wedi dilyn ei dad fel gweinyddwr ar y tân cyssegredig ar aelwyd y teulu; a chan gymmeryd y crochan, a'r fwyell gynnyd, fel offerynau angenrheidiol ei swydd.

Yr oedd Cymro y dyddiau gynt, gan hyny, yn meddu ar gyffelyb hawl yn ei 'dyddyn' ag

Digitized by Google

a roddir i berchenog y tir yn y dyddiau hyn. Ond mewn ystyriaethau eraill, ymddengys nad oedd ganddo ond hawl i ranu y tir. Y mae hyn yn amlwg ddigon ynglŷn â'r taeogiaid; y rhai a orfodid, fel y gwelwyd, i ranu eu tiroedd mor fynych. Ymddengys fod gwartheg pob taeog-dref yn ffurfio un gŷr, neu haid; y rhai a anfonid allan bob dydd i borfau yn mhorfa gyffredin y dref—yn cael eu dilyn gan fugail y dref, a'i fugeil-gi; yr hwn, meddir, oedd yn gyfwerth a'r anifail goreu yn y gŷr. Felly hefyd, ynglŷn â thir porfa—rhan o eiddo cyffredin a feddai pob aillt; ac ymddengys fod yr un peth yn wir am dir llafur. Byddai tir y dref yn cael ei aredig gan un, neu ragor, o'r erydr a berthynent iddi; a byddai y tir yn cael ei ranu ar bob tro, o dan gyfundrefn neillduol, rhwng y rhai a fyddent yn rhanog yn y trefniant hwn. Nid oes sicrwydd a oedd yr un dull o gydweithredu yn bodoli yn mysg y perchenogion rhydd. Y tebygolrwydd yw, fod gan bob perchenog o'r fath aradr o'i eiddo ei hun; ac fe ddichon, hefyd, borfa i'w anifeiliaid.

Yn awr, symmudwn i ymdrin âg adeiladau ac offerynau amaethyddol ein henafiaid—eu dull o amaethu, ynghyd â'u rheolau ynghylch trespas, ac achosion cyffelyb. Yr oedd yr holl adeiladau yn y canol-oesoedd yn Nghymru wedi eu gwneyd o goed, ac wedi eu hadeiladu yn y dull mwyaf cyntefig. Nid oedd galwedigaeth saer maen yn wybyddus y pryd hwnw; ac hyd heddyw, nis gellir disgrifio y cyfryw berson yn Gymraeg ond wrth yr enw 'saer maen.' Galwodd Gerallt Gymro dai y Cymry yn 'gutiau o bleth-waith gwiail'—cymmhwys i gyfarfod âg angenrheidiau blwyddyn. Mae'n ddigon tebyg mai 'hafdy,' hafod,' neu 'feifod,' a olygai efe—math o fwthyn haf, yn yr hwn y treulid misoedd Mai, Mehefin, a Gorphenaf—tra y byddai yr anfeiliaid yn porfau ar y mynydd-diroedd. Ond y mae digon o brawfion i'w cael fod tŷ cyffredin y Cymry hefyd—yr 'hendref'—yn yr hwn y treulid misoedd y gauaf, wedi ei adeiladu mewn dull lled fregus. Codid y math yma o dŷ gan weithwyr di-brofiad ac anfedrus. Dyledswydd 'ailltiaid' y brenin oedd codi adeiladau y llys. Pris isel a roddid arno, yn ol y gyfraith; ac nid oedd gwerth neuadd y 'breyr,' neu yr 'uchelwr,' yn cyrhaedd gwerth tair o'i wartheg; ac yr oedd yn hawdd ei symmud o'r naill fan i'r llall. Mewn dull cyffelyb y codid adeiladau y fferm; ond cymmerid llai o drafferth gyda hwy; o blegid nid oeddynt ond o ddeutu chwarter gwerth y neuadd, neu y tŷ annedd.

Yr offeryn amaethyddol pwysicaf, wrth gwrs, oedd yr aradr; yr hon oedd yn dra thebyg i aradr y dyddiau presennol. Yr oedd dau ddarn o honi yn haiarn; sef, y cwlltwr, yr hwn sydd yn tori y dywarchen ar i lawr; a'r swch, yr hon sydd yn tori y gŵys oddi tani. Gwneid y rhai hyn gan y gof; ac ystyrid hwynt yn arfau o gryn werth. Gwneid y gweddill o'r aradr o goed; ac un o gymmhwysderau anhebgorol yr aradrwr y pryd hwnw oedd, ei fod yn alluog i wneyd y ffrâm goed ei hun, a gosod y darnau heiyrn yn eu priodol leoedd.

Yn ol yr hyn a dystir gan yr un awdurdod, ceirch oedd y prif gnwd; ond ymddengys oddi wrth yr hyn a ddywedir gan awduron eraill, fod gwenith, haidd, rhŷg, a llin yn cael eu hau. Yr oedd gwreidd-lysiau yn gwbl anadnabyddus y pryd hwnw. Yn ystod y ganrif ddiweddaf y daeth maip i arferiad cyffredin yn y deyrnas hon. Ond yn y canol-oesoedd, yr oedd prinder mawr o ymborth i'r anifeiliaid yn arfer bod yn ystod misoedd y gauaf. Yr arferiad gan hyny oedd, fod y rhan fwyaf o'r anifeiliaid yn cael eu lladd ar ddiwedd yr hydref, a'r cig yn cael ei halltu ar gyfer anghenion y teulu am y chwe mis dilynol.

Yr oedd tir llafur pob 'taeog-dref,' neu dreflan yn cael ei droi ar y 'cŷd,' ys dywedir. Nis gall ammheuaeth fod nad y gyfundrefn o gyddriniogaeth y tir, sydd yn cael ei ddisgrifio yn y deddfau, oedd y dull arferol o amaethu yn mysg y gwŷr 'taeog,' yn ol trefniadau y gyfundrefn hon; a gwelwyd ei phwysigrwydd rai blynyddoedd yn ol gan Mr. Seebohm—awdwr y llyfr a elwir *English Village Community*. Yn gyntaf oll, nid oedd y darn tir a dröid yn y modd hwn yn cael ei droi y naill flwyddyn ar ol y llall; ond yn fynych, byddai darn newydd hollol, oedd heb ei droi erioed o'r blaen, yn dyfod dan driniaeth. Yr oedd swm yr ŷd a godid mor fychan, fel yr oedd digon o dir yn weddill i ddarparu darn newydd pan ddyhysbyddid adnoddau yr hen. Dyma'r math o driniogaeth a elwid 'yn driniogaeth arloesiadol;' sef, yr unig un oedd yn bossibl yn y cyfnod tylwythol o wareiddiaid, pan yr oedd dynion yn brin, a digon o dir i'w gael. Byddai y gyfundrefn hon, o gyd-drin y tir, yn cael ei dechreu mewn cyttundeb difrifol rhwng y pleidiau, y byddai iddynt ei gario allan yn ffyddlawn; a byddai y cyttundeb yn cael ei gadarnhau trwy eu bod yn uno eu dwylaw â'u gilydd. Wyth o ychain fyddent yn cael eu rhoi wrth aradr; o blegid ni chaniateid i osod march o dan yr iau wrth aradr, dan y gyfundrefn hon o gyd-driniogaeth. Yr oedd gwedd o wyth o ychain yn angenrheidiol i dynu yr aradr trwy dir claiog caled y wlad. Yr oedd dau ŵr yn gofalu am yr aradr; sef, yr 'amaeth,' neu yr aradrwr—yr hwn a ddaliai gyrn yr aradr; a'r 'geilwad'—gorchwyl yr hwn oedd cadw yr ychain mewn llawn waith. Gwnai hyn trwy gerdded yn ŵysg ei gefn o'u blaen, a'u cyffroi i fyned rhagddynt yn fynych gyda'r swmbwl. Dechreuid troi y tir ar y 9fed o Chwefror. Yr oedd y cŵysi o hyd pennodol; a phan y byddai nifer neillduol o honynt wedi eu troi—yn gwneyd cefn (fel yn Ngogledd Cymru), cynnwysedig o tua deuddeg cant (1,200) o latheni petryal, fe'i gelwid ef yn erw, neu yn gyfar; a chyfrifid hyny yn waith diwrnod llawn. Ni ddechreuid ar y gwaith, y diwrnod dilynol, yn y fan lle y gorphenwyd ef y diwrnod cynt; ond gadewid llain o dir o ddeutu lled dwy gŵys rhwng y darn tir fyddai wedi ei droi, a'r darn oedd i'w droi nesaf. Yn ol hyn, yr oedd pob erw yn ffurfio cefn o dir âr wrtho ei hun. Pan y byddai deuddeg erw wedi eu troi, byddai y cyttundeb wedi ei gario allan; ac yna trosglwyddid hwynt drosodd i'w perchenogion. Y gyntaf oedd eiddo yr aradrwr; elai yr ail i'r hwn a ddarparodd haiarn yr aradr; y drydedd a'r bedwaredd i berchenogion y ddau ŷch goreu; y bummed i'r geilwad; y chweched, y seithfed, yr wythfed, y nawfed, y ddegfed, a'r unfed-ar-ddeg i berchenogion y chwe ŷch eraill; ond rhoddid y ddeuddegfed o'r neilldu i gyfarfod â'r draul o gadw yr aradr mewn cywair dda. Gofelid ar fod pawb yn cael yr un chwareu teg a'u gilydd; 'o blegid (yn ol y ddeddf), os digwyddai anghydfod rhwng dau gyd-drinwr ynghylch cam-driniogaeth, byddai i erw yr aradrwr gael ei harchwilio o berthynas

Digitized by Google

caethion oeddynt, wedi eu goddef i sefydlu ar y tiroedd hyn, fel yn y maerdrefi. Pa fodd bynag y delid y tiroedd—ai gan wŷr rhyddion, ynte gwŷr caeth—fel teuluoedd, neu gylchoedd o berthynasau a elwid 'yn llwythau,' y byddent yn eu dal, ac yn eu trin.

Ar bob Cymwd hefyd yr oedd pentrefi, yn mha rai yr oedd tenantiaid rhyddion yn byw—oll yn talu rhenti, a gwasanaeth. Y mae ffaith hynod ynglŷn â'r taliadau hyn, o ba natur bynag y byddent. Nid fel gwasanaeth personol y telid hwynt—fel pe byddent yn rhwym wrth y tiroedd a ddalient, a'r pentrefi y preswylient ynddynt. Ond talent am gael eu trin, fel gwŷr rhyddion. Yr oedd yno hefyd bentrefi lle yr oedd tenantiaid caeth, a elwid yn *villani*, yn byw—y rhai a dalent eu rhenti mewn ymborth a gwaith. Parhawyd y gwahaniaeth hwn rhwng pentrefi y gwŷr rhyddion, a phentrefi y caethion, am lawer o flynyddoedd ar ol y Gorchfygiad Normanaidd.

O dan *Extent* Dinbych, yr oedd yr holl wlad, o'r afon Glwyd i'r afon Gonwy, yn ddau Gantref; sef, Cantref Rowaynok, a Chantref Ros. Cynnwysai y gyntaf Gymydau Ughaled (Uwchhaled) ac Ishalet (Isaled). Cynnwysai Cantref Ros, Gymydau Ughdulas (Uwchdulas) ac Istulas (Isdulas). Yr oedd gyda hyny y Cymwd neu hanner Cantref a elwid Kaymerge yn gorphen y dosbarth hwn. Gorweddai yr ochr arall i'r afon Ystrad hyd yr afon Glywedog—yn cynnwys y rhan isaf o blwyf Llanrhaiadr-yn-Cinmeirch—tua deg neu ddeuddeg milltir o hyd, a phump o led.

Mae'n debyg oddi wrth y ffeithiau a enwyd, ac eraill a geir yn y gweithiau rhagorol uchod, mai dan ammodau cyffelyb yr oedd y tiroedd yn cael eu dal a'u trin trwy yr ynys hon gan yr hen Gymry, neu y Celtiaid—hynafiaid y genedl Gymreig.

Tiriodd y Rhufeiniaid yn yr ynys hon gyntaf dan Julius Cæsar ar Awst 26ain, 55 c.c. Ymadawsant oddi yma, yn raddol, rhwng y blynyddoedd 400 a 436 B.A. Buont felly yma am yn agos i bum can mlynedd (491). Cenedl ryfelgar oeddynt, yn ceisio chwanegu terfynau ymherodraeth Rhufain. Gwnaethant lawer o ffyrdd yma, a chyfleusderau fyddent yn fanteisiol iddynt gadw meddiant o Brydain. Ond yn ystod y tymmor maith y buont yma, ychydig o sylw a dalasant i amaethyddiaeth—yn unig hyny oedd raid iddynt er eu cynnaliaeth.

## II. Ammodau Tirol y Saeson.

Yr oedd y Sacsoniaid (*Saxons*) gynt yn byw yn Saxony—teyrnas yn Ngogledd yr Almaen (*Germany*)—y bummed, o ran maintioli, yn yr ymherodraeth hono yn awr. Cenedl ryfelgar, ffyrnig, a chreulawn oedd hi. Parai ddychryn i'r holl wledydd cymmydogaethol. Yr oedd nifer o Almaenwyr wedi ymsefydlu, rywbryd yn y drydedd ganrif, ar forgainge yr afon Elbe, rhwng Schleswick a Fleusburg, yn yr Almaen; ac yr oedd yno bentref, o'r enw 'Anglen'—oddi wrth yr hwn y galwyd y trigolion yn 'Angles.' Ymunodd yr Angliaid hyn â'r Sacsoniaid tua'r fl. 450, i ymosod ar yr ynys hon; a galwyd hwy o herwydd eu hundeb â'u gilydd, yn 'Anglo-Sacsoniaid' (*Anglo-Saxons*). Ond gan y Cymry, 'Sassenach' y gelwid hwynt am dymmor; ac wedi hyny 'Saeson,' fel yn awr.

Wedi rhoddi yr eglurhâd uchod ar darddiad yr enw, dylem chwanegu fod y llwythau, neu y cenhedloedd gwahanol, a ymsefydlasant yn Mhrydain yn dair; sef, y Jutiaid, yr Angliaid, a'r Sacsoniaid. Yn ol yr hanesion cywiraf a geir am danynt, rhyw fôr-ladron oeddynt, gan mwyaf; a'u bod yn byw yn y rhanau o'r wlad oedd ar enau yr afon Elbe. Y mae yn ymddangos eu bod wedi sefydlu yma ar wahanol adegau. Y Jutiaid a ddaethant i'r ynys hon gyntaf. Trigolion Jutland oeddynt hwy—gorynys yn ngogledd Ewrop, yn mesur 9,754 mill. pet., a gyssylltwyd â Denmarc yn y ddegfed ganrif. Ymddengys eu bod hwy wedi dyfod yma, ac ymsefydlu yn Nghaint (*Kent*) yn y fl. 449. Yr oedd y Rhufeiniaid wedi gadael Prydain yn y fl. 436. Cafodd Lloegr ei dosbarthu yn saith rhan; a gelwid hwy y Seithlywiaeth, neu Saith-frenhiniaeth (*The Saxon Heptarchy*). Parhaodd y drefn hon hyd y nawfed ganrif. Dyma fel y rhanwyd y siroedd:—

1. Swydd Caint—dan Hengist, yn B.A. 454. 2. Sacsoniaid y Deheu, yn cynnwys Sussex a Surrey—dan Ella, yn 491. 3. Sacsoniaid y Gorllewin, yn cynnwys siroedd Berks, Hamps, Wilts, Gwlad yr Haf, Dorset, Dyfnaint, a rhan o Gernyw—dan Cerdic, yn 519. 4. Sacsoniaid y Dwyrain—yn cynnwys Essex, Middlesex, a rhan o swydd Herts—o dan Erchenwin, neu Erchwine, yn 526. 5. Northumbria—yn cynnwys Lancaster, Caerefrog, Cumberland, Westmoreland, Durham, a Northumberland—dan Ida, yn 547. 6. Anglia Ddwyreiniol—yn cynnwys Norfolk, Suffolk, Cambridge, ac Ely—o dan Uffa, yr hwn a laniodd tua'r fl. 526. 7. Mercia, yr hon oedd yn cynnwys y tiroedd eraill—dan Crida, neu Cridda, yn 586.

Rhwng y blynyddoedd 449 a 456, gyrwyd y Cymry i Gymru, ac i Gernyw; a rhwng y blynyddoedd 388 a 457, aeth llawer o honynt i Lydaw (*Armorica—Brittany*). Yr oedd Cadwaladr, brenin olaf y Prydeiniaid, yn llywodraethu yn y fl. 678. Ond erbyn y fl. 827, yr oedd yr Anglo-Sacsoniaid wedi meddiannu holl Loegr, yn mron; ac Egbert, brenin Wessex, wedi ei bennodi yn frenin Lloegr.

Hyd y Gorchfygiad Normanaidd, i ddwy ran yn benaf y dosberthid tiroedd y wlad yn Lloegr dan y Sacsoniaid; sef, y *Folcland*—y Gwerindir, neu Dir y Bobl—yr hwn oedd yn eiddo i'r llywodraeth; a'r *Bocland*—Tir-y-llyfr, neu Tir-y-llyfrau—yr hwn oedd yn eiddo i bersonau unigol. Wrth Gwerindir, golygir y rhan o'r tir yr oedd y Sacsoniaid a ddaethant yma wedi bod yn analluog i'w ddefnyddio. Yr oedd y tir hwn yn perthyn i'r llywodraeth; ac nis gellid, ar y cyntaf, ei drosglwyddo, hyd yn oed mewn rhan, ond trwy ganiatâd y genedl, a hwnw yn cael ei roddi trwy y Witan, neu y Witena-mot; sef, cynnadledd fawr y genedl Anglo-Sacsonaidd. Tua diwedd y cyfnod hwn, o herwydd chwanegiad nerth yr awdurdod brenhinol, tueddai y Gwerindir i fyned yn *terra regis*, neu 'tir y goron'—y Witan yn gweithredu yn unig fel tystion fod rhanau o'r tir hwn wedi eu caniatau ganddi hi. Nis gellid caniatau Gwerindir, fel y cyfryw, ond am dymmor neillduol—ar ddiwedd yr hwn y byddai yn syrthio yn ol i ddwylaw y genedl; a byddai yn cael ei ddal ar ammodau neillduol o wasanaeth i'r llywodraeth. Gallesid newid y Gwerindir i fod yn Dir-llyfr—tir a ddelid fel meddiant llawn—i unrhyw berson neillduol trwy rodd y brenin a'r Witan, o dan siarter (neu *lyfr*)—oddi wrth yr hwn y derbyniodd ei enw. Yr oedd rhai o feddiannwyr

Digitized by Google

y Tir-llyfr yn ei ddal fel rhan o'r gyfran a ddosbarthwyd gyntaf ar ol eu dyfodiad i'r wlad; ond yr oedd yn fynych yn cael ei ddadgyssylltu oddi wrth y Gwerindir—llawer o'r hwn a ddaeth yn nhreigliad amser i fod yn Dir-llyfr. Yr oedd y rhai oedd yn dal y Tir-llyfr yn rhydd o bob gwasanaeth i'r llywodraeth, ond y tri hyn: 1af, Cadwraeth yr amddiffynfeydd mewn cywair briodol. 2il, Adgyweiriad y pontydd. 3ydd, Gwasanaeth milwraidd. Yr oedd y rhai hyn yn rhwymedig ar bawb oedd yn dal tir.

III. Y TIR O DAN GWILYM Y CONCWERWR.

Yn fuan ar ol brwydr Hastings, yr hon a gymmerodd le Hydref 14eg, 1066, yn yr hon y gorchfygwyd ac y lladdwyd Harold II., ysgubodd y Congcwerwr hyny o neillduolion y cyfundrefnau a enwyd uchod, oedd yn anghysson â'i syniadau ef, oddi ar wyneb y wlad. Yn eu lle, efe a sefydlodd gyfundrefn newydd—yr wriogaethol *(feudal)*; yr hon oedd, i raddau, mewn bod o'r blaen yn mysg y Saeson. Yr oedd tuedd amlwg at y gyfundrefn hon yn eu mysg hwy, fel y gwelir uchod. Yr oedd yn ammhossibl iddi fod yn un gyflawn—am nad oedd un tirfeddiannwr goruchaf yn Lloegr. Ond sefydlwyd hi yn ei chyflawnder gan Gwilym. Yr oedd ei hanfod mewn dau beth; sef, fod holl diroedd y wlad yn gorwedd, o ran eu meddiant, yn y goron—heb fod neb personau yn eu meddu. Hefyd, fod y rhai oedd yn eu dal yn rhwym o gyflawni gwasanaeth milwraidd eu hunain i'r goron, a darparu dynion ac adnoddau milwraidd pan y byddai eu heisieu. Ac er atteb dybenion milwraidd a gwladol, yr oedd yn angenrheidiol i'r meddiannau a ymddiriedid iddynt dreiglo oddi wrth y tad i'r mab hynaf. Nid cyfundrefn o dir-ddaliadaeth oedd hon, gan hyny, â'i hamcan i wneyd y deiliaid yn llwyddiannus a dedwydd trwy drin y tiroedd; ond cyfundrefn filwraidd ydoedd. Dyma'r amcan penaf:—sicrhau byddin gref er amddiffyn y wlad rhag ymosodiadau tramoriaid, er amddiffyniad yr orsedd, a chadw heddwch o fewn y deyrnas. Daeth nifer fawr o filwyr Normanaidd i ymsefydlu yn y wlad hon ar ol hyny; a chawsant bob cefnogaeth a chymmhelliad i aros yma gan y brenin. Ni chafodd y Saesoniaid ond ychydig o ffafr ganddo. Cymmerodd eu tiroedd hwy oddi arnynt, a rhanodd hwynt yn mysg ei brif ganlynwyr ei hun. Nid pobl hawdd i'w boddloni oeddynt hwy; ac ni foddlonwyd hwynt nes y cawsant y rhan fwyaf o diroedd y wlad i'w dwylaw. Wrth ranu y tir, gwnaeth hyny yn ol y gyfundrefn wriogaethol—yn ol y cynllun oedd mewn grym yn ei wlad ei hun. Ni roddwyd hwynt, meddwn etto, 'allan ac allan' i'w ganlynwyr—ond yr oeddynt i'w dal wrth ei ewyllys ef. Ni roddwyd hwynt yn unig ar rent arianol chwaith; ond yn ddarostyngedig i'r cyflawniad o wasanaeth milwraidd, yn benaf.

Yr oedd dau ddosbarth yn dal tiroedd y pryd hwnw; sef, yr arglwyddi, neu y barwniaid, a'r marchogion (*knights*). Ar y cyntaf, yr oedd yr holl diroedd yn cael eu dal yn uniongyrchol oddi wrth y brenin, gan yr arglwyddi. Ond yn mhen amser, gosododd y prif denantiaid—yr arglwyddi—ranau o'u hetifeddiaethau hwy i'r marchogion; a chanddynt hwythau i denantiaid eraill. Dyna'r drefn, nes y diddymwyd hi trwy ddeddf yn nheyrnasiad Iorwerth I., yn y drydedd ganrif ar ddeg. Ond y mae yn eglur fod yr un egwyddor yn rhedeg trwy yr holl gyfundrefn wriogaethol—o'r naill ben i'r llall. Yr oedd ei holl ranau wedi eu tynu allan yn ol yr un cynllun. Yr oedd yr arglwyddi yn dal eu tiroedd dan y brenin ar yr un ammodau ag yr oedd eu tenantiaid hwy yn eu dal oddi wrthynt hwythau; ac yr oedd nifer y marchogion a ofynid gan bob arglwydd yn ol maint a gwerth y tir a ddaliai. Fel yr oedd yr arglwyddi yn aelodau o lys y brenin, yr oedd y marchogion, hefyd, o lysoedd yr arglwyddi. Fel y byddai goruchwylwyr y brenin yn llywyddu yn llys y brenin, ac yn arwain ei ddeiliaid mewn rhyfel; felly, byddai goruchwylwyr yr arglwyddi yn eistedd fel cofrestrwyr yn eu llysoedd hwy, ac yn arwain eu deiliaid hwythau mewn rhyfel. Hefyd, pan y byddai tenantiaid y brenin yn cyflawni dyledswyddau, neu yn gwneyd taliadau i'w harglwydd, y brenin, byddent hwythau yn hawlio cyffelyb wasanaeth neu daliadau gan eu tenantiaid hwythau. Nid ydyw yn eglur pa swm o dir a gyfansoddai denantiaeth marchog. Yn ol rhai, yr oedd yn 800 o erwau: ond yn ol eraill, 680. Ond pa faint bynag fyddai, yr oedd y marchog yn rhwym, os gelwid arno, i weini ar ei arglwydd ar gefn ei farch, wedi ei wisgo a'i arfogi fel marchog, am ddeugain niwrnod yn mhob blwyddyn, gyda'i filwyr yntau mewn celfi rhyfel, ar ei draul ei hun—yr hyn a ystyrid fel ei rent neu ei wasanaeth ef am y tir a ddaliai. Am yr hwn a ddaliai hanner rhan marchog, ni ofynid iddo ef ond gweini yn y modd a enwyd am ugain niwrnod; ac felly yn ol swm y tir a ddaliwyd. Mewn gair, ar y rhai oedd yn dal tir, yn benaf, yr oedd treuliau rhyfeloedd y wlad yn disgyn; a hwy fyddai yn talu treuliau y llywodraeth ar adeg o heddwch hefyd. Yr oedd, heb law hyn, amryw o bethau eraill oedd yn ofynol gan bob marchog; sef, 1af, Talu iawn am ryddhad person ei arglwydd, os cymmerid ef yn garcharor. 2il, Gwneuthur mab hynaf yr arglwydd yn farchog. 3ydd, Darparu gwaddol deilwng i ferch hynaf yr arglwydd ar adeg ei phriodas. Gofynid amryw daliadau eraill gan y marchogion; a dirwyid hwynt os troseddent yr ammodau. Yr oedd plant y prif denantiaid, pan dan oed, o'r ddau ryw, o dan warcheidwaeth y goron—yn rhwym o briodi, pan fynai y penadur, â phwy bynag a ewyllysiai efe; a byddai etifeddesau cyfoethog hefyd, yn fynych, yn cael eu gorfodi i briodi ffafr-ddynion y teyrn, neu i dalu dirwyon trymion os anufuddhaent. Ac os na byddai etifedd mewn teulu, byddai y tiroedd yn dychwelyd yn ol i'r goron.

Gwasanaeth marchog, yn ddiau, oedd y prif ammod o denantiaeth dan Gwilym. Ond yr oedd yno, yn mysg eraill, yr hyn a elwid yn *free sockage*—tenantiaeth trwy wasanaeth penodedig; megys aredig tiroedd yr arglwydd, a'r taliad o ardrethi mewn arian. Hefyd *gavelkind*—yr hon sydd etto yn perthyn i rai tiroedd yn swydd Caint. Yr oedd y ffurf hwn o denantiaeth i'w gael yn lled gyffredin yn Nghymru hefyd gynt.

O'r Gorchfygiad Normanaidd, yn y fl. 1066, hyd goroniad Siarl II., yn 1666—ysbaid o chwe chan mlynedd—llwyddodd y wlad i ymladd â'i gelynion, a thalu ei ffordd; o herwydd fod ei chyllid yn tarddu o diroedd oedd wedi eu cadw yn meddiant y goron, a thiroedd wedi eu hymddiried i denantiaid ar ammodau o wasanaeth milwraidd, a thaliadau mewn arian. Byddai y brenhinoedd, ar adegau, y mae'n wir, yn codi

Digitized by Google

trethi ar y deiliaid yn uniongyrchol. Ond nid oedd trethi, o'r braidd un amser, yn cael eu codi ar nwyddau o unrhyw natur. Rhoddodd Siarl ddiwedd ar y cynlluniau hyn; a chymmerodd ei senedd ef o dirfeddiannwyr, y pryd hyny, ofal neillduol i'w hamddiffyn eu hunain, trwy daflu treuliau y llywodraeth ar ysgwyddau eraill, fel y gwelir yn mhellach yn mlaen—a cheisio diangc heb dalu dim.

Oddi wrth yr hanesion blaenorol, y mae yn ymddangos nad oedd y gwahaniaeth yn fawr rhwng hen gyfundrefn dirol y Cymry, a'r ddwy ddiweddaf. Yn y gyntaf a'r ddiweddaf, yr oedd rhanau ëang o'r wlad yn cael eu hardrethu ar ammodau gan y brenhinoedd a'r tywysogion i'w prif ganlynwyr—eu ffafr-ddynion; y rhai y tybient hwy fyddent yn fwyaf gwasanaethgar iddynt ar adegau o ryfel, neu ryfel gartrefol. Yr oedd y mawrion hyn, drachefn, yn gosod rhanau llai i bersonau y tybient hwythau fyddent debycaf i'w cynnorthwyo i gyfarfod â gofynion eu brenin, neu eu tywysog; a byddent yn talu rhyw symiau mewn arian, heb law mewn gwasanaeth. Yr oedd yno drydydd dosbarth hefyd—gweddillion y trigianwyr blaenorol—y rhai nid oeddynt o wehelyth un o'r tair cenedl. *Ailltiaid*, a *thaeogiaid*, ac enwau eraill o'r un ystyr, a roddid arnynt. Nid oeddynt yn rhwym i fyned i ryfel, na chymmeryd arfau un amser; ac fe allai nas gallesid eu hymddiried iddynt. Ni thelid cyflogau iddynt chwaith; ond caniateid iddynt lafurio y tiroedd a osodid iddynt, a thalu am hyny trwy lafur eu dwylaw, neu trwy unrhyw wasanaeth personol a allent. Ond yn adeg y Sacsoniaid yr oedd yno 'feddiant personol' o diroedd yn cael ei gydnabod—yr hyn a ysgubwyd ymaith yn llwyr gan Gwilym y Congcwerwr. Yn ol hyn, yr oedd holl diroedd y deyrnas dan hen ddeddfau y Cymry, a deddfau Gwilym, yn eiddo y Tywysog, neu y Goron—a phawb yn eu dal ar yr ammodau a eglurhawyd yn barod.

2. *Tiroedd y Goron, a Thiroedd y Mynachlogydd.*—Attafaelwyd tiroedd y mynachlogydd yn adeg y Diwygiad Protestanaidd. Cymmerodd y goron feddiant o honynt; a rhanwyd hwy oll, yn gystal a Thiroedd y Goron, i ffafr-ddynion y brenhinoedd, rhwng esgyniad Harri VIII. i'r orsedd, yn 1509, a marwolaeth Gwilym III. yn 1701—ysbaid o ddau can mlynedd. Trwy hyn, lleihawyd derbyniadau y goron oddi wrth diroedd yn ddirfawr; a chynnyddodd dyled y wlad, mewn canlyniad, yn gyflym iawn. Dan y brenhinoedd Normanaidd, a'u canlynwyr, am chwe chan mlynedd, fel yr eglurwyd yn barod, yr oedd treuliau y llywodraethau, a'u rhyfeloedd, yn cael eu talu yn gwbl o'r tiroedd; ond dan Siarl II., cafodd y bendefigaeth afael ar y tiroedd fel rhoddion y teyrn; ac yn nwylaw eu dilynwyr y maent yn aros hyd heddyw—ond hyny a werthwyd gan yr hen deuluoedd yn y cyfamser.

3. *Y Maenorydd* (*Manors*).—Crëwyd hwy yn debyg dan yr un ammodau ag a welir yn flaenorol yn hanes maenorydd sir Fôn, a sir Ddinbych. Byddai darn helaeth o wlad, er engraifft, yn cael ei ganiatau i un o ddeiliaid y goron, ac i'w etifeddion—yr hwn fyddai yn gyffredin yn arglwydd, neu yn ŵr o ddylanwad mawr, fel yr eglurwyd yn barod; a hyny ar yr ammodau a enwyd. O'r tir hwn, cadwai gymmaint ag a fyddai yn angenrheidiol at ei wasanaeth ei hun, fel tir y faenor; ac yn y cyffredin, efe a adeiladai balas arno. Yr oedd rhan o hono yn meddiant *villaniaid* yr arglwydd; pa rai fyddent yn dal darnau bychain o dir wrth ei ewyllys ef, er eu cynnaliaeth eu hunain; a thrinent y gweddill er mantais eu harglwydd. Caniateid gweddill y tir, y gellid ei drin, i rydd-ddeiliaid gwahanol, yn ddarostyngedig i'r taliad o ardrethi, a gwasanaeth. Dyma un ammod:—yr oeddynt 'i aredig deng erw o dir llafur, rhan o'r hwn oedd yn meddiant yr arglwydd, neu i gludo ei dail ar y tir, neu i fyned gydag ef i ryfel. Yr oedd ammodau eraill hefyd o'r un natur. Yr oedd y tiroedd di-driniaeth yn ffurfio 'tiroedd gwyllt' yr arglwydd, i ba rai y caniateid i'r tenantiaid anfon eu hanifeiliaid i grwydro er chwilio am borfa. Fel hyn y ffurfiwyd 'y maenorydd,' a adnabyddir yn awr fel y cyfryw—o'r 'tiroedd gwyllt' a enwyd uchod. Yn nghorph blynyddoedd, aeth rhanau helaeth o bob maenor i ddwylaw eraill; ac y maent yn ffurfio etifeddiaethau y mae arglwyddi y maenorydd wedi colli pob hawl arnynt. Ond deil yr arglwyddi eu gafael yn dŷn yn y tiroedd di-driniaeth, ac mewn llawer o dyddynod, sydd o fewn terfynau eu maenorydd; ac y maent yn parhau trwy yr oesoedd, fel rheol, yn meddiant y teuluoedd—o dad i fab. Y mae arglwyddi y maenorydd yn hawlio hefyd, er's llawer o amser, mai hwy yw perchenogion y glô a'r mŵnau sydd dan y tiroedd; ac yn derbyn symiau mawr yn flynyddol fel teyrnolion oddi wrthynt. Y mae yr un gwirionedd i'w ddyweyd am yr holl faenorydd a'r mŵnau ag am etifeddiaethau y wlad; sef, na dderbyniodd y deyrnas ddim oll am danynt oddi wrth hynafiaid neu gyn-etifeddion yr arglwyddi presennol. Cawsant yr holl diroedd, yn wreiddiol, dan yr ammodau a enwyd uchod. Ond ysgydwasant y rhwymedigaethau milwraidd oddi ar eu hysgwyddau—fel y gwelir ar waelod y ddalen hon.

4. *Deddf y Mab hynaf.*—Dyma gangen bwysig arall o'r gyfundrefn wriogaethol; yr hon sydd, gyda changhenau eraill o honi, yn aros etto. Yr ydym eisoes wedi hysbysu fod Gwilym wedi darparu fod etifeddiaeth, os na byddai ewyllys wedi ei gwneuthur, yn myned i'r mab hynaf. Y rheswm, mae'n debyg, oedd, mai y mab hynaf, fel rheol, oedd yn debyg o fod y galluocaf o'r meibion i gyflawni yr ammodau milwraidd, o dan ba rai y gosodid y tiroedd i'w hynafiaid. A than yr ammodau hyny, derbyniai feddiant o etifeddiaeth ei dad.

### IV. Ammodau Daliad y Tiroedd yn cael eu newid.

### Pa bryd, a pha fodd, y newidiwyd hwy?

Dyma fel y digwyddodd:—Yr oedd yr arglwyddi a'r marchogion yn teimlo fod yr ammodau milwraidd yn drymion, ac yn awyddus am gael symmud y baich oddi ar eu hysgwyddau eu hunain. Ac yn y Senedd Hir, yn 1643, penderfynodd tŷ o dirfeddiannwyr, oedd â holl diroedd y deyrnas yn mron yn eu dwylaw, ac heb dalu dim erioed am danynt, fod yr hen drefn i ddarfod; ac nad oeddynt hwy i fod yn rhwymedig o hyny allan wrth yr ammodau blaenorol. Ond pa fodd yr oeddynt hwy yn bwriadu darparu ar gyfer gofynion y deyrnas? Er eu cywilydd bythol, trwy daflu treuliau y deyrnas ar y deiliaid eraill:—trwy osod, i ddechreu, treth o 15c. ar bob baril o gwrw, a swm cyfartal ar y gwinoedd a'r gwirodydd a werthid.

Digitized by Google

Ond nid oedd treth i'w chodi ar ddioddydd a ddarllawid gartref gan neb; a chan fod y tirfeddiannwyr, fel rheol, yn darllaw eu diod eu hunain, yr oeddynt hwy, trwy y ddarpariaeth hon, yn gallu diange yn ddi-dreth! Dyma fel y taflasant ran fawr o dreuliau y llywodraeth ar ysgwyddau eraill. Dadleuid, ar y pryd, gan dri o'r cyfreithwyr galluocaf oedd yn Mhrydain mai treth flynyddol ar dir y dylesid ei gosod, fel ag i ddwyn cymmaint i mewn ag ydoedd gwerth y gwasanaeth a dderbyniodd y deyrnas ganddynt hwy dan y gyfundrefn wriogaethol; a bod hono yn ddigon i gyfarfod y treuliau ar adegau o heddwch, ond i fod yn fwy ar adegau o ryfel. Ac ar y 23ain o Ebrill, 1660, pleidleisiodd 151 o aelodau o blaid gosod y dreth ar ddiodydd, a 149 yr ochr arall. Felly, trwy fwyafrif o ddau yn unig, y cariwyd y cynnygiad i godi treth ar y bobl—a gollwng y tirfeistriaid yn rhyddion! Ni allesid disgwyl y buasai y fath anghyfiawnder a hwn yn parhau yn hir.

2. *Treth y Tir.*—Wedi cael ymwared o'r treuliau uchod oddi ar y tir, ac wedi cael goruchafiaeth gyda'r dreth ar ddiod, penderfynasant arfer pob moddion i attal y gosodiad o unrhyw dreuliau eraill arnynt hwy, fel plaid, drachefn —fel y gallent fwynhau y tiroedd heb dalu am danynt, na bod dan unrhyw feichiau trethol chwaith! Yr oedd y lladrad o diroedd y wlad oddi ar y bobl gan y tirfeddianwyr trwy y ddyfais hon yn drosedd cywilyddus. Teimlodd y Rhyddfrydwyr hyny; ac wrth alw Gwilym i'r orsedd, deuwyd i ddealltwriaeth âg ef, fod treth i'w gosod ar dir o 4s. y bunt o rent—yn lle y dreth ar ddiodydd; a chafwyd treth felly yn 1689, er gwaethaf y gwrthwynebiad mwyaf cyndyn. Gwnaed hi yn dreth barhaus yn 1798. Er hyny, yr oedd y tirfeddiannwyr, yn ol eu harferion, yn dra gofalus i wylio eu manteision eu hunain, fel y gwelir yn ngwyneb y ffaith a ganlyn:—Nid oedd y dreth i gynnyddu fel yr oedd gwerth y tir yn myned ar gynnydd; ac nid oedd hi i gynnyddu chwaith yn ol fel y ceuid tiroedd eraill i mewn, ac y dygid hwy dan driniaeth. Na: 4s. yn y bunt oedd y dreth i fod—a hyny ar y rhenti a gesglid y pryd hyny. A pha beth fu y canlyniad? Yn y flwyddyn 1692, yr oedd y swm a gafwyd trwy y dreth yn agos i ddwy filiwn o bunnau (1,922,712*p*). Ond yn 1798, trefnwyd y gallai yr holl dirfeddianwyr dalu symiau, yn lle y trethi blynyddol; ac felly nid oedd y swm a dderbyniwyd oddi wrth y dreth hon, y llynedd, ond 1,035,000*p*.—tua hanner yr hyn oedd hi ar y cyntaf. Costiodd y fyddin i'r deyrnas am y flwyddyn yn diweddu Mawrth, 1894, agos i ddeunaw miliwn o bunnau (17,939,700*p*), a'r llynges hefyd agos i bymtheng miliwn a hanner (14,048,000*p*.). Pe buasai y dreth uchod o 4s. yn y bunt yn cael ei thalu ar renti tiroedd y wlad, fel y maent yn awr, cawsid oddi wrthi tuag ugain miliwn o bunnau (20,000,000*p*.) yn flynyddol—ac nid y swm bychan a dderbynir oddi wrthi yn y blynyddoedd hyn, sydd yn ffrwyth cynlluniau dyfnion a diegwyddor y tirfeddianwyr ddau cant o flynyddoedd yn ol!

### V. Y Deddfau a'r Cynlluniau a arferwyd, ac a arferir etto, i gadw y Tiroedd yn meddiant Teuluoedd.

Nid ydyw tiroedd y deyrnas wedi arfer cael eu hystyried gan gorph y tirfeddiannwyr fel moddion cynnaliaeth y deiliaid; ond fel ffynonell, o'r hon y maent hwy i dderbyn rhenti: ac y mae yn eglur mai dyna syniad llaweroedd o honynt yn y blynyddoedd hyn. Y mae yr egwyddor iach, fod gan eiddo ei ddyledswyddau, yn gystal a'i ragorfreintiau, fel pe byddai heb ei ddeall ganddynt erioed. Gellir dyweyd, heb ofni camgymmeryd, mai deddfau tir Prydain ydyw y prif achos o'r holl gyfyngderau, yn mron, y mae y deiliaid yn griddfan danynt drwy y blynyddoedd. Gyda'r amcan o gadw y gyfundrefn yn fyw, ac yn rymus, y mae y 'rhwymiadau' canlynol ar diroedd wedi cael eu dyfeisio:—a thra y goddefir iddynt barhau, fe barhâ yr anghysuron.

1. *Rhwymiadau Tiroedd* (*Land Settlements*).—Mae Deddfau Cyntafanedigaeth (*Laws of Primogeniture*), a Rhwymiad Etifeddiaethau (*Entail*), fel yr eglurwyd uchod, wedi bod yn fanteisiol yn y canrifoedd o'r blaen i ddarparu cymmhorth milwraidd i'r brenhinoedd. Ond y maent wedi gwneyd dirfawr niwed i'r wlad, ac wedi bod yn anghyfiawn tuag at aelodau eraill teuluoedd y tirfeddiannwyr. Trwy Ddeddfau Cyntafanedigaeth, y mae'r meibion hynaf wedi arfer cael yr etifeddiaethau; ac mewn llawer achos, y mae y plant eraill wedi gorfod bod heb ddim:—hyny ydyw, pan y mae tirfeddiannydd yn marw heb wneyd ewyllys, y mae y cyntafanedig yn dyfod yn gyfreithiol yn feddiannydd i'r holl etifeddiaeth. Nid oes neb a all wadu nad ydyw hyn yn ddosbarthiad anghyfiawn o'r eiddo—ond dyna'r ddeddf. A phan y mae tirfeddiannydd yn gwneyd ewyllys, y mae efe, yn mron yn ddieithriad, yn gadael yr etifeddiaeth yn gyfan i'r mab hynaf—o ryw falchder gwâg, a gofal am urddas yr 'hen deulu.' Yn fynych, er hyny, y mae efe yn gwneyd darpariaeth ar gyfer y plant eraill, trwy osod yr etifeddiaeth, drwy y mab hynaf, dan rwymau i dalu gwaddol priodas i'r merched; neu swm pennodol i bob un, neu symiau blynyddol, pan y byddant wedi dyfod i'w hoed, &c. Y mae y gofal hwn am anrhydedd y teulu yn gosod y mab hynaf, fynychaf, fel yr amlygir yn mhellach, mewn amgylchiadau mor gyfyng fel nas gall efe ostwng y rhenti, nac adgyweirio yr adeiladau, a phethau eraill fydd yn ofynol gan y tenantiaid. Pe buasai yr etifeddiaeth wedi ei rhanu yn deg rhwng y plant, arbedid yr anghysuron hyn, i raddau pell.

Trwy Rwymiad Etifeddiaeth (*Entail*), y mae anghysuron cyffelyb yn dilyn. Etifeddiaethau ydyw y rhai hyn fydd yn cael eu rhoddi gan bersonau yn eu bywyd, weithiau, neu yn cael eu gadael mewn ewyllysiau, i ddynion am eu bywyd, ac i'w hetifeddion; ond nid ydynt yn cael eu cyfyngu i berthynasau yn llinell gwaed y teuluoedd. Y mae y trefniadau uchod yn rhwymo etifeddiaethau, ac yn gosod etifeddion a'u perthynasau mewn sefyllfaoedd cyfyng ac anghysurus yn fynych.

2. *Rhwymiadau Teuluaidd* (*Family Settlements*). Dyma'r modd y rhwymir etifeddiaethau ac etifeddion fynychaf drwyddynt hyd y dyddiau hyn. Gall meddiannydd etifeddiaeth, trwy wneyd ewyllys, ranu ei eiddo fel y myno rhwng ei blant, a gwneyd pob un felly yn feddiannydd ar ran—i'w ddefnyddio fel y gwelo yn oreu. Felly hefyd, gellir tori trwy Rwymiad Etifeddiaeth (*Entail*), ond mewn ychydig o achosion, a hyny trwy un weithred gyfreithiol syml. Rhwymiadau Teuluaidd sydd yn achosi y drwg mwyaf; ac y mae y rhai hyn yn gyfryw nas gellir eu gosod o'r neilldu yn oes meddiannydd:

Digitized by Google

a gellir eu hadnewyddu o genhedlaeth i genhedlaeth. Y maent yn cael eu gweithio allan yn debyg fel hyn:—Pan y bydd y mab hynaf mewn teulu yn dyfod i'w oed, fel y gall efe wneyd ymrwymiad neu drefniad cyfreithiol—neu ynte, pan y bydd efe ar fedr priodi—y mae Rhwymiad (*Settlement*) ar yr etifeddiaeth yn cael ei gwneyd. Bydd, fe allai, trwy gymmhelliad ei berthynasau, neu ynte o'i wirfodd ei hun, yn gwneyd y weithred, drwy yr hon y bydd yn rhwymo yr etifeddiaeth pan y daw hi iddo, ar ol marwolaeth ei dad, ond nid cyn hyny, fel na bydd efe yn meddu hawl iddi ond am ei oes. Bydd yr etifeddiaeth yn cael ei rhwymo i fyned ar ol hyny i'w fab hynaf; neu os na bydd mab, i ryw berson arall a bennodir yn y weithred. Ymdrechir wedi hyny, mae'n debyg, i osod yr etifeddiaeth yn yr un sefyllfa gyda'r etifedd canlynol—a'r etifeddion ar ei ol yntau. Y mae llaweroedd o etifeddiaethau yn Mhrydain wedi eu rhwymo fel hyn am ganrifoedd.

Y mae y canlyniadau hyn yn anghysurus i'r eithaf i'r meddiannwyr, ac i'r tenantiaid. Gan na bydd gan yr etifeddion hyn ond hawl am eu hoes yn yr etifeddiaethau, byddant, fel rheol, yn gwario mor lleied ag y gallant arnynt, ac yn tynu cymmaint ag y gallant o honynt, er mwyn eu plant eraill. Y mae hyn yn rhwym o fod yn anfantais fawr i'r tenantiaid, ac i'r wlad; ac y mae dynion ieuaingc yn yr oed hwnw yn gwneyd yn fynych yr hyn y byddant yn edifarhau o'u plegid am eu hoes. Creulondeb mewn rhïeni ydyw gofyn y fath beth gan neb o'u plant. Dylai y ddeddfau hefyd gael eu diwygio fel y bydd y gallu i rwymo etifeddiaethau fel hyn yn cael ei ddiddymu. Yn y weithred y sonir am dani, mae'n wir fod hawl yn cael ei gadw ganddo i osod rhwymau, fel y dywedwyd yn barod, ar yr etifeddiaeth i dalu symiau o arian i'r plant eraill, ac i'w weddw, os bydd yn gadael gweddw. Ond nis gall efe werthu un rhan o honi. Ei dal yn unig, am ei fywyd, y mae efe bellach; ac y mae wedi ymrwymo i'w throsglwyddo yn gyfan i etifedd fydd heb ei eni, gan amlaf; ac yn fynych, bydd y tir wedi ei wystlo (*mortgaged*) er cael arian i'r plant eraill. Er cyfarfod â'r amgylchiadau hyn, a chadw yr ymddangosiadau teuluaidd yn anrhydeddus yn ac o ddeutu y palas, bydd ardrethi yr amaethwyr yn fynych yn cael eu codi i'r pwynt uchaf; a hwythau dan y wasgfa mewn cyfyngder mawr. Bydd cyflogau y gweision a'r morwynion yn cael eu gostwng, a phawb yn gorfod dioddef—neu ymadael. Ac os digwydd i'r tymmhor fod yn anffafriol, a'r cynhauaf yn ddrwg, a'r amaethwyr, o herwydd hyny, yn analluog i dalu eu rhenti yn llawn, bydd holl amgylchiadau y teulu yn cael eu dyrysu. Yna, gosodir y palas i ryw foneddwr dyeithr, fydd yn heliwr, ac yn magu helwriaeth, ac heb deimlo unrhyw ddyddordeb yn yr etifeddiaeth na'r tenantiaid, os caiff efe ei ddifyrwch. Y cam nesaf fydd, fod y teulu yn myned i Ffraingc, neu i rywle, am flynyddoedd, lle y gallant fyw ar lai nag a allant yn y wlad hon. Ac yno y gwariant hyny o'r ardrethoedd fydd wedi eu gadael—yn lle eu gwario, fel y dylent, yn mysg eu tenantiaid, ac ar y ffermydd, i'w gwellhau, ac i adgyweirio yr adeiladau, &c.; a thrwy hyny sirioli yr amaethwyr yn eu hymdrechion i dalu eu ffordd yn anrhydeddus. Gwnaed deddf, y mae'n wir, yn 1882, sydd yn ei gwneyd yn bossibl i'r meddiannydd werthu ei etifeddiaeth; ond y mae yr ammodau yn gyfryw fel y mae hi yn ymarferol yn mron yn hollol ddiwerth. Nid oes dim i'w wneyd, ni dybiwn, ond ysgubo yr holl drefniadau gorthrymus hyn—gorthrymus i'r tirfeddiannwyr yn gystal ag i eraill—oddi ar ddeddflyfrau y deyrnas; neu, mewn geiriau eraill, ei gwneyd yn ammhossibl i neb o'r tirfeddianwyr rwymo eu hetifeddiaethau mewn un modd.

VI. Effeithiau niweidiol y Deddfau a'r Cynlluniau uchod ar Amgylchiadau y Deiliaid.

Mewn trefn i egluro yr anghysuron y cwynir rhagddynt, ni a ddechreuwn trwy ddangos—

1. *Fod y Tiroedd wedi eu casglu i ychydig o ddwylaw yn holl ranau y Deyrnas Gyfunol.*—Y mae fod tiroedd yn cael eu casglu yn symiau mawr, a'u dal, fel y gwneir gan deuluoedd yn y wlad hon, yn ddrwg cymdeithasol difrifol, yn golled i'r deyrnas, ac yn galw yn uchel am ddiwygiad trwyadl; ac addefir hyn, yn ddiau, gan bawb a roddant ystyriaeth ddifrifol a diragfarn i'r amgylchiadau. Ni a roddwn yma nifer o ffeithiau sydd yn dangos hyn; ond nid ydym yn cyffwrdd yma ond âg ymylon y drwg!

Ceir cyfrifon tiroedd y deyrnas yn y *Doomsday Book* am 1874, yr hwn a barotowyd trwy orchymyn y senedd. Ond nid ydyw mewn gwirionedd yn rhoddi y ffeithiau mor gryfion ag y gallesid am werth a maintioli etifeddiaethau tirol y deyrnas hon. Yr oedd yn amlwg fod dau amcan mewn golwg wrth eu parotoi; sef, dangos fod perchenogion tiroedd y wlad yn nifer mwy nag oeddynt; ac, hefyd, fod eu hetifeddiaethau yn llai nag oeddynt mewn gwirionedd. Y maent wedi gadael Llundain yn mron allan o'r cyfrifon; ond yn cyfrif yn mysg y perchenogion feddianwyr darnau bychain o dir, a brynwyd i adeiladu tai arnynt; a phrydlesoedd y dywedir eu bod am fwy na 99ain o flynyddoedd. Gwneir hyn er chwyddo nifer y tirfeddiannwyr, ac felly ddangos fod tiroedd y deyrnas yn gorwedd mewn llawer o ddwylaw. Maent, hefyd, er lliosogi y nifer, yn enwi llawer o'r tirfeistriaid amryw weithiau drosodd ynglŷn âg etifeddiaethau gwahanol. Ac er dangos eu bod yn llai o fesur nag ydynt, ni chyfrifwyd y coedwigoedd, a'r tiroedd di-driniaeth. Y mae cyfrifon y llyfr uchod, gan hyny, meddwn etto, er eu bod wedi eu parotoi trwy orchymyn y senedd, yn rhoddi gwedd llawer mwy ffafriol nag a ddylid ar etifeddiaethau y wlad. Ond ni a gymmerwn y cyfrifon fel y maent; ac fel hyn yr ymddengys y ffeithiau:—

*Lloegr a Chymru.*—Holl fesur y ddwy dalaeth hyn, heb gyfrif y brifddinas, yw 37,319,221 o erwau (*acres*). O'r nifer hwn, y mae 66 o bersonau yn meddu 1,917,076 o erwau; 100 o bersonau yn meddu 3,917,641 o erwau; 523 yn meddu un rhan o bump o'r cyfan; 710 yn meddu mwy na'r bedwaredd ran o hono; ac 874 yn meddu 9,267,031 o erwau. Y mae 4,500 o bersonau yn meddu hanner tiroedd Lloegr a Chymru gyda'u gilydd; ac y mae dwy ran o dair o'r holl diroedd yn meddiant 10,207 o bersonau. Y mae 2,250 o bersonau yn meddiannu, ar gyfartaledd, 7,300 o erwau bob un—yr hyn sydd tua hanner y tiroedd; 1,750 eraill yn meddiannu rhwng 1,000 a 2,000 o erwau bob un; 34,000 yn meddiannu rhwng 100 a 1,000 o erwau bob un; a 217,000 yn meddu o 1 erw i 100 erw bob un. Yn y dosbarth diweddaf hwn, y mae nifer fawr sydd wedi adeiladu palasdai

Digitized by Google

bychain, a thai, ar ychydig o dir; y rhai oll sydd yn cael eu cyfrif.

*Ysgotland.*—Y mae y rhan hon o'r deyrnas yn cynnwys 18,946,694 o erwau. Yno, y mae un person yn meddu 1,326,000 o erwau; ac y mae ganddo, hefyd, 32,095 o erwau yn Lloegr, yn gwneyd cyfanswm o 1,358,095 o erwau! Y mae un arall yn meddu 431,000 o erwau; un arall, 424,000 o erwau; un arall, 373,000 erw: un arall, 306,000 o erwau: ac y mae 12 tirfeddiannwr yn meddu 4,339,722 erw, rhyngddynt—yr hyn sydd tua chwarter y wlad i gyd. Y mae 70 yn meddiannu tua 9,400,000 o erwau—yr hyn sydd tua hanner yr holl wlad; ac y mae 1,700 o bersonau yn meddu naw rhan o ddeg o'r wlad. Y mae un dyn yn meddu 1,176,454 o erwau, allan o 1,299,253—holl erwau Sunderland. Y mae un person yn meddu tair rhan o bedair o Bute; un arall yn meddu tair rhan o bedair o Cromarty. Y mae un dyn yn mhob sir yn meddu y drydedd ran o'r cyfan yn y siroedd hyn:—Banff, Dumbarton, Dumfries, Elgin, a Selkirk. Y mae un felly hefyd yn meddu y bedwaredd ran o'r cyfan yn siroedd Forfar, Orkney, Roxburgh, Stirling, a Wigtown.

*Yr Iwerddon.*—Y mae yr holl arwynebedd yn 20,706,258 o erwau. Y mae un person yno yn meddiannu 170,119 o erwau; 3 dros 100,000 o erwau, bob un; 14 yn meddiannu, bob un, fwy na 50,000 erwau; 90 dros 20,000 o erwau, bob un; 135 dros 10,000 o erwau, bob un; 452 dros 5,000 o erwau, bob un. Mae 292 yn meddu 6,458,100 o erwau (neu tuag un ran o dair o'r holl ynys); 744 yn meddu 9,612,728 o erwau (hanner yr ynys); a 1,942 yn meddiannu dwy ran o dair o'r holl ynys.

Yn y *Deyrnas Gyfunol*, y mae arwynebedd o 77,671,319 o erwau—gan gyfrif y tir a'r dwfr, heb gyfrif yr afonydd, &c., y mae'r llanw yn ymgodi iddynt. Cynnwysir Ynys Manaw, a'r ynysoedd eraill sydd ar gyffiniau y wlad, yn y cyfrif hwn. Nifer erwau Prydain a'r Iwerddon ydynt, 77,477,986. Allan o 72,119,961 o erwau a gynnwysir yn adroddiadau y *Doomsday Book*, yr oedd 12 o dirfeddiannwyr mawr yn meddu rhyngddynt 4,440,467 o erwau!—agos gymmaint a Chymru i gyd.

*Plwyfydd.*—Y mae yn Lloegr a Chymru tua 12,000 o blwyfydd gwledig; a chredir y gellir dyweyd am fwy na'u hanner fod yr holl dai a'r tiroedd ynddynt o'r bron yn perthyn i un person yn mhob plwyf. Mewn llawer o ardaloedd, y mae amryw blwyfydd sydd yn ffinio ar eu gilydd yn perthyn hefyd i'r un personau.

2. *Y mae y Tiroedd Cyffredin wedi cael eu rhoddi i'r Tirfeddiannwyr trwy Ddeddfau Seneddol, a'r Bobl wedi eu gadael yn mron heb ddim.*—Y mae'r deddfau a wnaed i gau y tiroedd hyn i mewn wedi effeithio yn niweidiol ar hawliau a chysuron y bobl trwy'r deyrnas. Cymmerwyd eu tiroedd oddi arnynt, a hyny yn y modd mwyaf anghyfiawn, o fewn y ddwy ganrif ddiweddaf, fel y gwelir oddi wrth y ffeithiau difrifol canlynol:—Yn y fl. 1690, yr oedd llawer o filiynau o erwau yn cael eu defnyddio fel tiroedd cyffredin gan y bobl. Ond rhwng y blynyddoedd 1760 ac 1835, gwnaed cynnifer a 3,742 o ddeddfau seneddol, trwy ba rai y cafodd y tirfeddiannwyr gynnifer a 6,840,540 o erwau. O'r cwbl, ni adawyd i'r bobl ond 2,119 o erwau. Etto: o 1845 i 1877—sef, o fewn deuddeng mlynedd ar hugain—cymmerwyd oddi ar y bobl drachefn 600,000 o erwau. Ac yn ol adroddiad swyddol a gyhoeddwyd, rhanwyd 30,730 erw o'r holl swm rhwng 1,280 o glerigwyr. Cafodd arglwyddi y maenorydd hefyd 27,590 erw; a rhanwyd y gweddill, sef 541,680 erw, rhwng nifer o dirfeddiannwyr. Prisiwyd y tiroedd diweddaf hyn, sef y 600,000 o erwau yn unig, i 6,140,000*p.*—ond ni dderbyniodd y deyrnas ddim am danynt; nac am y saith miliwn o erwau, yn mron, a gauwyd i mewn cyn 1845. Trwy'r holl ymgiprys hwn am diroedd oedd yn eiddo y bobl, rhwng y tirfeddiannwyr a hwythau, ni chawsant hwy ond tua 14,107 o erwau—er mai eiddo y wlad oedd y cwbl!

Mewn hanes arall, gosodir y ffeithiau fel hyn. Yn 1685, o'r 37,000,000 o erwau oedd yn Lloegr a Chymru, yr oedd 18,000,000 yn aros heb eu cau i mewn; felly yr oedd tua hanner y wlad wedi ei meddiannu. Yn 1727, cauwyd tua 3,000,000 o erwau yn chwaneg; ac o hyny hyd 1835, trwy tua 4,000 o ddeddfau seneddol preifat, cauwyd tua 7,000,000 yn rhagor o erwau i mewn; ac er 1845, y mae dros 1,000,000 yn chwangol o erwau wedi eu meddiannu. Dyma 11,000,000 o diroedd y bobl wedi eu rhanu, yn mron oll, rhwng y tirfeddiannwyr yn yr ysbaid hwn. Pa faint o diroedd a gymmerwyd yn ddirgel gan y tirfeddiannwyr, neu trwy drais, heb law y rhai hyn, yn ngwahanol ardaloedd y deyrnas, nid oes neb a ŵyr! Ond oddi wrth yr hyn a wyddom, y mae yn rhaid fod y swm yn aruthrol o fawr. Ac os gofynir pa fodd y goddefodd Tŷ y Cyffredin i'r tirfeddiannwyr ysbeilio y bobl fel hyn? Yr atteb a roddir—ac y mae yn ddigon o eglurhâd ar y drwg—yw, mai tirfeddiannwyr yn unig, y pryd hwnw, oedd aelodau Tŷ y Cyffredin—a Thŷ yr Arglwyddi, hefyd, o ran hyny! Ni oddefid i neb eistedd yn Nhŷ y Cyffredin am 148 o flynyddoedd cyn 1859, os na byddai yn derbyn 300*p.* yn y flwyddyn, o leiaf, oddi wrth dai neu diroedd; a chan mai tirfeddiannwyr oeddynt oll, byddent bob amser yn dra gofalus am fanteision eu gilydd. Bu y cymmhwysder mor uchel a 600*p.* yn y flwyddyn i gynnrychiolwyr am y siroedd, am dymmor yn nheyrnasiad Victoria.

3. *Y mae y Tirfeddiannwyr yn gwrthod gwerthu Tir i'r Bobl i adeiladu Tai arno yn y prif Drefi a'r wlad, a'r Trethi yn cael eu taflu ar y Bobl.*—Trwy y deddfau presennol, hefyd, y mae y tirfeddiannwyr wedi llwyddo, yn nghorph y ddwy ganrif ddiweddaf, i daflu baich mawr y trethi ar y masnachwyr, y crefftwyr, a'r gweithwyr sydd yn byw yn y tai, tra y mae meddianwyr y tiroedd yn mron yn gwbl rydd oddi wrthynt. Gwrthododd y tirfeddiannwyr werthu y tir sydd dan y tai. Gan hyny, dan brydlesi yr adeiladwyd hwynt; a thaflwyd y trethi ar y bobl a chafodd y tirfeddiannwyr ddiangc.

Gellir gweled y caledi mawr o hyn oddi wrth y ffeithiau canlynol:—Dywedir fod gwerth eiddo y tirfeddiannwyr yn Llundain yn agos i bedwar cant ac ugain o filiynau o bunnau (418,000,000); ond mai gwerth yr adeiladau ar y tir ydyw dau cant a deuddeng miliwn (212,000,000*p.*)—tua hanner gwerth y tir. Ond nid yw perchenogion y 418,000,000 yn talu un dreth leol o'i mewn. Y cwbl y maent yn ei dalu at dreuliau y llywodraeth oddi wrth yr eiddo hwn ydyw treth yr incwm; yr hon nid yw ond tua 500,000*p.* yn y flwyddyn. Ond mae tenantiaid y 212,000,000*p.* nid yn unig yn talu treth yr incwm, a threth y

Digitized by Google

tai, ond y maent hefyd yn talu 5s. 3c. y bunt at y trethi lleol; yr hyn sydd yn 7,000,000p. yn y flwyddyn:—at ba rai, meddwn etto, nid ydyw y tirfeddiannwyr yn talu dim. Ac yn debyg i hyn y mae sefyllfa pethau trwy holl ardaloedd poblog y deyrnas.

4. *Tai yn cael eu hadeiladu ar brydlesoedd.*—Cynllun arall o eiddo y tirfeddiannwyr i orfodi y trigolion i dderbyn ammodau trymion wrth adeiladu tai ydyw hwn. Y mae llawer yn analluog i werthu darnau o dir, o herwydd fod y tiroedd wedi eu rhwymo ganddynt hwy, neu gan yr etifeddion blaenorol, fel yr amlygwyd dan y penawd *Deddf y Mab hynaf*. Gwrthoda eraill werthu os na chânt brisiau eithafol. Ond ceir prydlesi gan y naill a'r llall am nifer o flynyddoedd—dyweder, am 50, 60, 99, ac i fyny hyd 999. Y mae y rhenti blynyddol a godir am y darnau bychain hyn o dir yn dibynu ar y sefyllfa y byddant ynddynt. Yn rhai o ardaloedd y llechi, er engraifft, codir 1p., a mwy, am ddarn bychan o dir i adeiladu—yr hwn nas gellir rhoi arno ond ystafell fechan ar lawr yn wynebu y ffordd, a mynedfa gul yn ei hystlys i'r gegin, &c., fydd y tu cefn. Ac yn mhen, dyweder, 60 ml., fe syrth y tŷ i ddwylaw y tirfeddiannwr, er na thalodd efe geiniog tuag at ei adeiladu, na'i adgyweirio, drwy yr holl amser. Trwy y cynllun hwn, derbyniodd llawer tirfeddiannwr bob blwyddyn o 50p. i 150p. yr erw am dir mynyddig, creigiog, gwael, a hollol di-werth, yn mron.

Er rhoddi golwg bellach ar y drygau hyn, gellir dyweyd fod tua 600 o honynt yn Llanberis, a thros 100,000p. o arian y bobl wedi eu gwario i'w hadeiladu: a thua 2,500 yn Mlaenau Ffestiniog, ac o ddeutu 500,000p. o arian y bobl ynddynt. Ar y tiroedd hyn, y mae y tirfeddiannwyr yn cael o 70p. i 10 p. yr erw o rent yn flynyddol. Trigain mlynedd, ar gyfartaledd, ydyw hyd y prydlesi; ar ddiwedd pa rai y disgyn y tai i feddiant y tirfeddiannwyr. Nid yw hyn ond dwy engraifft sydd yn dangos pa fodd y mae hi mewn llawer o fanau eraill yn y wlad.

Yn y trefi mawr, y mae y rhenti a delir am y tiroedd sydd dan yr adeiladau yn cyrhaedd amryw filoedd yr erw yn y flwyddyn. Gormes annioddefol yw hon. Heb law hyny, er arbed rhenti uchel, gwesgir y tai at eu gilydd, fel nad oes le i'w hawyro yn briodol; ac nis gallant, o herwydd hyny, fod yn iach i'r rhai fydd yn byw ynddynt. Mae yn llawn bryd diddymu y deddfau sydd yn goddef y fath anghyfiawnder a gorthrwm, ac yn dwyn symiau aruthrol o arian i ddosbarth o bobl sydd yn digwydd meddiannu tiroedd yn nghymmydogaethau y trefi mawr—y rhai sydd wedi cynnyddu mewn gwerth trwy lafur ac ysbryd masnachol pobl eraill—heb eu bod hwy wedi gwneyd dim tuag at chwanegu at eu gwerth. Dyma yr hyn a eilw y Saeson yn *unearned increment*.

O amgylch y trefydd, hefyd, y mae yr ammodau dan ba rai y mae tiroedd i adeiladu i'w cael yn gyfryw, fel y mae pawb yn gwasgu yr adeiladau i le mor fach ag y gellir; gan fod y swm a godir gan berchenogion am bob llathen fydd o dan yr adeiladau yn fawr iawn. Dyma y prif reswm pa ham y mae adeiladau y prif drefydd mor gyfyng fel y maent yn anghysurus i'r trigolion fyw ynddynt, ac i gario eu masnach yn mlaen; a dyma'r achos hefyd paham y mae llawer tref heb ymeangu.

O dan brydlesi fel y rhai hyn y mae Llundain, yn mron yn gwbl, wedi cael ei hadeiladu. Y tenantiaid sydd wedi adeiladu y tai; hwy sydd yn drênio y dref, yn ei goleuo, yn cynnal yr heddgeidwaid, yn cynnal y tlodion, ac yn rhoi addysg i'r plant. Y maent, hefyd, yn adgyweirio y tai, ac yn prydferthu yr ystrydoedd a'r parciau. Gallesid meddwl gan mai hwy a adeiladodd y tai, fod ganddynt ryw fath o afael arnynt ar ol i'r prydlesi ddyfod i ben. Ond na! Mor fuan ag y bydd y prydlesoedd yn dyfod i'w terfyn, y mae y tirfeddiannwyr, er na chyfranasant ddim oll tuag at y treuliau uchod, yn dyfod ac yn meddiannu y tai! Yna, hwy a'u gosodant i'r bobl a'u hadeiladodd, ar yr ammod, fel rheol, eu bod yn talu pum gwaith cymmaint o rent am danynt! Ac os na foddlonant i'r telerau, rhaid iddynt adael y tai a adeiladwyd ganddynt hwy, neu eu perthynasau, i estroniaid gael byw ynddynt. Etto:—nid yw y tirfeddiannwyr yn talu trethi lleol, na threthi y llywodraeth ar y tiroedd, a'r ffermydd, a'r tai fydd heb eu gosod. Os bydd tyddyn neu dŷ yn wâg, y mae'r tirfeddiannwyr wedi amddiffyn eu hunain rhag talu trethi arnynt.

Y mae un ysgrifenydd yn rhoddi y ffeithiau canlynol am Lundain:—fod y tirfeddiannwyr yn derbyn un miliwn ar bymtheg o bunnau (16,000,000p.) yn y flwyddyn am fenthyg y tir sydd dan yr adeiladau sydd wedi eu hadeiladu dan brydlesoedd! ac mai y tenantiaid—nid y tirfeddiannwyr—sydd wedi gwneyd y tir corsiog siglenog sydd dan y ddinas yn ffynnonell o gymmaint o gyfoeth i'r tirfeddiannwyr! Heb law hyny, y mae chwanegiad yn cael ei wneyd at eu cyfoeth bob blwyddyn o tua phedair miliwn o bunnau (4,000,000p.), trwy fod tai newyddion yn cael eu hadeiladu ar y tir sydd o amgylch y ddinas—a hyn oll heb fod y tirfeddiannwyr yn gwario dim arno.

5. *Llawer o Diroedd heb gael eu trin o gwbl, ac yn cael eu defnyddio at gadw Helwriaeth.*—Wedi cael mesur tiroedd y rhanau a enwyd o'r deyrnas, mae'n angenrheidiol cael gwybod etto pa faint o honynt sydd dan driniaeth, fel y gellir gweled sefyllfa pethau yn well; a thrwy hyny, ffurfio barn gywirach ar y deddfau presennol, a'r angenrheidrwydd am ddiwygiad. Mesura holl diroedd Lloegr, 32,543,890 erw; ond nid oedd ond 24,844,688 o honynt dan driniaeth yn 1894; a chynnwys pob math o gnydau, braenar, a phorfa. Mesur holl dir Cymru mewn erwau yw 4,773,995:—dan driniaeth yn 1894, 2,856,955. Mae Ysgotland yn mesur 19,453,843 o erwau:—dan driniaeth yn 1894, 4,892,183 erw. Mesura yr Iwerddon 20,706,258 o erwau:—dan driniaeth yn 1894, 15,161,925 o erwau. Y mae Prydain Fawr yn mesur, ar ei phen ei hun, 56,771,728; ac o hyn, nid oedd ond 32,577,513 o erwau dan driniaeth; yr hyn sydd yn llai o 52,342 erw na'r flwyddyn flaenorol. Yr oedd y tiroedd oedd o dan driniaeth yn yr Iwerddon yn fwy yn y fl. 1894 nag yn y fl. 1893 o 16,794 o erwau. Y mae sir Fynwy, yn y cyfrifon uchod, yn cael ei chynnwys yn Lloegr. Felly y mae hi yn nghyfrifon y llywodraeth hyd yn hyn; a rhoddwyd hi felly yma er hwylusdod i gyfeirio ati.

Y mae dwy ffaith ddifrifol iawn yn y cyfrifon uchod:—Yn gyntaf, fod darnau mor fawr o dir yn Mhrydain a'r Iwerddon—sef, 29,751,489 o erwau—heb fod dan driniaeth. Mae hyn i'w briodoli mewn rhan fawr i'r mynyddoedd, ac i ammharodrwydd y personau y mae y tir yn eu

Digitized by Google

tenantiaeth dirol yn y deyrnas hon ydyw prif achos yr amrywiol ddrygau cymdeithasol sydd yn gwthio eu hunain ar sylw y cyhoedd yn awr; a thra y byddai i ymosodiad ar wraidd y cwestiwn feddyginiaethu y drygau hyny, ni wna ymdrin â hwynt bob yn un ond gwneyd yr hyn sydd yn ddyrysweh eisoes yn llawer mwy dyrus. Gosoder trefniadau y tir ar sylfaen gywir, a chaniatäer i lafur a chyfalaf ddylanwadu ar ein cyfleusderau naturiol—yna, yr holl anhawsderau hyn a ddiflanant.'

Y diweddar Broffeswr Blackie, yn ei ddull awgrymiadol ei hun, a ddywedodd:—'Yr ydym wedi gwneuthur llawn ddigon o ddeddfau i amddiffyn y tirfeddiannwyr a'r helwriaeth; a doethineb fyddai i ni yn awr wneyd ychydig o ddeddfau i amddiffyn y bobl.'

Gan gredu fod y syniadau uchod, a llawer o rai cyffelyb sydd i'w cael, yn gywir, ac yn dra phwysig, ni a symmudwn yn mlaen i ystyried pa beth y gellir ei wneyd er sicrhau y fath gyfnewidiad yn ein hamgylchiadau ag a groesawir gan bob dyngarwr; ac a ddwg gysuron lawer mwy nag sydd ganddynt i'r corph mawr o ddeiliaid y deyrnas. Os gellir llwyddo i syrthio ar brif linellau diwygiad, a'r rhai hyny yn agos i fod yn gywir, bydd yn hawdd eu llenwi i fyny â manylion pellach.

Y mae y cynnygion sydd wedi cael eu gwneyd, o bryd i bryd, i gyfarfod â'r drygau a nodwyd, a llawer sydd heb eu henwi, yn lliosog. Ni a enwn rai o honynt.

1. Dywed rhai y dylai y llywodraeth gyfranu tuag at leihau anghysuron y tlodion; ac y dylai awdurdodau lleol, megys y cynghorau plwyfol a chorphoraethau y dinasoedd, adeiladu tai i'r gweithwyr ar draul y dosbarth cyfoethocach o'r trigolion. Ni wnai y cynllun hwn ond esmwythau gofidiau y rhai sydd yn dioddef yn awr, gan ei fod yn gadael y drygau sydd yn eu hachosi heb eu symmud.

2. Meddyginiaeth arall y dadleuir drosti yn egnïol ydyw, y dylai y llywodraeth roddi pob cefnogaeth a chymmhorth i deuluoedd i ymfudo i wledydd tramor. Y canlyniad o hyn fyddai, fel y gŵyr pawb, mai y gweithwyr goreu yn y wlad fyddai yn ei gadael:—a byddai hyny yn golled fawr i'r deyrnas. Hefyd, nid oes digon o yni yn y gweithwyr gwaelaf i wneyd ymdrech egnïol yn y wlad hon; ac felly y byddent pe yr ymfudent i wledydd eraill. O herwydd hyn, ni dderbynia yr Unol Dalaethau, er engraifft, na threfedigaethau y deyrnas hon, na llawer o wledydd eraill, yr haen isaf o weithwyr i gartrefu yn eu mysg. Ac y mae i dirfeddiannwyr, a'u cyfeillion, sôn am ymfudiaeth yn afresymol, yn ngwyneb y ffaith addefedig y gallai tiroedd y deyrnas hon gynnyrchu llawer iawn mwy nag y maent, a rhoddi llawer mwy o waith i ddynion, pe y ceid ammodau tirol gwell nag sydd genym. Ni ddygai y cynllun hwn waredigaeth i ni. Pe y gellid llwyddo i berswadio can mil o weithwyr y trefydd i ymfudo y flwyddyn hon, llenwid eu lleoedd yn fuan gan eraill; gan fod y boblogaeth yn cynnyddu, ac ymfudiaeth o'r wlad i'r trefydd yn myned yn mlaen yn barhaus—a byddai llawer o'r newydd-ddyfodiaid yn fwy o bwysau ar y plwyfydd na'r rhai sydd wedi arfer bod yno.

3. Trefn arall sydd yn cael ei chymmhell yw, fod rhyw gynllun yn cael ei ddyfeisio i dalu blwydd-daliadau i bawb fydd yn cyrhaedd oedran neillduol. Gall hyn ymddangos yn ddymunol i'r hen bobl, druain, sydd yn dioddef yn awr. Ond rhaid ystyried yn ngwasanaeth pwy y buont yn llafurio—dan ba ammodau y buont yn byw, ac yn gweithio—a pha faint y byddai y tirfeddiannwyr eu hunain, oedd yn perchenogi y ffermydd, ac yn derbyn teyrnolion (*royalties*) oddi wrth yr holl weithfeydd glô, a mŵn, &c., yn debyg o gyfranu tuag at y draul, cyn y gellir cymmeradwyo y fath gynllun. Heb law hyny, nid ydyw cynnygiad o fath hwn yn amcanu at symmud y drwg; ac ofnwn na byddai ei ddylanwad yn gefnogol i weithgarwch a chynnildeb yn mysg llawer o'r gweithwyr fyddent yn disgwyl manteision oddi wrtho.

4. Dadleua eraill, y dylid rhoi mwy o awdurdod i warcheidwaid, i gyfranu yn helaethach at gynnaliaeth y tlodion; yn hytrach na'u bod yn cael eu cyfynga i'r ammodau presennol. Ond ni symmudai hyn yr achos o dlodi. Dylid cofio hefyd nad ydyw cyfundrefn y tlodion yn y deyrnas hon ond cynllun wedi ei ddyfeisio i leihau yr anghysuron sydd yn tarddu, yn benaf, o ddeddfau y tir; ac felly, dylid symmud yr hyn sydd yn achosi y drwg, i ddechreu.

5. Gwneir cynnygiad arall; sef, y dylid cefnogi rhaniad mwy cyffredinol ar berchenogaeth y tir, a gwneyd y perchenogion yn llawer mwy lliosog nag ydynt yn awr. Mewn trefn i gyrhaedd hyn, dywedant y dylai Deddfau Cyntafanedigaeth, a Deddfau Rhwymiad Tiroedd gael eu dileu. Y mae'n sicr y chwanegai hyn lawer at nifer y tirfeddiannwyr—ac y byddai yn welliant. Ond hwy fyddai meddiannwyr y tiroedd wedi hyny; ac y mae yn ddigon tebyg mai cyffelyb eu hysbryd fyddent i'r meddiannwyr presennol. Credwn nad oes welliant gwirioneddol i'w ddisgwyl trwy fod tiroedd yn meddiant personau—beth bynag fydd eu syniadau gwleidyddol. Dywedir yn fynych fod y meddiant o dir yn myned yn mhell i wneyd Rhyddfrydwyr yn Geidwadwyr; ac na buasai nifer y Ceidwadwyr ond ychydig pe baent heb feddu etifeddiaethau:—a chredwn ei fod yn wir.

6. Ynglŷn â hyn cynnygir hefyd, fod deddf yn cael ei gwneyd, yn darpar ffurf ratach i drosglwyddo tiroedd oddi wrth y naill berson i'r llall. Da fyddai hyn, yn ddiau; ond y mae gwreiddiau ein hanghysuron yn gorwedd yn llawer dyfnach.

7. Dadleua eraill, y dylid cael cyfundrefn i alluogi y rhai sydd wedi adeiladu tai ar diroedd prydlesol i orfodi y tirfeddiannwyr i werthu y tir iddynt ar ammodau rhesymol. Nis gall neb wadu na ddylai hyn gael ei wneyd; gan fod y deddfau yn awr yn eithafol o ormesol. Ond y mae arnom angen llawer mwy na hyn.

8. Gobeithir gan rai y gellir trefnu ymwared i'r tirfeddianwyr a'r tenantiaid trwy sicrhau i'r tirfeddianwyr yn y dyfodol yr un symiau o arian oddi wrth y tir ag a dderbyniant yn awr, wedi talu pob costau ynglŷn âg ef; ac y gellid felly ei drosglwyddo i'r goron heb leihau dim ar gysuron y tirfeddiannwyr. Y mae hyn yn wir, mor bell ag y mae a wnelo â hwy. Ond pa ymwared a ddeuai i'r tenantiaid o hyny—sydd yn griddfan dan ardrethi yr addefir gan bawb eu bod yn llawer rhy drymion? Heb law hyny, os bydd yr amaethwyr, fel corph, yn methu talu eu ffordd—fel y maent yn sicr o fethu, gyda'r rhenti a'r prisiau presennol—a ydyw y dosbarthiadau eraill o ddeiliaid y deyrnas i wneyd

eu colledion i fyny? Y mae y cynnygiad ynddo ei hun yn ynfydrwydd hollol. Felly hefyd y mae yn rhaid iddi fod gyda'r tirfeddianwyr. Gan fod y tiroedd wedi lleihau yn fawr mewn gwerth hefyd, y mae yn rhaid iddynt hwythau ddioddef y golled—fel y dioddefa y tenantiaid. Ac o'r ddau ddosbarth, yr amaethwyr sydd yn teilyngu ein cydymdeimlad mwyaf.

9. Cynnygiad arall a wneir yw, fod y tirfeddiannwyr yn cael eu gadael, fel y maent yn awr, yn y meddiant o'u tiroedd; ond fod treth newydd o 4*s*. y bunt (fwy neu lai) yn cael ei gosod arnynt; ac i'w thalu ganddynt hwy, ac nid gan y tenantiaid, yn ol rhenti presennol y tiroedd. Ac ond cael hyn, dadleuir y byddai rhan fawr o drethi y deyrnas yn cael eu symmud oddi ar y dosbarthiadau eraill sydd yn eu talu yn awr, ac yn cael eu gosod ar gefnau y tirfeddianwyr. Y mae hyn yn wir. Ac wrth ystyried fel y daethant i feddiant o'r tiroedd; yr ammodau dan ba rai y mae treth y tir wedi ei gosod, ac yn cael ei chasglu drwy y blynyddoedd; ac hefyd mor leied y mae y tirfeddianwyr, fel dosbarth, yn talu o drethi ynglŷn â'r tiroedd yn awr, byddai galw arnynt i dalu 4*s*. y bunt yn y flwyddyn ar y rhenti, fel y telir hwynt y blynyddoedd hyn, yn ddigon cyfiawn a theg. Ond pe y gwneid hyny, yr unig ganlyniad fyddai lleihau trethi y dosbarthiadau eraill. Byddai holl ddrygau mawr ein cyfundrefn dirol yn aros. A dylid cofio hyn—os gallai llawer o honynt, codent renti eu tenantiaid yn gyfattebol i swm y dreth newydd. Nis gellir ammheu hyn; o blegid y mae rhai o honynt, yn y blynyddoedd gwasgedig diweddaf, wedi mynu codi y rhenti—pan y mae yr amaethwyr yn mron yn methu byw, ac yn talu y rhenti o'u cyfalaf. Rhaid felly cael cynllun llawer mwy effeithiol i gyfarfod cwynion yr holl wlad na gosod treth newydd ar y tirfeddiannwyr.

Yr ydym yn ofni y profid yn fuan y byddai yr holl gynnygion a'r cynlluniau uchod yn aneffeithiol i symmud y drygau mawr ac amrywiol y cwynir rhagddynt, ac i sicrhau hyny o gysuron a llwyddiant i holl ddosbarthiadau y deyrnas ag y gallant yn rhesymol eu disgwyl, a'u hawlio. Mae eu hawdwyr oll, fel y gwelir, am adael y tiroedd yn feddiant i bersonau unigol; ond y mae pawb, yn mron, a ystyrir yn awdurdod ar y cwestiwn yn gryf o'r farn mai eiddo y deyrnas—neu mewn geiriau eraill, mai eiddo y bobl ydynt; ac mai yn nwylaw y goron, fel cynnrychiolydd y deiliaid, y dylai yr holl diroedd fod.

### IX. Cynnygiad arall am Ddiwygiad.

Gan mai eiddo y deyrnas ydyw y tiroedd, gellir tybied na ddaw pethau byth i'w lle nes y dychwelir hwythau i'w lle—yn feddiant gweithredol i'r deyrnas, fel y gellir gwneyd y defnydd goreu o honynt er lles y boblogaeth yn gyffredinol. Trwy hyn, ni byddai meddiant personol o diroedd o gwbl. Ac felly, byddai tiroedd y deyrnas yn rhydd o afael y tirfeddianwyr, fel y gellid eu cael at adeiladu, at welliantau—ac mewn gair, at bob amcan daionus, a hyny ar delerau rhesymol, heb fod y tirfeddianwyr yn gallu sefyll ar ffordd gwelliantau angenrheidiol, fel y gwnant yn awr, os na chânt eu boddloni â phrisiau eithafol o uchel am y tir, neu am y cyfleusderau a ofynir. Yn ol hyn, meddwn etto, byddai y meddiant personol o'r 'tiroedd' yn darfod, a'r tiroedd yn wirioneddol, yn gystal ag mewn egwyddor, yn myned yn eiddo i'r goron—a byddent yn llawer mwy hwylus i'w cael nag yn awr, i'w defnyddio er lles y deiliaid yn gyffredinol.

Pa fodd y gellir cyrhaedd yr amcan hwn? Yr ydym yn teimlo gradd o bryder yn ein meddiannu wrth feddwl cyflwyno yr awgrymiadau canlynol i sylw. Y mae y cwestiwn mor lawn o hawliau amrywiol, dyrus, a chymmhlethedig ag y gellid eu disgwyl ynglŷn âg unrhyw beth sydd wedi bod yn nwylaw y tirfeddianwyr, a'r cyfreithwyr, am gynnifer o ganrifoedd. Er hyny, anturiwn, beth bynag fydd y canlyniad. Os nad ystyrir hwy o unrhyw werth yn mhenderfyniad y cwestiwn, ni bydd un drwg wedi ei wneyd, ni gredwn; a byddwn ninnau yn teimlo yn dawel wrth feddwl ein bod wedi cyfranu 'ein hatling' tuag at geisio gosod tiroedd y deyrnas dan ammodau mwy manteisiol i'r wlad yn gyffredinol; a gwneyd cyfiawnder ar yr un pryd—a chyfiawnder wedi ei ymylu â thrugaredd—â'r dosbarth mawr a chyfoethog sydd mewn meddiant o honynt yn awr.

Heb law yr ystyriaethau sydd yn codi yn naturiol o'r cwestiwn ei hun, nis gall neb wadu nad ydyw y pellder mawr sydd rhwng y dosbarthiadau cyfoethocaf a thlotaf yn y deyrnas hon yn mron yn anfesurol; a bod yr anghysuron sydd yn tarddu o hono yn ddirifedi, ac yn bygwth sefydliadau y deyrnas. Y mae pob gwir ddyngarwr, ac yn enwedig pob Cristion, yn ei deimlo i'r byw; ac yn hiraethu am gael golwg ar ryw gynllun a duedda i wastatau rhyw gymmaint ar y mynyddoedd o gyfoeth, a'r dyffrynoedd isel, a'r nentydd tywyllaf o dlodi sydd yn ein mysg. Pa mor bell y gall y cyfnewidiad y gwelir ei brif linellau yn y sylwadau canlynol gynnorthwyo i gyrhaedd yr amcan, rhaid gadael hyny at farn eraill.

Er gweithio allan y cynllun hwn o ddiwygiad, tybir y bydd raid rhanu eiddo tirol y deyrnas yn ddwy ran; sef, yr hyn sydd i'w adael fel y mae yn bresennol, a'r hyn y dylid ei drosglwyddo o feddiant y tirfeddiannwyr i'r goron. Ni a sylwn, gan hyny ar—

1. *Y Tiroedd na chynnygir cyffwrdd â hwynt.*

1af, Y tiroedd rhydd-ddaliadol (*freehold*), a'r tai, y gerddi, a'r buarthau, a'r adeiladau perthynol iddynt, sydd o fewn i'r holl ddinasoedd a'r trefi, a'r llanau—bychain a mawrion. Ni chynnwysir yn hyn y tai sydd wedi eu hadeiladu ar diroedd prydlesol.

2il, Y tiroedd rhydd-ddaliadol, ar ba rai y mae palasau, mawrion a bychain, a thai llai, wedi eu hadeiladu, a'r gerddi, a'r buarthau perthynol iddynt, sydd yn feddiant i'r personau sydd yn byw ynddynt, beth bynag fydd eu maint. Y mae y rhai hyn yn gorwedd yn y wlad—y tu allan i linellau y trefi a'r llanau.

3ydd, Ffermydd palasau y boneddigion; hyny yw, yr *home farms*, fel eu gelwir—un fferm i bob palas, mawr a bach.

Gadewir y rhai uchod oll y tu allan i'r cynllun; o blegid nis gellir disgwyl un fantais i'r wlad yn gyffredinol oddi wrth unrhyw gyfnewidiadau y gellid eu dyfeisio ynglŷn â hwynt. Heb law hyny, byddai yn afresymol, a braidd yn greulondeb, i aflonyddu ar drefniadau o'r fath—y rhai a wnaed ar draul fawr, ac a fwriadwyd i fod yn gartrefi parhaus iddynt hwy, a'u plant. Gyda chynllun o fath hwn, dylid ymgadw rhag cyffwrdd â threfniadau teuluaidd a

Digitized by Google

phersonol, os na bydd llwyddiant cyffredinol y deyrnas yn galw am hyny. Credwn y gellir gadael yr uchod allan o'r cynllun heb achlysuro nac anfantais na cholled i'r wlad yn gyffredinol. Ac o'r tu arall, ymgedwid drwy hyny rhag cyffwrdd â threfniadau a chysuron lluosog.

Gan y bydd llawer o diroedd, yn ol y cynllun uchod, yn cael eu gadael yn nwylaw eu meddiannwyr presennol, dylid gofalu, os digwydd i rai o hynynt fod ar werth, mai i'r deyrnas yn unig y gellir eu gwerthu rhagllaw.

Yr ydym yn awr yn symmud at yr ail ddosbarth o diroedd a enwyd; sef,

2. *Y Tiroedd y dylai y deyrnas eu meddiannu.*

1af, Yr holl diroedd amaethyddol o bob math a ddelir gan denantiaid, a'r holl diroedd cyffredin, a'r mynyddoedd, a'r bryniau—mewn gair, holl diroedd y deyrnas sydd dan driniaeth, ac heb fod yn cael eu trin, nad ydynt yn gynnwysedig yn y dosbarthiadau uchod.

Y cynnygiad syml gyda'r tiroedd hyn yw, eu bod oll i gael eu prisio yn deg—a bod y perchenogion i gael tal am danynt, yn ol eu gwir werth—a'u bod oll i gael eu trosglwyddo i'r goron! Dyma yr unig feddyginiaeth a weithia ei ffordd at wreiddyn y drygau y cwynir rhagddynt. Ar hon yn unig, ni dybiwn, y gellir cael sylfaen gadarn i lwyddiant dyfodol y wlad. Heb hyn, nis gallwn weled pa fodd y gellir sicrhau y gwelliantau gofynol; sef, ffermydd i'r amaethwyr ar ammodau y gallant dalu eu ffordd—gwaith i'r crefftwyr a'r llafurwyr yn yr ardaloedd amaethyddol—masnach well yn holl ranau y wlad—a chyfleusderau gyda hyny i gael tiroedd i ffurfio mân-dyddynod i'r gweithwyr, ar delerau y gallant hwythau dalu am danynt—gyda lluoedd o fanteision eraill o'r un natur. Os mynir y pethau hyn, sydd yn hanfodol angenrheidiol i lwyddiant sicr a pharhaol y deyrnas, goddefer i ni ddywedyd etto, nas gallwn weled un ffordd arall i'w cael, ond trwy gael deddf i awdurdodi y trosglwyddiad o'r holl diroedd hyn o feddiant y tirfeddiannwyr presennol, i'r deyrnas. Bydd pob cynllun arall, ni gredwn, yn aflwyddiannus i sicrhau gwelliant cyffredinol i holl ddosbarthiadau y wlad.

Dylai yr ammodau fod yn berffaith deg i'r ddwy blaid. Bydd raid i'r prisiad fod ar bob maes, a fferm, ar ei phen ei hun, a phob caeau eraill sydd heb fod yn rhanau o ffermydd. Ni ddylid ystyried hyn yn ormod gorchwyl. Y mae wedi ei wneyd yn y blynyddoedd 1836, &c., ynglŷn â degymau y wlad; ac y mae hyn yn achos annhraethol mwy pwysig. Am y prisiad, dylai gael ei sylfaenu ar werth y gwahanol ydau yn y marchnadoedd, ac ar brisiau yr ymenyn, a'r caws, a'r cigoedd gwahanol, &c., am y flwyddyn neu y blynyddoedd o'r blaen—y manylion am ba rai y gellir yn hawdd eu cael yn ystadegau y llywodraeth. Hefyd, dylid cofio yn y prisiad am sefyllfa yr adeiladau, a'r adgyweiriadau angenrheidiol ynddynt, gan y bydd raid i'r amaethwyr eu cadw mewn cywair dda o dan y fath drefn a hon. Etto:—gan y bydd y ffermydd i gael eu gosod i denantiaid, dylai y prisiad arnynt fod yn gyfryw ag y gallant hwy fyw yn gysurus ynddynt, a thalu am danynt; onid ê, bydd trosglwyddiad y tiroedd yn golled i'r deyrnas, trwy fod yr amaethwyr yn gwrthod eu trin—yr hyn fyddai yn anghyfiawnder â'r dosbarthiadau eraill o'r deiliaid. Mewn trefn i wneyd tegwch â'r tair plaid—o blegid dylai y tirfeddiannwyr gael tegwch, yn gystal a'r tenantiaid, a'r goron—gellir pennodi prisiwr neu ddau gan bob un o'r tri, a'u hawdurdodi i bennodi canolwr, yn ol y drefn arferol. A'r llôg ar swm y prisiad fydd rhent bob fferm—a phob tiroedd eraill hefyd.

Yn ol hyn, caiff y tirfeddiannwyr lawn werth eu tiroedd, yn ol prisiau y cynnyrchion amaethyddol:—ac ni bydd ganddynt felly un achos i gwyno. Caiff yr amaethwyr eu ffermydd hefyd am renti teg—ac ni bydd ganddynt hwythau felly un achos i gwyno. Bydd y rhenti a dderbynir am y ffermydd yn llawn ddigon i dalu y llôg, fel na bydd y golled leiaf i'r deyrnas oddi wrth y cyfnewidiadau hyn. Ac er cyfarfod â'r draul o weithio y cynllun allan, gellid codi 3*p*. y cant yn y flwyddyn ar y prisiad, fel rhenti y ffermydd. Y llôg a delir gan y deyrnas yn awr ar Gyssoddion (*Consols*) yw 2*p*. 15*s*. y cant. Bydd y gwahaniaeth hwn, o 5*s*., yn debyg o fod yn llawn ddigon i dalu pob treuliau perthynol i'r cynllun. Yn 1903, bydd y llôg ar Gyssoddion y deyrnas yn disgyn o 2*p*. 15*s*. i 2*p*. 10*s*. y cant. Gellid felly ostwng y rhenti 5*s*. y cant y pryd hyny ar swm y prisiad; neu gadael i swm y llôg a delir i'r tirfeddiannwyr barhau yn ol 2*p*. 15*s*. Amgylchiadau y dyfodol a benderfynant hyn oreu.

Dylai hyn fod yn ammod i'r amaethwyr—fod y tiroedd i barhau yn eu dwylaw o genhedlaeth i genhedlaeth, tra y byddant hwy yn eu trin yn briodol, yn cadw yr adeiladau mewn cywair dda, ac yn talu y rhenti a'r trethi yn gysson. Ond pan y bydd teulu yn darfod yn llwyr gyda thyddyn, gall cynnygion gael eu gwahodd am gael myned iddo—a chynnygydd rhesymol i'w gael; a bod y tyddyn hwnw yn cael ei osod i'r tenant newydd am yr un rhent a'r tenant blaenorol. Y swm a dderbynir am gael myned i mewn iddi, i'w roddi oll i berthynasau agosaf yr hen denant; neu ynte, i'w ranu rhyngddynt a'r llywodraeth—bob un i gael yr hanner.

2il, *Y Teyrnolion ar Fwnau o dan Diroedd Rhydd-ddaliadol*.—Nid llawer o wahaniaeth sydd rhwng y rhai hyn a'r maenorydd, o ran y modd y cafwyd awdurdod ar y mwnau. Ond dylid talu tuag wyth gwaith y swm a dderbyniant oddi wrth y teyrnolion am flwyddyn—fel y cynnygir gwneyd gyda theyrnolion y maenorydd. Wedi gwneyd hyn, ac i'r wyth mlynedd ddyfod i'r pen, gallai y llywodraeth benderfynu gostwng ammodau y teyrnolion; a'u gwneyd yn un ran o ugain, neu bump-ar-hugain, yn lle un ran o ddeuddeg, fel y maent mewn llawer o weithfeydd yn awr—ac yn galetach na hyny. A chan y byddai yr holl diroedd yn eiddo i'r goron, ni byddai eisieu talu dim am fyned dan y ddaear, o'r naill waith i'r llall. Byddai y cyfnewidiadau hyn yn fantais mawr i berchenogion y gweithfeydd presennol, ac yn eu galluogi i dalu cyflogau gwell i'r dynion. A byddai gyda hyny yn gymmhelliad cryf i gwmniau ymgymmeryd âg anturiaethau newyddion, yn mha rai y gallai llawer yn rhagor o weithwyr gael gwaith.

3ydd, *Y Maenorydd* (*Manors*); sef, y tiroedd sydd yn meddiant arglwyddi y maenorydd (*the lords of the manors*). Ni thalodd y boneddigion hyn, fel rheol, erioed ddim i'r deyrnas am y tiroedd. Maent wedi derbyn symiau aruthrol oddi wrthynt, ac o deyrnolion (*royalties*) am y glô, a'r metteloedd gwahanol a godwyd o honynt yn mhob man, ac am diroedd ar lanau yr afonydd a'r môr. Dylid trosglwyddo yr holl

diroedd a'r metteloedd hyn i'r goron, gyda'r holl diroedd y cyfeiriwyd atynt ddiweddaf—yn y dosbarthiad cyntaf. A chyda hyny, dylid mynu cael yn ol i'r deyrnas yr holl diroedd y maent hwy eu hunain wedi eu cau i mewn, a'u meddiannu wrth eu swydd. Ac wrth ystyried pob peth, nid ydym yn gweled y dylid talu iddynt o gwbl am na'r maenorydd, na'r teyrnolion, na dim arall sydd yn eu meddiant fel arglwyddi y maenorydd. Ond gwell fyddai gwneyd cyttundeb rhyddfrydig o du y deyrnas â hwynt; a thalu tuag wyth gwaith yr holl swm y maent yn ei dderbyn mewn blwyddyn oddi wrthynt. Byddai yr effeithiau a'r canlyniadau dymunol a ddeuent o'r cyfnewidiadau hyn yr un a'r rhai a nodir dan y penawd diweddaf—'Y Teyrnolion dan Diroedd Rhydd-ddaliadol.'

Nis gellir gwadu nad ydyw arglwyddi y maenorydd, gydag ond ychydig iawn o eithriadau, wedi arddangos rhaib anniwall am y tiroedd, a chreulondeb tuag at dlodion a godasant fythynod arnynt, ac a gauasant erwau bychain yn nglŷn â hwynt o'r tiroedd cyffredin, fel nad oes ond ychydig o barch iddynt, fel rheol, drwy yr holl siroedd. Nid ydym yn dadleu fod gan y tlodion hawl i'r cyfryw, fel y mae y deddfau yn awr; ond credwn y dylesid ymddwyn yn llawer mwy tirion at y gweithwyr a'r tlodion nag a wnaeth yr arglwyddi hyn ar lawer amgylchiad.

4ydd, *Yr Afonydd a'r Llynau.* Fel hyn y saif y ddeddf yn awr:—Os bydd gŵr yn meddu tir ar un ochr i afon, neu lyn, y mae efe yn meddu hawl i'w hanner iddo ei hun. Ond os bydd ei dir ar y ddwy ochr, y mae yn meddu hawl i'r afon, neu i'r llyn, i gyd. Meddiannodd y tirfeddiannwyr y cwbl gyda'r tiroedd. Ond yr oedd gan y cyhoedd hawliau arnynt cyn i'r tiroedd o'u hamgylch gael eu cau i mewn; ac felly i'r ffyrdd, a'r llwybrau hefyd. Mae'r tirfeistri wedi meddiannu y ddaear o dan y llwybrau a'r ffyrdd, yn gystal a than yr afonydd a'r llynau. Pe y ceid rhyw fetteloedd danynt, hwy fyddai eu perchenogion; ond gelwir ar y cyhoedd i'w cadw mewn cywair dda. Yn nechreu y ganrif hon, yr oedd yr afonydd a'r llynau drwy'r wlad, yn mron, yn rhydd i'r neb a fynai bysgota ynddynt; ond y mae y tirfeddiannwyr wedi eu cau er's blynyddoedd, fel na chaniateir i neb bysgota ynddynt heb eu caniatâd. Dylai yr afonydd a'r llynau oll gael eu dwyn yn ol i'r bobl—o'r mynyddoedd i'r môr—gyda'r tiroedd, fel y cafodd y tirfeistri hwynt gyda'r tiroedd. Os gwariasant arian arnynt, dylid ystyried gwerth yr hyn a wnaed, a pha un a ydynt yn welliantau, ai nid ydynt—a thalu iddynt yn ol eu gwerth. Ar ol hyny, dylai y bobl gael pysgota ynddynt am daliadau blynyddol rhesymol, a thenantiaid y ffermydd gael rhan o'r arian at y drespas.

Y mae yn ddiddadl fod y tirfeddiannwyr fel dosbarth, trwy eu meddianniad o'r mynyddau, yr afonydd, a'r llynau, yn gyfrifol am lawer o'r meddwdod a'r afradlonedd sydd yn y wlad. Os bydd gweithiwr heb waith, a'i deulu mewn angen, ni all efe fyned hyd yn oed i'r mynydd i chwilio am wningen, nac at lan afon i bysgota, na chymmerir ef i fyny. O'r tu arall, os bydd gartref, bydd ar fforddd y wraig a'r plant. Gan hyny, nid oes ganddo ond cerdded y ffyrdd a'r llwybrau—neu fyned i'r tafarnau. A chan na bydd yn dymuno ymddangos fel segurddyn, i'r dafarn y bydd yn myned. Yno y cafodd llawer dyn sobr, a gweithiwr da, flâs ar yr hyn a ddinystriodd ei gymmeriad, ei gysuron teuluaidd, a llawer mwy na hyny:—a'r tirfeddiannwyr, fel dosbarth, sydd, mewn modd anuniongyrchol, yn gyfrifol am y cwbl.

5ed, *Tiroedd Prydlesol o dan Dai.*—Rhaid cael y tiroedd hyn hefyd yn rhydd o afael y tirfeddiannwyr. Yn marn llawer sydd yn deall y cwestiwn hwn, y mae wyth neu ddeg rhent y tir sydd mewn prydles (y *ground rent*, fel ei gelwir), yn llawn ddigon o dâl am dano i'r tirfeddiannydd, pa nifer bynag o flynyddoedd y brydles fydd heb redeg allan.

Gall llawer feddwl ein bod, yn y sylwadau blaenorol, ar brydiau, wedi ysgrifenu yn rhy gryf ar berthynas tirfeddiannwyr y blynyddoedd a'r canrifoedd o'r blaen â'r tiroedd. Ond os caiff y ffeithiau a roddasom eu hystyried yn fanwl ac yn ddiduedd, credwn y gwelir ein bod wedi cadw o fewn terfynau hynod gymmedrol. Dyma fel y gofynir dau gwestiwn cyrhaeddgar—anattebadwy, hyd yn hyn—gan un oedd wedi ei argyhoeddi fod camwri gwaradwyddus wedi cael ei wneyd â meddiannau y bobl—ac yn cael ei wneyd yn fynych hefyd y dyddiau hyny:—

> Why prosecute the man, or woman,
> Who steals the goose from off the common,
> And leave the greater felon loose
> Who steals the common from the goose.

Yn Gymraeg, y mae yn debyg i hyn:—

> Pam gosbir gŵr, neu wraig, yn erwin,
> Am ddwyn yr ŵydd oddi ar y comin?
> Gan arbed lleidr mwy yn rhwydd,
> Sy'n dwyn y comin 'ddiar yr ŵydd?

ATTEBION I GWESTIYNAU, WEDI EU SEILIO AR Y CYNLLUN DIWEDDAF.

1. Os gofynir, Pa fodd y telir am danynt? Yr atteb yw, na bydd raid i'r deyrnas dalu mewn arian am danynt, gan y gall hi greu Cyssoddion Tirol (*Land Consols*), neu ryw drefn gyffelyb, a thalu am danynt yn y nodau hyny, ar ba rai y telir llôg rhesymol—yn ol y drefn sydd eisoes mewn arferiad cyffredin yn y deyrnas hon.

2. Etto:—Pa fodd y gweithir y cynllun hwn allan? Gellir gwneyd hyny, ar ol rhoi pob peth mewn trefn, drwy y cynghorau sirol. Dylid gofalu na bydd yn cael ei ymddiried i ddwylaw swyddogion y llywodraeth, er mwyn gwylio rhag bod cam yn cael ei wneyd â neb drwy eu ffafraeth hwy! Pe y gweithid ef allan gan y cynghorau sirol, gellid galw sylw cyhoeddus yn y cynghorau at bob achos y byddai amaethwr yn cael cam. A chyn y gellid ei droi o'i fferm ar unrhyw esgus, dylai y ddeddf ei amddiffyn, trwy roddi hawl iddo appelio, os ewyllysia, at y cynghor sirol, neu at y llys sirol. Byddai hyn yn llawer gwell amddiffyniad iddo nag a fedd efe yn awr.

3. Cwestiwn a ofynir gan lawer, mae'n debyg, ydyw y canlynol:—A droid yr amaethwyr presennol o'u ffermydd dan y fath gynllun a hwn? Na wneid; a dylid gofalu fod y ddeddf yn darparu fod ei fferm i fod yn sicr i bob amaethwr tra y bydd efe yn ei thrin yn dda, ac yn talu y rhent yn gysson, a'r gofynion eraill, ac yn cadw yr adeiladau mewn cywair briodol. Bydd raid i hyn gael ei osod uwch law pob amheuaeth, gan ei fod yn anhebgorol er sicrhau ymroddiad yr amaethwyr i ddwyn y swm mwyaf o gynnyrch o'u ffermydd. Bydd ei fferm

felly i bob amaethwr fel etifeddiaeth, ac i'w deulu ar ei ol—a hyny am rent y gellir ei thalu, a byw yn llawer mwy cysurus nag a wneir yn awr; a hyny heb ofni na cheidwad helwriaeth, na goruchwyliwr, na neb. Gall' yntau fagu helwriaeth, neu beidio, o fewn ei fferm ei hun, fel yr ewyllysia, heb i fygythion neb ei ddychrynu.

4. Gofynir cwestiwn arall, mae'n debyg; sef, Pa beth a wneir â'r ffermydd mawr? A renir hwynt? Ni bydd hyny yn angenrheidiol; o blegid bydd yr amaethwyr yn y ffermydd mawr, fel rheol, yn debyg o ofyn i'r awdurdodau am ganiatâd i neillduo darnau o honynt ar gyfer eu plant. Rhenir hwy felly heb aflonyddu dim ar deuluoedd y wlad. Yr ydym yn cydolygu â'r diweddar Mr. Cobden ar hyn. 'Nid oes genym hawl (meddai efe) i benderfynu fod fferm o un maintioli yn well nag o faintioli arall. Ein lle ni ydyw gadael i'r bobl gael allan iddynt eu hunain pa beth sydd oreu er eu lles.' Dylid eu gadael fel y maent i gychwyn; ac yna hwy a newidiant eu maint a'u ffurf o honynt eu hunain, yn ol fel y bydd anghenion gwahanol y teuluoedd a'r wlad yn galw am hyny.

5. Gofynir hefyd, Pa fodd y ceir tiroedd i fân dyddynod? Attebwn hwn etto fel y canlyn:—Pan y bydd fferm yn wâg, trwy farwolaeth neu ymneillduad amaethwr, a'i wraig, os byddant heb blant fydd yn dymuno ei chael, gellir neillduo cae, neu ragor, o honi, yn ol fel y bydd yr alwad am fân dyddynod. Heb law hyny, nid anhawdd fydd cael maes o fferm fawr yn mhob ardal yn mron at yr amcan, os na bydd fferm yn digwydd myned yn wâg.

6. Am yr arwystlon (*mortgages*) sydd ar etifeddiaethau a ffermydd, gofyna rhywun arall—Os bydd prisiad etifeddiaethau a ffermydd yn llai na swm yr arwystlon fydd arnynt, pa beth fydd i'w wneyd? Dim, ond gadael i berchenogion yr arian ddioddef y golled. Nid oes a fyno y wlad â gwneyd i fyny y fath ddiffygion, mwy nag sydd a fyno hi â gwneyd diffygion i fyny i fasnachydd fydd wedi prynu defnyddiau dillad, er enghraifft; a'r rhai hyny, o herwydd rhywbeth neu gilydd, wedi myned yn llai o werth.

7. Dyma un arall—Y mae llawer etifeddiaeth â thaliadau blynyddol wedi eu gosod arnynt i chwiorydd yr etifeddion presennol. Yn ol y cynllun blaenorol, mae'n debyg na bydd swm y llôg a dderbynir ar brisiad llawer etifeddiaeth yn gadael dim yn weddill i'r meddianydd; ac fe allai na bydd yno ddigon i dalu y symiau blynyddol dyledus i'w chwiorydd. Os felly, bydd hyn yn galed â'r etifedd. Yr ydym yn addef y bydd. Ond gellir unioni pethau rhyngddynt, drwy fod rhan yr etifedd, a rhan y chwiorydd, yn cael eu gwastatau yn ngwyneb y swm a dderbynir am yr etifeddiaeth, o'i gymmharu â gwerth tebygol yr etifeddiaeth pan wnaed yr ewyllys, neu y weithred, yn sicrhau y taliadau hyn i'r merched. Gellir rhoddi darpariaeth i awdurdodi hyny yn y ddeddf.

8. Bydd rhai, yn ddïau, yn cwyno y bydd y canlyniadau yn golledus mewn llawer amgylchiad ynglŷn âg etifeddiaethau y wlad. Yr ydym yn addef hyny—ond nis gellir gwneuthur hyd yn oed gyfnewidiadau dibwys mewn cylchoedd bychain, heb beri anghysuron i rywrai. Ond credwn na bydd anghysuron y tirfeddiannwyr, a'u perthynasau, yn ddim mewn cymmhariaeth i'r caledi ofnadwy, a'r anghysuron a ddioddefir gan bob dosbarth o fewn y deyrnas, o'r bron, dan y deddfau presennol. A chan mai eiddo y wlad ydyw y tiroedd, nid yw ond cyfiawnder â'r wlad iddynt gael mwynhau y swm mwyaf o gysuron y gallant ei gael oddi wrthynt. A dylid cofio, gan y bydd y tirfeddiannwyr yn cael gwir werth eu hetifeddiaethau, na bydd un cam yn cael ei wneyd â hwynt.

9. Codir gwrthddadl arall, yn ddïau, yn erbyn y cynnygion hyn; sef, eu bod, os mabwysiedir hwynt, yn debyg o leihau llawer ar y gwahaniaeth presennol sydd rhwng teuluoedd y dosbarth uchaf a'u gilydd; a pheri, yn y pen draw, fod y pellder rhwng y cyfoethogion a'r tlodion yn cael ei leihau yn fawr—er nad ei ddiddymu. Y mae llawer yn credu mai dynion yn meddu cyfoeth lawer, etifeddiaethau eang, a phalasau gwych, a'r cyffelyb, sydd yn cyfansoddi mawredd Prydain; ac mai hwynt-hwy ydyw y ffynonell fawr o'r hon y mae cysuron a llwyddiant y wlad yn tarddu. A chan y cyfryw, ystyrir mai colled fawr i'r deyrnas fyddai fod y cyfoethogion hyn yn myned yn llai o nifer, a'u hetifeddiaethau yn cael eu chwalu—yn hytrach nag yn cael eu cadw yn meddiant y meibion hynaf, fel yn awr. Camgymmeriad mawr a lled gyffredinol ydyw hwn; ond y mae'n dda genym feddwl fod y syniadau hyn yn prysur ddiflanu; a bod egwyddorion trefnidedd gwladol yn cael eu deall yn well yn awr nag yr oeddynt bump-ar-hugain o flynyddoedd yn ol. Erbyn hyn, y mae yn ddealledig, yn mron gan bawb, mai y dosbarth sydd yn gweithio ac yn cynnyrchu, a'r dosbarth sydd yn anturio eu harian mewn gweithfeydd, ac yn darparu gwaith i ddynion—mai dyma y bobl trwy ba rai y mae cyfoeth y wlad yn cael ei chwanegu, a'i chysuron yn cael eu hamlhau. A phan ystyrir nad ydyw ein tirfeddiannwyr, fel rheol, yn perthyn i un o'r ddau ddosbarth hyn; a bod nifer mawr o honynt gyda hyny yn codi rhenti eithafol am eu ffermydd, ac yn gwario eu harian oddi allan i'r cylchoedd y maent yn eu derbyn o honynt, y mae gwerth y tirfeddiannwyr a'r cyfoethogion i'r wlad yn myned yn fychan iawn. Mae'n ofidus genym wneyd y sylwadau hyn; ond ffeithiau ydynt y cwynir rhagddynt yn mhob ardal, yn mron. Fel sylw pellach ar yr wrthddadl hon, dywedwn hyn—er y bydd y drefn bresennol gyda'r tiroedd yn darfod wedi i'r tiroedd gael eu trosglwyddo i'r goron, bydd y palasau, a'r parciau, a'r tiroedd perthynol iddynt, yn aros yn meddiant eu perchenogion—a hwythau yn byw yndynt—os gwnant. Telir i bob tirfeddiannydd am y tiroedd eraill, fel yr eglurwyd yn barod, yn arian-nodau y deyrnas—a gall pob tirfeddiannydd eu cadw, a'u defnyddio i'w bwrpas ei hun, neu eu rhanu rhwng ei blant, neu eu gwerthu i eraill—yn gwbl fel y myno efe. Y mae arian-nodau o'r fath yn hawdd eu gwerthu, ac yn newid dwylaw bob dydd yn marchnadoedd arian Llundain, a threfydd mawr eraill.

Wedi atteb y gwrthddadleuon uchod, ni a drown yn awr i roddi

### XI. Eglurhad ymarferol ar y Cynllun.

Bydd llawer un, fe allai, er y bydd wedi darllen y rhanau blaenorol o'r erthygl hon, yn analluog i ddirnad pa fodd y gellir prisio y tiroedd, a gweithio y cynllun allan. Rhoddir, gan hyny, yr eglurhâd canlynol arno:—Tybier fod tyddyn yn mesur 100 erw, a'i rent yn 100*p.* yn y flwyddyn—y mae tri chwestiwn i'w

Digitized by Google

penderfynu ynglŷn âg ef. Yn gyntaf, pa faint a delir am dano i'r perchenog gan y llywodraeth? Yn ail, pa faint a dderbynia y perchenog oddi wrtho yn flynyddol, os byddai iddo gadw ariannodau y llywodraeth yn ei feddiant ei hun? Yn drydydd, pa faint fydd y rhent y gofynir i'r tenant ei dalu yn flynyddol am y tyddyn? Nis gellir disgwyl unrhyw delerau mor fanteisiol a thelerau Pharaoh, trwy law drugarog Joseph, yn yr Aipht, fel y gwelir yn *Gen.* xlvii. 23, 24. Yr oedd efe yn rhoddi yr hâd, a'r bummed ran yn unig o'r cynnyrch a ddisgwyliai efe oddi wrthynt, er eu bod yn gaethion:—'Wele (meddai Joseph) prynais chwi heddyw, a'ch tir, i Pharaoh: wele i chwi hâd, heuwch chwithau y tir. A bydded i chwi roddi i Pharaoh y bummed ran o'r cnwd; a bydd y pedair rhan i chwi, yn hâd i'r maes, ac yn ymborth i chwi, ac i'r rhai sydd yn eich tai, ac yn fwyd i'ch rhai bach!'

Ni a attebwn y tri gofyniad pwysig uchod oreu y gallwn. Y mae y pris a roddir am dai a thiroedd yn mron yn wastad yn dibynu ar swm y rhent blynyddol a geir oddi wrthynt. Felly, nis gall neb ddisgwyl i'r llywodraeth brynu y tyddyn yn ol swm y rhent a delir am dano yn awr; ond yn ol gwerth presennol cynnyrchion amaethyddol o bob natur yn y marchnadoedd. Er cael gwybod ei werth mor gywir ag y gellir, teg fyddai i'r tirfeddiannydd, a'r llywodraeth, a'r tenant, gael pennodi un prisiwr bob un—neu ddau, os mynir. Wedi pennodi y priswyr, gan mai yn ol gwerth y tyddyn i denant y bydd y swm a delir i'r tirfeddiannydd am dano yn cael ei benderfynu, eu gwaith hwy fydd ystyried pa beth fydd yn rhent teg am dano, ar y dealltwriaeth fod yr adeiladau i'w cadw mewn cywair dda gan y tenant. Yna, y mae y priswyr yn myned gyda'u gilydd trwy bob maes, a phob un yn gosod i lawr yn ei lyfr yr hyn a ystyria efe ydyw gwerth blynyddol pob un—neu, pa faint yr erw fydd gwerth pob maes. Wedi darfod, y maent yn edrych sefyllfa yr adeiladau, ac yn ystyried pa gyfleusderau ac anghyfleusderau a berthynant i'r tyddyn, a'i adeiladau. Wedi hyn, y maent yn ymneillduo i un o ystafelloedd y tŷ, neu i rywle arall, a phob un yn gwneyd ei gyfrif i fyny—ac yna y maent yn eu cymmharu. Y mae A. yn gwneyd y rhent yn 80*p.*; B. yn ei wneyd yn 75*p.*; a C. yn ei wneyd yn 70*p.* Ar ol hir siarad, y maent yn cyttuno ar 75*p.* fel gwerth blynyddol y tyddyn. Yna y maent yn penderfynu fod yr adeiladau yn sefyll mewn angen adgyweiriad:—dyweder, i'r swm o 50*p.* A dylid rhwymo y tirfeddiannydd i'w gwneyd yn dda, neu gadw y 50*p.* o'r swm a delir iddo am y tyddyn. Ar ol gorphen gyda hyn, y mae y priswyr wedi darfod eu gwaith.

Yn awr, pa sawl rhent y dylid ei dalu i'r tirfeddiannwr am dano? Y mae y Toriaid a Mr. Gladstone, wedi penderfynu hyn. Dygodd y Toriaid, yn y fl. 1885, fesur Tir i'r Iwerddon i mewn, yr hwn a adwaenir yn awr fel 'Deddf Ashbourne'—*The Ashbourne Act.* Yn hon y mae ugain rhent i'w farnu fel gwerth tyddyn, yn ol fel y mae y prisiad yn Nhreth y Tlodion. Etto:—yn Ebrill, 1866, dygodd Mr. Gladstone ei fesur yntau ar gwestiwn Tir yr Iwerddon i'r senedd—yn yr hwn yr oedd ugain rhent yn cael ei gydnabod fel gwerth y tiroedd a werthid dan y mesur hwnw hefyd. Ond gan fod y mesur ar Ymreolaeth i'r Iwerddon yn gydiol âg ef, syrthiodd y ddau i'r llawr gyda'u gilydd. Ond yn ngwyneb y ddwy ffaith uchod, gellir cymmeryd ugain rhent fel gwerth ffermydd y wlad, a'u cymmeryd at eu gilydd, yn ol prisiad Arglwydd Salisbury a Mr. Gladstone.

Gan mai 75*p.* ydyw gwerth y tyddyn hwn, y swm a dderbynia y tirfeddianwr am dano felly yw 1,500*p.* Os ceidw efe arian-nodau y llywodraeth yn ei feddiant heb eu gwerthu, y llôg a dderbynia ar y swm hwn, yn ol 2*p.* 15*s.* y cant fydd 55*p.* Ond pa faint o rent fydd gan yr amaethwr i'w dalu? Erbyn chwanegu 5*s.* y cant at draul y llywodraeth a'r cynghor sirol gyda'r cyfrifon perthynol i'r tyddyn, bydd ei rent ef yn uwch o 5*p.* Bydd felly yn 60*p.* Os gofynir paham y mae y tirfeddiannydd yn derbyn 20*p.* llai na'r prisiad? Am ei fod yn cael yr arian yn llawn i'w ddwylaw—heb fod yn rhaid iddo dalu cyflog i oruchwyliwr, na neb arall, nac am adgyweirio yr adeiladau, nac am lidiardau, na dim! Caiff yr arian yn lân i'w ddwylaw! Y mae treuliau tirfeddiannwyr gyda'u hetifeddiaeth yn llawn cymmaint a hyn ar gyfartaledd. Ond bydd yr amaethwr yn alluog i wneyd y gwaith ei hun, fe allai, ar lai.

Dyna eglurhâd dealladwy, a boddhaol hefyd, gobeithiwn. Caiff yr amaethwr, yn ol hyn, ei dyddyn am 60*p.* heb fod y perchenog yn cael cam: a chan nad ellir ei droi o'i dyddyn tra y bydd yn ei drin yn briodol, yn talu y rhent a phob gofynion eraill, ac yn cadw yr adeiladau fel y dylent fod, bydd mor annibynol a phe bae yn ei feddu allan ac allan. Y canlyniad o hyn fydd—yr ymrydd y tenant o ddifrif i'w drin, a chynnyrchir o hono lawer mwy nag a wnaed erioed o dan y drefn bresennol. A bydd y tenant, a'i holl deulu hefyd, wedi cael ymwared o lawer o brif helyntion eu bywyd!

Dyna syniad am y modd yn yr hwn y gellir gweithio y cynllun uchod.

Y mae'n ddigon tebyg y bydd rhai o'n darllenwyr yn codi eu dwylaw i fyny mewn syndod wrth feddwl fod y fath gynnygiad a hwn yn cael ei wneyd—a bod y cynllun ynddo ei hun yn ammhossibl i'w gyrhaedd. Ond os edrychir arno yn bwyllog, gan ystyried ei wahanol ranau, credwn y bydd yr anhawsderau yn cilio, o blegid y rhesymau canlynol:—Yn gyntaf, y mae y tirfeddiannwyr i gael pris rhesymol am eu tiroedd, yn ol prisiau y farchnad am y cynnyrchion amaethyddol. Byddant, mae'n wir, yn colli cryn lawer o'u hurddas; ond dylent gofio fod llawer o'r anrhydedd a gawsant fel tirfeddiannwyr wedi ei gael trwy gyfreithiau annhêg a wnaed gan dirfeddiannwyr yr oesoedd o'r blaen. Collant gryn lawer o'u hawdurdod hefyd; ond gan na bydd hwn yn golled arianol iddynt, ni bydd nemawr o bwys ynddo.

Trwy y trefniadau, dylid cadw at yr egwyddorion hyn yn ddi-feth:—sef, fod y tiroedd oll i'w cyflwyno i'r goron, a bod pawb i ddal dan y goron. Dyna egwyddorion hanfodol y cynllun. Hefyd, bod y ffermydd a'r tiroedd i barhau yn meddiant y tenantiaid, a'u teuluoedd, tra y byddant yn cyflawni yr ammodau; os na bydd eisieu rhanau o honynt at achosion cyhoeddus. Nis gellir disgwyl i amaethwyr ein gwlad ymroi o ddifrif i drin eu ffermydd, er dwyn y swm helaethaf o gynyrchion o honynt, ond o dan yr ammodau hyn. Dylid gadael y ffermydd yn eu maint presennol hefyd, fel rheol; a gadael i raniadau ddyfod yn naturiol o raniadau teuluaidd. Felly, daw cyfnewidiadau o amgylch heb aflonyddu ond cyn lleied ag y gellir ar gysylltiadau amaethwyr â'u ffermydd.

Digitized by Google

XII. Rhwystuau y Senedd.

Gofyna rhywun etto, Ai tybed y gellir cario mesur o'r natur yma drwy senedd Prydain? Cwestiwn caled a difrifol yw hwn; o blegid os nad ellir, ofer fydd pob ymdrech o'i blaid. Mae rhagfarnau cryfion yn meddyliau llawer, hyd yn oed o Ryddfrydwyr, a 'chorph' y Toriaid, yn erbyn cyffwrdd â deddfau y tir. Er hyny, os gellir argyhoeddi y mwyafrif o etholwyr y wlad o'r angen am dano, gellir ei gario er pob gwrthwynebiad; o blegid hwy sydd i benderfynu pob achosion pwysig. Os felly, y gofyniad nesaf fydd yn codi ydyw hwn:—Pwy fydd yn erbyn y cyfnewidiad? Y bendefigaeth, y tirfeddianwyr, a'u teuluoedd, eu gweision, a lluoedd o swyddogion y deyrnas. Ond pwy y gellir disgwyl fydd o'i blaid? Yr amaethwyr, y masnachwyr, y crefftwyr, y gweithwyr yn y wlad a'r trefi, y llafurwyr yn y glofeydd a'r gweithydd mŵn, yr holl bersonau sydd wedi adeiladu tai ar brydlesi, a'r miloedd lawer o weithwyr sydd wedi ymfudo i'r trefydd o ranau amaethyddol y wlad—a lluoedd eraill. Mewn gair, ond cael unrhyw gynllun teg a chynnwysfawr, a'i wneyd yn hysbys trwy'r deyrnas, ni phetruswn ddweyd y byddai y fath fwyafrif aruthrol o'i blaid mewn etholiad cyffredinol ag a orfodai dau dŷ y senedd i'w osod ar ddeddf-lyfrau y deyrnas, er gwaethaf pob gwrthwynebiad. Pa un a ydyw y cynllun hwn yn gyfryw, ai nid yw, caiff eraill benderfynu. Ond pa bryd bynag y ceir y fath gynllun, nis gall unrhyw weinyddiaeth sefyll yn ei erbyn. Safodd y Duc o Wellington—cadfridog galluocaf a dewraf ei oes—a'i weinyddiaeth, yn erbyn dilëad deddfau yr ŷd. Ond gwelodd yn fuan fod y llifeiriant yn anwrthwynebol; ac y byddai raid iddo ymostwng, neu yr ysgubid ef oddi ar y ffordd. Ymostyngodd yr hen arwr!—ac ymostwng y bydd raid i bob gwladweinydd, unwaith y gwelo y deyrnas ei ffordd yn glir i ddeddfu ar diroedd y wlad ar egwyddorion ëang a chywir!

Gellir chwanegu, y bydd yn fwy hawdd i gario un mesur mawr a chyffredinol trwy y senedd, fydd yn cynnwys yr holl ddiwygiadau angenrheidiol gyda'r tir, na'i gario yn ddarnau gwahanol, gan y bydd yr holl ddosbarthiadau sydd yn cael eu gorthrymu dan y ddeddfau presennol yn debyg o gydweithredu i'w gario yn llwyddiannus. Ond bydd yr ymdrechfa yn un galed, gan y bydd dosbarthiadau cyfoethocaf y deyrnas yn sicr o gydweithredu â'u gilydd i amddiffyn eu rhagorfreintiau. Nid yw sêl danbaid lláweroedd o honynt dros yr Eglwys Sefydledig ond ffrwyth eu hofnau a'u harswyd rhag i'r dydd ddyfod pan y gwneir yr ymosodiad ar eu rhagorfreintiau tirol hwy. Mae yr Eglwys yn cael ei gosod ganddynt rhwng y wlad a'r tir, er nad ydynt yn addef hyny; a thybiant tra y gallant gadw yr Eglwys lle y mae, y bydd eu rhagorfreintiau tirol yn ddiogel. Nid oedd eu gwaith yn cychwyn ymgeiswyr yn mhob etholaeth Ryddfrydig trwy y deyrnas yn mron yn yr etholiad cyffredinol diweddaf (1895), ac yn tywallt arian yn ddi-brin i goffrau y clybiau mawr Toriaidd i dalu eu treuliau, ac i gynnal yr aelodau yn Llundain, os byddai raid, ond prawf o'r un peth. Ond y mae'r frwydr yn sicr o ddyfod, yn fuan neu yn hwyr—a phan ddêl, hi fydd 'Waterloo' brwydrau etholiadol a seneddol y Deyrnas Gyfunol, pan y dryllir llawer o lyffetheiriau gormes ar un ergyd, ac y gollyngir holl ddosbarthiadau y wlad yn rhydd.

THOMAS, Parch. THOMAS, Ulverston. Brodor oedd efe o Gaernarfon. Enwau ei rieni oeddynt Owen a Mary Thomas, a ganwyd ef yn y fl. 1839. Yr oedd iddynt wyth o blant—pump o feibion, a thair o ferched. Derbyniodd Thomas ei addysg elfenol yn ysgol wladwriaethol Caernarfon, a gwasanaethodd ei dymmor fel egwyddorwas yn swyddfa argraphu Mr. Hugh Humphreys. Pan yn ieuangc, ymadawodd i swyddfa argraphu yn Mhwllheli; ac yno, fe dybir, y dechreuodd efe bregethu. Ymadawodd o Bwllheli, ac aeth i'r Deheudir. Bu am amser mewn un, os nad dwy swyddfa argraphu yno. Pan yn Nghaerdydd y cynnygiodd ei hun i'r weinidogaeth Wesleyaidd—i'r hon y derbyniwyd ef. Cynnygiodd ei hun hefyd i lafurio fel cenhadwr; a chafodd ei anfon i'r coleg cenhadol yn Richmond. Modd bynag, o herwydd sefyllfa ei iechyd, barnwyd mai doethach oedd iddo beidio myned allan i'r maes cenhadol. Yn 1862, pennodwyd ef i gylchdaith Aberystwyth, ac i fyw yn Nhre'rddôl. Symmudodd i amryw gylchdeithiau, yn ol trefn y Wesleyaid. Tra yn nghylchdaith bwysig Ulverston, bu farw, ar ol byr gystudd, o'r tân-iddwf, Mai 1af, 1888.

Nid oedd Mr. Thomas yn bregethwr poblogaidd iawn; ond er hyny bu ei weinidogaeth yn dderbyniol a llwyddianuus. Afrwydd oedd ei ddawn ymadroddi, yr hyn a fu yn anfanteisiol iddo gyflawni gwaith ei swydd. Rhagorai yn fwy fel gweinidog nag fel pregethwr; ac yr oedd ei galon yn ei waith. Yr oedd yn ymdrechgar neillduol i gael capelau newyddion yn y cylchdeithiau y pennodid ef iddynt; a dywedodd un gweinidog adnabyddus perthynol i'w enwad, 'ei fod yn *genius* yn y peth hwn.' Tra yn Llanidloes, er engraifft, adeiladwyd pump o gapeli newyddion; a llwyddodd i gael pedwar o'r cyfryw i amgylchiadau arianol cysurus.

Daeth i sylw neillduol hefyd fel llenor. Ysgrifenodd lawer i *Golud yr Oes*, yr *Eurgrawn*, a'r *Winllan*, a bu yn olygydd arni dair blynedd. Ysgrifenodd hefyd *Llyfr Pawb ar Bob Peth*, a *Grammadeg Areithyddiaeth*, a *Gemau Duwinyddol Americanaidd*, *Hynodion Hen Bregethwyr Cymru*, *Geiriadur Ysgrythyrol a Duwinyddol*, a *Lamp yr Ysgol Sul*.

At y cwbl a ddywedwyd, gellir chwanegu ei fod yn ddyn nodedig o ddiymhongar a gostyngedig, ac yn wastad yn llawn o natur dda. Cerid a pherchid ef gan y rhai oedd yn ei adnabod.

THOMAS, Parch. EZECIEL, Abertawe. Gweinidog llafurus a defnyddiol oedd efe gyda'r Methodistiaid Calvinaidd yn y Deheudir. Ganwyd a dygwyd ef i fyny ger Capel y Cwm, Llansamlet. Yr oedd ei rieni yn hynod dduwiol, ac yn feddiannol ar alluoedd meddyliol cryfach na'r cyffredin. Buont yn ofalus neillduol am ddyledswyddau a chrefydd yr aelwyd; a dangosasant lawer o ofal am addysg grefyddol ac ysgrythyrol Ezeciel. Yr oedd efe yn wr ieuangc difrycheulyd ei gymmeriad; ac edrychid arno fel un oedd yn debyg o gael dyfodol hapus. Dechreuodd bregethu pan yn gymharol ieuangc; a chafodd ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth yn y fl. 1857. Cyfansoddodd amryw o lyfrau gwerthfawr; sef, *Cynghanedd trwy Ffydd*, *Human Harmony*, *Sylwadau ar yr Epistol at yr Hebreaid*, *Daeareg Parth Gorllewinol Morganwg*, ac eraill. Yr oedd yn hynafiaethydd galluog hefyd. Bu farw Mawrth 12fed, 1893, yn 75 ml. oed.

Digitized by Google

# U.



**UNOL DALAETHAU YR AMERICA.** Mewn rhan arall o'r gwaith hwn, ceir erthygl faith ar y Talaethau Unedig, a'u hanes hyd y flwyddyn 1877. Yn yr erthygl ganlynol, ni a amcanwn olrhain hanes eu cynnydd mewn gwahanol gyfeiriadau hyd y fl. 1894.

Ar hyn o bryd, y mae y Talaethau hyn yn ffurfio y werin-lywodraeth ëangaf ei therfynau a phwysicaf yn y byd. Mesura agos hanner cyfandir Gogledd yr America, a rhifa ei phoblogaeth o ddeutu naw rhan o ddeg o'r holl boblogaeth. Nid oes odid un rhan o'r byd wedi cynnyddu cymmaint mewn gwahanol gyfeiriadau a'r Talaethau hyn yn nghorph y chwarter canrif ddiweddaf.

*Addysg.*—Nid oes yn perthyn i'r wlad, yn y cyfangorph o honi, unrhyw gyfundrefn genedlaethol o addysg. Ymddiriedir y gwaith o ofalu am addysg i'r gwahanol dalaethau; ond y mae y Llywodraeth Ganolog wedi gwneyd llawer at gyfuno cyfundrefnau addysg y gwahanol awdurdodau lleol. Y mae cyfundrefn yr ysgolion cyhoeddus yn awr mewn bri trwy yr holl Dalaethau. Nid ydyw ysgolion elfenol enwadol yn lliosog, nac yn meddu llawer o ysgolheigion, gan fod y rhan liosocaf o'r enwadau Protestanaidd yn cefnogi y gyfundrefn gyhoeddus o addysg. Y mae pum rhan o chwech o'r holl blant (700,000 mewn nifer) sydd yn mynychu yr ysgolion plwyfol yn yr holl Dalaethau yn Babyddion. Allan o 1,324 o ysgolion canolraddol anghyhoeddus (*non-public*) sydd yn dal cyssylltiad â'r Swyddfa Genedlaethol, y mae 548 o dan lywodraethiad eglwysig, ac yn meddu 90,000 o ddysgyblion. Allan o 586 o golegau, gan ba rai y mae awdurdod i ganiatau graddau, y mae 382 yn sefydliadau enwadol. Y mae yn y wlad, hefyd, 200 o sefydliadau addysgawl uwchraddol, sydd yn bodoli yn annibynol ar yr Eglwys a'r wladwriaeth—a rhai o honynt yn meddu ar waddoliadau. Mynychir yr ysgolion cyhoeddus o bob gradd gan 14,000,000 o ddysgyblion. Allan o'r nifer hwn, y mae 12,500,000, neu 90 y cant, yn perthyn i sefydliadau cyhoeddus hollol, tra y mae y gweddill yn perthyn i ysgolion cyhoeddus o natur enwadol, ac ysgolion a berthynant i bersonau preifat. O'r nifer uchod sydd yn mynychu yr ysgolion cyhoeddus, y mae 96 y cant yn y dosbarthiadau elfenol—plant rhwng chwech a phedair-ar-ddeg oed. A chymmeryd holl ysgolion y Talaethau i ystyriaeth, ymranant fel y canlyn yn mysg y galwedigaethau:—Ysgolion meddygol, 188; duwinyddol, 141; a chyfreithiol, 52. Yn yr ysgolion duwinyddol, y mae 7,000 o efrydwyr, yn cynrychioli 27 o wahanol enwadau. Yn yr ysgolion cyfreithiol, ceir 4,000 o efrydwyr; ond y mae yr efrydwyr meddygol gan liosoced a'r ddau ddosbarth hyn gyda'u gilydd. Gwaddolir 18 o'r ysgolion cyfreithiol, a 37 o'r ysgolion meddygol, gan y wladwriaeth. Ceir yn y wlad 74 o ysgolion i'r mud a'r byddar, gyda 8,156 o efrydwyr; 33 o ysgolion i'r deillion, gyda 3,134 o efrydwyr; 26 o ysgolion i rai o feddwl gwan (*feeble-minded*), gyda 4,784 o efrydwyr; a 50 o ysgolion diwygiadol, gyda 19,790 o efrydwyr. Ceir rhai o'r ysgolion hyn yn mron yn mhob talaeth.

Dengys y tabl a ganlyn boblogaeth yr Unol Dalaethau yn y blynyddoedd 1870, 1880, ac 1890, gyda nifer y plant yn yr ysgolion am bob blwyddyn, nifer y cant ar gyfer y boblogaeth, a'r presennoldeb yn yr ysgolion:—

| Blwy. | Poblog. | Ar y Llyfrau. | Y Cant. | Presennol. |
|---|---|---|---|---|
| 1870 ... | 38,558,371 ... | 6,871,522 ... | 17·8 ... | 4,077,347 |
| 1880 ... | 50,155,783 ... | 9,867,505 ... | 19·7 ... | 6,144,143 |
| 1890 ... | 62,640,335 .. | 12,697,196 .. | 20·3 ... | 8,144,938 |

Cynnyddodd nifer yr athrawon yn yr ysgolion elfenol o 200,515 yn 1870, i 363,935 yn 1880. Ni byddai y nifer yn mhell o 400,000, pe cynnwysid hefyd y rhai sydd yn yr ysgolion preifat ac uwchraddol. Y mae y rhan liosocaf o'r athrawon hyn yn fenywod.

*Ystadegau Cyffredinol.*—Yn y tabl canlynol, nodir y flwyddyn y derbyniwyd pob talaeth i mewn i gylch Undeb y Talaethau, eu maintioli mewn milldiroedd petryal, cyfanswm y boblogaeth, a nifer y trigolion i bob milldir petryal o arwynebedd y wlad:—

| Rhaniadau Gwladol. | Derbyniad i'r Undeb. | Arwynebedd mewn mill. pet. | Poblogaeth. | Poblogaeth i'r Filldir. |
|---|---|---|---|---|
| Alabama, ... | 1819 ... | 52,250 ... | 1,513,017 ... | 28·95 |
| Tir. Alaska, | ... | 570,000 ... | 31,795 ... | |
| Tir. Arizona, | ... | 113,020 ... | 59,620 ... | ·53 |
| Arkansas, ... | 1836 ... | 53,850 ... | 1,128,179 ... | 20·95 |
| Califfornia, | 1850 ... | 158,980 ... | 1,208,130 ... | 7·61 |
| Colorado, ... | 1876 ... | 103,925 .. | 412,198 ... | 3·96 |
| Connecticut, | 1788 ... | 4,990 ... | 746,258 ... | 149·47 |
| Delaware, ... | 1787 ... | 2,050 ... | 168,493 ... | 82·19 |
| Rh. Columbia, | ... | 70 ... | 230,392 . | 3291·28 |
| Florida, ... | 1845 ... | 58,680 ... | 391,422 ... | 6·66 |
| Georgia, ... | 1788 ... | 59,475 ... | 1,837,353 ... | 38·92 |
| Idaho, ... | 1890 ... | 84,800 ... | 84,385 ... | ·99 |
| Illinois, ... | 1818 .. | 56,650 ... | 3,826,351 ... | 67·54 |
| Indiana, ... | 1816 ... | 36,350 ... | 2,192,404 ... | 60·31 |
| Tiriog. India, | ... | 31,400 ... | 186,490 ... | 5·93 |
| Iowa, ... | 1845 ... | 56,025 ... | 1,911,896 ... | 34·10 |
| Kansas, ... | 1861 ... | 82,080 ... | 1,427,096 ... | 17·36 |
| Kentucky, ... | 1792 ... | 40,400 ... | 1,858,635 ... | 46·00 |
| Louisiana, ... | 1812 ... | 48,720 ... | 1,118,587 ... | 22·95 |
| Maine, ... | 1820 ... | 33,040 ... | 661,086 ... | 20·00 |
| Maryland, ... | 1788 ... | 12,210 ... | 1,042,390 ... | 83·73 |
| Massachusetts, | 1788 ... | 8,315 ... | 2,238,943 ... | 269·26 |
| Michigan, ... | 1837 ... | 58,915 ... | 2,093,889 ... | 35·54 |
| Minnesota, | 1858 ... | 83,365 ... | 1,301,826 ... | 15.61 |
| Mississippi, | 1817 ... | 46,810 ... | 1,289,600 ... | 27·55 |
| Missouri, ... | 1821 ... | 69,415 ... | 2,679,184 ... | 38·56 |
| Montana, ... | 1889 ... | 146,080 ... | 132,159 ... | ·90 |
| Nebraska, ... | 1867 ... | 77,510 ... | 1,058,910 ... | 13·66 |

Digitized by Google

| Rhaniadau Gwladol. | Derbyniad i'r Undeb. | Arwyneb-edd mewn mill. pet. | Poblog-aeth. | Poblog-aeth i'r Filldir. |
|---|---|---|---|---|
| Nevada, ... | 1864 ... | 110,700 ... | 45,761 ... | ·41 |
| Ham. Newydd. | 1788 ... | 9,305 ... | 376,530 ... | 40·46 |
| Jer. Newydd, | 1787 ... | 7,815 ... | 1,444,933 ... | 184·89 |
| Mex. Newydd, | ... | 122,580 ... | 153,593 ... | 1·25 |
| Efr. Newydd, | 1788 ... | 49,170 ... | 5,997,853 ... | 121·98 |
| Gog. Carolina, | 1789 ... | 52,250 ... | 1,617,947 ... | 30·96 |
| Gog. Dakota, | 1889 ... | 70,795 ... | 182,719 ... | 2·58 |
| Ohio, ... | 1802 ... | 41,060 ... | 3,672,316 ... | 89·43 |
| Tir. Oklahoma, | ... | 39,030 ... | 61,834 ... | 1·58 |
| Oregon, ... | 1859 .. | 96,030 ... | 313,767 ... | 3·26 |
| Pennsylvania, | 1787 ... | 45,215 ... | 5,258,014 ... | 116·28 |
| Ynys Rhode, | 1790 ... | 1,250 ... | 345,506 ... | 276·40 |
| De. Carolina, | 1788 ... | 30,570 ... | 1,151,149 ... | 37·68 |
| Deheu Dakota, | 1889 ... | 77,650 ... | 328,808 ... | 4·23 |
| Tennessee, ... | 1796 ... | 42,050 ... | 1,767,518 ... | 42·03 |
| Texas, ... | 1845 ... | 265,780 ... | 2,235,523 ... | 8·47 |
| Tiriog. Utah, | ... | 84,970 ... | 207,905 ... | 2·44 |
| Vermont, ... | 1791 ... | 9,565 ... | 332,422 ... | 34·74 |
| Verginia, ... | 1788 ... | 42,450 ... | 1,655,980 ... | 39·00 |
| Washington, | 1889 ... | 69,180 ... | 349,390 ... | 5·05 |
| Gor. Virginia, | 1863 ... | 24,780 ... | 762,794 ... | 30·79 |
| Wisconsin, ... | 1848 ... | 56,040 ... | 1,686,880 ... | 30·10 |
| Wyoming, ... | 1890 ... | 97,890 ... | 60,705 ... | ·72 |
| | | 3,025,600 | 62,971,081 | 20·81 |

Rhwng y flw. 1880, ac 1890, cynnyddodd y boblogaeth agos ddeuddeng miliwn a hanner (12,466,467). Cyfansoddir y boblogaeth o amryw genhedloedd—yn wir, dywedir fod pob cenedl o dan haul yn meddu cynnrychiolwyr yn rhywle o fewn terfynau y Talaethau. Yn y fl. 1880, nid oedd ond 45 o ddinasoedd yn meddu ar boblogaeth o 40,000; ond yn 1890, yr oedd yno 74. Yn y fl. 1890, hawliai y Pabyddion, 6,250,000 o'r boblogaeth. Yn nesaf daw y Methodistiaid, gyda 5,000,000; y Bedyddwyr, gyda 4,300,000; Presbyteriaid, 1,230,000; Lutheriaid, 1,086,000; Cynnulleidfaolwyr, 492,000; a'r Eglwys Esgobaethol, 480,000. Yn 1880, yr oedd 13·3 y cant o'r holl boblogaeth yn dramorwyr; hyny yw, wedi eu geni mewn gwledydd eraill. Y mae o ddeutu un ran o saith o'r trigolion yn dal cyssylltiad uniongyrchol âg amaethyddiaeth.

Yn y tabl canlynol rhoddir manylion am gnydau ŷd y wlad fel yr oeddynt yn y flwyddyn 1889:—

| 1889 | | Erwau. | | Pwyseli. |
|---|---|---|---|---|
| Indrawn | ... ... | 72,076,074 | ... | 2,124,559,312 |
| Gwenith | ... ... | 33,574,341 | ... | 468,306,778 |
| Ceirch | ... ... | 28,297,272 | ... | 809,198,797 |
| Haidd | ... ... | 3,221,099 | ... | 78,349,602 |
| Rhug | ... ... | 2,171,622 | ... | 28,422,354 |
| Gwenith Coliog | ... | 838,777 | ... | 12,130,668 |
| | | 140,179,185 | | 3,520,967,511 |

Yn yr un flwyddyn, yr oedd 162,040 o erwau dan reis, yn cynnyrchu 130,845,392 pwys; cotwm, 20,100,019 o erwau, yn cynnyrchu 7,434,487 o faleidiau; cywarch, 24,054 o erwau, yn cynnyrchu 11,511 tynell; llin, 1,318,698 o erwau, yn cynnyrchu 10,250,410 pwysel; hopys, 50,212 o erwau, yn cynnyrchu 39,171,270 o bwysi; myglys, 692,990 o erwau, yn cynnyrchu 488,255,896 pwys; cyrs sugr, 274,391 o erwau, yn cynnyrchu 302,745,245 pwys.

Nifer yr anifeiliaid yn y flwyddyn 1890 oeddynt fel y canlyn: — Gwartheg, 52,801,907; defaid, 44,336,672; moch, 51,602,780; ceffylau, 14,976,017, a mulod, 2,246,936. Cyfrifir fod gwerth yr holl anifeiliaid a fegir ac a weithiant ar ffermydd y wlad o ddeutu dwy fil a thri chan miliwn o ddoleri. Y mae yr arwynebedd a ddefnyddir bron yn gyfangwbl at fagwraeth anifeiliaid yn 1,365,000 fill. petryal. Yn ystod yr un flwyddyn, cynnyrchwyd o fewn y wlad:—Gwlân, 276,000,000 pwys; ymenyn, 29,748 pwys, a chaws, 95,376,053 pwys. Yr oedd yno dros bedwar can mil o erwau o dir dan winwydd hefyd, yn cynnyrchu 24,000,000 galwyn o win, a 27,443,900 pwys o rhesin.

Dengys y tabl isod werth y nwyddau a dderbyniwyd i'r deyrnas hon o'r Talaethau yn 1893:

| | |
|---|---|
| Anifeiliaid byw ... ... | £4,667,152 |
| Bacwn a *Hams* ... ... | 8,210,690 |
| Biff—ffres, ac wedi ei halltu ... | 3,552,203 |
| Caws ... ... ... | 1,578,531 |
| Copr, &c. ... ... | 1,786,655 |
| Gwenith ... ... | 10,610,530 |
| Indrawn ... ... | 2,221,722 |
| Blawd a Pheilliad—Gwenith ... | 8,400,236 |
| Mathau eraill o Yd ... | 1,093,611 |
| Cotwm ... ... ... | 22,741,485 |
| Pysg ... ... ... | 540,559 |
| Ffrwythau ... ... | 276,459 |
| Nwyddau Haiarn a Dûr ... | 459,130 |
| Bloneg (*Lard*) ... ... | 2,692,552 |
| Lledr ... ... ... | 2,356,933 |
| Gwrteithiau ... ... | 381,993 |
| Olew, &c. ... ... | 699,964 |
| Cacenau Hâd Olew ... | 1,133,144 |
| Paraffin ... ... ... | 783,261 |
| *Petroleum* ... ... | 1,964,979 |
| Crwyn, &c. ... ... | 631,772 |
| Sugr ... ... ... | 853,895 |
| Gwêr, &c. ... ... | 409,050 |
| Tybacco ... ... | 2,721,852 |
| Coed o bob math ... ... | 2,242,962 |

Yn 1884, safai masnach yr Unol Dalaethau fel hyn:—allforion, 892,140,572 o ddoleri; dadforion, 654,994,622 o ddoleri—cyfanswm gwerth y fasnach, 1,546,135,194 o ddoleri.

*Y Ddyled Wladol, a'r Llynges*, &c., &c.—Ar y 1af o Dachwedd, 1894, swm y ddyled wladol oedd 975,950,000 o ddoleri. Gwneid y llynges i fyny ar y 1af o Ragfyr, 1894 fel y canlyn:—llongau, 85; dynion, 9,250; swyddogion, 1,494. Y fyddin sefydlog etto ar y 30ain o Fehefin yn yr un flwyddyn:—swyddogion, 2,146; dynion, 25,788. Nifer y llythyrdai yn Mehefin, 1894, oedd 69,805; gwerth y llythyr-nodau a werthwyd oedd 70,199,151 o ddoleri. Ar y 30ain o Fehefin, 1893, mesnrai ffyrdd haiarn y Talaethau 176,461.07 milldir; sef, cynnydd o 4,897.55 milldir yn ystod y flwyddyn. Cerir trafnidiaeth forawl y wlad yn mlaen gan 24,512 o longau—o ba nifer yr oedd 6,562 yn agerlongau.

Arlywydd presennol y wlad yw Mr. Grover Cleveland. Etholwyd ef am yr ail waith yn 1892, a chymmerodd yr awenau i'w ddwylaw ar y 4ydd o Fawrth, 1893. Daw ei dymmor i ben yn Mawrth, 1897.

Yn y rhestr ganlynol, ceir y prif ddigwyddiadau yn hanes y Talaethau, o'r fl. 1876 hyd yn awr—parhâd o'r rhestr a roddir yn yr erthygl flaenorol yn cyf. ix, td. 717:—

| | | |
|---|---|---|
| Gwrthwynebiad cynnyddol i ymfudiaeth Chineaidd ... ... | Mawrth, | 1876 |
| Dadorchuddiad Côf-golofn Lincoln yn Washington ... ... | Ebrill 14eg, | 1876 |
| Agoriad yr Arddangosfa fawr Rhyng-wladwriaethol ... ... | Mai 10fed, | 1876 |
| Y Cadfridog Custer, a'i fyddin, yn syrthio i ddwylaw yr Indiaid, ac yn cael eu lladd oll, yn mron | Mehefin 25ain, | 1876 |
| Canmlwyddiant Sefydliad y Weriniaeth, | Gorphenaf 4ydd, | 1876 |
| Ethol Mr. Rutherford Hayes, Ohio, yn Arlywydd... ... | Rhagfyr 6ed, | 1876 |

Digitized by Google

Cadarnhâd yr Etholiad Mawrth 2il, 1877
Streiciau a therfysgoedd ofnadwy yn Baltimore, Ohio, Virginia, a Pittsburg: a llawer wedi eu lladd ... Gorphenaf 12—16eg, 1877
Anfon y Cadfridog Sheridan i Pittsburg, Gorphenaf 22ain, 1877
Swm y golled – 8,000,000*p*.; adferu heddwch, Awst 4ydd, 1877
Marw Brigham Young, yr Amlwreiciwr, Awst 29ain, 1877
Methdaliad amnheus llawer o gwmniau cyhoeddus ... ... Hydref, 1877
Gorchfygiad y llywodraeth yn y senedd gan Conkling, a'i blaid... Rhagfyr 12fed, 1877
Y dwymyn felen yn achosi colliant mawr ar fywydau yn y Talaethau Deheuol—Awst, Medi, a Hydref, 1877
Cyfarfyddiad y Chweched Gyngres a Deugain ... ... Mawrth, 4ydd, 1879
Pennodi Russell Lowell yn llysgenhadwr i Brydain ... Awst 19eg, 1879
Y Cadfridog Garfield yn awgrymu attal ymfudiaeth y Chineaid Gorphenaf 12fed, 1880
Ethol y Cadfridog Garfield yn Arlywydd, Tachwedd 2il, 1880
Y Cadfridog Garfield yn cael ei saethu gan Guiteau ... Gorphenaf 2il, 1881
Tân dinystriol yn Michigan—llosgiad 500 o bersonau i farwolaeth, a 10,000 yn ddigartref ... ... ... Medi 5ed, 1881
Marwolaeth Garfield ... Medi 19eg, 1881
Ei gladdu yn Cleveland ...Medi 23ain. 1881
Pasio mesur yn gwahardd amlwreiciaeth, Mawrth 23ain, 1882
Dienyddio Guiteau ... Mehefin 30ain, 1882
Deddf yn gwahardd y Chinëaid yn dyfod i rym ... ... ... Awst 4ydd, 1882
Pasio Mesur ar Ddiwygiad y Gwasanaeth Gwladol ... Rhagfyr 27ain, 1882
Y Cadfridog Sheridan yn cymmeryd prif lywyddiaeth y fyddin Hydref 31ain, 1883
Ethol Mr. Grover Cleveland yn Arlywydd, Tachwedd 4ydd, 1884
Y Chinëaid yn cael eu gyru allan o California ... ... ... Chwefror, 1885
Cleveland yn dechreu ar ei Arlywyddiaeth, Mawrth 4ydd, 1885
Marwolaeth y Cadfridog Grant, Gorph. 23ain. 1885
Ei gladdedigaeth—gorymdaith chwe milldir o hyd ... ... ... Awst 8fed, 1885
Etholiad y Cadfridog Sherman yn Is-arlywydd ... ... Rhagfyr 7fed, 1885
Taith lwyddiannus Jefferson Davis trwy y Talaethau Deheuol ... Ebrill, 1886
Cyfraniadau mawrion i drysorfa Parnell at gario yr etholiadau Gwyddelig yn mlaen, Mehefin, 1886
Marwolaeth y cyn Is-arlywydd Arthur, Tachwedd 18fed, 1886
Henry George yn gosod allan ei gynllun i genedlaetholi y tir... ... ... 1886
Croesawiad Mr. Joseph Chamberlain yn New York ... ... Tachwedd 15fed, 1887
Hanner can mil o weithwyr y ffyrdd haiarn yn codi ar streic ... ... Rhagfyr, 1887
Llawnodi Cyttundeb Washington ynglŷn â'r Pysgodfeydd ... Chwefror 15fed, 1888
Can mil o weithwyr haiarn yn cael eu cloi allan ger New York Mehefin 30ain, 1888
Marwolaeth y Cadfridog Sheridan, y prif gadlywydd ... ... Awst 5ed, 1888
Cyttundeb â China i wahardd ymfudiaeth y Chinëaid am ugain mlynedd ...Awst 20fed, 1888
Etholiad y Cadfridog Harrison yn Arlywydd, Tachwedd 5ed, 1888
Lladd 40 o bersonau trwy ffrwydrad yn Hartford ... ... Chwefror 18fed, 1889
Yr Arlywydd Harrison yn ffurfio ei weinyddiaeth ... ... Mawrth 4ydd, 1889
Cyhoeddi Oklahoma (tir newydd) yn agored i ymsefydlwyr—rhuthr ffermwyr, ac eraill, yno; ac ymladdfeydd gwaedlyd mewn canlyniad ... ... Ebrill 22ain, 1889
Dathlu Canmlwyddiant Washington fel Arlywydd cyntaf y Talaethau, Ebrill 29ain, a Mai 1af, 1889
Diarddel Dr. Patrick Cronin, y Gwyddel, o Gymdeithas Ddirgelaidd y Clan-na-Gael, Chwefror, 1889
Darganfod ei gorph llofruddiedig, Mai 22ain, 1889
Boddiad 6,000 o bersonau trwy orlifiad yn Nyffryn Conemaugh ... Mai 31ain, 1889
Marwolaeth Simon Cameron—yr Ysgrifenydd Rhyfel yn ystod y Rhyfel Cartrefol, Mehefin 26ain, 1889
Marwolaeth Jefferson Davis—cyn-lywydd y Talaethau Cynghreiriol Rhagfyr 6ed, 1889
Cyflwyniad helynt pysgodfeydd Môr Behring i Gylafareddiad ... Chwefror 25ain, 1890
Penderfynu fod Ffair y Byd i'w chynnal yn Chicago ... Ebrill 25ain, 1890
Môr Behring yn cael ei gyhoeddi yn gauedig i bysgodwyr heb drwyddedau, Mawrth 25ain, 1890
Mesur Diffyn-dollaeth Mc'Kinley yn cael ei gymmeradwyo gan y Gyngres ... Medi 30, 1890
Y mesur yn dyfod i weithrediad, Hydref 6ed, 1890
Etholiad y 52ain Gyngres—mwyafrif mawr i'r Democratiaid ... Tachwedd 4ydd, 1890
Marwolaeth y Cadfridog Sherman, Chwef. 14, 1891
Marwolaeth y Cad. Johnston, Mawrth 21, 1891
Dedfrydu John Bardsley, trysorydd Philadelphia, i 15eg mlynedd o garchar (mewn unigedd) am dwyll Gorphenaf 2il, 1891
Marwolaeth James Russell Lowell, y gwleidydd a'r llenor ... ...Awst 12fed, 1891
Anghydfod â Chili ... ... Hydref, 1892
Cyttundeb yn cael ei arwyddo yn Washington yn mherthynas i Bysgodfeydd Môr Behring ... Chwefror 29ain, 1892
Marwolaeth Walt Whitman, y bardd cenedlaethol ... Mawrth 26ain, 1892
Gosod careg sylfaen côf-golofn Grant gan yr Arlywydd Harrison yn New York, Ebrill 27, 1892
Gwres annioddefol yn y Talaethau, Gorph., 1892
Streic mawr ar ffyrdd haiarn New York, a therfysgoedd ... ... Awst, 1892
Marwolaeth Whittier, y bardd, a gelyn mawr caethwasiaeth ... ... Medi 7fed, 1892

*Holl Arlywyddion y Talaethau.*

1789 ac 1793. Y Cadfridog George Washington—yr Arlywydd cyntaf.
1797. John Adams.
1801 ac 1805. Thomas Jefferson.
1809 ac 1813. James Madison.
1817 ac 1821. James Monroe.
1825. John Quincy Adams.
1829 ac 1833. Y Cadfridog Andrew Jackson.
1839. Martin Van Buren.
1841. Y Cadfridog William Henry Harrison (marw Ebrill 4ydd).
1841. John Tyler (cyn Is-arlywydd).
1845. James Knox Polk.
1949. Y Cadfridog Zachary Taylor (marw Gorphenaf 9fed, 1850).
1850. Millard Fillmore (cyn Is-arlywydd).
1853. Y Cadfridog Franklin Pierce.
1857. James Buchanan.
1861 ac 1865. Abraham Lincoln—saethwyd ef ar y 14eg o Ebrill.
1865. Dilynwyd ef gan Andrew Johnson (Is-arlywydd).
1869 ac 1873. Ulysses S. Grant.
1877. Rutherford B. Hayes.
1881. Y Cadfridog James A. Garfield (saethwyd).
1881. Dilynwyd ef gan y Cadfridog Chester A. Arthur (Is-arlywydd).
1885. Grover Cleveland.
1889. Y Cadfridog Benjamin Harrison.
1893. Grover Cleveland.

Digitized by Google

YSTADEGAU CREFYDDOL Y TALAETHAU.

Y mae y cyfrifon amrywiol a ganlyn yn seiliedig ar Gofrifiad 1890, ac ystadegau crefyddol ac eglwysig 1894. Nid yw y tabl yn cynnwys yr oll o'r enwadau crefyddol—dim ond y prif rai. Nid yw amryw o'r enwadau yn cyhoeddi eu hystadegau; ac amcan-gyfrif gan y personau addasaf i ffurfio barn a roddir am y rhai hyny. Rhydd y rhan amlaf o'r enwadau gyfrifon eu cynnulleidfaoedd neu eglwysi; ond yn adroddiadau y Wesleyaid cyfrifir pob addoldai. Er esampl, yn Nghofrifiad 1890 o'r cyrph Wesleyaid, ceir 51,489 o gynnulleidfaoedd neu gyrph o addolwyr, a 46,138 o adeiladau eglwysig; gwahaniaeth o 5,000, yn agos. A thybied fod yr un gwahaniaeth yn parhau, byddai cyfanrif y cynnulleidfaoedd Wesleyaidd am 1894 o ddeutu 60,500. Caed ffigyrau y cymmunwyr Pabyddol drwy gymmeryd 85 y cant o'r adroddiadau diweddaf (1893) a gyhoeddwyd. Dyma reol yr Eglwys Babaidd. Y mae y Gymdeithasfa Efengylaidd yn nghwrs ymraniad er's rhai blynyddau. Cymmerwyd y ffigyrau o rif y gangen hynaf, fel y ceir hwy yn eu dyddiadur. Ar awdurdod y golygydd, tynwyd 30,000 ymaith o gyfanrif yr aelodau fel amcangyfrif o'r ymadawedigion. Y Parch. A. W. Pegues sydd yn gyfrifol am ystadegau y Bedyddwyr negroaidd. Dodir 1,483,533 o gymmunwyr. Ond odid nad yw yr uchod yn cynnwys Bedyddwyr negroaidd y Gogledd a'r De. Nid yw ystadegau 1894 yn cynnwys namyn cymdeithasau lliw yn y Talaethau Deheuol, a gyhoeddir ar wahân. Yr ydym yn ddyledus am yr ystadegau dilynol i'r *New York Independent* am Ionawr 3ydd, 1895. Y mae yr ystadegau yn ffrwyth llafur a gofal pryderus, ac wedi eu derbyn yn ddi-eithriad oddi wrth swyddogion yr enwadau, neu yn seiliedig ar eu hadroddiadau diweddaraf.

Yn y cyfrifon canlynol, ni a roddwn bob enwad mewn paragraph gwahanol; ac o'i fewn ceir y gwahanol ganghenau perthynol i'r enwad. Wrth bob cangen rhoddir rhifedi y gweinidogion, yr eglwysi, a'r cymmunwyr yn y flwyddyn 1894.

*Ail Ddyfodiaid (Adventists):*—1. Efengylaidd, gweinidogion, 34; eglwysi, 30; cymmunwyr, 1, 147. 2. Cristionogion Dyfodaidd, g. 900; e. 600; c. 26,250. 3. Seithfed Dydd, g. 210; e. 1,015; c. 33,169; 4. Eglwys Dduw, g. 19; e. 29; c. 647. 5. Bywyd ac Undeb Dyfodaidd, g. 50; e. 28; c. 1,018. 6. Eglwysi Duw yn Iesu Grist, g. 94; e. 95; c. 2,872. Cyfanrif y Dyfodiaid:—gweinidogion, 1,307 (yn 1890, 1,364); eglwysi, 1,797 (yn 1890, 1,757); cymmunwyr, 65,103 (yn 1890, 60,491).

*Bedyddwyr:*—1. Bedyddwyr Rheolaidd (Gogledd), gweinidogion, 668; eglwysi, 7,836; cymmunwyr, 817,534. 2. Rheolaidd (De), g. 11,136; e. 17,824; c. 1,387,060. 3. Rheolaidd (Lliw); g. 7,550; e. 12,462, c. 1,292,394. 4. Chwe Eglwyddor, g. 14; e. 18; c. 851. 5. Seithfed Dydd, 104; e. 90; c. 937. 6. Rhyddewyllyswyr, g. 1,523; e. 1,536; c. 84,381. 7. Rhyddewyllyswyr Gwreiddiol, g. 120; e. 167; c. 12,000. 8. Cyffredinol, g. 350; e. 420; c. 22,000. 9. Gwahanedig, g. 19; e. 24; c. 1,599. 10. Undebol, g. 25; e. 204; c. 13,209. 11. Bedyddwyr Eglwys Crist, g. 80; e. 152; c. 8,254. 12. Cyntefig, g. 2,100; e. 3,500; c. 125,000. 13. Yr hen-ddau-Had-yn-yr Ysbryd Ragarfaethwyr, g. 300; e. 473; c. 12,851. Cyfanrif y Bedyddwyr:—gweinidogion, 29,710 (yn 1890, 25,646); eglwysi, 44,707 (yn 1890, 43,029); cymmunwyr, 3,785,740 (yn 1890, 3,717,969).

*Brodyr* (Afon):—1. Brodyr yn Nghrist, gweinidogion, 128; eglwysi, 78; cymmunwyr; 2,688. 2. Hen Drefn, neu Yorker, g. 7; e. 8; c. 214. 3. Plant Seion Unedig, g. 20; e. 25, c. 525. Cyfanrif:—gweinidogion, 8,155; eglwysi, 111; cymmunwyr, 3,427. Dim cyfnewidiad er 1890.

*Brodyr* (Plymouth):—1. Brodyr (I), eglwysi, 109; cymmunwyr, 2,289. 2. Brodyr (II), e. 88; c. 2,419. 3. Brodyr (III), e. 86; 1,235. 4. Brodyr (IV), e. 31; c. 718. Cyfanrif:—e. 314; c. 6,661. Dim cyfnewidiad er 1890.

*Pabyddion:*—1. Pabyddion Rhufeinig, gweinidogion, 9,763; eglwysi, 12,293; cymmunwyr, 7,474,850. 2. Pabyddion Groegaidd (*Uniates*), g. 9; e. 14; c. 10,850. 3. Rwssiaid Uniongred, g. 13; e. 12; c. 13,504. 4. Groegiaid Uniongred, g. 3; e. 3; c. 200. 5. Armeniaid, g. 7; e. 6; c. 335. 6. Hen Gatholiciaid, g. 3; e. 5; c. 700. 7. Pabyddion Diwygiedig, g. 8; e 8, c. 1,000. Cyfanrif:—gweinidogion, 9,806 (yn 1890, 9,196); eglwysi, 12,341 (yn 1890, 10,276); cymmunwyr, 7,501,439 (yn 1890, 6,257,871.

*Catholiciaid Apostolaidd:*—g. 95; e. 10; c. 1,394. Temlau Chineaid, e. 47. Christadelffiaid, e. 63; c. 1,277. Yn y tri diweddaf, nid oes un cyfnewidiad er 1890.

*Cristionogion:*—1. Cyf. Cristionogion (*Christian Connexion*), g. 1,380; e. 1,300; c. 94,870. 2. Eglwys Cristionogol y De, g. 103; e. 157; c. 14,951. Cyfanrif:—gweinidogion, 1,483 (yn 1890, 1,435); eglwysi, 1,457 (yn 1890, 1,424); cymmunwyr, 109,821 (yn 1890, 103,722).

*Cymdeithas Cenhadon Cristionogol:*—gweinidogion, 810; eglwysi, 13; cymmunwyr, 754. Gwyddonwyr Cristionogol, g. 26; e. 221; c. 8,724. Yn y ddau diweddaf, nid oes gyfnewidiad er 1890.

*Undeb Cristionogol:*—gweinidogion, 183; eglwysi, 294; cymmunwyr, 18,214:—fel yn 1890. Eglwys Dduw (Winebrennerian), g. 450 (yn 1890, 522); e. 560 (yn 1890, 479); c. 36,000 (yn 1890, 22,511). Eglwys Fuddugoliaethus, e. 12; c. 384:—dim cyfnewidiad er 1890. Eglwys y Jerusalem Newydd, g. 96 (yn 1890, 119); e. 102 (yn 1890, 154); c. 6,075 (yn 1890, 7,095).

*Cymdeithasau Cydfeddiannol:*—1. Ysgydwyr, eglwysi, 15; cymmunwyr, 1,728. 2. Amana, e. 7; c. 1,600. 3. Harmony, e. 1; c. 250. 4. Ymneillduwyr, e. 1; c. 200. 5. Icaria Newydd, e. 1; c. 21. 7. Adonai Shomo, e. 1; c. 25. 8. Eglwys Fuddugoliaethus, e. 5; c. 205. Cyfanrif:—eglwysi, 32; cymmunwyr, 4,049.

*Cynnulleidfaolwyr (Annibynwyr):*—gweinidogion, 5,236 (yn 1890, 5,058); eglwysi, 5,400 (yn 1890, 4,868); cymmunwyr, 580,000 (yn 1890, 512,771). Dysgyblion Crist, g. 4,940 (yn y flwydd. 1890, 3,773); e. 8,768 (yn 1890, 7,246); c. 871,017 (yn 1890, 641,051.

*Dunkards:*—1. Dunkards (Bedyddwyr Ellmynaidd Ceidwadol), gweinidogion, 1,650; eglwysi, 750; cymmunwyr, 62,000. 2. Dunkards, Hen Drefn, g. 230; e. 130; c. 4,350. 3. Dunkards, Diwygiadol. g. 230; e. 130; c. 8,100. 4. Bedyddwyr y Seithfed Dydd (Ellmynig) g. 5; e. 6; c. 194:—Cyfanrif, g. 2,115; e. 1,016. c.; 74,644.

*Cyrph Efengylaidd:*—1. Cymdeithasfa Efengylaidd, gweinidogion, 790; eglwysi, 1,945;

Digitized by Google

cymmunwyr, 93,849. 2. Eglwys Efengylaidd Undebol, g. 432; e. 1,000; c. 54,000. Cyfanrif, g. 1,222 (yn 1890, 1,235); e. 2,945 (yn 1896, 2,310); c. 147,849 (yn 1890, 133,313).

*Cyfeillion:*—1. Cyfeillion (Uniongred), gweinidogion, 1,125; eglwysi, 800; cymmunwyr, 18,250. 2. Cyfeillion (Hickiaid), g. 115, e. 201; c. 21,992. 3. Cyfeillion (Wilburiaid), g. 38; e. 53; c. 4,329. 4. Cyfeillion Cyntefig, g. 11; e. 9; c. 232. Cyfanrif:—g. 1,289 (yn 1890, 1,277); e. 1,063 (yn 1890, 1,056); c. 107,803 (yn 1890, 107,208).

*Cyfeillion y Deml:* — gweinidogion, 4; eglwysi, 4; cymmunwyr, 340:—dim cyfnewidiad. Ellmyn Efengylaidd Protestanaidd, g. 45; e. 55; c. 36,500. Y Synod Ellmynaidd Efengylaidd, g. 766; e. 978; c. 175,667.

*Iuddewon:*—1. Cynnulleidfaoedd Iuddewig (Uniongred), gweinidogion, 125; eglwysi, 325; cymmunwyr, 60,200. 2. Cynnulleidfaoedd Iuddewig (Diwygiedig), g. 150; e. 217; c. 78,300 Cyfanrif:—gweinidogion, 275 (yn 1890, 200); eglwysi, 542 (yn 1890, 523); cymmunwyr, 138,500 (yn 1890, 130,496).

*Seintiau y Dyddiau Diweddaf:*—1. Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diweddaf, gweinidogion, 560; eglwysi, 450; cymmunwyr, 150,000. 2. Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diweddaf (Diwygiedig), g. 1,500; e. 431; c. 22,000. Cyfanrif:—gweinidogion, 2,060 (yn 1890, 2,043); eglwysi, 881 (yn 1890, 856), c. 172,000 (yn 1890, 166,125).

*Lutheriaid:*—Cyrph Cyffredinol. 1. Synod Gyffredinol, gweinidogion, 1,108; eglwysi, 1,465; cymmunwyr, 169,871. 2. Synod Unedig y De, g. 205; e. 382; c. 35,110. 3. Cynghor Cyffredinol, g. 1,045; e. 1,720; c. 302,355. 4. Y Gynghorfa Synodaidd, g. 1,590; e. 2,234; c. 456,883. 5. Norwegiaid Unedig, g. 300; e. 1,028; c. 107,830.

*Synodau Annibynol:*—6. Synod Unedig Ohio, g. 389; e. 548; c. 71,768. 7. Ellmyn Ohio, g. 311; e. 661; c. 52,903. 8. Buffalo, g. 22; e. 31; c. 3,823. 9. Hangc, g. 70; e. 200; c. 14,310. 10. Norwegiaid Gogledd America, g. 225; e. 581; c. 56,221. 11. Michigan. 12. Daniaid America, g. 58; e. 135; c. 10,500. 13. Ellmyn Augsburg, g. 21; e. 24; c. 7,010. 14. Cymdeithas Eglwys y Daniaid, g. 37; e. 75; c. 5,500. 15. Synod yr Icelandiaid, g. 6; e. 23; c. 5,300. 16. Immanuel, g. 20; e. 22; c. 6,500. 17. Synod Suomai, g. 7; e. 35; c. 2,750. 18. Slafoniaid, g. 6; e. 7; c. 500. Cynnulleidfaoedd Annibynol. Cyfanrif:—gweinidogion, 5,420 (yn 1890, 4,591); eglwysi, 9,171 (yn 1890, 8,595); cymmunwyr, 1,309,134 (yn 1890, 1,231,072. Waldenstromiaid, g. 8,140; e. 150; c. 20,000.

*Mennoniaid:*—1. Meunoniaid, g. 336; e. 246; c. 17,078. 2. Bruederhoef, g. 9; e. 5; c. 352. 3. Amish, 228; e. 97; 10,101. 4. Hen Amish, g. 71; e. 22; c. 2,038. 5. Apostolaidd, g. 2; e. 2; c. 209. 6. Diwygiedig, g. 43; e. 34; c. 1,655. 7. Cynghor Cyffredinol, g. 95; e. 45; c. 5,670. 8. Eglwys Dduw yn Nghrist, g. 18; e. 18; c. 471. 9. Hen (Wisler), g. 17; e. 15; c. 610. 10. Cynghor, Bundes, g. 37; e. 12; c. 1,388. 11. Diamddiffyn, g. 18; e. 9; c. 856. 12. Brodyr yn Nghrist, g. 31; e. 45; c 1,113. Cyfanrif:—gweinidogion, 905 (yn 1894, 950); eglwysi, 550 (yn 1894, 600); cymmunwyr, 41,541 (yn 1894, 43,200).

*Methodistiaid Wesleyaidd:*—1. Methodistiaid Esgobaethol, gweinidogion, 15,539; eglwysi, 23,800; cymmunwyr, 2,350,726. 2. Undeb America Methodistiaid Esgobaethol, g. 115; e. 115; c. 7,031. 3. Methodistiaid Affricanaidd Esgobaethol, g. 4,252; e. 4,425; c. 497,350. 4. Undeb Affricanaidd Methodistiaid Protestanaidd, g. 42; e. 41; c. 3,500. 5. Methodistiaid Affricanaidd Esgobaethol Seion, g. 2,372; e. 1,605; c. 394,562. Methodistiaid Protestanaidd, g. 1,500; e. 2,200; c. 162,789. 7. Methodistiaid Wesleyaidd, g. 600; e. 565; c. 16,492. 8. Methodistiaid Wesleyaidd y De, g. 5,487; e. 16,000; c. 1,333,210. 9. Y Methodistiaid Cynnulleidfaol, g. 150; e. 150; c. 8,765. 10. Cynnulleidfawyr Methodistaidd (Lliw), g. 5; e. 5; c. 319. 11. Methodistiaid Cynnulleidfaol Newydd, g. 20; e. 24; c. 1,059. 12. Undeb Seion Apostolaidd, g. 30; e. 32; c. 2,346. 13. Methodistiaid Esgobaethol Lliwiedig, g. 1,224; e. 3,672; c. 128,817. 14. Methodistiaid Cyntefig, g. 65; e. 89; c. 5,005. 15. Methodistiaid Rhyddion, g. 863; e. 708; c. 26,140. 16. Methodistiaid Annibynol, g. 8; e. 15, c. 2,569. 17. Cenhadaeth Efengylaidd, g. 47; e. 11; c. 951. Cyfanrif:—gweinidogion, 32,319 (yn 1890, 30,000); eglwysi, 53,457 (yn 1890, 46,138); cymmunwyr, 4,941,529 (yn 1890, 4,589,284).

*Moraffaid:*— Gweinidogion, 115 (yn 1890, 114); eglwysi, 96 (yn 1890, 94); cymmunwyr, 12,535 (yn 1890, 11,781).

*Presbyteriaid:*—1. Presbyteriaid Unol Dalaethau yr America (Gogledd), gweinidogion, 6,335; eglwysi, 7,103; cymmunwyr, 876,520. 2. Presbyteriaid Cumberland, g. 1,708; e. 2,881; c. 184,138. 3. Presbyteriaid Cumberland (Lliw), g. 400; e. 250; c. 13,250. 4. Methodistiaid Calfinaidd Cymreig, g. 89; e. 188; c. 13,000. 5. Presbyteriaid Unedig, g. 781; e. 896; c. 104,058. 6. Presbyteriaid yn Unol Dalaethau yr America (De), g. 1,319; e. 2,173; c. 199,167. 7. Eglwys Gyfranogol Gogledd America, g. 12; e. 31; c. 1,053. 8. Synod Gyfranogol Diwygiedig y De, g. 91; e. 127; c, 9,793. 9. Presbyteriaid Diwygiedig yr Unol Dalaethau (Synod), 106; g. 115; e. 9,588. 11. Presbyteriaid Diwygiedig yn Ngogledd America (Synod Cyffredinol), g. 38; e. 41; c. 5,000. 11. Presbyteriaid Diwygiedig (Cyfammodwyr), g. 1; e. 4; c. 37. 12. Presbyteriaid Diwygiedig yn y Talaethau Unedig, a Canada, g. 1; e. 1; g. 600. Cyfanrif:—gweinidogion, 10,881 (yn 1890, 10,448); eglwysi, 14,350 (yn 1890, 13,476); cymmunwyr, 1,416,204 (yn 1890, 1,278,332).

*Esgobaethwyr Protestanaidd:*—1. Esgobaethwyr Protestanaidd, gweinidogion, 4,384; eglwysi, 5,803; cymmunwyr, 591,317. 2. Esgobaethwyr Diwygiedig, g. 93; e. 94; c. 9,447. Cyfanrif:—gweinidogion, 4,477 (yn 1890, 4,224); eglwysi, 5,897 (yn 1890, 5,102); cymmunwyr, 600,764 (yn 1890, 540,509).

*Diwygiedig:*—1. Diwygiedig yn America, gweinidogion, 552; eglwysi, 557; cymmunwyr, 94,615. 2. Diwygiedig yn yr Unol Dalaethau, g. 938; e. 1,658; c. 221,473. 3. Cristionogion Diwygiedig, g. 78; e. 121; c. 13,598. Cyfanrif:—Gweinidogion, 1,568 (yn 1890, 1,506); eglwysi, 2,336 (yn 1890, 2,181); cymmunwyr, 331,686 (yn 1890, 309,458).

*Byddin yr Iachawdwriaeth:*—Gweinidogion, 2,016; eglwysi, 642 (yn 1890, 329); cymmunwyr, 22,000 (yn 1890, 8,742). Ysbrydegwyr, e. 334; c. 45,330 (yn 1890, 45,030).

*Y Brodyr Unedig:*—1. Brodyr Unedig yn

Digitized by Google

Nghrist, gweinidogion, 2,136; eglwysi, 4,097; cymmunwyr, 215,718. 2. Brodyr Unedig (Hen Gyfansoddiad), g. 550; e. 800; c. 30,000. Cyfanrif:—Gweinidogion, 2,686 (yn 1890, 2,798; eglwysi, 4,897 (yn 1890, 4,526); cymmunwyr, 245,718 (yn 1890, 225,281).

*Undodiaid:*—Gweinidogion, 8,519; eglwysi, 437 (yn 1890, 421); cymmunwyr, 68,250 (yn 1890, 67,749). Cyffredinolwyr, g. 708; e. 792 (yn 1890, 956); c. 46,188 (yn 1890, 49,194).

UWCH-FEIRNIADAETH. Ni a roddwn yma, yn gyntaf, syniadau yr Uwch-feirniaid am yr Ysgrythyrau; ac a wnawn hyny mor deg ag y gallwn, gan ymgadw heb gyffwrdd â syniadau gwylltaf a mwyaf anaddfed rhai o honynt. Ar ol hyny, ni a gyflwynwn syniadau yr Iuddewon am yr Ysgrythyrau; ac uwch law pawb, rai o gyfeiriadau yr Arglwydd Iesu Grist ei hun atynt.

Croniclau crefyddol a gwladol cenedl yr Hebreaid yw yr Hen Destament, gan mwyaf o lawer. Ysgrifeniadau detholedig sylfaenwyr crefydd Crist yw y Testament Newydd. Ceir yn y casgliad gwerthfawr hwn amrywiaeth tra goludog o lenyddiaeth hen mewn tair o dafod-ieithoedd. Yn ei ffurf bresennol, y mae y Beibl yn fwy o lyfrgell nag o lyfr; gan ei fod yn cynnwys llawer o lyfrau. Peth cymmharol ddiweddar yw siarad am dano fel 'Y Llyfr,' fel pe byddai yn un gwaith cyfansawdd. Yn y drydedd ganrif ar ddeg *Biblia*—hyny yw, 'y Llyfrau'—oedd y gair a ddefnyddid i'w dynodi. Yn yr eglwysi Iuddewig a Christionogol, y mae i'r Beibl safle ddiammheuol. Nid oes a warafuna iddo awdurdod anffaeledig ar gwestiynau pwysig ffydd, buchedd, ac addoliad:—Pa beth i'w gredu? Pa fodd i fyw? A phwy i'w addoli? Arno ef y sylfaenwyd crefydd, athrawiaeth, a moeseg. Yr elfen ysbrydol sydd yn rhedeg drwyddo a roddes arno yr arbenigrwydd a'i gwahaniaetha oddi wrth bob casgliad arall o lenyddiaeth. Y mae greddfau addolgar natur dyn wedi bod yn brofedigaeth iddo ar bob amserau. Pan luniwyd athrawiaeth ysbrydoliaeth 'eiriol' yr Ysgrythyrau, amcanwyd ei ddyrchafu ar orsedd anffaeledigrwydd yn holl gylchoedd deall a rheswm. Ond nid yw efe ei hun yn hòni safle felly. Gwnaed hyn ar ei ran—ond heb ei ganiatâd. Erbyn heddyw, credir yn lled gyffredinol nad oes a fyno â hyny—ond â chrefydd ac â moesau, yn benaf; a chynnwysa hanesyddiaeth hynaf y byd. Er pob ymdrech a wnaed i gael ganddo siarad gwyddoniaeth, bu y cyfan yn ofer. Caiff lonydd bellach, ond odid, i ddysgu dyn yn ei faes neillduol ei hun. Mae'n eglur fod gan yr Ysbryd Glân amgenach hyder mewn dyn nag a fu gan ddyn yn ei gyd-ddyn; ond ystyried na thybiodd efe yn addas i greu iaith newydd a digyfnewid at yr amcan o warchod a bod yn dafod i'r Dadguddiad dwyfol. Ymddiriedodd Duw ei Air i ofal y cyfryngau arferol sydd gan ddyn at ei wasanaeth. Anfonodd ei Fab yn ffurf dyn, a'i Air yn iaith dyn—er fod y ffurf wedi colli ei ogoniant, a'r iaith ei pherffeithrwydd. Ni fradychwyd yr ymddiriedaeth nefol. Er holl beryglon gyrfa y Beibl o oes i oes, o wlad i wlad, ac o iaith i iaith, nid yn unig y mae y casgliad wedi ei ddiogelu, ond cyttunir gan y rhai cymmhwysaf i farnu fod y llyfrau yn lanach oddi wrth wallau copïwyr nag y buont un amser er pan y gadawsant ddwylaw eu golygwyr cyntaf. Yn awr, y mae yr Uwch-feirniaid yn hòni mai llaw a llygaid craff a meistrolgar Beirniadaeth Feiblaidd a gyflawnodd y pethau hyn. Mae'n wir nad ydyw y gwaith ar ben etto. Y mae dynion yn cynnyddu fwy-fwy mewn dysgeidiaeth, profiad, a chraffder; a gwledydd y Dwyrain yn parhau i roddi i fyny eu dirgelion: am hyny, bydd galw beunyddiol am wasanaeth y wyddor er puro testyn y Beibl oddi wrth lygriadau a ddaethant iddo, a phenderfynu safle a chymmeriad gwahaniaethol ei amrywiol lyfrau.

I. Pa beth ydyw Beirniadaeth?

1. Geiriau cymmharol newydd yn maes llenyddiaeth ysgrythyrol yw 'beirniadaeth,' 'uwch-feirniadaeth' 'ac îs-feirniadaeth.' Ar yr un pryd, ni raid i neb eu hofni; canys llafurwyr yn ngwasanaeth gwirionedd ydynt. Er gwaethaf yr enw, nid yw 'uwch-feirniadaeth' yn swyddog anrhydeddusach nag 'îs-feirniadaeth.' Defnyddir y geiriau er gwahaniaethu rhwng beirniadaeth o destyn, a beirniadaeth o ardduli a ffurf llenyddol y Beibl. Maes îs-feirniadaeth yw y testyn. Maes uwch-feirniadaeth yw y cynnwysiad, a'r ffurf. Nid oes a fynont â barnu ysbrydoliaeth na duwinyddiaeth yr Ysgrythyrau. Arfau llenyddol yn unig ydynt. Rhenir beirniadaeth i dair cangen—beirniadaeth gyffredinol, beirniadaeth hanesyddol, a beirniadaeth Feiblaidd. Cangen yw y Feiblaidd o'r hanesyddol, a changen ydyw yr hanesyddol o'r gyffredinol. Wrth feirniadaeth y golygir y modd neu y ffordd ddiogel o wybod. Pa le bynag y bydd unrhyw beth, a modd cael gafael arno er ei wybod, swydd beirniadaeth ydyw profi dilysrwydd y peth hwnw. Ymledodd cyfeiliornadau i bob man; ac nid oes lenyddiaeth hen, na diweddar, wedi diangc rhagddynt. Yn sefyllfa bresennol pethau, nis gall fod yn amgen. Gan nad pa mor gryfion y bydd cynneddfau y meddwl wrth naturiaeth, arferir hwy gan ddynion sydd heb eu cyfaddasu erioed at y gwaith. Celfyddyd yw bywyd ar ei hyd. Y mae ystyr dwfn i'r dywediad, 'Rhaid *dysgu* byw.' Os heb ddysgu arfer rheswm, dirywia dyn i fod yn greadur o reddfau ac arferion yn unig. Os heb ddysgu y gelfyddyd o ddefnyddio y llygaid i edrych, ni cheir golwg deg a chyflawn ar ddim. Pe byddai cynneddfau y meddwl yn anffaeledig yn eu gwaith, a dynion yn anffaeledig yn eu medr i'w ddefnyddio, ni byddai angen beirniadaeth. Yn anffodus, fel arall y mae, ac fel arall y bu. Ammherffeithrwydd cymmharol y cynneddfau eu hunain, a musgrellni a difrawder dynion yn yr ymgais i'w defnyddio, a leidiodd ffynnon gwybodaeth. Dyma darddell ansicrwydd. Yn ngwyneb hyn, aeth beirniadaeth yn un o angenrheidiau y bywyd deallol; ac nis gellir ei hebgor. Achwynir arni, gan y tybia rhywrai mai peiriant dinystr ydyw. Nid felly: gwna lawer iawn o waith cadarnhaol mewn cyfanu ac adeiladu. Yn mhlith pethau eraill, y mae yn llafurus mewn arholi, archwilio, cymmharu, profi, ac ymholi i ddechreuad pethau, dilyn eu twf, nodi allan y chwanegion a wnaed atynt mewn amseroedd diweddarach, cywiro camgymmeriadau, codi bylchau, nerthu gosodiadau gweiniaid, ysgaru y gwir a'r gau; ac yn mhob modd, ymgeleddu y gwirionedd, gan ei osod i sefyll yn ei symledd cynhenid ger ein bron.

2. Nis gellir gwneyd hyn oll heb ddinystrio rhai pethau y teimlir graddau o anwyldeb atynt—pethau na ddychymygwyd o'r blaen eu bod yn estroniaid. Fe ŵyr y gwybodus fod pob

llenyddiaeth yn lled-frith o goeg-ddyfaliadau, tybiau cywrain, lledrithion anelwig, a dychymygion di-sail. Am eu bod yn hen gymmydogion i ffeithiau, yn ymddangos fel hwythau, y mae yr anwybodus yn edrych arnynt fel ffeithiau, ac yn ymddiried ynddynt. Er engraifft, nid ydyw y Beibl Hebraeg wedi ei ranu yn bennodau, nac yn adnodau; ac nid oes ynddo 'gynnwysiad,' nodau cyfeiriadol, na chyfrifon amser. Chwanegion diweddar ydynt i gyd. Nid yw hyd yn oed yr hyn a elwir yn 'Amseryddiaeth Ysgrythyrol' ond dyfaliadau yr Archesgob Usher. Dodwyd hwy yn y Beiblau Saesnig a Chymraeg, am y tybiwyd unwaith eu bod yn gywir—neu yn agos a bod felly. Ar ddalenau cyntaf Genesis, gwelir 'Cyn Crist, 4004.' Seiliodd Usher ei ddamcaniaeth ar oedran y patriarchiaid, fel y maent wedi eu cofnodi yn y testyn Hebraeg diwygiedig. Yn anffodus, rhoir cofnodion gwahanol am eu hoedran yn nghyfeithiad y Deg a Thrigain, Pum Llyfr y Samariaid, a'r testyn Hebraeg Masoretaidd. Y mae cyfanrif y gwahaniaeth sydd rhyngddynt ar fin bod yn bymtheg cant o flynyddau. Pwy sydd gywir? Nis gŵyr neb. Ond nid ydyw hyn oll yn effeithio ar y Beibl, o gwbl. Fodd bynag, y mae dehonglwyr yn dechreu cymmeryd distawrwydd dwfn y Beibl am ei wir werth. Cyttuna llawer nad ellir seilio 'amseryddiaeth' o ddigwyddiadau, fel dechreuad y byd ac amseriad y diluw, gyda'r defnyddiau sydd mewn llaw yn bresennol. Gydag Abraham y mae hanesiaeth sicr, yn ystyr wyddorol y gair, yn dechreu. Crynhöad ydyw y cyfan cyn hyny o ffeithiau sydd o'r pwysigrwydd mwyaf—llawer o ba rai a gafwyd trwy ddadguddiad, ac eraill trwy ysbrydoliaeth; y rhai a drosglwyddwyd o oes i oes trwy draddodiad. Maent yn hanesion, neu yn weddillion hanes; a'r amseriadau, naill ai heb eu rhoddi, neu wedi eu colli. Ar yr un pryd, na thybier fod beirniadaeth yn hòni anffaeledigrwydd digyfnewid. Fel pob peth dyn, rhaid i'r wyddor gywiro ei hun o hyd; ac y mae prawfion ar gael fod beirniadaeth Ysgrythyrol wedi newid ei thir lawer gwaith, ac wedi addef ei chamgymmeriadau blaenorol. Tragwyddol wyliadwriaeth ydyw pris gwirionedd a rhyddid.

3. Y mae gan feirniadaeth ei hegwyddorion, yn ogystal a'i dull o weithio. Cyn y gellir deall egwyddorion Beirniadaeth Feiblaidd, rhaid yn gyntaf ddeall egwyddorion Beirniadaeth Hanesiol. Mae tystiolaethau hanes yn perthyn i'r gorphenol:—tri ydynt mewn nifer; sef, tystiolaethau geiriol, ysgrifenedig, a choffadwriaethol. Ond cyn ein cyrhaedd ni, y maent wedi myned trwy gyfnewidiadau. Er penderfynu eu dilysrwydd, rhaid eu holrhain yn ol i'w dechreuad. Mae dyfais yn fedrus i greu pethau i ddyddori, gan eu gosod allan fel gwirioneddau diammheuol. Dichon i bethau o honiadau uchel fod yn elfenau cymmysgedig o'r naill a'r llall. Rhydd y wyddor sylw i drefn a chwrs dadblygiad defnyddiau, dylanwad nerthoedd allanol arnynt, a chymmeriad y defnydd mewn trefn i gael allan pa mor ddibynol ydynt. Os na ddeil tarddellau hanes eu profi wrth reolau pendant beirniadaeth, nid ydynt yn ddilwgr. Wrth gymmhwyso yr egwyddorion hyn, ac eraill nad oes angen eu crybwyll yma, purwyd dalenau hanes o lawer o chwedlau, dychymygion, a ffug-wersi; a chaed sicrwydd ynghylch dilysrwydd y sylfeini ar y rhai y gorphwysant.

Yn awr, yr un yw egwyddorion Uwch-feirniadaeth ag eiddo Beirniadaeth Hanes. Yn gyntaf, Penderfynir cyfanrwydd neu gywirdeb yr ysgrifeniadau; hyny yw, ai gwaith un ydynt, ynte gwaith llawer? A yw y Beibl yn ei gyflwr syml gwreiddiol, neu a olygwyd ef gan chwanegu ato ddefnyddiau eraill; ac a ellir ysgaru y naill oddi wrth y llall? Yn ail, Awduriaeth:—A yw yr ysgrifeniadau yn ffug-enwol, anhysbys? ai ynte a ddygant hwy enw y gwir awdwr? A yw yr enw yn ddilys, ynte yn un ffugiol? Pa fesur o ddibyniaeth y gellir ei roddi ar draddodiad gyda golwg ar awduriaeth ysgrifeniadau ffug-enwol. Yn drydydd, Nodau llenyddol:—Arddull, a threfn awdwr o gyfansoddi. Yn bedwerydd, Dilysrwydd:—A yw yr ysgrifeniadau yn gyfryw ag y gellir lwyr ddibynu arnynt? A ydynt yn cydgordio â'r gwir? neu ynte, a liwiwyd hwynt gan ragfarn, hygoeledd, neu ar dystiolaeth annigonol neu ddi-ymddiried? Pa beth yw cymmeriad yr awdwr gyda golwg ar gallineb, barn dda, tegwch, cywirdeb amcan, a challineb beirniadol?

II. Uwch-feirniadaeth wrth ei gwaith.

Wedi bwrw golwg ar Feirniadaeth Ysgrythyrol yn ei natur a'i hegwyddorion, a chael fod ei hamcan yn fuddiol, a'i hysbryd yn anrhydeddus, ni a symmudwn, bellach, er ymofyn, Pa fath lwyddiant a fu ar ei llafur?

1. Rhenir y Beibl Hebraeg i bedwar-ar-hugain o lyfrau; a dosrenir hwynt i dri o ddosbarthiadau. Fel hyn y mae eu trefn:—

I. Pum-pummed o'r Gyfraith ... 5

II. Y Prophwydi—
Prophwydi blaenaf:—
*Joshua*, *Barnwyr*, *Samuel*, a'r *Brenhinoedd* ... ... 4
Prophwydi olaf:—
*Esaiah*, *Jeremiah*, *Ezeciel*, a'r *Deuddeg*.. ... ... 4

III. Yr Ysgrifeniadau Sanctaidd, neu Ketubim—
Llyfrau barddonol:—
*Salmau*, *Diarhebion*, a *Job* ... 3
Y Megilloth:—
*Caniadau*, *Ruth*, *Galarnad*, *Y Pregethwr*, ac *Esther* ... 5
*Daniel*, *Ezra*, *Nehemiah*, a'r *Croniclau* ... ... 3

Pan yn ffurfio canon y Beibl, ymddengys ddarfod i'r Rabbiniaid fethu cyttuno ar gwestiwn rhaniad yr Ysgrifeniadau Sanctaidd. Arweiniwyd hwy gan hyny i ffurfio, o leiaf, ddau ddosbarthiad arall. Yn y rhai hyny y mae dau-ar-hugain, a saith-ar-hugain, o lyfrau. Wedi dechreu darllen Genesis gyda mesur o graffder, gwelwyd nad oedd y llyfr hwnw yn dwyn nodau arferol un cyfansoddwr. Defnyddir gwahanol enwau ar y Bod Dwyfol. 'Duw' (*Elohim*) sydd yn y bennod gyntaf ar ei hyd; 'Arglwydd Dduw' yn y tair dilynol (ac eithrio y pedair adnod gyntaf yn yr ail bennod); 'Arglwydd' (*Iahve*—Iehofah) yn y bummed, a'r gyfran gyntaf o'r chweched bennod. Aed yn mlaen; a gwelwyd fod ynddo ddau adroddiad am y greadigaeth, a dau am y diluw. Yn y cyntaf, aeth dau o bob creadur i'r arch. Yn yr ail, saith pâr o rai glân, a dau bâr o rai aflan; ac ni chydddywedant am enciliad y dyfroedd. Rhoddir dau adroddiad gwahanol am ddechreuad Beersheba, Israel, a Bethel; dwy restr wahanol o wragedd Esau; dau adroddiad gwahanol am y

Digitized by Google

cais i gymmeryd gwraig Abraham oddi arno; dau gopi gwahanol yn Exodus o'r Deg Gorchymyn. Ail adroddir y deddfau yn Numeri, weithiau air am air; a phryd arall, gyda graddau o wahaniaeth. Dywedir fod cyfnod gwasanaeth y Lefiaid yn ymestyn o ddeg-ar-hugain hyd hanner cant. Adroddiad arall a ddywed mai o bump-ar-hugain i hanner cant oedd hyd y tymmor; a chwanegir ddarfod i Ezra ei estyn o ugain i hanner cant. Pan aeth y genedl i chwennych brenin, dywedir fod Samuel yn edrych ar y deisyfiad fel pechod; ond yn Deuteronomium, ceir darpariaeth ar gyfer ethol brenin. Barn y beirniaid yw, fod gwahaniaeth arddull a defnydd ynddynt; a bod amryw o honynt yn anghytuno â'u gilydd mewn manylion. A thybient oddi wrth hyn ei fod yn sail digonol dros edrych ar y Pum Llyfr fel cyd-gasgliad gwahanol olygwyr neu ddetholwyr, yn hytrach na'u bod yn cael eu hystyried yn gynnyrch ysgrifell Moses yn unig. Nid oes linell amlwg o doriad, meddant, rhwng y Pum Llyfr a'r ysgrifeniadau a briodolir i Joshua; a dywedant fod arwyddion o'r berthynas agosaf rhyngddynt a'u gilydd.

2. Y mae'r Uwch-feirniaid yn hollol unfrydol ar natur yr ysgrifeniadau o Genesis hyd Lyfrau y Brenhinoedd. Olrheinir ynddynt bedair haen o ddefnyddiau. Gelwir hwy y Cofnodion Jehofaidd, y Cofnodion Elohistaidd, y Cofnodion Deuteronomaidd, a'r Cofnodion Prïstaidd (neu Offeiriadol). Arwyddion y rhai hyn ydynt J E D P.

Wedi hyny, yn ol yr Uwch-feirniaid, daeth tri eraill yn nghwrs amser i ail drefnu yr hen ysgrifeniadau, a'u trwsio hwynt; ac mai hwy a roddodd iddynt y ffurf a feddant yn ein Beiblau ni. Fel golygwyr a diwygwyr, dywedant eu bod wedi trefnu eu defnyddiau trwy gymmeryd cyfranau o'r gwahanol ysgrifeniadau, a chwanegu atynt ddefnyddiau newyddion. Arwyddion llenyddol gwaith y tri hyn, meddir, ydynt J E, J E D, a J E D P. Dyfelir mai y bobl hyn a gyssylltodd enw Moses â'r Pum Llyfr, Joshua â'r chweched, a Samuel a'r eiddo yntau; a'u bod wedi gwneuthur hyny, nid am mai Moses, Joshua, a Samuel, a ysgrifenasant y llyfrau, ond am mai hwynt-hwy ydynt y cymmeriadau pwysicaf yn yr amgylchiadau a hanesyddir yn y llyfrau. Cydnabyddir yn amlwg nad yw y beirniaid yn hollol unfrydol am fanylion gwaith y tri golygydd olaf. Ar y cyfan, y mae y tabl a ganlyn yn cael ei ystyried yn grynhöad lled berffaith o'u golygiadau ynghylch yr amserau y casglwyd ac y diwygiwyd y gwahanol Gofnodion.

| | | |
|---|---|---|
| J ... ... ... | C. Crist | 850—700 |
| E ... ... ... | „ | 750—650 |
| D ... ... ... | „ | 621 |
| P ... ... ... | „ | 500 |
| J E cyfuniad ... ... | C. Crist | 630 |
| J E D „ ... ... | „ | 550 |
| J E D P „ ... ... | „ | 440 |
| Y Gyfraith (*Torah*) yn ei ffurf bresennol ... ... | „ | 400 |

Nis gallai y gyfres hanesyddol, o Genesis hyd Joshua, meddant, wisgo ei ffurf derfynol, oddi eithr iddi fyned dan law rhyw olygydd oedd yn blodeuo wedi cwblhau yr olaf o'r llyfrau; a hyny, ond odid, wedi y dychweliad o'r gaeth glud. Addefant fod Llyfr Deuteronomium yn gynnyrch annibynol ar yr ysgrifeniadau eraill a briodolir i Moses. Gan nad pwy a'i hysgrifenodd, credant yn ddiffuant mai Deuteronomium oedd y gwaith a ddarganfyddwyd yn y deml yn amser y brenin Josiah. Barnant nad ydyw yn gynnyrch llaw a meddwl Moses, na chwaith yn ddyddlyfr yr hen arweinydd enwog; etto ei fod yn adgynnyrchiad o'r traddodiadau am Moses, megys y ceid hwynt yn nyddiau Josiah.

Cyffelyb yw natur eu prawfion am y modd y dodwyd llyfrau y gwahanol brophwydi wrth eu gilydd. Y prophwyd, meddant, bïau y defnyddiau; ond y golygwyr, mewn amseroedd llawer diweddarach na'r prophwydi, bïau y gelfyddyd arw a digêl o wau y defnyddiau gwahanol wrth eu gilydd. Dywedant nad oes un gosodiad hanesyddol, na bydol, nac eglwysig, yn gorwedd ar seiliau cadarnach na'r gosodiad fod i'r hanner olaf o Lyfr Esaiah awdwr gwahanol i gyfansoddwr yr hanner cyntaf. Gŵr digon cyffredin oedd Esaiah, meddant. Ond y mae y llall yn dywysog yn mysg beirdd a thywysogion meddyliol y byd. Yn el eu syniadau hwy, y mae ôl yr un dwylaw hefyd ar y prophwydi bach. O ran neillduolion cyfansoddiad, y mae mesur tra helaeth o debygolrwydd rhyngddynt ag ysgrifeniadau Llyfr Esaiah. Y mae yn wybyddus, meddant, eu bod unwaith yn un llyfr: ond paham y gwnaed deuddeg allan o honynt sydd yn ddirgelwch.

3. Yr hyn ydyw y *Myvyrian Archaiology of Wales*, neu *Emynau y Cyssegr*, i'r Cymro, dyna yw y Salmau i'r Iuddew. Casgliad o farddoniaeth yr Hebrëaid ydyw. Unwaith, edrychid arno fel barddoniaeth Dafydd Frenin; er fod ynddo, meddant, ddetholiad o gyfansoddiadau pum canrif. Arweiniwyd y diweddar Robertson Smith i'r penderfyniad fod y Salmau yn cynnwys tri chasgliad o ganeuon cenedlaethol, wedi eu gwneyd ar wahanol amserau. Yn y Beibl Hebraeg, dosberthir hwy i bump o lyfrau. Gan fod ymchwiliadaeth Mr. Robertson Smith wedi ei grynhoi i ffurf tabl, dodir ef yma:—

I. Y Casgliad Cyntaf (*Llyfr* i.).
Dafydd ... *Salm* 1—41.
*Mawlgân.*

II. Yr Ail Gasgliad (*Llyfr* ii. a iii.)
*Rhan* i.—Dafydd *Salm* 51—73
*Mawlwers a Llofnodiad.*
*Rhan* ii.—Korah *Salm* 42—49
Asaph *Salm* 50, 73—83
*Attod.*—Amryw. *Salm* 84—89
*Mawlwers.*
} Salmau *Elohim*

III. Trydydd Casgliad (*Llyfr* iii. a iv.).
Dïenw, o'r bron. *Salm* 90—150.

4. Y mae gan ysgolheigion yr Hen Destament waith blynyddoedd lawer i chwilio yr ysgrifeniadau Hebrëig cyn y bydd yn gyfartal ei gyflwr, yn ol eu syniadau hwy, â thestyn y Testament Newydd: a rhagddo y mae ymchwiliadaeth Feiblaidd yn myned. Ymuna ysgolorion addfetaf Prydain, Ewrop, ac America â'u gilydd er cyrhaedd yr amcan hwn. Mae gwaith o werth tra eithriadol ar yr Hen Destament newydd ei gyhoeddi, o dan olygiaeth Kautzsch, yn yr Almaen, yr haf presennol. Nis gall yr efrydydd beirniadol gael y fath grynhöad o ffeithiau yn un man ag yn yr ail gyfrol o *De Heilige Schrift des Alten Testament.* Casglodd Kautzsch i golofn Hanes Llenyddol Israel yr hyn yr edrychir arno gan lawer fel ffrwythau sicr beirniadaeth Feiblaidd. Dyfala efe mai gweddillion hynaf llenyddiaeth Hebrëig ydyw

Digitized by Google

Cân Hannah, â'i dyddiad yn 1250 c.c. Dilynir hi gan Ddammeg Jotham. Y nesaf, o ran oedran, yw Galarnad Dafydd am Jonathan (1000 c.c.); a'i alarnad am Abner, a Dammeg Nathan. Dilynir y rhai hyn, o ran amser, gan weddi Solomon ar gyssegriad y deml (1 *Bren.* viii. 12, &c.). Credir mai *Llyfr Esther* ydyw yr olaf o holl ysgrifeniadau yr Hen Destament. Dodir 150 c.c. fel amcangyfrif o'i amseriad.

5. Yr oedd yn naturiol i'r Testament Newydd fyned allan o ffwrn beirniadaeth yn gymmharol groen-iach; ac felly y bu. Nid ysgrifenodd sylfaenydd Cristionogaeth un linell; a phregethu yr efengyl, nid ei hysgrifenu, oedd ei orchymyn. Bywyd ei ddysgyblion oedd ei epistolau ef. Tra yr oedd efe gyda hwynt, nid oedd angen am ysgrifenu ei eiriau; a chan eu bod yn disgwyl yn hyderus am ei ddychweliad, buont yn ymarhous i gasglu ynghyd eu hadgofion am eu Hathraw Mawr. Angenrheidrwydd cenhadol a barodd i Paul gymmeryd ei ysgrifell i fyny. Ei epistolau ef ydynt lyfrau hynaf y Testament Newydd. Unwaith, bu ammheuon cryfion yn mhlith yr Uwch-feirniaid a oedd ganddo hawl i chwaneg na phedwar o'r epistolau—y ddau Gorinthiaid, y Rhufeiniaid, a'r Galatiaid. Ond ni phetrusir mwyach nad efe a ysgrifenodd y ddau Thessaloniaid, y Philippiaid, y Colossiaid, a'r Ephesiaid. Rhoddwyd i fyny y dybiaeth mai Paul a ysgrifenodd yr Hebreaid gan yr Uwch-feirniaid; gan ei fod yn ymddangos iddynt mor dra gwahanol ei ddefnydd a'i arddull i ysgrifeniadau eraill yr apostol. Ar hyn o bryd, tybiant mai Barnabas, neu Apolos, oedd ei ysgrifenydd.

Gyda golwg ar yr Efengylau, dywed Luc, gyda phriodoldeb neillduol, fod 'llawer wedi cymmeryd mewn llaw i osod allan mewn trefn' yr adgofion a'r traddodiadau am ein Harglwydd. Ac un o arwyddion daionus yr amserau yw, fod hyder yn yr Ysgrythyrau yn cryfhau. Y mae hyn ar gynnydd amlwg yn mhlith dehonglwyr y Beibl. Un o ennillion pwysicaf beirniadaeth ddiweddar yw yr addefiad cyffredinol ar ran y rhai a wnant astudiaeth arbenig o'r pwngc, fod yn mryd yr Efengylwyr i ysgrifenu hanes syml am fywyd ein Gwaredwr. Credir mai cofnodion Marc ydyw yr hynaf, am mai efe yw y symlaf. Derbyniodd ei ddefnyddiau oddi ar wefusau Pedr, ac ysgrifenodd ei Efengyl tua'r flwyddyn 70. Yr oedd traddodiad yn nyddiau y tadau eglwysig ddarfod i Matthew gasglu at eu gilydd swm o ddywediadau yr Arglwydd Iesu yn yr iaith Aramaeg. Nid yw y casgliad hwnw ar gael heddyw; ond gyda'r defnyddiau oedd ynddo, meddir, a'r cynnorthwy hefyd a gaed gan Marc, y ffurfiodd Matthew ei adgofion. Yn ei ragymadrodd, dywed Luc mai detholiad o ddefnyddiau, wedi ymchwiliad dyfal, yw ei lyfr yntau. O safle lenyddol, rhoddir y flaenoriaeth i Luc am drefnusrwydd a phrydferthwch celfydd. Y prydferthaf o holl lyfrau y byd ydyw, yn ol Renan. Canfu llygaid beirniadaeth fod graddau amlwg o wahaniaeth yn amcanion yr ysgrifenwyr wrth osod eu defnyddiau wrth eu gilydd. Y mae llygaid Matthew yn sefydlog ar ei gydgenedl. Ei nôd oedd profi mai Crist oedd y Messiah, a bod gwreiddiau ei efengyl yn ngweryd yr Hen Destament. O'r tu arall, detholodd Luc o'r pentwr mawr a gasglasai ffeithiau oedd yn myned i brofi fod Iesu Grist, er yn Fessiah yr Iuddew, yn Fab y dyn hefyd. Efe a ddiogelodd hanes y Samariad trugarog, y Mab Afradlawn, a'r Pharisead a'r Publican. Y mae yr hanes am enedigaeth a maboed yr Iesu, fel y ceir hwynt yn Matthew a Luc, yn cyfranogi o neillduolion traddodiadau, yn nhyb rhai o'r Uwch-feirniaid. Nid ydynt i'w cael yn yr Efengyl yn ol Marc. Gydag odfeuon Ioan Fedyddiwr y rhydd efe 'Ddechreuad yr Efengyl.'

Ar gyfrif y mawr wahaniaeth sydd yn nefnyddiau ac arddull y bedwaredd Efengyl, o'i chymmharu â'r tair cyntaf, bu gan Uwch-feirniadaeth lawer mwy i'w ddyweyd am dani nag am y lleill. Ni ddaeth allan o'r tân etto. Ar yr un pryd, y mae y beirniaid penaf yn gwahaniaethu yn eu plith eu hunain: ond cred llu mawr o honynt ydyw mai Ioan yw ei hawdwr. Dadleua eraill, mai efe fuasai yr olaf i fedru gwneyd hyny: ond gellir dyweyd fod y farn yn prysur droi o blaid y syniad mai Ioan ydyw awdwr y llyfr. Dwg y llyfr lawer chwaneg o nodau cyfanrwydd na'r rhai eraill. Cynnwysa swm mawr o ddefnyddiau newyddion. Nid hanesyddu digwyddiadau yn ngyrfa yr Arglwydd Iesu yw ei amcan ef, Yn hytrach, defnyddir bob ffaith a grybwyllir ganddo i brofi fod yr Iesu yn Fab Duw.

### III. Pa le yr ydym yn sefyll?

1. Y mae yn bryd i ni, bellach, ofyn y cwestiwn, Pa le yr ydym yn sefyll? Gallwn gydymdeimlo yn drwyadl â'r rhai sydd mewn pryder meddwl am ddiogelwch y Beibl. Y mae y teimlad gwerthfawr hwn yn codi o deyrngarwch sanctaidd ynghylch y pethau mwyaf eu pwys—y rhai hefyd a berthynant i'n heddwch. Ofnir i'r Arglwydd Iesu gael cam. Credir ei fod yn Hollwybodol, ac yn Hollalluog, er fod telerau ei ymgnawdoliad a'i ddarostyngiad yn cynnwys ymwaghâd, mewn rhyw ystyr, o rai o'r priodoleddau dwyfol.' Efe a'i *gwaghaodd* ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas.' Pa beth ydyw hyny, ond ddarfod iddo ddyfod y tu mewn i holl derfynau cyfyng natur dyn? Ac er y dywed yr Uwch-feirniaid nad ydynt yn cyffwrdd dim â duwinyddiaeth, gwelir eu tueddiadau yn fynych, fel yn yr achos hwn, pan y maent yn dadleu nad oedd gwaith Iesu Grist yn dyfynu o'r Ysgrythyrau Iuddewig yn chwanegu dim atynt, nac yn tynu dim oddi wrthynt, fel cofnodion. Llefarai am danynt, meddent, yn hollol megys un o'i gydwladwyr.

Y mae Uwch-feirniadaeth wedi peri cyffro meddwl o herwydd na chymmerwyd hamdden trwyadl i fyfyrio ac egluro ystyr geiriau fel 'Dadguddiad' ac 'Ysbrydoliaeth.' Yr hyn a ddadguddir gan Dduw, y mae yn rhaid ei fod yn wir. Ar yr un pryd, y mae dynion yn agored i fethu yn eu hesboniad o'r Dadguddiad. 'Y Mab, yr hwn a wnaed yn Air,' oedd y dadguddiwr, a'r dehonglydd difêth, meddant; er hyny, dangosant amnharodrwydd i addef fod nemawr o bwys i'w roddi ar ei gyfeiriadau at yr Hen Destament.

Y mae yr apostol Paul yn crybwyll am dymmhorau pan nad oedd yn gadarn yn ei feddwl ei hun ei fod yn llefaru yn ol dadguddiad. Ysbrydolir llawer gan Ysbryd Duw; ond ni chyfyd ysbrydoliaeth, meddant, y rhai a ysbrydolir bob amser mor uchel fel y gellir eu hystyried mewn ystâd o anffaeledigrwydd. Y mae y pegwn ar yr hwn y gorphwysai athrawiaeth awdurdod yr Ysgrythyrau yn graddol symmud. Pa beth sydd yn gwneyd y Beibl yn awdurdod ac yn anffaeledig o fewn ei derfynau priodol ei hun?

Digitized by Google

Dadguddiad:—nid Ysbrydoliaeth. Yr ydys yn ddyledus am y Beibl fel casgliad o ysgrifeniadau sanctaidd i Ysbrydoliaeth; ond yr hyn a ddyrchafodd Y Llyfr yn awdurdod derfynol yn holl diriogaeth ffydd ac ymarweddiad yw Dadguddiad. [Gw. YSBRYDOLIAETH.] Am fod yn y Beibl neges at ddyn fel dyn, na cheir dim o'i gyffelyb yn holl lenyddiaeth y byd, yna o angenrheidrwydd y mae ynddo ddadguddiedigaethau neillduol oddi wrth Dduw at ddyn—y rhai sydd i fod o wasanaeth iddo. Nid ydyw ail adroddiadau, a mesur o gymmysgedd defnyddiau, yn effeithio gronyn ar y gwirioneddau a'i dyrchafodd i fod dros byth yn 'Llyfr y llyfrau.' Pe buasai, er ymresymiad, yn gywir yn ei ffeithiau gwyddonol a hanesiol, o Genesis hyd y Dadguddiad, a bod ei berffeithrwydd llenyddol heb frycheuyn ar ei wyneb, buasai nerth anfesurol yn yr wrthddadl na bu gan ddyn erioed gyfran yn y gwaith o gasglu ei ddefnyddiau, a'u gosod ynghyd. Y mae ammherffeithrwydd yn dilyn dyn i bob man; a phan y 'cynnhyrfwyd' ef gan yr Ysbryd Glân i'r gorchwyl o godi teml mewn ysgrifen er bod yn gartref i wirioneddau dadguddiedig, nis gallodd lai na gadael rhai o'i farciau neillduol ei hun ar ystafelloedd a muriau yr adeilad hono.

2. Y mae yn naturiol gofyn, gan hyny, Pa les a gafwyd trwy wasanaeth Beirniadaeth Feiblaidd? Caed llawer, yn wir. Cafodd llawer eu cyffroi i feddwl mwy. Ni bu y fath gynniweirio am wybodaeth erioed. Agorwyd llygaid y meddwl i weled fod iachawdwriaeth yn seiliedig ar Berson. Nid ar lyfr—nac ar eglwys. Nid bob amser y cedwir mewn côf nad ydyw y Beibl, yn ei ffurf presennol, yn ugain canrif o oedran etto. Ond gan i'r Ysbryd Glân estyn y fath anrheg ammhrisiadwy i'r byd, y rhai sydd yn meddu ar y gallu i'w gwerthfawrogi benaf, y rhai hyny, o bawb, yw y mwyaf tawel wrth weled yr anrheg yn nwylaw y profwyr. Os gofynir, 'A ddrylliwyd y Canon? Ein hatteb ydyw, 'Naddo.' 'A fwriwyd rhai o'r llyfrau ymaith o herwydd yr hyn a eilw rhai yn fawr dwyll?' 'Naddo.' 'Pa beth am yr adnodau?' 'Y maent oll yn sefyll, megys cynt, oddi gerth paragraph yn y Testament Newydd. Yr ydym yn cyfeirio yma at *Efengyl Ioan* vii. 53, a viii. 1—11; 'Y wraig a ddaliwyd mewn godineb;' *Act.* viii. 37: 'Cyffes yr Eunych:' 1 *Ioan* v. 7, 8; 'Y tri thyst.' Y mae y deuddeg adnod olaf o Efengyl *Marc*, xvi. 9—20, yn yr un dosbarth. Er na chofnododd Ioan hanes y wraig a ddaliwyd mewn godineb yn ei lyfr; etto, y mae delw yr Arglwydd Iesu ar yr amgylchiad; a derbynir y paragraph fel hanes diammheuol. Dyma ffaith hynod:—allan o 150,000 o wahanol ddarlleniadau yn y testyn gwreiddiol o'r Testament Newydd, ebe Dr. Ezra Abbot (Undodwr), 'nid oes un athrawiaeth Gristionogol, na dyledswydd, yn gorphwys ar un o honynt; llawer llai y cyfarfyddir â dim a berthyn i hanfodion Cristionogaeth yn y gwahanol ddarlleniadau.' Cyffelyb ydyw tystiolaeth Dr. Richard Bentley, y galluocaf,a'r mwyaf beiddgar o'r holl Uwchfeirniaid. 'Nid ydyw (meddai) hyd yn oed y llawysgrif sydd yn cynnwys mwyaf o wallau yn gŵyrdroi, nac yn gosod o'r naill du gymmaint ag un erthygl yn y ffydd, nac un gorchymyn moesol chwaith.' Yn wir, nid oes gymmaint a hollt yn y mûr.

Ond pa beth am awduriaeth y gwahanol lyfrau?' Am lyfrau yr Hen Destament, ni chysylltwyd, yn wreiddiol, enw awdwr â nifer mawr o honynt; a thraddodiad a gymmerodd arni ei hun y cyfrifoldeb o bwytho enwau wrth y gweddill. Pan y deallir yn eglur nad ydyw ysgrifeniadau y *Pentateuch*—y Pum Llyfr—yn cael eu hawlio gan Moses fel cynnyrchion a ffurfiwyd ganddo ef, ac na hawliodd y Peraidd-ganiedydd, un amser, yr anrhydedd o fod yn awdwr barddoniaeth y Salmau, ni bydd grym mwyach yn y cyhuddiad o 'dwyll.' Gan nad pa rai ydynt feiau gwaharddedig beirniadaeth, ni chaed, hyd yma, un tyst a feiddiai ei chyhuddo o fwriadau camarweiniol. Y mae y wyddor yn onest, fel pelydrau y goleuni; ac er pan ymddiriedwyd y Beibl yn eu dwylaw, nid gormod yw honi fod y rhai a fuont unwaith yn elynion cyhoeddus iddo wedi dechreu parchu ei awdurdod.

3. Hyd yn ddiweddar, Rhydd-feddylwyr a Rhesymolwyr—caseion yr Ysgrythyrau—oedd yn ddigon craff eu golygon i weled y gronynau llwch, a'r mân frychau, ar ei wyneb. Ond ni bydd eisieu eu gwasanaeth byth mwy. Y mae caredigion yr hen lyfr yn ddigon craff i weled y brychau, ac yn ddigon gwrol i'w cydnabod: ond am fod eu llygaid yn sefydlog ar y gwirioneddau tragwyddol sydd yn gorwedd yn blygion y tu cefn iddynt, ni wna presennoldeb dim arall o fewn y gyfrol syflyd gronyn ar eu hyder ynddi. Yn wir, yr oedd gofal Uwch-feirniadaeth am anrhydedd a chyfanrwydd yr Ysgrythyr Lân, a'r awydd am weled ei wyneb hawddgar heb gymmaint a chrychni arno, y fath fel y dechreuodd ei ymgeleddu o dan nawdd y tadau yn moreuddydd cred. Cynnysgaethwyd amryw o'r tadau Groegaidd â chraffder ysbrydoledig, o'r bron. Y mae sylwadau Clement, Dionysius o Alexandria, ac eraill, mor glir yn eu helfeniad o neillduolion yr ysgrifeniadau a phe buasent wedi cael holl fanteision yr oes hon i'w hefrydu. Bu y Diwygiad Protestanaidd yn symbyliad grymus i Feirniadaeth. Yr oedd gan Luther a Calvin allu neillduol i adnabod cnewyllyn y gwirionedd, a pharodrwydd dibryder i'w ysgaru oddi wrth y gau. Er ei fod yn elyn i'r wir ffydd, etto gwnaeth Spinoza, yr Iuddew, wasanaeth i lenyddiaeth yr Hen Destament. Cymmhwysodd Richard Simon, y Pabydd, feirniadaeth hanesiol at y Pum Llyfr, y Brenhinoedd, a'r Croniclau, gyda mesur helaeth o lwyddiant. Ymunodd ysgolheigion Pabaidd a Phrotestanaidd yn y gwaith gyda dyhewyd sanctaidd, a dodasant feirniadaeth efengylaidd i orphwys ar dir cadarn.

4. Eichorn, yn y fl. 1780, a ddyfeisiodd y term 'Uwch-feirniadaeth.' Dichon na bu ffydd rhai o'r Uwch-feirniaid Ellmynaidd yn gref yn mhob rhan o'r Beibl fel dadguddiad ysbrydol: etto nid oes neb wedi cael sail i'w cyhuddo o wyro erioed yn fwriadol oddi wrth yr hyn a dybid oedd yn dystiolaeth eirwir. Diau fod casgliadau rhai o honynt yn geimion iawn; ond am gyfangorph ysgolheigion Ysgrythyrol yr Almaen —gwŷr fel Gesenius, Koppe, Bleek, Knobel, ac Ewald—nis gellir gorbrisio eu gwaith. Ac os oedd y rhan amlaf o honynt yn sychion ac oerion, nid felly pawb. Er yn feirniad o'r radd flaenaf, ni bu un sant efengylaidd yn un man yn ireiddiach ei ffydd, ac yn danbeidiach ei gariad at yr Arglwydd Iesu, na Delitzsch, yr hynaf.

Erbyn hyn, y mae gan Brydain ac America Uwch-feirniaid o adnoddau lled gyfartal i feirniaid goreu y Cyfandir. Nid oes sail i betruso

ynghylch eu teyrngarwch i Grist, a'u ffydd yn y Datguddiad. Garw fu gyrfa Beirniadaeth Feiblaidd yn Mhrydain o ddyddiau Hartwell Horne, awdwr yr *Introduction to the Critical Study and Knowledge of the Holy Scriptures*, 1818, heibio yr Esgob Colenso, ac awdwyr yr *Essays and Reviews*; erlyniadau poenus W. Robertson Smith yn Ysgotland, a C. A. Briggs, ac eraill, yn America. Erbyn heddyw, y mae yr ofn wedi peidio, a'r dyfroedd wedi llonyddu. Bu tair ysgol o feirniaid ar y maes yn cydymdrechu ac yn gwrth-ymdrechu am dymmor hir. Ymosod, a thynu i lawr, fu swydd Rhesymolwyr. Cario allan ymchwiliadau ysgolheigaidd, heb ymosod nac amddiffyn, fu gwaith y *Scholastics*. Amddiffyn fu prif lafur y beirniaid Efengylaidd. Wrth fwrw golwg ol a blaen, a chymmharu ysbryd beirniadaeth oes neu ddwy yn ol âg ysbryd beirniadaeth y dyddiau hyn, nid oes dim yn amlycach na bod Rhesymoliaeth wedi ymfoneddigeiddio yn ddirfawr. Nid colli, eithr ennill tir yn mhob modd a wnaeth y Beibl. Ni bu ei ddylanwad mor ddwfn a chyffredinol un amser ag yn awr. Gweinydda ddyddanwch nefol i'r Uwch-feirniaid eu hunain. Pregethir ei eiriau gyda mwy o ddealltwriaeth, ac â hyder dwysach yn ei genhadaeth; ond y mae hi yn rhy fuan i briodoli hyn oll i wasanaeth beirniadaeth. Yr ydys wedi sylwi fod beirniadaeth yn newid ei thir yn barhaus. Y mae hyny yn wir; ac er hyny o wasanaeth a gafwyd drwyddi, rhaid addef fod llawer o syniadau eithafol a gyhoeddwyd am ranau o'r Testament Newydd, megys am Efengyl Ioan, yn awr yn cael eu gwrthod gan y beirniaid goreu. Dyna hefyd, ni gredwn, fydd tynged yr Hen Destament; ac y mae arwyddion o hyny yn ymddangos eisoes yn y blynyddoedd hyn.

Wrth derfynu y crynodeb hwn o syniadau yr Uwch-feirniaid, y mae yn dda genym allu addef fod y corph o honynt yn ymddangos yn gydwybodol yn y cyflawniad o'u gwaith; ac nas gellir eu cyhuddo o feddu yr un ysbryd a Wellshausen, a rhai beirniaid Germanaidd eraill, yn eu hymchwiliadau; y rhai sydd wedi tywallt ffrwd o sylwadau ammharchus ar y gyfrol sanctaidd. Ond rhaid addef fod llawer o feirniaid Prydain yn ymddangos fel yn ddiffygiol o'r parch dyledus i'r Beibl, pan y dywedant y dylid ymddwyn tuag ato, a'i osod yn nghlorian eu beirniadaeth hwy fel unrhyw lyfr arall, a sylwadau cyffelyb. Ymddangosant hefyd weithiau, fel pe byddent yn fodau uwchraddol, a bod y Beibl yn sefyll mewn angen am eu hamddiffyniad hwy. Nid ydym yn teimlo y gwrthwynebiad lleiaf i holl offerynau cyfreithlawn y beirniaid gael eu defnyddio i'w cynnorthwyo yn eu hymchwiliadau. Caiff ieithyddiaeth, hanesiaeth, a rheswm, barhau i wneyd eu hymchwiliadau—ond gwneyd hyny mewn ysbryd gostyngedig a pharchus, fel y mae'n gweddu iddynt wrth ymdrin â'r gyfrol gyssegredig. Ac nid ydym yn anfoddlawn yn y graddau lleiaf, i wŷr y talentau mawr yn y meusydd hyn gyflawni eu gwaith, ond iddynt wneyd hyny dan ymdeimlad llawn o'u rhagorfreintiau, a'r cyfrifoldeb mawr sydd yn gorphwys arnynt. Gwneler hyn—ac nid ofnwn y canlyniadau.

GOLYGIAD ARALL AR Y BEIBL.

Yn awr, ar ol rhoddi y crynodeb uchod o syniadau yr Uwch-feirniaid, ni a edrychwn ar y Beibl o gyfeiriad arall; ac mewn trefn i wneyd hyny, ceisiwn atteb y cwestiwn canlynol:—Pa beth oedd, ac ydyw barn yr Iuddewon am yr Hen Destament? Yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, gofynodd yr apostol Paul y cwestiwn canlynol:—'Pa ragoriaeth, gan hyny, sydd i'r Iuddew?' Nid oedd neb o'r apostolion, mae'n debyg, yn meddu gwybodaeth gywirach am yr Hen Destament nag efe; ac nid oedd neb a allai siarad gyda mwy o awdurdod chwaith. Yr atteb a roddodd efe ydoedd, 'Llawer yn mhob rhyw fodd: yn gyntaf, o herwydd darfod ymddiried iddynt hwy am ymadroddion Duw.' Yr oedd yr Arglwydd wedi ymddiried trysor mawr yr oraclau dwyfol i'w gofal hwy, i'w cadw, a'u hamddiffyn. Nid neb o'r genedl a'u gwnaeth; er mai hwy oedd y cyfryngau. Y mae yn wir fod yn yr Hen Destament lawer o ymadroddion dynol i'w cael; er hyny, a'u cymmeryd gyda'u gilydd, yr oeddynt yn marn yr apostol yn deilwng o'r enw a roddodd efe arnynt. A chynnwysir yn y geiriau hefyd, mai yn y meddiant o'r hyn a ymddiriedwyd iddynt, yr oedd swm a sylwedd eu holl ragorfreintiau yn gorwedd. A dyma ffaith hynod hefyd—nad yw yr apostol, na neb arall, yn y Testament Newydd, hyd yn oed yn awgrymu eu bod yn anffyddlawn i'r ymddiried a gawsant, yn y graddau lleiaf. Y mae yn anhawdd, os nad yn ammhossibl, cyssoni rhai o syniadau yr Uwch-feirniaid â thystiolaeth fel hon—tystiolaeth nad oes yr amwysedd lleiaf ynddi. Yn awr, edrycher ar yr Ysgrythyrau o unrhyw gyfeiriad, ac fe welir fod perthynas agos rhyngddynt â'r genedl Iuddewig. Gyda'r eithriad o'r un-bennod-ar-ddeg cyntaf yn Genesis, Llyfr Job, y Diarhebion, a'r Pregethwr, y mae y Beibl yn ei holl ranau yn Iuddewaidd—yn gwbl felly. Nid oes un o'r Cenhedloedd wedi ysgrifenu llinell o hono. Hebrëwyr o'r Hebreaid oedd ei holl ysgrifenwyr - ac heb eithrio Luc, y physygwr. Y mae ei hanesion yn Iuddewaidd, ac Iuddewaidd ydyw yr ysbryd yn yr hwn y mae wedi ei gyfansoddi; ac y mae hyd yn oed ysgrifeniadau Groegaidd y Testament Newydd yn llefaru â llais Iuddewaidd. Er hyny, mae'r Beibl Iuddewaidd hwn yn Feibl i'r holl fyd—heb adnabod nac 'Iuddew na Groegwr, na barbariad na Scythiad, na chaeth na rhydd.' Llyfr i'r holl ddynoliaeth ydyw. Os mynir eglurhâd ar y neillduolrwydd hwn, na pherthyna i un llyfr arall ar y ddaear, y mae i'w gael yn y geiriau canlynol—'Nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth; eithr dynion sanctaidd Duw a lefarasant megys y cynnhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân.'

Y mae yr holl lyfrau sydd genym yn awr wedi eu chwanegu yn raddol; ac ar ol hyny, wedi eu casglu at eu gilydd. Ac am dri chant o flynyddoedd cyn ymddangosiad Crist, ystyrid y casgliad hwn gan yr Iuddewon fel yr unig gasgliad o lyfrau sanctaidd awdurdodedig. Ac y mae hi yn ffaith hynod nad ydoedd gan yr Iuddewon un amser ammheuaeth ynghylch y llyfrau hyn. Yr oeddynt yn meddu ar lawer o lyfrau eraill; fel y dywedir yn niwedd Llyfr y Pregethwr, 'nad oedd dyben ar wneuthur llyfrau lawer.' Ond o blith yr holl lyfrau a feddent, y llyfrau hyn a gasglwyd; a byddent drwy yr oesoedd yn cael eu hystyried yn llyfrau sanctaidd.

Yr oedd yr Ysgrythyrau hyn gan yr Iuddewon yn nyddiau ein Gwaredwr; ac ystyrid y gyfrol y pryd hyny yn sanctaidd. Y mae tystiolaeth Josephus yn ddigon hysbys i ni. Dywedodd fod gan yr Iuddewon ddau ar hugain o

lyfrau Ysgrythyrol—Pum Llyfr Moses, llyfrau hanesyddol, pedwar o lyfrau o hymnau i'r Arglwydd, Diarhebion yn dysgu pa fodd i fyw, a'r llyfrau prophwydol. A dywedodd nad oedd neb erioed wedi beiddo chwanegu dim atynt, na thynu dim oddi wrthynt. Dywedodd hefyd am lyfrau yr Apocrypha, er eu bod yn ddifyrus i'w darllen, nad oeddynt erioed wedi eu chwanegu at y llyfrau eraill; a'u bod, fel cenedl, yn ystyried yr Ysgrythyrau yn Ddwyfol.

Nid ydym drwy y sylwadau hyn yn dadleu fod y copiau o ba rai y cyfieithwyd y Beibl i'r Gymraeg a'r Saesneg yn gywir yn mhob gair; ac nid ydyw hyny i'w ryfeddu pan yr ystyrir y ffeithiau canlynol. Tybia llawer, fe allai, fod y cyfieithiadau hyn wedi eu gwneyd yn uniongyrchol o'r ysgrifau gwreiddiol o'r llyfrau; ond nid felly mewn un modd. Am yr Hen Destament, gellir dyweyd nad oes cymmaint ag un ysgrif wreiddiol o un rhan o hono mewn bodolaeth er's canrifoedd:—Dywed Kirkpatrick, yn ei *Divine Library of the Old Testament*, nad yw yr ysgrif hynaf o hono sydd ar gael yn awr yn hynach na'r flwyddyn 916 B.A. Dywed hefyd, mai dyma hanes yr hen ysgrifau—fod y rhai cyntaf wedi cael eu cadw, a'u hadysgrifenu, gyda gofal neillduol; ac yna, y byddai yr hen ysgrifau yn cael eu dinystrio yn ofalus—hyd adeg dinystr y deml yn Jerusalem. Y pryd hyny, fod testyn newydd swyddol wedi ei benderfynu a'i sefydlu gan yr ysgrifenyddion Iuddewaidd yn yr ysgolion yn Jamnia—i ba rai yr oeddynt weci ffoi. Y mae y testyn hwn wedi ei gadw i ni hyd heddyw trwy fod adysgrifau newyddion o hono yn cael eu gwneyd, o oes i oes, fel y byddai yr hen adysgrifau yn cael eu rhwygo, neu yn gwisgo allan. Byddai yr hen adysgrifau yn cael eu llosgi yn ofalus drwy'r canrifoedd ar ol gorphen adysgrifau newyddion. Yn wyneb y ffeithiau hyn, fe welir yn amlwg, gan mai dynion ffaeledig oedd yr ysgrifwyr, a bod adysgrifau newyddion lawer wedi eu gwneyd, y gallai ambell air yma ac acw, er pob gofal, fod wedi ei ysgrifenu yn aneglur, neu fod yr adysgrifwyr wedi camgymmeryd, er yn ddifwriad. Y rhyfeddod yw, ei fod wedi ei gadw mor bur a dilwgr ag ydyw. Dichon, hefyd, am y rhanau yn Exodus, a manau eraill sydd yn ymddangos yn anghysson â'u gilydd, y gall ysgrifau etto ddyfod i'r golwg, a symmudant yr holl ddyryswch. Pa un bynag, gallwn deimlo yr ymddiried mwyaf yn nghywirdeb egwyddor ac amcan y rhai a gasglasant lyfrau yr Hen Destament at eu gilydd; a'u bod hwy yn ystyried fod ganddynt resymau digonol dros briodoli y Pum Llyfr i Moses, a'r holl lyfr sydd âg enw Esaiah arno iddo yntau, a phethau eraill cyffelyb. Nid ydynt yn effeithio dim ar ddilysrwydd yr Hen Destament. Yr oedd y casglwyr yn byw yn llawer agosach at y digwyddiadau, ac o blegid eu manteision cenedlaethol, yr oeddynt yn gallu ffurfio barn gywirach am danynt nag y gallwn ni. Ac y mae y genedl hyd heddyw heb newid ei barn am Ysgrythyrau yr Hen Destament.

Yn mhell uwch law pob prawfion eraill, yr oedd y cyfeiriadau mynych a wnaed gan ein Harglwydd at yr Hen Destament, yn ei osod uwch law ammheuaeth. Byddai efe bob amser yn sylfaenu ei hawliau a'i addysg, ac yn egluro ffeithiau ei fywyd, ei angeu, a'i adgyfodiad, trwy gyfeirio at 'Moses, a'r prophwydi.' Nis gallwn, ar unrhyw gyfrif, adael allan bersonoliaeth a geiriau yr Arglwydd Iesu Grist ynglŷn â'r achos hwn. Ni buasai efe yn cyfeirio at yr Ysgrythyrau mor fynych heb fod ganddo amcan neillduol mewn golwg. Byddai yn gorchymyn i'w ddysgyblion 'chwilio yr Ysgrythyrau,' a byddai yn 'agoryd iddynt yr Ysgrythyrau,' fel tystiolaethau awdurdodedig mai efe oedd y Messiah. Ac yr oedd yr Ysgrythyrau hyny yn cael eu derbyn a'u cydnabod gan bobl Israel fel Gair Duw. Yr oedd efe fel yn rhagweled y byddai cwestiynau o natur y rhai y cyfeiriwyd atynt yn cael eu codi i sylw, ac am sicrhau, nid ei wrandawyr yn unig, ond y byd drwy yr holl oesoedd, o'u gwirionedd. Gelwir ef 'y Tyst ffyddlawn a chywir!' A gallwn ymddiried fod ei fynych gyfeiriadau at yr Ysgrythyrau yn penderfynu yr hyn sydd o'r pwysigrwydd mwyaf i'w ddysgyblion trwy holl oesoedd y byd; sef, mai Gair Duw ydynt. Nis gellir cynnwys y meddwl am funud fod 'Y Gwirionedd' wedi dadgan yr hyn y gwyddai efe oedd yn anghywir; na chwaith ei fod heb feddu gwybodaeth lawn a pherffaith am yr hyn yr oedd yn ei ddywedyd. Y mae y dystiolaeth hon, gan hyny, pe byddem heb un arall, yn ddigon i benderfynu fod yr Hen Destament yn Air y digelwyddog Dduw.

Byddai yr apostolion hefyd yn tystiolaethu i'w ddilysrwydd diammheuol pan y byddent yn wynebu ar y Cenhedloedd, oedd heb wybod dim am 'Moses a'r prophwydi;' ac yn pregethu iddynt fod Crist wedi marw, ac wedi adgyfodi drachefn 'yn ol yr Ysgrythyrau.' Heb law hyny, ni byddent hwy yn ceisio profi eu dilysrwydd a'u dwyfoldeb trwy ymresymiadau; ond trwy y nerthoedd dwyfol oedd ynddynt, ac yn cydfyned â'r pregethiad o honynt.

Cwestiwn a ofynir yn fynych yw, Pa fodd y cafwyd y ffeithiau hynod sydd yn y Beibl hyd greadigaeth dyn? Trwy ddadguddiad, neu ysbrydoliaeth. Pa fodd arall y gallesid cael hanes y greadigaeth, i ddechreu? Nis gellir meddwl mai ffrwyth dychymyg unrhyw ddyn, na nifer o ddynion ydyw y disgrifiadau manwl a gogoneddus sydd yn y bennod gyntaf o Genesis. Ofnid, flynyddoedd yn ol, y buasai y ffeithiau a ddygwyd i sylw gan ddaeaergwyr yn cloddio dan wraidd y bennod ryfedd hon. Ond y mae hi wedi gallu gwrthsefyll pob ymosodiadau—a hyny yn llwyddiannus. A chydnabyddir gan y gwyddonwyr galluocaf heddyw fod hanes y cread fel y ceir ef yno, gydag un eithriad yn unig, yn gysson â'r penderfyniadau diweddaf y daethpwyd iddynt am ffurfiad a dadblygiad y ddaear, a'r creaduriaid sydd arni. Ac nid anhawdd ydyw credu y gwelir yr eithriad hwn, cyn hir, yn rhoddi y ffordd yn gwbl i dystiolaeth y Beibl.

Am lawer o'r ffeithiau hynod eraill sydd ynddo, hyd ddyddiau Abraham, cafwyd hwynt trwy ddadguddiad, neu ysbrydoliaeth; a daethant i lawr i'w feddiant ef trwy draddodiad. Maent yn ymdaenu dros agos i ddwy fil a hanner o flynyddoedd cyn y cyfeiriad cyntaf sydd yn y Beibl at ysgrifenu. O Adda hyd fynediad Abraham, o herwydd newyn, i'r Aipht, nid oedd lawn 2,100 o flynyddoedd—yn ol amseryddiaeth yr Archesgob Usher; yr hwn, er yr ammheuaeth a deflir arno yn y rhan flaenorol o'r erthygl hon, sydd etto heb ei brofi yn anghywir. Cyfrifai yr Iuddewon, gynt, 3,992 o flynyddoedd o Adda hyd Grist. Eu cyfrif yn awr yw 3,760 am yr un yspaid. Cyfrif y Samariaid ydyw 4,293 o flynyddoedd. Y mae Usher, fel

Digitized by Google

y gwelir, rywle yn y canol. Am ei amseryddiaeth, dywedodd yr awdwr enwog Fuller, yn ei *Church History*:—'Trwy yr holl waith hwn, o ran amseryddiaeth, yr wyf wedi dilyn ei gyfriion ef gydag ymddiried llwyr yn ei gywirdeb—gosodais fy oriawr wrth ei ddeial ef, gan wybod fod y ddeial wedi ei gosod wrth yr haul.' Mae llawer o awduron enwog eraill yn ei dderbyn fel y cywiraf sydd wedi ymddangos. Heb law y ffeithiau y cyfeiriwyd atynt uchod, nid oedd yn aros i'w drosglwyddo o oes i oes, trwy draddodiad, ond yr hyn a gynnwysir mewn un bennod ar ddeg yn Llyfr Genesis—pennodau y byddai yn hawdd i ieuengctyd Cymru eu dysgu allan yn berffaith. A phan ystyrir oed mawr y patriarchiaid, gwelir y gellid trosglwyddo yr hanesion cyntaf i Abraham trwy dri pherson. Cafodd Adda fyw i gael tua dau gant a thrigain mlynedd o gymdeithas Methusalem. Cafodd yntau agos i gan mlynedd gyda Sem; a Sem, drachefn, tua saith ugain mlynedd gydag Abraham. Gan mai bugeilaidd ydoedd eu bywyd, ac heb fod trafferthion masnachol pwysig yn eu blino, yr oedd yn hawdd iddynt eu cofio. A gallwn yn naturiol feddwl fod adrodd yr hanesion rhyfedd hyn i'w gilydd yn un o'r pleserau teuluaidd penaf a feddent; a chawsant eu hadrodd yn ddïau, gydag achau eu teuluoedd, i'w plant, a'u hŵyrion am amryw genedlaethau, fel yr oeddynt wedi eu hargraphu yn annileadwy ar eu meddyliau. Yn debyg fel hyn y cadwyd hwynt nes y cawsant eu rhoddi mewn ysgrifen.

Ond yr oedd ysgrifenu mewn arferiad yn yr Aipht tua mil o flynyddoedd cyn yr adeg a nodwyd uchod; ac y mae yn mron yn sicr fod Abraham, wrth ymgymmysgu â thywysogion Pharaoh, ac wrth ymweled â'r palas brenhinol, wedi gweled ysgrifen. Wedi iddo ei gweled, unwaith, y mae yn mron yn sicr iddo ei harfer i gofnodi ffeithiau hynod ei fywyd. Y llyfr hynaf sydd mewn bod yn awr, meddir, yw y *Papyrus Prisse*, sydd yn ninas Paris—yr hwn a ysgrifenwyd ar bapyr-frwyn rhwng 2,500 a 3,000 o flynyddoedd c.c. Ac ymddengys ei fod yn adysgrif o draethawd llawer hynach. Mewn beddrod Thebaidd y cafwyd ef, yn y fl. 1847. Mae llawer o hen lenyddiaeth yr Aipht sydd yn ein meddiant, wedi eu cael ar roliau o bapyrfrwyn mewn beddrodau. Darllenwyd papyr dyddorol gan y Proffeswr Sayce yn y *Victoria Institute* yn 1887, ar y darganfyddiad pwysig a wnaed ganddo o'r ysgrifeniadau cŷnaidd (*the cuneiform inscriptions*) yn Tel-el-Amarna; yn yr hwn y ceir y sylwadau canlynol:—

'Dechreu gwybod yr ydym pa mor uchel mewn addysg yr oedd yr hen fyd. Ond yr ydym yn barod wedi gwybod digon i ddeall y dylanwad pwysig y mae hyn yn ei gael ar feirniadaeth yr Hen Destament. Y mae wedi ei gymmeryd yn ganiataol er's llawer o amser gan yr ysgol feirniadol mai prin yr oedd ysgrifenu yn adnabyddus cyn dyddiau Dafydd. Haerwyd nas gallesid ymddiried ond ychydig yn hanesion boreuol y genedl Hebreig, am nas gellid eu rhoi mewn ysgrifen hyd nes yr oedd yr hen hanesion wedi myned yn draddodiadol ac yn chwedlofyddol. Ond nis gellir amddiffyn y gosodiad hwn yn hwy. Yn mhell cyn yr ymadawiad o'r Aipht, yr oedd gan Ganaan ei llyfrgelloedd a'i hysgrifeniadau, ei hysgoiion a'i llenorion. Nid oedd hanes y wlad, mae'n wir, wedi ei ysgrifenu yn llythyrenau y wyddor Phœniciaidd ar bapur-frwyn darfodedig. Y sylwedd ar yr hwn yr ysgrifenwyd ef oedd y clai diddarfod a pharhaus, a'r llythyrenau arno oedd y sillau cŷnaidd!'

Yn yr Hen Destament yr ydym yn cael profion fod ysgrifenu mewn ymarferiad yn foreu; ac oddi wrth amryw o gyfeiriadau a wneir at yr arferiad, gellir barnu ei fod yn lled gyffredin. Yn *Exodus* xvii. 14, y mae yr Arglwydd yn gorchymyn i Moses, ar ol y frwydr âg Amalec, 'ysgrifenu hyn mewn llyfr yn goffadwriaeth;' a thrachefn, y mae efe yn dywedyd ei fod wedi ysgrifenu y geiriau a lefarodd yr Arglwydd yn y llyfr. Yn Numeri, dywedir ei fod wedi ysgrifenu crwydriadau Israel mewn llyfr. Yn Deuteronomium, dywedir fod y brenin dyfodol i gadw llyfr y gyfraith, a'i fod i'w ddarllen a myfyrio arno; a thrachefn, yn yr un llyfr, pan y mae yr Arglwydd yn rhoddi cân i blant Israel trwy Moses, yn yr hon yr oedd ei holl hanes hyd ddyfodiad y Gwaredwr mawr yn cael ei ddisgrifio, cafodd Moses orchymyn i'w osod yn y llyfr. Yr oedd y llyfr hwn i'w gadw gan yr offeiriaid, ac yr oedd i gael ei ddarllen i'r bobl bob saith mlynedd. Yr oedd Joshua hefyd wedi cael gorchymyn i ysgrifenu ei hanes mewn llyfr, ac i'w chwanegu at y llyfrau oedd mewn bod ganddynt. Felly yr oedd Samuel i ysgrifenu—a chyflwynodd ef ger bron yr Arglwydd. Oddi wrth hyn, fe welir nad llyfr dynol oedd—cyfansoddiad llenyddol cyffredin—ond ei fod yn sanctaidd i'r Arglwydd. Yna, yr ydym yn cael fod y deuddeg Salm a thrigain cyntaf wedi eu casglu ynghyd; ac ar ol hyny, yr ydym yn darllen 'Gorphen gweddïau Dafydd, mab Jesse.' Ar ol hyny, yr ydym yn cael fod casgliadau pellach o Salmau yn nyddiau Hezeciah. Mae'r gorchymynion hyn oll i ysgrifenu y llyfrau yn dangos bwriadau Duw. Y mae y prophwyd Esaiah, drachefn, yn cyfeirio at lyfr y gyfraith, yr hwn yr oedd y bobl i'w ddarllen. Dywedodd yr Arglwydd wrth Esaiah (*pen.* xxx. 8), 'Dos yn awr, ysgrifena hyn mewn llech ger eu bron hwynt, ac ysgrifena mewn llyfr, fel y byddo hyd y dydd diweddaf yn oes oesoedd.' Cafodd Jeremiah, hefyd, orchymyn gan yr Arglwydd, ar ol i'r rhôl a ysgrifenodd gael ei ddinystrio gan Jehoiacim, i ysgrifenu un arall, ac i roddi yr holl brophwydoliaethau blaenorol ynddo—ac eraill a chwanegwyd wedi hyny. A chafodd Habacuc orchymyn gan Dduw, hefyd, i ysgrifenu y weledigaeth ar lechau mor eglur fel y gallai y neb fyddai yn rhedeg ei darllen. Gyda yr eithriaid o'r un bennod ar ddeg cyntaf yn Genesis, a Llyfr Job, y Diarhebion, a Llyfr y Pregethwr, y mae y gweddill o'r Hen Destament yn cael ei wneyd i fyny yn gwbl gyda'r genedl Iuddewig—ymddygiadau Duw tuag atynt, eu helyntion a'u profiadau, a'r addewidion a roddwyd iddynt. A phan yr ydym yn dyfod at ddyddiau Ezra a Nehemiah, yr ydym yn cael fod ymdrech egnïol wedi cael ei wneyd i gasglu yr holl lyfrau oedd mewn bod y pryd hyny, a'u ffurfio yn un casgliad. Yn llyfrau y Maccabeaid, cyfeirir at y casgliad hwn fel yn cynnwys Pum Llyfr Moses, a'r llyfrau hanesiol hyd ddiwedd y Brenhinoedd, a rhanau o'r Salmau a'r Diarhebion, a'r gweddill o'r llyfrau a gasglwyd at eu gilydd ar ol dychweliad Israel o gaethiwed. Dyna ffeithiau safadwy.

Ond er mor fawr ydyw gogoniant yr Hen Destament, y mae gogoniant y Testament Newydd yn llawer mwy. Nid oes angenrheidrwydd er hyny, i neb dynu oddi wrth ogoniant yr Hen er gallu arddangos y Newydd yn ei fawredd a'i ragoroldeb. Y mae yr Hen Destament, fel y dywedodd un awdwr galluog, 'yn ei ostyng-



Digitized by Google

eiddrwydd yn cymmharu ei hun i'r nos, er ei fod yn cael ei oleuo gan y lloer a'r sêr; ac un o'r geiriau diweddaf sydd ynddo yw yr addewid hon—'Haul Cyfiawnder a gyfyd i chwi, y rhai ydych yn ofni fy enw, â meddyginiaeth yn ei esgyll.' Gan hyny, er mor ddwysfawr a phrydferth yw y nos, y mae y dydd, gyda'r haul, yn llawer mwy gogoneddus. Felly y mae y Testament Newydd—yn yr hwn y mae Duw ei hun yn cael ei ddadguddio yn eglur yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân. Yn ei holl dystiolaethau y mae ardderchawgrwydd a mawredd aruthrol i'w canfod; er hyny, maent yn rhyfeddol o syml a dealladwy. A chynnwysant ddadguddiad mor ogoneddus o Dduw yn yr ymgnawdoliad, fel na bydd tragwyddoldeb yn alluog i arddangos ei gyffelyb—na'r fath aberth enfawr ac ofnadwy o gariad dwyfol ag a ddangoswyd yn marwolaeth Iesu Grist—na dirgelwch mwy rhyfedd chwaith na phreswyliad Ysbryd Duw yn eglwys Crist. A'r hyn sydd yn rhwym o fod yn dderbyniol gan bob Cristion ydyw, fod ei holl dystiolaethau yn sefyll yn ddisigl, ac na lwyddodd un offeryn a luniwyd i'w herbyn!'

Gellir yma ddisgrifio golygiadau yr Uwchfeirniaid yn ngeiriau adolygydd lled ffafriol iddynt yn y *Quarterly Review* am 1894:—'Am y cwestiynau pwysicaf a godwyd ganddynt, *nid ydynt wedi eu profi*; ac yn wir, y mae yn ammhossibl eu profi yn wyneb sefyllfa bresennol ein gwybodaeth.' 'Nid oes dim oll (meddai drachefn) wedi ei brofi sydd yn galw arnom i roddi i fyny yr hen olygiadau; ac nid oes gan feirniadaeth unrhyw hawl i alw ar eglwys Crist i wneyd dadganiad newydd o'i hathrawiaethau; a gall Cristionogion ymorphwys heb y petrusder lleiaf ar graig gadarn yr Ysgrythyr Sanctaidd.'

Wrth derfynu yr erthygl bwysig hon, dywedwn ninnau, yn ddibetrus, nad ydym yn gweled unrhyw achos i neb o edmygwyr y Beibl ofni na phetruso dim am ganlyniadau pob ymchwiliad teg a pharchus a wneir i'w wahanol ranau, ac i'w hawliau. Y mae yr Hen Lyfr wedi bod yn y tân am lawer blwyddyn, ac wedi cyfarfod â gwrthwynebiadau o lawer cyfeiriad; ond daeth allan yn iach. Cafodd ei erlid, gyntaf oll, gan Rufain baganaidd. Yna, ymosodwyd arno yn erwinol gan Resymoliaeth. Ar ol hyny, gollyngodd Anffyddiaeth ei saethau gwenwynig ato, gan brophwydo na byddai dalen o hono ar gael mewn hanner can mlynedd. Ac hyd yn oed yn ein dyddiau ni, y mae Olldduwiaeth (*Pantheism*) wedi gwneyd ei waethaf iddo, gan haeru nad oedd y fath beth a gwyrth yn bossibl, nad oedd Duw personol mewn bod, ac nad oedd yr holl hanesion am Iesu Grist ond gwisgoedd dychymygol i osod allan rhyw feddylddrych (*idea*). Yna, daeth Uwch-feirnadaeth i'r maes gyda'i holl rym, gan ddefnyddio holl adnoddau hanesyddiaeth, amseryddiaeth, hynafiaethau, ac ieithyddiaeth, i chwilio i ddilysrwydd y gwahanol lyfrau. 'Y mae Rhufain baganaidd,' fel y dywedodd un awdwr galluog, 'wedi ceisio lladd y Beibl—Rhufain Babaidd wedi ceisio carcharu y Beibl—Rhesymoliaeth wedi ceisio ysbeilio y Beibl o'i nerth, a'i awdurdod—Anffyddiaeth Ffrainge wedi gwawdio a dirmygu y Beibl, hyd y gallai—Olldduwiaeth wedi ceisio ei gladdu—a llawer o'r Uwch-feirniaid wedi ymdrechu ei osod yn mhell o gyrhaedd y cyffredin o ddynolryw. Er hyn oll (meddai) Y MAE'R BEIBL YN FYW! ac nid yn unig yn fyw, ond gellir dywedyd am dano nad ydyw wedi arddangos cymmaint o fywyd erioed ag yn awr:—A BYDD FYW YN DDIAU, A'I DDYLANWAD AR GYNNYDD PARHAUS, HYD GANIAD YR UDGORN!'

*Llenyddiaeth.*—Y mae llenyddiaeth y pwngc yn fawr, ac yn cynnyddu bob dydd. Nid ydyw yr isod ond detholiad—yn benaf yn yr iaith Saesnig—o'r prif lyfrau a ysgrifenwyd arno.

I. YR HEN DESTAMENT:—W. Robertson Smith's *The Old Testament in the Jewish Church*, ail arg. 1892; etto, *The Prophets of Israel*, ail arg. 1895; W. H. Green's *Moses and the Prophets*, 1883; J. Wellhausen's *Sketch of the History of Israel and Judah*, trydydd arg. 1892; etto, *Prolegomena to the History of Israel*, 1885; B. Blake's *How to Read the Prophets*, 5 cyf., 1892—95; F. Buhl's *Canon and Text of the Old Testament*, 1892; B. W. Bacon's *The Genesis of Genesis; or, Bibles within the Bible*, 1894; S. R. Driver's *Literature of the Old Testament*, pummed arg. 1894; T. K. Cheyne's *The Hallowing of Criticism;* A. Kuenen's *The Prophets and Prophecy in Israel*, 1877; hefyd, *The Religion of Israel*, 1874; T. K. Cheyne's *Founders of Old Testament Criticism*, 1893; C. A. Briggs' *The Bible, the Church, and the Reason*, 1892; etto, *Biblical Study*, ail arg. 1884; C. E. Montefiore's *Hibbert Lectures*, 1892; T. K. Cheyne's *Origin of the Psalter;* Kittel's *History of the Hebrews*, 1895; Schaff's *Biblical Studies;* Proffeswr Robertson's (Glasgow) *Early Religion of Israel;* Sayce's *The Higher Criticism, and the Monuments; Lex Mosaica, ed. by* Valpy French; Cheyne's *Introduction to Esaiah*, 1895; Ryle's *Canon of the Old Testament; Bissell's Genesis, printed in colours;* a Saphir's *Divine Unity of Scripture*. Y mae y cylchgronau a ganlyn yn dra chyfoethog o ddefnyddiau cyffelyb:—*Hebraica, Old Test. Student*, a'r *Biblical World*, o dan olygiaeth Harper (Chicago: *University Press*); *Jewish Quarterly Review; Bibliotheca Sacra;* yr *Expositor*, a'r *Expository Times; Jour. of Bib. Literature*, a'r *Theol. Stud. u. Krit.*

II. Y TESTAMENT NEWYDD:—P. A. Schaff's *Companion to the Greek Testament, and English Version*, 1883; Westcott a Hort's *The New Testament in the Original Greek*, 2 gyf., cyf. i. *Text*—cyf. ii., *Introduction and Appendix*, ail arg. 1895; F. H. Scrivener's *Introduction to the Criticism of the New Testament;* Const. Tischendorf's *Origin of the Four Gospels*, 1861; W. Sanday's *Inspiration; Bampton Lectures*, 1893; E. W. E. Reuss' *History of the Sacred Scriptures of the New Testament;* G. Salmon's *Historical Introduction to the Study of the Books of the New Testament*, 7fed argr. 1894; F. J. A. Hort's *Judaistic Christianity*, 1894; W. Beyschlag's *New Testament Theology*, 1893; Agnes Smith's *Translation of the Four Gospels from the Syriac of the Sinaitic Palimpsest*, 1894; Genung's *The Fourfold Story; a Study of the Gospels;* Weisächer's *The Apostolic Age*, 1895; Wendt's *The Teachings of Jesus*, 1893; Taylor's *The Witness of Hermas to the Four Gospels;* Holtzmann's *Lehrbuch der historisch—Kritischen Einleitung in das Neue Testament*, 3ydd arg.; Thomson's *Books which influenced our Lord, and His Apostles;* Abbot's *Article 'Gospels' in Encyclopædia Britannica;* Edersheim's *Life and Times of Jesus the Messiah*, 1883; Westcott's *Introduction to the Study of the Gospels;* Robinson's *The Saviour in the Newer Light*, 1895; *Introductions to the Commentaries of Ligthfoot, Edwards, Godet, Meyer*, a *Westcott*.

Digitized by Google

# V.



**VANBRUGH, SYR JOHN.** Dramatydd a phen-saernïydd oedd efe; a mab i fasnachydd o sir Gaerlleon. Ganwyd ef tua'r fl. 1666. Addysgwyd ef yn Ffraingc; ac yn uniongyrchol ar ei ddychweliad i'r wlad hon, gwnaeth ei ffraethineb, ei berson golygus, a'i hynawsedd, ei enw yn lled hysbys trwy gylchoedd cymdeithas. Efe a adeiladodd Gastell Howard—palasdy gwych Iarll Carlisle. Ymddiriedwyd iddo y gorchwyl hefyd o adeiladu Blenheim House—palas prydferth a gorwych y Duc o Marlborough. Bu farw yn Whitehall, Mawrth 26fed, 1726, gan adael rhai o'i chwareu-gerddi yn anorphenedig.

**VAN BUREN, MARTIN**:—wythfed arlywydd yr Unol Dalaethau; a anwyd Rhagfyr 5ed, 1782. Amaethwr cyffredin oedd ei dad, yn Kinderhook, yn nhalaeth Efrog Newydd. Gosodwyd Martin mewn swyddfa cyfreithiwr fel negeseuydd; ond efrydodd y gyfraith gyda'r fath yni a llwyddiant fel y galwyd ef at y bar yn y fl. 1803. Yn 1812, a thrachefn yn 1816, etholwyd ef i senedd ei dalaeth; ac o 1815 hyd 1819, bu yn dal y swydd o dwrnai cyffredinol y dalaeth. Dychwelwyd ef i senedd y Talaethau yn 1821, a pharhaodd yn aelod o honi nes yr etholwyd ef yn llywodraethwr Efrog Newydd yn 1828. Y flwyddyn ddilynol, gwnaed ef yn un o brif ysgrifenyddion gwladol y Talaethau, fel gwobr, mewn rhan, am y gefnogaeth a roddodd i ymgeisiaeth Jackson am yr arlywyddiaeth. Yn 1833, etholwyd ef yn îs-arlywydd; ac yn 1835, yn arlywydd. Bu mewn swydd am bedair blynedd, yn ystod yr hwn dymmor y dioddefodd y wlad gryn lawer oddi wrth gyffro arianol. Gwnaeth Van Buren yr oll oedd yn ei allu ef, fel person unigol, i liniaru y cyffro hwn, ond methodd; a bwriwyd ef o awdurdod yn 1840. Bu farw yn Kinderhook, Gorph. 24ain, 1862.

**VANDERBILT, CORNELIUS.** Gŵr ydyw ag y mae ei enw yn fyd-hysbys o herwydd y cyfoeth aruthrol a adawyd ganddo ar ei farwolaeth. Ganwyd ef yn Ynys Staten, yn 1794. Dechreuodd ar ei yrfa lwyddiannus trwy iddo brynu cwch i gario teithwyr drosodd i'r ddinas. Cyn bod o hono yn ddeugain oed, yr oedd yn meddu nifer fawr o ager-longau gwerthfawr; a phan dorodd y rhyfel allan yn y Crimea, cymmerodd gam pwysig arall cyn ei hynt lwyddiannus, trwy sefydlu llinell o ager-longau rhwng America ac Ewrop. Trodd ei sylw hefyd at wneuthuriad ffyrdd haiarn; a daeth i feddu cyfran helaeth yn rhai o brif linellau y Talaethau. Bu farw yn 1877, gan adael cyfoeth aruthrol—tuag ugain miliwn (20,000,000*p.*) o bunnau ar ei ol.

**VANSITTART, NICHOLAS**: mab i lywodraethwr Bengal. Disgynodd o deulu tramoraidd a ymsefydlasant yn y wlad hon. Ganwyd ef yn 1766; galwyd ef yn fâr-gyfreithiwr yn 1791; ond yn 1796, dychwelwyd ef i'r senedd fel aelod Toriaidd. Wedi dal amryw swyddau mewn gwahanol weinyddiaethau, dewiswyd ef, yn 1812, yn olynydd i Mr. Percival fel canghellydd y trysorlys. Yn 1823, codwyd ef i'r bendefigaeth, gyda'r teitl o Arglwydd Bexley. Bu yn llywydd y Gymdeithas Feiblaidd, ac yn gefnogydd aiddgar i gymdeithasau crefyddol a dyngarol. Bu farw Chwefror 8fed, 1851.

**VAUGHAN, GRUFFYDD AB GRUFFYDD**—o'r Rhuddallt. Gŵr oedd efe a fu mewn bri mawr gan Jasper, Iarll Penfro, yr hwn a gafodd nodded yn ei balas pan yn diangc i Ffraingc, yn amser Iorwerth IV. A dywed rhai fod Harri, Iarll Richmond—wedi hyny Harri VII., brenin Lloegr—gydag ef. Y mae yn nhref Abermaw hen dŷ, a elwir 'Tŷ Gwyn yn Bermo;' yr hwn, meddir, a adeiladwyd gan Gruffydd Vaughan, i'r amcan o ymgyfathrachu ynddo â blaenoriaid y blaid Lancasteraidd. Yr oedd y tŷ hwn yn nes i'r môr, ac felly yn fwy cyfleus i fyned a dyfod o hono, na phalas Cors y Gedol. Gwraig Gruffydd Vaughan oedd Lowri, nith i Owain Glyndwr.

**VAUGHAN, HENRY**:—bardd a adnabyddid wrth yr enw 'Siluriad,' am ei fod wedi ei eni yn mysg Siluriaid Deheubarth Cymru. Hanai o deulu henafol; a ganwyd ef yn 1621, yn Newton, ger y Scethiog, yn mhlwyf Llansantffraid, yn sir Frycheiniog. Yr oedd Ben Johnson, a Randolph, a beirdd enwog eraill a flodeuent yn y dyddiau hyny, yn ei edmygu yn fawr. Yn y fl. 1646, cyhoeddodd ei *Poems, with the tenth Satyre of Juvenal Englished.* Yna trodd i efrydu meddyginiaeth; ac ar ol cael ei raddau yn y gelfyddyd hono, troes i'w hymarfer yn nghyffiniau Aberhonddu. O ddeutu y fl. 1651, cafodd gystudd trwm a pheryglus; yr hwn a arweiniodd i argyhoeddiad crefyddol dwfn. O hyny allan, materion crefyddol oedd prif destynau ei weithiau barddonol; ac yn eu plith *The Mount of Olives; Pious Thoughts and Ejaculations;* a *Thalia Rediviva, the pastimes and diversions of a Country Muse.* Bu farw Ebrill 23ain, 1695, wedi treulio y rhan olaf o'i fywyd yn Nyffryn ar Wysg.

**VAUGHAN, JOHN.** Un o wehelyth teulu y Fychaniaid, o Gaergai, oedd efe; a bardd Cymraeg o gryn allu. Yn mysg ei weithiau y mae 'Cywydd y Gynddaredd,' a gyfansoddwyd ganddo ar rwysg Cromwell. Wrth y cyhoeddiad hwn ceir enw yr awdwr yn Lladin—'Johannes Vaughan de Caergai.'

Digitized by Google

VAUGHAN, ROGER. Gelwid ef hefyd yn Rosier Fychan. Yr oedd efe yn fab i Walter Sais ab Rosier Fychan, o Lechryd, yn sir Aberteifi; a daeth i feddiant o Gastell Bedwardine, yn sir Henffordd, trwy ei fam, Florence, merch a chyd-aeres i Syr Walter Bedwardine. Priododd Jane, merch i Syr Walter Devereaux. Efe oedd tad Syr Roger Vaughan, yr hwn a briododd ferch i'r enwog Syr Dafydd Gam, ac a wnaethpwyd yn farchog ar faes brwydr waedlyd Agincourt.

VAN DIEMEN'S LAND (Tasmania). Yn td. 2 o'r gyfrol hon, gwelir hanes y wlad hyd ganol y ganrif hon. Ni a barhawn ei hanes yma hyd y fl. 1895.

Y mae amaethyddiaeth wedi gwneyd cynnydd dirfawr yn yr ynys hon er y fl. 1860; ond er hyny, nid ydyw y cynnydd a gymmerodd le yn y gangen hon o ddiwydrwydd yn ddim o'i gymmharu â'r dadblygiad sydd wedi cymmeryd lle yn ei mŵnfeydd. Y mae yr holl ynys, o lan i lan, yn gyfoethog o aur, arian, copr, alcan, a glô, a mŵnau gwerthfawr a defnyddiol eraill. Y mae yno agos i gant o gwmnïau yn cloddio am aur yn unig; dau a thrigain am alcan; a thua thri chant ac ugain mewn mŵnfeydd arian. Ychydig o flynyddoedd yn ol, darganfyddwyd gwythienau cyfoethog o arian yn mynyddoedd Zeehan a Dundas; ac y mae y ffordd haiarn a wnaed yno o borthladd Strahan, yr hon a orphenwyd yn 1890, wedi galluogi y cwmnïau i fwy na dyblu eu cynnyrch o wahanol fŵnau. Y mae yr ynys erbyn hyn, yn cloddio mwy na digon o lô i gyfarfod â'i hanghenion ei hun; ac yn anfon swm anferth o hono bob blwyddyn i wledydd eraill. Gwnaed cynnydd dirfawr yn nghorph y blynyddau diweddaf hefyd ynglŷn â thyfiant ffrwythydd ynddi. Y mae perllanau yn gorchuddio dros ddeng mil o aceri o arwyneb yr ynys. Yn 1889 y dechreuwyd anfon afalau Tasmania i Loegr yn symiau. Anfonwyd y flwyddyn hono 30,000 pwysel; yn 1890, 40,000 pwysel; yn 1891, 140,000 pwysel; ac yn 1892, 240,000 pwysel. Mesura holl arwyneb yr ynys 16,778,000 o erwau; o ba rai, ar yr 31ain o Fawrth, 1894, yr oedd 550,863 o dan driniaeth, fel y canlyn:—dan wenith, 50,312 erw; haidd, 4,876; ceirch, 33,755; cloron (pytatw), 19,068, a gwair, 7,500. Dengys y cyfrifon am 1893, fod 651,903, o erwau wedi eu cymmeryd oddi wrth y goron dan brydles. Gellir prynu tir amaethyddol heb ei ddiwyllio yno am tua phunt yr erw, os telir ar law am dano; neu tua 1*p.* 6*s.* 8*c.* yr erw mewn taliadau blynyddol yn ymestyn dros bedair-blynedd-ar-ddeg. Cyfrifid fod y boblogaeth, ddiwedd Rhagfyr, 1893, yn 154,424.

*Poblogaeth.*—Yn mysg y boblogaeth ceir ryw nifer yn perthyn i'r oll, o'r bron, o'r gwahanol enwadau crefyddol. Bernir fod agos eu hanner yn perthyn mewn rhyw wedd i Eglwys Loegr; a gofelir am danynt gan esgob, a 58 o glerigwyr. Perthyna tua 18 y cant o'r bobl i'r Eglwys Babaidd:—ar ba rai y gweinydda archesgob. Y mae yn perthyn i'r gwahanol enwadau Anghydffurfiol hefyd, eu cymdeithasfaoedd, &c., fel yn Lloegr a Chymru. Nid oes yno yn awr gymmaint ag un o breswylwyr brodorol y wlad. Bu yr olaf o honynt—benyw yn dwyn yr enw 'Truganini'—farw yn y fl. 1876.

*Addysg.*—Gofelir am gyfundrefn addysg yr ynys gan y swyddfa wladwriaethol; o dan yr hon y mae 251 o ysgolion gwladol. Y mae yr addysg a gyfrenir yn ansectaidd, ac yn orfodol ar yr holl blant fydd rhwng saith a phedair-arddeg oed.

Dosrenir y wlad i ddeunaw o siroedd. Llywodraethir hi gan swyddog a bennodir gan Brydain, a chynnorthwyir ef gan weinyddiaeth sydd yn gyfrifol i'r etholwyr. Y llywodraethwr presennol, a bennodwyd yn Rhagfyr, 1892, yw yr Is-Iarll Gormanston—cyflog blynyddol yr hwn ydyw 3,500*p.*

| | |
|---|---|
| Derbyniadau yr ynys yn 1893 oedd | *P.*706,972 |
| Ei threuliau ... ... ... ... | 836,417 |
| Ei dyled gyhoeddus, Rhagfyr, 1893 | 7,645,004 |
| Ei dadforion ... ... ... ... | 1,057,683 |
| Ei hallforion ... ... ... ... | 1,352,184 |

VEGA CARPIO, LOPE FELIX DE. Ganwyd ef yn Madrid, prif ddinas Yspaen, yn y flwyddyn 1562; ond hanodd o deulu a breswyliai ar y Vega o Carriedo, i'r deheu o Santander. Mae cryn lawer o ansicrwydd yn bodoli o berthynas i hanes bywyd Lope; ond y mae y ffeithiau canlynol am dano yn gywir:—iddo golli ei rïeni yn ieuangc; ei fod yn efrydydd ac yn raddegydd o brifysgol Alcalá; yn filwr yn y cad-ymgyrch Portugëaidd yn 1580, ac yn yr Armada yn 1588; yn ysgrifenydd i'r Duc o Alva, Ardalydd Malpica, a'r Ardalydd Sarria; iddo briodi ddwy waith, o leiaf, a'i fod yn dad i chwech o blant; iddo gael ei alltudio o Madrid, a byw o hono am ddwy flynedd yn Valencia; iddo gymmeryd urddau eglwysig, a dyfod yn swyddog i'r *Inquisition;* a marw yn 73ain ml. oed o'r prudd-glwyf. Ymddadblygodd i fod yn un o feirdd blaenaf ei oes, ac yn un o awduron mwyaf cynnyrchiol y byd. Dywedir ei fod yn ysgrifenu chwareu-gerddi pan yn ddeuddeng mlwydd oed. Beth bynag am gywirdeb hyn, y mae digon o sicrwydd iddo ddechreu cyfansoddi pan yn lled ieuangc. Cyfrifir, ar awdurdod lled sicr, fod ei chwareu-gerddi yn rhifo 1,500. Erbyn y fl. 1603, yr oedd wedi ysgrifenu 230; yn 1609, yr oedd y nifer wedi codi i 483; yn 1620 i 900; ac yn 1624 i 1,070. Bu farw Awst 27ain, 1635; ac yr oedd ei angladd yn debycach i gladdedigaeth tywysog nag i eiddo bardd. Dilynwyd ei weddillion i'r gladdfa gan yr orymdaith angladdol fwyaf a welwyd yn Madrid erioed. Bu farw mewn tlodi, trwy ei fod wedi defnyddio y symiau mawrion o arian a dderbyniai oddi wrth ei gyfansoddiadau at amcanion elusenol ac eglwysig.

VEITCH, WILLIAM. Ganwyd y gŵr hwn yn Littlesdale, yn 1794; ac er iddo dderbyn addysg yn mhrifysgol Edinburgh er ei gymmhwyso i dderbyn urddau yn yr Eglwys Ysgotaidd, rhoddodd y bwriad hwnw heibio. Ymroddodd i efrydu Lladin a Groeg gydag egni mawr, a daeth yn awdurdod cydnabyddedig yn y canghenau hyn o'r clasuron. Cyhoeddodd weithiau a'i gosododd yn rheng flaenaf ysgolorion Ewrop; ac a barodd i Scott a Liddell ei gyflogi i adolygu argraphiadau o'u geiriadur enwog hwy. Gwnaeth wasanaeth cyffelyb gyda *Latin-English Dictionary* Smith; ac hefyd, gyda nifer fawr o lyfrau dysgedig a defnyddiol eraill. Yn 1866, anrhydeddwyd ef â'r gradd o LL. D. gan Brifysgol Edinburgh. Bu farw yn y ddinas hono, Gorph. 8fed, 1885.

VENEZUELA. Ffurfiwyd gweriniaeth Vene-

Digitized by Google

zuela yn 1830, drwy iddi ymneilltuo oddi wrth drefedigaeth Yspaenaidd Granada Newydd. Dyddiwyd y freinlen yn 1830, a gwnaed cyfnewidiadau ynddi yn 1864. Y mae y cyfansoddiad wedi ei dynu allan ar gynllun un yr Unol Dalaethau; ond y mae mwy o annibyniaeth wedi ei ddiogelu ynddo i'r llywodraethau talaethol, neu leol.

Y mae cryn gyfnewidiadau wedi cymmeryd lle yn Venezuela er 1830. Gorwedda y weriniaeth yn ngogledd America Ddeheuol, rhwng y Môr Carribeaidd, Colombia, Brazil, a Guiana Brydeinig; ac yn ol y mesuriadau diweddaraf, mesura tua 417,000 mill. pet., gyda phoblogaeth o 2,323,527; sef, o ddeutu pump o bersonau i bob milldir. Bu cryn helynt yn ddiweddar o berthynas i derfynau y wlad gyda Colombia. Gweithredodd Yspaen fel cylafareddwr yn yr achos; a rhoddwyd y ddedfryd o blaid hawliau Colombia. Mae'r terfyn deheuorllewinol yn awr yn cael ei ffurfio gan yr afonydd Arauca, Orinoco, Atabopo, a'r Negro; tra y mae yr oll o orynys Goajira, a thref a thiriogaeth San Faustino, yn perthyn i Colombia. Medda y weriniaeth arfordir a fesura 750 o filldiroedd o hyd. Prif dref y wlad yw Caracas —un o'r trefydd prydferthaf, meddir, o fewn Deheubarth America. Cynnwysa boblogaeth o 80,000. Y prif borthladd ydyw La Guayra; a chyssylltir hwn â Caracas gan ffordd haiarn sydd yn gampwaith mewn gallu a chywreindeb peiriannyddol.

Y mae arwynebedd y tir yn amrywio. Yn y gorllewin a'r gogledd, ceir mynyddoedd a dyffrynoedd; bryniau coediog yn y deheu; a llynau, corsydd, a choedwigoedd yn y gogledd-orllewin. Y mae mynyddoedd yr Andes yn treiddio i mewn i'r wlad, i'r deheu o Lyn Maracaybo; ac y mae y pigyn uchaf tua 15,000 tr. Gorchuddir tuag un ran o bedair o arwynebedd y tir gan y gwastadeddau ëang a elwir *Llanos;* ar y rhai y tyf gwair hir, a mân goed, mewn cyflawnder. Bu adeg pan yr oedd nifer aneirif o'r bron o anifeiliaid yn pori ar y gwastadeddau hyn; ond yn awr y maent bron i gyd wedi diflanu, trwy fod y mwyafrif o honynt wedi eu lladd i borthi y milwyr yn yr amrywiol chwyldröadau a gymmerasant le yn y wlad. Y mae y rhan ogleddorllewinol o'r wlad, o gylch Llyn Maracaybo, yn gyfryw nas gall y trigolion fyw ynddi o herwydd y corsydd sydd yno, a'r hinsawdd afiach a briodolir i hyny. Ond prin y gellir ystyried y wlad yn gyffredinol afiach. Wrth gwrs, y mae clefydau sydd yn naturiol i wledydd poethion yn digwydd yno yn fynych; ond nid ydyw twymnynau Deheudir yr America mor angeuol ag eiddo Deheudir Affrica. Dyfrhëir y tir yn dda, a thŷf ffrwythydd yno mewn cyflawnder; ac y mae amrywiaeth mawr o honynt.

Y prif nwyddau a allforir o'r wlad yw coffi, cocoa, crwyn, cotwm, sugr, myglys, lliw glâs, rhisgl, gwêr, coed, a mŵn copr. Ceir yno hefyd wenith a haidd, pŷs, a ffa, a chloron (pytatw). Dioddefa amaethyddiaeth yn fawr o herwydd ymlyniad y trigolion wrth ddulliau henafol o drin y tir; ac y mae plâ y locustiaid hefyd yn hynod ddinystriol yno i'r cnydau ar brydiau.

*Y Trigolion.*—Y mae mwyafrif y bobl yn 'hanner brid'—cymmysgedd o ddynion gwynion ac Indiaid. Ychydig o Negroaid sydd yno, na dynion gwynion o waedoliaeth pur; ac nid ydynt yn ffurfio ond tuag un y cant o'r boblogaeth. Pobl danbaid, nwydwyllt, ac anesmwyth, ydyw y Venezueliaid; er hyny, y maent yn onest, caredig, ac o ymddygiadau gweddaidd. Y maent yn dra chwannog i yfed; a chan fod *rum* yn cael ei gynnyrchu yno mewn cyflawnder, yfir ef yn helaeth ganddynt.

*Arferion, a Chrefydd, ac Addysg y bobl.*—Yn mysg eu chwareyddiaethau, mae ymladd teirw a cheiliogod, a rhedeg ceffylau, yn cael lle amlwg. Crefydd y wladwriaeth ydyw Pabyddiaeth; ond y mae goddefiad i grefyddau eraill. Yn 1870, gwnaed addysg elfenol yn orfodol; ond nid oes ond tua chan mil o blant yn cymmeryd mantais ar y 1,600 ysgolion sydd yn y wlad. Yn chwanegol at y rhai hyn, y mae dwy brifysgol wedi eu sefydlu yno—y naill yn Caracas, a'r llall yn Merida.

*Mŵnau,* &c.—Y mae Venezuela yn wlad gyfoethog; ond nid yw etto wedi ei dadblygu i'r graddau y dylai yn yr ystyr hwn. Ceir ffynnonau cyfoethog o olew *petroleum* yn nghymmydogaeth Llyn Maracaybo; a digonedd o lô hefyd, yn gystal ag yn ngor-ynys Paraguana. Y mae gwyrddfeini (*emeralds*) gwerthfawr yn agos i'r Orinoco; ond er ei holl olud mŵnawl, nid yw gwerth y mŵnau a godir ond 1,100,000*p.* yn y flwyddyn; ac o'r swm hwn, y mae gwerth 950,000*p.* yn aur.

*Anifeiliaid.*—Yn ol y cyfrifon swyddogol, yr oedd yn y wlad yn 1888—8,476,300 o wartheg; 5,727,500 o eifr a defaid; a 1,929,700 o foch.

Gwnaed y ffordd haiarn gyntaf yno yn 1877; ac erbyn 1891, yr oedd yno 282 o filldiroedd o'r ffyrdd hyn. Mesura gwifrau y pellebrau tua 3,528 milldir.

Yn flaenorol i'r flwyddyn 1863—4, gwneid y wladwriaeth i fyny o wahanol dalaethau. Yna, yn 1864, ffurfiwyd hwy yn weriniaeth undebol, gydag un-ar-hugain o dalaethau. Yn 1881, modd bynag, cafodd ei hail ddosranu i wyth o dalaethau mawrion, wyth o diriogaethau, dwy drefedigaeth amaethyddol, a dosbarth gynghreiriol Caracas. Mae pob talaeth a dosbarth yn y cynghrair hwnw, yn ethol tri o seneddwyr; ac y mae pob 35,000 o'r boblogaeth yn anfon un cynnrychiolydd i'r gyngres. Y mae y cynghor cynghreiriol, cynnwysedig o 19eg o aelodau, a bennodir gan y gyngres bob dwy flynedd, yn ethol un o'i aelodau ei hunan yn ymgeisydd am yr arlywyddiaeth. Yr arlywydd presennol ydyw y Cadfridog Crespo. Y mae gan bob talaeth ei llys deddfwriaethol, gweinyddol, a gweithredol.

Dengys y ffigyrau canlynol gyllid y wlad:—

| | |
|---|---|
| Derbyniadau 1892—93 ... .. | *P.*1,454,454 |
| Treuliau 1892—93 ... ... | 1,348,781 |
| Dyled Dramor, yn 1893 ... ... | 2,659,300 |
| Dyled Fewnol ... ... ... | 2,669,797 |
| Dadforion o'r Deyrnas Gyfunol, 1893 | 931,214 |
| Allforion i'r „ „ „ | 89,684 |

Pan yn ysgrifenu yr erthygl hon, y mae newyddion yn ein cyrhaedd fod daeargrynfâau dychrynllyd yn ffynu yn y wlad. Lladdwyd miloedd o'r trigolion ganddynt, a gwnaed miloedd eraill yn ddigartref. Dinystriwyd amryw o'r prif drefydd, ac ymdaenodd braw a dychryn dros yr holl wlad.

VERE, SYR FRANCIS. Milwr enwog oedd efe, a anwyd, yn y fl. 1560, yn Crepping, neu Crustwick. Ei dad oedd y pymthegfed Iarll Oxford. Yr oedd teulu Vere yn un o'r rhai hynaf a mwyaf enwog yn Lloegr. Ennillodd gymmeriad uchel o herwydd y gallu milwrol a

Digitized by Google

arddangosodd mewn amryw frwydrau. Bu farw yn Llundain, Awst 28ain, 1609, a chladdwyd ef yn Mynachlog Westminster.

VESPUCCI, AMERIGO. Seryddwr llyngesawl oedd efe—oddi wrth yr hwn y tybir, y derbyniodd America ei enw. Ganwyd ef yn Florence, Mawrth 9fed, 1451. Efe a fu yn brif foddion i gynnysgaeddu Columbus â chyflenwadau ar gyfer ei drydedd fordaith; ac yn y fl. 1499, hwyliodd ei hun tua'r Byd Newydd gydag Ojeda, gan wneyd archwiliad ar arfordir Venezuela. Rhwng y blynyddoedd 1501 a 1504, yr oedd efe yn ngwasanaeth Emanuel o Portugal; ac yn 1503, darganfyddodd Fachwy yr Holl Saint (*All Saint's Bay*), ar draethell Brazil. Yn 1505, efe a ymgartrefodd fel brodor o Yspaen; ac o 1508, hyd ei farwolaeth, Chwef. 22ain, 1512, efe oedd yr hyn a elwir yn *pilot-major* y deyrnas. Priodolir y ddamwain a barodd i'w enw gael ei gyssylltu â chyfandir America i adroddiad anghywir o'i deithiau a gyhoeddwyd yn St. Dié, yn Lorraine, yn 1507, yn yr hwn y dywedir iddo gyrhaedd y tir yn y fl. 1497—yr hyn oedd o flaen darganfyddiadau Cabot a Columbus.

VICTOR EMANUEL II.—brenin cyntaf Italy, ar ol uniad talaethau y wlad—oedd fab i Charles Albert, o Sardinia, ac a anwyd Mawrth 14eg, 1820. Dangosodd duedd filwrol pan yn ieuangc; ac yn mrwydrau Goito a Novara, pan yn arwain brigad Savoy yn nghadymgyrch 1848—49, ennillodd ei ymddygiad gwrol edmygedd mawr. Ar derfyn brwydr Novara, rhoddodd ei dad, yr hwn oedd yn anewyllysgar i ymostwng i'r ammodau a roddid gan Radetzky, yr orsedd i fyny yn ffafr ei fab, Victor; yr hwn, o herwydd ei gyssylltiadau priodasol â theulu ymherodrol Awstria, oedd yn debycach o gael telerau mwy ffafriol oddi ar law y gorchfygwr. Felly, fe esgynodd Victor Emanuel i orsedd Sardinia, Mawrth 23ain, 1849. Yr oedd efe yn ddigon doeth i adael rheolaeth materion gwleidyddol ei deyrnas yn benaf yn nwylaw y gwleidyddwyr galluog a feddai, gan foddloni ei hun ar lywodraethu mewn hollol gydymffurfiad â deddfau cyfansoddiadol y wlad. Yr oedd efe yn anwylddyn yn ngolwg ei bobl; a bu farw Ion. 9fed, 1878, yn nghanol galar cyffredinol. Olynwyd ef ar yr orsedd gan ei fab Humbert—y brenin presennol. Gwel GARIBALDI.

VICTORIA. Hon ydyw y drefedigaeth leiaf ei maintioli yn Awstralia, a'r ieuengaf hefyd—ac eithrio Queensland. Modd bynag, pan gymmerwyd y cyfrifiad yn 1891, hi oedd y liosocaf ei phoblogaeth o'r oll. Ynddi hi hefyd, y mae mwyaf o ffyrdd haiarn; ond rhagora Deheudir Cymru Newydd ychydig arni mewn cyllid, masnach, a chynnyrchion.

Gorwedda Victoria yn neheu-ddwyrain Awstralia. Ei hyd mwyaf, o ddwyrain i orllewin, ydyw 490 mill., tra nad yw ei lled mwyaf ond 300 mill. Medda linell arfordirol o 700 mill.; a mesura ei holl arwynebedd 87,884 mill. pet., neu 56,245,760 o erwau. O dan y penawdau canlynol, rhoddwn y manylion diweddaraf am y wlad; y rhai, fel y gwelir, a ddangosant ei bod yn myned ar gynnydd prysur.

*Cynnyrchion Mwnawl.*—Dechreuwyd cloddio gyntaf am aur yn Clunes yn y fl. 1857; ac yn fuan wedi hyny, yn Ballarat, Forest Creek, a Bendigo. Ar y cyntaf, nid oedd y gweithiau ond bâs ac arwynebol; ond erbyn hyn, y maent yn eang a dwfn, yn gorchuddio tua miliwn a hanner o erwau (1,500,000). Treiddir, mewn rhai manau, i'r dyfnder o 2,500 troedfedd mewn ymchwiliadau am aur. Yn ystod y deng mlynedd, o 1852 hyd 1861, yr oedd yr holl aur a allforiwyd dros ddwy filiwn o wnsau yn y flwyddyn; ond wedi hyny, disgynodd bob blwyddyn, hyd 1867—pan y disgynodd i filiwn a hanner. Cyfanswm yr aur a gafwyd oddi yno hyd Rhag. 31ain, 1891, oedd 58,434,427 wns, gwerth yr hwn oedd 232,199,504*p.*—mwy na hanner cynnyrch holl gloddfeydd Awstralia. Ceir copr, arian, alcan, glo, ac *antimony*, yno mewn cyflawnder mawr.

*Amaethyddiaeth*, &c.—O holl arwynebedd y wlad, y mae 22,461,084 o erwau yn perthyn i bersonau preifat; tra, o'r gweddill, y mae 16,000,000 yn cael eu gosod gan y Goron, yn borfeydd i anifeiliaid. Yn Mawrth, 1878, yr oedd yno 1,174,176 o wartheg, 203,150 o geffylau, 10,114,276 o ddefaid, a 183,391 o foch. Yn Mawrth, 1891, rhifai y gwartheg, 1,782,978; ceffylau, 436,459; defaid, 12,736,143; a 282,457 o foch. Yr oedd nifer y daliadau amaethyddol dan driniaeth yn 1891 yn 36,013, gyda 2,652,768 o erwau o dir dan wahanol gnydau—yn cael eu rhanu fel y canlyn:—o dan wenith, 1,145,163 erw; ceirch, 221,048; haidd, 87,751; cloron, 53,818; a gwair, 413,052. Yn Mehefin, 1873, y nifer cyflawn o'r erwau o dan driniaeth oedd 1,420,502. Cynnyrchwyd yn y flwyddyn 1891, 12,751,295 pwysel o wenith, neu 10·81 pwysel i'r erw; 4,919,325 pwysel o geirch; 1,571,799 pwysel o haidd; 204,155 tynell o gloron, a 567,779 tynell o wair. Yr arwynebedd o dan winwydd oedd, 20,686 o erwau; yr hyn a gynnyrchodd 1,578,590 galwyn o win; 5,285 galwyn o frandi: a 59,428 cant o rawn-sypiau. Tyfid hopys ar 829 o erwau, a myglys ar 955 erw.

*Ffyrdd Haiarn.*—Mae'r oll o'r ffyrdd haiarn yn canol-bwyntio yn Melbonrne, y brif ddinas; a rhenir hwy i bump o ganghenau. Mesurai y ffyrdd haiarn hyn yn 1891, 2,788 milldir o hyd; gwariwyd 35,518,871*p.* i'w gwneyd; ac y maent yn cyssylltu y brif ddinas â phrif drefi eraill y drefedigaeth.

*Cyllidol*, *Masnachol*, &c.—Y mae llywodraeth arianol y wlad hono yn ddiffyn-dollawl; hyny yw, gosodir tollau trymion ar bron bob nwydd o ymborth a ddygir o wledydd eraill. Cyfrifir fod gwerth y dadforion am y fl. yn diweddu Mawrth, 1873, yn 16,533,856*p.*; ond yr oeddynt yn 1891 yn 21,622,000*p.* Yr oedd yr allforion, yn 1873, yn 15,302,454*p.*; yn 1891, nid oeddynt ond 15,679,000*p.* Yr oedd y ddyled gyhoeddus yn 1881, yn 44,377,693*p.*; ar yr hwn swm yr oedd y llôg blynyddol yn 1,683,655*p.* Benthyciwyd y swm o 6,444,400*p.* tuag at wneyd porthladdoedd, &c.; ac allan o gyfanswm y ddyled, benthyciwyd 31,973,519*p.* at wneuthur ffyrdd haiarn, 6,515,039*p.* at y gweithydd dwfr, a 1,105,557*p.* at adeiladu ysgolion gwladol. Yn 1890, yr oedd y dadforion o'r Deyrnas Gyfunol yn werth 9,607,193*p.*; ac o'r meddiannau Prydeinig eraill, megys y trefedigaethau Awstralaidd, ac India, y Mauritius, a Hong Kong, yn 9,846,678*p.* Yn mysg yr allforion, yn 1890, y nwyddau a anfonwyd o Victoria i wledydd eraill oedd fel y canlyn:—gwlân, 2,443,483*p.*; aur noeth, 2,223,065*p.*, a bathedig, 516,438*p.*; da byw, 476,717*p.*; lledr, 212,910*p.*; defnydd

Digitized by Google

bara, 393,125*p.*; a grawn, 151,272*p.*; a chrwyn, 159,164*p.*; gwêr, 158,851*p.* Yr oedd y cyllid am y flwyddyn 1891 yn 8,342,737*p.*, a'r treuliau yn 9,550,000*p.*

*Gwladol.*—Y mae llywodraeth weinyddiadol y wlad yn nwylaw llywodraethwr, a bennodir gan lywodraeth Prydain, a derbynia gyflog blynyddol o 10,000*p*, Cynnorthwyir ef gan weinyddiaeth a bennodir ganddo ef ei hun; ond yr hon sydd erbyn hyn yn gyfrifol i ddeddwrfa y wlad: ac ni ddeil ei swydd ond dan yr un ammodau ag yn Mhrydain. Y mae y senedd yn gyfansoddedig o dair gradd—y llywodraethwr; cynghor deddfwriaethol yn cynnwys 48ain o aelodau sydd yn meddu eiddo eu hunain, ac a etholir gan rai yn meddu yr un cymmhwysder; a chynnulliad deddfwriaethol yn rhifo 95ain o aelodau na ofynir am eiddo i'w cymmhwyso i eistedd, ac a etholir gan yr etholwyr cyffredin. Derbynia aelodau y Cynnulliad Deddfwrol gyflog blynyddol o 300*p.* yr un.

*Rhaniadau y Wlad*, &c.—Yn ddaearyddol, rhenir y drefedigaeth i 37 o siroedd; ond i amcanion gweinyddiadol, y mae yn cynnwys 60 o fwrdeisiau trefol, a elwir yn ddinasoedd, trefydd, a bwrdeisdrefi; ynghyd â 134 o fwrdeisiau gwledig (*rural municipalities*) neu siroedd—yn yr oll o ba rai y mae gan bob trethdalwr un neu chwaneg o bleidleisiau, yn ol swm y dreth a delir ganddo. Y mae yr heddgeidwaid o dan reolaeth llywodraeth ganolog; a rhifant 1,501 o swyddogion a dynion.

*Cyfrifon Cyffredinol.*—Y mae sefydliadau addysgawl y wlad yn ymranu yn bedwar dosbarth; sef, Prifysgol Melbourne, gyda'r colegau cyssylltiedig; y rhai a berthynant i'r eglwysi Anglicanaidd, Presbyteraidd, a Wesleyaidd: ysgol grefftwrol; colegau yn cynnwys pump o ysgolion mŵnawl: coleg amaethyddol; ac un coleg i'r dosbarth gweithiol. Hefyd, ysgolion elfenol, preifat, a gwladol. Mae addysg elfenol yn rhydd, ansectaidd, ac yn orfodol. Nid oes eglwys wladwriaethol yn perthyn i'r drefedigaeth; ac ni roddwyd cynnorthwy o unrhyw fath i grefydd er 1875. Perthynai i'r Eglwys Esgobawl tua 417,183 o'r boblogaeth; i'r Pabyddion, 248,591; Presbyteriaid, 167,027; Methodistiaid, 158,040; Bedyddwyr, 27,882; a'r Annibynwyr, 22,110.

Ar y 5ed o Ebrill, 1891, cyfrifwyd y boblogaeth, a safent fel y canlyn:—meibion, 599,172, merched, 541,233.

# W.

WAGNER, RICHARD. Un o gerddorion enwocaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg; ac awdwr y mae mwy o ymddadleu a chweryla wedi bod ynglŷn â'i gyfansoddiadau cerddorol nag odid un cerddor arall yn Ewrop. Ganwyd ef yn Leipzig, Mai 22ain, 1813. Efe ydoedd yr ieuangaf o naw o blant; ac nid oedd efe ond pum mis oed pan y bu farw ei dad. Ar ei hail briodas, symmudodd ei fam i Dresden—lle y cafodd y bachgen addysg ragorol. Pan nad oedd ond tair-ar-ddeg, cyfieithodd y deuddeg llyfr cyntaf yn yr *Odyssey;* a'r flwyddyn ddilynol, cyfansoddodd brudd-chwareugerdd (*tragedy*) a dynodd gryn sylw at ei alluoedd. Yr oedd yr enwog Weber ar y pryd yn arweinydd yr *opera* yn Dresden; a dywedir fod Wagner yn edmygydd mawr o hono, hyd yn oed yn yr oedran cynnarol hwn. Ond trwy gerddoriaeth Beethoven y deffrowyd yr ysbrydiaeth hwnw a ddylanwadodd ar ei gwrs dyfodol. Gweithiodd yn galed rhwng y fl. 1830 ac 1833; ac ysgrifenodd amryw gyfansoddiadau llafurfawr a gwir alluog. Yn 1833, dechreuodd ar ei yrfa faith fel yr hyn a eilw y cerddorion yn *operatic composer.* Ei gyfansoddiad cyntaf o natur chwareugân oedd ei *Die Feen;* ond ni chafodd y gwaith hwn ei chwareu hyd y fl. 1888—pum mlynedd wedi ei farwolaeth. Yn 1839, aeth i Paris gan amcanu dwyn allan ei chwareu-gân, *Rienzi;* ond bu raid iddo adael y ddinas yn 1842, heb i'w ddisgwyliadau gael eu sylweddoli. Yr un flwyddyn, modd bynag, derbyniwyd y gân yn Dresden; a chwareuwyd hi yno gyda llwyddiant mawr. Chwareuwyd ei *Flying Dutchman* yno y flwyddyn ddilynol; ac er na ddilynwyd hi gyda'r un llwyddiant a *Rienzi*, y mae er y pryd hwnw wedi myned yn llawer mwy poblogaidd na hi. Yn y fl. 1845, chwareuwyd cân newydd o'i waith, *Tannhäuser*, a chafodd ei *Lohengrin* ei gorphen yn gynnar yn y fl. 1848. O ddeutu yr adeg hon, cyfansoddodd ddarn o farddoniaeth yn dwyn y teitl *Siegfrieds Tod;* ond o blegid y cydymdeimlad amlwg a ddangosid yn y gerdd hon âg amcanion y blaid chwyldroadol yn Dresden, bu raid iddo ymadael o Sacsony. Pan yn Weimar, ychydig o ddyddiau yn ddiweddarach, cyrhaeddodd y newydd ef, fod gwarant wedi ei rhoddi allan i'w gymmeryd i'r ddalfa. Trwy gynnorthwy Liszt, yr hwn a gafodd lythyr-ymdaith iddo, diangodd dros y cyffindir; ac am ddeuddeng mlynedd bu mewn alltudiaeth, a thlodi mawr. Chwerwodd hyn ei ysbryd yn ddirfawr, ac ysgrifenodd rhai pamphledi eithafol yn ymosod ar yr awdurdodau. Cafodd gyfaill yn Liszt; ac hefyd noddwr caredig yn Ludwig II., o Bavaria. Ac er ei fod erbyn hyn yn mron wedi cyrhaedd uchaf-bwynt ei ddymuniad, byddai yn siarad beunydd am ei brofedigaethau a'i anffodion. Yn y fl. 1861, wedi iddo gyfansoddi amryw ddarnau barddonol a cherddorol, cafodd ganiatâd i ddychwelyd i'r Almaen; ac yno, yn ninas Vienna, cafodd

Digitized by Google

ei *Lohengrin* ei chwareu am y waith gyntaf. Er hyny, am y tair blynedd nesaf, cyfarfu â llawer o anghysuron; a phan yr oedd yn mron wedi penderfynu peidio ymgodymu mwy â'r anhawsderau oedd yn ei amgylchu, derbyniodd wahoddiad gan Ludwig II., brenin ieuangc Bavaria, i ddyfod ato ef i orphen ei waith. Dyma iachawdwriaeth iddo, o'r diwedd; ac oddi yma yn mlaen, bu ei fywyd yn weddol hapus a defnyddiol. Yn 1865, cafodd *Tristan und Isolde* ei chwareu yn Munich; a dilynwyd hi, dair blynedd ar ol hyny, gan chwareu-gân ddigrifol yn dwyn y teitl *Die Meistersinger*. Yn y fl. 1872, gosodwyd careg sylfaen adeilad fawr yn Baireuth, a fwriedid yn arbenig i chwareu ei weithiau; a gorphenwyd hi yn 1876. Yn Gorphenaf, 1882, rhoddwyd y goron ar fywyd ystormus y cyfansoddwr trwy fod un o'i brif weithiau—sef, *Parsifal*—wedi ei chwareu gyda llwyddiant mawr yn yr adeilad hon. Ychydig wythnosau ar ol hyn, cymmerwyd ef yn glaf, a phenderfynodd yntau dreulio y gauaf yn Venice. Bu farw yno yn ddisymmwth ar Chwefror 13eg, 1883, a chladdwyd ef yn ngardd ei breswylfod ei hun yn Baireuth. Mewn ystyr gerddorol, cyflwynodd Wagner ei holl allu a'i athrylith i wasanaeth un gangen o gerddoriaeth—y chwareugân; ac yn hyn, yr oedd yn dra gwahanol i lawer o'r prif gerddorion eraill oedd yn cydoesi âg ef. Y mae cyfrolau lawer wedi eu hysgrifenu am Wagner a'i gerddoriaeth, a llawer o honynt wedi eu cyhoeddi yn yr iaith Saesnig.

WAITHMAN, ROBERT:—mab oedd i rïeni tlodion, ond parchus, o Wrecsam, sir Ddinbych, lle y ganwyd ef yn 1764. Collodd ei dad pan nad ydoedd ond ieuangc; a chan i'w fam ail briodi, mabwysiadwyd ef gan ewythr iddo yn Nghaerbaddon, yr hwn oedd yn fasnachydd mewn llian. Wedi rhoddi iddo addysg dda, cymmerwyd ef i fasnachdŷ ei ewythr. Bu ei ewythr farw yn 1780; a chafodd yntau le yn Reading, ac wedi hyny yn Llundain. Pan tuag un-ar-hugain oed, priododd; ac yn fuan wedi hyn agorodd faelfa yn Fleet street, yn mron yn yr un man ag y codwyd maen ei goffadwriaeth mewn blynyddoedd i ddyfod. Parodd ei lwyddiant masnachol iddo symmud ei faelfa i le helaethach; sef, i gongl Bridge street, a Fleet street. A bu ei lwyddiant yma mor fawr, a chyflym, fel yr ymneillduodd o fasnach yn 1823. Daeth i sylw fel gwleidyddwr yn 1794, pan y cynnygiodd gyfres o benderfyniadau ar y rhyfel â Ffraingc, ac ar y priodoldeb o gael diwygiad seneddol. Cynaliwyd y cyfarfod hwnw yn y *Common Hall;* a chafodd ei benderfyniadau eu cymmeradwyo yn ddi-wrthwynebiad, a chyda graddau helaeth o frwdfrydedd. Ar ol hyny, etholwyd ef yn aelod o'r cynghor cyffredin; ond ei uchelgais penaf ef a'i gyfeillion oedd cael ei ethol i'r senedd dros ddinas Llundain. Bu pob ymgais o'i eiddo yn aflwyddiannus hyd y fl. 1818, pryd y dychwelwyd ef gyda mwyafrif o 4,603. Yn nesaf, etholwyd ef yn henadur tros ranbarth *Farringdon Without*—un o ranbarthau pwysicaf y brif ddinas. Yn etholiad cyffredinol 1820, collodd ei sedd yn y senedd, â mwyafrif o 140 i'w erbyn. Yr un flwyddyn, llanwodd y swydd o sirydd dros Lundain a Middlesex, a'r swydd anrhydeddus o Arglwydd Faer Llundain yn y fl. 1823—4. Yn etholiadau 1826, 1830, 1831, ac 1833, dychwelwyd ef drachefn yn aelod seneddol dros y brif ddinas; ond anfynych y byddai yn bresennol yn y tŷ. o herwydd sefyllfa anfoddhaol ei iechyd. Bu farw Chwefror 1833, a chladdwyd ef yn eglwys St. Bride's, Fleet street. Fel cydnabyddiaeth o'i aml rinweddau—cyhoeddus a phersonol—codwyd maen coffadwriaethol iddo, trwy danysgrifiadau y cyhoedd.

WALKER, JOHN: gwneuthurwr oriaduron, a anwyd yn Colney Hatch, Middlesex, Mawrth 18fed, 1732. Bu yn chwareuydd, yn ysgolfeistr, ac yn athraw araethyddiaeth. Bu farw yn Llundain, Awst 1af, 1807. Ymddangosodd ei *Rhyming Dictionary* yn 1775, a'i *Critical Pronouncing Dictionary* yn 1791. Y mae yn un o'r gweithiau mwyaf adnabyddus o'r natur hwn a gyhoeddwyd erioed.

WALLER, EDMUND. Bardd o gryn enwogrwydd, a anwyd o deulu parchus a goludog yn Coleshill, ger Amersham, yn sir Hertford, Mawrth 3ydd, 1605. Ymddengys fod Cromwell yn dra hoff o ymddidan âg ef; ac ystyrir fod cerdd-folawd Waller i Cromwell yn un o oreuon ei gyfansoddiadau barddonol. Yn y fl. 1661, bu yn eistedd fel aelod seneddol dros Chipping-Wycombe, a Saltach, yn Nghernyw. Yr oedd Waller yn ddyn heb egwyddorion sefydlog; ac yn barod gyda'i ymfflamychiad llongyfarchiadol ar ddychweliad y brenin i'r orsedd; a phan gwynodd ei fawrhydi wrtho nad oedd y gân hon cystal a'i folawd i Cromwell, attebodd Waller yn y geiriau hyn—*Poets, sir, succeed better in fiction than in truth.* Parhaodd Waller hyd y diwedd i fod yn ffafr-ddyn yn y llys brenhinol. Bu farw ar Hydref 21ain, 1687, a chladdwyd ef yn Beaconsfield. Gadawodd deulu lliosog ar ei ol. Yn ei ganeuon, mae cymmeriad egwan yr awdwr yn cael ei adlewyrchu yn amlwg.

WALTON, BRIAN. Efe oedd golygydd y *Beibl Llundeinig Aml-ieithawg.* Ganwyd ef yn Seymour, yn swydd Gaerefrog yn y fl. 1600. Cyhoeddwyd y gwaith uchod mewn deg o gyfrolau, rhwng y fl. 1654 a 1657. Cynnorthwyid ef gan Usher, Lightfoot, Pocock, ac amryw o ysgolheigion eraill. Yn y rhagymadrodd gwreiddiol, hysbysir fod Cromwell ei hun yn gefnogol i'r anturiaeth. Cyssegrwyd Walton yn Esgob Caerlleon, Rhag., 1660; a bu farw yn Llundain, Tachwedd 29ain, 1661. Y mae rhai rhanau o'r Beibl wedi eu hargraphu mewn saith o ieithoedd gwahanol, a'r cyfan i'w gweled ar un olwg. Gwneir defnydd ynddo o naw o ieithoedd: sef, yr Hebraeg, y Galdaeg, y Samaritaidd, y Syriaeg, yr Arabaeg, y Bersiaidd, yr Ethiopaeg, y Groeg, a'r Lladin.

WALTERS, JOHN, oedd gymrawd o Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, a mab i'r Parch. John Walters, o Landwf. Ystyrid ef yn ysgolhaig gwych; ac efe a bennodwyd yn athraw cyntaf Ysgol y Bontfaen. Yn y fl. 1784, etholwyd ef yn athraw Ysgol Rammadegol Rhuthyn. Efe oedd awdwr y 'Llythyrau at Dr. Priestley.' Ysgrifenodd ragdraeth i 'Greiriau y Beirdd Cymreig,' gan Jones; a dygodd allan argraphiad o *Toxophilus* gan Roger Ascham, cyflwynedig i Gymdeithas y Bwawyr Brenhinol Prydeinig,' i'r hon gymdeithas y gwasanaethodd yn y cymmeriad o fardd llawrwyddog. Bu farw, Mehefin 28ain, 1789, yn 30ain mlwydd. Cladd-

Digitized by Google

wyd ef yn Efenectyd, ger Rhuthyn—i'r hwn blwyf yr oedd efe yn rheithior.

WARDLAW, ELIZABETH, Arglwyddes. Barddones Ysgotaidd oedd hi, ac yr oedd yn ail ferch i Syr Charles Halkett, Barwnig, o Pittirrane, ger Dumfermline. Ganwyd hi yn y fl. 1677. Yn y fl. 1696, hi a briododd Syr Henry Wardlaw, barwnig, o Pitreavie. Cyfansoddodd amryw ddarnau barddonol campus; ac y mae y rhai hyn, meddir, yn mysg y baladau traddodiadol goreu a fedd Ysgotland. Bu farw yn y flwyddyn 1727.

WARHAM, WILLIAM:—Archesgob Caergaint, o'r flwyddyn 1503 hyd 1532. Ganwyd ef o ddeutu y fl. 1450, mewn lle o'r enw Chnrch Oakley, yn swydd Hamp. Urddwyd ef yn glerigwr eglwysig. Bu hefyd yn ymarfer yn y gyfraith, ac yn gweithredu fel dadleuydd yn Nghwrt yr Archau; ac fel cymmedrolwr ysgol y gyfraith wladol yn mhlwyf St. Edmund, yn Rhydychain. Cefnogodd gais Harri VIII. am ysgariad. Bu farw Awst 22ain, 1532.

WATERLOO. Pentref bychan a saif un filldir-ar-ddeg i'r deheu o Brussels; yr hwn a roddodd ei enw i'r frwydr fythgofiadwy a ymladdwyd yno Mehefin 18fed, 1815. Y diwrnod hwnw, casglodd y Cadfridog Wellington hanner can mil (50,000) o wŷr traed, a thros ddeuddeng mil (12,400) o feirch-filwyr, gyda 156 o fagnelau, ar drum isel o fryniau ger llaw y pentref. O'r nifer uchod, nid oedd ond un ran o dair yn Brydeinwyr, a llawer o honynt newydd ymuno â'r fyddin, ac heb feddu profiad o fedru trin arfau rhyfel. O'r gweddill, yr oedd lliaws yn Is-Ellmynwyr a Belgiaid; ac yn cydymdeimlo, i ryw raddau, â'r Ffrangcod. Ar y trum gyferbyn, yr oedd dros 61,000 o Ffrangcod, dan lywyddiaeth Napoleon. Yr oedd y ddwy fyddin wedi eu trefnu yn y cynllun a dynwyd allan gan eu cadfridogion, ac yn barod i danio neu ymosod ar eu gilydd ar archiad eu llywyddion. O ran ansawdd, yr oedd byddin Ffrainge yn tra rhagori ar fyddin Prydain; o blegid nid oedd ynddi odid un milwr heb feddu profiad helaeth yn y gelfyddyd o ryfela. Yr oeddynt oll wedi myned trwy gadymgyrchoedd gwaedlyd o'r blaen; yr oeddynt oll, hefyd, o un genedl, ac yn cael eu llywyddu gan un o gadfridogion galluocaf ei oes—yn yr hwn yr oeddynt hwythau yn meddu ymddiried diderfyn. Ar wahân i'r ffaith eu bod yn meddu ar un o lywyddion blaenaf ei oes—Wellington—nid oedd y fyddin Brydeinig yn meddu y manteision ag oedd yn nwylaw y Ffrangcod i ddechreu ar y frwydr ofnadwy hon. Heb law hyny, yr oedd y cadymgyrch yr oeddynt yn awr ar fedr ei derfynu —y naill ffordd neu y llall—wedi troi allan yn lled lwyddiannus i'r Ffrangcod; ac yr oedd eu buddugoliaethau wedi eu gwneyd yn ffyddiog ac yn wrolfrydig. Dau ddiwrnod yn flaenorol, o dan arweiniad Napoleon, gorchfygasant y Prwssiaid yn Ligny, a gwelsant Wellington yn ymneillduo o Quatre Bras.

Pedwar o'r gloch, foreu y 18fed, ymgauodd godrau y cymmylau, a pheidiodd y gwlaw a fu yn disgyn am amryw oriau cyn hyny. Yr oedd maes y frwydr yn ymestyn dros tua thair milldir, a'r tir yn ymgodi yn raddol o bantle at linellau blaenaf y ddau gadfridog. Ar hyd rhan o linell Wellington, yr oedd ffordd, a'r tir tu cefn iddi yn disgyn tua dwy lath, fel y gallai y dynion orwedd i lawr; a bod yn lled ddiogel o gyrhaedd ergydion y gelyn. Yr oedd Wellington wedi gosod 15,000 o'i filwyr yn llinellau o flaen ymyl y ffordd a enwyd; ac yr oedd ganddo tua'r un nifer yn y cysgod a nodwyd uchod. Yr oedd gan Napoleon 31,000 wedi eu trefnu yn linellau tu cefn i'w gilydd ar godiad arall yn y tir oedd yn wynebu y codiad y safai byddin Wellington arno, ac yn ymestyn hyd derfyn llinellau Wellington. I chwanegu at fyddin Napoleon, daeth tua 25,000 i'r maes cyn dau o'r gloch. Ni ddechreuodd Napoleon wneuthur ei ymosodiad, fodd bynag, hyd hanner awr wedi un-ar-ddeg; am, meddai efe, fod ei swyddogion yn ei hysbysu nas gellid symmud y magnelau nes y sychai y ddaear ychydig. Ystyrid hwn yn rheswm gwael am y coll amser; ac y mae rhai o'r farn fod yr oediad hwn wedi achlysuro i'r Ffrangcod golli y frwydr. Treuliodd Napoleon, hefyd, yr oriau hyn yn talu ymweliadau â gwahanol ranau ei fyddin, gyda'r amcan o galonogi ei filwyr.

Tua hanner awr wedi un o'r gloch, gan barotoi ar gyfer yr ymosodiad y bwriadai ei wneyd, symmudodd Napoleon 74 o'i fagnelau mawr yn mlaen, o fewn tua 600 o latheni i linell flaenaf Wellington. Dechreuwyd y frwydr gyda'r magnelau hyny, a hwy a fyrlymasant allan eu cynnwys angeuol gyda thrwst ofnadwy. Parhaodd yr ymladdfa gyda phenderfyniad di-ildio trwy y prydnawn. Gwnaeth y Ffrangcod ymosodiad ar ol ymosodiad ar ein milwyr, a phob ymdrech a allent hefyd i gymmeryd meddiant o'r gorsafoedd pwysig a elwid Hougomont a La Haye Sainte:—ond safodd ein milwyr fel y graig. Yr oedd Wellington wedi gweled pwysigrwydd yr adeiladau hyn, ac wedi gorchymyn cattrodau neillduol, yn rhifo 6,000 o wŷr, i symmud yno, a'u hamddiffyn er pob ymosodiad:—a gwnaeth y Ffrangcod aml ruthrgyrch arnynt yn ystod y prydnawn, gan mor bwysig oeddynt gyda'r amcan o'u cymmeryd. Rhwng pedwar o'r gloch a chwech, gwnaeth meirch-filwyr y Ffrangcod bedwar rhuthrgyrch penderfynol ar adran ddeheuol y fyddin Brydeinig. Cymmerodd 4,400 o feirch-filwyr ran yn y rhuthrgyrch cyntaf, a thros 8,000 yn y trydydd rhuthrgyrch; ond ffurfiwyd y Prydeinwyr yn betryalau, i'w derbyn, bob tro; a safasant yn ddisigl, er iddynt ddioddef colledion trymion ar hyd y dydd.

Yr oedd Napoleon wedi gadael byddin o 33,000 o wŷr. a 96 o fagnelau, dan y Cadfridog Grouchy, i wylio y Prwssiaid, a'u rhwystro i gymmeryd rhan yn y frwydr. O herwydd fod Grouchy yn pwyso arnynt, disgwyliodd Napoleon y buasai y Prwssiaid yn cilio yn ol yn mhellach oddi wrth Waterloo. Yn hytrach na hyny, tra yr oedd rhan o'i fyddin yn ymladd â'r Ffrangcod i'w cadw draw, llwyddodd Blucher i symmud ei fyddin, yn ol dealltwriaeth a fu rhyngddo a Wellington y nos o'r blaen, tua maes y frwydr fawr. Erbyn hanner awr wedi pedwar yn y prydnawn, ymddangosodd rhan o fyddin Blucher, o dan y Cadfridog Bulow, ar y maes; ac erbyn chwech o'r gloch, yr oedd 29,000 gan Blucher, a 64 o fagnelau, yn ymosod ar ochr ddeheuol y Ffrangcod, ac ar ranau ôl byddin Napoleon. Wyth milldir oedd yn eu gwahanu oddi wrth faes Waterloo ar ddechreu y dydd. Ond yr oedd y ffyrdd wedi eu gwneyd yn annhramwyadwy gan y gwlawogydd; yr oedd y milwyr wedi eu gwlychu gan wlawogydd

Digitized by Google

yr 17eg. Yr oedd y gwlaw a fu yn foddion i oedi ymosodiad y Ffrangcod ar Wellington yn rhwystr i Blucher, a'i luoedd, gyrhaedd i faes Waterloo yn gynnarach ar y dydd; gan nas gallent, er pob ymdrech, deithio yn gyflymach na milldir yr awr. Ond yr oedd Wellington, pan yn gwrthsefyll holl ymosodiadau ffyrnicaf y Ffrangcod, yn gwybod yn dda y deuai cymmhorth yn y man, os na ddigwyddai rhyw anffawd i luddias y Prwssiaid i gwblhau eu hymdaith dros yr wyth milldir o ffordd yn ddiogel. Yr oedd efe ei hun, meddir, wedi bod y noson o'r blaen gyda Blucher yn gwneyd y trefniadau.

Tybiodd Napoleon, pan glybu fod byddin yn nesau ar ei ochr ddeheuol, mai Grouchy oedd yno, a bod y fuddugoliaeth yn ei law. Ond fe'i siomwyd. Gwelodd ei berygl, a gwnaeth drefniadau ar unwaith i gyfarfod y gelyn newydd. Anfonodd 10,000 o'r adran hono o'i fyddin a alwai yn *Young Guard*, ac agos i ddwy fil o feirch-filwyr, i'w cyfarfod; ac wedi gwneuthur o hono bob trefniadau dichonadwy yn y cyfeiriad yma, parhaodd Napoleon i fyned yn mlaen gyda'i ymosodiadau ar linellau Wellington. Yn y cyfamser, yr oedd y milwyr ar y naill ochr a'r llall yn cwympo wrth y cannoedd—wedi eu lladd, neu wedi eu clwyfo. Yn fuan wedi pedwar o'r gloch, anfonodd Napoleon y Cadfridog Ney i wneyd y pedwerydd ymosodiad ar orsaf La Haye Sainte; a llwyddodd i gymmeryd meddiant o adeiladau y fferm—ond nid yr adeiladau eraill. Tua yr amser hwn, gwelwyd Wellington yn tynu ei oriadur allan—a dywedodd —'Mi a ddymunwn gan Dduw weled Blucher ar y maes!' Yr oedd y frwydr yn angerddol ar y pryd. Rhwng hyny a chwech o'r gloch, gwnaed y pedwar ymosodiad a enwyd gan feirch-filwyr Napoleon ar linellau Wellington; ond ymffurfiodd ei filwyr yn betryalau, fel nad allai meirchfilwyr Napoleon wneuthur nemawr o ddinystr arnynt; ond ar bob cyfleusdra manteisiol, gorchymynai Napoleon i'w gyflegrau danio arnynt, a'i filwyr gwasgaredig hefyd—a gwnaed mawr ddinystr felly, gan eu bod hwy, fel petryalau, yn agos at eu gilydd.

Erbyn hyn, o chwech i saith ar y gloch, yr oedd brwydro mileinig yn myned yn mlaen ar hyd yr holl linell. Yr oedd byddin Wellington yn cael ei theneuo yn gyflym mewn manau. Yr oedd efe ar gefn ei geffyl yn nghanol ei fyddin, yn eistedd mor sefydlog a distaw, ond â'i lygaid trwy ei ysbïenddrych ar yr holl faes, mor bell ag y gallai ei weled trwy y mŵg. Anfonid aml i genad ato i'w hysbysu eu bod mewn perygl o golli tir mewn rhyw fanau neillduol. Ond ei atteb oedd, 'Nid oes genyf neb y gellir ei hebgor i'ch cynnorthwyo.' Pan ofynid iddo pa beth oedd i'w wneyd—'Dal eich tir, neu farw!'

O ddeutu hanner awr wedi saith, penderfynodd Napoleon wneyd un ymgais arall—a'r olaf —i geisio tori trwy linellau Wellington. I'r amcan hwn, gorchymynodd Napoleon i'r Gwarchodlu Ymherodrol (*Imperial Guards*) symmud mewn dwy golofn rhwng Hougomont a La Hay Sainte. Nid oeddynt hwy wedi cymmeryd rhan yn y frwydr hyd yn hyn—a'r milwyr goreu a mwyaf profedig yn ei fyddin oeddynt. Gan mai dyma yr ymosodiad olaf, gallesid disgwyl i Napoleon ei hun eu harwain; ond nid felly: ymddiriedodd i gadfridog. Llwyddodd y gyntaf o'r colofnau hyn, yn cynnwys pedair bataliwn, i gyrhaedd copa y trum yn weddol ddirwystr; ac yr oedd Napoleon yn edrych arnynt o'r pellder, gan ddisgwyl, yn ddïau, fod buddugoliaeth yn ymyl. Yr oedd Wellington, gan ddisgwyl ymosodiad buan mae'n debyg, wedi gorchymyn i'r Gwylwyr (*Guards*) Prydeinig orwedd i lawr yn y panttucefn i'r trum a nodwyd o'r blaen, yn bedair rhês, tu cefn i'w gilydd. Ac ar y foment fanteisiol i daraw, wedi i Welington weled fod y Prwssiald mewn gafael, dywedir ei fod wedi rhoddi bloedd yn y geiriau hyn—'*Up Guards! and at them!*'—'Codwch Wylwyr, ac atynt!' Ar yr archiad, neidiodd y Gwylwyr ar eu traed, a gollyngasant eu hergydion; a chyda 'HWRê!' fawr, rhuthrasant ar eu gelynion. Yr oedd yr ymosodiad hwn mor ddinystriol, ac mor hollol annisgwyliadwy i'r Ffrangcod, fel yr ymddangosent fel wedi eu syfrdanu:—a chiliasant yn ol, gan ffoi mewn dyryswch. Digwyddodd rhywbeth cyffelyb i ail golofn y Ffrangcod. Yn gweled ei gyfle, gorchymynodd Wellington i'r holl fyddin Brydeinig ymosod â'i holl nerth ar y gelyn. Gwnaethant hyny yn y fan—ac yna ennillwyd brwydr fawr ac ofnadwy Waterloo! Yn y cyfamser, llwyddodd y Prwssiaid i yru y Ffrangcod allan o Papelotte, yr hwn le a ennillwyd ganddynt. Ychydig yn ddiweddarach, cymmerwyd Planchenoit oddi arnynt. Yr oedd y colledion yn fawr ar y naill ochr a'r llall. O'r Prydeinwyr a'r Prwssiaid, lladdwyd cynnifer a 22,500, o ba nifer yr oedd 7,000 yn Brwssiaid. Collodd y Ffrangcod, a chynnwys y carcharorion, 32,000. Canlyniad y frwydr ofnadwy hon fu, i Napoleon gael ei ddïorseddu, a'i alltudio i Ynys St. Helena—lle y bu farw.

**WATKINS, Parch. JOSHUA.** Gweinidog efengylaidd a llafurus a ymunodd â'r Bedyddwyr yn Llanwenarth, sir Fynwy. Nid ydyw yn wybyddus pa flwyddyn y ganwyd ef, na pha bryd yr ymunodd efe â'r enwad a nodwyd. Bu yn hynod ddefnyddiol fel cynnorthwy i amryw weinidogion, yn sefydliad cynnulleidfaoedd i'r enwad, yn Rhymni, Tredegar, Llangynidr, &c. O Lanwenarth, efe a symmudodd i Gaerfyrddin, er cynnorthwyo y Parch. Morgan Rees gydag argraphu a golygu cyhoeddiad misol, o'r enw *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, yn nechreu y flwyddyn 1795. Am yr ammheuid Mr. Rees o fod yn Jacobin, a bod Mr. Watkins yn coleddu syniadau cyffelyb iddo, bu raid i'r ddau ffoi o'r dref, rhag cael eu carcharu, cyn iddynt allu cyhoeddi mwy na phum rhifyn o'r cyhoeddiad. Yn 1796, ordeiniwyd ef yn fugail eglwys a chynnulleidfa o Fedyddwyr yn Penuel, Caerfyrddin. Yn mhen tair blynedd ar ol hyn, torodd ei gyssylltiad â'r Bedyddwyr Neillduol, ac ymunodd â'r Bedyddwyr Cyffredinol. Yn 1835, dychwelodd yn ol, am ei fod yn gweled gogwyddiad yn yr enwad hwn at Undodiaeth. Bu ganddo law yn ffurfiad agos holl gynnulleidfaoedd y Bedyddwyr yn agos i Gaerfyrddin.

**WATKINS, Parch. THOMAS,** M.A., F.R.S. Clerigwr Llandyfaelog, a ficer Llandefalle, yn sir Frycheiniog, oedd efe. Bu yn ynad heddwch, ac yn is-raglaw yn yr un sir. Yr oedd hefyd yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol. Cyhoeddodd lyfr dan y teitl, *An Account of his Travels in Greece.* Bu farw yn Pennoyra, ger Aberhonddu, yn y fl. 1820, yn 68ain mlwydd oed.

**WAUGH, EDWIN.** Ganwyd ef ar Ionawr 29ain, 1817, yn Rochdale; ac adnabyddid ef wrth yr enw, '*The Lancashire Poet.*' Dechreu-

Digitized by Google

odd gymmeryd dyddordeb mewn llenyddiaeth, a threuliai ei amser bron yn gyfangwbl i ddarllen ac ysgrifenu, pan yn ieuangc. Ymddangosodd ei ysgrifau cyntaf ar fywyd a chymmeriadau yn swydd Lancaster yn y *Manchester Examiner*, a thynasant sylw anghyffredin. Yn mysg eraill o'i ysgrifeniadau rhyddiaethol, gellir nodi *Factory Folk during the Cotton Famine; Besom Ben Stories; The Chimney Corner; Tufts of Heather; Irish Sketches*; a *Rambles in the Lake Country*. Yn y tri olaf, ceir disgrifiadau campus o olygfeydd naturiol. Ond er ei fod yn ysgrifenydd rhagorol mewn rhyddiaeth, fel bardd, yn hytrach, yr adnabyddir Mr. Waugh oreu. Casglwyd ei gyfansoddiadau ynghyd, a chyhoeddwyd hwy yn 1859, dan y teitl *Lancashire Songs*. Ennillasant safle anrhydeddus i'r awdwr yn mysg beirdd y deyrnas. Ychydig o ganeuon sydd wedi ennill y cyffelyb boblogrwydd yn swydd Lancaster a'r gân o'i eiddo, a elwir '*Come whoam to thi childer an' me*.' Ychydig o feirdd ei oes oedd i'w gymmharu âg ef am ysgrifenu yn nhafodiaeth ei sir enedigol. Yn 1882, cydnabyddwyd ei lafur yn y cyfeiriad hwn â blwydd-dal bychan o'r Gronfa Wladol. Bu farw yn New Brighton, sir Gaerlleon, Ebrill 30ain, 1890, oddi wrth effeithiau y cancr yn ei gylla.

WEBER, CARL. Ei enw yn llawn ydoedd Carl Maria Friedrich Ernst von Weber. Ganwyd ef yn Rhagfyr, 1786; a hanodd o deulu Awstriaidd oedd yn hynod am eu tueddiadau at gerddoriaeth. Daeth ei dad, Franz Anton von Weber, yr hwn a ddechreuodd ei yrfa fel milwr, yn enwog fel chwareuwr ar y crŵth; ac yr oedd ei fam yn gantores o radd uchel. Yn 1796, pan yr oedd yn ddeng mlwydd oed, gosodwyd ef dan addysg Heuschkel o Hildburghausen, gyda'r hwn y gosododd efe i lawr seiliau ei glod dilynol fel meistr y berdoneg. Bu yn ddilynol yn perffeithio ei hun gyda Michael Haydn, ac eraill. Dechreuodd gyfansoddi darnau cerddorol pan yn ieuangc; ond dinystriodd hwynt oll, o'r bron, â'i law ei hun.

Yn 1803, cawn ef yn Vienna fel dysgybl yr Abbé Vogler, trwy yr hwn y llwyddodd i gael bod yn arweinydd y chwareu-gân yn Breslau. Tua yr adeg yma, llyngcodd swm o wenwyn yn ddamweiniol; a bu agos iddo golli ei fywyd. Yn fuan wedi ei adferiad, symmudodd i Schloss Carlsruhe ar wahoddiad y Duc Eugene o Würtemburg. Ei symmudiad nesaf oedd i Stuttgart, fel ysgrifenydd i'r Duc Ludwig, brawd y Duc Eugene.

Treuliodd y deuddeng mis nesaf yn Mannheim a Darmstadt, lle y cyfansoddodd amryw o ddarnau pwysig. Yn gynnar yn 1813, ymsefydlodd yn Prague, fel meistr y chwareu-gân. Wedi amryw symmudiadau pellach, priodwyd ef Tachwedd 4ydd, 1817, â Carolina Brandt, y gantores enwog. Yn lled fuan ar ol hyn, ysgrifenodd ei gantata *Der Freischütz*, a'i gân *Euryanthe*, y rhai a ganwyd gyda llwyddiant mawr mewn amryw o brif drefi Ewrop, ac yn Llundain. Ei brif waith oedd ei *Oberon*. Cyfansoddiad oedd hwn yr ymgymmerodd â'i ysgrifenu ar gais Charles Kemble, o chwareudy Covent Garden, yn Llundain. Dewiswyd y testyn gan Weber ei hun, ac ysgrifenwyd y geiriau Saesnig gan Mr. J. R. Planché. Cynnygiodd Kemble fil o bunnau iddo am y cyfansoddiad; a chan fod Weber, ar y pryd, yn tynu at derfyn ei yrfa, ac yn bryderus am amgylchiadau ei wraig, a'i blant, derbyniodd y cynnygiad. Ond nid dyma yr hyn yn unig y pryderai ef yn ei gylch; eithr yr oedd yn dra awyddus i wneyd y cyfansoddiad hwn yn brif waith ei oes. Chwareuwyd ef, a hyny am y tro cyntaf, Ebrill 12fed, 1826, gyda llwyddiant anarferol; a dyma'r dydd dedwyddaf iddo ef yn holl hanes ei fywyd. Llafuriodd yn ddyfal gyda'r gwaith hwn, a chyda dyledswyddau cerddorol eraill—llawer gormod yn wir, er lles ei iechyd. Bu farw ar Mehefin 4ydd, 1826, a chladdwyd ei weddillion yn mynwent St. Mary, Moorfields; o'r hwn le, yn 1844, y symmudwyd hwynt i Dresden.

Y mae hawliau Weber i enwogrwydd yn seiliedig, yn benaf, ar ei waith yn sefydlu yr arddull Ellmynig o chwareu-gân ramantaidd. Yn hyn yr oedd yn rhagredegydd uniongyrchol i Richard Wagner. Ceisiai ysgrifenu ei gerddoriaeth fel ag i gydgordio yn hollol â chymmeriad neu natur y digwyddiadau a arddangosid trwy y geiriau.

WEBSTER, JOHN:—gŵr oedd, a'i enwogodd ei hun fel awdwr chwareu-gerddi o ansawdd treisganaidd (*tragedies*). Nid ydyw dydd ei enedigaeth na'i farwolaeth yn wybyddus; a'r oll sydd yn hysbys am dymmor ei oes ydyw, ei fod yn fyw, ac yn cyfansoddi ei chwareuon, rhwng 1602 a 1624.

WEBSTER, NOAH. Geiriadurwr enwog oedd efe, a anwyd yn Hartford, Connecticut, Hydref 16eg, 1758. Wedi graddio, a'i alw i fod yn far-gyfreithiwr, dygodd allan y rhan gyntaf o lyfr sillebu, a daeth wedi hyny i ffurfio rhan o'i *Grammatical Institute of the English Language*. Bu cymmaint o lwyddiant ar hwn, fel y bu efe, a'i deulu, yn byw am ugain mlynedd ar y doll bychan o un *cent* y copi a dderbyniai efe oddi wrtho. Ei lyfrau adnabyddus eraill oeddynt, *A Philosophical and Practical English Grammar* (1807), a'i *American Dictionary of the English Language*—yr hwn oedd yn ffrwyth ugain mlynedd o lafur. Bu Webster farw yn Amherst, Massachusetts, Mai 28ain, 1843.

WESTBURY, RICHARD BETHEL, ARGLWYDD. Mab i feddyg yn Bristol oedd efe, a ganwyd ef yn Bradford-on-Avon, Mehefin 30ain, 1800. Pan tua deunaw oed, cymmerodd raddau gydag anrhydedd yn Mhrifysgol Rhydychain; ac yn 1823, galwyd ef yn far-gyfreithiwr yn y *Middle Temple*. Erbyn 1841, yr oedd yn flaenor y bar-gyfreithwyr oll yn y Canghell-lys (*Chancery*), ac yn ennill tuag ugain mil o bunnau (20,000*p*.) yn y flwyddyn. Etholwyd ef yn aelod seneddol dros Aylesbury yn 1851, fel Rhyddfrydwr, a thros Wolverhampton yn etholiad cyffredinol 1852. Yn yr un flwyddyn, pennodwyd ef yn gyfreithiwr cyffredinol; yna yn y fl. 1861, olynodd Arglwydd Campbell ar y sach wlân fel arglwydd ganghellydd y deyrnas, gyda'r teitl o Arglwydd Westbury. Bu yn brif offeryn, tra yn Nhŷ y Cyffredin, i osod amryw fesurau cyfreithiol pwysig ar ddeddflyfrau y deyrnas. Yn 1865, bu raid iddo ymneillduo o'i swydd oruchel, mewn canlyniad i helynt a wnaed gan ddosbarth o wleidyddwyr yn erbyn y pennodiadau swyddogol a wnaed ganddo; ond cafodd ei ryddhau oddi wrth y

Digitized by Google

cyhuddiad o feddu amcanion personol ac annheilwng ynglŷn â'r pennodiadau hyn. Gwnaeth a allai i wrthwynebu Mesur yr Eglwys Wyddelig o eiddo Mr. Gladstone, a'r un modd Deddf Dirol Wyddelig 1870. Yr oedd yn wladweinydd galluog, ac yn un o'r cyfreithwyr mwyaf disglaer. Bu farw yn Llundain, Gorphenaf 20fed, 1873.

WESTMACOTT, SYR RICHARD. Cerflunydd enwog. Mab oedd i Richard Westmacott —yr hwn hefyd oedd yn gerfluniwr. Ganwyd ef yn Llundain, yn 1775. Bu yn perffeithio ei addysg dan y byd-enwog Canova, yn Rhufain; a thra yno, ennillodd fathodyn aur a gynnygid fel gwobr gan y Pab. Ar ei ddychweliad i Lundain, yn 1797, daeth i enwogrwydd ar unwaith. Yn 1827, olynodd Flaxman fel athraw cerfluniaeth yn yr Athrofa Frenhinol. Cerfiodd lawer o gôf-golofnau cyhoeddus, megys y rhai i Pitt, Fox, Perceval, ac Addison, yn Mynachlog Westminster, ac i Syr Ralph Abercromby ac Arglwydd Collingwood yn Eglwys St. Paul. Bu farw Medi 1af, 1856.

Mab iddo ef oedd Richard Westmacott, a'i dilynodd yn athraw cerfluniaeth yn yr Athrofa Frenhinol. Ganwyd ef yn 1799; a daeth yntau, fel ei dad, yn adnabyddus fel un o gerflunwyr blaenaf ei oes. Bu farw Ebrill 19eg, 1872.

WHEATSTONE, SYR CHARLES. Gwyddonydd, trydanydd, ac un o ddyfeiswyr y pellebyr, oedd efe. Ganwyd ef yn Nghaerloyw, yn Chwefror 1802. Yn 1806, symmudodd ei rïeni i Lundain, lle y dangosodd y bachgen yn fuan ei fod yn feddiannol ar alluoedd neillduol i ddyfeisio a chynllunio peiriannau at wahanol ddybenion.

Yn 1834, pennodwyd ef yn broffeswr athroniaeth arbrawfiadol yn Ngholeg y Brenin; a thra y daliodd y swydd hon, gwnaeth wasanaeth gwerthfawr i'w wlad gyda dyfeisiau, &c.; yn enwedig felly gyda thrydaniaeth, a throsglwyddiad sŵn. Yn 1835, efe a wnaeth beiriant siarad, yr hwn a lefarai eiriau bychain yn weddol rwydd ac eglur. Efe, a Mr. W. F. Cooke, a ddyfeisiodd y gyfundrefn o bellebrau trydanol sydd erbyn hyn yn cael eu harfer trwy yr holl deyrnasoedd. Yn y fl. 1840, profodd y gellid, gydag *electro-magnetism*, gadw amryw awrleisiau, wedi eu gosod bellder oddi wrth eu gilydd, i gyd-fyned â'u gilydd i'r funyd oddi wrth yr un awrlais. Efe, hefyd, a ddyfeisiodd y peiriant a arferir ar fyrddau agerlongau mawrion, i gyfarwyddo y peirianwyr fyddant o fewn y llong. Gwnaeth lawer yn ei oes i berffeithio pob math o beiriannau trydanol, ac yn enwedig y pellebyr. Yr oedd yn îs-lywydd y Gymdeithas Frenhinol. Gwnaed ef yn farchog yn 1868, ac yn LL.D. gan Brifysgol Edinburgh yn 1869. Bu farw yn Paris, Hydref 19eg, 1875.

WHITE, JOHN. Ail fab oedd efe i Henry White, Ysw., o Henllan; yn sir Benfro—lle y ganwyd ef, yn 1590. Daeth yn enwog fel cynghorwr yn y gyfraith. Dewiswyd ef gan y blaid Buritanaidd, yn nyddiau y Werin-lywodraeth, yn un o'r *Feoffees*, neu y rhai a brynent i mewn yr eiddo a'r bywoliaethau Eglwysig gan wŷr lleyg y blaid wrthwynebol, er mwyn anrhegu eu cyfeillion eu hunain â hwy. Yn 1640, etholwyd ef yn aelod o'r Senedd Hir; yn yr hon yr enwogodd ei hun trwy ei ymosodiadau llym ar yr esgobion, ac eraill o'r clerigwyr. Etholwyd ef yn aelod o Bwyllgor Crefydd; ac efe, mewn gwirionedd, oedd ei gadeirydd. Cyhoeddwyd rhai o'i areithiau seneddol yn 1641, dan y teitl, *The first century of scandalous malignant Priests, made and admitted into benefices by the Prelates*; a llyfr arall yn erbyn Esgobyddiaeth yn 1644, yn dwyn y teitl, *The Looking Glass*. Bu farw Ion 29ain, 1644—5, a chladdwyd ef yn eglwys y Deml Ganol, yn Llundain.

WHITMAN, WALT:—un o feirdd enwocaf a mwyaf adnabyddus America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ganwyd ef Mai 31ain, 1819, yn West Hills, Long Island, o fewn Talaeth Efrog Newydd. Yr oedd Whitman yn wir fardd; a gwerthfawrogir ei weithiau barddonol gan ddynion galluocaf Ewrop ac America. Nis gallai ond dyn o athrylith uchel gyfansoddi yr hyn a gyfansoddodd efe.

WHITTINGTON, RICHARD:—yr hwn a adnabyddir fynychaf wrth yr enw 'Dick Whittington.' Ganwyd ef, yn ol fel y tybir, tua'r fl. 1358. Y mab ieuangaf oedd efe i Syr William Whittington, o Pauntley, yn sir Gaerloyw. Ar farwolaeth ei dad, aeth Richard, pan yn 13eg oed, i Lundain, mewn ymchwil am gyfoeth. Llwyddodd; ac yn 1397, dewiswyd ef yn arglwydd faer y ddinas. Bu yn faer deirgwaith, yn aelod o'r senedd, ac fe'i gwnaed yn farchog gan Harri V. Mae chwedl hynod 'Dick Whittington a'i Gath' yn adnabyddus i bawb.

WILBERFORCE, SAMUEL. Trydydd mab oedd efe i William Wilberforce—gelyn mawr caethwasiaeth; a ganwyd ef Medi 7fed, 1805. Wedi ennill ei raddau yn Rhydychain, ymunodd âg Eglwys Loegr; a pharodd ei yni, ei ddysg, a'i lafur fel gweinidog plwyfol, iddo gael dyrchafiadau aml yn yr eglwys. Yn 1845, pennodwyd ef i ddeoniaeth Westminster; ac yn Hydref yr un flwyddyn yn Esgob Rhydychain. Nid oedd efe yn dduwinydd dwfn, nac yn awdwr cynnyrchiol; ond daeth yn un o esgobion enwocaf a mwyaf efengylaidd ei oes. Yn 1869, symmudwyd ef i esgobaeth Caerwynt (Winchester). Ar y 19eg o Orphenaf, 1873, cwympodd oddi ar ei farch, a lladdwyd ef.

WILLIAMS, ABRAHAM, o'r Cwm-glas—ffermdy ar lethr yr Eryri. Yr oedd yn fardd da, a blodeuodd yn y ganrif ddiweddaf. Efe oedd athraw barddonol Gutyn Peris. Treuliodd Abraham Williams weddill ei ddyddiau yn yr America.

WILLIAMS, ANNA. Yr oedd hi yn farddones Saesnig, ac yn ferch i feddyg o'r enw Zechariah Williams. Ganwyd hi yn Neheudir Cymru, yn 1706. Yn y fl. 1746, cyfieithodd o'r Ffrangcaeg, â dwy foneddiges arall, hanes yr Ymherawdwr Julian. Tua'r un amser, daeth yn gydnabyddus â Dr. Johnson. Un o'i gweithiau mwyaf adnabyddus ydyw ei *Miscellanies in Prose and Verse*. Bu farw Medi 6ed, 1783, yn 77ain mlwydd oed.

WILLIAMS, SYR CHARLES HANBURY. Trydydd mab John Hanbury, o Colebrookdale, yn sir Fynwy, oedd efe. Bu yn aelod seneddol dros y sir; ac yn 1746, pennodwyd ef yn weinidog yn llys ymherodrol Berlin. Yn 1749, pen-

Digitized by Google

nodwyd ef yn negesydd i'r un llys. Yn 1754, cynnrychiolodd Leominster yn y senedd; ond yn lled fuan wedi hyny, aeth yn genhadwr i lys Rwssia. Daliodd y swyddau hyn gydag anrhydedd iddo ei hun, ac i Brydain. Bu farw yn Lloegr Tachwedd, 2il, 1759.

WILLIAMS, DAFYDD. Caniedydd melusber oedd efe; ond nid ydyw lle nac amser ei enedigaeth yn hysbys. Ond o herwydd iddo dreulio cryn lawer o'i amser yn Llandeilo Fach, sir Forganwg, gelwir ef ar wyneb-ddalen yr argraphiadau cyntaf o'i lyfr yn 'Dafydd Williams o Landeilo Fach.' Bu am flynyddoedd lawer yn athraw un o'r ysgolion Cymreig, dan Madam Bevan, o Lacharn, a'r Parch. Griffith Jones, o Landdowror. Wedi bod yn bregethwr derbyniol gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ymunodd, rai blynyddoedd cyn ei farw, â'r Bedyddwyr, yn eglwys Croes-y-Parc, Llanbedr-y-fro, ger Caerdydd, lle y bu yn aelod hyd ei farwolaeth, yn y fl. 1794. Y mae ei lyfr *Gorfoledd yn Mhebyll Seion* yn cynnwys pennillion sydd bron yn gydradd mewn teilyngdod âg emynau tlysaf Williams o Bant-y-celyn.

WILLIAMS, DAVID, Y Parch. Ganwyd y gŵr enwog hwn Rhagfyr, 1785, yn Siglan fawr, Llanfair P.G., yn Môn. Enwau ei rieni oedd David ac Anne Williams. Yr oedd ei dad yn frodor o Landdeiniolen, Arfon, a'i fam yn ferch y Cichla, Môn. Perthynai y teulu i'r dosbarth gweithiol; ac, hyd y gwyddis, nid oedd dim neillduol yn hanes y tad na'r fam. Ymddengys fod y mab, David, yn teimlo dyddordeb mawr mewn amaethyddiaeth, ac yn debyg o ragori yn y cyfeiriad hwnw. Ond nid i hyny y bwriadwyd ef gan ragluniaeth.

Arferai fynychu addoldy y Methodistiaid pan yn fachgen, ac arferai ddyweyd fod yno le da i ddysgu adnabod drwg pechod—er nad ennillwyd ef i adael pechod, ac i geisio Iesu Grist yn Waredwr.

Yr oedd y cenhadon Wesleyaidd yn arfer ymweled â'r ardal yn nyddiau ei ieuengetid. Dywedir mai Mr. Bryan a bregethodd yn yr ardal gyntaf, mewn lle o'r enw Rhos-y-gath—yr hwn oedd yn ymyl cartref ein gwrthddrych. Pregethodd yr ail dro yn Pwll-ffanog, ar lan yr afon Menai. Aeth y Parch. William Davies, Croesefa, i bregethu i'r ardal Ionawr 1af, 1806. Am ryw reswm neu gilydd, yr oedd David Williams, er heb fod ond 16eg oed, wedi cymmeryd yn erbyn y pregethwr—nid yn erbyn Mr. Davies yn bersonol, ond yn ol pob tebyg, yn erbyn y cenhadon Wesleyaidd. Aeth i gyrhaedd yr oedfa gyda'r bwriad o wylio y pregethwr yn dyfod allan, ac i ymosod arno. Dywedai mai ei fwriad ydoedd llechu yn ymyl y drws, a chicio y pregethwr. Nid oes gyfrif i'w roddi am hyn, ond mai dyma y ffurf a gymmerodd llygredigaeth ei galon ar y pryd. Ond yn lle aros wrth y drws, aeth i mewn i wrandaw y bregeth; ac yn lle iddo gicio y pregethwr, anfonwyd saeth argyhoeddiad i galon y llange, fel erbyn diwedd yr oedfa yr oedd yn gorwedd yn ddiymadferth ar faingc saer oedd yn yr adeilad, ac wedi cwbl benderfynu 'rhoddi ei hun i'r Arglwydd, ac i'w bobl yn ol ewyllys Duw.' Yr oedd ei frawd, John Williams, yr hwn oedd o dan argyhoeddiad er's misoedd, yn yr un oedfa; ac wrth iddo symmud tua'r drws i fyned allan, a gweled ei frawd wedi aros yn ol, arhosodd yntau yno gydag ef. Yn ol yr arfer yn y dyddiau hyny, rhoddodd y pregethwr arwydd prawf am aelodaeth i'r naill a'r llall; ac nid yn fynych y dychwelwyd yn yr un oedfa ddau frawd a droisant allan yn ddynion mor amlwg yn yr eglwys. Pe na buasai dychweliad Mr. John Williams wedi gwneuthur dim oll ond ei wneyd yn offeryn yn llaw yr Ysbryd Glân i ddychwelyd Mr. Thomas Aubrey, nid aethai yn ofer.

Buasai yn ddymunol cael hanes y modd y bu ar David Williams yn ei ymdrech gyda Duw am drugaredd faddeuol ac adnewyddiad natur; ond digon tebyg iddo gadw hyny iddo ei hun, am ryw reswm anadnabyddus. Ond yr oedd gweddill ei fywyd ef yn brawf o gywirdeb ei dröedigaeth. Ei symmudiad nesaf ydoedd—ei gael yn dechreu ar y gwaith o bregethu yn Aberffraw, ar foreu y Pasg, yn 1807. Ei destyn oedd *Ioan* xx. 21; sef, 'Tangnefedd i chwi.' Ei farn ef ei hun am yr ymgais hwn ydoedd ei fod yn fethiant. Dywedai am dano ei hun, 'Truenus, yn wir!' Gall, ac y mae yn sicr, o ran hyny, fod eraill yn meddwl yn wahanol, gan iddo gael ei galonogi i fyned yn mlaen. Digalonodd ei frawd ar ol ei gais cyntaf; ac ni wnaeth gynnyg arall am dri mis. Ond dyfalbarhau a wnaeth David Williams. Gwnaeth gynnydd buan; ac aeth sôn am dano ar hyd a lled y wlad. Gwnaed cais o Gaernarfon am ei wasanaeth fel pregethwr cyflogedig. Yr oedd cyfarfod chwarterol Môn yn gefnogol iawn i'r cais. Ond ni fynai efe gydsynio, heb gael pythefnos o amser i ystyried y mater. Yn y cyfamser, bu yn ddyfal mewn gweddi am arweiniad dwyfol yn yr argyfwng. Daeth i gredu mai myned oedd awgrym rhagluniaeth; ac felly y bu. Yr oedd hyn yn nechreu y fl. 1810.

Hynod o brin fu ei fanteision. Nid oedd wedi cael cyfleusdra i ymgydnabyddu â'r iaith Saesnig. Pan ar ymweliad â thŷ parchus yn Môn, yn ngwmni Mr. Jones, Bathafarn, estynodd merch y tŷ newyddiadur Saesneg i'r gŵr da hwnw, gan wneyd y sylw, 'Waeth i mi heb roddi newyddiadur Saesneg i chwi, David Williams, gan nad ellwch ei ddeall.' Cyffyrddodd hyn âg uchder ei ysbryd; a phenderfynodd na chaffai neb achlysur i wneyd y sylw hwnw drachefn. Llwyddodd yn ei amcan. Daeth yn gryn awdurdod yn yr iaith hono. Cymmhellwyd ef gan y rhai oedd yn ei adnabod i barotoi Geirlyfr Cymraeg a Saesneg. Dechreuodd ar y gwaith; ond o blegid amledd gofalon eraill, gadawodd ef heb ei orphen.

Yn Awst, 1810, cafodd ei bennodi i lafurio ar gylchdaith Llanrwst, gyda'r Parch. Evan Parry, yr hwn oedd yn enedigol o ardal Helygain, yn sir Fflint; ac aeth i'r gwaith Saesneg, gan yr attaliwyd cymmhorth arianol i Gymru, ar farwolaeth Dr. Coke. Tra yn llafurio ar y maes hwn, cymmerodd amgylchiad le sydd yn brawf o allu David Williams gyda Duw mewn gweddi. Yr oedd gwraig yn Eglwysbach, yr hon oedd yn aelod eglwysig, ac yn un o ddychweledigion cyntaf y genhadaeth Wesleyaidd, wedi ei chymmeryd yn glaf, ac yn ddiffrwyth o'i gwasg i lawr. Arferai ymweled â hi i ddarllen a gweddïo, a theimlai ei fod yn cael lles oddi wrth ei phrofiad cyfoethog. Ar ymweliad dau bregethwr arall â'r ardal, aethant ynghyd i edrych am dani. Ar y ffordd tuag yno, dywedodd un o honynt—'Gwell cael deall pwy sydd i ddarllen a gweddïo, rhag fod dim camddeall yn y tŷ.' Penderfynwyd mai David Williams

oedd i wneyd; ac felly y bu. Tra yr oedd efe yn ymbil â Duw am adferiad y chwaer, torodd allan i orfoleddu; a dywedodd, 'Y mae Duw yn gwrandaw ac yn atteb y weddi. Yr wyf yn dechreu gwella.' Adferwyd y chwaer am dymmor maith; a bu yn alluog i fyned a dyfod, fel o'r blaen. Dywedodd Mr. Williams wrth ei gyd-bregethwyr am iddynt gadw yr amgylchiad iddynt eu hunain, rhag rhoddi achlysur i elynion crefydd gablu. Felly y bu. Ond y mae digwyddiad mor neillduol yn haeddu coffhâd, fel prawf fod Duw yn gwrandaw, ac yn atteb gweddiau.

Yn 1811, pennodwyd ef i lafurio ar gylchdaith Ruthyn gydag Edward Jones 4ydd, a Stephen Parry. Yn y fl. 1812, aeth i gylchdaith Dolgellau gyda John Jones, hynaf; ac yn y fl. 1813, i gylchdaith Abertawe gydag Edward Jones, yr 2il. Ar derfyn y flwyddyn hon, derbyniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth mewn cynnadledd a gynnaliwyd yn Bristol yn y fl. 1814; a Dr. Adam Clarke yn llywydd. Treuliodd y ddwy flynedd ganlynol ar gylchdaith Treffynnon, gydag Edward Jones, 4ydd.

Yn 1816, pennodwyd ef i lafurio i'r Cymry yn Manchester. Aeth o Fanchester i Lundain; ac oddi yno i Gaerdydd; yna i Aberhonddu. Y pryd hyn, torodd ei iechyd i lawr; a bu yn gorphwys am flwyddyn. Yn Awst, 1823, ail gydiodd yn ei waith, ac aeth i lafurio i Lanidloes —lle oedd yn rhan o gylchdaith Aberystwyth. Am y tair blynedd-ar-ddeg uchod, yr oedd yn ddi-briod; ond y pryd hyn, ymunodd mewn priodas â Miss Martha Roberts Spencer, o St. Athan, yn sir Forganwg. Yr oedd hi wedi bod yn gymmydoges i Edward Williams (*Iolo Morganwg*); a gallai adrodd ei hanes yn ddyddorol iawn. Profodd y briodas yn un ddedwydd; a bu iddynt wyth o blant.

O Lanidloes, symmudodd i Meifod; ac yn y fl. 1826, i gylchdaith Gymreig Liverpool. Hyd yn hyn, yr oedd yr achos Cymraeg ynglŷn â'r achos Saesneg, a'r oll yn un gylchdaith; ond y flwyddyn hon, ffurfiwyd dwy gylchdaith Saesnig, ac un Gymreig; ac efe oedd yr arolygwr cyntaf, o Gymro, a fu yn Liverpool. Oddi yno, aeth i Ddinbych; ac oddi yno, yn 1830, i Gaerdydd—lle y cafodd y Parchn. Thomas Jones a William Rowlands yn gyd-lafurwyr. Tra yn y lle hwn, yn y fl. 1831, bu yn ymroddgar iawn i gynnorthwyo un o'r enw Richard Lewis, a adnabyddid fel 'Dic Penderin,' i fwynhau trugaredd faddeuol cyn wynebu ei Farnwr. Yr oedd wedi ei ddedfrydu i'w golli, o blegid y rhan a gymmerodd efe yn y derfysg a dorodd allan yn Merthyr Tydfil. Gwnaeth ymdrech neillduol, y pryd hyn, ar ran y Genhadaeth Dramor, yr hon a ddygid i sylw trwy y cyffro oedd yn y deyrnas yn achos rhyddhâd y caethion. Yn y fl. 1833, symmudodd i gylchdaith Merthyr; ac oddi yno i Landeilo, Liverpool, Treffynnon, Caernarfon, a Rhuthyn yn 1848—lle y llafuriodd am ddwy flynedd.

O blegid nychdod, ymneillduodd i blith yr uwchrifiaid yn Awst, 1850, wedi bod yn llafurio yn galed am ddeugain mlynedd, ond y flwyddyn y gorfuwyd ef i gymmeryd seibiant. Ymsefydlodd yn Liverpool. Parhaodd i bregethu, i flaenori rhestr, ac i wneyd gwaith bugeiliol tra y parhaodd ei nerth. Ymwelai yn achlysurol â Chymru i gynnal cyfarfodydd pregethu; a sicrhâai gynnulliadau mawrion i ba le bynag yr elai. Ond fel yr oedd blynyddoedd yn treiglo, pallai ei nerth. Ni bu yn alluog i fyned fawr o gwmpas am y ddwy flynedd olaf y bu fyw. Yn ei fisoedd diweddaf, yr oedd yn nychlyd iawn. Ond yn nghanol yr oll, yr oedd yn ddedwydd a gorfoleddus. Un tro, torodd allan i waeddi 'Bywyd; fy mywyd! Ië, ïe: efe yw fy mywyd. Trwy yr anialwch yma, *bywyd!*—ar y bryn, *bywyd;* ac yn y pant, *bywyd*. Bendigedig fyddo byth!' Hunodd yn yr Iesu Mehefin 19eg, 1862, yn ymyl bod yn 77ain oed; a chladdwyd ef ar y 24ain, yn nghladdfa Smithdown road, Liverpool, a hyny yn y llecyn a ddewiswyd ganddo ef ei hun.

Yr oedd Mr. Williams yn ddyn hynod ar lawer cyfrif. Yr oedd yr olwg arno yn urddasol; ac yn gadael argraph o annibyniaeth, cofndra, a phenderfynolrwydd. Yr oedd o dymmheredd wresog a chyffrous. Digiai hyd chwerwder yn achos ymddygiadau iselwael a phechadurus; ond yr oedd mor dyner a thoddedig a phlentyn tuag at y diniwed, a'r pur. Dywedai bethau celyd yn erbyn yr hyn a dybiai oedd yn annheilwng. Nid oedd gyfathrach rhyngddo â chymmeriadau ammheus; ond yr oedd yn agored a chyfeillgar gyda'r neb a farnai yn onest a rhinweddol. Cynnysgaeddwyd ef â meddwl uwchraddol. Ymhyfrydai mewn dadansoddi gwirioneddau i'w helfenau cyntefig, er deall eu perthynas â'u gilydd, ac olrheiniai hwy yn eu holl gyssylltiadau. Pan yn weinidog yn Beaumaris, yr oedd wedi rhoddi caniatâd i'r diweddar Barch. John Hughes, oedd yn dechreu pregethu ar y pryd, i fyned i'w lyfrgell pan y mynai, i ymgynghori â'i lyfrau, a'u benthyca. Aeth Mr. Hughes i mewn un diwrnod, a gwelai Mr. Williams ar ei liniau wrth y ddesg, a'r Beibl yn agored o'i flaen, tra yr oedd ei olygon yn edrych i fyny, ac yntau yn sibrwd, 'Dyro'r goleu, Arglwydd! dyro'r goleu!' Yr oedd wedi ymgolli mor lwyr yn ei ymdrech gyda Duw am oleuni ar ei Air, fel ag yr aeth y pregethwr ieuangc i mewn ac allan heb dynu ei sylw.

Yn y pulpud yr oedd ei nerth mwyaf. Yr oedd yn bregethwr anghyffredin o nerthol yn ei adegau goreu. Cafodd adeg hynod iawn pan yn pregethu yn Amlwch, yn Môn, mewn cyfarfod talaethol, ar y geiriau—'Hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.' Pregethai ar y maes i gynnulleidfa fawr iawn. Yr oedd y dorf fawr yn hongian wrth ei wefusau. Bu yr odfa yn destyn ymddiddanion trwy y rhan fwyaf o'r ynys am fisoedd lawer. Yr oedd y diweddar Caledfryn yn gwrandaw arno yn pregethu ar y maes yn Nghaernarfon, ynglŷn â chyfarfod talaethol arall; a dywedai wrth gyfaill, 'Oni bae fy mod yn gwybod yn amgen, dywedaswn mai angel o'r nef oedd yn pregethu heddyw.' Pregethai yn Ebenezer, Caernarfon, ar ol myned yn uwchrif, ar *Phil.* iii. 7—13. Yr oedd y gynnulleidfa wedi ymgolli mor lwyr yn y gwirioneddau a draethai, fel yr oedd dynion crython yn codi i fyny oddi ar eu heisteddleoedd gyda dyrchafiad ei law! Nid oedd y dylanwad yn ddim ond eiddo y gwirionedd!

Yr oedd yn athraw, yn dad, ac yn gyfaill, yn nghyfrif pobl ei ofal: meddent ymddiried neillduol yn llwyddiant ei weddïau; a chredent fod ei gael ef i weddïo ar eu rhan yn sicrwydd am lwyddiant gyda Duw. Ond yr oedd yn wrthddrych mwy o edmygedd, a pharch, ac anwyldeb ar ei aelwyd ei hun nag mewn un cylch arall. Hyfforddiodd ei blant yn 'addysg ac yn athrawiaeth yr Arglwydd.' Y mae ei fab, y

Digitized by Google

Parch. Spencer Williams, wedi bod yn weinidog llwyddiannus ynglŷn â Chynnadledd Awstralia am ddeugain mlynedd, ac wedi ei anrhydeddu â bod yn ysgrifenydd y gynnadledd am flynyddoedd. Y mae y gweddill o'r teulu yn ffyddlawn a defnyddiol yn ngwasanaeth Duw eu Tad. Terfynodd ei daith Mehefin 12fed, 1882.

WILLIAMS, Parch. DAVID: mab Mr. John Williams, athraw ysgol Ystrad Meurig, yn sir Aberteifi, ac olynydd ei dad yn y swydd hono. Bu hefyd yn dal ciwradiaeth Ysbytty Ystwyth. Ysgrifenodd lyfr dysgedig yn dwyn y teitl, *An Essay on the Comparative Effects and Usefulness of the reading of Sermons in the Pulpit, and the delivery of them by memory.*

WILLIAMS, Parch. DAVID—yr hwn a adnabyddid yn well wrth ei enw barddol, *Iwan*—oedd fab i Mr. Williams, o Ben-pont-bren, yn mhlwyf Llanwnen, sir Aberteifi, lle y ganwyd ef yn y fl. 1796. Wedi cael cwrs o addysg yn Ngholeg y Bedyddwyr yn Nghaerodor, dechreuodd gadw ysgol yn Nghaerfyrddin; o'r hwn le y galwyd ef i bregethu, ac i gadw ysgol yn swydd Devon. Tra yr oedd efe a'i deulu ar y fordaith yno, yn 1822, curwyd y llong gan dymmestl i fau Abertawe; ac yn y dref hono, ar y 10fed o Ionawr, 1823, y bu farw, yn 27ain ml. oed. Ysgrifenodd lawer i'r *Seren Gomer* pan yr oedd y cylchgrawn hwnw yn anterth ei ogoniant; ac ychydig cyn ei farw, ysgrifenodd lyfr Saesneg, dan y teitl *Serious Remarks on the Ordinance of Baptism, by Scrutator.*

WILLIAMS, Parch. DAVID. Ganwyd ef mewn pentref ger llaw Aberteifi, yn 1738. Bu yn gweinidogaethu gyda yr Ymneillduwyr yn Frome, Gwlad yr Haf, ac Exeter, a Highgate. Yr oedd yn awdwr y llyfrau canlynol:—*The Philosopher in the Conversations; Essays on Public Worship, Patriotism and Projects on Reformation; Traethawd ar Addysg; Lectures on Education; Plan of Association on Constitutional Principles;* a *Letters on Political Speeches*, &c. Cafodd amryw o'r llyfrau hyn gylchrediad ëang, a gwyddis i rai o honynt gael eu cyfieithu i'r Ffrangcaeg. Yn 1796, argraphodd *Hanes sir Fynwy*. Efe oedd sylfaenydd y *Literary Fund*—cronfa er cynnorthwyo awdwyr teilwng oedd mewn angen. Bu farw Mehefin 29ain, 1816, yn 78ain mlwydd oed.

WILLIAMS, ELIEZER. Mab hynaf y Parch. Peter Williams oedd efe—awdwr y sylwadau efengylaidd ar y Beibl. Ganwyd ef yn Llandyfaelog, yn swydd Gaerfyrddin, tua'r fl. 1754. Tra yn yr ysgol yn Nghaerfyrddin, bu yn cynnorthwyo ei dad i barotoi ei sylwadau ar y Beibl Cymraeg i'r wasg, a'i *Fynegair Ysgrythyrol* hefyd. Cafodd fantais i gyfeillachu llawer â'r bardd-bregethwr enwog, Ieuan Brydydd Hir; ac arweiniodd hyny ef i olrhain ac i edmygu ceinion yr iaith Gymraeg. Tua'r pryd hwn, cymmerai ei dad ran yn nghyhoeddiad yr *Eurgrawn Cymraeg*—y cyhoeddiad cyfnodol cyntaf a ymddangosodd yn Nghymru. Yr oedd Mr. Williams wedi coledd yr awen pan yn ieuangc, ac ymddangosodd rhai o'i gynnyrchion barddonol yn y cyhoeddiad hwnw. Yn 1773, gosodwyd ef dan addysg yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, ac ordeiniwyd ef Awst, 1777, yn ddiacon, gan esgob Tŷ Ddewi. Wedi hyn, bu yn dal îs-beriglorïaethau Trelech, a Tetsworth. Cafodd ei gwbl urddo yn yr Eglwys Gadeiriol gan Dr. Edward Smallwell, esgob Rhydychain.

Yn lled fuan ar ol hyn, torodd rhyfel allan rhwng Prydain Fawr a Ffraingc, a phennodwyd Eliezer Williams yn gaplan ar fwrdd y gadlong *Cambridge*. Wedi bod am ddwy neu dair blynedd fel hyn ar y môr, rhoddodd ei gaplaniaeth i fyny, er dyfod yn athraw yn nheulu Arglwydd Galloway. Wedi hyny, yn 1784, cafodd ficeriaeth Caio yn sir Gaerfyrddin; ar ol hyny, bu yn dal swydd fel darlithydd hwyrol yn All Hallows, yn Llundain. Yn Hydref, 1804, ymwelodd â'i rieni yn Neheudir Cymru; ac yn union wedi hyn, cynnygiwyd iddo ficeriaeth Llanbedr gan y Dr. Burgess, esgob Tŷ Ddewi. Yn fuan, agorodd ysgol rammadegol yn y pentref, er parotoi gwŷr ieuaingc i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig—yr hon fu yn llwyddiannus. Dywedir fod dylanwad daionus Mr. Williams wedi bod yn foddion, os nad y moddion penaf, i arwain i sefydliad Coleg Dewi Sant, Llanbedr. Yn 1816, cynnygiodd yr esgob brebenduriaeth Llanddewi Aberarth yn mhrif eglwys Tŷ Ddewi, i Mr. Williams. Derbyniodd yr anrhydedd, a gosodwyd ef yn y swydd yn ffurfiol ar y 24ain o Awst, 1816. Yn y blynyddoedd olaf hyn, cafodd amryw o brofedigaethau chwerwon yn marwolaeth aelodau ei deulu; ac mewn canlyniad i anwyd trwm a gafodd yntau, wrth deithio ar noswaith oer o Aberystwyth dros y bryniau i sir Faesyfed, bu yntau farw ar yr 20fed o Ionawr, 1820, yn 66ain mlwydd oed. Meddai Mr. Williams ar lawer o ragoriaethau gwerthfawr, fel ysgolhaig gwych, bardd, llenor coeth, a duwinydd craff.

WILLIAMS, EVAN:—clochydd Llanfihangel-y-Gwynt, yn sir Drefaldwyn, a bardd o gryn athrylith. Cyfansoddodd lawer o Garolau Plygain; ond nid yw yn wybyddus a argraphwyd dim o'i waith. Bu cryn ymryson rhyngddo a Twm o'r Nant, pan yr oedd y gŵr enwog hwnw yn cario coed yn Nolobran, Meifod.

WILLIAMS, EVAN:—cyhoeddwr enwog yn Llundain, a anwyd yn Swydd-y-ffynnon, ger Lledrod, yn sir Aberteifi. Ymunodd ei dad, yr hwn a elwid 'Dafydd William, y gof,' â'r symmudiad crefyddol ynglŷn â'r Parch. Daniel Rowlands, o Langeitho, ac eraill; a chawn ei fod yn gofalu am un o'r cymdeithasau hyny yn Lledrod, yn 1744. Yr oedd wedi ei bennodi gan Rowlands i ymweled â'r Gogledd unwaith yn y chwarter, gyda thri eraill. Cyrhaeddodd tri o'i feibion i gryn enwogrwydd; a sefydlodd dau o honynt, sef, Evan a Thomas, fel gwerthwyr a chyhoeddwyr llyfrau yn y Strand, yn Llundain. Cyhoeddasant amryw lyfrau o bwys i'r Cymry; sef, *Geiriadur Dr. Pughe; y Cambrian Register; Caniadau Llywarch Hen; Cambrian Biography;* y *Cambrian Depicta*, &c.; ac yr oeddynt yn eu dydd yn mhlith cyhoeddwyr enwocaf y brifddinas. Collodd Mr. Evan Williams lawer o arian wrth gyhoeddi llyfrau Cymreig, yn enwedig *Geiriadur Dr. Pughe*. Bu yn cynnal y fasnach hon am ddeugain mlynedd; ac yna, ymneillduodd i fyw ar ei gyfoeth. Bu farw Medi 28ain, 1835, yn 86ain mlwydd oed.

WILLIAMS, GORONW. Bardd oedd yn byw yn yr 16eg ganrif. Y mae peth o'i waith ar gôf a chadw.

Digitized by Google

WILLIAMS, HUMPHREY. Bardd da—yn byw rhwng y bl. 1620 a 1660. Brodor ydoedd o Dywyn, Meirionydd. Y mae peth o'i waith yn argraphedig yn y *Blodeugerdd*.

WILLIAMS, JOHN—yr hwn, hefyd, a elwid 'YR EURYCH.' Yr oedd efe yn fab i John Coetmor, trydydd mab ar hugain i Meredydd ab Ieuan ab Rhobert, o Gastell Gwydr, ger Llanrwst. Ganwyd ef yn yr Hafod Lwyfo, Beddgelert; ac efe a adeiladodd Gapel y Nant, yn y lle hwnw. Aeth i Lundain, a chasglodd lawer o gyfoeth. Yr oedd yn hynafiaethydd o fri; a dywedir iddo fynegu llawer o ffeithiau am Gymru i wahanol awdwyr. Dywedir, hefyd, iddo gynnysgaethu Coleg yr Iesu, yn Rhydychain, â llawer o ysgrifau gwerthfawr. Dychwelodd i Gymru tua diwedd ei oes, a bu farw yn yr hen wlad. Bu iddo dri o feibion—Syr John Williams, barwnig, o Ynys Thanet; Syr Maurice Williams, physygwr i'r frenhines; a Syr Edmund Williams, barwnig, Maine Hall, Dorset.

WILLIAMS, JOHN. Un o'r clerigwyr a dröwyd allan o'r Eglwys Sefydledig. Nid oes wybodaeth ynghylch y plwyf y tröwyd ef allan o hono. Tybiai rhai, mai Ynys Cynhaiarn, ger Porthmadog, oedd. Eraill a dybient mai Llandwrog. Bernir hefyd iddo gael ei fwrw allan yn amser adferiad Siarl II., trwy Ddeddf Unffurfiaoth. Yn ystod ei oes, daeth yn Anghydffurfiwr cadarn, ac yn un a weithiodd yn egnïol dros y 'grefydd newydd,' o dan amgylchiadau hynod o anghysurus. Dywedir ei fod yn gweinidogaethu mewn capel Ymneillduol yn Mhwllheli, yn amser Cromwell; ond o herwydd yr erledigaeth, bu gorfod iddo ffoi i Lundain am ei einioes. Wedi dychwelyd, llafuriodd, nid yn unig yn Mhwllheli, ond mewn amryw o siroedd y Gogledd. Byddai efe, a'r bobl oedd dan ei ofal, yn cyfarfod ganol nos, mewn lleoedd anghyhoedd, rhag ofn yr erlidwyr. Mae sôn iddo briodi etifeddes y Gwynfryn, ger Pwllheli, ac mai yno yr oedd yn byw; ac y bu Gwynfryn yn gartref i weinidogion Pwllheli am amser maith wedi hyny. Wedi llafurio yn galed yn Mhwllheli, ac ardaloedd eraill yn y Gogledd, am amser maith, mewn amseroedd blin a therfysglyd, bu farw yn y flwyddyn 1674, gan adael yr eglwys y perthynai iddi yn nghanol 'tywydd garw.' Nid yw yn hysbys faint oedd ei oed, ac nid oes wybodaeth chwaith pa hyd y bu yn gweinidogaethu. Dywedir ei fod yn ddyn hynod o ran ei ddysgeidiaeth a'i dduwioldeb; ac ymddengys ei fod yn bregethwr rhagorol o ran dawn, nerth, a dylanwad.

WILLIAMS, JOHN, LL.D. Cafodd ei eni yn Llanbedr Pont Stephan, yn sir Aberteifi, ar Mawrth 25ain, 1727. Wedi cael addysg dda yn ysgol y dref, yna cafodd ei anfon i Goleg Caerfyrddin pan yn 19eg oed, gyda'r amcan o'i barotoi ar gyfer y weinidogaeth yn mysg yr Ymneillduwyr. Wedi gorphen ei dymmor yno, dewiswyd ef fel cynnorthwywr clasurol i ŵr o'r enw Mr. Howell, mewn ysgol ddylanwadol yn Birmingham. Yn 1752, galwyd ef i fugeiliaeth eglwys Ymneillduol Stamford, yn swydd Lincoln; ac yn 1755, symmudodd i fod yn weinidog Wokingham, yn swydd Berks. Tra yno gorphenodd ei *Concordance to the Greek New Testament, with an English Version to each work, and short Critical Notes;* yr hwn a gyhoeddwyd yn 1767. Yr un flwyddyn, aeth yn weinidog ar eglwys yn Sydenham; a bu yn llafurio yno am 28ain o flynyddau. Yn 1777, dewiswyd ef yn llyfrgellydd i lyfrgell Dr. Daniel Williams, yn Redcross Street; ac yno, cafodd hamdden i gyfansoddi ei lyfr, *A Free Enquiry into the Authenticity of the 1st and 2nd chapters of St. Matthew's Gospel.* Yn 1795, rhoddodd ei ofal gweinidogaethol i fyny, a threuliodd weddill ei oes mewn neillduedd, yn Islington. Pan bu farw, yn Ebrill 1798, yr oedd yn mron wedi gorphen argraphu llyfr prin o waith Chillomeus, yn dwyn y teitl *Græco-Barbara Novi Testamenti.* Yr oedd yn awdwr amryw weithiau pwysig eraill —un o ba rai oedd *An enquiry into the Truth of the Tradition concerning the discovery of America by Prince Madog, son of Owen Gwynedd, about the year* 1170.'

WILLIAMS, JOHN. Mab oedd efe i David Williams, o Swydd.y-ffynnon, ger Lledrod, yn swydd Aberteifi. Gôf oedd wrth ei gelfyddyd, a phregethwr yn mysg y Methodistiaid Calvinaidd mewn cyssylltiad â symmudiad y Parch. Daniel Rowlands o Langeitho. Dewiswyd ef yn brif athraw ar ysgol Ystrad Meurig fel olynydd i'r hyglod Edward Richards; a phrofodd deugain mlynedd o lafur, a'i ddylanwad ar ei ddysgyblion, na bu y dewisiad yn un annoeth. Daliai ficeriaeth Nantmel, yn sir Faesyfed, a phrebenduriaeth Aberhonddu. Cyhoeddodd *A Dissertation on the Pelagian Heresy*, 1808. Bu farw ddydd Gwener y Groglith, 1818, yn 73ain mlwydd oed.

WILLIAMS, JOHN. Ail fab oedd efe i'r Parch. William Williams, o Bant-y-celyn. Ganwyd ef Mai 23ain, 1754. Ordeiniwyd ef gan yr esgob Warren, yn Abergwili, Medi 8fed, 1780. Yn 1782, cafodd giwradiaethau Llanfair Muallt, a Llanddewi'r Cwm, yn sir Frycheiniog; a bu hefyd am dymmor, yn cadw ysgol yn Llangrallo, yn Morganwg. Symmudodd i Drefecca i gymmeryd gofal Coleg yr Arglwyddes Huntingdon, lle y bu am bum mlynedd; ac efe fu ei lywydd diweddaf. Pan yn Llanfair Muallt, llafuriai mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid, fel y gwnai llawer o glerigwyr yr Eglwys Sefydledig yn y dyddiau hyny; ac yn mhen amser, cyfyngodd ei lafur yn hollol o fewn y cyfundeb hwnw. Bu farw Mehefin 5ed, 1828, yn 74ain ml. oed. Ysgrifenwyd byr hanes o'i fywyd gan y Parch. M. Davies, yn 1830.

WILLIAMS, PARCH. JOHN. Gweinidog enwog gyda'r Wesleyaid oedd efe, a anwyd yn Beaumaris, tua'r fl. 1788. Dygwyd ef i fyny gyda'r Methodistiaid Calvinaidd; ond yn 1806, ymunodd â'r Wesleyaidd; ac yn mhen tair blynedd, ymsefydlodd yn Ngogledd Cymru fel pregethwr teithiol. Bu o fawr wasanaeth i'w enwad yn Nghymru; o blegid yr oedd yn ddyn o alluoedd anghyffredin. Wedi bod o hono am chwarter canrif yn y weinidogaeth, bu farw yn Nghaerfyrddin Ionawr 15fed, 1834, yn 46ain mlwydd oed. Yn mysg eu weithiau cyhoeddedig, ceir *Bucheddiaeth y Parch. Samuel Bradburn*, a'r *Llusern Ysgrythyrol.* Dechreuodd gyfieithu i'r Gymraeg, gyda'r Parch. Hugh Hughes, *Esboniad y Parch. John Wesley;* ac yr oeddynt yn gydawduron llyfr o'r enw *Goleuad Dwyreiniol.* Ysgrifenodd lawer i'r *Eurgrawn Wesleyaidd;* a bu yn ei olygu o 1826 hyd 1829.

Digitized by Google

**WILLIAMS, Y PARCH. ISAAC, B. D.**: un o brif gefnogwyr y symmudiad Tractaraidd yn Rhydychain, ac awdwr llawer o lyfrau yn yr iaith Seisnig, ydoedd trydydd mab Isaac Lloyd Williams, Ysw., o Gwm-cynfelyn, ger Aberystwyth, yn Ngheredigion—lle y ganwyd ef, Rhag. 12fed, 1802. Derbyniodd ei addysg yn ysgol enwog Harrow, lle yr ennillodd amryw wobrwyon. Oddi yno aeth i Goleg y Drindod, Rhydychain, ar ei waith yn ennill ysgoloriaeth yno. Yn mhen amser, etholwyd ef yn gymmrawd ac yn athraw yn y coleg hwnw. Yn 1823, ennillodd wobr y brifysgol am y bryddestawd oreu yn Lladin. Gan fod ei iechyd mor wanaidd, analluogwyd ef i fyned i mewn am anrhydedd; ac felly, ymfoddlonodd ar y radd o B.D., yr hwn a gymmerodd yn 1826. Adnabyddir Mr. Williams fel un o ysgrifenwyr y "*Tracts for the Times*," a chymmerodd ran flaenllaw yn y symmudiad eglwysig oedd y pryd hyny ar droed yn Rhydychain. Yn un o bump, ysgrifenodd y "*Lyra Apostolica;*" ac wedi hyny, cyfansoddodd lawer o farddoniaeth, yn mha un y dangosodd y teimladau mwyaf cynnhes at wlad ei enedigaeth, a chyfeillion a chyrchfanau boreu ei oes. Ond fel ysgrifenydd rhyddieithol, yn ddiammheu, y safai efe uchaf; a dynodir ei holl ysgrifeniadau gan deimlad gwir grefyddol. Saif ei "*Harmonies of the Gospel*" yn hir fel safon i efrydwyr y Beibl, ac fel caffaeliad gwerthfawr i lyfrgell y duwinydd. Mewn gwleidyddiaeth, yr oedd yn Geidwadwr trwyadl; ac arddangosir ei gydymdeimlad â Siarl I. mewn dull tyner a nodedig yn y gân a gyhoeddodd dan y teitl "*The Cathedral.*" Yr oedd ei iechyd yn ystod yr ugain mlynedd olaf o'i fywyd yn achos o bryder gwastadol i'w gyfeillion lliosog, yn mysg pa rai y gellir enwi Keble, Froude, Pusey, Newman, &c. Ac er na chymdeithasai efe â'r olaf ar ol ei enciliad i'r Eglwys Babaidd, etto coleddent y teimladau mwyaf caredig tuag at eu gilydd; a pharodd ymweliad Dr. Newman âg ef, ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, foddhâd o'r mwyaf iddo. Bu farw Mr. Williams yn Stinchcombe, yn swydd Gaerloyw, Mai 1af, 1865—a chladdwyd ef yn mynwent y pentref tawel hwnw. Mewn erthygl a ymddangosodd arno yn y *Guardian*, ceir y sylwadau canlynol:—

"Y mae un enw etto a fawr edmygid ac a gerid wedi myned oddi wrthym, ond un ydoedd efe oedd wedi treulio bywyd mor neillduedig, fel y bu i'r rhan fwyaf megys ysgrifenydd yr amser a aeth heibio, tra ar yr un pryd yn fyw yn eu plith. Er fod ei enw yn gyssylltiedig unwaith â'r hyn a wnai eraill yn destyn dadleuaeth, etto yr oedd efe ei hun yn byw mewn awyrgylch yn mhell uwch law nwydau neu deimladau plaid. Pa un ai fel bardd, neu dduwinydd, prif nôd ei holl ysgrifeniadau oedd rhoddi y sylw a'r parch mwyaf defosiynol i bethau Duw. Yr oedd ei fodolaeth yn ein plith yn debyg i dystiolaeth clochdy y llan, yn cyfeirio at Dduw mewn tawelwch uwch law twrf a gwagedd dinas drystiog a ffwdanus. Yr oedd ymweled âg ef yn debyg i ddiangfa un o ganol berw heol lawn o drigolion â'u holl fryd ar fasnach mewn pethau daearol, i rodfeydd goruwch-ddaearol tawel ei eglwys gadeiriol ef ei hun. Y mae ei ymadawiad ef yn golled, nid i un blaid dduwinyddol, ond i'r da a'r difrifol yn mysg pob dosbarth o Gristionogion. A bydd i eglwys y wlad hon gyfrif yn wastad yn mysg y cadarnaf, y mwyaf anwyl, a'r mwyaf meddylgar, o'i hysgrifenwyr defosiynol, enw Isaac Williams."

Wele yn canlyn restr o'i weithiau:—1. Rhyddiaeth:—"*The Harmony of the Four Evangelists;*" "*The Holy Gospels;*" "*The Nativity;*" "*The Ministry,*" dwy gyfrol; "*The Passion;*" "*The Holy Week;*" "*The Resurrection;*" "*The Apocalypse;*" "*The beginning of the Book of Genesis;*" "*The way of Eternal Life (translated and adapted to the use of the English Church);*" "*A Short Memoir of the Life of the Rev. R. Sacking;*" "*The Psalms interpreted of Christ,*" y gyfrol gyntaf (bu farw cyn gorphen y gwaith)." 2. Yn mysg ei bregethau ni a gawn, "*Sermons on the Epistles and Gospels,*" tair cyfrol, 1853; "*On the Characters of the Old Testament,* 1858;" "*Female Characters of Holy Scripture,*" 1859; "*On the Catechism,*" 1861; "*Plain Sermons,*" deg cyfrol, 1848—fel golygydd y cyhoeddodd y rhai diweddaf. 3. Ei weithiau barddonol oeddynt, "*The Cathedral,*" 1838; "*Thoughts in past years,*" 1838; "*Hymns from the Breviary,*" 1839; "*The Baptistery,*" 1842; "*Ancient Hymns,*" 1842; "*Hymns on the Catechism,*" 1843; "*Sacred Verses with Pictures,*" 1846; "*The Altar,*" 1847; "*The Christian Scholar,*" 1849; "*The Creation,*" 1850; "*The Christian Seasons,*" 1854; "*Ancient Hymns for Children*" (cyf.).

**WERMOD**:—o *werm* neu *worm*—llyngyryn. Amryw lysiau meddyginiaethol i lyngyr.

**VESALIUS, ANDREW**: difynydd (*anatomist*) enwog:—brodor o Brussels, lle y ganwyd ef yn 1514. Bu farw yn 1564, yn 50ain ml. oed.

Yr oedd Vesalius yn un o'r gwyddonwyr hyny a wnaeth fwyaf i ryddhau meddyliau ei gydoeswyr oddi wrth y grediniaeth hygoelus a roddid ganddynt yn yr hynafiaid. Yr oedd Galen y pryd hwnw i ddifyniaeth yr hyn yr ystyrid Aristotle i resymeg; ac ymosododd Vesalius ar ei awdurdod ef drwy ei ymchwiliadau ei hun i natur.

**VILLENEUVE, PIERRE-CHARLES**: prif lyngesydd Ffrengig, a disgynydd o deulu hynafol a phendefigaidd—llawer o ba rai oedd wedi enwogi eu hunain yn ngwasanaeth eu gwlad. Ganwyd ef yn Valensoles, yn y Basses-Alpes, Rhag. 31ain, 1763. Cyfarfu â Nelson yn Trafalgar. [GW. NELSON.] Bu farw Ebrill 22ain, 1806.

**VONDEL, JOOST VAN DEN**: yr enwocaf o'r beirdd Isellmynaidd. Ganwyd ef yn Cologne, Tachwedd 17eg, 1587; lle yr oedd ei rïeni, y rhai oeddynt Ail-Fedyddwyr, wedi gorfod ffoi o Antwerp er gochelyd erledigaeth. Yr oedd ei daid o du ei fam, Peter Kranen, yn un o feirdd Brabant. Y mae ei dreisganau a'i ysgrifeniadau duchanol yn cael eu hystyried y goreu mewn llenyddiaeth Isellmynaidd. Un o'r pethau goreu a ysgrifenodd oedd *Lucifer*, yr hwn sydd yn hynod debyg i *Goll Gwynfa* Milton. Bu farw Chwefror 5ed, 1679, yn 91ain mlwydd oed.

**VOSSIUS, GERARD**: un o'r dysgedigion enwocaf oedd yn fyw yn y rhan gyntaf o'r eilfed ganrif ar bymtheg. Ganwyd ef o rïeni Isellmynaidd, yn agos i Heidelberg, lle yr oedd ei dad yn weinidog Protestanaidd, yn y fl. 1577. Enw ei dad oedd John Voss; ond yn ol defod yr amseroedd, rhoddodd derfyniad Lladinaidd i'w enw. Yn y fl. 1614, pennodwyd ef yn brifathraw yn ngholeg duwinyddol Leyden. Y pwysicaf o'i weithiau ydynt *Aristarchus sive de Arte Grammatica, De Historicis Græcis, Commentariorum*, a *De Veterum Poetarum Temporibus*. Bu farw Ebrill 5ed, 1649, yn 72ain oed.

Digitized by Google

WILLIAMS, RICHARD: pregethwr cymmeradwy gyda'r Methodistiaid yn Liverpool, ac awdwr "*Y Pregethwr a'r Gwrandäwr.*" Ganwyd ef mewn lle a elwir Gwinllan, yn mhlwyf Llanbrynmair, Ionawr 31ain, 1803. Enw ei dad oedd Richard Williams, ac yr oedd yn "gynghorwr" gyda'r Methodistiaid; ac yr oedd ei fam yn chwaer i'r diweddar Barch. John Roberts, o Lanbrynmair, ac yn aelod o'i gynnulleidfa. Efe oedd yr ail o'r plant. Symmudodd ei rieni o'r Winllan i le a elwid y Wig, pan oedd Richard tua chwech oed; ac yr oedd y pryd hyn yn rhy bell i gyrhaedd adref y nos o'r ysgol a gedwid yn yr hen gapel gan ei hybarch ewythr. O ganlyniad, llettyai gyda hen wraig dduwiol o'r enw Catherine Harris, yr hon oedd yn aelod gyda'r Annibynwyr; ac felly, arferai Richard ieuangc wrandaw ar weinidogion yr Annibynwyr yn pregethu, a mynychai gyfarfodydd eglwysig yr Annibynwyr ar ddyddiau yr wythnos; ond ar y Sabbothau, gwrandawai ar y Trefnyddion Calvinaidd, ac i'w Hysgol Sabbothol hwy yr arferai fyned. Yr oedd wedi dysgu darllen pan yn ieuangc, a chafodd lawer o flâs yn darllen y llyfrau a ddeuent yn ei ffordd, megys "*Y Bardd Cwsg*," "*Taith y Pererin*," "*Rhyfel Ysbrydol*," "*Llyfr y Ficer*," &c. Arferai gynnilo yr ychydig geiniogau a gaffai yn awr ac eilwaith, a defnyddiai hwynt i brynu llyfrau. Dechreuodd deimlo hoffder neillduol mewn cymmanfaoedd a chyfarfodydd pregethu y pryd hwn, ac ymhyfrydai mewn cyrchu iddynt. Pan o un tu pymtheg oed, derbyniwyd ef, a dau neu dri o ddynion ieuaingc eraill, yn gyflawn aelodau gyda'r Methodistiaid yn Llanbrynmair. Yr oedd yn selog ac yn ffyddlawn yn moddion gras y pryd hwn, ac yn enwedig felly yn yr Ysgol Sabbothol; ond yn mhen tua blwyddyn, rhoddwyd ef yn yr ysgol ddyddiol am dri mis yn y Trallwm; ac yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, tymmor nychlyd ar ei grefydd oedd yr adeg hon; ond ar ol dychwelyd yn ol, teimlodd gryn adnewyddiad o'r gwrthgiliad hwn. Tua'r flwyddyn 1820, bu diwygiad grymus ar grefydd yn Llanbrynmair, a theimlai Richard Williams gryn lawer oddi wrth ei ddylanwad; a dyma y pryd y meddyliodd efe yn ddifrifol am ddechreu pregethu. Darllenodd fwy ar y Beibl, a llyfrau da eraill, ac ymroddodd i gasglu gwybodaeth ysgrythyrol a duwinyddol. Nid oedd efe yr adeg yma yn deall digon o Saesneg i wneyd fawr o ddefnydd o lyfrau yn yr iaith hono.

Pan oedd tuag ugain oed, galwyd ef gan yr eglwys yn Llanbrynmair i fod yn flaenor ynddi; ac yn fuan wedi hyny, canfyddai ei frodyr gartref, ac mewn manau eraill yn y sir, ei fod yn feddiannol ar gymmhwysderau at y gwaith o bregethu. Annogwyd ef i ddechreu pregethu, a chydsyniodd yntau. Wedi ymaflyd yn y gwaith, teimlai lawer o'i anghymmhwysder i'w gyflawni; ac yn nechreu y flwyddyn 1826, efe a deimlodd awydd cryf am gael mwy o fanteision addysg. Ac yn ol annogaeth ei frodyr, aeth i Birmingham, lle y cafodd wersi gan y Parch. John Jones mewn grammadeg Saesneg, a phregethai ar y Sabbothau i'r ychydig Gymry oedd yn y dref hono. Arosodd yno am bedwar mis; yna efe a symmudodd i Wrecsam, a chafodd addysg chwanegol dan ofal y Parch. J. Hughes. Meddyliai yn gryf am fyned i Goleg Cheshunt yn 1828; ond ar annogaeth Cymdeithasfa Llanidloes, efe a aeth i Liverpool yn lle i Cheshunt. Treuliodd flwyddyn a hanner yn yr ysgol yno, a phregethai yn fynych yn Liverpool yn ystod yr amser hwnw. Dechreuodd gadw ysgol ei hun yn y dref hono ddechreu y flwyddyn 1830. Yn ystod haf yr un flwyddyn, priododd Mary, merch y diweddar Barch. Thomas Hughes, o'r un dref, yr hon a fu yn ymgeledd gymmhwys iddo ar hyd ei oes. Llafuriodd yn galed yn y tymmor hwn, fel y gellir casglu oddi wrth lythyrau a ysgrifenodd efe ar yr adeg, ac yn enwedig oddi wrth y darnau a ysgrifenodd yn ei ddyddlyfr. Neillduwyd ef, ynghyd âg eraill, i waith cyflawn y weinidogaeth, yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 17eg, 1835. Bu am daith yn y Deheudir am ddau fis o amser yn haf 1836, yn yr hon yr oedd y rhan amlaf yn pregethu deirgwaith y dydd; ac ar y daith hon, cafodd y pleser o gyfarfod â chyfeillion y mwynhaodd eu cwmni yn fawr. Yr oedd Mr. Williams yn hynod weithgar ac effro gyda phob achos daionus. Cefnogai yn egnïol y Feibl Gymdeithas, ac ymdaflodd yn llwyr iawn i bleidio y symmudiad dirwestol ar doriad allan yr achos hwnw.

Yn 1838, dechreuodd ysgrifenu cyfres o draethodau, ar ddull ymddiddan rhwng pregethwr a gwrandäwr. Yn nghwrs ei ymdriniaeth â gwahanol bethau a ddeuent dan ei sylw, achlysurwyd dadl rhyngddo ef a'i gefnder, y Parch. J. Roberts, o Lanbrynmair y pryd hwnw, ond yn awr o Gonwy; ac ysgrifenodd yntau mewn canlyniad lythyrau bywiog a rhagorol. Daeth galw yn fuan am ymddangosiad y llythyrau hyn yn llyfr wrthynt eu hunain, a chydsyniodd Mr. Williams i'w cyhoeddi dan yr enw "*Y Pregethwr a'r Gwrandäwr; sef, Calviniaeth a Ffiolediaeth—yn cael eu hystyried*," &c.:—ac y mae y gwaith hwn wedi myned trwy amryw argraphiadau. Yr oedd arwyddion dadfeiliad yn ei iechyd yn dyfod i'r golwg y blynyddoedd hyn. Yn y flwyddyn 1839, cafodd amryw bangfeydd o gystuddiau, yr hyn a wanychai yn fawr gyfansoddiad nad oedd ar un adeg wedi bod yn gryf iawn. Yn y flwyddyn 1840 y ffurfiwyd y Gymdeithas Genhadol Gymreig yn Liverpool, ac yr oedd efe yn un o'i chefnogwyr penaf o'r dechreu, ac yn un a wnaeth ei oreu drosti. Gwaelu yr oedd ei iechyd yn fawr yn 1841, fel erbyn ei diwedd yr oedd yn amlwg ei fod yn nesau i derfyn ei yrfa. Aeth i Wrecsam, gan ddisgwyl am ychydig o adnewyddiad nerth, a chafodd groesaw tyner yn nhŷ ei gyfaill, y Parch. Ellis Phillips; ac yn raddol, symmudodd yn mlaen tua'i hen ardal enedigol, gyda'r un amcan mewn golwg. Cafodd lythyr o gydymdeimlad âg ef yn ei gystudd trwm o Gymdeithasfa y Bala yn Mehefin, 1842, yr hyn a barodd sirioldeb nid bychan i'w feddwl. Gan y gwelid fod amser ei ymddattodiad yn nesau, ymdrechwyd dyfod âg ef adref. Mwynhaodd lawer o gysuron crefydd yn ei wythnosau diweddaf. Bu farw yn dawel ddydd Mawrth, Awst 30ain, 1842, cyn bod yn llawn deugain mlwydd oed. Daeth tyrfa liosog a pharchus i'w angladd y dydd Gwener canlynol, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur yn nghapel heol Mulberry, ac wrth y bedd yn Necropolis y Low Hill, gan y Parchn. Evan Williams, o swydd Gaernarfon, a John Hughes a Henry Rees, o Liverpool.

Digitized by Google

WILLIAMS, JOHN, Dolyddelen:—pregethwr gyda'r Trefnyddion Calvinaidd, a anwyd yn 1757, mewn lle a elwir y Fedw Deg, yn mhlwyf Penmachno. Pan yn gweithio gyda'i daid, un diwrnod, gofynodd iddo, 'Beth yw y bobl sydd yn dangos y ffordd newydd i gadw enaid, y rhai sydd yn dysgu i ddyn y ffordd i'r nefoedd?' Dywedodd fod arno chwant ryfedd i'w gwrandaw, er mwyn deall eu hathrawiaeth. Atteb ei daid oedd, 'Yr wyt yn gwirioni yn siwr, ac yn ynfydu. Dyna y bobl waethaf yn y byd yma. Nid oes neb gwaeth ar y ddaear na nhw.' Ond o dipyn i beth, cafodd y llangc ieuangc ei ddwyn dan argyhoeddiad 'y ffordd newydd i gadw enaid' dan ddylanwad pregethau Mr. Foulkes, o'r Bala, a John Jones, Hafod Ifan; a throdd allan yn grefyddwr disglaer. Bu yn flaenor ar y gangen eglwys yn Nolyddelen cyn ei alw i waith y weinidogaeth. Arferai fyned i bob cymdeithasfa yn y Gogledd am rai blynyddoedd; a pharhaodd i fyned i Gymdeithasfa y Bala am ddeuddeng mlynedd ar-hugain. Byddai yn arferol hefyd o fod yn mhob cyfarfod misol yn ei sir ei hun, i ymofyn cyhoeddiadau pregethwyr. Bu farw Mawrth 27ain, 1839, yn 82ain mlwydd oed, wedi bod o hono yn weinidog parchus a defnyddiol am o ddeutu hanner canrif.

WILLIAMS, JOHN, B.A. Ganwyd ef yn Abergwaen; a daeth i gael ei adnabod fel 'clerigwr Begelly.' Neillduwyd ef yn ddiacon yn y fl. 1785, a bu yn gwasanaethu fel is-beriglor i'r diweddar Dr. John Phillips, yn mhlwyfydd Williamston, Burton, a Rhosmarket. Yn 1793, pennodwyd ef i beriglorïaeth Begelly; a phan ddechreuodd ar ei waith yno, cafodd ei blwyfolion mewn sefyllfa hynod o dywyll, anfoesol, ac annuwiol. Trwy ei egni a'i esampl dda, bu yn foddion i droi llawer o honynt o gyfeiliorni eu ffyrdd, a'u dyrchafu i sefyllfa uchel o ran crefydd a moes. Arferai ddysgu y bobl o dŷ i dŷ, gan ddarllen ac esbonio yr Ysgrythyrau Sanctaidd iddynt. Yr oedd yn ŵr o ysbryd rhyddfrydig iawn, a'i egwyddorion fel Eglwyswr yn gymmedrol; a phan yr oedd Mr. Morris, o Henllan, a Mr. Jones, Trelech—dau weinidog Annibynol—ar eu hymweliadau pregethwrol, rhoddodd Mr. Williams groesaw cynnes iddynt. Bu farw Ebrill 3ydd, 1802, yn 40ain ml. oed; ac yn mhen tair blynedd, argraphwyd rhai o'i bregethau yn Nghaerodor.

WILLIAMS, JOHN. Brodor ydoedd efe o Garneddi, Llanllechid, yn sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn 1794. Trwy anfanteision mawr, daeth yn bregethwr cymmeradwy gyda'r Methodistiaid Calvinaidd; a chyrhaeddodd y fath hyddysgrwydd ieithyddol fel y gelwid ef 'John Williams, y Grammadegwr.' Yr oedd yn fardd lled dda hefyd, a chyfansoddodd lawer—gan mwyaf yn y mesurau caethion. Bu farw Tachwedd 21ain, 1848, yn 54ain oed. Gadawodd ar ei ol ysgrifau gwerthfawr, megys *Traethawd ar Ragoroldeb y Gymraeg; Traethawd ar Wahannodiad*, &c.

WILLIAMS, JOHN, o'r Garn: neu 'John Williams, Llecheidior.' Pregethwr gyda'r Methodistiaid Calvinaidd oedd efe; a ganwyd ef yn 1795. Dywedir ei fod yn meddu y fath neillduolrwydd fel pregethwr, fel dyn, ac fel Cristion, fel y byddai sôn trwy'r wlad am ei weddïau taerion, ac am ei weinidogaeth danllyd, ac effro. Ganwyd a magwyd ef yn Llecheiddior, yn sir Gaernarfon. Pan yn fachgen ieuangc, arferai watwor plant y diwygiad; ond nid hir y bu efe heb ddyfod dan ddylanwad nerth anorchfygol yr efengyl; ac yn mhen chwe blynedd wedi dyfod at grefydd, dechreuodd bregethu. Daeth yn boblogaidd iawn, a pharhaodd ei weinidogaeth, o'r dechreu hyd ei farwolaeth, yn un fywiog, danllyd, gyfeiriadol, a grymus. Symmudodd trwy briodas i Lanfachraeth, yn sir Feirionydd; a bu yn llafurio am ysbaid naw mlynedd yn y sir hono. Yna, dychwelodd i'w hen sir. Bu yn offeryn i ddwyn cannoedd at grefydd yn mhob rhan o Gymru, ac yn amryw o drefi Lloegr, lle y preswyliai y Cymry. Yn Meddgelert, Sul y Pasc, 1856, y pregethodd efe am y waith olaf; a bu farw ar y 9fed o'r mis Awst dilynol, wedi bod yn y weinidogaeth am 33ain mlynedd.

WILLIAMS, JOHN. Aelod seneddol dros Macclesfield. Mab oedd efe i rïeni tlodion yn nhref Rhuthyn. Ganwyd ef mewn lle o'r enw Cross Keys, yn Llanfair Dyffryn Clwyd; ac o herwydd marwolaeth ei dad, bu gorfod arno droi allan yn ieuangc i ennill ei fywoliaeth. Bu am ysbaid yn negesydd mewn masnachdŷ yn Rhuthyn; ond pan yn 14eg oed, aeth i Lundain, a chafodd le fel negesydd yn un o fasnachdai brethynau mawrion y dref hono. Cysgodd lawer noson, meddir, dan faelfwrdd (*counter*) y masnachdy; ond trwy ei benderfyniad a'i yni, a'i onestrwydd, dyrchafodd o radd i radd nes bod o'r diwedd yn benaeth ar y sefydliad hwnw. Wedi hyny, ymunodd mewn cydfasnachaeth yn Regent Street, o dan yr enw Williams a Hatton; ac erbyn 1848, yr oedd wedi ennill digon i fyw yn bendefigaidd, heb ei fasnach. Daeth i fyw i Fron-yr-wylfa, ger Llanelwy—hen balas y farddones Saesnig enwog, Mrs. Hemans; ac ymroddodd i wneyd a allai er hyrwyddiant 'Cymru, Cymro, a Chymraeg.' Daeth gyntaf i enwogrwydd fel pleidiwr cynnes yr ymdrech mawr i ddileu deddfau yr ŷd. Etholwyd ef yn aelod seneddol dros Macclesfield; ac fel Rhyddfrydwr twymngalon, cefnogodd bob mesur oedd â thuedd ynddo i lesoli y werin. Yn 1848, eiliodd gynnygiad Mr. Berkeley ar y Tugel. Yn 1851, gwasanaethodd fel uchel-sirydd sir Gaernarfon. Collodd ei sedd dros Macclesfield yn 1852. Bu yn is-raglaw sir Ddinbych, ac yn ynad heddwch dros y sir hon, a swydd Callestr. Bu farw Tachwedd 29ain, 1855, yn 53ain mlwydd oed.

WILLIAMS, JOHN (*Ioan ab Gwilym*). Gŵr ieuangc o fardd gobeithiol, ond a dorwyd i lawr yn mlodau ei ddyddiau. Mab oedd efe i William Owen, o Bant-y-llin, ger Llanrwst—lle y ganwyd ef Ionawr 11eg, 1804. Pan tua deunaw oed, aeth i ysgol yn Liverpool; a dywedai ei athraw am dano, 'Ni welais erioed ei fath am ddysgu pob peth yr ymosoda efe arno.' Cyfieithodd *Weledigaethau Nef ac Uffern*, o waith Bunyan, i'r Gymraeg; ac ennillodd y gwaith ganmoliaeth uchel ar gyfrif ei ystwythder, ei gywirdeb, a phurdeb ei gystrawen. Wedi hyny, Cymreigiodd hanes Smith, cenadwr yn Demerara, ynghyd â hanes y chwil-lys yn Yspaen. Bu farw Mawrth 14eg, 1825.

WILLIAMS, JOHN. Un o weinidogion

mwyaf dysgedig y Bedyddwyr o fewn Gogledd Cymru oedd efe. Ganwyd ef yn y Creuddyn, yn 1803. Ceisiodd ei dad wneyd gôf o hono; ond yr oedd tuedd mor gref ynddo at lyfrau, fel mai methiant fu yr ymgais. Cyn ei fod yn ugain oed, yr oedd ganddo wybodaeth led helaeth o'r Saesneg, y Lladin, y Roeg, a'r Hebraeg; ac yn y fl. 1827, cyhoeddwyd *Grammadeg Dwyieithawg* o'i waith. Dygodd y llyfr hwn ef i sylw clerigwyr y wlad, a cheisiwyd ganddo fyned i'r Eglwys; ond gwrthododd, fel llawer eraill. Wedi ymuno â'r Bedyddwyr, bu yn cadw ysgol yn Eglwysbach, yn haf 1833. Yna, aeth i Lansilin, a bu yno dair blynedd; a chan mai bychan oedd ei gyflog, cadwai ysgol yno hefyd. Yn 1834, urddeiniwyd ef; a chodwyd ei gyflog, a rhoddodd yntau yr ysgol i fyny. Yn niwedd 1836, ymsefydlodd yn Rhosllanerchrugog, ac arosodd yno am ysbaid pedair blynedd. Cyfieithodd *Draethawd ar Faddeuant Pechodau*, o waith Alexander Campbell, i'r Gymraeg; a thua 1838, dechreuodd gyfieithu yr *Oraclau Bywiol*—yr hwn a gostiodd bedair blynedd o lafur iddo. Rywbryd yn 1841, symmudodd i'r Drefnewydd, i weinidogaethu i'r Saeson; a bu yno ddeuddeng mlynedd. Yna, aeth yn ol i'r Rhos, gyda'r amcan yn benaf o geisio adferiad i'w iechyd; ond bu y symmudiad yn aflwyddiannus. Parhaodd i waethygu; ac yn niwedd y fl. 1856, bu farw yn 50ain ml. oed. Yr oedd yn ŵr o ddeall cryf, a barn gywir, yn fyfyriwr dwfn a di-orphwys, yn gyfarwydd iawn yn yr ieithoedd dysgedig, ac yn sefyll yn uchel iawn fel pregethwr. Ysgrifenodd lawer i'r misolion Cymreig, ac i'r *Gwyddoniadur*.

WILLIAMS, JOHN PRYDDERCH (*Rhydderch o Fôn*). Yr oedd efe yn fardd, ac yn llenor o gryn fri; a bu yn ysgrifenydd cyffredinol i'r Eisteddfod Genedlaethol, o 1864 hyd ei farwolaeth, yn 1868. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanddeusant, yn Môn, Tachwedd 4ydd, 1830. Wedi bod yn egwyddorwas gyda dilledydd yn Llangefni, daeth i'r Rhyl fel ysgrifenydd i'r llythyrdy. Yno, cynnhyrfwyd ef gan ysbryd barddoni; ac yn Eisteddfod Rhuddlan, yn 1850, rhanwyd y wobr am y gân oreu i'r 'Llong Ymfudol' rhyngddo ef a Gwynedd-fardd. Wedi hyn, cawn ef yn ysgrifenydd yn swyddfa y *Traethodydd*, Treffynnon; ac yn ysgrifenu cryn lawer i'r cyhoeddiad hwnw, ac hefyd i'r *Adolygydd*, y *Beirniad*, a chyfnodolion eraill tebyg, O Dreffynnon, symmudodd i Rhyl, i gadw maelfa lyfrau; a daeth yn ŵr o gryn bwysigrwydd yn y dref. Dewiswyd ef yn ysgrifenydd trefol, a daliodd y swydd hyd ei farwolaeth. Yr oedd hefyd yn dal cyssylltiad â bron bob symmudiad daionus yn y dref. Bu farw, Medi 3ydd, 1868, yn 38ain oed, yn Nhrefriw; i ba le y symmudodd efe er mwyn ei iechyd. Yn fuan wedi ei farwolaeth, cyhoeddwyd llyfr bychan o'i waith, dan yr enw *Cydymaith yr Adroddwr*.

WILLIAMS, JONATHAN. Mab oedd efe i David Williams, brethynwr, Rhaiadr, yn sir Faesyfed. Ysgrifenodd *The History of Leominster*, a *History of Radnorshire*.

WILLIAMS, MARY (*Mair Gwilym*). Yr oedd hi yn ferch i Robert Jones, masnachydd coed yn Llanelwy. Cyfieithiodd lyfr gwerthfawr o eiddo y Parch. Jonathan Edmondson, i'r Gymraeg, dan y teitl *Tŷ Tad yr Iesu*. Ysgrifenodd hefyd i'r newyddiaduron Cymreig a Saesnig. Priododd Cadben Watkin Williams, morwr, a gwin-fasnachydd yn yr Abermaw. Bu farw yn Birkenhead, Medi 20fed, 1864, yn 60ain mlwydd oed.

WILLIAMS, NATHANIEL. Brodor oedd efe o Abertawe. Graddiodd yn B.A. yn Rhydychain, a chyhoeddwyd dau waith lled ddysgedig o'i eiddo—*A Pindaric Elegy on the famous Physician, Dr. Wells*, 1675; *Imago Saeculi, or the Image of the Age*, 1676. Bu farw yn Morganwg, o ddeutu'r flwyddyn 1679.

WILLIAMS, OWEN:—yr hwn hefyd a adnabyddid wrth yr enw 'Owen Williams, Tŷ Hir,' ac 'Owen Williams, o Fôn.' Ganwyd ef yn y Cwrt, yn mhlwyf Llandyfrog. Ymdrafferthodd gymmaint gyda cherddoriaeth fel yr esgeulusodd ei alwedigaeth fydol; a dioddefodd lawer drwy hyny. Cartrefodd yn Llundain dros ran olaf ei oes, a bu yn dal ryw swydd yn Ariandy Lloegr. Flynyddoedd lawer yn ol, telid mawr sylw yn Môn i'r hyn a elwid '*Gamut* Owen Williams;' yr hwn oedd yn gyfieithiad o draethawd yr enwog Charles Dibdin, ac hefyd o 'Reolau Cerddoriaeth Eglwysig.' At y rhai hyn, casglodd a chyhoeddodd ddau lyfr lled bwysig ar gerddoriaeth, un o ba rai oedd *Brenhinol Ganiadau Seion*:—llyfr adnabyddus i gerddorion Cymreig. Tybir i'r gwaith hwn ymddangos yn 1818. Gwnaeth Owen Williams ymdrech egnïol i greu awydd yn ei gyd-genedl at gerddoriaeth grefyddol.

WILLIAMS, OWEN, Waenfawr. Bardd, a llenor, oedd yn adnabyddus trwy Gymru, ac yn enwedig yn sir Gaernarfon, yn ei ddydd; ac y mae ei goffadwriaeth yn fyw etto yn meddyliau llawer o lenorion y sir hono. O ran ymddangosiad corphorol, dyn bychan penwyn, glanwedd, a siongc oedd efe, yn meddu ar lygaid bychain, dyfnion, ac yn tremio gyda bywiogrwydd ar bob gwrthddrych yr edrychai arno. Pan yn cerdded, siaradai yn hyglyw âg ef ei hun; ac ar ryw bwngc hanesyddol, neu hynafiaethol, y byddai efe yn mron yn wastad yn mwmian fel hyn. Dywed un awdwr, iddo fod yn gwrandaw arno, un tro, am ugain munyd yn ymgomio âg ef ei hun ynghylch y modd y daeth arfwisg Owen Glyndwr i gael ei chadw yn Nghastell Rhuthyn. Pyngciau o'r natur hyn fyddai beunydd ar ei feddwl; ac arnynt yr ymhyfrydai efe siarad ac ysgrifenu. Er mai wrth yr enw 'Owen Williams, o'r Waenfawr' yr adnabyddid ef, ac yr adnabyddir ef etto, treuliodd ran helaeth o'i oes yn nhref Caernarfon. Yno y prentisiwyd ef yn gylchydd (*cooper*); ac yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd, treuliodd lawn cymmaint o'i amser yn Nghaernarfon ag yn ei ardal enedigol.

Olrheiniai Owen Williams ei darddiad, o du ei fam, yn ol hyd i Gadrod Hardd, arglwydd Tal-y-bolion, yn Môn. Enw ei dad oedd William Prisiart, yr hwn a ddisgynai o hen deulu parchus Brynfedwen, Llanrug. Ganwyd Owen Williams mewn bwthyn o'r enw Bryn-y-beddau, yn ardal y Waenfawr, yn 1789; ac fel hogiau yr oes hono, ychydig o fanteision addysg a gaiodd efe. Bu raid iddo droi allan yn gynnar i chwilio am foddion cynnaliaeth; ac wedi bod o hono yn y chwarel am bedair blynedd, aeth i Gaernarfon i ddysgu gwaith cylchydd. Wedi

Digitized by Google

gorphen ei brentisiaeth, dychwelodd i'r Waenfawr, i ddechreu masnach ar ei ran ei hun. Priododd â Margaret, merch fferm o'r enw Pen-y-bryn, yn mhlwyf Llanwyndaf; a ganwyd iddynt lonaid tŷ o blant. Heb law ei fedrusrwydd fel cylchydd, dywedir nad oedd ei ragorach am wneyd y 'dröell dradl' i nyddu llîn a chywarch, neu 'y dröell law,' i nyddu gwlân. Yr oedd efe, hefyd, yn un da odiaeth am wneyd trwmbeli troliau, ogeuon, a llidiardau. Adroddir hanes am dano gan Mr. David Thomas, o Gaernarfon, un o'i hen gyfeillion, sydd yn werth ei osod ar gôf a chadw. Byddai ei weithdy yn y Waenfawr yn gyrchfa llawer o'r ardalwyr gwledig yn yr hwyrnos. Un tro, yr oedd Owen Williams yn naddu gwadnau clogsiau; a'r ymddiddan ar y pryd oedd ynghylch gwaeledd masnach y wlad. Teflid yr holl fai ganddynt ar y senedd; ond nid oedd Owen Williams yn cydweled â hwy yn hollol; ac ebai:—

'Nid ydych chwi ddim yn iawn ddeall beth ydyw yr achos na chaem ni chwarou teg yn y senedd. Yn y ffos yr yden ni; ac nid oes genym ni neb i'n codi o'r ffos. Y mae gan y Saeson a'r Ysgotiaid ddigonedd o ddynion galluog: ac y mae gan y Gwyddelod eu Daniel O'Connell; ond nid oes genym ni neb. Beth yw teulu y Plas Newydd yna, ond rhyw hanner Gwyddelod? a Saeson yw teulu y Faenol yna [Mr. Smith y Faenol, oedd yr A.S. dros sir Gaernarfon, â Syr Charles Paget dros y bwrdeisdrefi ar y pryd]. Pa fodd y gallwn ni ddisgwyl cael chwareu teg pan nad oes genym ond rhyw 'geriach' fel yna i'n cynnrychioli? Y mae'n rhaid i ni fagu dynion at y gwaith hwnw o'n cenedl ein hunain; a chyn y gallwn ni wneyd hyn, rhaid i ni gael ysgol ddyddiol dda yn mhob plwyf a phentref trwy Gymru benbaladr, fel sydd gan yr Ysgotiaid er's dau can mlynedd. Ac nis gwn am ddim gwell y gellir defnyddio cyfran o'r trethi sydd yn ein gorlethu nag at hyn. . . Y mae yn rhaid i ni hefyd gael tri choleg, er mwyn rhoddi i'r rhai mwyaf blaenllaw a gobeithiol o'r plant addysg uwchraddol:—yr un i Wynedd yn Meddgelert, yr un i Bowys a Dyfed yn Ystrad Meurig, a'r un i Went a Morganwg yn Nglyn-nedd. Y mae yn y lleoedd hyny yr afonydd goreu yn y byd i bysgota. Dyna sydd ar fyfyrwyr eisieu—eu cadw mewn *lle cymmharol anial*, oddi wrth demtasiynau ieuengctyd, â digon o le i bysgota, a bwyta'r pysgod gyda brechdan o fara ceirch, er gwella a chryfhau eu hymenyddiau.'

Dywedodd yr hen wron hyn mor bell yn ol a'r flwyddyn 1832; a dengys ei sylwadau fod ganddo 'lygaid i weled yn mhell,' ac yn eglur. Bellach, y mae gan Gymru ei thri choleg, er nad ydynt yn sefyll yn y tri phentref a nodai Owen Williams. Ond nid oes, o bossibl, ond ychydig o'r efrydwyr yn bwyta bara ceirch, gyda physgod yr afon. Y maent er hyny, bob un o honynt, yn ddigon agos at y môr i'w cael. O ddeutu y fl. 1829, symmudodd o'r Waenfawr i'r Felinheli. Efe a aeth i Gaernarfon yn ebrwydd oddi yno; a bu yn preswylio yn Nhan-y-bont, ac yn y 'Queen bach' am tua deng mlynedd. Ond nid oedd yn hoffi byw yn y dref, am y rheswm fod pobl yn dyfod ato yn barhaus i siarad, fel nas gallai gael hamdden gyda llenyddiaeth. Blinodd gymmaint ar Gaernarfon y waith hon fel y dywedodd nas gwaeth ganddo 'pe'd elai'r dref ar dân,' ond iddo gael myned i'r Waenfawr wrth lewyrch ei choelcerth. I'r Waenfawr yr aeth:—ac yno y glynodd hyd ei ddiwedd. Yn ystod ugain mlynedd olaf ei oes, preswyliai yn Mŵth y Bardd—hen dŷ Dafydd Ddu Eryri; a Dafydd oedd y dyn a'r bardd yr edmygai efe fwyaf arno o holl feirdd Cymru.

Fel y dywedwyd, yr oedd Owen Williams wedi cyrhaedd safle anrhydeddus fel llenor, bardd, a hynafiaethydd. Yr oedd yn eisteddfodwr heb ei fath; a buasai eisteddfod, hebddo ef ynddi, mor chwithig ag eisteddfod heb gadair. Y mae yr ystoriau sydd ar gael am dano, yn ei ymwneyd â'r eisteddfod a'i phethau, yn lleng, ac yn hynod ddyddorol. Byddai yn hoff iawn o sôn am ysbrydion; a gwyddai fwy na neb, ond odid, am fwganod yr oesoedd gynt. Yn 1871, traddododd araeth yn Liverpool ar y testyn, 'Ysbrydion sir Gaernarfon;' ac y mae yn ammheus a geir yn ngwaith neb ystorïon mor gynnhyrfus am fwganod ag a geir yn yr araeth hono. Ysgrifenodd lawer yn nghanol trafferthion diddiwedd; ac y mae yr hyn a gyhoeddwyd o'i waith yn dwyn ôl llafur mawr. Yn 1817, cyhoeddodd, mewn cyfrol wythplyg drwchus *Hanes Bywyd Peter Williams*, yr esboniwr; a thua'r flwyddyn 1830, dechreuodd ysgrifenu y *Geirlyfr Cymraeg o Wybodaeth Gyffredinol*—yr hwn sydd yn gyfrol fawr, ac a gyhoeddwyd mewn 45ain o rifynau, swllt yr un. Ei waith nesaf oedd hanes *Y Deg Erledigaeth dan Rufain Baganaidd.* Teithiodd lawer trwy Gymru i werthu y llyfr hwn; a daeth felly yn gydnabyddus â lliaws o feirdd a llenorion; a chafodd hefyd gyfleusderau i weled llawer o hen ysgrifau Cymreig prinion. Y llyfr diweddaf a gyhoeddodd oedd cylchgrawn yn dwyn y teitl *Y Drysorfa Hynafiaethol.* Nid ymddangosodd ond pedwar rhifyn o hono. Ysgrifenodd *Esboniad ar Lyfr y Dadguddiad;* ond ni chyhoeddwyd ef. Fel hyn y dywedai wrth Llyfrbryf unwaith, pan yn sôn am y gwaith hwn:—'Y mae tua dau gant a hanner o esboniadau wedi eu cyhoeddi eisoes ar y Dadguddiad; ond y mae yr eiddom ni yn gwahaniaethu oddi wrth bob un o honynt. Ni a gawsom drafferth ofnadwy gyda rhai o'r *bwystfilod* sydd yno; ond o'r diwedd, llwyddasom i'w gwastrodi i gyd.' Bu Owen Williams farw ar Hydref 3ydd, 1874; a chladdwyd ei weddillion yn mynwent Bettws Garmon.

**WILLIAMS, PETER**, D.D.:—oedd yn beriglor Llanbedrog, yn sir Gaernarfon, a phrebend yn Eglwys Gadeiriol Bangor. Yn 1824, bu yn golygu argraphiad o'r *Ffydd Ddiffuant*—llyfr adnabyddus Charles Edwards; ac ysgrifenodd fywgraphiad o'r awdwr galluog hwnw yn Saesneg. Yr oedd Mr. Williams yn awdwr amryw lyfrau gwerthfawr. Nid yw yn hysbys i ni pa bryd y bu farw.

**WILLIAMS, RICHARD**: oedd yn glerigwr Eglwysig yn preswylio yn y Fron, ger y Wyddgrug. Bu yn dal bywoliaethau Machynlleth, a Llanferres. Yr oedd yn gydymaith i Pennant ar amryw o'i deithiau trwy Gymru; ac yr oedd yn brydydd Saesneg da. Cyfieithodd gywydd Owen Gyfeiliog, a elwir 'Hirlas Owain,' 'Cywydd Hywel ab Einion Llygliw i Fyfanwy Fechan,' ac 'Awdl Tubulus ar angladd Patroclus,' o'r Lladin. Cyfansoddodd bryddest Ladin i'w gyfaill Pennant, a galargerdd ar farwolaeth Ieuan Brydydd Hir. Bu o fawr gymmhorth i Edward Jones, yn nghyfansoddiad ei *Relics of the Welsh Bards.* Bu farw Mehefin 4ydd, 1811.

**WILLIAMS, RICHARD.** Ganwyd ef yn y fl. 1790. Adnabyddid ef gan y beirdd wrth yr enw 'Y Dryw Bach;' ac yr oedd yn fardd lled

Digitized by Google

adnabyddus. Treuliodd ran fawr o'i oes yn Mhant y Gerddinen, yn mhlwyf Aberdâr, yn sir Forganwg. Ennillodd lawer o wobrau mewn eisteddfodau, ac yr oedd yn ŵr a gyrhaeddodd safle anrhydeddus ynglŷn â pheroriaeth, barddoniaeth, a llenyddiaeth Gymreig. Bu farw yn Mehefin, 1839.

WILLIAMS, ROBERT, o'r Pandy Isaf, Treriwaedog, ger y Bala. Blodeuodd fel bardd yn ystod y rhan olaf o'r ganrif ddiweddaf. Efe oedd athraw barddonol Ioan Tegid, ac efe oedd awdwr gwreiddiol y llinell boblogaidd, 'Beibl i bawb o Bobl y Byd,' yr hon a briodolir yn fynych i Fardd Nantglyn. Bu farw yn y fl. 1808, ac y mae llawer o'i waith yn aros mewn llawysgrifen.

WILLIAMS, SYR ROGER. Yr oedd efe yn filwr dewr, ac efe oedd awdwr *The Actions of the Low Countries*, ac *A brief Discourse of War, with his opinion concerning Martial Discipline* (1590). Mab ydoedd i Thomas Williams, o Benrhos, yn sir Fynwy, ac Eleanor ei wraig; yr hon oedd yn ferch i Syr William Vaughan, marchog. Bu yn filwr dan y Duc o Alva; a rhedodd drwy y gwahanol raddau milwraidd, nes ei wneyd yn filwriad yn y rhyfeloedd â Ffraingc a Belgium. Gwnaed ef yn farchog yn 1586; a daeth yn enwog am ei ddewrder. Cymmerodd ei farwolaeth le yn Llundain, yn Rhagfyr, 1595; a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol St. Paul.

WILLIAMS, THOMAS, o Drefriw. Ieithydd, a meddyg dysgedig, yr hwn a adnabyddid fynychaf yn ei wlad ei hun wrth yr enw Syr Thomas ab William. Mab oedd efe i William ab Thomas ab Goronwy; yr hwn a hanodd, o du ei dad, o Ednywain Bendew, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd; a'i fam ydoedd Catherine, merch naturiol i Meredydd Wynn ab Ifan ab Rhobert, o Wydir. Yn ol tystiolaeth Thomas Williams ei hun, yn ei *Lyfr Achau*, ganwyd ef mewn lle o'r enw Ardde'r Myneich, wrth droed y Wyddfa. Graddiodd yn M.A. yn Rhydychain, yn 1573; ac yna, ymsefydlodd yn Nghymru fel meddyg. Fel awdwr y mae ei glod yn debyg o fyw, er nad argraphwyd un o'i weithiau. Ei waith llenyddol cyntaf oedd *Prif Achau holl Gymru Benbaladr;* a dywed iddo ddechreu ei gasglu yn 1578—ei helaethu yn 1585—a chwanegu ato yn 1609. Ysgrifenodd lyfr o gyfarwyddiadau meddygol, ac un arall ar sêr-ddewiniaeth. Ei brif waith llenyddol ydyw ei *Eiriadur Lladin a Chymraeg;* a phrawf hwn ei fod yn ysgolhaig rhagorol. Ceir ynddo ddyfyniadau lliosog o lawysgrifau anghyhoeddedig yr hen feirdd; a phe y cyhoeddid ef, hyd yn oed yn awr, byddai yn gaffaeliad gwerthfawr i ieithyddiaeth. Ceir talfyriad o'r gwaith gan y Dr. Davies, o Fallwyd; ond nid ydyw hwnw ond mynegai byr o'r cyfansoddiad gwreiddiol. Y mae y llawysgrifen yn nghadw yn Llyfrgell Hengwrt, ac yn cynnwys tair cyfrol bedwar plyg. Y mae llawysgrifau eraill gwerthfawr o'i eiddo yn nghadw yn Llyfrgell Hengwrt; ac yn eu plith, *Lyfr Prophwydoliaethau Cymreig, a Saesnig, a Lladin*, o law Syr Thomas Williams. Pabydd oedd efe o ran ei gredo; ac fel y cyfryw, gwysiwyd ef ger bron y llys eglwysig yn Mangor, Mai 3ydd, 1606; ac felly drachefn ar Tachwedd 12fed, 1607, ger bron llys cyffelyb yn Llundain. Bernir fod ganddo ryw wybodaeth ynghylch Brâd y Powdr Gwn, gan iddo geisio annog Syr John Wynn, o Wydir, i beidio myned i fyny i'r senedd yr adeg hono. Bu fyw yn Nhrefriw y rhan fwyaf o'i oes; a dywed traddodiad iddo fod yn giwrad y lle hwnw. Nid yw yn hysbys pa bryd y bu farw.

WILLIAMS, THOMAS. Mab ydoedd efe i Owen Williams, o'r Cefn Coch, yn mhlwyf Llansadwrn, yn Môn. Gwasanaethodd yr amser arferol fel breintwas i gyfreithiwr o'r enw Mr. Llwyd yn Ninbych, merch yr hwn a briododd. Ar y cyntaf, bu yn byw yn hen Balas Llanidan, Môn; a chafodd swydd goruchwyliwr ar weithiau efydd Mynydd Paris. Daeth cyn hir i gael rhan-berchenogaeth yn y mwnglawdd gwerthfawr hwnw, a chasglodd gyfoeth lawer. Yr oedd iddo bump o balasau, mewn pump o siroedd gwahanol. Bu farw yn Nghaerbaddon, Tachwedd 30ain, 1801.

WILLIAMS, THOMAS, yr hwn a elwid yn *Twm Pedrog*. Yr oedd yn fardd gwych, ac yn frodor o Lanbedrog, yn sir Gaernarfon. Gwasanaethodd ran o'i oes ar fwrdd y gâd-long *Amethyst*. Yr oedd yn awdwr amryw ddarnau barddonol o deilyngdod uchel. Blodeuodd yn nechreu y ganrif bresennol.

WILLIAMS, THOMAS. Ganwyd ef yn Abererch, yn sir Gaernarfon, yn y fl. 1771; ac er na chafodd fawr o addysg, daeth yn enwog fel un galluog iawn i rifyddu â'i feddwl, ac fel cerfiwr lluniau i addurno llongau. Gwnaeth Bedwarant y Morwr o'i ddyfais ei hun; ac offeryn arall i wybod yr hydred ar y môr. Bu farw yn Nghaerbaddon yn y fl. 1847, yn 76ain mlwydd oed.

WILLIAMS, WILLIAM, Tŷ Calch, yn sir Fôn. Ganwyd y gŵr hwn—a fu yn adnabyddus mewn llawer o gylchoedd yn Nghymru yn ei ddydd, a chyfeillgarwch cyfrin â'r hwn a fawr werthfawrogid gan y rhai a'i hadwaenent oreu—yn Mhlas-gronwy, Llanbedr goch, yn Môn, Medi 2il, 1806. Merch oedd ei fam, yr hon oedd yn wraig nodedig o grefyddol, i'r Parch. Michael Thomas, o'r Garnedd Wen:—enw yr hwn a gofnodir yn mysg gweinidogion boreuol y Methodistiaid yn Môn; am deulu yr hwn y ceir rhai crybwyllion yn *Methodistiaeth Cymru* a *Methodistiaeth Môn*. Enw ei dad oedd Morris Williams; yr hwn oedd fab i Richard Williams, yr hwn hefyd a dreuliodd ei oes yn Mhlas gronwy. Yr oedd Richard Williams yn gefnder i Forysiaid Pentre Eirianell; gan fod ei fam, yr hon yn ei dydd oedd enwog am ei glendid, a'i gallu i brydyddu, yn chwaer i dad Lewis Morris, a'i frodyr. Yr oedd cyfeillgarwch agos rhwng y teuluoedd; a llawer traddodiad difyr a lynai yn Mhlas gronwy am fywyd a champau Pentre Eirianell. Yr oedd rhai o nodweddion neillduol y Morysiaid yn amlwg yn ei gymmeriad ef ei hun; ac, fel y mae'n digwydd yn aml mewn teuluoedd, yr oedd hyd yn oed ei bryd a'i wedd, y mae yn ymddangos, yn arddangos ei berthynas â hwynt. Clywsom fod cymmaint o debygolrwydd rhyngddo a thad y bardd enwog o Lundain—Syr Lewis Morris—fel mai llawer gwaith y bu iddo gael ei gyfarch ar heolydd Caerfyrddin, pan ar daith trwy y dref, o dan yr enw Mr. Morris. Clywsom Syr Lewis ei hun yn cyfeirio at y tebygolrwydd hwn aml waith.

Digitized by Google

Cafodd fwy o fanteision addysg yn nhymmor ei ienengctid nag a ddigwyddai i ran y nifer fwyaf o'i gyfoedion amaethyddol; ac enwogodd ei hun mewn tair cangen yn neillduol:—mewn rhifyddiaeth, cerddoriaeth, a gwybodaeth o iaith a llenyddiaeth y Cymry. Edrychid arno fel bachgen mor addawol fel y cynnygiodd un o urddasolion yr Eglwys Sefydledig ei ddwyn i fyny i fod yn glerigwr ar ei draul ei hun. Ond nid yn unig gwrthododd y cynnygiad haelionus hwn, ond trodd yn Ymneillduwr; a phan yn 15eg oed ymunodd â'r eglwys fechan Fethodistaidd yn Glasinfryn; ac yn mynwes yr eglwys hono, ac o dan ofal ac addysg ymchwilgar John William Pritchard, Plas-y-brain, cyfaill mawr i'w dad, fe dyfodd yn ŵr ieuangc rhinweddol a chymmeradwy.

Pan yn 17eg oed, anfonodd ei dad ef i fasnachdŷ y Parch. Richard Lloyd, yn Beaumaris; fel y caffai ychydig o brofiad o fywyd trefol, ac yr ennillai fanteision cymdeithasol ac addysgol nad oeddynt o fewn ei gyrhaedd yn ardal wledig y Traeth Coch. Ni threuliodd amser mwy difyr yn ei oes na'r tair blynedd y bu dan gronglwyd Mr. Lloyd; ac ni byddai byth yn fwy wrth ei fodd na phan yn adrodd hanes y gŵr doeth, duwiol, a hynod ddyddan hwnw. Bu laweroedd yn ceisio ganddo barotoi 'chwedlau Beaumaris'—o'r rhai, ynghyd â thraddodiadau Pentre Eirianell, yr oedd ganddo ystôr ddihysbydd—ar gyfer y wasg; ond yn anffodus, buont yn aflwyddiannus. Y mae'n debyg mai dylanwad Mr. Lloyd arno a'i tueddodd at y gwaith o bregethu. Dechreuodd gyda hyny yn 1829. Ordeiniwyd ef yn Nghaernarfon, yn y flwyddyn 1848. Yn 1839, priododd Emma, ail ferch yr efengylydd anwyl, y Parch. John Prydderch; o'r hon y bu iddo saith o blant—chwech o ba rai sydd etto yn fyw. Yn 1843, symmudodd o Blasgronwy i'r Graianfryn, lle y bu yn byw hyd 1852, gan ddilyn ei alwedigaeth fel amaethwr; tra ar yr un pryd, gyda llawer o ffyddlondeb a chymmeradwyaeth, y byddai yn bwrw golwg dros y praidd yn Ty'n-y-maen. O'r fl. 1852 yn mlaen, adwaenid ef fel Mr. Williams, Tŷ Calch —un o ffermydd rhydd-ddaliadol ei dad-yn-nghyfraith, Mr. Prydderch. Bu yn fwy diwyd nag erioed fel amaethwr wedi dyfod o hono i'r Tŷ Calch; a llwyddodd i harddu lle ei breswylfod yn ddirfawr; a thrwy ddrênio, a phlanu coed, codi waliau, ac adeiladu tai i'r anifeiliaid, &c., chwanegodd lawer at werth, yn gystal ag at brydferthwch, ei hoff gartref. Yr oedd yn llaw-weithydd egnïol, a nodedig o gelfydd, ei hun. Yr oedd gwaith rhwydd, ac afierwch diofal gydag unrhyw orchwyl, yn dra anghymmeradwy ganddo. Tybiai, os oedd gwaith yn werth i'w wneyd o gwbl, ei fod yn werth i'w wneyd yn iawn. Yr oedd pob darn o waith a gyflawnai â'i law ei hun yn ddrych o ddestlusrwydd. Deuai laweroedd o amaethwyr ac o lafurwyr y cymmydogaethau i'w feusydd yn un pwrpas i edrych arno wrth y gwaith, ac i weled ôl ei law yn agor drêniau; ac addefai seiri meini medrus a phrofiadol fod ei waith ceryg yn batrwm hyd yn oed iddynt hwy. Yn yr un wedd, pa beth bynag arall yr ymaflai ei law ynddo i'w wneuthur, gofalai na byddai eisieu i neb ei ail wneyd yn fuan, ac na fedrai neb wella nemawr arno ar y pryd.

Ond yn nghanol ei ofalon amaethyddol bu yn wyliadwrus rhag gollwng ei ddyledswyddau crefyddol a swyddol yn anghof. Bu yn nodedig o ffyddlawn gyda'r achos yn Llangristiolus; ac yn ei gystudd diweddaf, yr oedd eglwys ei ofal yn wastad ar ei wefusau, a'i llwyddiant yn destyn ei weddïau beunyddiol. Yr oedd yn bregethwr cymmeradwy; ac yn ei flynyddoedd ieuangaf, fe deithiodd gryn lawer, fel yr oedd yr arfer ar y pryd, i gyhoeddi 'y newyddion da' yn mysg ei gydwladwyr mewn gwahanol barthau o'r Dywysogaeth. Mewn ufudd-dod i geisiadau taer y Parch. John Elias, er yn hollol o'i anfodd ei hun, aeth ddwywaith, os nad teirgwaith, gyda'r gŵr enwog hwnw ar ei hyntiau i'r Deheudir. Yr oedd efe (a phwy nad oedd?) yn edmygydd mawr o ddoniau y pregethwr rhyfedd hwnw; ond gan fod y naill yn Geidwadwr selog, a'r llall yn Rhyddfrydwr greddfol —y naill hefyd yn mron yn eithafol o ddifrifol, a'r llall yn hoff o ychydig o ysmaldod diniwed (tebyg i eiddo ei brif arwr, 'Rhisiart Llwyd, o Biwmaris')—mewn rhan yn unig y ffynai perffaith gydnawsedd rhyngddynt a'u gilydd. Fe allai fod rhai o'i frodyr yn fwy llwyddiannus mewn gosod gwirioneddau yr efengyl mewn ffordd ddeniadol o flaen eu gwrandawyr nag ef; ond yr oedd ei genadwri ef mor feddylgar a chraff fel y teimlai y gwrandawyr goreu bob amser ei fod yn teilyngu y gwrandawiad mwyaf astud. Yr oedd tynfa yn ei feddwl yn fawr at ddirgeledigaethau yr efengyl, ac ymdröai lawer yn uchanianaeth duwinyddiaeth. Yr oedd cwestiwn 'y paham' iddo, bob amser, mor anocheladwy a'r 'pa fodd;' a mwynhäai yn fawr ymddiddan gyda rhai o gyffelyb feddwl am y pethau mawrion a gogoneddus ag y mae yr hyn a ddadguddiwyd o honynt yn dangos fod cymmaint yn chwaneg wedi ei adael yn guddiedig. Yr oedd ei ddyddordeb yn y dadleuon duwinyddol a gymmerasant le yn mlynyddoedd ei ieuengctid yn ddwfn iawn. Gosodasant y fath argraph ar ei feddwl fel mai hawdd oedd gweled eu hôl yn ei weinidogaeth a'i ymddiddanion trwy weddill ei oes. Ymddangosodd dwy neu dair o ysgrifau o'i eiddo ar y pyngciau mewn dadl yn nghylchgronau y dydd, y rhai a ennillasant gryn ganmoliaeth gan rai o brif arweinwyr y blaid a amddiffynai; ac wrth reswm, lawn cymmaint o achwyn oddi ar law y rhai a wrthwynebai.

Yr oedd efe yn meddu dynoliaeth hynod ddymunol—yn hardd ei berson, ac yn mron hyd y diwedd yn un o'r rhai mwyaf gwisgi ar ei droed. Cerddai yn hoyw i'w deithiau Sabbothol hyd Fôn, ac yn fynych i Arfon, am nad oedd yn werth ganddo fyned i'r drafferth i roddi y ceffyl yn y cerbyd; neu yn hytrach, am fod cerdded yn gymmaint mwy difyrus ganddo. Ac wedi siwrneion lled hirion, ni chlywid ef un amser yn sôn ei fod wedi blino. Yn wahanol i'r cyffredin o ddynion, nid oedd cysgodion yr hwyr yn rhwystr yn y byd ar ei ffordd i gychwyn am siwrnai o ugain milldir, a mwy. Os byddai yr amser at ei ddewisiad, yn nhrymedd y nos y cai y daith ei cherdded, ond odid. Anfynych yr ymdrafferthai i feichio ei hun â chôb o fath yn y byd—hyd yn oed yn nyfnder y gauaf; ac y mae yn ammheus genym a welwyd gwlawlen yn ei law erioed.

Talodd ymweliad, yn y fl. 1882, â'i frawd, Ap Morfydd, yn America, oedd yn 95ain ml. oed; yr hwn ni welsai o'r blaen er's 51ain mlynedd. Yr oedd yn mhob ystyr yn wir foneddwr—yn dra dyfal bob amser i astudio pobl eraill, ond yn hollol anghofus o hono ei hun. Y mae yn

Digitized by Google

debyg y buasai yn dda pe buasai ganddo fwy o hunan-hyder—pe buasai, yn wir, yn llawer mwy hòniadol. Fe allasai felly droi ei wybodaeth, a'i feddylgarwch, a'i synwyr da, yn llawer mwy o wasanaeth i'w gydwladwyr. Ond yr oedd yn rhy gwrtais; ac yr oedd ei ledneisrwydd i fesur yn ei wanychu. Yr oedd ar yr un pryd, er y gwyleidd-dra hwn, mor annibynol ei ysbryd a neb a adwaenasom. Pan y byddai galwad am wroldeb, a phan y byddai dyledswydd yn dir-gymmhell, yr oedd efe yn hollol ddi-ofn. Ar ei berygl y cymmerai neb ormod o hyfdra arno. Gyda'i graffder meddwl, a'i ychydig eiriau cyrhaeddgar, bychan o beth iddo ef oedd rhoddi taw ar y neb a feiddiai arfer trahausder yn ei bresennoldeb. Yr oedd ganddo allu arbenig i roddi gwers i bwy bynag a gam-ymagweddent. Anfynych, y mae yn wir, y tynai ei gleddyf o'r wain, er fod ganddo un llym iawn, os byddai ei eisieu. Gwell oedd ganddo ddefnyddio offerynau llai miniog; ac, fe allai, mwy meddyginiaethol. Blinid ef, ar un achlysur, gan waith rhai o'r gwrandawyr yn rhuthro allan o'r capel cyn a thra y cenid yr emyn olaf yn yr odfa ar foreu Sabbath. Ar ganol y canu gofynodd am osteg, a chyfarchodd y gynnulleidfa, gan ddywedyd, 'Eglwyswr a fûm i unwaith; ac yn yr eglwys, yr ydwyf yn cofio yn burion, o gyfoethocaf i gyfoethocaf y byddem yn arfer myned allan ar ddiwedd y gwasanaeth. Y mae yn ymddangos ein bod ni, yr Ymneillduwyr, wedi newid y drefn—o wirionaf i wirionaf y byddwn ni yn gadael y moddion!' Nid hawdd fu gwaghau y capel hwnw ar ol hyn—hyd yn oed pan orphenwyd y canu. Yr oedd yn pregethu, bryd arall, mewn man na chyhoeddwyd ef yn mlaen llaw; ac yn ystod y bregeth, torodd rhyw wraig allan i orfoleddu yn aneffeithiol, ac heb agos ddigon o reswm. 'Ië, ïe, hon a hon bach (ebai yntau), ni a ddywedwn dipyn bob yn ail. Heb ein cyhoeddi yr ydym ein dau heddyw.' Tawodd y wraig yn swta; ac ni theimlodd neb ar ei galon orfoleddu yn y cwrdd hwnw drachefn. Yr oedd yn pregethu, un tro, mewn capel bach ar brydnawn Sabbath nodedig o drymaidd yn yr haf; a phan yn diweddu ei ragymadrodd i'w bregeth – rhagymadrodd lled faith, a dyrys—sylwodd fod pawb yn y lle, oddi eithr ef ei hun, wedi syrthio i drwmgwsg. Gyda hyny, aeth allan o'r pulpud mor ddistaw a llygoden; ac oni bae i ddrws y sêdd fawr wichian, a deffro un o'r blaenoriaid, buasai wedi llwyddo yn ei amcan o greu cryn ymofyn pa beth oedd yn bod pan ddelai amser yr ymddadebriant oddi amgylch. Ni chysgodd neb yn y cwrdd hwnw wedi hyny; a dywedir y byddai, o leiaf, un o'r diaconiaid yn effro yn odfeuon y prydnawn yn y capel hwnw am flynyddoedd ar ol i'r digwyddiad digrifol yma gymmeryd lle. Gellid gwneuthur casgliad helaeth o ffraethebau a sylwadau cynnwysfawr 'Mr. Williams, Tŷ calch,' pe yr elid trwy ardaloedd Môn i'w lloffa. Yr oedd ei neillduolion yn hysbys i bawb, ac i'w gyfeillion yn enwedig. Yr ydoedd yn ddyn anwyl a hawddgar iawn. Adwaenent ef fel 'Israeliad yn wir;' a thra yn hollol uniawn a chydwybodol, etto meddai y fath diriondeb caredig a serchog ag a wnelai ei gymdeithas yn dra hyfryd.

Effeithiodd ei ffarweliad â'i frawd yn yr America, a marwolaeth ei fab ieuangaf ar yr un adeg, yn amlwg ar ei iechyd, er iddo fyw am ragor na blwyddyn ar ol ei ddychweliad gartref. Cafodd gystudd lled faith yn y diwedd; yr hwn a ddioddefodd yn hynod ddirwgnach. Ar ol ysbaid o ddyddiau pur dywyll ar ei feddwl, cafodd gynnaliaeth ogoneddus gan ffydd yr efengyl yn ei gyfyngderau olaf. Bu farw ar y 30ain o Fehefin, 1884, pan yn agoshau at 78ain mlwydd oed. Yn mynwent Llangristiolus y rhoddwyd ei gorph i orwedd. Ymddangosodd erthygl fywgraphyddol am dano yn y *Traethodydd* am Hydref, 1884; o'r hon yr ydym wedi gwneyd mesur o ddefnydd yn yr ysgrif hon. Yn yr un rhifyn o'r cylchgrawn a nodwyd, cyhoeddwyd marwnad dyner'er coffadwriaeth am dano, o waith y bardd medrus Glan Alaw—hen ddysgybl iddo yn Ty'n-y-maen, a chyfaill calon iddo dros lawer o flynyddoedd.

WILLIAMS, WILLIAM, o Landegai—oedd ŵr hunan-ddysgedig. Ganwyd ef yn Tŷ mawr, Trefdraeth, yn Môn, ar Mawrth 1af, 1738. Ni chafodd unrhyw fanteision addysg. Gwnaeth y diffyg i fyny er hyny trwy ei ymosodiad a'i ddyfal-barhad ei hun. Tra yn aros yn Llanerch-y-medd, daeth i gydnabyddiaeth â'r Bardd Coch o Lwydiarth Esgob, a Robert Hughes, o'r Ceint Bach—y rhai fuont yn gymmwynaswyr caredig iddo. Daeth Mr. Williams yn aelod gohebol o Gymdeithas Gwyneddigion Llundain, a chafodd yr enw barddonol o Gwilym Ddu o Arfon. Wedi gorphen fel egwyddorwas gyda chyfrwywr yn Llanerch-y-medd, ac iddo yn y cyfamser ddyfod yn ysgolhaig gwych, penneidiwyd ef yn ysgrifenydd i oruchwyliwr etifeddiaeth y Penrhyn, ger Bangor; a thrwy ei offerynoliaeth ef yn benaf, y dadblygwyd cyfoeth mawr Chwarel Cae Braich y Cafn. Yr oedd y chwarel, ar y pryd, yn cael ei gweithio gan rhyw bedwar ugain o ddynion, y rhai a dorent dyllau yma ac acw ar wyneb y mynydd er cloddio at y llechfaen. Annogodd yntau Arglwydd Penrhyn i gymmeryd y gwaith i'w law ei hun; a'r annogaeth yma o eiddo Mr. Williams fu yn foddion i ddadblygu cyfoeth anhysbyddedig y chwarel lechau sydd, erbyn hyn, y fwyaf yn yr holl fyd. Daliodd Mr. Williams y swydd o oruchwyliwr y gwaith o 1782 hyd ei ymneillduad, yn 1803. Yn y flwyddyn olaf hon, cyhoeddodd ei *Observations on the Snowdon Mountain, with some account of the Customs and Manners of the Inhabitants*. Cyfansoddodd ddau lyfr mawr yn Saesneg hefyd, o hanes siroedd Môn ac Arfon. Trowyd Pum Llyfr Moses ganddo ar gân. Ysgrifenodd Esboniad ar Weddi yr Arglwydd, ac amryw lyfrau eraill. Adwaenir ef oreu fel awdwr *Prydnawngwaith y Cymry*; yr hwn a fwriedid fel attodiad i *Ddrych y Prif Oesoedd*, ac a gyhoeddwyd yn Mangor, yn 1822. Bu Mr. Williams farw Gorphenaf 17eg, 1817, a chladdwyd ef yn Llandegai.

WILLIAMS, WILLIAM, aelod seneddol dros Coventry a Lambeth am dros chwarter canrif. Ganwyd ef yn Tredaren, yn mhlwyf Cynwyl, yn sir Gaerfyrddin, yn 1788. Pobl isel eu hamgylchiadau oedd ei rieni; ond efe a ddaeth yn un o brif fasnachwyr Llundain. Etholwyd ef i'r senedd dros Coventry yn 1835, a thros Lambeth yn 1850—yr hon sedd a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Prif amcan ei fywyd fel seneddwr oedd gostwng treuliau y wladwriaeth; ac yn hyn yr oedd yn ddysgybl ffyddlawn i'r enwog Joseph Hume. Mae Cymru yn ddyledus iawn iddo am y cynnydd dirfawr fu ar addysg yn y

Digitized by Google

Dywysogaeth yn ystod ei yrfa ef fel gŵr cyhoeddus. Efe oedd un o'r rhai cyntaf i awgrymu troi Coleg Dewi Sant Llanbedr yn brifysgol; ond o herwydd difaterwch eraill, bu y symmudiad yn aflwyddiannus. Ar ei gynnygiad ef yn y senedd y pennodwyd dirprwyaeth i chwilio i ansawdd addysg yn Nghymru; a ffrwyth y ddirprwyaeth hon oedd y Llyfrau Gleision—gwaradwyddus i Gymru—y delid gŵr o'r enw Mr. Lingen yn gyfrifol am danynt; y rhai a barasant y fath gynnhwrf cyffredinol yn y wlad ar eu cyhoeddiad. Cyfranodd Mr. Williams yn helaeth at ysgolion, a cholegau, a sefydliadau daionus eraill. Bu farw yn Llundain, Ebrill 29ain, 1865, yn 77ain mlwydd oed.

WMFFRE, DAFYDD AB IFAN. Clochydd Llanbrynmair, a bardd da, oedd efe—yr hwn a flodeuai rhwng 1620 a 1660. Pan yr oedd ei gyfaill, William Phylip o Ardudwy, un tro, yn nesau at y llan ar ymweliad, gofynodd i fachgenyn ddangos iddo dŷ Wmffre Dafydd. Arweiniodd y bachgen ef at fedd newydd yn y fynwent, a dywedodd, 'Dyma dŷ Wmffre Dafydd!' Dywedir mai dyma'r amgylchiad fu yn foddion i beri i William Phylip gyfansoddi ei gywydd i'r bedd.

WOGAN, WILLIAM. Cafodd ei eni yn mhlwyf Penaly, yn sir Benfro, yn 1678. Yr oedd yn fab i beriglor y lle. Wedi graddio yn Nghaergrawnt, aeth yn athraw i deulu Syr R. Southwell; ac yn 1710, yn ysgrifenydd i fab y gŵr hwnw o dan y Duc o Ormond, arglwydd raglaw yr Iwerddon. Daliodd swyddau yn y fyddin wedi hyn; ac yn 1714, pennodwyd ef yn dâl-feistr gweddwon gweinidogion y sefydliad Gwyddelig. Bu farw yn Ealing, yn Middlesex, Ionawr 24ain, 1758, yn 80ain mlwydd oed. Efe oedd awdwr *An Essay on the Proper Lessons of the Church of England*, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1754. Ysgrifenwyd hanes ei fywyd gan y Parch. James Gatliff, o Lundain.

WOOD, OWEN. Ail fab oedd efe i Hugh Wood, o Dal-y-llyn, yn Môn. Yn y fl. 1584, cymmerodd ei raddau yn Rhydychain, a gwnaed ef yn Ddeon Armagh, pan yr oedd Robert, Iarll Essex, yn arglwydd raglaw yr Iwerddon; a dywedir ei fod yn cydfradwriaethu â'r iarll yn 1600. Gadawodd Owen Wood gryn swm o arian ar ei ol tuag at sefydlu ysgoloriaeth a chymmrodoriaeth yn ei goleg.

WYNN, JOHN: neu, JOHN WYNN AB HUGH:—ydoedd fab hynaf i Hugh ab Siôn ab Madog, o Bodfel, yn Lleyn, yn sir Gaernarfon, yn yr hwn le y ganwyd ef. Yr oedd yn fanerwr i John, Iarll Warwick, ac wedi hyny i'r Duc o Northumberland, yn y frwydr ofnadwy a ymladdwyd rhyngddo a gwrthryfelwyr Norfolk a Suffolk, yn Awst, 1549, o dan deyrnasiad Iorwerth VI. Bu mewn peryglon enbyd; ond daliodd faner fawr Lloegr i fyny er gwaethaf pob anffawd—fel y sonir yn nghroniclau yr oes hono am ei wrhydri. Am y gwasanaeth hwn, rhoddwyd iddo Ynys Enlli, a Llys yr Abad, a elwir y Cwrt, yn Aberdaron. Yr oedd yn sirydd Caernarfon yn 1551 a 1560.

WYNN, SYR RICHARD. Ail fab oedd efe i Syr John Wynn, o Wydir. A chan i'w frawd hynaf farw, olynodd yntau ei dad i'r farwniaeth ar ei farwolaeth yn 1626. Daliai y swydd o ystafellydd i Siarl I. pan yn Dywysog Cymru, ac aeth gydag ef i'r Yspaen yn 1623. Ysgrifenodd hanes dyddorol o'r daith hon; a chyhoeddwyd y cyfryw yn llyfr gan Hearne. Yn 1633, adeiladodd Syr Richard gapel prydferth Gwydir, mewn cyssylltiad âg eglwys Llanrwst; ac yn y fl. 1636, tallodd bont dros yr afon Conwy, a elwir Pont Llanrwst. Cynllunydd y capel a'r bont oedd yr enwog Inigo Jones:—a dywedir fod hon yn un o'r pontydd harddaf yn Nghymru. Er mor fawr ydyw, dywedir ei bod wedi ei hadeiladu mor dda, fel pe y tarawai dyn yn erbyn un o'r canllawiau y siglai y bont. Bu farw Syr Richard Mehefin 19eg, 1749; a chladdwyd ei weddillion yn eglwys Wimbledon. Gan nad oedd iddo blant, syrthiodd y teitl a'r etifeddiaeth i'w frawd, Owen.

WYNN, SYR RICHARD, o Glynllifon. Hanodd o deulu y Bryncir, yn sir Gaernarfon. Bu yn gadben ar gant o filwyr Cymreig yn yr Iwerddon, ac yn Brofost Marshall Flushing, o dan Syr Phillip Sydney. Priododd weddw y Cadben W. Thomas, Glynllifon; a bu fyw yn Nghaernarfon hyd ddiwedd ei oes. Ymwelwyd âg ef ar ei wely angeu gan Dr. Griffith Williams, esgob Ossory; a thraddodwyd ei bregeth angladdol gan Dr. L. Bailly, esgob Bangor, ac awdwr yr *Ymarfer o Dduwioldeb.*

WYNN, WILLIAM, o Langynhafal. Clerigwr Eglwysig oedd efe, a bardd; a ganwyd ef yn Maes y neuadd, yn sir Feirionydd, yn 1704. Ei rïeni oeddynt Robert Wynn, o'r lle hwnw; a'i wraig Margaret, merch Robert Llwyd, o Ragat. Graddiodd yn M.A. yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain. Yn 1740, pennodwyd ef i ficeriaeth Llanbrynmair; o'r hon yr ymneillduodd yn y fl. 1747, pan bennodwyd ef yn ficer Manafon, yn yr un sir. Oddi yno, daeth i Langanhafal, yn Nyffryn Clwyd; yr hon fywoliaeth a ddaliodd efe hyd ei farwolaeth ar Ion. 22ain, 1760. Yr oedd yn gymmrawd o Goleg yr Holl Saint, ac yn gaplan i'r Esgob Farmer. Priododd Martha, merch i Henry Roberts, o Rydonen. Yr oedd yn fardd penigamp, a cheir ei weithiau ar wasgar yn y *Dewisol Ganiadau;* y *Blodeugerdd;* y *Dyrïau Duwiol;* y *Gwyliedydd; Ceinion Awen y Cymry;* a chyhoeddiadau eraill. Barna rhai fod ei 'Gywydd i'r Farn' yn gydradd o ran teilyngdod ag eiddo Goronwy Owen.

WYNNE, EDWARD, D.D., oedd fab ieuangaf Mr. Edward Wynne, o Fodewryd, Môn. Graddiodd yn Nghaergrawnt yn 1644; a phennodwyd ef yn fuan i beriglorïaeth Llanymawddwy gan ei ewythr, yr Esgob Owen. Wedi hyny, cafodd fywoliaethau Llangeinwen, yn sir Fôn; a Llanarmon, yn sir Gaernarfon. Cynnrychiolodd esgobaeth Bangor yn y *Convocation* yn 1661—62; a dyna'r pryd y cafodd y radd o D.D. Bu, hefyd, yn beriglor Llanllechid; ac yn 1663, gwnaed ef yn ganon Llanelwy. Yr oedd efe, hefyd, yn ganghellydd Eglwys Gadeiriol Bangor. Efe oedd awdwr *Trefn Ymarweddiad y Gwir Gristion*, a argraphwyd yn 1662. Bu farw Rhag. 1669; a chladdwyd ef yn Llangaffo, yn Môn.

WYNNE, JOHN, D.D. Ganwyd ef yn Maes y-coed, yn mhlwyf Caerwys, yn sir Fflint, yn y

Digitized by Google

fl. 1667; ac yr oedd yn ail fab i John Wynne, o'r lle hwnw. Addysgwyd ef yn ysgolion Llaneurgain, Rhuthyn, a Choleg yr Iesu, Rhydychain. Bu am dymmor yn gaplan i Iarll Penfro. Yna, daliodd beriglorïaeth yn Llangelynin, yn sir Gaernarfon, a phrebenduriaeth yn eglwys gadeiriol Caerwrangon. Yn 1712, etholwyd ef yn brifathraw Coleg yr Iesu, Rhydychain; ac ar yr 11eg o Ionawr, 1714, dyrchafwyd ef yn esgob Llanelwy. Efe oedd yr esgob cyntaf a bennodwyd dan deyrnasiad Sior I. Ar farwolaeth yr Esgob Hooper yn 1727, trawsblanwyd ef i esgobaeth Bath a Wells; a bu yno am un mlynedd ar bymtheg. Ffaith bwysig ynglŷn âg ef yw, na bu un Cymro yn esgob yn Nghymru ar ei ol ef, hyd 1870. pan y pennodwyd y Parch. Josiah Hughes yn esgob Llanelwy. Bu farw ar ei etifeddiaeth—y Sychdyn, yn Llaneurgain, yn sir Fflint—Mehefin 15fed, 1743; a chladdwyd ef yn nghapel eglwys y lle.

**WYNNE, JOHN HUDDLESTON.** Brodor o Gymru oedd efe; a ganwyd ef yn y fl. 1743. Dygwyd ef i fyny yn argraphydd; a bu yn dilyn yr alwedigaeth hono am gyfnod yn Llundain. Wedi hyny, bu yn dal swydd yn y fyddin; ac yna, trôdd ei sylw at lenyddiaeth. Ei brif weithiau ydynt *A General History of the British Empire in America*, ac *A History of Ireland*. Bu farw yn 1799.

---

# Y.

Y BRUTIAU. Yn y *Myvyrian Archaiology*, yr ydym yn cael y 'Brutiau' canlynol:—'Brut Tysilio,' 'Brut G. ab Arthur,' 'Brut y Tywysogion,' 'Brut y Saeson' (a elwir yn anghywir felly), 'Brut y Tywysogion' mewn ffurf arall ('Brut Aberpergwm'), a 'Brut Ieuan Brechfa.' Yn chwanegol at y rhai hyn, ceir hanes Gruffydd ab Cynan. Yn yr ail gyfrol o argraphiad Rhys Evans o *Lyfr Coch Hergest*, ceir y 'Brut y Saeson' gwirioneddol; ac hefyd, gyfieithiad Cymraeg o'r llyfr Lladin *Dares Phrygius*—yr hwn a saif ar dir hollol wahanol i'r Brutiau.

Ystyr yr enw 'Brut,' fel y defnyddir ef yma, ydyw 'hanes' neu gronicl.' Fe'i gelwir felly ar ol enw Brutus o Gaerdroia gyda'r hwn, ar ol cyhoeddiad *Llyfr Sieffre o Fynwy*, y tueddai haneswyr i ddechreu eu gweithiau. Tebygol ydyw mai yn Ffrainge y dechreuwyd defnyddio y gair 'Brut' am 'gronicl;' a chan fod amryw o lenorion cenedl y Cymry yn bur gyfarwydd, trwy gyfrwng Normaniaid y Deheudir, â llenyddiaeth Ffrainge, mabwysiadwyd y gair ganddynt hwythau.

Rhoddwn, yn gyntaf, fraslun o hanes 'Brut Gruffydd ab Arthur,' a 'Brut Tysilio. Perthynai y ddau hyn i'r un gyfres. Cyfieithiad yw 'Brut Gruffydd ab Arthur' o'r llyfr Lladin a elwir *Historia Regum Britanniæ* ('Hanes Brenhinoedd y Brytaniaid') o waith Sieffre o Fynwy. Talfyriad a chyfaddasiad o'r cyfieithiad hwn ydyw 'Brut Tysilio;' yr hwn a gambriodolir i'r hen esgob Cymraeg, Tysilio, o ddeutu B.A. 660. Tebygol ydyw, oddi wrth yr orgraph, mai yn Ngwynedd y gwnaed y talfyriad hwn.

Rhoddir cyfres o hen lawysgrifau y Brutiau hyn gan Mr. J. Gwenogfryn Evans, yn ei Ragymadrodd i'r *Llyfr Coch o Hergest*, cyf. ii. Y mae 'Brut Gruffydd ab Arthur' i'w gael, medd efe, yn Gymraeg mewn tair ffurf:—1af, Y ffurf a elwir *The Vaticinium Version*. 2il, Y ffurf a elwir *The Llevelys Version*. 3ydd, Y ffurf a elwir *The Compiled Version*. Yn y dosbarth cyntaf hwn o lawysgrifau, ceir 'Prophwydoliaeth (*Vaticinium*) Myrddin,' heb hanes Llevelys. Yn yr ail ddosbarth, ceir hanes Llevelys: ac yn y dosbarth olaf, ceir cyfuniad o'r naill a'r llall, ynghyd â darnau eraill; megys, 'Prophwydoliaeth yr Eryr.'

I'r dosbarth cyntaf, y mae naw o hen lawysgrifau yn perthyn:—yr hynaf o honynt o'r drydedd ganrif ar ddeg, a'r ieuangaf o'r bymthegfed. Yn yr ail ddosbarth, ceir pedair llawysgrif; ac yn y dosbarth olaf, ddwy ysgrif ar bymtheg.

Awdwr y gwaith Lladin gwreiddiol ydoedd Sieffre o Fynwy:—yn Saesneg, Geoffrey of Monmouth:—yn y Ffrangcaeg, Geoffroi de Monmouth:—yn yr Ellmynaeg, Gottfried von Monmouth:—ac yn Lladin, Galfridus neu Gaufridus Arturus, yn gystal a Galfridus Monumetensis. Adnabyddid ef yn Gymraeg hefyd dan yr enwau Galffrai, a Gruffydd ab Arthur, yn gystal a Sieffre o Fynwy.

Ganwyd y llenor hyglod hwn yn Mynwy tua dechreu y ddeuddegfed ganrif; a bernir iddo fod am beth amser yn fynach o'r urdd Benedictaidd yno. Caplan oedd ei dad, Arthur, i Gwilym, Iarll Penfro; ond mabwysiadwyd Sieffre gan ei ewythr Uchtryd, archddiacon—ac wedi hyny, esgob Llandaf. Bu yn efrydydd yn Rhydychain, lle y cyrchai lliaws mawr o Gymry yr adeg hono; a phan oedd yno, tua'r fl. 1129, daeth i gyffyrddiad â'r Archddiacon Walter, o'r ddinas hono. Hwn yw y gŵr yr haera Sieffre iddo gael ganddo sylfaen a sylwedd ei *Hanes Brenhinoedd y Brytaniaid*. Proffesa gael yr hanes o 'lyfr tra hynafol (*ex libro vetustissimo*) yn yr iaith Frytanaidd (*Britannici sermonis*), yr hwn a ddygwyd gan Gwallter, Archddiacon Rhydychain, o Brydain.' Y mae llawer o ammheuaeth wedi bod, o dro i dro, a oes gwir yn hyn; gan fod proffesiadau o'r fath yn gyffredin iawn yn y canol-oesoedd. Ac os oes, pa un ai Cymru, ynte Llydaw, a feddylir wrth Brydain

Digitized by Google

yma. Credir yn lled gyffredinol, bellach, mai Llydaw yw y tebycaf.

Y mae y Proffeswr Tout (*Dictionary of National Biography*) yn tueddu i gredu fod Sieffre wedi defnyddio rhyw lyfr Llydawaeg; tra y mae eraill, fel y Proffeswr Zimmer o Göttingen, yn gryf o'r farn iddo dderbyn cryn lawer o'i ddefnyddiau o Lydaw—yn enwedig y chwedlau am Arthur.

Nid oedd Sieffre wedi llwyr orphen ei lyfr pan y gwnaed cais gan Alexander, esgob Lincoln, ar iddo droi 'Prophwydoliaethau Myrddin' o'r iaith Gymraeg i'r Lladin. Anhawdd iawn ydyw penderfynu pa un a wnaeth Sieffre hyn, ai peidio; ac erys cryn ammheuaeth hyd heddyw ai efe ydyw awdwr y *Vaticinium Mertini* sydd dan ei enw. Dywedir wrthym (*Dictionary of National Biography*) fod Ordoricus Vitalis (*Hist. Eccl.*, ll. xii., td. 47), o gylch y fl. 1136—7, yn dyfynu o hono; ac y mae'n eithaf hysbys fod Alanus de Insulis (Alanus Magnus, neu Altissiodorensis, Alan de l'isle) wedi ysgrifenu esboniadau helaeth arno o gylch B.A. 1170—1180. Y mae y gwaith hwn, erbyn hyn, yn lled brin; ond ceir hen gopi argraphedig o hono yn llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, yn Aberystwyth.

Yn y fl. 1140, aeth Sieffre i Landaf; a gwnaed ef yn archddiacon yno yn y flwyddyn hono. Tebygol ydyw mai pan y gwnaed ei ewythr yn esgob y gwnaed yntau yn archddiacon. Yr oedd *Hanes Brenhinoedd y Brytaniaid* (yn Lladin) yn ddigon sicr wedi ei gyhoeddi mewn rhyw ffurf y pryd yma; o blegid cawn Henry o Huntingdon, yn ei *Epistola ad Varinum*, yn ngwaith Dom Morice—*Histoire de la Bretagne*, i., td. 166 (gwel *Ersch und Gruebers Encyclopädie*), yn dywedyd iddo weled y gwaith yn Ionawr, 1139, yn Mynachlog Bec, yn Normandy. Corphorodd dalfyriad o waith Sieffre yn ei weithiau ei hun.

Ymddangosai pob peth y pryd hyn yn hynod lewyrchus yn mywyd Sieffre; ond o fewn chwe mis o'r blynyddoedd 1147—1148, collodd ei dri chyfaill, a'i noddwyr—Robert, Iarll Caerloyw; yr esgob Alexander; a'i ewythr ei hunan, Uchtryd. Er hyny, yn ffodus, cafodd gyfaill agos a noddwr newydd yn mherson esgob Lincoln—Robert de Chesney. Cyn hir, codwyd Sieffre ei hunan i'r fainge esgobol; ac ar y pedwerydd dydd o Chwefror, 1151 (neu 1152), cyssegrwyd ef yn esgob Llanelwy gan yr Archesgob Theobald. Ond ymddengys nas gallodd efe, am ryw reswm, fyned i'w esgobaeth; a bu farw, yn y fl. 1154, yn Llandaf.

Proffesa Brut Sieffre o Fynwy roddi hanes Ynys Prydain, o ddyddiau Brutus o Gaerdroia hyd ddyddiau Cadwaladr. Ni bydd y darllenydd yn hir, fodd bynag, cyn gweled nas gellir rhoddi coel ar bob peth a ddywed efe; a chyn y gellir ei gredu, rhaid cael tystiolaethau cryfion oddi allan iddo. Ystyrir, er hyny, gan rai beirniaid, megys Zimmer llygadgraff, mai ychydig o'i lyfr a ddyfeisiodd ac a ddychymygodd Sieffre yn fwriadol ei hun. O'r tu arall, adroddodd y diweddar Mr. Thomas Wright, yr hynafiaethydd (*Archaiological Essays*, cyf. I.) ei farn yn lled eglur a diflocsgni, mai dychymygion yr awdwr ei hun ydyw y rhan fwyaf o'i lyfr. Y tebygolrwydd yw, i Sieffre ddyfeisio cyssylltiadau rhwng gwahanol adranau yr hanes, yn hytrach na'r hanes ei hun. Gwnaeth hyn yn neillduol gyda hanes dyfodiad y Saeson i'r ynys hon. Bernir gan y Proffeswr Rhys (Rhagymadrodd i'r *Llyfr Coch o Hergest*, cyf. ii.) i Sieffre gymmeryd enwau brenhinoedd, a'r cyffelyb, o wahanol gyfeiriadau; a cheisio dyfalu ffeithiau yn eu cylch. Yn hollol unol, hefyd, â dull meddwl y canol-oesoedd, pan yr ystyrid bron nad oedd dim newydd dan haul, ac y tueddid i briodoli i'r gorphenol arferion a ffurflywodraethau y presennol, darfu i Sieffre, lle yr oedd, yn mhlith y Brytaniaid, amryw fân frenhinoedd gynt yn cydoesi mewn gwahanol ardaloedd, eu gosod yn olynol, a gwneuthur pob un o honynt yn frenin ar y wlad yn gyfan, fel brenhinoedd Lloegr yn ei ddyddiau ef ei hun. Ceir un enghraifft nodedig iawn o hyn, fel y sylwir gan Schulz (*San. Marte*) a'r Proffeswr Rhys. Yn ei 'lythyr' llym a hallt, ymosoda Gildas yn hynod o dôst ar rai o fân frenhinoedd Prydain, oedd yn gydoeswyr iddo. Enwau y brenhinoedd hyn oedd Constantinus, Aurelius Conanus, Vortiporius, Cuneglasus, a Maglocunus. Cymmer Sieffre yr enwau hyn (gan adael Cuneglasus allan), a gesyd hwy i deyrnasu yn olynol ar y Brytaniaid. Yn gymmhwys fel y mae rhan helaeth o'r *Mabinogion*—ac yn wir, hanes boreuol pob gwlad o'r bron—yn gyfansoddedig, i raddau mawr, o hen chwedlau wedi eu dychymygu i esbonio enwau lleoedd a phersonau, a gwahanol arferion—felly hefyd y mae 'hanes' Sieffre. Ceir yn ei waith engreifftiau o hyn yn barhaus.

Diammheu mai enwau dychymygol felly yw Locrinus, Camber, ac Albanactus, wedi eu dyfeisio i esbonio bodolaeth y Lloegrwys (trigolion Lloegr), y Cymry, a'r Albaniaid. Un engraifft nodedig iawn hefyd ydyw enw Lleon; yr hwn a dröwyd wedi hyny yn Lleon Gawr, oddi wrth yr enw 'Castra Legionum' (Caer y llengoedd) Caerlleon-ar-Wysg. Ammheuwn yn gryf hefyd mai cymmeriad a ddychymygwyd oddi wrth enw tref Caerfyrddin oedd Myrddin; yr hwn a ddaeth i lenwi lle mor bwysig yn chwedloniaeth Arthuraidd Ewrop. Er hyny, ymddengys fod traddodiad arall yn esbonio enw y ddinas bwysig hono - traddodiad neu chwedl a geir yn 'Mreuddwyd Maxen Wledig' (gwel *Mabinogion*), lle y dywedir i'r ddinas gael ei galw felly am iddi gael ei hadeiladu gan 'fyrdd o wŷr.' Gwir darddiad yr enw, yn ol pob tebyg, ydyw Mari- neu Mori-dunum ('Amddiffynfa y môr'), am mai hyd yno y cyrhaeddai y llanw.

Gosododd Sieffre, yn ddiammheu, yn ei waith bob hen chwedl a hanes a ddeuai i'w feddwl ynghylch gwladychiad a phoblogiad yr ynys hon. Ceir hefyd, yn ei waith, rai darnau nodedig iawn o lên gwerin, megys hanes adeiladu 'gwaith Emrys.'

Rhenir gwaith Sieffre yn y gwreiddiol yn ddeuddeg llyfr. Ni chaniatâ gofod i ni roddi mwy na chrynodeb byr o'u cynnwysiad yma.

LLYFR I.

Yn hwn, cawn hanes Brutus hyd sylfaeniad y deyrnas Frytanaidd gyntaf yn yr ynys hon. Un o drigolion Caerdroia yw Brutus, yr hwn a ymadawodd o'i fam-wlad ar ol ei gorchfygiad gan y Groegiaid. Yma, edrydd Sieffre chwedlau sydd â'u gwreiddiau draw yn Homer, Virgil, Livy, a Sallust—chwedlau a dreiddiasant drwy yr oll o orllewin Ewrop, hyd yn oed i'r Snorra-Edda a'r Fonaldar-sögur yn llenyddiaeth Scandinavia (gwel Schulz—*San-Marte*—Gottfried von Monmouth). Nid oedd y chwedl hon am Brutus yn un o draddodiadau henafol yr ynys

Digitized by Google

hon; a barna Zimmer mai rhai o'r ysgolheigion Gwyddelig a ddyfeisiodd ei chynnwys gyntaf. O'r Brytaniaid, Nennius sydd yn cyfeirio at y traddodiad hwn gyntaf; a'r farn gyffredin fyddai, mai dilyn rhyw ysgrifenwyr Lladin a wnaeth efe. Erys y cwestiwn hwn mewn cryn dywyllwch. Gwel *Zimmer, a Nennius Vindicatus.*

LLYFR II.

Y mae yr awdwr yn troi yn awr at rai o'r traddodiadau cartrefol. Yma yr ydym yn cael, yn mysg eraill, Locrinus, Estrildis (yn Gymraeg, Essyllt, cariadferch Drystan, fab Tallwch, yn ol y Trioedd:—y ddau yn adnabyddus iawn fel Tristram ac Isolde y Rhamantau), Gwendolen, Ebraucus neu Efrawg, a Pheredur (Percival y Rhamantau). Cawn hefyd Yspladden, Angharad, a Llyr (yr hwn sydd yn frenin paganaidd yn Shakespeare), ei ferch hanner dychymygol, Cordelia (Creurddilad); ac mewn rhai llawysgrifau, yr Eryr Prophwydol. Ar rediad yr hanes yn y rhanau dilynol, rhydd Schulz yr esboniad a ganlyn:—Ei gred ef yw, fod yn y chwedlau lawer o enwau nas gellid cael lle iddynt ar ol Cæsar; ond gan fod yr awdwr yn teimlo dan orfod i'w gosod yn rhywle, iddo eu lleoli yn y cyn-oesoedd. Gwelir hyn yn amlwg iawn yn y modd yr ymddygodd efe at y person hanesyddol Cunedda ('Cunedag' Nennius); yr hwn, ynghyd â'i feibion, fu yn offeryn i yru y Gwyddelod allan o Fôn a Gwynedd. Yn y cyn-oesoedd hefyd y gosodir y cymmeriad nodedig (Gwyddelig, yn ol pob tebyg), Dyfnwal Moelmud.

LLYFR III.

Yn y llyfr hwn, cawn rai elfenau perthynol i chwedloniaeth Scandinavia; sef, cyfeiriadau at Elsing a Guithlach. Buddiol fyddai olrhain chwaneg ar gyssylltiadau Cymru â'r gogledd. Ceir yn llenyddiaeth Scandinavia, hefyd, amryw gyfeiriadau at ymgyrchiadau ar draethau Cymru (Bretland). [Gwel *Orkneyinger Saga*:—Roll's *Series*].

Yn Llyfr iii., ceir goleuni eglur iawn ar ddull Sieffre o weithio, yn y modd y mae efe wedi ffurfio hanes Belinus a Brennius (Beli a Brân y cyfieithiad Cymraeg) allan o gymmysgedd o chwedloniaeth a hanesiaeth. Cyfatteba Belinus, ar y naill law, i Beli fab Mynogan (Belinus *fil.* Minocanni) y traddodiadau Cymreig; ac o'r tu arall, i Bellovesus Livy, fel y cyfettyb Seginus i Segovesus. Ar y naill law, hefyd, y mae Brennius yn cyfatteb i Brân Fendigaid [gwel *Mabinogion*]; ac hefyd, i Brennus; yr hwn oedd berson hanesyddol—arweinydd y Galiaid yn erbyn Rhufain. Ar ol hyn, gan fod eisieu cyssylltiad rhwng yr hanesion hyn âg adeg Cæsar, llenwir y bwlch i fyny gan hanes poblogiad yr Iwerddon, a hanes hollol gyfeiliornus y *Lex Marcia.*

LLYFR IV.

Yn y llyfr hwn, cymmerir y defnyddiau, yn benaf, o'r awduron Lladin—Cæsar, Suetonius, a Tacitus; ond yn amlach o'r hanesydd eglwysig Orosius—hanes yr hwn, er yn sylfaenedig, gan mwyaf, ar ffeithiau ail law, oedd mewn bri mawr iawn am lawer o ganrifoedd. Gwneir defnydd, hefyd, o Beda, yn gystal ag o Nennius ac Asser. O bossibl, gwneir defnydd hefyd o hen chwedlau Cymreig yma; a chawn, gyda hyny, hanes poblogiad yr Alban, a lladratâd y Gwyddelesau. Awgryma San. Marte, ac ymddengys hyny yn eithaf tebygol, mai adlewyrchiad sy yma o'r hyn a ddigwyddai pan ddisgynai y Llychlynwyr ar draethau Cymru. Dengys Zimmer mai chwedl ddiweddar yw yr hyn a ddywedir am 'Lles ap Coel,' wedi ei dyfeisio pan oeddid yn seinio y Lladin 'c' fel 's.'

LLYFR V.

Yma, yn y cyfnod o Severus hyd Cystenyn (Constantinus), prif ffynnonellau yr hanes hwn ydyw Orosius (awdwr *Historiarum adversus Paganos*, lib x.—tua B.A. 417), Aurelius Victor, Eutropius, a Prosper o Aquitania—tua hanner cyntaf y bummed ganrif; awdwr llawer o weithiau hanesyddol, duwinyddol, a barddonol. Awgrymir gan San. Marte fod ar gael, y pryd hyny, lawer o ddefnyddiau Lladin sydd, erbyn hyn, ar gyfrgoll—awduron cyffelyb i'r rhai a ddefnyddiwyd gan Gregory o Tours. Tryblith o chwedlau ammhossibl eu holrhain, yn mron, yw hanes Macsen Wledig, Cynan Meiriadog, a Charadog Freichfras. Gwyddis i Maximian ffurfio trefedigaethau milwraidd yn Llydaw; ac o bossibl, mai am fod rhai o'n cydwladwyr eisoes yn y wlad hono y trôdd y Brytaniaid yno am noddfa. Am chwedl yr 11,000 o wyryfon, credir mai un o chwedlau y 'Franks' ydoedd.

LLYFR VI.

Cawn yn y llyfr hwn hanes dechreuad gofidiau y Brytaniaid, pan y daeth y Saeson drosodd gyntaf i'r ynys hon. Yma y mae yr hanes yn gorphwys, gan mwyaf, ar Gildas. Ar ymadawiad y Rhufeiniaid, gellir casglu fod llawer o'r Brytaniaid, yn eu rhyddid newydd, ac wedi hyny yn eu gwasgfa a'u caledi, wedi myned drwy fath o wrthgiliad (os, yn wir, yr oeddynt yn Gristionogion y pryd hyny) at yr hen grefydd Geltaidd. Beth bynag, gafaelodd chwedloniaeth yn foreu iawn yn y personau hanesyddol—Gwrtheyrn, St. Germanus (St. Garmon), Hengist a Horsa, Aurelius Conanus, Myrddin, ac Arthur. Diammheu mai tua yr adeg yma, fel yn adeg dirwasgiad y genedl Israel gynt, y daeth y disgwyliad am ddyfodiad gwaredydd i afael yn gryfach gryfach yn meddwl a theimlad y genedl.

LLYFR VII.

Yma, cawn helaethiad o'r braslun a roddir yn ngwaith Nennius o 'brophwydoliaeth' Myrddin. Ar ol marwolaeth Cadwaladr, gellir dilyn cwrs hanesyddol y 'brophwydoliaeth' yn lled eglur. Cyfeirir at Canute yn *pen.* iv.; a gwneir hefyd gyfeiriad at Gwilym y Gorchfygwr. Y mae y ffeithiau a gyfattebant i'r brophwydoliaeth yn lled amlwg hyd at farwolaeth Sieffre. Wedi hyny, tywyll, dyrys, a chyfriniol ydyw y brophwydoliaeth hon, fel y gallesid disgwyl. Yr oedd dylanwad y *Vaticinium Merlini* mor fawr yn y canol-oesoedd, a hyny, fel y credid, er drygioni, nes y gorfu i Gynghor Trent ei chondemnio, a'i gosod ar yr *Index Expurgatorius.*

LLYFRAU VIII., X., ac XI., *td.* 1 a 2.

Yma, fe wneir defnydd, yn benaf, o Gildas, Beda, Nennius, y Cronicl Anglo-Sacsonaidd, &c., a gwahanol ddarnau o hanes yr eglwys, a hanes ei seintiau. Credir fod yr awdwr yma hefyd wedi tynu dwfr yn lled helaeth o ffynnonau Cymreig.

LLYFR XI.—y gweddill.

Blin a diflas, gan mwyaf, yw y gweddill o'r llyfr hwn. Yma y gosododd Sieffre y brenhinoedd Constantinus, Aurelius Conanus, Vortiporius, a Maglocunus—y rhai y cymmerodd eu henwau o 'Lythyr Gildas.' Perthyna rhai o'r brenhinoedd i chwedloniaeth a barddoniaeth;

Digitized by Google

tra mai allan o Beda a'r Cronicl Anglo-Sacsonaidd y cymmerwyd Awstin, Dunawd, a Brochfael. LLYFR XII.

Hwn yw terfyn y gwaith; ac nid oes dim yn neillduol i alw sylw ato ynddo.

Prif werth llenyddol gwaith Sieffre ydyw yr hanes a roddir ynddo am Arthur. Nid Arthur 'Nennius' fel arweinydd rhyfeloedd (*dux bellorum*) yn unig ydyw; ond Arthur yn ei gyflawn ogoniant fel gorchfygwr cyffredinol. Trwy yr hanes am Arthur, yn benaf, y gwnaeth llyfr Sieffre ei ôl ddyfnaf ar lenyddiaeth Ewrop. Er, fe allai, na chafodd lawer o'r chwedloniaeth am dano mewn unrhyw lyfr, etto y mae'n bur sicr iddo ei gael mewn traddodiadau Llydawaeg. [Gwel Zimmer's *Göttingische Gelehrte Anzeigen:* ysgrif ar *Historei de la litterature Francaise au moyen âge*—cyf. xxx.; par M. Gaston *Historic Literature* Paris.]

Ychydig o goel a roddid gan lawer ar hanes Sieffre o Fynwy, yn enwedig yn Nghymru. Gan Giraldus Cambrensis (*Itin. Camb.*, pen. i.; td. 25), ceir yr hanesyn a ganlyn:—'Blinid rhyw ŵr yn fawr gan gythreuliaid. Gosododd Efengyl Ioan ar ei fynwes, a diflanasant yn llwyr; ond pan osododd Hanes Prydain gan Sieffre o Fynwy, daeth y cythreuliaid yno yn lluoedd, gan orchuddio ei fynwes, a'r llyfr hefyd.' Credai Gwilym o Newbury fod rhan helaeth o'r llyfr wedi ei ddyfeisio gan Sieffre ei hun. Hyn sydd yn amlwg, beth bynag, fod Sieffre wedi cymmeryd allan o Nennius ddernyn yn rhoi hanes y dyfodiaid o'r dwyrain, y rhai a ymsefydlasant yn yr Iwerddon, a'i droi yn rhan o hanes mordaith Brutus. Y mae, hefyd, wedi rhoddi hanesion dychymygol i esbonio Hampton, Humber, Ludgate, Billingsgate, a manau eraill. Cymmerodd hanes toriad croen yr ŷch yn garciau allan o Virgil. Dangoswyd, hefyd, gan Windisch, ac eraill, fod hanes genedigaeth Myrddin yn ddarn o len-gwerin pur hynafol; ac yn wir, i'w gael mewn hen lyfrau Indiaidd a Phersiaidd. Diammheu i'r hanes dreiddio i Ewrop, fel y treiddiodd cynnifer o hen chwedlau cyffelyb. O'r ochr Frytanaidd, os yw amryw o'r chwedlau o darddiad Llydawaeg, y mae'n eglur fod eraill o darddiad Prydeinig.

Dilynwyd ymddangosiad hanes Sieffre gan y rhamantau canlynol:—*Y Greal*, *Perceval* (Peredur), *Lancelot*, *Tristram*, a'r *Ford Gron*. Treiddiodd yr hanesion am Myrddin a'r brenin Arthur i'r Almaen, a'r Eidal, yn gystal ag i Ffraingc a Lloegr. Dywedir iddynt fyned i wlad Groeg, i Rwssia, ac hyd yn oed i iaith Arabia. Yn Lloegr, fe gasglwyd y rhamantau ynghyd gan T. Malory (1469—1470).

Yr ydym yn ymhelaethu ar y pethau hyn er mwyn i'r darllenydd allu cael cipolwg ar y modd y daeth traddodiadau Cymreig a Llydawaeg y pryd hyn i gyssylltiad agos â llenyddiaeth Ewrop. Wedi i waith Sieffre ymddangos, ymgymmerodd amryw â'i dalfyru, a'i gyfaddasu. Fe wêl y darllenydd, oddi wrth yr enwau a roddwn, pa fodd y daeth Sieffre i ddylanwadu ar lenyddiaeth Lloegr. Yn gyntaf, talfyrwyd yr hanes gan Alfred o Beverley (*Historia de gestis Regum Britanniæ*, ll. ix.—1143). Cyfieithwyd y gwaith gwreiddiol i farddoniaeth Anglo-Normanaidd gan Geoffrey Gaimar, ac hefyd gan Wace (yr hwn a elwir yn Waice, Gace, Gasce, Huistace, Wistace, Eustace, ac Extasse), tua chanol y ddeuddegfed ganrif. Ymddangosodd y gwaith hefyd yn Saesneg yn 'Mrut' Layamon, offeiriad Ernley, yn y fl. 1200; ac hefyd, yn ngwaith Robert o Gloucester cyn pen can mlynedd ar ol Wace—yn y fl. 1297. Dilynwyd ein hanesydd yn ddibetrus gan y cronielwyr diweddaraf, o Roger o Wendover (yr hwn a fu farw yn 1237), hyd Holinshed (yr hwn fu farw yn 1590): a thrwy Holinshed y daeth Shakespeare hefyd i adnabyddiaeth o'r chwedlau hyn.

Gall y darllenydd sylwi yn mhellach yn 'Mrut y Brenhinoedd' ar y pethau canlynol:—Dengys yr awdwr yr un ymdrech i esbonio ystyron enwau lleoedd ynglŷn â manau ar y Cyfandir ag yn y wlad hon. Er engraifft, fe wneir hyny ynglŷn â hanes tarddiad enw y ddinas Tours (Turones—llwyth Celtaidd), oddi wrth yr enw Turnus. Sylwer, hefyd, fel y mae hanes Afarwy, ar adeg dyfodiad Julius Cæsar, yn fath o argraphiad cyntaf, megys, o Gwrtheyrn. Nid ydyw, chwaith, yn annhebyg nad yn Llydaw yr helaethwyd yr hanes am Brutus, a gwŷr Caerdroia, gan fod hanes eu ffoedigaeth hwythau o'r wlad hon o dan amgylchiadau lled debyg. Pwysig iawn, wrth ddarllen llyfr fel gwaith Sieffre, yw cadw ein llygaid yn agored i arwyddion ac awgrymiadau o'r fath a nodwyd. Ymddengys rhai rhanau yn nechreu chwedl Brutus yn debyg iawn i fath o adlewyrchiad o brofiad y Llydawiaid, a'u hynafiaid, yn eu hymdrafodaeth â'r Ffrangcod am dir a daear. Gall y darllenydd llygadgraff ganfod nifer o awgrymiadau tebyg; a lled ammheuwn fod Cordelia, merch Llyr, i'r hon y rhoddir y prif glod, yn fath o gynnrychiolydd yn chwedloniaeth Llydaw o'r wlad hono yn ei pherthynas â Ffraingc. Tebygol, hefyd, mai yn Llydaw y rhoddid pwys neillduol ar drefedigaethau milwraidd Maximian; a bod yn barotach gan y Llydawiaid olrhain eu hachau at y trefedigaethau hyny, yn hytrach na chydnabod yn rhy amlwg iddynt ffoi o'r wlad hon yn eu gwasgfa. Y mae genym lawer o le i gredu fod y Llydawiaid wedi gorfod gwrandaw ar gryn lawer o edliwiadau, o bryd i bryd, gan y Ffrangcod ar y naill law, a chan y Cymry ar y llaw arall, am eu ffoedigaeth o'r wlad hon; ac i hyny beri iddynt ddyfeisio chwedlau i geisio cuddio eu cywilydd; ac nid yn unig hyny, ond i brofi eu bod yn Frythoniaid 'o waed coch cyfan.' Diammheu iddynt wneyd mwy o Arthur nag a wnaeth y Cymry, am fod y gwirionedd syml am Arthur, a'r brwydro blin, ar ol ei golli, o dan gadfridogion newyddion, yn rhwystro tyfiant llawer o chwedlau di-sail am dano. Yr oedd gan y Cymry amryw o arwyr, megys Urien, ac eraill, i'w cofnodi, heb law efe. Barna Zimmer, yn ei *Nennius Vindicatus*, fod Sieffre o Fynwy wedi ei arwain i ysgrifenu ei hanes, o herwydd poblogrwydd y chwedlau Arthuraidd eisoes yn Llydaw; ac iddo gymmeryd, fel sylfaen i'w waith, y ffurf ar lyfr Nennius oedd fwyaf adnabyddus yn Neheudir Cymru ar y pryd, a dadblygu ei Arthur oddi wrth *Dux Bellorum* Nennius, a'r chwedlau a gawsai o Lydaw. Y mae hi yn ffaith nodedig fod ymddangosiad gwaith Sieffre wedi rhoddi symbyliad i amlhâd copïau o lyfr Nennius, er fod yr *Historia Brittonum*, ar y cyfan, yn bur ddiwerth fel hanesiaeth.

Y mae hi yn ffaith anwadadwy fod yn yr ail hanner o'r wythfed ganrif, fel y dengys Zimmer, achau Cymreig, drwy y rhai y cyssylltai y teuluoedd tywysogaidd Cymreig eu hunain â'r amserau Rhufeinig—tua B.A. 750. Yr oedd y rhai hyn yn adnabyddus i ysgolheigion o'r

Digitized by Google

Iwerddon. Creda Zimmer mai rhai o'r ysgolheigion Gwyddelig hyn a roddasant fôd i'r hanes am darddiad y Cymry o Gaerdroia. Bernir fod y chwedl am Arthur yn ddigon adnabyddus mewn rhai rhanau o Gymru tua diwedd yr wythfed ganrif. Yn B.A. 796, yr oedd eisoes yn gyssylltiedig âg enwau lleoedd yn ardaloedd Buallt ac Ergyng (gwel *Mabinogion Cilhwch* ac *Olwen*). Gellir casglu fod enw Arthur yn adnabyddus yn Nghymru tua B.A. 600—630; canys yr ydym yn cael enw Arthur, mab Pedr, yn 600—630; sef, gor-ŵyr i Vortiporius. Enw mab yr Arthur hwn oedd Nougoy ('Noe' yn llyfr Llandâf. Nid ydyw enw Arthur yn hen enw cyffredin yn yr iaith Gymraeg; ond erbyn 600—630, enw arwrol ydoedd. Yn 625 (yn ol y *Chronicon Scotorum: Annals of the Four Masters*, a'r *Annals of Clonmacnoise*), ceir cyfeiriad at un o'r enw *Artur filius Bicuir Brito*, ac hefyd at un o'r enw *Artur mac Aed*. Casgliad Zimmer ydyw, fod yr Arthur gwreiddiol yn un o arweinwyr y Brythoniaid yn rhyfeloedd y bummed a'r chweched ganrif.

Ceir amryw o wahanol ardaloedd yn Neheudir yr Alban, yn Ngogledd a Deheudir Cymru, yn gystal ag yn Nghernyw a Llydaw, ar enw Arthur. Gwnaeth Mr. Skene (*Four Ancient Books of Wales*), a Mr. J. Stuart Glennie (*Arthurian Localities*) ymgais cryf i geisio profi, oddi wrth yr enwau hyn, mai yn yr Alban yr ymladdodd Arthur y brwydrau y cyfeiria Nennius atynt. Nid ydym yn ammheu nad oedd enw Arthur yn bur adnabyddus ac yn barchus yn mhob ardal lle yr arhosai rhai o ddisgynyddion yr hen Frytaniaid; ond y mae penderfynu y cwestiwn dyrus hwn yn gofyn gochelgarwch neillduol. Dylid cofio fod tuedd yn mhob enw arwrol newydd i gymmeryd lle rhyw hen enw sydd bron wedi myned yn anghof; ac, o bossibl, y mae enw Arthur, yn llen-gwerin y Brytaniaid, wedi llenwi lle llawer hen arwr o'i flaen, yn gymmhwys fel y cymmerodd y Forwyn Fair le rhai o hen dduwiesau Ewrop. Mewn rhai manau, megys yn Nghaerlleon-ar-Wysg, y mae hen chwareufa (*amphitheatre*) Rufeinig, fe ddywedir, yn myned yn bresennol o dan yr enw 'Bord Gron Arthur.' Y mae y ffaith fod enw Arthur wedi cael ei ddefnyddio mor ddibetrus, a hyny i ddybenion mor amlwg, yn tynu dan wraidd ymresymiadau Mr. Skene a Mr. Stuart Glennie i raddau pell iawn. Dyma y rhan fwyaf o'r enwau sydd yn gyssylltiedig âg Arthur:—Cadair Arthur, Bwrdd Arthur, Ffynnon Arthur, Neuadd Arthur, Moel Arthur, Maen Arthur, Gwely Arthur, Maes Arthur, a Phobty Arthur. Ac yn Nghernyw, fe geir hyd yn oed Gwpanau a Soseri Arthur. Nid ydyw yn anhawdd gweled beth a roddodd fod i'r rhan fwyaf o'r enwau hyn; sef, tebygrwydd rhyw wrthddrychau naturiol ar raddfa ëang i ddodrefn tŷ, a'r cyffelyb. Nid oedd enwau ysgrythyrol, gan mwyaf, yn dwyn perthynas ddigon agos a'r wlad hon, er fod enw 'yr Un drwg' wedi ei gyfaddasu at lawer o fanau, yma a thraw. Ond yr oedd Arthur yn Frython (neu fe dybid felly), yn enwog, ac yn arwrol. Credwn mai methiant, hefyd, ydyw ymgais Mr. Skene a Mr. J. Stuart Glennie i leoli brwydrau Arthur. Nid ydyw yn anhawdd gweled paham y mae cynnifer o leoedd yn yr Alban ar enw Arthur, pan y dengys Mr. Stuart Glennie ei hun fod y chwedlau Arthuraidd yn boblogaidd yno yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.

BRUT TYSILIO.

Nid oes angen ymdrin yn helaeth â hwn. Y mae yn fyrach, sychach, a symlach o ran iaith ac arddull, na 'Brut Gruffydd ab Arthur.' Nid yw yn anhawdd gweled mai talfyriad diweddar yw y Brut hwn o Frut Gruffydd ab Arthur. Ar yr un pryd, teilynga Brut Tysilio sylw manwl; er mwyn gweled, yn benaf, yn mha bethau y gwahaniaetha oddi wrth Frut Gruffydd ab Arthur; ac hefyd, o ba gyfres o'r llawysgrifau y talfyrwyd ef. Y mae hefyd yn bur ddyddorol o'r ochr ieithyddol; gan ei fod, eisoes, yn cynnwys rai o neillduolion tafodiaith y Gogledd.

Y BRUTIAU HANESYDDOL.

Wrth y rhai hyn y meddylir

1. Brut y Tywysogion—Ffurf A.
2. Bruty Tywysogion—Ffurf B (Brut Aberpergwm).
3. Brut Ieuan Brechfa.
4. Brut y Saeson. Yn hytrach, 'Brenhinoedd y Saeson.'
5. Brut y Saeson (yr un gwirioneddol).
6. Hanes Gruffydd ab Cynan.

Saif y Brutiau hyn ar dir gwahanol hollol i'r Brutiau blaenorol; ac y mae Brut y Tywysogion (Ffurf A) a Hanes Gruffydd ab Cynan yn rhai o'r defnyddiau goreu ag sydd genym at hanes Cymru yn y cyfnodau a gynnwysir ynddynt.

BRUT Y TYWYSOGION (Ffurf A).

Cyhoeddwyd y Brut gwerthfawr hwn yn y *Myvyrian Archaiology*, yn y *Roll's Series*, o dan olygiaeth Ab Ithel; ac hefyd yn y *Llyfr Coch o Hergest*, cyf. ii., gan y Proffeswr Rhys a Mr. J. Gwenogfryn Evans.

Erys llawer o anhawsderau heb eu penderfynu etto ynglŷn â'r llyfr hwn, yn enwedig ei berthynas â'r *Annales Cambriæ* (yr hwn sydd yn sylfaen iddo), â'r ffurf B hefyd arno ef ei hunan, â Brut y Saeson, ac â Brut Ieuan Brechfa. Diammheu mai math o dalfyriadau diweddar o Frut y Tywysogion yw y rhai diweddaf; ond hyd yn hyn, ni chafwyd gwybodaeth eglur am y rheswm dros eu bodolaeth yn eu ffurf bresennol.

Ar y llawysgrifau, gweler Rhagymadrodd Mr. J. Gwenogfryn Evans; ac ar hanes y Brut ei hunan, gweler Rhagymadrodd Ab Ithel yn yr argraphiad yn y *Roll's Series*. Gan nad oedd yr *Annales Cambriæ* etto wedi eu cyhoeddi pan yr oedd Ab Ithel yn ysgrifenu, prin y mae efe wedi gallu rhoddi pwys digonol ar y ffaith mai yr *Annales*, gyda chwanegiadau, ydyw Brut y Tywysogion. O ganlyniad, rhaid darllen ei Ragymadrodd gyda pheth gochelgarwch, gan ei fod yn gorfod gweithio, i fesur, dan anfantais. Nid ydyw efe wedi bod yn wastad yn ddigon beirniadol ei ysbryd—yn enwedig tuag at Frut Aberpergwm.

Priodolir 'Brut y Tywysogion' i Garadog o Langarfan—un o gydoeswyr Sieffre o Fynwy, William o Malmesbury, a Henry o Huntingdon. Credir mai Sieffre a'i symbylodd i ysgrifenu ei 'Frut,' fel math o chwanegiad at ei Frut ef. Ond, fel y sylwyd eisoes; os felly, ni wnaeth Caradog ond chwanegu darnau at gyfieithiad o'r *Annales Cambriæ*. Y mae y chwanegiadau hyn yn neillduol o lawn tua'r adeg y blodeuai Caradog; a thueddir ni i gredu iddo ef ddechreu y gwaith o chwanegu at yr *Annales*; ac i eraill o'i ddysgyblion, a rhai o fynachod Ystrad Fflur, gario y gwaith yn mlaen. Rhoddir hanes cyflawn iawn o ddigwyddiadau a fuasent yn hysbys iawn i rai o'r parthau hyny.

Digitized by Google

Gwerth mawr y Brut hwn ydyw, ein bod yn cael peth o hanes Cymru gan rai yn cydoesi â'r digwyddiadau, lle y ceir y cofnodion llawnaf; ac nid yn unig hyny, eithr gan rai yn teimlo dyddordeb yn yr amgylchiadau, yn adnabod rhai o'r prif bersonau, ac yn gynnefin â'r ardaloedd. Y mae rhai o nodiadau a chofnodion y Brut hwn yn nodedig o fyw.

Er nad ydyw y Brut hwn yn rhoi hanes mor gyflawn o gyflwr pob rhan o'r wlad a'i gilydd, gallwn gasglu yn lled dda beth oedd sefyllfa pethau. Ysywaeth, yr oedd digon o farbareidd-iwch yn dyfod i'r golwg yn mrwydrau arweinwyr y genedl—nid â'r Normaniaid yn unig, ond â'u cyd-genedl hefyd. Etto, fe saif rhai cymmeriadau godidog, ar y cyfan, megys Gruffydd ab Cynan, yn glir iawn yn y tudalenau hyn; ac os trown o'r byd at yr eglwys, cawn ambell ddarlun o sant ac athraw, megys yr Esgob Sulien. Nid yw awduron y chwanegiadau hyn yn brin o glod pan y syrthiai gwroniaid felly.

Nid anfuddiol fyddai i haneswyr Cymreig y dyfodol ymdrin â'r pwngc i raddau pell iawn o'r ochr fywgraphyddol, gan fod yr elfen bersonol yn sicr yn un o'r elfenau amlycaf yn hanes helyntion ein gwlad. Ar ryw olwg, y mae hanes cyfansoddiad Prydain Fawr yn llawn mwy dyddorol nag amryw o gymmeriadau yr hanes; ond hanes Cymru, gan mwyaf, ydyw hanes ymdrechion ei harwyr.

Ar ol marwolaeth Caradog o Langarfan, yr hyn a gymmerodd le, yn ol y farn gyffredin, yn 1156, er fod rhai yn ammheu hyny, y mae yn lled debyg i'w gyfieithiad ef o'r *Annales Cambriæ*, ynghyd â'i nodiadau chwanegol, gael eu trosglwyddo i ryw le diogel. Trosglwyddodd hwy i fynachlog Ystrad Fflur, yn ol pob tebyg; a chafodd y gwaith ei gario yn mlaen yno.

O bossibl, hefyd, fod chwanegiadau wedi eu gwneyd at chwanegiadau Caradog ei hun, ac i'r cwbl gael ei adysgrifenu fel math o ragarweiniad i Gronicl Cenedlaethol Brenhinoedd a Thywysogion Cymru. Diammheu mai o Ystrad Fflur y daeth y cofnodion o 1164 i'r diwedd; gan fod rhai nodiadau, megys dan y blynyddoedd 1201, 1238, 1254, a 1280 yn cyfeirio mor amlwg at yno.

Ymddengys nad oedd cyfeiriadau boreuol yr *Annales Cambriæ*, yn enwedig at ddigwyddiadau Gwyddelig, o nemawr ddyddordeb i'w cyfieithwyr. I'r hynafiaethydd, fodd bynag, y mae y lle a roddir i'r Iwerddon yn nghofnodion cyntaf yr *Annales* yn arwyddocaol iawn. Diau fod cyssylltiadau agos rhwng y ddwy wlad, yn enwedig ynglŷn â materion eglwysig, y pryd hyny. Cymmerwyd cofnodion Gwyddelig yr *Annales*, fel y tybir, o'r llyfr Gwyddelig, *The Annals of Tigernach*. Y mae yn bur amlwg na wyddai awdwr 'Brut y Tywysogion' ond ychydig am yr Iwerddon. Ceir enghraifft nodedig iawn o hyn yn y nodiad sydd dan y fl. 704. Dywed yr *Annales Cambriæ*, o dan y flwyddyn hon, am farwolaeth Alfred, brenin Lloegr; ac ar ol dyweyd hyny, ceir y geiriau '*Dormitatio Adomnan;*' hyny yw, 'huniad Adomnan (neu Adamnan)'—un o'r enwau mwyaf adnabyddus ynglŷn â'r Eglwys Wyddelig. Meddyliodd y cyfieithydd Cymraeg mai nodiad oedd hyn ar fangre beddrod Alfred; a chamddarllenodd yr enw 'Adomnan' fel 'Ad Domnan' (yn Domnan)—a chawn gofnodiad ganddo i'r brenin Alfred gael ei gladdu yn Domnan. Dan y fl. 987, ceir camgyfieithiad arall rhyfedd iawn (os nad oedd gwahanol ddarlleniadau). Cyfieithir '*captis;*' hyny yw, 'wedi eu gwneyd yn gaethion, fel pe darllenasid '*oculis captis;*' hyny yw, 'wedi eu dallu.'

Tua chanol y ddegfed ganrif, cawn ambell chwanegiad at yr *Annales*, megys y cyfeiriad at frwydr Llanwenog. Cyfyd y cwestiwn hefyd yn naturiol iawn, O ba ffynnonell y cafwyd y cofnodion am ddigwyddiadau yn Ngogledd Cymru? Lled ammheuwn fod rhai o deulu neu gyssylltiadau Gruffydd ab Cynan, a'i olynwyr, wedi cyfranu o'u cofnodion a'u traddodiadau teuluaidd hwy at yr *Annales*. Er engraifft, fe ddywedir i fab i'r brenin Abloec gael ei ladd yn 988. Gwelir, hefyd, arwyddion amlwg o ddyddordeb yn nigwyddiadau yr Iwerddon, tua'r blynyddoedd 995 a 1013.

Bernir i'r *Annales Cambriæ* eu hunain gael eu gosod at eu gilydd, i ddechreu, yn y flwyddyn 954; ac y mae y nodiadau boreuol yn werthfawr iawn i'r ieithyddwr, yr hanesydd, a'r hynafiaethydd.

Diammheu fod Caradog ei hun mewn mantais i glywed llawer o draddodiadau y genedl yn y Deheudir, beth bynag, gan fod ei dad, Llefoed Wynebglawr yn fardd teulu i Gruffydd ab Morgan ab Iestyn, tywysog Morganwg. Ganwyd ef ei hun yn sir Frycheiniog tua chanol yr unfed ganrif ar ddeg. Y mae peth ammheuaeth ynghylch blwyddyn ei farwolaeth. Cawn ar ddeall gan Giraldus Cambrensis iddo gael ei gladdu yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, ger llaw allor St. Stephan. Derbyniodd y teitl o 'sant' o Rufain, oddi ar law y Pab Innocent III., drwy ddylanwad Giraldus Cambrensis.

Mae Ab Ithel, yn ei Ragymadrodd, yn galw sylw at yr hyn a ddywedodd Guttyn Owain—bardd o'r bymthegfed ganrif; sef, wedi marwolaeth Caradog, yn 1156, fod cronicl o frenhinoedd Cymru yn cael ei gadw yn Ystrad Fflur a Chonwy. Er nad ydyw yr awdurdod yn un cryf, gallwn yn hawdd dybied hyny ar sail y cofnodion eu hunain. Dywed yn mhellach fod y cofnodion hyn yn cael eu cymmharu bob tair blynedd, pan yr elai y beirdd o'r naill fynachlog i'r llall ar eu teithiau clera. Ammheuwn, hefyd, mai rhai o'r beirdd hyn, y rhai oeddynt yn gynnefin â thraddodiadau De a Gogledd Cymru, a gasglasant ddefnyddiau 'Pedair Caingc y Mabinogi.'

Diwedda ffurf wreiddiol Brut y Tywysogion gyda marwolaeth yr Arglwydd Rhys. Yn y gweddill, sonir am y Cymry fel Cymry—ac nid fel Brytaniaid, megys o'r blaen.

### Brut y Tywysogion (B), neu Frut Aberpergwm.

Diwedda y Brut hwn yn 1196; ond orgraph yr unfed ganrif ar bymtheg yw ei orgraph. Ffurf diweddar ar y Brut blaenorol, yn ol pob tebyg, ydyw; er na wyddis etto i sicrwydd pa fodd, na phaham, yr ysgrifenwyd ef. Un peth a ddengys yn amlwg—nad oedd gan yr awdwr gymmhwysder neillduol iawn i gyfansoddi hanesiaeth, gan ei fod yn ymhelaethu ar bethau nas gallasai feddu ar wybodaeth fanwl am danynt. Etto, gall fod yr awdwr hwn, ar brydiau, wedi cofnodi ffeithiau gwirioneddol o ddigwyddiadau y cydoesai ef ei hun â hwy; a dylid o'r herwydd chwilio ei waith yn fanwl.

### Brut Ieuan Brechfa.

Blodeuai Ieuan Brechfa yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Nis gellir dyfalu yn eglur paham yr ysgrifenodd yntau y Brut hwn. Talfyriad

Digitized by Google

ydyw o Brut y Tywysogion: etto, byddai yn fuddiol gwneyd ymchwiliad manwl i'w gyssylltiadau â'r Brut hwnw.

Brut y Saeson (*Myvyrian Archaeology*).

Fel y crybwyllwyd eisoes, ei wir enw ydyw Brenhinoedd y Saeson. Cyfansoddiad diweddar, heb fod nemawr o werth hanesyddol na llenyddol ynddo, yw hwn hefyd.

Brut y Saeson (*Llyfr Coch o Hergest*).

Talfyriad yw hwn etto o Frut y Tywysogion.

Hanes Gruffydd ab Cynan.

Saif hwn ar dir lled debyg, fel hanesiaeth, i 'Frut y Tywysogion;' a theifl gryn lawer o oleuni, nid yn unig ar y gŵr nodedig sydd yn wrthddrych iddo, ond hefyd ar yr holl gyfnod.

O'r ochr ieithyddol, dylai efrydydd y Brutiau, pan yn meddu ar wybodaeth ddigonol i allu gwneyd hyny, gymmharu y cyfieithiadau Cymreig â'r Lladin, er mwyn gweled pa beth a fu dylanwad cyfieithu felly ar arddull yr iaith; yn enwedig fel yr oedd hi yn foddion i symbylu y genedl i helaethu ei geiriadaeth. Gellir dyweyd hyn yma, mai anaml y byddai y cyfieithwyr yn cyfieithu yn llythyrenol; ac ar brydiau, byddent, megys yn nghyfieithiad *Dares Phrygius*, yn gwneyd rhai camgymmeriadau gwir bwysig. Byddai cyhoeddiad gwahanol ddarlleniadau o hen lawysgrifau y Brutiau yn gymmhorth, yn ddiddadl, i olrhain hanes tyfiant rhai o dafodieithoedd Cymru.

YMDDADBLYGIAD. Mae y gair 'Ymddadblygiad,' ar y cyfan, yn gosod allan ystyr y gair *Evolution* yn well na Dadblygiad, er mai yr olaf a ddefnyddir amlaf gan ysgrifenwyr y dyddiau hyn. Mae damcaniaeth Ymddadblygiad wedi creu mwy o chwyldroad yn myd y meddwl nag un ddamcaniaeth arall y gwyddom am dani. Gwnaeth Seryddiaeth cryn gynnhwrf pan ddeallwyd mai y ddaear oedd yn troi o amgylch yr haul, ac nid yr haul o amgylch y ddaear—yn ol syniad yr hen seryddwyr, yn gystal a duwinyddion. Cyffrodd Daeareg fwy ar y byd crefyddol na hyny, pan y cyhoeddwyd ffeithiau i brofi fod y ddaear yn hen—tua chan miliwn (100,000,000) o flynyddoedd, ac nid tuag wyth mil (8,000), fel yr arferid tybied. Lliosog yw yr ymdrechion sydd wedi bod i geisio cyssoni hanes y cread yn y bennod gyntaf yn Genesis â thystiolaeth iaith ddiymwad y creigiau. Erbyn hyn, y farn gyffredin yw, mai cyfnodau, ac nid dyddiau cyffredin o bedair awr ar hugain, a geir gan Moses. Ond nid oedd dylanwad y pethau a nodwyd agos mor ddwfn a chyrhaedd-bell ag effaith y ddamcaniaeth newydd ddiweddaraf; sef, Ymddablygiad.

Ynglŷn â phob diwygiad mawr, yn mhob cylch, y mae un ffaith sydd yn deilwng o sylw; sef, fod y pwngc yn cyffroi meddyliau amryw bersonau bron yn gyfamserol; ond fod ysbryd y pwngc, megys, yn ymgnawdoli mewn rhyw un person o athrylith neillduol; ac o herwydd hyny, cyssylltir enw hwnw â'r ddysgeidiaeth newydd, o ba natur bynag y byddo. Er engraifft, yr oedd Jerome o Prague, a John Huss, yn ddiwygwyr o flaen y Diwygiad; ond gellir dyweyd, gyda phriodoldeb, mai yn Luther yr ymgnawdolodd y Diwygiad Protestanaidd. Yr un fath am ddamcaniaeth Ymddadblygiad; yr oedd yr egwyddor wedi cyffroi meddyliau naturiaethwyr o flaen Charles Darwin; y rhai a gydnabyddir ganddo, yn ol ei degwch arferol yn nglŷn â'r ddamcaniaeth hon. Y ddau brif ddiwygiwr 'o flaen y diwygiad,' oedd Lamarck, a Robert Chalmers. Ond y mae pwysigrwydd neillduol yn perthyn i enw Alfred Russell Wallace, am yr edrychir ar Darwin a Wallace fel cyd-ddarganfyddwyr y ddamcaniaeth. Ond yn Darwin yr ymgnawdolodd yr ysbryd helaethaf; ac o herwydd ei athrylith gref, a'i lafur dirfawr, cyssylltir ei enw ef yn benaf â damcaniaeth Ymddadblygiad.

Y llyfr cyntaf i alw sylw neillduol at y ddamcaniaeth oedd yr hwn a elwid yn *Dechreuad Rhywogaethau* (*The Origin of Species*), yn yr hwn y corpholodd Darwin ei syniadau, ac y casglodd ei lafur am ugain mlynedd. Dilynwyd hwn gan y llyfr a elwir *Disgyniad Dyn* (*The Descent of Man*), yn yr hwn y gweithiodd allan egwyddorion y llyfr cyntaf yn mhellach, ac y dysgodd fod 'dyn,' fel pob creadur arall, wedi cael ei fodolaeth trwy egwyddor ymddadblygiad, ac nid trwy greadigaeth neillduol o eiddo Duw, fel yr arferid tybied. Cyn hyn, barn naturiaethwyr, fel dysgawdwyr eraill, oedd, fod rhywogaethau (*species*) yn greadigaethau neillduol, ac wedi aros felly o'r dechreuad. Hyn oedd barn y daearegwr enwog, Charles Lyell, ychydig cyn i Darwin gyhoeddi ei syniadau; a thybiai Agassiz fod y rhywogaethau wedi eu creu yn y lleoedd a breswylir ganddynt. Ond mor fawr ydyw y cyfnewidiad! Diau fod Wallace yn agos i'w le wrth ddywedyd fod Ymddadblygiad Cymmedrol (*Modified Evolution*) yn cael ei derbyn yn awr fel egwyddor yn bur gyffredinol. Ni a geisiwn yma egluro ei hegwyddorion.

I. DEWISIAD NATURIOL A GOROESIAD Y CYFADDASAF.

Dewisiad naturiol yw yr egwyddor y rhoddodd Darwin y pwys mwyaf arni yn ei ddamcaniaeth. Rhaid cymmeryd nifer o ffeithiau i ystyriaeth er mwyn deall yr egwyddor hon.

1af, Y gallu rhyfeddol sydd gan greaduriaid i gynnyrchu, a lliosogi. Y mae y gorchymyn, 'Ffrwythwch ac amlhewch, a llenwch y dyfroedd yn y moroedd, a lliosoged yr ehediaid ar y ddaear,' wedi ei gyflawni yn llythyrenol. Y mae rhai hadau yn dwyn ffrwyth ar eu degfed ar hugain, eraill ar eu tri-ugeinfed, ac eraill ar eu canfed. Mae y cynnyrch mor fawr fel nad oes un o bob deg, un o bob cant, neu yn fynych un o bob mil, ac weithiau un o bob miliwn, yn cael byw, a dwyn ffrwyth. Dywedir fod y pysgodyn penfras (*cod*) yn bwrw naw miliwn (9,000,000) o ŵyau (*spawn*) yn flynyddol. Pe na buasai anifeiliaid yn byw ar lysiau, ac ar eu gilydd, fe lanwai y ddaear a'r moroedd mewn byr amser. A'r cwestiwn yw, pa rai o'r hadau sydd i egino a dwyn ffrwyth?—a pha rai sydd i gael eu dyfetha? Pa greaduriaid sydd i fyw ac eppilio—a pha rai sydd i gael eu dyfetha mewn gwahanol ffyrdd? Dywedir fod nifer y pysgod yn y môr, nifer yr adar yn yr awyr, a nifer yr anifeiliaid ar y meusydd, yn debyg o oes i oes, am mai nifer pennodol, wrth reswm, y gall y ddaear eu cynnal yn fyw. Penderfyna deddf dewisiad naturiol y cwestiwn. Cymmer ymdrechfa neu frwydr barhaus le drwy holl natur, a'r 'addasaf' sydd yn goroesi a byw —(*the survival of the fittest*). Y llew yw brenin y goedwig; ond gall hanner dwsin o lewod fod â'u golwg ar yr un orsedd, ac ymleddir brwydr rhyngddynt hyd at waed; a'r llew cryfaf sydd, mewn canlyniad, yn teyrnasu. Nid y cryfaf,

Digitized by Google

bob amser, sydd yn byw—ond yr addasaf. Y llysieuyn addasaf i'r hinsawdd, ac i'r ddaear, sydd yn hadu, a byw. Y mae yr egwyddor hon yn teyrnasu yn mhlith pysgod y môr, ehediaid yr awyr, ymlusgiaid y llawr, ac anifeiliaid y maes. Fel rheol, yr addasaf sydd yn goroesi. Y mae hyn yn cyfrif, mewn rhan, nid yn unig am barhâd bywyd ar y ddaear, ond am gynnydd a gwelliant (*progress*); neu mewn geiriau eraill, am Ymddadblygiad.

2il, Mae'r llysieuyn, a phob creadur, yn dwyn ffrwyth, ac yn cynnyrchu hâd, yn ol eu rhywogaeth. Mae'r 'tebyg' yn cynnyrchu ei 'debyg.' 'Egined y ddaear egin, sef llysiau yn hadu hâd yn ol eu rhywogaeth, a phrenau ffrwythlawn yn dwyn ffrwyth, wrth eu rhywogaeth.' Y ddeddf neu yr egwyddor hon sydd yn rhoddi sicrwydd i'r amaethwr, wrth hau gwenith, mai gwenith a fedir ganddo; ac nid ceirch, neu ryw rawn arall. 'Yr hyn a hauo dyn, hyny hefyd a fêd efe,' medd yr egwyddor hon. Sicrhâ hon na bydd i gorlan defaid yr amaethwr ddim dirywio i fod yn gorlan o eifr—am fil o genedlaethau, a dyweyd y lleiaf. Yr egwyddor hon sydd yn sicrhau nad ydyw gwahanol rywogaethau (*species*) ddim yn cymmysgu â'u gilydd am filoedd o genedlaethau, yn ol dysgeidiaeth dadblygwyr: neu, yn ol yr hen dybiaeth, eu bod hwy ar wahân o'r dechreuad—yn anghyfnewidiol.

3ydd, Y mae tuedd gref i amrywio yn y ddwy deyrnas fywydol—y lysieuol a'r anifeilaidd. Os hauir gwenith, medir gwenith. Ond o hanner cant o ronynau a gynnyrchwyd gan un wenithen, ni cheir dau yr un fath yn hollol, er eu bod oll yn debyg i'w gilydd. Ni cheir dau blentyn, dau oen, na dau aderyn, yr un fath. Y mae yr amrywiad yn fwy mewn rhai na'u gilydd; ac os bydd yr amgylchiadau yn ffafriol, gan y penaf y bydd y fantais oreu i oroesi. Y llew cryfaf, yr aderyn prydferthaf, y llysieuyn iachaf, sydd yn meddu ar y fantais oreu i fyw. Y mae parhâd yr oll allan o'r cwestiwn; a'r addasaf, fel rheol, sydd yn byw. Felly, gwelir fod natur yn dethol. Wedi i'r amrywiad ddechreu, bydd yn myned rhagddo o genhedlaeth i genhedlaeth; a bydd y nodweddion a enillir yn cael eu trosglwyddo o'r rhïeni i'r plant. A'r ddadl yw, fod yr amrywiadau (*varieties*), yn mhen miloedd o genedlaethau, yn dadblygu yn rhywogaethau (*species*) gwahanol. Y mae Darwiniaeth yn sefyll neu yn syrthio ar y dybiaeth hon.

4ydd, Dewisiad trwy gyfryngiad dyn. Y mae gan ddyn law amlwg mewn dadblygiad bywyd ar y ddaear—yn enwedig mewn gwlad wareiddiedig, lle y gall ffrwyno y mellt, gwneyd ffordd i'r taranau, pwyso y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn clorianau; a gorchymyn i'r dwfr a'r ager, y tân a'r trydan, ei wasanaethu mewn mil a mwy o ffyrdd. Dyna un rheswm fod bwystfilod rheibus yn darfod yn raddol mewn gwledydd gwareiddiedig, a chreaduriaid dofion yn cymmeryd eu lle. Pan y mae yr amaethwyr yn prynu yr hâd goreu i hau, yn cadw yr ŵyn goreu, eu lloi goreu, eu hebolion goreu, er mwyn cael gwell *stor*, gweithredant ar yr un egwyddor ag a wna natur yn hollol; ond fod yr ymddadblygiad yn llawer cyflymach trwy gyfryngiad dyn, na phan y gadewir i natur weithredu o honi ei hun. Mae hi yn ffaith fod ŵyn wedi eu prynu o'r un gorlan o ddefaid gan amaethwyr, yn byw mewn ffermydd gwahanol o ran ansawdd y tir, yr hinsawdd, a'r safle, yn dadblygu mor wahanol i'w gilydd, yn mhen blynyddoedd, nes myned mor wahanol i'w gilydd a defaid y mynydd-dir a defaid y dyffryndir. Yr un modd am y ceffylau:—gall ceffylau o'r un rhywogaeth (*breed*), yn mhen, dyweder, bum can mlynedd, trwy driniaeth wahanol a dadblygiad, fyned mor wahanol i'w gilydd a'r ceffylau cryfion sydd yn llusgo y gwageni trymion yn y trefydd mawrion, a'r ceffylau ysgeifn sydd yn cael eu cadw yn bwrpasol er mwyn rhedeg mewn rhedegfeydd. Y mae un yn sylwi mai hyn a barodd i Darwin feddwl am y ddamcaniaeth; sef, olrhain yr egwyddor a welir yn gweithio er dadblygiad trwy ddetholiad dyn i diriogaethau natur. Gwnaeth Darwin ei hun ei brawfion (*experiments*) ar y colomenod. Dywed fod yn y wlad hon un-ar-ddeg o rywogaethau o golomenod, a'u bod oll wedi ymddadblygu o golomen y graig (*rock pigeon*), a bod tuedd ynddynt i ddirywio os gadewir hwy iddynt eu hunain. Dywedir fod deng mil o rywogaethau o afalau yn y wlad hon, a'u bod oll wedi dadblygu o afal sûr y cloddiau (*crab apple*).

II. DEWISIAD YN OL RHYW (*sexual selection*).

Dengys Darwin fod dewisiad y naill ryw o'r llall i'w ganfod yn mhlith pob math o rywogaethau. Y mae nerth, maint, a phrydferthwch yn hynodi y gwrywod fel rheol, o bob cenedl, llwyth, rhywogaeth, a dosbarth—ac eithrio y pysgod. Y benywaidd yn mhlith y pysgod sydd yn meddu ar y nodweddion hyn. Yn amser eppilio, y mae y gwrywod yn hynod o ymladdgar, a'r rhai cryfaf a harddaf sydd yn ennill y dydd; a'u hiliogaeth hwy, mewn canlyniad, sydd yn parhau, a rhai gwan a di-olwg yn darfod. Traethir yn helaeth ganddo ar yr adar; ac er mwyn deall yr egwyddor, rhoddwn yma gyfieithiad o sylwedd yr hyn a geir ganddo ar y pwngc:—

'Y mae y rhan liosocaf o'r adar gwrywaidd yn hynod o ymladdgar yn amser y tymmor i eppilio. Medd rhai arfau pwrpasol i ymladd â'u cydymgeiswyr. Ond nid yw y gwrywod mwyaf ymladdgar, a goreu-arfog, yn fynych, os byth, yn dibynu yn hollol am lwyddiant ar eu gallu i yru ymaith neu i ladd eu cydymgeiswyr; ond meddant gyfryngau neillduol i ddenu y benywod. Gyda rhai, gallu i ganu ydyw, ac i wneyd lleisiau hynod, ac i gynnyrchu cerddoriaeth offerynol: ac mae'r gwrywod, mewn canlyniad, yn eu peirianau lleisiol, neu yn ffurfiad eu plu neillduol, yn rhagori ar eu gilydd. Trwy eu cyfryngau cywrain i gynnyrchu seiniau, ceir allan syniad uchel am bwysigrwydd y moddion hyn o garwriaeth. Ymdrecha llawer o'r adar wneyd hyn trwy gariad-ddawnsiau ac ystumiau, y rhai a gyflawnant ar y ddaear neu yn yr awyr, ac weithiau mewn lleoedd darparedig. Ond addurniadau o bob math yw y cyfryngau mwyaf cyffredin. Mewn rhai amgylchiadau, gwasanaetha newydddeb yn unig fel swyn. Rhaid fod addurniadau y gwrywod yn hynod o bwysig iddynt; o herwydd enillir hwynt weithiau ar draul perygl cynnyddol iddynt oddi wrth eu gelynion; a phryd arall, trwy golli nerth i ymladd â'u cyd-ymgeiswyr. Arddangosant eu swynion gyda gofal darparedig, ac i'r effaith goreu. Y mae adar yn meddu ar allu gwahaniaethol cryf: a gwelir mewn rhai o honynt chwaeth at y prydferth.'—*Descent of Man*, cyf. ii., td. 232—238.

Dylem sylwi fod Wallace yn gwahaniaethu yn ddirfawr oddi wrth Darwin ar wasanaeth lliwiau. Yn ol Wallace, prif amcan lliwiau yw diogelwch. Mae eirth y pegynau (*polar bears*)

Digitized by Google

yr un lliw a'r eira. Y mae ieir y mynydd yr un lliw a'r grug. Y mae y pysgod a'r dwfr yr un lliw. Y mae adar mewn coedwigoedd gleision yr un lliw a dail y coed, a hyny wedi ei drefnu er mwyn diogelwch. Ond ceir, weithiau, liw fel yn nodi allan y creadur, fel y bydd yn hawdd i'w elyn ei weled. Ond attebir fod y lliw neillduol yn nôd i'r rhywogaeth i adnabod eu gilydd, ac er mwyn eu galluogi i rybuddio eu gilydd yn ngwyneb perygl. Dywed Wallace fod yr egwyddor hon, sef, fod lliw yn gwasanaethu er mwyn diogelwch, wedi newid llawer ar liwiau hanner y creaduriaid a breswyliant y ddaear. Natur, neu gyfansoddiad y creadur, diogelwch, ac arwydd, yw y prif elfenau sydd yn cyfrif am y gwahanol liwiau.

Ni cheisiwn benderfynu rhwng y ddau naturiaethwr enwog. Dichon fod gwirionedd yn y ddwy dybiaeth. Dywed Darwin, os gellir profi fod rhywbeth yn bod er mwyn prydferthwch yn unig, y drylliai hyny ei holl gyfundrefn ef. Beth bynag sydd yn cyfrif am y ffaith, y mae prydferthwch yn elfen bwysig a gogoneddus mewn natur, ac wedi ei bwriadu i wneuthur y byd yn ddedwydd. Modd bynag, diau fod gwasanaeth lliwiau, a dewisiad y naill ryw o'r llall, wedi bod yn elfenau pwysig yn nadblygiad bywyd ar y ddaear, o ffurfiau is i ffurfiau uwch, ac yn cadarnhau yr egwyddor o ddewisiad naturiol.—*Darwinism by Wallace;* td. 186—230.

III. RHAI PROFION FOD UN MATH O RYWOGAETHAU YN CYNNYRCHU RHAI GWAHANOL IDDYNT, YN MHEN MILOEDD O GENEDLAETHAU.

Fe ddichon mai yma y dylid gwneyd sylw o'r dybiaeth fod rhywogaethau, wrth eu croesi, yn myned yn ddi-eppil. Yr oedd yr hen naturiaethwyr yn ystyried fod eppiledd, neu ddïeppiledd (*sterility*) yn profi pa beth a olygid wrth 'rywogaeth;' *h.y.*, fod rhywogaethau (*species*) wrth eu croesi yn myned yn ddïeppil. Yr engraifft fwyaf adnabyddus yw y mulod (*mules*). Y mae ceffylau ac asenod yn rhywogaethau gwahanol; ac wrth eu croesi y maent yn myned yn ddïeppil. Y mae gan Darwin lawer o bennodau ar y pwngc; yr hyn a ddengys ei fod yn bwysig i'w ddamcaniaeth ef. A chwanegodd Wallace lawer o ffeithiau pwysig at yr hyn a ysgrifenwyd ganddo. Dibyna y cwestiwn, i raddau, ar yr hyn a olygir wrth 'rywogaeth;' ac nid ydyw amrywiaethau bob amser yn eppilio. Dibyna eppiledd, neu ddïeppiledd, lawer ar amgylchiadau, a hinsoddau, yn gystal âg ar agosrwydd perthynas y naill greadur a'r llall, neu y naill lysieuyn a'r llall. Credwn fod Darwin wedi profi fod un-ar-ddeg o rywogaethau o golomenod wedi dadblygu o golomen y graig, fel y sylwyd eisoes. Gwyddis fod llawer o lysiau yn blodeuo ac yn dwyn hâd, trwy fod y gwenyn, wrth gasglu mêl, yn cario gofiawd blodau (*pollen*) o'r naill flodeuyn i'r llall. Fel hyn y cynnyrcha y meillion ar y meusydd hadau. Dywedir am ddau rywogaeth gwahanol o friallu, fod gofiawd y naill rywogaeth yn dwyn hâd wrth ei ddwyn at rywogaeth gwahanol; ond yn ddiffrwyth wrth ei ddwyn at flodeuyn o'r un rhywogaeth ag ef. Dygir profion hefyd gan fugeiliaid, fod defaid a geifr yn eppilio wrth eu croesi â'u gilydd, yn Ngogledd Ewrop, ac yn America.—*Darwinism by Wallace*, td. 168—171. Y rheswm, meddir, fod y mulod heb eppilio yw, fod y ceffylau a'r asenod yn rhywogaethau pell iawn oddi wrth eu gilydd; ac ystyria rhai hwy yn genedlaethau (*genera*) gwahanol. Os felly, y mae hyn yn arddangos fod y berthynas yn mhellach fyth. Addefir yn rhwydd fod yr un rhywogaethau wedi aros heb newid am dair mil o flynyddoedd, fel y dengys yr arwydd-luniau ar y *Pyramidiau* yn yr Aipht, a phrofion eraill. Ond nid yw ond megys tri diwrnod, wrth eu cymmharu â'r cyfnodau meithion trwy ba rai y bu deddf dadblygiad yn gweithio, i gynnyrchu y ddwy deyrnas fywydol hyn—y lysieuol, a'r anifeiliaidd—fel y gwelir hwynt heddyw yn eu holl amrywiaeth, prydferthwch, a gogoniant.

Ystyrir ymddadblygiad y ceffyl yn engraifft ragorol i egluro yr egwyddor hon. Y mae hi yn ffaith hynod nad oedd ceffylau yn America pan y darganfyddwyd y wlad gan Ewropiaid. Ond dengys gweddillion (*fossils*) y wlad hon ei bod yn llawn o geffylau, yn y De a'r Gogledd yn y *Post-Tertiary* a'r *Upper Pliocene Periods*. Ymddengys fod tylwyth yr *Equidæ*—i'r hwn y perthyna y ceffylau, yr asenod, a'r *zebras*—wedi dadblygu o greadur tua maintioli llwynog, yr hwn a berthynai i rywogaeth yn nghyfnod y *Lower Eocene*. Gelwir ef *Eohippus*. Yr oedd ar ei draed blaen bedwar o fodiau, a gweddillion un arall, yr hwn a ddiflanai yn raddol; ac yr oedd ar ei draed ôl dri o fodiau. Y mae y ceffyl, meddir, wedi dadblygu o'r creadur hwn, oedd o faintioli llwynog. Y mae y cyfnewidiad yn fawr o ran maint, ac o ran nodweddion, fel y gwelir oddi wrth ffurf y traed. Yr oedd angenrheidrwydd am yr holl amser, o'r *Eocene*, hyd y cyfnod diweddar, i'r naill ddadblygu o'r llall. Dyma egwyddor damcaniaeth dadblygiad; yr hon sydd yn cyfrif, yn ol Darwin, am y ddwy deyrnas fywydol. Ei farn ef yw fod y deyrnas anifeilaidd wedi dadblygu o bedwar neu bump o hynafiaid, a'r deyrnas anifeilaidd o nifer gyffelyb—neu lai na hyny. Yn wir, tybia fod cyfattebiaeth yn ffafrio y syniad fod y deyrnas anifeilaidd a llysieuol wedi dadblygu o un cyn-ffurf, neu ffurf gwreiddiol (*prototype*), er nad ydyw ef yn hòni y gall efe brofi y pwngc.—*Origin of Species*, td. 422.

Buasai damcanyddiaeth ymddadblygiad yn ammhossibl heb y cofnodau meithion daearegol. Pan yr oedd naturiaethwyr, fel y duwinyddion, yn credu fod y byd wedi ei greu tuag wyth mil o flynyddoedd yn ol, nis gallai neb gredu yn y ddamcaniaeth hon; o blegid, a siarad yn gyffredinol, y mae y rhan fwyaf o'r rhywogaethau wedi aros heb gyfnewid yn ystod yr amser hwnw; a barn llawer yw, fod y cyfnodau daearegol, o gan miliwn (100,000,000) o flynyddoedd, yn rhy fyr i'r ddamcaniaeth roddi cyfrif am fywyd y greadigaeth. Modd bynag, heb gyfnodau meithion, ni buasai y ddamcaniaeth yn bossibl. Os ydyw yn wir, ni wna un math o gyfnewidiad ymarferol mewn perthynas i fywyd y gwahanol rywogaethau, mor bell ag y maent yn dal perthynas â dyn, am fod y dadblygiad mor raddol. Ni wnaeth darganfyddiad deddf dysgyrchiad ddim gwahaniaeth yn mywyd dynion ar y ddaear—ond eu bod wedi cywiro eu syniadau. Felly, hefyd, fe ä y byd rhagddo fel o'r blaen, pa un bynag a ydyw damcaniaeth ymddadblygiad yn wir, ai nid yw; ond y mae wedi creu chwyldroad yn marn dysgedigion am gynllun gwaith Duw yn y cread.

IV. PERTHYNAS YR ORGANYDD A'R AMGYLCHFYD (*environment.*)

**Cyfaddefodd Darwin nad oedd efe wedi rhoi pwys digonol ar ddylanwad yr amgylchfyd ar**

Digitized by Google

yr organydd, a'r duedd i amrywio drwy hyny. Y mae holl hanes pob bywyd yn gynnwysedig yn yr organydd a'i amgylchfyd. Y mae pob ffermwr a phob garddwr yn deall y berthynas hon. Un pwngc ydyw hâd da, a'r pwngc arall yw tir addas iddo, wedi ei wrteithio yn dda, i hau yr hâd ynddo. Rhaid i'r hâd a'r tir gyfatteb i'w gilydd. Mewn adeg o sychder mawr mewn anialdiroedd, wedi i'r glaswellt wywo, gall y *giraffe* fyw ar ddail y coed; a'r *giraffe* â'i wddf hiraf fydd byw wedi i'r lleill drengu; a hâd hwnw fydd yn goroesi. Dywedir fod gwddf y *giraffe* yn ymestyn wrth iddo ymarfer ei estyn i gyrhaedd dail y coed. Pan yr oedd rhedyn anferth, a llysiau eraill, yn tyfu yn y cyfnod, pan y ffurfiwyd y glô, yr oedd awyrgylch y ddaear yn wenwynig, ac yn rhy afiach i ddyn fyw arni. Ond yr oedd eisieu llysiau y cyfnod hwnw er mwyn i natur wneyd y glô sydd yn nghrombil y ddaear, er mwyn gwasanaethu dyn yn y cyfnod presennol. Pan gafodd y dyn cyntaf ei fodolaeth, yr oedd y ddaear, neu ran o'r ddaear, yn baradwys; a hono yn llawn o flodau persawrus, ac o goed ffrwythlawn, er mwyn bod yn gartref addas iddo. Yr oedd y dyn a wnaethpwyd ar ddelw Duw â'i amgylchfyd (*environment*), yn cyfatteb y naill i'r llall. Felly o hyd. Os na bydd yr amgylchfyd yn ffafrio ymddadblygiad, cymmer dirywiad le. Weithiau, cyll y creadur neu y llysiau wasanaeth synwyrau neu ermigau, am nad oes eu hangen yn eu byw presennol—y rhai a fuont o wasanaeth i'w hynafiaid mewn sefyllfa wahanol. Y mae Drummond yn sylwi yn fedrus ar y pwngc hwn. Cyfeiria, yn mysg enghreifftiau eraill, at bysgod yn byw mewn cilfachau, neu ogofeydd, wedi colli eu golwg, am nad oes yno oleuni; ac felly, nad oes eisieu llygaid arnynt. Y mae gwisgoedd y creaduriaid sydd yn byw yn oerni y pegynau wedi eu cyfaddasu gan natur ar eu cyfer. Rhaid cadw planhigion gwledydd o hinsawdd cynnes mewn adeiladau cynnes (*hot-houses*) yn y wlad hon, yn enwedig yn y gauaf; ac y mae y rhai tyneraf yn gofyn ymgeledd hyd yn oed yn yr haf. Gwelir, felly, fod yr amgylchfyd yn effeithio ar anifeiliaid a llysiau (*flora a fauna*) pob cyfnod. Y casgliad cyffredinol y deuir iddo yw, fod y ddaear mewn ystyr materol, wedi ymddadblygu, cyfnodau ar ol cyfnodau, er mwyn bod yn feithrinfa i fywyd —yr hwn oedd yn ymddadblygu o ffurfiau is i ffurfiau uwch. Gwelir dylanwad yr amgylchfyd ar yr organydd, yn y cyfnewidiad a wna tymmhorau gwahanol yn ein gwlad ni. Dibyna y cnwd, nid yn unig ar yr hâd a'r tir, ond ar y tywydd. Ceir ffrwyth ardderchog ar y coed un flwyddyn, a ffrwyth mân a gwael ar yr un coed y flwyddyn arall; a hyny yn unig o herwydd effaith y tywydd. Dyna yr egwyddor sydd yn dangos perthynas yr organydd â'r amgylchfyd. Gwelir yr un egwyddor mewn cymdeithas. Y mae delw deddfau y wlad, ac arferion y wlad, ar y trigolion sydd yn byw ynddi. Ond y mae gan ddyn, mewn rhan, ddewisiad yn y pwngc hwn.

V. Lle Etifeddogaeth (*Heredity*) mewn Ymddadblygiad.

Yr ydym wedi cyfeirio eisoes at yr egwyddor 'fod tebyg yn cynnyrchu ei debyg' drwy y greadigaeth fywydol. Ond ynglŷn â hyn, y mae tuedd i amrywio hefyd yn egwyddor gyffredinol. Y mae y plant oll yn debyg i'w tad a'u mam:—rhai yn fwy tebyg i'w tad, ac eraill yn fwy tebyg i'w mam; a rhai yn fwy tebyg i'w gilydd na'r lleill. Ac weithiau, bydd ambell blentyn yn fwy tebyg i'w daid, neu ei hen daid, nag i'w dad; ac un arall yn fwy tebyg i'w nain, neu ei hen nain, nag i'w fam. Ond ni cheir byth ddau blentyn yr un fath yn hollol, nac un o honynt yr un fath yn hollol a pherthynas pell, neu agos. Y prif reswm am yr amrywiad (*variation*) hwn, meddir, ydyw y ffaith fod pob un (a gadael allan ychydig eithriadau yn ffurfiau isaf bywyd) yn gynnyrch dau ryw. Mewn ystyr, y mae gan bob llysieuyn, a phob creadur, dad a mam.

Nid yw egwyddor etifeddogaeth yn un hawdd i'w deall. Yn mrwydr mawr bywyd, gan nas gall natur gynnal un o bob deg, neu o bob cant neu fil, o'i hiliogaeth, yr addasaf sydd yn goroesi, fel rheol. Ystyrir yr un fyddo yn meddu ar nodweddion arbenig yn meddu mantais ar y lleill, a bod ei nodweddion yn ymddadblygu yn yr ymgais am fywyd. A'r cwestiwn anhawdd i'w benderfynu ydyw hyn:—a drosglwyddir i lawr i'r hiliogaeth y nodweddion a ennillir, ac a ddadblygir, ai ni wneir? Nid oes dadl ynghylch y nodweddion naturiol a gwreiddiol; ond gwahaniaetha awduron enwog yn fawr am y nodweddion a ennillir (*acquired characteristics*). Dyna bwngc y ddadl sydd rhwng y Proff. Weismann a Mr. Herbert Spencer. Dadleua Weismann yn gryf, a chymmerir ei blaid gan naturiaethwyr eraill, nad ydyw y nodweddion hyn yn drosglwyddadwy, neu yn etifeddol. Ond dywed Herbert Spencer, 'naill ai fod y nodweddion ennilledig wedi eu hetifeddu, neu nad oes y fath beth wedi bod ag ymddadblygiad.' Geiriau cryfion yw y rhai hyn; ond credwn fod y pwngc yn eu cyfiawnhau. Y mae cryn lawer i'w ddywedyd, er hyny, dros yr ochr a gymmerir gan Weismann. Cymmerer un enghraifft. Ystyrir hen frodorion Awstralia yn mhlith y llwythau iselaf o ddynion sydd mewn bod. Nis gall y goreu o honynt gyfrif mwy na phedwar. Ond dywed Kidd, yn ei lyfr rhagorol ar *Social Evolution*, fod plant y brodorion hyn, yn un o ysgolion y llywodraeth, wedi pasio am dair blynedd yn olynol yn ol y rhifedi uchaf oedd yn bossibl (100 *per cent.*); a'u bod wedi rhagori ar blant yr Ewropeaid oedd mewn ysgolion cyffelyb, yn ol yr un safon. Dengys y ffaith hon gymmaint sydd yn dibynu ar addysg a diwylliad dyn, yn ogystal ag ar amgylchoedd pob rhywogaeth. Nid ydyw plant y dysgedigion yn etifeddu addysg eu rhieni; ond rhaid iddynt ddringo eu hunain i fyny bob ffon o ysgol addysg, yr un fath yn hollol a phlant y rhai mwyaf anwybodus o fewn y wlad. Ond anhawdd ydyw credu nad oes yna beth mantais feddyliol wedi ei hetifeddu. Nid fel rheol, chwaith, y bydd plant dynion o athrylith yn deilwng o'u rhieni. O'r ochr arall, anfynych y ceir dyn enwog iawn heb fod rhywbeth yn ei dad neu ei fam, neu yn llinach ei dad neu ei fam? Arferid credu fod yr afiechyd angeuol, darfodedigaeth, yn etifeddol; ond barn meddygon enwog yn awr ydyw, mai *lungs* gweiniaid a etifeddir; ac felly fod y plant yn fwy agored na phlant eraill i fyned yn ysglyfaeth i'r gelyn. Onid ydyw hyn yn wir hefyd yn feddyliol a moesol? Diau fod tueddiadau at ddrwg neu at dda yn cael eu hetifeddu, er fod annibyniaeth personol pob dyn yn cael ei ddiogelu. Pe buasai natur yn gorfod dechreu byd o'r newydd yn barhaus, methwn a gweled, gyda



Digitized by Google

Herbert Spencer, pa fodd y gallai ymddadblygiad gymmeryd lle o gwbl: a'r casgliad y deuwn ato yw, fod etifeddiogaeth wedi chwareu rhan bwysig yn nadblygiad bywyd ar y ddaear.

VI. Bodolaeth Dyn yn ngoleuni damcaniaeth Ymddadblygiad.

Gwaith Darwin yn cyhoeddi ei lyfr, a elwir yn *Ddisgyniad Dyn* (*The Descent of Man*), a barodd y cyffro mwyaf yn y byd crefyddol; ond yr oedd y gwaith hwn yn dilyn yn naturiol ei lyfr blaenorol ar *Ddechreuad Rhywogaethau*. Credwn y buasai ymddadblygiad ei hun wedi cael derbyniad cyffredinol, fel yr esboniad goreu a gafwyd erioed ar fywyd y greadigaeth, pe na buasai a fyno bodolaeth dyn â'r ddamcaniaeth. Edrycha naturiaethwyr ar ddyn yn mhlith y dosbarth uchaf o greaduriaid; ac addefant mai efe ydyw coron gwaith Duw mewn natur. A dywedant hefyd, na chyfyd natur byth yn uwch, am ei bod wedi cyrhaedd ei heithaf-bwynt (*climax*) yn modolaeth dyn.

Dygir llawer o resymau yn mlaen i ddangos fod dyn wedi cael ei fodolaeth drwy ddadblygiad, ac nid trwy weithred greadigol neillduol o eiddo Duw. Y mae dyn, o ran cyfansoddiad ei gorph, yn dangos ei fod yn perthyn i'r dosbarth o greaduriaid a elwir *Vertebrata*, sef rhai yn meddu ar asgwrn cefn; ac y mae y ffaith fod y plant yn cael eu magu drwy sugno bronau, yn ei leoli gyda'r *Mammalia*. Dangosir fod dyn yn debyg i'r dosbarth uchaf o greaduriaid yn nifer ei esgyrn a'i aelodau, ffurfiad a gwneuthuriad ei gorph, ansawdd ei waed, ac mewn gïau, cyhyrau, ac ewynau. Y creaduriaid tebycaf iddo sydd yn awr yn fyw, yw yr epäod. Gall epäod fyw ar yr un ymborth a dyn. Y maent yn hoff o dê, a choffi, a chnau, ac yn agored i'r un afiechydon a dyn; megys y darfodedigaeth, medd Darwin. Dywed Darwin, yn mhellach, fod gwraidd ermigau (*rudiments*) gan ddyn nad ydynt o fawr o wasanaeth iddo yn awr, ond eu bod o wasanaeth iddo amser maith yn ol. Y mae tafod bychan y glust, cauadlen y llygad, blew hirion ar aeliau llygaid hen bobl, a gallu cyhyrog i grychdynu y croen, fel eiddo ceffyl, fel rhai nad ydynt o fawr o wasanaeth, ddim, i ddyn yn awr, ond y rhai a fu o wasanaeth i'w hynafiaid mewn cyfnodau boreuach. Rhoddi pwys neillduol ar Brüyddiaeth (*Embryology*) ar y cwestiwn hwn. *Protoplasm* yw sylfaen fawr bywyd, meddir; a dadleuir nad oes dim gwahaniaeth rhwng dyn a rhyw greadur arall, o ran ei anelwig (*structureless*) ddefnydd. Ond eir yn mhellach na hyn. Dywedir fod y baban yn y bru yn grynodeb (*epitome*) ynddo ei hun, ac yn dangos yr holl symmudiadau (*process*) mewn natur, o ddechreuad bywyd i fyny at ddyn. Y mae Drummond yn traethu yn helaeth ar y mater hwn yn ei lyfr diweddaf, ar *Esgyniad Dyn*. Dyben y cwbl yw ceisio dangos ei fod wedi ymddadblygu o greaduriaid îs nag ef yn ngraddfa bodolaeth; ac mai nid creadigaeth neillduol ar ei ben ei hun ydyw y dyn. Fel y dywedwyd—epäod, sef yr *ourang outang*, y *chimpanzee*, a'r *baboon*, yw y creaduriaid agosaf at ddyn. Ond addefir fod pellder mawr—pellder bron a bod yn anfesuradwy—rhwng dynion a'r epäod. Ond fel y dywedir fod y ceffylau a'r asynod wedi ymddadblygu o greadur pedwar bodiog (*four-toed animal*), tebyg ei faintioli i lwynog, oedd yn byw yn y cyfnod *Eocenaidd*, felly y maentumir fod dynion ac epäod wedi disgyn o hynafiaid o'r cyn-oesoedd, y rhai oedd eu hunain yn wahanol i ddynion ac epäod. Ni ddysgir fod dynion wedi disgyn o'r epäod; ond o ddosbarth gwahanol—y rhai sydd wedi myned ar goll. Yr epäod yw perthynasau agosaf dyn yn mhlith y byw; ond y mae'n rhaid fod llu o berthynasau agosach iddo wedi marw, a diflanu o ran ei hiliogaeth, os ydyw y ddamcaniaeth yn wir. Ond nid oes brofion fod y fath greaduriaid erioed wedi eu darganfod! Y perthynasau tybiedig hyn, sydd ar goll, rhwng y dyn a'r epa, neu y mwnci, a ddeallir wrth y '*missing links*.' Nid yn unig y mae eu hiliogaeth wedi ei cholli o blith y byw; ond hyd yn hyn, nid oes gymmaint ag olion (*fossils*) o honynt wedi eu cloddio allan o greigiau neu o ogofeydd y ddaear. Y mae hyn yn hynod, yn ol egwyddor 'Goroesiad yr addasaf;' o blegid rhaid fod y rhai agosaf at ddyn, pe buasent wedi bodoli, wedi ymddadblygu, ac yn meddu ar ddeall annhraethol uwch nag epäod. Hyd nes y darganfyddir y dolenau hyn, nis gellir ystyried fod y ddamcaniaeth wedi profi fod dyn, ac edrych ar ei *fywyd naturiol yn unig*, wedi cael ei fodolaeth drwy ymddadblygiad.

Dyn fel Bod Ysbrydol, Rhesymol, ac Anfarwol.

Dysgeidiaeth nifer fawr o'r ymddadblygwyr yw, fod dyn, yn yr oll ag ydyw, wedi cael ei fodolaeth trwy ddadblygiad, fel pob creadur arall. Gwnaeth Darwin ymdrech egnïol i geisio dangos y tebygolrwydd sydd rhwng dyn a chreaduriaid eraill—nid yn unig o ran cyfansoddiad ei gorph, a'i synwyrau, ond hefyd o ran cynneddfau ei feddwl. Fel y ceisiai ddangos perthynas agos y naill rywogaeth â'r llall, er mwyn ceisio profi fod y naill wedi ymddadblygu o'r llall, felly, hefyd, y ceisiai ddangos fod perthynas agos rhwng dyn ac anifail. Swm y cwbl a ddysgir ganddo yw, mai o ran graddau (*degrees*) ei alluoedd y mae dyn yn rhagori ar yr anifail, ac nid o ran natur (*kind*) ei gynneddfau. Fel hyn y dywed am y gydwybod. 'Y mae sylfaen sefydlog neu wreiddiol cydwybod yn gorwedd mewn cynneddfau cymdeithasol, yn cynnwys cydymdeimlad; a chafwyd y cynneddfau hyn yn gyntaf, yn ddiddadl, yn yr un modd ag yn achos y creaduriaid îs-raddol; sef, trwy ddewisiad naturiol.'—[*Descent of Man*, cyf. ii., td. 398.] Palla gofod i ni fyned i mewn i'r cwestiwn yma yn yr erthygl hon; ond dywedwn fod syniadau Darwin ar hyn yn hollol anghywir; a bod dyn, o ran cynneddfau uchaf ei ysbryd, yn gwahaniaethu oddi wrth y dosbarth uchaf o greaduriaid oll:—nid yn unig mewn graddau, ond hefyd mewn natur. Talodd Darwin annhraethol fwy o sylw i gorph dyn nag i'w ysbryd anfarwol, ac ymddengys ei fod wedi credu addysg athronwyr arwynebol am egwyddorion moesol, ac nid addysg dysgawdwyr sydd yn credu fod gwahaniaeth hanfodol a thragwyddol rhwng drwg a da. Ar y pwngc hwn y gwahaniaetha Wallace yn fawr oddi wrth Darwin. Barn Wallace yw, nas gall ymddadblygiad, heb gyfyngiad Dwyfol, gyfrif am gynneddfau uchaf ysbryd dyn. Mae yn credu fod Duw wedi cyfryngu i roddi bywyd i ddechreu; a thrachefn yn mywyd teimladol ac ymwybodol yr anifail; ac yn olaf, cyfryngodd ynglŷn â bywyd hunan-ymwybodol dyn. Ar y cwestiwn olaf hwn, rhydd resymau cryfion dros ei ddaliadau.—*Darwinism*, td. 464—478. Gwyddom fod mwy nag un dosbarth heb gydweled â Wallace ynghylch yr hyn a elwir yn 'Ymyr-

Digitized by Google

iadau,' ac yn dadleu eu bod yn anghysson â pharhausrwydd deddf (*The continuity of Law*); ond nid ydym yn credu fod sail i'r cyhuddiad hwn mewn gwirionedd. Nid yw gweithrediad deddf newydd yn golygu fod deddfau blaenorol yn cael eu croesi, ac nid yw dwyn achos newydd i weithredu yn dirymu achosion eraill. Bydd genym air ar hyn etto. Barn Wallace ydyw, fod dyn, o ran ei gorph a'i fywyd naturiol, wedi dyfod trwy ymddadblygiad; ond fod ei feddwl wedi dyfod trwy gyfryngiad Duw—a hyny yn hollol gysson â deddf dadblygiad.

VIII. Ymddadblygiad, a Chreadigaeth.

Cododd gwrthwynebiad cryf i ddamcaniaeth ymddadblygiad, am y tybiai llawer ar y cyntaf, os oedd yn wir, ei bod yn milwrio yn erbyn hanes gwaith y creu, fel y ceir ef yn Genesis. Dysgai rhai gwyddonwyr hyny yn bendant, a chredai lliaws o dduwinyddion mai yr unig dir diogel oedd ei gwrthod yn ddiseremoni. Ond erbyn hyn, rhyfedd fel y mae pethau wedi cyfnewid. Mae'n ammhossibl gwybod pa beth yw barn llawer o'r rhai sydd yn ffyddlawn i'r Beibl ar y cwestiwn. Derbynia rhai duwinyddion y ddamcaniaeth – a gwrthodir hi gan eraill. Ond edrycha y rhan fwyaf arni fel cwestiwn agored, neu fel yr hyn a elwir yn '*working hypothesis.*' Wrth reswm, yn ol yr hen dyb am greadigaeth y byd – sef, fod y cwbl wedi dyfod i fod mewn chwe diwrnod—ni all dim fod yn fwy anghysson. Ond y mae Daeareg wedi llwyr ddinystrio y syniad am yr amser byr am fodolaeth y byd, a bod y dyddiau yn Genesis i'w deall yn llythyrenol. Ond os edrychir ar y dyddiau yn sefyll am gyfnodau o amser, ac er ei fod yn hanes, mai hanes mewn darluniau ydyw, credwn y gall hanes y creu, a damcaniaeth ymddadblygiad, fod yn gysson â'u gilydd. Nid ydyw can miliwn o flynyddoedd (100,000,000), mwy na saith neu wyth can mil o flynyddoedd, yn gwneyd ymaith â'r angenrheidrwydd am Greawdwr. Nid yw amser yn newid dim ar hanfod y cwestiwn, fel y sylwa Dr. Martineau, gyda'i fedrusrwydd arferol. Pa mor bell bynag yr eir yn ol, ni ddilëir byth mo'r gwirionedd, fod yn rhaid cael Duw i gynllunio, i greu, ac i gynnal y byd. Y ddamcaniaeth a dderbynir yn lled gyffredinol gan wyddonwyr yw yr hon a elwir yn '*nebular theory.*' Disgrifir y greadigaeth ar y cyntaf—y greadigaeth faterol—fel hylif tanllyd. Trwy ymddadblygiad, tybir fod hwn wedi ymffurfio yn fydoedd o wahanol faintioli. A chymmeryd y ddaear yn unig i ystyriaeth—trwy gylchdröadau dirifedi, tewychodd ei chrystyn, nes y daeth o'r diwedd yn gyfaddas i fywyd yn ei ffurfiau isaf i fodoli arni. Ac ar ol cyfnodau meithion, daeth yn lle addas i fywyd yn y ffurfiau uchaf. Wedi i'r ddaear, neu ran o honi, ddyfod yn baradwys, gwnaeth dyn ei ymddangosiad arni, trwy ymddadblygu o fywyd îs, neu trwy greadigaeth neillduol o eiddo Duw.

Pe y cymmerid yn ganiataol fod y *nebular theory* yn wir, nid yw yn symmud dim oll ar yr angenrheidrwydd sydd am Greawdwr. Y dybiaeth yw—a chofier nad ydyw hyn ond damcaniaeth noeth—fod y gronynau (*atoms*) yn y ffurf syml y gellir meddwl am danynt yn debyg i'w gilydd, ac yn arosol. Ond o ba le y daethant? Dywed Clerk-Maxwell fod ôl gwneuthuriad arnynt (*manufactured articles*). Os felly, yr oedd raid fod gwneuthurwr. Pa fodd y dechreuodd ymddadblygiad gymmeryd lle, a phwy a roddodd fodolaeth i fater, pa ffurf bynag oedd arno? Rhaid ei fod yn bod erioed, neu wedi cael ei greu. Mae y gwyddonwyr yn fud ar y cwestiwn. Ond yn y lle y mae gwyddoniaeth yn methu, y mae Dadguddiad yn dyfod yn mlaen i roddi cyfrif boddhaol am fodolaeth y byd materol. 'Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear!'

Fel y cydnabyddir gan awdwyr enwog, nid oes a fyno y ddamcaniaeth ond â'r *cynllun* yn unig, ac nid â'r *achos gwreiddiol*. '*The Method, and not the Cause*,' meddai Dr. Martineau, ydyw pwngc ymddadblygiad. Ac y mae gwyddonwyr o fri, fel Haeckel, yn synu at y cyssondeb sydd rhwng yr hanes yn Genesis, a dysgeidiaeth gwyddoniaeth! A chymmeryd y dyddiau i olygu cyfnodau, nis gallwn weled pa fodd y gellid yn rhesymol ddisgwyl mwy o gyssondeb. Byddai yn hollol anghydweddol âg ysbrydoliaeth i dybied fod Moses wedi rhoddi hanes cywir mewn ystyr wyddonol, pan nad oedd neb yn gwybod dim am wyddoniaeth. Ond edrycher arno fel hanes mewn darluniau (*pictures*), yn ol esboniad y Proffeswr Henry Rogers, a gwelir y cyssondeb yn eglur. Dysgeidiaeth ymddadblygiad ydyw, mai mater difywyd oedd yn bod gyntaf, ac yna ffurf isel o fywyd, ac felly yn codi i ffurfiau uwch. Dyma y cynllun yn Genesis. Yr oedd egwyddor ymddadblygiad yn y Beibl filoedd o flynyddoedd cyn i neb ddeall y ddamcaniaeth mewn ystyr wyddonol.

IX. Dysgeidiaeth Ymddadblygiad am Berthynas Duw a Natur, ac a Dyn.

Gan mai golwg gyffredinol a gymmerir yn yr erthygl hon, gellir, er mwyn eglurder, dosbarthu gwahanol ddysgawdwyr ar y pwngc i dri dosbarth.

1. *Ymddadblygwyr materyddol.*—Gallwn edrych ar Hoeckel fel yn cynnrychioli yr ysgol hon. Y mae yr ysgol hon yn credu mewn ymddadblygiad; ond nid fel cynllun Duw o weithredu. O blegid y maent hwy, fel yr ynfyd, yn 'dywedyd yn eu calon nad oes un Duw.' Natur ydyw eu duw hwy. Y mae ymddadblygiad, fel damcaniaeth, yn ddigon i gyfrif am y cyfan—heb Dduw o gwbl! Nid ydyw ysbryd dyn ond mater mewn ffurf caboledig (*refined*). Mae y darnodiad a ganlyn o eiddo Tyndall yn dangos yr hyn a olygir. Damcaniaeth ymddadblygiad naturiol yw hyn. 'Diosgwch hi yn llwyr—ac yr ydych yn sefyll wyneb yn wyneb â'r syniad fod, nid yn unig ffurf distadlaf y bywyd naturiol, neu anifeilaidd, ond ffurf rhagorach y ceffyl a'r llew, a pheirianwaith rhyfeddol y corph dynol, a bod y meddwl dynol ei hunan—ei yni, deall, ewyllys, a'i holl ymddangosiadau unwaith yn gwmwl tanllyd.—[*Fragments of Science, by Tyndall*, td. 163]. Dyna yr egwyddor. A oedd Tyndall yn faterolwr, nid ydym yn sicr. Y mae rhai yn ei roddi ef a Huxley yn faterolwyr. Ond gwyddom fod Huxley yn ymwrthod â'r syniad, ac yn ei olwg ei hun yn fwy o *idealist*. Dywed Haeckel fod naw o bob deg o'r naturiaethwyr o'r un farn ag ef; sef, nad oes dim ond mater, a'i ddeddfau, ei yni, mewn bod, i gyfrif am y cwbl. Credwn ei fod yn camgymmeryd am nifer o materolwyr. Y mae nifer mawr o'r gwyddonwyr, fel Huxley, yn *agnostics*, ac nid ydyw yn deg i'w dosbarthu gyda'r materolwyr gan eu bod hwy eu hunain yn gwadu hyny

2. *Rhai yn credu mewn dadblygiad fel cynllun naturiol Duw.*—Mae y dysgawdwyr hyn yn

Digitized by Google

credu mewn ymddadblygiad, yn ol disgrifiad Tyndall; ond er hyny maent yn edrych arno fel cynllun Duw o weithredu. Nid gwaith hawdd ydyw dosbarthu awduron, am eu bod yn gwahaniaethu yn eu plith eu hunain ar lawer pwngc, er cyttuno o honynt ynghylch prif egwyddorion. Nid ydyw yn hawdd gwybod pa le i roddi Herbert Spencer. Nid oes neb, fe allai—ac eithrio Darwin—wedi gwneyd mwy nag ef dros y ddamcaniaeth. Nid ydyw yn faterolwr, o blegid ei fod yn credu fod rhyw allu (*power*) yn gweithio y tu cefn a thrwy yr holl ymddangosion (*phenomena*). Yr anamgyffredadwy ydyw y *gallu* hwn. Pe y galwai ef yn 'Dduw,' buasai yn deg i'w roddi gyda'r ysgol hon o ymddadblygwyr. Ond ni a gymmerwn Le Conte fel cynnrychiolydd teg o'r ysgol hon. Nid oes neb yn credu yn fwy llwyr yn y bôd o Dduw nag efe; ac felly y mae yn derbyn y ddamcaniaeth fel y disgritir hi gan Tyndall; ac yn credu fod meddwl dyn, yn gystal a'i gorph ef, yn sylweddol (*potentially*) yn y cwmmwl tanllyd. Dywed Dr. Dallinger, y gellir yn awr edrych ar Drummond hefyd, fel yn perthyn i'r ysgol hon. Y mae Drummond wedi newid ei safle; ac yn ei lyfr ar *Esgyniad Dyn*, yn hwn dadleua yn gryf yn erbyn ymyriadau, yn ol syniad Wallace. Ond y mae ei lyfr blaenorol ar *Ddeddf naturiol yn y Byd Ysbrydol*, yn dysgu fod yr uchaf yn dyfod i lawr i ymaflyd yn yr isaf, i'w godi i fyny. Os nad yw y llyfr yn dysgu 'ymyriadau' mynych o eiddo Duw, y mae yn anhawdd gwybod beth sydd yn dysgu hyny. Nid oes angen chwanegu enghreifftiau. Gwelir fod ysgol neillduol o ymddadblygrwydd yn credu yn llwyr yn y ddamcaniaeth fel cynllun Duw o weithredu, â bod y cynllun yn gweithio yn gysson a di-fwlch o'r dechreu i'r diwedd. Nid ydynt, mewn gwirionedd, yn cydnabod ymyriad o eiddo Duw i greu bywyd anianol, i greu dyn mewn un ystyr na dim arall, am fod yr oll, o ran sylwedd, yn y cwmmwl tanllyd ar y dechreu.

Mae yn ngweithiau yr awduron hyn lawer o swyn a dyddordeb; ond nis gallwn weled fod eu dysgeidiaeth yn gysson â'r Beibl. Ac er fod eu damcaniaeth yn ddeniadol, nid ydyw yn cynnwys ond 'rhanau' o ffyrdd Duw o weithredu.

3. *Ymddadblygwyr Uniongred.*—Yr ydym yn addef fod gradd o feiddgarwch ynom wrth anturio defnyddio yr ymadrodd hwn; o blegid y mae llawer yn tybied nas gall ymddadblygwyr o un math fod yn uniongred, beth bynag arall y gellir ei ddyweyd am danynt. Ond yr ydym yn credu y gallwn ddangos yn wahanol; ac yn ol ein barn ostyngedig ni, nis gall y rhai sydd yn credu mewn 'dadblygiad' gymmeryd unrhyw saf-bwynt arall, gydag un math o gyssondeb.

Y mae methiant y ddwy ysgol gyntaf a nodwyd i roddi cyfrif am fywyd y byd yn ein cyfiawnhau am gynnyg damcaniaeth arall. Yr hyn y ceisiwn ei ddangos ydyw, fod gwirionedd mewn ymddadblygiad, ond ei fod yn gweithredu o fewn terfynau. *Modified Evolution* yw yr hyn y dadleuwn drosto. Mae'r ymddadblygwyr materyddol, wrth reswm, yn credu fod mater yn dragywyddol; yr hyn, ni gredwn, sydd yn wrthun, a hollol ddi-sail. Nis gellir cyfrif am fodolaeth y byd heb Dduw. Y mae'r ymddadblygwyr sydd yn credu yn y ddamcaniaeth fel cynllun Duw o weithredu, ac fel unig gynllun Duw o weithredu, yn methu rhoddi cyfrif am yr holl ffeithiau. Y mae y dybiaeth am fywyd hunan-gynnyrchiol (*spontaneous generation*) yn ddi-sail, yn ol tystiolaeth y gwyddonwyr penaf, yr hyn sydd yn seiliedig ar arbrawfion. Dywed y Proffeswr Huxley fod y dybiaeth fod yn rhaid cael bywyd i gynnyrchu bywyd yn fuddugoliaethus ar hyd yr holl linell. Os un, neu ragor, o hadau—os un, neu dri, neu bedwar, o greaduriaid o'r ffurf iselaf oedd yn bodoli ar y cyntaf, o ba le y daeth y bywyd hwn? Addefir gan y blaid arall fod yna rywbeth wedi ei chwanegu, yr hyn a elwir yn 'fywyd;' ond gan nas gall mater di-fywyd, o dan unrhyw amgylchiadau, gynnyrchu mater bywydol, o ba le y daeth y bywyd? O ryw fyd arall, medd rhai! Ond o ba le y daeth i'r byd hwnw? Nid ydys ond yn symmud yr anhawsder yn ol gam yn mhellach; a phe dilynid ef yn ol i gan mil o fydoedd, ni cheid dim goleuni ar y mater. Credwn fod yn rhaid cael Duw i gyfrif am ddechreuad bywyd, pa bryd bynag y gwnaeth ei ymddangosiad. Rhaid cael Duw i gyfrif am fodolaeth dyn fel bôd rhesymol, cyfrifol, ac anfarwol. Beiir rhai athronwyr, a dysgawdwyr eraill, am wneyd mater a meddwl yn ddau beth pur wahanol i'w gilydd; ond os oes sail i'r cyhuddiad hwn, credwn y gellir cyhuddo rhai awduron diweddar am eu gwneyd yn rhy debyg i'w gilydd, nes yr haera rhai o honynt mai mater mewn ffurf gaboledig yw y meddwl, neu yr ysbryd anfarwol sydd mewn dyn. Gwyddom fod rhai o'r awduron sydd yn credu mewn ymddadblygiad naturiol yn edrych ar y meddwl yn wahanol, er dysgu fod y meddwl, o ran sylwedd, yn y cwmwl tanllyd ar y dechreu. Ond ymddengys i ni fod y dybiaeth hon yn wrthun i'r eithaf. Yn fyr, y mae y cwestiwn yn golygu hyn:—A ydyw mater wedi cynnyrchu ysbryd? neu, A ydyw ysbryd wedi ymdadblygu o fater? Nid yn unig fod bywyd naturiol wedi ymddadblygu o fater difywyd, ond fod bywyd ysbrydol hefyd wedi ymddadblygu allan o hono:—yr hyn, ni gredwn, sydd yn ammhossibl! Pe yr ymddadblygai mater am oesau rif y dail, nis gallai byth gynnyrchu ysbryd anfarwol! Nid oes ond un esboniad arall y gellir ei roddi ar hyn, a hwnw yw yr unig un boddhaol, a Beiblaidd; sef, fod Duw wedi creu ysbryd anfarwol dyn, neu fod Duw ei hun yn Dad iddo! Nid *esgyn* o'r pridd, neu o'r epa, neu o ryw greadur arall, a wnaeth ysbryd dyn—ond *disgyn* oddi wrth Dduw! 'Yna y dychwel y pridd i'r ddaear, fel y bu; ac y dychwel yr ysbryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef.' Y mae dyn wedi ei greu ychydig is na'r angel, ac nid yn llawer uwch na'r anifail. Y mae ganddo ysbryd anfarwol, yn gystal a chorph; yr hwn sydd yn perthyn i'r byd ysbrydol, fel y mae ei gorph yn perthyn i'r byd naturiol.

Nid oes genym un gwrthwynebiad i dderbyn dysgeidiaeth y gwyddonwyr o fewn y terfynau hyn. Y mae yr hyn a ddysgwn, o ran sylwedd, yr un ag eiddo Wallace, am ysbryd. Cyhuddir Wallace o fod yn coleddu syniadau Deistaidd am Dduw, a'i waith, a'i berthynas â'r greadigaeth; sef, ei fod yn dysgu fod Duw wedi creu y byd, ac yna yn ei adael i weithredu o hono ei hun fel peiriant—ond ei fod yn cyfryngu ar adegau; sef, pan yn dwyn y bywyd llysieuol i fod; ac yna, bywyd symmudol yr anifail; ac yn olaf, ysbryd anfarwol dyn. Mor bell ag y gwyddom ni am syniadau Wallace, nid oes un sail i'r cyhuddiad hwn. Ond os oes, nid ydym

Digitized by Google

yn ei amddiffyn. Credwn, er hyny, fod rhagfarn rhai yn codi o ddiffyg mewn dirnadaeth am waith Duw, a'i berthynas â natur ac â dynoliaeth.

Y mae y rhai sydd yn credu mewn ymddadblygiad naturiol yn rhoddi pwys neillduol ar mewn-fodaeth Duw mewn natur (*the immanence of God in nature*); ac er fod rhai o honynt yn sôn am uwch-fodaeth Duw (*the transcendence of God*), nid oes le i'r gwirionedd hwn yn ei ddysgeidiaeth. Nid ydyw ond mewn enw yn unig. Perygl y ddysgeidiaeth hon ydyw arwain i holldduwiaeth, nes methu gwahaniaethu rhwng Duw a natur. Y mae fod Duw yn gweithio mewn natur yn wirionedd pwysig—'yn yr hwn yr ydym ni yn byw, yn symmud, ac yn bod.' Ond dylid cofio hefyd fod Duw uwch law natur. Y mae Duw yn fwy—ac yn anfeidrol fwy—na'r greadigaeth. Nis gall natur fod heb Dduw, ond gall Duw fod heb natur; ac yr oedd efe yn bodoli o flaen y crëad. Yn awr, os ydyw Duw uwch law natur, mor wir a'i fod yn gweithio mewn natur, pa beth y mae efe yn ei wneyd fel y cyfryw? Mewn gwirionedd, mewn enw yn unig y mae Duw yn bod uwch law natur, yn ol dysgeidiaeth yr ymddadblygwyr Dwyfyddol. Ond am yr ymddadblygwyr uniongred, credant fod Duw yn wirioneddol mewn natur. Dysgant ei fod wedi creu y byd naturiol, ac mai efe yw awdwr ei ddeddfau, a'i yni. Dysgant ei fod yn gweithio mewn ystyr uwch yn y greadigaeth fywydol; ac mewn ystyr uwch drachefn wrth greu, cynnal, a llywodraethu dyn. Mewn gair, y maent yn dysgu fod Duw yn dyfod i lawr, yn gystal a bod dyn yn dyfod i fyny; a bod yn rhaid i Dduw ddyfod i lawr cyn y gall dyn ddyfod i fyny. Dyma ddysgeidiaeth y Beibl am Dduw, ac am ei berthynas â'r ddaear, ac â dyn, o'r dechreu i'r diwedd. Daeth i lawr i greu dyn ar ei ddelw ei hun ar y dechreu; ac wedi iddo syrthio, daeth i lawr drachefn i alw arno, er mwyn ei godi, a chodi y teulu dynol trwy 'Hâd y wraig.' Dyna yw hanes yr Hen Destament—hanes Duw yn dadguddio ei hun i ddyn, fel yr oedd dyn yn cael ei godi a'i gymmhwyso i dderbyn y dadguddiad. Y mae yr egwyddor o ymddadblygiad, a chynnydd graddol, yn amlwg yn y dadguddiad hwn o eiddo Duw i'r genedl. Y mae y dadguddiad i Moses yn uwch, ac yn helaethach na'r dadguddiad a roddwyd i'r patriarchiaid; a'r dadguddiad drwy y prophwydi yn uwch na'r dadguddiad i Moses. Y mae Duw yn siarad â dyn, fel yr oedd dyn yn gallu deall y dadguddiad, a'i werthfawrogi. Ond y dadguddiad uwchaf o Dduw, yr hwn oedd yn goron a gogoniant y cwbl, oedd drwy ymgnawdoliad y Mab. Trwy ymgnawdoliad y Mab, daeth bywyd newydd i'r byd; a dyma y gallu mawr sydd i ddadblygu y ddynoliaeth. Trwy y Mab, ac yn ein perthynas âg ef, y gwelir gogoniant y teulu dynol.

Yr ydym, bellach, wedi egluro yr hyn a olygwn wrth 'Ymddadblygiad o fewn terfynau;' yr hwn, trwy roddi lle amlwg i'r goruwchnaturiol, sydd yn gysson â Gair Duw. Diehon y bydd y ddadl fawr nesaf rhwng pleidiau y 'naturiol' a'r 'goruwch-naturiol.' Y mae credu yn y goruwchnaturiol yn hanfodol i Gristionogaeth, cyn y gall fod yn iachawdwriaeth y byd, ac yn obaith i holl genhedloedd y ddaear.

Wrth barotoi yr ysgrif hon, gwnaed defnydd o weithiau yr awduron a ganlyn, yn mhlith eraill, i'r rhai yr ydym yn teimlo yn ddyledus:—*The Origin of Species*, a *Descent of Man*, gan Darwin; *Darwinism*, gan Wallace; *First Principles*, a *Factors in Evolution*, gan Herbert Spencer; *Evolution and Man's place in Nature*, gan Calderwood; *Pre-organic Evolution, and the Biblical Idea of God*, gan Chapman; *Essays on Evolution*, gan Huxley; *Fragments of Science*, gan Tyndall; *Christianity and Evolution*, gan Iverach; *Social Evolution*, gan Kidd; *Theism and Evolution*, gan Dyke; *Natural Law in the Spiritual World*, ac *Ascent of Man*, gan Drummond; *Evolution of Religion*, gan Edw. Caird; *Traethawd ar Ddadblygiad*, gan Adams, &c.

## YR EGLWYS GRISTIONOGOL YN MYSG Y BRYTHONIAID, A'R CYMRY.

Wrth chwilio i mewn i hanes efengyleiddiad yr Iwerddon, neu Ysgotland, yr ydym yn dyfod at Padrig yn y naill, ac at Columba yn y llall, fel y rhai a ystyrir yn 'apostolion' y ddwy wlad. Gellir, hefyd, benderfynu yn lled agos yr adeg y dechreuodd y ddwy wlad hyn wybod fod yn eu plith wŷr yn pregethu crefydd newydd, ac y dechreuodd eglwysi bychain ymffurfio ynddynt. Cyn 430, yr oedd yr Iwerddon yn baganaidd a derwyddol. Cyn 570, nid oedd un ymdrech parhaol wedi ei wneyd i ddwyn y Pictiaid a'r Ysgotiaid i ffydd yr efengyl. Ond am y rhan arall o'r ynys hon, mae'n ammhossibl enwi un gŵr arbenig y mae sicrwydd mai efe a bregethodd yr efengyl ynddi gyntaf. Ni wyddis pa bryd, na chan bwy, y gwnaed hyny. Mae'n wir fod ystoriau amryw yn ymddangos fel pe buasent yn taflu goleu dedwydd ar y tywyllwch hwn; ond erbyn eu chwilio, y maent yn diflanu fel niwl y boreu. Yn ol un math o'r ystorïau hyn, dygwyd yr efengyl yma gyntaf gan un o'r apostolion, neu gan ŵr o'u cymdeithas. Dywedir felly i Paul deithio hyd Brydain, ac i Pedr ac Iago fod yma; neu ynte, dywedir mai Joseph o Arimathea oedd efengylydd cyntaf yr ynys. Yn ol eraill, cyssylltir dygiad yr efengyl yma âg enwau Prydeinig; sef, Brân ap Llyr, yn nyddiau Caradoc; neu y brenin Lucius, yn yr ail ganrif, yr hwn a elwir hefyd Lles ap Coel, Lleufer Mawr, a Lleurwg Sant. Prin y gellir galw dim o'r pethau hyn yn draddodiad; ac er mor gu fuasai gan y meddwl gredu rhai o honynt, mae'n rhaid eu dodi oll o'r neilldu, ac ymofyn am hyny o wirionedd sydd i'w gael mewn cyfeiriadau eraill. Heblaw nas gellir penderfynu ar unrhyw ddyn fel y cenhadwr cyntaf a bregethodd yr efengyl yn Mhrydain, y mae yr argyhoeddiad yr un mor gryf nad ellir gyda dim sicrwydd enwi unrhyw wlad o'r hon y daeth yr efengylwyr cyntaf oll i'r ynys hon. Gwyddis yn dda am y gred a ffynai yn gyffredinol iawn unwaith, ac un y ceir rhyw ffurf o honi yn fynych iawn mewn llyfrau, mai o Asia Leiaf, neu drwy Gristionogion Asiaidd, y daeth crefydd Crist gyntaf oll yma. Y mae yn sicr fod nodweddion dwyreiniol i'w cael yn arferion yr eglwys, fel y gwelid hwy yn y chweched a'r seithfed ganrif yn Nghymru ac yn yr Iwerddon. Ar y rhai hyn y seilir y casgliad am darddiad Asiaidd i Gristionogaeth; ond ceir gweled ychydig yn mlaen fod ffordd arall, lawer mwy naturiol, i roddi cyfrif am danynt; ac na raid mewn un modd gyssylltu ymddangosiad cyntaf Cristionogaeth yn ein gwlad ni â Christionogion Asia Leiaf, oddi gerth can belled ag y mae yr efengyl yn dwyn, drwyddi oll, nodau ei tharddiad cyntaf yn y Dwyrain.

Digitized by Google

Wrth edrych yn ol ar y llyfrau cyntaf a ysgrifenwyd gan Gristionogion yn yr ynysoedd hyn, gwelwn fod tri o honynt, a'r tri boreuaf, yn sefyll yn y drefn ganlynol:—Y cyntaf ydyw Fastidius; yr hwn, tua B.A. 420, a ysgrifenodd draethawd tlws a swynol neillduol ar 'Fywyd Cristion,' fel llythyr at weddw grefyddol. Ni cheir, ac ni ellid disgwyl, dim yn hwn ar ddyfodiad yr efengyl gyntaf i Brydain; ond ceir ynddo ddarlun prydferth iawn o'r syniad uchel a goleddid y pryd hwnw am fywyd Cristion da. Y nesaf ydyw 'Cyffes Padrig,' wedi ei ysgrifenu gan Apostol yr Iwerddon, fel gwaith Fastidius, yn Lladin, ond fod y Lladin yn anghoeth ac yn anlerw. Nid oes yn hwn, chwaith, unrhyw gyfeiriad at ddyfodiad cyntaf yr efengyl yma; ond gwelir, oddi wrth yr ychydig a ddywed Padrig am ei dad a'i daid, fod, yn mhell yn y gogledd, yn nhywysogaeth Strathclut, eglwysi dan ofal bugeiliol yn amser y taid. Yr oedd hwn—Potitus—yn bresbyter, neu yn henadur, yn nghymmydogaeth Dumbarton (Dun-brettan, *h.y.*, 'Caer y Brythoniaid'); a chan fod yn rhaid i eglwys gael amser i dyfu yn gyfryw ag i feddu rhai i'w bugeilio, gellir cyfrif fod yn y manau gogleddol hyny eglwysi—o leiaf, tua'r fl. B.A. 300. Ganwyd Padrig tua 395; ac yr oedd yr eglwysi hyn yn hynach na'i daid. Ysgrifenodd Padrig hefyd lythyr (*epistula*) at ddeiliaid brenin o'r enw Caractacus, sydd yn dangos fod y deiliaid hyny, a'u tywysog, yn Gristionogion; ond nid yw hyny yn ein dwyn ddim pellach yn ol na diwedd y bedwaredd ganrif. Y trydydd awdwr yw Gildas, yr hwn a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Nghymru. Buasid yn disgwyl y gwyddai Gildas rywbeth pennodol am ddyfodiad cyntaf yr efengyl i Brydain; ond gellir casglu yn sicr fod hyny yn hollol dywyll iddo, yn, neu tua y fl. 540. Dyma un o'r Brythoniaid eu hunain, wrth gyfeirio at ddechreuad y grefydd Gristionogol, a'i dyfodiad cyntaf i'w wlad ei hun, heb ddim chwaneg ganddo i'w wneyd na benthyca ymadroddion cyffredinol Eusebius o Cesarea—yr hanesydd cyntaf fu yn yr eglwys—gan eu cymmhwyso at Brydain. Ni allai ond defnyddio yr hyn a ddarllenasai mewn awduron tramoraidd, megys yr un a enwyd, ac eraill: ac o hyny, profir nad oedd yn Mhrydain ei hun, tua 540, unrhyw wybodaeth na thraddodiad am ei dechreuad yn y ffydd Gristionogol. O herwydd hyn, gorfodir ni i droi at awduron y tu allan i'r Eglwys Brydeinig ei hun, er mwyn lloffa, allan o'r cyfeiriadau a wneir ganddynt hwy, rai ffeithiau ag y gellir ymddiried i'w dilysrwydd; a seilio ein casgliadau ar y rhai hyny.

### I. Yr Ystoriau.

Cyn edrych ar yr hyn a ystyrir yn ffeithiau sydd â sylfaen hanesyddol iddynt, da fyddai i ni roddi y rhesymau dros wrthod y cnwd o ystorïau sydd wedi tyfu o amgylch y mater dyddorol hwn.

Paul.—Nid ychydig o le sydd wedi ei roddi i'r grêd ddarfod i athraw y Cenhedloedd, mewn ffydd a gwirionedd, ymweled â'r ynys hon yn un o'i deithiau diweddaf. Ond nid oes unrhyw sail pellach i hyn, na'r cyfeiriadau sydd at ëangder ei deithiau gan rai o'r ysgrifenwyr eglwysig. Yr hynaf ydyw Clement o Rufain, yr hwn a ysgrifenodd tua'r fl. B.A. 90, gan dystio i Paul 'bregethu yn y dwyrain ac yn y gorllewin,' ac iddo 'ddyfod hyd derfyn y gorllewin.' Cyffelyb'yw geiriau Jerome—'fod ei redfa hyd yr Yspaen, ac o fôr hyd fôr;' ac felly eraill yn y bedwaredd a'r bummed ganrif. Ychydig nes i'r grêd yr ydym yn sôn am dani ydyw geiriau Theodoret yn nechreu y bummed ganrif, pan y dywed efe ddarfod i Paul 'ddyfod i'r Ital, ac i'r Yspaen, a dwyn cymmhorth i'r ynysoedd yn y môr.' Ond fel y gwelir oddi wrth weddill yr un ddalen, ynysoedd Môr y Canoldir yw y rhai oedd yn meddwl Theodoret:—nid yr ynysoedd Prydeinig. Ar y seiliau hyn yr hudwyd bardd o Gâl, yn niwedd y chweched ganrif, i ganu am *ysgrifen* Paul, neu ei ddysgeidiaeth, yn croesi drosodd i Brydain. Nid oedd o gwbl, fel y gwelwn, mor ddiweddar a'r fl. 600, unrhyw syniad yn bod am ymweliad o eiddo yr apostol hwn â Phrydain; a di-werth hollol ydyw pob breuddwydion diweddarach na'r adeg hon.

Pedr.—Nid oes unrhyw awgrym am Pedr yn dyfod i bregethu i'r wlad hon cynt nag a geir yn ngeiriau llyfr nad ydyw ei awduriaeth yn hollol sier; ond a osodir tua'r fl. 900.

Iago.—Crybwyllir enw yr apostol hwn gydag efengyleiddiad yr Yspaen. Ac ynglŷn â hyny, ceir cyfeiriadau mewn llyfrau diweddar, ond ammheus eu dilysrwydd, ddarfod i'r ynys hon, hefyd, fanteisio ar ei bregethau ef. Yn yr un dull, ceir, tua'r chweched ganrif, sôn fod Simon Zelotes yn cario athrawiaeth yr efengyl 'hyd fôr mawr y gorllewin, a'r ynysoedd Prydeinig:'—gyda chwanegiad diweddarach, iddo gael ei groeshoelio yma, a'i gladdu. Y mae crêd arall i'w chael yr un mor fynych, mai yn Persia y merthyrwyd ef.

Hyd yma, nid oes dim wedi ein cyfarfod ond damcaniaeth, neu freuddwyd yn ol ewyllys, a hyny am lawer o ganrifoedd, yn gwbl y tu allan i Brydain ei hun. Yn y nesaf, byddwn yn enwi gŵr y mae y grêd am dano wedi cael cartref cynnes yn ein gwlad ni ein hunain.

Joseph o Arimathea. Yn nghymdeithas Phylip yr apostol, y dywedir ei fod wedi ymweled â'r wlad hon. Ond dywed Usher, yn ei *Britannicorum Ecclesiarum Antiquitates*, pen. ii. (1639), nad oes air o sôn am y 'traddodiadau' hyn hyd ar ol dyfodiad y Normaniaid i Brydain. Y maent, medd efe, yn 'gyflawn o ofergoeledd yr amseroedd diweddar.' Y cyntaf i'w lledaenu oedd William o Malmesbury, yn y llyfr a ysgrifenodd yn y ddeuddegfed ganrif am Fynachlog Caer, neu Ynys Wydrin (Glastonbury). Yn ol yr hyn a ddywedir ganddo ef, ymadawodd Phylip o Judea o herwydd yr erledigaeth; a daeth i ororau Ffraingc, gan bregethu a bedyddio llawer. Yno, dewiswyd ganddo ddeuddeg o blith ei ddysgyblion, gan eu danfon i bregethu gair y bywyd i Brydain—â Joseph o Arimathea yn ben arnynt. 'Daethant felly i Brydain yn y drydedd flwyddyn a thrigain wedi ymgnawdoliad yr Arglwydd—pymtheng mlynedd wedi dyrchafiad Mair fendigaid i'r nef, gan bregethu yn hyderus y ffydd yn Nghrist.' Anhawdd iawn yw dyfalu pa fodd y dechreuodd dynion gredu y pethau hyn. Ond nid annhebygol yw fod ystorïau am Phylip a Joseph wedi cael cartref yn mynachlogydd Ffraingc yn gyntaf; ac iddynt ddyfod oddi yno drosodd i'r wlad hon gyda'r wê newydd chwanegol am Ynys Wydrin a'r gŵr o Arimathea.

Dywedir, drachefn, yr un chwedl yn ystori y 'Sant Greal.' Ac yn mhob gwedd ar helynt y Greal, a'r hynt hynod am y llestr cyssegredig, Joseph o Arimathea ydyw y gŵr a ddygodd yr

Digitized by Google

efengyl gyntaf i Brydain. Etto, yr ydys yn gweled mai diweddar iawn yw y goel; a gallwn chwanegu, ei fod yn ddi-sail!

Y mae y dyb nesaf a enwir yr un mor ddi-sail. Ond ymddengys fod y Cymry yn gydnabyddus â hi lawer boreuach nag y daethant i sôn am Joseph, a'r deuddeg dysgybl, a'r Greal. Dyma yr ystori hon. Tua'r fl. 167, fe anfonodd brenin Prydain, o'r enw Lucius, at y Pab Eleutherius, gan ymofyn am gael ei wneyd yn Gristion trwy offerynoliaeth y Pab hwnw. Ni ddywedir chwaneg na hyn yn y ffurf hynaf oll sydd ar yr ystori, fel y ceir hi yn y llyfr a elwir *Liber Pontificalis.* Amcan y llyfr hwn ydyw rhoddi hanes esgobion Rhufain o'r dechreu; ac y mae rhai rhanau o hono yn hen iawn. Etto, wrth sylwi mai mewn math o ail argraphiad o *Lyfr yr Esgobion* y ceir y cyfeiriad at Lucius ac Eleutherius, ac nad ysgrifenasid hwnw cyn chwarter cyntaf y chweched ganrif, neu tua B.A. 530, credwn mai dychymyg diweddar etto yw yr ystori hon. Yr ydym yn ei chondemnio fel ystori ddiweddar wrth osod adeg ei genedigaeth yn y chweched ganrif. Ond beth os ydyw yn fwy diweddar na hyny? Y mae y llawysgrif hynaf sydd ar gael o *Lyfr yr Esgobion* (*Liber Pontificalis*) yn perthyn i'r fl. B.A. 685; a rhaid fod y dyb hon am Lucius can hyned, o leiaf, a'r adeg hono. Prin y buasai Awstin Fynach, yn ei ymwneyd â'r Cymry, yn gadael ystori fel hon heb wneyd defnydd da o honi wrth eu cymmhell i ddyfod i gymmundeb âg Eglwys Rhufain, trwy dderbyn ei harferion a'i hathrawiaethau. Rhaid felly nad oedd ystori Lucius yn adnabyddus y pryd hyny; sef, tua B.A. 604.

Y mae gŵr arall, tua'r fl. 680, yn ysgrifenu llythyr at frenin ac esgobion Cernyw a Chymru, gyda'r bwriad pennodol o'u cymmhell i roddi terfyn ar eu hysgariad oddi wrth 'yr unig wir eglwys Gatholig,' sef, Eglwys Rhufain; a phe buasai efe yn gwybod rhywbeth am Lucius yn anfon at y Pab Eleutherius er derbyn y ffydd Gristionogol oddi wrtho ef, ni adawsai y fath ddadl gref yn ddisylw. Naturiol yw casglu, gan hyny, mai tua'r adeg hon—rhwng B.A. 680 a 685—y dechreuodd y chwedl gael ei chredu, ac mai yn Nghymru y ganwyd hi, i gynnorthwyo yr amcan o ddwyn eglwys y Cymry i gymmundeb âg Eglwys Rhufain. Ymdaenodd yn gyflym yma, gan ennill manylion newydd.

Yn yr wythfed ganrif, y mae Nennius, wrth adrodd y chwedl, yn dechreu ei helaethu a'i thrwsio; a daeth iddi cyn hir, drwy chwanegu, mai ystyr yr enw Lucius yw *Lleufer Mawr.* Yn ysgrifeniadau Cymreig y canol-oesau, ceir hefyd fod Lucius yn dwyn yr enwau Lleurwg, Lles, a Lles ap Coel; a hyny mewn cyssylltiad arbenig âg eglwys Llandaf. Diau fod yma amcan i roddi ffurf Gymraeg i'r enw Lladin, er fod y cais ei hun yn bradychu ei oes ddiweddar, gan y buasai 'Lucius,' pe wedi ymgartrefu mor foreu ag yr awgryma yr ystori, yn y Gymraeg, wedi cymmeryd y ffurf *Luc*, neu *Lug.* Diau, hefyd, fod y chwedl yn dwyn arni nodau yr amser yr oedd Llandaf yn awyddus i sicrhau y flaenoriaeth yn mysg eglwysi Cymru. Gydag ychydig o gyfnewidiadau, er mwyn eglurdeb, i rai a allent fod yn anghynnefin â Chymraeg y canol-oesoedd, dodwn yr ystori yma fel y ceir hi yn Mrut y Tywysogion.

'Ac un mab a aned i Goel; sef oedd i enw Lles. A gwedy marw Coel, y daeth Lles, y mab, yn frenin. A holl weithredoedd da i dad a erlynwys o wirionedd a daioni, ac a wnaeth Lles yn gymmeint ag y tybygid mai ef oedd Goel e (ei) hun. . : Ac anfon a oruc (a wnaeth) hyd at Eleutherius Bab i erchi iddaw anfon attaw wŷr cyflawn o gred a ffydd, a bregethai Gristionogaeth iddaw, a chred, a ffydd, a bedydd. Canys y gwyrthiau ar a wnaethoedd yr ebystyl yn pregethu ar hyd y byd, a ddaroedd cyffroi a goleuhau i galon ef a'i feddwl parth ac at Dduw. . . A gwedi gweled o'r Pab hwnw i grefyddus ddamuned a'i ddarostyngedigaeth, y danfones attaw ddau ŵr crefyddus, ffyddlawn, dysgodron a seiliedig yn y lân Gatholic ffydd, i bregethu iddaw ac i'w bobl ddyfodedigaeth yr Arglwydd Iessu Grist yn cnawt dyn, a'u golchedigaeth hwythau trwy lân fedydd. Sef oeddynt y gwŷr hyny Dwyfan a Ffagan.'

Byr waith a wnaed gan y gwŷr da hyn, a Lles, ar demlau yr hen grefydd, ac mewn 'dodi ffydd a bedydd' ar wŷr Prydain. Ond gwelir etto wegi y rhamant hon pan y darllenwn ar y tudalen nesaf, 'ac aberthwyd i Dduw ac i'r Arglwyddes Fair.' Yn y *Liber Landavensis*—llyfr sydd yn proffesu rhoddi cofnodau am eglwys Llandaf o'i hamser boreuaf, ond na chafodd ei ysgrifenu cyn y ddeuddegfed ganrif—y mae yr ystori mewn dwy wedd. Y mae hi yno wedi ei chopïo yn uniongyrchol o'r *Liber Pontificalis.* Y mae hi yno hefyd yn ei ffurf boblogaidd ddiweddaf; ond fod y gwŷr a ordeiniwyd gan y Pab yn Elvan a Medwy (Elvanus a Medwinus) yn lle Dwyfan a Ffagan. Gan fod Brut y Tywysogion yn rhoddi enw dau genadwr, a Llyfr Llandaf, ddau eraill gwahanol, nid rhyfedd i amseroedd hygoel ddodi y pedwar gyda'u gilydd. Felly yr ydym gyda llawer o bethau cyffelyb yn darllen yn ysgrifau Iolo Morganwg—*Iolo M.S.S.*

'Lleurwg Sant, Brenin Ynys Prydain, ap Coel ap Cyllin ap Caradawc ap Brân ap Llyr Llediaith; ei eglwys ef Llanleirwg, ag un arall yn Llann Daf. Efe a ddanfones hyd yn Rhufain i gyrchu esgyb i ddodi Bedydd ar a geisynt y ffydd yng Nghrist o genedl y Cymry, a'r pab Elidr a ddanfones attaw yn esgyb, Elfan, a Medwy, a Dyfan, a Ffagan.' (td. 115).

Y mae y dyfyniad diweddaf o lyfr ysgrifau Iolo yn cyffwrdd â ffurf arall ar chwedlau yr efengyliad cyntaf. Enwir yno Brân ap Llŷr fel un o hynafiaid Lleurwg, neu Lles ap Coel. Gelwir Lucius, cofier, wrth y tri enw Lleufer, Lleurwg, a Lles; ac felly, cyssylltir ynddi, heblaw y pedwar 'esgob' a enwyd, ddau ŵr hefyd y mae eu henwau i'w cael ynglŷn â dygiad yr efengyl i Brydain. Y mae yr un peth i'w gael yn y Trioedd Cymreig; hyny ydyw, fod Lles o'r un tylwyth a Brân Fendigaid: ond yma, fe ddywedir hefyd mai Brân a ddygodd yr efengyl gyntaf i Brydain. Rhenir y Trioedd yn gyffredin yn dair cyfres, o ran tarddiad: ac ymestyna eu hamser o ddiwedd y ddeuddegfed ganrif hyd y bymthegfed. Dïau fod y cais i osod ffeithiau hanesyddol allan yn 'drioedd' wedi achosi i bersonau lawer, a helyntion lawer, gael eu camosod a'u camliwio. Etto, mae'n anhawdd deall pa fodd y daeth y sôn am Brân i mewn iddynt o gwbl, gyda chyfeiriadau mor fanwl, nes hudo yn anwyliadwrus i'w derbyn a'u credu. Benthyciwyd llawer o gynnwys y Trioedd o Brut y Tywysogion; ond nid oes yno air o sôn am Brân.

## II.

Yr ydym, bellach, yn barod i ofyn pa fodd y dygwyd y grefydd Gristionogol i Brydain? a pha bryd y llwyddodd i ymlid ymaith yr hen grefydd oedd, gyda neillduolion nodedig, wedi

Digitized by Google

meddiannu y tir? Ffaith fawr, a'r fwyaf, yn hanes gwlad, ydyw hon—fod dynion, ar eu penau eu hunain, ac yn eu hundeb cymdeithasol a dinesig, yn dyfod i deimlo grym syniadau, teimladau, a chymmhellion crefydd newydd. Meddiennir ni gan ddyddordeb byw, a chywreinrwydd awyddus, wrth ddyfod i gydnabyddiaeth âg unrhyw weddillion sydd etto yn aros o hen grefydd y Brythoniaid. Er hyny, nid ydyw y chwilfrydedd hwn yn lleihau dim ar ein hymdeimlad o werthfawredd y cyfnewidiad a fu pan ddaeth y genedl i wybod am Grist, ei groes, a'i gariad; am fywyd ac anllygredigaeth, a'r profiad, gyda goleuni, o ysbryd a chymmhellion y grefydd Gristionogol. Yr ydym, braidd, yn eiddigeddus na wyddem hanes y cyfnewidiad mawr hwn mor glir ag y mŷn y chwedleuon ei fod i'w gael ynddynt hwy. Etto, gwell yw gwybod y gwir, er i hwnw fod yn wir anghysurus. Gan na wyddom i sicrwydd gan bwy, na pha adeg y dygwyd yr athrawiaeth am Grist gyntaf i'r wlad hon, gorfodir ni i ymofyn beth a ddywed hanes er ein cynnorthwyo i ddyfalu pa ffordd oedd yn bossibl a thebygol i hyn gael ei ddwyn i ben.

Yn y dechreu, rhaid credu mai araf fu y gwaith, ac mai yn ystyfnig y gwrthodai hen baganiaeth yr ynys roddi y ffordd i'r grefydd newydd. Yr oedd yma ddau fath o baganiaeth. Y naill oedd crefydd y Brythoniaid eu hunain; a'r llall oedd y grefydd a ddygodd y Rhufeiniaid i'r ynys hon gyda hwy; sef, crefydd Rhufain a'r Lladinwyr. Dylid enwi trydydd math, gan fod yn mysg y fyddin Rufeinig liaws mawr o ddwyreinwyr o Syria, a manau eraill, y rhai a ddygasant gyda hwynt addoliad duwiau dwyreiniol, a bod defodau a berthynent i'w haddoliad hwy wedi ymledaenu, fel y tystia llawer o weddillion, yn mysg y Rhufeinwyr eu hunain. Erbyn B.A. 84, yr oedd Prydain yn dalaeth Rufeinig; a chyn hir, dechreuodd yr ymherodraeth hono ddwyn iddi ei bywyd dinesig a milwraidd. Adeiladwyd yma amddiffynfeydd a dinasoedd, a phalasau a themlau; gwnaed ffyrdd yn cyssylltu cyrion pellenig o'r wlad â'u gilydd; a daeth yr ynys yn boblog o ddyeithriaid, i gadw a phreswylio y caerau a'r dinasoedd. Goresgynwyd y deheubarth yn y ganrif gyntaf; ac erbyn diwedd yr ail, neu ddechreu y drydedd, yr oedd gallu Rhufain wedi ymestyn hyd Gymru, ac i ymyl y Pictiaid, yn y gogledd. Bu trigiad y Rhufeiniaid yn Mhrydain yn dymmor o tua thri chant a hanner o flynyddoedd; etto, yn ystod y canrifoedd hyny, nis gellir dyweyd eu bod wedi cael gafael lwyr ar y wlad, ond yn unig yn y parthau deheuol. Wrth edrych dros y dwfr, gwelir fod Gâl, cyn hir, yn wlad, o ran ei dinasoedd, mor Rufeinig a Rhufain ei hun—mewn iaith, mewn sefydliadau dinesig, ac mewn arferion cymdeithasol. Yr oedd y wlad hono yn dyfod i fyw fel y Lladinwyr eu hunain. Ond nid felly Prydain. Er fod olion Rhufeinig yn dyfod i'r golwg dros ran helaeth o'r ynys, etto goresgyniad milwraidd yn benaf a wnaed yma—oddigerth yn y prif ddinasoedd; megys Llundain, Lincoln, a Chaerefrog. Yr oedd bywyd dinasyddion yn beth heb ei ddadblygu yma. Gwaith, ïe prif waith, y Rhufeinwyr oedd cadw y Brythoniaid yn ddarostyngedig iddynt hwy. I'r pwrpas hwn, yr oedd yma dair byddin—un, yr hon a elwid 'Yr Ail' yn Nghaerlleon-ar-Wysg, neu Isca Silurum, fel y gelwid hi yn Lladin. Sefydlwyd hon yno er cadw deheubarth a chanolbarth Cymru mewn darostyngiad. Y llall oedd 'Yr Ugeinfed,' yr hon oedd wedi ei sefydlu yn Nghaerlleon, neu Deva (yn awr yn sir Gaer), i wylio Cymru yn y rhanau gogleddol, a manau eraill. Yr olaf oedd 'Y Chweched,' yr hon a sefydlwyd yn Nghaerefrog. Heblaw y byddinoedd hyn, yr oedd catrodau cynnorthwyol lliosog wedi eu gwasgaru mewn cyssylltiad â'r tair a enwyd dros yr holl wlad. Felly, meddiant milwraidd, gan mwyaf, a sicrhawyd gan y Rhufeiniaid yn yr ynys; a phan yr ymadawsant oddi yma, tua'r fl. 410, yr oedd y trigolion Celtaidd, yn mron heb eu cyffwrdd ganddynt, o ran gwareiddiad cyffelyb i'w gwareiddiad eu hunain. Etto, o'r fath ag ydoedd, parodd i rai dinasoedd nid anenwog gael eu hadeiladu, a chaerau a gwersylloedd sefydlog hefyd: ac i ffyrdd lawer gael eu gwneyd, gan beri i boblogaeth liosog o grefftwyr, marsiandwyr, ac athrawon, &c., heblaw gwragedd a phlant, fyw bywyd mwy neu lai sefydlog yn y wlad. Y mae y gweddillion sydd ar gael heddyw yn tystio fod yn mysg y rhai hyn laweroedd o genhedloedd gwahanol wledydd Ewrop ac Asia. Heblaw Lladinwyr, yr oedd yma Roegiaid, Dalmatiaid, Pannoniaid, trigolion Cilicia, Galatia, Bithynia, ac eraill; ac yn gyfagos i Fûr Hadrian, yr oedd catrawd o Syriaid wedi ei chartrefu yno. Ceir manylion lawer, a dyddorol, am hyn yn y seithfed gyfrol o *Inscriptions* Lladin a olygwyd gan yr ysgolhaig Germanaidd Hübner.—[Corpus Inscr. Lat. vii., *Inscriptiones Britanniæ Latinæ. Ed. Em. Hübner Berol*, 1873.] Dylid cofio mai un o neillduolion y fyddin Rufeinig oedd, na byddai hi byth, yn mron, yn cael ei symmud o wlad; ond y byddai gwŷr yn cael eu dwyn i'w chyflenwi yn barhaus o bob parth o'r ymherodraeth fawr:—o Asia, yr Aipht, ac Affrica, yn ogystal ag o gyfandir Ewrop.

Gan gadw mewn côf y disgrifiad uchod, ni a anturiwn ddyfalu am y modd y *gallai* yr efengyl ddyfod i Brydain. Yr oedd rhanau ëang o Asia, a deheubarth Ewrop, rhanau hefyd o'r Aipht, a gogledd Affrica, yn cynnwys eglwysi Cristionogol blodeuog. Yr oedd geiriau yr apostol yn parhau yn wir trwy ystod y canrifoedd boreuaf, 'nad llawer o rai galluog, nad llawer o rai boneddigion, a alwyd.' Cynnwysai yr eglwysi hyn lawer o'r dosbarth a wnai i fyny grefftwyr, milwyr, morwyr, marsiandwyr, ac athrawon yr ymherodaeth: ac yr oedd tuedd a pharodrwydd hynod i deithio a chrwydro hefyd yn yr holl genhedloedd a breswylient lanau Môr y Canoldir. Fel offerynau tebygol yn nygiad yr efengyl i Brydain, gellir enwi y rhai canlynol:—

1. *Crefftwyr*, a rhai yn dilyn galwedigaethau cyffredin eraill. Deuai y cyfryw, fel arfer, o bell i wledydd newyddion; a daethant felly i Brydain. Nid oes dim yn fwy naturiol na bod llawer o'r rhai hyn yn perthyn i eglwysi lliosog Rhufain, Groeg, ac Asia Leiaf. Y bobl hyn, yr ydym yn lled sicr, oedd y Cristionogion cyntaf a ymgasglasant i gymmundeb â'u gilydd yma, mewn gwlad ddyeithr. 'Ymdaith,' neu 'ymdeithiad,' yn ol geiriau yr apostol ('dros amser eich ymdeithiad;' 1 *Pedr* i. 17), ydyw un o'r enwau hynaf sydd yn bod am eglwys; yr hwn sydd hefyd yn awgrymu mai dyeithriaid yr ystyriai y Cristionogion cyntaf eu hunain ar y ddaear. Pan ddelai nifer o grefftwyr ag oeddynt o'r 'ffydd yn Nghrist' at eu gilydd, yn y

Digitized by Google

dinasoedd, neu y caerau, neu y porthladdoedd Rhufeinig, nid hir y byddent cyn ymffurfio, yn ol yr enw a ddysgent, yn 'ymdaith.' *Paroikia* yw y gair Groeg, o'r hwn y daw y Lladin *parochia;* ac mewn ystyr newydd a diweddarach y Saesoneg *parish*. Ystyr hwn ar y cyntaf, fel y gair Cymraeg *plwyf*, oedd *cynnulleidfa* neu *eglwys*. At y rhai hyn yr ymgasglai morwyr a marsiandwyr; ac fe allai rhai o'r Groegiaid oedd yn dilyn y gwaith o addysgu, fel athrawon, yn yr ynys hon. Yr oedd un arferiad a ffynai yn gyffredinol yn yr eglwys gyntefig yn neillduol o ffafriol i hyn; sef, y crwydro mawr o wlad i wlad oedd yn bodoli dan nawdd yr ymherodraeth Rufeinig. Cariai teithwyr, os byddent yn Gristionogion, gyda hwy lythyrau cyflwyniad, neu 'lythyrau canmoliaeth,' fel y gelwir hwy yn 2 *Cor.* iii. 9, wedi eu harwyddo gan henuriaid neu esgobion yr eglwysi y perthynent iddynt. Parai y rhai hyn i gydgyfarfyddiad a chymmundeb mewn gwledydd pell a newydd fod yn fwy hawdd; ac wedi i amryw ddyfod ynghyd, nid anhawdd fyddai sicrhau yr un gofal a threfn eglwysig ag a ffynai eisoes yn yr hen wledydd. Prin y gellir credu, fel y ceir gweled yn mhellach yn mlaen, fod a wnelo Gâl, nac Asia chwaith, ddim yn neillduol â dygiad yr efengyl i'r ynys hwn.

2. *Y Fyddin.*—Teimlwn mai priodol yw enwi y fyddin Rufeinig ar ei phen ei hun, o herwydd ei phwysigrwydd neillduol ynglŷn â'r achos hwn. Yr oedd y drefn Rufeinig o adgyflenwi ei chatrodau â milwyr, yn sicrhau dyfodiaid o bob parth i'r wlad hon. Arosai y fyddin, fel y cyfryw, yn yr un man, o genhedlaeth i genhedlaeth. Cymmerer 'Yr Ugeinfed,' er engraifft, a sefydlwyd yn Nghaerlleon; a'r gatrawd o Syriaid oedd wedi ei sefydlu yn y gogledd, wrth Fûr Hadrian:—ac felly am fanau eraill yn yr ynys, lle yr oedd milwyr wedi eu gosod. Yn y dinasoedd caerog, neu yn y gwersyllfaoedd, y byddai y cyfnewidiadau yn cymmeryd lle yn benaf. Gadewid manau gwledig, neu neillduedig, a phell, fel Cymru, heb fod ond ychydig mewn cymmhariaeth, o newydd-ddyfodiaid o filwyr yn dyfod iddynt. Mae dwy ffaith bwysig yn teilyngu sylw neillduol yn y cyssylltiad hwn:—Yn gyntaf, fod llawer o honynt yn dyfod o wledydd lle yr oedd Cristionogaeth, a'i phethau pwysig, yn hysbys i'r trigolion. Daeth llawer o honynt yma i Gaerlleon o wlad Groeg, neu Syria, neu Affrica; ac eraill i'r gogledd o amgylchoedd Antiochia, lle y cafodd dysgyblion Crist eu galw yn 'Gristionogion' gyntaf; a lle yr oedd yr efengyl wedi gwreiddio yn ddwfn yn serchiadau y trigolion. Digwyddodd yr un peth hefyd, yn ddiau, gyda'r catrodau a'r cyrph eraill o filwyr oedd wedi eu sefydlu yn rhanau eraill yr ynys hon. Yr ail ffaith a nodwn ydyw, fod milwyr Rhufain oedd yn Syria yn ystod bywyd cyhoeddus yr Arglwydd Iesu wedi cael llawer o fanteision i'w weled, a'i glywed —ac yn enwedig yn ei ddyddiau olaf—ac felly, i ffurfio syniadau uchel am dano. A chawsant gyfleusderau gyda hyny i weled ei fod yn fwy na dyn. Gallwn enwi y rhai canlynol, yn mysg eraill:—ei ymddygiad tawel a digyffro yn yr ardd, a'i waith yn sefyll rhwng ei ddysgyblion a'r ddrychin pan ddywedodd, 'Os myfi yr ydych yn ei geisio, gadewch i'r rhai hyn fyned ymaith:' —yr awdurdod oedd yn ei eiriau, pan ddywedodd 'Myfi yw,' ac y syrthiodd y milwyr yn wysg eu cefnau i lawr:—ei iachâd gwyrthiol o glust Malchus gwas yr archoffeiriad:—y tawelwch a'r mawredd goruwch-ddynol oedd yn ei holl ymddygiadau ger bron yr archoffeiriaid, y Sanhedrim, Pilat, a Herod; a'r geiriau rhyfedd a ddisgynodd dros ei wefusau pan yn cael ei holi a'i ddirmygu ganddynt:—ei addfwynder yn ymostwng i gael ei groeshoelio, heb gwyno dim; a'i weddi dosturiol drostynt hwy pan yn dioddef pangfeydd eithaf y croeshoeliad:—ei farwolaeth gyflym, a hyny pan yr oedd ei nerth heb ddiffygio; yr hyn oedd yn rhyfeddod a darawodd y canwriad, pan ddywedodd, 'Yn wir, Mab Duw oedd y dyn hwn!'—ei gladdedigaeth wirioneddol: —y ddaeargryn, ddisgyniad yr angel, a'i waith yn diystyru holl awdurdod a nerth yr ymherodraeth Rufeinig pan yn dinystrio y sêl a osodid ar y maen oedd ar enau y bedd:—yn treiglo y maen, ac yn eistedd arno:—yr olwg fawreddig oedd ar yr angel, â'i wynebpryd fel mellten, a'i wisg yn wen fel eira, fel y crynodd y ceidwaid, 'ac a aethant megys yn feirw' gan ei ofn: —y perygl bywyd yr oedd y wyliadwriaeth o filwyr ynddo, o herwydd fod hyn wedi ei oddef ganddynt:—a'r ddichell gelwyddog a arferwyd gan yr archoffeiriaid i'w hamddiffyn, ac i guddio eu gwarth eu hunain:—digwyddiadau hynod y Pentecost, pan yr achubwyd rhai, mae'n debyg, o'u cyd-filwyr; a'r holl hanesion hynod sydd yn Actau yr Apostolion oedd yn hysbys i'r milwyr Rhufeinig oedd yn y wlad, ac yn gwylio y llysoedd. Yr oedd yr holl ffeithiau hynod hyn yn hysbys ddigon i filwyr Rhufain oedd yn y wlad; ac yn sicr wedi creu argraph ddofn ar eu meddyliau ynghylch dwyfoldeb person yr Arglwydd Iesu, a gwirionedd a dwyfoldeb Cristionogaeth. Daeth rhai o'r milwyr, mae'n debyg, oedd wedi bod yn llygaid-dystion o'r rhyfeddodau hyn, eu hunain, drosodd i'r wlad hon; ond y mae yn eithaf sicr fod y newyddion hynod wedi eu trosglwyddo yma mewn llythyrau gan filwyr eraill, a chan eu perthynasau i'r milwyr, oedd yn yr ynys hon, yn mhell cyn i'r digwyddiadau diweddaf sydd yn Llyfr yr Actau gymmeryd lle. Ffeithiau oedd y rhai hyn oll oedd yn sicr o feddu dyddordeb anghyffredinol i feddyliau milwyr, ac mor sicr yn destyn siarad difrifol a mynych rhyngddynt a'u gilydd, a chyda'r Cymry fyddent yn cyfeillachu gyda hwynt yn ngwahanol ranau yr ynys. Hefyd, gyda'r fyddin fawr a gadwai Rhufain yma, daeth nifer o grefftwyr drosodd, yn ol arfer y Rhufeiniaid. Ac ar ol hyny, daeth eraill, i lenwi i fyny y gwagleoedd oedd yn yr adran hon. Ac yn ol yr hanesion, yr oeddynt yn dyfod yma yn benaf o'r Ital, Groeg, a Syria—gwledydd yr oedd 'y newyddion da' wedi eu cyrhaedd yn foreu, fel y gwelir yn y Testament Newydd. Yn ngwyneb y ffeithiau uchod nis gallwn osgoi y casgliad mai dyma un o'r prif foddion trwy ba rai y daeth Cristionogaeth yn hysbys gyntaf i bobl yr ynys hon. Ac mae hyn, fe allai, yn eglurhâd hefyd paham yr oedd Rhagluniaeth yn goddef i 'filwyr Rhufain'—yr ymherodraeth fwyaf ar y ddaear ar y pryd—i gymmeryd rhan mor arbenig yn yr amgylchiadau a enwyd. Yr oeddynt, er yn offerynau yn nwylaw yr Iuddewon i groeshoelio ein Harglwydd, yn cael eu defnyddio fel offerynau i 'gario y newyddion da' i Brydain, a rhanau eraill yr ymherodraeth.

Yr ydym yn awr wedi enwi y ffyrdd possibl a thebygol i efengyleiddiad cyntaf Prydain. Mynych y temtir ni i'w gymmharu â dyfodiad yr un efengyl i ogledd Affrica, lle y cyfieithwyd

Digitized by Google

y Bibl gyntaf i iaith orllewinol. Yr oedd yno yn araf fel codiad haul, mor araf fel na wyddid ddim am 'yr amseroedd a'r prydiau;' a phan y sylwn gyntaf, cawn yr efengyl eisoes wedi cartrefu, ac yn gweithio yn rymus. Felly y bu yn Mhrydain—yn gyntaf yn mysg yn Rhufeiniaid, ac yna yn mysg y Brythoniaid.

Y mae un ffordd arall i egluro efengyleiddiad Prydain sydd wedi cael graddau helaeth o ffafr yn ngolwg llawer o ysgrifenwyr. Y maent yn talu sylw i nodweddion neillduol yn arferion yr Eglwys Brydeinig, ac yn sylwi fod yr un nodweddion i'w canfod yn eglwysi Asia Leiaf. Y maent felly yn casglu fod i Gristionogaeth Prydain darddiad Asiaidd—fod ei ffrwd wedi ffynnonellu yn Asia Leiaf. Ar lawer golwg, yr oedd i'r ddamcaniaeth hon seiliau a ymddangosent yn gedyrn. Yn neheubarth Gâl yr oedd, yn niwedd yr ail ganrif, eglwysi o Roegiaid mewn cyfathrach agos âg eglwysi Groegaidd Asia. Y benaf o'r rhai hyn oedd eglwys Lugdunum; lle y ceir fod Irenæus yn fugail neu yn esgob tua'r flwyddyn B.A. 180. Gwelir oddi wrth epistol a ysgrifenwyd tua thair blynedd cyn yr un a enwyd—sef, tua 177—i erledigaeth ffyrnig ofnadwy ddyfod i ran eglwysi Lugdunum (Lyons yn awr), a Vienne; ac mai eglwysi Asia a Phrygia oedd y rhai y mỳnai yr eglwysi hyny adrodd wrthynt hanes eu tristyd mawr. Fel hyn, ac yn mron gydag arogl dyddiau yr apostolion eu hunain, y dechreua y llythyr canlynol o'u hanes:—

> 'Y rhai sydd yn trigo yn Vienne a Lugdunum, yn Gâl, gweision Crist, at y brodyr ar hyd Asia a Phrygia, sydd yn dal yr un ffydd a gobaith am iachawdwriaeth a ninnau, anerch i dangnefedd, gras, a gogoniant oddi wrth Dduw Dad, a Christ Iesu ein Harglwydd.'

O Asia y daeth y Groegiaid a ysgrifenasant fel hyn, yn eu hiaith eu hunain, at y rhai oedd yn preswylio yn eu cartref cyntefig. Nid annaturiol gan hyny, oedd y casgliad, yn wyneb y drafnidiaeth forawl ag oedd yn bodoli rhwng gwledydd Môr y Canoldir a Phrydain, i'r efengyl gael ei dwyn yma o'r dinasoedd a enwyd fel rhai wedi hànu o Asia. Ond y mae aml i wrthddadl gref yn erbyn y dybiaeth hon. Cyhoeddwyd, yn y fl. 1894, un o'r llyfrau mwyaf llwyr ei ymchwiliad a ymddangosodd erioed ar hanes boreuol crefydd yn Gâl.—*Fastes Episcopaux de l'ancienne Gaule par L'abbe L. Duchesne* td. 46. Dangosir yn hwn, yn eglur ac yn argyhoeddiadol iawn, mor leied a fu dylanwad eglwysi Lugdunum a Vienne ar Gâl ei hun. Pa faint llai yr oedd raid fod eu dylanwad ar wlad mor bell a Phrydain?

Ond sylfaenir y dyb mai o'r manau hyn y dygwyd yr efengyl i'n gwlad ni, ar gyffelybrwydd arferion eglwysig. Yr ydys yn sicr fod rhai arferion neu ddulliau yn ffynu yn eglwysi Celtaidd yr Iwerddon a Phrydain a ddygasid ar y cyntaf o arfordir Asia Leiaf. Ond y maent yn gyfryw ag a ffynent hefyd dros ran fawr o orllewinbarth Ewrop—dros Yspaen, Gâl, a gogledd Italy, yn ogystal a'r Iwerddon, a'r ynys hon. Y mae'n rhaid felly chwilio am darddle amgen na'r ddwy, neu chwaneg, o'r eglwysi Groegaidd a enwyd yn neheubarth Gâl, gan y gwyddis nad ymdaenodd yr arferion neillduol hyny oddi yno i'r Yspaen, ac i Gâl, ac Italy.

Tua'r fl. B.A. 180, ysgrifenodd Irenæus am 'y ffydd a dderbyniasai yr eglwys, ac a ledaenwyd trwy yr holl fyd; yr hon a gredir ac a gedwir ganddi fel pe na bae iddi ond un enaid, ac un galon; yr hon hefyd a bregethir, ac a ddysgir, yn mhob man megys o un genau. Nid ydyw yr eglwysi a sefydlwyd yn Germania (meddai) yn credu yn amgen, neu â thraddodiad amgen ganddynt; na chwaith yr eglwysi sydd yn yr Yspaen, na'r rhai yn mysg y Celtiaid.'—[*Irenæus*, i. 10. 1.] Nid oedd yr enw 'Celtiaid' yn cael ei roddi gynt i drigolion Prydain, na'r Iwerddon, fel y gwneir yn awr. Enw ydoedd ar bobl Gâl yn unig, er amser Julius Cæsar. Er nad yw Irenæus yn enwi eglwysi yn Mhrydain, gellid ein harwain i dybied fod yma eglwysi y pryd hyny. Y mae Irenæus yn gadael allan hefyd o'r rhestr wlad sydd mor bwysig a Groeg, lle yr oedd yr efengyl wedi cael cartref diogel yn y dinasoedd y mae eu henwau yn ddigon hysbys i ni; sef, yn Corinth, Philippi, Berea, a Thessalonica, &c. Ar lawer cyfrif, yr oedd safle Germania yn debyg i safle Prydain yn yr ymherodraeth; ac os oedd eglwysi yn y gyntaf o'r gwledydd hyn, gallent fod hefyd yn yr ail —tua'r fl. 180—o ran un dystiolaeth i'r gwrthwyneb a geir yn ngeiriau Irenæus.

Yn mhen ugain neu ddeng mlynedd ar hugain wedi hyn, y mae tystiolaeth eglur ar gael yn ngeiriau Tertullian fod y grefydd Gristionogol y pryd hyny yn Mhrydain.

> 'I bwy (meddai) y credodd y cenhedloedd eraill? —Parthiaid, Mediaid, Elamitiaid, trigolion Mesopotamia, &c.; a'r cenhedloedd eraill, megys gwahanol lwythau y Gaetuli, amderfynau y Mauri, holl ororau Yspaen, gwahanol bobloedd Gâl (Galliarum), *a manau anhygyrch y Brythoniaid oedd heb eu cyrhaedd gan y Rhufeiniaid, ond wedi eu darostwng i Grist*; y Sarmatiaid, y Daciaid, y Germaniaid, a'r Scythiaid. . . . Yn yr holl fanau hyn y mae enw y Crist, sydd eisoes wedi dyfod, yn teyrnasu, gan fod ynddynt oll bobl âg enw Crist arnynt yn preswylio.'

Y mae yn yr adran hon ormodiaeth, ni a wyddom, nid annaturiol i areithydd tanbaid fel Tertullian. Y mae ynddi, yn sicr, ormodiaeth am Gâl a Germania; ac, fe allai, am Brydain, hefyd. Ond y mae un peth yn eglur—fod 'pobl sydd yn dwyn enw Crist,' yn y blynyddoedd rhwng B.A. 200 a 210, i'w cael yn Mhrydain. Pwy oeddynt? Ai y dyeithriaid o Rufeiniaid, ynte y Brythoniaid o'r un gwaed a ni? Y dyeithriaid, yn ddïau, oedd aelodau cyntaf yr eglwys yn yr ynys hon; ac fe allai mai hwy oedd yn ffurfio y nifer mwyaf o Gristionogion yma hyd ddechreu y bummed ganrif—tua'r amser yr ymadawodd y Rhufeiniaid o'r ynys (rhwng B.A. 402 a 436). Ond yn mhen dau can mlynedd, fwy neu lai, ar ol 210, y dechreuid gweled cenedl Gristionogol o Frythoniaid—neu, a defnyddio enw diweddarach, 'o Gymry,' yn ffurfio Eglwys Gristionogol. Gellir atteb am yr oediad hwn drwy y ffeithiau tebygol mai yn raddol yr ennillodd Cristionogaeth ei goruchafiaeth; a bod gorthrwm y Rhufeiniaid wedi creu rhagfarn yn meddyliau llawer o'r Cymry yn ei herbyn; ac hefyd fod nerth eu syniadau paganaidd hwythau yn attalfa arall ar eu ffordd:—a bod y cwbl yn dylanwadu arnynt fel i'w hattal rhag gwneyd derbyniad cyhoeddus o'r efengyl.

Gellir rhanu yr ysbaid rhwng dyfodiad yr efengyl gyntaf i'r ynys hyd farwolaeth Dewi Sant, tua B.A. 600, yn ddau gyfnod. Cynnwysa y cyfnod cyntaf yr ysbaid y bu yr eglwys yn mysg y Rhufeiniaid Prydeinig; a'r ail gyfnod, yr ysbaid y bu hi yn mhlith y Brythoniaid a'r Cymry.

Digitized by Google

**III. Eglwys y Rhufeiniaid Prydeinig:—**
**o tua b.a. 200 hyd 400.**

Dylid yma, i ddechreu, gyflwyno i sylw y rhesymau sydd yn arwain i'r casgliad mai Cristionogaeth Ladinaidd oedd yn Mhrydain yn ystod y cyfnod hwn. O amgylch ei thiriogaeth fechan, yr oedd dwy randir ëang o baganiaeth; sef, paganiaeth Rufeinig, a phaganiaeth trigolion Celtaidd yr ynys: a chredu yr ydym na chyrhaeddodd ei chongcwest ond yn brin iawn i'r ail o'r rhandiroedd hyn. Gwlad heb ei goresgyn a fu paganiaeth y Brythoniaid am tua dau can mlynedd wedi i Brydain ei hun weled goleuni yr efengyl o'i mewn gyntaf.

1af. Y rheswm cyntaf a enwn dros gredu hyn yw y ffaith nodedig nad ydyw y cyfnod yma wedi gadael dim o'i ol, mewn traddodiad, na llenyddiaeth Gymreig. Yr ydym eisoes wedi gweled adeg ddiweddar dechreuad yr ystoriau am Lles ap Coel a Brân Fendigaid. Gwelsom, hefyd, darddiad estronol y chwedlau am Joseph o Arimathea, Paul, a Phedr. Ni wyddai Gildas ond ychydig am Frythoniaid Cristionogol; ond benthycai hanes cyffredinol yr eglwys fel y darllenai yn ngwaith Eusebius, gan ei gymmhwyso at ei wlad ei hun. Can belled ag y ceir enwau hanesyddol, a chyfeiriad at ryw ffeithiau y gellir credu fod sail hanesiol iddynt mewn ysgrifenwyr Prydeinig, nid ydynt un amser yn ein dwyn at adeg foreuach na'r bummed ganrif. Pan y sylwir ar enwau 'llanau,' y mae y personau yr enwir hwynt arnynt yn perthyn i dymmor diweddarach na'r ganrif uchod. Mewn gair, anhawdd iawn ydyw cael, o fewn holl gylch traddodiad a llenyddiaeth Gymreig foreuol, un awgrym fod gan y Prydeiniaid ran na chyfran yn yr eglwys a fodolai yn eu canol er yr ail ganrif.

2il. Yr oedd y dull y llywodraethai y Rhufeiniaid yn gyfryw ag i lesteirio lledaeniad yr efengyl yn mysg y brodorion Prydeinig. Ar hyn y mae tystiolaeth y gyfrol a gyhoeddwyd gan Hübner, fel casgliad o bob peth a geir ar hen gôf-golofnau a cheryg beddau o wahanol fathau, yn llefaru yn eglur. Am filwyr a swyddogion milwraidd y mynega y rhan fwyaf o'r caerau a'r dinasoedd; ac o fewn y rhai hyn, a'r gwersyllfaoedd, bywyd Rhufeinaidd oedd yn cael ei fyw. Dros ranau ëang o'r wlad, yr oedd y Brythoniaid yn byw bywyd neillduedig; a chanddynt eu hiaith, eu harferion, a'u cyfreithiau eu hunain. 'Yn y bummed ganrif, fel yn y gyntaf (medd un ysgolhaig) yr oedd Prydain yn Geltaidd.' Yn yr amgylchiadau hyn, a wnaent yr ymherodraeth a'r trigolion Celtaidd mor estronol i'w gilydd, annhebyg iawn ydyw i'r grefydd a ddygasid i mewn gyda gwŷr Rhufain ymledu dros wyneb y tir yn mysg y brodorion. Er pob peth, y mae yn naturiol casglu fod rhai o'r Cymry, ac fe allai llawer, wedi derbyn Cristionogaeth o fewn y canrifoedd cyntaf.

3ydd. Wrth edrych drwy restr o'r enwau sydd wedi eu darganfod ar gôf-feini Cristionogol, o'r bummed ganrif yn mlaen, gwelir ar unwaith fod rhan helaeth o honynt yn enwau Celtaidd. Nid annaturiol oedd i'r Prydeiniaid fenthyca enwau Lladinaidd gan genedl uwch ei gwareiddiad. Y Lladin oedd iaith cymdeithas, diwylliant, a chynghor, a phob bywyd cyhoeddus. Yn ol hyn, y mae yn rhestr yr enwau y cyfeiriwyd atynt aml un wedi ei fenthyca o deuluoedd Rhufeinig; ac eraill, yn ol arfer yr eglwys yn mhob man, o'r Ysgrythyrau. Etto, gwedd Gymreig sydd ar y nifer fwyaf o honynt; yr hyn sydd yn brawf eglur fod eglwys Crist, erbyn hyny, wedi ymledu yn mhlith y bobl. Y mae yn wir nad oes genym ond ychydig enwau ar gadw o'r amser yr oedd y Rhufeiniaid yma: etto, mor bell ag y maent yn cyrhaedd, nid oes un o honynt yn dwyn gwedd Gymreig neu Geltaidd. Cynnaliwyd Cynghor Arles, yn y fl. b.a. 314; yr hwn a alwasid i gyfarfod gyda'r amcan o benderfynu ymrafael difrifol a gododd yn eglwysi Affrica. Aeth y personau canlynol o Brydain i'r cynghor hwn; sef, Eborius, Restitutus, Adelfius, Sacerdos, ac Arminius. Cyn hyny, y mae genym enwau tri merthyr; sef, Julius, Aaron, ac Albanus. Er nad oes yma, mae'n wir, le mawr i ddewis, etto, o'r enwau hyn ag y mae hanes wedi eu gwneyd bron yn sicr, nid oes gymmaint ag un Celtaidd. Anhawdd ydyw coelio na chawsem un o'r cyfryw pe buasai yr Eglwys Gristionogol wedi ennill safle ëang, a chartref amlwg, yn mysg y Prydeiniaid eu hunain.

4ydd. Cadarnheir ni yn y grêd hon pan yn edrych i hanes y wlad agosaf at Brydain ar y cyfandir. Yr oedd Gâl wedi ennill llawer mwy na'r ynys hon oddi wrth wareiddiad a diwylliant Rhufain. Etto, yno nid oedd hyd yn oed y dinasoedd wedi dyfod yn hollol Rufeinig; ac yn sicr, nid oedd y rhanau gwledig o'u hamgylch. Gellir casglu fod mawrion y wlad yn arfer eu hen iaith Geltaidd mor ddiweddar a b.a. 487: ac yn mhen can mlynedd, y mae Gregory o Tours, yn ei ysgrifeniadau, er ei fod ei hun yn perthyn i'r hen deuluoedd Italaidd, yn cyfeirio amryw weithiau at enwau yn yr iaith Geltaidd (*Gallica Lingua*). Gellir casglu yn deg oddi wrth ei eiriau fod yr hen iaith yn cael ei siarad yn gyffredin yn ei amser ef mewn dinasoedd fel Clermont ac Autun. Yr oedd yr iaith hon, yn ol dull bywyd yr oes hono, yn rhwystr i ledaeniad y grefydd newydd. Yr oedd hi yn rhagfur cadarn i'r hen grefydd baganaidd. Nid ydym yn synu felly wrth ddarllen yn ysgrifeniadau Sulpicius Severus am Sant Martin, mai rhai o'i brif orchestion crefyddol oedd glanhau y wlad oddi wrth eilunod, temlau, a gau-grefydd. Yr oedd hyn rhwng b.a. 375 a 400. Yn hanes y wlad hon, ceir yr eglwysi hynaf yn y dinasoedd pwysicaf—lle yr oedd bywyd Rhufeinaidd gryfaf. Y mae y gŵr y cyfeiriwyd ato eisoes—un o haneswyr goreu Ffraingc—yn y llyfr a gyhoeddwyd yn 1894, yn gwneyd ymchwiliad manwl a llwyr i gofnodion boreuaf 119 o'r eglwysi hynaf [*Duchesne; Fastes Episcopaux de l' ancienne Gaule*]. O'r rhai hyn, nid oes sicrwydd ond am un, sef Lyons, mor foreu a'r ail ganrif. Y mae pump o honynt â'u hanes yn dechreu yn y drydedd ganrif—tua chwech yn agos i'r fl. b.a. 300; a'r gweddill o amser Cystenyn Fawr yn mlaen. Os bu efengyleiddiad Gâl mor araf a hyn, mae'n naturiol casglu fod y gwaith wedi cerdded yn arafach yn ngwyllt-diroedd Prydain. Er hyn oll, y mae y prawfion eglur sydd genym fod eglwysi lawer yn Mhrydain yn y dinasoedd a'r gorsafoedd Rhufeinig, ac yn y rhanau hyny o'r wlad ag oedd wedi eu dwyn i agwedd bywyd Lladinaidd, yn ein harwain i ymofyn yn fanylach am y bywyd a ffynai yn y cyfryw eglwysi. Y mae hyn yn bwysig, gan mai allan o'r bywyd hwnw y tyfodd y bywyd a flagurodd yn ddiweddarach yn mysg Prydeiniaid a Chymry Cristionogol y wlad hon.

Digitized by Google

Wrth gymmharu gwahanol wledydd Cyfandir Ewrop yn ystod y pedair canrif cyntaf, yr ydym yn canfod tebygolrwydd hynod yn neillduolion eu bywyd crefyddol, a'u dull o feddwl am athrawiaethau y grefydd Gristionogol. Yr oedd y fuchedd, a'r ffydd yn Nghrist, o ran eu prif linellau, yr un yn mhob man; ac yn gymmaint felly ag i beri i'r olaf gael eu galw cyn hir 'y ffydd gyffredin,' neu 'gatholig.' Ni chododd, hyd y gwyddom ni, un dysgawdwr hynod yn Mhrydain i adlewyrchu crêd a buchedd ei gydwladwyr yn ei ysgrifeniadau. O herwydd hyn, mae'n rhaid i ni chwilio am ddisgrifiad o honynt yn mysg yr awduron y gellir bod yn sicr fod eu hysgrifeniadau yn cael eu darllen yn Mhrydain. Cawn yn y rhai hyn ffurf bywyd a chrêd yr eglwys ag yr oedd ei choelbren yma. Cawn ynddynt, hefyd, yn ddïau, yr ymborth ysbrydol a feithrinodd, gyda'r Ysgrythyrau, y bywyd hwnw, a'r grêd hono. Er dyweyd na chafwyd ysgrifenwyr Prydeinig yn y cyfnod hwn, yr ydym am geisio gosod o flaen y darllenydd ddarlun o un teilwng iawn o sylw, a ymddangosodd mor foreu a'r fl. 420. Enw y gŵr hwnw yw Fastidius; a chanddo ef y derbyniwn ddarlun tra dyddorol o fywyd Cristion da yn niwedd y tymmor yr ydym yn sôn am dano. Yr oedd yr Ysgrythyr Lân yma, y mae yn debyg, o'r dechreu mewn cyfieithiad Lladin; ac o blegid y gyfundrefn gyffredinol o addysg a feithrinid gan yr ymherodraeth, neu trwy ei dylanwad, yn mhob man, y mae yn dra thebygol fod y darllenwyr yn lliosog. Gwnaed y cyfieithiad hwn yn foreu—mor foreu a thua B.A. 150; ond nid ydys yn hollol sicr am y wlad lle yr ymgymmerwyd â gorchwyl mor bwysig, a mawr ei ganlyniadau. Wrth ymdaenu dros wahanol wledydd aeth y cyfieithiad trwy lawer o ddiwygiadau a chyfnewidiadau; nes y teimlwyd, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif, fod gwir angen am gyfieithiad diwygiedig. Gwnaed hwnw gan Jerome o ddeutu y fl. 383. Ond yn Mhrydain, yr oedd y defnyddiad o'r hen gyfieithiad mor gyffredinol fel y cafwyd peth anhawsder i ddwyn y newydd i arferiad buan. Nid oedd wedi cwbl ddyfod felly yn amser blodeuog yr eglwys yn Nghymru; sef, yn amser Dewi, Gildas, Samson, a Chatwg.

Y mae yn sicr mai cyffelyb fu cynnydd yr eglwys yn Mhrydain, o ran athrawiaeth oedd yn sylfaenedig ar yr Ysgrythyrau. Ar y cyntaf meddyliau syml iawn oedd yn nodi terfynau amgyffredion Cristionogion y Gorllewin; ond yn raddol, cafodd ëangder a dyfnder cynnwys yr Ysgrythyrau eu canfod yn llwyrach; tra yr oedd cynnyrch y meddylgarwch fu ar waith yn athroniaeth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, cyn Crist, yn dwyn ffrwyth dyladwy. Nid teg fyddai dyweyd fod yr athrawiaeth hon wedi newid dim ar athrawiaeth yr eglwys; ond rhoddodd i wirioneddau yr efengyl ffurf newydd, o ran mynegiad, ac o ran ymchwiliad iddynt. O Dduw y daeth yr athrawiaeth, er mewn ffordd wahanol, ac nis gallai yr efengyl wrthod ei chymmwynasau. Ond y cydweithio yma a roes fod i ddadleuon mawr y cyfnod hwn; er hyny, ar ol yr holl ystormydd dryciinog, daeth yr eglwys allan wedi ennill llawer. Trwy y canrifoedd hyn, yr oedd eglwysi Cristionogol y Gorllewin yn ymgadw yn fwy syml ac ymarferol, a mwy yn llinellau ymadroddion yr Ysgrythyr, nag eglwysi pwysig y rhan ddwyreiniol o'r ymherodraeth. Felly yr oedd yn Mhrydain, yn ddïau. Tra yr ymleddid brwydrau mawr duwinyddiaeth yr eglwys yn y Dwyrain, yr oedd meddyliau dynion yma yn aros o fewn yr un llinellau, ond heb y dadleuon athronyddol a ymferwent yno. Yr oedd crêd Prydain fel crêd dyn bach; ond gwelid, cyn hir, mai yr un ydoedd a chrêd y dysgedigion yn Nicea, Caer Cystenyn, Alexandria, a Chalcedon. Ar ol hyny, cafodd Prydain hefyd ei hathrawiaeth yn y ffurf newydd, fel y gweddill o'r Gorllewin —trwy ddylanwad mawr Awstin, o Hippo, yn benaf.

Gan adael yr athrawiaeth o'r neilldu, y mae yn ofynol i ni aros yma i syllu ar fuchedd yr eglwys yn yr amgylchiadau yr oedd hi ynddynt yn Mhrydain. Hyd y fl. 313, paganaidd oedd yr ymherodraeth Rufeinig. Fel y cyfryw, nid oedd y fath beth a rhyddid crefyddol o fewn ei chyfansoddiad politicaidd, mwy nag yn y ffurfiau o lywodraeth a'i rhagflaenasai yn Groeg, a manau eraill. Yr oedd ganddi ei chrefydd, fel yr hen ddinasoedd Groegaidd; a bradwriaeth oedd i unrhyw berson wrthod cydsynio â chrefydd ei wladwriaeth. Syniad a ddysgwyd gyntaf gan Gristionogaeth yw, fod gan bob dyn ryddid i ymarfer ei grefydd ei hun, ac i addoli yn ol ei farn a'i gred ei hun. Er hyny, wrth ymledu dros y byd, dysgodd Rhufain mai doeth oedd goddef llawer i wahanol genhedloedd y byd, o ran eu crefydd. Heb law hyny, yr oedd pob crefydd baganaidd yn foddlawn i bob un arall yn ei lle a'i gwlad ei hun; ac o herwydd hyny, ni phetrusai dynion gydymffurfio â chrefydd unrhyw wlad neu ddinas pan y deuent iddi; a chydymffurfio drachefn yr un modd â chrefydd neillduol gwlad neu dref arall pan yr elent yno hefyd. Ond am y Cristion, er ei fod yn ddinesydd Rhufeinaidd o ran ei fywyd cyffredin, yr oedd efe y tu allan iddi o ran ei grefydd. Yn hon, ni pherthynai i unrhyw wlad, na dinas. Efe, oddigerth yr Iuddew, oedd yr unig un na allai gydymffurfio âg unrhyw grefydd ond yr eiddo ei hun. Enw cyffredin ar y Cristionogion gan y paganiaid oedd 'y rhai di-dduw,' neu 'yr atheistiaid;' gan eu bod yn gwrthod duwiau y cenhedloedd oll. Estynai yr ymherodraeth ei goddefiad yn mhell ac yn ëang. Cai Iuddewiaeth, a chrefyddau eraill, gysgod dani; ond teimlid, cyn hir, fod yn y grefydd newydd a ymledai mor brysur i bob cwr ryw allu a nerth nas gallai cyfraith Rhufain ei oddef. Yr oedd ei bodolaeth yn groes hollol i sylfeini ymherodraeth eilun-addolgar. Er fod yr Iuddew yn gwrthod pob crefydd y tu allan i'w grefydd ei hun, etto yr oedd efe yn gadael llonydd iddynt oll. Ond am y Cristion, heblaw gwadu a gwrthod, mynai efe ennill dynion oddi wrth bob crefydd arall i gofleidio enw a bywyd Iesu Grist yr Arglwydd. Hyn, ni oddefai Rhufain, nac unrhyw wladwriaeth baganaidd. Felly, daeth bywyd yr eglwys i fod yn fywyd o erlidiau. Ac nid ei gwrthod yn unig a wnaed, ond ei gwrthwynebu, â rhwymau, a charchar, ac angau, am ganrifoedd.

Mae'n ammhossibl meddwl na bu yr eglwys yn Mhrydain yn gorfod dioddef oddi wrth y prawf ofnadwy a ddaeth i ran y Cristionogion dan amryw o'r ymherawdwyr o flaen Diocletian, er nad oes genym sicrwydd am hyny. O dan Rufain baganaidd yr oedd ei bywyd yma hyd B.A. 313; ac yr oedd raid i'r swyddogion milwraidd a gwladol gymmeryd rhan beunydd yn seremonïau ac addoliad y duwiau – y cyfryw

Digitized by Google

na feiddiai Cristion cydwybodol eu cyffwrdd. Yr oedd llawer o'r swyddogion uchaf yn aiddgar yn hyn, fel yr un hwnw yn Caerlleon-ar-Wysg ag y mae côf am dano, yn codi teml i Diana yn y drydedd ganrif. Felly, yn fynych, tra yr oedd y gyfraith yn cynnwys y gosodiad ofnadwy, 'Nid oes gan y Cristionogion ryddid i fyw' (*Christianos esse non licet*), dygai nwydau cynnhyrfus y werin, a'r swyddogion, amseroedd blinion i'r rhai a enwent enw Crist. Etto, dilynid y rhai hyny gan adegau o dawelwch trwy dynerwch llawer barnwr, a thrwy ddifrawder ambell Gallio.

Dechreuodd yr erledigaeth ddiweddaf yn y fl. B.A. 303; yr hon a fu yn ofnadwy iawn yn Asia, yr Aipht, Creta, Corcyra, a Thessalonica. Ond y mae lle i gredu nad oedd llawer o ddioddef yn Mhrydain; o herwydd llarieidd-dra a doethineb Constantius, tad Cystenyn Fawr, yr hwn a lywodraethai y pryd hyny dros Gâl, Yspaen, a Phrydain. Gwyddis i greulondeb îs-swyddogion beri llawer o dywallt gwaed yn Yspaen. Caed 18 o ferthyron yn ninas Saragossa ei hun. Gan na ddaeth Constantius i fyw i Brydain hyd B.A. 306, yr oedd yma, fel yn Yspaen, gyfleusdra i is-swyddogion am dymmor gario allan y gorchymyn gwaedlyd a gyhoeddwyd drwy yr holl ymherodraeth yn 304. Y mae Gildas wedi cadw y traddodiad a ffynai yn ei amser ef am y blynyddoedd 304 a 305, yn ei hanes am y merthyron hyn:—Alban, yn Verulam (St. Albans); a Julius ac Aaron, yn Nghaerlleon ar Wysg. Chwyddwyd rhifedi y dioddefwyr yn ddirfawr mewn ambell ferthyrdraeth. Gosodir y nifer a ferthyrwyd gydag Alban, yn un o'r cyfryw, mor uchel ag 888; ond y mae pob tystiolaeth o'r fath yn hynod ddi-werth, gan fod yr ysgrifeniadau hyny wedi ymddangos gyntaf oll rai canrifoedd wedi i'r ffeithiau y maent hwy yn proffesu adrodd eu hanes gymmeryd lle.

Nid oes un sail i gredu fod eglwysi Prydain yn gwahaniaethu oddi wrth eglwysi eraill Gorllewinbarth Ewrop, a Gogledd Affrica, mewn athrawiaeth. Ceir eu bod yn dilyn eglwysi y Cyfandir yn llwybr yr hyn a ystyrid yn 'uniawngred!' Yr un ffydd syml ar linellau Ysgrythyrol oedd yma ag a ffynai yn Rhufain, a manau eraill. Dyma oedd yr hanes hyd amser Awstin. Enwir hwynt gan Athanasius fel rhai oedd yn cyttuno âg ef, ac â Chynghor enwog Nicea (325) gyda golwg ar yr athrawiaeth am Berson Crist fel gwir Dduw, o'r un sylwedd a'r Tad. 'Dyma y ffydd (medd efe) a gyffeswyd gan y tadau a gyfarfu yn Nicea; ac â hi y cyttuna yr eglwysi yn mhob man—eglwysi Yspaen, a Phrydain, a Gâl; . . . canys yr ydym yn gwybod trwy brofiad feddwl yr eglwysi a enwyd, ac y mae genym lythyrau oddi wrthynt.' Felly, o'r cyffro a gododd ynghylch yr athrawiaeth fawr hon, yr oedd meddwl Cristionogion Prydain, fel eglwysi eraill y Gorllewin, wedi tyfu eisoes, yn llwybr eu hyfforddiant crefyddol, yn gyfryw ag i goffeidio athrawiaeth eofn Athanasius. Nis gallwn feddwl iddynt yma ddilyn y ffordd o feddwl oedd gan Athanasius ei hun, neu rai cyffelyb iddo. Tra y mae efe, gyda holl ogwydd a chenddediad meddwl wedi ei drwytho â diwylliant Groeg, yn arwain meddwl yr eglwys er hyny at athrawiaeth â'i gwraidd yn ddwfn yn yr Ysgrythyrau, yr oedd meddyliau syml y Brythoniaid yn dyfod i'r un man, heb gymmhorth athroniaeth. Mae Hilary o Poitiers, yn Gâl, y gŵr mwyaf a gododd yn yr eglwys orllewinol, yn gwneyd un sylw awgrymiadol tua'r fl. B.A. 358. Gyda golwg ar y ddau air yr oedd y fath ddadl yn eu cylch, fod Crist *o'r un* sylwedd a'r Tad, neu ei fod *o gyffelyb* sylwedd, dywedodd efe nad oedd ond ychydig amser er pan y gwelodd Gyffes hynod Nicea; yr hon, trwy ddylanwad Athanasius, a ddygasai yr ymadrodd blaenaf i sylw. Er ei fod yn esgob, nid oedd wedi ymgydnabyddu â'r gyffes oedd wedi cynnhyrfu y byd am dros ddeng mlynedd ar hugain; etto, dywed ddarfod iddo ddysgu yr athrawiaeth ei hun yn yr Ysgrythyrau. Dyna, yn sicr, ydyw hanes eglwysi Prydain. Heb ond ychydig ddiwylliant, ond a geid trwy yr Ysgrythyr Lân, yr oeddynt yn barod i osod eu hunain ochr-yn-ochr â'r gwŷr dysgedig a osodasant ffurf barhaol i athrawiaeth yr eglwys yn Nghredo enwog Nicea.

Pan yr ydym yn cyfarfod gyntaf â chyfeiriad at eglwysi Prydain, ar ol yr un a enwyd—o Tertullian, tua B.A. 200—y maent i'w gweled yn eglwysi o'r ffurf a elwir yn 'esgobaethol.' Dylid egluro ychydig ar hyn. Ar y cyntaf, yr unig swyddogion yn yr eglwysi oedd yr 'henuriaid,' neu y 'presbyteriaid.' Fel y lliosogodd nifer y cynnulleidfaoedd, daeth yn angenrheidiol dewis diaconiaid hefyd, i ofalu am y cleifion a'r tlodion, a chyfraniadau yr aelodau—tra yr ymroddai yr henuriaid i arolygu a dysgu mewn pethau ysbrydol. Er fod yr enw 'henuriaid' wedi ei gael o synagog yr Iuddewon, y mae gwaith yr henuriaid yn newydd o ran amcan ac ystyr. Yn ngwyneb hyn, tyfodd enw arall yn fuan iawn yn mysg yr eglwysi; a galwyd yr henuriaid hefyd yn esgobion (*episcopi*), neu yn arolygwyr. Y mae felly ddwy swydd; sef, yr henuriaid neu esgobion, a'r diaconiaid. Ond mewn cynnydd pellach, tra y parhäai yr un swyddogion i gael eu galw weithiau yn henuriaid ac weithiau yn esgobion, y mae un, o herwydd cymmhwysderau neillduol, megys oed a chyrhaeddiadau arbenig, neu, weithiau, alluoedd disglaer heb oed, yn cael ei ystyried yn arweinydd. I hwn, yn y sefyllfa newydd hon, naturiol oedd rhoddi yr enw newydd, a'i alw yn 'esgob.' Gwelir yn eglur oddi wrth lythyrau Ignatius, a ysgrifenwyd tua'r fl. B.A. 110—fod eglwysi Syria ac Asia Leiaf wedi dadblygu i fod dan arweiniad gwŷr o dair swydd—yr esgob, yr henuriaid, a'r diaconiaid. Nid oedd hi felly, gellir casglu, mewn manau eraill. Er esampl, nid oedd hi felly yn Philippi, Corinth, na Rhufain. Er hyny, ymledodd y ffurf hon o fywyd eglwysig erbyn canol yr ail ganrif, a'r drydedd, i fod yn gyffredinol. Ni pherthyn i ni yma olrhain yr achosion. Mynegu yr ydym y ffaith hanesyddol yn unig. Ond cofier, pa fath swyddog oedd yr 'esgob' am ganrifoedd. Enw ydoedd ar ŵr yn gofalu am *un* eglwys, gan ddilyn galwedigaeth arall, fe allai, yr un pryd—amaethwr, crefftwr, neu fasnachydd. Gydag ef, yn yr eglwys, yr oedd henuriaid a diaconiaid yn ei gynnorthwyo; ac yn fynych, yr oedd ganddynt hwythau alwedigaethau bydol i'w dilyn, yn gystal a'u llafur yn yr eglwys. Gwelir fod yr esgob boreuol mewn sefyllfa a llafur tebyg i glerigwr neu weinidog yn ein dyddiau ni. Pe y tyfai eglwys yn ddwy mewn manau cyfagos, dewisid esgob, a henuriaid, a diaconiaid eraill i'r eglwys newydd. Heblaw hyn, yr oedd pob esgob yn cael ei ddewis gan aelodau ei eglwys ei hun; ac mewn amseroedd boreuol,

Digitized by Google

disgwylid i'r dewisiad gael ei gadarnhau gan yr esgobion cylchynol. Wedi y dewis a'r cadarnhau, gosodid ef yn ei swydd trwy weddi ac arddodiad dwylaw. Dyma oedd y ddefod—a alwyd yn 'ordeinio,' oddi wrth y gair Lladin *ordo*, yn golygu 'gradd,' neu 'swydd.' Naturiol oedd i brif aelodau yr eglwysi gymmeryd rhan mewn gwaith mor bwysig a hyn; a naturiol oedd i'r gorchwyl syrthio i'w rhan hwy fel arolygwyr, neu esgobion—y gwŷr penaf yn mhob eglwys. Cyn hir, nid ystyrid y ddefod yn rheolaidd oni chyflawnid hi gan yr esgobion—tri, o leiaf; saith, os gellid. Yn raddol, tyfodd y syniad nad oedd yn ddilys heb hyny; ac y mae y syniad hwnw wedi aros hyd yn awr yn yr eglwysi esgobaethol. Ond syniad o ddychymyg dynion yn unig oedd hwn. Nid oedd yn perthyn o gwbl i'r eglwys gyntefig.

Yr ydys yn casglu fod y dadblygiad hwn wedi cymmeryd lle cyn i'r eglwysi cyntaf dyfu yn Mhrydain. Gallai ychydig greffwyr gyfarfod â'u gilydd i addoli, a darllen yr Ysgrythyrau, a chynghori, a rhybuddio eu gilydd. Ond cyn hir, yn ol y meddylddrych a ffynai yn mhob man—nad oes neb yn gwybod paham—byddai yno un i fugeilio y praidd o dan yr enw 'esgob;' a byddai yno henuriaid a diaconiaid hefyd. Ond ar y cyfan, gallwn fod yn sicr nad oedd y cynnulliadau hyn i'w cael ond yn unig yn y trefydd, neu lle yr oedd gwersyllfaoedd o filwyr.

Mae un dadblygiad arall i'w enwi; a ddaeth yn *ddilynol* i gartrefiad yr efengyl yn Mhrydain. Gan mor bwysig ydyw, nis gellir gadael adeg hwn yn ddisylw. Ar ol dechreu y drydedd ganrif y daeth yn arferiad i alw gweinidogion yr Eglwys Gristionogol yn 'offeiriaid.' Y mae dechreuad bychan cynnil ar hyn i'w weled yn ysgrifeniadau Tertullian—rhwng B.A. 198 a 215, neu ychydig yn ddiweddarach. Ond yn ngweithiau Cyprian, tua B.A. 250, y mae yr arferiad anysgrythyrol hwn fel wedi ennill lle sefydlog yn yr eglwys. Gelwir esgob, bob amser yn mron, yn 'offeiriad,' a gweinyddiad Swper yr Arglwydd yn 'offrwm,' a'i fwrdd yn 'allor.' Nid oes odid un meddylddrych sydd wedi bod mor niweidiol ei ganlyniadau a hwn. Arhosodd, a chynnyddodd yn ddirfawr yn Mhrydain, fel manau eraill. Ar y cyntaf, am tua dwy ganrif o oes yr apostolion, eglwys heb offeiriad swyddol oedd yr Eglwys Gristionogol. Felly hefyd yn Mhrydain, pan ddechreuodd eglwysi ymffurfio. Er eu bod yn galw y rhai a'u gwasanaethent yn esgobion, a phresbyteriaid, a diaconiaid, nid oedd ganddynt un syniad fod yr esgob, neu y presbyter, i'w ystyried yn offeiriad yn rhinwedd ei swydd. Ond daeth cyfnewidiad buan. Ymledodd y syniad yn gyflym; ac nid hir y tariodd y meddylddrych hwn heb gael cartref yn Mhrydain. Wedi dyfod, arhosodd yma yn ddiogel a sicr hyd nes y daeth taranfolltau y Diwygiad Protestanaidd i ddeffro dynion o'u cwsg. I grynhoi yr hyn a ddywedwyd—yr oedd ffurf cyntaf yr eglwys yn Mhrydain yn un âg esgob yn mhob cynnulleidfa, ond heb un meddwl ei fod i'w ystyried yn 'offeiriad.' Cynnyddodd nifer, ac yn neillduol dylanwad y credinwyr hyn. Nis gellir bod yn sicr a oedd Constantius, tad Cystenyn Fawr, yn Gristion; ond yr oedd efe yn ŵr o feddwl a chymmeriad uchel. Ennillwyd ef ei hun i barchu ac i amddiffyn y Cristionogion yn Gâl, ac yn y wlad hon; a phan adawodd Cystenyn furiau Caerefrog am Rufain, wedi ei ethol yn ymherawdwr, yr oedd yntau o fewn ychydig, os nad yn gwbl oll, wedi ei ennill i fod yn Gristion.

Blwyddyn fawr iawn yn hanes y byd oedd y flwyddyn 313. Dioddefodd y Cristionogion lawer oddi wrth erledigaethau tra blinion; a gwnaed tri ymosodiad ofnadwy arnynt, fel eglwysi—o dan Decius, yn B.A. 202; o dan Valerius, yn 250; ac o dan Diocletian, yn 303. Ond er pob peth, yr eglwys a orchfygodd. Gorfu i'r ymherodraeth blygu i nerth ei bywyd hi. Yn Ionawr, 313, cyhoeddwyd yr *edict* a elwir 'Edict Milan,' am mai yno y penderfynwyd ac y ffurfiwyd hi, gan Cystenyn a Lactantius, i fod yn ddeddf gyffredinol. Daeth adysgrif swyddogol o honi i Gaerefrog, fel i dalaethau eraill yr ymherodraeth; a diau fod adysgrifau eraill lawer wedi eu gwasgaru trwy y prif drefydd. Darllenai dynion y cyhoeddiad newydd ar furiau y swyddfeydd dinesig yn Nghaerlleon ar Ddyfrdwy, a Chaerlleon-ar-Wysg; ac fe allai yn ngorsafoedd pellaf y prif-ffyrdd Rhufeinig—yn Nghaerfyrddin a Chaernarfon. Gwelent yno fuddugoliaeth yr Eglwys Gristionogol. O hyny allan, yr oedd yn rhydd i bawb addoli yn ol ei feddwl a'i gydwybod ei hun. Yr oedd yr ymherawdwr ei hun yn Gristion; ac er na byddai yn deg dyweyd iddo wneuthur yr eglwys yn 'eglwys sefydledig,' yr oedd ei holl ddylanwad bellach at ei gwasanaeth hi—i'w chryfhau, ac i ennill parch iddi.

Yn y sefyllfa newydd hon, daeth anhawsderau dyeithr iawn i ran Cystenyn. Yn Affrica, ammheuid fod esgob o'r enw Mensurius, a diacon o'r enw Cæcilian, wedi rhoddi i fyny i'r swyddogion, yn adeg yr erledigaeth o dan Diocletian, lyfrau eraill i'w llosgi, o dan y broffes o roddi i fyny yr Ysgrythyrau, er mwyn osgoi yr erledigaeth. Pan y bu farw y cyntaf, etholwyd Cæcilian yn ei le, i fugeilio eglwys Carthage; ond cododd gwrthwynebiad ar unwaith gan blaid gref i ŵr yr ammheuid iddo ennill tawelwch yn amser erledigaeth trwy fradychu ei grêd, i gael y swydd. Cyfarfu deg a thrigain o'r esgobion cylchynol i ddewis gŵr arall; ac ar ol ei farwolaeth ef, yr hyn a ddigwyddodd yn fuan, pennodwyd Donatus i'r swydd. Safai rhan fawr o'r boblogaeth Gristionogol a'r esgobion o blaid Donatus, yn erbyn Cæcilian. Yna appeliwyd at Cystenyn, ac yntau a osododd yr achos yn llaw esgob Rhufain, a thri eraill; a gwahoddwyd pymtheg eraill atynt, a phenderfynwyd yn erbyn Donatus, gan gyfiawnhau Cæcilian yn ngwyneb yr holl gyhuddiadau; ac adferwyd ef i'w le yn yr eglwys. Yr oedd y Donatiaid, fel y gelwir pleidwyr Donatus, yn anfoddlawn i'r dyfarniad; a pharhaodd yr anghydwelediad yn Affrica nes yn mron rhanu yr eglwys yn ddwy mewn tair o dalaethau poblog. Cŵynai y Donatiaid fod y cynghor yn Rhufain yn rhy ychydig o nifer i benderfynu yn deg ar y cwestiwn. Gan hyny, pennodwyd cynghor newydd, i gyfarfod yn ddioed yn Gâl, i'r hwn yr oedd esgobion i gael eu gwahodd o bob parth. Y lle oedd Arles, yn neheubarth y wlad hono; a thramwyai pob aelod yno ar draul y llywodraeth. Hwn oedd y Cynghor Eglwysig cyntaf erioed a alwyd ynghyd gan un llywodraethwr gwladol; hwn, hefyd, oedd y cyntaf y galwyd iddo wŷr o wahanol wledydd, nes peri ei fod yn dwyn nodwedd 'gyffredinol' yn y gorllewin—fel yr ymherodraeth ei hun. Daeth pum gŵr iddo o Brydain; sef, tri esgob, un presbyter, ac un diacon. O Gaerefrog, yr esgob ydoedd

Digitized by Google

Eborius; o Lundain, Restitutus; o Lindum (neu Lincoln), Adelfius—gyda'r presbyter Sacerdos, ac Arminius y diacon. Y mae'r enw cyntaf yn awgrymu enw Lladin Caerefrog ei hun; a gwelir ef yn ddiau yn y ffurf o 'Ifor' mewn Cymraeg ddiweddar. Ni wyddis ddim mwy na hyn am danynt; ond gallwn sylwi nad oedd un o'r tri yn dyfod o barthau gorllewinol yr ynys. Y mae yn ammhossibl derbyn awgrymiad sydd wedi ei wneyd gan rai; sef, y dylid darllen 'Legionensium,' yn lle 'Londinensium,' yn y rhestr gydag enw Adeltius. Buasai hyny yn ei osod ef yn esgob Caerlleon-ar-Wysg; ond gan nas gellir gwneyd hyn, yr ydym etto yn sylwi mai o dueddau dwyreiniol yr ynys, lle yr oedd y gallu Rhufeinaidd gryfaf, yr aeth y gwŷr hyn i Arles.

Y mae yr eglwys yn Mhrydain yn ymddangos yn awr ac yn y man yn cymmeryd rhan yn y ddadl fawr am berson Crist, yn y bedwaredd ganrif. Sonir am dani y tro olaf yn B.A. 359. Daeth tri, ac fe allai chwaneg, o'i hesgobion, nad yw eu henwau ar gael, i gynghor a gynnaliwyd yn Ariminum, un o ddinasoedd Italy; ond yr oeddynt, druain! mor dlodion fel nas gallent dalu traul eu cludiad yno. Tra yr oedd eraill yn mynu teithio, a byw, ar eu traul eu hunain, bu raid i'r tri o Brydain dderbyn y cynnorthwy a estynid iddynt gan yr ymherawdwr. Yr oedd rhai yn eu beio; ond y mae yr hanesydd, Sulpicius Severus, yn dyweyd ei fod 'yn coleddu barn hollol wahanol am danynt. Clod i'r esgobion oedd eu bod mor dlawd fel na byddent yn derbyn dim gan neb, ond o'r cyllid cyhoeddus. Nid oeddynt yn pwyso ar neb; a rhoisant yn y ddau beth esampl ardderchog.'

Yr oedd helynt yr ymherodraeth yn ddyrus a thrafferthus tua diwedd y bedwaredd ganrif, a dechreu y bummed; ond yn nghanol y cythrwfl y mae arwyddion amlwg fod y grefydd Gristionogol wedi ymledaenu. Cododd Maximus yn y wlad hon; a llwyddodd, trwy drais, i ennill yr enw Augustus, neu ymherawdwr, gan arwain ei fyddinoedd drosodd i'r Cyfandir mor bell ag Italy. Er hyny, cyn iddo ymroddi i'r anturiaeth hon, ac er mwyn cuddio ei waith yn trawsfeddiannu yr awdurdod, barnodd mai da fyddai iddo gael ei fedyddio yn gyhoeddus. Dengys hyn fod yr eglwys yn y fath safle o awdurdod a dylanwad fel yr oedd yn werth gan ŵr o'i fath ef geisio ei ffafr. Yr oedd hyn tua B.A. 383. Cyn hir—tua 407—cyfododd un arall yr un modd i drawsfeddiannu yr enw ymherodrol. Cystenyn oedd enw hwn; ac yr oedd yntau yn Gristion o broffes. Yr oedd ei fab, Constans, yn fynach, er na ddywedir wrthym pa un ai yn Gâl, ynte yn Mhrydain, yr oedd y fynachlog y perthynai efe iddi. Yr adeg hon, pan yr oedd yr eglwys wedi ymdaenu yn fawr, ac yn uchel ei dylanwad, y galwyd y byddinoedd Rhufeinig i adael yr ynys, i fyned i ymladd â'r barbariaid oedd yn goresgyn gwledydd y cyfandir. Yno, y barbariaid a orfu. Gorchuddiwyd Gâl ganddynt; ond daethant hwythau eilwaith dan ddylanwad Rhufeinig, gan iddynt gael, yn eu tro, eu darostwng i ufudd-dod Crist. Yn yr eglwys yr oedd diwylliant, a'r ddawn i lywodraethu, ac i hyfforddi eraill; a thrwy yr eglwys y daeth y barbariaid hyn i'w pwyll, ac i drefn. Yn gyffelyb y bu yn Mhrydain. Yn raddol yr ymadawodd y Rhufeiniaid â'r ynys hon—rhwng B.A. 410 a 436. Wedi iddynt ymadael, arosodd gweinidogion yr eglwysi yn ol, gan weini i'r gweddill na allent, neu na fynent, fyned ymaith.

Yr adeg hono, yr oedd y Saeson yn fynych yn ymosod ar lanau yr ynys, fel y dygwyd y Brythoniaid i ymuno â'u gilydd, er amddiffyn eu hunain. Wrth wneyd hyny, cymmerasant feddiant hefyd o awdurdod a swyddogaeth y Rhufeiniaid—fel y daeth y wlad eilwaith, wedi canrifoedd o ddarostyngiad, yn Frythonaidd. Etto, megys ar y Cyfandir, yr oedd yr eglwys Gristionogol yn araf ddarostwng y Brythoniaid iddi ei hun. Dyma yr adeg y dechreuodd efengyliad corph y brodorion: y rhai, gan mwyaf, hyd yn hyn oedd yn baganiaid. Yr un eglwys, felly, ag oedd gynt wedi ymledu yn mysg y trigolion Lladinaidd, sydd yn awr yn dwyn yr efengyl i blith y rhai oeddynt o'r blaen yn glynu wrth grefydd y Derwyddon. Ei hiaith hi hefyd oedd iaith y gwasanaeth cyhoeddus; a'i hathrawiaeth a'i chyfundrefn hi oedd yn parhau yn mysg y genedl newydd. Gwelid yn hyn ddechreu y dylanwad a barodd, yn ystod canrifau, i gynnifer o eiriau Lladin gael lle yn ein hiaith. Y mae y rhan fwyaf o'n geiriau eglwysig, a rhai sydd yn dynodi meddyliau crefyddol, wedi dyfod i ni o'r iaith hono. Pan y soniwn am eglwys, gŵyl, garawys, gosper, cymmun, calan, gradd, senedd, achos, croes, degwm, neu am gredu, ffydd, addoli, bendith, pechod, achub, gras, caethiwed, egwyddor, yr ydym yn arfer geiriau a ymwthiasant yn araf i'r Gymraeg o iaith ac arferion yr eglwys Ladinaidd a ddaeth yn y dull hwn at ein hynafiaid.

Cawn eiliw o oleuni ar y tymmor hwn hefyd yn yr hyn a ddywed Padrig, apostol yr Iwerddon, am dano ei hun, a'i deulu. Yn un o'i ysgrifeniadau, llythyr at frenin o'r enw Coroticus (yr un enw, fe allai, a Ceredic), dywed fod ei dad yn *ddecurion*, neu yn aelod o'r cynghor yn y dref y preswyliai. Hysbysir ni hefyd yn ei Gyffes fod ei dad yn ddiacon, a'i daid yn bresbyter. Yr oedd hyn mor bell i'r gogledd a'r dref a elwir yn awr Dumbarton, ar yr afon Clyde. Yno, yr oedd arferion yr eglwys yn gyfryw fel y gallai ei dad fod ar yr un pryd yn swyddog yn yr eglwys, ac yn swyddog yn y ddinas. Gan fod ei daid yn henadur ar yr eglwys hono, yr ydym yn gweled fod bywyd yr eglwys wedi tyfu i ffurf addfed yr oes, tua'r fl. B.A. 350 neu 360. Er hyn, yr ydym yn cofio hefyd mai enwau Lladin yw y tri—Patricius, Calpurnius (y tad), a Potitus (y taid).

IV.—Eglwys y Brythoniaid, a'r Cymry.

*Mynachaeth.* Tua'r adeg hon—yn fuan wedi B.A. 400—cyrhaeddodd y symmudiad pwysig hwn Brydain, ac ymledodd fel tôn fawr dros y byd Cristionogol. Dechreuodd yn yr Aipht, ac ymdaenodd dros Asia Leiaf mewn byr amser; a thua'r fl. 400, yr oedd wedi gwreiddio yn mharthau gorllewinol Ewrop. Cyn y flwyddyn hono y mae agos yn berffaith sicr na welsid un mynach erioed yn Mhrydain. Yr oedd yn Gâl ddwy redfa i'r symmudiad hwn. Yn y gogledd, dilynid Martin Sant; ond yn y deheubarth, mewn mynachlogydd a godasid dan arweiniad Honoratus, a John Cassian, dilynid bywyd manylach mynachod yr Aipht. Yr oedd y gwŷr hyn wedi teithio yn yr Aipht a'r Dwyrain, ac wedi eu trwytho, nid yn unig â sêl dros y dull oedd yn bodoli yno, ond hefyd âg athrawiaeth yr eglwys Roegaidd yn y parthau hyny. Ymneillduent oddi wrth y byd, i fyw mewn unigedd fywyd o hunan-ymwadiad, a myfyrdod, a

Digitized by Google

gweddi yn nghwmni eu gilydd, ac mewn ufudd-dod hollol i'r abad a ddewisent yn ben arnynt. Hyn oedd meddylddrych cyntaf y drefn hon o Fynachaeth; a pha beth bynag a ddywedir am y meddwl, o ran bod yn rhy gyfyng i ëangder gwasanaeth Cristion i Grist a'i eglwys, dywedir ei fod wedi deffro a dyrchafu Gâl a Phrydain i fywyd newydd, o ran egni a dylanwad. Gellid ei gymmharu i'r symmudiad mawr Dirwestol; yr hwn, wedi tymmor o ymdrech caled yn mhlith ychydig, a ymdaenodd 'fel tân gwyllt' dros America a Phrydain, a thros Gymru yn neillduol. Bu gwrthwynebiad cryf i'r mynachlogydd, yn enwedig gan swyddogion yr eglwys, fel y darllenwn yn eglur yn hanes Martin gan Sulpicius Severus. Er hyny, llwyddo wnaeth y symmudiad. Bu ei lwyddiant yn fawr yn Marseilles a Lerins, yn neheudir Ffraingc, lle yr oedd Honoratus a John Cassian wedi ymsefydlu, a lluoedd yn tyru atynt. Daeth y mynachlogydd hyn yn y deheu hefyd i fod yn fanau dysgeidiaeth, yn ogystal ag yn lleoedd o ddysgyblaeth fanwl; a chafwyd fod prif wŷr eglwys Ffraingc wedi derbyn eu hegwyddorion, o ran athrawiaeth a buchedd, yn y sefydliadau hyny. Sefydlent fynachlogydd hefyd yn eu trefi, ac ynglŷn â'u heglwysi eu hunain. Y mae lle i gredu mai o'r fagwrfa hon y daeth y mynachod cyntaf i Brydain—rywbryd rhwng B.A. 400 a 430. Pwy oeddynt, nid oes neb a ŵyr; nac yn mha le yr ymsefydlasant gyntaf. Eu hoff fanau oedd yr ynysoedd ar hyd y glanau, neu ddyffrynoedd pellenig. Yr ydym eisoes wedi enwi John Cassian; a chwanegwn enw dau ŵr enwog arall—Vincent, a Faustus o Lerins. Yr oedd y diweddaf yn Brydeiniwr, wedi myned yn llangc ieuangc i Lerins rai blynyddoedd cyn y fl. 426. Paham yr aeth efe yno? Onid naturiol ydyw casglu fod y mynachod a ddaethant i Brydain wedi cyfeirio ei fam, yr hon oedd wraig nodedig am ei chrefyddolder a'i doethineb, at y fan y daethant hwy eu hunain o hono? Yr ydys yn cael yn mysg y mynachod Prydeinig yr un syniad am ragoriaeth mynachaeth yr Aipht ag a ffynai yn Marseilles a Lerins. Gwelir hefyd yma nodweddion eraill ag y mae yn naturiol eu cyssylltu â deheudir Ffraingc:—yn neillduol, ymgydnabyddiaeth â'r iaith Roeg.

Erbyn yr amser hwn, yr oedd Awstin o Hippo yn brif ddysgawdwr yr eglwys yn y gorllewin, ac wedi ei thywys i dderbyn athrawiaeth ddiofn a newydd am bechod, am ras Duw, ac hefyd am arfaeth ac etholedigaeth. Cododd yn Mhrydain, neu yn yr Iwerddon, wrthwynebydd aiddgar iddo; sef, Pelagius, gyda chynnorthwywr o Wyddel, mawr ei yni, o'r enw Cœlestius. Mae'n anhawdd credu fod a wnelo yr enw 'Morgan'—yn tarddu o Morgant—ddim â Pelagius, fel y tybir mor gyffredin. Yn wir, nid yw ei darddiad Prydeinig yn gwbl sicr, er fod tystiolaethau cryfion yn y cyfeiriad hwn yn ngweithiau Awstin, a'i gyfaill Orosius. Ond dywed Jerome, gyda'r hwn y bu efe yn aros yn Bethlehem, mai Gwyddel oedd. Yn Rhufain, Carthage, a'r Dwyrain, y bu yr ymryson mawr a gododd ynghylch Pelagius; ac yr oedd yr ystorm wedi myned drosodd erbyn y fl. 418—neu yn foreuach, fe allai, rhwng 410 a 412. Ond yn y mynachlogydd y soniwyd am danynt, sef Marseilles a Lerins, cododd gwrthwynebiad i ran o ddysgeidiaeth Awstin yn mysg gwŷr ag oeddynt, mewn gwirionedd, yn ddysgyblion iddo, ac yn ei anrhydeddu yn fawr—gan gondemnio Pelagius. Y gwŷr hyn oedd y rhai a enwyd uchod; sef, John Cassian, Vincent, a Faustus, ac eraill. Yr oeddynt yn gwahaniaethu oddi wrtho ar y pwngc o 'ewyllys rydd' yn neillduol. Yr oeddynt yn wŷr o gymmeriad uchel, ac hefyd yn feibion ufudd i'r eglwys. Er hyny, 'Pelagiaeth' ydoedd yr enw a roddwyd i'w dysgeidiaeth; a hyny gan y gŵr ei hun sydd yn rhoddi hanes am ddygiad yr 'heresi' hono i Brydain. Dygwyd hi yma, medd Prosper, yr hwn a ysgrifenodd tua'r fl. 455, gan Agricola, mab i esgob Pelagiaidd, o'r enw Severianus. Teg ydyw casglu, gan i hyn gymmeryd lle yn amser Prosper, pan yr oedd tân cyntaf Pelagiaeth, fel y dywed, wedi llosgi allan, ond iddo gael ei ail ennyn o'r lludw gan John Cassian—teg, meddwn, ydyw casglu mai Pelagiaeth John Cassian, ac nid yr eiddo Pelagius, neu 'Morgan,' ei hun, a ffynai yn Mhrydain. Hawdd ydyw meddwl fod y gwrthwynebiad hwn yn rhan o'r gwrthwynebiad i fynachaeth ar ran yr hen arweinwyr oedd yn yr ynys cyn y symmudiad hwnw. Dygai y mynachod newydd gyda hwy athrawiaeth a ystyrid yn newydd a pheryglus; yr hon felly oedd yn rhaid ei gwrthwynebu. Gwnaed appêl at eglwys Ffraingc; ac anfonwyd drosodd, yn y fl. 429, ddau genad i wrthwynebu a darostwng yr heresi a godasai ei phen yn mysg y Brythoniaid. Germanus a Lupus, neu Garmon a Bleddyn fel y gelwir hwy yn Gymraeg, oedd y ddau genad. Yr oedd y ddau yn selog dros y ddysgyblaeth fynachaidd, a Bleddyn wedi ei feithrin yn Lerins. Dilynwyd eu hymweliad â llwyddiant mawr--nid yn unig yn attaliad yr athrawiaeth gyfeiliornus, ond mewn adfywiad crefyddol. Dengys yr hanes hwn i ni fod Prydain, erbyn hyn, yn cynnwys llawer o Gristionogion; o blegid nid yn mysg nifer fechan y cyfyd dadleu o'r fath hwn ar bwngc o athrawiaeth. Ond ni bu y llwyddiant, er hyny, yn berffaith. Yn mhen tua deunaw mlynedd—yn y fl. 447—teimlid angen cynnorthwy Garmon drachefn; ac erfyniwyd arno dalu ail ymweliad â'r ynys ar yr un neges. Er pan ymadawsai, yr oedd Pelagiaeth wedi ail ymddangos. Nid oedd, y mae yn debyg, wedi marw o gwbl; a bu fyw yn hir hefyd yn neheubarth Ffraingc, lle y bu yn brif bwngc cynghor pwysig Orange, yn y fl. 529. Etto, nid yr hen ddysgeidiaeth, fel y dysgid hi gan Pelagius ei hun, ydoedd hon yn Ffraingc; a chyffelyb oedd yr hanes yn Mhrydain. Mae'n rhyfedd nad ydyw Gildas yn sôn dim am Garmon. Y mae'n rhyfedd, hefyd, fod Nennius, er yn adrodd hanesion hynod am ei waith yn Mhrydain, heb gyfeirio o gwbl at ei ymgyrch yn erbyn Pelagiaeth. Y mae hanes ar gael, hefyd, am hen esgob Prydeinig oedd yn cydoesi â Nennius, neu ychydig yn foreuach, a arferai sôn am Garmon fel 'apostol ei genedl.' Nid ymddengys fod Pelagiaeth Prydain o ffurf beryglus iawn; na bod ymosodiad Garmon arni wedi gwneyd unrhyw argraph ddofn ar feddyliau y trigolion. Ond y mae iddo le mawr ynglŷn â phrysuro efengyleiddiad y Brythoniaid.

Y mae y traddodiadau sydd yn ei gyssylltu â Chymru yn arwyddo y dylanwad hwn. Er fod yn ammhossibl credu iddo ordeinio Illtud a Dubricius yn y fl. 477, na bod llanau oedd yn codi tua'r fl. 550 neu 600, megys 'Llanarmon' neu 'Gapel Garmon,' yn cael eu galw felly o herwydd ei gyssylltiad ef â hwy; etto, y mae y cyfeiriadau hyn yn dystiolaeth i argraph ddofn yr ymweliadau hyny.

Digitized by Google

### V. Illtud, a'i Ddysgyblion.

Yr ydym yn awr yn nesau at helynt a symmudiadau yr eglwys yn mysg y Cymry. Wedi dyfodiad y Saeson i Brydain, yn araf iawn y buont yn meddiannu y wlad; ond erbyn tua'r fl. 500, yr oeddynt wedi gwthio y Brythoniaid i barthau gorllewinol yr ynys. Etto, Prydain oedd yr enw ar y gweddill hwn, a gynnwysai deyrnas ogleddol Strathclut, a pharthau Devon a Chernyw yn y deheu, gyda Chymru, yr hon oedd yn ymestyn yn llawer pellach i'r dwyrain o'r Hafren nag yn awr, yn y canol. Y mae y rhanau hyn yn awr yn cael eu cynnwys yn 'Mhrydain.' Ac yr oedd yr enw yn cael ei arfer hefyd am Gymru ei hun yn hir wedi yr adeg hon. Dywed Asser, wrth ddisgrifio ei siwrnai o lys Alfred i Dŷ Ddewi, ei fod yn teithio 'o Saxonia i Brydain.'

Erbyn hyn, ceir fod y bywyd mynachaidd wedi ymledu i bob cyfeiriad, gan fywiocau holl arferion yr eglwys. Daeth â syniad newydd o grefyddolder i mewn; yr hyn a barai fod cymmeriad crefyddol dyn yn dibynu ar ei waith yn derbyn y bywyd o fewn terfynau manwl rheolau y mynachdy. Yr oedd pob 'clerigwr' bellach yn fynach, a dydd ei 'dröedigaeth' oedd y dydd y daeth i fod felly. Daeth y gair 'mynach,' fel hyn, yn gyfystyr â'r gair 'etholedig Duw;' neu yn fwy cyffredin fyth, â'r gair 'sant.' Ystyr 'Dewi Sant,' er enghraifft, yw 'Dewi fynach;' ac felly, gallwn benderfynu mai yr hyn a feddylir wrth 'oes y seintiau' yw 'oes y mynachod.' Er gwell, neu er gwaeth, cymmerodd y syniad hwn afael cryf o'r holl diriogaeth Brydeinig; sef, nas gallai neb fod yn grefyddol, yn ystyr uchaf y gair, os na byddai yn fynach; a 'chrefyddwyr' (*religiosi* yn y Lladin) y galwai y Cymry hwynt. Nis gwyddom, fel y dywedwyd o'r blaen, pwy oedd y rhai cyntaf i ddwyn hyn i mewn. Yr oedd yn ddechreuad pwysig, a bu iddo ei dymmor fel ffordd o ddysgyblaeth mewn buchedd. Ond gydag Illtud y mae dechreuad cyfnod newydd yn natur y bywyd hwn ei hun. Trwyddo ef, daeth y fynachlog yn ysgol, yn fan i feithrin ac i addysgu plant a phobl ieuaingc mewn gwybodaeth gyffredinol, yn ogystal a'u tywys i fuchedd berffeithiach fel mynachod, a'u hyfforddi yn null gwasanaeth yr eglwys.

Y farn gyffredin yw mai yn Llanilltyd Fawr, neu Lantwit Major, yn swydd Forganwg, fel y gelwir y fan, yr oedd mynachlog y dysgawdwr hwn. Ond y mae yr hynaf o'r Bucheddau sydd ar gael, a ysgrifenwyd tua thrigain mlynedd wedi marwolaeth Samson Sant, neu yn fuan ar ol y fl. B.A. 650, yn sôn am ynys gyfagos, lle yr oedd mynachlog wedi ei hadeiladu gan ŵr o'r enw Pirus. Dywed Buchedd arall hynafol fod mynachlog Illtud yn nhueddau Dyfed. Mae yr enwau hyn i'w cael etto. 'Ynys Byr' ydyw 'Caldy Island' yn Gymraeg yn awr, tra y mae 'Maenawn Pir' (Monorbier) yn *Llyfr Llandaf;* a chan fod y rhai hyn yn Dyfed, oni ellir casglu mai yn y gymmydogaeth hono yr oedd ysgol Illtud? Yn mlynyddau olaf y bummed ganrif, a hanner cyntaf y chweched, dechreuodd Illtud, yn y fan hono, ffurfio y sefydliad mynachaidd yn ol fel yr oedd eisoes wedi dechreu bodoli yn ngwahanol barthau Ffraingc. Ac nid ydyw yn annhebyg nad yno, yn Auxerre, hen gartref Garmon, y derbyniodd efe ei hun ei ddiwylliant, a'r cymmhelliad i sefydlu y gyfundrefn yn mysg y Cymry. Y mae awgrymiad i'r pwrpas hwn yn yr hyn a ddywedid am dano—iddo gael ei ordeinio gan Garmon. Ond bu Garmon farw yn 448, tra yr oedd Illtud yn athraw i rai a fuont byw hyd ar ol y fl. 600; ac felly, yr oedd yn ddysgawdwr, yn ol pob tebyg, rhwng 540 a 550; neu yn ol y dyb y cyfeiriwyd ati uchod, o bedwar ugain i gan mlynedd wedi marw y gŵr a'i hordeiniodd!

Nid ydym i farnu yr adeilad a gynnyrchodd y sefydliad pwysig hwn oddi wrth yr olion a welir yma ac acw o fynachlogydd y canol-oesoedd. Perthyna y rhai hyny i symmudiad newydd hollol, ar yr hwn y cawn sylwi etto. Yr ydym, wrth sôn am fynachlogydd y Cymry, i gofio iddynt hwy, a'u bywyd neillduol, ddiflanu yn llwyr o fod, wedi i'r eglwys ddyfod i gymmundeb âg Eglwys y Cyfandir, neu âg Eglwys Rhufain. Yn yr hanes sydd genym am Columba, yr hwn a sefydlodd ei fynachlog enwog ar Ynys Hi (Iona) yn fuan wedi y fl. 560, cawn olwg ar ba fath adeiladau a wasanaethent i'r mynachod yn yr adeg foreu hon. Yr oeddynt, yn mron oll, o goed, neu o wïail, wedi eu plygu a'u cuddio â chlai. Ceid ynddynt ystafell i gyd-gyfarfod, ystafell i ddyeithriaid, a melin ac ysgubor. Yn gyfagos, safai yr eglwys, a chelloedd y mynachod—oll yn gyffredin o goed. Oddi wrth y dull o 'adeiliaw,' neu blygu gwïail, y galwyd y cyfryw sefydliad yn 'Bangor' (*ban* a *côr*); er y cyssylltid yr enw yn ddiweddarach â'r gair 'côr' ei hun, yn yr ystyr o gymdeithas; megys, Côr Illtud, Côr Teilo, Côr Garmon, Côr Cybi. Yn ol hyn, y mae y Trioedd yn sôn am 'Bangor Illtud Farchawg yng Nghaer Worgorn, Bangor Emrys yng Nghaer Caradawc, a Bangor Wydrin yn Ynys Afallen.'

Diaddurn hollol oedd Bangor neu Fynachlog Illtud yn Morganwg, fel bangorau yr Iwerddon a'r eiddo Columba yn Hi. Etto, yno y tyrai llawer o wŷr penaf y wlad. Yno yr anfonid plant tywysogion. Yr oedd Illtud ei hun yn farchog yn Llydaw, yn ol yr awgrym sydd yn un o'r Trioedd a gofflhawyd uchod; ond ymddengys fod y llyfr sydd yn rhoddi yr hanes hwn yn un diweddar iawn. Mewn llyfrau sydd yn cynnwys 'bucheddau' rhai o'i ddysgyblion —Paul Aurelius, a Samson—ceir hanes hynach am dano; y cyfryw ag sydd yn ein harwain i gredu mai Cymro oedd. *Efe yw athraw, prifathraw, cyntaf ein cenedl ni.* Yr oedd efe yn athraw yn yr Ysgrythyrau, ac hefyd mewn athrawiaeth o bob math. Gellir casglu, hefyd, fod yr iaith Roeg, fel parotöad at yr Ysgrythyrau a'r Tadau, yn cael ei hefrydu dan ei gyfarwyddyd ef, gan fod gwybodaeth o'r iaith hono i'w chael yn ei ddysgyblion. Y mae pedwar gŵr yn cael eu gosod ochr yn ochr yn y Bucheddau fel prif ddysgyblion Illtud. Y rhai hyn oeddynt Samson, Paul Aurelian, Gildas, a Dewi. Y mae Buchedd Samson (*Vita Samsonis*) wedi ymddangos yn ddiweddar yn yr *Analecta Bollandiana*, vi.; am yr hwn y bernir ei fod wedi ei ysgrifenu o fewn cenhedlaeth neu ddwy i amser y gwrthddrych ei hun. Dilynir y llyfr hwn gan y Fuchedd a geir yn y *Liber Landavensis*, er yn ammherffaith. Enw ei dad oedd Aaron, gŵr o Ddyfed; a'i fam, Anna, o Gwent. Yr oedd iddo ewythr o'r enw Umbraffel, gwraig yr hwn oedd Affrela. Dygwyd Samson, pan yn blentyn ieuangc, at Illtud i'w ddysgu a'i ddwyn i fyny fel un wedi ei gyflwyno i Dduw. Cynyddodd y bachgen yn hynod; ac mewn amser, gyda llawer o arwyddion goruwchnaturiol, yn ol yr ystori, urddwyd ef i'r swyddau eglwysig.



Digitized by Google

Y mae efe yn teithio llawer yn ei wlad ei hun, gan bregethu i'r bobl yn eu hiaith eu hunain, a sylfaenu mynachlogydd ac eglwysi. Y mae yn ymweled â'r Iwerddon; ac ar ei ddychweliad, yn cymmhell ei ewythr a'i fodryb i derfynu eu bywyd priodasol, fel y byddent, bellach, yn ddïofryd i Dduw—yn fynach, a mynaches: a'u gwaith fyddai lledaenu y bywyd hwnw, trwy gyssegru eu holl gyfoeth i adeiladu eglwysydd a bangorau. Yr oedd eisoes wedi llwyddo i berswadio ei dad a'i fam i wneyd y peth hwn. Rywbryd—ni wyddis yn sicr pa mor foreu—yr oedd efe ei hun yn deall fod gweledigaeth nefol yn ei arwain i adael ei wlad, a myned yn bererin i wlad ddyeithr. Cyfeiriodd ei gamrau i Lydaw—lle yr oedd efe yn mysg cydwladwyr a ddeallent ei iaith a'i bregethu. Ymsefydlodd mewn lle o'r enw Dol, fel abad mynachlog, mewn parch a dylanwad mawr, ac hefyd fel esgob. Sylwer! ni alwyd, ni etholwyd ef gan neb. Er hyny, gwasanaethodd swydd esgob lle yr oedd wedi dewis trigiannu fel abad. Dyma y syniad Cymraeg am esgob yn yr adeg hono.

Y mae ar gael un amseriad sicr, yn mron, yn mywyd y gŵr hwn. Yr oedd efe yn bresennol mewn cynghor pwysig a gynnaliwyd yn Paris yn y fl. 557, os efe oedd y '*Samson episcopus*' a lawnododd, gydag eraill, benderfyniadau y cynghor hwnw. Yn ol hyn, gellir gosod ei enedigaeth tua'r fl. 500.

Y mae hanes Paul Aurelius yn hynod debyg i hanes Samson. Ysgrifenwyd ef gan un o'r enw Wrmonoc o Lydaw, yn y fl. 884. Gallai awdwr hen Fuchedd arall oedd yn llyfrgell y fynachlog fod yn Gymro; o blegid chwanegir, yma ac acw, eglurhâd Lladin i enwau Cymreig. O ran o Forganwg, a elwid Pen Ychen, y cododd Paul. Dygwyd yntau yn ieuangc at Illtud—lle yr oedd ei gynnydd yn gyffelyb i'r eiddo Samson. Aeth yntau drosodd i Lydaw, gan sefydlu mynachlog Lanaleth, yn agos i St. Malo; ac yr oedd efe yn esgob yno, Yn mhen amser, daeth eglwysi Dol a St. Malo i fod yn eglwysi esgobawl, yn ol rheol yr eglwys ar y Cyfandir; ac felly, galwyd Samson a Paul yn esgobion cyntaf y manau hyny.

Y mae Gildas, yn ei hanes, yn nes at Gymru na'r ddau gyntaf. Efe yw yr awdwr cyntaf o'r wlad hon, ar ol Fastidius, y mae ei waith genym yn awr. Ysgrifenwyd hanes ei fywyd ef—ei Fuchedd, fel y dywedir—gan ddau ŵr; y naill yn nechreu yr unfed ganrif ar ddeg (1008), a'r llall yn y ddeuddegfed. Mynach o Ruys, yn Ffraingc, oedd y cyntaf; a Caradog o Lancarfan oedd y llall. Cynnwysir yn y ddau bethau anhawdd, os nad ammhossibl eu cyssoni â'u gilydd. Ysgrifenodd Gildas ei hun lyfr o dan yr enw *Dinystr Prydain*, ar helynt y brenhinoedd a'r esgobion yr oedd efe yn byw yn eu mysg yn Nghymru. Mae'n enwi pump o frenhinoedd:—Constantinus, brenin Damnonia—Devon a Cornwall yn awr; Aurelius Caninus—na ddywedir o ba le; Vortiporium, brenin Dyfed; Cuneglasus (Cynlas), a Maclocunus (Maelgwn) o Ynys Môn. Yn awr, bu Maelgwn farw, yn 547, o'r plâ. Rhaid, gan hyny, fod Gildas wedi ysgrifenu cyn y flwyddyn hono; a chan ei fod, fel y dywed ef ei hun, yn 44ain ml. oed pan yn ysgrifenu, ganwyd ef tua'r flwyddyn 504. Gosodir ei ymweliad â'r Iwerddon gan yr *Annales Cambriæ* yn y fl. 565—bum mlynedd cyn ei farwolaeth; yr hyn a fu, yn ol yr un awdurdod, yn y fl. 570—ac â'r dyddiad hwn, o fewn ryw ychydig, y cyttuna ysgrifeniadau Gwyddelig. Yn ol Fleuri a Mabillon, ganwyd ef yn 494; yn ol golygydd ei Fuchedd, yn yr *Acta Sanctorum*, yn 493; ond yn ol Borderie, yn y *Revue Celtique*, 493 oedd y flwyddyn. Gallwn benderfynu felly iddo gael ei eni yn agos i B.A. 500.

'Gildas ddoeth' y gelwid ef yn fynych gan yr ysgrifenwyr boreuol sydd yn cyfeirio ato; a hyny, mae'n debyg, ar gyfrif y llyfr a ysgrifenwyd ganddo. Er yn foreu iawn, ystyrid y gwaith yn ddwy ran; a rhoddid i'r rhan gyntaf yr enw *Historia*, neu 'Hanes;' ac i'r llall, *Epistola*—hyny yw, 'Epistol,' neu anerch, at frenhinoedd ac esgobion. Yr oedd yr awdwr, medd efe, wedi bod yn meddwl am y llyfr hwn ddeng mlynedd cyn ei ysgrifenu. Ei amcan yw dangos y modd yr oedd pechod llywiawdwyr byd ac eglwys wedi dwyn dinystr ar y wlad. Cynnwysir, yn y rhan gyntaf, hanes Prydain—wedi ei gymmeryd, fel y dywed Gildas ei hun, o weithiau awduron tramor. Yr ydym yn synu fod y fath ŵr yn analluog, yn y fl. 547, i gael yn ei wlad ei hun hanes y wlad hon; ac yn enwedig hanes dyfodiad yr efengyl iddi. Etto, felly yr oedd. Nid oedd ganddo ond dyfalu, oddi wrth hanes a geid yn ngweithiau Orosius, Jerome, Rufinus (cyfieithydd Eusebius), ysgrifenwyr Lladin, pa fodd y gosododd yr efengyl ei throed i lawr yn Mhrydain. Yr ail ran yw y fwyaf pwysig i ni. Nid yw Gildas wedi cael tegwch llawn yma—gan ysgrifenwyr diweddar, yn enwedig. Ychydig yn uniongyrchol sydd ganddo i'w roddi i'r hanesydd; ac fel cŵyn yn ei erbyn, nid annaturiol y gelwir ef yn 'Jeremiah:'—a 'Jeremiah (medd un gŵr) o'r ddegfed radd.' Y mae ei iaith yn wir yn gymmylog a therfysglyd, a'i gyhuddiadau yn erbyn yr esgobion yn eithafol. Ond y mae golwg ar ei amcan yn cymmodi y meddwl â'i waith. Ysbryd aiddgar y mynach oedd yn Gildas; a hwnw ar dân, mewn awydd mawr am weled diwygiad yn yr eglwys. Tra yr oedd efe ei hun yn llawn o ysbryd eiddigeddus newydd, ymddangosai gwendidau y clerigwyr iddo mewn gwedd annymunol iawn; a gallwn yn hawdd gredu ei fod yn gwneuthur cam â'i oes. Nid y ffordd oreu i farnu Gildas yw yn ei ddull o gondemnio y rhai drygionus—ond yn y modd y mae yn barnu y rhai da. Y mae efe yn cydnabod fod y cyfryw i'w cael yn mysg y rhai sydd yn eistedd yn 'sedd yr apostolion;' fod mynachod â'u buchedd yn gyfryw fel y maent yn cael eu hedmygu gan ddynion, a'u gwneyd yn anwyl gan Dduw. Ond, nid oeddynt yn ddigon arwrol. Yr oedd rhai o honynt fel Eli. Nid oedd merthyron yn eu mysg; ac nid oeddynt yn ddigon ëofn i fwrw dynion anfucheddol allan o'r eglwys. Llais dyhëad ysbryd newydd, anfoddog, a dig wrth bechodau a gwendidau yr eglwys, ydyw llyfr Gildas; ac y mae lle i feddwl iddo weled diwygiad mawr. Etto, yr oedd y diwygiad hwnw yn rhedeg yn nghwrs syniadau yr oes. Fel yr amlhaodd dynion wedi eu hargyhoeddi, daeth y mynachlogydd yn llawnion a lliosog.

DEWI.—Ni a aroswn yma ychydig gydag ef. Enwir ef fel un o'r pedwar dysgybl hynod a fu gan Illtud yn y Bucheddau hynaf; ond y mae y Fuchedd sydd yn rhoddi ei hanes yn perthyn i'r unfed ganrif ar ddeg. Fel hyn y dywed Brut y Tywysogion am yr awdwr:—'Yn y flwyddyn hono (1907) y bu farw Rychmarch doeth, mab Sulyen escob, y doethaf o doethon y Brytanyeit, y dryded vlwyddyn a deugain oe

oes; y gŵr ny chyfodawd yn yr oesoed cael y gyffelyb kyn noc ef; ac nyt hawd credu na thybygu cael y gyfryw gwedy ef.' Yr oedd Rhychymarch—felly y galwn ef ar sail y Brut ei hun—yn esgob yn Nhŷ Ddewi. Ond y mae ei waith, yn ol arfer yr oes, yn llawn o ryfeddodau, ac yn brin o hanes. Enw tad Dewi oedd Sant; enw ei fam oedd Nonn:—dau enw, mae yn debyg, sydd yn unig yn cuddio anwybodaeth, gan nad ydyw *Sant* ond y gair arferol am fynach; a Nonn ond y gair Lladin *nonna* am lïan, neu fynaches. Rhoddir yr hanesyn, neu 'y wyrth,' a ganlyn am dano cyn ei eni; yr hwn a osodwn mewn Cymraeg diweddarach, gan ddilyn yr awdwr mor agos ag y gellir:—

'A'i fam yn myned i'r eglwys i wrandaw pregeth gan Gildas Sant, Gildas a ddechreuawdd bregethu, ac nis gallai. Ac yna y dywed Gildas:—'Ewch oll o'r eglwys allan.' Ac eilchwyl profi pregethu a oruc (a wnaeth), ac nis gallai. Yna y gofynawdd Gildas a oedd neb yn yr eglwys onid ef ei hun. 'Yr ydwyf fi yma,' ebai y lleian, rhwng y ddôr a'r pared. 'Dos dithau,' ebai y sant, 'y tu allan i'r eglwys, ac arch i'r plwyf (y gynnulleidfa) i mewn:'—a phob un a ddaeth i eistedd fel y buasai. Yna pregethu a wnaeth y sant yn eglur ac yn uchel. Yna y gofynawdd y plwyf iddaw, 'Paham na allesit ti bregethu i ni gyneu, a ninnau yn llawen yn dymunaw dy wrandaw di?' 'Gelwch,' ebai y sant, 'y lleian i mewn a yrais i gynneu o'r eglwys.' Ebai Nonn, 'Llyma fi.' Yna ebai Gildas, 'Y mab sy yn nghroth y lleian hon sydd fwy ei feddiant (awdurdod), a'i rad, a'i urddas, na myfi; canys iddaw ef y rhoddes Duw fraint a phenaduriaeth holl saint Kymry yn dragwyddenol cyn dydd brawd a gwedi.'

Nid oes gan Rhychmarch un cyfeiriad at Illtud. Paulinus oedd athraw Dewi, yn ol a ddywed efe; 'a dysgybl oedd hwnw i esgob sant a oedd yn Rhufain.' Oddi wrth Paulinus, aeth Dewi i Glastonbury, a manau eraill; ac y mae efe yn adeiladu 'llan llieini;' sef, mynachlog i fenywod, yn nglan Hafren. Adeiledir ganddo lanau lawer ac eglwysydd, ac y mae ei fuchedd yn llawn o 'ddirwestu,' neu ympryd, a gweddi. Yn 'senedd-Frefi,' lle y mae escyb, athrawon, offeiriaid, brenhinoedd . . . . a'r 'crefyddwyr' (y mynachod), efe ydyw y prif bregethwr. Wrth ei gymmhell i bregethu i dyrfa fawr, dywedir gan Paulinus ei fod wedi ei urddo yn archesgob yn Rhufain, a'i erchi gan Dduw i gyfanneddu yn Mynwy. Dygodd yr angylion Dewi, medd yr hanes, 'i'r lle y mae goleuni heb ddiwedd, a'r gorphwys heb lafur, a llawenydd heb dristyd,' ar y dydd cyntaf o Fawrth; a dywed yr *Annales Cambriæ* mai B.A. 601 oedd y flwyddyn hono.

Y mae un peth nodedig yn ennyn sylw yn y gwŷr hyn oedd yn ddysgyblion i Illtud. Yr oeddynt oll yn bregethwyr hynod; ac y mae y traddodiadau, yn eu gwahanol ffurfiau, am Gildas a Dewi yn arbenig dystio hyny.

Yn eu hamser hwy, ac wedi hyny, y cododd y mynachlogydd mawr, aml eu 'crefyddwyr'—ffrwyth yni llafurfawr a hunan-ymwadol y cyfryw wŷr. Ond gwelir, hefyd, ysbryd arall yn meddiannu llawer yn niwedd oes y rhai hyny, ac yn y genhedlaeth nesaf. Daeth yr argyhoeddiad i amryw fod yn rhaid iddynt adael eu gwlad a'u pobl, gan fyned i barthau tramor; a chan adael hyd yn oed eu mynachdy. Felly yr aeth Columba o'r Iwerddon i Hi, a Columbanus i Ffraingc; ac o Gymru, Samson, Paul Aurelius, Tudwal, Maglorius, a llawer eraill. 'Pererinion er mwyn Duw' y galwent eu hunain; a thrwy hyn, buont yn offerynau i efengyleiddio llawer parth o Ffraingc a Germany.

Gelwid y fynachlog, neu y fanachog, fel y sylwyd, yn 'Fangor;' bryd arall, yn 'Cil,' fel y gelwir Tŷ Ddewi yn 'Cil-Mynwy;' ac y ceir y gair etto mewn enwau lleoedd, megys Cil-cen, Cil-gerain, Cil-catan, Cil-gwrrog, a Cil-coit. Yn yr hen *Vita Samsonis* (Buchedd Samson), a'r *Vita Pauli Aureliani*, defnyddir y gair *insula*, sef 'ynys,' yn yr un ystyr—naill ai am yr adeiledid mynachlogydd yn fynych ar ynysoedd, neu am fod y tir y safai pob un arno wedi ei wahanu oddi wrth bob tir cyffredin. Gwelwn yn fynych y gair 'ynys' yn cael ei arfer etto am lanerchi neu amaethdai yn nghanol y tir, ac yn mhell oddi wrth fôr, gan aros yn adgof unig o gartref hynafol y mynachod gynt. Bryd arall, yr enw yw 'llan,' gan gyfeirio yn gyntaf oll at y rhandir neillduedig:—os 'mynachlog gwragedd' a fyddai, gelwid hi yn 'Lan llieni,' neu 'Lan lliana,' fel y clywir y gair yn Môn.

Yr oedd bywyd y 'crefyddwyr,' fel y gelwid y mynachod, yn y sefydliadau hyn yn galed iawn. Rhenid yr oriau i lafur, a gweddi, a myfyrdod. Yn mysg y bobl fanylaf, prin yr oedd dim ymborth, ond bara a dwfr. Bwriedid i'r caledfyd hwn ddarostwng y cnawd, a'i wŷniau, a'i chwantau. Yr oedd y gwasanaeth yn ddidôr yn yr eglwys—nos a dydd. Nid oes genym ofod i ddyfynu yn helaeth o lyfr a berthynai i Columbanus; ond gellir nodi y ffaith hon. Yn ystod tri mis y gauaf, gan ddechreu gyda Tachwedd, cenid y Sallwyr (Llyfr y Salmau) oll drwyddo ar ddwy noswaith o'r wythnos; sef, nos Sadwrn a nos Sul. Ar bob un o'r nosweithiau eraill, cenid 36ain o Salmau. O Ionawr hyd ganol yr haf, yr oedd lleihâd graddol yn y nifer; ac o ganol yr haf, byddai cynnydd graddol drachefn, hyd y dydd cyntaf o Dachwedd. Mynachlogydd o'r fath yma oedd hefyd yn Llancarfan, yn Mangor-is-y-coed, yn Llanelwy, yn Mangor yn Arfon, yn Mangor Cybi; a llawer o rai eraill. Weithiau, yr oedd yr abad yn esgob, a gwasanaethai swydd esgob pa le bynag y byddai ei fynachlog, fel y gwelir yn hanes Dewi, a'r nifer fawr a aethant drosodd i Lydaw, ac i ranau eraill o'r cyfandir. Byddai, weithiau, fwy nag un esgob gyda'u gilydd. Gyda Dewi yr oedd un o'r enw Goeslan yn 'frawd ffydd.'

Cyn marwolaeth Gildas, yr oedd gogwyddiad newydd o ganlyniadau pwysig yn dechreu. Mewn llythyr a ysgrifenodd Columbanus at y Pab Gregory, tua B.A. 595, yr oedd efe mewn pryder dwys yn gofyn ei gynghor pa beth oedd i'w wneyd â'r mynachod oedd yn gadael eu mynachlogydd, gan gilio i fanau dirgel—i fyw mewn unigrwydd fywyd y meudwy. Dywed ddarfod i Ffinan, yn yr Iwerddon, yr hwn a fuasai, fel yr hysbysir ni gan hen Fuchedd Wyddelig, yn ddysgybl i Dewi yn Kil-muine (Cil-Mynwy), ysgrifenu at Gildas, gan ymgynghori âg ef ar y pen hwn; ac i Gildas ei atteb. Dechreuodd y symmudiad yma, felly, yn y tymmor rhwng marwolaeth Gildas (B.A. 560), ac adeg ysgrifeniad y llythyr at Gregory, yn 595. Yn nechreu y seithfed ganrif, sef yr amser y daeth Awstin fynach at y Saeson o Rufain, yr oedd Cymru yn cael ei gorchuddio gan y meudwyod. Byddent yn myned i fân ynysoedd yn y môr i fyw, ac i benau y bryniau, ac i goedwigoedd wrth draed mynyddoedd. Er y cwynai Columbanus fod aml rai yn colli eu

Digitized by Google

crefyddolder, gan lithro i foethau, bu hyn yn sicr yn foddion pwysig i efengyleiddio y wlad yn llwyr:—gwelir fod *cell* neu *cil* llawer meudwy wedi parhau hyd heddyw yn yr eglwysi a elwir ar eu henwau:—rhai ar ynysoedd, ac eraill ar fryniau. Yn yr Iwerddon, y mae llawer rhanbarth yn awr yn dwyn yr enw *disert*, o'r Lladin *desertum*, *desert* yn Saesneg, yn hollol fel y mae 'llan' gyda ni, gan fynegu etto y man y gosodasai meudwy ei gell fechan. Fe allai mai hyn ydyw gwir ystyr 'Dyserth,' yn sir Ddinbych, a manau eraill—gan fod pobl yr ardal hono yn wastad, ar lafar gyffredin, yn galw y lle yn 'Di-serth' [gwel *Myv. Arch.*, argr. T. Gee, Dinbych, td. 743, 744.] Er hyny, yn niwedd y chweched a dechreu y seithfed ganrif, ceir y profion amlycaf o hyn yn amlder yr enwau sydd yn dechreu â 'llan' yn Nghymru. Yr oedd yr enw yn bod yn foreuach, gan i'r Cymry a aethant drosodd i Lydaw ei ddwyn yno gyda hwy yn yr ystyr o 'fynachlog.'

### Yr Ymfudiad i Lydaw.

Ni a roddwn yr adroddiad byr canlynol am yr ymfudiad hwn. Y mae Gildas yn coffa am hyn yn *pen.* 4, gan ddyweyd fod ysgrifeniadau ei gydwladwyr naill ai wedi eu llosgi gan y gelyn, neu wedi eu cludo yn mhell trwy yr ymadawiad dros y môr. 'Aeth eraill,' meddai, yn *pen.* 25, 'i geisio parthau tramor gyda mawr alar.'

Dechreuodd yr ymfudiad hwn yn B. A. 461; a pharhaodd, yn benaf yn mysg pobl Cernyw a Morganwg, am hir amser. Yr oedd yr ymfudwyr yn Gristionogion o'r dechreu. Ond cymmerodd ail ymfudiad le; yr hwn oedd o natur grefyddol, pan yr aeth nifer mawr o wŷr eglwysig Cymreig, a llawer o honynt yn esgobion, i Lydaw yn hanner diweddaf y chweched ganrif. Dygasant y sefydliad eglwysig Cymreig gyda hwynt. Ond cyn hir, daeth arferion mwy sefydlog a rheolaidd y cyfandir i ddylanwadu arnynt; a dygwyd hwy, fel eglwysi eraill yno, i ffurf esgobaethol Rhufain.

Yr ydym wedi cyfeirio mewn rhan at neillduolion yr eglwys yn Nghymru y pryd hyn. Ar y dechreu, gellid meddwl fod yr eglwys yn Mhrydain yn dwyn ffurf gyffredin y drefn esgobaethol 'hynaf.' Dadblygiad diweddarach na'r un a alwn ni yma 'yr hynaf' oedd y ffurf a ddygwyd i fodolaeth yn Ffraingc a Germany; ac wedi hyny, trwy Awstin a'i ganlynwyr, yn mysg y Saeson. Y ffurf hynaf oedd hono a geid yn Italy ac Affrica; lle yr oedd yn hawdd casglu ynghyd drigain neu bedwar ugain o esgobion o ran gymmharol fechan o wlad. Yn y gwledydd hyny, y pryd hwnw, yr oedd esgob yn fugail ar bob eglwys, heb fod un syniad ganddynt am 'esgob talaethol,' fel a geir yn awr. Eithr yn Ffraingc, o herwydd amgylchiadau neillduol, cymmerodd y gyfundrefn esgobaethol wedd newydd, trwy fod esgob yn cael ei osod i ofalu, nid am un eglwys, ond am lawer. Dyma oedd yr 'esgob talaethol.' Ond yn Mhrydain, yr oedd y drefn yn hollol wahanol. Pa le bynag yr oedd cynnulleidfa, yno yr oedd esgob; ac yn hyn yr ydym yn cael tystiolaeth arbenig i ddyfodiad boreu Cristionogaeth i'r ynys hon. Dengys ysgrifeniadau Gildas fod esgobion yn lliosog iawn yn Nghymru. Oddi wrth gyfreithiau Hywel Dda, ymddengys fod saith esgobtŷ' yn Dyfed ei hun. Nid priodol yw son am 'esgobaeth ('*see*,' yn ol y Saesneg—yn yr ystyr diweddar) Tŷ Ddewi,' a chwanegu fod yno, yn Dyfed, esgobion eraill, o fath arall; sef, esgobion oedd yn 'Abadiaid.' 'Eisteddfäau' yw yr enw Cymraeg am danynt oll. Yr oedd eglwysi yr oll yn 'eglwysi cadeiriol,' fel y dengys y geiriau Lladin '*sedes episcopales*,' '*sedes*.'—*Ancient Laws of Wales*, i. 556; ii. 790, 879. Ond yn Nghymru, yr oedd yr hen arfer o fod esgobion, fel y mae gweinidogion yn awr, yn mysg Esgobaethwyr ac Ymneillduwyr, mor amled a'r eglwysi, wedi ei draws-newid yn mhellach gan lif mawr mynachaeth. Prin yr oedd esgob na chlerigwr heb fod mewn mynachdy. Felly y daeth eglwysi i ddilyn y sefydliadau hyn; ac felly y gwasanaethai y gŵr swydd esgob pa le bynag yr oedd y mynachdy y perthynai iddo, a hyny fel Abad yn gyffredin. Dyma oedd yr eglwysi sydd yn awr yn 'eglwysi cadeiriol' yn y chweched a'r seithfed ganrif—a llawer gyda hwy. Twf diweddarach, ac o ddylanwad Rhufeinig, mae'n dra thebyg, oedd fod ychydig—yr 'eisteddfäau penaf'—wedi dyfod, fel yn bresennol, yn 'esgobaethau talaethol.' Y mae ôl hyn ar yr iaith Gymraeg. Mae rhai o eiriau Lladin swyddogol yr eglwys ei hun nad oes genym ni eiriau yn tarddu o honynt. Nid oes yn Gymraeg, er enghraifft, air wedi tarddu o *parochia*, fel *parish* yn Saesneg; nac o *dioecesis*, fel yr un Saesneg *diocese;* na chwaith o *sedes*, o'r hwn y cafodd y Saeson *see*—ond fel y cynnrychiolir ef gan 'eisteddfa' yn ei ystyr cyntefig.

Yr enw yn Gymraeg ar yr ail swydd yn y gyfundrefn esgobaethol oedd 'offeiriad,' ac yn ddiweddarach 'periglor.' Hynach nag un o'r ddau yw yr enw 'balawc,' yr hwn a gawn, er enghraifft, yn *Mabinogi* Peredur; yr hwn y gwyddom ei fod mor foreu a'r chweched ganrif, trwy iddo gael ei ddwyn i Lydaw o Gymru. 'Belec' y gelwir pob clerigwr yn Llydaw yn awr; a 'balawc' gynt gyda ni. Y mae y gair yn deilliaw o *baculus;* hyny yw, 'bagl;' sef, y ffon fagl a gariai y mynach—y presbyter, yn ogystal ag esgob—ar y cyntaf yn unig i'w daith; ond wedi hyny daeth i fod yn arwydd o'i swydd. Ond y mae yr enw 'offeiriad' yn cael ei ddwyn gan yr Uchel-Eglwyswyr a'r Defodwyr i arferiad cyffredin, fel tystiolaeth o blaid athrawiaeth neillduol, nad oedd yn bod yn yr eglwys ar y cyntaf. Ymledodd trwy Rufain mewn amser i eglwys y Cymry; ac y mae y ddau air, 'offeren' ac 'offeiriad,' yn myned gyda'u gilydd.

Mor bell ag y mae yn bossibl barnu, yr oedd eglwys y Cymry mewn athrawiaeth yn dilyn yr eglwys gyffredinol ar y Cyfandir. Yr un ffydd oedd yma am wirioneddau sylfaenol crefydd:—am Dduw, am berson Crist, ac am yr Ysbryd Glân. Ond gyda'r athrawiaethau sylfaenol hyn, tyfodd eraill o ail radd. Dilynid Awstin yn gyffredin yn yr athrawiaeth am yr eglwys a'r sacramentau. Er hyny, golygid y cymmun fel 'aberth,' a bwrdd yr Arglwydd fel 'allor.' Elfenau i'w hoffrymu (*offerenda*) oedd yr elfenau yn y Swper Sanctaidd; ac o hyny y daeth y geiriau *offeren* (*offerend'*), *offeiriad* a *segyrffic* (*sacrificium*) i arferiad. Offrymid gweddïau i seintiau, gan gredu fod eu creiriau yn dwyn rhinwedd goruwchnaturiol gyda hwy. Bernid fod gweddïau y saint yn effeithiol i ryddhau eneidiau o'r purdan, a bod gwerth neillduol mewn penyd. Pan sonir am yr Eglwys Gymreig, ei bod yn eglwys uniawngred yn y canrif-

Digitized by Google

oedd yr ydym yn sôn am danynt, cynnwysa hyn ei bod o'r un farn a'r gweddill o Ewrop ar y pethau a enwyd.

VI. Eglwys y Cymry, ac Eglwys y Saeson.

Pan y daeth Awstin fynach drosodd i'r wlad hon, er mai yr un efengyl oedd ganddo ag oedd eisoes yn ffynu yn mysg y Cymry, etto, yr oedd efe yn cynnrychioli cyfundrefn eglwysig wahanol iawn. Yr oedd ei thŵf hi wedi bod yn ol traddodiad a thŵf Eglwys Rhufain, yr hon a ystyrid mewn rhanau helaeth o'r cyfandir y safon uchaf o ran awdurdod. O'r ochr arall, yr oedd eglwysi Prydain a'r Iwerddon wedi tyfu ar linellau oedd yn nodweddiadol o honynt eu hunain. Dïau fod a fyno eu pellder lawer â hyn yn eu blynyddoedd olaf; ond cychwynasant mewn adeg pan yr oedd perthynas agos rhwng y wlad a'r ymherodraeth Rufeinig, ac â'r Eglwys Rufeinig ar yr amser boreuaf yn ei hanes. Bu y gwahaniaeth y cyfeiriwyd ato yn achos o wrthdarawiad ac o ysgariad rhyngddynt ac i fesur mawr o elyniaeth; ond yn y diwedd, Rhufain a orfu. Trwy ddylanwad yr eglwys Saesnig, gyda dylanwadau o'i mewn hi ei hunan, daeth yr eglwys Gymreig i ymostwng yn llwyr i Eglwys Rhufain:—am yr hyn y rhoddwn y manylion canlynol.

Y mae hen 'lyfrau gwasanaeth' ar gael sydd yn profi fod yr un dulliau ac arferion yn ffynu o'r bedwaredd ganrif dros Gâl, ac Yspaen, a Phrydain; ac wedi hyny, yr Iwerddon. Cadwyd y rhai hyn yn hwy yn Mhrydain a'r Iwerddon nag mewn manau eraill. Gwelir yn yr arferion hyn lawer o bethau tebyg i arferion eglwysi y Dwyrain—yn enwedig Asia Leiaf; ac nid oes ammheuaeth nad yma y cafwyd seiliau i'r dyb ddarfod i Gristionogaeth Prydain ddyfod o Asia. Ymdaenodd ffurfiau syml dros y gwledydd a enwyd o ddinas Milan, lle y byddai llys yr ymherawdwyr am amser. A chan fod yr ymherawdwyr yn fynych yn Ddwyreinwyr, yr oedd dullwedd ddwyreiniol ar eu crefydd a'u haddoliad. Gwelid hyn, er enghraifft, yn y bedydd. Tra yr oedd eglwys y Cymry yn taenellu neu yn trochi y bedyddiedig unwaith, yr oedd Eglwys Rhufain yn gwneyd hyny deirgwaith. Yn Eglwys Rhufain, yr oedd 'bedydd esgob' yn arferiad; yr hyn nad oedd gyfreithlawn i neb ei weinyddu ond yr esgob. Ond yn eglwysi Cymru a'r Iwerddon, gweinyddid hyny gan unrhyw henadur, neu bresbyter. Mewn gair, yr oedd yr elfen bwysicaf yn y ddefod hon, yn ol barn Eglwys Rhufain—sef, gwasanaeth yr esgob—yn cael ei hystyried yn ddianghenrhaid yn Nghymru. Ac heb law hyn oll, yr oedd cyfundrefn esgobaethol Cymru yn dra gwahanol i'r eiddo Rhufain. Nid oedd yn sefydlog mewn un man, fel hono. Nid oedd yma archesgobion, nac eglwysi dan ofal periglorïaid, yn cael eu harolygu gan esgobion, fel y trefnai Rhufain hwy yn y gwledydd oedd mewn cymmundeb â hi. Erbyn yr adeg y daeth Awstin drosodd, yr oedd Rhufain, gyda golwg ar benderfynu adeg y Pasc, yn dilyn trefn wahanol i'r hon a ddilynid yn Mhrydain a'r Iwerddon. Cododd annhrefn hollol ac anghysuron ynglŷn â'r gwahaniaeth hwn oedd rhyngddynt. Ar yr adegau y byddai dilynwyr Rhufain yn nghanol ympryd y Grawys, byddai y Prydeinwyr mewn llawenydd yn cadw y Pasc, fel gŵyl yr adgyfodiad. Pan y syrthiai y pedwerydd dydd-arddeg o'r lleuad—sef, y llawn loer—ar yr unfed ar hugain o Fawrth, a hwnw yn Sul, cadwai y Prydeiniaid y Pasc y dydd hwnw; ond byddai y Rhufeiniaid yn ei oedi hyd y Sul canlynol; ac felly, fel y cwyna Columbanus, cadwent y Pasc ar yr unfed-dydd-ar-hugain i'r lleuad; neu hyd yn oed ar yr ail ar hugain; sef, ar yr adeg yr oedd mwy o dywyllwch nag o oleuni. Y mae yn anhawdd i ni ddisgrifio na sylweddoli yr anghysuron a'r drwg-deimlad a godasant ar y sefyllfa hon ar bethau.

Daeth Awstin i Gaergaint yn B.A. 597; ac yn 602, neu 603, cynnaliwyd cyfarfod â'r esgobion Cymreig. Yr oedd efe wedi ei ordeinio yn archesgob er mis Mehefin y flwyddyn flaenorol; ac wedi derbyn awdurdod bennodol oddi wrth y Pab Gregory ar holl esgobion Prydain. Dyma yn awr yn yr ynys beth na chlywsid o'r blaen am dano erioed; sef, 'archesgob,' ac 'awdurdod archesgobawl.' Yn ei neillduedd yr oedd eglwys y Prydeiniaid, tra yn cyfranogi o'r esgobaeth gyffredinol, wedi diangc hyd yn hyn heb yr ail ddadblygiad hwn o reolaeth a threfn eglwysig. Cyfarfyddai eu bugeiliaid ysbrydol mewn cynghor, neu 'senedd,' fel y dywedid yn Nghymraeg y canol-oesoedd, i benderfynu athrawiaeth a threfn. Ond ni wyddent ddim am archesgob, i fod âg awdurdod ganddo ar esgobion; a thrwyddynt hwy ar yr holl eglwys. Gofynodd Awstin mewn llythyr at y Pab, pa fodd yr oedd efe i ymddwyn at esgobion Gâl a Phrydain. Yn ei attebiad, gorchymynodd y Pab iddo ymattal oddi wrth bob awdurdod ar esgobion y gyntaf o'r ddwy wlad, o herwydd fod yr awdurdod hon eisoes, er's lawer o amser, wedi ei rhoddi i esgob Arles. Dyma gyfieithiad o'i atteb:—'Yr ydym yn rhoddi i ti holl esgobion Prydain, modd y byddo i'r di-ddysg gael eu dysgu, y gwan gael eu cadarnhau trwy gymmhell; a'r ystyfnig eu cywiro trwy awdurdod.' Fel y cyfeiriwyd, anfonwyd mantell archesgob i Awstin yn mis Mehefin, B.A. 601, gyda llythyr yn gorchymyn iddo ordeinio esgob i'r Saeson yn Nghaerefrog; yr hwn oedd yntau i ordeinio deuddeg eraill, ac i fod ei hunan yn archesgob arnynt. Yr un modd, yr oedd Awstin hefyd i ordeinio deuddeg, gan gymmeryd Llundain yn eisteddle. Byddai felly ddau archesgob, a phedwar ar hugain o esgobion—tra am ei oes yr oedd Awstin i fod yn oruchaf ar y cyfan o'r pump-ar-hugain. A dyma awdurdod pellach iddo:—'Ond bydded ddarostyngedig i ti, nid yn unig y rhai a ordeiniech di, na chwaith y rhai a ordeinir gan esgob Caerefrog, ond holl esgobion Prydain hefyd, trwy awdurdod ein Duw a'n Harglwydd Iesu Grist, fel y byddo iddynt wybod o'th air a'th fywyd di ffurf gwir gred a gwir fuchedd.' Bellach, yn ol y trefniad hwn, ar sail yr awdurdod oedd yn bodoli yn esgob Rhufain, yr oedd y Prydeiniaid yn eu holl fywyd eglwysig i fod yn ddarostyngedig i archesgob y Saeson. Nid oeddynt hwy yn deall hyn, ac yr oeddynt, yn ddïau, yn hollol anfoddlawn iddo. Cafodd Awstin hwynt yn ddiblygu, y tu hwnt i'w ddisgwyliad; ac felly y bu nes iddo eu cyfarfod mewn cynnadledd, fel y soniwyd, yn B.A. 602 neu 603.

Derbyniodd Awstin gymmhorth y Saeson i ddwyn 'esgobion neu ddysgawdwyr' y Prydeiniaid i'r cyfarfod; yr hwn a gynnaliwyd dan dderwen a elwid, yn amser Beda, yn 'Dderwen Awstin,' o fewn cyffiniau Whiciaid a Saesoniaid y Gorllewin (*West Saxons*). Nis gellir bod yn sicr am y fan; ond pe yr edrychid ar fap o

Digitized by Google

Brydain yn y seithfed ganrif, fe welid y rhaid iddo fod i'r de-ddwyrain i'r afon Hafren:—fe allai, yn rhywle yn agos i'r man y mae Gloucester yn awr. Dyma y tro cyntaf i Rufain a Chymru ddyfod wyneb yn wyneb. Dechreuodd esgobion Rhufain ar y gwaith mawr o efengyleiddio y cenhedloedd gogleddol a gorllewinol; ac yr oeddynt yn prysur ennill y lle uchaf yn y byd Cristionogol. Yr oedd eu 'dylanwad' yn cael ei gydnabod bellach yn 'awdurdod' mewn rhan fawr o'r gorllewin; ac yr oedd y rheolaeth hwn yn llaw un o'r gwŷr galluocaf a fu erioed yn esgob y ddinas enwog. Pa beth fu helynt y Cymry, a'u heglwys, wedi i Rufain a hithau gydgyfarfod? Gallasai hanes dwy ganrif, a chwaneg, fod yn dra gwahanol pe buasai Awstin yn ddyn gwahanol i'r hyn ydoedd—pe buasai ganddo 'fwyneidd-dra doethineb.' Ond dyn bychan, cyfyng, hoff o awdurdod, oedd efe; er ei fod yn gywir a thanbaid ei sêl fel cenhadwr. Nid rhyfedd i'r Cymry wrthod ei gynnygion. Trwy wrthod y rhai hyn, a'i wrthod ef—cynnrychiolydd eglwys bŵerus rhan fawr o Gyfandir Ewrop—cadwasant eu rhyddid; ond cawsant hefyd etifeddiaeth chwerw o flinderau. Fel hyn y dywedodd Beda am dano:—

'Dechreuodd eu hannog yn frawdol i fod mewn tangnefedd catholig âg ef, ac i ymgymmeryd â'r gwaith a berthynai iddo ef, a hwythau, o efengyleiddio y paganiaid. Yr oedd gan y Cymry eu ffordd eu hunain o gynnal y Pasc; ac mewn llawer o bethau eraill, yr oeddynt yn groes eu harferion i'r 'undeb eglwysig.' Wedi llawer o ddadleu, erfyniau, cymmhellion, a cheryddon ar du Awstin, dalient yn dŷn at eu harferion eu hunain, yn hytrach na chydymffurfio âg eglwysi cyffredinol y byd. Penderfynwyd cyfarfod eilwaith pan y byddai mwy yn bresennol; gan nas gallai y rhai oedd yn y gynnadledd hono ymadaw â'u harferion henafol heb gydsyniad a chaniatâd eu cydwladwyr.'

Pan ddaethant ynghyd yr ail dro, yr oedd yno saith o esgobion Cymreig, a llawer o wŷr dysgedig—gan mwyaf o fynachlog enwog Bangor. Ni wyddis yn sicr pa Fangor a feddylir, er fod y gŵr a enwir fel Abad: sef, Dunod, yn cael, yn gyffredin, ei gyssylltu â Bangor Is-y-coed. Cyn myned, y maent yn ymgynghori â gŵr o feudwy, adnabyddus am ei fuchedd sanctaidd a'i gallineb; yr hwn a'u cyfarwyddai pa fodd i farnu a oedd Awstin yn ŵr Duw. Os caent ef yn addfwyn a gostyngedig o galon, da fyddai iddynt wrandaw ar ei air; ond os caent ef yn ŵr balch a ffroen-uchel, nid oeddynt i dderbyn ei eiriau. Balch ac awdurdodol oedd Awstin etto, gan fod y Cymry yn gwrthod gwrandaw arno. Gosododd o'u blaen dri chynnygiad. Os derbynient y rhai hyn, byddai iddo yntau fyned heibio i'r pethau eraill, er eu bod yn dra chroes i arferion yr eglwys a gynnrychiolai efe. Afraid yw ceisio penderfynu natur y pethau eraill hyn; ond y mae y tri y gofynai iddynt gydsynio âg ef arnynt fel y canlyn:—1af, Yr oedd y Cymry i gynnal y Pasc 'yn ei amser.' 2il, Yr oeddynt i gwblhau y ddefod o Fedydd yn ol dull y 'lân eglwys Rufeinig ac apostolaidd.' 3ydd, Yr oeddynt i ymuno âg ef yn y gwaith o bregethu y Gair i'r Saeson. Gwrthododd y Cymry, gan chwanegu pedwerydd pen; yr hwn, y mae'n debyg, yr oedd efe yn ei gymmeryd yn ganiataol drwy y cyfan; sef, na byddai iddynt ei gydnabod ef yn archesgob. Mae yma ymofyniad yn codi yn naturiol gyda golwg ar y tri phen uchod. A ddarfu i'r Cymry wrthod y trydydd, am na fynent ildio ar y ddau gyntaf; neu, a oeddynt yn gwrthod y ddau gyntaf am na fynent gydsynio â'r trydydd. Mewn geiriau eraill, pa un ai eu hamnharodrwydd i dderbyn defodau a threfn eglwysig newydd oedd yn peri iddynt wrthod ymuno yn efengyleiddiad y Saeson, ynte eu golyniaeth at y Saeson a'u harweiniodd i wrthod y trefniadau eglwysig oedd yn y ddau ben cyntaf?

Pan ystyriwn rediad yr hanes blaenorol lle y mae 'ystyfnigrwydd' y Cymry yn cael ei ddarlunio yn eu hymlyniad wrth bethau gwahanol i arferion yr eglwys gyffredinol, ac hefyd y cyffro a barai cwestiwn y Pasc mor ddiweddar a thua B. A. 800 yn Neheubarth Cymru, credwn mai y prif anhawsder yn y gynnadledd oedd y drafodaeth am faterion eglwysig; ac mai anghydwelediad ar y rhai hyn a barodd i Awstin a'r Cymry ymadael heb heddychu. Anhawdd oedd iddynt, y pryd hwnw, droi i bregethu i'r Saeson; ond mwy anhawdd ydoedd derbyn y ddau gynnyg arall. Gwrthodent, yn ngolwg Awstin, undeb â'r Eglwys Gatholig; ond diau fod a wnelo ei ddull balch ei hun lawer â'r gwrthodiad. Nid oes un lle i feddwl fod yn yr ynys hon, ar y pryd, unrhyw wrthwynebiad neillduol i Eglwys Rhufain, a'i hesgob; ond yn y wedd dra-awdurdodol y gosodid ei hachos o flaen y Cymry, yr oedd raid iddynt, yn gyntaf, gondemnio eu hunain o ran llawer o arferion yr oedd hir gyflawniad o honynt wedi eu hanwylo iddynt. Nid oedd eu heglwys yn Gatholig yn ol ammodau heddwch Awstin; ond dewisasant barhau yn ol eu harfer, serch i hyny ddwyn arnynt gondemniad a bygythion yr archesgob Saesneg. O hyny allan, yn ol barn Rhufain a'r eglwys Saesnig, eglwys 'sismaticaidd' oedd yr un Gymreig; a mawr fu y chwerwder o'r herwydd. Y mae yn rhyfedd i ni fod y didoliad yn cael ei osod ar seiliau mor gyfyng a'r ddau ammod cyntaf a osodwyd o flaen y Cymry yn y gynnadledd; etto, wrth wrthod dull Rhufain o gadw y Pasc, a gwrthod ei dull hi o gyflawni y ddefod o Fedydd, haerid eu bod yn wrthryfelwyr yn erbyn awdurdod apostolaidd. Hwn oedd y gwir derfyn y mynai y naill ochr orfodi y llall i'w groesi; ac felly, rhaid cydnabod fod y Cymry wedi ymddwyn yn gywir trwy wrthod cydymffurfio; ac y mae ein cydymdeimlad yn llwyr â'r Cymry.

Y mae llawer cais wedi ei wneyd i ddeall yn mha wedd y galwai Awstin ar y Cymry i adael eu harferion eu hunain yn ngweinyddiad Bedydd. Yr ydys yn gwybod, oddi wrth y *Stowe Mizzal*, pa fodd y gweinyddid yr ordinhâd hon yn yr Iwerddon; ac oddi wrth lawer o lyfrau hynafol, y mae y modd y gweinyddid hi yn Gâl hefyd yn hysbys cyn i ddylanwad Rhufain ddwyn unffurfiaeth newydd i mewn. Nis gallai fod yn wahanol yn Nghymru. Yn gyntaf, eneinid mynwes ac ysgwyddau y bedyddiedig âg olew; yna, wedi bendithio ac eneinio y dwfr, trochid ef ynddo dair gwaith, neu taenellid y dwfr arno dair gwaith. Wedi hyny, yr oedd i gael ei eneinio ar y talcen âg olew sanctaidd, a'i wisgo â gwisg wen. Dyma y gwasanaeth; a chyflawnid ef gan unrhyw weinidog rheolaidd. Nid oedd angen am i'r esgob fod yn bresennol o gwbl, ac nid oedd sôn am arddodiad dwylaw. Fel hyn y mae hi hyd heddyw yn Eglwys Groeg; ac fe allai fod yma ôl y dylanwad Dwyreiniol y cyfeiriwyd ato o'r blaen, yr hwn a ddaeth i Gâl a Phrydain yn y bedwaredd ganrif. Arfer

Digitized by Google

Eglwys Rhufain, o'r tu arall, oedd fod i'r esgob yn unig weini yn y rhan olaf o ddefod y bedydd; sef, yr eneinio âg olew ar y talcen. Cyn hir, yr oedd y rhan hon wedi ei gwahanu mor lwyr nes cael ei hystyried yn sacrament arall, o dan yr enw 'bedydd esgob,' neu 'gonffirmasiwn.' Nid oedd neb i weinyddu hyn ond yr esgob yn unig. Ystyria Awstin nad oedd defod yr eglwys yn gyflawn a dilys yn mysg y Cymry, gan nad oedd ganddynt Fedydd Esgob; ac felly, y peth a ofynid ganddo (fel, yn wir, yr awgryma y gair Lladin, *ut compleatis*), oedd, ar i'w bedydd gael y cyflawniad esgobol hwn.

Erbyn hyn, yr oedd y rhai enwog a adwaenid fel 'dysgyblion Illtud' wedi marw; ond yr oedd yr adnewyddiad a ddygasid i rym trwy eu dysgeidiaeth a'u pregethu hwy yn aros gyda'u dysgyblion. Da yw cofio i gais Awstin fynach i ennill y Cymry gael ei wneyd ar adeg o ddeffröad o'r fath yma. I'r adeg hon y perthyn, gan mwyaf, yr enwau sydd etto yn aros fel enwau llanau dros Gymru oll, gan ddwyn tystiolaeth i efengyleiddiad cyffredinol y wlad. Y mae llawer o honynt yn enwau Lladin, ac amryw yn enwau Gwyddelig:—Priodolir y rhai cyntaf mewn rhan i ddyfodiad gwŷr o'r Cyfandir, ac mewn rhan i arfer yr iaith yn ngwasanaeth a llenyddiaeth yr eglwys: a'r rhai Gwyddelig, yr un modd, i ddyfodiaid o'r Iwerddon. Er enghraifft, y mae genym Stinan, o Justinianus; o Decumanus daw Decmanus, neu Tecmanus, ac yna Tegfan; o Virgilia, Gwerfyl; ac o Brigid, Ffraid. Ond am y rhan fwyaf o lawer, enwau Cymreig hollol ydynt. Cyfarfyddir, hefyd, megys ar hyd a lled Ewrop, âg amryw sydd wedi eu cymmeryd o'r Ysgrythyrau.

VII. Tymhor Dwy Eglwys.

Y mae, bellach, yn mysg y Saeson eglwys na fyn arddel cymmundeb âg eglwys y Cymry, ond ar delerau neillduol. O'r ochr arall, ceir fod y Cymry yn coleddu teimladau o wrthwynebiad dwfn tuag at yr eglwys Saesnig. Wyth mlynedd wedi marw Awstin, daeth y wae a gyhoeddodd efe uwch ben yr esgobion a'r doctoriaid Cymreig i ben yn mrwydr waedlyd Caer, B. A. 613:—'Gweith Caer legion,' fel y gelwir hi yn yr *Annales Cambriæ*. Cafodd y genedl glwyf arosol yn y frwydr hono; ond lladdwyd hefyd dyrfa o offeiriaid, lawer o honynt o Fangor-îs-y-coed, a ddaethant i'r frwydr i weddïo dros eu cydwladwyr. Cysgodid hwynt rhag y gelyn gan Brochmael, brenin Powys; ond wedi iddo ef droi ei gefn, rhuthrodd y gelyn ar y dorf ddiamddiffyn, gan ladd tua deuddeg cant o honynt. Dïau fod hyn yn arbenig wedi chwerwi teimladau ac arwain i'r ymddygiad a ddisgrifir gan Beda [ii., 20], yn y geiriau hyn:—'Nid yw y Brythoniaid yn ystyried ffydd a chrefydd y Saeson yn ddim; ac ni fynant ddal cymmundeb â hwynt, mwy nag â phaganiaid.' Bu agos i'r genhadaeth Rufeinig a ddaethai i Gaergaint ddiffoddi ar ol marwolaeth Awstin; ond ennynwyd y fflam o newydd trwy ddylanwad Aidan o Lindisfarn, yn y gogledd. Yr oedd efe wedi ei feithrin yn yr Eglwys Wyddelig; a gwŷr o'r un argyhoeddiadau ac arferion ag ef ei hun oedd ei gynnorthwywyr. Trwy y gwŷr hyn, lledaenwyd goleuni yr efengyl yn mysg y Saeson; a meddwl hyn yw, fod yr eglwys yno wedi ymledu ar ffurf gyffelyb i'r ffurf a ffynai yn mysg y Cymry—gan adael i'r rhai a ogwyddent at Rufain gymmeryd eu ffyrdd eu hunain.

Nid oes prydferthach na rhagorach cymmeriad ar ddalen fawr hanes yr eglwys a'r byd nag a geir yn hanes Aidan, o ran agos bob dawn sydd yn gwneyd dyn yn arweinydd i eraill. Wedi ei farwolaeth ef, daeth y ddwyblaid oedd yn eglwys y Saeson i wrthdarawiad. Yn ol barn Wilfrid, yr hwn, ar ol llawer, ac mewn llawer ystorm, a fu yn archesgob Caerefrog, nid oedd yr eglwys yn gatholig, yn ol y ffurf a gymmerai yn nwylaw Aidan a'i ganlynwyr. Mewn cynnadledd bwysig yn Whitby, dygwyd yr achos hwn i derfyniad trwy mai y blaid Rufeinig a orfu yno. Aeth llawer oedd o ogwyddiad Gwyddelig adref, a throdd eraill i dderbyn y syniadau Rhufeinig. O'r adeg hon hyd yn awr, Rhufeinig yw Eglwys Loegr o ran ei ffurf a'i rheolau sylfaenol. Yn B. A. 673, gorphenwyd y gwaith trwy ddwyn i mewn ganonau y Cyfandir i fod yn sylfeini arferion a rheolau yn yr eglwys hono. O hyny allan, yr oedd raid iddi gondemnio Eglwys y Cymry fel un nad oedd yn gatholig. Nis gallai beidio tra y daliai syniadau Rhufeinig ei hun. Mae'n anhawdd cael gwell darlun o deimladau yr oes hono nag a welir mewn llythyr a ysgrifenwyd gan Aldhelm at frenin ac esgobion Domnonia. Gŵr oedd Aldhelm a fuasai yn bresennol yn nghynghor Hatfield, yn B.A. 680, ac oedd ar y pryd yn Abbad Mynachlog Malmesbury. Yr oedd efe yn ŵr o ddylanwad mor fawr fel y gosodid arno i ysgrifenu llythyr at y Brythoniaid yn enw y cynghor, gyda'r gobaith o'u hennill i undeb a chymmundeb âg Eglwys Loegr. Gallai fod llythyr cyffelyb wedi ei anfon i fanau eraill.

Darllenwn y llythyr hwn gyda dyddordeb neillduol. Y mae ynddo gŵynion—y mae ynddo gymmhellion taer—a chyda hyny fynegiad o'r teimladau oedd yn ysgogi y Saeson wrth nesau at y Cymry. Amcan y llythyr yw, adfer 'undeb yr eglwys Gatholig, a chydgordiad y rhai a broffesent y grefydd Gristionogol.' Mae yn ammhossibl, dywedir yno wrth y Prydeiniaid, i 'weithredoedd da' neb fod o ddim lleshâd 'y tu allan i'r eglwys gatholig;' sef, fel y dengys mewn geiriau, y tu allan i'r eglwys Rufeinig. Hwy, 'y Rhufeiniaid,' yn unig oeddynt gatholig; a thra y parhao yr eglwys Brydeinig i lynu wrth arferion sydd yn eu rhwystro i ymuno â Rhufain, rhaid ei bod y tu allan i'r wir eglwys apostolaidd. 'Nid yw cynghorion eich esgobion,' meddai, 'yn unol â'r ffydd gatholig.' Yn hyn, cyfeirir at y dull neillduol o gneifio gwallt y mynachod a ffynai yn Mhrydain—at y ffordd o benderfynu amser y Pasc—ac at waith esgobion, sef rhai Dyfed yn arbenig, yn gwrthod pob cyfathrach â'r Saeson Cristionogol. Er y gallai gŵr fod yn hollol uniongred, neu gatholig ei ffydd, etto, ni byddai hyny ddim iddo, gan fod 'sail yr eglwys, a sail y ffydd, yn gorwedd gyntaf oll yn Nghrist, ac wedi hyny yn Mhedr.' Dyma y safle hynod yr oedd yr Eglwys Babaidd yn cael ei gosod yn eglur o flaen ein hynafiaid yn niwedd y seithfed ganrif, agos yn yr un wedd ag y mae eglwysi sydd yn hòni eu bod hwy yn unig yn 'gatholig,' yn gwneyd etto. 'Nid ydyw buchedd, na chred, o unrhyw wir fuddioldeb (dywedir), o blegid yr ydynt allan o undeb y 'wir eglwys,' ac felly yn sismaticiaid.' Fel hyn y dechreuodd Awstin. Ysgrifenodd ei olynydd Laurence, hefyd, lythyrau at y Gwyddelod a'r Cymry gyda'r un bwriad, i'w dwyn i'r 'undeb catholig.'—*Beda* ii. 4. Ond wedi i bedwar ugain mlynedd fyned

Digitized by Google

heibio, y mae y ddwy eglwys yn parhau ar wahân, gan fyned mor bell fel y cwynid na fynai gweinidogion yr eglwys Gymreig gymmaint a chydfwyta â'u brodyr yn mhlith y Saeson. Yn yr un amser, ceir fod parch at Rufain ei hun, fel dinas yr apostolion, yn aros, ac yn cynnyddu yn mysg y Cymry. Yn ol hyn y bu i'r fath ŵr a Chadwaladr Fendigaid, os ydym i gredu Brut y Tywysogion, fyned, wedi y plâ mawr, ar bererindod yno:—lle hefyd y bu farw, tua'r flwyddyn 682.

Er y cwbl, yr oedd plaid o fewn yr eglwys ei hun yn gogwyddo i bleidio appeliadau eglwys y Saeson. Yn ol rhai awgrymiadau, fe ellir casglu fod amryw o'r rhai hyny yn y Deheubarth—tua Llanfair Muallt. Ac yn y Gogledd, arweinid y blaid gan Elfod, esgob Bangor. Y mae cryn oleuni wedi ei gael ar hyn yn ddiweddar trwy ymchwiliadau manwl a wnaed i waith sydd yn dwyn yr enw *Historia Britonum*, gan Nennius. Ymddengys fod corph y llyfr wedi cael ei ysgrifenu tua'r fl. 679 gan ryw Brydeiniwr yn ngogleddbarth Lloegr, ac iddo gael ei helaethu gan eraill rai blynyddoedd ar ol hyny; ond yn arbenig drachefn gan Nennius, yr hwn a'i geilw ei hun yn 'ddysgybl Elfod,' tua'r fl. 796. Perthynai y gŵr hwn i'r blaid Rufeinig; i'r hyn y priodolir ddarfod i'r ystori am Lleufer Mawr (Lucius) yn derbyn yr efengyl o Rufain gael ei dwyn i mewn i'r llyfr. Yr oedd a wnelo gŵr o Fôn, a eilw ei hun 'yn ddysgybl Peulan,' â'r un gwaith hefyd tua'r fl. 810. (Y mae Llanbeulan yn Nghymwd Llifon.) Gwnaed y cam pwysicaf tuag at gymmundeb â Rhufain trwy ddylanwad Elfod, yn y flwyddyn 768, yn ol yr *Annales Cambriæ*:—

'Deng mlynedd a thrugein a seith cant (770) oed oet Crist pan symmudwyt y Pasc y Brytanyeit, drwy orchymyn Elbot gŵr y Duw.'

Fel hyn y dywed Brut y Tywysogion. Yn y *Myvyrian Archaiology* (argraphiad T. Gee, td. 686), dywedir:—

'Oed Crist 755 y symmudwyd y Pasg yng Ngwynedd, o gyngor Elfod Escob Bangor; ond nis caid hyny gan yr Escobion eraill, ac achwas hyny y daethant y Saeson ar y Cymry yn Neheubarth.' . . . 'Oed Crist 777 y symmudwyd y Pasc yn Neheubarth.' . . 'Oed Crist 809 y bu farw Elfod, Archescob Gwynedd, ac y bu diffyg ar yr haul, ac y bu Terfysg mawr yn mhlith y Gwŷr Eglwysig achaws y Pasc, canys ni fynnai Escobion Llandaf a Mynyw ymroddi dan Archescob Gwynedd, lle yr oeddynt eu hunain yn Archescobion hŷn o Fraint.'

Ni wyddom yn sicr pa flwyddyn i'w chyfrif: ond tua'r fl. B.A. 800, y symmudodd Cymru yr argae oedd rhyngddi a Rhufain. O hyny allan, yr oedd dylanwadau Rhufeinig yn dechreu ar eu gwaith ar raddfa gyffredinol, gan ddileu yn fuan y nodweddion neillduol a berthynent i'r grefydd Gristionogol yn mysg ein henafiaid. O hyny allan, diflanodd yr hen fywyd mynachaidd Prydeinig, yr hwn a welsid yn amser Dewi, Gildas, Catwg, a'u dysgyblion, gan ymadnewyddu yn ffordd ddiweddarach—ïe, ragorach—Benedict, fel y canfyddir yn hanes mynachlog hynod Enlli. Nid hoff, fe allai, ydoedd gan y mynachod hynaf newid; ond yr oedd llawer yma ac acw eisoes yn cyfnewid dull eu buchedd am un fwy cymmedrol, yn ol rheolau Benedict; y rhai, erbyn hyn, oedd yn ffynu dros holl o gyfandir Ewrop yn mron. Tra heb anghofio amser dirywiad dychrynllyd y mynachlogydd, yr ydym yn sylwi mai yn eu ffordd hwy yr oedd crefyddolder goreu yr oes yr ydym wedi cyrhaedd ati yn cerdded. Ni wyddom amseriad yr 'Ymddiddan y Saint a Chybi' a welir yn y *Myvyrian Archaiology*, td. 134, ac a briodolir i Aneurin; ond gall fod yn ddarlun o rai goreu oes oedd ychydig yn ddiweddarach na Chybi, pan oeddynt 'yn myned i Ynys Enlli.'

'Yno i gofynnent i Gybi,
Bwy borthiant sydd ar weilgi;
Duw a ro cyngor ini,
Ar dir a môr yleni;
Cann haws gan Dduw roddi
Na chan ddyn ddiddim erchi.

Gweddïwn Dduw o ddifri,
A goddefwn galedi;
Ni chair lles o ddiogi,
Trech llafur no direidi.

Wellwell fydd Duw oi addoli,
Waethwaeth Diawl oi berchi.
Dirwest, ffydd, a gweddi,
A orfydd bob caledi.'

I'r cyfnewidiad hwn, yn y fl. 800, y priodolwn hefyd ddarfod i ffurf esgobawl yr eglwys ddyfod weithiau yn dalaethol. Tyfodd pedair talaeth, ac un esgob i arolygu pob un, allan o'r lliaws 'eisteddfäau' esgobawl oedd yn Nghymru; a dylanwad Rhufain, yr ydym yn credu, a barodd hyn. Ni wyddis yn hollol sicr yr amser. Yr oedd yn Nyfed ei hun, mor ddiweddar ag amser Hywel Dda, sef, tua'r fl. B. A. 928, saith o esgobion. O'r ochr arall, nid oes air sicr o sôn am Lanelwy, ond fel mynachlog y ddau Abad, Cyndeyrn ac Asaph (y rhai oeddynt hefyd yn esgobion) wedi dyfodiad y Normaniaid i Loegr. Enwir Cybi hefyd fel esgob, ac un o'r enw Renchidus gydag Elfod o Fangor. Yn y Deheubarth, cawn hefyd esgob yn Llanbadarn (Ceredigion), ac yn Llanafan fawr (Penfro) heb law 'esgob Morganwg,' ac 'esgob y Wig.' Yn y canrifoedd hyn, dysgai awdurdod Rhufain i bobl ac offeiriaid drefn a thegwch, yn nghanol gormes brenhinoedd, a thywysogion fychain a mawrion. Gwnai hyn drwy yr esgobion; ac felly naturiol oedd iddynt gael eu lleihau o ran nifer, a'u gosod ar dalaethau—fel yr oedd rheol yr eglwys wedi dadblygu eisoes yn Lloegr, Ffraingc a Germani. Yr oedd y canol-oesoedd yn awr, o ran yr undeb cyffredinol oedd yn mywyd eglwysi y gwledydd, o dan arweiniad, os nad dan reolaeth, esgob Rhufain, yn dechreu eu tymmor maith. Tyfodd y dylanwad hwn yn fuan yn rheolaeth gref, a chafodd amser i ddirywio yn ormes greulawn, hyd nes y deffröwyd pawb gan daranfollt fawr y Diwygiad Protestanaidd.

### VIII. Amser Hywel Dda.

Y mae y cyfreithiau Cymreig a gyssylltir âg enw Hywel Dda yn deilwng o sylw yma, er dangos safle yr eglwys o fewn brenhiniaeth neu arglwyddiaeth Gymreig, yr arferion crefyddol a gawsant warogaeth neillduol, a'r syniadau moesol a lywodraethent bobl y wlad yr adeg hono. Yr oedd brenhinoedd Cymru, y pryd hwn, wedi dyfod i gydnabod eu bod dan warogaeth i frenhinoedd y Saeson—yn arbenig brenin Mercia. Er hyny, yr oedd ganddynt eu llysoedd a'u cyfreithiau eu hunain mewn annibyniaeth ëang. Dywedir i Hywel ddilyn ei dad, Cadell, yn y fl. B.A. 909; ac iddo farw ei hun yn 950, mewn rhyw ystyr yn frenin âg awdurdod ganddo dros Gymru oll. Tua'r fl. 928, galwyd cynnadledd fawr, yn cynnwys chwe gŵr o bob cwmwd (neu o bob cantref, yn ol llyfr

Digitized by Google

Dyfed a Gwent) i'r Tŷ Gwyn ar Daf; sef, Whitland, yn sir Gaerfyrddin, yn bresennol. Yr oedd pedwar i fod yn lleygwyr, a dau yn 'ysgolheigion,' neu wŷr eglwysig, 'rhag gosod o'r lleygon ddim fyddai yn erbyn yr Ysgrythyr Lân.' Galwyd hwy, hefyd, yn amser y Grawys, am 'y dylai pawb fod yn iawn ar yr amser glân hwnw, ac na wnelai gam yn amser glendid.' Wedi gorphen, a chyhoeddi melldith ar y neb a gam-arferai y cyfreithiau hyny, ac ar yr arglwydd a'u symmudai, &c., &c., aeth Hywel Dda, gyda thri esgob (y rhai ni enwir, gan fod pob rhestr wahanol o honynt yn enwi gwahanol rai) i Rufain 'i gymmeryd awdurdod y Pab o Rufain i'r cyfreithiau.' Gwel y darllenydd oddi wrth yr hyn sydd yn y dyfyniadau uchod pa fath awyr, o ran syniadau eglwysig, a amgylchynai y Cymry ar adeg nodedig o fath hon. Cofier, hefyd, fod yno 'saith ugain baclawc (neu balawc—hyny yw, offeiriaid), o archesgyb, esgyb, ac athrawon da, ac abadau a phrioriaid, o ddoethion Cymru oll.' Er fod tair ffurf i'r cyfreithiau hyn yn cyfatteb i'r tair rhan—Gwynedd, Dyfed, a Gwent; a bod rhai rhanau (o chwanegiadau, mae'n amlwg), yn enwi un mor ddiweddar a Rhys ab Gruffydd, yr hwn a fu farw yn y fl. 1197; etto, cydnabyddir eu bod yn gorph o gyfreithiau hynafol a gwir Gymreig.

Wrth chwilio eu cynnwys gyda golwg ar yr eglwys, synir ni gan y ffaith eu bod yn annhebyg i gyfreithiau eraill Ewrop yn yr adeg hono mewn un peth pwysig:—*fod yr eglwys ynddynt yn annibynol hollol ar y wladwriaeth.* Nid oes yma unrhyw drefniad gyda golwg ar ddewis esgobion, abadau, nac offeiriaid; yr hyn sydd yn dangos yr ystyrid fod pob peth o'r fath yn nwylaw yr eglwys ei hun.

'Tair gorseddfa y sydd [yr ydym yn gwneyd yr iaith ychydig yn fwy diweddar nag y mae yn y cyfreithiau eu hunain], a allant wneuthur eu rheolau trwyddynt eu hunain, a thrwy eu cyfraith eu hun, lle na lesteiriont gyfraith y brenin; sef, Abad, ac Esgob yn ei orsedd ei hun, a Meistr ysbytty, pob un yn ei orsedd.'

Gwelwn, drwy hyn, fod yr eglwys yn rhydd i drefnu ei defodau, a phenderfynu ar ei hathrawiaeth trwy ei gweinidogion ei hun. Pan y byddai esgob farw, yr oedd ei holl eiddo yn dyfod yn eiddo i'r brenin, oddi eithr 'gwisgoedd yr eglwys, a'i thlysau.' Yr oedd yn y llys 'offeiriad teulu;' yr hwn oedd i gael ei dir yn rhad, a'i wisg deirgwaith yn y flwyddyn, a'i farch yn barod. Deuai ei liain iddo oddi wrth y frenhines, a'i frethyn oddi wrth y brenin. Cai, hefyd, ei draian o ddegwm y brenin, a degwm y teulu; rhoddid iddo offrwm gan y brenin ar adeg offeren, a chan swyddwyr y brenin. Nid oedd gan yr esgob hawl i 'bersoni' neb ar gapelau y brenin heb ganiatâd yr offeiriad teulu, oddi gerth trwy gynghor y brenin. Un o dri anhebgor y llys oedd 'offeiriad i fendigo y bwyd, a chanu offeren.' Yr oedd 'tri sarhâd na ddiwygid os ceid hwy trwy feddwdod:—sarhâd yr offeiriad teulu, yr ynad llys, a'r meddyg llys; gan na ddylai un o'r tri hyny fod yn feddw byth, am na wyddant pa amser y bydd raid i'r brenin wrthynt.' Yr oedd gan y frenhines, hefyd, ei hoffeiriad, a'i 'letty gydag offeiriad y brenin yn nhŷ y clochydd.' Y mae yn y cyfreithiau drefn fanwl gyda golwg ar 'nawdd' eglwys i droseddwyr, a'r defnydd oedd i'w wneyd o greiriau. Pwy bynag a wnelai gam mewn 'mam eglwys,' yr oedd i dalu pedair punt ar ddeg (14*p.*)—hanner i'r abad, a'r hanner arall i'r 'offeiriad a'r clas,' sef y cymmundeb o wŷr eglwysig a berthynai i'r eglwys. Os gwneid y cam mewn eglwys arall, telid 7*p.*—y naill hanner i'r offeiriad, a'r llall i'r parson.'

Pan y meddyliwn am sefyllfa dynion yn yr adeg hono, yr ydym yn cael y *caeth*, y *taeog*, a'r *gŵr rhydd.* Ond pe adeiledid eglwys ar dir y taeog, neu mewn taeogdref, deuai y taeog ar unwaith yn ŵr rhydd. Hefyd, os urddid mab i daeog yn glerigwr, byddai y noson hono yn ŵr rhydd. Gwelwn yma nad oedd yr eglwys wedi llwyddo i dynu ymaith gaethiwed y caeth, na hanner caethiwed y taeog oedd yn rhwym i dir ei arglwydd.

Caniateid rhyddid mawr mewn priodas. Gallai gŵr a gwraig, os mynent, gael ysgariad yn mhen saith mlynedd wedi priodi; a chyn hyny, hefyd, ar achosion bychain iawn. Nid yw y rhan hon, ysywaeth, yn ein harwain i feddwl yn uchel o'r cyfreithiau. Daw gwell purdeb etto. Gadawn y gyfraith gyda'r dyfyniad a ganlyn, syml ac awgrymiadol ei ystyr:—

'Tri phren sydd rydd eu lladd yn fforest y brenin: pren crib eglwys, a phren peledyr a wneir wrth raid y brenin, a phren elor.'

Yr ydym yn nesau at y fl. b. a. 1000; ac yn gweled fod yr Eglwys Gristionogol wedi ymledu dros Gymru oll; a bod ei chlerigwyr yn aml eu rhifedi, a'i mynachod hefyd, gan mwyaf, yn glerigwyr. Nid oes genym lawer i'w daflu o oleuni ar fucheddau ei thrigolion yn gyffredinol; ond y mae yn amlwg mai gwaith anhawdd ac araf fu dofi rhaib a nwydau y rhai a lwyddent i fod yn dywysogion ac yn frenhinoedd. Credwn fod a wnelo y mynachlogydd lawer â hyn; ac hefyd, y drefn eglwysig oedd yn dyfod yn fwy unffurf dan ddylanwad Rhufain. Ni raid i ni gymmeradwyo nac anghymmeradwyo y drefn hon yma, ond yn unig edrych ar y ffaith fod trefn yn bod; a'i bod yn ymledu ac yn ymgadarnhau. Nid oedd Rhufain chwaith yn cael ei ffordd yn mhob peth; gan fod priodas, a theulu, yn bethau cyffredin yn mysg esgobion yr eglwys, er nad yw cyfreithiau Hywel Dda yn sôn dim am hyny. Daeth hefyd, yn ddiau, fantais fawr i'r Eglwys Gymreig o'i chyfathrach âg eglwysi eraill, o ran llenyddiaeth a diwylliant eangach. I roddi un enghraifft:

Gwelwn ol hyny yn yr hyn a ddywedir am Bledri, esgob Teiliaw (Llandaf), yn Brut y Tywysogion [*Myvyrian Archaiology*, Gee, Dinbych, td. 694]. 'Oed Crist, 1023, bu farw Morgynnydd, escob Dewi, a Bledri, escob Teiliaw—Ysgolhaig pennaf gwlad Cymru; achaws hyny y gelwid ef Bledri ddoeth; a chystal y carai wybodau, fal y dodes ar yr offeiriaid gynnal addysg Llyfrau Llen bob un yn ei Eglwys, mal y gwypai bawb a ddylynt parth Duw a dynion.' Hefyd, am y flwyddyn 1030; 'Y flwyddyn hono y peris Ioseb, Esgob Teiliaw, na wnelid na gwaith na gorchwyl ar y Suliau a'r Gŵyliau, ag a wnaeth i'r offeiriaid ddysgu darllain yr Ysgrythyr Lân, heb dâl, heb gêd, ac na wnelynt âg ymrysonau.' Bu Ioseb farw yn y fl. 1043; ac y mae yr un Brut yn sôn am dano yn mhellach fel 'gŵr doeth a duwiawl a dysgedig. Efe a wnaeth drefn dda ar ŵyliau mabsant; sef nas caid amgen na gweddiaw Duw, a dangos daioni, a gwneuthur elusenau arnynt, a chynnal côf dyledus am Dduw a'i saint, a'u gweithredoedd molediw.'

Digitized by Google

Wedi hyn, y mae yr un cyfeiriad i'w weled yn yr hyn a ddywedir yn y croniclau am Sulien ddoeth o Dŷ Ddewi, 'gŵr duwiawl a golychwyd-awl;' a'i fab, Rhychmarch, yr hwn a fu farw yn y fl. 1098, 'heb iddaw nac ail nac eilydd, namyn ei dad, am ddysg, a doethineb, a dwyfoldeb. A gwedi Rhychmarch, darfu addysg y dysgyblion ym Mynyw.'—[*Myvyrian Archaiology*, Gee, td., 702; a *Brut y Tywysogion*, Gwenogfryn Evans, td. 273.] Yr oedd y Normaniaid wedi dyfod i Brydain, a 'William Fastardd' 'wedi cyrhaedd mor bell a Mynyw, yn 1081. O hyn daeth cyfnewidiad mawr i Gymru, a'i heglwys. Ond nis gellir yn yr erthygl hon wneyd rhagor, bellach, na gosod i lawr *ychydig o brif linellau* helynt crefydd Cymru, nes y gwelwn *pa fath oedd eglwys y canol-oesoedd*—yr eglwys yr oedd y Diwygiad Protestanaidd yn wrthryfel mawr yn ei herbyn. Byddwn o hyn allan yn edrych ar nodweddion ac egwyddorion; ac nid ar bersonau, a'u gweithrediadau.

Yn Nghymru, fel yn mhob man arall yn ngorllewinbarth Ewrop, yr oedd crefydd yn dyfod yn fwy-fwy tebyg yn ei chred a'i ffurf. Ond yr oedd gafael dynion ar athrawiaethau yn colli, a'u gogwydd cyffredinol at yr ymarferol. Nid oedd yr eglwys yn y canrifoedd hyny yn fan i arwain meddyliau dynion, trwy addysg a phregethu, at wirioneddau mawr; ond yn hytrach, i'w dysgyblu trwy arferion eglwysig i gydymffurfiad buchedd â'i rheolau hi. Fel ffrwyth o hyn, yn y dynion goreu ceid crefyddolder syml; ond mewn eraill, yn fynych, fe geid cydymffurfiad, heb odid ddim cyfnewidiad buchedd, mewn ystyr foesol. Ychydig wyddai neu a feddyliai neb am yr hen athrawiaethau a lanwent le mor fawr yn oesoedd boreu yr eglwys; megys, yr athrawiaethau am Dduw, am Berson Crist, ac am yr Ysbryd Glân. Yr oedd eu meddyliau, erbyn hyn, yn cael eu llenwi gan y syniad o ufudd-dod eglwysig, mewn cadw 'oriau' priodol yn y gweddïau cyhoeddus, mewn mynych gymmuno, a 'chanu' pader a chredo, a'r cyffelyb. Yn ngwedd oreu yr oesoedd hyny, amserau o dysgyblaeth oeddynt. Yr oedd a wnelai y mynachlogydd lawer â hyny, gan fod y clerigwyr, o'r esgobion i lawr, yn 'wŷr Duw,' fel y gelwid y mynachod. Ond aeth hen ffurf Gymreig y fynachlog ymaith yn llwyr; ac yn ei lle, teyrnasai agos yn mhob un ffurf fwy newydd Benedict—fel y gwelir yn hanes Mynachlog Enlli. Dyfnhaodd hyn y syniad o ufudd-dod eglwysig neu ganonaidd, gan beri nad oedd un pechod a ystyrid mor anfad ag oedd gŵyro yn y radd leiaf oddi wrth 'y ffydd Gatholig,' neu oddi wrth ufudd-dod canonaidd pawb i beriglor, a phob periglor drachefn i brelad. 'O fedydd i fedd,' yr oedd pob dyn o dan arweiniad yr eglwys. Tu allan iddi hi, nid oedd dim ond esgymundod, a'r holl drueni a'i dilynai!

Pan ddaeth y Normaniaid drosodd i feddiannu teyrngadair Lloegr, hawlient hefyd warogaeth gan dywysogion Cymru. Ond yn yr archesgobion a ddygwyd ganddynt o'r Cyfandir, dygwyd hefyd syniad cryfach nag a fuasai yma o'r blaen am drefn eglwysig, am oruwchreolaeth archesgobion ar esgobion, ac esgobion ar beriglorіaid. Nis gallai Lanfranc ac Anselm, gyda'u hamcan ëofn i lywodraethu yn gryf a manwl, adael eglwys y Cymry y tu allan i derfynau eu hawdurdod. Nis gallai y brenhinoedd chwaith oddef hyny; ac felly prysurid y gwaith o ddwyn i ben ddarostyngiad preladiaid Cymru i archesgob Caergaint. Bu yr ymrafael yn hir a chwerw; ond Caergaint, a gorsedd y Saeson, a orfu. Daeth i ben yr hyn yr oedd safle yr archesgob, yn ol canonau yr eglwys Rufeinig, yn ei hawlio. Dechreuwyd yn Llandaf a Bangor, trwy ddysgyblaeth ar ran archesgob Caergaint yn y naill, ac ordeiniad gŵr o'r Cyfandir i'r llall gan archesgob Caerefrog. Yr oedd hyn tua'r fl. 1092, a'r blynyddoedd dilynol. Ond cyn hir, daeth proffes o ufudd-dod i Gaergaint yn ammod gyffredin ar ordeiniad esgob yn Nghymru. Codai yn awr ac yn y man wrthwynebiad—weithiau, oddi wrth y bobl, weithiau oddi wrth eglwyswyr, ac weithiau oddi wrth dywysogion. Bu raid i'r gŵr a anfonwyd i Fangor, er ei fod yn gyfaill mawr i frenin Lloegr, adael y lle o herwydd gelyniaeth chwerw pobl y wlad i'r drefn. Yn 1140, yr ydym yn cael fod Owain Gwynedd a Chadwaladr, tywysogion Gwynedd, yn gwrthwynebu Meurig (*Mauricius*); yr hwn (meddent) y mynid ei ddwyn i mewn i Fangor—nid trwy y drws, ond megys lleidr, ffordd arall.' Yn hir ymdrechion Giraldus Cambrensis am orsedd Tŷ Ddewi, gwelir cais pybyr i wrthwynebu brenin Lloegr ac archesgob Caergaint, trwy appêl at y Pab, yn Rhufain. Ond ofer, yn y diwedd, fu ceisiadau o'r fath yn mhob man.

Cafodd dwylaw y brenin a'r archesgob eu cadarnhau trwy sefydliad mynachlogydd o Saeson neu Normaniaid yn Nghymru, a'i gororau. Yr oedd urdd newydd o fynachod Benedictaidd wedi codi yn Ffraingc, yn ffrwyth ymdrech gref at ddiwygiad crefyddol yn yr eglwys. Fel hyn yr oedd rhediad pob diwygiad y pryd hyny:—'crefyddwyr' y gelwid y mynachod. Gelwid hwynt oddi wrth Cistercium—enw y fan y cychwynasant yn 1098—yn CISTERTIAID. Bwriadwyd i'w rheolau sicrhau bywyd llawer mwy syml a manwl, o ran crefyddolder, na chynt; ac erbyn canol y ddeuddegfed ganrif, yr oedd pum cant o fynachlogydd yn perthyn i'r urdd hon, gan broffesu ufudd-dod i'r prif abad ar y Cyfandir. Pan y sefydlwyd y rhai hyn yn Nghymru, yr oedd pob un o honynt yn fagwrfa syniadau cryfion o ufudd-dod i uwchafion eglwysig. Yr oeddynt yn gaerau i sicrhau rheol a chred yr eglwys a'u dygodd hwynt yma. A hwy, yn fuan, oedd mynachlogydd pwysicaf y wlad; pryd yr oedd yr hen rai Brythonaidd a Chymreig wedi darfod o'r tir. Yn 1129, adeiladwyd un o'r fath yn Glyn Nedd, yn y Deheubarth; ac yn fuan (yn 1131) adeiladwyd un arall yn y Gogledd, a elwir hyd heddyw Basinwerk, neu Fynachlog y Maes Glâs, yn agos i Dreffynnon. Ond dechreuodd eu prif ddylanwad gyda mynachlog Alba Landa, neu Whitland, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd Tintern, yn Mynwy, wedi ei sefydlu yn flaenorol; ond yr oedd ei holl gyfathrach â Waverley yn mysg y Saeson. Daeth y Cistertiaid i Whitland o Clairvaux, yn Ffraingc, yn y fl. 1140; ac oddi yno yr aeth rhan i'r Cwm Hir, yn Maesyfed. Dewisent leoedd anial o'r fath; o blegid, yn ol eu rheolau, nid oeddynt i ymsefydlu mewn trefydd, na chaerau; ond 'mewn manau pell oddi wrth gyrchfa dynion.' Cododd Ystrad Fflur a Llanclere (llieindy), yn Ngheredigion; Ystrad Marchell, yn Nhrefaldwyn; a Margam, yn Morganwg. O'r Cwm Hir, daeth rhan i'r Cymmer, yn nghymmydogaeth Dolgelley; ac i Abatty Glyn-y-groes (Valle Crucis), ger Llangollen, o Ystrad Marchell. Sefydlwyd tŷ pwysig Aberconwy, a elwid Maenan wedi hyny, o

Digitized by Google

Ystrad Fflur, yn ol Dugdale, yn y flwyddyn 1186. Nid ydym wedi enwi yr oll o'r manau a berthynent i'r symmudiad mawr hwn, gan y dengys yr hyn a ddywedwyd fod y gwŷr hyn, gyda'u breintiau pwysig, ac yn nechreuad eu nerth, wedi gwasgaru dros y wlad, oddi gerth Môn. Nid oedd ganddynt un sefydliad yno. Y mae lle i feddwl, er fod y manau hyn â'u tarddiad o Ffraingc, eu bod wedi dyfod mewn amser yn sefydliadau lle y meithrinid teimladau gwladgarol Cymreig. Fel un esampl, cyfeiriwn at ymddygiad y Cistertiaid yn y fl. 1274. Yn y cweryl a'r anghydwelediad oedd yn bodoli rhwng Llewelyn ab Gruffydd ac Anian, esgob Llanelwy, pleidleisiodd Abadiaid Whitland, Ystrad Fflur, Cwm Hir, Ystrad Marchell, Aber Conwy, Cymmer, ac Abatty Glyn-y-groes, gyda Thywysog y Cymry. Mewn llythyr a ysgrifenwyd at y Pab y flwyddyn hono, tystiasant fod Llewelyn yn gyfaill a noddwr i'w hurdd hwy, a bod yr esgob yn dyweyd anwiredd amlwg; a deisyfasant o herwydd hyny i'r Pab beidio credu yr esgob.

Grymuswyd y gogwyddiad at gydymffurfiad âg Eglwys Loegr gan ddyfodiad dwy urdd newydd i Gymru. Dwy yn arbenig y cyfeirir atynt yn awr; gan y gwasanaetha yr hyn a ddywedir am amcan a hanes cyfodiad y ddwy hyn i daenu goleuni ar lwybr dwy arall y gellid eu crybwyll. Gelwid y Cistertiaid, yr ydym wedi sôn am danynt yn Glyn Nedd, a Maenan, a Glyn-y-groes, a'r lleoedd eraill, 'Y Gwŷr,' neu, 'Y Brodyr Gwynion,' o herwydd eu gwisg.

Yn awr, yr ydym yn dyfod at y 'Brawd Llwyd,' a'r 'Mynach Du.' Sylfaenydd urdd y Mynachod Duon ydoedd Dominic; ac adeg ei chorphoriaid ffurfiol oedd y fl. 1216. Amcan sylfaenol y gŵr hwn oedd, i'w frodyr fod yn wŷr o dlodi hollol—heb feddiant o gwbl, ond a gaent o elusenau y ffyddloniaid; fel y byddai iddynt fod yn berffaith rydd i bregethu y ffydd yn mhob man. Pregethu oedd eu prif waith; ac felly, yr oeddynt yn rhydd i grwydro y gwledydd, i ba le bynag yr oedd naill ai 'heresi' neu esgeulusdra yn peri fod angen am bregethwyr. Ennillodd eu hunan-ymwadiad syml iddynt, cyn hir, radd fawr o boblogrwydd a dylanwad. Gwahaniaethent oddi wrth fynachod eraill yn hyn; sef, eu bod yn ddarostyngedig, o ran rheolaeth derfynol, i awdurdod y Pab yn unig. Yr oeddynt felly yn annibynol ar yr holl wŷr eglwysig—y periglorïaid, a'r esgobion, yn mhob man. Estynwyd iddynt ragorfreintiau arbenig o bryd i bryd, nes peri eu bod yn y gwahanol wledydd yn brif attegwyr uwchafiaeth y Pab; tra yr oeddynt, ar yr un pryd, yn cynnyddu mewn rhif, a dysgeidiaeth, a gallu. Cawsant, yn fuan, y lleoedd uchaf yn y prifysgolion oedd yn dechreu codi ar y pryd ar hyd a lled Ewrop; ac iddynt hwy y perthynai amryw o'r ysgolheigion mwyaf eu bri a'u dylanwad. O herwydd hyn, trwy 'frodyr' o'r urdd hon y tyfodd athrawiaeth ac arfer eglwys y canol-oesoedd i'r ffurf oedd yn bod yn gyffredinol cyn y Diwygiad Protestanaidd. Daeth y Brodyr Bregethwyr (*Fratres Predicatores*), fel y gelwid hwynt, i Gymru rai blynyddoedd cyn canol y drydedd ganrif ar ddeg (1250); ac yr oedd ganddynt chwech, o leiaf, o fynachlogydd; sef, Bangor (Arfon), Brycheiniog, Caerdydd, Hwlffordd, Casnewydd (Mynwy), a Rhuddlan.

Tua'r un amser a'r Brodyr Duon, fe gododd urdd arall yn dilyn Francis o Assissi. Amcan mawr y gŵr hwn oedd sylweddoli, yn nghanol y byd, fywyd syml yr Arglwydd Iesu a'i apostolion, o ran bod 'heb gôd nac ysgrepan,' mewn ymroddiad i weithredoedd o drugaredd. Wedi eu rhwymo â'r tri llŵ, o dlodi, diweirdeb, ac ufudd-dod, yr oedd canlynwyr Francis, yn eu gwisg lwyd arw, 'i orchfygu y byd, yn hytrach na'i osgoi.' Yr oeddynt i oddef pob caledi, nid yn unig yn ddirwgnach, ond yn llawen, gan bregethu a gweini ar dlodion a chleifion yn mhob man. Daeth yr urdd hon—y Brodyr Llwydion—i fod yn lliosog ac yn ddysgedig; a chwith yw y chwedl, yn gyfoethog, fel y Brodyr Duon. Yr oeddynt yn Rhydychain yn 1225, ac yn Môn ('Y Friars,' Llanfaes), erbyn 1237. Sefydlasant hefyd yn Nghaerdydd ac yn Caerfyrddin.

Y mae dylanwad y ddwy urdd hyn wedi bod yn ddiderfyn yn mron. Gadawsant argraph ddofn o grefyddolder yn eu blynyddoedd goreu am tua chant a hanner o flynyddoedd, gan ddyfnhau yn neillduol y syniad o ostyngeiddrwydd ac ufudd-dod. Ynglŷn â'u dirnadaeth o ufudd-dod, cynnyddodd, drwyddynt hwy, awdurdod y Pab i'r fath raddau ag sydd i ni bron yn anhawdd ei amgyffred. Felly, yr oedd Cymru yn hollol wrth draed esgob Rhufain; ac nid Cymru yn unig, ond holl Ewrop hefyd. Etto, daeth gyda'r gwŷr hyn i Gymru, fel i fanau eraill, gyfoethogiad a lledaeniad rhyfedd ar wybodaeth; yr hyn y gwelir ei effeithiau mor fynych yn amryw o'r beirdd Cymreig, ar ol dechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg. Dïau fod aml un wedi ei daraw wrth ganfod cydnabyddiaeth ryfedd â meddyliau y byd, mewn aml linell o waith yr hen feirdd; wedi rhyfeddu hefyd at ddyfnder cyrhaeddgar llinellau eraill, a mîn meddyliau y Trioedd. Ond, cofied y cyfryw mai cyfarfod y maent felly âg ôl dylanwad y gwŷr hyn ar feddwl y Cymry. Gellir canfod yr un peth mewn gwedd arall. Cyfarfyddir mewn amryw o'r beirdd, nad oeddynt eu hunain yn 'grefyddwyr,' nac yn 'offeiriaid byd,' â syniadau dyrchafedig iawn am bethau dwyfol. Dyma ôl yr un gwŷr yn dechreu cyfnod o wasgaru dylanwadau crefyddol yn mysg y werin. Gwnaed gwerin gwlad yn grefyddol trwy eu hofferynoliaeth hwy, i raddau pell. Un ffydd oedd yn mhob man—am Dduw, am Grist, a'r Ysbryd Glân; ond yn benaf, am yr eglwys a'r sacramentau; am y 'rhinweddau theolygawl' (ffydd, gobaith, cariad), a'r 'rhinweddau naturiol;' am haeddiant o wahanol fathau; am burdan, am Mair a'r saint, ac hefyd am awdurdod ac anffaeledigrwydd y Pab. Rhoddwn yma ddyfyniad o'r llyfr *Elucidarium*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, dan olygiad y Proff. John Morris Jones, td. 145; 'Py delw y dyly dyn credu y Duw.' 'Yr meddyginiaethu enaid dyn o'r saith pechawd marwawl, y rhoddes Duw saith rinwedd yn yr eglwys; nit amgen ynt—Bedydd escob a Bedydd offeirat yn gyntaf oll o honunt a Segyrffyc, Penyt, Anghen, Urddeu kyssegredic a Phriodas; sef yw rinwedd y Bedydd bod yn vaddeuedic i ddyn y holl bechodeu gwedy bedydd, a heb fedydd nyt oes ffordd na gobeith i ddyn caffel gwaret na nef. Eil rinwedd yw Bedydd escob . . . Trydydd rinwedd yw Segyrffyc (*sacrificium*); sef yw hyny, corph Crist, yn hollawl o enaid a chorph a dwyvolaeth, megys y mae yn y nef, a hyny oll dan liw y bara a'r gwin.' Yr ydym wedi newid ychydig ar y geiriau i ffurf fwy diweddar.

Digitized by Google

Fel hyn, yn mhrif linellau athrawiaeth ac arferion o wasanaeth a llywodraeth, tebyg yw yr holl eglwys yn mhob man, er ei bod yn mhell o fod yn unffurf. Ond daeth llygredigaeth mawr dros offeiriaid a mynachod o wahanol urddau, er y rhinweddau fu ynddynt am dymmhor. Gan nad oedd na mynachaeth nac offeiriadaeth yn unol âg egwyddorion y Testament Newydd, ni allesid disgwyl ond hyn oddi wrthynt wedi i'r ddwy gyfundrefn gael amser i ymddadblygu. Erbyn diwedd y bymthegfed ganrif, a dechreu yr unfed-ar-bymtheg, un llais a glywid o bob man. Er fod pawb o un gred —gwŷr llen, a gwŷr llëyg—cyhuddid yr offeiriaid o anwybodaeth dwfn, ac anfoesoldeb oedd yn pellhau dynion oddi wrth yr eglwys. Cyhuddid y mynachod yn mron o bob drwg; a'r esgobion o esgeulusdra, bydolrwydd, a thrais. Trymaf oll yw y cyhuddiad yn erbyn llys Rhufain am ormes, trahâ, a llygredigaeth. Dywed Dafydd ab Gwilym, er y gallai ar brydiau lefaru yn wahanol, am 'un o'r Brodyr Llwydion'—

'Cosbwr y marwawl bechawd,
Casbeth genyf bregeth brawd.'

'Tri pheth ni waeth pa leiaf y clywir o honynt:—cân hwch ar wynt, cnec hen wrach, a phregeth Brawd Llwyd.' Fel yna y dywed un o'r Trioedd; ac y mae amryw â'u rhediad yn gyffelyb. Darllenwn lawer am ddylanwad y clerigwyr ar deuluoedd, ar hyd a lled Ewrop; a dyma yr un llais yn Nghymru.

'Tri annedwyddwch teulu:—cadw mursen, drygwas diog, a llettya offeiriad.'

'Tri rhyw o ddynion nid rhaid ond myned i uffern i gael a fyner o honynt:—mawrion pen tomen, penaethiaid trawsion, ac offeiriaid meddwon.'

'Tri anhebgor uffern: rhingyll, Brawd Llwyd, a Sais.'

Ond daeth tro mawr ar fyd. Dechreuodd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, fywyd yr eglwys ddiweddar, mewn cais i sylweddoli eglwys y Testament Newydd. Torwyd cadwen awdurdod a thraddodiad yn ei man cryfaf gan Martin Luther a'i gyd-ddiwygwyr; ac o hyny hyd yn awr y mae egwyddorion newydd, y rhai nad oeddynt yn bodoli o'r blaen, yn llywodraethu bywyd yr eglwys.

Dyma waith mawr y Diwygiad Protestanaidd!

YNYR GWENT. Tywysog yn y Deheubarth oedd efe, a flodeuodd yn y bummed ganrif. Safai ei diriogaethau mewn rhan o'r tir sydd yn ffurfio y sir Fynwy bresennol. Meibion iddo ef oedd Ceido, ac Iddon, o Fadryn, ferch Gwrthefyr. Sefydlodd goleg neu fynachlog yn Nghaerwent, a dywedir mai efe a adeiladodd eglwys y Fenni.

YONG, THOMAS, D.C.L. Prelad dysgedig oedd efe:—mab i John Yong, o sir Benfro. Ganwyd ef yn y fl. 1507. Derbyniwyd ef i neuadd Broadgate—yn awr Coleg Penfro, Rhydychain—yn 1528; a chan iddo ymroddi i efrydu y gyfraith wladol, cymmerodd ei raddau ynddi yn 1537. Yr oedd efe ar y pryd yn meddu urddau yn yr eglwys. Yn 1542, gwnaed ef yn benaeth ei goleg; ac yn 1547, gwnaed ef yn brif gantor Mynyw, neu Dŷ Ddewi. Cymmerodd ran mewn dwyn cyhuddiadau yn erbyn yr Esgob Farrar, o'r lle hwnw—mewn canlyniad i'r hyn y cafodd yr esgob ei garcharu. Digwyddodd hyn o dan deyrnasiad Iorwerth VI. Pan esgynodd Mari i'r orsedd, gorfu arno ffoi o'r deyrnas, o blegid ei grefydd; a threuliodd gyfnod ei theyrnasiad hi yn yr Almaen. Dychwelodd i Loegr ar esgyniad Elizabeth; ac ar fwriad allan yr esgob Henry Morgan, o Dŷ Ddewi, cafodd ei le; a chyssegrwyd ef i'r swydd Ionawr 21ain, 1559. Yn Chwefror, y flwyddyn ddilynol, dyrchafwyd ef i Archesgobaeth Caerefrog; a thua yr un amser, cafodd ei bennodi yn Llywydd Cynghor y Frenhines, yn y rhan ogleddol o Loegr. Yn 1564, graddiwyd ef yn ddoethawr yn y gyfraith wladol (D.C.L.). Bu farw Mehefin 26ain, 1568, a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Caerefrog.

YORKE, PHILIP. Ganwyd ef yn Erddig, ger Gwrecsam, yn sir Ddinbych, yn y fl. 1743. Graddiodd yn feistr y celfyddydau yn Nghaergrawnt; ac yn fuan wedi hyny, daeth i sylw fel llenor. Ei waith cyntaf ydoedd *Tracts of Powys*, yr hwn a argraphwyd yn Ngwrecsam yn 1795; a daeth allan argraphiad helaethach o hono yn 1799, gyda'r teitl *The Royal Tribes of Wales*. Cynnwysa lawer o ffeithiau dyddorol a gwerthfawr am Bum Llwyth Brenhinol Cymru, a'u gwehelyth. Bwriadai yr awdwr fyned yn mlaen i ysgrifenu hanes Pymtheg Llwyth Gwynedd; ond ni chyflawnodd y bwriad hwn. Bu Mr. Yorke yn cynnrychioli bwrdeisdrefi Halston a Grantham yn olynol yn y senedd. Bu farw yn 1804, yn 61ain ml. oed.

YSTRAWEL. Merch Cadwallawn ab Cynan ab Eudaf ab Caradawg oedd hi; a gwraig Coel Godebog. Trwyddi hi y daeth teyrniaeth Prydain i deulu Coel. Gelwir hi Ystradwael, Ystradwen, ac Ystrawen mewn rhai llawysgrifau; a dywedir mai merch ydoedd i Gaufan ab Cynan ab Eudaf ab Caradawg.

YSTUDFACH. Bardd yn byw yn y bummed ganrif ydoedd; ac efe oedd bardd Cystenyn ab Cynfor, brenin Prydain. Dywedir mai efe oedd awdwr y dywediad hwnw a gofnodir yn Chwedlau y Doethion 'Gwyneb llawen, calon iach.'

YOUNG, BRIGHAM. Prophwyd, arweinydd, a llywodraethwr y Mormoniaid oedd efe; neu fel yr adnabyddir hwynt yn fynych 'Saint y Dyddiau Diweddaf.' Ganwyd ef yn Whittingham, talaeth Vermont, yn mis Mehefin 1801. Dechreuodd bregethu gyda'r Bedyddwyr; ond tua 1830, neu 1831, ymunodd â'r Mormoniaid; ac yn fuan, daeth i feddu dylanwad mawr ar y rhai mwyaf anwybodus o honynt. Pan lofruddiwyd Joseph Smith, dewiswyd ef yn ben arweinydd y sect. Perswadiodd ei ddilynwyr mai Dyffryn Llyn yr Halen oedd Gwlad yr Addewid;' ac yn 1847, ymsefydlasant yno. Daeth B. Young i fod yn benadur unbenaethol hollol yno; ac ni feiddiai neb ammheu na gwrthryfela yn erbyn ei awdurdod. Cyhoeddwyd cyfreithlondeb amlwreiciaeth yn hyf ac agored yn y sefydliad, a meddai B. Young liaws o wragedd ei hun. Bu farw Awst 29ain, 1877, yn 76ain oed.

YR EISTEDDFOD. Y mae ysgrifeniadau diweddar, mewn cymmhariaeth—megys, 'Brut G. ap Arthur,' yn y ddeuddegfed ganrif; y 'Trioedd,' yn y bedwaredd ganrif ar ddeg; a Brutiau,

Digitized by Google

"Rym gelwir yn ffyrf yn ffysg—arab hwyl
Yn arabhawl derfysg,[1]
Yn ffyrdd cyrdd cerdd dafawdlysg
Yn brydydd, yn brifardd dysg."

Ceir awgrymiadau mynych yn ngwaith y Beirdd yr arferai y tywysogion gynnal "gwleddoedd" aml yn y cyfnod dan sylw; a dengys Cyfreithiau Howel Dda, y rhai a nodant le y pencerdd a'r bardd teulu wrth y bwrdd, yr ystyrid hwy yn mysg y rhai penaf yn y llys. Eisteddai y blaenaf "ar y naill law i'r ynad llys;" a'r olaf "a ddyly eistedd yn nesaf i'r penteulu." Er hyny, nid oes genym ddim prawf boddhaol i unrhyw "wledd" nac "eisteddfod" gael ei chynnal i osod deddf neu ystatyd perthynol i "wŷr wrth gerdd dafod a cherdd dant," ar wahân i Gyfreithiau Howel, hyd amser Harri VI.

Nid yw hyd yn oed y chwedlau yn crybwyll dim am na chadair, na gorsedd, nac eisteddfod, o amser Morgan Hen hyd oes Bleddyn ap Cynfyn a Gruffydd ap Cynan. Ioan Dafydd Rhys sydd yn traethu helaethaf, o neb a welsom ni, ar ymdrafodaeth eisteddfodol y gwŷr hyn, am y rhai y dywed efe fel y canlyn:—

"Gruffydd ap Cynan, Tywyssawg Aberffraw, a Bleddyn ap Cynfyn, Tywyssawg Mathrafael, a wnaethont fraint a threfn arr Wyr wrth Gerdd: nyd amgen, rhag myned nêb yn Wyr wrth Gerdd, namyn y rhai a ddylyei fyned drwy eisteddfod, a honno unweith bob tair blynedd, y ngoruchel-llys y Tywyssawg ynn Aberffraw ym Môn; ac ym Mathrafael ym Mhowys. A nawdd a gorchymyn, hyd nad elei nêb yn Wyr wrth Gerdd o'r dydd hwnw allan; onyd a elei drwy gennad yr Arglwydd, a thrwy rôdd cenedlad yr Athraw: ag i'r Athraw hwnnw atteb o hono yn Wr wrth Gerdd abl, erbyn dydd cyfreithiawl gossodedic......Ac yn ôl Gruffydd ap Cynan, Tywyssawg Gwynedd, Bleddyn ap Cynfyn Tywyssawg Powys, a gadarnhâawdd Breinieu a Statûteu Gwyr wrth Gerdd, ag a wnaeth rai ereill o newydd."

Y mae Lewis Morris yn ail adrodd sylwedd y chwedl uchod megys gwir hanes, mewn nodiad yn Yorke's "*Royal Tribes of Wales*," td. 5, nod. *h*. Heb law nas canfyddwn ni ddim sail i'r chwedl hon, y mae hefyd yn cynnwys camamseriad amlwg; canys yn yr adran gyntaf o honi, awgrymir fod Gruffydd ap Cynan yn cyd-deyrnasu â Bleddyn ap Cynfyn—y blaenaf yn Aberffraw yn Môn, a'r llall yn Mhowys; ac yn yr ail adran, dywedir yn bendant mai "tywysog Powys" oedd Bleddyn ap Cynfyn; ac mai "*yn ol* [ar ol] Gruffydd ap Cynan y cadarnhaodd Bleddyn ap Cynfan freintiau a statutau gwŷr wrth gerdd." Y gwir yw mai tywysog Gwynedd oedd Bleddyn ap Cynfan hyd laddiad ei frawd Rhiwallon yn 1068 neu 1069, pan y cafodd Bowys hefyd, ac y teyrnasodd yn y ddwy dalaeth hyd oni lofruddiwyd ef o gylch 1073. Ond ni ddechreuodd Gruffydd ap Cynan lywodraethu Gwynedd hyd y fl. B. A. 1080. Gyda golwg ar Bleddyn ap Cynfyn, rhaid i ni ddadgan, nid yn unig fel Carnhuanawc, y "dywedir iddo adgyweirio y defodau perthynol i'r beirdd, eithr na chawsom allan ansawdd ei ddiwygiadau;" ond yn mhellach, nas gallwn ni ganfod iddo wneuthur dim daioni arall; eithr gwnaeth y mawr ddrwg—yn enwedig bod yn gyfranog yn llofruddiad ei enwog hanner brawd, Gruffydd ap Llewelyn.

Am Gruffydd ap Cynan, dywedir iddo gynnal eisteddfod o gylch B. A. 1100—yn benaf, meddai T. Stephens, er mwyn diwygio cerddoriaeth Gymreig. Seilir y dybiaeth yma ar nodiad a ysgrifenwyd, fel yr arwydda y llafarwedd a'r orgraph yn amlwg, gan un o olygwyr y "*Myvyrian Archaiology*," Iolo Morganwg, neu y Dr. Pughe, ac a ddodwyd ar ol "Buchedd Gruffydd ab Cynan," sydd yn y llyfr hwnw, td. 734. Dodwn y nodyn ger bron yn ddinewidiad:—

"Gellir chwanegu at weithredoedd Grufydd ap Cynan, iddo ddiwygio breiniau a devodau prydyddion a cherddorion; ac yn ol y drevyn a lunies ev drwy gyvraith y cynnalied eisteddvodau yn Ngwynedd hyd yr oesoedd diweddar. Yn ei amser ev hevyd y bu orsedd ardderchawg yn Nghaerwys; am ba un y mae Robert Grufudd yn crybwyll, gan wrthatteb amryw byngciau yn Nhraethawd G. Owain o blaid vod Cadell yn hynav o veibion Howel Dda. Yn yr ystyr yma y mae ei eiriau := Dywedwch vod tywysawg Deheubarth yn cynnal gorseddau, mal yr ydych yn eu camenwi, er braint i gerddorion Cymru. Evelly Grufudd ab Cynan, brenhin Gwynedd, a gynnaliodd eisteddvod at y cyvryw amcan yn Nghaerwys, i ba le y cyrchodd holl gerddorion Cymru; a rhai hefyd o Loegr, ac o yr Alban, pan y dirmygai y Cymry ymarver â phibau, ac mewn rhan a waharddid gantynt; pan yw Ysgodawg oedd yn rhagori ar bawb yn y cyvarvod hwnw o ganu pib; ac i ba un y rhoddes Grufudd ab Cynan y *Bib Aur*, yn arwydd o ei orchest yn pibianu. Y cyvreithiau a sevydled yno sydd etto yn parhau, ac y maent y dydd hwn yn gyvarwyddyd i gerddorion holl Gymru. Ni cheisiodd Grufudd ymyru am vraint ar y Deheubarth, gan vod estronion wedi cael goresgyndawd yno yn ei amser ev; ac nis gall chwaith tywysogion Deheubarth, drwy gynnal y vath orseddau a chyvarvodau, holi braint yn Ngwynedd, mwy nog yr holes Grufudd yn y Deheubarth, yn Lloegyr, neu yn yr Alban, o ba wledydd cyrchasei amryveilion gerddorion i yr eisteddfod hono."

Nid oes yn "Muchedd Gruffudd ap Cynan" rith o sail i'r haeriadau a wneir yn y dyfyniad yna, nac yn ei farwnad gan Meilyr Brydydd, nac yn yr un o'r hen ganiadau a wnaed iddo, na chwaith yn yr un o'r Brutiau. Nis gallwn ganfod dim mwy o awdurdod chwaith yn y nodiadau a gyhoeddwyd yn y "*Cambrian Register*," y dywedir eu cymmeryd o waith William Penllyn, bardd o'r unfed ganrif ar bymtheg, gan Robert ap Huw, o Fodwigan, yn Môn, yn yr eilfed ganrif ar bymtheg; a chan Lewis Morris, o ysgriflyfr yn meddiant Syr W. W. Wynn. Dywed y Dr. Powel, yn ei "*Historie of Cambria*," bod Gruffydd ap Cynan "wedi diwygio ymddygiad didrefn clerwyr Cymreig, trwy ystadyd ddaionus sydd ar gael hyd y dydd hwn" 1584), o'r hon y dododd efe gyfieithiad. Y mae tair o ystatydau ereill ar gael a briodolir i Gruffudd ap Cynan: un gan I. D. Rhys; un arall a dynodd Iolo Morganwg "o Lyfr Harri Siôn o Bont-y-pwl:" ac un arall "o Lyfyr W. Williams o Landegai," y rhai a gyhoeddwyd yn "*Y Greal*," yn 1805. Ymddengys i ni yn amlwg fod yr holl ystatydau hyn wedi eu tynu o "ystatyd gwŷr wrth gerdd dafod a cherdd dant" Eisteddfod Caerfyrddin, yn 1451; ac o hanes urddau Eisteddfodau Caerwys, yn 1523 ac 1567, y rhai a gyhoeddwyd yn "*Nghyfrinach y Beirdd*," "*Y Greal*," Pennant's "*Tours in North Wales*," ac a briodolwyd i Gruffydd ap Cynan; a hyny, ond odid, er mwyn rhoddi iddynt awdurdod hynafiaeth.

Y nesaf y dywed yr ysgrifenwyr diweddar iddo gynnal eisteddfod, neu ryw sefydliad cyffelyb iddi, oedd Rhys ap Tewdwr Mawr; yr hwn

[1] Ymryson.

a ddechreuodd lywodraethu yn y Deheubarth yn y fl. B.A. 1077, yn nghanol rhyfeloedd blinion; ac a laddwyd mewn brwydr gan Iestyn ab Gwrgant, a'i gynnorthwywyr Saesnig, yn y fl. 1089; ond nid yw ei gydoeswr, Caradog o Lancarfan, na neb o'r beirdd cydoesol, yn sôn dim am y fath eisteddfod.

Yn y flwyddyn 1135, ennillodd Gruffydd ap Rhys ap Tewdwr frwydr fawr ar ei elynion Saesnig; ac fel cydnabyddiaeth i'w gynnorthwywyr a'i ewyllyswyr da, efe a wnaeth wledd fawr yn ei lys, am yr hon y dywed Caradog o Lancarfan fel y canlyn:—

"Gwedi adynnill ei diroedd fe wnaeth Gruffydd ap Rhys Wledd anrhydeddus yn Ystrad Tywi; lle y gwahoddes efe attaw bawb a ddeuent yn heddwch o Wynedd, a Phowys, a Deheubarth, a Morganwg, a'r Mers, a pharottoi pob moethus o fwydydd a diodydd, a phob ymryson doethineb, a phob diddanwch Cerdd arwest a cherdd dannau, a chroesawi prydyddion a cherddorion, a chynnal pob math o chwareuon hud a lledrith, a phob arddangos,[1] a phob campau gwrolion; ac i'r wledd hono y daeth Gruffydd ap Cynan a'i feibion, a llawer o'r Pendefigion ym mhob ardal yng Nghymru, a chynnal y Wledd dros ddeugain niwarnawd; ac yna gollwng pawb tua'u cartrefi, a dodi rhoddion anrhydeddus i a'u dirperynt o Feirdd, a Cherddorion, a Doethion, a Champusion o bob rhyw."

Y mae yn amlwg mai cynnull beirdd a cherddorion i'r "wledd" odidog hono a wnaeth Gruffydd ap Rhys, i ddifyru y cymdeithion a wahoddasai efe yno, y rhai a roddasent gymmhorth iddo i ennill y frwydr boeth a ymladdasai efe yn ddiweddar; ac nis gwelwn ni ddim byd tebyg ynddi i eisteddfod, oddi eithr y "rhoddion anrhydeddus" a gyfranodd efe i'r rhai "a'u dirperynt o Feirdd, a Cherddorion, a Doethion, a Champusion o bob rhyw." Yr unig feirdd y mae eu henwau wedi ein cyrhaedd ni a allasent fod yn y "wledd" hono, oedd Meilyr Brydydd a Bleddyn Ddu; ond nid oes genym ddim sicrwydd i'r naill na'r llall fod yno. Y mae yn debyg mai rhai wedi gwneyd gwrhydri yn y frwydr a ennillasid oedd y "campusion" y cyfeirir atynt.

Os gwir y mynegiad yn "Mrut y Tywysogion" ["*Myvyr. Arch.*," td. 632], Rhys ap Gruffydd, a elwid yr Arglwydd Rhys, a gynnaliodd gyfarfod tua diwedd 1177, neu ddechreu 1178, tebycaf i eisteddfod o ddim a welsom ni hyd yn hyn. Dyma[2] fel y dywedir yn y "Brut:"—

"Ac yna y cynhaliawdd yr Arglwydd Rys wledd arbennic[1] yn castell Aber Teifi, ac y gyssodes ddeu ryw amrysson, un rhwng y beirdd a'r prydyddion, a'r llall rhwng telynorion a phibyddion ac amrafaelon gerdd arwest, a dwy gadeir a ossodes i fuddugolion yr amryssoneu. A'r rhai hyny a gyfoethoges ef o ddirfawrion roddion. Ac yna y cafas gwas ieuanc o'i lys e hunan y fuddugoliaeth o gerdd arwest, a gwŷr Gwynedd a gafas y fuddugoliaeth o gerdd dafawt. A phawb o'r cerddorion ereill er gawssant y gan yr Arglwydd Rys gymeint ac a archassant hyd na wrthladdwyd neb. A'r wledd honno a gyhoedded flwyddyn cyn ei gwneuthur ar hyd Cymru a Lloegyr a Phrydein[1] ac Iwerddon a llawer o wladoedd ereill.".

Dyna y cwbl a ddywed yr hen "Frut" ra "wledd" Rhys ab Gruffydd; a gwelir ei bod yn cynnwys rhai pethau pur debyg i'r eisteddfodau presennol. Cyhoeddwyd hi "flwyddyn cyn ei gwneuthur," megys y cyhoeddir y rhan fwyaf o eisteddfodau yr oes hon. Yr oedd ynddi "ddirfawrion roddion" i'r buddugwyr; a rhoddir rhoddion lled fawrion i rai o fuddugwyr yn ein heisteddfodau ninnau. Hefyd, yr oedd gan Rhys ddwy gadair, un i'r buddugwr mewn "cerdd arwest," a'r llall i'r buddugwr mewn "cerdd dafawt;" tra nad oes yn ein heisteddfodau ni ond cadair i'r olaf yn unig.

Yr oedd llu o feirdd yn bucheddu yn yr amser a ddyry y "Brut" i "wledd" yr Arglwydd Rys, y rhai a allasent, o ran amser, fod yn bresennol. Daeth enwau y rhai canlynol i lawr hyd atom ni; sef, Gwalchmai, Cynddelw, Owain Cyfeiliog, Daniel ap y Llosgwrn Mew, Gwrgant ap Rhys, Madog ap Iddon, Gwynfardd Brycheiniog, Gwilym Ryfel, Howel ap Owain Gwynedd, Llywarch ap Llewelyn (*Prydydd y Moch*), Dafydd Benfras, Meilyr ab Gwalchmai, Einiawn ab Gwalchmai, Peryf ap Cadifor, Gwgawn, Llywarch Llew Cad, Seisyll Bryffwrch, Elidyr Sais, a Dewi Mynyw. Ond nid oes genym sicrwydd fod yr un o honynt yn y "wledd;" ac ni wyddys a ganodd mwy na thri o honynt i Rys o gwbl; sef, Cynddelw, tair cân; Gwynfardd Brycheiniog, un; a Seisyll un. Y mae Cynddelw a Gwynfardd yn ei fawr ganmawl fel noddwr haelionus beirdd, cystal a rhyfelwr; ond fel rhyfelwr yn unig y moliennir ef gan Seisyll. Y mae Gwynfardd yn crybwyll am *gadair* (farddol?); ond y mae y canu mor dywyll, fel y mae yn anhawdd gwybod a ydyw yn awgrymu iddo gael cadair gan Rhys, ai peidio. Dyma fel y dywed:—

"Vyn duw vyn neirthyad vad rad rannu
Vyn nerth am cannherth ym Kynytu
Kynneir om cadeir cadarn ganu rys
Kymry wrys ysbys ysbyd wetu."

Hyny yw:—

Fy Nuw, fy neirthiad[2] mad, rad ranu,
Fy nerth a'm cannerth[3] i'm cynnyddu:
Cynnar o'm cadair cadarn ganu—Rys,
Cymry wrys,[4] hysbys ysbyd[5] weddu.

Cyhoeddwyd ystatyd yn "*Y Greal*" [td. 331], yr hon a elwir "Eisteddvod wrth gerdd yr Arglwydd Rhys," a gafwyd "o lyvyr W. Williams, o Landegai, yn Arvon." Bucheddai Williams o B.A. 1738 hyd 1817. Y mae y rhan gyntaf o'r ysgrif wedi ei seilio ar y dyfyniad a roddwyd uchod o'r "Brut; a'r ail ran ar ystatydau Caerfyrddin a Chaerwys, y rhai a ddeuant dan sylw rhag llaw; ac nid yw orgraph Williams nemawr, os dim, hynach nag ef ei hun. Ymddengys mai trwy "raith gwlad" a roddid yn "llysoedd yr Arglwyddi," ac nid mewn eisteddfod, yr awdurdodid llenyddiaeth yn yr amseroedd gynt. Dywedir i Edeyrn Dafod Aur ysgrifenu dosbarth ar rammadeg a rheolau barddoniaeth o gylch 1270; ac yn yr arweiniad i'r gwaith, dywedir fel hyn:—

"Tynnwys Edeyrn yr hon Ddosparth o'r cadw a

[1] T. Stephens a gyfleitha yr ymadrodd yna fel hyn:—"And there were performed all sorts of plays of illusion and phantasm, and every other kind of exhibition." Ymddengys mai math ar interliwdiau oedd yr "hud a lledrith, a phop arddangos" yma. Rhyw bethau tebyg i chwareuon (*plays*) Shakspeare.

[2] Y mae llythyreniad y "Brut" yn bur anhawdd i ddarllenydd cyffredin ei ddeall; am hyny dodwn y dyfyniad mewn llythyreniad hysbys, heb newid dim ond yr hyn sydd anarferedig.

[1] Ysgotland, yr hon a elwir fynychaf yn yr hen ysgrifau, *Prydyn*, ond weithiau *Prydein*, megys yn y dyfyniad uchod.

[2] Nerthwr. [3] Cymmhorth.

[4] Gwrys, gwresog, tanbaid. [5] Lletygarwch, arfoll.

Digitized by Google

wnaeth Einiawn Offeiriad; yr hwnn a gafwyd arno Farn, ac awdurdawd Llys Arglwydd a Rhaith Gwlad. Ac ar y rhoddes Edeyrn at honno, y cafas yntef yr un modd Farn Llysoedd ei Arglwyddi, a Rhaith Gwlad. Ac fal y mae ymma, y rhoddes ef ei gadw yn gadwedig, ac yn gadwedigaeth, rhag colli dosparth ar y Llythyrennau, a'r Ymadroddion, a'r Mesurau Cerdd Dafawd, a chelfyddyd bardd, a barddoniaeth."

Dywedir yn yr "*Iolo MSS.*" [td. 88] y cynnaliwyd "cadair wrth gerdd dafod," gan feirdd Tir Iarll, rywbryd yn ystod y deuddegfed ganrif, ar Dwmpath Diwlith, ar fynydd Margam; ond ni ddywedir pa beth a ddigwyddodd yno, heb law iddynt gael "baban newydd geni yn fad-fyw ar y twmpath," yr hwn a ddygwyd i fyny gan Rhys ap Rhiccart ap Einion ap Collwyn, tad y baban, fel y tybid. Cynnyddodd y baban hwnw yn ŵr mawr dros ben, o ran corph ac awen; ac o herwydd ei fawredd, a'i gael felly yn ddamweiniol ar Dwmpath Diwlith, galwyd ef yn Ieuan Fawr ap y Diwlith.

Dengys y Dr. Pughe, yn ei "*Introduction to the Heroic Elegies of Llywarch Hen*" (td. 62, &c), y cynnaliwyd pedair o orseddau gan feirdd Morgauwg yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg. Un dan lywyddiaeth Trahaern Brydydd Mawr, yn 1300; yr ail dan lywyddiaeth Howel Bwr Bach, yn 1330; y drydedd dan lywyddiaeth Dafydd ab Gwilym, yn 1360. Ni fynegir yn mha le y cynnaliwyd y rhai hyn, na phwy oedd ynddynt, heb law y llywyddion, na pha beth a wnaethant. Y bedwaredd a gynnaliwyd yn 1370, dan lywyddiaeth Ieuan Hen, lle yr oedd Gwilym ap Ieuan Hen, Ieuan Tew Hen, a Hywel Swrdwal, fel awenyddion. Ymddengys mai math ar ysgolion barddonol oedd y rhai hyn, os cynnaliwyd hwy o gwbl—ac nid eisteddfodau; canys yn yr olaf, yn gyffredin, rhyw foneddigion, ac nid beirdd, fyddai y llywyddion.

Yn ysgrif-lyfrau Iolo, dywedir i dair eisteddfod gael eu cynnal yn amser Edward III.:—y gyntaf yn Ngwern-y-Clepa, dan nawdd a dawn Ifor Hael; yr ail yn y Ddol Goch, dan nawdd a dawn Llewelyn ab Gwilym, perchenog y lle; a'r drydedd yn Maelor, yn Mhowys, dan nawdd yr Iarll Mortimer. Gan y dywedir fwy nag unwaith yn yr ysgrif ar yr eisteddfodau hyn ddarfod i'r tair gael eu cynnal yn amser y brenin Edward y Trydydd, a bod yr olaf dan nawdd yr Iarll Mortimer, rhaid y cynnaliwyd y tair rywbryd rhwng y 29ain o Ionawr, 1327, pan y coronwyd Edward III., a'r 29ain o Dachwedd, 1330, pan ddïenyddiwyd yr Iarll Mortimer; sef, yn yr ysbaid byr o dair blynedd a deng mis.

Dyry y mynegiadau hyn fantais i ni, a chymmeryd yn ganiataol fod yr hysbysiad yn yr "*Iolo MSS.*" yn hanesyddiaeth, nid yn unig i ddyfalu pa bryd y cynnaliwyd yr eisteddfodau dan sylw, a elwir "y tair eisteddfod dadeni," ond hefyd pa bryd yr oedd amryw o feirdd y ganrif hon yn eu blodau; neu o leiaf, pa bryd yr oeddynt yn dechreu blodeuo. Os dodwyd eisteddfod Ifor Hael yn Ngwern-y-Clepa dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, fel y dywed yr hen ysgrifau y dylid gwneuthur, er mwyn i eisteddfod fod yn awdurdodol—pe dodasid y rhybudd yn ebrwydd ar ol esgyniad Edward III. i'r orsedd, nis gallasai gael ei chynnal cyn 1328. Y beirdd yn yr eisteddfod hono, yn ol yr hysbysiad, oedd "y tri brodyr y Marchwiail"—Ednyfed ab Gruffydd, Madog ab Gruffydd (Madog Benfras), a Llewelyn ab Gruffydd—Dafydd ab Gwilym, a Llewelyn ab Gwilym o'r Ddol Goch, athraw a beirniad y pedwar eraill. "Ac yn yr eisteddfod honno y doded braint cadair ar fesur cywydd, lle nad oedd felly o'r blaen; a phan canwyd am gadair, Dafydd ab Gwilym a ennillws o nerth awen, a chanu, a Chymraeg cynhwynol. Ac o hynny maes, braint cadair i fesur cywydd deuair; a gwisgo Dafydd ab Gwilym âg addurn cadair Morganwg, a rhoed enw Dafydd Morganwg [iddo], ac yng Ngwynedd ei alw Bardd Ifor Hael; ac o hyny hyd yn awr, serchocaf a goreu o'r holl fesurau y bernir cywydd." Gwelir mai pump o feirdd, gwerth sôn am danynt, oedd yn eisteddfod Gwern-y-Clepa, sef Llewelyn ab Gwilym, a'i bedwar dysgybl; ac amlwg ydyw mai Llywelyn oedd y beirniad arnynt, ac Ifor Hael yn llywydd. Gwelir hefyd i Dafydd ab Gwilym gael ei wneyd yn "fardd cadeiriog" yn yr eisteddfod hono, yn 1328: gan hyny, rhaid mai camsyniad mawr ydyw tybied nas ganwyd ef hyd o gylch y fl. 1340.

Wedi hyny, sef wedi yr eisteddfod uchod, yn mhen undydd a blwyddyn, ond odid, "bu eisteddfod dan nawdd Llewelyn ab Gwilym yn y Ddol Goch, yn Emlyn, ac i hono y daeth Siôn y Cent, a Rhys Goch Eryri, yn Ngwynedd—a thyfu ymryson rhwng Siôn y Cent a Rhys Goch. Goreu ar wengerdd[1] Siôn Cent, a goreu ar foliangerdd[2] Rhys Goch, a rhodd y blaen a'r gadair i'r wengerdd; ond ni fynai Siôn y Cent ei wisgo âg addurn cadair Ceredigion a Dyfed, eithr i Dduw y rhoddai ef y blaen; am hyny y gwedai rhai mai Duw ei hunan a ennillodd y gadair hon. Wedi hynny, dodes Llewelyn ab Gwilym ganu er cadair Ceredigion y goreu am rieingerdd,[3] a barnu Dafydd ab Gwilym yn oreu, a'i wisgo â'r Cae Bedw,[4] ys ef addurn rhieingerdd. Yna Llewelyn ab Gruffydd, un o dri brodyr Marchwïail, a ganodd englynion Marchwiail Bedw Briglas, ar hen ganiad." Dyma ddau fardd enwog chwanegol wedi dyfod i'r eisteddfod hon, yn 1329, sef Siôn Cent, a Rhys Goch Eryri; ac enwogodd y ddau eu hunain yma—yr hyn sydd brawf eu bod wedi cyrhaedd i addfedrwydd oedran; a dyma i Dafydd ab Gwilym ail anrhydedd eisteddfodol. Llewelyn ab Gwilym oedd y beirniad yn yr eisteddfod hon hefyd.

"Gwedi hyny, y tri brodyr a ddodasant dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn eisteddfod ym Maelor, ym Mhowys, yn nawdd Iarll Mortimer, dan goron y brenin Edwart y Trydydd." Yn yr eisteddfod uchod, y mae'n debyg, y cyhoeddwyd yr eisteddfod hon. "Ac yno y canwyd am gadeiriau, ac Ednyfed ab Gruffydd a gafas [ennillodd] am Gywydd Gŵr, ac am englynion byraf Eiry Mynydd; a Madog [Benfras], y trydydd brawd, a gafes gadair a Chae Bedw am rieingerdd; a Dafydd ab Gwilym a ganodd yn garedig i Fadog am ei gerdd. Ac yn yr eisteddfod honno yr addurnwyd Iolo Goch âg addurn cadair am ei wybodau a ddysgws Ednyfed ab Gruffydd [iddo], parth Gwybodau Cerdd Dafod a'i pherthynasau."

Cynnaliwyd yr eisteddfod hon yn haf 1330, ychydig fisoedd cyn dïenyddiad Roger, Iarll Mortimer. Nid oes sôn am Llewelyn ab Gwilym yn yr eisteddfod yma; gan hyny, gellir casglu ei fod ef wedi ei ladd cyn hyn: canys tybir i hyny ddigwydd pan yr oedd Dafydd ab

[1] Cerdd gyssegredig.
[2] Mawlgerdd, arwyrain.
[3] Cân serch, cân cariad.
[4] Pleth fedw, coron fedw. Y mae gan Dafydd ab Gwilym gywydd i'r Cae Bedw, a blethodd Morfydd iddo. Yr oedd bedw yn un o'i hoff destynau ef.—"*Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym,*" td. 78.

Digitized by Google

Gwilym, ei nai a'i ddysgybl, yn lled ieuangc.[1] Ymddengys mai Dafydd ab Gwilym ei hun oedd beirniad yr eisteddfod hon, gan na chrybwyllir iddo ef ennill ar unrhyw destyn yma; ond "canodd yn garedig i Fadog am ei gerdd." Yr ydym yn colli golwg hefyd o hyn allan ar yr hynaf o "dri brodyr Marchwïail;" sef, Ednyfed, athraw Iolo Goch, a'r buddugwr yn yr eisteddfod hon ar gywydd Gŵr, ac englynion byraf Eiry Mynydd; am yr hwn hefyd, yn wir, ni sonia neb o'r bywgraphwyr. Ond i wneyd i fyny am y ddau athraw a nodwyd, sef Llewelyn ab Gwilym ac Ednyfed ab Gruffydd, dyma ddysgybl galluog yr olaf yn neidio i'r chwareule, sef Iolo Goch.

Y tair eisteddfod uchod (yr olaf yn benaf), fel y gellir casglu, ydyw prif gynlluniau eisteddfodau yr oesoedd diweddar hyn. Dyna hysbysiad pendant am yr olaf, iddi gael ei dodi "dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn" cyn cael ei chynnal; a dyna uchelwr, yr Iarll Mortimer, yn noddwr iddi; a dichon mai efe oedd ei llywydd. Yr oedd yn hon ganu "am gadeiriau." "Ednyfed ab Gruffydd a gafas [gadair] am gywydd Gŵr, ac am englynion byraf Bedw Briglas; a Madog Benfras, ei frawd, "a gafas gadair a Chae Bedw, am rieingerdd;" ac "addurnwyd Iolo Goch âg addurn cadair am ei wybodau." Yr oedd yr eisteddfod hon yn rhagori llawer ar ein heisteddfodau ni yn awr, yn y rhai nid oes ond un gadair; a rhoddir hono am gyfansoddiad yn un o'r canghenau mwyaf dibwys, erbyn hyn, yn mysg y gwybodau a'r celfyddydau; sef, cân (ar y mesurau caethion yn gyffredin) ar yr hyn a elwir "Testyn y Gadair." Byddai yn dda pe y dilynai eisteddfodau yr oes hon Eisteddfod Maelor yn fanylach, trwy roddi "addurn cadair" i rai am ragori yn y "gwybodau" ymarferol, cystal ag am ragori mewn prydyddiaeth.

Dywed un ysgrif mai mewn eisteddfod a gynnaliwyd, o gylch y pryd hyn, yn Llanfihangel Afan, y darfu i Rys Meigen ymosod yn drahaus ar Dafydd ab Gwilym, pan y canodd, yn mysg pethau difrïol eraill, yr englyn canlynol iddo:—

"Mil trichant, meddant i mi—y ganed
Yn geneu dan lwyni;
Gŵr o'th hân, garw yw'th enwi,
Mab Gwilym Gam, cytgam ci."[2]

Ond tebycach ydyw mai yr ysgrif sydd yn dyweyd mai "yn Neuadd Ieuan ap Lleision, ym Maglan," y ganwyd ef, sydd gywir. Ymddengys oddi wrth Gyfreithiau Howel Dda, ac ysgrifau eraill, yr arferai yr hen foneddigion wahodd beirdd i'r "gwleddoedd" a gynnelid yn eu neuaddau, i ymryson canu i'w gilydd, er difyru y boneddigion fyddent yn bresennol. Dewisid un o'r prif feirdd a fyddent yn y lle yn "Gyff Cler," yr hwn a osodid ar eisteddfa uchel yn y neuadd; a byddai rhyddid i'r holl feirdd ganu chwerthingerddi gwawdus iddo; ac yr oedd yntau at ei ryddid, yn ei dro, i dalu yn ol iddynt cystal ag y gallai. Ymddengys fod rhyw genfigen yn Rhys Meigen at Dafydd ab Gwilym, o herwydd ei awen, ond odid; a chafodd gyfle, pan oedd y bardd ieuangc yn Gyff Cler yn neuadd Ieuan ap Lleision, i arllwys ei ddygasedd arno yn bersonol, trwy edliw iddo gael ei eni allan ar y mynydd, a'r cyffelyb. Creodd yr ymosodiad personol ddygasedd yn Dafydd ato yntau; a chan ei fod yn hysbys o hanes personol Rhys, cyfansoddodd dduchan-gerdd arswydus iddo, yr hon sydd yn "*Marddoniaeth Dafydd Ab Gwilym*," td. 452. Yn y cyfarfod nesaf, gwnaed Rhys Meigen yn Gyff Cler, pan y dadganodd Dafydd ei dduchangerdd iddo. Effeithiodd hono i'r fath raddau ar deimladau Rhys Meigen fel y syrthiodd i lawr yn farw yn y fan! Cadarnheir hyn mewn dau gywydd sydd yn yr un llyfr—un gan Gruffydd Grug i Dafydd ab Gwilym (td. 246), a'r llall gan yr olaf yn atteb iddo (td. 249). Yn yr ymryson a fu rhyngddynt, nid ydym yn canfod y dewisid Cyff Cler yn yr eisteddfodau, hyd yn oed yn yr amser gynt.

Nid oes genym hanes am eisteddfod ar ol un Maelor, hyd ganol y bymthegfed ganrif. Yn B.A. 1403, gwnaeth Harri IV. gyfraith i attal eisteddfodau a chlerwyr crwydrol, y rhai yr haerai eu bod wedi myned yn orthrwm ar y boneddigion, rhag eu hamled. Nid oes genym awgrym i un math ar gyfarfod llenyddol Cymreig gael ei gynnal yn ystod teyrnasiad yr estron hwnw. Ond tua diwedd teyrnasiad ei olynydd, Harri V., dengys y Dr. Pughe, yn yr "*Introduction*" a nodwyd, a'r Dr. Jones yn ei "*History of Wales*," ddarfod i feirdd Morganwg ail gychwyn eu "gorseddau." Nodir y rhai canlynol, a gynnaliwyd ganddynt yn y bymthegfed ganrif:—

*Llywydd.*—Ieuan Tew Hen ... B.A. 1420
*Awenyddion.*—Hywel Swrdwal, Ieuan ap Hywel Swrdwal, Ieuan Gethin ap Ieuan ap Lleision, Hywel ap Dafydd ap Ieuan ap Rhys.

*Llywydd.*—Ieuan Gethin ap Ieuan ap Lleision ... ... ... 1430
*Awenydd.*—Gwilym Tew, neu Gwilym Hendon.

*Llywydd.*—Gwilym Tew ... ... ... 1460
*Awenyddion.*—Huw Cae Llwyd, Hywel ab Dafydd ap Ieuan ap Rhys, Harri o'r Gareg Lwyd, ac Iorwerth Fynglwyd.

*Llywydd.*—Meredydd ap Rhosser ... 1470
*Awenyddion.*—Iorwerth Fynglwyd, Ieuan Deulwyn, a Syr Einion ap Owain.

*Llywydd.*—Ieuan Deulwyn ... ... 1480
*Awenyddion.*—Iorwerth Fynglwyd, Lewis Morganwg, a Harri Hir.

Ond prif eisteddfod y ganrif hono, a'r unig un deilwng o'r enw, oedd eisteddfod fawr gyntaf Caerfyrddin, a gynnaliwyd yno, fel y cyttunir yn gyffredin, yn B.A. 1451; ac yn wir, ymddengys, ar y cyfan, mai hon oedd yr eisteddfod genedlaethol a brenhinol gyntaf erioed a gynnaliwyd; ac nad oedd y rhai a'i blaenorodd, a llawer o'r rhai a'i dilynodd, ddim amgen na chyfarfodydd llenyddol lleol, pa un bynag ai cadeiriau, gorseddau, ynte eisteddfodau y gelwid hwy. Achlysurwyd Eisteddfod Caerfyrddin fel y canlyn:—Ar ol i'r beirdd gael eu hamddifadu o'r ddysgyblaeth fanwl oedd arnynt pan oedd y tywysogion mewn awdurdod, mawr gynnyddodd eu rhifedi, ond cyfartal leihaodd eu teilyngdod; neu, o leiaf, nid oedd foddion cyfaddas ar arfer yn y wlad weithian i wneyd gwahaniaeth rhwng yr ûs a'r gwenith. Er hyny, yr oedd hiliogaeth yr hen dywysogion, sef pendefigion Cymru, yn parhau i gefnogi barddoniaeth, trwy gyfranu yn haelionus, er yn ddirgel, i'w harddelwyr, o barch i arfer eu hynafiaid; o herwydd pa ham, yr oedd lliaws o ysgrifenwyr di-awen yn myned i dai y pendefigion ar hyd y wlad dan yr enw "beirdd," i glera a chardota, er gwaethaf "cyfraith Harri Bedwerydd." A phan yr oedd Llawddeu Fardd

[1] "*Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym*," td. 459; "*Cambro-Briton*," cyf. iii., td. 146; "*Cambr. Plut.*," td. 219.

[2] Er mai sarhau Dafydd oedd amcan Rhys, etto, y mae yr englyn yma yn wir werthfawr erbyn hyn, am y dengys yn fanwl yn mha flwyddyn y ganwyd prif-fardd y bedwaredd ganrif ar ddeg.



Digitized by Google

unwaith yn llys ei gâr, Gruffydd ab Nicolas, yn Abermarlais, medd yr hen gofion (o'r sawl y rhoddwn y talfyriad canlynol), daeth clerwr i'r neuadd dan enw bardd, â chân moliant, o'r fath ag ydoedd, i Ruffydd—yn ei foli am ddrygau na ddaethai erioed i'w feddwl eu gwneuthur, gan eu galw yn "gampau gwrolion;" a Gruffydd a roddes y ddyrif yn llaw Llawdden, yr hwn a welai mai math ar Saesneg ydoedd; ac ar ol ei darllen, efe a gânt yr englyn canlynol:—

"Pob gair cras, diras, pob dyri—goegwaith,
Pob gogan a brynti;
Pob drewdod, pob dirieidi,
Ei gludo wnaed i'n gwlad ni."

"Gwir ydyw hyny," ebai Gruffydd; "a pha fodd y gellir amgen?" "Yn ddigon hawdd," attebai Llawdden:—"galwer am eisteddfodau a chadeiriau, dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, fel y bu gynt,[1] er adnewyddu hen wybodau llythyr a cherdd dafod cenedl y Cymry, a chadarnhau braint wrth gerdd dafod; ac yna ceir gweled mai bach y bydd diffyg awen a chydwybod." Attebai Gruffydd, "Ni chaniateir hyny gan gyfraith y brenin y dydd heddyw." "Gwneir," ebai Llawdden, "pe'i ceisid yn gyfiawnbwyll ganddo." "Fe allai hyny," meddai Gruffydd; "eithr pa le 'r gobaith?" "Lle genych chwi, fy arglwydd," ebai Llawdden, "os chwi a'i cais; ac os ei geisio a wnewch, mi a ddaroganaf i chwi lwyddiant a bodd eich calon." "Mi a'i ceisiaf," ebai Gruffydd. Ac efe a'i ceisiodd, ac "a'i cafas; a gwarant a braint diogelwch dyfod a dychwel, dan nawdd llythyr cynnwys y brenin, Harri Sant o Winsor;"[2] sef, Harri VI.

Y mae'r hen gofion wedi gwneyd amser cynnaliad Eisteddfod Caerfyrddin dan nawdd Harri VI., a than lywyddiaeth Gruffydd ab Nicolas, mor ddyrus, fel y dywedodd hyd yn oed y craffus Gwallter Mechain y rhaid iddo ef adael hyny heb ei benderfynu;[3] ond cymmer yn ganiataol, fel y rhan fwyaf, iddi gael ei chynnal yn 1451.[4] Yn yr ysgrif y dyfynwyd uchod o honi, dywedir fod eisteddfod fawr gyntaf Caerfyrddin wedi cael ei chynnal yn "yr unfed flwyddyn ar hugain o goroniad Harri Sant o Winsor," sef 1443; ac yna "y dodwyd yr eisteddfod ar osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn, o flwyddyn i flwyddyn hyd ben tair; ac o dair blynedd i dair blynedd, hyd yn mhen naw mlynedd, ac yn hyny cyrchu cyfallwy;[5] a'r ddegfed flwyddyn [1453], cynnal ail eisteddfod fawr Caerfyrddin, lle yr ennillodd Dafydd ap Edmwnt y gadair arian am ei orchestion, a fernid yn oferbwyll celfyddyd gan feirdd Morganwg."[6] Mewn un hen gofnod arall dywedir, "Llyma bedwar mesur ar hugain cerdd dafod, modd a'u doded ar ddosparth gan Dafydd ap Edmwnt yn yr ail eisteddfod fawr yn Nghaerfyrddin, oed Crist 1461."[7] Gan y cyttunir yn gyffredin mai dan nawdd "Harri Sant o Winsor, a than lywyddiaeth Gruffydd ap Nicolas, y cynnaliwyd yr eisteddfod y bu Dafydd Ap Edmwnt fuddugol ynddi, rhaid fod yr amseriad olaf a nodwyd yn llawer rhy ddiweddar; canys yr oedd Gruffydd ab Nicolas wedi ymuno â theulu Caerefrog, yn erbyn "Harri Sant," er's cryn amser cyn hyny; a lladdwyd Gruffydd yn mrwydr Croes Mortimer, ger llaw Henffordd, yn 1461; gan hyny, nis gallasai Gruffydd ab Nicholas lywyddu eisteddfod y flwyddyn hono dan nawdd "Harri Sant." Y gwir ydyw, nad oes hanes credadwy i ddim ond un eisteddfod gael ei chynnal yn Nghaerfyrddin yn ystod y ganrif yma; a hono "dan nawdd llythyr cynnwys Harri Sant o Winsor," a than lywyddiaeth Gruffydd ab Nicolas, rywbryd o gylch y fl. 1451. At un Eisteddfod Caerfyrddin y cyfeiria Edward Dafydd, o Fargam, a Llewelyn Siôn hefyd.[1] Dywedir mewn un hanes am Eisteddfod Caerfyrddin, mai "o ddawn haelionus Edward IV." y cafodd Gruffydd ab Nicolas awdurdod i'w chynnal;[2] yr hyn sydd mor anghywir a'r haeriad mai yn 1461 y cynnaliwyd hi; canys yr oedd Gruffydd ab Nicolas wedi ei ladd cyn i Edward esgyn yr orsedd, tra nad oedd yr olaf etto ond Duc Caerefrog.

Wedi ymdrechu gwneyd trefn oreu y gallem ar dryblith amseriadol yr eisteddfod bwysig hon, traethwn ychydig etto ar ei gweithrediadau. Pan gafodd Gruffydd ab Nicolas awdurdod gan Harri VI. i gynnal yr eisteddfod, efe "a beris gyhoeddi hysbysiad ymhob llan a llys, ac ymhob ffair a marchnad, ac ymhob llu a thyrfa gyfreithlawn, y byddai eisteddfod ar brydyddion, a phob gŵr wrth gerdd dafod a thant, yng Nghaerfyrddin." Ni wyddys pa ffurf oedd i'r hysbysiad yma, od oedd ryw ffurf neillduol heb law mynegu yn syml "y byddai eisteddfod ar brydyddion," &c., yn Nghaerfyrddin; a bod "gwŷs a gwawdd i holl brydyddion cenedl y Cymry, o ba wlad bynag yr henynt, i ddyfod dan nawdd a chroesaw i'r eisteddfod" hono. Nid oes sôn am "orsedd" neu gylch o fân geryg, nac am "faen llôg" yn y canol, na chleddyf, na "chorn gwlad," ynglŷn â chyhoeddiad eisteddfod fawr Caerfyrddin; gan hyny, rhaid i ni gasglu mai defodau a ddyfeisiwyd yn ddiweddar yw y rhai hyn:—pethau nas gallwn ni eu holrhain yn mhellach yn ol na mân gofion Llewelyn Siôn, yn yr "*Iolo MSS.*" "Ac," medd yr hen ysgrif yn mhellach, "er dwyn yn well i ben hyn o ddarpar," sef cael gwell trefn a dosparth ar y beirdd a barddoniaeth, "efe [G. ab Nicolas] a gymmerodd gynghor ac addysg y beirdd dysgedigion parth y gelfyddyd wrth y gerdd dafod, a pharth y defodau a'r breiniau a fuasent yn amseroedd y tywysogion, ac yn amseroedd arglwyddi cynhenid Cymru, ymhob llys a llan yn Ynys Brydain."

Ymddengys wrth hyn i Gruffydd ab Nicolas alw y "cynghor" yma o'r "beirdd dysgedigion" ynghyd yn ebrwydd ar ol cael "llythyr cynnwys Harri Sant o Winsor:"—mor gynnar, ond odid, "a'r unfed flwyddyn ar hugain o'i goroniad ef," fel y dywed Antoni Powel. Ac yn y cynghor hwnw, y "goreu am wybodau y cafas ef Llawdden, gŵr o gâr iddo, a phrydydd gorchestol, yn medru ar hen wybodau a fuant gynt ar ddeall gan feirdd a doethion gwlad Gymru. Ac ar Lawdden y dodes Gruffydd yru trefn ar y defodau a berthynent i brydyddion ac i wŷr wrth gerdd dant; a hyny a wnaeth efe, gan eu tynu o'r hen lyfrau ac o'r hen gofion, yn fanwl ei gais, ac yn astud ei ddeall; a gwneuthur llyfr a rhol o honynt."

Yn y "llyfr a'r rhol" hyny, yr hwn a alwyd "*Ystadyd Llawdden,*" trefnwyd y beirdd cerdd dafod a'r beirdd cerdd dant, yn ol copi Iago ab

1 Cyfeirla Llawdden yma, y mae'n debyg, at Eisteddfod Maelor, yr hon a fu dan sylw eisoes.

2 "*Cyfrinach y Beirdd,*" td. 239.

3 "*English Works,*" td. 148, nod. 1

4 1450 ydyw amseriad Iolo Morganwg, "*Cyfrinach y Beirdd,*" Rhagddar., td. viii.

5 Effeithiol.—Gorsedd gyfallwy (*an efficient session*) sydd enw a ddyfeisiwyd gan Llewelyn Siôn tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.

6 "*Cyfrinach y Beirdd,*" td. 240. 7 Yr un, td. 223.

1 "*Cyfrinach y Beirdd,*" td. 3, 8. 2 "*Y Greal,*" td. 40.

Digitized by Google

Dewi, o'r hen "*Ystadyd,*" yn bum gradd bob un; ond yn ol copi I. D. Rhys, pedair gradd a ddodir i'r beirdd cerdd dafod, a phump i'r beirdd cerdd dant; a chyssylltir wrth y graddau y cymmhwysderau gofynol i bob gradd; a chwanegir eu rhoddion, eu dysgyblaeth, a'u cospau.[1] Byddai y graddau, y cymmhwysderau, a'r ddysgyblaeth a drefnwyd gan Llawdden, yn llawer iawn gwerthfawrocach na'r ffug raddau diwerth a elwir *bardd, ofydd,* a *derwydd,* a ddygwyd i arfer yn ddiweddar gan Iolo Morganwg.

Llawdden hefyd a drefnodd "y cynghanedd-ion, a'u rhywiau, a'u dosbarth, a phob gwân a rhagwan arnynt; ac yn un wedd ar y cymmeriadau; ac ef a wnaeth drefn ar y ceingciau hyny; a phenaf o beth a wnaeth efe er gwellhâd, oedd gwahardd y gynghanedd bengoll (namyn ar baladr toddaid cwta, neu englyn unodl union) o gydsain groes, ac o lusg, ac o sain; canys hyd yn hyny o amser, arferid cynghaneddion pengoll o bob rhyw ar gerdd dafod. Efe hefyd a waharddes broestio ar y cynghaneddion, a phob rhwy a gormod, a phob twyll a gwall."[2]

Ymddengys yn ddigon eglur oddi wrth yr hen gofion, fod Llawdden wedi trefnu ei "Ystatyd" ar wŷr wrth gerdd ac ar y cynghaneddion, cyn Eisteddfod fawr Caerfyrddin; canys dywedir, "Gwedi cael ar gôf, a threfnu yr ystatyd a ddangoswyd eisoes, y peris Gruffydd ab Nicolas ei dodi ar osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn ymhob llan a llys gyfreithiawl yn ngwlad Gymru a'r Mers, ac ymhob ffair a marchnad, ac ymhob tyrfa ddosbarthus...Ond nis gallesid yr ariandlws iddo [sef i Llawdden], herwydd nad o bwngc eisteddfod y doded hyny, eithr ar osteg a rhybudd undydd a blwyddyn ym mlaen; a gwahardd dangos [yn yr eisteddfod] yn amgen nog yn ol y gwellhâd a wnaeth efe cyn no hyny; ac nis gellid amgen no braint eisteddfod ar y gwellhâd hyny, achos y dywetpwyd eisoes."[3]

Pan wybu Dafydd ap Edmwnt, trwy gyfrwng "y gwŷs a'r gwawdd," a wnaed yn hysbys "yn mhob llan a llys gyfreithiawl yn ngwlad Gymru," pa bryd y cynnelid Eisteddfod fawr Caerfyrddin, aeth ef a'i ddysgybl, Gutyn Owain, yno. Pan ddeallodd Gruffydd ab Nicolas bod y ddeuddyn o Wynedd yn "wŷr o fonedd, a doethineb, a gwybodaeth," efe a roddes iddynt hwy, cystal a'r holl feirdd a ddaethent i'r eisteddfod, "roddion, a gwisgoedd sidan i bob un, a march a nobl aur i bob un, a'i wleddau yn rhydd, a'i le tŷ yn rhâd."[4]

Ar un diwrnod, "gwedi ciniawa," cymmerth yr ymddiddan a welir yn "*Y Gwyddoniadur,*" cyf. i., td. 556, le rhwng Gruffydd ab Nicolas a Dafydd ap Edmwnt, ynghylch "gwellâu mesurau cerdd dafod, ar gyhydeddau, a chynghaneddau, a chymmeriadau. Gwedi naw diwrnod yn canu ar hyny, y doded a wnaethpwyd o flaen barn; a gorchestolaf o'r cyfan y cafwyd a gânt Dafydd ap Edmwnt; sef y mesurau a wnaeth efe o'i ddychymygfawr athrylith oeddynt Gorchest y Beirdd, a hwnw yn hollol newydd; ac yn ail gwellâu dau hen fesur, nid amgen Hupynt, o'i ganu yn gyfochrawdl; a chadwyn fyr yn y modd y mae yn awr, wedi gwellhau arno yn orchestawl, a dodi rhagor arno nog a fu cyn no hyny, parth camp a chelfyddyd. A gwedi ennill o Ddafydd ap Edmwnt y gadair, efe a fynes Gruffydd ab Nicolas farn yr eisteddfod ar ei ddosbarth ef ar y mesurau; canys nis gellir braint yn y byd cyn meddiant ar rhyw na bod o beth; ac wedi golygu ar a wnaethpwyd yn yr eisteddfod hono, gwelwyd nad oedd a ddylasai fraint a gwarant, namyn y dosparthau a drefnasai Ieuan Llawdden; sef, un—dosparth yr ystatyd parth y gwŷr wrth gerdd dafod a thant: a dosparth ail—hono ar y cynghaneddau; a chyda hyny, y dosparth a'r gwellâd a wnathoedd Dafydd ap Edmwnt ar y mesurau, sef y pedwar mesur ar hugain cerdd dafod."[1]

Heb law trefnu y mesurau, fel y gwelir uchod, yn ystod y naw diwrnod a roddwyd iddo ef, ac eraill, i ymgystadlu, fe ganodd Dafydd arnynt oll, yn yr un ysbaid, wedi eu trefnu, fel yr ymddengys y cynnygiodd eraill hefyd wneuthur; a phan y "doded a wnaethpwyd o flaen barn, y gorchestolaf o'r cyfan y cafwyd a gânt Dafydd ap Edmwnt." Nid yw hysbys, ysywaeth, bod yr esamplau a wnaed y pryd hyny gan D. ap Edmwnt, ar y pedwar mesur ar hugain, ar gôf a chadw yn bresennol. Fe allai mai yr esamplau hynaf sydd genym weithian ar ei bedwar mesur ar hugain ef, yw y rhai sydd yn nosbarth ei nai a'i ddysgybl, Tudur Aled; "ac a gonffirmiwyd yn gadair cerdd dafod i holl Wynedd a Phowys yn Eisteddfod Caerwys," yr hon a a ddaw dan sylw rhag llaw.

Y mae yn amlwg mai amcan pennodol Eisteddfod fawr Caerfyrddin yn 1451, y gyntaf o'i bath a gynnaliwyd yn Nghymru, oedd gwneyd trefn a dosbarth ar raddau beirdd cerdd dafod a cherdd dant; ar eu dysgyblaeth a'u rhoddion, neu eu gwobrau, ar y gynghanedd, ac ar y mesurau cynghaneddol.

Wedi i Dafydd ap Edmwnt drefnu'r mesurau caethion, a chanu arnynt yn fwy gorchestol na neb arall, a chael awdurdod Eisteddfod Genhedlaethol Caerfyrddin arnynt, a'r gadair arian fel gwobr am ei lafur, fe ffromodd beirdd y Deheubarth wrtho yn aruthr; ac yn mhen tua naw mlynedd ar ol yr eisteddfod hono, sef yn 1460, llwyddodd Gwilym Tew, a'r rhai a nodwyd eisoes oedd mewn cyssylltiad âg ef, dan yr enw awenyddion, i gael math ar orsedd leol "wrth gerdd ar fynydd Garth Maelwg; a chyda hyny, hwy a gawsant awdurdod o ddawn gwlad yr Arglwydd Rhisiart Nefel, ag efe 'n ben Arglwydd Morganwg; ac yn yr orsedd hono y rhoddasant feirdd Morganwg, a Gwent, ag Euas, warafun, a gommedd, a gwrthfarn, yn mraint beirdd Ynys Brydain ar ddosparth cerdd Caerfyrddin; ag o hyny i maes y cynneiliodd y tair gwlad hyn farn yn unraith ungamp ar gerdd, a gorsedd wrth gerdd."[2]

Dywed yr un ysgrifenydd, Llewelyn Siôn, "y cafwyd awdurdod gorsedd ar y teirgwlad hyn [Morganwg, Gwent, ac Euas] drwy y brenin, Harri y seithfed." Dywed y Dr. Pugh, a'r Dr. Jones, y cynnaliwyd pump o'r gorseddau lleol hyn yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, yn y rhai yr oedd y beirdd canlynol:—

*Llywydd.*—Iorwerth Fynglwyd ... B.A. 1500
*Awenyddion.*—Lewis Morganwg, Ieuan Du'r Bilwg.

*Llywydd.*—Lewis Morganwg ... ... 1520
*Awenyddion.*—Meirig Dafydd, Dafydd Benwyn, Llywelyn Siôn, Thomas Llywelyn.

[1] "*Y Greal,*" td. 49—61, 97—103, 151—4; '*Rhys's Ling. Cymr. Inst. Accur,*" td. 295—304; "*Gwyddon.,*" cyf. i. td. 549—553; "*Hanes y Brytaniaid a'r Cymry,*" cyf. ii., td. 373–5.
[2] "*Y Greal,*" td. 59, 60.
[3] "*Y Greal,*" td. 58, 101.
[4] "*C fr. y Beirdd,*" td. 239.

[1] "*Transact. Cymmrod.,*" cyf. ii., rhan iv., td. 198; a "*Gwaith y Parch. Walter Davies,*" cyf. ii., td. 169–70.
[2] "*Cyfrinach y Beirdd,*" td. 9.

Digitized by Google

*Llywydd.*—Meirig Dafydd... ... B.A. 1550
*Awenydd.*—Watcin Powel.
*Llywydd.*—Dafydd Benwyn ... 1560
*Awenyddion.*—Llywelyn Siôn, Siôn Mawddwy, Dafydd Llwyd Mathew.
*Llywydd.*—Llywelyn Siôn ... ... ... 1580
*Awenyddion.*—Watcin Powel, Ieuan Tomas, Meilir Mathew, Dafydd ab Dafydd Mathew, Dafydd Edward, Edward Dafydd.

Os cafwyd gorsedd o gwbl "drwy ddawn Harri'r Seithfed," rhaid mai y gyntaf o'r pump uchod ydoedd, lle nad oedd ond tri o feirdd yn bresennol; canys ni ddechreuodd Harri deyrnasu hyd 1485, a bu farw yn 1509. Er cryfed y dywedir bod gwrthfarn beirdd Morganwg yn y mân orseddau a nodwyd, a'r rhai dilynol, yn erbyn D. ap Edmwnt, y syndod ydyw na ddygasant hwy un math ar ddosbarth o fesurau ger bron y wlad, hyd yn mhen dros ddau can mlynedd ar ol Eisteddfod Caerfyrddin; a thlawd iawn oedd hi y pryd hyny ynglŷn â "dosbarth Morganwg," fel y ceir gweled etto.

Yn y flwyddyn 1523,[1] cynnaliwyd eisteddfod genedlaethol a brenhinol, trwy lythyr cynnwys Harri VIII. yn Nghaerwys, yn ol hen ysgrif yn llyfrgell y Plas Gwyn, yn Môn, yr hon sydd fel y canlyn:—

"Bydded hysbys i bawb o foneddigion a chyffrediniaid, bod eisteddfod ar wŷr wrth gerdd dafod a thant, o fewn tref Gaerwys, yn swydd Fflint, yr ail dydd o fis Gorphenaf, yn y bymthegfed flwyddyn o goronedigaeth Harri yr Wythfed, ger bron Rhisiart ap Hywel ap Ieuan Fychan, Yswain, ac o gydundeb Syr William Gruffydd, a Syr Robert Salbri, a thrwy bresennol gynghor Gruffydd ap Ieuan ap Llywelyn Fychan, a Thudur Aled, bardd cadeiriog, a llawer o foneddigion a doethion eraill, er gwneuthur trefn a llywodraeth ar wŷr wrth gerdd dafod a thant, ac ar eu clefyddyd, nid amgen i gadarnhau a chyfrymiaw y pencerddiaid, a'r sawl a gafas radd yn y blaen, i raddu y sawl a'i haeddai, ac i roddi i eraill yspas i ddysgu ac i fyfyrio yn nesaf ag y galler wrth gydwybod, ac wrth hen ystatyd Gruffydd ap Cynan.

"Llyma y rhai a raddiwyd; nid amgen—

"Tudur Aled a ganiadwyd ac a gyfrymied yn athraw cadeiriog, i arwain ariandlws, fal yr oedd er pan ei cymmerasai dan ei berygl i'w ddwyn o'r lle yr oedd.

"Dai Nanclyn a wnaethpwyd yn athraw, a rhoddi ariandlws iddo.

"Edward Sirc, Tomas ab Madog, Edward Grythor, a Morus Llanfair, pencerddiaid, a raddiesid o'r blaen mewn neithiorau yn bencerddiaid, ac yna eu cadarnhawyd, trwy eu caniadu a'u cyfrymiaw.[2]

"Hwlcyn Llwyd, Ieuan Delynior, Ieuan Grythor, Dai Maesmor, disgyblion pencerddiaid.

"Huw Menai, Rhys Grythor, Bili ap Owain, a Siôn ap Sander, disgyblion disgyblaidd.

"Ond hyny gwrthodi eu graddau a wnaethant."[3]

Yn yr eisteddfod awdurdodol hon, yn ol "*Cyfrinach y Beirdd,*" td. 224—34, cadarnhawyd y pedwar mesur ar hugain, modd a'u doded ar ddosbarth gan Dafydd ap Edmwnt yn yr eisteddfod fawr yn Nghaerfyrddin, i fod "yn gadair cerdd dafod i holl Wynedd a Phowys," yn ol trefniad Tudur Aled o honynt.

[1] Yn 1524, yn ol "*Cyfrinach y Beirdd,*" td. 223, a Pennant's "*Tour,*" cyf. ii., td. 93, nodiad q.

[2] Arwydda hyn yn eglur bod "neithiorau" llenyddol, lleawl, yn cael eu cynnal yn neuaddau boneddigion, yn ol pob tebyg, yn Ngwynedd, hyd yn oed yn amser Harri VII. a Harri VIII., megys yn yr hen amseroedd; ac y rhoddid math ar raddau barddonol a cherddorol ynddynt; ond nid ystyrid hwy yn gadarn a chyfrymiol, heb gael awdurdod eisteddfod genedlaethol iddynt.

[3] "*Y Greal,*" td. 276—7.

Yn mhen tua phum mlynedd a deugain ar ol yr eisteddfod uchod, sef yn 1568, awdurdodwyd ugain o foneddigion, neu ryw nifer o honynt dros un, gan "lythyr cynnwys" y frenhines Elizabeth,[1] i gynnal Eisteddfod Genedlaethol, ar y 26ain o Fai y flwyddyn hono, yn nhref Caerwys; a graddiwyd y gwŷr canlynol yno:—

BEIRDD CERDD DAFOD.

*Pencerddiaid cerdd dafod.*—Lewis ap Edward, neu Lewis Môn; William Llŷn (Lleyn); Owain Ifan, neu Owain Gwynedd; a Simwnt Fychan.

*Dysgyblion pencerddaidd cerdd dafod.*—William Cynwal, Lewis Menai, Siôn Tudur, Huw Llŷn, Bedo Hafesp, Siôn Phylip, a Huw Conwy.

*Dysgyblion dysgyblaidd cerdd dafod.*—Ieuan Tew, Huw Pennant, a Hywel Ceiriog.

*Dysgyblion yspas cerdd dafod.*—Dafydd Alaw, Edward Brwynllys, a Rhys Gelli.

BEIRDD CERDD DANT.—*Telynorion.*

*Pencerddiaid ac athrawon cerdd dant.*—Siôn ap Rhys Bencerdd, William Penllyn, a Hwlcyn Llwyd.

*Pencerddiaid (ond nid yn athrawon) cerdd dant.*—Tomas Anwyl, Dafydd Llwyd ap Siôn ap Rhys, Edwart ap Ifan, Rhobert ap Hywel Llanfor, a Wmphre Goch.

*Dysgyblion pencerddaidd cerdd dant.*—Rhisart Glynn, Rhobert Llwyd, Ifan Penllyn, a Lewis Llanfor.

*Dysgyblion dysgyblaidd cerdd dant.*—Huw Dai, Huw ap Morus, Siamas Morlas, Siôn Niwbwrch, ac Elis Gruffydd.

*Dysgyblion yspas cerdd dant.*—Lewis Berain, Ioan ap Meredydd, a Gwalchmai ab Dafydd.

CRYTHORION.

*Pencerddiaid ac athrawon cerdd dant.*—Siames Eutyn, ac Ifan Penmon.

*Pencerddiaid (ond nid yn athrawon) cerdd dant.*—Rhobert ap Rhys Guttyn, Tomas Môn, Siôn Ednyfed, a Tomas Grythor.

*Dysgybl pencerddaidd cerdd dant.*—Siôn Ddu Grythor.

*Dysgyblion dysgyblaidd cerdd daut.*—Rhobert ap Ifan Llwyd, Edwart Grythor, Tomas Cegidfa, Rhys Grythor Hiraethog, Tomas Grythor Bach, Dafydd ap Hywel Grythor, a William Ednyfed.

*Dysgyblion yspas cerdd dant.*[2]—Rhisart Conwy, Siôn Alaw, Rhobert Conwy, a Crythor Llwyd Marchedd.

Heb law yr holl raddio hyn a wnaed yn yr eisteddfod fawr frenhinol a chenedlaethol yma, cafodd Simwnt Fychan Bencerdd "farn a bodd" yr eisteddfod ar ei "ddosbarth" o fesurau; yr hon sydd yr un, o ran sylwedd, a dosbarth Tudur Aled. Hefyd, gwnaeth Simwnt awdl yn "arddangos y pedwar mesur ar hugain, i'r Meistr Pirs Mostyn, o Dalacre; a hon a ddangoswyd ger bron yr Eisteddfod [yma] yn Nghaerwys."[3]

Ymddengys i ni yn awr mai hon oedd yr eisteddfod frenhinol, gwir genedlaethol ac awdurdodol olaf a gynnaliwyd yn Nghymru; a chan na ddiddymwyd dosbarth mesurol a chynghaneddol Simwnt Fychan, ac na ddodwyd un arall yn ei le, gan eisteddfod o gyffelyb awdurdod, ei ddosbarth ef, mewn gwirionedd, sydd yn meddu gwir awdurdod hyd y dydd heddyw. Fe newidiwyd peth ar ei reolau ef, a chwanegwyd ychydig atynt gan Ioan Dafydd Rhys, Ioan Rhydderch, a Thomas Richards; ond hwy ni

[1] Y mae enwau y boneddigion hyny, a rhan o "lythyr cynnwys" y frenhines, yn "*Y Gwyddoniadur,*" cyf. i, td. 649.

[2] Pennant's "*Tour,*" ii., td. 93—5; "*Y Greal,*" td. 227-8.

[3] "*Cyfrinach y Beirdd,*" td. 171—202.

Digitized by Google

chawsant "farn a bodd" eisteddfod frenhinol ar eu newidiadau a'u hychwanegiadau; ac nid ydym yn gwybod iddynt erioed ofyn am "farn a bodd" un math ar eisteddfod arnynt. Aeth Robert Davies o Nantglyn, Caledfryn, ac eraill yn Ngwynedd a Deheubarth, yn mhellach fyth; ond y mae eu cynlluniau cynghaneddol hwythau yr un mor amddifaid o awdurdod.

Dengys y Dr. Pughe a'r Dr. Jones i amryw orseddau neu eisteddfodau lleol gael eu cynnal yn y Deheubarth yn ystod yr eilfed ganrif ar bymtheg; lle yr oedd y beirdd canlynol:—

*Llywydd.*—Watcyn Powel ... ... B.A. 1620
*Awenyddion.*—Dafydd Edward, Edward Dafydd, a Dafydd ab Dafydd Mathew.

*Llywydd.*—Edward Dafydd ... ... 1660
*Awenyddion.*—Hywel Lewis, Charles Bwttwn, Samuel Jones o Fryn Llywarch, Ifan Siôn Meredydd, a Dafydd o'r Nant.

*Llywydd.*—Dafydd o'r Nant ... ... 1680
*Awenyddion.*—Hopcyn y Gwehydd, Thomas Roberts, offeiriad, a Dafydd Hopcyn o'r Coetty.

Prif amcan yr holl gyfarfodydd lleol hyn, a'u cyffelyb, ydoedd dirymu dosbarth cerdd dafod Dafydd ap Edmwnt, yr hon a gawsai "farn a bodd" y tair eisteddfod frenhinol a chenedlaethol, a gynnaliwyd yn Nghaerfyrddin a Chaerwys; ac ymdrechu gwneuthur dosbarth eu hunain yn ei lle. Yr oedd hen feirdd Morganwg yn hòni fod ganddynt hwy ddosbarth cerdd dafod a cherdd dant hynafol dros ben, a phur anffaeledig hefyd; ond ei bod hi, erbyn amser Dafydd ap Edmwnt, wedi myned ar ddifancoll, medd Edward Dafydd o Fargam, er's "hir o amser, a thros oesoedd;" ond, ebe fe drachefn, "Lewis Morganwg a gafodd i maes lawer o bethau, ond nid y cwbl; Meirig Dafydd a ddadguddiodd lawer o honynt yn y llyfr a wnaeth ef iddei Arglwydd Syr Edward Lewis, o'r Fann; Dafydd Benwyn, a Dafydd Llwyd Mathew, a wnaethant lyfrau, gan ddangos ynddynt o'r newydd rai pethau hen iawn; a Llewelyn Siôn, o Langewydd, a gasglodd y cyfan ynghyd iddei lyfr o'u gwaith hwynt, ag a wnaeth drefn a dosparth ar fesurau cerdd, a'r peth oedd berthynaid iddynt." Ond nid oedd hyd yn oed yn ei lyfr yntau, "wrth raid ag achos ym mhob mann, hanner digon o fesurau, a phennillion cynnyrch a golygwel er dysgu'r mesurau."

O'r diwedd, yn mhen rhyw 230 o flynyddoedd ar ol eisteddfod fawr Caerfyrddin, fe lwyddodd Edward Dafydd i gael "yr orsedd wrth gerdd dafod a gynneiliwyd yn y Bewpyr, yn Morganwg, ar ddydd Llun, a dydd Mawrth, a dydd Mercher y Sul Gwynn, yn y flwyddyn 1681, dan nawdd a dawn Syr Rhisart Bassed, Farchog, arglwydd y lle; a than osteg a rhybudd undydd a blwyddyn drwy Forganwg, a Gwent, ag Euas; ag yn bencerddiaid yno, Charles Bwttwn, Ysgweier, a Dafydd o'r Nant, ag Edward Dafydd o Fargam; a chyda hwynt, y rhain yn brydyddion a beirdd wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain, ag yn athrawon cyfiawnfarn; nid amgen—"Howel Lewys, John Roberts, Thomas Lewys, Dafydd Edward, Siôn Padam, Morgan Gruffydd, Dafydd Evan Siôn, Charles Dafydd Meredydd, Hopcin Llewelyn, Lleision Ifan, Jenkin Richards, Bleddyn Siôn, Samuel Jones, offeiriad.

"A hynn i gyd yn enw Duw a phob daioni. Amen."

Dywed Edward Dafydd yn mhellach:—"A chann un a'r llall o'r beirdd yn yr orsedd hono y cefais y pennillion cynnyrch ag oedd yn ddiffyg yn llyfr Llewelyn Siôn; ambell pennill yn wir a dynnais o waith y ddwy oes ddiweddaf, a rhai a welir o honynt a wnaethum fy hun."[1]

Gwelir, gan hyny, fel y dywedir yn y gwaith hwn (cyf. i. td. 557—8), nad ydyw Dosbarth Morganwg ond diweddar, mewn cymmhariaeth. Nid oes gymmaint ag un o'r "pennillion cynnyrch" sydd ynddi wedi ei gymmeryd o'r Cynfeirdd na'r Gogynfeirdd; ac y mae y rhan fwyaf o honynt yn ddiweddarach o ugeiniau, ac ereill o gannoedd o flynyddau, nag amser Dafydd ap Edmwnt. Y mae yn amlwg hefyd mai gorsedd leol, heb gael "llythyr cynnwys" na brenin na brenhines, oedd Gorsedd y Bewpyr, fel pob gorsedd ac eisteddfod arall a gynnaliwyd ar ol amser y Tywysogion Cymreig, ond y tair Eisteddfod Frenhinol; am hyny, nis dichon bod dim awdurdod cyfraith gwlad i'w mesurau, eu trefniadau, na'u graddau. Dengys y Dr. Pughe a'r Dr. Jones i bedair o'r cyfryw orseddau diawdurdod gael eu cynnal yn y Deheubarth yn ystod y ddeunawfed ganrif; a chynnaliwyd pedair hefyd yn Ngwynedd. Dyma y beirdd oedd yn y gorseddau Deheuol:— B.A.

*Llywydd.*—Samuel Jones, Bryn Llywarch 1700
*Awenyddion.*—Rhys Prys (Ty'n-y-Ton), William Hain, a Siôn Bradfford.

*Llywydd.*—Dafydd Hopcyn o'r Coetty ... 1730
*Awenyddion.*—Dafydd Thomas, Rhys Morgan (Pencerdd Nedd), Dafydd Nicolas, a Siôn Bradfford.

*Llywydd.*—Siôn Bradfford ... ... 1760
*Awenyddion.*—Lewis Hopcyn, William Hopcyn, Edward Ifan, ac Edward Williams.[2]

*Llywydd.*—Edward Ifan ... ... ... 1780

Gwelir mai tlawd iawn oedd yr orsedd hon, heb gymmaint ag un awenydd na bardd ynddi, ond y llywydd yn unig; a lled ddiffrwyth y parhaodd y cyfarfodydd hyn hefyd am yn agos i ddeugain mlynedd ar ol cyfarfod llenyddol Edward Ifan.

Yr eisteddfod gyntaf a gynnaliwyd yn Ngwynedd, yn ystod y ganrif hon, hyd y gallwn ganfod, oedd Eisteddfod y Bala, yn 1789; yn yr hon y bu Dafydd Ddu o Eryri yn fuddugol ar "Ystyriaeth ar Oes Dyn," testyn Gwyneddigion Llundain. Yn 1790, cynnaliwyd eisteddfod yn Llanelwy; a Dafydd Ddu o Eryri a ennillodd y wobr etto am "Awdl ar Ryddid." Yn 1791, cynnaliwyd eisteddfod yn Llanrwst; a Dafydd Ddu a ennillodd yn hon drachefn, ar destyn y Gwyneddigion; sef, "Awdl ar Wirionedd." Cynnaliwyd eisteddfod yn Beaumaris, Môn, yn 1792, yn yr hon yr ennillodd Robert ab Gwilym Ddu o Eifion y wobr am "Awdl ar Gyflafan y Beirdd." Eisteddfod olaf y ganrif hon, hyd y gallwn gael allan, oedd yr un a gynnaliwyd yn Nghaerwys, yn 1798, dan nawdd Owain Myfyr a Chymdeithas y Gwyneddigion; ond ni wyddom beth oedd y testyn, na phwy a ennillodd y gamp arno. Dywed Cynddelw, y dihunodd Iolo Morganwg Gadair Dinorwig, yn Arfon, yn 1799; lle yr urddodd efe Dafydd Ddu, Gutyn Peris, ac eraill, "yn Feirdd Cadair Dinorwic, a datgan ei 'Gywydd Gorymbil ar Heddwch,' ger bron Beirdd Ynys Prydain, yn Ngorsedd Gyfarch, ar

[1] "*Cyfr. y Beirdd,*" td. 1—6.
[2] Os Iolo Morganwg oedd yr Edward Williams yma, fel y tybiwn mai ie, nid oedd efe ond pymtheg oed pan yn yr orsedd grybwylledig.

Digitized by Google

Fryn Dinorwig, yn Arfon, ar ŵyl yr Alban Elfed, 1799." Dyna y gwŷr a gawsant urddau barddonol diawdurdod gyntaf yn Nghymru, fel y credwn; a hyny mewn cyfarfod o ddychymmyg Llewelyn Siôn, ac Iolo Morganwg ar ei ol.

Ymddengys mai Gwyneddigion gwladgar Llundain, a Chymdeithas y Cymmrodorion ar eu hol, a lwyddasant i ddeffro y genedl Gymreig i gynnal eisteddfodau, fel yr aethant yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg hon o'r braidd yn afrifed; a chyfoethogodd amryw o'r rhai boreuaf yn y ganrif gryn lawer ar lenyddiaeth argraphedig y wlad. Dymunwn grybwyll yma yr ystyriwn yr eisteddfodau neu y cyfarfodydd llenyddol lleiaf, y cyhoeddir eu cynnyrchion llenyddol, yn llawer pwysicach i'r genedl na'r rhai mwyaf eu rhwysg a'u rhodres ar y pryd, y rhai nas cyhoeddir eu cynnyrchion. Y mae llawer o honynt yn cael eu galw yn eisteddfodau brenhinol, neu genedlaethol; ond y gwir ydyw nad oes yr un o honynt yn fwy felly na'r cyfarfodydd llenyddol lleiaf, gan na chynnelir y naill mwy na'r lleill, fel yr awgrymwyd eisoes, trwy awdurdod y goron na'r genedl. A'r gwir yw, mai pwyllgor lleol yr eisteddfod fwyaf sydd yn gyfrifol am holl gostau y cyfarfod, cystal a phwyllgor y cyfarfod llenyddol lleiaf; a chan y pwyllgor lleol hwnw, pe na bae un llenor yn aelod o hono, y mae awdurdod i wario y gweddill arian a ddigwydd fod, ar y peth a fyno; a gwerir ef yn gyffredin y dyddiau hyn, ysywaeth, ar ryw bethau heb law llenyddiaeth Gymreig, er mai yn enw llenyddiaeth y cynnelir y cyfryw eisteddfodau. Yn wir, y mae achos i gasglu y cynnelir eisteddfodau yn fynych y dyddiau hyn er mwyn masnach a llwyddiant lleol rhyw dref neu bentref neillduol; canys er budd y cyfryw leoedd y treulir gweddill arian llawer "Eisteddfod Genedlaethol" (?), ac nid er cyfoethogi llenyddiaeth y genedl. Peth arall sydd yn profi mai cyfarfodydd lleol, ac nid cenedlaethol, yw yr eisteddfodau presennol ydyw, y cynnelir mwy nag un yn fynych mewn gwahanol ardaloedd yn y wlad, yn ystod yr un flwyddyn.

EISTEDDFODAU Y GANRIF HON.

Yn awr, cymmerwn drem frysiog ar eisteddfodau y ganrif bresennol, y ceir crybwylliadau am danynt mewn llyfrau, neu yn y cyfnodolion Cymreig. Y mae llawer o honynt nas gwyddom nemawr fwy am danynt na'r lle a'r amser y cynnaliwyd hwynt.

Megys mai Cymdeithas y Gwyneddigion a gynnaliodd yr eisteddfod ddiweddaf yn y ganrif flaenorol, felly hefyd, dan ei nawdd hi y cynnaliwyd y rhai cyntaf a gynnaliwyd o fewn y ganrif hon. "Arfer y gymdeithas hono," meddai Cynddelw, "oedd cyhoeddi y testynau a'r gwobrwyon, a'r lle y cynnelid yr eisteddfod, pennodi barnwyr, &c. Ond anfonid y cyfansoddiadau i Lundain, a darllenid hwy ar goedd y gymdeithas; a dedfryd olaf eu teilyngdod, ar ol dadleu ac ymryson lawer, a fyddai llais mwyafrif yr aelodau! Nid oedd y goreu o'r Gwyneddigion y pryd hwnw yn wybodus iawn mewn pethau o'r fath, tra mai brwdfrydedd Cymröaidd, a chariad at yr iaith a'r genedl, oedd cymmhwysderau penaf llawer o honynt. Nid rhyfedd, gan hyny, fod yno lawer o bleidgarwch a chamsyniadau." Byddai y gymdeithas weithiau, o leiaf, yn nodi rhyw le yn Nghymru i gynnal cyfarfod, neu eisteddfod fechan, lle y cyflwynid ei gwobr i'r buddugwr; ond credwn y cyflwynid y wobr weithiau heb gynnal cyfarfod o'r fath.

Ymddengys mai testyn cyntaf y gymdeithas yn y ganrif hon oedd "Coffadwriaeth Goronwy Owain," a roddwyd allan ryw bryd yn 1802; ac yn y flwyddyn ganlynol, anfonwyd tair awdl a chywydd i'r gymdeithas i gael eu beirniadu. Yr oedd "pob un yn haeddu parch a chlod; ond yn fwyaf enwedigol, gwaith 'Y Cyw' ac 'Eliwlod.'" "Y Cyw" oedd Gutyn Peris, yr hwn a gafodd y wobr; ac "Eliwlod" ydoedd Dewi Wyn o Eifion. Methasom gael sicrwydd i eisteddfod o fath yn y byd gael ei chynnal y flwyddyn hon—1803. Fe allai mai anfon y wobr i'r "Cyw" yn bersonol a wnaeth y gymdeithas.

Yn y fl. 1804, cyhoeddodd y gymdeithas "Folawd Beirdd Ynys Prydain" yn destyn i ymgystadlu arno erbyn y flwyddyn ganlynol; a sonid am gynnal eisteddfod y flwyddyn hono; sef, 1805, yn Harlech, i gyflwyno y wobr i'r buddugwr. Ond tybiwyd wedi hyny mai Caernarfon a fyddai y lle mwyaf cyfleus; ond ni chynnaliwyd un yno chwaith. Anfonwyd y caniadau i'r gymdeithas yn Llundain; ac ar yr 2il o Ragfyr, 1805, darllenwyd hwynt yno i'r aelodau. Wedi dadleu yno ar eu teilyngdod, barnwyd fod dau o'r cyfansoddiadau yn rhagori ar y lleill; sef, gwaith y "Bardd Cwsg," ac "Eifion Ieuangc," ac mai y blaenaf oedd y goreu; ond gan iddo ef anfon llythyr i'r gymdeithas, nas dadguddiai ei enw priodol hyd yn mhen un dydd a blwyddyn, barnwyd ei fod yn troseddu rheolau y gymdeithas; a "barnwyd yr ariandlws" i "Eifion Ieuangc;" sef, Dewi Wyn, yr hwn a anfonasai ei enw i'r gymdeithas yn brydlawn. Y mae yn amlwg fod Cymdeithas y Gwyneddigion yn goddef i'r beirdd ganu ar ei thestynau hi yn y mesurau a fynent, rhydd neu gaeth; canys mewn mesurau rhyddion, tebyg i fesurau y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd, y canodd y "Bardd Cwsg;" sef (Huw Morus, nai Owain Myfyr, fel y cafwyd gwybod wed'yn), yr hwn a farnwyd yn oreu; tra mai awdl yn y mesurau caethion a ganodd Dewi Wyn. Cyhoeddwyd y ddau gyfansoddiad yn "*Y Greal.*" Nid ymddengys fod Cymdeithas y Gwyneddigion, na'r eisteddfodau a gynnelid dan ei nawdd, yn hòni rhoddi un math ar raddau, hyd yn oed i'r buddugwyr; am hyny, rhaid i ni brysuro heibio iddynt hwy, ac eraill ar eu hol, heb wneyd dim ond nodi y lle a'r amser y cynnaliwyd hwynt, er mwyn cael helaethu ychydig ar eisteddfod ffug raddau y ganrif hon, mammaeth yr holl eisteddfodau a'u dilynodd.

Yn y fl. 1811, cynnaliwyd eisteddfod yn Nhremadog, o dan nawdd W. A. Madog, Ysw., a Chymdeithas Amaethyddiaeth Caernarfon. Yn 1816, cynnaliwyd eisteddfod yn Llangefni, dan nawdd y Gwyneddigion; a than eu nawdd hwy etto cynnaliwyd eisteddfod yn 1819 yn Ninbych, yn yr hon y

"Rhoen' dlws yr hen *Daliesin*[1]
I'r *Dryw*[2] bach, drwy bleidiach blin."

Yn y flwyddyn hon (1819), hefyd, cynnaliwyd y fythgofiadwy Eisteddfod Caerfyrddin, at yr hon y cyfeiriwyd eisoes, fel mammaeth y rhai a'i dilynodd. Traethwyd yn lled helaeth eisoes yn y gwaith hwn [cyf. i., td. 553—56], ar yr eisteddfod hon:—ei chychwyniad, ei dygiad yn mlaen, ei ffug orsedd, ei ffug urddau, a'i ffug seremoniau newyddion a diawdurdod eraill; a

[1] Dewi Wyn.
[2] Y Parch. E. Hughes, parson Bodfari, yr hwn a gafodd y wobr y dylasai Dewi yn ddiammheuol ei chael, am ei awdl odidog ar "Elusengarwch."

Digitized by Google

byddai yn fuddiol i'r sawl a fynont wybod y manylion am y pethau hyny ddarllen y tudalenau y cyfeiriwyd atynt uchod. Gwelir yno mai graddau beirdd yr eisteddfod hono, a'r holl eisteddfodau ar ei hol, ydyw *bardd, ofydd,* a *derwydd.* Dyfeisiwyd y ffug raddau hyn gan Meyryg Morganwg (Meirig Dafydd), a Llewelyn Siôn, yn yr unfed ganrif ar bymtheg; ond ni ddygwyd hwy i sylw cyffredin yr holl genedl hyd yr eisteddfod dan sylw, yn Nghaerfyrddin, yn 1819, gan Iolo Morganwg. Darlunir y ffug raddau gan Meyryg a Llewelyn fel hyn :—

"Tair Achen wahanrod y sydd ar Feirdd Ynys Prydain ym Mraint Prifeirdd, a Phrifeirdd y gelwir bob un o'r tri, am eu bod o gyssefin hanfod wrth ddeddf a defod a braint Gorsedd gyssefin Beirdd Ynys Prydain yn Amser Prydain ab Aedd Mawr.[1] Cyntaf yw Prydydd; sef, Prifardd pendant, neu Brifardd cyssefin; ac nis gellir o hwn onid o ŵr a fo Prydydd wrth Awen a Chelfyddyd, a Throfedigaeth, a'i ddyled yw prydu, a chynnal Cof Braint a Defod, a chadw Barddas rhag ei myned ar gam a choll. Ail yw Ofydd; ac nis arno [nid oes arno] Drofedigaeth eithr yn ol a'i gradder Yngorsedd, sef yw Ofydd gŵr wrth Awen, ymgais a dichwain, ai ddyled yw gwellhau ac amlhau dysg a gwybodaeth, a'i roddi wrth farn gorsedd a wnelo onid el yn gyfallwy. Trydydd yw Derwydd; ac nis gellir hwn onid o un o'r ddau arall, sef y naill ai Prydydd ai Ofydd gan farn a rhaith Gorsedd, a gŵr wrth bwyll ac ansawdd a gorfod y bydd, a'i ddyled yw athrawiaethu, a chynnal rhag orsedd a rhaccadair a Golychwyd ar fannau ac adfannau Lleuad, ac ef a ddysg gyfrinach Barddas a Dwyfoldeb, a doethineb, a moesau daionus, a braint ac enw Prifeirdd a berthyn ar bob un o'r tri hynn ac yn ogyfuwch braint a bonedd y naill a'r llall o honynt."[2]

Y mae llafarwedd ac orgraph y paragraph uchod yn profi tu hwnt i ddadl nad ysgrifenwyd ef hyd y rhan ddiweddaf o'r unfed ganrif ar bymtheg. Gellir gweled y dull rhodresgar o weinyddu yr urddau ffugiol a nodwyd yn y tudalenau o'r gwaith hwn y cyfeiriwyd atynt uchod. Y gwir yw, mai unig urddau awdurdodol beirdd a cherddorion yw *dysgybl yspas, dysgybl dysgyblaidd, dysgybl pencerddaidd,* a *phencerdd*—y rhai a freiniwyd trwy "lythyr cynnwys" y frenhines Elizabeth yn Eisteddfod Caerwys yn 1568; canys er bod y gyfraith a'u hawdurdododd yn "llythyren farw" er's llawer dydd, etto ni ddiddymwyd mo honi erioed, ac ni roddwyd yr un gair yn ei lle. Yn awr, gan na chafodd y graddau a ddyfeisiwyd gan Meyryg Morganwg a Llewelyn Siôn, ac a wthiwyd i sylw gan Iolo Morganwg yn yr eisteddfod dan sylw—sef, *bardd, ofydd,* a *derwydd*—un math o awdurdod gwladwriaethol, nid ydynt ond ffug noeth, heb fwy o awdurdod ynddynt nag a fyddai mewn B.A., M.A., B.D., D.D., neu y cyffelyb, a roddid gan golegau Aberhonddu, Pont-y-pool, Aberystwyth, y Bala, neu Langollen. Ymddengys bod Cymdeithas y Gwyneddigion yn deall hyn; ac am hyny ni wnelent hwy fwy o rodres gyda'r buddugwyr ar y testynau a roddid allan ganddynt nag anfon y gwobrwyon iddynt. Od oes angen am raddau newyddion i feirdd a cherddorion, myner "llythyr cynnwys" gan y pen coronog i'w hawdurdodi; os amgen, defnyddier yr hen raddau sydd mewn awdurdod eisoes; ac na radder neb heb ddyfod i fyny mewn arholiad dyladwy i'r ammodau gofynedig, y rhai a welir yn y gwaith hwn, [td. 549, &c.]. Gwnelai hyny les i ieuengctyd, trwy eu symbylu i lafur ac ymchwiliad ieithol, barddonol, a cherddorol.

Ni chyffyrddwyd â'r cynghaneddion yn Eisteddfod Caerfyrddin yn y fl. 1819, namyn barnu "bod o hyn allan ryddid i Feirdd Ynys Prydain gyfansoddi caniadau ar y mesurau mwyaf teilwng a chyfaddas i eu testynau; ac na byddo rhag llaw wahaniaeth o barth teilyngdawd i ei roddi i fesurau yr un Dosparth, na'r hen na'r newydd, ragor neu uwch na eu gilydd; ond bod urddas Cerdd neu 'Awdl' uwch eraill, i gael ei farnu wrth gymmhwylliadau synwyr, a phwyll, a chynghanedd rywiawg a diledryw, yn hytrach nag wrth amrywiaeth mesurau."

Wrth yr "hen ddosparth" y golygir, yn y dyfyniad yna, yr un a elwir "Dosparth Morganwg" ar fesurau, yr hon sydd yn "*Nghyfrinach y Beirdd,*" td. 118—171. Ac wrth y "dosparth newydd," golygir Dosparth Dafydd ap Edmwnt ar fesurau, a awdurdodwyd gan "lythyr cynnwys" brenhinol, yn Eisteddfod Caerfyrddin, 1451; ac yn Eisteddfodau Caerwys, yn 1528 a 1568—y rhai sydd yn "*Nghyfrinach y Beirdd,*" td. 171—206; 223—238; yr hon, mewn gwirionedd, sydd yn hynach na "Dosparth Morganwg" o 230 o flynyddau. Gwelir, gan hyny, nad oes dim mwy o awdurdod gwirioneddol i'r hyn a wnaed yn Eisteddfod Caerfyrddin yn 1819, nag sydd yn yr hyn a wnaed yn Eisteddfod Dinbych a gynnaliwyd yn yr un flwyddyn, neu mewn rhyw eisteddfod a gynnaliwyd wedi hyny. O herwydd pa ham, gall pwyllgorau eisteddfodau, cystal a chyfarfodydd llenyddol, adael i'r beirdd ganu ar y mesurau a ddewisont, caeth neu rydd, fel y gwnaeth rhai eisteddfodau ar ol 1819, megys y caniataodd Cymdeithas y Gwyneddigion iddynt wneuthur yn 1805. Cyhoeddwyd hanes a chynnyrchion barddonol Eisteddfod Caerfyrddin, 1819, yn llyfr taclus yn 1822, a elwir "*Awen Dyfed;*" o herwydd yr hyn y mae yn deilyngach o glod y genedl na lliaws o'r rhai a'i dilynodd.

Weithian, dodwn ger bron gyfres o'r lleoedd a'r amserau y cynnaliwyd y nifer amlaf o'r eisteddfodau mwyaf cyhoeddus a defnyddiol ar ol y flwyddyn 1819 :—

| | |
|---|---|
| Gwrecsam ... ... ... | 1820 |
| Dinbych, Caerfyrddin, a Chaernarfon ... | 1821 |
| Aberhonddu a Llundain ... ... | 1822 |
| Aberhonddu, Caerfyrddin, Rhuthyn, Wyddgrug, a Llundain ... ... | 1823 |
| Trallwm, Rhuthyn, Llangollen, Caerfyrddin, Aberhonddu, Caernarfon, a Llundain ... ... ... | 1824 |
| Llundain ... ... ... | 1825 |
| Bala, Rhuthyn, Aberhonddu, a Llundain | 1826 |
| Llundain ... ... ... | 1827 |
| Dinbych ... ... ... | 1828 |
| Llundain ... ... ... | 1829 |
| Beaumaris ... ... ... | 1832 |
| Caerdydd ... ... ... | 1834 |
| Aberafan, a Llanerchymedd ... ... | 1835 |
| Liverpool ... ... ... | 1836 |
| Merthyr Tydfil ... ... ... | 1838 |
| Liverpool ... ... ... | 1839 |
| Pont-y-fon, a Liverpool ... ... | 1840 |
| Abergafenni, a Lliton ... ... | 1842 |
| Caerdydd ... ... ... | 1843 |
| Abergafenni ... ... ... | 1848 |
| Aberffraw ... ... ... | 1849 |
| Merthyr Tydfil, a Rhuddlan ... ... | 1850 |
| Wyddgrug, Porthmadog, Bethesda, a Liverpool ... ... | 1851 |

[1] Hanfod cwbl ffugiol ydyw hwn, a ddyfeisiwyd gan y ffug Achyddion Cymreig tua chanol y bymthegfed ganrif. Ni chlybuwyd erioed sôn am dano cyn hyny.—"*Hanes y Brytaniaid, a'r Cymry,*" cyf. i., td. 48.

[2] "*Iolo MSS.,*" td. 54, 55.

Digitized by Google

| | |
|---|---|
| Bethesda ... yn y flwyddyn | 1852 |
| Porthmadog, a Bethesda ... ... | 1853 |
| Ffestiniog, Llanfair-talhaiarn, a Liverpool | 1854 |
| Dinas Mawddwy, Llanfachraith (Môn), Treforis, a Llundain ... ... | 1855 |
| Blaenau, Llangerniw, Cwmafan, a Phorthmadog ... ... | 1856 |
| Ystradgynlais, Ffestiniog, a Llangollen ... | 1858 |
| Merthyr Tydfil, Llancarfan, a Llanerch-y-medd .. ... ... | 1859 |
| Ystalyfera, Aberdar, a Dinbych ... | 1860 |
| Conwy, ac Aberdar ... ... | 1861 |
| Caernarfon ... ... ... | 1862 |
| Abertawe, a Rhyl... ... ... | 1863 |
| Llandudno ... ... ... | 1864 |
| Aberystwyth, a Fflint ... ... | 1865 |
| Caerlleon, a Chastellnedd ... ... | 1866 |
| Caerfyrddin ... ... ... | 1867 |
| Rhuthyn ... ... ... | 1868 |
| Rhyl ... ... ... ... | 1869 |
| Dolgellau, Llanerchymedd, a Chaernarfon | 1870 |
| Llanerchymedd, a Phen-y-groes ... | 1871 |
| Caergybi, a Phorthmadog .. ... | 1872 |
| Llanberis, Porthaethwy, a Wyddgrug ... | 1873 |
| Coedpoeth a Bangor ... ... | 1874 |
| Pwllheli ... ... ... | 1875 |
| Gwrecsam ... ... ... | 1876 |
| Caernarfon ... ... ... | 1877 |
| Penbedw (Birkenhead), Porthaethwy, Llanrwst, a Liverpool ... ... | 1878 |

Cyhoeddwyd cyfansoddiadau amryw o'r eisteddfodau uchod; megys Caerfyrddin, 1823; Trallwm a Chaernarfon, 1824; Dinbych, 1828 (hon a fu yn foddion i gynnyrchu traethawd Saesneg campus Mr. T. Stephens, a elwir "*The Literature of the Kymry*"); Llanerchymedd, yn 1859; Ystalyfera, a Dinbych, yn 1860; Conwy, 1861; ac ambell un arall, ond odid, o 1823 hyd y flwyddyn olaf a nodwyd. Hefyd, cyhoeddwyd llawer o gyfansoddiadau buddugol eisteddfodau Caernarfon, 1862; Abertawe, 1863; Llandudno, 1864; ac Aberystwyth, 1865, yn y llyfr gwych a elwir "*Yr Eisteddfod,*" yn ddwy gyfrol wythplyg prydferth. Nid ydym yn cofio i ddim arall o bwys gael ei gyhoeddi yn ystod y ganrif hon, fel ffrwyth yr eisteddfodau, heb law ambell i gyfansoddiad buddugol ac anfuddugol, a gyhoeddwyd gan bersonau unigol, neu yn y cyfnodolion a'r newyddiaduron.

Dywedir mai "amcan yr Eisteddfod yw diwyllio a meithrin barddoniaeth [cerddoriaeth], a llenyddiaeth; chwilio, trefnu, a chadw cofnodion hanesyddol a gweddillion llenyddol y genedl; cynnorthwyo i gyhoeddi gweithiau gwreiddiol yn yr iaith Gymraeg; meithrin a dadlenu talentau y Cymry; a defnyddio pob moddion eraill, o bryd i bryd, a fyddont yn debyg o ddyrchafu cyflwr cymdeithasol, moesol, a deallol y genedl."

Dylid cydnabod i'r eisteddfod fod yn foddion, i gryn raddau, i ddeffro a meithrin talent farddonol a cherddorol cenedl y Cymry; ond ychydig iawn a wnaeth mewn cymmhariaeth i'r hyn a ddylasai wneuthur er "chwilio, trefnu, a chadw cofnodion hanesyddol, a gweddillion llenyddol y genedl;" ac y mae hi wedi bod yn gywilyddus o ddiffygiol er "cynnorthwyo i gyhoeddi gweithiau gwreiddiol yn yr iaith Gymraeg;" canys y mae y rhan fwyaf o eisteddfodau y ganrif hon, yn enwedig y rhai diweddaraf, wedi gwario eu gweddillion ar ryw amcanion lleol, yn lle at gyhoeddi hyd yn oed eu cyfansoddiadau buddugol eu hunain. Er mwyn attal i bwyllgorau eisteddfodol wario eu gweddillion arianol mor gwbl aflenorol ag y gwneir yn gyffredin yn y blynyddau hyn, credwn nas gallai llenorion y wlad wneyd yn well nag ymuno yn un gymdeithas lenyddol Gymreig trwy Gymru benbaladr; ac i bob un o'r aelodau ymrwymo, ar eu hymuniad â'r gymdeithas, i beidio cefnogi unrhyw eisteddfod mwyach, fel na beirniaid nac ymgeiswyr, heb i bwyllgor yr eisteddfod fwriadedig ymrwymo yn gyhoeddus, trwy gyfrwng y newyddiaduron, i gyssegru holl weddill arianol yr eisteddfod at gyhoeddi ei chynnyrchion buddugol mor rad ag y byddo dichonadwy.

Byddai yn fuddiol i aelodau y gymdeithas mewn gwahanol barthau ymgyfarfod ar amserau pennodol, yn fisol neu chwarterol, yn gyfrinfäau (*lodges*) lleol, a dal gohebiaeth â'u gilydd yn ngwahanol barthau y wlad trwy gyfrwng eu hysgrifenyddion, ac eraill o'r aelodau; a dichon y gallai rhai o aelodau y gwahanol gyfrinfäau, yn mhen amser, ymgyfarfod yn flynyddol, dwy flynyddol, neu dair blynyddol, mewn rhyw fan canolog, rhwng De a Gwynedd, i ymgynghori pa fodd i ddwyn ein llenyddiaeth yn mlaen yn y dull goreu er lles ein cenedl. Y fath les a allai y gymdeithas ei wneuthur yn mhlith ein chwarelwyr, ein morwyr, ein crefftwyr, ein masnachwyr, ac hyd yn oed ein hamaethwyr, yn ngwahanol barthau a threfydd ein gwlad!

Y Gymdeithas Lenyddol Gymreig, trwy gyfrwng ei chynnrychiolwyr sydd yn y gwahanol siroedd, a ddylai, ar bob cyfrif, gael dewis prif destynau yr eisteddfodau. Nid oes dim sydd amlycach i bob llenor pwyllog a deallus, na bod prif wobrau yr eisteddfodau presennol yn cael eu gwastraffu ar destynau cwbl anfuddiol ac annefnyddiol i'r genedl Gymreig yn gyffredinol; megys rhigymau o awdlau, cywyddau, ac englynion, sydd yn ddifudd i'r genedl; ac o'r sawl y mae genym lawn ddigon, o leiaf am lawer o flynyddoedd. Pa wir fardd yn y byd Cymreig, heb sôn am unrhyw fyd arall, a feddyliai am ganu "Awdl ar Ager?" Ac er i'r awdl gael ei chyfansoddi, ped argrephid hi, nid oes dim un o bob pum mil o'r genedl a'i darllenai. Gŵyr pawb ystyriol mai traethawd ar ager a allai fod yn fuddiol. Od oes arnom eisieu chwaneg o brydyddiaeth nag sydd genym, mwy o brydyddiaeth y Beibl sydd arnom ei eisieu, a hwnw wedi ei gyfansoddi yn bennillion cyfaddas i'w canu mewn cynnulliadau crefyddol. Y mae genym awdurdod apostolaidd dros arfer prydyddiaeth y Beibl yn y cyfryw gymdeithasau, megys yr adnodau canlynol:—

"Gan hyny, os daw yr eglwys oll ynghyd i'r un lle...Pan ddeloch ynghyd, y mae gan bob un o honoch salm, y mae ganddo athrawiaeth, y mae ganddo dafodiaith, y mae ganddo ddadguddiad, y mae ganddo gyfieithiad. Gwneler pob peth er adeiladaeth;" 1 *Cor.* xiv. 23, 26.

"Am hyny na fyddwch annoethion, eithr yn deall beth yw ewyllys yr Arglwydd. Ac na feddwer chwi gan win, yn yr hyn y mae gormodedd, eithr llanwer chwi â'r Ysbryd; gan lefaru wrth eich gilydd mewn salmau, a hymnau, ac odlau ysbrydol; gan ganu a phyngcio yn eich calon i'r Arglwydd;" *Eph.* v. 17—19; *Col.* iii. 16.

Wrth ystyried fod cymmaint o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, yn enwedig yn yr Hen Destament, wedi eu hysgrifenu yn "hymnau ac odlau ysbrydol," heb law y Salmau, y mae yn syndod fod cyn lleied o honynt wedi eu troi ar ddull prydyddol i'r iaith Gymraeg; heb sôn am un iaith arall. Nid ydym yn gwybod fod dim o honynt wedi eu cyfansoddi yn y dull hwnw yn

Digitized by Google

ein hiaith ni, ond y Salmau a Chaniad Solomon yn unig. Gan y dichon fod amryw o'n beirdd heb wybod pa ranau o'r Ysgrythyrau sydd wedi eu hysgrifenu yn wreiddiol mewn dull prydyddol, dymunwn gyflwyno iddynt y rhestr ganlynol, heb sicrhau nas dichon bod ychydig yn chwaneg yn y dull hwn:—

Cân Lamech i'w wragedd, Ada a Sila: *Gen.* iv. 23, 24. Cân Iacob i fendithio ei feibion: *pen.* xlix. 2—27. Cân Moses: *Exod.* xv. 1—18. Cân Miriam: *pen.* xv. 21. Cân yn erbyn Moab: *Num.* xxi. 14, 15. Cân Israel i ffynnon Beer: *pen.* xxi. 17, 18. Cân y diarhebwyr i Hesbon a Sehon: *pen.* xxi. 27—30. Dammegion Balaam wrth Balac: *pen.* xxiii. 7—10, 18—24; xxiv. 3—9, 15—24. Cân Moses am fawredd Duw: *Deut.* xxxii 1—43. Bendith Moses i feibion Israel: *pen.* xxxiii. oll. Cân Deborah a Barac: *Barn.* v. oll. Dychymyg Samson: *pen.* xiv. 14. Atteb iddi: xiv. 18. Cân Samson ar ei fuddugoliaeth: *pen.* xv. 16. Cân Hannah: 1 *Sam.* ii. 1—10. Marwnad Dafydd i Saul ac Ionathan; 2 *Sam.* i. 19—27. Marwnad Dafydd i Abner: *pen.* iii. 33, 34. Galarnad Dafydd am Absalom: *pen.* xviii. 33. Salm o ddiolchgarwch gan Dafydd: *pen.* xxii. 1—51. Geiriau diweddaf Dafydd: *pen.* xxiii. 1—7. Salm Dafydd o foliant i'r Arglwydd: 1 *Cron.* xvi. 8—36. *Iob* oll, ond y ddwy bennod gyntaf, a rhan o'r olaf; sef, *pen.* xlii. 7—17. *Llyfr y Salmau* oll. *Y Diarhebion* oll. *Preg.* iii. 2—8; vii. 1—14; x.; xi.; a xii. 1—7. *Caniad Solomon* oll. *Esa.* i.—v.; vi. 3, 9—13; vii. 4—25; viii. 5—xxxv.; xxxvii. 22—35; xxxviii. 9—29.; xl. hyd ddiwedd y llyfr. *Ier.* i. 4, 5, 10, 12—x.; xi. 11; xii.; xiii. 9—xv.; xvi. 1—9, 11—21; xvii. 1—18, 24—27; xviii 6—22; xx. 7—18; xxii,; xxiii.; xxiv. 4—10; xxv. 30—38; xxix. 5—19; xxx. 5—xxxi.; xxxiii. 2—26; xxxvi. 30, 31; xxxix. 16—18; xlii. 10—18; xlv. 3—5; xlvi. 3—l.; li. 1—58. *Galarnad Ieremiah* oll. *Ezec.* v. 5—vi.; vii. 1—27; xi. 6—12, 16—21; xii. 11—xiii.; xv.; xix.—xx. 6; xxiii; xxiv. 3—17, 21—xxxii.; xxxiii. 1—20, 25—xxxvi.; xxxvii. 12—14, 21—xxxviii.; xxxix. 1—10, 17—29; xl. 4; xlii. 7—11. *Dan.* ii. 20—23. *Hos.* ii.; iv. hyd ddiwedd y llyfr. Ioel oll. *Amos* i.—v.; vi. 1—8, 11—14; vii. 2, 3, 5, 6, 8, 9, 17; viii. 2, hyd ddiwedd y llyfr. *Obadiah* oll. *Ionah* ii. 2—9. *Micah* oll. *Nahum* oll. *Habacuc* oll. *Zephaniah* oll. *Hag.* i 4—11; ii. 3—9, 14—23. *Zech.* i. 2—6, 14—17; ii. 4—13; iii. 2—7, 10; iv. 6, 7; v. 3, 4; vi. 12, 13; vii. 9—14; viii. 1—17; ix; x.; xi. 1—6, 9, 16 hyd ddiwedd y llyfr. *Malachi* oll.

Ychydig sydd wedi ei ysgrifenu mewn dull prydyddol yn y Testament Newydd. Wele y rhanau a allwn ni eu canfod wrth redeg trwy y llyfr sanctaidd yn frysiog:—

Cân Mair i'w Hiachawdwr: *Luc.* i. 46—55. Cân Zacharias pan adferwyd iddo ei leferydd: *pen.* i. 68—79. Cân Simeon pan yr oedd yr Arglwydd Iesu yn ei freichiau: *pen.* ii. 29—32. Cân Moses, a chân yr Oen: *Dat.* xv. 3, 4.

Dyna ddigon dros ennyd, gwerth i'r beirdd penaf yn y wlad ymryson arnynt, er eu troi yn bennillion Cymreig, cymmhwys i'w canu mewn teuluoedd a chymdeithasau crefyddol; a byddai mydryddiaeth da ac ystwyth o'r "hymnau a'r odlau ysbrydol" a nodwyd, mewn mesurau canadwy, yn y naill eisteddfod ar ol y llall, nes eu gorphen, yn annhraethol deilyngach o gadeiriau a phrif wobrau yr eisteddfodau nag unrhyw destyn cadair a roddwyd hyd yn hyn, y gwyddom ni am dano. Y mae yn wir fod testyn Eisteddfod Rhuddlan yn 1850; sef, "Yr Adgyfodiad;" a thestyn Bangor yn 1874; sef, "Y Beibl;" yn destynau gwir odidog a buddiol; ond y mae cân fuddugol Ieuan Glan Geirionydd, a chân anfuddugol ardderchog Eben Fardd, yn Eisteddfod Rhuddlan, ar fesur cwbl anarferedig ac undonol, o'r dechreu i'r diwedd; ac am hyny nid ydynt o nemawr fudd cenedlaethol ac adloniadol. Am yr awdl fuddugol yn Eisteddfod Bangor, dichon ei bod yn gywreinbeth bychan clecyddol, a hoffir gan fawrygwyr y mesurau caethion; ond ni bydd hi, mwy na'i chwiorydd, byth o ddim defnydd cenedlaethol.

Heb law y byddai yn ddymunol i'r eisteddfod gynnyg cael *"Hymnau ac Odlau Ysbrydol"* y Beibl mewn mesurau arferedig, fel y crybwyllwyd, rhaid iddi, os mŷn wneyd lles i'r genedl yn gyffredinol, roddi cefnogaeth wresog i'r cyhoeddiad o lyfrau Cymraeg da a theilwng ar y gwybodau a'r celfyddydau—ar ieithyddiaeth, ar athroniaeth naturiol a moesol, ar rifyddiaeth a mesuroniaeth, ar hanesiaeth hen a diweddar, Beiblaidd a gwladol, ar fasnachaeth a chyfnewidiaeth, ar fŵnau a banciau, ar drefnidiaeth deuluol a gwladol, ar wladychddysg, ar lyfryddiaeth, ar ddaearyddiaeth a daeareg, ar anianaeth, ar filodiaeth ac adaryddiaeth, ar amaethyddiaeth a garddwriaeth, ar goginiaeth a dilladaeth, ar allofyddiaeth a goberwaith, ac ar feddyginiaeth a llysieuaeth—yn fyr, ar bob gwybodaeth fuddiol ac ymarferol, o duedd i wneyd pobl yn ddefnyddiol fel dynion a dinasyddion. "Rhywbeth," fel y dywedodd un gŵr, "o werth i'r Cymry yn gyffredinol—i'r genedl—sydd yn eisieu; ac nid rhywbeth i foddhau y sawl sydd ganddynt yn barod ddigon o ddysg i ddeall, a digon o arian i brynu llyfrau mewn ieithoedd eraill." Dylai testynau pwysig o'r fath a nodwyd, a'u cyffelyb, gael eu cyhoeddi ddwy neu dair blynedd cyn yr eisteddfod y beirniedid arnynt, er mwyn i'r ysgrifenwyr gael amser rhesymol i wneyd cyfiawnder â hwynt.

Ond er mor ddiffygiol y mae yr eisteddfod wedi bod hyd yma, wrth yr hyn y dylasai, ac y gallasai fod, etto y mae yn sicr y bu yn effeithiol, fel yr oedd, i symbylu lliaws o'n cenedl, yn enwedig ein pobl ieuaingc, i feddwl, darllen, a myfyrio, ac ysgrifenu; a rhaid i bawb gyfaddef ei bod, hyd yn oed fel difyrwch adloniadol i'r genedl, yn tra rhagori ar ddifyrion adloniadol ein cymmydogion; megys, rhedegfeydd meirch, cŵn, a champau corphorol dirywiedig eraill. Ië, clywsom fod rhai o honynt hwythau yn ddiweddar wedi dyfod i gydnabod hyny; a'u bod yn dechreu dynwared eisteddfod y Cymry! Wel, rhwydd hynt iddynt i fyned rhagddynt, nes dwyn eu gwerin, fel yr eiddom ni i raddau, i ymdrechu diwyllio eu meddyliau. Yn wir, y mae yr eisteddfod wedi bod yn foddion eisoes i ddyrchafu rhai o'n pobl ieuaingc ni i sylw y wlad, a'r byd hefyd, fel cerddorion ac ieithyddion. Ein beirdd ni sydd wedi bod yn fwyaf dinôd ac anhysbys i'r byd llenyddol hyd yn hyn; a hyny, i raddau mawr, o herwydd eu hymlyniad rhagfarnllyd a chyndyn wrth y mesurau caethion—prif amcan y rhai, pan y sefydlwyd hwynt, oedd lleihau y beirdd a'r clerwyr cardotaidd, crwydrol, oedd wedi myned yn faich gorthrwm ar y boneddigion, fel y tybient hwy. Gobeithio y cymmer ein beirdd a'n llenorion addysg; ac yr ymdrechant o ddifrif i wellhau yr eisteddfod o amser i amser, nes ei gwneuthur

Digitized by Google

o'r diwedd yn foddion effeithiol i goethi chwaeth ein cenedl, ac i wir gyfoethogi ein llenyddiaeth.

ADOLYGIAD YN 1896.

Y mae yn eithaf sicr fod yr Eisteddfod wedi ymddadblygu mwy o fewn y pymtheng mlynedd diweddaf nag mewn un cyfnod cyfartal yn ei hanes. Y mae mwy o waith wedi cael ei wneyd, a mwy o amrywiaeth gwaith wedi ei ddwyn i mewn i gylch ei gweithrediadau, yn ystod y cyfnod diweddaf hwn nag mewn un cyfnod arall o'i hanes—o'i sefydliad cyntaf.

Y mae ei Barddoniaeth wedi ymestyn i dir newydd. Nid ydyw 'yr hen bethau wedi myned heibio;' ond y mae llawer o bethau newydd wedi eu dwyn i mewn. Y mae y gadair, hyd yn hyn, wedi ei chadw i'r 'Awdl;' ond y mae 'Y Cywydd,' y 'Gosteg,' a'r 'Toddaid,' a'r 'Englyn' yn cael cefnogaeth hefyd; fel y mae yr hen sefydliad yn ymddadblygu ac yn ymëangu yn ol fel y mae syniadau yr oes yn gwellhau dan ddylanwad addysg a gwrteithiad rhagorach. Ni chyfyngir, er hyny, ar y Mesurau Caethion; ond gwneir cyfiawnder yn awr â'r Mesurau Rhyddion. Mae gwobrwyon teilwng yn cael eu cynnyg bob blwyddyn am Bryddestau, ac Arwr-gerddi, ac am Chwareu-gerddi, a Chantawdau; ac yn fynych hefyd am Ganeuon, Pennillion, ac Emynau; fel y gallwn ddyweyd fod yr Eisteddfod yn rhoddi ei chefnogaeth llawn i bob math a phob dosbarth o Farddoniaeth yn ol eu teilyngdod.

Gallwn ddywedyd hefyd ei bod wedi talu sylw i, ac wedi cefnogi pob cangen o Lenyddiaeth Rydd, o'r braidd, ac wedi cynnyg gwobrwyon rhesymol am Draethodau ar wahanol destynau. Y mae Gwyddoniaeth a Chrefydd, Beirniadaeth ac Ymchwil, a Daeareg ein gwlad, a'i Hadnoddau hefyd, wedi cael ei sylw a'i chefnogaeth. Y mae yr Eisteddfod wedi cefnogi ymchwiliad i Hanes Llenyddiaeth ein gwlad ein hunain; ac wedi bod yn foddion i ddwyn allan, erbyn hyn, dair o gyfrolau gwerthfawr, yn mha rai yr ymdrinir â'n prif Gyfnodau llenyddol. Y mae '*The Literature of the Kymry,*' gan y diweddar Thomas Stephens, o Ferthyr Tydfil, yn grynhöad gwerthfawr o Hanes Llenyddiaeth Cymru, o'r chweched hyd y bedwaredd ganrif-ar-ddeg:—a *Hanes Llenyddiaeth Gymreig* Gweirydd ap Rhys, yn ymdrin â'r cyfnod o ganol y bedwaredd ganrif-ar-ddeg hyd ganol yr unfed-ar-bymtheg: ac y mae *Hanes Llenyddiaeth Gymreig* gan Charles Ashton, hefyd, yn rhoi i ni y cyfnod o ganol yr unfed ganrif ar bymtheg hyd ganol y ddeunawfed. Mae genym, felly, erbyn hyn, rhwng y tair cyfrol a enwyd, hanes lled gyflawn o'n prif gyfnodau llenyddol. Eisteddfod Abergafenni, yn y fl. 1848, a dynodd allan y cyntaf, gyda gwobr o 25*p.* gan Dywysog Cymru. Eisteddfod Caerdydd, yn 1883, a dynodd allan yr ail, gyda gwobr o 100*p.*, gan Gymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol. Ac Eisteddfod Abertawe, yn 1891, a dynodd allan y drydedd gyfrol, gyda gwobr o 50*p.* gan Gymdeithas yr Eisteddfod etto.

Y mae Cerddoriaeth wedi cael lle a sylw arbenig yr Eisteddfod hefyd. Y mae cannoedd o bunnau wedi eu talu am gyfansoddiadau cerddorol, a miloedd lawer am ddadganu yn nghyfarfodydd yr Eisteddfod, yn ystod y pymtheng mlynedd diweddaf. Ond dichon mai nodwedd amlycaf yr Eisteddfod yn ystod y cyfnod hwn yw ei Chaniadaeth Gorawl. Y rheswm am hyn, fe allai, yw, mai dyma sydd yn tynu y cynnulleidfaoedd mwyaf i'w chyfarfodydd; ac felly yn talu oreu. Y mae y brif wobr i'r côr yn awr, fel rheol, tua dau cant o bunnau; ac y mae y gystadleuaeth yn lliosog a brwdfrydig. Nodwedd diweddar yn Nghymru yw cael Cerddorfa gyda'r Corau; ac i'r Eisteddfod yr ydym i ddiolch am alw sylw yr hen genedl gerddorol at gerddoriaeth offerynol.

Nodwedd arall arbenig y blynyddau diweddaf hyn yw Y Corau Meibion, a'r Corau Merched, sydd wedi cael sylw. Fel rheol, mae cystadleuaeth Corau y Meibion yn creu ymgais a brwdfrydedd anarferol; a dichon mai dyma y canu perffeithiaf o Ganu Corawl sydd wedi ei glywed etto yn Nghymru. Cynnelir llawer o Eisteddfodau yn y Deheu y dyddiau hyn; a'u prif atTyniad ydyw Cystadleuaeth y Corau o leisiau gwrywod; ac yn wir, gallwn ddyweyd fod y merched yn tynu yn gyflym ar eu holau. Y mae yr ymgystadleuaethau hyn yn creu brwdfrydedd mawr, yn tynu tyrfaoedd; ac y mae y tyrfaoedd yn talu—yr hyn ydyw 'diwedd pob cân,' a llwyddiant tymmhorol pob Eisteddfod.

Y mae Celf a Gwyddor—yn enwedig Celf—wedi cael sylw neillduol a chefnogaeth galonog. Y mae y Celfau Cain wedi cael sylw arbenig, a gwobrwyon da wedi eu cynnyg am ragori mewn llawer cangen; ac y mae arddangosfa o'r cynnyrchion yn cael ei chynnal ynglŷn â'r Eisteddfod bob blwyddyn yn awr; ac y mae hyn, bellach, wedi dyfod yn gangen bwysig o'r hen sefydliad. Yn wir, y mae yr arddangosfa o'r gweithiau celfyddydol ynglŷn â llawer Eisteddfod, y blynyddau diweddaf hyn, wedi bod yn rhywbeth gwerth ei gweled, ac yn gyfryw y gellir ymffrostio ynddi.

Heb law y Celfau Cain, y mae y Celfyddydau Defnyddiol wedi cael symbyliad a chefnogaeth gan yr Eisteddfod hefyd. Y mae y rhai sydd yn 'gweithio mewn pren a maen' wedi eu tynu allan i geisio rhagori ar eu gilydd. Y mae yr hon sydd yn nyddu llîn a gwlân, ac yn gwneyd 'gwaith edau a nodwydd,' wedi ei gweled a'i chefnogi gan yr Eisteddfod, a'i chalonogi yn yr ymdrechfa. Hefyd, y mae gwaith y gôf, a'r crydd, yn cael eu barnu a'u gwobrwyo gan yr Eisteddfod. Gallwn ddyweyd, erbyn hyn, fod pob cangen o weithgarwch a difyrwch, yn gystal a'r canghenau o Lenyddiaeth a nodwyd, sydd yn perthyn i ni fel cenedl, wedi eu cydgrynhoi i'r Eisteddfod, nes ei gwneuthur yn fath o Brifysgol y wlad mewn gwirionedd.

Yr ydym wedi clywed bachgen o löwr yn canu unawd, ac wedi ei weled yn sefyll 'pâr o goed' yn yr un Eisteddfod—ac yn ennill yn y ddwy gystadleuaeth!

Yr ydym wedi gweled bachgen o chwarelwr yn hollti llechi, ac yn cynghaneddu englyn—ac yn ennill y wobr a'r clod am bob un!

Yr ydym wedi gweled llangces o forwyn yn canu cân, ac yn nyddu gwlân ar y llwyfan—ac yn dyfod allan o'r gystadleuaeth yn *double first!*

Gallesid enwi llawer o enghreifftiau cyffelyb, sydd wedi gwneyd yr Eisteddfod erbyn hyn yn sefydliad gwerinol cenedlaethol mewn gwirionedd. Yma y ceir gweled gwerin gwlad ar ei gorsedd, a'r llifeiriant cenedlaethol yn ysgubo pob peth o'i flaen.

Y mae'n wir fod ein pendefigion a'n gwŷr mawr, a'n dynion blaenllaw a dysgedig, yn cymmeryd dyddordeb canmoladwy, a rhan amlwg yn noddi a chefnogi yr Eisteddfod; ond y werin sydd yn llanw ei phebyll—y genedl sydd

Digitized by Google

yn 'codi'r ysbryd, a'r hwyl'—a llais y miloedd sydd yn ysgubo pob peth oddi ar ei llwyfanau, ond yr hyn a fyno mwyafrif y bobl ei oddef, ei glywed, a'i fwynhau.

Y mae poblogrwydd cynnulliadau yr Eisteddfod wedi cynnyddu yn ddirfawr yn ystod y cyfnod a nodwn, fel y mae y dorfeydd wedi myned yn hynod o liosog, a'r pebyll yn ddiderfyn o fawr. Yn fynych iawn y blynyddau hyn, yn Eisteddfodau Cenedlaethol y Deheu, fe geir gweled torf o bymtheg neu ugain mil! Mewn gwirionedd, bu mwy nag ugain mil gyda'u gilydd yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, yn y flwyddyn 1891.

Nid pwngc bach erbyn hyn ydyw gwneyd i Eisteddfodau dalu eu ffordd. Yn wir, y maent yn fethiant arianol ambell dro—pan y bydd y gwobrwyon yn uchel, a'r treuliau yn fawr. Llundain, yn y flwyddyn 1887, a Phont-y-pridd yn y flwyddyn 1893, oedd yr unig ddwy Eisteddfod o fewn y pymtheng mlynedd diweddaf a fethasant dalu eu ffordd mewn ystyr arianol. Talasant am eu cynnal yn mhob ystyr arall. Ni bu dwy Eisteddfod mwy anrhydeddus, na dau gynnulliad mwy urddasol, yn y gyfres na'r eiddo Llundain a Phont-y-pridd; ond fod y draul ynglŷn â hwy yn fwy nag arferol o gryn lawer. Felly, methwyd cael 'dau pen y llinyn' arian ynghyd, heb alw cymmhorth yr ymddiriedolwyr—y rhai, yn anrhydeddus, a gliriasant y cyfan ar unwaith.

Cryn anturiaeth, y dyddiau hyn, ydyw gwahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i unrhyw dref. Er hyny, y mae ceisiadau am dani flynyddau yn mlaen, bob tro.

Y mae yr Eisteddfod Genedlaethol, yn y gyfres hon, wedi ei chynnal yn gysson a rheolaidd bob yn ail blwyddyn yn y Gogledd a'r De, o'r flwyddyn 1881. Ni chynnaliwyd Eisteddfod Genedlaethol, fel y cyfryw, yn 1879, nac yn 1880. Ond yn Eisteddfod fawr Caernarfon, yn 1880, ail gychwynwyd y gyfres; a pharotowyd ar gyfer cychwyn yn Merthyr y flwyddyn ganlynol.

Dyma y gyfres o hyny hyd yn awr:—a'r testynau, ac enwau y buddugwyr:—

| | | |
|---|---|---|
| Merthyr Tydfil.—'Cariad' | ... *Dyfed* | 1881 |
| Dinbych.—'Dyn' | ... Cadair wâg | 1882 |
| Caerdydd.—'Y Llong' | Cadair wâg | 1883 |
| Liverpool.—'Hiraethog' | ... *Dyfed* | 1884 |
| Aberdar.—'Y Gwir yn erbyn y Byd.' ... | ... *Watcyn Wyn* | 1885 |
| Caernarfon.—'Gobaith' | ..*Tafolog* | 1886 |
| Llundain.—'Victoria' | ... *Berw* | 1887 |
| Gwrecsam.—'Peroriaeth.' | ... *Tudno* | 1888 |
| Aberhonddu.—'Y Beibl Cymraeg' ... ... | ... *Dyfed* | 1889 |
| Bangor.—'Y Llafurwr' | ... *Tudno* | 1890 |
| Abertawe.—'Yr Haul' | ...*Pedrog* | 1891 |
| Rhyl.—'Y Cenhadwr' | ...*Gurnos* | 1892 |
| Pont-y-pridd.—'Y Pulpud Cymraeg ... ... | *Ceulanydd* | 1893 |
| Caernarfon.—'Hunan-aberth' | ..*Elfed* | 1894 |
| Llanelli.—'Dedwyddwch' | ...*Pedrog* | 1895 |
| Llandudno (i fod) ... ... | ... | 1896 |
| Casnewydd (etto) ... ... | ... | 1897 |

Y mae pwyllgor Llandudno wedi tori ar yr hen drefn, a chynnyg cadair am y darn goreu o farddoniaeth gaeth, neu rydd, ar 'Y tu hwnt i'r llen.' Nid ydym yn gwybod etto pa beth a ddywed y beirdd am hyn pan ddaw y testyn o flaen yr orsedd. Y mae yn amlwg er's blynyddoedd fod yna ddwy farn, a dwy blaid, yn mysg y beirdd ar gwestiwn cadw y gadair yn rhwym wrth yr awdl. Rhoddodd Watcyn Wyn rybudd yn nghyfarfod y beirdd yn Eisteddfod Caernarfod, 1894, y byddai iddo gynnyg, yn Eisteddfod Llanelli, 1895, fod y gadair a'r goron i gael eu rhoi bob yn ail blwyddyn i'r awdl a'r bryddest. Y gadair am bryddest, a'r goron am awdl un flwyddyn; a'r gadair am awdl, a'r goron am bryddest, y flwyddyn arall; ac felly bob yn ail, er mwyn cadw y ddwy urdd ar yr un safle, a chadw y beirdd yn gyfarwydd yn y mesur caeth a'r mesur rhydd. Daeth y cwestiwn ger bron yn Llanelli; ond collwyd ef.

Y mae y ddwy urdd yn cael eu dal i fyny, ac yn ymgais am gael eu cyfrif ar yr un safle, ac am feddu yr un urddas, er's blynyddoedd; ac y mae dwy faingc o feirniaid yn cael eu hethol bob blwyddyn—tri ar y mesurau caethion, a thri ar y mesurau rhyddion. Ond y cwestiwn mawr yn mhob eisteddfod yw, 'Pwy a gafodd y gadair?' Dyma yr hen urdd Gymreig! Ar hon yr edrychir. O blegid hyn, y mae teimlad er's blynyddoedd, a hwnw yn codi bob blwyddyn, dros roddi y gadair yn rhydd i gynnyg ei hennill yn y mesur a fyn y beirdd. Diau fod yma lawer o feirdd o'r 'ysgol newydd,' nad ydynt wedi astudio yr 'hen fesurau;' a byddai yn dda, er mwyne ystadleuaeth, a heddwch, cenedlaethol, weled y cyfryw yn cael cynnyg ennill yr hen anrhydedd Cymraeg cyssylltiedig â'r gadair; a byddai yn dda genym weled hyn yn dyfod i ben. Ar yr un pryd, credwn y dylid cadw yr awdl, er mwyn ymarferiad, a gwrteithiad hefyd, yn yr hen fesurau Cymreig cywrain a phrydferth.

Tuedd yr oes ydyw symmud yr hen arwyddion, ffiniau, a ffordd, ac ymdaith yn mlaen am fwy o ryddid ac ëangder. A chredwn y daw hyn i ben—yn enwedig os bydd pwyllgorau fel Llandudno yn penderfynu gwneyd hyn. Credwn, er hyny, y dylai pob bardd—pob prif fardd Cymraeg—fod yn berffaith feistr, ac yn berffaith gyfarwydd yn y mesur cynghaneddol, ac yn y mesur rhydd. Hyderwn yn fawr y deuir i gyd-ddealltwriaeth yn fuan—a hyny er mwyn 'Cymru Fydd, Cymru Gyfan.'

Yr hyn sydd wedi gwneyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn fwy cenedlaethol nag un arall ydyw y ddwy gymdeithas; sef, 'Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol,' a 'Chymdeithas yr Orsedd.'

Wedi llawer cynnyg, a llawer cynghor i ymdrechu adfywio a noddi yr Eisteddfod, a rhoddi gwedd genedlaethol barhaol arni, darllenwyd papur gan y diweddar Gymro gwladgarol, Syr Hugh Owen, o flaen Cymdeithas y Cymmrodorion, Llundain, ar y 10fed o Ebrill, 1880. Yn Eisteddfod Caernarfon, ar y 25ain o Awst yr un flwyddyn, rhoddodd Syr Hugh Owen ei gynllun o flaen cyfarfod o gyfeillion a noddwyr yr Eisteddfod. Bu dadleu dyddorol a brwd yn y cyfarfod hwnw. Cyttunai pawb fod y cynllun yn dda, a bod angen gwneyd rhywbeth parhaol, sylweddol, a chenedlaethol i noddi a chefnogi yr Eisteddfod. Ond methwyd cyttuno ar y manylion, ac ar etholiad a lleoliad y cynghor. Ofnai rhai i'r ychydig reoli y llawer. Penderfynwyd, fodd bynag, fod Cymdeithas yr Eisteddfod i gael ei ffurfio; a bod cyfarfod i fod yn yr Amwythig i ystyried yr achos yn mhellach. Cyfarfu y pwyllgor rhagbarotoawl yn yr Amwythig y mis canlynol, o dan lywyddiaeth Mr. J. H. Puleston, A.S.

Digitized by Google

Yno, penderfynwyd gofyn i Syr Watkin Williams Wynn fod yn llywydd; a chydsyniodd yntau yn galonog. Cyhoeddwyd rhaglen y gymdeithas Ddydd Gŵyl Dewi, 1881.

*Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol.* — Cynnaliwyd ei chyfarfod blynyddol cyntaf yn Merthyr Tydfil ynglŷn â'r Eisteddfod, ar Awst 24ain, 1881. Y mae y gymdeithas wedi dal yn gryf, yn gyfan, a defnyddiol o hyny hyd yn awr. Yr Ardalydd Bute ydyw y llywydd; Mr. T. Marchant Williams yw y trysorydd; a Mr. E. Vincent Evans yw yr ysgrifenydd. Y gwaith pwysicaf y mae y gymdeithas hon wedi ei wneyd ydyw sicrhau noddwyr urddasol i'r Eisteddfod, cyfranu gwobrwyon teilwng am lawer o gyfansoddiadau, a chyhoeddi cyfrolau o brif gynnyrchion yr Eisteddfod, a chofnodion o'i hanes. Rhoddwn yma restr o'r cyfrolau a gyhoeddwyd gan y gymdeithas hon:—

| | |
|---|---|
| Cyfansoddiadau Eisteddfod Aberdâr ... | 1885 |
| Cyfansoddiadau Eisteddfod Caernarfon. | 1886 |
| Cyfansoddiadau Eisteddfod Llundain ... | 1887 |
| Cyfansoddiadau Eisteddfod Gwrecsam... | 1888 |
| Cyfansoddiadau Eisteddfod Aberhonddu | 1889 |
| Cyfansoddiadau Eisteddfod Bangor ... | 1890 |
| Cyfansoddiadau Eisteddfod Abertawe ... | 1891 |
| Cyfansoddiadau Eisteddfod Rhyl ... | 1892 |
| Cyfansoddiadau Eisteddfod Pont-y-pridd | 1893 |
| Cyfansoddiadau Eisteddfod Caernarfon. | 1894 |

Heb law hyn, y mae y gymdeithas hon wedi cyhoeddi cyfrolau gwerthfawr Gweirydd ap Rhys a Charles Ashton ar *Hanes Llenyddiaeth Gymreig*, yn ddwy gyfrol hardd, 10*s*. yr un.

Deallwn hefyd fod casgliad o weithiau barddonol Iolo Goch yn y wasg, a Llyfryddiaeth y ganrif hon, yn bedair neu bum cyfrol drwchus, yn cael eu parotoi i'r wasg. Y mae hyn oll yn rhoddi golwg ar gyfran o waith gwerthfawr y gymdeithas hon, o'i chychwyniad hyd yn awr —gwasanaeth pwysig i Lenyddiaeth Cymru.

*Cymdeithas yr Orsedd.*—Bu llawer cynnyg at gael sefydlu y gymdeithas hon; er cael rhywbeth i reoli cyfarfodydd y beirdd, ac i gynnorthwyo i ddewis testynau a beirniaid, ac i gymmeryd rhan yn rheolaeth a threfniadau yr Orsedd. Cynnygiodd Ceiriog gael Bord Gron; ond nid llawer o lewyrch a fu arni, hyd nes i ddrychfeddwl Eifionydd am Gymdeithas yr Orsedd ddyfod yn ffaith. Sefydlwyd hi yn Eisteddfod Genedlaethol Gwrecsam, yn 1888. Pennodwyd yno bwyllgor lliosog, a llanwyd y cylch o swyddogion yn cynnrychioli y deuddeg sir. Yno yr etholwyd Clwydfardd yn ffurfiol yn archdderwydd, Hwfa Môn yn fardd yr orsedd, a Gwynedd yn drysorydd, Watcyn Wyn yn ysgrifenydd mygedol, ac Eifionydd yn gofiadur.

Y mae y gymdeithas hon wedi gwneyd gwasanaeth mawr i'r hen sefydliad ynglŷn â chyhoeddi pob Eisteddfod, cynnal Gorsedd ar adeg yr ŵyl, a chyflwyno urddau Gorsedd Beirdd Ynys Prydain i bersonau teilwng, a gweithredu fel math o bwyllgor i gymmeradwyo rhestr y testynau, a'r beirniaid, bob blwyddyn.

Y mae arholiadau y gymdeithas hon wedi dyfod i sylw arbenig y blynyddoedd diweddaf. Nodir llyfrau i'w darllen ar gyfer arholiadau y beirdd, y cerddorion, a'r ofyddion; ac enwir arholwyr i dynu allan gwestiynau, a phrofi yr ymgeiswyr; ac nid gwiw i neb, bellach, gynnyg am urdd Gorsedd os na bydd efe wedi parotoi yn dda ar gyfer hyny.

Y mae cyfarfodydd yr Orsedd yn cael eu cynnal yn yr awyr agored bob blwyddyn. Ystyrir y cyfarfodydd hyn yn mysg y rhai mwyaf poblogaidd a dyddorol sydd ynglŷn â'r Eisteddfod. Y mae gwerin Cymru yn cael mwynhâd a difyrwch difesur wrth edrych ar gylch Gorsedd y Beirdd, a gweled y defodau henafol a'r arferion cyntefig yn cael myned drwyddynt yno 'yn ngwyneb haul, llygad goleuni.'

Y mae rhai yn barod i wenu wrth weled hyn, ac i wawdio yr holl waith a wneir yn y cylch. Yn marn eraill, nid oes dim mor ddifyr, mor swynol, nac mor brydferth a henafol, a'r cyfarfodydd hyn o fewn cylch yr Eisteddfod i gyd. Dadleua eu pleidwyr, pe byddai i ni ddiosg pob sefydliad o'n heiddo o bob ffurf a seremoni, na byddai genym ddim wedi ei adael i appelio at y meddwl cyffredin? Y mae y rhaid i'r werin wrth ffurfiau, seremonïau, ac arddangosiadau; ac yn wir, arferir hwynt yn amlwg yn mhob cylch. 'Paham, ynte (gofynir), y mae'n rhaid lladd arnynt ynglŷn â hen sefydliad ein cenedl ni? Cadwer hwynt byth i ddifyru gwlad wrth ei dysgu. Y mae digon o geisio dysgu sych, heb ddim swyn yn bod.' Dyddorol iawn i filoedd oedd Gorsedd Eisteddfod Caernarfon yn 1894; lle yr oedd y beirdd, a'r derwyddon, a'r ofyddion yn eu gwisgoedd swyddogol. Yr ydym yn deall fod tua thrigain o wisgoedd gorseddol wedi eu prynu; ac yn cael eu cadw mewn cist yn Nghastell Mostyn. Anfonir y gist a'r dillad i'r dref lle y bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal bob blwyddyn; ac ar ol hyny, dychwelir hwy yn ol i Gastell Mostyn hyd y flwyddyn ddilynol. Casglwyd tua chan punt i dalu am danynt, a bu Arglwydd Mostyn ei hun yn haelionus iawn tuag at glirio y draul—fel y mae efe yn mhob ystyr yn deilwng o fod yn 'geidwad y gist.'

Gŵn llaes, a chapan, sydd yn gwneyd i fyny y wisg; sef, Gŵn gwyn i'r derwydd; gŵn glâs goleu i'r bardd; a gŵn gwyrdd i'r ofydd. Yr oedd golwg urddasol a henafol Gymreig ar gylch yr Orsedd ar betryal Caernarfon yn ymyl y Castell, pan oedd Tywysog a Thywysoges Cymru, a'u dwy ferch, y tywysogesau ieuaingc, yn derbyn urddau o law yr hen Glwydfardd ar ddiwrnod heulog hyfryd yn mis Gorphenaf, 1894.

Dyma y tro diweddaf i'r hen Glwydfardd wasanaethu yn yr Orsedd, ar ol ei dilyn am yn agos i gan mlynedd! Heddwch i lwch yr hen fardd heddychol!

Y mae'n sicr mai dyma y ddwy gymdeithas sydd wedi gwneyd mwyaf dros yr Eisteddfod yn nghorph yr hanner can mlynedd diweddaf; ac fe allai y gellir dyweyd, er ei sefydliad cyntaf. Y mae llawer o farnu wedi bod arnynt: ond gan rai yn sefyll draw—rhai nad ydynt yn gwneyd dim ond 'pigo beiau.' Cynnygiwyd yn Rhyl i uno y ddwy gymdeithas i wneyd rhai pethau, a galw y gymdeithas unedig yn 'Gymdeithas yr Eisteddfod a'r Orsedd.' Cyttunwyd eu bod i gydweithredu ar rai amgylchiadau, ond i weithredu a'r wahân gyda phethau eraill; a hyderir y bydd i'r ddwy gymdeithas weithio yn unol, ac ar wahân hefyd, yn hir, i wneyd etto yn y dyfodol fwy nag erioed dros yr hen sefydliad sydd mor anwyl gan gorph y genedl.

Mae nifer liosog o fân gymdeithasau eraill yn llechu am eu bywyd yn nghysgod yr Eisteddfod. Nid ydym yn gwybod pa faint o les, na pha faint o waith, a wneir ganddynt; ond gellir meddwl wrth eu gweled eu bod yn mwynhau eu hunain yn rhagorol am unwaith yn y flwyddyn. Dymunwn hir oes a heddwch iddynt, gan ei fod yn sicr eu bod yn gwneyd daioni.

Digitized by Google

Y mae yr holl ffeithiau uchod yn dangos y nerth, yr attyniad, a'r swyn sydd yn ein sefydliad cenedlaethol. Gallwn ddyweyd eu bod yn tynu allan lawer o adnoddau athrylith a natur dda y Cymro, na welsid mo honynt pe na buasai am yr hen sefydliad.

Y mae yr Eisteddfod wedi dilyn y Cymro i bob gwlad lle y mae efe wedi ymfudo. Yn Lloegr, y mae hi i'w chael yn y trefydd, ac yn mhob rhan o'r deyrnas lle y mae Cymry wedi myned i fyw. Y mae hi yn yr Unol Dalaethau hefyd. Wrth edrych dros newyddiaduron Cymreig yr America gellir tybied fod Eisteddfodau yno o'r braidd mor aml ac mor boblogaidd ag ydynt yn ein gwlad ni; a gallwn feddwl fod eu nifer yn myned ar gynnydd hefyd.

Cynnaliwyd Eisteddfod a elwid yn 'Gydgenedlaethol,' yn Chicago, yn mis Medi, 1893. Gellir tybied, wrth edrych arni o bell, a gwrandaw ar sain ei hudgorn o'r ochr hyn i'r Werydd, ei bod yn fawreddog mewn gwirionedd.

Mae y Cymry wedi cynnal llawer o Eisteddfodau yn Awstralia hefyd; ac y mae rhai o honynt wedi bod yn hynod lwyddiannus. Felly, hefyd, Gymry Deheubarth Affrica. Mewn gair, yn mhob lle y bydd Cymry wedi ymfudo iddo, bydd Eisteddfod yno cyn hir; a chanu a barddoni, a chystadlu, yn ennill sylw neillduol, ac yn swyno pawb.

Nid ydym wedi dyweyd dim am un Eisteddfod yn y wlad hon, ond yn unig yr un a elwir yn 'Genedlaethol.' Un ydyw yr Eisteddfod fel sefydliad; ond fod iddi wahanol ganghenau, a gwahanol gyfarfodydd. Y mae y mân gyfarfodydd eisteddfodol yn gwneuthur gwaith da. Dyma y rhai sydd yn tynu allan dalentau ardaloedd, ac yn dadblygu galluoedd ieuengctyd Cymru mewn barddoniaeth a chân; ac felly, yn porthi yr uchel-ŵyliau. Heb y rhai hyn, ni byddai y cynnulliad blynyddol mor genedlaethol, nac mor fyw ag ydyw.

Y mae mwy o'r eisteddfodau bychain lleol, y cyfarfodydd cystadlu a elwir yn 'eisteddfodau' yn awr, nag y mae neb yn gofio, fe allai; ac y mae yr hen sefydliad a elwir 'Yr Eisteddfod,' yn ei holl waith a'i holl ganghenau, yn fwy blodeuog a phoblogaidd heddyw, ar ddechreu y flwyddyn 1896, nag y mae wedi bod erioed.

EISTEDDFOD LLANELLI, YN 1895.

Wrth edrych ar Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn uchod, credwn y deil gymmhariaeth ffafriol âg unrhyw Eisteddfod a gynnaliwyd yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf.

Yr oedd y gystadleuaeth lenyddol yn lliosog anarferol—yn enwedig y gystadleuaeth am y Gadair. Y testyn oedd awdl ar 'Ddedwyddwch;' a daeth cynnifer a chwech-ar-hugain o ymgeiswyr i gynnyg am yr anrhydedd o eistedd yn y gadair—y nifer liosocaf erioed; yr hon a ennillwyd gan y cadeir-fardd adnabyddus, Pedrog.

Ar y bryddest am y Goron etto, cynnygiodd pymtheg ar y testyn 'Ioan, y Dysgybl anwyl;' ac ennillwyd gan yr hen bryddestwr adnabyddus, Llew Llwyfo.

Buasai yn dda gan bawb weled bardd newydd yn ennill y Gadair, a bardd newydd arall yn ennill y Goron—yn lle bod yr hen gewri adnabyddus a enwyd yn chwanegu cadair at gadair, a choron ar ben coron.

Ai tybed nad anrhydedd i'w ennill am unwaith yn unig a ddylai anrhydedd y Gadair fod, a'r Goron Genedlaethol? Mae sôn am wneyd rhyw reol i'r perwyl er's blynyddoedd; a chredwn mai da fyddai cael rheol felly. Dylai yr anrhydedd hon yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol fod yn debyg i radd yn y Prifysgolion:—anrhydedd i'w ennill unwaith, a'i gadw am oes.

Yr oedd cystadleuaethau lliosog ar bob testynau eraill; yr hyn sydd yn dangos fod yr hen sefydliad yn parhau i ddal gafael yn nghalon y genedl.

Cafwyd cystadleuaethau rhagorol ar Gerddoriaeth yno. Dywedai Syr Joseph Barnby, un o feirniaid yr Eisteddfod, fod Canu Corawl Cymru mor berffaith ag y gellid disgwyl iddo fod; ac y dylai corau Cymru droi at rywbeth arall, heb law cystadlu, bellach—rhywbeth y byddai ei effeithiau a'i ddaioni yn fwy parhaol.

Yn marn y Proffeswr Herkomer, nid oedd yr Adran Gelfyddydol ynglŷn â'r Eisteddfod yn ddim y gellid ymffrostio ynddi. Mae'n debyg nad ydyw Cymru wedi cymmeryd at hyn etto o ddifrif. Dichon y bydd hon yn un o feusydd llafur neillduol yn y blynyddoedd nesaf; ac fe allai y ceir gweled Cymru mor hynod yn hyn ag ydyw mewn Cerddoriaeth.

Yr oedd y cynnulliadau yn lliosog bob dydd —yn enwedig yr ail ddydd, a'r olaf; sef, dydd y brif Gystadleuaeth Gorawl, a dydd Côrau y Meibion, a'r Seindorfau Pres.

Cerddoriaeth sydd yn tynu y cynnulliadau mawrion; a cherddoriaeth sydd yn cael braidd holl amser wythnos yr Eisteddfod; a cherddoriaeth sydd yn cael baich y gwobrwyon hefyd.

Nid ydym yn gwybod pa un a ydyw Eisteddfod Llanelli, er yr holl dorfeydd oedd ynddi bob dydd, wedi talu ei ffordd, ar ol tynu allan fil o bunnau am fenthyg yr adeilad. Wrth gwrs, bydd yr adeilad gan y dref; ac y mae yr Eisteddfod wedi rhoi mil o bunnau o rodd i gynnorthwyo talu am dani; ac fe allai na bydd ganddi ddim llawer arall dros ben. Pwnge pwysig, erbyn hyn, ydyw gwneyd i'r sefydliad dalu ei draul ei hun â dim ond sylltau y genedl. Y mae'r draul bob blwyddyn yn fawr. Yr oedd traul Eisteddfod Llanelli, yn 1895, tua phedair mil a hanner o bunnau; yr hyn sydd yn faich rhy drwm i'w ddwyn. Rhaid yn fuan gofalu fod y draul o'i chynnal yn dyfod yn llai; neu, ynte, bydd yn sicr o'i llethu. Mewn trefn i gyrhaedd hyn, rhaid i'r pwyllgorau edrych pa beth y gellir ei adael allan wrth barotoi y program; a rhaid i gyfoethogion y wlad gynnorthwyo gyda'u haur a'u harian, os ydyw yr hen sefydliad i gael ei gadw yn fyw. Dywedir mai ychydig o gynnorthwy y gwŷr arianog a gafwyd yn Eisteddfod Llanelli.

## YSTADEGAU CYFUNDEBAU CRISTIONOGOL PROTESTANAIDD CYMRU.

Yn yr erthygl hon, rhoddir amryw fanylion am sefyllfa bresennol yr Enwadau Protestanaidd yn Nghymru. Gan fod erthyglau eraill wedi eu cyhoeddi yn nghorph y gwaith hwn ar gyfansoddiad a llywodraeth eglwysig, a'r athrawiaethau a arddelir ganddynt, ni wnawn yma ond rhoi y ffigyrau mwyaf cywir y gallasem eu cael am rifedi eu haelodau, a manylion eraill am danynt a ddangosant eu rhif, a'r cynnydd sydd wedi cymmeryd lle yn eu plith yn ystod y blynyddoedd diweddaf.

Ni a ddechreuwn trwy roddi ystadegau y gwahanol Enwadau yn annibynol ar eu gilydd, yn ol trefn y wyddor. Mae rhai o honynt wedi eu cymmeryd allan o ddaflenni a dyddiaduron y

Digitized by Google

cyfundebau, ac y maent felly mor agos i fod yn gywir ag y gellir disgwyl iddynt fod. Y mae cyfrifon y Bedyddwyr, hyd y fl. 1893, yn ymddangos mewn erthygl dan y gair BEDYDDWYR yn td. 450 o'r gyfrol hon. Gan hyny, ni raid eu hail gyhoeddi yma etto; ac ni roddir yma ond cyfrifon y tri enwad Ymneillduol—yr ANNIBYNWYR, y METHODISTIAID CALVINAIDD, a'r METHODISTIAID WESLEYAIDD—a'r EGLWYS SEFYDLEDIG—yn Nghymru, ac yn mhlith y Cymry yn nhrefydd Lloegr yn unig. Ni a ddechreuwn felly gyda

### YR ANNIBYNWYR.

Yn ol yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Undeb Annibynol Cymraeg, a gynnaliwyd yn Mhwllheli, Gorphenaf, 1895, y mae cyfrifon yr enwad fel y canlyn:—

*Cyfrifon Cyffredinol.*—Perthyna i'r enwad yn Nghymru, Llundain, Liverpool, &c., 31 o Gyfundebau, Cymreig a Saesnig—gyda 1,000 o eglwysi, 135,849 o aelodau, 143,122 o wrandawyr a phlant, ac 138,807 o aelodau yn yr Ysgolion Sabbothol. Yr holl gasgliadau yn 152,060*p*. 8*s*.

Teg yw gwneyd yn hysbys fod rhai eglwysi heb anfon eu cyfrifon i law; ac felly, nid ydyw y ffigyrau uchod yn cynnwys holl rif aelodau, &c., yr enwad.

Cyfrifir fod gwerth eiddo yr enwad yn 1,297,035*p*. Talwyd o ddyledion y capeli yn y flwyddyn 1894:—32,533*p*.

### Y METHODISTIAID CALVINAIDD.

*Cyfrifon Cyffredinol.*—Perthyna i'r cyfundeb hwn 24ain o gyfarfodydd misol, ac o henaduriaethau. Ar ddiwedd y fl. 1894, yr oedd yr ystadegau fel y canlyn:—Rhif yr eglwysi, 1,308; capeli a lleoedd pregethu, 1,486; adeiladau eraill at wasanaeth yr Ysgol Sabbothol, 690; Tai i weinidogion, 122; Gweinidogion, 720; Pregethwyr, 403; Blaenoriaid, 5,309; Cymmunwyr, 145,094; Plant yr Eglwysi, 66,431; Ymgeiswyr am aelodaeth, 2,931. Cyfanrif yr aelodau yn yr eglwysi, 214,456. Derbyniwyd i gymmundeb yn ystod y flwyddyn, 20,494; ac i'r Ysgolion Sabbothol, 1,602. Cyfanrif aelodau yr Ysgolion, 195,354. Y gwrandawyr, 306,669.

*Cyfrifon Sirol*, &c.—Mae cyfrifon y gwahanol gyfarfodydd misol yn yr uchod; ac wrth eu cymmharu â chyfrifon 1893, dangosant fod pob cangen o'r achos, yn mron, wedi cynnyddu yn holl siroedd Cymru, a'r trefydd Saesnig.

*Cyfrifon Arianol.*—Gydag ychydig iawn o eithriadau, dengys y casgliadau gynnydd boddhaol. A ganlyn sydd restr o'r prif gasgliadau: —At y weinidogaeth, 87,602*p*. 18*s*. 7*c*.; at y cenadaethau, 7,592*p*.; at y lleoedd gweiniaid, 2,798*p*.; at ddyledion y capeli, 50,811*p*.; at yr Ysgol Sabbothol, 5,730*p*.; at wahanol achosion eraill, 42,160*p*. Yr oedd cyfanswm y casgliadau am y flwyddyn yn 230,104*p*. 17*s*. 4*c*. Y ddyled ar y capeli ddiwedd y flwyddyn 1894 oedd 297,859*p*. 18*s*. 1*c*.

*Cyfrifon Amrywiol.*—Perthyna i'r cyfundeb hwn 214 o eglwysi Saesnig, gyda 221 o gapeli a lleoedd pregethu hefyd; 1,470 o gymmunwyr, a 46,950 o wrandawyr. Yr oedd cyfanswm casgliadau yr eglwysi hyn yn 40,836*p*. Cyfrifir fod 46,120 o Fethodistiaid Cymreig ar wasgar mewn gwahanol drefydd, &c.—y rhan fwyaf o ba rai sydd yn byw yn Llundain. Wrth gymmharu y cyfrifon am y flwyddyn a nodwyd â'r cyfrifon am y flwyddyn 1893, ymddengys fod yr achos yn cynnyddu yn mhob rhan o hono gyda'r gangen Saesnig o'r cyfundeb hwn. Y mae chwanegiadau wedi cymmeryd lle yn nifer yr eglwysi; ac y mae rhif yr aelodau, a'r cyfraniadau, wedi cynnyddu hefyd.

*Y Genhadaeth yn India.*—Rhydd y rhestr isod olwg ar sefyllfa y gwaith yn Khasia, Jaintia, a Sylhet:—Lleoedd pregethu, 250; cymmunwyr, 2,726; ymgeiswyr am aelodaeth, 2,235; plant yn yr eglwysi, 3,769; holl aelodau yr eglwysi, 8,730. Athrawon yr Ysgolion Sabbothol, 524; ysgolheigion, 8,900; gwrandawyr, 11,608. Yr ysgolheigion yn yr ysgolion dyddiol, 6,191. Dengys y gangen hon, hefyd, o'r cyfundeb Methodistaidd, gynnydd yn mhob cyfeiriad er y flwyddyn 1893.

### Y METHODISTIAID WESLEYAIDD.

*Cyfrifon Cyffredinol.*—Pan y bu farw John Wesley, yn y fl. 1791, rhifai gweinidogion y cyfundeb hwn drwy yr holl fyd, 321; a rhif yr aelodau oedd 79,000. Ond erbyn 1895, rhifai y gweinidogion 3,096, a'r aelodau (yn cynnwys rhai ar brawf) 656,583. Dengys hyn gynnydd mawr mewn un cyfundeb. Y mae y cynnydd yn Nghymru, hefyd, yr un mor foddhaol. Yn y fl. 1828, rhanwyd Cymru yn ddwy dalaeth, sef yr Ogleddol a'r Ddeheuol; a dengys y ffigyrau canlynol y cynnydd a gymmerodd le yn mhob un, er y rhaniad hwnw:—

*Y Dalaeth Ddeheuol.* Yn 1828.—Cylchdeithiau, 8; gweinidogion, 16; uwchrifiaid, 0; aelodau, 3,299. Yn 1895.—Cylchdeithiau, 19; gweinidogion, 34; uwchrifiaid, 4; ac aelodau, 5,385.

*Y Dalaeth Ogleddol.* Yn 1828.—Cylchdeithiau, 8; gweinidogion, 15; uwchrifiaid, 0; aelodau, 4,648. Yn 1895.—Cylchdeithiau, 31; gweinidogion, 68; uwchrifiaid, 9; ac aelodau, 13,856.

Mae yn nhalaeth y Deheu 103 o Ysgolion Sabbothol; athrawon a swyddogion eraill, 1,068; ac ysgolheigion, 7,487. Etto:—yn y dalaeth Ogleddol, y mae yr Ysgolion yn 258; yr athrawon, &c., yn 3,113; a'r ysgolheigion yn 21,863.

### CYFRIFIADAU CYFFREDINOL.

Gan fod cryn lawer o ddadleu ac ysgrifenu yn bod am nifer gymmharol gwrandawyr ac aelodau Ysgolion Sabbothol yr Eglwys Sefydledig a'r Enwadau Ymneillduol, ymgymmerodd golygydd yr argraphiad hwn [T.G.] â'r gorchwyl o gasglu adroddiadau cywir am yr Eglwyswyr a'r Ymneillduwyr mewn rhan o Ddyffryn Clwyd sydd yn Esgobaeth Llanelwy. Gwnaed y cyfrifiad hwn yn gwbl annisgwyliadwy i bob enwad a chapel; a dyma'r adroddiad:—

Y CYFRIFIAD CYNTAF:—YN NYFFRYN CLWYD.

Ar y 15fed o Ragfyr, 1886, gwnaed Cyfrifiad 'annisgwyliadwy' o holl gynnulleidfaoedd yr eglwysydd a'r capeli yn mhlwyfydd Dyffryn Clwyd—yn cynnwys trefydd Rhuthyn, Dinbych, Llanelwy, Rhyl, ac Abergele, &c.; a chafwyd y ffeithiau canlynol. Y nifer o wrandawyr oedd yn bresennol yn yr eglwysydd oll, yn nau gyfarfod y Sabbath, oeddynt 8,687. Ond yr oedd gwrandawyr y capeli yn rhifo 31,789. Yn ol hyn, nid oedd yr Eglwyswyr yn rhifo ond ychydig dros *un rhan o bump o'r cyfan*. Nifer eglwysydd y plwyfydd oedd 52; ond yr oedd y capeli ynddynt yn rhifo 184.

Nid oedd canlyniad y cyfrifiad hwn, fel y gallesid disgwyl, yn boddloni yr Eglwyswyr. Hònent fod gwybodaeth ddirgel wedi cael ei rhoddi i swyddogion ac aelodau y cynnulleidfaoedd Ymneillduol—yr hyn, meddent, nad oedd wedi ei roddi i'r Eglwyswyr. Ond attebwyd, ar 'air a chydwybod,' fod yr

Digitized by Google

eglwysydd wedi sefyll ar yr un tir yn gwbl â'r capeli; a bod y cyfrif yn deg i'r ddwyblaid.

O herwydd nad oedd y cyfrifon uchod yn boddloni yr Eglwyswyr, am eu bod yn tybied fod yr Ymneillduwyr wedi cael gwybodaeth o'r bwriad, ac felly wedi darparu ar ei gyfer—yr hyn nid oedd yn bod—penderfynodd y golygydd fynu Cyfrifiad drwy holl siroedd a phlwyfydd Cymru; a dyma yr adroddiad a gyhoeddwyd:—

YR AIL GYFRIFIAD:—TRWY GYMRU.

Gan nad oedd y cyfrif 'annisgwyliadwy' uchod yn boddhau yr Eglwyswyr, rhoddwyd rhybudd cyhoeddus yn holl newyddiaduron y De a'r Gogledd y byddai gwrandawyr yr holl addoldai trwy Gymru yn cael eu cyfrif ar Sabbath y 9fed o Ionawr, 1887; a rhoddwyd y rhybudd mewn pryd. Cafwyd cyfrifon o bob plwyf trwy'r Gogledd—ond 2 eglwys yn sir Ddinbych, 1 eglwys yn sir Fflint, a 2 eglwys yn sir Drefaldwyn—y cyfan yn 5. Y mae canlyniad y cyfrifiad hwn fel y canlyn:—

YMNEILLDUWYR Y GOGLEDD.

| Siroedd | Boreu. | Hwyr. | Y cyfan. | Yr Ysgolion. |
|---|---|---|---|---|
| Môn ... | 14,845... | 21,046... | 35,891... | 14,629 |
| Caernarfon. | 36,325... | 51,618... | 87,943... | 37,934 |
| Dinbych ... | 31,049... | 43,653... | 74,702... | 33,004 |
| Fflint ... | 19,201... | 22,876... | 42,077... | 17,520 |
| Meirionydd | 18,101... | 23,911... | 42,012... | 17,985 |
| Trefaldwyn | 14,044... | 20,409... | 34,453... | 14,480 |
| Cyfanrif | 133,565... | 183,513... | 317,078... | 135,552 |

EGLWYSWYR Y GOGLEDD.

| Siroedd. | Boreu. | Hwyr. | Y cyfan. | Yr Ysgolion. |
|---|---|---|---|---|
| Môn ... | 3,873... | 5,410... | 9,283... | 2,646 |
| Caernarfon | 7,774... | 11,167... | 18,941... | 4,870 |
| Dinbych ... | 10,547... | 14,950... | 25,497... | 7,206 |
| Fflint ... | 6,310... | 8,372... | 14,682... | 4,512 |
| Meirionydd | 3,322... | 4,075... | 7,397... | 2,556 |
| Trefaldwyn | 5,151... | 6,487... | 11,638... | 3,293 |
| Cyfanrif | 36,977... | 50,461... | 87,438... | 25,083 |

Dengys y Cyfanrifau uchod fod gwrandawyr yr Ymneillduwyr yn lliosocach o 229,640 nag eiddo yr Eglwys, a bod aelodau eu Hysgolion Sabbothol yn rhifo mwy o 110,469.

Y DEHEU.

O herwydd dyeithrwch i bersonau mewn llawer o blwyfydd y Deheu, y mae yr addoldai canlynol heb eu cyfrif. Yn sir Frycheiniog, 18 o gapeli, a 13 o eglwysydd. Yn Maesyfed, 2 eglwys. Yn Morganwg, 121 o gapeli, a 69 o eglwysydd. Yn sir Gaerfyrddin, 5 o gapeli, a 2 eglwys. Yn sir Benfro, 27 o gapeli, a 26 o eglwysydd. Ac yn sir Aberteifi, 2 gapel, ac 1 eglwys:—oll heb eu cyfrif.

Yr oedd felly 118 o eglwysydd, a 173 o gapeli, heb eu cyfrif trwy Gymru; yr hyn sydd yn gadael y Cyfrifiad yn fwy manteisiol i'r Eglwys, gan fod mwyafrif o 55 o gapeli heb eu cyfrif.

YMNEILLDUWYR Y DEHEU.

| Siroedd. | Boreu. | Hwyr. | Y cyfan. | Yr Ysgolion. |
|---|---|---|---|---|
| Brycheiniog | 10,956... | 19,766... | 30,722... | 11,914 |
| Maesyfed... | 3,754... | 5,337... | 9,091... | 2,725 |
| Morganwg. | 86,652... | 163,694... | 250,346... | 99,185 |
| Caerfyrddin | 38,756... | 46,771... | 85,527... | 30,526 |
| Penfro ... | 24,669... | 27,229... | 51,898... | 19,637 |
| Aberteifi ... | 18,295... | 22,852... | 41,147... | 12,830 |
| Cyfanrif | 183,082... | 285,649... | 468,731... | 176,817 |

EGLWYSWYR Y DEHEU.

| Siroedd. | Boreu. | Hwyr. | Y cyfan. | Yr Ysgolion. |
|---|---|---|---|---|
| Brycheiniog | 4,553... | 5,194... | 9,747... | 2,018 |
| Maesyfed... | 2,159... | 2,435... | 4,594... | 1,129 |
| Morganwg. | 11,974... | 19,763... | 31,737... | 10,265 |
| Caerfyrddin | 9,172... | 10,619... | 19,791... | 5,270 |
| Penfro ... | 5,898... | 5,445... | 11,343... | 3,005 |
| Aberteifi ... | 6,255... | 5,580... | 11,835... | 2,073 |
| Cyfanrif | 40,011... | 49,036... | 89,047... | 23,760 |

Dengys y Cyfanrifau uchod fod Gwrandawyr yr Ymneillduwyr yn y Deheu yn lliosocach o 379,684 na Gwrandawyr yr Eglwys; a bod eu Hysgolion hefyd yn rhifo mwy o 153,057.

Wedi rhoddi y cyfrifon uchod oll at eu gilydd, saif y cyfanrifau fel y canlyn:—

GWRANDAWYR.

| | |
|---|---|
| Yr Ymneillduwyr.. ... ... ... | 785,809 |
| Yr Eglwys... ... ... ... ... | 176,485 |
| Y cyfan ... ... ... ... | 962,294 |
| Mwyafrif gan yr Ymneillduwyr ... | 609,324 |

AELODAU YR YSGOLION SABBOTHOL.

| | |
|---|---|
| Yr Ymneillduwyr.. ... ... ... | 312,369 |
| Yr Eglwys... ... ... ... ... | 48,843 |
| Y cyfan ... ... ... ... | 361,212 |
| Mwyafrif gan yr Ymneillduwyr ... | 263,526 |

Yn ol hyn, fe ymddengys nad oedd holl wrandawyr yr Eglwys ond tuag 1 o bob 5½ o'r cyfan; ac nad oedd Ysgolion Sabbothol yr Eglwys ond 1 o bob 7½. Pe buasai yr holl gapeli a'r eglwysydd wedi eu cyfrif, buasai y gwahaniaeth yn fwy drachefn yn ffafr yr Ymneillduwyr. Heb law hyny, dywedai llawer ei bod hi yn ffaith fod y moddion a ddefnyddiodd yr Eglwyswyr mewn llawer man yn eithaf annheg. Arferwyd llawer dyfais i gael pobl i'r eglwysydd y diwrnod hwnw na byddent yn arfer myned iddynt; a chawsant lawer o filoedd felly yn fwy o'u plaid nag oedd yn perthyn iddynt.

Y TRYDYDD CYFRIF.

Yn nesaf, rhoddir yma ystadegau cyffredinol yn dwyn perthynas â'r enwadau Ymneillduol yn y corph o honynt, ac am yr Eglwys Sefydledig, fel y cyhoeddwyd hwynt yn adroddiad swyddogol Cymmanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calfinaidd am 1895:—

| | |
|---|---|
| Cymmunwyr y Pedwar Enwad Ymneillduol yn Nghymru, a sir Fynwy | 381,795 |
| Cymmunwyr yr Eglwys Sefydledig yn y Pedair Esgobaeth Gymreig ... | 118,756 |
| Mwyafrif i'r Ymneillduwyr ... | 263,039 |
| Gwrandawyr yr Anghydffurfwyr, fel y rhoddir hwy gan yr Eglwyswyr.. | 888,357 |
| Gwrandawyr yr Eglwys Sefydledig, yn ol yr un awdurdod ... ... | 258,902 |
| Mwyafrif i'r Ymneillduwyr ... | 629,455 |
| Rhif yr Eisteddleoedd yn nghapeli yr Ymneillduwyr ... ... | 1,100,000 |
| Rhif yr Eisteddleoedd yn eglwysydd y Sefydliad ... ... ... ... | 450,000 |

Er y flwyddyn 1816, cynnyddodd capeli yr Ymneillduwyr o 993 i 4,252. Mae hyn yn gynnydd o 428 y cant mewn llai na phedwar ugain mlynedd. Rhwng y blynyddoedd 1872 ac 1892, chwanegwyd dros gan mil at rifedi cymmunwyr Cymru.

Yn nghangen yr Ysgol Sabbothol, cafwyd y ffigyrau canlynol o'r adroddiad a enwyd:—

| | |
|---|---|
| Ysgolheigion yr Ymneillduwyr Protestanaidd Cymreig ... ... | 515,728 |
| Ysgolheigion yr Eglwys Sefydledig.. | 145,419 |
| Mwyafrif i'r Ymneillduwyr ... | 370,309 |

Y mae y tri Chyfrifiad uchod yn gwahaniaethu, fel y gwelir, oddi wrth eu gilydd yn y pethau canlynol:—

Digitized by Google

Am y cyntaf:—Cyfrifiad ydyw o'r rhai oedd yn bresennol yn yr addoldai yn Nyffryn Clwyd ar Sabbath y 15fed o Ragfyr, 1886. Cyfrifwyd y cynnulleidfaoedd y tro hwn heb i gymmaint ag un o honynt gael rhybudd o'r bwriad i'w cyfrif.

Am yr ail:—Ynglyn â hwn, cafodd yr holl gapeli a'r eglwysydd trwy ddeuddeg sir Cymru rybuddion cyhoeddus ac amserol o'r bwriad i gyfrif y rhai fyddent yn bresennol yn yr oedfaon a'r Ysgol Sabbothol ar Sabbath y 9fed o fis Ionawr, 1887. Yr oedd yn ammhossibl, bron, gael cyfrif o Fynwy—y drydedd-sir-ar-ddeg.

Am y trydydd:—Cyfrifiad ydyw, y dywedir ei fod 'wedi ei gymmeryd o ffynnonellau nad ydynt yn debyg o fod yn bleidiol i Eglwysi rhyddion Cymru.' Nid cyfrif o'r presennolion ydyw hwn; ond o'r rhai y tybid eu bod yn perthyn i'r Ymneillduwyr a'r Eglwys Sefydledig. Cymmerwyd hwn o *td.* 30 yn Adroddiad Cymmanfaol y Methodistiaid am 1895.

### Capeli ac Ysgoldai

*Cymreig a Saesnig yn nhair-sir-ar-ddeg Cymru; a Chapeli ac Ystafelloedd Cenhadol Cymreig yn unig, yn Llundain, Liverpool, Manchester, Birmingham, &c., ar ddechreu y fl.* 1896.

| | | |
|---|---|---|
| *Yr Annibynwyr:*—Capeli ... ... | 1000 | |
| —— Ystafelloedd, &c., heb gael cyfrif | | |
| *Y Bedyddwyr:*—Capeli ac Ystafelloedd | | 780 |
| *Y Methodistiaid:*—Capeli ... ... | 1391 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 592 | |
| | | 1983 |
| *Y Wesleyaid:*—Capeli, ac Ystafelloedd | | 359 |
| Y cyfan... ... ... ... | | 4576 |

| | |
|---|---|
| *Yr Eglwys Sefydledig:*—Nifer y plwyfydd yn y deuddeg sir ... ... ... | 1009 |
| Etto yn sir Fynwy ... ... ... ... | 140 |
| Holl nifer Plwyfydd Cymru ... | 1149 |

Mewn rhai plwyfydd, y mae mwy nag un eglwys. Heb law yr uchod, y mae nifer fawr o Blwyfydd Eglwysig (*Ecclesiastical Parishes*) yn holl siroedd Cymru âg eglwysydd ynddynt, y rhai ni lwyddwyd i gael eu nifer yn gywir.

### Llundain, a'r Gymmydogaeth.

| | | |
|---|---|---|
| *Yr Annibynwyr:*—Capeli ... ... | 2 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 4 | |
| | | 6 |
| *Y Bedyddwyr:*—Capeli ... ... | 2 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 3 | |
| | | 5 |
| *Y Methodistiaid:*—Capeli ... ... | 9 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 10 | |
| | | 19 |
| *Y Wesleyaid:*—Ysgoldai, &c. ... | | 3 |
| Y cyfan... ... ... ... | | 33 |
| *Yr Eglwys Sefydledig:*—Eglwysydd | 1 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 5 | |
| | | 6 |

### Caerlleon.

Y mae gan yr Annibynwyr 2 gapel; a chan y Bedyddwyr, y Methodistiaid, y Wesleyaid, un bob un; ac felly yr Eglwys Sefydledig.

### Croesoswallt.

Y mae gan yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Methodistiaid, a'r Wesleyaid gapel bob un yn y dref uchod.

Y mae capel Cymraeg gan y Methodistiaid yn Dublin, ac yn Bristol.

### Liverpool, a'r Gymmydogaeth.

| | | |
|---|---|---|
| *Yr Annibynwyr:*—Capeli[a] ... ... | 10 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 2 | |
| | | 12 |
| *Y Bedyddwyr:*—Capeli[b] ... ... | 8 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 1 | |
| | | 9 |
| *Y Methodistiaid:*—Capeli[c]... ... | 24 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 14 | |
| | | 38 |
| *Y Wesleyaid:*—Capeli[d] ... ... | 10 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 3 | |
| | | 13 |
| *Yr Eglwys Sefydledig:*—Eglwysydd | 4 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | — | |
| | | 4 |

### Manchester, a'r Gymmydogaeth.

| | | |
|---|---|---|
| *Yr Annibynwyr:*—Capeli ... ... | 4 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 1 | |
| | | 5 |
| *Y Bedyddwyr:*—Capeli ... ... | 1 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 1 | |
| | | 2 |
| *Y Methodistiaid:*—Capeli ... ... | 12 | |
| —— Ystafelloedd, &c. ... | 5 | |
| | | 17 |
| *Y Wesleyaid:*—Capeli ... ... ... | | 4 |
| Y cyfan... ... ... ... ... | | 28 |
| *Yr Eglwys Sefydledig:*—Eglwys ... ... | | 1 |

Yn yr Ystafelloedd uchod, ni chyfrifir yr Ysgoldai sydd dan neu mewn cyssylltiad â Chapeli. Ond Ystafelloedd Cenhadol, ar wahân, ydynt oll—lle y cynnelir Moddion Crefyddol, Ysgolion Sabbothol, &c., ynddynt.

### America.

| | |
|---|---|
| *Yr Annibynwyr:*—Capeli, &c. ... ... | 245 |
| *Y Bedyddwyr:*—Capeli, &c. ...... ... | — |
| *Y Methodistiaid:*—Capeli, &c. ... ... | 173 |
| *Y Wesleyaid:*—Capeli, &c. ... ... ... | — |
| *Yr Eglwys Sefydledig:*—Eglwysydd ... | — |

Awstralia.—Y mae gan y Methodistiaid 4 o Gapeli ac Ystafelloedd Cenhadol; a chan yr Annibynwyr amryw hefyd, ond ni chafwyd eu nifer.

Patagonia.—Y mae gan yr Annibynwyr 7, a'r Methodistiaid 6 o Gapeli; yr Eglwys Esgobawl, 2; a 3 o Ystafelloedd Cenhadol anenwadol.

[a] Heblaw y rhai hyn, y mae achosion Cymreig perthynol i'r Annibynwyr mewn 6 o leoedd yn siroedd Lancaster, a Stafford; a 2 yn Birmingham, ac hefyd un bob un i'r Bedyddwyr a'r Wesleyaid.

[b] Y mae gan y Bedyddwyr hefyd 3 o achosion Cymreig yn Ngogledd Lloegr.

[c] Heblaw y rhai hyn, y mae gan y Methodistiaid 26 o achosion Cymreig—o'r rhai y mae 17 mewn cyssylltiad â Chyfarfod Misol Liverpool, yn siroedd Lancaster, Cumberland, &c.; 3 yn Hanley, Crewe, &c., mewn cyssylltiad â sir Fflint; a 6 yn Birmingham, Bilston, &c., mewn cyssylltiad â Chyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf.

[d] Y mae gan y Wesleyaid hefyd 7 o achosion Cymreig yn Stockton, a'r amgylchoedd; a 2 yn Hanley.

YNYS PRYDAIN. Enw Cymraeg yr ynys a elwir yn Saesneg yn *Britain*, ac yn Lladin yn *Britannia* ydyw hwn. Gelwir hon, a'r Iwerddon hefyd, gyda'u gilydd, yn Ynysoedd Prydeinig—*British Isles*.

Er llawer o chwilio a dyfalu, erys hanes yr enw i raddau yn ansicr etto. Mae'r crybwylliad cyntaf a geir at yr ynys—sef, hwnw sydd yn y gwaith daearyddol a briodolir (ond yn

Digitized by Google


Digitized by Google




Digitized by Google



Digitized by Google




CYHOEDDEDIG CAN T. GEE, DINBYCH

Digitized by Google

bir) i Aristotle—yn rhoi yr enw yn ol Pliny [*Hist. Nat.*, iv. 102] w ar yr ynys—er yr adwaenai enw *Brittania*. Nid yw *Alba*, laeg (yn golygu Ysgotland); ond l Proffeswr Rhys, ar yr un gair. n drigolion yr ynys o'r cyrau a Cyfandir, aeth yr enw i'r gog. Yn oes Julius Cæsar, y Rhuf- ymosododd ar yr ynys, y de- m *Britannia*. Ffurfiwyd y gair deg yma oddi wrth *Brittanni*— r ynys—yn ol yr un cynllun a th *Galli*. Cafodd y Rhufeiniaid efn oddi wrth *βρεττανοί* y Groeg- rhaid cofio fod masnachwyr y dd yn Massilia (Marseilles) wedi alcan gan wŷr yr ynys hon am er cyn i'r Rhufeiniaid drafferthu a, cyfyd y cwestiwn, gan bwy y egiaid y ffurf *βρεττανοί?* Dengys ddelig, *Bretan*, *Bretain*, mai oddi n siarad y gangen Wyddelig o'r taidd y daeth; ac awgryma Pro- nai llwyth felly oedd yn dwyn yr fod marsiandwyr Marseilles; ac rddodd yr enw. Ar yr un pryd, n sicr nad yn y ffurf yma y cyn- *tanni* yr enw eu hunain. Cofier, hwn yn enw a arferid o gwbl gan th o Geltiaid Gwyddelig arnynt eu rthynai yn hollol i'r gangen arall taidd:—a'r ffurfiau ganddynt hwy a, *Brythoneg*, yn y Gymraeg; *Bre-* Gernywaeg; a *Brezonek* yn iaith mae ieithyddiaeth yn sicrhau fod a yn deilliaw oddi wrth ffurf gynt- *es*. Dyna, yn ddiddadl, yr enw *Brittanni* arnynt eu hunain. Ceir y newn gwirionedd, yma a thraw yn h y Rhufeiniaid; yr hyn sydd yn ai wedi cael gafael ar y cynnaniad mai y llall a ddefnyddid gan y lliaws. n amser, cafodd y ffurf gwreiddiol yn ysgrifeniadau dynion oedd yn ys yn well nag awduron clasurol y

beth ydyw tarddiad *Brittones*—sef, yr holl deulu? Nid oes neb ar hyn gallu sicrhau. Cynnygiwyd llawer th wyllt:—rhai yn olrhain y gair i'r eraill i'r Roeg, ac eraill i'r Pheniciaeg. Camden ei fod o'r gwreiddair *brith*, y gelwid y *Brittones* felly o blegid edd ganddynt, yn ol Cæsar [*Bell. Gall.* iwio eu crwyn â lliw glâs. Ond hen Celtaidd *brith* oedd *brict-*, nid *britt-* y Wyddelaeg *mrecht*, *brecht*). Ac yn nes, nid oedd y Brython yn eithriaid w cymmydogion Celtaidd yn yr arfer n wir, dyna roddodd eu henw i Beith- ctiaid) y Gogledd. Poblogaidd dros y canol-oesoedd, oedd y tarddiad oddi *tus*—y gŵr o hiliogaeth Caer Droia a 'n cyndadau, yn ol chwedl ddoniol Fynwy, gyntaf i'r ynys hon. Ond er wedl yma lawer yn hŷn nag ef, ac na efe ond trwsio ychydig arni, chwedl w, wedi'r cyfan; yr hon a ddyfeisiwyd d neu gilydd i roddi cyfrif am yr enw. urf gynnhenid yn y Gymraeg, felly, ydyw n. Wedi eu benthyca gan y Lladin a'r g y mae *Brydain*, *Brytaniaid*, a *Bryt-*

*taen*. Ond o ba le y daeth *Prydain?* Y dybiaeth yn awr yw mai enw hollol wahanol yw hwn, ac o darddiad ac ystyr gwahanol. Gŵyr y rhai sydd yn gyfarwydd â llenyddiaeth Gymreig y canol-oesoedd, fod *Prydyn* yn cael ei arfer yn aml y pryd hwnw i ddynodi Ysgotland. Er enghraifft, diwedda 'Llawysgrif 51,' yn nghasgliad Hengwrt fel hyn:—'En yr vn vlwydyn yn gilch gwil vihangel ydaeth Edward de Bailol a bychydic lu git ac ef y geisiav goresgyn *Prydyn*.' —*Cymmrodor* xi. 155—6. Sonia Brut y Saeson [*Myvyrian Archaiology*, argraph. Dinbych, td. 672], hefyd, am 'y vann eithiaf o *Brydyn* lle gelwir penblathaon' (yn Caithness). A dangosir gan y ffurf *Priten* a geir yn y 'Llawysgrif Harleiaidd, 3859,' (*Pappo p*[*ost*] *Priten*=*Pabo Post Prydain*.—Gwel y *Cymmrodor*, cyf. ix. td. 179), mai Prydyn, ac nid Prydain, ydyw y ffurf rheolaidd. Ystyr *Prydyn*, fe dybir, yw 'gwlad y Peithwyr,' neu'r Pictiaid. Tardda, yn ol y dybiaeth hon, oddi wrth *pryd*, yn golygu 'ffurf, harddwch;' am y tybiai y Peithwyr fod y lluniau a dynent ar eu cyrph yn chwanegiad pwysig at eu prydferthwch. Ond dylid cofio mai nid yr Ysgotland yn unig, gwlad y Peithwyr yn y cyfnodau diweddaraf, a elwir yn *Brydyn* gan yr hen awduron Cymreig. Dyfynir gan Proffeswr Rhys ddwy linell o 'Lyfr Taliesin'—

> 'Trwy eiryawl dewi a seint Prydyn
> Hyt ffrwt arlego ffohawr Allmyn,'

sydd yn dangos yr arferid yr enw, weithiau, ddynodi yr holl ynys. Gelwid hi yn 'Ynys y Prydyn;' ac weithiau, y mae'n ddigon possibl, 'Ynys Prydain,' oddi wrth y Peithwyr oeddynt gynt yn arglwyddi ar yr oll o honi, cyn i'r Gwyddelod, a'u cefndryd, y Brythoniaid, eu gwthio i ogledd yr ynys. Gwir fod y Trioedd yn sôn am frenin o'r enw Prydain ab Aedd Mawr; oddi wrth yr hwn, bid sicr, y cafodd yr ynys ei henw. Ond y Trioedd yw yr unig hen awdurdod sydd yn crybwyll am dano; ac er ei fod wedi ei anrhydeddu â lle yn y geiriaduron sydd yn rhoddi hanes enwogion Cymru, rhaid maddeu i'r hanesydd am edrych braidd yn ddrwgdybus arno.

[Cyfeirir y darllenydd am wybodaeth bellach ar y pyngciau hyn at waith Proffeswr Rhys yn ei *Celtic Britain*, td. 200—211, 236—7; a'i anerchiad ar 'Hanes Boreuol y Brython' yn nghyfrol Cymdeithas Genedlaethol Gymreig Liverpool, am y tymmor 1894—5.]

YNYSOEDD PRYDEINIG:—EU RHANIADAU YN YSTOD Y CYFNODAU RHUFEINAIDD A SAXONAIDD. Am ganrif a hanner ar ol i'r Rhufeiniaid ymsefydlu yn Mhrydain, nid oedd yn yr ynys ond un dalaeth yn dwyn yr enw *Britannia*. Ond yn amser yr ymherawdwr Severus (o B.A. 193—211), rhanwyd yr hen dalaeth yn ddwy, gyda'r enwau *Britannia Superior* (Prydain Uchaf) a *Britannia Inferior* (Prydain Isaf). Nid yw yn hysbys pa ffordd y rhedai y llinell derfyn rhyngddynt; ond yr ydym yn deall fod Caerlleon ar Ddyfrdwy a Chaerlleon-ar-Wysg yn y dalaeth uchaf, a Chaerefrog (York) yn yr isaf. Barn Proffeswr Rhys ydyw, fod y flaenaf yn cynnwys Cymru, a'r tir mynyddig tua'r gogledd; tra yr ymestynai yr olaf dros wastadeddau canoldir a deheudir Lloegr. Erbyn canol y bedwaredd ganrif, cawn fod pedair talaeth yn yr ynys—*Britannia Prima*, *Britannia Secunda*, *Flavin Cæsar-*



Digitized by Google

*iensis*, a *Maxima Cæsariensis*; y rhai a ffurfiwyd, yn ddïau, drwy ranu pob un o'r ddwy dalaeth yn ddwy drachefn. Nid oes dim sicrwydd gyda golwg ar ffiniau y talaethau newydd hyn, er y tybir gan y Proffeswr Rhys fod y ddwy flaenaf yn rhaniadau ar yr hen Brydain Uchaf. Yn B.A. 369, chwanegwyd talaeth newydd at y lleill; sef, *Valentia*, yr hon a orweddai rhwng y ddau fûr mawr yn y gogledd.

Gan Claudius Ptolomeus, daearyddwr o Alexandria, yr hwn a gyhoeddodd ei ddisgrifiad o'r byd o ddeutu B.A. 120, y ceir yr hanes cyflawnaf am lwythau cyntefig yr ynys. Er fod y Rhufeiniaid wedi darostwng llwythau y Deheu yn drwyadl erbyn hyn, nid oeddis wedi anghofio yr hen derfynau, na'r hen enwau. Fel hyn y dywed Ptolemy am danynt:—

1. Yn ardal Galloway (swydd Wigton, a'r cyffiniau), ceid y *Novantæ*.
2. Yn swydd Dumfries, y *Selgovæ* (*h.y.*, yr helwyr); o'r hwn y daw enw y Solway Firth.
3. Yn y wlad rhwng y Forth a'r Clyde, ac yn neheudir swydd Perth—y *Dumnonii*.
4. Yn Argyll, yr *Epidii*, gyda rhes o lwythau yn ymestyn tua'r gogledd—y *Cerones* y *Creones*, y *Carnack*, y *Careni;* ac yn ddiweddaf i gyd, yn mhenrhyn Caithness, y *Cornavii*.
5. Ar draws yr ynys, lle y mae swydd Inverness yn awr, gorweddai y *Caledonii*—y llwyth pwysicaf yn y gogledd. Meddent, hefyd, ran helaeth o swydd Perth, lle yr oedd Coed Celyddon (*Caledonius Saltus*).
6. Yn swydd Ross yr oedd y *Decantæ;* a rhyngddynt a'r Cornavii, y *Lugi* a'r *Smertæ*.
7. Yn nghymmydogaeth swydd Elgin—y *Vacomagi*.
8. Yn swydd Aberdeen, y *Tæxali;* yn swydd Forfar, y *Vernicomes*.
9. Rhwng y Forth a'r Tweed, yr *Otadini;* sef, Gododin y beirdd Cymreig.
10. Yn Ngogledd Lloegr, ymestynai llwyth mawr y *Brigantes* dros yr oll, o'r bron, o swyddi Cumberland, Westmoreland, Northumberland, York, a Lancaster. Yn mhlith eu trefydd yr oedd Eboracum (Caerefrog) ac Iswisum (Aldborough).
11. Meddai y *Parisi* ochr ddwyreiniol swydd York.
12. Yr *Ordovices* oedd yn preswylio yn Mhowys. Ni wyddis enw y llwyth oedd yn dal Môn a Gwynedd;
13. Yn swyddi Stafford, Caer, a'r Amwythig, ceid y *Cornavii*. Eu trefydd oedd Deva (Caer) a Viroconium (Wroxeter).
14. Yn swyddi Lincoln, Leicester, a'r cyffiniau, yr oedd y *Coritavi*, gyda threfydd yn Lindum (Lincoln) a Ratæ (Leicester).
15. O du y gogledd i'r afon Tafwys, ceid y *Catrivelauri*—llwyth Cassivelaunus, yr hwn a wrthwynebodd Iŵl Caisar mor benderfynol.
16. Yn Norfolk a Suffolk yr oedd yr *Iceni;* ar y rhai y teyrnasai Buddug.
17. Yn Essex, ceid y *Trinovantis*.
18. Preswylid Deheudir Cymru (gyda'r eithriad o'r gongl dde-ddwyreiniol iddi) gan y *Dimetæ*, neu wŷr Dyfed. Un o'u trefydd oedd Maridunum (Caerfyrddin).
19. Yn Ngwent a Morganwg yr oedd y *Silures*. Yno yr oedd Isca Silurum, neu Gaerlleon-ar-Wysg.
20. Yn swydd Caer Loew, ceid y *Dobunni*.
21. Yr ochr ddehenol i'r afon Tafwys yr oedd yr *Atrebates*.
22. Yn Nghaint yr oedd y *Cantii*. Perthynai Llundain a Chaergaint iddynt.
23. Yn Sussex, ceid y *Regni*.
24. Rhwng yr Hafren a Southampton, preswyliai y *Belgæ*.
25. Yn swydd Dorset yr oedd y *Durotriges*.
26. Yn Nyfnaint a Chernyw yr oedd y *Dumnonii*:—o'r hwn y daw Dyfnaint a Devon.

Perthynai y Saeson a wnaethant eu cartref yn Lloegr ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid i dri llwyth—y Jutiaid, y Sacsoniaid, a'r Eingl.

Y Sacsoniaid oedd yn fwyaf adnabyddus i'r byd Rhufeinig; ac oddi wrthynt hwy y galwodd y Cymry yr holl dylwyth yn Saeson. Sefydlwyd gan y Sacsoniaid amryw o deyrnasoedd pwysig. Yr oedd un yn swydd Hamp, a elwid yn Wessex, neu Sacsonia Orllewinol. Yr oedd un arall yn Sussex; sef, Sacsonia Ddeheuol. Yr oedd un arall yn Essex; sef, Sacsonia Ddwyreiniol. Yr oedd un arall, drachefn, yn Middlesex; sef, Sacsonia Ganol.

Y Jutiaid oedd y cyntaf i ymsefydlu yn yr ynys—rhwng B.A. 450 a 500. Syrthiodd Caint yn hollol i'w gafael. Ar ol ennill yr ardal hono, a sefydlu yno, ymddengys i'r Jutiaid beidio â'u difrod. Yr unig fangre arall a gipiwyd ganddynt hwy oedd Ynys Waith (*Isle of Wight*), ac ychydig o'r traeth gyferbyn â hi.

Ond yr Eingl, wedi'r cyfan, ddaethant i feddiant o'r rhan helaethaf o dir Lloegr; a chymmaint fu eu bri fel y daeth *Angle* ac *English* yn enwau cyffredin i'r holl estroniaid. Ceid yr *East Angles* yn Norfolk a Suffolk, y *Middle Angles* yn Leicester, y *West Angles* (a elwid hefyd yn Merddiaid, neu Wŷr y Goror) yn Stafford. Sefydlwyd, hefyd, rhwng y Forth a'r Humber, ddwy deyrnas Angliaidd, yn dwyn yr enwau *Deira* a *Bernicia*:—Deifr a Bryneich yn Gymraeg.

Am amryw ganrifoedd, bu y teyrnasoedd hyn yn annibynol, o dan eu tywysogion eu hunain. Gelwir y cyfnod, weithiau, yn gyfnod y Saith Teyrnas (*Heptarchy*), oddi wrth y prif deyrnasoedd, Wessex, Sussex, Essex, East Anglia, Kent, Mercia, a Northumbria. Unwyd Deifr a Bryneich dan yr enw olaf. Ond nid oes un pwysigrwydd yn perthyn i'r rhif saith yn y cyssylltiad yma, fwy nag unrhyw nifer arall. Yr oedd nifer y teyrnasoedd annibynol beunydd yn newid, ac yr oedd gogoniant y naill yn cilio o flaen y llall.

Caint oedd y deyrnas gyntaf i ennill goruchafiaeth; a thrwyddi hi y daeth yr efengyl at y Saeson. Ond yn fuan iawn ennillodd Northumbria y blaen; a hon a ddaeth i fod yn brif deyrnas y seithfed ganrif.

Yn yr wythfed ganrif, Mercia oedd yn ben; yn enwedig dan y ddau frenin galluog, Ethelbald ac Offa. Yr olaf a gododd Clawdd Offa yn ffin rhwng y Cymry a'r Saeson, ar ol trechu ein cyn-dadau mewn llawer brwydr, a dwyn llawer o'u tir oddi arnynt.

Yn y nawfed ganrif, aeth y gallu i ddwylaw brenhinoedd Wessex; ond er i Egbert a'i ddisgynyddion gael eu cydnabod yn arglwyddi gan y brenhinoedd Saesnig eraill, ni unwyd Lloegr dan un brenin, fel y tybir weithiau, hyd amser Alfred Fawr, yr hwn a orchfygodd y Daniaid yn 878. Difodwyd yr hen deuluoedd brenhinol yn mhob man, ond Wessex, gan yr ysbeilwyr

Digitized by Google

lythyrenau cyffredin; pa rai, wedi eu gosod wrth eu gilydd fel arferol, a wneid yn un darn trwy gael eu hasio ynghyd gyda rhyw sawdr a roddid y tu cefn iddynt. Yr oedd traul fawr y dull hwn o wneyd blociau, ynghyd â'r pwysau mawr oedd ynddynt, fe allai, yn ddigon o reswm pa ham y syrthiodd y cynllun o arferiad.

William Ged, gôf aur, yn Edinburgh, oedd un o'r rhai cyntaf, os nad y cyntaf oll, i ymarfer y gelfyddyd o ystrydebu, yn ol yr ystyr cyffredin a roddir i'r gair. Crybwyllir am ei hawl ef i'r anrhydedd yma mewn pamphledyn a gyhoeddwyd yn 1781, ac a adgyhoeddwyd drachefn yn 1819, yr hwn a elwir "*Biographical Memoirs of William Ged*," &c. Ymddengys, oddi wrth y gwaith hwn, i Ged ddyfeisio ffordd i doddi tudalenau cyfain tua'r flwyddyn 1725; ac yn mhen ychydig wedi hyny, ei fod ef, ac eraill oedd yn cydweithio gydag ef, wedi gwneuthur ymgais i gymmhwyso ei ddyfais tuag at ddwyn allan Feiblau a llyfrau gweddïau i Brifysgol Caergrawnt. Un o'r anhawsderau i'w cyfarfod wrth ddyfod â threfn newydd o'r fath i arferiad oedd, y rhagfarn a'r gwrthwynebiad a deimlai argraphwyr tuag ati. Rhoddwyd y cynllun hwn i fyny gan y brifysgol, a dinystriwyd y rhan fwyaf o'r llafnau. Toddodd Ged lafnau ar gyfer ychydig weithiau eraill hefyd—un o ba rai oedd argraphiad o waith Sallust, yr hwn a ddaeth allan gyntaf naill ai yn 1736, neu yn 1739. Ynghylch y fl. 1780, dyfeisiodd Mr. Tilloch, golygydd y "*Philosophical Magazine*," gynllun i doddi tudalenau cyfain; ac nid oedd efe y pryd hwnw yn gwybod dim am yr arbrawfiadau a wnaethai Ged yn flaenorol i hyny. Gwnaeth Tilloch ei ddyfais yn hysbys i Foulis, argraphydd i Brifysgol Glasgow; a dygasant hwy allan amryw weithiau; a lledaenwyd rhai o honynt heb roddi ar ddeall pa fodd yr argraphwyd hwynt. Rhoddwyd hanes arbrawfiadau Tilloch a Foulis yn y ddegfed gyfrol o'r "*Philosophical Magazine*." Er eu bod yn lled foddhaol, ni ddarfu i hyn arwain cyhoeddwyr i fabwysiadu yr egwyddor ystrydebol yn ddioed. Tua diwedd y ddeunawfed ganrif, gwnaed amryw gynlluniau cyffelyb gyda'r un amcan yn Ffraingc. Ond y mae dygiad ystrydebu i arferiad gyffredin, mewn rhan fawr, yn ddyledus i ymdrechion Iarll Stanhope, tua dechreu y ganrif bresennol. Gwnaeth Mr. Tilloch yn hysbys iddo ef ganlyniad ei arbrawfiadau; a bu Foulis hefyd, yr hwn a gydweithredai â Tilloch, fel y cyfeiriwyd uchod, yn ei gynnorthwyo i wneyd arbrawfiadau yn mhalas Stanhope yn Chevening, yn Nghaint. Yr oedd Andrew Wilson yn cynnorthwyo hefyd yn yr arbrawfiadau hyn. Derbyniodd y diweddaf fathodyn aur gan Gymdeithas y Celfyddydau yn 1810, am "ei fedrusrwydd a'i ymdrechion mawrion gydag argraphu ystrydebol," a dygodd allan amryw weithiau pwysig wedi eu hystrydebu; ond ystyria Hodgson mai y goreu o honynt oedd ei argraphiad o Walker's "*Pronouncing Dictionary*," yr hwn a argraphwyd yn 1809. Y mae y gelfyddyd wedi cael llawer o sylw o hyny hyd yn awr, ac wedi cyrhaedd gradd helaeth o berffeithrwydd erbyn hyn.

Nid gorchwyl anhawdd iawn ydyw gwneyd llafnau ar gyfer argraphu oddi arnynt. A dyma un o'r ffyrdd a arferir yn awr:—Wedi gosod tudalen o lythyrenau, ei chywiro, a'i glanhau, a'i gosod mewn ffram, gosodir hi ar fwrdd gwastad â gwyneb haiarn arno, a wynebau y llythyrenau i fyny: rhoddir ychydig o olew ar eu hwynebau â gwrychell (*brush*) o flew mân, er attal i'r plastr Paris gwlyb lynu ynddynt. Gwneir y plastr yn gyttew, fel hufen, a thywelltir ef ar wyneb y llythyrenau: pan y caleda, y mae y deisen neu y plastr yn cael ei chodi i fyny, a chanfyddir ei bod yn gynllun perffaith o'r llythyrenau. Wedi hyny, y mae y deisen yn cael ei rhoddi mewn pobty, i grasu; yna gosodir hi mewn padell haiarn; yna y mae y badell, yn yr hon y mae tyllau yn y cauad i'r mettel redeg i mewn, yn cael ei rhoddi mewn llestr o fettel toddedig, yr hwn a fydd uwch ben tân. Yna rhed y mettel i mewn iddi drwy y tyllau, ac i'r folden. Wedi ei chodi allan, a'i rhoddi i oeri, agorir y badell, a cheir ei bod yn cynnwys llafn cyffelyb i'r tudalen o lythyrenau; yna torir y folden, gan nad ydyw o un defnydd pellach. Pan y cyfodir ef o'r folden, y mae y llafn yn anwastad ar y tu cefn iddo; ac y mae yn rhaid ei wastatau cyn y bydd yn gymmhwys i'w ddefnyddio. I'r dyben hwnw, y mae yn myned trwy ddwylaw crefftwyr, y rhai a'i parotoant i'r wasg. Os bydd rhyw lythyren neillduol yn ddiffygiol ynddo, tynir hi allan, a rhoddir llythyren i mewn yn ei lle; a sicrheir hi yno â sawdr. Wrth ddarparu y llafnau hyn ar gyfer y wasg, nid oes dim yn fwy pwysig na bod cefn y llafnau yn wastad a llyfn; ac i'r dyben hwn, defnyddir moddion i'w cael felly. Yn debyg i hyn yna y mae yr hen ffordd o ystrydebu gyda phlastr Paris. Y mae amryw welliantau wedi eu dwyn i mewn yn ddiweddar ynghylch ffurf y padelli, mewn trefn i allu toddi amryw lafnau ar unwaith; ond yn mhob achos, y mae yr egwyddor yr un.

Wedi gorphen gyda ffurfio y llafnau, chwelir y llythyrenau. Mewn rhai swyddfeydd argraphu, y mae pob gwaith yn cael ei wneyd oddi ar y llafnau, ac ni ddefnyddir y llythyrenau ond yn unig i gynnyrchu y moldiau. Nid ydyw hyn, pa fodd bynag, yn arbed llythyrenau yn hollol rhag ammharu; canys wrth eu glanhau â gwrychellau, a rhoi olew arnynt i dderbyn y plastr yn fynych, y mae eu conglau mewn amser yn gwisgo. Am yr hyn a argrephir oddi ar y llafnau ystrydebol, o'r braidd y mae y gwaith yn llawn gystal ag ydyw oddi ar y llythyrenau eu hunain; ond y mae yn atteb pob dyben ymarferol bron yn mhob achos pan y bydd y moldiau wedi eu gwneyd yn dda. Y mae llafnau wedi eu gwneyd, eu cadw, a'u gwella pan y bydd hyny yn angenrheidiol, yn parhau yn gymmhwys i argraphu ugeiniau o filoedd o gopïau oddi arnynt. Y mae y stoc o lafnau ystrydebol mewn rhai sefydliadau yn fawr iawn, a llawer o arian wedi eu suddo ynddynt. Pan na bydd angen pellach am danynt, y mae y llafnau yn cael eu toddi drachefn, er cael defnydd rhai newyddion.

Dyfeisiwyd y dull o ystrydebu gyda phapur er's amryw flynyddoedd yn ol ar y Cyfandir; ond y mae wedi ei berffeithio i raddau pell yn y wlad hon, ac y mae mewn arferiad pur gyffredinol. Mabwysiadwyd y dull hwn o ystrydebu yn swyddfa y "*Times*" yn fuan ar ol ei ddarganfod. Y mae y ffordd a ddefnyddir yn debyg fel y canlyn:—Yn gyntaf, gosodir llen o bapur sidan teneu, ond gwydn, ar fwrdd; ar wyneb hono gosodir llen o sugn-bapur (*blotting paper*) da, wedi ei phastio yn dda gyda phâst wedi ei ddarparu mewn ffordd neillduol; ac yna ar hono len o bapur llwyd gwydn, wedi ei phastio yr un modd. Gosodir y wyneb gwyn i'r llen, pan yn feddal a llaith, ar wynebau y llythyrenau, yna rhoddir hwyst mewn gwasg, a

Digitized by Google

gwesgir y llen yn erbyn y llythyrenau fel ag i dderbyn yr argraphiad oddi arnynt; ac felly y gwneir y folden. Y mae yr argraph a wneir gan y llythyrenau yn codi y tu ol i'r papur, fel y gellir gweled unrhyw fan lle na bydd y papur wedi suddo i'r gwagleoedd sydd rhwng y llythyrenau. Y mae hyn yn digwydd yn gyffredin; a'r ffordd y gwellhëir ef ydyw curo y papur ar wyneb y llythyrenau â gwrychell caled. Mewn gwirionedd, y mae y gwaith i gyd yn cael ei wneyd yn fynych yn y ffordd hon, heb wasanaeth y wasg o gwbl; ac ystyrir fod y gwaith yn llawn gwell felly. Dywedasom fod y rhigolau a wneir gan y llythyrenau yn ymgodi y tu cefn i'r llen; ond y mae y cyfryngau rhyngddynt yn bantiau hefyd. Llenwir y rhai hyn yn gyffredin â gorchudd teneu o blastr wedi ei osod gyda gwrychell, neu â chyllell. Yna symmudir y folden yn ofalus, sychir hi, a gosodir hi mewn offeryn cymmhwys i dderbyn y mettel. Yna tywelltir y mettel poeth iddo, ac fel hyn y ffurfir y llafn; yr hwn y mae un tu iddo, wrth gwrs, yn atteb i'r folden. Bydd gwrymiau lle y mae gwagleoedd mawr rhwng y llythyrenau; ond naddir hwynt â chŷn bychan. Yn mhob peth arall, y mae y llafn yn gopi manwl o'r folden.

Mantais fawr iawn sydd ynglŷn â'r dull diweddaf hwn o ystrydebu yw ei gyflymder. O'r braidd y gellir parotoi llafnau oddi ar blastr i'r wasg mewn llai na chwe awr; ond gellir parotoi llafnau oddi ar bapur, a'u gosod ar yr argraphbeiriant, mewn amser hynod o fyr. Yn wir, y mae hyn wedi ei gario allan yn awr i'r fath berffeithrwydd yn swyddfeydd prif newyddiaduron dyddiol y deyrnas, fel y mae y llafnau yn cael eu parotoi yn fynych mewn saith munyd. Yn ol y drefn hon y mae y llafnau yn cael eu parotoi bob boreu i newyddiaduron y brifddinas, ac eraill ag y mae eu lledaeniad yn eang. Nid ydyw y llythyrenau yn cael eu defnyddio i argraphu o gwbl ganddynt hwy. Y mae nifer o lafnau yn cael eu gwneyd i gyfatteb i nifer yr argraph-beiriannau a ddefnyddir, ac y mae holl gopiau y papurau yn cael eu hargraphu oddi arnynt hwy. Y mae llawer o arbediad mewn traul yn y modd hwn. O'r blaen, pan yr oedd y "*Times*," er enghraifft, yn cael ei argraphu oddi ar y llythyrenau, yr oedd yn angenrheidiol cael cyff *(fount)* o lythyrenau newydd bob ychydig fisoedd. Nid felly er pan y mae yn cael ei ystrydebu: ond y mae y llythyrenau yn parhau am gynnifer o flynyddoedd yn awr ag oeddynt o fisoedd o'r blaen. Ac yn fynych pan y bydd llyfrau yn cael eu hargraphu oddi ar y llythyrenau eu hunain, y mae yn ddoeth cymmeryd moldiau papur o honynt cyn eu chwalu; o herwydd gellir rhoi y moldiau o'r naill du ar ol eu sychu, a'u defnyddio wedi hyny i wneyd llyfrau pan y bydd galw am argraphiadau newyddion.

YSGRYTHYR—AU. Y mae ymdriniaeth mor eang a chyflawn wedi bod ar yr Ysgrythyrau yn y gyfrol gyntaf o'r gwaith hwn, dan y gair BEIBL, fel nad yw yn angenrheidiol gwneyd nemawr yma ond crynhoi a chofnodi ychydig o ffeithiau mewn cyssylltiad â hwynt, a hyny yn benaf gyda golwg ar eu lledaeniad. Priodolir y gwaith o gasglu a threfnu yr Hen Destament i Ezra, rhwng y blynyddoedd 458 a 450 cyn Crist. Y mae rhaniad yr Ysgrythyrau i bennodau wedi ei briodoli i'r archesgob Lanfranc, yn yr unfed ganrif ar ddeg, ac i'r archesgob Langton yn y drydedd ar ddeg: ond y mae Mr. Hartwell Horne, ac eraill, yn ystyried mai yr hwn a wnaeth y gorchwyl mewn gwirionedd oedd y cardinal Hugo de Sancto Caro, ynghylch canol y drydedd ganrif ar ddeg. Dechreuwyd eu dosbarthu yn adranau gan y Rabbi Nathan, o ddeutu 1445; a chwblhawyd hyny gan Athras, yr hwn hefyd oedd Iuddew, yn y fl. 1662. Ymddengys i'r dosbarthiad presennol i adnodau gael ei ddwyn i mewn gan yr argraphydd enwog, Robert Stephens, yn ei Destament Groeg yn 1551, ac yn ei Feibl Lladin yn 1556—57.

Y mae llyfrau y Beibl yn ymwneyd â'r cyfnodau a nodir yn y daflen isod:—

| YR HEN DESTAMENT. | | C.C. |
|---|---|---|
| Genesis, yn cynnwys hanes y byd | o | 4004 i 1635 |
| Exodus ... ... | ... | 1635—1490 |
| Lefiticus ... ... | ... | 1490 |
| Numeri ... ... | ... | 1490—1451 |
| Deuteronomium ... | ... | 1451 |
| Iob ... ... | o ddeutu | 1520 |
| Iosuah ... ... | yn | 1451—1420 |
| Barnwyr ... ... | ... | 1425—1120 |
| Ruth ... ... | ... | 1322—1312 |
| 1af ac 2il Samuel | ... | 1171—1017 |
| 1af ac 2il Brenhinoedd | ... | 1015— 562 |
| 1af ac 2il Cronicl ... | ... | 1004— 536 |
| Llyfr y Salmau (yn benaf gan Dafydd) ... ... | ... | 1063—1015 |
| Diarhebion ... | o ddeutu | 1000 — 700 |
| Caniad Solomon ... | yn | 1014 |
| Y Pregethwr ... | ... | 977 |
| Ionah ... ... | ... | 862 |
| Ioel ... ... | ... | 800 |
| Hosea ... ... | ... | 785— 725 |
| Amos ... ... | ... | 787 |
| Esaiah ... ... | ... | 760— 698 |
| Micah ... ... | ... | 750— 710 |
| Nahum .. ... | ... | 713 |
| Sephaniah ... | ... | 630 |
| Ieremiah ... ... | ... | 629— 588 |
| Galarnad ... ... | ... | 588 |
| Habacuc ... ... | ... | 626 |
| Daniel ... ... | ... | 607 i 534 |
| Ezeciel ... ... | o ddeutu | 595—574 |
| Obadiah ... ... | yn | 587 |
| Ezra ... ... | ... | 536—456 |
| Esther ... ... | ... | 521—495 |
| Haggai ... ... | ... | 520 |
| Zechariah ... ... | ... | 520—518 |
| Nehemiah ... ... | ... | 446—434 |
| Malachi ... ... | ... | 397 |

| Y TESTAMENT NEWYDD. | | B.A. |
|---|---|---|
| Efengylau Matthew, Marc, Luc, ac Ioan ... ... | o C.C. | 5 i 33 |
| Actau yr Apostolion .. | ... | 33 – 65 |
| 1af ac 2il Paul at y Thessaloniaid ... ... | o ddeutu | 54 |
| Galatiaid ... ... | ... | 58 |
| 1af Corinthiaid ... | ... | 59 |
| 2il Corinthiaid ... | ... | 60 |
| Rhufeiniaid ... | ... | 60 |
| Iago ... ... | ... | 60 |
| 1af Pedr ... ... | ... | 60 |
| At yr Ephesiaid, Philippiaid, Colossiaid, Hebreaid, Philemon | ... | 64 |
| Titus, a 1af Timotheus | ... | 65 |
| 2il Timotheus ... | ... | 66 |
| 2il Pedr ... ... | ... | 66 |
| Iudas ... ... | ... | 66 |
| 1af, 2il, a 3ydd Ioan ... | ... | 90 |
| Datguddiad ... | ... | 96 |

Cafwyd y copi hynaf o'r Ysgrythyrau Hebraeg sydd yn adnabyddus yn Toledo, yn Yspaen; a gelwid ef yn *Codex Hillel*. Y mae o ddyddiad boreu iawn, sef tua'r bedwaredd ganrif, dybygid; ond tybia rhai ei fod wedi ei ysgrifenu drigain mlynedd cyn Crist. Ysgrifenwyd copi Ben

Digitized by Google

Asher, o Ierusalem, o ddeutu y flwyddyn 1100. Y copi hynaf o'r Hen Destament a'r Newydd yn y Groeg, fel y tybir, ydyw yr un sydd yn y Vatican, yr hwn a ysgrifenwyd yn y bedwaredd neu y bummed ganrif. Ymddangosodd argraphiad cardinal Mai o hono yn 1857. Y nesaf mewn hynafiaeth ydyw y *Codex Alexandriaidd;* a ysgrifenwyd, dybygid, yn y bummed ganrif. Y mae yn awr yn y Gywreinfa Brydeinig. Cyflwynwyd ef gan y patriarch Groegaidd i Siarl I. yn 1628. Y mae wedi ei argraphu yn Lloegr, a'i olygu gan Welde a Baker, yn 1786—1821. Priodolir y *Codex Ephraemi*, neu y *Codex Regius*, sydd yn y Llyfrfa Freiniol yn Mharis, i'r bummed ganrif. Cyhoeddwyd ef gan Tischendorf yn 1843. Darganfyddwyd y *Codex Sinaiticus* a ysgrifenwyd o bossibl tua'r bedwaredd ganrif, gan M. Constantine Tischendorf, yn Mynachlog St. Catherine, yn 1844 a 1859; a chyflwynwyd ef ganddo ef i ymherawdwr presennol Rwssia—ar draul yr hwn y dygwyd allan argraphiad ysblenydd o hono yn 1862. Argraphwyd Llyfr y Salmau yn Hebraeg yn Bologna, yn 1477. Argraphwyd y Beibl Hebraeg cyflawn cyntaf gan Soncino yn Italy, yn 1488, a'r Testament Groeg (yn cael ei olygu gan Erasmus) yn Rotterdam, yn 1516. Cyhoeddwyd argraphiad Aldus yn 1518, ac un Stephens yn 1546.

Ystyrir yn gyffredin fod y cyfieithiad Groegaidd o'r Hen Destament, a elwir y *Septuagint*, neu gyfieithiad y Deg a Thrigain, wedi ei wneyd yn ol gorchymyn Ptolemy Philadelphus, brenin yr Aipht, ynghylch y fl. 286, neu 285 C. C.; ond y mae llawer o adroddiadau chwedleuol yn bod gyda golwg ar hyn. Ar ol treulio wyth mlynedd ar hugain i gasglu ynghyd lawysgrifan, dechreuodd Origen ei Feibl amlieithog yn Cesarea yn B.A. 232; yr hwn a gynnwysai gyfieithiadau Groegaidd Aquila, Symmachus, a Theodotion—y rhai a wnaed oll o ddeutu diwedd yr ail ganrif. Y mae y rhai canlynol yn hen gyfieithiadau:—Y Syriaeg, yr hwn a wnaed yn y ganrif gyntaf, neu yr ail:—yr hen gyfieithiad Lladinaidd, a wnaed yn gynnar yn yr ail ganrif, ac a ddiwygiwyd gan Jerome, B.A. 384—yr hwn, pa fodd bynag, a gwblhaodd gyfieithiad newydd yn 405, a elwir yn awr y *Vulgate;* yr argraphiad cyntaf o ba un a gyhoeddwyd ynghylch 1456 (ond heb un dyddiad wrtho); a'r argraphiad ag y mae y dyddiad wrtho yn 1462:—y cyfieithiad Coptiadd, yn yr ail neu y drydedd ganrif:—y cyfieithiad Ethiopaidd, neu Armeniaidd, yn y bedwaredd neu y bummed ganrif:—y cyfieithiad Slafonaidd, yn y nawfed ganrif:—a'r cyfieithiad *Mœso-Gothaidd*, gan Ulfilas, apostol y Gothiaid, o ddeutu y flwyddyn 360; copi o'r hwn mewn llawysgrif, ac a elwir y *Codex Argentus*, sydd yn nghadw yn Upsal. Cyfieithwyd y Salmau i'r iaith Sacsonaidd gan yr esgob Aldhelm, tua 706. Gwnaed aralleiriad mydryddol Caedmon o gyfran o'r Beibl ynghylch 680; a'r Efengylau gan yr esgob Egbert, o ddeutu 721; a rhanau o'r Beibl, gan Bede, yn yr wythfed ganrif.

Gellir cyfeirio at y cyfieithiadau Saesnig canlynol o'r Beibl:—Aralleiriad mewn llawysgrif o'r holl Feibl sydd yn y Lyfrgell Fodleiaidd, yn Rhydychain; yr hwn, yn ol Usher, y gellir ei ddyddio yn 1290. Cyfieithiadau o'r *Vulgate*, gan Wicliff, a'i ddilynwyr, o ba rai y mae cant a deg a thrigain o lawysgrifau ar gael, 1356—84; rhanau o ba rai a argraphwyd gan Lewis yn 1731; gan Baber, 1810; a chan Madden a Horshal, yn Rhydychain, 1850. Cyfieithiad William Tyndal o efengylau Matthew a Marc, o'r Groeg, a argraphwyd yn 1524; o'r holl Destament Newydd, yn 1525—chwech o argraphiadau. Cyfieithiad Miles Coverdale o'r holl Feibl, yr hwn y gorphenwyd ei argraphu yn 1535. Gorchymynodd Harri VIII. osod y Beibl hwn yn nghôr pob eglwys, "fel y gallo pob un a ewyllysiai ei ddarllen." Cyfieithiad T. Matthews (enw benthyg meddir, am John Rogers), yr hwn sydd mewn rhan yn waith Tyndal a Coverdale, 1537. Beibl mawr Cranmer, sef un Matthews wedi ei ddiwygio, y cyntaf a argraphwyd trwy awdurdod, 1537. Cyfieithiad Geneva, sef y cyntaf y rhifwyd adnodau ynddo, 1540—1557, a gyhoeddwyd 1560. Beibl archesgob Parker, yr hwn a elwir hefyd 'Beibl yr Esgobion,' gan fod wyth, allan o'r pedwar ar ddeg a fu yn gweithio arno, yn esgobion, 1568. Beibl y brenin Iago, sef y cyfieithiad awdurdodedig presennol—yr hwn y dechreuwyd ei ddiwygio yn 1604, ac a gyhoeddwyd yn 1611. Cyfieithiad awdurdodedig y Pabyddion:—cyhoeddwyd y Testament Newydd yn Rheims, 1582; a'r Hen Destament yn Douay, 1609—10. Cyfieithiad awdurdodedig Saesneg Iuddewaidd, yn 1851—61. Y mae y diwygiad a ddygir yn mlaen yn bresennol ar y cyfieithiad Saesneg sydd mewn arferiad yn awr, yn cael ei ddwyn yn mlaen gan amryw o wŷr o wahanol enwadau crefyddol, y rhai a bennodwyd i wneyd y gwaith yn mis Mai, 1870. Gwel *cyf.* i., *td.* 654 B.

*Cyfrifon* 1895.—Ymddengys cyfrifon y Gymdeithas Feiblaidd yno hyd y fl. 1889. Yn awr, yr ydym yn gallu rhoi y cyfrifon hyd Mawrth, 1895, y rhai sydd fel y canlyn:—O fewn y flwyddyn hon, anfonodd y gymdeithas allan 3,837,222 o gopïau cyflawn, ac o ranau o'r Beibl —yn gwneyd 143,396,220 er sefydliad y gymdeithas yn 1808—pan anfonwyd allan 81,157 o gopïau. Derbyniodd y gymdeithas yn ystod y flwyddyn ddiweddaf at ei dybenion cyffredinol 137,775*p.* 19*s.* 8*c.*; ac am lyfrau, 93,552*p.* 18*s.* 1*c.* —yn gwneuthur cyfanswm o 231,328*p.* 17*s.* 9*c.* Ac erbyn hyn, y mae cyfieithiad, argraphiad, a dosbarthiad y Beibl wedi cael ei gyflawni yn uniongyrchol gan y gymdeithas ei hun mewn 261 o ieithoedd a thafod-ieithoedd y byd; a chynnorthwyodd hefyd gyda 65 eraill; yr hyn sydd yn gwneyd cyfanswm o 326 o gyfieithiadau a wnaed trwy y gymdeithas hon.

Y mae rhywun wedi cael gradd o ddifyrwch wrth wneyd y cyfrifon canlynol. Yn y Beibl Saesneg a wnaed ar gais y brenin Iago, yr oedd 26 o lyfrau; 1,189 o bennodau; 31,173 o adnodau; 773,746 o eiriau, a 3,566,580 o lythyrenau. Y bennod ganol, a'r leiaf, yn y Beibl yw *Salm* cxvii. Yr adnod ganol yn y Beibl yw yr 8fed yn *Salm* cxviii. A'r adnod leiaf yn y Beibl yw *Ioan* xi. 35.

Y mae yr enw 'Jehofah,' neu 'Arglwydd,' i'w gael 6,855 o weithiau yn yr Hen Destament.

**YSBRYDEGAETH** (*Spiritualism*): enw a roddir yn awr ar gyfundrefn sydd yn proffesu dal cymmundeb â'r byd anweledig, yr hon a gafodd ei dechreuad yn benaf yn yr America, tua'r fl. 1848. Ymledodd yn buan yn y wlad hono, ac mewn parthau eraill o'r byd; ac fe ennillwyd llawer i gredu ynddi yn Mhrydain ac yn Ffraingc. Yr oedd yr ysbrydegwyr yn cyfrif fod 1,500,000 yn credu yn y gyfundrefn hon yn yr America yn y fl. 1859, a mil yn ei dadleu yn gyhoeddus, a deg ar hugain yn ei

Digitized by Google

gwasanaethu yn barhaus; ac heb law hyny, yr oedd cannoedd o lyfrau a phamphledau, yn ei hegluro ac yn ei hamddiffyn, wedi dyfod allan o'r wasg. Y mae y cyffro ynghylch hyn wedi lleihau i ryw raddau: ond y mae crediniaeth llawer yn parhau yn ngwirionedd y gyfundrefn; ac nid ydyw eu sêl drosti chwaith yn llai. Y mae eraill, a fu yn ei phroffesu yn gyhoeddus iawn, wedi eu profi yn dwyllwyr.

Ceisir weithiau olrhain tarddiad y gyfundrefn yn ol i ysgrifeniadau Swedenborg; ac y mae lle i feddwl fod gweithgarwch rhai o'i ddilynwyr ef yn America, i ryw fesur, wedi darparu meddyliau llawer i dderbyn a chredu honiadau tebyg i'r eiddo ef:—effaith y darfu i rai arddangosiadau yn mysg yr Ysgydwyr (*Shakers*) yn nhalaeth Efrog Newydd, yn y fl. 1843, wneyd cymmaint, dybygid, tuag at ei gynnyrchu. Tybia ysbrydegwyr y dyddiau hyn fod ei hymddangosiad yn cael ei rag-amlygu yn ysgrifeniadau Swedenborg: ond y mae dilynwyr Swedenborg yn cadw ar wahân oddi wrthynt; a hyny mewn rhan, dybygid, am nad ydynt yn rhoddi digon o barch i sylfaenydd eu cyfundrefn hwy.

## YCHWANEGIAD.

HETHIAID, YR. Ceir yn *nghyf.* v., *td.* 446, crynodeb o hanes y bobl hynod hyn fel y mae i'w gael yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Hyd yn ddiweddar, nid oedd ond ychydig yn wybyddus am danynt ond yr hyn a geid yno. Erbyn hyn, modd bynag, y mae gwyddonwyr a hynafiaethwyr dysgedig wedi cymmeryd yr achos mewn llaw, ac wedi gwneyd ymchwiliadau sydd yn dangos cywirdeb yr hanes ysgrythyrol—yr hwn a ammheuid gan rai. Rhoddir yma grynodeb bỳr o ffrwyth y cyfryw ymchwiliadau:—

Dywed yr Arglwydd, trwy y prophwyd Ezeciel, am Jerusalem, 'Dy dad oedd Amoriad, a'th fam yn Hittees.' Heb law y cyfeiriadau hyn, nid oedd fawr o wybodaeth am danynt, ac ni buasai neb yn dychymygu am danynt eu bod hwy, fel pobl, yn genedl nerthol. Y mae yn wir ein bod yn cael, yn 2 *Bren.* vii. 6, fod y Syriaid oedd yn gwersyllu o amgylch Samaria wedi cael eu taraw â braw pan glywsant drwst cerbydau, trwst meirch, a thrwst llu mawr; a hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, 'Wele, brenin Israel a gyflogodd i'n herbyn ni frenhinoedd yr Hethiaid, a brenhinoedd yr Aipht, i ddyfod arnom ni.' Tua deugain mlynedd yn ol, beirniadwyd y geiriau hyn yn llym gan ŵr hynod ddysgedig, yr hwn a ddywedodd eu bod yn rhy an-hanesol i'w credu. 'Nis gallai (meddai) unrhyw frenhinoedd Hethaidd gymmharu mewn gallu â brenin Judah, cyd-bleidiwr gwirioneddol ac agos brenin Israel, ac nis enwir ef o gwbl. . . . Ac nid oes un arwydd yn yr hanesydd o gydnabyddiaeth â hanesyddiaeth yr oesoedd hyny.' Ond erbyn hyn, yr ydys wedi cael allan fod yr Hethiaid yn bobl gryfion iawn yn yr hen oesoedd, ac mai y beirniad oedd yn anghyfarwydd â'u hanesyddiaeth; ac nid yr ysgrifenydd sanctaidd. Yr oeddynt yn allu mor gryf fel y cystadleuasant â'r Aiphtiaid am lywodraeth ar Asia Orllewinol. Y mae yr hanes pa fodd y cafwyd y darganfyddiad o honynt, a'u hadgyfodiad megys o blith y meirw i ddalenau hanesyddiaeth, yn ddyddorol.*

Yr oedd yn wybyddus er dyddiau Herodotus fod cerfluniau wedi eu naddu mewn craig mewn lle a elwid, '*The Pass of Karabel*,' drwy yr hon y rhedai yr hen ffordd o Ephesos yn y deheu i Smyrna yn y gogledd. Tybiai Herodotus mai Sesostris—enw a roddid gan y Groegiaid ar Rameses, y rhyfelwr Aiphtaidd mawr—oedd wedi cerfio y rhai hyn, er coffadwriaeth am dano ei hun, a'i fuddugoliaethau. Ond yn y fl. 1879, aeth y Proffeswr Sayce yno i'w chwilio. Yr oedd rhai hynafiaethwyr, cyn hyny, wedi tybied nad arwyddluniau Aiphtaidd oeddynt; ac yr oedd y Proffeswr Perrot wedi tynu sylw at y tebygolrwydd mawr oedd rhyngddynt, o ran celfyddyd, i gerfluniau ar y creigiau yn Cappadocia. Tybiodd y Proffeswr Sayce mai gwaith celfyddyd Hethaidd oedd y cerfluniau a'r arwyddluniau yn Karabel. Arweiniwyd ef i dybied hyny oddi wrth gerfluniau a gafwyd gan Dr. Wright, yn Hamah—sefyllfa yr hen Hamath. Tybiodd Dr. Wright mai olion o'r Hethiaid oeddynt. Tynodd darganfyddiad Dr. Wright sylw Dr. Hayes Ward, o Gaerefrog Newydd atynt; ac efe a ddarganfu fod yr ysgrifeniadau yn wahanol i rai yr Aiphtiaid, gan eu bod yn rhedeg o'r dde i'r aswy, ac o'r aswy i'r dde, bob yn ail linell. Canlyniad yr ymchwil oedd hyn:—cadarnhawyd y dybiaeth mai olion Hethaidd ydoedd y cerfluniau a gafwyd yn Karabel, trwy y darganfyddiad o sefyllfa Carchemis, prif ddinas yr Hethiaid; lle y cafwyd cerfluniau ac arwyddluniau yn yr un drefn o ysgrifenu a'r hyn a gafwyd yn Hamah. Yn mhen ychydig amser, cyttunodd y byd dysgedig i gydnabod mai dull o ysgrifenu perthynol i linach yr Hethiaid oedd yr un a ddarganfyddwyd, a bod rhai tebyg iddynt yn Asia Leiaf. Yn yr oll o honynt, cafwyd yr un nodweddau, o ran ffurf y wyneb dynol, a dull y gwisgoedd, yr un penwisgoedd, yr un esgidiau (yn troi i fyny ar flaen bysedd y troed, fel esgidiau eira), yr un gwisgoedd, a phethau eraill. Trwy y darganfyddiad hwn y mae hen lywodraeth yr Hethiaid wedi adgyfodi o fedd, yn yr hwn y gorweddodd am ddwy fil o flynyddoedd.

Yr oedd cartref cyntaf yr Hethiaid yn lle disylw, yn ardal Cappadocia, ar yr ochr ogleddol i Taurus. Ymledasant yn mhen amser o'r afon Euphrates, yn y dwyrain, hyd at fôr Ægea, yn y gorllewin, ac o Cappadocia yn y gogledd hyd at lwythau Canaan yn y deheu. Yr oedd Carchemis, yr hon a safai ar lan yr afon Euphrates, yn un o'u prif ddinasoedd. Yr oedd sefyllfa y ddinas hon yn hollol anadnabyddus hyd yn ddiweddar. I Mr. Skene, y trafnoddwr Prydeinig yn Aleppo, yr ydym yn ddyledus am y darganfyddiad cywir o honi. Safai ar yr ochr orllewinol i'r afon, a thua chanol y ffordd rhwng Birejiok ac Aber Sagur. Yma, y mae clawdd celfyddydol o ddaear, o dan yr hwn y cafwyd adfeilion o balasdai, a cherfluniau lawer. Prynwyd y darn tir hwn gan Mr. Henderson, olynydd Mr. Skene, 'am bris buwch.' Yr oedd y cedyrn wedi syrthio yn wir, pan yr oedd prif ddinas yr Hethiaid, yr hon oedd wedi gwrthsefyll yn llwyddiannus fyddinoedd yr Aipht ac Assyria, yn cael ei phrynu am 'bris buwch.' Yr oedd y ddinas yn cael ei diogelu ar y ddwy ochr gan yr Euphrates. Yr oedd hi yn ddinas sanctaidd, ac yn ei hamser yn ddinas gyfoethog,—lle yr oedd marsiandïaeth helaeth yn cael ei gario yn mlaen. Prif ddinas arall yn y rhanbarth deheuol o'r ymherodraeth oedd Kadesh, yr hon a safai ar yr afon Orontes. Safai ar

Digitized by Google

draeth Llyn Homs, yr hwn a elwir hyd heddyw yn Llyn Kadesh, ger llaw y fan lle y mae yr Orontes yn rhedeg allan o'r llyn. Hon oedd un o'r lleoedd diweddaf a gymmerwyd gan yr Hethiaid yn Syria; ac yr oedd eu meddiant hwy o honi yn brawf o'u huchafiaeth dros Asia Orllewinol. |Hysbysir ni, yn 1 *Sam.* xxiv. 6, yn ol y darlleniad presennol fod teyrnas Dafydd yn ymestyn i fyny yn ogleddol hyd at derfynau Hethiaid Kadesh.

Y mae y darlleniad y llwyddwyd i'w wneyd o ysgrifeniadau yr Aipht ac Assyria yn y blynyddoedd diweddaf wedi taflu goleuni newydd ar hanes yr Hethiaid, ac yn dangos fod y llinach y perthynent iddo wedi cymmeryd rhan flaenllaw yn hanes gwareiddiad y dwyrain. Yn amser Seli I., mab ac olynydd Rameses I., dechreuodd rhyfel rhyngddynt a'r Aiphtiaid, yr hon a barhaodd am hanner can mlynedd. Trwy y rhyfel hwn dyhysbyddwyd nerth yr Aiphtiaid; ac er holl ymffrost eu hysgrifenyddion a'u beirdd, bu dda ganddynt wneyd heddwch â'r Hethiaid—pan y trosglwyddwyd Asia Leiaf i ddwylaw yr Hethiaid. Yn amser Rameses II., gorthrymwr plant Israel, a mab Seli I., torodd rhyfel allan drachefn rhwng yr Aiphtiaid a hwynt. Parhaodd y rhyfel hwn dros oes Rameses. Yr oedd yr Aiphtiaid yn fuddugoliaethus, weithiau; ond ar brydiau eraill, yr Hethiaid. Effeithiodd y rhyfeloedd hyn yn niweidiol iawn ar ddinasoedd Gwlad Canaan. Difäwyd eu tir gan y byddinoedd gwrthwynebol lliosog a dramwyasant drwyddo; ac anrheithiwyd eu trefydd yn awr gan yr Hethiaid, a phryd arall gan yr Aiphtiaid. Mae'n ddïau fod hyn yn esbonio yr ychydig wrthwynebiad a gafodd Josuah, a phlant Israel, pan y goresgynasant y wlad. Pan ddaeth yr Hethiaid a'r Aiphtiaid i ymheddychu â'u gilydd, yr oedd brenin yr Hethiaid ar dir hollol gydradd a brenin yr Aipht. Y ddau hyn oedd prif alluoedd y byd y pryd hwnw; ac y mae y ffaith yn dangos i ni liosawgrwydd a gallu yr Hethiaid.

BARNBY, Syr JOSEPH. Prifathraw Ysgol Gerddorol y Guildhall, yn Llundain, a cherddor oedd yn hynod adnabyddus. Ganwyd ef yn Nghaerefrog, yn 1838; a phan yn lled ieuangc, gwnaeth gynnydd cyflym mewn cerddoriaeth. Yn 1872, dewiswyd ef yn olynydd i Gounod fel arweinydd Cymdeithas Gerddorol yr Albert Hall—swydd a ddaliodd tra y bu efe byw. Bu hefyd yn arweinydd arbenig y cyngherddau mawr a gynnelid yn Llundain ar achlysuron ymweliad ymherawdwyr a brenhinoedd gwledydd tramor â'r brifddinas. Safai yn uchel yn mysg ei gydoeswyr fel cyfansoddwr; a theimlwyd colled mawr ar ei ol.

Trwy ei gynghorion doeth, a'i gydymdeimlad gwastadol â hwy, gwnaeth Syr Joseph lawer yn ffordd cerddorion Cymreig; ac yr oedd bob amser yn cymmeryd dyddordeb nid bychan yn eu cyfansoddiadau. Ychydig flynyddoedd yn ol, cynnaliwyd gŵyl gerddorol fawr yn Nghaerdydd, yr hon a barhaodd dros amryw ddyddiau. Dewiswyd Syr Joseph yn arweinydd iddi. Hon oedd y gyntaf o gyfres o ŵyliau blynyddol sydd wedi eu trefnu i gymmeryd lle yn Nghaerdydd; ac nid ychydig o bryder a fodolai ynghylch ei llwyddiant. Gweithiodd Syr Joseph yn galed tuag at gyrhaedd hyny, a llwyddodd yr ŵyl yn rhagorol. Yr oedd efe, hefyd, yn un o'r beirniaid cerddorol yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli yn 1895. Gwnaeth sylwadau gwerthfawr yno ar gerddoriaeth yn gyffredinol, ac yn enwedig felly yn ei chyssylltiad â Chymru; a thalodd warogaeth uchel i alluoedd cerddorol ein cenedl.

Yn 1892, dewiswyd ef yn brifathraw Ysgol Gerddorol y Guildhall, fel olynydd i Mr. Weist Hill; ac yn y swydd hon, bu ganddo ran neillduol mewn dadblygu tueddfryd gerddorol rhai miloedd o'i gydwladwyr. Bu farw yn hynod ddisymmwth yn Llundain ar y 29ain o Ionawr, 1896, a chladdwyd ef yn Norwood.

LEIGHTON, Arglwydd:—yr hwn a adnabyddid oreu wrth yr enw Syr Frederick Leighton. Yr oedd efe yn llywydd Athrofa Freninol yr Arlunwyr—y swydd fwyaf anrhydeddus y gall unrhyw arlunydd ei dal yn y deyrnas hon. Ganwyd ef yn Scarborough, ar Rhagfyr 3ydd, 1830; ond treuliodd ran fawr o'i flynyddoedd boreuaf yn yr Eidal. Pan yn ieuangc iawn, dangosodd duedd gref at arlunio; a chafodd bob mantais yn Rhufain a Florence i ddadblygu a choethi y duedd hon, ac i greu chwilfrydedd yn ei feddwl ieuangc at ddilyn arluniaeth fel galwedigaeth. Bu dan addysg yn Berlin, a Paris, a Brussels hefyd. Yr oedd ei rïeni ar y cyntaf yn hynod wrthwynebol iddo ddilyn unrhyw gelfyddyd fel moddion cynnaliaeth; ond talwyd y fath deyrnged uchel i'w alluoedd arluniawl gan Mr. Hiram Powers, yr Americanwr enwog, fel y penderfynasant adael iddo ddilyn ei dueddiadau yn y cyfeiriad hwn. Yr oedd hyn, fel y gellir meddwl, wrth fodd ei galon; ac ymroddodd gydag egni i feistroli holl anhawsderau a dirgelion y gelfyddyd. Yn 1855, gosodwyd ei ddarlun o '*Cimabue's Procession*' i fyny yn yr Athrofa Freninol; a thynodd sylw anarferol. Dyma ddechreu dyrchafiad Leighton ar ysgol anrhydedd. Prynwyd y darlun gan y frenhines; a chafodd ei arddangos ar amryw achlysuron wedi hyny. Bu Mr. Leighton am dymmor ar ol hyn yn Paris—lle y cafodd bob manteision i ymberffeithio, o dan gyfarwyddyd Robert Fleury, Ary Scheffer, ac eraill oedd yn feistriaid ar y gelfyddyd. Yn y flwyddyn 1856, anfonodd ddarlun arall i'r athrofa, teitl yr hwn oedd 'Orpheus yn Hades, yn chwilio am Eurydice.' O hyny allan, arddangosid cynnyrch ei athrylith bron yn flynyddol yn yr athrofa; a phrynid hwynt ar eu hymddangosiad am symiau mawr.

Dychwelodd i Lundain yn 1860. Yn 1869, etholwyd ef yn aelod llawn o'r athrofa; ac yn 1878, gosodwyd ef yn y gadair lywyddol, fel olynydd i Syr Francis Grant. Yn lled fuan ar ol hyn, gwnaed ef yn farchog; ac ar ol hyny yn farwnig yn 1886. Yr oedd Syr Frederick yn gerflunydd o radd uchel hefyd. Dewiswyd ef hefyd, yn aelod o amryw o brif gymdeithasau arluniol y Cyfandir; yr hyn oedd yn gydnabyddiaeth pellach o'r safle uchel y cyrhaeddodd efe iddi yn y gelfyddyd. Yn nechreu y fl. 1896, dyrchafwyd ef i'r bendefigaeth, gyda'r teitl o Arglwydd Leighton; ond cyn iddo allu cymmeryd ei sedd yn Nhŷ yr Arglwyddi, bu farw, Ionawr 26ain, o glefyd y galon. Claddwyd ei weddillion yn Eglwys St. Paul, yn Llundain.

LLANOFER, Arglwyddes. I'r genedlaeth bresennol o Gymry, nid ydyw enw y foneddiges hon mor adnabyddus ag ydoedd yn yr oes a aeth heibio. Yn wir, nid ydyw yn agos mor

Digitized by Google

hysbys ag y dylai fod; o blegid yn ei dydd, gwnaeth yr Arglwyddes Llanofer gymmaint a neb, yn ei dull nodweddiadol ei hun, i gadw yn fyw iaith ac arferion cenedl y Cymry. Merch ydoedd hi i Mr. Benjamin Waddington, o'r Tŷ Uchaf, Llanofer; a ganwyd hi yn Mawrth, 1802. Priododd Syr Benjamin Hall, gŵr galluog, a thirfeddiannwr mawr, yr hwn a fu yn aelod seneddol dros y sir, ac a ddyrchafwyd i Dŷ yr Arglwyddi gyda'r teitl o Arglwydd Llanofer; ac a wnaed yn aelod o'r cyfrin-gynghor.

O ddeutu hanner can mlynedd yn ol, yr oedd *Gwenynen Gwent*—o blegid dyna ei ffugenw—yn enw anwyl a pharchus yn nghalon pob Cymro teilwng o'r enw. Mabwysiadodd y ffug-enw hwn o ddeutu adeg Eisteddfod Caerdydd, yn 1834; yn yr hon ŵyl yr oedd y Dduces o Caint a'r Dywysoges Victoria—yn awr Brenhines Prydain—yn bresennol. Mewn adeg pan yr oedd y 'ffasiwn' mewn rhai cylchoedd i wawdio Cymru, ei hiaith, ei phobl, a'i neillduolion, cododd hi ei llais yn groch i wrthdystio yn erbyn y fath ymddygiad. Ac yn fuan iawn, er nad oedd wedi hanu o deulu Cymreig, hi a ddaeth yn un o arweinwyr y symmudiad oedd, ac sydd etto, â'i amcan i godi yr hen wlad yn ei hol; a dyrchafu ei llenyddiaeth, a chadw yn fyw ei hiaith a'i defion. Nodweddid hi gan frwdfrydedd mawr dros bob peth oedd yn wirioneddol Gymreig; ac nid oedd boneddiges o feddwl cryfach na hi i'w chael o fewn y Dywysogaeth. Credai yn gryf mewn llwyr-ymwrthodiad, ac mewn defnyddio pethau naturiol a chartrefol mewn achosion o afiechyd.

Er mwyn symmud y temtasiynau i yfed o ffordd ei chymmydogion, prynodd i fyny yr holl dafarnau oedd ar ei hetifeddiaeth, gan droi amryw o honynt yn 'dafarnau coffi.' Rhoddodd enwau Cymreig iddynt hefyd; gan alw tafarn y *Nag's Head* yn 'Pen Ceffyl,' a'r *Blue Bell* yn 'Gloch Gobaith.' Gwnaeth ei chartref yn gwbl Gymreig, hefyd. Byddai raid i'r morwynion, a phawb, siarad Cymraeg, hyd yr oedd hyny yn bossibl. Adnewyddwyd yr enwau Cymreig ar bob man o amgylch y palas, a rhoddwyd enwau Cymreig i holl aelodau y teulu. Gyda chynnorthwy y diweddar Carnhuanawc, ac er mwyn codi yr hen eisteddfod i fri, cychwynodd eisteddfodau yn Abergafeni o ddeutu y fl. 1840. Daeth y delyn Gymreig deir-res, gyda'r hen 'Gruffydd ddall' yn delynwr, yn sefydliad yn neuadd Llanofer; ac yn fuan, fe ddilynwyd yr esampl gan eraill yn Nghymru, nes yr aeth telynau Cymreig yn brinion. Er mwyn cyfarfod â'r gofyn, cyflogodd yr Arglwyddes Llanover nifer o weithwyr i wneyd yr offeryn yn Llanover; ac oddi yno yn unig, am rai blynyddau, y gellid cael telynau Cymreig.

Nid oedd hi yn gallu siarad Cymraeg yn rhwydd iawn; er hyny, yr oedd ei chariad at yr iaith yn amlwg. Yn Eisteddfod 1834, pan y cafodd ei hurddo, rhoddwyd iddi y wobr am draethawd ar yr iaith Gymraeg. Ar ddyfodiad pob ymwelydd i Lanofer, dywedai wrthynt—'Croesaw i chwi i Lanofer! Y mae yma ymborth a lletty i chwi!' Byddai gan ei thenantiaid ŵyl flynyddol, a elwid 'Gwledd y Tyddynwyr;' a byddai raid iddynt oll ymddangos yn yr hen wisgoedd Cymreig—'sgidie bwcle, sana'r ddu ddafad, clôs pen glîn, côt cwt fach, nisied fraith, a choler frith.' Byddai yn yr ŵyl ddigon o ddawnsio; ac yn wir, rhoddid gwobr am y ddawns Gymreig oreu. Yr oedd ei henwau ar aelodau y teulu yn hynod. Gelwid yr hyn a elwir yn gyffredin yn *house-keeper* yn 'deuluyddes;' a rhoddid enwau y lleoedd, neu y cartrefi, y deuai y morwynion a'r gweision arnynt. Gelwid un a ddeuai o Landyfi, 'Rhian Dyfi.' Gelwid y gogyddes, 'Siân y Gegin;' a'r forwyn fach yn 'Siân fach.' Gelwid un o'r gweision 'Blaen Blodau,' o herwydd mai dyna enw ei gartref; a'r llall 'Blaen Briallu.' Yr oedd i'r anifeiliaid, hefyd, enwau Cymreig; a 'Gofalus,' yn briodol iawn, y gelwid y ci a wyliai y tŷ.

Yn Ysgolion Cenedlaethol Llanofer, rhoddid gwobr gan yr arglwyddes i'r bachgen a ddangosai y cynnydd mwyaf yn ei wybodaeth yn y Gymraeg. Y beirniad, yn aml, oedd yr Archddiacon Howell (*Llawdden*). Ar bob Nadolig, rhoddai wobrau i'r aelodau mwyaf cysson yn eu presennoldeb yn y tair Ysgol Sul berthynol i'r ddwy eglwys a waddolodd—eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn nghapel Rhyd-y-meirch, eglwys y Methodistiaid Saesnig yn Abercarn, ac eglwys y plwyf yn Llanofer. Byddai y gwobrau bob amser yn y ffurf o ddillad. Derbyniai yr eneth uchaf ar y rhestr gochl goch, a'r bachgen uchaf grys coch; ac yr oedd crysau, arffedogau, peisiau, llodrau, gwasgodau, ysgabler, a gwarleni yn mysg y gwobrau eraill. Yr oedd yr arglwyddes yn Dori rhongc am y rhan flaenaf o'i hoes; ond trodd wedi hyny i dueddu at Ryddfrydiaeth.

Fel y dywedwyd, yr oedd hi hefyd y fwyaf Gymreig o'r holl Gymrüesau; ac nid pawb a ŵyr mai o herwydd y teimlad Cymraeg hwn y trodd hi oddi wrth yr Eglwys Sefydledig, ac y daeth y capel a adeiladwyd gan y teulu yn Abercarn yn feddiant i'r Methodistiaid Calfinaidd. Agorwyd y capel hwn o ddeutu deugain mlynedd yn ol; ac ar y dechreu, bwriadwyd ef fel eglwys esgobawl i Gymry Mynydd-islwyn. I'r dyben hwn, derbyniodd yr adeilad drwydded gan Esgob Llandaf; ond ni chyssegrwyd hi. Yr oedd ar y diweddar Arglwydd Llanofer eisieu ei chadw yn ei feddiant ei hun, er mwyn cadw yn mlaen y gwasanaeth Cymraeg yno. Dywedwyd yn eglur, ac yn benderfynol, nad oedd dim Saesneg i ddyfod i mewn i'r gwasanaeth o gwbl yn yr eglwys newydd; ond fod y cwbl i'w gario yn mlaen yn y Gymraeg. Am beth amser, aeth pob peth yn mlaen yn dawel; ond gan fod Saesneg mor gyffredin yn y wlad, tybiodd y ficer y buasai yn dda iddo yntau ei dwyn i fewn i'r gwasanaeth—a gwnaeth hyny ar ryw nos Sabbath. Digiodd hyn Arglwydd Llanofer yn fawr; ac yn ngwyneb y ffaith fod Esgob Llandaf yn dangos ei hun yn wrthwynebol i ymyryd o gwbl, ac nad oedd ganddo—fel y mae yn resyn dyweyd nad oes gan arweinwyr yr Eglwys o hyny hyd yn awr—ddim cydymdeimlad â'r Gymraeg, a phethau Cymreig, cauodd ei arglwyddiaeth yr eglwys, a dechreuodd bennod newydd yn ei hanes.

Un o weinidogion mwyaf parchus cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd oedd y diweddar Dr. Thomas Phillips, o Henffordd; yr hwn a fu yn gynnrychiolydd y Gymdeithas Feiblaidd. Yr oedd efe yn gyfeillgar âg Argl. Llanofer; a phan yr oedd yr olaf mewn helbul ynglŷn â'r eglwys, gofynodd gynghor Dr. Phillips. Yna gwnaeth Dr. Phillips yr hyn oedd yn angenrheidiol i drosglwyddo yr eglwys o esgobaeth Llandaf i gyfundeb y Methodistiaid, trwy fyned â'r achos ar unwaith i'r sasiwn, lle y derbyniwyd y capel yn eiddo y cyfundeb. Trwy hyn y daeth y

Digitized by Google

capel yn eiddo i'r Methodistiaid. Yma bu amryw o brif weinidogion y cyfundeb yn gweinidogaethu, yn trigo yn y tŷ ardderchog a adeiladwyd i'r gweinidogion, a elwir 'y Parsondy.' Yma y bu y Parch. D. Charles, D.D., ar ol bod yn Ngholeg Trefecca; a Dr. Saunders. Dilynwyd yntau gan y Parch. David Jones, Dowlais, a'r Parch. George Watson, o Bont-y-pool.

Ond i ddychwelyd at gyssylltiad y foneddiges hon â'r Eisteddfodau Cymreig. Yr oedd Eisteddfodau y Fenni yn dechreu cyfnod arbenig yn hanes llenyddiaeth Gymreig. Cynnaliwyd y gyntaf o'r eisteddfodau hyn yn 1834 mewn cyssylltiad â Chymdeithas y Cymreigyddion; yr hon a sefydlwyd yn y dref y flwyddyn flaenorol gan Syr Benjamin a'r Arglwyddes Hall. Y mae cofnodion Eisteddfod y Fenni am y fl. 1845 o ddyddordeb neillduol, mor bell ag y maent yn dangos poblogrwydd yr arglwyddes yn Nghymru. Cynnaliwyd yr ŵyl ar y 14eg o Hydref; ac ymddengys enw *Gwenynen Gwent* ar y rhaglen fel un a roddai amryw o'r gwobrwyon; ac yr oedd y gwobrwyon hyn yn cael eu rhoddi, yn ddi-eithriad, am gyfansoddiadau ar destynau hollol Gymreig.

Bu yr Arglwyddes farw Ionawr y 17eg, yn 95ain mlwydd oed. Cynnaliwyd y gwasanaeth claddu o'r dechreu i'r diwedd yn yr Gymraeg; ond gosodwyd hyn yn Saesneg ar gauad yr arch:

LADY LLANOVER,
BORN 21st MARCH, 1802.
DIED 17th JANUARY, 1896.
AGED 95 YEARS.

'Y gorphwysont oddi wrth eu llafur.' 'Gan ddisgwyl trugaredd ein Harglwydd Iesu Grist i fywyd tragwyddol.'

Yr oedd y merched a gymmerasant ran yn y seremoni hon wedi ymdrwsio mewn gwisgoedd Cymreig. Mewn gair, yr oedd pob peth ynglŷn â'r claddedigaeth mor Gymreig ag yr oedd yn bossibl ei wneyd, er dangos parch i syniadau a theimladau yr Arglwyddes Llanofer tra yr oedd hi yn fyw.

---

Yr oedd amgylchiadau pwysig mewn rhai o'r teyrnasoedd canlynol yn gyfryw fel yr oedd yn rhaid aros hyd yn awr cyn y gallesid cael y manylion a berthynent iddynt. Ac yr oedd rhai cyfrifon diweddar yn perthyn i'r lleill, yr aroswyd, gan ddisgwyl eu cael.

BOLIVIA. Talaeth ydyw hon yn Neheubarth Affrica; yr hon, ynghyd â Paraguay, ydynt yr unig ddwy nad ydyw y môr yn curo eu glanau. Mesura tua 472,000 milldir petryal, a chyfrifir ei phoblogaeth tua 2,302,000. Yn ystod y rhyfel a fu rhyngddi a Chili yn 1879, yr oedd ganddi fyddin o 6,000. Ei chyllid, yn 1887-88, oedd 753,285*p.*; y treuliau, 895,423*p.* Ei dyled gyhoeddus, yn 1886, oedd 2,403,378*p.* Y brif dref yw Sucre—poblogaeth yr hon sydd yn 12,000. Yr arlywydd presennol yw Senor Don Mariano Baptista, yr hwn a etholwyd i'r swydd yn 1892. Rhoddodd Paraguay iddi ran o dir, o 60 milltir daearyddol, ar hyd yr afon Paraguay; ac fel hyn y cafodd Bolivia gyssylltiad â Môr y Werydd.

COSTA RICA. Y weriniaeth hon ydyw y fwyaf deheuol o holl Dalaethau Canolbarth America. Cynnwysa arwynebedd o tua 23,000 mill. pet. (Saesnig), gyda phoblogaeth, yn 1892, o 243,205. Y prif nwyddau a allforir oddi yno ydyw coffi, sugr, crwyn, cedrwydd, a ffrwythydd. Yn 1893, anfonwyd gwerth 850,000*p.* o goffi oddi yno i'r Deyrnas Gyfunol, a gwerth 240,000*p.* o *bananas.* Mae y wlad yn gyfoethog mewn mŵnau. Nid oes ynddi ond ychydig o ffyrdd haiarn yn agored; ond y mae cynlluniau wedi eu tynu allan i chwanegu llawer atynt. Swm y cyllid yn 1894 oedd 536,624*p.*; y treuliau gwladol, 536,562*p.*; dyled wladol, 2,000,000*p.*; dadforion yn 1893, 1,170,127*p.*; a'r allforion, 858,845*p.* Y brif dref yw San José, poblogaeth yr hon ydyw 19,326. Etholwyd yr arlywydd presennol, Rafael Iglesias, Mai 4ydd, 1894.

ECUADOR. Talaeth sydd yn gorwedd ar orllewinbarth Deheu America yw hon. Ffurfia ran o weriniaeth gyntefig Columbia; a mesura tua 120,000 milldir petryal, gyda phoblogaeth o 1,270,000. Dyfrheir y wlad gan ranau uchaf yr afon Amazon. Y mae pigau uchaf yr Andes yn ymgodi o'r wlad hon; sef, Chimborazo, yn 21,525 tr.; Cotopaxi, 19,613 tr.; a'r Antisana, 19,335 tr. Rhenir y wlad i un-ar-bymtheg o dalaethau, ac un diriogaeth. Yn 1891, nid oedd yno ond 57 mill. o ffyrdd haiarn yn agored. Y brif borthladd ydyw Guayaquil, gyda phoblogaeth, yn 1890, o 45,000. Poblogaeth y prif drefi eraill oeddynt fel y canlyn:—Quito, 40,000; Cuenca, 25,000; Riobamba, 12,000; Ambato, Loja, a Latacunga, 10,000. Swm y cyllid yn 1893 oedd 4,325,701 doleri; treuliau, 4,433,450 doleri; dyled gyhoeddus, 750,000*p.*; dadforion, 2,975,718 doleri; allforion, 533,765 doleri. Y brif dref ydyw Quito. Arlywydd neu benaeth presennol y werinaeth ydyw y Cadfridog Eloy Alfaro.

HAYTI. Ffurfia y weriniaeth hon y rhan orllewinol neu Ffrengig o ynys San Domingo; yr hon, ac eithrio Cuba, yw y fwyaf o ynysoedd India y Gorllewin. Mesura 29,830 mill. pet.; o ba nifer y mae 9,242 mill. pet. yn perthyn i Hayti, gyda phoblogaeth o 1,000,000. Hon yw y llanerch mwyaf cynnyrchiol, o bossibl, yn yr ynysoedd hyn. Swm y cyllid, yn 1894, oedd 1,330,000*p.*; y treuliau, 1894—95, 1,608,541*p.*; y ddyled wladol, 3,662,000*p.*; y dadforion, yn 1892, 80,465*p.*; yr allforion, 107,777*p.*; dadforion o'r Deyrnas Gyfunol i'r holl ynys (1894), 349,261*p.*; yr allforion i'r Deyrnas Gyfunol o'r holl ynys, 81,072*p.* Y brif dref ydyw Port-au-Prince, gyda phoblogaeth o 34,000. Etholwyd yr arlywydd presennol, y Cadfridog L. M. F. Hyppolite, yn Hydref, 1889.

JAPAN. [gweler hefyd y chweched gyfrol.] Yn ol y mesuriadau diweddaf, y mae arwynebedd Japan yn 147,655 mill. pet., a'r boblogaeth, yn 1893, oedd 41,388,313. Yn nghorph yr ychydig flynyddoedd diweddaf, nid oes un wlad arall i'w chymmharu â hi o ran ei chynnydd mewn gwareiddiad, a'i mabwysiad o arferion gwledydd y gorllewin. Y mae y wlad yn agored iawn i ddaeargrynfâau. Ar yr 28ain o fis Hydref, 1891, cymmerodd daeargryn le a laddodd 9,960 o bersonau, a glwyfodd 20,000, ac a ddinystriodd 130,000 o anneddau. Ar yr 31ain o Fawrth, 1892, yr oedd 1,717 milldir o ffyrdd haiarn yn agored, tra yr oedd llawer o ffyrdd haiarn newyddion yn cael eu prysur osod i lawr. Mewn adeg o heddwch, rhifa y fyddin 78,017, ond gellir ei lliosogi i 245,520 mewn adeg o ryfel. Gwneir y llynges i fyny o amryw

Digitized by Google

ryfel-longau nerthol; a pherthyn iddi 9,885 o swyddogion a dynion.

*Ei masnach yn* 1893:—Ei werth, 9,285,609*p.* rhyngddi â'r Deyrnas Gyfunol a'i threfedigaethau; 4,375,685*p.* â'r Unol Dalaethau; 3,178,828*p.* â China; 2,948,401*p.* â Germany; 1,164,003*p.* â Ffraingc; a 422,899*p.* â'r Corea. Cyrhaeddodd 1,528 o longau tramor i borthladdoedd y wlad yn 1893; ac o'r nifer hwn perthynai 777 i Brydain. Prif dref y wlad ydyw Tokio, gyda phoblogaeth, yn y fl. 1894, o 1,214,113. Cyfrifir fod swm y cyllid yn 1891—92 yn 12,527,104*p.*; y treuliau, 11,554,562*p.*; y ddyled wladol yn y fl. 1893, 40,422,449*p.*; dadforion yn y fl. 1894, 23,496,391*p.*; a'r allforion, 22,649,217*p.*

Gwneir y deyrnas i fyny o 4,227 o ynysoedd; ac y mae ynddynt o leiaf chwech o ddinasoedd yn meddu poblogaeth o dros gan mil:—Tokio (y brif dref), 1,214,113; Osaka, 482,961; Kiôto, 317,270; Nagoya, 194,796; Kobé, 153,382; Yokohama, 152,451. Yn 1893, yr oedd y genedigaethau yn 28.5 ar gyfer pob mil o'r boblogaeth, a'r marwolaethau yn 22.7 y fil. Nifer y tramorwyr o fewn yr ymherodraeth oedd 9,633.

*Amaethyddiaeth.*—Nid oes yn cael eu trin yno ond 11,300,000 o erwau o'r tir; yr hyn nid yw ond o ddeutu y ddeuddegfed ran o'r wlad, ac ychydig mwy na hanner maintioli yr Iwerddon. Ond mae y tir mor dda, ac amaethyddiaeth mor berffaith yno fel y mae hyn yn cynnyrchu digon o ŷd a ffrwythydd i gynnal y boblogaeth. Yn y fl. 1893, codwyd y cynnyrchion a ganlyn yno:—Reis, 184,510,328 pwysel. Haidd, 35,694,982 pwysel (dros bymtheg gwaith mwy nag a godwyd o fewn y Deyrnas Gyfunol yn 1895), rhug 30,484,784 (tri chan cymmaint ag a godwyd yma). Gwenith, 16,324,084 pwysel (wyth gwaith mwy nag a godwyd yn y deyrnas hon). Pŷs, 15,550,000 (trigain gwaith mwy nag a godwyd yma); ond symiau llai o faip, pytatw, &c. Yn y fl. 1892, tyfwyd 64,000,000 pwys o dê yno; a 343,000,000 galwyn o wahanol wirodydd; a 312,000,000 dwsin o flychau fflachelli. Y mae 2,338,600 o bersonau, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, mewn gwaith ynglŷn â physgodfeydd y wlad; ac yn 1891, yr oedd cynnifer a 377,497 o longau yn cario yn mlaen y fasnach hon. Cyfrifid fod gwerth cynnyrch y môr yn 1892, yn annibynol ar halen, yn 3,050,158*p.*

*Y Cyllid.*—Yn 1874, nid oedd gwerth y dadforion a'r allforion gyda'u gilydd ond 8,555,824*p.*; ond yn 1884, yr oeddynt wedi codi i 12,708,822*p.*; ac yn 1895, yr oeddynt yn 46,145,608*p.* Yn 1868, nid oedd y llyfrau a'r papyrau a anfonwyd o Japan yn werth ond 8,271*p.*; ond yn 1894, yr oeddynt yn werth 72,213*p.* Nid oedd y nwyddau sidan a allforiwyd yn 1868 yn werth ond 102*p.*; ond yn 1894, yr oeddynt wedi cyrhaedd 1,685,999*p.* Ni allforiwyd dim gwerth sôn am dano o fflachelli (*matches*) oddi yno yn 1868; ond yn 1894, yr oeddynt yn werth 759,126*p.* Yn 1868, yr oedd y tê a allforiwyd yn werth 716,353*p.*; ond yn 1894, yr oedd yn 1,540,417*p.* Gwerth y nwyddau cotwm a allforiwyd yn 1868 oedd 1,289*p.*; ond yn 1894, yn 327,856*p.* Y cadachau sidan, yn 1868—dim; ond yn 1894, gwerth 725,625*p.* Ni anfonwyd dim matiau lloriau yn 1868; ond yn 1894, gwerth 393,000*p.* Nid ydyw y manylion hyn ond cyfran fechan o'r ffeithiau sydd yn dangos cynnydd cyflym y deyrnas uchod. Nid yw nifer y llongau, a'u tynelliad, a alwasant yn mhorthladdoedd Japan i'w cael am y blynyddoedd cyn 1873. Yn y flwyddyn hono, galwodd 273 o agerlongau, yn meddu gallu cludawl o 441,567 tynell; ond yn 1894, yr oedd y nifer yn 1,788, a'u tynelliad yn 2,539,951. Yn yr un cyfnod, cynnyddodd nifer y llongau hwyliau o 298, gyda thynelliad o 124,909, i 729, gyda thunelliad o 149,830. Felly, cododd holl nifer y llongau o 571 yn 1873 i 2,517 yn 1894. Wele ffeithiau etto sydd yn dangos yn eglur y cynnydd. Yn y fl. 1888—89, nifer y llythyrau, y newyddiaduron, a'r sypynau a anfonwyd trwy'r llythyrdai oedd 164,594,650; ond mewn pum mlynedd, yr oeddynt yn mron wedi dyblu—yn 321,630,508; a chododd nifer y *postal orders* o 1,689,929 i 3,372,036; y pellebrau o 2,844,985 i 6,444,463, yn yr un ysbaid. Yn y fl. 1894, yr oedd 2,039 mill. o ffyrdd haiarn mewn cyflwr i deithio arnynt, a 689 mill. yn cael eu gosod i lawr. Nifer y peiriannau oedd 351; teithwyr a gludwyd 32,404,772; derbyniadau y llinellau 2,318,804*p.* Dyblodd nifer y teithwyr er 1888. Y sefydliadau addysg o bob math yn niwedd 1892, oedd 25,404, gyda 67,688 o athrawon ac athrawesau, a 3,290,313 o ysgolheigion; ac y mae cyfundrefn addysg y wlad mor berffaith bron ag y gellir disgwyl iddi fod. Diwedd 1892, yr oedd yno 792 o newyddiaduron a chylchgronau, â chylchrediad o 244,203,066. Nifer y llyfrau a argraphwyd oedd 21,844.

Prif grefyddau y wlad ydynt Shintöyddiaeth a Buddhïaeth. Ar ddiwedd 1892, rhifai yr offeiriaid Shintöaidd 81,966, a'r temlau 193,476; yr offeiriaid Buddhïaidd 53,540; a'r temlau yn 71,839. Y mae Shintöyddiaeth yn ymddangos fel yn cynnyddu yno; a bernir fod Buddhïaeth yn lleihau. Rhifai heddlu yr ymherodraeth 29,097, y carcharau 164, a'r carcharorion 76,057.

I fod yn etholwr yno, rhaid i'r dinesydd fod o leiaf yn 25ain oed; talu 15 *yen* (gwerth 3*s.* yr un) yn flynyddol fel treth, a phreswylio blwyddyn yn y dosbarth y gelwir arno i bleidleisio. I fod yn gymmhwys i eistedd fel aelod o'r ddeddfwrfa, rhaid i'r ymgeisydd fod yn Japaniad o 30ain oed ac uchod, ac yn talu o leiaf 15 *yen* yn y flwyddyn o drethi. Yn yr etholiad cyffredinol a gymmerodd le yn Medi, 1894, rhifai yr etholwyr 460,113.

Tua diwedd 1894, a dechreu 1895, bu rhyfel rhwng Japan a China yn mherthynas i'r Corea. Gwel hefyd yr erthygl ar CHINA yn *cyf.* x., *td.* 504B. Ennillodd y Japaniaid fuddugoliaeth lwyr ar y Chinëaid, ac ar gais taer llywodraeth China, gwnaethpwyd cyttundeb heddwch rhwng y ddwy wlad. Gelwir y cyttundeb hwn yn *Treaty of Shimonoseki*, ac arwyddwyd ef Ebrill 17eg, 1895. Prif ammodau y cyttundeb ydyw fod i China gydnabod annibyniaeth y Corea; ei bod i roddi i fyny ran o'r ynys Liao-tung (neu dalaeth Shing-King), a Formosa, gyda'r Pescadores; ei bod i dalu iawn rhyfel o 200,000,000 *taels* (gwerth agos i 6*s.*), ac hefyd agor Suchau, Hanchau, Shashi, a Chung King i farsiandwyr Japanaidd. Ond cyn i'r ammodau hyn gael eu cario allan, ymyrwyd yn yr achos gan dri o brif alluoedd Ewrop; sef, Rwssia, Ffraingc, a Germany. Ar y 19eg o Hydref, dadganodd Japan ei pharodrwydd i alw ei milwyr yn ol o orynys Liao-tung (Shing-King), os talai China iawn rhyfel chwanegol iddi o 30,000,000 *taels*, a chydnabod hefyd fod Sianel Formosa yn rhydd i genhedloedd eraill ei mordwyo. Cynnorthwywyd China i fenthyca y swm angenrheidiol i dalu yr iawn rhyfel gan y gwledydd Ewropaidd uchod, a rhoddodd China y tollau

Digitized by Google

a dderbyniai oddi wrth yr allforion a'r dadforion fel sicrwydd iddynt am ad-daliad y swm. Fe ddywedir, hefyd, fod Rwssia, Germany, a Ffraingc, wedi derbyn darnau o wlad gan China fel cydnabyddiaeth am y cymmwynasau hyn; yr hyn nid yw wedi ei wneyd yn hysbys etto.

NICARAGUA. Hon ydyw y dalaeth fwyaf yn Nghanolbarth America, a golchir ei glanau gan yr Atlantig a'r Tawelfor. Cynnwysa arwynebedd o 51,660 mill. pet., a phoblogaeth o 310,000. Yn 1891, yr oedd 95 milltir o ffyrdd haiarn wedi eu hagor, gyda 1,591 mill. o wifrau pellebrol. Yn Hydref, 1890, dechreuwyd tori camlas i gyssylltu yr Atlantig â'r Tawelfor; a phan orphenir y gwaith, bydd yn foddion i ddadblygu y wlad yn ddirfawr. Swm y cyllid, yn 1890, oedd 316,673*p.*; y treuliau, 425,773*p.*; Y ddyled wladol yn 1891, oedd 575,667*p.*; dadforion yn 1890, 462,929*p.*; allforion, 538,700*p.*; dadforion o'r Deyrnas Gyfunol (1894), 195,087*p.*; allforion i'r deyrnas hon, 77,723*p.* Y prif dref yw Managua, poblogaeth yr hon oedd 15,000; ond y dref fwyaf ydyw Leon, poblogaeth yr hon a gyfrifir tua 60,000. Yr arlywydd presennol ydyw Senor José Santos Zelaya; yr hwn a etholwyd Mehefin 1893.

SAN DOMINGO. Gweriniaeth sydd yn ffurfio y rhan ddwyreiniol o Ynys Hayti ydyw hon. Ar wahân i Hayti, mesura dros 18,000 mill. pet. Rhifai y boblogaeth, yn 1893, 550,000. Rhenir hi i chwe talaeth, a phump o ddosbarthiadau morwrol. Y brif dref yw San Domingo —poblogaeth yr hon sydd yn 25,000. Swm y cyllid yn 1893 ydoedd 275,000*p.*; y treuliau, 275,000*p.*; y ddyled dramor oedd 714,300*p.*; y dadforion, 483,000*p.*; a'r allforion, 728,000*p.*

SAN SALVADOR. O ran maintioli, hon yw y leiaf o weriniaethau Canolbarth America; ond o ran ei phoblogaeth, hi yw yr ail. Ymestyna ar hyd arfordir y Tawelfor am 170 mill., a'i lled yw 43 mill. Ei harwynebedd yw 7,228 milltir petryal; a'i phoblogaeth, yn 1886, oedd 651,130. Y mae daeargrynfäau yn ddigwyddiadau cyffredin yn y wlad hon. Yn 1873, llwyr ddinystriwyd y brif dref, sef San Salvador; yr hon sydd etto heb ei llwyr ail adeiladu. Swm y cyllid, yn 1891, oedd 1,064,988*p.*; y treuliau, 1,063,975*p.*; y dadforion, 457,156*p.*; yr allforion, 1,010,368*p.*; y ddyled fewnol, 5,277,600 dolar; a'r ddyled allanol, 288,000*p.* Cyfrifir fod poblogaeth y brif dref tua 18,000. Etholwyd yr arlywydd presennol, Rafael A. Gutierrez, yn Mehefin, 1894.

SIAM. Saif y deyrnas hon rhwng Talaeth Indiaidd-Brydeinig Burmah, a'i thiriogaethau, ar y naill law; a thiriogaethau Indiaidd-Chinëaidd y Ffrangcod ar y llaw arall. Yn 1893, torodd cweryl allan rhwng Siam a Ffraingc; a bu raid i Siam dalu swm o iawn iddi, a rhoddi i fyny ei holl hawl i'r diriogaeth a saif i'r dwyrain o'r afon Mekong, ac ymostwng i ammodau eraill a osodwyd i lawr gan Ffraingc. Dygodd hyn yr anghydfod i derfyniad am y tro; ond yn 1894, ail gododd yr helynt: ond bernir ei fod erbyn hyn wedi ei benderfynu yn foddhaol.

Cyfrifir fod arwynebedd Siam yn 200,000 mill. pet., gyda phoblogaeth o bedair neu bum miliwn. Prif dref y wlad ydyw Bangkok; yr hon, hefyd, ydyw prif borthladd y wlad. Cerir trafnidiaeth helaeth yn mlaen o'r porthladd hwn â gwledydd eraill Ewrop ac Asia. Tyfir reis, sandalwydd, a rhoswydd yno mewn cyflawnder; a chynnwysa yr allforion, heb law y cynnyrchion hyn, alcan, pupur, *teak*, cigfwyd wedi ei halltu, ychain, crwyn, *sapan-wood*, &c.

Llywodraeth unbenaethol sydd yn y wlad; a phennodir olynydd y brenin gan y cynghor. Y mae cynghor y wladwriaeth yn gynnwysedig o weinidogion y goron, chwech o dywysogion brenhinol, ac o ddeuddeg i ugain o aelodau a bennodir gan y brenin. Rhifa y fyddin 8,000 o wŷr; ond nid yw y llynges ond bechan.

| | |
|---|---|
| Cyllid yn y fl. 1893 ... ... ... | *P.*2,000,000 |
| Treuliau ,, ... ... ... | 2,000,000 |
| Dadforion o'r Deyrnas Gyfunol yn 1893 ... ... ... ... | 90,995 |
| Allforion i'r Deyrnas Gyfunol ... | 46,995 |
| Dadforion yn Bangkok ... ... | 2,259,078 |
| Allforion yn Bangkok ... ... | 4,457,114 |

Poblogaeth Bangkok ydyw 600,600. Enw y brenin presennol ydyw Khoulalonkorn; yr hwn a esgynodd yr orsedd yn Hydref, 1868.

URUGUAY. Y mae y weriniaeth hon yn Neheubarth America, i'r dwyrain o Rio de la Plata. Mesura 72,172 mill. pet.; a chyfrifid ei phoblogaeth, yn 1894, yn 787,053. Perthynai gynt i'r Yspaen. Yn 1891, yr oedd yn y wlad 5,281,552 o wartheg corniog, a 13,757,143 o geffylau a defaid. Y mae 972 milltir o ffyrdd haiarn yn agored yno, a 2,988 mill. o wifrau pellebrol. Ei chyllid, yn 1892—3, ydoedd 2,985,344*p.*; y treuliau, 2;765,957*p.*: y ddyled gyhoeddus, yn 1893, oedd 25,047,598*p.*; dadforion, 4,185,457*p.*; allforion, 5,761,993*p.*; dadforion o'r Deyrnas Gyfunol, yn 1894, 1,526,881*p.*; allforion yma, 267,101*p.* Prif dref y wlad yw Monte Video, gyda phoblogaeth, yn 1894, o 216,000. Etholwyd ei harlywydd presennol, Don Juan Idiarte Borda yn Mawrth, 1894.

ZEALAND NEWYDD. Trefedigaeth ydyw yn nghefnfor y South Pacific, yn cynnwys tair ynys. Ymsefydlodd Ewropiaid yno am y waith gyntaf yn 1814. Y mae holl arwynebedd yr ynysoedd yn 104,471 mill. pet.; neu yn 66,710,320 o erwau. Cyfanrif poblogaeth y wlad yn 1891 oedd 668,681. Gwerth y prif nwyddau a allforiwyd yn y fl. 1894 ydoedd—gwlân, 4,827,016*p.*; cîg rhewedig, 1,194,545*p.*; cynnyrch amaethyddol eraill, 317,655*p.*; aur, 887,865*p.*; *Kaurigum*, 404,567*p.*; gwêr, 264,499*p.*; coed, 116,116*p.* Yn 1891, nifer y defaid oedd 18,227,186; da corniog, 831,831; a'r ceffylau, 211,040. Yn Mawrth, 1895, yr oedd 1,993 mill. o ffyrdd haiarn perthynol i'r llywodraeth yn agored; a 175 milltir perthynol i gwmnïau. Swm y cyllid yn 1894—5, oedd 4,696,754*p.*; y treuliau, 4,516,730*p.*; y ddyled gyhoeddus yn 1895, 40,386,964*p.*; y dadforion yn 1894, tua 6,788,000*p.*; yr allforion, 9,231,047*p.*; y dadforion o'r Deyrnas Gyfunol yn 1894, 3,949,770*p.*; etto allforion i'r Deyrnas Gyfunol, 7,903,493*p.* Y mae yn y wlad 1,410 o ysgolion elfenol cyhoeddus, gyda 3,306 o athrawon, a 127,000 o ysgolheigion. Perthyna 65 o'r ysgolion pentrefol i'r Maoriaid. Nifer y llythyrdai ydyw 1,353; a throsglwyddir 55,000,000 o lythyrau, 19,000,000 o newyddiaduron, a 13,000,000 o lyfrau, &c., drwy y llythyrdai mewn blwyddyn. Mesura gwifrau y pellebyr 5,823 mill. Llywodraethwr yr ynys ydyw Iarll Glasgow.

Digitized by Google

Digitized by Google




CYHOEDDEDIG GAN T. GEE, DINBYCH.

Digitized by Google

# ZEALAND NEWYDD.

YSTYR Y TALFYRIADAU A ARFERIR YN Y MAPIAU.

| | |
|---|---|
| B., *neu* Bay | ... Machwy. |
| Bank, Banks | ... Bryn, Bryniau. |
| C., *neu* Cape | ... Penrhyn. |
| Castle ... | ... Castell. |
| Coast ... | ... Arfordir. |
| Ch., *neu* Channel | ... Sianel. |
| East, Eastern | ... Dwyrain, Dwyreiniol. |
| English Miles | ... Milldiroedd Saesnig. |
| Equator ... | ... Cyhydedd. |
| Firth, *neu* Frith | ... Morgainge. |
| Ft., *neu* Fort | ... Caerfa, Amddiffynfa. |
| G. of, *neu* Gulf of | ... Llyngclyn. |
| H., Havn., *neu* Haven | Porthladd, *neu* Machwy |
| Hd., *neu* Head | ... Penrhyn. |
| Hills ... | ... Bryniau. |
| I., Isle, *neu* Island | ... Ynys. |
| Is., Isles, *neu* Islands | Ynysoedd. |
| L., *neu* Lake | ... Llyn. |
| Land ... | ... Tir. |
| Loch, *neu* Lough | ... Llwch:—llyn agored i'r [môr. |
| Mt., *neu* Mountain | ... Mynydd. |
| Mts., *neu* Mountains .. | Mynyddoedd. |
| New ... | ... Newydd. |
| North, Northern | ... Gogledd, Gogleddol. |
| Ocean ... | ... Cefnfor. |
| P., *neu* Port | ... Porth. |
| Pen., Pena., Peninsula | Gorynys. |
| Plateau ... | ... Gwastadedd uchel. |
| Pt., *neu* Point | ... Pwynt. |
| R., *neu* River | ... Afon. |
| Ruins of ... | ... Adfeilion. |
| S., *neu* Sound | ... Culfor. |
| St., *neu* Saint | ... Sant. |
| Sea, *neu* Sea of | ... Môr. |
| Shoal, Shoals | ... Bas-le, Bas-leoedd. |
| South, Southern | ... Deheu, Deheuol. |
| Str., *neu* Strs., Straits | Culfor, Culforoedd. |
| Town ... | ... Tref. |
| Tropic ... | ... Trofan. |
| West, Western | ... Gorllewin, Gorllewinol. |

CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU SYDD YN Y MAP HWN.

| | |
|---|---|
| Amuri Bluff | ... Serthgraig Amuri. |
| Ashburton Creek | ... Morgilfach Ashburton. |
| B. of Poverty | ... Machwy Tlodi. |
| Bay of Plenty | ... Machwy Digonedd. |
| Bay of Islands | ... Machwy yr Ynysoedd. |
| Big R. | ... Yr Afon Fawr. |
| Blueskin B. | ... Machwy y Glasgroen. |
| Boat Harb. | ... Llongborth y Bâd. |
| Brothers Pt. | ... Pwynt y Brodyr. |
| C. Foulwind | ... Penrhyn y Gwynt garw |
| Canterbury Plains | ... Gwastattir Canterbury |
| Cascade Pt. | ... Pwynt y Rhaiadr. |
| Dog Sd. | ... Culfor y Ci. |
| Dusky B. | ... Machwy y Niwlog. |
| E. Longitude | ... Hydred dwyreiniol. |
| East Cape | ... Penrhyn Dwyreiniol. |
| Five Fingers Pt. | ... Pwynt y Pum Bys. |
| Fiji Is. .. | ... Ynysoedd Fiji. |
| Friendly Islands | ... Yr Ynysoedd Cyfeill-[gar. |
| Gable-end Foreland | ... Pentir Talcen-tŷ. |
| Golden B. | ... Machwy Euraidd. |
| Half Moon B. | ... Machwy Hanner Lloer. |
| Mangoma Bluff | ... Serthgraig Mangoma. |
| Moeraki Roads | ... Angorfeydd Moeraki. |
| Marquesas Islands | ... Ynysoedd y Marquesas |
| Massacre B. | ... Machwy y Gyflafan. |
| Monganui Rocks | ... Creigiau Monganui. |
| N. Latitude | ... Lledred Gogleddol. |
| North Hd. | ... Penrhyn y Gogledd. |
| North Island | ... Yr Ynys Ogleddol. |
| N. Rocks | ... Creigiau y Gogledd. |
| Pigeon B. | ... Machwy y Golomen. |
| Pompey's Pillar | ... Colofn Pompey. |
| Poor Knights Is. | ... Ynysoedd y Marchogion Tlodion. |
| Port Adventure | ... Porthladd Anturiaeth. |
| Port Easy | ... Porthladd Esmwyth. |
| Preservation Inlet | ... Mornant Cadwraeth. |
| Reference to Counties formed 1876 | Cyfeiriad at Siroedd a ffurfiwyd yn 1876. |
| Rocks Pt. | ... Pwynt y Creigiau. |
| S. Latitude | ... Lledred Deheuol. |
| S. Rocks | ... Creigiau y Deheu. |
| Samoa, or Navigators' Islands ... | Samoa, neu Ynysoedd y Mordwywyr. |
| Sandwich Islands | ... Ynysoedd Sandwich. |
| Sandhill Pt. | ... Pwynt y Tywodfryn. |
| Sandy B. | ... Y Machwy Tywodlyd. |
| Secretary I. | ... Ynys yr Ysgrifenydd. |
| Society Islands | ... Ynysoedd y Gymdeith-[as. |
| South Pt. | ... Pwynt y Deheu. |
| South Island | ... Yr Ynys Ddeheuol. |
| South Hd. | ... Penrhyn y Deheu. |
| Southern Alps | ... Yr Alpau Deheuol. |
| Stewart I. | ... Ynys Stewart. |
| Spirits Bay | ... Machwy yr Ysbrydion. |
| Taurora, or Reef Pt.... | Taurora, neu Bwynt y Fasgraig. |
| Three Kings Is. | ... Ynysoedd y Tri Brenin. |
| Three Steeples | ... Y Tri Chlochdy. |
| W. Longitude | ... Hydred gorllewinol. |
| West C. | ... Penrhyn y Gorllewin. |
| Yellow Cliffs | ... Clogwyni Melynion. |

Y ffigyrau a welir ar ol enwau mynyddoedd a llynau a ddynodant eu huchder o arwyneb y mor.

Y MAE y tair ynys sydd yn myned dan yr enw NEW ZEALAND yn ddiammheuol o ddechreuad llosgfalus (*volcanic*): ac mewn cyfnod heb fod yn mhell iawn yn ol, yr oeddynt yn lliaws o fân ynysoedd creigiog, noethlwm, a serth, oddi eithr y nentydd rhwng y mynyddoedd. Y mae yn New Zealand olion amryw o losg-fynyddoedd. Trwy gyfrwng gweithrediad y rhai hyn, y mae gwyneb y tir wedi ei godi yn raddol. Dywed Forbes fod rhai wedi sylwi ar y cyfnewidiad hwn yn ystod yr oes bresennol. Gellir dywedyd fod mwy na hanner mynyddoedd y wlad wedi bod unwaith yn llosg-fynyddoedd; ac y mae dau neu dri o honynt yn arwyddo fod gwaith oddi mewn iddynt etto.

Y mae nifer o lynau llaid berwedig yn nghanol yr ynys ogleddol—rhwng Rotorua, Llyn Taupo, a Mynydd Tongariro. Y mae y dwfr ynddynt yn ymferwi i fyny, yn gyffelyb i lynoedd Ynysoedd yr Iâ. Fel y gellid disgwyl oddi wrth y ffeithiau hyn, y mae daeargrynfâau wedi digwydd yno yn achlysurol; ond ymddengys eu bod yn gyfyngedig i'r glenydd sydd yn agos i Gulfor Cook, ac arfordir gorllewinol yr ynys ganol.

Digitized by Google

Hynod fynyddig ydyw yr ynys hon. Er fod yno wastadeddau o gryn eangder, etto eithriadau ydynt. Rhedeg y mae y mynyddoedd yn gyffredin yn gyfochrog â'r arfordir, o'r gogledd-orllewin i'r de-orllewin. Amrywiant yn yr ynys ogleddol o 500 i 1,500 o droedfeddi o uchder, nes y cyrhaeddant i ganol yr ynys ger Mynydd Pirongia—lle y mae y gadwen fawr Rangitaidd yn dechreu dan yr enwau Ruahine a Tararua, ac yn ymestyn hyd y pen deheuol. Y mae rhai o'r mynyddoedd hyn yn lled uchel, ac yn orchuddiedig âg eira gwastadol. Nid ydyw Pirongia ond 2,500 o droedfeddi o uchder; ond y mae Tongairo yn 6,200; a Ruapahu yn 9,000 o droedfeddi. Y mae cadwen o fynyddoedd uchel yn agos i arfordir yr ynys ganol; ac y mae hon yn ymuno â chadwen sydd yn rhedeg trwy ganol yr ynys, a chydag un arall drachefn o uchder mwy ar yr arfordir gorllewinol, yr hon sydd yn dyfod yn agos iawn i'r môr. Y clogwyn uchaf yn New Zealand ydyw Mynydd Cook, yr hwn sydd 13,000 o droedfeddi uwch law y môr.

O ran ei golygfeydd, y mae New Zealand yn amrywiol a phrydferth nodedig. Fel y canlyn yr ysgrifena Hursthouse am dani:—"Gellir ei galw yn wlad ucheldirol goediog, âg ynddi ryw hanner dwsin o wastadeddau ardderchog, a miloedd o ddyffrynoedd, glynoedd, a dôldiroedd, sydd yn cael eu dyfrhau yn rhagorol. Mewn cyfuniad o'r nodweddau naturiol sydd yn sylfaen i olygfeydd prydferth, nid oes un wlad yn y byd yn rhagori ar New Zealand. Ceir ynddi fforestydd ardderchog, a mynyddoedd dyrchafedig, yn ymgodi 10,000 o droedfeddi yn uwch na'r môr gwyrdd, yr hwn nid ydyw yn mhell oddi wrth eu godrau:—a'r rhai hyny wedi eu gorchuddio â choed hyd nes y cyrhaeddir llinell yr eira parhaol. Ceir yno hefyd wastattiroedd, glynoedd, dyffrynoedd, afonydd, ac aberoedd dirifedi; a thair mil o filldiroedd o arfordir. Gan fod y planhigion a'r coed cynhenid sydd yno yn fyth-wyrddion, ni chwympa y dail yn yr hydref; ac felly y mae y wlad yn wastadol yn ymddangos yn wyrddlas."

Y mae y tir yn gyffredin yn ffrwythlawn; a gellir yn hawdd sychu y lleoedd lleidiog; ac y mae ŷd, porfa, ffrwythydd, a blodau, yn ymddadblygu yno yn rhagorol.

Am yr hinsawdd, y mae yn ddiau ei fod yn un o'r rhai mwyaf dymunol ar y ddaear. Y mae yr haf ychydig yn gynnhesach yno nag ydyw yn Mhrydain, ac hefyd yn parhau yn hwy; ond y mae y gauaf, y gwanwyn, a'r hydref gryn lawer yn dynerach nag ydynt yma. Ceir yno wlaw a gwlith trwm yn fynych; ond y mae yno fwy o ddyddiau braf nag y gellir eu mwynhau yn Mhrydain. Yr anghyfleusderau penaf a deimlir gan ddyeithriaid yno, fe allai, ydyw y gwyntoedd uchel. Ni welir eira yn mron un amser yn yr ynys ogleddol, oddi gerth ar benau y mynyddoedd; ond disgyna eira yn achlysurol ar wastadeddau Caergaint ac Otago yn yr ynys ganol. Ychydig o darth a niwl sydd yno; ac y mae ystormydd o fellt a tharanau yn digwydd yn anamlach nag yn Mhrydain.

Oddi wrth ffurfiad daearegol y wlad, y mae yn dra thebygol, pan y dadblygir ei hadnoddau yn llawn, y ceir fod ynddi helaethrwydd o lô, copr, aur, a metteloedd eraill. Y mae glô wedi ei ddarganfod yn barod yno mewn gwahanol fanau. Gweithir mwngloddiau aur hefyd mewn amryw leoedd, a haiarn o ansawdd rhagorol, yn gystal a phlwm. Y mae yno helaethrwydd o'r *sulphur* goreu. Mewn amryw barthau, ceir mynor, llechfaen, ithfaen, tywodfaen, careg nâdd, a chalchfaen.

Y mae cryn hynodrwydd yn perthyn i lysieuaeth New Zealand. Ceir yno chwe chant a hanner o goed, a phlanhigion cynhenid; o ba rai nid oes odid ugain yn dwyn tebygolrwydd cyffredinol i ddim o blanhigion Prydain. Ychydig sydd yno o blanhigion blynyddol a phlanhigion a flodeuant; ond y mae yno rifedi mawr o rai sydd yn debyg i'r eiddew, yn ymgripio i fyny ar hyd coed eraill sydd fwy; a llawer hefyd o dylwyth y rhedyn a'r palmwydd. Y mae y pinwydd a dyfant yno yn goed defnyddiol tuag at adeiladu tai a gwneyd dodrefn, &c. Prif ddefnyddiau ymborth llysieuol y brodorion gynt oedd gwreiddiau y rhedyn.

Yr unig anifeiliaid pedwar-troediog yn New Zealand, cyn mynediad Ewropiaid yno, mor bell ag y gellir gwybod, oedd y llygoden ffrengig a'r ci. Cymmerodd y Cadben Cook foch yno; a dygwyd anifeiliaid pedwar-troediog gwerthfawr eraill yno ar ol hyny. Y mae yno tua hanner cant o rywogaethau brodorol o adar y tir, a thua dwsin o rywogaethau o adar yr arfordir; o ba rai yr aderyn a elwir y *kiwi* ydyw y mwyaf. Y mae rhywogaeth y *moa*, yr hwn oedd tua deuddeg troedfedd o uchder, wedi darfod, dybygid—os nad ydyw i'w gael yn rhywle yn mynyddoedd gorllewinol yr ynys ganol.

Yn yr afonydd, ceir lliosawgrwydd mawr o bysgod bychain—tebyg i'r lysŵen, y penllwyd, a'r gwyn-bysg (*whitebait*), &c., sydd yn ein hafonydd ni. Y mae pysgod y môr yn lliosog yno; ond nid ydynt cystal a physgod Ewrop i'w bwyta. Ymwela y morfil du yn fynych iawn â'r gororau rhwng Mehefin a Hydref. Ceir môr-loi yno yn y pen deheuol eithaf: ac y mae môr-gŵn yn aml i'w gweled o amgylch y glenydd. Y mae yno helaethrwydd o gregin-bysgod. Cyffelyb ydyw trychfilod y wlad hono i'r eiddo Prydain.

Y mae y syniad yn ffynu yn y wlad hon fod y Maoriaid yn ffynnonell o berygl mawr yn Zealand Newydd. Y maent wedi bod felly, y mae yn wir; ond y mae y perygl yn myned yn llai bob blwyddyn: ac erbyn hyn, y mae wedi myned heibio yn mron yn hollol. Yn ol cofrifiad a wnaed y flwyddyn ddiweddaf, cafwyd nad oeddynt yn rhifo ond tua 40,000, rhwng meibion a merched, yn wasgaredig dros yr holl ynys ogleddol; ac y maent gan mwyaf erbyn hyn ar delerau cyfeillgar â'r bobl wynion. Y mae yr Ewropiaid yn rhifo cynnifer a 420,000, rhwng meibion a merched; ac y mae tua 160,000 o honynt yn preswylio yn yr ynys hono; ond nid ydyw y nifer hwn yn ddim, megys, ar gyfer adnoddau y wlad.

Digitized by Google

## ROUMANIA.

Charles I. yw tywysog presennol Roumania. Ganwyd ef Ebrill 20fed, 1839. Mab ydyw efe i'r diweddar dywysog Charles o Hohenzollern-Sigmaringen; etholwyd ef yn dywysog Roumania Mai 10fed, 1866. Priododd Elizabeth von Neuwied, Tachwedd 15fed, 1869. Caniateir i'r tywysog dâl blynyddol o 36,000*p*. Yr un ydyw Roumania a thaleithiau Moldavia a Wallachia, [Gwel MOLDAVIA a WALLACHIA], y rhai a unwyd ynghyd Tachwedd 12fed, 1861, trwy ganiatâd y Sultan.

Sefydlwyd cyfansoddiad gwladol Roumania gan y Gymmanfa Gyfansoddiadol, a etholwyd gan bleidlais gyffredinol, yn haf 1866. Yn ol y freinlen, y mae y gallu deddfwriaethol mewn senedd, cynnwysedig o ddau dŷ; sef, yr uchaf a'r isaf. Y mae yn perthyn i'r uchaf 76 o aelodau, ac i'r isaf 157 o gynnrychiolwyr. Dewisir aelodau i'r ddau dŷ drwy etholiad anuniongyrchol—y pleidleiswyr cyntaf yn dewis etholwyr, a'r rhai hyny, yn eu tro, yn ethol aelodau. Y mae pob dinesydd, a fyddo yn bump ar hugain oed, ac yn medru darllen ac ysgrifenu, yn meddu yr etholfraint; a'r cymmhwysderau angenrheidiol i fod yn aelod ydyw bod yn frodor o Roumania, yn ddeg ar hugain oed, ac yn meddu incwm blynyddol bychan. Y mae yr holl boblogaeth o'r bron yn perthyn i Eglwys Groeg.

Prif ffynnonell cyllid Roumania ydyw treth a gyfodir ar bob person, o tua saith swllt yn flynyddol ar breswylwyr y dosbarthiadau gwledig; ond y mae y swm yn uwch ar fasnachwyr a marsiandwyr. Codir rhai trethi uniongyrchol eraill, a cheir elw oddi wrth eiddo y wladwriaeth, a phethau eraill, yr hyn sydd yn chwanegu at y cyllid gwladwriaethol. Amcangyfrif y gyllideb am 1877 oedd 3,915,776*p*., ac yr oedd y treuliau yn cyfatteb. Swm dyled gyhoeddus Roumania yn nechreu 1877 oedd 21,290,024*p*. Dosberthir gallu milwraidd y wlad i bedwar dosbarth; sef, y fyddin arosol, y fyddin diriogaethol, y cartreflu, a'r gwarcheidwaid cenedlaethol yn y trefydd.

Nid oes ond amcangyfrif i'w gael o arwynebedd a phoblogaeth Roumania. Yn ol adroddiadau swyddol a wnaed yn y fl. 1876 a 1877, yr oedd arwynebedd y wlad yn mesur 45,642 o filldiroedd ysgwâr. Dywed yr un adroddiad fod poblogaeth Roumania yn 5,073,000 ar y pryd. Yn ol erthyglau 42 a 43 o Gyttundeb Berlin, a lawnodwyd Gorphenaf 13eg, 1878, y mae arwynebedd y wlad wedi myned dan gryn gyfnewidiad, yr hyn a osodir allan yn y cyttundeb fel y canlyn:—"Y mae Tywysogaeth Roumania yn rhoddi yn ol i'w fawrhydi Ymherawdwr Rwssia y gyfran hono o diriogaeth Bessarabia a gymmerwyd oddi ar Rwssia o dan Gyttundeb Paris yn 1856; yr hwn sydd yn cael ei derfynu ar du y gorllewin gan y Thalweg a'r Pruth, ac ar du y deheu gan y Thalweg a genau y Starry Stamboul. Mae'r ynysoedd a ffurfiant ddelta y Danube, yn gystal ag Ynysoedd y Seirph, &c., i gael eu hail uno â Roumania. Yn chwanegol at hyn, y mae y dywysogaeth i gael y diriogaeth sydd i'r deheu o'r Dobrudja, mor bell ag y cyrhaedda llinell unionsyth, yn cychwyn i'r deheu o Silistria, ac yn ymuno â'r Môr Du i'r de o Mongolia." Gellir disgrifio y cyfnewidiadau a wnaed yn eu canlyniadau fel hyn:—Roumania cyn Cyttundeb Berlin, 45,642 o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd; poblogaeth, 5,073,000. Chwanegiad wedi ei wneuthur gan Gyttundeb Berlin, 5,935 o filldiroedd ysgwâr: poblogaeth, 357,000. Wedi ei gymmeryd oddi arni, 3,270 o filldiroedd ysgwâr: poblogaeth, 140,000. Yr oll o'r wlad yn awr, 48,307 o filldiroedd o ysgwâr, gyda phoblogaeth o 5,290,000. Dengys y cyfrifon diweddaf a gyhoeddwyd gan y llywodraeth fod y boblogaeth yn graddol gynnyddu yn sefydlog yno.

Yn 1873, yr oedd yr allforion o Roumania i Brydain Fawr yn werth 1,024,334*p*., a'r dadforion o gynnyrchion Prydeinig i Roumania yn werth 1,079,473*p*. Ond yn 1877, yr oedd y blaenaf wedi disgyn i 247,317*p*., a'r olaf hyd i 197,273*p*. Dylid cofio fod rhyfel mawr rhwng Rwssia a Thwrci yn y flwyddyn olaf a enwyd, a bod hyny i raddau yn rhoddi cyfrif am y lleihâd. Y mae masnach Roumania wedi adfywio yn fawr er pan agorwyd ffyrdd haiarn yn y wlad. Yr oedd 775 o filldiroedd wedi eu hagor yno yn niwedd Mehefin, 1878; ac wedi uno y Dobrudja â hi, yn yr un flwyddyn, y mae 39 o filldiroedd wedi eu chwanegu atynt.

## ROUMANIA YN 1896.

Y mae y deyrnas dra phwysig hon yn gynnwysedig o'r talaethau Moldo-Wallachiaidd, a berthynent gynt i Twrci—pa rai, yn unol â Chyttundeb Berlin, a wnaethpwyd yn dalaeth annibynol. Ar y 26ain o Fawrth, 1881, cyhoeddwyd Roumania yn deyrnas. Ei maintioli ydyw 46,314 mill. pet., gyda phoblogaeth o 5,376,000. Prif eglwys y wlad ydyw Eglwys Groeg; a chyfrifir fod 4,529,000 o'r bobl yn perthyn iddi, neu o leiaf yn ei chydnabod. Y Pabyddion a rifant 114,200; y Protestaniaid, 13,800; a'r Iuddewon, 400,000. Ystyrir tir y wlad y cyfoethocaf yn holl Ewrop; ac oni bae am y sychder a ddioddefir yn ystod misoedd yr haf, buasai y mwyaf cynnyrchiol hefyd. Tyfir gwenith, haidd, rhug, ffa, a phŷs yno; a cheir gwinwydd, a ffrwythydd eraill, mewn cyflawnder. Y mae y wlad yn hynod gyfoethog hefyd mewn gwartheg, defaid, a cheffylau. Mesura y ffyrdd haiarn 1,700 mill., a gwifrau y pellebyr, 3,576 mill. Mewn adeg o heddwch, rhifa y fyddin 30,000; ond mewn adeg o ryfel, gellir troi 158,000 o wŷr i'r maes. Ac yn chwanegol at y rhai hyn, y mae yno warchodlu cartrefol. Swm y cyllid, yn 1894—5, oedd 7,214,098*p*.; y treuliau, 7,816,897*p*.; y ddyled gyhoeddus, 47,585,630*p*.; y dadforion o'r Deyrnas Gyfunol yn 1894, 1,406,085*p*.; a'r allforion i'r Deyrnas Gyfunol (gan mwyaf o wenith), 3,992,134*p*. Prif dref y wlad ydyw Bucharest, gyda phoblogaeth o 221,805. Y brenin presennol ydyw Charles, yr hwn a gyhoeddwyd yn benadur trwy bleidlais y senedd Mawrth 26ain, 1866, ac a goronwyd Mai 22ain, 1881.

Ar y 15fed o Dachwedd, 1869, efe a briododd Elizabeth, merch y gwleidydd enwog Hermann von Weid. Y mae ei mawrhydi y frenhines yn adnabyddus yn Nghymru wrth yr enw 'Carmen Sylva'—ei ffug-enw llenyddol. Yn y flwyddyn 1890, ymwelodd y frenhines â Chymru, a bu yn aros dros rai wythnosau yn Llandudno. Yn ystod ei harosiad, amlygodd ddyddordeb anarferol yn Nghymru, a'i neillduolion. Bu yn bresennol ddwywaith yn Eisteddfod Bangor; a boddhawyd hi yn fawr gan yr hyn a welodd. Cymmerodd ran flaenllaw yn nghadeiriad y bardd buddugol 'Tudno;' a chyn ei hymadawiad, derbynwyd hi yn aelod o Orsedd y Beirdd gyda mawr rwysg a llawenydd.

Digitized by Google

# Z.



ZAMOYSKI, JOHN SARIUS: prif ganghellydd Poland, a anwyd yn Skokow, ar y 1af o Ebrill, 1541. Pan yn ddeuddeg oed, anfonwyd ef i Paris i'r brifysgol. Ei hoff efrydiau pan yno oeddynt mesuroniaeth, athroniaeth, a rheithofyddiaeth. Symmudodd i Strasburg i ymberffeithio yn yr iaith Roeg, ac aeth oddi yno i Padua i astudio chwaneg ar y gyfraith. Talodd lawer o sylw hefyd i ysgrifeniadau y tadau—yr hyn, o bossibl, a gadarnhaodd ei ffydd yn yr Eglwys Babaidd. Tra yn Padua, cyhoeddodd amryw weithiau llenyddol. Daeth yn ol i'w wlad ei hun â'i gymmeriad llenyddol yn uchel. Gosododd y brenin, Sigismund Augustus, ef dan gyfarwyddyd y canghellydd, mewn trefn iddo gael ei addysgu yn nygiad yn mlaen fanylion y gorchwylion cyhoeddus. Yn 1569, pennodwyd ef i archwilio ysgrifeniadau y cofnodion gwladwriaethol. Aeth hyn â'i holl amser yn mron am yn agos i dair blynedd; ond bu y nodiadau a wnaeth y pryd hwnw o wasanaeth mawr iddo yn ei fywyd cyhoeddus. Ond gyda marwolaeth Sigismund y dechreuodd bywyd politicaidd Zamoyski mewn ystyr manwl, a pharhaodd dros ddeng mlynedd ar hugain. Yn nechreu y flwyddyn 1573 y galwyd y llwyrwys cyffredinol ynghyd i ethol brenin. Yn y cyfamser, yr oedd yr urdd farchogol wedi ymdrefnu er ceisio gwrthweithio dylanwad y senedd, trwy ymuno â'u gilydd. Trwy gydsyniad cyffredinol, Zamoyski a ystyrid yn arweinydd y cynghreirwyr hyn; a thrwy ei ddylanwad ef, disgynodd dewisiad y llwyrwys ar Henri o Anjou, ac yr oedd cryn bwysau yn ei resymau dros hyn. Pennododd y brenin newydd Zamoyski yn brif ystafellydd. Amlygwyd anfoddlonrwydd mawr o herwydd gwaith Henri yn gommedd llawnodi y cyfammod a gyflwynwyd iddo gan y rhai a'i gwrthwynebent cyn ei goroniad; a siglwyd poblogrwydd Zamoyski am beth amser gyda'i urdd am ei waith yn amddiffyn Henri ar yr achlysur hwn. Adfeddiannodd ei boblogrwydd, fodd bynag, ar ymadawiad annisgwyliadwy Henri o Poland.

Trodd Zamoyski a'i gyfeillion eu golwg yn awr at Stephen Bathori fel yr unig ymgeisydd am yr orsedd oedd yn debyg o fantoli dylanwad tŷ Awstria. Galwyd y llwyrwys ynghyd yn mis Ionawr, 1576. Cyhoeddwyd Bathori yn frenin, a choronwyd ef yn Krakau. Yna pennododd y brenin Zamoyski yn brif ganghellydd. Ac yn ystod y rhan fwyaf o'r deng mlynedd y bu Bathori yn teyrnasu, y canghellydd ydoedd ei brif gynghorwr. Yn ol ei gynghor ef y darfu i Bathori ofalu am lenwi ei drysorfa, ac ad-uno taleithiau ei deyrnas. A gwnaed heddwch âg Awstria. Yn y fl. 1579, torodd rhyfel allan yn Livonia, drwy i'r dalaeth gael ei goresgyn gan y Rwssiaid. Galwodd Bathori y llwyrwys ynghyd, a chynghorai yr aelodau i ddial y cam. Tybiai rhai o'r aelodau y dylesid cyhoeddi rhyfel yn erbyn y Tartariaid hefyd; ond cynghor doeth Zamoyski, i orphen gyda'r Rwssiaid yn gyntaf cyn ymosod ar un gelyn arall, a fabwysiadwyd. Dechreuwyd y rhyfelgyrch, a bu yn llwyddiannus. Dygai Bathori y gweithrediadau milwrol yn mlaen, a gofalai Zamoyski am yr achosion gwladol. Llwyrwys ystormus a gafwyd yn 1580. Yr oedd ei elynion ef yn cenfigenu wrtho, am ei fod mor uchel yn ffafr y brenin; a cheisient lethu ei wladlywiaeth. O'r diwedd, caniatawyd yr arian gofynol, ac adnewyddwyd y rhyfel yn llwyddiannus. Daeth y rhyfel hwn i derfyniad yn nechreu y flwyddyn 1582, a gadawyd yr holl ymdrafodaeth gyda golwg ar gyttundeb heddwch yn nwylaw Zamoyski. Yn ol y cyttundeb hwn, rhoddodd y Czar i fyny Livonia, Esthland, a Novogorod. Ymddangosodd dau genad Tartaraidd yn y llwyrwys yn Hydref, 1582, i hawlio teyrnged. Attebodd y Pwyliaid trwy ddanfon Zamoyski â byddin i'r cyffiniau, i'w gosod mewn sefyllfa amddiffynedig—yr hyn a barodd fraw i'r gelyn. Ar ei ddychweliad i Krakau, cafodd nith y brenin yn wraig. O'r pryd hwn hyd farwolaeth Bathori, ychydig o ran a gymmerodd efe mewn achosion cyhoeddus. Ciliodd i'w gymmydogaeth frodorol, i Skokow, ac ymroddodd i ddiwyllio a gwellhau ei etifeddiaethau, a sefydlu colegau a swyddfeydd argraphu. Ar ol marwolaeth Bathori, yn 1586, er fod ei elynion yn lliosog, daeth yn amlwg nad oedd gafael Zamoyski ar feddyliau y cyhoedd wedi gwanhau nemawr. Ymgasglodd pleidwyr Zborowski yn y fath nerth i'r llwyrwys, y mae yn wir, fel y cymmerwyd oddi ar Zamoyski lywyddiaeth y fyddin. Ond yn ol cynghor ei gyfeillion, casglodd filwyr; ac erbyn y dydd i ethol brenin, yr oedd ganddo ddeng mil o feirchfilwyr ar lan ddeheuol y Vistula, gyferbyn a Warsaw; a llwyddodd i gael ethol Sigismund III. Gwrthdystiodd Zborowski yn erbyn yr etholiad, ac anfonodd genhadau at yr ymgeisydd arall—sef, yr Archdduc Maximilian—yn ei wahodd i wneuthur ei hawl yn dda trwy rym arfau.

Derbyniodd Sigismund yr orsedd, a daeth i Krakau ar y 29ain o Ragfyr, 1586. Aeth Zamoyski i wrthwynebu Maximilian yn Silesia, a syrthiodd yr archdduc yn garcharor i'w ddwylaw ef. Ond ar ei addewid i roddi i fyny bob hawl i'r goron, gollyngwyd ef yn rhydd; ond mor fuan ag y croesodd drosodd i diriogaeth Awstria, gwnaeth yn amlwg ei benderfyniad i beidio parchu ei addewid. Yr oedd y saith mlynedd dilynol o fywyd Zamoyski yn rhai cynnhyrfus, rhwng rhyfeloedd oddi allan, ac ymrysonau oddi mewn. Nid oedd y brenin yn gyfaill iddo, o herwydd yr oedd yn arfer croesi ei feddwl yn fynych. Ond er yr holl anhawsderau, llwyddodd y prif ganghellydd i drechu y

Digitized by Google

fyddin Ottomanaidd yn 1591—2; ac attaliodd enciliad y Tartariaid trwy Poland yn 1593; a gorchfygodd y Tyrciaid yn Wallachia yn 1595, a thrachefn yn 1596; a'r Swediaid yn 1597. Gan fod ei nerth corphorol yn pallu, trosglwyddodd brif lywyddiaeth y fyddin i John Charles Chodkiewicz. O'r pryd hwn hyd 1605, arosodd Zamoyski gan mwyaf mewn ymneillduaeth. Daeth o'i neillduaeth i'r llwyrwys yn 1605, ac yr oedd hynodrwydd mawr yn perthyn i olygfa ddiweddaf ei fywyd cyhoeddus. Yr oedd gwraig gyntaf Sigismund III. wedi marw, ac yntau yn awyddus am briodi ei chwaer hi, yr hon oedd dywysoges Awstriaidd. Gwrthwynebai Zamoyski hyn, gan ei fod ef yn barnu mai mwy manteisiol i Poland a fuasai iddo briodi un o deulu brenhinol Rwssia. Aeth y ddadl gan hyny yn un danllyd. Penderfynodd y canghellydd na chymmerai un rhan ynddi, ond cafodd ei gynnhyrfu. Cymmerodd ei eisteddle yn agos i'r orsedd, ac wedi gwneyd ymddiheurad o herwydd ei lesgedd am y rhyddid a gymmerai, aeth yn mlaen i anerch y brenin mewn ffordd nad ydyw tywysogion yn gyffredin yn cael eu hanerch. Dadganai ei farn y dylasai y brenin ymdrechu dwyn y rhyfel Swedaidd i derfyniad; adgofiodd iddo ei fod wedi bod yn euog o'r blaen o aberthu manteision y wladwriaeth er atteb ei ddybenion ei hun; a gwrthdystiodd hefyd yn erbyn iddo briodi tywysoges Awstriaidd fel peth peryglus i Poland. Ac nid ymfoddlonodd ar hyn: cyhuddodd y brenin o amcanu diogelu y goron i'w fab, ar draul dyfetha y cyfansoddiad, a gohebu yn ddirgelaidd â galluoedd tramor; ac adgofiodd iddo hefyd mewn tôn ddigofus fod y Pwyliaid wedi diorseddu ac alltudio brenhinoedd o'r blaen wedi iddynt gael eu digio ganddynt. Cythruddwyd Sigismund gan ymadroddion mor blaen, ac attebodd yntau yr un mor chwerw; ac ar derfyn ei araeth, gosododd ei law ar ei gleddyf. Ar hyn cyfododd y seneddwyr a'r cynnrychiolwyr yn un corph, a dechreuasant furmur; ond clybuwyd llais yr hen ganghellydd yn uwch na'r dwndwr yn dyweyd:—"Dywysog, tynwch eich llaw oddi ar y cleddyf! Na chaffed hanesyddiaeth gofnodi ein bod ni yn Frutusiaid, a chwithau yn Cæsar!" Ar derfyn y llwyrwys ymneillduodd Zamoyski drachefn i fyw ar ei etifeddiaeth. Ar y 3ydd o Orphenaf, 1605, eisteddai yn ei gadair, a thybiai ei weision mai mewn dwys fyfyrdod yr oedd efe; ond erbyn myned ato cafwyd ei fod wedi marw.

Yr oedd Zamoyski yn ysgolhaig gwych, yn ddiplomyddwr medrus, ac yn gadfridog llwyddiannus. Dengys y ffaith ddarfod iddo gadw ei sefyllfa mewn awdurdod am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain, mewn gwlad mor gynnhyrfus a Poland, ei fod yn ddyn o alluoedd ac egni rhyfeddol; ac y mae ei ysgrifeniadau yn amlygu adnabyddiaeth eang o'r natur ddynol.

ZOLLIKOFER, GEORGE JOACHIM: un o bregethwyr mwyaf hyawdl yr Almaen yn y ddeunawfed ganrif. Ganwyd ef Awst 5ed, 1730, yn St. Galen, yn Switzerland. Cymmerwyd gofal ei addysg ar y cyntaf gan ei dad, yr hwn oedd gyfreithiwr clodfawr a pharchus; wedi hyny danfonwyd ef i ysgol gyhoeddus yn ei le genedigol; a thrachefn aeth i athrofeydd Frankfort ar y Maine a Bremen. Wedi iddo orphen ei addysg ragbarotoawl, aeth i brifysgol Utrecht, lle yr ymroddodd i astudio duwinyddiaeth yn benaf; ond cyflwynodd lawer o'i amser i astudio yr hen glasurwyr a'r athronwyr. Yn fuan ar ol iddo ddychwelyd i Switzerland, pennodwyd ef, yn 1754, yn weinidog Murten, yn y Pays de Vaud; ond ni arosodd yn y lle hwn yn hir. Ar ol symmud yn olynol i Monstein ac Isenburg, gwahoddwyd ef, yn 1778, i fod yn weinidog y gynnulleidfa Ddiwygiedig (Galvinaidd) oedd yn Leipzig. Yn y lle hwn yr arosodd efe hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le ar y 25ain o Ionawr, 1788, yn y 58ain mlwydd o'i oedran. Gwrthododd symmud o Leipzig, er iddo gael llawer o gynnygion anrhydeddus.

Yr oedd sefyllfa Zollikofer yn Leipzig yn un hynod o fanteisiol, o herwydd yr oedd ei gynnulleidfa yn un o'r rhai mwyaf goleuedig yn yr Almaen; ac yr oedd ei drafodaeth â'r athrawon enwog oedd yn y brifysgol yn cario dylanwad mawr ar ddadblygiad ei dalent fel areithydd y pulpud. Meddai ddylanwad da, nid yn unig ar ei gynnulleidfa ei hun, ond ar dduwinyddion ieuaingc Leipzig; i ba rai yr oedd ei ymddygiadau cywir a duwiolfrydig yn gynllun rhagorol o'r hyn y dylasai gweinidog yr efengyl fod. Nid oedd ei wybodaeth, er yn eang, bob amser yn ddwfn; ac yr oedd efe yn gosod mwy o bwys ar y rhanau ymarferol o grefydd nag ar ddamcaniaethau duwinyddol dyfnddysg. Addysgai yr eglwys a'r gynnulleidfa, drwy air ac esamplau, y dylanwad ymarferol y dylasai Cristionogaeth ei gael ar eu hymddygiadau. Yn ei ddull o bregethu yr oedd yn dawel ac urddasol, yn oleu ac argyhoeddiadol, ac nid yn danllyd ac angerddol. Er nad oedd ei bregethau yn hollol yr hyn y gellir ei alw yn boblogaidd, yr oeddynt yn wastad yn glir a dealladwy, ac yn ennill eu ffordd i'r galon trwy y deall. Gwrthweithiai ddrygau a rhagfarnau yr amseroedd, ac ymdrechai ddiwygio syniad y werin am foesoldeb, ac i oleuo ei wrandawyr yn ngwir ystyr y gair. Yr hyn a wnai ei ddylanwad fel athraw yn fwy effeithiol ydoedd, y ffaith fod ei fywyd ef ei hun yn esampl mor rhagorol o'r hyn a ddysgid ganddo. Yn mherthynas i'w olygiadau ar byngciau athrawiaethol, ni phetrusai ymosod ar opiniynau cyffredin os tybiai eu bod yn gyfryw na ddylesid eu coleddu; ac er nad oedd efe yn un y gellid ei ystyried yn anuniongred ei syniadau, etto yr oedd efe yn gwahaniaethu mewn amryw bethau oddi wrth y golygiadau Calvinaidd cyffredin. Cyhoeddodd tua dau gant a hanner o bregethau, a chawsant dderbyniad ffafriol yn yr Almaen. Ar ol ei farwolaeth ef, cyhoeddwyd argraphiad cyflawn o'i holl bregethau, mewn pymtheg o gyfrolau. Cyhoeddodd amryw weithiau llenyddol eraill, ac yn eu plith amryw yn yr ieithoedd Ffrangcaeg a Saesneg—dwy iaith yr oedd efe yn hollol gyfarwydd â hwynt. Y mae deg cyfrol o'i bregethau wedi eu cyhoeddi yn yr iaith Saesneg, o gyfieithiad Mr. William Tooke.

ZUINGLIAID: enw a roddwyd ar ddysgyblion y diwygiwr Protestanaidd enwog Zuinglius; ac o ganlyniad ar aelodau yr eglwysi diwygiedig yn Zwitzerland Almaenaidd yn gyffredin. O herwydd y ddadl fu rhyngddynt a'r Lutheriaid yn mherthynas i'r presennoldeb sylweddol yn y cymmun, galwyd hwynt yn 'Sacramentariaid.' Ond yr enw o dan yr hwn y galwent hwy eu hunain oedd 'Efengylwyr;' yr hwn, ar ol peth amser, a gymmerodd le y ddau eraill. Gelwir hwynt hefyd yn Eglwysi Diwygiedig Switzerland, ar wahân oddi wrth rai Protestanaidd—enw a gymmhwyswyd yn fwyaf pennodol at yr

eglwysi Almaenaidd Diwygiedig, mewn canlyniad i'r gwrthdystiad, neu y '*protest*,' a wnaed yn llwyrwys Spires, yn mis Ebrill, 1529. Dylid sylwi, pa fodd bynag, nad oedd y Lutheriaid ddim wrthynt eu hunain yn llawnodi y *protest*, gan fod llawer o ddinasoedd yr Almaen a thiriarllaeth Hesse, athrawiaeth y rhai oeddynt fel yr eiddo y Zuingliaid, neu y 'Sacramentariaid,' hefyd wedi ymuno ynddo. Felly, nid ydyw yr enw *Protestaniaid* i'w gyfyngu i'r Eglwys Lutheraidd; ond y mae yn briodol i'w gymmhwyso, mewn ystyr hanesyddol, at yr eglwysi Almaenaidd diwygiedig yn gyffredinol. Ni bu y Swissiaid yn gyfranog yn y gwrthdystiad hwn—gan mai gweithred wleidyddol, mewn rhan, ydoedd o eiddo y taleithiau Almaenaidd.

Cofleidiodd taleithiau a threfydd Switzerland athrawiaethau y Diwygiad fel y pregethwyd hwynt gan Zuinglius; ond nid oedd y rhai hyny yn cyfansoddi un eglwys gryno ac unffurf, gan nad oedd ynddi esgobion na glwysbenogaeth; o blegid yr oedd y wlad wedi ei dosbarthu yn wahanol daleithiau gwerinol annibynol, a phob talaeth yn meddu ei chymmanfa ei hun, yr hwn oedd yn penderfynu achosion eglwysig, a hono yn cael ei gwneyd i fyny o wŷr llen a lleyg. Yr oedd Zuinglius o'r dechreu wedi dysgu yr egwyddor o ymostyngiad i'r ynad gwladol mewn materion yn dal cyssylltiad â dysgyblaeth a llywodraeth wladol. Pethau ysbrydol yn unig fyddent yn cael eu gadael i'r gweinidogion. Yr ydym yn darllen am eglwys Zürich, am eglwys Berne, a Basle, ac eraill. Galwent eu gilydd yn chwiorydd. Yr oeddynt yn byw mewn undeb â'u gilydd, ac yr oeddynt yn cyttuno ynghylch pyngciau sylfaenol y ffydd Gristionogol; ond yr oedd pob eglwys yn tynu allan ei chredo neu ei chyffes drosti ei hun. Ond o'r diwedd, daeth i feddwl amryw fod arnynt angen rhyw gyffes gyffredin rhyngddynt—yn debyg i'r hon a elwid Cyffes Augsburg gan y Lutheriaid. O'r Almaen, pa fodd bynag, y daeth y cyffroad am hyn. Yn 1566, galwodd yr ymherawdwr Maximilian II. lwyrwys yn Augsburg i benderfynu y dadleuon gwleidyddol a gyfodent oddi ar wahaniaethau crefyddol yn y gwahanol daleithiau Almaenaidd. Ymdrechai y Lutheriaid i gadw allan y Sacramentariaid, fel y galwent hwy, rhag cymmeryd rhan yn yr ymheddychiad cyffredinol hwn yn yr Almaen; ac uwch law y cwbl, ceisient gadw Frederick III. draw—yr etholydd breinfäol, yr hwn a ystyrid yn benaeth y blaid. Ymgynghorodd Frederick â Bullinger, hen gyfaill Zuinglius, a'i olynydd yn Zürich; ac erfyniodd arno ddanfon iddo gyffes o ffydd, y gallai ei gosod o flaen y llwyrwys. Yn fuan wedi hyn, ysgrifenodd Bullinger yn gyfrinachol grynodeb o'r hyn a gredai, fel cymmunrodd i'w gyfeillion. Yn ystod y tymmor hwn yr ymwelodd yr haint â Switzerland, ac y dioddefodd ef ei hun dan ei effeithiau. Adferwyd ef, modd bynag; ond collodd ei wraig a'i blant. Anfonodd Bullinger y crynodeb hwn o'i gredo i'r etholydd, yr hwn a ysgrifenodd ato i ddadgan y llawenydd a deimlai wrth ddarllen ei gyffes. Yna dywedai holl daleithiau a threfydd Switzerland, "Onid gwell i ni ei mabwysiadu fel yr eiddom ein hunain?" A chafodd ei mabwysiadu felly ganddynt.

Y mae Vulliemin, yr hanesydd Swissaidd diweddar, yn gwneyd y sylwadau canlynol gyda golwg ar hyn:—

"Y mae pob cyffes o ffydd yn cyfranogi o nodwedd yr oes yn yr hon yr ysgrifenir hi; *ond gellir* dywedyd fod yr eiddo Bullinger yn well na'i hoes. Nid ffrwyth dadl byngciol, na gwaith oeraidd a manwl cynnulliad o dduwinyddion ydyw; *ond y* mae hi wedi tarddu allan o feddwl duwiolfrydig a oedd yn cael ei ddylanwadu gan ddymuniad am heddwch ffynu. Gwaith dyn ydoedd, yr hwn pan yr ysgrifenodd hi, a dybiai ei fod ar *fin* y bedd: a y mae yn cyfranogi o ddifrifwch y cyfnod olaf hwn ar fywyd. Nid oedd un crybwylliad am anathema ynddi. Ar bwngc y cymmun, dadganai athrawiaeth Zuinglius yn eglur—ond mewn modd mwy pendant na'r syniadau blaenorol a draethodd. Pryderid Beza, yr hwn a ystyrid yn olynydd i Calvin yn eglwys Geneva, i lawnodi cyffes Bullinger. Rhoddodd taleithiau Zürich, Berne, Schaffhausen, Mühlhausen, Bienne, a St. Gall, eu cydsyniad iddi. Yr oedd y rhanau efengylaidd o Appen*sell* a *Glarus* wedi cyttuno yn barod âg athrawiaethau eglwys Zürich. Rhoddodd Neufchatel hefyd ei chydsyniad â hwynt. Yr oedd gan Basle hen gyffes *o'r eiddo* ei hun; ond nid oedd hono yn gwahaniaethu yn bwysig oddi wrth gyffes Bullinger; ac yn y ganrif ddilynol, cydnabyddwyd hi yn ffurfiol yn Gyffes Ffydd Helvetiaidd—fel y gelwir hi yn bresennol. Anfonodd Knox, gyda thua deugain o weinidogion Eglwys Ysgotland, eu henwau i arwyddo eu cydsyniad â hi. Darfu i eglwys y frein-iarllaeth, *ac eglwysi* Poland a Hungary hefyd, arwyddo y Gyffes Helvetiaidd hon. O blegid rhyw resymau—gwleidyddol yn benaf—fe ddarfu i Eglwysi Diwygiedig Ffraingc dynu allan gyffes iddynt eu hunain, gan gydnabod, fodd bynag, eu cyttundeb âg eglwysi Switzerland."

Y mae yr enw *Calviniaid* wedi achlysuro peth dyryswch yn mherthynas i'r Eglwysi Diwygiedig. A siarad yn briodol, blaenor ac athraw mawr Eglwys Geneva ydoedd Calvin; *yr hwn a* ddechreuodd ei yrfa fel diwygiwr amryw flynyddoedd ar ol marwolaeth Zuinglius, a thra yr oedd y Diwygiad yn Switzerland wedi ei ddwyn oddi amgylch. Ychydig, os dim, gwahaniaeth oedd yn ei farn ef gyda golwg ar athrawiaethau crefydd a'r eglwysi Helvetiaidd. Ond nid oedd dylanwad Calvin yn fawr ar Switzerland, *lle yr* oedd y Diwygiad wedi ei gario allan i raddau pell cyn ei amser ef.

DIWEDD.

DINBYCH, ARGRAPHWYD GAN T. GEE A'I FAB.

Digitized by Google

| | P. | s. | c. | P. | s. | c. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SWEDEN.— | | | | | | |
| Ducat aur ... ... | 0 | 9 | 2 i | 0 | 9 | 3 |
| Daler arian ... | 0 | 4 | 3— | 0 | 4 | 5 |
| Hanner Daler arian ... | 0 | 2 | 1— | 0 | 2 | 2 |
| Dolar Rix Mynt (18 i'r bunt) ... | | | | 0 | 1 | 1¼ |
| [Yn ddiweddar y mae y Gyfundrefn Ddegol (*Decimal System*) wedi ei mabwysiadu yno.] | | | | | | |
| SWITZERLAND.—Napoleon aur | 0 | 15 | 8 – | 0 | 16 | 0 |
| Darn arian, 5 Ffranc ... | 0 | 3 | 11— | 0 | 4 | 0¼ |
| Ffranc arian ... | 0 | 0 | 9— | 0 | 0 | 9½ |

| | P. | s. | c. | P. | s. | c. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TWRCI.— | | | | | | |
| Medjdie aur ... | 0 | 17 | 10 i | 0 | 18 | 0 |
| Arian etto ... ... | 0 | 3 | 5— | 0 | 4 | 0 |
| Piastre (40 Paras) .. | 0 | 0 | 2— | 0 | 0 | 2¼ |
| Purse, aur ... ... | | | ... | 4 | 10 | 0 |
| YSPAEN.— | | | | | | |
| Wns aur ... ... | | | ... | 3 | 5 | 0 |
| Dolar (*caled*) ... | 0 | 4 | 0— | 0 | 4 | 2 |
| Escudo ... ... | | | .. | 0 | 2 | 1 |
| Peseta .. .. | | | ... | 0 | 0 | 10 |
| Real ... ... | | | ... | 0 | 0 | 2¼ |

**Am Arian, a Phwysau, a Mesurau Ysgrythyrol, gwel d.g. PWYSAU, *cyf.* vii *td.* 541.**

# PWYSAU A MESURAU TRAMOR.

AMERICA, Canolbarth.—*Libra*, 1.014 pwys Av. (Avoirdupois—yr hwn sydd yn cynnwys 16 wns); *Quintal*, 101.40 pwys Av.; *Arroba*, 25.35 pwys Av.

AMERICA, Unol Dalaethau yr.—Fel yn Mhrydain.

ARIANIN, GWERINIAETH.—*Quintal*, 101.40 pwys Av. Y gyfundrefn Ddegol fel yn Ffraingc.

AUSTRO-HUNGARY.—*Zollv, Centner*, 110¼ pwys Av.; *Mark* (aur ac arian), 9 wns Troy; *Elmer*, 12.44 o alwyni gwin; *Joch*, 1.42 aceri; *Metz*, 1.69 pwysel ymherodrol (*imperial bushel*); *Klafter*, 67 troedfeddi cubig.

BADEN.—*Centner*, 110¼ pwys Av.; *Morgen*, 0.89 o acar neu erw.

BAVARIA.—*Centner*, 110¼ pwys Av.

BELGIUM.—Y Gyfundrefn Ddegol, fel yn Ffraingc.

BRAZIL.—*Libra*, 1.012 pwys Av.; *Arroba*, 32.28 pwys Av.; *Quintal*, 129.54 pwys Av.; *Alquiere*, un pwysel ymherodrol; *Cantar*, 1.82 o alwyni ymherodrol; *Oitava*, 55.34 o ronynau; *Canada*, 8.684 o alwyni.

BREMEN.—*Pfund*, 1.10 pwys Av.: *Last* (mewn llongwriaeth) 2 dynell; *Last* (grawn), 10.57 chwarteri ymherodrol; *Last* (glô), 2 dynell; *Tonne*, o *train oil*, 25 o alwyni ymherodrol; etto, o benwaig, baril o 800 neu 900; etto, o hâd llin, 31 o bwyseli.

BUENOS AYRES.—Y Gyfundrefn Ddegol, fel yn Ffraingc.

CHINA.—*Picul*, 13.33 pwys Av.; *Catty*, 1⅓ pwys Av.; *Chang*, 4 llath.

DENMARC.—*Pound*, 1.102 pwys Av.; *Quint*, 110.40 pwys Av.; *Centner*, 110.20 pwys Av.; *Tonde*, o ŷd, 3.827 pwysel; o gwrw (*beer*), 28.918 o alwyni; o ymenyn, 246.917 pwys Av.; o lô, 4.677 pwyseli; *Pot*, 0.212 o alwyni; *Viertel*, 1.701 o alwyni; *Commercelæst*, 2 dynell.

FFRAINGC.—*Gramme*, 15.432 gronynau Troy; *Kilogramme*, 2.20 pwys Av.; *Quintal Metrique*, 220.50 pwys Av.; *Tonneau*, 2.240 pwys; *Litre* (gwlybwr), 0.22 galwyn ymherodrol; *Hectolitre* (gwlybwr), 22 galwyni; etto (sych), 2.75 pwysel ymherodrol; *Metre*, 3.28 o droedfeddi, neu 39.37 o fodfeddi; *Kilometre*, 1093.63 o latheni; *Metre* neu *Stere* (cubig), 35.31 o droedfeddi; *Hectare*, 2.471 o aceri.

GERMANAIDD, YMHERODRAETH.—Y Gyfundrefn Ddegol, fel yn Ffraingc.

GROEG.—Y Gyfundrefn Ddegol, fel yn Ffraingc.

HOLLAND.—*Pond*, 2.20 pwys Av.; *Mud*, o bytatws a glô, 2¾ pwysel ymherodrol—tua 10.8 *Muden* i dynell; *Last*, 10½ chwarteri ymherodrol; *Kanne*, 1¾ o beintiau—tua 4½ i'r galwyn; *Cubic Ell*, 35 o droedfeddi cubig.

ITALY.—Y Gyfundrefn Ddegol, fel yn Ffraingc.

JAPAN.—Fel yn China.

JAVA A MADURA.—*Picul*, 136 pwys Av.; *Legger*, 133¼ galwyni ymherodrol; *Pound*, 2.2 pwys Av.; *Koyang*, tua 60 o bwyseli ymherodrol; *Thail*, 1¼ pwys Troy; *Balie*, 81⅜ pwys Av.

LUBECK.—*Last* (mewn llongwriaeth), 2 dynell; *Pfund*, 1.07 pwys Av.; *Tonne* o hâd llin, 3.80 o bwyseli; o lô, 305 pwys Av.; *Viertel*, 1½ o alwyni.

MEXICO.—Y Gyfundrefn Ddegol, fel yn Ffraingc.

NORWAY.—Fel yn Denmarc.

OLDENBURG.—*Ship Last*, tua 2 dynell.

PERU.—Y Gyfundrefn Ddegol, fel yn Ffraingc.

PORTUGAL.—*Libra*, 1.012 pwys Av.; *Almunde*, o Lisbon, 3.64 o alwyni ymherodrol; o Oporto, 5.6 o alwyni ymherodrol; *Alquiera*, 2.98 o alwyni ymherodrol; *Moio*, 22.79 o chwarteri ymherodrol.

PRWSSIA.—Y Gyfundrefn Ddegol, fel yn Ffraingc.

RWSSIA.—*Berkowetz* neu *Shippund*, 361 pwys Av.; *Pood*, 36 pwys Av.; *Chetverk*, 5.77 o bwyseli ymherodrol; *Oxhuf*, 48.68 o alwyni ymherodrol; *Anker*, 8.12 o alwyni ymherodrol; *Vedro*, 2.70 o alwyni ymherodrol; *Arsheen*, 28 o fodfeddi; *Deciatina*, 2.691 o aceri; *Ship Last*, 2 dynell; *Verste*, dwy ran o dair o filldir.

SACSONI.—*Scheffel*, 2.913 o bwyseli; *Eimer*, tua 15 o alwyni; *Acker*, 1.37 o aceri.

SURINAM.—*Pond*, 1.09 pwys Av.

SWEDEN.—*Ort*, 16 gronynau Troy; *Ox*, 405 gronynau Troy; *Centner*, 93.71 pwys Av.; *Skalpund*, (masnachol—*commercial*), 0.937 pwys Av.; o fettel, 0.747 pwys Av.; *Lispund* (masnachol) 18.7 pwys Av.; o fettel, 14.9 pwys Av.; *Sheppund* (masnachol) 6 i'r dynell; o fettel, 4⅞ i'r dynell; mwnwyr, 6¼ i'r dynell; haiarn cri, 4 i'r dynell; *Last*, newydd, 3.27 o dynelli; *Tunna*, o ŷd, 4.03 o bwyseli ymherodrol; o gynnyrch amaethyddol arall, a glô, 4 o bwyseli ymherodrol; o halen, 4¼ o bwyseli; *Kanna*, 4.6 o beintiau ymherodrol; *Ell*, 23.36 o fodfeddi; *Cubic Foot*, 11.70 o fodfeddi cubig; *Mile*, 6.64 o filldiroedd Prydeinig.

SWITZERLAND.—Y Gyf. Ddegol, fel yn Ffraingc.

URUGUAY.—*Quintal*, 101.40 pwys Av.; *Arroba*, 25.35 pwys Av.; *Fanega*, 1½ o bwyseli ymherodrol.

WURTEMBURG.—*Eimer*, 65 galwyn; *Morgen*, ¾ acar.

YSPAEN.—Y Gyfundrefn Ddegol, fel yn Ffraingc.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google